Digitized by Google

Celt 5405.43

Harvard College Library

FROM

Mrs Jane Sink
and
Mr. W. Thomas

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google



PARCH THOMAS CHARLES, B.A.,

BALA MERIONETHSHIRE.

most affectionately

yours

Thos: Charles

Digitized by Google

[illegible]OL:

[illegible]LA,

WREXHAM:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN HUGHES AND SON, HOPE ST.

MDCCCLXXVII.

Digitized by Google

Tho: Charles

Digitized by Google

SCRIPTURAL DICTIONARY.

# GEIRIADUR YSGRYTHYROL:

YN CYNNWYS

HANESIAETH, DUWINYDDIAETH, ATHRONIAETH, A BEIRNIADAETH YSGRYTHYROL.

GAN Y DIWEDDAR

BARCH. THOMAS CHARLES, B.A., BALA,

(GYNT O GOLEG IESU, RHYDYCHAIN).

Y SEITHFED ARGRAFFIAD.

WREXHAM:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN HUGHES AND SON, HOPE ST.

MDCCCLXXVII.

Digitized by Google

Celt 5405.43

HARVARD COLLEGE
May 4. 1932
LIBRARY

Gift of
Mrs. Jane Sink
and
Mr W. Thomas

Digitized by Google

# RHAGYMADRODD YR AWDWR.

Trysorfa pob gwybodaeth fuddiol ac angenrheidiol yw yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Gan eu bod oll wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, rhaid eu bod yn cyfranogi o'i berffeithrwydd Ef, ac yn addas iddo. Oblegid perffeithrwydd Ei wybodaeth, nis gall gamsynied: ac oblegid uniondeb Ei natur, ni fyn ein twyllo mewn dim; am hyny, y mae y wybodaeth a roddir i ni yn yr Ysgrythyrau, yn oruchel, yn sicr, ac yn gyflawn. Nid oes dim perthynol i'n cyflyrau a'n dedwyddwch mewn byd arall, na dim sydd yn perthyn i'n hamgylchiadau a'n dyledswyddau yma yn y byd hwn, nad ydyw Duw, yn Ei Air Sanctaidd, wedi rhoddi cyflawn gyfarwyddyd i ni pa fodd i ymddwyn yn mhob peth, yn mhob sefyllfa, a thu ag at bawb. Y mae trefn fawr yr iechydwriaeth trwy Gyfryngwr, yn dysgleirio yn eglur ac yn gyflawn ynddo o flaen byd o bechaduriaid; ac mae Duw, yr Hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch yn nghreadigaeth y byd, yn llewyrchu yn nghalonau y rhai oll a gedwir i fywyd tragywyddol, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist.

Y diffyg o ddeall yr Ysgrythyrau, ac ymostyngiad i awdurdod Duw ynddynt, yw yr achos o bob cyfeiliornad mewn barn a bucheddiad. Taeniad gwybodaeth o Dduw, a'i Air Sanctaidd, yw unig ddyben cyhoeddiad y Gwaith hwn. Os bydd mewn un gradd yn ddefnyddiol i rwyddhau y ffordd tu ag at iawn ddeall yr Ysgrythyrau, trwy eglurhau geiriau—ymadroddion allegawl—cysgodau—defodau—hanesion—a'r athrawiaeth bwysfawr gynnwysedig ynddynt, y mae dyben y Gwaith wedi ei ateb; ac y mae hyny yn ad-daliad boddlongar am yr holl lafur wrtho. Pell iawn oddiwrth fy meddwl oedd cymeryd at y fath orchwyl pwysig; ond gan i ragluniaeth, yn hollol ddifwriad i mi, ei roddi yn fy llaw, nid yw yn orthrwm genyf. Er bod y llafur yn fawr, etto, os bydd y gwaith yn dderbyniol gan eglwys Dduw, ac yn ddefnyddiol, trwy Ei fendith, i un enaid, llawen wyf, a llawen fyddaf. Da fuasai genyf allel anrhegu fy nghydwladwyr â rhodd fwy teilwng o'u derbyniad; ond fel y mae, dymunaf eu nawdd iddo, a bendith Duw arno, er eu llesâd.

Am fod enwau yr awdwyr a ddefnyddiwyd fwyaf yn nghyfansoddiad y Gwaith hwn yn cael eu rhoddi i lawr yn nghorph y Gwaith, nid oes achos eu coffâu yma. Y maent, amryw o honynt, yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn eu meddyliau ar lawer o bynciau, a'r rhai hyny hefyd yn bwysfawr; ond na farned neb fy mod yn gwbl gymeradwyo egwyddorion yr awdwyr hyn, er fy mod yn gweled yn addas eu coffâu ar rai achosion, a defnyddio yr hyn a gymerais allan o honynt i ateb fy nybenion fy hun. Ymgynghorais âg eraill yn ddiwyd, ac ymdrechais, yn wyneb yr Ysgrythyrau, yn ddiduedd, i farnu drosof fy hun. Nid ydwyf heb gydnabod fy ngwaeledd a'm hanmherffeithrwydd mawr: yr wyf yn wael, yn annigonol, ac yn annheilwng iawn, uwch ben dyfnion bethau Duw. Mae yr ystyriaeth o hyn yn gorphwys ar fy meddwl beunydd, a phob awr o'r dydd; ac nid ewyllysiwn ei anghofio un fynyd o'm bywyd; etto, rhaid i mi hefyd gydnabod fod digonedd i'w gael o Dduw: ac nid ewyllysiwn roddi dim i lawr heb gyfeirio fy meddwl at Dduw am Ei gyfarwyddyd. Y camsyniadau a'r gwallau sydd yn y Gwaith, i mi y maent i gyd yn perthyn; a hyny o ddefnyddioldeb sydd ynddo, dymunwn ei briodoli i Dduw. 'Ni ddichon dyn dderbyn dim,' na gallu, na gwybodaeth, na doethineb, mewn un ystyr, 'oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef.'

Os bydd neb o ddarllenwyr y Gwaith hwn yn cael eu tueddu i feddwl yn amgen am unrhyw fater nag y trinir neu y penderfynir ef yn y Llyfr hwn, dymunaf arnynt chwilio yn fanwl; ac, wedi hyny, barnu yn bwyllog ac yn ddiduedd, a pheidio a dilyn un awdwr, heb edrych a gwrando ar eraill a ysgrifenasant ar yr un mater. Wrth roddi gwahanol gyfieithiad i rai geiriau ac adnodau i'r cyfieithiad cyffredin awdurdedig, na feddylied neb fy mod am daflu un gradd o ddiystyrwch ar y cyfieithiad hwnw—pell iawn yw hyny oddiwrth fy mwriad. Ond gan fod yn llwyr anmhosibl i un cyfieithiad byth gyrhaedd holl gyflawnder ystyr yr ieithoedd gwreiddiol, mewn lliaws o

Digitized by Google

fanau, tybiais y byddai crybwylliad am wahanol gyfieithiadau yn rhoddi ychydig olwg ar amrywiaeth ystyriaethau cynnwysedig yn y gair, neu y geiriau, yn yr iaith y llefarodd yr Ysbryd Glân wrthym. Nid oes un hyfrydwch mwy genyf yn y byd, na dim moddion yn fwy adeiladol, na darllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn yr ieithoedd y llefarodd yr Ysbryd Glân hwynt; sef yr Hen Destament yn Hebraeg, a'r Testament Newydd yn y Groeg. Er annogaeth i eraill sydd ag amser a manteision ganddynt i hyny, gallaf dystiolaethu, trwy brofiad, y daw y ddwy iaith, trwy arferiad, yn dra buan yn rhwydd ac yn ddirwystr. Llawer o fuddioldeb a gefais tu ag at ddeall yn hyddysg iaith y Testament Newydd, trwy ddarllen cyfieithiad y LXX. o'r Hen Destament, yn yr un iaith, sef y cyfieithiad oedd yn arferedig, yn gyffredinol, yn amser yr apostolion.

Y mae pawb hyddysg â darllen unrhyw iaith yn gydnabyddus â defnyddioldeb Geiriadur. Dyben Geiriadur Ysgrythyrol yw egluro geiriau arferedig yn yr Ysgrythyrau. Y mae hyn yn arwain yn naturiol i agoryd athrawiaethau—egluro testynau—a rhoddi hanes defodau, personau enwog, neu deyrnasoedd, &c. y sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Mae Geiriadur Ysgrythyrol yn dra angenrheidiol yn y Gymraeg, i'r Cymry uniaith, y rhai, trwy ddaioni Duw, sydd, lawer o honynt, yn newynu ac yn sychedu am wybodaeth o wirioneddau Duw yn Ei Air. Er nad oes prinder o honynt mewn ieithoedd eraill, mae y Cymry, hyd yn hyn, wedi bod heb yr un. Mae Geiriadur yn barod, yn gyfleus, ac yn hawdd i bawb ei ddefnyddio. Os na bydd i'r darllenydd gael yr hyn mae yn chwilio am dano dan un gair, edryched un arall, perthynol i'r un achos—ac y mae yn fuddiol, yn aml, i edrych y geiriau sydd âg ystyr gwrthwyneb i'w gilydd; megys, Credíniaeth ac Anghrediniaeth—Cariad ac Anghariad—Ufudd-dod ac Anufudd-dod—Cyfraith ac Anghyfraith, &c. Yr wyf yn golygu i'r darllenydd edrych yr Ysgrythyrau cyfeiriol a roddir i lawr, am eglurhad mwy helaeth o'r mater y traethir am dano:—*Bonus Textuarius, est bonus Theologus*—Bod yn Ysgrythyrwr da, yw bod yn Dduwinydd da.

Gan fod y maes mor helaeth, a hynod gyflawn o'm blaen, nid rhyfedd fod y Gwaith wedi chwyddo ychydig dan fy llaw. Y mae diffyg llyfrau yn ein hiaith, ar y rhan fwyaf o gangenau gwybodaeth, wedi peri i mi helaethu ar rai pethau nad oeddwn ar y cyntaf yn bwriadu crybwyll nemawr am danynt. Trwy orfod, am na feddwn eiriau eraill mor addas yn eu lle, yr arferais rai geiriau nad ydynt ddealladwy i'r cyffredinolrwydd o ddynion; ond, trwy arferiad, bydd pob gair yn fuan yn ddeallus. Yr oeddwn yn bwriadu sylwi ychydig yma yn ychwanegol at yr hyn a roddais i lawr dan y gair BIBL, ar yr amrywiol argraffiadau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, yn yr iaith Gymraeg. Ond gan fod y Gwaith wedi chwyddo yn fawr eisoes, rhaid i mi oedi hyny yn bresennol; ac os caf einioes ac iechyd, yr ydwyf yn bwriadu gwneuthur hyny etto mewn ffordd arall. Nid oes dim yn fwy ar fy meddwl, ddydd a nos, na helaethiad gwybodaeth iachusol a defnyddiol yn mhlith fy nghydwladwyr hawddgar ac anwyl. Yr ydwyf o gydwybod yn rhwymedig yn eu gwasanaeth, ac yn eu cydnabod yn deilwng o bob ffrwyth llafur a fedraf fi byth eu hanrhegu âg ef. Erfyniaf eu dyfal weddïau drosof. Bydded bendith y Duw mawr yn llwyddo pob ymgais, a phob moddion, a fyddo yn tueddu i ychwanegu eu dedwyddwch amserol a thragywyddol! Hyn yw gweddi feunyddiol

Eu hufudd Wasanaethwr,

THOMAS CHARLES.

Bala, *Awst*, 1805.

Digitized by Google

# YCHYDIG HANES

AM

# FYWYD A MARWOLAETH YR AWDWR.

ODDIWRTH hanes a ysgrifenwyd gan Mr CHARLES ei hun, yn Saesonaeg, ymddengys iddo gael ei eni Hydref 14, 1755. Ei dad, Rice Charles, ydoedd ffermwr cyfrifol yn Pant Dwfn, plwyf Llanfihangel, gerllaw pentref St Clears, oddeutu deng milltir o Gaerfyrddin. Pan oedd Mr CHARLES o ddeg i ddeuddeg mlwydd oed, meddyliodd ei rieni am ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth, ac a'i hanfonasant i ysgol yn Llanddowror, lle y bu o dair i bedair blynedd. Tra bu yno y profodd yr argraffiadau crefyddol cyntaf ar ei feddwl; ond trwy ba foddion nid oedd yn cofio. Nid oedd ei argyhoeddiadau am bechod, dros flwyddyn neu fwy, ond ysgafn ac ar amserau; ond yr oedd ganddo awydd mawr i wrando pregethiad yr efengyl, ac i ddarllen y Bibl, a'r llyfrau goreu a fedrai gael. Ond y llyfr a fendithiwyd fwyaf iddo, oedd *Traethawd Bunyan ar y Ddau Gyfammod*, yn neillduol y rhan hòno sydd yn darlunio cyflwr arswydus y rhai hyny sydd dan y cyfammod gweithredoedd, yr hyn a effeithiodd arno mor ddwys ag i beri iddo amryw droiau i wylo yn chwerw. Yr oedd efe y pryd hyny yn barnu pawb yn grefyddol ag oedd yn myned yn gyson i'r eglwys; ond rhyfeddodd yn fynych wrth sylwi, nad oeddynt yn ymddyddan am bethau crefyddol, yn neillduol ar y Sabbothau. Nid oedd ganddo dros gryn amser yr un cyfaill crefyddol: ond dygwyddodd yn nhrefn rhagluniaeth iddo ef ddyfod yn adnabyddus i hen ŵr duwiol ag oedd yn byw ychydig filltiroedd o gartref ei dad: ei enw oedd Rhys Hugh, am ba un y mae yn cofflâu yn barchus mewn rhai manau yn ei ddydd-lyfr. Yr oedd yn arfer ymweled âg ef un waith neu ddwy bob wythnos, a'i gyfeillach a fu yn dra bendithiol iddo. Y mae Mr CHARLES yn dywedyd ei fod yn ei garu fel ei enaid ei hun, a phob amser ystyriodd ef fel ei dad yn Nghrist. Y mae yn cydnabod nad oedd ganddo y pryd hwn ond ychydig o adnabyddiaeth o'r drefn efengylaidd o iechydwriaeth. Yr oedd ei grefydd, gan mwyaf, yn gynnwysedig o ddymuniadau cryfion am ryw beth nad oedd etto wedi cyrhaedd ato, gyd âg ymroad o ddefnyddio pob moddion tu ag at ei gael. Gwnaeth broffes gyhoeddus o grefydd; cyfranogodd o sacrament Swper yr Arglwydd; ac a arferodd foddion i ddwyn crefydd i mewn i deulu ei dad: ac y mae yn dywedyd fod ganddo sail i obeithio na bu ei ymgais gwan yn aneffeithiol. Ar y rhan yma o'i fywyd y mae efe yn sylwi fel y canlyn: 'Pan edrychwyf ar y graig y'm naddwyd, ac ar geudod y ffos y'm cloddiwyd o honynt, pa mor rhagorol a rhyfeddol ydyw y rhad ras a'r drugaredd a sylwodd ac a dosturiodd wrth blentyn tlawd, mor wael ac anwybodus!'

Pan ydoedd oddeutu 14eg oed, danfonwyd ef i'r athrofa yn Nghaerfyrddin, ag oedd y pryd hyny dan olygiaeth y Parchedig Mr Jenkins. Yn fuan ar ol myned yno, ymunodd â'r gymdeithas o Fethodistiaid Calfinaidd ag oedd yn y dref hòno; ac ynddi cyfarfu âg amryw bobl gwir dduwiol, ymddyddanion pa rai a fu yn dro bendithiol i'w enaid. Ond oddiwrth ormod cyfeillgarwch â phroffeswyr diofal, uchelfrydig, a llonwych, bu mewn perygl o gael mawr niwed, hyd oni agorodd yr Arglwydd ei lygaid, ac a'i hachubodd o'u magl.

Ionawr 20, 1773, aeth i wrando y Parch. Daniel Rowlands, i'r Capel Newydd, yn Sir Benfro. Ei destun oedd yn Heb. 4. 15. Ar yr achos hwn y mae yn sylwi fel y canlyn:—'Diwrnod oedd hwn yn haeddu coffadwriaeth tra byddwyf byw! O'r diwrnod dedwydd hwnw yr wyf wedi byw megys mewn nef newydd a daear newydd. Ni byddai y cyfnewidiad a brofai dyn dall wrth gael ei olwg yn fwy hynod na'r cyfnewidiad a brofais i y pryd hwnw ar fy meddwl. Y pryd hwnw yr argyhoeddwyd fi gyntaf o'r pechod o anghrediniaeth, ac o gynnwys meddyliau culion a chaledion am yr Hollalluog. Cefais y fath olwg ar Grist fel ein Harchoffeiriad, ar ei gariad, ei dosturi, ei allu, a'i holldigonolrwydd, ag a lanwodd fy enaid â syndod—a llawenydd annhraethadwy a gogoneddus. Gorchfygwyd fy meddwl â syndod. Yr oedd y gwirioneddau a ddygwyd i'm golwg yn ymddangos bron yn rhy rasol i'w credu. Nis medrwn braidd gredu gan wir lawenydd. Bydd i'r golygiadau gogoneddus a gefais y pryd hyny ddiwallu fy enaid, trwy fyfyrio arnynt, am filiynau o flynyddoedd i ddyfod. Yr oedd genyf o'r blaen ryw ddarluniad o wirioneddau yr efengyl: ond ni threiddiasant yn rymus i'm calon hyd y tro hwn. Parhaodd effaith y bregeth hon arnaf am fwy na hanner blwyddyn; ac yr oeddwn, yn gyffredin, mewn hwyl gysurus. Yn fynych, wrth rodio yn y meusydd, edrychwn i fynu tu a'r nef, a galwn ef yn gartref i mi, dan

Digitized by Google

hiraethu am ymddangosiad fy Iachawdwr gogoneddus i'm cymeryd dros byth ato ei hun.' A phan ddeuai yr 20fed o Ionawr bob blwyddyn ar gylch, ei arfer oedd ei nodi yn ei ddydd-lyfr dros amryw flynyddau, tra parhaodd i ysgrifenu ynddo, fel diwrnod ar ba un y cawsai ddadguddiad hynod o ras a thrugaredd ar Arglwydd i'w enaid.

Yn y flwyddyn 1775, agorwyd ffordd iddo, yn nhrefn rhagluniaeth, mewn modd annysgwyliadwy, i fyned i'r brif ysgol yn Rhydychain. Nid oedd heb lawer o ofnau o herwydd y temtasiynau yr oedd yn deall y byddai yn ddarostyngedig iddynt yn ei sefyllfa newydd; ond penderfynodd, fod mor hawdd i'r Hwn sydd yn ein cadw ni mewn un lle, ein cadw ni mewn lle arall; ac nid oes dim anhawsderau gyda Duw. Derbyniwyd ef yn aelod o'r brif ysgol, ac o Goleg Iesu (*Jesus College*) Mai 31, 1775. Yn fuan cafodd gydnabyddiaeth âg amryw o wŷr ieuainc crefyddol, a fu o fawr fudd a chysur iddo. Ond yn mhen oddeutu dwy flynedd, dygwyd ef i gyfyngder mawr yn ddisymwth, trwy attaliad ei gynnorthwyon o Gymru, Heblaw hyny, yr oedd efe mewn mwy o ddyled i'r Coleg nag oedd ganddo fodd i dalu. Yn y petrusder hwn, yr oedd wedi dyfod i benderfyniad i hysbysu ei amgylchiadau i'w ddyledwyr, ac i ddychwelyd yn ol i'w wlad. Ond, mewn modd annysgwyliadwy, rhyddhawyd ef o'r cyfyngder hwn, fel yr adroddai efe yn y geiriau canlynol:—'Ar un boreu, tra yr oeddwn yn ysgrifenu at fy mhobl yn Nghymru, gan fynegi iddynt am fy nghyfyngder a'm bwriad canlynol, daeth cyfaill anwyl i mewn; minnau yn fuan a ddadguddiais fy helynt iddo, a'r modd yr oeddwn wedi ymroddi i adael y Coleg. Yntau a atebodd, nad oedd efe yn ammeu na chawn fy nghynnorthwyo trwy ryw foddion neu gilydd; a dymunodd arnaf i roddi fy meddwl mewn esmwythdra yn yr achos. Ychydig ddyddiau ar ol hyny, anfonodd gwr boneddig am danaf i giniawa gyd âg ef; a chyn fy myned o'i dŷ, er fy mawr syndod, efe a estynodd i mi yr *Ugain Punt* yr oeddwn yn fyr o honynt: ac ar yr un pryd dywedodd wrthyf na chai diffyg fod arnaf tra y byddwn yn Rhydychain. Yr oeddwn yn llawen iawn, ac yn dra diolchgar am hyn: a bu y gwr boneddig gystal a'i air.'

Yn y flwyddyn 1777, treuliodd wyl-ddyddiau yr hâf, yn nghyd â chyfaill crefyddol, gyd â'r Parch. Mr Newton, yn Olney, Swydd Bucks, er mawr fudd a chysur iddo. Mehefin 14, 1778, cafodd ei urddo yn Ddiacon, yn Rhydychain.

Yr oedd wedi ymrwymo i wasanaethu Curadaeth yn Ngwlad yr Hâf; ond gan nad oedd ar ei Beriglor eisieu ei gynnorthwy hyd Wyl Mihangel, yn y flwyddyn a enwyd olaf, daeth trwy wahoddiad ei gyfaill, y Parch. S. Lloyd, i'r Bala. Treuliodd yno, ac mewn taith trwy ran fawr o Ogledd Cymru, oddeutu pum wythnos. Yn mis Awst, aeth i Langeitho, lle cafodd glywed dwy bregeth gan y Parch. D. Rowlands, er ei gysur annhraethol, fel y tystia yn rhagymadrodd ei ddydd-lyfr. Oddi yno cyrhaeddodd yn iach i dŷ ei dad. Gellir barnu am agwedd ysbrydol ei feddwl y pryd hyn oddiwrth y sylw canlynol o'i eiddo:—'Edrychwn ar y conglau bychain yn y tŷ, a'r gwrychoedd encil yn y maesydd, gyd âg hyfrydwch anhawdd ei adrodd: lle buasai fy enaid gynt mewn ymdrech â Duw, ac mewn gweddi yn caffael y fendith: a'r coffa am yr amryw fendithion a gyfranwyd i mi ar amryw amserau, a lanwodd fy nghalon â llawenydd a mawl.'

Oddeutu Gwyl Mihangel dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Ngwlad yr Hâf; ac ar y 6ed o Dachwedd, yn yr un flwyddyn, dechreuodd ysgrifenu ei ddydd-lyfr, yr hwn a ddilynodd am yn agos i saith mlynedd, sef hyd oddeutu canol y flwyddyn 1785. Yn mis Mawrth, 1779, cymerodd y gradd o Wyryf yn y Celfyddydau. Ar yr achos hwn y mae yn ysgrifenu fel y canlyn:—'Nid wyf mwyach yn aelod o'r Coleg. Daioni a thrugaredd Duw a fuant yn wir yn fawr iawn tu ag ataf tra bum yno. Boed i'm calon fod byth yn ymostyngar a diolchgar am y trugareddau a dderbyniais. Cefais fy nghynnal yno trwy ffyrdd a moddion o ddarpariad Duw, a'r fath ag oedd yn eglur ddangos ei law anweledig Ef yn eu trefniad. Yr oedd y temtasiynau a ymosodasant arnaf yn gryfion a lliosog: ond yr Arglwydd a'm cadwodd.'

Wedi bod yn llafurio yn Ngwlad yr Haf yn agos i bum mlynedd, aeth Mr CHARLES i'r ystâd briodasol, yn y flwyddyn 1783, ac a sefydlodd am weddill ei oes yn y Bala.

Wedi iddo briodi, a chartrefu yn y Bala, ei ymgais cyntaf oedd am le i weinidogaethu yn ngwasanaeth yr Eglwys yr oedd yn weinidog urddedig ynddi; ond dros dalm o amser ni chafodd un lle yn agored (oddieithr i ddarllen y gwasanaeth, a phregethu am unwaith) yn nes na Shawbury, yn Sir Amwythig. Bu yno am rai misoedd, yn gynnorthwywr i'w gyfaill, y Parch. Mr Mayer, oedd yn Beriglor y plwyf hwnw. Yn agos i ddechreu y flwyddyn 1784, efe a gafodd Guradaeth Llan y Mowddwy, sydd oddeutu pedair milltir ar ddeg o'r Bala. Efe a deithiodd yno trwy bob math o dywydd, weithiau ar farch ac weithiau ar ei draed, i gyflawni ei weinidogaeth tros ryw faint llai nag yspaid blwyddyn. Yr oedd y ffordd yn ddrwg y pryd hyny, a llwybr serth Bwlch y Groes yn rhan o honi; ond nid oedd meithder ac anhawsder y daith (wyth milltir ar hugain rhwng myned a dychwelyd) bychander y cyflog, na'r gwg a'r dirmyg oedd arno gan rai o herwydd ei ffyddlondeb, nac un attalfa arall, yn effeithio arno i beri iddo roddi y lle i fynu. Adgododd Mr CHARLES yn y lle hwn yr hen arferiad llesol o holi, neu *gateceisio* plant, bob Sabboth, ar ol y gosper; a bu hyny yn dramgwydd i rai. Ond ni adawodd yr Arglwydd mo'i was i lafurio yno heb fod effeithiau da i'w gweled ar rai o'r gwrandawyr. Y mae

Digitized by Google

lle i obeithio fod ei weinidogaeth wedi cael ei bendithio er deffröad, a throedigaeth rasol, i ambell un o honynt, ac er darostyngiad i ragfarn ac anfoes amryw eraill. Ond, yn fyr, bu ei ddiwydrwydd a'i ffyddlondeb duwiol yn achlysur gan rai o blwyfolion Llan y Mowddwy i ymgynhyrfu mewn gelyniaeth i'w erbyn. Anfonasant achwyniadau at Berson y plwyf; yr hwn yn ddioed a ddanfonodd rybydd iddo i ymadael o'i wasanaeth. Ond gan fod Mr CHARLES yn dra chymeradwy gan y rhan fwyaf o'r plwyfolion, ysgrifenwyd erfyniad, a rhoddodd llawer eu dwylaw wrtho, i ddeisyf cael parhad o'i wasanaeth. Ond ni chyrhaeddodd yr erfyniad i law y Periglor, gan i'r gwr a'i cymerodd i'w ddwyn ato, gymeryd hefyd ei *berswadio* i'w ddyfetha ar y ffordd, fel y cyfaddefodd efe ei hun ar ol hyny. Yn ganlynol, bu raid i Mr CHARLES ymadael pan ddaeth amser y rhybydd i ben, sef Ionawr 1, 1785.

Y mae yn debygol mai ar ol ymadawiad, neu wrth ddysgwyl ymadael, â Llan y Mowddwy, y darfu i Mr CHARLES ysgrifenu at ei hen gyfaill a'i noddwr tirion, y Parch. Mr Newton, gan adrodd ei helynt, a deisyf cymhorth ei weddïau, a'i gyngor yn yr achos. Yn yr ateb a roddodd Mr Newton iddo, y mae yn ymddangos yn lled gryf yn y dyb mai dyledswydd Mr CHARLES fyddai gadael y Bala, Gwynedd, a Chymru oll, yn hytrach na rhoddi i fynu y meddwl am weinidogaethu o fewn cylch neu furiau yr Eglwys Sefydledig. Ond ni wyddai Mr Newton y pryd hyn, ac nid oedd modd iddo wybod, bwriadau yr Arglwydd am arwain a defnyddio ei was yn y llwybr a agorodd o'i flaen, er lles i'w gydgenedl, Ie, a chenedloedd a chenedlaethau eraill hefyd. Ni wyddai Mr Newton, ychwaith, ond ychydig am y tueddiad syml a dwys yr oedd Duw wedi ei weithio yn meddyliau ei gyfaill yn Nghymru, am ymdrechu a llafurio yn, ac o blaid, ei wlad enedigol, ac yn enwedig y rhan hòno o honi yr arweiniasai ei law ragluniaethol ef i briodi a thrigfanu ynddi. Ar ol hyn y gwelodd Mr Newton, a rhai cyfeillion eraill, fod yr Arglwydd yn ddiau wedi arwain Mr CHARLES ar hyd yr iawn ffordd, er ei ogoniant ei hun, ac er llwydd a chynnydd mawr i achos ei wirionedd.

Ond er hyn a adroddwyd nid oedd Mr CHARLES ddim etto wedi cael y fath radd o foddlonrwydd meddwl am ewyllys Duw, o ran y llwybr oedd iddo ei rodio, fel ag i ymroddi, heb oed na dysgwyliad yn mhellach i adael yr Eglwys Sefydledig, nac ychwaith i bregethu unwaith y tu allan i'w muriau. Bu ar ol hyn, am rai troion, yn gwasanaethu yn Llanwddyn: a rhag bod yn segur (yr hyn oedd yn boen o'r trymaf i'w enaid effro) aeth drachefn i weinidogaethu amryw weithiau, yn achlysurol, yn Shawbury, er meithder y daith i fyned a dychwelyd, ac amryw rwystrau eraill. O'r diwedd, ar ol iddo arfer ymdrech a dysgwyliad maith, a dadgan ei ewyllysgarwch i weinyddu *am ddim* i Eglwyswyr ei gymydogaeth, cafodd ei dueddu, neu yn hytrach ei nerthu, mewn ymroddiad, i ddilyn arweiniadau rhagluniaeth, a bwrw ei goelbren yn mhlith y corph o bobl a elwir yn Fethodistiaid Calfinaidd. Yn mysg y bobl hyn efe a gafodd dderbyniad rhwydd; ac, hefyd, yn mhen yspaid byr o amser, dderbyniad tra serchus a pharchus. Yr oedd amryw o'u haelodau blaenaf yn gwybod ei foes, mewn rhan, am ei awyddfryd a'i symledd fel Cristion, ac am ei ddoniau buddiol fel pregethwr. Ond ni bu efe yn hir yn llafurio yn eu mysg, heb i'r corph o honynt weled, mewn rhyw fesur, y rhagoroldeb oedd ynddo. Oddeutu Awst y flwyddyn hon (1785) y mae yn debygol, y bu i'r diweddar Barch. Daniel Rowlands, ei wrando yn pregethu yn Llangeitho; a'i ddywediad llòn am dano, yn ebrwydd, oedd hyn, 'Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd ydyw Charles:' Ie, yn ddiau; ac fe ellir ychwanegu, 'i'r Deheubarth hefyd.'

Yn y flwyddyn 1785, tybygid, y dechreuodd Mr CHARLES fod yn bregethwr teithiol; er hyny, trefnodd ei deithiau yn y fath fodd ag i fod gartref y Sabboth olaf o bob mis, i weini Sacrament Swper yr Arglwydd yn nghapel y Bala. Gan na ddygwyd ei ddydd-lyfr ddim pellach na Gorphenaf yr 8fed, yn y flwyddyn hon, y mae yn lled amlwg mai amlder a phwys ei orchwylion eraill a'i rhwystrodd i'w ddwyn yn mlaen. Bu ei weinidogaeth dan ddylanwadau ac arddeliad neillduol tua diwedd y flwyddyn hon. Y mae côf gan amryw etto am ei bregeth yn y Lôn Fudr yn Lleyn, ac am yr effeithiau grymus a'i dilynodd. Ac am hòno a bregethodd mewn Cymanfa yn y Bont Uchel, gerllaw Rhuthyn, yn nyddiau y Nadolig, ar Gal. 4. 4, 5. pan lefarodd am Berson anfeidrol ac ufudd-dod gweithredol a dyoddefol y Prynwr, gyd â'r fath eglurdeb, awdurdod, ac effeithiau nefolaidd, ag a roddodd y gynnulleidfa mewn syndod deffröus a diolchus, ac mewn ymdoddiad serchiadol ac ysbrydol, na welwyd y cyffelyb ond yn anfynych. Rhai blynyddoedd ar ol hyn y gwelwyd cyffelyb ddylanwadau tan ei bregeth mewn Cymanfa yn Aberystwyth, lle bu effeithiau grymus ar lawer o gannoedd, os nid miloedd, o'r gwrandawyr.

Ond i ddychwelyd at ddechreu hanes ei lafur teithiol. Ni bu Mr CHARLES ddim yn hir yn llafurio yn mysg y Methodistiaid, heb fod ei ddysgleirdeb yn amlwg fel pregethwr cyhoedd, ac hefyd fel blaenor profiadol a defnyddiol mewn cyfarfodydd, neu ymddyddanion cyfeillgar, ac yn mhob gorchwyl cymanfäol. Gyda hyn yr oedd ei symledd caruaidd a duwiol, ei wresogrwydd a'i ymdrechiadau ffyddlawn yn mhlaid pob gwaith da, a'i ddiwydrwydd hunan-ymwadol yn ei lafur oll, yn ennill iddo le mawr yn mysg ei frodyr a'i gyfeillion; nid allai ei gymydogion a'i gydnabyddiaeth lai na'i barchu; Ie, yr oedd, ac y mae, ei elynion hefyd yn dystion am ei rinweddau gwir Gristionogaidd. Yn mysg yr amryw ranau o'i lafur ffyddlawn a llesol, efe a ddangosodd yn fuan ei fod yn



Digitized by Google

fawr ei ymdrech am chwalu y caddug dudew o anwybodaeth oedd yn gorchuddio dealltwriaethau tlodion ein gwlad. Y mae llawer o'i lythyrau, ac o'i ymddyddanion, sydd yn gofus gan amryw o'i gyfeillion, yn dystion amlwg o'r dwysder a'r awyddfryd a weithiasai yr Arglwydd yn ei enaid, i'w dueddu a'i gymhwyso at y rhan hon o'i lafur. Wrth ddal sylw a holi yn ei gymydogaeth, ac ar ei amryw deithiau, efe a wybu yn sicr fod rhan fawr o drigolion Cymru, a'r rhan fwyaf o lawer o'i hisraddolion, heb fedru darllen y Bibl yn yr iaith a ddeallent: ac yr oedd gormod o brawf yn canlyn, i wrthbrofi yr hen ddywediad Pabaidd, 'Mai mammaeth duwioldeb yw anwybodaeth.' Yn lle hyny, yr oedd anwybodaeth yn Nghymru, yn fam ac yn fammaeth amlwg i annuwioldeb mewn llawer rhith, ïe, dulliau rhy aml i'w hadrodd. Wrth edrych ar eu hamryw ffrwythau drwg, yr oedd ysbryd Mr Charles 'wedi ei gynhyrfu ynddo;' ac er gweled pob moddion a defnyddiau o fewn ei gyrhaeddiad yn fychain iawn at gyflawni y diffyg, yn ol golygiad rheswm dynol; etto nid ymollyngodd, ac ni ddigalonodd efe, yn ei ymdrech a'i lafur o gariad. Efe a erfyniodd gynnorthwy aml un o fonedd elusengar Lloegr: a bu yn llwyddiannus i gael hyny, yn rhoddion, ac yn gynnorthwyon blynyddol; cafodd at hyny beth cymhorth gan rai yn Nghymru; ac amlwg yw ei fod yn rhoddwr haelionus yn ol ei allu ei hun, neu o'r da bydol oedd ganddo, trwy fendith yr Arglwydd, yn benaf ar ddiwydrwydd ei wraig. Trwy foddion ac ymdrechiadau fel hyn y bu efe yn offeryn arbenig, yn llaw Duw, er lles mawr i Ogledd Cymru. Efe a chwiliodd, ac a gafodd ddynion syml, awyddus i'r gwaith da, ac o ddoniau cymedrol i ddysgu eraill, o leiaf, i ddarllen Gair Duw yn yr iaith Gymraeg; a'r cyfryw hefyd ag a ymfoddlonent ar gyflogau bychain, yn ol bychander y moddion oedd ganddo at gynnal y gwaith. Yr oedd yr ysgolion hyn yn cael eu symud ganddo o le i le, bob chwe mis, naw mis, neu ychydig fwy, os gwelid achos yn galw am estyniad eu hamser mewn ambell bentref neu gwmwd. Ond, yn gyffredinol, yr oedd nifer go fawr o blant, a rhai mewn oed, yn dysgu darllen yn hyny o amser.

Bellach, gwedi rhoddi hyn o hanes am yr Ysgolion Cylchynol, y rhai y bu Mr Charles mor ymdrechgar i'w codi, a'u cynnal, tros nifer o flynyddoedd yn Ngogledd Cymru, er lles mawr i amryw filoedd o dlodion, ac i'r rhan hòno o'r wlad yn gyffredinol, y mae yn gweddu i ni ddywedyd rhywfaint am yr Ysgolion Sabbothol. Dechreuwyd arfer y moddion hyn at addysgu y tlodion yn Nghymru oddeutu y flwyddyn 1789, ar ol cael aml dystiolaeth gref am y lles a'r buddioldeb o honynt yn amryw fanau yn Lloegr: a bu Mr Charles yn un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf o bawb, o fewn y Dywysogaeth, a ymdrechodd, ac a lwyddodd, tu ag at eu codi a'u gosod mewn trefn yn lled aml a chyffredinol. Yn y Cyfarfodydd Misol a Chwarterol a gynnelid gan y Methodistiaid, lle y gallai efe fod yn bresennol, anfynych y gadawodd efe i un cyfle fyned heibio, mewn llawer o flynyddoedd, heb daer annog ei frodyr oll i roi y cymhorth a allent at ddwyn y gwaith yn mlaen. Ac ni chafodd ei aml gynghorion tirion a gwresog, a'i ymdrechiadau difrifol, ddim myned yn ofer. Efe a gafodd ugeiniau, cannoedd, a miloedd, yn gynnorthwywyr ewyllysgar, yn ol eu hamryw alluoedd a'u doniau bychain; ac y mae lle i obeithio y bydd ffrwyth da a helaeth i'w weled o'r ymdrechiadau hyn mewn oesoedd i ddyfod. Hyd yn hyn, y mae y gwaith yn myned yn mlaen ac ar gynnydd yn mysg y corph a nodwyd; ac y mae hefyd gryn nifer, nid yn unig o sectwyr eraill, ond hefyd o Eglwyswyr mewn amryw fanau, yn arfer ymdrechiadau ffyddlawn i'r un dyben.

Ond nid i'r Cymry yn unig y llafuriodd Mr Charles; bu tros rai blynyddoedd yn un o bedwar Gweinidog urddedig yn Eglwys Loegr, oedd yn myned o Gymru i weinidogaethu yn Nghapel Spa Fields, a Chapel arall perthynol i Gymdeithas y ddiweddar Arglwyddes Huntington, yn Llundain: (y Parchedigion Mr Jones o Langan, Mr Griffiths o Nefern, a Mr Nathaniel Rowlands, oedd y tri wyr eraill). Ac yn y rhan hon o'i lafur ni adawodd yr Arglwydd mo hono heb arwyddion o'i fendith ar ei ymdrechiadau. Mewn llythyr a ysgrifenwyd gan y ddiweddar Bendefiges Ann Erskine (yn Ebrill, 1792) i'w daer wahodd yn yr hâf canlynol i Lundain, y mae hi, ar ol adrodd am ddau a fuasai farw yn yr Arglwydd, yn hysbysu mai tan ei weinidogaeth ef y cawsant eu 'galw trwy ras;' ac fod yn nghynnulleidfa Spa Fields amryw eraill yn gwirio fod yr Arglwydd wedi bendithio ei bregethau er eu deffröad, eu hadeiladaeth, a'u cysur.

Yn mhen rhai blynyddoedd yn mhellach, ar ol iddo weled llwyddiant mawr ar yr Ysgolion Sabbothol yn Nghymru, efe a ymdrechodd, ac a lwyddodd, mewn rhyw radd o leiaf, i'w codi a'u cynnal yn Llundain, o fewn cylch y cyfuniad yr oedd yn llafurio ynddo. Wedi hyn, efe a roddodd gais am ddefroi proffeswyr o bob enw, yn y ddinas fawr hòno, at y gwaith o addysgu, nid plant tlodion yn unig, ond *pobl mewn oedran* hefyd, i fedru darllen Gair Duw yn eu hiaith eu hunain. Yn ei ymdrech hwn, y mae lle i obeithio ei fod wedi llwyddo, a'r hâd a hauodd wedi egino a ffrwytho hefyd.*

Wedi i'r newyddion am y llwyddiant ar Ysgolion yn Nghymru gyrhaedd i wybodaeth rhai gwyr duwiol oedd yn ofidus eu meddyliau o herwydd anwybodaeth niferoedd mawrion yn Ucheldiroedd Ysgotland, hwy a ysgrifenasant at Mr Charles i ddeisyf gwybyddiaeth fanylach ganddo, a hyfforddi-

* Y mae un Dr Pole wedi cyhoeddi yn Saesonaeg, Hanes yr Ysgolion i rai mewn oed (*Adult Schools*), ac yn y gwaith wedi addef mai y Parch. T. Charles yw y gwr sydd i edrych arno fel eu sylfaenwr.

Digitized by Google

iad pellach tu ag at godi Ysgolion Rhad a Chylchynol yn y parthau ëang a phellenig hyny, lle y mae cannoedd o filoedd o bobl yn cyfanneddu gwlad ac ynysoedd meithion, heb fedru darllen y Bibl yn eu hiaith eu hunain, sef y Gaelaeg, nac mewn un iaith arall. Oddiwrth gynnwysiad yr amryw lythyrau ato, ac oddi wrtho ef at ei gyfatebwyr, ar yr achos hwn, yn nghyd â'r hanesion a gyhoeddwyd am eu Hysgolion, a thaeniad llawer o filoedd o Fiblau a Thestamentau yn eu mysg, y mae lle i farnu ddarfod i'r Arglwydd ei ddefnyddio, fel offeryn yn ei law, er budd a lles mawr i'n cyd-ddeiliaid a'n cydwladwyr tlodion hyny.

Yn fuan ar ol ffurfiad y Gymdeithas Genadol yn Llundain, yn y flwyddyn 1795, i'r dyben o anfon gair yr efengyl at y cenedloedd Paganaidd, fe ddangosodd Mr Charles fod yr achos hwnw yn agos at ei galon; a bu yn ymdrechwr ffyddlawn o'i blaid. Heblaw rhoddi siampl dda fel cynnorthwywr haelionus, efe a annogodd ei frodyr mewn llawer o gyfarfodydd, a llwyddodd yn nghyd â hwynt, i gael cynnorthwyon gan gynnulleidfaoedd lawer yn Nghymru; a'r rhai hyny yn helaeth, os ystyrir nifer a gallu bychan y rhoddwyr, mewn cymhariaeth âg ardaloedd mwy poblog, a threfydd cyfoethog Lloegr. Bu yn ddadleuydd ffyddlawn a llwyddiannus mewn ysgrifenwaith hefyd yn mhlaid y Gymdeithas Genadol, ac anfoniad yr efengyl i wledydd Paganaidd. Yn dystion o hyn y mae ei lythyr at ei gyfaill, y diweddar Barch. T. Jones, a gyhoeddwyd yn 1798; 'Talfyriad o Hanes Mr Kicherer,' a argraffwyd trwy ei annogaeth a'i gymhorth ef yn y flwyddyn 1804; yn nghyd âg aml ddernyn arall a ysgrifenodd efe ei hun, ac a argraffwyd yn Llyfr II. o'r 'Drysorfa,' yr hwn a ddechreuwyd yn y flwyddyn 1809, ac a orphenwyd yn 1813. Yn y Llyfr hwn, tu dalen 319, &c., efe a roddodd hanes am ddechreuad *Cymdeithas Genadol Affric a'r Dwyrain*, yr hon a sefydlwyd trwy ymdrech rhai o Weinidogion ac Aelodau Eglwys Loegr, yn y flwyddyn 1800; ac hefyd am *Gymdeithas Llundain er Taeniad Cristionogaeth yn mhlith yr Iuddewon*, yr hon a gafodd ei dechreuad yn 1809; ac, yn ol ei awyddfryd diffuant a gwresog, bu yn gynnorthwywr ac yn annogwr i eraill roddi cynnorthwy i bob un o'r ddwy.

Ac yn mysg yr aml ffrwythau rhagorol sydd i'w gweled wrth olrhain buchedd Mr Charles, nis gallwn, ac nis dylem, adael yr hyn a ganlyn heb grybwylliad am dano. Oddeutu y flwyddyn 1800, os nid yn gynt, yr oedd rhai o bendefigesau a boneddigion elusengar Lloegr wedi cael gwybyddiaeth am fychander cyflog, a theuluoedd lliosog, amryw Guradiaid, a rhai Ficeriaid yn Nghymru; ac wrth fwriadu cynnorthwyo y cyfryw, yn enwedig y rhai ffyddlonaf eu gweinidogaeth, hwy a ddewisasant Mr Charles i fod yn weinyddwr a chyfranwr eu helusen at yr achos hwn, yn nghyd â'r Ysgolion Rhad. Yn mis Gorphenaf, 1802, y mae llythyr ato oddiwrth eu Goruchwylwyr yn Llundain, yn addef y derbyniad o'i gyfrif am y swm o Bum Cant o Bunnau, yr hwn, meddynt, 'y buoch chwi mor gymwynasgar a'i gyfranu, wrth ein deisyfiad, i Eglwyswyr oedd yn gyfyng arnynt, ac at yr Ysgolion Rhad. Yr ydym yn dymuno gwirio wrthych ein bod yn dra ystyriol o'r drafferth a'r gofal dwys a gymerasoch yn y gorchwyl hwn: etto yr ydym yn hyderu mai llawen iawn fydd genych, megys genym ninnau, os bydd i achlysuron eraill o'r cyffelyb ein galluogi ni i ddeisyf eich goruchwyliaeth cymwynasol yn mhellach.' Ac amlwg yw, oddiwrth lythyrau a thystion eraill, fod yr un gorchwyl o 'lafurus gariad' a gweinyddiad wedi bod ar ddwylaw Mr Charles am flynyddoedd, ac am symiau helaeth yn ychwaneg. Yr oedd efe felly, ac mewn llawer modd heblaw hyny, yn rhoddi prawf, er i Eglwys Loegr gau ei drws rhagddo ef, ei fod yn dra phell oddiwrth fod yn wrthwynebwr iddi hi, ei gweinidogion, na'i gweinidogaeth.

Yn y flwyddyn 1806, efe a wahoddwyd gan Gyfeisteddwyr y Gymdeithas Genadol yn Llundain i gynnorthwyo y gwaith, trwy bregethu ar yr achos yn y Gymanfa Flynyddol a gynnelir yno yn nechreu mis Mai. Ac, fel y mae llythyrau ar yr achos yn dangos, efe a ymroddodd i fyned, er fod amryw rwystrau ar ei ffordd. Ei bregeth yno ydoedd oddiwrth Esa. 10. 27. 'Dryllir yr iau o herwydd yr eneiniad.' Y mae i'w gweled yn Saesonaeg yn mysg niferoedd o bregethau rhagorol sydd o flwyddyn i flwyddyn yn cael eu pregethu ar yr achos, ac yn cael eu hargraffu gan y Gymdeithas.

Yn y flwyddyn ganlynol (1807) bu drachefn alwad arno gan y Gymdeithas oedd yn ddiweddar wedi ei sefydlu, yn y bwriad o ymdrechu yn mhlaid ein cymydogion a'n cyd-ddeiliaid, y Gwyddelod tlodion, sydd etto, gan mwyaf, yn soddedig mewn anwybodaeth a chyfeiliornadau Pabyddiaeth. Y galwad oedd, am iddo, yn un o bedwar, gymeryd taith i'r Iwerddon, a thrwy amryw barthau o honi, tu ag at gael gwybyddiaeth fanylach am eu hansawdd, yn enwedig mewn golygiad moesol a chrefyddol, a rhoddi barn am y cymhwysder, neu yr anghymwysder, o geisio cynnyg addysg i'r Gwyddelod tlodion, yn eu hiaith eu hunain; am fod rhai yn barnu mai yn yr iaith Saesonaeg *yn unig* y byddai yn addas ac yn rheidiol eu haddysgu, trwy Fiblau, Ysgolion, &c. Yr oedd yr awyddfryd Cristionogaidd am fod yn offerynol at wneuthur daioni, yn rhy gryf yn enaid Mr Charles iddo fedru rhoddi ateb nacäol i'r fath alwad.

I gydymdeithio âg ef fe benodwyd Mr Bogue, Gweinidog yr Annibynwyr yn Gosport, Mr Mills, gwr boneddig crefyddol, a Mr Hughes, Gweinidog i'r Bedyddwyr yn Llundain, neu gerllaw iddi. Cyn iddynt gychwyn, yr oedd Cyfeisteddwyr Cymdeithas y Biblau wedi anfon i Dublin fil o Destamentau, i gael eu taenu a'u rhanu ganddynt, fel y gwelent achos a chyfle, yn mysg tlodion y wlad.

Digitized by Google

Yr oeddynt hefyd i ymwahanu, a theithio bob yn ddau, yn y lleoedd y byddai achos am hyny. Hwy a aethant allan o borth Caergybi yn yr hwyr, Gorphenaf 24, 1807, tiriasant dranoeth yn Dublin; a buont ar eu taith trwy barthau o'r Iwerddon hyd Awst 20, yn agos i fis o ddyddiau.

Fel ffrwyth o'r ymdaith hon y mae i ni gyfrif y niferoedd o Destamentau Gwyddelig, a gawsant eu hargraffu at wasanaeth tlodion yr Iwerddon, a'r bwriad o argraffu y Bibl yn gyfan yn yr un iaith, yn ol y sylwadau a wnaethant (a Mr CHARLES yn enwedigol) ar amlder y bobl sydd yno yn siarad yr iaith hòno. Ond gyda hyny y mae i ni le i farnu fod y dystiolaeth a roddodd y pedwar ymdeithydd parchus hyn, wedi bod yn effeithiol i gynhyrfu tosturiaethau ac ymdrechiadau llaweroedd yn Mrydain, tu ag at geisio goleuo, moesoli, ac efengyleiddio trigolion ein chwaer ynys. Ac, yn ganlynol, heblaw ymdrechiadau grymus Cymdeithas y Biblau (sydd yn taenu ei nawdd a'i Changenau Cynnorthwyol ar led y wlad hòno, gyda llawer o wledydd eraill) mae yn bresennol ddwy Gymdeithas arbenig a newyddaidd, sydd yn cydymdrechu yn mhlaid yr Iwerddon yn benodol; un yn Gymdeithas at godi a meithrin Ysgolion (*Hibernian Society*), a'r llall, y bu ei dechreuad yn ddiweddarach, i daenu yr efengyl trwy bregethiad.

Heblaw y rhai hyn, y mae yn Llundain Gymdeithas arall, a elwir *Tract Society*, sydd yn treulio cryn lawer o arian, wrth gyfranu llyfrau mân ar destynau dwys a buddiol; a Chymdeithas Ysgolion Sabbothol gyda hyny, sydd yn rhoi mân lyfrau Ysgol at addysgu plant a thlodion o bob oedran. Y mae y ddwy Gymdeithas hyn wedi cyfranu, ac hyd heddyw yn cyfranu, llawer o help a chymhorth mewn aml barth o Brydain a'r Iwerddon: ac fel y mae Mr CHARLES wedi bod, yn ei ffyddlondeb a'i ddiwydrwydd gwresog, yn gynnorthwywr haelionus, ac yn annogwr i eraill roddi cynnorthwy, i bob un o honynt, y mae yn beth i'w addef, mai trwy ei ymdrech ef yn benaf y cafwyd, dros amryw flynyddoedd, lawer o filoedd o Lyfrau Ysgol, o fân draethiadau buddiol, a chryn nifer o Destamentau hefyd, at wasanaeth y Cymry tlodion.

Ond yr ydym etto heb ddyfod at yr ymdrech a'r gorchwyl a fydd yn effeithiol tu hwnt i ddim arall i wneuthur enw Mr CHARLES yn nodedig ac anwyl gyd â'r rhai a garant enw Duw a'i achos; ïe, braidd na feddyliem, hyd barthau pellaf ac oesoedd diweddaraf y byd. Y mae eisoes amryw ymofynion yn nghylch sylfaeniad CYMDEITHAS Y BIBLAU wedi dyfod o wledydd pell, heblaw o'n gwlad ni ein hunain, ac am y gwr a feddyliodd ac a luniodd yn gyntaf y rhag-fwriad, *am daenu Gair Duw yn argraffedig ar led y byd*, neu *a fu yn fwyaf offerynol at gychwyn gwaith mor dra mawr ac ardderchog*. Y gwr hwnw, os neb rhyw *un* o ddynolryw, neu ynte, yn yr achos hwn, *yn fwy na neb arall*, ydoedd Mr CHARLES. Etto, ni bu efe ddim yn yr ymdrech a'r llafur o'r dechreuad, heb rai cynnorthwywyr ffyddlawn, a'r rhai hyny o'r diwedd yn lliosogi, fel y dengys yr hyn a ganlyn.

Y mae yn hysbys i lawer fod Mr CHARLES, yn lled fuan ar ol iddo ymuno â chorph y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru, wedi dangos yn amlwg fod ei feddyliau yn ofidus o herwydd anamlder y rhai a fedrent ddarllen, yn mysg y werin a'r tlodion, ac hefyd o herwydd anamlder y Biblau yn mysg holl bobl y wlad yn gyffredin. Yn ganlynol, fel y gŵyr llawer, wrth gofio ei ymddyddanion, ac fel y mae i'w weled yn ei lythrau, a'r atebion iddynt, yr oedd ei ymdrech yn ddiball, tros lawer o flynyddoedd, o blaid Ysgolion, ac hefyd am gael niferoedd mawrion o Fiblau a Thestamentau Cymreig, i'w gwerthu a'u cyfranu yn mysg y niferoedd aml o deuluoedd a phersonau oedd yn amddifad o honynt. Y lle cyntaf yr oedd yn naturiol iddo droi ei wyneb ato, gan obeithio am gymhorth, a chyflenwad (*supply*) cyfatebol i'r angen, ydoedd yr hen Gymdeithas o Eglwyswyr, ac aelodau yr Eglwys Sefydledig, a elwir, 'Y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol' (*The Society for Promoting Christian Knowledge*). Yr oedd y Gymdeithas hon wedi ei ffurfio a'i sefydlu er's mwy na chan mlynedd yn ol, ac wedi bod yn ymdrechgar dros lawer o flynyddoedd, i ddwyn allan lawer argraffiad o'r Ysgrythyrau, *yn nghyd â llyfrau da eraill*; ond er's cryn amser yr oedd ei bywiogrwydd wedi myned ymaith. Etto, hyd y flwyddyn 1804, hon oedd yr unig Gymdeithas adnabyddus yn Mrydain y gallesid dysgwyl cynnorthwy effeithiol oddi wrthi, at gael Biblau mewn niferoedd addas at gyflawni diffyg cyffredinwyr a thlodion Cymru, a gwledydd eraill lawer sydd dan y llywodraeth Brydeinaidd.

Y mae yn rhy anhawdd dangos ond rhan fechan o'r llafur a'r ymdrech maith y bu Mr CHARLES ynddynt yn yr achos hwn: ond oddiwrth y llythyrau sydd etto ar gael, y mae yn amlwg ei fod, yn y flwyddyn 1791, a'r ganlynol, os nid cyn hyny, wedi ysgrifenu, a hyny lawer o weithiau, at wŷr yr oedd efe yn gobeithio y byddent er cynnorthwy i gael argraffiad newydd yn Gymraeg, at gyflawni diffyg ein gwlad. Ar yr hen Gymdeithas uchod yr oedd llygaid Mr CHARLES a'i gyfatebwyr: ond ni lwyddasant y pryd hyny. Etto, fe allai fod yr ymgeisiadau hyn wedi effeithio i ryw radd o lesâd, a'u bod, yn nghyd âg annogiadau rhai o'r Eglwyswyr penaf, gwedi rhoddi cynhyrfiad i'r gwaith o argraffu *deng mil o Fiblau Cymreig*, yr hyn a wnaeth y Gymdeithas hòno yn y flwyddyn 1799. Yn fuan ar ol hyn gwelodd ef, a llawer gyd âg ef, nad oedd y nifer hwn (tra yr oedd yn dda iawn, ïe, yn drugaredd fawr eu cael) ond yn rhy fychan o lawer i gyflawni diffyg ein gwlad. Yn mysg ymdrechiadau a moddion eraill a brofwyd ganddo, canfyddir ei fod wedi anfon llawer o lythyrau at ei gyfaill yn Lloegr, sef y Parch. T. Jones,

Digitized by Google

o Creaton, a chael llawer o atebion ganddo, yn y blynyddoedd hyny; ac, yn ganlynol, fod y gwr ffyddlawn hwnw wedi anfon aml lythyr at ei Esgob, yn Peterborough, ac at amryw foneddigion (un Mr Grant yn enwedigol) trwy eiriolaeth pa rai yr oedd dysgwyl am ffafr a help yn yr achos, gan yr hen Gymdeithas enwog a chyfoethog, a fuasai yn gynnorthwyol i Gymry a Saeson, lawer gwaith o'r blaen. Ond y ffrwyth o'r cwbl, a diwedd ei holl lafur a'i ymgais ef, ei gyfaill, ac eraill hefyd, yn y blynyddoedd hyny, ydoedd pall a nacâd hollol.

Etto, er i'r holl lafur hwn fyned yn ofer, yn ol pob golygiad dynol; ie, ac amryw ymgeisiadau eraill ganddo ef, ei gyfatebwyr, a'i gyfeillion, ni fedrai ei enaid gwresog a ffyddlawn ddim gorphwys yn yr achos, heb wneuthur prawf ac ymgeisiadau yn mhellach. Yn ganlynol, efe a fu ar waith trwy lythyrau drachefn, ac mewn ymddyddanion erfyniol, yn enwedig yn Llundain, i ymgais am help a chynnorthwy gan amryw wyr arianog, tu ag at gael, yn y modd hwnw, argraffiad helaeth yn ychwaneg o Fiblau a Thestamentau at wasanaeth y Cymry. Hyn yn benaf, tybygid, oedd y pryd hyny yn fater ei ymgais a'i ddysgwyliad hiraethlawn, fel yr oedd yn dra mynych yn destun ei ymddyddanion: a'r Arglwydd, ar ol ei brofi yn y modd hwn, a thrwy y fath attaliadau dros amser, gan yr anhawsderau hyn, ac eraill, a welodd yn dda roddi iddo weled yn fuan fwy o ffrwyth ei lafur nag a feddyliodd ei ddychymyg helaethaf, y mae yn debyg, pe buasai estyniad o flynyddoedd lawer at hŷd ei oes.

Y mae Mr CHARLES ei hun gwedi ysgrifenu hanes y Gymdeithas a sefydlwyd yn Llundain, Mawrth 7, 1804, tu ag at ddosparthu Biblau yn mhlith holl genedloedd y ddaear; yr hwn sydd i'w weled yn nglŷn â'r 'Talfyriad o Hanes Mr KICHERER,' a argraffwyd yn agos i ddiwedd y flwyddyn hòno: etto, am nad ydyw yr hanes byr hwnw i'w gael yn bresennol ond gan ychydig, ni a roddwn le yma i ryw ran o hono, gan adael iddo lefaru yn ei ddull lleduais a'i iaith syml ei hun: 'Wrth waith y Parchedig T. C—— yn ymorol, yn Llundain, âg ewyllyswyr da i grefydd a duwioldeb, pa fodd y gellid cael argraffiad helaeth o'r Bibl, am bris gweddol, yn yr iaith Gymraeg, ac, os byddai bosibl, i drefnu cyllidfa barhaus o honynt fel na byddai un amser mwy brinder o Fiblau i'r Cymry tlodion, rhoddodd yr Arglwydd y meddwl caruaidd ardderchog yn nghalonau rhai o'r gwyr duwiol yr oedd yn ymddyddan â hwynt o ffurfio Cymdeithas i ddosparthu Biblau, nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn ngwledydd pellenig tramor, pa un bynag ai Cristionogol, Mahometanaidd, neu Baganaidd; fel na byddai un genedl dan y nefoedd, nac un person neillduol yn y byd, heb y trysor gwerthfawr hwn, a ewyllysiai ei feddiannu. Yn yr olwg gyntaf, ymddangosodd y peth, er mor ddymunol, etto, o'r cyfryw faintioli nad oedd gwiw agos meddwl am dano i'r dyben i'w gwblhau. Ond trwy law Duw arnynt fe bwysodd yr achos tra gogoneddus hwn gyd â'r cyfryw ddwysder yn barhaus ar feddyliau rhai gwyr duwiol, urddasol, y buwyd yn ymddyddan â hwynt, fel y gorfu arnynt ymwroli i ymgais am ei ddwyn yn mlaen, yn ngwyneb pob digalondid. Cyfarfu amryw o honynt â'u gilydd i ystyried yr achos. Yn y cyfarfod cyntaf yr oedd T. C—— yn bresennol; ac wrth ymddyddan am fawredd bendithiol a dymunoldeb y cyfryw sefydliad, effeithiodd y golygiadau ar hyny yn y fath fodd ar eu meddyliau fel y darfu iddynt gyd-dywallt dagrau o orfoledd yn y gobaith o lwyddo,' &c.

Ar ol y cyfarfod nodedig hwn, ysgrifenodd a chyhoeddodd un o'r aelodau ynddo lyfryn bychan, i daer annog Cristionogion, o bob enw, i ymuno at sefydliad y cyfryw Gymdeithas, *i daenu Gair Duw heb na sylwad nac esboniad*, ar led y byd. Cyhoeddwyd hefyd yn amryw o bapurau newyddion Llundain, y byddai i'r cyfryw gyfarfod gael ei gynnal yn y *London Tavern*, Mawrth 7, 1804. Ac yma i ddangos rhywfaint am *gychwyniad cyhoedd* y gwaith, ar ol dychweliad Mr CHARLES o Lundain, rhoddwn gyfran o lythyr ei gyfaill a'i gydymdrechwr ffyddlawn, Mr JOSEPH TARN,* sydd yn rhoddi iddo hysbysiad cryno am y Cyfarfod, a gwaith y dydd nodedig hwnw, yn ebrwydd ar ol ei ddarfod.

LLUNDAIN, *Mawrth* 7, 1804.

'ANWYL GYFAILL—

'Gyda boddhad calon yr wyf yn cymeryd fy mhin i hysbysu i chwi ganlyniad y Cyfarfod lliosog a pharchus a gynnaliwyd y dydd hwn, yn y *London Tavern*, at ffurfio CYMDEITHAS BIBLAU, ac yn mha un y gosodwyd sail, fel yr wyf yn hyderu, at daeniad yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn fwy helaeth ar led nag a welwyd hyd yn hyn.

'Yr oedd yn y Cyfarfod, mi dybygwn, o ddau hyd dri chant o wŷr tra pharchus yn mysg yr amryw enwau o Gristionogion;—ac nid oedd ond cydsyniad i'r eithaf i'w glywed, a phawb oll i'w gweled fel rhai dan ddwys deimlad o werth a phwys y gorchwyl, o ran cylch helaeth ei amcaniad catholicaidd.—Grenville Sharpe, Ysw., oedd yn y gadair; ac o ddeuddeg hyd ddau y prydnawn buwyd ar waith yn ystyried y mater, ac yn ymuno i ddechreu ar y gwaith yn ol y cynllun oedd o'r blaen gwedi ei barotoi. Bydd y Penderfyniadau i'w gweled yn amryw o'r papurau newyddion yfory neu drenydd. Agorwyd llyfr tanysgrifiadau, ac addawyd Saith Gant o Bunnau yn y fan; ac ni a allwn yn ddiammeu, ddysgwyl helaethiad mawr ar hyn, pan wneler y gorchwyl yn gyffredin yn adnabyddus.

'Yr oedd y diffyg o Fiblau yn Nghymru dan sylwad enwedigol, ac yn cael ei ddwys wasgu ar y Cyfarfod: a bydd hyny, yr wyf yn gobeithio, yn

* Yr oedd y gwr hwn yn Ysgrifenydd Cynnorthwyol i'r Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor hyd ei farwolaeth, ac yr oedd yn un o gydweithwyr ffyddlonaf Mr Charles yn y gwaith a'r achos tra phwysfawr hwn.

Digitized by Google

un o'r pethau blaenaf dan ystyriaeth y Dirprwywyr. Bu y Parch. Mr Owen yn dra defnyddiol i'r achos, trwy areithio, heb ei ddysgwyl, ar ol i'r cyfeillion eraill fyned trwy eu hamryw ranau oedd yn osodedig iddynt. Efe a attegodd y bwriad mewn modd nerthol, rhesymol, ac ysgrythyrol, gan ddangos fod y Gymdeithas wedi ei gosod ar sail sicr gair ac addewidion Duw.

'Fy anwyl Frawd, nis gallwn ni lai na chydlawenhau, pan ystyriom fod y gorchwyl hwn wedi cael ei ddechreuad mewn ymddyddan a fu rhyngom ni ein dau ar foreugwaith a fydd i'w gofio byth. Oddiwrth hyny y'm tueddwyd, yn y Cyfarfod nesaf gan aelodau Cymdeithas y Traethodau, i grybwyll am y diffyg o Fiblau Cymreig; ac yna yr ennynwyd y fflam sydd yr awr hon wedi tori allan, ac a lysg yn oleuach oleuach, yr wyf yn hyderu, hyd y dydd goleuaf o wybodaeth gyffredinol, y pryd na ddysgwn ein brawd mwyach, gan ddywedyd, 'Adnabyddwch yr Arglwydd,' am y bydd pawb yn ei adnabod, o'r lleiaf hyd y mwyaf o honynt. I'r Arglwydd y byddo yr holl ogoniant; o herwydd, am danom ni, sydd yn llwyr annheilwng o'r lleiaf o'i drugareddau, ein dyled yw ei chyfrif yn rhagorfraint anmhrisiadwy gael bod yn offerynol, mewn unrhyw radd, i gynnyddu y wybodaeth am yr iechydwriaeth yr ydym yn hyderu ein bod yn gyfranogion o honi.

'Bellach, ymunwn mewn erfyniadau am i'r gareg sydd megys 'wedi ei thori o'r mynydd heb waith llaw,' a'r un a welsom heddyw yn myned yn fryn, gynnyddu hyd onid elo yn fynydd, ac yn bwrw i lawr gestyll pechod a Satan, o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o begwn i begwn; ac felly, er na byddwn ni byw i weled y dydd dysglaer, y caffom gyd-lawenhau am i ni gael gosod y maen cyntaf i adeilad a fydd yn barhaus, fel yr ydym yn gobeithio, ac yn llawenydd i'r holl ddaear. Gan ddeisyf eich gweddïau chwi, a'n brodyr Cymreig, am lwyddiant y gwaith,

'Wyf, yr eiddoch,
'Yn nghymdeithas yr efengyl,
'JOSEPH TARN.'

Bellach, wedi rhoi hyn o hanes anmherffaith am ymdrech Mr CHARLES, a'r llaw fu ganddo, tan lwydd, trwy fendith, yn sylfaeniad cyntaf y Gymdeithas uchod, ni wnawn ond crybwyll, yn fyr, am orchwylion ac amgylchiadau eraill ei fywyd.

Yr oedd yr Arglwydd wedi cynnysgaethu Mr CHARLES â chryn radd o rym ac iechyd corphorol; ac, yn ganlynol, yr oedd yn arfer teithio, ar waith yr Arglwydd, trwy bob math o dywydd, a chan gyd-ddwyn yn siriol â lletty a chynnaliaeth dlawd pan y dygwyddai felly ar ei ffordd. Ond yn fuan ar ol dechreu y gauaf oer yn 1799, wrth deithio ar noswaith oerlem tros fynydd Mignint, ar ei ddychweliad o Sir Gaernarfon, ymaflodd oerfel dwys yn mawd ei law aswy: yr hyn a barodd iddo ddolur maith a gofidus. Ar ol gwneuthur prawf o amryw foddion, a medr amryw feddygon, ac yn olaf, un enwog yn Nghaerlleon, bu raid iddo yn y diwedd ddychwelyd adref a goddef ei thori, neu yn hytrach ei chodi ymaith. Bu y tro hwn yn achlysur o brawf dwys a maith iddo ef, a'i deulu, a'r eglwysi oll oedd mewn cyfundeb âg ef. Yr oedd gweddïau aml yn ei achos, ac am estyniad ei oes, a pharhad o'i ddefnyddioldeb, os gwelai yr Arglwydd hyny yn dda, er mwyn gogoniant ei enw, a dyrchafiad ei achos. Gwrandawyd yr erfyniadau aml a thaer; ac estynwyd ei oes yn agos i bymtheng mlynedd yn mhellach; yn y rhai y cafodd nerth a llwydd i gyflawni amryw orchwylion penaf ei fywyd.

Rhai blynyddoedd ar ol hyn y bu iddo ddechreu ar y Llyfr tra gwerthfawr hwn, a fydd er budd mawr i Gymru, sef 'Y GEIRIADUR YSGRYTHYROL;' hefyd, 'Yr ail lyfr o'r Drysorfa Ysbrydol;' ei 'Amddiffyniad o'r Methodistiaid Cymreig' (*Vindication of the Welsh Methodists*); a llawer o lyfrau mân er addysg i'r rhai ieuainc, &c. Gyda hyn, a'i ymdrech yr adroddwyd peth am dano, ac y bu sefydliad Cymdeithas y Biblau yn ganlyniad iddo, efe a fu mewn llafur mawr a maith, yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, yn cyd-gymharu llawer argraffiad o'r Bibl, i'r dyben o fod er cynnorthwy i'r Gymdeithas uchod i gael argraffiad neu argraffiadau newydd yn fwy cywrain a chywir. Yn y llafur hwn bu yn codi yn foreuol, ac yn chwilio yn ddyfal gyda cynnorthwy rhai eraill hefyd, tros amser neu amserau maith. Wrth barotoi *copi* at yr argraffiad ystrydeb (*stereotype*) i Goleg Caergrawnt, yn y flwyddyn 1804, bu yn ddyfal i chwilio *pob adnod*, a'r *attaliadau oll*, gan gymharu *wyth* o argraffiadau Cymreig â thri a gyfrifid yn mysg y rhai goreu yn Saesonaeg, tu ag at gael argraffiad cywir. Ac yn ei flynyddoedd olaf, 1813 ac 1814, pan oedd eu hargraffiad wythplyg (gan argraffwyr y brenin) yn myned yn mlaen, yr oedd ef ar waith yn ddyfal yn adolygu *copi* iddynt o'r argraffiad olaf a fuasai yn Rhydychain. Ei ddymuniad cryf a hiraethlon oedd am ei gael yn gywrain, ddigoll, er budd i'w gydwladwyr; ac yn gyfatebol yr oedd ei lafur a'i fawr ymdrech, heb geisio na chael un wobr gan neb o ddynolryw.

Yn y gwanwyn, neu ddechreu yr hâf, 1802, bu Mr CHARLES yn gweinyddu tros amryw wythnosau yn Nghaerlleon, a lleoedd o'i hamgylch, o fewn cylch y cyfuniad a fuasai yn ddiweddar tan olygiad y Parch. Phillip Oliver. Y oedd efe wedi bod yno amryw weithiau o'r blaen: ond y pryd hyn yr oedd gofal y cynnulleidfaoedd hyny wedi disgyn arno mewn modd arbenig, gan fod Mr Oliver wedi marw yn y flwyddyn 1800, ac yn ei lythyr cymyn wedi ei benodi ef yn warchodwr ar leoedd addoliad, ac ar drefniad yr achos yno. Yn y rhan hon, fel rhanau eraill o'i waith tros ei Arglwydd, bu ei ddyfalwch a'i ffyddlondeb yn amlwg yn nodedig, er na ddiangodd efe ddim heb wrthwynebiad ac enllibiad gan ambell un o ysbryd rhy hunanol a chwyddedig. Un o'r pethau 'bychain iawn' oedd hyn ganddo ef yn y golwg ar y 'gwaith mawr' yr oedd efe arno.

Yn hanes bywyd Mr CHARLES y mae hyn hefyd yn gofyn peth adroddiad am dano. O'r amser yr ymunodd efe â'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru, a chyn y flwyddyn 1806, yr oedd eu

Digitized by Google

cymdeithasau wedi amlhau, a nifer yr eglwyswyr yn y cymundeb, wedi myned yn rhy fychan i ateb i'r galwad oedd am danynt i weinyddu Swper yr Arglwydd. Mewn amryw leoedd yr oedd hefyd gryn nifer o'r aelodau yn chwennych cael bedydd i'w babanod gan weinidogion, eglwyswyr neu eraill, mewn undeb â'u corph eu hunain. O herwydd y pethau hyn, a'r amlhad o honynt, darfu i gryn nifer o bregethwyr, henuriaid, ac aelodau eraill, ddadgan eu dymuniadau am i ryw rai o'r pregethwyr, oedd heb urddau eglwysig, gael eu neillduo i'r gwaith gweinidogawl hwn, ac i fod yn gynnorthwyol i'r eglwyswyr lle gellid eu cael. Ar y cyntaf nid oedd y bwriad a'r ymgais yn foddlonawl iddo ef ac eraill. Efe a barhaodd i'w wrthwynebu dros amryw flynyddoedd, ond mewn modd tirion, a chan addef y gall hyny fod yn rheidiol, trwy ychwanegiad yr angen ac addfedrwydd amser. Yn Nghymanfa y Bala, a fu yn y flwyddyn 1810, efe a wnaeth ddadganiad cyhoedd, yn mysg y pregethwyr a'r henuriaid, o'i foddlonrwydd i'r cais a'r bwriad; ac, er cysur a llawenydd i'r rhai oedd yno yn bresennol, ac i'r corph yn gyffredinol, efe a addawodd fod yn barotöwr y rheolau cytunedig arnynt, i gael eu harfer ar yr achos hwn. Yn ganlynol i hyn, yr oedd erbyn y Gymanfa nesaf (yn 1811) wyth o bregethwyr cymeradwy gan yr eglwysi, trwy brawf dros amryw flynyddoedd, wedi cael eu penodi a'u galw i'r gwaith; a hwy a gawsant yno eu neillduo mewn modd tra difrifol.

Bellach, y mae yn rhaid tynu at ddiweddiad hanes ei fywyd pwysfawr a llafurus. Y mae yn debygol, oddiwrth ei eiriau ef ei hun wrth un ag oedd yn agos ato yn ei ddyddiau olaf, fod y ddamwain ganlynol wedi effeithio er niwed i'w gorph oddeutu tair blynedd cyn amser ei farwolaeth. Wrth deithio (ar ei ben ei hun, ysgatfydd) yn rhyw barth o Sir Drefaldwyn, wedi dyfod at lidiart, neu glwyden, efe a ymegnïodd yn ormodol wrth eu hagoryd; a chafodd, yn lled fuan, brofi effeithiau poenus oddiwrth y tro. Wrth deimlo poen yn, neu oddeutu y bledren, yr oedd yn meddwl weithiau fod naws graian, neu gareg, yn peri ei ddolur; ond nid felly yr oedd. Cynnyddu wnaeth ei boen a'i afiechyd. Yn y flwyddyn 1813, yr oedd llawer o'i gyfeillion yn dal sylw, gyda gofid, fod ei wedd wedi salwino, a'i lais wedi gwanhau: er hyny yr oedd efe yn parhau i deithio a llafurio yn agos fel o'r blaen. Yn mis Mehefin efe a deithiodd yn lled fras tan bregethu, a gorphwys ond ychydig, o'r Bala hyd Gaergybi yn Môn, lle yr oedd Cymanfa yn cael ei chynnal; ac aeth oddi yno gyda brys (a chan bregethu mewn rhai manau) hyd dref Llanidloes, yn Sir Drefaldwyn, lle yr oedd cyfarfod wedi cael ei gyhoeddi at ffurfio Cymdeithas Biblau, neu gynnorthwyo y Fam Gymdeithas. Yr oedd ei awyddfryd syml a gwresog yn ei gymhell i ymdrechu yn y modd hwn, uwchlaw ei allu, er mwyn cynnorthwyo a rhwyddhau pob rhan o waith yr Arglwydd. Ond gan gynnydd ei boen a'i lesgedd ni bu ei deithiau ond byrion, ei bregethau ond anaml, mewn cymhariaeth, o hyny hyd ddiwedd ei oes.

Yn y gwanwyn, a dechreu yr hâf, 1814, yr oedd efe, er ei lesgedd ei hun, a gwaeledd ei anwyl wraig, yn gallu teithio a llafurio yn ngwaith y weinidogaeth, ond nid fel y buasai. Yn mis Awst aeth ef a Mrs Charles i Abermaw, er prawf a wnai awel y môr lesâd iddynt yn eu gwendid a'u nych. Ar ol bod yno yn agos i bythefnos, hwy a aethant at eu perthynasau a'u cyfeillion yn Machynlleth. Yno y pregethodd ddwy waith ar y dydd Sabboth, Medi 4, a'r rhai hyn oeddynt ei bregethau olaf. Yn y boreu, ei destun oedd yn Luc 15. 7. a'r bregeth brydnawnol oedd oddiwrth 1 Cor. 16. 22.

Yn yr wythnos ganlynol yr oedd yn teimlo ei hun yn gwaethygu, ac yn hiraethu am ddychwelyd yn ol i'r Bala; a thrwy anhawsdra mawr efe a gyrhaeddodd yno brydnawn Sadwrn, y 10fed dydd o Fedi, mewn gwendid oedd yn amlwg, ac yn ofidus i'w berthynasau a'i gyfeillion ei weled ynddo. Wrth un oedd yn ei helpio i'w dŷ, ac i'w ystafell, efe a ddywedodd, 'Yr wyf yn teimlo fy hun yn dra diolchgar i'r Arglwydd am iddo fy ngalluogi i ddyfod adref unwaith etto:' ac yn fuan efe a ychwanegodd, 'Bellach nid oes genyf ddim i'w wneuthur ond marw.' Yn y dyddiau canlynol, adroddodd aml waith y geiriau hyny yn 2 Bren. 13. 14. fel rhai oedd yn gwneyd argraff dwys ar ei feddwl; 'Ac yr oedd Eliseüs yn glaf o'r clefyd y bu efe farw o hono:' yna efe a ychwanegai, 'Nid wyf fi yn gwybod pa beth yw bwriad yr Arglwydd i'w wneuthur â mi; ond yn ei law ef yr wyf, a gwnaed â mi fel y byddo da yn ei olwg—yr wyf wedi rhoddi fy hun iddo filoedd o weithiau.'

Yn ei ddyddiau olaf, gwelodd yr Arglwydd yn dda ei brofi trwy amryw gystuddiau teuluaidd, heblaw ei afiechyd ei hun a'i anwyl briod. Oddeutu pythefnos cyn ei farwolaeth, tarawyd eu morwyn â llucheden boeth a aeth â'i bywyd yn mhen wyth niwrnod. Yr oedd hi yn weinidog hoff a chymeradwy iawn gan ei meistr a'i meistres, ac wedi bod am wyth mlynedd yn eu gwasanaeth. Gyda hyn yr oedd eu mab hynaf tan ddolur tra dwys, a'i fywyd mewn enbydrwydd mawr. Tan y dygwyddiadau hyn i gyd, yr oedd yn rhaid i'w ofidiau fod yn ddwys; ond fel hyn yr oedd ei lais ymostyngol, 'Y mae gan yr Arglwydd ei wïalen yn y teulu: ond y mae hi yn llaw tad tyner.' Wrth gyfaill ydoedd wedi galw i edrych am dano, dywedodd, 'Chwi a welwch ein bod ni yn y ffwrn; ond wedi i ni ddyoddef ychydig, cawn ein dwyn allan wedi ein puro.' Ac wrth gyfaill arall dywedodd aml waith yn debyg i hyn: 'Pechadur gwael ydwyf—dim ond pechadur gwael ac annheilwng. Mi a wn nad oes modd i mi gael fy achub heb faddeuant; ond y mae maddeuant gyda Duw.' Pan fynegwyd iddo fod ei fab yn dechreu gwellhau, torodd allan

Digitized by Google

mewn diolchgarwch, 'Da iawn yw yr Arglwydd—y mae ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd;'—gan ail adrodd amryw weithiau, 'oblegid ei drugaredd ef sydd yn parhau yn dragywydd.' Yna gofynodd i un fyned i'w lyfrgell i gyrchu oddi yno lyfr y Psalmau Hebraeg. Gwedi troi at y Psalm cxxxvi. yr oedd fel un yn tynu cysur cryf oddiwrth y gair, חסד *(chesed)* a gyfieithir *trugaredd*, gan ddal sylw ei fod yn air o gynnwysiad helaeth a chysurlawn.

Boreu dydd Llun, y 3ydd o Hydref, wrth deimlo ei hun beth yn well, efe a aeth i rodio i'r ardd; ac oddiwrth hyn yr oedd gobaith ei gyfeillion yn cryfhau am ei wellhad. Ond byr fu y parhad o hono; canys gwaethygodd yn y prydnawn, a threuliodd y nos mewn llawer o boen. Ond er fod ei boenau corphorol yn llym, yr oedd ei feddwl yn dawel, ac yn cael ei gynnal gan ddyddanwch yr ysgrythyrau. Yn mysg ymadroddion eraill y nos hòno dywedodd, 'Mi a wn i bwy y credais, a'i fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw.' Dywedodd hefyd wrth gyfaill, 'Fod poenau ei gorph wedi bod yn drymion; ond (eb efe) pan feddyliwyf am fy mhechadurusrwydd, nid yw yr hyn yr wyf yn ei ddyoddef ond megys dim.' Pan soniodd cyfaill am y golled a gai yr eglwys, a'r wlad oll, yn ei ymadawiad, atebodd, 'Byddwch dawel yn yr Arglwydd, y mae efe yn abl i godi cannoedd o weision mwy ffyddlawn, a mwy llwyddiannus, nag a fum i erioed. Oddeutu canol dydd Mawrth, yr oedd ar ei draed, ond yn bur wan; etto yr oedd yr hyn a ddywedai yn arwyddo un â'i feddwl wedi ei gymhwyso i fwynhau cyfeillach angelion, ac ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd. Wrth geisio rhodio ar draws ei ystafell, dywedodd, 'Pallodd fy nghnawd a'm calon: ond nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd.' Ar amryw droiau dywedodd gyda dwys ddifrifwch, 'Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air: canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth.' Wrth fyned i orwedd y noson hòno, dywedodd, 'Y byddai yn dda ganddo gael noswaith heb boen;' a'r Arglwydd a ganiatodd ei ddymuniad, er na chafodd ond ychydig iawn o gwsg. Oddeutu pump o'r gloch boreu dranoeth cwynodd ei fod yn oerllyd, a daeth crynfa arno a barhaodd yn agos i awr. Gwedi hyny bu am yspaid yn esmwyth, heb ddywedyd gair. Yna daeth cyfaill at ochr ei wely, ac a ddywedodd, 'Wel, Mr CHARLES, y mae dydd trallod wedi dyfod.' I hyn fe atebodd yn fuan, 'Y mae noddfa!' A dyma oedd y geiriau olaf a ddywedodd; a'i ysbryd a ehedodd ymaith oddeutu deg o'r gloch boreu dydd Mercher, Hydref 5, 1814, pan oedd chwe diwrnod yn fyr o fod yn 59 mlwydd oed.

Y prydnawn dydd Gwener canlynol ymgynnullodd cynnulleidfa liosog o bob graddau o'r Bala a'i hamgylchoedd, a rhai hefyd o bell, i ddangos yr arwydd olaf o barch i'r gwas ffyddlawn hwn i Grist. Cyn cychwyn i'r eglwys, pregethodd y diweddar Barchedig T. Jones, o Ddinbych, ar yr heol mewn modd dwys a difrifol, oddiwrth Hebreaid 11. 4. Wrth sôn am ffrwythau ffydd y gwas ffyddlawn hwn i'r Arglwydd, yr oedd yn rhy anhawdd i'r llefarwr, a llawer o'r gwrandawyr, i attal oddiwrth ddagrau. Canwyd hymnau priodol ar hyd y ffordd i eglwys Llanycil. Ac mor liosog oedd y dyrfa, fel y gorfu i ran fawr o honi sefyll yn y fynwent tra darllenid gwasanaeth y claddedigaeth yn yr eglwys, ar ol gorphen pa un y canwyd anthem wedi ei chymeryd o Psalm xxxix. Ar ol canu pennill eilwaith wrth y bedd, gadawyd ei gorph yn ei dawel orphwysfa, hyd oni ddadebra wrth sain udgorn yr arch-angel.

Digitized by Google

# GEIRIADUR YSGRYTHYROL.



**A.** Y llythyren gyntaf yn mhob iaith adnabyddus yn y byd, ond yr Ethiopaeg; ac yn hòno, medd *Ludolfus*, y drydedd ar ddeg ydyw.——A. cysylltiad, arferedig o flaen geiriau yn dechreu â chydseiniad, fel y rhagflaena *ac* eiriau yn dechreu â llafarydd; megys *a fûm, ac ein, ac yr, &c.*—Hefyd, rhagddod, yn yr un amgylchiad, fel y mae *âg* yn rhagflaenu geiriau yn dechreu â llafarydd, ac yn arwyddo *gyd âg*.—Hefyd, rhagenw, yn arwyddo *pwy, beth, yr hyn*.—Hefyd, gorair, ac a arwydda *cyhyd, tra*; megys, *a'r dynion yn cysgu*, sef, tra yr oeddynt yn cysgu.

AARON, אהרן [*uchel, uchelwr*, neu *athraw*, oddiwrth הר neu ירה] mab Amram, mab Cohath, mab Lefi; brawd Moses a Miriam; saith mlwydd iau na'i chwaer, a thair blwydd hŷn na Moses. Exod. 6. 20. a 7. 7. Num. 26. 59. Ganwyd ef A. M. 2430, yn nghylch blwyddyn cyn i Pharaoh roddi gorchymyn i ladd plant gwrrywaidd yr Hebreaid. Aaron a briododd Eliseba, neu Elisebath, merch Aminadab, a chwaer Nahason, o lwyth Judah, un o'r hynafiaid, yn llin-âch Crist. Trwy y briodas hon y cysylltwyd y teuluoedd offeiriadol a breninol, yn rhag-ddangosiadol o Grist, yr hwn ei hunan, o ran ei swyddau, sydd yn offeiriad ac yn frenin. Bu iddo bedwar o feibion o'i wraig Eliseba, sef Nadab ac Abihu, Eleazar a Ithamar. Exod. 6. 20, 23. Pa fath oedd ei sefyllfa a'i amgylchiadau yn ei ieuenctid, nid yw yn amlwg—nid oes hanes am dano nes i'r Arglwydd ymddangos iddo i'w anfon i gyfarfod Moses yn yr anialwch. Exod. 4. 27. Tebygol iddo gael dygiad i fynu 'manteisiol o ran dysg, hwyrach, trwy ei frawd Moses fel offeryn; a'i fod wedi ei gynnysgaethu â doniau addas i dderbyn dysg, ac i gynnyddu mewn gwybodaeth. Oblegid hyn, gellir meddwl, y mae yn cael ei alw, *Aaron y Lefiad*—fel pe buasai yn ŵr o ragoriaeth ac enwogrwydd yn mhlith hiliogaeth Lefi. Exod. 4. 14. Tystiolaetha yr Arglwydd am ei ragoriaeth o ran dawn ymadrodd, 'Mi wn y medr efé lefaru yn groyw:' דבר ידבר *yn llefaru efe a lefara*. Rhoddwyd iddo y ddawn o ymadroddi yn hyawdl. Ymddangosodd yr Arglwydd iddo, ac i'w frawd Moses, yn nghylch yr un amser; ac er annogaeth i'r ddau, anfonodd Duw ef i gyfarfod Moses, (Exod. 4. 27.) ac a'i gosododd i fod yn enau i'w frawd, i lefaru wrth Pharaoh a'r Hebreaid am fwriad graslawn Duw i waredu yr Hebreaid allan o gaethiwed yr Aipht; ac a fuont ill dau yn offerynol yn llaw yr Arglwydd i gyflawni y gorchwyl mawr hwnw tu ag at ei bobl. Y mae hanes Aaron yn gymysgedig â hanes yr Israeliaid yn eu taith ryfedd trwy yr anialwch mawr o'r Aipht i Ganaan.

Pan yr oedd yr Hebreaid newydd gael eu gwaredu o'r Aipht, ac yn ymladd âg Amalec yn Rephidim, Aaron a Hur a aethant gyda Moses i ben bryn i gynnal ei freichiau i fynu, tra yr oedd efe yn annog y bobl, ac yn gweddïo am y fuddugoliaeth, nes y gorchfygasant eu gelynion. Exod. 17. 10—13.——Wrth Sinai, efe a'i ddau fab hynaf, yn nghyd â deg a thri ugain o henuriaid Israel, a aethant gyda Moses ran o'r ffordd i ben y mynydd; lle gwelsant bethau rhyfedd, pan lefarodd Duw wrth Moses. Pen. 24. 1, 2, 9, 11. Yn fuan gwedi hyny y dewiswyd Aaron a'i hiliogaeth i wasanaethu y swydd offeiriadol yn mysg yr Iuddewon, hyd ddyfodiad a marwolaeth y Messïah addawedig. Pen. xxix, xxx. Erbyn bod yr anrhydedd neillduol wedi ei roddi iddo, er dangos ei fod yn analluog ac annigonol i ddwyn eraill i ffâfr Duw, efe ei hunan a gwympodd i bechod erchyll. Yr Hebreaid a'i hannogasant ef i wneuthur iddynt dduwiau i'w blaenori, yn lle Moses, yr hwn oedd etto yn y mynydd. Gorchymynodd Aaron iddynt ddwyn clust-dlysau eu gwragedd a'u plant ato; y rhai a ddaethant, tebygol, yn rhwyddach nag y dysgwyliodd; cymeroddd y rhai hyn o'u llaw, ac a'u lluniodd yn llo tawdd, er dynwared ŷch yr Aipht, yr hwn, fe allai, fod gormod o'r Hebreaid yn ei fawrhau gynt yn y wlad hòno. Cyhoeddodd ŵyl iddo, a'r bobl a ddywedasant, 'Dyma dy dduwiau di, Israel, y rhai a'th ddug di i fynu o wlad yr Aipht.' Daeth Moses, ac a'i ceryddodd yn llym am ei ddelw-addoliaeth; yntau a geisiodd ymesgusodi, gan fwrw y bai ar ddrygioni y bobl; ac iddo fwrw yr aur yn tân, a'r aur ddyfod allan yn llo. Pen. xxxii.

Digiodd yr Arglwydd wrth Aaron yn fawr, o achos y llo aur, i'w ddyfetha; ond Moses a weddïodd drosto y waith hòno, a'r Arglwydd a'i harbedodd. Deut. 9. 20. Os oedd ymddygiad y bobl yn rhyfedd yn yr achos hwn, yr oedd ymddygiad Aaron, 'Sant yr Arglwydd,' yn fwy felly. Ceisiodd ymesgusodi wrth Moses; ond ni wnaeth dyn call, a llefarwr croyw, erioed esgus mor salw. Nis gallasem byth feddwl y medrai efe lefaru yn groyw ac yn ddoeth oddiwrth ei araeth amddiffynol iddo ei hun. Fel gwr yn ofni Duw, a chanddo awdurdod ar y bobl, dylasai, yn absennoldeb Moses, oddef y gwaethaf oddiwrth y bobl, yn hytrach nag ufuddhau iddynt, mewn achos mor bechadurus. Os 'oeddynt ar ddrwg,' rheitiaf i gyd oedd iddo eu gwrthsefyll; ond y mae yn rhoddi y bai ar y bobl, ac yn dywedyd am y llo, fel pe buasai gwedi ei wneuthur trwy ryw ddamwain, heb ei gydsyniad, a thu hwnt i'w ddysgwyliad; ac yn gwrth-ymbil digofaint Moses, ac nid digofaint yr Arglwydd. Yn ateb i weddi Moses drosto, diammeu iddo gael gwir edifeirwch, a maddeuant am ei bechod dirfawr; ac iddo byth yn ol llaw, gofio am dano gyda gostyngeiddrwydd a hunan-ffieiddiad. Goddefodd yr Arglwydd hyn i ddybenion doeth—i ddangos beth yw dyn—fod gosodiad Aaron yn yr offeiriadaeth yn hollol o ras, pan y gallasai yn gyflawn gael ei dòri ymaith am ei anwiredd—fel y byddai iddo ymddwyn gyda mwy o ostyngeiddrwydd a thosturi tu ag at y rhai a fyddai mewn anwybodaeth ac amryfusedd, am ei fod yntau hefyd wedi ei amglchynu â gwendid—fel y byddai yn cydnabod ei angen am iawn dros bechod, pan y byddai pech-aberth ei gysegriad yn cael ei offrymu—ac hefyd fel yr ymddangosai yn amlwg ein hangen am arch-offeiriad rhagorach ac o uwch urdd; sef Iesu Mab Duw, yr hwn sydd Arch-offeiriad diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid, gwedi ei wneuthur yn uwch



Digitized by Google

na'r nefoedd, ac y mae yn hollol y cyfryw ag oedd weddus i ni. Heb. 7. 26.

Yn nghylch dau fis gwedi hyn, gwisgwyd Aaron a'i feibion â'r gwisgoedd cysegredig:—cysegrwyd, urddwyd, ac eneiniwyd ef i'r swydd offeiriadol. *Lef.* viii. Yn ddioed aberthodd aberth tros gynnulleidfa meibion Israel; a thra yr oedd efe a Moses yn aberthu, ac yn bendithio y bobl, daeth tân i lawr o'r nef ac a ysodd yr aberth. *Lef.* ix. Tebygol fod ei ddau fab hynaf wedi yfed gormod o win ar ddydd eu cysegriad. Cymerasant dân cyffredin; am hyny buont feirw. Nid oes genym hanes fod Aaron, na'i feibion eraill, yn galaru dim ar eu hol, oddieithr mewn ymattal oddiwrth fwyta cig pech-aberth y bobl y diwrnod hwnw. *Lef.* x.

Yn nghylch blwyddyn wedi hyn, y bu Aaron a Miriam yn edliw gwraig Moses, am ei bod yn Ethiopes; ac yn cenfigenu wrth ei awdurdod ef. Cafodd Aaron ei arbed, o herwydd ei fod yn y swydd offeiriadol; eithr Miriam a darawyd â gwahanglwyf trwm iawn. Cydnabu Aaron ei fai, ac a ymostyngodd, gan weddio am adferiad iechyd ei chwaer. Num. xii.——Cyn pen hir gwedi hyn, pan oedd Corah a'i gyfeillion yn cenfigenu wrth anrhydedd Aaron, gan feddwl ymwthio i'r weinidogaeth, yr Arglwydd a amddiffynodd yr anrhydedd a roddasai efe yn nyrchafiad ei weision, trwy daraw y gwrthwynebwyr, a pheri i'r ddaear agor ei safn, a'u llyncu yn fyw i uffern, neu i'r *pwll.* 'A holl gynnulleidfa meibion Israel a duchanasant yn erbyn Moses ac yn erbyn Aaron,' fel pe buasent hwy yn euog o ladd y gwrthryfelwyr hyn; ennynodd digofaint yr Arglwydd yn eu herbyn, ac a anfonodd bla yn eu plith, fel y bu feirw o honynt bedair mil ar ddeg a saith cant, heblaw y rhai a fuant feirw yn achos Corah. Aaron 'a safodd rhwng y meirw a'r byw; a'r pla a attaliwyd.'

Er profi ei alwad i'r swydd oddiwrth yr Arglwydd, ac i rwystro ymrafael mwyach yn nghylch yr offeiriadaeth, Duw a'i cadarnhaodd i Aaron, trwy beri i'w wialen flaguro yn ddisymwth, a dwyn almonau ger bron y drugareddfa, pan oedd gwiail y llwythau eraill yn wywedig a diffrwyth oll. Num. xvi. a xvii.——Pan ddaethant i Meribah, y mae Aaron a'i frawd Moses yn pechu yn erbyn Duw, trwy anhyderu arno am ddwfr i'r gynnulleidfa. Fel cerydd am hyn, ac i ddangos nad allai offeiriadaeth Aaron ddwyn dynion i mewn i'r etifeddiaeth nefol, cafodd Aaron ei attal rhag myned i Ganaan. Ychydig cyn i Israel feddiannu y wlad, yn ol gorchymyn Duw, efe a aeth i fynu i fynydd Hor; ac yno dyosgodd Moses ei wisgoedd sanctaidd oddiam dano, ac a'u gwisgodd am Eleazar ei fab; ac efe a fu farw yno, yn ddisymwth, yn 123 o'i oed, A M. 2552. Ei feibion a'i frawd Moses a'i claddasant mewn ogof 'a holl Israel a alarasant am dano ddeg niwrnod ar hugain.' Num. xx. Deut. 10. 6.

'A dyosgodd Moses oddiam Aaron ei wisgoedd, ac a'u gwisgodd am Eleazar ei fab; a bu farw Aaron yno yn mhen y mynydd.' Num. 20. 28. Wrth orchymyn Duw i Moses, tebygol i Aaron wisgo ei wisgoedd godidog arch-offeiriadol am dano, ac iddo fyned yn y rhai hyny i ben y mynydd, lle y dyosgwyd ef o honynt, ac y gwisgwyd Eleazar â hwynt gan Moses. Gwedi hyny y bu Aaron farw yn y fan. Er iddo farw dan gerydd, etto, bu farw yn bechadur a gafodd drugaredd, a gobaith ac ernes o ogoniant, heb arswyd, tebygol, nac anewyllysgarwch. Gorchwyl oedd hwn a roddwyd i Moses i'w wneuthur: a diammeu iddo effeithio ar ei deimladau yn dra bywiog; yn enwedig pan yr ystyriodd ei bechod a'i euogrwydd ei hun yn Meribah.——Er i'r Iesu farw, bu farw ac adgyfododd yn ei swydd. Ni roddodd, ac ni rydd byth, mo'i offeiriadaeth i arall. Y mae efe yn aros yn dragywydd, ac offeiriadaeth dragywyddol ganddo. Heb. 7. 24.

Cafodd Aaron ei anrhydeddu gan yr Arglwydd, trwy roddi lle mawr iddo yn ei dŷ, tros agos i ddeugain mlynedd; ac yn hyny i fod yn gysgod mwyaf neillduol o neb o'r Messiah mawr oedd i ddyfod. Galwodd Duw ef a'i feibion i fod yn offeiriaid yn ei dŷ hyd oni ddelai yr Arch-offeiriad mawr, Iesu Mab Duw. Hyd yn hyn, yr oedd y penau teuluoedd, tybygir, yn gweinyddu fel offeiriaid. Nid oedd attalfa ar neb i aberthu, mwy na rhyw ran arall o addoliad Duw, am a wyddom. Ond y mae yn naturiol i feddwl y byddai bob pen-teulu yn blaenori ar eu teuluoedd yn addoliad Duw; ac felly yn *aberthu* i'r Arglwydd, fel rhan o'r addoliad dwyfol. Nid oes hanes genym am addoliad yn cael ei roddi i Dduw heb hyny. 'Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain.' Yr oedd y ddau a'u haberthau ganddynt yn yr addoliad cyntaf hwn. Gelwir Melchisedec yn 'offeiriad i'r Duw goruchaf;' a hwn yw yr offeiriad cyntaf a elwir felly yn y Bibl. Diammeu ei fod yn y swydd oruchel hon trwy osodiad dwyfol; yr hyn a feddylir wrth ei *urdd,* er nad oes genym ni hanes am ei urddiad. Yr oedd gwedi ei neillduo i'r swydd trwy awdurdod dwyfol: yr hyn oedd, yr amser hwnw, yn beth newydd, a thra hynod yn y byd. Pa mor bell yr oedd yn adnabyddus ac yn dderbyniol yn ei swydd gan bobl yr oes hòno, nid yw yr hanes yn rhoddi hysbysiad. Diammeu ei fod felly i lawer. Cafodd y duwiolion yr amser hwnw amlygrwydd ac addysg yn mherson Melchisedec, a'i swydd sanctaidd, am natur yr addewid yn Eden, a'r hâd addewedig, a'r gwaith a roddwyd iddo i'w gwblhau. Ond yr oedd offeiriadaeth Melchisedec yn aros yn ei berson ef yn *unigol:* nid oedd neb yn ei urdd ar ei ol ef. Yn hyn yr oedd yn cysgodi offeiriadaeth dragywyddol Crist, yn ei Berson ef ei hun yn unig. Ond pan osodwyd Aaron yn y swydd hon, yr oedd ei urdd i barhau yn ei deulu hyd ddyfodiad Crist; ac yr oedd y swydd i gael ei gweini yn yr eglwys, fel cysgod parhaus trwy yr holl genedlaethau, hyd oni ddelai Crist i'w gweini yn ei Berson ei hun.——Geill ymddangos yn rhyfedd na buasai rhyw drefniad gwedi ei wneuthur tu ag at sefydlu yr offeiriadaeth mewn rhyw deulu arall, pe buasai teulu Aaron yn pallu ac yn darfod. Gadael y dygwyddiad hwn, heb ragofalu am dano, oedd yn rhoddi crededigaeth y grefydd Iuddewig i ddibynu ar barhad y cangenau gwrrywaidd o'r teulu hwnw. Ni buasai un dyn o synwyroldeb Moses, neu yn wir yn feddiannol o ddeall cyffredin, yn rhoddi ei ddeddfiad i ddibynu ar y fath beth damweiniol ac annilys, heb fod yn gwbl ymwybyddus o'i ddechreuad dwyfol; yn enwedig wedi marwolaeth dau o bedwar mab Aaron, mewn modd disyfyd, o herwydd gweithred ryfygus yn ngweinyddiad eu swydd, yn y man y cysegrwyd hwy iddi, a hyny heb fod iddynt feibion. Num. 3. 4.

Yn wyneb llawer o amgylchiadau cyfyng, bu ymddygiad Aaron yn y swydd gyda llawer o wylder, addasrwydd, a ffyddlondeb. Ni chymerodd y swydd arno heb ei alw iddi gan Dduw. Heb. v.——Y mae barn Duw ar ei ddau fab ef, Nadab ac Abihu, am offrymu ger bron yr Arglwydd dân dyeithr, yn dystiolaeth o blaid manylrwydd gwyliadwrus Aaron ei hun: ymddygodd dan y brofedigaeth danllyd hòno yn addas i offeiriad Duw. 'A thewi a wnaeth Aaron,' דום *llonyddu* a wnaeth Aaron. Lef. 10. 3. Yn yr achos gofidus hwn, cafodd Aaron ei gynnal yn rhyfedd iawn, ac ymddygodd yn addas i sant yr Arglwydd, ac arch-offeiriad Duw. Yr oedd ei holl deimladau dynol yn dyoddef arteithiau i'r graddau mwyaf oddiwrth yr ergyd annysgwyliadwy a galarus hwn. Ei feibion ei hun—ei feibion hynaf—ei feibion newydd eu cysegru i'r fath swydd oruchel ac anrhydeddus, am ba rai yr oedd yn cynnwys y gobaith mwyaf cysurus—gwedi eu tòri ymaith yn ddisymwth gan farn Duw am bechod rhyfygus, heb amser i edifeirwch, yn gyhoeddus, fel rhybudd i eraill hyd ddiw-

Digitized by Google

edd amser! Yr oedd pob meddwl am danynt fel saeth yn ei galon. O fod yn profi y teimladau mwyaf hyfrydlon yn cydffrydio, y mae wedi ei feddiannu ar unwaith â'r loesion, yr ing, a'r cyfyngder mwyaf; etto, 'tewi a wnaeth Aaron!'—dim grwgnach—dim achwyn—ond ymostwng, tewi, parchu, ac addoli. Diammeu iddo gofio ar yr achos hwn am y llo aur, a rhyfeddu amynedd yr Arglwydd tu ag ato, gyda gostyngeiddrwydd a diolchgarwch. Gen. 18. 25. 1 Sam. 3. 18. Job 1. 20, 21. a 2. 10. Ps. 39. 2. a 46. 10. Esa. 39. 8. Mat. 10 37.

Y mae golwg ardderchog ar Aaron pan y safodd rhwng y meirw a'r byw, â'i thuser yn ei law, i attal y pla oedd yn difa y gynnulleidfa. Dangosodd ei hun, yn yr achos hwn, yn odidog ac yn ardderchog, o ran ei ffydd, ei wroldeb, a'i gariad at y bobl, yn *rhedeg*, yn ei hen ddyddiau, heb ystyried y canlyniadau, i ganol cynnulleidfa gyffröus, gynddeiriog, a phla dinystriol yn eu hysu; ac yn sefyll rhwng y meirw a'r byw, â'i thuser ganddo, ac yn attal y pla. Safodd rhwng pechaduriaid euog a digofaint dwyfol. Cysgod o swyddfryd yr Arglwydd Iesu yn dyfod o fynwes ei Dad, i sefyll rhwng Duw a dynion; i ddyoddef digofaint y naill, ac i achub y lleill, ac i eiriol dros y troseddwyr. Y pla a attaliwyd! Num. 16. 46, 48. Ioan 11. 42. 1 Thes. 1. 10. 1 Tim. 2. 5, 6. Heb. 7. 25. Iago 5. 16. 1 Ioan 5. 15.

Pan gynhenodd Corah a'i gyfeillion wrth yr anrhydedd a roddasai Duw arno, yr Arglwydd a'i cadarnhaodd yn ei swydd, trwy beri i'w wialen flaguro ger bron y drugareddfa, a dwyn ffrwythau ac almonau, tra yr oedd gwiail y llwythau eraill yn ddiffrwyth oll, ac yn wywedig. Yr oedd hyn, diammeu, yn cysgodi y ffrwythau sydd yn dyfod oddiwrth offeiriadaeth Crist. Rhoddwyd gwialen Aaron ger bron y dystiolaeth, a'i holl flagur, blodau ac almonau; felly y mae Crist ger bron Duw tros ei bobl, yn holl gyflawnder a rhinwedd anfeidrol ei swydd. Un wedi ei amgylchynu â gwendid oedd Aaron, ac yn rhaid iddo offrymu dros ei bechodau ei hun: gwnaed ef yn offeiriad trwy nerth gorchymyn cnawdol; lluddiwyd ef hefyd gan farwolaeth i barhau yn ei swydd, ac nis gallasai ei aberthau berffeithio yr addolydd, trwy dynu ymaith bechod, a glanhau y gydwybod: ond y mae Iesu yn ei swydd trwy *lw;* yn ei Berson yn ddiddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid; tynodd ymaith bechod trwy ei aberthu ei hun unwaith; aeth i mewn i'r cysegr trwy ei waed ei hun, ac a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd, yn byw bob amser i eiriol dros y rhai sydd yn dyfod at Dduw trwyddo. Wele, un mwy nag Aaron yma! Edrych Gwialen, Offeiriad.

AARONIAID, hiliogaeth Aaron. Yr oeddynt mor lliosog a bod tair ar ddeg o ddinasoedd yn cael eu rhoddi iddynt allan o lwyth Judah, Simeon, a Benjamin. 1 Cron. 12. 27. a 6. 54, 60. Jos. 21. 13, 18.

ABADON, *Heb.* אבדון *Gr.* Απολλυων, Apolyon, [*dinystr* neu *dinystrydd*] brenin y locustiaid gweledigaethol yn Dat. 9. 11. Mae yr ysgrifenwyr mwyaf dysgedig a deallus yn amrywio yn fawr yn eu meddyliau am gymhwysiad gweledigaethol y locustiaid a'u brenin, dan y pummed udgorn. Mr. J. Mede ac Esgob Newton a farnant mai y Saraceniaid a feddylir wrthynt, ac wrth eu brenin y meddylir Mahomet, a'r Caliphs ar ei ol. Ond barna Vitringa fod y darluniad yn fwy addas i'r Gothiaid dan Alaric, ac Ataulphus ei frawd yn nghyfraith, y rhai a boenasant yn ddychrynllyd drigolion Rhufain a gwlad yr Ital. Edrych Anghrist, Locustiaid, Rhufain. Gwel hefyd, Mede, Esgob Newton, a Vitringa *in loc.*

ABAGTHA, אבגתא [*tad y gwinwryf*] un o ystafellyddion y brenin Ahasferus. Esther 1. 10.

ABANA, אבנה [*caregog*] un o afonydd Damascus. Tybiodd Naaman ei bod hi cystal, os nad gwell, na'r Iorddonen, i lanhau ei wahan-glwyf. Mae yn rhedeg i'r dehau-orllewin, ar hyd gwastadedd hyfryd ynghylch dau cant o filltiroedd, i fôr mawr y Canoldir. 2 Bren. 5. 12. Edr. Pharpar.

ABARIM, עברים [*mynediadau*] enw cyffredin ar ochrau y mynyddoedd cribog, o du y dwyrain i'r Iorddonen. Cyrhaeddent hyd derfynau y Reubeniaid a'r Moabiaid. Tebygol iddynt gael yr enw hwn oddiwrth y mynediadau, neu y ffyrdd trwyddynt. Enwau y mynyddoedd hyny yw, Pisga, Nebo, Peor, &c. Oddi yma y gwelodd Moses wlad Canaan ychydig cyn ei farw. Deut. 32. 49.

ABBA, *Heb.* אב *Syr.* אבא [*tad*] 'Abba, Dad:' llef plentyn, yn meddiannu ysbryd plentyn, yn dangos parch, anwyldra, a hyfdra mabaidd. Nid oedd yn gyfreithlawn i gaethwas arferyd y gair Abba wrth lefaru wrth feistr y teulu yr oedd efe yn perthyn iddo, neu y gair cyfatebol Imma wrth y feistres. Gwel Selden. de Succ, *in Bona Def.*, *cap.* iv.——Mae y gair yn Hebraeg ac yn Groeg; y mae yn cael ei arferyd gan Grist, fel y cyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer (Marc 14. 36.) a chan yr holl blant mabwysiadol, Iuddewon a Chenedloedd. Y maent oll yn un teulu, a Duw yn Nghrist mor agos Tad i'r naill a'r llall; y maent yn un corph, a'r un Ysbryd ynddynt oll. Rhuf. 8. 15. Gal. 4. 6. Eph. 2. 19. a 3. 15. Yr Ysbryd Glân, fel Ysbryd mabwysiad, sydd yn eu cynhyrfu ac yn eu cynnorthwyo i lefain mewn taer weddi ddibaid, *Abba, Dad.* Mae yr Ysbryd hwn yn y Mab yn gyntaf, o ran ei ddynoliaeth: am hyny y mae yn cael ei alw, 'Ysbryd ei Fab.' Gal. 4. 6. O hono ef, a thrwy undeb a pherthynas âg ef, y mae yn cael ei roddi i'r holl deulu. 'O herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonau chwi,' &c.; yr un Ysbryd sydd ynddynt hwy ag yn Nghrist, a'r un yw ei lef, sef, Abba, Dad. Er y gall rhagrithiwr ddywedyd y geiriau, ond ni chafodd un rhagrithiwr erioed *Ysbryd y Mab* yn ei galon, yn llefain, Abba, Dad. Ni wyddai Adda yn mharadwys, ac nis gŵyr angelion y nefoedd, ddim am yr ysbryd hwn: canys, er eu bod hwy yn eu creadigaeth yn cael eu galw yn feibion Duw, ac Adda yn fab Duw, o ran eu dibyniad fel creaduriaid, ar Dduw, ei ddelw arnynt, a'u hagosrwydd iddo; er hyny nis gwyddant ddim am y fraint oruchel o fabwysiad, undeb a pherthynas neillduol â Christ, fel Mab Duw, a'r ysbryd cyfatebol i'r fraint odidog hon. Edrych Mabwysiad.

ABDA, tad Adoniram. 1 Bren. 4. 6.

ABDI, עבדי [*fy ngwas*] tad Cisi. 2 Cron. 29. 12.

ABDIEL, עבדיאל [*gwas Duw*] mae Guni, o lwyth Gad. 1 Cron. 5. 15. Tad Selemiah. Jer. 36. 26.

ABDON, עבדון [*gwas barn*] 1. Mab Hilel y Pirathoniad, yr hwn a farnodd Israel ar ol Elon, dros wyth mlynedd. Barn. 12. 13, &c.——2. Mab Michah. 2 Cron. 34. 20.——3. Enw dinas. Jos. 21. 30.——Yr oedd eraill o'r enw. 1 Cron. 8. 23. a 9. 36.

ABEDNEGO, עבדנגו [*gwas Nego*, neu *oleuni.*] 1. Un o'r llanciau a fwriwyd i'r ffwrn dân. Dan. 3. 26.——2. Mab Hilel, barnwr Israel. Barn. 12. 13. ——3. Mab Micah. Edr. Sadrach.

ABEL, הבל [*gwagedd, tarth*] eraill a farnant ei darddiad o'r gair Habal yn Arabaeg, yn arwyddo *marwolaeth anamserol*, a galar ei fam o'r achos. Gwel y Dr. Kennicot, *Dissert.* ii. Ail fab Adda ac Efa, a brawd Cain. Oddiwrth ddull yr ymadrodd yn Genesis 4. 1, 2. yr hwn sydd yn dywedyd i Efa *esgor*

Digitized by Google

eilwaith, heb sôn iddi *feichiogi* eilwaith, y barna rhai mai *gefeilliaid* oedd Cain ac Abel. Efe oedd yr ail ddyn a anwyd i'r byd, a'r cyntaf y mae coffadwriaeth anrhydeddus am ei ffydd a'i ffrwythau, ac am ei ddyoddefiadau o achos cyfiawnder. Er nad yw yr hanes am dano ond byr, etto y mae yn barchus iawn. Yr Arglwydd Iesu a'i geilw 'Abel gyfiawn.' Mat. 23. 35. 'Efe a gafodd dystiolaeth oddiwrth Dduw ei fod yn gyfiawn.' Heb. 11. 4. Yr oedd yn ŵr hynod, tan yr enw hwn, yn yr eglwys, trwy yr holl oesoedd.

Cofféir, 1. *Am ei alwedigaeth*—bugail oedd; nid seguryn, ond gwr diwyd a ffyddlon mewn galwedigaeth, nid anghyffredin, wedi hyny, yn mhlith yr hen dduwiolion.

2. *Am ei offrwm:* 'dygodd o flaen-ffrwyth ei ddefaid,' yn fyw, 'ac o'u brasder hwynt,' gwedi eu lladd. Exod. 22. 29, 30. a 23. 19. Lef. 3. 16, 17. a 5. 25. Dygodd y goreuon i Dduw, heb weled dim yn rhy dda iddo. Yr oedd ei aberth *gwaedlyd* yn cysgodi Crist, Oen Duw, yn aberthu ei hun dros bechodau ei bobl.

3. *Yr amser yr aberthodd:* 'wedi talm o ddyddiau,' מקץ הימים *ar yr amser gosodedig*, sef y Sabboth, medd rhai; diwedd y flwyddyn, medd eraill: (Edr. DYDD) neu, fel y barna eraill, wedi i Cain ac Abel ymadael â thŷ eu tad Adda, a gosod i fynu yn eu gwahanol alwedigaethau, gwnaethant eu proffes neillduol, bob un o honynt, o addoliad Duw yn gyhoeddus. Yr oeddynt, hyd yn hyn, wedi bod dan addysgiadau eu tad, ac yn cyd-addoli âg ef; ond yn awr, wedi tyfu i fynu i oedran a maintioli gwyr, y maent yn bresennol yn dwyn eu rhoddion a'u haberthau i'r Arglwydd, ליהוה IBHOFAH. Dr. Owen.

4. *Ei ffydd:* 'trwy ffydd yr offrymodd,' &c. Os trwy ffydd, yna yr oedd yn offrymu mewn ufudd-dod a pharch i osodiad a gorchymyn Duw, gyda golwg ar ei addewid. Yr oedd yr addewid a roddodd Duw i'n rhieni cyntaf yn Eden, o fawr werth ganddo; a'i ffydd yn yr hâd addawedig oedd gysur cryf iddo, fel pechadur euog yn haeddu marw. Nid gweithred allanol, yn unig, oedd ei addoliad: hyny a allasai ei wneuthur, a bod yn ei galon yn rhagrithiwr; ond yr oedd ffydd yn yr addewid ar waith yn fywiog; a 'thrwy ffydd yr aberthodd.' O herwydd hyn, yn benaf, y dywed yr apostol, iddo 'offrymu i Dduw aberth rhagorach na Chain.' Heb. 11. 4. Y mae yn wir fod defnydd ei aberth yn rhagorach, ac yn fwy addas cysgod o aberth Crist. Πλειονα θυσιαν, *amlach aberth*. W. S. Arwydda y geiriau, amlach o ran rhifedi, ac nid yn unig rhagorach o ran defnydd ei aberth. Cain a ddygodd o ffrwyth y ddaear offrwm i'r Arglwydd, naill ai o ddefod, neu ynte o gydnabyddiaeth o'i rwymedigaethau iddo, fel ei Greawdwr a'i Gynnaliwr. Nid oedd dim yn ei offrwm ef yn dangos ei gydnabyddiaeth o'i drosedd, a'i angen am iawn dros ei bechod. Ond yr oedd offrwm Abel, heblaw ffrwyth y ddaear, yn offrwm lladdedig; fel cydnabyddiaeth ei fod ef ei hun yn haeddu marw; a bod ei ffydd yn golygu y Messiah i ddyfod, yr hwn oedd i farw drosto, fel iawn am ei bechod. Er bod defnydd ei aberth yn rhagorach, etto yr oedd yn rhagorach yn nghyfrif Duw, yn benaf, oblegid ei ffydd yn aberthu. Yr oedd ganddo bech-aberth yn gystal a bwyd-offrwm, a ffydd fywiol yn y Messiah addawedig yn offrymu.

5. 'Edrychodd Duw ar Abel, ac ar ei aberth.' Edrychodd ar Abel yn gyntaf, fel un cyfiawn trwy ffydd. Yr oedd yn feddiannol o ffydd gyfiawnhaol cyn y weithred hon o addoliad; am hyny yr oedd ei berson yn gyfiawn ac yn gymeradwy gyda Duw. Am fod ei berson yn gyfiawn, edrychodd Duw hefyd ar ei aberth, ac a dystiolaethodd ei fod yn gymeradwy, trwy ddwyn tystiolaeth i'w roddion. Pa un ai trwy dân o'r nefoedd yn llosgi ei aberth, neu ryw ffordd arall, sicr ydyw i Dduw roddi arwydd diammheuol ac amlwg o'i foddlonrwydd iddo; yr hyn a fu o fawr gadernid i'w ffydd, yn gystal ag yn foddion o ennyn cenfigen yn Cain.

6. *Ei ferthyrdod.* Pan welodd Cain yr arwydd a roddes Duw o'i foddlonrwydd i Abel, a'i offrwm, 'digllonodd Cain yn ddirfawr.' Ac er i Dduw ei hun ymresymu â Chain yn yr achos, a dangos bod ei ddigllonedd yn erbyn ei frawd yn annheilwng ac yn anghyfiawn; etto, er hyny 'cododd yn erbyn ei frawd, ac a'i lladdodd.' 'A phaham y lladdodd ef? Oblegid bod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda.' 1 Ioan 3. 12. Yr oedd Cain 'o'r drwg,' o'r un drwg—εκ του πονηρου, sef y diafol. Yr oedd o hono o ran yr ysbryd oedd ynddo—yr hwn a genedlwyd yn gyntaf yn y diafol, ac o hono ef a droglwyddwyd i blant dynion trwy y cwymp. Yr oedd ei weithredoedd cyn y gyflafan echryslawn hon yn *ddrwg*. Dyn drwg ydoedd yn dwyn ei rodd i'r Arglwydd, ac yn rhagrithiwr twyllodrus ger ei fron. 'Os da y gwnai,' yr hyn oedd heb ei wneuthur hyd yma, 'oni chai oruchafiaeth?' Oni chai oruchafiaeth yn fy ymddygiad tu ag atat, cyfatebol i'th hynafiaeth ar dy frawd, a'th flaenoriaeth trwy hyny. 'Ac oni wnai dda, pechod a orwedd wrth dy ddrws,' ac a'th ddyfetha yn y diwedd, trwy i ti syrthio i bechodau mwy echryslawn, a thrwy gospedigaeth ddyledus am danynt. Yr oedd gweithredoedd Abel yn dda. Yr oedd ei ymddygiad yn ostyngedig, yn dirion, ac yn addfwyn tu ag at ei frawd. 'Atat ti (medd Duw) y mae ei ddymuniad, a thi a lywodraethi arno ef.' Nid oedd Abel gyfiawn am oruchafiaeth na blaenoriaeth ar Cain, yn ol tystiolaeth Duw am dano; ond yn ufudd iddo, yn ostyngedig ac yn barchus tu ag ato, fel ei frawd, a'i frawd hynaf. Ond yr oedd y ddau mewn gwahanol gyflyrau; eu hysbrydoedd yn hollol groes i'w gilydd, a'u bywydau yn cyfateb yr un fath. Er mai brodyr oeddynt, wedi eu cenedlu yn yr un groth; etto, yn ysbrydol, yr oeddynt o wahanol hâd; un o Dduw, a'r llall o'r diafol. Y mae yr elyniaeth yn ymddangos yn gryf; y ddau a wrthwynebasant eu gilydd—un mewn addfwynder a daioni, a'r llall mewn drygioni a chreulonder. 'Megys y pryd hwnw, yr hwn a anwyd yn ol y cnawd, a erlidiai yr hwn a anwyd yn ol yr Ysbryd; felly yr awr hon hefyd.' Gen. 3. 15. Gal. 4. 29. a 5. 17. Lladd brawd a gwr cyfiawn, oedd amlygiad o ddelw ac ysbryd y diafol i radd mawr iawn, yr hwn oedd leiddiad dyn o'r dechreuad. Abel a ddyoddefodd mewn ffydd ac addfwynder addas, diammeu, 'o achos cyfiawnder;' ac a flaenorodd holl ardderchog lu y merthyri, y rhai ar ei ol a liwiasant eu gwisgoedd â gwaed, ac ydynt yn bresennol o flaen yr orsedd fry, yn llefain yn ddidaw, 'i Dduw y byddo y diolch, yr hwn a roddodd i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist.' 1 Cor. 15. 57.

'A thrwyddi hi y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto.' Heb. 11. 4. Mae ei siampl yn ein dysgu i fyw trwy ffydd ar Grist a'i aberth yn unig am gyfiawnhad ger bron Duw. Y mae ei fywyd duwiol a chyfiawn, ffrwyth ei ffydd, yn ein hannog i ddilyn cyfiawnder, er goddef cenfigen, dygasedd, ac eithaf llid y perthynasau agosaf. Y mae ei waed yn llefaru etto, am ddial ar Cain, ac ar bawb a gerddant ei ffordd anghyfiawn waedlyd ef. Y mae pawb a gerddant ffordd Cain, yn cyfiawnhau ei gasineb at gyfiawnder, a'i greulondeb gwaedlyd. Ac y mae Abel yn gwaeddi o hyd, 'oni ddial Duw ei etholedigion, sydd yn llefain arno ddydd a nos? Yr wyf yn dywedyd i chwi, y dial efe hwynt ar frys.' Luc 18. 7, 8.

'Y mae gwaed Iesu yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel.' Dyoddefodd Iesu yn anghyfiawn, trwy ddwylaw gwaedlyd ei frodyr, yr Iuddewon; ond nid am ddial y mae ei waed ef yn llefain, ond am faddeuant; Heb. 12. 24.—gwaed *merthyr* oedd gwaed Abel;

Digitized by Google

ond gwaed *aberth* oedd gwaed Crist: oblegid hyny, 'y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau.' Eph. 1. 7. Edrych ABERTH, CAIN, GWAED.

ABEL.—'Maen mawr Abel:' yr hwn a elwid hefyd Maes Josua. Lle yn agos i Bethsemes, a alwyd felly mewn coffadwriaeth am alar yr Hebreaid am eu cyfeillion a laddesid am edrych i mewn i'r arch. Ymddengys hefyd fod maen mawr wedi ei godi er coffadwriaeth am y tro galarus hwn. 1 Sam. 6. 18, 19.

ABEL-BETHMAACA, [*galar i dŷ Maaca*] dinas gadarn oedd yn sefyll ar gyfer mynydd Libanus. Y ddinas hon a waredwyd trwy gynghor gwraig ddoeth i dori pen Seba mab Bicri (yr hwn oedd yn ymguddio ynddi) a'i daflu dros y mur i Joab; felly y cafodd y ddinas lonydd. 2 Sam. 20. 14.

ABEL-MAIM, [*galar y dyfroedd*] dinas. 2 Cron. 16. 4.

ABEL-MEHOLAH, [*galar, gwendid*, neu *aftechyd*] dinas oedd yn sefyll o du y gorllewin i'r Iorddonen. 1 Bren. 19. 16. Yn agos i'r fan yma y cafodd Gedeon fuddugoliaeth ar ei elynion: Barn. 7. 22. ond ei hanrhydedd penaf ydoedd fod Eliseus y prophwyd wedi bod yn byw ynddi. 1 Bren. 19. 16.

ABEL-MISRAIM, [*galar yr Aiphtiaid*] yma y galarwyd uwch ben corph Jacob. Y lle hwn a elwid gynt, 'llawr-dyrnu Atad.' Gen. 50. 11.

ABER—OEDD, באר [*ffynon*] neu עבר [*myned heibio*] 1. Ffrwd, ffrwd fechan; cyd-ffrwd; cwymp neu fynediad afon fechan i un fwy, neu i'r môr; porthladd. Gen. 26. 15. 2 Sam. 17. 20. 2 Cron. 32. 30. Amryw ddinasoedd yn sefyll wrth gwymp neu fynediad afonydd, a gawsant eu henwau oddiwrth y gair hwn; megys *Aberystwyth*, sef cwymp yr afon *Ystwyth*; *Aberffraw*, sef cwymp yr afon *Ffraw*, lle yn benaf y trigai tywysogion Gwynedd.——2. Yn gyffelybiaethol, aberoedd a arwyddant helaethrwydd: 'ffrydiau ac aberoedd o fêl ac ymenyn;' sef helaethrwydd parhaol o bethau gwych a moethus. Job 20. 17.

ABERTH—AU, (a-perth) *Heb.* זבח [*lladd*] *Gr.* θυσια, *lladd yn fwyd*, Luc 15. 23, 27. Act. 10. 13. a 11. 7. ond yn fwyaf cyffredinol, *lladd i'w aberthu*. Yr oedd aberthu, neu ladd anifeiliaid yn aberthau i'r Arglwydd, yn arferiad crefyddol yn yr eglwys yn mhlith gwir addolwyr Duw, er pan y mae genym hanes am addoliad yn y Bibl; ac, am hyny, diammeu ei fod yn arferiad o osodiad dwyfol, ac i Adda aberthu yn dra buan ar ol y cwymp. Yn addoliad Cain ac Abel, y mae Abel yn dwyn 'o flaen-ffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt, yn offrwm i'r Arglwydd.' Gen. 4. 4. Nid annhebyg mai crwyn yr anifeiliaid a aberthwyd i'r Arglwydd, trwy ei orchymyn, oedd y crwyn y gwnaed peisiau o honynt i Adda ac Efa yn mharadwys. Y mae yn anhawdd amgyffred pa fodd y daeth yr arferiad o aberthau mor foreu ac mor gyffredin, i gymeryd lle yn mhlith pawb, fel moddion i heddychu y Duwdod, os na farnwn fod hyny yn rhan o'r dadguddiad dwyfol i Adda, yn fuan ar ol iddo droseddu. Ond os gorchymynodd Duw i Adda, wedi ei gwymp, i dywallt gwaed anifeiliaid diniwed, ac i ddifa rhan, neu y cwbl, o'u cyrph, trwy dân, i ddangos y gospedigaeth haeddiannol am bechod, ac i rag-ddangos dyoddefiadau hâd y wraig, addawedig; y mae y ddefod yn ymddangos yn gwbl addas ac addysgiadol. 'Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain.' Heb. 11. 4. Os trwy ffydd, yna yr oedd yn rhaid bod rhag-ddadguddiad dwyfol yn nghylch y mater, fel sylfaen ffydd, wedi ei roddi. Mae nodi y gwahaniaeth rhwng creaduriaid glân ac aflan, cyn y diluw, yn amlygu, hefyd, fod rhyw ddadguddiad dwyfol, yn yr achos hwn, yn foreu iawn.

Nid oes genym gyfarwyddiadau, wedi eu rhoddi am y dull a'r modd o aberthu, nes y gosodwyd i fynu holl drefniadau cysgodol Moses, wrth Sinai. Cyn hyn, tebygol, fod pob un wedi ei adael i'w ryddid ei hun, i aberthu yn y man a'r dull a ddewisai. Yn gyffredinol, ymddengys fod yr anrhydedd o aberthu, yn perthynu, neu yn cael ei roddi, i'r hynafiaid, i benau teuluoedd, i dywysogion, neu i ryw un yn blaenori mewn rhinwedd a duwioldeb. Ond, wedi hyny, cyfyngwyd hyn i deulu Aaron yn unig, a'r lle i fod ar yr allor fawr yn Jerusalem, wedi adeiladu y deml yno gan Solomon; a chyn hyny ar yr allor bres wrth ddrws y babell. Yr oedd amrywiol fath o aberthau, yn ol trefniadau Moses—megys *aberth hedd, aberth diolch, aberth dros gamwedd, &c.* Yr oedd aberth boreuol am naw o'r gloch, a phrydnawnol am dri o'r gloch bob dydd. Yn gyffredinol, yr oedd surdoes a mêl yn waharddedig yn eu holl offrymau a'u haberthau; ond yr oedd halen yn orchymynedig; 'offryma halen ar bob offrwm i ti.' Lef. 2. 11, 13. Ond gan y bydd achlysuron, dan eiriau eraill, i ymhelaethu ar amrywiol bethau a defodau perthynol i'r aberthau, ni chwanegaf yn bresennol, ond yn unig sylwi eu bod oll yn cyfeirio at Grist, ac yn gysgodol o hono, 'yr hwn a roddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd.' Eph. 5. 2. Heb. 9. 26. a 10. 12, 14.

Rhoddodd Crist ben ar yr holl aberthau cysgodol, trwy aberthu ei hun; ac a eisteddodd yn dragywydd ar ddeheulaw Duw: 'Canys âg un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.' Yr oedd mwy o rinwedd yn ei aberth ef, nag oedd o ddrwg yn holl bechodau y rhai a sancteiddir. Mae ei waed â digonol werth ynddo i lanhâu oddiwrth bob pechod, a pherffeithio yn dragywyddol y rhai a gredant ynddo. 1 Ioan 1. 7, 8, 9. Mae mawredd y gwaith a wnaeth, sef tynu ymaith bechodau y byd (Ioan 1. 29.) yn dangos mawredd ac anfeidrol werth ei aberth. Y mae gwerth yr aberth hwn yn tarddu, yn

1. *Oddiwrth fawredd anfeidrol y Person oedd yn aberth, sef Crist Iesu.*—'Trwy yr Ysbryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei *hun* yn ddifai i Dduw—a'r Arglwydd a aroglodd arogl esmwyth,' neu beraidd. Gen. 8. 21. Heb. 9. 14. Yr oedd y Person â dwyfol fawredd, yn ganlynol, âg anfeidrol werth ynddo. Yr oedd yn ei Berson ei hun yn anfeidrol fwy, a mwy ei werth na'r holl bersonau a achubir yn nghyd. Nid rhan o hono oedd yr *aberth;* nid ei gorph, nid ei enaid yn unig, ond ei *hunan*—sef Crist Iesu, yn ei Berson, yn gyflawn, yn Dduw ac yn ddyn, a roddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn *aberth* i Dduw. Yn y golygiadau hyn y mae gwerth yr *aberth* yn ymddangos yn anfeidrol tu hwnt i bob peth a fedrwn ni ei feddwl. Nid oes ond deall anfeidrol a all amgyffred ei fawredd a chyfrif ei werth. Nid yw cymaint o fydoedd ag a ddichon Duw eu gwneuthur, a'r rhai hyny wedi eu llenwi â'r creaduriaid mwyaf gogoneddus a ddichon eu gwneuthur, ond dim, a llai na dim, mewn cymhariaeth iddo. Nis gellir dywedyd mwy am dano na dywedyd, 'iddo ymddangos unwaith i ddileu pechod, *trwy ei aberthu ei hun.*' Heb. 9. 26. Heb. CNAWD.

2. *Mawredd ei gariad a'i ewyllysgarwch yn y gwaith.*—Nis gallasai fod yn aberth, oni buasai iddo roddi ei hun i fynu. Yr oedd ganddo y peth nad yw gan un creadur, sef awdurdod ar ei fywyd ei hun. 'Nid oes neb (medd efe) yn ei dwyn oddi arnaf fi; ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof fy hun. Y mae genyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae genyf feddiant i'w chymeryd hi drachefn.' Ioan 10. 18.—εξουσιαν εχω, y mae genyf *gwbl feddiant* o fy einioes; am hyny y mae genyf awdurdod i'w dodi hi i lawr. Nid *gallu* ydyw arwyddocâd y gair, ond *awdurdod.* Y mae gan bob dyn allu i'w ladd ei hun,

Digitized by Google

ond nid oes ganddo *awdurdod:* nid efe biau ei fywyd ei hun, ond Duw; ond yr oedd gan Grist awdurdod ar ei fywyd ei hun. Gwel Musculus *in loc.* Mae ewyllysgarwch gwr yn rhoddi, yn chwanegu at werth y peth a roddir. Rhoddodd Crist ei hun â'i holl galon, gyd âg anfeidrol ewyllysgarwch. Yr oedd ewyllys anfeidrol Person anfeidrol, yn gwbl yn y rhodd. Yr oedd ei ewyllys yn aberthu ei hun yn cyfateb i'w gariad at ogoniant Duw ac iechydwriaeth ei bobl; ac yr oedd y cariad hwnw heb un mesur na therfyn iddo; gogyfuwch a'r Person oedd yn caru. Eph. 3. 18, 19. Ymddangosodd yr ewyllysgarwch hwn, yn nhrefniad y cyfammod tragywyddol, pan y rhoddodd ei hun o'i wir fodd, yn yr arfaeth; yn ei ddyoddefiadau yn y cnawd; yn ei holl fywyd; yn enwedigol yn ymdrech difrifol y natur ddynol yn yr ardd. Nid ymddangosodd ei ewyllysgarwch erioed yn fwy nag yn yr awr dywyll dymhestlog hôno, pan y dechreuodd efe soddi i holl ddyfnderoedd dirfawr dyoddefiadau dialeddol. Ps. 40. 6, 7, 8. Diar. 8. 23, &c. Esa. 53. 12. Ioan 18. 11. Luc 12. 50. Col. 2. 15. Ni wnaethai ei ddyoddefiadau heb ei ewyllysgarwch, mwy na'i ewyllysgarwch heb ei ddyoddefiadau, ddim ein hachub. Pe rhoddai dyn ei gorph i'w losgi, heb fod ganddo gariad, nid yw ddim; felly, ni buasai dyoddefiadau Crist ddim yn *aberth*—ddim yn *iawn*, heb eu bod yn ewyllysgar. Ond felly yr oedd; yn wyneb ei ddyoddefiadau mwyaf, gwaeddodd, gyd âg anfeidrol foddlonrwydd, 'O Dad, gogonedda dy enw!' Ioan 12. 28.

3. *Mawredd ei ddyoddefiadau.*—Ni bu, ac ni bydd byth, ofid y fath a'i ofid ef. Os chwiliwch holl ddyfnderoedd uffern, gwlad y poenau mawrion, nid oes yno neb yn yfed ond ei gwpanaid ei hun; ond yfodd Crist gwpaneidiau miliynau dirifedi, i gyd ar unwaith. Dyoddefodd eu melldith hwynt oll i gyd ar unwaith, ac a welodd y pen draw iddi; canys efe a'u '*llwyr brynodd* (ἐξηγορασεν) oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith drostynt.' Gal. 3. 13. Bu mewn mwy o uffern, os nad o ran lle, etto o ran dyoddefiadau, nag y bydd neb arall byth ynddi. Pwy a all amgyffred ei ddyoddefiadau, pan ddechreuodd ymofidio a thristâu yn ddirfawr, ac a ddywedodd, 'Y mae fy enaid yn athrist hyd angeu,' neu yn *athrist angeuol.* Marc 14. 33, 34.

4. *Ei allu dwyfol i sefyll dan ei ddyoddefiadau anfeidrol.*—Peth rhyfedd na fuasai y natur ddynol wedi soddi yn dragywyddol dan y fath ddyoddefiadau; ond trwy ei hundeb â'r Person dwyfol, a thrwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, cynnaliwyd, codwyd, a dyrchafwyd hi, ac y mae yn uchel iawn. Esa. 42. 1. a 52. 12. Yr oedd nid yn unig yn anmhosibl ei orchfygu; ond yr oedd yn anmhosibl ei *attal* gan ofidiau angeu. Act. 2. 24. Yr oedd y fath nerth ynddo, fel yr oedd yn abl dyoddef, mewn ychydig oriau, a myned trwyddynt yn drwyadl, yr hyn a fuasai yr holl filiynau y cadwedigion yn eu dyoddef dros byth, ac heb weled diwedd arnynt.

Wrth ystyried y pethau hyn, gallwn gael ychydig olwg ar werth ei aberth. Rhoddodd yr un aberth hwn derfyn tragywyddol ar yr holl aberthau eraill, fel iawn am bechod. Wedi cael hwn, y mae Duw yn dywedyd, 'Na chwanegwch ddwyn offrwm ofer: arogl-darth sydd ffiaidd genyf,' &c. Esa. 1. 12, 13, &c. Er nad ydym i aberthu i wneuthur iawn am bechod, etto, mae yn gymhwys, yn ddyladwy, ac yn ofynol i ni aberthu moliant i'r hwn a wnaeth iawn; i aberthu ein hunain, ein cyrph, ein heneidiau, a'n meddiannau, yn gwbl i'w wasanaeth, dros byth. Ps. 50. 23. Diar. 3. 9. Hos. 14. 2. Rhuf. 12. 1, 2. Heb. 13. 13.

ABEZ, אבץ [*ŵy*] dinas o fewn terfynau llwyth Issachar.' Jos. 19. 20.

ABIAH, אביה [*yr Arglwydd yw fy nhad*] 1. Mab Samuel. Efe oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, am gymeryd gwobr er mwyn gwyro barn. 1 Sam. 8. 2. 1 Cron. 6. 28.——2. Mab Jeroboam, yr hwn yn unig a gafodd ras o'i deulu. Yr hwn hefyd a fu farw yn ol gair y prophwyd, a bu galar mawr am dano. 1 Bren. 14. 1, 18.——3. Gwraig Ahaz, mam y brenin Hezeciah; y mae rhai yn meddwl ei bod yn ferch i Zechariah, yr arch-offeiriad, yr hwn a laddodd y brenin Joas. 2 Cron. 29. 1.——4. Mab Rehoboam, a Michaiah merch Uriel o Gibeah. Efe a ryfelodd â Jeroboam brenin Israel, ac a laddodd mewn ymladdfa bum can mil o wyr Israel. Yr oedd pedwar can mil gan Abiah o wyr grymus, ond yr oedd wyth can mil gan Jeroboam. Tra bu Abiah yn adrodd ddaed oedd ei achos wrth Israel, a phechadurusrwydd eu hymddygiad hwythau, mae Jeroboam yn peri gosod cynllwyn, ac yn dyfod o'u hol hwynt, fel yr oedd y rhyfel yn mlaen ac yn ol, ac Abiah a'i fyddin yn yr enbydrwydd mwyaf. Yn y cyfyngder hwn, gwaeddasant ar yr Arglwydd, a'r offeiriaid a leisiasant mewn udgyrn. A phan waeddodd gwyr Judah, Duw a darawodd Jeroboam a'i fyddin o flaen Abiah a Judah, a hwy a orchfygwyd â lladdfa fawr. 2 Cron. 13. 13—18. Ni theyrnasodd ond tair blynedd. Yr oedd ganddo 14 o wragedd, o bu iddo 22 o feibion, a 16 o ferched.——5. Offeiriad a phenaeth yr wythfed dosparth yn ngwasanaeth y deml. Yr oedd Zechariah, tad Ioan Fedyddiwr, o'r dosparth hwn. 1 Cron. 24. 10. Luc 1. 5.

ABIALBON, אבי־עלבון [*tad synwyrol*] un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 31. Gelwir ef hefyd Abiel. 2 Cron. 11. 32.

ABIATHAR, אביתר [*tad rhagorol*] y degfed archoffeiriad, a'r pedwerydd o lin Eli. Ffôdd ymaith rhag ofn Saul, at Dafydd a'i wyr; a Dafydd a ymofynodd â'r Arglwydd trwyddo ef. 1 Sam. xxii. Tybir mai efe a raddodd y bara gosod i Dafydd pan oedd newyn arno. Marc 2. 26. Wrth ystyried yr ysgrythyrau yn fanwl, ni welaf un ffordd esmwyth i gysoni yr hanes yn 1 Sam. 21. 6. â Marc 2. 26. ond trwy farnu mai Abiathar *tad* Ahimelech, ac nid ei *fab* a feddylir yn Marc. Mae Ahimelech yn cael ei alw yn *fab* Abiathar yn mhob man arall ond yn yr hanes yn 1 Sam. xxii. a Sadoc yn cael ei alw yn *fab* Ahitub. 1 Sam. 22. 18. Hwyrach fod Abiathar, yr amser hwnw yn hen, a bod Ahimelech, neu Abimelech, yn gweini yn ei le. Ar ol marwolaeth Abiathar, tad Ahimelech, daeth ei fab, Ahimelech i'r swydd; ac Abiathar, mab Ahimelech, ar ei ol yntau, yr hwn a ddiswyddwyd gan Solomon, am ei ymlyniad wrth Adoniah yn ei fradwriaeth. Mae rhai yn cyfieithu '*dan* Abiathar,' yn '*hanes* Abiathar,' neu yn y dosparth hwnw o'r hanesiaeth sanctaidd y mae Abiathar y person mwyaf hynodol ynddo, ac o herwydd hyny a elwir wrth ei enw. Gwel Macknight a Calmet.

ABIAM, [*tad y moroedd*] un o freninoedd Judah, mab Rehoboam, ac ŵyr Solomon, yr hwn a deyrnasodd yn annuwiol, dair blynedd, yn Jerusalem. 1 Bren. 14. 31. a 15. 1, 7.

ABIB, אביב [*tywysen fawr,* neu *ffrwyth addfed*] y seithfed mis o'r flwyddyn Iuddewig. Yr oedd hwn yn cynnwys ynddo ddeng niwrnod ar hugain, yn cyfateb i'n lleuad Fawrth ni. Yn nghanol y mis hwn y byddai yr Iuddewon yn dechreu ar eu cynauaf. Ar y degfed dydd o hono y cymerwyd yr oen pasc, a'r pedwerydd ar ddeg y bwytasant y pasc. Exod. xii, xiii. Ar y pymthegfed dydd y casglent ysgub blaen-ffrwyth eu haidd, a'r unfed ar bymtheg yr offryment hi. Lef. 23. 6, 11. Yn y mis hwn yr offrymodd Iesu ei hun, fel blaen-ffrwyth o gynauaf mawr, llafur ei enaid. Ioan 11. 28.

ABIDA, אבידע [*tad gwybodaeth*] mab Midian, ac ŵyr Abraham. Gen. 25. 4.

Digitized by Google

**ABIDAN**, אבידן [*tad barn*] tywysog y Benjaminiaid. Num. 1. 11.

**ABIEL**, אבי־אל [*fy nhad yw Duw*] tad Cis a Ner, a thaid Saul, brenin cyntaf Israel. 1 Sam. 9. 1. Un arall o'r enw. 1 Cron. 11. 32.

**ABIEZER**, אבי־עזר [*fy nhad yw fy nghymhorth*] 1. Un o lwyth Manasseh. Jos. 17. 2. Barn. 6. 34.——2. Un o gedyrn Dafydd, o dref Anathoth. 2 Sam. 23. 27.

**ABIGAIL**, אביגיל [*llawenydd y tad*] 1. Chwaer Dafydd, a gwraig Jether. 1 Cron. 2. 17.——2. Gwraig Nabal. Yr oedd hon yn wraig synwyrol a doeth iawn; ond, er hyny, priododd y gloddestwr cyfoethog Nabal. Pan glywodd fod dinystr yn dyfod am ben ei gwr a'i theulu, aeth i gyfarfod Dafydd, â gweision ac âg anrhegion mawrion. Adroddodd ei hachos o'i flaen mor bwyllog, synwyrol, a doeth, fel y dyhuddwyd ei lid; a hi a gafodd ffafr yn ei olwg. Dychwelodd i fynegi i'w gwr y perygl yr oeddynt wedi bod ynddo trwy ei ynfydrwydd, a'r modd yr oedd hi wedi rhagflaenu yr aflwydd. Pan fynegodd hi iddo, aeth y peth fel saeth trwy ei galon; ac yn nghylch pen y dengniwrnod efe a fu farw. Cyn pen hir wedi hyn hi a briododd Dafydd. 1 Sam. xxv.

**ABIHAEL**, אביחיל [*tad cadernid*] 1. Ail fab Huri, a thad Michael, Mesulam, &c. 1 Cron. 5. 13, 14.——2. Y mae amryw eraill hefyd o'r un enw. Num. 3. 35.——3. Tad Esther. Esther 2. 15.——4. Merch Eliab, mab Jesse. 2 Cron. 11. 18.

**ABIHU**, אביהו [*efe yw fy nhad*] mab Aaron. Exod. 6. 23. Lef. 10. 1. Edr. AARON.

**ABILENE**, talaeth rhwng mynydd Libanus ac Antilibanus, ar yr afon Chrysorrhoas, ar yr hon yr oedd Lysanias yn detrarch dan ymerawdwr Rhufain. Luc 3. 1.

**ABIMAEL**, אבי־מאל [*tad anfonedig oddiwrth Dduw*] mab Joctan, mab Heber. Gen. 10. 28. Preswyliodd ef a'i hiliogaeth yn Arabia, tebygol.

**ABIMELECH**, אבי־מלך [*fy nhad sydd frenin*] 1. Brenin y Philistiaid, yr hwn oedd yn trigo yn Gerar. Pan welodd degwch pryd Sarah, syrthiodd mewn cariad mawr â hi; ac wedi iddo glywed gan Abraham mai ei chwaer ef ydoedd, dygodd hi i'w dŷ, ar feddwl ei phriodi. Ni oddefodd Duw iddo gyd-orwedd â hi, eithr a'i rhagrybuddiodd ef mewn breuddwyd yn ei chylch. Tranoeth dychwelodd â Sarah at Abraham, gan ei rybuddio am y twyll a wnaethai; er hyny yn rhoddi iddo anrhegion mawrion. Abraham a weddïodd ar Dduw, a Duw a iachaodd Abimelech a'i wraig, a'i forwynion; a hwy a blantasant; o herwydd yr Arglwydd a gaeasai ar bob croth yn nhŷ Abimelech, o achos Sarah gwraig Abraham. Gen. xx.——2. Un arall o'r enw, mab i'r cyntaf, fel y tybir; yr hwn hefyd a geryddodd Isaac am wadu ei wraig. Adnewyddodd y cyfammod a wnethai ei dad âg Abraham. Gen. xxvi.——3. Mab Gedeon o'i ordderch-wraig; dyn drygionus iawn, a gwaedlyd erchyll. I'r dyben iddo gael ffordd rydd i'r orsedd, i lywodraethu Israel, lladdodd ddeg a thriugain o'i frodyr. Gwraig o ben y tŵr yn Thebez (yr hwn yr oedd efe yn ymosod yn ei erbyn) a daflodd ddarn o faen melin ar ei ben, ac a ddrylliodd ei benglog, fel y dymunodd ar gludydd ei arfau ei orphen, rhag i'r gair fyned allan, mai gwraig a'i lladdodd. Barn. ix.——4. Mab Abiathar, yr hwn oddd un o'r offeiriaid yn amser Dafydd. 1 Cron. 18. 16.

**ABINADAB**, אבינדב [*tad adduned*] 1. Un o drigolion Ciriath-jearim, yn nhŷ yr hwn y bu arch yr Arglwydd ddyddiau lawer, a sancteiddiwyd Eleazar ei fab i'w chadw. Efe oedd tad Uzzah ac Ahio. 1 Sam. 7. 1. 2 Sam. 6. 3.——2. Ail fab Jesse; tad, tebygol, i un o dywysogion Solomon, yr hwn a briododd Taphath, merch Solomon. 1 Bren. 4. 11. Edrych TAPHATH.

**ABIRAM**, אבירם [*tad goruchel*] 1. Mab Eliab. Efe a Dathan a Chorah a wrthryfelasant yn erbyn Moses ac Aaron am yr awdurdod a roddasai Duw iddynt; am hyny, efe a'i holl deulu, a'r hyn oll a feddent, a lyncodd y ddaear, a disgynasant i uffern. Num. 16. 17, 33.——2. Mab hynaf Hiel y Betheliad. Collodd ei fywyd pan oedd ei dad yn sylfaenu muriau Jericho. 1 Bren. 16. 34. Edr. HIEL, JERICHO.

**ABISAG**, אבישג [*fy nhad a feddiannodd*] y llances a gafwyd i gynhesu ac ymgeleddu Dafydd yn ei henaint. 1 Bren. 1. 3. Edr. DAFYDD.

**ABISAI**, אבישי [*anrheg fy nhad*] nai Dafydd, a rhyfelwr cadarn; bu daer iawn am gael Saul yn ysglyfaeth iddo. 1 Sam. 26. 6. 1 Cron. 2. 16.

**ABNER**, אבנר [*canwyll y tad*] mab Ner, ewythr y brenin Saul, a thywysog ei lu. Rhyfelwr creulon yn erbyn Dafydd a'i wyr. Ar ol marw Saul, gwnaeth Isboseth yn frenin; ac am saith mlynedd a ddaliodd deulu Saul i fynu yn erbyn Dafydd. Pan geryddodd Isboseth Abner, ceisiodd fyned mewn cyfammod â Dafydd, ond Joab a'i lladdodd. Dafydd a anrhydeddodd Abner â chladdedigaeth ardderchog, yn Hebron, a bu galarnad mawr am dano. 2 Sam. ii. a iii.

**ABRAM**, אברם [*tad dyrchafedig*] ac **ABRAHAM**, אברהם [*tad llawer, tad lliosog, tad lluoedd*] mab Terah, a'r degfed o Noah yn llinach Sem. Er ei fod yn yr hanes yn cael ei enwi o flaen Nachor a Haran, etto, dilys yw, mai efe ydoedd y mab ieuengaf. Bu farw Terah ei dad yn Haran, yn 205 o'i oed, ac yr oedd Abraham yn 75 pan aeth o Haran; gan hyny, ganed Abraham, nid pan oedd ei dad yn 70 oed, ond yn 130, sef 352 ar ol y diluw, ac A. M. 2008. Gwlad ei enedigaeth oedd Ur y Caldeaid, yr hon ydoedd o du y dwyrain i'r afon Euphrates. Geilw Stephan hi (Act. vii.) Mesopotamia, am ei bod yn gorwedd rhwng dwy afon, yr hyn yw ystyr y gair. Edr. MESOPOTAMIA. Geilw y prophwyd Jeremiah hi, 'gwlad delwau cerfiedig,' ac a ddywed fod ei thrigolion yn ynfydu mewn eilunod. Pen. 50. 38. Yn y wlad hon, sef gwlad y delwau cerfiedig, yr ymddangosodd yr Arglwydd gyntaf i Abraham, ac a'i galwodd allan o honi, pan ydoedd yn 71 neu 74 o oed, medd rhai.* Aeth efe a

---

* 'A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, Dos allan o'th wlad,' &c. Gen. 12. 1. Y mae amrywiaeth barn yn nghylch galwad Abram: rhai yn hòni iddo gael ei alw *ddwy waith*, ac eraill yn barnu nas galwyd ef ond *un waith*. Yn Gen. 11. 31. rhoddir i ni hanes fod Terah a'i holl deulu yn gadael Ur y Caldeaid i fyned i Ganaan. Yr oedd hyn yn ddilys mewn canlyniad i grybwylliad dwyfol. Tra yr oeddynt yn aros yn Haran bu farw Terah. Gwedi hyny, y mae Duw yn adnewyddu ei alwad i Abram, ac yn peri iddo fyned i Ganaan. Gen. 12. 1.——Y mae y Dr Hales, yn ei Amseryddiaeth, yn barnu yn gryf iddo gael dau alwad; y cyntaf wedi ei adael heb grybwylliad am dano, medd efe, yn yr Hen Destament, ond wedi ei goffâu yn neillduol yn y Testament Newydd. Act. 7. 2, 3, 4. 'Duw y gogoniant a ymddangosodd i'n tad Abraham, pan oedd efe yn (Ur y Caldeaid) Mesopotamia, cyn iddo drigo yn Charran, ac a ddywedodd wrtho, Dos allan o'th wlad, ac oddiwrth dy dylwyth, a thyred i'r tir a ddangoswyf i ti.' Oddiwrth hyn, eglur yw, i Dduw alw Abraham cyn iddo ddyfod i Charran. Rhoddir hanes am yr ail alwad yn Gen. 12. 1. 'Yr Arglwydd a ddywedodd,' nid *oedd wedi dywedyd*, 'Dos allan *o'th wlad*, ac oddiwrth *dy genedl*, ac o dŷ dy dad, i'r wlad a ddangoswyf i ti.' (הארץ την γην) *i y wlad*. Y mae gwahaniaeth y ddau alwad yn eglur, wrth sylwi ar yr iaith wreiddiol, a chyfieithu yn gyfatebol. Yn y cyntaf yr oedd y wlad yn *annhenodol*, fel ei breswylfa ond dros ychydig amser; ond yn yr ail y mae yn *benodol*, yn dynodi lle ei drigfa. Yn y diweddaf crybwyllir hefyd ei fod i ysgaru oddiwrth dŷ ei dad, ac i adael ei frawd Nachor a'i deulu yn Charran. Y galwad hwn a ufuddhaodd Abraham iddo, heb wybod i ba le

Digitized by Google

theulu ei dad i Haran; ac wedi trigo yno o gwmpas pum mlynedd, bu farw ei dad. Wedi hyny aeth Abraham, a Sarah ei wraig, a Lot ei nai, tua Chanaan. Yr oedd ei daith o Haran i Sechem yn ngwlad Canaan, yn faith ac yn llawn o beryglon, trwy anialwch Palmyrena, tros fynyddoedd uchel Libanus, neu Hermon, neu Gilead; ond ufudd-dod ffydd a orchfygodd y cwbl, ac efe a ddaeth trwy holl anhawsderau y ffordd i wlad Canaan.

Yr oedd galwad Abraham yn weithred neillduol o ras; nid yn unig i Abraham ei hun, ond hefyd i'r eglwys yn gyffredinol. Hyd yn hyn, nid oedd un neillduad penodol gwedi bod rhwng y wir eglwys a'r byd yn gyffredinol. Bu y cymysgedd hwn yn foddion o lygriad i'r eglwys fwy nag unwaith, cyn ac wedi y diluw. Yr oedd y byd yn gyffredin gwedi syrthio oddiwrth Dduw i eilun-addoliaeth yn yr amser hwn; a gwir dduwioldeb, trwy hyn, yn dra isel. O'i benarglwyddiaeth a'i ras, rhyngodd bodd i Arglwydd y gogoniant alw a neillduo Abraham iddo ei hun, i hysbysu ei enw iddo—i fod yn gyllidfa yr addewidion—i fod yn dad i Grist yn ol y cnawd—ac i'r eglwys weledig fod yn ei dŷ hyd ddyfodiad y Messïah addawedig; sef o gwmpas dwy fil o flynyddoedd. 'Eiddo y rhai,' *tros yr holl amser hwn*, 'oedd y mabwysiad, a'r gogoniant, a'r cyfammodau, a dodiad y ddeddf, a'r gwasanaeth, a'r addewidion.' Rhuf. 9. 4. Y mae yr holl wir ddedwyddwch a feddianna y byd, neu a feddiennir gan neb o blant dynion, yn deillio o Abraham a'i hâd. Trwyddynt hwy y mae genym Fibl, Iachawdwr, ac efengyl. Y gwreiddyn ydynt, ar ba un yr impiwyd yr eglwys efengylaidd, ac o ba un y derbyn ei holl freintiau.

Y mae galwad Abraham yn dangos, 1. Neillduol ofal Duw am ei eglwys yn y byd. Y mae yn ei bywhau a'i hail-gyfodi, pan, trwy wrthgiliadau ei phroffeswyr, a llygredigaethau yn tôri allan, y mae wedi llesgâu i raddau mawrion. Gall alw y pethau nad ydynt, fel pe byddent: gall roddi bôd i'r hyn nid oes fôd iddo; ac fe all adgyfodi a chryfhau y llesg a'r gwan. Ezec. 34. 16.——2. Y mae hefyd yn amlygu, gyda dysgleirdeb nid bychan, drugaredd raslawn Duw tu ag at bechaduriaid. Yn eilun-addolwr, yn ngwlad y delwau cerfiedig, y cafodd Duw Abraham, heb ddim rhagoriaeth rhyngddo a'r lleill o'i gyd-wladwyr; ac felly, yn ddiammeu, y buasai yn parhau, oni buasai i Dduw y gogoniant ymddangos iddo, a'i alw allan oddi yno. Jos. 24. 2. Act. vii.——3. Gellir gweled hefyd, yn ngalwad Abraham, natur ac effeithioldeb galwad Duw ar bechaduriaid. 'Dos allan,' medd Duw, 'o'th wlad, ac oddiwrth dy genedl,' &c. Gen. 12. 1. Y gorchymyn hwn, a nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân trwyddo, a genedlodd ffydd ac ufudd-dod parod ac ewyllysgar yn nghalon Abraham. Galwad Duw oedd yr achos effeithiol, fel ag yr oedd graslonrwydd Duw yr achos cynhyrfiol o'r holl wahaniaeth, o ran ffydd ac ufudd-dod, rhwng Abraham a'r lleill o'r genedl. Nid oblegid ei fod yn well, o'i ran ei hun, y galwodd Duw ef; ond galwad Duw a effeithiodd ynddo yr holl ragoriaeth. 1 Cor. 1. 26, &c.——4. Y mae natur ac ansawdd ffydd, hefyd, i'w gweled yn ngalwad Abraham. 'Trwy ffydd, Abraham, pan ei galwyd, a ufuddhaodd.—Cyfododd Duw y cyfiawn o'r dwyrain, ac a'i galwodd at ei droed.' Heb. 11. 8. Esa. 41. 2. At ei droed y mae Duw yn dwyn y galwedigion, i'r llwch, i dderbyn ei ddysgeidiaeth ddwyfol, ac i ufuddhau o galon a pharodrwydd meddwl. Credodd yr addewid, a hyny a'i nerthodd ef i ufuddhau i'r gorchymyn, trwy adael y cwbl, ei wlad, tŷ ei dad, ei eilunod, &c., ac a aeth, yn ddiymholi, ar ol yr Arglwydd. Gwelodd anfeidrol fwy yn yr addewid na'r cwbl yr oedd efe yn ei adael; am hyny nid anhawdd oedd ganddo gychwyn. Dechreuodd ei grefydd, lle y mae crefydd etto yn cael ei dechreuad, os bydd o'r iawn ryw, mewn ffydd, ufudd-dod, a hunan-ymwadiad. Os na bydd y ffrwythau hyn yn tyfu, fel effeithiau ein ffydd, yr achos yw, am nad yw y ffydd yn iachusol ac yn ddiffuant. Ps. 45. 10. Mat. 10. 37, 38. a 16. 24, &c. Ioan 15. 19. 2 Petr 1. 4. Dat. 18. 4.

Wedi dyfodiad Abraham i wlad Canaan, ymddangosodd yr Arglwydd iddo yn ngwastadedd Mamre, fel tystiolaeth o'i foddlonrwydd i'w ffydd a'i ufudd-dod; ac i'w gysuro yn y wlad estronol hon, trwy gadarnhau a chwanegu ei addewidion iddo. Yn ei ymddangosiad cyntaf, yr oedd yr Arglwydd wedi addaw ei wneuthur yn genedlaeth fawr—ei fendithio—mawrygu ei enw—ei wneuthur yn fendith—a bendithio holl deuluoedd y ddaear ynddo. Gen. 12. 2. Yn yr ail ymddangosiad hwn, mae yn addaw gwlad Canaan iddo, ac i'w hâd; ac yntau a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd.

Yn fuan wedi hyny, adeiladodd allor rhwng Bethel a Hai, ac a *alwodd* ar enw yr Arglwydd. Gen. 12. 6, 7, 8. Mae y gair *Heb.* קרא yn arwyddocâu *galw ar*, neu *gyhoeddi* enw yr Arglwydd; ac, hwyrach, iddo wneuthur pob un o'r ddau. Gwaith Abraham yn galw ar enw yr Arglwydd, a arwydda, bod yr Arglwydd wedi hysbysu ei enw iddo; heb hyn nis gallasai alw arno mewn ffydd. Credodd Abraham am Dduw yn ol yr hysbysiad hwn, a'i haddefodd, ac a'i haddolodd yn gyhoeddus. Abraham yw y dyn cyntaf o'r hyd y dywedir i Dduw *ymddangos* (ירא) iddo; sef yn gyntaf, yn Ur y Caldeaid; Act. 7. 2.—ac yn ail, yn ngwastadedd Moreh, neu y *dderwen* (אלון) Moreh. Gen. 12. 7. Pa fath oedd yr ymddangosiad o'r Arglwydd i Abraham, nid yw amlwg: hwyrach iddo roddi i Abraham ryw arwydd dysglaer, gweledig i'w lygaid corphorol, o'r presennoldeb dwyfol. Hyn sydd ddilys, beth bynag, i Abraham gael hollol foddlonrwydd mai dadguddiad dwyfol oedd, yn wahanol oddiwrth bob peth arall. Gan fod Duw yn anfeidrol goruwch pawb, diammeu y dichon hysbysu ei hun felly, i hollol foddlonrwydd i'w bobl. Cymdeithas ddiflino o bob tu, a diddarfod byth, yw y gymdeithas rhwng Duw a'i bobl. O'u tu hwy mae aml rwystr ac attaliad, a llesgrwydd mawr ar y goreu; ond y mae yr Arglwydd, o'i ddaioni a'i raslonrwydd ei hun, yn ymweled â hwynt drachefn a thrachefn; a thrwy hyny yn eu hyfforddi a'u dwyn i fynu yn raddol i'r gymdeithas dragywyddol, yr hon a lwnc bob cymdeithas arall iddi ei hun.

Wedi buddugoliaethu ar y breninoedd cedyrn a gaethgludasent Lot, a chael ei fendithio ar ei ddychweliad, mewn modd ardderchog, gan Melchisedec, brenin Salem, ac offeiriad y Duw goruchaf, ymddangosodd yr Arglwydd drachefn i Abraham mewn gweledigaeth. Gen. xv. Diammeu fod buddugoliaeth hynod Abraham ar y breninoedd, yn gadernid neillduol i'w ffydd, o ran ei ddiogelwch ei hun, yn gystal ag yn wystl o fuddugoliaeth Crist ar holl alluoedd y tywyllwch, a buddugoliaeth yr eglwys drwyddo.

Yma yn gyntaf y sonir am *air* yr Arglwydd yn dyfod at un mewn *gweledigaeth*. Y mae rhai yn golygu Crist yn cael ei arwyddo, y Gair tragywyddol, דבר יהוה 'Y GAIR IEHOFAH,' neu 'IEHOFAH Y GAIR.' Addawodd fod iddo yn darian, ac yn wobr (שכר) neu digonoldeb mawr a helaethlawn. Y gair שכר a arwydda, *yfed i foddlonrwydd*, i sirioldeb, neu yr hyn a fyddo yn boddloni; ac felly yn arwyddo cyflog, gwobr, neu yr hyn a fyddo yn boddloni gwr am ei waith. Y mae yr Arglwydd, yn y geiriau, yn addaw bod iddo ef, ac i bawb yn meddiannu yr un ffydd ag yntau, yn amddiffynfa gadarn, fel tarian, tra byddai yn y rhyfel, ac yn rhan gyflawn ddigonol byth iddo.

Dywedir, yn ganlynol i'r weledigaeth hon, mewn modd neillduol am ffydd Abraham—'Yntau a gredodd *yn yr* Arglwydd, (*yn* IEHOFAH) ac efe a'i cyfrifodd

---

yr oedd yn myned iddo, ond yn ymddiried yn ddiholliad i'r arweiniad dwyfol. Heb. 11. 8.——Gwel y Dr Hales's *New Analysis of Chronology*.

Digitized by Google

iddo yn gyfiawnder.' Y geiriau hyn a goffêir gan yr apostol fel prawf diammheuol mai trwy ffydd, ac nid trwy weithredoedd, y cyfiawnheir pechadur ger bron Duw. Yn yr addewid y cafodd Abraham gyfiawnder. Yr oedd ffydd Abraham yn golygu Crist yn yr addewid, yr hwn yw yr Arglwydd ein Cyfiawnder, ac a gredodd ynddo fel y cyfryw. Gwelodd bob cyfiawnder (שכר) ynddo, megys ag y dywedodd Duw yn yr addewid. Nid oes le i ammeu nad oedd Abraham wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd yn yr addewid cyn hyn; ond y mae yn dra thebygol i'r ymddangosiad gogoneddus hwn o'r Arglwydd iddo, gan addaw y byddai yn darian ac yn wobr iddo (yn arwyddo yr hyn ydyw Crist i bechadur) ei nerthu yn y ffydd yn Nghrist a'i gyfiawnder, gyda chadernid buddugoliaethus ar ei holl ofnau. Rhoddodd, yn hyn, ogoniant i Dduw gyd âg enwogrwydd hynod, trwy orphwys arno yn ol yr addewid. Yma y sonir am gredu gyntaf yn y Bibl.

Cyn ymadael âg ef y tro hwn, y mae yr Arglwydd yn gwneuthur cyfammod rheolaidd âg Abraham, trwy aberth, i gadarnhau yr addewid o wlad Canaan iddo ef a'i hâd; ac mewn gweledigaeth yn hysbysu iddo amrywiol helynt ei hâd rhagllaw. Y trwmgwsg a syrthiodd ar Abraham tu a machludiad yr haul; y dychryn a'r tywyllni mawr yn ganlynol i hyny, oeddynt yn arwyddocäol o grwydriad a chystudd ei hâd yn Nghanaan ac yn yr Aipht dros bedwar can mlynedd.* Y ffwrn yn mygu, a'r lamp danllyd yn tramwyo rhwng y darnau, ydynt yn dangos profedigaethau tanllyd ei hâd, yn enwedig Crist, a'u gwaredigaethau gogoneddus. Deut. 4. 20. Ps. 21. 10. Esa. 62. 1. Jer. 11. 4. Galar. 5. 10. Malachi 4. 1. Luc 12. 28. Edr. ADAR.

Deallodd Sarah, trwy yr addewid, fod Abraham i gael hâd lliosog iawn; a'r hâd hwnw i etifeddu gwlad Canaan; ond hyd yn hyn, nid oedd sôn am Sarah yn yr addewid, ac y byddai iddi hi ymddwyn ac esgor. Pan oedd yn 75 mlwydd oed, heb un tebygoliaeth iddi blanta, heb ymgynghori â Duw yn yr achos, trwy wendid ffydd, a rhesymau cnawdol, er ei bod yn cydnabod llaw Duw yn ei diffrwythdra, hi a roddes Agar ei llawforwyn i Abraham fel ail wraig, neu wraig o is radd iddo. Gyda gormod o brysurdeb cytunodd Abraham â'i chynnygiad; aeth i mewn ati, a beichiogodd, ac a esgorodd ar fab, yr hwn a alwodd efe ISMAEL. Dyma y siampl gyntaf a gawn, fod i ŵr *duwiol* ddwy o wragedd—siampl ddrwg ydoedd; a blaen-ddrych niweidiol, a fu yn achos o lawer o anghysur ac anesmwythder teuluaidd i Abraham, ac eraill hefyd a ganlynasant ei siampl yn hyn o orchwyl. Edr. LAMECH.

Pan oedd Abraham yn 99 oed, ac yn mhen 14 o flynyddoedd wedi iddo fyned i mewn at Agar, a'i phriodi, ymddangosodd yr Arglwydd i Abraham drachefn. Nid hwyrach nad oedd yr yspaid hir hwn o ddyeithrwch Duw iddo yn gerydd am yr hyn a wnaeth mewn perthynas i Agar. Beth bynag am hyny, amlhaodd Duw ei addewidion iddo; a newidiodd ei enw, yn arwydd o fendith fwy; cyfnewidiodd hefyd enw Sarai i Sarah, yn arwydd y byddai yn *dywysoges* enwog yn yr eglwys, ac a addawodd roddi mab i Abraham o honi, ac a gadarnhaodd ei gyfammod âg ef, trwy arwydd yr enwaediad. I'r dyben o gadarnhau ei ffydd yn yr addewid, amlygodd ei hun iddo wrth yr enw Duw Hollalluog: אל שדי *Duw y Tywalltwr*, neu y *Gwasgarwr*; Duw holl-ddigonol ynddo ei hun, ac o'i gyfiawnder anchwiliadwy sydd yn tywallt yn helaeth i'w bobl. Wrth yr enw hwn yr oedd Duw yn rhoddi ar ddeall i Abraham, ei fod o'i holl-ddigonolrwydd anfeidrol ei hun, yn abl i gyflawni ei addewidion, heb gynnorthwy o fywiogrwydd natur Abraham a Sarah, nac un man arall. Addawodd yn ei ddwyfol fawredd a'i holl-ddigonolrwydd, fod yn Dduw i Abraham ac i'w hâd. Ar hyn syrthiodd Abraham ar ei wyneb ger bron yr Arglwydd, ac a *chwarddodd* mewn llawn sicrwydd a gorfoledd ffydd. Yr oedd Duw wedi pentyru a chadarnhau ei addewidion iddo, fel yr oedd gwedi ei lenwi a'i orchfygu gan syndod, gorfoledd, a diolchgarwch. Ps. 126. 2. Esa. 54. 1. Luc 1. 14. a 5. 8. Ioan 8. 26. Gal. 4. 27.

Cyn dystryw Sodom a Gomorrah, ymddangosodd yr IEHOFAH mawr yn Mherson y Mab, tebygol, mewn dull dynol i Abraham, a dau o'i angelion, fel gweinyddwyr gyd âg ef. Buont yn y babell gyd âg Abraham a Sarah, mewn modd tra chyfeillgar, yn ymddyddan âg ef, fel gwr â'i gyfaill, fel pe buasai yn ffaelu celu oddiwrth Abraham yr hyn oedd ar fedr ei wneyd, sef dystrywio Sodom. Adnewyddodd yr addewid o blentyn i Abraham a Sarah, gan nodi amser ei chyflawniad; ar hyn chwarddodd Sarah, ac y cafodd ei cheryddu am hyny. Gen. xviii. Y mae yr Arglwydd yn sylwi ar ofal Abraham am ei deulu, gyda chymeradwyaeth neillduol, fel annogaeth i bawb i ddilyn ei lwybr rhagorol yn hyn o orchwyl; 'A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf? Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffyrdd yr Arglwydd, gan wneyd cyfiawnder a barn.' Gen. 18. 17, 18, 19. Y mae y geiriau yn dangos fod Abraham yn gydwybodol wrth y gorchwyl tra phwysfawr hwn o addysgu ei deulu yn ffyrdd Duw, ac yn rhoddi ei holl awdurdod allan, fel pen-teulu, o blaid yr Arglwydd, a'i ffyrdd sanctaidd. Yr oedd ei hun gwedi cael hyfrydwch ynddynt; ac yr oedd yn gweled, nid yn unig ar bawb angenrheidrwydd, a'i bod yn ddyledswydd arnynt, ond hefyd ei fod yn ddedwyddwch i bawb rodio ynddynt. Y mae canmoliaeth yr Arglwydd iddo yn yr achos hwn, yn dangos mor fanwl y sylwa efe ar ein holl ymddygiad, yn mhob sefyllfa; ac mor gymeradwy ganddo ein hymgais i daenu gwybodaeth o hono, a thrwy hyny, wneuthur lles i'n gilydd, a gogoneddu ei enw mawr yn y byd.

Yn ol ei addewid ymwelodd Duw â Sarah, a hi a feichiogodd, ac a ymddug i Abraham fab yn ei henaint. Gen. xxi. Er hir oedi, etto y mae yr addewid yn sicr yn ei hamser. Ond, gwedi hir ddysgwyl am fab, a'i gael yn ol yr addewid, dyma orchymyn rhyfedd oddiwrth Dduw i Abraham, ag oedd i'w brofi i'r radd eithaf, o ran ei ffydd a'i ufudd-dod; sef iddo gymeryd ei fab, ei unig fab Isaac, yr hwn a hoffai, a'i offrymu yn boeth-offrwm. Peth anhawdd oedd credu ac ufuddhau pan yr oedd y gorchymyn a'r addewid yn ymddangos yn gwbl groes i'w gilydd; ond trwy orchestwaith ffydd, credodd Abraham y naill, ac a ufuddhaodd y llall. Ar hyn cadarnhaodd Duw ei gyfammod âg ef trwy *lw*. 'I mi fy hun y tyngais, medd yr Arglwydd (am na allai dyngu i neb oedd fwy, medd Paul) yn ddiau mai gan fendithio y'th fendithiaf,' &c. Gen. xxii. Heb. vi. Melus a rhyfedd ydyw hanes Duw a'i bobl.

Wedi marwolaeth Sarah, Abraham a briododd Ceturah, a bu iddo chwech o feibion o honi. Bu Abraham farw yn 175 mlwydd oed, A. M. 2183, C. C. 1822. Claddwyd ef yn ogof Machpelah, gyda Sarah ei wraig. Gen. 25. 8. 'Ac Abraham a fu farw mewn oed teg, yn hen ac yn gyflawn,' (שבע) sef cyflawn o bob peth, o ddyddiau, o ras a sancteiddrwydd, o gysuron, ac o barch. Aeth i dragywyddoldeb yn gyflawn o'r bendithion a gafodd yma gan yr Arglwydd: sef digon o bob peth i barhau byth. Gen. 25. 8.

Nid fel hanes rhyw ŵr duwiol arall y mae i ni ddarllen hanes Abraham: am hyny byddai yn fuddiol i sylwi ychydig yn fanwl ar natur goruchwyliaethau Duw tu ag ato, a thu ag at yr eglwys ynddo. Mae y cwbl o'i hanes agos yn allegawl, yn gysgodol, ac yn rhag-ddangosiadol o bethau etto i ddyfod; y rhai oedd

* Gwel y *Drysorfa Ysbrydol*, llyfr i, tu dal. 355.



Digitized by Google

gan Dduw i'w cyflawni tu ag at ei eglwys yn y byd. 'Yr hyn bethau ydynt mewn *alegori*,' medd yr apostol. Gal. 4. 24. Hanes gwir ydyw am Abraham, ond mae mewn *alegori*, neu yn gyffelybiaethol hefyd. Pan y cychwynodd Abraham o Ur y Caldeaid, yr oedd yr holl eglwys yn cychwyn ynddo; ac yr oedd achos Duw yn y byd yn cael y fath adnewyddiad rhyfedd trwy hyny, yr hwn a barhâi, o ran ei effeithiau, hyd ddiwedd amser. Pan dderbyniodd efe yr addewidion, derbyniodd hwynt yn ol meddwl Duw, fel cynnrychiolwr yr holl eglwys, a phob aelod o honi; ac y maent yn etifeddiaeth i'w hâd ysbrydol oll, yn Iuddewon a Chenedloedd. Ei ddwy wragedd ydynt yn arwyddo y ddwy oruchwyliaeth, neu y ddau Destament: Sarah yn rhagddangos yr addewid, ac eglwys y Cenedloedd tan yr oruchwyliaeth efengylaidd: ac Agar, y forwyn gaeth, yn gosod allan gyfammod Sinai, a'r oruchwyliaeth Iuddewig; ac yn gosod allan broffeswyr cnawdol, deddfol, yn mhob oes, y rhai ydynt yn elyniaethol i blant y wraig rydd. Y mae diffrwythdra Sarah, pan oedd Agar yn planta, yn arwyddo diffrwythdra y Cenedloedd dros lawer o oesoedd, pan oedd eglwys yr Iuddewon yn iraidd ac yn ffrwythlon. Yr oedd gwaith Sarah yn ymddwyn yn ei henaint, wedi i rym natur ddarfod, trwy nerth yr addewid yn unig, yn arwyddo fod Duw yn rhoddi bôd i'w holl blant ysbrydol, o'i raslonrwydd a'i gyflawnder anfeidrol ei hun; ac y byddai i'w eglwys gael esgor arni, yn mhlith y Cenedloedd meirwon, trwy allu yr efengyl, a golud gras Duw yn Nghrist Iesu. Esa. 54. 1. Zech. 3. 14. Gal. 4. 27.

Rhoddir gan yr apostol Paul, yn Rhuf. iv, a Galat. iii, a iv, esboniad rhagorol ar natur goruchwyliaeth Abraham. Ceir gweled yno, yn dra amlwg, yn ol esboniad yr apostol, fod i ni ddeall wrth hâd Abraham, nid yn unig yr Iuddewon, ei hâd yn ol y cnawd, na chwaith ei hâd ysbrydol, sef y sawl a gerddant lwybrau ffydd Abraham; ond, yn fwyaf neillduol, y meddylir Crist; yn yr hwn, *yn unig*, y bydd i'r holl Genedloedd gael eu bendithio. Mae cyfammod yr addewid i Abraham yn gosod allan natur y cyfammod gras yn Nghrist, a threfn fawr yr iechydwriaeth yn nghyflawnhad pechadur trwy ras, trwy ffydd, heb weithredoedd. Mae Crist, hâd Abraham, yn cael ei ddal allan yn y cyfammod hwn, fel trysorfa ddiddarfod o fendithion i'r holl Genedloedd; yn darian ac yn wobr, sef yn amddiffynfa ac yn gyflawnder digonol byth iddynt. Yn yr ystyriaethau hyn, y mae Abraham yn cael ei alw yn dad i bawb a gredant yn Nghrist: 'yr hwn yw ein *tad ni oll*, sef y sawl a gerddant *lwybrau ffydd Abraham*.' Mae yn dad goruchwyliaethol a chyfammodol; yr oedd felly yn wreiddyn yr olew-wydden, o frasder pa un yr oedd yr holl gangenau yn cyfranogi. Rhuf. 11. 17. Am hyny, mae addewid a chyfammod Duw âg Abraham, a gadarnhawyd iddo trwy *lw*, yn rhoddi cysur cryf i bawb a ffoisant i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'u blaen. Heb. vi. Y mae pawb sydd blant i Abraham trwy ffydd yn Nghrist, yn cyfranogi gyd âg Abraham yn yr addewidion a'r cyfammod, ac yn yr hyn oll oedd gynnwysedig ynddo yn ysbrydol. Y mae Duw Abraham yn Dduw iddynt, yn darian ac yn wobr mawr iawn; a'r Ganaan nefol yn etifeddiaeth dragywyddol iddynt.

Mae Abraham, fel tad, yn siampl o ffydd ac ufudddod i'w holl hâd ysbrydol, Iuddewon a Chenedloedd. Rhuf. 4. 9, &c. Credodd, yn bechadur, er cyflawnhad, yn y gwrthddrych addawedig, sef Crist Iesu, credodd dan obaith yr addewid, yn erbyn pob gobaith wedi ei sylfaenu ar natur; nid ystyriodd ei gorph ei hun; ond ystyriodd allu a ffyddlondeb Duw i gyflawni yr hyn a addawodd. Yr un etto yw ffydd etholedigion Duw, o ran ei sylfaen—ei gwrthddrych—ei hansawdd—a'i heffeithiau. Am ufudd-dod Abraham, y mae ei ufudd-dod yn cyfateb, fel yn mhawb, i rym a bywiogrwydd ei ffydd. Yr un peth yw Duw yn ei orchymyn ag yn ei addewid, gan wir ffydd; mae mor deilwng o ufudd-dod yn y naill, yn ngolwg ffydd, ag ydyw yn y llall. Y mae mawredd Duw yn awdurdodol yn y gorchymyn, yn plygu yr enaid i ufudddod, fel y mae ei allu yn gweithredu yn rhinweddol yn yr addewid, yn nerthu yr enaid i'w derbyn ac ymorphwys arni. Edr. Abimelech, Addewid, Agar, Cyfammod, Enwaediad, Ffwrn, Ffydd, Lot, Isaac, Ismael, Lamp, Melchisedec, Sarah, Ufudd-dod, &c.

'Abram yr Hebread.' Gen. 14. 13. Tebygol iddo gael yr enw hwn oddiwrth ei waith yn dyfod o tu hwnt i'r afon Euphrates, i fyned i Ganaan; o herwydd arwydda y gair העברי a gyfleithir *Hebread*, *myned trosodd*, neu *dyfod o tu hwnt*. Er y barna rhai iddo gael yr enw oddiwrth *Eber*, neu *Heber*, mab Gelah; Gen. 11. 15. ond paham y rhoddwyd enw iddo oddiwrth Heber, yn hytrach nag oddiwrth ei dad ei hun, neu ryw un arall o'i hynafiaid, nis gallodd neb ddangos un rheswm. Gellir penderfynu, gan hyny, iddo gael ei alw yn Hebread oddiwrth y dygwyddiad uchod, ac nid oddiwrth un o'i hynafiaid, am ba un nis gwyddom ddim ond yr enw, yr hwn a fu fyw chwech o genedlaethau o'i flaen; a thrwy yr holl amser hwn, ni alwyd neb o'i hiliogaeth yn Hebreaid: profa hyn yn eglur na alwyd Abram yn Hebread oddiwrth Heber.——'Na chymerwn o edau hyd garai ei esgid, nac o'r hyn oll sydd eiddot ti: rhag dywedyd o honot, Myfi a gyfoethogais Abram.' Gen. 14. 23. Geiriau diarebol ydyw y rhai hyn, cyflawn ystyr pa rai, tebygol, nad ydynt adnabyddus.——'Ac Abraham a aeth i alaru am Sarah, ac i wylofain am dani hi.' Gen. 23. 2. Sarah a fu farw yn Nghaer-Arba. Trigodd Abraham yn Beerseba, (Gen. 22. 19.) a dywedir i Sarah farw yn Hebron, yn nghylch pedair milltir ar hugain o Beer-seba. Er y cyfleusdra i borthi anifeiliaid, tebygol fod gan Abraham lawer o drigfanau amserol; ac yn neillduol, un yn Beer-seba, ac un arall yn Hebron; a thebygol tra yr oedd yn ymdeithio yn Beer-seba, i Sarah farw yn Hebron; a'i waith yn dyfod i alaru am Sarah, a arwydda, tebygol, ei ddyfod o'r lle cyntaf i'r diweddaf, pan glywodd am farwolaeth Sarah. Mae yn nodedig mai Sarah yw yr unig wraig y rhoddir hanes neillduol yn yr ysgrythyrau am ei *hoedran*, ei *marwolaeth*, a'i *chladdedigaeth*. Barnwyd hi yn deilwng o fwy o anrhydedd nag eraill.

'Hâd Abraham a gymerodd efe'—sef Iesu. Heb. 2. 16. Cymerodd Crist sylwedd dynol o lwynau, neu hâd Abraham, i undeb personol â'i Berson Dwyfol, fel y byddai yn Achubwr addas i'w bobl. Yr oedd Crist mewn bod, fel Person Dwyfol, er tragywyddoldeb; yr oedd wedi ymrwymo yn y cynghor dwyfol, i achub dynion syrthiedig, ac nid angelion syrthiedig; i'r dyben i'w hachub, cymerodd natur arall, sef hâd Abraham, i undeb â'i Berson Dwyfol, yn ol yr addewid i Abraham. Nid dynoliaeth yn unig ydoedd, ond *hâd* ydoedd, a hâd *Abraham;* felly y mae Crist o ran ei Berson mor wirioneddol yn hâd Abraham, ag un arall o'i blant; ac, fel y cyfryw, mae yn Iachawdwr addas, ac yn gyllidfan, neu drysordŷ, yr addewidion i'r holl genedloedd. Nid person dynol a gymerodd y Person Dwyfol iddo ei hun; ond natur ddynol i undeb â'r Person Dwyfol. Nid oes, gan hyny, amlhad personau, ond chwanegiad natur i'r Person, fel y mae y natur ddynol yn un â'r Person Dwyfol, ac yn eiddo iddo, ac yn rhan o Grist; a hyny, nid trwy gymysgiad sylwedd, ond trwy undeb personol ac anwahanol. Yr oedd y natur ddynol yn hollol gwbl yn dianc, yn ffoi, yn soddi i golledigaeth; Mab Duw, o'i ben-arglwyddiaeth, a'i gariad rhad, a *gymerodd afael arni* (fel y mae y gair Groeg επιλαμβανεται, yn arwyddocâu) ac felly a'i hattaliodd rhag cwbl ddinystr, ond a'i hachubodd, a'i diogelodd, ac a'i dyrchafodd yn ei Berson ei hun, mewn modd

Digitized by Google

dirgeledig, goruchel, a gogoneddus. Gen. 22. 18. Zech. 13. 7. Luc 1. 31, 35. Ioan 8. 36. Act. 13. 19. Rhuf. 9. 5. Gal. 3. 16. a 4. 4. Yr oedd Abraham yn gysgod o Grist, 1. Yn nghyfammod Duw âg ef. Gen. 17. 2. Gal. 3. 29.——2. Yn ei fod yn ben pobl neillduol. Deut. 7. 6. 1 Petr 2. 9.

**ABREC,** אברך [*plygwch y glin*] enw a orchymynodd Pharaoh ei gyhoeddi o flaen Joseph, er anrhydedd a pharch iddo. Gen. 41. 43.

**ABSALOM,** אבשלום [*heddwch y tad*, neu *tad heddwch*]* trydydd mab y brenin Dafydd. Ei fam oedd Maachah, merch Talmai, brenin Gesur. 2 Sam. 3. 3, 4. Bu iddo dri o feibion ac un ferch, a'i henw Tamar, yr hon oedd wraig dêg yr olwg.† 2 Sam. 14. 27. Nid oedd ŵr mor glodfawr am ei degwch ag Absalom o fewn holl Israel: o wadn ei droed hyd ei goryn nid oedd wrthuni ynddo ef. Ond nid oedd harddwch y meddwl yn dufewnol yn ateb i'w degwch corphorol. Coffëir am ei wallt yn enwedigol, y pwysai, pan gneifiai ei ben bob blwyddyn, 200 sicl. Dyn masw, mursenaidd, gwaedlyd, creulawn, aflan, twyllodrus, ydoedd. Nid oes un weithred dda a wnaeth trwy ei holl fywyd yn cael coffâu am dani. Lladdodd ei frawd Amnon; a halogodd ordderch-wragedd ei dad; trwy fwyneidd-dra twyllodrus lladratâodd galonau y bobl oddiwrth ei dad, a gwrthryfelodd yn ei erbyn. Yr Arglwydd, oblegid hyn, a ddygodd ddrwg ar Absalom. Cafodd Joab ef yn nghrog wrth ei wallt hardd, mewn derwen, a chymerodd dair bicell yn ei law, ac a'u brathodd trwy galon Absalom. Bwriasant ei gorph i ffôs fawr yn y coed, ac a osodasant arno garnedd geryg fawr iawn. Amcanodd Absalom ei ddyrchafu ei hun, a gwneuthur iddo enw mawr; ond Duw a'i siomodd, ac a'i taflodd i warth a dirmyg tragywyddol. Yn lle y golofn olygus a adeiladodd i fod yn feddrod iddo, ac yn goffadwriaeth am dano, cafodd gladdedigaeth asyn mewn ffôs, a'i goffadwriaeth yn ddirmygedig ac yn ffiaidd gan bawb hyd heddyw. I weled diwedd echrydus y cyfryw lwybrau, edryched ieuenctid ffol ar Absalom yn nghrog wrth bren; yn wrthodedig ac yn felldigedig gan nefoedd a daear; a chymerant rybydd mewn pryd. 2 Sam. xiv, xv, xvi, xvii. Edr. COLOFN, LLAW.

**ABSEN—U,** (ab-sen) tueddrwydd i roddi sèn, neu i enllibio. Y mae y gair *Heb.* רגל *absen*, yn arwyddo troed, troedio, olrhain, canlyn, yspio yn ddichellgar. Mae yr absenwr yn yspio traed ei gymydog, i edrych a genfydd ef yn llithro yn un lle, i'r dyben i gyhoeddi ei fai. Gelwir ef yn *athrodwr*, yn Diar. 25. 23. Y mae yr ysbryd hwn, a'r cyfryw arferiad, yn hollol groes i gariad at ein cymydog; ac am hyny yn bechadurus, ac yn nôd dyn heb ei adnewyddu, a phell oddiwrth Dduw. Edr. ENLLIB.

I'w gymydog nid halogwr,
O enw absenw nag absenwr.
*W. Middleton*

**ABSENOL,** *Llad.* ABSENTIA; *Saes.* ABSENCE; gŵydd ac absen; allan o olwg; anmhresennol. 1 Cor. 5. 3. Phil. 2. 11. Col. 2. 5.

**ABWYDYN,** (bwyd) abwyd, pryfyn. 'Mab dyn, yr hwn sydd abwydyn.' Job 25. 6. Mae Duw mor fawr ac ardderchog, fel nad oes dim ardderchogrwydd digonol i osod allan ei fawrhydi dwyfol. 'I bwy,' medd Duw, 'y'm gwnewch yn debyg, ac y'm cystedlwch, ac y'm cyffelybwch?' Esa. 40. 18, 25. Y mae dyn, yntau, mor wael a dirmygedig, fel nad oes dim yn y greadigaeth yn rhy wael i'w gyffelybu iddo. Gen. 3. 19. Job 14. 2. Ps. 39. 5. a 62. 9. Esa. 40. 6, 16, 17. *Abwydyn* yw, am mai o'r ddaear y gwnaed ef, ar y ddaear y mae yn byw—yn ddarostyngedig fel abwydyn, i gael ei sathru bob mynyd; heb allu i'w amddiffyn ei hun; i'r ddaear y dychwel at y pryfed, abwydyn at abwydyn. Darostyngodd pechod dyn o fod yn uchder, neu ben (ראש) llwch y byd (Diar. 8. 26.) i fod yn abwydyn; a'r gwaelaf o'r cwbl; etto, er gwaeled ydoedd, cofiodd Duw am dano, ac a ymwelodd âg ef mewn modd tra rhyfedd, trwy gymeryd ei natur arno, a dyfod yn bryfyn ei hunan Ps. 8. 4. a 22. 26.

**ACELDAMA,** חקל־דמה [*maes y gwaed*] dywedir ei fod yn sefyll o du y dehau i Jerusalem, ac o du y gogledd i afon Siloah, ac mai yr un yw a Maes y Panwr; dilys mai yr un yw a Maes y Crochenydd. Esa. 7. 3. Pan ddygodd Judas y deg ar hugain arian yn ol, y rhai a gawsai efe am fradychu ei feistr, yr arch-offeiriaid a'r llywodraethwyr a gymerasant arnynt nad oedd gyfreithlawn eu bwrw i'r drysorfa sanctaidd, am mai gwerth gwaed oeddynt, a phrynasant â hwynt y maes hwn i gladdu eu dyeithriaid ynddo; felly y galwyd ef yn faes y gwaed. Zech. 11. 12. Mat. 27. 8. Act. 1. 19. Mae teithwyr yn dywedyyd fod goruwch-adeilad arno yn bresennol; a bod y dwfr, yn mhen deuddydd neu dri, yn difa cyrph y meirw.*

**ACTAU,** Πραξεις των Αποστολων, sef *Gweithredoedd yr Apostolion.* Galwyd ef Actau (neu *Acte*, W. S.) oddiwrth y gair *Llad.* ACTA. Er nad oedd angen am dano, barnodd y cyfieithwyr parchedig yn gymhwys ei gadw yn Saesonaeg ac yn Gymraeg, am fod y gwledydd gwedi cynnefino âg ef o'r cyfieithiad Lladin, a fu yn arferedig dros holl Ewrop am gannoedd o flynyddoedd.

Awdwr y Llyfr hwn oedd, yn ol barn y rhan fwyaf, 'Luc y Physygwr anwyl;' yr hwn hefyd a ysgrifenodd yr efengyl a elwir wrth ei enw. Edr. LUC. Bernir hefyd iddo ysgrifenu yr hanes hwn yn Rhufain, pan oedd Paul yn garcharor yno, wrth ddymuniad y brodyr yno, a thrwy orchymyn Paul ei hun. Am yr amser, dywedir mai oddi amgylch triugain mlynedd ar ol genedigaeth Crist, saith ar hugain wedi troedigaeth yr apostol Paul, a'r bedwaredd i Nero, yn cynnwys hanes yr eglwys am ddeg ar hugain o flynyddoedd. Gwel D. Parry *in Prolegom. in Act. Apost.*

Y mae yr hanes o'r canlyniad mwyaf, yn nesaf at hanes Crist gan yr Efengylwyr.—1. Am ei fod yn cynnwys tystiolaethau godidog am adgyfodiad, esgyniad, a dyrchafiad Crist i'r nefoedd.——2. Am gyflawniad o'r hen addewidion a roddwyd i'r eglwys, o oes i oes, am dywalltiad yr Ysbryd Glân, a galwad y Cenedloedd, trwy udgorn floedd yr efengyl yn eu plith; a'r modd ardderchog y darostyngodd Crist yr holl fyd iddo ei hun, trwy ychydig o bysgodwyr tlodion, yn wyneb y gwrthwynebiadau cadarnaf a chreulonaf.——3. Am y rhoddir yma, hefyd, olwg eglur a chywir ar sefydliad a threfn yr eglwys yn nyddiau yr apostolion; yn nghyd âg amddiffyniad yr Arglwydd o'i eglwys mewn modd rhyfedd, yn nghanol erlidigaethau tanllyd, a marwolaethau didor. Yr oedd cynnydd yr eglwys mor eglur a goruwch-naturiol, fel yr aeth yn ddiareb 'Fod gwaed y merthyron yn hâd i'r eglwys:' yr oedd lladd y duwiolion yn eu hamlhau.——4. Yn y

* Beirniaid diweddar a ddywedant, lle y byddo Ab neu Abi, yn nechreu yr enw Hebraeg, y dylai y gair *Tad* fod yn gyntaf yn y cyfieithiad. Felly ystyr Abigail yw *Tad llawenydd*, neu *achos llawenydd*; Abimelech yw *Tad y brenin*, neu *Tad breninol*; Absalom yw *Tad heddwch*.—E.

† Yn 2 Sam. 14. 27. dywedir fod i Absalom dri o feibion, ac un ferch, sef Tamar; ond yn 2 Sam. 18. 18. dywed Absalom ei hun, 'Nad oedd ganddo fab i wneuthur coffa am dano.' Rhaid barnu, gan hyny, i'w feibion farw o'i flaen, er nad oes coffa am hyny. Nid oes un ffordd arall i gysoni yr ymadroddion yn y ddau le.

* Crybwylla Sandys fod cyrph y meirw yn cael eu difa mewn deuddydd; ond y mae efe yn cyfrif yr effaith hwn i ansawdd y tir. Dywed y Dr Robinson nad ydynt yn claddu neb yno er ys llawer blwyddyn, ac nad oes yno ddim i nodi y lle ond adfail yr hen adeilad.—E.

Digitized by Google

llyfr hwn gellir clywed pregethwyr yn pregethu, a gweled duwiolion yn byw, *yn ddiammheuol*, dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân; a theyrnas Satan, trwy hyny, yn diflanu, fel tywyllwch dudew o flaen goleuni buddugoliaethus yr haul. Gwelwn pa fath yw dynion dan ysbrydoliaeth Duw, pa beth oedd eu hathrawiaeth, a pha fath oedd eu bucheddau; pa beth a ddysgasant, a pha fodd yr ymddygasant tu ag at gyfeillion a gelynion; tu ag at y gwan a'r ammhëus; a thu ag at y gwrthwynebwr a'r anufudd. Duw anghyfnewidiol yw yr Ysbryd Glân; ac er bod amryw ddoniau o'r un Ysbryd, etto y mae gras a gwaith cadwedigol yr Ysbryd o'r un natur yn mhawb, yn mhob oes; felly y mae bucheddiad sanctaidd yn tarddu oddi wrthynt. Os gwaith yr Ysbryd Glân, yn nyddiau yr apostolion, oedd dyrchafu Crist yn yr athrawiaeth, ac yn nghalonau dynion, nid yr Ysbryd Glân sydd yn dysgu dynion i ddyrchafu rhyw beth arall yn ei le yn ein dyddiau ni. Os ydoedd, yn amser yr apostolion, yn marwhau dynion i gariad at y byd, i genfigen a malais at eu gilydd; yn tywallt cariad Duw yn eu calonau, trwy ei ddadguddio, a'u nerthu i'w gredu, eu dysgu i garu eu gilydd, a byw mewn undeb a thangnefedd heddychol; yr unrhyw ydyw ei effeithiau sanctaidd hyd heddyw. Edifeirwch a maddeuant pechodau, yn enw yr Iesu o Nazareth, oedd yr athrawiaeth, o ran y crynodeb o honi, a bregethwyd gan yr apostolion; edifeirwch am bechod, a chysur o faddeuant, y mae yr Ysbryd Glân yn gyfranu i eneidiau y sawl a gredasant yn enw Iesu. Pa le bynag y mae yr un Ysbryd wedi ei dywallt, y mae yno yr un ffrwythau o edifeirwch, ffydd, cariad, gobaith, a synied ysbrydol, nefolaidd; a lle mae y rhai hyny yn wirioneddol, yno y mae gwir Gristionogrwydd.

Y mae yr hanes, mewn modd boddlonol iawn, yn amlygu Duwdod a dynsawd yr Ysbryd Glân; ei waith yn yr eglwys, yn donio ac yn awdurdodi athrawon: yn goleuo, yn dwys-bigo, yn cyfnewid, ac yn sancteiddio pechaduriaid, trwy ddadguddio Crist iddynt yn yr efengyl; ei anfeidrol gyflawnder i'w swydd a'i waith; yn nghyd âg ymostyngiad yr eglwys iddo, yn hollol, yn ei arweiniad a'i gyfarwyddiadau. Yn nrych y llyfr hwn y gwelwn yr IEHOFAH mawr yn rhoddi ail dro o adnewyddiad ar y byd, yn Iuddewon ac yn Genedloedd; yn gosod i fynu deyrnas Crist yn y byd, trwy oruchwyliaeth rasol, a gogoneddus, yn ol golud gras Crist, yr hon sydd i barhau tra parhao amser, gyda mesur, mwy neu lai, o amlygrwydd a gogoniant. Nis gallwn lai na sylwi, wrth edrych ar y gwaith bendigedig, ar raslonrwydd a helaethrwydd anchwiliadwy olud Crist, ac anorchfygol nerth yr Ysbryd Glân, yn ei weithrediadau yn argyhoeddi, goleuo, a chyfnewid pechaduriaid. Y mae yn rhyddhau ac yn codi dyn o bob man—o'i hunan-gyfiawnder, a'i holl anfoesau; a'i ddwyn yn hollol at Grist, i fyw arno, ac i fyw iddo, ac i fyw gyd âg ef dros byth. Gwelwn yma yr hanes am y cyfnewidiad mwyaf rhyfedd yn un oes, yn meddwl a moesau dynion, gwedi ei effeithio heb allu nac awdurdod dynol, cyfreithlawn neu anghyfreithlawn; ie, yn wrthwyneb i holl alluoedd yr amser hwnw yn y byd; a hyny hefyd, nid mewn gwledydd diddysg, anfoesol, a barbaraidd, ond yn y rhai mwyaf o ran eu dynoliad, eu dysg, a'u moesolrwydd; sef yn ymerodraeth fawr Rhufain. Canfyddwn filoedd o ddynion yn cael eu troi o'r arferiad o bob drygioni at yr arferiad o bob rhinwedd. Llawer, mewn byr amser, yn cael eu diwygio mewn deall, gwybodaeth, tueddfryd, a serch; yn adnabod, yn caru, yn ymhyfrydu, ac yn ymddiried yn Nuw; yn cael eu troi o hunan-serch i'r dynserchgarwch mwyaf pur—yn byw yn unig i foddhau Duw, a gwneuthur tiriondeb a chymwynasgarwch i'w gilydd; yn llawenychu yn heddwch Duw, ac yn dysgwyl yn orfoleddus am eu gollyngdod i wlad dedwyddwch ac anfarwoldeb. Pwy a ddichon wadu nad yw hyn oll oddiwrth Dduw? Pwy ond y dall na wel yn y peth daionus hyn, ryfeddodau Duw tu ag at feibion dy ion? Y mae yr hanes rhyfedd hwn yn gadael y da llenydd yn sychedig am ychwaneg, gyda Paul, y garcharor yn Rhufain, dros ddwy flynedd, yn ei ardrethol ei hun, yn derbyn pawb a ddeuai ato, y pregethu teyrnas Dduw, ac yn athrawiaethu y peth am yr Arglwydd Iesu Grist, gyda phob hyfdra, yn d wahardd. Edr. PAUL. Heblaw yr esbonwyr cyffred ar y Bibl, edrychwch ar y llyfr hwn, S. Cradock, Lightfoot, a Dr F. Roberts's *Key*.

ACW, (ac, neu oc) draw. Esa. 28. 10. Ma 13. 21. 'Ai hyn yma ai hyn acw.' Preg. 11. *'This or that.' Saes.*

ACWILA, [*eryr*] *Llad.* AQUILA: Iuddew a a wyd yn Pontus. Efe a'i wraig Priscila oeddynt y gweithio pebyll lledr i luoedd y Rhufeiniaid. Dy chwelwyd hwynt yn fore i'r ffydd Gristionogol, hwyr ach trwy bregeth Petr ar ddydd y Pentecost yn Jeru salem. Buont yn trigo yn Rhufain nes eu gyru odd yno gan Claudius. Daethant i Corinth, lle bu Paul y llettya, ac yn cyd-weithio pebyll â hwynt. Daethan oddi yno i Ephesus, lle buont ddiwyd i ddysgu *Apolo* yn ffordd yr Arglwydd yn fanylach. Aethant drachefn i Rufain, a buont yn cadw tŷ cyfarfod i'r Cristionogion yno; yno y cyfarchwyd hwynt gan Paul yn e epistol at yr eglwys. Dychwelasant i Asia, a thrigasant yn, neu yn agos i Ephesus; ac yr oeddynt yno pan ysgrifenodd Paul ei ail epistol at Timotheus. 2 Tim. 4. 19. Act. xviii. Rhuf. 16. 4.

ACH—AU, *Heb.* יחש *(ichas)* cyff, cof-restr cenedliad teulu, llwyth, neu genedl. Num. 1. 18. 1 Cron. 5. 1, 7, 17. Neh. 7. 5. Edr. CENEDLAETH.

ACHAIA, *Gr.* Αχαια, [*blinder*] talaeth yn ngwlad y Groegiaid yn Ewrop, a alwyd felly oddiwrth Achæus, mab Xuthus. Weithiau, mae Achaia i'w olygu mewn ystyr mwy helaeth, am Peloponesus a gwlad Groeg;* megys yn Act. 19. 21. Rhuf. 15. 26. a 16. 5. 1 Cor. 16. 15. 2 Cor. 1. 1. a 9. 2. a 11. 10. 1 Thes. 1. 7, 8. Y ddinas benaf ynddi gynt oedd Corinth. 2 Cor. 1. 1. Bu Paul yn pregethu yr efengyl yma yn hir, a sylfaenodd yma amryw eglwysi. Act. 18. 1, 12. 2 Cor. 9. 2. Edr. GROEG.

ACHAICUS, un genedigol o Achaia, a dysgybl Paul. Efe a Stephanas a Ffortunatus a ddygasant epistol cyntaf Paul at y Corinthiaid. 1 Cor. 16. 17.

ACHAN, עכן [*trallodwr*] mab Charmi, o lwyth Judah, yr hwn, wrth gymeryd Jericho, a guddiodd y diofryd-beth yn llawr ei babell; a gorfu ar Israel o'r achos ffoi o flaen eu gelynion. Cafwyd ef allan wrth fwrw coelbrenau: cyfaddefodd ei fai, a thebygol iddo wir edifarhau. Edr. TYAID. Dygwyd y lladrad allan ger bron yr holl gynnulleidfa. Yna efe a'i blant, a'i holl anifeiliaid, er dychryn i eraill, a labyddiwyd â meini i farwolaeth; a llosgwyd eu cyrph hwynt â thân, wedi eu llabyddio, yn nyffryn Achor. Codasant arnynt garnedd fawr o geryg. Jos. vii.—Gelwir ef hefyd *Achar* yn 1 Cron. 2. 7.

'A holl Israel a'u llabyddiasant ef â meini, ac a'u llosgasant hwy (sef ei ddodrefn, ei feddiannau) â thân, wedi (yn hytrach, *neu*) a'u llabyddiasant â meini.' Jos. 7. 25. Tebygol mai llosgi a wnawd y pethau oedd yn llosgadwy yn unig, ac na effeithiai llabyddio arnynt. Llabyddiasant y pethau â bywyd ynddynt, a llosgasant y pethau difywyd; sef y babell, y dodrefn, &c. Os llabyddiwyd ei feibion a'i ferched (nid oes sôn am ei wraig) tebygol eu bod hwythau, ryw ffordd, mewn gradd, yn cyd-gyfranogi o'i fai.

* Dywed y Dr Kitto, fod Achaia bob amser yn y Testament Newydd yn cynnwys holl wlad Groeg, oddieithr Macedonia, Ilyricum, Epirus, a Thessaly.—E.

Digitized by Google

ACHAT, maen gwerthfawr. Yr ail faen yn y drydedd res yn nwyfroneg yr arch-offeiriad. Exod. 28. 19.

ACHBOR, אכבור [*llygoden*] 1. Tad Baalhaman. Gen. 36. 38.——2. Un o swyddwyr Josiah, 2 Bren. 22. 14.—yr hwn hefyd a elwir Abdon. 2 Cron. 34. 20. ——3. Tad Elnathan. Jer. 26. 22.

ACCHO,* אכו [*caredig*] enw dinas yn llwyth Aser. Barn. 1. 31. Yr un a Ptolemais wedi hyny.

ACHIS, אכיש [*felly y mae*] brenin Gath, yn amser Dafydd. Gelwir ef Abimelech yn nhitl Psalm xxxiv. Achis oedd ei enw priodol: ond fel yr oedd pob brenin yn yr Aipht yn cael ei alw Pharaoh (Gen. 41. 1. Exod. 5. 1. 1 Bren. 11. 18.) felly yn yr un modd, y gelwid pob brenin y Philistiaid, Abimelech. Gen. 20. 2. a 26. 1. Yn 1 Sam. xxi, xxvii, xxviii, xxix, gwelwch hanes ffoad Dafydd ato rhag Saul, trwy wendid ei ffydd —ei berygl yn ganlynol i hyny, a'i waredigaeth ryfedd o ddwylaw ei elynion marwol. Edr. DAFYDD.

ACHLYSUR—ON, (ach-lys) achos, ethryb, oedfa, pryd, tymhor. 1 Sam. 22. 22. Jer. 2. 24. Dan. 6. 4, 5.—'Pechod yn cymeryd achlysur trwy y gorchymyn yn gweithio mewn un bob trachwant,' (Rhuf. 7. 7, 8.) sydd yn dangos natur ffyrnig, anmhlygadwy, y reddf o bechod yn ei llywodraeth ar bechadur, ac analluogrwydd y ddeddf i ddarostwng pechod, a gwared pechadur oddi wrtho. Trwy y ddeddf y mae *adnabod* pechod, ond nid trwy y ddeddf y mae *darostwng* pechod, na sancteiddio pechadur, mwy na'i gyfiawnhau; ond yn hytrach y mae y reddf o bechod yn cymeryd achlysur (αφορμη) oddiwrth waharddiad, ysbrydolrwydd, a barn gondemniol y ddeddf, i weithio allan yn egnïol ac yn rymus (κατειργασατο) bob trachwant mewn ffordd o wrthryfel yn erbyn y gorchymyn. Nid ydyw hyn yn brawf fod y gorchymyn yn bechod; nid y ddeddf sydd yn rhoddi yr achlysur; ond pechod sydd yn cymeryd achlysur oddi wrthi hi, a phob peth arall yn ymddangos yn dra phechadurus, gan ei fod yn gweithio marwolaeth trwy yr hyn sydd dda, sef y ddeddf sanctaidd. Mae y ddeddf yn dangos pechod, ac yn euog-farnu y pechadur o'i blegid; ond nid yw yn addaw bywyd i'r pechadur, nac yn ei ryddhau oddiwrth bechod; ond y mae pechod yn cymeryd achlysur trwy y gorchymyn i dwyllo y pechadur, trwy ddallu ei feddwl rhag gweled manylrwydd y ddeddf; hefyd, i ddysgwyl bywyd trwyddi; a phan nas gall pechod, fel hyn, ei dwyllo trwy ddallineb, yna y mae yn gweithio ynddo yn gryf, bob trachwant, i'r dyben i'w yru i anobaith; felly y mae y gorchymyn, yr hwn ydoedd unwaith i fywyd, yn farwolaeth iddo. Rhuf. 7. 8, 11.——Mae y credinwyr yn Nghrist yn cael eu galw i ryddid oddiwrth y ddeddf fel yr oedd yn y cyfammod gweithredoedd, ac oddiwrth ei chollfarn, yn gystal ag oddiwrth iau drom deddfau yr hen oruchwyliaeth; ond mae perygl i'r cnawd gymeryd achlysur oddiwrth hyny i fywyd penrhydd a halogedig. Nid yw yr efengyl sanctaidd ynddi ei hun yn rhoddi yr un achlysur i'r cnawd, i ni fyw yn ol y cnawd, er y gall dynion ei cham-ddefnyddio, ac arfer eu rhyddid i'r dyben hwnw. Nid rhyddhau pechod y mae yr efengyl, ond marwhau pechod, a rhyddhau y pechadur oddi wrtho. Gal. 5. 13.

Y mae yr apostol yn cynghori y gwragedd ieuainc i 'briodi, planta, gwarchod y tŷ, fel na roddont ddim achlysur i'r gwrthwynebwr i ddifenwi,' neu ymsenu, a rhoi drygair. 1 Tim. 5. 14. Er mai ymsenu a wna y gwrthwynebwr er pob peth, etto ein gofal a ddylai fod, na roddom achlysur iddo wnethur hyny, trwy ein rhodiad anaddas, a chroes i orchymyn Duw.

ACHMETHA, אחמתא [*mewn cist*]—'A chafwyd yn Achmetha.' Ezra 6. 2.—'A chafwyd mewn cist.' Dr M.—'Yn Ecbatana,' medd rhai; 'mewn cist,' medd eraill. Yr un oedd Achmetha ag Ecbatana, tebygol.

ACHOR, אכור [*blinder*] enw a roddwyd ar ddyffryn yn agos i Jericho, o herwydd y trallod a ddaeth ar holl Israel trwy bechod Achan. 'A Josuah a ddywedodd, Am i ti ein blino ni, (אכרתנו) yr Arglwydd a'th flina (יעכרך) dithau. Am hyny gelwir enw y fan hòno dyffryn Achor (עמק עכור) hyd y dydd hwn.' Jos. 7. 25, 26.——'A dyffryn Achor yn ddrws gobaith.' Hos. 2. 15. Addewid yw hon sydd yn cael ei gwirioneddu tu ag at yr eglwys, yn holl ymweliadau grasol Duw yn ei hadferyd a'i chysuro. Y mae yr Arglwydd yn gwneuthur dau beth tu ag ati, sef ei hamddifadu o'i holl bethau gwych, ei chariadau, a'i heilunod, yr oedd hi o'r blaen yn ymhyfrydu ynddynt, ac a ddygasant ei chalon oddiwrth yr Arglwydd. Adn. 13. Y mae hefyd yn ei denu, ac yn ei dwyn i'r anialwch o amddifadrwydd o'i chysuron gynt, ac i anialwch o flinderau a thrallodion. Gwedi hyny, o'r fan hòno, o'r cyflwr amddifadus hwn, 'rhoddaf iddi ei gwinllanoedd;' sef cyflawnder helaeth o bob bendithion ysbrydol: 'a dyffryn Achor yn ddrws gobaith.' Yn ei holl drallodion bydd drws gobaith o gynnaliaeth, diangfa, a helaeth fwynhad o'r etifeddiaeth addawedig. Nid oes un Achor, sef trallod, heb ddrws iddo; a hwnw yn ddrws gobaith. 'Ffyddlon yw Duw, yr hwn ni âd eich temtio uwchlaw yr hyn a alloch; eithr a wna yn nghyd â'r demtasiwn ddiangfa hefyd, fel y galloch ei ddwyn.' 1 Cor. 10. 13. Yn y golygiad hwn y mae ystyr y geiriau yn ymddangos i mi; etto, yr ydwyf yn cydnabod fod amryw o awdwyr enwog yn barnu, nad at *ystyr* y gair Achor y mae cyfeiriad y prophwyd, ond at *ffrwythlonrwydd* y dyffryn. Esa. 65. 10. Yr oedd ffrwythlonrwydd dyffryn Achor yn dangos i'r Israeliaid pa fath oedd holl wlad yr addewid; ac yr oedd meddiant o hwnw yn ernes ac yn obaith o feddiannu yr holl wlad yn y diwedd. Felly y mae rhyddid grasol, a blaen-ffrwyth yr Ysbryd, yn ddrws o obaith, ac yn ernes o ryddid gogoniant plant Duw, a'u cynauaf llawn mewn dedwyddwch tragywyddol. Rhuf. 8. 21, 23, 24, 25. Nid anhawdd cymmodi y ddau olygiad uchod ar y geiriau â'u gilydd: y mae trallodau a gorfoledd y duwiolion yn cydfyned â'u gilydd, yn aml; a'r ddau yn ddrws gobaith o ddiangfa o'r trallodau, ac yn gyflawn fwynhad o'r gorfoledd. Mat. 5. 12. Act. 5. 41. Rhuf. 5. 2—5. 2 Cor. 6. 10.—Barna rhai, mai yr un yw dyffryn Achor ag Engedi, yr hwn oedd yn llawn o winllanoedd, a bod Hazazon-Tamar yn enw arall arno, oblegid amldra y coed palmwydd yno. Can. 1. 14. Gwel Zanchius, Rivetus, Calvin, Sanctius, Pocock, a Horsley.

ACHOS—ION, (caws) gallu effeithiol; achos dybryd, bai brwnt; godineb; cwyn.—1. Hawl, dadl. Exod. 22. 9. Esa. 1. 23.——2. Rheswm paham, neu amgylchiadau yn galw am. 1 Sam. 17. 29.——3. Er mwyn, o herwydd. Gen. 3. 17. 2 Cor. 7. 12.——4. Cyhuddiad, neu y bai a roddir yn erbyn un i'w euog-farnu. Mat. 27. 37. Marc 15. 26. Ioan 18. 38. ——5. Un peth yn haeddu, neu yn cymhell i beth arall, fel effaith o hono. Act. 28. 18. Col. 3. 6.

ACHUB—O, (cub) gwaredu, cadw, diogelu yn wyneb gelynion a pheryglon tymhorol, ysbrydol, a thragywyddol. Mic. 5. 6. Joel 2. 32. Ioan 3. 37. Heb. 11. 7.——Achub y blaen, bod yn flaenaf. Edr. CADW, IECHYDWRIAETH.

ACHUBYDD, (achub) gwaredwr, iachawdwr; un a all achub eraill yn wyneb eu hanghysur, eu peryglon, a'u hofnau. Un o enwau yr Arglwydd Iesu, yr hwn yw ACHUBYDD y rhai a ymddiriedant ynddo,

* Dyma y lle a adwaenir yn awr wrth yr enw Acre.—E.

Digitized by Google

'Cyflawn ac Achubydd yw efe.' Ps. 17. 7. Zech. 9. 9. Yn mhob ystyriaeth ag yr achubir pob dyn, efe ydyw Achubydd pob dyn: ond y mae mewn modd neillduol a chyflawn yn Achubydd tragywyddol i'r ffyddloniaid, sef y sawl, â gwir a bywiol ffydd, a gredant ynddo. 1 Tim. 4. 10. Edrych CEIDWAD, GWAREDWR, IACHAWDWR.

ACHWYN—ION, (cwyn) cwyno, cyhuddo, beio; rhoddi cwyn mewn llys yn erbyn un. Cam-achwyn, cam-gyhuddiad o un fel troseddwr y gyfraith. Barn. 21. 22. Ezra 4. 6. Luc 19. 8. Act. 23. 29.

ADAH, עדה [*addurn, harddwch*] gwraig Lamech, a mam Jabal a Jubal. Gen. 4. 19. a 36. 2. Edrych LAMECH.

ADAIL—EILIAU, (ail) adeilad, adeiladaeth, tŷ; ystyr priodol y gair ydyw gwiail-blethu, neu gwiail i eilio â hwynt; ac oddiwrth hyny, arwydda tŷ gwedi ei wneuthur felly.—'Ac yr ydoedd adail newydd,' &c. Ezec. 46. 23.—'Adail dinas.' Ezec. 40. 2.

ADAM, אדם [*daear goch*] dinas oedd yn sefyll o du y dehau i Fôr Tiberias. Yn agos yma y safodd dyfroedd yr Iorddonen yn bentwr, tra y bu yr Israeliaid yn myned trwodd. Jos. 3. 16. a 19. 33, 36. Edr. ADMA.

ADAMANT, Αδαμαντινω [*anorchfygedig*] un o r gemol feini caletaf a gwerthfawrocaf, y *diamond. Heb.* יהלם *morthwyl, taro.* Gelwir maen gwerthfawr wrth yr enw hwn o herwydd ei galedrwydd. Gwel Parkhurst. Y gair *Heb.* שמיר a gyfieithir *adamant,* a arwydda, medd Scheuchzer (*Physica Sacra, on Jer.*) math o gareg dra chaled, a wasanaethai i gerfio ar, a thori ceryg caledion eraill; a alwyd felly o herwydd ei barhausder. Ni thorir ef â morthwyl, ni feddalir ef â thân, ond gwres yr haul trwy wydr a effeithia arno. Os rhwbir ef â pheth meddal, dysgleiria mewn tywyllwch. Tery dân o'r dur. Hwn oedd y trydydd maen gwerthfawr, o'r ail res, yn nwyfroneg yr arch-offeiriad. Exod. 28. 18.——Talcen Ezeciel oedd gwedi ei wneuthur yn debyg i adamant, oblegid iddo gael ei ddonio â hyfdra cadarn i fynegi cenadwri Duw wrth yr Iuddewon. Ezeciel 3. 9.——Dywedir gan Zechariah fod calonau dynion pechadurus fel adamant. Pen. 7. 12. Ni thorir hwynt â bygythion na barnedigaethau Duw; ac nis toddir hwynt trwy ei drugareddau, ei wahoddiadau, a'i addewidion, nes delo gwres Haul Cyflawnder i mewn; sef taenelliad o waed Iesu, a thywalltiad o'i gariad trwy yr Ysbryd Glân.——'Pechodau Judah a ysgrifenwyd â phin o haiarn, âg ewin o adamant.' Jer. 17. 1. Eu tueddiadau llygredig oeddynt wedi gwreiddio yn ddwfn, a sefydlu yn eu calonau; a'u holl feiau oeddynt gwedi eu nodi gan Dduw, nas gellid eu dileu.

ADAR, אדר [*uchel, godidog*] 1. Enw mis Iuddewig cyfatebol i Chwefror a rhan o Mawrth; yr oedd ynddo 29 o ddyddiau. Ar y trydydd dydd o hono y gorphenwyd ac y cysegrwyd yr ail deml. Ezra 6. 15. Ar y pedwerydd ar ddeg o hono yr oedd dyddiau y Pwrim. Esth. viii. Pob tair blynedd yr oedd ail Adar yn cael ei chwanegu, i gyfateboli blwyddyn y lloer i flwyddyn yr haul, yr hon sydd fyrach na blwyddyn yr haul o un ar ddeg o ddyddiau.——2. Enw dinas yn Judah. Jos. 15. 3.

ADAR, ADERYN, (iar) צפר [*cyflym ysgogiad*] ehediaid yr awyr. Y mae eu cyrph gwedi eu gorchuddio â phluf; a dwy o adenydd, a dau droed, a gylfin iddynt oll. Y maent yn deor y cywion o'u hwyau. Ni feddant na dannedd, na gweflau, na chlustiau allanol, ond yn unig tyllau clustiau; na llestri llaethog (*lacteals*) nac arenau, na chwysigen ddwfr. Y mae rhai o honynt yn gigweiniol, a rhai yn rawnweiniol. Y mae rhai yn deithiol, neu yn myned o'r naill wlad i'r llall, a'r lleill yn gartrefol. Y mae rhai yn hynod gan liwiau amryw, gwych a godidog; ac eraill yn rhagori yn nodedig mewn cethlyddiaeth hyfrydlon. Y mae sain peraidd yr ëos, ac eraill o'r teulu adenog, yn hynod ragorol o ran amrywiaeth tôn a melysder hyfrydol. Yn y coedydd y lleisiant rhwng nefoedd a daear, yn sirioli y greadigaeth, ac yn annogaeth i bawb i foliannu eu Creawdwr. Edr. CANU. Yr estrys yw y mwyaf, a'r aderyn mudlais (*humming bird*) America yw y lleiaf, o'r adar adnabyddus i ni.

O'r adar nid oedd ond turturau a chywion colomenod i'w hoffrymu yn boeth-offrwm i'r Arglwydd. Yr oedd yr offeiriad i ddwyn yr aderyn at yr allor, a thôri ei ben, a'i losgi ar yr allor, a gwasgu ei waed wrth ystlys yr allor, a thynu ymaith ei grombil a'i blu, a'u bwrw hwynt gerllaw yr allor, o du y dwyrain i'r lle y byddai y lludw; ei hollti, a'i esgyll hefyd: etto, medd y gair, na wahaned ef. 'A llosged yr offeiriad ef ar yr allor, ar y coed a fyddant ar y tân.' Yr oedd y turturod i fod yn hen; a'r colomenod i fod yn ieuainc. Yn yr offrwm dros bechod, yr oedd y pen i gael ei dôri wrth ei wegil, ond nid ei dôri ymaith. Offrymau dros y tlodion oedd yr adar hyn, y rhai ni allent gyrhaedd oen. Lef. 1. 14. a 5. 7, 8. a 12. 2, 6, 8. Luc 2. 24. Yr oedd yr adar hyn yn cysgodi Crist, yn ei burdeb a'i ddiniweidrwydd, ei larieidd-dra, a'i gariad digyffelyb; ac hefyd, yn dangos pa fath a ddylai ei holl ganlynwyr fod. Gwaedwyd, drylliwyd, a lladdwyd ef, ac a'i llosgwyd gan angerdd tanllyd digofaint dwyfol dros ei bobl; ond, er y cwbl, ni wahanwyd mo hono. Ps. 34. 20. Ioan 19. 33, 36. Daliodd yr undeb rhwng y ddwy natur yn ei berson dirgeledig, trwy ei holl ddyoddefiadau, ac yr oedd ei adenydd ganddo i adgyfodi drachefn, a dyrchafu i'r uchelder. Felly, hefyd, y gweddai i ninnau offrymu ein hunain, yn ddiwahan ac yn gyflawn iddo, â'n hadenydd o ffydd a chariad genym, i ehedeg ato a a throsto yn gyflym ac yn fywiog, gyda sain cân a moliant. Esa. 40. 31. 2 Cor. 8. 11, 12. 1 Thes. 5. 18.

Yn nglanhad y gwahan-glwyfus, yr oedd yr offeiriad i orchymyn i'r hwn oedd i'w lanhau, gymeryd dau aderyn y tô, (*adar y tô,* yn ein cyfieithiad ni) byw a glân, a choed cedr, ac ysgarlad, ac isop, a lladd un aderyn mewn llestr pridd, oddiar ddwfr rhedegog yn y llestr, fel y byddai y gwaed a'r dwfr yn gymysgedig â'u gilydd. Wedi hyny, yr oedd i gymeryd yr aderyn byw, a'r coed, a'r ysgarlad, a'r isop, wedi eu cylymu yn un â'u gilydd, a'u trochi hwynt yn ngwaed yr aderyn a laddwyd, yn gymysgedig â'r dwfr yn y llestr pridd. Yn ganlynol, yr oedd i daenellu y gwaed saith waith ar yr hwn a lanheid oddiwrth y gwahanglwyf. Yna yr oedd i ollwng yr aderyn byw yn rhydd ar wyneb y maes. Lef. 14. 2, 3, 4. Y gair *Heb.* צפר sydd yn cael ei arferyd am adar yn gyffredinol, heb nodi aderyn y tô yn neillduol, mwy na rhyw aderyn arall. Gwel Gen. 15. 10, 11. Deut. 4. 17. a 22. 6. Ps. 8. 8. Ezec. 17. 23. a 30. 4, 17. Yn ol y cyfieithiad Saesoneg, ac amryw gyfieithiadau eraill, dau aderyn (*two birds*) ydyw. Gan fod y gair *glân* yn cael ei arferyd, tebygol yw fod pob aderyn glân yn addas, ac nad oedd adar y tô yn cael eu pennodi yn neillduol.—'Dau aderyn y tô,' ydyw cyfieithiad y Dr Morgan, ond y mae y rhan fwyaf o gyfieithiadau yn un â'r Saesonaeg.

'Yr oedd y ddau aderyn yn cysgodi Crist mewn gwahanol gyfiwr,' medd Witsius, *Exercit.* xix. Cyffelybir Crist i adar, oblegid ei awyddfryd i gadw y gorchymynion—ei ymarweddiad nefolaidd (πολιτευμα εν ουρανοις)—ac oblegid iddo ffoi o le i le, i ochelyd y maglau a osodwyd iddo gan ddynion.——*Adar glân,* hyny ydyw, y rhai a ellid yn gyfreithlawn eu bwyta; felly, y mae Crist yn sanctaidd ynddo ei hun, ac hefyd yn ymborth bywiol i bechadur. Yr oedd yr

Digitized by Google

aderyn a leddid yn arwyddo marwolaeth Crist. Y gwaed yn cael ei dywallt ar ddwfr rhedegog, nid dwfr marw, llonydd, sydd yn arwyddo ufudd-dod bywiog Crist mewn cariad rhedegog, yn nghyd â'i ddyoddefaint. Yr oedd yr aderyn byw, gwedi ei drochi yn ngwaed yr aderyn marw, yn cael ei ollwng yn rhydd ar wyneb y maes yn arwyddo adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw, a'i ehediad i'r nefoedd trwy ei waed ei hun. Heb. 9. 12. Gwaed Crist, wedi marw a'i fywhau (fel y cymhwysai y gwaed i ni) sydd yn glanhau ein gwahan-glwyf ysbrydol. Yr oedd yr un gwaed ar yr aderyn byw ag ar y gwahan-glwyfus; yr oedd yr aderyn byw yn rhydd ar wyneb y maes, â'r gwaed arno; yr oedd yr un gwaed ar y gwahan-glwyfus, ac yntau yn cael cyflawn fwynhad o'i holl freintiau yn y gwersyll ac yn y babell; felly y mae Crist, fel Mechniydd, yn y nefoedd trwy ei waed ei hun, a'i holl bobl yn lân, ac yn rhydd ynddo, trwy yr un gwaed.

Y mae 'yr Arglwydd yn amddiffyn ei bobl, megys adar yn ehedeg.' Esaiah 31. 5. Fel y mae y fam aderyn yn rhoddi ei hun dros ei chywion, rhyngddynt hwy a'r perygl, felly y mae yr Arglwydd yn gorchuddio ei bobl â'i haeddiant, ei allu, ei drugaredd, a'i ddaioni; 'gan amddiffyn a gwared, gan basio heibio,' neu lamu rhyngddo a chuddio (פסח) fel y gwnaeth yn yr Aipht, i attal y dinystrydd i'r tai lle yr oedd y gwaed ar y drysau; ac yn y modd hwn yn achub. Y dysgedigion a farnant fod y geiriau yn cyfeirio at waredigaeth Israel yn yr Aipht, pan oedd y dinystrydd yn lladd cyntaf-anedigion yr Aiphtiaid. Yr oedd IEHOFAH yn cyd-gerdded, megys, â'r dinystrydd; a phan ddeuent at y drysau yr oedd y gwaed arnynt, yr oedd IEHOFAH yn llamu i'r drws (fel y mae y gair yn arwyddo) yn gorchuddio y tŷ, a'r dinystrydd yn pasio heibio: 'Ni âd i'r dinystrydd ddyfod i mewn i'ch tai chwi i ddinystrio.' Y mae y gair (פסח) a gyfieithir *pasio heibio*, yn arwyddo *llamu*; 'yr oedd IEHOFAH yn llamu i'r drws, ac yn rhoddi ei hun rhwng y dinystrydd a'r tŷ, a phawb ynddo;' ac fel hyn yr oedd fel aderyn yn gorchuddio drostynt, ac yn eu hachub. Yr un gair yw ag a gyfleithir *llamu*, yn 1 Bren. 18. 26. Yr oedd yn ddangosiad hynod fod Duw mewn cymmod, ac yn amddiffynwr i bawb sydd dan daenelliad gwaed Crist, yr hwn yr oedd oen y pasc yn ei gysgodi, ac na âd i'r dinystrydd eu dinystrio. Exod. 12. 23. Gwel Coccejus, Vitringa, Lowth.

Y mae dynion yn gyffelyb i adar, yn weiniaid, ac yn hawdd eu maglu, ac yn crwydro oddiwrth yr Arglwydd, eu nyth priodol. Diar. 6. 5. a 7. 23. Esa. 31. 6. Dan. 2. 38. Y mae y saint yn debÿg i adar, yn weiniaid, ac yn agored i orthrymderau ac ymlidiau; etto, yn hawddgar ac yn fywiog, ac yn canu yn beraidd am eu gwaredigaethau o lawer gauaf du, a llawer rhwyd a magl. Ps. 124. 6. Can. 2. 12. Ezec. 17. 23. Cyffelybir athrawon a gorthrymwyr creulon, i adar aflan, a chås, o herwydd eu gorthrymder, eu creulondeb, a'u haflendid athrawiaethol a bucheddol. Gen. 15. 11. Dat. 18. 2. Y maent fel yr adar yn ngweledigaeth Abraham, yn disgyn ar y celaneddau, i'w llwyr ddyfetha; ond y mae Duw trwy ryw foddion neu gilydd, yn eu tarfu ymaith, ac yn gwared y diniwed.

ADARWR—WYR, (adar-wr) heliwr adar, maglwr adar. *Heb.* יקש *gosodwr maglau*, neu *hoenynau*. Y diafol a'i offerynau a gyffelybir i adarwyr, o ran eu dichellion, eu cyfrwysdra, a'u hamcanion gwaedlyd yn erbyn y duwiolion. Y mae y diafol yn cynllwyn iddynt, ac yn gosod ei hudoliaethau i'w maglu, gyda llawer o ddichellion a chyfrwysdra. Ond eu Gwaredwr hwynt sydd gryf a gwyliadwrus, ac a rydd aml achos iddynt ganu, 'y fagl a dorwyd, a ninnau a ddiangasom.' Psalm 124. 7. Diar. 6. 5. 'Gwyliedydd Ephraim a fu gyd â'm Duw: aeth y prophwyd yn *fagl adarwr* yn ei holl lwybrau, ac yn gasineb yn nhŷ ei Dduw.' Hos. 9. 8. Cawn yma ddesgrifiad galarus iawn o gyflwr Ephraim. Bu ganddynt wyliedyddion gyda Duw, ac yn wyr ysbrydol a sanctaidd; yn cael gweledigaethau oddiwrth Dduw, yn cymdeithasu â Duw, ac yn byw i ogoniant Duw a llesâd Ephraim; ond yn lle gwyliedyddion gyda Duw, y mae y prophwyd yn ffol, y gwr ysbrydol yn ynfyd: ac y maent yn maglu dynion yn eu holl lwybrau, â gau athrawiaethau a chyfeiliornadau. Y mae yr adarwyr hyn â'u maglau yn yr holl ffyrdd, ac yn rhwydo dynion i ddinystr tragywyddol. Nid oes un athrawiaeth nad ydynt yn ei llygru, nac un ddyledswydd nad ydynt yn cam-gyfarwyddo mewn perthynas i'r cyflawniad o honi. Tebygol, yn ol fy meddwl i, fod cyfeiriad yma at y lloi a osododd Jeroboam i fynu yn Dan a Bethel, i attal y bobl rhag myned i addoli at y wir allor yn Jerusalem; a'r prophwydi ynfyd, ffol (adn. 7.) yn lle dangos eu perygl i'r bobl, a'u hiawn gyfarwyddo, yn eu hannog i gyd-ffurfiad âg ewyllys y brenin; a thrwy hyny, yn cyfranogi o'i bechod mawr: fel hyn, yr oeddynt yn fagl adarwyr yn eu holl ffyrdd. Pwy bynag a gymero arno yr enw Gwyliedydd, ac nad yw yn cyfarwyddo pechaduriaid at y wir allor, a'r gwir aberth o osodiad Duw, sef Crist Iesu, magl adarwr yw ar ei holl ffordd; mae ei holl athrawiaeth, yn mhob rhan o honi, yn gyfeiliornus; a maglu, yn lle adeiladu eneidiau dynion, yw ei holl waith. Os nad yw holl feini ei adeiladaeth, fel athraw, gwedi eu hiawn osod ar y sylfaen hon, nid oes un o honynt yn y man lle dylai fod. Oddiwrth y cyfryw wyliedyddion ffol, ynfyd, gwareded Duw ei eglwys! Y maent yn gasineb ac yn ffieidd-dra yn nhŷ Dduw. Galar. 4. 13. Esa. 29. 1. Jer. 6. 17. a 18. 22. a 31. 6. Ezec. 35. 4. Hos. 6. 9. a 7. 1. Mic. 7. 4. Gwel Rivet, Pocock, a Horsley *in loc.*

ADEILAD—U, (ad-ail) gosodiad, eiliad, tŷ.——1. Gwneuthur tŷ neu fur, trwy gasgliad a gosodiad yn nghyd amryw ddefnyddiau addas. Deut. 28. 30. Mat. 7. 24.——2. Llwyddo achosion teulu neu deyrnas, yr hyn ni ddichon neb ei wneuthur ond yr Arglwydd. Ps. cxxvii. Pan sonir am Dduw yn adeiladu dynion, dinasoedd, muriau, &c., meddylir eu cynnal a'u helaethu. Job 22. 23. Psalm 51. 18. Jer. 18. 9. Adeiladir eglwys Dduw gan yr Ysbryd Glân, trwy athrawiaeth yr efengyl, ar Grist fel ei sylfaen; a gweinidogion y gair yw yr offerynau. Mat. 16. 18. Eph. 2. 20, &c.——3. Cryfhau a chynghori ein gilydd yn y ffydd Gristionogol. 1 Cor. 3. 10. Col. 2. 7.——4. Cyfodi eglwys o'r Cenedloedd, i uno â'r Iuddewon yn addoliad Duw. Can. 8. 9. Edrych CRAIG, MAEN, SAIL.

ADEILADAETH, (adail) pen-saerniaeth, adeiladwaith; hyfforddiad, cynghor, cysur.—1. Tŷ o waith dwylaw dynion. Ezra 5. 4.——2. Cynghorion trwy Ysbryd Duw i'r saint. 1 Cor. 4. 3. 1 Tim. 1. 4.——3. Eglwys a phobl Dduw ar y ddaear. 1 Cor. 3. 9. Edr. TEML, TY.

ADEILADWR—WYR, (adail) adeiladydd, saer, pen saer celfydd. Arwydda, 1. Duw, yr hwn a wnaeth bob peth trwy ei air. Gen. 1. 3. Heb. 11. 10.——2. Gweinidogion ffyddlon yr efengyl, y rhai sydd yn adeiladu y saint ar Grist fel eu sylfaen. 1 Cor. 3. 10.——3. Llywodraethwyr achosion tymhorol. Ps. 127. 1.——4. Yr Iuddewon, y rhai a wrthodasant Grist, pen congl-faen, a sylfaen safadwy ei eglwys. Ps. 118. 22. 1 Petr 2. 7. Edr. MAEN.

ADEN—YDD, (a-daw) asgell, esgyll; y rhanau hyny o adar â pha rai y maent yn ehedeg, neu yn diogelu a chynhesu eu cywion. Y gair *Heb.* כנף a arwydda *eithaf*, neu *ben pellaf* rhyw beth: am hyny

Digitized by Google

galwant bob peth cyffelyb, yn aden; megys cŵr mantell, Deut. 22. 12. Ruth 3. 9.—eithafoedd gwlad, Job 38. 13. Esa. 25. 15.—byddinoedd; 'Estyniad ei adenydd,' sef, ei fyddinoedd, 'fydd llonaid dy dir di, O Immanuel.' Esa. 8. 8.—'Lluoedd ffiaidd,' *Heb.*, *asgell ffieidd-dra*, Dan. 9. 27. sef lluoedd y Rhufeiniaid, y rhai a ddinystriasant Judea dan Titus Vespasian.

'Gwae y tir sydd yn cysgodi âg adenydd.' Esa. 18. 1. Mae y dysgedigion yn gyffredinol (er nad pawb) yn cytuno mai gwlad yr Aipht yw y tir a feddylir yma; ond pa fodd i briodoli y darluniad hwn i'r wlad hòno, y mae amrywiaeth nid bychan yn eu barnau. Vitringa a gyfieitha y geiriau, 'Gwae y tir a gysgodir âg adenydd:' ac yn esbonio yr adenydd fel yn arwyddo y mynyddau sydd yn terfynu y wlad hòno, ac megys yn ei chysgodi o du y gorllewin tu a Lybia, ac o du y dwyrain tu ag Arabia; y rhai ydynt yn rhedeg o'r gogledd i'r dehau, ac yn raddol yn pellhau oddiwrth eu gilydd fel dwy aden aderyn.* Am eglurhad ar y bennod hon, a'r brophwydoliaeth gynnwysedig ynddi, Edr. *Appendix to Calmet's Dictionary. Frag.* 5. Hefyd, Mr King, a'r Dr Horsley, yn eu cyhoeddiadau diweddar arni.

Yr Arglwydd yn ehedeg ar adenydd y gwynt, a arwydda, cyflymdra yr Arglwydd yn gwared, yn dyddanu, ac yn diogelu ei bobl. Ps. 18. 10.——Wrth adenydd y cerubiaid a'r seraphiaid, y dangosir parodrwydd a chyflymdra angelion, ac eraill o wir weision Duw, at ei waith, ac yn ei wasanaeth. Esa. vi. Ezec. i. a x.——Adenydd y saint, â pha rai y maent yn ehedeg i fynu at Dduw, a'r pethau sydd uchod, yw eu ffydd, eu gobaith, eu cariad, eu serchiadau sanctaidd, a'u myfyrdodau nefolaidd. Esa. 40. 31.——Adenydd, neu esgyll Haul Cyfiawnder (Mal. 4. 2.) ydynt yn arwyddo effeithioldeb rhinweddol gwir adnabyddiaeth o Grist, yn ei Berson a'i swyddau, i feddyginiaethu a dyddanu ei bobl yn eu holl orthrymderau.—Priodolir adenydd i'r Arglwydd yn gyffelybiaethol, a dywedir bod ei bobl *ar* ei adenydd, a *than* ei adenydd; yn arwyddo ei fod yn ddiogelwch, yn gymhorth, ac yn ymgeledd gyflawn iddynt, o bob tu: yn gyffelyb i'r eryr yn eu dwyn, ac i'r iâr yn eu diogelu. Exod. 19. 4. Deut. 32. 11. Ps. 17. 18. a 36. 7. a 57. 1. a 61. 4. a 91. 4. Mat. 23. 37. Luc 13. 34.

'Pe cymerwn adenydd y wawr:' pe yr ehedwn mor gyflym a'r wawr yn ehedeg o'r dwyrain i'r gorllewin: neu, fel y cyfieitha eraill y geiriau, 'pe cymerwn adenydd, ac yr ehedwn *at* y wawr,' sef i'r dwyrain; ac wedi hyny, pe yr ehedwn ac y trigwn yn eithafoedd y môr gorllewinol, sef o'r naill ochr y byd i'r llall. Psalm 139. 9.

'Rhoddwyd i'r wraig ddwy o adenydd eryr mawr.' Dat. 12. 14. Hyny yw, rhoddodd yr Arglwydd i'r wir eglwys, gwraig yr Oen, gyfarwyddyd a chynnorthwyon, er ei harwain a'i diogelu yn nghanol llygredigaethau ac erlidigaethau Anghrist, fel y gwnaeth i'r Israeliaid yn eu ffoedigaeth o'r Aipht, ac i'r miloedd na phlygasant eu gliniau i Baal, yn nyddiau llygredig Ahab, pan y cafodd Elias, prophwyd Duw, yn ei ffoedigaeth, ei borthi megys mewn anialwch tlawd, gan wraig weddw o Sarepta, tros ddyddiau lawer, oddiwrth wyneb Ahab a Jezebel; felly y wraig yma, oddiwrth wyneb y sarph, dros amser, amseroedd, a hanner amser. Darluniad ydyw o gyflwr yr eglwys yn amser y Waldensiaid, y rhai a ffoisant rhag erlidigaethau Eglwys Rhufain, i ddyffrynoedd Piedmont, Lombardy, Calabria, Provence, Picardy, Bohemia, Hungary, &c.

ADENEDIGAETH—AU, (gen) genedigaeth drachefn, ail-enedigaeth. *Gr.* παλλιγγενεσια, *adenedigaeth*. Tit. 3. 5. αναγενναω *adeni*, *adgenedlu*. 1 Petr 1. 3, 23. γενηθη ανωθεν, *geni drachefn*. Ioan 3. 3. Gellir golygu adenedigaeth mewn ystyr helaeth; yna y cynnwys galwedigaeth effeithiol, dychweliad, a sancteiddiad; neu, yn fwy neillduol, yna yr arwydda y planiad cyntaf o egwyddor o ras yn yr enaid, ag ydyw y tarddiad cyntaf o'r sancteiddrwydd hwnw a ddygir rhagddo yn sancteiddhad, ac a berffeithir yn y nefoedd.

I. *Arwydda adeni*, neu *ail-eni*, *fod deiliaid adenedigaeth wedi eu geni unwaith, ac felly mewn bôd eisoes fel creaduriaid.*—1. Nid rhoddi bôd iddynt, fel creaduriaid, ydyw eu hail-eni; ond gweithredu ynddynt wahanol ddull newydd o fôd arnynt, o ran eu sancteiddrwydd a'u perthynas â Duw, a'u dwyn i undeb â Christ. Y mae y ddwy enedigaeth yn groes i'w gilydd. Eu genedigaeth gyntaf sydd o rieni pechadurus, ac ar eu delw; yr adenedigaeth sydd o Dduw, ac ar ddelw Duw:—yr enedigaeth gyntaf sydd o hâd llygredig; ond yr ail sydd o hâd anllygredig;—yr enedigaeth gyntaf sydd mewn pechod; ond yr ail sydd mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd:—yr enedigaeth gyntaf sydd o'r cnawd ac yn gnawdol; ond yr ail sydd o'r Ysbryd ac yn ysbrydol, ac yn gwneyd dynion yn ysbrydol:—yn yr enedigaeth gyntaf y maent yn blant digofaint; ond yn yr ail y maent yn ymddangos eu bod yn wrthddrychau cariad Duw.

2. Gelwir ail-eni yn *fywhau*: 'A chwithau a fywhaodd efe,' &c. Eph. 2. 1. Golygir hwynt, fel eraill, cyn eu hail-eni, yn feirw mewn pechod. Y maent yn gwbl amddifad o'r bywyd hwnw sydd yn cael ei gyfranu iddynt yn yr adenedigaeth, a hollol groes iddo. Nid yn unig y maent yn feirw i bethau sanctaidd, ond *mewn camweddau a phechodau*: sef yn fyw iddynt, ac yn farw dan y felldith ddyledus am danynt. Maent yn farw i garu Duw, ac yn byw mewn gelyniaeth yn ei erbyn. Rhuf. 8. 7. Y mae tywyllwch yn y deall—cyndynrwydd yn yr ewyllys—cnawdolrwydd a daearoldeb yn y serchiadau—oferedd yn y meddyliau—ac amryw chwantau yn cael eu gwasanaethu gan yr holl ddyn. Tra byddo marwolaeth yn yr holl enaid at Dduw, y mae bywyd pechadurus yn yr holl gynneddfau yn gweithio yn gryf, yn egniol, yn ddiorphwys, ac yn ddiflino, fel egwyddor gref yn llywodraethu arno yn mhob peth. Rhuf. iii. Eph. ii. a 4. 18, 19. Nid oes dim ynddo yn tueddu at fywyd Duw, neu dduwiol, nac yn ei addasu i dderbyn bywyd, ond y mae pob peth ynddo yn gwbl groes i hyny—yr hyn a eilw yr apostol, gelyniaeth yn erbyn Duw, yr hyn yw syniad y cnawd; sef syniad dyn heb ei ail-eni. Yn yr adenedigaeth y mae egwyddor o fywyd ysbrydol yn cael ei phlanu yn yr enaid. 'Crist yw yr adgyfodiad a'r bywyd;' ac adenedigaeth ydyw myned trwodd o farwolaeth i fywyd. Y mae pob peth tu yma i fywhau yr enaid yn sanctaidd ac yn dduwiol, yn ei adael yn fyr o adenedigaeth:—1. Geill dyn gael ei fedyddio, ac etto heb gael ei ail-eni. Arwydd gweledig oddi allan o ras ysbrydol ydyw bedydd; ond, meddiannu y gras ysbrydol yw ail-eni dyn.—2. Geill un gael ei olchi, ei oleuo, ei ddiwygio, ei foesoli, a phrofi cryn lawer o dymherau athrist a gorfoleddus; meddiannu doniau a lle parchus yn yr eglwys, ac etto heb ei fywhau yn ysbrydol trwy ail-enedigaeth.—3. Y mae bywhad a golchiad yr adenedigaeth, yn tra rhagori ar bob peth mwyaf golygus yn y rhagrithiwr mwyaf enwog, ac ar holl ystumiau ac agweddau o amrywiol fath yn y dorf o broffeswyr gwag, oriog, amserol, a thwyllodrus. Mat. 7. 15, &c. a 12. 33, 34, 35. a 13, 19, 20, 21. a 25 3, 4. Hos. 6. 4—10. Iago i. a ii. Cnawd ydynt hwy ar y goreu; ond y mae yr hwn a ail-anwyd yn *ysbryd* ar y gwaethaf; 'yr hwn a aned o'r Ysbryd sydd ysbryd.' Y mae ynddynt egwyddor o fywyd sanctaidd yn eu tueddu dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân, i fyw i Dduw a chyda Duw—yn rhodio, neu fucheddu, yn ol yr Ysbryd, yn rheolau y gair sanctaidd, ac i gasâu a mawrhau

* Gwel Vitringa *in loc.*, Lowth, Parkhurst, &c.

Digitized by Google

pechod. Rhuf. vi, vii, viii. 2 Cor. 5. 15. Col. 3. 5. Yn y bywhad hwn, y mae yr holl enaid, yn ei holl alluoedd, yn cael gweithredu arno; sef y deall—yr ewyllys—y gydwybod—y meddylfryd—y côf—a'r serchiadau; y maent oll yn cael eu hadnewyddu. Y mae yr hen ddyn yn cael ei ddyosg, a *dyn* newydd yn cael ei wisgo. Eph. 4. 22—24. Col. 2. 11. a 3. 8. Y mae yn yr holl ddyn syniadau, teimladau, tueddiadau, a serchiadau newyddion; y mae gwrthddrychau newyddion o'i flaen, a dyben newydd yn ei lywodraethu yn ei holl weithrediadau, ac adnewyddiad yn y bucheddiad allanol, yn cyfateb i'r adnewyddiad yn ysbryd y meddwl. Y maent yn byw bywyd newydd, nid iddynt eu hunain, ac i chwantau dynion, ond i Dduw, i Grist, yr hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd; y maent yn 'rhodio mewn newydd-deb buchedd.'

3. Gelwir adenedigaeth, 'Ffurfio Crist yn y galon.' Gal. 4. 19. Rhoddir golwg cywir ar Grist yn athrawiaethol yn nrych y gair; (2 Cor 3. 18.) ac yn edrych arno, newidir hwynt i'r unrhyw ddelw. Y mae y dyn newydd yn ol delw yr hwn a'i creodd yn newydd, yr hon yw delw Crist: i fod yn un ffurf â'r ddelw hon y rhagluniwyd hwy, yr hyn a weithredir ynddynt yn yr adenedigaeth. Rhuf. 8. 29. Col. 3. 10. Y maent yn tebygoli i Dduw fel eu Tad, ac hefyd i'r Arglwydd Iesu, Mab y Tad, fel eu brawd. Os ydynt yn cael eu geni o Dduw, y maent yn debyg iddo, ac yn debyg i Grist, yr hwn yw delw Duw. Y mae hyny o angenrheidrwydd yn tarddu oddiwrth eu perthynas â Duw fel Tad, ac â Christ fel eu pen, eu brawd, a'u priod. Y mae rhyw neillduolrwydd yn ngweithrediadau sancteiddrwydd yn y dyn newydd, addas i amgylchiadau rhyfedd pechadur colledig wedi ei achub, a'i ddwyn i berthynas agos â Duw fel plentyn, yr hwn oedd o'r blaen yn elyn, a'i berthynas â Christ fel y cyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer. Y mae rhyw anwyldeb parchus, diolchgar, a gostyngedig, yn ei gariad at Dduw fel Tad, ac at Grist fel Achubydd. Y mae pob peth yn Nuw—yn Nghrist—yn y gyfraith—ac yn holl drefn yr iechydwriaeth, wrth ei fodd, yn dra hardd, ac yn dra gogoneddus, ac y mae am debygoli i Grist mewn sancteiddrwydd, cyfiawnder, cariad, addfwynder, hir-ymaros, trugarogrwydd, &c. Y mae delw yr hwn sydd yn cenedlu ar yr hwn a genedlir o hono. Gen. 5. 3. Mat. 5. 48. 1 Ioan 2. 29. a 4. 7, 8, 19, 20. Nid sancteiddrwydd mewn creadur yn unig, sydd yn yr adenedigion, fel yn Adda, ac yn yr angelion; ond sancteiddrwydd yn gweithredu mewn pechadur a fabwysiadwyd, ac a adgenedlwyd, ac y mae ei holl weithrediadau yn cyfateb i hyny.

4. Gelwir adenedigaeth, 'Cyfranogi o'r duwiol anian.' 2 Petr 1. 4. Nid o anian Duw, a'i hystyried yn hanfodol yn Nuw; o hyny nis dichon un creadur fod yn gyfranog; y mae y priodoliaethau dwyfol, lawer o honynt, yn anghyfranogol; ond yn yr adenedigaeth, gweithredir hyny yn yr enaid ag sydd yn ei debygoli i'r natur ddwyfol, mewn ysbrydolrwydd, sancteiddrwydd, daioni, tiriondeb, &c., ac am hyny a elwir y duwiol anian.

5. Y mae llawer o enwau eraill wrth ba rai y gelwir adenedigaeth; megys enwaedu ar y galon; Deut. 30. 6. Edr. Enwaediad—rhoddi calon ac ysbryd newydd; Ezec. 36. 26, 27.—tynu y galon y gareg, a rhoddi calon o gig; adn. 26.—dodi y gyfraith yn y meddwl, a'i hysgrifenu ar y galon; Heb. 8. 10.—ufuddhau o'r galon i athrawiaeth yr efengyl; Rhuf. 6. 17.—rhyddhau oddiwrth bechod, a'u gwneyd yn weision i Dduw; adn. 22.—claddu ac adgyfodi gyda Christ; adn. 4, 5.—creadigaeth newydd; Eph. 2. 10.—gelwir ef ysbryd; Ioan 3. 6.—hâd; 1 Ioan 3. 9. yr hwn yw yr egwyddor o ras a blenir yn yr adenedigaeth. Edr. dan yr amrywiol enwau.

II. *Duw yw yr unig achos effeithiol o'r cyfnewidiad.*—1. Nid dyn ei hunan yw yr achos effeithiol o hono. Nis gŵyr ddim am dano, am ei natur, nac am yr angenrheidrwydd o hono; fel y canfyddir yn amlwg yn siampl Nicodemus. Hwn ydyw un o bethau Duw nad yw y dyn naturiol yn eu hadnabod nac yn eu derbyn. 1 Cor. 2. 11, 12. Nid oes ganddynt, yn wirioneddol, ddim dymuniad, tueddiad, nac ewyllys tu ag ato, beth bynag a wyddent am dano wrth glywed eraill yn dywedyd am dano: y mae syniad eu meddwl yn elyniaeth yn ei erbyn. Nid oes ganddynt ychwaith allu i'w gwblhau. Ymddengys hyn yn amlwg wrth ystyried yr amrywiol enwau a roddir arno; megys creadigaeth, adgyfodiad, &c. Dywedir am dano yn eglur ac yn bendant, nad yw o ddyn. Ioan 1. 12, 13. Tit. 3. 5. Ezec. 16. 3, &c.

2. Y mae yn cael ei briodoli yn neillduol ac yn bendant i *Dduw*. Ioan 1. 13. 1 Ioan 3. 9. a 5. 1. Priodolir ef i bob un o'r Personau Dwyfol.—1. I'r Tad, yr hwn o'i fawr drugaredd sydd yn ein hadgenedlu ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw. 1 Petr 1. 3. Efe a'u rhagluniodd i hyny er tragywyddoldeb, ac a effeithia arnynt i hyny mewn amser. Rhuf. 8. 29.—2. Priodolir y gwaith hwn, hefyd, i'r Mab. 1 Ioan 2. 29. Efe yw yr adgyfodiad a'r bywyd; y mae yn bywhau y neb y myno, fel y Tad; ac y mae y meirw yn clywed llef Mab Duw yn yr efengyl. Ioan 5. 25.—3. Ond yn nhrefn fawr yr iechydwriaeth, priodolir y gwaith ardderchog hwn i'r Ysbryd Glân, mewn modd arbenig. Ioan 3. 5. Er mai Duwdod y Tri Pherson sydd yn gweithredu pob peth, etto priodolir rhai pethau yn fwy neillduol i'r naill Berson na'r llall; a phriodolir yr un weithred, mewn gwahanol olygiadau, i bob un o honynt. Gelwir adenedigaeth, 'Geni o ddwfr ac o'r Ysbryd.' Ioan 3. 5. Wrth y dwfr y meddylir, gras yr Ysbryd, o herwydd ei natur lanhaol; ac oblegid yr un achos gelwir ef, '*golchiad* yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân.' Tit. 3. 5. Yr Ysbryd sydd yn bywhau. Ioan 6. 63. Efe sydd yn argyhoeddi o bechod. Edr. Argyhoeddi. Efe sydd yn uno yr enaid â Christ, ac yn ei fywhau a'i nerthu i gymeryd gafael arno; ac yn parhau i drigo yn ei galon fel gwreiddyn pob gras, a'r achos effeithiol o bob tueddiad a gweithrediad sanctaidd. Ysbryd y Mab sydd yn eu calonau yn llefain, Abba, Dad. Gal. 4. 6. Anaddas meddwl fod yr Ysbryd Glân yn gweithredu y cyfnewidiad goruchel hwn yn wahanol oddiwrth Grist, ond trwy uno yr enaid â Christ; canys y mae Crist yn ffynon ac yn wreiddyn o sancteiddrwydd i bechadur, yn gystal ag yn achos o'i gyfiawnhad ger bron Duw. 1 Cor. 1. 30. Yn ymddyddan Crist â Nicodemus, cysyllta ail-eni a chredu ynddo â'u gilydd, a chadwedigaeth dragywyddol â phob un o'r ddau. Ioan 3. 3, 4, 5, 14—19.—1. Gwaith Duw ydyw, canys mawredd *gallu* Duw sydd yn ei weithredu. Gallu creadigol sydd yn ei effeithio; îe, nerth Duw—*mawredd* nerth Duw—*rhagorol fawredd* nerth Duw—yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef y mae efe yn gweithio yn ei bobl, yr hon a weithredodd efe yn Nghrist, pan y cyfododd ef o feirw. Eph. 1. 19, 20. Yr un gallu anfeidrol a adgyfododd y pen, sydd yn bywhau y corph hefyd, a phob aelod o hono. Fel nad oedd bosibl ei attal gan ofidiau a rhwymau angeu, felly, hefyd, nis gellir attal yr aelodau gan holl rym llygredigaethau, a gallu y tywyllwch. Act. 2. 24. 2 Cor. 10. 4, 5.—2. O Dduw y mae, sef o ras Duw yn unig. Daioni a chariad Duw ein Hiachawdwr yw yr achos gwreiddiol a chymhelliadol o hono ef. Tit. 3. 4. Eph. 2. 4, 5. *O'i wir ewyllys* (βουληθεὶς) y mae yn ennill, neu yn cenedlu pechaduriaid. Iago 1. 18. Ei ewyllys pen-arglwyddiaethol—ei ewyllys da—boddlonrwydd ei ewyllys. Y mae y cymhelliad yn gwbl ynddo ei hun, ac nid yn y dynion, Y mae pob peth sydd ffiaidd gan Dduw yn y pechadur cyn ei



Digitized by Google

ail-eni; a dim ond hyny: am hyny, y mae i'r gradd mwyaf yn annheilwng o'r cyfryw ras; ac oni buasai fod Duw yn gyfoethog o drugaredd, a'i gariad yn rhad, ac yn anfeidrol fawr, ni buasai un enaid yn cael ei aileni. Eph. 2. 4. Cyffelybir y pechadur, i ddangos ei ffieidd-dra, a'i analluogrwydd i ymgeleddu ei hun, i blentyn bychan newydd ei eni, gwedi ei daflu yn ei waed ar wyneb y maes, heb un llygad yn tosturio wrtho i'w ymgeleddu yn y gradd lleiaf; yn y cyflwr hwn y mae Duw yn tramwyo heibio iddo, ac yn dywedyd wrtho yn ei waed, 'Bydd fyw.' Ezec. 16. 3—6.

III. *Y mae grym yn adgyfodiad Crist sydd yn effeithio ar lawer o bethau:*—megys ar ein cyflawnhad: 'Efe a gyfodwyd i'n cyflawnhau.' Rhuf. 4. 25. Felly, hefyd, ar ein hadgenedliad. Dywedir fod dynion yn cael eu 'hadgenedlu i obaith bywiol trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw.' 1 Petr 1. 3. Y mae yn gynllun o hono; gwnaed ni yn gyd-blanigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, felly hefyd i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef. Rhuf. 6. 5. Eglurwyd Crist yn Fab Duw mewn gallu, trwy ei adgyfodiad ef; felly y mae adgenedliad yn ein gwneyd, ac yn egluro ein bod, yn feibion i Dduw. Yr oedd adgyfodiad Crist trwy fawredd gallu Duw; ac felly y mae bywhau pechadur marw: adgyfodiad Crist oedd y cam cyntaf i'w ogoneddiad; felly adgyfodiad Crist ydyw y cam cyntaf i weled, a myned i mewn i deyrnas Dduw. Ioan iii.

IV. *Yn gyffredinol, trwy gyfrwng y gair, sef efengyl ein hiechydwriaeth, y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu y cyfnewidiad hwn.*—Am hyny, dywedir eu bod wedi eu hail-eni trwy *air* Duw. 1 Petr 1. 23. Eu bod wedi eu hennill trwy air y gwirionedd. Iago 1. 18. A gelwir gweinidogion y gair yn *dadau ysbrydol.* 'Canys pe byddai i chwi,' medd yr apostol wrth y Corinthiaid, 'ddeng mil o athrawon yn Nghrist, er hyny nid oes i chwi nemawr o dadau, canys myfi a'ch *cenedlais* chwi yn Nghrist Iesu, trwy yr efengyl.' 1 Cor. 4. 15. Felly y dywed am ei fab Onesimus, yr hwn a genedlodd yn ei rwymau. Philem. 10. Gweinidogaeth yr efengyl ydyw y moddion trwy ba un y mae yn gweithredu ac yn cyfranu gras i enaid pechadur.* Mae pregethiad yr efengyl yn ordinhad o sefydliad dwyfol, i'r dyben hwn, yn un peth. Ezec. xxxvii. Marc 16. 15, 16. Rhuf. 1. 16. a 10. 14, 15, &c. 1 Cor. 1. 17, 18, &c. 2 Cor. 10. 4, 5. 1 Petr 1. 23. Iago 1. 18.——Gair Duw ydyw yr efengyl; ac y mae mawredd awdurdodol a galluog Duw yn ei air, fel y mae yr Ysbryd Glân yn ei ddefnyddio i'r dyben y gosodwyd ef. 'Canys fel y disgyn y gwlaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrha y ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, &c.: felly y bydd fy ngair,' medd Duw, 'yr hwn a ddaw (allan) o'm genau: ni ddychwel ataf yn wag; eithr a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid.' Esa. 55. 10, 11. Y mae ei effeithioldeb yn dibynu ar ewyllys Duw; ond y mae, fel moddion, yn ddigonol ac yn addas at bob gwaith sydd gan Dduw i'w wneuthur ar ei bobl; sef eu haileni, eu bywhau, eu dysgu, eu dychwelyd, eu rhybuddio, a'u dyddanu. 2 Tim. 3. 16. Heb. 4. 12. a 6. 17, 18. Gwna yr hyn a *fynwyf*, a llwydda yn y peth yr *anfonais* ef o'i blegid. Os enfyn Duw ef i ail-eni pechadur, i fywhau esgyrn sychion, y mae yn sicr o lwyddo yn hyny. Y mae yr efengyl fel moddion, mor addas i genedlu bywyd, ag ydyw i fagu a chynnal bywyd. Mae y naill fel y llall yn cael ei briodoli i'r gair; ac nis gall fod yn effeithiol i'r naill mwy na'r llall, heb effeithiol weithrediad yr Ysbryd Glân. 1 Petr 1. 23. a 2. 2. Yr un gair sydd yn braenaru ac yn gwneuthur y tir yn dda, ag y sydd, gwedi hyny, yn hâd da yn tyfu ynddo, ac yn dwyn ffrwyth. Y mae yn troi yr enaid; ac wedi hyny yn ei gynnal ac yn ei ddyddanu yn llwybrau cyfiawnder. Ps. 23. 3. a 19. 7. Jer. 23. 29. Mat. xiii. Y mae y gair ac ordinhadau Duw, fel moddion, yn ddigonol ac yn addas i bob peth. Dysgwyliwn am y cwbl trwyddo; ac na ddysgwyliwn am ddim perthynol i'n hiachawdwriaeth ond trwyddo, rhag ein taflu gan y diafol i wlad dychymygion gwag disail. Nid yw yn ymddangos fod un gwaith grasol a sanctaidd yn cael ei weithredu gan yr Ysbryd Glân, yn gyffredinol, ar enaid pechadur, ond trwy yr efengyl; pa fath bynag, gan hyny, a ddichon fod ein profiadau a'n teimladau, oni ydynt yn *gytun* â'r gair, nid ydynt yn gadwedigol. Os ydynt, *trwy* y gair, y maent yn eglur yn *gytun* â'r gair. Geilw yr apostol y cyfnewidiad hwn yn 'ufuddhau o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i ni,' neu i'r hon y'n traddodwyd, i gael ein ffurfio yn gyfatebol iddi. Rhuf. 6. 17. Crist yw delw y Duw anweledig; y gair ydyw y drych cywir sydd yn dangos, yn ngoleuni yr Ysbryd Glân, ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist; a'r olwg hòno ar ogoniant yr Arglwydd sydd yn cyfnewid y pechadur i'r unrhyw ddelw. Beth yw ffydd ond *credu* gair Duw? ond ffydd sydd *trwy* glywed, a chlywed *trwy* air Duw. Trwy gredu tystiolaeth y gair am ddrwg pechod, y mae edifeirwch am dano yn dyfod; a thrwy gredu am anfeidrol ddaioni a hawddgarwch Duw, yn ol tystiolaeth y gair, y mae cariad Duw yn cael ei dywallt yn ein calonau ni trwy yr Ysbryd Glân.

V. Ni byddai yn anfuddiol i ystyried rhai pethau yn mhellach am yr adenedigaeth, i gael deall mwy cyflawn am dano.——1. Deiliaid yr adenedigaeth ydyw dynion, ac nid angelion; ac nid pawb o ddynion chwaith, ond y rhai hyny sydd mewn modd neillduol yn wrthddrychau o gariad Duw: y rhai a ragluniaethwyd ganddo i fod yr un ffurf â delw ei Fab—a etholwyd yn Nghrist, ac a brynwyd ganddo (1 Petr 1. 2, 3.) ond wrth naturiaeth yn bechaduriaid, ac yn blant digofaint.——2. Y maent yn oddefol yn y gwaith, ac nid yn gweithredu; yn oddefol fel plentyn yn ei enedigaeth naturiol; fel y defnyddiau yn nghreadigaeth y byd; fel dyn marw pan y cyfodir ef oddiwrth y meirw; fel yr esgyrn sychion yn ngweledigaeth Ezeciel. Pen. xxxvii.——3. Gweithred anorchfygol gras Duw ydyw. Y mae Duw yn gweithredu gyd â'r mawredd a'r gallu priodol iddo ei hun; fel yn nghreadigaeth y byd, neu yn nghreadigaeth plentyn yn y groth. Y mae yr Ysbryd, yn yr adenedigaeth, fel y gwynt yn chwythu lle y myno, ac nis dichon neb ei attal. Ioan 3. 8. Y mae yn gorchfygu yn hawdd, trwy ei allu dwyfol, yr holl rwystrau sydd ar y ffordd oddiwrth elyniaeth, gwrthwynebiad, a llygredigaethau: pan y byddo Duw yn gweithredu, pwy a'i lluddias?——4. Gweithred ddiattreg, a disymwth, ar unwaith, ydyw. Nid ydyw fel sancteiddhad, yr hwn y mae yn ddechreuad o hono, yr hwn a ddygir yn mlaen yn raddol. Y mae pob gras yn cynnyddu, ond y planiad o honynt sydd ar unwaith. Cenedlir, a genir plentyn ar unwaith, ac nid yn raddol. Felly y mae yn yr adenedigaeth; nis gellir dywedyd fod un yn fwy adenedigol na'r llall, er ei fod yn fwy sanctaidd; nid oes un yn fwy plentyn na'r llall, er ei fod yn blentyn mwy.——5. Y mae yn berffaith. Nid rhan o ddyn sydd wedi ei adgenedlu, a rhan heb ei adgenedlu: ond creadur newydd sydd yn cael ei adgenedlu, ac y mae yn berffaith yn ei ryw. Gwir ydyw, fod dwy egwyddor yn y dyn a adgenedlwyd; sef deddf yn yr aelodau, a deddf y meddwl; egwyddor o bechod, ac egwyddor o ras; yr hen ddyn, a'r dyn newydd: ac y mae yr holl hen ddyn heb ei adgenedlu; y mae yn parhau heb gyffwrdd âg ef, ac yn gwbl fel yr oedd,

* Gwel Dr Owen *on the Spirit;* Charnock *on Regeneration;* Witsius *on the Covenants;* Dr Goodwin *on the Work of the Spirit;* Leighton *on Peter; Westminster Assembly's Confession of Faith, &c., &c.*

Digitized by Google

ond yn unig wedi ei ddifeddiannu o'i lywodraeth: ac y mae y dyn newydd yn gwbl adgenedledig, heb un rhan ddiadgenedledig; nid oes dim pechod ynddo, neu yn cael ei wneuthur ganddo, nis geill wneuthur pechod. 'Y mae merch y brenin *oll* yn ogoneddus o fewn.' Y mae yn berffaith ddyn, ac yn meddiannu ei holl aelodau, er heb yn eu cyflawn dyfiant, fel y byddant yn ddilys. Nid oes dim cynnydd ar adgenedliad, er bod cynnydd ar yr hyn a genedlwyd.——6. Nis gellir ei golli byth. Unwaith wedi ei adgenedlu, fe barha felly byth; nid yw bosibl ei ddiadgenedlu. Y mae gwedi ei eni o hâd anllygredig ac anfarwol. Y mae gras yr Ysbryd Glân ynddo yn ffynon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol. Ioan 4. 14. ——7. Y mae hefyd yn y dyn a adgenedlwyd ryfel parhaus rhwng yr hen ddyn a'r dyn newydd; deddf yn yr aelodau a deddf y meddwl; cnawd yn chwennych yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn chwennych yn erbyn y cnawd; y ddau yn gwrthwynebu eu gilydd yn ddidòr; ond diwedda y rhyfel mewn buddugoliaeth gyflawn o du yr Ysbryd: canys beth bynag a aned o Dduw sydd yn gorchfygu y byd, pechod, a Satan, a phob gelyn, ac mae yn fwy na gorchfygwr ar y cwbl, trwy Grist. 1 Ioan 5. 4. Rhuf. 8. 37. ——9. Y mae y rhai a adgenedlwyd yn gyfranog o bob gras yr Ysbryd—yn cael eu haddasu i fwynhau holl freintiau goruchel y cyfammod gras—ac yn cael eu haddasu i gyflawni pob gweithred dda, gwedi eu 'creu yn Nghrist i weithredoedd da.' Eph. 2. 10. a 4. 24. ac yn *barod* i bob gweithred dda. Titus 3. 1. Ac wedi eu gwneuthur yn gymhwys i gael rhan, ac i'w mwynhau, o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Col. 1. 12. Bydd y gwaith yn ei berffeithrwydd yn dra gogoneddus; a bydd Duw byth yn ogoneddus yn ei saint, ac yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu. 2 Thes. 1. 10.

'Yn wir,' meddaf i chwi, y cewch chwi, y rhai a'm canlynasoch i yn yr adenedigaeth,' &c. Mat. 19. 28. Trwy gyfnewid yr attaliadau, rhoddir gwahanol feddwl i'r geiriau. Y mae y rhan fwyaf o argraffiadau o'r Bibl Cymraeg yn cysylltu y gair adenedigaeth â'r rhan flaenaf o'r adnod, ac yn arwyddo bod y dysgyblion wedi canlyn Crist yn yr adenedigaeth: sef eu bod yn offerynol yn ei law, ac wedi aros gyd âg ef yn ei brofedigaethau, yn gosod i fynu ei deyrnas yn y byd. Wrth Mab y dyn yn eistedd ar orsedd ei ogoniant, y mae i ni ddeall gosodiad Crist i fynu yn ei freniniaeth gyfryngol, yr hon a dderbyniodd efe gan yr Hen Ddihenydd, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, ac ieithoedd, ei wasanaethu ef. Daniel 7. 9—14. Luc 22. 28. Gosodiad yr apostolion ar orsedd-feinciau, yn barnu deuddeg llwyth Israel, a arwyddai y byddai iddynt lywodraethu ar ei eglwys, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, yr hon oedd y deuddeg llwyth yn ei chysgodi. Y mae *barnu*, yn aml yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo yr un peth a *llywodraethu*. Barn. 12. 7. 1 Sam. 8. 5. Hwy fyddent y gweinidogion penaf yn ei deyrnas, yn gosod i fynu yr holl reolau a'r trefniadau, wrth ba rai yr oedd yr eglwys i gerdded, ac yn cyhoeddi yr athrawiaethau ag oedd hi i'w credu hyd ddiwedd y byd.——Yn yr argraffiadau o'r Bibl yn y flwyddyn 1620, 1630, 1769, trwy osodiad gwahanol yr attaliadau, y mae y gair adenedigaeth yn cael ei gysylltu gyd â'r rhan olaf o'r adnod, trwy roddi rhagwahanod ar ol y geiriau, 'y rhai a'm canlynasoch i.' Yn ol y nodiad hwn, meddwl rhai wrth yr *adenedigaeth*, yr *adgyfodiad* yn y dydd olaf, pan y bydd cyrph y saint, yn gystal a'u heneidiau, yn cael eu hadeni i anllygredigaeth a gogoniant tragywyddol; a phob peth yn cael eu hadferyd o holl effeithiau y cwymp. Os ydyw yn briodol i alw creadigaeth yn *genedliad* (γενεσις) nid ydyw yn anmhriodol galw unrhyw adnewyddiad, neu adferiad ar wedd a dull pethau yn gyffredinol (παλιγγενεσια) yn *adenedigaeth*. Gen. 2. 4. Nid creadigaeth fydd y gwaith a wneir yn y dydd olaf, ond *adenedigaeth*; sef gosod pob peth mewn dull ac agwedd arall, a mwy gogoneddus. Bydd i'r apostolion, y dydd hwnw, ryw anrhydedd arbenig, fel cynweision y deyrnas; ac yn ol yr athrawiaethau a gyhoeddasant hwy, y bydd pawb yn cael eu hachub, neu eu colli.*——Y mae rhai yn cyfleithu y geiriau fel hyn:—'Yn wir, meddaf i chwi, yn yr adferiad, pan eisteddo Mab y dyn ar ei orsedd ogoneddus, y cewch chwithau fy nghanlynwyr, yn eistedd ar ddeuddeg gorsedd, farnu deuddeg llwyth Israel.' Yn y dydd hwnw y bydd anrhydedd i'r Iesu dirmygedig, a'i holl ganlynwyr. Edr. ADFERIAD.

ADER, עדר un o'r rhai a ymlidiasant drigolion Gath. 1 Cron. 8. 15.

ADERYN Y TO, ehediad digon adnabyddus. Yr ydoedd adar y tô yn ymborth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon. Gwerthent ddau o honynt er ffyrling. Mat. 10. 29. Er lleied oeddynt, a lleied eu gwerth, etto y mae gofal Duw am danynt y fath, na chant syrthio o flaen yr heliwr, nac ychwaith ddisgyn ar y ddaear i gasglu eu lluniaeth, heb ei sylw arnynt; yn dangos manylrwydd rhagluniaeth Duw, a'i ofal am ei holl greaduriaid, hyd yn nod y rhai gwaelaf, a mwyaf diwerth. Pa faint mwy, gan hyny, y gofala Duw am ei bobl, y rhai a brynwyd er gwerth mawr, nid âg arian neu aur, a phethau llygredig, ond â gwerthfawr waed Crist? 'Hwy a dalant fwy na llawer o adar y tô.' Mat. 10. 31. Luc 12. 6.

ADFER—U, (mer) edfrydu, talu adref; ail-gyweirio, diwygio, gosod i fynu o newydd; dwyn yn ol yr hyn a gollwyd; adnewyddu, neu ail-adeiladu. Esa. 1. 26. a 67. 18. Dan. 9. 25. Seph. 3. 9.

A ddwg angeu nid *adfer*. *Diar.*

ADFERIAD, (adfer) edfrydiad, adnewyddiad; dwyn yn ol i'w lle priodol. 'Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn, hyd amseroedd adferiad pob peth.' Actau 3. 21. 'Yr vn vydd dir ir nef ei dderbyn, yd yr amser yr *adverer* yr oll bethae, ry ddywesei Dew trwy enae ei oll sainct Prophwyti er yn oes oesoedd.' W. S. 'Yr *adnewyddir* pob peth.' Dr M. Sef diwedd byd a dydd barn; pan yr adferir, 1. Delw Duw yn berffaith ar gyrph ac eneidiau ei bobl, yr hon a gollasant trwy y cwymp.——2. Gogoniant mynegol i Dduw, ei briodoliaethau, a'i lywodraeth ddoeth a da; yr hyn sydd yn bresennol, mewn graddau mawr, yn guddiedig o olwg.——3. Y cyflawnir yr holl brophwydoliaethau, yr addewidion, a'r bygythion sydd yn y gair, gwirionedd pa rai y mae gwatwarwyr annuwiol yn eu hammeu. 2 Petr 3. 4. Y mae pob peth i gael eu hadferyd yn yr amseroedd gosodedig; hyd nes y gwnelir hyny, rhaid i'r nefoedd dderbyn Crist, yno i lywodraethu pob peth, a pheri iddynt gydweithio er daioni, i gael pob peth i'w le priodol—sef pechod a diafol i ddystryw; ei bobl i gadwedigaeth; a'r gogoniant i Dduw yn gyflawn, i'r hwn y mae yn perthyn. Ps. 110. 1. Esa. 65. 17. a 66. 22. 1 Cor. 15. 25, 26, &c. 2 Petr 3. 13. Dat. 21. 1, &c.

ADFERWR, (adfer) edfrydydd, adgyweiriwr, adnewyddwr.—'Efe fydd i ti yn adferwr einioes.' Ruth 4. 15. Rhan o gyfarchiad gwragedd duwiol Bethlehem i Naomi, ar waith Boaz yn priodi Ruth ei gwaudd; yn gosod allan y byddai Boaz yn gynnaliaeth, yn gysur, ac yn amgeleddwr iddi, yn ei hen ddyddiau; wedi yr holl gyfnewidiadau a'r siomedigaethau yr aethai hi trwyddynt.

ADFYD, (ad-byd) helbul, blinder, gwrthwyneb. Mae adfyd ysbrydol a thymhorol yn fynych yn cyfar-

* Gwel Musculus, Bullinger, Macknight, Campbell.

Digitized by Google

fod â duwiolion. Esaiah 26. 16. Luc 16. 25. Heb. 11. 25.

*Adfyd* pob hir dristwch. ' *Diar.*

ADFYWIO, (ad-byw) dadebru, dadlewygu; adnewyddu, sirioli, cynnyddu. 'Adfywiant fel ŷd.' Hos. 14. 7. Trwy effeithiau y gair, a dylanwadau yr Ysbryd Glân, adferir hwynt o adfeiliad ysbrydol, a blagurant a ffrwythlonant yn hyfryd ac yn doreithiog.——'Adfywiodd pechod, a minnau a fum farw.' Rhuf. 7. 9. Dyma effeithiau y gyfraith arno; adfywiodd pechod yn ei hwyneb, a bu yntau farw o ran pob gobaith o gael bywyd trwyddi.

ADGAS, (cas) dygas, hygas, casiol, brwnt, ffiaidd, cywilyddus. Diar. 30. 23. Ps. 36. 2. Ezec. 23. 29. Dat. 18. 2.

ADGENEDLU, (ad-cenedl) cenedlu drachefn; gweithred yr Ysbryd Glân trwy weinidogaeth y gair, yn cenedlu y dyn newydd, neu yn creu y creadur newydd, yn ol Duw, sef yn dduwiol, mewn cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd; adferu y ddelw hòno yn ol, a gollwyd yn Eden, a'i gosod yn yr enaid. 'Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd.' 2 Cor. 5. 17. Eph. 4. 24. Edr. ADENEDIGAETH.

ADGOFIO, (cofio) Deut. 30. 1. Edr. COFIO.

ADGYFOD—I—IAD, (cyfod) adgodiad, ail-godiad, cyfodiad drachefn.——1. Adgyfodiad, weithiau, a arwydda, rhyddhad, neu adferiad person, neu genedl, o gyflwr o adfyd a chaethiwed; megys yn achos Dafydd, Hezeciah, Paul. Ps. 25. 3, 4. Esa. 38. 16. 2 Cor. 1. 9, 10.—Y genedl Iuddewig. Galar. 4. 20. Ezec. 37. 1—14. Hosea 6. 1, 2.——2. Y mae bywhad enaid o gyflwr o bechod a damnedigaeth yn cael ei alw yn adgyfodiad. Ioan 5. 25. Ephesiaid 2. 1, 5. Col. 2. 12. a 3. 1.——3. Felly, hefyd, y mae bywhad a chynnydd eglwysi cysglyd, dirywiedig, i fywiogrwydd rhodiad ysbrydol, a chysuron dwyfol, yn cael ei alw yn adgyfodiad. Esaiah 60. 1. Dat. 11. 15. a 20. 1—8.

I. 'Crist a gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant.' 1 Cor. 15. 20. —1. Y mae adgyfodiad Crist yn athrawiaeth sylfaenol yn y grefydd Gristionogol, ac yn cynnwys pob athrawiaeth arall ynddi.* Os cyfododd Crist, bu farw; os bu farw, ymgnawdolodd; canys heb hyny nis gallasai farw. Fel yr oedd yn Dduw ac yn ddyn, ac yn ddyn hollol rydd oddiwrth bechod, nis gallasai angeu gael awdurdod arno, ond o'i wir fodd ei hun: os bu farw o'i wir fodd ei hun, bu farw i ateb rhyw ddybenion pwysfawr i eraill; ac os cyfododd o feirw, y mae dybenion ei farwolaeth wedi eu hateb yn gyflawn. Yr oedd dybenion i'w hateb o'r canlyniadau mwyaf, nas gallesid eu cael heb farwolaeth y fath berson a'r Duw-ddyn, Crist Iesu—sef gwneuthur iawn dros bechod, a thrwy hyny, gogoneddu Duw yn nhragywyddol iechydwriaeth ei bobl. Os cyfodwyd Crist, y mae hyny yn brawf diammheuol o ddigonolrwydd yr iawn a wnaeth, yn ei aberthiad o hono ei hun; canys heb hyny, ni buasai Duw yn ei ryddhau oddiwrth ofidiau angeu. 'Os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein pregeth ni,' medd yr apostol, 'ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau.' 1 Cor. 15. 14.——2. Rhagddywedwyd gan y prophwydi am ei adgyfodiad, ac amgylchiadau ei adgyfodiad, y byddai iddo gyfodi y trydydd dydd, &c. Job 19. 25. Psalm 16. 10, 11. a 22. 19. a 110. 7. Esaiah 25. 8. a 53. 8. a 55. 3. Hos. 6. 2. Zech. 3. 8. Actau 13. 34.——3. Rhagddangoswyd ei adgyfodiad trwy lawer o gysgodau; megys gwaredigaeth Isaac pan oedd ei dad yn bwriadu ei offrymu yn boeth-offrwm, yn ol gorchymyn Duw;—yn nyrchafiad Joseph o'r carchar;—yn ngwaith Samson yn dyfod i fynu o wlad y Philistiaid, ac yn dwyn ymaith byrth Gaza;—yn ngwaredigaeth Jonah o fol y morfil;—Daniel a'r tri llanc o'u cyfyngderau i ddyrchafiad gogoneddus;—yn y bwch diangol, a'r aderyn byw a drochwyd yn ngwaed yr aderyn marw, ac yn ehedeg ymaith;—yn nhrefn glanhad y gwahanglwyfus. Gen. xxii. Lef. 14. 6, 7. a 16. 21, 22. Barn. 16. 3. Heb. 11. 19. Edr. ADAR. ——4. Y mae genym y sicrwydd mwyaf o wirionedd ei adgyfodiad. I'n cadarnhau am wirionedd y pwnc hwn, y mae genym dystiolaeth gelynion, sef y milwyr a'r arch-offeiriaid—angelion a sicrhasant ei adgyfodiad wrth y gwragedd a aethant at y bedd—ymddangosodd i'w ddysgyblion dros ddeg o weithiau wedi adgyfodi—ymddyddanodd lawer â hwynt, ac a fwytaodd ac a yfodd yn eu gwydd. Mat. xxviii. Marc xvi. Luc xxiv. Ioan xx, xxi. Act. 9. 3—17. a 7. 56. 1 Cor. 15. 5, 6, 8. Y mae disgyniad yr Ysbryd Glân, yn neillduol, yn sicrhau hyny, yn ol rhagddywediad Crist ei hun. Actau 1. 11.

Priodolir ei adgyfodiad, 1. I'r Tad fel tystiolaeth mai ei Fab ydoedd; a'i fod wedi ei gyflawn foddloni, trwy yr iawn a dalodd dros ei bobl. Fel eu Pen a'u Mechniydd, cyfiawnhawyd ef yn ei adgyfodiad, ac anfonodd y Tad angel i agor drws y carchar, i'w ryddhau, trwy dreiglo y maen ymaith oddiwrth ddrws y bedd. Esaiah 53. 8. Mat. 28. 2. Actau 2. 24. a 3. 15, 16. a 4. 10. a 10. 4. a 17. 31. Rhuf. 10. 9. Eph. 1. 20. Heb. 13. 20.——2. Adgyfododd Crist yn ei nerth dwyfol ei hun. Yr oedd hyn yn brawf diammheuol o ddwyfoldeb ei berson; gan fod ganddo feddiant i ddodi ei einioes i lawr, a meddiant i'w chymeryd hi drachefn. Nis gall un creadur adgyfodi ei hun, mwy na chreu ei hun; y mae yn brawf diammheuol o'i Dduwdod; canys ni allasai fod ganddo awdurdod i'r naill na'r llall, oni buasai ei fod yn Dduw yn gystal ag yn ddyn.* Ioan 2. 19. a 10. 17, 18. Rhuf. 1. 4.——3. Adgyfodwyd ef hefyd gan yr Ysbryd Glân; o'r achos hyn y gelwir ef, 'Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu.' Yr Ysbryd Glân a genedlodd ei ddynoliaeth yn nghroth y Forwyn, mewn undeb â Pherson Mab Duw; yr Ysbryd Glân a addurnodd y ddynoliaeth yn yr undeb hwnw, â sancteiddrwydd ac â doniau addas i'r fath undeb goruchel. Ac er gwahanu corph ac enaid sanctaidd Crist oddiwrth eu gilydd yn ei angeu, etto ni thorwyd yr undeb rhyngddynt â Pherson Mab Duw; ac yr oedd yr Ysbryd Glân, fel cwlwm yr undeb hwnw, yn preswylio yn mhob un o'r ddau, i'w huno drachefn yn ei adgyfodiad. Rhuf. 8. 2, 11. 1 Petr 3. 18.——4. Adgyfododd Crist yn ei gorph priodol ei hun, a oedd ganddo cyn ei farwolaeth, yn foreu y trydydd dydd. Adgyfododd mewn dull araf a phwyllog. Fel dangosiad o hyny—ac hefyd, mai nid dwyn ei gorph a wnaed—ac na byddai yntau marw mwyach—ac iddo dynu ymaith achos cywilydd, ac y cai ei wisgo â gogoniant—gadawodd ei fedd-wisgoedd, sef y llieiniau oedd am dano, ar ol, wedi eu plygu a'u gosod yn drefnus yn y bedd. Ioan 23. 5, 6, &c.——5. Adgyfododd, hefyd, gyda mawrhydi ac ardderchawgrwydd gogoneddus.

* Adgyfodiad Crist yw colofn fawr neu sylfaen ein ffydd ni. 'Os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi o feirw, cadwedig fyddi.' Rhuf. 10. 9. Cymerwch ymaith yr attegydd hyn oddi wrthym, ac ni erys dim o'n ffydd yn ddiogel; pa gymaint y gobaith a dderbyniasem am iechydwriaeth, y mae yn diflanu yn gwbl ar yr un pryd. 1 Cor. 15. 17, 18. Witsius *Exercitatio* 19. *De Symbol.* s. 7.—C.

* Pa un bynag yn wir a ystyrir fod Crist wedi ei adgyfodi gan y Tad, neu ganddo ei hun, y mae y naill olygiad neu y llall yn ein cynnysgaethu ni â phrawf anorchfygol o'i dragywyddol Dduwdod a'i Faboliaeth. Canys gan fod rhagorol fawredd nerth Duw yn cael ei weithredu ynddo, fel y dywed Paul, yn ei adgyfodiad; os Crist ei hun a ddefnyddiodd hwnw yn ei gyfodi ei hun, amlyga ei fod yn feddiannol o rinwedd anfeidrol, ac felly mai Mab tragywyddol y Duw Goruchaf ydoedd, ac o'r un hanfod ag ef, yr hwn oedd ganddo fywyd ynddo ei hun yn ogymaint â'r Tad. Witsius *Exercit.* 19. *De Symbol.* s. 16.—C.

Digitized by Google

Bu daear-gryn mawr—disgynodd angel o'r nefoedd, ac a dreigloddd y maen ymaith, ac a eisteddodd arno; dau eraill a eisteddasant, un wrth ben, ac un wrth draed ei fedd; llawer o gyrph y saint a gyfodasant gyd âg ef. Mat. 27. 52. a 28. 2. Marc 16. 4. 5, 6. Ioan 20. 12.——6. Adgyfododd fel person cyffredinol, yn cynnrychioli, yn ei adgyfodiad, ei holl bobl; ac yr oeddynt hwy yn adgyfodi gyd âg ef, fel eu pen-cyfammodwr a'u cynnrychiolwr; a'i adgyfodiad ef ydyw yr achos haeddiannol ac effeithiol o'u hadgyfodiad hwy i fywyd o gyfiawnhad, o sancteiddrwydd, ac o ogoniant. Rhuf. 4. 25. Eph. 2. 6.

Am effeithiau adgyfodiad Crist, a'r dybenion mawrion i ateb trwy hyny, y maent yn amrywiol:—

1. *Y dyben penaf oedd amlygiad o ogoniant Duw.* Cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad. Rhuf. 6. 4. Neu, fel y mae rhai yn cyfieithu y geiriau, *i ogoniant y Tad*, neu er gogoniant Duw Dad. Phil. 2. 11. Sef, er amlygiad y priodoliaethau dwyfol yn ogoneddus; sef ei ffyddlondeb yn cyflawni yr holl gysgodau, yr addewidion, a'r prophwydoliaethau am hyny. Actau 26. 22, 23.—Ei allu; cyfodi un oddiwrth y meirw ydyw gwaith gallu dwyfol. Eph. 1. 19, 20.—Y mae cyfiawnder dwyfol, hefyd, yn cael ei ogoneddu. Pan orphenodd Crist ei waith fel Mechnïydd, cyfiawn oedd iddo gael ei ryddhau, heb ei gadw yn hŵy fel carcharor yn y bedd; ïe, ei ryddhau yn gyfreithlawn, ac yn anrhydeddus; fel y gwnaed, trwy anfon cenadi o'r nef i dreiglo ymaith y maen, a'i roddi yn rhydd. Gwedi ei adgyfodi fel hyn, 'Efe a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd;' a thrwy hyn, gogoneddwyd cyfiawnder Duw; ac felly, hefyd, ei ddoethineb, ei ras, a'i ddaioni, yn trefnu yr iechydwriaeth, a thrwy hyn ei chwblhau yn ogoneddus—yr hyn a fuasai gwedi myned yn gwbl ofer, pe buasai Crist heb adgyfodi.

2. *Mewn perthynas i Grist ei Hun.*—1. Trwy hyn rhoddodd brawf ychwanegol o ddwyfoldeb ei Berson, a'i fabolaeth; eglurwyd ef, trwy hyn, yn Fab Duw mewn gallu. Ymddangosodd ei fod yn Hollalluog, gan iddo gyfodi ei hun oddiwrth y meirw—ei fod yn Arglwydd pawb oll, yn gystal y meirw a'r byw—fod agoriadau uffern a marwolaeth ganddo—ac yr egyr feddau ei bobl, ac a'u gesyd hwy yn rhydd, fel y rhyddhawyd yntau.——2. Ymddengys wrth hyn yn eglur, iddo orphen ei waith fel Mechnïydd dros ei bobl—'iddo ddybenu camwedd—selio pechodau—gwneuthur cymmod dros anwiredd—a dwyn cyfiawnder tragywyddol;' iddo gyflawni y gyfraith—boddloni cyfiawnder: yn fyr, iddo wneuthur pob peth a gytunodd âg ef i gyflawn foddlonrwydd i'w Dad: am hyny, cyfodwyd ef o feirw—derbyniwyd ef i ogoniant—a gosodwyd ef i eistedd ar ddeheulaw Duw, wedi gorphen ei holl waith fel Mechnïydd.——3. Y mae yn profi, hefyd, iddo gael y fuddugoliaeth ar angeu a'r bedd. Hos. 13. 14. 1 Cor. 15. 51.——4. Cyfododd oddiwrth y meirw, i fwynhau y gogoniant addawedig iddo. 1 Petr 1. 21.

3. *Mewn perthynas i'w bobl, y mae grym adgyfodiad Crist yn fawr, a'i effeithiau yn amrywiol.* Phil. 3. 20.——1. Trwy ei rinwedd y mae y saint yn mwynhau holl fendithion y cyfammod gras. Y cymhwysiad o honynt oll sydd trwy ei fywyd ef fel Eiriolwr, yn ganlynol i'w adgyfodiad, i'r hyn y priodolir y cwbl o'u hiechydwriaeth. Rhuf. 5. 10.——2. Priodolir cyfiawnhad, yn neillduol, fel effaith a dyben arbenig o adgyfodiad Crist. Rhuf. 4. 25. a 8. 33, 34.——3. Adgenedliad sydd effaith arall o adgyfodiad Crist. 1 Petr 1. 3. Eph. 2. 5, 6.——4. Adgyfodiad y saint yn y dydd olaf sydd ffrwyth ac effaith adgyfodiad Crist. Corph gogoneddus Crist yw y cynllun wrth ba un y ffurfir eu cyrph hwy, ac y mae ei adgyfodiad ef yn wystl ac yn ernes o'u hadgyfodiad hwy. Edr. Blaen-ffrwyth, Cydgyfodi.——(1.) Trwy eu hundeb â Christ;—(2.) Trwy lef Mab Duw;—(3.) A thrwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, y bydd cyrph y cyfiawnion yn cael eu hadgyfodi. Adgyfodir hwy yn gyrph dysglaer a gogoneddus—yn gyrph ysbrydol a bywiol—yn gyrph cryfion i gydweithredu â'u heneidiau, heb flino byth—ac yn gyrph perffaith ac anllygredig. Mat. 13. 14. Ioan 5. 28, 29. Rhuf. 8. 11. 1 Cor. 15. 43, 44. Phil. 3. 21. Ond bydd cyrph yr annuwiolion, fel eu heneidiau, yn aflan, yn warthus, a dirmygedig. Dan. 12. 2.

II. *Cyfodiad y meirw yn gyffredinol.* Am adgyfodiad y meirw, nis gallasai neb wybod dim am dano ond trwy ddadguddiad dwyfol, gan ei fod yn gwbl yn dibynu ar ewyllys ac arfaethiad Duw; ac nis gellir gwybod dim am ewyllys Duw, neu yr hyn y mae efe wedi ei benderfynu i'w wneuthur, ond trwy ddadguddiad o'i feddwl. Barnodd yr Atheniaid fod Paul yn mynegi duwiau dyeithr, am ei fod yn pregethu yr Iesu a'r adgyfodiad iddynt. Act. 17. 18. Ond y bydd adgyfodiad cyffredinol i'r cyfiawnion a'r anghyfiawnion sydd eglur, 1. Oddiwrth dystiolaethau diammheuol gair Duw. Job 19. 25, 56, 57. Esa. 26. 19. Dan. 12. 2. 1 Cor. xv. 2 Cor. 5. 10. Phil. 3. 20. 1 Thes. 4. 14. Dat. 20. 12—15.——2. Mae adgyfodiad Crist yn sicrhau hyny. 1 Cor. 15. 16.——3. Y mae cyrph, yn gystal ag eneidiau y saint, gwedi eu hethol, eu prynu, a'u huno â Christ, ac yn demlau i'r Ysbryd Glân. Mat. 22. 31, 32. 1 Cor. 6. 15, 19.——4. Gan fod barn gyffredinol, y mae yn rhaid bod adgyfodiad cyffredinol; fel y byddo cyrph ac eneidiau pawb yn cael eu cyd-farnu, y rhai a fuont yma yn cyd-fyw ac yn cyd-weithredu.

Er bod bywyd ac anllygredigaeth gwedi eu dwyn i oleuni mwy eglur trwy yr efengyl; etto, y mae yn amlwg fod yr adgyfodiad oddiwrth y meirw yn ddigon hysbys, trwy ddadguddiad dwyfol, i'r hen dduwiolion er y cynddydd, i Enoch, Moses, Job, Dafydd, a'r holl brophwydi. Job 10. 25, 26, 27. Psalm 16. 10, 11. a 49. 14. Esa. 26. 19. Dan. 12. 2, 3. Luc 20. 37, 38. Judas 14. Y mae rhyw ddangosiad o adgyfodiad yn holl drefn y greadigaeth. Y mae cyfodiad yr haul bob boreu yn dwyn rhyw adfywiad rhyfedd beunyddiol i holl naturiaeth. Y mae yr holl greaduriaid fel pe baent yn cael adfywiad a bywyd newydd. Gwedi tymhor tywyll marwaidd y gauaf, y mae adfywiad rhyfedd yn yr haf i'r planigion, y coedydd, y blodau, a gwyrddlysiau y maes. Y mae yr hâd a hauir yn y ddaear yn marw yno, ac wedi hyny yn adfywio, yn blaguro, ac yn ffrwythloni.

Beth o ddynion a gyfodir? Ateb, eu cyrph yn unig. Y mae dyn yn gynnwysedig o ddwy ran, sef enaid a chorph. Nid yr enaid a adgyfodir, canys nid ydyw hwnw yn marw. Y mae hwnw yn sylwedd anfarwol. Ond y corph, yr hwn sydd yn marw, a adgyfodir; a hwnw yn unig y sydd yn farwol a adgyfodir; yr hyn a roddir yn y bedd a ddaw allan oddi yno; yr hyn sydd yn huno yn llwch y ddaear a ddeffroir oddi yno. —1. Nid ydyw y corph, yn marwolaeth, yn cael ei ddiddymu, neu ei wneuthur yn ddim—y mae hyn yn groes i reswm a'r ysgrythyrau. Y mae gwahaniad corph ac enaid yn angeu, ond nid oes un o honynt yn cael ei ddiddymu. Y pridd a ddychwel i'r ddaear, fel y bu, a'r ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes. Er fod sylwedd y corph, ar ol marw, yn myned trwy lawer o gyfnewidiadau, etto, parha ei sylwedd mewn rhyw ddull neu gilydd. Nid dim yw pridd; ond y mae yn sylwedd, pa ddull bynag a fyddo arno. Pe byddai yn cael ei ddiddymu, ffurfio corph drachefn fyddai—creadigaeth, ac nid adgyfodiad.——3. Ni bydd y corph yn yr adgyfodiad yn newydd, awyraidd, nefolaidd, neu ysbrydol, o ran ei natur a'i sylwedd. Bydd yn wahanol oddiwrth yr hyn yw yn bresennol o ran ei gyneddfau, ond nid o ran ei sylwedd. Pan yw yr apostol yn dywedyd am yr had a hauir yn y ddaear, ac yn

Digitized by Google

cyffelybu y corph i hwnw; 'Y peth yr wyt yn ei hau, *nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau*,' (1 Cor. 15. 37.) nid yw yn meddwl gwahaniaethiad yn y sylwedd, ond yn *nghynneddfau* ac *ansawdd* y sylwedd. Er yr adgyfodir y corph yn gorph ysbrydol, etto nid ysbryd a fydd, ac wedi colli ei natur flaenorol; ond bydd yn ddarostyngedig i'r ysbryd—yn cael ei ddefnyddio yn nghylch gwaith ysbrydol—yn ymhyfrydu mewn gwrthddrychau ysbrydol—ac ni bydd yn cael ei gynnal trwy foddion naturiol, ond fel yr angelion. Luc 20. 26. Er y bydd yn gynnwysedig o gig a gwaed, etto, ni bydd yn bechadurus, nac yn wan, nac yn farwol; ond yn bur, yn sanctaidd, yn anllygredig, ac yn anfarwol. 1 Cor. 15. 50—53. Nis geill y rhai hyny fod yn gyrph dynol, nad ydynt gig a gwaed.——3. Yr un corph y sydd yn bresennol a adgyfodir; felly y tystiolaetha Job. Pen. 19. 26, 27. Felly y dywed yr apostol yn eglur, 'Rhaid i'r llygradwy *hwn* wisgo anllygredigaeth,' &c. (1 Cor. 15. 53.) yn cyfeirio at y corph oedd ganddo y pryd hwnw. 'A phan ddarffo i'r llygradwy *hwn*,' &c., yr hyn ni byddai yn wir pe corph arall fyddai ganddo. 'Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni;' ond os nid yr un corph, ond arall, nid *ein corph gwael ni* fydd yn cael ei newid yn un ffurf â'i gorph gogoneddus ef. Phil. 3. 21.——1. Y mae ystyr y gair adgyfodiad yn arwyddo mai yr un cyrph a fyddant. Os nid yr un corph a gyfodir, ag a syrthiodd, nid adgyfodiad a fydd, ond creadigaeth.——2. 'Caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef; a hwy a ddeuant allan,' &c. Pwy, a pha beth a ddaw allan? Beth, ond yr un corph y sydd yno.——3. Symudwyd Enoch ac Elias yn yr un cyrph ag oedd ganddynt yma yn y byd, ac nid cyrph eraill.——4. Y mae adgyfodiad Crist yn neillduol yn ei brofi; canys cyfododd ef â'r un corph a ddyoddefodd ar y groes, ac a ddodwyd yn y bedd: ymddengys hyn oddiwrth ôl yr hoelion yn ei ddwylaw a'i draed, ac a ganfyddwyd gan Thomas ar ol ei adgyfodiad: nid corph awyraidd, nac ysbrydol o ran ei sylwedd, oedd: ond yr oedd yn gynnwysedig o gnawd ac esgyrn, ac a ellid ei deimlo. Ioan 20. 25, 27. Yn awr y mae adgyfodiad Crist yn gynllun o adgyfodiad ei holl bobl.——5. Y mae cyfiawnder Duw yn gofyn fod yr un cyrph yn cael eu cyfodi a'u gogoneddu, ag a etholwyd gan Dduw, a brynwyd gan Grist, a sancteiddiwyd gan yr Ysbryd Glân; a bod yr un cyrph, ac nid eraill, ag a fu yma yn pechu, yn cael eu cospi.——6. Gellir golygu hyn yn beth tra sicr oddiwrth addewidion Duw i'w bobl, a'i fygythion i'w elynion. Pa le y mae gwirionedd Duw, os nid yr un personau fydd yn dyoddef ag a bechasant? A pha fodd y gallant fod yr un personau, heb yr un cyrph?——7. Bydd yn siomedigaeth fawr i'r saint, y rhai ydynt yn dysgwyl am brynedigaeth eu cyrph, os nid yr un, ond cyrph eraill, a roddir iddynt yn yr adgyfodiad.——8. Pa fodd y derbyn pob un y pethau a wnaed yn y corph, os nid yr un cyrph y fyddant? Ni bydd dybenion yr adgyfodiad yn cael eu hateb felly.——9. Os nid yr un cyrph a fyddant, trawsfudiad fydd, yn hytrach nag adgyfodiad.

1. Y mae yr adgyfodiad, o ran yr achos effeithiol o hono, yn cael ei briodoli yn unig i'r Duwdod; gormod gorchwyl ydyw i neb arall ond Duw. Rhuf. 4. 17. 2 Cor. 4. 14. Priodolir ef i bob un o'r Personau Dwyfol. 1 Cor. 6. 14. Ioan 5. 22, 27. Dat. 1. 18. Rhuf. 8. 11.——2. Yr achos haeddiannol i'w holl bobl yw Crist, fel Cyfryngwr; trwy rinwedd ei farwolaeth a'i adgyfodiad ef yr adgyfodir hwy. Y blaen-ffrwyth yw Crist; fel dyn efe yw y cynllun o hono.——3. Y moddion trwy ba rai yr effeithir ef, yw llef Mab Duw, a sain yr udgorn; yr un a llef yr arch-angel, ac udgorn Duw. Ioan 5. 28. 1 Thes. 4. 16. Ond pa un a fydd y llef yn wahanodol, fel hôno wrth fedd Lazarus; neu trwst taran gref, a elwir, 'Llef yr Arglwydd,' Psalm xxix.—neu a fydd yr udgorn yn cael ei chwythu gan angelion, a'r floedd yn floedd yr holl angelion, nid hawdd penderfynu.

Am amser yr adgyfodiad; bydd yn niwedd y byd hwn, y dydd diweddaf. Ioan 6. 39—54. Pan ddisgyno Crist o'r nef, y meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf. 1 Thes. 4. 16.

Nid oes raid ateb ymofynion dynion ffol, am y dull a'r modd y bydd yr adgyfodiad. Digon ydyw i ni fod yr athrawiaeth o ddadguddiad dwyfol; a bod gallu Duw yn ddigonol i gyflawni yr hyn mae yn ei addaw. Y mae yn athrawiaeth o'r canlyniadau mwyaf; yn rhoddi i ni olwg ëang ar ogoniant y priodoliaethau dwyfol, yn rhoddi cysur cryf tan bob dyoddefiadau, croesau, ac erlidigaethau; ac yn cyfodi y meddwl i obaith gwynfydedig, am gyflawn ddedwyddwch mewn corph ac enaid, tros byth.*

Dylai yr ystyriaeth o'r adgyfodiad, hefyd, ein dysgu i ofalu yn addas am ein cyrph tra byddont byw, na byddont yn cael cam trwy gybydd-dod, anghymedrolder, a phechodau aflan yn erbyn ein cyrph; ac hefyd i ofalu eu bod yn cael eu claddu yn barchus ac yn addas. Y mae yr ystyriaeth o'r adgyfodiad yn dra chynnaliaethol i'r saint wrth golli perthynasau anwyl ac agos. Cânt gyfarfod â hwy etto yn fuan mewn gwell byd, ac amgenach amgylchiadau, heb ymado byth—dan amrywiol groesau a blinderau, a than afiechyd a gofidiau blaenorol, oddiwrth yr holl bethau hyn rhyddheir hwy yn yr adgyfodiad.†

ADGYWEIRIO, (ad-cywair) adferthu, trwsio, taclu; ail-barotoi, attrwsio.—'A adgyweiriasant y dinasoedd.' Barn. 21. 23.——'Os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder.' Gal. 6.1. *Adgymalwch* (καταρτιζω) y cyfryw un. Taflodd ei fai ef fel aelod o'i le yn yr eglwys; ymddygwch tu ag ato fel meddygon medrus, cywrain, a thrwy addysg dyner, ffyddlawn, ac annogaethau, rhoddwch ef drachefn yn ei le. Nid oes neb ond rhai ysbrydol yn addas i'r cyfryw orchwyl cywrain a hwn; sef dynion o brofiad, golygiadau, a dybenion ysbrydol, ac efengylaidd. Dyben athrawiaeth a dysgyblaeth efengylaidd, yw adgyweirio; a dyma y dyben sydd gan bob dyn ysbrydol yn ei olwg, wrth ymdrin â chyflyrau dynion. Nid gadael neb yn ei fai, nid ei ladd am dano, ond ei adgyweirio, trwy ei feddyginiaethu o hono.

ADMAH, אדמה [*daearol*] un o'r dinasoedd a ddystrywiwyd gyda Sodom. Gen. 10. 19. Hos. 11. 8.

ADNA, עדנא [*hyfrydwch*] 1. Cynnorthwywr Dafydd. 1 Cron. 12. 20.——2. Un o dywysogion Jehosaphat. 2 Cron. 17. 14.——3. Lefiad. Ezra 10. 30.

ADNABOD, (nabod) gwybod, canfod, deall, cydnabod, &c.—'Am hyny o hyn allan nid adwaen neb yn ol y cnawd: os buom hefyd yn adnabod Crist yn ol y cnawd, etto yn awr nid ydym yn ei adnabod ef mwyach.' 2 Cor. 5. 16. 'Am hyny nid ydym o hyn allan yn parchu neb (wrth weini yr efengyl iddynt) o herwydd y cnawd; ac, ie, os parchasom Grist o herwydd y cnawd, nid ydym yn ei barchu ef mwyach o *herwydd hyny*.' Macknight. Y mae pob gwahaniaeth rhwng y naill ddyn a'r llall wedi ei ddiddymu trwy farwolaeth Crist, yr hwn a ddattododd ganolfur y gwahaniaeth; ar dir yr efengyl nid ydym yn adna-

* 'Adgyfodiad y corph yw y dirgelwch mawr hwnw o eiddo Cristionogaeth, heb yr hwn nid yw yr efengyl ond ofer, ac ofer ein ffydd a'n gobaith ni; ac nid yw cysur y rhai hyny a ddyoddefasant bethau chwerwon yn herwydd Crist, ond bychan i'r eithaf, neu ddim o gwbl.' 'Adgyfodiad y meirw yw calondid Cristionogion.'—Tertullian. Witsius.—C.

† Gwel Sherlock's *Trial of the Witnesses of the Resurrection of Jesus*; Benson's *Life of Christ*; West *on the Resurrection*: Macknight's *Harmony of the Gospels*; Drew's *Essay on the Resurrection of the Human Body*, &c.—C.

Digitized by Google

bod, yn parchu, nac yn gwneyd cyfrif o neb o ran eu gwaedoliaeth, eu breintiau allanol, eu bod o hâd Abraham, gwedi eu henwaedu; neu o herwydd eu sefyllfa allanol yn y byd, o herwydd eu bod yn gyfoethog, ac yn barchus yn mhlith dynion; neu o ran eu cyneddfau a'u doniau naturiol, a'u dysgeidiaeth. Nid oedd iechydwriaeth y naill mwy nag iechydwriaeth y llall i fod yn wrthddrych arbenig yn ngolwg ac yn ngofal yr apostol fel gwas Iesu Grist; ond ei waith oedd pregethu yr efengyl i bob creadur.——'Os buom hefyd yn adnabod Crist yn ol y cnawd;'—yr oedd rhai o honynt wedi gweled Crist yn ol y cnawd, ac eraill yn ei barchu am ei fod yn Iuddew, ac yn ei barchu o ran ei berthynas â hwynt yn ol y cnawd. Yr oedd ganddynt oll, unwaith, farn gnawdol am dano ef a'i deyrnas, fel pe byddai o'r byd hwn: 'yn awr nid ydym yn ei adnabod ef mwyach.' Nid ydym yn ei adnabod ef yn ei gyflwr o iselder yma yn y byd, gan ei fod wedi ei gyfodi o feirw; ac nid ydym yn gwneyd cyfrif o honom ein hunain, o herwydd i ni ei weled yn y cnawd: canys er bod y cyfryw olwg a gwybodaeth o hono yn ddymunol; etto y mae gwybodaeth ysbrydol o hono trwy ffydd yn llawer mwy dymunol; ac yr oedd llawer yn ei adnabod yn y cnawd, y rhai ni fwynhasant ei bresennoldeb ysbrydol, ac nis cânt fwynhau ei bresennoldeb gogoneddus oddi yma. Yn mhellach, nid ydym yn awr yn barnu am dano fel yr oeddym ni cyn i ni gael gwybodaeth ysbrydol o hono; ac fel y gwnai ein cydwladwyr, yn ol ei amgylchiadau allanol, ei ddygiad i fynu, ei dlodi, ei gystuddiau, nas gallasai fod y Messïah, Mab Duw, am hyny ei fod yn deilwng o farwolaeth; yn awr y mae genym feddyliau hollol wahanol am dano, yn credu mai Crist Duw ydyw, Prynwr ac Achubwr ysbrydol, teyrnas pa un nid yw o'r byd hwn. Nid yw adnabod Crist yn ol y cnawd o ddim llesâd gwirioneddol; ond ei adnabod yn ysbrydol, ac yn ysgrythyrol, trwy ffydd, yw bywyd tragywyddol. Mat. 12. 50. Act. 7. 58. a 22. 3. Gal. 2. 14. a 5. 6. 1 Cor. 1. 12. Col. 3. 11.

'A hyn yw y bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist.' Ioan 17. 3. 'A hon yw'r vuchedd tragyvythawl, sef yddyn dy adnabot ti y vot yn vnic wir Dduw, a'r hwn a ddanvoneist Iesu Christ.' W. S. 'Dy adnabod di yn unic wir Dduw.' Dr M. Nid oes neb yn adnabod Duw yn gyflawn, ac yn iachusol, ond sydd yn ei adnabod yn efengylaidd, fel Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, fel Duw pob gras, yn maddeu anwiredd, a phechod, a chamwedd, rhaid ei adnabod er iechydwriaeth, yn nhrefn iechydwriaeth yn Nghrist, yn cymmodi y byd âg ef ei hun heb gyfrif iddynt hwy eu pechodau; ei adnabod, trwy ffydd, yn ysbrydol, yn brofiadol, ac yn fuddiol. Gelwir y Tad yma yr unig wir Dduw, mewn cyferbyniad i'r gau dduwiau, ond nid yn cau allan y Mab a'r Ysbryd Glân, fel nad ydynt yn Bersonau yn yr Hanfod Dwyfol, fel yr haera yr Ariaid a'r Sosiniaid, a'r titl unig wir Dduw yn perthyn i bob un o honynt, yn gystal a'r Tad: pe amgen, ni buasai Crist byth yn rhoddi ei hun gyd â'r unig wir Dduw; ac hefyd y mae bywyd tragywyddol yn dibynu cymaint, yn ol y geiriau hyn, ar adnabod Crist, ag adnabod y Tad. Yr achos o'r gwahanol ddull o ymadroddi yw, am fod Crist, fel Cyfryngwr, wedi cael ei anfon gan yr unig wir Dduw, yn nghylch gwaith iechydwriaeth dyn. Y mae yn angenrheidiol anhebgorol er iechydwriaeth, i ddyn gael y wybodaeth hon; canys bod heb adnabod Duw yw bod heb Dduw—canys nid yw efe Dduw i neb nad yw yn ei adnabod; a bod heb Dduw yw bod heb fywyd, a phob dedwyddwch. Pa fodd y gall un gras weithredu tu ag at Dduw, a'r enaid heb ei adnabod? Pa fodd y credir yn Nuw, neu y cerir ef, heb ei adnabod? Am hyny, y mae Duw yn y cyfammod newydd, yn addaw y byddai iddo ef roddi i'w bobl galon i'w adnabod. Jer. 24. 7. Rhaid, gyda rhoddi dadguddiad allanol, goleuo llygad meddwl dyn yn dumewnol, a thynu ymaith y gorchudd oddiar y galon, cyn yr edrycho pechadur ar ogoniant yr Arglwydd, i'w newid i'r unrhyw ddelw. 2 Cor. 3. 18. Y mae rhodiad yn ol gorchymyn Duw yn brawf o wir adnabyddiaeth o Dduw. Jer. 22. 16. 1 Ioan 4. 6, 7, 8.

'A'r defaid sydd yn ei ganlyn ef, oblegid y maent yn adnabod ei lais ef.' Ioan 10. 4, 5. Llais Crist yw yr efengyl, yr hon sydd yn llawn cariad, gras, a thrugaredd; ac yn cyhoeddi cyfiawnder, heddwch, maddeuant, rhyddid, bywyd, ac iechydwriaeth gyflawn; y mae ei lais ef yn yr efengyl yn adfywiol, adferol, yn hyfrydol, ac yn ddyddanus. Y mae ei ddefaid, nid yn unig yn gwrando ar ei lais, ond yn ei adnabod yn brofiadol, ac yn ufuddhau o'r galon iddo. Nis dichon i neb ei ganlyn heb adnabod ei lais, oddiwrth ba beth, ac at ba bethau, ac i ba ffordd y mae yn eu galw. Y mae ei lais yn hollol wahanol oddiwrth lais pawb eraill —yn addasrwydd y pethau sy ganddo i lefaru wrthynt, i'w cyflyrau gwael a chystuddiedig—yn ei diriondeb yn llefaru—ac effeithioldeb ei wirionedd ar eu meddyliau. Ps. 45. 2. Can. 5. 13. Esa. 11. 4. Mat. 7. 28, 29. Luc 4. 32. Ioan 7. 46. Y mae efe yn llefaru gwirionedd digymysg wrthynt; a'r gwirionedd hwnw yn addas, ac yn briodol i'w cyflyrau; ac y mae yn peri i'r gwirionedd fod yn effeithiol er eu cysur a'u hyfforddiad.——'Adnabod pechod trwy y ddeddf,' (Rhuf. 3. 20. a 7. 7.) yw i ddyn, yn nrych sanctaidd y ddeddf, weled ei bechadurusrwydd, fel y mae yn erbyn Duw, a'r dirfawr berygl o hono yn ei ganlyniadau i ni.——'Crist nid adnabu bechod.' Nid adnabu beth oedd natur bechadurus, yn dufewnol; ni wnaeth un pechod yn allanol. Yr oedd yn gwbl rydd oddi wrtho, yn ei berson ei hun; er iddo yn ei gorph ei hun ddwyn pechodau eraill ar y pren. Ioan 8. 46. 2 Cor. 5. 21. 1 Petr 2. 22.

1. Arwydda adnabod, yr arfer anianol o wraig. Gen. 4. 1, 17. Mat. 1. 25.——2. Brynti, neu y pechod yn erbyn anian. Gen. 19. 5. Barn. 19. 25. Edr. GWYBODAETH.

ADNEWYDDU, (newydd) ail-gyweirio, adferu, diwygio, gosod i fynu o newydd. Arwydda, 1. Y cyfnewidiad a wna yr Ysbryd Glân ar eneidiau y gwaredigion. Col. 3. 10.——2. Ail-ennyn a threfnu yr hyn a wnaed o'r blaen. Ps. 51. 10. Rhuf. 12. 2. Tit. 3. 5.——3. Gosod a chadarnhau peth. 1 Sam. 11. 14.——4. Dwyn i well cyflwr. Galar. 5. 21.——5. Adfywhau. Ps. 103. 5.——6. Gwneuthur peth o newydd. Ps. 104. 30. Edr. ADENEDIGAETH.

ADONICAM, אדניקם [*yr Arglwydd a'm dyrchafodd*] 666 o'i feibion a ddychwelasant o'r caethiwed. Ezra 2. 13. Edr. RHIF.

ADONIRAM, אדנירם [*fy Arglwydd sydd uchel*] derbyniwr teyrnged Solomon, a chyfarwyddwr deng mil ar hugain o wyr i dòri coed yn Libanus at waith y deml yn Jerusalem. 1 Bren. 4. 6. a 5. 14.

ADONIZEDEC, אדני־צדק [*Arglwydd cyfiawnder*] brenin Jerusalem, yr hwn oedd un o'r pum brenin a ryfelasant yn erbyn Gibeon, a orchfygwyd ac a laddwyd gan Josuah. Pen. 10. 1, &c.

ADORAM, אדורם [*eu harddwch*] 1. Derbyniwr teyrnged Dafydd. 2 Sam. 20. 24.——2. Trysorwr Rehoboam. 1 Bren. 12. 18. Edr. REHOBOAM.——3. Mab Tau, brenin Hamath, yr hwn a anfonwyd gan ei dad i fendithio Dafydd am ei fuddugoliaeth ar Hadarezer, brenin Syria. 1 Cron. 18. 10. Gelwir Tau *Toi*; ac Adoram, *Joram*, yn 2 Sam. 8. 10.

ADRAMELEC, ac ANAMELEC, אדרמלך [*mawredd y brenin*] 1. Duwiau Sepharfaim, yn ol iaith y Persiaid, sydd yn arwyddo *brenin y praidd*; ac yn

Digitized by Google

ol iaith yr Arabiaid, yn agos yr un peth. Tebygol eu bod yn cael eu haddoli er mwyn llwyddiant ar y praidd. Pa ddull oedd arnynt ni chytunir; ond y rhan fwyaf sydd o'r farn mai yr haul a'r lleuad oeddynt; oblegid geilw y Cenedloedd hwynt, rheolwyr, a duwiau yr holl fyd. 2 Bren. 17. 31.——2. Mab Senacherib, brenin Assyria; yr hwn a alwyd felly o barch i'w ddelw. Tybir ei fod yn aberthu ei feibion i'r eilun; lladdwyd ef wrth aberthu yn nhŷ Nisroch ei dduw. 2 Bren. 19. 37. Esa. 37. 38.

ADRAMYTIUM, 1. Dinas yn yr arfordir gogleddol i Affric, a gorllewin yr Aipht.——2. Dinas o Mysia, yn Asia Leiaf. Mewn llong oddi yma y bu Paul yn mordwyo o Cesarea i Myra yn Lycia. Act. 27. 2.

ADRODD, (rhawdd) traethu, mynegi, dadgan.—'Brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt hwy yn ddirgel.' Eph. 5. 12. Rhy frwnt i feddwl pur eu cynnwys, i dafod pur eu hadrodd, nac i glust bur eu gwrando. Eu ffieiddio, a galaru o'u plegid, sydd addas a dyledus.——'Nid cyfreithlawn eu hadrodd.' 2 Cor. 12. 4. Edr. ANNHRAETHADWY.

ADREF—U, (tref) tua chartref; yn ol drachefn, dychwelyd i dref, dychwelyd yn ol. 1 Sam. 7. 14. 1 Bren. 13. 7. Diar. 7. 20. Edr. CARTREF.

ADRIA, enw dinas yn yr Ital. Oddiwrth hon y cyfenwid y môr Adriatic, yn mha un y bu Paul mewn tymhestl fawr. Act. 27. 27.

ADSAIN, (ad-sain) adlais, dadsain, darystain.—'Agos yw y dydd terfysg, ac nid adsain y mynyddoedd.' Ezec. 7. 7. Gwel Esa. 16. 9, 10. a 40. 9.

ADULAM, ארלם [*eu tyst*] dinas hyfryd, a elwid GOGONIANT ISRAEL. Mic. 1. 15. Yr oedd hi yn sefyll o du y dehau-orllewin i Jerusalem. Yn agos yma y bu Dafydd mewn ogof. 1 Sam. 22. 1. Bu yn ddinas enwog yn nghylch pedwar can mlynedd ar ol genedigaeth Crist; eithr yn awr y mae yn anghyfannedd.

ADUMMIM, ארמים [*cochion*] mynydd a dinas yn agos i Jericho, yn rhandir llwyth Benjamin. Yr oeddynt yn sefyll ar y ffordd o Jerusalem i Jericho; dywedir fod yno lawer o yspeilwyr, ac i'r lle gael yr enw o'r achos. Jos. 15. 7. a 18. 17. Oddiwrth y lle hwn y cymerodd yr Iesu ddammeg y gwr a syrthiasai yn mhlith lladron. Luc 10. 30—36.

ADWAEN—IAD, (gwaen) adnabyddus, cydnabyddus, cynnefin.—'Od oes neb yn caru Duw, hwnw a adwaenir ganddo ef;' sef a gydnabyddir fel un o'i bobl, a amddiffynir, ac a ymgeleddir. 1 Cor. 8. 3.—'Gwyn eu byd y bobl a adwaenant yr hyfrydlais: yn llewyrch dy wyneb, O Arglwydd, y rhodiant hwy.' Ps. 89. 15. Hyfrydlais yw llais yr efengyl, yr hwn yn unig sydd yn hyfryd i bechadur mewn cyferbyniad i bob llais arall. Yr oedd llais yr udgyrn yn cyhoeddi y Jubili yn dra hyfryd i'r dyledwyr tlodion a'r caethion; pa faint mwy hyfryd yw llais yr efengyl yn cyhoeddi heddwch a maddeuant i bechadur euog a thlawd! Udgorn-floedd brenin Sion yn mysg ei bobl, yw yr efengyl. Num. 23. 21. Gwel hefyd, Num. 10. 10. Ps. 81. 3. 2 Cron. 13. 12, 14. Zech. 9. 14. Esa. 42. 13. Er mor hyfryd yw y llais, nid pawb sydd yn ei adnabod; nid adwaenant natur a dyben yr efengyl, na gwerthfawrogrwydd y bendithion sydd i'w cael ynddi. Llais Duw yn ei ras a'i drugaredd, yn cyhoeddi ei drefn fawr yn ei Fab i achub pechaduriaid; ond nid yw y llais yn dwyn dim goleuni gyd âg ef iddynt hwy, am Dduw nac am ei drefn. Mae llawer heb glywed erioed yr hyfrydlais: nid oedd un Jubili yn cael ei chyhoeddi yn mhlith holl genedloedd y ddaear, ond yn Israel. Ac o'r rhai sydd yn ei glywed, mae llawer heb ei adwaen: y mae yr efengyl yn guddiedig rhagddynt. 2 Cor. 4. 3. Ond y mae pobl yn ei adwaen: gwynfydedig ydynt; canys, 1. Rhodiant yn llewyrch wyneb yr Arglwydd:—2. Gorfoleddant yn ei enw:—3. Ymddyrchafant yn ei gyfiawnder. Pa fendithion mwy a ellid meddwl am danynt! Edr. ADNABOD, GWYBOD.

ADWY—AU—OG, (adaw) bwlch, ffosp; drylliad mewn clawdd, neu fur. Y gau brophwydi Iuddewaidd 'ni safasant ar yr adwyau,' na'u cau chwaith, ni wnaethant ddim tu ag at rwystro rhedfa anwiredd, yr hwn oedd yn agor drws i ddialedd Duw dori i mewn am ben eu cenedl. Mab Duw yn unig oedd o anteidrol allu i sefyll ar yr adwy i droi ymaith y digofaint dwyfol. Ezec. 13. 5. a 22. 30.—'Cyfodi yr adwyau,' sef cynnorthwyo, amddiffyn, ac amgeleddu, mewn cyfyngder a chyni. Exod. 44. 26. Amos 9. 11.

ADDA, *Heb.* אדם *(adam)* y dyn. Am darddiad y gair Hebraeg, mae awdwyr yn amrywio yn eu barnau. Oddiwrth y gair אדם *(adam)* sef *daear, daear goch,* medd rhai; eraill a farnant ei darddiad o'r gair דם *(dam) tebygolrwydd*, am mai ar lun a delw Duw y crewyd dyn. Yr enw yw a roddwyd gan Dduw ar ein rhïeni cyntaf; ac y mae yn sefyll am ddyn yn gyffredinol, o bob rhyw, gwrryw a benyw; ond yn neillduol am ein cyn-dad Adda. Gen. 1. 26. a 5. 1, 2.

Am Adda, nid yw yr hanes ond byr, ond cynnwysfawr hynod, ac o'r canlyniad mwyaf i bawb ei wybod.—1. Mae y Creawdwr dwyfol yn gosod rhyw odidogrwydd arno yn ei greadigaeth rhagor un creadur arall. Gwnaeth bob creadur arall â'i air; ond y TRI tragywyddol a gyd-ymgynghorasant cyn gwneuthur dyn. 'Duw hefyd a ddywedodd, *Gwnawn* ddyn ar *ein* delw *ni*,' &c. Geiriau ydynt sydd yn arwyddo ystyriaeth a chynghoriad; i ddangos ardderchogrwydd y creadur oedd i gael ei greu, a dybenion dyfnion Duw mewn perthynas iddo, a'i ogoniant i gael ei amlygu trwyddo. Dyma y creadur a ddewisodd Duw, yn ei arfaeth dragywyddol, yn benaf, i amlygu rhagorol olud ei ras, ei drugaredd, a'i ddaioni, ynddo a thrwyddo. Mai y Personau Dwyfol sydd yn llefaru mewn ffordd o gynghor, nid oes neb uniawn-gred, yn ammeu; ac y mae yn anmhosibl meddwl am un esboniad arall ag sydd yn addas ac yn gyson â'r gwirionedd. Mae y geiriau yn dra hynod, yn gosod allan undod a lliosogiad yn y Creawdwr mawr. Mae y geiriau, yn y rhif lliosog a'r rhif unigol, yn neillduol i sylwi arnynt yn yr iaith Hebraeg:—

*hunain ein* llun *ein* wrth *ni* delw *ein* ar ddyn *gwnawn Aleim dywedodd A*
26 ויאמר אלהים נעשה אדם בצלמנו כדמותנו

*ef efe creodd y Aleim* ddelw ar *hun ei* ddelw ei ar dyn y *Aleim chreodd A*
27 ויברא אלהים את האדם בצלמו בצלם אלהים ברא אתו

*&c. Aleim* wrthynt *dywedodd a Aleim* hwynt *bendithiodd A*
28 ויברך אתם אלהים ויאמר להם אלהים

Mae y geiriau *Aleim, gwnawn, ein, ni, hunain,* yn y rhif lliosog; a'r geiriau *dywedodd, creodd, bendithiodd, ef, ei hun,* yn y rhif unigol. Gen. 1. 26, 27, 28. Canfyddwn oddiwrth y geiriau hyn fod cynghor dwyfol mewn perthynas i greadigaeth yn gystal a phrynedigaeth dyn.

Digitized by Google

2. Crewyd Adda ar y chweched dydd, wedi creu pob peth arall. Gwnaed tŷ mawr y byd yn gyntaf, a llanwyd ef â dodrefn; ac yna dygwyd y deiliad ardderchog i'w breswylio. Wedi creu y bydoedd, creodd ddyn fel sylwedd y cwbl. Y mae defnyddiau y nefoedd a'r ddaear yn cyd-gyfarfod ynddo. Yr oedd y greadigaeth i gyd, yn ei holl ogoniant, yn gyflawn o harddwch a phob dymunoldeb, yn barod i dderbyn ei harglwydd. Rhoddwyd bôd iddo mewn dull hollol wahanol i'w holl hiliogaeth; nid aeth Adda, fel hwynt oll, trwy lesgrwydd a gwendidau mebyd ac ieuenctid. Daeth o law ei Greawdwr yn ddernyn cyflawn berffaith o ran cynneddfau ei gorph a'i enaid. Yr oedd ei gorph yn ei gyflawn faintioli; yr oedd pob aelod yn berffaith, yn gyflawn, ac yn hardd. Yr oedd yr holl synwyrau felly hefyd, ac yn fywiog, heb ddim pall ynddynt. Gosododd Duw ef, yn gyflawn o synwyrau, mewn byd cyflawn o wrthddrychau addas iddynt, ac heb ddim anghytun â hwynt. Y fynyd y cafodd lygaid, gwelodd greadigaeth Duw yn ei holl ogoniant, heb ddim gwrthuni. Yr oedd ei glustiau, ar unwaith, yn clywed cyd-beroriaeth hyfryd yr holl greadigaeth. Yr oedd yr holl synwyrau eraill, yn yr un modd, yn cael eu hyfrydu gan bob peth addas iddynt.

3. Rhoddodd Duw iddo, yn ei greadigaeth, yr arglwyddiaeth ar bob peth byw, ar dir, a môr, ac awyr. Ac a'i bendithiodd â ffrwythlonrwydd, i amlhau ei ryw, yn ei holl ogoniant a'i ddedwyddwch creadigol.

4. Ond gwedi y cwbl, ei ardderchogrwydd penaf oedd delw Duw ar ei enaid, mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd. Gen. 1. 26. Eph. 4. 24. Col. 3. 10. Nid oedd dim arall yn deilwng i'w alw yn ddelw Duw ond y pethau uchod y mae yr apostol yn crybwyll am danynt, sydd yn cael eu hadnewyddu yn adferiad y rhai a achubir. Yr oedd Adda, nid yn unig wedi ei greu *gan* Dduw, fel pob creadur arall, ond hefyd yn (*κατα*) *ol* Duw—wrth lun (כדמות) yn *ol* llun Duw. Ni wnaed pethau eraill ar lun dim oedd mewn bôd o'r blaen; ond gwnaed dyn ar lun a delw Duw. Yr oedd ei wybodaeth yn ëang, tu hwnt, i raddau pell iawn, i wybodaeth ei holl hiliogaeth wedi hyny. Yr oedd yn naturiaethwr cyflawn ar unwaith. Yr oedd, trwy fywiogrwydd ei feddwl, yn treiddio yn drwyadl i naturiaeth a chynneddfau y creaduriaid, fel y gallodd ar unwaith roddi enwau addas i'w naturiaethau iddynt oll. Yr oedd ei wybodaeth am Dduw, ei berffeithrwydd a'i ogoniant dwyfol, yn gyflawn, yn ol ei radd fel creadur—er nas gall dim meidrol *gynnwys* anfeidroldeb. Yr oedd ei feddwl pur, heb lèn, yn ddigwmwl, yn edrych ar y gogoniant dwyfol yn y pethau a welir; ac yr oedd agwedd ei holl ysbryd yn hollol addas i'w adnabyddiaeth o'r Bod Dwyfol. Fel yr oedd ei wybodaeth am Dduw yn ëang, yr oedd ei ewyllys a'i serchiadau yn gweithredu yn fywiog, mewn gwresogrwydd rheolaidd, ac ymostyngiad sanctaidd iddo. Nid oedd dim palldod, na dim yn ormod ynddo, mewn un gradd.

5. Fel yr oedd yn gyflawn sanctaidd, yr oedd hefyd yn gyflawn ddedwydd. Gan ei fod yn gyflawn o Dduw, nis gallasai lai na bod yn gyflawn o ddedwyddwch. Wele ddyn yn gyflawn o sancteiddrwydd a dedwyddwch, wedi ei osod mewn byd cyflawn o bob peth daionus a dymunol, ac yn arglwydd arno; ei enaid yntau yn gyflawn o Dduw!

6. Ond, Och! dyn mewn anrhydedd nid arosodd! Ar ei greadigaeth, gosododd Duw Adda mewn gardd hyfryd, i fwynhau ei ffrwythau, i'w llafurio a'i chadw; ond, yn unig, gwaharddodd iddo fwyta, dan berygl marwolaeth, o ffrwyth un pren; sef y pren gwybodaeth da a drwg. Y dyn a hudwyd gan y wraig, a'r wraig gan y sarph; ac felly mewn anufudd-dod i'r gorchymyn dwyfol, bwytawyd o ffrwyth y pren; a'r dyn, yn ganlynol, a fu farw. Edr. Pren. Ymaflodd euogrwydd ac ofn ynddynt: ceisiasant ymguddio; a phan alwyd hwy i gyfrif, fel eu hiliogaeth hyd heddyw, ceisiasant ymesgusodi, gan gyhuddo eu gilydd. Y mae Duw yn eu hargyhoeddi yn llym; yn rhoddi barn drom arnynt; ond etto yn gymysgedig â thrugaredd. 'Trwy chwys dy wyneb y bwytei (nid pridd, ond) fara;' ac wrth y wraig y dywedodd efe, 'Mewn poen y dygi *blant*'—etto *plant* a fyddant. Melldithiodd y sarph â melldith dragywyddol; gan gyhoeddi y 'byddai i hâd y wraig ysigo ei ben.' Adda a genedlodd feibion a merched ar ei ddelw ei hun, dan y cwymp. Bu fyw 930 o flynyddoedd. Gen. iii, v.

7. Gosodir Adda allan yn yr ysgrythyrau, y mae yn dra amlwg, nid fel person neillduol, unigol, ar ei ben ei hun; ond fel person cyffredin, yn sefyll dros, ac yn cynnrychioli, neu yn dynsodi, ei holl hiliogaeth. Yr oedd ei holl hiliogaeth, nid yn unig yn ei lwynau, fel ei blant a'i hil, ond hefyd i'w hystyried a'u golygu ynddo, fel *pen-cyfammodwr*. Y mae hil pawb yn lwynau eu rhieni, yn ol trefn a deddf natur: ond ni bu un tad, ond y tad cyntaf, yn *ben-cyfammodwr* i'w hiliogaeth; oddi eithr yn gysgodol. Ond yr oedd holl blant Adda yn *gyfammodol ynddo;* a'i weithred ef o ufudd-dod, neu anufudd-dod, oedd eu gweithred hwy, yn gymaint a phe buasent yn ei chyflawni yn eu personau eu hunain. Nid oes dim gwahaniaeth yn hyn: 'trwy anufudd-dod un dyn y gwnaed llawer yn bechaduriaid.' Rhuf. 5. 19. Pechodd pawb ynddo; ac y mae ei holl hil, fel yntau, dan felldith y cyfammod toredig hwn. Ac o herwydd eu bod yn gyd-gyfranogion âg ef yn ei anufudd-dod, y maent hefyd yn gydgyfranogion yn llwgr ei natur. Yn nhoriad y cyfammod hwn, trwy anufudd-dod y pen-cyfammodwr, syrthiasant oll i ddyfnderoedd llwgr a gofidiau. Mae pawb o'i hiliogaeth, wrth natur, yn amddifad o'r cyfiawnder gwreiddiol oedd gan Adda cyn pechu; y mae eu holl natur, yn ganlynol, yn llygredig; ac y maent wrth naturiaeth yn blant digofaint. Genesis 6. 5, 6. Job 14. 1. Psalm 14. 3. Diar. 20. 9. Preg. 7. 20 Esa. 64. 6. Mat. 15. 19, 20. Rhuf. 3. 23. Gal. 3. 22 Eph. 2. 3. Edr. Pechod.

8. Y mae Adda, hefyd, yn cael ei osod allan fel *ffurf* yr un oedd ar ddyfod: ac yn gysgod neillduol o Grist. Rhuf. 5. 14. 1 Cor. 15. 45. Y mae agos bob peth oedd yn perthyn iddo yn ei gyflwr paradwysaidd yn cael cyfeirio atynt fel cysgodau; ond, yn fwyaf neillduol, yr oedd yn cysgodi Crist, fel pencyfammodwr. Yr oedd pob o'r ddau yn sefyll yn lle pawb perthynol iddynt, trwy berthynas ac undeb cyfammodol. Fel yr oedd Adda yn sefyll dros ei hiliogaeth, felly y mae Crist dros ei holl bobl. Y mae yr hyn oll a feddai pob un o'r ddau Adda, yn eiddo y rhai sydd yn perthyn iddynt. Y mae anufudd-dod y cyntaf, ac ufudd-dod yr ail, *yn gyfrifedig* i'w hâd; felly, hefyd, y mae llwgr y naill, a gras y llall, yn *gyfranedig*. Y mae hâd pob un yn sefyllfa, ac yn tebygu i'w pen-cyfammodwr. Y mae pawb yn yr Adda cyntaf wrth natur; ond y mae yr Ysbryd Glân, trwy yr efengyl, yn ol etholedigaeth Duw, yn symud holl hâd ysbrydol Crist o'r naill, ac yn eu himpio yn y llall; fel megys y dygasant ddelw y daearol, y dygant hefyd ddelw y nefol. Y mae un yn gyflawn o anghyfiawnder, o lwgr, ac o drueni, i'w hiliogaeth; mae y llall yn gyflawn o gyfiawnder, o sancteiddrwydd, a dedwyddwch tragywyddol, i'w holl hâd yntau. Yn nghodwm y cyntaf, syrthiodd pawb ynddo: yn nghodiad yr ail, cododd pawb o'i hâd ynddo, a chyd âg ef. Rhuf. 6. 2, 3, 4, 5, &c. Eph. 2. 5, 6. Col. 2. 12, 13. a 3. 1, 3. Yr oedd arglwyddiaeth Adda ar bob creadur yn cysgodi arglwyddiaeth mwy ëang a pharhaus Crist ar nefoedd a daear. Gen. 1. 28. a 2. 19, 20. Ps. 8. 6. Heb. 2. 6, 7, 8.——Yr oedd paradwys Adda, hefyd, yn cysgodi y baradwys nefol, cartrefle Crist a'i bobl dros byth: pren y bywyd yn nghanol yr ardd oedd yn arwyddo Crist byw, yn llawn o



Digitized by Google

ffrwythau, yn nghanol ei bobl ar y ddaear ac yn y nef. Nid oes dim gwaharddiad i fwyta o hono, na chleddyf tanllyd ar y ffordd, ond gellir bwyta yn rhydd o hono, a byw yn dragywydd. Psalm 1. 3. Can. 2. 3. Luc 23. 43. 2 Cor. 12. 1, 2, 3, 4. Dat. 2. 7. a 22. 2, 14. ——Mae yr apostol yn cyfeirio, yn neillduol, at briodas Adda, fel rhagddangosiad a chysgod penodol o'r undeb dirgelaidd rhwng Crist a'i eglwys. Eph. 5. 30, 31.——'Parodd yr Arglwydd i drwmgwsg syrthio ar Adda—ac a gymerodd un o'i asenau—ac a'i gwnaeth yn wraig, ac a'i dug hi at y dyn. Ac Adda a ddywedodd, Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i.' Felly, yn gyfatebol, medd yr apostol, 'Crist a garodd ei eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti.' Cysgodd gwsg marwolaeth, fel y cai hi ei thynu allan o'i ystlys, o ba le y daeth allan ddwfr a gwaed, i'w sancteiddio a'i glanhau; fel y gosodai efe hi yn ogoneddus iddo ei hun, megys y dygodd Duw Efa at Adda, i fod yn eiddo iddo, fel ag yr oedd yn wrth-ran o hono. Fel yr oedd y wraig yn asgwrn o esgyrn, ac yn gnawd o gnawd ei gwr, felly, medd yr apostol, 'aelodau ydym o'i gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef.' Eph. 5. 30.——Fel na chafodd Adda ymgeledd gymhwys iddo yn mhlith yr holl greaduriaid; felly, nid oedd yn nef y nefoedd un briod i Grist, ymgeledd gymhwys iddo; ond, 'ei hyfrydwch oedd gyda meibion dynion;' ac efe a adawodd bob peth er ei mwyn, ac a lynodd wrth ei eglwys a roddwyd iddo gan y Tad. Y dirgelwch hwn sydd fawr! Genesis 2. 20, 24. Diar. 8. 31.——Yr oedd undeb a pherthynas deublyg rhwng Adda a'i wraig, y fath na bydd byth ond rhwng Crist a'i eglwys. Yr oedd hi yn rhan o hono, yn gnawd o'i gnawd; wedi hyny, unwyd hi âg ef yn wraig iddo, fel yr oedd yn gnawd iddo. Ei gnawd ei hun oedd fel ei wraig, a hi a gymerwyd o hono, yn gnawd o'i gnawd. Felly Crist a'i eglwys: mae yr eglwys yn cael ei bôd o hono; ac wedi cael ei bôd o hono, y mae mewn undeb tragywyddol âg ef, fel ei briodas-ferch, a gwraig yr Oen. Yr Oen a laddwyd a roddodd fôd iddi; a'i wraig yw wedi cael bôd, ac y bydd byth. O hono ei hun y mae yn ei gosod iddo ei hun; efe a gaiff ei holl serch, ei holl wasanaeth, ei holl fawl, a'i chymdeithas dros oesoedd maith tragywyddoldeb. Nid oes un berthynas, gwedi hyny, yn gosod allan mor gyflawn, natur ac agosrwydd yr undeb a'r berthynas rhwng Crist a'i eglwys, ag yr oedd y briodas gyntaf. Gwel J. Zanchy, a Dr T. Goodwin, ar yr Epistol at yr Ephesiaid.

Ond, yn mhob peth, y mae yr ail Adda yn rhagori, yn anfeidrol ar y cyntaf. Y mae y cyntaf, 'o'r ddaear yn ddaearol;' ond yr ail, 'yr Arglwydd o'r nef.' 'Yr Adda cyntaf a wnaed yn enaid byw;' ond 'yr Adda diweddaf yn ysbryd yn bywhau.' 1 Cor. 15. 45. Syrthiodd y cyntaf, a'i holl hiliogaeth ynddo; ond disgynodd yr ail o'r uchelder, i gyfodi ei bobl i fynu. Hudodd y wraig y cyntaf i bechu; ond y mae yr ail yn cyfodi ei eglwys o'i phechod i fynu i gyfiawnder, sancteiddrwydd, a gogoniant. Collodd yr Adda cyntaf, a'i wraig hefyd, baradwys; ond ennillodd Crist baradwys dragywyddol i'w bobl. 'Fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth.' Col. 1. 18.

ADDAS——RWYDD, (das) cymhwys, gweddus, cydweddol, cyfleus, buddiol. Addas i'th achosion; sef i'th angenrheidiau.—'Dygwch gan hyny ffrwythau addas i edifeirwch.' Mat. 3. 8.—'Teilwng i wellaat buchedd.' W. S. Sef tymher a gweithredoedd croes i'r pechodau yr edifarheir o'u plegid. Ffrwyth addas i edifeirwch am feddwdod ydyw sobrwydd a chymedrolder; ffrwyth addas i edifeirwch am gybydd-dod yw haelioni; i elyniaeth yn erbyn Duw yw caru Duw, &c. Nid oes dim a brawf yr edifeirwch yn wirioneddol heb y ffrwythau addas, sef pethau sanctaidd, croes i'r bai. Nid haelioni yw y ffrwyth addas i edifeirwch am feddwdod, ond cymedrolder; nid sobrwydd yw y ffrwyth addas am gybydd-dod, a gorthrymder, ond unioni y cam a wnaed, a gweithredu y gras gwrthwynebol. Y mae llawer yn twyllo eu hunain yn hyn; y ffrwythau croes i'r bai yw y ffrwythau addas i edifeirwch am y bai.——'Ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi.' Eph. 4. 1. 'Ar rodio yn teilwng o'r 'alwedigaeth ich galwyt.' W. S. Galwyd hwy i wybodaeth a chrediniaeth o'r efengyl; rhodiad addas yw bucheddu yn gyfatebol i'r efengyl; sef ufuddhau o'r galon i'r ffurf hòno o athrawiaeth, yn ei holl burdeb, ei huniondeb, ei graslonrwydd, ei charedigrwydd, a'i nefolrwydd. Rhodiad ydyw, croes i bob anmhuredd, anghyfiawnder, creulondeb, ac angharedigrwydd, a daearoldeb. Rhodiad addas i'r rhai a gawsant faddeuant, ydyw bod yn faddeugar; i'r rhai a gawsant drugaredd, ydyw bod yn drugarog; i'r rhai a garwyd yn rhad, yw rhodio mewn cariad; i'r rhai a alwyd i dragywyddol ogoniant, yw rhoddi eu serchiadau ar y pethau sydd uchod, a cheisio gwlad well, a hòno yn un nefol, &c.——'Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth yn mhob gweithred dda,' &c. Col. 1. 10. 'Val y rotiwch yn deilwng gan yr Arglwydd, ai voddhau ef ym pob dim.' W. S. 'Gan ryglyddu bodd ym mhob dim.' Dr M. *Rhodio*, ydyw bucheddu yn addas i'r Arglwydd; sef yn addas i'r hyn yw yr Arglwydd; yn addas i'w briodoliaethau o ras a sancteiddrwydd; yn addas i'r hyn a wnaeth Crist Iesu drosom, a thu ag atom, trwy 'ryngu ei fodd ef yn mhob peth,' efe yw y gwrthddrych a'r dyben penaf yn ein golwg; *αξιως του Θεου*; yn *deilwng* neu yn *addas* i Dduw. 1 Thes. 2. 12. Y mae pob peth ynom croes i briodoliaethau, gorchymynion, addewidion, a gwirionedd Duw, yn anaddas i Dduw; ac y mae pob peth croes i efengyl Crist, a natur ei deyrnas, yn anaddas i'r Arglwydd Iesu. Y mae llawer peth yn y byd yn ymddangos yn bethau bychain eu pwys, ac heb fod na drwg na da ynddynt eu hunain; etto nid ydynt yn addas i'r Arglwydd Iesu, nac i neb o'i ganlynwyr; nid ydynt yn addas i Dduw, ac i'r rhai sydd am foddhau Duw yn mhob peth; nid ydynt yn llesâu neb; ac nid oes gan Gristion ddim i wneyd âg oferedd diles.

ADDAW—EWID—ION, (daw) addewid. Gair yw yn rhwymo un i gyflawni rhyw beth cyfreithlawn i arall, yn ddiammod, neu ar ryw ammodau cytunol rhwng pleidiau. Y cyfryw a wnaeth Laban â Jacob am roddi iddo ei ferch, &c.

Dyled ar bawb ei *addaw*. *Diar.*

1. *Addewid* Duw, ydyw gwaith Duw, o'i wir fodd a'i raslonrwydd ei hun, yn addaw rhoddi ymwared, neu rodd ddaionus, i ddynion. Ps. 119. 93. 2 Petr 1. 4. Y mae pob addewid yn gorphwys am y cyflawniad o honi, os na bydd ammodau o'r tu arall heb eu cyflawni yn attal, ar ffyddlondeb, anghyfnewidioldeb, a gallu, y blaid sydd yn addaw. Os na newid ei feddwl, os na thyr ei air, ac oni phalla ei allu, y mae addewid y gwr yn sicr. Gan hyny, nid oes dim a ddichon fod yn fwy sicr nag addewidion Duw; canys ni newid ei feddwl—y mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog—ac ni phalla ei alluogrwydd i gyflawni. Y mae efe yr un mor rasol, a'r un mor alluog i gyflawni, a phan yr oedd yn addaw. Mal. 3. 6. Heb. 6. 18. Iago 1. 17. Gair cadarn, sicr, yw addewid Duw, a gair yn aros yn dragywydd. Josuah 21. 45. Luc 16. 17. 1 Petr 1. 25. 2 Petr 1. 19.——2. Mae y gair *addewid*, yn y Testament Newydd, yn arwyddo, yn aml, y rhagfynegiad sicr a roddodd Duw i Abraham, a'r patrieirch eraill, o anfoniad y Messiah. Yn yr ystyr hwn y mae yr apostol, yn fynych, yn ei arfer. Rhuf. 4. 13, 14. Gal. 3. 16.——3. Mae yr Ysbryd Glân yn cael ei alw, 'Glân Ysbryd yr addewid,' am ei fod wedi ei addaw gan yr Arglwydd i'r rhai sydd

Digitized by Google

yn credu ynddo; yn eu nerthu i gredu yr addewidion, ac i fyw arnynt; ac yn ernes eu hetifeddiaeth dragywyddol. Eph. 1. 13.——4. 'Amser yr addewid,' a arwydda, amser cyflawniad addewid Duw i Abraham. Gen. 15. 13, 14. Act. 7. 17. Fel yr oedd yn nghyflawniad yr addewid hòno, felly y mae gan Dduw, yn ei olwg, a'i rag-osodiad, drefn ac amser i gyflawni ei addewidion oll. Rhaid aros amser yr addewid; a chael ffydd ac amynedd i etifeddu yr addewidion. Y mae amser yr addewid gwedi ei drefnu gan ddoethineb dwyfol; a'r unig amser cymhwys ydyw i'w chyflawni. Ond, yn ei hamser, 'gan ddyfod y daw, nid oeda.' Hab. 2. 3.——5. 'Plant yr addewid,' 1. Yw yr Iuddewon, hiliogaeth Isaac, yr hwn oedd mab yr addewid, mewn cyferbyniad i'r Ismaeliaid, hil Ismael, o'i fam Hagar, y gaeth-forwyn.—2. Yr Iuddewon crediniol, mewn cyferbyniad i'r Iuddewon anghrediniol, y rhai a wrthodasant Grist.—3. Yr holl wir gredinwyr, yn Iuddewon a Chenedloedd, y rhai sydd gwedi eu geni oddi uchod, trwy nerth yr addewid, ac yn credu yn Nghrist er iechydwriaeth; y rhai ydynt hâd ysbrydol Abraham, ac yn gyfranogion o holl fendithion ysbrydol cyfammod Abraham.——6. Y mae addewidion y cyfammod newydd yn well nag addewidion yr hen gyfammod: am eu bod yn fwy eglur, ysbrydol, ëang, cyflawn, a chyffredinol, nag addewidion cyfammod Sinai. Heb. 8. 13.——7. Y mae yr Arglwydd gwedi 'rhoddi i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr,' neu *μεγιστα και τιμια, yr addewidion mwyaf a gwerthfawrocaf.* 2 Petr 1. 4. Y mae y pethau mwyaf a gwerthfawrocaf sydd mewn bod, yn gynnwysedig ynddynt; sef, '*pob* peth a berthyn i fywyd a duwioldeb,'—i fywyd o gyfiawnhad—i fywyd grasol—i fywyd sanctaidd a thragywyddol. Mae y pethau angenrheidiol i bechadur i'w mwynhau i'w wneuthur yn dduwiol, yn fawr iawn ac yn werthfawr iawn, ac oll yn yr addewidion. Nid oes dim o werth nad ydyw yn gynnwysedig ynddynt. Y mae Duw, yn ei holl berffeithrwydd a'i briodoliaethau; y mae Crist, yn holl gyflawnder anfeidrol ei berson, ei swyddau, ei enwau, a'i berthynasau; y mae yr Ysbryd Glân, yn ei berson, yn ei holl ddoniau, ei radau, ei ffrwythau, a'i gysuron; y mae gras a gogoniant yn gynnwysedig ynddynt, ac nid oes dim daioni wedi ei adael allan. Y mae yr holl addewidion yn rhad, ac fel tocynau (*bank notes*) ariandŷ Lloegr, yn daledig i'r sawl a'u dygo am dâl (*payable to bearer*); ond y maent yn cael eu cyflawni yn eu priodol drefn; a'r naill yn addasu y pechadur i dderbyn y llall: megys, gras yn rhagflaenu ac yn rhagbarotoi i ogoniant—edifeirwch yn addasu pechadur i dderbyn maddeuant—argyhoeddiad o bechod yn rhagflaenu ac yn tueddu y pechadur i dderbyn cyflawnder Crist; yr hwn y mae yr Ysbryd Glân yn argyhoeddi o hono, ac yn ei ddadguddio trwy yr efengyl.——8. 'Y mae holl addewidion Duw yn Nghrist, ac ynddo yn Ie, ac ynddo yn Amen.' 2 Cor. 1. 20. 'Ië ac Amen;' hyny ydyw, yn eiddo i ni. Pan gyflwynai dyn tlawd erfyniad, a'i gyfaill cyfoethog yn ateb, Ië; y mae yr hyn a ofynodd gwedi ei roddi iddo, ac yn eiddo iddo. 'Amen,' sicr o'i gyflawni. Mae y gair yn arwyddo *gwirionedd a ffyddlondeb.* Yn cynnwys, fod yr addewidion mor sicr ag y gall gwirionedd eu gwneuthur, ac yn gymaint i ymorphwys arnynt ag ar ffyddlondeb ei hun. Y cwbl o hyn 'yn Iesu Grist.' Nid trwy rinwedd unrhyw weithredoedd, nac ar ammod unrhyw deilyngdod ynom ni; ond yn gwbl o herwydd ac er mwyn Iesu Grist, ei werthfawr waed, a'i gyfiawnder tragywyddol. Gwel Hervey's *Theron and Aspasio, vol.* iii.——*Ego qudem sine verbo ne in paradiso optarim vivere; et cum verbo etiam in inferno vivere facile est:* hyny ydyw, Ni ddymunwn fyw yn mharadwys heb addewid; ond gyd âg addewid y mae yn hawdd byw hyd yn nod yn uffern ei hun. Luther.——Y mae yr holl addewidion ynddo; gan eu bod, y rhan fwyaf, am dano, nis gallant gael eu cyflawni, ond ynddo ef: ond 'y maent oll ynddo ef yn Ie ac Amen:' y mae efe y fath, yn gwbl, ag y rhagbrophwydwyd ac a rag-fynegwyd am dano. Mae y Crist addawedig yn berffaith gyflawn yn ol yr addewidion.——9. Mae yr holl addewidion i'r eglwys, hefyd, '*ynddo* yn ie;' *iddo,* neu i ni *ynddo,* y rhoddwyd hwynt oll, fel ag y mae efe yn ben-cyfammodwr yn y cyfammod tragywyddol. 2 Tim. 1. 9. 'Rhoddwyd gras i ni yn Nghrist Iesu cyn dechreu y byd.' O hono y mae yr holl fendithion addawedig yn dyfod; ac o'i gyflawnder ef y mae ffydd yn derbyn. Ioan 1. 16. 'Efe a wnaed i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth.' 1 Cor. 1. 30. Efe, hefyd, yw gweinyddwr yr addewidion; y mae yn rhoddi ei Ysbryd i nerthu enaid i'w credu a'u derbyn; ac yn cyfranu y bendithion cynnwysedig ynddynt, yn nhrefn ac amser yr addewid.——10. Y mae gwir ffydd yn golygu yr holl addewidion, yn eu holl gyflawnder difesur—eu rhadlonrwydd trwy Grist—eu sicrwydd diammheuol—yn gorphwys ar anghyfnewidioldeb, ffyddlondeb, a galluogrwydd y Duw a'u rhoddodd—ac, yn eu cyfarch gyd â'r anwyldeb a'r llawenydd mwyaf. Arwydda y gair *Gr.* *ασπασαμενοι,* cyfarchiad serchiadol cyfeillion wedi hir ysgariad oddiwrth eu gilydd, ac ymgofleidio caredig. Arwydda yr un peth ag y dywedodd yr Arglwydd am Abraham, 'Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i,' (sef yn yr addewid) 'ac efe a'i gwelodd, ac a lawenychodd.' Ioan 8. 56. Edrych Cyfarch. Yr oedd gwerth a dymunoldeb yr addewidion mor fawr yn ngolwg yr hen batriarchiaid, nes y darfu iddynt orfoleddu yn yr olwg arnynt, ac ymadael â'r ddaear er eu mwyn; a myned trwy y byd fel dyeithriaid a phererinion; gan ddangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad well. Heb. 11. 13, 14, 15. Yr un effeithiau sydd etto yn canlyn gwir grediniaeth o addewidion Duw.

Hwyrach y dichon fod yn ddefnyddiol i goffâu am ychydig o'r addewidion ar brif bynciau Cristionogrwydd; ac am hyny rhoddir ychydig o honynt dan y penau canlynol:—

Am waith Duw yn dysgu ei bobl.——Exod. 4. 12. Ps. 25. 8, 9, 12. a 32. 8. Esa. 29. 18, 19. a 42. 7, 16. a 54. 13. a 58. 11. Jer. 31. 34. Mic. 4. 2. Luc 12. 12. Ioan 14. 16. a 16. 13. Iago 1. 5.

Am Faddeuant.—2 Sam. 12. 13. 2 Cron. 7. 14. Ps. 32. 1.—5. a 130. 4. Esa. 1. 18. a 43. 25. a 44. 22. a 55. 7. Jer. 31. 34, 37. a 33. 8. a 50. 20. Mic. 7. 18, 19. Zech. 13. 1. Act. 13. 38, 39. Eph. 1. 7. a 4. 32. Heb. 8. 12. a 9. 14, 28. a 10. 17. 1 Petr 2. 24. 1 Ioan 8. 9.

Am Gyfiawnhad.——Esa. 45. 24, 25. a 53. 11. Jer. 23. 6. Act. 13. 38, 39. Rhuf. 3. 21—24. a 4. 5. a 5. 1, 9. 2 Cor. 5. 21. Gal. 2. 16. Tit. 3. 7.

Am Sancteiddrwydd.—Lef. 20. 8. Ezec. 11. 19, 20. a 36. 25—39. a 37. 23. Zech. 13. 9. Ioan 17. 17. Actau 26. 18. Rhuf. 6. 14. 1 Thes. 4. 3. Tit. 2. 11, 12, 14. Heb. 8. 10, &c. 1 Ioan. 7. 9.

Am Ddyddanwch.——Deut. 32. 9. Jos. 1. 9. a 10. 25. 1 Sam. 12. 22. Ps. 32. 2, 6. a 34. 18. a 42. 5, 11. a 103. 13. Esa. 4. 2, &c. a 10. 24.—27. a 11. 10. a 14. 1, 3. a 28. 16. a 32. 1, 2. a Pen. xxxv. a 40. 1, 2. a 41. 17, 18. a 42. 3. a 49. 9—17. a 51. 3, 11. a Pen. liv. a 55. 1. a 58. 10, 11. a 61. 1, &c. Jer. 31. 3. 9, 12. Galar. 3. 31, &c. Hos. 2. 14, 19. Mat. 11. 28. Rhuf. 8. 35—39. 2 Thes. 2. 16. Heb. 2. 18. a 10. 37. Deut. 3. 19, 20. a 7. 16, 17.

Am Fendithion Tymhorol.—Deut. 28. 2—14. Psalm 34. 10. a 37. 3. Esa. 33. 16. Mat. 6. 25, &c. Marc 10. 29, 30. Phil. 4. 6, 19. 1 Tim. 4. 8.

Am Ffydd.—Ioan 6. 37. Eph. 2. 8.

Am Edifeirwch.—Ezec. 16. 62, 63. a 20. 43. Act. 5. 30, &c. Rhuf. 11. 36.

Am Gariad at Dduw.—Deut. 30. 6. Rhuf. 5. 5. 2 Thes. 3. 5.

Am Barhad mewn Gras.—2 Sam. 23. 5. Ps. xxiii. a 89. 34. Jer. 32. 40. Ioan 4. 14. a 10. 27, 28. a 14. 19. Rhuf. 8. 31, &c.

Am Farwolaeth Wynfydedig.—Esa. 25. 8. Ps. 23. 4. Hos. 13. 14. Rhuf. 8. 38. 1 Cor. 3. 22. a 15. 55, 56. Dat. 14. 13. a 20. 14.

Am Wynfyd Tragywyddol.—Esa. 25. 8. a 35. 10. a 51. 11. 2 Tim. 4. 8. Dat. 7. 17. a 21. 4.

ADDAWL—OLI—IAD, (add-awl) ymostwng, attolygu, parchu, anrhydeddu, mawrhau. Mae y gair *Heb.* שחה a gyfieithir *addoli*, a'r gair *Gr.* *προσκυνεω*, yn arwyddo gorchrain, neu syrthio ar y wyneb ar y llawr, fel arwydd o ymostyngiad a pharch; ac felly yn arddangosiad o'r parch dyladwy oddiwrth isafiaid i uchafiaid, mewn awdurdod neu urddas. Ond nid yw y gair *addoli* yn cael ei arfer gan ein cyfieithwyr ni ond pan y byddo parch yn cael ei ddangos i'r Duwdod, neu i'r rhai y tybiwyd eu bod yn dduwiau.—1. Y mae addoliad yn arwyddo cydnabyddiaeth barchus o fawredd, perffeithrwydd, a daioni Duw; a'n rhwymedigaethau ninnau iddo fel ein Creawdwr, ein Cynaliwr, a Duw ein hiechydwriaeth. Dangosiad allanol o barch i'w addoliad, trwy agwedd barchus weddaidd ar ein cyrph ger bron Duw, o'r parch a'r cariad tufewnol yn ein meddwl i'w dduwiol fawredd.——2. Y mae yn ofynol hefyd, fod ein dull a'n defodau o ddangos y parch hwnw, mewn addoliad dirgel a chyhoeddus, yn ol trefn a rheol gair Duw. Y mae wedi ein cyfarwyddo yn mhob peth perthynol i'w ordinhadau a'i addoliad; ac y mae parch manwl i'w drefn a'i osodiadau, yn un ffordd o ddangos parch i'r Arglwydd ei hun.——3. Nid oes neb yn deilwng o addoliad ond Duw. Mat. 4. 10. Psalm 83. 18. Actau 17. 23–28. Gen. 48. 15. Nid oes neb yn haeddiannol o barch er ei fwyn ei hun, ond y Bod Dwyfol: y mae pawb, a phob peth arall, i'w barchu er ei fwyn ef, yr hwn a'u gwnaeth y peth ydynt, ac nid er eu mwyn eu hunain. Y mae pawb i'w parchu yn ol yr urddas a'r parch y mae Duw gwedi ei roddi arnynt, er ei fwyn ef, ac nid o'u herwydd eu hunain. Dim ydynt hwy, a Duw sydd bob peth. Ond y mae Duw yn Fod angenrheidiol; yn dibynu yn gwbl arno ei hun; yn feddiannol ynddo ac o hono ei hun, o bob perffeithrwydd; a'i holl greaduriaid dan y rhwymedigaethau mwyaf iddo: am hyny, y mae yn anfeidrol deilwng o eithaf cariad, parch, ac addoliad. Yn y cwymp collodd dyn iawn adnabyddiaeth o Dduw; ac yn ganlynol, collodd ysbryd gwir addolwr. Ymadawodd â Duw, ciliodd oddi wrtho, ac aeth yn elyn iddo. Y mae yn annuwiol, heb Dduw yn y byd; neu yn eilun-addolwr, yr hyn sydd waeth na didduwiaeth. Y mae digofaint Duw arno o'r achos. Wedi ei dori oddiwrth Dduw, nis gall lai na bod yn druenus. Dyben trefn yr iechydwriaeth yw dwyn y gwrthgiliwr a'r gwrthryfelwr yn ol at Dduw, i'w gymmod a'i heddwch: i'w addoli a'i wasanaethu. 1 Petr 3. 18. Yn yr adenedigaeth, y mae yr ysbryd hwn o addoli yn cael ei adferu i bechadur, fel pob peth arall a gollodd yn y cwymp. Trwy ffydd y mae yr Ysbryd Glân yn rhoddi i bechadur, oleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist; ac yn yr olwg hòno, y mae anwyldeb a pharch duwiol yn cael eu gweithredu yn yr enaid tu ag at Dduw. Y mae yn cydnabod fod Duw yr hyn ydyw, gyda boddlonrwydd, cariad, parch, a gorfoledd.——Gan fod pob un o'r Personau Dwyfol yn feddiannol o'r un hanfod, a phriodoliaethau yr hanfod hwnw yn gydradd yn perthyn i bob un o honynt, y mae addoliad cydradd, o'r achos hwnw, yn deilwng i bob un o honynt; sef i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Iago 5. 28. a 14. 1. Mat. 29. 19. Psalm 45. 11. Actau 7. 59. a 9. 14. 1 Cor. 1. 2. 2 Petr 3. 28. Judas 25. Dat. 1. 5, 6. Heb. 1. 6. 2 Thes. 2. 5. Edr. Trindod.

Y mae addoliad i'w olygu naill ai yn dufewnol neu yn allanol. Duwioldeb yn y galon ydyw sail addoliad tufewnol; ac os na bydd addoliad tufewnol, nis dichon fod yn allanol yn wirioneddol: canys rhaid i'r rhai a addolant Dduw, ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Ioan 4. 24. Sef yn dufewnol, â'r ysbryd a holl alluoedd yr enaid. Gweithrediadau pob gras tu ag at Dduw yn yr enaid ydyw gwir addoli Duw—agwedd sanctaidd y meddwl tu ag at Dduw, yr hyn ydyw duwioldeb. Oddiwrth *ευσεϐεια*, *duwioldeb*, a *θεοσεϐεια*, *duwiol-frydedd*, (1 Tim. 2. 10. 2 Petr 3. 1. Ioan 9. 31.) y mae gwir addoliad yn tarddu: gan hyny, nis dichon un dyn *ασεϐης*, *annuwiol*, heb dduwioldeb yn ei galon, wir addoli Duw. 1 Petr 4. 18. Rhaid cyfranogi o'r dduwiol anian, neu dueddiad duwiol y meddwl tu ag at Dduw, i'w addoli—yr hon a dderbynir yn yr adenedigaeth. 'Y rhai sydd yn y cnawd ni allant ryngu bodd Duw; oblegid y mae syniad y cnawd yn *elyniaeth* yn erbyn Duw.' Rhuf. 8. 7, 8. Y mae hyn yn eglur i bawb a fyno ddeall ac ystyried. Gan hyny, 1. Heb wir adnabod Duw, nis dichon neb ei wir addoli. Nis dichon addoliad allanol, a'r meddwl yn dywyll am Dduw, fod yn wir addoliad; canys pa fodd y parcha neb un yn wirioneddol, heb ei adnabod? Y mae mor eglur, hefyd, y rhaid i'r wybodaeth hòno fod yn gywir yn ol tystiolaeth y gair am dano: os nad yw yn gywir, nid gwybodaeth mo honi, ond *cam-farn*, am dano, yn tarddu o'u hanwybodaeth. Gwir wybodaeth ydyw gwybodaeth ysbrydol, brofiadol, efengylaidd, o Dduw yn Nghrist; gan mai yn Nghrist y mae ein personau a'n haddoliad yn gymeradwy, rhaid ei adnabod yn Nghrist i'w addoli. Hyn a'n cyfarwydda at iawn wrthddrych addoliad—y dull addas i'w addoli—ac a'n tuedda yn effeithiol i hyny. Mae gwir adnabod Duw yn rhan o ddelw Duw ar enaid dyn, ac yn tebygoli iddo.——2. Heb ffydd, cangen arall o wir dduwioldeb, y mae yn anmhosibl rhyngu ei fodd ef. Heb. 11. 6. Heb gredu bod Duw, a chredu tystiolaeth y gair yn gywir am dano, nis dichon neb ei wir adnabod, na thueddu yn sanctaidd tu ag ato. Trwy ffydd yr addolodd Abel, Jacob, Moses, a'r holl dduwiolion yn mhob oes. Heb. xi. Heb ffydd nis dichon neb weddio, na gwrando, na gwneuthur un weithred arall yn sanctaidd. Heb. 4. 2. a 10. 22.——3. Nis dichon neb addoli Duw heb ei ofni. Dodir ofn Duw, weithiau, am holl addoliad Duw, ac a arwydda y parch tufewnol yn enaid dyn at Dduw, oddiwrth gydnabyddiaeth o'i fawredd, ei sancteiddrwydd, a'i berffeithrwydd yn mhob ystyr. Psalm 2. 11. a 5. 7. a 86. 11. a 138. 2. Lle na byddo ofn Duw, nis dichon fod yno wir addoli Duw. Heb. 12. 28.——4. Nis dichon i neb wir addoli Duw heb gariad ato. Y mae parch a chariad yn cyd-weithredu tu ag at Dduw, mewn gwir addoliad. Y mae y cythreuliaid yn credu, yn ofni, ac yn crynu: ond nid ydynt yn caru Duw; am hyny nid ydynt yn addoli Duw. Iago 2. 19. Pob peth nad yw yn tarddu o gariad at Dduw, nid yw yn gymeradwy ganddo. Hyn y mae y gyfraith yn ei ofyn, a hyn y mae yntau wedi ei addaw i'w bobl. Deut. 10. 12. a 30. 6.

*Addoliad allanol*, yw cynnulleidfa o ddynion yn cyd-addoli Duw yn gyhoeddus, ac yn dangos addoliad tufewnol y meddwl yn yr arferiad cyhoeddus o'r ordinhadau a sefydlodd Crist yn ei eglwys yn ol y gair. Yr ordinhadau ydynt gweddi, pregethiad y gair, canu mawl, gweinyddu y ddau sacrament, sef Bedydd a Swper yr Arglwydd. Nid oes gan neb awdurdod i osod ordinhadau yn yr eglwys ond yr Arglwydd: y mae yr ordinhadau a drefnodd efe i gael eu harferyd

Digitized by Google

yn ddyfal, yn ddifrifol, mewn ffydd—yn ol trefn Duw; gan ddangos ein parch iddo ynddynt, a'n dysgwyliad wrtho am fendith trwyddynt. Y mae yn ddyledswydd rwymedig ar bawb i'w addoli felly yn gyhoeddus bob amser; ac yn ngwyneb pob peryglon, er parch i'r Arglwydd, a llesâd i'w gilydd, ac addefiad o hono ef ger bron ei gaseion.

Gan fod addoliad dwyfol yn orchymynedig, ac yn cael ei roddi i'r Arglwydd Iesu, ac i'r Ysbryd Glân, y mae yn brawf diammheuol o ddwyfoldeb eu Personau. Mat. 2. 2, 8. a 8. 2. a 9. 8. a 28. 9, 17. Marc 5. 6. Luc 4. 8. a 24. 52. Ioan 5. 23. a 9. 38. Phil. 2. 10. Heb. 1. 6.

Gelynion yr eglwys a ddeuant i 'addoli wrth ei thraed hi,' pan y maent yn ymostwng i'w hawdurdod, ac yn dangos parch dyladwy iddi. Dat. 3. 9.——'Addoli y bwystfil a'r ddraig,' yw mawrhau Pabyddion a Phabyddiaeth; ac uno â'u defodau a'u cyfreithiau coel-grefyddol, cableddus, a phechadurus. Dat. 13. 4.——Mae dynion yn 'addoli cythreuliaid,' pan y maent yn proffesu gau athrawiaeth, caru a mawrhau delwau a dewiniaeth, &c. Deut. 32. 17. Dat. 19. 20. Edr. DUW, EILUN.

ADDEF—IAD, (def) cydnabod, cyffesu, arddelwi, rhoddi.—'Y neb a guddio ei bechodau, ni lwydda: ond y neb a'u haddefo ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd.' Diar. 28. 13. Y mae dyn yn cuddio ei bechod trwy ei wadu, neu ei leihau, fel y gwnaeth Saul, 1 Sam, 15. 20, 21. neu ei briodoli i un arall, fel y gwnaeth Adda i'w wraig, a'r wraig i'r sarph. Gen. 3. 12, 13. Ezec. 18. 2. Ceisio cuddio eu pechodau y mae dynion; ond nis dichon iddynt ei wneyd, gan fod Duw yn holl-wybodol. Ps. 119. 168. Dywedir yn aml, yn yr ysgrythyrau, fod dynion yn gwneuthur yr hyn y maent yn ei geisio, neu yn amcanu ei wneuthur. Ezec. 22. 26. Mal. 1. 7. Addef pechod sydd wrthwyneb i'w guddio; ei addef yn rhwydd ac yn gyflawn, gyda chywilydd a thristwch duwiol ger bron Duw, neu ger bron dynion hefyd, os bydd yr achos yn gofyn. Ond ofer yw ei addef, heb ei adael; y mae y ddau yn gynnwysedig mewn gwir edifeirwch am bechod. 'A gaiff drugaredd;' sef y neb a'u haddefo ac a'u gadawo. Ps. 32. 15. Luc 15. 18, &c. 1 Ioan 1. 8, 9.

'Pwy bynag a'm haddefo i ger bron dynion, Mab y dyn a'i haddef yntau ger bron angelion Duw.' Luc 12. 8. Y mae addef Crist yn groes i'w wadu trwy ofn, neu gywilydd, ac yn cynnwys, 1. Gwir adnabyddiaeth o hono ef, ei efengyl, ei achos, a'i bobl yn y byd.—2. Ei addoli yn gyhoeddus yn ei ordinhadau gyd â'i bobl.—3. Ei broffesu ger bron dynion fel eu hunig Arglwydd ac Iachawdwr.—4. Bucheddu yn addas i efengyl Crist.—5. Dal i fynu wir athrawiaeth yr efengyl, yn groes i holl gyfeiliornadau y pwll diwaelod. Dynion ydyw yr unig offerynau gan y diafol i waradwyddo Crist, ac i erlid ei bobl a'i achos yn y byd. Y mae yn angenrheidiol ac yn orchymynedig i'w holl ganlynwyr ei addef ger bron dynion, beth bynag fyddo y canlyniad. Ps. 119. 46. Ioan 9. 22. Mat. 10. 32, 33. Rhuf. 10. 9, 10. 1 Tim. 6. 12, 13. 2 Tim. 1. 8. 1 Ioan 4. 15. Dat. 2. 13. Rhaid ei addef, 1. Er gogoniant Crist ei hun.—2. Er cynnal achos Crist yn y byd, ac er helaethiad ei deyrnas. Os gwâd pawb ef, derfydd ei achos yn y byd.—3. Er tystiolaeth i ddynion, ac yn eu herbyn. Bu hyfdra y duwiolion o'i blaid, ac yn ei addef, er goddef pob creulondeb, yn foddion neillduol o lwyddiannus i ennill eraill i gredu ynddo.—4. Er cynnydd ffydd a chariad y rhai sydd yn ei addef. Y rhai a'i haddefant, a addef yntau ger bron ei Dad a'i angelion. Luc 12. 8. 1 Sam. 2. 40. Dat. 3. 5. Addef hwynt, 1. Fel ei eiddo, a'i wir ddysgyblion.—2. Addef eu gwaith yn ei addef yntau.—3. Anrhydedda hwynt â'r anrhydedd mwyaf, ac yn y dull mwyaf cyhoeddus. Edr. CYFFESU.

ADDFED—U, (add-med) ffaeth, blodiog; peth wedi tyfu i berffeithrwydd; megys, ŷd, ffrwythau, &c. Gen. 40. 10. Exod. 22. 29. Joel 3. 13. Marc 7. 1. Dat. 14. 15, 18.

ADDFWYN—DER—DRA, (add-mwyn) llariaidd, llednais, hynaws, tirion, rhadlawn, gwâr, arafaidd, tawel, llonydd, didònau; llarieidd-dra, lledneisrwydd, tiriondeb. Mat. 5. 5. a 11. 29. a 21. 5. 1 Thes. 2. 7. 1 Petr 3. 4. 1 Cor. 4. 21. 2 Cor. 10. 1. Col. 3. 12. Gal. 5. 23. 1 Tim. 6. 11. 2 Tim. 2. 25. Titus 3. 2. 1 Petr 2. 23. a 3. 15. Iago 1. 21.—Yn y cwymp, collodd dyn yr addurn hardd hwn o eiddo Duw ar ei enaid; ac a aeth yn gyndyn, yn ffyrnig, yn waedwyllt, yn greulawn, ac yn anhawdd i'w drin. Yn y dyn Crist Iesu gwelwn y tlws gwerthfawr hwn yn ymddangos ar ein daear ni yn ei berffeithrwydd a'i ogoniant. 'Addfwyn ydwyf,' medd ef ei hun, 'a gostyngedig o galon.' Mae addfwynder yn berthynol, hefyd, i bawb sydd yn dyfod at Grist, ac yn credu ynddo. Gal. 5. 22. Col. 3. 12. Mae y 'ddoethineb sydd oddi uchod,' yn mhawb a'i derbyniodd, 'yn bur, yn heddychlon, yn foneddigaidd, yn hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrwythau da.' Iago 3. 17. Mae yr Ysbryd Glân, trwy ddwys argyhoeddiad o bechod, yn darostwng, yn plygu, yn ystwytho, ac yn llarieiddio pechaduriaid ystyfnig, ac yn eu dwyn atynt eu hunain, i ymostyngiad i'r Arglwydd, ac ufudd-dod iddo; megys y gwnaeth â Saul greulawn (Actau ix.) Zaccheus y publican, y mab afradlon, a miloedd eraill o'u bath. Pan welont nad oes ond trugaredd Duw a all eu hachub, mae yr olwg hòno yn eu darostwng ger bron Duw yn y llwch; ac yn eu tirioni tu ag at eraill.

'Gwyn eu byd y rhai addfwyn; canys hwy a etifeddant y ddaear.' Mat. 5. 5. Arwydda yr agwedd rasol hon eu hundeb â Christ addfwyn; a'u bod gwedi eu bendithio ynddo â rhadau ei Ysbryd. Y mae yn agwedd addas ar ddyn ger bron Duw; ac yn ei wneyd yn wynfydedig iddo ei hun, ac i bawb eraill. Dyoddef geryddon Duw, ac annhiriondeb oddiwrth ddynion, mewn dystawrwydd a llonyddwch. Lef. 10. 3. Ps. 39. 9.—'A etifeddant y ddaear' Ië, nid y ddaear yn unig, ond y nefoedd hefyd.—1. Yn gyffredinol, mae yr Arglwydd yn rhoddi iddynt yr hyn sydd angenrheidiol er eu digonedd. Diar. 30. 8.——2. Y mae yn rhoddi boddlonrwydd iddynt, i'r hyn sy ganddynt, bydded ychydig neu lawer. Heb. 13. 6.——3. Trwy eu hundeb â Christ, y mae iddynt hawl gyfreithlawn i'r hyn sydd ganddynt. 1 Cor. 3. 21, 22.——4. Y mae Crist yn eu gwneuthur hwynt oll 'yn freninoedd ac yn offeiriaid;' a'r 'rhai cyfiawn a lywodraetha ar bawb y boreu,' yn yr adgyfodiad mawr, os nid cyn hyny. Ps. 26. 9. a 31. 11, 19. a 49. 14 a 149. 4. Diar. 2. 21. a 10. 30. Esa. 57. 13. a 60. 21. Heb. 10. 36. a 11. 16. Dat. 5. 10.

ADDUNED—AU—U, (uned) eidduned, gofuned, diofryd, addewid; addewid bwysig i Dduw am gyflawni rhyw weithred ddaionus.—Addunedodd Jacob i Dduw y degwm o'i holl feddiannau. Gen. 28. 20—22. Addunedodd Hannah ei mab Samuel i'r Arglwydd a'i wasanaeth. 1 Sam. 1. 12—28.——Y mae amrywiol reolau yn cael eu rhoddi mewn perthynas i addunedau yn Lef. xxvii. Yr oedd addunedau plant heb gydsynied eu rhieni, ac addunedau gwragedd heb gydsynied eu gwyr, yn hollol ddirym. Num. 30. 1, 2, &c. Dan yr Hen Destament, yr oedd addunedau yn dra chyffredin; ond dan y Testament Newydd, nid oes un gorchymyn neillduol, na chyfarwyddyd mewn perthynas iddynt. Oddiwrth hyn y casgl rhai eu bod yn perthyn mwy i'r hen oruchwyliaeth nag i'r newydd. Beth bynag am hyny, y mae yn ddilys y dylent gael eu gwneuthur yn ddifrifol—yn ofn Duw—am bethau cyfreithlawn—o fewn cyrhaedd ein gallu i'w cwblhau—ac mewn ysbryd efengylaidd: nid fel iawn i Dduw

Digitized by Google

am ein pechodau, ond fel arwyddion o'n hedifeirwch, ein diolchgarwch, a'n cydnabyddiaeth o ddaioni Duw tu ag atom. Wedi eu gwneuthur, maent yn rhwymo, fel llw Duw arnom, ac yn bechod mawr i beidio eu cyflawni. Deut. 23. 21. Ps. 22. 25. a 50. 14. a 56. 12. a 65. 1. a 116. 14, 18. Preg. 5. 4, 5. Edr. LLW, TYNGU.

ADDURN—AU—O, (add-gwrn) harddwch, ceinion; prydferthu, harddu, ceinwisgo.—'Addurn yr esgidiau.' Esa. 3. 18. Edr. ESGID.——'Efe a addurnodd y nefoedd â'i Ysbryd.' Job 26. 13. Nid yn unig gwnaeth Duw y nefoedd, ond efe a'i '*haddurnodd* â'i Ysbryd.' Y maent wedi eu harddu, eu prydferthu, a'u gwneuthur yn hyfryd i'r llygaid edrych arnynt. Mae y lloer, a'r sêr, addurniadau ysplenydd y nefoedd, wedi eu gosod a'u trefnu yn gyfannedd, yn y modd mwyaf hardd a hyfryd i edrych arnynt. Gosododd Duw fŵd, neu gronglwyd y tŷ, uwch benau pryfed gwael, yn geinwedd ac yn llawn harddwch; fel y gwelent ogoniant a daioni eu Harglwydd. Y mae mŵd, neu gronglwyd boglynog, ceinibog, sereneg, gemwaith Duw, yn harddu eu palas am ychydig o ddyddiau yma yn y byd; ac os felly, beth fydd y tŷ, nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd? 2 Cor. 5. 1. Bydded i'r trigiannydd edrych am addurniadau cymhwys i'r breswylfod, sef rhadau yr Ysbryd Glân. Yr hwn a addurnodd y nefoedd a all addurno calon pechadur tywyll, afluniaidd, â goleuni ysbrydol, a thlysau o aur, a boglynau o arian (Can. 1. 11.) sef sancteiddrwydd yr Ysbryd.

ADDYSG—IAD—AU—U, (a-dysg) hyfforddiad, cyfarwyddiad; athrawu.—'Ceryddon addysg,' sef ceryddon er addysg, yn athrawiaethol, neu yn rhagluniaethol. Diar. 6. 23. Edr. CERYDD.——Mae pechaduriaid yn byw mewn cariad at eu pechodau, yn casâu addysg dduwiol, sanctaidd, oddiwrth Dduw. Diar. 5. 12. Ps. 50. 17. Edr. ATHRAWIAETH, DYSG, RHIENI.

Trech anian nag *addysg*. *Diar.*

AEL—IAU, ellael; ael-llygad, sef y bwa gwalltog uwch y llygaid. Lef. 14. 2.—Ael bryn, dibyn, llechwedd serth, llethr. Luc 4. 29.—Ael gwisg, ymyl; ar ael, agos, wrth, yn agos at.

AELOD—AU, cangen, darn; rhan o gorph dyn; aelod o gig, sef darn: yn draws symudol, perthynas, ceraint, teulu.—1. Un o ranau y corph, megys troed, llaw, &c. Rhuf. 12. 4. 1 Cor. 12. 26.——2. Holl egni corph ac enaid. Rhuf. 6. 12. a 7. 23.——3. Y chwantau pechadurus sydd yn ein hanian lygredig. Col. 3. 5. Iago 4. 1.——4. Yr holl ffyddloniaid, y rhai a unwyd â Christ trwy ffydd. 1 Cor. 12. 17. Eph. 5. 30. Crist a'i bobl, a'u hystyried yn gorph, efe yw y Pen, hwythau yw yr aelodau: y maent hefyd yn aelodau i'w gilydd; y maent gwedi eu huno âg ef, fel eu Pen, ac mewn undeb â'u gilydd, fel aelodau. Eph. 4. 25. Edr. BRODYR.

AELWYD—YDD, (ael) teulu; lle yr arferir llosgi tân arno. Esa. 3. 14. Jer. 36. 23.—Esgyrn y rhai cystuddiedig a gyffelybir i aelwyd; oblegid fod barnedigaethau Duw, a'u gofidiau tufewnol, megys yn llosgi arnynt, yn eu gwneuthur yn ddigysur. Ps. 102. 3.——Llywodraethwyr Judah a fyddant fel aelwyd danllyd, yn mhlith coed, i ddifa eu gelynion o amgylch. Zech. 12. 6.

*Aelwyd* a gymhell. *Diar.*

AENEAS, [*canmoladwy*] enw dyn yn Lyda, yr hwn a orweddodd wyth mlynedd yn glaf o'r parlys, ac a iachawyd gan Petr. Actau 9. 33. Effeithiodd y wyrth hon mor hynod ar drigolion Lyda a Saron, fel yr ymchwelasant at yr Arglwydd.

AERES, *Saes.* HEIRESS: yr un peth ag etifeddes. Diar. 20. 23.

AERON, (aer-on) *Gr.* οπωρα: ffrwythydd coedydd, ffrwythau haf; megys afalau, ellaig, eirin, cnau, &c. Dat. 18. 14.

AF, arferir ef yn niweddiaid y perwyddiad, yn y dynweddiad cyntaf, yr amser dawedadwy; hefyd, fel attodiad i enw gwan, a arwydda y gradd uchaf; fel rhagddod, mae ystyr nacäol iddo, megys aflan, &c.

AFAL—AU, (bal) ffrwyth coed.—Afal pêr, afal sur, afal euraid (*an orange*); afal melyn-hir (*a lemon;*) afal gronynog (*a pomgranate*); afal y marchog (*nonpareil*). Mae prenau afalau o amrywiol fath. Dywed Bochart, nad oedd ond ychydig, os dim, o honynt yn ngwlad Canaan. Nid ffrwythau naturiol yw afalau, ond ffrwythau celfyddyd yn unig. Y ffordd i'w lliosogi ydyw hau y cnewyll yn y ddaear, y rhai a ddygant afalau surion yn unig, yn wahanol eu llun a'u harchwaeth oddiwrth yr hyn a heuwyd. I droi y rhai hyn yn afalau o un rhyw ydyw gwaith impio. Brigyn o'r pren afalau gwedi ei impio yn y pren sur a bair iddo ddwyn afalau o'r un rhyw a'r pren o ba un y dygwyd y brigyn allan. Y ffordd oreu i gadw afalau dros y gauaf yw, eu gadael ar y coed nes y byddo perygl iddi rewi; eu casglu ar dywydd sych, a'u rhoddi yn dyrau ar eu gilydd i chwysu, dros fis neu chwech wythnos. Dylid eu harolygu yn ofalus, a chymeryd ymaith bob un y byddo dim ymddangosiad arno o fraeniad: gwedi hyny, rhwbio y rhai iach yn sych, a'u rhoddi mewn ystenau priddion mawrion, wedi eu berwi a'u sychu yn dra sych; ac wedi hyn, eu cau i fynu, i gadw yr awyr allan. Ond dilyn y dull hwn, cadwant yn dda am amser maith; ond os daw yr awyr atynt, crychant i fynu, a meddalant.

Fel y mae Crist yn cael ei gyffelybu i bren afalau, felly mae yr iechydwriaeth yn ei hamrywiol gangenau, fel yr amlygir hwynt yn yr addewidion, ac athrawiaethau yr efengyl, yn cael ei chymharu i'r afalau, ffrwyth y pren. Can. 2. 5.——'Ffrwythau pren y bywyd,' sef Crist, yw holl freintiau, rhadau, cysuron, a gwaredigaethau ei bobl. 'O'i gyflawnder ef y maent oll yn derbyn, a gras am ras.' Ioan 1. 16.——Y mae 'arogl ffroenau' yr eglwys, 'megys afalau,' sef ei gweddïau, yn esgyn yn mwg arogl-darth eiriolaeth Crist; a'i hymarweddiad sanctaidd, yn troedio llwybrau pur yr efengyl; y maent yn gymeradwy gan Dduw, ac yn llesol i ddynion. Can. 7. 8.——'Gair a ddyweder mewn amser, sydd megys afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig.' Diar. 25. 11. Gair o rybudd, addysg, neu gysur, a ddyweder mewn doethineb, cariad a thiriondeb, yn addas o ran y personau, yr amser, a'r amgylchiadau, sydd hyfryd, hardd, ac adeiladol, fel *afal euraid*, yn arogli yn beraidd, yr olwg arno yn hardd, ac yn hyfryd i'r archwaeth. Yr afal euraid, *citron*, tebygol, a feddylir. Gwel Harmer, *vol.* ii., *p.* 160—166. *Edit.* Dr A. Clarke.

AFALLEN, (afall) pren afalau; afallen sur, sef pren afalau surion.—Y gair *Heb.* תפוח a gyfieithir *afallen*, yn Can. 8. 5. a Joel 1. 12. yw yr un a gyfieithir *pren afalau* yn Diar. 25. 11. Can. 2. 3. Y mae teithwyr diweddar* gwedi sylwi mai ffrwythau canolig ydyw yr afalau yn ngwledydd y dwyrain, ac nad ydynt yn cyfateb i'r hyn a ddywedir am afalau yn yr ysgrythyrau; ond fod y pren *citron* a'i ffrwythau yn aml yn ngwlad Judea; a'r pren a'i ffrwythau yn cyfateb yn gwbl i'r desgrifiad o'r תפוח a roddir yn y lleoedd uchod: a chan hyny gellir barnu mai y pren hwnw a feddylir. Mae yn bren tra chysgodfawr, a'i ffrwyth yn beraidd ac yn hardd; yn rhagori llawer ar brenau y coed yn yr olwg arno, ei gysgod, a'i ffrwythau.—'Dan yr afallen y'th

* Gwel Russell's *Natural History of Aleppo*, p. 21.

Digitized by Google

gyfodais.' Can. 8. 5. Mae yr eglwys (pen. 2. 3.) yn eistedd dan gysgod y pren hwn, i'w diogelu rhag gwres a phoethder yr haul; ac yn ymborthi ar ei ffrwyth, i'w chynnal a'i chysuro; yma y mae yn hysbysu y cymundeb rhyngddi â Christ, dan ei gysgod ei hun. Dan y pren afalau, wedi fy nghysgodi ganddo, ac yn ymborthi ar ei ffrwyth, 'y'th gyfodais,' neu y'th ddeffroais, i gael rhagor o gymundeb â thi, a mwynhad mwy cyflawn o'th gymdeithas. Mae yn dra amlwg mai geiriau yr eglwys ydynt wrth Grist.* Yn yr agosrwydd ato, y mae y saint yn llafurio am ychwaneg o fwynhad o hono; ac megys yn ei ddeffro i'w cynnorthwyo a'u dyddanu.——'Yno y'th esgorodd dy fam;' yno y bu eglwys yr Hen Destament mewn gwewyr am danat, nes dy ymgnawdoli; yno y mae dy ffyddlawn weision mewn gwewyr, nes dy ffurfio yn nghalonau pechaduriaid; yno y mae pawb a'th adwaenant yn llafurio am fwy cyflawn fwynhad o honot, a thebygolrwydd i ti. Ps. 44. 24. Esa. 63. 11, 12. a 64. 7. Jer. 2. 6. Gal. 4. 19.

AFIAID, yr oeddynt yn trigo yn Hazerim, yr hon oedd yn cyrhaedd o afon yr Aipht i Gaza. Deut. 2. 23. Jos. 13. 3.

AFIECHYD, (iechyd) anhwyl corphorol, saldra, clefyd, llesgedd.—Ffrwyth ac effaith pechod ydyw pob afiechyd corphorol. Y mae yn gynnwysedig yn y farwolaeth hòno a fygythiodd Duw ar y dyn os anufuddhai i'w orchymyn. Y mae llawer o afiechyd dynion yn tarddu oddiwrth eu dull o fyw; y mae segurdod, diogi, moethau, ac anghymedroldeb, yn magu y pläau mwyaf gofidus a dychrynllyd ar ddynion; megys y gymalwst, y graianwst, y cryd cymalau, afiechyd yr ysgyfaint, a'r iau, a'r pen, &c. Y mae glanweithdra, cymedroldeb, codi yn foreu, dilladu â gwisgoedd addas, gochelyd segurdod, syrthni, ac awyr wlybyrog, ac eistedd mewn dillad gwlybion, &c., yn gymhorth mawr at gadw y corph yn iachus. Y mae yn resynus gweled dynion yn llenwi y gwaed âg afiechyd sydd raid iddo dòri allan ryw ffordd, yn fuan neu yn hwyr, trwy eu hynfydrwydd yn porthi chwantau pechadurus: ond er dystrywio corph ac enaid, nid ymadawant â'u chwantau, ac amryw felusweäd. Y mae un pryd o gig, a hyny o un rhyw, yn ddigon mewn pedair awr ar hugain; ac ni ddylai neb yfed ond i ddisychedu ei hun, ac yfed yr hyn sy fwyaf addas i hyny.——Y mae afiechyd ceryddol a barnedigaethol hefyd, o herwydd eu diystyrwch o Dduw, a'u hanufudd-dod i'w air. Deut. 28. 22. Yr oedd afiechyd Job a Hezeciah er eu profi a'u puro. Nid ydyw yn bechadurus arferyd pob cyfferi a moddion meddygol, gyda golwg ar Dduw am ei fendith arnynt; i'r gwrthwyneb, y mae yn rhyfyg pechadurus peidio; er hyny, gweddi y ffydd a iachâ y claf yn nghyd âg ymostyngiad gwirioneddol ger bron Duw mewn edifeirwch am ein pechodau, sydd yn achos o bob gofid. Iago 5. 13, 14, 15.——Yn nyddiau ei gnawd yma yn y byd, yr oedd yr Arglwydd Iesu 'yn myned oddi amgylch, gan bregethu efengyl y deyrnas, ac iachâu pob clefyd, a phob afiechyd yn mhlith y bobl.' Mat. 9. 35. Y mae y geiriau yn rhoddi i ni olwg rhyfedd o ogoneddus a thirion arno. Mae y bobl yn llawn afiechyd, ac yntau yn gyflawn feddyginiaeth iddynt. Mae yr holl rinwedd ynddo ei hunan; nid deall rhinweddau pethau eraill meddyginiaethol y mae, ond mae y rhinwedd ynddo ei hun, a hwnw yn ddigonol i symud *pob* afiechyd. Y mae, nid yn unig ei gyflawnder dwyfol i'w weled, ond hefyd ei raslonrwydd a'i ewyllys da; yr oedd yn myned o amgylch, o'i ewyllys da ei hun, i gyfranu yn rhad, yr hyn oedd gyflawn ynddo, er lleshâd i'r truan a'r clwyfus. Yr hwn a roddodd orchymyn i'r haul amgylchynu y nefoedd, i dywallt goleuni am ben daear dywyll, er lleshad a sirioldeb i'w thrigolion, a aeth ei hun yn gyflawn o oleuni a meddyginiaeth i blith pechaduriaid afiach. Yr un ydyw ef etto; trwy efengyl ein hiechydwriaeth, a'r pregethiad o honi, y mae iachâd yn cael ei weini i eneidiau clwyfus, digysur; a bydd amledd dirifedi o honynt wedi eu cwbl iachâu. Heb. 7. 25.—*Quem admodum Satan peripateticus est ad perpendum, ita Christus ad sanandum;* hyny yw, Fel y mae Satan yn rhodio oddi amgylch i ddystrywio, felly y mae Crist i iachâu. Musculus *in loc.*

* Gwel Ainsworth Gill, Brown, Durham.

AFLAFAR, (llafar) mudaniaeth, bod heb lefaru; anghydseiniol, heb seinio yn hynod, ac yn ddeallus.—'Y mae cymaint o rywogaethau lleisiau yn y byd, ac nid oes un o honynt yn aflafar.' 1 Cor. 14. 10. Sef heb ei briodol ystyr gwahaniaethol oddiwrth bob sŵn neu lais arall. Nid oes un o honynt yn anhynod. Anfuddiol ydyw pob sŵn os bydd yn anhynod; felly anfuddiol yw pob llefaru yn yr eglwys, oni bydd yn ddealladwy i'r gwrandawyr, er eu hadeiladaeth.

AFLAN——HAU, (glân) halogedig, diwynedig, anurddedig, budr, brwnt.—1. Peth budr, halogedig. Mat. 23. 27.——2. Gwlad heb addoliad Duw ynddi, a'i thrigolion heb lanhad aberth Crist. Josuah 22. 19.——3. Yr hyn a ennillir trwy gamwedd. Job 31. 7. Hag. 2. 13.——4. Heb freintiau eglwysig, a hawl yn Nghrist a'i ras. 1 Cor. 7. 14.——5. Torwyr y seithfed gorchymyn, y rhai sydd yn llygru cyrph ac enediau. Eph. 5. 5.——Yr oedd amryw fath o aflendid dan y gyfraith seremoniol: Lef. 5. 2.—ysbrydol, 2 Petr 2. 10.—ymarferol, Esa. 64. 6. Tit. 1. 15.——Yr oedd pob math o rai aflan i'w eau allan o'r gwersyll gynt, nes eu glanhau. Num. v. Dysgwn oddi yma ddau beth, 1. Fod ein pechodau yn achos cyflawn i Dduw ein bwrw ymaith byth. Dat. 21. 27.——2. Fod pechaduriaid cyhoeddus i'w bwrw allan o gymdeithas y ffyddloniaid, nes y gwelir ynddynt edifeirwch a dychweliad at Dduw. 1 Cor. 5. 13. Edr. GLANHAU, GLAN, GOLCHI.

AFLES——OL, (lles) anfuddiol, difudd, dielw.—Dywed yr apostol fod 'dirymiad o'r gorchymyn (neu gyfraith Moses) o herwydd ei lesgedd a'i afles.' Heb. 7. 18. Am ei fod yn llesg, neu yn wan, yr oedd yn aflesol. Yr oedd y gyfraith foesol yn llesg ac yn wan i sancteiddio a chyfiawnhau pechadur; oblegid bod llesgrwydd yn ei gnawd, trwy bechod. Rhuf. 8. 3. Y mae fel drych goleu yn dangos pechod, ac yn gryf i euog-farnu y pechadur: ond nis gall ei achub na'i lanhau. Yr oedd y seremoniau Iuddewig yn llesol fel cysgodau o Grist, i'w ddangos i'r addolwyr; ond wedi i'r sylwedd mawr ddyfod a'u cyflawni oll, yr oeddynt yn llesg ac yn aflesol; ie, yn y gwrthwyneb, yr oeddynt o'r niwed mwyaf; gan eu bod, yn lle dangos Crist, yn troi pechaduriaid oddi wrtho atynt eu hunain. Gan hyny, fel ag yr oedd yn drugaredd yn yr Arglwydd eu rhoddi a'u gosod i fynu, hyd gyflawnder yr amser; felly hefyd yr oedd yr un modd yn drugarog yn yr Arglwydd eu dirymu a'u gosod o'r neilldu pan ddaeth.

AFLONYDD—U, (llonydd) anesmwyth, blinderus, trafferthus, terfysgus. 1 Sam. 28. 15. Ps. 38. 8. Act. 17. 6. Gal. 5. 12.

AFLUNIAIDD, (aflun) dilun, anferth, anosgeddig.—'A'r ddaear oedd afluniaidd a gwag.' Genesis 1. 2. *Heb.* חה *yn ddidrefn, yn gymysglyd,* בה *gwag, dilanw, disylwedd defnyddiol.* Yr oedd yr elfenau yn gymysgedig, neb eu neillduo oddiwrth eu gilydd, heb drefn, na harddwch, na defnyddioldeb. Yr oedd yma ddefnyddiau; ond heb eu hiawn drefnu a'u defnyddio. Yr un geiriau a arferir yn Deut. 32. 10. 1 Sam. 12. 21. Job 12. 24. Psalm 104. 40. Esa. 34. 11. a 44. 9. Jer. 4. 23.

Digitized by Google

AFLWYDD—O, (llwydd) anffawd, anhap, dryglam, trychineb. —— Dystryw ac aflwydd sydd yn ffyrdd pechaduriaid. Rhuf. 3. 16. Gan fod eu ffyrdd yn groes i Dduw, y mae Duw yn ei briodoliaethau, ei oruchwyliaethau, a'i ragluniaethau, yn groes iddynt hwythau; am hyny, nis gallant lwyddo, ond tynu pob trueni a gofidiau arnynt eu hunain, heb newid eu ffyrdd.

AFON—YDD, (aw-on) 1. Ffrwd o ddwfr croyw, yn rhedeg tu a'r môr. Genesis 2. 10. Exodus 2. 5. Gelwir amryw afonydd yn Lloegr yn awr wrth yr enw hwn; y Saeson yn camsynied yr enw cyffredin am afon, fel yn enw ar ryw afon yn neillduol. Yr afonydd penaf ac enwocaf yn Asia, heblaw yr Euphrates, ydyw y Tigris, Indus, Ganges, Kyang, Lena, Jenisea, ac Obi. Y rhai sydd yn nhir cydiad Ewrop, ydyw y Wolga, Don, Nieper, Niester, Danube, Duina, Duna, Weisel, Oder, Elb, Weser, Rhine, Po, Tiber, Rhone, Seine, Loire, Garonne, Ebro, Tajo, Guadiana, Guadalquir. Rhai Affric ydynt, y Nilus, Senegal, Zaire, a Bravagal. Rhai penaf yr Americ ydynt, yr afon De la Plata, afon Amazons, y Mississippi, a St. Lawrence. Yr afonydd mwyaf yn y byd, ydyw y Mississippi, Amazons, a De la Plata. Y mae y Mississippi, yn ngogledd America, yn rhedeg, a chyfrif ei throellau, 4500 o filltiroedd cyn cael y môr. Yn neheudir America, y mae yr afon De la Plata, wedi rhedeg amryw filoedd o filltiroedd, yn ymdywallt mor nerthol i'r môr, fel y mae yn cadw ei chroywder am amryw filltiroedd oddiwrth y tir. Y mae ei lled, yn agos i'w cheg, yn 150 o filltiroedd. Yr afon Amazons hefyd sydd yn y dehau, yn rhedeg 3000 o filltiroedd cyn cyrhaedd y môr, rhwng Brazil a Guiana, lle y mae yn ymdywallt, yn 200 o filltiroedd o led. Y St Lawrence, hefyd, sydd afon fawr iawn yn y gogledd, yn cael y môr yn agos i Newfoundland. Heblaw y rhai hyn, y mae yn America amryw afonydd eraill yn fordwyol; megys y Delaware, yr Ohio, &c. Yr afonydd mwyaf enwog yn Mrydain ydynt, y Thames, Hafren, Medway, Mersey, Dyfrdwy, Humber, Tyne, Ysc, Clyd neu Clwyd, Tweed, a Derwent. Ar rai ystyriaethau, y mae yr afon Thames yn un o'r afonydd enwocaf yn y byd; sef o ran tegwch yr afon, prydferthwch y dolydd ar ei glanau, a'r aneirif gyfoeth a drosglwyddir ar hyd-ddi. Yr afonydd y sonir am danynt yn fwyaf neillduol yn yr ysgrythyrau ydynt, y Nilus, yn yr Aipht; yn Canaan, yr Iorddonen, Cison, Jabboc, ac Arnon; Abana a Pharphar, yn Syria; yn Caldea, yr Euphrates, Hidecel, Gihon, Pison, Chebar, Ahafah, Ulai. Gelwir yr Euphrates a'r Nilus, weithiau, 'yr afon,' mewn ffordd o enwogrwydd. Ezra 4. 10, 16. Ps. 80. 11. Esa. 19. 5. Felly gelwir hefyd, y Môr Coch. Ps. 74. 15. Hab. 3. 8. Esa. 27. 1. Wrth 'afon y diffaethwch,' y meddylir afon Bosor, yr hon a rana etifeddiaethau Judah a Simeon, ac a red i Fôr y Canoldir. Amos 6. 14.

2. Arwydda afon, hefyd, helaethrwydd a llawnder o unrhyw beth. Y graig yn tywallt afonydd o olew, a arwydda fod yr olew-wydd yn tyfu mewn creig-leoedd, yn rhoddi i Job y cyfryw helaethrwydd o olew, fel pe buasai yn afonydd yn llifo i lawr o'r creigiau. Deut. 32. 13. a 33. 24, &c. Job 29. 6. 'A'r graig yn fy ymyl sydd yn ymdywallt yn afonydd o olew.' —— 'Ag afon dy hyfrydwch y diodi hwynt:' hyny yw, â helaethrwydd dy hyfrydwch a'th dangnefedd, yn llifo yn barhaus oddi wrthyt i'w heneidiau, y digoni hwynt, fel rhai wedi yfed i lawnder a boddlonrwydd hollol. Y mae pob peth yn y Gwaredwr, yn gyntaf, sydd yn cael ei gyfranu i'r gwaredigion, y rhai sydd yn ymddiried dan gysgod ei adenydd. Ei hyfrydwch ef, yn gyntaf, fel ffynon dragywyddol ynddo: ei hyfrydwch ef iddynt hwy, fel afon, neu ffrwd gref (נחל) yn rhedeg o'r ffynon hòno, ac o'r un natur a'r ffynon ei hun. Gyd âg ef y mae ffynon bywyd; ond y mae ffrydiau helaeth, cryfion, yn llifo i'w bobl. Psalm 36. 8, 9. Jer. 31. 14. Mat. 25. 11. Y mae yr iechydwriaeth yn cael ei chyffelybu i 'afon bur o ddwfr y bywyd, dysglaer fel y grisial, yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen.' Dat. 22. 1. O gariad tragywyddol, a dwfn gynghor y Drindod, y tarddodd hi allan; mae yn bur fel Duw ei hun, ac yn puro pechaduriaid aflan. Y mae yn ddwfr y bywyd, oblegid ei bod yn tarddu o'r bywyd ei hun, ac yn rhoddi bywyd, sirioldeb, a dyddanwch i filoedd, a fuasent yn athrist ac yn wylofus byth hebddi. Y mae, fel afon, yn rhedeg gyda llawnder a grym anfeidrol, a pharhad tragywyddol, at bechaduriaid ar ddarfod am danynt, mewn cyflwr o bechod a thrueni. Geill y neb sydd â syched arno yfed o honi yn rhad, yn helaeth, ac yn dragywyddol. Dyma yr afon sydd â'i ffrydiau yn llawenhau dinas Duw yn yr amseroedd mwyaf sych, cynhyrfus, a therfysglyd; a'i dyfroedd yn ffrwythlon, ac yn feddyginiaethol. Exod. 17. 5, 6. Ps. 46. 4. a 78. 15. a 105. 41. Can. 4. 12. Ezec. 47. 1, 8, 9, &c. Joel 3. 18. Zech. 14. 8. Tit. 2. 11, 12.

'Y mae yr Arglwydd ardderchog (fel amddiffynwr ei eglwys) yn fangre afonydd a ffrydiau llydain: y rhwyf-long nid â trwyddo, a llong odidog nid â drosto.' Esa. 33. 21. Fel y mae afonydd a ffrydiau llydain, nid yn unig yn gysur i ddinasoedd, trwy eu dyfroedd iachus, ond hefyd yn ddiogelwch iddynt rhag ymosodiadau gelynion; felly y mae yr Arglwydd yn ddiogelwch cyflawn a thragywyddol i'w eglwys; nid â gelyn byth trwyddo na throsto; ond bydd eu hymgais yn erbyn ei eglwys yn ddinystr iddynt eu hunain. Gallesid meddwl, gan fod yr Arglwydd yn fangre afonydd a ffrydiau llydain, o ran helaethrwydd a llawnder y bendithion sydd ynddo i'w bobl, y gallasai hyn rwyddhau dyfodiad gelynion, mewn llongau godidog, i ymosod arnynt; ond y mae yr Arglwydd ardderchog yn ddigonol amddiffynwr, ac nis dichon y llongau godidog neshau atynt.

'Efe a ŷf o'r afon ar y ffordd,' &c. Psalm 110. 7. Efe, sef yr Arch-offeiriad mawr, tragywyddol, yr hwn sydd yn eistedd ar ddeheulaw y mawredd—yr hwn sydd â llywodraeth freninol ganddo—ac sydd yn darostwng pawb tano, neu yn eu dryllio â gwialen haiarn.—'A ŷf o'r afon ar y ffordd.' Y mae awdwyr yn amrywio yn eu meddyliau am ystyr priodol y geiriau hyn. Y mae rhai yn eu priodoli i ddyoddefiadau Crist; eraill a farnant fod *yfed o'r afon*, yn ddesgrifiad mwy priodol o gyfranogiad helaeth y natur ddynol, yn mherson Crist, o gynnorthwyon dwyfol yr Ysbryd Glân i fyned trwy ei holl ddyoddefiadau, er trymed oeddynt, a dyrchafu ei ben yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion, ac i'w addasu i weinyddiad y swydd gyfryngol, yn yr holl waith pwysig perthynol iddi. Yn yr ystyr hwn y golygodd cyfansoddwr craff a manwl y Psalmau Càn yn Gymraeg y geiriau:—

O wir frys i'r gyflafan hon,
Fe yf o'r afon nesa'
A gaffo ar ei ffordd yn rhwydd,
A'r Arglwydd a'i dyrchafa.
E. Prys.

Gwel Hervey's *Meditations*, p. 89, 90.—'Myned trwy ddyfroedd,' meddant, a 'ffrydiau yn llifo dros un,' ac 'yfed cwpan cymysgedig o bob peth niweidiol,' ydynt ymadroddion aml, yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo cystuddiau a gorthrymderau mawrion. Psalm 124. 5. a 75. 8. Esa. 30. 28. a 51. 17. Jer. 25. 15. a 47. 2. Ond *yfed o afon* mewn gwledydd poethion, sychion, a arwydda, cyfranogiad o gynnorthwyon a chysuron, yn wyneb cyfyngderau, llafur, a lludded. Beth a ddichon fod yn fwy dymunol a llesol i deithiwr lluddedig? 'Gwnaf iddynt,' medd Duw wrth ei bererinion llesg, 'rodio wrth ffrydiau dyfroedd,' o ba rai y gallant yfed yn barhaus, er eu cynnaliaeth a'u cysur.

Digitized by Google

Jer. 31. 9. Y mae 'yfed dwfr gorthrymder,' yn arwyddo caethiwed a chystudd. 1 Bren. 22. 27. Esa. 30. 20. Etto, nid 'yfed o'r afon ar y ffordd' yw hyn; mae y naill yn arwyddo prinder, a'r llall helaethrwydd o gysuron. 2 Bren. 3. 16, 17. Diar. 18. 4. Esa. 37. 25. Joel 3. 18. 'Wrth ymddyddan â Dr Lowth,' medd Mr Merrick, 'dywedodd wrthyf fod yr esboniad hwn, sydd yn priodoli gwaith Crist yn yfed o'r afon, i'w waith yn derbyn cynnaliaeth a chysuron, yn llawer mwy i'w gymeradwyo na hwnw sydd yn dychymygu eu bod yn cyfeirio at ei ddyoddefiadau.' Darluniant ryfelwr bywiol, egnïol, medd Grotius, yr hwn, tra yn ymlid ei elynion, yn lle myned i ryw dŷ am luniaeth ac adfaethiad i adgryfhau ei ysbrydoedd, a'i cymer gyda brys o'r afon nesaf a gyferfydd â hi.

While with advancing step his feet
The conflict yet prepare to meet,
The streams that glide along the way,
New vigour to his heart convey,
And bid him 'mid the scene of dread,
Secure of conquest lift the head.

MERRICK.

Dywedir am y Messïah, 'y llywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear;' (Ps. 72. 8.) sef o'r Môr Heli, neu y Môr Marw, hyd y Môr Mawr, sef Môr y Canoldir; ac o afon Euphrates yn y dwyrain, hyd Hispaen yn y gorllewin: neu, yn hytrach, y byddai ei lywodraeth yn cyrhaedd, yn ol addewidion ei Dad iddo, yn ddiderfyn, dros wyneb yr holl ddaear, o fôr hyd fôr. Gen. 15. 18. a 26. 4. Exod. 23. 31. Num. 34. 2—6. 1 Bren. 4. 21. Ps. 2. 8. a 82. 8. a 89. 25. Esa. 45. 22. Zech. 9. 10. Act. 1. 8. Col. 1. 5, 6. Dat. 11. 15.

Y mae yr Arglwydd yn 'cyfodi ei law ar yr afon, ac yn ei tharo hi yn y (neu, nes y byddo yn) saith ffrwd;' yn arwyddo, symudiad effeithiol rhwystrau mawrion, fel afon gref, ar ffordd gwaredigaeth ei bobl. Esa. 11. 15. a 44. 27.——'A'i wynt nerthol efe a gyfyd ei law ar yr afon.' Y mae yn y geiriau hyn gyfeiriad eglur at fynediad yr Israeliaid trwy y Môr Coch. Exod. 14. 22.—'Ac a'i tery hi yn y saith ffrwd;' neu a'i tery nes y byddo yn saith ffrwd, fel y gallo y neb a fyno fyned drosodd mewn esgidiau, neu yn droed-sych. Ac, yn ganlynol i hyny, fe fydd 'prif-ffordd i weddill ei bobl ef, y rhai a adewir o Assyria.' Amlwg yw, mai wrth yr afon sydd i'w tharo, y meddwl y prophwyd yr Euphrates, ac nid y Nilus, fel y barnodd llawer. Ni buasai taro yr afon Nilus yn agor ffordd i'w bobl o Assyria. Y mae yn yr adnod brophwydoliaeth am ddarostyngiad a dinystr y ddwy ymerodraeth, sef Assyria a'r Aipht; ac, yn arwyddocaol yn eu dinystr hwy, ddinystr pawb eraill a fyddent yn attalfa ac yn rhwystr i ryddid ei bobl, a llwyddiant ei achos, er eu bod yn ymddangos, fel afonydd mawrion, yn anwrthwynebol. Gwel Lowth, Vitringa, Parkhurst.

'Afonydd o ddwfr bywiol yn dylifo o groth y neb a gredo yn Nghrist,' a arwydda y byddai iddo gyfranogi yn helaeth o'r Ysbryd Glân, yn ei ddylanwadau grasol a chysurol; yn ganlynol, y byddai yn fuddiol ac yn adeiladol i eraill, ac yn barod i bob gweithred dda. Afonydd o gysuron sanctaidd yn dufewnol, a'r rhai hyny yn tori allan yn afonydd ffrwythlawn yn ei fuchedd'ad a'i rodiad allanol. Ioan 7. 38. a 4. 14. 1 Ioan 4. 15. Diar. 5. 16. a 18. 4. Esa. 12. 3. a 32. 15. a 44. 3.

AFRAD-ĽLON—I—RWYDD, (rhad) difrodwr, difawr, gwastraffwr; difa, gwastraffu; un yn gwastraffu trugareddau, megys ymborth, diod, dillad, &c. Diar. 28. 7. Rhuf. 13. 13. Tit. 1. 6.—'Ac yno efe a wasgarodd ei dda, gan fyw yn afradlon.' Luc 15. 13. Edr. DYGWYDD.

AFRAID, (rhaid) heb raid, heb achos. 1 Cor. 7. 37. 2 Cor. 9. 1.

Afrad pob *afraid*. *Diar*.



AFREOL—US, (rheol) heb rodio wrth reol; penrydd, annhrefnus. Heb rodio wrth reol union y gair a roddodd Duw i ni, yn mhob peth i rodio wrthi. 1 Thes. 5. 14. Edr. RHYBYDD.

AFRLLAD—EN, (afr-llad) teisenau teneuon: teisen beilliad groyw gwedi ei chymysgu trwy olew, neu afrllad groyw gwedi ei heneinio âg olew. Lef. 2. 4. Dylai y gair teisen fod yn y rhif llïosog (חלות) *teiseni;* felly y mae gwedi ei roddi yn nghyfieithiad y Dr Morgan; ond yn yr holl argraffiadau gwedi hyny, rhoddwyd ef, yn anaddas, yn y rhif unigol. Yr oedd y teisenau hyn gwedi eu cymysgu âg olew; ond nid oedd yr afrllad i gael eu cymysgu âg olew, ond eu heneinio âg olew. Exod. 29. 2. Lef. 7. 12. Num. 6. 15.—Y peilliad gwenith o ba un y gwnaent yr afrllad, oedd yn arwyddo purdeb natur Crist, a'i holl bobl a'u holl wasanaeth ynddo; yr olew a arwyddai, gras a chysuron yr Ysbryd Glân. Yn y teisenau yr oedd y peilliad wedi ei gymysgu âg olew, a'r afrllad wedi eu heneinio âg olew; felly mae gras yr Ysbryd Glân oddi fewn ac oddi allan y duwiolion; y maent wedi eu cyd-dymheru âg ef, ac wedi eu heneinio hefyd. 'Y mae yr eneiniad yn aros *ynoch* chwi,' medd yr apostol. 1 Ioan 2. 27. A dywed Paul, 'Yr hwn sydd yn ein cadarnhau ni gyda chwi yn Nghrist, ac a'n *heneiniodd* ni, yw Duw.' 2 Cor. 1. 21.

AFU—AU, (bu) rhan dufewnol o ddyn ac anifel. *Llad.* JECUR; hyny yw, *juxta cor,* sef *yn agos i'r galon.* Dernyn o gnawd cilchwyrnog mewn dyn, yn gorwedd yr ochr ddehau, ac yn ymestyn dros yr ochr ddehau i'r cylla, ac yn meinhau tu a'r pen. Ei ddyben ydyw puro y gwaed a ddygir iddi trwy wythïen a elwir *vena porta,* ac a ddychwelir yn ol trwy wythïen arall, a elwir y *cava porta.* Y mae y *vena porta* yn ateb yr un gwasanaeth a rhedweli. Y mae y ddwy wythïen hyn yn dosparthu yn fân gangenau trwy holl gorph yr afu. Dyben arall yr afu ydyw ysgaru y bustl o'r gwaed, trwy yr hyn y mae y gwaed yn cael ei buro. Y mae y bustl yn cael ei ddwyn o'r gwaed yn yr afu, trwy fân lestri i *goden y bustl;* ac oddi yno y dygir ef i'r coluddion wrth enau y cylla, i dyneru ac addasu yr ymborth i roddi maeth trwy y llestri llaethog. Y pethau sydd yn ychwanegu pwysau y galon sydd yn gydradd yn lleihau pwysau yr afu; a'r pethau sydd yn ychwanegu pwysau yr afu yn yr un gradd. Yn ganlynol, pan fyddo rhyw anifel yn tewychu trwy lawer o gysgu, ymborth, segurdod, ac ychydig o waith, y mae y galon yn lleihau, a'r afu yn cynnyddu; ac felly yn y gwrthwyneb. Pan fyddo pwysau y galon heb gyfateb i bwysau y corph, mae yr afu yn cynnyddu yn ormodol, ac yn gwasgu yn ormodol ar y rhanau cylchynol; megys y cylla, y coluddion, cledr y ddwyfron, &c. Ac felly y mae awydd i ymborth yn lleihau, ac anadlu yn gyfyngach. Pan fyddo yr afu wedi cynnyddu yn ormodol, trwy orlawnder o ymborth, a rhy fach o waith, er y geill physygwriaeth wneyd lles, a rhoddi esmwythder am ychydig, nid oes dim ond cymedrolder a rydd iechyd: er ei lleihau trwy garthai, etto cynnyddu a wna yn fuan trwy anghymedroldeb a segurdod. Y mae casgliad gôr yn chwydd yn yr afu, yn gyffredinol yn farwol; neu o'r hyn lleiaf, yn anhawdd ei feddyginiaethu. Edrych BUSTL. Yr ydoedd y Caldeaid yn arfer dewiniaeth wrtho. Ezec. 21. 21.——Wrth 'dywallt yr afu,' y meddylir galar mawr. Galar. 2. 11. Edr. DEWINIAETH.

AFFAITH—U, (ffaith) y serch; hefyd yr un peth ag effaith; yn y gyfraith, cyfranogi o bechod arall.—'Affaith gwaed gwirion;' sef yr euogrwydd a'r effeithiau o dywallt gwaed gwirion. Deut. 21. 9.

AFFRIC, אברקה *Habarca, Hafarca, Hafreca,* neu, אברקה sef y *Barca,* neu *gwlad Barca.* Gwel

y Dr Hyde. Un o bedwar parth y byd. Y mae agos yn ynys, gwedi ei chydio âg Asia yn unig â llain o dir yn nghylch triugain o filltiroedd, a elwir *Isthmus of Suez,* neu Cyfyngdir Suez, rhwng y Môr Coch a Môr y Canoldir; tros ba un y gallasai yr Israeliaid fyned o'r Aipht i Ganaan, heb fyned trwy y Môr Coch; ond yr un peth ydoedd i'w Harweinydd galluog i fyned â hwynt trwy y môr ag ar hyd y tir sych; a dewisodd y ffordd a roddai iddo achlysuron i amlygu ei ogoniant ei hun. Y mae Affric yn 4300 o filltiroedd o hŷd o'r Penrhyn Bona, wrth Fôr y Canoldir, i'r Penrhyn Dehau, sef y *Cape of Good Hope*; sef o'r gogledd i'r dehau. Ei lled yn y man lletaf, yw 3500 o filltiroedd, o'r dwyrain i'r gorllewin. Y mae Môr y Canoldir i'r gogledd iddi, yn ei gwahanu oddiwrth Ewrop; i'r dwyrain iddi y mae Cyfyngdir Suez, y Môr Coch, a Môr India, yn ei gwahanu oddiwrth Asia; i'r gorllewin y mae y Môr Werydd, yn ei gwahanu oddiwrth Americ. Poblogwyd y wlad hon, gan mwyaf, gan hiliogaeth Ham. Edrych Ham, ac enwau ei feibion. Bernir i lawer o'r Canaaneaid ffoi yno pan oresgynodd Josuah eu gwlad. Nid ydyw mor boblog ag Ewrop ac Asia: mae llawer o honi yn boeth iawn, ac yn anoddefol i Ewropeaid. Nid oes eira yn gyffredin i'w weled yno, ond ar ben y mynyddoedd. Dysgwyliai y trigolion i weled y marmor yn toddi mor gynted a gweled y dwfr yn rhewi yn galed. Y mae llawer o honi yn ddiffaethwch ëang a thywod poethlyd, yr hyn sydd yn ychwanegu at boethder yr awyr yno. Yr afonydd mwyaf nodedig yn Affric yw y Nilus yn yr Aipht (Edr. Aipht, Nilus) a'r Niger, yr hon sydd yn myned i Fôr Werydd, gwedi rhedeg dros 2800 o filltiroedd. Y Gambia a'r Senegal ydynt gangenau o'r Niger. Y mynyddoedd mwyaf nodedig ydyw yr *Atlas*, yr hwn a rydd yr enw *Atlantic* i Fôr Werydd, o ba un y mae yn rhedeg i fynu hyd yr Aipht; mynyddoedd y lleuad rhwng Abyssinia a Monopotapa; a mynyddoedd Sierra Leone. Y mae sefyllfa Affric yn neillduol o gyfleus at farchnadaeth; gan ei bod yn sefyll megys yn nghanol y byd, a thrwy hyny yn nes at y parthau eraill nag ydynt hwy at eu gilydd. Mae iddi 10,000 o filltiroedd o arfordir, a llawer o afonydd mawrion dyfnion yn rhedeg i fynu i ganol y gwledydd ëang yno; ond er yr holl gyfleusderau hyn, nid oes yno forwriaeth yn cael ei dwyn yn mlaen, ag sydd o ddim lleshâd i'r trigolion: y maent yn ymddifad o longau, marchnadwyr, a marchnadaeth, hyd yn nod lle mae eiddo i fasnachu â hwynt. Mae mewn gradd mawr wedi ei hesgeuluso gan y brodorion a phelledigion. Bu ynddi, yn yr oesoedd gynt, deyrnasoedd mawrion; megys yr Aipht, Abyssinia, Carthage, &c. Y mae ei thrigolion i gyd, naill ai yn felynion neu yn dduon; ac o ran crefydd, y maent oll naill ai yn Baganiaid, Mahometaniaid, neu Gristionogion. Dygwyd yr efengyl yn foreu i rai parthau o'r wlad hon, a bu eglwysi blodeuog yn y cyn-oesoedd yn yr ardaloedd ar Fôr y Canoldir, yr Aipht, ac Abyssinia, &c., a bu llawer o ddynion enwog yno; megys Cyprian, Awstin, &c. Goddefodd llawer ferthyrdod yno dan ymerawdwyr Paganaidd Rhufain; ond gwedi dirywiad Cristionogaeth, ac iddynt golli grym duwioldeb, goresgynodd y Saraceniaid y wlad, a dygasant gau grefydd Mahomet ar adenydd eu byddinoedd gyda hwynt; ac mae ymerodraeth y Twrc, a llywodraethau eraill, yn cynnal y celwydd hwnw hyd heddyw. Math o Gristionogaeth lygredig yw crefydd Abyssinia; Mahometaniaeth, a'i holl dwyll a'i chyfeiliornadau, sydd yn teyrnasu yn ddinystriol yn yr Aipht; a thywyllwch dudew Paganiaeth sydd yn gorchuddio y parthau eraill o'r wlad resynus hon. Mae llawer o'r wlad ëang hon yn hollol anadnabyddus i ni hyd heddyw. Yr unig fasnachaeth mewn parthau ëang a phoblogaidd, yw y trigolion eu hunain, er ys rhai oesoedd. O ran Lloegr, diddymwyd y fasnach greulawn a thra gwaradwyddus hon, gwedi hir ymdrech, gan ddynion ffyddlawn yn erbyn ariangarwch a chreulondeb. Cyfoeth gwr sydd gynnwysedig yn rhifedi ei deulu, y rhai a werth efe fel anifeiliaid, yn aml am ond ychydig bris. Wedi diddymu masnach greulawn y caethweision, y mae ymdrechiadau llwyddiannus yn parhau i daenu gwybodaeth o'r efengyl mewn amryw barthau o honi, yn enwedig yn ngwlad yr Hotentotiaid, tu a'r Penrhyn Deheuol, lle y llafuriodd Dr Vanderkemp, ac y mae eraill yn parhau i lafurio yn llwyddiannus.

'Anfonaf y rhai diangol o honynt at y Cenedloedd, i Tarsis, Affrica, a Lydia,' &c. Esa. 66. 19. פול ולוד *Phul* a *Lud*. *Saes*. Esgob Lowth. Ni cheir y gair פול *Pul*, yn yr ysgrythyr ond yn y fan hon; ac nid addas, tybygaf, ei gyfieithu Affrica, fel y mae ein dau gyfieithiad ni. Barna Vitringa, ac eraill, mai Philas a feddylir, dinas ac ynys yn yr afon Nilus, yn uwch i fynu na Syene, neu ryw dalaeth neu ddinas yn y parthau pellaf yn yr Aipht, at drigolion pa le y mae cenadau yn cyhoeddi gogoniant yr Arglwydd i fyned; sef yr apostolion ac eraill, y rhai oeddynt yn llawn tân dwyfol yr Ysbryd Glân, yn awyddus i gario yr efengyl i barthau pellaf y byd.

AG, gyda, a arferir o flaen geiriau yn dechreu â llafaryddion, fel y mae â o flaen cydseiniaid.—'Ac a'u dug hwynt allan *âg* arian ac aur.' Ps. 105. 37.

AGABUS, *Gr.* Αγαβος [*ceiliog rhedyn*] Hagab. Lef. 11. 22. Yr un enw a Hagaba, yn Neh. 7. 48. Ezra 2. 45, 46. Dywedir am Agabus, mai un o'r deg a thriugain ydoedd, a anfonodd Crist allan. Tebygol ei fod yn fath o brophwyd teithiol, yn myned o le i le, gan fynegi ei brophwydoliaethau: rhagddywedodd am y newyn mawr a ddygwyddodd yn nyddiau Claudius Cæsar, A.D. 4. Act. 11. 28. Yn nghylch y flwyddyn A. D. 60, ymwelodd â Paul yn Cæsarea, ac a ragddywedodd y byddai iddo gael ei rwymo yn Jerusalem. Act. 21. 10. Y mae hanesion yn dywedyd iddo gael ei ferthyru yn Antiochia.

AGAG, אגג [*goruwch-ystafell*] brenin Amalec. Tebygol fod hwn yn enw cyffredin ar y breninoedd hyny. Ymddengys fod un cadarn o honynt o'r enw yn amser Moses (Num. 24. 7.) un arall yn amser Saul, yr hwn oedd elyn creulawn a gwaedlyd iawn i'r Israeliaid. Pan orchymynodd Duw i Saul ddyfetha holl genedl yr Amaleciaid, efe, yn ei ragrith, a arbedodd Agag a'r goreu o'r praidd; eithr Samuel y prophwyd a'i darniodd ger bron yr Arglwydd yn Gilgal. 1 Sam. 15. 8, 20, 32, 33. Gelwir Haman yn Agagiad, tebygol, oblegid ei fod o'r un gwaed creulawn â hwynt. Esther 3. 1. Edr. Saul, Samuel.

AGEN—AU, (ag) gagen, hollt, holltiad, ffiochen. Yr oedd y graig ar ba un y rhoddodd Duw Moses i sefyll, yn agen pa un y cuddiwyd ef tra yr oedd y gogoniant yn myned heibio, diammheuol, yn cysgodi Crist; yn yr hwn, yn unig, y gallwn ni bechaduriaid weled ac edrych ar ogoniant yr Arglwydd. Yn wyneb Iesu Grist y mae llewyrchiad dysglaer gogoniant Duw yn dyner ac yn oddefol i ni, waeledd euog. Exod. 33. 22. Ps. 18. 2. a 91. 1, 4, 12. Can. 2. 14. Esa. vi. Ezec. 1. 10. Rhuf. 11. 33. 1 Bren. 19. 11. Yn yr hollt a wnaed gan wïalen Moses, ac y llifodd y dyfroedd allan o hono, y cuddiwyd Moses ei hun, yr hyn sydd yn cysgodi Crist croeshoeliedig. Ps. 78. 15.

AGOR—I—IAD, (ag) rhwyddhau, dadguddio, dynoethi, dadgan, amlygu.—1. Gwneuthur rhyddid i fynediad a dyfodiad, agoryd drws i fyned i mewn ac allan. Nah. 3. 13. Act. 16. 26.——2. Tynu caead ymaith oddiar wyneb. Exod. 21. 33.——3. Dehongli, neu egluro peth. Luc 24. 32. Dat. 5. 3, 9.——Llygaid a chlustiau Duw yn agored, a arwydda ei sylw craff ar ymddygiad dynion, ei fawr ofal am les ei bobl, a'i barodrwydd i wrando eu gweddïau. Neh. 1. 6. Jer.

Digitized by Google

32. 19. 1 Petr 3. 12. Wrth 'ei ddwylaw a'i drysorau yn agored,' y dangosir helaethrwydd ei allu a'i ras, a'i barodrwydd i gyfranu i'w greaduriaid. Deut. 28. 12. Ps. 104. 28.——'Egyr ei wefusau yn erbyn dynion,' pan y byddo, trwy ei air a'i ragluniaeth, mewn modd eglur a nerthol, yn eu hargyhoeddi hwynt o'u heuogrwydd. Job 11. 5.——'Egyr galonau,' pan oleuo lygaid y deall, i amgyffred gwirioneddau dadguddiedig. Luc 24. 32. Act. 26. 18. a 16. 14.——'Egyr glustiau dynion,' pan mae yn eu dwyn yn ystyriol i wrando ei air a'i ragluniaethau. Job 36. 10.——Y mae yn 'agoryd gwefusau dynion,' pan y mae yn rhoddi ei gynnorthwyon i weddïo, ac achos i foliannu ei enw. Ps. 51. 15.——Y mae Duw yn 'agor i ddynion,' pan y mae yn gweled yn dda i roddi iddynt ei bresennoldeb a'i fendithion nefol. Mat. 7. 7. Crist sydd 'yn agoryd, ac nid yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid yw neb yn agoryd:' rhydd yr efengyl, cadwedigol ras, neu freintiau eraill, neu eu hattal, fel y gwelo fod yn dda. Dat. 3. 7.——Dynion yn 'agoryd eu calonau,' neu eu 'drysau,' i Grist, sydd yn dangos eu parodrwydd i'w dderbyn, trwy ffydd a chariad. Can. 5. 2, 6. Ps. 24. 7—10. Dat. 3. 20.

'Agoraist fy nghlustiau.' Ps. 40. 6. *Heb.* אזנים כרית *clustiau a gloddiaist i mi.* Y mae esbonwyr, yn gyffredin, yn barnu, fod y geiriau yn cyfeirio at y gyfraith yn nghylch y gwas, yr hwn, o hoffder at ei feistr, a ewyllysiai barhau i aros gyd âg ef; 'Cymer fynawyd, a dod trwy ei glust ef, ac yn y ddôr, a bydded yn was i ti byth.' Deut. 15. 17. Exod. 21. 6. Prophwydo y mae y Psalmydd am Grist, fel offeiriad, ac felly mae yr apostol yn cymhwyso y geiriau ato. Heb. 10. 5. Nid oedd ond un glust i'r gwas yn cael ei thyllu; ond y mae yma *glustiau* yn cael eu cloddio. Nid yr un gair, chwaith, sydd yn cael ei arfer yn y ddau fan. Nid ydyw yn ymddangos mor eglur, gan hyny, fod yn y geiriau gyfeiriad at y ddefod hôno. Y mae y geiriau, 'Yr Arglwydd Dduw a agorodd fy nghlust,' (Esa. 50. 5. a 48. 8.) yn ymddangos yn nes at eiriau y Psalmydd. Tebygol fod y gair 'cloddio y clustiau,' yn arwyddo yr un peth a 'phlanu y glust,' (Ps. 94. 9.) a phob un o'r ddau yn cyfeirio at y ffurfiad cyntaf o'r glust. Fel hyn mae y geiriau yn cytuno â chyfieithiad y LXX., yr hwn a gymerodd yr apostol. Y mae y glust, trwy gyforddwyn (sef rhan yn lle y cwbl) yn arwyddo y corph i gyd. Felly, 'clustiau a gloddiaist i mi,' sydd yn arwyddo yr un peth a 'chorph a gymhwysaist i mi.'* Ond yr achos, tebygol, yr enwir y clustiau yn fwy nag un rhan arall o'r corph ydyw, am fod y clustiau yn arwyddo ei wrandawiad, a'i ufudd-dod, yn ganlynol i hyny, i ewyllys ei Dad, yn iechydwriaeth ei bobl. Dynoliaeth, canys hyny y mae y corph yn gyforddwynaidd yn ei arwyddo, gwedi ei chymhwyso i Berson Crist, a ufuddhaodd ac a ddyoddefodd, i weithredu cyflawnder cyflawn i bechaduriaid. Yn y corph a gymhwyswyd iddo, 'y gwnaeth ewyllys Duw.' Ni allasai wneuthur ewyllys Duw yn gyflawn heb gorph, sef dynoliaeth, i ufuddhau, dyoddef, a marw. Hyn oedd ewyllys y Drindod, fel y gallai ddileu pechod, ac achub pechaduriaid.

AGORIAD—AU, (agawr) allwydd, allwedd.—1. Y mae yn arwyddo offeryn i gloi a dadgloi cloiau, barrau, &c. Barn. 3. 25.——2. Gallu ac awdurdod, trwy ba un y cauir dynion i fynu, neu y rhyddheir hwynt. Dat. 1. 18. a 20. 1.——Rhoddi 'agoriad tŷ Dafydd' i Eliacim, a arwydda rhoddi iddo ef bob awdurdod i oruchwyliaethu a threfnu achosion yn nheyrnas Judah, fel swyddog gwladol i Hezeciah, yr hwn oedd o hiliogaeth Dafydd. Esa. 22. 22.——'Agoriad ar ysgwydd.' Yr oedd yr agoriadau dwyreiniol o gryn faintioli, ac yn fwäog; o herwydd hyny, y byddent arferol o'u dwyn hwynt ar yr ysgwydd. Y rhai mwyaf cyffredin oeddynt o bren. Nid oes gan yr Aiphtiaid, hyd heddyw, ond cloiau ac agoriadau prenau. Nid oes hyd yn nod ar byrth Cairo, ddim amgenach. Esgob Lowth. Gan Grist y mae 'agoriad Dafydd,' yr hwn sydd â phob awdurdod ganddo i gau ac agor fel y gwelo yn dda. Dat. 3. 7. Mat. 28. 18. Ioan 13. 3. Y mae ganddo 'agoriad y pydew diwaelod, uffern a marwolaeth;' sef awdurdod i ganiatau, neu rwystro Satan a'i offerynau, fel y gwelo yn oreu, ac i gadw rhag, neu i gondemnio i farwolaeth ac uffern. Dat. 20. 1. a 1. 18.——Doniau, cymhwysderau, ac awdurdod i eglurhau yr ysgrythyrau i ddynion, a elwir 'agoriadau gwybodaeth.' Luc 11. 52.——'Agoriadau teyrnas nefoedd,' ydynt allu ac awdurdod i bregethu yr efengyl, ac i weinyddu y sacramentau, Bedydd a Swper yr Arglwydd; ac i gadw llywodraeth a dysgyblaeth yn yr eglwys, fel y byddo i ddynion gael eu derbyn, neu eu bwrw allan, wrth reol y gair. Mat. 16. 19.

AGOS—HAU, (caws) 1. Gyferbyn, neu gerllaw. Gen. 19. 20. Luc 19. 41. Ioan 19. 20.——2. Mewn perthynas, cyfathrach, &c. Ruth 2. 20.——Duw 'sydd agos at ei bobl yn mhob peth y galwont arno;' sef yn bresennol, ac yn barod i faddeu a chynnorthwyo. Ps. 34. 18. a 75. 1. a 119. 151. Esa. 55. 6. Jer. 23. 23. Deut. 4. 7.——'Agos yw yr Arglwydd yn eu genau, a phell oddiwrth eu harenau,' pan lefarir llawer gan ddynion am Dduw, heb gariad na derbyniad i'w efengyl, nac ufudd-dod i'w orchymynion. Jer. 12. 2.——'Nesâu at Dduw,' yw ei addoli, trwy ffydd, a chael cymundeb âg ef, yn yr Ysbryd Glân, trwy haeddiant ei fab, Iesu Grist. Lef. 10. 3. 1 Sam. 14. 36. Seph. 3. 2.——Blinder, neu gyfyngder, sydd agos, pan y byddo yn gweithredu ac yn trywanu hyd yr enaid; neu ar wneuthur felly. Ps. 22. 11.

AGRIPPA, *Llad.* ÆGER PARTUS [*caled oedd esgor arno*] mab Herod Agrippa, y rhoddir hanes am dano yn Actau xii. Pan y bu farw ei ewythr, Herod brenin Chalcis, Agrippa a deyrnasodd yn ei le, trwy osodiad yr ymerawdwr Claudius, o. c. 49. Yn mhen pedair blynedd, yn lle Chalcis, rhoddwyd iddo daleithiau Gaulonitis, Trachonitis, Batanea, Paneas, ac Abilene. At y rhai hyn, chwanegodd Nero, Julius yn Perea, a rhan hefyd o Galilea, tu a'r gorllewin i Fôr Tiberias. Pan oedd Ffestus yn rhaglaw ar Judea, yn o. c. 60, daeth Agrippa a'i chwaer Bernice, gyda pha un yr ydoedd Agrippa yn byw mewn llosgach digywilydd, i Cesarea, i gyfarch iddo. Gwedi iddynt aros yno lawer o ddyddiau, Ffestus a fynegodd i'r brenin Agrippa hanes Paul, yr hwn oedd yno yn garcharor, trwy achwyniadau yr Iuddewon yn ei erbyn ef. Ar hyn, Agrippa a chwennychodd glywed Paul; yr hyn a gafodd dranoeth. Actau xxv. Paul, ar yr achlysur, a ddangosodd pa fath oedd ei fuchedd o'i febyd; ei droedigaeth ryfedd a gwyrthiol; a'i etholiad a'i osodiad i fod yn apostol i'r Cenedloedd. Wrth ei wrando yn areithio am y pethau hyn, 'Ffestus a ddywedodd â llef uchel, Paul, yr wyt ti yn ynfydu!' Yntau a'i hatebodd yn llariaidd, a chyda gweddeidd-dra parchus, Nad oedd; ac a gyfarchodd Agrippa mewn perthynas i'w wybodaeth o'r pethau yr oedd efe yn llefaru am danynt. Y brenin a atebodd, 'Yr wyt ti o fewn ychydig i'm hennill i fod yn Gristion.' Ar hyn, Paul, gyda medrusrwydd a zel ardderchog, a fynegodd ei ddymuniad, o'i fod ef, a phawb ag oedd yn ei wrando, o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, y cyfryw ag oedd efe, ond y rhwymau hyny oedd am dano. Ond tebygol, na ddaeth Agrippa ddim pellach na bod 'o fewn ychydig.' Yr oedd parch, mawredd bydol, yn nghyd â'i chwantau cnawdol a ffiaidd, yn attalfa iddo rhag bod 'yn gwbl oll.' Yr oedd yn gweled, yn amgylchiadau Paul ei hun, beth a fyddai y canlyniadau o hyny. Nid oedd i ddysgwyl, trwy fod yn 'gwbl oll yn Gristion,' ond

* Rivetus *in loc.* Dr Owen ar Heb. 10. 5. Merrick's *Annotations on the Psalms.*

Digitized by Google

gwaradwyddiadau, erlidigaethau, a dyoddefiadau; ond nid oedd ysbryd balch Agrippa, mewn agwedd, yn bresennol, i synio y cyfryw bethau. Felly, fel llawer ar ei ol, o fewn ychydig i fod yn gadwedig, y bu golledig! Wedi dinystr Jerusalem, y mae yr hanes am dano, iddo ef a'i chwaer Bernice, fyned i Rufain, lle y bu farw, o. c. 90, ac yn 70 mlwydd oed.

AGUR, אגור [*alltud*, neu *y cynnullwr*] mab Jaceh. Tybia rhai mai Solomon oedd efe; ond nid oes un rheswm paham y newidiai Solomon ei enw; na chwaith pa fodd y gallai efe weddïo yn erbyn cyfoeth; ac nid ydyw ei ddull o ysgrifenu yn debyg i Agur, yr hwn, trwy yr Ysbryd Glân, a lefarodd y ddegfed bennod ar hugain o'r Diarebion, wrth ei ddau gyfaill, Ithiel ac Ucal. Y mae efe yma yn dangos ysbryd rhagorol, yn cyffesu ei anwybodaeth dirfawr o fawredd anchwiliadwy Duw, a'i ryfeddol weithredoedd; ei barch i air Duw, a'i ddymuniad am ran gymedrol o bethau y byd hwn. Diar. xxx.

AGWEDD—AU, (ag-gwedd) llun, dull, ystum, delw. Job 4. 16. 1 Bren. 6. 25. a 7. 37. 2 Bren. 16. 10. Ezec. 1. 5.—'Agwedd gwas.' Phil. 2. 7. Yr oedd Crist yn ffurf (μορφη) Duw; sef yn wir Dduw; am hyny 'ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw,' sef â'r Tad; ond 'cymeryd arno,' a wnaeth 'agwedd (μορφη) gwas.' Nid gwas oedd, ac nid agwedd gwas oedd arno; ond ffurf Duw, yn ogyfuwch â Duw. Ond daeth yn was, ac a gymerodd arno agwedd berthynol i'r cyfryw swydd a sefyllfa isel a gwael; o wir gariad at bechaduriaid, ac i'r dyben i'w hachub. Y gair *Gr.* δουλος, a arwydda *caethwas, gwas yn y radd isaf, ac yn rhwym i'w wasanaeth.* Felly, gwnaed Crist o wraig, dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf. Hyd nes y talodd y pridwerth drostynt, yr oedd yn gaeth, ac agwedd caethwas arno. Gan mai efe ei hun oedd y pridwerth, yr oedd yn ofynol iddo gymeryd arno yr agwedd berthynol iddynt hwy. Ni thalasai iddo fyned trwy y byd, ac i'r groes, fel gwr o urddas a boneddigeiddrwydd; gan mai prynu yr oedd y rhai oedd dan y ddeddf, yr oedd yn rhaid iddo wneuthur hyny yn yr agwedd berthynol i'r cyfryw orchwyl. Yr oedd gwaradwydd a dirmyg yn ddyledus i ni, fel pechaduriaid; i'n prynu oddi wrthynt, aeth ef danynt. Yr oedd yn parhau yn 'ffurf Duw,' er cymeryd arno 'agwedd gwas.' Pwy a ddichon ddywedyd pa faint sydd yn gynnwysedig yn y geiriau hyn, 'EFE A'I DAROSTYNGODD EI HUN!' Phil. 2. 8, &c.

AGWRDD, (gwrdd) cadarn, cryf, nerthol, caled. —'Mal gwth gwynt agwrdd.' W. S.

AH, AHA, arwydd o alar mawr, a molest trwm. Barn. 11. 35. O! Jer. 22. 18. 2 Bren. 6. 15. Esa. 1. 24. Arwydda, hefyd, diystyrwch, gwawd, a dirmyg. Ps. 35. 21.

AHAB, אחאב [*brawd y tad*] 1. Mab Omri, yr hwn a deyrnasodd yn lle ei dad. Dechreuodd deyrnasu ar Israel, A. M. 3086, ac a deyrnasodd 22 o flynyddoedd. Rhagorodd ar holl freninoedd Israel mewn annuwioldeb: yn ei amser ef y bu tair blynedd a chwe mis heb ddim gwlaw ar y ddaear. Iago 5. 17. Bu newyn mawr yn y tir o achos y sychder. Rhoddes hyny yn gwyn yn erbyn y prophwyd Elias, ac a chwiliodd yn ddyfal am dano, i geisio ei ladd. Cafwyd Elias i ateb drosto ei hun ger bron Ahab: dywedodd yn hyf wrtho, mai efe a'i deulu oeddynt yr achos o'r farn drom hon, trwy ymadael oddiwrth y Duw byw, a myned ar ol Baalim. Dymunodd ar Ahab gasglu holl Israel, a holl brophwydi Baal, i fynydd Carmel. Casglwyd y bobl: galwasant lawer ar Baal, ond yn ofer: Elias yn eu gŵydd oll, a ddangosodd mai IEHOFAH oedd y gwir Dduw, ac nid Baal, trwy ddisgyniad tân o'r nefoedd i ysu ei aberth. Lladdwyd pedwar cant a deg a deugain o brophwydi Baal. Yn fuan wedi hyn, cafwyd gwlaw, trwy weddi Elias. 1 Bren. 16. 29—34. a xvii, xviii. Treisiodd Naboth o'i winllan; cafodd farn i'w chanlyn. Wedi cael ei dwyllo gan y gau-brophwydi, lladdwyd ef wrth ymladd â'r Syriaid yn Ramoth-Gilead, a'r cŵn a lyfasant ei waed ef. 1 Bren. xx, xxi, xxii. Edr. JEZEBEL, ELIAS.——2. Un arall o'r enw, un o'r gau-brophwydi oedd yn twyllo yr Iuddewon yn nghaethiwed Babilon. Jer. 29. 21, &c.

AHAFA, אהוא [*cenedlaeth*] enw dinas, tebygol, yn ngwlad Babilon, yn gyfagos i ba un yr ydoedd afon o'r un enw, yn rhedeg i'r Euphrates. Yno y bu Ezra a'r gaethglud yn cadw ympryd, cyn eu cychwyniad i'w gwlad eu hunain. Ezra 8. 15, 21.

AHASFERUS, neu ASTYAGES, אחשורוש [*penaeth*] 1. Tad Darius, brenin y Caldeaid. Nid oes ond ychydig o sôn am dano. Dan. 9. 1.——3. Ahasferus, neu Cambyses, mab Cyrus, brenin Persia. Daeth i'r orsedd ar ol ei dad, A. M. 3475, ac a deyrnasodd saith mlynedd a phum mis. Rhwystrwyd adeiladu yr ail deml yn Jerusalem yn ei ddyddiau ef. Ezra 4. 7—24. ——3. Ahasferus gwr Esther. Esther 2. 16, 17. Nid yw haneswyr yn hollol gytuno pwy oedd efe. Y mae Scalinger, Gill, ac eraill, yn meddwl mai Xerxes ydoedd; ond y mae Prideaux, yn nghyd âg eraill, yn meddwl mai Artaxerxes mab Xerxes ydoedd, yr hwn a wnaeth lawer er yr Iuddewon, yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad. Ezra vii. Neh. i, ii. Edr. ESTHER, MORDECAI, NEHEMIAH.

AHAZ, אחז [*meddiannwr*] 1. Mab Jotham, brenin Judah, yr hwn a deyrnasodd yn ei le ef. Efe oedd yr unfed ar ddeg o freninoedd Judah. Trodd at ffiaidd eilun-addoliaeth: aberthodd un o'i feibion i'r eilundduw Moloch, ac a barodd aberthu ac offrymu i eilunod yn yr uchelfeydd, ac ar y bryniau, a than bob pren gwyrddlas. Teyrnasodd, yn ddrygionus iawn, am un mlynedd ar bymtheg, bu farw, a chladdwyd ef yn Jerusalem; ond ni ddygasant ef i feddrod breninoedd Israel, o herwydd ei ddrygioni. 2 Bren. xv. Esa. vii. 2 Cron. xxviii.——2. Tad Jehoadah. 1 Cron. 8. 36.

AHAZIAH, אחזיה [*gweledigaeth yr Arglwydd*, neu *a gynnelir gan yr Arglwydd*] 1. Mab Ahab, yr hwn a deyrnasodd yn ei le ar Israel; ni theyrnasodd ond yn nghylch blwyddyn ar ol marwolaeth ei dad. Yr oedd mor hynodol a'i dad mewn annuwioldeb. 1 Bren. 22. 51, 52.——2. Brenin Judah, a mab Jehoram, ac Athaliah merch Ahab, brenin Israel. Daeth i'r orsedd yn lle ei dad yn y flwyddyn A. M. 3119, C. C. 881. Teyrnasodd un flwyddyn yn ddrygionus, gan rodio yn ffordd tŷ Ahab, i'r hwn yr oedd efe yn berthynas. Cafodd ddyrnod marwol trwy orchymyn Jehu, ac a fu farw yn Megido, tref yn llwyth Issachar. 2 Bren. 8. 24—28. a 10. 12. a 11. 1. 2 Cron. xxii. Dywedir yn 2 Bren. 8. 26. mai '*mab dwy flwydd ar hugain* oedd Ahaziah pan aeth efe yn frenin;' ond yn 2 Cron. 22. 2. mai '*mab dwy flwydd a deugain*' oedd. Yn ol y cyfrif diweddaf rhaid ei fod yn ddwy flwydd yn hŷn na'i dad, yr hwn a fu farw yn ddeugain oed, 2 Cron. 21. 20. yr hyn ni ddichon fod yn wir. Nis gellir, mewn un modd, gysoni y ddau le: am hyny, rhaid barnu fod gwall yn yr ysgrifen yn y lle diweddaf, trwy ddiofalwch rhyw ysgrifenydd.

AHIAH, אחיה [*brawd yr Arglwydd*] un o brophwydi yr Arglwydd, yr hwn oedd yn trigo yn Siloh. Tebygol mai efe oedd yn annog Solomon pan yr oedd yn adeiladu y deml; yr hwn hefyd a'i bygythiodd ef ar ol ei gwymp gwarthus. 1 Bren. 6. 11. a 11. 9. 2 Cron. 9. 29. Edr. SOLOMON.——2. Mab Ahitub, yr arch-offeiriad, yr hwn a ddaeth i'r swydd yn ei le. 1 Sam. 14. 3.——3. Mab Naaman, o lwyth Benjamin. 1 Cron. 8. 7.——4. Tad Baasa, brenin Israel. 1 Bren. 15. 27. Yr oedd eraill o'r enw. 1 Cron. 26. 20. a 2. 25.

Digitized by Google

AHICAM, אחיקם [*brawd yn cyfodi*] mab Saphan, a thad Gedaliah. Un o dywysogion Judah, a anfonwyd gan Josiah i ymgynghori â Huldah yn nghylch barnedigaethau Duw yn erbyn y wlad o herwydd ei drygioni. 2 Bren. 22. 12. Bu yn amddiffynwr cadarn i fywyd y prophwyd Jeremiah. Jer. 26. 24.

AHIEZER, אחיעזר [*brawd y cymhorth*] 1. Mab Ammisadai, tywysog o lwyth Dan. Num. 1. 12.——2. Y penaf o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 12. 3.

AHILUD, אחילוד [*brawd a anwyd*] tad Jehosaphat, cofiadur Dafydd. 2 Sam. 8. 16.

AHIMAAS, אחימעץ [*brawd y cynghor*] 1. Tad Ahinoam, gwraig Saul. 1 Sam. 14. 50.——2. Mab Sadoc yr arch-offeiriad; bu hwn, yn nghyd â Jonathan mab Abiathar, yn dra gwasanaethgar i Dafydd yn amser gwrthryfel Absalom. 2 Sam. 15. 27, 29. a 17. 17. Efe ydoedd y cyntaf a fynegodd i Dafydd am hollol orchfygiad ei wrthwynebwyr. 2 Sam. 18. 28. Ymddygodd yn ddoeth ger bron y brenin, heb fynegi iddo am farwolaeth ei fab Absalom. Aeth i'r swydd offeiriadol ar ol ei dad; ac Azariah ei fab ar ei ol yntau. 1 Cron. 6. 8, 9.

AHIMAN, אחימן [*brawd darparedig*] 1. Un o gawri meibion Anac, ydoedd yn byw yn Hebron yn amser yr yspiwyr a anfonwyd gan Moses, (Num. 13. 22, 23.) o'r lle yr ymlidiwyd ef a'i frodyr, Sesai a Thalmai, gan Caleb. Jos. 15. 14.——2. Un o borthorion y deml. 1 Cron. 9. 17.

AHIMELEC, אחימלך [*fy mrawd sy frenin*] arch-offeiriad, at yr hwn y daeth Dafydd, lle y bwytaodd y bara gosod, ac y cafodd efe gleddyf Goliath, yr hwn a laddasai efe. Achwynwyd arno i Saul am gynnorthwyo Dafydd; gorchymynodd Saul ei ladd ef, a phump a phedwar ugain o offeiriaid eraill gyd âg ef; nid estynai gweision y brenin eu llaw yn erbyn offeiriaid yr Arglwydd; eithr Doeg yr Edomiad a ruthrodd arnynt, ac a'u lladdodd hwynt oll. 1 Sam. xxi, xxii. Edr. ABIMELEC. Nid ydyw yr hanes yn dywedyd i Ahimelech gael ei ladd gan Doeg: mae y Dr Macknight o'r farn na laddwyd mo hono, ond mai yr un ydyw ag ydoedd yn arch-offeiriad dan deyrnasiad Dafydd. 1 Cron. 18. 16. Edr. ABIATHAR.

AHINADAB, אחינדב [*brawd ewyllysgar*] mab Ido, llywodraethwr talaeth Mahanaim, y tu hwnt i'r Iorddonen, yn nheyrnasiad y brenin Solomon. 1 Bren. 4. 14.

AHINOAM, אחינעם [*tegwch y brawd*] 1. Merch Ahimaas, a gwraig Saul. 1 Sam. 11. 23.——2. Gwraig Dafydd, un o Jezreel, a mam Amnon. 1 Sam. 30. 5. 2 Sam. 3. 2.

AHIO, אחיו [*ei frawd*] mab Abinadab. Efe a'i frawd Uzza oedd yn gyru y fên newydd, ar yr hon yr oedd yr arch pan oedd Dafydd yn ei symud o dŷ Abinadab i'r lle a ddarparasai efe iddi. 2 Sam. vi.

AHITOPHEL, אחיתפל [*brawd y dinystr*] priodor o Gilo. Cynghorwr rhagorol yn amser Dafydd. Gwyrodd at blaid Absalom: pan welodd nad oedd ei gynghor yn cael derbyniad, ond ei ddiddymu trwy gynghor Husai, cyfrwyodd ei asyn, ac aeth i'w dŷ yn Gilo, a threfnodd ei dŷ, ac a ymgrogodd. Felly y cafodd Dafydd wrando ei weddi am droi cynghor Ahitophel yn ffolineb. 2 Sam. xv, xvi, xvii. Edr. ABSALOM, DAFYDD, JUDAS.

AHITUB, אחיטוב [*brawd o ddaioni*] mab Phineas, ac ŵyr Eli. Lladdwyd ei dad yn y frwydr waedlyd hòno, pan ddarfu i'r Philistiaid gymeryd arch Duw; daeth yn arch-offeiriad yn lle ei daid Eli. 1 Sam. iv.——2. Yr oedd dau eraill o'r enw. 1 Cron. 6. 7, 8, 11. 2 Sam. 8. 17.

AHIHUD, אחיהוד [*brawd clodfawr*] mab Salomi, tywysog o lwyth Aser, yr hwn a osodwyd gan Moses yn un o'r swyddogion i ranu tir Canaan yn etifeddiaethau. Num. 34. 27.

AHOLAH, ac AHOLIBAH, אהלה [*pabell*] אהליבה [*fy mhabell ynddi*] enwau dychymygol ydynt, trwy ba rai mae y prophwyd Ezeciel yn gosod allan deyrnasoedd Judah ac Israel: y cyntaf a arwydda Samaria, a'r deg llwyth; yr ail a arwydda Jerusalem, a'i thrigolion. Y mae y ddwy yn cael eu gosod allan dan yr un bai, sef puteinio yn yr Aipht ac Assyria, trwy ddynwared eu delw-addoliaeth, a phwyso arnynt hwy am gynnorthwy. Mae yr Arglwydd yn bwgwth gwneyd y bobl hyn yn orthrymwyr iddynt, i'w dwyn i gaethiwed creulawn. Ezec. 23. 4.

AHOLIAB, אהליאב [*pabell y tad*] mab Achisamach, yr hwn a osodwyd gyda Bezaleel i adeiladu y babell. Exod. 35. 34. Edr. BEZALEEL, PABELL.

AHUZZATH, אחזת [*gweledigaeth*] cyfaill yr ail Abimelech, yr hwn, yn nghyd â Phicol, tywysog ei lu, oedd yn ei ganlyn pan wnaeth efe gyfammod âg Isaac. Gen. 26. 26. Argraffwyd yr enw hwn yn y Biblau Cymreig yn gyfeiliornus, *Ahuzza*.

AI, AIATH, עי עית [*carnedd*, neu *bentwr*] dinas ydoedd yn sefyll yn nghylch naw milltir oddiwrth Jerusalem. Bu Abraham yn adeiladu allor yma. Gen. 12. 8. a 13. 3. Yma y gorfu ar Israel ffoi o achos trosedd Achan: cymerwyd hi wedi hyny trwy ystryw; llosgwyd hi â thân, a chrogwyd ei brenin. Jos. vii, viii. Adeiladwyd hi drachefn gan y Benjaminiaid; ac yn mhen hir amser cymerwyd hi gan Senacherib. Esa. 10. 28. Adeiladwyd hi drachefn ar ol y dychweliad o Babilon. Neh. 11. 31.——3. Dinas arall yn ngwlad Moab, a gymerwyd ac a anrheithiwyd gan y Caldeaid. Jer. 49. 3.

AIAH, איה [*pa le y mae?*] 1. Tad Rispah, gordderch-wraig Saul. 2 Sam. 21. 8.——2. Mab Sibeon, o hiliogaeth Esau. Gen. 36. 24.

AJALON, אילון [*planfa derw*] 1. Dinas yn llwyth Dan, yn perthyn i'r Lefiaid o deulu Cohath; eithr yr oedd yr Amoriaid yn parhau i ddal gafael a meddiant ynddi. Jos. 19. 42. Barn. 1. 35. 2 Cron. 28. 18.——2. Dinas arall yn llwyth Benjamin, yn agos i Bethel; diogelwyd hi gan Rehoboam. 2 Cron. 11. 10.——3. Dinas yn llwyth Ephraim, dwy filltir o Sichem. Cymharer Jos. 21. 24. â 1 Cron. 6. 69.——4. Un arall yn llwyth Zabulon, lle y claddwyd Elon, barnwr Israel. Barn. 12. 12. Nid yw hysbys oddiwrth ba un o honynt hwy y cafodd y dyffryn yr enw 'dyffryn Ajalon,' o herwydd ei fod yn sefyll yn eu canol. Jos. 10. 12.

AIELETH HASAHAR, אילת השחר [*ewig foreu*] titl Ps. xxii. Naill ai enw yr offeryn, neu y dôn ar ba un y cenid y Psalm hon. Neu, yn hytrach, gan fod y Psalm yn brophwydoliaeth, wrth 'hydd,' neu 'ewig y boreu,' gellir meddwl Crist; yr hwn oedd yn cael ei hela fel hydd gan y cŵn, sef Iuddewon a Chenedloedd, adn. 16. a heliwyd ac a ymlidiwyd yn y boreu. Ioan 18. 28. Hefyd, a adgyfododd o feirw yn foreu y trydydd dydd (Ioan 20. 1.) pan wnaeth Duw ei draed ef fel traed ewigod. 2 Sam. 22. 34. Ps. 18. 33. a 49. 15. Can. 1. 9, 17. a 8. 14.

AILL, (all) arall; mab aill, sef mab mabwysiedig, neu mab o ordderch, bastardd. 'Eithr os heb gospedigaeth yddych, gan hynny meibion aill ydych, ac nid meibion o briod.' Heb. 12. 8. W. S.

AIN, עין [*llygad, ffynon*] dinas a roddwyd i lwyth Judah. Jos. 15. 32. 1 Cron. 4. 32.

AINON, *Gr.* Αινων; lle dyfrog yn agos i Salim,

Digitized by Google

yn yr hwn yr ydoedd Ioan yn bedyddio. Ioan 3. 23. Ni sonir am un o'r ddau le yn yr ysgrythyrau ond yn y fan hon.

AIPHT, *Llad.* ÆGYPTUS; *Gr.* Αια, Αιγυπτος, neu I'*αια* Κοπτου, sef *Tir y Cuphtiaid*. Cyn-enw yr Aipht Isaf oedd אי כפתור *Ai Caphtor*, (Jer. 47. 4.) *y wlad orchuddiedig*; oblegid, yn ol hanes Herodotus yr oedd y *Delta* yn forfa gwedi ei gorchuddio â dwfr; ac felly yr oedd yr holl Aipht Isaf, cyn belled a mynydd Massius, a'r llyn Sabon. Oddiwrth hyn y daeth *Ai-Capht*, neu *Ai-Copht*; a thrwy draws-gyfnewidiad, *Aigupt*, *Egypt*, *yr Aipht*. Yn Sanscrit, gelwir hi *Gupta-Shan*, hyny ydyw, *y tir gorchuddiedig*; a *Cardama-Sthan*, hyny ydyw *y tir lleidiog*. Gwel Wilford *on Egypt and the Nile*. *Asiatic Researches*, *vol.* iii. *p.* 335. Gelwid hi gan y cyn-frodorion, Chemia, oddiwrth Cham mab Noah. Barna rhai ei galw Aipht oddiwrth y gair *Gr.* Αιγυπτος, *du*, oddiwrth liw tywyll y ddaear, yr afon, a'r trigolion. Gwel *Ancient Universal History*, *vol.* i., *p.* 391. Geilw Homer yr afon Nilus wrth yr enw Aipht (*Odys.* xiv., *l.* 257.) ac y mae Hesychius yn barnu mai oddiwrth enw yr afon y cafodd y wlad yr enw. Gelwir hi yn *Heb.* מצרים *Mitsraim*, oddiwrth Mitsraim mab Ham. Rhoddwyd iddi ei henw presennol gan y Groegiaid; ac y mae yn arwyddo *gwlad y Cuphtiaid*, yr enw a roddai y prif drigolion arnynt eu hunain. Y mae yn sefyll yn y rhan ogledd-ddwyreiniol o Affric, ac o du y dehau-orllewin i wlad Canaan. Y mae y Môr Coch yn ei gwahanu oddiwrth Asia, oddigerth triugain milltir o dir rhwng y Môr Coch a Môr y Canoldir, a elwir Lleindir Suez (*Isthmus of Suez*).

Y mae gwlad yr Aipht yn chwe chant a thair o filltiroedd o hŷd, ac yn dri chant o led. Nid oes nemawr o wlaw un amser yn y wlad hon; ond y mae yr afon Nilus yn rhedeg trwy ei chanol, ac yn llifeirio drosti, trwy doddiad yr eira ar y mynyddoedd, ac yn ei dyfrhau yn flynyddol. Y llaid y mae dyfroedd yr afon yn ei adael ar eu hol, ydyw gwrtaith y tir. Yr oedd yn y cynfyd yn wlad fras, tra ffrwythlawn; ond fel mae yr afon yn treulio ei ffos yn ddyfnach, a'r llaid y mae yr afon yn ei gario yn cyfodi ei glenydd yn uwch, y mae y pethau hyn yn attal llifeiriant ei dyfroedd i gyrhaedd mor belled ag yr oeddynt yn y cyn-oesoedd: y mae y llaid hefyd gwedi gwaethygu o ran ei rinwedd gwrteithiol. Y trigolion caethion presennol ydynt yn dra digalon yn ei llafurio a'i gwrteithio, gan nad oes iddynt fawr obaith, trwy hyny, i wneuthur llesâd iddynt eu hunain, a gwella eu hamgylchiadau. O herwydd yr holl bethau hyn yn nghyd, nid ydyw hi ond gwlad ddiffrwyth yn y dyddiau hyn, ac arwyddion amlwg i'w gweled o anfoddlonrwydd a barn Duw arni, a'i thrigolion truenus. Edr. NILUS.

Yr ydoedd yr Aipht, unwaith, yn wlad boblog iawn; ac yn cynnwys, medd haneswyr, yn nghylch ugain mil o ddinasoedd: enwau rhai o honynt ydoedd Syene, No, Memphis, Zoan, Sin, On, Phibeseth, Pithon, Rameses, Migdol, Taphanes, Pathros, Alexandria, &c. Yr ydoedd gwedi ei rhanu yn dair o daleithiau; sef yr Aipht Uchaf, yr Aipht Ganol, a'r Aipht Isaf. Yr ydoedd wedi ei rhanu hefyd yn un ar bymtheg ar hugain o Siroedd; y rhai a enwent yn ol enw y brif ddinas yn mhob un. Yr oedd breninoedd yr Aipht yn flodeuog mor foreu ag amser Joseph, os nid cyn hyny, yn nyddiau Abraham. Yr ydoedd dysgeidiaeth a doethineb yr Aiphtiaid, yn y dyddiau boreuol hyn, mor hynod a chadernid a mawredd eu llywodraeth. 1 Bren. 4. 30. Actau 7. 22. Buasai yn hyfryd ychwanegu, bod ei duwioldeb yn cyd-raddu â'i doethineb a'i dysgeidiaeth. Ond tra yr ydoedd yn athrofa y byd yn y prif oesoedd, yr ydoedd hefyd yn fam a mammaeth eilun-addoliaeth a choel-grefydd. Yr oedd yr Aiphtiaid yn addoli pob math o greaduriaid: sef llu y nefoedd, defaid, teirw, geifr, cathod, chwilenod, pompiwn, winwyn, &c. Yr oedd yr Aipht yn hynod hefyd am ei hadeiladau. Y mae Peiramidiau yr Aipht yn adeiladau rhyfedd iawn i edrych arnynt hyd heddyw. Math o adeiladau bonbraff brigfain ydynt, neillduol o hynod o ran eu maintioli helaeth. Yr oedd y mwyaf o honynt, medd haneswyr, yn 499 troedfedd o uchder, yn sefyll ar un erw ar ddeg o dir, yn ol mesur Brytanaidd. I ba ddefnydd yr oedd yr adeiladau rhyfedd hyn, nid yw hynafiaethwyr yn cytuno: y farn fwyaf cyffredin yw, mai beddadeilau oeddynt i'w breninoedd. Fel y maent yn arwyddion amlwg o gyfoeth, mawredd, a gogoniant yr Aipht yn y cyn-oesoedd, felly y maent hefyd o wagogoniant a hunan-ymchwydd ei breninoedd.

Mitsraim, neu Menes, mab Ham, yn ngyd â'i hiliogaeth, y Pathrusim, y Chasluhim, a'r Chaphtorim, a boblogasant yr Aipht ar ol y diluw. Gen. 10. 13, 14. Y mae yr enw Caphtor yn cael ei gadw mewn coffadwriaeth, yn enw hen ddinas o'r Aipht, a elwir Coptus: ac oddiwrth hòno y mae Cristionogion yr Aipht yn cael eu galw hyd heddyw, *y Cophtiaid*; a'r cyfieithiad o'r Bibl arferedig ganddynt, y Cyfieithiad Cophtaidd (*the Coptic Version*).—'Ynys Caphtor.' Jer. 47. 4. yn *Heb.* אי כפתור (*ai Captor*). Dyma y ddau air o ba rai y ffurfiodd y Groegiaid yr enw Αιγυπτος, (*Ægyptos*).

Mitsraim, neu Menes, ydoedd y brenin cyntaf yn yr Aipht. Bu hefyd yno nifer lliosog o freninoedd o'r enw Pharaoh: dywed rhai fod triugain o honynt. Bu yr Aipht yn ddarostyngedig i amryw o gyfnewidiadau mawrion o ran ei llywodraeth. Yn gyntaf, darostyngwyd hi gan Nebuchodonosor, brenin Babilon, C.C. 604. Jer. 46. 2. Hyn a ragfynegwyd gan Jeremiah ac Ezeciel. Jer. xliii. a 46. 13. Ezec. 29. 18, 19. a 30. 10, 11. Cyn pen llawer o amser gwedi ei gorchfygu gan frenin Babilon, darostyngwyd hi drachefn gan Cambyses a'r Persiaid, A. M. 3430. Am hyn y prophwyda Esaiah, pen. xix. Dyoddefasant orthrymder caled dan lywodraeth y Persiaid, a thra aneamwyth oeddynt dan yr iau drom. Oddi amgylch A. M. 3672, gwedi i Alexander Fawr, brenin Macedonia, ddymchwelyd ymerodraeth y Persiaid, daeth yr Aipht dan lywodraeth y Groegiaid. Cawsant waredigaeth lesol a gorfoleddus yn y cyfnewidiad hwn: canys bu Alexander a'i ganlynwyr yn ymgeleddwyr iddynt trwy eu llywodraeth dyner a thirion, o amgylch 320 o flynyddoedd. Y mae prophwydoliaeth Esaiah (pen. xix.) yn rhagfynegi, yn ol barn amryw, y dygwyddiad hwn. Gwel Vitringa, Lowth, Newton.

Gwedi hyny daeth yr Aipht yn dalaeth o ymerodraeth Rhufain, o A. M. 3995, hyd A. D. 640, pryd y goresgynwyd hi gan yr Arabiaid. O hyny hyd heddyw, mae wedi bod dan lywodraeth dost amryw o feistriaid caledion. Y Saraceniaid a'r Mamaluciaid a'i gorthrymasant hyd A. D. 1527, pan y gorchfygwyd hi gan y Tyrciaid; dan lywodraeth pa rai y mae yn aros etto. Fel hyn y cyflawnwyd, yn hynod, brophwydoliaethau Ezeciel am dani, pen. 29. 15. 'Isaf fydd o'r breniniaethau, ac nid ymddyrchaif mwy oddiar y cenedloedd. Ac ni bydd hi mwy i dŷ Israel yn hyder.' Mor wir ydyw geiriau y gwr doeth, 'Cyfiawnder a ddyrchafa genedl: ond cywilydd (a dystryw) pobloedd yw pechod.' Diar. 14. 34.

Y mae yr Aipht yn nodedig yn yr hanesiaeth sanctaidd, am y driniaeth greulawn a gafodd hâd Abraham, sef eglwys Dduw, yr amser hwnw, yno. Pan ydoedd Joseph yn llywydd ar y wlad, disgynodd Jacob a'i deulu yno, at ei fab, rhag y newyn. Wedi marwolaeth Joseph, cyfododd brenin newydd yn yr Aipht, 'yr hwn ni adnabuasai mo Joseph.' Rhyw drawsfeddiannydd gormesol, tebygol, oedd. Dan lywodraeth y gormesdeyrn hwn, aeth yr Aipht yn dŷ caethiwed i'r Israeliaid, a gorthrymwyd hwy yn greulawn â gwasanaeth caled, dros lawer o flynyddoedd. Ond

Digitized by Google

gwelodd Duw eu cystudd, a chlywodd eu gwaedd o achos creulondeb eu meistriaid gwaith. Anfonodd y ddau frawd, Moses ac Aaron, i'w gwaredu hwynt oddi yno. Pan na ollyngai Pharaoh hwynt, wrth orchymyn Duw, ymwelodd â'r wlad â phläu ofnadwy, nes y gollyngodd efe y bobl ymaith. Gwedi hyny, bu edifar ganddo, ac ymlidiodd ar eu hol â'i fyddinoedd. Ond ymogoneddodd Duw ar Pharaoh, ac ar ei holl luoedd, trwy eu boddi oll yn y Môr Coch. Yr oedd yr Aipht, a chreulondeb Pharaoh tu ag at yr Hebreaid, yn arwyddion rhagddangosiadol o orthrymwyr a gorthrymderau yr eglwys yn holl oesoedd y byd. 'Sodom a'r Aipht' y gelwir yr holl wledydd dan lywodraeth waedlyd Anghrist, i eglwys Dduw, lle mae yn cael ei gorthrymu a'i lladd, yn ei haelodau yn barhaus, hyd nes y dyfethir y bwystfil hwnw oddiar wyneb y ddaear. Dat. 11. 8. Aipht, yn iaith y Bibl, ydyw pob gwlad lle y mae saint Duw yn cael eu caethiwo a'u lladd; a Pharaoh ydyw pob penadur ag sydd yn llaw Satan, fel hwnw gynt, i'w gorthrymu a'u cystuddio. Y mae eu gwaredigaeth wyrthiol o'u caethiwed, ac o law Pharaoh, yn gysgodol o waredigaethau yr eglwys trwy Grist. Yn nystryw ofnadwy Pharaoh a'i fyddin, y gwelir, megys mewn drych, ddiwedd dychrynllyd holl elynion Duw a'i bobl. Wedi y cwbl, hyfryd yw darllen geiriau y prophwyd Esaiah am yr Aipht (pen. 19. 18, 19, 21.) 'Yr Arglwydd a adwaenir gan yr Aiphtiaid; ïe, yr Aiphtiaid a adwaenant yr Arglwydd yn y dydd hwnw:—Y dydd hwnw y bydd allor i'r Arglwydd yn nghanol tir yr Aipht:—Y dydd hwnw y bydd pum dinas yn nhir yr Aipht yn llefaru iaith Canaan, ac yn tyngu i Arglwydd y lluoedd.' Dan lywodraeth y Groegiaid, gwladychodd nifer fawr o'r Iuddewon yn yr Aipht, myrddiynau medd Philo. Codasant synagogau, ac addolasant Dduw eu tadau, yn hyfion. Cafodd y dygwyddiad hwn, ac esiamplau yr Iuddewon, yn eu haddoliad a'u bywydau, effeithiau rhagorol ar drigolion y wlad. Taenwyd gwybodaeth o'r gwir Dduw yn eu plith, ac o'r modd yr oedd i gael ei addoli. Yr oedd rhai o'r Aiphtiaid, yn mhlith eraill, yn broselytiaid yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost. Actau 2. 10. Bu Cristionogrwydd yn flodeuog yn yr Aipht, dros rai oesoedd gwedi dyddiau yr apostolion. 'Pendefigion a ddaethant o'r Aipht;' (Ps. 68. 31.) sef gwyr enwog am eu doniau, eu dysgeidiaeth, a'u duwioldeb. Yn yr ail a'r drydedd ganrif, rhoddir hanes am eglwysi blodeuog yn Alexandria, a pharthau eraill o'r wlad: a dyoddefodd llawer o'r prif Gristionogion yno ferthyrdod yn llawen.—'Yr Arglwydd a adwaenir gan yr Aiphtiaid.' Y mae y gwirionedd o hyn yn dra hysbys i bawb cydnabyddus â hanesiaeth eglwysig. Gobeithiwn yr adwaenir ef etto yn y wlad hòno, yn y dyddiau diweddaf, pan y llwyr ddinystrir Mahometaniaeth oddiar y ddaear, yn nghyd â phob gau grefydd arall: ac y 'bydd gwybodaeth o'r Arglwydd yn llenwi y ddaear.' Felly y byddo!

'Ffo i'r Aipht.' Mat. 2. 13. Dewiswyd yr Aipht yn hytrach na Syria fel lle i'r Arglwydd Iesu ffoi iddo: —1. Yr oedd yn agosach i Bethlehem nag oedd Syria. —2. Nid oedd gan Herod gymaint lle gyda llywodraethwyr yr Aipht ag oedd ganddo gan y rhai yn Syria, dibynol ar ba rai yr oedd.—3. Heblaw hyny, yr oedd Iuddewon yn lluoedd aneirif yn yr Aipht yr amser hwnw: ddwywaith y nifer o honynt a ddaeth o'r Aipht gynt, medd yr Iuddewon; fel yr anfonwyd Crist a'i rieni i'r Aipht, at eu pobl eu hunain, y rhai oeddynt yn llenwi y wlad. Yr oedd eu lle o addoliad yn Alexandria yn dra arddderchog. Yr oedd ynddo ddeg a thri ugain o gadeiriau euraidd, yn ol rhifedi henuriaid Israel. Yr oedd areithfa o goed yn y canol, yn yr hon y safai arolygwr y synagog. Gwel Lightfoot.

AIPHTES, benyw enedigol o'r Aipht. Gen. 16. 1. a 21. 9.

AIPHTIAID, trigolion yr Aipht. Gen. 43. 32. a 50. 11.—'A bydd blin gan yr Aiphtiaid yfed dwfr o'r afon.' Exod. 7. 18. Nis gellir deall yr ymadroddion hyn yn gyflawn, heb olygu ac ystyried hyfrydwch ac iachusrwydd neillduol dyfroedd yr afon Nilus. Y mae dyfroedd afon yr Aipht, medd yr Abbe Maserier, mor hynod o hyfryd, fel na ddymunai un i'r poethder i fod yn llai, na'i waredu oddiwrth y teimlad o syched. Y mae mor hyfryd gan y Tyrciaid, fel y bwytânt halen i godi arnynt syched, i gael yfed o hono. Y mae yn ddywediad cyffredin yn eu plith, pe buasai Mahomet gwedi yfed o hono, y buasai efe yn gweddïo ar yr Arglwydd i gael peidio marw, fel y gallasai fwynhau yr hyfrydwch hwn yn wastad. Nid oes dim hyfrydwch boddhaol i'w gymharu i hwn. Pawb a brofasant o'r dwfr hwn a gydnabyddant yn union na chyfarfuasant â'i gyffelyb mewn un lle arall. Pan yfo un gyntaf o hono, braidd y gellir sicrhau iddo mai dwfr naturiol ydyw; canys y mae rhyw beth ynddo annhraethadwy o hyfryd i'r archwaeth. Ond ei gynneddf mwyaf gododog ydyw, ei fod yn iachusol odiaeth. Nid ydyw byth i'w deimlo yn anghysurus, pa faint bynag a yfir o hono: y mae hyn mor wir, fel nad ydyw yn anghyffredin i weled dynion yn yfed dri chrycied o hono ef mewn diwrnod, heb ddim anghyfleusdra. 'Dynion,' medd Mr Harmer, 'na chlywsant erioed am bereidddra a hyfrydwch dyfroedd yr afon Nilus, a'r hyn y maent yn ei yfed o hono, a ganfyddant rym a phriodoldeb yn ngeiriau Moses wrth Pharaoh na welsant erioed o'r blaen: 'A bydd blin gan yr Aiphtiaid yfed dwfr o'r afon.' Ffieiddiant yfed o'r dyfroedd hyny, y rhai yr oeddynt yn eu cymeradwyo o flaen holl ddyfroedd y byd: ffieiddiant yfed o hwnw, yr hwn oeddynt arferol o'i chwennych, ac a ddewisant yn hytrach yfed o ddyfroedd pydewau, yr hwn, yn y wlad hòno, sydd eithaf ffiaidd. *Obs., vol.* iii., *p.* 564.

AIPHTWR, trigiannydd yn yr Aipht. Gen. 39. 1, 5. Exod. 2. 12. Actau 7. 24.

AL. Geiryn o'r un ystyr a *tra*, ac yn nghyfansoddiad geiriau a chwanega eu hystyr; megys *alaeth, albrys, alfarch, alis*. Arferir ef fel arddod ac attod yn o fynych yn enwau lleoedd, megys *Alban, Penal.*

ALABASTER, *Gr.* Αλαβαστρος: marmor gwyn meddal.—'Ac alabaster.' Esther 1. 6. Barna Bochart mai ystyr y gair *Heb.* דר *dor*, yn y fan hon yw *perl*, o herwydd ei ddull crwn. Bochart, *vol.* iii. Scheuzcer's *Phys. Sacr. in loc.* Yn Mat. 26. 7. cyfeithir y gair *Gr.* αλαβαστρον μυρου *(alabastron) blwch o ennaint*. Arwydda rhyw lestr i gynnwys enaint, neu bêr-arogl; am fod y cyfryw lestri yn cael eu gwneuthur o'r marmor hwn, o herwydd ei fod yn ei gadw oreu rhag llygriad. Dywed Pliny y ceir ef yn agos i Thebes yn yr Aipht, a Damascus yn Syria. Y diweddaf yw y gwynaf o'r ddau. Ond caent y goreu yn Carmania. Pliny, *Nat. Hist. lib.* xxxiii. *c.* 8.

ALAETH—AU—U, (al-aeth) tristwch, wylofain, galarnad mawr; cwynofain, ubain. 'Alaethwch,' &c. Jer. 49. 3. Sef galarwch, cwynfanwch, ubainwch.

ALAMOTH, עלמות [*dirgelwch*] titl y chweched Psalm a deugain. Hwyrach fod y Psalm hon i'r gwyryfon i'w chanu yn neithior Solomon: neu mae y gair Alamoth yn arwyddo y dôn yr hon y cenid y Psalm arni: neu, hwyrach, yr offeryn cerdd. 1 Cron. 15. 20. Gan mai ystyr blaenorol y gair Alamoth yw cuddiedig, arwydda, medd Ainsworth, yn hytrach, cuddiedig gynghor a rhagluniaeth Duw mewn pethau a berthynant i'w eglwys yn Nghrist.

ALARWM. Edr. LARWM.

ALCAN, (al-can) metel caletach na phlwm, tebyg i arian, ac i'w gael, yn aml, yn gymysgedig âg arian.

Digitized by Google

Yn Tarsis yr oedd helaethrwydd o hono. Ezec. 27. 12. Pechaduriaid llygredig a ffiaidd, y rhai sydd yn barod i dân digofant Duw, a gyffelybir iddo; ac hefyd i haiarn, a phres, a sorod. Ezec. 22. 18, 20. Esa. 1. 25. Gwel Bochart, *vol.* i. *p.* 169.

ALCH—AU, llech; gridyll. Llech lydan o bres, llawn o dyllau, tebyg i ogr, a osodid dan yr allor i ollwng y lludw drwyddi; yr hyn a allai arwyddo purdeb aberth Crist. Exod. 27. 4. 1 Cor. 5. 7.

ALEGORI, *αλληγορια*, (*allegoria*) aralleg, cyffelybiaeth. Ffugyr mewn rheitheg, y sydd yn fath o draws-symudiad estynedig, neu, yn hytrach, cyfres o draws-symudiadau. Mewn alegori, yr ydym yn dywedyd un peth i arwyddo peth arall. Fel hyn y mae yr apostol yn golygu Sarah ac Agar, a'r pethau perthynol iddynt, yn alegori, neu yn gyffelybiaeth, yn arwyddo ac yn gosod allan bethau eraill. Yn yr alegori hon, y mae Sarah yn arwyddo y cyfammod gras, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd; ac y mae Agar yn arwyddocâu cyfammod Sinai: y mae plant Sarah yn arwyddo plant yr addewid, y rhai ydynt rydd fel eu mam, ac yn etifeddion; y mae plant Agar, y forwyn gaeth, yn arwyddo yr Iuddewon cnawdol yn nyddiau yr apostol, a'r holl broffeswyr cnawdol hyd ddiwedd amser, y rhai sydd yn ddyeithr i ryddid yr efengyl, trwy ffydd yn Nghrist. Yr oedd gwaith mab y forwyn gaeth, Ismael, yn erlid Isaac, mab y wraig rydd, yn arwyddocâd y byddai i'r proffeswyr cnawdol hyn, erlid gwir blant Duw yn mhob oes. Yr oedd bwrw allan y wasanaeth-ferch a'i mab, fel na chai etifeddu gyda mab y wraig rydd, yn arwyddo beth a fydd diwedd dychrynllyd yr holl broffeswyr cnawdol erlidigaethus hyn;—ni chant etifeddu gyda phlant yr addewid.

Y mae amryw ranau o'r Bibl wedi eu llefaru fel hyn yn allegawl; megys Caniad Solomon, ei ddarluniad o henaint, &c. Preg. xii, &c. Y mae yr Arglwydd yn tosturio wrth ein gwendidau, wedi ymostwng atom i lefaru wrthym am bethau dwyfol, trwy eu cyffelybu i bethau cynnefin i ni, fel y gallom yn hawdd eu deall a'u canfod, yn nghyd â'u natur, eu cynneddfau, a'u heffeithiau. Y maent yn llawn o bob math o ffugyrau, ac ymadroddion troellog, fel y byddai i ni eu teimlo a'u canfod gyda hyfrydwch a bywiogrwydd, a chroesawu y gwirionedd gyda mwy o barodrwydd meddwl, yn ei wisgoedd a'i addurniadau hardd, ceinwych, etto dealladwy.

ALELUIA, *Heb.* הללו יה *Gr.* Αλληλουια. Ystyr y gair Hebraeg ydyw, *Molwch* IAH. Y mae Kimchi yn sylwi fod y gair יה yn tarddu o'r gair יאה ac yn arwyddo, Duw yn holl harddwch gogoneddus ei fawrhydi, a'i berffeithrwydd, a gweddeidd-dra sanctaidd ei holl ffyrdd. Jer. 10. 7. Cawn y gair hwn yn nechreu a diwedd amryw o Psalmau. Y lle cyntaf y cawn ef ydyw Ps. 104. 35. 'Darfydded y pechaduriaid o'r tir: (*Aleluia*) molwch IAH.' Ac yn y Testament Newydd cawn ef yn Dat. 19. 1. pan mae dystryw Anghrist yn cael ei ragfynegi.

ALEXANDER, Αλεξανδρος [*cynnorthwywr cryf*] 1. Mab Simon o Cyrene, yr hwn a fu yn gynnorthwywr i'n Hiachawdwr i ddwyn ei groes i ben Calfaria. Marc 15. 21. Luc 23. 26.——2. Un arall oedd gyd â'r arch-offeiriaid yn carcharu yr apostolion. Actau 4. 6.——3. Alexander y gôf copr, yr hwn y dywed Paul iddo wneuthur drygau lawer iddo; yr hwn a fuasai unwaith yn proffesu Cristionogrwydd, ond a wrthodasai y ffydd, ac a wnaethai long-ddrylliad am dani. 1 Tim. 1. 20. 2 Tim. 4. 14, 15.

ALEXANDRIA, dinas enwog yn yr Aipht Isaf, (Act. 18. 24. a 27. 6.) yr hon a sylfaenwyd gan Alexander Fawr, ac yma y claddwyd ef. Claddwyd ef unwaith yn Memphis, yn yr Aipht, mewn arch o aur, ond trosglwyddwyd ef wedi hyny i Alexandria. (Gwel Prideaux's *Connection.*) Y mae hi yn sefyll rhwng Môr y Canoldir a llyn Maeris, neu Mareotis. Dywedir ei bod, o ran ei harddwch a'i gogoniant, yn ail i Rufain; a bod ei llyfrdy yn cynnwys 700,000 o lyfrau; eithr llosgwyd hwynt oll gan yr Arabiaid, neu y Saraceniaid, A. D. 642. Ynddi hi y ganwyd Apolos. Act. 18. 24. Planwyd Cristionogaeth yma yn foreu iawn; dywedir mai Marc yr efengylwr oedd yr offeryn; bu amryw o wyr enwog a blodeuog mewn Cristionogaeth, ynddi gynt. Edr. AIPHT.

ALMON, עלמן [*cuddiedig*] 1. Dinas yn perthyn i lwyth Benjamin. Jos. 21. 18.——2. שקד [*deffrous, gwyliadwrus*] am mai y peth hwn sydd gyntaf yn deffro o'i farweidd-dra gauafaidd. Blodeua yn mis Ionawr; ac yn mis Mawrth, yn y gwledydd poethion, y mae ei ffrwyth yn addfed. Ei ffrwyth sydd werthfawr ac yn iachus. Gen. 43. 11. Jacob a anfonodd anrheg o hono i'w fab Joseph. Y cyntaf ydyw yn ei flodau, a'r diweddaraf yn eu colli. Prysurdeb y pren hwn yn dwyn ei ffrwyth a gyfeirir ato yn ngweledigaeth Jeremiah: 'Yna y daeth gair yr Arglwydd ataf, gan ddywedyd, Jeremiah, beth a weli di? Minnau a ddywedais, Gwïalen (שקד) o'r pren almon a welaf fi. A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Da (neu, *uniawn*) y gwelaist; canys (שקד אני על) yr wyf yn prysuro (neu yn hytrach, yn deffroi, neu gwylio ar, neu mewn perthynas i) fy ngair i'w gyflawni.' Jer. 1. 11, 12. Tebygol oddiwrth Num. 17. 6, 7, 8. fod penaethiaid y llwythau yn dwyn bob un wïail o'r pren almon, fel arwydd o'u gwyliadwriaeth: a gwïalen farw Aaron, yr hon a flodeuodd ac a ffrwythodd, oedd yn arwydd ac yn gysgod addas o'r cyntaf-anedig oddiwrth y meirw. Ac fel y mae y goleuni yn ymddangos i effeithio yn gyntaf ar y pren arwyddol hwnw, gyd âg addasrwydd mawr y gwnaed pedyll y canwyllbren aur ar lun almonau. Exodus 25. 33. Almonau gwïalen Aaron, wedi bod ger bron yr Arglwydd dros nos, oedd yn dangos y byddai arosiad yr offeiriadaeth gysgodol yn hir yn ei deulu: yn neillduol, rhinwedd maethlawn yr efengyl, gwïalen nerth Crist, a dinystr disymwth ei elynion. Num. 17. 8. Y wïalen yn ngweledigaeth Jeremiah, oedd yn dangos addfedrwydd y farn i ddisgyn ar Iuddewon cyndyn yr amser hwnw. Jer. 1. 11.——Pen hen ŵr a gyffelybir i'r pren almon, ei wallt gwyn ef fel ei flodau gwynion yntau. Preg. 12. 5.

ALMUGIM, NEU, ALGUMIM, אלמגים math o brena rhagorol, parhaus, pêr ei arogl, yr hwn sydd yn dwyn sudd gwerthfawr. Wrth gymharu 2 Cron. 9. 10, 11. â 1 Bren. 10. 11, 12. ymddengys mai enw arall yw am yr אלגמים *algumim*, sef y Thynæ, neu y Thyine, fel y cyfieitha y *Vulgate* y gair. Gwel Dat. 18. 12.

ALOES, math o bren yw sydd yn tyfu yn Ewrop, a pharthau eraill o'r byd. Y pren, ei ddail, a'i ffrwyth, a arferir yn feddyginiaethol. Byddid yn ei arfer gynt hefyd i bêr-arogli cyrph meirw, gwelyau, a dillad. Ioan 19. 39. Diar. 7. 17. Y pren wedi sychu sydd iddo arogliad peraidd iawn. Gwel T. M. Good ar Can. 4. 14. Effeithiau yr Ysbryd Glân yn Nghrist a'i bobl, a gyffelybir i aloes, oblegid eu pêr-arogl, a'u bod hefyd yn attal ac yn puro oddi wrth chwantau llygredig a phechadurus, ac yn cadw eu deiliaid yn iach ac yn fywiog. Psalm 45. 8. Can. 4. 14. Yr Israeliaid a gyffelybir i aloewydd, i ddangos eu cynnydd, eu cyflwr blodeuog, a'u buddioldeb. Numeri 24. 6.

ALPHA, y llythyren gyntaf yn y wyddor Roeg, ac Omega ydyw y ddiweddaf. Y mae Crist yn galw ei hun yn 'Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, y

Digitized by Google

cyntaf a'r diweddaf; neu y cyntaf a'r diweddaf hwnw, yr hwn a ddywedodd ei fod felly, trwy y prophwyd Esaiah. Pen. 41. 4. a 44. 6. a 48. 12. Vitringa. Y mae yr enw hwn yn gosod allan ddwyfoldeb ei Berson. Nid oes un creadur a all yn briodol ddywedyd, 'Myfi yw y cyntaf;' canys y mae ei Greawdwr, yr Hwn a'i gwnaeth, o'i flaen ef. Ni ddichon ddywedyd chwaith, 'Myfi yw y diweddaf.' Nid ydyw un o'r ddau enwad yn briodol i neb ond Duw. Pwy a all ddywedyd, 'Myfi yw y dechreu a'r diwedd,' ond Duw, yr Hwn sydd yn rhoddi bôd i bob peth, sydd yn trefnu ac yn cynnal pob peth, a'i ogoniant y dyben o'r cwbl? Ond y mae yr holl enwau yn briodol ac yn addas hollol i Grist, o ran ei Berson, ei holl weithredoedd, a'i holl oruchwyliaethau. Y mae efe yn Alpha ac yn Omega, ac yn llenwi y cwbl rhwng y ddwy lythyren hyny. Y mae yn preswylio tragywyddoldeb, a'i waith yn berffaith. Esa. 57. 15. Deut. 32. 4. Dat. 1. 8, 11. a 4. 6. a 22. 13. Exod. 3. 15. Dichon hefyd y ddiareb Roegaidd hon arwyddo, ystâd o ddyrchafiad a darostyngiad Crist: y mae efe yn blaenori yn mhob peth ar bawb; y mae efe yn gyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer, yr hwn a fu y diystyraf o'r gwyr. Coccejus & Vitringa *in loco*.

ALPHEUS, *Gr.* Αλφαιος; [*mil*] *Heb.* חלפי Tad yr apostolion Iago a Judas. Tybir yn gyffredin fod Mair ei wraig yn chwaer i Mair mam ein Harglwydd; ac o herwydd hyny, eu bod yn cael eu galw brodyr yr Arglwydd. Gal. 1. 19. Marc 6. 3. Y mae y rhan fwyaf yn meddwl mai yr un ydyw Cleopas, a enwir gan Luc (pen. 24. 18.) ag Alpheus gan Matthew (pen. 10. 3.)——2. Tad Matthew, neu Lefi, yr efengylwr. Marc 2. 24.

AL-TASCHITH, אל־תשחת [*na lygro*, neu *na ddyfetho*, neu *ni ddyfethir*] titl Ps. lvii, lviii, lix, a lxxv. Arwydda y gair *Heb.* שחת weithiau, llygriad ffyrdd a moesau trwy bechod, Gen. 6. 12. Exod. 32. 7. Deut. 31. 29.—weithiau arwydda, hefyd, dinystr, neu gwbl ddyfethiad am bechod. Ps. 78. 38, 45. Gen. 6. 13. a 9. 11, 15. Y mae yn air mwy helaeth ei ystyr na lladd. Ezec. 9. 6, 8. Naill ai mae y gair yn nhitl y Psalmau uchod yn mynegi hyder Dafydd ar Dduw, na oddefai iddo ef gael ei ddyfetha gan ei elynion;—neu y rhwymau ydoedd gwedi eu gosod ar ei ganlynwyr na ddyfethent Saul. 1 Sam. xxiv. Y cyntaf sydd fwyaf tebygol.

ALLAN—OL, (all) y maes, oddifaes:—allan o law, sef yn fuan; yn y man.—'Bwrw allan o'r synagog;' hyny yw, esgymuno. Ioan 9. 22. a 12. 42. a 16. 2. ——'Allan o amser:' gorchymyn Paul bregethu y gair 'mewn amser, allan o amser.' 2 Tim. 4. 2. Nid yn unig ar yr amser gosodedig gan yr Iuddewon, neu yr awr weddi, neu y Sabboth, ond bob amser y byddai cyfleusdra, ddydd a nos. Act. 17. 17. a 20. 7. Nid unwaith yn y dydd; 'Y boreu haua dy hâd, a phrydnawn nac attal dy law.' Preg. 11. 6. Mewn lleoedd na byddo ond ychydig o arwydd llwyddiant. Act. 8. 26. Mae amser Duw yn fynych allan o amser dynion: anfonodd Duw ei Fab i'r byd yn ei amser ei hun; ond allan o amser gan lawer o ddynion: felly y mae yn rhaid pregethu Crist, 'mewn amser, allan o amser.' 2 Tim. 4. 2. Gal. 4. 4.

ALLOR—AU, (llawr) *Llad.* ALTARE; *Saes.* ALTAR. Ar allorau y byddai offrymau ac aberthau yn cael eu cyflwyno i Dduw. Y gair *Heb.* מזבח a arwydda, lladd, aberthu, aberth, allor. 2 Bren. 23. 20. Ezec. 39. 19. 1 Sam. 28. 24. Gen. 8. 20. a 31. 54. Exod. 18. 12. Gen. 8. 20. Num. 7. 84. a 18. 31. a 23. 1. *Gr.* θυσιαστηριον. Geilw Ezeciel hi, אריאל *llew Duw, mynydd Duw*. Pen. 43. 15. Yr oedd i gael ei chysegru yn sancteiddiolaf i'r Arglwydd, fel y sancteiddiai y rhoddion a offrymid arni, a phob peth a gyffyrddai â hi a fyddai yn sanctaidd. Exod. 29. 37. Num. 7. 1. Mat. 23. 19. Nid ydym yn darllen am un allor cyn y diluw, er eu bod yn aberthu; tebygol eu bod yn aberthu ar y ddaear. Y mae yn deilwng o'n sylw, fod gan y rhan fwyaf o genedloedd y ddaear allorau, pa ddull bynag a fyddai ar eu haddoliad. Y mae yr enwog Cadben Cook, yn ei fôr-deithiau, gwedi rhoddi hanes neillduol am allorau ac aberthau trigolion gwylltion ynysoedd y Môr Deheuol. Both a allasai roddi y fath gyffredinolrwydd i'r ddefod hon, oddi eithr bod rhyw weddill yn aros mewn coffadwriaeth o'r dadguddiad Dwyfol am hyny—yn nghyd â chydnabyddiaeth dywyll o'u bod yn bechaduriaid—a bod angen am iawn i heddychu y Bôd Dwyfol, yr hwn a anfoddlonwyd trwy bechod? Cawn hanes fod Noah yn fuan ar ol y diluw, yn adeiladu allor, ac yn aberthu arni i'r Arglwydd. Gen. 8. 20. Abraham, a'r lleill o'r patrieirch, wedi hyny, a adeiladasant allorau i aberthu arnynt. Gen. 12. 7. a 13. 4, 18. a 22. 9. a 35. 1, 7. Nid ydym yn cael cyfarwyddiadau Dwyfol yn nghylch eu gwneuthuriad cyn y rhai a roddodd Duw i Moses wrth fynydd Sinai. Exod. 20. 24, 25, 26. Yn ol gorchymyn Duw yno, yr oedd yn rhaid gwneuthur yr allor o bridd, neu o geryg; ac os o geryg, rhaid eu bod heb eu naddu, ac heb risiau i esgyn ar hyd-ddynt. Gan fod yr allorau, yn gystal a'r aberthau, yn cysgodi Crist, ein hallor ni, gallasai y pridd arwyddo ei natur ddynol, yr hwn oedd o hâd Dafydd, yn ol y cnawd. Heb. 13. 10. Rhuf. 1. 3.

Ar gysegriad y deml, yr ydoedd canol y cyntedd wedi ei gysegru gan Solomon, fel allor i losgi y poethoffrymau lliosog ar yr achos hwnw. 1 Bren. 8. 64. a 18. 30. 1 Cron. 7. 7. Wedi gosodiad i fynu y babell, nid oedd ond dwy allor i'w harferyd yn gyffredin; sef allor y poeth-offrwm, ac allor yr arogl-darth. Allor y poeth-offrwm, yr hon a wnaeth Moses, oedd fath o goffr, o goed Sittim, dair llath bob ffordd, ac yn bum troedfedd a hanner ei huchder, yn bedair-ongl. Yr oedd gwedi ei gwisgo â phres; ac yr oedd iddi bedwar corn, un yn mhob congl, o'r un defnyddiau. Exod. 27. 1, 2. a 38. 1, 2. Yr oedd yr allor bres* a wnaeth

* Er fod allor y poeth-offrwm yn y deml yn cael ei galw yn allor bres, etto, eglur ydyw, nad oedd wedi ei gwneuthur oll o bres. Yr oedd yn groes i'r gorchymyn ei bod felly. Y gorchymyn oedd, pa le bynag y gwnaent allor, heblaw allor y babell, a ddygent gyda hwynt yn eu teithiau yn yr anialwch, eu bod i'w gwneuthur o bridd, neu o geryg heb eu naddu. Exodus 20. 24, 25. Heblaw hyny, buasai yn gwbl anaddas i'r gwasanaeth oedd iddi: o herwydd, pe buasai oll yn bres, y tân gwastadol arni a'i poethasai i'r fath radd, fel nas gallasai yr offeiriaid weini arni; a hyny yn fwy gan eu bod i weini arni yn droednoeth. Er, yn wir, nad yw yn orchymynedig iddynt weini yn droednoeth, ond nid enwir esgidiau na sandalau yn mhlith gwisgoedd yr offeiriaid (Exod. xxviii.) golygir eu bod yn waharddedig; a'r geiriau yn dywedyd yn adn. 4. 'A dyma y gwisgoedd a wnant;' y mae hyn, meddant, yn cauad allan y cwbl na enwir yno. Gan y gorchymynir i Moses wrth y berth i ddyosg ei esgidiau, am fod y lle yr ydoedd yn sefyll arno yn ddaear sanctaidd (Exod. 3. 5.) y mae hyn, meddant, yn rheswm ychwanegol paham nad oedd yr offeiriaid i wisgo esgidiau wrth weini yn y deml; o herwydd yr oedd yr holl deml a'i chylchoedd yn sanctaidd, o herwydd fod yr arwydd o'r presennoldeb dwyfol ar y drugareddfa. Ac oblegid y rhesymau hyn, yr oedd yn ofynol, gyda manylrwydd, i'r offeiriaid weini yn y deml bob amser yn droednoeth, er fod myned yno yn droednoeth ar y palmant marmor yn hynod o niweidiol i iechyd llawer un o honynt. Yr oedd yr allor, gan hyny, wedi ei gwneyd o dwr o geryg heb eu naddu yn y gwaelod, a daear ar ben hyny, a'r pres ar hyny drachefn, lle yr oedd y poeth-offrwm yn cael ei losgi. Yn ol darluniad yr Iuddewon o honi, yr oedd yn y gwaelod yn ddeuddeg ar hugain o gufyddau (wyth a deugain o droedfeddi) yn codi un cufydd o uchder yr oedd yn culhau un cufydd; wedi codi pum cufydd, yr oedd yn culhau drachefn un cufydd; yn codi drachefn dri chufydd, yr oedd yn culhau drachefn ddau gufydd; yn codi drachefn un cufydd, yr hyn oedd y ddaear, yr oedd yn culhau dau gufydd, yr hyn oedd y rhodfa oddi amgylch iddi, ar ba un y safai yr offeiriaid, yn gweini i'r tân a'r aberthau. Ar y culhad diweddaf, lle y safai yr offeiriaid ar y pedair congl, yr oedd pedair o golofnau bychain o bres, cufydd o uchder, y rhai oeddynt gyrn yr allor, a goffeir yn aml yn yr ysgrythyrau. Yr ydoedd canol pob un o'r cyrn yn gwol, o herwydd



Digitized by Google

Solomon yn ddeuddeg llath ysgwâr, ac yn chwe llath o uchder. 2 Cron. 4. 1. Yr oedd i'r allor hon alch o bres, ar waith rhwyd; ac felly yn dyllog, i'r lludw ddisgyn trwyddi. Edr. ALCH. Yr oedd yr alch i gael ei gosod dan amgylchiad yr allor oddi tanodd; yr oedd yr alch, mae yn debygol, ar osgo o bob ochr, a'r canol yn cyrhaedd hyd hanner gwaelod yr allor. Wrth y pedair modrwy ydoedd ar ei phedair congl, yr oeddynt hwy yn ei chodi i fynu i'w glanhau. Yr ydoedd pedyll lludw, a phedyll tân, a rhawiau, a chigweiniau, a chawgiau, i gyd o bres, yn perthyn iddi. Yr ydoedd hefyd fodrwyau wrth ei phedair congl, a throsolion trwyddynt, wrth ei hystlys, i'w dwyn. Yr oedd wedi ei gwneuthur âg estyllod, yn gau. Yr ydoedd yr allor yn cysgodi Crist, yn ei Berson, a'i ddyoddefiadau: Efe yw ein hallor, ein haberth, a'n Harchoffeiriad mawr. Y coed gwedi eu gwisgo â phres, a arwydda y natur ddynol yn cael cynnaliaeth effeithiol dan ddigofaint Duw, trwy ei hundeb â'r Person Dwyfol. Yr oedd Mawrhydi gogoneddus ei Berson, yn rhoddi gwerth i'w ddyoddefiadau, fel iawn am bechod; ac y mae, yn ei Berson a'i ddyoddefiadau, anfeidrol rinwedd i gymeradwyo personau a gwasanaeth ei holl bobl: 'Pob peth a gyffyrddo âg ef a sancteiddir.' Exod. 29. 37. Mat. 23. 19. Nid oes dim yn gymeradwy gan Dduw, ond a sancteiddir ar yr allor hon. Y mae y cyrn, ar ei phedair congl, yn cysgodi Crist, yn effeithioldeb ei aberth, a'i allu digonol, i achub pechaduriaid o holl gyrau y ddaear.

Allor yr arogl-darth oedd fwrdd o goed Sittim, wedi ei wisgo âg aur, yn nghylch dwy fodfedd ar hugain ei hŷd a'i lled, a phedair a deugain o uchder. Yr oedd ei chwr uchaf gwedi ei amgylchu âg ymylwaith, neu goron o aur, a phedwar corn iddi ar ei phedair congl. Yr oedd iddi ddwy fodrwy dan y goron, ar ei hystlys, a throsolion, i'w dwyn ar eu teithiau yn yr anialwch—y cwbl oll gwedi eu gwisgo âg aur. Yr ydoedd allor y poeth-offrwm yn sefyll oddi allan, yn y cyntedd, ychydig oddiwrth yr ochr ddwyreiniol i'r babell, neu y deml, lle yr offrymid yr aberthau boreuol a hwyrol, &c. Ond allor yr arogl-darth oedd yn y cysegr sanctaidd, gyferbyn a'r drugareddfa, tu allan i'r wahanlen, ond yn nes ati na bwrdd y bara gosod a'r canwyllbren, ac yn y canol rhwng y ddau. Ar hon yr oedd yr offeiriaid i arogl-darthu yr arogl-darth llysieuog bob boreu a hwyr, pan gynneuent y lampau; yr oedd yr arch-offeiriad i wneuthur cymmod arni unwaith yn y flwyddyn, trwy daenellu ar ei chyrn waed y pech-aberth. Exod. xxx. Lef. 16. 18, 29, 30. a 23. 27, 28. Heb. 1. 3. Luc 1. 9, 10, 11. Yr ydoedd y defnyddiau, fel yn yr allor bres, yn arwyddo y ddwy natur yn Mherson Crist:—un allor yn ei gysgodi yn ei gyflwr o ddarostyngiad a dyoddefiadau; a'r llall yn ei ddyrchafiad. Fel yr oedd yr allor bres yn cysgodi ei aberthiad ei Hun yma ar y ddaear; felly y mae yr allor aur, a'r arogl-darth arni yn feunyddiol, yn cysgodi ei eiriolaeth barhaus yn y nefoedd. Y mae ei eiriolaeth yn y nefoedd yn cael ei holl effeithioldeb oddi wrth rinwedd ei aberth, a'r iawn a wnaeth yma ar y ddaear, fel ag yr oedd gwaed y pech-aberth i gael ei daenellu ar gyrn yr allor aur. Y mae yr allor aur, fel yr allor bres, yn bedair-onglog, a chyrn ar bob un; yn dangos fod eiriolaeth Crist yn gryf, yn effeithiol, ac yn ddigonol dros ei holl bobl, yn mhob cŵr o'r ddaear. Heb. 9. 21—26. Dat. 8. 3, 4. Y mae, yn ei eiriolaeth, yn goronog, yn fuddugoliaethus, yn ddyrchafedig, ac mor ogoneddus ag ydyw yn rasol. Y mae y trosolion, hefyd, i'w chario, fel yr allor bres, yn dangos fod Crist, yn holl rinwedd ei aberth, ac effeithioldeb ei eiriolaeth, gyd â'i bobl yn mhob lle ac amgylchiad: (Mat. 18. 20. a 28. 20.) mewn alltudiaeth: (Dat. 1. 9.) mewn ffwrneisiau, ffauau, a charcharau. Dan. 3. 25, 28. a 6. 23. Actau 16. 25.

Wrth 'allor i'r Arglwydd yn nghanol tir yr Aipht,' yr ydym i ddeall pregethiad Crist a'i aberth yn ngwlad yr Aipht; addoliad cyhoeddus yn cael ei roddi i'r gwir Dduw trwy hyny; ac eglwysi Cristionogol yn cael eu sefydlu. Esa. 19. 19. Hyn a gyflawnwyd cyn dyfodiad Crist, trwy sefydliad llawer myrdd o'r Iuddewon yn wladyddion, yn amser y Ptolemiaid, breninoedd yr Aipht canlynol i Alexander Fawr; a thrwy bregethiad yr efengyl yno, yn amser yr apostolion. Edr. AIPHT, ALEXANDRIA.

Yr allor, dan ba un y gwelodd Ioan 'eneidiau y rhai a laddesid am air Duw, ac am y dystiolaeth oedd ganddynt;' Dat. 6. 9. oedd, yn ddiammeu, yr allor bres, ar ba un yr oedd cyrph yr ebyrth i gael eu llosgi, a'r gwaed i gael ei dywallt tani, neu wrth ei throed. Lef. 4. 7. Aberthasant eu hunain dros Grist a'i achos yn y byd; ac er dyfetha y corph, y mae eu heneidiau yn y nefoedd, mewn cymundeb tragywyddol âg Ef, yr Hwn, trwy rinwedd ei ddyoddefiadau, a'u hachubodd. Nid yw eu gwaith yn llefain ac yn gofyn, 'Pa hyd yr ydwyt heb ddial ein gwaed ni ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear?' (Adn. 10.) yn arwyddo fod ysbryd dial ynddynt; ond y mae yn dangos natur y peth ynddo ei hun, ger bron Duw; sef bod eu dyoddefiadau, fel gwaed Abel, yn galw ar Dduw, fel llywodraethwr a barnwr cyfiawn, am ddial: ac y mae yn sicr o ddial yn y diwedd, er hir oedi.

Y Cenedloedd hefyd, oedd ganddynt allorau i'w duwiau: yn Athen, cafodd Paul un gwedi ysgrifenu arni, 'I'R DUW NID ADWAENIR:' sef Duw Israel, yr hwn sydd anweledig. Actau 17. 23.——'Gorchuddio yr allor â dagrau,' ydoedd, naill ai proffes ragrithiol o edifeirwch yn nghynteddau yr Arglwydd; ai eu hanfri yn erbyn eu gwragedd, neu yn hytrach, eu godineb yn erbyn eu gwragedd, a hyny yn peri i'r gwragedd wylo yn chwerw-dost ger bron yr Arglwydd o herwydd eu cam. Mal. 3. 12. Pocock *in loco.*

**ALLTUD—IO—ION**, (all-tud) arall-wlad, aillt, all-wlad, estron, dyeithr, dyeithr-ddyn, ymdeithydd o wlad arall, un a fyddo yn ymdeithio o wlad ei enedigaeth. Gen. 23. 4. Exod. 12. 45. Alltud cenedlog, sef alltud genedigol;—alltud tramor, sef un o tu hwnt i'r môr;—alltud priodol, sef caethwas genedigol. Arwydda hefyd yn y Cyfreithiau Cymreig, amaethwyr tir rhai eraill, a alwent alltudion uchelwyr. Saint yr Hen Destament a'r Newydd, ydynt ddyeithriaid a phererinion yma. Psalm 39. 12. a 119. 19. 1 Petr 1. 17. a 2. 11. Lef. 25. 23. 1 Cron. 29. 15. Edr. DYEITHR, PERERIN.

**AM**, rhagddod; crwn, oddi amgylch; megys *am dy ganol, am dy ben.* Cysylltiad; o herwydd, oblegid, megys, *am hyn, am hyny.* Arferir *am*, yn aml, fel rhagddod yn lle *an*; megys *ammhur* yn lle *anmhur.*

**A'M**, sef *a fym*; megys, *mi a'm tad*, sef *mi a fym tad.* 'Y neb a'm gwelodd i,' sef *a fym gwelodd i,' &c.* Ioan 14. 9.

**AMALEC--IAID**, עמלק [*pobl yn cymeryd ymaith*] cenedl alluog yn trigo yn Arabia Garegog. Cyfrifir hi o nifer y cenedloedd blaenaf o ran hynafiaeth. 1 Sam. 27. 8.—'Dechreu y cenedloedd yw Amalec,' medd y dewin Balaam. Num. 24. 20. Nid yn unig y cyntaf o'r cenedloedd a ryfelodd yn erbyn Israel; ond, hefyd, y cyntaf o ran hynafiaeth a chryfder. Cofféir am danynt hwy mor foreu a rhyfeloedd Cedor-laomer.

y rhoddent yno beth o waed yr aberthau. Yr ydoedd yn waharddedig iddynt esgyn ar hyd grisiau i'r allor. Exodus 20. 26. Yr ydoedd yr esgynfa, gan hyny, yr hon a alwent y *Kibbesh*, yn raddol yn ddeg cufydd ar hugain o hŷd, at y culhad diweddaf lle y safai yr offeiriaid, ac yn un ar bymtheg o led. Gwel Prideaux's *Connection, part* 1. *b.* 3. *an.* 535. Y culhad hyn a elwir עזרה *ystol*, neu eisteddfod, neu fainc. Ezec. 13. 14, 17, 20. a 45. 19. Yr ydoedd lled y culhad yn rhoddi mainc o gylch yr allor.

Digitized by Google

Genesis 14. 7. Gan hyny, yr oeddynt yn genedl cyn dyddiau Abraham a Lot; ac, yn ganlynol, yn hynach na'r Moabiaid a'r Edomiaid, a'r cenedloedd a hanasant o'r patrieirch hyny. Eglur ydyw, gan hyny, nad Amalec, ŵyr Esau, ydoedd eu tad, fel y tybiodd llawer, oddiwrth gyffelybrwydd yr enwau; ond eu bod yn tarddu oddiwrth ryw gyff neu wreiddyn arall; sef, medd yr Arabiaid, o Amalec, neu Amlac, mab Ham. Dywed haneswyr ei bod yn genedl lïosog, a nerthol; ac iddi ddarostwng yr Aipht, ac awdurdodi arni dros amryw o flynyddoedd. Gwel *Universal History*, *vol.* ii. *p.* 282, &c. Y mae yn ddiammeu ei bod yn genedl gref a gwrol, pan yr ymosodent ar yr Israeliaid mor fuan, gwedi i'r Arglwydd ymladd drostynt, yn hollol ddinystr yr Aiphtiaid. Ond, er ei bod yn blaenu o ran hynafiaeth, cadernid, a gwroldeb, ar ei chymydogion, etto, 'ei diwedd fydd darfod am dani byth.' Num. 24. 20. 'Nid ofnodd Dduw; ond cyfarfu âg Israel ar y ffordd, ac yntau yn lluddedig ac yn ddiffygiol, ac a laddodd y rhai olaf, a'r holl weiniaid o honynt.' Deut. 25. 18. Eu hymddygiad creulawn a didrugaredd yn hyn a anfoddlonodd yr Arglwydd mor fawr, fel y dywedodd, 'Gan ddileu y dilëaf goffadwriaeth Amalec odditan y nefoedd.' Exod. 17. 14. Y ddedfryd ofnadwy hon a gyflawnwyd, mewn rhan, gan Saul, yr hwn a 'darawodd yr Amaleciaid, ac a laddodd yr holl bobl â min y cleddyf.' 1 Sam. 15. 8. Gwedi hyny, Dafydd a darawodd y wlad; ac 'ni adawodd yn fyw ŵr na gwraig.' 1 Sam. 27. 8. Wrth Siclag hefyd y gwnaeth Dafydd ddifrodaeth ychwanegol o honynt. Yn ddiweddaf, gorphenwyd eu difrodi gan feibion Simeon, yn nyddiau Hezeciah, brenin Judah, y rhai a darawsant y gweddill a ddiangasai o Amalec; ac a wladychasant yno. Yn bresennol, ac er's oesoedd lawer, nid oes goffadwriaeth mwy am danynt, ond sydd angenrheidiol i ddangos mor fanwl y cyflawnodd Duw ei air, o ddilëu eu coffadwriaeth odditan y nefoedd, ac mai eu diwedd fyddai darfod am danynt byth.

1. Oddiwrth hanes Amalec, dysged pob erlidiwr gymeryd rhybydd rhag ymddwyn yn greulon ac yn drahaus tu ag at bobl weiniaid a thlodion Duw. Dilys y daw y dydd pan y llwyr ddial Duw ar ei holl elynion; a pho hwyaf yr oedir y farn, trymaf i gyd y bydd pan y delo.——2. Fel mae uniondeb, cyflawnder, a gwirionedd Duw yn ddiball, felly hefyd y mae ei amynedd yn fawr. Gallasai ddifrodi Amalec ar unwaith, yn ddioed; ond gwedi cyhoeddi y farn, oedodd amryw oesoedd cyn ei chyflawni, fel y gallai llawer yn eu plith glywed am waith yr Arglwydd, a thrwy hyny gael eu gadael yn hollol ddiesgus, os parhaent yn ddiedifeiriol, ac yn elynion i'w bobl. Barn. 6. 3, 8. a vii, viii. 1 Sam. 14. 48. a 30. 1—17. 1 Cron. 4. 43. Esther 3. 1. a 7. 10. a 9. 7—10.

AMANAH, אמנה [*gwirionedd*] mynydd, yn ol barn rhai, sydd yn terfynu rhwng Cilicia a Syria; ond, yn ol eraill, yr hyn sydd debycach i wir, mynydd tu draw i'r Iorddonen, yn rhandir hanner llwyth Manasseh. Can. 4. 8. Edr. LIBANUS.

AMASA, עמשא [*pobl yn maddeu*] mab Ithra, o Abigail, chwaer Dafydd; Absalom a'i gosododd yn dywysog ar ei lu. 2 Sam. 17. 25. Dafydd, wedi cael ei anfoddhau yn ngwaith Joab yn lladd ei fab Absalom, fu hawdd ganddo faddeu i Amasa, ac a'i gwnaeth yn flaenor ei fyddin yn lle Joab; ond Joab, o eiddigedd a chas tu ag ato, yn dwyllodrus a'i lladdodd. 2 Sam. xx.

AMASAI, עמשי [*rhodd y bobl*] mab Elcanah. 1 Cron. 6. 25. Tybir mai efe ydoedd cadben llwyth Benjamin a Judah, yr hwn a ddaeth at Dafydd pan oedd yn yr anialwch yn ffoi rhag erlidigaeth Saul 1 Cron. 12. 16—19.

AMAZIAH, אמציה [*nerth yr Arglwydd*] mab Joas, a'r wythfed brenin yn Judah. Yn y bummed flwyddyn ar hugain o'i oed, dechreuodd deyrnasu, ac a deyrnasodd naw mlynedd ar hugain. Ymddygodd yn addas yn nechreuad ei deyrnasiad, ond nid â chalon gywir. Ar ol gorchfygu yr Edomiaid, dygodd eu delwau hwynt, ac a aeth yn addolwr iddynt. 2 Bren. xiv. Cafodd bymtheg mlynedd o lonyddwch; er hyny ni cheisiodd yr Arglwydd. Lladdwyd ef gan ei weision ei hun. 2 Cron. xxv.——2. Arch-offeiriad eilun-addolgar yn Bethel, yr hwn y prophwydodd Amos yn ei erbyn. Amos 7. 9—17.

AMBER, *Arab.* AMBAR, neu ANBAR; sylwedd defnyddiol, o liw melyn a dysglaer, o fath suddog; ei flas yn debyg i ystor, a'i arogl fel *turpentine*. Y mae cloddfeydd o hono mewn amryw fanau yn yr Almaen, Pwyl, &c., ond yr hwn a geir yn nhueddau Prwssia a dybir yn oreu. Y mae o ddefnydd mawr mewn cyfferi a chelfyddydau. Gwel *Cyclopædia*. Y mae math gwneuthuredig o amber, a wneir o aur a phres coeth. Myn Bochart, Le Clerc, ac eraill, mai hwn ydyw yr amber a grybwyllir yn yr ysgrythyr, Ezec. 1. 4. a 8. 2. a thrwyddo, hwyrach, fod dwy natur Crist yn cael eu gosod allan; gwerthfawrogrwydd ei Berson; a mawredd ac ardderchogrwydd ei allu a'i arglwyddiaeth. Eraill sydd yn cyfieithu y gair i arwyddo *marworyn tanllyd*; ac felly, geill osod allan Iesu fel dysgleirdeb gogoniant ei Dad; yn llosgi â zel i anrhydedd ei enw; cariad at eneidiau ei bobl, a digofaint yn erbyn ei elynion. Gwel Bochart, *vol.* iii. *p.* 871. a Parkhurst dan y gair חשמל——'O ganol y tân fel lliw amber.' Ezec. 1. 4, 27. a 8. 2.—חשמל כעין *fel llygaid amber*.—ηλεκτρον. LXX. Barna Bochart mai nid *amber* a feddylir wrth y gair, na *chrystal* chwaith, fel y barnodd rhai, ond metel gymysg o *aur ac arian*, neu *efydd ac aur*, yr hwn a elwir Pres Corinth (*Corinthian Brass*) yr hwn a ganmolir yn fawr gan yr hynafiaid am ei ddysgleirdeb hardd; a'r hwn pan roddir yn tân, a ddysgleiria yn fwy llewyrchus. Mae amber yn tywyllu ac yn toddi yn y tân. Bochart, *vol.* iii. *p.* 871. Dywed Scheuzcer (*Phys. Sacr.* ar Ezec. 1. 4.) fod y fath hyn o efydd harddwych yn adnabyddus yn yr India Ddwyreiniol wrth yr enw *Suassa*, ac a arferir i wneuthur modrwyau a phiolau i wyr mawrion. Y mae yn cynnwys yr un faint o aur ag o'r efydd cochaf. Cymh. Harmer's *Obs.*, *vol.* ii. *p.* 490.

AMCAN—ION—U, (am-can) arfaeth, cynghyd, bryd, bwriad; meddwl, meddylfryd; perwyl, tyb, llettyb. Preg. 3. 1, 17. Psalm 21. 11.—Bwrw amcan, dyfeisio.——'Yr ydwyf fi, gan hyny, yn rhedeg, nid megys ar amcan.' 1 Cor. 9. 26.—ως ουκ αδηλως, 'Nyd val yn anilys.' W. S. Y gair Groeg a arwydda, *anamlwg, allan o olwg*. Yr oedd y rhedegwyr, yn mhlith y Groegiaid, i redeg yn y campau gynt yn ol rheolau gosodedig, yn amlwg, yn ngwydd yr edrychwyr a barnwr y rhedegfa. Yr oedd y rhedegwyr i redeg, nid ar amcan, ond â'r nôd yn eu golwg, wrth y rheolau gosodedig, yn amlwg i'w gweled. Felly yr wyf finnau, medd yr apostol, yn rhedeg, nid ar amcan; ond y mae genyf nôd yn fy ngolwg, rheolau i redeg wrthynt; ac yr ydwyf yn rhedeg yn ngwydd dynion ac angelion, a Duw, Barnwr pawb. 1 Cor. 14. 9. 2 Tim. 2. 5. a 4. 7.

AMDO, (tô) gorchudd o bob tu; amwisg, amwisg i gorph marw. Ioan 11. 44. Matthew 27. 59. Marc 15. 46.

AMEN, *Heb.* אמן *Gr.* Αμην. Y gair *Heb.* a arwydda, diysgogrwydd, sefydlogrwydd, sicrwydd, parhad, dianwadalwch, ffyddlondeb. Arwydda y gwirionedd a draethir, ac hefyd sicrwydd gwirioneddol y traethawd o hono. Mae pethau dwyfol yn wirionedd

Digitized by Google

ynddynt eu hunain, pe buasent heb gael eu hamlygu erioed i ni; ond y mae y dadguddiad o honynt i ni hefyd yn wirionedd y Duw digelwyddog, yn yr holl gangenau a'r amgylchiadau o hono. Y mae yn cael ei arferyd yn aml fel geiryn o gadarnhad, neu gydsyniad; ac a arwydda, y mae yn wir, y mae yn sicr, bydded felly, felly y caiff fod. Deut. 27. 15. Num. 5. 22. 1 Bren. 1. 36. Y mae yn ein cyfieithiad ni, yn fynych, yn cael ei droi, *yn wir*. Arferir y gair *Gr*. Αληθως, *yn wir*, *yn wirioneddol*, gan yr efengylwyr yn yr un ystyr a'r gair *Amen*. Cymh. Mat. 16. 28. â Luc 9. 27. Marc 12. 43. â Luc 21. 3.

Y mae yn nodedig nad oes neb ond yr Arglwydd Iesu yn dechreu ei ymadrodd, gan arferyd y gair hwn, fel gwiriad neu sicrhad o'r hyn y mae yn ei lefaru. Yn efengyl Ioan, ac yn hòno yn unig, y mae yn dyblu y gair, fel yn fwy pwysfawr, yn ol yr arferiad Hebreaidd. Neh. 8. 6. Psalm 41. 13. a 72. 19. a 89. 52.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn galw ei hun, *o* Αμην, *yr Amen*. Dat. 3. 14. Cymh. Esa. 65. 16. 'Duw y gwirionedd.' *Heb*. DUW AMEN. Duw y gwirionedd yw yr Iesu; sylwedd y gwirionedd dadguddiedig; y Prophwyd anghyfeiliornadwy; y Tyst ffyddlon a chywir. Y mae nid yn unig yn dyst, ond yn dyst wedi ei dyngu. Yr holl addewidion yn Nghrist, ydynt IE ac AMEN: y mae efe wedi rhoddi ei Amen wrthynt oll: y maent gwedi eu cadarnhau â'i air a'i lŵ: ac wedi eu sicrhau yn anniddymadwy, trwy ei farwolaeth; ac wedi eu selio â'i Ysbryd. Ioan 14. 6. Rhuf. 9. 5. a 15. 8, 9. 1 Cor. 14. 46. Gal. 2. 17. Eph. 3. 1. 1 Tim. 1. 17.

Y dull o dyngu tystion yn mhlith yr Iuddewon oedd fel hyn:—Y barnwr a ddywedai wrth y tyst, 'Yr ydwyf yn dy dyngu i IEHOFAH, Duw Israel, neu i hwnw, yr hwn a gyfenwir TRUGAREDD;' a'r tyst a atebai, 'AMEN.' Gwedi i'r tyst ddywedyd Amen, yr oedd wedi ei dyngu. Felly y mae Crist yn galw ei hun, Y DUW AMEN—YR AMEN—sef, y tyst wedi tyngu; un yn dywedyd pob peth ar ei lŵ. Gwel Vitringa, *Obs., lib.* iii. *cap.* i. § 4, 5.

AMETHYST, *Groeg*, Αμεθυστος, [*difeddwi*, *a* ac μεθυω, neu μεθ, *gwin*] maen gwerthfawr amryw liw. Y mae amrywiaeth o honynt, ac i'w cael mewn amryw wledydd. Y farn gyffredin gynt oedd am yr amethyst, ei fod yn cadw rhag meddwi, yr hyn y mae ei enw yn ei arwyddo; am hyny y byddai yfwyr trymion yn arferol o'i wisgo yn grogedig wrth eu gyddfau; ond tybiaeth ddisail oedd hon. Hwn oedd y nawfed maen yn nwyfroneg yr arch-offeiriad, a'r deuddegfed yn sylfaen y Jerusalem newydd. Exod. 28. 19. Dat. 21. 20.

AMGEN, (can) onidê; oni bai hyny, mewn modd arall; yn wrthwyneb:—Nid amgen, nid yn wrthwyneb; neu, hyny yw. Exod. 32. 32. Marc 2. 21. 'Na byddo i neb uchel-synied yn amgen nag y dylid synied.' Rhuf. 12. 3.—'Na bo i neb ddyall uchlaw y dylir dyall.' W. S. a Dr M.——'Na byddo i neb synied am dano ei hun yn uwch nag y dylai synied.' Macknight. Na byddai i neb synied yn uwch am dano ei hun, ac yn is am eraill, nag y dylasai; ond synied yn gywir ac yn gyflawn, 'synied i sobrwydd,' ac ymddwyn yn gall ac yn ddefnyddiol yn ei sefyllfa, ac heb ymgais am sefyllfa a swydd uwch yn yr eglwys, nad oedd yn addas iddi. Neu beidio ymogoneddu yn yr hyn sydd ganddo, fel pe buasai heb ei dderbyn; neu beidio chwilio i bethau rhy uchel, nad oes ganddo allu oedd meddwl i edrych i mewn iddynt.

AMGENACH, (amgen) yn hytrach, mewn modd arall, yn well. 2 Cron. 30. 18. Phil. 3. 15. 1 Tim. 5. 25. a 6. 3.

AMGYFFRED, (cyffred) dirnad, cynnwys, argynnwys. 'Ni all nef y nefoedd amgyffred Duw.' 2 Cron. 2. 6. 1 Bren. 8. 27. Nis gall creadigaeth, yn ei holl ëangder, gynnwys y Creawdwr. Nid oes ond ei hunan a all ei gynnwys. Y mae y meddwl creadigol mwyaf cryf ac ëang, yn anfeidrol bell oddiwrth ei gynnwys; ond y mae ei ddeall yn aneirif; a meddwl anfeidrol yn unig a all gynnwys BOD anfeidrol. Y mae ei ddeall ef yn amgyffred ei hun i berffeithrwydd.—'Am gyffred cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth.' Eph. 3. 18. Ioan 1. 5. *Gr*. Καταλαμβανω, *derbyn*, *cymeryd i mewn*, *cymeryd gafael*; deall ac adnabod cariad Crist, yn nghyd â gafael ffydd arno. Y mae yr holl saint yn adnabod, yn deall, ac yn cymeryd gafael yn nghariad Crist, yn ei holl ëangderau anfeidrol, fel sylfaen ansigledig eu gobaith a'u dedwyddwch; a sylwedd eu caniadau tragywyddol. Ioan 3. 16. a 15. 13. 1 Ioan 3. 1. a 4. 16. Rhuf. 5. 8. Dat. 1. 5. Phil. 4. 7.

AMGYLCH, (cylch) cwmpas, yn nghylch, oddeutu, amgylch ogylch. Ezec. 37. 2. Dat. 4. 3. Exodus 25. 11. Esa. 40. 22.—'Amgylchyni fi â chaniadau ymwared.' Psalm 32. 7. a 139. 5. Ti a roddi i mi waredigaethau o bob tu—i gorph ac enaid—yn fy mherson ac yn fy amgylchiadau—yn dufewnol ac yn allanol—yn dymhorol, yn ysbrydol, ac yn dragywyddol—y rhai a barant i mi ganu o orfoledd a diolchgarwch. Exod. 15. 1. Psalm 30. 11. Dat. 7. 14. a 19. 1. 2 Sam. 22. 1.

AML, AMLDER, AMLDRA, AMLHAU, helaethrwydd, cyflawnder, lliosogrwydd; Hosea 9. 7. Ezec. 28. 18.—camweddau, Psalm 5. 10. Jer. 13. 22. —geiriau, Diar. 10. 19. a 11. 14.—heddwch, Jer. 33. 6. —trugareddau, Galar. 3. 32.—tywod, 1 Bren. 4. 20. 1 Sam. 13. 5.

AMLWG—YGU, (llwg) eglur, diorchudd, dilen, noeth; dynoethi; hawdd ei ddeall, ei ganfod, ei amgyffred. Deut. 29. 29. Diar. 8. 9. Mat. 6. 4. Ioan 11. 54. Preg. 3. 18.

AMMEU, AMMHEUON——US, (pau) petrus, petruso. Ioan 10. 24. Act. 5. 24. a 10. 17.

AMMI, עמי [*fy mhobl*] dodiad yr enw hwn ar y deg llwyth ar ol eu gwrthodiad, a arwydda y byddai i Dduw, yn y dyddiau diweddaf, eu gwaredu hwynt o'u trueni a'u caethiwed, a'u dwyn i berthynas gyfammodol âg ef ei hun. Hos. 2. 1.

AMMINADAB, אמינדב [*fy mhobl sy dywysogaidd*] 1. Mam Aram, o lwyth Judah, tad Naasou ac Elizeba, gwraig Aaron, yr arch-offeiriad. Exodus 6. 23.——2. Enw un o feibion Saul, a laddwyd gyd âg ef yn mrwydr Gilboa. 1 Sam. 31. 2.——3. Enw trigiannydd o Ciriath-jearim, Lefiad, gyd â'r hwn yr oedd yr arch yn nghadw, wedi ei dygiad yn ol o wlad y Philistiaid. 1 Samuel vii.——4. Mab Cohath, a brawd Corah. 1 Cronicl 6. 22.—'Cerbydau Amminadib.' Can. 6. 12. Nid yw hysbys pwy oedd yr Amminadib hwn. Y mae yn dangos yr â gweinidogaeth efengyl Crist i'r ardd gnau (sef eglwys yr Iuddewon) ac y deuant hwythau gyd â'r Cenedloedd, yn rhyddion ac yn ewyllysgar, i groesawu Crist; yna bydd pawb yn ewyllysgar, Ps. 110. 3. yn derbyn y gair gyda pharodrwydd meddwl. Act. 2. 41. a 17. 11. Pryd hwnw y bydd Crist fel cerbydau iddynt, i'w dwyn yn mlaen mewn gras, trwy weinidogaeth ei air; gan eu cadw hwynt, a dyfetha eu holl elynion. Esa. 66. 14, 15. Can. 6. 12.

AMMOD——AU, (bod) cyfammod, adduned, cynghrair, arfoll, cyfundeb. Exod. 23. 32. Hos. 2. 18. Job 31. 1. Edr. CYFAMMOD.

AMMON, עמון [*ei bobl*] neu BEN-AMMI, בן־עמי

[*mab fy mhobl*] Ben-ammi oedd fab Lot o'i ferch ieuengaf, a thad yr Ammoniaid. Yr oedd yr Ammoniaid yn gwladychu o du y dehau-ddwyreiniol i Galilea. Nid oedd yr un o'r Ammoniaid, mwy na'r Moabiaid, i ddyfod i fewn i gynnulleidfa yr Arglwydd, hyd y ddegfed genedlaeth; oblegid na chyfarfuant â'r Israeliaid â bara a dwfr yn y ffordd, wrth eu dyfod o'r Aipht, ac o achos cyflogi o honynt, sef y Moabiaid, Balaam i'w melldithio. 'Na chais,' medd Duw, 'eu heddwch hwynt, na'u daioni hwynt, dy holl ddyddiau byth.' Y mae yr Arglwydd yn dangos yn hyn, mor ffiaidd ganddo annhrugarogrwydd a chreulondeb yn mhawb, yn enwedig tu ag at ei bobl. Deut. 2. 29. Esaiah 63. 9. Zech. 2. 8. Act. 9. 4. Mat. 25. 45. Neh. 13. 1. Gen. 14. 18, &c. a 18. 1, 2. a 19. 1, 2. Esaiah 21. 14. Rhaid sylwi nad oedd y gorchymyn hwn yn cynnwys yn yr Israeliaid ysbryd digllon, maleisus, a dialgar, yr hyn sydd bechadurus, (Rhuf. 12. 17, 19.) nac yn gwahardd yr Ammoniaid i ymgais am iechydwriaeth eu heneidiau. 1 Tim. 2. 4. Ond y mae yr Arglwydd, fel llywodraethwr cyfiawn, yn gosod ar y ddwy genedl y nôd hwn o'i anfoddlonrwydd, am eu hanghymwynasgarwch a'u creulondeb; ac i gadw ei bobl rhag cael eu llygru trwy eu heilun-addoliaeth a'u moesau drwg. Eu prif ddinas oedd Rabbah: eu heilun-dduw oedd Moloch. Yr oeddynt yn elynion parhaus i'r Israeliaid. Gorchfygwyd hwynt gan Jephthah, Saul, a Dafydd, (Barn. x. 1 Sam. xi. 1 Cron. xix.) ac a'u dygwyd hwynt i gaethiwed gan Nebuchodonosor, yn ol prophwydoliaeth Ezeciel yn eu herbyn. Pen. 25. 10. Oblegid eu gorfoledd cywilyddus, yn ninystr Jerusalem, y rhoddodd yr Arglwydd hwynt yn etifeddiaeth i feibion y dwyrain, 'fel na chofier meibion Ammon yn mysg y Cenedloedd.' Jer. 9. 25, 26. a 25. 21, 27. a 49. 1—4. 'Clywais waradwyddiad Moab, a chabledd meibion Ammon, â'r hwn y gwaradwyddasant fy mhobl; am hyny, fel mai byw fi, medd Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, fel Sodom y bydd Moab, a meibion Ammon fel Gomorrah.' Seph. 2. 8—11.

**AMMHARCH.** Edr. Anmharch.

**AMMHAROD.** Edr. Anmharod.

**AMMHLANTADWY.** Edr. Anmhlantadwy.

**AMMHOSIBL.** Edr. Anmhosibl.

**AMMHUREDD.** Edr. Anmhuredd.

**AMMHWYLLO.** Edr. Anmhwyllo.

**AMMRWD.** Edr. Anmrwd.

**AMNAID—EIDIO,** (naid) *Groeg* νευμο; *Lladin* Nutus; *Saes.* Nod: munud, awgrym; awgrymu; arwydd a wnelo un â'i lygaid neu ei ben. 'Efe a amneidia â'i lygaid:' Diar. 6. 13.—amrantu, ysmician; רמז *ysgogi, symud*, fel un yn symud ei wefusau mewn myfyrdod ar ryw beth. Y dyn i'r fall, y gwr anwir, sydd mor lawn o ddrwg, fel nas dichon fod yn llonydd heb yn mhob modd geisio tynu eraill i ddrygioni. Y mae amnaid y llygaid yn arwydd naill ai o gariad, neu o dwyll dirgel, ac anniweirdeb, neu gasineb a gelyniaeth. Psalm 35. 19. 'Y neb a amneidio â'i lygaid a bair flinder.' Diar. 10. 10. Y mae dynion twyllodrus rhagrithiol yn arferyd llawer o ystrywiau ac ystumiau corphorol, er twyllo eraill, a chyflawni eu hamcanion pechadurus eu hunain; trwy y cwbl, parant flinder lawer i eraill, a dinystr yn y diwedd iddynt eu hunain.—'Ac a amneidiodd â'i law ar y bobl.' Act. 21. 40. Rhoddodd arwydd neu awgrym â'i law.

**AMNER,** (nêr) pwtner, alwar, côd. 'Gwnewch y-chwy *amneras* a'r ny's hen eiddiant.' Luc 12. 33. ——'Anyd am y vot ef yn lleidr, a' bot yr amner ganthaw.' Ioan 12. 6. W. S.

**AMNON,** אמנון neu אמינון [*ffyddlawn*]. 1. Mab Dafydd o Ahinoam ei ail wraig, yr hwn, yn anghyfreithlawn, a chwennychodd ei chwaer Tamar, a'i treisiodd, ac wedi hyny a'i casâodd. Absalom, yn mhen dwy flynedd wedi hyn, a wnaeth wledd, lle y parodd i'w weision ladd Amnon yn ei feddwdod. 2 Sam. xiii. ——2. Mab Simeon. 1 Cron. 4. 20.

**AMON,** אמון [*cywir*] 1. Llywodraethwr Samaria, yr hwn y gorchymynodd Ahab iddo garcharu y prophwyd Michea, hyd oni ddychwelai efe adref yn iach o ryfel Ramoth Gilead. 1 Bren. 22. 26.——2. Mab Manasseh, y pedwerydd brenin ar ddeg ar Judah. Teyrnasodd ddwy flynedd, gan ddilyn siampl Manasseh ei dad, a gwneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd. Ei weision a'i lladdasant yn ei dŷ ei hun, a Josiah ei fab a deyrnasodd yn ei le. 2 Bren. xxi.——3. Un arall o'r enw oedd un o'r blaenoriaid yn y dychweliad o'r caethiwed. Ezra 2. 57. Neh. 7. 59. Amon-no. Edr. No.

**AMOR—IAID,** אמר [*gwrthryfelgar*] eppil Amor, pedwerydd mab Canaan. Llawer o honynt oeddynt gawri uchel fel cedrwydd, a chedyrn fel derw. Amos 2. 9. Yr oedd ganddynt deyrnasoedd cryfion o du y dwyrain i'r Iorddonen, dan lywodraeth Sehon ac Og. Moses a'u gorchfygodd hwynt, ac a roddes eu tiroedd yn etifeddiaeth i'r Gadiaid, y Reubeniaid, a hanner llwyth Manasseh. Deut. 1. 44. Jos. xii. Gan mai yr Amoriaid oedd y rhai galluocaf o'r llwyth, gelwid y Canaaneaid eraill, weithiau, ar eu henw hwynt. Barn. 6. 10. 2 Bren. 21. 11. Rhïeni y genedl Iuddewig a osodir allan megys Amoriaid a Hethiaid, neu Hittiaid: yr oeddynt mor annheilwng ger bron Duw, ac mor ddrygionus ynddynt eu hunain, a'r ddau lwyth gwaethaf o'r Canaaneaid. Canaanead oedd gwraig Judah, mam Selah, a Tamar mam Phares a Zara. Gen. xxxviii. Ezec. 16. 3.

**AMOS.** Y mae dau o'r enw; sef Amos tad Esaiah, ac Amos, y pedwerydd o'r prophwydi lleiaf. Y mae yr enwau yn yr iaith Hebraeg yn wahanol, ac o wahanol arwyddocâd: אמוץ *Amots*, ydyw tad Esaiah, ac yn arwyddo *cryf, gwrol*; enw y llall yw עמוס *Amos* neu *Omos*, ac yn arwyddo *trwm, llwythog*. Nid oedd Amos na phrophwyd na mab i brophwyd; hyny yw, nid ydoedd nac athraw na dysgybl yn un o ysgolion y prophwydi; namyn 'bugail oedd, a chasglydd ffrwythydd yn Tecoah,' dinas fechan yn Judah, yn nghylch deuddeg milltir o Jerusalem, a chwech o Bethlehem. Cododd yr Arglwydd y bugail gwladaidd hwn o Tecoah, i fod yn brophwyd, er darostwng balchder yr Iuddewon, trwy anfon bugail i'w hargyhoeddi; ac hefyd, i ddangos y gall Duw ddefnyddio offerynau gwael, fel y deuddeg pysgodwr o Galilea, wedi hyny, i ddwyn ei amcanion i ben. 1 Cor. 1. 27, 28, 29. Prophwydodd yn erbyn Israel a Judah (Israel yn benaf) yn nyddiau Uzziah, brenin Judah, a Jeroboam mab Joas, brenin Israel; yr oedd, gan hyny, yn cydoesi â Joel a Hosea. Amseroedd oeddynt o lwyddiant a hawddfyd ar y genedl; ac hefyd o lwgr a dirywiad cyffredinol—o eilun-addoliaeth—ac o drais a gorthrymder. Cyhoeddodd farnedigaethau Duw, yn llym, yn erbyn Israel, yn enwedig yn erbyn Jeroboam a'i deulu. Amaziah, offeiriad Bethel, a'i gwrthwynebodd, gan ei gyhuddo o gyd-fwriadu i'w erbyn, yn nghanol tŷ Israel. 'Canys fel hyn y dywed Amos, Jeroboam a fydd marw trwy y cleddyf, ac Israel a gaethgludir yn llwyr allan o'i wlad.' Pen. 7. 10, 11. 'Na chwanega brophwydo,' medd efe, 'yn erbyn Bethel mwy; canys capel y brenin, a llys y brenin yw.' Ond Amos, ffyddlawn i'w alwad, yn ddiarswyd a draddododd y genadwri a gafodd oddi-

Digitized by Google

wrth Dduw, er trymed, ac er mor annerbyniol ydoedd, yn erbyn tŷ Jeroboam, a chenedl Israel, a chyhoeddodd wae yn erbyn Amaziah ei hun. Pen. 7. 16, &c. Y mae rhai yn barnu iddo gael ei ladd gan Amaziah. Y mae yn diweddu ei brophwydoliaeth gyd âg addewidion gwerthfawr o adferiad i'r Iuddewon, a chasgliad y Cenedloedd at Grist, ac yn rhoddi golwg ogoneddus ar lwyddiant yr eglwys yn y dyddiau diweddaf. Pen. 9. 13, 14, 15. Er ei gymeryd o fysg bugeiliaid Tecoah, etto yr oedd yn ymadroddwr ardderchog a grymus, fel y tystiolaetha ei ddesgrifiad uchel-wych a dyrchafedig o fawrhydi yr Arglwydd, ac o'r eglwys yn ei llwyddiant a'i gwychder mawr ar y ddaear. Pen. 4. 13. a 9. 13, 14.——3. Tad Mattathias. Luc 3. 25.

AMPLIAS, αμπλιας [*mawr*, *helaeth*] cyfaill Paul. Rhuf. 16. 8.

AMPHIPOLIS, αμφιπολις [*dinas wedi ei hamgylchu*] dinas yn Macedonia, a adeiladwyd gan yr Atheniaid, o gylch 470 cyn Crist. Bu Paul a Silas trwyddi ar eu taith o Philippi i Thessalonica; ond nid ydym yn darllen am un eglwys Gristionogol yno. Act. 17. 1. Y mae yn bresennol yn meddiant y Twrc, ac a elwir Emboli.

AMRAFAEL—GAR—ION, (rhy-gafael) ymryson, dadl; ymddadleu, ymgecru, ymgiprys, anghydfod. Y mae y gair *Groeg*, σχισματα, sydd yn cael ei gyfieithu *amrafaelion* yn 1 Cor. 11. 18. yn arwyddo yr un peth ag *ymraniadau*. Effeithiau eu hymrafaelion oedd eu hymraniadau. Deut. 17. 8. a 19. 17. Mat. 10. 35.

AMRAM, עמרם [*pobl ddyrchafedig*] 1. Mab Cohath, tad Moses, Aaron, a Miriam; bu farw yn yr Aipht, yn 137 o'i oed. Exod. 6. 20.——2. Mab Bani. Ezra 10. 34.

AMRANT—AU—U, (gran) caead y llygad; cythrym. 'Mae llygaid y lefiathan fel amrantau y boreu;' neu fel llewyrchiad goleuni boreuol, yn ddysglaer ac yn danllyd. Job 41. 19. Mae 'amrantau Duw yn profi meibion dynion.' Psalm 11. 4. Sef yn sylwi arnynt gyd â'r manylrwydd mwyaf; fel un yn meinhau, ac yn cauad, agos, ei amrantau, i graffu yn fwy trwyadl a manwl ar ryw wrthddrych y byddo yn syllu arno. Felly y mae Duw yn profi ei bobl; sef yn eu hadnabod yn drwyadl, ac yn eu coethi, ac yn eu puro oddiwrth eu holl sothach, a'u brychau, gyd â'r manylrwydd mwyaf, ac i eithaf perffeithrwydd. Psalm 23. 13. a 34. 15, 16. a 66. 7.——Rhoddir amrantau, weithiau, am y llygaid. Psalm 132. 4. Diar. 6. 25. Edr. LLYGAID.

AMRYFUS—EDD, (rhy) camsyniol, cyfeiliornus; camsynied, cyfeiliornad, twyll. Lladd cymydog yn amryfus, ydyw ei ladd mewn camsynied, heb fwriad drwg yn ei erbyn. Deut. 4. 42. Y gair *Heb.* שגגה a arwydda *cyfeiliorni*, *myned allan o'r ffordd*, a gyfieithir *amryfus* yn Ezra 4. 22. Job 19. 4. Ezec. 45. 20. Nid pechu yn fwriadol, ond trwy wendid, anwybodaeth, a chamsyniad. Yr un gair a arferir yn Num. 15. 22. Job 6. 24. Diar. 5. 23. Esa. 28. 7. ac a gyfieithir yn y manau hyn, 'myned dros y ffordd —camgymeryd—cyfeiliorni.' 'Amryfusedd cadarn.' Ενεργειαν πλανης, hyny ydyw, *nerthol weithrediad cyfeiliornad*, i gredu celwydd. 2 Thes. 2. 11. Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd, y mae Duw yn anfon iddynt amryfusedd cadarn i gredu celwydd, trwy oddef Satan a gau-athrawon i gyhoeddi eu cyfeiliornadau, i hudo dynion oddiwrth y gwirionedd, yr hwn nid oeddynt o'r blaen yn ei garu. Dyma farn ysbrydol ar ddynion, o'r fath drymaf; ag sydd, y rhan amlaf, yn rhagflaenu dinystr tragywyddol. Mae y diafol yn gweithio yn gadarn trwy gyfeiliornadau, i beri i ddynion gredu y celwyddau mwyaf direswm, croes i bob ymddangosiad, a holl synwyrau dynoliaeth; megys athrawiaeth y traws-sylweddiad, &c., yn mhlith y Pabyddion. Yr oedd yn rhaid i bob arch-offeiriad fod yn medru tosturio wrth y rhai a fyddai mewn anwybodaeth ac amryfusedd, neu gyfeiliornad, ac allan o ffordd y gwirionedd (πλανης, *cyfeiliornad o ffordd y gwirionedd*). Rhuf. 1. 27. Iago 5. 20. 2 Petr 2. 18. a 3. 17. Judas 11. Mat. 27. 64. 1 Thes. 2. 3. Yn y lle diweddaf cyfieithir ef *hudoliaeth;* ond buasai y gair *cyfeiliornad* cystal, ac yn agosach cyfieithiad o'r gair Groeg. Y rhai, trwy rym temtasiynau, a hudwyd allan o ffyrdd uniawn ufudd-dod a sancteiddrwydd, i grwydro yn eu ffyrdd gwyr-gam eu hunain. Y mae yn rhaid i'r arch-offeiriad fod yn medru tosturio wrth y cyfryw, am ei fod yntau hefyd gwedi ei amgylchu â gwendid. Er nad oes un gwendid pechadurus yn Iesu, ein Harch-offeiriad mawr ni, etto medr gyd-ddyoddef â'n gwendid ni, a chynnorthwyo y rhai a demtir. Heb. 2. 18. a 4. 15. a 5. 2.

AMRYW, (rhyw) aml un; gwahanol. Gwaherddir yn nghyfraith Moses i anifeiliaid gydio o amryw rywogaeth; hau y maes âg amryw hâd; na gwisgo dilledyn cymysg o lin a gwlan. Lef. 19. 19. Deut. 22. 9. Mat. 9. 16, 17. Rhuf. 11. 8. Gal. 3. 9. Nid annhebyg fod y rheolau hyn wedi eu rhoddi i'r Iuddewon, yn ymarferiadol, i'w cadw rhag rhyw ffieidddra neillduol, cynnefin yn mhlith y Cenedloedd eilunaddolgar. Gwel Parkhurst. Tebygol hefyd, fod yr Arglwydd, wrth y cyfryw reolau, y rhai oeddynt yn ymarferol i'r Iuddewon yn unig, ond ydynt hefyd yn addysgiadol, yn ein dysgu i arfer symlrwydd ac unffurfiad yn mhob peth; ac i ochelyd cymysgedd o bob math yn ein hymarferiadau priodasol a chyfrinachol. 2 Cor. 6. 14. Ac na roddir dim at gyfiawnder Crist, fel defnydd ein cyfiawnhad ger bron Duw.—'Nac aed *am danat* ddilledyn cymysg o lin a gwlan.' Lef. 19. 19. Mae y llin a'r gwlan yn ddefnyddiol; ond nid cyfreithlawn eu cymysgu mewn dilledyn. Y mae pob peth yn dda yn eu priodol leoedd; ond cyfiawnder Crist yn unig, ac yn ddigymysg, sydd i fod yn ddilledyn, neu yn wisg am danom ni ger bron Duw. Rhuf. 5. 19. Dat. 19. 6. Mat. 19. 16, 17. Rhuf. 11. 8. Gal. 3. 9. Y mae yn ngoruchwyliaethau grasol Duw tu ag at ei eglwys, 'fawr amryw ddoethineb Duw:' doethineb, πολυποικιλος, *yn lliosog mewn amrywiaeth*; doethineb yn y dyben grasol; doethineb yn y dewisiad o'r moddion, yr amseroedd, a holl amgylchiadau y cyflawniad o'r dyben hwnw. Doethineb dwyfol ydyw, gwedi ei osod allan yn ei holl amrywiaeth gogoneddus, er syndod tragywyddol a gorfoledd y tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd. Eph. 3. 10. Esa. 52. 15. Col. 1. 16. a 2. 15. . 1 Petr 1. 12. a 3. 22. Esa. 55. 9. Rhuf. 11. 30. Y mae doethineb dwyfol yn y drefn ryfedd hon wedi gorchfygu a rhagori ar holl ddichellion a chyfrwysdra yr hen sarph dros byth. Ni feddyliodd erioed fod yn bosibl heddychu Duw cyfiawn a phechadur anghyfiawn â'u gilydd; a Duw yr un pryd yn cael ei anrhydeddu i'r graddau mwyaf. Ond 'Duw a ymddangosodd yn y cnawd,' ac a ddygodd hyn i ben. 1 Petr 3. 18. 1 Tim. 3. 16.——Mae y duwiolion 'yr awrhon mewn tristwch, trwy amryw brofedigaethau.' 1 Petr 1. 6. Nid un rhyw o brofedigaethau sydd yn eu cyfarfod hwynt, ond amryw:— profedigaethau yn dufewnol ac yn allanol; ar eu cyrph ac ar eu heneidiau; yn eu personau—eu perthynasau —a'u meddiannau; oddiwrth Dduw, ac oddiwrth y diafol; oddi wrthynt eu hunain, ac oddiwrth eu brodyr; trwy ymdrechiadau, a dyoddefiadau oddiwrth y byd, y cnawd, a'r diafol; wrth fyw ac wrth farw. Ond er hyny, y mae iddynt fawr achos o lawenydd; canys, eu profi yr ydys, ac nid eu dystrywio; a bydd profiad eu ffydd er mawl, anrhydedd, a gogoniant, yn ym-

Digitized by Google

ddangosiad Iesu Grist. Rhuf. 5. 2, 3. Job 23. 10. Iago 1. 2. Esa. 54. 7. 1 Cor. 4. 11. Zech. 13. 9. Rhuf. 8. 17.

**AMSER—OL**, (ser) tymhor, tymp, pryd, oed, oes, adeg, oedfa, enyd, seibiant; amser cyfaddas i gwblhau gweithred.

*Amser* i fwyd, ac *amser* i olychwyd. *Diar.*

'Calon y doeth a edwyn amser a barn:' Preg. 8. 5. efe a ŵyr pa beth a ddylai gael ei wneuthur, a'r amser goreu i'w wneuthur. Paul a gynghora y credinwyr i 'brynu yr amser, oblegid y dyddiau sydd ddrwg:' Eph. 5. 16. hyny yw defnyddio pob cyfleusdra a roddir i ni gan yr Arglwydd, er gogoniant i Dduw, ac er lles i ni ein hunain, ac eraill; a dyblu ein diwydrwydd, o o herwydd yr oedfaon a afradasom yn nghylch pethau y byd.——'Y doethion oedd yn gwybod yr amserau:' Esther 1. 13. sef historïawyr ac arwydd-feirdd, a wyddent ystoriau, cyfreithiau, ac achau y Persiaid.——'Ni pherthyn i chwi wybod yr amserau na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun:' Actau 1. 7. sef yr amser y sefydlid teyrnas Crist, ac y gwaradwyddid ei elynion. Tybient hwy mai amserol a thymhorol oedd teyrnas y Messïah: ond yr Ysbryd Glân a ddangosodd iddynt na ddeuai ei deyrnas ef yn berffaith cyn diwedd amser.——'Cyfnewidier saith amser arno;' Dan. 4. 16. hyny yw, saith mlynedd.——'A ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser?' Mat. 8. 29. sef cyn dydd y farn; yr amser y teflir y cythreuliaid i'r tân tragywyddol, a barotowyd iddynt. ——'Pan ddaeth cyflawnder yr amser;' Gal. 4. 4. sef amser dyfodiad y Messïah, a ordeiniasai Duw.——'Yn dy law di y mae fy amserau:' Ps. 31. 15. sef fy einioes, gofidiau a llwyddiant fy mywyd.——'Mewn amser, allan o amser:' 2 Tim. 4. 2. hyny yw, pob oedfa, pob cyfleusdra.——Dyoddefiadau y saint a elwir yn 'ychydig amser:' Dat. 6. 11. a 20. 3.——'Amseroedd gorphwys, ac adferiad pob peth:' Actau 3. 19, 20. Y dydd olaf, pan lawn gysura Duw ei bobl, ac yr adfera efe yr holl greadigaeth i'w phurdeb a'i hanrhydedd cyntaf. Rhuf. 8. 21, 22, 23.——'Amser bywiolaeth:' Gen. 18. 10, 14. sef naw mis o feichiogrwydd.——'Yr amseroedd diweddaf:' 1 Petr 1. 20. sef naill ai y rhan ddiweddaf o amser y byd, ai holl amser yr efengyl: yn neillduol pan oedd y defodau Iuddewig ar gael eu diddymu: Esa. 2. 2. Mic. 4. 1. 1 Ioan 2. 18. neu y rhan olaf o amser Cristionogaeth, a osodir allan yn amseroedd peryglus, pan y bydd llawer o watwarwyr a gau broffeswyr. 1 Tim. 4. 1. 2 Tim. 3. 1,—5. 2 Petr 3. 3. Sonir hefyd am 'amser yr addewid:' Act. 7. 17.—adfyd; Jer. 2. 27. a 15. 11.—blinder; Jer. 30. 7.—cyfyngder; Diar. 24. 10.—cystudd; Esaiah 33. 2.—drwg; Amos 5. 13. Mic. 2. 3.—digofaint; Jer. 18. 23.—diweddaf; 1 Petr 1. 5. 1 Tim. 4. 1.—ffrwythau; Mat. 21. 34. Marc 12. 2.—geni a marw; Preg. 3. 2.—terfynedig; Job 7. 1.—ymddattodiad; 2 Tim. 4. 6. Edrych dan yr amrywiol eiriau.

**AMWISG—O—OEDD**, (gwisg) gwisg am un; gorchudd, amdo. 'Ioseph—ac ei tynnawdd ef i lawr, ac ei amwiscawdd yn y lliain, ac ei dodes ef mewn monwent a na ddesit o graic.' Marc 15. 46. W. S.

**AMYN**, (myn) ond, onid, oddieithr. Mat. 18. 12. Luc 15. 4.

**AMYNEDD—AU**, (myn) ymynedd, dyoddefgarwch, goddefedd, ymaros.

Ni cholles mam *amynedd*. *Diar.*

*Gr.* *υπομενω*—*υπο* ac *μενω*, *aros dan*: hyny ydyw, goddef a sefyll dan lwyth o ofidiau, erlidigaethau, a gorthrymderau, mewn ffydd ac amynedd. Mat. 10. 22. a 24. 13. Rhuf. 12. 12. 1 Cor. 13. 7. 2 Tim. 2. 10, 12. Heb. 12. 1, 2. Y gair a arwydda, dyoddef gofidiau gyda llonyddwch, a boddlondeb meddwl; heb derfysgu, cythruddo, a digaloni; heb ogwyddo i arfer ffordd anghyfreithlawn i gael gwaredigaeth.—'Rhaid i chwi wrth amynedd.' Heb. 10. 36. Ni bydd dysgyblion Crist byth mewn amgylchiadau, yn y byd hwn, na bydd raid iddynt wrth amynedd, i ymddwyn yn addas er gogoniant Duw, a'u llesâd eu hunain. Bydd rhyw flinderau, croesau, a gorthrymderau, yn eu cyfarfod, yn ddyfal beunydd; ac heb amynedd danynt, collant eu lle yn mhob peth. Ni bydd ffydd, cariad, a hyfrydwch yn Nuw, ar waith ynddynt, heb amynedd. Rhaid wrth amynedd, yn 1. I wneuthur ewyllys Duw.—2. I ddyoddef ewyllys Duw; ac wedi gwneuthur a dyoddef ewyllys Duw, rhaid wrth amynedd, 3. I ddysgwyl nes y derbyniont yr addewid, sef y fendith addawedig. Heb. 6. 15. a 10. 36. a 12. 1, 2. Luc 8. 15. Gal. 6. 9. Rhuf. 12. 12. Iago 5. 7, 8. 1 Petr 2. 20. 2 Cor. 6. 4. 2 Thes. 1. 4. 1 Tim. 6. 11. Titus 2. 2.

'Caffed amynedd ei pherffaith waith.' Iago 1. 3, 4. Bydded i bob math ar amynedd weithredu ynoch hyd y diwedd: gweithreded amynedd yn gyflawn ac hyd y diwedd. Y gradd isaf o amynedd a ymddengys mewn ymostyngiad dystaw i ewyllys Duw: 'Aethym yn fud, ac nid agorais fy ngenau; canys Ti a wnaethost hyn.' Ps. 39. 9. Yr ail radd yw, ymfoddloni, gyda diolchgarwch, dan y cerydd, neu y blinderau presennol arnynt; yn gwaeddi gyda Job, 'Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd.' Job 1. 21. Lef. 26. 41. Y trydydd gradd, ac amynedd wrth ei pherffaith waith, ydyw, 'cyfrif yn bob llawenydd, pan syrthiom mewn amryw brofedigaethau.' Iago 1. 2. Rhuf. 5. 2, 3. Heb. 8. 34. Act. 5. 41.

'Yn eich amynedd meddiennwch eich eneidiau.' Luc 21. 19. Εν τη υπομενη υμων κτησασθε τας ψυχας υμων; *trwy eich parhad cedwch eich eneidiau.* Campbell. Y mae dyn heb amynedd dan groesau a blinderau, heb feddiant o hono ei hun, na llywodraeth arno ei hun. Nid ydyw ei feddwl ganddo i ymofyn am gynnaliaeth danynt, ac i olygu y moddion mwyaf tebygol ac effeithiol i'w waredu o honynt; ond fel tarw gwyllt mewn magl, y mae yn rhuo, yn ymladd, ac yn ymboeni. Golwg trwy ffydd ar ein pechadurusrwydd, a'n drwg haeddiant—ar fawredd a pherffeithrwydd Duw—ei ddoethineb, ei ddaioni, a'i gariad anfeidrol, yn rhoddi ei Fab drosom—yn nghyd â diwedd llesol a gogoneddus ein holl gystuddiau, a duedda i'n gwneyd yn amyneddgar danynt oll.—Un o ffrwythau yr Ysbryd yw 'hir-ymaros.' Yr Ysbryd sydd yn ei genedlu, yn ei fagu, a'i feithrin, trwy wirioneddau y gair; ac yn ei nerthu i rodio wrth y rheolau sanctaidd hyny. Y mae yn ei natur a'i effeithiau yn hollol wahanol oddiwrth ddideimladrwydd haerllug, gwroldeb cnawdol, neu ddifaterwch dioglyd.

'Duw yr amynedd a'r dyddanwch.' Rhuf. 15. 5. Gelwir ef felly oblegid ei ddyoddefgarwch a'i ymaros tu ag at ei greaduriaid. Ps. 86. 15. a 103. 8. a 145. 8. Exod. 34. 6, 7. Num. 14. 18. Neh. 9. 17. Jonah 4. 2. Joel 2. 13. Nah. 1. 3. 2 Petr 3. 9. Y mae amynedd yn Nuw yn hanfodol, ac yn tarddu o'i ddaioni a'i drugaredd; ac yn cael ei ddangos tu ag at bechaduriaid heb ddim niwed i'w gyflawnder a'i sancteiddrwydd, ar sail cyfryngdod ac aberth Crist. Gelwir ef yn 'Dduw yr amynedd,' am fod amynedd yn briodol iddo, mewn modd enwog a phriodol iawn. Y mae ei amynedd yn anfeidrol, fel efe ei hun; ac oddi wrtho ef y mae amynedd yn deillio i bawb eraill: ond nid ydyw amynedd pawb yn nghyd, ond fel diddim mewn cymhariaeth i'w amynedd ef. Y mae ynddo *olud* o ddaioni a dyoddefgarwch. Y mae efe yn dyoddef byd o bechaduriaid, mewn eithaf gelyniaeth a gwrthryfelgarwch yn ei erbyn, bob mynyd. Y mae holl bechodau pechaduriaid fel cynnifer a hyny o annogaethau iddo ddial arnynt—y mae pechodau pob un yn aneirif—y mae nifer y pechaduriaid yn aneirif—y maent i gyd yn

Digitized by Google

pechu ar unwaith, a hyny yn ddidor: geill Duw yn gyfiawn ac yn hawdd eu dinystrio hwynt; ond y mae yn ymarhous ac yn ddyoddefgar. Y mae yn rhybuddio cyn cospi; ac wedi rhybuddio, y mae yn hir oedi, yn aml, i edrych a lwydda y rhybydd. Pan y mae yn cospi, 'nid yn ol ein pechodau y gwna efe â ni; ac nid yn ol ein hanwireddau y tâl efe i ni.' Psalm 103. 10. Ezra 9. 13. Y mae ei farnedigaethau yn gymysgedig â thrugareddau lawer, yn y byd hwn; ac, yn gyffredinol, mae yn eu tywallt yn raddol, pla ar ol pla, fel y gwnaeth ar Pharaoh, ac nid yn tywallt ei holl bläu ar unwaith. Deut. xxviii. Gen. 6. 8. a 15. 13, 16. Lef. 26. 28. Exod. v. Actau 13. 18. a 17. 30. Luc 13. 6, 9. Dat. 2. 21. a 13. 6. a 18. 8.

'I ymaros am Grist,' neu (υπομονην του Χριστου) *amynedd Crist*. 2 Thes. 3. 5. Sef, yr amynedd a ddangosodd Crist dan ei holl ddyoddefiadau a'i waradwyddiadau; megys (υπομονην Ιωβ) *amynedd Job*, yn ei holl ofidiau mawrion. Iago 5. 11. Trwy amynedd y rhedodd ei yrfa ryfedd, gan ddyoddef y groes, a diystyru gwaradwydd, gan adael i ni siampl fel y canlynem ei ôl ef. Heb. 12. 1, 2. 1 Petr 3. 21. Yn Mherson Crist gallwn weled 'Duw yr amynedd' yn byw ac yn rhodio yn amlder ei rym, heb lithro mewn dim. Cyfarfu â phob peth tueddol i gynhyrfu ac ennyn ei lid; ond ynddo cafodd amynedd ei pherffaith waith; canys Duw yr amynedd ydoedd. Yn wyneb Iesu Grist, y gwelir gogoniant y briodoledd hon yn Nuw, yn ei holl gyflawnder o berffeithrwydd anfeidrol. Dat. 1. 9. Gwel Doddridge. Macknight *in loc.*—— Geilw Crist yr efengyl, 'Gair ei amynedd.' Dat. 3. 10. Y gair sydd yn dadguddio amynedd Crist—y gair, trwy gredu pa un y mae i ni feddiannu y gras o amynedd—y gair, yr hwn y mae yn rhaid i ni wrth amynedd i lynu yn y broffes o hono hyd y diwedd. Gan fod yn rhaid i holl ganlynwyr Crist ddwyn y groes, am hyny rhaid iddynt wrth amynedd i'w dwyn. Gan fod gorthrymderau, rhaid fod amynedd hefyd bob amser yn nglŷn wrth deyrnas Crist. Dat. 14. 22. Edrych ADDFWYNDER, DYODDEFGARWCH, YMAROS.

AN, gorair difeddedigol, nac. Arferir ef fel arddod nacäol, yn aml, yn nghyfansoddiad geiriau; megys *anhardd*, *anhawdd*, *anhyfryd*, *&c.* 1 Cor. 12. 23. Gen. 18. 14. Heb. 12. 11.

ANAC, ענק [*hir-yddfog, addurn, torch*] cawr; tad yr Anaciaid, pobl liosog iawn yn trigo yn Hebron, Debir, Anab, &c. Jos. 11. 21. Eu golygon creulawn, a'u maintioli dirfawr, a fawr ddigalonodd yr yspïwyr anghrediniol, y rhai a anfonodd Moses i edrych ansawdd gwlad yr addewid. Num. 13. 28, 33. Yn nghylch pum mlynedd a deugain gwedi hyn, cafodd Caleb grediniol eu dinas benaf hwynt yn etifeddiaeth iddo ei hun. Jos. 14. 6—15.

ANACH—AU, (ach) achos, rhwystr. 'S. Paul wedy i rwystro gan iawn anachae.' *Argvment yr yr ail Epistol at y Corinthieit.* W. S.

ANAD, (ad) arbenig, penaf. Yn anad dim, sef yn benaf dim.—'Mor llygredig oedd ei wedd yn anad neb,' neu mwy nag un dyn. Esa. 52. 14. Y mae y geiriau yn ddarluniad o Grist yn ei ystâd o ddarostyngiad yn y byd. Diammeu fod golwg ryfedd arno pan ddygodd Pilat ef allan, yn arwain y goron ddrain a'r wisg borphor, ac y gwaeddodd Pilat wrth yr Iuddewon, 'Wele y dyn!' Ioan 19. 5. Ps. 22. 6. Esa. 53. 3.

ANADDFED. Edr. ADDFED.

ANADL—U, *Heb.* אנף (*anaph*) *Gr.* ανεμος (*anemos*) *Llad.* ANHELITUS: ffun, chwyth, awel, awelgyrchiad. Jos. 10. 40. Job 9. 18. Actau 17. 25. Edr. YSGYFAINT.—Ein bywyd naturiol sydd yn cael ei alw anadl; trwy anadlu y mae efe yn cael ei gynnal; ac megys chwa, neu awel o wynt, y mae yn fuan yn myned heibio, ac yn diffoddi. Ps. 79. 39. a 104. 29. a 146. 4. Esa. 2. 22.——'Anadl Duw,' yw ei Ysbryd, yr Hwn sydd yn deillio oddiwrth y Tad a'r Mab, trwy yr Hwn y mae yn trosglwyddo bywyd i'w greaduriaid. Ps. 33. 6. a 104. 30.——Wrth 'Dduw yn anadlu,' y meddylir creu enaid yn nghorph dyn. Gen. 2. 7.——'Crist yn anadlu;' sef rhoddi doniau yr Ysbryd Glân. Ioan 20. 22.——'Anadl yr Ysbryd,' (gwynt) ar yr esgyrn sychion, sydd yn arwyddo rhoddiad zel, hyfder, a gobaith, i gaethion Babilon; rhoddi bywyd ysbrydol a bywiogrwydd, yn yr holl etholedigion; bywhau ac adgyfodi cyrph y saint yn y dydd olaf. Ezec. 37. 9.——Y mae Zedeciah yn cael alw, 'anadl ffroenau' yr Iuddewon; gan mai trwy gynnorthwyon breninoedd y mae ein bywyd yn cael ei ddiogelu yn gysurus. Galar. 4. 20.

ANADNABYDDUS, (adnabod) dyeithr; anhysbys; yr hyn nid ydys yn ei adnabod.—1. Bod heb ymgyfeillachu âg. Actau 17. 23.——2. Bod heb barch a mawredd. Paul a'i gyd-bregethwyr oeddynt megys yn anadnabyddus gan y byd, yn eu cyflwr ysbrydol, a'u llafur-waith; ac oeddynt yn annerbyniol ac yn ddigyfrif gan ddynion cnawdol; eithr yn adnabyddus ac yn dderbyniol gan Dduw. 2 Cor. 6. 9.

ANAELE, (an-ael) erchyll, echryslawn, dychrynllyd; poen, neu friw anfeddyginiaethol. Jer. 15. 18. 2 Cron. 21. 18. Job 34. 6.

ANAF—U, (naf) twn, dyrndwn, anmherffaith; â choll arno; â diffyg rhyw ran arno; un wedi cael anaf arno trwy ddamwain, neu fod felly o groth ei fam. Amryw o honynt a gafodd eu hiachau gan Iesu Grist. Mat. 15. 30. Marc 9. 43.

Lliaws ei *anaf* ni garer. *Diar.*

ANAIR, (an-gair) enllib, gwaradwydd, cabl, anghlod. Trwy anghrediniaeth y rhoddodd deg o'r yspïwyr anair, neu anghlod, i'r wlad yr anfonasid hwynt i'w hedrych; am ba bechod y buont feirw o bla ger bron yr Arglwydd. Num. 13. 32, 33. a 14. 36, 37. Deut. 22. 14, 17.

ANAML, (an-aml) ychydig, neu anfynych. Preg. 5. 2. Mat. 9. 37. Luc 10. 2. Edr. YCHYDIG.

ANAMLWG, (an-amlwg) aneglur, cuddiedig.— 'Nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef.' Heb. 4. 13. Y mae y fath ëangder dwyfol yn ngwybodaeth yr Arglwydd Iesu, fel y mae pob creadur, yn ei holl amgylchiadau, perthynasau, meddyliau, a gweithredoedd, yn gwbl amlwg iddo ar unwaith; y mae pob *peth*, nid pob creadur yn unig, yn noeth (γυμνα) heb un gorchudd arno, ac yn agored i'w lygaid ef. Ps. 33. 13, 14. a 90. 8. a 139. 11, 12.

ANANIAH, ענניה [*cwmwl yr Arglwydd*]. 1. Enw dinas. Neh. 11. 32.——2. Enw dyn. 1 Cron. 3. 24. Neh. 3. 23.

ANANIAS, Ανανιας [*gras Duw*] 1. Gwr Sapphira. Enw Iuddewig, yr un a Hananiah. Dan. 1. 6. Efe a Sapphira ei wraig oeddynt yn mblith y Cristionogion cyntaf yn Jerusalem; y rhai a darawyd yn ddisymwth yn feirw, am ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân. Actau v. Eu pechod oedd, cadw iddynt eu hunain ran o werth yr hyn yr oeddynt yn cymeryd arnynt ei roddi yn ewyllysgar i fod yn gyffredin; ac felly yr oeddynt hwy yn gysegr-ladron.——2. Dysgybl i Iesu Grist; a thebygol ei fod ef yn un o'r deg a thriugain. Pregethodd yr efengyl yn Damascus. Cyfarwyddwyd ef mewn gweledigaeth i ymofyn am dŷ Judas, ac am un Saul o Tarsus, yr hwn ydoedd newydd ddyfod yno: dymunodd gael ei esgusodi, oblegid iddo glywed fod Saul yn erlidiwr creulawn; a bod ganddo ef awdurdod, o Jerusalem, i garcharu yr holl Gristionogion a gaffai yn y ddinas hôno. Dywedodd

Digitized by Google

yr Arglwydd wrtho nad oedd dim perygl; oblegid beth bynag a fuasai Saul, ei fod ef yn awr yn gweddio. Ananias, ar hyny, a aeth i'r tŷ, ac a gafodd Saul yn ddall; rhoddes ei ddwylaw arno, ac yn enw yr Iesu a barodd iddo gael ei olwg, a'i lenwi â'r Ysbryd Glân; ac yn ddioed y syrthiodd cèn oddiwrth ei lygaid, a chafodd ei olwg. Bedyddiwyd ef, a derbyniodd yr Ysbryd Glân, a thrigodd yn nghymdeithas yr apostolion. Act. 9. 10—22. a 22. 12. Nid oes dim chwaneg o hanes am y gwr hwn. Edr. PAUL.——3. Mab Nebedeus, arch-offeiriad yr Iuddewon yn nghylch A.D. 48. Yr arch-offeiriad hwn y cyhoeddodd Paul farn Duw yn ei erbyn, pan ddygwyd ef ger ei fron. Act. 23. 2. Y rhagddywediad i Ananias, 'y byddai i Dduw ei daraw yntau,' (adn. 3.) a gyflawnwyd wedi hyny, pan laddwyd ef yn ei balas, gan blaid o derfysgwyr, a'i fab yn flaenor arnynt.

ANATHEMA, *Gr.* *αναθημα.** Y gair Groeg a arwydda peth neu berson wedi ei neillduo, a'i ddiofrydu; diofryd-beth; ysgymun-beth. 1 Cor. 5. 5. a 12. 3. Mewn hen awdwyr Groegaidd, mae y gair yn cael ei arferyd i arwyddo rhyw berson, yr hwn yn amser pla, neu haint cyffredin, a ddiofrydodd ei hun i ddystryw, fel aberth, i heddychu eu duwiau cythreulig, a thrwy hyny symud y gofid a'r trallod oddi arnynt.——Yn gyffredinol, arwydda, tori ymaith, neu ysgymuno un o gynnulleidfa y ffyddloniaid; oddiwrth fraint cymdeithas; neu o rifedi y bywiolion. Y mae y gair *Heb.* (חרם) cyfatebol iddo, yn cael ei arferyd i arwyddo diofrydiad anifel, dinas, neu ryw beth arall, pa rai oedd i gael eu dystrywio heb achubiaeth. Lef. 27. 28, 29. Jos. 6. 17, 18. Mic. 4. 12.——'Canys mi ddymunwn fy mod fy hun yn anathema oddiwrth Grist, dros fy mrodyr, sef fy nghenedl yn ol y cnawd.' Rhuf. 9. 3. 'Oddiwrth Grist,' neu gan Grist, fel mae y rhagddodiad Groeg (*απο*) yn arwyddo yn y lleoedd canlynol:— Mat. 12 38. a 16. 21. Marc 8. 31. Gal. 1. 1. Iago 1. 13., sef ei fod yn cael ei ddiofrydu gan Grist, i ddyoddef y gospedigaeth amserol a thymhorol hòno dros ac yn lle ei frodyr, y genedl Iuddewig, yr hon yr ydoedd yr Iuddewon, yr amser hwnw, gwedi eu dedfrydu i'w dyoddef. Y mae yr apostol yma gwedi ei lenwi â'r un ysbryd ag oedd yn Moses, pan y dywedodd, 'Maddeu eu pechod; os amgen, dilea fi, attolwg, allan o'th lyfr a ysgrifenaist.' Exod. 22. 32. Deut. 9. 14. Ps. 69. 28. Dan. 12. 1. Ezec. 13. 9. Phil. 4. 3. Dat. 3. 5. a 22. 19. Er bod gras yn ymddangos yn y ddau was enwog hyn, gyda godidogrwydd hynodol, yn y geiriau; etto nid addas i ni feddwl eu bod yn dymuned eu tòri ymaith, a'u damnio byth drostynt; nid ydyw y cyfryw ddymuniad yn cydsefyll â gwir gariad at Dduw, a'r cariad dyledus iddynt hwy eu hunain. 'Megys y dododd Crist ei einioes drosom ni, felly y dylem ninnau ddodi ein heinioes dros y brodyr.' 1 Ioan 3. 16. Ond nid ydyw hyn yn arwyddo i ni gael ein damnio drostynt, ond dyoddef amryw galedi, ïe, angeu ei hun, er lles i'w heneidiau, a thros y gwirionedd. Gwel Witsius, *Exercitato* ii. Bucer *in loco.*†——'Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded anathema.'—'Os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded anathema.' 1 Cor. 16. 22. Gal. 1. 9. Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio at gospedigaeth eilun-addolwyr: (Exod. 20. 22.) 'Lladder yn farw,' (יחרם) dystrywir ef fel un melldigedig: rhoddir ef i farwolaeth gyda melldith, yn ddiarbed ac yn ddidrugaredd. Deut. 13. 1—11. Felly, yr hwn a bregetho efengyl arall, sydd yn pregethu Duw arall; a'r hwn nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu, nid yw yn credu ynddo, yn ei addoli, nac yn ei barchu: ac y mae yr un farn oddiwrth Dduw yn cael ei chyhoeddi yn eu herbyn, ag yn erbyn eilun-addolwyr. Nid ydyw y cyfryw ymadroddion yn arwyddo y dylem *ni* eu melldithio, na chynnwys dygasedd tu ag atynt; yn y gwrthwyneb, dylem mewn addfwynder ddysgu y rhai gwrthwynebus, i edrych a roddo Duw iddynt ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirionedd. 2 Tim. 2. 25. Ond mae y geiriau yn hysbysu beth yw eu cyflyrau ger bron Duw; yn dangos y gyfraith farnedigaethol a roddodd Duw i farnwyr Israel. Nis gallwn ninnau eu derbyn i dŷ, fel cenadau Crist, na dywedyd wrthynt, 'Duw yn rhwydd,' heb gyfranogi o'u gweithredoedd drwg hwy. 2 Ioan ii.

ANATHOTH, ענתות [*atebiadau*] dinas yn llwyth Benjamin, tair milltir o Jerusalem, lle ganwyd y prophwyd Jeremiah. Jos. 21. 18. 2 Cron. 6. 60. Esa. 10. 30. Jer. 1. 1.

ANCHWILIADWY, (chwiliad) yr hyn ni ellir ei chwilio. Y mae mawredd Duw, doethineb, dybenion, a daioni ei farnedigaethau a'i ragluniaethau ef, yn anchwiliadwy. Y mae meddyliau y creaduriaid mwyaf goruchel a sanctaidd yn anfeidrol bell oddiwrth eu cynnwys a'u chwilio hwynt i berffeithrwydd. Ps. 145. 3. Rhuf. 11. 33. Job 5. 9. a 9. 10.—'Anchwiliadwy olud Crist.' Eph. 4. 8. Y mae golud Crist i'w chwilio yn barchus, yn ddyfal, ac yn ddiddarfod, ond nis gellir byth chwilio allan amrywiaeth, gwerthfawrogrwydd, a llesâd y bendithion cynnwysedig ynddo; na dyfnderoedd y doethineb a'r daioni a amlygir yn y darpariad a'r cyfraniad o honynt.

ANDREAS, *Ανδρεας* [*gwr cadarn*] brawd Petr, apostol Iesu Grist, priodor o Bethsaida, a physgodwr o'r dref hòno. Ioan 1. 40. Dywedir iddo bregethu yr efengyl yn Scythia, a chael ei groeshoelio yn Petræ, o Achaia. Traddodiadau ansicr yw yr hyn oll a roddir am dano, ond yr hanes am dano gan yr efengylwyr. Yr oedd yn gyntaf yn ddysgybl i Ioan y Bedyddiwr; ond gwedi clywed tystiolaeth Ioan am dano (Ioan 1. 40) efe a aeth yn un o ddilynwyr cyntaf Iesu Grist, ac a ddygodd ei frawd Simon ato. Adn. 41. Gwedi hyn, rai misoedd, cafodd yr Iesu hwynt yn pysgota, ac n'u galwodd i'w ddilyn, gan addaw eu gwneyd yn bysgodwyr dynion. Mat. 4. 19. Marc 1. 16, 17. Ioan 6. 8. Yr hanes diweddaf a roddir am dano sydd yn Ioan 12. 21, 22. Edr. PETR.

ANEIRIF, (rhif) afrifed, anhyrif, annifeiriol. Ps. 40. 12. a 104. 25. a 147. 5. Heb. 11. 12.

ANELWIG, (an-elwig) afluniaidd, dilun. 'Anelwig ddefnydd,' milrhith, cynffurf. 'Dy lygaid a welsant fy anelwig ddefnydd.' Ps. 139. 16. Y mae pob peth mor amlwg i Dduw cyn ei wneuthur ag ydyw wedi iddo ei lunio. Nis gall fod ychwanegiad at wybodaeth yr Hollwybodol. Y mae holl aelodau corph dyn fel pe baent wedi eu hysgrifenu mewn llyfr gyda Duw, cyn llunio un o honynt.

ANER, ענר [*ateb*] 1. Dinas yn llwyth Manasseh. 1 Cron. 6. 70.——2. Aner, Escol, a Mamre, oeddynt dri o dywysogion y Canaaneaid, y rhai a gynnorthwyasant Abraham â'u byddinoedd, i erlid y breninoedd hyny, y rhai a yspeiliasant Sodom, ac a ddygasant Lot ymaith. Gen. 14. 13, &c.

---

* Ni cheir y gair *Gr.* *αναθημα*, ond unwaith yn y Testament Newydd, sef yn Luc 21. 5., lle y cyfieithir ef 'rhoddion.' Arwydda yn gyffredin, peth wedi ei ddodi i fynu yn y deml, a'i neillduo fel rhodd gysegredig. Defnyddir y ffurf *αναθημα*, gan y LXX. yn gyffredin, fel cyfieithiad o'r gair Hebraeg חרם ac oddi yno, mae yn dra thebygol, y daeth i arferiad yn mhlith yr Iuddewon Groegaidd. Edr. Lightfoot, Grotius, Calvin, Olshausen.—C.

† Cyfeirir y darllenydd at sylwadau y Professor Dunbar ar Rhuf. 9. 3. a ymddangosasant yn y *Biblical Review* am Hydref 1848, yn mha rai y dengys mai cyfieithiad priodol yr adnod yw, 'Canys mi a *ddymunais* fy mod fy hun yn anathema oddiwrth Grist,' &c, a bod yr apostol yn cyfeirio at ei agwedd yn ei gyflwr annychweledig, pryd y tystia (1 Tim. 1. 13.) ei fod 'o'r blaen yn gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn drahaus.'—C.



Digitized by Google

ANERCH, (erch) cyfarch caredigol trwy eiriau, cusanau, llythyrau, neu genadau. Act. 15. 23. Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20. Edr. CYFARCH.

ANESMWYTH—DRA, (esmwyth) aflonydd, gofidus, dolurus, poendod.—'Pan esmwythâo efe, pwy a anesmwythâ?' Job 34. 29. Duw biau rhoddi esmwyther, heddwch, a llonyddwch i bawb; i bersonau, i deuluoedd, a theyrnasoedd; a phan roddo efe lonyddwch, pwy a anesmwythâ? Pen-arglwydd yw efe; y mae ei allu goruwch pawb, ac nid oes neb a all ddadwneyd ei waith, er eu holl ymgais i aflonyddu. Rhuf. 8. 23. Job 12. 23, 24. Esa. 14. 3, 4. a 26. 3. a 32. 17, 18. a 50. 8, 9.

ANFAD, (mad) drwg ysgeler, echryslawn, dygas, anfeith, gwrthun. Anfad ynfydrwydd, ynfydrwydd drwg, ysgeler, niweidiol. Preg. 10. 3. 'Oerfraw anfad,' braw echryslawn. Ps. 66. 3. E. Prys.

ANFARWOL—DEB, (marw) didranc, diddiwedd, tragywyddol. Y mae dau air Groeg yn cael eu cyfieithu *anfarwol, anfarwoldeb*; sef αφθαρτος, ac αθανασια. 1 Tim. 1. 17. a 6. 15, 16. 1 Cor. 15. 34. Y cyntaf a arwydda *anllygredig*, ac yn cael ei gyfieithu felly yn Rhuf. 1. 23. 1 Cor. 15. 52. 1 Petr 1. 4, 23. Arwydda fwy nag αθανασια, *anfarwol:* llygredigaeth sydd yn dwyn marwolaeth; lle nid oes llygredigaeth, nid oes yno ddim yn tueddu i farwolaeth. Gwel Hyperius *in* Leigh.——'Yr Arglwydd yn unig sydd ganddo anfarwoldeb.' 1 Tim. 6. 16. Y mae efe yn anllygredig ac yn anfarwol. Y mae efe felly yn hanfodol ynddo ac o hono ei hun. BOD syml, digymysg, ac anfarwol ydyw. Y mae ganddo anfarwoldeb; y mae yn berthynol iddo fel ei hanfod. Nid oes iddo 'na dechreu na diwedd, na chysgod tröedigaeth.' Iago 1. 17. Y mae pob peth tebyg i farwolaeth yn anfeidrol bell oddi wrtho; ond y mae o angenrheidrwydd yn anfarwol, ac yn rhoddi anfarwoldeb i eraill. Gen. 16. 14. Deut. 5. 26. Jer. 2. 13. a 17. 13. Edr. BYWYD, ENAID.

'Rhaid i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb.' 1 Cor. 15. 53. Y mae cyrff y saint, yn bresennol, yn llygredig ac yn farwol; ond yn yr adgyfodiad, hwy a ddyosgir o'r bratiau ffiaidd hyn, ac a wisgir âg anllygredigaeth ac anfarwoldeb. Y mae yn *rhaid* (δει) y mae yn perthynu, y mae yn gymhwys iddynt gael eu hanrhydeddu felly, oblegid, 1. Eu hethol a'u galw hwynt i'r gogoniant hwn. Rhuf. 8. 30. Eph. 2. 6. 1 Thes. 2. 14.——2. I'w tebygoli hwynt yn eu cyrph a'u heneidiau i Grist eu Pen. Rhuf. 8. 17. 1 Petr 4. 13. Phil. 3. 21. 1 Ioan 3. 2, 3. Dat. 1. 9.——3. Rhaid, oblegid addewidion Duw iddynt yn Nghrist. 2 Tim. 1. 9, 10, 11.——4. Oddiwrth eu hundeb â Christ, eu Pen anfarwol, y tardda eu hanfarwoldeb hwy, fel yr achos haeddiannol ac effeithiol o hono. Nid oes un creadur âg anfarwoldeb ganddo; y mae yn perthyn yn unig i Dduw: ond gwisgir y gwaredigion âg anfarwoldeb. Ni phalla eu bywyd; ni dderfydd eu cysuron; ni wywa eu gogoniant hwy mwy na'u Pen a'u Priod, Crist Iesu. Ni arwydda yr anfarwoldeb yma, yn unig, y bydd eu cyrph hwy mewn bôd byth—canys felly y bydd cyrph y damnedigion; ond bydd eu cyrph hwy gwedi eu gwisgo âg anllygredigaeth ac anfarwoldeb llewyrchus, dysglaer, blagurog, gogoneddus, yn debyg i gorph gogoneddus Crist. Dyma 'y bywyd a'r anllygredigaeth a ddygwyd i oleuni trwy yr efengyl;' a than oruchwyliaeth yr efengyl yn fwy eglur na than yr oruchwyliaeth gysgodol. Y cyrph marwol a wisgir âg anfarwoldeb: yr un cyrph fydd ganddynt, ond eu bod yn anfarwol; ni bydd cyfnewidiad yn eu cyrph o ran eu sylwedd, ond o ran amgylchiadau y sylwedd hwnw: 'y marwol hwn a wisgir âg anfarwoldeb.'

ANFEIDROL, (meidr) *Gr.* μετρον (*metron*) *Heb.* מדד (*medad*) *Saes.* MEASURE: anfesuredig, neu anfesuradwy: yr hyn ni ellir ei fesur. 'Canys anfeidrol oedd bwys y pres.' 2 Cor. 4. 18. 1 Bren. 7. 47.—Arferir y gair i ddangos mawredd peth: 'A synu a wnaethant yn anfeidrol;' (υπερπερισσως) *yn ddirfawr, dros ben mesur.* Marc 7. 37.——Y mae anfeidredd yn perthyn i'r Hanfod Dwyfol: a phan ddywedir fod Duw yn anfeidrol, y meddwl yw, ei fod ef yn annherfynedig, yn anfesuredig, yn anchwiliadwy, ac yn anghynnwysadwy. Yn benaf, perthyna y briodoledd hon i'w holl-bresennoldeb a'i dragywyddoldeb; ni chynnwysir ef mewn lle, am hyny y mae yn mhob lle; ni therfynir ef gan amser, am hyny y mae yn dragywyddol. Yr oedd cyn bod un lle, yn bod hebddo, am hyny nis cynnwysir ef mewn lle; yr oedd cyn bod amser, am hyny nis terfynir ef gan amser. Efe yw y Bôd cyntaf, ac o'r hwn y mae pawb eraill yn cael eu bôd. 'O'm blaen nid oedd Duw wedi ei ffurfio, ac ni bydd ar fy ol.'—'Myfi yw y cyntaf, diweddaf ydwyf fi hefyd.' Esa. 43. 10. a 44. 6. Am hyny nid oedd neb o'i flaen, nac yn uwch nag ef, i'w derfynu. Bôd annibynol yw; mae pob creadur yn dibynu arno ef, ond nid yw ef yn dibynu ar neb. O hono ef, trwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth, fel yr achos a'r dyben o honynt oll. Y mae pob creadur yn byw, yn symud, ac yn bod ynddo ef, ac nid efe ynddynt hwy. Act. 17. 28. Y mae yn anghyfnewidiol; ond ni byddai felly, pe symudai o'r naill le i le arall; ac ni fuasai felly pe buasai dechreuad bôd iddo, ac ni buasai yn dragywyddol. Dywedir yn gyffredin fod pechod yn anfeidrol, a'r achos yw, am fod y gwrthddrych y pechir yn ei erbyn yn anfeidrol; canys fel y mae yn weithred, y mae yn derfynedig ac yn feidrol; ac nis dichon un weithred i greadur meidrol, ynddi ei hun, fod yn anfeidrol. Ond o ran y gwrthddrych y pechir yn ei erbyn, y mae hi yn anfeidrol ddrwg, ac yn gofyn anfeidrol iawn drosti,—yr hyn nis dichon neb ei roddi ond Person anfeidrol, yr hyn yw Crist, fel Person Dwyfol. Rhoddodd, trwy hyny, anfeidrol werth i ddyoddefiadau y natur ddynol mewn undeb âg ef, trwy ba un y derbyniodd cyflawnder anfeidrol iawn. Fel y mae Duw yn anfeidrol yn ei hanfod, felly rhaid iddo fod yn holl briodoliaethau ei hanfod. Edr. ANEIRIF, CARIAD, CYFIAWNDER, DAIONI, DEALL, DOETHINEB, DUW, SANCTEIDDRWYDD, GALLU.

ANFERTH, (berth) anhardd, gwrthun, anghenfilaidd.—'Ymëangodd uffern, ac a agorodd ei safn yn anferth.' Esa. 6. 14. *Heb. yn ddifesur, yn ddiderfyn. Saes.* WITHOUT MEASURE. Y mae uffern yn cael ei chyffelybu i anghenfil newynllyd, yn agor ei safn yn ddifesur, i lyncu y rhai a fuont fyw yn foethus yma yn y byd, 'heb edrych 'am waith yr Arglwydd, nac ystyried gweithred ei ddwylaw.' Adn. 12. Bydd eu dystryw hwynt yn ddisyfyd, yn gyflawn, ac yn ofnadwy. Hab. 2. 5. Num. 16. 30, &c. a 27. 3. Deut. 11. 6. Gwel Lowth.

ANFODD—LAWN, (bodd) anewyllysgar, soredig, anhoffaidd, dig, anfoddog. Gen. 45. 17. Marc 10. 14. a 14. 4. 1 Cor. 9. 17.

ANFON, (mon) danfon, gyru, neorwng. Arwydda *anfon* yn yr ysgrythyrau, 1. Gosod i fyned. Deut. 1. 22.——2. Peri i ddyfod. Deut. 28. 40, 48. Ps. 78. 49.——3. Trosglwyddo. Act. 11. 39. Nid ydyw gwaith y Tad yn anfon Crist, ddim yn arwyddo israddwch naturiaeth, neu dynsawd, ond ei osodiad yn ei swydd, a'i drefniad i ddyfod i'r byd yn ein natur, i gyflawni y gwaith a roddwyd iddo i'w gwblhau. Gal. 4. 4. Edr. APOSTOL, SELIO.——Y Tad a Christ yn anfon yr Ysbryd Glân, sydd yn arwyddo dull a threfn gweithrediad y Personau Dwyfol yn nhrefn iechydwriaeth; a'u hewyllys iddo amlygu ei gariad a'i allu yn gweithredu gwyrthiau, ac yn argyhoeddi, cyfnewid, sancteiddio, a dyddanu ei bobl; yn gosod i fynu eglwys

Digitized by Google

sanctaidd ogoneddus yn mhlith dynion, ac yn iechydwriaeth gyflawn pechaduriaid.' Ioan 14. 26. a 16. 7. Gwaith Duw yn anfon prophwydi ac apostolion, a arwydda ei waith yn eu hawdurdodi a'u cymhwyso i gyflawni y cyfryw swydd, yn y lle, yr amser, a'r dull gosodedig ganddo. Rhuf. 10. 15.

ANFUDDIOL, (an-budd) diles, anaddas.—'Bwriwch allan y gwas anfuddiol.' Mat. 25. 30. Anfuddiol i'w feistr ac iddo ei hun hefyd; yr achos o'i anfuddioldeb oedd ei ddrygioni a'i ddiogi, am hyn y geilw ei feistr ef, 'gwas drwg a diog.'—Yn Luc 17. 10, arwydda y gair *anhacddiannol*, un yn gwneyd dim ond a ddylasai. Gwel Campbell's *Prelim. Dissert.*, *p.* 604, 4to.

ANFWYN—AIDD, (mwyn) annhirion, angharedig, anfoesgar, gorwyllt. 'Yn anfwyn,'—*yn ffyrnygion.* W. S. 2 Tim. 3. 3.

ANFFRWYTHLAWN—LONRWYDD, (anffrwyth) diffrwyth, dieppiledd.—'Ac na fydded i chwi gyd-gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch.' Eph. 5. 11. Gweithredoedd a wneir yn y tywyllwch, ag sydd rhy gywilyddus i'w cwblhau yn y dydd; gweithredoedd yn perthyn i gyflwr tywyll dyn wrth naturiaeth, ac na chwblhâi mo honynt oni bai ei fod yn dywyll ac yn anwybodus o'u natur a'u canlyniadau. Y maent yn ddiffrwyth ac yn anfuddiol iddo ei hun ac i bawb eraill hefyd. Y mae yn gwbl anaddas i blant y goleuni i gymdeithasu â'r cyfryw, ac â'r neb a'u gwnelo.

ANFFURFIO, (an-ffurf) aflunio, anharddu, difwyno, hyllu, hacru, anferthu.—'Canys anffurfio eu hwynebau y maent.' Mat. 6. 14. Cyfnewid drychiad naturiol eu hwynebau i olygiad athrist, neu rithsanctaidd, yr ydoedd y Phariseaid, heb ddim tristwch gwirioneddol am bechod yn y galon. Esa. 58. 5.

ANFFYDDLAWN—LONAF—LONIAID, (anffydd) anghywir, bradus, twyllodrus.—'Anffyddlawn a throfäus.' Mat. 17. 17. Marc 9. 19. Luc 9. 41. Edr. Trofaus. *Aπιστος*, *diffydd*, un heb gredu yr efengyl. 'O genedlaeth anghrediniol a throfäus.' Am ei bod yn anghrediniol yr oedd yn drofäus, heb gredu y gwirionedd, yr oedd yn cael ei chylch-arwain â phob awel o ddysgeidiaeth gyfeiliornus.

ANGEL—ION, (engyl) *Gr.* Αγγελος; *Llad.* Angelus; *Saes.* Angel. Mae y gair o'r un arwyddocâd a'r gair *Heb.* מלאך *cenad*, *cenadwr*, *un anfonedig*. Enw yn arwyddo swydd, ac nid anian, neu naturiaeth. Gelwir cenad dynol wrth yr enw angel, Mat. 11. 10. Marc 1. 2. Luc 7. 24. a 9. 52. Iago 2. 15. yn Groeg. Yr un modd y gelwir pregethwyr yr efengyl yn angelion, y rhai ydynt yn genadau dros Grist, yn cyhoeddi gweinidogaeth y cymmod i fyd colledig. 2 Cor. 5. 20. Dat. 1. 20. a 14. 6. Mat. 24. 3. —'Chwi a'm derbyniasoch megys angel Duw;' neu megys cenad Duw; un anfonedig gan Dduw. Gal. 4. 14.——'Cenad Satan.' 2 Cor. 12. 7. *Gr. angel Satan*; un anfonedig gan Satan, un o'i weinidogion y sonia yr apostol am danynt, yn pen. 11. 15. Un o'r gweinidogion hyn, tebygol, yr hwn oedd genad Satan, oedd yn cernodio yr apostol.

Er nad oes crybwylliad neillduol am greadigaeth angelion, yn hanes y greadigaeth gan Moses, etto y mae yn gynnwysedig ynddi. Cynnwysa y nefoedd, *yr hyn oll sydd ynddynt*, y rhai y dywedir eu creu gan Dduw; ac yn mhlith y rhai hyny, rhaid golygu yr angelion. Hefyd, Moses yn gorphen hanes y greadigaeth, a sylwa, 'Felly y gorphenwyd y nefoedd a'r ddaear, a'u holl lu hwynt.' Gen. 2. 1. Gelwir yr angelion, *llu y nefoedd*, *llu nefol*. Dan. 4. 35. Luc 2. 25. Edr. Llu. Y mae eu creadigaeth yn perthyn i waith y chwe diwrnod, pan y gwnaeth Duw y nef a'r ddaear, a'r 'hyn oll sydd ynddynt.' Exod. 20. 11. Tebygol, hefyd, mai y dydd cyntaf y crewyd hwynt, pan greodd Duw y nefoedd a'r ddaear—y nefoedd yn gyntaf, ac yna y ddaear; felly y gallent fod yn gynnrychiol pan y sylfaenwyd y ddaear, y cydganodd sêr y boreu, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw. Job 38. 7. Rhaid eu creu yn foreu, canys syrthiodd rhai o honynt cyn cwymp dyn, ac un o honynt fu yn offerynol o'i gwymp. Etto, er eu creu yn foreu, nid cyn y dechreuad, pan greodd Duw y nefoedd a'r ddaear—'cyn bod y byd,' ydynt eiriau yn iaith y Bibl yn gosod allan dragywyddoldeb. Ps. 90. 2. Crewyd hwynt oll yn nghyd, canys '*holl* sêr y boreu, meibion Duw,' a gydganasant pan y sylfaenwyd y ddaear.

Mae *ysbrydion crëedig* yn cael eu galw yn angelion, oblegid eu cenadwriaeth oddiwrth Dduw at ddynion. Mae eu creadigaeth yn perthyn i waith y chwe diwrnod, pan y gwnaeth efe nef a daear, 'a'r hyn *oll sydd ynddynt*.' Exod. 20. 11. Y mae eu rhifedi yn lliosog; miloedd, a myrddiwn; sef, nifer dirifedi. Ps. 68. 17. Heb. 12. 23. Mat. 26. 53. Dan. 7. 10. Dat. 5. 11. Gelwir y rhai a gadwasant eu dechreuad yn angelion etholedig; 1 Tim. 5. 21.—yn angelion sanctaidd; Mat. 25. 31.—yn angelion nerthol; 2 Thes. 1. 7. Ps. 103. 20. ac y maent yn cyfateb i'r enwau hyn yn gyflawn. Gwnaed hwynt yn sanctaidd, ac oblegid eu hetholiad, cadwasant eu dechreuad. Priodolir iddynt hefyd ddoethineb a gwybodaeth. 2 Sam. 14. 20. Job 4. 11. Y maent yn sefyll ger bron Duw, ac yn gweled wyneb Duw bob amser. Mat. 18. 40. Luc 1. 19. Y maent yn gwneuthur ewyllys Duw gyd â'r ufudd-dod, y llawenydd, a'r ffyddlondeb mwyaf. Yn eu gweinidogaeth y maent yn 'ffiam dân;'—yn fywiog, yn wresog, ac yn gweini gyd â'r hyfrydwch a'r cyflymdra mwyaf. Y maent yn weision addas i'r llys y perthynant iddo; a'u holl waith a'u hyfrydwch yw gwneuthur ewyllys Duw, a'i foliannu. Tebygol fod rhyw drefn ogoneddus yn eu plith, pan y sonir am thronau, arglwyddiaethau, a thywysogaethau; ond pa fath yw y drefn hòno, nid amlygwyd i ni; ac am hyny ofer yw dychymygu.

Y mae eu sylw yn fanwl ac yn astud ar bob peth perthynol i ddirgelwch yr efengyl, ac i iechydwriaeth yr eglwys. 1. Yr oeddynt yn brysur yn nghylch Iachawdwr y byd, tra yr ydoedd yma ar y ddaear: 'Efe a welwyd,' ac a addolwyd 'gan angelion.' Rhagflaenasant bawb, tebygol, yn rhoddi addoliad iddo, ar ol ei enedigaeth ef. Cyhoeddasant ei enedigaeth ef i'r bugeiliaid, gyda gorfoledd angelaidd, yn moliannu Duw. Gweiniasant iddo yn ei brofedigaeth, yn ei ddirfawr ing, ei adgyfodiad, a'i esgyniad:—a hwy a ddeuant gyd âg ef yn nydd y farn, gyda llawen floedd. Mat. 1. 20, 21. a 4. 11. a 28. 25. Luc 1. a ii. a 22. 43. a 24. 45. Act. 1. 10, 11. 1 Tim. 3. 16. Heb. 1. 6. ——2. Y maent yn chwennych edrych i ddirgeledigaethau yr efengyl, fel y gallont weled ynddynt fawr amryw ddoethineb Duw. 1 Petr 1. 12. Eph. 3. 10. ——3. Y maent hwy yn fawr eu gofal a'u trafferth yn nghylch pregethiad yr efengyl, a'i llwyddiant. Luc xv. Dygasant yr apostolion o garcharau i'w phregethu hi. Act. 5. 10. a 11. 7, 8. a 16. 23. Y maent hwy yn cydgordio â'r holl eglwys fawr trwy y byd, i foli yr Oen am bob amlygiad newydd o'i fawrhydi gogoneddus trwy yr efengyl. Dat. 5. 11, &c.——4. Y maent hefyd yn 'ysbrydion gwasanaethgar oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iechydwriaeth.' Heb. 1. 14. Y maent hwy, yn ddiammeu, yn gweini iddynt yma ar eu taith, mewn amrywiol ddull a modd, fel y darfu iddynt i Agar, Elias, Daniel, Joseph, a Mair, a'r apostolion hefyd; dygant eu heneidiau, fel yr eiddo Lazarus gynt, i ogoniant; a byddant yn brysur iawn yn nydd y farn yn cynnull yr etholedigion, ac yn cynnull allan o deyrnas Crist yr holl dramgwyddiadau, a'r holl rai a wnant anwiredd. Mat. xiii.——5. Bydd yr holl angelion a'r holl wared-

Digitized by Google

**ANGEN—ION,** (can) *Gr.* *αναγκη* (*anace*) eisieu, rhaid, tlodi. Job 30. 3. Deut. 15. 8. Eph. 4. 28.

**ANGENOG—ION—OCTID,** (angen) *Llad.* EGENS: rheidus, tlawd.—'Efe a wared yr angenog pan waeddo.' Ps. 72. 12. Darluniad yw o'r Arglwydd Iesu yn ei freniniaeth. Y mae ynddo dosturi, ac y mae ynddo allu digonol i waredu a chynnorthwyo. Y mae yn teyrnasu er llesâd ei bobl; ac y mae ynddo bob cymhwysder i'w hymgeleddu yn gyfiawn. Job 29. 12. Ps. 9. 18. a 34. 18. Esa. 10. 2.

**ANGENRHAID—EIDIAU—IOL,** (angen-rhaid) rhaid, rheidiol, dir; yr hyn ni ellir ei hebgor.—'Un peth sydd angenrheidiol.' Luc 10. 42. Un o'r diarebion mwyaf pwysig, medd y Dr. Doddridge, a mwyaf sobr a lefarwyd erioed. 'Un peth,' sef cael Crist yn rhan yn ei holl gyflawnder anfeidrol. Ioan 3. 16. Marc 16. 16. 1 Ioan 5. 12. Y mae yr un peth hwn yn cynnwys pob peth—pob gras, pob cysur, pob rhagorfraint. Phil. 3. 8, 9. Y mae yn angenrheidiol i *bawb—bob* amser—*yn mhob* amgylchiad a sefyllfa—yn angenrheidiol i fyw, a thu ag at holl ddyledswyddau perthynol i'n bywyd yma yn y byd; yn angenrheidiol i farw yn gysurus ac yn fuddugoliaethus. Heb yr un peth hwn, sydd yn anfeidrol werthfawr, y mae pob peth arall yn rhy fach; y mae yn hollol ddigonol i bechadur tlawd, pan ballo y cwbl ond efe. Y mae yn eiddo pawb a gaffo galon i'w *ddewis*; ac oddiwrth y neb a'i caffo nis dwg Duw ef, ac nis gall neb arall ei ddwyn. Ps. 27. 5. 2 Cor. 5. 16. Mat. 16. 26. Ioan 16. 22. Mat. 6. 20, 33. Col. 3. 1. Heb. 11. 25, 26. Mat. 11. 29. Ioan 6. 20.——'Angenrhaid a osodwyd arnaf; a gwae fydd i mi oni phregethaf yr efengyl.' 1 Cor. 9. 16. 'Gosodwyd' yr angenrhaid hwn ar yr apostol gan yr Arglwydd, yr hwn a'i galwodd i fod yn apostol. Wrth ei alw i'r swydd, galwyd ef i waith y swydd; ac nis gallasai esgeuluso gwaith y swydd heb fod yn anffyddlawn i'r Arglwydd, a thrwy hyny dynu gwaeau arno ei hun. Nid cynnaliaeth, er fod yn deilwng iddo gael hyny; nid elw; nid parch gan ddynion a osododd yr angenrhaid arno ef; ond ufudd-dod i'r Arglwydd, zel dros ei ogoniant, a llesâd eneidiau, a'i rhwymodd i'r gwaith, gyda diwydrwydd a ffyddlondeb yn wyneb pob gwrthwynebiadau. Rhuf. 1. 14. Jer. 20. 7, 8, 9. a 48. 10. Amos 3. 8. a 7. 15. Gal. 1. 1, 12. Act. 9. 16, 17. a 13. 2. a 19. 9. a 26. 16, 18. a 28. 30, 31.

**ANGERDD—OL,** *Heb.* חום gwres, llosg, llosgfa, poethder; tanbaid, poethlyd, llosgedig.—'Angerdd tân,' grym a phoethder tân. Heb. 11. 34.——'Angerdd digofaint yr Arglwydd,' hyny ydyw, poethder ei ddigofaint; digofaint yr Arglwydd yn llosgi ac yn dyfetha pechaduriaid gan ei wres sanctaidd, a'i eiddigedd cyfiawn dros ei ogoniant, ac anrhydedd ei gyfraith. Exod. 32. 12. Num. 32. 14. Jer. 49. 37.——'Fflam angerddol;' *Heb.* שלהבת יה *fflam* IAH. Can. 8. 6. Y mae yr eglwys yn galw ei chariad tu ag at ei hanwylyd yn 'fflam IAH,' neu IEHOFAH. Fflam gref, angerddol; neu fflam a ennynodd IEHOFAH yn ei chalon, ac nad oes diffodd arni, nac un rhwystr a saif o'i blaen. Y mae rhai yn meddwl mai yr un peth a feddylir wrth *fflam* IAH, ac wrth *tân Duw* אש אלהים *tân Aleim*. Job 1. 18. a 15. 30. Sef mellt, y rhai y mae Duw yn eu hennyn, ac yn eu saethu. Ps. 144. 6. Eraill a farnant fod cyfeiriad yn y geiriau at dân yr allor, yr hwn a ddaeth allan oddi ger bron yr Arglwydd; hyny yw, o'r SHECINAH. Lef. 9. 25. Yr un tân ag oedd ar Sinai yn llosgi yn ddychrynllyd, ac yn peryglu bywydau pawb a nesâent ato. Y tân hwn a ddaeth oddi ger bron yr Arglwydd, yn y cysegr, ac a ysodd y poeth-offrwm, a'r gwêr ar yr allor. Yr oedd y tân hwn i losgi ar yr allor heb ddiffodd. Lef. 6. 12. Ac y mae gan yr Iuddewon draddodiad, nas gallasai gwlawogydd ei ddiffoddi. I'r tân sanctaidd angerddol hwn y cyffelyba yr eglwys y cariad a ennynodd Ysbryd Duw ynddi at Grist:—'Dyfroedd lawer ni allant ei ddiffodd, ac afonydd nis boddant.' Can. 8. 7. Rhuf. 5. 5. 2 Cor. 5. 14. Ps. 119. 139. Mal. 3. 11.——'Corwynt angerddol a syrth ar ben y drygionus.' Jer. 23. 19. 'Rhyferthwy angerddol.' Dr. M. Sef corwynt cryf, nerthol, yn cario dinystr gyd âg ef ar yr annuwiol.

**ANGEU—OL,** marwolaeth; marwol, peth yn lladd. Diar. 10. 2. a 11. 4. Edr. COLYN, CYSGOD, MARWOLAETH, &c.—'Arfau angeuol,' arfau marwol, yn lladd ac yn llwyr ddifa. Y mae Duw gwedi eu 'parotoi,' ac yn eu 'defnyddio' yn erbyn annuwiolion annychweledig, ac am hyny ni ddiangant hwy ddim. Ps. 7. 13. Deut. 32. 23, 41, 42.

**ANGHAREDIG,** (caredig) diserch, digariad, annhirion, anfwyn. Rhuf. 1. 31. 2 Tim. 3. 3. Edr. CARIAD, CAREDIG.

**ANGHLOD,** (clod) anmharch, dianrhydedd, gwaradwydd; gwarth.—'Trwy barch ac anmharch, trwy anghlod a chlod,' y mae llwybr canlynwyr Iesu i wlad y gogoniant tragywyddol. 2 Cor. 6. 8.

**ANGHOFIO,** (côf) gollwng dros gôf; bod heb feddwl am beth; heb sylwi yn ofalus.—'Nid oes un o honynt mewn anghof ger bron Duw;' Lef. 12. 6. hyny yw, y mae Duw, Creawdwr a Chynnaliwr pob creadur, yn sylwi ar, ac yn gofalu am adar y tô; y rhai ydynt leiaf eu gwerth, a hawsaf eu hebgor genym. Y mae manylrwydd mawr yn ei ragluniaeth:—nid oes *un* o honynt mewn anghof; felly hefyd, medd efe, y mae hyd yn nod blew eich penau chwi, fy nysgyblion, yn gyfrifedig oll. Mat. 10. 20. Heb. 13. 2, 16. Ps. 9. 18. a 36. 6. a 104. 27. a 145. 15. Y mae yr Arglwydd, yn aml, yn eu golwg hwy, yn anghofio ei bobl, heb roddi amlygrwydd o'i gariad a'i ffyddlondeb iddynt; ac yn hir heb ymddangos o'u plaid, yn ei amddiffyniad a'i waredigaethau. Ps. 31. 1. a 44. 24. a 72. 19. Ond nid anghofia hwynt yn wirioneddol byth. Ni phaid a'u cynnal, a threfnu iddynt yr hyn a fyddo yn tueddu i'w daioni mwyaf. Esa. 49. 15.——'Anghofia dy bobl dy hun, a thŷ dy dad.' Ps. 45. 10. Mae y geiriau yn cyfeirio at gyfraith Duw yn Israel, pan gaethgludent gaethglud. 'Os byddai i un weled yn y gaethglud wraig brydweddol, a'i bod wrth ei fodd, yna dwg hi i fewn dy dŷ, ac eillied hi ei phen, a thored ei hewinedd; a dyosged ddillad ei chaethiwed oddiam dani, a thriged yn dy dŷ di; ac wyled am ei thad a'i mam fis o ddyddiau; ac wedi hyny yr âi di ati, a byddi wr iddi, a hithau fydd wraig i ti.' Deut. 21. 11, 12, 13. Gwedi myned yn wraig iddo, yr oedd hi i anghofio tŷ ei thad, a'i phobl ei hun; ei bobl ef yw ei phobl hi mwyach. Felly y mae yn rhaid i'r rhai sydd yn credu yn Nghrist adael pob peth, a phawb, er ei fwyn ef. Mat. 10. 37. Luc 14. 26. Eu 'hanghofio'—ymadael â hwynt yn drwyadl, heb feddwl am danynt yn serchog, mewn cymhariaeth i'w phriod. Felly y gadawodd Abraham ei wlad ei hun, *heb feddwl* am dani. Heb. 11. 15. Ruth hefyd, yr un modd, a briododd bobl Boaz a'i Dduw, cyn iddo ef ei phriodi hi. Pen. 1. 16. Pan y byddo enaid yn cymeryd Crist yn briod iddo, y mae efe yn gwerthu yr hyn oll a fedd; 'yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled er mwyn ennill Crist.' Phil. 3. 8, 9, 13. Nid y naill gyd â'r llall, ond ymadawiad hollol a'r naill i feddiannu y llall. Yn yr ystyr hwn yr anghofiodd Paul y pethau o'r tu cefn, ac yr oedd yn ymestyn at y pethau o'r tu blaen. Yr oedd holl bethau tŷ ei dad, ei bobl, a'i wlad ei hun, o'r tu cefn iddo; sef yr holl bethau oedd ganddo fel Iuddew a Pharisead; yr oeddynt mor ddirmygedig ganddo, fel nad oedd yn chwennych eu cofio. Yr oedd Crist a'i gyfiawnder ganddo o'r tu blaen, yn nghyd â'r holl gysuron a'r breintiau oedd i'w cael ynddo a thrwyddo.

Digitized by Google

At y rhai hyn yr oedd yn ymestyn, i gyrhaeddyd gwybodaeth mwy cyflawn, a mwynhad o honynt. Ië, yr oedd yn anghofio y darn o'r yrfa oedd gwedi ei rhedeg eisioes, gan yr awyddfryd meddwl oedd ynddo am fwynhad mwy cyflawn o'r pethau gogoneddus, tragywyddol, oedd o'i flaen: agwedd ar feddwl dyn, tra dymunol i fod ynddi, nes y llyncer yr hyn sydd farwol gan fywyd.——Mae Duw yn anghofio pechodau pan y byddo yn eu maddeu, ac yn ymheddychu â'r pechadur yn ei Fab; ac yn ymddwyn tu ag ato fel pe buasai heb bechu. Nid oes adgoffa na dannod gyd â Duw, gan y byddo yn maddeu. Heb. 8. 12.——Nid anghofia Duw waith ei bobl, a'u llafurus gariad, neu (του κοπου της αγαπης) y llafur a'r cariad a ddangosasant tu ag at ei enw ef. Heb. 6. 13. Efe a gofia yn y farn eu cariad tu ag at ei enw, a holl lafur eu cariad yn ei holl amgylchiadau; eu haelioni, eu parhad, a'u anhunanolrwydd. Mat. xxv. Nid anghofia, chwaith, weithredoedd annuwiolion i'w cospi. Amos 8. 7. Mat. vii, xxv.——Y mae dynion yn anghofio Duw pan nad ydyw yn eu holl feddyliau hwy; ond y maent yn ddibarch iddo, i'w addoliad, a phob peth sydd yn perthyn i'w waith, ei achos, a'i bobl yn y byd hwn. Barn. 3. 7. Ps. 10. 4. Mae ein gwaith yn anghofio Duw yn brawf galarus o ymadawiad y galon âg ef; ein diffyg o gariad ato, ffydd ynddo, ac ufudd-dod iddo. Yr ydym yn ei farnu yn annheilwng i feddwl am dano. Pa anmharch mwy!

ANGHREDADWY, (credadwy) anhygoel, anhygred. Act. 26. 8.

ANGHREDADYN, (credadyn) un digred, gwrthffyddiwr, anghristyn.

ANGHREDINIAETH, (anghredin) peidio credu, gwrthod cydsynied â thystiolaeth sicr, anymddiried yn ffyddlondeb Duw yn cyflawni ei air; anghredu tystiolaeth sicr Duw am ei Fab. Ioan 3. 18, 19. a 16. 19. Y mae y pechod hwn yn cael ei osod allan yn yr ysgrythyrau fel yn dangos yr anmharch mwyaf i Dduw; ac yn gwneyd y niwed mwyaf i ddynion o un pechod arall.

1. Pa anmharch mwy a ellir ei ddangos ar Dduw na thrwy ei farnu ef yn gelwyddog, a'i eiriau yn annheilwng o'n cred? 1 Ioan 5. 10. Yn ei raslonrwydd anfeidrol, y mae Duw gwedi ymostwng i lefaru wrthym; i fynegi, mewn geiriau eglur i ni, holl gynghor ei feddwl a'i ewyllys, mewn perthynas i ni a'n hiechydwriaeth; i dystiolaethu ei hun i ni am ei Fab; fel yn Iachawdwr i ni; ac am ei addasrwydd, ei ddigonolrwydd, a'i barodrwydd i dderbyn y penaf o bechaduriaid. Galleaid meddwl y buasem ni yn derbyn tystiolaeth mor oruchel, am achos o gymaint ei bwys, gyd â'r parodrwydd a'r gorfoledd mwyaf; ond yn lle hyny, trwy anghrediniaeth, y mae Duw, yn ei holl ddaioni, yn cael ei ddiystyru; ei gynghor yn cael ei wrthod, a'r Iachawdwr yn cael ei anmharchu a'i esgeuluso. Y mae 'yn mathru Mab Duw, ac yn barnu yn aflan waed y cyfammod, ac yn difenwi Ysbryd y gras.' Heb. 10. 29. Y mae anghrediniaeth, fel rhyw wreiddyn drwg yn yr enaid, ar ba un mae yr holl bechodau eraill yn tyfu. Pwy a gâr un nad ydyw yn ei farnu ef yn deilwng o'i gredu? Pwy a'i parcha, a ufuddha iddo, ac a ymddiried iddo am ddim, os ydyw efe yn ei farnu yn gelwyddog? Nis gall ein hymddygiad ni tu ag at Dduw fod yn ddim amgenach nag eithaf adgas ac anmharchus, yn cyfateb i'n meddyliau diystyrllyd ni am dano. Y mae, gan hyny, yn cynnwys y diystyrwch mwyaf o Dduw a'i awdurdod, yn wyneb yr amlygiad mwyaf dysglaer a gogoneddus o'i ddaioni a'i raslonrwydd. Yr hwn sydd heb weled anghrediniaeth yn bechod, ïe, yn bechod y pechodau, sydd hyd etto yn y tywyllwch, heb wir argyhoeddiad, a than lywodraeth ei anghrediniaeth.

2. *Am y niwed o hono i ni*, y mae yn fawr iawn. Mae yn attal oddi wrthym holl rinwedd gwirioneddau dwyfol; oblegid y mae yn dra amlwg nas gall un gair, er mor bwysig ac addas y byddo i'n cyflyrau, fod yn fuddiol i ni heb ei gredu; ac yn ol y gradd o sicrwydd y byddom ni yn ei gredu. Heb. 4. 2. Yr un peth, o ran buddioldeb, ydyw gair heb ei gredu, ac heb ei glywed, neu ynte a phe buasai heb ei lefaru. Llefaru, clywed, a chredu, ydynt eiriau perthynol i'w gilydd. Nid gwiw i un lefaru, os na bydd clustiau gan arall i glywed; ac ni lesâ clywed heb gredu. Nid oes un rhybydd o fuddioldeb heb ei gredu; ac nis gall addewid weini cysur heb ei chredu. Nid ydyw yr hyn oll y mae Duw yn ei dystiolaethu am dano ei hun, ac am ei Fab, a'r iechydwriaeth ynddo, o ddim buddioldeb i neb, er rhybydd, cyfarwyddyd, a dyddanwch, heb ei gredu. Pwy a alara am bechod, os nad yw yn credu tystiolaeth Duw am y drwg o hono? Pwy a ochel uffern, ac a ymgais am y nefoedd, os nad yw yn credu tystiolaeth y gair am bob un o'r ddau? Bibl heb ei gredu, nid ydyw ddim Bibl i ni. Y mae anghrediniaeth yn attal holl ymgeledd yr efengyl oddiwrth y pechadur, ac yn ei gau i fynu dan bechod a damnedigaeth dros byth. Y mae cymaint o niwed ynddo i ni ag a fyddai Mab Duw, yn ei holl gyflawnder anfeidrol, o lesâd i ni, ac a fydd uffern o boen a gofid i ni. Hwn oedd pechod cyntaf Adda—y pechod a attaliodd yr Israeliaid rhag myned i Ganaan—a barodd i'r Iuddewon wrthod Crist—ac yn y diwedd a'u torodd ymaith fel na byddent eglwys. Ioan 3. 16, 17, 36. a 12. 40. Marc 16. 16. Heb. 3. 12, 19. a 4. 3. a 10. 39. Ps. 106. 24, 27. Deut. 1. 32. Num. 20. 12. Rhuf. 10. 19. Dat. 21. 8.

ANGHRIST, *Gr.* Αντι Χριστος (*αντι*, *yn erbyn*, neu *yn lle*, *Χριστος*, *Crist*) gwrthwynebwr Crist, un yn gosod ei hun yn lle Crist. Y mae yr apostol yn galw y gau athrawon yn ei ddyddiau ef, y rhai a wadent athrawiaeth y Drindod, Duwdod a chnawdoliaeth Crist, &c. wrth yr enw hwn. 1 Ioan 2. 18, 19, 22. a 4. 2. 2 Ioan 8. 'Y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd: hwn ydyw y twyllwr a'r anghrist.' Yr un peth yw gwrthwynebu yr athrawiaeth gywir am Grist, a gwrthwynebu Crist ei hun: a chyffesu y wir athrawiaeth am dano yw cyffesu Crist ei hun; ac y mae yr ysbryd hwnw o Dduw. Yr oedd y gau athrawon hyn gwedi bod yn nghymdeithas yr apostolion, 'eithr nid oeddynt o honom ni,' medd yr apostol; nid oeddynt yn eu holl broffes flodeuog erioed wedi eu dwyn i undeb â Christ, fel aelodau bywiol o'i gorph dirgeledig ef, a gwir gredu ynddo er iechydwriaeth; 'canys pe buasent o honom ni, hwy a arosasent gyda ni.' Planigion heb gael eu planu gan y Tad nefol oeddynt; am hyny y diwreiddiwyd hwynt. Mat. 15. 13. Ond y mae yn amlwg, oddiwrth eiriau yr apostol, 'megys y clywsoch y daw anghrist,' fod dysgwyliad gofidus yn mhlith y Cristionogion yn y dyddiau hyny am ryw un neillduol, priodol, i gael yr enw hwnw. Nid unrhyw *berson* neillduol, ond corph o ddynion olynol, yn dal athrawiaethau anghristaidd; o fucheddau halogedig; ac yn elynion angeuol i achos Crist a'i bobl. Y mae yn cael ei alw gan Paul, 'y dyn pechod,' neu *y dyn hynod o bechadurus*; 'mab y golledigaeth.' Y mae y prophwyd Daniel a'r apostolion Paul a Ioan, yn rhoddi darluniad cyflawn i ni o hono:—o natur ei lywodraeth—amser ei ymddangosiad—lle ei eisteddfod—parhad ei deyrnasiad—a'r amser a'r moddion o'i ddystrywiad. Dan. vii. 2 Thes. ii. Dat. xii, xiii.

1. *Y mae yn amlwg mai awdurdod eglwysig ydyw, ac mewn enw, o'r hyn lleiaf, yn Gristionogol.* Hyn y mae y gair *αποστασια*, *ymadawiad*, yn arwyddo. 2 Thes. 2. 3. Nid ymadawiad oddiwrth un

Digitized by Google

lywodraeth wladol y mae yn ei feddwl; ond ymadawiad oddiwrth y ffydd—ymadael oddiwrth y Duw byw: 1 Tim. 4. 1. Heb. 3. 12. sef ymadawiad â'r dull gwirioneddol o drefniad dwyfol o addoli Duw. Y mae rhoddiad yr enw, '*mab y golledigaeth*,' hwyrach, yn arwyddo y byddai, fel Judas, yn gau-apostol. Ioan 17. 12. Dywed yr apostol am dano, y byddai iddo 'eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw.' 2 Thes. 2. 4. Awdurdod yn nheml Duw, a arwydda awdurdod addas i'r lle; sef awdurdod *ysbrydol*. Teml Duw, dan y Testament Newydd, yw eglwys Duw;—'eistedd yn nheml Duw,' yr un peth ydyw ag eistedd yn eglwys Duw; sef yn cymeryd arno awdurdod ysbrydol yn eglwys Duw. Mewn ystyr cyfriniol, yn iaith y prophwydi, y mae yr enw *Iuddew* yn arwyddo *Cristion*—*Dafydd* yw *Crist*—y *deml* yw yr *eglwys*—yr *arogl-darth* yw *gweddïau y saint*, &c., &c.—'Mi a welais fwystfil arall,' medd Ioan, 'yn codi o'r ddaear, ac yr oedd ganddo ddau gorn, tebyg i oen: a llefaru yr oedd fel draig.' Dat. 13. 14. Y mae yn cymeryd arno fod yn addfwyn, ac yn ostyngedig, tebyg i Oen Duw, Crist Iesu: ond y mae yn llefaru fel draig. Dan yr ymddangosiad o grefydd, y mae yn llywodraethu fel gorthrymwr daearol. Yn hyn y mae corn bychan Daniel, sef Anghrist, yn amrywio oddiwrth y cyrn eraill, yn mysg pa rai y mae yn cyfodi, sef y deg brenin. Dan. 7. 24.

2. ***Am natur ei lywodraeth***—darlunir hi yn *ormesol*—yn *anghydoddefol*—neu yn *erlidigaethus*—ac yn *eilun-addolgar*.—Y mae 'genau ganddo yn traethu mawrhydri, a'r olwg arno yn arwach na'i gyfeillion.' Y mae yn llywodraethu ar freninoedd y ddaear; sef yr ymerodraeth orllewinol Rufeinaidd, yn gwneuthur rhyfel â'r saint, y rhai ni dderbyniasant ei nôd ar eu talcenau. Dan. 7. 8, 20, 21. Dat. 13. 7, 16. a 17. 1, 6, 14, 16, 17. Oblegid eilun-addoliaeth y gau eglwys hon, y gelwir hi, 'Babilon fawr, mam puteiniaid, a ffieidd-dra y ddaear.' Dat. 17. 3.

3. ***Mae y gallu hwn i ymddangos o fewn terfynau ymerodraeth Rhufain.***—Wedi i'r ymerodraeth hôno ranu yn ddeg rhan, deg corn, neu freniniaeth, 'y mae corn bychan arall yn ymddangos yn eu mysg, a syrthiodd tri o'i flaen.' Dan. 7. 8, 20. Nid ydyw terfynau y pedwerydd bwystfil, sef ymerodraeth Rhufain, yn cynnwys gwledydd y bwystfilod eraill, er eu darostwng ganddo: am hyny, yn Ewrop, yn mysg y deg corn, neu freniniaeth, i ba rai y rhanwyd ymerodraeth Rhufain, a elwir felly yn briodol, y mae Anghrist i'w gael.

4. ***Ei eisteddfod yw dinas Rhufain.***—Pan y dangoswyd i Ioan, mewn gweledigaeth, fwystfil ofnadwy â saith ben, a deg corn, a gwraig wedi ei gwisgo âg ysgarlad yn eistedd arno, ac yn ei farchogaeth; y mae angel yn dehongli y weledigaeth gyfriniol hon yn y geiriau canlynol:—'Y saith ben, saith fynydd ydynt, lle mae y wraig yn eistedd arnynt:—a'r wraig a welaist, yw y ddinas fawr, sydd yn teyrnasu ar freninoedd y ddaear.' Dat. 17. 3, 4, 9, 12, 18. Nis gall geiriau fod yn fwy neillduol a therfynedig. Y wraig, yr hon sydd yn eistedd ar y pedwerydd bwystfil, wedi i'r deg corn ymddangos, neu ranu yn ddeg breniniaeth, yw Anghrist. Y mae yn eistedd ar saith fynydd; ie, hi yw y ddinas fawr, sydd yn teyrnasu (felly yr oedd Rhufain yn amser Ioan) ar freninoedd y ddaear. Nid oes un darluniad a all nodi Rhufain yn fwy eglur na'i bod yn sefyll ar saith fynydd. Y mae y desgrifiad hwn o honi, yn aml, yn y beirdd Rhufeinaidd.* Rhufain, gan hyny, mae yn amlwg, yw eisteddle a gorsedd-fainc Anghrist. Mae y nodau hyn yn briod-lun o Eglwys Rhufain; ac yn anmhosibl byth eu cymhwyso, yn briodol, i neb arall. Y mae yn eglwys wrthgiliedig; gwedi ymadael â'r gwirionedd; wedi llywodraethu ar freninoedd yn ormesol, ac 'wedi meddwi gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu:' yn eilun-addolgar i'r graddau eithaf; yn addoli llun y groes, a'r elfen fara yn y sacrament; yn gweddïo ar Mair, ac ar seintiau dirifedi.

5. ***Nodir allan, hefyd, amser ei ymddangosiad, a pharhad ei lywodraeth.***—Nid ydyw rhifyddiaeth y prophwydoliaethau, y rhan amlaf, ddim mor benodol a manwl ag y gellir dysgwyl mewn cyfansoddiad hanesyddol. Amlygir hi, yn gyffredinol, mewn geiriau a oddefant radd o ëangder yn y dehongliad o honynt; ond etto, nid ydynt mor annodol a phenrhydd fel nas gellir, yn amlwg, amgyffred yn agos amser eu cyflawniad. Y mae amser ymddangosiad Anghrist yn y byd wedi ei adael i'w gasglu oddiwrth grybwylliadau cyffredinol; ond ni ellir penderfynu yn ddiammheuol yr amser neillduol, nes y cyflawnir y brophwydoliaeth am ei ddinystr. Gwyddom fod parhad ei deyrnasiad i fod dros 1260 o flynyddoedd; pan, gan hyny, y gwelir ei ddystryw, gellir barnu gyda mwy o fanylrwydd am amser ei ddechreuad.

Wedi gwneuthur yr ychydig sylwadau hyn, golygaf yn awr yr hyn a ddywedir gan y prophwydi am gyfodiad Anghrist.—Hysbysa Daniel mai wedi i ymerodraeth Rhufain ymranu yn ddeg o freniniaethau, ac mai *yn mhlith*, ac ar *ol* y breniniaethau hyn, y byddai i Anghrist ymddangos.—Medd Paul, 'Ac yr awr hon chwi a wyddoch yr hyn sydd yn attal, fel y dadguddier ef yn ei bryd ei hun.' 2 Thes. 2. 6. Yr ydoedd iddo ef amser priodol a therfynedig gan Dduw. 'Yr hwn sydd yr awr hon yn attal, a ettyl nes ei dynu ef ymaith.' Yr hwn oedd yn attal, yn ol barn yr awdwyr mwyaf credadwy, ydoedd llywodraeth ymerodraethol Rhufain. Gan hyny, nid ydoedd i ymddangos cyn dystrywiad y llywodraeth hôno. Dywed St. Ioan (Dat. xvii.) y byddai iddo farchogaeth y bwystfil â'r deg corn; am hyny y mae yn rhaid ei fod yn cydoesi â hwynt; sef y deg breniniaeth.

Os sylwir ar yr amser y dinystriwyd y llywodraeth ymerodraethol; y rhanwyd yr ymerodraeth gan genedloedd y gogledd yn ddeg, hyny yw, i amryw freniniaethau annibynol;—o'r amser hwn, ond nid cyn hyny, y mae i ni edrych am Anghrist yn codi ei ben, yn raddol, yn mysg y deg corn; ac, o'r diwedd, yn cynnyddu i'r fath rym, trwy yr awdurdod a roddir iddo ganddynt hwy, i allu eu marchogaeth; hyny yw, eu cyfarwyddo, a'u llywodraethu yn mhob peth. Os cyfrifir 1260 o flynyddoedd o'r amser hwnw, gan gadw ein llygaid yn barhaus ar sefyllfa eglwysig a gwladol Ewrop, o hyny yn mlaen, y mae yn hawdd canfod oddi amgylch pa amser yr ymddangosodd Anghrist;—a bod llawer o'i amser wedi rhedeg;—a'i fod yn tynu yn agos iawn at ei ddiwedd.

Y mae rhai awdwyr yn dechreu cyfrifiad y 1260 o flynyddoedd yn y flwyddyn 606, neu ynte 608, pan y cafodd y Pab yr enw o fod yn Esgob cyffredinol, ac y cymerodd arno i fod yn ben ar yr eglwys Gristionogol. Eraill a ddechreuant y cyfrifiad yn y flwyddyn 750, neu 756, pan y daeth efe yn dywysog gwladol; ac fel hyn, trwy ei awdurdod gwladol ac eglwysig, y daeth yn fwystfil gwahanol i'r holl fwystfilod eraill a fu yn y byd erioed. Yn nghylch diwedd ei deyrnasiad, bydd iddo ef, trwy gyfrwysdra a chreulondeb, dôri ymaith, agos yn gwbl, holl dystion ffyddlawn dros Iesu Grist, o fewn ei derfynau. Ond yn y diwedd, 'dyfetha yr Arglwydd ef âg Ysbryd ei enau, ac a'i dilëa ef â dysgleirdeb ei ddyfodiad:' hyny yw, trwy nerthol weithrediad yr efengyl, a thrwy ddysgleirdeb ei ddyfodiad yn y pregethiad o honi. Tywalltir y saith phiol a'r saith bla diweddaf arno: y deg corn, y rhai a roddasant eu teyrnas i'r bwystfil, a gasânt y butain, ac a'i gwnant hi yn noeth, ac yn unig, a'i chnawd a fwytânt, ac a'i

* Gwel Martial, *lib.* iv, *ep.* 64. Probert, *lib.* iii, ix. 37. Virgil, G. *lib.* ii. *ver.* 533.

Digitized by Google

llosgant â thân!* Dat. xvii. 2 Thes. ii. Ac yna, Ysbryd bywyd oddiwrth Dduw a â i mewn i'r tystion, a hwy a safant ar eu traed;—'a theyrnasoedd y byd a ânt yn eiddo yr Arglwydd, ac yn eiddo ei Grist ef; ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd. Dat. 11. 15. a 12. 10. Dan. vii. a 11. 36—40. 2 Thes. ii. 1 Tim. 4. 1—3. 2 Tim. 3. 1—7. a 4. 3, 4. Dat. ix, xi, xiii—xix. Edr. Mil, Rhif, Tyst. Yr awdwyr canlynol a ysgrifenasant yn dra enwog ar y mater hwn:—Esgobion Newton â Hurd; Syr Isaac Newton; Lowman; Gill; Scott; Johnson; Reader; Vitringa; Daubuz; H. Moore; Faber.

ANGHYDFOD, (cydfod) amryson, amrafael, ymddadleu.—'Craffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod.' Rhuf. 16. 17. *Gr.* *διχοστασια, ymraniad, plaid ysgaredig.* Y mae rhai yn yr eglwys yn mhob oes, yn peri pleidiau, sismau, ac ymraniadau, er mwyn eu helw a'u parch hwy eu hunain, trwy ddwyn i mewn athrawiaethau gau, yn erbyn yr athrawiaeth iachus. Cynghor yr apostol ydyw cilio oddi wrthynt. 1 Cor. 3. 3. Gal. 5. 20. Creffwch yn fanwl arnynt (σκοπειν) ymogelwch rhagddynt, a chiliwch oddi wrthynt hwy: oblegid 'eu hymadrodd a ysa fel cancr;' ac y mae y perygl mwyaf i chwi gael eich twyllo trwy eu hymadrodd têg a'u gweniaith. 2 Tim. 2. 17. Mat. 7. 15. 'Nid yw Duw awdwr anghydfod (ακαταστασια) ond tangnefedd.' 1 Cor. 14. 33. Oddiwrth y gelyn ddyn y mae anghydfod yn dyfod.

ANGHYDFYDDIAETH—AU, (cydfod) ymrafael, ymryson, anghydfod.—'Anghydfyddiaethau.' 2 Cor. 12. 20.—'Terfysg.' Dr. M.—*Gr.* *ακαταστασιας, cyffroadau, cynhyrfiadau, terfysgoedd.* Cyfleithir yr un gair *terfysgoedd.* Luc 21. 9. 2 Cor. 6. 5. Iago 3. 16. Y pethau hyn yn yr eglwys ydynt yn arwyddo diffyg cariad, a llawer o gnawdolrwydd; mae gwir dduwioldeb yn heddychol, yn foneddigaidd, ac yn hydrin. 'Nid yw Duw awdwr (ακαταστασια) *anghydfod,* ond tangnefedd;' os felly, ysbryd croes i Dduw yw awdwr anghydfod.

ANGHYFANNEDD—OL—RWYDD, (cyfannedd) anrheithiedig, disathr, heb drigiannydd, anneddifad. Gen. 47. 19. Exod. 23. 29. Esa. 24. 12. a 49. 8. Mat. 14. 15.—'Wele yr ydys yn gadael eich tŷ i chwi yn anghyfannedd.' Mat. 23. 36. *Gr.* *ερημος,* anialwch diffrwyth, heb un preswylydd, ac yn anniwylledig. Yn mha ystyr y mae efe yn meddwl y bydd y deml yn anghyfannedd, y mae y geiriau canlynol yn egluro;—'Ni'm gwelwch i yn ol hyn,' &c. I'r dyben o fod yn breswylfod i Dduw yr adeiladwyd y deml; pan yr ymadawodd Duw â hi, aeth yn anghyfannedd heb breswylydd; a lluoedd y Rhufeiniaid a'i gwnaethant, yn fuan wedi hyny, yn anialwch disathr. Jer. 12. 7. a 22. 5. Anialwch anghyfanneddol ydyw pob man lle na byddo Duw yn amlygu ei hun yn ei ras a'i drugaredd achubol i'w bobl, ac yn eu llenwi â llawnder Crist.——'Dinasoedd anghyfanneddol.' Jer. 22. 6. 'Diffaethwch anghyfanneddol.' Ezec. 36. 4. 'Ffieidd-dra anghyfanneddol.' Mat. 24. 15. Marc 13. 14. 'Ffiaidd-dra y diffaethwch.' W. S. 'Ffieidd-dra anrheithiol.' Dr. M. 'Y ffieidd-dra yn anrheithio.' Dr. C. Sef lluoedd ffiaidd y Rhufeiniaid, y rhai a anrheithiasant y ddinas sanctaidd, a'r holl wlad oddi amgylch.—'Yn y ddinas y gadawyd anghyfanneddrwydd.' Esa. 24. 11. Sef, difrodiad, anrheithiad, diffeithwch.

• Y mae y chwildroadau rhyfeddol hyny ag sydd wedi cymeryd lle ar y cyfandir yn y flwyddyn 1848, yn nghyd â sefyllfa gyfyng y Pab er y flwyddyn hôno, wedi codi lliaws o ysgrifenwyr ar lyfr y Dadguddiad, gan fod yr arwyddion yn dyfod yn fwy eglur fod diwedd yr Anghrist Pabaidd heb fod yn mhell. Yn mhlith yr ysgrifenwyr diweddaraf gellir nodi Elliott *on the Apocalypse*; Keith's *Signs of the Times;* Conder's *Harmony of History with Prophecy.* Y mae gwaith Fleming '*On the Rise and Fall of the Papacy,*' wedi tynu sylw cyffredinol yn y dyddiau hyn. Priodol, fe allai, yw hysbysu fod Moses Stuart o America, yn ei waith ar y Dadguddiad, o wahanol farn i'r golygiadau uchod, ac amryw o dduwinyddion Germany ac America gyd âg ef.—C.

ANGHYFANNEDDFA, lle, neu fan anghyfannedd.—'Cyfodant yr anghyfanneddfa gynt.' Esa. 61. 4. Mae y geiriau yn cynnwys addewid neillduol am adferiad yr eglwys ar ol hir ddirywiad; a hyny trwy weinyddiad effeithiol o'r swyddau yr eneiniwyd Crist iddynt—a hyny trwy alwad y Cenedloedd i fwynhau breintiau yr eglwys efengylaidd.

ANGHYFANNEDDLE—OEDD, (an-cyfannedd) lleoedd heb gyfanneddwyr ynddynt.—'O herwydd yr Arglwydd a gysura Sion: efe a gysura ei holl anghyfanneddleoedd hi.' Esa. 51. 3. Cynnwys y geiriau addewid o adferiad yr eglwys, trwy lwyddiant yr efengyl yn galw pechaduriaid lawer iddi.

ANGHYFARWYDD, (cyfarwydd) anghelfydd, anfedrus.

Dall pob *anghyfarwydd.* *Diar.*

'Pa wedd y dywed yr hwn sydd yn cyflawni lle yr anghyfarwydd, Amen.' 1 Cor. 14. 16. 2 Cor. 11. 6. 'Andyscetic.' W. S. a Dr. M. O *αναπληρων του τοπου του ιδιωτου πως ερει το αμην.* Wrth yr *ο ιδιωτης, yr annysgedig, yr anghyfarwydd,* y deallir dyn cyffredin, mewn cyferbyniad i ddyn o ddysg, neu awdurdod, heb fod mewn un swydd. Arferir y gair *Heb.* הדיוט *ιδιωτης, idiot,* gan yr ysgrifenwyr Iuddewig am ddyn cyffredin, diddysg, i'w wahaniaethu ef oddiwrth yr offeiriaid. Arwydda geiriau yr apostol ei fod yn arferiad yn y brif eglwys o'r dechreuad, fod y bobl, yn ol yr hen ddull yn y synagogau, yn rhoddi eu Hamen yn niwedd y gweddiau. O'r arferiad hwn yn mhlith yr Iuddewon gynt y mae genym ni lawer o siamplau. Deut. 27. 15, &c. Neh. 8. 6. 1 Cron. 13. 36. Ps. 106. 48. Nid am ryw berson neillduol y mae yr apostol yn llefaru, ond am yr holl gynnulleidfa, yn wahanedig oddiwrth y Gweinidog, yn rhoddi eu Hamen gyd â'u gilydd. Yn awr, os rhoddai y Gweinidog ddiolch mewn iaith ddyeithr, nad oedd y bobl yn ei ddeall, pa fodd y gallent hwy ddywedyd Amen, wrth ei waith yn diolch, gan nad oeddynt yn gwybod pa beth a ddywedai? 'Os ydwyf hefyd yn anghyfarwydd ar ymadrodd, etto nid wyf felly mewn gwybodaeth.' 2 Cor. 11. 6. Nid oedd yr apostol Paul yn ŵr annysgedig, ond yr oedd wrth addysgu y bobl gyffredin yn arfer iaith gyffredin, ddeallus i'r rhai yr oedd yn athrawiaethu iddynt; ac er bod ei iaith yn gyffredin yn nghyfrif doethion y byd, etto nid oedd yn anghyfarwydd yn ei wybodaeth o ddirgeledigaethau mawrion yr efengyl; yr oedd yn gyfarwydd yn ei wybodaeth o Grist, ac athrawiaeth gras. Hyn, tebygaf, ydyw meddwl yr apostol.

ANGHYFIAITH (cyfiaith). Gelwir yr Aiphtiaid yn bobl anghyfiaith i'r Israeliaid. Ps. 114. 1. a 81. 5. Y mae rhai yn barnu fod y gair *Heb.* לעז yn arwyddo yn hytrach, ymddygiad estronol, creulawn, yr Aiphtiaid tu ag at bobl Israel, na dyeithrwch eu hiaith.—'Pan aeth Israel o'r Aipht, aeth tŷ Jacob oddiwrth bobl' *greulawn, orthrymllyd,* y rhai ni ddeallent eu hiaith. Ps. 81. 5. Yr oedd y waredigaeth yn enwog ac yn ogoneddus; yn gysurus ac yn orfoleddus iawn; oddiwrth bobl o wahanol iaith, deddfau, a duwiau, a'u hymddygiad yn eithaf angharedig a chreulawn tu ag atynt. Gwel Bate, Parkhurst, Noldius.

*Anghyfiaith* yw dyn na wyper pa ddyweto; ac na wypo pa ddyweter wrtho. *Cyfreithiau Cymreig.*

ANGHYFIAWN—DER, (cyfiawn) cam, anghyfiawnedd, anghywirdeb; yr hyn sydd yn wrthwyneb i gyfiawnder ac uniondeb. Y mae pob pechod yn anghyfiawnder. Gan nad ydyw y gyfraith yn gor-

Digitized by Google

chymyn dim ond sydd gyfiawn, y mae pob anghydffurfiad â'r gyfraith gyfiawn hon yn anghyfiawnder; nid ydym yn rhoddi y peth ag y mae hi, yn gyfiawn, yn ei ofyn. Anghyfraith ydyw pechod; os ydyw y gyfraith yn gyfiawn, y mae pob anghyfraith yn anghyfiawnder. Y mae pob gorchymyn yn eithaf cyfiawn yn ei holl ofynion; am hyny, y mae pob trosedd, yn mhob gradd o hono, yn anghyfiawnder. Peth cyfiawn yw i ni garu Duw â'n holl galon; am hyny, anghyfiawnder yw palldod yn y cariad perffaith hwn, yn mhob gradd o hono, ac yn mhob dull o addoliad, ufudd-dod, a pharch rhwymedig arnom ni i ddangos y cariad hwn trwyddo. Peth cyfiawn ydyw i ni garu ein cymydog fel ni ein hunain; ac y mae pob agwedd arnom tu ag at ein gilydd, tu yma i hyny, yn anghyfiawnder. Y mae lladd yn anghyfiawnder â pherson ein cymydog; y mae godineb hefyd yn anghyfiawnder mewn perthynas i ddiweirdeb tu ag at ein gilydd; mae lladrad yn anghyfiawnder â'n cymydog, yn ei feddiannau; ac y mae dwyn cam-dystiolaeth yn anghyfiawnder â'n cymydog yn ei enw da. Y mae dyn yn wreiddiol yn anghyfiawn drwy y cwymp. Collodd y cyfiawnder gwreiddiol ydoedd ganddo cyn y cwymp. Mae yr anghyfiawnder gwreiddiol hwn yn ymddangos yn ei ffrwythau; ac yn tori allan yn weithredol, fel y byddo cyfleusderau yn rhoddi lle, ac yn ei annog i hyny. 'Ffiaidd gan yr Arglwydd Dduw bawb a'r a wnel anghyfiawnder.—A gwae yr hwn a adeilado ei dŷ trwy anghyfiawnder, a'i ystafellau trwy gam:—Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder:—Ac ni chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw.' Deut. 25. 16. Jer. 22. 13. Ps. 11. 7. 1 Cor. 6. 9. Rhaid, gan hyny, i'r anghyfiawn gael 'eu golchi, eu sancteiddio, eu cyfiawnhau, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni,' neu ynte i fod allan o deyrnas Dduw. Adn. 10, 12. Jer. 22. 3. Deut. 16. 20. Mat. 7. 12. Rhuf. 13. 7. 1 Tim. 3. 11. Hos. 12. 8. Luc 16. 10, 11. Col. 3. 25. Obad. 15. Esa. 33. 1. a 5. 22, 23.

ANGHYFLEUS, (cyfle) anghymhwys, anghyfaddas. Act. 27. 12.

ANGHYFRAITH—EITHLAWN, (cyfraith) anneddfol, afreolaidd; pob peth mewn dyn o ran ei feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd, a'r nad yw yn berffaith gytun â chyfraith sanctaidd Duw, sydd anghyfraith, ac felly yn bechod; 'canys *anghyfraith* (ανομια) yw pechod.' 1 Ioan 3. 4. 'Anghyfreithlawn weithredoedd,' &c. (ανομοις εργοις) gweithredoedd anneddfol, afreolaidd, croes i'r gyfraith. 2 Petr 2. 8.

ANGHYMHARUS, (cymhar) anghydweddol, anghydgerddol; yr hyn nis gellir ei gymharu. Y mae aredig âg ŷch ac asyn yn nghyd, yn yr un iau, yn ieuo yn anghymharus. Yr oedd hyn yn waharddedig dan gyfraith Moses. Deut. 22. 10. Lef. 19. 19. Nid oeddynt o'r un rhyw, ac am hyny, yn anghymharus: hefyd, yr ydoedd un yn lân a'r llall yn aflan. At hyn y cyfeiria yr apostol yn ei orchymyn i'r credinwyr yn Corinth; 'Na ieuer chwi yn anghymharus gyd â'r rhai digred.' 2 Cor. 6. 14. Gan nad ydyw y geiriau yn nodi allan un math o gyd-ieuo yn fwy neillduol na'i gilydd, amlwg yw ei fod yn gwahardd pob math o ieuo, gyd â'r digred; megys mewn cyfrinach fel cyfeillion mynwesol; hefyd, cyd-driniaeth mewn negeswaith bydol; ond yn enwedig, ac yn fwyaf neillduol, cyd-ieuo mewn priodas; gan mai hyny ydyw yr ieuo mwyaf agos a ddichon fod rhwng neb â'u gilydd yn ol trefn natur.

Y mae y pechadurusrwydd o ieuo yn anghymharus gyd â'r rhai digred, mewn priodas, yn ymddangos yn fawr; canys os ydyw cyfeillach neillduol gyd âg annuwiolion yn waharddedig, pa faint mwy yw cyd-ieuo mewn priodas â hwynt? Nis gall fod gan neb a ieuo yn anghymharus gyd â'r digred, un bwriad i fyw yn dduwiol i'r Arglwydd. Pe baent yn bwriadu hyny, ni roddent eu hunain, o'u gwirfodd, yn y fath amgylchiadau anfanteisiol i hyny. Nis gallant dystio yn fwy eglur i bawb, mai bywyd o annuwioldeb yw eu dewisiad, na thrwy ddewis priod annuwiol i dreulio dyddiau eu bywyd gyd âg ef. Y maent wrth hyny, mewn effaith, nid yn unig yn tystiolaethu eu bwriad o fyw yn annuwiol eu hunain, ond o gadw tŷ annuwiol i Satan, heb air Duw na gweddi ynddo; ac o feithrin eu plant yn annuwiol, trwy roddi dim ger eu bronau i'w weled, ond esiamplau annuwiol o ddydd i ddydd. Heblaw yr ystyriaethau hyn, y mae y cyd-ieuo yn erchyll bechadurus ynddo ei hun, pa fath bynag a fyddo y ffrwythau, gan ei fod yn droseddiad o orchymyn neillduol, a hyny nid trwy demtasiwn ddisymwth, ond gyda dewisiad rhag-fwriadol.

ANGHYMEDROL—DEB, (cymedr) gormodol, anghymesur. Dywed yr Arglwydd am yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, eu bod, er eu holl ymddangosiad crefyddol yn allanol, yn dufewnol 'yn llawn o drawsder ac anghymedroldeb.' Mat. 23. 25. Y mae y gair *Gr.* ακρασια, yn arwyddo, diffyg nerth mewn dyn i lywodraethu ei hun, ac i attal ei flys a'i chwant anghymesur ac anwesol. Ac oblegid ei fod yn difa ei feddiannau trwy anghymedroldeb, y mae yn meddiannu eiddo eraill trwy drawsder, fel y gallo eu treulio ar ei felus-chwant. Y mae trawsder ac anghymedroldeb, yn gyffredinol, yn cyd-fyned â'u gilydd. Mae y naill yn dyfetha yn anghyfreithlawn, yr hyn mae y llall yn ei gasglu yn anghyfreithlawn. A phan y byddo un yn gwisgo y gorchudd o grefydd dros y ffieidd-dra hwn, y mae cyflwr y dyn hwnw yn agos i felldith. Heb. 6. 7, 8.

ANGHYMERADWY, (cymer) annerbyniol, anfoddhaol, gwrthodedig.—'Meddwl anghymeradwy.' Rhuf. 1. 28. *Gr.* αδοκιμον νουν, meddwl anneallus, yn ddifarn gywir, ac yn annerbyniol o bethau Duw; ond yn cymeradwyo ac yn gwneuthur pethau *nad oeddynt weddus*. Gan nad oedd gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth, rhoddodd Duw hwynt i fyny i'r farn ofnadwy hon; sef i feddwl yn cymeradwyo ac yn ymhyfrydu mewn gwyniau gwarthus, ac heb fedru dosparthu rhwng drwg a da. Y mae y meddwl anghymeradwy hwn yn feddwl *llygredig* a *halogedig*; yr hyn sydd yn ei wneuthur at bob gweithred dda yn anghymeradwy, neu, (προς παν εργον αγαθον αδοκιμοι) yn anneallus, ac yn ddigymeradwyaeth o bob gweithred dda. Tit. 1. 15, 16. 1 Tim. 6. 5. Heb. 6. 8. 2 Ioan 9. Esa. 63. 17. Hos. 8. 11. Deut. 28. 28, 29.——'Dynion o feddwl llygredig, yn anghymeradwy o ran y ffydd.'—'Amprovadwy erwydd y ffydd.' W. S. 2 Tim. 3. 8. Nid ydynt yn deall nac yn cymeradwyo y wir athrawiaeth efengylaidd: ac ni ddylai neb gymeradwyo a derbyn eu hathrawiaeth gyfeiliornus a halogedig. Yr oeddynt hwy mewn ystyr dyoddefol a gweithredol yn anghymeradwy o ran y ffydd. Nid oeddynt yn deall na chwaith yn derbyn y wir athrawiaeth, a dylai pawb wrthod eu hathrawiaeth gyfeiliornus hwy. Nid yn hir y cydsaif gwir athrawiaeth iachus â meddwl llygredig: naill ai fe bura yr athrawiaeth y galon, neu ynte gwrthodir hi gan y galon lygredig. Act. 13. 8. Rhuf. 1. 28.

'Ond yr ydwyf fi yn cospi fy nghorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth; rhag i mi mewn un modd, gwedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymeradwy.' 1 Cor. 9. 27. Y mae yr apostol yn cyfeirio, tebygol, at drefniadau y Groegiaid, yn eu campau gorchestol. Yn nechreu y chwareyddiaethau hyn, byddai criwr yn cyhoeddi enwau yr ymdrechwyr. Wedi cyhoeddi eu henwau, ymddangosent eu hunain, ac a gaent eu holi, 'a oeddynt yn Roegwyr, yn bobl ryddion, ac o enw difefl?' Wedi hyny, rhoddai y criwr ei law ar ben yr

Digitized by Google

ymdrechwr, ac a'i harweiniai ar hyd y chwareule, ac a ofynai i'r golygwyr a oedd gan neb ddim i'w roddi yn ei erbyn? A ydyw ef yn lleidr, yn gaethwas, neu ynte o foesau a bywyd halogedig? Byddai holiad drachefn arno, gwedi iddo ennill y gamp, gan y barnwyr, y rhai oedd i'w goroni, A ydoedd efe gwedi ymdrechu yn gyfreithlawn ac yn rheolaidd, wrth gyfreithiau yr ymdrechfa? Os caid ei fod ef wedi pallu neu wyro, yn y mesur lleiaf, oddiwrth y rheolau, byddai yn anghymeradwy (*αδοκιμος*) ac yn wrthodedig: ni choronid ef. Felly yr apostol, yr hwn sydd yn golygu ei hun yn grïwr ac yn ymdrechwr hefyd, nid ydyw yn ddigon ganddo gyhoeddi y rheolau i eraill, ond fel ymdrechwr, yn ymgadw ei hun yn mhob peth; yn cospi ei gorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth, mewn cymedroldeb a phurdeb, fel y derbynio efe y goron anllygredig. Yn llwybrau Duw, ac yn ol rheolau y gair, y mae i ni rodio ac ymddwyn yn mhob dim, os ydym ni yn dysgwyl coron anniflanedig y gogoniant. Nid *am* hyny, ond dyma y ffordd sydd yn arwain i'r wlad well. Y mae y gwaredigion yn cael y cwbl yn rhad; ond y maent yn cael pob peth yn ol ffordd a threfn Duw—ffordd gras a sancteiddrwydd sydd yn arwain i ogoniant. Y mae anghymedroldeb mewn bwydydd a diodydd mor waharddedig, mor groes i air Duw, ac mor niweidiol hefyd i ninnau, a gormodedd yn mhob peth arall. Y mae glythineb a meddwdod yn trymhau y galon, yn gystal a gofalon anghymedrol y bywyd hwn, ac yn ein cau allan o deyrnas nefoedd. Luc 21. 14. 1 Cor. 6. 9, 10. Jer. 6. 30. 2 Tim. 2. 15. a 4. 7, 8. Ond nid oes i ni olygu hyn yn benaf yn perthyn i'w gorph naturiol, ei fod yn gwneuthur anfri â hwnw, a bod heb ei arbed yn anaddas; ond hefyd corph pechod, llwgr ein natur; sef bod hwnw yn cael ei gospi a'i ddwyn yn gaeth: marweiddio gweithredoedd y corph hwnw trwy yr Ysbryd; marwhau yr aelodau sydd ar y ddaear; croeshoelio y cnawd â'i wyniau a'i chwantau; a dyosg yr hen ddyn sydd lygredig trwy chwantau twyllodrus. Nid ydyw yr apostol ychwaith yn mynegi ammheuaeth am ei gyflwr yn y geiriau, ei gymeradwyaeth, a'i barhad mewn gras; canys gwyddai yn dda yn mhwy y credodd, a'i fod yn abl cadw yr hyn a roddodd ato erbyn y dydd hwnw; ond dangos y llwybr y mae i ni barhau mewn gras, a'i ddewisiad a'i ymdrech parhaus i rodio yn y llwybr hwnw; sef trwy ymwadu â phob peth ag ydoedd yn tueddu i'w rwystro yn ei yrfa. Heb. 12. 1, 7. Rhuf. 8. 13. 2 Cor. 6. 4.

'Bod Crist yn trigo ynoch, oddieithr i chwi fod yn anghymeradwy.' 2 Cor. 13. 5. Yn yr anwylyd, sef Crist, Mab Duw, yn unig, y gwneir pechadur yn gymeradwy gyda Duw; ac os yw yn yr anwylyd, y mae Crist yn trigo ynddo yntau trwy ffydd, ac yn nerthol weithredu er ei sancteiddhad a'i ddyddanwch. Eph. 3. 17. Heb hyn, anghymeradwy yw pawb gyda Duw; ac am hyny, yn benaf, y mae yn berthynol i bawb holi eu hunain, yn ol cynghor yr apostol.

**ANGHYMMODLAWN**, (cymmod) cyffröadwy, digiadwy, digus, digofus, hyddig. Rhuf. 1. 31. Edr. CYMMOD.

**ANGHYNNEFIN**, (cynnefin) anghyffredin, anarferol. Heb. 5. 13. Edr. CYFIAWNDER, EFENGYL, GAIR.

**ANGHYSUR—O—US**, (cysur) digysur, annyddanus, athrist, galarus.—'A phobl y wlad oedd yn anghysuro pobl Judah, ac yn eu rhwystro i adeiladu.' Ezra. 4. 4. מרפים ידי *yn gwanhau eu dwylaw.* Yr oeddynt hwy yn gwneuthur felly trwy eu dichellion, a'u cynghorion drwg, a'u cam-gyhuddiadau. Adn. 5—9. a 3. 3.

**ANGHYTUN—O**, (cydun) anghydsynio, anghydweddu. Act. 28. 25.

**ANGHYWIR**, (cywir) anghyfiawn, anonest, anffyddlawn. Barn. 9. 23. Galar. 1. 2.

**ANGOR—AU**, *Gr. αγκυρα (angcyra); Llad.* ANCHORA; *Saes.* ANCHOR: oddiwrth yr *Heb.* עקל (*ocol*) *camwedd, doleniad*; offeryn digon adnabyddus, a thra angenrheidiol i forwyr. Ei ddyben ydyw i attal llong rhag rhedeg o flaen ystormydd a gwyntoedd gorwylltion. Yr angorau cyntaf ag sydd â hanes am danynt, oeddynt o geryg mawrion. Gwedi hyny gwnaethpwyd hwynt o goed, a phwysau mawr o blwm, neu fasgedau llawn o geryg, ar un pen iddynt; felly y gwna y Japaniaid eu hangorau hyd heddyw. Yr angorau bachog presennol a ddyluniwyd gan Eupalamius, neu Anacharsis, philosophydd o Scythia. Byddent yn taflu angorau gynt o ben ol y llong.

'Gwedi iddynt fwrw pedair angor o'r llyw.' Act. 27. 29. *αγκυρος τεσσαρας, yr angor â'r pedwar adfach iddo,* medd rhai, sef yr angor goreu a feddent. Nid tebygol y buasent yn bwrw pedwar angor allan o'r llyw. Y mae Bruce a Norden yn rhoddi hanes fod y cyfryw angorau yn arferedig yn bresennol yn y gwledydd dwyreiniol. Gwel *Appendix to* Calmet, *Frag.* 214.

Gobaith a elwir gan yr apostol, 'angor yr enaid.' Heb. 6. 19. Arwydda y gyffelybiaeth hon, 1. Fod ystormydd o brofedigaethau, gorthrymderau, temtasiynau, ofnau, a pheryglon yn cyfarfod â'r duwiolion, ar eu mordaith trwy y byd terfysglyd hwn. Y maent yn aml, ac yn dra gerwin, a phob un o honynt yn tueddu i ddinystr a dystryw tragywyddol yr enaid. ——2. Y mae y credadyn yn analluog ynddo ei hun i sefyll yn sefydlog yn erbyn y tônau a'r corwyntoedd hyn. Rhaid iddo edrych a dal gafael diogel ar ryw beth sicr, allan o hono ei hun, onidê, teflir ef ac a'i chwelir gan y gwynt.——3. Y mae gwir obaith ysbrydol, ac efengylaidd, fel angor i'r llong, yn dal yr enaid rhag iddo gael ei gylch-arwain, a'i ddryllio yn erbyn creigiau rhyfyg ar un llaw, ac anobaith ar y llaw arall. Y mae yr addewid yn sicr, a chynghor Duw yn ddianwadal; am hyny y mae gobaith sydd yn dal gafael ynddynt trwy ffydd, yn yr hyn y gobeithir am dano, yn ddiogel ac yn sicr. Angor diogel a sicr ydyw un a fyddo ei ddefnydd yn dda; ei bwysau yn cyfateb i faintioli y llong; a'i afael yn ddiogel mewn man sicr. Gobaith, yn yr un modd, ni chywilyddia, pan y byddo o waith Ysbryd Duw; yn gafaelyd yn addewidion sicr a dianwadal Duw, trwy ffydd: 'yn dysgwyl am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangosiad gogoniant y Duw mawr; sef ein Hiachawdwr Iesu Grist.' Tit. 2. 13. Y mae angor yn nghwlwm wrth y llong, ac hefyd yn ngafael yn y ddaear; a thrwy hyny yn dal peth ansefydlog, trwy gymundeb gafaelgar â pheth sefydlog, yn ngwyneb pethau cryfion, sef gwyntoedd, yn gweithredu ar y peth ansefydlog hwnw. Felly y mae gobaith yn yr enaid yn gafaelyd mewn addewid sicr; a thrwy hyny yn myned i 'mewn at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen, i'r man yr aeth y rhagflaenor trosom ni; sef Iesu.' Os na phalla yr addewid, ac os na fetha gafael ffydd ynddi, y mae gobaith yn ddiogel ac yn sicr. 1 Cor. 15. 13, 20. Rhuf. 8. 25. Col. 1. 5. 1 Petr 1. 3—10. Heb. 10. 19, 20, 21. Edr. GOBAITH.

**ANHARDD—WCH**, (hardd) anmhrydferth, anweddus, anolygus, gwrthun, dybryd. Y gair *Gr. ασχημοσυνη*, a gyfieithir *anharddwch*, yn Dat. 16. 15. a *brynti*, yn Rhuf. 1. 27. Rhodio yn noeth o ras yr Ysbryd Glân, a ffrwythau ffydd, ydyw rhodio mewn anharddwch mawr. Y mae gras a thymher sanctaidd, ysbrydol, fel gwisg ddilwgr, yn hardd ac yn olygus; y mae diffyg o honynt hwy yn noethder, a llygredigaethau yn frynti ac anharddwch. 'Gwyn ei fyd,' gan hyny, 'yr hwn sydd yn gwylio ac yn cadw ei ddillad, fel na rodio efe yn noeth, ac iddynt weled

Digitized by Google

ei anharddwch ef.'——'Y mae ein haelodau anhardd yn cael chwaneg o harddwch.' 1 Cor. 12. 23. Y mae yr aelodau gwanaf yn angenrheidiol; a'r aelodau anhardd yn y corph naturiol yn cael chwaneg o harddwch; felly hefyd y gweddai fod yn nghorph Crist, sef ei eglwys; a bod i bob un o'r aelodau ofalu yr un peth dros eu gilydd.

ANHAWDD, (hawdd) caled, anesmwyth; peth na ellir ei wneuthur heb lawer o ymdrech.

Gormodd esmwythder sydd *anhawdd* ei drin. *Diar.*

Nid oes dim yn anhawdd i Dduw ei ddeall, ei drefnu, na'i wneuthur; ond pob peth sydd bosibl a hawdd gyda Duw. Y mae anhawsdra yn arwyddo anmherffeithrwydd a gwendid yn y naill beth i gyfarfod â mawredd neu bwysau mewn peth arall; ond gyferbyn â Duw nid oes dim â mawredd yn perthyn iddo; ond y mae pob peth mewn cydradd o fychanrwydd mewn cymhariaeth iddo. Nid ydyw y naill beth ddim yn fwy anhawdd na'r llall i allu diderfyn: nid ydyw creu a chynnal miloedd o fydoedd o greaduriaid, ond yr un mor hawdd a chreu neu gynnal un creadur. Gen. 18. 14. Jer. 32. 17, 27. Zech. 8. 6. Luc 1. 37.——'Mor anhawdd yr â y goludog i mewn i deyrnas nefoedd.' Mat. 19. 23. Marc 10. 24. Luc 18. 24. Gan fod yn anmhosibl i'r sawl sydd yn ymddiried yn eu golud yn lle yr Arglwydd, i fyned i mewn, yr anhawsdra ar ffordd y goludog yw, yr anhawsdra iddo beidio ymddiried yn ei olud, a'r golud ganddo. Y mae ymuniad cryf iawn rhwng calon ddaearol â golud. Mae y cyfryw un yn ddall ysbrydol; nid ydyw yn gweled gwagedd y byd, gogoniant Duw, na'r perygl y mae ei enaid ynddo; am hyny, y mae yn ymadael â Christ, fel y gwr ieuanc hwnw, ac yn rhoddi y blaen i'r byd: er mai yn athrist, etto y mae yn troi ei gefn ar deyrnas nefoedd, o herwydd ei gariad at ei olud.——'Rhyw bethau anhawdd eu deall.' 2 Petr 3. 16. 'Anhawdd eu deall,' o herwydd eu mawredd a'u hardderchogrwydd ynddynt eu hunain; ac o herwydd tywyllwch meddwl dyn anianol; a bod 'syniad y cnawd yn elyniaeth yn erbyn Duw; —nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw, ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod.' Y mae efe yn anianol, a hwythau yn bethau ysbrydol; gan hyny yn ysbrydol y bernir hwynt. 1 Cor. 2. 14. Rhuf. 8. 5, 6, 7. Judas 19. Diar. 28. 5. 1 Thes. 5. 21. 1 Ioan 2. 27.

ANHAWDDGAR—WCH, (hawddgar) angharIadus, anhygar, anhynaws, anffodus.—'Cenedl anhawddgar.' Seph. 2. 1. לא נכסף *di-hiraeth, di-ddymuniad.* Cenedl ddi-hiraeth am Dduw, ac am ddychweliad ato; a chenedl annheilwng i Dduw ei chwennych hithau. Mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *hiraeth*, yn Gen. 31. 30. a Ps. 84. 3. a *chwennych*, yn Ps. 17. 12. a Job 14. 15. Y mae yr Arglwydd, yn ei anfeidrol diriondeb, yn galw y fath genedl a hon i ddwys ystyriaeth ac i edifeirwch. Jer. 3. 1. a 7. 28. a 17. 23, 24, 25. Esa. 10. 6.

ANHAWS. Edr. HAWS.

ANHUDDO, (hudd) dynoethi, egluro.—'Er iddynt ei anhuddo ef mewn dillad.' 1 Bren. 1. 1. Y mae yn amlwg mai *amhuddo*, neu *enhuddo*, a ddylai y gair fod yn y lle hwn, ac nid *anhuddo*: mae yr *am* a'r *an* yn aml yn cael eu rhoddi y naill yn lle y llall, er eu bod hwy o ystyr cwbl groes i'w gilydd. Y mae *am* mewn cyfansoddiad yn arwyddo *yn nghylch, amgylch*; ac *an*, fel rhagddodiad, âg ystyr naturiol iddo; megys yn *anwybodaeth, anufudd*; felly yma, *anhuddo* yw dynoethi; ond *amhuddo* sydd yn arwyddo rhoddi am, gorchuddio.

ANHUN—EDD, (hun) gwyliadwrusrwydd, effroad, digwsg.—'Mewn anhunedd yn fynych.' 2 Cor. 11. 27. Yn Troas pregethodd o hŷd y nos hyd doriad y dydd. Byddai weithiau yn gweithio nos a dydd tu ag at ei gynnaliaeth, fel na phwysai efe ar neb. 'Ni fwytasom fara neb; ond trwy weithio mewn llafur a lludded, nos a dydd, fel na phwysem ar neb o honoch chwi.' 2 Thes. 3. 8. 1 Thes. 2. 9. Byddai hefyd mewn gwyliadwriaethau ac mewn ymprydiau yn aml. 2 Cor. 6. 5. a 11. 27. Dyma fywyd Apostol mawr y Cenedloedd, a gwas Iesu Grist! Nid elw, ond y swydd, a'r gwaith perthynol iddi, oedd ei ymgais penaf ef. 2 Cor. 12. 14. 'Nid gwerthfawr genyf,' medd efe 'fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu.' Act. 20. 24.

ANHWYL, (hwyl) afiechyd, llesgedd, clefyd. Lef. 15. 25. Nah. 2. 10. Mat. 14. 35.

ANHYDYN, (hydyn) anhydrin, cildyn, ystyfnig, cyndyn.

*Anhydyn* pob afrywiog. *Diar.*

'Rhoddasant ysgwydd anhydyn.' Zech. 7. 11. *Heb.* ysgwydd *wrthgiliedig*, ysgwydd i *gilio*. Neh. 9. 29. Y gair סרר a gyfieithir yma *anhydyn*, a gyfieithir *cilio o'r ffordd*, Exod. 32. 8. Deut. 11. 28. 1 Bren. 15. 5. —*gwyro ffordd*, Galar. 3. 11.—*cyndyn*, Deut. 21. 18. —*anhywaith*, Hos. 4. 16. Ymadrodd cyffelybiaethol yw, oddiwrth anifel yn gwrthod cymeryd yr iau arno, ond yn tynu yn ol ei ysgwydd, ac yn cilio yn anhywaith; ac a arwydda anufudd-dod mawr, a gwrthodiad o Dduw a'i orchymynion, o dra serch at eu pechodau. Y mae gwrthod gwrando, rhoddi ysgwydd anhydyn, a chau y clustiau, yn arwydd o elyniaeth mawr yn erbyn y gwirionedd, a bod y galon gwedi caledu fel adamant. Adn. 11.

ANHYFRYD, (hyfryd) annymunol, annedwydd, gofidus, blin.—'Ni welir un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, eithr yn anhyfryd.' Heb. 12. 11. Nid yw cerydd yn achos o lawenydd ond o dristwch, o ran y teimlad presennol o hono; ond wedi hyny y mae yn 'rhoi heddychol ffrwyth cyfiawnder.' Iago 1. 4. a 3. 18. Ps. 119. 67, 71. Esa. 27. 9. Rhuf. 5. 1—5. Y mae yn rhaid i'r cerydd fod yn anhyfryd, ac onidê, paid a bod yn gerydd, a byddwn yn amddifaid o'r ffrwyth heddychol.

ANHYGOEL, (hygoel) anghredadwy, anhygred, annhebygol.—'Gwelsom bethau anhygoel heddyw.' Luc 5. 16. *Gr.* *παραδοξα* (*παρα, tu hwnt*, a *δοξα, dysgwyliad*). Y mae y gair anhygoel yn well cyfieithiad na *strange things*, yn Saesonaeg, ac yn ateb yn agos iawn i'r gair Groeg, *pethau anhawdd i'w credu.* Geiriau dynion ydynt, gwedi eu llenwi â syndod gan y rhyfeddodau anghyffredin yr oeddynt yn eu gweled; ac y buasai yn anhawdd credu tystiolaeth neb am danynt, oni buasai eu bod hwy eu hunain yn eu gweled. Luc 7. 16.

ANHYGYRCH, (hygyrch) anhawdd cyrchu, anaml cyrchu.—'Llwybrau anhygyrch,' ydyw llwybrau anhawdd, ac o herwydd hyny, anaml myned ar hyddynt. 'Y llwybrau a aeth (*aethant*) yn anhygyrch, a'r fforddolion a gerddasant lwybrau ceimion.' Barn. 5. 6. Y ffyrdd a wnaed yn anialwch, oblegid nad oedd heddwch gan elynion yn y wlad, i'r hwn oedd yn myned allan, nac i'r hwn oedd yn dyfod i mewn. 'Aeth y prif-ffyrdd yn ddisathr, darfu y cynniweirydd llwybr.' Esa. 33. 8. Lef. 26. 22. 2 Cron. 15. 5. Galar 1. 4. a 4. 18.

ANHYNOD, (hynod) annodadwy, aneglur, anamlwg.—'Sain anhynod;' sef sain anamlwg, nas gwyddir i ba ddyben y rhoddir ef. Mae y cyfryw sain yn hollol ddiddefnydd; nid ydyw yn cynhyrfu neb i barotoi i ryfel. Felly y mae llefaru yn yr eglwys wrth ddynion, mewn ymadrodd annealllus, yn gwbl annefnyddiol

Digitized by Google

Os na wybyddir pa beth a leferir, nid ydyw ond llefaru wrth yr awyr. 1 Cor. 14. 8. Dyben llefaru yw bod yn ddealladwy; os na bydd un yn ddealladwy, nis gall fod yn ddefnyddiol yn yr hyn y mae yn ei lefaru; er mor ragorol a defnyddiol y byddo y mater y mae efe yn llefaru am dano. Mat. 13. 51.

ANHYSBYS, (hysbys) ansicr, anamlwg.—'A myfi yn anhysbys i ymofyn am hyn;' Act. 25. 20. neu yn agosach at ystyr y gair *Gr. αποςουμενος, a mi yn petruso*, neu mewn *cyfyng gynghor*, fel y cyfieithir yr un gair yn 2 Cor. 4. 8. 'A' mineu erwydd vy-bot yn petrusaw.' W. S. Mae y gair yn arwyddo bod Ffestus yn ymofyngar, ac yn ewyllysio penderfynu yn gyfiawn; ond ei fod mewn ammheuaeth a chyfyng gynghor am yr achos ger ei fron.

ANHYWAITH, (hywaith) anhydyn, anhydrin, afrywiog, cyndyn, cildyn.—'Fel anner anhywaith yr anhyweithiodd Israel.' Hos. 4. 16. Mae y geiriau yn gosod allan afreolaeth, cyndynrwydd, a gwrthryfelgarwch Israel, yn erbyn yr Arglwydd a'i ddeddfau sanctaidd. Er bod yr iau yn esmwyth, yr oeddent hwy, oblegid eu cyndynrwydd a'u calon-galedwch, yn afrywiog ac yn anesmwyth dani. Er eu ceryddu am eu beiau, nid oedd hyny yn eu dofi ac yn eu plygu; ond yr oeddent yn gwrthod yr iau, ac yn gwingo yn erbyn y wialen. Deut. 21. 18. a 32. 15. Zech. 7. 11. Exod. 32. 9. Jer. 7. 24. Hos. 9. 15. Esa. 1. 5. a 30. 23. ——'Ar ein gwared ni oddiwrth ddynion anhywaith.' 'Dynion anresimol.' W. S. 2 Thes. 3. 2. *Gr. ατοπος*, dynion *allan o'u lle*, neu *heb un lle*. Dynion afresymol, ffol, ac afrywiog; y rhai nad ydynt yn cyflawni un lle er defnyddioldeb. ac er gogoniant Duw, ac ydynt yn ddigyfrif yn mhlith dynion.

ANIAL—WCH, (ial) lle anniwylliedig, heb driniad, heb lafurio. 'Tir ial,' yw tir agored, heb ei orchuddio â choedydd a dyrysni; 'tir anial,' yw tir gorchuddiedig, heb ei arloesi a'i amaethu.—'Efe (sef Duw) a'i cafodd mewn tir anial.' Deut. 32. 10. a 8. 15, 16. Jer. 2. 6. Hos. 13. 5. Neh. 9. 19, 20, 21. Can. 8. 6. Ps. 107. 4. Cafodd Duw Israel mewn tir anial, ac a fu gyda hwynt i'w cynnorthwyo a'u gwaredu yn eu holl gyfyngderau.—'Mi a'th adnabum yn y diffaethwch, yn nhir sychder mawr;' hyny yw, sylwodd arnynt, arweiniodd hwynt oddi amgylch, cadwodd hwynt fel canwyll ei lygad, ac a 'barodd iddynt ddeall;' gwnaeth eu holl arosfa, eu symudiadau, eu teithiau, eu cyfyngderau, a'u gwaredigaethau, yn yr anialwch, yn addysgiadol iddynt.—'Tir anial,' gwag o bob daioni; 'erchyll,' gan lygredigaethau, euogrwydd, a dychrynfeydd, yw cyflwr pawb fel pechaduriaid wrth natur; yno mae yr Arglwydd yn cael pawb o'i bobl, ac oddi yno y mae yn eu gwaredu, yn eu hymgeleddu, ac yn eu diwallu hwynt; yn eu cadw gyd âg anwyldeb mawr; yn eu harwain, ac yn peri iddynt ddeall. Y gair *Heb.* מצא a gyfieithir yma 'Efe a'i cafodd,' sydd yn cael ei gyfieithu gan y LXX. '*Efe a'i digonodd;*' ac felly hefyd gan ein cyfieithwyr ninnau mewn manau eraill. Num. 11. 22. Efe a'u cafodd, ac a gafodd ddigon iddynt i'w diwallu.

Anialwch yw, 1. Tir gwyllt, heb âr na medi, lle anghyfannedd, heb dai, na thrigolion ond ychydig. Jos. 14. 10. Job 12. 24.——2. Hefyd, lleoedd mynyddig, â rhai trigolion a dinasoedd ynddynt. Luc 1. 40. 1 Bren. 2. 34. Jos. 15. 61. Dengys, medd Mr. Reland, nad oes dim cyfatebiad rhwng y gair *Heb.* מדבר a gyfieithir *anialwch*, a'r gair *Gr.* ερημος, a'r geiriau *Llad.* DESERTUM a SOLITUDO, y rhai yn yr ieithoedd hyny a arwyddant *anialwch*; ond bod y cyntaf yn arwyddo tir anniwylliedig, gwedi ei neillduo i borfäau deadellau; a'r tir diwylliedig a alwent gwastadedd, dyffrynoedd. Tir porfäog oedd un heb ddwyn ŷd, na gwin, nac olew; a thir ŷd oedd y llall, a gwin, ac olew. Yr oedd yn anialwch Judea, lle y pregethodd Ioan Fedyddiwr, chwech o ddinasoedd, heblaw amryw bentrefydd; sef Bethabara, Midin, Lecacah, Nibshan, Dinas yr Halen, ac Engedi.——3. Anialwch Arabia, lle bu yr Israeliaid yn crwydro ddeugain mlynedd, a elwir yn neillduol felly. Exod. 5. 2. Ps. 78. 40. a 95. 8. a 106. 14. Ioan 6. 31.——4. Y rhan hôno o'r byd lle yr oedd y cenedloedd yn difa eu gilydd fel anifeiliaid direswm, heb gyfraith nac efengyl, moesau nac ordinhadau. Esa. 35. 1, 6. a 41. 19. a 43. 19. ——5. Cystudd, a'r caethiwed yn Babilon. Hos. 2. 13. Yr 'anialwch,' o'r hwn y mae y saint yn dyfod i fynu, yw eu cyflwr digysur, diffrwyth, a pheryglus, o anwybodaeth ac anghrediniaeth; y byd drwg presennol o lygredd a chyfeiliornadau; a chyflwr o orthrymderau ac erlidigaethau. Can. 3. 6. a 8. 5. Edr. PARAN, ARABIA, SIN.

ANIAN—OL, (an) naturiaeth, greddf, tuedd natur; naturiol, yn dra, dros ben. 'Yn ddrud anianol,' sef yn ddrud iawn. 'Arfer anianol,' ydyw arfer yn un â thuedd natur: 'arfer yn erbyn anian,' ydyw arfer yn erbyn naturiaeth, neu duedd natur. Rhuf. 1. 26.—— 'Fel trwy y rhai hyn (sef yr addewidion) y byddech gyfranogion o'r duwiol anian.' 2 Petr 1. 4. θειας φυσεως, anian yn dyfod oddiwrth Dduw—yn tebygu i Dduw—ac yn ymhyfrydu ynddo. Arwydda y tueddiad grasol, sanctaidd a duwiol, a weithredir gan yr Ysbryd Glân yn yr ail-enedigion. Nid gweithredu ar yr hen anian y mae yr Ysbryd Glân yn yr adenedigaeth, ond creu anian newydd, a hôno yn deillio oddi wrth Dduw, ac yn tueddu yn dduwiol: yn ganlynol, y mae y dyn yn ysbrydol ac yn dduwiol. Hwn yw y θεοσεβεια, *duwioldeb* (1 Tim. 2. 10.) sef tueddiad sanctaidd enaid tu ag at Dduw. Y mae y cyfryw ag sydd yn gyfranog o'r anian hon, 1. 'Yn ol yr Ysbryd,' neu yn ddynion ysbrydol; y mae Ysbryd Duw yn trigo ynddynt hwy, ac yn eu harwain, ac yn gweithredu ynddynt yn sanctaidd. Y mae eu hymarweddiad yn dduwiol; ac felly y maent yn rhodio ac yn byw yn ol yr Ysbryd.——2. Y maent yn synio pethau yr Ysbryd —dyfnion bethau Duw; sef athrawiaethau gras, yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.——3. Y mae tueddrwydd grasol eu heneidiau tu ag at Dduw a'i wasanaeth. Y maent mewn gradd yn ei adnabod, ac yn dilyn i'w adnabod trwy bob moddion; y mae eu meddyliau a'u serchiadau gwedi eu gosod arno, ac y maent yn hiraethu am gael cymdeithas âg ef, ac amlygrwydd o'i gariad tragywyddol iddynt yn Nghrist.——4. Wedi derbyn y duwiol anian, dynion Duw ydynt (του θεου ανθρωπος) sef dynion i Dduw, yn heddwch Duw, am gymdeithasu â Duw, ac am fyw i Dduw, a rhodio i bob rhyngu bodd iddo. Y mae ganddynt bob peth sydd yn 'perthyn i fywyd a duwioldeb;' sef i fywyd duwiol, neu i dduwioldeb bywiog—pob gras, a phob cynnorthwyon sydd angenrheidiol er ei gynnydd. Nis dichon neb byth ddychwelyd at Dduw, ei addoli, ac ymhyfrydu ynddo, heb y dduwiol anian hon. Nid ευσεβεις, *dynion duwiol*, yn tueddu yn wirfoddol i addoli Duw ydynt; ond ασεβεις, *annuwiol*, heb Dduw, croes i Dduw, ac yn gâs ganddynt Dduw. Edr. ADENEDIGAETH.

ANIFEL—IAID, (an-bel) *Llad.* ANIMAL: creadur byw, heb wybodaeth resymol, a drefnwyd at wasanaeth dyn, ac i brydferthu y greadigaeth. Yr anifeiliaid dan y ddeddf a gyfrifid yn dri math:—1. Y rhai glanaf a mwyaf buddiol i ddynion, hawsaf eu cael, y rhai mwyaf cymhwys i fod yn aberthau i gysgodi aberth Crist; sef ychain, defaid, colomenod, &c. Tebygol mai y rhai hyn a gyfrifid yn lân wrth fyned i mewn i arch Noah. Gen. 7. 3, 8. a 8. 20. Lef. 1. 3, 10, 14. a 22. 18.——2. Eraill oeddynt yn lân i'w bwyta, ond nid i'w haberthu; sef y rhai oedd yn cnoi eu cil, ac yn fforchogi yr ewin. Ond os byddai i un o'r rhai hyn

Digitized by Google

farw o hono ei hun, heb gael gollwng ei waed—neu gael ei ddryllio gan, ac felly, hwyrach, gyffwrdd âg anifel aflan, yr oedd yntau yn aflan hefyd. Deut. 14. 4—6. Exod. 22. 31. Lef. 9. 3, 9. a 22. 8.——3. Y lleill a gyfrifid yn llwyr aflan, sef y rhai creulon, ysglyfaethus, adar y nos, &c. Lef. xi. Deut. xiv.——Yr oedd y rhai cyntaf yn gysgod o Iesu, ein Prynwr llariaidd, addfwyn, parod, a digonol aberth. Yr oedd yr ail yn gysgod o'r saint, y rhai sydd yn byw ac yn myfyrio ar iachus a phur air Duw, yn cael cymdeithas â Christ a'i bobl, ac yn nofio yn erbyn y ffrwd o lygredigaeth. Yr oedd y trydydd yn gosod allan y rhai dryglonus, creulon, heb fod yr Ysbryd ganddynt. Dynion o dymherau taullyd, creulon, yn erbyn Duw a'i bobl. Lef. xi. Deut. xiv.

'Yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus.' 1 Cor. 15. 22. Y mae rhai yn deall y lle hwn yn llythyrenol, fod Paul, er mwyn amddiffyn ei fywyd, wedi bod yn ymladd â chreaduriaid gwylltion, megys llewod, eirth, &c., trwy ddedfryd y swyddogion, i foddhau creulonder y bobl. Tan lywodraeth y Rhufeiniaid, fel mewn lleoedd eraill, byddid yn bwrw dynion i blith creaduriaid gwylltion, i ffau y llewod; eraill a gondemnid i ymladd yn arfogion â bleiddiaid, &c. Eithr nid tebyg iawn, medd rhai, fod Paul wedi cael ei daflu fel hyn oedd yn ŵr breiniol; oblegid y drwg-weithredwyr a'r caeth-weision a fyddent fwyaf arferol o gael y driniaeth hon. Ond mae y geiriau 'yn ol dull dyn,' sef yn ol arfer dynion barbaraidd, creulon, yr oes hòno, yn ein harwain yn naturiol i ddeall y geiriau heb un ffugyr. Nid addas ymadael âg ystyr llythyrenol at un ffugyrol, os na bydd angenrheidrwydd anhebgorol yn galw am hyny. Er nad yw Luc yn coffâu am hyny yn ei hanes am dano, etto gallasai fod, gan fod amryw o bethau eraill am Paul yn cael eu gadael heb grybwylliad ganddo ef; megys ei waith yn ceryddu Petr. Gal. ii. Rhai a farnant fod hyn yn ngolwg yr apostol pan yr ysgrifenodd am ei beryglon, yn 2 Cor. 1. 8. Ond pa fodd bynag y deallir y testun, yn ffugyrol neu yn llythyrenol, y mae yn dangos y peryglon dirfawr yr aeth Paul trwyddynt, er mwyn gobaith o adgyfodiad gwynfydedig. Act. 19. 29. Gwel Whitby, Hammond, Grotius, ac Esgob Fell, ar y lle.——Y Cenedloedd a elwir *anifeiliaid y maes*, oblegid eu pellder oddiwrth Dduw, a chymdeithas ei bobl. Esa. 43. 20.——Ymerodraeth y Caldeaid a'r Persiaid a gyffelybir i anifeiliaid, oblegid eu creulondeb. Dan. 7. 11. Dat. xii, xiii, xvii. Edrych enwau pob un o honynt.——Y 'pedwar anifel,' neu y pethau byw, yn Dat. iv, yn ol meddyliau rhai, ydynt angelion Duw, ei weinidogion penaf. Eithr mwy tebygol yw, mai gweinidogion yr efengyl a feddylir; wedi eu cynnysgaethu gan Dduw âg amryw ddoniau a chymhwysderau at eu gwaith. Rhai yn hyfion a diofn, fel llewod; rhai yn amyneddgar a llariaidd, fel ychain; eraill yn fwy call a synwyrol, fel dynion; ac eraill yn canfod ac yn treiddio yn mhell i ddyfnderoedd teyrnas Crist, am hyny yn cael eu cyffelybu i eryrod. Wrth eu 'hadenydd,' y deallir eu parodrwydd i ufuddhau, ac i fyned lle yr anfonir hwynt gan Dduw. Edr. Cerub.

ANIS, llysieuyn rhinweddol, meddyginiaethol, yn tyfu yn helaeth iawn yn ngwlad Judea. Mat. 23. 23. Ανηθον, yn hytrach, *ffenygl, ανισον* yw y gair Groeg am anis.

ANLLAD—RWYDD, (llad) trythyll; nwyfus; aflendid, anniweirdeb, dwyfiant, trythyllwch.—'A chanddi ymddygiad putain.' Diar. 7. 10. Ymddygiad anniwair; gwisgoedd anniwair, anaddas, a ffol; ymadroddion yn tueddu at lygru moesau. Pob peth yn ein hymddygiad croes i'r seithfed gorchymyn. Marc 7. 22. 1 Cor. 7. 5. Gal. 5. 19. Edr. Godineb.

ANLLYGREDIG—AETH, (an-llwgr) dilwgr, pur, dianmhuredd, digyfeiliornad. Mae y gair Groeg *αφθαρσια*, a gyfleithir *anllygredigaeth*, yn cael ei arfer mewn cyferbyniad i lygriad neu dreuliad naturiaeth rhyw fôd, ei anharddiad, neu ei ddarfodiad; ac, hefyd, mewn cyferbyniad i lwgr moesol, pechadurus. Y mae Duw yn hanfodol anllygredig yn mhob ystyr. Y mae pob creadur yn ddarostyngedig i lygredigaeth, ond fel y gwnelo Duw hwynt yn gyfranogion o anllygredigaeth; ond y mae Duw yn anllygredig o hanfod; nis gall efe byth ymhalogi, llygru, anharddu, gwaethygu, nac anmhuro, mewn un gradd. Nid oes dim rhanau ynddo ef i'w colli; nid oes na harddwch na gogoniant ond y sydd yn hanfodol iddo. Bôd pur, diranau, digymysg, ydyw; yn cynnwys pob perffeithrwydd, yn hanfodol, ynddo ei hun; yn dibynu yn hollol arno ei hun, ac yn ddigyfnewid. Nis gall fod yn well nac yn berffeithiach; ac nid oes rhanau ynddo i'w colli, a thrwy hyny waethygu. Aeth y Cenedloedd doethion yn ffyliaid, pan y 'newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw, i gyffelybiaeth llun dyn llygredig,' &c. Rhuf. 1. 23. Y mae ysbryd addfwyn a llonydd yn foglyn hardd ac yn addurn gogoneddus ac anllygredig, 'a cher bron Duw yn werthfawr;' a chan ei fod felly, y mae yn fwy i'w gyrchu ato gan wragedd, a chan bawb, na 'phlethiad gwallt, ac amgylch-osodiad aur.' Y mae y naill yn llygredig ac yn ddiwerth ger bron Duw, a'r llall yn gymeradwy gyda Duw, yn anllygredig, ac i barhau byth. 1 Petr 3. 4.

Yn angeu ac adgyfodiad ein Hiachawdwr Iesu Grist, 'diddymodd angeu, ac a ddyg fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl.' 2 Tim. 1. 10. Y mae yr efengyl yn dadguddio, yn Nghrist, fywyd i bechaduriaid cuog, llygredig, a meirwon; y mae hwnw yn fywyd tragywyddol, anllygredig, a gogoneddus. Yn adgyfodiad y meirw, bydd cyrph y meirw yn Nghrist yn cael eu rhyddhau yn dragywyddol oddiwrth lygredigaeth, ac yn cael eu gwisgo âg anllygredigaeth ac anfarwoldeb. Y mae iddynt, hefyd, etifeddiaeth anllygredig; ac, o herwydd hyny, yn ddihalogedig, a diddiflanedig, 'yn nghadw iddynt yn y nefoedd.' 1 Petr 1. 4. 1 Cor. 15. 50, 53, 54. Heb. 3. 14. Tit. 1. 2, 3. a 3. 11. Rhuf. 16. 25, 26. Col. 1. 26. Y mae pob peth perthynol i'w cyflwr newydd yn Nghrist yn anllygredig, yn anfarwol, ac i barhau byth. Y mae eu Pen yn anllygredig; mae yr undeb rhyngddynt hwy âg yntau yn anllygredig; ac o herwydd hyny y maent yn gyd-etifeddion â Christ, ac i fod yn debyg iddo yn eu cyrph a'u heneidiau. Athrawiaeth anllygredig, ac athrawiaeth bur, ddigymysg, yr hon nis llygra neb a'i credo, ond a fydd ynddynt hwy yn hâd anllygredig; a'u pura oddiwrth eu holl anmhuredd, i feddiannu bywyd ac anllygredigaeth tragywyddol yn Nghrist. Tit. 2. 7. 1 Petr 1. 27. Y mae pob cymysgedd dynol â'r efengyl yn ei llygru; ac y mae yr athrawiaeth lygredig hon yn sicr o lygru y sawl sydd yn ei derbyn ac yn ei chredu. Y mae pob athrawiaeth lygredig, ryw ffordd neu gilydd, yn gynnaliaethol i bechod, ac yn llygru yr enaid.

ANLLYTHYRENOG, (llythyrenog) diddysg, annysgedig, heb ddygiad i fynu rheolaidd, ac ysgolheigaidd. Yr oedd Petr ac Ioan yn wyr anllythyrenog; sef heb y cyfryw ddygiad i fynu ag a gafodd Paul wrth draed Gamaliel. Act. 4. 13.

ANLLYWODRAETHUS, (llywodraeth) afreolus, penwyllt, dilywodraeth.—'Drwg anllywodraethus,' y mae yr apostol yn galw y tafod. Iago 3. 8. Tra byddo y galon heb fod dan lywodraeth Ysbryd Duw, ac ofn duwiol, bydd y tafod felly hefyd; ond yn tywallt allan o'r oferedd a'r drygioni sydd yn y galon, yn ddiystyr o'r canlyniadau. Ni ddichon neb amgyffred y drwg mae yr aelod fechan hon yn euog o hono. Yr hwn ni fedro attal ei dafod, 'cymeryd arno' y mae i fod yn grefyddol; canys nid ydyw ef felly mewn gwirionedd;

Digitized by Google

—ofer yw crefydd hwnw. Iago 1. 26. a 3. 8. Edr. Tafod.

ANMHARCH, (parch) anfri, dianrhydedd, dirmyg. Act. 5. 41. 2 Cor. 12. 10.

ANMHAROD, (parawd) dibarod, heb barotoi. 2 Cor. 9. 4.

ANMHLANTADWY, (an-mhlant) diffrwythder, anffrwythlondeb, dieppiledd. Gen. 25. 21. a 29. 31. —Yr oedd diffrwythder yn cael edrych arno gan yr hen dduwiolion, yn y cynddydd, a chan yr Iuddewon hefyd yn ddiweddarach, fel barn neu gerydd neillduol oddiwrth yr Arglwydd: ac o'r tu arall, yr oeddynt yn cyfrif gwraig fel gwinwydden ffrwythlawn, a'r plant fel planhigion oddi amgylch y bwrdd, yn arwyddocâd cysurus o ewyllys da a boddlonrwydd yr Arglwydd. Yr achos o hyn, yn ddiammeu, ydoedd yr addewid yn Eden ar ol y cwymp. Yn ol yr addewid hòno, yr ydoedd holl obaith dyn euog yn gorphwys ar 'Hâd y wraig.' Gan ei fod wedi ei ddadguddio, fod Arglwydd nefoedd a daear i ymgnawdoli i fod yn Waredwr addas a digonol i'w bobl; a bod y genedl hòno wedi ei nodi allan o ba un yr ydoedd i hanu, yr oedd bod yn 'fam yn Israel,' âg anrhydedd nid bychan yn perthyn iddi; ac yr oedd bod yn anmhlantadwy hefyd, yn y gwrthwyneb, yn waradwydd mawr yn mhlith dynion. Luc 1. 25. Gen. 30. 23. Esa. 4. 1. Am fod y Messïah gwedi ei addaw i ddyfod o genedl Israel, yr ydoedd yn fwy o anrhydedd i fod yn fam yn Israel, ac hefyd yn fwy o waradwydd i fod yn anmhlantadwy, nac yn un genedl arall yn y byd.——Y mae yr Arglwydd yn cysuro ei eglwys yn ngwyneb ei diffrwythdra, a'i chyflwr dieppiledd, gan addaw y byddai i'w hâd dòri allan ar y llaw ddehau ac ar y llaw aswy, etifeddu y Cenedloedd, a chyfanneddu dinasoedd anrheithiedig: ac y byddai, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, yn mhlith y Cenedloedd yn amlach ei meibion na than yr oruchwyliaeth Iuddewig. Bu Sarah yn hir iawn yn anmhlantadwy, cysgod o'r eglwys efengylaidd, tra yr oedd Hagar yn eppilio, cysgod o'r eglwys Iuddewig; ond amlach oedd meibion Sarah na Hagar yn y diwedd. Ni âd yr Arglwydd ei eglwys mewn cyflwr dieppiledd: ond ar ol cuddio ei wyneb mewn soriant dros enyd awr, efe a ymwel â hi drachefn, ac a drugarha wrthi â thrugaredd dragywyddol, ac a amlha ei hâd fel sêr y nefoedd. Esa. 49. 19, 21. a 54. 1. a 62. 4. Gal. 4. 27. Dat. 32. 43. Mic. 4. 3—6. Rhuf. 9. 23, 26, 30. Deut. 7. 4, 9. Ioan 8. 56. a 11. 52. a 14. 18. Edr. Sarah.

ANMHOSIBL, *Saes.* Impossible, analluog, anallu: anhawdd, yr hyn nis gall fod mewn un modd. Mewn perthynas i natur Duw, y mae yn anmhosibl iddo ef fod yn gelwyddog, neu ei wadu ei hun. Heb. 6. 18. Tit. 1. 2. Mewn perthynas i'w allu, nid oes dim da yn anmhosibl iddo. Luc 1. 37. Mewn perthynas i dragywyddol arfaeth a threfn ragluniaethol Duw, y mae yn anmhosibl na ddaw rhwystrau, neu i'r etholedigion gael eu twyllo. Luc 17. 1. Mat. 24. 24. Mewn perthynas i'w allu ef yn cydfyned, nid oedd dim gwyrthiol yn anmhosibl i'r apostolion. Mat. 17. 20. Yr hyn sydd yn 'anmhosibl gyda dynion' ydyw yr hyn nas gallant ei ddwyn i ben, o eisieu gallu a doethineb. Mat. 19. 26. Heb ffydd anmhosibl yw rhyngu bodd Duw; gan nad oes neb ond y sawl a gredant yn meddiannu Crist, yn yr hwn y boddlonwyd ef. Heb. 11. 6.

ANMHUREDD, (an-mhur) aflendid, bryntni, anmheraidd. Ezec. 22. 18, 19. Diar. 25. 4.

ANMHWYLL—O, (pwyll) anghallineb, annoethineb, annoethedd, direswm, anghymhwyll, diymsyniad. **Rhaid wrth *anmhwyll* pwyll parod.** ***Englyn y Clywaid.***

'Yn anmhwyllo ynghylch cwestiynau.' 1 Tim. 6. 4. *Gr.* ***νοσων, yn glaf.*** Maent yn glaf o anmhwyll, neu ynfydrwydd ysbrydol; mae yr afiechyd yn ymddangos yn eu gwaith yn codi cwestiynau, ac yn ymryson yn nghylch geiriau, yn lle ymborthi ar sylwedd yr efengyl. Math o orphwylliad ysbrydol ydyw, yn tarddu oddiwrth ymchwydd y meddwl. Jer. 10. 8. 2 Cor. 5. 13.

ANMRWD, (brwd) anmerw, heb ei ferwi, heb ei boethi drwyddo; bwyd heb ei barotoi yn ddigonol i fod yn addas i'r cylla i'w dreulio.—'Na fwytewch o hono yn anmrwd.' Exod. 12. 9. Arwydda y gair *Heb.* נא nid ei fod yn hollol ddidriniaeth, ond bwyd heb ei gyflawn drin yn addas i'r cylla i'w dreulio. Yr oedd hyn yn arwydd fod Crist, yr hwn yr oedd oen y pasc yn ei gysgodi, i ymborthi arno fel y mae yn aberth digonol, wedi dyoddef tân digofaint Duw dros bechodau ei bobl. Nid oedd yr oen perffaithgwbl, hollol ddifai, ddim yn ymborth addas heb ei rostio wrth dân; felly Crist, y mae efe yn Dduw anfeidrol, yn ddyn perffaith ddibechod, yn frenin, yn athraw, &c., ond nid ydyw yn ymborth addas i bechadur euog, ond fel y mae yn ei aberth yn iawn dros ein pechodau ni. Y mae Tywysog ein hiechydwriaeth wedi ei berffeithio trwy ddyoddefiadau; Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, ydyw gwrthddrych addas ein ffydd, ein hyder, a'n gobaith. Heb. 2. 10. 1 Cor. 2. 2. Oni bydd yn cael ei osod allan o flaen pechaduriaid yn ei aberth, a'r iawn a wnaeth drwy hyny, yn ein pregethau, nid ydyw genym ni ond yn anmrwd; nid ydyw yn addas i bechadur euog i ymborthi arno, ac nis gwna les effeithiol i 'buro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw.' Heb. 9. 14. Y mae yn rhaid puro y gydwybod yn gyntaf, ac onidê ni chaiff y Duw byw ddim gwasanaeth gwirioneddol oddiwrth un pechadur byth: ond nid oes dim yn y nef na'r ddaear a ddichon wneuthur hyny ond gwaed Crist yn unig: hyny yw, Crist fel iawn dros ein pechodau, yn wrthddrych i'n ffydd.

ANNA, חנה [*graslawn*] merch Phanuel, o lwyth Aser; priodwyd hi yn ieuanc, ac a fu fyw saith mlynedd o'i morwyndod gyda gwr. Gwedi ei farw, ymroddodd at wasanaeth Duw: ar bob amser boreuol a hwyrol aberth yn y deml, yr ydoedd hi yno yn tywallt ei gweddïau. Pan oedd yno yn oedranus iawn, cafodd gyflawniad o'r hyn yr oedd trwy ffydd yn ei ddysgwyl:—daeth Mair a'i mab bychan i'r deml; hithau, gyda Simeon, a'i moliannodd ef, gan ei gydnabod y gwir Fessïah. Luc 2. 36, 37.

ANNAS, [*trugarog, graslawn*] arch-offeiriad yr Iuddewon, tad yn nghyfraith Caiaphas, ac a fu yn arch-offeiriad o'i flaen. Dygwyd Iesu Grist o'i flaen ef yn gyntaf, ar ol ei ddal yn mynydd yr Olew-wydd, ac wedi hyny dygwyd ef o flaen Caiaphas. Ioan 18. 13.

ANNEALLUS, (deall) ansynwyrol, annoeth, ynfyd, ffol. Y mae calon dyn llygredig yn anneallus am Dduw, ac am bethau Duw; ac o herwydd hyny, mae yn agored i gamsyniadau a chyfeiliornadau yn mhob peth a berthyn i Dduw, ei briodoliaethau, a'i addoliad. Er bod hysbysrwydd digonol am dragywyddol allu Duw a'i dduwdod yn y pethau a wnaed, hyd onid yw pawb yn ddiesgus; etto nid ydyw calon anneallus yn gweled dim mewn iawn oleuni, nac yn canfod Duw yn y pethau a wnaed. Rhuf. 1. 31. a 10 19. Y mae 'Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, yn llewyrchu i galonau y rhai a achubir, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist.' 2 Cor. 4. 6.

ANNEDD—U, (dedd) preswylfod, trigfa, cynnwys. Lef. 25. 29. Tŷ annedd, tŷ preswylio ynddo.—'Na annent.' Marc. 2. 2.

Digitized by Google

**ANNEL—AU—OG**, (del) plygedig, wedi ei blygu, ·yfeiriedig. '*Bwa ar annel*,' sef bwa wedi ei blygu. —'Byllt a mellt a ânt yn uniawn, ac a gyrchant at y nôd, megys o annelog fwa y cymylau.' Doeth. 5. 21. ——'Hwy a annelasant eu tafod fel eu bwa i gelwydd.' Jer. 9. 3. Y maent yn cyfeirio eu geiriau yn gelwyddog, fel saethau at y nôd; ac fel saethau y mae eu geiriau celwyddog yn dolurio ac yn niweidio eu cymydogion. Ps. 11. 2. a 37. 14.——Y mae barnedigaethau Duw fel bwa annelog yn erbyn yr annuwiol, oni ddychwel efe mewn gwir edifeirwch at Dduw am drugaredd. Ps. 7. 11. Galar. 2. 4. a 3. 12.——'Pan annelwyf Judah i mi, ac y llanwyf y bwa âg Ephraim.' Zech. 9. 13, 14. Y mae yr Arglwydd yn y geiriau troellog hyn, yn dangos y byddai efe o blaid ei bobl, yn eu nerthu ac yn eu cyfarwyddo yn eu holl ryfeloedd, allanol a thufewnol. Efe sydd yn ymladd, ac y maent hwythau fel bwa a saethau yn ei law, i orchfygu a dystrywio y gelyn: 'Yr Arglwydd a wellr trostynt, a'i saeth ef a â allan fel mellten.'——'A'r brenin a wnaeth o'r coed almugim annelau i dŷ yr Arglwydd ac i dŷ y brenin.' 1 Bren. 10. 12. PILLARS, *Saes.* סעד *cynnal, cynnaliaeth, cryfhau:* Gen. 16. 8.—*cymeryd lluniaeth.* 1 Bren. 13. 7. Yn 2 Cron. 9. 11. gelwir yr annelau, *grisiau.* Gelwir hwynt סעד *annelau*, oddiwrth ddull eu gwneuthuriad, tebygol. Edr. SALECHETH.

**ANNER**, (an-der) buwch ieuanc heb fod llo drwyddi. Ych, a tharw, yn ffugyrol, a osod allan y cyfoethog a'r galluog, y rhai sydd yn byw mewn llawnder, a anghofiant Dduw, ac a ddiystyrant y tlawd; felly wrth annerau y meddylir y merched a fyddo yn byw yn yr un fath lawnder ac esmwythyd—nes dyfod yn wresog ac anllad. Barn. 14. 18.——Anner goch, berffaith gwbl, ddianaf (heb fod iau arni, fel y gallai fod ar yr aberthau eraill) a roddid yn llaw yr offeiriad i'w dwyn o'r tu allan i'r gwersyll, ac i'w lladd ger ei fron. Yr oedd yr offeiriad i drochi ei fys yn y gwaed, ac i'w daenellu saith waith tua gwyneb y babell; yna yr oedd un i losgi yr anner ger ei fron, y cig a'r croen, y gwaed a'r biswail. Yr oedd efe hefyd i gymeryd coed cedr ac isop, ac ysgarlad, a'i fwrw i ganol llosgfa yr anner; ac, wedi golchi ei gorph a'i ddillad, a'r hwn ydoedd yn llosgi yr anner wneuthur yr un peth, dychwelent i'r gwersyll, ac a fyddent aflan hyd yr hwyr. Yr oedd y lludw i gael ei gasglu gan un glân, a'i osod o'r tu allan i'r gwersyll mewn lle glân; yr oedd i'w gadw i wneuthur defnydd o hono yn ddwfr neillduaeth, neu buredigaeth oddiwrth ryw gyffyrddiad aflan: yr anner hon a losgid dros bechod. Num. 19. 1, &c. Yr oedd y ddefod hon, yn ol fel y dywed Jerome, yn cael ei gwneuthur bob amser ar fynydd yr Olew-wydd, ar gyfer y deml. Yr oedd yr anner goch yn gysgod rhagorol o Iesu Grist, yr hwn sydd berffaith ddianaf—heb fod iau pechod arno—yn wyn a gwridog—yn cyfranogi o gystuddiau ei bobl—a'i waed yn glanhau oddiwrth bob pechod: Heb. 9. 13, 14. a'r hwn a ddyoddefodd y tu allan i'r gwersyll, neu y porth. Heb. 13. 12.

**ANNHEILWNG—YNGDOD**, (teilwng) anhaeddiannol, anaddas.—'Pwy bynag a fwytao y bara hwn, neu a yfo gwpan yr Arglwydd yn annheilwng, euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd.' 1 Cor. 11. 27. Bwyta ac yfed (αναξιως) yn annheilwng yn yr ordinhad hon, yw, pan y byddont yn cyfranogi o honi mewn ysbryd a dull anaddas, anmharchus, ac ansanctaidd; neu i ddybenion anaddas ac anmharchus, ac nid fel coffadwriaeth ffyddiog am aberth Crist, i dderbyn lleshâd i'w heneidiau yn yr arferiad o honi. Y mae y cyfryw yn euog o gorph a gwaed Crist; sef yn euog o anmharchu Crist yn ei ddyoddefiadau; a'r iawn a wnaeth trwy aberthu ei hun trosom. Y mae anmharchu yr ordinhad yn anmharchu yr hyn a arwyddocêir ynddi, sef Iesu Grist a hwnw wedi ei groeshoelio. Y sawl a gyfranogo felly yn annheilwng, a gaiff farnedigaeth iddo ei hun, yn lle bendith, am nad ydyw yn iawn farnu corph yr Arglwydd. Adn. 29. Y mae ysbryd addas, a dybenion sanctaidd, yn ofynol yn ein harferiad o ordinhadau dwyfol; heb ba rai nis gallwn ryngu bodd Duw, na chael bendith i ni ein hunain, yn yr arferiad o honynt.——Yr Iuddewon a farnasant eu hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol trwy wrthod yr efengyl, yr un fath a phe buasai y barnwr yn eu cyhoeddi felly. Act. 13. 46.

**ANNHRAETHADWY**, (traethu) yr hyn nis gellir neu nid yw gyfreithlawn ei draethu.—'Y mae yr Ysbryd ei hun yn erfyn drosom ni âg ocheneidiau annhraethadwy.' Rhuf. 8. 26. *στεναγμοις αλαλητοις, ocheneidiau nas gellir eu traethu;* neu ocheneidiau, griddfanau, a dymuniadau nad ydynt yn cael eu traethu mewn geiriau wrth yr Arglwydd. Y mae ocheneidiau a dymuniadau yn cael eu cyffroi gan yr Ysbryd Glân, yn ddirgelaidd, yn nghalonau y gwir dduwiolion, ag sydd yn ddisymwth, a chyd â'r cyflymdra mwyaf, yn esgyn i fynu at Dduw, heb aros eu gosod a'u trefnu mewn geiriau ger ei fron. A'r hwn sydd yn chwilio y calonau a ŵyr beth ydyw meddwl yr Ysbryd yn yr ocheneidiau hyn, ac a ateb yn raslawn y dymuniadau sanctaidd. Fel hyn, trwy gynnorthwyon yr Ysbryd Glân, y mae cymdeithas ryfedd, ddirgelaidd, a pharhaus, yn cael ei dwyn yn mlaen rhwng Duw a'i bobl, yn nghanol eu gwendidau tra y maent yma yn y byd. Ioan 14. 17. Exod. 14. 15. 1 Sam. 1. 13. 1 Cor. 14. 14. 2 Cor. 1. 22. Judas 20. Edr. CYFREITHLAWN.

**ANNHREFN—AU**, (trefn) didrefnydd, afreolaeth, aflywodraeth, terfysg.—'Ac efe a estyn arni linyn annhrefn, a meini gwagedd.' Esa. 34. 11. 'Llinyn aflunieidd-dra.' Dr. M. 'Llinyn difrodiad.' Lowth. Yn arwyddo llwyr a manwl ddinystr, trwy ei bod yn cael ei mesur allan i'w difrodi.

**ANNHRUGAROG—ION**, (trugarawg) didosturi, creulawn, dihaelioni. Y gair *Gr. ανελεημων*, a gyfieithir *annhrugarog*, a arwydda dideimladrwydd, a didosturi yn y meddwl; ac hefyd, dihaelioni o ran cyfranu yn weithredol; a'r naill yn tarddu o'r llall, fel y ffrwyth oddiar y gwreiddyn y mae yn tyfu arno. Dyma yr agwedd bechadurus sydd ar ein calonau fel pechaduriaid syrthiedig; ac sydd yn ein hannhebygu i Dduw yn fawr, ac yn ein gwneuthur yn afrywiog, yn greulawn, ac yn ddideimlad tu ag at ein gilydd. Ond y mae y rhai hyny sydd gwedi eu geni drachefn, yn drugarogion, 'fel y mae eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn drugarog.' Luc 6. 36. Ps. 43. 1. Rhuf. 1. 31. Mat. 5. 48. a 14. 14. a 18. 33. Exod. 34. 6. Eph. 5. 1, 2. Col. 3. 12. Lef. 25. 35, 36, 37. Nid oes dim mewn dyn sydd yn cynhyrfu digofaint Duw yn fwy yn ei erbyn, nag annhrugarogrwydd a chreulondeb. Gan mor drugarog y mae efe ei hun, nis gall ddyoddef hyn heb ddial y cam ar yr hwn sydd yn ei wneuthur.

**ANNHYMMIG**, (tymmig) annhymhorol, anamserol, anmhrydlon.—'Un annhymmig.' 1 Cor. 15. 8. *Un antempig. Un a anet allan o dymp, ne amser.* W. S. ymyl y ddalen. *Gr. εκτρωμα, erthyliad.* Job 3. 16. Preg. 6. 3. LXX. Nid yw gwaith yr apostol yn galw ei hun felly, yn arwyddo un math o goll yn ei anfoniad, na phalldod yn ei gymhwysderau fel apostol; canys nid oedd ddim yn ol i'r apostolion penaf. 2 Cor. 1. 5. Ond y mae yn galw ei hun yn erthyl am iddo erlid eglwys Crist, (adn. 9.) ac hefyd, am iddo gael ei wneuthur yn apostol heb y rhagbarotoad i hyny a gafodd yr apostolion eraill, trwy iddynt fod gyd â'r Iesu yn ei weinidogaeth yma ar y ddaear. Ond cyflawnwyd y diffyg o hyny yn helaeth i'r apostol trwy yr

Digitized by Google

amryw ddadguddiedigaethau a gafodd ef o'r Arglwydd wedi ei wneuthur yn apostol. 1 Cor. 9. 1. Tebygol nad ymddangosodd Crist i neb o'r apostolion ar ol ei esgyniad, ond i Paul yn unig. 1 Cor. 15. 8.

ANNICHELLGAR, (dichell) didwyll, dihoced, digyfrwysdra. Yr agwedd dirion, hardd hon, a weithredir gan yr Ysbryd Glân ar eneidiau y rhai a gedwir i fywyd tragywyddol, sydd yn iawn ddeall gwirioneddau Duw, ac yn ymborthi ar wledd yr efengyl. Ps. 116. 6. a 119. 130. Diar. 9. 4.

ANNIFEIRIOL, (nifer) aneirif, afrifed, anhyrif.—'Drygau annifeiriol a'm cylchynasant,' medd y Cyfryngwr mawr, pan yr ydoedd yn sefyll ac yn dyoddef dros bechodau ei bobl, cyfrifedig iddo. Ps. 40. 12. a 69. 4.

ANNILYS, (dilys) ansicr, ammheus. 'Am hyny ddwy vi yn rhedec, nid val yn anilys,' &c. 1 Cor. 9. 26. W. S.

ANNIOLCHGAR, (diolchgar) diddiolch, digydnabod, difoesau da.—'Daionus yw y Goruchaf i'r rhai anniolchgar a drwg;' ac y mae efe yn gorchymyn hefyd i'w holl blant fod yn debyg iddo yn hyn. Luc 6. 35. 2 Tim. 3. 2.

ANNIWAIR—EIRDEB, (diwair) anllad, aflan, brwnt, budr, trythyll, nwyfus. Troseddiad o'r seithfed gorchymyn, ar feddwl, gair, neu weithred. 2 Petr 2. 7. Edr. GODINEB.

ANNOETH—INEB, (doeth) ffol, ynfyd, diddysg. —1. Un heb ddysgeidiaeth ganddo. Rhuf. 1. 14.—2. Un heb adnabod Duw na'i ffyrdd; ond yn byw mewn ffolineb ac ynfydrwydd pechadurus. Tit. 3. 3. Eph. 5. 17. Ps. 22. 6.

ANNOG—AETH—OL, (an-dog) *Heb.* אנס *(anas)* cymhell, cynghori, rhybuddio, cynhyrfu.—'A Satan a safodd i fynu yn erbyn Israel, ac a annogodd Dafydd i gyfrif Israel.' O herwydd ddarfod i ddigllonedd yr Arglwydd ennyn yn erbyn pobl Israel, y goddefodd efe i Satan weithredu ar lygredd Dafydd, i'w annog i gyfrif y bobl. Yr oedd hyn yn beth tra phechadurus yn Dafydd, 'canys dywedasai yr Arglwydd yr amlhai efe Israel fel sêr y nefoedd.' Gwel 2 Sam. 24. 1. 1 Cron. 21. 1. a 27. 23, 24. Y mae Satan yn annog dynion i'r hyn sy ddrwg: yr oedd Jezebel yn annog Ahab i wneuthur drwg yn ngolwg yr Arglwydd. Nis gall Satan beri i neb wneuthur yn groes i'w ewyllys, ond y mae yn annog.—1. Y mae efe yn naturiaethwr mawr, ac wedi cael hir brofiad, a manteision i sylwi yn fanwl ar ddynion, i ddeall ansawdd eu hysbrydoedd, a'r tueddiadau mwyaf cynnefin, a'r gogwyddiadau mwyaf arferol iddynt hwy.——2. Y mae yn gosod o'u blaen wrthddrychau cyfaddas i'r tueddiadau hyn. ——3. Y mae yn cynhyrfu meddwl ynddynt cyfatebol i'r gwrthddrychau hyn. Rhoddodd y diafol yn nghalon Judas i fradychu yr Iesu. Ioan 13. 1. Llanwodd Satan galon Ananias i ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân. Act. 5. 3. Ysbryd ydyw a ddichon gael dyfodfa at ysbrydoedd dynion, a gweithredu arnynt.——4. Heblaw y pethau hyn, geill Satan fyned yn mhellach; dichon nid yn unig daflu y meddwl i'r dyn, ond dichon gynhyrfu ac annog y galon i fod yn ewyllysgar i roddi derbyniad a chydsyniad â chyfryw feddyliau. Felly y gwnaeth efe â Dafydd yma; annogodd ef, a chymhellodd ef yn ddiorphwys, nes y cafodd efe ei amcan. Nid anhawdd ydyw i ni adnabod ei ddichellion yn hyn o waith.—1. Y mae bob amser yn gweithredu ar ryw lygredd, megys y gwnaeth efe yma ar lygredd Dafydd.——2. Nid oes ysbryd cynghor ac arafwch, pan y byddo y diafol yn annog, fel nad oedd yn Dafydd yn yr achos hwn.——3. Y mae y peth yn cael ei gadw yn y meddwl ganddo ef yn barhaus, nes byddo y pechod gwedi ei orphen, heb un achos rhesymol yn galw am hyny. Yr ydym ni yn weiniaid ac yn ffol, ac yntau yn fileinig, yn weithgar, ac yn gyfrwys-ddrwg; am hyny, da i ni weddio ar ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, am ein cadw a'n gwared ni rhag ei ddrygau.

ANNOS, (naws) gyru, annog, ymlid. Act. 19. 20 W. S.

ANNUWIOL—DEB, (duwiol) didduw, yn annhebyg i Dduw, yn wrthwyneb i Dduw a'i ewyllys, yn ddiymgais hefyd am ogoniant Duw. Cyflwr pawb wrth naturiaeth, ydyw cyflwr annuwiol, didduw. Y maent heb iawn wybodaeth o hono ef; heb ei heddwch a'i dangnefedd; heb gariad tu ag ato; heb ffydd ac ymddiried ynddo; heb ofn na pharch iddo; ac hefyd heb addoliad ac ufudd-dod iddo. Er ei fod ef yn anfeidrol fawr a dyrchafedig, nid ydynt hwy yn ei ganfod felly, i roddi parch iddo; er ei fod yn berffaith hawddgar a daionus, nid ydynt yn synied felly am dano, fel ag i'w garu ac ymhyfrydu ynddo; er fod ei ewyllys yn gwbl sanctaidd a da, etto, dewis eu hewyllysiau eu hunain y maent, y rhai sydd lygredig a drwg. Y mae 'syniad y cnawd yn elyniaeth yn erbyn Duw:' y mae annuwioldeb yn *anian* bechadurus, yn llywodraethu ar feddwl dyn, yn ei dueddu yn groes i Dduw yn mhob dim; a rhaid iddo ef gyfranogi o dduwiol anian cyn y byddo byth yn dduwiol. Agwedd ei ysbryd yn ei holl feddyliau, ei syniadau, a thueddiadau, sydd yn gwbl groes i Dduw, a'i ddyledswydd iddo, yn ol y pedwar gorchymyn cyntaf o'r ddeddf. Am ei fod yn annuwiol, ac yn ddiymgais am ffafr Duw a'i ddelw, y mae y Cyfryngwr yn ddiwerth ganddo, i'w gymmodi â Duw; a'r Ysbryd Glân yn ddiystyr ganddo, i'w adferyd i'w ddelw; am hyny, nid oes ganddo ef dueddiad i weddio ar Dduw, na chymdeithasu âg ef. Am nad ydyw yn gweled Duw mewn dim, y mae efe yn ddigydnabyddiaeth o hono, ac yn anniolchgar am ei holl ddoniau ef iddo. Fel hyn, yn annuwiol, y mae ein pechadurusrwydd a'n trueni yn dra mawr; ond oblegid ein hanwybodaeth o Dduw, nid ydym yn gweled y pechadurusrwydd o'r annuwioldeb hwn. Gan nad ydym yn canfod Duw yn deilwng o barch, cariad, ufudd-dod, &c., nid ydym yn gweled y drwg o beidio ei barchu, ei garu, &c. Ond tra y byddo agwedd y meddwl yn annuwiol, ac yn ddibarch i Dduw, nis gall fod ynom yn wirioneddol, un rhinwedd moesol, na dim attalfa rhag cyflawni pob drwg, ond attalfeydd allanol neu lygredig; megys cybydd-dod yn attalfa rhag afradlonrwydd, &c. Gan mai wrth ymadael â Duw yr ymadawsom ni â phob dedwyddwch, heb ddychweliad yn ol at yr un ffynon, nis gallwn byth ddyfod yn feddiannol o'r tlws a gollasom. Trwy Grist yn unig y mae i ni gymmod a dyfodfa at Dduw. 2 Cor. 15. 18—20. Heb. 7. 26. 1 Petr 3. 18. Ps. 10. 4, 13. Rhuf. 1. 18. a 11. 26. Tit. 2. 11, 12. Jer. 2. 12, 13, 14. Edr. ADENEDIGAETH, ANIAN.

ANNYSGEDIG, (dysgedig) anllythyrenog, anghyfarwydd, rhai heb gael llawer o hyfforddiadau mewn celfyddydau a gwybodaethau: (Act. 4. 13.) neu anadnabyddus o feddwl Duw, a dysgeidiaeth ei Ysbryd. 2 Petr 3. 16.—'Annysgedig gwestiynau;' cwestiynau ffol, anorphen; pethau nad ydynt yn fuddiol, nac yn tueddu at wybodaeth sylweddol; ond yn hytrach yn peri ymrysonau ac ymddadleu, gan ddwyn y meddwl oddiwrth ysbrydolrwydd crefydd, mewn hunan-dyb a gwag-ymffrost. 2 Tim. 2. 23.—'Andyscedigaidd orchestion.' W. S.

ANOBAITH—EITHIOL, (gobaith) diobaith.—'Am hyny mi a droais i beri i'm calon anobeithio o'r holl lafur a gymerais dan haul.' Preg. 2. 20. 'Mi a droais ymaith heb obaith genyf am gael budd oddiwrth fy holl lafur.' Dr. M. Trodd oddiwrth ei

Digitized by Google

lafur, am nad oedd yn cael yn ei lafur y peth ag oedd efe, yn gamsyniol ac yn bechadurus, yn ei geisio ynddo. Barn a phenderfyniad rheswm cnawdol ydoedd hwn. Y mae i ni, yn ein hamrywiol sefyllfaoedd, i lafurio mewn ffydd,—o ufudd-dod i Dduw—er gogoniant i Dduw, ac er budd a lleâd eraill, yn gystal ag i ni ein hunain, a gadael ffrwyth ein llafur gyda Duw, ac ymofyn am ein budd a'n holl ddedwyddwch yn yr Arglwydd, yn y llwybr o ufudd-dod iddo. Y mae yr enaid am fudd a chysur yn mhob peth; ac os na chaiff hyny, y mae yn myned i anobeithio, ac i esgeuluso ei ddyledswydd; ond y mae gras yn dysgu i ddynion lafurio yn gywir, i geisio ennill ein bywioliaeth, a gwneuthur a ddylem, yn mha ryw fuchedd bynag y rhyngo bodd i Dduw ein galw; i adael y canlyniadau gyda Duw, ac i ymofyn am ein cysur yn y lle y mae i'w gael, sef yn Nuw ei hun. Esa. 57. 10. Jer. 2. 25. a 18. 12. Preg. 12. 1. Rhuf. 6. 21.

ANOLRHEINADWY, (olrhain) anchwiliadwy.—'A'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt.' Rhuf. 11. 33. 'Ai ffyrdd yn anveidrawl.' W. S. Mae golud doethineb yn marnau a ffyrdd Duw—yn nhrefn iechydwriaeth—ac yn ei oruchwyliaethau a'i ragluniaethau tu ag at ei eglwys, sydd yn eu gwneuthur i ni yn anchwiliadwy ac yn anolrheinadwy. Dyfnder mawr yw ei farnedigaethau; ac fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw ei ffyrdd ef na'n ffyrdd ni. 'Dy ffordd sydd yn y môr,' medd Dafydd, 'a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion; ac nid adwaenir dy ôl.' Ps. 77. 19. Y mae ffyrdd Duw, yn aml, i gyflawni ei amcanion, fel cerddediad ar ddyfroedd, heb ôl; ac am hyny yn anolrheinadwy. Y mae yr achos cynhyrfiol, a'r dybenion doeth, yn ei olwg, yn gystal a'r modd o ddwyn y dybenion hyny i ben, allan o olwg, ac yn anadnabyddus ond yn unig iddo ei hun, yn aml. Gwell i ni, gyd â'r apostol, ryfeddu, addoli, moliannu, ymostwng ac ymddiried iddo, na cheisio olrhain, yn fynych. Pan byddom yn meddwl ein bod yn gweled peth o'i ffyrdd, daw rhyw ragluniaeth ar draws, ac a rydd dywyllwch ar y cwbl o'n blaen, wedi hyny. Mae efe yn ei le, pan y byddo yn ymddangos i ni, fel Jacob, yn croesi ei ddwylaw. Gen. 48. 17. A gwell, a harddach, yw i ni ymfoddloni na cheisio ei gyfarwyddo. Eph. 3. 8. Job 5. 9. a 9. 10. a 11. 7. a 26. 14. a 36. 23. Ps. 36. 6. a 139. 6. a 147. 3. 1 Cor. 2. 10, 12, 16. Esa. 40. 28.

ANORPHEN, (gorphen) diderfyn, diddiwedd.—'Achau anorphen;' achau diddiwedd, diddefnydd, 'yn peri cwestiynau yn hytrach nag adeiladaeth dduwiol, yr hon sydd trwy ffydd.' 1 Tim. 1. 4. Y mae pob peth nad yw yn tueddu at adeiladaeth dduwiol, yn fychan ei bwys, ac i'w ochelyd. Mae yr achau sanctaidd a goffëir yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yn peri adeiladaeth dduwiol; ac yn cadarnhau ein ffydd am y gwir Fessïah, mai Iesu o Nazareth ydyw hwnw; ac wedi ei eni o'r genedl, y llwyth, a'r teulu, y rhagfynegwyd am dano. 1 Cron. i. hyd viii. Mat. i. Luc iii. Nid achau anorphen ydyw y rhai hyn: canys y maent oll yn terfynu yn Nghrist, ac yn ddefnyddiol iawn i gadarnhau ein ffydd ynddo. Ond wedi dyfodiad Crist yn y cnawd, y mae yr achau, i radd mawr, wedi eu colli, ac yn gwbl anfuddiol. Chwedlau diles ydynt yn mhlith pawb, Iuddewon a Chenedloedd; yn tueddu i borthi balchder, i fagu ymrysonau, ac i ddyfetha amser a ellid ei dreulio i fwy buddioldeb.

ANRHAITH—EITHIAU, (rhaith) yspail, ysglyfaeth. Arferir ef fel cylymair annherfynedig: 'Yr oedd pob anrhaith ar ol:—eu baich sydd anrhaith ei oddef.' Arferir ef hefyd fel gair o anwyldeb: 'Fy anrhaith;' sef fy nghariad, fy anwylyd.—Anrhaith oddef: hyny yw, un a ellid yn gyfreithlawn ei yspeilio o'i feddiannau; eiddo pa un a ellid cymeryd meddiant o honynt, fel dirwy.—'Anrhaith y creulon a ddianc.' Esa. 49. 25. Wrth y creulon, dealler, yn benaf, y diafol: y mae yn gryf, yn arfog, ac yn greulon: 'Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad.' Ioan 8. 44. Y mae holl blant dynion wedi eu gorchfygu ganddo, yn ei feddiant. Col. 1. 13. 1 Petr 2. 9. Luc 11. 21, 22. Y mae fel Pharaoh, yr hwn oedd is-lywydd dano, yn llywodraethu yn galed, ac yn teyrnasu i farwolaeth. Ond 'anrhaith y creulon a ddianc:' y mae gwaredigaeth a Gwaredwr wedi eu trefnu gan Dduw iddynt; ac y mae amcan Duw yn hyn, fel yn mhob peth arall, yn sicr o gael ei gyflawni. Y mae un cryfach wedi ei orchfygu, a dwyn ymaith ei holl arfogaeth; ac efe a ran ei anrhaith. Y mae ei amcan yn hyn yn ddiymmod, ac yn ddigyfnewid; ac y mae ei allu yn ddwyfol ac yn anfeidrol i gwblhau ei amcan. Esa. 31. 4. a 58. 8, 9. Jer. 50. 34. a 51. 36, 44. Heb. 2. 14, 15. Dat. 12. 12.—'Anrheithio yr eglwys;—anrheithio y ffydd.' Gal. 1. 13, 23. Mae yr un gair *Gr.* πορθεω, yn cael ei gyfieithu *dyfetha*. Act. 9. 21. Yr oedd Saul am *ddyfetha* y ffydd, sef athrawiaeth y ffydd, a phawb oedd yn ei chredu, o'r achos hyny; ond pyrth uffern nis gorchfygant y naill na'r llall. Mat. 16. 18. Y gair *Gr.* λυμαινετω, a arferir yn Act. 8. 3. am Saul, sydd briodol i lewod, eirth, a bwystfilod ysglyfaethus a dyfethgar eraill.

ANRHEG—ION—U, (rheg) rhodd, dawn. 1 Bren. 4. 21. Breninoedd ac eraill yn dwyn anrhegion i Solomon (yr hwn oedd yn gysgod o Grist) sydd yn dangos eu bod yn rhoddi eu hunain a'u pobl, yn ewyllysgar, at ei wasanaeth. Ps. 68. 29. Mat. 2. 11.

ANRHYDEDD—U—US, (rhydedd) parch, urddas, mawredd; ermygu; cydnabyddiaeth addas o ragoroldeb a mawredd arall; neu ein rhwymedigaethau iddo; parch yn y meddwl i ryw un, yn cael ei amlygu mewn dull gweddus, ar air, neu agweddiad corphorol.

Nid treftad *anrhydedd* arglwydd. *Diar.*

Fel y mae yr Arglwydd yn hanfodol, yn meddiannu mawredd a phob perffeithrwydd, yn ddiderfyn, y mae yn haeddiannol o anrhydedd i'r gradd uchaf oddiwrth bawb. Y mae pob creadur, fel y cyfryw, dan ddyled i'w anrhydeddu â'i holl gynneddfau, yn gyfan-gwbl, tra y byddo mewn bod. Attal yr anrhydedd hwn, dyledus iddo, oddiwrth Dduw, sydd anghyfiawnder mawr, ac yn bechod ysgeler. Nis gall roddi ei ogoniant a'i anrhydedd i arall, na bod yn ddiystyr am dano, heb fod yn anghyfiawn iddo ei hun; yr hyn nis dichon iddo fod. Gan ei fod yn anrhydeddus tu hwnt i derfynau, haeddai gael ei anrhydeddu yn ddiderfyn. Ond yn hyn, pawb o ddynolryw a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw. Rhuf. 3. 23.

Y mae creaduriaid, hefyd, i'w hanrhydeddu, yn ol eu rhagoroldeb, eu swyddau, a'n rhwymedigaethau ni iddynt. Gorchymynir i ni 'roddi parch i'r hwn y mae yn ddyledus;' y mae parch, gan hyny, yn ddyledus i rai. Y mae rhai yn rhagori mewn sancteiddrwydd, doethineb, a doniau ysbrydol, a pharch yn ddyledus iddynt o herwydd hyny: y mae eraill wedi eu gosod gan yr Arglwydd mewn swyddau goruchel; megys swyddogion gwladol, breninoedd, tywysogion, a barnwyr—a pharch yn ddyledus iddynt yn ol gorchymyn Duw. Y mae eraill yn gofyn anrhydedd o ran eu perthynas naturiol â ni, a'n rhwymedigaethau iddynt; megys ein rhieni naturiol. Y mae yr Arglwydd gwedi eu gwisgo âg awdurdod i lywodraethu eu plant, a'u cynnysgaethu â serch i'w hymgeleddu yn eu gwaeledd; am hyny, y mae parch yn gyfiawn ac yn ddyledus iddynt.—'Y mae yr henuriaid sydd yn llywodraethu yn yr eglwys yn dda, i'w cyfrif yn deilwng o barch dau-ddyblyg; yn enwedig y rhai sydd



Digitized by Google

yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth.' 1 Tim. 5. 17. Edr. Henuriaid.—Y mae parch yn ddyledus i bawb o'n gwell; dylem gyfodi ger bron penwyni; a bod yn serchog ac yn hawddgar tu ag at bawb a fyddo yn îs na ni. Rhuf. 13. 5, 7. Exod. 22. 28. 1 Tim. 2. 1, 2. 1 Petr 3. 7. Col. 3. 19, 22. Eph. 6. 5, 6, 7. Lef. 19. 32. 1 Petr 5. 5.

'Anrhydeddus yw priodas yn mhawb.' Heb. 13. 4. Ordinhad Duw yw priodas i ddyn yn ei ystâd o ddiniweidrwydd; anrhydeddodd yr Arglwydd Iesu hi, pan oedd yma yn y byd, â'i bresennoldeb ei hun. Fel ei holl ordinhadau eraill, y mae yn addas i Dduw, yn weddus, yn hardd, ac yn barchedig; hefyd y mae yn ymgeledd, yn gysur, ac yn ddyddanwch i ddynion; canys ni threfnodd Duw ddim i ddyn, ond yr hyn oedd yn ddaionus ac yn llesol. Fel y mae priodas yn anrhydeddus, felly y mae pob peth croes i'r ordinhad hon yn mhlith dynion, yn warthus, yn ffiaidd, ac yn bechadurus iawn; yn achos o lawer o annhrefn ac anghysur yma yn y byd, ac o drueni tragywyddol yn y diwedd: 'Puteinwyr a godinebwyr a farna Duw,' er iddynt guddio eu pechodau, a dianc rhag barn dynion.

ANSAFADWY, (safadwy) anwadal, gwammal, ysgogadwy.—'Ansafadwy oeddit fel dwfr.' Gen. 49. 4.—'Ysgafnder oeddit fel dyfroedd.' Dr. M. Yr oedd mor ysgafn, mor ddirym i sefyll yn wyneb hudolinethau, fel yr oedd yn cael ei ddwyn gan ei chwantau, fel peth ysgafn ar wyneb y llifeiriant. Job 24. 18. Neu, yr oedd fel dyfroedd cryfion chwyddedig, yn tòri dros y glanau, ac yn myned dros y terfynau, er mawr niwed; felly Reuben, yn ymchwydd ei lygredigaethau, yn tòri dros ben y terfynau a roddodd Duw i ddynion, trwy ddringo i wely ei dad, ac yn ei halogi. Rhuthrodd gyda ffrwd ei chwantau dros ben terfynau cyfiawnder, sancteiddrwydd, a gweddeidd-dra; o uchder braint y cyntaf-anedig, syrthiodd i anenwogrwydd, ac i iselder, gwarth, a dirmyg. Ni bu llwyth Reuben mewn un ystyr yn enwog: 'Ni ragori di.' Nid oes hanes am na barnwr, na brenin, na phrophwyd, o'r llwyth hwn. Dathan ac Abiram, y rhai, fel dyfroedd chwyddedig, a godasant yn erbyn Moses, oeddynt o lwyth Reuben. 1 Cron. 5. 1, 2, 3.

ANSAWDD, (an-sawdd) trefn, cynneddf, sefyllfa' cyflwr;—corph gwlad, neu ddinas. Num. 13. 17. Jos. 6. 22. 2 Bren. 2. 19.—'Ny chymer Duw *ansawd* un dyn.' Gal. 2. 7. W. S. Sef, ni dderbyn wyneb.

ANTIOCHIA. Er bod amryw ddinasoedd o'r enw hwn yn Asia, wedi eu hadeiladu gan Seleucus Nicanor, ac wedi eu henwi felly er anrhydedd i'w dad Antiochus, nid oes sôn yn yr ysgrythyrau ond am ddwy; sef Antiochia, prif ddinas Syria, ac Antiochia, prif ddinas Pisidia.—1. Y mae rhai yn barnu mai yr un ddinas oedd Antiochia, prif ddinas Syria, a Riblah yn ngwlad Hamath, lle y treuliodd Nebuchodonosor ei amser tra y gwarchaewyd ar Jerusalem; lle y dygwyd Zedeciah ger ei fron, i roddi barn yn ei erbyn; y lladdasant ei feibion, ac y tynasant ei lygaid yntau. Yr oedd hi yn sefyll ar yr afon Orontes; yn nghylch deuddeng milltir oddi wrth Fôr y Canoldir, ac yn nghylch deng milltir o gwmpas. Yn y ddinas hon yr oedd trigfa y llywodraethwr Groegaidd a ddilynodd Alexander Fawr ar Syria; ac yr ydoedd, yn y dyddiau hyny, yn un o'r dinasoedd mwyaf enwog yn y byd am fasnachaeth a chyfoeth. Yr oedd yr un breintiau i'r Iuddewon a'r Groegiaid ynddi. Bu Paul a Barnabas ynddi yn pregethu enyd. Yma y galwyd y dysgyblion yn *Gristionogion* gyntaf. Act. 11. 10—27. a 14. 26. a 15. 35. Bu yr eglwys ynddi yn flodeuog dros amryw oesoedd; yma y bu Ioan Aur-enau (Chrysostom), yn niwedd y bedwaredd ganrif, yn pregethu yn enwog ac yn llwyddiannus iawn. Dystrywiwyd hi amryw weithiau gan ddaeargrynfâau, a chan y cleddyf. Y mae hi yn awr yn meddiant y Twrc, heb fod fawr well na charnedd.* ——2. Prif ddinas Pisidia. Yma y cafodd Paul a Barnabas genad gan benaeth y synagog i bregethu yr efengyl, ac y buant lwyddiannus, nes i'r Iuddewon gyfodi yn eu herbyn, fel y bu gorfod arnynt fyned ymaith. Act. 13. 14—51.

ANTIPAS, Αντιπας, [*yn erbyn pawb*] merthyr ffyddlawn. Dat. 2. 16. Dywedir ei fod yn un o ganlynwyr cyntaf ein Hiachawdwr, ac iddo ddyoddef merthyrdod yn Pergamus, lle yr oedd efe yn olygwr ar yr eglwys.

ANTIPATRIS, Αντιπατρις, [*yn erbyn tad*] dinas yn Nghanaan, mewn dyffryndir hyfryd, yn agos i'r mynyddoedd, ffordd yr eir o Jerusalem i Cesarea; ac yn nghylch 17 neu 18 milltir o Joppa, 42 o Jerusalem, a 26 o Cesarea. Yma bu Paul, a'r rhai oedd yn ei wylied, yn gorphwys ar eu ffordd i Cesarea. Act. 23. 31. Ei hen enw oedd *Capharsaba*, ond Herod Fawr a'i hail-adeiladodd, ac a'i galwodd Antipatris, o barch i'w dad Antipater. Dywed Mr. Biscoe (*at* Boyle's *Lecture, cap.* 10, *p.* 388—394.) mai 38 o'r milltiroedd ni oedd o Jerusalem.

ANTUR, (tur) hwyrach, o braidd, anaml, odid. ——'Ond antur efe a dderbyn fy wyneb innau;' Gen. 32. 20.—*fe allai*; Gen. 16. 2. lle y mae yr un gair, *ond odid.* Gen. 18. 24. a 24. 5. a 27. 12.

ANTURIO, (tur) ymroddi, arfeiddio, peryglu.—'Am hyny yr anturiais i, ac yr offrymais boeth-offrwm.' 1 Sam. 13. 12. *Heb.* אתאפק. *Saes. forced myself.* Y mae Saul yn llefaru fel pe buasai hir ymryson wedi bod rhwng ei gydwybod, ei angen, a'i gyfyngder. Yr oedd ei gydwybod yn dywedyd y dylasai aros am Samuel; ond ei beryglon mawrion, meddai, yn galw arno i aberthu; ond yn y diwedd, ei angen a'i gyfyngder a orchfygasant. Nid oedd yr esgus gwirion hwn ond twyll a chelwydd i gyd. Nid oedd un angen iddo aberthu yn groes i ewyllys Duw; ond yr oedd yr angen mwyaf iddo beidio, gan na wnai y cyfryw aberth ddim llesâd iddo; ond yn y gwrthwyneb, anfoddloni Duw yn fawr.

ANUDON—OL, (udon) twyll-dwng, cam-lŵ, geulŵ, llŵ gauog:—tyngu anudon, sef tyngu celwydd, neu beidio cyflawni llŵ cyfreithlon. Y gair Groeg επιορκεω, a arferir yn Mat. 5. 33. a 1 Tim. 1. 10. a arwydda, yn flaenaf, *gweithredu yn groes i lŵ*, neu *esgeuluso cyflawni llŵ*; ond y mae yn arwyddo, hefyd, tyngu celwydd yn wybodus ac yn wirfoddol; cyfeirio at y Duw holl-wybodol am wirionedd yr hyn yr ydym yn ei dystio, er y gwyddom ei fod yn gelwydd. Y mae hwn yn bechod tra echryslawn; yn anmharch mawr i Dduw; yn gwadu, neu, o'r hyn lleiaf, yn digydnabod holl-wybodaeth Duw; yn halogi ei enw; ac yn ei arfeiddio yn ei wyneb. Y mae yn drosedd o'r trydydd a'r nawfed gorchymyn; ac yn dwyn pawb sydd yn euog o hono dan felldithion trymion y gyfraith sanctaidd. Y mae yn arswydus meddwl am un creadur gwael wedi ei galedu mor bell, ag iddo, ger bron y Duw mawr, yn ei wyddfod, ac yn ei enw, gyfeirio ato am wirionedd yr hyn a ŵyr efe, y pryd hwnw, sy gelwydd; ac yn arfeiddio Duw i'w daro â barn, os nad ydyw y celwydd yn wir. O! i ba radd o annuwioldeb y mae dyn wedi myned!—Y mae barn Duw yn cael ei chyhoeddi yn ofnadwy yn erbyn anudonwyr. Lef. 6. 3. a 19. 12. Jer. 7. 9.

* Dywedir fod nifer y trigolion tua 20,000 o flaen y ddaeargryn yn y flwyddyn 1822, trwy yr hwn y lladdwyd o bedair i bum mil o ddynion. Enw y ddinas yn bresennol yn iaith y wlad, sef y Syriaeg, yw *Antakia.*—C.

Digitized by Google

a 28. 20. Mal. 3. 5. Mat. 5. 33. 1 Tim. 1. 10. Zech. 5. 3, 4. Hos. 4. 2. a 10. 4.

*Afian genau anudonawl.* Diar.

**ANUFUDD—HAU—DOD—GAR,** (ufudd) cyndynrwydd, gwrthryfelgarwch, anhyweithder, anhydynder; anewyllysgarwch i blygu i gyfraith Duw a'i orchymynion sanctaidd, neu i orchymynion cyfreithlawn dynion. Jer. 5. 23. Adda a flaenorodd yn y llwybr pechadurus hwn, a thrwy anufudd-dod yr un dyn hwnw y gwnaed llawer yn bechaduriaid, sef, ei holl hiliogaeth. Y maent oll yn blant anufudd-dod; ac, yn ganlynol, yn blant digofaint. Rhuf. 5. 19. Eph. 2. 2, 3. Tit. 1. 16. 1 Petr 2. 7, 8.—'Anufudd-dod sydd fel pechod dewiniaeth, a throseddiad sydd anwiredd a delw-addoliaeth.' 1 Sam. 15. 23. Y mae dyn yn ei anufudd-dod, yn gosod ei ewyllys ei hun i fynu yn lle ewyllys Duw; hyny ydyw, gosod ei hun yn lle Duw, yr hyn sydd ddelw-addoliaeth. Nis dichon neb foddhau Duw heb blygu i'w ewyllys; ni chymer ddim yn lle ufudd-dod: 'Wele, gwrando sydd well nag aberth, ac ufuddhau na brasder hyrddod.' Adn. 22. Nid oes dim yn fwy ffiaidd gan yr Arglwydd na'i wawdio âg addoliad rhagrithiol, allanol, heb ymostyngiad ewyllys iddo yn dufewnol. Esa. i, a lvii. Rhan fawr o harddwch a dedwyddwch y nefoedd ydyw, bod ewyllys Duw yn cael ei gwneuthur yno: (Mat. 6. 10.) ac am hyny y cyfarwyddir ni yma ar y ddaear i weddïo. Oddiwrth arglwyddiaeth yr ysbryd anufudd hwn, y mae pawb a achubir yn cael eu gwaredu, trwy ras, yn yr ail-enedigaeth. Luc 1. 16. Act. 26. 19. Rhuf. 6. 14—23. Edr. UFUDD-DOD.

**ANWADAL,** (gwadal) anwastad, gwammal, ansefydlog, oriog.—'Eneidiau anwadal;' sef eneidiau heb eu cadarnhau a'u sefydlu yn y gwirionedd, o ran eu cred; ac heb eu cadarnhau yn eu meddwl yn llwybrau gorchymynion Duw, o ran eu hufudd-dod a'u rhodiad; ac o achos eu hanwadalwch, yn hawdd iddynt gael eu llithio (*abwydo*, Dr. M.) gan gau athrawon, oddiwrth y gwirionedd, ac uniawn lwybrau Duw. *Gr.* δελεαζω, *abwydo*, dal âg abwyd, fel y delir pysgod neu adar. 2 Petr 2. 14.

**ANWASTAD—RWYDD,** (gwastad) sigledig, anwadal, ysgogadwy, gwammal.—'Anwastad yn ei holl ffyrdd.' Iago 1. 8. 'Anwadal yn nghwbl o'i ffyrdd.' Dr. M. Dyn bwhwmanllyd, heb sefydlu ei feddwl am Dduw nac am ei gyflwr; y mae fel tòn y môr, heb allu bod yn llonydd, mor barod i gilio oddiwrth Dduw ag i nesâu ato: nid yw yn sefydlog yn yr hyn y mae yn ei broffesu. 2 Petr 3. 16.

**ANWE,** (gwe) arwe, y bwrw, yr edef a fwrir ar draws yr ystof.—'Pa un bynag ai yn yr ystof ai yn yr anwe.' Lef. 13. 48. Yr oedd y gwahan-glwyf ar y dilledyn, yn beth goruwch-naturiol, ac yn rhoddi hyn o addysg i ni, sef bod ein cyrph yn gystal a'n heneidiau wedi eu llygru gan bechod; a bod gwisgoedd anniwair, balch, yn tebygu i wisgoedd â'r gwahan-glwyf arnynt, wedi eu halogi gan y cnawd, ac i'w rhoddi heibio a'u casâu. Judas 23. Zech. 3. 4, 5.

**ANWEDD—AIDD—US,** (gwedd) anhardd, anghymhwys, annhrefnus, gwrthun, hyll.—'Cariad nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd.' 1 Cor. 13. 5. Nid oes dim yn anweddaidd yn ngweithrediadau sancteiddrwydd, tu ag at Dduw, tu ag at ddynion, na thu ag at y dyn ei hunan. Cariad at Dduw a wna i ddyn ymddwyn fel y gweddai iddo tu ag ato yn mhob peth, gyd â'r parch, ufudd-dod, a diolchgarwch, a weddai i'r dyn ei roddi. Cariad tu ag at ddynion a bair yr un effaith, heb roddi gormod parch nac anmharch i un dyn; heb ei ofni na'i ddiystyru yn ormodol; ond yn mhob peth, gwneuthur yn weddaidd tu ag ato ef, yr hyn sydd gymhwys a hardd. Y mae cariad yn gwneuthur dyn yn weddaidd tu ag ato ei hun hefyd, o ran ei gorph a'i enaid, ei ymborth a'i ddillad, ei ystumiau, a'i eiriau, yn ol gorchymyn Duw. Y mae pob peth pechadurus yn anweddus ac yn anhardd; ond y mae sancteiddrwydd, yn ei holl gangenau a gweithrediadau, yn weddaidd ac yn hardd. Delw Duw ydyw; ac os ydyw yn tebygu dynion i Dduw, y mae yn rhaid ei fod yn hardd. Phil. 4. 8. 1 Petr 3. 5. a 5. 5. Eph. 4. 22, 23, 24. Rhuf. 13. 13, 14.——'Anweddaidd yw i wragedd lefaru yn yr eglwys.' 1 Cor. 14. 35. Y gair *Gr.* αισχρον, a gyfieithir yma yn *anweddaidd*, a gyfieithir *brwnt* yn 1 Cor. 11. 6. Eph. 5. 11.—*budr* yn Tit. 1. 11. Y mae y gair yn gosod allan yn gadarn ac yn oleu, feddwl yr apostol am yr anweddeidd-dra, y digywilydd-dra, a'r anloesgarwch i wraig lefaru yn gyhoeddus yn yr eglwys. Y mae hyn yn anaddas i'r gwylder, y gorchwyledd, a'r lledneisrwydd hardd perthynol i'r rhyw fenywaidd; yn anaddas i'r ystad o ddarostyngiad y maent gwedi eu gosod ynddi yn eu creadigaeth, ac i'r tynerwch a'r mwynder perthynol iddynt wrth naturiaeth. Ni chafodd neb o'r rhyw un urdd, na lle gweinidogaethol yn yr eglwys dan un oruchwyliaeth, mewn pethau ysbrydol. Y mae eu lle yn yr eglwys i'w weled yn amlwg yn eu gwaith yn gweini i'r Arglwydd Iesu; a lle hardd ac anrhydeddus ydyw, ac yn gweddu iddynt yn mhob ystyr. Nid ydyw rheolau yr efengyl yn groes i ddeddf natur, ond perffeithio natur y mae; ac yn dysgu ac yn nerthu pawb i ymddwyn yn addas i'w naturiaeth, ac i'r Duw a'u creodd. 1 Cor. 11. 13.

**ANWELEDIG,** (gweledig) cuddiedig, gorchuddiedig, allan o olwg; yr hyn nis canfyddir â llygaid corphorol. Y mae Duw felly yn anweledig i ni; ond y mae yn weledig i lygad ffydd; sef deall wedi ei oleuo gan Ysbryd Duw i'w adnabod yn ol tystiolaeth ei air am dano.—Fe 'ymwrolodd Moses fel un yn gweled yr anweledig;' a thrwy hyny, 'gadawodd yr Aipht, heb ofni llid y brenin.' Exod. 10. 28, 29. a 13. 17, 18. Heb. 11. 27.——'Ei anweledig bethau ef, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod.' Rhuf. 1. 20. Crist, trwy yr hwn y crewyd pob dim yn weledig ac yn anweledig, sydd yn ei berson ei hun yn *ddelw* y Duw anweledig. Col. 1. 15. Y mae efe o ran ei berson yn wir Dduw; ac onidê, nis gallasai fod yn ddelw Duw i ni. Mae o'r un *hanfod*, yn ogyfuwch mewn mawrhydi a phob perffeithrwydd: y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo yn gorphorol; am hyny, yn wyneb Iesu Grist y mae gogoniant Duw i'w weled yn gyflawn. 'Y neb a'm gwelodd i,' medd Crist, 'a welodd y Tad.' Ioan 14. 7. 2 Cor. 4. 4, 5.

**ANWIR,** (an-gwir) *Gr.* αναληθης; twyll, celwydd: un drwg, un heb y gwirionedd, un heb gredu y gwir, ac heb rodio yn y wir a'r uniawn ffordd.—'Trwy ddwylaw anwir.' Act. 2. 23. 'Trwy ddwylaw anniweirieit.' W. S. *Δια χειρων ανομων, trwy ddwylaw digyfraith;* sef dwylaw y milwyr Rhufeinaidd, anadnabyddus o gyfraith Duw, ac anufudd iddi.

'Efe a wnaeth ei fedd gyd â'r rhai anwir.' Esa. 53. 9. neu, 'Penodwyd ei fedd gyd â'r anwir, ond gyd â'r cyfoethog yr oedd ei fedd-adail.' Lowth. Neu, 'Gyd â'r cyfoethog yr oedd wedi iddo farw,' neu, 'yn ystâd marwolaeth.' Vitringa. Ystyr y geiriau ydyw hyn: Bwriadodd yr Iuddewon i'r Iachawdwr gael ei gladdu gyd â'r ddau leidr a groeshoeliwyd gyd âg ef, mewn rhyw le ffiaidd, a dirmygedig; ond trefnodd rhagluniaeth dirion yr Arglwydd i'w gorph sanctaidd gael ei ddodi yn medd newydd gwr goludog, cynghorwr pendefigaidd o Arimathea, a'i enw Joseph. Mat. 27. 60. Marc 15. 42. Luc 23. 50. Ioan 19. 38. Yr oedd hon yn rhagluniaeth hynod mewn perthynas i gorph yr Iesu; ac y mae yr hanes a'r brophwydoliaeth yn cyd-gordio â'u gilydd yn gyflawn. Yr oedd

Digitized by Google

hyn yn neillduol angenrheidiol, fel na byddai i'w gorph sanctaidd weled llygredigaeth, ac fel y byddai y sicrwydd o'i adgyfodiad yn fwy amlwg a chadarn.—Gwel Witsius *in Symbol, Exercit.* 17. *sec.* 20.

'Heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn.' Exod. 34. 7. *Heb.* ונקה לא ינקה Mae yr un geiriau yn cael eu cyfieithu yn Num. 14. 18, 'Gan gyfiawnhau ni chyfiawnha efe yr *euog*:'—yn Nah. 1. 3, 'Ni ddieuoga yr *anwir*.' Gair am air, 'gan ddieuogi ni ddieuoga;' hyny yw, ni chyfrif yr euog yn ddieuog; ac nis arbed ef chwaith rhag y gosp gyfiawn ddyledus iddo, fel y cyfryw. Euog yw pawb nad yw eu pechodau wedi eu maddeu: nid yw pechodau neb wedi eu maddeu ond yr edifeiriol sydd yn credu yn Iesu Grist er cyfiawnhad bywyd. Pawb eraill a dderbyniant y gospedigaeth ddyledus iddynt. Edr. Dieuog.

**ANWIREDD—AU**, (an-gwir) celwydd, camwedd, anghyfiawnder, trawsedd, drygioni.—'Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd.' Ps. 51. 5. Y mae Dafydd yn cydnabod ei bechadurusrwydd gwreiddiol, yn ei luniad cyntaf; pan y *cynneswyd* ef (יחמתני) yn y groth. Tyfodd o wreiddyn pechadurus; ac, yn ganlynol, yr oedd yn rhaid iddo yntau fod o'r un *natur* a'r gwreiddyn hwnw. Mae holl hiliogaeth Adda yn bechaduriaid ynddo, yn ei weithred o anufudd-dod, fel pen-cyfammodwr: 'Yn gymaint a phechu,' neu yn hytrach, (ἐφ' ὦ) *yn yr hwn* y pechodd pawb. Rhuf. 5. 12. Yr oedd Adda yn ben cyffredin, a'r hyn a dderbyniodd efe yn ei greadigaeth, nis derbyniodd iddo ei hun yn unig, ond i holl ddynolryw; a'r hyn a gollodd hefyd trwy ei gwymp, yr oedd ei holl hiliogaeth wedi eu colledu o hyny yn gystal ag yntau. Mae pawb hefyd, yn eu dechreuad cyntaf, yn gyfranog o lwgr Adda. Y maent yn gwbl ddidueddiad at yr hyn sydd dda; ond, yn y gwrthwyneb, y mae tueddiad cryf ynddynt at yr hyn sydd ddrwg. Er fod lluniwr Dafydd yn gyfiawn ac yn sanctaidd, ond lluniwyd ef o sylwedd ansanctaidd: yr oedd yntau gan hyny yn rhwym, yn ol gosodiad a deddf natur, a chyfammod Duw â dynolryw yn eu pen cyntaf, i fod yn ansanctaidd ac yn bechadurus. Ps. 55. 3. Eph. 4. 18. 2 Cor. 3. 5. Rhuf. 7. 8. Y mae y gair הולל *lluniwyd*, yn perthyn i'w genedliad a'i ffurfiad cyntaf yn y groth; a'r gair יחמתני *beichiogodd*, yn cyfeirio at yr holl amser y cariwyd ef yn y bru. Wele! yr oedd mewn (בעוון) *anwiredd* y pryd hwnw, mewn euogrwydd, ac mewn llygredd: yr oedd *ynddo* o ran ei gyflwr, ac o ran ei natur: *mewn* pechod; sef mewn *cyflwr* o bechod—yn euog a than farn Duw, fel troseddwr; hefyd, â hadau pob anwiredd ynddo yn wreiddiol.—'Pe edrychaswn ar anwiredd yn fy nghalon;' Ps. 66. 18. hyny yw, pe edrychaswn arno gyda pharch ac hoffder, a chyda bwriad i'w gyflawni. Job 31. 26. a 27. 8, 9. Rhagrithwyr yw y cyfryw ag sydd yn cyflawni dyledswyddau crefyddol, ac etto yn parhau mewn undeb serchog â'u pechodau: ni wrendy Duw eu gweddiau, ac ni dderbyn eu cyflawniadau na'u personau yn gymeradwy.——'A'r Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd.' Esa. 53. 6. 'Nyni oll a grwydrasom fel defaid; troisom bawb i'w ffordd ei hun:' Nid gorchwyl bychan oedd ein cael yn ol. Yr oedd cospedigaeth ddyledus, yn gyfiawn, am y crwydriad hwn, a'r anwireddau y buom, trwy hyny, yn euog o honynt, yn barod i ruthro arnom fel bwystfil creulon ofnadwy. I'n hachub a'n dychwelyd at Fugail ac Esgob ein heneidiau, gwnaeth y Tad, yn ol trefniad y cynghor tragywyddol, i'n hanwireddau ni, a'r gosp ddyledus am danynt, i gyd-gyfarfod ar Iesu, ein Cyfryngwr a'n Mechniydd. Dyma yr achos haeddiannol ac effeithiol o ddychweliad y defaid cyfrgolledig. Mae y prophwyd yn gosod yr achos i lawr yma; y mae yr apostol Petr yn crybwyll am yr *effaith*, sef dychweliad y defaid. 1 Petr 2. 23. Oddiwrth y geiriau, gwelwn, 1. Anfeidrol raslonrwydd trefn Duw i achub pechaduriaid, trwy ddirprwy osodiad ei Fab ei hun, yn lle ei bobl, i ddyoddef dros eu pechodau.—2. Mawredd anfeidrol Person y Cyfryngwr, yn ei addasu i sefyll drostynt, a dyoddef am eu hanwireddau yn eu lle.—3. Dirfawr bwys ei ddyoddefiadau dan y gosp ddyledus am eu hanwireddau. 'Efe yw yr iawn dros ein pechodau ni.' 1 Ioan 2. 2. Mae y gair *Heb.* פגע a gyfieithir yma *a roddes arno ef*,* yn cael ei gyfieithu *rhuthro ar*, yn Exod. 5. 3. 1 Bren. 2. 25, 29, 31. 2 Sam. 1. 15. Barn. 15. 12. Parodd yr Arglwydd i'n *hanwireddau* ni i gyd-gyfarfod âg ef, a *rhuthro* arno fel y dialydd ar y llofruddiog: Num. 35. 19, 21. Esa. 47. 3. lle y cyfieithir yr un gair, 'cyfarfod âg un.' Yn y modd rhyfedd hwn, prynodd ni oddiwrth bob anwiredd, 'i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.' Tit. 2. 14.——Y mae gwaith Duw yn craffu ar anwiredd, yn arwyddo ei sylw ef o honynt yn y fath fodd fel y mae yn eu cadw (שמר) i'w cospi yn y personau euog o honynt. Mewn cyferbyniad i'r craffu hwn, dywedir fod Duw heb weled anwiredd—yn cuddio, ac yn anghofio—yn dileu, ac yn maddeu anwiredd. Ps. 130. 3. Num. 12. 21. Ps. 31. 1, 2. a 51. 9. Mic. 7. 18.——Wrth lanhau anwiredd, deallwn, ei faddeu, a gwaredu oddi wrtho. Glanhau peth aflan ydyw tynu ymaith y peth sydd yn ei aflanhau oddi wrtho, trwy gymhwysiad o drydydd peth. Y trydydd peth yma yw gwaed Iesu Grist: yr hwn, trwy ei cymhwysiad o hono gan yr Ysbryd Glân i'r enaid, sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod. 1 Ioan 1. 7. Ps. 51. 2. Esa. 27. 9.——Duw yn 'dodi anwiredd at eu hanwiredd hwynt,' a arwydda ei waith, mewn ffordd o farn, yn rhoddi rhyw rai i feddwl anghymeradwy, i bechu yn ddiattalfa. Rhuf. 1. 24, 28. Mat. 23. 32. Rhuf. 11. 8. 1 Thes. 2. 16. Neu, wrth anwiredd y mae i ni ddeall, cospedigaeth am anwiredd, fel yn Ps. 31. 10. Edr. Pechod.

**ANWYBOD—AETH**, (gwybod) diwybodaeth, anwybyddiaeth annealltwriaeth, anhyddysgedd.

*Ammeu pob anwybod. Diar.*

Y mae anwybodaeth o Dduw a'i bethau sanctaidd yn bechadurus ynddo ei hun; ac yn achos o lawer o bechodau eraill. Y mae yn beth pechadurus ynddo ei hun, oblegid ei fod yn tarddu oddiwrth elyniaeth y meddwl yn erbyn Duw a phethau ysbrydol. 'Nid ydyw yn gymeradwy gan feddwl pechadurus i gadw Duw yn ei wybodaeth.' Rhuf. 1. 28. Ein difaterweh am Dduw, a'n gelyniaeth yn ei erbyn, ydyw yr achos, gan mwyaf, ein bod yn gwybod mor lleied am dano. Y mae yn nglŷn wrth hyn ddibrisdod, ac esgeulusdra mawr o'r moddion a drefnwyd i ni gael gwybodaeth o'r Arglwydd, a chynnyddu ynddi. Gan fod y gwrthddrych yn ddiwerth genym, nid rhyfedd ein bod yn esgeulus ac yn ddilafur am ei adnabod. Yn yr anwybodaeth hwn y mae pechodau eraill yn cael eu cenedlu a'u magu. Anwybodaeth o Dduw sydd yn peri i ni bechu yn ddiarswyd yn ei erbyn, ei angharu, anufuddhau iddo, a'i anghredu. Anwybodaeth o bechod, a'r drwg sydd ynddo, a'r canlyniadau o hono, sydd yn peri i ni ymhyfrydu ynddo, a byw yn ddiymgais am waredigaeth oddi wrtho. Anwybodaeth o Grist a'i iechydwriaeth, sydd yn peri i ni ei esgeuluso a'i ddirmygu, a pharchu a dewis pob peth arall o'i flaen. Y mae anfeidrol werth a gogoniant ynddo ef, rhagor pob gwrthddrych arall; ond heb adnabod y gwerth hwnw, y mae yn ddiystyr genym am dano ef. Fel hyn y mae dynion gwedi ymddyeithro oddiwrth fuchedd Duw, trwy yr anwybodaeth sydd ynddynt. Eph. 4. 18. 'Duw wedi esgeuluso amseroedd yr anwybodaeth hon.' Act. 17. 30.

* Gwel Vitringa *in loc.*

Digitized by Google

Bu amseroedd hirfaith iawn o anwybodaeth ar y Cenedloedd; Duw yn gyflawn a'u hesgeulusodd yn hir, am eu pechodau a'u hynfydrwydd, heb anfon cenadau atynt, na rhoddi dadguddiad dwyfol iddynt hwy. Ond o'r diwedd, edrychodd dros (υπεριδων) yr amseroedd truenus hyny, a'u pechadurusrwydd hwythau; o'i anfeidrol drugaredd a'i ras, y mae efe yn awr yn 'gorchymyn i bob dyn yn mhob man i edifarhau, gan fod i ni yn Nghrist Iesu brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef.' Eph. 1. 7. Edr. Adnabod, Dadguddiad, Gwybodaeth.

ANWYL—DRA—YD, (gwyl) diwyl, digywilydd; cu, hoff, cariadus; cymeradwy, gorhoff; un hoff, un anwyl. Gelwir Crist yn 'anwyl Fab Duw.' Mat. 3. 17. a 17. 5. Luc 3. 22. a 9. 25. a 20. 13. 2 Petr 1. 17. Col. 1. 13. Ο υιος ο μου αγαπητος, *fy Mab, fy anwylyd*, mewn modd neillduol arbenig. Υιος της αγαπης αυτου, *Mab ei gariad ef*. Y mae Crist yn anwyl, fel y mae yn Fab o'r un hanfod dwyfol â'r Tad, a phriodoliaethau dwyfol yn perthyn iddo. Y mae y Tad yn caru y Mab, a'r Mab yn caru y Tad â'r un cariad dwyfol, anfeidrol, perthynol i'r Duwdod yn unig. Y mae y naill yn caru y llall â'r un cariad, a hwnw yn gariad dwyfol, yn dragywyddol, ac yn anfeidrol. Am anwyldeb y Personau dwyfol at eu gilydd, hysbysir ef yn gryf yn Diarebion 8. 30. 'Yna yr oeddwn i (medd y Mab) gyd âg ef megys un wedi ei feithrin gyd âg ef; ac yr oeddwn yn hyfrydwch iddo beunydd, yn ymlawenhau ger ei fron ef bob amser.' Ond dylem ddeall hyn gyd â'r gweddeidd-dra addas i'r Personau Dwyfol, ac heb eu dirdynu tu hwnt i'w hamcan cyffredinol; yr hyn oedd i osod allan ymhyfrydwch y Tad a'r Mab yn eu gilydd. Yna yr oeddwn i gyd âg ef er tragywyddoldeb. Y Fi, person, fel yr arwydda y rhag-enw; nid natur; nid natur ddynol Crist, yr hon nid ydyw Berson; pa faint llai rhan o hono, enaid Crist, yr hwn nid oedd bôd iddo y pryd hwnw—fel y barnodd rhai yn dra chyfeiliornus. Ond Fi, Person Dwyfol, y Gair (*Logos*) tragywyddol, Gair a doethineb Duw, yr hwn sydd yn llefaru yn Diar. 8. 12. 'Myfi Doethineb wyf,' &c. Yr un ag y llefara Ioan am dano, ac agos yn yr un geiriau, yn pen. 1. 1. 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair.' Priodolir creadigaeth pob peth i'r Gair hwn; am hyny, y mae yn rhaid ei fod o ganlyniad o'u blaen hwy, ac yn Berson Dwyfol. Gosodir ef allan, yn y ddau fan, fel Person gwahanol, fel y rhaid iddo fod, oddiwrth hwnw, gyd â'r hwn yr oedd yn bôd, fel Person tragywyddol yn cyd-hanfodi, ac yn ogyd-dragywyddol â'r Tad, yn gyd-radd âg ef; yn gyfaill Iehofah, yn ogyfuwch, ac yn meddiannu yr un perffeithrwydd âg ef. Yr oedd fel un wedi ei feithrin gyd âg ef, fel Mab gyda Thad, ac yn arwyddo ei berthynas âg ef, ac wedi ei genedlu o hono; ei Fab ei hun, Mab y Tad, ei briod Fab, ei unig-anedig Fab. Yr ydoedd yn cael ei feithrin ganddo, neu fel y cyfieitha rhai y gair, 'yn cael ei ddwyn yn ei fynwes,' yn dangos hyfrydwch dwyfol y Tad yn y Mab; ac fel ei unig-anedig Fab, dywedir ei fod yn ei fynwes ef. Ioan 1. 18. 'Ac yr oeddwn ei hyfrydwch beunydd,' neu o ddydd i ddydd; hyny ydyw, yr oedd hyfrydwch y Tad yn y Mab, yn ddyfal, ac yn anghyfnewidiol. Y mae y gair *Heb.* שעשעים *hyfrydwch*, yn y rhif lliosog, i fynegi rhagorol fawredd yr hyfrydwch, yr hyfrydwch uchaf, a mwyaf tra-rhagorol. Ac felly yr oedd; yr oedd yn Fab, yn Fab yr hyfrydwch mwyaf tra-rhagorol, anwyl Fab ei gariad. Yr ydoedd er tragywyddoldeb ei anwyl Fab, yn yr hwn yr oedd efe yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu, am ei fod yn ddelw ac yn wir lun ei berson ef, ac yn feddiannol o'r un hanfod.—Mae y Tad yn ymhyfrydu ynddo fel *Cyfryngwr*. 'Wele fy ngwas, yr hwn yr ydwyf yn ei gynnal; fy etholedig, i'r hwn y mae fy enaid yn foddlon.' Esa. 42. 1. 'Yn yr hwn y mae fy enaid yn ymhyfrydu.' Dr. Lowth. Ymhyfrydodd ynddo, fel yn ymrwymo mewn cyfammod i fod yn Gyfryngwr ac yn Fechnïydd ynddo. Ymhyfrydodd ynddo ef fel Duw-ddyn, yn addas, fel hyny, i gyflawni y gwaith a roddwyd iddo. Yr ydoedd efe yn ymhyfrydu yn ei rag-welediad o'i gnawdoliaeth; y mae yn mynegi yr hyfrydwch mwyaf yn nesâd yr amser o hyny; 'Wele dygaf allan fy ngwas, y Blaguryn.' Zech. 3. 8. 'Wele y gwr a'i enw Blaguryn: o'i le hefyd y blagura,' &c. Zech. 6. 12. Iaith hyfrydwch a gorfoledd! Yr oedd yn ymhyfrydu yn y rhag-weledIad o berffeithrwydd, cyfiawnder, a gogoniant y gwaith a wnai gwedi ymgnawdoli, a'r holl ganlyniadau gogoneddus o hono, i'r Tad, i Grist, a'r holl eglwys i dragywyddoldeb.—Y mae y Tad yn caru y Mab fel Cyfryngwr hefyd, ac yn caru ei holl bobl ynddo ef, ac er ei fwyn ef. Efe ydyw *ο αγαπητος, yr anwylyd:* y maent hwythau ynddo yn αγαπητοις Θεου, 'yn rhai anwyl gan Dduw.' Rhuf. 1. 7. a 12. 19. 1 Cor. 4. 14, 17. Col. 3. 12. Judas 17. Can. 5. 1.—Y mae Crist yn ei berson, ei swyddau, a'i holl waith, yn anwylyd y Tad; y mae y Tad yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu ynddo ef. Y mae yr holl etholedigion yn anwyl gan Dduw, o ran eu personau ynddo: y mae eu sancteiddrwydd, a holl weithrediadau gras ynddynt a chanddynt—sef eu ffydd, eu cariad, a'u hedifeirwch, yn nghyd â'u holl ffrwythau, yn anwyl ac yn foddhaol gan Dduw: ac nis dichon dim eu gwahanu oddiwrth ei gariad ef tu ag atynt hwy yn Nghrist Iesu. Rhuf. 8. 35, &c.—Fel ag y mae Crist yn anwylyd ei Dad, felly y mae yn anwylyd ei bobl. Can. 2. 16. a 4. 16. Y mae efe yn ddymunol ac yn hawddgar yn eu golwg hwy; y maent gwedi ei ddewis a'i briodi, fel unig anwylyd eu henaid. Y maent yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu ynddo; yn glynu wrtho, ac yn pwyso arno; ac yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled i'w ennill. Can. 1. 3. Phil. 3. 9.——Yr oedd y deml i'r Iuddewon yn ddymuniad eu llygaid, ac yn anwyldra eu henaid. Ezec. 24. 21, 25. Anwylyd Crist ydyw ei bobl; Deut. 32. 12. Ps. 127. 2. Can. 1. 13—16. a 2. 13. o gariad atynt hwy, y trefnwyd iechydwriaeth iddynt; y bu Iesu farw, ac y mae yn eiriol drostynt; ac y mae yr holl Bersonau Dwyfol yn eu hachub, ac yn ymhyfrydu ynddynt. Can. 5. 1. Dat. 20. 9. Seph. 3. 17.

ANYMLADDGAR, (ymladdgar) diymrysongar, heddychol, anymrafaelgar.—'Rhaid gan hyny i esgob fod yn dirion, yn anymladdgar:' 1 Tim. 3. 3. (αμαχον) yn heddychol, yn anymrafaelgar, ac yn dangnefeddwr. Os ydyw y tymher hwn, a'r ymddygiad cyfatebol iddo, yn ofynol oddiwrth holl aelodau eglwys Crist, pa faint mwy yn ei holl flaenoriaid, fel y gallont hwy yn hyn, fel yn mhob peth arall, fod yn siamplau i'r praidd? Tit. 3. 2.

ANYNAD, (ynad) anniddig, anfoddawg, anfwyn; croes, ceintachlyd, cecrus.—'Gwraig anynad,' ydyw gwraig anfwyn, anniddig, ceintachlyd. Diar. 21. 9. a 25. 24. a 27. 15. Yr anghysur o fyw gyda y cyfryw amgeledd anghymwys, a gyffelyba y gwr doeth i'r anghysur o drigo ar ddiwrnod gwlawog mewn tŷ â defni parhaus ynddo.—'Rhoes Duw hwy i vynydd i veddwl an-ynad (ampwyllig) y wneuthur y petheu ny chygweddant.' Rhuf. 1. 28. W. S.

APELLES, 'Απελλης [*cau allan*] un y mae Paul yn sôn am dano (Rhuf. 16. 10.) fel 'un profedig yn Nghrist;' un wedi cael profiad digonol o hono, fel dysgybl deallus a ffyddlon, trwy ei lafur a'i ddyoddefiadau yn achos yr efengyl.

APOCRYPHA, Αποκρυφος [*cuddiedig oddiwrth*] y llyfrau hyny yn ein Biblau ni, nad ydynt yn Gan-

Digitized by Google

onaidd; sef heb fod o awdurdod dwyfol, a chwedi eu hysgrifenu gan ysbrydoliaeth Ysbryd Duw. Y maent yn cael eu galw felly oddiwrth y gair *Gr.* Αποκρυπτω *(Apocryptō) cuddio, cuddiedig, dirgelaidd.* Y mae rhai yn meddwl mai yr Iuddewon a'u galwodd hwynt felly, o herwydd eu symud (Απο της κρυπτος) oddiwrth arch y cyfammod, lle y gosodwyd y llyfrau Canonaidd. Barna eraill fod yr holl lyfrau a roddwyd yn nghadw, yn cael eu galw Apocryphaidd, neu cuddiedig, am eu bod yn cael eu cadw o olwg y bobl gyffredin. Ond pan ddarfu i'r Iuddewon gyhoeddi eu llyfrau, iddynt alw y rhai hyny a gyhoeddwyd, yn Ganonaidd, neu yn Llyfrau Dwyfol; a'r lleill, na chawsant eu cyhoeddi, yn rhai Apocryphaidd, neu cuddiedig. Ni bu y llyfrau hyny a elwir genym ni yn Apocrypha, erioed yn nghofrestr llyfrau Canonaidd yr Iuddewon; er ei fod yn dra thebygol mai gan ryw Iuddewon yr ysgrifenwyd hwynt. O herwydd eu hynafiaeth, y mae gradd o barch gwedi ei roddi iddynt yn mhob oes; ond nid fel yr ysgrifeniadau dwyfol, nac yn gydradd mewn awdurdod â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, i sylfaenu ffydd arnynt: nac i fod yn rheol bucheddiad. Nid oes un o ysgrifenwyr y Testament Newydd yn sôn dim am danynt. Origen, Athanasius, Hilary, Cyril o Jerusalem, a'r holl ysgrifenwyr union-gred yn y prif oesodd, y rhai a roddasant gôf-restrau o'r llyfrau Canonaidd, ydynt yn unfryd yn eu gwrthod. Darfu i Gynghor Trent eu cyhoeddi hwynt oll yn Ganonaidd, oddigerth Gweddi Manasseh, a'r Trydydd a'r Pedwerydd Llyfr Esdras. Y mae Eglwys Loegr, yn ei chweched Erthygl, 'yn eu derbyn fel llyfrau (fel y dywed Jerome) i'w darllen er siampl buchedd, ac addysg moesau; etto nid yw yn eu gosod i sicrhau un athrawiaeth.' Yn mhlith llawer o ddywediadau tra ardderchog a gogoneddus, a phur agos i'r ysgrythyrau, neu gwedi eu cymeryd allan o honynt, maent hefyd yn cynnwys llawer o bethau o dueddiad anaddas, anfuddiol, ac anweddaidd; a llawer o hanesion tra anghredadwy, nad gwiw crybwyll am danynt, ac nas gellir eu darllen, heb ddolurio meddwl puraidd. Gwel *Key to the Old Testament, by the Rev.* Robert Gray. Kitto's *Cyclopædia of Biblical Literature,* a Smith's *Dictionary of the Bible,* dan y gair APOCRYPHA.

APOLONIA, Απολλωνια [*colledigaeth*] dinas yn Macedonia, gerllaw Amphipolis. Act. 17. 1. Gelwir hi yn awr Erisso.

APOLOS, Απολλος [*dinystrydd*] Iuddew o Alexandria, yr hwn a ddaeth i Ephesus tra yr oedd Paul wedi myned i Jerusalem. Act. 18. 24. Yr un ydyw ag Apelles, medd rhai. Rhuf. 16. 10. Yr oedd efe yn ŵr ymadroddus, cadarn yn yr ysgrythyrau; ac wedi iddo ef gael ei 'ddysgu yn fanylach' yn y ffordd Gristionogol gan Acwila a Phriscila, aeth i Achaia; ac wedi dyfod i Corinth, bu yn ddefnyddiol iawn i argyhoeddi yr Iuddewon allan o'r ysgrythyrau, mai Iesu oedd y Crist; ac a fu yn ddefnyddiol iawn i ddyfrhau yr eglwysi hyny a ddarfu i Paul eu planu. O Achaia mordwyodd efo Zenas y Cyfreithiwr i Creta; ac oddi yno i Ephesus, lle yr oedd pan yr ysgrifenodd Paul yr epistol cyntaf at y Corinthiaid. Act. 18. 28. 1 Cor. 1. 12. a 3—6. a 16. 12. Tit. 3. 15.

APOLYON, Απολλυων, [*dinystrydd*] enw Groeg ar angel y pydew diwaelod. Dat. 9. 11. Edr. ABADON.

APOSTOL, cenad, anfonedig; oddiwrth y gair *Gr.* Αποστελλω (*Apostellō*) *anfon;* un wedi ei anfon gan arall ar ryw achos pwysfawr; cenadwr. Y mae Crist, anfonedig y Tad, yn cael ei alw yn 'Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni;'—yr hwn a 'ddanfonodd Duw, nid i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef.' Heb. 3. 1. Ioan 3. 17. a 10. 36. a 17. 3, 8, 18. a 20. 21. a 21. 23, &c. Un anfonedig gan Dduw at feibion dynion, â'r neges o'r pwys a'r canlyniadau mwyaf. 'Yr Arglwydd â'i Ysbryd a'm hanfonodd,' medd efe. Esa. 48. 16.—'Efe a'm hanfonodd.' Pen. 61. 1. Y mae dau beth yn gynnwysedig yn yr enw hwn a roddir iddo:—1. Ei *awdurdod* i'w waith: ni ddaeth o hono ei hun, ond y Tad a'i hanfonodd: am hyny y llefarodd yn ei enw, ac a borthodd ei braidd â nerth yr Arglwydd, yn ardderchogrwydd enw yr Arglwydd ei Dduw. Mic. 5. 4.——2. Y *gwaith* yr anfonwyd ef o'i blegid: yr oedd *ewyllys* gan yr hwn a'i hanfonodd iddo i'w wneuthur; ac yr oedd gwaith ganddo i'w orphen: Ioan 4. 34. sef hysbysu y Tad a'i enw: Ioan 1. 18. a 13. 6. a 17. 3. hyny yw, hysbysu dirgelwch anchwiliadwy ei ras, ei gyfammod, a holl drefn ac ewyllys Duw, mewn perthynas i iechydwriaeth ei bobl; ac i fyw a marw drostynt. 'Fe a'i hanfonwyd at ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel,' â chenadwri rasol, a gwaredigaeth effeithiol iddynt. Mat. 15. 24. Edr. ANGEL.

Ond yn fwyaf cyffredinol, y mae y gair apostol yn cael ei briodoli i un wedi ei anfon gan yr Arglwydd Iesu i daenu yr efengyl ar hyd y byd. O blith ei ddysgyblion, 'efe a etholodd ddeuddeg, y rhai hefyd a enwodd efe yn apostolion.' Luc 6. 13. Marc 3. 13, 14. Mat. 10. 1, 2. Y maent yn cael eu galw, 'deuddeg apostol yr Oen.' Dat. 21. 14. Hwy a anfonwyd, ar y cyntaf, at yr Iuddewon yn unig: ond cyn esgyniad Crist i'r nefoedd, cawsant ail anfoniad, 'i fyned i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur.' Marc 16. 15, 16. Y genadwri oeddynt i'w chyhoeddi ydoedd, 'edifeirwch a maddeuant pechodau, yn enw yr Iesu, yn mhlith yr holl genedloedd:' y newyddion da hyny o lawenydd mawr, fod Duw wedi edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm; fod Crist gwedi dyoddef dros bechodau—y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw.' Luc 24. 47. 1 Petr 3. 18. Athrawiaeth y deuddeg apostol am yr Oen, ydyw deuddeg sylfaen y Jerusalem newydd; ac ni cheir un maen yn yr adeilad ysbrydol hon, ond a fyddo wedi ei adeiladu ar y sylfaen hon.

Y mae yn berthynol i'r cenadon cyntaf hyn yn neillduol, ac yn wahanol oddiwrth bawb eraill,—1. Bod eu nifer, deuddeg yn unig, yn cyfateb i'r deuddeg patriarch, yn gwneuthur i fynu y pedwar henuriad ar hugain yn cylchynu yr orsedd fawr, ac yn cynnrychioli eglwys yr Hen Destament a'r Newydd. Dat. 4. 4. Yn lle Judas fradwr y dewiswyd Matthias gan y dysgyblion, trwy goelbren. Act. 1. 26.——2. Yr oedd yn rhaid eu bod wedi gweled yr Arglwydd Iesu yn y cnawd. 'Yr hyn a welsom ac a glywsom, yr ydym yn ei fynegi i chwi.' 1 Ioan 1. 1, 2, 3. Luc 1. 2. 'Canys i hyn yr ymddangosais i ti, i'th osod yn weinidog ac yn dyst o'r pethau a welaist.' Act. 26. 16. 'Ac yn ddiweddaf oll y gwelwyd ef genyf finnau hefyd, megys gan un annhymmig.' 1 Cor. 15. 8. Er mai un wedi ei eni allan o amser ydoedd Paul (yr hyn y mae y gair annhymmig yn arwyddo) etto efe a welodd Iesu Grist yn bersonol. Yr oedd yn angenrheidiol iddynt fod wedi ei weled ar ol ei adgyfodiad; canys dyna y pwnc mawr oedd i'w sicrhau, fel tystion o hono, wedi ei weled â'u llygaid.——3. Yr oedd eu gosodiad a'u hanfoniad, yn union-gyrch gan Grist ei hun, heb na dewisiad, na galwad neb arall. 'Fel yr anfonaist fi i'r byd, felly yr anfonais innau hwythau i'r byd.' Neu, 'fel y gwnaethost fi yn Apostol i'r byd, felly y gwnaethum innau hwythau yn Apostolion i'r byd.' Ioan 17. 18. Campbell. Efe ydyw anfonedig y Tad, a hwythau ydynt ei anfonedigion yntau i'r byd: y mae rhyw gyfatebolrwydd rhwng eu hanfoniad hwynt a'i anfoniad yntau.——4. Yr ydoedd eu tystiolaeth am Grist yn sicr ac yn anffaeledig; ac yr ydoedd y dystiolaeth gadarn hon i fod yn sylfaen i'r holl eglwys, yn mhob oes, i adeiladu ffydd arni. Yr apostolion a'r prophwydi yw sail

Digitized by Google

yr eglwys yn athrawiaethol: eu tystiolaeth hwy am y sylfaen sydd i'w chredu, ac i orphwys yn ddisigl arni. Un sail sydd ganddynt hwy oll. Er bod amrywiol o dystion, a'r rhai hyn gwedi byw mewn amrywiol oesoedd; etto un sail sydd ganddynt hwy i dystiolaethu am dani, a'u tystiolaethau yn cydgordio yn ogoneddus. Eph. 2. 20. Mat. 16. 18. Dat. 21. 14. Deohreuodd Crist, yn ei berson ei hun, draethu am yr iechydwriaeth fawr; gwedi hyny a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef. Heb. 2. 3.——5. Yr oedd 'Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu, trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau (neu *μερισμοις*, *rhaniadau*) yr Ysbryd Glân, yn ol ei ewyllys ei hun.' Heb. 2. 4. Gwedi eu hail anfoniad, 'gwisgwyd hwynt â nerth o'r uchelder,' trwy ddisgyniad yr Ysbryd Glân arnynt. 'Ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megys o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt. A hwy oll a lanwyd â'r Ysbryd Glân, ac a ddechreuasant lefaru â thafodau eraill, megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadaodd.' Act. 2. 2, 3, 4. Wele ychydig o bysgodwyr tlodion o dalaeth Galilea gwedi eu harfogi o'r nefoedd i ddarostwng y byd tywyll gelyniaethol tan lywodraeth Iesu o Nazareth—a phwy a all sefyll o'u blaen hwynt? Gwnaed hwy yn hyfion ac yn gedyrn, i ddwyn eu tystiolaeth tra phwysfawr ger bron pawb. 'Nis gallwn ni (meddant) na ddywedom y pethau a welsom ac a glywsom.' Act. 4. 20. Cafodd miloedd eu dwysbigo: 'a'r Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai a fyddent gadwedig.' Act. 2. 47. a 5. 14. Cyfododd erlidigaeth yn eu herbyn: llabyddiwyd Stephan gan yr Iuddewon; a lladdwyd Iago brawd Ioan, un o'r deuddeg, â'r cleddyf, gan Herod frenin. Act. 12. 1, 2. Gwedi bod yn Jerusalem am oddeutu deunaw mlynedd, gwasgarwyd hwynt oll oddi yno i amrywiol wledydd, gan gymeryd eu cyfarwyddo, meddant, i'w hamrywiol gylchoedd trwy goelbren:—Petr i Pontus, Galatia, a'r lleoedd o amgylch; Andrew i Scythia a Sogdiana; Ioan i Asia Leiaf; Phylip i Armenia, Media, a Colchis; Bartholomew i Arabia Ffelix; Mathew i Caldea, Persia, a Parthia; Thomas i Hyrcania, Bactria, ac India; Judas i Syria a Mesopotamia; Simon y Canaanead i'r Aipht, Cyrene, Lybia, a Mauritania; Matthias i Cappadocia a Colchis; Iago brawd Judas a arosodd yn Jerusalem. Edr. dan yr enwau hyn.

Yr oedd Paul yn enwog yn mhlith yr apostolion. Mewn modd neillduol y mae yn galw ei hun 'yn Apostol y Cenedloedd, ac yn mawrhau ei swydd.' Rhuf. 11. 13. Ymddiriedwyd iddo ef am efengyl y dienwaediad, megys am efengyl yr enwaediad i Petr. Gal. 2. 7. Edr. Paul, Petr, &c.

Y mae yr enw hwn yn cael ei roddi hefyd i weinidogion teithiol cyffredin yr eglwys, megys Andronicus, Junia, &c. Rhuf. 16. 7. Cyfieithir y gair *Gr.* *αποστολος*, (*apostolos*) *cenad*, *cenadau*, yn 2 Cor. 8. 16. Phil. 2. 15. Gellir cyfieithu y geiriau yn Ioan 13. 16. 'Nid yw apostol yn fwy na'r hwn a'i danfonodd.' Gwel Campbell.

Llawer o gau apostolion a flinasant yr eglwysi yn foreu, yn enwedig eglwysi Syria, Galatia, Corinth, Colosse, &c. Act. xvi. Gal. 1. 7, 8, 9. 2 Cor. x, xi. Col. ii. Gwel Witsius, *Melet*.

APOSTOLIAETH, swydd apostol, neu apostolion, y rhai oeddynt i bregethu yr efengyl, planu a chadarnhau eglwysi, bedyddio, urddo gweinidogion, a gwneyd gwyrthiau. Mat. 10. 1. Marc 3. 14. Act. 14. 25. 1 Cor. 3. 6.

APOTHECARI—ESAU, *Heb.* רקח [*cymysgwr*] cymysgydd cyfferi meddygol, neu bêr-aroglau. Exod. 30. 25, 35. 1 Sam. 8. 13. Preg. 10. 1.

APPELIO, *Llad.* Appello; *Saes.* Appeal: cymeryd cwyn, cyffroi hawl; cyrchu at lŷs uwch: galw am farn arall. 'Appelio yr wyf at Cesar,' Act. 25. 11, 12, 21, 25. *Καισαρα επικαλουμαι*, *yr wyf yn galw ar Cesar*, neu *yn cyfeirio fy achos at Cesar;* sef yn cyfeirio fy achos o lŷs is i lŷs uwch.

APPII-FFORUM. Y gair Fforum, yn Lladin, a arwydda 'lle marchnad;' oddiwrth y gair *Gr.* *φερω*, *cario*, *dwyn;* lle carient bethau i'w gwerthu. Gyd âg enw cadarn, arwydda tref farchnad; fel Fforum Julii, Fforum Claudii, Fforum Appii, neu Appii-Fforum. Yr oedd y dref hon ar y ffordd o Rufain i Capua a Brundusium; yn nghylch deg milltir a deugain o Rufain, a deunaw o'r Tair Tafarn. Cafodd ei henw, tebygol, oddiwrth Appius Claudius; yr hwn, yn ei uchel-faeroniaeth, a wnaeth y ffordd o Rufain i Capua, yr hon a alwyd ffordd Appius, *via* Appia. 'Yn marchnad Appifforum.' Dr. M. Hyd yma y daeth Cristionogion Rhufain i gyfarfod Paul yn ei ffordd yno o Puteoli. Act. 28. 15.

APPWYNTIO, *Saes.* Appoint; *Ffr.* Appointer: gosod, nodi, trefnu, penodi.—'Nid appwyntiodd Duw nyni i ddigofaint.' 1 Thes. 5. 9. 'Ni ddarparodd nyni,' &c. Dr. M. Ni osododd, ni threfnodd Duw nyni: ein hiechydwriaeth trwy Iesu Grist, ac nid ein colledigaeth, oedd y dyben gan y Duw mawr yn ei olwg, yn ei waith yn ein creu, ein hethol, ein galw, a'n hadgenedlu; yn ein cyfiawnhau a'n sancteiddio: am hyny, y mae yn ofynol fod ein holl ymddygiad yn addas i'r cyfryw osodiad, a threfniad grasol a gogoneddus. Gan hyny, 'byddwn sobr, gwedi ymwisgo â dwyfroneg ffydd a chariad, a gobaith iechydwriaeth yn lle helm.' Bydded ein hymdrechiadau ni fod yn unol â threfniad Duw, a'i osodiad grasol mewn perthynas i ni. 1 Petr 1. 2. a 2. 8. Ioan 3. 16. Rhuf. 8. 29. a 9. 21, 22. 1 Cor. 5. 5. Judas 4. 2 Thes. 2. 13, 14. Eph. 1. 10. a 2. 10. 2 Tim. 2. 20, 22.

APPHIA, *Gr.* *Απφια*. Barnodd rhai o'r hen dadau mai gwraig Philemon oedd Apphia yr anwylyd (*Απφια τη αγαπητη*) gan fod yr apostol yn cyfeirio ei epistol ati hi ac Archippus, gyda Philemon: o'r hyn lleiaf, tebygol eu bod yn ei deulu, ac yn rhyw berthynas iddo. Philem. 2.

APHEC, אפק [*nerth*] 1. Dinas yn llwyth Judah, lle gwersyllodd y Philistiaid pan gymerwyd arch Duw; 1 Sam. iv. Bernir mai yr un oedd ag Aphecah. Jos. 15. 53.——2. Dinas yn ngwastadedd Jezreel, lle y tarawyd Saul. 1 Sam. 29. 1.——3. Un arall yn llwyth Aser, yn agos i Sidon. Jos. 19. 30. a 13. 4.——4. Dinas yn Syria, un o brif ddinasoedd Benhadad, lle ciliodd y Syriaid yn ol mewn chwidr-frys, ac y lladdwyd 27,000 o'r gwyr a adawsid, gan fur y ddinas yn syrthio arnynt. 1 Bren. 20. 26. Yr oedd hon yn sefyll rhwng Heliopolis a Biblos.

APHIA, אפיח [*llefaru*, neu *chwythu*] mab Bechorath. 1 Sam. 9. 1.

APHRAH, אפרה [*llychfawr*] lle yn agos i Jerusalem; teml, hwyrach, a alwyd tŷ Aphrah. Mic. 1. 10.

APHSES, pen y deunawfed dosparthiad offeiriadol. 1 Cron. 24. 15.

AR, rhagddod, megys, ar y ddaear, ar y llawr, ar i fynu, ar i waered. 'Galwodd ar yr Arglwydd.' Fel rhagddod mewn geiriau cyfansawdd, mae yn ychwanegu at eu hystyr.

A'R, sef a yr; megys, hwn a'r llall. Hefyd, weithiau, fel rhagenw; megys a'r ni allo.

AR—ARDD—ARDDWR—AREDIG, *Gr.* *αροω* (*aroô*); *Llad.* Aro. Ar, ydyw tir wedi ei aredig, neu a ellir ei aredig.—'Heb âr na medi.' 'Heb arddiad na mediad.' Dr. M. Gen. 45. 6. Tebygol fod yr Aiphtiaid, gwedi gweled cyflawniad o ragddywediadau

Digitized by Google

Joseph hyd yma, sef am ddwy flynedd, yn cymeryd eu cynghori ganddo rhagllaw, ac wedi gadael heibio yn gwbl ddifrodi eu hâd trwy eu hau heb olwg am gynhauaf.——'Yr arddwyr a arddasant ar fy nghefn: estynasant eu cwysau yn hirion.' Ps. 129. 3. Mae y geiriau yn gosod allan greulondeb gelynion yr eglwys, yn ei llwytho hi â beichiau trymion, ac yn ei fflangellu mor ddideimlad a phe buasent hwy yn aredig wyneb y maes; a hyn hefyd dros hir amser, fel pe na buasai diwedd i'w creulondeb. Y maent yn dangos hefyd hir amynedd y duwiolion, dan ddyoddefiadau meithion a thrymion. 'Y mae amynedd y ffyddloniaid y fath,' medd Luther, 'fel y maent yn barod i roddi eu cefnau i'r arddwyr; a hyny nid am ddiwrnod neu ddau, ond am eu holl fywyd.' Amynedd sydd â therfynau iddo, a ellir ei gael yn mhlith y Paganiaid; ond y mae i amynedd y ffyddloniaid barhad; mae y fath amynedd ag sydd yn ymddangos yn ddiderfyn ac yn anfeidrol. Y mae yma ddau beth, cwbl wrthwyneb i'w gilydd, yn cydgyfarfod, sef parhad y cwysau ar gefnau y ffyddloniaid, a'u buddugoliaeth barhaus hwythau, yn canu am y rhai sydd yn gyru y wedd, 'etto ni'm gorfuant; —yr Arglwydd cyfiawn, efe a dorodd raffau y rhai annuwiol;'—a dyna yr holl aredig yn darfod. Job 4. 8. Esa. 50. 6. a 51. 23. Galar. 3. 30. Mic. 3. 12. Ps. 129. 3, 4. Mat. 10. 17. a 27. 26.

AR, ער [*yn gwylio*] neu ARIOPOLIS, neu ARIEL MOAB, neu RABBATH MOAB. Deut. 3. 11. Esa. 29. 1. Prif ddinas y Moabiaid, yn sefyll ar yr afon Arnon, yr hon oedd yn ei rhanu yn ddwy ran. Sehon, brenin yr Amoriaid, a'i llosgodd â thân. Num. 21. 28. Brenin Assyria a'i dinystriodd hi mewn un noswaith. Esa. 15. 1. Yn nghylch A. D. 300, llyncwyd hi gan ddaear-gryn.—Ymddengys fod holl dir Moab yn cael ei alw AR, oddiwrth enw y brif-ddinas.

ARABIA, *Heb.* ערב [*cymysg; cymysg o bob anialwch, creigiau, pyllau, &c.*] gwlad ëang yn Asia, yr hon a ddosperthir yn dair rhan:—ARABIA DESERTA, neu *Arabia anial*; ARABIA PETREA, neu *Arabia Garegog*; ARABIA FFELIX, neu *Arabia Ddedwydd.*——Arabia Anial, neu Ddiffaeth, sydd yn sefyll rhwng yr Euphrates o du y dwyrain a'r gogledd, a mynyddoedd Gilead o du y gorllewin, ac Arabia Ddedwydd ar y dehau. Yr oedd yn cynnwys yr Itureaid, y rhan ddwyreiniol o Edom, a'r Nabatheaid, a phreswylwyr Cedar, &c., y rhai a grwydrent o le i le, i geisio porfa a dwfr i'w hanifeiliaid, heb na thai, na dinasoedd, na thrigfanau.——Arabia Ddedwydd sydd yn sefyll o du y dehau i Arabia Ddiffaeth, ac a wahenir oddi wrthi gan fraich o fynydd; y mae yn cael ei therfynu ar du y dwyrain gan gainc o Fôr Persia, ar du y dehau gan y Môr Mawr, ac ar du y gorllewin gan y Môr Coch. Y mae helaethrwydd o aur ac arian yn y wlad hon, ac yn enwedig o lysiau arogl-bêr. Y bobl, yn gyffredin, oeddynt yn trigo mewn pebyll yn y maes. Yr oedd hon yn meddiant hiliogaeth Joctan, ac Arabia Garegog yn meddiant hiliogaeth Ismael.——Y mae Arabia Garegog, a elwir yn fwyaf priodol ערבה *Arabah*, sef *y Gorllewin*, ar y dehau i Palestina, yn cynnwys yr Edomiaid dehenol, yr Amaleciaid, yr Ethiopiaid, &c. Yma yr oedd mynydd Sinai yn sefyll, lle y rhoddwyd y gyfraith i Moses. Y bobl gyntaf a fu yn gwladychu yma oedd hiliogaeth Joctan. Gwlad eilunaddolgar iawn ydoedd hi gynt; ac felly y mae yr awr hon hefyd, mewn mawr dywyllwch eilun-addoliaeth. Gwel Blayney ar Jer. 25. 24.

Y mae Arabia, yn gyffredinol, yn garegog, creigiog, a mynyddig; yn benaf yn y parthau hyny sydd yn awr yn mhell oddiwrth y môr. Yn rhedfa llawer o oesoedd, y mae gwastadedd helaeth iawn rhwng y mynyddoedd, yn nghanol y wlad, gwedi cael ei ffurfio trwy enciliad y môr. Hwn yn awr ydyw y darn mwyaf ffrwythlawn ac amaethyddol o'r wlad; y poethaf hefyd ydyw. Yn uchel yn y mynyddoedd y mae yr awyr yn llawer oerach nag yn y gwastadedd; maent hefyd yn cynnwys planigion ac anifeiliaid o wahanol rywiau. Y gwastadedd a elwir *Tehama*. Gwel Calmet's *Dictionary, by* Taylor; a Kitto's *Cyclopædia*, dan y gair ARABIA.

ARABIAD—IAID, ערב [*cymysg, anialwch*] preswylydd Arabia. Poblogwyd Arabia Ffelix, neu Arabia Ddedwydd, y rhan fwyaf, gan deulu lïosog Joctan, o hiliogaeth Sem. Y taleithiau eraill a breswyliwyd gyntaf, mae yn debygol, gan y Rephaimiaid, yr Emmiaid, Zamzumiaid, Amaleciaid, yr Horiaid, ac eraill o hiliogaeth Cus, mab hynaf Cam. Y Cusiaid a ymlidiwyd ymaith yn raddol gan hiliogaeth Nachor, Lot, ac Abraham. Ismael a sefydlodd gyntaf yn Hejiaz. Edr. ISMAEL. Taenodd ei hiliogaeth yn raddol dros y rhan fwyaf o barthau gogleddol Arabia. Yr hen Arabiaid oeddynt eilun-addolwyr o'r ffieiddiaf—yn addoli llu y nefoedd, yr haul, y lleuad, y sêr, ac angelion, a dynion a fuont yn enwog yn eu plith: addolent lawer o feini mawrion, y rhai, hwyrach, oeddent leoedd o addoliad y gwir Dduw gan eu hynafiaid. Gen. 28. 18. Y Persiaid a ddygasant grefydd y Magiaid i'w plith. Yr Iuddewon, yn ffoi rhag creulondeb y Rhufeiniaid, a daenasant eu crefydd yn mhlith rhai o honynt. Pregethodd Paul yn Arabia. Act. ix. Dychwelwyd llawer o honynt at Gristionogaeth er yn foreu.——Er yr amser y cyfododd Mahomet, A. D. 608, neu yn hytrach ei fuddugoliaethau, A. D. 630, y maent yn gyffredinol wedi bod yn ganlynwyr i'r twyllwr hwnw.

Yr oedd i Ismael ddeuddeg o feibion, y rhai oeddynt yn dadau i gynnifer a hyny o lwythau; trigasant yn nesaf at eu perthynasau, hiliogaeth Lot, ac Abraham o Cetûrah, ac Esau, tad yr Edomiaid. Cynnyddasant yn raddol, hyd nes y llyncasant eu cymydogion o'r gogledd a'r dwyrain, os nid y rhan fwyaf o hiliogaeth Joctan yn Arabia Ffelix. Llawer o honynt a fasnachasant yn foreu â'r Aiphtiaid mewn pêr-aroglau. Gen. 37. 27. a 39. 1. Yn mhen oesoedd gwedi hyny, masnachasant â'r Tyriaid mewn llawer o bethau. Ezec. 27. 15—25. Nifer lïosog o honynt a grwydrasant oddi amgylch, gyd â'u hanifeiliaid, yn trigo mewn pebyll, heb un drigfa sefydlog. Esa. 13. 20. Y maent bob amser wedi bod yn nodedig am y pechodau mwyaf ysgeler, y cyfryw na ddymunai neb i'w gyfeillion nac i'w elynion fyw ynddynt. Y mae yn wir hynodol, na ddarostyngwyd hwynt erioed gan neb o fuddugoliaethwyr mawrion y parthau hyny o'r byd, er y buasai hyny yn ddymunol ganddynt, ac er i amryw o honynt ymgais am hyny. Anfonasant anrhegion i Solomon; ond nid ymddengys i'w dad nac yntau eu darostwng hwynt. 1 Bren. 10. 15. Anfonasant anrhegion o ddeadellau i Jehosaphat hefyd; ond yn fuan wedi hyny ymunasant yn y cynghrair mawr yn ei erbyn. 2 Cron. 17. 11. Ps. 83. 6. Tebygol iddynt ymosod yn erbyn Uzziah, brenin Judah; ond cynnorthwyodd Duw ef yn eu herbyn hwynt. 2 Cron. 26. 7. Am ychwaneg o'u hanes, Edr. ISMAEL.

'Ti a eisteddaist ar y ffyrdd iddynt hwy, megys Arabiad yn yr anialwch.' Jer. 3. 2. Y mae awyddfryd yr Arabiaid yn fawr iawn, yn dysgwyl ar y ffyrdd am deithwyr yn myned heibio, i'r dyben i'w hyspeilio. 'Dysgwyliant,' medd Syr John Chardin, 'am y *caravans* (mintai o fasnachwyr yn cydymdaith) gyd â'r awyddfryd mwyaf, yn edrych oddi amgylch iddynt o bob tu, yn ymgyfodi ar eu meirch, ac yn carlamu yma ac acw, i edrych a ganfyddant ddim mwg, neu lwch, neu brysg, ar y ddaear, neu ddim ôl dynion yn ymdaith heibio.' Gwel Harmer's *Observations, vol.* i. *c.* 2. *Obs.* 7. Cyffelyb i hyn oedd awyddfryd Israel i fyned ar ol eilunod.

ARAD, [*asyn gwyllt*] dinas yn sefyll o du y dehau i Judah a thir Canaan, yn Arabia Garegog. Yr oedd

Digitized by Google

brenin Arad yn wrthwynebwr i Israel yn eu ffordd i Ganaan. Num. 21. 1. Israel wedi hyny a ddystrywiasant eu gwlad a'u dinasoedd. Adn. 3.

ARADR, (âr) *Gr.* αρατρον; *Llad.* ARATRUM; *Heb.* ארץ (*arets*) *daear*, neu חרוה (*heroe*) *tori:* offeryn i aredig tir. Y mae amryw fath o erydr, yn addas i natur y tir sydd i'w aredig. Y mae tir cryf yn gofyn gwahanol offeryn na thir gwan a brau, i'w dori ac i'w droi. Y mae erydr yr oes bresennol yn rhagori yn fawr ar y rhai arferedig gynt, pan mae amaethyddiaeth wedi diwygio yn fawr, a phob math o gelfyddydau gwedi eu hystyried a'u profi, gan wyr o ddysg, deall, meddiannau, ac astudrwydd.—'Nid oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr, ac yn edrych ar y pethau sydd o'i ol, yn gymhwys i deyrnas Dduw.' Luc 9. 62. Geiriau diarebol ydynt, yn darlunio dyn diofal, diymroad, annewr. Rhaid i aradwr da fod â'i feddwl wrth ei orchwyl, ac nid edrych oddi amgylch, fel y tòro y gŵys yn gywir; felly rhaid i bawb ag sydd yn bwriadu bod yn ganlynwyr Crist, neu i lafurio yn ngwaith y weinidogaeth. Rhaid iddynt, yn lle edrych ar y pethau o'u hol, edrych ar eu gwaith, gyda gofal parhaus, ac ymroad dewr-wych. Heb hyn, nis gallant iawn gyfranu (ορθοτομειν) neu iawn *gyfarwyddo* gair y gwirionedd. 2 Tim. 2. 15.

ARAETH—EITHIAU—IO, (âr) arawd, ymadrodd; ymadroddi, llefaru, parablu. Esa. 3. 3. Act. 12. 21. a 24. 1. Areithyddiaeth yw llefaru pob rhyw araeth ac ymadrodd, yn eglur, yn drefnus, yn hysain, yn weddus, ac yn ganmoladwy.—Yn gyntaf, o ran llais; rhaid yw i'r areithiwr gadw cymedrolder; sef na byddo y llais yn rhy ddwfn, neu gryf, neu rhy fain, neu rhy isel; ac na byddo yn unsain, neu yr un fath o hyd. Yn nesaf, llefared pob gair mewn cyfaddasrwydd, yn ol y frawddeg, neu y rhan ymadrodd, a'i arwyddocad; fel y byddo amrywder, neu wahaniaeth, ac anghyffelybrwydd y nwydau, a'r achos yn gofyn, ac yn goddef. A rhaid llefaru pob brawddeg yn ol rhywiau y nwydau, a'r achosion defnyddiol a fyddo yn amgyffrededig yn yr araeth.—Yn ddiau. un o'r priodoliaethau penaf sydd yn perthyn i areithiwr ffraethlawn a pharabl-ddoeth yw bod ei dafod yn wisgi, yn gyflymair, yn drobelydr, ac yn arferol o draethu, a hòni pethau, i gynnyddu araethwriaeth a ffraethineb.——Yn ail, o ran ymddygiad y corph; rhaid i'r areithiwr gymeryd gofal ar iddo fod yn ŵraidd, ac yn amneidlyd, a bod ei ddull a'i osgo yn gymhwys yn cydffurfio yn y llais â'r pwysau, a gydweddo â'r araeth. Y mae yr ymddygiad yn rhoddi enaid, neu rym yn y pethau a adroddir; yn cynhyrfu y gwrandawyr; yn eu tyneru hwynt i wrandaw; gan lareiddio a meddalhau eu coeledigaethau gwrthnysig; gan beri iddynt hwy goelio mai gwir yw y peth, yn yr hwn y mynent eu sefydlu. Ac yma y mae un peth hynod i'w ystyried: nid amgen, nad yw yr araeth a ysgrifenir ar bapur, ac felly a ddarllenir, yn gweithredu hanner cymaint yn nghalonau y gwrandawyr o ymoddfryd a derbyniad, a phan draethir hi ar dafod leferydd, yn wiwrwydd, yn soniarus, ac o ddyfnder calon. Yr achos o hyn yw, am nas gall efe â'i raffol neu bin ysgrifenu, ddelweddu, neu ddangos y munudiau ymodol cyfaddas i'r ymddygiad a ddylai areithiwr, wrth ymadroddi, eu dangos, yn ol dirdeb, neu sicrwydd y nwydau, ac arwyddocad y brawddegau, neu y rhanau ymadrodd. Ac o herwydd hyny, fel y dywed Plato, y mae rhagoriaeth tra mawr rhwng ffurf ymddyddan yn hyffraeth, ac ysgrifenu yn hyddoeth: oblegid ni a welwn laweroedd a ymadroddant yn barablaidd iawn, heb fedru rhoddi eu meddwl mewn ysgrifen hanner da: ac eraill, yn y gwrthwyneb, yn ysgrifenu eu meddwl yn odidog, ac yn parablu yn drwsgl ac anghymen.

Nid wyf yn rhoddi ar lawr yma, pa wedd, yn bendant, y mae i areithiwr ymddwyn, o ran y llygaid, y pen, y ddwyfron, y traed, a'r dwylaw; oblegid mae yn hawsach dysgu hyny wrth edrych ar ryw wr doeth, dysgedig, pa un bynag ai pregethwyr duwiol, ai cyfreithwyr parabl-bêr, yn ymddwyn eu hunain ar air ac ymddygiad, bob rhan o'u cyrph, pan fyddant naill ai yn pregethu gair Duw yn ddifrydus ac yn effeithiol, neu ynte, yn llysoedd, neu ddadleudai breninoedd, yn areithio yn mhlaid cyflawnder, rhwng plaid a phlaid, rhwng gwan a chadarn, i gael o bawb a ddylai, er meithrin brawdgarwch, a mammaethu cytundeb, ac er cynnal tangnefedd. Gwel Rheithoreg Gymraeg, gan Henri Perri.

ARAF—EDD—WCH, (rhaf) afrys, hwyrfrydig; esmwyth, mwyn, tirion, llonydd, llariaidd.—'Yn araf deg,' hyny yw, yn raddol, difrysio; gan bwyll.——'Mi a gerddaf yn araf fy holl flynyddoedd, yn chwerwedd fy enaid.' Esa. 38. 15. Mae y gair *Heb.* אדדה a gyfieithir yma *cerdded yn araf*, yn arwyddo *cerdded mewn hyfrydwch*, fel yn Ps. 42. 4. lle mae yr un gair yn cael ei arferyd: 'Cerddwn gyda hwynt i dŷ Dduw, mewn sain cân a moliant.' Rhodiaf, fel pe dywedasai y brenin, gyda llawenydd a hyfrydwch, yn heddwch yr Arglwydd, a diolchgarwch iddo, gwedi i mi gael goruchafiaeth ar (על) chwerwder presennol fy enaid. 'Canys dywedodd wrthyf,' sef am estyniad fy einioes, 'ac efe a'i gwna;' ac am fod ei addewid ef, yr hwn sydd yn ddigelwyddog, genyf, mi a rodiaf mewn llawenydd a gorfoledd, gwedi cael buddugoliaeth ar, a gwaredigaeth oddiwrth, holl chwerwder fy enaid. Y mae addewid Duw yn sail gorfoledd a llawenydd iddo. 'Mi *a grwydraf* fy holl flynyddoedd mewn chwerwedd fy enaid.' Dr. Morgan. 'Mi a gerddaf yn *myfyrio* ar chwerwder fy enaid.' Esgob Lowth. 'Mi a gerddaf yn *araf* yn chwerwedd fy enaid.' *Saes.* Ond y mae y cyfieithiad uchod yn cael ei gadarnhau gan arferiad yr un gair yn y Psalm, ac y mae yn addas i'r lle a'r agwedd a ddylai fod ar ysbryd y brenin. 2 Bren. 20. 4, 5. Rhuf. 4. 12. Esa. 18. 4. a 28. 16. a 29. 16. a 39. 5. *Munster Vers.* Vitringa.—'Ahab a orweddodd mewn sachliain, ac a gerddodd yn araf.' 1 Bren. 21. 27. 'Ac a gerddodd dan oblygu a chrymu ei ben;' felly y cyfleitha y LXX. a'r *Vulgate* y gair *Heb.* אט. Nid yr un gair sydd yn cael ei briodoli yma i Ahab ag y mae y brenin duwiol Hezeciah yn ei arferyd. Arafodd Ahab wrth eiriau Elias yn cyhoeddi barnedigaeth Duw yn ei erbyn ef a'i deulu; plygodd ei ben, ac a gerddodd yn ddirwysg; ond ni chafodd ei gyfnewid: yr un dyn ydoedd efe gwedi hyny, a chyn hyny, fel y gwelwn yn pen. 22. 18. Plygiad ac arafwch natur, oedd, dan ddychrynfeydd o ofn barnedigaeth Duw: a hyny ond amserol, heb ymostyngiad grasol ger bron Duw, mewn gwir edifeirwch a dychweliad at Dduw. Ofn y farn, nid yr olwg ar ddrwg ei bechod, a'i plygodd ef. Arbedodd Duw ef am hyn, o ran ei berson ei hun; ond, fel Pharaoh, gwedi ei arbed, chwanegodd bechu yn erbyn yr Arglwydd. Esa. 58. 9.

'Bydded eich arafwch yn hysbys i bob dyn.' Phil. 4. 5. Bydded eich mwyneidd-dra (επιεικες) eich addfwynder, a'ch amynedd, mor amlwg yn eich ymddygiad tu ag at bob dyn, fel y byddo efe yn amlwg i bawb. Dengys yr arafwch hwn, 1. Yn cyd-ddwyn yn addfwyn ac yn amyneddgar â gwendidau eraill; fel Dafydd, yn ei arafwch tu ag at ei frodyr cenfigenus.——2. Yn gogwyddo at feddwl y goreu am eraill, mewn pethau ammheus.——3. Yn rhybuddio ac yn adgyweirio eraill o feiau amlwg, 'mewn ysbryd addfwynder.' 'Y mae yr Arglwydd yn agos,' yr hwn a ŵyr bob peth; ac a farn yn gywir, ac a'n hamddiffyn ni yn ein harafwch a'n haddfwynder. Rhuf. 15. 1. 2 Petr 3. 8, 14. Ps. 33. 18. Iago 5. 8, 9. Mat. 5. 16, 39—42. a 17. 17. a 18. 34, 35. 1 Cor. 7. 29, 30, 31. Tit. 3. 2. 1 Petr 4. 7.

ARAFNA, ARAUNA, ORNAN, ארונה (*aroneh*)



Digitized by Google

ערנן (*ornan*). Er mai Jebusiad oedd o genedl, caniatawyd iddo ef gael llawr-dyrnu a thir, cyfagos i fynydd Sïon. Ar y fan hòno yr ymddangosodd angel yr Arglwydd, ac y llefarodd wrth Gad y prophwyd, am iddo orchymyn Dafydd i adeiladu allor yno; lle gwedi hyny yr adeiladwyd y deml ynddo. Er mai Jebusiad o genedl ydoedd, etto efe a ddangosodd ar yr achos hwn barch, nid bychan, i'r brenin Dafydd, serch at Israel, a haelioni at achos Duw. Rhoddodd Arauna, gyda haelioni breninol, yr ychain yn boeth-offrwm, y llawr-dyrnu, a'r holl offerynau perthynol i'r ychain, yn lle cynnud; eithr y brenin a'u gwrthododd hwynt, ond a brynodd y llawr-dyrnu a'r ychain am ddeg a deugain o siclau arian. 2 Sam. 24. 16, 18. 1 Cron. xxi., &c. 'Chwe chan sicl o aur.' 1 Cron. 21. 25. Sef, am yr holl dir, tebygol, a ddewisodd Dafydd, gwedi hyny, i adeiladu y deml arno. Y deg a deugain o siclau oeddynt yn unig am y llawr-dyrnu a'r ychain. Gwel *Universal History, vol.* iv., *p.* 55.

ARAIL—EILIAW, (rhail) bugeilio, golygu, gofalu am, cynnal, coledd.—'Rhait i mi areilliaw yr ei hynny.' Ioan 10. 16. W. S.

ARALL, ERAILL, (ar-all) un heblaw y cyntaf; un drachefn; nid yr un; un gwahanol. Gen. 30. 24. Caleb oedd 'âg ysbryd arall gyd âg ef;' sef un rhagorach nag oedd gan yr yspïwyr anghrediniol, i ymddiried yn ngallu ac addewid Duw. Num. 14. 24.—Saul a aeth yn 'ŵr arall,' ac a gafodd 'galon arall;' hyny yw, efe a dderbyniodd galondid a hyfdra, awdurdod a chymhwysderau llywodraeth, yn helaethach nag yr oeddynt ganddo ef o'r blaen. 1 Sam. 10. 6, 9.—Y mae gau athrawiaeth yn cael ei galw yn 'efengyl arall.' Gal. 1. 6, 7. Er nad oedd ynddi hi ddim cymhwysder i'r enw, oblegid nad ydoedd yn dwyn dim newyddion da i bechaduriaid colledig; ond felly y galwai y gau athrawon eu hathrawiaeth gyfeiliornus; mynent hwy ei galw yn efengyl; ond yr apostol a'i geilw yn efengyl arall; ac y mae yn cyhoeddi anathema yn erbyn y rhai sydd yn ei phregethu.

ARAM, ארם [*uchelder*] 1. Pummed mab Sem. Gen. 10. 22.——2. Wyr Nachor, tad yr Aramiaid, neu y Syriaid. Gen. 22. 21. 1 Cron. 1. 17. Aram yw yr enw Hebraeg am Syria. Num. 23. 7. Edr. Syria. Hiliogaeth Aram a boblogasant y gwledydd hyny a elwid gan y Groegwyr Armenia, Mesopotamia, a Syria. Cafodd gwlad Armenia ei henw oddiwrth Aram. Mesopotamia a elwir yn *Heb.* ארם נהרים (*Aram Naharaim*), hyny yw, Aram rhwng y ddwy afon; yr hyn hefyd yw ystyr y gair *Gr.* Μεσοποταμια (*Mesopotamia*).——Padan Aram; hyny yw, *Aram ffrwythlawn*, neu *neillduedig*. Gen. 31. 18. Yr un cyfieithiad sydd yn y Groeg i Padan Aram, ac i Aram Naharaim, sef Mesopotamia. Gen. 25. 20. a 28. 6, 7. a 35. 9, 26. Ond Aram Naharaim oedd enw y wlad i gyd, rhwng y ddwy afon, y Tigris a'r Euphrates; a'r rhan ogleddol o'r wlad hon a nodir yn yr ysgrythyrau wrth yr enw Padan Aram, neu Sadah Aram, Maes Aram, yn cyfateb i'r wlad a elwir yn bresennol Diarbekr Proper. Hos. 12. 12. *Heb.*——Sonir hefyd am Aram Sobah, Aram Beth-Reboh, Aram Damascus; yn ein cyfleithiad ni, Syria Zobah, Syria Beth-Reboh, Syria Damascus. 2 Sam. 10. 6, 8.——3. Aram, neu Ram, mab Hesrom, a thad Aminadab. Ruth 4. 19. Mat. 1. 4. Luc 3. 33. 1 Cron. 2. 10.

ARAN. Mab Disan. Gen. 36. 28.

ARARAT. Cyfieithir Ararat yn 2 Bren. 19. 37, *Armenia.* Y mae Armenia, tebygol, gwedi ei ffurfio o'r ddau air, Ararat a Minni. Jer. 51. 27. Y mae gwlad Ararat, neu Armenia, yn dra mynyddig yn gyffredinol: ar ben un o'r mynyddoedd hyn y gorphwysodd yr arch wedi y dylif. Gen. 8. 4. Y mae anghytundeb yn bod rhwng y dysgedigion pa fynydd ydoedd o'r wlad hòno. Rhai a farnant mai y mynydd a elwir yn bresennol Ardagh, neu Parmak-dagh, oedd, yn y gogledd-ddwyrain o Armenia. Mae y mynydd hwn yn sefyll ar wastad-tir 36 o filltiroedd o ddinas Erivan. Y mae yn dra uchel, ac yn weledig gannoedd o filltiroedd oddi wrtho. Eraill a farnant mai mynydd Corda, neu Cordæan, ydoedd, yr hwn oedd yn nes etto i dir Sinar. Hyn sydd sicr, mai mynydd yn Ararat, neu Armenia, ydoedd; ac nid yw o ganlyniad i allel penderfynu pa un o honynt.

ARBED—U, (ar-ped) cadw, cadw yn ol, diogelu, noddu, gwared, cynnilo.—'Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef drosom ni oll.' Rhuf. 8. 32. Mae y gair 'arbed' yn y fan yma yn arwyddo pob peth croes i draddodi; ni chadwodd, nid attaliodd ei Fab. 1. Efe a'i rhoddodd. Ioan 3. 16. 1 Ioan 4. 9.——2. Efe a'i traddododd, fel aberth i'r lladdfa—i garchar—i farn a chospedigaeth. Mat. 4. 12. a 10. 4. a 17. 22. a 20. 18. a 27. 26. 2 Cor. 4. 11. lle mae yr un gair yn cael ei arferyd.——3. Efe a'i tarawodd, ac a'i drylliodd, a hyny yn ddiarbed. Zech. 13. 7. Esa. 53. 10. Nid arbedodd ei roddi, a'i draddodi—nid arbedodd ef wrth ei daro a'i ddryllio. Esa. 58. 8, 9. a 53. 7, 8. Gen. 22. 12. Ioan 3. 16. a 10. 17. Rhuf. 4. 25. a 5. 6, 9, 10. Edr. Traddodi.

'Efe a arbed yn helaeth.' Esa. 55. 7. *Heb.* לסלוח ירבה *Efe a amlha i arbed.*—'O herwydd y mae efe yn barod iawn i faddeu.' Dr. M. Y gair *Heb.* סלח a gyfieithir yma *arbed*, a gyfieithir *maddeu*, yn Exod. 34. 7, 9. Lef. 4. 20, 26, 35. Num. 14. 17. Deut. 29. 20. Ps. 86. 5. a 130. 4. Neh. 9. 17. Dan. 9. 9. '*He will abundantly pardon.*' *Saes.* Mae y fath anfeidrol raslonrwydd yn yr Arglwydd, y fath gyfoeth o drugaredd yn Nuw, a'r fath anfeidrol werth yn aberth Crist, 'yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau,' fel y mae efe yn derbyn pechaduriaid edifeiriol gyda llawenydd a hyfrydwch: (Mic. 7. 18, 19.) yn maddeu iddynt yn helaeth, yn rhwydd, ac yn barhaus. אלוה סליחות *Duw y maddeuadau* ydyw ei enw. Neh. 9. 11. Cospodd ei Fab yn ddiarbed, fel y gallai, yn gyfiawn, faddeu i'w bobl yn ddiarbed. Y mae peidio ag arbed y naill yn rhoddi lle i arbed y llall. Dyma yr annogaeth gref a rydd y prophwyd i bechaduriaid ddychwelyd ato—'Efe a arbed yn helaeth.' Joel 2. 17 Dan. 9. 19. Mal. 3. 17.

ARBENIG, (arben) penaf, blaenaf.—'Arbenig miloedd,' sef y penaf, y blaenaf o'r milwyr.—'Tywysogion ac arbenigion y ddinas;' sef blaenoriaid y ddinas. 'Y gwyliau arbenig,' מועדים *y gwyliau gosodedig.* Neh. 10. 33. 2 Cron. 31. 3. Galar. 1. 4.

ARCH, (ar) dymuniad, deisyfiad, gofyniad, eidduned. Lef. 25. 21. 1 Sam. 26. 11. Mat. 14. 28.

ARCH, EIRCH, *Heb.* ארן (*aran*) cist, coffr, ysgrin. Arch Duw, neu Arch y Cyfammod; goganiant Israel, pan oedd Iehofah yn preswylio rhwng y cerubiaid. Cist fechan ydoedd o goed Sittim, gwedi ei gwisgo âg aur o fewn ac oddi allan, â choron o aur o amgylch iddi; yn bedair troedfedd a hanner ei hŷd; yn ddwy droedfedd ac agos i naw modfedd ei lled; a'i huchder yr un faint a'i lled. Ei chauad oedd o aur pur, ac a elwid 'y drugareddfa;' uwch ben hon yr arosai y Shecina, neu yr arwydd o'r presennoldeb dwyfol; ac allan o ddau ben y cauad hwn yr oedd dau gerub aur, gwedi eu gwneuthur o gyfanwaith morthwyl; y rhai, â'u hesgyll ar led, oeddent yn gorchuddio holl wyneb y drugareddfa oddi arnodd, ac â'u hwynebau, megys yn syllu arni hi. Yr ydoedd yn sefyll yn y cysegr sancteiddiolaf, yn y babell ac yn y deml. O'i mewn hi yr oedd llechau y gyfraith; ac mewn rhyw gludfan wrth ei phen blaen yr oedd y crochan aur a'r manna ynddo, a gwialen Aaron yr hon a flagurasai,

Digitized by Google

ac ad-ysgrifen o bum llyfr Moses. Yr oedd i'r arch hefyd bedair modrwy aur, trwy ba rai y dodid y trosolion o goed Sittim, â pha rai y dygid hi gan y Lefiaid, pan y byddai achos yn gofyn. O'i blaen hi yr oedd gwaed yr aberth i gael ei daenellu, a'r arogldarth yn cael ei losgi ar ddydd mawr y cymmod gan yr arch-offeiriad. Yr oedd y coffr, neu yr arch hon, mor sanctaidd, fel yr oedd yn farwolaeth i neb edrych arni heblaw yr offeiriad; am hyny y dygid hi tan orchudd. Exod. 25. 10, 22. a 37. 1, 5. Num. 4. 5, 6, 20. a 17. 10. Deut. 31. 26. 1 Bren. 8. 1. Heb. 9. 4. Ac yr oedd pob man yn sanctaidd lle y deuai arch Duw. Wedi cysegru yr arch trwy daenellu y gwaed arni, a'i heneinio â'r olew sanctaidd, yr oedd yn cael ei dwyn, yn ei holl deithiau yn yr anialwch, ar ysgwyddau y Lefiaid. Aeth yr offeiriaid trwy yr Iorddonen o flaen y bobl, gan ddwyn arch Duw ar eu hysgwyddau; a phan ddaeth y rhai oedd yn dwyn yr arch hyd yr Iorddonen, a gwlychu o draed yr offeiriaid oedd yn dwyn yr arch, yn nghŵr y dyfroedd—yna y dyfroedd, y rhai oedd yn disgyn oddi uchod, a safasant, cyfodasant yn bentwr; felly y bobl a aethant drosodd. Wedi hyny y dygwyd hi i Gilgal. Dygwyd hi ar ysgwyddau yr offeiriaid 13 o weithiau oddi amgylch Jericho;—yr offeiriaid, yn y cyfamser, yn lleisio o flaen yr arch, â saith o udgyrn o gyrn hyrddod, (yn ol ein cyfieithiad ni) a'r mur a syrthiodd. Edr. Jubili, Udgyrn. Gwedi goresgyn gwlad Canaan, gosodwyd yr arch yn Siloh, lle y bu dros 300 mlynedd. Pan oedd yr Israeliaid yn ymladd â'r Philistiaid, dygasant arch Duw i'r gwersyll. Gorchfygwyd Israel, a'r Philistiaid a gymerasant arch Duw, ac a'i dygasant i Asdod. Dygasant hi i dŷ Dagon eu heilun-dduw, fel arwydd o'u buddugoliaeth ar Dduw yr Hebreaid. Ond buddugoliaethodd ar Dagon yn ei dŷ ei hun; a drylliwyd yr eilun-dduw yn ddarnau. I ba le bynag yr anfonent hi, yr oedd yr Arglwydd yn taro y bobl a phlâau o'i hachos. Bu dda gan y Philistiaid ei hanfon yn ol, a llawer o anrhegion gyda hi. Dygwyd hi gyd âg offrwm ar fên newydd, ar ddwy fuwch flith, hyd Beth-semes; yno y tarawodd yr Arglwydd 50,000 o wyr yn farw, am iddynt edrych yn arch yr Arglwydd. Edr. Beth-semes.—Oddi yno y cyrchwyd hi i dŷ Abinadab, yn y bryn, yn Ciriath-jearim: trigodd yno agos i 90 o flynyddoedd. 1 Sam. vi. a vii. Oddi yno y cyrchodd Dafydd hi, nid ar ysgwyddau y Lefiaid, yn ol y gorchymyn, ond ar fên newydd, i Jerusalem. Am i Uzzah estyn ei law ar yr arch, pan oedd yr ychain yn ei hysgwyd, y llidiodd Duw wrtho, ac a'i tarawodd yn farw; am hyny, Dafydd a'i trodd i dŷ Obed-Edom y Gethiad. Wedi iddo glywed i'r Arglwydd fendithio tŷ Obed-Edom er mwyn yr arch, Dafydd a'i cyrchodd mewn modd difrifol a rheolaidd, ar ysgwyddau y Lefiaid, i Jerusalem, i'r babell a ddarparodd efe iddi, yn agos i'w dŷ ei hun. Yn mhen yn nghylch pedair blynedd wedi hyny y dygodd Solomon hi i'r gafell sanctaidd. Num. 10. 33—36. Jos. 3. 6. a 18. 1. 2 Sam. vi. 1 Cron. xv. 1 Bren. 8. 1.

Pan ddinystriwyd y deml gyntaf gan y Caldeaid, nis gwyddom pa beth a ddaeth o'r arch: ond sicr yw, ei bod hi a'i holl ddodrefn yn eisiau yn yr ail deml. Dywedir fod yr Iuddewon, ar ol y caethiwed, wedi gwneuthur un lled debyg iddi, ac wedi rhoddi ynddi brawf-gopi pur o'r gyfraith.—Gelwid yr arch hon, Arch y Dystiolaeth a'r Cyfammod, oblegid ei bod yn cynnwys llechau cyfraith Duw, a llyfr y cyfammod a wnaed âg Israel; ac yr oedd hi ei hunan yn wystl o barhad y cyfammod â hwynt. Deut. 31. 25, 26. Gelwid hi hefyd, Arch cadernid yr Arglwydd. Yma yr oedd arosfa y Shecina, yr hwn oedd yr arwydd o'r presennoldeb dwyfol, a gwystl o'r amlygiad o'i gadarn allu Ps. 132. 8. a 78. 61.

Yr oedd yr arch yn gysgod neillduol o'r Arglwydd Iesu. Y coed Sittim wedi eu gwisgo âg aur, a arwydda y ddwy natur yn ei berson gogoneddus. Fel y llechau yn gyfan yn yr arch, felly yr oedd deddf Duw o fewn calon Crist; cadwodd hi yn berffeithgwbl, fel Mechnïydd ei bobl, ac a wnaeth iawn dros eu troseddau o honi.—Yr oedd y drugareddfa arni, o'r un hŷd a lled a'r arch, oedd yn cadw y gorchymynion: felly y mae Crist, fel iawn, yn cyfateb yn gwbl i holl ofynion y gyfraith, yr hyn y mae y gwaed yn cael ei daenellu ar wyneb y drugareddfa yn ei arwyddo. Yr oedd y goron aur oddi amgylch iddi, yn gosod allan fawredd ac ardderchogrwydd Crist yn ei holl swyddau:—y mae yn goronog ynddynt oll.—Fel yr oedd y goron aur yn cadw y drugareddfa yn ei lle ar yr arch, a'r goron yn perthyn i'r arch, a'r llechau yn yr arch, a'r drugareddfa ar ei hwyneb; felly y mae trugaredd Duw a'r ddeddf yn Nghrist yn anwahan, ac yn ogoneddus ddyrchafedig. Crist yn ei berson, ei offeiriadaeth, ei aberth, a'i eiriolaeth, yw yr orsedd-fainc rasol, lle y mae Duw yn cyfarfod â phechaduriaid euog—yn maddeu iddynt—yn eu cynghori, eu cyfarwyddo, a'u cysuro. Exod. 25. 22. Heb. 4. 16. Efe yw canolbwynt pob addoliad crefyddol; a rhyfeddod pawb sydd yn ei adnabod, yn mhlith dynion ac angelion. Bu dros hir amser, fel yr arch yn yr anialwch, yma isod, heb un drigfa sefydlog; ond wedi iddo ddybenu camwedd, a selio neu orphen pechodau, aeth gyd âg ardderchogrwydd addas iddo ei hun, i'r cysegr nefol, yno i eistedd nes darostyngir ei holl elynion. Heb neb o'r bobl gyd âg ef, ei hun yn unig a orchfygodd Satan ac angeu yn eu gwlad eu hunain: dinystriodd eu holl alluoedd, ac a faluria bob peth uchel ar wyneb y ddaear, ac yn nghalonau ei bobl, ag sydd yn ymddyrchafu yn erbyn gwybodaeth Duw.—Ni fyn Duw fod un floedd o oruchafiaeth na gorfoledd, ond pan y byddo yr arch gyda ni, sef Crist, a hwnw wedi ei groeshoelio; ond y mae efe yn mhregethiad yr efengyl, gan offerynau gwael, yn ddigonol i dynu i lawr y muriau cadarnaf a fedd y diafol; a thrwy ffydd ynddo, caiff yr holl waredigion weled ffordd rydd, trwy ganol pob rhwystrau, pob llifeiriant profedigaethau, ac angeu ei hun, i dir y bywyd tragywyddol. Efe yw 'yr hwn a osododd Duw yn iawn.' Rhuf. 3. 21. *ον προεθετο ο Θεος ιλαστηριον, yr hwn a osododd Duw allan yn gyhoedd, i fod yn drugareddfa.* Ιλαστηριον yw y gair gan y LXX. sydd yn cyfateb i'r gair *Heb.* כפרת am gauad yr arch, sef y drugareddfa; ar, ac o flaen pa un, yr oedd yr arch-offeiriad i daenellu gwaed yr aberthau, ar ddydd mawr y cymmod. Y mae yr apostol yn sicrhau i ni mai Crist yw y wir drugareddfa, y sylwedd yr oedd y (כפרת ιλαστηριον) drugareddfa yn ei gysgodi. Exod. 25. 17, 22. a 29. 42. a 30. 36. Lef. 16. 2, 14, 15. Edr. Iawn.

'Ac efe a osodwyd mewn arch yn yr Aipht.' Gen. 50. 26. Gyda ni dodir y tlotaf mewn eirch i'w claddu. Yn y dwyrain, i'r gwrthwyneb, nis arferir hwy yn gyffredin, hyd yn nod yn ein dyddiau ni. Yr hen Iuddewon, tebygol, a gladdent eu meirw yn yr un dull, heb eirch: ni ddodwyd corph ein Harglwydd mewn arch, ond yn unig 'amdöwyd ef â llïan main:' felly hefyd corph Eliseus, esgyrn yr hwn a gyffyrddwyd â'r corph a fwriwyd i'w feddrod, ychydig wedi ei gladdu. 2 Bren. 13. 11. Cytuna pawb fod eirch yn arferedig yn yr Aipht yn yr hen oesoedd. Mae hen eirch o faen, a sycamorwydd, etto i'w canfod yn y wlad hòno, a rhai gwedi eu gwneyd o bapurfwrdd. Pêr-aroglwyd corph Joseph, a rhoddwyd ef mewn arch. Barna llawer nad oedd eirch yn arferedig yn gyffredin yn yr Aipht, ond yn unig i ryw wyr mawrion ac enwog. Am hyny, gellir barnu fod gosod corph Joseph mewn arch yn arwydd o'r parch mawr a ddangosodd yr Aiphtiaid i Joseph yn ei

Digitized by Google

farwolaeth. Nid hwyrach mai y gwahaniaeth oedd, nid bod heb arch, neu mewn arch, ond costusrwydd yr arch ei hun. Rhai o eirch yr Aipht wedi eu gwneyd o *granite,* ac wedi eu gorchuddio âg arwydd-luniau, y rhai nas gallesid eu naddu heb lawer o amser a chost, oeddynt yn gostus iawn. Y cyfryw un, tebygol, oedd arch Joseph. Y mae dwy o'r eirch hyn yn awr yn yr Amgueddfa Frytanaidd *(British Museum)* yn Llundain. Y maent wedi eu naddu mewn darn cyfansawdd o faen caled, ac wedi eu gorchuddio agos trostynt âg arwydd-luniau. Y mae un o honynt yn ddeg troedfedd a thair modfedd o hŷd; ei lled yn bum troedfedd a thair modfedd a hanner: a'r ochrau yn ddeng modfedd o drwch; a'i dyfnder yn dair troedfedd a deng modfedd. Gyda llafur dirfawr, a chostau mawrion, y dygwyd hon o'r llong a'i dygodd o'r Aipht i'r fan lle mae yn bresennol.

ARCH-ANGEL, (oddiwrth *αρχη, pen, αγγελος, angel*) tywysog, neu y prif angel. 1 Thes. 4. 16. Judas 9. Nid yw yn eglur fod yr enw hwn yn cael ei roddi i un angel crëedig. Mae yn wir y dywedir yn 1 Thes. 4. 16. y bydd i Grist 'yr Arglwydd ddisgyn gyda llef yr arch-angel:' ond nid yw hyn yn arwyddo y bydd efe yn cymeryd llais un angel; pan ddêl, dwg yr angelion sanctaidd gyd âg ef, i gasglu yn nghyd ei etholedigion; a'i lais a seinia fel llais yr arch-angel mawr—'udgorn Duw,' yn cyfeirio, fe allai, at y disgyniad ar fynydd Sinai, yn rhoddiad y gyfraith—pan roddwyd y gyfraith, ac yr udganwyd hi trwy drefniad angelion. Edr. MICHAEL.

ARCH NOAH, *Heb.* תבה *[llestri ceuol]* Nid yw y gair yn cael ei arfer yn y Bibl ond am arch Noah, a'r arch yn mha un y dodwyd y dyn bach Moses. Gen. 6. 14, &c. Exod. 2. 3, 5. Yr oedd arch Noah, tebygol, wedi ei hadeiladu ar ddull corph llong; ond bod ei gwaelod yn wastad, ac yn onglog ar bob pen, a'i phen uchaf fel nen tŷ; fel yr oedd yn diweddu y tu uchaf yn lled un cufydd.—'Gorphen hi yn gufydd oddi arnodd.' Wrth *hi,* y mae i ni ddeall yr arch, nid y ffenestr: yn y dull hwn gallai y dwfr yn hawdd redeg drosti. Yr oedd Noah i'w gwneuthur o goed Gopher, sef y Cypres-wydden, yn ol barn llawer. *Κυπαρισσος, cypres-wydden:* ond tynu ymaith ddiwedd y gair *Gr.* cawn *κυπαρ, cypar,* sydd o'r un sŵn a *gopher.* Fel mae y gair *Gr.* yn dyfod o'r gair *Heb.* felly hefyd y mae CYPRESSUS yn *Llad.* a CYPRESS yn *Saes.* yn dyfod o'r gair *Gr.* Κυπαρισσος. Edr. GOPHER.——Yr oedd gwedi ei rhanu yn gelloedd bychain i'r anifeiliaid i'w rhoddi ynddi. Yr oedd hefyd wedi ei phygo oddi fewn ac oddi allan â phyg, o ran diogelwch a phereidd-dra. Yr oedd y drws yn yr ystlys, a'r ffenestr yn ei phen uchaf, i dderbyn y goleuni oddi uchod, ac i Noah edrych i fynu tu a'r nefoedd, ac nid ar y dyfnder mawr. Ei hŷd oedd 300 cufydd, hyny yw, gan fod cufydd ychydig yn fwy na hanner llath, oddeutu 160 o latheni; ei lled oedd 50 cufydd, sef 27 o latheni; a'i huchder oedd 30 cufydd, sef 16 o latheni.* Yr oedd yn dri uchder llofft, wedi ei rhanu yn gelloedd bychain. Yr oedd yn debyg i'r eirch i gladdu y meirw gyda ni, ei hŷd yn chwe gwaith ei lled, ac yn ddeng waith ei huchder.

Pan ddarfu blynyddoedd hir amynedd Duw tu ag at ei bobl, Noah ar ei wythfed a aeth i mewn i'r arch; a chyd âg ef o'r creaduriaid glân, saith o bob rhyw; ac o'r rhai aflan, dau o bob rhyw. *Heb.* 'Saith a saith, y gwrryw a'i fenyw: dau a dau, y gwrryw a'i fenyw: a'r Arglwydd a gauodd arno.'—'Yn y chwe chanfed flwyddyn o fywyd Noah, yn yr ail mis, a'r ail dydd ar bymtheg o'r mis, ar y dydd hwnw y rhwygwyd holl ffynonau y dyfnder mawr, a ffenestri y nefoedd a agorwyd.—A'r gwlaw a fu ar y ddaear ddeugain niwrnod a deugain nos.—Bu farw pob cnawd, dyn ac anifel, ac ymlusgiaid, ond a oedd gyda Noah yn yr arch.' Edr. DILUW, NOAH.

Yr oedd pob gwaredigaeth i'w bobl, cyn dyfodiad Crist, a phob moddion o waredigaeth, yn gysgodau o Grist, a'r iechydwriaeth drwyddo: felly yr oedd y waredigaeth ryfedd hon i Noah a'i deulu rhag eu boddi, fel eraill, gan y diluw. Crist yw awdwr iechydwriaeth; ac nid oes diogelwch ond ynddo. Nid cryfder gwr, uchder ei fynydd, na chadernid ei drigfan, a allasai ei achub rhag boddi yn y diluw. Yr arch yn unig oedd yn diogelu; ond hi a rodiodd yn hyfryd, a'i llwyth gwerthfawr ynddi, ar wyneb y dyfnder mawr, heb un math o berygl. Yr oedd yn ddiogelwch, ac yr oedd cynnaliaeth iddynt ynddi: felly Crist; nid oes Achubydd ond efe. Esa. 45. 20, 21, 22, 23, &c. Yr oedd drws agored i'r anifeiliaid glân ac aflan i'r arch; felly y mae dyfodfa at Grist i'r Iuddewon a'r Cenedloedd. Esa. 45. 22. Fel yr oedd yr Arglwydd yn ddirgelaidd yn tueddu yr holl greaduriaid, yn wâr ac anwar, i ddyfod at Noah i'r arch i'w hachub, o holl gyrau y ddaear, heibio i bob peth, ac yn ddiattaliad nes dyfod yno; felly y mae yr Ysbryd Glân, trwy yr efengyl, yn tueddu pechaduriaid i ddyfod yn ewyllysgar at Grist am iechydwriaeth, heibio i bob peth arall, ac yn ddiwyro, i'r unig fan lle mae iechydwriaeth i'w chael Mat. 11. 28, 29. Ioan 6. 35—41. Fel yr oedd y creaduriaid yn dyfod yn waglaw, heb ddim ganddynt, i'r arch, ac yn cael pob peth yno at eu cynnaliaeth, yn gystal a'u diogelu; felly, y mae yn Nghrist bob peth angenrheidiol er diogelwch, ac hefyd, er sancteiddiad, cysur, a dyddanwch y pechaduriaid a ddel ato. 1 Cor. 1. 3. Col. 3. 11. Y ffenestr yn nen yr arch, oedd yn arwyddo y doethineb a'r goleuni sydd oddi uchod, yn eglwys Dduw, i weled yn eglur fywyd ac anfarwoldeb, gogoniant, a gwerthfawrogrwydd y pethau sydd uchod, ac nid y pethau sydd yma ar y ddaear. Eph. 1. 17, 18. Col. 3. 1, 2.

Wedi achub ei holl lwyth trwy y dyfroedd, gorphwysodd yr arch, a'r cwbl a roddwyd ynddi, yn fyw ac yn iach, ar un o fynyddoedd Ararat, wedi i'r dyfroedd dreio; felly y bydd pawb a gredant yn Nghrist yn ddiangol byth, gwedi cael eu cadw yn nghanol ystormydd o brofedigaethau, a llifeiriant o orthrymderau. 1 Petr 3. 21. Edr. ARARAT, DILUW, NOAH.

ARCH-OFFEIRIAD, arch, neu pen-offeiriad, neu weinidog. *Gr.* *αρχιερεως.* Yr offeiriad penaf yn mhlith yr Iuddewon a elwid felly. *Heb.* כהן חגדול מאחיו *yr offeiriad penaf o'i frodyr.* Lef. 21. 10. Num. 35. 28. כהן הראש *offeiriad penaf.* 2 Bren. 25. 18. Yr oedd y gwrrywiaid o deulu Aaron yn frodyr, ac yn offeiriaid cyd-radd: ond yr oedd un yn ben ac yn dywysog ar y lleill. Er nad oedd ei swydd yn wahanol, etto yr oedd rhai pethau yn perthyn iddo, yn neillduol, i'w cyflawni yn y swydd. Yr oedd yr holl swydd offeiriadol yn perthyn iddo ef, mewn ystyriaeth, a'r lleill i gyd yn gynnorthwywyr iddo, ac i ddyfod ar ei ol i'r swydd. Yr oedd yn gweini yn y babell, ac wedi hyny yn y deml, mewn pethau sanctaidd, yr arch-offeiriaid, yr offeiriaid, a'r Lefiaid. Yr arch-offeiriad oedd y swyddog mwyaf yn mhlith yr Iuddewon, yn nesaf at eu brenin. Yr oedd uwchlaw pawb eraill oedd mewn swyddau sanctaidd: yr oedd yn cynnrychioli, yn ei swydd, holl genedl Israel,

* Dywedir i ryw Isellmyn *(Dutchman)* a'i enw Peter Jansen, er's rhagor i gan mlynedd a aethant heibio, wneuthur llong o'r un hŷd, lled, uchder, ar yr un llun yn mhob peth ag arch Noah. Er iddo gael ei oganu wrth ei gwneuthur gan laweroedd, etto, wedi ei gorphen, caed, trwy brofiad, fod llongau wedi eu gwneuthur yn y dull hwnw yn fwy cyfleus i *storio* eiddo ynddynt, ac yn fwy cyflym yn eu rhedegfa ar y môr, na llongau o un dull arall. Parker's *Biblioth. Bib., vol.* i. p. 235, 236.

Digitized by Google

Exod. 28. 36. Aaron oedd y cyntaf a ddetholwyd i'r swydd oruchel hon; ac ar ei ol ef gosodwyd Eleazer, ei fab hynaf; ac wedi hwnw, Ithamar, ei ail fab ef. Gwedi hyny dychwelodd i deulu Eleazer yn Zadoc, ac a barhaodd yn y teulu hwnw hyd y caethiwed yn Babilon.

Yn nghysegriad yr arch-offeiriad, 1. Yr oedd i gael ei ddwyn i ddrws pabell y cyfarfod, ac yr ydoedd ei gorph (ac felly yr oedd yr offeiriaid eraill hefyd) i gael ei olchi â dwfr.——2. Yr ydoedd Moses i wisgo am dano ef y gwisgoedd offeiriadol.——3. Gwedi hyny yr ydoedd i gael ei eneinio â'r olew sanctaidd.——4. Yr oedd aberth gwedi hyny i gael ei offrymu drosto, a'r gwaed i gael ei roddi ar ei glust ddehau, ac ar fawd ei law a'i droed dehau.——5. Gosod y meitr ar ei ben, a'r goron gysegredig ar y meitr. Exod. xxix. Lef. vii, viii, ix. Yr oedd i'r arch-offeiriad yr un gwisgoedd offeiriadol a'r offeiriaid eraill; ond yr oedd ganddo ef hefyd wisgoedd hardd, gwerthfawr, a gogoneddus, perthynol i'r arch-offeiriadaeth: 'Gwisgoedd er gogoniant a harddwch:' sef y ddwyfroneg, yr ephod, y fantell, a'r clychau a'r pomgranadau wrth eu godre, y bais, y meitr, a'r gwregys, gwedi eu gwneuthur o aur, sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main. Exod. 28. 4, 5, &c. (Edr. dan yr amrywiol enwau.) Gallai yr arch-offeiriad hefyd wneuthur pob gwaith perthynol i'r offeiriaid: ond yr ydoedd amryw wasanaeth nas gallasai neb ei wneuthur ond efe ei hunan. Efe ydoedd y blaenor yn mhob peth crefyddol, a'r barnwr, yn gyffredin, yn mhob achos perthynol i ymarferiad a barnau y genedl Iuddewig. Efe yn unig oedd i wisgo yr Urim a'r Thummim, i ymgynghori â Duw. Efe oedd i aberthu a gwneuthur iawn dros yr holl offeiriaid eraill. Efe hefyd, yn unig, un dydd bob blwyddyn, oedd i fyned i fewn i'r cysegr sancteiddiolaf, i wneuthur cymmod dros holl gynnulleidfa Israel. Lef. viii, ix, a xvi. Exod. xxviii, a xxix.—Nid oedd iddo ef ddyosg oddiam ei ben, na rhwygo ei wisgoedd sanctaidd, ar un achos, fel arwydd o alar;—nid oedd iddo ef ymhalogi am ei dad, nac am ei fam, yr hyn a allai yr offeiriaid ei wneuthur. Lef. 21. 2. Nid oedd iddo ef fyned allan o'r cysegr ar y cyfryw achosion. Adn. 12. Yr oedd iddo gymeryd yn wraig iddo, yn unig forwyn o'i bobl ei hun, sef o genedl Israel. Lef. 21. 7, 13. Ezec. 44. 22. Gallai yr offeiriaid briodi un weddw. Yr oedd iddo ef fod yn ddianaf; ac felly yr ydoedd yn ofynol yn yr offeiriaid eraill hefyd. Lef. xxi. Mae yn debygol fod ail offeiriad gwedi ei osod i wasanaethu yn lle yr arch-offeiriad os byddai rhyw aaldra arno, neu gwedi ymhalogi, neu ryw fodd wedi anaddasu ei hun i'r gwaith sanctaidd; yr hwn hefyd oedd i ddyfod ar ei ol i'r arch-offeiriadaeth, pan y byddai marw: a hwnw oedd, yn gyffredinol, yn ol barn llawer, mab hynaf yr arch-offeiriad. 2 Bren. 25. 18. Yr oedd hefyd rai a elwid 'tywysogion yr offeiriaid,' sef blaenoriaid y dosparthiadau, wedi i Dafydd ranu y teuluoedd offeiriadol yn bedwar ar hugain o ddosparthiadau. 1 Cron. xxiv. 2 Cron. 36. 14. Ezra 8. 24. a 10. 5. Neh. 12. 7.

Yr oedd yr offeiriadaeth yn dreftadol hefyd yn nheulu Aaron; a'r mab hynaf o'r gangen hynaf o'r teulu hwnw, os byddai yn ddianaf, a fyddai bob amser â'r arch-offeiriadaeth yn perthyn iddo dros ei holl fywyd. Cadwyd at y drefn ddwyfol, yn fanwl, hyd nes daeth y genedl dan yr iau Rufeinaidd. Gwedi hyny daeth llawer o lygriad i mewn: gwobr, neu ffafr, fyddai, yn aml, yn rhwyddhau y ffordd i'r swydd sanctaidd hon. Gellir meddwl hefyd, oddiwrth rai manau yn y Testament Newydd, nad oedd yn yr amseroedd llygredig hyny ddim yn ychwaneg na swydd flynyddol. Mat. 26. 59. Ond y mae sail ddigonol i gredu na byddai neb yn gweini ynddi, ond a fyddai o hiliogaeth Aaron, os byddai rhai o'r cangenau hynaf o'r teulu hwnw wedi darfod.

Yr oedd yr arch-offeiriad yn gysgod arbenig o'r Arglwydd Iesu, yr hwn ydyw 'Arch-offeiriad ein cyffes ni;' yr hwn yr ydym yn ei gyhoeddi, yn credu ynddo, yn ei gyffesu, ei addoli, ac yn ymddiried ein hachos iddo. Y mae efe gwedi ei alw i'r swydd gan Dduw, megys Aaron. Y mae gwedi cael ei neillduo iddi, ei eneinio âg olew yr Ysbryd Glân, ac â nerth; ac wedi ei gysegru trwy ei waed ei hun. Y mae efe wedi ei wisgo â phob doniau a rhadau i'w addasu i'r swydd, a chyflawni ei holl waith gyda mawrhydi gogoneddus. Y mae yn 'arch-offeiriad sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid.' Nid oes arnom ni eisieu ail offeiriad; canys y mae yr Iesu yn anfarwol yn ei swydd; yn iach gwbl ac yn dragywyddol; yn hollol ddihalog; a phob amser yn addas i holl waith ei swydd. Aberthodd ei hun yn iawn dros bechod; aeth unwaith i mewn i'r cysegr trwy ei waed ei hun, gan gael i ni dragywyddol ryddhad. Y mae efe yn ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni; 'yn byw bob amser i eiriol dros y rhai sydd trwyddo ef yn dyfod at Dduw.' Heb. 7. 25, 26. a 9. 12, 24.——Gwnaeth iawn a chymmod dros ei holl bobl: Efe sydd yn cysegru ei holl eglwys, a'i holl swyddwyr; yn ymgynghori â Duw drostynt; yn arch-offeiriad ar ei holl dŷ; a'r llywodraeth yn gwbl yn ei law; a phawb yn ddarostyngedig iddo ef. Mae ei holl ganlynwyr, sydd mewn undeb ysbrydol âg ef, yn wyryfon, gwedi eu dyweddïo i un gwr, yn forwynion pur i Grist. 2 Cor. 11. 2. Dat. 14. 4.

ARCHELAUS, *Gr.* Αρχελαος, [*tywysog y bobl*] mab Herod Fawr o'i wraig Malthace, a gyhoeddwyd, trwy ewyllys Herod, i lywodraethu y deyrnas yn ei le ef, ar yr ammod os byddai hyny wrth fodd Augustus. Augustus, pa fodd bynag, a roddes iddo y titl, nid o fod yn frenin, ond yn ethnarch, a dim ond un hanner o'r tiriogaeth helaeth-fawr y buasai ei dad Herod yn ei fwynhau. Llywodraethodd Archelaus wlad Judea trwy greulondeb, trais, ac anghyfiawnder mawr (creulonaf, medd Josephus, a esgynodd erioed i orsedd Judea) o ba herwydd, y cyhuddwyd ef o flaen Augustus; yr hwn, o'r achos, a'i hymlidiodd i Vienne, yn Gaul, lle y bu efe yn alltud dros holl ddyddiau ei fywyd: nid yw yn hollol hysbys pa flwyddyn y bu hyn. Joseph, ar ei ddychweliad o'r Aipht gyd â'r plentyn bach Iesu, a Mair ei fam, wedi clywed mai Archelaus oedd yn teyrnasu ar Judea yn lle ei dad Herod, a ofnodd fyned yno, am hyny, gwnaeth ei drigfa yn Nazareth; fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy y prophwydi, 'y gelwid ef,' sef yr Iesu, 'yn Nazaread.' Mat. 2. 23. Edr. Nazaread.

ARCHIPPUS, *Gr.* Αρχιππος, [*rheolwr meirch*] pregethwr enwog yr efengyl yn Colosse. Gorchymynir i aelodau yr eglwys ei gyffroi ef i ddiwydrwydd, gofal, a gwroldeb, yn ngwaith y weinidogaeth. Col. 4. 17. Y mae Paul yn ei gyfarch trwy Philemon.

ARCHOLL — ION — EDIG, (arch-holl) briw, gweli, anafiad.— 1. Briw trwy ddyrnod ar y corph: 'archoll am archoll.' Exod. 21. 25.——2. Blino, gofidio, a chystuddio y meddwl a'r corph trwy farnedigaethau, a cheryddon, neu erlidigaethau. Deut. 32. 39. Can. 5. 7. Esa. 1. 6. Jer. 20. 12.——3. Cerydd brawdol: 'Ffyddlawn yw archollion y caredig.' Diar. 27. 6. Er eu bod yn anhyfryd i'r troseddwr, etto y maent yn iachus a chysurus yn y diwedd: yn adgyweirio o'r bai, ac yn magu cariad ac anwyldeb rhwng brodyr.——'Geiriau yr athrodwr sydd megys archollion.' Diar. 26. 22. Mae geiriau y cyfryw bechaduriaid annuwiol yn gofidio dynion, ac yn eu niweidio yn eu henwau da, eu hiechyd, eu meddiannau, a'u llwyddiant cysurus yn y byd.—Crist 'a archollwyd am ein camweddau ni.' Esa. 53. 5. Y gair *Heb.* חלל a arwydda doluriau gwraig wrth esgor;

Digitized by Google

hefyd, clwyfau ac archollion dyfnion, wedi eu cloddio yn y corph gan arfau angeuol. Esa. 51. 2. Job 39. 1. Ezec. 28. 9. a 32. 26. Y mae y gair yn dra addas, yn gosod allan ofidiau enaid yr Arglwydd Iesu, a dull ei farwolaeth boenus, sef trwy ei groeshoelio; ac yn hyny yr oeddynt yn cloddio, ac yn trywanu ei ddwylaw a'i draed. Ps. 22. 17. Hynod mor fanwl a neillduol y mae y prophwydi wedi rhagfynegi pob amgylchiad perthynol i Grist, yn ei fywyd a'i farwolaeth, fel na byddai dim lle i ammeu nad efe yw y gwir Fessïah.

'Mi a leddais ŵr i'm harcholl.' Gen. 4. 23. Lleddais, neu mi a laddwn ŵr i'm harcholl:—pe archollai neb fi, yr wyf mor gadarn fy nghorph, ac mor gryfgreulon fy meddwl, fel y lladdwn ŵr i'm harcholl. Lamech oedd y cyntaf a dorodd ar draws trefn Duw, ac a briododd ddwy o wragedd; ac o herwydd hyny, tebygol, nad oedd mor gysurus yn ei deulu, o ran ufudd-dod ei wragedd iddo, fel llawer eraill a gerddodd yr un llwybr ar ei ol. 1 Sam. 1. 6, 7. Gen. xvi. Lef. 18. 18. Y mae geiriau Lamech wrth ei wragedd yn ddarn o brydyddiaeth hynaf yn y byd, wedi eu cyfansoddi cyn y dylif, gan Lamech, y pummed olynol o âch Cain. Maent yn cynnwys tri phennill, neu ddywediadau byrion, a'r ddwy linell yn mhob un yn cyfateb, neu yn cyfredeg, fel hyn:

Ada a Silah, clywch fy llais,
Gwragedd Lamech, gwrandewch fy lleferydd:
Canys mi a leddais (neu lladdwn) ŵr i'm harcholl,
A llanc i'm clais.
Os Cain a ddielir saith waith,
Yna Lamech saith ddeng waith a saith waith.*

*Green's Poetical Parts of the Old Testament.*

Y mae ei ddull yn llefaru y geiriau yn sobr ddwys wrth ei wragedd, yn dangos bod ei araeth ryw fodd yn perthynu iddynt, ac yn rhoddi ar ddeall iddynt nad allai neb ei archolli na'i niweidio heb ddial arno yn ofnadwy. Os dielir Cain, yr hwn a laddodd ei frawd, saith waith, dielir Lamech, yr hwn ni laddodd neb, saith ddeng waith a saith waith. Os golygwn y geiriau yn ol ein cyfieithiad ni, yr ystyr ydyw, 'Er i mi ladd gŵr, i'm harcholl y lleddais ef: os, gan hyny, y dielir y neb a laddo Cain saith waith, yr hwn a laddodd ei frawd yn ddiachos, dielir Lamech, yr hwn a archollodd ŵr wrth amddiffyn ei hun, saith ddeng waith.'

ARCHWAETH—U, (chwaeth) sawr, safr, safwyr, blas, prawf, profiad. Luc 9. 27. Col. 2. 21. Job 12. 11. a 34. 3. Edr. TAFOD.

ARCTURUS, *Gr.* Αρκτουρος *(arcturus)* *αρκτουουρα, cynffon yr arth.* Galwai y Groegiaid y cydsêr yn y nefoedd yr oeddynt yn eu dychymygu o ran eu gosodiad yn tebygu i arth, yr Αρκτος *(arctos)* sef y saith seren. Seren sefydlog ydyw Arcturus, ac a elwir felly am ei bod yn agos i gynffon yr arth. Yr ydys yn barnu mai yr Arcturus ydyw y seren sefydlog agosaf at ein cyfansawdd (*system*) ni, yn weledig yn yr entrych gogleddol. Y mae yn seren sefydlog o'r maintioli mwyaf, ac yn un o'r cyd-sêr a enwir Archophylax.——'Yr hwn sydd yn gwneuthur Arcturus.—A dywysi di Arcturus a'i feibion?' Job 9. 9. a 38. 32. Mae y beirniaid mwyaf dysgedig yn yr iaith Hebraeg, yn barnu nad yw y gair עש yn arwyddo un seren na chyd-sêr. Oddiwrth gyfieithiad y LXX. a'r Vulgate, y cymerodd y cyfieithwyr diweddaraf eu cyfieithiadau yn yr amrywiol ieithoedd presennol. Yn y lleoedd canlynol yn unig yr arferir y gair hwn: Job 4. 19. a 27. 18. Esa. 50. 9. a 51. 8. Hos. 5. 12. ac yn cael ei gyfieithu *gwyfyn, pryfyn.* Felly, barna rhai, y dylasai gael ei gyfieithu yma, y *deifiad*, neu *awel sydd yn deifio.* 'Yr hwn sydd yn gwneuthur (nid a wnaeth) Arcturus;' hyny yw, y deifiad, yr awel ddifäol; yr hon a elwir felly am ei bod yn dwyn gyda hi rifedi lliosog iawn o fân bryfed, pa rai ydynt yn difa pob peth yr arosant arnynt, fel y gwna gwyfyn ddilledyn. Duw yn unig sydd yn anfon yr awel hon, a'i meibion; sef y pryfed mân y mae yn eu dwyn.—'A dywysi di yr awel sydd yn deifio, a'i meibion?' hyny yw, y pryfed dirifedi a ddwg yr awel ddifäol hon gyda hi. Bate's *Critic Heb.* Parkhurst. J. Mason Goode, ar Job 38. 31, 32.

ARDAL—OEDD, (tal) *Heb.* גבל *(gabal)* terfyn, (ac oddi yma *gable end*) cyffiniau, terfynau, godreuon, cŵr.—'Ardal drygioni:' Mal. 1. 4. hyny yw, ardal lawn o bobl ddrwg; ardal bechadurus a melldigedig, o herwydd pechodau ei thrigolion. Ardal na lwydda byth, tra y byddo pechodau y trigolion yn tynu i lawr farnedigaethau Duw arni: 'Hwy a adeiladant, a minnau a dynaf i lawr, medd yr Arglwydd.' Exod. 10. 14. Num. 20. 16.

ARDRETH—OL—I, (treth) toll, rhent, cyllid. Yn garcharor mewn cadwyn y pregethodd Paul deyrnas Dduw, a'r pethau am yr Arglwydd Iesu, yn ei dŷ ardrethol ei hun, yn Rhufain, gyda phob hyfder yn ddiwahardd. Act. 28. 30, 31. Mynodd yr Arglwydd hyny o ryddid iddo er lles eneidiau, a gogoniant ei enw, a'i gysur ei hun. Bu ei bregethu, yn ei dŷ ardrethol, o fendith i lawer, ac i rai o deulu Cesar. Tebygol fod sôn nid bychan am dano cyn i neb o deulu yr ymerawdwr ddyfod i'w wrando. Er ei fod ef mewn cadwyn, nid oedd yr efengyl yn rhwym, ond yn effeithiol, o enau carcharor, i ryddhau pechaduriaid o gaethiwed cadwynau eu pechodau. 2 Tim. 2. 9.

ARDDANGOS, (dangaws) dangos allan, arnoethi, gwaradwyddo.—'Efe a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd.' Col. 2. 15. *Εδειγματισεν εν παρρεσια.* Y gair *Gr.* *δειγματιζω*, a arwydda yr arddangosiad buddugoliaethus a gwaradwyddus a fyddai y rhyfelwyr Rhufeinaidd yn ei wneuthur o'u caethion, ar eu dychweliad buddugoliaethus i Rufain. *Εν παρρεσια*, *ar gyhoedd*, neu gyda hyder disigl. Yr un gair ag a gyfieithir *hyderus*, Heb. 4. 16. a *hyfdra*, Eph. 3. 12. Dangosodd y tywysogaethau a'r awdurdodau ar gyhoedd yn waradwyddus, fel caethion wedi eu gorchfygu ganddo. Gorchfygodd hwynt yn ei wendid a'i iselder, ac yn ei boenau mwyaf ar y groes, hwythau yn eu holl rym, eu hawdurdod, a'u mileindra, yn ymosod arno: gwaradwyddodd hwynt ar gyhoedd, yn ngwydd yr holl nefoedd. Ennillodd oruchafiaeth arnynt, y bydd gwaradwydd byth i Satan a'i luoedd o'i phlegid; y bydd clod a goruchafiaeth byth i'r Iesu, a thragywyddol fuddugoliaeth a gorfoledd i'r eglwys. Y mae rhai awdwyr enwog yn barnu i'r ymddangosiad hwn o'r tywysogaethau a'r awdurdodau, gan Grist, barhau mewn rhyw fodd cyhoedd, gwaradwyddus neillduol, o'r fynyd y dilëodd yr ysgrifen-law, y cymerodd hi oddiar y ffordd, gan ei hoelio wrth y groes, hyd ei esgyniad i'r gogoniant, pan ddyrchafodd i'r uchelder, ac y caethgludodd gaethiwed: a'r cwbl yn gyhoedd i Dduw, ac i'r holl nefoedd, er nad oedd felly i lygaid o gnawd. Zanchius *in loco.*

ARDDERCHOG—RWYDD, (ardderch) gorwych, mawrhyddig, enwog, hynod, godidog, gogoneddus, rhwysgfawr, ceinwych. Y mae ardderchogrwydd yn cael ei briodoli i'r Arglwydd, ac efe yn unig sydd yn ardderchog yn hanfodol, ynddo ac o hono ei hun. Y gair *Heb.* הדר a gyfieithir y rhan amlaf *ardderchog*, *ardderchogrwydd*, a arwydda mawredd a harddwch, neu mawredd gogoneddus. Exod. 15. 6, 11. 1 Sam. 4. 8.—הדר כבוד הודך 'Harddwch, gogoniant dy fawredd.' Ps. 145. 5. Nis gellir byth osod allan, mewn un cyfieithiad, gyflawnder y geiriau yn yr iaith Hebr-

* Gwel Lowth *Prælec.* iv.

Digitized by Google

aeg:—כבוד הדר מלכותך ‘Gogoniant ardderchogrwydd dy freniniaeth.’ Adn. 12. Y mae iawn drefn; pob mawredd, llawnder o bob peth gwerthfawr a hyfryd; sef cyflawnder, sancteiddrwydd, heddwch, llawenydd yn yr Ysbryd Glân, yn ei freniniaeth. ‘Gogoniant a harddwch sydd o'i flaen ef; nerth a hyfrydwch sydd yn ei gysegr.’ Ps. 95. 6. Y mae mawredd, a harddwch, a hyfrydwch yn perthyn iddo, ac i'w dŷ trefnus, a'i ordinhadau. Y mae yr Arglwydd yn ardderchog ynddo ei hun: y mae pob mawredd a phob harddwch yn hanfodol ynddo; ac nid oes dim ar sydd yn fychan ynddo, ac yn anhardd. Y mae ei fawredd yn harddwch i gyd, a'i harddwch yn fawredd i gyd. Y mae ei hanfod, ei briodoliaethau, ei feddwl, ei gynghor, ei arfaeth, &c., yn ardderchog, ac yn hardd anfeidrol. Nid oes dim dymunol nad ydyw ynddo; ac nid oes dim annymunol yn perthyn iddo. Pan y mae efe yn gwisgo ardderchogrwydd, nid yw efe yn rhoddi am dano y peth nad oedd ganddo o'r blaen; ond yn unig yn ymddangos y peth ydoedd, a hyny mewn dull addas iddo ei hun. Ps. 93. 1. a 104. 1. Gan ei fod yn ardderchog yn hanfodol ynddo ei hun, mae ardderchogrwydd o angenrheidrwydd yn ymddangos yn ei holl enwau, a'i weithredoedd. ‘Ardderchog yw ei enw ar yr holl ddaear,’ yn mhob dull a modd a gymerodd efe i ddadguddio ei hun. Ps. 8. 1. Ardderchog yw ei waith yn y greadigaeth, yn ei ragluniaethau, ei farnedigaethau, a'i waredigaethau; ond mewn modd arbenig, yn y prynedigaeth, ac iechydwriaeth dragywyddol ei bobl. Esa. 28. 29. ‘Ei ardderchogrwydd ef sydd uwchlaw daear a nefoedd.’ Ps. 148. 13. ‘Oni ddychryna ei ardderchogrwydd ef chwi?’ Job 13. 11. Mae iawn grediniaeth o fawredd ac ardderchogrwydd Duw, yn effeithio yn addas ar bawb sydd yn synied felly am dano: ac os nad ydyw yr effeithiau hyn ar ein hysbrydoedd, nid ydym yn gwir adnabod Duw. Gweddai fod pawb yn crynu ger ei fron; yn ei barchu, ei addoli, ac yn ei ryfeddu, gyd â'r gostyngeiddrwydd mwyaf. Er ei fod, yn ei anfeidrol ddaioni, yn ymostwng atom, mewn cariad a thiriondeb, etto nid yw yn colli ei ardderchogrwydd. Y mae yn ardderchog yn ddyn bach yn y preseb; mae yn ardderchog yn ei rodiad, yn ei holl ymddygiad yn ei ymddarostyngiad yma yn y byd; yn ei holl waith, ac yn ei holl eiriau. Y mae yn cyfeillachu â phechaduriaid, yn bwrw allan gythreuliaid, yn tawelu y môr, yn gostegu y gwynt, ac yn cyfodi y meirw, gyd âg ardderchogrwydd dwyfol. Pwy all ddarllen ei hanes yn cyfarfod â Judas, ac edrych arno o flaen yr arch-offeiriad a Philat—wedi hyny yn cario y groes, a'r goron ddrain, i ben Calfaria, a gwrando ei eiriau tan hoelion ar y groes, heb waeddi gyd â'r canwriad, ‘Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn!’ Marc 15. 30. Ein hanadnabyddiaeth ni o hono, a'n pellder oddi wrtho, sydd yn peri i ni golli ein golwg ar ei ardderchogrwydd, a thrwy hyny fod yn amddifad o barch iddo. Ps. 48. 5. Job 31. 23. a 42. 5, 6. Rhuf. 1. 18. Ps. 2. 11.

‘Ardderchogrwydd Jacob,’ oedd y rhagorfraint oedd gan Jacob rhagor Esau ei frawd, a'i hiliogaeth rhagor holl genedloedd y ddaear, o fod yr Arglwydd yn Dduw iddynt; a'r addewidion yn eiddo iddynt; a deddfau, addoliad, ac ordinhadau Duw yn eu plith; yr hyn oedd yn cynnwys yr ardderchogrwydd, yr hyfrydwch, yr harddwch, a'r gogoniant mwyaf a ddichon i greaduriaid byth i'w fwynhau. Ps. 47. 4. Amos 6. 8. a 8. 8. Nah. 2. 2. Eph. 1. 3. Ps. 14. 7. a 16. 5. a 44. 4. a 73. 26. Esa. 60. 15.

ARDDODIAD, (arddawd) gosodiad, gosodiad dwylaw. Yr Iuddewon gynt a arferent hyny, 1. Wrth iddynt gysegru yr aberth cyn ei ladd, gan gyffesu eu pechodau, a'u bod hwy yn haeddu marw yn lle yr anifel; a chan broffesu eu bod yn ymddiried yn y Messïah, yr aberth mawr ag oedd i ddyfod, i roddi pen ar yr holl aberthau, ac i dynu ymaith bechodau y byd. Exod. 29. 19. Lef. 4. 15.——2. Arddodiad dwylaw a arferid hefyd, wrth sefydlu dynion, a'u gosod mewn swyddau ac awdurdodau llywodraethol, yn arwydd o gyfraniad doniau addas i'r swydd, ac nid i'w gosod hwynt yn y swydd. Num. 27. 18. Deut. 34. 9. Arddodiad dwylaw a arferwyd, nid i roddi un mewn swydd, ond i dderbyn dawn trwy hyny. Nid oes un crybwylliad am arddodiad dwylaw Crist wrth ethol y deuddeg dysgybl, na'r deg dysgybl a thriugain. Dewiswyd Matthias i'r swydd apostolaidd yn lle Judas, trwy fwrw coelbren. Gwedi i'r coelbren syrthio arno, cyfrifwyd ef (ουγκατεψεφιοθη) gyd a'r un ar ddeg. Act. 1. 26. Ond nid oes sôn am arddodiad dwylaw arno ef. Yr oedd χειροτονια, *estyniad allan y dwylaw*, ond nid oedd χειροϑησια, *arddodiad dwylaw*, wrth sefydlu swyddwyr yn yr eglwys. Yr oedd arddodiad dwylaw yn ddefod arferedig gan bersonau anghyffredin ar bersonau anghyffredin; a hyny, nid i'w gosod hwynt mewn unrhyw swydd, ond er cyfraniad *dawn* i ryw orchwyl anghyffredin. Yr oedd Saul a Barnabas yn eu swyddau eisoes, pan roddwyd dwylaw arnynt hwy gan henuriaid Ephesus. Act. 13. 1, 2. Nid i swydd newydd yr oeddynt hwy yn cael eu neillduo yr amser hwnw, ond i'r gwaith y galwodd yr Ysbryd Glân hwynt iddo, y pryd hwnw. Gwedi iddynt ymprydio a gweddio, *και επιθεντες τας χειρας αυτοις, yna rhoddi eu dwylaw arnynt*, gollyngasant hwy ymaith. Gollyngasant hwy ymaith gyd â'r arwydd hwn o'u hewyllys da am eu llwyddiant.——Rhoddwyd dawn i Timotheus ‘trwy brophwydoliaeth, gyd âg arddodiad dwylaw yr henuriaeth.’ 1 Tim. 4. 14. Paul a Silas, tebygol, y mae yn ei feddwl, wrth yr henuriaeth; canys y mae yn tystio iddo dderbyn dawn trwy arddodiad ei ddwylaw ei hun arno. 2 Tim. 1. 6.——Y saith a ddewiswyd yn swyddwyr anghyffredin, i weini mewn gwaith neillduol yn lle yr apostolion y pryd hwnw, gwedi eu hethol gan y bobl, a osodwyd ger bron yr apostolion; ac wedi iddynt weddïo, hwy a osodasant eu dwylaw arnynt, yn arwydd o'u cymeradwyaeth, ac i gyfranu iddynt, trwy hyny, ddawn yr Ysbryd Glân, i'w haddasu i'w gwaith. Act. vi. Yr un peth, hefyd, a welir yn ngwaith Moses yn rhoddi ei ddwylaw ar Josuah: ‘A Josuah mab Nun oedd gyflawn o ysbryd doethineb; o herwydd Moses a roddasai ei ddwylaw arno.’ Deut. 34. 9.—‘A dod o'th ogoniant di arno ef.’ Num. 27. 20.—Cyfranogiad, gan hyny, ac nid gosodiad mewn swydd, y mae arddodiad dwylaw yn ei arwyddo; ac am nad oes genym ni ddim i'w gyfranu, peth ofer yw rhoddi dwylaw gweigion ar neb.——3. Hefyd, wrth fendithio a gweddïo. Gen. 48. 14, 17, &c.——4. Wrth osod y Lefiaid yn eu gwasanaeth. Num. 8. 10. Felly, yr arferiad hwn ydoedd yn cael ei gynnal gan Grist a'i apostolion wrth weddïo, a chyfranu doniau ysbrydol, ac iachâu y cleifion. Luc 13. 13. Act. 19. 6. a 10. 44. Yr oedd rhoddiad yr Ysbryd Glân, llefaru â thafodau, ac amryw ddoniau arbenig, gynt yn dilyn y ddefod hon. Act. 2. 38.

AREDIG, (arad) 1. Llafurio y ddaear, cwyso y ddaear, i'r dyben iddi ddwyn ffrwyth. Exod. 24. 31. 1 Bren. 19. 19.——2. Bod yn ddiwyd mewn galwedigaeth. Diar. 20. 4. 1 Cor. 9. 10.——3. Ymarfer â thwyll, nes cael cospedigaeth am dano. Job 4. 8. Hos. 10. 13. Cyfeillion Samson oeddynt yn aredig â'i anner ef, wrth gyfrinachu yn dwyllodrus â'i wraig, i gael gwybod ei ddychymyg. Barn. 14. 18.——4. Fflangellau creulawn, ac erlidiau câs a thwyllodrus. Ps. 129. 3.——‘Sïon a erddir fel maes:’ bygythiad o ddinystrio y deml ardderchog yn Jerusalem; yr hyn a ddywedir gael ei gyflawni gan Tyranus Rufus, sef cael o sylfeini y deml dynu aradr drwyddynt. Jer. 26. 18. Mic. 3. 12.

AREN—AU, (aren) llefnau, elwl; *Llad.* Ren.—1. Y rhanau dirgel mewn dyn ac anifel. Lef. 3. 4.

Digitized by Google

Job 19. 27. Ps. 103. 13.——2. Serchiadau a thueddiadau yr enaid, a'i feddyliau. Galar. 3. 13. Dat. 2. 23. Y mae Duw yn mhell oddiwrth arenau dynion, pan y maent heb wir wybodaeth o hono, ofn, a chariad, a dymuniad ato, a hyfrydwch ynddo: ac heb roddi gwir ufudd-dod iddo. Jer. 12. 2. Y mae dynion yn cael eu pigo yn eu harenau, pan glwyfer eu henaid â meddyliau aflonydd, nwydau poenus, cenfigen, galar, a digofaint. Ps. 73. 21. Y mae eu harenau yn dysgu dynion, pan ymwelo Duw â hwynt âg ymweliad neillduol ei Ysbryd, gan roddi a chyffroi ynddynt addysgiadau a golygiadau newyddion; a chyfeirio a threfnu eu meddyliau at Dduw a'i wasanaeth. Ps. 16. 7.—Y mae dwy aren, un bob ochr. Mewn dyn y mae yr aren ddehau yn îs na'r aswy: ond mewn anifeiliaid y mae yn gyffredin i'r gwrthwyneb. Y maent gwedi eu cydio â'r lwynau, a'r llîein-gig wrth y bilen allanol iddynt, ac â'r chwysigen wrth y pibellau sydd yn dwyn y dwfr o'r arenau i'r chwysigen. Y mae eu llun yn debyg i faen; neu, yn hytrach, hanner lleuad. Mewn dynion y maent yn gyffredin yn nghylch pum modfedd o hŷd, tair o led, ac un modfedd a hanner o drwch. Eu sylwedd sydd gynnwysedig o gilchwyrnau a phibellau dwfr bychain. Y cilchwyrnau a gynnwys y rhan oddi allan, ag sydd wasanaethgar i ysgaru y dwfr; a'r pibellau dwfr ydynt y rhan oddi fewn, ac yn dyfod allan o'r cilchwyrnau, ac yn dwyn y dwfr i geudod neu y rhan geuol o'r arenau, a elwir y *pelvis*; ac oddi yno y mae yn myned trwy y pibellau dwfr i'r chwysigen. Y mae yr arenau yn ysgaru y dwfr oddiwrth y gwaed a ddygir trwy ysgogiadau y galon i'r rhedwelîau, a elwir *emulgent arteries*; a'r rhai hyny a'i dygant i'r cilchwyrnau bychain; yn mha le y mae ei ddyfrlladrwydd yn cael ei ysgaru, a dderbynir i enau y pibellau dwfr sydd yn myned o'r cilchwyrnau i'r *pelvis*, ac oddi yno dygir ef trwy y pibellau i'r chwysigen. Y gwaed na allai fyned i'r cilchwyrnau a ddygir yn ei ol trwy y gwythîenau. Y mae i'r arenau, fel pob rhan arall o'r corph, rhedwelîau, gîau, a gwythîenau.——Y mae yr arenau yn ddarostyngedig i afiechyd gofidus iawn, a elwir ***nephritis***, sef ***afiechyd yr arenau***, yn ol ystyr y gair, ac a berir gan y gareg, neu y graian ynddynt. Arferir y gair, hefyd, i arwyddo tandde (*inflammation*) yr arenau. Y mae hwn i'w wahaniaethu yn ofalus oddiwrth y llall; o herwydd dichon hwn fod yn hir, heb fod y gareg na'r graianwst yn blino dyn. Yr achosion o hono ydyw arfer gormod o gyfferi poethion i gymhell i wneyd dwfr; megys olew twrpentein, meryw, a'r balm o sulphur—byw yn rhy dda—arferyd dyfroedd poethion—gorwedd ar wely rhy esmwyth—nwydau poethion—gweithio yn rhy galed, &c. Y feddyginiaeth rhagddo yw gwaedu, cadw y corph yn dymherus, a chymeryd cyfferi a fyddo yn oeri; megys halen y graig (*salt-petre*), *cream of tartar*, &c., llonyddwch: yfed maidd wedi ei wneuthur â *cream of tartar*; *balm tea*, gwedi ei felysu â mêl; rhoddi gelod wrth y lwynau sydd addas iawn. Hefyd bydded yr ymborth yn ysgafn; megys heidd-gawl (*barley-gruel*), dyfr-gawl (*water-gruel*), uwd bara can (*panada*), pob llysiau fyddo yn oeri. Y mae profiad cyffredin yn dangos fod gweithrediadau y meddwl, megys llawenydd, tristwch, ofn, &c., yn effeithio yn neillduol ar yr arenau: (gwel Ps. 73. 21. Diar. 23. 16.) felly hefyd oddiwrth eu sefyllfa ddirgelaidd yn y corph, a'u bod wedi eu cuddio â brasder, arferir hwynt yn aml yn yr ysgrythyrau yn gyffelybiaethol, i arwyddo gweithrediadau mwyaf dirgel y meddwl a'r serchiadau. Ps. 16. 7. Jer. 12. 2. Galar. 3. 13. Edrych, chwilio, a phrofi yr arenau, gan hyny a arwyddant, edrych a phrofi y meddyliau a dymuniadau mwyaf dirgel yr enaid. Ps. 7. 9. a 26. 2. Jer. 20. 12. Dat. 2. 23. Yr oedd yr arenau, a'r gwêr a fyddai arnynt, bob amser i gael eu llosgi yn aberth; i arwyddo y dylem gysegru i'r Arglwydd y meddyliau, y dymuniadau, a'r serchiadau mwyaf dirgel, a gochelyd pob rhagrith tu ag ato. Exod. 29. 13. Lef. 3. 4, 10, 15. a 4. 9. a 7. 4. a 8. 16, 25. a 9. 10, 19.

AREOPAGUS, [*bryn Mars*] uchel lŷs Athen; lle rhagorol am farn gywir mewn materion. Paul, am iddo bregethu Crist, a phregethu yn erbyn eu duwiau llîosog hwy, y rhai yr oeddynt yn eu mawrhau, a ddygpwyd ger bron Areopagus, fel troseddwr, ac un yn gosod i fynu rhyw grefydd newydd. Ymresymodd ar yr achos hwn gyd â'r fath bwyll a doethineb nefol, fel yr argyhoeddwyd ac y dychwelwyd Dionysius, un o'i farnwyr; ac efe a ollyngwyd yn rhydd, heb ddim mwy o drafferth. Act. 17. 19, 34.

ARETAS, Αρετας [*rhinweddol*] brenin Arabia.—Yr oedd amryw dywysogion o'r enw hwn; am ba rai nid oes dim hynodol mewn hanesiaeth teilwng ei adrodd yn y gwaith hwn. Act. 9. 23. 2 Cor. 11. 22. Gwel Josephus, *Antiq. lib.* xiv., *c.* 2, 3, 4., *lib.* xvi., *c.* 16., *lib.* xviii., *c.* 7.

ARF—AU, ac EIRF, (ar) peirian, peiriant, ceryn, offeryn, ermig: offerynau i wneuthur gwaith â hwynt. Esa. 54. 16. Y maent yn amrywiol, yn ol y gwaith a'r celfyddydau y byddont hwy yn cael eu harfer ynddynt.——Arfau rhyfel. Yr oedd, ac y mae, amryw fath o honynt; rhai i niweidio, a rhai i amddiffyn. Yr arfau niweidiol, i ymosod ar y gelynion â hwynt, oedd, cleddyfau, saethau, picellau, gwayw-ffyn, ffyn-tafl, &c. Eu harfau amddiffynol, y rhai a arferent i'w hamddiffyn eu hunain, oeddynt helmau, tarianau, llurigau, estylch, dur-beisiau, &c.

*Arf* y doeth yw pwyll. *Diar.*

Sonia yr ysgrythyr am amryw fath o arfau yn arfogaeth Duw. Dywedir, 1. Am Dduw, ei fod yn *Rhyfelwr:* Arglwydd y lluoedd yw ei enw. Iesu Grist yw *Cadben* mawr iechydwriaeth: Tywysog llu yr Arglwydd; ac, fel y dywedir am Dafydd, y mae efe yn ymladd rhyfeloedd ei Frenin a'i Dduw—y mae byddinoedd y nefoedd yn ei ganlyn—a'i arfogaeth ydyw cleddyf llym dau-finiog, sef ei air.——2. Y mae efe yn arfogi ei bobl, ei holl filwyr, y rhai y mae yn eu galw i ymdrechu yn mhlaid y ffydd: 'Gwisgwch am danoch,' medd Paul, 'holl arfogaeth Duw.' Arfau cymhwys i orchfygu y byd, cnawd, a Satan, a'n ceidw ninnau yn wyneb ei holl ymgyrch. Eph. 6. 13—20. —Gelwir hwy yn 'arfau cyfiawnder ar ddehau ac ar aswy,' 2 Cor. 6. 7. i ddangos eu bod yn ddigonol i gadw ac amddiffyn, yn mhob sefyllfa ac amgylchiad, mewn bywyd neu angeu. Gelwir hwy yn arfau y goleuni, yn Rhuf. 13. 12. o herwydd mai trwyddynt y gellir gwrthsefyll gallu y tywyllwch; ac hefyd, am eu bod yn dyfod oddiwrth Dad y goleuni, ac yn cael eu rhoddi yn rhad i blant y goleuni i'w meddiannu; ac wrth eu harfer hwy yn iawn, y chwanegir ein goleuni a'n gwybodaeth ysbrydol; ac y daliwn ein ffordd nes dyfod o'r diwedd i oleuni tragywyddol. Yr arfau hyn nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr, &c. 2 Cor. 10. 4. Ond y dyn sydd heb adnabod Duw a'i arfogaeth, sydd yn ffoi oddiwrth un gorthrymder i gyfarfod un gwaeth: 'Y mae yn ffoi oddiwrth arfau haiarn; a'r bwa dur a'i trywana ef.' Job 20. 24. Edr. Cleddyf, Gwregys, Dwyfroneg, Tarian, &c.

ARFAD, un o hiliogaeth Canaan. Gen. 10. 18. Preswylia ei hiliogaeth yn ynys Aradus, wrth aber yr afon Eleutherius, ar gyffiniau Phenicia. Ezec. 27. 8, 11. Newcome.

ARFAETH—AU—U, (maeth) rhag-fwriad, rhagamcan, trefniad blaenllaw, rhag-osodiad.—Y gair *arfaeth* sydd yn gyfieithiad o'r gair *Gr.* προθεσις, yn

Digitized by Google

arwyddo *rhag-fwriad, rhag-drefniad, rhag-osodiad.* Yn ol ei arfaeth dragywyddol y mae Duw yn gweithredu pob peth mewn amser.

Gelwir arfaeth Duw wrth amrywiol enwau yn yr ysgrythyrau: 1. Weithiau, meddyliau ei galon. Jer. 29. 11. Ps. 33. 11. Y rhai hyn yw dyfnion bethau Duw, sydd yn trigo yn ddirgelaidd yn ei feddwl, gwybyddus yn unig iddo ei hun, ac a chwilir gan ei Ysbryd. 1 Cor. 2. 10, 11.——2. Cynghorion Duw, y rhai y dywedir eu bod er ys talm, sef er tragywyddoldeb; ac ydynt wirionedd a sicrwydd; sef yn sicr o gael eu cyflawni mewn amser. Eu bod yn cael eu galw yn gynghorion, nid arwydda diffyg gwybodaeth yn Nuw, neu fel pe nas gwybuasai pa beth i'w wneuthur; ac am hyny yn cynghori âg ef ei hun, neu âg eraill, pa beth i'w wneyd; ond am eu bod yn cynnwys y doethineb mwyaf y gelwir hwynt cynghorion.——3. Weithiau, ordinhad—deddf—terfynedig gynghor Duw. Dan. 4. 17. Seph. 2. 2. Act. 2. 23.——4. Weithiau, rhag-ordeiniad, rhagluniaeth. 1 Petr 1. 20. Eph. 1. 5, 11.——5. Weithiau, ei ewyllys—cynghor ei ewyllys—a boddlonrwydd ei ewyllys. Esa. 40. 10. Rhuf. 5. 19. Eph. 1. 5, 11. Edr. dan yr amrywiol eiriau.

I. Fod y cyfryw fwriadau ac arfaethau yn Nuw, a ellir ei ddangos yn eglur. Nid yn unig tyb, neu ddychymyg am bethau i ddyfod ydynt, ond bwriadau terfynedig, sefydledig, yn eu cylch. Nis gellir meddwl am y fath Fod a Duw, oddiwrth ei briodoliaethau o ddoethineb a chyfiawnder, ddarfod iddo wneuthur dim trwy ddamwain. Nagê; ond y mae pob gweithred o eiddo Duw yn weithred o anfeidrol ddoethineb, ac wedi ei seilio ar angenrheidrwydd ac addasrwydd pethau; ac y mae mor wir am weithredoedd o ras, ag ydyw am weithredoedd naturiaeth. 'Gwnaeth hwynt oll mewn doethineb.' Ps. 104. 24.

1. Ni bu Duw erioed heb ei feddyliau, gweithrediadau ei ddeall, a'i ewyllys. Nid pethau newyddion ydynt hwy ynddo; canys gwnai hyny ef yn gyfnewidiol; sef bod ynddo heddyw yr hyn nad ydoedd ynddo er tragywyddoldeb.——2. Y mae ei ben-arglwyddiaeth a'i annibynolrwydd yn eglur yn dangos, fod pa beth bynag a wna mewn amser, yn ol ei arfaeth dragywyddol. Oni bai ei fod yn gwneuthur pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei hun, ni byddai yn ben-arglwydd, ond yn ddibynol ar eraill. Dan. 4. 35. Eph. 1. 11. 'O hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth.' Rhuf. 11. 36.——3. Y mae ei anghyfnewidioldeb yn gofyn hyny. Canys os gwneir dim mewn amser oedd yn anhysbys iddo er tragywyddoldeb, rhaid bod hyny yn newydd iddo, ac yn gwneuthur cyfnewidiad ynddo. Ac os bydd ewyllys ynddo am un peth a fynasai ei wneuthur nad ewyllysiodd o'r blaen, mae hyn yn profi cyfnewidiad ynddo: ond 'nid oes ynddo gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth.' Iago 1. 17.——4. Y mae ei wybodaeth yn profi hyny. 'Duw gwybodaeth yw yr Arglwydd, a'i amcanion ef a gyflawnir.' 1 Sam. 2. 3. 'Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed.' Act. 15. 18. Y mae ei wybodaeth yn dibynu ar ei arfaeth; y mae yn gwybod y bydd y cyfryw bethau, am ei fod wedi arfaethu iddynt fod. Esa. 46. 10.——5. Y mae ei ddoethineb hefyd yn gofyn ei fod yn gweithredu pob peth yn ol rhag-feddyliau, a rhag-gynghor, a rhag-arfaeth am danynt. Pa ŵr doeth a adeiladai dŷ, heb rag-feddwl a rhaglunio dull a threfn y tŷ? o ba ddefnyddiau y gwnai ef? pa bryd, ac i ba ddyben? Pa faint llai y gellir meddwl hyny am y Duw doeth, 'yr hwn sydd ryfedd yn ei gynghor, ac ardderchog yn ei waith?' Esa. 28. 29.

II. Am ëangder arfaeth Duw—y mae yn cyrhaedd at bob peth sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear, bywiolion ac anfywiolion, rhesymol a direswm. Ps. 103. 19. a 148. 6. 2 Petr 3. 5—10. Job 38. 10, 11. Diar. 8. 29. Jer. 5. 21. Holl ymerodraethau mawrion y byd, a'r holl lywodraethau bychain hefyd, yn eu holl amgylchiadau—eu dechreuad, eu cynnydd, eu mawredd, a'u gogoniant; eu hafiwydd, eu gofidiau, a'u terfyniad. Deut 32. 8. Dan. 11. 38—44. Yn fyr, pob peth yn nghylch pob person neillduol, ydynt yn cyfateb i arfaeth Duw; eu dyfodiad i'r byd; y lle, yr amser, a'r holl amgylchiadau perthynol i hyny; holl ddamweiniau eu bywyd; lleoedd eu preswylfod, a'u galwedigaethau, a u gwaith; eu holl amgylchiadau o gyfoeth a thlodi, iechyd ac afiechyd, adfyd a hawddfyd, eu hamser i fyned o'r byd, yn nghyd â phob amgylchiad perthynol i hyny; y mae y cwbl o hyn yn ol arfaeth, cynghor, ac ewyllys Duw. Job 14. 5. Preg. 3. 1, 2. a 7. 14. Act. 17. 26. Yn neillduol, pob peth a berthynant i bobl Dduw, yn gystal pethau ysbrydol a thragywyddol, a phethau tymhorol; megys eu hetholedigaeth—eu prynedigaeth gan Grist—eu galwedigaeth, yr hyn sydd yn ol ei arfaeth, o ran yr amser, y dull, a'r moddion; eu holl gyfnewidiadau yn y byd, o ran hawddfyd ac adfyd, profedigaethau a gwaredigaethau, &c., a'u cyflyrau i dragywyddoldeb. Yr oedd pob peth a wnaeth Crist dros ei bobl, yn ol arfaeth Duw (Act. 2. 23. a 4. 28.)—amser ei ddyfodiad i'r byd—ei holl amgylchiadau ynddo—yr hyn oddefodd oddiwrth ddynion—ei farwolaeth, a'r holl amgylchiadau o honi—ei adgyfodiad, a'i holl amgylchiadau: yr oedd y cwbl yr hyn a ragluniodd llaw Duw a'i gynghor i'w gwneuthur.——Ië, pethau damweiniol o ran ail-achosion, y rhai a allant fod neu beidio bod, fel rhydd-weithredoedd dynion, ydynt fel gwrthddrychau arfaeth Duw, yn sicr; megys y dengys y prophwydoliaethau yn ol arfaeth Duw, am enwau Josiah a Cyrus, a'r gweithredoedd a gyflawnent hwy o'u hewyllys rhydd eu hunain, lawer o ganoedd o flynyddoedd cyn iddynt gael eu geni. 1 Bren. 13. 2. Esa. 44. 8. Peth damweiniol iawn, o ran dynion, oedd enwau y ddau ŵr hyn, ond nid felly o ran arfaeth Duw. Ië, y mae y pethau lleiaf fel y pethau mwyaf yn wrthddrychau gwybodaeth, ewyllys, ac arfaeth Duw. Mat. 10. 19, 20. Edr. Aderyn y to, Gwallt.

Ystyriwn ychydig bethau yn mhellach am arfaeth Duw: 1. Y mae yn arfaeth dragywyddol. Duw tragywyddol sydd yn arfaethu; am hyny y mae ei arfaeth yn arfaeth dragywyddol. Y mae etholedigaeth yn gangen o arfaeth Duw; etholwyd ei bobl yn Nghrist cyn seiliad y byd; sef er tragywyddoldeb. Eph. 1. 4. Felly hefyd y mae yr holl gangenau eraill o'i arfaeth; canys nid oes un ewyllys newydd, nac un weithred newydd o ewyllys Duw.——2. Y mae yn annibynol ac yn gwbl rydd: 'Yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ei hun.' Adn. 5. Nid yr un peth yn gwbl ydyw arfaeth a rhag-wybodaeth Duw. Arfaeth a arwydda rhag-osodiad, rhag-benderfyniad, rhag-drefniad, o'r pethau a fyddant i gael eu cyflawni, yn eu holl amgylchiadau, eu hanesion, eu dybenion, a'u heffeithiau. Nid hollwybodaeth Duw yn unig sydd ar waith yn ei arfaeth; ond y mae hefyd ei ben-arglwyddiaeth, ei ddaioni, ei gyfiawnder, ei ddoethineb, a'i sancteiddrwydd. Y mae yn ei ben-arglwyddiaeth yn arfaethu yn ddoeth, yn dda, yn gyfiawn, ac yn raslawn.——3. Y mae yn anfeidrol ogoneddus. Y mae ei arfaeth yn anfeidrol ogoneddus, ac yn addas i Dduw, o ran ei ddoethineb, a'i hunioneb; ac y mae hi yn dda i'w greaduriaid, o ran ei daioni a'i graslonrwydd.——4. Y mae yn anfeidrol dirion a grasol tu ag at bechaduriaid. Y mae wyneb yr arfaeth yn anfeidrol dirion a grasol tu ag at bechaduriaid colledig; oblegid fod achubiaeth pechaduriaid gwedi ei arfaethu ynddi. 2 Tim. 1. 9. Rhuf. 8. 28, 29. Ni buasai un Ceidwad i achub, oni buasai Duw i drefnu Ceidwad addas a gogoneddus yn yr arfaeth. Ni buasai un enaid cadwedig, nac un pechod yn cael ei faddeu, oni buasai fod Duw wedi arfaethu achub a maddeu. Nid oes dim daioni, graslonrwydd, na thiriondeb, mewn un modd yn cael ei amlygu a'i weithredu tu ag at bechaduriaid, mewn amser, nad



Digitized by Google

oedd yn yr arfaeth er tragywyddoldeb: ac am ei fod yn yr arfaeth, y mae yn cael ei amlygu mewn amser. ——5. Y mae hi yn arfaeth dda. Os ydyw achub yn waith da, yr ydoedd arfaethu achub yn arfaeth dda. Os ydyw yr efengyl yn cyhoeddi newyddion da, y mae yr arfaeth yn arfaeth dda hefyd, yn yr hon y trefnwyd y cwbl sydd yn cael ei gyhoeddi yn yr efengyl. Ymryson âg arfaeth Duw, ydyw ymryson â Duw ei hun, yn gweithredu yn ei ben-arglwyddiaeth, fel y mae yn addas iddo; yn trefnu pob peth gyd âg anfeidrol ddoethineb, daioni, ac uniondeb, yn y modd goreu er ei ogoniant ei hun, a thragywyddol ddaioni ei bobl. Os ydyw holl weithredoedd y Duw mawr yn addas i'w berffeithrwydd; felly, hefyd, y mae yn rhaid bod arfaethu y gweithredoedd hyny. Nis gall fod arfaethu peth yn waeth na'i wneuthur. Meddyliau isel ac anmharchus am Dduw a'i berffeithrwydd, yw yr achos o'n holl ymrysonau â'i arfaeth.——6. Mae hi yn arfaeth ddwyfol. Gan mai arfaeth ddwyfol yw, y mae yn rhaid bod dyfnderoedd o drefniadau a dybenion ynddi, yn dra phell oddi wrth gyrhaeddiadau ac amgyffrediadau ei holl greaduriaid. Y mae yn hollol guddiedig yn y Duw mawr, ond fel y mae efe yn gweled yn dda eu hamlygu hwynt, trwy ei air neu ei weithredoedd. Nid oes i ni farnu am ddoethineb, daioni, ac uniondeb ei arfaeth, wrth ymddangosiadau presennol: yn cyflawni y mae. Pan y gwelir y cwbl gyflawniad o honi, os gwelir hyny byth, neu yn ol y gradd y gwelir hi wedi ei chyflawni, canfyddir ei bod yn addas i Dduw, a bod holl effeithiau a dybenion yr arfaeth yn anfeidrol gyflawn, doeth, a da. ——7. Y mae yn arfaeth anghyfnewidiol. Gan mai arfaeth ddoeth a da, ac addas i Dduw ydyw, y mae yn rhaid ei bod yn anghyfnewidiol; yn dibynu yn unig ar ewyllys anghyfnewidiol yr Arglwydd. Y mae dirgelwch ei ewyllys, yn hyn, yn ol *ei foddlonrwydd ei hun*. Y mae yn ewyllysio yn foddlon, ac y mae boddlonrwydd tragywyddol ganddo yn ei ewyllys yn arfaethu: am hyny mae yn cyflawni yr arfaeth. Ei gynghor grasol a saif yn hyn; canys Arglwydd y lluoedd a'i bwriadodd, a phwy a'i diddyma? Mat. 11. 26. Ps. 33. 11. Eph. 1. 5, 9. Esa. 46. 10.——8. Arfaeth yn Nghrist ydyw. Efe yw gwrthddrych penaf yr arfaeth. Ei osod ef i fynu, yr hyn a amlygir ei fod, o ran ei berson, fel Duw-ddyn; o ran ei swydd a'i waith, ei ddarostyngiad a'i ddyrchafiad, ydyw y dyben penaf ynddi. Yn y cwblhad o'r arfaeth mewn perthynas i Grist, y cwblheir hefyd, yn gwbl, ei arfaeth mewn perthynas i'w holl greaduriaid. Os dyrchefir ef, yr hwn yw y pen, dyrchefir yr holl gorph, ei eglwys, hefyd; a darostyngir ei holl elynion. Nid yn unig gosodwyd ef i fynu yn yr arfaeth, ond mae y cwblhad o honi yn gorphwys arno; ar ei ysgwydd ef y mae y llywodraeth i'r dyben hwn. Esa. 9. 6. 'Duw tragywyddoldeb ydyw;' ac onidê, buasai cwblhad yr arfaeth yn ormod gorchwyl iddo; nis gallasai ei hamgyffred na'i chyflawni. Ond 'ni ddiffygia, ac ni flina Duw tragywyddoldeb;' am hyny bydd y cyflawniad yn cyfateb, yn gwbl, i'r arfaethiad, ac yn dragywyddol ogoneddus ac addas i Dduw. Eph. 3. 11. Esa. 40. 28. Credu am yr arfaeth ydyw ein gwaith presennol ni; sef ei bod hi yn ddoeth, yn gyfiawn, ac yn dda, ac mai arfaeth Duw ydyw. Yn yr amser priodol, gwelir hi felly yn y cyflawniad o honi. Edr. ETHOLEDIGAETH, RHAGLUNIAETH, CYNGHOR.

ARFER—ION, (mer) defod, arddefod, cynneddod, henfoes, gnotâad.—'Trugarha wrthyf, yn ol dy arfer i'r rhai a garant dy enw.' Ps. 119. 132. 'Yn ol dy *arfer*:' Y gair *Heb.* משפט a gyfieithir yma *arfer*, sydd o ystyr tra helaeth, ac a arwydda gosodiad, trefniad, ordeiniad, yn gystal ag arferiad. Gwel Parkhurst's *Lexicon*. Lowth ar Esa. 42. 1. Yn gyfatebol, gall fod Dafydd yn ymbil am drugaredd, yn ol trefniad cyfammod Duw tu ag at ei bobl, ac yn ol ei addewidion grasol, a'i arferedig ddaioni i'r rhai a garant ei enw.—Y mae Duw wedi trefnu ac wedi addaw trugaredd; ac yn arfer trugarhau yn barhaus, yn mhob sefyllfa ac amgylchiad, wrth ei bobl, yn ol ei arfaethiad a'i addewid. Ps. 106. 4, 5. a 31. 19. 2 Thes. 1. 6, 7. 1 Cor. 2. 9. a 10. 13.——'Yr Iesu a aeth yn ol ei arfer i fynydd yr Olew-wydd.' Luc 22. 39. a 21. 37. Mat. 26. 36. Ioan 18. 1. Marc 14. 32. Yr oedd yn arferol o fyned yno o'r neilldu i weddïo, ac i gyfeillachu yn gyfrinachol â'i ddysgyblion. Y mae twrf a berw y byd yn anfuddiol i weddi a myfyrdod; i gymdeithas neillduol â Duw, ac â'n gilydd, yn mhethau Duw. Mae siampl Crist yn ein galw i dynu o'r neilldu, fel y caffom hamdden mwy tawel i hyny, ac fel y byddo i ni ymroddi yn fwy trwyadl i'r gwaith sanctaidd a gogoneddus hwn. Mat. 6. 6.

ARFFED, (ffed) cyfwng y ddwy forddwyd, yn enwedig i ferch.

Tri trigfa bywyd, pen, cwll, ac *arffed*. *Triodd.*

'Y coelbren a fwrir i'r arffed.' Diar. 16. 3. *Heb.* בחיק *i'r fynwes*, neu i ganol llestr i ba un y byddai y coelbrenau gynt yn cael eu bwrw. Byddai yn arferedig yn mhlith y dwyreiniaid i ddal cwr blaenaf eu gwisgoedd hirllaes i dderbyn ŷd wrth fesur a fwrid i mewn: oddiwrth yr arfer hon y tarddodd yr ymadrodd, 'talu i'r fynwes,' neu 'bwrw i'r arffed,' neu y fynwes yma. Y mae y gair *Heb.* חיק a gyfieithir yma *arffed*, yn cael ei gyfieithu *mynwes* yn y lleoedd canlynol: Ps. 74. 11. Esa. 65. 5, 6. Jer. 32. 18. Gen. 16. 5. Deut. 13. 6. Ruth 4. 16. 1 Bren. 3. 20. Mae y geiriau yn gosod allan fanylrwydd llywodraeth yr Arglwydd yn mhob peth. 'Pwy a ddywed y bydd dim, heb i'r Arglwydd ei orchymyn?' Galar. 3. 37. Mat. 6. 29. Edr. COELBREN.

ARFFEDAWG—OGAU—ION, (arffed) llian arffed, brethyn arffed, blaen-rhwym. Y mae y gair yn arwyddo hefyd, amgeleddwr, noddwr, golygwr.—'Y mae ef y dan arffedogion a' llywodraethwyr.' W. S. Gal. 4. 2.

Yn bedwar-ar-ddeg y caiff etifedd ddewis ei *arffedawg*, sef ei arolygwr.—*Cyfreithiau Cymreig.*

'Ac a wnaethant iddynt arffedogau.' Gen. 3. 7. *Heb. gwregysau:* sef gwregysau o ddail am eu canol yn arffedogau.

ARGAE, (cae) dyfr-ddor, caeadl. Diar. 17. 14. Esa. 19. 10.—'Ni argaeir yr ymffrost hwn yn fy erbyn yn ngwledydd Achaia.' 2 Cor. 11. 10. 'Na *'oarchëir* y gorfoledd hyn yn v' erbyn yn-gwledydd Achaia.' W. S. *No man shall stop me of this boasting. Saes.* —οτι η καυχησις αυτη ου φραγησεται εις εμε, *yn ddiau nid attelir y gorfoledd hwn mewn perthynas i mi:* sef ei fod yn pregethu yr efengyl yn rhad, heb dderbyn dim gan neb.

ARGEISIO, (argais) ceisio yn ddyfal, ymofyn am, ymofyn âg. Ps. 4. 2. 2 Cron. 1. 5.

ARGLWYDD—ES—I—IAETH, (clwydd) llyw, llywydd, meistr, rhi, rhiawdr, rhwyf, nâf, nêr, peryf, pôr, iôr, iôn, gwanar, gwaladr, gwledig. Y gair Arglwydd a arwydda awdurdod, llywodraeth, a pharchedigaeth; ac y mae yn cael ei briodoli, 1. I freninoedd. Gen. 40. 1. 2 Sam. 19. 20.——2. I dywysogion a phendefigion. Gen. 42. 10, 30.——3. I ormesdeyrn. Esa. 26. 13. 1 Petr 5. 3. Fel arwydd o barch, anrhydedd, a chariad, gelwir gwyr priod wrth yr enw hwn, Gen. 18. 12.—meistriaid, Ioan 15. 15.—prophwydi, 1 Bren. 18. 7. a 2 Bren. 2. 19.—rhaglaw, Act. 25. 26. Lle mae y gair ARGLWYDD yn yr Hen Destament, gwedi ei argraffu mewn prif lythyrenau *(capital letters)* cyfieithiad ydyw o'r gair *Heb.* יהוה (*IEHOFAH*). Edr. IEHOFAH. Pan mae mewn llythyr-

Digitized by Google

enau cyffredin, cyfieithiad ydyw o'r gair אדן (*Adon*), neu שדי (*Sadai*), neu אל (*El, Duw*), yr hwn a arwydda rheolwr, cynnaliwr, llywydd. Duw, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân, sydd yn fynych yn cael ei alw Arglwydd; i arwyddo ei hunan-ddibyniad, a'i fod, ynddo ac o hono ei hun, yn rhoddi bôd, yn cynnal, ac yn llywodraethu pob creadur. Ps. 110. 1. 2 Thes. 3. 5. Col. 3. 24. Gelwir ef *Arglwydd y lluoedd*, neu *Arglwydd y Sabaoth;* canys efe a wnaeth, a biau, sydd yn cynnal, ac yn llywodraethu holl luoedd yr angelion, dynion, a'r holl aneirif luoedd o bob creaduriaid eraill. Ps. 24. 10. Iago 5. 4. Pan y mae Arglwydd, yn y Testament Newydd, yn gyfieithiad o'r gair κυριος, mae yn fynych iawn yn meddwl Crist. Dat. 14. 13. Y mae Arglwydd, cyfieithiad o'r gair *Gr.* δεσποτης, yn arwyddo *arch-deyrn*, neu *feistr*, ac mae hefyd yn eglur yn cael ei briodoli i Grist, ac i'r Ysbryd Glân, er bod rhai gwedi ammeu hyny. Cymh. Act. 4. 24, 25. âg Act. 1. 16. Judas 4, 5. Galatiaid 3. 13. 2 Tim. 2. 21. Heb. 3. 6. Luc 2. 26, 29.

Gelwir Iesu Grist ARGLWYDD YR ARGLWYDDI: efe sydd yn cynnal ac yn llywodraethu breninoedd a phenaethiaid, a phawb sydd mewn awdurdod; ie, a phob peth yn y nef a'r ddaear. Dat. 19. 16. Act. 10. 36.—Efe yw *Arglwydd y gogoniant;* mae efe yn meddiannu gogoniant annherfynol ynddo ei hunan; efe a ennillodd trwy ei fywyd a'r iawn a wnaeth, ogoniant tragywyddol; ac y mae efe yn ei roddi yn rhad i'w holl bobl. 1 Cor. 2. 8.—Efe yw *Arglwydd yr eglwys*, yn enwedig y saint, ei gwir aelodau hi. Efe a dynodd y portreiad, ac sydd yn adeiladu ei eglwys. Efe yw y trefnwr, a gosodwr pob gwir ordinhad ynddi. Y mae yn sefyll mewn perthynas neillduol â phob gwir aelod o honi, fel ei briod, ei ben-athraw, a'i lywydd mawr. Efe ydyw y priod ysbrydol, cyfarwyddwr, a llywydd, a ffynon dedwyddwch tragywyddol y saint. Rhuf. 5. 1.—Dywedyd wrth Grist, 'Arglwydd, Arglwydd,' yw gwneuthur proffes gyffredinol o ymostyngiad iddo. Mat. 7. 21. Galw Crist yn Arglwydd mewn modd dyladwy, ydyw credu o'r galon ynddo, ymostwng mewn ufudd-dod iddo, a dwyn tystiolaeth am dano fel unig Fab Duw, a'r gwir Fessiah; yr hyn ni all neb ei wneuthur ond trwy yr Ysbryd Glân. 1 Cor. 12. 3. Edr. BRENIN, LLYWYDD, LLWODRAETH.

ARGLWYDDES.—'At yr etholedig arglwyddes,' &c. 2 Ioan 1. *Gr.* Εκλεκτη κυρια (*Eclectê cyria*). Cyfieithir ac esponir y geiriau hyn yn dra gwahanol. Rhai a farnent Eclecta yn enw priodol, ac a gyfieithant y cyflwyniad 'at yr Arglwyddes Eclecta.' Gwel Wolf, Wetstein. Eraill a farnent mai ei henw ydoedd Cyria, 'at yr etholedig Cyria.' Gwel Heuman, Benson. Eraill, drachefn, a farnent mai rhyw eglwys neillduol a feddylir yma; Philadelphia, medd Whiston; Jerusalem, medd Whitby. Ond Beza, ac amryw eraill, fel ein cyfieithwyr ni, a farnent yn fwy addas, tybygaf, mai rhyw wraig oedd, enwog am ei sefyllfa, ei chyfoeth, a'i duwioldeb, at yr hon a'i phlant y cyflwynodd Ioan yr Epistol byr, ond tra serchog, hwn. Ymddengys ei bod yn gynnorthwyol i'r efengyl â'i chyfoeth a'i charedigrwydd, a'i bod yn cael ei galw yn *etholedig*, sef rhagorol; ac yn rhoddi yr enw κυρια, *arglwyddes*, arni, yr un fath ag y rhoddodd Luc i Theophilus, a Paul i Ffestus, yr enw κρατιστος, *arderchocaf*. Nid yw Cristionogrwydd yn gwahardd rhoddi y cyfryw ditlau, pan y byddont yn ddyledus. Gwel Beza *in loc.*

ARGOB, ארגב [*tywarchen*] 1. Talaeth tu hwnt i'r Iorddonen, yn ngwlad Basan, yn rhandir hanner llwyth Manasseh. Talaeth tra ffrwythlon, yn yr hon yr oedd triugain o ddinasoedd, a elwid Hafoth-Jair. ——2. Prif ddinas y dalaeth hon. Deut. 3. 4. 11. 1 Bren. 4. 13.——3. Lle yn agos i lŷs y brenin yn Samaria. 2 Bren. 15. 25.

ARGOEL—I—AETH, (coel) arwydd, peth a ellir ei goelio; arwyddaw; arddangosiad. 1 Sam. 10. 7. 1 Bren. 13. 5. 2 Thes. 1. 5. Esa. 20. 3.

ARGRAFF, (craff) *Gr.* γραφω (*graphô*), ol, dyol, gwasg-nôd, cerf-nôd; llun, ar-ysgrifen; nadd, naddiad.—'Wele, ar gledr fy nwylaw y'th argreffais.' Esa. 49. 16. Cyfeiria y geiriau at ryw ddefod yn mhlith yr Iuddewon o nodi ar eu dwylaw, neu eu breichiau, trwy big-dyllau, arwydd-nod, neu lun y deml, a'r ddinas Jerusalem, fel arwydd o'u tra-serch, a'u zel iddi. Gwel Lowth a Vitringa *in loc.* Yr oedd ganddynt ffordd i wneuthur y pig-dyllau hyn yn annileadwy trwy dân, neu ystaeniad. Yn cyfeirio at yr arferiad hwn yn mhlith yr Iuddewon, a Chenedloedd eraill hefyd, y mae yr Arglwydd yma yn llefaru mewn perthynas i'w eglwys, 'Wele, ar gledr fy nwylaw y'th argreffais;' fel arwydd o'i dra-serch ati, a'i ofal diball am dani. Fel y mae adeiladydd yn darlunio yr adeiladaeth yn gyntaf y mae ar fedr adeiladu, ac wrth ddwyn yr adeilad yn mlaen y mae yn edrych ar y darluniad, fel y byddo yr adeiladaeth yn gwbl, yn mhob peth, yn cyfateb iddo; felly hefyd y mae yr Arglwydd yn ei arfaeth dragywyddol, gwedi gosod darluniad iddo ei hun o'i eglwys; ei sylfaen, ei meini, a'i maintioli; pa bryd a pha fodd i'w hadeiladu; a'r holl amgylchiadau perthynol iddi, yn ei sefyllfa yma yn y byd, yn y farn, ac i dragywyddoldeb. Y mae y trefniad hwn, cyffrwyth doethineb a chariad dwyfol yn ei holl ddyfnderoedd, wrth ei fodd yn hollol, ac yn hyfrydwch annhraethadwy iddo: 'Ger ei fron yn wastad.'——Y mae yn gweithredu pob peth yn ol yr arfaeth dragywyddol, yr hon a wnaeth efe yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Fe ddichon gwraig anghofio ei phlentyn sugno; ond nis dichon Duw anghofio yr eglwys, yn y darluniad gogoneddus hwn o honi, nac esgeuluso ei hadeiladu yn ol yr arfaeth hon; ac ymgeleddu yn drwyadl bob aelod o honi. 'Dy furiau sydd ger fy mron bob amser;' sef yr holl adeiladaeth, a phob peth perthynol iddi. Nid ydyw yn gwneuthur dim, yn ei holl drefniadau a'i oruchwyliaethau yn y byd, heb fod ei lygad, yn y cwbl, ar ei eglwys; ei chysur, ei llwyddiant, a'i chynnydd. Rhoddes Duw bortreiad i Moses o'r babell; i Dafydd, a Dafydd i Solomon, o'r deml; ac i Ezeciel o'i deml yntau; o'r portreiad oedd yn ei feddwl ei hun, y cawsant hwy y portreiadau hyny, fel y caffai ei bobl ychydig adnabyddiaeth o'i drefniad tragywyddol a gogoneddus mewn perthynas iddynt. Nid oedd y portreiadau hyny ond yn rhanol, ac yn dangos yr eglwys yn y dull, ar ryw amserau neillduol, yr ydoedd yn angenrheidiol i'w bobl gael hyfforddiad am dano; ond y mae y portreiad o honi yn gyflawn yn y meddwl dwyfol er tragywyddoldeb, ac yn hyfrydwch penaf y Duwdod, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân, o'i holl waith. Exod. 13. 9, 16. a 25. 9. a 28. 9, 11. Can. 8. 6. Ezec. 4. 1. a 40. 2. a 43. 11. Deut. 6. 8. a 11. 18. Ps. 51. 18.

'Gweinidogaeth angeu, mewn llythyrenau wedi eu hargraffu ar geryg.' 2 Cor. 3. 7. Y gair argraffu yma a arwydda, naddiad cerfiwr: yr oedd y gyfraith foesol, a feddylir wrth 'gweinidogaeth angeu,' gwedi ei hysgrifenu â bys Duw, ar lechau ceryg. Exod. 31. 18. a 34. 28. Y mae yn ymddangos oddiwrth yr ysgrythyrau hyn, mai dyma yr argraffiad llythyrenau cyntaf ag y mae dim hanes genym am dano. Exod. 24. 4, 7, 12. a 28. 21, 36. a 31. 18. a 32. 16. Ond y mae gweinidogaeth bywyd a chyfiawnder yn rhagori mewn gogoniant; gan fod pob gwir gredadyn yn llythyr Crist, wedi ei ysgrifenu âg Ysbryd y Duw byw, yn llechau cnawdol y galon. 2 Cor. 3. 3. Dyma argraffiad annileadwy. Mae sylwedd yr hyn a ysgrifenir yn fywyd yn yr enaid, trwy y gweithrediad dwyfol

Digitized by Google

hwn; yn dueddiad sanctaidd, ac yn weithrediad bywiol, cyfatebol i'r gwirionedd allanol. Y mae y gair yn gèni ynddo, yn gwreiddio, ac yn dwyn ffrwyth i berffeithrwydd.

ARGYHOEDD—I—IAD, (cyhoedd) egluro, goleuo, dwyn peth i'r goleu ar gyhoedd; sicrhau y meddwl am wirionedd y peth. Y mae y gair *Gr.* ελεγχω, a gyfieithir *argyhoeddi*, o ystyr tra helaeth; megys, 1. Dangos peth yn eglur â rhesymau cedyrn, diammheuol, a gwrthbrofi dadleuon yn ei erbyn: 'Argyhoeddi y rhai sydd yn gwrth-ddywedyd.' Tit. 1. 9. 2 Tim. 4. 2. 1 Cor. 14. 24.——2. Ceryddu am fai: 'Pan (ελεγχομενος) *geryddwyd* ef ganddo am Herodias.' Luc 3. 10. 1 Tim. 5. 20. Tit. 1. 13.——3. Ceryddu yn dadol, trwy flinderau a gorthrymderau. Heb. 12. 5. Dat. 3. 19.——4. Dwyn i'r goleuni, egluro, a gwneuthur yn amlwg: 'Nid ydyw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef.' Ioan 3. 20.——5. Gwneuthur yn amlwg ei fai i'r dyn ei hun; neu, gwneuthur dyn yn euog ger bron eraill, trwy dystiolaethau eglur a diammheuol. Ioan 8. 9, 46.——'A phan ddel efe, sef Ysbryd y gwirionedd, efe a argyhoedda y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn.' Ioan 16. 8—11. Hyny ydyw, efe a wna bechod y byd yn amlwg; a chyfiawnder a budd-ugoliaeth Crist yn amlwg. — 1. Y mae yr Ysbryd yn rhoddi iawn oleu ar bob gwrthddrych y mae yn ei ddangos. Nid ydyw yn unig yn dangos i sicrwydd *fod* y cyfryw beth, ond hefyd *pa fath* ydyw: ac yn peri teimladau a gweithrediadau cyfatebol iddo yn yr enaid, a'r fath a weddai fod tu ag ato. Yn ngoleuni yr Ysbryd, y mae y bôd o Dduw yn dyfod â sicrwydd i'r enaid am dano; a pha fath un ydyw yn ei fawrhydi gogoneddus, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i ddaioni. Y mae yn dangos y gyfraith sanctaidd yn ei huniondeb, ei sancteiddrwydd, ei hëangder, a'i hanghyfnewidioldeb. Y mae yn dangos pechod, y trosedd (ανομια) o honi, yn ei adgasrwydd, ei ffieidd-dra, y perygl a'r canlyniadau ofnadwy o hono; a bod y gyfraith yn dal gafael yn y pechadur o'i herwydd, i'w gospi yn gyfatebol i'r bai, ac nas gollwng ei gafael heb iawn digonol.——2. Y mae, gyda hyny, yn peri teimladau a gweithrediadau yn yr enaid tu ag ato, cyfatebol i'w natur, a'i berygl yntau o'i blegid. Y mae yn dangos Crist hefyd yn ei fawredd gogoneddus, yn mherffeithrwydd ei waith cyfryngol, yn nghyfoeth ei drugaredd, dyfnderoedd ei gariad, a thrysorau diderfyn ei ras.

Y mae y gair *argyhoeddi*, yn yr arferiad cyffredin o hono, yn cael ei briodoli, yn fwyaf neillduol, i waith yr Ysbryd Glân, yn argyhoeddi o bechod, neu yn gwneuthur pechod yn amlwg. Y mae pechod yn llawn yn y byd, ac yn mhob dyn ynddo; eithr nid oes neb yn ei weled, ond fel y mae yr Ysbryd Glân yn ei wneuthur yn amlwg. Ni all pechod ddangos pechod: rheol uniawn a ddengys y gwyrni. Y gyfraith sanctaidd yw y rheol uniawn, wrth ba un y mae i ni adnabod ein gwyrni. Y mae yr Ysbryd Glân yn dwyn y rheol hon at feddwl y pechadur, gyda goleuni ac awdurdod dwyfol: y mae yn ei ddangos, ac yn ei ddal yn wyneb y drych pur hwn, nes y byddo yn cael ei wneuthur yn euog yn ei gydwybod; a'i droseddiadau, a'i ffieidd-dra, yn ymddangos yn dra phechadurus. Yn yr olwg ddifrifol hon, y mae yr Ysbryd Glân yn gweithio teimladau ac agwedd y meddwl yn addas i'r golygiadau hyn: sef teimladau bywiog o'i berygl; cydnabyddiaeth o'i fod yn hollol golledig ynddo ei hun, yn amddifad o'r cyfiawnder y mae y gyfraith yn ei ofyn—edifeirwch am bechod; yn cynnwys tristwch duwiol am dano, hunan-ffieiddiad o'i blegid, ac ymofyniad difrifol am gael gwaredigaeth oddi wrtho, a diogelwch rhag y digofaint dyledus am dano. Edr. EDIFEIRWCH.

Y mae gwahaniaeth yn y graddau o argyhoeddiad, a'r amgylchiadau perthynol iddo mewn amrywiol bersonau. Y mae rhai yn teimlo mwy o ddychrynfeydd yn cydfyned âg ef nag eraill. Ond nid ydyw yr argyhoeddiad a'r dychrynfeydd, bob amser, yn cydraddu. Dichon fod dychrynfeydd mawrion, lle y byddo yr argyhoeddiadau yn fychain; teimladau bywiog o berygl, heb gydnabyddiaeth o'r trosedd yn ei haeddu. Dichon fod hefyd argyhoeddiadau gwirioneddol, dwys, a goleu, heb fod llawer o ddychrynfeydd yn cydfyned â hwynt: y mae y meddwl yn sylwi ac yn gorphwys mwy ar y bai, nag ar y gosp am dano: y mae yn ymostwng—yn tristâu yn dduwiol—yn ffieiddio ei hun—yn mawrhau Duw—ac yn rhyfeddu ei fod gwedi ei arbed, a'r gosp cyhyd heb ddisgyn arno. Ond er nad ydyw yr un o ran y gradd o hono, y mae yr un o ran ei natur yn mhawb, ac yn angenrheidiol anhebgorol tu ag at edifeirwch am bechod, a dychweliad at Dduw oddi wrtho. Canys pwy a edifarha am bechod, nes y gwelo y bai o hono? a phwy a ddychwel oddi wrtho, nes gweled y perygl a'r adgasrwydd o hono? Os bydd yr argyhoeddiadau yn drwyadl ac yn gadwedigol, y maent yn cyrhaedd at lwgr natur, at bob trosedd fel eu gilydd; yn parhau tros ystod bywyd dyn; ac effeithiau cyfatebol i'r golygiadau yn cydfyned â hwynt; ac yn diweddu mewn ymofyniad difrifol am Waredwr. Ioan 16. 8, 9. 1 Ioan 1. 8, 9. Mat. 11. 28. Luc 5. 31. Rhuf. 5. 12. Ps. 51. 5. Gen. 6. 5. Jer. 17. 9. Gal. 3. 10. Act. 2. 37. a 16. 30. Rhuf. 3. 20. a 7. 7, 9—14. Zech. 12. 10.

Geill dyn wybod i ba radd y mae wedi ei argyhoeddi o fod yn bechadur euog, 1. Wrth yr anhyder y mae yn ei brofi i nesâu at Dduw ond trwy Gyfryngwr.——2. Wrth y gwerth y mae yn ei weled yn aberth Crist.——3. Wrth ei amynedd yn dysgwyl wrth Dduw am drugareddau ysbrydol a thymhorol.——4. Wrth ei ddiolchgarwch yn mhob dim.——5. Wrth ei ymostyngiad diddig dan alluog law Duw.——6. Wrth ei barodrwydd i gyfaddef ei bechod, pan fyddo angenrheidrwydd am hyny.——7. Ei addfwynder yn derbyn cerydd a rhybyddion.——8. A pharodrwydd i feddwl am eraill yn well nag ef ei hun.

Gallwn wybod i ba radd yr ydym wedi ein hargyhoeddi o'n tywyllwch, 1. Wrth ein anhyder yn ein deall ein hunain.——2. Wrth ein parodrwydd i ymofyn am gyfarwyddyd.——3. Ein parodrwydd i wrando ar farn eraill.——4. Ein gwaith yn edrych i air Duw am gyfarwyddyd yn mhob peth.——5. Wrth ein hymofyniad difrifol am oleu yr Ysbryd Glân i ddeall yr ysgrythyrau; ac nid yn ymollwng i'n rhesymau ein hunain yn eu cylch.——6. Wrth ein dibyniad ar oleuni yr Ysbryd Glân yn ein gweddïau.——7. Wrth ein hanmharodrwydd i ddadleuon ymrysongar.

Gallwn wybod i ba radd y mae ein hargyhoeddiadau o'n gwendid ein hunain yn cyrhaedd, 1. Wrth ein anhyder yn ein grym a'n gallu ein hunain ar bob achos.——2. Wrth ein taerineb i ymofyn am ras yn gymhorth cyfamserol.——3. Wrth ein gwaith yn edrych yn aml am gynnorthwyon dwyfol i bob dyledswydd, ac yn erbyn pob profedigaeth.——4. Wrth ein gwaith yn priodoli i'r Ysbryd Glân bob meddwl, dymuniad, bwriad, a gweithred dda ynom.

ARGYWEDD—U, (cywedd) gorthrymu, niweidio, diystyru.—'Dir yw iddo ddyoddef llawer o bethau, ai *argyweddu* y gan y genedleth hon.' Luc 17, 25. W. S.

ARHOED, aros, arosed.—'Ac nac arhoed aberth gwyl y pasc dros nos hyd y boreu.' Exod. 34. 25. Sef na fydded iddo gael ei adael hyd y boreu; ond yr oedd i gael ei fwyta y noswaith y lladdent ef.

ARHOLION, (holi) ymofynion, cwestiynau. Act. 23. 29.

ARIAN, neu ARIANT, *Gr.* αργυρος; *Llad.* Ar-

Digitized by Google

GENTUM; *Ffr.* ARGENT; oddiwrth y gair *Gr.* *αργος, gwyn.* Gelwir ef yn *Heb.* כסף yn arwyddo ei liw gwelw. Arian rhif, neu arian bath, yw arian derbyniol, cymeradwy. Yr adwyn mwyaf gwerthfawr, pur, ac estynadwy yw, o bob delid, nesaf at yr aur. Mae yn seingar, ac yn galetach nag aur; ond nid ydyw ei ronynau yn ymlynu wrth eu gilydd i'r un gradd a'r aur. Nid ydyw yn ddarostyngedig i rwd, ac ni newid ei liw, ac ni chyll ei ddysgleirdeb trwy gyd-weithrediad dwfr ac awyr; ond anurddir ef trwy gyffyrddiad rhanau llosgadwy *(phlogiston)* amryw ddefnyddiau. Y mae mŵn-gloddiau arian i'w cael yn mhob rhan o'r byd; yn aml, yn gymysgedig â phlwm, alcam, &c. Yn y dyddiau gynt yr oedd Tarsis yn hynod am farchnadaeth arian. Jer. 10. 9. Llawer a ddefnyddiwyd o hono gan Solomon wrth adeiladu y deml. 1 Cron. 29. 4. Mŵn-gloddiau Potosi, mynydd yn agos i dref o'r un enw, yn Peru; Lisses, yn agos i Arica; Oruro ac Ollachea, yn agos i Cusco, prif ddinas Peru, ydyw y rhai mwyaf enwog yn yr oes hon. Y darn mwyaf o arian sydd genym hanes am dano, sydd yn nghadw mewn amgueddfa i frenin Denmark, yn Copenhagen: y darn hwn a gloddiwyd yn mŵn-gloddiau Norway, ac y mae yn pwyso 560 pwys.

'Am gan darn o arian.' Gen. 33. 19. Cyfieitha y LXX. a'r rhan fwyaf o gyfieithiadau ar ei ol, y geiriau במאה קשיטה *cant o ŵyn*, fel ar ymyl y ddalen yn ein Biblau ni. Yn ein cyfieithiadau ni, darn o arian yw, yn y tri man lle yr arferir y gair. Gwel Jos. 24. 32. Job 42. 11. Y mae Stephan yn terfynu y mater wrth ddywedyd, 'a brynasai er arian.' Act. 7. 16. Barna rhai fod llun oen ar y darn; eraill a wrth-ddadleuant nad oedd arian bathol yn arferedig mor foreu a dyddiau Jacob. Ond gan fod y gair *Heb.* קשט yn arwyddo *gwirionedd, purdeb, uniondeb,* (Ps. 61. 16. Diar. 22. 21. Dan. 2. 47. a 4. 37.) dichon arwyddo yma, arian iawn, derbyniol, cymeradwy, ag oedd yn gwneyd y pryniad yn gadarn ac yn wirioneddol. Gwel Kircher. Bochart, *vol.* ii. *p.* 433. Leigh's *Critica Sacra.* Boothroyd's *Biblia Hebraica.*

Nid ydym yn darllen fod arian mewn arferiad wrth fasnachu cyn y diluw. Y mae Moses yn sôn am haiarn a phres, &c., ond nid yw efe yn sôn dim am arian. Ond yn amser Abraham yr oedd cyfnewidiaeth o arian yn dechreu cael ei chario yn mlaen, er nad oedd dim bathu arian am hir amser wedi hyny. Gen. 23. 15. Mae llawer o anmhuredd ynddo ar y cyntaf; ac y mae yn rhaid puro llawer trwy dân arno cyn y byddo yn goethedig. Ps. 12. 6.——Mae yn cael ei roddi am bob golud tymhorol: 'Y neb a garo arian ni ddigonir âg arian; na'r neb a hoffo amldra, â chynnyrch.' Preg. 5. 10. Esa. 9. 3. Yn allegawl, arwydda pob peth sydd yn ddefnyddiol, gwerthfawr, pur, a gogoneddus.——Llywodraethwyr gwladol ac eglwysig a gyffelybir i arian, i ddangos mor werthfawr a defnyddiol y dylent fod. Esa. 1. 22, 23.——Y saint a gyffelybir i arian coethedig, i ddangos eu rhagoriaeth, a'u gwerth; a'u bod wedi eu profi yn nhân amryw brofedigaethau. Zech. 13. 9. Mal. 3. 3. Esa. 66. 10.——Doethineb a'i marsiandiaeth, hyny yw, Crist a'i ddoniau, sydd lawer purach, gwerthfawrocach, hawddgarach, a mwy defnyddiol nag arian. Job 28. 15. Diar. 16. 16. a 8. 10, 19. a 3. 14.——Yr Iuddewon gwrthnysig oeddynt fel arian gwrthodedig, heb allu dal i'w profi. Jer. 6. 30.——Tafod y cyfiawn sydd fel arian detholedig; eu hymadrodd sydd bur, defnyddiol, ac adeiladol. Diar. 10. 20.——Pobl Dduw a gyffelybir i 'ddarn o arian wedi ei golli,' a chwilir am dano ganddo yn nydd ei nerth. Luc 15. 8.——Bendithion yr efengyl a gras Crist, ydynt i'w cael 'heb arian ac heb werth,' yn rhad, yn rhodd, ac yn helaeth. Esa. 55. 1.

ARIANGAR—WCH, (arian-caru) yn caru arian, neu y byd, a'r pethau sydd yn y byd. Luc 16. 14. 1 Tim. 6. 10. 2 Tim. 3. 2. Edr. CYBYDD, CYBYDDDOD.

ARIEL, *Heb.* אור אל *tân*, neu *goleuni Duw:* neu הרי אל *mynydd Duw:* neu, ארי אל *llew Duw.* Y mae dau o gedyrn Moab, y rhai a laddasant Benaiah, mab Jehoiada, yn cael eu galw wrth yr enw hwn; i arwyddocâu eu bod hwy yn ddynion llewaidd, cedyrn, a chreulawn. 2 Sam. 23. 20. 1 Cron. 11. 22.—Y mae yr allor yn nheml Ezeciel yn cael ei galw הריאל *(hariel) mynydd Duw,* neu אריאל *(ariel) llew Duw.* Pen. 43. 15, 16.—Yr oedd un a'i enw Ariel yn mhlith y gaethglud a ddychwelodd i Babilon gyd âg Ezra. Pen. 8. 16.——Mae y ddinas Jerusalem, hefyd, yn cael ei galw Ariel: 'Gwae Ariel, Ariel, y ddinas y trigodd Dafydd ynddi.' Esa. 29. 1. Paham y mae yn cael ei galw felly, nid ydyw awdwyr yn cytuno. Rhai a farnant mai am ei bod wedi ei hadeiladu ar fynydd Duw, mynydd Sïon; ac eraill, mai oblegid cadernid a gwroldeb ei lluoedd, a Dafydd fel eu blaenor gwedi trigo ynddi.—'Hi a fydd i mi fel Ariel.' Adn. 2.—Hi a fydd i mi fel aelch bres yr allor fawr, ar ba un yr oedd tân Duw (אור אל) yn llosgi yr aberthau.—'Y mae tân Duw yn Sïon, a'i ffwrn yn Jerusalem,' i ddifa ei elynion, y rhai a ymosodasant i'w herbyn. Esa. 31. 9. Difa ynddi hefyd bechaduriaid gwrthnysig a diedifeiriol, fel ag yr oedd yr aberthau yn cael eu difa ar yr allor bres. Cyflawnwyd y wae brophwydoliaethol hon ar Jerusalem, mewn rhan gan yr Assyriaid a'r Caldeaid, ac yn gwbl yn ei hollol ddinystr, gan luoedd y Rhufeiniaid, o dan Titus Vespasian. Gwel Vitringa, a Lowth.

ARIMATHEA, *Αριμαθαια*, [*lle uchel*] dinas yn Judea, lle yr ydoedd Joseph y cynghorwr, neu seneddwr, yn byw. Luc 23. 50. Yr un ag a elwir yn hanesiaeth yr Hen Destament, Ramah, a Ramatha, ac a arwydda, *uchelfa,* neu le uchel; o herwydd hyn cawn amryw leoedd o'r un enw, y rhai a ddyfysgir weithiau â'u gilydd. Yr oedd Ramathaim Zophim, lle genedigol Samuel, yn lle gwahanol iawn, ac yn mharth arall o'r wlad. Yr oedd hi yn sefyll, medd Jerome, rhwng Lyda a Joppa, yn nghylch 36 neu 37 o filltiroedd yn y gorllewin i Jerusalem, lle y mae dinas Ramola yn awr yn sefyll. Edr. JOSEPH.

ARIOCH, *Heb.* אריוך [*eich llew*] 1. Brenin Elasar. Gen. 14. 1.——2. Tywysog milwyr Nebuchodonosor. Dan. 2. 4.

ARISTARCHUS, *Αρισταρχος* [*y tywysog goreu*] Iuddew ydoedd, er ei fod yn briodor o Thessalonica. Cristion gwresog, y mae Paul yn sôn am dano, Col. 4. 10, 11.; Philemon 24, yr hwn a ddaeth gyd âg ef i Ephesus, lle bu agos iddo golli ei fywyd, yn y terfysg mawr a godwyd gan Demetrius, y gôf arian. I weini iddo, canlynodd Paul i dir Groeg, i Asia, ac o Jerusalem i Rufain; lle y carcharwyd ef am bregethu yr efengyl, a dywedir i Paul ac yntau gael tori eu penau, ill dau yn nghyd. Col. 4. 10, 11. Act. 19. 29. a 20. 4. a 27. 2.

ARISTOBULUS, *Αριστοβουλος* [*cynghorwr da*] tybir ei fod yn frawd i Barnabas, ac yn un o'r Deg a Thriugain; ond y mae pob hanes am dano yn gwbl ansicr. Y mae Paul yn cyfarch ei dylwyth yn unig; am hyny y tybir, naill nad oedd yn Rhufain pan yr ydoedd Paul yn ysgrifenu ei epistol, neu ei fod wedi marw, neu nad oedd efe yn proffesu Cristionogrwydd. Rhuf. 16. 10.

ARLAIS, ARLEISIAU, (glas) neidrwydd. Barn. 4. 21. a 5. 26.—'Dy arleisiau rhwng dy lywethau sydd fel darn o bomgranad.' Can. 4. 3. a 6. 7. Y mae rhai yn cyfieithu y geiriau fel hyn, 'fel darn, neu flodeuyn y pomgranad y mae dy ruddiau dan dy orchudd.' Y mae blodau y pomgranad yn gochion;

Digitized by Google

neu os holltir y ffrwyth yn ddarnau, y mae y darnau yn gymysg coch a gwyn.——Wrth arleisiau neu ruddiau yr eglwys y meddwl rhai, swyddogion eglwysig; eraill a farnant bod y geiriau yn gosod allan y gorchwyledd a'r mulder sanctaidd a gostyngedig sydd yn meddiannu ysbrydoedd y duwiolion ger bron Duw, yn peri iddynt wrido a chywilyddio mewn hunan-ffieiddiad a gostyngeiddrwydd; tebyg i ruddiau yn gwrido rhwng llywethau gwallt, neu dan orchudd, dros y wyneb. Y mae yr agwedd hon yn gweddu iddynt, ac yn harddwch sanctaidd; yn brydferth ynddo ei hun, ac yn hoff gan yr Arglwydd. Y mae eu pechodau, eu gwendidau, a'u llesgrwydd yn mhob peth, yn peri iddynt wrido; felly hefyd y mae yr ystyriaeth a'r prawf beunyddiol y maent yn ei gael o diriondeb a daioni yr Arglwydd tu ag atynt. Num. 11. 29. Ezra 9. 6. Ezec. 16. 63.

**ARLOESI**, (lloes) gwaghau, glanhau, puro, carthu. Arloesi tŷ, arloesi ffordd, ydyw parotoi tŷ neu ffordd, trwy symud rhwystrau oddiar y ffordd, a rhoddi y tŷ mewn iawn drefn. Lef. 14. 36. Mal. 3. 1.—Arloesi mynyddoedd, a arwydda symud ymaith y coedydd, a'r anialwch, fel y byddont yn addas i dderbyn hadau, a dwyn ffrwythau. Jos. 17. 18.

**ARLWY—O**, &c. (llwy) saig o fwyd; parotoi, gosod mewn trefn.—Arlwy o luniaeth, saig o fwyd; arlwyo bwrdd, rhoddi bwyd yn drefnus ac yn helaeth ar y bwrdd; arlwyo gwledd, parotoi a threfnu gwledd o ddanteithfwyd yn helaeth. Gen. 43. 16. Neh. 5. 18. Esth. 5. 8.—'Ti a arlwyi ford ger fy mron yn ngwydd fy ngwrthwynebwyr.' Ps. 23. 5. Y geiriau a fynegant ffydd Dafydd yn yr Arglwydd Iesu, ei fugail da; yn nghyfoeth ei ras, helaethrwydd ei drugaredd, a'i ofal parhaus am dano yn nghanol ei elynion. Er bod ei bobl yn nghanol gwrthwynebwyr creulon, yn aml; etto, nis dichon hyny attal yr Arglwydd rhag gweini iddynt gynnaliaeth digonol, a chysuron helaeth. Nid rhaid i'r Arglwydd ddystrywio eu gelynion i'w cysuro hwy; dichon eu cysuro a pheri iddynt wledda yn ngwydd eu gwrthwynebwyr. Y mae parotoad Duw yn helaeth ar gyfer angen pechaduriaid; y mae pob peth yn barod yn Nghrist; a'r bwrdd wedi ei arlwyo ger eu bronau, yn nghyhoeddiad yr efengyl, yn ei holl gyfoeth a'i radlonrwydd i bechaduriaid. Mae hyn oll 'yn ngwydd y gwrthwynebwyr.' Cânt wledda trwy ffydd ar addewidion mawr iawn a gwerthfawr, ar eu taith; ac hefyd ar fwrdd eu Tad, yn y trigfanau nefol, wedi gorphen teithio a rhyfela. Ioan 10. 9. Ps. 54. 7. a 110. 2. Esa. 55. 1, 2. Mat. 22. 2. 1 Cor. 1. 30. Gwel Rhuf. 9. 22. W. S.

**ARMAGEDON**, oddiwrth חר (*ar*) *mynydd*, מגדו (*Megedo*) neu (Zech. 12. 11.) מגדון (*Magedon*). Talfyriad ydyw, yn hytrach, medd Mr. Faber, o'r gair cyfansoddol הרמה-מגדון (*Armah-Megedon*), diofrydu i ddinystr cyflawn yn Megido. Crybwyllir am ddyffryn Megido ddwy waith yn yr ysgrythyrau (2 Cron. 35. 22. Zech. 12. 11.) ond dim unwaith am fynydd Megido; am hyny, annhebyg fod y gair yn arwyddo mynydd Megido, yn ol barn Calmet. Gwel Faber's *Dissert. on the Prophecies, vol.* ii. *p.* 424. Ystyr y gair *Heb.* גדד yw *rhwygo*, neu *dori ymaith*. Gwel Jer. 41. 5. a 48. 37. yn Hebraeg. Wrth ddyfroedd Megido y gorchfygodd Barac a Deborah Jabin a Sisera, a'u byddinoedd. Barn. 5. 19. Yn Megido y lladdwyd Josiah, brenin Judah, gan Pharaoh-Necho, brenin yr Aipht. 2 Bren. 23. 29. 2 Cron. 35. 24. Y mae y lle yn nodedig yn hanesiaeth yr Hen Destament, am ddinystr a galanastra. Arferir y gair yn Dat. 16. 16. yn ddiammeu mewn ystyr cyfriniol; ac a arwydda y byddai casgliad breninoedd anghristaidd y ddaear, o dan weithrediadau ysbrydion cythreulig (adn. 13, 14.) i ryfel yn erbyn yr eglwys, dydd mawr Duw Hollalluog, yn gasgliad o alanastra a dystryw cyflawn. Y mae yn wir fod Mr. Faber yn barnu mai yn llythyrenol y mae i ni ei ddeall, ac mai yn Megido, yn ngwlad Canaan, rhwng y Môr Marw a Môr y Canoldir y bydd dinystr lluoedd Anghrist; ond amser a ddengys hyn. Am y dull, yr amser, a'r lle y cyflawnir y brophwydoliaeth hon, nid ydyw ond rhyfyg i neb anturio dywedyd dim am dani gyda sicrwydd. Rhagluniaethau Duw, yn eu priodol amseroedd, a wna hyny yn ddigon eglur. Ofnadwy fydd dydd mawr y Duw Hollalluog! Ond bod yn ei heddwch, ni bydd, er hyny, ddim perygl.*

**ARNADDYNT, ARNO, ARNADDU**, (arn) arnynt. 'A phridd arnaddynt.' Neh. 9. 1.

**ARNON**, ארנון [*llamu o lawenydd*] afon sydd yn codi yn mynyddoedd Gilead, ac yn rhedeg i'r Môr Marw. Barn. 11. 18. Esa. 16. 2. Num. 21. 18.

**AROER**, ערער [*mynydd-dir*] dinas yn llwyth Gad, yn sefyll o du y gogledd i Arnon. Deut. 2. 36. Ymddengys fod amryw ddinasoedd o'r enw yn Palestina. Gwel Jos. 13. 25. Barn. 11. 33. Num. 32. 34. Jer. 48. 20. 1 Sam. 20. 38. Esa. 17. 2.

**AROGL—AU—I—IAD—EDD**, (rhogl) arogledd, sawr, ager, arwynt; sawru. Arwyntiad: synwyr yw mewn dyn ac anifeiliaid, trwy ba un y maent hwy yn barnu am arogl pethau, a thrwy hyny yn barnu am eu natur a'u heffeithiau. Y mae y synwyr hwn yn y trwyn a'r ffroenau. Er bod holl esgyrn y pen yn galed, etto, yn dra rhyfedd, y mae asgwrn y trwyn yn llawn tyllau, fel y gallo y sawr-hedion (*effluvium*) fyned i mewn gyd â'r awyr; canys os attal un ei anadl, nis dichon arogli. Doeth iawn ydyw y drefn ddwyfol yn mhob peth; gan fod y gwynt ac arogl pêr a drewllyd yn yr awyr, addas iawn, gan hyny, y mae y synwyr hwn yn y lle mae yr awyr yn wastadol yn tramwy; ac hefyd uwch ben y genau, i roddi i ni hysbysrwydd am natur ein hymborth. Mae y synwyr hwn yn rhagori mewn amryw anifeiliaid, ar yr hyn ydyw mewn dyn; oblegid bod iddynt angen am dano mewn perffeithrwydd mwy nag sydd ar ddyn. Y mae dyn wedi cael ei gynnysgaethu â chynneddfau uwch i'w gyfarwyddo; am hyny nid oes arno ef yr un angen am y synwyr hwn yn yr un perffeithrwydd ag anifeiliaid. Mewn llawer o anifeiliaid ac adar y mae yn gyfarwyddyd iddynt am natur eu hymborth, a pha le i'w gael; trwy hwn y maent yn medru dethol yr hyn a fydd yn fagwriaethol neu yn feddyginiaethol iddynt; ac i wrthod yr hyn sydd o wrthwyneb natur, ac yn niweidiol. Llawer o hanesion a roddir am berffeithrwydd y synwyr hwn yn y bytheuadgi, a chŵn eraill.†

Yr aberthau gynt oeddynt yn arogl peraidd, neu yn arogl o orphwysfa i Dduw. Yr oedd efe yn eu derbyn, ac yn ymhyfrydu ynddynt, fel yr oeddynt yn gysgodol o ufudd-dod a dyoddefaint Crist. Gen. 8. 21. Exod. 29. 18. Eph. 5. 2. Edr. ABERTH.——'Arogledd gwybodaeth,' ac 'arogl enaint diaionus' Crist, ydyw natur hyfryd ac adfywiol ei wirioneddau, pan y maent hwy yn cael eu hadnabod yn iawn; yn ngyd â'r gras a'r rhinwedd sydd yn deilliaw oddi wrtho fel Cyfryngwr. 2 Cor. 2. 14. Can. 1. 3. Ps. 45. 8. Y mae gweinidogion yr efengyl yn 'bêr-arogl Crist i Dduw:' y mae y cyflawniad difrifol o'u swydd ogoneddus o bregethu Crist croeshoeliedig, yn gymeradwy gan Dduw, pa un bynag ai bod dynion yn gadwedig trwy eu gweinidogaeth hwy ai peidio:—ac y maent yn arogl marwolaeth i farwolaeth i rai, ac yn arogl bywyd i fywyd i eraill: maent yn achlysur dinystr deublyg i anghredinwyr, ac yn foddion o iechydwriaeth a bywyd tragywyddol i eraill. 2 Cor. 2. 15, 16.

* Gwel Vitringa *in loco*.

† Gwel Cicero, *de Nat. Deor. lib.* i., *c.* 56.

Digitized by Google

AROGL-DARTH, pêr-arogl gwerthfawr, a arferid dan y gyfraith yn mhlith yr offrymau, wedi ei wneuthur o amryw bêr-lysiau, yn ol cyfarwyddiad yr Arglwydd. Exod. 37. 29. Nid oedd ond yr offeiriaid i losgi hwn; na neb, dan boen marwolaeth, i wneuthur ei gyffelyb iddo ei hun. Yr oedd yr arogl-darth hwn i'w losgi yn y thuser, ar yr allor aur, foreu a hwyr. Ar ddydd y cymmod y llosgid llonaid dwy law o hono o flaen yr arch yn y cysegr sancteiddiolaf, fel y byddai i'r mŵg guddio y drugareddfa, rhag bod syll-dremu ar yr arch yn farwolaeth i'r arch-offeiriad. Yr oedd hyn yn gysgod o eirioiaeth gadarn, effeithiol, a pharhaus Crist o'r tu fewn i'r llen, ar sail ei gyfiawnder ei hun, trwy yr hwn y mae ein holl wasanaeth ysbrydol yn gymeradwy gan Dduw. Exod. 30. 34—38. Lef. 16. 12, 13, 14. Dywed yr Iuddewon fod tri o offeiriaid ar waith yn nghylch gwasanaeth yr arogl-darth; un i gymeryd ymaith y lludw oedd ar yr allor gwedi y gwasanaeth o'r blaen; un arall i ddwyn y marwor tanllyd oddiar allor y poethoffrwm, ac wedi ei osod ar yr allor aur, a ymadawai; a'r trydydd a ddygai i mewn yr arogl-darth, ac a'i taenellai ar y marwor tanllyd, a thra byddai y mŵg yn esgyn, a weddïai dros y bobl. Yr oedd yr aberth beunyddiol yn cysgodi aberth Crist; a'r arogl-darthiad yn arwyddo eiriolaeth Crist, a gweddïau y saint. Yr oedd yr arogl-darth i gael ei losgi y pryd y byddai yr aberth yn cael ei offrymu; hyn oedd i'n dysgu, mai aberth Crist yw sail ei eiriolaeth, a'r achos o gymeradwyaeth gweddiau y saint. Dat. 8. 1—4. Yn addas, gan hyny, yr oedd y bobl yn gweddïo, nid yn unig yn y deml, ond yn mhob man arall, ar amser yr aberth a'r arogl-darthiad boreuol a hwyrol. Yr oriau hyn, gan hyny, a alwent yr awr weddi. Act. 3. 1. Gweddïau a mawl cymeradwy gan Dduw trwy Grist, a elwir arogl-darth ac offrwm. Mal. 1. 11. Ps. 141. 1, 2. 'Llosgant arogl-darth i'w ballegrwyd.' Hab. 1. 16. 'I'w fagl.' Dr. M. Yr oedd y Caldeaid yn priodoli eu llwyddiant a'u cyfoeth, nid i'r Arglwydd, ond i'w doethineb, eu medrusrwydd, a'u gallu hwy eu hunain; fel pe buasai pysgodwr yn priodoli ei lwyddiant pan gwedi cael helfa o bysgod, i'w rwyd, ac yn arogl-darthu iddi fel ei dduw. Esa. 10. 7, 13. a 37. 24. a 45. 5—7. Deut. 8. 17, 18.

AROS—ODD, (ar-aws) trigo, parhau, dysgwyl, gwasanaethu. Gen. 29. 18. Act. 20. 23. Aros yn Nghrist, a'i gariad, yw byw trwy ffydd ar Grist; cael ymgeledd enaid trwy gymdeithas âg ef yn yr Ysbryd Glân; ac ymhelaethu mewn cariad a gweithredoedd da. Ioan 5. 6, 10.

ARPAD, ארפד [*goleuni iechydwriaeth*] dinas tra enwog gynt yn Syria, ar ynys o'r enw, yr hon a ddyfethwyd am eilun-addoliaeth. 2 Bren. 18. 34. Esa. 10. 9. a 36. 19. a 37. 15. Jer. 49. 23.

ARPHAXAD, ארפכשד [*un yn meddyginiaethu*] mab Sem, a thad Selah. Gen. 10. 22. a 11. 12, 13. 1 Cron. 1. 17. Luc 3. 36. Ganwyd ef yn mhen dwy flynedd ar ol y diluw, bu fyw 438 mlynedd, a bu farw A. M. 2088.

ARSWYD—O—US, (swyd) ofn, synedigaeth, cryndod, petrusder, dychryn, braw. Gen. 9. 2. Deut. 11. 25. Ps. 89. 7. Ezec. 32. 25, 26. Preg. 8. 12. Mic. 7. 7. 2 Cron. 17. 10.—'Yr hwn sydd ofnus ac arswydus, dychweled, ac ymadawed y boreu o fynydd Gilead.' Barn. 7. 3.

ARTAXERXES, [*rhyfelwr cadarn*] brenin Persia. Ezra 4. 7. a 6. 14. Y mae rhai yn meddwl fod hwn yn enw cyffredin, tros rai oesoedd, i freninoedd Persia. Ezra 6. 14. a 7. 11, 12, 21. Neh. 2. 1. a 5. 14. Edr. Darius.

ARTEMAS, Αρτεμας [*difai*] byrhad ydyw yr enw o Artemidorus: un o gymdeithion Paul, a phregethwr enwog. Bwriadodd Paul ei anfon ef neu Tychicus i Crete, i gyflawni lle Titus, fel y gallai Titus ddyfod ato i Nicapolis. Tit. 3. 12.

ARTH, (ar) *Gr.* αρκτος; *Llad.* Ursus; *Heb.* דב *y chwyrnwr, y grwgnachwr, y tuchanwr:* creadur pedwar-troediog, gwyllt, creulawn, ysglyfaethus.

Nerth *arth* yn ei breichiau. *Diar.*

Gwylltfil mawr anolygus ydyw; mewn rhai manau cymaint a gwaed-gi mawr, ac mewn lleoedd eraill cymaint a dyniawed. Y mae wedi ei gorchuddio â hirflew cedenog, fel mae yn ymddangos yn glamp afluniaidd.—Mae yr arthod o amryw liwiau, rhai yn felyngoch, a rhai yn wynion, ond gan mwyaf yn dduon. Y maent yn llochesu mewn anialwch yn y gauaf, gan gysgu y rhan fwyaf o'r amser, ac felly yn pesgi. Y mae yr arthes yn anwyl iawn o'i chenawon, ac yn greulawn erchyll wrth bob creadur a geisio wneuthur niwed iddynt. Diar. 17. 12. Hos. 13. 8. Arthod, yn gyffredin, a ymborthant ar ffrwythydd, mêl, gwenyn, a chig; ac ydynt yn dra ysglyfaethus, ffyrnig, a chyfrwys, ac yn fedrus iawn ar ddringo coedydd: mewn gwledydd coediog y maent yn fynychaf i'w cael. Yr oeddynt yn gyffredin yn Palestina. Bu Dafydd yn ymladd âg un o honynt. pan oedd efe yn cadw defaid ei dad. Dwy arth a ddrylliasant ddau a deugain o blant Bethel, y rhai oeddynt yn gwatwor Eliseus y prophwyd. 1 Sam. 17. 34. 2 Bren. 2. 24. Mae Duw yn cyffelybu ei hun i arth wedi colli ei chenawon, pan ddelo i dywallt ei farnedigaethau yn erbyn ei elynion. Hos. 13. 18. Galar. 3. 10. Dynion digllawn a gyffelybir i arthod wedi colli eu cenawon. 2 Sam. 17. 8. Diar. 17. 12. Dynion drygionus, yn benaf, llywodraethwyr gormesol, a gyffelybir i arthod, o herwydd eu gonnes, eu trais, a'u creulondeb dialgar. Diar. 28. 15. Esa. 11. 7. Gofid a galar trwm a gyffelybir i ruad arthod. Esa. 59. 11.

Unbenaeth y Persiaid a ddarlunir fel arth yn ymgodi, &c. Dan. 7. 5. Cyffelybir ymerodraeth y Persiaid i arth, o herwydd eu creulondeb a'u hysbryd gwaedlyd; canys nid oes un creadur yn fwy creulawn a gwancus na'r arth. Geilw Jeremiah y Persiaid wrth yr enw 'anrheithwyr.' Jer. 51. 48, 56.—'Ac efe â ymgyfododd ar y naill ystlys;' neu, a chyfododd un llywodraeth; canys yr oedd y Persiaid ar y cyntaf yn ddarostyngedig i'r Mediaid, ond yn fuan ymgyfodasant yn uwch na hwynt.—'Ac yr oedd tair asen yn ei safn ef, rhwng ei ddannedd.' Wrth ba rai y meddylir, yn ol barn rhai, breniniaethau Babilon, Lybia, a'r Aipht; y rhai a orchfygwyd gan y Persiaid, ac a fuant rhwng eu dannedd creulawn.—'Cyfod, bwyta gig lawer:' geiriau sydd yn nodi allan eu creulondeb gwancus.—'Wele fi yn codi y Mediaid (ac yr oedd y Persiaid yn un â hwynt) yn eu herbyn, y rhai ni roddant fri ar arian; a'r aur nid ymhyfrydant ynddo. Eu bwäau hefyd a ddryllia y gwyr ieuainc, ac wrth ffrwyth y bru ni thosturiant, eu llygaid nid eiriach y rhai bach.' Esa. 13. 17, 18. Edr. Persiaid. Gwel Syr Isaac Newton's *Observ. on Daniel, c.* iv. Esgob Chandler's *Vin. b.* i, *c.* ii, *sec.* 2.

Dywedir fod i Anghrist 'draed fel traed arth:' mae efe a'i oruchwylwyr, yn fedrus iawn at ddringo gorsedd-feinciau, at uchelder swyddau gwladol ac eglwysig, ac i ysglyfio y praidd gwirion. Dat. 13. 2.

ARUTHR—OL, (uthr) rhyfedd, rhyfeddol; syn, erchyll, arswydus.—Y mae yr Arglwydd yn galw y nefoedd, sef trigolion y nefoedd, i synu ac ofni yn aruthrol, wrth ynfydrwydd a phechadurusrwydd ymddygiad yr Iuddewon eilun-addolgar, yn 'ei adael ef, ffynon y dyfroedd byw, ac yn cloddio iddynt eu hunain bydewau wedi eu tori, y rhai ni ddaliant ddwfr.' Jer. 2. 12.——Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn athraw-

Digitized by Google

iaethu gyd â'r fath weddeidd-dra o ran ei ddull, a'r fath oleuni o ran ei athrawiaeth, ac yr oedd y fath awdurdod dwyfol yn cyd-fyned â'i eiriau, fel y bu aruthr ganddynt wrth ei athrawiaeth. Luc 4. 32.—'Rhyfeddu.' Dr. M.

ARWAIN—EINYDD—IODD, (gwain) tywys, cyfarwyddo, dwyn, denu, arweddu; tywysog, blaenor.—Gosodir yr Arglwydd allan dan yr enw 'Arweinydd,' neu 'Flaenor,' (Esa. 55. 4.) ac yn aml y llefarir am ei waith yn arwain ei bobl. Ps. 23. 3. a 25. 11. a 31. 3. Y mae, fel goruwch-iywodraethwr ei holl greaduriaid, yn arwain pawb, yn eu gosod hwy yn y sefyllfaoedd a'r amgylchiadau hyny yn y byd a welodd fod yn dda; yn trefnu eu holl amgylchiadau, ac yn goruwch-lywodraethu eu holl fwriadau, eu hysgogiadau, a'u gweithredoedd: 'Ei freniniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth.' Ps. 103. 18. Ond hebiaw yr arweiniad rhagluniaethol hwn, y mae yn arwain ei bobl mewn modd arbenig, sanctaidd, ac ysbrydol; fel tad yn arwain ei blentyn; fel bugail yn arwain ei braidd; ac fel câd-flaenor yn arwain ei fyddin i frwydrau a buddugoliaethau. Yn ddangosiad o hyn, arweiniodd y bobl gynt trwy yr anialwch, ar eu taith o'r Aipht i Ganaan, trwy y golofn a'r cwmwl, fel arwydd hynod o'r presennoldeb dwyfol ar yr holl wersyll. Ps. 136. 16. Esa. 63. 12. Edr. Cwmwl.

'Y sawl a arweinir gan Ysbryd Duw, y rhai hyn sydd blant i Dduw.' Rhuf. 8. 14. Yr Ysbryd Glân sydd yn eu hail-eni, ac yn eu gwneuthur hwynt yn blant; ac wedi eu hadgenedlu, a'u dwyn hwy i'r iawn ffordd, y mae yn barhaus yn eu harwain hwynt ar hyd 'llwybrau cyfiawnder.' Ps. 23. 3. Y mae yr Ysbryd Glân, fel Arweinydd, yn gwneuthur tri pheth: 1. Mae yn dangos y ffordd.—2. Yn tueddu y meddwl yn hyfryd, o'i wir fodd, i ddewis a dymuno rhodio ynddi.—3. Yn nerthu ei bobl, yn wyneb pob llesgrwydd, a phob gwrthwynebiadau, i'w cherdded, heb flino na diffygio. ——Mae y ffordd y dylent rodio ynddi, ar bob achos, yn mhob sefyllfa ac amgylchiad, gwedi ei dadguddio iddynt yn y gair: y gair yw y rheol uniawn, gyflawn, berffaith, yn mhob peth. Nid dadguddio gwirioneddau neu reolau newyddion i ni y mae yr Ysbryd Glân, ond ein tywys i'r gwirionedd dadguddiedig; (Ioan 16. 13.) sef rhoddi adnabyddiaeth gywir a chyson o'r gwirionedd; yn ein gogwyddo ac yn ein nerthu i rodio ynddo. Y mae yr Ysbryd a'r gair, yn mhob peth, yn berffaith unol â'u gilydd; ac nid ydyw yr Ysbryd yn arwain, yn y gradd lleiaf, mewn barn, profiad, ac ymarferiad, yn groes, neu heblaw y gair. Y mae yr Arglwydd, yn ei ragluniaeth ben-arglwyddiaethol, yn arwain ei bobl i'r sefyllfa a'r amgylchiad a welo efe fod yn dda: mae y gair yn dangos beth ydyw eu dyledswydd, a pha fodd y dylent hwy ymddwyn yn yr amgylchiad a'r sefyllfa y maent ynddi; ac y mae yr Ysbryd Glân yn eu goleuo i ddeall rheol y gair; ac yn eu tueddu yn sanctaidd ac yn foddol, ac hefyd yn eu nerthu i rodio ynddi. Y mae yr Ysbryd yn argraffu delw pob gwirionedd arnynt; ac yn eu cryfhau, ac yn eu cysuro trwy y gwirionedd; ac yn eu nerthu hwynt i rodio yn ol y gwirionedd. Y mae y gair yn rheol allanol: y mae Crist yn siampl allanol, berffaith unol â'r rheol hôno; ac y mae yr Ysbryd Glân yn Arweinydd tufewnol, yn ol y rheol a'r siampl o'u blaen. I'w cyfiawnhau, eu sancteiddio, a'u cysuro, y mae yr Ysbryd Glân yn eu harwain at Grist, yn ol rheol y gair; y mae yn eu harwain i ymwadu â hwy eu hunain, a chwantau bydol, yn ol cyfarwyddyd y gair; ac yn eu tywys yn effeithiol i ymddygiad addas tu ag at bawb, yn ol eu hamrywiol sefyllfaoedd a'u perthynas â hwynt; ac i ymagweddiad gostyngedig, llariaidd, addfwyn, a duwiol, dan bob rhagluniaethau croesion, a gorthrymderau, fel mae y gair yn eu cyfarwyddo. Y mae yn eu harwain fel mae yn gweddu i Dduw eu harwain; sef yn ddoeth, yn alluog, yn dyner, yn amyneddgar, ac yn effeithiol: 'Yr hwn a dosturia wrthynt a'u tywys, ac a'u harwain wrth y ffynonau dyfroedd.' Esa. 49. 10. Pa sefyllfa bynag y mae Duw yn ei ragluniaeth yn eu harwain hwynt iddi, y mae yr Ysbryd yn rhoddi meddwl perthynol i'r sefyllfa hono, ac yn eu harwain i ymddygiad addas iddi: Os gwr, os gwraig; os meistr, os gweinidog; os tad, os plentyn; os brenin, os deiliad; os cyfoethog, os tlawd—pa sefyllfa bynag y maent ynddi, y mae y gair yn eu cyfarwyddo, a'r Ysbryd yn eu harwain yn ol y cyfarwyddyd hwnw. Nôd neillduol plant Duw, ydyw bod dan arweiniad Ysbryd Duw; a'u bod 'yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd.' Rhuf. 8. 1. Gwel Deut. 8. 2. a 32. 12. Ps. 5. 8. a 25. 5. a 27. 11. a 32. 8. a 43. 3. a 73. 24. a 139. 24. a 143. 10. Diar. 8. 20. Esa. 42. 16. a 57. 18. a 63. 14. Jer. 31. 9. Dat. 7. 17.—Y mae rhai yn cael eu harwain 'gan amryw chwantau.' 2 Tim. 3. 6.—Y mae eraill yn cael eu 'harwain oddi amgylch âg athrawiaethau amryw a dyeithr.' Heb. 13. 9. Ond nid plant Duw yw y rhai hyny.

'Arweiniodd ef o amgylch.' Deut. 32. 10. 'Amgylchynodd efe ef.' Dr. M. Y mae yr un gair *Heb.* יסבבנהו yn cael ei gyfieithu hefyd, *amgylchynaf*, yn Ps. 26. 6. a 118. 10, 11.—*amgylchu*, yn Gen. 2. 11, 13. a Jos. 6. 15. Arwydda y gair, holl ofal meddwl Iehofah am y bobl yn yr anialwch, gwag, erchyll, yn eu cynnal, yn eu cadw, ac yn cyflawni eu hangenion; heb ofal pa un y buasent yn sicr o drengu. Cyfeiria y gair at ofal un am ei deulu, neu fugail am ei ddefaid, neu feddyg am ei gleifion, neu ddyn haelionus am yr angenog. Yr oedd Duw yn golygu eu holl amgylchiadau yn fanwl, ac yn trefnu iddynt bob peth angenrheidiol, gyda gofal a chariad mawr.* Jer. xi. Ezec. 16. 23. Hos. 13. 5.

ARWEDD—IAD—U, (gwedd) dwyn, cynnal: *Gr.* αιρω (*airô*).—*Arweddu ffrwyth*, sef dwyn ffrwyth.—'Can ys cynnuer ac a arwedder gan Ysbryt Duw.' Rhuf. 8. 14. W. S.—'Arweddwyd o'r bru.' 'Arweiniwyd o'r bru.' Dr. M.—'Arweddaf hefyd.' Esa. 46. 3, 4. 'Arweiniaf hefyd.' Dr. M. Y mae y gair *arweddaf* yn gyfieithiad gwell o'r gair *Heb.* נשא na'r gair *arweiniaf*. Y mae y prophwyd yn cyferbynu mawredd gallu Duw, a'i drugaredd dyner tu ag at ei bobl, âg anallu duwiau gau y cenedloedd. Mae yn rhaid i'r rhai hyny gael eu dwyn eu hunain: 'Eich clud a lwythwyd yn drwm; llwyth ydynt i'r diffygiol: ni allant achub y llwyth; aethant mewn caethiwed eu hunain.' Esa. 46. 1, 2. Ond y mae yr Arglwydd yn dwyn ei bobl, fel y dwg gwr ei fab; a hyny, nid yn unig o'r bru, pan y byddont wan a llesg yn eu hieuenctyd, ond hefyd trwy eu holl fywyd, hyd oni phenwynont. Gyda thiriondeb digymhar y mae efe yn dywedyd, 'Gwnaethum,' ac yr ydwyf etto heb flino na diffygio, 'arweddaf, dygaf, a gwaredaf hefyd.' Deut. 1. 31. Num. 11. 12. Jer. 10. 3, 4, 5. Exod. 19. 4. Esa. 63. 9. a 40. 11 a 41. 8, 9. a 44. 1, 2, 8, 21, 24. Gen. 28. 15. Jos. 1. 5. Ps. 48. 14. a 100. 3. Heb. 13. 5.—'O'r bru;' yn barhaol, bob dydd, ac hyd oni phenwynont. Y mae angen arnynt, yn mhob ystyr, am ei gynnaliaeth, a'i ymgeledd ddwyfol: diball, diflino, a chyflawn ydyw ei holl ofal am danynt, ei ffyddlondeb a'i ymgeledd iddynt; yn maddeu eu pechodau, yn eu hadferyd o wrthgiliadau, yn eu hadnewyddu yn feunyddiol, yn eu hamddiffyn rhag gelynion, ac yn eu gwaredu oddiwrth brofedigaethau.

ARWYDD—O—ION, (ar-gwydd) nôd, argoel, amnaid, awgrym; rhyw beth amlwg, trwy ba un yr eglurheir, neu y nodir peth arall allan. Mat. 16. 4.—Mae amryw fath o arwyddion: 1. Arwyddion natur-

* Gwel Vitringa *in loc.*

Digitized by Google

iol; megys y cymylau o wlaw.——2. Arwyddion gwladol; felly y mae y cleddyf yn arwydd o awdurdod.——3. Arwyddion crefyddol; y mae pedwar math o honynt: (1.) Arwyddion o bethau presennol; felly yr oedd gwisgoedd yr offeiriaid a'r Lefiaid yn arwyddion o'u swydd sanctaidd, yn gystal ag yn gysgodol o sancteiddrwydd dynoliaeth Crist. Gwaith Moses a Josuah yn tynu eu hesgidiau, oedd arwydd o barch i Dduw yn bresennol gyda hwynt. (2.) Arwyddion o bethau i ddyfod; megys y bwa yn y cwmwl, a chnu gwlan Gedeon. Gen. 9. 13. Barn. 6. 36. (3.) Arwyddion o bethau wedi myned heibio; megys y crochan aur a'r manna, a gwialen Aaron. (4.) Arwyddion o bethau a fuant, ydynt, ac ydynt i ddyfod; megys y sacramentau sanctaidd, y rhai ydynt yn arwyddo marwolaeth Crist, peth a fu; rhodd Duw a'i addewid, y rhai ydynt yn bresennol i feddwl y derbyniwr; a bywyd sanctaidd o ymroddiad i Dduw, yr hyn sydd i ganlyn.

Gwaed oen y pasc ar gapan y drws, &c., ydoedd yn arwydd fod Duw am gadw yn fyw y teulu hwnw. Exod. 12. 14. Y mae Iesu Grist a'i bobl yn 'arwyddion ac yn rhyfeddodau:' y mae llawer yn sylldremu arnynt, yn dywedyd yn eu herbyn, ac yn eu peryglu. Luc 2. 34. Esa. 8. 18.——Y mae yr Iesu yn cael ei alw yn 'arwydd i ddynion ddyfod ato.' Esa. 61. 19. a 11. 10. 'Ac yn arwydd,' neu wawd-nôd, 'yr hwn y dywedir yn ei erbyn.' Luc 2. 34. Esa. 8. 18. Heb. 2. 4. Act. 28. 22. Gen. 49. 23. Ps. 11. 2. a 37. 14. a 64. 4. Job 16. 12.

Arwyddion dyfodiad Crist yn erbyn yr Iuddewon, oedd taeniad yr efengyl—erlidigaethau ar Gristionogion—cyfodiad gau brophwydi—amryw ryfeddodau yn yr awyr, ac o amgylch y deml, &c. Mat. 24. 3—29. Ond arwydd Mab y Dyn, yn ymddangos gwedi hyny yn y nef, oedd ddangosiad amlwg mai efe oedd y Messïah, trwy gospi y genedl Iuddewig am ei wrthod; neu y pethau ofnadwy fydd i'w gweled o flaen ei ddyfodiad ar y cwmwl i farnu y byd. Mat. 24. 3, &c. Neu, wrth arwydd Mab y Dyn, mae i ni ddeall, Mab y Dyn ei hun, yn ei amlygiad gwyrthiol; fel y mae arwydd y phrophwyd Jonas yn arwyddo Jonas ei hun, yn ei waredigaeth wyrthiol. Mat. 12. 39. Luc 11. 29. Cymh. Marc 13. 26. â Luc 21. 7. lle nid oes sôn am yr arwydd, ond yn unig am Fab y Dyn ei hunan.

'Arwyddion ffordd,' oeddynt golofnau, neu garneddau, y rhai y parodd Duw eu gwneuthur, i ddangos i'r Iuddewon fod gobaith iddynt hwy am ddychweliad yn ol o gaethiwed Babilon; ac fel y gallent hwy, a'r plant hefyd a enid iddynt yno, adnabod y ffordd tua Jerusalem. Jer. 21. 21.

ARWYDDOCAU, (arwydd) cyffelybu, dangos, dal allan. Ioan 12. 33. a 18. 32. a 21. 19. Act. 11. 28.

ARWYL—ION, (gŵyl) wylofain, galar, tristwch; arwyliant, arwyl ddefodau. Gen. 50. 3, 4.

ARZA, ארצא [*y ddaear*] llywodraethwr Tirzah. Yn nhŷ Arza y lladdodd Zimri Ela brenin Israel, ac efe yn yfed yn feddw. 1 Bren. 16. 9.

ASA, אסא [*meddyg*] mab Abiah, ŵyr Rehoboam, a thrydydd brenin Judah. Yn nechreuad ei deyrnasiad, ymddygodd yn ddoeth ac yn dduwiol, trwy dori y delwau, a thynu i lawr yr allorau, yn holl ddinasoedd Judah. 1 Bren. 15. 9—15. Ond nid yw y rhan olaf o'i fywyd mor olygus a dymunol. Bu farw o'r gymalwst, neu y droedwst, yn yr unfed flwyddyn a deugain o'i deyrnasiad; a Jehosaphat ei fab a deyrnasodd yn ei le ef. 2 Cron. xiv, xv, xvi.

ASAHEL, עשהאל [*gwaith Duw*] 1. Mab Seraiah, a brawd Joab, un o gedyrn Dafydd, yr hwn a laddwyd gan Abner yn mrwydr Gibeon. 2 Sam. 2. 18—23.——2. Lefiad. 2 Cron. 31. 13.

ASAHIAH, עשיה [*creadur yr Arglwydd*] un o weision y brenin Josiah, yr hwn a anfonwyd ganddo ef i ymgynghori â'r brophwydes Huldah yn nghylch llyfr y gyfraith, yr hwn a gawsid yn y deml. 2 Bren. 22. 12, 13, 14. 2 Cron. 34. 20.

M

ASAPH, אסף [*cynnullydd*] 1. Mab Berachiah, o lwyth Lefi, cantor enwog yn amser Dafydd. 1 Cron. 6. 39. Y mae amryw o'r Psalmau gwedi eu cyflwyno iddo, dull cyfansoddiad pa rai sydd uchelwych a dyrchafedig. Mae rhai Psalmau â'i enw yn ysgrifenedig o'u blaen; ond, hwyrach, nad oes i ni ddeall mwy wrth y titl na bod y Psalmau hyny i'w canu, yn benaf, gan ei hiliogaeth.——2. Tad Joah, a chofiadur y brenin Hezeciah. 2 Bren. 18. 18.——3. Ceidwad coedwig Artaxerxes. Neh. 2. 8.

ASCELON, חשקלון [*tân enllib*] un o ddinasoedd y Philistiaid, yn sefyll ar Fôr y Canoldir, rhwng Asdod a Gaza. Cymerwyd hi gan lwyth Judah, ar farwolaeth Josuah. Barn. 1. 18.

ASCENAS, אשכנז [*tân yn ymdaenu*] mab hynaf Gomer. Hiliogaeth Ascenas, tebygol, a drigasant yn mharthau gogledd-orllewinol Asia Leiaf. Yn Bithynia mae môr-gilfach a elwir *Ascanian Bay;* hefyd, afon a llyn o'r un enw. Yn Phrygia yr oedd talaeth a dinas o'r enw hwn.——Nid annhebyg fod breninoedd yn y parthau hyny yn cymeryd yr enw Ascanius, o barch i'r Ascenas hwn; megys Ascanius mab Æneas, ac arall o'r enw, a grybwyllir am dano gan Homer, a ddaeth yn gymhorth i Priam. Barna Bochart, mai oddiwrth Ascenas y cafodd y Môr Euxin ei enw. Yn yr hen oesoedd gelwid ef Môr Ashkenes. Y Groegiaid a'i galwasant yn gyntaf Pontus Axenus, yn lle Pontus Ashkenas; ac felly y cafodd yr enw Pontus Euxinus.——Y prophwyd Jeremiah, yn rhagfynegi goresgyniad Babilon gan Cyrus (pen. 51. 27.) a ddywed, 'Gelwch yn nghyd deyrnasoedd Ararat, a Minni, ac Ascenas.'

ASDELL, ESDYLLEN, ESDYLLOD, neu ESDYLL, (as-dell) *Llad.* ASSER, ASSULA: bwrdd, asgloden, eisen, planc, tew fwrdd, cledren, peithynen.—Yr oedd i'r babell ugain esdyllen yn ystlysau y dehau a'r gogledd; yr oedd chwech o esdyllod i du y gorllewin, a dwy esdyllen yn y ddau gongl; sef deg a deugain i gyd. Yr oeddynt wedi eu gwisgo âg aur; yr oeddynt yn sefyll ar eu penau, ac yr oedd dau dyno, neu dafod, i bob un, ac yn myned i ddwy fortais arian. Cufydd a hanner ydoedd lled pob esdyllen; am hyny, hŷd y babell ydoedd ddeg cufydd ar hugain, neu bump troedfedd a deugain. Yr oedd pum bâr hefyd i bob ystlys yn myned trwy fodrwyau, i gadw yr esdyllod wrth eu gilydd, a'r bâr canol yn nghanol hŷd yr esdyllod, yn cyrhaedd o gŵr i gŵr. Yr oedd y bârau a'r modrwyau gwedi eu gwisgo âg aur. Yr oedd yr esdyllod yn cynnal y llèni cywrain. Exod. 26. 15, &c. At y rhai hyn y mae yr apostol yn cyfeirio, tebygol, pan y geilw efe tŷ Dduw, 'colofn a sylfaen y gwirionedd.' 1 Tim. 3. 15.

ASDOD, אשדוד [*lladrata gwlad*] dinas yr oedd teml Dagon ynddi; yr oedd wedi ei rhoddi gan Josuah i lwyth Judah. Jos. 15. 27. Y mae yn taro ar Fôr y Canoldir, yn nghylch deng milltir yn y gogledd i Gaza. Yr un ydyw ag Azotus, lle bu Phylip yn pregethu yr efengyl. Seph. 2. 4. Zech. 9. 6. Act. 8. 40.

ASEN—AU, (as) 1. Asgwrn yr ystlys, yr hwn sydd blaid a diogelwch i'r ymysgaroedd. 2 Sam. 4. 6.—Efa a luniwyd o asen Adda, yr hon a gymerodd yr Arglwydd o'i ystlys. Ni chymerodd yr Arglwydd wraig o'r pen, rhag iddi awdurdodi; nac o'r traed, rhag iddi gael ei chyfrif fel caethes; ond o le gerllaw y galon, i garu, a chael ei charu. Gen. 2. 21, 22. Edr. EFA.——2. Y fenyw o'r asynod. Num. 22. 22.

ASER, אשר [*dedwydd*] mab Jacob o Zilpah, llaw-

Digitized by Google

forwyn Leah. Gen. 30. 13. Tad un o lwythau Israel. Daeth un mil a deugain a phum cant o'r llwyth yma i fynu o wlad yr Aipht. Cynnyddasant yn yr anialwch hyd tair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant. Num. 26. 47. Yr oedd deugain mil o honynt yn rhyfelwyr glewion pan goronwyd Dafydd yn frenin. 1 Cron. 12. 36. Yr oedd etifeddiaeth Aser yn sefyll mewn gwlad ffrwythlawn iawn. Deut 33. 24. Yr ŷd a dyfai yn rhandir Aser oedd yn cael ei gyfrif y goreu, a bara Jerusalem oedd yn rhagori ar bob bara arall.—'Aser, bras fydd ei fwyd ef, ac efe a rydd ddanteithion breninol.' Gen. 49. 20. Trwy ysbryd prophwydoliaeth, rhoddodd Jacob iddo wlad ffrwythlawn, yn rhoddi lliosogrwydd o ffrwythau iddo ef ac eraill; ïe, danteithion breninol, i fyrddau breninol, cartrefol a phellenig. Yr oedd ei etifeddiaeth ar dueddau Carmel, yr hon ydoedd wlad ffrwythlawn i ddïareb. Jos. 19. 26. Esa. 35. 2. ——Rhagfynega Moses am dano ef (Deut. 32. 24, 25.) y byddai ei hiliogaeth yn lïosog, ac y byddai gymeradwy gan ei frodyr; sef yn garedigol, yn gyfrinachol, ac yn serchol; ac y byddai hefyd helaethrwydd o'r olew mwyaf rhagorol yn ei etifeddiaeth. 'Haiarn a phres fydd dan dy esgid di;' sef bydd amldra o haiarn a phres yn dy randir: neu geiriau dïarebol ydynt, yn dangos y byddai i'r Arglwydd barotoi Aser gogyfer â phob caledi ac anhawsdra a gyfarfyddai efe: 'Megys dy ddyddiau y bydd dy nerth;' neu, fel y byddo dy angen y bydd dy ddigonolrwydd.

ASGELL—OG, ESGYLL, (asg) aden, adenog: *Llad.* ALA. Gen. 1. 21. Lef. 11. 9, 10. Ps. 91. 4. Edr. ADEN.

ASGWRN, ESGYRN, (as-cwrn) גרם (*garem*) y sylwedd gwyn, brau, dideimlad, yn nghorph dyn, yr hwn sydd yn amddiffyn y rhanau mwyaf tyner a gwan, ac yn cynnal yr holl adeilad.—Asgwrn y goes; asgwrn y werddyr; asgwrn yr ysgwydd; asgwrn cefn; asgwrn twn, sef asgwrn toredig.

*Asgwrn yr hen yn yr angen. Diar.*

Mae doethineb ac arfwriad y Creawdwr i'w gweled yn amlwg yn ffurfiad yr esgyrn; yn eu harddwch, ac addasrwydd pob un o honynt i'r gwaith sydd i'r aelod i'w wneuthur. Y mae yn waith hawdd i bob dyn ganfod hyny, ond iddo sylwi ychydig ar esgyrn anifeiliaid. Y maent wedi cael eu cyfaddasu i'w gilydd mewn modd rhyfedd; ac felly yn ateb, o ran eu sylwedd, eu ffurfiad, eu grym, a'u hysgafnder, i harddwch yr holl gorph, ac i'r ysgogiadau a'r gwaith perthynol i bob aelod. Y mae i bob asgwrn bilionen briodol (*periosteum*) yn amwisg am dano; y mae y rhan fwyaf o honynt hefyd yn gau, ac wedi eu llenwi â math o sylwedd olewaidd a elwir mêr. Edr. MER. Mae i bob asgwrn ei lestri a'i lifnôdd cylchredawl; y mae, hefyd, o leiaf, un rhedweli (*artery*) i bob asgwrn, tu ag at ei fagwriaeth, a'r mêr ynddo ef; ac y mae gwythïenau addas i ddychwelyd y gwaed yn ei ol, gwedi didoliad y sylwedd olewaidd o hono.——Y mae esgyrn llosgedig, drylliedig, gwanedig, pwdr, yn arwyddo, yn allegawl, yn yr ysgrythyrau, argyhoeddiadau trymion, gwasgfeuon gofidus ar y meddwl, tristwch calon anhawdd ei ddwyn na'i feddyginiaethu. Jer. 23. 9. Galar. 1. 13. Ps. 51. 8. a 42. 10. Hab. 3. 13.——'Asgwrn o asgwrn, cnawd o gnawd,' neu 'aelodau o gorph, o gnawd, ac o esgyrn,' sydd yn arwyddo cyfranogiad o'r un natur, yr undeb agosaf, a'r cariad anwylaf, y fath ag sydd rhwng yr holl wir gredinwyr a Christ. Gen. 2. 23. 2 Sam. 5. 21. Eph. 5. 30.

ASIA, *Gr.* Ασια; hwyrach oddiwrth y *Cald.* אשיא *ymuniad*; ac felly a arwydda *cyfandir*. Ezra 4. 12. a 5. 16. a 6. 2. Nid ydyw y gair hwn yn arferedig yn yr Hen Destament: yn yr Apocrypha a'r Testament Newydd y mae yn cael ei arfer yn aml; ond nid arwydda, unwaith, yn un o'r ddau, yr un peth ag a ddeallir yn bresennol wrtho; sef un o bedair rhanau mawrion, neu bedwar chwarter y ddaear; eithr Asia Leiaf, neu ryw ranau o'r chwarter hwnw o'r ddaear, megys y rhanau oedd dan lywodraeth Antiochus a Seleucus. 1 Mac. 8. 6. 2 Mac. 3. 3.—Yn y Testament Newydd, y gair Asia a arwydda, fynychaf, os nid bob amser, Asia Leiaf, neu y parthau arforol o'r wlad hòno. Dat. 1. 4. Act. 20. 16, 18. 1 Cor. 16. 19. 2 Cor. 1. 8. Gwel Vitringa ar Dat. 1. 4. Usher's *Diatriba de Asia Lydiana, &c.*

Y mae cyfandir Asia yn sefyll rhwng 25 a 180 o raddau hydred, tu a'r dwyrain oddiwrth Lundain; a rhwng cylch y cyhydedd a phedwar ugain o raddau o ledred gogleddol. Y mae oddi amgylch 4340 o filltiroedd o hŷd o'r dwyrain i'r gorllewin; ac oddi amgylch 4380 o led o'r gogledd i'r dehau. Mae Asia yn rhagori ar Ewrop ac Affrica, yn ëangder ei thiriogaethau, hinonrwydd yr awyr, ffrwythlonrwydd y ddaear, danteithrwydd y ffrwythau, pêr-arogledd y pêr-lysiau a'r planigion, ac iachusrwydd y cyfferi meddyginiaethol; ac hefyd yn amrywiaeth, harddwch, a gwerthfawrogrwydd y gemau sydd i'w cael ynddi.——Yn Asia, yn ol y coffadwriaethau dwyfol, y crewyd Adda ac Efa, ac y planwyd gardd Eden, lle y gosodwyd hwynt. Oddi yno, hefyd, y cafodd hiliogaeth Noah eu gwasgaru, ar ol y diluw, i boblogi yr holl ddaear. Yno y bu y patriarchiaid, a'u hiliogaeth, cenedl yr Iuddewon, yn byw; 'eiddo y rhai oedd y mabwysiad, a'r gogoniant, a'r cyfammodau, a dodiad y ddeddf, a'r gwasanaeth, a'r addewidion.' Rhuf. 9. 4.——Yno yr ymddangosodd Iachawdwr y byd yn y cnawd—y gweithiodd waith y prynedigaeth—y bu farw—yr adgyfododd—ac oddi yno yr esgynodd i'r nef. Yno y tywalltwyd yr Ysbryd Glân ar y dysgyblion—y planwyd yr eglwysi Cristionogol cyntaf—ac oddi yno y taenwyd yr efengyl dros wyneb yr holl ddaear.——Yn Asia, hefyd, y cyfodwyd yr adeiladau cyntaf o ddim hynodrwydd; yno y sefydlwyd yr ymerodraethau cyntaf, pryd nad oedd dim ond anifeiliaid a bwystfilod yn meddiannu y rhanau eraill o'r byd. O herwydd yr holl ragoriaethau hyn yn nghyd, y mae y rhagoriaeth yn ddyledus i Asia ar holl ranau eraill o'r ddaear. Bu tiriogaeth ëang Asia dan lywodraeth yr Assyriaid, y Mediaid, y Persiaid, a'r Groegiaid, olynol, yn yr hen amseroedd; ond yr oedd yr holl ardaloedd difesur sydd yn India a China yn hollol anadnabyddus i Alexander Fawr, a'r hen fuddugoliaethwyr gynt. Yn meddiant yr ymerodraethau uchod, fe ymostyngodd Asia i arfau buddugoliaethus y Rhufeiniaid. Gwedi cwymp yr ymerodraeth hon, sefydlodd canlynwyr Mahomet, sef y Saraceniaid, ymerodraeth yn Asia, Ewrop, ac Affrica, mwy helaeth nag ymerodraeth Cyrus, Alexander, neu y Rhufeiniaid, yn uchder mwyaf eu gogoniant. Gyda marwolaeth Tamerlane, darfu mawredd y Saraceniaid; a'r Tyrciaid, buddugoliaethwyr yr amser hwnw o bob tu, a gymerasant feddiant o barthau canol Asia, y rhai sydd yn parhau yn eu meddiant hyd heddyw. Heblaw y gwledydd dan lywodraeth Rwssia a'r Twrc, y mae yn Asia, yn bresennol, bedair o ymerodraethau mawrion; sef China, y Mogul, Persia, ac ymerodraeth Burmah; heblaw amryw o fân dywysogaethau yn ddibynol arnynt. Dyfethwyd Cristionogrwydd agos yn hollol o'r gwledydd hyn, gan y Saraceniaid a'r Tyrciaid. Gau grefydd Mahomet, a Phaganiaeth â'i heilun-dduwiau ffiaidd, sydd yn bresennol yn llenwi yr holl wledydd ëang hyn â thywyllwch fel y fagddu. Y mae gan ymerodraeth Brydain diriogaethau helaeth iawn yn India, a mwy na 80,000,000 o ddeiliaid yn perthynu iddi. Y mae amryw o genadau, a anfonwyd drosodd yn ddiweddar o Ewrop, gwedi bod yn dra llwyddiannus yn eu hymgnis i ledaenu Cristionogrwydd yn mhlith y Paganiaid tywyll; ac felly y mae eglwysi Cristionogol, lliosog a blodeuog, gwedi eu sefydlu trwy eu llafur-waith. Y mae y Bibl gwedi ei argraffu yn ddiweddar yn y Ben-

Digitized by Google

galaeg, ac y mae gwyr addas i'r cyfryw orchwyl pwysfawr ar waith yn ei gyfieithu i amryw ieithoedd eraill yno. Cynnwys Asia 500,000,000 o drigolion, neu fwy.

ASIO, (as) uno, cyd-iasu, ias-gydio.—'Ond rhai yn asio celwydd ydych chwi.' Job 13. 4. Esa. 41. 7.

ASIMA, אשימא eilun-dduw yr Hamathiaid, dan lun gafr, neu ddyn a gafr, a'r rhan fwyaf ar lun gafr. Nid yw coffâu am ffieidd-dra ac eilunod y cenedloedd o ddim defnydd arall ond i ddangos ynfydrwydd dyn wedi iddo golli Duw, a'r angen mawr am yr efengyl i'w gymmodi a'i ddwyn yn ol at Dduw. 2 Bren. xvii.

ASNAPPAR, אסנפר [annedwyddwch] brenin Assyria, yr hwn a anfonodd estroniaid i wlad y deg llwyth. Ezra 4. 10. Mae llawer yn meddwl mai Salmaneser oedd y tywysog hwn; ond eraill a dybiant mai Esarhadon oedd efe.

ASP, *Gr.* ασπις (*aspis*), math o sarph fechan, wenwynig, yr hon y mae ei brathiad yn farwolaeth fuan; ond yn gyffredinol yn farwolaeth esmwyth, megys cwsg. Dywedir fod yr aspiaid yn lladd trwy beri cwsg, syched, a cholli gwaed. Yn fuan ar ol y brathiad, mae y golwg yn pallu, a'r rhan a frathwyd yn chwyddo. Dywedir nad oes dim meddyginiaeth i'r brathiad gwenwynig hwn, ond tòri ymaith, yn ddioed, y rhan hòno o'r cnawd.—Dynion drygionus a gyffelybir i aspiaid, am eu cyfrwysdra; eu bod yn lladd eu hunain, ac eraill, â'r gwenwyn pechadurus sydd ynddynt; ac yn barod bob amser i dywallt hwnw allan yn eu geiriau a'u bucheddau; ac am eu gwrthodiad cyndyn i wrando llais Crist yn yr efengyl. Deut. 32. 33. Job 20. 14. Ps. 58. 4. Rhuf. 3. 13.

ASSOS, dinas arfor yn Mysia, neu Troas. Act. 20. 13, 14.—'A ddatdodesont i Asson.' Act. 27. 13. W. S. Y mae y cyfieithiad hwn yn un â'r *Vulgate* Lladin, a'r Ethiopaeg. Nis gallasai y ddinas hon fod yr un ag Assos yn Troas, yr hon oedd lawer o filltiroedd oddi yno. Coffâ Pliny am Asum yn Crete, ond nid oedd yn borthladd. Am hyny golygodd ein cyfieithwyr ni, ac eraill, y gair *Gr.* ασσον, fel gorair, ac yn arwyddo *yn agos*, neu *gerllaw*.

ASSUR, אשור [*dedwydd*] ail fab Sem, a thad yr Assyriaid. Gelwir pobl Assyria wrth yr enw hwn weithiau. Gen. 10. 22. Num. 54. 22. Hos. 14. 3.

ASSYRIA, gwlad Assur. Gwladychodd Assur o du y dwyrain i'r afon fawr Tigris. Galwyd yr un wlad, wedi hyny, Adiabene, ac Attyria. Yr oedd Armenia yn terfynu y wlad hon tu a'r gogledd; Media a Phersia yn y dwyrain; Susiana, a thalaeth o Persia, yn y dehau; a'r afon Tigris, neu Hidecel, yn y gorllewin. Y dinasoedd mwyaf nodedig yn ngwlad Assyria oedd Ninifeh, Resen, Calah, Bessara, Ctesiphon, ar lan yr afon Tigris. Yr oedd yn cynnwys y gwledydd a elwir yn bresennol Diarbeck, Curdistan, ac Irac-Arabi. Y mae y wlad yn gwaethygu er's agos i 2000 o flynyddoedd, fel nad ydyw yn bresennol ddim llawer gwell nag anialwch diffaeth. Yr oedd ymerodraeth Assyria, pan oedd fwyaf blodeuog, yn cynnwys Media, Persia, Caldea, Mesopotamia, Syria, Palestina, a rhan o Arabia. Wedi dystryw yr ymerodraeth, y mae Assyria wedi bod dan lywodraeth y Caldeaid, y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, y Parthiaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid. Yn y cynoesoedd bu yn y wlad hon eglwysi Cristionogol; ond yn bresennol y mae tywyllwch a phob anfoes anferth yn gorchuddio y wlad; a'i phreswylwyr yn hynod fel lladron ac yspeilwyr ysglyfaethus. Tebygol fod yr amser etto yn ol, pan gyflawnir, yn gwbl, brophwydoliaeth Esaiah mewn perthynas iddi, yn ymweliad grasol Duw â hi. Pen. 19. 23, 24. Edr. HIDECEL, NIMROD, NINIFEH.

ASTALCH, (aes-talch) tarian-friw; *aes*, tarian; *talch*, briw. Ond arferir y gair fel cyfieithiad o'r gair *Heb.* סחרה *tarian fechan*, math o darian law, ysgafn. Felly, tebygol, yr oedd yr astalch yn offeryn go ysgafn i'w throi a'i throsi mewn llaw. Ps. 91. 4. Can. 4. 4. Gwirionedd Duw sydd fel astalch, i amddiffyn pob rhan o'r credadyn, yn gystal ag yn gleddyf i ymladd â phob gelyn. Edr. BWCCLED, TARIAN.

ASTAROTH, עשתרות [*deadellau*] 1. Eilun-dduwies y Philistiaid a'r Sidoniaid. 1 Sam. 31. 10. 1 Bren. 11. 5. Gosododd Solomon yr eilun hwn i fynu i'w addoli ar fynydd yr Olew-wydd; yr hwn, o'r achos, a elwir Mynydd y Llygredigaeth. 2 Bren. 23. 13. Galwai y Groegiaid yr eilun Astaroth, Astarte; oddiwrth ba un y daeth yr enw Eastre, neu Easter, eilun-dduw yr Ellmyn. I'r dduwies hon yr aberthai yr hen Saxoniaid yn Ebrill, yr hwn a elwid ganddynt hwy *Eostur Monath*, oddi yno y daeth *Easter* y Saeson, yr enw a roisant i Ŵyl y pasc wedi eu dychweliad oddiwrth Baganiaeth at Gristionogrwydd. Gwel Parkhurst, *Ancient Univ. History, vol.* xix., *p.* 177.——2. Dinas yn ngwlad Moab, yr hon a roddwyd i hanner llwyth Manasseh. Deut. 1. 4. Jos. 9. 10. a 12. 4. a 13. 12. 1 Cron. 6. 71.

ASTRONOMYDDION, *Gr.* αστερα (*astera*), ser yddwyr, sylwedyddion; dynion yn sylwi ar y sêr, a threfn yr wybren; a thrwy hyny a gymerent arnynt rag-ddywedyd y pethau a ddygwyddent yn ol llaw. Yr oeddynt mewn parch a dyrchafiad mawr yn mhlith y Paganiaid, ac yn benaf yn Babilon. Dan. 1. 20. a 2. 2, &c. Esa. 47. 13, 14, 15.

ASTUD—RWYDD, *Llad.* STUDIOSUS; *Saes.* STUDIOUS; dyfal, a diwyd. Y geiriau *Gr.* σπουδη, σπουδαζω, a gyfieithir *astud*, *astudrwydd*, yn 2 Cor. 7. 11. a 8. 7. 1 Thes. 2. 17.—sydd yn cael eu cyfieithu 'bod yn ddyfal,' yn Eph. 4. 3. 2 Tim. 2. 15. a 4. 9, 21. Heb. 4. 11.

ASUPPIM, אספים [*casgliadau*] 'Tŷ Asuppim.' 1 Cron. 26. 15. Cyfieithir yr un gair *trothwyau*, Neh. 12. 25. ymyl y ddalen, *trysorau*, neu *cymanfäau*. Tai Asuppim oeddynt wrth borth dehau y cyntedd: yr oedd dau, tebygol, un o bob tu y porth, lle y casglai y Lefiaid ar achlysuron i ymgynghori yn nghylch pethau perthynol i wasanaeth y deml, a lle y trysorent bob peth o ddefnydd yn y lle cysegredig hwnw. Fod y cyfryw ystafelloedd yn perthyn i'r deml, sydd eglur oddiwrth Jer. 25. 2, 3. Gwel hefyd 2 Cron. 25. 24.

ASWY, (asw) ochr yr aes, neu y darian. Edr. LLAW.

ASYN—EN—OD, (syn) *Llad.* ASINUS: creadur o ryw y march, hir-ben, hir-glust, crwm-gorph, â gwisg o hir-flew geirwon. Maent yn gyffredin yn ein gwlad ni o liw llwyd-goch, â llinell ddu ar hyd y cefn, ac ar draws yr ysgwyddau, &c. Mae yr asynod yn ngwledydd y dwyrain yn harddach, ac o faintioli mwy; ac arnynt hwy yr oedd y gwyr mawrion yn marchogaeth; megys Abraham, Dafydd, &c. Yn amser Deborah yr oedd y rhai ardderchocaf yn Israel yn marchogaeth ar asynod gwynion. Nid oedd gan gaethion Babilon, yn eu dychweliad, nemawr o anifeiliaid pynoriog, heblaw 6720 o asynod. Exod. 4. 40. Barn. 12. 4. 2 Sam. 16. 2. Neh. 7. 69. Barn. 5. 10. Yr oedd asynod gwylltion (פרא gwel Parkhurst's *Hebrew Lexicon*) yn ngwlad Canaan ac Arabia gynt; ac felly etto yn Affric. Y maent yn rhai teg iawn, ac amryw liw: yn byw mewn anialwch a mynyddoedd; maent yn gyflym, eiddigeddus o'u rhyddid, trythyll, a thueddol i yfed; ac yn gyffredin i'w gweled yn yroedd. Job 11. 12. a 39. 5—8. Ps. 104. 11.——

Digitized by Google

Yr oedd yr asynod yn greaduriaid aflan tan y ddeddf, a'u cyntaf-anedig a brynid âg oen, neu a dorfynyglid. ——Dynion dryglonus ydynt debyg iawn iddynt hwy; y rhai sydd gyndyn, digywilydd, ansefydlog, nas gellir eu dofi, ac yn ymroddi i ymborthi ar ddychymygion gweigion; y rhai ag y mae yn rhaid eu prynu trwy farwolaeth Iesu Grist, Oen Duw, neu eu bod yn golledig yn dragywydd. Exod. 34. 20. Job 11. 12. Esa. 1. 3. Hos. 8. 9.——Yr oedd yr asyn mewn anrhydedd mawr gynt, o herwydd i'r Arglwydd wneuthur defnydd o hono i wahardd ynfydrwydd Balaam. Num. xxii. 2 Petr 2. 16.——Ond anrhydedd penaf yr asen ydyw, fod Iachawdwr y byd gwedi marchogaeth yn orfoleddus arni i Jerusalem. Zech. 9. 9. Mat. xxi. Ioan xii.

'Ffrewyll i farch, ffrwyn i asyn, a gwialen i gefn yr ynfyd.' Diar. 26. 3. Yn ol ein golygiadau ni, yn y parthau hyn o'r byd, dywedem, yn hytrach, ffrwyn i farch, a ffrewyll i asyn. Ond rhaid ystyried fod asynod y dwyrain, yn enwedig y rhai o Arabia, yn llawer mwy o faint, yn brydferthach, ac yn fuanach, na'n hasynod ni yn y parthau gogleddol o'r byd; ac felly yr oeddynt gynt, diammeu, yn Palestina; a chan fod yr Arabiaid presennol yn cymeryd llawer o lafur i'w hyfforddi i gerdded yn hyfryd, y mae yn dra thebygol fod yr un arferiad yn mhlith yr hen Israeliaid. Ymddengys oddiwrth lawer o fanau yn y Bibl, mai asynod a arferent yn gyffredin i'w marchogaeth; ie, hyd yn nod eu breninoedd, Eu hasynod, gan hyny, am eu bod yn fywiog, ac wedi eu hyfforddi yn addas, nid oedd eisieu ond ffrwyn i'w cyfarwyddo; ond am fod y meirch yn anamlach, ac hwyrach yn wylltion, ac heb eu darostwng, eu gwareiddio, a'u hyfforddi, bod arnynt yn aml angen ceryddon y ffrewyll.

ATAD, אטד [*draen*] tebygol mai Canaanead hynod oedd efe, a chanddo lawr-dyrnu yn Abel-Mizraim. Gen. 50. 10.

ATAROTH, עטרות [*coronau*] 1. Dinas yn llwyth Gad, y tu draw i'r Iorddonen. Num. 32. 34.——2. Dinas ar derfyn meibion Ephraim, rhwng Janoha a Jericho: Jos. 16. 7. tybir mai yr un yw ag Ataroth-Adar, adn. 5, ac yn pen. 18. 13.——3. Ataroth-Beth-Joab, neu tŷ Joab, yn Judah. 1 Cron. 2. 54.

ATEB—IAD, (at-eb) gwrtheb.—1. Gwneuthur ymddiffyniad o flaen brawdle. 2 Tim. 4. 16.——2. Dywedyd mewn cydsyniad âg arall. Deut. 27. 15.——3. Dechreu llefaru. Dan. 2. 26.——4. Dwyn tystiolaeth. Gen. 30. 33.——5. Ufuddhau i alwad. Esa. 65. 12.——6. Caniatau yr hyn a ofynir mewn gweddi. Ps. 27. 7.——7. Rhoddi cyfrif. Job 9. 3. a 40. 2.——8. Talu y pwyth. Ezec. 14. 7.——9. Cynhebygu, dwyn tebygoliaeth. Diar. 27. 19. Gal. 4. 25.

ATER, אטר [*cauedig*] ei hiliogaeth a ddychwelasant o'r caethiwed. Ezra 2. 16.

ATGAS. Edr. ADGAS.

ATTAL, (at-dal) cadw, rhwystro, lluddias, goludd.

> Gwell maen garw a'm *attalio*,
> Na maen llyfn a'm gollyngo. *Diar.*

'Na cham attal.' Lef. 19. 13. Iago 5. 4.—'Na attal air.' Jer. 26. 2.—'Attal dy law.' 2 Sam. 24. 16.—Attal gweddi, sef peidio gweddïo. Job 15. 4.—'Yr hwn a gyfododd Duw, gan ryddhau gofidiau angeu; canys nid oedd bosibl ei attal ef ganddo.' Act. 2. 24. Yr oedd yr Arglwydd yn ŵr rhydd fel Mechniydd ei eglwys; yr oedd yn gyflawn ei ollwng yn rhydd; ac yr oedd yn ddigon galluog i orchfygu holl nerth angeu; gan hyny nid oedd bosibl ei attal ganddo. Wedi iddo ddyoddef yr hyn oedd gymhwys a digonol dros bechodau ei eglwys, rhyddhawyd y gofidiau angeuol a gymerodd afael ynddo. Bu yn rhwym ganddynt i radd diamgyffred: daliwyd gafael ynddo gan angeu tragywyddol a dialeddol; ond llwyr brynodd ei bobl; am hyny, Duw a'i rhyddhaodd. Gan fod yn bosibl iddo ef ateb a thalu, yr oedd yn anmhosibl ei attal ganddo. 2 Sam. 22. 5. Ps. 18. 4. a 116. 3. Eph. 1. 20. Col. 2. 12. 1 Thes. 1. 10. Heb. 13. 20.

ATTALIA, [*cynnydd, maeth*] 1. Dinas o Pamphylia, a elwir yn bresennol Sattalia.——2. Dinas yn Lycia; pob un o'r ddwy dref, tebygol, a adeiladwyd gan Attalus, brenin Pergamus. Bu Paul a Barnabas yma yn pregethu yr efengyl. Ond nid ydym yn darllen ychwaneg am Gristionogrwydd y trigolion, ond bod ganddynt esgob sefydledig yn eu plith, yn y bummed a'r chweched ganrif.

ATTOLWG—YGION—YGU, (dy-olwg) *Gr.* αιτεω *(aiteô)*, taer-erfyn, difrifol-ddymuno. Exod. 33. 18. 2 Cor. 12. 8.

ATTREG—U—WCH, (tres) oediad, arosiad amser, gohiriad; felly, diattreg, heb attreg, yw peth a ddelo yn ddioed, yn ddisymwth, heb ohirio. Esa. 30. 13.

> Gnawd wedi rhedeg *attregwch*. *Diar.*

ATTWF—YFU—ION, (twf) eildwf, eilgnwd, peth yn tyfu heb ei hau. Esa. 37. 30.

ATHALIAH, עתליה [*amser yr Arglwydd*] merch Ahab, ac ŵyres Omri, brenin Samaria, a gwraig Jehoram brenin Judah. Drwg iawn ydoedd hi ei hun, ac felly yr hudodd ei gwr a'i mab i rodio yn llwybrau ei thadau. Wedi i Jehu ladd ei mab Ahaziah, hithau a ddyfethodd y gweddill o'r hâd breninol, ac a deyrnasodd yn annuwiol chwe blynedd; nes y bu Jehoiada yn offeryn i'w lladd, a dyrchafu Joas i'r orsedd. 2 Bren. 8. 26. a xi. 2 Cron. 21. 6. a 22. 2. a xxiii.

ATHEN, *Gr.* Αθηνη, yw enw a roddid ar Minerva, duwies ddysg y Groegiaid: dinas enwog yn nhir Groeg, yn nghylch pum milltir ar hugain o du y dwyrain i Corinth, yn sefyll ar wastadedd tra hyfryd. Yr oedd yn ddinas hynod am ddysgeidiaeth, milwriaeth, coelgrefydd, a moesau da ei thrigolion. Yma ganed Solon, Socrates, Aristides, &c., philosophyddion enwog: yma yr areithiodd Demosthenes, y pen areithiwr Paganaidd: yma hefyd y ganwyd Miltiades, Cimon, Themistocles, Alcibiades, Phocion, ac amryw eraill o'r câd-flaenoriaid mwyaf enwog. Un-benaeth oedd ei llywodraeth ar y cyntaf, o dan freninoedd o deulu y Cecropiaid (Aiphtwr, yr hwn a sylfaenodd y ddinas) am 487 o flynyddoedd. Gwedi hyny cyfnewidiwyd y llywodraeth un-benol hon, i'w llywodraethu gan swyddwyr, y rhai a alwent *Archons*, neu benaethiaid. Yr ydoedd naw o honynt—un yn benaeth, a'r lleill â gwahanol swyddau iddynt. Bu y swyddwyr hyn ar y cyntaf yn cael eu hethol i'w swyddau dros eu bywydau; ond cyn pen hir amser, yr oeddynt i gael eu dewis yn flynyddol. Parhaodd y dull hwn o lywodraethu am 472 o flynyddoedd. Cyfnewidiwyd hon i lywodraeth cyfundod yn A. M. 3412. Yn nghylch A. M. 3668, gorchfygwyd yr Atheniaid gan Alexander Fawr. Gorchfygwyd hwy wedi hyny gan Syla, câdflaenor Rhufeinaidd, a daethant dan lywodraeth y Rhufeiniaid. Yn y bedwaredd a'r bummed ganrif, anrheithiwyd a dystrywiwyd hwynt gan y Gothiaid. Er y flwyddyn A. D. 1455, y maent yn barhaus dan iau gaeth y Twrc.* Nid yw ond anenwog yn bresennol; yn cynnwys o wyth i ddeng mil o drigolion.——Bu Paul yn pregethu o flaen uchel-lŷs y ddinas hon, a chafodd Dionysius, un o farnwyr y llŷs, a gwraig a elwir Damaris, ac eraill gyda hwynt, eu galw trwyddo.

* Er y flwyddyn 1830 y mae Groeg yn deyrnas annibynol, ac Athen yn brif-ddinas. Ond nid oes nemawr o arwyddion yr adferir hi i'w gogoniant cyntefig.—E.

Digitized by Google

Y mae Cristionogrwydd wedi parhau yno hyd yn hyn, o ran enw o leiaf; ac y mae ganddynt esgob yn ben arnynt. Act. 17. 16. 1 Thes. 3. 1. Edr. DAMARIS, DIONYSIUS, PAUL.

ATHRAW—ON, (traw) un wedi derbyn dysgeidiaeth a gwybodaeth, ac awdurdod a medrusrwydd i'w thraddodi i eraill. Eph. 4. 12. Edr. DYSGAWDWR.

ATHROD—WR, (athrawd) drwg-absen, enllib, cabl; absenwr, enllibiwr, cablwr, gwaradwyddwr, hortiwr. Y gair *Gr.* καταλαλους, a gyfieithir *athrodwr*, yn Rhuf. 1. 30. weithiau hefyd, *goganwr*, 1 Petr 2. 1, 12. 2 Cor. 12. 20. Un ydyw yn myned oddi amgylch, yn rhodio yn athrodwr, yn derbyn ac yn taenu enllib. Lef. 19. 16. הלך רכיל *rhodio yn fasnachwr a mân-nwyddwr yn ngwarth ei gymydog*. Diar. 11. 13. Trwy wenieithio yn anffyddlawn â'i wefusau, y mae yn dadguddio cyfrinach, ac yn ennyn cynhen. Gelyn Duw a dynion, a melldith pob cymdeithas, yw y cyfryw un; y mae ar ddelw Satan, yn llawn o'i ysbryd, ac yn brysur yn ei orchwyl. Diar. 11. 13. a 20. 19. Edr. ABSENWR.

ATHRAWIAETH, *Heb.* תורה *cyfraith* (oddiwrth ירה *dysgu, cyfarwyddo*) gweinidogaeth athraw; dysgeidiaeth âg awdurdod ynddi; yn gywir yn ol rheolau ei hegwyddorion: addysg, hyfforddiad cywir. Jer. 32. 33.—'Fy athrawiaeth a ddefnyna fel gwlaw,' &c. Deut. 32. 2. hyny ydyw, y gyfraith, yr addysg, yr ymadroddion neillduol a dderbyniais i gan Dduw; athrawiaeth yn cymeryd gafael awdurdodol: neu, yn ol Ainsworth, 'y ddysgeidiaeth a dderbyniais i.' Yr Arglwydd Iesu ydyw y Pen Athraw; y mae efe fel môr mawr, ni ellir chwilio allan ei synwyr ef, aneirif ydyw ei ddeall. Esa. 40. 28. Ps. 147. 5. Y mae athrawon yr efengyl, y rhai y mae Duw yn eu hanfon, ac yn eu cyfrif felly, fel cymylau yn derbyn eu llawnder, o ran deall, a doniau addas i draddodi y gair, o gyflawnder Crist; a thrwy arddeliad yr Ysbryd Glân, y mae yn defnynu fel gwlaw ar bechaduriaid. Y mae Paul yn cytuno â Moses yn 1 Cor. 11. 23. 'Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd, yr hyn hefyd a draddodais i chwi.' Crist, fel y mae yn Gyfryngwr, a dderbyniodd roddion i ddynion: 'Megys y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn.' Ioan 8. 28. Mae yn rhaid i athrawon dderbyn eu hathrawiaeth *gan* Dduw; sef o air Duw, fel y derbyn y cymylau y dwfr o'r môr; onidê, 'cymylau diddwfr' fyddant: nid oes dim ynddynt wrth natur ond sychder a thywyllwch; dim i ddyfrhau eu dysgyblion; ond cael eu gyru y maent gan wyntoedd eu chwantau llygredig, i sefyll uwch ben eglwysi Duw, i'w tywyllu hwynt â gwag philosophi, ac i gysgodi rhyngddynt a goleu dysglaer, a gwres cynnyrchiol, Haul Cyfiawnder. 2 Petr 2. 17. Judas 12.——'Athrawiaethau dynion:' hyny ydyw, tybiau disail, rhyw ddysgeidiaeth a fyddo yn tueddu at ryddid cnawdol; neu, deddf yr ordinhadau, yr hon y daeth Crist yn ddiwedd diddymol iddi: gwedi hyn nid oedd dim ond dynion i'w dal i fynu ac i'w dysgu. Esa. 29. 13. Col. 2. 22. Tit. 1. 14.——'Athrawiaeth Balaam,' Dat. 2. 14, (fel yr ymddengys oddiwrth Num. xxii, xxiii, a xxiv.) ydoedd cynghor Balaam i Balac, i geisio rhwydo Israel âg eilun-addoliaeth a phuteindra: yr un ydyw athrawiaeth y Nicoliaid, yn mhlith y rhai y cyfrifid godineb, a bwyta yr hyn a aberthid i eilunod, yn bethau diniwed. Dat. 2. 15.——'Athrawiaethau cythreuliaid.' 1 Tim. 4. 1. διδασκαλιαις δαιμονιων, *athrawiaethau yn nghylch demoniaid*. Macknight. Wrth y demoniaid deallai y Groegwyr math o greaduriaid o ganol-ryw, rhwng Duw a dyn. Rhoddent yr un enw hefyd ar eneidiau rhai dynion wedi eu marw, y rhai a farnent hwy eu bod wedi eu dyrchafu i anrhydedd y demoniaid o herwydd eu rhinweddau. Y rhyw cyntaf a alwent hwy, demoniaid uchafion, ac yn golygu fod iddynt natur a swydd ag a briodolwn ni i'r angelion. Y diweddaf a alwent y demoniaid isafion. Y rhai hyn oeddynt gyffelyb i saint Eglwys Rhufain. Y ddau fath hyn a addolent fel cyfryngwyr. Pan yr oedd Ysbryd Duw yn rhagfynegi y byddai rhai yn yr amseroedd diweddaf yn rhoddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, ac athrawiaethau cythreuliaid, yr ydoedd yn rhag-olygu y byddai i lawer yn yr eglwys, ar awdurdod dadguddiedigaethau gau a ffugiol, dderbyn yr athrawiaethau yn nghylch addoliad saint ac angelion, a gweddïo eneidiau allan o'r purdan: ac a'u galwodd athrawiaethau cythreuliaid, neu yn nghylch demoniaid; am eu bod mewn gwirionedd, yr un a'r hen addoliad Paganaidd y demoniaid, fel cyfryngwyr rhwng eu duwiau â dynion.

Yn mhellach, y pechod am ba un y cospwyd llawer â'r pla y gwyr meirch oedd yn rhwym wrth yr afon Euphrates, ydoedd eu gwaith yn addoli cythreuliaid (δαιμονια, *demoniaid*) sef angelion a saint, ac nid cythreuliaid, yn ystyr priodol y gair. Ni bu Cristionogion proffesedig yn addoli cythreuliaid mewn un oes. Gwel Newton's *Dissert. on the Prophecies, Dissert.* xxiii, yr hwn sydd yn traethu yn helaeth yno ar y mater hwn.

ATHRIST, (trist) galarus, prudd, trist, aflawen. Marc 10. 22. Phil. 2. 26.

ATHRWM, (trwm) trwm iawn; prudd, athrist.—'Yn poeni yr Eccles, yn athrwm.' Dat. xx. Cynnwysiad y bennod. W. S.

ATHRYWYNWR, (trywyn) dyhuddo, heddychu, ysgaru ymrafaelwyr.—'Nid oedd athrywynwr rhyngddynt hwy.' *Heb.* מציל *gwaredwr*. 2 Sam. 14. 6. ——'Ac a athrywyn rhwng cedyrn:' *Heb.* יפריד *a wahana rhwng cedyrn*. Diar. 18. 18.

AUGUSTUS, [*mawreddus, teilwng o barch*] ymerawdwr Rhufain, yr hwn a ddaeth ar ol Julius Cæsar. Luc 2. 1. Daeth i'r orsedd, A. M. 3985, pymtheng mlynedd cyn geni Crist. Bu farw A. D. 14, dwy ar bymtheg wedi geni Crist.

AUR, (air) *Llad.* AURUM; oddiwrth y gair *Heb.* אור (*aor*) *dysgleirdeb*; aur dilin, sef aur pur dechreuol; aur tawdd, aur mâl, aur clamp.

Gwell câr mewn llys nag *aur* ar fys. *Diar.*

Yr aur yw yr adwyn trymaf, puraf, a dysgleiriaf o'r holl fetteloedd; ac ar y cyfrif hwn, yr addurn gwerthfawrocaf a wisgir yn mhob oes. Y mwyaf estynadwy yw o bob dclid; tynwyd un *owns* o hono yn edef 240 o filltiroedd o hŷd. Nid ydyw yn ddarostyngedig i rwd; ac nid ydyw yn lleihau wrth ei doddi mewn tân cyffredin; ond os rhoddir yn llewyn, neu gynnullfan pelydr gwydr llosgi, ehed ymaith yn ronynau bychain; ac, weithiau, diflana yn darth mŵg; a'r hyn a fydd ar ol a gyll ei natur euraidd, ond a fydd yn rhyw fath o *vitriol*. Nid oes achos wrth dân cryf i'w doddi; cyn y rhedo yn y toddiad, ymddengys yn wyn. Y mŵn aur a geir mewn amryw fanau o'r byd: yn mŵngloddiau yr Almaen a Pheru; ac yn ronynau bychain yn gymysgedig â thywod yr afonydd Guienne, tu gorllewinol i Affrica. Y mae i'w gael mewn mŵn-gloddiau efydd ac arian, yn glampau o un pwys i bump ar hugain. Yn y cyn-oesoedd, ymddengys fod aur yn dra helaeth. Yn amser Dafydd a Solomon, yr oedd helaethrwydd mawr o hono, yn mhlith yr Iuddewon. Yr oedd y rhan fwyaf o ddodrefn a llestri perthynol i'r babell, ac wedi hyny i'r deml, naill ai yn aur, neu wedi eu goreuro.

Yn iaith y Bibl, aur, yn allegawl, a arwydda pethau ysbrydol; yn gosod allan eu purdeb a'u gwerthfawrogrwydd, eu gogoniant, eu hanllygredigaeth, a'u parhad tragywyddol. Gallai aur y babell a'r deml osod

Digitized by Google

allan ragoriaethau dwyfol, ac anfeidrol werthfawrogrwydd yr Arglwydd Iesu, yn ei berson, ei swyddau, a'i waith cyfryngol. 'Y mae ei ben,' a'r goron aur freninol arno, 'fel aur coeth,' neu fel tlws euraidd, o werth digymhar. Can. 5. 11. a 3. 11. Fel yr oedd pen aur delw Nebuchodonosor yn arwyddo mawrhydi a gogoniant ymerodraeth Babilon, felly pen aur yr Arglwydd Iesu a arwydda, rhagoroldeb ei lywodraeth, yr hwn yw Brenin y breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi; yr hwn sydd a'i deyrnas yn dragywyddol, ac ar ei lywodraeth ni bydd diwedd. Dat. 3. 18. a 8. 3. a 14. 14.——Gair yr Arglwydd a gyffelybir i aur, oblegid ei burdeb, ei werthfawrogrwydd, a'i barhad. Ps. 19. 10.——Y mae phiolau digofaint Duw yn aur, i arwyddo dwyfoldeb a phurdeb ei farnedigaethau, a'u bod yn hollol gyfiawn, diduedd, a dinwydau. Dat. 15. 7.——Gelwir yr hyn sydd geinwych, yn ddangosiadol, ac yn ddengar, yn aur, neu euraidd; felly y gelwir Babilon, 'y dref aur—phiol aur yn llaw yr Arglwydd—y pen aur.' Esa. 14. 4. Jer. 51. 7. Dan. 2. 32, 38.——Y mae gan Babilon anghristaidd yn ei llaw gwpan aur yn llawn ffieidd-dra. Dat. 17. 4. ——Wrth 'aur wedi ei buro trwy dân,' y deallir, ffydd yn Nghrist, yr hon sydd werthfawrocach na'r aur colladwy; ac yn aml yn cael ei phrofi, trwy dân erlidigaethau a phrofedigaethau, ac yn fwy pur a digymysg yn ei gweithrediadau trwyddynt. Dat. 3. 18. 1 Petr 3. 7.——'Llestri o aur,' yn 2 Tim. 2. 20. a arwyddant, gwir dduwiolion, o ran eu purdeb mewn athrawiaeth a bucheddiad; eu defnyddioldeb yn nhŷ mawr Duw, sef ei eglwys; eu gwerthfawrogrwydd, trwy eu hundeb â Christ, a phreswyliad yr Ysbryd Glân ynddynt; eu parhad, a'r parch a roddir iddynt byth mewn gogoniant tragywyddol.——'Goruwchadeiladu ar Grist, fel sylfaen, âg aur,' &c. (1 Cor. 3. 12.) ydyw uno fel aelodau eglwysig, y cyfryw ag a fyddo iachus yn y ffydd, ac yn hardd eu bucheddau; y rhai sydd yn werthfawr ac yn hardd fel aur; ac a ddaliant dân erlidigaethau a phrofedigaethau; tra y byddo eraill, y rhai ydynt goed, gwair, sofl, yn cael eu llosgi a'u difa, ac yn cilio yn ol gan boethder y tân; a thrwy hyny y mae yr adeiladwyr ffôl a'u hunodd hwy wrth eu gilydd yn cael colled, a'u gwaith yn myned yn ofer. Wrth ystyried yn fanwl y lle, yn nghyd â'i holl amgylchiadau, y mae yn ymddangos yn eglur mai hyn ydyw meddwl yr apostol. Os wrth waith y goruwch-adeiladwyr y deallwn eu hathrawiaethau, neu eu bucheddau, y mae yn anhawdd amgyffred pa fodd y bydd iddynt gael eu llosgi gan dân erlidigaethau, neu y farn ddiweddaf; na pha fodd y dichon neb fod yn gadwedig, a'u ffydd a'u bucheddiad yn gyfeiliornus. Ond y mae yr eglurhad uchod yn rhwydd, ac yn dra addysgiadol; ac yn cydgordio â geiriau yr apostol mewn perthynas i'r un achos yn 2 Tim. 2. 20. Yr adeiladwyr yw gweinidogion y gair, a'r adeiladaeth ydyw eglwys Duw yn y byd; hyn sydd eglur oddiwrth adn. 9. Yr 'aur, a'r arian, a'r meini gwerthfawr,' ydyw gwir dduwiolion; 'a'r coed, gwair, sofl,' ydyw proffeswyr gau, rhagrithiol, neu amserol, wedi eu gollwng i'r eglwys gan athrawon cenfigenus, hunanol, a phleidiol, er mwyn gwag-ogoniant, tueddiad cnawdol, a dybenion gau; neu trwy eu hanysbrydolrwydd, neu eu hanwyliadwriaeth yn y gwaith. Hwyrach iddynt drafferthu llawer wrth y coed, gwair, a'r sofl, hyn; ond colled a gawsant o'u holl lafur; eu gwaith a losgwyd, a'u dysgyblion a syrthiasant ymaith. Gwel Macknight.

AWDUR, (aw) *Llad.* Auctor: gwneuthurwr, un yn cario ei orchwyl yn mlaen gyd âg awdurdod; meistr ar ei waith. 1 Cor. 14. 33. Heb. 5. 9.

AWDURDOD—OL, 1. Gallu, rheolaeth, arglwyddiaeth: llywodraethu. Mat. 28. 18.——2. Mawrhydi ac effeithioldeb nerthol i ddeffroi y gydwybod, ac i ennill y galon. Mat. 7. 29.——3. Caniatâd, gallu, rhyddid. Mat. 21. 23. Act. 9. 14.——4. Gelwir angelion, neu ryw radd yn eu plith, *ἐξουσια, awdurdod*, neu, *awdurdodau*, pa un bynag ai angelion da, (Eph. 1. 21. a 3. 10. Col. 1. 16. 1 Petr 2. 22.) neu ddrwg. Eph. 6. 12. Col. 2. 15.

AWEL—AU, (aw-el) gwynt, chwa, chwyth.—'Awel y dydd.' Gen. 3. 8. *In the cool of the day, Saes.*, sef yn oerni y dydd. Mae y gair *awel* yn gyfieithiad cymhwys o'r gair *Heb.* רוח chwyth, gwynt, neu awel. Y mae y beirniaid dysgedig yn amrywio yn eu meddyliau am ystyr y geiriau רוח היום gan na arferir hwynt yn y Bibl ond yn y fan hon. Y mae hyn i'w weled yn yr amrywiol gyfieithiadau a roddir o'r geiriau: 'Yn *mhrydnawn* y dydd:' LXX—'Yn *oerni* y dydd:' *Saes.* a Fuller.—'Yn *llonyddwch* y dydd:' Onk. Fagius.——'Yn ngwynt y dydd hwnw,' hyny ydyw, gwynt cryf anarferol y dydd hwnw. Piscator, Junius. Geiriau cyffelyb iddynt a geir yn Can. 2. 17. a 4. 6. עד שיפוח היום 'Hyd oni *wawrio*,'—*Heb.* 'hyd oni *anadlo* y dydd.' Mae y geiriau hyn yn o agos i'r un ystyr; ac os felly, y mae 'awel y dydd' yn arwyddo y boreu. Y mae yn sylwad cyffredin, agos yn mhob gwlad, fod, mewn tywydd têg, sefydlog, awel foreuol o'r dwyrain yn chwythu, neu yn anadlu yn fywiog, pan y byddo yr haul yn nesâu i'r terfyngylch *(horizon)*; a'r gwynt tirion, iachus hwn, a eilw yr Ysbryd Glân, 'awel,' neu 'anadl y dydd.' Clywodd ein rhieni cyntaf 'lais Ihhofah Aleim yn rhodio yn yr ardd, gyda (neu לרוח *yn awel*) y dydd, a hwy a ymguddiasant (trwy euogrwydd ac ofn) o olwg Ihhofah Aleim, yn mysg prenau yr ardd.' Yr oedd dyfodiad Ihhofah atynt gyd âg amgylchiadau ag oedd yn dangos llawer o ofal a thiriondeb: nid mewn tywyllwch a tharanau dychrynadwy, nac yn mhoethder y dydd, y daeth; ond yn rhodio yn araf, yn awel hyfrydlawn y boreu. Ynddynt hwy yr oedd y cyfnewidiad a barodd iddynt ffoi i ymguddio oddi wrtho. Hwyrach fod y dull hwn o'i ddyfodiad, yn arwydd allanol o'r gwaith a wnaeth yn rhoddi gwawr hefyd, foreuol, ar fyd euog tywyll (trwy anufudd-dod Adda) trwy ddadguddio, yn ddechreuol, yr arfaeth dragywyddol mewn perthynas i gnawdoliaeth Crist, ac iechydwriaeth yr eglwys drwyddo. Anadlodd y boreu y cyhoeddwyd y newydd am Hâd y Wraig, yn hyfryd, ac yn dirion iawn ar ddyn euog. Y mae Haul Cyfiawnder, yn bresennol, uwchlaw y terfyngylch, heb un cwmwl ar ei wyneb, ac nid â byth yn fachlud dydd ar y rhai y mae Duw yn llewyrchu yn eu calonau, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist. 2 Cor. 4. 5, 6. 1 Bren. 19. 12.

'Yn ein cylch-arwain â phob awel dysgeidiaeth.' Eph. 4. 14. Y mae y rhai sydd yn blantos bwhwmanllyd yn ngwirioneddau yr efengyl, yn debyg i long ar y môr, heb un angor iddi, na llywydd arni, a'r gwynt, yn ei holl gyfnewidiadau, yn ei chario gyd âg ef, nes y byddo o'r diwedd wedi ei thaflu ar ryw greigiau, a'i dryllio yn chwilfriw. Felly y mae rhai dynion: heb adnabod un gwirionedd gyda sicrwydd deall, y mae y naill gyfeiliornad fel y llall yn eu boddhau, pan y byddo yr awel hon yn chwythu. Nid ydynt nac yn deall, nac yn brofiadol o effeithiau rhinweddol yr efengyl; heb fedru dosparthu rhwng drwg a da, y mae pob cyfeiliornad yn addas i'w hysbryd cyfeiliornus. Y mae y geiriau 'awel dysgeidiaeth,' yn arwyddo ei bod yn gyfnewidiol; yn cipio dynion yn gryf gyda hi, yn anystyriol, yn ddireswm, ac yn ddiattalfa; ac yn dyfod oddiwrth y diafol, tad dechreuol pob celwydd a chyfeiliornad. 'Dysgeidiaeth' yw; ac y mae gan y diafol ei ddysgawdwyr, sef athrawon gau ac anghristaidd, y rhai sydd, trwy ei gynhyrfiadau cryfion, yn taenu ei hâd drwg ar hyd y byd. Y mae efe yn brysur ac yn ëofn, Ie, gyda gwir athrawon Crist, i gael ganddynt,

Digitized by Google

trwy foddion, i gymysgu ei gyfeiliornadau â gwirioneddau pur yr efengyl. Esa. 28. 9. Eph. 4. 14. a 5. 6. Heb. 13. 9. 1 Cor. 14. 10. Ps. 131. 2. Mat. 11. 7, 25. a 18. 3. Rhuf. 16. 19.

AWR, ORIAU, (aw) *Gr.* ωρα; *Llad.* Hora: yn awr, neu yr awr hon, yn bresennol; yn awr hyn, allan o law; yn awr fach yr aeth, y mae newydd fyned.—Nid oes dim sôn yn y Bibl am oriau, hyd amser caethiwed Babilon. Yn Dan. 5. 5. mae y gair i'w gael gyntaf. Yr Hebreaid oeddynt yn rhanu y dydd yn bedair rhan; sef boreu, anterth, nawn, echwydd; a'r nos a ddosparthent yn dair dosparth; sef nos, hanner nos, a'r wyliadwriaeth foreu. Dan yr ymerodraeth Rufeinaidd newidiasant eu dull o ranu amser; y nos a ddosperthid yn bedair rhan, y rhai a elwid gwyliadwriaethau; pob gwyliadwriaeth yn cynnwys tair awr. Mat. 14. 25. Yn y Testament Newydd rhenir y dydd yn ddeuddeng awr cyfartal: y drydedd awr oedd yn nghylch naw o'r gloch gyda ni; y chweched, hanner dydd; y nawfed, ynghylch tri o'r gloch y prydnawn; a'r unfed awr ar ddeg, ychydig cyn machlud haul. Ioan 11. 9. Mat. 20. 1—6.——Awr, hefyd, a arwydda, unrhyw amser nodedig, pryd, neu oedfa, yn enwedig enyd bach: felly yr ydym yn darllen am awr o brofedigaeth—o farn—o farwolaeth Crist—neu ei ail ddyfodiad—gallu y tywyllwch, &c. Dat. 3. 3, 10. a 14. 7. Ioan 8. 20. Luc 22. 53.—Amser arbenig Duw, yn ol ei dragywyddol arfaeth, i wneuthur rhyw beth, yr hyn ni ddichon fod yn gynt, nac aros yn hŵy. Ioan 17. 1, &c.——Hwyrach fod awr yn arwyddo 24ain rhan o flwyddyn, neu pymtheg o ddyddiau. Dat. 19. 5.——Hanner awr o osteg yn y nef. Dat. 8. 1. Edr. Gosteg.——'Mewn un awr,' ydyw yn nghylch yr un amser, neu yn ddisymwth. Dat. 17. 12.

AWYDD—AU—AW—US—FRYD, (aw) tuedd cryf, chwant, ainc, gwanc; tueddiad cryf a phechadurus natur lygredig. Rhuf. 1. 27. Tueddiad ac awyddfryd sanctaidd, meddwl gwedi ei adnewyddu gan yr Ysbryd Glân, at yr hyn sydd dda.—'Awyddus i weithredoedd da.' Tit. 2. 14. Wedi eu rhyddhau oddiwrth bechod, a chael eu puro oddiwrth bob anwiredd, yn bobl briodol i Dduw, y mae eu cyflwr, eu hanian, a'u gwaith yn cyfateb i'w gilydd. Duw da ydyw eu Duw; gwaith da yw eu gwaith; ac y maent hwythau yn awyddus iddo, o dueddfryd sanctaidd eu meddwl. Eph. 2. 10.——'Awyddfryd y creadur sydd yn dysgwyl am ddadguddiad meibion Duw.' Rhuf. 8. 19. Y mae y gair *Gr.* αποκαραδοκια, a gyfieithir yma *awyddfryd*, yn arwyddocâu, dysgwyliad gyd â'r gradd mwyaf o ddymuniad am y cyflawniad o unrhyw beth; tebyg i fam Sisera yn edrych trwy y ffenestr, ac yn gwaeddi trwy y dellt, 'Paham yr arafodd olwynion ei gerbydau?' Barn. 5. 28. Felly y mae yr apostol yn dyfalu pob creadur, yn cyd-ofidio ac yn cyd-ocheneidio, ac yn dysgwyl yn awyddus am ddadguddiad meibion Duw yn eu holl ogoniant; dan obaith y rhyddheir yntau hefyd o gaethiwed llygredigaeth. 2 Petr 3. 13. Edr. Ochain.

AWYR—ON, (aw-yr) *Heb.* אור *(aor) Gr.* αηρ *(aer) Llad.* Aer; *Saes.* Air. Awyr yw un o'r pedair elfen, ac mae yn amgylchu y byd cyfrgrwn o ddwfr a daear. Y mae corph yr awyr yn cyrhaedd yn uchel i fynu, hwyrach hanner can milltir. Y mae pwysau yr awyr, a'i gymharu â'r dwfr, fel un i fil; y mae 2160 o bwysau o hono ar bob troedfedd ysgwâr; ac felly mae 32,400 o hono ar bob dyn, os cyfrifir pymtheg troedfedd o arwyneb i gorph dyn. Yr awyr dufewnol mewn dyn sydd yn ei gynnal dan yr holl bwysau dirfawr hyn yn allanol; ac nis gallai dyn nac anifel fyw heb y pwysau allanol hyn arno, yn gystal a'r awyr dufewnol sydd yn cyfateb. Y mae corph yr awyr fel rhwymyn am y ddaear. Y mae amnhwythedigrwydd, neu gwrthneidrwydd yr awyr, yn gynneddf ryfedd berthynol iddo. Cymer ei wasgu i le bychan iawn, hyd nes y byddo yn drymach nac aur; ac a wrthneidia drachefn pan dynir y pwysau ymaith, gyd âg egni nerthol, ac i ëangder mawr. Y mae yr awyr yn dra angenrheidiol er bywyd, iechyd, a chysur, pob creadur. Nis gall y rhan fwyaf o greaduriaid fyw hebddo, am hanner mynyd. Hebddo nis gall na choed na phlanhigion dyfu na byw, na'r adar ehedeg, na'r pysgod nofio. Heb awyr, darfyddai pob swn, pob siarad, a phob peroriaeth hyfryd, ie, iechyd a bywyd ei hun. Ffrwd o awyr yw y gwynt. Y mae yr awyr yn cydbwyso, ond fel y byddo y gwres yn ei deneuo, ac yn ei ysgafnhau; neu oerni, tarth, &c., yn ei drymhau: ac felly, mae yn ffrydio wrth ei bwys, ac yn rhedeg o un man i'r llall. Nid yw y cymylau ond casgliad o darth, a'r gwlaw sydd darth trymach na'r awyr, ac am hyny yn disgyn ar y ddaear. Pledrenau bychain anweledig yw tarth; a chan ei fod ef yn ysgafnach na'r awyr, mae yn dyrchafu i fynu. Ond pan ymuno y pledrenau bychain hyn â'u gilydd, trwy oerfel, a myned yn drymach na'r awyr, disgynant naill ai yn wlith, neu yn wlaw, neu yn eira, neu yn gesair. ——'Curo yr awyr,' a 'llefaru wrth yr awyr,' a arwydda, gweithredu a llefaru yn ofer, ac yn anfuddiol. 1 Cor. 9. 26. a 14. 9.

Geilw yr apostol y diafol, 'Tywysog llywodraeth yr awyr.' Eph. 2. 2. Y mae rhai yn barnu fod cyforddwyn (*synechdoche*) yn y geiriau, a bod y gair awyr, yn y lle hwn, yn arwyddo, fel rhan am y cwbl, yr holl fyd yma isod, a'i breswylwyr; yn mha rai y mae Satan yn gweithredu, a thrwy hyny yn llywodraethu arnynt. Eraill a farnant fod eisteddle tywysogaeth y diafol a'i angelion, ar ba rai y mae yn dywysog, yn fwyaf neillduol yn yr awyr, sef yr ëangder rhwng nefoedd a daear; o ba le y gall yn hawdd ganfod a sylwi ar bob peth, ac ar bawb o breswylwyr y byd hwn, a dewis ei gyfleusderau, o ran amser ac amgylchiadau pethau, i ddwyn yn mlaen ei amcanion ystrywgar a chythreulig yn erbyn Crist a'i achos yn y byd, ac er dystryw i eneidiau dynion. Mae yn dra amlwg oddiwrth hanes Job, fod gan Satan, trwy ganiatad Duw, gryn awdurdod ar yr awyr; ac y gall efe weithredu ar yr elfen hon, i ddybenion niweidiol iawn i ddynion, trwy ennyn tân, a chynhyrfu gwyntoedd, ac ystormydd dychrynllyd yn yr awyr. Job i, a ii. Os yw yr awyr yn eisteddle llywodraeth y diafol, esgynodd Crist, fel buddugoliaethwr, trwy yr awyr, trwy ganol llywodraeth y diafol, i'r uchelder; ac a wnaeth ffordd rydd i'w holl waredigion i'w ganlyn yn ddiattalfa gan yr awdurdodau hyn.——Gwaith y seithfed angel yn tywallt ei phiol i'r awyr, a arwydda, yn ol barn rhai, hollol ddystryw teyrnas Satan yn y byd, dros amser; pan y byddai iddo ef, a'i holl awdurdodau, gael ei rwymo, a'i fwrw o'r awyr i'r pydew diwaelod (εις τον αβυσσον) a chael cau arno, a selio arno, fel na thwyllai efe y cenedloedd mwyach dros fil o flynyddoedd. Dat. 16. 17. a 20. 2, 3. Eglur yw nad ydyw y cythreuliaid, yn bresennol, yn hollol wedi caead arnynt yn y dyfnder. Luc 8. 31. Dyma eu lle priodol; ac yno mae y tân tragywyddol wedi ei barotoi iddynt; ond trwy oddefiad Duw, i ddybenion doeth, y mae iddynt hwy radd o ryddid oddi yno, ac o esmwythder hefyd, hyd amser terfynedig. Mat. 8. 28. Marc 5. 1. Yn yr ëangder, rhwng y nefoedd a'r ddaear, lle yr awyr, y mae y diafol, y tywysog, a'i awdurdodau dano, gwedi gosod i fynu dywysogaeth a llywodraeth. Oddi yno y mae yn gweithredu ar blant anufudd-dod, i'w cynhyrfu i gyflawniad o bob llygredd; i wrthsefyll teyrnasiad grasol Crist er iechydwriaeth i bechaduriaid colledig; ac i demtio, erlid, a phoenydio holl ganlynwyr ffyddlawn Crist. Gan fod eisteddle llywodraeth Satan yn yr awyr, mae hyny yn dangos ëangder ei lywodraeth. Fel y mae yr awyr yn cylchu y ddaear oddi amgylch, felly mae y diafol â'i lywodraeth ar blant dynion dros

Digitized by Google

wyneb yr holl ddaear. Ni bu un ymerodraeth ar y ddaear mor ëang ag ydyw tywysogaeth Satan. Nid ydyw y rhan fwyaf o ymerawdwyr y byd, hyd yn hyn, yn ddim amgen na rhaglawiaid dano; a hwy a'u deiliaid yn gyffredin, yn perthynu i unbenaeth ëang y tywysog hwn. Ond er bod y diafol â'i lywodraeth mor ëang, ac wedi ei gosod i fynu yn flaenaf; etto, y mae Crist wedi dyrchafu goruwch *pob* tywysogaeth ac awdurdod, &c. Ac er bod ei freniniaeth yn fechan yn ei dechreuad, etto cynnydda yn fynydd mawr, ac a leinw yr holl ddaear, ac a faluria ac a dreulia deyrnas y diafol yn mhob dull o'i ymddangosiad ar y ddaear. Dan. ii. Eph. 1. 21.

ASAL, אצל [*yn agos*, neu *yn neillduedig*] lle a elwid felly, medd Newcome, am ei fod yn agos i Jerusalem, neu fynydd yr Olew-wydd. Zech. 14. 5.

AZARIAH, אזריה [*cynnorthwy yr Arglwydd*] enw cyffredin yn mhlith yr offeiriaid o deulu Eleazer.—1. Offeiriad yr Iuddewon. 1 Cron. 6. 9 —2. Azariah, mab Johanan yr arch-offeiriad. 1 Cron. 6. 10. Tyb'r mai yr un yw a Zechariah, mab Jehoiada.—3. Offeiriad yn amser y brenin Uzziah. 2 Cron. 26. 18.—4. Offeiriad penaf yn amser Hezeciah. 2 Cron. 31. 10. —5. Tad Seraiah, arch-offeiriad diweddaf yr Iuddewon o flaen y caethiwed. 1 Cron. 6. 14.—6. Mab Sadoc yr offeiriad. 1 Bren. 4. 2. Nid ydym yn darllen iddo ef ddyfod i'r swydd yn lle ei dad.—7. Azariah, neu Uzziah, enw un o freninoedd Judah. 2 Bren. xv.—8. Enw un o gyfeillion Daniel. Dan. 1. 6.—9. Mab Nathan, yr hwn oedd ben ar swyddogion Solomon. 1 Bren. 4. 5. —10. Prophwyd, mab Oded. 2 Cron. 15. 1.—11. Mab Jehu. 1 Cron. 2. 38.—12. Enw dau o feibion Jehosaphat, brenin Judah. 2 Cron. 21. 2.—13. Mab Hosaiah, a gyhuddodd y prophwyd Jeremiah o dwyllo y bobl. Jer. xliii.

AZAZIAH, אזיה [*cymhorth yr Arglwydd*] 1. Lefiad, a blaenor tŷ Dduw. 2 Cron. 31. 13.——2. Tad Hosea. 1 Cron. 27. 20.

AZMAFETH, עזמות [*grym marwolaeth*] mab Baroni, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 31. Yr oedd eraill o'r enw. 1 Cron. 8. 30. a 11. 32. a 27. 25. Neh. 7. 28. a 12. 29.

AZRICAM, [*cyfodi i fynu*] llywodraethwr tŷ y brenin Ahaz, ac a laddwyd gan Zichri. 2 Cron. 28. 7. 1 Cron. 3. 23. a 7. 38. a 9. 14.

AZUBA, [*a adawyd*] 1. Gwraig Aza, mam y brenin Jehosaphat. 1 Bren. 22. 42.——2. Gwraig Caleb, mab Hezron. 1 Cron. 2. 18.

# B.

BAAL, BEL, neu BELUS, *Heb.* בעל eilun-dduw y Caldeaid, y Canaaneaid, &c. Y gair *Heb.* בעל a arwydda *y llywodraethwr*, *arglwydd*, *meistr*, neu *gwr priod*. Eu duw penaf oedd efe. Dan yr enw hwn yr oeddynt yn addoli yr haul, (2 Bren. 23. 4, 11. a 17. 16. Jer. 32. 35. Hos. 4. 14.) yr hwn y tybient ei fod yn arglwydd ac yn ben-llywydd y byd. Y Caldeaid a'r Babiloniaid a addolent un o'u breninoedd cyntaf, naill ai Aser, neu Nimrod, dan yr enw hwn.

BAALA, בעלה [*ei delw*] 1. Ciriath-jearim. Jos. 15. 9. 1 Cron. 13. 6.——2. Dinas yn rhandir Simeon. Jos. 15. 29. a 19. 3.——3. Mynydd. Jos. 15. 11.

BAALATH, 1. Dinas yn Dan. Jos. 19. 44. 1 Bren. 9. 18.——2. Dinas a adeiladwyd gan Solomon. 2 Cron. 8. 6.——3. Dinas yn rhandir Simeon. Jos. 19. 32. 1 Cron. 4. 28.

BAAL-HAMON, בעל־המון [*llywodraethwr torf*] dyffryn ffrwythlon yn agos i Jerusalem, lle yr ydoedd gwinllan gan Solomon. Can. 8. 11.

BAAL-HANAN, [*arglwydd tosturi*] 1. Mab Achbor, seithfed brenin Edom. Gen. 36. 38.——2. Enw un o swyddogion Dafydd. 1 Cron. 27. 28.

BAAL-HAZOR, [*arglwydd llys*] dinas yn agos i Ephraim, lle yr oedd cneifwyr Absalom; lle y cadwodd efe y wledd gneifio, ac y lladdodd ei frawd Amnon. 2 Sam. 13. 23.

BAALIM, y rhif lliosog o Baal, yn arwyddo *duwiau*, neu *arglwyddi*, yn gyffredinol. Hos. 2. 17.

BAAL-PEOR, BAAL-PHEGOR, neu, BEELPHEGOR, [*arglwydd mynydd Peor*] eilun y Midianiaid a'r Moabiaid. Dywedir yn Num. 25. 3, fod Israel wedi ymgyfeillio â'r eilun hwn; ac yn 1 Bren. 11. 7, fod Solomon wedi codi iddo deml ar fynydd yr Olew-wydd.

BAAL-PERAZIM, בעל־פרצים [*arglwydd ymraniadau*] man yn agos i Jerusalem, lle y gyrodd Dafydd y Philistiaid i ffoi. 2 Sam. 5. 20.

BAAL-SALISA, בעל־שלשה [*arglwydd tri*, neu *y drindod*] 1. Eilun â llun tri yn un yn cydeistedd ar orsedd, fel pe buasent yn ogyfuwch. Y mae y cyfryw lun yn aml ar bathluniau yr Aipht, a gwledydd eraill. ——2. Lle, yn ol Jerome ac Eusebius, bymtheg milltir o du y gogledd i Diospolis. 2 Bren. 4. 42.

BAAL-TAMAR, בעל־תמר [*llywydd y balmwydden*] lle y bu meibion Israel yn ymladd â llwyth Benjamin. Barn. 20. 33.

BAAL-ZEBUB, BEELZEBUB, *Gr.* Βεελζεβουλ (*Beelzebul*) [*arglwydd y gwibed*, neu *y domen*] eilun-dduw y Philistiaid, teml i ba un oedd yn Ecron. 2 Bren. 1. 1. Geilw yr Iuddewon ef, 'penaeth y cythreuliaid.' Mat. 12. 24. Luc 11. 15. Yn Marc, *τω αρχοντι*, *y penaeth*. Geilw yr Iuddewon ef felly, nid fel un o benaethiaid y cythreuliaid, ond fel *y penaeth*, yn neillduol; a'r un a Satan, neu Satan, y prif wrthwynebwr. Mat. 12. 25. Tybygir fod ei enw yn arwyddo ei fod yn amddiffynwr rhag gwibed, neu o herwydd yr amldra o'r gwibed oedd yn nhemlau y Paganiaid, y rhai yr oedd lliosogrwydd yr aberthau a leddid yno yn eu gormesgyrchu yno, pan nad oedd un gwibedyn (medd yr Iuddewon) ar yr aberthau yn Jerusalem. Gwel Selden, *De Diis Syris*, *Syntag.* 2., c. 6.

Ei enw Groeg a arwydda, fod y penaf o eilunod Paganaidd yn fwy addas i fod ar domen nag mewn teml ardderchog. Trwy hwn y dywedai yr Iuddewon, yn gableddus, fod yr Iesu yn bwrw allan gythreuliaid; fel un yn bwrw allan is-gythreuliaid trwy air yr Iesu, i'r dyben i gadarnhau ei awdurdod ei hun. Hwn oedd ynddynt hwy y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân; sef cablu yr Iesu yn ngwyneb y gwyrthiau rhyfedd ac amlwg a wnaeth yr Iesu trwy nerth yr Ysbryd Glân. Y mae yr Arglwydd Iesu yn dangos yr afresymoldeb o hyny; canys os felly, yna buasai Satan wedi ymranu yn ei erbyn ei hun, ac nis gallasai ei deyrnas felly sefyll; yr hyn sydd feddwl anaddas am y cyfryw ysbryd cyfrwys a Satan, fel pe buasai yn prysuro felly ei gywilydd a'i ddystryw ei hun.

BAAL-SEPHON, בעל־צפן [*arglwydd y gogledd*,

Digitized by Google

neu y *wyliadwriaeth*]. Y dysgawdwyr Iuddewig a ddywedant, mai achlysur enwad y lle ydoedd, fod dewiniaid yr Aipht gwedi gosod i fynu ddelw ar ben craig, i fod yn warchod-dduw i'w porthladd, neu i'r wlad. Y mae eraill yn tybied mai enw tref ydyw, er nad yw hen ddosparthwyr y ddaear yn sôn dim am ei sefyllfa. Exod. 14. 2.

**BAANA**, [*yn y trallod*] 1. Mab Ahilud, llywodraethwr Taanach, Megido, a Bethsean. 1 Bren. 4. 12. ——2. Un o swyddogion Isboseth, mab Saul; efe a Rechab yn ddichellgar a'i lladdasant, ac a ddygasant ei ben at Dafydd. 2 Sam. iv. Am y weithred greulawn hon, Dafydd a orchymynodd dori eu dwylaw a'u traed ymaith, a'u crogi uwch ben llyn Hebron.

**BAASA**, בעשא [*yn ngwaith yr Arglwydd*] mab Ahia, pen tywysog llu Nadab brenin Israel; yr hwn yn ddichellgar a laddodd ei feistr, yn nghyd â'i berthynasau oll, fel y cai efe y deyrnas iddo ei hun; felly y teyrnasodd 24 o flynyddoedd. 1 Bren. xv.

**BABAN**. Edr. MABAN.

**BABEL**, בל [*cymysgedd*] enw y tŵr lle y cymysgodd Duw ieithoedd yr adeiladwyr; 'am hyny y gelwir ei henw hi (y ddinas) Babel; oblegid yno y cymysgodd yr Arglwydd (בלל יהוה) iaith yr holl ddaear.' Gen. 11. 9. Cawn hanes yn Gen. x. am y modd y gwasgarwyd hiliogaeth Noah dros wyneb y ddaear, ac y sefydlwyd hwynt yn rheolaidd, yn ol eu teuluoedd, wrth eu hieithoedd, yn eu gwledydd, ac yn eu cenedloedd. Adn. 5, 20. Yn pen. xi. yr hysbysir pa fodd y darfu i'r Arglwydd amlhau ieithoedd dynion. Dawn ragorol Duw i ddyn, fel creadur cymdeithasgar, ydyw iaith ac ymadrodd. Rhyfeddol tu hwnt i'n hamgyffred ni yw, fod symudiadau neillduol y tafod yn ngenau un dyn yn alluog i gario ei feddwl ef yn ddealladwy i glustiau un arall.

Hyd yn hyn, 'yr holl ddaear ydoedd o un iaith, ac o un ymadrodd.' Gen. 11. 1. Rhag eu gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaear, ac i wneuthur iddynt enw, annogasant eu gilydd i adeiladu dinas, a thŵr, a'i nen hyd y nefoedd; hyny yw, yn dra uchel. Yn ngwastadedd Shinar y dewiswyd y lle i ddwyn yr amcan annuwiol hwn yn mlaen. Am nad oedd amldra o geryg yn y gwastadedd hwn, gwnaethant briddfeini yn lle ceryg, a chlai oedd ganddynt hwy yn lle calch. Nid oedd eu bwriad a'u gwaith wrth fodd yr Arglwydd, nac yn unol â'i amcan i boblogi y ddaear. Yr oedd Duw gwedi gorchymyn iddynt, 'Ffrwythwch a lliosogwch, a llenwch y ddaear.' Gen. 9. 1. Yr oedd y gorchymyn hwn yn arwyddo, bod iddynt hwy ymranu ac ymwasgaru oddiwrth eu gilydd yn genedloedd, ac yn llywodraethau gwahanol, nes y byddai yr holl ddaear gael ei had-boblogi a'i llenwi. Tebygol fod, trwy gyfarwyddyd dwyfol, raniad rheolaidd gwedi ei wneuthur o'r ddaear, rhwng meibion Noah a'u teuluoedd, yn nghylch yr amser y ganwyd Peleg. Gen. 10. 25. Deut. 32. 8. Ond hyd yn hyn yr oedd yr amrywiol deuluoedd heb ymadael a'u gilydd i gyfanneddu yn yr ardaloedd gosodedig iddynt; ac nid ydynt yn foddlawn i hyny. Yn groes i drefniad Duw, gwedi ei amlygu iddynt, y mae meibion dynion (nid meibion Duw, Gen. 6. 2.) yn ymosod i adeiladu dinas, i gyd-drigo ynddi, a thŵr tra uchel, i wneuthur iddynt enw. Sylwodd yr Arglwydd gyd âg anfoddlonrwydd ar eu gwaith rhyfygus; ac 'efe a ddisgynodd, ac a gymysgodd yno eu hiaith, fel na ddeallent eu gilydd:' a thrwy hyny, yr Arglwydd a'u 'gwasgarodd oddi yno ar wyneb yr holl ddaear.'

Y mae yn dra thebygol nad oedd Noah, Sem, Eber, a'r duwiolion eraill yr amser hwnw, yn cyttuno yn y gorchwyl hwn; ac hefyd nad oeddynt yn ddarostyngedig i gerydd y gwrthryfelwyr hyn; ond bod eu hen iaith ganddynt, ac iddi barhau yn nheulu Eber; ac o herwydd hyny y gelwir hi Hebraeg.

Mewn perthynas i gymysgiad iaith, a sonir am dano, y mae llawer o wahanol feddyliau gwedi bod yn ei gylch; ac amrywiaeth, nid bychan, o amlygiadau wedi cael eu rhoddi ar y geiriau hyny. Y mae rhai awdwyr tra enwog a dysgedig, megys Vitringa, Parkhurst, Le Clerc, &c., yn barnu mai yr un peth a feddylir wrth 'bod o un iaith, ac un ymadrodd,' a bod yn gytun, bod o'r un feddwl, ac yn dwyn yr un amcan yn mlaen, megys yn Jos. 9. 2. 'I ymladd yn erbyn Josuah, ac yn erbyn Israel o un fryd.' *Heb.* פה אחד *un genau.* —'Yn un air.' 1 Bren. 22. 13. *Heb.* פה אחד *un genau.*——Wrth 'bum dinas yn nhir yr Aipht yn llefaru iaith Canaan,' (*Heb.* שפת כנען *yn llefaru gwefus Canaan)* y meddylir, eu bod yn derbyn, yn credu, ac yn cydsynio âg egwyddorion Canaan, sef athrawiaeth yr efengyl. Ac hefyd, bod y geiriau, 'na ddeallont iaith eu gilydd,' yn goddef eu cyfieithu (ישמער) *na wrandawent*, nad ufuddhaent, i eiriau neu feddyliau eu gilydd. Gen. 11. 7. Nid yw yn annhebyg iddynt amrywio yn fawr yn eu meddyliau, a'u trefn o ddwyn y gwaith mawr hwn yn y blaen. Ond wedi dwys ystyried pob peth, a barnau pawb, yr ydwyf o'r meddwl ddarfod i'r Arglwydd weithredu yn wyrthiol ryw annealldwriaeth rhyngddynt a'u gilydd o ran ymadrodd. Sonir yn pen. 10. 5. am eu hieithoedd, yn gystal ag am eu teuluoedd; ac o hyn allan, cawn fod amryw ieithoedd yn y byd, er nad oes sôn am hyny cyn hyn. Nid oedd yn beth anghyffredin cyn hyn, diammeu, i ddynion fod yn anghytun â'u gilydd, yn eu bwriadau a'u hamcanion; ond hyd yn hyn yr holl ddaear ydoedd o un iaith, dros agos i ddwy fil o flynyddoedd: ond yn Babel y cymysgodd yr Arglwydd iaith yr holl ddaear; ac oddi yno y gwasgarodd yr Arglwydd hwynt ar wyneb yr holl ddaear. Gen. 11. 9. Y mae hefyd, yn nodedig fod y cymysgedd hwn o'u hiaith hwynt wrth reol, fel yr oedd yr ieithoedd wedi eu trefnu yn ol eu teuluoedd a'u cenedloedd; ac yr ydoedd mwy o debygolrwydd, os nad oedd amrywiaeth, yn ieithoedd yr amryw gangenau o'r un teulu, nag oedd rhwng y gwahanol deuluoedd. Yr oedd ieithoedd hiliogaeth Sem, yn y dwyrain, yn tebygu i'w gilydd yn fwy nag oeddynt i ieithoedd hiliogaeth Japheth yn y gorllewin.—Pa sawl iaith a gyfododd yn y cymysgiad yn Babel? Y mae amryw feddyliau am hyn: rhai a farnant y nifer yn ddeg a thriugain; a bod deg a thriugain o wahanol genedloedd wedi eu planu yn y byd oddiwrth y gwasgariad yn Babel; ac y maent yn barnu fod Moses yn cadarnhau y farn hon yn y geiriau yn Deut. 32. 8. 'Pan gyfranodd y Goruchaf etifeddiaeth y cenedloedd, pan neillduodd efe feibion Adda, y gosododd efe derfynau y bobloedd yn ol rhifedi meibion Israel.' Hyny yw, meddant, rhanodd hwynt yn ddeg a thriugain, yn ol rhifedi meibion Israel pan ddaethant i'r Aipht. Ond tybygaf, nad ydyw yr ystyr hwn o'r geiriau yn gywir. Y bobl yn y testun, nid ydynt yr holl rifedi y rhai a wasgarwyd yn Babel, ond trigolion Canaan; ac felly, iawn ystyr y geiriau yw, Pan ranodd Duw etifeddiaeth i'r cenedloedd, pan y neillduodd, neu pan y gwahanodd feibion Adda, y gosododd derfynau y bobloedd (sef y rhai hyny a gawsant Ganaan, yr etifeddiaeth arfaethedig i Jacob) yn ol rhifedi meibion Israel; sef rhoddodd i'r Canaaneaid y cyfryw ddarn, neu ardal o dir, y gwyddai a fyddai yn etifeddiaeth ddigonol i feibion Israel. Un peth sydd amlwg, pa nifer bynag oedd o ieithoedd, nad oedd llawer o honynt yn gwahaniaethu ond ychydig iawn oddiwrth eu gilydd. O herwydd bu Abraham, Hebread, yn byw yn mhlith y Caldeaid, yn teithio yn mhlith y Canaaneaid a'r Philistiaid, a bu yn trigo rai misoedd yn yr Aipht; ac etto, nid ydym yn canfod anhawsdra mawr iddo gyfeillachu â hwynt. —Er bod gwahaniaeth ieithoedd ond bychan yn y dechreuad, etto, mewn amser, aethant yn dra gwahanol,



Digitized by Google

ac yn annealius i'w gilydd. Ac felly yn amser Joseph, pan ddaeth ei frodyr i brynu ŷd yn yr Aipht, cawn fod ieithoedd yr Hebreaid a'r Aiphtiaid mor wahanol, fel yr oedd yn rhaid wrth gyfieithydd rhyngddynt. Fel hyn, iaith y byd a gymysgwyd yn Babel, a derbyniodd yn mhob oes gyfnewidiadau mwy, nes yr aethant fel y maent yn bresennol.

Gwelwch mor hawdd ydyw i'r Arglwydd ddiddymu cynghor y cenedloedd. 'Y mae efe yn diddymu amcanion pobloedd.' Ps. 33. 10. Job 5. 12. Diammeu fod y gorchwyl rhyfedd hwn gwedi bod o fuddioldeb nid bychan i achos llesg Duw yn y byd yn yr amser hwnw. Trwy wasgaru annuwiolion oddiwrth eu gilydd, torodd eu grym hwynt i radd mawr i gario dim yn mlaen yn erbyn gwir dduwioldeb; ac yr oedd cymysgiad eu hiaith yn attalfa barhaus hefyd arnynt rhag eu dyfod at eu gilydd drachefn. Er i'r tŵr a'r ddinas gael eu hadeiladu wedi hyn i raddau mawrion o wychder, a'u bod yn eisteddfod eilun-addoliaeth dros oesoedd a chenedlaethau; etto, attaliwyd hwynt dros yr amser presennol, hyd nes daeth achos Duw i chwanegu cryfder, trwy neillduad Abraham a'i hiliogaeth oddiwrth y cenedloedd eraill, ac i addoliad Duw gael ei sefydlu yn eu plith.

Y mae cymysgiad iaith plant dynion gwedi bod hyd yn hyn yn ryw radd o attalfa ar daeniad cyfeiliornadau a gau athrawiaethau yn y byd. Y mae llawer offeryn ffyddlawn yn llaw y gelyn gwedi ei derfynu trwy hyn, fel nas gall wasgaru ei wenwyn mor gyffredin, ac i'r graddau y dymunai. Ac os oes peth anghyfleusdra yn tarddu oddiwrth hyn, y mae llawer o lesâd hefyd. Y Duw, yr hwn a welodd yn dda yr amser hwn gymysgu iaith y ddaear, a all, pan y myno, symud y rhwystr hwn oddiar ffordd taeniad yr efengyl, fel y gwnaeth ar ddydd y Pentecost (Act. ii.) neu trwy roddi i'w weision hawsder a rhwyddineb i ddysgu ieithoedd yr amrywiol genedloedd yr elont atynt.——Adeiladu tŵr Babel a benodir gan Amseryddwyr A. M. 1758. gwedi y dylif, 102; cyn Crist, 2160.

BABEL, neu BABILON, prif ddinas Caldea, yn Asia, un o'r dinasoedd ardderchocaf a fu erioed mewn bod. Dull ei gosodiad oedd bedronglog cywir, yn sefyll ar wastadedd mawr; ei chylch-fesur oedd pum milltir a deugain. Trwch y muriau, neu y tewdwr, oedd hanner cant o droedfeddi; eu huchder dau cant. Yr oedd ar y muriau 310 o dyrau, neu yn ol barn eraill, 250, sef tri rhwng bob porth, a saith ar bob congl. Gwel Lowth ar Esa. xiii. Y mae rhai yn dodi y mesurau yn fwy. Y mae Prideaux yn dodi y cylch-fesur yn 60 o filltiroedd; trwch y muriau, 87 troedfedd; a'u huchder, 350. Yr oedd y tu allan i'r ddinas wedi ei amgylchu â chlawdd dwfn, llawn o ddwfr, wedi ei weithio bob ochr â phriddfeini. Ei heolydd oeddynt union o'r naill borth i'r llall; pob heol, yn ol Prideaux, yn bymtheg milltir ei hŷd. ——Daliwch sylw, y mae amryw hen awdwyr Paganaidd wedi rhoddi hanesion am faintioli y ddinas fawr hon; megys Quintius Curtius, Clitarchus, Diodorus Siculus, Ctesias, Herodotus, Strabo, Pliny, Solinus; ond y maent yn amrywio ychydig i gyd yn y mesurau. Y mesur lleiaf a roddir am gylch y ddinas yw pum milltir a deugain, y mesur a roddir i lawr gan Esgob Lowth, ar ol Strabo; a'r mwyaf yw triugain milltir, y mesur mae Prideaux yn gogwyddo ato, ar ol Herodotus, yr hwn a fu yn Babilon.——Rhifedi yr heolydd oeddynt hanner cant; 25 o honynt yn croesi y 25 eraill, yn gywir onglog. Wrth fod yr heolydd yn trosi eu gilydd fel hyn, yr oedd y ddinas wedi ei dosparthu yn 676 o bedroredd (*squares*) pob un o honynt yn bedair ystâd a hanner bob ochr. Yr oedd cainc (os nad oedd yr afon i gyd) o'r afon fawr Euphrates, yn rhedeg trwy ganol y ddinas. Y rhan hyny ag oedd yn sefyll o du y dwyrain i'r afon, oedd yr hen ddinas; a'r rhan arall, o du y gorllewin, a gafodd ei ychwanegu ati hi gan y brenin Nebuchodonosor. Efe a wnaeth, hefyd, ddyfr-ffosydd tra hynod o du y dwyrain i'r afon, i ddwyn y dyfroedd allan o'r afon hòno, pan fyddai yn dylifo, i'r afon Tigris, cyn y delent hwy i Babilon. Yr oedd y penaf o honynt mor helaeth a dwfn, fel y gallai llongau mawrion nofio ynddo: am hyny galwyd ef Naarmalea, sef yr afon freninol. Un o'r dyfr-ffosydd hyn a feddylir wrth Chebar. Ezec. 1. 3. a 3. 15, 23.——Yr oedd y llyn a gloddiwyd gan Semiramis yn gymaint rhyfeddod a dim perthynol i Babilon. Yr oedd o du y gorllewin i'r ddinas: yr oedd, yn ol y cyfrif lleiaf, yn ddeugain milltir ysgwâr, yn 160 o gylch, ac yn bymtheg troedfedd ar hugain o ddyfnder: y cwbl wedi ei weithio tu fewn â phridd-feini wedi eu syth-gydio â phyg-loyn gludiog. Gwnaeth Semiramis y llyn hwn i'r dyben i droi dyfroedd yr afon Euphrates iddo, tra y byddai yn gwneyd crom-nen (*vault*) ar draws lle yr afon, o'r naill balas i'r llall, bob ochr i'r afon. Yr oedd y grom-nen hon yn ugain priddfaen o ddyfnder, yn ddeuddeg troedfedd o uchder, ac yn bymtheg o led: gorphenwyd y gwaith mewn dau cant a thriugain o ddyddiau, yna dychwelwyd yr afon i'w lle arferol. Wedi gorphen y gwaith hwn, cadwyd y llyn a'r dwfr-ffos (*canal*) oedd yn arwain iddi mewn trefn, a chafwyd hwynt yn ddefnyddiol, nid yn unig pan fyddai yr afon yn gorlifo ei cheulanau, ond hefyd i gadw dwfr trwy y flwyddyn, megys mewn cronfa, i'w ollwng trwy argaeau achlysurol, i ddyfrhau y wlad oddi amgylch. I'r llyn hwn y trowyd yr afon i'w sychu pan gymerwyd y ddinas. Yr oedd ceulanau yr afon gwedi eu gweithio o bob tu â phriddfeini yr un fath a'r llyn, a'r gwaith o'r un lled yn y ddinas a lled y muriau o amgylch y ddinas. Beth bynag a wnaeth Semiramis tu ag at y pethau hyn, diammeu mai Nebuchodonosor a'u perffeithiodd. Ond blodeuyn y glaswelltyn yw holl wychder a gogoniant dyn.—— O bob tu i'r afon yr oedd porthfa, a mur uchel gwedi ei adeiladu o'r un defnyddiau, ac hefyd o'r un trwch a'r muriau ag oedd yn cylchynu y ddinas. Yn y muriau hyn, gyferbyn a phob heol oedd yn arwain i'r afon, yr oedd pyrth pres; cant o rifedi i gyd. Yr oedd y pyrth hyn yn cael eu cadw yn agored y dydd, ac yn nghauad y nos. Dyma y pyrth y mae yr Arglwydd yn addaw eu tori a'u dryllio o flaen Cyrus. Esa. 45. 2.——Yr oedd grisiau o'r pyrth i'r afon, yn gyfleusdra i'r trigolion, y rhai a fyddent yn croesi yr afon o'r naill ochr i'r llall mewn cychod cyn i'r bont gael ei hadeiladu. —Yr oedd y bont a adeiladwyd ar draws yr afon yn nghanol y ddinas yn adeilad godidog a harddwych. Yr oedd yn ystâd, neu wythfed ran o filltir o hŷd, sef lled yr afon; ac yn ddeg troedfedd ar hugain o led. Wrth ddau ben i'r bont hon yr oedd dau balas harddwych, rhwng pa rai a'u gilydd yr oedd cymundeb trwy gromnen dan ddyfrlle yr afon. Yr oedd y palas o du y dwyrain i'r afon yn dair milltir a thri chwarter o amgylch; ond yr oedd y palas o du y gorllewin yn saith milltir a hanner o gwmpas. Yn y palas diweddaf hwn yr oedd y gerddi crogedig, mor hynodol o glodfawr ac enwog mewn hen hanesiaeth. I foddhau ei frenines, Amyite, yr adeiladodd Nebuchodonosor hwynt wrth ei balas newydd. Yr oeddynt yn bedwar cant o droedfeddi ysgwâr o faintioli. Yr oeddynt gwedi eu cyfodi i uchder muriau y ddinas ar fwäau ceryg, mewn dull amryw uchel grynswdd o ddaear, y naill ben ar y llall ar y bwäau, nes cyrhaedd uchder y muriau. Yr oedd y cwbl o honynt yn cael eu cynnal gan fwäau mawrion, y naill uwch ben y llall, ac yn cael eu cadw yn gadarn wrth eu gilydd â mur mawr oddi amgylch. Yr oedd cymaint dyfnder daear yn y gerddi hyn, fel y gallai y coedydd mwyaf wreiddio ynddynt. Yr oedd yn tyfu ynddynt bob math o goedydd, planigion, llysiau, a blodau hyfryd, a phêr-arogl. Ar y darn uchaf o'r adeiladaeth hon, yr oedd peiriant, neu fath o sugnedydd, i dynu dwfr i fynu o'r afon i ddyfrhau yr holl erddi. Rhwng y bwäau yr oedd ystafelloedd tra ëang a hardd-

Digitized by Google

wych, y rhai oeddynt yn bur oleu, ac yn rhoddi golygiad allanol tra hardd a hyfryd.

Yn y gerddi crogedig hyn, tebygol, yr oedd Nebuchodonosor yn rhodio, ac yn edrych oddi yno ar yr holl ddinas fawr, yn ei holl ogoniant, pan waeddodd —'Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenindy yn nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi!' Am y geiriau rhyfygus hyn, yr awr hono, y syrthiodd barn Duw arno, a gyrwyd ef oddiwrth ddynion, i bori gwellt fel eidionau, dros saith mlynedd, hyd oni thyfodd ei flew fel plu eryrod, a'i ewinedd fel ewinedd adar. Dan. 4. 30, &c.

Yr oedd teml Bel, Belus, neu Baal, yn yr hen balas, yn adeilad hynod, yn neillduol o herwydd y tŵr oedd yn sefyll yn ei ganol. Yr oedd ei fôn yn sefyll ar chwarter milltir o dir pedair-ongl, yn cynnwys wyth o dyrau, y naill uwch ben y llall, ac yn meinhau yn raddol tu a'r pen uchaf. Yn ei uchder yr oedd yn rhagori ar y peiramidiau uchaf yn yr Aipht. Yn mhob uchder llofft yr oedd ystafelloedd ëang, â neni bwäaog iddynt, cynnaliedig gan golofnau. Ar ben yr adeilad ryfedd hon yr oedd arsyllfa i dremio ar y sêr; trwy ba gyfleusdra y daeth y Caldeaid yn fwy hyddysg mewn seryddiaeth na'r holl genedloedd ereill. Dywedir fod delw Bel, neu Belus, ynddi, i gyd o aur pur, o faintioli hynod, ac yn werth £21,000,000. Gwel Rollin's *Ancient History*.——Yr oedd amryw gapeli â delwau ereill, heblaw hon, yn y deml; canys oddi yma y taenodd eilun-addoliaeth dros wyneb y rhan fwyaf o'r ddaear.——Nimrod oedd sylfaenydd y ddinas fawr hon; Belus, a'r frenines Semiramis, a chwanegasant at ei maintioli a'i haddurniadau; a Nebuchodonosor a'i gorphenodd, ac a'i gwnaeth yn un o ryfeddodau y byd. Ar ol ei farwolaeth, dechreuodd ymerodraeth Babilon wanhau a dihoeni. Cymerodd Cyrus y ddinas trwy ddichell gyfrwys. Trôdd yr afon ag oedd yn rhedeg trwy y ddinas allan o'i rhedegfa gyffredin i leoedd gwedi eu cloddio iddi gan ei filwyr. Y noson y gwnaeth Belsassar wledd fawr i'w dywysogion, ac y parodd ddwyn y llestri aur ac arian a ddygodd ei dad o'r deml yn Jerusalem, fel yr yfai efe a'i gymdeithion ynddynt: yn nghanol y loddest fawr, anghofiwyd, trwy ddirgel ragluniaeth Duw, gau y pyrth pres oedd yn arwain o'r afon i fynu i'r ddinas. Gwedi sychu yr afon, a'r pyrth i gyd yn agored, a phawb yn anwyliadwrus, daeth Cyrus a'i fyddinoedd yn hawdd i mewn, a chymerasant gwbl feddiant o honi; lladdasant Belsassar, a'r holl deulu breninol, a llawer iawn o'r trigolion. Gwedi hyny, bu yn meddiant y Mediaid a'r Persiaid. Rhoddodd Cyrus, ar hyn, ryddid i'r Iuddewon caethion i ddychwelyd i'w gwlad eu hunain, ar ol 70 mlynedd o gaethiwed.

Cymerwyd Babilon gan Cyrus, A. M. 3468.—Cymerwyd hi gwedi hyny gan Alexander Fawr, yn nghylch A. M. 3672.—Yn nghylch A. M. 3870, anrheithiwyd hi yn ofnadwy iawn gan un o freninoedd y Parthiaid. Oddeutu amser ein Hiachawdwr yr oedd agos yn ddiffaethwch. Pedwar cant o flynyddoedd gwedi hyny, yr oedd y fan y safodd y ddinas odidog hon, yn gae hela i freninoedd Persia. Trwy hanesion teithwyr diweddar, sef Rawolf (teithiwr o'r Almaen, yr hwn a fu yno yn y flwyddyn 1574) De la Valle (Rhufeinwr, a fu yno yn y flwyddyn 1616) a Hanway (gwr boneddig o Loegr, yr hwn a fu yno yn y ganrif ddiweddaf), hysbysir i ni, fod y fan lle y safodd mor llawn o fwystfilod, a chreaduriaid gwenwynig, fel nas gellir nesâu ato, ond yn amseroedd oerfel y gauaf. Gwel Hanway's *Travels, vol.* iv., *part* 3., *chap.* 10.—Prideaux's *Connection*.—Rollin's *Ancient History*.—*Ancient Universal History*.—Bishop Newton *on the Prophecies*.—Vitringa, a Lowth ar Esa. xiii. a xiv. ——Wrth ddarllen ei hanes, ac edrych arni yn ei holl ogoniant a'i chadernid, pwy a allasai ddychymygu y buasai byth yn cael ei hollol ddiddymu. Gallasai hi, os gallasai neb, ddywedyd—'Byth y byddaf arglwyddes: —myfi sydd, ac nid neb arall ond myfi; nid eisteddaf yn weddw, ac ni chaf wybod beth yw dieppiledd.' Esa. 47. 7, 8.

Yr oedd y Babiloniaid yn hynod o anfoesgar a ffiaidd yn eu bucheddau: cofféir am y fath ffieidd-dra ac aflendid yn arferedig yn eu plith, ag sydd yn rhy frwnt i'w hadrodd. Hefyd, gwlad y delwau cerfiedig oedd hi; ac mewn eilunod yr oeddynt hwy yn ynfydu. Jer. 50. 38. Cenedl falch, chwerw, lidiog, a chreulawn iawn ydoedd. O herwydd y pechodau hyn, a'u creulondeb tu ag at ei bobl yn neillduol, Esa. 47. 6, 7, 8. y llidiodd yr Arglwydd wrthynt yn ddirfawr, ac a'u dystrywiodd â dinystr cyflawn ac ofnadwy, er siampl a rhybydd i bawb hyd ddiwedd amser. Y mae y prophwydoliaethau a'r hanesiaeth am ddinystr Babilon, yn cyfateb mor hynod, fel y maent yn dra theilwng o ychwaneg o'n sylw.

1. Y mae Cyrus, yr hwn a oresgynodd Babilon, ac a drosglwyddodd ymerodraeth Babilon i'r Mediaid a'r Persiaid, yn cael prophwydo am dano wrth ei enw, dros gan mlynedd cyn ei eni, a chant a thriugain mlynedd cyn cymeryd Babilon ganddo. Esa. 44. 28. a 45. 1, 3, 5.

2. Nodwyd amser ei goresgyniad, i'r flwyddyn, gan Jeremiah, pen. 25. 11, 12. sef deng mlynedd a thriugain o'r amser y llefarodd y brophwydoliaeth; sef y bedwaredd flwyddyn i Jehoiacim mab Josiah, brenin Judah, a'r gyntaf i Nebuchodonosor, brenin Babilon.

3. Rhag-fynegwyd y byddai i deyrnasoedd y cenedloedd ymgynnull: y byddai i Ararat, Minni, ac Aschenaz, gael eu galw i'w herbyn. Esa. 13. 4. Jer. 51. 27. Felly yr oedd byddinoedd Cyrus, y rhai a aethant yn erbyn Babilon, yn gynnwysedig o'r amrywiol genedloedd a orchfygwyd ganddo o'r blaen. Yn mhlith ereill, y mae y cenedloedd a enwir gan y prophwyd yn cael eu coffâu gan yr hanesydd Xenophon. Gwel *Cyropæd. lib.* v. & *lib.* xiii.

4. Rhag-fynegwyd, hefyd, y byddai i gedyrn Babilon beidio ag ymladd, ac aros o fewn eu hamddiffynfëydd; o herwydd pallu o'u nerth. ac iddynt fyned yn wrageddos. Jer. 51. 30. Felly y gwnaethant: wedi ymladdfa neu ddwy, yr oedd Cyrus yn methu eu denu y tu allan i'w muriau, i ymladd âg ef. *Cyropæd. lib.* v. a vii.

5. Prophwydwyd y byddai i'r afon gael ei sychu cyn cymeryd y ddinas; yr hyn oedd yn annhebyg iawn wrth ystyried lledander a dyfnder yr afon: yr oedd yn ddwy ystâd o led, ac uchder pen dyn ddwywaith o ddyfnder, fel yr oeddynt yn golygu y ddinas wedi ei hamddiffyn yn well gan yr afon na'r muriau; ond, er hyny, y mae y prophwydi yn rhag-fynegi y byddai i'r afon gael ei sychu: 'Yr wyf yn dywedyd wrth y dyfnder, Bydd sych: a mi a sychaf dy afonydd.—Sychder fydd ar ei dyfroedd hi; a hwy a sychant.—A mi a ddyhysbyddaf ei môr hi, ac a sychaf ei ffynonau.' Esa. 44. 27. Jer. 50. 38. a 51. 36. Fel y crybwyllwyd eisioes, trôdd Cyrus ddyfroedd yr afon allan o'u lle a'u rhedegfa gyffredin, i ddyfr-ffosydd a chloddiau dyfnion, a llyn mawr cyfagos, nes yr oeddynt yn feision, ac yn rhydiol, a hawdd myned trwyddynt.

6. Cymerwyd hi ar noswaith y wledd fawr flynyddol, pan oedd y trigolion yn meddwi, yn gloddesta, ac yn chwareu. Yn ddisymwth, ac yn hollol ddiarwybod i'r Babiloniaid, o herwydd hyny, y cymerodd y gelyn feddiant o'u dinas. Fel hyny yr oedd y prophwyd gwedi dywedyd y byddai: 'Myfi a osodais fagl i ti, a thithau, Babilon, a ddaliwyd, a heb wybod i ti: ti a gafwyd ac a ddaliwyd.—Myfi a feddwaf ei thywysogion hi, a'i doethion, ei phendefigion, a'i swyddogion, a'i chedyrn: a hwy a gysgant

Digitized by Google

hûn dragywyddol, ac ni ddeffroant.' Jer. 50. 24. a 51. 39, 57. Esa. 21. 3, 4.

7. Y mae ei diffeithdra a'i hanghyfannedd-dra presennol, gwedi eu dariunio gan y prophwydi gyd â'r fath fanylrwydd a phe buasent gwedi eu gweled â'u llygaid. Gwel Esa. 13. 19, 20, 21. a 14. 22, 23. a 47. 1—9. Jer. 50. 1, 13, 23, 39, 40. a 51. 13, 26, 37, 42, 43.

Y mae yr holl bethau hyn, wrth eu manwl ystyried gyd â'u gilydd, a chytuniad y prophwydoliaethau â'r hanesiaeth, yn ymddangos yn dra hynodol, ac yn cadarnhau dwyfoldeb y prophwydoliaethau tu hwnt i bob dadl; ac hefyd yn dangos y defnydd a ddylem wneyd o hanesyddiaeth, a'r buddioldeb o honi, tu ag at iawn ddeall yr Ysgrythyrau Sanctaidd; yn enwedig y prophwydoliaethau, o ran y cyflawniad o honynt. Mae rhagluniaethau yn cyflawni ac yn dehongli y prophwydoliaethau; ac wrth y Gair dwyfol y mae yr holl ragluniaethau yn cerdded. Hanes rhagluniaethau Duw yw pob hanesiaeth gywir; a holl ragluniaethau Duw hyd ddiwedd amser, a gyflawnant yn gywir ac yn gwbl y prophwydoliaethau sydd hyd yma heb eu cyflawni. Mae syrthiad Babilon Baganaidd yn wystl o syrthiad Babilon Anghristaidd; bydd dinystr y naill fel y llall yn ddisymwth, yn aruthr, yn hollol, ac yn dragywyddol; a bydd gorfoledd a rhyddid i eglwys Dduw yn canlyn cwymp y naill fel y llall. Dat. 14. 8. a xvii, xviii, xix.

Yn Esa. xiv, cawn gân, neu awdl orfoleddus, fuddugoliaethus ar gwymp Babilon, y fwyaf gorchestol a hardd a gyfansoddwyd erioed. Y mae yn rhyfeddol o ran y wawd-iaith fwyaf llymdost, a'r brydyddiaeth fwyaf ardderchog, adnabyddus mewn un iaith yn y byd.*—Mae y prophwyd yn darlunio trigfanau gwlad angeu fel mewn cynhwrf; ac ysbrydoedd yr hen ormesdeyrnoedd yn ngwlad angeu yn cyfodi i gyfarfod brenin Babilon, ac i'w gyfarch ar ei ddyfodiad i'w plith; ac yn ei ddirmygu yn wawdlyd ar ei ddarostyngiad i'r un cyflwr o wendid ac iselder a hwy eu hunain. Y mae ei feddwl uchel, a'i ddirfawr ddarostyngiad, yn cael eu darlunio mewn dull a geiriau hynod o nodedig. Adn. 14—20. Yn ddiweddaf, y mae yr Arglwydd ardderchog yn ymddangos i gyhoeddi y ddedfryd ofnadwy yn erbyn Babilon, hollol ddystrywiad y teulu breninol, a chyflawn ddinystr y ddinas; gwaredigaeth ei bobl, a dystryw eu gelynion; ac yn cadarnhau y cwbl, mewn modd ofnadwy ac arswydus, â'i lŵ. Adn. 24—28.

BABILON, neu BABILONIA, oedd enw y wlad lle yr ydoedd y ddinas enwog Babel yn sefyll; weithiau gelwid hi Caldea; yn awr gelwir hi Irak. Ps. 137. 1. Yr ydoedd y dalaeth hon yn cynnwys dinasoedd Babilon, sef Vologesocerta, Borsippa, Idiccara, Cocha, Sura, a Pompeditha. Derbyniwyd Cristionogaeth yma yn bur foreu, gan yr Iuddewon ac eraill. Gwedi dystrywio Jerusalem, bu gan yr Iuddewon synagogau enwog yn y wlad hon. Gan y Rabbïon yn perthyn i'w hathrofâu yn y wlad hon, y gwnaethpwyd y Talmud mwyaf, a elwir Talmud Babilon; argraffiad diweddaf o ba un, yn Amsterdam, sydd yn ddeuddeg cyfrol. Oddi yma yr ysgrifenodd Petr, yn ol barn rhai, un, os nad ei ddau Epistol at ei frodyr gwasgaredig. Y mae Diodorus Siculus (*lib.* i.) a Josephus (*lib.* xxi, cap. 5.) yn rhoddi hanes am ddinas, a elwid Babilon, yn ngwlad yr Aipht. Y mae rhai beirniaid diweddar yn meddwl i Petr ysgrifenu ei Epistol cyntaf o'r Babilon hon. Eraill a farnant nad un o'r ddwy a feddylir wrth Babilon yn 2 Mac. 8. 20. ond rhyw le yn agos i Galatia, lle y trigai y Galiaid, neu y Galatiaid. Annhebyg iawn, barnant, fod 120,000 o'r Galatiaid yn fyddinoedd yn Babilon yn Caldea. Amlwg yw, nad dinas oedd y Babilon a enwir yn 2 Mac., ond talaeth o wlad.

Y mae Rhufain Babaidd yn cael ei galw Babilon, i nodi ei heilun-addoliaeth, ei choel-grefydd, ei haflendid, a'i brynti, a'r erlidigaethau creulawn yn erbyn eglwys Dduw sydd yn ei chalon anghristaidd. Dat. 14. 8. a xvii, xviii.

BABILONIG, *Heb.* שנער Sinor neu Shinar; talaeth yn Babilon.—'Mantell Babilonig.' Jos. 7. 21. אדרת שנער mantell harddwych, o amrywiol liwiau, y cyfryw ag a ddyfeisiwyd gan drigolion Sinar, neu a wnelid yno. Darlunir y Babiloniaid fel rhai yn hynod am eu gwisgoedd gwych a hardd, gan y prophwyd. Ezec. 23. 15. Yr oedd yn wych ac yn werthfawr, ac effeithiodd yr olwg arni ar Achan i'w chwennych, yn groes i orchymyn Duw: a chwedi ei chwennych, efe a'i cymerodd hi, gyda phethau eraill; a thrwy hyny efe a dynodd ddystryw arno ei hun, ei deulu, a'r hyn oll a feddai, er rhybydd i bawb i ufuddhau i'r gorchymyn, yn groes i bob deniadau i'r gwrthwyneb. Hwyrach fod ar y fantell hon ryw luniau, wedi eu cymeryd oddiwrth wrthddrychau eilun-addolgar a ffiaidd, ac am hyny yn wrthddrych neillduol o anfoddlonrwydd Duw.

BACA, *Heb.* בכא yr hwn a gyfieithir *morwydd*, yn 2 Sam. 5. 23, 24. 1 Cron. 14. 14, 15. Yn Ps. 84. 6. y mae y gair gwedi ei adael heb ei gyfieithu. Tebygol ei fod yn arwyddo rhyw frysgen, neu goeden, pa un ai y morwydd neu ryw bren arall, sydd annilys. Dywed rhai fod y morwydd yn tyfu mewn rhyw dir sych; ond nid ydyw hyny yn eglur.*——Y LXX, a'r *Llad. Vulg.* a gyfieithant y geiriau *dyffryn wylofain —dyffryn y dagrau:* felly hefyd y Dr. M. Nid oes ond un llythyren o wahaniaeth rhwng y gair *Heb.* בכה (*bacha*, deigr) a'r gair בכא (*baca*). Hwyrach fod agos berthynas rhwng y ddau air â'u gilydd; a bod y pren baca yn defnynu gwydd-lud (*gum*) yn ddagrau neu yn ddefnynau allan o hono.

Tebygol mai rhyw ddyffryn ydoedd, garw, caregog, yn llawn o fân-wydd; nas gellid yn hawdd iawn fyned trwyddo heb lafur a dagrau hefyd. Yr ydoedd y cyfryw ddyffrynoedd i'w cael yn ngwlad Judea, y mae yn eglur oddiwrth Deut. 21. 4. Lle sych, diffaeth, ydoedd ef, heb un ffynon, ond a gloddid i ddal dwfr gwlaw. Dichon fod cyfeiriad yn y geiriau at y ffynon y bu tywysogion Israel yn ei chloddio yn yr anialwch. Num. 21. 16, 17, 18. Y mae rhai yn darllen y geiriau fel hyn:—'Y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca, a'i gwnant ef (sef yr Arglwydd) yn ffynon.' Cawn yn y geiriau hyn ddarluniad o deithiau yr Iuddewon yn finteioedd i Jerusalem, ar y gwyliau arbenig. Yr oedd anhawsderau, a chynnaliaeth iddynt ar y ffordd; yr oedd yno ffynonau, a llynoedd, a'r gwlaw yn eu llenwi, yn y dyffrynoedd geirwon yr oeddynt hwy yn myned trwyddynt. Maent yn wynfydedig ar eu teithiau, trwy y gynnaliaeth yr oeddynt yn ei gael; ac yn wynfydedig, yn sicr, ar ben eu taith, ger bron Duw yn Sïon. Y mae ffordd pob credadyn i'r Jerusalem uchod, trwy ddyffryn garw, wylofus y byd hwn. Dan gerdded ac wylo yr ânt, yn aml, yn ceisio yr Arglwydd eu Duw; ond gwyn eu byd, am mai tu a Sïon y mae eu hwynebau: ac nis byddant heb ffynonau ac afonydd o ddwfr bywiol yr Ysbryd Glân yn ei ddylanwadau a'i gysuron, ar eu taith, nes y delont bob un ger bron Duw. Jer. 50. 4. a 31. 8, 9. a 2. 13. Esa. 35. 6.

* The former part of this prophecy (contained in Chap. xiii, and xiv.) is one of the most beautiful examples that can be given, of elegance of composition, variety of imagery, and sublimity of sentiment and diction, in the prophetic style; and the latter part consists of an Ode of supreme and singular excellence. *Bishop* Newton's *Dissert. on the Prophecies, Dissert.* x.—— Gwel Lowth, *Prælect.* 28.

* Gwel Pool's *Synops. in loc.*

Digitized by Google

a 41. 18. Zech. 14. 17. Ps. 122. 7. a 23. 1, 2. Hos. 6. 3. Deut. 32. 2.

BACH—AU, *Llad.* HARPAX: offeryn cam at amrywiol wasanaeth: offeryn i ddal pysgod. Mat. 17. 27. Yn allegawl, arwydda, gallu attaliol Duw; ei drefn ragluniaethol yn rhwystro pechaduriaid yn eu hamcanion drygionus a bradwriaethus. Esa. 37. 29. Ezec. 38. 4.

BACH, *(o ran maintioli)* 1. Dyn bach, plentyn bychan o ran oed; hefyd, gair o anwyldeb a arferir yn aml. 1 Sam. 22. 19. Luc 2. 21, 27.——2. Credinwyr ieuainc. 1 Cor. 3. 1.——Enyd bach, ychydig, neu byr amser. Esa. 26. 20.

BACHELL—U, (bach) maglu, rhwydo, disodli. —'Y rhai a fwriadasant fachellu fy nhraed.' Ps. 140. 4. Y gair *Heb.* דחה a gyfleithir yma *bachellu*, a gyfleithir *erlid*, Ps. 35. 5.—*gwthio*, Ps. 118. 13.—*bwrw allan*, Jer. 51. 34. Priodol ystyr y gair ydyw, gwthio—bwrw—bwrw i lawr—bwrw allan. Yr oedd gelynion y Psalmydd am ei ddisodli, ei gwympo, neu am attal ei gerddediad, trwy ei rwydo, a'i faglu ef. Adn. 5. Oblegid hyn, y mae yn dyrchafu ei enaid at yr Arglwydd mewn deisyfiadau taerion am iddo ef ei gadw. Y mae yn cydnabod fod gallu Duw i'w gadw yn drech na'u gallu hwy i'w daflu ef i lawr; a bod ei ddoethineb ef yn drech na'u holl gyfrwysdra hwy i osod maglau iddo. Y mae ffydd yn gweled yn yr Arglwydd bob digonolrwydd, yn ngwyneb pob angen, a phob perygl. 1 Sam. xxiii. Job 5. 13. Ps. 71. 4. a 140. 1.

BACHGEN—AIDD—IGRWYDD, (bach-cen) *Heb.* בחר (*bachur*) mab ieuanc, herlod, llanc, hog, hogyn, rhocas, cryn-ddyn, mab-gwas. Gen. 21. 14, 15, 16.—'Pam aethym yn wr, mi roisym heibio vachceneiddrwydd.' 1 Cor. 13. 11. W. S.

Rhodd ac ad-rodd, rhodd *bachgen. Diar.*

'Bachgen a aned i ni.' Esa. 9. 6. —'Bachgen bychan a'u harwain.' Esa. 11. 6. Mae yn dra thebygol mai yr un person a feddylir yn y ddau le hyn, sef yr Arglwydd Iesu. O ran ei berson rhyfeddol, mae yn fachgen, ac yn Dduw cadarn: o ran ei swydd, mae yn frenin, a'r llywodraeth ar ei ysgwydd. Dyben penaf ei lywodraeth yw, darostwng a gwareiddio pechaduriaid gwylltion, penrydd, creulawn, a'u gwneuthur yn ufudd iddo. Gwedi eu dofi a'u llareiddio trwy yr efengyl, y maent yn cymeryd eu harwain ganddo gerllaw dyfroedd tawel, ac ar hyd llwybrau cyfiawnder. Ps. 23. 1, 2. Hefyd, y mae yr Arglwydd Iesu yn arwain ei braidd, trwy rai bychain, fel offerynau, sef ei weinidogion; y rhai ydynt fychain yn eu golwg eu hunain; ac, fel yntau, ydynt addfwyn a gostyngedig o galon. Nid ydynt yn arfer mawredd, awdurdod, a gallu dynol, yn llywodraethu yr eglwys; ni raid iddynt wrth y cyfryw arfau; y mae y praidd yn adnabod llais Crist ynddynt a thrwyddynt; ac yn cymeryd eu harwain ganddynt gyda hyfrydwch a pharodrwydd meddwl. Mat. 11. 25. a 19. 4, 10. 1 Cor. 14. 20. 1 Tim. 4. 12.——'Pan oedd Israel yn fachgen, mi a'i cerais ef.' Hos. 11. 1. Y mae yr Arglwydd yn y geiriau hyn yn hòni, 1. Fod ei gariad ef tu ag at Israel yn hen; carodd ef yn foreu iawn, sef er tragywyddoldeb. Yr oedd yn cynnwys cariad o ewyllys da tu ag ato er tragywyddoldeb; amlygodd y cariad hwn o ewyllys da tu ag ato yn foreu, sef pan oedd yn fachgen ieuanc, ac yn ddigymhorth.——2. Y mae ei gariad hefyd tu ag ato yn rhad, ac yn anhaeddiannol —pan oedd yn fachgen, heb ddysg, heb wybodaeth, na rhinwedd—pan oedd yn fachgen, wedi ei daflu ar wyneb y maes, i'w ffieiddio, ac yn ymdrybaeddu yn ei waed:—Wele, y pryd hwnw, dy amser oedd amser serchogrwydd; cerais di yr amser hwnw. Ezec. 16. 2—5, &c.——3. Y mae ei gariad o ewyllys da tu ag ato yn tori allan mewn gweithred dda; mabwysiadodd ef, ac a'i gwnaeth yn fab iddo, a'i galwodd ef o'r Aipht, o'r caethiwed caled, ac o ddwylaw ei elynion creulawn, ac a'i neillduodd iddo ei hun, fel ei blentyn, i'w ymgeleddu a'i hyfforddi.

Y mae Israel yn arwyddo, 1. Y rhai o genedl Israel ag oeddynt yn Israeliaid yn ol y cnawd yn unig; i ba rai y dangosodd yr Arglwydd lawer o diriondeb a haelioni.——2. Y rhai oeddynt Israeliaid yn ol y cnawd, ac hefyd, yn wir Israeliaid yn ysbrydol; yn meddiannu yr un ffydd, a'r un ysbryd a'u tad Jacob, i ymdrechu gyda Duw.——3. Y rhai nad ydynt yn Israeliaid yn ol y cnawd, ond yn ysbrydol yn unig. Carodd Duw y rhai hyn yn rhad, ac er tragywyddoldeb; mabwysiadodd hwynt yn blant iddo, ac a'u galwodd trwy yr efengyl o dywyllwch a thrueni eu cyflwr caeth wrth natur. Yn yr ystyr diweddaf hwn o'r gair, y mae yn perthyn i holl Israel ysbrydol hyd ddiwedd amser. Jer. 2. 2. a 31. 3, 20. Mal. 1. 2, 3. Rhuf. 9. 11—13. Exod. 3. 10. a 6. 6. a xiii. a 14. 5. Cafodd yr ysgrythyr hon gyflawniad yn Nghrist, fel y cawn sylwi mewn lle arall. Mat. 2. 15.

BAD—AU, (ba) *Gr.* σκαφη (*scaphê*) ysgraff, cafn unpren, cwch, ceubal. Act. 27. 16. Mae yn amlwg fod cwch y llong o'r Aipht, yn yr hon yr ydoedd Paul yn morio, yn nhwym wrthi, ac yn nofio gyda hi.—Dywed haneswyr na byddent yn ngwledydd y dwyrain yn eu dwyn ar fwrdd y llongau; wrth godi y bad i fynu, gan hyny, y mae i ni ddeall, iddynt ei dynu yn gyfagos i ben ol y llong, a'i ddiogelu yno; ac wrth ollwng y bad i waered i'r môr, (adn. 30.) y mae i ni ddeall, iddynt ei ryddhau, a'i ollwng yn mhellach oddiwrth y llong. Gwel Syr John Chardin, Parkhurst, Harmer.

BAEDD—OD, (aedd) mochyn heb ei ddyspaddu, aflan wrth y gyfraith. Baedd gwyllt, baedd cenfaint. Y baedd gwyllt sydd greadur creulawn, dialgar ofnadwy. Y baedd o'r coed, neu y baedd gwyllt, yr hwn oedd yn tirio gwinllan Duw, oedd y Philistiaid a'r Syriaid; neu yn hytrach yr Assyriaid, y Caldeaid, a'r Rhufeiniaid; y rhai, trwy haerllugrwydd a chreulondeb, a ddystrywiasant yr Iuddewon. Ps. 80. 13.

BAGAD—AU, (cyfnewidiad o magad) swp, sypyn; lliaws, llawer, torf.—'A bagad o bobl y ddinas oedd gyda hi.' Luc 7. 12.—'A llawer.' W. S. a Dr. M. —*Much people. Saes.* Luc 8. 54. Ioan 11. 19.

BAGLOG, (bagl) crwbach-ffonog, ffon-faglog.—'A hen esgidiau baglog am eu traed.' Jos. 9. 5.—'Hen esgidiau maglog.' Dr. M. *Old shoes and clouted. Saes.* ונעלות בלות ומטלאת ברגליהם 'A sandalau neu esgidiau wedi heneiddio, neu eu treulio, a'u clytio, am eu traed.' Tybygaf fod *maglog*, gan y Dr. M. yn fwy addas cyfleithiad yma na *baglog:* nid ydwyf yn deall pa fath esgidiau yw esgidiau baglog: ond oni buasai *clytiog* yn well na phob un o'r ddau?* canys hyny yw priodol ystyr y gair מטלאת—Leigh.

BAHURIM, בחרים [*dewisol*] dinas yn agos i Jerusalem, y daeth Simei allan o honi i regu Dafydd, yn ei ffoad rhag Absalom ei fab. 2 Sam. 16. 5. Ac yma y bu Ahimaas a Jonathan yn ymguddio mewn pydew. 2 Sam. 17. 18. Gelwir y ddinas hon hefyd, Bochar, Bochara, Choraba, a Choramon.

BAI, BEIAU, trosedd, camwedd, camwgl, gwyd, caredd.—'Nid wyf yn cael dim bai ar y dyn hwn.'—'Dim yn haeddu marwolaeth nis gwnaed iddo.' Luc 23. 4, 15. Ioan 19. 4, 6. 'Nid wyf yn cael dim bai,' (ουδεν αιτιον) dim achos, dim cyhuddiad gwedi ei wneyd yn dda, trwy brawf eglur, yn ei erbyn. Gellir meddwl yn sicr y dylid cyfleithu adn. 15. fel hyn, 'Dim

* Gwel Poole's *Synops.*

Digitized by Google

yn haeddu marwolaeth nis gwnaed *ganddo*.' Mae yr ystyr yn gofyn hyny; ac, yn ol barn rhai beirniaid dysgedig yn yr iaith Roeg, goddef y geiriau eu cyfieithu felly. Gwel Campbell. Y maent yn cynnwys tystiolaeth Pilatus, drachefn a thrachefn, am ddiniweidrwydd Crist. Nid am ei feiau ei hun y dyoddefodd, ond dros ein pechodau ni: 'y cyfiawn dros yr anghyfiawn.' Ps. 35. 7. 1 Petr 3. 18.

BAICH, BEICHIAU, pwn, llwyth, clud, pwys, bwrn.

Nid *baich* ond y *baich* o bechod. *Diar.*

1. Cymaint ag a all dyn yn hawdd ei gario. Jer. 17. 22.——2. Rhyw beth trwm, ag a fyddo yn blino dynion o herwydd ei bwysau, a'r gofid sydd yn ei ganlyn; megys llafur a gwasanaeth caled. Exod. 2. 11.——3. Gofalon, ac ofnau, a gofidiau y meddwl, &c. Ps. 55. 22.——4. Yr anmherffeithrwydd a welir yn ein dyledswyddau: 'Dygwch feichiau eich gilydd:' Gal. 6. 2. hyny ydyw, gan eich bod i gyd yn ddarostyngedig i wendidau, cynneliwch eich gilydd mewn cariad. Y mae pob pechod yn faich. Ps. 38. 4. Y mae pwysau pechod yn ein gwasgu i lawr (Heb. 12. 1.) ac y mae yn faich trwm i eraill, sydd yn ei adnabod ac yn ei gasâu.——5. Pob peth bychan yn faich, o eisieu gallu i'w ddwyn. Preg. 12. 5.——6. Llygredd natur bechadurus; yr hyn y mae pob dyn wedi ei fywhau trwy ras yn teimlo ei bwys. Ps. 38. 4. Job 7. 20.——7. Y seremoniau deddfol, a thraddodiadau dynol, y rhai sydd galed ac anhawdd eu cyflawni. Act. 15. 28. Mat. 23. 4. Luc 11. 26.——8. Swydd llywodraethwyr gwlad neu eglwys, i iawn farnu pethau pwysig. Exod. 18. 22. Esa. 9. 6.——9. Y mae addoliad ffurfiol a rhagrithiol dynion yn faich ar Dduw. Esa. 1. 14. a 43. 24.

'A'm baich sydd ysgafn.' Mat. 11. 30. 'Baich Crist' ydyw ei holl wasanaeth; y gorchymynion a'r athrawiaethau a ddysgodd; pob peth perthynol i ufudd-dod iddo, fel athraw, ac fel brenin. Y mae ei faich yn ysgafn ynddo ei hun: ac yn marn pawb sydd yn ei gario. Nid ydyw yn drwm ond i bechaduriaid llygredig, i'r rhai y mae pob peth sanctaidd yn faich, o herwydd halogedigaeth eu meddwl.

1. Mae y baich yn ysgafn ynddo ei hun; o ran ei wasanaeth a'i addoliad, y mae Duw yn anfeidrol deilwng i'w wasanaethu a'i addoli. Dyled gyfiawn iddo ef, a dedwyddwch y dyn ydyw. Edr. ADDOLI.

2. Mae holl drefniadau a defodau ei addoliad yn ysgafn:—yn rhesymol, yn gyfiawn, yn hawdd, ac yn ddidraul. Y maent felly, os cymherir hwynt â gwasanaeth pechod, traddodiadau dynion, a choel-grefydd. Hefyd, os cymherir hwynt â iau drom holl ddefodau cysgodol Moses.

3. Mae yr athrawiaethau a ddysgodd yn ysgafn:—canys cyfeirio y pechadur y maent ato efe ei hun, am bob peth perthynol i'w hiechydwriaeth, ac angenrheidiol i esmwythâu arnynt. Adn. 28.

4. Mae ei orchymynion yn ysgafn, hefyd, ynddynt eu hunain. Pe buasai y gorchymyn i ni garu pechod, y byd a'i bethau; i addoli delwau meirwon, a chablu ei enw sanctaidd, buasent yn orchymynion trymion iawn: ond beth a all fod yn ysgafnach, ac yn fwy cyfiawn ac addas, na charu Duw perffaith hawddgar, ei addoli, a'i barchu? Nid gorchymyn i ni gario beichiau trymion, na theithio cant o filltiroedd y mae, ar y seithfed dydd, ond gorphwys a'i sancteiddio. Pe buasai yn gorchymyn i blant ddianrhydeddu eu rhieni—yn gorchymyn i ddynion gasâu, lladd, halogi, a difenwi eu gilydd, a lladrata oddiar eu gilydd, buasai y baich yn drwm: ond yn gwbl groes i hyny, mae cariad, purdeb, cyfiawnder, a thiriondeb addas i Dduw yn ymddangos yn ei holl orchymynion. Nid ydynt drymion i neb ond cythreuliaid, a dynion o'r un ysbryd llygredig â hwynt.

Mae baich Crist yn ysgafn yn marn pawb sydd yn ei gario, oblegid, 1. Yn yr adenedigaeth y maent wedi derbyn yr ysbryd perthynol i'r gwaith. 1 Ioan 5. 3. Mae y gyfraith gwedi ei hysgrifenu ar eu calonau, a'i dodi yn y meddwl. Ps. 37. 21.

2. Oblegid, trwy eu hundeb â Christ, y mae y gorchymynion wedi eu hysgafnhau o'u melldithion trymion, dyledus iddynt am eu troseddu.

3. Oblegid eu bod yn gwasanaethu meistr trugarog iawn, 'yr hwn sydd yn maddeu eu holl anwireddau, ac yn iachâu eu holl lesgedd' yn ei waith. Ps. 103. 2, 3.

4. Oblegid eu bod yn eu holl waith yn cael eu nerthu gan Iesu Grist. Phil. 4. 13. Esa. 9. 3. a 10. 27. Exod. 17. 12. Jer. 31. 33. Ezec. 36. 26, 27. Ps. 40. 8. a 119. 14, 24, 103, 104. Ioan 3. 16. a 13. 34, 35. a 15. 3, 12. Rhuf. 7. 22. a 8. 17. Eph. 2. 8. 1 Petr 2. 3. Diar. 3. 17.

BAITH, בית [tŷ]. 'Aeth i fynu i Baith.' Esa. 15. 2.—'Y mae yn myned i fynu i Beth-Dibbon.' Lowth. Enw yr un lle, medd efe, ydyw y ddau air, ac y dylent gael eu cysylltu, fel yn y Caldaeg a'r Syriaeg. Eraill a farnant mai yr un ydyw a Beth-Meon, (Jer. 48. 23.) neu Beth-Baal-Meon (Ezec. 25. 9.) neu Beth-Peor. Yr oedd teml ynddi, mae yn debygol, i Baal neu Peor.

BALAAM, בלעם [*dinystriwr y bobl*] oddiwrth y gair *Heb.* בלע *(bola)* yr hwn sydd o'r un ystyr a'r gair *bol* yn Gymraeg, am fod y bol yn dystrywio yr hyn a êl iddo: mab Beor, yr hwn ydoedd yn preswylio yn Pethor. Geilw Petr enw ei dad ef Bosor, yr un person, ond fod gwahanol enwau iddo; neu wahanol sŵn yn cael ei roddi i'r un llythyrenau, mewn amrywiol ieithoedd.* 2 Petr 2. 15. Dinas ydoedd Pethor yn Mesopotamia, sef Aram neu Syria. Num. 23. 7. Deut. 23. 4. Y wlad o ba un y galwyd Abraham, y lle y gwasanaethodd efe dduwiau dyeithr. Gen. 24. 4, 10. Jos. 24. 2. Act. 7. 2. Yn y wlad hon y ganwyd y patrieirch i gyd oddieithr Benjamin. Am hyny y geilw ei hiliogaeth eu tad Jacob yn Syriad ar ddarfod am dano. Deut. 26. 5. Gwlad ffiaidd oedd am eilun-addoliaeth.——Ymddengys oddiwrth ei hanes yn Num. xxii, xxiii, xxiv, xxxi, fod Balaam yn ei ddydd, yn ŵr enwog yn ngwledydd y dwyrain, fel offeiriad, ac fel prophwyd. Barn y rhan fwyaf ydyw, fod Balaam unwaith yn brophwyd Duw, ac iddo ef wrthgilio oddiwrth Dduw, a throi yn ddewin: ond y mae hyny, medd Scott, yn bur annhebyg, ac yn ddigyffelyb yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Mae yn ymddangos yn fwy credadwy mai dewin enwog ydoedd; ond ei fod wedi cyrhaedd rhyw wybodaeth am y gwir Dduw, trwy glywed, hwyrach, am y gwyrthiau rhyfeddol a wnaeth Moses yn ei enw, ac iddo ymgais am ddefnyddio yr ychydig wybodaeth oedd ganddo, yn y modd goreu er ei elw a'i glod, trwy roddi allan mai prophwyd IEHOFAH ydoedd; a'i fod yn cael dadguddiedigaethau oddi wrtho.——Pan oedd yr Israeliaid yn teithio tua Chanaan, trwy yr anialwch, Balac brenin Moab, wedi gweled beth a wnaethant hwy i'r Amoriaid, a ofnodd yn fawr, efe a'i bobl. Anfonodd genadau i gyrchu Balaam i felldithio y bobl. Yr oedd yn arfer yn mhlith llawer o genedloedd, i felldithio y gelynion yr oeddid yn ymladd â hwynt; nid rhyfedd, gan hyny, i Balac, ar yr achos hwn, gyrchu gwr mor enwog a Balaam. 'Mi wn,' medd Balac, 'mai bendigedig fydd yr hwn a fendithiech di, a melldigedig fydd yr hwn a felldithiech.'——Wedi i henuriaid Moab fyned at Balaam â gwobr dewiniaeth gyda hwynt, Duw a ymddangosodd i Balaam, ac a barodd iddo mewn geiriau eglur,—'Na ddos gyda hwynt; na felldithia y bobl, canys bendigedig ydynt.'

* Gwel Witsius.

Digitized by Google

Nacaodd fyned gyda hwynt, yn ol gair yr Arglwydd. Hyd yma y mae pob peth yn ymddangos yn dda; ac nid oes dim i'w weled yn peri ammheuaeth am dano ef. Ond brenin Moab a anfonodd drachefn fwy o dywysogion, ac anrhydeddusach na'r rhai cyntaf, gan addaw gwobr, cyfoeth, ac anrhydedd iddo, hyd eithaf ei ddymuniad. Ar hyn, mae y llen-gêl yn syrthio, a drwg ei galon yn dechreu ymddangos. Nis gallwn lai na chanmol ei wroldeb, pan y mae yn dywedyd, 'Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn fyned dros air yr Arglwydd fy Nuw, i wneuthur na bychan na mawr.' Num. 32. 18. Geiriau rhagorol, a hollol gymhwys ac addas. Felly y gweddai ymddygiad pawb fod, ar bob achos. Ond nid fel ei eiriau yr oedd calon Balaam yn wirioneddol; yr oedd hòno yn myned ar ol cybydd-dod. Y mae yn ymgynghori, yn gohirio, ac fel yn ammeu yn nghylch achos cwbl amlwg. Dylasai wrthod y cynnyg gyda ffieiddiad, heb feiddio ymofyn â Duw yr ail waith, gwedi cael eisioes ateb pendant ar yr achos. Beth! a gyfnewid Duw ei feddwl, a goddef i'r bobl hyny gael eu melldithio, y rhai y dywedodd ychydig o'r blaen eu bod hwy wedi cael eu bendithio? Pa ynfydrwydd! Rhoddodd iddo ef genad yn ei ddig. Hos. 13. 11.

Y mae yr Arglwydd yn goddef aneirif o bethau nad ydynt yn gymeradwy ganddo; ac y mae yn ddigofus wrth y rhai hyny a gymerant achlysur oddiwrth ei oddefiad, i gyflawni eu chwantau. Y maent hwy yn bwriadu drwg, ond y mae Duw yn bwriadu daioni. Gen. 50. 20. Hefyd, dichon fod y cymhelliad i'r weithred yn ddrwg, pan y byddo y weithred ei hun yn dda; a thra byddo yr Arglwydd yn cymeradwyo y weithred, dichon ffieiddio yr achos cymhelliadol o honi, yn y gwneuthurwr. Yr achosion cymhelliadol yn Balaam, oedd cybydd-dod a balchder. 2 Petr 2. 15. Ceisiodd, yn ddrygionus, er mwyn budr-elw, felldithio y rhai ag y mae Duw wedi eu bendithio. Cafodd genad i fyned gyda thywysogion Moab gyd âg anfoddlonrwydd Duw, yn ddigon amlwg; yn ganlynol, aeth gyd â'r awyddfryd mwyaf. Ond ni oddefodd yr Arglwydd iddo fyned yn mhell, heb dystiolaeth hynod o'i anfoddlonrwydd. 'A dig Duw a ennynodd am iddo fyned: ac angel yr Arglwydd a safodd ar y ffordd i'w wrthwynebu ef.' 'Cafodd gerydd am ei gamwedd: asen fud, gan ddywedyd â llef ddynol, a waharddodd ynfydrwydd y prophwyd.' Yr oedd hon yn wyrth neillduol iawn: gwnaeth Duw ddefnydd o un o'r creaduriaid mwyaf hurt, i geryddu un o ddoethion y byd hwn. 2 Petr 2. 16.

Rhodd Duw i ddyn ydyw galluoedd ymadrodd; ac nis gallwn amgyffred pa fodd yr ydym yn tòri geiriau wrth lefaru. Nid oes un achos i ni ryfeddu, gan hyny, fod yr Arglwydd yn defnyddio genau asen i wahardd ynfydrwydd y prophwyd. Defnyddiodd Satan y sarph, 'y cyfrwysaf o holl fwystfilod y maes,' i lefaru wrth Efa; (Gen. 3. 1.) ond cymerodd yr Arglwydd asen, y creadur mwyaf hurt, a'r dylaf o'r cwbl, i lefaru wrth Balaam. Yn ei law y mae yr offerynau mwyaf anolygus, yn aml, yn ateb y dyben. Yr oedd yn ddarostyngiad mawr i Balaam ffroen-uchel, yr hwn oedd yn ymffrostio iddo 'weled gweledigaeth yr Hollalluog,' i'r Arglwydd ymddangos i'r asen, a llefaru drwyddi, cyn i Balaam ei hun weled y weledigaeth. Os ystyrir yr achos yn ddwys ac yn drwyadl, y mae yn fwy rhyfeddod clywed Balaam yn bendithio Israel, na chlywed yr asen yn argyhoeddi y dewin. Llywodraethodd Duw ei dafod i lefaru yr hyn oedd yn hollol groes i ddymuniadau ei galon, a'i holl olygiadau am elw bydol, yr hyn a'i cychwynodd ef o'i wlad ei hun, yn groes i orchymyn Duw. Pan agorodd yr Arglwydd lygaid Balaam, 'efe a welodd angel yr Arglwydd yn sefyll ar y ffordd, a'i gleddyf noeth yn ei law,' fel pe buasai yn barod i'w ddystrywio ef ar unwaith. 'Wele,' meddai yr angel, 'mi a ddaethum allan yn wrthwynebydd i ti; canys cyfeiliornus yw y ffordd hon yn fy ngolwg.' r hyn, y mae Balaam yn gwaeddi, 'Pechais.' Ond cyfaddefiad ffuantus ydoedd; yn proffesu ei fod yn foddlawn i ddychwelyd yn wyneb y perygl, pan yr oedd ei galon ar yr un pryd, yn myned ar ol gwobrwy. Rhoddwyd math o ganiatâd i Balaam fyned, os oedd yn ewyllysio hyny, yn wyneb holl ymddygiad yr Arglwydd tu ag ato yn yr achos. 'Dos gyd â'r dynion; a'r gair a lefarwyf wrthyt, hyny yn unig a leferi.' Balaam a aeth, wedi y cwbl, ac a ymgeisiodd drachefn a thrachefn, trwy swynyddiaeth, i felldithio y bobl; ond ni lwyddodd. Melldithiodd Amalec y cyntaf, a'r Rhufeiniaid y diweddaf o'u gelynion. Gwel Lightfoot.——Gorfod arno gyfaddef, 'Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau: Ni wel efe anwiredd yn Jacob. Nid oes swyn yn erbyn Jacob, na dewiniaeth yn erbyn Israel.' Yn lle eu melldithio, dechreuodd eu bendithio. Ond y mae yn amlwg nad o'i fodd y gwnaeth efe hyn: 'Pa fodd y rhegaf yr hwn ni regodd Duw? a pha fodd y ffieiddiaf yr hwn ni ffieiddiodd yr Arglwydd?' Ei ewyllys oedd eu melldithio; ond ni oddefodd Duw iddo. Megys y gwaharddodd Duw ynfydrwydd y prophwyd trwy enau asen fud, felly y gwnaeth ddefnydd o dafod Balaam, i lefaru pethau rhagorol, yn brophwydoliaethol, am ddyfodiad Crist—am helynt ei bobl hyd ddiwedd amser—ac am farnedigaethau Duw ar yr Amaleciaid, y Ceneaid, ac eraill. Gan y cawn achlysuron i ymhelaethu, dan eiriau eraill, ar amryw bethau neillduol yn y prophwydoliaethau hynod hyn, ni chwanegaf arnynt yn bresennol.

Wedi i Balaam fethu a melldithio Israel, yn awyddus fyth am y wobr, rhoddodd gynghor melldigedig a chythreulig iddynt, i hudo meibion Israel i wneuthur camwedd yn erbyn yr Arglwydd. A dechreuodd y bobl odinebu gyda merched Moab. Galwasant y bobl i aberthau eu duwiau; a bwytaodd y bobl, ac addolasant eu duwiau—'Ac ennynodd digofaint yr Arglwydd yn erbyn Israel.' Num. 25. 1, 2, 3. a 31. 16. Fel hyn, trwy ddichellion cythreulig, y bu o fwy o niwed i Israel, trwy eu maglu i bechu yn erbyn yr Arglwydd, na phe buasai yn eu melldithio tra y buasai byw.—Gwedi hyn, lladdwyd ef yn rhyfel Israel yn erbyn y Midianiaid. Num. 31. 8.

Y mae hanes y dyn hwn yn hynod ac yn arswydus. Wele ynddo ddyn a chanddo adnabyddiaeth o'r gwir Dduw—Duw wedi ymddangos iddo amryw weithiau, a llefaru wrtho—wedi cael ei rybuddio hefyd gan Dduw, mewn ffordd tra rhyfedd, a'i ynfydrwydd yn cael ei wahardd gan asen fud—Duw yn bendithio meibion Israel trwyddo, ac yn llefaru yn brophwydoliaethol trwyddo, mewn modd hynod o oleu a gogoneddus—yn gweled y fath ddedwyddwch mewn gwir grefydd mewn byd arall, fel y torodd allan, ac y dywedodd, 'Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau:'—etto, y dyn hwn, wedi y cwbl, â'i galon heb fod yn uniawn gyd â'r Arglwydd; 'yn *caru* gwobr anghyfiawnder;' ac, er mwyn budr-elw, yn myned yn mlaen, yn wybodus, yn groes i ewyllys Duw, gyda bwriad parhaol i gael y wobr, er gwaethaf bob gwrthwynebiad a rhwystr a roddodd Duw ar ei ffordd; ac yn y diwedd yn rhoddi y cynghor mwyaf cythreulig a allasai y diafol ddodi yn ei galon ei roddi i neb. Y mae ei siampl yn dangos yn amlwg, yr hyn na ddylem byth ei anghofio, sef fod gwir grefydd yn gynnwysedig mewn syniadau ysbrydol, a thueddiadau sanctaidd y galon, yn tarddu oddiwrth wir adnabyddiaeth ysbrydol o Dduw, ac nid mewn doniau mawrion, gwybodaeth helaeth, na chyflawniadau coel-grefyddol, a'r galon heb erioed ei darostwng i ufudd-dod i'r Arglwydd. Fel y bu fyw, felly y bu farw, gyda gelynion Duw. Gwas y diafol ydoedd, a bu ei ddiwedd yn gyfatebol i'w weithredoedd. 2 Cor. 11. 15.

'Ac a'u collwyd trwy dwyll gwobr Balaam.' Judas 11. 'Ac eu trosgwyddwyt can dwylliat cyfloc Balaam.' W. S. 'Ac a'u dyfethwyd gan dwyll gwobr

Digitized by Google

Ba'aam.' Dr. M. 'Hwy a redasant yn awyddus ar ol cyfeiliornad Balaam, er gwobr.' *Saes.* Y mae y rhan fwyaf o gyfieithwyr yn cyduno â'r Saesonaeg. Priodol ystyr y gair *Gr.* ἐξεχύθησαν, ydyw *tywallt;* tywallt dwfr neu waed. Luc 5. 37. Mat. 26. 28. Marc 14. 24. Luc 11. 50. a 22. 20. Y mae tywallt fel dwfr, weithiau, yn arwyddo gwendid mawr, agos i ddystryw. Ps. 22. 14. 'Yr ydym,' medd y wraig o Tecoa, 'fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaear, y rhai ni chesglir.' 2 Sam. 14. 14. Yn yr ystyr hwn y golygodd y cyfieithwyr Cymraeg y gair yn y fan hon, a chyfieithant y gair, *a'u collwyd.* Ond y mae ystyr arall i'r gair, a hwnw yn aml yn yr ysgrythyrau; sef myned gyd âg awyddfryd a gorwyllter fel dwfr yn cael ei dywallt: 'Tywalltaf arnynt fy llid fel dwfr,' medd Duw. Hos. 5. 10. 'Rheded barn fel dyfroedd, a chyfiawnder fel ffrwd gref.' Amos 5. 24. Yn yr ystyr diweddaf y golygodd y cyfieithwyr Saesonaeg yr ymadrodd, ac a gyfieithasant y gair, *ran greedily.*——'Cyfeiliornus yw y ffordd hon yn fy ngolwg,' medd yr Angel Iehofah wrth Balaam; ond er hyny, rhedodd Balaam ar hyd-ddi gyd â'r awyddfryd mwyaf, er mwyn y wobr. Carodd wobr anghyfiawnder, ac a redodd yn ddiattalfa ar gyfeiliorn, gan adael y ffordd uniawn. Yr un fath yr ydoedd y gau-athrawon yn nyddiau yr apostolion, ac felly maent o hyny hyd heddyw; maent yn ddiwyd iawn yn taenu cyfeiliornadau, er mwyn budr-elw. Rhuf. 16. 18. 1 Tim. 6. 5, 10. Tit. 1. 11. 2 Petr 2. 14, 15. *Twyll* gwobrwy ydyw yr elw hon; oblegid ei fod yn anghyfiawn, twyllo pawb chwannog iddi a wna yn y diwedd. 'Cybydd-dod cyfeiliornwyr ydyw tanwydd, mam, a mammaeth eu cyfeiliornadau,' medd Amesius.

BALADAN, בלאדן [*yr Arglwydd Dduw*] un o freninoedd Babilon. Y mae ei enw yn gytansoddiad o enwau yr eilun-dduwiau Baal ac Adan, neu Adonis. Yr un yw a Belesis, Nanybrus, neu Nabonasor. Esa. 39. 1. 2 Bren. 20. 12. Y mae Syr Isaac Newton yn barnu mai mab Pul, brenin Assyria, ydoedd Baladan, ac i deyrnas Babilon gael ei rhoddi iddo fel ei ran a'i etifeddiaeth. Edr. Ninifeh.

BALCH—DER—EDD, (bal) uchel, uch-hedol, mawrwych; trahaus, rhyfygus, mawrfrydus, mawryddig, ffrostus:—gwenith balch; tyfu yn falch; cerddediad balch.

Tri pheth a wna wraig yn anniwair: tegwch yn ei hwyneb, ffolineb yn ei phen, a balchedd yn ei chalon—*Triodd Moes.*

Y mae dyn wrth natur, dan y cwymp, yn greadur balch. Fel y mae ei feddwl yn gyfeiliornus am bob peth, felly y mae am dano ei hun. Yn ei dywyllwch y mae yn meddwl ei hun yn amgen na'r peth ydyw; sef pechadur euog, llygredig, tywyll, ffol, ac annuwiol. Mae yn priodoli pob rhagoroldeb a ddichon fod ynddo, iddo ei hun, ac nid i'r Arglwydd, yr hwn a wnaeth y rhagoriaeth. Ei holl ymgais sydd am ddyrchafu ei hun, ac nid yr Arglwydd, yr hwn yn unig sy deilwng i'w ddyrchafu. Nid oes neb yn deilwng o ddyrchafiad, na chlod, na pharch, ond Duw ei hun. Y mae efe yn anfeidrol ac yn hanfodol ddyrchafedig ynddo ac o hono ei hun; ac am hyny, y mae yn gyfiawn iddo gael ei ddyrchafu gan bawb. Am yr holl greaduriaid, o'r uchaf hyd yr isaf o honynt, pa fath bynag ydynt, heblaw pechaduriaid, 'Efe a'u gwnaeth, ac nid hwy eu hunain:' y mae yn anghyfiawn, ac am hyny, mae yn bechadurus, ac yn wrthryfel yn erbyn Duw, iddynt ddyrchafu eu hunain mewn dim. Os ydynt gyfiawn a sanctaidd, efe ydyw ffynon cyfiawnder a sancteiddrwydd: os ydynt ddoeth, efe a roddodd ddoethineb iddynt: os ydynt gyfoethog, efe yn unig a'u cyfoethogodd: os ydynt lwyddiannus, efe a barodd fod llwyddiant iddynt. 'Nid yw yr hwn sydd yn planu ddim, na'r hwn sydd yn dyfrhau; ond Duw yr hwn sydd yn rhoi y cynnydd.' 1 Cor. 3. 7.

Y mae balchder yn mhob trosedd; canys ni throseddai neb orchymyn Duw, oni bai ei fod yn dyrchafu ei hun yn erbyn Duw, ac yn fwy na Duw. Y mae pob troseddwr yn ymfawrygu yn erbyn yr hwn y mae yn anufuddhau iddo. Nid oes un creadur yn ei briodol le, ond yr hwn sydd yn ddim yn ei olwg ei hun, a Duw yn bob peth: ac yn yr agwedd addas hon ar ei ysbryd, y mae yn hawdd ganddo ufuddhau, ymostwng, a rhoddi mawredd i'r Arglwydd. Po nesaf y byddom at yr agwedd hon, nesaf i gyd y byddwn at Dduw; a phan y byddwn yn gyfiawn felly, byddwn yn gyfiawn gyda Duw, ac wrth ei fodd.——Y mae dau orchwyl yn cael eu dwyn yn mlaen gan yr Arglwydd o hyd, yn ei holl ragluniaethau yn y byd, sef dyrchafu y gostyngedig, a bwrw y balch i lawr. Dygwyd Nebuchodonosor, yr ymerawdwr mawrfrydig, i'r cyfaddefiad hwn am yr Arglwydd, 'Efe a ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder.' Dan. 4. 37. Y mae ei lygaid arnynt, i'w darostwng; y mae yn eu gwrthwynebu, ac yn eu gwatwor hwynt yn ddirmygus. Iago 4. 6. Job 40. 11, 12. Diar. 3. 34. a 29. 23. Esa. 2. 12. 2 Cron. 32. 25. 'Pob un a'r a'i dyrchafo ei hun, a ostyngir; a'r hwn sydd yn ei ostwng ei hun, a ddyrchefir.' Luc 14. 11. Job 22. 29. Diar. 29. 23. Mat. 23. 12. Dyma un o reolau anghyfnewidiol Duw yn ei holl ymddygiad tu ag at blant dynion; efe a rodia wrth hon yn ddiwyrni byth. Ni ddyrchafa efe neb yn nghyfiawnder ei Fab, i sancteiddrwydd a gogoniant, ond yr hwn sydd o'i wir fodd yn ei ostwng ei hun dan alluog law Duw, fel pechadur euog a thlawd. Luc 18. 14. Mewn meddyliau gwael am danynt eu hunain, a meddyliau mawr am Dduw a'i iechydwriaeth, y maent yn cael eu dyrchafu: mae pob meddwl croes i hyny yn eu tynu i lawr.—'Y balch a edwyn efe o hirbell:' Ps. 138. 6. hyny yw, ni chaiff efe byth ddyfod yn agos ato. Y mae efe yn hirbell oddiwrth ei ffafr a'i heddwch; ac ni ddaw byth yn nes tra y byddo yr agwedd hôno ar ei ysbryd. Ni chais y balch, ac ni oddef Duw i hyny fod.——'Yn y pethau yr oeddynt falch o hono, yr oedd efe yn uwch na hwynt.' Exod. 18. 11. Yn eu duwiau, eu doethineb, eu galluoedd, &c. yr oedd Duw o blaid ei bobl yn uwch na'r Aiphtiaid. Y mae Duw yn gyffredin, mewn modd neillduol, yn taflu diystyrwch ar y pethau hyny y mae dynion yn ymchwyddo o'u plegid. 1 Sam. 2. 3. Neh. 9. 10, 16. Job 11. 11, 12. Luc 21. 1, &c.

BALM, math o sudd, neu lûd gwerthfawr, a ddyferai allan o bren o'r enw. Yr ydoedd helaethrwydd o hono i'w gael yn mynydd Gilead; ac yr oedd y lle yn enwog iawn o'r herwydd. Y mae y gair *Heb.* צרי yn tarddu oddiwrth yr un gwreiddyn a'r gair *craig,* ac yn arwyddo *rhwymo yn nghyd, cryfhau:* oddiwrth ei natur gryfhaol, ei effeithioldeb, a'i anffaeledigrwydd i gadarnhau, i iachâu, ac i rwymo yn nghyd friwiau, archollion, a brathiadau gwenwynig. Yr Arabiaid a'i gwerthent ef i'r Aiphtiaid. Gen. 37. 25. Ei liw ar y cyntaf sydd led wyn, a chwedi hyny yn wyrdd; ond pan elo yn hen, try yn lled felyn, yn debyg i fêl. Ei flas sydd chwerw, eithr ei arogl yn bêr; ac arferir ef i bêr-arogli cyrph meirw. Y mae yr un gair *Heb.* צרי yn cael ei gyfieithu *triagl,* yn Jer. 8. 22. a 51. 8. ac yn Ezec. 27. 17. Nid ydynt yn cyfrif llai rhinwedd yn balm Brazil, Ysbaen Newydd, a Pheru, nag oedd yn balm Gilead gynt. Edr. Triagl.

BALLEG-RWYD, (ball) rhwyd bysgota, rhwyd dynu; math o rwyd â gwaelod fel sach iddi. Y gair *Heb.* כמר a arwydda, peth gwedi ei grebachu, neu ei gyfyngu yn nghyd; ac felly yn sicr o ddwyn ei helfa yn llwyddiannus i law. Edr. Arogl-darth.

BANER, (ban) *Saes.* Banner. Y gair *Heb.* דגל a gyfieithir weithiau *lluman,* weithiau *baner.* Num. 1. 52. Ps. 20. 5, &c. Y mae baner yn arwydd i

Digitized by Google

gasglu, cyfarwyddo, a chefnogi milwyr, ac i ddangos eu gwersyllfa. Rhydd teithwyr diweddar i'r gwledydd hyny hanes neillduol am fanerau dwyreiniol, a'r defnyddioldeb o honynt. Yn Arabia, a'r gwledydd cymydogaethol, y maent yn dewis, yn gyffredinol, teithio yn y nos, oblegid poethder dirfawr yr haul yn y dydd. I ochelyd annhrefn yn eu minteioedd, yn cydymdaith, y mae i bob gosgordd (*cotter*, fel y galwant hwy) ei gwahanol arwydd o amryw oleuadau, yn cael eu dwyn ar drostan uchel, nid annhebyg i stôf haiarn, yn mha un y mae coed sychion yn cael eu llosgi i oleuo. Y mae i bob gosgordd ei throstan, a'i harwydd penodol ei hun. Y mae deg neu ddeuddeg o'r goleuadau, mwy neu lai, weithiau ar yr un drostan. Y maent hefyd wedi eu gosod mewn gwahanol ddull, yn gystal ac yn amrywio o ran rhifedi; rhai yn hirgrwn, ar ddull porth; eraill yn dair-onglog, neu fel y llythyren N neu M, &c. Y mae yr arwyddion mor wahanol oddiwrth eu gilydd, fel y gall pob un wybod, yn y nos, i ba osgordd y mae yn perthyn. Y maent yn cael eu dwyn o flaen y minteioedd, ac yn cael eu gosod i lawr yn y man lle y maent i wersyllu, cyn y delo y fintai i fynu; ac yn cael eu gosod ychydig oddiwrth eu gilydd. Y maent yn cael eu dwyn hefyd y dydd, heb oleu, a'u gwahanol ddull, a'u hamrywiol rifedi, yn eu gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn ddigonol. Heb y cyfryw arwyddion, nis gallasai, heb annhrefn mawr, torf liosog gyd-deithio. Gellir meddwl, gan hyny, fod y gair דגל yn arwyddo *baner ddysglaer, oleu.* Yr oedd i lwyth Judah, Reuben, Ephraim, a Dan, y rhai oeddynt yn gwersyllu yn yr anialwch, o du y dwyrain, dehau, gorllewin, a gogledd, un o'r llumanau goleu hyn, yn perthyn i bob un o honynt. Num. ii. Yn cyfeirio at hyn y dywed y Psalmydd, 'Yn enw ein Duw y banerwn.' Ps. 20. 5., *Heb.* Teithiwn a gwersyllwn, nos a dydd, yn enw ein Duw, a'n hyder arno, ac ar ei amddiffynfa i ni; awn yn mlaen yn ëon, yn ddiarswyd, yn amlwg i bawb, ac yn finteioedd cariadus, yn amddiffynfa yr Arglwydd. Ps. 60. 4.—— Y gair, hefyd, a arwydda, y llusern, neu y lamp, a fyddai yn cael ei dwyn o flaen y gwr a'r wraig ieuanc, yn yr hwyr, ddydd eu priodas. 'Efe a'm dug i'r gwindŷ, a'i faner drosof oedd gariad.' Can. 2. 4.—— 'Fy anwylyd sydd wyn a gwridog, yn rhagori ar ddeng mil:' *Heb.*, *yn fanerog*, neu yn ardewynu yn ddysglaer â deng mil o lampau, fel priodfab wedi ei amgylchu â deng mil o lampau. Can. 5. 10. Dywedir bod yr eglwys yn 'ofnadwy, fel llu banerog,' neu yn or-ddysglaer, fel morwynion, yn geinwedd ac yn llewyrchus yn ngoleu y llusernau priodasol. Byddai y gwisgoedd ardderchog, arferedig ar y cyfryw achosion, yn adlewyrchu goleuni y lamp yn ddysglaer iawn. Can. 6. 4, 10.

Gosodir yr Arglwydd Iesu allan wrth yr enw hwn. Esa. 11. 12. a 49. 22. a 62. 10. Y mae efe, fel baner, wedi ei ddyrchafu yn uchel; y mae yn ddysglaer ogoneddus, yn rhagori ar bawb o ran ei berson, ei swyddau, ei ddoniau, a'i radau, &c., yn arwydd i gasglu ei holl bobl ato, ac at eu gilydd; yn eu gwahaniaethu oddiwrth bawb eraill; yn gyfarwyddwr, yn ddyddanwch, ac yn iachawdwriaeth gyflawn, dragywyddol, iddynt. Ynddo ef y mae cyflawnder a nerth; am hyny ato ef y deuir. Esa. 45. 24.

Y mae y faner hon yn cael ei chodi gan yr Arglwydd i'r Cenedloedd, pan y byddo Crist Iesu yn cael ei bregethu iddynt, yn nwyfoldeb ei Berson, a chyflawnder ei aberth, ei swyddau, a'i ras; a than y faner hon y maent yn gorchfygu eu holl elynion. Ni chymerir byth mo'r faner; ni saif un gelyn yn ei hwyneb; ac ni chyll neb y dydd y sydd yn ymladd dani. Baner ydyw i bechaduriaid i gynnull ati; ac y mae yn iechydwriaeth gyflawn iddynt, a thragywyddol. Dyma y faner a roddodd Duw i'r rhai a'i hofnant; trwy ymlyniad wrtho, ffydd ynddo, a rhodiad addas i'r efengyl, hwythau a fyddant fel baner wedi ei dyrchafu yn ogoneddus, ac yn fuddugoliaethus, ar ei holl dir ef, yn annogaeth i eraill gyrchu ato, a glynu wrtho o lwyrfryd calon. Zech. 9. 16. Ps. 60. 4. Mat. 5. 14, 15, 16.

'A Moses a adeiladodd allor, ac a alwodd ei henw hi (יהוה נסי) IEHOFAH NISSI;' sef IEHOFAH yw fy *maner*. Exod. 17. 15. Cynnaliwyd dwylaw a gwialen Moses i fynu, fel ag y mae milwyr yn arferol o gynnal eu banerau yn amser yr ymladdfa. Y mae y banerau hyn yn dwyn arwydd-luniau y wlad: dywedir fod y milwyr yn ymladd dan y faner hòno; sef, dan gyfarwyddyd ac er amddiffyniad y llywodraeth hòno. Felly yr ymladdodd Israel dan gyfarwyddyd Duw, ac er amddiffyniad ei wirionedd; ac felly y daeth yr enw IEHOFAH yn arwydd-lun ar faner yr holl gynnulleidfa. Dan ei gyfarwyddyd yr ymladdasant, ac yn ei enw a'i nerth ef y gorchfygasant—pob un yn cydnabod nad ei eiddo ei hun oedd, ond milwr IEHOFAH.

BAR, (bâr) trallod, digofaint, llid, irllonedd, gŵyth.

Pechaduriaid mawr eu *bâr*. *E. Prys.*

Rhan o'th faeth, a rhan o'th *fâr* *Diar.*

BARA, *Heb.* ברה (*bara*) *Gr.* βρωμα (*brôma*). Bara gwyn; bara canrhyg; bara rhyg; bara haidd; bara ceirch; bara coch; bara coesed; bara peilliad; bara man-gan, sef bara gwyn; bara cri, a bara croyw, sef bara heb surdoes; bara surdoes; bara plymrhyd; bara chwïog; bara gwersyll; bara planc, bara llech, a bara greidell; bara gosod, sef bara dangos; bara mïod; bara lawr, a bara lafan. Yn iaith yr ysgrythyrau, arwydda bara, pob math o ymborth angenrheidiol at gynnaliaeth. Gen. 3. 19. a 28. 20. a 47. 19. Mat. 4. 4. a 6. 11.—Y mae y manna yn cael ei alw, bara o'r nef—bara angelion. Exod. 16. 4, 15, &c. Edr. MANNA.

Y mae Crist yn galw ei hun, 'Bara Duw, yn dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r byd.' Ioan 6. 33. Bara Duw ydyw; Duw a'i trefnodd ac a'i parotôdd; Duw sydd yn ei roddi i bechaduriaid, ac yn eu nerthu i ymborthi arno. Nid o'r ddaear, fel ein bara cyffredin, y daeth, i gynnal ein bywyd daearol yma yn y byd; ond o'r nef y daeth; yn dangos mawredd a dwyfoldeb ei Berson; ei ras a'i gariad mawr, yn darostwng ei hun atom, i ddyoddef a marw drosom, fel y byddai yn fara, sef yn ymborth ysbrydol, yn rhoddi grym, cynnaliaeth, a dyddanwch i bechadur euog, yn ngwyneb ei holl drueni. Crist croeshoeliedig ydyw y bara bywiol, yr hwn sydd yn rhoddi bywyd i bawb a ymborthant arno trwy ffydd. Beth ond y cyflawnder a weryd rhag angeu, a ddichon roddi cryfder a dyddanwch i bechadur euog? Nid ydyw hwnw i'w gael yn un lle, ond yn yr Iesu. Ymborthi arno yw credu ynddo. Y mae credu ynddo, fel ymborthi ar fara iachus, yn rhoddi hyfrydwch, adnewyddiad, grym, a dyddanwch annhraethol. Y mae pob peth ynddo yn fara i'r sawl sydd yn gwir gredu ynddo:—ei aberth, ei iawn, ei eiriolaeth, ei fuddugoliaeth, ei gariad, a'i ras, &c. Nid oes dim arall, ond efe, i fod yn wir ymborth cynnaliaethol i bechadur. Ni all dyn ymborthi arno ei hun, er lleshâd; nac ar ei ras, a'i gysuron; canys y mae angen ymborth ar ras, a Christ yw ei ymborth. Yn lle porthi, ni wna y byd, a'r pethau sydd yn y byd, ond gwanychu, blino, gofidio, a thwyllo pawb sydd yn ymgynnal arnynt. Ond am Grist, mae ei gnawd yn fwyd yn wir, a'i waed yn ddiod yn wir: 'Y bara a roddaf fi yw fy nghnawd, yr hwn a roddaf dros fywyd y byd:—a'r neb sydd yn bwyta o'r bara hwn (sef yn credu yn Nghrist, adn. 47.) a fydd byw yn dragywydd.' Ioan 6. 51, 58. a 3. 15. a 10. 9. a 14. 6. Phil. 1. 6.——'Porthaist hwynt â bara dagrau;' sef â dagrau yn lle bara; neu yr oedd eu bara wedi

neu air Duw. Mat. 12. 18. Ps. 119. 20.——11. Cyfiawnder ac uniondor. Esa. 1. 17. Luc 11. 42.

**BARNU**, (bar) 1. Profi a phenderfynu achos. Y dull y rhoddid dedfryd sydd wahanol yn y naill wlad oddiwrth y llall. Y barnwyr Iuddewig a roddent eu dedfryd trwy ddywedyd wrth y cyhuddedig, 'Yr ydwyt yn euog,' neu 'Yr ydwyt yn ddieuog.' Y Rhufeiniaid a wnaent, trwy fwrw amryw lechau i mewn i gist, gwedi ei harnodi âg A, os byddai y cyhuddol yn cael ei ollwng yn rhydd; ond â C, os condemnid ef i oddef cosp. Rhai o'r Groegiaid a roddent arwydd o ollyngdod trwy roddi careg *wen* i'r cyhuddol: ond os careg *ddu*, byddai hyny yn arwydd o gollfarn. At hyn, ysgatfydd, y mae y cyfeiriad yn Dat. 2. 17. Neu, ynte, at y ddefod yn eu chwarëyddiaethau, o roddi i'r gorchestwr buddugoliaethus ryw addurn anrhydeddus, â'i enw arno, i'w wisgo yn gyhoeddus yn eu gwleddoedd, &c., ac â hyn y cytuna y geiriau, 'I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo gareg wen, ac ar y gareg enw newydd wedi ei ysgrifenu,' sef enw yn ei gofrestru gyd â'r gorchestwyr buddugoliaethus, yr hwn nad oedd yn feddiannol o hono o'r blaen. Gwel Grotius, Hammond, a Vitringa.——2. Deall mater; felly y mae y dyn ysbrydol yn 'barnu pob peth, eithr efe nis bernir gan neb:' y mae ganddo y fath brofiad dwys o bethau ysbrydol, a'r nas gŵyr y dyn anianol ddim oddi wrtho. 1 Cor. 2. 15.——3. Cyfrifiad sobr, a phwyllus. Act. 16. 15.——4. Rhagfarn. Mat. 7. 1. Mae y dyn ysbrydol, yn ngoleuni Ysbryd Duw, ac yn nrych yr efengyl, yn canfod pethau yn uniawn ac yn gywir, yn ol yr hyn ydynt yn wirioneddol, ac nid mewn ymddangosiad yn unig; am hyny y mae efe yn gallu eu barnu. ——Nid yw Crist 'yn barnu wrth olwg ei lygaid, nac wrth glywed ei glustiau;' nid yw yn gwneuthur cyfrif o ddynion a phethau, neu yn rhoddi dedfryd wrth yr olwg allanol yn unig. Esa. 11. 3.

Y 'saint yn barnu y byd—yn barnu angelion:' y maent yn awr yn condemnio drygioni y byd â'u proffes a'u hymarweddiad sanctaidd; yn y dydd olaf hwy a gydsyniant â chondemniad dynion ac angelion drwg. Edr. SAINT. 1 Cor. 6. 2, 3. a 5. 12, &c. Exod. 18. 21. Ps. 49. 14. Dan. 7. 22. Mat. 12. 41, 42. a 19. 28. Luc 22. 30. Heb. 11. 7. 1 Thes. 4. 17. Dat. 2. 26, 27. a 3. 21. a 5. 10. a 15. 3. a 16. 6. a 20. 4—10.

'Bernir y saint yn ol dynion yn y cnawd,' ac y maent yn byw, er hyny, yn ol Duw yn yr ysbryd, pan y ceryddir hwy yn allanol yn y cnawd am bechod, neu yr erlidir hwynt gan annuwiolion; ond er hyny, yn nghanol yr holl bethau anhyfryd hyn, maent yn yr ysbryd yn byw yn nghymdeithas Duw, a dyddanwch yr Ysbryd Glân. 1 Petr 4. 6. 1 Cor. 5. 5. a 11. 31, 32.

**BARNWR—WYR**, (barn-gwr) brawdwr, beirniad, ynad.—1. Un a fyddo yn profi achosion, ac yn penderfynu materion, ac yn rhoddi dedfryd ar y rhai cyhuddol. Ps. 2. 10.——2. Duw ydyw gwir reolwr, a phrofwr pob achosion, a barnwr pawb. Heb. 12. 23. Gen. 18. 25.——3. Crist a elwir 'y Barnwr:' efe a ordeiniwyd gan Dduw i brofi cyflwr a gweithredoedd pawb; ac i roddi y ddedfryd arnynt o dragywyddol drueni, neu dragywyddol ddedwyddwch. 2 Tim. 4. 1, 8. Y mae yn angenrheidiol fod barnwr wedi ei gymhwyso âg awdurdod, doethineb, gwybodaeth, gwroldeb, bywiogrwydd, diduedd rwydd, ac iawnder. Y mae Crist yn gyflawn o'r cymhwysderau hyn: ac felly mae yn gwbl anrhydeddus yn ei swydd oruchel hon.

**BARNWYR**, y swyddogion penaf, y rhai yn achlysurol a farnent yn Israel o amser Josuah hyd amser Saul. Nid oedd olynol ddilyniad rheolaidd o honynt hwy; ond gwaredwyr achlysurol oeddynt, gwedi eu codi gan yr Arglwydd, o amrywiol lwythau a theuluoedd, i waredu y genedl odditan ieuau trymion gorthrymder, i weinyddu cyfiawnder a barn, ac i ddiwygio y wlad. Nid oeddynt hwy yn cymeryd atynt fawrhydi breninol, nac yn arfer unrhyw awdurdod costfawr, afradus, a beichiol; er hyny yr oeddynt yn rhaglawiaid uniongyrchol dan IEHOFAH, brenin Israel. Tebygol, pan nad oedd barnwr, fod y Lefiaid, yr henuriaid, a'r swyddogion cyffredin, yn nghyd â'r arch-offeiriaid a'r offeiriaid, yn trefnu achosion yr amrywiol lwythau, ac yn gweinyddu barn a chyfiawnder wrth gyfraith Moses, yn ol fel y byddai achosion yn gofyn; a phan yr ydoedd barnwr, ei fod ef yn blaenori arnynt hwy, ac yn arlywio yn eu plith.

Y farn fwyaf gyffredin yw, mai Samuel, y diweddaf o'r barnwyr, a ysgrifenodd y llyfr a elwir, yn ol yr enw Hebraeg arno, LLYFR Y BARNWYR. Y mae yn ymddangos yn dra eglur iddo gael ei ysgrifenu yn amser teyrnasiad Saul. Y mae y geiriau canlynol a arferir yn aml, 'Yn y dyddiau hyny nid oedd brenin yn Israel,' (pen. 17. 6. a 19. 1. a 21. 25.) yn arwyddo fod brenin yn Israel pan gyfansoddwyd yr hanes; ac etto, ymddengys fod y Jebusiaid yn meddiannu dinas Jerusalem (pen. 1. 21.) o ba le y bwriodd Dafydd hwynt allan. Cawn ynddo hanes Israel o farwolaeth Josuah hyd yn agos at amser genedigaeth Samuel, oddi amgylch i dri chan mlynedd: (299 medd Dr. F. Roberts.) Y mae amryw gyfeiriadau at y llyfr hwn i'w cael yn yr Hen Destament a'r Newydd. 1 Sam. 12. 11. 2 Sam. 11. 21. Neh. 9. 28. Ps. 83. 9, 10, 11. Esa. 9. 4. a 10. 26. Act. 13. 20. Heb. 11. 32. Y mae yn dra sicr ei fod ef yn rhan o'r llyfr sanctaidd y byddai Crist a'i apostolion yn arfer cyfeirio yn wastadol ato. Gan y daw y defnyddiau cynnwysedig yn y llyfr hwn i mewn etto dan amrywiol enwau, nid oes achos i ymhelaethu yn bresennol.

Heblaw yr esbonwyr cyffredin ar yr holl Fibl, ysgrifenodd yr awdwyr canlynol ar lyfr y Barnwyr yn neillduol—Richard Rogers, Andrew Jackson, James Forester, John Mayer.

**BAR—AU**, (bar) bollt, trosol; trosol-glo, attalydd: attalfeydd. Esa. 45. 2. Galar. 2. 9. Ps. 147. 13. —'Disgynant i farau y pwll, pan fyddo eu cydorphwysfa yn y llwch.' Job 17. 16. 'Disgynant i farau y pwll,' sef rhwng y trosolion, neu yr elor, ar yr hon y dygir cyrph y meirw i'w beddau. Neu, 'Disgynant i byrth y bedd:' y bârau â'r rhai y byddent yn sicrhau y pyrth, yn cael eu rhoddi yma am y pyrth eu hunain. 'Af i byrth y bedd.' Esa. 38. 10. Y bedd ydyw carchardy angeu: y tŷ a ddarparwyd i bob dyn, lle y ceidw efe ei garcharorion yn ddiogel hyd foreu yr adgyfodiad.

**BARSABAS**, בר־שבע [*mab y llŵ*] cyfenwyd ef Justus. Tebygol ei fod yn un o'r deg dysgybl a thriugain. Efe oedd un o'r ddau a neillduwyd i fwrw coelbren arnynt, am un i fod yn apostol yn lle Judas, eithr y coelbren a syrthiodd ar Matthias. Act. 1. 23.——2. Cyfenw dysgybl arall. Act. 15. 22.

**BARTHOLOMEUS**, Βαρθολομαιος [*mab Ptolomy*] mab Tolmai, un o'r deuddeg apostol. Mat. 10. 3. Nid yw Ioan yn crybwyll am enw Bartholomeus, ond Nathanael; ac nid yw yr efengylwyr eraill yn crybwyll am enw Nathanael, ond Bartholomeus. Megys y mae Ioan yn enwi Phylip a Nathanael yn nghyd, pen. 1. 44. felly mae y lleill yn enwi Phylip a Bartholomeus. Luc 6. 14. Marc 3. 18. Tebygol iawn mai enw yr un dyn oedd y ddau enw: megys y mae llawer eraill. Ar ol iddo aros oddeutu Jerusalem yn nghylch deunaw mlynedd, dywedir iddo fyned i'r India Ddwyreiniol. O'r dwyrain dywedir iddo deithio i Lycaonia; ac yn y diwedd, blingwyd ef yn fyw gan yr Albaniaid; wedi hyny croeshoeliasant ef â'i ben i lawr.

**BARTIMEUS**, Βαρτιμαιος [*mab Timæus*] cardotyn dall o Jericho, a iachawyd gan ein Hiachawdwr

Digitized by Google

yn ei daith i Jerusalem. Marc 10. 46. Yn hanes y cardotyn dall hwn, y mae taerineb ffydd, a thiriondeb a graslonrwydd yr Arglwydd, yn hynod i'w gweled. Nid oedd bosibl rhoddi taw ar y naill, nac attal trugaredd feddyginiaethol y llall. Iachaodd ef, gyda dwyfol awdurdod yn y fan. Adn. 52. Y mae ansawdd gwir ffydd, a'i heffeithiau bendigedig, i'w gweled yn dra eglur yn y dall tlawd hwn. Gyferbyn â'i ddallineb ei hun, mae ei olwg ar berson, swydd, a graslonrwydd yr Arglwydd Iesu i'w iachâu. Yr oedd yn ei adnabod o ran dirgelwch ei Berson, fel Duw-ddyn; yr oedd efe yn credu am dano mai y Messïah addawedig ydoedd: yr oedd yn gweled cwbl addasrwydd ynddo i'w gyflwr gwael, fel dall a thlawd; a chlywodd ddarllen yn y synagogau am y Messïah, y byddai iddo, pan y deuai, agoryd llygaid y deillion. Esa. 35. 5. Y mae, gan hyny, yn llefain arno mewn ffydd, nes y safodd yr Iesu, ac y rhoddodd iddo ef y fendith yr oedd yn ei gofyn. Rhoddodd y cythraul yn ngalonau llawer o'r dyrfa i'w geryddu, a pheri iddo dewi; yntau a lefodd yn fwy o lawer, 'Mab Dafydd, trugarhâ wrthyf.' Y mae yn dra thebygol ei fod yn agos i lwfrhau pan y safodd yr Iesu, ac yr archodd ei alw; canys hwy a ddywedasant wrtho, 'Cymer galon; cyfod: y mae efe yn dy alw di.' Adn. 21. Fel y mae hanes y cardotyn yn dangos ansawdd gwir ffydd, felly y mae hanes ei iachâd yn amlygu dwyfoldeb Person y Messïah, ei allu, ei dosturi, ei ostyngeiddrwydd, a'i barodrwydd i gynnorthwyo y tlawd a'r anghenus pan lefont arno. 'Dos ymaith, dy ffydd a'th iachâodd.' Nid, Aros ychydig, nes y byddo genyf well hamdden i wrando arnat: neu, Dos ymaith, a thyred ataf ryw amser arall: nagê; ond, Dos ymaith, â chyflawn fendith ac iachâd gyda thi. 'Yn y man y cafodd efe ei olwg.' Pwy ond y dall na wêl yn yr hanes, ddwyfoldeb Person yr Iesu, a'i hoffder i drugarhau? Edr. DEILLION.

BARUCH, ברוך [*bendigedig*] mab Nerïah, ac ŵyr Maaseiah, o lwyth Judah, dysgybl ac ysgrifenydd Jeremiah; yr hwn, trwy ymlynu wrth ei feistr, a gafodd erlidiau creulawn. Jer. xxxvi. Aeth gyd â'r prophwyd i'r Aipht: ar ol marwolaeth Jeremiah, ciliodd, medd rhai, i Babilon, ac a fu farw yno, yn y ddeuddegfed flwyddyn o'r caethiwed. Nid yw y llyfr a enwir Baruch, yn yr Apocrypha, ond twyll, ac enw gosod a roed arno; canys dywedir iddo ei ysgrifenu yn Babilon, ac yntau ar yr un pryd yn Judea.——2. Mab Zabbai, yr hwn dan gyfarwyddyd Nehemiah, a adeiladodd ran o fur Jerusalem. Neh. 3. 20.

BARZILAI, ברזלי [*haiarn*] 1. Simeoniad o Mehola, tad Adriel, gwr merch Saul. 2 Sam. 21. 8.——2. Gileadiad o Rogelim, yr hwn a borthodd Dafydd a'i lu tra yr oeddynt yn Mahanaim. Pan aeth Dafydd yn ol i Jerusalem, Barzilai a'i hebryngodd hyd yr Iorddonen. 2 Sam. 17. 27. a 19. 31—40. Gwrthododd fyned gyd â'r brenin i Jerusalem, i gymeryd ei geidwadaeth ganddo o herwydd ei fod, trwy henaint, wedi colli archwaeth bwydydd a diodydd; ac am na allai glywed, nis gallasai ymhyfrydu yn mhêr adsain cerddoriaeth. 2 Sam. 19. 31—37.——3. Un o'r offeiriaid, yr hwn a briodasai un o ferched Barzilai y Gileadiad, ac a alwyd ar ei enw. Ezra 2. 61. Neh. 7. 63.

BASAN, בשן [*ffrwythlawn*] un o wledydd brasaf y Canaaneaid. Yn ei chanol yr ydoedd mynydd Basan yn sefyll, yn terfynu o du y dwyrain ar fynyddoedd Gilead; ar yr Iorddonen yn y gorllewin; ar y dehau gan afon Jabboc; a chan dir Gesur yn y gogledd. Yr oedd yn wlad enwog iawn am frasder ei phorfëydd, ei phraidd, a'i hanifeiliaid rhagorol. Moses a'i cymerodd oddiar Og brenin yr Amoriaid, ac a'i rhoddes hi i hanner llwyth Mannasseh. Num. xxxii. Deut. 32. 14. Jos. 17. 1. 1 Cron. 2. 21, 23. Amos 4. 1.—'Basan a Charmel,' sydd ymadrodd a arferir i osod allan wledydd breision, neu gyflwr blodeuog gwlad neu eglwys. Nah. 1. 4. Jer. 50. 19. Mic. 7. 14.——Duw 'yn dwyn ei bobl o Basan ac o ddyfnder y môr,' a arwydda, dychweliad yr Iuddewon o gaethiwed yr Assyriaid, y Caldeaid, y Rhufeiniaid, &c., a gwaredigaeth gyflawn ei bobl o bob cyfyngder a chyni. Ps. 68. 22. Er fod mynydd Basan yn uwch, yn fwy cribog a ffrwythlawn na mynydd Sïon, etto y mae i fynydd Sïon ei ragoroldeb. Y mae teyrnasoedd y ddaear yn ymddangos yn tra rhagori mewn cyfoeth a mawredd ar eglwys dlawd Crist yn y byd; etto, os ystyriwn holl ragorfreintiau goruchel a gogoneddus yr eglwys, gwelir Sïon yn rhagori ar holl fynyddoedd y byd:—'Mynydd Duw ydyw —chwennychodd Duw drigo ynddo—ïe, preswylia yr Arglwydd ynddo byth.' Ps. 68. 15, 16. Dyma ragoroldeb a ddyrchafa yr eglwys mewn breintiau a gogoniant uwchlaw pawb, byth. Yn hyn y mae eglwys Crist yn ddyrchafedig goruwch holl fryniau y byd.— 'Paham y llemwch, chwi fynyddoedd cribog?' Chwi fawrion daear, paham y llemwch, y gorfoleddwch, ac yr ymddyrchefwch yn eich ymffrost yn erbyn Sïon Duw? nid oes un sail safadwy i'ch gorfoledd chwi: ond y mae i Sïon wir achos gorfoledd, am fod yr Arglwydd 'gwedi ei dewis, a'i chwennych yn drigfa iddo ei hun.' Ps. 132. 13, 14.

BASDARDD (bas-tardd) un wedi ei eni yn anghyfreithlawn, allan o'r ystâd anrhydeddus briodasol a chyfreithlawn. Mae pob peth sydd yn un â gosodiad Duw, yn dda ac yn hardd; a phob peth nad yw felly, sydd fas, yn isel, ac yn ddianrhydeddus. Oddiwrth y Cymry, tebygol, y cafodd y Saeson y gair *bastard*. Gwel y Dr. Davies. Y gair *Heb.* מזר a arwydda, un gwedi ei eni yn llygredig, un geu-rywiol. Y mae agos o'r un ystyr a'r gair Cymraeg. — 'Na ddeued basderddyn i gynnulleidfa yr Arglwydd; y ddegfed genedlaeth iddo hefyd ni chaiff ddyfod.' Deut. 23. 2. Wrth fasderddyn yma, deallir, un a fernid felly wrth gyfraith farnedigaethol Duw i'r Israeliaid; rhai wedi eu geni yn buteinllyd, neu trwy losgach anghyfreithlawn. Lef. xviii. Basdarddiaid, neu *feibion y fam*, yn nheulu Duw, yw y rhai y mae yr eglwys yn fam iddynt o ran proffes allanol, ond erioed heb eu geni o Dduw, na'u mabwysiadu ganddo. Basdarddiaid yw pawb nad ydynt dan oruchwyliaethau dysgyblaethol, ceryddol, ac ymgeleddol Ysbryd Duw, yn ol y gair. Heb. 12. 8.

BASGED—AU, (basg) cawell; basged gyrs, basged cleddyf, sef gwain cleddyf: math o lestr wedi ei blethu o wïail, dellt, &c., oddiwrth *basg*, plethiad-waith. Jer. 6. 9. 2 Bren. 10. 7. Y mae dau air Groeg yn cael eu cyfleithu *basged*, sef κοφινος a σπυρις yn Mat. 16. 9, 10. Y mae yr Arglwydd Iesu yn eglur yn nodi y gwahaniaeth rhyngddynt; ac felly ein cyfieithwyr ninnau a nodasant y gwahaniaeth yno, trwy gyfieithu y cyntaf *basgedaid*, a'r diweddaf *cawellaid*.——Mewn basged y gollyngwyd yr apostol Paul, dros, neu ar hyd y mur, o Damascus, pan oedd y Damasciaid am ei ladd. Act. 9. 25. 2 Cor. 11. 33. Gwedi i'n Hiachawdwr borthi pum mil o wyr, heblaw gwragedd a phlant, â phum torth haidd a dau bysgodyn, casglwyd o'r briwfwyd gweddill ddeuddeg basgedaid yn llawn. Tebygol fod gan bob un o'r apostolion ei fasged, yn ol arfer yr Iuddewon, yn y rhai y dygent eu lluniaeth, &c., pan ar eu teithiau. Mat. 14. 20. Marc 6. 43. a 8. 19. Luc 9. 17. Ioan 6. 13. Mat. 16. 9. Porthodd, dro arall, bedair mil o wyr, heblaw gwragedd a phlant, â saith dorth ac ychydig bysgod bychain; ac a godasant o'r briwfwyd gweddill saith basgedaid yn llawn. Mat. 15. 32—39. Marc 8. 1—9.

BATH, בת [*merch*] y mesur Hebreaidd mwyaf yn nesaf at eu homer. Degfed ran o omer oedd y bath, ac o'r un faintioli a'r ephah. Mesur gwlybwr oedd, yn cynnwys saith galwyn a phedwar peint o fesur gwin Brytanaidd. Ezec. 45. 11.

Digitized by Google

BATHSEBA, בת־שבע [*merch y llŵ*] merch Eliam, neu Ammiel, mab Ahitophel, tebygol, a gwraig Urias yr Hethiad. Edr. ELIAM. Yr ydoedd hi yn wraig brydferth iawn. Er i'r brenin Dafydd syrthio gyda hi i odineb, mae ei holl ymddygiad yn ol llaw, fel gwraig i Dafydd, a mam Solomon, yn dangos ei bod yn wraig dduwiol, synwyrol; ac iddi lafurio yn ffyddlon i faethu Solomon ei mab yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Gwel Diar. 4. 3. a xxxi. Ymddygodd i Dafydd dri o feibion, heblaw Solomon, sef Simea, Jobab, a Nathan. 1 Cron. 3. 5.

BAWD, BODIAU, (awd) *Heb.* בהן bawd-fys; y gwrthfys:—bawd càr, sef darn o bren dan y càr:—bawd y melinydd, sef pysgodyn a elwir felly.—Y mae naturiaethwyr yn sylwi yn hynod iawn ar ddoethineb y Creawdwr yn ngwneuthuriad yr aelod hwn o gorph dyn. Y mae yn ei le a'i ysgogiadau yn ateb y dyben o ddwylaw; ac yn gweithredu yn fwy dehau, cyfleus, a chyflym, na phe buasai dwylaw, ac heb fod yn ddim anghyfleusdra trwy ei faintioli a'i bwysau i'r aelod. Y mae ei ysgogiadau a'i gryfder yn ateb yn addas i'r pedwar bys eraill i grafangu a dal gafael.—Yr oedd gwaith yr offeiriaid yn rhoddi gwaed yr aberth dros gamwedd ar fawd y llaw ddehau, ac ar fawd y troed dehau, yn arwyddo, yn gysgodol, bod angenrheidrwydd glanhau ein holl weithredoedd a'n holl gamrau yn ngwaed Crist. Lef. 8. 33. a 14. 14, 17. 1 Ioan 1. 7.

BDELIWM, *Heb.* בדלח (*bedolach*). Y mae rhai yn meddwl mai math o lud ystoraidd ydyw; ond y mae Bochart a Parkhurst yn barnu mai perl, cragenfaen, gem, sydd i ni ddeall wrth y gair hwn yn yr ysgrythyrau; ac nid ydyw y peth a elwir yn bdeliwm yn ddiweddar yr un a hwnw gynt. Yr oedd y manna yn dra thebyg iddo, a'i liw yn wyn. Exod. 16. 31. Num. 11. 7.

BECAH, hanner sicl. Gen. 24. 22. Exod. 38. 26.

BECHER, בכר [*cyntaf-anedig*] 1. Mab Ephraim. Num. 26. 35.——2. Mab Benjamin. Gen. 46. 21. 1 Cron. 7. 6, 8.

BEDAN. 'Yr Arglwydd a anfonodd Jerubbaal, a Bedan, a Jephthah, a Samuel,' &c. 1 Sam. 12. 11. Nid oes un crybwylliad am Bedan yn mhlith barnwyr Israel. Darllen y LXX. yn lle Bedan, Barac; barna eraill mai yr un ydyw Bedan a Jair, yr hwn a farnodd Israel ddwy flynedd ar hugain. Barn. 10. 3. Yr oedd un Bedan wyr Machir, ac yr oedd Jair yn un o hiliogaeth merch Machir. Eraill a farnant mai talfyriad ydyw בדן (*Bedan*) o בנדן (*Ben-Dan*), sef yw hyny, mab Dan, a'i fod yn arwyddo Samson, yr hwn oedd o lwyth Dan.

BEDYDD—AU, (bed) ordinhad arbenig a ordeiniodd Crist yn ei eglwys, dan y Testament Newydd. Y mae y gair yn ol y Groeg, yn arwyddocâu *golchi*, yn gyffredinol (Marc 7. 8.); ond y mae y golchiad hwnw, ag sydd yn arwydd o gyflwyniad y colledig i Dduw, yn cael ei alw felly mewn modd neillduol. Y mae amryw olchiadau yn cael sôn am danynt yn yr Hen Destament; megys Jacob a'i deulu yn ymolchi cyn eu dynesu at Dduw yn Bethel. Gen. 35. 2. Yr Hebreaid, cyn iddynt nesâu i ymgyfammodi â Duw yn Sinai. Exod. 19. 14. Aaron a'i feibion, cyn eu cysegriad i'r offeiriadaeth. Exod. 29. 4. Byddai yr Iuddewon, ar ol enwaedu ar eu proselytiaid, yn eu golchi mewn dwfr.——Daeth Ioan, mab Zacharias, yn pregethu bedydd edifeirwch er maddeuant pechodau. Cyn i Grist ddechreu ar waith y weinidogaeth, yn gyhoeddus, cafodd ei fedyddio gan Ioan yn afon yr Iorddonen, megys y cafodd Aaron, yn ei gysegriad i'w swydd, ei olchi wrth ddrws pabell y cyfarfod. Yr oedd Ioan wedi ei anfon gan Dduw i fedyddio a phregethu edifeirwch. Ganddo ef y bedyddiwyd Crist, a'r rhan fwyaf o'r apostolion, tebygol. Crist ni fedyddiodd neb eithr ei ddysgyblion (Ioan 4. 2.); ond tystiolaeth Ioan am dano oedd, y byddai iddo 'fedyddio nid â dwfr, ond â'r Ysbryd Glân, ac â thân.' Mat. 3. 11. Ioan 1. 23. Anfonodd Crist ei ddysgyblion i bregethu edifeirwch, ac i fedyddio, yn ngwlad Judea yn unig: gwedi hyny, ar ol ei adgyfodiad, anfonodd hwynt i'r holl fyd, i bregethu yr efengyl i bob creadur, gan eu bedyddio yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Mat. 28. 19.

Gwelodd yr Arglwydd fod yn dda amrywio ei ordinhadau yn ei eglwys, dan wahanol oruchwyliaethau yr eglwys. Yr ordinhadau cyn dyfodiad Crist oeddynt, gan mwyaf, yn waedlyd; megys yr enwaediad, ac oen y pasc—yr hyn oedd yn cysgodi tywalltiad gwaed Crist: ond, wedi i Grist ddileu pechod trwy aberthu ei hun, mae yr ordinhadau wedi eu cyfnewid; nid oes gollwng gwaed mwyach i fod; ond coffadwriaeth am y gwaed a dywalltwyd, a chymhwysiad o hono at gyflyrau dynion aflan, euog. Y mae bedydd yn ordinhad ddwyfol—i gael ei gweini gan y rhai sydd wedi eu neillduo i bregethu yr efengyl—i barhau yn yr eglwys hyd ddiwedd y byd—ac i gael ei gweini i'r Cenedloedd yn gystal a'r Iuddewon. Mat. 28. 19. Act. 8. 12, 38. a 10. 44, 48.

Y mae dau sacrament (a dim ond dau) wedi eu trefnu a'u sefydlu gan Grist yn ei eglwys; sef bedydd a swper yr Arglwydd. 1. Y mae yn y ddwy ordinhad elfenau gwedi eu neillduo, i'w harferyd fel arwyddion gweledig o bethau ysbrydol. Yr arwydd yn y bedydd ydyw dwfr: dwfr yn cael ei gymhwyso at y bedyddiedig yn enw y Drindod, gan berson addas i hyny o ran ei alwad cyfreithlon i'r swydd weinidogaethol, yw bedydd. Mae y cymhwysiad o'r dwfr felly at y bedyddiedig, yn arwyddo, cymhwysiad o'r holl iechydwriaeth yn Nghrist at y pechadur. Y mae dwfr yn fuddiol i lanhau, i gysuro, ac i ffrwythloni; y mae y cyffelyb effeithiau yn tarddu oddiwrth gymhwysiad o'r iechydwriaeth trwy ffydd. Y mae dwfr yn yr ysgrythyrau, yn gyffelybiaethol, yn arwyddo gwaed Crist; sef ei aberth fel iawn am bechod. Heb. 10. 22. a 12. 24. 1 Petr 1. 2. Arwydda hefyd, yr Ysbryd Glân yn ei radau a'i effeithiau sanctaidd. Esa. 44. 3. a 52. 15. Ezec. 36. 25, 27. Arwydda y bedydd, gan hyny, 1. Fod dyn, fel pechadur, yn euog ac yn aflan. —2. Fod angenrheidrwydd anhebgorol am ei lanhau, sef ei gyfiawnhau a'i sancteiddio, er ei gadwedigaeth a'i ddedwyddwch.—3. Fod trefn gan Dduw i ateb y dybenion mawrion hyn mewn perthynas iddo; sef trwy aberth Crist drosto, a gweithrediad sanctaidd yr Ysbryd Glân ynddo. Y mae dangosiad o farwolaeth, claddedigaeth, ac adgyfodiad Crist, yn y bedydd. Soddiad corph y bedyddiedig yn y dwfr, neu ei daenelliad â dwfr, a arwydda ei ddyoddefiadau; ei arosiad dan y dwfr, ei gladdedigaeth; a'i godiad o hono, adgyfodiad Crist. Yn gyfatebol, arwydda mewn perthynas i'r bedyddiedig, cymundeb â Christ yn y pethau hyn; sef marwolaeth i'r ddeddf trwy gorph Crist; marweiddio pechod; claddu yr hen ddyn gyd âg ef; a chyfodi gyda Christ i fywyd newydd o gyfiawnhad a newydd-deb buchedd.

2. Wrth arfer y bedydd yr ydym yn proffesu, yn y modd mwyaf difrifol y dichon i ni ei wneuthur, ein bod yn hollol gydsynio â threfn fawr Duw yn Nghrist mewn perthynas i gadwedigaeth pechadur; ein bod yn credu ynddi yn unig i'r dyben hwnw; ein bod yn gweled ein hangen am dani; ac yn hiraethlawn am ei mwynhau.

3. Wrth fedyddio yn enw y Drindod, yn ol gorchymyn Crist, yr ydym yn gwneuthur arddeliad o'n crediniaeth o wirionedd yr athrawiaeth, ac mai trefn a gwaith y Drindod yn unig yw cadwedigaeth pech-

Digitized by Google

adur. Ni wrthbrofir byth mo wirionedd yr athrawiaeth hon, tra byddo y gorchymyn ar gael am fedyddio yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Mat. 28. 19. Y mae yn cynnwys Trindod o Bersonau yn undod yr hanfod dwyfol—dwyfoldeb pob un o'r Personau—eu cyfuchder â'u gilydd—a'u gwahaniaethiad oddiwrth eu gilydd; ac yn dangos fod yr ordinhad hon yn cael ei chyflawni dan awdurdod y Tri Pherson, ac y mae yr hwn sydd yn ymostwng iddi, yn addef ei ffydd ynddynt, ei addoliad o honynt, a'i ymroddiad iddynt mewn ffydd ac ufudd-dod. Y mae yr *enw* yn y rhif unigol yn dynodi yr un Duwdod, hanfod, a gallu y Tri Pherson; yr un ucheledd, teyrnas, a llywodraeth yn perthyn iddynt.

4. Wrth fedyddio ein plant, yr hon ordinhad yr ydwyf yn barnu, ar amryw gyfrifon, fod ganddynt hwy hawl iddi, yr ydym yn addef pechod gwreiddiol, a'u bod yn euog ac yn halogedig wrth naturiaeth; nad oes fodd iddynt byth fod yn gadwedig, ond trwy drefn fawr y Drindod yn Nghrist, mwy na ni ein hunain, a'i bod yn ddyledswydd arnom ninnau eu cyflwyno yn ddifrifol ac yn ffyddiog i Dduw yn yr ordinhad hon. Pa fraint fwy a ddichon fod iddynt yn y byd hwn, yn nesaf at gael y gras a'r breintiau a arwyddoceir yn y bedydd?

5. Yr ydym, hefyd, wrth ddwyn ein plant i'r bedydd, yn ymrwymo, yn y modd mwyaf cadarn a difrifol, i'w maethu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd—eu dwyn i fynu i Dduw. Mae pob ymddygiad croes i hyn yn dòri ammod â Duw, ac yn bechod ysgeler—eu cyflwyno hwy yn y bedydd i Dduw, a'u maethu i'r diafol gwedi hyny! Pa anghysondeb! pa ffieidd-dra!*

6. Y mae Duw, hefyd, yn y bedydd, yn selio i ni fod trefn fawr yr iechydwriaeth wedi ei chwblhau yn Nghrist yn gwbl wrth ei fodd, yn gyflawn a digonol, ac na chollir y neb a gredo ynddi, ac a'i cymeradwyo yn wirioneddol. Mae y bedydd fel yr enwaediad, yn insel cyfiawnder y ffydd, i'r neb a gredo. Yr ydym ni yn sicrhau ein cymeradwyaeth o drefn Duw a'n holl galon, a'n hymorphwysiad arni yn unig am gadwedigaeth; y mae yr Arglwydd yn sicrhau ei gymeradwyad o honom yn y drefn hòno, a'n diogelwch tragywyddol ynddi.

7. Y mae y bedyddiedig i'w olygu, o ran proffes allanol, mewn undeb â Christ a'i eglwys, ac yn ddeiliad proffesedig o'r eglwys hòno sydd yn cael ei gosod i fynu yn y byd yn erbyn teyrnas Satan, ac yn filwr ffyddlawn yn ei herbyn. Rhuf. 6. 3. 1 Cor. 12. 13. Gal. 3. 27.

Am y deiliaid cymhwys o fedydd, llawer o ddadl sydd wedi bod, ac yn bod, yn mhlith Cristionogion, er ys rhai cannoedd o flynyddoedd. Nid oes neb yn ammeu nad ydyw credinwyr edifeiriol yn gymhwys ddeiliaid bedydd, ar eu proffes o hyny, a boddlonrwydd cyfatebol: ond a ydyw plant y bedyddiedig yn ddeiliad cymhwys?—hyn ydyw y ddadl. Sicr yw, fod plant yn aelodau eglwysig erioed, dan bob goruchwyliaeth; ac hyd nes y gellir profi eu troi hwynt allan gan Grist, neu ei apostolion, rhaid barnu eu bod i mewn etto. Nid oes yn y Testament Newydd un gair o sôn am eu diarddeliad; ond llawer i'r gwrthwyneb. Y mae tystiolaethau amlwg i'w cael yn ysgrifeniadau yr Iuddewon, eu bod yn bedyddio, yn gystal ag yn enwaedu proselytiaid, a'u plant hefyd. Pa bryd y dechreuwyd yr arfer o'u bedyddio yn eu plith, nid oes genym hanes. Yr oedd yn ddywediad yn eu plith, *Nid oes un dyn yn broselyt nes ei enwaedu a'i fedyddio.* Rhydd Lightfoot amryw gyfadwriaethau o ysgrifeniadau yr Iuddewon yn nghylch y ddau bwnc, sef enwaedu a bedyddio y proselytiaid a'u plant. Gwel *vol.* ii, *p.* 117, 118.

'Bedyddiwyd y tadau oll i Moses yn y cwmwl, ac yn y môr.' 1 Cor. 10. 1, 2. Yr oedd eu mynediad trwy y môr, tan arweiniad y cwmwl, yn arwyddo yr un peth a bedydd; sef dystryw eu gelynion, eu diogelwch hwy, a'u bywyd newydd o ganol angeu; eu diogelwch nos a dydd dan y cwmwl, a'u harweiniad ganddo—y cwbl yn cysgodi Crist. Angeu oedd y dyfroedd i Pharaoh a'i lu, gelynion Israel, ond bywyd i'r Israeliaid: felly y bedydd—nid dwfr yn boddi y pechadur ydyw, ond yn ei lanhau, ei achub, a boddi neu ddystrywio ei bechod yn arwyddocâol. Felly y cwmwl, eu diogelwch a'u harweinydd hwy; ond yn gwgu ac yn melltenu yn ofnadwy ar Pharaoh a'i bobl.——Bedyddio i Moses, sef i dderbyniad o athrawiaeth Moses; fel ag y mae bedyddio i Grist yn arwyddo, i grediniaeth o athrawiaeth Crist. Rhuf. 6. 4. Neh. 2. 12, 19. Ps. 68. 7, 9. a 78. 13, 14. a 105. 39. Heb. 4. 2. 1 Petr 3. 21. Heb. 11. 29.——Bedyddio trwy un Ysbryd, yn un corph. 1 Cor. 12. 13. Un bedydd sydd; a'r un Ysbryd sydd yn gweithredu yn yr ail-enedigaeth, a arwyddocêir yn y bedydd; a lle y mae yr un Ysbryd hwnw mewn amryw aelodau, y maent trwy hwn yn un corph. Y mae yr un Ysbryd hwn, sef yr Ysbryd Glân, yn gwlwm undeb y corph â'r pen, Crist Iesu, a'r holl aelodau â'u gilydd yn un corph.——'Bedyddio dros y meirw.' 1 Cor. 15. 29. Hyny ydyw, mewn crediniaeth o adgyfodiad y meirw, neu tros adgyfodiad y meirw. Y mae yr ordinhad o fedydd yn arwyddo adgyfodiad y corph i fywyd o ogoniant, yn gystal ag adgyfodiad yr enaid i fywyd grasol a sanctaidd. Col. 2. 12. Rhuf. 6. 3, 4, 5. 2 Cor. 4. 15, 16. 1 Petr 3. 21. Mat. 10. 38, 39.——Bedydd a arwydda, hefyd, dyoddefiadau mawrion. Pa faint gwell a fyddant hwy, y rhai a ddyoddefant y cystuddiau mawrion am broffesu Cristionogaeth, os na chyfodir y meirw? Luc 12. 50. Mat. 20. 22, 23. Luc 20. 37, 38. Mae y Dr. Doddridge yn cyfieithu yr ymadrodd, *Bedyddio yn lle y meirw;* megys pe buasai y rhai oedd yn derbyn y grefydd Gristionogol trwy fedydd, yn cael eu gosod ar y maes i filwrio yn achos Crist yn lle y rhai a syrthiasant trwy farwolaeth.

BEDD—AU, (edd) beddrod, claddfa, lle i gladdu y marw. Yr oedd yr Hebreaid gynt yn ofalus iawn yn nghylch eu beddau; ac y mae yr Iuddewon felly hyd heddyw. Byddent yn arfer claddu eu gwyr a'u gwragedd anrhydeddus mewn ogofëydd; naill ai rhai naturiol neu dyllau a naddent hwy yn y creigiau. Gen. 23. 19. Luc 23. 53. Eraill a gleddid mewn mynyddoedd; a rhai yn y mynydd yr oedd y deml yn sefyll arno. Ezec. 43. 7. Weithiau byddent yn claddu mewn gerddi; ond yn gyffredinol yr oedd eu claddfëydd o'r tu allan i'r ddinas. Ar y pymthegfed dydd o fis Adar, fel y dywedir, y byddent yn arfer gwyn-galchu eu beddau; ac wrth eu bod yn adeiladu ac yn gwyn-galchu beddau y prophwydi, yr oeddynt yn proffesu parch iddynt. Mat. 23. 29.——Dywedir am y bedd ei bod yn llyncu dynion: ac nis diwellir mo honi. Diar. 1. 12 a 30. 16. Aeth Crist yn dranc iddi. Wrth orwedd ynddi dros ei bobl, gwaredodd hwynt oddiwrth ei gallu i'w cadw yn garcharorion, ac a'i cyweiriodd yn wely iddynt orphwys ynddo, hyd y boreu hyfryd y delo i alw arnynt i gyfodi i feddiannu y deyrnas a barotowyd iddynt er seiliad y byd. Hos. 13. 14.——Y mae y bedd, weithiau, yn cael ei rhoddi am angeu, (Job 3. 22.) neu am y marw yn y bedd. Esa. 33. 18.——Rhagrithwyr a gyffelybir i feddau wedi eu gwynu; tra y maent yn ymddangos yn hardd oddi allan, y maent o ran eu calon a'u gweithredoedd

* Yr oedd defod ganmoladwy wedi ei sefydlu gynt yn eglwysi Bohemia, i ddwyn eu plant yn ddeuddeng mlwydd oed a'u gosod ger bron eu gweinidog yn yr eglwys i wneuthur proffes gyhoeddus o'u ffydd, ac i ddangos hefyd a ddarfu y rhieni gyflawni eu dyledswydd tu ag at eu plant, yn gyfatebol i'w hymrwymiad yn bedyddio eu plant. *Lasitio de moribus & Institutis Fratrum Bohemorum. Cap.* xii, sec. 28, 29.

Digitized by Google

dirgel yn llawn llygredd ac aflendid. Mat. 23. 27. Luc 11. 41.——Cegau pechaduriaid ydynt fel bedd agored; maent yn bwrw allan arogl ffieiddiaf geiriau llygredig, y rhai a anurddant ac a halogant eraill. Rhuf. 3. 15.——Cawell saethau y Caldeaid a gyffelybir i fedd agored, yr hwn oedd yn llawn saethau, a'r rhai hyny yn cael eu saethu allan, nes yr oedd marwolaeth oddi amgylch. Jer. 5. 16.

BEDDROD, (bedd-rhawd) lle i dori bedd, neu y man y byddo bedd; lle claddu. Gen. 23. 4. a 37. 35.

BEELIADA, בעלידע [*arglwydd gwybodaeth*] mab Dafydd. 1 Cron. 14. 7.

BEER, באר [*ffynon*] dinas lle y ffodd Jothan mab Gideon, rhag Abimelech. Barn. 9. 21. Tebygol ei bod yn agos i Jerusalem.

BEER-ELIM, [*ffynon y tywysogion*] Esa. 15. 8. Rhai beirniaid dysgedig a ddywedant mai yr un yw hi a'r ffynon a gloddiodd y tywysogion a phenaethiaid y bobl yn yr anialwch. Num. 21. 17, 18. Gwel Junius, Vitringa.

BEERI, בארי [*fy ffynon*, neu *godidog*] 1. Tad y prophwyd Hosea. Hos. 1. 1.——2. Tad Judith, gwraig Esau. Gen. 26. 34.

BEER-LAHAI-ROI, [*ffynon yr Hwn sydd yn fyw ac yn fy ngweled*] felly y galwodd Agar y ffynon hon, o herwydd i'r Duw byw ymddangos iddi, a darparu ar ei medr hi a'i mab (Gen. 16. 14.); yn arddangosiadol mai efe yw ffynon y bywyd. Ps. 36. 9. Jer. 2. 13. a 17. 13. Can. 4. 15.

BEEROTH, בארות [*ffynonau*] 1. Un o ddinasoedd y Gibeoniaid, a roddwyd i lwyth Benjamin; a'r man lle y ganwyd y ddau wr hyny a laddasant Isboseth. Jos. 9. 17. 2 Sam. 4. 5, 6, 7.——2. Yr wythfed wersyllfa ar hugain i blant Israel yn anialwch Arabia. Num. 33. 31. Deut. 10. 6.

BEERSEBA, באר־שבע [*ffynon y llw*] lle a elwid felly oblegid i Abraham wneuthur yma gyfammod trwy lw âg Abimelech brenin Gerar (Gen. 21. 31.) ac a roddodd i Abimelech saith hespin yn dystiolaeth mai efe a gloddiodd y ffynon. Isaac hefyd a wnaeth gyfammod âg Abimelech yma. Gen. 26. 31, 32, 33. Adeiladwyd yma ddinas wedi hyny. Jos. 19. 2. Yr oedd yn sefyll ugain milltir yn y dehau i Hebron.—Y mae 'o Dan i Beerseba' yn ymadrodd cyffredin i ddangos terfynau tir yr addewid: Dan yn y cwr pellaf yn y gogledd, a Beerseba yn y dehau.

BEHEMOTH, בהמות a בהם [*anifel, yr anifel, anifeiliaid*]. Y mae y gair Hebraeg am y creadur hwn yn y rhif lliosog, a'r rhyw fenywaidd, hwyrach, er mwyn dangos ei ragoriaeth o ran maintioli; rhai a fynant ragosod gair unigol o'i flaen; megys *creadur y creaduriaid*; hyny yw, y creadur penaf. Y mae naturiaethwyr yn gyffredinol yn meddwl mai y cawrfil (*elephant*); neu, ynte, yr afonfarch (*hippopotamus*) ydyw y creadur hwn: neu, fel y barna Mr. J. M. Good, fod y rhyw wedi ei golli, gan nad yw y darluniad yn cyfateb yn gyflawn i'r cawrfil na'r afonfarch. Job 40. 15. Gwel Bochart, Scheuchzer's *Physica Sacra*, Schultens, Scott *on Job*, Dr. Shaw's *Travels*, Mr. J. Mason Good *on Job*.

BEICHIO, (baich) pwnio, llwytho, cludo; rhuo, brefu, croch-frefu.—'Am i chwi frasâu fel anner mewn glaswellt, a beichio fel teirw.' Jer. 50. 11.—'Pan y brasâoch fel anner yn dyrnu, ac y gweryrwch fel meirch.' Blayney. Y gair *Heb.* צהל a arwydda *gweryriad meirch*, ac nid un amser *beichiad tarw*. Arwydda אבר rhyw greadur cryf, march neu darw; ond y perwyddiad sydd yn gofyn ei gyfleithu march yn y fan hon.

BEICHIOG—I, (baich) un yn dwyn baich; felly y mae gwraig wrth ymddŵyn dyn bach. Yr oedd cospedigaeth dan y gyfraith ar yr hwn a darawai wraig feichiog i'w niweidio, fel y gosodai y gwr arno. Exod. 21. 22.——*Beichiogi ac esgor ar wynt*, bod mewn dysgwyliad am gymhorth a gwaredigaeth o drallod a chystudd, a'r gobaith yn troi allan yn wag ac aflwyddiannus, heb un plentyn byw o waredigaeth wedi yr holl ofid.——'Gwae y rhai beichiogion,' &c., o herwydd eu bod yn drwsgl i ffoi yn wyneb y rhyfel blin a'r galanasdra yn Jerusalem; hefyd, o herwydd y newyn yn y tir; ac o herwydd eu bod yn ymddŵyn plant erbyn y fath amser o berygl a thrallod. Mat. 24. 19. Luc 21. 23.

BELA, בלע [*dystrywiwr*] 1. Mab Beor, brenin Dinhabah yn Edom. Gen. 36. 32.——2. Mab Benjamin, pen-teulu. Num. 26. 38.

BELGAH, neu BILGAH, באלגה [*adnewyddiad*] pen y pymthegfed dosparth o'r offeiriaid. 1 Cron. 24. 14.

BELIAL, *Heb.* בלי־יעל [*heb iau*] enw a roddir i'r diafol, i ddangos ei natur lygredig, aflywodraethus, ddiffrwyth, na fyn wneuthur daioni. Dynion drygionus a elwir ar enw, neu yn blant Belial, o herwydd eu hafreolaeth a'u hanfoesoldeb; ac y mae pethau ffiaidd erchyll yn cael eu galw yn waith, yn bethau, neu yn eiddo Belial. 2 Cor. 6. 15. 2 Sam. 16. 7. a 20. 1. 1 Sam. 1. 16. a 2. 12. a 25. 17. a 30. 22.——Rhai, medd y Dr. Chandler, (*Life of David, vol.* ii, *p.* 178.) a farnant yr arwydda y gair Belial בלי יעל *un heb iau*, un wedi bwrw ymaith y gyfraith; *exlex*, un digyfraith. Ond eraill, gyda gwell rheswm, a farnant yr arwydda בלי יעל *un difudd*, nad ydyw dda i ddim. Bu yn ddefnyddiol; ond syrthiodd ymaith oddiwrth bob daioni a defnyddioldeb, ac y mae o dueddiad llygredig a gwael: arferir ef fel un o enwau y diafol, i arwyddo y graddau mwyaf o ddrygioni.

BELSASSAR, בל־שאצר [*arglwydd y trysor*] brenin Babilon, yr hwn y tybir yn gyffredin ei fod yn fab i Efil-Merodach, ac yn ŵyr i Nebuchodonosor. Pan oedd Babilon yn warchaëedig gan Cyrus, efe a wnaeth wledd fawr i fil o dywysogion; ac nid ydoedd dim a wnai y tro iddo heb gael llestri cysegredig teml Duw, y rhai a ddygasid o Jerusalem, i yfed gwin o honynt. Pan oeddynt yn nghanol eu gloddest, a'u calonau yn llawen gan win, dyma ddarn llaw dyn, yn ysgrifenu ar galchiad y pared, ar gyfer y canwyllbren; y brenin a'i canfu, ac a ddychrynodd â dychryn mawr iawn. Gorchymynodd y brenin alw am holl ddoethion Babilon ger ei fron, i ddarllen ac i ddehonglì yr ysgrifen, gan addaw gwobrau lawer i'r neb a wnelai hyny; ond ni fedrent ddarllen yr ysgrifen, am ei bod yn Hebraeg, tebygol, na mynegi i'r brenin ei dehongliad. Pan glywodd y frenines, sef Nitocris ei fam, yr hon oedd yn bur gydnabyddus â Daniel, a hysbys o'i fawr ddoethineb, cynghorodd y brenin i yru am Daniel. Yr hwn, pan ddaeth wrth orchymyn y brenin, a ymddygodd yn hynod o addas i brophwyd Duw, ac yn eithaf ffyddlawn tu ag at y brenin. Darllenodd a dehonglodd yr ysgrifen, a mynegodd i'r brenin ei bechodau fel achos o farn Duw arno, yn ol dehongliad yr ysgrifen. Dyrchafwyd Daniel i anrhydedd yn ol gorchymyn y brenin. Y noson hôno y lladdwyd y brenin. Gabrias a Gadada, dau o encilwyr Babilonaidd, yn nghyd â rhai milwyr etholedig o'r Persiaid, a ruthrasant i'r Palas, a laddasant y gwylwyr, a wanasant Belsassar y brenin a'i dywysogion, pan nad oeddynt etto ond braidd wedi deffroi o'u cwsg a'u meddwdod. Dan. v. Edr. BABILON.

BELTESASSAR, [*yr hwn sydd yn trysori yn*

Digitized by Google

*ddirgel*] enw a roddwyd ar Daniel yn llys Nebuchodonosor. Dan. 1. 7.

BENAIAH, בניה [*mab yr Arglwydd*] mab Jehoiada, un o gedyrn Dafydd; yr hwn a wnaeth lawer o weithredoedd grymus a nerthol. 2 Sam. 23. 20.——2. Arall o'r enw. Ezra 10. 30.

BENDECAR, בנדקר [*mab gwanwr*] llywodraethwr amryw ddinasoedd dan y brenin Solomon. 1 Bren. 4. 9.

BENDIGEDIG, *Llad.* BENEDICTUS: bendigaid, gwynfydedig.—Gelwir Duw yn aml yn yr ysgrythyrau, Y BENDIGEDIG. Gelwir Crist, 'Mab y BENDIGEDIG.' Marc 14. 61, 62. Gelwir y Creawdwr yn 'fendigedig yn dragywyddol;' Rhuf. 1. 25.—'yr hwn sydd fendigedig yn oes oesoedd;' 2 Cor. 11. 31.—'y bendigedig Dduw;' 1 Tim. 1. 11.—'y bendigedig a'r unig benaeth.' 1 Tim. 6. 15. Gelwir Crist yn 'Dduw bendigedig.' Rhuf. 9. 5. Ps. 45. 2.——Bendigedigrwydd Duw yw ei ddedwyddwch hanfodol, ynddo ac o hono ei hun; ac yn cynnwys yn 1. Ei fod yn berffaith rydd oddiwrth bob drwg, ac yn feddiannol o bob daioni. Y mae yn berffaith rydd oddiwrth bechod a'i holl ganlyniadau: 'Duw gwirionedd, a heb anwiredd,' yw. Deut. 32. 4. Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch. 1 Ioan 1. 5. Sancteiddrwydd yw dedwyddwch yr angelion etholedig a'r saint wedi eu perffeithio; am eu bod yn berffaith sanctaidd, y maent yn berffaith ddedwydd; felly sancteiddrwydd hanfodol Duw yw ei ddedwyddwch; ie, nis gellir ei demtio â drwg. Iago 1. 13. Y mae ei wybodaeth o bob peth y fath fel nas dichon wneyd camddewisiad o ddim. Diar. 21. 30. Ac y mae ei allu y fath fel nas dichon gael ei orchfygu na'i orthrymu gan neb. Y mae yn berffaith oddiwrth bob peth sydd yn peri annedwyddwch i greaduriaid.——2. Mae hefyd yn feddiannol o bob daioni. Y mae pob daioni ynddo yn hanfodol, ac nid ydyw yn ddiffygiol o ddim. Efe ei hun yw y daioni penaf (*summum bonum.*) Yn mha beth bynag y mae dedwyddwch yn gynnwysedig, y mae yn Nuw yn ei gyflawn berffeithrwydd—cyfoeth—gallu—hyfrydwch—gwybodaeth—doethineb, &c., y maent yn Nuw heb ddim croes i hyny. Y mae dedwyddwch Duw yn anfeidrol, yn annibynol, ac yn ddiddeilliedig oddiwrth neb arall. 'O hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth.' Rhuf. 11. 36. Y mae ei ddedwyddwch yn dragywyddol o ran ei barhad; nis dichon iddo fethu a darfod—byddai y meddwl am hyny yn peri annedwyddwch; ond nis gall fethu mwy na'i fod. Y mae ei holl feddyliau, ei arfaeth, ei gynghorion, a'i holl weithredoedd yn addas iddo ei hun, ac yn hyfrydwch diddarfod iddo. Efe yw ei ddedwyddwch ei hun, ac nis gellir chwanegu at ei ddedwyddwch, mwy nag at ei hanfod. Nis dichon dim allan o hono effeithio ar yr hyn ydyw ynddo ei hun, i beri annedwyddwch iddo. Nis cythruddir—ni siomir—ac nis effeithir arno gan ddim o ran ei ddedwyddwch, byth. Y mae pechod yn gyflawn yn ei anfoddloni; ond y mae yn sanctaidd ac yn ddedwydd yn yr anfoddlonrwydd hwnw—y mae yn sanctaidd ac yn ddedwydd yn ei ddigofaint a'i lidiawgrwydd mwyaf.——3. Efe ydyw achos pob dedwyddwch i'w greaduriaid, angelion, a dynion; o hono ef y mae pob dedwyddwch yn deillio; ac yn eu cyffelybrwydd iddo, ac mewn cymdeithas âg ef, y byddant yn ddedwydd byth. Y mae holl drefn fawr yr iechydwriaeth yn golygu rhyddhad trwyadl ei bobl oddiwrth bob trueni, a'u dwyn yn ol ato ei hun, i fwynhau ynddo bob dedwyddwch. Rhuf. 4. 6, 7, 8. a 5. 1, 11.

Y mae dynion yn wynfydedig pan fyddo y felldith o herwydd pechod wedi ei thynu ymaith, a hwythau gwedi eu cyfiawnhau ger bron Duw trwy Grist, ac wedi eu hadnewyddu i'w ddelw, a yn rhodio yn ei gymdeithas. Eph. 1. 3. Dat. 19. 9.——'Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.' Diar. 10. 7. Y mae eu coffadwriaeth yn anrhydeddus, canmoladwy, ac yn ddefnyddiol.

BENDITH—IO, *Llad.* BENEDICTIO: nawdd, moliant, dedwyddwch, hawddammor; moliannu, gogoneddu. Y gair, weithiau, a arwydda dedwyddwch, anrhydedd, gwynfydedigrwydd; lles a daioni corph ac enaid; pethau yn perthyn i'r bywyd hwn, ac i'r hwn a fydd. Gen. 12. 3. Y mae dau air yn yr iaith Hebraeg yn arwyddo, agos, yr un peth; ברכ (*bare*) ac אשרי (*asrei*). Mae y gair *Gr.* ευδοκια, yn arwyddo *ewyllys da.* Yr un peth gyda Duw ydyw ewyllysio a gwneuthur; yr hwn a fendithio efe, neu yr ewyllysio efe yn dda iddo, bendigedig a fydd, neu daioni a fydd iddo.

Y mae y gair melldith yn hollol wrthwyneb i fendith. Pan ddaeth pechod i'r byd, daeth melldith Duw i'w ganlyn; ac ar unwaith ymdaenodd dros yr holl greadigaeth fawr i gyd, yr hon mor ddiweddar oedd gwedi dyfod o dan law ei Chreawdwr, ac y dywedir am dani, 'wele da iawn ydoedd.' Daeth y felldith hon i'r byd trwy drosedd y dyn cyntaf Adda, a'i holl hiliogaeth a syrthiasant dani fel yntau. Crist yr ail Adda, a ddaeth i'r byd i fyned dan y felldith, yn lle ei holl bobl etholedig, ac i ddwyn i mewn fendith dragywyddol iddynt. Adda a ddygodd felldith i'r byd; Crist a ddaeth i'r byd, a chanddo awdurdod i faddeu pechod, a thrwy hyny symud y felldith ymaith. Maddeuant pechod ydyw sylfaen pob gwynfydedigrwydd y gwneir plant Duw yn gyfranogion o hono. Dyma y 'fendith sydd yn cyfoethogi, heb ddwyn dim blinder gyda hi.' Heddwch, gorfoledd, a chysur, yn y bywyd hwn, ydynt flaen-ffrwythau y fendith fawr hon; ac yn y byd a ddaw bywyd tragywyddol.

Y mae y gair âg amryw ystyriaethau iddo yn yr ysgrythyrau; megys, 1. Pan ddywedir fod Duw yn bendithio, yr arwydda ei fod yn rhoddi digonedd o'r byd hwn i ddyn, ac yn ei lwyddo yn ei achosion allanol. Gen. 30. 27. Rhoddi helaethrwydd o bethau daionus, yn dymhorol ac yn ysbrydol. Gen. 12. 2.——2. Cyflawnhau dyn, a'i ddwyn i gyflwr gwynfydedig a dedwydd. Ps. 32. 1, 2. Dat. 14. 13.——3. Neillduo peth i ddefnydd sanctaidd. Gen. 2. 3.——4. Rhoddi grym i greaduriaid i epilio yn ol eu rhywogaeth. Gen. 1. 22.——5. Cynnysgaeddu dynion â grym a hyfdra gwyrthiol, a doniau angenrheidiol eraill. Barn. 13. 24. Dywedir fod Crist yn bendithio trwy erfyn rhinwedd i'r ymborth, a thalu diolch am dano. Mat. 14. 19. a 26. 26. Luc 22. 19.

'Bendith Abraham,' sef gwaredigaeth oddiwrth felldith y ddeddf, trwy faddeuant pechod, a derbyn addewid o'r Ysbryd, trwy ffydd yn Nghrist. Gen. 28. 4. Gal. 3. 13, 14. Rhuf. 4. 7, 8, 13. Megys y gwnawd Jacob yn etifedd o'r fendith hon, felly y gwneir pob gwir gredadyn yn Nghrist. 1 Petr 3. 9.

'Phiol y fendith,' gwaed Crist yn sacramentaidd, yr hwn ydyw yr achos haeddiannol o bob bendith i bechadur truenus, ac a dderbynir gan y ffyddloniaid trwy fendithio neu ddiolch i Dduw am anfon ei Fab i fod yn iawn dros eu pechodau; trwy yr hwn hefyd y maent yn cael cymundeb â Duw, ac â'u gilydd. 1 Cor. 10. 16.

Pan ddywedir fod dynion yn bendithio, arwydda, 1. Mawrygu a moliannu Duw, o herwydd ei fod yn anfeidrol deilwng ynddo ei hun. Ps. 104. 1.——2. Talu diolch i Dduw am ei drugareddau, a'r lles a dderbyniom oddiar ei law rasol. Ps 16. 7. a 103. 1, 2.——3. Dymuniad arbenig a rhagfynegiad am lwyddiant rhyw un. Gen. xlix. Deut. xxxiii.——4. Gweddio tros, a mynegi parodrwydd Duw i

Digitized by Google

wneuthur daioni i eraill. Num. 6. 23, 24. 2 Sam. 6. 18.——5. Cydnabod ein braint gyda diolchgarwch fod genym Dduw yn Iachawdwr, yn rhan, ac yn Arglwydd. Jer. 4. 2.——6. Cyfarch dynion, gan ddymuno iddynt heddwch a llwyddiant. Gen. 47. 7. Ps. 129. 8.——7. Gweddïo tros eraill, a dywedyd y goreu am danynt, a gwneuthur lles iddynt. Luc 6. 28.——8. Dychymygu ein bod yn ddoeth, ac yn ddedwydd, ac mewn ffafr gyda Duw, oblegid ein bod yn llwyddo yn y byd; Ps. 49. 18. neu, gwenieithio i ni ein hunain na chospa Duw ni am ein pechodau. Deut. 29. 19.

BENHADAD, בֶּן־הֲדַד [*mab Hadad*] 1. Brenin Syria, yr hwn a ddaeth yn gynnorthwy i Asa brenin Judah, yn erbyn Baasa brenin Israel. 1 Bren. 15. 18.——2. Un arall o'r enw, mab i'r cyntaf, a ddaeth i'r orsedd ar ei ol; yr hwn a aeth i ryfel yn erbyn Ahab brenin Israel, ac a orchfygwyd. Cododd ryfel hefyd yn erbyn Jehoram, mab Ahab; ond gorfu arno ddychwelyd yn ol i'w wlad drachefn. Hazael a'i lladdodd, ac a deyrnasodd yn ei le. 2 Bren. 8. 15.——3. Mab Hazael; gorfu ar hwn ollwng ei afael o lawer o'r meddiant ag oedd ei dad Hazael wedi ei berchenogi. 2 Bren. xiii.

BENHAIL, בֶּן־חַיִל [*mab nerth*] un o'r rhai a ddanfonodd Jehosaphat i'r amryw ddinasoedd tan ei lywodraeth, i ddysgu y bobl, ac i'w troi oddiwrth eilun-addoliaeth. 2 Cron. 17. 7.

BENJAMIN, בִּנְיָמִין [*mab deheulaw*] mab ieuengaf Jacob, o Rahel ei wraig, a anwyd A.M. 2272. Ei fam a fu farw ar ei enedigaeth, ac â'i hanadl ddiweddaf, galwodd ef BENONI, *mab fy ngalar:* ond Jacob, rhag iddo fod yn adgoffa parhaus iddo o farwolaeth ei anwyl Rahel, a'i galwodd BENJAMIN. Priododd yn ieuanc iawn: nid oedd efe ond yn dra ieuanc pan oedd iddo ddeg o feibion. Gen. 35. 18. a 46. 21. Hefyd, yr holl lwyth a elwid ar ei enw ef. Rhifedi y llwyth hwn pan ddaethant o'r Aipht, oedd 35,400. Cynnyddasant yn yr anialwch i 45,600. Eu tywysog oedd Abidan mab Gideoni: eu hyspïwr oedd Palti mab Raphu. Yr oedd yn gwersyllu gyd âg Ephraim y tu ol i'r babell. Yr oedd eu hetifeddiaeth yn ngwlad Canaan o du y gogledd a gogledd-ddwyrain i Judah. Num. 1. 11, 36, 37. a 2. 22. a 13. 9. a 26. 38—41. a 34. 21. Jos. xviii. Yr oeddynt yn filwyr hynod, yn enwedig â'r bwa. Nid hir wedi marwolaeth Josuah, y llwyth hwn, trwy amddiffyn trueiniaid Gibeah, a dynasant ryfel a dystryw arnynt eu hunain. Dwywaith, â 26,000 y gorchfygasant 400,000 o'r llwythau eraill, a lladdasant 40,000 o honynt. Yn y drydedd ymladdfa, torwyd hwynt ymaith hyd at 600, y rhai a ffoisant i graig Rimmon. Galarodd y llwythau eraill yn fawr am ddinystr Benjamin. Barn. xx, xxi. Edr. JABES-GILEAD, SILOH.—Ehwd o'r llwyth hwn a farnodd Israel, ac a'u gwaredodd oddiwrth orthrymder y Moabiaid, yn nghylch 80 mlynedd wedi hyn. — Yr oedd Saul ac Isboseth, breninoedd cyntaf Israel, o'r llwyth hwn. Daeth at Dafydd yn nghylch ugain o'u gwyr mwyaf cedyrn, cyn marwolaeth Saul; ac yn nghylch 3000 ychwaneg ar ol marwolaeth Isboseth. 1 Cron. 12. 1—7, 29.—Yn amser Jehosaphat, eu milwyr sefydlog oedd 380,000. Pan wrthgiliodd y deuddeg llwyth, glynodd y llwyth hwn wrth lwyth Judah a theulu Dafydd, a chyfranogasant o grefydd a dygwyddiadau y llwyth hwnw. Aethant i gaethiwed, a dychwelasant gyd â'u gilydd. Rhagfynegwyd hyn gan Jacob wrth fendithio ei feibion:—'Benjamin a ysglyfaetha fel blaidd: y boreu y bwyty yr ysglyfaeth, a'r hwyr y rhan yr yspail.' Gen. 49. 27. Wrth y *boreu* a'r *hwyr*, y mae i ni ddeall *boreu* a *hwyr* gwladwriaeth Israel; canys y llywodraeth hòno yw gwrthddrych prophwydoliaeth Jacob, o'r dechreu i'r diwedd; yn ganlynol, rhagfynegir yma y byddai i Benjamin barhau hyd ddiwedd y wladwriaeth hòno. Y mae Moses yn cadarnhau prophwydoliaeth Jacob; canys eglurhad ar brophwydoliaeth Jacob yw prophwydoliaeth Moses. 'Benjamin,' medd Moses, 'a drig mewn diogelwch gyd âg ef; yr hwn sydd yn cysgodi drosto ar hyd y dydd, ac yn aros rhwng ei ysgwyddau ef.' Deut. 33. 12. Yr un peth yw *ar hyd y dydd*, a'r *boreu a'r hwyr;* yr hyn sydd yn addaw parhad hŵy i Benjamin na'r llwythau eraill: yr hyn a gyflawnwyd yn fanwl.—Yr oedd yr apostol Paul o'r llwyth hwn, ac yn anrhydedd mawr iddo. Phil. 3. 5.



BENTHYG, echwyn; *rhoddi benthyg*, rhoddi peth tan ammod o'i gael yn ol, neu ei gyflawn werth yn ei le. Deut. 15. 6. 2 Bren. 6. 5. Diar. 22. 7.—'A phob gwraig a fenthyca gan ei chymydoges,' &c. Exod. 3. 22. a 12. 35.—'A *gais* gan ei chymydoges.' Dr. M. Y gair *Heb.* שאל *(shaal)* a arwydda *gofyn, deisyf, ceisio, ymorol, chwilio*, &c., ac nid arwydda *benthyca*. Nid oes braidd un o'r hen gyfieithiadau yn ei gyfieithu *benthyg*. Yn y LXX. αιτεσει, *gofynwch*, y *Vulg. postulabit, chwi erchwch.* Y Syriaeg, y Caldaeg, y Samaritan, y Coptic, a'r Persiaeg, ydynt yr un a'r Hebraeg. Y mae y Saesonaeg yr un fath a'n cyfieithiad awduredig ni. Yn Bibl Geneva, a Bibl Barker, a argraffwyd A.D. 1616. a rhai eraill, y mae wedi ei gyfieithu yn addas, *ask, gofynwch.* Gorchymynodd Duw iddynt ofyn, neu erchi, rhyw wobrwy am eu gwasanaeth, ac a dueddodd galonau yr Aiphtiaid i roddi yn haellionus; ac yr oedd hyn yn mhell oddiwrth fod yn gam, nac hyd yn nod yn *elusen*, fel yr oedd yn ad-daliad bychan am yr holl wasanaeth hir a phoenus a roddodd chwe chan mil o'r Israeliaid i'r Aiphtiaid dros lawer o flynyddoedd. Heblaw hyny, nid oedd gan yr Aiphtiaid un hawl i wasanaeth yr Israeliaid. Yr oedd yr Aiphtiaid yn ddyledog i'r Israeliaid am eu sefydliad gwladol, eu cyfoeth, a'u bod fel teyrnas. Beth a gafodd Joseph am ei holl wasanaeth mawr iddynt? Dim. Nid oedd ganddo na thalaeth, na dinas, nac arglwyddiaeth yn yr Aipht: ac nis cadwodd ddim i'w blant. Yr oedd ei holl wasanaeth yn rhad, a dymunodd ar ddwyn ei esgyrn i fynu o'r Aipht. Gwir i Jacob gael gwlad Gosen i drigo ynddi; ond ei anifeiliaid a'i olud, a'r hyn oll oedd ganddo, a ddygodd i'r Aipht, Gen. 46. 1, 6. fel na chawsant ond yn unig y ddaear i ymborthi arni; ac a adeiladasant ddinasoedd trysorau, ac amddiffynfëydd, nas gwyddis pa nifer; ac heblaw hyny, dwy ddinas gyflawn, Pithon a Raamses: ac am yr holl wasanaeth hyn ni chawsant un iawn na gwobrwy, ond cael eu gorthrymu yn galed, a gweled eu plant gwrryw yn cael eu lladd yn feunyddiol. O ba du, gan hyny, yr oedd y cam? ai nid o du yr Aiphtiaid? Dywedir yn ein cyfieithiad ni, 'iddynt *yspeilio* yr Aiphtiaid. Ond nid arwydda y gair *Heb.* נצל *(natsal)* o angenrheidrwydd, *yspeilio; ond diane, myned ymaith, gwared, achub anrhaith*, neu ddwyn anrhaith yn ol: fel yn 1 Sam. 30. 22. Cafodd yr Israeliaid yn ol ran o'u heiddo, eu cyflog, a gadwodd yr Aiphtiaid oddi wrthynt yn dra anghyfiawn. Gofynodd yr Israeliaid y peth oedd gyfiawn yn perthyn iddynt, a rhoddodd yr Aiphtiaid yn rhydd yn ol, yr hyn nid oedd yn gyfiawn yn eiddo iddynt. Gan na thalai yr Aiphtiaid gyflog i Israel am eu gwaith, gallai y pen Ynad mawr beri iddynt ei dalu fel hyn. Exod. 3. 22. a 12. 35. Ps. 10. 17, 18. a 105. 37.—Y mae yn bechod gwneuthur niwed i eiddo benthyg. Exod. 22. 14, 15. Edr. ECHWYN.

BENYW, (menyw) y rhyw fenywaidd. Diar. 11. 22. Y rhyw sydd yn ymddŵyn ac yn esgor, ac yn dwyn ffrwyth. Yn yr anifeiliaid pedwar carnol, ac hefyd yn yr adar, y mae y fenyw yn gyffredinol yn

Digitized by Google

llai na'r gwrryw; er yn yr adar ysglyfaethus, megys yr hebog, y gwalch, &c., y mae i'r gwrthwyneb; y mae y fenyw yn fwy, yn gryfach, yn galetach, a gwrolach na'r gwrryw. Y mae naturiaethwyr yn gwahaniaethu planhigion a blodau yn wrryw a benyw.

BEOR, בער [*tanllyd, ynfyd*] 1. Tad Bela, brenin Dinhaba, yn Edom. Gen. 36. 32.——2. Tad Balaam y dewin. Num. 22. 5. 2 Petr 2. 15. Edr. Balaam.

BERA, בארא [*ffynon*] brenin Sodom yn amser Abraham. Gen. 14. 2. Y rhyfel a fu rhyngddo a Chedorlaomer ydyw y rhyfel cyntaf y mae genym hanes am dano, yn nghylch A.M. 2092.

BERACAH, ברכה [*bendith*] 1. Dyffryn yn llwyth Judah. 2 Cron. 20. 26.——2. Enw dyn. 1 Cron. 12. 3.

BEREA, [*pwysig*] dinas fechan yn Macedonia, lle bu Paul yn pregethu gyda chryn radd o lwyddiant. Act. 17. 10, 13. Canmolir y Bereaid am eu hynawsedd yn derbyn yr efengyl, a'u gwaith yn chwilio yr ysgrythyrau, i brofi y pethau oeddynt yn eu clywed. Edr. Bonedd.

BERIAH, בריעה [*yn y drwg*] 1. Mab Aser, a thad Heber a Malciel; oddi wrtho ef yr oedd tylwyth y Bereaid yn deilliaw. Num. 26. 44.——2. Mab Ephraim, yr hwn a alwyd gan ei dad wrth yr enw hwn, am fod drygfyd yn ei dŷ; ei ddau fab, Ezer ac Elead, wedi cael eu lladd gan y Gathiaid. 1 Cron. 7. 23.

BERNICE, [*un yn dwyn buddugoliaeth*] merch Agrippa, yr hwn a gyfenwyd Agrippa Fawr, brenin yr Iuddewon, a chwaer Agrippa ieuengaf, yr hwn hefyd oedd frenin yr Iuddewon. Yr oedd hi gyd â'i brawd Agrippa yn gwrando araeth Paul, yn ei amddiffyniad o flaen Ffestus. Act. 25. 13. Yr oedd yn byw mewn llosgach ffiaidd gyd â'i brawd. Edr. Agrippa.

BERYL, *Gr.* Βηρυλλος; *Llad.* Beryllus: maen gwerthfawr o liw gwyrddlas, sydd i'w gael yn yr India Ddwyreiniol, ac o gwmpas mŵn-gloddiau aur Peru, yn Neheudir America; y mae yn ddefnydd pur galed. Yr oedd y beryl yn ddegfed maen yn nwyfroneg yr arch-offeiriad, Exod. 28. 20. ac yn wythfed yn sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 20. Dan. 10. 6.——Cyffelyba yr eglwys ddwylaw Crist, ei hanwylyd, i 'fodrwyau aur, wedi eu llenwi o beryl;' yn arwyddo purdeb, gwerthfawrogrwydd, a harddwch ei weithredoedd, yn anrhydeddus ac yn dderbyniol gan Dduw a'i bobl. Can. 5. 14. Y mae y llaw, yn aml, yn arwyddo gwaith y llaw; a llaw hardd, wedi ei haddurno â modrwy wedi ei llenwi â beryl, a arwydda ei ddull hardd a gogoneddus o weithredu, a gwerthfawrogrwydd ei waith, yn y greadigaeth, ei ragluniaethau, ond yn enwedig yn y prynedigaeth. Cywreinwaith y Duwdod yw hwnw, i'w ryfeddu byth.—Yn ngweledigaeth Daniel, ymddangosodd gwr iddo, sef Crist, 'a'i gorph oedd fel maen beryl;' i arwyddo dirgelwch, harddwch, ac ardderchogrwydd ei berson. Dan. 10. 6.——'Dull yr olwynion a'u gwaith oedd fel lliw beryl.' Ezec. 1. 16. Dan. 10. 5, 6.—כעין תרשיש *fel llygad Tarsis*;* χρυσολιθος, LXX.; Chrysolithus, *Vulg.* Maen gwerthfawr, a elwir felly, tebygol, medd Newcome, oddiwrth y lle y dygir ef o hono. Dywed Newcome, mai ei liw yw glaswyrdd: ond arwydda yr enw Groeg a Lladin mai lliw melyn-aur yw. Gelwir ef topaz gan y gemyddion presennol. Pan y ceffir ef yn berffaith ac yn ddifai, cyfrifir ef yn faen gwerthfawr iawn; ond anaml y mae i'w gael felly.

* Gwel Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* iv., *cap.* 1. § 19.

BERW—I—ION, (bar) poethi, brydio. *Berw y cylla*, treuliad y cylla; *berw yn mhen un*, sef rhyw fympwy rhyfedd yn ei ben.——Heblaw yr ystyr cyffredin, fod rhyw wlybwr yn berwi gan boethder ac angerdd tân, arwydda, 1. Terfysg a dygyforiad y môr. Job 41. 31.——2. Cystuddiau trymion oddifewn. Job 30. 27.—'Na ferwa fŷn yn llaeth ei fam.' Exod. 23. 16. Bernir yn gyffredin roddi y gyfraith hon i'r Iuddewon, i'w rhybuddio yn erbyn pob math ar greulondeb. Ond, hwyrach, medd y Dr. Cudworth, ei rhoddi yn wrthwyneb i ddefod goel-grefyddol yn mhlith y cenedloedd Paganaidd. Yr oedd yn arferiad yn mysg yr hen Baganiaid, wedi casglu i mewn eu holl ffrwythau, i gymeryd mŷn, a'i ferwi yn llaeth ei fam, ac yna, mewn dull swynol, myned a'i daenellu ar eu holl goedydd a'u meusydd, eu gerddi a'u perllanau, gan dybied wrth hyn eu gwneyd yn ffrwythlon, ac y dygent ffrwythau yn fwy helaeth y flwyddyn ganlynol. Ac i gadarnhau yr eglurhad hwn o'r gyfraith yn erbyn berwi mŷn yn llaeth ei fam, y mae i sylwi arno, fod yn Exod. 34. 26. orchymyn i ddwyn y cyntaf o flaen-ffrwyth y tir i dŷ Iehofah eu Duw; ac yn Deut. 14. 21. y mae gorchymyn i ddegymu holl gynnyrch yr hâd, a ffrwyth y maes. Gwel Dr. Cudworth's *Discourse on the Lord's Supper*.

BESOR, [*newyddion da*] afon yn rhedeg i Fôr y Canoldir. 1 Sam. 30. 9. Gelwir hi hefyd yn Amos 6. 14. *afon y diffaethwch*. Tybia rhai mai yma y bedyddiwyd yr eunuch gynt. Act. 8. 36.

BETAH, בטח [*hyder*] dinas o Syria, a gymerodd Dafydd oddiar Hadadezer. 2 Sam. 8. 8. Tybir mai yr un yw a Beten, yr hon y crybwyllir am dani yn Jos. 19. 25. fel yn perthyn i lwyth Aser.

BETHABARA, בית־עבר [*tŷ tramwyfa*] tref tu hwnt i'r Iorddonen, lle bu Ioan yn bedyddio. Ioan 1. 28. Tybir mai dyma y fan lle yr aeth yr Israeliaid trwy yr Iorddonen, tan arweiniad Josuah; ac mai yma yr oedd y rhyd cyffredin, oddiwrth yr enw *tramwyfa*.—Y mae בת *(beth)* yn Hebraeg, yn arwyddo *tŷ*, neu *deml*; am hyny barna rhai fod y rhan fwyaf o leoedd sydd â *beth* yn dechreu eu henwau â themlau eilunod ynddynt.

BETHACRA, neu BETH-HACCEREM, dinas rhwng Jerusalem a Tecoa. Jer. 6. 1.—Yr oedd Malciah yn dywysog ar ran o honi. Neh. 3. 14.

BETHANIA, [*tŷ y gân*] pentref wrth droed mynydd yr Olew-wydd, yn agos i ddwy filltir o du y dwyrain i Jerusalem. Yma yr oedd Mair a Martha yn byw, yn nghyd â'u brawd Lazarus, yr hwn a gyfododd Iesu o feirw. Ioan 11. 1. Yma y tywalltodd Mair yr enaint i eneinio yr Iesu. Ioan 12. 3. Edr. Simon. Yr oedd eneiniad Mair, nid yn unig yn dangos ei chariad gwresog a haelionus tu ag ato, ond hefyd ei ffydd ynddo fel eneiniog Duw, y gwir Fessiah. Y mae Crist yn eneiniog yr eglwys, yn gystal ag yn eneiniog y Tad. Y mae y Tad wedi ei osod a'i addasu i'w swydd, ac y mae yr eglwys yn ei holl aelodau yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu ynddo, yn ol trefniad grasol y Tad. Edr. Lazarus, Mair.

BETH-AFEN, בית־און [*tŷ y gwagedd*] 1. Yr un a Bethel; un o'r dinasoedd lle yr oedd lloi aur Jeroboam; am hyny mae y prophwyd Hosea yn ei galw hi, mewn ffordd o ddirmyg, Beth-afen, *tŷ y gwagedd*, neu y *delwau*, yn lle בית־אל Bethel, *tŷ Dduw*, yr enw a roddasid arni gan Jacob gynt. Gen. 28. 19. Hos. 4. 15.——2. Un arall yn y dehau-ddwyrain i Bethel, ac yn agos ati. Jos. 7. 2.

BETH-CAR, בית־כר [*teml yr oen*] dinas yn llwyth Dan. 1 Sam. 7. 11. Galwyd hi felly, tebygol, am

Digitized by Google

fod llun oen yno yn cael ei addoli. Yr oedd yr Aiphtiaid yn addoli llun hwrdd, a thrigolion Thebes yn addoli dafad fyw. Hyd yma yr erlidiodd Israel y Philistiaid yn amser Samuel: yma, neu gerllaw yma, y cyfododd Samuel Ebenezer. 1 Sam. 7. 11.

BETH-DAGON, בית־דגן [*tŷ yr ŷd*] 1. Dinas yn llwyth Aser. Jos. 19. 27.——2. Un arall yn Judah. Jos. 15. 41.——3. Teml Dagon yn Gaza. Barn. xvi. ——4. Teml arall yn Asdod. 1 Sam. v.

BETHEL, בית־אל [*tŷ Dduw*] dinas yn sefyll yn y gorllewin i Ai, yn nghylch wyth milltir o du y gogledd i Jerusalem. Enw y lle ar y cyntaf oedd Luz. Yma y treuliodd Jacob noswaith yn ei ffordd i Padan-Aram, yn gorwedd allan, â'i ben ar obenydd careg. Y weledigaeth ryfedd hòno a gafodd a barodd iddo alw y lle yn Bethel, *tŷ Dduw*. Gen. 28. 19. Yn mhen deng mlynedd ar hugain daeth Jacob yma drachefn i babellu. Y Canaaneaid, wedi hyny, a adeiladasant ddinas yn y fan, ac a'i galwasant Luz, neu Bethel. Cymerodd Josuah hi, yn nghyd âg Ai, ac a'i rhoddes i'r Ephraimiaid. Yma y gosododd Jeroboam un o'i loi aur; am hyny galwyd hi *tŷ y gwagedd*, neu yr *eilunod*. Hos. 12. 11.

BETHER, בתר [*rhaniad*] 'Mynyddoedd Bether,' (Can. 2. 17. a 8. 14.) a gyfieithir *mynyddoedd y pêr-lysiau*, yn ol y *Vulg*., ac yn sefyll, yn ol Eusebius, yn nghylch deuddeng milltir o Jerusalem. Ond y mae Calmet yn meddwl mai Beth-horon uchaf ydyw, rhwng Diospolis a Cæsarea, deuddeg a deugain o filltiroedd o Jerusalem.

BETHESDA, בית־חסדה [*tŷ trugaredd*, neu *dosturi*] llyn yn ymyl marchnad (neu borth, medd rhai) y defaid, yn Jerusalem. Yr oedd math o ysbytty, neu baddon cyffredin, â phum porth, neu rodfa iddo, wedi eu hadeiladu o amgylch ogylch iddo, i gynnwys pobl ynddo: naill ai rhai i ymbleseru, neu rai cleifion, neu bob un o'r ddau. Y llyn hwn a wnawd yn gyntaf gan Solomon, ac a elwid Llyn Solomon. Gwel Lightfoot. Byddai yno liaws o gleifion yn gorwedd, oblegid yr oedd rhyw rinwedd meddyginiaethol yn y dwfr, ac yr oedd yn gwneuthur lles mawr i lawer wrth ymdrochi ynddo, oblegid fod angel ar amserau yn arfer disgyn i'r llyn, a chynhyrfu y dwfr; a phwy bynag a elai i mewn gyntaf ar ol cynhyrfiad y dwfr, a âi yn iach o ba glefyd bynag a fyddai arno. Bu yno un dyn yn dysgwyl am iachâd wrtho ddeunaw mlynedd ar hugain, ac yn y diwedd a wnaed yn iach gan ein Iachawdwr bendigedig, meddyg pob afiechyd. Yr oedd yn arwydd o rinwedd meddyginiaethol gwaed, Ysbryd, a gair yr Arglwydd, yr hwn yr oedd y llyn yn ei gysgodi. Dechreuodd yr angel ar brydiau gynhyrfu dyfroedd y llyn rai blynyddoedd cyn dyfodiad Crist, i fod yn arwydd sicr i'r Iuddewon o'i ddyfodiad fel Meddyg i'r byd, i iachâu pechaduriaid. Yr oedd yr arwydd hwn yn cryfhau eu dysgwyliad am dano yn Feddyg iddynt. Ioan 5. 1—10. Edr Gihon, Siloa.

BETH-HACCEREM, בית־הכרם [*tŷ y winllan*] dinas yn sefyll ar fryn rhwng Jerusalem a Tecoa, yr hon oedd hynod, tybygid, am ei gwinllanoedd. Neh. 3. 14. Jer. 6. 1.

BETH-HOGLA, [*tŷ y wledd*] enw dau le; un yn llwyth Judah, Jos. 15. 6. wyth milltir o Gaza, yn ol Eusebius; a'r llall, fel y dywed Jerome, ddwy filltir oddiwrth yr Iorddonen, yn perthyn i lwyth Benjamin. Jos. 18. 21.

BETH-HORON, [*tŷ digofaint*] yr oedd dwy ddinas o'r enw yn perthyn i lwyth Ephraim. 1 Cron. 7. 24. Hwy a elwid yr uchaf a'r isaf.

BETH-JESHIMOTH, בית־הישמות [*tŷ yr anghyfannedd-dra*] dinas yn llwyth Reuben. Jos. 13. 20. Cymerwyd hi drachefn gan y Moabiaid. Ezec. 25. 9. Mae Eusebius yn barnu ei bod ddeuddeng milltir oddiwrth yr Iorddonen.

BETHLEHEM, בית־לחם [*tŷ bara*] 1. Dinas yn llwyth Judah; yr ydoedd, hefyd, yn cael ei galw Ephrath, neu Ephrata, (Mic. 5. 2.) a'i thrigolion yn Ephratëaid. Nid oedd ond bechan; ond daeth i fod yn dra chyfrifiol, o achos geni ein Hiachawdwr yno. Yr oedd yn sefyll ar ochr bryn, yn nghylch chwe milltir o du y dehau i Jerusalem. Y mae yn sefyll ar fryn yn nghanol bryniau, medd Volney; y ddaear oddi amgylch sydd dra ffrwythlon, a'r ffrwythau ydynt y fath oreu; nid oes dim yn eisieu ond diwylliant. Gwel Volney's *Travels*, *vol.* ii., *p.* 322. Edr. Dafydd, Iesu.——2. Yr oedd un arall yn perthyn i'r Zabuloniaid. Jos. 19. 15.

BETH-NIMRA, בית־נמרה [*tŷ gwrthryfel*] dinas yn llwyth Gad. Num. 32. 36. Barna Calmet mai yr un a Nimrin ydyw, (Jer. 48. 34.) yn sefyll bum milltir yn y gogledd i Bethsaida.

BETH-PEOR, [*tŷ adwyad*] 1. Un o ddinasoedd y Moabiaid, a roddwyd i lwyth Reuben. Deut. 4. 46. ——2. Tŷ Peor, eilun-dduw y Moabiaid. Num. 25. 18. Edr. Peor.

BETHPHAGE, [*tŷ ffigys cynnar*] pentref yr offeiriaid, wrth droed mynydd yr Olew-wydd; pentref bychan oedd, yn perthyn i'r offeiriaid, yn nghylch dwy filltir o du y dwyrain i Jerusalem. Yma y cafodd ein Hiachawdwr yr asen i'w marchogaeth i Jerusalem. Mat. 21. 1.

BETHSAIDA, בית־צידה [*tŷ hela*] dinas yn Galilea, yn perthyn i lwyth Naphtali; yr oedd y wlad o amgylch yn hynod am geirw. Gen. 49. 21. Yr oedd yn sefyll yn y pen nesaf i'r gogledd i lyn Gennesaret, yn dra chyfleus i bysgota; oddiwrth yr hyn y cafodd ei henw. Nid oedd ond pentref bychan cyn amser Phylip y tetrarch; efe a'i hadeiladodd yn ddinas, ac a'i galwodd Julias, o barch i Julia, merch Augustus Cæsar. Yma yr agorodd Crist lygaid y dyn dall â chlai a phoeryn. Marc 8. 22, 26. Bethsaida oedd lle genedigol Petr ac Andreas. Ioan 1. 44.

BETH-SEMES, בית־שמש [*tŷ yr haul*] 1. Dinas yn Judah. Jos. 21. 16. Pan anfonodd y Philistiaid arch Duw o'u plith, hwy a'i gyrasant i Beth-semes, lle y tarawyd yn feirw nifer mawr o'r gwyr, am eu hyfder rhyfygus yn edrych i mewn i'r arch. 1 Sam. 6. 12. 'Ië, tarawodd o'r bobl ddeng ŵr a thriugain a deng mil a deugain o wyr. A'r bobl a alarasant, am i'r Arglwydd daro y bobl â lladdfa fawr.' 1 Sam. 6. 19. Bernir, yn gyffredin, fod camsyniad ryw ffordd yn y rhifedi, fel y rhoddir ef yn ein cyfieithiad ni, a'r rhan fwyaf o gyfieithiadau eraill. Mae y nifer yn ormod i fod yn trigo mewn pentref ar gyffiniau Judea. Goddef y geiriau ddau ystyr arall. Un a rydd Bochart, yr hwn a farna y dylasai y geiriau gael eu cyfieithu, 'Deg a deugain o fil;' hyny yw, *deg a thriugain i gyd*, yn ol rhifedi y trigolion. Gofyn gosodiad y geiriau y cyfieithiad hwn; canys nid ydyw yn briodol i'r iaith Hebraeg i roddi y mil o flaen nifer llai, i nodi swm cyflawn, ond dechreuir â'r rhifyn lleiaf. A hyn cytuna hanes Josephus; 70 yw y rhifedi ganddo ef. Gwel *Antiq.*, *lib.* iv., *c.* 2. Neu ynte, gellir eu cyfieithu, *deg a thriugain o'r* (בעם) *bobl gyffredin*, a (המישים אלף איש) *deg a deugain o'r penau*, neu y tywysogion. Arwydda y gair אלף *tywysog*, neu *gadben*. Gwel *Univer. Hist.*, *vol.* iv. *p.* 33. 8*vo*.——2. Dinas yn llwyth Issachar. Jos. 19. 22.——3. Un arall yn Naphtali. Jos. 19. 38. Barn. 1. 33.——4. Yr oedd yn yr Aipht deml eilunod a elwid *Teml yr haul*, neu *Beth-semes*. Jos. 43. 18.

Digitized by Google

BETHUEL, בתואל [*maboliaeth Duw*] mab Nachor a Milcah, nai Abraham, a thad Laban a Rebecca. Gen. 22. 20, 22. a 28. 2.

BEULA, [*priodedig*] enw a roddwyd ar y genedl Iuddewig, ac eglwys Dduw yn y dyddiau diweddaf, i arwyddo eu priodas â Christ, fel eu gwr a'u penarglwydd. Esa. 62. 4.

BEUNYDD, yn hytrach PEUNYDD, (pae-dydd) bob dydd. Ps. 86. 3. Esa. 58. 2.—Yn wastadol. Luc 9. 23.

Bach yw crefydd a chwilia *beunydd* am dano. *Diar.*

BEZALEEL, בצלאל [*yn nghysgod Duw*] 1. Mab Uri, o lwyth Judah. Exod. 31. 2. 1 Cron. 2. 20. Yr oedd wedi ei lenwi âg Ysbryd Duw, mewn doethineb, mewn deall, mewn gwybodaeth, ac yn mhob rhyw waith, i ddychymygu cywreinrwydd, i weithio mewn aur, &c. yn dangos mai oddiwrth Dduw y mae pob cyfryw ddoethineb. Efe ac Aholiab oedd yn golygu holl waith y babell i'w gwneuthur yn ol y portreiad a gafodd Moses yn y mynydd—yn gysgod o Grist, adeiladydd yr eglwys, yr hwn yw doethineb Duw.—Pan ddaeth Crist Iesu i'r byd, yr hwn ydyw sylwedd yr holl gysgodau, i fwrw i lawr ddychymygion dynion, ac i osod i fynu ei deyrnas ar y ddaear, gyd â'i fod yn bwrw i lawr y dychymygion pechadurus yn nghalonau dynion, bwriodd i lawr holl ddychymygion, sef holl waith dychymygol y babell a'r deml.—— 2. Mab Bani, yr hwn, ar ol caethiwed Babilon, a roes ymaith y wraig a briodasai efe yn erbyn y gyfraith. Ezra 10. 30.

BEZEC, בזק [*mellt*] dinas yn Judah, yn nghylch dwy filltir o Bethzur; yn enwog o herwydd y fuddugoliaeth a gafodd yr Iuddewon yno ar y Canaaneaid. Barn. 1. 4, &c.

BEZER, בצר [*casgliad grawnwin*] dinas tu hwnt i'r Iorddonen, a roddwyd gan Moses i lwyth Reuben. Deut. 4. 43. Yr oedd yn un o'r dinasoedd noddfa. Jos. 20. 8. Yr oedd hefyd yn un o'r rhai a berthynent i'r Lefiaid. Jos. 21. 36. Dywedir ei bod yn yr anialwch, oblegid ei bod yn sefyll yn Arabia Ddiffaeth, yn y rhan ddwyreiniol i Edom, ac anialwch o'i hamgylch ar bob llaw. Gelwir hi hefyd Bozra.

BIBL, *Gr.* Βιβλος, *Biblos* [*y llyfr*] *Heb.* מקרא *Micra* (*llith*, neu *ysgrifen*) enwau a roddir ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd, mewn ffordd o enwogrwydd a rhagoroldeb. Y rhôl sanctaidd, yn yr hon y cynnwysir meddwl dadguddiedig Duw y nefoedd; a thrwy yr hwn hefyd y mae yn cael ei ddwyn i ddynolryw ar y ddaear; ac a ddosperthir dan yr enwau HEN DESTAMENT a'r NEWYDD.—Yn hwn y cynnwysir yr hanesion hynaf a chywiraf am bethau a fu—yr athrawiaeth unionaf am bethau sydd—a'r rhag-ddywediadau sicraf am bethau a fydd. Ysgrifenwyd yr Hen Destament cyn dyfodiad Crist yn y cnawd, a'r Testament Newydd ar ol ei esgyniad i'r nef; y cwbl wedi ei lefaru gan ddynion sanctaidd Duw, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân. 2 Petr 1. 21. 2 Tim. 3. 16.

Y mae y BIBL—Yr Hen Destament, gwedi ei ysgrifenu yn wreiddiol yn ieithoedd y dwyrain, sef Hebraeg a Chaldaeg; a'r Testament Newydd yn Hebraeg a Groeg. Nid yw yr Iuddewon yn gwneuthur derbyniad ond o'r Hen Destament yn unig, yr hwn a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Ezra, fel yr ydys yn gyffredin yn cytuno, ac wedi ei ranu yn dair rhan; sef, 1. Y Gyfraith.—2. Y Prophwydi.—3. Yr Ysgrifenwyr Sanctaidd.——Nid oedd y Bibl wedi ei ddosparthu yn bennodau hyd yn nghylch A.D. 1240, pan y darfu i un Hugo Cardinalis fyned yn nghylch y gwaith; ac hefyd a ddosparthodd y pennodau yn rhanau, wrth lythyrenau yr egwyddor, *a, b, c, &c.*, y rhai a roddid ar ymyl y ddalen. Yn nghylch y flwyddyn 1445, y darfu i Rabbi Mordecai Nathan ddosparthu yr Hen Destament yn adnodau, fel y maent yn sefyll yn awr yn ein Biblau ni; ac yn nghylch y flwyddyn 1551, un Rhobart Stephan, argraffydd o Ffrainc, a ddosparthodd y Testament Newydd yn adnodau, fel y mae yn bresennol. Y mae yn eglur fod y Psalmau yn ddosparthiadau bob amser; oblegid y mae Paul, yn ei bregeth yn Antiochia yn Pisidia, yn profi o'r ail Psalm. Act. 13. 33.

Gwedi i'r Bibl gael ei gyfieithu i amryw ieithoedd, daeth cyflawnder yr amser i ben, i'r haul gyfodi ar Brydain; cynhyrfodd Duw ysbryd y gwr enwog hwnw, Mr. William Tyndal, i'w gyfieithu i'r Saesoneg, a chafodd ei goroni â merthyrdod yn wobr am ei waith. Yr ydoedd Cymru etto yn aros mewn tywyllwch du, a dygn anwybodaeth, wedi ei gorchuddio âg eilun-addoliaeth a choel-grefydd; etto, am fod gan Dduw fwriad am waredu miloedd yn Nghymru, gofalodd am y moddion gwerthfawr hyn i ninnau, yn iaith ein mamau.

Fod y Bibl wedi ei gyfieithu i'r iaith Gymraeg yn y prif oesoedd, nid oes le i ni ammeu: y mae y Dr. Richard Davies, Esgob Menyw, yn ei lythyr argraffedig gyda Thestament William Salisbury, yn rhoddi rhesymau cedyrn i brofi hyny. Ond nid oedd dim o hono i'w gael yn yr oesoedd hyny heb ei adgyfieithu. Dywed, 'Yn lle gwir, ni ffynnodd cennyfi erioed gael gwelet y Bibl yn Gymraeg: eithr pan oeddwn fachgen, côf yw cennyf welet pump Llyfr Moyses yn Gymraeg, o fewn tuy ewythyr ym' oedd wr dysgedig: ond nid ydoedd neb yn ystyr y llyfr nac yn prisio arno. Peth ammheus ydyw (ir a wn i) a ellir gweled yn oll Cymru un hen Fibl yn Gymraeg, i'r penn golletwyt ac y speiliwyt y Cymry oi oll lyfray. Eithu diammeu yw cennyf fot cyn hyny y Bibl yn ddigon cyffredin yn Gymraeg. Perffeithrwydd ffydd y merthyron, eglwyswyr a lleigion, sydd brawf cadarn fot y Ysgrythyr Lân centhynt yn i iaith eu hunain. Hefyd, y mae cenym ni yn Gymraeg amryw ymadroddion a diarhebion yn aros fyth mewn arfer, a dynwyt o berfedd yr Ysgrythyr Lân, ac o ganol Efengyl Crist. Yr hyn sydd brofedigaeth ddigonawl fot yr Ysgrythyr Lân yn mhen pob bath ar ddyn, pan y dechreuwyt hwynt, a phan y dygwyt i arfer gyffredinawl: megys, 'A Duw a digon, heb Dduw heb ddim.—A gair Duw yn uchaf.—Y Map rhad.—Ni lafur, ni weddia, nid teilwng iddo ei fara.—Eglwys pawb yn ei galon.—Cyn wired a'r Efengyl.—Pan nad rhyfedd na thyf post aur trwy nen tŷ yr anwir.—Drwg y ceidw y diawl ei was.—I Dduw y diolchwn gael bwyt, a gallu i fwyta.—Rhad Duw ar y gwaith;' ac eraill o'r fath hyn. Y mae llawer o enwau arferedig gynt yn mhlith y Cymry yn brawf ychwanegol o hyny: megys Abraham, Esgob Menyw; Adda Fras, un o'r beirdd; Aaron, un o benaethiaid gwlad Morgan; Asaph, Esgob Llanelwy; Daniel, yr Esgob cyntaf yn Bangor; Iago ap Idwal; Joseph, Esgob Menyw; Samuel Beulan, offeiriad dysgedig; Samson, y chweched Esgob ar hugain, a'r diweddaf yn Menyw; a'r cyfryw eraill a goffeir yn fynych yn yr hen achau. Y mae hyn yn dangos fod yr Ysgrythyr Lân yn wybodidic iawn gan ein hynafieit ni gynt. Y mae prydyddiaeth Taliesin, ben-beirdd, yn gwiriaw yn yr un peth, yr hwn oedd yn byw yn amser Maelgwyn Gwynedd, yn y chweched ganrif.'——Yn yr oesoedd diweddaf, cyfieithwyd rhyw ranau o'r Bibl yn Gymraeg yn amser Edward y chweched. Cyhoeddwyd traethawd bychan yn A.D. 1551, a gyfenwyd, 'Rhanau o'r ysgrythyr, gosodedig i'w darllen yn yr eglwysi yn amser y Cymun, a'r addoliad cyhoeddus,' &c., gan W. S.——Er gwneyd ordinhad gan yr uchel-lys y *Parliament*, yn y flwyddyn A.D. 1563, am gyfieithu

Digitized by Google

yr Hen Destament a'r Newydd, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, a'u hargraffu yn yr iaith Gymraeg, dan olygiad Esgobion Henffordd, Llanelwy, Tŷ Ddewi, Llandaf, a Bangor, erbyn Mawrth y cyntaf, 1566, tan ddirwy, os pallent, o £40 i'w talu gan bob un o'r Esgobion uchod; etto, nid wyf yn deall i ddim gael ei wneyd yn ganlynol i'r gyfraith hon o'r 5ed o Eliz., *cap.* 28.—Yn A.D. 1567, argraffwyd y Testament Newydd yn Gymraeg. O'r cyfieithiad hwn, cyfieithwyd y Dadguddiad gan T. H. C. M. hwyrach Thomas Huet, *Chantor of Menyw*. Yr ail Epistol at Timotheus, yr Epistol at yr Hebreaid, Epistol Iago, a dau Epistol Petr, a gyfieithwyd gan D. R. D. M., sef Dr. Richard Davies, *Menevensis*, sef Esgob Tŷ Ddewi. Y cwbl arall o'r cyfieithiad hwn a wnaed gan W. Salisbury, o'r Cae Du, yn Llansannan, Swydd Ddinbych; gwr enwog yn ei ddydd am ddiwydrwydd, dysgeidiaeth, a duwioldeb. Argraffwyd y Testament hwn yn Llundain, A.D. 1567, gan Henry Denham, trwy draul Humphrey Toy. Rhagddodwyd iddo y Calendar, a chyflwyniad Saesoneg i'r frenines Elizabeth, yn nghyd â llythyr maith at y Cymry, gan Esgob Tŷ Ddewi. Gwnaed y cyfieithiad hwn, meddant, o'r Groeg, wedi ei gymharu â'r Lladin, gyd â ffyddlondeb a diwydrwydd. Cafodd W. Salisbury arolygu y cwbl trwy drefniad Esgobion Cymru. Ymddengys llawer o ddysg, ffyddlondeb, a manylrwydd, yn y cyfieithiad boreuol hwn; er bod yr orgraff yn wrthun, yr iaith yn anystwyth, ac hefyd yn anneallus yn ein dyddiau ni, yn aml. Caf achlysuron i ddangos y gwahaniaeth rhyngddo a'r cyfieithiad presennol mewn llawer o fanau yn nghorph y gwaith hwn. Argraffwyd ef mewn llythyrenau duon, wedi ei ranu yn bennodau, ond heb ei ddosparthu yn adnodau, oddieithr ychydig o'r Actau, ac o ddechreu Epistolau Paul a Timotheus hyd ddiwedd y Dadguddiad.—Ni chyhoeddwyd un cyfieithiad o'r Hen Destament yn yr iaith Gymraeg nes dros ugain mlynedd wedi y cyhoeddiad hwn o'r Newydd. Ymddengys hyn yn o ryfedd, gan fod gorchymyn i hyny gwedi ei roddi gan yr uchel-lys. O'r diwedd, y gwr duwiol a dysgedig, Dr. W. Morgan, a ymroddodd i hyny. Gwr o enedigaeth ydoedd o Wybr-Nant, yn mhlwyf Dolwyddelen. Cafodd ei ddwyn i fynu yn Ysgoldŷ (*College*) St. Ioan, yn Nghaergrawnt. Bu gyntaf yn Beriglor (*Vicar*) yn Trallwm, gwedi hyny, cafodd Llanrhaiadr-Mochnant. Gwnaed ef yn Esgob Llandaf, A.D. 1595, a symudwyd ef i Lanelwy, A.D. 1601, lle bu farw, A.D. 1604.——Cafodd ei gymhell i'r gwaith pwysfawr o gyfieithu y Bibl i'r iaith Gymraeg yn benaf yn ei feddwl ei hun, oddiwrth yr Arglwydd: nid yw yn crybwyll am un gorchymyn na chymhelliad a gafodd oddiwrth ddynion.— Pa bryd y dechreuodd ar y gwaith sydd anhysbys. Yn nghyflwyniad y gwaith i'r frenines Elizabeth, coffa yn ddiolchgar am y cynnorthwyon a gafodd i ddwyn y gwaith yn mlaen, a'i orphen, gan yr Archesgob Whitgift; Esgobion Llanelwy a Bangor (Dr. Hughes a Dr. Bellot, tebygol); Dr. Gabriel Goodman; Dr. David Powell; Mr. Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd; a Mr. Richard Vaughan, y pryd hwnw yn Beriglor Lutterworth, ac wedi hyny Esgob Bangor, Caerlleon, a Llundain. Yn y flwyddyn nodedig, A.D. 1588, y cyhoeddwyd ef yn Llyfr unplyg, mewn llythyrenau duon, yn cynnwys yr Hen Destament, yr Apocrypha, a'r Testament Newydd—cynnwysiad pob pennod—wedi eu rhanu yn adnodau, ac â rhai cyfeiriadau ar ymyl y ddalen—Calendar—a chyflwyniad o hono yn Lladin i'r frenines Elizabeth. Pa nifer a argraffwyd sydd ansicr; ond y mae yn ddilys nad mwy, os cynnifer, nag oedd o eglwysi plwyfol yn y dalaeth, y rhai oeddynt 800. Y mae llawer o wallau yn yr argraffiad hwn: ond gan nad ydyw yn arferedig yn bresennol, nid oes achos coffâu am danynt yma. Cyfnewidiodd lawer ar gyfieithiad W. S. o'r Testament Newydd.

Y nesaf a ddarparodd Duw i ofalu am Fiblau i'r Cymry, ydoedd yr enwog Richard Parry, D.D. o dref Rhuthyn, yr hwn a wnaed yn Esgob Llanelwy, ar ol marwolaeth y Dr. Morgan. Yn y flwyddyn 1620, cyhoeddodd y Bibl yn yr un fath blygiad a'r cyntaf; ond wedi cyfnewid y cyfieithiad gymaint, fel y petrusa y Dr. Parry ei alw yr un â chyfieithiad y Dr. Morgan; a hwn yw y cyfieithiad arferedig yn bresennol. Bu yr enwog Dr. J. Davies yn gynnorthwy nid bychan i'r Dr. Parry yn niwygiad y cyfieithiad o'r Bibl. Yr oedd yn Gaplan i'r Esgob, ac yn treulio llawer o'i amser gyd âg ef. Y mae yr holl argraffiadau canlynol yn ateb i hwn yn gyffredinol, oddieithr ychydig gyfnewidiadau yn yr orgraff, a'r prif lythyrenau yn nechreu y geiriau.——Ar ol cael Biblau i'r eglwysi, yr oedd y tlodion etto yn amddifad o Fiblau yn eu cartrefi, hyd nes y cynhyrfodd yr Arglwydd galonau dau ŵr enwog, sef Syr Thomas Middleton, o Gastell y Waun, a Mr. Rowland Heylin, i argraffu y Bibl. Daeth y Llyfr Gweddi Gyffredin, yr Apocrypha, a'r Psalmau Cân gyd âg ef, yn wythplyg bychan allan, yn y flwyddyn 1630; yr hwn, tebygol, yw yr argraffiad cyntaf o Psalmau Mr. Edmund Prys. ——Fel yr oedd crefydd yn ymledu o fôr i fôr yn Nghymru, daeth cri mawr am Fiblau drachefn; yna darfu i ddau bregethwr teithiol, sef Mr. Walter Cradock a Mr. Vavasor Powell, roddi chwe mil yn yr argraff-wasg; daethant allan yn y flwyddyn 1654, y ddau Destament a'r Psalmau Cân yn unig. Gelwir hwn Bibl Cromwel gan rai.

Y nesaf oedd Mr. Thomas Gouge, a Mr. Stephen Hughes, y cyntaf yn Sais, a'r diweddaf yn Gymro, tra hyddysg yn ei iaith gynnwynol. Yr oedd y naill yn gynnorthwy neilliduol i'r llall; un yn mhlith y Saeson yn hel cynnorthwyon i ddwyn y gwaith yn mlaen, a'r llall yn mhlith y Cymry yn llafurio i'r un perwyl. Argraffodd Mr. Thomas Gouge y Testament Newydd, a'r Psalmau yn rhyddiaith ac ar gân, yn 1672. Yn A.D. 1677, cyhoeddwyd trwy ei lafur ef yn benaf, er nad heb gynnorthwy eraill, argraffiad newydd o'r Bibl, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin; y nifer oedd 8000; rhoddwyd yn rhad 1000 o honynt, a dosparthwyd y lleill am bris isel, llai na'r draul o'u hargraffu, sef pedwar swllt y llyfr. Diwygiwr yr argraff-wasg, yn argraffiad Mr. Gouge o'r Bibl, oedd Mr. Stephen Hughes, gwr duwiol a llafurus, a dröwyd allan o'r eglwys yn Meidrym, yn Swydd Gaerfyrddin, am anghydffurfiad. Y mae gofal a diwydrwydd Mr. Stephen Hughes yn ganmoladwy iawn yn diwygio y Bibl Cymraeg o lawer o wallau oedd yn y tri argraffiad blaenorol o'r cyfieithiad presennol; ac y mae, er nad heb rai gwallau, etto mor ddiwall ag un argraffiad a ymddangosodd gwedi hyny, os nad yn fwy. Y mae yr orgraff a'r attaliadau mor addas, os nid yn fwy, nag un argraffiad o'r Biblau Cymreig. Dilynodd argraffiad 1654, yn rhoddi y llythyren Saesonigaidd J i mewn, yr hon oedd o'r blaen yn ddyeithr i'r iaith Gymraeg. Bu Mr. Stephen Hughes byw i weled eisiau Biblau drachefn, a rhag-barotôdd tu ag at gael argraffiad arall; ond bu farw cyn gorphen y gwaith, yn nghylch A.D. 1687. Ond er i'r Arglwydd ei alw ef ymaith cyn cwblhau ei amcan haelionus tu ag at y Cymry, etto nid anghofiodd yr Arglwydd mo honynt; llafuriodd un Mr. David Jones, yr hwn a dröwyd allan o eglwys Llandisilio, i gael argraffiad helaeth arall o Fiblau iddynt, trwy gynnorthwy, yn benaf, yr Iarll Wharton, medd y Dr. Llywelyn, yr hwn oedd Brotestant awyddog, ac a fu yn was ffyddlon i'r brenin William III. a'r frenines Ann, yn y rhan fwyaf blodeuog o'u teyrnasiad. Cafodd Mr. Jones lawer o gynnorthwyon heblaw hyn at y gwaith hwn, ac i argraffu llyfrau buddiol eraill, gan amryw-

Digitized by Google

iol weinidogion yr efengyl, a dinasyddion duwiol yn Llundain. Yr argraffiad hwn o'r Bibl a ddaeth allan yn A.D. 1690. Dywed Calamy fod yr argraffiad hwn yn cynnwys 10,000 o Fiblau, ond nid ydyw cystal a'r argraffiad yn 1678, o ran llythyren a phapur.

Gan fod Biblau mawrion yr eglwysi wedi dryllio, darfu i'r Gwir Barchedig William Lloyd, Esgob Llanelwy, fynu argraffu rhai mewn llythyrenau cyffredin; a daethant allan yn y flwyddyn 1690, yn unplyg mawr. Argraffwyd hwn, meddant, dan olygiad Mr. Pierce Morris, gwr o Swydd Fôn, y pryd hwnw yn Ysgoldy yr Iesu, yn Rhydychain. Yr amseryddiaeth a'r cyfeiriadau ydynt waith yr Esgob Lloyd. Y mae hwn yn llyfr golygus, ond nid heb wallau; a'r orgraff yn wahanol i'r lleill mewn llawer o eiriau.

Yr argraffiad nesaf a ddaeth allan dan olygiad y Parch. Moses Williams, Ficer Dyfynog, yn Mrycheiniog. Y Bibl hwn a argraffwyd ar draul y Gymdeithas anrhydeddus yn Llundain, yn y flwyddyn 1718, yn llyfr wyth-plyg.——Daeth argraffiad arall o'r Bibl allan, yn y flwyddyn 1727, heb gynnwysiad y pennodau, na phrofiadau ar ymyl y ddalen, dan olygiad yr un gwr.——Fel yr oedd crefydd ac ysgolheigion yn amlhau, daeth prinder am Fiblau drachefn; yna y Parch. Griffith Jones, o Landdowror, a wnaeth hyny yn hysbys i'r Gymdeithas uchod; ac argraffwyd y Bibl drachefn yn Nghaergrawnt, yn y flwyddyn 1746.——Daeth argraffiad arall allan, trwy haelioni yr unrhyw Gymdeithas, yn y flwyddyn 1752, y ddau hyn dan olygiad Risiart Morris.——Daeth argraffiad drachefn allan, trwy haelioni yr un Gymdeithas, yn y flwyddyn 1769. Yr oedd yr argraffiad hwn yn cynnwys ugain mil, o'r un orgraff a'r argraffiad 1690.——Yn y flwyddyn 1770, y daeth argraffiad pedwar-plyg mawr o'r Bibl allan yn Nghaerfyrddin, yn nghyd â sylwadau ar ol pob pennod, gan y Parchedig Peter Williams. Bu amryw argraffiadau o'r Bibl hwn.——Bu argraffiad arall yn Rhydychain, A.D. 1799.——Yn A.D. 1812, argraffwyd Bibl bychan, deuddeg-plyg, yn Nghaerfyrddin, yn nghyd â sylwadau cyfeiriol John Cann.

Yn y flwyddyn A.D. 1804, sefydlwyd yn Llundain y Gymdeithas,* a elwir, 'THE BRITISH AND FOREIGN BIBLE SOCIETY,' sef '*Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor,*' i'r dyben o ddosparthu Biblau, nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn y gwledydd pellenig tramor. Y gorchwyl cyntaf dan ystyriaeth y Gymdeithas hon, oedd argraffiad o Fiblau a Thestamentau Cymreig, deuddeg-plyg, yr hwn a ddaeth allan yn ddioed.*——Mae argraffiad arall o Fiblau wyth-plyg, wedi ei argraffu yn Rhydychain, yn y flwyddyn A.D. 1809, ar draul yr anrhydeddus 'GYMDEITHAS ER TAENU GWYBODAETH GRISTIONOGOL.'† Cafodd yr argraffiad hwn ei olygu a'i ddiwygio o wallau yr argraffiadau eraill, gan amryw o eglwyswyr Cymru, trwy annogaethau Esgobion Tŷ Ddewi a Bangor. Mae hwn yn o gywir, er nad yn berffaith: anhawdd i blant dynion gyrhaedd perffeithrwydd mewn un gorchwyl a wnelont, er yr ymdrechiadau mwyaf ffyddlon.

BIGTHAN, בגתן [*rhoddi bwyd*] enw Persiaeg, un o ystafellyddion Ahasferus, a geisiodd, gyda Therez, ladd y brenin; ond dadguddiodd Mordecai eu bradwriaeth i Esther, a chrogwyd y ddau. Esther 2. 21.

BILDAD, בלדד [*hen gyfeillach*] y Suhiad; mab Sua, ac ŵyr Abraham, o'i wraig Cetura: *hefyd*, un o dri chyfeillion Job. Job 2. 11.

BILHAH, בלה [*hen*] 1. Llawforwyn Rahel, gordderchwraig Jacob, a mam Dan a Naphtali. Gen. 29. 29. ——2. Dinas lle yr oedd rhai o hiliogaeth Simei yn byw. 1 Cron. 4. 29.

BINNUI, [*adeilad*] un o'r rhai a roisant ymaith eu gwragedd (ar ol eu dychweliad o'r caethiwed) y rhai a briodasant yn erbyn y gyfraith. Ezra 10. 30.

BITHYNIA, [*gwlad nesaf i mewn*] ardal yn agos i fôr Euxine. Pan oedd Paul yn ymdaith i Ewrop, ni oddefodd yr Ysbryd Glân iddo bregethu gair Duw yna. Tebygol, am fod Petr ac eraill yn pregethu yno yr amser hwnw. Act. 16. 7. Ond planwyd yma eglwys wedi hyn; a lliaws o Iuddewon ac eraill, a gredasant. 1 Petr 1. 1.

BLAEN—AU, (bal) pig, pwynt; megys gwaywffon, &c.—blaen cleddyf, sef pwynt cleddyf;—blaen newydd, sef newydd loer; blaenau afonydd, sef penau afonydd;—blaen ac ol, sef y cyntaf a'r diweddaf;—blaenau, sef cwr eithaf gwlad.——Blaen-darddu; Gen. 40. 10.—Blaen-groen, sef yr hyn a dorid yn yr enwaediad. 1 Sam. 28. 25, 27.—'Noethi y blaen-groen,' sef y gwarth a'r dirmyg y deuai y Caldeaid iddo, trwy farnedigaethau Duw arnynt. Hab. 2. 16. ——1. Yr hyn a fyddo yn gynt na pheth arall.

* Ni fernir yn anmhriodol os sylwir am y diweddar Barch. T. CHARLES, awdwr y gwaith hwn, ei fod yn sylfaenwr neu gychwynwr blaenaf y Gymdeithas ardderchog hon. Ymddengys hyn yn eglur, wrth ystyried mai trwy ei waith ef yn ymorol yn Llundain âg ewyllyswyr da i grefydd a duwioldeb, pa fodd y gellid cael argraffiad helaeth o'r Bibl, am bris gweddol, yn yr iaith Gymraeg, ac, os byddai bosibl, i drefnu cyllidfa barhaus o honynt, fel na byddai un amser mwyach brinder o Fiblau i'r Cymry tlodion, y rhoddodd yr Arglwydd y meddwl caruaidd ardderchog yn nghalonau rhai o'r gwyr duwiol yr oedd yn ymddyddan â hwynt, o ffurfio Cymdeithas i ddosparthu Biblau, nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn ngwledydd pellenig tramor, pa un bynag fyddo ai Cristionogol, Mahometanaidd, neu Baganaidd; fel na byddai un genedl dan y nefoedd, nac un person neillduol yn y byd, heb gael y trysor gwerthfawr hwn, a ewyllysiai ei feddiannu. Cyfarfu amryw o honynt â'u gilydd i ystyried yr achos. Yn y cyfarfod cyntaf hwn yr oedd y Parch. T. Charles yn bresennol. Wrth ymddyddan am fawredd bendithiol, a dymunoldeb y cyfryw sefydliad, effeithiodd y golygiadau ar hyny yn y fath fodd ar eu meddyliau, fel ag y darfu iddynt gyd-dywallt dagrau o orfoledd yn y gobaith y byddai iddo lwyddo. Penderfynwyd i alw Cyfarfod Cyffredinol i ystyried yr achos: a chyhoeddwyd yn y Papurau Newyddion y byddai y cyfryw Gyfarfod i gael ei gynnal yn y *London Tavern*, Mawrth y 7fed, 1804. Ar yr amser gosodedig, cyfarfyddodd â'u gilydd dros dri chant o Eglwyswyr ac Ymneillduwyr o amrywiol enwadau. Gwedi llawer o ymddyddanion ac areithiau, dros ddwy awr, ar yr achos pwysfawr a gogoneddus o'u hymgynnulliad at eu gilydd, penderfynwyd âg un llais, gyda gorfoledd nid bychan, i sefydlu Cymdeithas dan yr enw, 'THE BRITISH AND FOREIGN BIBLE SOCIETY,' sef, '*Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor.*' Yn y fan rhoisant eu henwau i lawr, ac addawyd dros Saith Gant o BUNNAU, mewn ychydig fynydau, tu ag at ddwyn y gwaith hwn yn mlaen. Gosodwyd un ar bymtheg ar hugain i fod yn Oruchwylwyr (*Committee*) dros y flwyddyn; a dewiswyd Trysorwr ac Ysgrifenyddion. Gosodwyd hefyd Arglwydd Teignmouth yn Llywydd ar y Gymdeithas, yr hwn a lanwodd y swydd gyd â'r ffyddlondeb mwyaf hyd ddydd ei farwolaeth, sef Chwefror y 14eg, 1834. Yna dewiswyd Arglwydd Bexley yn Llywydd ar ei ol, pendefig wedi ei gynnysgaeddu â chymhwysderau addas i'r fath sefyllfa oruchel a phwysig; ac ar ei farwolaeth yntau, dewiswyd Iarll Shaftesbury, y Llywydd presennol. Bu y fath gynnydd a llwyddiant ar y Gymdeithas hon, fel y mae wedi cyhoeddi, neu ddosparthu yn awr (1873) er amser ei sefydliad, mewn rhan, neu yn gwbl, 68,477,831 o gopïau o'r Ysgrythyrau, mewn 204 o ieithoedd, yn 158 o ba rai ni bu Gair Duw yn argraffedig erioed o'r blaen.—CYH.

* Daeth allan amryw argraffiadau o'r Bibl hwn. Yn y flwyddyn 1814, cyhoeddwyd gan yr unrhyw Gymdeithas Fibl Cymraeg, wyth-plyg, wedi ei argraffu â llythyrenau breision. Yr argraffiad a barotowyd i'r wasg, ac a arolygwyd gan y Parch. T. Charles, ac a orphenwyd ganddo yn Awst, 1814, ychydig o wythnosau cyn ei farwolaeth. Heblaw hyn, cyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Gymdeithas hon amryw argraffiadau helaeth o Fiblau bychain Cymreig, cymhwys i'r llogell, un o ba rai rhai sydd â chyfeiriadau ar ymyl y ddalen. Hefyd, argraffiadau *pedwar*-plyg ac wyth-plyg o'r Bibl, gyda chyfeiriadau ar ymyl y ddalen, at wasanaeth teuluoedd a phulpudau.—CYH.

† Bu amryw argraffiadau helaeth o'r Bibl hwn. Y mae y Gymdeithas dra pharchus ac ardderchog hon wedi cyhoeddi argraffiad helaeth arall o'r Bibl Cymraeg, wyth-plyg, â llythyrenau breision, er lles y tlodion a'r oedranus yn Nghymru.—CYH.

Digitized by Google

Mat. 19. 30.——2. Y rhagoriaeth a'r llywodraeth. 3 Ioan 9.

**BLAEN-FFRWYTH—AU,** (blaen-ffrwyth) y ffrwyth blaenaf, neu cyntaf. Y rhai hyny o flaen-ffrwyth y ddaear a ddarparwyd i wasanaeth dyn; megys o ŷd, gwin, olew, &c.—yr hyn a gesglid gyntaf o honynt a ddygid gan genedl Israel at yr offeiriad, ger bron yr Arglwydd—yr hyn hefyd oedd yn cael ei roddi gan Dduw i'r offeiriad, a phob un glân o'i deulu, i fwyta o hono: Num. 18. 13. Deut. 18. 4. a 26. 2, &c fel y cydnabyddid awdurdod Duw trostynt, ac mai efe piau y tir; ac hefyd ei ffyddlondeb a'i ddaioni yn eu dwyn hwynt iddo, ac i sancteiddio gweddill eu cynnyrch. Ar yr ail ddydd o ŵyl y bara croyw, cyn iddynt ddechreu ar eu cynauaf, byddent yn medi ysgub o haidd, yn ei dyrnu yn y cyntedd nesaf allan i'r babell, neu y deml. Ac wedi iddynt ei nithio, byddent yn cymeryd llonaid omer o hono, yn ei grasu wrth dân, ac yn ei guro mewn *mortar;* yna cymerent thus ac olew, a chymysgent âg ef, a'r offeiriad a'i cymerai ac a'i cwhwfanai ger bron yr Arglwydd tu a'r pedwar gwynt, ac a losgai ddyrnaid o hono ar yr allor bres; a'r gweddill fyddai yn eiddo iddo ef. Yr oedd hefyd, gyda hyn, oen blwydd perffaith-gwbl, yn cael ei offrymu yn boeth-offrwm i'r Arglwydd, yn nghyd â'i fwyd a'i ddiod-offrwm. Lef. 23. 10—21. Ar ol yr offrwm cyffredinol hwn o flaen-ffrwyth yr haidd, tros yr holl genedl, yr oedd yn rhydd i ddechreu ar y cynauaf. Yn niwedd y cynauaf gwenith, ar ddydd y Pentecost, dygent ddwy dorth wedi eu lefeinio, dwy ddegfed ran o beillied fyddent, yn offrwm cwhwfan i'r Arglwydd. Lef. 22. 17. Ar ddechreu y cynauaf, un oen oedd i'w offrymu: ond ar ddiwedd y cynauaf, yr oedd yn rhaid offrymu saith o ŵyn, un bustach ieuanc, a dau hwrdd, i ddangos fod eu diolchgarwch yn cynnyddu, yn gyfatebol i'r gêd a'r llwyddiant a dderbyniasant. Y cyfryw oedd defodau sanctaidd yr Iuddewon ar ddiwedd a dechreu eu cynauaf.

Yn iaith y Testament Newydd, pa beth bynag sydd yn ddechreuad, gwystl, ac ernes o ychwaneg o'r unrhyw, a elwir yn *flaen-ffrwyth.* Felly 'blaen-ffrwyth Achaia,' a arwydda y rhai a ddychwelwyd gyntaf i'r ffydd Gristionogol, yn y rhan hòno o'r byd. 1 Cor. 16. 15.——'Blaen-ffrwyth yr Ysbryd,' a arwydda yr Ysbryd Glân ei hun, a'i amrywiol gyfraniadau grasol, sanctaidd, a dyddanus, ei radau a'i gysuron, yn rhagflaenu ac yn sicrhau ei hawl i'r etifeddiaeth dragywyddol.——'Crist (ebe yr apostol) a gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant.' 1 Cor. 15. 20. Fel mae y cynauaf yn ddrych eglur o ddiwedd y byd, a'r adgyfodiad cyffredinol; felly yr oedd y blaen-ffrwyth Iuddewig yn dangos adgyfodiad Mab Duw. Yr oedd yr ysgub blaen-ffrwyth yn cael ei medi o flaen y lleill; felly Crist a adgyfododd o'r bedd yn flaen-ffrwyth, a'r holl rai sydd eiddo Crist a wneir yn debyg iddo yn ei ddyfodiad.——Yr oedd yr ysgub blaen-ffrwyth yn ei hoffrymiad yn fendith ar yr holl gnwd—y cynauaf i gyd yn cael ei fendithio ynddi; felly y mae Crist yn flaen-ffrwyth ysbrydol cynauaf etholedigion Duw, ei holl bobl yn cael eu bendithio a'u sancteiddio byth ynddo.——Yr oedd y blaen-ffrwyth yn ernes ac yn wystl i Israel y caent hwy yr holl gynauaf adref mewn amser da: felly y mae adgyfodiad Crist yn sicrhau adgyfodiad gorfoleddus ei bobl, yn yr amser gosodedig. Esa. 26. 19.——Fel yr oedd y blaen-ffrwyth yn arwydd-lun o Grist, felly hefyd yr ydoedd yn gosod allan y ffyddloniaid, y rhai a waredwyd o blith dynion: 'Israel,' eb y prophwyd, 'ydoedd sancteiddrwydd i'r Arglwydd, a blaen-ffrwyth ei gnwd ef.' Jer. 2. 3. Yr oeddynt yn bobl briodol i Dduw lawer o amser cyn i'r Cenedloedd gael eu dwyn i mewn. Yr apostol Iago a ddywed, 'O'i wir ewyllys yr ynnillodd efe nyni trwy air y gwirionedd, fel y byddem ryw flaen-ffrwyth o'i greaduriaid ef.' Pen. 1. 18. Gwelwn yn awr y cyffelybrwydd—yr oedd y blaen-ffrwyth yn eiddo priodol i Dduw Israel—buasai yn gysegr-ladrad i neb ei ddwyn: felly, rhan yr Arglwydd yw ei bobl, y rhai a waredodd efe o blith y dorf annuwiol; a phwy bynag a wnel niwed iddynt, a becha yn ddirfawr.——Yr oedd Duw yn rhoddi y blaen-ffrwyth i'r offeiriaid fel rhan o'u cynnaliaeth: y mae hyn yn dwyn ar gôf i ni eiriau ein Harchoffeiriad mawr: 'Eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwynt i mi.' Ioan 17. 6.——Nid oedd y blaen-ffrwyth ond rhan fechan o'r cynauaf: felly y mae saint Duw yn nifer bychan; nid ydynt ond megys ysgub, neu ddyrnaid bychan o ŷd yn y ddaear, mewn cymhariaeth i'r cnwd tew o annuwiolion. Fel yr oedd y blaen-ffrwyth yn sancteiddio yr holl gnwd, ac yn ei ddefnydd yn rhagori ar y llall; felly y mae pobl Dduw, er eu bod yn ychydig a gwael yn y byd, ac yn ngolwg dynion anianol, etto hwy ydyw y rhai rhagorol y ddaear, ac y maent yn fendith yn y tir.

**BLAENOR—ION,** (blaen) tywysog, arweinydd, rheolwr, llywodraethwr, bugail, &c. 2 Cron. 6. 5, 6. Esa. 55. 4. Jer. 25. 35, 36. Act. 1. 16. Col. 1. 18.

'Beth a yr blaen byth ar blaid?
'*Blaenor* â byw ei lonaid.'——T. Aled.

'Yr offeiriaid, a blaenor y deml.' Act. 4. 1. a 5. 24, 26.—*Gr. στρατηγος του ιερου.*—'Llywydd y deml.' W. S. a Dr. M. Nid swyddwr Rhufeinig, ond Iuddewaidd, oedd hwn. Gelwir gwasanaeth y deml wrth enw milwraidd (צבא *milwriaeth*) Num. 8. 24, 25. felly *blaenor, llywydd*, neu *gadben* y deml, oedd yr hwn oedd yn arolygu ac yn llywodraethu yr offeiriaid a'r Lefiaid, y rhai yn eu cylchoedd a wasanaethent yno, yn gosod ac yn trefnu iddynt eu swyddau a'u gwaith. Num. 3. 32. 1 Cron. 9. 11. Crybwyllir yn Luc 22. 4, 52. am Στρατηγοι, blaenoriaid (*llywodraethwyr,* W. S.) y deml, yn y rhif lliosog. Y rhai hyn oeddynt, diammeu, is-swyddwyr Iuddewaidd yn llywodraethu yr amrywiol ddosparthiadau, dan y Στρατηγος, y llywydd. Gwel Joseph. *Ant. lib.* xx. *c.* 5. § 2. *De Bell. lib.* vi. *c.* 5. § 3.

Er amser Dafydd yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid yn cadw gwyliadwriaeth yn gyntaf yn y babell, ac wedi hyny yn y deml, nos a dydd. 2 Cron. 8. 14. Gwylwyr yr offeiriaid oeddynt wedi eu gosod mewn tri man; ond gwylwyr y Lefiaid mewn tri ar hugain. Y Lefiaid yn cyflawni y swydd hon, yn ol eu cylchoedd yn y deml gyntaf, a alwent *porthorion:* ac yr oedd i bob gwyliadwriaeth flaenor, neu (*στρατηγος*) tywysog; ac arnynt oll yr oedd un a elwid mewn ffordd o enwogrwydd (*αρχηγος*) pen-tywysog, neu gadben. Yr oeddynt yn cadw gwyliadwriaeth wrth borth y deml, yn cadw heddwch yn eu hamgylchoedd, ac yn dwyn yr afreolus o flaen yr arch-offeiriad a'r cynghor. Ond heblaw y rhai hyn, yr oedd gwyliadwriaeth arall yn perthyn i'r deml; sef y gwarchawdlu Rhufeinaidd, yn y tŵr Antonia, yr hwn oedd wedi ei adeiladu yn gyfagos i'r deml. Crybwyllir am hwn yn Act. 31—34. Geilw Matthew y rhai o'r gwarchawd-lu hwn a osodwyd i gadw bedd yr Arglwydd Iesu (*κουστωδια*) *gwyliadwriaeth,* yr hwn oedd yr enw Lladin priodol ar y cyfryw gorph o filwyr Rhufeinig. Nid â blaenoriaid gwarchawd-lu Antonia y cytunodd Judas i draddodi ei feistr; ac nid wrth y rhai hyny y llefarodd yr Iesu pan ddaethant i'w ddal. Luc 22. 25. Gelwir y blaenoriaid hyny *στρατηγοι*, ond blaenoriaid y gwarchawd-lu Antonia a elwir, gan Josephus, *φρουαρχοι*, a chan Luc, Act. xxi, xxii. *χιλιαρχος, pen-cadben.* Nid oedd yn oddefol i genedlddyn ddyfod i brif lys eglwysig yr Iuddewon; ond yr oedd yr Iuddewon yn ymgadw rhag ymgyfeillachu â'r cyfryw, hyd ag yr oedd ynddynt. Y mae yn eglur,

Digitized by Google

gan hyny, mai Iuddewon oedd *blaenoriaid y deml* y cytunodd Judas â hwynt; sef yr offeiriaid oedd yn cadw gwyliadwriaeth y deml, y rhai oeddynt dan lywodraeth yr archoffeiriad a'r cynghor, i gyflawni eu harchion gyda pharodrwydd. Y mae yn amlwg fod milwyr Rhufeinaidd hefyd yn cymeryd yr Iesu, oddiwrth y geiriau σπειρα, byddin, a χιλιαρχος, milwriad (*colonel*) a arferir yn yr achos, y rhai ydynt eiriau milwraidd Rhufeinig. Yr ydoedd yno y fyddin a'r milwriad, a swyddogion (οι υπηρεται των Ιουδαιων) yr Iuddewon. Ioan 18. 3, 12.

BLAENLLYM—U, (blaen-llym) hogi y blaen; pigfaenu, blaenfaenu; blaenu.—'Fy ngwrthwynebwr a flaenllymodd ei lygaid yn fy erbyn.' Job 16. 9. Peri i'r llygaid edrych yn llym, megys mewn digofaint. Arwydda y gair *Heb.* לטש *hogi, blaenllymu* un erfyn o fettel. 1 Sam. 13. 20. Ps. 7. 12.

BLAGUR, BLAGURYN, (blagur) planigyn, eginyn, bywullyn.—'Blaguryn yr Arglwydd'—'ffrwyth y ddaear'—Crist o ran ei Dduwdod a'i ddyndod. Blaguryn yr Arglwydd, sef Mab Duw: ffrwyth y ddaear; Blaguryn o gyff Jesse. Esa. 11. 1.—'Gwr a'i enw Blaguryn,' (Zech. 3. 8.) yn arwyddo ei ddyndod.—'Blaguryn cyfiawn'—'Blaguryn cyfiawnder,' (Jer. 23. 5. a 33. 15.) yn arwyddo y byddai y gwr hwnw yn berffaith gyfiawn ynddo ei hun, ac yn gyfiawnder tragywyddol i'w bobl. Blaguryn oedd, a'i ddechreuad yn fychan; a'i ymddangosiad yn wael ac yn ddirmygedig, a'i dyfiant megys o'r ddaear; ond ei gynnydd a fu yn ddirfawr, a'i ffrwythau yn werthfawr ac yn aneirif, yn brydferthwch ac yn ogoniant, yn rhagorol ac yn hardd, i'r rhai a ddiangasant o Israel. Derbyniodd gan Dduw Dad barch a gogoniant, a'i enw sydd goruwch pob enw. 2 Petr 1. 17. Phil. 2. 9. Ynddo ef, hefyd, yr ymogonedda holl hâd Israel (Esa. 45. 25.) a thrwy undeb âg ef y blagurant hwythau, yr adfywiant fel ŷd, yr hwn sydd yn dyfod i fynu wedi iddo unwaith farw yn y ddaear. Hos. 14. 7. 'Gosod blaguryn wrth y trwyn.' Ezec. 8. 17. Diareb a arwydda gwawd; sef yn gwawdio ac yn cyffroi Duw i ddigofaint; neu, fel y mae y trwyn, yn yr iaith Hebraeg, yn arwyddo digofaint; gosod blaguryn wrth y trwyn, yw chwanegu pechodau fel tanwydd i ddigofaint Duw.—Fe ddywed rhai, ei bod yn arferiad gan y Paganiaid yn eu heilun-addoliaeth, i roddi blagur, neu gangenau wrth y trwynau, mewn ffordd o barch neu addoliad i'w heilunod; os felly, y mae gosod blaguryn wrth y trwyn yn arwyddo parchu eilunod. Act. 14. 13.

BLAGURO, (blagur) *Gr.* βλαστανω *(blastano)* egino, blaendarddu, bywullu, blodeuo.—'Er nad yw yn peri iddo flaguro.' 2 Sam. 23. 5. Er nad yw yn peri i fy nhŷ flaguro yn bresennol fel y boreu oleuni, pan godo yr haul foreu-gwaith heb gymylau, etto y mae yn sicr o flaguro felly; canys cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi. Mae Dafydd, yn golygu breniniaeth y Messïah, a'i lywodraeth gyfiawn, rasol, ar ddynion, ac yn tystiolaethu ei grediniaeth orfoleddus yn nghyfammod Duw mewn perthynas i'w ddyfodiad o'i lwynau, ac y byddai i'w dŷ flaguro yn y Messïah, er nad oedd yn bresennol. 'Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro;' sef i'w deyrnas lwyddo a chynnyddu. Ps. 132. 17.—'Gwnaf i gorn tŷ Israel flaguro;' sef i'r llywodraeth flaguro, a'r deyrnas gynnyddu a llwyddo. Ezec. 29. 21. Ps. 75. 5. a 89. 18, 24. Luc 1. 69.

BLAIDD, BLEIDDIAU, (blai) cidwm, bela, gwyddgi; creadur creulawn, ysglyfaethus, o rywogaeth y ci, a'i gynffon yn troi i mewn, a'i glustiau yn bigfain i fynu; ei ben yn ysgwâr, a'i flew yn llwydion. Y mae yn graff ei olwg, yn wancus, ysglyfaethgar, a ffyrnig; ac a arogla beth yn fuan iawn. Y mae y bleiddiau yn trigo mewn coedydd ac anialwch, ac yn elynion mawrion i anifeiliaid a dynion. Udo a wnant yn lle cyfarth; medrant ddyoddef newyn hir; ond hynod mor greulawn fyddant y pryd hwnw; llarpiant y creadur cyntaf a'u cyfarfyddo, pa un bynag fyddo ai dyn ai anifel; neu weithiau hyd yn nod y naill y llall. Yn yr hwyr, pan ddelont allan o'u llochesau yn wancus, maent yn greulawn ac yn beryglus iawn. Jer. 5. 6. Hab. 1. 8. Y maent yn gyffredin yn lled ofnus, ond pan fyddont yn newynllyd. Dywedir y gwna lluchio ceryg, goleuo tân, sain clych, neu gerddoriaeth, eu dychrynu. Mewn amser tywyll, cymylog, byddant yn ymosod ar y praidd; ond ânt yn groes i'r gwynt, rhag i gwn y bugeiliaid eu sawyrio.

1. Llywodraethwyr drygionus, erlidwyr, ac eraill, a gyffelybir i fleiddiau; eu duw yw eu bol; ymhyfrydant mewn tywyllwch; erlidiant a llarpiant ddefaid Crist. Ezec. 22. 27. Mat. 10. 16.

2. Gau athrawon, y rhai sydd yn ymddangos yn grefyddol a theg oddi allan, ond oddi mewn yn llawn cyfeiliornadau a gau ddybenion; y maent o ran eu hathrawiaeth yn ddystryw i eneidiau dynion; ac o ran eu gweithredoedd yn ddinystr i'w meddiannau. Mat. 7. 15. Act. 20. 29.——'Y blaidd a drig gyd â'r oen.' Esa. 11. 6. Tan lywodraeth heddychol y Blaguryn, sef Crist Iesu, pan y byddo yr erlidwyr mwyaf creulawn yn cael eu cyfnewid a'u llareiddio, trwy yr efengyl, yn trigo yn heddychol gyd âg wyn Duw, y rhai o'r blaen oeddynt fel bleiddiau am eu dyfetha; fel Saul greulawn, yn heddychol gyd â'r eglwys, yr hon a anrheithiasai o'r blaen. Act. 9. 1. Neu, pan ddaeth yr Iuddewon a'r Cenedloedd yn un eglwys heddychol a'u gilydd; Crist ein tangnefedd ni, gwedi gwneuthur y ddau yn un, a ddirymodd trwy ei gnawd, yr elyniaeth, gan wneuthur heddwch. Eph. 2. 14, 15. Esa. 65. 25. Ezec. 34. 25. Hos. 2. 18. Esa. 2. 4—8. a 3. 5. Mat. 10. 16, 17. Gal. 6. 16.

BLAS—U—US, (bal) archwaeth, chwaeth, adchwaeth, sawyr; chwaethu, sawyrio.—'Safodd ei blas arni, ac ni newidiodd ei harogl.' Jer. 48. 11. Dylai pob gwin, meddant, aros ar y gwaddod am gryn amser, fel y cadwo ei flas a'i gryfder. Niweidir ef os tynir ef ymaith yn rhy fuan. Gosodir Moab allan, yn y gyffelybiaeth hon, gan y prophwyd, fel gwedi mwynhau braint neillduol, trwy eu harosfa gwastadol yn eu gwlad eu hun er pan oeddynt yn bobl.—Bwyd blasus, sef bwyd hyfryd i'r archwaeth. Gen. 27. 9, 14, 31. Job 33. 29.—'A'i flas ydoedd fel blas olew ir.' Num. 11. 8.—'A'i flas fel afrllad o fêl.' Exod. 16. 31. Edr. MANNA.

BLASTUS, ystafellydd Herod, yr hwn a ennillodd gwyr Tyrus a Sidon o'u plaid, i gael heddwch ganddo. Act. 12. 20.

BLAWD, BLODION, (bal) blawd llif; blawd gwydd; afall flawd. Yd gwedi ei falu yn ddefnydd bara. 1 Bren. 17. 14, 16. Esa. 47. 2. 2 Bren. 4. 41.

BLEW, BLEWYN, (bal) rhan o orchudd corph dyn; gwallt, gwisg amryw greaduriaid. Esa. 50. 6. Mat. 5. 36.—'Ond ni chyll blewyn o'ch pen chwi.' Luc 21. 18. Yr oedd yr Arglwydd Iesu, yn adn. 16. gwedi rhagfynegi y byddai i rai o honynt gael eu marwolaethu; ei amcan gan hyny yn y geiriau hyn, ydyw sicrhau iddynt, pan y cydolygent y cwbl, na byddent yn golledwyr, yn y gradd lleiaf; eithr pa niwed bynag a oddefent, y byddai gwedi ei wneuthur i fynu iddynt yn helaeth, ac y byddai iddynt gael eu gosod mewn diogelwch cyflawn. Hyn yn eglur ydyw ystyr y geiriau diarebol hyn. 1 Sam. 14. 45. 2 Sam. 14. 11. 1 Bren. 1. 52. Act. 27. 34.—Y pen, a

Digitized by Google

blew y traed, a'r farf hefyd a ddifa efe.' Esa. 7. 20. Sef holl flew y corph. Edr. EILLIO.

BLIN—FYD, (bal) trafferthus, terfysglyd, gofidus; gorthrymder, trallod.—'Dyn blin,' dyn terfysgus, o dymher afrywiog.—'Dydd blin,' amser o drallod a gofidiau.—'Yn y dydd blin y'm cuddia o fewn ei babell.' Ps. 27. 5. a 31. 20. a 83. 3, 4. a 91. 1. Lef. 16. 2. Ezec. 7. 22. Yn amser trallod, blinder, a gorthrymder, y mae yn ei babell gysur a diogelwch. Yn ei babell, sef yn Nghrist, mae yn trugarhau, yn maddeu, yn llewyrchu gwedd ei wyneb, ac yn taenu ei adenydd dros ei bobl. Noddfa ydyw i'r euog, yr ofnus, a'r gorthrymedig. Ps. 50. 15. a 54. 7.

BLINO, (blin) gofidio, gorthrymu, diffygio. Mae cyflawniadau crefyddol dynion rhagrithiol, yn byw yn eu pechodau, yn rhyfygus, yn faich ar yr Arglwydd, ac y mae yn blino eu dwyn. Esa. 1. 14. Mal. 2. 17. Mae y cyfryw addolwyr, yn lle anrhydeddu yr Arglwydd, yn ei wawdio, ac yn ei anmharchu yn fawr, fel pe bai rhyw fradwyr yn parhau yn eu hamcanion bradwrus, etto yn rhagrithiol yn cyrchu at y llys breninol am ewyllys da y brenin, fel pe baent yn ddeiliaid ffyddlon. Maent yn anmharchu Duw yn ei sancteiddrwydd—ei holl-wybodaeth—yn ei lywodraeth a'i allu—yn ei gyfraith a'i efengyl; ac nis goddef Duw hwynt yn hir; 'Blinais eu dwyn,' medd efe.——Pan y dywedir fod Duw yn blino, neu yn cael ei flino gan ddynion, nid oes i ni ddeall y gair yn ddynol ac yn gnawdol, fel pe byddai yn arwyddo gwendid, neu anmherffeithrwydd yn yr Arglwydd, fel y mae mewn creaduriaid: pell yw hyny oddiwrth yr Arglwydd: 'ni ddiffygia, ac ni flina Duw tragywyddoldeb.' Esa. 40. 28. Ond arwydda fod y peth yn hollol groes i'w ewyllys; a bod ei natur sanctaidd yn ei ffieiddio; ac y bydd iddo ddangos ei anfoddlonrwydd yn fawr o'i blegid, ac nad oeda y farn yn hwy. Y mae yn dangos mor fawrion ac atgas yw y pechodau hyny sydd yn blino yr Arglwydd, ac mor haeddiannol ydyw y pechaduriaid euog o honynt, o'r farn dostaf; ac mor anfeidrol fawr a rhad ydyw y drugaredd hòno o eiddo yr Arglwydd sydd yn achub pechaduriaid mor fawrion ac mor annheilwng. 'Blinaist fi â'th anwireddau.' 'Myfi, myfi yw yr hwn a ddilëa dy gamweddau, er fy mwyn fy hun.' Esa. 43. 24, 25.——'Blinaist arnaf, Israel.' Adn. 22. Y mae un yn blino yn fuan ar waith croes i'w anian; felly y mae dyn anianol, o feddwl llygredig, yn blino ar Dduw, ac ar ei waith sanctaidd. Anrhydedd a dedwyddwch penaf dynion, yn gystal a'u dyledswydd, yw addoli Duw, ond nid yw y dyn anianol yn synied y pethau sydd o Ysbryd Duw; ac am nad yw yn cael difyrwch, budd, a llesâd ei hun yn y gwaith, mae yn dywedyd, mai oferedd yw gwasanaethu Duw. Mal. 3. 14. Y mae dynion yn blino ar yr Arglwydd pan y byddont yn esgeuluso ei addoli yn gyhoeddus, yn deuluaidd, neu yn y dirgel;—yn ddiystyr o'i heddwch a'i gymdeithas;—yn byw yn dawel heb fod a'u meddylfryd arno;—yn blino pwyso arno, a dysgwyl wrtho yn eu cyfyngderau;—yn anesmwyth o iau ei orchymynion;—ac yn grwgnach yn erbyn ei ragluniaethau. Mae yr esgob Lowth yn cyfieithu y geiriau fel hyn;

> Eithr ni elwaist arnaf, O Jacob,
> Ac nid o'm hachos i y llafuriaist, O Israel!

Mae Vitringa yn gwahaniaethu ychydig,

> Eithr ni elwaist arnaf, O Jacob,
> Pan y llafuriaist o'm hachos, O Israel!

Yn eu holl lafur crefyddol, nid oeddynt yn addoli nac yn galw ar yr Arglwydd yn wirioneddol mewn ffydd. Yr oeddynt yn llafurus iawn yn y rhan allanol o grefydd, yn yr aberthau a'r defodau Iuddewig; ond yn ddyeithr i addoliad mewn ysbryd a gwirionedd, trwy ffydd yn y Cyfryngwr. Y cyfryw addoliad sy flinder i'r Arglwydd.

BLINDER—AU—OG, (blin) lludded, trallod, gorthrymder; lluddedig, diffygiol.—'Blinder neu erlid.' Marc 4. 17. 'Gorthrymder neu erlid.' Mat. 13. 21. Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *gofid*, ac yn cael ei briodoli i wewyr a thristwch gwraig wrth esgor, Ioan 16. 21.—trallod, Rhuf. 2. 9.—adfyd, Iago 1. 27.——'Deuwch ataf fi bawb a'r sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.' Mat. 11. 28. Ioan 6. 35. a 7. 37, 38. Esa. 55. 1, 4. Ps. 23. 2. a 51. 17. 2 Bren. 9. 25. Ps. 38. 4, 5. Ioan 16. 33. Act. 15. 10. Rhuf. 5. 1. 1 Petr 2. 24. Gan fod y gwahoddiad yn y geiriau i'r blinderog, yn gyffredinol, ac heb ei gyfyngu i'r naill flinder mwy na'r llall, y mae hawl gan bawb ynddo, teimladwy o'u hangen o hono. Y mae mawredd person y Cyfryngwr, ei gyflawnder, a'i diriondeb anfeidrol, yn hynod i'w gweled yn y geiriau; y mae yn ddigonol i bawb, ac y mae i bawb wahoddiad ato, i gael esmwythder, beth bynag a fyddo yn eu blino. Nid oes un baich yn rhy drwm, nac un blinder yn anaele iddo ef. Pan y golygom natur y llwyth a'r blinder sydd ar blant dynion, fel pechaduriaid euog, llygredig, pwy ond efe a allasai ddywedyd, 'Mi a esmwythâf arnoch?' Mae efe yn esmwythâu y pechadur sydd yn dyfod ato trwy ffydd, yn gyfreithlawn, yn sylweddol, ac yn wirioneddol. Efe ei hun, fel y mae yn iawn dros bechod, ac yn gwaredu oddi wrtho, ydyw preswylfa, cysgod, lloches, a thangnefedd ei bobl. Y mae yn eu hesmwythâu, trwy eu gwaredu oddiwrth *achos* eu holl flinderau yn gyntaf, ac yna oddiwrth y blinderau eu hunain. Gan fod dyn wedi ei eni yn bechadur, y mae gwedi ei eni i flinder. Job 5. 7. Ps. 116. 3. Ond dyma un a ddichon esmwythâu arno yn gyflawn, ac yn dragywydd. I esmwythâu arnynt, y mae yn rhaid fod ganddo, yn 1. Allu;—2. Awdurdod;—3. Ewyllys da. Y mae y tri pheth hyn yn cydgyfarfod yn yr Arglwydd Iesu yn ddiderfyn; ac am hyny, gallasai efe, er nas gallasai neb arall yn y nefoedd na'r ddaear, ddywedyd, 'Mi a esmwythâf arnoch:' nid, mi ymdrechaf, mi wnaf fy ngoreu; ond y mae yn llefaru fel un ag oedd yn cydnabod ei fawredd ei hun, a'i gyflawnder anfeidrol—un sydd yn gwbl feistr ar ei waith, ac yn sicr o'i gyflawni. Ni chafodd, ac ni chaiff neb byth, ei siomi ynddo, ag a ddel ato. Y blinderog y mae yn ei alw, pwy bynag ydyw y rhai hyny, a pha fath bynag fyddo eu bliner. Esmwythder y mae yn ei addaw, a hwnw yn gyflawn, ac yn dragywyddol.

BLITH—OG—ION, (llith) llaeth. Anifeiliaid blithion, sef anifeiliaid llaethog, yn rhoddi llaeth; megys gwartheg, &c. Gen. 32. 15. 1 Sam. 6. 10.—Diod o flith anifeiliaid, sef llaeth. Da blithog, sef yn rhoddi llaeth.

BLODEUYN, BLODAU, (blawd) blodon, blaendardd. Blodau ydynt flaen-dardd hyfryd, peraidd, a hardd, ar goedydd a llysiau, cyn iddynt ffrwytho. Gwisgoedd hardd-wych, peraidd, y rhan hyn o'r greadigaeth, ydyw blodau; yn addurno natur i'n llygaid, ac yn ei phereiddio i'n harogliad. Y mae y Duw mawr gwedi gwneyd ei greadigaeth, nid yn unig yn ddefnyddiol i ddyn, ond yn hardd yr olwg arni, yn hyfryd, ac yn beraidd. Y mae gwychder ac amrywiaeth lliwiau, a chywreinrwydd eu gosodiad er chwanegu harddwch, yn y blodau, yn addas i'r Creawdwr Dwyfol, yr hwn sydd yn rhyfeddol yn ei holl weithredoedd. Y mae amrywiaeth a phereidd-dra eu harogliad yn hyfryd, ac yn adfywiol i natur dyn.

Yr oedd llun blodau ar y canwyllbrenau aur—ar barwydydd y deml—ac ar ymyl y môr tawdd. Exod. 25. 31. 1 Bren. 6. 18, 29. a 7. 26, 49. 2 Cron. 4. 5.



Digitized by Google

Yr oedd y lluniau hyn, nid yn unig yn harddwch i'r gwaith, ond hefyd yn arwyddocâol ac yn gysgodol, yn dangos harddwch a phereidd-dra natur ddynol Crist, gwedi ei haddurno, fel parwydydd y deml, â phob harddwch, gras, a doniau yr Ysbryd Glân; godidogrwydd hardd, a phereidd-dra ei waith yn ei swyddau, fel Prophwyd, ac Offeiriad, a Brenin i'w eglwys, yn goleuo ac yn puro ei bobl. Yn ei swyddau y mae yn flodeuog, yn ffrwythlon, yn hardd, ac yn beraidd.

'Gwelwyd blodau ar y ddaear.' Can. 2. 12. Y mae blodau yn arwyddocâu bendith yr Arglwydd ar y ddaear, ac adnewyddiad o honi i ffrwythlonrwydd trwy hyny. Wrth y blodau yma, yn gyffelybiaethol, y mae i ni ddeall y saint, a gras yr Ysbryd Glân ynddynt. Mae ymddangosiad y rhai hyny ar y ddaear yn arwydd o neillduol fendith yr Arglwydd, a'i gymmod â phechaduriaid. Drain ac ysgall ydynt ffrwythau y felldith: ond y mae blodau a ffrwythau yn arwydd o fendith. Pan y mae yr Arglwydd yn addaw bendithion neillduol i'w bobl, y mae yn dywedyd, 'Efe a wna i hiliogaeth Jacob wreiddio, Israel a flodeua, ac a flaen-dardda, a hwy a lanwant wyneb y byd â chnwd.' Esa. 27. 6. Ps. 72. 16. Hos. 14. 4, 5, 6.——Gwelodd pen-trulliad Pharaoh winwydden yn blaen-darddu, ac yn blodeuo, fel arwydd o'i ryddid, a'i ad-ddyrchafiad i'w sefyllfa gynt. Gen. 40. 9—13.——Y mae y saint, mewn harddwch sancteiddrwydd, yn debyg i flodau, oblegid mai cynnyrchiad gallu a gras Duw ydynt, fel blodau yn y gwanwyn, ar ol gauaf du a diffrwyth — oblegid eu pereidd-dra hyfryd, trwy eu hundeb â Christ, a chyfranogiad o'i Ysbryd — oblegid eu prydferthwch a'u harddwch, wedi eu haddurno â gras yr Ysbryd Glân —oblegid amrywiaeth gras yr Ysbryd ynddynt, i gyd yn hardd ac yn hyfryd—ac oblegid eu sirioldeb sanctaidd, a'u ffrwythlonrwydd.——Y mae dynion, yn gyffredinol, fel blodau, yn fawreddus, ac yn flodeuog yn eu hieuenctid; ond buan y mae gofidiau, cystuddiau, neu angeu, yn peri i'w tegwch ddiflanu, ac yn eu gwneuthur yn amddifad o'u holl harddwch, eu cyfoeth, eu gogoniant, a'u bywyd. Iago 1. 10. Esa. 40. 6. 1 Petr 1. 24. Job 14. 2.

BLODDEST, (blawdd) bloedd, gwaedd, banllef, gorfoledd, uchel-glod. — 'A ddygasant i fynu arch yr Arglwydd trwy floddest, a sain udgorn.' 2 Sam. 6. 15.

BLOEDD—IO, (blaw) gwaedd, banllef, crochlef, dolef.—'Yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd.' 1 Thes. 4. 16. Yn arwyddo ardderchogrwydd, buddugoliaeth, a gorfoledd cydsain yr holl gymdeithas.

BLOESG—I—NI, (blaw-esg) attal-dywedyd; siarad âg attal arno; heb siarad yn eglur.—Y mae yr Arglwydd yn bwgwth llefaru wrth yr Iuddewon 'â bloesgni gwefusau, ac â thafodiaith ddyeithr;' Esa. 28. 11. sef y byddai iddo, mewn ffordd o farn, roddi iddynt athrawon tywyll, yn llefaru yn floesg am ffordd yr iechydwriaeth, y rhai na fynant wrando y wir athrawiaeth, yn dywedyd yn eglur ac yn ddifloesgni, '*Dyma* orphwysdra, gadewch i'r diffygiol orphwyso, *a dyma* esmwythder.'——'Tafod y bloesg a brysura lefaru yn eglur.' Esa. 32. 4. Pan y byddo y tywyll a'r anwybodus, trwy ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glân, yn cael eu goleuo i adnabod Duw a'i ffyrdd, ac yn llefaru am danynt yn eglur, a chyda sicrwydd diammhëus, yn ddiofn, a chyda hyfdra mawr. Esa. 6. 9. a 18. 4. a 19. 18. a 28. 11. a 35. 4, 6. a 51. 14. Diar. 15. 26. Zech. 3. 9. Deut. 29. 4. Can. 5. 10. Eph. 4. 29. Col. 4. 6.

BLONEG, (blawn) brasder; brasder mochyn; brasder dyn; bloneg pren, sef sûg, neu ireidd-dra pren; bloneg y ddaear, sef rhwymyn y coed.—'Calon cyn frased a'r bloneg,' a arwydda, eithaf anystyriaeth, dideimladrwydd, afreolaeth, ac annealldwriaeth. Ps. 119. 70. Job 15. 27.

BLWCH, BLYCHAU, (bal) cistan, llawgist, golwrch.—'Daeth ato wraig a chanddi flwch o enaint gwerthfawr.' Mat. 26. 7. Marc 14. 3. *Gr.* ἀλάβαστρον, olew-flwch wedi ei wneuthur o alabaster, yr hwn a'i cadwai yn hir yn ei bereidd-dra, a'i arogledd hyfryd. Enwir gwneuthuriad y blwch o alabaster ag oedd yn cynnwys yr enaint a dywalltodd Mair ar ben yr Iesu, i arwyddo fod yr enaint, nid yn rhyw beth cyffredin, ond o'r fath bereiddiaf a gwerthfawrocaf. Ni rydd credadyn ddim diwerth i'r Iesu na'i achos.

BLWYDD—YN, BLYNYDDOEDD, (bal-gwydd) blwyddyn, a blwyddynedd, llawer o flynyddoedd. Yr yspaid o amser y mae yr haul yn rhedeg ei yrfa trwy y deuddeg arwydd; sydd yn cynnwys pedwar tymhor, sef, gwanwyn, haf, cynhauaf, a gauaf. Mae ynddi 365 o ddyddiau, 5 awr, a 49 o fynydau. Ymddengys fod y patriarchiaid, cyn y diluw, yn rhanu y flwyddyn yn ddeuddeg mis, yn cynnwys deng niwrnod ar hugain bob un; ond pa fodd yr oeddynt yn trin y pum awr a'r naw mynyd a deugain, nid yw hysbys. Yr oedd yr hen flwyddyn Iuddewig yn cael ei chyfrif yn ol trefn y lleuad; byddai bob yn ail fis llawn o ddeng niwrnod ar hugain, ac un arall diffygiol, o naw ar hugain. I gymedroli blwyddyn y lleuad â threfn rhedegfa yr haul, yn niwedd y flwyddyn, byddid yn chwanegu mis cyflawn ar ol mis Adar, yr hwn a alwent Fe-adar, neu yr ail Adar.

Rhanasant y flwyddyn yn flynyddoedd gwladol, y rhai a ddechreuent yn nghwymp y dail, yn mis Tisri, yn cyfateb mewn rhan i'n Hydref ni; ac i flynyddoedd cysegredig (wrth ba rai y trefnent eu gwyliau, eu cymanfaoedd, a'r holl ranau eraill o'u gweithredoedd crefyddol) y rhai a ddechreuent yn y gwanwyn, yn mis Nisan, yn cyfateb i'n Mawrth ni, ac weithiau i ran o Ebrill, yn ol trefn rhedegfa y lleuad. Wedi eu hymadawiad o'r Aipht, a rhoddi y gyfraith iddynt, trwy law Moses, y gwnaethpwyd y rhaniad hwn ar y flwyddyn; onidê, yr un oedd eu blwyddyn hwy a blwyddyn yr Aiphtiaid, yn mhlith y rhai y ganwyd hwynt, a threfn y rhai oedd ganddynt mewn arferiad, sef y drefn uchod. Y mae rhai dysgedigion enwog yn gwrthddadleu hyn; yn neillduol yr enwog Houbigant, yr hwn a haera nad oes grybwylliad am ddechreuad blwyddyn yn Exod. 12. 2. oblegid bod y flwyddyn yn wastad yn dechreu yn y gwanwyn, a bod y gair *bydd* heb un gair yn cyfateb iddo yn yr Hebraeg, ac a roddwyd i mewn yn afreidiol. Cyfieitha y geiriau fel y canlyn: 'Y mis hwn fydd i chwi y penaf o'r misoedd; mae i chwi y mis cyntaf o'r flwyddyn.' Sylwa, yn mhellach, fod Duw yn nodi y mis hwn felly, i ddangos i'r bobl y cai y mis hwn, yr hwn oedd ddechreuad eu blwyddyn, ei ddynodi i hysbysu i'w hiliogaeth ar ba fis, ac ar ba ddydd o'r mis, yr oeddynt i gadw y pasc, a gŵyl y bara croyw.

Mae blwyddyn, yn ol iaith y prophwydi, yn arwyddo tri chant a thriugain o flynyddoedd; a mis, ddeg ar hugain. Felly, tri diwrnod a hanner sydd yn arwyddo tair blynedd a hanner; a thair blynedd a hanner, sef amser, amseroedd, a hanner amser, yn arwyddocâu 1260 o flynyddoedd, dydd am flwyddyn. Dat. 11. 11. a 12. 14.

Mae blwyddyn hefyd yn arwyddo tymhor, neu yspaid, yn yr hwn y dygwyddo peth. Hwyrach fod y tair blynedd o amynedd Duw gyd a'r Iuddewon diffrwyth, yn arwyddo gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr a Christ; ac fe allai, hefyd, fod y bedwaredd yn arwyddo yr amser ar ol adgyfodiad Crist, cyn i'r rhyfel dinystriol eu tôri hwynt allan. Luc 13. 6—10.

Blwyddyn gofwy, amser adfydus trallodedig iawn. Jer. 11. 23.

Digitized by Google

Blwyddyn gwaredigion Duw, amser yr efengyl yn ei grym. Esa. 63. 4. Mewn cyferbyniad i flwyddyn y rhyddhad ar y Jubili, y mae yspaid dychweliad yr etholedigion at Grist, neu amser yr efengyl, yn cael ei alw, 'Blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd.' Esa. 61. 2.

Blynyddoedd Duw, ydyw parhad annherfynedig ei hanfod, Heb. 1. 12. neu yspaid ei waith hynotaf ef, megys yn dwyn Israel o'r Aipht, cnawdoliaeth Crist, &c. Ps. 77. 10. Felly, misoedd dyn yw amser ei fywyd. Job 14. 5.

'A'r cenedloedd hyn a wasanaethant frenin Babilon ddeng mlynedd a thriugain.' Jer. 25. 11. Rhaid cyfrif, medd Blayney, amser caethiwed y cenedloedd oddiwrth yr amser y gorchfygwyd yr Aiphtiaid gan Nebuchodonosor wrth Carchemis, y flwyddyn y rhoddwyd y brophwydoliaeth gan Jeremiah, ac y darostyngodd y teyrnasoedd cymydogaethol, Syria a Palestina, yn gystal a Jerusalem. Yr oedd hyn yn agos i ddwy flynedd cyn bod yr amseryddwyr Paganaidd yn dechreu ei deyrnasiad, a'i dad etto yn fyw. Ar ol marwolaeth ei dad, yn ol Ptolemy, teyrnasodd Nebuchodonosor ddeugain mlynedd; Ilferodamus, neu Efil-merodach, ei fab, ddwy; Neriglissar, a Nabonadius, yr hwn, tybygid, oedd Belsassar, ŵyr Nebuchodonosor, ddwy ar bymtheg; at ba rai, os chwanegwn ddwy flynedd o Darius y Mediad, yr hwn y dywedir yn Dan. 9. 1. ei wneyd yn frenin ar deyrnas y Caldeaid, cawn fod y cenedloedd wedi parhau, fwy neu lai, yr holl amser hwnw, agos i ddeng mlynedd a thriugain, yn ddarostyngedig i frenin Babilon. Ond wedi i Cyrus esgyn i'r orsedd, yr hwn a roddodd ddiwedd ar ymerodraeth Babilon, nis gallasai y cenedloedd wasanaethu brenin Babilon mwyach, am nad oedd brenin yn Babilon i'w wasanaethu; canys ni byddai breninoedd Persia un amser yn cael eu galw breninoedd Babilon; ond daeth Babilon ei hun yn dalaeth ddarostyngedig a dibynol dan raglaw; a dechreuodd o'r yspaid hwnw allan brofi yr ymweliadau dwyfol a ddiweddodd yn ei hanghyfannedd-dra tragywyddol. Adn. 12.—'Pan gyflawner yn Babilon ddeng mlynedd a thriugain, yr ymwelaf (medd yr Arglwydd) â chwi, ac a gyflawnaf â chwi fy ngair daionus, trwy eich dwyn drachefn i'r lle hwn.' Jer. 29. 10. Yma y mae Duw yn addaw, pan byddai y deng mlynedd a thriugain yn cael eu cyflawni yn Babilon, y byddai iddo ymweled â'i bobl, a chyflawni ei air daionus tu ag atynt, trwy eu dychwelyd i'w lle eu hunain. Gwnaeth felly yn gyfatebol yn y flwyddyn ddiweddaf i Cyrus, brenin Persia, yn mhen deng mlynedd a thriugain gwedi y dygiad cyntaf o'r bobl yn gaethion o Jerusalem i Babilon; pan, fel y tystia yr hanesydd sanctaidd (2 Cron. 36. 22. Ezra 1. 1.) 'y cyflawnwyd gair yr Arglwydd trwy enau Jeremiah, cyffrodd yr Arglwydd ysbryd Cyrus, brenin Persia, i gyhoeddi trwy ei holl deyrnas ryddid i'r Iuddewon i ddychwelyd yn anrhydeddus;' ac yn ganlynol i hyny, dychwelasant yn lliosog i Jerusalem. Ni chofféir yn un man arall yn mhrophwydoliaeth Jeremiah am y deng mlynedd a thriugain. Y mae yn eglur, gan hyny, mai yr yspaid hwn a feddylir yn Dan. 9. 2. lle y dywedir i air yr Arglwydd ddyfod at Jeremiah y prophwyd, 'y cyflawnai efe ddeng mlynedd a thriugain yn anghyfannedd-dra Jerusalem.'——Y mae y prophwyd Zechariah yn llefaru am yspaid arall o ddeng mlynedd a thriugain (Zech. 1. 12.) y rhai a ddechreuasant yn nghylch y gwarchaead diweddaf ar Jerusalem, ac a gyflawnwyd yr amser yr adeiladwyd yr ail deml gan Darius Hystaspes. Gwel Campbell. Vitringa *in Zech., Proleg., p.* 17. Petavius, *Doctr. Temp., lib.* xii. *c.* 25. Prideaux, *An.* 518. *Bishop* Newton's *Dissert.* viii.—Dros yr yspaid hwn hefyd, diammeu, bod arwyddion o anfoddlonrwydd yn parhau; amseroedd blinion oeddynt, fel y dywedir yn Dan. 9. 25. Ond nis gellir caniatâu, ar un cyfrif, mai yr un yspaid o ddeng mlynedd a thriugain a feddylir yn Zechariah, ag yn y lleoedd uchod yn Jeremiah. Gwel Blayney.

BLYS—IAU, (bal-ys) chwant anghymedrol; trachwant, gwŷn, nwyf.—'A themtiasant Dduw yn eu calon, gan ofyn bwyd wrth eu blys.' Ps. 78. 18. a 106. 14. Num. 11. 4. 2 Sam. 23. 15. Heb. 3. 10. Iago 4. 3. Y mae yn gyfreithlon i ni ofyn bwyd wrth ein *hangen*, ond nid wrth ein *blys*; yr hyn sydd yn arwydd o anniolchgarwch, anfoddlonrwydd tuchanllyd, a chnawdolrwydd anifeilaidd, sydd yn annog Duw i dywallt phiolau digofaint arnom.

BOANERGES, [*meibion y daran*] enwau a roddes Crist ar Iago ac Ioan, meibion Zebedeus, oblegid eu gwresogrwydd a'u hyfder, a'r gweithrediadau nerthol trwy eu gweinidogaeth. Marc 3. 17.

BOAZ, בעז [*mewn nerth*] 1. Mab Salmon a Rahab: gwr cyfoethog yn byw yn Bethlehem, yr hwn a briododd Ruth y Foabees weddw dlawd, o'r hon y cenedlodd efe Obed, tad Jesse, tad Dafydd, brenin Israel. Ruth 4. 21. Mat. 1. 5, 6. Gwnaeth Boaz ran cyfathrachwr â Ruth; felly y gwnaeth Crist â ninnau; er mai Boaz gyfoethog oedd ef, priododd Ruth weddw dlawd o wlad Moab: felly Crist a ddyweddïodd iddo ei hun y cenedloedd tlodion, y rhai oeddynt heb obaith, ac heb Dduw yn y byd. Esa. 54. 1—6.——2. Enw y golofn oedd yn sefyll o du y gogledd yn mhorth y deml. 1 Bren. 7. 21. Edr. COLOFN.

BOCS, math o bren sydd â'i ddail yn leision trwy y flwyddyn. Mae y pren hwn mewn arferiad mawr mewn gerddi heirdd, i addurno eu gwrychoedd a'u rhodfëydd. Mae y pren o liw melyn, ac yn gyfansgorph caled, rhy drwm i nofio, ac agos yn rhy galed i fraenu, ac i'r pryfed i'w fwyta; wrth ei weithio y mae yn hawdd ei lathru a'i gaboli. Esa. 41. 19. a 60. 13.

BOCSACH—U, (bog-sach) bostgar, ymffrostus, digofus.—'Ac ydd oeddynt yn llawn bocsach.' Act. 5. 17. W. S.

BOCHGERN, (boch-cern) grudd, ochr yr wyneb o'r ên i fynu.—'Ac yr oeddwn iddynt megys y rhai a godent yr iau ar eu bochgernau hwynt.' Hos. 11. 4. Sef iau drom caethiwed yr Aipht. Cyfeiria y geiriau at y ddefod o symud yr iau yn mlaen ar wddf yr ŷch yn llafurio, i'w oeri a'i esmwythâu. 'A bwriais atynt fwyd;' sef y manna yn yr anialwch.

BOD—ION, (po) boda, bury, bery, barcud, barcutan. Bòd y gwerni, bòd tinwyn, bwn cath y wern; bòd y mêl.—'A'r bòd.' Deut. 14. 13. *Heb.* ראה *gweled, edrych ar*. Math o adar aflan o ryw y fwlturiaid, medd Parkhurst, ac arwydda eu henw Hebraeg eu bod yn graff eu golwg a'u hedrychiad. Aderyn craff ei lygaid yw y barcud. Job 28. 7.

BODDI, (bawdd) marw mewn dwfr; Amos 8. 8. megys Pharaoh a'i fyddin yn y Môr Coch. Exod. 15. 4.—Chwantau cnawdol sydd yn boddi dynion i ddyfnder dinystr a cholledigaeth. 1 Tim. 6. 9.

BODDLON—RWYDD, (bodd-lawn) un yn llawn wrth ei fodd; boddhaol, ewyllysgar. Num. 14. 8. Ps. 51. 19. Mat. 12. 18.

Y mae boddlonrwydd yn ras, 1. Croes i genfigen; canys yr hwn sydd yn cenfigenu wrth lwyddiant rhai eraill, sydd yn anfoddlon i'w gyflwr ei hun. Y mae cenfigen ac ymryson yn cydfyned â'u gilydd. 1 Tim. 6. 4. Cariad nid yw yn cenfigenu, nac yn ceisio yr eiddo ei hun. 1 Cor. 13. 4, 5. Lle y mae cenfigen yn teyrnasu, nis dichon y dyn hwnw fod yn foddlon,

Digitized by Google

onid a bydra yr esgyrn, a boena, a ofidia, ac a ladd yr annoeth. Diar. 14. 30. Job. 5. 2.

2. Y mae yn wrthwyneb i gybydd-dod. 'Bydded eich ymarweddiad yn ddiariangar; gan fod yn foddlon i'r hyn sydd genych.' Heb. 13. 5. Yr hwn sydd yn ras gwrthwyneb i'r pechod o ariangarwch neu gybydd-dod. Mae yr hyn sydd gan un yn fwy nag a haeddodd—yn ddigon dros yr amser presennol, ac nis gwyddom a fyddwn byw yfory;—yn oreu er ein lles, a'r hyn y mae Duw doeth yn gweled yn dda ei roddi: a'r hwn a roddodd yr hyn sydd genym, a all roddi ychwaneg os bydd angen ychwaneg. Nis dichon y cybydd byth fod yn foddlon. Arwydda y gair *Gr.* *πλεονεξια*, *cybydd-dod*, sef dymuniad am ychwaneg: pa fant bynag ag sydd ganddo y mae yn chwennych ychwaneg.

3. Y mae boddlonrwydd yn wrthwyneb i falchder, ac uchelfrydedd. Nis dichon i'r balch oddef i neb fod yn uwch nag ef; neu yn gydradd ag ef; os canfydda hyny, y mae yn anesmwyth ac yn anfoddlon. Nis gellir digoni na boddloni chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd—rhaid eu croeshoelio a'u marweiddio i gyrhaedd at foddlonrwydd: 'Ni ddywedant byth, Digon.' Diar. 30. 15.

4. Y mae yn wrthwyneb hefyd i rag-ofalon gofidus, ac anesmwythder yn nghylch pethau ac amgylchiadau bydol; am hyny y mae yr Arglwydd Iesu yn ein hannog i'w gwrthsefyll trwy lawer o resymau, yn Mat. 6. 25—34. gan ein hanfon at y creaduriaid direswm i ddysgu i fod yn foddlon. Y mae yr Arglwydd yn gofalu drosom, a dylem fwrw ein holl ofal, gan hyny, arno ef.

5. Y mae yn groes hefyd i duchan a grwgnach, dan ragluniaethau adfydus a siomedigaethau; fel y gwelir yn yr Israeliaid yn yr anialwch: 'Na rwgnechwch, fel y grwgnachodd rhai o honynt hwy.' 1 Cor. 10. 10. Galar. 3. 39.

'Bod yn foddlon i'r hyn sydd genym,' sydd yn ddarluniad addas o foddlonrwydd; 1. Yr hyn sydd genym o bethau bydol. Diar. 30. 8. 1 Tim. 6. 17. ——2. Bod yn foddlon, fel Job, i golli yr hyn oedd genym. Job 1. 21.——3. Bod yn foddlon i gael ein herlid a'n gwaradwyddo o achos crefydd, fel Moses. Heb. 11. 24, 25, 26. Mat. 5. 11, 12. 2 Cor. 12. 9, 10.

'Myfi a ddysgais yn mha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlon iddo.' Phil. 4. 11.—1. Y mae cyflyrau dynion yn gyfnewidiol yn y byd hwn. Dan. 4. 33. Ps. 30. 7.——2. Yn mhob amgylchiad a chyflwr, y mae dynion anrasol yn anfoddlon ac yn duchanllyd, fel yr Israeliaid yn yr anialwch.——3. Nid amgylchiadau a wna neb yn foddlon; ond gras ydyw a roddir gan Grist i'w bobl, trwy oruchwyliaethau yr Ysbryd Glân arnynt, tan yr amrywiol ragluniaethau sydd yn eu cyfarfod.

Y mae yr Ysbryd Glân yn dysgu boddlonrwydd, 1. Trwy ddangos iddynt eu hannheilyngdod. Gen. 32. 10.——2. Dybenion doeth daionus Duw yn ei holl ragluniaethau tu ag atynt. Esa. 27. 8, 9. a 38. 16, 17.——3. Trwy ddangos fod Duw yn Dduw iddynt, ac wedi ymrwymo i fod gyda hwynt yn mhob amgylchiad. Esa. 43. 1—4. Heb. 13. 6.——4. Bod pob peth yn eiddo iddynt yn Nghrist. Y mae Crist ei hunan yn bob peth. Col. 2. 10. a 3. 11. Nid rhan o Grist, na rhan yn Nghrist, ond *Crist yn rhan* a roddir i ni yn yr efengyl. 1 Ioan 5. 12.——5. Y mae yr Ysbryd Glân hefyd yn eu galluogi yn mhob cyflwr i edrych trwodd at y parotoad cyflawn sydd iddynt yn nhŷ eu Tad. 1 Cor. 2. 9. 2 Cor. 5. 1. Ioan 14. 2, 3.

'Yn ei foddlonrwydd y mae bywyd.' (*Heb.* חיים *bywydau.*) Ps. 30. 5. Yn ei heddychlonedd trwy Grist a'i aberth, y mae bywyd; sef bywyd cyflawn, cysurus, a pharhaus; bywyd o ras, a bywyd o ogoniant tragywyddol. Y mae pob bendith ysbrydol a thragywyddol yn gysylltiedig â heddychlonedd Duw. Os bydd Duw drosom, pwy a all fod yn ein herbyn? 'Yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef.' Eph. 1. 5. Y mae holl drefn yr iechydwriaeth yn Nghrist Iesu wedi ei gosod a'i sefydlu yn ol boddlonrwydd ewyllys y Duwdod. Ei ewyllys ef yw yr achos cynbyrfiol o'r cwbl; y mae iddo foddlonrwydd yn ei ewyllys sanctaidd, yn mhob peth; ond y mae iddo foddlonrwydd a hyfrydwch yn ei ewyllys yn hyny, gyd âg enwogrwydd neillduol, am fod amlygiad yn y drefn ryfedd hon, mwy dysglaer, cyflawn, a gogoneddus, o'r priodoliaethau dwyfol yn gytunol, nag yn ei holl weithredoedd eraill. 'Megys yr etholodd efe ni ynddo ef.—Wedi iddo ein rhaglunaethu ni i fabwysiad, trwy Iesu Grist, iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd (*ευδοκια*) ei ewyllys ef.' Y mae yr un gair yn cael ei gyfleithu, *rhyngodd bodd*, yn Mat. 11. 26.—*y'm boddlonwyd*, Mat. 3. 16.

BOGEL—EILIAU, (bog) bolglwm; y rhan hòno o'r corph trwy ba un y maethir plentyn yn y groth, a dòrir ac a rwymir pan enir ef. Y mae nerth y Behemoth yn mogel ei fol, neu yn ei gorph. Job 40. 16. Y mae duwioldeb yn 'iechyd i'r bogel, ac yn fêr i'r esgyrn;' y mae yn dwyn allan ac yn diogelu dedwyddwch corph ac enaid, gan ei fod yn tarddu o'r ffynon oddifewn, sef cydwybod wedi ei golchi yn ngwaed Iesu, a chalon wedi ei hadnewyddu trwy ei ras ef. Diar. 3. 8.——Bod heb dòri y bogel, Ezec. 16. 4. a arwydda, cyflwr natur heb ei chyfnewid, ac yn hollol amddifad o bob ymgeledd ysbrydol.——'Dy fogel sydd fel gorflwch crwn, heb eisieu lleithder.' Can. 7. 2. Y bogel sydd yn rhoddi maeth i'r plentyn yn y groth cyn ei eni, fel y mae y bronau yn rhoddi magwriaeth iddo wedi ei eni; felly, y mae bogel yr eglwys yn llawn lleithder, yn arwyddo ei chyflwr gwych ei hun, a'r fagwriaeth rasol a helaeth mae yn ei roddi i'w phlant bychain; nid oes dim eisieu lleithder, ond y mae wedi ei chyfoethogi â phob gras, ac â phob bendith ysbrydol. 2 Cor. 8. 9. Eph. 1. 3. Esa. 60. 7—11. 1 Cor. 4. 15. Gal. 4. 19. 1 Thes. 2. 7.

BOGLYN—AU, (bogel) *Gwydd.* No KNAPAU, BOILLE; boglwm, bogeilglwm, cnap, cnwc; boglyn.—Dwfr yn boglynu, sef yn bwrlymu, neu yn clochi.—'Gwna hwynt â boglynau o aur o'u hamgylch.' Exod. 28. 11. a 39. 6, 13, 18.—שבצות זהב *said-dyllau*, neu *dderbyn-dyllau o aur*; lleoedd ceuol o aur i rodli y meini ynddynt, i'w cadw yn ddiogel: cyfieithir yr un geiriau, *gemwaith aur*; Ps. 45. 13. sef, yr oedd gemau mewn boglynau aur ar hyd ei gwisg; yn arwyddo harddwch ei hymddangosiad mewn sancteiddrwydd a doniau yr Ysbryd Glân.

BOL, BOLY, (bwl) rhumen, tòr, bru, croth.—1. Y rhan hòno o'r corph sydd yn cynnwys yr ymysgaroedd; neu yr ymysgaroedd eu hunain. Mat. 15. 17. Dat. 10. 19.——2. Y galon, yr hon sydd ddofn, guddiedig, ac anhawdd ei chwilio allan. Diar. 18. 8. a 20. 30. a 22. 18. *Heb. bol.*——Mae 'boliau dynion yn darpar twyll,' pan y maent â'u calon yn dychymygu pa fodd i lefaru, neu i weithredu twyll. Job 15. 35. —Bol, neu ymysgaroedd Crist, 'fel dysglaer ifori wedi ei wisgo â saphir,' a arwydda ei dosturi, a'i gydymdeimlad dianwadal a pharhaus. Can. 5. 14.—Y mae y bol, yn allegawl, yn arwyddo glythineb. Tit. 1. 12. Phil. 3. 19. Rhuf. 16. 18.—Mae Jonah yn galw bol y morfil yn fol uffern; oblegid y tywyllwch anferth, y cyfyngder, a'r aflonyddwch meddwl, a brofodd yno. Jon. 2. 2.

BOLLTAD—EIDIAU, (bollt) corsen, callodren, conyn, paladr, bonyn.—'Ac a'u cuddiasai hwynt mewn (neu â) bollteidiau llin.' Jos. 2. 6.—עץ־הערכות

Digitized by Google

*coed llin.* Barna rhai mai *cywarch* a feddylir, am fod ei baladr yn fwyaf coedaidd. Yr oedd heb ei ddirisglo, ac ar nen y tŷ yn sychu.

BONCYFF—ION, (bon-cyff) 1. Gwreidd-gorph pren. Job 14. 8. Esa. 40. 24.——2. Delw wedi ei gwneuthur o foncyff pren. Esa. 44. 19.——3. Breniniaeth Nebuchodonosor; 'A lle y dywedasant am adael boncyff gwraidd y pren; dy freniniaeth fydd sicr i ti wedi i ti wybod mai y nefoedd sydd yn llywodraethu.' Dan. 4. 15, 26.

BONEDD—IG—AIDD—RWYDD, (bon) âch tylwyth. Gwr boneddig, sef gwr o hynafiaeth barchus, ac o ymddygiad tirion, mwynaidd. Boneddig cynnwynol, neu boneddig gwlad, sef Cymro glân o waedoliaeth, a dyledog urddasol.—'Boneddigaidd.' Iago 3. 17. επιεικης, arwydda y gair *Gr. arafwch, addfwynder, maddeugarwch, mwyneidd-dra, hynawsedd;* parodrwydd i farnu yn dirion am eraill. Cyfleithir yr un gair *arafwch,* Phil. 4. 5.—*tirion,* 1 Tim. 3. 3. Tit. 3. 2.—*cyweithas,* 1 Petr 2. 18. Yn y lle hwn y mae yr apostol Iago yn darlunio yn dra hardd natur ac ansawdd y dymher rasol y mae yr Ysbryd Glân yn ei weithredu trwy yr efengyl ar eneidiau y rhai y mae yn allu Duw er iechydwriaeth iddynt. Doethineb oddi uchod ydyw; oddiwrth Dduw y mae yn dyfod; ac y mae yn gwneyd y rhai sydd yn cyfranogi o hono yn bur, heddychol, boneddigaidd, &c., y mae y darluniad yn neillduol o hardd, ysbrydol, cywir, ac ardderchog, ac yn dangos prydferthwch dwyfol gwir grefydd. Canmola Luc foneddigeiddrwydd y Bereaid rhagor y Thessaloniaid, yn derbyn y gair, yr efengyl, gyda phob parodrwydd meddwl, gan chwilio beunydd yr ysgrythyrau, a oedd y pethau a glywent felly. Act. 17. 11. 'Gwell o enedigaeth.' W. S. ευγενεστεροι, arwydda y gair pan briodolir, fel yma, i agwedd y meddwl, meddwl ardderchog, godidog, boneddigaidd; nid yn barnu pethau yn fyrbwyll, ac yn dueddol, heb eu chwilio yn fanwl am y gwirionedd o honynt. Felly y gwnaeth y Bereaid.——2. Gwyr mawrion yn y byd hwn. Esa. 2. 9. 1 Cor. 1. 26.—'Fy enaid boneddig.' Job 30. 15. Dr. M. נדיבתי *fy uchelder, fy moneddigeiddrwydd, fy mhendefigaeth.* Cyfleithir yr un gair, *pendefig, pendefigion.* Ps. 113. 8. Diar. 25. 7. Num. 21. 18. 1 Sam. 2. 8. Yr enaid yw ardderchogrwydd dyn, ag sydd yn ei wneuthur yn bendefigaidd. Cyfleithir ef *hael,* yn Ps. 51. 14. Edr. Hael.

BORD, *Saes.* Board: bwrdd, lle i fwyta. Ps. 23. 5. a 128. 3. 1 Cor. 10. 21.

BORE—EU—AU, (bor) y wawr, boreuddydd. —1. Y rhan gyntaf o'r dydd, cyn, ac yn nghylch codiad haul. Marc 16. 2. Yr hwyr a'r boreu sydd yn gwneuthur y diwrnod o 24 o oriau, yn ol cyfrif yr Iuddewon, y rhai a ddechreuent eu diwrnod o'r hwyr.——2. Toriad y wawr. Barn. 19. 26, 27.——3. Adgyfodiad cyffredinol y dydd olaf. Ps. 49. 14. Marwolaeth a elwir yn nos, ac a gymherir i gwsg. Ioan 9. 4. a 11. 11.

BORITH, ברית [*purwr, puriedydd, puriant*].—'Pe byddai it ac ymolchi â nitrwm, a chymeryd llawer o borith.' Jer. 2. 22. Dr. M. Edr. Sebon.

BOST, (awst) ymffrost, gorfoledd; ymfolychu, bocsachu. 2 Cor. 8. 24. a 9. 3, 4. a 10. 8, 13, 15.

BOTAS—AU, (bot) curan, coesarn, coesarf. 1 Sam. 17. 6.

BOTH—AU, (bwth) bogel, troell, both olwyn, 1 Bren. 7. 33.

BOZRA, בצרה [*lle cadarn*] 1. Dinas yn yr anialwch, tu hwnt i'r Iorddonen. Edr. Bezer.——2. Un arall yn nhir Edom; ei thrigolion, lawer o honynt, oeddynt fugeiliaid. Mic. 2. 12.

BRAD—WRIAETH—AU, (brad) gwaith bradwr; dichell-waith. 2 Bren. 9. 23. a 11. 14. 2 Cron. 33. 24.

Na fydd *frad* fugail i'r a'th greto. *Diar.*

BRADWCH—YCHU, (brad) rhoddi un i fynu yn ddichellgar i ddwylaw ei elynion. 1 Cron. 12. 17. Mat. 26. 2—48. Edr. Judas.

BRADWR—WYR, (brad-gwr) bradychwr; un yn traddodi un arall, megys Judas, yr hwn a elwir yn fradwr. Luc 6. 16. Dywed Stephan wrth yr Iuddewon, eu bod yn fradwyr ac yn llofruddion (Act. 7. 52.) o ran eu hymddygiad creulawn tu ag at yr Arglwydd Iesu. Un o nodau dynion yr amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf, gan yr apostol ydyw, y byddent (προδοτοι) yn fradwyr; sef, yn bradychu eu gilydd, a phob ymddiried a roddwyd iddynt.

BRAENAR—U, (braen-âr) tir wedi ei aredig i fraenu, âr i fraenu.—Braenaru braenar, (Jer. 4. 3.) sydd yn gosod allan waith Ysbryd Duw ar galon pechadur, sydd trwy bechod yn ddiffaeth, yn anial, yn agored i bob bwystfil, yn ddiffrwythau da, ac yn llawn ffrwythau drwg—yn ei argyhoeddi, ei ddarostwng, ei ddryllio, ac yn gweithredu ynddo wir edifeirwch am bechod; ac felly yn ei addasu i dderbyn hâd da yr athrawiaeth am Grist, a chyflawnder bendithion yr efengyl. Nid ar galon iach ddiglwyf, y mae Duw 'yn gwlawio cyfiawnder;' ond ar ysbryd wedi ei fraenaru gan oruchwyliaethau effeithiol yr Ysbryd Glân, yn archolli y galon, ac yn myned tan wraidd pechodau o bob rhyw. Hos. 10. 12.

BRAICH, BREICHIAU, (bar) *Llad.* Brachium, y rhan hôno o gorph dyn sydd rhwng y llaw a'r ysgwydd, ac a arferir i weithio, i daro, neu i ryw weithred egniol. Y mae i'r fraich bum math o ysgogiadau, y rhai a effeithir trwy bum pâr o ewynau; sef, i fynu ac i lawr, yn ol ac yn mlaen, a chylchaidd. Nid oes ond un asgwrn yn y rhan o'r fraich rhwng y penelin a'r ysgwydd, a elwir *Humerus;* o'r penelin i'r llaw y mae dau asgwrn, a elwir y *radius* a'r *ulna.* Y mae gwneuthuriad y fraich, fel pob rhan o gorph dyn, yn amlygu gweithiwr anfeidrol ddoeth a da, yn ei haddasu i'r dyben a'r gwaith perthynol iddi, yn hardd, yn rhwydd, ac yn gyfleus. Pe buasai heb un o'r pump ysgogiadau, buasai yn anghyfleus, ac i radd mawr yn annefnyddiol i'r peth ydyw yn bresennol. Heb y ddau asgwrn yn y rhan isaf y fraich, ni buasai gan y llaw yr holl ysgogiadau y mae yn gyfaddas iddynt, yn ychwanegol at bump ysgogiad y fraich, sef bod â'r gledr i fynu ac i lawr, neu yn ochrog. Cywrain oedd y gweithiwr, ac ofnadwy a rhyfedd yw ei waith yn mhob peth. Ps. 139. 14, 15.

Oddiwrth ddefnyddioldeb y fraich, y mae pob peth a fyddo yn addasu dyn at ryw wrolwaith yn cael ei alw, yn yr ysgrythyrau, wrth yr enw braich.—Braich sanctaidd, gref, estynedig Duw, ydyw ei hollalluog nerth yn cael ei ddangos mewn modd goruchel, sanctaidd, a rhyfedd, yn ei holl weithredoedd; fel yn dwyn Israel allan o'r Aipht; yn dychwelyd ei bobl; yn gwaredu ei eglwys, &c.—Y mae braich estynedig yn arwydd o allu anorchfygol; oblegid onis gall y gwrthwynebwr blygu y fraich, nis gall orchfygu y person a fyddo yn ei hestyn, na niweidio y rhai y byddo efe yn ei hamddiffyn.—Crist ydyw braich Duw; oblegid mai trwyddo ef y gwnaed pob peth, am ei fod yn Grist gallu Duw. Jer. 32. 17, 21. Exod. 4. 6. Esa. 52. 10. a 53. 1. a 62. 8. a 63. 12. —Braich Crist, â pha un y casgl efe ei ŵyn, neu ei bobl, ydyw ei allu cadwedigol, ei gariad a'i dru-

Digitized by Google

garedd trwy weithrediadau pa rai y mae yn eu dwyn ato ef ei hun. Esa. 40. 11.—Nerth allanol dynion, cyfoeth a meddiannau, a elwir eu braich. Y maent yn pwyso arnynt, ac yn gallu cyflawni llawer o'u hamcanion trwyddynt. Ps. 10. 15. a 37. 17.—Gallu dynol, a grym arfau, &c. a elwir yn fraich o gnawd; o herwydd mai gwan a diflanedig ydynt. 2 Cron. 32. 8.—Byddai rhyfelwyr gynt yn dynoethi eu braich ddehau mewn ymladdfa; neu y ddwy, os byddai y frwydr yn galed; mewn cyferbyniad i hyn, dywedir fod Duw yn dynoethi ei fraich, mewn rhyw achos neillduol, sef i waredu ei bobl, a dystrywio eu gelynion. Pan fyddo Duw yn anfon yr efengyl gyda grym, awdurdod, ac eglurdeb, y mae efe megys yn dynoethi, neu yn dadguddio ei fraich; sef yn egluro ei allu, trwy ei Fab, yn iechydwriaeth pechadur, gan ddyosg pob peth a fyddo yn ei guddio, fel y gallo y rhai a waredir weled fod eu hiechydwriaeth trwy Grist yn unig, yr hwn yw gallu Duw. Esa. 51. 9. a 52. 10. a 53. 1. a 59. 16. Ezec. 4. 7. Ioan 12. 38. 1 Cor. 1. 24.—Mae breichiau, weithiau, yn arwyddo lluoedd cedyrn o ryfelwyr. Dan. 11. 15, 22.

BRAIDD, (bar) prin, yn brin, odid, o fraidd, o'r braidd. Arwydda fod dyn ar ei oreu yn cyrhaedd at ryw nôd, neu yn cyflawni rhyw weithred. Act. 14. 18. Rhuf. 5. 7. 1 Petr 4. 48.

BRAN, BRAIN, (bar) ehediad aflan dan y gyfraith—yn enwedig rhai rhywogaeth o honynt. Lef. 11. 26.—Duon. Can. 5. 11. Y mae Duw yn nhrefn ei ragluniaeth, yn gofalu am borthi y rhai hyn; pa faint mwy y gofala efe am blant y deyrnas, gwerth gwaed ei anwyl Fab? Luc 12. 24. Job 38. 41. Ps. 147. 9. Mat. 12. 12. Rhuf. 8. 32.

BRAN NOS. 'A'r fran nos.' Lef. 11. 6. Deut. 14. 15. *Heb.* תחמס LXX. γλαυκα; *Vulg.* Noctuam; *Saes.* Night Hawk: math o adar aflan; rhyw fath o ddylluan, tebygol. Arwydda y gair Hebraeg mai rhyw aderyn ysglyfgar ydoedd, ac nid annhebyg i'r un y rhydd Hasselquist hanes am dano, (*Travels, p.* 166.) ei fod o faintioli y ddylluan gyffredin, ac ysglyfgar iawn, yn Syria. Yn yr hwyr, os bydd y ffenestri yn agored, ehedant i'r tai, ac a laddant fabanod, os na wylir hwynt yn bur ofalus; o herwydd hyny yr ofna merched hwynt yn fawr.

BRAINT, BREINTIAU, (brai) hawl, rhyddid; uchel-fraint mewn teulu, eglwys, neu wladwriaeth; rhagoriaeth ac awdurdod uwchlaw eraill.—'Iddo y bydd braint y cyntaf-anedig.' *Heb. barn y cyntafanedig;* sef yr hyn y mae y gyfraith yn ei farnu iddo. Deut. 21. 17.—'Fel y byddo iddynt fraint yn mhren y bywyd.' Dat. 22. 14. 'Fel y gallo cyviawnder hwy fod yn mhren y bowyd.' W. S. Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo, neu *gan fod, ινα* pro *οτι*, medd Launæus, iddynt fraint (εξουσια) hawl, awdurdod, rhyddid i bren y bywyd, sef i fwynhad tragywyddol o Grist, a holl freintiau y prynedigaeth. Ffrwythau pren y bywyd, sef Crist, ydyw holl ogoniant a dedwyddwch tragywyddol y saint yn y nefoedd.—'Braint gymeriad.' Rhuf. 2. 11.—'Derbyn braint,' Col. 3. 25. W. S., sef derbyn wyneb.

BRAS, BREISION, (bar) *Heb.* בריא (*baria*); *Llad.* Brassus: ireiddiog, seimlyd, gwerog, blonegog; tew, mawr, rhwyth. Mollt bras; ŷd bras; blawd mân a bras; pwythi breision; gwlan bras.

Ni phery cig *bras* yn wastad. *Diar.*

Tir ffrwythlawn, yn dwyn ffrwyth toreithiog, a elwir yn dir bras, Num. 13. 20.—'Enaid y diwyd a wneir yn fras;' sef, a gaiff lawnder a helaethrwydd, llwyddiant a bendith, fel mae y gair yn arwyddocâu. Diar. 13. 4. Cymh. pen. 11. 25.

BRASDER, (bras) y rhanau iredlyd, gwerog, blonegog, a seimlyd, o greaduriaid. Yr ydoedd yn waharddedig i'r Hebreaid i fwyta gwêr yr anifel a fyddent yn offrymu yn aberth i'r Arglwydd. Lef. 3. 17. Pa un ai bod gwaharddiad yr un modd am wêr creaduriaid glân eraill, ag ydoedd am frasder yr aberthau, sydd bwno mewn dadl. Lef. 7. 24.—Llosgi y gwêr, neu y brasder, ar yr allor, sydd yn cysgodi, 1. Y gofidiau annhraethadwy a ddyoddefodd Crist, yn y fflamau angerddol o dân digofaint ei Dad;—2. Yn arwyddo y dylem ninnau fod, yn ngwasanaeth Duw, yn wresog yn yr ysbryd;—ac, yn 3. Y dylai ein chwantau anwylaf, agosaf at ein calon, gael eu dystrywio gan ysbryd barn a llosgfa. Lef. 3. 9.—Arwydda yn allegawl, llawnder o fendithion ysbrydol. Jer. 31. 14. Ps. 63. 5.—Brasder y ddaear, a arwydda, ei ffrwythlonrwydd. Gen. 27. 28.—Dynion dryg-ionus ydynt freision, pan fyddo eu hanrhydedd, eu cyfoeth, a'u gallu yn helaeth. Deut. 32. 14, 15. Ps. 17. 10. Ezec. 39. 19.—'Calon fras,' a arwydda ysbryd hunanol, dwl, anystyriol, ac annysgadwy. Esa. 6. 10. Mat. 13. 15. Act. 28. 27. Esa. 63. 17. Deut. 29. 4. Ps. 119. 70. Ioan 8. 43. 2 Thes. 2. 11, 12. Exod. 7. 3, 13, 14.—'Gelynion yr Arglwydd fel brasder ŵyn a ddiflanant; yn fwg y diflanant hwy.' Ps. 37. 20. Fel yr ydoedd tân Duw yn difa brasder yr ŵyn yn yr aberthau, yr un modd, mor hawdd a buan, y bydd i ddigofaint Duw ddifa ei elynion, a bydd iddynt yn ebrwydd ddiflanu yn fwg ffiaidd a drewedig. Lef. 3. 15, 16. Iago 4. 14.—Dywedir fod y saint yn freision, pan fyddo eu gras yn ysbrydol a'u cysuron yn helaeth. Ps. 92. 14. Diar. 11. 25.—Dywedir fod cleddyf yr Arglwydd yn tewychu gan frasder, pan fyddo efe trwy ei farnedigaethau, yn tori y cyfoethogion i lawr. Esa. 34. 6.—Dyffryn bras. Esa. 28. 1, 4. Dyffryn is law dinas Samaria; neu yn gyffredinol, holl diriogaeth Samaria, yr hwn oedd yn ffrwythlon ragorol.

BRAT—IAU, (brat) clwt, bril, cadach; carpiau, clytiau.—Gwisg garpiog, neu fratiog, a arwydda tlodi mawr. Diar. 23. 21.—Ein cyfiawnder ein hunain a gyffelybir i fratiau budron: nis gall addurno ein henaid, a'i wneuthur yn gymeradwy o flaen Duw ein Barnwr, mwy na gwisg o fratiau, neu garpiau budron. Esa. 64. 6.

BRATH—U, (bar-ath) gwân, erwan, trywan; gwanu, trywanu, pigo. Niweidio â'r dannedd, Num. 21. 6.—trywanu âg arfau llymion. 2 Sam. 18. 14.—Barnedigaeth ofnadwy a disymwth a gyffelybir i frathiad sarph. Preg. 10. 8. Jer. 8. 17. Heb. 2. 7.—Dywedir fod gau-brophwydi, yn mhlith yr Iuddewon, yn brathu â'u dannedd; er mwyn boddio eu gwrandawyr, i gael eu heiddo dan eu dannedd, yr oeddynt yn gadael heb sôn am farnedigaethau Duw, y rhai ydoedd bron a syrthio arnynt; yr oeddynt yn taenu eu hathrawiaethau gwenwynig ar led, yn dyfetha eiddo y bobl, ac yn lladd eu heneidiau, fel y lladdai blaidd, neu gŵn, ddefaid â'u dannedd; ac hefyd yn gwaradwyddo ac yn erlid prophwydi ffyddlon Duw. Mic. 3. 5. Gwaeddi heddwch, heddwch, pan nad oes heddwch, sydd frathu â'r dannedd o'r fath greulonaf, ac yn dyfetha eneidiau. Ezec. 13. 10.—Y gwin, wrth ymarfer â gormodedd o hono, sydd yn brathu dynion fel sarph, yn difa eu meddiannau, eu cyrph, a'u heneidiau. Diar. 23. 32.

BRAU, (bra) breuol, gwan, hydor, yn hawdd i'w dôri; hael; parod; dioed; hwylus.—'Diolch brau;' hyny yw, diolch rhwydd, parod, gwresog. Ps. 100. 4. E. Prys.—'Ni chant yn frau mo'u gorfod;' hyny yw, ni chant yn glâu, yn hawdd, yn ddiwrthwynebiad. Ps. 2. 3. E. Prys.—Un a wna frad yn frau; sef, un parod i dwyllo.

Digitized by Google

BRAW, (bar) dychryn, arswyd, ofn. Job 18. 11. Act. 9. 6.

BRAWD, BRODYR, (rhawd) *Llad.* FRATER; *Saes.* BROTHER.—Brawd un-dad; brawd un-fam; brawd maeth; brawd yn nghyfraith; brawd cwcyllog; brawd ffydd, a brawd crefydd. Y mae y gair, yn yr ystyr cyfyngaf, yn meddwl, yn 1. Gwryw o'r un tad neu fam. Gen. 4. 9.——2. Ceraint, fel yr oedd Abraham a Lot, a llwythau Israel, rhai o'r un genedl. Lef. 19. 17.——3. Yn yr ystyr helaethaf o'r gair, dyn o unrhyw genedl, gwlad, neu bobl, oblegid mai Efa oedd mam pob dyn byw. Gen. 3. 20. a 29. 15. ——4. Rhai o'r un broffes grefyddol a'u gilydd. Col. 1. 2.——5. Y mae hefyd frodyr trwy fabwysiad. Ioan 20. 17.——6. Mewn swydd. 1 Cron. 25. 9. Felly y mae holl weinidogion yr efengyl yn frodyr. 2 Cor. 8. 23.——7. Rhai yn cyflawni yr un gorchwyl, fel Simeon a Lefi, yn frodyr mewn anwiredd. Gen. 49. 5, 6.——8. Bod mewn cariad cyfammodol, fel Jonathan a Dafydd. 2 Sam. 1. 26.——9. Tebygoliaeth mewn cyflwr neu ymddygiad. Exod. 16. 2, 20. Joel 2. 8.——10. Rhai yn cydfyw mewn tiriondeb ac undeb. Can. 8. 1. Ps. 133. 1. Mor ddymunol ydyw!

Mae y saint yn cael eu galw yn frodyr i Grist, am eu bod wedi eu cenedlu yn ysbrydol o'r un Tad; Mat. 12. 49. a 25. 40.—ac am ei fod yntau wedi cymeryd eu natur. Diar. 17. 17.

Mae Crist yn 'Frawd a anwyd erbyn caledi.' Diar. 17. 17. Mae yn cyfranogi o'u natur, ac yn feddiannol o holl serchogrwydd, cyd-deimlad, a charedigrwydd brawd, tu ag at ei bobl. Mae gan Grist deimladau addas i bob perthynas rhyngddo â'i bobl, ac a gyflawna y dyledswyddau perthynol iddynt yn berffaith. Ganwyd ef i waredu ei frodyr o'u caledi mawr, o drueni pechod a gofidiau y byd, a'u dwyn i orphwysfa a gogoniant tragywyddol.

Yn ol cyfraith Moses, os byddai i wr farw, a gadael ei weddw yn ddiblant, ei frawd nesaf ato, ieuengach nag ef, os byddai heb briodi, oedd i gymeryd ei weddw yn wraig iddo ei hun, ac i gyfodi had i'w frawd a fuasai farw; ond os gwrthodai efe wneuthur hyny, yr oedd y weddw i boeri yn ei wyneb, ac i ddattod ei esgid; ac yr oedd ei deulu ef i gael eu galw, *teulu yr hwn y dattodwyd ei esgid.* Deut. 25. 5, 10. Mat. 22. 24. Marc 12. 19.—Ymddengys oddiwrth Ruth 3. 12, 13. a 4. 5, 10. fod y gyfraith yn nghylch priodi gweddw brawd, a chyfodi had i'w frawd (Deut. 25. 5.) yn cyrhaedd yn mhellach na brawd y gwr; sef i'r cyfryw gyfnathrachwr a fyddai ganddo hawl i ryddhau yr etifeddiaeth. — Amlwg yw, hefyd, oddiwrth Gen. 38. 8. fod y ddefod o briodi gwraig weddw brawd gwedi marw, yn llawer hŷn na chyfraith Moses; ac oddiwrth yr hen ddefod hon, neu yn hytrach oddiwrth sefydliad Moses, y gwnaeth yr Atheniaid y gyfraith nodedig hòno, na fyddai i un etifeddes briodi allan o'i chyfnesafiad; ond y byddai iddi roddi ei hun a'i heiddo i'w pherthynasau nesaf; ac wrth yr un gyfraith yr oedd y cyfathrachwr nesaf yn rhwym i'w phriodi. Y mae yr un ddefod yn parhau yn mhlith y cenedloedd dwyreiniol. Dywed Glearius am y Circassiaid, 'Pan byddo brawd marw heb blant, y mae ei frawd yn rhwymedig i briodi ei weddw, i godi had iddo.' Gwel *Complete System of Geography, vol.* ii., *p.* 168. —Dywed Volney, 'Y Druzes, mewn mesur, a gadwant hen ddefod yr Hebreaid, o fod dyn yn priodi gweddw ei frawd: ond nid ydyw hyn yn perthyn yn neillduol iddynt hwy; canys y mae hyn, fel amryw ddefodau eraill, yn perthyn i'r hen bobl hyny, i'w cael yn eu plith, ac hefyd yn mhlith y Syriaid a'r Arabiaid yn gyffredin.' Gwel Monsieur Volney, *Voyage en Syrie, tom.* ii., *p.* 74. Ond dywed Niebuhr, 'Y mae yn dygwydd yn wir, yn mhlith y Mahometaniaid, i ddyn briodi gweddw ei frawd; ond nid oes ganddi un hawl i'w gymhell i wneuthur felly.' Gwel Niebuhr's *Description de l' Arabie, p.* 61.

Yn y palldod o frodyr bernir y gallai y weddw briodi y tad, a bod holl ymddygiad Tamar at Judah yn cyfateb i'r ddefod hon. Y mae y ddefod hon yn arferedig yn bresennol yn rhai parthau o'r dwyrain, sef i'r weddw briodi y tad, yn y diffyg o feibion; ac os bydd ef yn rhy hen, geill ei roddi ef o'r neilldu, a phriodi y neb arall a ddewiso. Gwel *Asiatic Researches, vol.* iii., *p.* 35. Hefyd, *Fragments to Calmet, No.* 125. Y mae meibion Tamar yn cael eu golygu fel yn gyfreithlawn, ac nid fel plant o odineb; ac yn cael eu rhoddi yn mhlith yr achau fel y cyfryw; yr hyn na fuasent os nad oedd hawl gan Tamar i briodi Judah yn y diffyg o feibion iddo i'w phriodi.

BRAWDGARWCH, (brawd-car) caru eu gilydd fel brodyr; cariad brawdol. 1 Thes. 4. 9. Heb. 13. 1.

BRAWDOLIAETH, (brawd) cymdeithas o ddynion wedi rhoddi eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, a thrachefn i'w gilydd, i garu eu gilydd fel brodyr. Zech. 11. 14. 1 Petr 2. 17.

BRAWDWR—WYR, (brawd-gwr) barnwr; brawd-llys; yr hwn sydd ganddo hawl i drefnu achosion rhwng brodyr, fel yr oedd y cyntaf-anedigion yn Israel a chanddo fraint, neu frawd, hyny yw, barn, yn mhlith ei frodyr.—'Yn y dyddiau yr oedd y brawdwyr yn barnu.' Ruth. 1. 1. Edr. BARNWYR.

BRAWDLE—OEDD, (brawd-lle) lle i chwilio achosion; barn-le. Act. 18. 12. 2 Cor. 5. 10.

BRECH—AU, (bra) crach, cramen, clafr, llinoryn, ploryn. Y mae amryw fath o frech; megys, y frech wen; brech y moch; brech y cwn; y frech las, neu brech yr ieir; y frech goch; brech yr Iuddewon, sef y gwahan-glwyf; y frech fawr, cospedigaeth Duw ar anlladrwydd; brech y buchod, yr hon sydd feddyginiaeth ragorol ac effeithiol rhag y frech wen, ond ei hiawn roddi.

'Y ddu frech yw hwnw.' Lef. 13. 30, 31. *Heb.* נתק *tynu ymaith.* Math o frech, neu gramen, sydd yn tynu ymaith y gwallt yn y gwahan-glwyf.

BREFU, (bre) rhuo, buguno. Barn. 5. 16. 1 Sam. 6. 12. a 15. 14.

BREICHLED—AU, (braich-led) breichrwy, breichwisg, breichledr, addurn-dlws. Cadwyn blethedig o arian, neu aur, i'w gwisgo am yr arddwrn, neu y goes. Gen. 24. 30. Num. 31. 50. Esa. 3. 19. Ezec. 16. 11.—'Dy sel, a'th freichledau, a'th ffon.' Gen. 38. 18. 'Dy sel, a'th gochl, a'th ffon.' Dr. M. פתילך *cadach brwyd-weithiad*, y rhai sydd mewn bri mawr yn y dwyrain, medd Syr J. Chardin. Sidan cyfrodeddig, i'w roddi oddi amgylch y pen. Harmer. Ysnoden (*ribband*) o sidan cyfrodeddig, wrth ba un yr oedd y sel yn nghwlwm. Gwel y Dr. Geddes. Arwydda, rhyw addurn cyfrodeddig, mwnwgl dorch, neu freichled. Parkhurst.

BREINIOL, un a braint ganddo. Act. 22. 28. Tir breiniol, tir diardreth. Edr. BRAINT.

BRENIN—OEDD, neu BREENIN, (bräen) unben, penadur, teyrnben, llywydd teyrnas, un a chanddo awdurdod i roddi cyfraith mewn grym, ac i gospi y troseddwyr o honi; neu un a gallu goruchwyliaethol yn unig, er budd cymdeithas. Saul oedd y brenin cyntaf ar Israel. Gwel 1 Sam. 8. 11—18. Deut. 17. 14, &c.

Y mae Duw yn Frenin mawr, yr hwn, mewn doethineb, a gallu, sydd yn llywodraethu pob peth yn y nefoedd a'r ddaear. Ps. 44. 4. a 95. 3. Un o swyddau cyfryngol Crist ydyw, bod yn Frenin i ddarostwng,

Digitized by Google

i lywodraethu, a diogelu ei eglwys, a gorchfygu ei gelynion; ac yn y dydd olaf rhydd ddedfryd anniddymol o farn ar yr holl fyd. Ps. 2. 6. a 45. 1. Mat. 25. 34. Luc 1. 32, 33. Ioan 1. 49. a 18. 37. Dat. 7. 14. a 19. 16. Edr. TEYRNAS.

LLYFRAU Y BRENINOEDD. Dau o lyfrau awdurdedig yr Hen Destament; a elwir felly am eu bod yn cynnwys hanes am freninoedd Israel a Judah, o ddiwedd teyrnasiad Dafydd hyd gaethiwed Babilon, agos am 680 o flynyddoedd, a chyfrif llyfrau Samuel. Yn y *Septuagint*, neu gyfieithiad y LXX., y mae llyfrau Samuel yn cael eu cyfrif yr un ffordd â dau lyfr y Breninoedd, a'r pedwar yn cael eu galw yn *Llyfrau y Teyrnasoedd*. Y cyfieithiad Lladin hefyd, *Vulgate*, yn gwneyd yr un cyfrif, a'u geilw *Pedwar Llyfr y Breninoedd*. Dau lyfr y Breninoedd, fel yr ydys yn gyffredin yn barnu, a gasglwyd gan Ezra. Llyfr cyntaf y Breninoedd sydd yn cynnwys y rhan olaf o fywyd a marwolaeth Dafydd; cyflwr tangnefeddus a blodeuog Israel tan lywodraeth Solomon; adeiladaeth a chysegriad y deml ganddo; ei wrthgiliad oddiwrth wir grefydd; adfeiliad buan cenedl yr Hebreaid ar ol ei farwolaeth, oblegid ei rhanu yn ddwy deyrnas. Mae y rhan arall o'r llyfr yn cael ei dreulio mewn hanes am bedwar o freninoedd Judah, ac wyth o freninoedd Israel, a'r hyn a wnaethant.—— Yr ail lyfr sydd yn dwyn yn mlaen yr hanes, ac yn adrodd am weithredoedd a dygwyddiadau un ar bymtheg o freninoedd Judah, a deuddeg o rai Israel, a diwedd y ddwy deyrnas, trwy ddwyn y deg llwyth ymaith yn gaethion i Assyria gan Salmanezer, a'r ddau eraill i Babilon.

Yr awdwyr mwyaf hynod a ysgrifenasant ar ddau Lyfr y Breninoedd, ydynt John Doughteii, *Anal. Sacr.*; James Forester; Arthur Jackson; Joseph Hall, ei Fyfyrdodau.

BRENINOL, (brenin) gwych; urddasol; yn perthyn, neu yn addas i frenin. Danteithion breninol, hyny ydyw, danteithion addas i frenin. Gen. 49. 20.—'Yn dalaith freninol yn llaw dy Dduw.' Esa. 62. 3. 'Yn gylch breninol.' Dr. M. Y mae y geiriau ardderchog hyn yn cael eu llefaru am yr eglwys yn mhlith y Cenedloedd, dan yr oruchwyliaeth efengylaidd.

Y mae yn dysgu i ni, yn 1. Bod yr Arglwydd yn edrych ar ei eglwys fel y peth mwyaf gwerthfawr, anwylaf, a harddaf yn ei olwg. Y mae yn enw, yn foliant, ac yn ogoniant iddo. Jer. 13. 11. Yr unig harddwch a fedd ar y ddaear. Wedi ei harddu gan Dduw i'r gradd eithaf, y mae hithau yn ei harddu yntau: 'Ei lawenydd a'i goron yw;' fel y dywed Paul am y Philippiaid. Pen. 4. 1.

2. Y mae llawer am ddifeddiannu yr Arglwydd o'r harddwch hwn; sef, am ddystrywio yr eglwys oddiar y ddaear. I gael hyn i ben, y mae holl byrth uffern yn ymegnio, sef Satan a'i holl offerynau.

3. Ond y mae llaw gadarn Duw Hollalluog yn dal gafael sicr ynddi; ac nis dichon neb ei dwyn o'i law, a thrwy hyny ei yspeilio o'i goron a'i ogoniant. Ioan 10. 28, 29.

'Y gyfraith freninol.' Iago 2. 8. Wrth y gyfraith yma y mae i ni ddeall y gyfraith foesol, sylwedd yr ail lech, o ba un y mae yr apostol yn ei goffâu, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Y mae yn cael ei galw y gyfraith freninol, oblegid ei dwyfoldeb, ei huniondeb, a'i rhagoroldeb; oblegid mai cyfraith Duw ydyw, y Brenin Mawr, a bod ei awdurdod freninol ynddi; nid deddf neillduol yw i ryw berson, neu ryw genedl neillduol; ond cyfraith freninol Brenin mawr yr holl ddaear, yn rhwymo pawb, yn mhob oes, a than bob goruchwyliaeth: y mae yn rhwymo creaduriaid moesol yn holl freniniaeth y Brenin mawr. Rheol dragywyddol o uniondeb yw rhwng Duw a'i greaduriaid, a rhyngddynt hwy a'u gilydd. Cyfiawnder ydyw cyfiawnder yn ddigyfnewid byth; ac am fod cyfiawnder yr un, y mae rheol gyfiawn y cyfiawnder hwnw yr un, ac yn ddigyfnewidiad. Bydd yn gyfiawn byth i ddyn garu Duw â'i holl galon, a charu ei gymydog fel ef ei hun. Y mae yn gyfraith ogoneddus, yn ddiduedd, ac yn ddidderbyn wyneb, yn addas i'r Duw a'i rhoddodd, ac i'r deyrnas y mae yn perthyn iddi.

BRENINES, (brenin) priodwraig brenin, teyrnas, banon. Neh. 2. 6. 1 Bren. 10. 1. Act. 8. 27.—Yr eglwys, yn ei holl wir aelodau, a elwir yn freninesau; maent wedi eu dyweddïo âg Iesu, Brenin y breninoedd; maent yn ardderchog, yn ddedwydd, ac yn ogoneddus, yn nheyrnas y cyfammod newydd. Ps. 45. 9. Can. 6. 8.—Y gau eglwys anghristaidd. Dat. 18. 7. ——Brenines y nefoedd, y lleuad, neu hwyrach, yr holl oleuadau, yr haul, y lloer, a'r ser, y rhai y byddai yr Hebreaid eilun-addolgar yn aberthu iddynt. Jer. 44. 17, 25.

BRENINIAETH, (brenin) unbenaeth, teyrnas, llywodraeth brenin. Preg. 4. 14.—Llywodraeth Duw. 2 Cron. 13. 8. Ps. 145. 11, 13. Dan. 2. 39, 44. Obad. 21. Luc 1. 33.

BRESYCH, (bres) math o lysiau cawl. Bresych bengron; bresych cochion; bresych crych; bresych yr ŷd; bresych y cwn. *Heb.* ארח a arwydda, llysiau yn gyffredinol, rhai arferol o'u casglu yn ymborth. 2 Bren. 4. 30.

BRETHYN—AU, (rhath) gwisg-ddefnydd; defnydd gwisgoedd o wlan yn unig. Brethyn cul; brethyn dinesig; brethyn gwyn. Y gair *Heb.* בגד a gyfieithir *brethyn*, a arwydda gorchudd, neu arwisg yn gyffredinol, heb nodi o ba ddefnydd yn neillduol. Num. 4. 7. Mat. 9. 16.—'Ni ddyd neb lain o frethyn newydd at hen ddilledyn.' Mat. 9. 16. Wrth yr hen ddilledyn, a'r hen gostrelau, y meddylir, medd rhai, y Phariseaid, yn eu hen ysbryd deddfol, cnawdol; ac wrth y llain o frethyn newydd, a'r gwin newydd, maent yn deall athrawiaeth eglur, fywiog, iachus, yr efengyl, yr hon ni chydfod ac ni chytuna â hen ysbryd cnawdol, rhagrithiol, y Phariseaid; ond y gwin newydd a ddodant mewn costrelau newyddion, ac felly cedwir y ddau. Gwel Jerome, Hilary, Bucer, Musculus, &c. Edr. COSTREL.

BREUDDWYD—IO—ION, (braidd) gweledigaeth trwy hûn, coeg-beth; gwael-beth; ffug-ddelwau, neu luniau, sydd yn cael eu ffurfio yn y dychymyg tra yr ydym yn cysgu. Job 20. 8.—Byddai rhai gynt yn sylwi llawer ar freuddwydion. Gen. 40. 8. a 41. 15. Dan. ii.——Yr oedd Duw wedi gwahardd i Israel fyned at freuddwydion, neu ddehonglwyr breuddwydion, rhag iddynt gael eu harwain ymaith at dduwiau dyeithr. Deut. 13. 1, 2, &c. Gwel pen. 18. 22. Jer. 28. 9.—— Byddai yr Arglwydd, weithiau, yn dadguddio ei feddwl mewn gwirionedd trwy freuddwydion, ac yn codi dynion i'w dehongli. Dangosodd i Abimelech mewn breuddwyd fod Sarah yn wraig i Abraham. Gen. 20. 3, 6. Gweledigaeth yr ysgol a gafodd Jacob mewn breuddwyd. Gen. 28. 12, 13, 14. Joseph, yn moreu ei fywyd, a gafodd ddadguddiad rhyfedd trwy freuddwydion. Gen. 37. 5, 6, &c. Y mae yr Arglwydd wedi dywedyd yn benodol, y byddai iddo wneuthur ei hun yn hysbys trwy freuddwydion, weithiau. Num. 12. 6.——Yr ydym yn darllen yn y Testament Newydd fod angel yr Arglwydd gwedi ymddangos felly i Joseph amryw weithiau. Mat. 1. 20. a 2. 19—22. Y mae hyn yn cael ei addaw yn Joel 2. 28.——Y prophwyd Jeremiah, trwy Ysbryd Duw, sydd yn llefaru yn uchel yn erbyn breuddwydwyr. Jer. 23. 25, 32.

Breuddwydion ydynt, yn 1. Naturiol. Preg. 5. 7.

Digitized by Google

—2. Dwyfol. Gen. 28. 12.—3. Dieflig a phechadurus —i'w barnu felly pan y byddont yn tueddu i'n troi oddiwrth yr Arglwydd, a ffordd ei orchymynion. Yr oedd y breuddwydydd breuddwyd hwn i gael ei roddi i farwolaeth. Deut. 13. 5.

Y mae rhai yn barnu fod breuddwydion o bob math yn effeithiau gweithrediadau ysbrydion drwg neu dda, ar ddychymyg dyn yn ei gwsg. Beth bynag am hyny, y mae yn gwbl sicr fod rhai breuddwydion oddiwrth Dduw, ac eraill oddiwrth y diafol, trwy ganiatâd Duw. Y mae y breuddwydion sydd oddiwrth y diafol, yn addas iddo fel ysbryd aflan, creulawn, &c. Felly y mae breuddwydion aflan, pechadurus, a dychrynllyd. Yr ydoedd Job yn cael ei frawychu â breuddwydion. Job 7. 14. Y mae y breuddwydion sydd oddiwrth Dduw yn addas i Dduw, sef yn sanctaidd, yn addysgiadol, hyfforddiadol, neu argyhoeddiadol. Job 33. 14, 15.——Cyn hysbysu ei feddwl i'w bobl mor gyflawn yn y Gair ysgrifenedig, yr oedd Duw yn llefaru yn amlach wrthynt trwy freuddwydion a gweledigaethau: ond yn awr at y gyfraith, ac at y dystiolaeth, y mae i ni fyned: a pha beth bynag nad yw yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt. Esa. 8. 20. Deut. 13. 1, 2. Jer. 23. 32. ——Dynion drygionus, a llu Assyria, a gyffelybir i freuddwyd; am eu bod hwy a'u llwyddiant yn bawdd eu dystrywio. Job 20. 8. Ps. 73. 20. Esa. 29. 7. a 37. 36.——Yr Iuddewon oeddynt fel rhai yn breuddwydio, pan ddychwelodd yr Arglwydd eu caethiwed; nid oedd ganddynt fawr o ddysgwyliad am y peth, nac ystyriaeth yn ei gylch. Ps. 126. 1.

BREUDDWYDIWR—ŶDD—WYR, un yn gweled breuddwyd, neu yn cymeryd arno ei fod felly. Gen. 37. 19. Deut. 13. 1, 5. Jer. 27. 9. Judas 8.

BRI—AU, (bar) parch, cyfrifiad, anrhydedd.—'Nid mewn bri i ddigoni y cnawd.' Col. 2. 23. Gellir cymhwyso y geiriau, 'nid mewn bri,' naill ai at yr ordinhadau a'r ewyllys-grefydd y mae yr apostol yn sôn am danynt, nid oes dim bri, dim gwerth ynddynt, gan mai oddiwrth ymchwydd meddwl cnawdol y maent yn tarddu (adn. 18.); neu gellir eu priodoli i'r corph, a bod heb arbed y corph, nid mewn bri, yn ei ddigoni. Y mae y corph yn haeddu bri, oblegid ei Wneuthurwr, a dyben ei wneuthuriad; oblegid fod corph ei bobl wedi eu prynu gan Grist; eu sancteiddio gan yr Ysbryd Glân, ac yn demlau iddo; maent mewn undeb â Christ, ac efe a gyfnewidia eu corph gwael hwy, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef. Phil. 3. 21. 1 Cor. 6. 19. Un peth yw digoni y cnawd, peth arall yw rhag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau. Rhuf. 13. 14. Y mae y cyntaf yn anrhydedd dyladwy iddo, a'r llall yn ddianrhydedd pechadurus.

BRIG—AU—OG, (bar) brig pren, blaen, crib, copa, gwallt y pen, y cangenau uchel. Job 15. 30. a 18. 16.—Gwr briglwyd, hyny yw, hynafgwr. Deut. 32. 25.

BRIG—ER, (brig) siobyn, sypyn, tusw; pen o wallt.—'Os bydd briger i wr, mai anghlod yw iddo.' 1 Cor. 11. 14. W. S.

BRIGWYN—U, (brig-gwyn) pen-gwyn; penwynu.—'Fel y tybygid fod y dyfnder yn frigwyn.' Job 41. 32. Cynhyrfa y dwfr i'r fath radd nes y paro ewyn ar wyneb y dyfroedd, nes y byddo y tônau yn frigwyn.

BRITH, (bar-ith) manog, amrywliw; cymysgliw, amliwiog.—Brith-dir, sef tir canolig; brith adnabod dyn, sef braidd, mewn rhan ei adnabod: brith ammeu, sef yn lled ammeu; y mae y môr yn frith, sef yn llawn o bysgod. Gen. 30. 32. a 31. 16. Jos. 9. 5. Zech. 1. 8.——'Y mae fy etifeddiaeth i mi fel aderyn brith.' Jer. 12. 9. Am briodol ystyr y gair *Heb.* צבוע a gyfieithir yma *brith*, yn y ddau gyfieithiad, Cymraeg a Saesoneg, y mae amrywiol farnau yn mhlith y dysgedigion. Parkhurst, ar ol Bochart ddysgedig, a farna mai yr anifel a elwir yr *hyæna* a feddylir wrtho; ond Blayney a wrthwyneba y farn hon, am nad ydyw, medd efe, y gair עיט byth yn arwyddo *anifel*, ond *aderyn*; ond barna efe y dynoda y gair ryw o adar, sef o'r eryrod, neu yr hebogau, rhai o honynt sydd ganddynt, y mae yn ddigon hysbys, blu brithion yn gystal a'r *hyæna*. Y mae math o seirph hefyd a elwir wrth yr enw hwn. Mae y Dr. Blayney am adael y gair heb ei gyfieithu, fel y canlyn; 'Y mae fy etifeddiaeth i mi fel yr aderyn ysglyfaethus *tseboa*.' Yn yr adnod o'r blaen, cyffelybodd ymddygiad ei etifeddiaeth tu ag ato fel y llew, rhyw neillduol o'r gwylltfilod; ac yma cyffelyba ei hymddygiad i aderyn ysglyfaethus, mor ffyrnig a gwancus a'r llew: mae yntau, fel yn ad-daliad, yn galw ar greaduriaid ysglyfaethus eraill, adar yn gystal a gwylltfilod, yn golygu y Caldeaid a'r Babiloniaid, i ddyfod a dial ei achos, trwy syrthio ar y genedl anffyddlonaf, a'i dyfetha.

BRITHLWYD, (brith-llwyd) brith gan lwydni. Bara brithlwyd, sef bara wedi ei lwydo gan henaint. Jos. 9. 5, 12.

BRIW—IAU—IO, (bar) archoll, anafiad ar gnawd. Jer. 8. 21. Act. 16. 13. Dat. 13. 3.—Briwfwyd, y mân ddarnau gweddill o ymborth dynion. Mat. 14. 20. Ioan 6. 12.—'Efe a'm drylliodd yn chwilfriw;' sef yn ddarnau mân, ac yn drwyadl. Job 16. 12.

BRIWYS—ION, (briw) tipynau; dylliau; y mân ronynau sydd yn malurio oddiwrth fwydydd. —Breintiau y Cenedloedd sydd debyg i friwsion yn syrthio oddiar fwrdd llawn yr Iuddewon. Mat. 15. 27. Marc 7. 28.

BRIW-WYDD, (briw-gwydd) crin-frigau, mângoed. 1 Bren. 17. 10. Act. 28. 3.

BRO—YDD, (bar) ardal, mangre, gwlad. Gen. 30. 25. Num. 20. 21. Ps. 105. 31. 2 Sam. 15. 19. Bro a gwrth-dir, neu maenor-fro, a maenor wrth-dir, ydynt yr un ag iseldir a mynydd-dir.

BROCH—ION, (rhoch) *Gr.* βρυχω *(brychô)* twrdd; godwrdd; mawr-drwst; llid; digofaint.—'Digovaint, broch, drygioni.' Col. 3. 8. W. S.

Rhag *broch* a braw y trawsion. *E. Prys,* (Ps. 17. 7.)

BRON—AU, (bar) oddf; diden; teth. Y llaethlestr naturiol y sydd yn cynnwys llaeth y fam i fagu ei chywion. Y mae nifer a sefyllfa y bronau a'r didenau yn cyfateb i'r achos am danynt, a'r cyfleusdra i'r ieuanc sugno. Y mae y rhai sydd yn dwyn llawer o gywion, â llawer o ddidenau yn gyfatebol. Y maent rhwng cluniau ôl y fuwch, y gaseg, yr asen, &c. Y mae dwy res o ddidenau dan fol yr hwch, y cwningen, y llewes, &c. Y mae y rhai hyn yn gorwedd i gael eu sugno. Y mae i wraig ddwy fron, a dwy ddiden, fel y byddai y ddwy ochr yn cyfateb i'w gilydd, ac fel y gallai y plentyn gael ei symud o'r naill ochr i'r llall, rhag peri camystum ar y corph, trwy orwedd yn ormodol ar un ochr; ac fel na byddai palldod am laeth i'w fagu, os dygwyddai afiechyd yn un o honynt.

Y mae y fron yn gynnwysedig o lawer o gilchwyrn o amrywiol faintioli, gwythiennau, rhedweliau, pibellau, a didenau. Y pibellau ysgarthol (*excretory ducts*) fel ag y maent yn nesâu at y ddiden, a ymunant â'u gilydd, hyd nes y ffurfiant saith neu wyth o bibellau bychain, a elwir *tubuli lactiferi*, y rhai a gymunant â'u gilydd trwy redfaoedd bychain, i ragflaenu yr



Digitized by Google

anghyfleusdra a fyddai trwy ddihoeniad, neu attalfa, un neu ychwaneg o honynt. Dyben a defnyddioldeb y bronau ydyw ysgar y llaeth oddiwrth y rhedweliau yn y cilchwyrn, a'i gasglu i'r pibellau llaethog, ac i'w roddi i'r plentyn trwy y ddiden. Y mae y fath gymundeb rhwng y bru a'r fron, fel y mae llestri y fron yn ymagor yn raddol, y rhai sydd yn nghauad mewn gwyryf, fel y mae y groth yn ëangu, fel y rhed y gwaed yn fwy rhwydd i'r fron; ac wedi esgor maent yn rhedeg o laeth tew, gan fod y gwaed ag oedd yn maethu y plentyn yn y groth yn rhedeg i'r fron yn llaeth i'w fagu wedi ei eni. Gwelir yn mhob peth waith yr Arglwydd yn rhyfedd!——Y mae bronau y meibion yn fychain, ac yn harddwch yn fwy nag un defnydd sydd iddynt; er y dywedir fod llaeth weithiau yn mronau meibion i'w gael.

'Bronau breninoedd a sugni.' Esa. 60. 16. Sef, bydd iddynt dy gynnal, dy faethu, dy ymgeleddu, a'th gysuro; parant i wir athrawiaeth yr efengyl, didwyll laeth y gair, i gael ei bregethu, er maeth, cysur, ac adeiladaeth yr eglwys; bydd holl rym ac awdurdodau llywodraethau o blaid yr efengyl, er mawr gysur a gorfoledd y duwiolion.

'Fel y sugnoch, ac y'ch diwaller â bronau ei dyddanwch hi.' Esa. 66. 11. Gosodir Sïon, sef yr eglwys, allan yn y geiriau, fel mam yn eppilio, ac newydd esgor, a'i bronau yn llawn llaeth i fagu ei phlant. Bronau yr eglwys ydyw athrawiaeth yr efengyl, ac addewidion grasol Duw yn Nghrist. Rhoddant gysur cryf, a dyddanwch tragywyddol. 2 Thes. 2. 16. Heb. 6. 18. Ni bydd byth eisieu llaeth, sef cynnaliaeth a dyddanwch, ar y rhai trwy ffydd a sugnant y bronau hyn. Jer. 31. 4. Ps. 36. 8. a 103. 5. Esa. 60. 16.

Crist yn aros rhwng bronau yr eglwys dros nos, (Can. 1. 13.) a arwydda ei fod yn ei golwg yn dra pharchus, dymunol, ac anwyl: ac y byddai ei gafael ffyddiog ynddo, fel ei hunig gysur a'i hyfrydwch, trwy y nos o brofedigaethau a gofidiau yn y bywyd hwn.

Curo dwyfron, sydd arwydd o orthrymder a thristwch. Luc 23. 48. Nah. 2. 7.—Tynu ymaith ei fronau ei hun, sydd arwydd o wallgofrwydd gan ofid. Ezec. 23. 34.—Ger bron, a rhng bron, yn ngwydd, ar gyfer y wyneb, o flaen. Gen. 6. 13. Ps. 51. 3. 1 Cor. 6. 6.—Bron marw, sef agos i farw.

BRONWEN, (bron-gwen) gwenci, creadur aflan, chwimwth, drewllyd, gelynol i'r wadd a'r llygod, &c. Lef. 11. 29.

BRU—AU, (bar) croth; boly. Job 31. 15.—'Dy fru sydd fel twr gwenith, wedi ei amgylchu â lili:' Can. 7. 2. yn arwyddo cyflawniad yr eglwys â bendithion ysbrydol; ei ffrwythlonrwydd i Grist; ei hamddiffyniad gogoneddus a hardd. Twr gwenith yn yr ysgubor, wedi ei amgylchu â blodau lili, sydd yn arwyddo ffrwythlonrwydd, llawnder, a thangnefedd gogoneddus. Nid cae drain sydd oddi amgylch iddi, ond blodau lili—athrawiaethau gogoneddus yr efengyl, yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr, a dyddanwch yr Ysbryd Glân.

BRUD—IO—IWR, (bar) coflyfr; prophwydoliaeth; amcaniaeth; doethyn; dywedwr tesni; dewin; un y mae a wnelo â Satan. Y mae yn ddigon eglur, oddiwrth yr ysgrythyrau, fod y cyfryw rai yn mhlith dynion. Lef. 19. 31. Deut. 18. 11. Y mae gair Duw yn eu herbyn, a phawb a ymofyno â hwynt. Dan. 2. 27. Lef. 19. 32. Deut. 18. 11.

BRWD, BRYDIAW, (rhwd) twym; gwresog; poeth; twymno; poethi. Dwfr brwd; hin frwd; bara brwd. Jos. 9. 12. 1 Sam. 21. 6. Dat. 3. 16.

BRWMSTAN, *Saes.* BRIMSTONE: myg-faen; math o ddefnydd bras, olewawg, a dawdd ac a ennyn yn wyllt-fflam yn y tân. Dystrywiodd Duw Sodom a Gomorrah, Adma a Seboim, â brwmstan a thân o'r nefoedd. Gen. 19. 34.

Poenau uffern a gyffelybir i dân a brwmstan, i osod allan natur yr artaith ofnadwy, a'r twrf tragywyddol, sydd yn y gerwyn echryslon o ddigofaint Duw. Dat. 21. 8. Ps. 11. 6.

BRWNT, (rhwnt) drygnawsus; dyhir; aflan; anweddus. Eph. 5. 12. Dat. 22. 11.

BRWYDR—AU, (brwd) ymladdfa, càdorfod, càdtrin. Deut. 20. 3, 5, 6. Ps. 78. 9.

BRWYN—EN, (rhwym) *Gr.* βρυλλιον (*brylion*). Ni thyf y frwynen heb wlybaniaeth; a phan dorir hi i lawr, gwywa yn fuan; felly ni ddilyn rhagrithiwr grefydd yn hir, heb ryw ddybenion cnawdol, a budd amserol; ac nid yw ei ddangosiad blodeuog a'i ddedwyddfyd o hir barhad. Job 8. 11, 12.—'Crymu y pen fel brwynen,' (Esa. 58. 5.) a arwydda ymddangosiad rhagrithiol o ostyngeiddrwydd, pan na byddo tristwch gwirioneddol, a gostyngeiddrwydd yn y galon, am bechod.

BRYCH—AU, (brwch) mymryn, gronyn, mân bethau.—Pechodau llai a gyffelybir i 'frychau yn y llygad;' y maent yn boenus i gydwybod dyner, effro; ac yn rhwystr anafus i ni edrych ar Dduw, fel ein haul a'n tarian. Mat. 7. 3. Pob math o bechodau, y rhai sydd yn anurddo dyn ger bron Duw a dynion, ac o herwydd yr undeb sydd rhwng dynion a'u pechodau, gelwir hwynt brychau. 2 Petr 2. 13. Judas 12.—Y mae Crist yn ddifrycheulyd, heb un gradd o lwgr natur, nac ymarferiad. 1 Petr 1. 10.—Cyfrifir y saint felly yn y bywyd hwn, o herwydd eu gwisgo â chyfiawnder pur yr Arglwydd Iesu: eu sancteiddrwydd diragrith, a'u casineb at bechod. Can. 4. 3. Ond yn yr adgyfodiad, byddant berffaith mewn sancteiddrwydd, yn gyffelyb i'w priod. Eph. 5. 27. 1 Ioan 3. 2.

BRYCHNI, (brych) ysbrych, brych-nod; amryw-liw, cymysgliw.—'Brychni yw hyny.' Lef. 13. 29. *Heb.* בהק (*bohac*) yw hyny. Math o wahan-glwyf â brych-nodau ar y croen. Un math o wahan-glwyf y mae yr Arabiaid yn ddarostyngedig iddo a elwir *bohac:* ond nid yw yn farwol nac yn heintus; yn yr hwn y mae brychau bychain yn ymddangos yn uwch na'r croen. Niebuhr's *Description of Arabia.*

BRYD—AU, (rhyd) bwriad; amcan; meddwl. 1 Sam. 20. 7, 33. 1 Cor. 7. 37.

BRYN—IAU, (bar) moel, cefn, garth. 2 Sam. 2. 24.—Gwlad Canaan. Esa. 5. 1. — Tragywyddol gariad a thrugaredd yr IEHOFAH, a elwir 'bryniau tragywyddol.' Gen. 49. 26. Deut. 33. 15.

BRYNTI, BRYNTNI, (brwnt) drygioni, aflendid, anniweirdeb. Deut. 23. 14. Rhuf. 1. 27.

BRYTHEIRIO, (brwth) brytheiriad, ysgyfodiad. Ps. 59. 7.

BRYS—IO, (rhys) prysuro, cyflymu. Ps. 22. 19. a 38. 22. a 69. 17. Esa. 28. 16.—'Ni frysia yr hwn a gredo.' Esa. 28. 16. Y mae dull tawel, digyffro, Moses, pan lyncodd y ddaear Corah a'i gyfeillion gwrthryfelgar, yn ddangosiad amlwg o hyn. Yr oedd y bobl yn ffoi oddiwrth eu gwaedd hwynt; ond Moses a safai yn ddigyffro ac yn ddiofn, yn sicr o ddiogelwch yr Arglwydd. Num. xvi.

Llaw *frys*, llaw gywraint. *Diar.*

BUAL—AIL, (bu) ŷch gwyllt, neu y *buffalo:* creadur cryf, buan-red. Gellir ei ddofi wrth ei feithrin yn llawgar pan fyddo yn ieuanc; ond os gollyngir ef yn rhydd, â i'r anialwch at ei ryw. 1 Bren. 14. 23.

Digitized by Google

Yn Deut. 14. 5. y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu, ŷch gwyllt.

BUAN, (bu-an) cyflym. Preg. 9. 11. Rhuf. 3. 15. Mewn byr amser, disymwth. Job 32. 22. 2 Petr 2. 1.

BUCI, [*gwag*] 1. Arch-offeiriad yr Iuddewon, mab Abisua, a thad Uzzi. 1 Cron. 6. 5.——2. Mab Jocti o Dan. 1 Cron. 25. 4.

BUCHEDD—OL, (buch) bywyd, trefn bywyd.—'Geiriau y fuchedd hon;' (Act. 5. 20.) neu, geiriau y bywyd hwn, sef geiriau am Grist Iesu, yr hwn ydyw y bywyd, ac awdwr bywyd tragywyddol i'w bobl. *Παντα τα ρηματα της ζωης ταυτης, omnia verba vitæ hujus.* Beza. Y gair *Gr. ζωη,* a arwydda bywyd neu egwyddor o fywyd tufewnol, a bucheddiad allanol hefyd; a'r naill yn tarddu oddiwrth y llall. Wedi derbyn bywyd newydd trwy adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw, rhodiant mewn newydd-deb buchedd, yn gyfatebol i'r bywyd hwnw. Rhuf. 6. 4. Y mae yn rhaid i'r bywyd, neu y bucheddiad allanol, gyfateb i'r bywyd, neu yr egwyddor dufewnol, fel y ffrwyth yn cyfateb i'r pren. Act. 5. 20. Ioan 6. 68.—'Gwŷr bucheddol,' (*ανδρες ευλαβεις*) *gwyr duwiol.* 'Gwŷr ai goglyt ar Dduw.' W. S. Gwŷr yn arwain bywyd wrth drefn a rheol gair Duw; yn ofni Duw, yn rhoddi eu goglyd arno, ac yn ei barchu. Act. 2. 5. a 8. 2.—Y mae dynion gwedi 'ymddieithro oddiwrth fuchedd Duw:' Eph. 4. 16. *της ζωης του Θεου, bywyd Duw,* bywyd o sancteiddrwydd. Buchedd Duw yw, 1. Yr hyn y mae Duw yn ei ofyn genym.——2. Yr hyn y mae efe yn ei weithio yn ei bobl.——3. Trwy ba un y mae yn byw ynddynt. Gal. 2. 20.——4. Trwy ba un, hefyd, y maent hwythau yn byw iddo yntau, yn ol rheol ei air, a thrwy arweiniad ei Ysbryd. Rhuf. 6. 21. a 14. 7, 8.

BUDR—EDD—I, (ud) aflendid, ffieidd-dra, halogedigaeth. Esa. 4. 4. a 28. 8. 1 Petr 3. 21. Pechod yw y budreddi mwyaf. Edr. Aflan.

BUDR—ON, (ud) brwnt, aflan, swga, halogedig; brynti, gwrthuni.—'Megys bratiau budron yw ein holl gyfiawnderau.' Esa. 64. 6. Geiriau dynion ydynt, gwedi eu gwir oleuo i adnabod eu hunain. Yn nrych sanctaidd y gyfraith, ac yn ngoleuni yr Ysbryd Glân, y maent yn gweled eu hunain, fel y gwahan-glwyfus gynt, yn beth aflan; ac, fel y cyfryw, gwedi eu gwahanu, a'u neillduo oddiwrth Dduw a'i wersyll sanctaidd. Y mae eu holl weithredoedd, sef eu rhai goreu, eu cyfiawnderau, yn debyg i wisgoedd y gwahan-glwyfus, neu fratiau y misglwyfus, yn ffiaidd, ac i'w bwrw o'r neilldu allan o olwg. Y mae y geiriau בגד עדים yn cyfeirio, tebygol, at Deut. 22. 17. fel dillad tystiolaeth. Yr oedd eu budreddi yn dystiolaeth yn yr achos mewn dadl.

Y mae yr hyn y mae dynion yn ei gyfrif yn gyfiawnderau, yn debyg i fratiau budron, 1. Oblegid fod y personau sydd yn eu cyflawni yn halogedig ac yn anghymeradwy: a thra y byddo y personau felly, y mae yn rhaid fod eu holl gyflawniadau yn anghymeradwy.——2. Oblegid bod eu dybenion yn eu cyflawni yn bechadurus, i ddyrchafu eu hunain, ac nid i ogoneddu a dyrchafu Duw. Lle nad ydyw parch a chariad at Dduw yn achos cynhyrfiol, a'i ogoniant yn ddyben, er y dichon fod y weithred yn dda ynddi ei hun, etto y mae yn ddrwg ac yn bechadurus yn y cyflawniad o honi, a'r person sydd yn ei chyflawni. Nid oes yr un weithred yn cyfranogi o dduwioldeb, os na bydd Duw a'i ogoniant yn ddyben o honi; a pharch iddo a chariad tu ag ato, yn achos cynhyrfiol yn y person sydd yn ei chyflawni.——3. Pan y byddo y person yn anghymeradwy, a'r dyben yn ddidduw, y mae yn rhaid fod y person yn ei weithredoedd goreu yn amddifad o Ysbryd Duw; ac os heb Ysbryd Duw, y mae yn y cnawd; 'a'r rhai sydd yn y cnawd ni allant ryngu bodd Duw.' Nid cyfrif yn fyrbwyll ac yn anystyriol a wnaeth, ond cyfrif yn bwyllog, yn sobr, ac yn y goleu, pan y cyfrifodd yr apostol y pethau oedd, neu a dybiodd eu bod, yn elw iddo—ie, pob peth yn golled, yn dom, i ennill Crist. Phil. 3. 7, 8. Y peth sydd uchel gyda dynion, yn eu cyflwr tywyll naturiol, sydd ffiaidd ger bron Duw. Luc 16. 15.

BUDRELW, *αισχροκερδως, elw gwael, dirmygus:* elw a ennillir mewn ffordd fas, fawaidd, led anghyfreithlawn, er, hwyrach, nad yw cyfraith y tir yn cael lle i gymeryd gafael ar y budrelw-wr, etto budr a ffiaidd yw ei waith ger bron Duw. Y cyfryw yw y rhai sydd yn myned i swydd y weinidogaeth, gan athrawiaethu y pethau ni ddylid, er mwyn budrelw. Er fod yr elw yn gyfreithlon ynddo ei hun, etto y mae yn fudr, ac yn halogi y neb sydd yn ei gael, pan y maent yn myned i swydd mor sanctaidd er mwyn yr elw, ac yn gŵyrdroi gwirioneddau Duw i foddhau dynion llygredig, i gael tamaid o fara. Tit. 1. 11. 1 Tim. 3. 8. 1 Petr 5. 2. Mae pob elw bydol yn beth gwael a'i gydmaru â dyben mawr pregethiad yr efengyl. Nid er mwyn dwyn dynion o fudreddi pechod at Dduw, i gael gafael ar y gwir elw mawr, duwioldeb (1 Tim. 6. 6.) a'r perl gwerthfawr (Mat. 13. 46.) ond er mwyn pesgi eu hunain. Judas 12. 2 Petr 2. 12—15. Yr oedd Gehazi, gwas Elizeus, yn debyg iawn i'r budrelw-wr; mewn ffordd fudr y cafodd ei elw gan Naaman, a budr ac aflan, gan wahan-glwyf tragywyddol, y bu yntau o'i herwydd. 2 Bren. 5. 20—27. Felly y bydd pob budrelw-wr, yn fudr ac yn aflan byth, Hab. 2. 9. oddieithr ei olchi yn y ffynon a agorwyd i bechod ac aflendid, a marwhau ei aelodau sydd ar y ddaear. Zech. 13. 1. Col. 3. 5.

BUDDIOL, (udd) llesâd, ced, elw, ennill. Job 21. 15. Ps. 30. 9. Rhuf. 3. 1.

BUDDUGOLIAETH—U, (budd) goruchafiaeth, gorfodaeth. 2 Sam. 19. 2. Llyncodd Iesu angeu mewn buddugoliaeth (Esa. 25. 8. 1 Cor. 15. 54.) a thrwy y fuddugoliaeth fawr hon y mae Duw yn rhoddi i'w saint fod yn fwy na choncwerwyr, hyny yw, na *buddugoliaethwyr.* Rhuf. 8. 37. 1 Cor. 15. 57.—'Cael y maes,' Dat. 15. 2. sef cael y fuddugoliaeth.

BUGAIL—BILIAID, (bu-cael) grëwr, heusawr, bugeiliwr. Y geiriau Hebraeg a Groeg am fugail, a arwyddant *porthi, gofalu am.*—'Abel oedd fugail defaid,' sef porthwr a gwyliwr defaid. Gen. 4. 2.—Y mae bugail yn un ag sydd yn gwylio praidd, yn eu harwain i borfeydd iachusol, ac i ddyfroedd wrth raid; a phan byddo achos, yn eu casglu i'r gorlan, neu gail, gan eu diogelu rhag pob niwed. Ymddengys fod y praidd yn fynych yn eu canlyn. Ioan 10. 1—27. Byddai gwŷr mawrion gynt yn arwain praidd; ac yr oedd y swydd yn eu golwg yn anrhydeddus, megys y darllenwn am Abel, Abraham, Isaac, Jacob, Moses, Dafydd, &c.

Y mae Duw yn cael ei alw yn Fugail: arweiniodd Israel mewn tiriondeb, tynerwch, a gofal mawr yn yr anialwch, ac yn nhir Canaan. Y mae efe etto yn eu casglu, llywodraethu, diogelu, iachâu, porthi, ac yn gofalu beunydd am lesâd ei bobl. Gen. 49. 24. Ps. 80. 1. a 23. 1. Esa. 40. 11. Crist ydyw bugail Duw, oblegid i'r Tad roddi iddo ei braidd o ddynion dewisedig er tragywyddoldeb, a'i osod yntau i farw drostynt, i'w galw, a'u porthi. Ioan 17. 6. Zech. 13. 7. Ioan 10. 3, 9, 11. Mic. 5. 4. Mae pob cymhwysder at y swydd a'r gwaith perthynol i fugail yn cydgyfarfod ynddo:—1. Y mae yn holl-wybodol; gŵyr am bob un o'i braidd, a phob amgylchiad perthynol iddynt; ac am eu holl eisieu, yn dymhorol ac yn

Digitized by Google

ysbrydol. 2 Cron. 16. 9.——2. Y mae yn hollalluog; ac am hyny yn gwbl abl i gryfhau y lesg, ei dwyn ar ei ysgwydd ei hun, o bob cyfeiliornad, a'i hamddiffyn rhag y bleiddiau a fyddai am ei dyfetha.——3. Y mae yn llawn tirioudeb a daioni, ac yn llawenychu yn gwneuthur daioni iddynt, er ei dreulio, fel Jacob, gan y gwres y dydd, a'r rhew y nos; ïe, rhoddi ei fywyd drostynt.——4. Y mae yn eithaf ffyddlon i'r hyn a ymddiriedwyd iddo, ac ni chyll yr un o honynt.——5. Y mae yn dra chyfoethog, ac a all wneuthur i'w braidd orwedd mewn porfeydd gwelltog. Y mae ganddo hawl yn y praidd trwy roddiad y Tad; trwy bwrcasiad; trwy eu cyrchiad ato; a rhoddi ei nôd arnynt. Efe a'u piau hwynt, hwythau a'i piau yntau; a'r gwr a biau y borfa, biau y defaid hefyd. Esa. 40. 11.——6. Gelwir ef yn Ben-bugail; oblegid mai efe yn unig a biau y defaid, ac a edrych ar eu hol yn mhob amgylchiad. Ezec. 34. 23. Ioan 10. 16.——7. Y mae Crist yn Fugail da, a wir ofala am ei braidd, ac a'u ceidw trwy roddi ei fywyd ei hun trostynt. Ioan 10. 11.—Pen-bugail, Pen-llywodraethwr, Porthwr, a gofalwr am ei eglwys. Heb. 13. 20. 1 Petr 5. 4.—1. Y mae ganddo braidd yn holl derfynau y ddaear. Mic. 5. 4.——2. Ni chaiff neb wneuthur niwed iddynt. Ezec. 34. 25. Ps. 23. 4. Es. 49. 10.——3. Ni chyll efe un o honynt. Ioan 10. 29. Jer. 23. 4.

Gelwir gweinidogion y gair yn fugeiliaid, (Eph. 4. 11.) i ddangos y dylent fod a'u llygaid ar y praidd, i'w harwain i borfeydd breision yr efengyl, i'w dwyn o bob cyfeiliornad i gorlan yr eglwys, ac i'w hymgeleddu yn mhob cyflwr.

Cyfaill blaidd, *bugail* diog. *Diar.*

**BUL**, [*henaint*] enw yr wythfed mis o'r flwyddyn gysegredig, a'r ail o'r flwyddyn wladol, yn mysg yr Iuddewon. Y mae yn ateb mewn rhan i'n Hydref ni, ac ynddo 29 o ddyddiau. 1 Bren. 6. 38.

**BULWG**, (bul) math o chwyn yn tyfu yn mysg ŷd: bulwg Rhufain, sef llysiau y bara. Y gair *Heb.* באשה a arwydda un math o chwyn anmheraidd eu harogl. Job 31. 40. Ond, tebygol, ei fod yn enw ar ryw lysieuyn neillduol drygsawrus, digon adnabyddus yn y gwledydd dwyreiniol.

**BURGUN—ION**, (bur-cun) *Heb.* פגר (*peger*) abwy; celain; buria. Lef. 5. 2. a 11. 11. Deut. 14. 3.

**BUSTACH—IAID, BUSTYCH**, (bu-tach) y gwrryw ieuanc o'r gwartheg. Exod. 29. 10. Edr. YCH.

**BUSTL—AU**, (bus-tyl) *Llad.* FEL; 1. Math o lysiau, neu wreiddyn chwerw iawn, tebyg i'n cegid ni. Wedi cymysgu hwn â gwinegr, rhoddwyd i Grist i'w yfed ar y groes. Ps. 69. 21. Mat. 27. 34.——2. Cyflwr drwg, pechadurus, a elwir 'bustl chwerwder, a rhwymedigaeth anwiredd;' sef eithaf chwerwder, y radd chwerwaf o'r chwerwder. Act. 8. 23. Y mae ysbryd pob dyn, heb ei gyfnewid gan yr Ysbryd Glân, yn chwerw, yn anfwynaidd, yn anhawdd ei drin, yn boenus ac yn flinderog iddo ei hun, a phawb eraill.——3. Peth chwerw sydd mewn dyn ac anifel. Job 20. 25. Edr. AFU.

**BUSTL—AU**, (bus-tyl) *Llad.* BILIS; *Saes.* BILE: nôdd melyn, chwerw, a ysgarir oddiwrth y gwaed yn yr afu, ac a gesglir i'r *porus bilarius*, ac i goden y bustl (*gall bladder*), ac oddi yno a ddygir, trwy arweiniad cyffredin, i ben uchaf y coluddion a elwir *duodenum*. Defnydd mwyaf y bustl yw, trwy gymysgu â'r caul a'r carthion, teneuo, dattod, dosparthu, glanhau, ac annog y coluddion a'u cynnwysiad: hefyd, cymysgu gwahanol bethau, briwio a phy u pethau egr a hallt, rhanu y pethau ceuledig; agor y llestri i'r caul, peri awydd i fwyd, eplysu, a chorphori pethau anmrwd â phethau gwedi eu treulio yn y cylla. Cytuna pawb fod ei effeithiau yn fawr iawn. Priodola y Dr. Woodward y rhan fwyaf o afiechyd y corph i ryw afiechyd yn y bustl. Mae bustl i'w gael yn mhob creadur, hyd yn nod colomenod, y rhai, er nad oes ganddynt goden y bustl, etto eu hafu sydd chwerw iawn. Sylwa Mr. Tauvry, mai y bustl yn ymgymysgu â'r aliw (*saliva*) sydd yn peri syched.——Weithiau, o fod yn felyn, try y bustl yn wyrdd, fel gwyrdd-rwd efydd (*verdigrease*) neu i liw melynŵy, a hyny heb un achos gwybodus, ond cynhwrf, neu gythruddiad meddwl. Y mae hyn yn peri llawer afiechyd dychrynllyd; megys gwrthwyneb, ffieiddiad bwyd, pryder a thrwmfryd, ocheneidiau, gwynt, clefyd y gwaed, crydiau, &c. Weithiau, hefyd, try yn ddu, a gelwir ef *choler*: yn yr achos hwn mae yn archwaethu fel gwinegr, a'i effeithiau yn amrywiol ac yn ddychrynllyd. Y mae gormodedd a rhy fach o hono yn niweidiol. Pan fyddo rhyw rwystr ar ei fynediad i'r coluddion, y mae yn peri y clefyd melyn, a gorlifiad y bustl.—Y corphoriadau geriaidd, a geir yn mynediadau y bustl, neu yn nghoden y bustl, a elwir yn gyffredin, ceryg y bustl (*gall stones*) ydynt ddim ond cydgasgliad y bustl, a thrwy sefyll, yn myned yn galed fel careg.

**BUWCH—OD**, (buw) *Heb.* בקר (*becer*) y fenyw o'r gwartheg:—buwch gronedig; buwch wasawd; buwch ddywydd: creadur glân, buddiol, ffrwythlon; ei lloi, ei llaeth, ei chig, ei chroen, sydd at gynnaliaeth dynion. Num. 19. 2. Deut. 21. 3. Edr. ANNER.

**BUZ**, בוז [*dirmygedig*] 1. Mab Nachor a Milcah, a brawd Huz. Gen. 22. 21. Edr. ELIHU.——Y mae Jeremiah yn bwgwth Buz â digofaint Duw. Jer. 25. 23.——2. Mab Abdiel, a thad Jahdo. 1 Cron. 5. 14.

**BUZI**, offeiriad, a thad Ezeciel. Ezec. 1. 3.

**BWA—AU**, (bw) *Gr.* *βιος*; mwd; enfys; bwa maen; offeryn i ergydio saethau, wedi ei wneuthur o bren, corn, neu ddur, &c. Gen. 27. 3. Hwn ydyw yr offeryn rhyfel hynaf; ac y mae pob math o arfau rhyfel, weithiau, yn myned dan yr enw hwn. Ps. 46. 9.—Yn allegawl, bwa Duw yw ei allu, ei ddoethineb, a'i ragluniaeth, trwy ba rai y mae yn amddiffyn ei bobl, ac yn niweidio eu gelynion.

Gwell gwaith cryman na *bwa*. *Diar.*

'Efe a annelodd ei fwa.' Ps. 7. 12. Oni edy yr annuwiol ei ffyrdd drygionus, y mae Duw wedi darparu barnedigaethau ar ei gyfer, ac a'u cyflawna yn fuan arno.

'Arhôdd ei fwa ef yn gryf.' Gen. 49. 24. Sef ei ffydd, ei obaith, a'i amynedd, yn parhau yn ddiysgog, trwy ba rai y gorchfygodd Joseph bob gwrthwynebiad.

Y mae gweinidogion y gair fel bwa yn llaw Crist, (Zech. 9. 13. Dat. 6. 2.) a gwirioneddau yr efengyl yn eu genau fel saethau llymion yn ehedeg yn gyflym, yn ddiwyrni, ac yn ddirgelaidd, i feddyliau a chydwybodau dynion, i'w hargyhoeddi a'u darostwng i lywodraeth Crist. Ps. xiv. A'r arfau hyn y mae er ys talm wedi myned allan ar farch gwyn, yn gorchfygu, ac i orchfygu, ac ni ddychwel yn ei ol, nes byddo Sïon yn waredigol, a'i holl elynion dan ei draed. Dat. 6. 2.

Y mae yr annuwiolion fel bwa twyllodrus: nis gellir ymddiried iddynt mewn dim, mwy nag mewn bwa heb iawn wneuthuriad—ni ergydia hwnw byth at yr iawn nôd; felly hwythau, nid yw eu dybenion byth yn gywir ac yn uniawn; nid ydynt un amser mewn ysbryd addas i waith Duw; y maent yn hollol

Digitized by Google

anffyddlon i'w bwriadau, eu haddunedau, a'u haddewidion. Ps. 78. 57. Hos. 7. 16.

Bwa cyfammod—bwa gwlaw, enfys; arwydd a roddodd Duw i Noah i gadarnhau ei ffydd yn yr addewid, na ddelai diluw mwyach i ddyfetha y ddaear a'i chreaduriaid. Gen. 9. 8—17. Nid ydym un amser yn canfod yr enfys ond pan fyddo y gwlaw yn disgyn o'n blaen, a'r haul y tu cefn i ni, oblegid fod pelydr yr haul yn cael eu gwrthdori yn y dyferion gwlaw, a thrwy hyny y mae yr amryw liwiau yn ymddangos yn yr enfys.—'Fy mwa a roddais yn y cwmmwl, ac efe a fydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a'r ddaear.' Gen. 9. 13. Effaith naturiol o achos naturiol yw y bwa:—1. Nid yw byth i'w ganfod ond ar dywydd cawodol.—2. Nac y tywydd hyny oni bydd yr haul yn tywynu.—3. Ymddengys bob amser yn y gwrthbarth i'r nefoedd i'r lle y mae yr haul.—4. Nid ydyw byth yn ymddangos yn fwy na hanner cylch, ac yn aml yn llai.—5. Y mae bob amser yn ddwbl, gan fod yr hyn a elwir y bwa uchaf ac isaf, neu y cyntaf a'r ail.—6. Y mae y saith lliw canlynol (sef y *prismatic colours*) yn y bwäau; sef y coch, yr *orange*, y melyn, y gwyrdd, y glas, yr *indigo*, a'r *violet*.—7. Y mae yr holl ymddangosiad hwn yn dibynu ar waith pelydr yr haul yn syrthio ar ddefnynau crynion o ddwfr, ac yn eu mynediad trwyddynt yn cael eu gwrth-dori a'u gwrth-dywynu.

Wrth ystyried achosion naturiol yr enfys, nid ellir yn rhesymol farnu nad oedd y bwa yn y nefoedd cyn yr hwn y sonir am dano yn y lle uchod; ond yn awr y rhoddodd yr Arglwydd ef yn arwydd cyfammod. Mor ddilys ag y bydd y bwa yn y cwmmwl, fel effaith tywyniad yr haul ar y gwlaw, mor sicr y cedwir y ddaear rhag ei dinystrio gan ddwfr, a hyny trwy effeithiau angenrheidiol addewid Duw.

'A'r dydd hwnw y toraf fwa Israel yn nglŷn Jezreel.' Hos. 1. 5. 'A bydd yn y dydd y toraf,' &c. Horsley. 'Tori bwa,' a arwydda hollol ddinystriad gallu milwraidd teyrnas yn gyffredinol, yn yr amser yr oedd bwa a saethau yr arfau mwyaf arbenig mewn rhyfel. Hyn a ddygwyddodd i Israel pan gymerwyd Samaria gan Salmaneser, gwedi gwarchae arni dair blynedd, yr hyn a derfynodd deyrnas y deg llwyth. 2 Bren. 15. 29. a 17. 5, 6.

**BWCCLED**, (bwg-cled) tarian, astalch; offeryn i droi ymaith ddyrnodiau y gelyn mewn rhyfel. 1 Bren. 10. 17. 2 Cron. 9. 15, 16. Offerynau rhyfel ydyw y bwccled, y darian, a'r astalch. Edr. ASTALCH, TARIAN.

**BWCH, BYCHOD**, (bu) hyfr; hyfr-fwch; y gwryw o'r geifr. Ps. 50. 9.—Yn arwydd allegawl o Alexander Fawr. Dan. 9. 5. Edr. HWRDD.——Blaenoriaid a llywodraethwyr nwyfus, rhyseddgar. Zech. 10. 3. Ezec. 34. 17.——Blaenoriaid eglwys Dduw sydd yn debyg i'r bychod o ran gwrolder a hyfdra. Jer. 50. 8.——'Bwch diangol,' y bwch a ollyngid yn rhydd ar ddydd y cymmod, gan ddwyn arno bechodau y bobl. Lef. 16. 8—28. Yr oedd un bwch i'w ladd yn bech-aberth, a'r llall i'w ollwng yn rhydd; yn cysgodi Crist yn ei ddwy natur, ac yn y ddau gyflwr yr aeth efe trwyddynt—yn ei Dduwdod ac yn ei ddyndod; yn ei ddarostyngiad ac yn ei ddyrchafiad. Yn y cyffelyb fodd yr oedd y defodau am y ddau aderyn yn mhuredigaeth y gwahanglwyfus. Lef. xiv. Felly yr oedd y ddau fwch, y lladdedig a'r diangol; un yn cysgodi Crist yn marw dros ein pechodau, a'r llall ei gyfodiad drachefn er ein cyfiawnhad.

**BWGWTH, BYGYTHION**, (bw-gwth) dwrdiad; dwrdd; dondiad; perygliad.—'A Saul etto yn chwythu bygythion a chelanedd.' Act. 9. 1. Y mae y geiriau yn darlunio Saul yn fywiog, fel mor llawn o fygythion, ac mor awyddus i gelanedd yn erbyn dysgyblion yr Arglwydd, fel y mae ei nwydau creulawn yn effeithio ar ei anadl, ac yn peri iddo anadlu yn fwy buan a chryf, fel y gwna dynion mewn digofaint angerddol, neu ddymuniadau awchus. Cymh. Ps. 37. 12. Cafodd drugaredd er hyny; a gwnaed y blaidd hwn yn oen diniwed; ïe, yn bregethwr o'r ffydd, ac yn fugail i'r praidd, y rhai gynt a anrheithiasai.

'Gan roddi bygwth heibio.' Eph. 6. 9. Dyma ffordd y mae yr Arglwydd yn cyfarwyddo meistriaid i lywodraethu eu gweinidogion; gan gydnabod fod Arglwydd y naill a'r llall yn y nefoedd yn canfod y cwbl, 'ac nid oes derbyn wyneb gyd âg ef.' Dyma gyfarwyddyd Duw; a saif Duw o blaid ei orchymyn ei hun, ac o'n plaid ninnau, yn ein hymgais am ymagweddu yn ol ei air. Ond os ydyw ein dull ni yn llywodraethu ein teuluoedd yn groes i'w air, a'i gyfarwyddyd, pa ryfeddod ein bod yn aflwyddo?

**BWHWMAN**, (bw-hwman) gwibio yn ol ac yn mlaen; darymred; bod yn ansefydlog ac yn anwadal mewn barn; anwadalwch. Eph. 4. 14. Edr. AWEL.

**BWLCH, BYLCHAU**, (bwl) adwy; ffosp, agen; agendor.—'Y dydd hwnw y codaf babell Dafydd, yr hon a syrthiodd, ac a gauaf ei bylchau.' Amos 9. 11. Wrth babell Dafydd, y mae i ni ddeall pabell Crist, hâd Dafydd, sef ei eglwys, yn mha un y mae yn preswylio. Y mae pechodau aelodau proffesedig yr eglwys yn tynu barnedigaethau Duw arni mewn cyfeiliornadau, erlidigaethau, cystuddiau, a gorthrymderau; ond yn ei chyflwr iselaf, gofala yr Arglwydd am ei eglwys; efe a ymwel â hi, a'i hadgyweiria, a gau ei bylchau, a gyfyd ei hadwyau, ac a'i gwna yn hardd ac yn ogoneddus. Y mae yr apostol yn cymhwyso y geiriau at alwad y Cenedloedd, yr hyn a ddechreuodd yn amser yr apostolion, ac sydd heb ddarfod etto, ond a barha tra parhao amser. Cau Duw ei bylchau, ac a gyfyd ei hadwyau, nes y byddo yn babell ogoneddus, ac yn breswylfod iddo trwy yr Ysbryd. Act. 15. 16, 17. Y mae yr Arglwydd yn cau bylchau yr eglwys, trwy symud ymaith ei farnedigaethau; maddeu ei phechodau, a diwygio bucheddau ei haelodau; rhoddi iddi athrawon ffyddlon a gweithgar; ac athrawiaethau iachus, goleu, a nerthol; ac ychwanegu at nifer ei gwir aelodau. Esa. 58. 12. Luc 1. 68, 69. Jer. 30. 9. Ezec. 34. 23, 24. a 37. 24.

**BWN, BYNIAD**, (bw) aderyn y bwn; sef bwncath y wern, bòd y gwerni.—'Gosodaf hi yn feddiant i aderyn y bwn.' Esa. 14. 23. קפד *Aderyn y bwn*, a gyfieithir *draenog*, yn Esa. 44. 11.—*dylluan*, yn Zeph. 2. 14. Dengys y gwahanol gyfieithiadau o'r gair bod ansicrwydd pa greadur a feddylir. Bochart (*vol.* ii. 1035.) a Parkhurst, a farnant yr arwydda y draenog. Hyny a wrthwyneba Harmer, *Obs.*, *vol.* i. 311, 313. Peth neillduol ydyw rhoddi tri gwahanol gyfieithiad o'r un gair, yn nodi rhyw greadur yn yr unig dri lle yr arferir ef. *Saes.* BITTERN; ond ansicr ydyw pa greadur a feddylir; er, tebygol, mai aderyn oedd, medd Harmer.

**BWRDD, BYRDDAU**, (bwr) llech, llechfaen, cyfansawdd o goed. 1 Bren. 2. 7.—Lle i gyfnewid arian. Luc 19. 23.—Allor y poeth-offrwm a elwir bwrdd yr Arglwydd. Mal. 1. 7.—Ordinhadau yr eglwys a elwir yn fwrdd, ac yn enwedig yr ordinhad o Swper yr Arglwydd. Can. 1. 12. 1 Cor. 1. 21. Act. 6. 2.—Darpariaeth neu luniaeth corph neu enaid. Ps. 69. 22.—Helaethrwydd o ymborth tymhorol neu ysbrydol. Ps. 23. 5. Esa. 21. 5.—'Bwrdd y bara gosod;' bwrdd o goed Sittim, gwedi ei wisgo âg aur, dau gufydd ei hŷd, cufydd o led, a chufydd a hanner ei uchder. Yr oedd gwedi ei amgylchu oddi arnodd âg ymylwaith deublyg, i gadw y bara rhag llithro

Digitized by Google

ymaith. Yr ydoedd wedi ei gysegru â thaenelliad gwaed, ac âg eneiniad olew. Yr ydoedd y bwrdd hwn yn sefyll yn y lle sanctaidd, yn y gongl ogledd-orllewinol iddo, ar gyfer y wahanlen, ac arno y dodid y deuddeg torth o fara gosod, neu fara dangos.—Yr oedd Crist a'i efengyl yn cael eu gosod allan yn hyn; Iesu, yn ei Berson ac yn ei eiriolaeth, yn cyflwyno ei holl lwythau dewisedig ger bron Duw; yr efengyl yn gosod allan Grist a'i gyfiawnder o ddarpariaeth ysbrydol. Exod. 25. 23—30. a 27. 10. 2 Cron. 4. 8, 19. Edr. Gosod.

BWRIAD—AU—U, (bwrw) amcan, arfaeth, rhagluniad, rhagfeddyliad; amcanu, arfaethu. Ps. 17. 3. a 21. 11. Esa. 23. 9. a 14. 24, 27.—'Hwy a dorwyd yn eu bwriadau.' Esa. 10. 10. שתתי *rhwydau*, medd rhai; tebygol mai rhyw beiriannau i ddal pysgod a feddylir, y cyfryw ag a arferir yn yr Aipht hyd heddyw i'r dyben hyny. Gwel Dr. Shaw's *Travels*, *p.* 424.

BWRW, (bwr) taflu, lluchio, ergydio, gwthio; taflu i lawr; hefyd dychymygu, tybio. Gen. 20. 10. 2 Cron. 21. 11. Ps. 31. 22. Barn. 6. 25. Bwrw ewyn; bwrw golwg; bwrw dagrau; bwrw gwlaw; bwrw eira; bwrw llo; bwrw barn; bwrw amcan; bwrw allan, sef troi allan.

BWTH, BYTHOD, (wth) *Heb.* בית (*bith*) tŷ; lluestŷ; caban. Gen. 33. 17. Job 27. 18. Lef. 23. 42, 43. Neh. 8. 14, 16.

BWYD—YDD, (byw) *Heb.* פת (*peth*); *Gr.* βρωσις (*brôsis*): porthiant, ymborth; maeth, lluniaeth. Unrhyw ymborth corphorol, er maeth a chynnaliaeth dynion. Luc 24. 41.—Yr oedd amryw fath o fwydydd yn waharddedig dan y ddeddf, fel yr ydym yn darllen yn helaeth yn Lefiticus. Y mae Paul yn penderfynu fod pob peth, dan yr efengyl, yn lân i'r glân; yr hwn sydd yn bur ac yn gywir yn ei amcan a'i ddyben. 1 Cor. 8. 4. Rhuf. 14. 15—20. Tit. 1. 15.—Bwyd a arwydda, 1. Cyfiawnder Crist, o'r hwn yr ydym yn derbyn trwy ffydd, i fywyd tragywyddol. Ioan 6. 55.——2. Gair yr Arglwydd, yr hwn sydd faethlawn i'r enaid. Jer. 15. 16. Heb. 5. 12.——3. Defodau y gyfraith. Heb. 13. 9. Col. 2. 16.——4. Galar duwiol. Ps. 42. 3.

BWYD-OFFRWM. 'A phan offrymo dyn fwyd-offrwm i Ihhofah.' Lef. 2. 1. a 6. 14. a 9. 17. Num. 15. 4. *Heb.* קרבן *corban*, *mincha*, hyny yw, y rhodd a elwid *mincha*. Anrheg neu rodd ddifrifol i Dduw, neu ddyn, oedd y *mincha*. 1 Sam. 10. 27. Gen. 4. 3, 4. *Heb.* Yr oedd y bwyd-offrwm o bethau difywyd; megys, peilliad, teiseni, afrllad, ffrwythau y ddaear, &c.

1. Yr ydoedd y bwyd-offrwm, yn benaf, yn cysgodi Crist yn ei offrymiad o hono ei hun dros ei bobl: 'yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd.' Eph. 5. 2. 'Aberth ac (*mincha*) offrwm nis mynaist, eithr corph a gymhwysaist i mi.' Heb. 10. 5. Ps. 40. 6. Yn ol esboniad yr apostol, yn offrymiad Crist y cyflawnwyd yr offrwm hwn. Gwnaeth ef i'r 'aberth a'r (*mincha*) bwyd-offrwm beidio.' Dan. 9. 27.

2. Yr oedd hefyd yn arwyddo gwir dduwiolion, y rhai, trwy Grist, ydynt wedi eu sancteiddio yn offrymau pur i Dduw. 'A hwy a ddygant eich holl frodyr, o blith yr holl genedloedd, yn (*mincha*) offrwm i'r Arglwydd.' Esa. 66. 20. Dengys yr apostol fod hyn yn cael ei gyflawni yn ngweinyddiad yr efengyl trwyddo i'r cenedloedd: 'Fel y byddai offrymiad y cenedloedd yn gymeradwy, gwedi ei sancteiddio gan yr Ysbryd Glân.' Rhuf. 15. 16.

3. Yr ydoedd hefyd yn arwyddo ffrwythau gras a gweithredoedd da y rhai crediniol. 'Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron fel arogl-darth, a dyrchafiad fy nwylaw fel yr (*mincha*) offrwm prydnawnol.' Ps. 141. 2. 'Yn mhob lle arogl-darth a offrymir i'm henw, ac (*mincha*) offrwm pur.' Mal. 1. 11. 1 Tim. 2. 8. Heb. 13. 16. Phil. 4. 18.——Yr oedd olew a thus i gael eu tywallt ar y bwyd-offrwm yn gyffredinol; ond os offrwm y *tlawd* dros bechod oedd, nid oedd i roddi olew na thus arno (Lef. 2. 1, 15.) am mai *dros bechod oedd*. Edr. Afrllad.

BWYELL, BWYEILL, (pwy) cymynas. Bwyell lydan; bwyell hir; bwyell gynnud; bwyell arf, neu arf fwyell; a bwyell ennilleg, arf rhyfel, offerya i gymynu coed. Deut. 19. 5. Barn. 9. 48.—Yn allegawl, arwydda, 1. Yr Assyriaid a'r Caldeaid, y rhai yr oedd Duw yn eu cymeryd yn ei law fel bwyell i ddinystrio. Esa. 10. 15. Jer. 46. 22.——2. Barnedigaeth finiog Duw ar bechaduriaid anniwygiadol. Mat. 3. 10. Luc 3. 9.

BWYSI, *Llad.* Ponendo; *Saes.* Posy: blodeuglwm.—'Fy anwylyd sydd i mi yn bwysi myrr.' Can. 1. 13. Edr. Myrr.

BWYTA, (bwyd) ymborthi, llewa; difa, ysu, dyfetha. Gen. 27. 4. Preg. 5. 11.—'Y rhai sydd yn bwyta fy mhobl fel y bwytânt fara.' Ps. 14. 4. Arwydda bwyta yn y lle hwn, dyfetha, gorthrymu, ysu, a hyny gyda hyfrydwch, fel y bwytânt fara. Ps. 79. 7. Jer. 10. 25. Amos 8. 4. Mic. 3. 2, 3. Gal. 5. 15.

'Bwyta y maent bechod fy mhobl, ac at eu hanwireddau hwynt y maent yn dyrchafu eu calon.' Hos. 4. 8. Y gair *Heb.* חטאת a gyfieithir yma pechod, a arwydda pechod, cospedigaeth am bechod, ac aberth dros bechod; yn yr ystyr diweddaf, tebygol, y mae i ni ei ddeall yn y fan hon. Tra yr oedd offeiriaid Israel, nid o lwyth Lefi, yn gweini yn y swydd offeiriadol, ac yn mwynhau ei breintiau goruchel, yr oeddynt yn dyrchafu eu calonau at anwiredd Israel, sef eu heilunaddoliaeth. A hwyrach fod yr offeiriaid yn annog y bobl yn eu pechodau er mwyn budrelw.

Arwydda bwyta, ymborthi trwy ffydd ar Grist a'i aberth, fel iawn am bechod. Esa. 55. 1. 'Oni fwytewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes genych fywyd ynoch.' Ioan 6. 53, 54, 56, 57. Sef credu ynddo (adn. 47.) ac yn y gwaith a wnaeth yn y cnawd, yn marw yn aberth dros bechod. Yn addas y gelwir gwir gredu yn Nghrist, yn yr efengyl, ei fwyta; mae hyfrydwch, cynnaliaeth, a dyddanwch boddlonol i'w gael trwy wir gredu ynddo. Y mae Crist, i'r gwir gredadyn, yr hyn oedd y manna gynt i'r Israeliaid yn yr anialwch; sef eu hunig ymborth a'u cynnaliaeth, ac y mae yn trigo yn eu calonau, fel bwyd mewn cylla iachus.

Arwydda bwyta, hefyd, gwneyd ewyllys Duw gyda hoffder, ac a ddengys yn rhyfedd yr hyfrydwch oedd Mab Duw yn ei gael wrth gyflawni ei waith mawr yma yn y byd. Ioan 4. 34. Edr. Cyd-fwyta.

'Bwyta ac yfed yn annheilwng;' sef cymeryd bara a gwin yn Swper yr Arglwydd (yr hwn a ordeiniwyd er côf am farwolaeth Crist) heb ffydd, cariad, ac edifeirwch, yn adnewyddu yr enaid i fyw i Dduw. 1 Cor. 11. 29, 30.—'Bwyta ar y mynyddoedd,' yw bod yn gyfranog âg eilun-addolwyr. Ezec. 18. 15.

BWYSTFIL—OD, (bwyst-mil) milyn.—1. Creaduriaid gwylltion, anhywaith, ystrywgar, creulawn, ysglyfaethus, o bob rhyw. Gen. 2. 20.——2. Dynion creulawn, gorthrymus. Ps. 80. 13.——3. Teyrnasoedd annuwiol yn erlid pobl Dduw. Dan. 7. 3, 17, 21.——4. Rhufain, yn wladol ac eglwysig. Dat. xvii. Edr. Anghrist.

BY, rhagddod; mewn geiriau cyfansawdd, a gyfnewidir yn *my*; fel *bychan*, *fy mychan*; ac y mae yn lleihau ystyr y geiriau.——Hefyd, cysyllt-air, cyfnewidiad o *py*; ac o'r un ystyr ag *os*; megys *by doe yma*.

Digitized by Google

**BYCHAN,** bach; ychydig; gwael; diystyr. Num. 16. 9. Jos. 22. 17. Exod. 12. 4. a 18. 22.—'Os llwfrhei mewn amser cyfyngder, bychan yw dy nerth.' Diar. 24. 10.

**BYD—OEDD,** (bod) yr holl fyd, y bydysawd; yn mhell byd, sef yn mhell iawn; y'rhawg byd, yn hir iawn o amser; yr ys talm byd, sef er ys llawer o amser.——1. Yr holl greadigaeth fawr. Ioan 1. 10. Heb. 11. 3.——2. Holl breswylwyr y byd, sef holl ddynolryw. Rhuf. 5. 12.——3. Pawb a'r sydd heb eu hail-eni. Ioan 15. 18, 19. 1 Ioan 5. 19. Ioan 16. 8.——4. Yr etholedigion, y rhai a etholodd Duw o'r Iuddewon ac o'r Cenedloedd. 2 Cor. 5. 19. Ioan 1. 29. a 3. 16.——5. Gogoniant dynion a phethau daearol. Gal. 6. 14.——6. Y pethau ag y mae Duw yn eu rhoddi er cynnaliaeth dynion. 1 Cor. 7. 31.——7. Ymerodraeth Rhufain. Luc 2. 1.——8. Y bywyd presennol. 1 Cor. 7. 33.——9. Y ddaear. Mat. 4. 8.——10. Mawredd, parch, a gwychder y byd. Gal. 6. 14.——11. Doethineb cnawdol. 1 Cor. 2. 12.——12. Tyrfaoedd lliosog. Ioan 12. 19.——13. Dyddanwch y nefoedd. Luc 20. 35.——Y *byd hwn*, a arwydda y ddaear hon, yn y cyflwr llygredig y mae ei phreswylwyr ynddo yn bresennol. Luc 20. 34. Tit. 2. 12.——Y *byd hwnw*, a arwydda cyflwr o ogoniant yn y nef. Luc 20. 35.——Y *byd a ddaw*, a arwydda amser yr efengyl ar ol adgyfodiad Crist. Heb. 2. 5. a 6. 5.——Holl demtasiynau y byd, trwy wg neu wên. 1 Ioan 5. 4, 5.——Tafod y rhai drygionus sydd fyd o anghyfiawnder. Iago 3. 6.

**BYDOL,** (byd) yn ol y byd; yn ol dull a threfn y byd; yn tueddu at y byd. Eph. 6. 12. Tit. 2. 12.—*Cysegr bydol*, y babell, yr hon oedd yn y byd, ar y ddaear, ac wedi ei gwneuthur o ddefnyddiau bydol, neu ddaearol, mewn cyferbyniad i'r nef ei hun, lle y mae Crist yn gweini ei swyddau. Heb. 6. 1.

**BYD-WRAIG, BYD-WRAGEDD,** (byd-gwraig) colwyn-wraig; esgor-wraig; gwraig yn derbyn plant i'r byd. Gen. 35. 17. Exod. 1. 15, 16.

**BYDDAR—I—IAID,** (dar) trwm glyw; trwm ei glywed; un heb glywedigaeth naturiol. Y gair *Heb.* חרש a arwydda hefyd, *mud*, neu *ddystaw;* oblegid y rhai a anwyd yn fyddariaid nid hawdd y dysgant siarad. Iachaodd Crist fudion a byddariaid. Esa. 29. 18. a 35. 5. a 42. 18. Mat. 11. 5. Mae y saint felly pan y byddont yn dyoddef yn amyneddgar yn eu profedigaethau. Ps. 38. 12.

**BYDDIN—OEDD,** (ydd) llu o filwyr, mintai o wyr. Exod. 14. 19. Barn. 9. 37. Ps. 18. 29.

**BYGYLU,** (bw-gwl) bwgwth, peryglu, dychrynu. 'Bygythiwn a bygylwn hwy.—Ac felly eu bygylu a wnaethant.' Act. 5. 17, 21. W. S.

**BYR—HAU,** ychydig o hŷd, neu o barhad; ar fyrder, sef cyn y byddo hir. Phil. 2. 24. 1 Tim. 3. 14.—Yr oedd goleuni llwyddiant Job yn ymddangos yn fyr, o herwydd bod tywyllwch aflwyddiant yn nesâu. Job 17. 12.—Yr Arglwydd a fyrhaodd ddyddiau blinder yr Iuddewon; Mat. 24. 22. a dyddiau ieuenctid. Ps. 89. 45. a 102. 23.—'Ni fyrhawyd llaw yr Arglwydd, fel na allo achub;' Esa. 59. 1. sef ni phallodd ei drugaredd, ac ni wanhaodd ei allu.

**BYS—EDD,** (ys) *Corn.* BEDD, *pl.* BYDDIAS; *Armor.* BES, *pl.* BISIAT; rhan o'r llaw naturiol. Y mae pump o fysedd, ac i gyd yn cynnwys pymtheg o esgyrn, sef tri yn perthyn i bob un. Cymalau y bysedd a elwir *condily* ac *internodia*. Y bys cyntaf a elwir bawd; (Edr. BAWD)—yr ail, y mynag-fys, bys yr uwd, y bys blaen; y trydydd, y canol-fys, yr hir-fys, bys y perfedd; y pedwerydd, bys y fodrwy, meddyg-fys, bys y gyfaredd; y pummed, y bys bach, y byr-fys.—Mae math o lysiau a elwir bysedd cochion, bysedd ellyllon, bysedd y cŵn, llwyn y tewlaeth.——Genir plant yn aml â gormod bysedd ganddynt; y rhai hyn ydynt yn gyffredin yn afluniaidd ac yn afleus. Y mae rhai o honynt âg esgyrn ac ewinedd ganddynt; eraill ydynt yn unig dalpiau o gnawd. Dylai y rhai hyn gael eu cymeryd ymaith yn mabandod y plentyn. Cofféir am ŵr corphol, mab i'r cawr yn Gath, yr hwn oedd â chwech o fysedd ar bob llaw iddo, a chwech o fysedd ar bob troed iddo, sef pedwar ar hugain o rifedi. 2 Sam. 21. 30. 1 Cron. 20. 6.

Priodolir bys i Dduw, i arwyddo ei gywreinwaith rhinweddol: fel y mae dynion yn gweithio trwy gymhorth eu bysedd, felly y mae bys, neu fysedd Duw, yn arwyddo gweithrediad ei allu. Exod. 8. 19. a 31. 18. Ps. 8. 3. Luc 11. 20.——Dysgu â'r bysedd sydd yn dal allan ryw ffordd ddirgel gan ddynion i ddenu eraill i bechu. Diar. 6. 13.——Estyn bys, a arwydda cellweir-wawd, dirmyg-ddull. Esa. 58. 9.——Bysedd yr eglwys yn dyferu myrr, a arwydda yr Ysbryd Glân a ddyferodd Crist ar hyd hespenau clo y galon gauedig, ac a effeithiodd arni i'w deffroi, ac a wnaeth weithrediadau ffydd a chariad ynddi yn fywiog, yn beraidd, ac yn hyfryd. Can. 5. 5.

**BYTH—OEDD,** (bod) yn dragywydd; tragywyddol; diddarfod; didranc; diddiwedd; yr hyn sydd tu draw i ganfyddiad ac amgyffrediad creadur. Duw a'i air a bery byth. Exod. 15. 18. Esa. 40. 8. Byth bythoedd, a arwydda, yn ol yr Hebraeg, cadarnhad diysgog o'r peth yn llaw, a pharhad tragywyddol o hono. Esa. 45. 17.

**BYTHEIRIO.** Edr. BRYTHEIRIO.

**BYW,** (yw) *Heb.* חיה *bod byw.*——1. Bod yn meddu gallu i ymsymud a gweithredu. Gen. 2. 7. a 43. 28.——2. Iachâd o glefyd trwm. Ioan 4. 50, 51.——3. Cael ymborth a phethau eraill tu ag at gynnaliaeth bywyd. 1 Cor. 9. 14.——4. Cael maeth a chynnaliaeth ysbrydol. Gal. 2. 20.——5. Cael cysur ac adfywiad. Ps. 22. 26. 1 Thes. 3. 8.——6. Cael meddiant o ras yma, a gogoniant yn ol hyn. Ioan 14. 19.——'Diau y gelli fyw.' 2 Bren. 8. 10. *Heb.* חיה תחיה *gan fyw y byddi fyw:* neu, *yn ddiau y byddi fyw.* Dywedyd y mae Eliseus pa ateb oedd yn mwriad Hazael i roddi i'r brenin. 'Ti a ddywedi y byddi byw yn ddiau; etto yr Arglwydd a ddangosodd i mi y bydd efe marw yn ddiau.' Dangosodd yr Arglwydd iddo ddau beth; sef beth oedd yn nghalon Hazael i roddi yn ateb i'r brenin, a pha beth a ddygwyddai i'r brenin, sef y byddai marw yn ddiau. Yr un fath y dywedir (Preg. 11. 9.) beth oedd yn nghalon gwr ieuanc; sef gwneuthur yn llawen, &c., ac hefyd beth oedd sicr amcan a bwriad Duw tu ag ato; sef ei ddwyn i farn am y cwbl.

Y mae Duw yn byw ynddo, ac o hono ei hun; bywyd pur ydyw, ac y mae ei fywyd yn hanfodol; y mae ganddo fywiogrwydd a dedwyddwch tragywyddol ac anamgyffredadwy. Num. 14. 21. Deut. 5. 26. Y mae bywyd yn Nuw yn gwahaniaethu oddiwrth fywyd creaduriaid: 1. Y mae bywyd yn *hanfod* ynddo ef; ond gweithrediad hanfod ydyw eu bywyd hwy. Y maent hwy *yn byw*, ond y mae efe *yn fywyd.*——2. Mae efe yn byw o hono, arno, ac ynddo ei hun; *ond cyfraniad* oddi wrtho ef yw eu bywyd hwy; *ynddo ef* y maent yn byw, yn symud, ac yn bod. Act. 17. 25, 28. Y mae efe yn fywyd, ac yn *ffynon* o fywyd i bob peth byw. Ps. 36. 9.——3. Y mae bywyd ynddo ef yn anfeidrol, yn bur, yn ddiderfyn, heb ddechreu ac heb ddiwedd; ond y mae eu bywyd hwy yn fesuredig, neu yn derfynedig. Y mae iddynt oll ddechreu, a bydd i lawer o honynt ddiwedd bywyd.——4. Mae ei fywyd ef yn gyflawn,

Digitized by Google

yn berffaith ar unwaith; yn anghyfnewidiol, heb ddim ychwanegiad. Y mae yn byw yn gwbl ar unwaith; a'i holl fywyd yn berffaith gwbl ynddo ei hun, yn cynnwys tragywyddoldeb; ond y mae bywyd y creaduriaid yn raddol, yn gynnyddol, ac yn ddifianol.——5. Mae Dyw yn byw o *angenrheidrwydd;* ond nid felly bywyd creadur.

Y mae Crist yn awr yn byw, a chanddo bob dedwyddwch ynddo ei hun. Dat. 1. 18. Y mae yn byw bob amser i eiriol dros ei bobl: Heb. 7. 25. ac yn byw ynddynt yn ysbryd bywiol. Y mae efe yn trigo yn eu calonau trwy ffydd, Eph. 3. 17. a hwythau yn byw arno trwy ffydd. Gal. 2. 20.—Gelwir Crist yn Faen bywiol, ac yn Ffordd fywiol; mae efe yn fywyd ynddo ei hun, ac efe a fywiocâ hefyd, ac a ddyg i fywyd tragywyddol yr holl rai a unir âg ef. 1 Petr 2. 5. Heb. 10. 20. Edr. Ffordd, Maen.

BYWYD—AU, (byw) 1. Einioes, bywdeb; hoedl; buchedd, bywiogrwydd. Luc 12. 15.——2. Darpariaeth at gynnaliaeth dynion. Deut. 20. 19.——3. Dâ y byd hwn. Luc 15. 12, 30.——4. Y byd hwn yn unig. Preg. 9. 9.——5. Bywyd ysbrydol, trwy yr hwn yr ydym yn byw i Dduw. Esa. 38. 16. Job 10. 12.——6. Cyflwr gwynfydedig y saint tu draw i'r bedd. Mat. 18. 8.——7. Crist Iesu yr Arglwydd, yr hwn yw awdwr bywyd ysbrydol a thragywyddol i'w bobl. Y mae efe yn eu prynu, eu galw, eu cyfiawnhau, eu sancteiddio, a'u gogoneddu, yn eu cyrph a'u heneidiau. Ioan 14. 6.

BYWHAU, BYWEIDDIO, 1. Rhoddi bywyd naturiol i feirw, yr hyn nis gall neb ond Duw. Rhuf. 4. 17.——2. Rhoi bywyd ysbrydol o ras yn eneidiau y rhai sydd yn feirw mewn camwedd a phechod, i fyw trwy ffydd. Eph. 2. 1, 5.——3. Rhoi cysur, trwy waredigaethau allan o gystudd, galar, a phrofedigaethau, a marweidd-dra ysbryd. Ps. 119. 50.

Y mae Crist, yr ail ddyn, neu yr ail Adda, 'yn Ysbryd yn bywhau.' 1 Cor. 15. 45. Fel Pen-cyfammodwr ei bobl y mae yn eu bywhau o ddyfnderoedd marwolaeth y cwymp i uchder anfarwoldeb a gogoniant tragywyddol. Mae efe 'yn Ysbryd yn bywhau,' o ran ei Dduwdod, a chyflawnder yr Ysbryd Glân yn aros arno. Y mae yn ffynon o fywyd ysbrydol a thragywyddol i'w holl aelodau, ac efe a'u bywhanes y byddo yr hyn sydd farwol wedi ei lyncu gan fywyd. 2 Cor. 5. 4.——'Y peth ydd yw-ti yn ei heheu, ny fyweiddir, oddieithr yddo farw.' 1 Cor. 15. 36. W. S.

BYWIOLAETH, (byw-iawd) amser bywioliaeth; amser nodedig i ymddŵyn plentyn yn y bru; naw mis. Gen. 18. 10. 2 Bren. 4. 16, 17.

# C.

CAB, *Heb.* קב mesur Hebreaidd, gwlyb a sych; y mesur gwlyb a gynnwysai ddau *beint* Brytanaidd; a'r mesur ŷd ddau *beint* a'r bummed ran o *beint*. 2 Bren. 6. 25.

CABAN—AU, (ca) bwth; lluestŷ; Jonah 4. 5. cell fechan mewn carchardŷ.—'Pan ddaeth Jeremiah i'r daeardŷ, ac i'r cabanau.' Jer. 37. 16. 'I'r daeardŷ a'r carchar.' Dr. M. Wrth gymharu y fan hon â pen. 38. 6. ymddengys, yn debygol, mai pydew dwfn oedd y daeardŷ, wedi ei gloddio yn syth i'r ddaear, yn nghanol cyntedd agored oddi amgylch, pan yr oedd y tai mawrion wedi eu hadeiladu: a bod yn ystlysau hwn, yn agos i'r gwaelod, gelloedd wedi eu naddu, er trigfaoedd gwahanol i'r trueiniaid a ollyngent i lawr yno. Oddiwrth hyn, tebygol, yr arwydda yr un gair בור *y bedd;* am fod beddau yr hynafiaid wedi eu gwneyd â chelloedd gwahanol fel hyn, i roddi y cyrph yn wahanedig ynddynt—y rhai a elwir 'ystlysau y ffos,' yn Esa. 14. 15.

CABBON, dinas yn Judah. Jos. 15. 14. Yr un a Machbena, medd rhai. 1 Cron. 2. 49.

CABL—U—YDD—WR, (ca-ply) *Llad.* Calumnia: rheg, gogan, difenwad; rhegwr, difenwr, goganwr pethau sanctaidd: dywedyd yn anweddus am Dduw, neu am y rhai y mae efe yn eu gosod mewn awdurdod dano. 1 Bren. 21. 10, 13. Esa. 37. 4, 24. 2 Petr 2. 10. Troedd union-gyrch yn erbyn Duw, 1. Naill ai trwy gyfrif iddo rywbeth nad yw yn gweddu i berffeithrwydd a dwyfolder ei natur: neu, 2. Cyfrif i Dduw, ei air, a'i ordinhadau, yr hyn sydd bechadurus, ac yn hollol anmhriodol iddynt. 2 Sam. 12. 14. Tit. 2. 5. Dat. 13. 6. Neu, 3. Trwy fychanu ei briodoliaethau, a chyfrif i'r creadur yr hyn a berthyn yn unig i'r Creawdwr. Mat. 26. 65.—Dywedir fod dynion yn cael eu cablu, pan fyddont yn cael eu gwatwar, eu diystyru, eu gwaradwyddo, a'u bychanu, a dywedyd pob drygair am danynt. Rhuf. 3. 8.——Cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân. Edr. Ysbryd.

CABOL—I—WR, (pol) *Llad.* Politus, Polire; llyfn, llyfnhau, llyfnhawr; cabol-faen, sef maen llyfnu, neu faen i lyfnhau âg ef.—Cabol-feini, meini llyfnion, &c., ceryg yr afon.—'Yn nghabol-feini yr afon y mae dy ran, hwynt-hwy yw dy gwtws.'* Esa. 57. 6. Ti a ddewisaist yn rhan i ti yr eilunod hyny y rhai a wnaed o geryg llyfnion wedi eu bwrw i fynu gan lifeiriant o'r afonydd: neu y rhai oedd yn cael eu haddoli ar lanau afonydd, lle bydd amledd o'r fath feini i'w cael yn gyffredin. Neu y byddai rhan eilun-addolwyr mewn dyfnderoedd mawrion a llithrig, ac y byddai eu dinystr yn anocheladwy a thragywyddol. Ps. 73. 11. Esa. 10. 6. Job 20. 29. Jer. 13. 12. a 23. 12. Diar. 24. 16. Vitringa.

CABUL, *Heb.* כבול [*budr*] 1. Yr enw a roddes Hiram, brenin Tyrus, ar yr ugain dinas a roddasai Solomon yn anrheg iddo, i ddangos nad oeddynt yn gymeradwy ganddo. 1 Bren. 9. 13. Dywed Josephus eu bod yn agos i Tyrus.——2. Dinas oedd yn sefyll ar gyfer rhandir llwyth Aser. Jos. 19. 27.

CACWN, (cwn) math o wenyn gwylltion, mawrion, â cholynau gwenwynig ganddynt. Y mae amrywiaeth o honynt, sef cacwn y coed; cacwn y waun; cacwn y ddaear; cacwn tingoch. Y mae Duw yn bwgwth y Canaaneaid â hwynt, &c. Exod. 23. 28. Deut. 7. 20. Ymddengys oddiwrth Jos. 24. 12. fod Duw wedi eu cymeryd yn offerynau i yru y cenedloedd allan o'r tir o flaen Israel, yn neillduol dau frenin yr Amoriaid, heb gleddyf na bwa.

CAD—AU, (ca) brwydr, ymladd, trin:—cad a brwydr, a chad ac ymladd. Ps. 27. 3. Esa. 9. 5.

CADACH—AU, (tach) darn o lîan, gwlanen, &c. 1. Clwt, cerpyn, brat. Num. 19. 15. 2 Sam. 20. 12.——2. Pethau ffiaidd a diwerth. Esa. 30. 22.——'A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau.' Luc 2. 7.—'Hi a escorawdd ar ei map cyntaf enit, ac a'i cornawdd ev mewn cadache.' W. S.—'A hi a esgorodd ar ei chyntaf-anedig fab, ac a'i caw-rwymynodd ef.' Campbell.

* Yn *llyfnion feini,* argraffiad 1799, ond nid gweddus na buddiol cyfnewid gair mewn cyfieithiad cyffredin awdurdodedig.

Digitized by Google

Gwnaeth Mair â'i mab bychan, yn ol arferiad cyffredinol gwragedd tu ag at eu plant. Mair, ac nid un fyd-wraig, a'i rhwymodd; tebygol nad oedd un gyda hi. Mae amgylchiadau ei enedigaeth yn eithaf tlawd. Edr. **Geni, Iesu.**

**CADAIR, CADER—EIRIAU,** (cad) *Gr.* *καθεδρα* (*cathedra*); eisteddfa, eisteddfa gyffredin; amddiffynfa, caer, cadarnle. — Cader ymadrodd, areithfa; cader buwch, pwrs buwch. Y mae amryw fryniau amddiffynedig yn cadw yr enw Cader; megys Cader Dinmael, Cader Idris, &c.——Cader Moses, yr ydoedd y Phariseaid yn chwennych eistedd ynddi i farnu a llywodraethu y bobl, fel Moses. Marc 12. 38, 39. Luc 20. 46. 'Yn nghadair Moses yr eistedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid.' Mat. 23. 2. *Gr. καθεδρα, eisteddfa.* Meddylia rhai fod cyfeiriad yn y geiriau at y pulpud o goed a wnaeth Ezra i'r rhai oedd yn egluro y gyfraith i'r bobl (y rhai gwedi hyny a osodwyd i fynu yn y synagogau, o ba le yr areithiai y Rabbon, yn eistedd). Neh. 8. 4. Tebygol ei galw yn gader Moses, am y darllenent ac yr eglurent lyfrau Moses oddi yno; fel yr oedd Moses megys yn athrawiaethu oddi yno. Nid ydyw y gair yn arwyddo *awdurdod wladwriaethol*, fel y barnodd Lightfoot (*Hor. Heb. in loc.*) a Gussatus, gan nad oedd i'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid, fel y cyfryw, yr awdurdod hon.

**CADARN—HAU, CADERNID,** (cad) *Gr. καρτερος*; cryf, gwrol, galluog, nerthol; nerthu, cryfhau, galluogi; cryfder, nerth, gwroldeb. Y mae Duw yn un cadarn. Deut. 10. 17. Job 9. 19. Ac â llaw gadarn y dug efe ei bobl allan o'r Aipht, yn wyneb creulondeb Pharaoh. Exod. 13. 3, 14—Y mae cymhorth plant Duw ar un cadarn, sef Crist, eu Gwaredwr cryf. Ps. 89. 19. Esa. 63. 16. Efe a'u dwg allan o'u holl orthrymderau â llaw gadarn. Act. 17. 10.

**CADBEN,** (cad-pen) arweinydd byddin, neu flaenor llu. Num. 2. 3. Deut. 1. 15. 2 Bren. 18. 24. Act. 21. 31. Edr. **Tywysog.**

**CADES,** *Heb.* קדש [*sancteiddrwydd*] 1. Enw lle i'r dehau i wlad Canaan, 24 milltir oddiwrth Hebron, ar gwr anialwch Paran; sef Cades Barnea. Gen. 14. 7. Y ddinas hon a roddwyd i lwyth Judah. Bu yr Hebreaid yn hir yn ymdaith yma, ac oddi yma yr anfonodd Moses yspiwyr i edrych tir yr addewid. Deut. 1. 46. Y mae yn eglur nad hon oedd y Cades yn anialwch Sin, neu Zin, lle y bu farw Miriam. Num. 12. 16. a 13. 2. a 20. 1. a 33. 18, 36.——2. Yr oedd un arall o'r enw yn rhandir Naphtali, sef Cades yn Galilea, yr hon a roddwyd i'r Gersoniaid, ac a wnaed yn ddinas noddfa. Jos. 20. 7. a 21. 32.——3. Un arall yn llwyth Issachar; hon hefyd a roddwyd i'r Gersoniaid. 1 Cron. 6. 72.

**CADNAW—ON,** (cad-naw) *Gr. κιναδος, κερδω*; llwynog. Enwad a roddodd Crist ar Herod, oblegid ei fod yn gyfrwysgall, fel llwynog, i bechu, ac â llawn fwriad dichellgar ganddo i ddyfetha ei ŵyn diniwed. Luc 13. 32. Edr. **Herod, Llwynog.**

**CADW,** (cad) cadwraeth, praidd.—'Nag ovna, dydi gadw bach.' Luc 12. 32. W. S.

**CADW,** (cad) dal, cynnal; gwarchadw.—1. Gwaredu oddiwrth ryw beryglon tymhorol, neu galluogi ac amddiffyn dyn yn eu hwyneb. Mat. 14. 30.——2. Gwaredu oddiwrth euogrwydd pechod, a rhyddhau oddiwrth ei awdurdod lywodraethol, ac hefyd oddiwrth ei lygriad. Ioan 17. 11, 15. Mat. 1. 21. a 18. 11. Luc 19. 10. Fel hyn y mae Crist yn cadw, neu yn gwaredu ei bobl. Maent yn cael eu cyfiawnhau trwy gyfrifiad o'i gyfiawnder ef iddynt; a thrwy weithrediad ei Ysbryd ef ynddynt, y maent yn cael eu sancteiddio, gallu a llywodraeth pechod yn cael eu darostwng a'u gwanhau, ac yn y diwedd eu llwyr ddinystrio.——3. Diogelu peth. 2 Tim. 1. 14.——4. Gwneuthur sylw ar. Ps. 119. 4.——Yr oedd Adda gwedi ei roddi yn ngardd Eden i'w llafurio ac i'w chadw hi; nid i fwyta ei ffrwyth yn unig, ond i'w golygu a'i llafurio hefyd. Felly y mae Duw yn gosod ei weinidogion yn ngardd neu winllan ei eglwys nid i fwyta ei ffrwyth yn unig (Can. 8. 11.) ond i lafurio ynddi (1 Thes. 5. 12.) ac i wylio drosti. Heb. 13. 17. 1 Petr 5. 2.

**CADWADAWG—OGION,** (cadw) yr hyn sydd yn cadw ac yn amddiffyn.—'Eu holl weithredoedd a wnant er eu gweled o ddynion: can ys llydanu eu cadwadogion a wnant:' sef eu phylacterau. Mat. 23. 5. W. S. Edr. **Phylacterau.**

**CADWEDIG,** (cadw) gwaredigol; diogel; diberygl; un wedi ei gadw a'i ddiogelu yn wyneb perygl. 1 Sam. 22. 23. Gwaredigaeth oddiwrth euogrwydd a damnedigaeth am bechod. Mat. 10. 22. a 19. 25. Act. 4. 12. 'Trwy ras yr ydych yn gadwedig;' sef gwedi eu gwaredu a'u diogelu yn dragywydd. Eph. 2. 8. Edr. **Ceidwad, Gras.**

**CADWRAETH,** (cadwr) cadwad; cadweidiaeth; cadwedigaeth; ceidwadaeth. Yr hyn a roddir dan ofal gwr, hyny yw ei gadwraeth. Job 1. 12. Y mae y gair *Heb.* משמרת a gyfieithir *cadwraeth* yn Gen. 26. 5. Num. 3. 8, &c. weithiau yn cael ei gyfieithu *gwyliadwriaeth.* Lef. 8. 35.—'Cadw y dydd Sabboth i'w sancteiddio.' Deut. 5. 12. Y Sabboth ydyw y cadwraeth yma. Yr un gair hefyd a gyfieithir *goruchwyliaeth* yn Num. 8. 26, &c. 'Cadw fy nghadwraeth;' sef gorchymynion Duw; y gorchymynion yw y gadwraeth. Gen. 26. 5.

**CADWYN—AU—O,** (cadw) tid, ystid.—1. Tid i rwymo dynion wrth waith caled, neu mewn carchardy. Jer. 52. 11.——2. Pleth o aur, &c. i addurno y gwddf. Gen. 41. 42.——3. Cyfraith Duw, yr hon sydd yn addurn godidog gan y credadyn, yn ei attal rhag penrhyddid cnawdol; (Diar. 1. 9.) ond yn gaethiwed ac yn garchar caled gan y rhai drygionus. 1 Tim. 1. 9, 10. Ps. 2. 3.——4. Balchder sydd fel cadwyn yn rhwymo dynion â'i awdurdod yn garcharorion iddo; ac y maent yn ei wisgo am danynt fel addurn, yn eu tyb hwy. Ps. 73. 6.——5. Awdurdod Duw ar yr angelion cwympedig, a dynion diedifeiriol. 2 Petr 2. 4. Judas 6.——Y gadwyn sydd yn addurno gwddf yr eglwys a'i haelodau, a arwydda gwirioneddau gogoneddus yr efengyl, y rhai ydynt mewn cysylltiad hardd a diwahan â'u gilydd: eu proffes hardd o honynt, mewn ffydd ac ufudd dod iddynt; ac effeithiau y gwirioneddau mewn gostyngeiddrwydd, parch, ufudddod, ac addoliad. Os wrth y gwddf y deallir gwir ffydd sydd yn cysylltu y corph â'r pen, wrth y gadwyn y gallwn ddeall ei holl effeithiau, y rhai sydd yn ei dangos, ac yn harddwch iddi. Iago 2. 18. Can. 1. 10. a 4. 9.

**CAE—AU,** (ca) gwrych, bid, gwyddi, perth. Trwy drawsddwyn, maes cauedig; fel cae o ŷd, cae o wair; hefyd, addurn-bleth; fel cae bedw, sef coronbleth o fedw; gwraig yn mron cae, sef agos i'w dwyn i'w gwely i esgor. Arwydda, 1. Amddiffyniad tir; megys o ŷd, gwair, gwinllan, &c. 1 Cor. 4. 23.——2. Gofal rhagluniaethol Duw. Job 1. 10.——3. Llywodraethwyr sydd fel cae neu fagwyr, yn llaw raslawn Duw. Esa. 5. 5.——4. Trefn Duw, trwy chwerwder a gofidiau, i rwystro ei bobl i gael eu ffyrdd eu hunain. Hos. 2. 6.——'Ffordd y diog sydd fel cae drain.' Diar. 15. 19.

**CAEL,** (ca) caffael; cyrhaeddyd; ennill; derbyn; meddiannu. Mat. 7. 8. Luc 11. 10. a 12. 38, 43.

Digitized by Google

CAENEN—AU, (caen) toad; gorchuddiad; arwyneb; y tu allan.—'A'r boreu yr oedd caenen o wlith o amgylch y gwersyll.' Exod. 16. 13. *Heb.* שכבת *toad*, neu *ddisgyniad o wlith*. Yr oedd dwy gaenen o wlith, un dan y manna, ac un arno; a'r tipynau manna oeddynt rhwng y ddau wlithyn yn cael eu cadw yn bur. Yn cyfeirio at hyn y mae yn cael ei alw, y 'manna cuddiedig.' Cymharer Exod. 16. 13, 14. Num. 11. 7. Dat. 2. 17. Edr. MANNA.

CAER—AU—AWG, (cae) mur, clawdd, moelglawdd; caerau dinas; amddiffynfa, tŵr; dinas â muriau iddi; dinas.—Caer-gwydion, sef y llwybr llaethog sydd ar noswaith eglur i'w ganfod yn gylchres lwyd-oleu yn y ffurfafen, a alwyd felly oddiwrth Gwydion ab Don, yr hwn oedd yn deall seryddiaeth, a farnent yn ddewin.—Haul dan gaerau, sef gostwng haul.—Y lleoedd a alwyd gan y Cymry *Caer*, a alwyd gan y Saeson *Caester*, *Cester*, *Cister*, *Chester*; a chan y Rhufeiniaid *Castrum*.—Coron gaerog; brethyn caerog, sef brethyn yn ei wneuthuriad tebyg i waith mur.—'Llodrau caerog.' Exod. 39. 28. Dr. M.—Arwydda, 1. Mur o amgylch dinas. Heb. 11. 30.——2. Iechydwriaeth yr Arglwydd, yr hon sy fel mur yn amddiffynfa gadarn, ddiysgog, a pharhaus i'w bobl. Esa. 26. 1. a 37. 26. a 60. 14, 18.——3. Eglwys y Cenedloedd, yn mynegi ei chadernid, gwedi ei hadeiladu trwy ffydd ar graig yr oesoedd. Can. 8. 9, 10.

CAERSALEM, dinas Salem. Edr. JERUSALEM.

CAETH—IWO, (cae) rhwym; carcharedig; gwneyd yn gaeth, carcharu. Deut. 24. 18. Rhuf. 7. 23. 1 Tim. 2. 26. Edr. GWAS, MORWYN.

CAETHGLUD—O, (caeth-clud) yr hyn a ddygir, neu a gludir yn gaeth; cludo, neu ddwyn yn gaeth, caethiwo. Deut. 20. 10. 2 Cron. 29. 5, 11, 15. Ezec. 3. 11, 15. Amos 1. 6. a 7. 17.—'Caethgludaist gaethiwed; derbyniaist roddion i ddynion.' Ps. 68. 18. Eph. 4. 8. Cyffelybiaeth ydyw hon gwedi ei chymeryd oddiwrth fuddugoliaethwyr, y rhai gwedi hir wrolaeth a aent i fynu i'w dinas eu hunain, ac a ddygent gyda hwynt y rhai penaf o'u caethion, ac a anfonent roddion i'w cyfeillion. 1 Sam. 18. 6. a 30. 26. Ps. 149. 8. Barn. 5. 12. Y mae yr Ysbryd Glân, dan y cysgod o waith Dafydd yn dwyn yr arch yn fuddugoliaethus i Sïon, ei ddinas ei hun, yn gosod allan Grist, o'r hwn yr oedd yr arch, a Dafydd hefyd, yn gysgod, yn ei esgyniad i'r gogoniant, ei ddinas yntau, ar ol disgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear, i orchfygu yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, i dynu colyn angau, ac i ddwyn y caffaeliad o law y cadarn. Eb un gwr, 'Ti a ddygaist yn gaeth yr hyn a ddygodd eraill i gaethiwed.' Neu fel hyn, 'Ti a ddygaist gaethglud o ddynion, megys mewn rhyfel.' Gwel y cyfryw ymadroddion. 2 Cron. 28. 5. 11. Ainsworth.

CAETHIWED, (caeth) carchar, rhwymedigaeth, rhwym-lafur, gwasgedigaeth. Exod. 2. 23. Ps. 78. 61. Jer. 15. 2.

CAFELL—AU, (caf) *Llad.* CANCELLI; côr eglwys, rhwyd-waith cangell.—Cafell y deml, ydoedd y cysegr sancteiddiolaf, i'r hwn yr âi yr arch-offeiriad un dydd bob blwyddyn; lle yr oedd yr arch a'r drugareddfa, &c. a'r lle y byddai IEHOFAH yn egluro ei feddwl rai prydiau, trwy lefaru geiriau.—'Ac fel yr oedd Moses yn myned i babell y cyfarfod i lefaru wrth Dduw, yna efe a glywai lais yn llefaru wrtho oddiar y drugareddfa, yr hon oedd ar arch y dystiolaeth, oddi rhwng y ddau gerub, ac efe a ddywedodd wrtho.' Num. 7. 89. 1 Bren. 6. 16. a 8. 6. 2 Cron. 4. 20. Ystyr y gair *Heb.* דבר ydyw *areithle*, neu *adroddle*, *lle llefaru*; oddiwrth fod Duw yn arfer llefaru ei feddwl wrth ddynion oddi yno. Ps. 28. 2. Parkhurst.

CAFN—AU, (caf) noe; diod-lestr; cawg; bad; ysgraff:—cafn enlli, cafn tylino, cafn pobi, cafn dylifo, cafn melin. Arwydda, 1. Math o lestr i ddal dwfr i ddiodi anifeiliaid. Gen. 24. 20. a 30. 38. Exod. 2. 15.——2. Y padellau ag oedd dan y canwyllbren yn y babell a'r deml, i ddal yr hyn a dorid oddiar benau y lampau â'r gefeiliau. Exod. 25. 38. a 37. 23.——3. Gwinwryf, neu y lle dan y wasg i dderbyn y gwin. Job 24. 11. Jer. 48. 33. Joel 3. 13. Marc 12. 1.

CAFOD. Edr. CAWAD.

CAFF—AD—AEL—IAD, (ca) cafrangiad, tynafael; tyn-afaelu, crafangu; meddiannu, cael, cyrhaeddyd, ennill; cyrhaeddyd, peth mewn gafael.

Tri pheth ni chaiff dyn ddigon er a gaffo; iechyd, hoedl, a chyfoeth.—*Diar.*

'Gosodaf i ti fan lle y caffo ffoi.' Exod. 21. 13. Edr. NODDFA.—'Rhana y caffaeliad yn ddwy ran; rhwng y rhyfelwyr a aethant i'r filwriaeth, a'r holl gynnulleidfa.' Num. 31. 27. Gan mai yr Arglwydd a barodd y fuddugoliaeth, y mae yn rhanu yr yspail wrth ei ewyllys, hanner i'r milwyr a hanner i'r gynnulleidfa. Jos. 22. 8. Yr oedd hon yn ddefod osodedig gan Dafydd i Israel. 1 Sam. 30. 24, 25.——'A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn?' Esa. 49. 24. Gofyniad nad ydoedd neb ond Duw yn gallel ei ateb: ond geill efe ei ateb yn gadarnhaol, am ei fod yn gadarnach na phob cadarn. Yr un ydyw y caffaeliad ag anrhaith y creulon. Adn. 25. Edr. ANRHAITH.

CAIAPHAS, [*chwiliwr dyfal*] mab yn nghyfraith Annas, yr hwn ydoedd arch-offeiriad yr Iuddewon y flwyddyn y dyoddefodd yr Iesu. Prophwydodd y byddai yr Iesu farw dros y genedl. Ioan 11. 51. Bu hefyd yn ceisio rhwystro yr apostolion i bregethu Crist. Act. 5. 27, 28.

CAIB, CEIBIAU, (cai) pâl: offeryn i lafurio, neu geibio daear. 1 Sam. 13. 20, 21. 2 Cron. 34. 6. Ar ymyl y ddalen, *gyrdd*, neu *morthwylion*. Esa. 7. 25.

CAIN, *Heb.* קין [*meddiant*] 1. Mab hynaf Adda ac Efa, yr hwn a anwyd, tebygol, yn nghylch diwedd y flwyddyn gyntaf o oed y byd. Pan aeth yn fawr, llafuriodd y ddaear. Gen. iv. Dug o ffrwyth y ddaear yn offrwm i'r Arglwydd; ond Abel ei frawd a ddug o flaenffrwyth ei ddefaid, oblegid bugail ydoedd efe: a'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm; ond nid edrychodd felly ar Cain. O achos hyn cododd y fath ddigllonedd yn Cain yn erbyn Abel ei frawd nes y lladdodd ef. Gwedi hyn aeth Cain ac a drigodd yn nhir Nod, o du y dwyrain i Eden. Tra yr oedd yn trigo yn y wlad hon, ganwyd iddo fab, ac efe a alwodd ei enw ef Enoch. Gen. 4. 17.—Myned yn *ffordd* Cain, yw bod yn greulon, ac ymhyfrydu mewn tywallt gwaed. Judas 12. Edr. ABEL.——2. Dinas yn Judah. Jos. 15. 57.

CAINC, CEINCIAU, (caing) cainc o bren, cainc o fôr, rhaff dair cainc, cainc o gerdd.—1. Cangen o bren. Gen. 40. 10.——2. Breichiau, megys y canwyllbren aur. Exod. 25. 31, 32.——3. Cainc o edafedd, neu raff. Preg. 4. 12.

CAIS, (cy-ais) tollwr, cynnullwr trysor, casglwr cyllid. Luc 18. 10. a 19. 1. W. S.

CAIS, ymgais; ymdrech; ymgeisio; ymegnïo; ceisio. Diar. 4. 4.—'Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen, ni chais Dduw.' Ps. 10. 4.—'Fel y cais bugail ei ddeadell' ar y dydd y byddo ar wasgar, felly y mae yr Arglwydd yn ceisio ei bobl, i'w gwaredu o'u holl grwydriadau. Ezec. 34. 12.

Digitized by Google

CALAH, *Heb.* כלח [*hen*] dinas a adeiladwyd gan Assur. Gen. 10. 11. Barna Bochart mai yr un yw a Halah. 2 Bren. 17. 6.

CALAMUS, *Heb.* קנה *corsen*; *Gr.* καλαμος; *Llad.* CALAMUS. Geilw Pliny hi, *Calamus aromaticus*, hefyd, *Calamus odoratus*, sef y Calamus peraidd. Math o gorsen bêr-aroglaidd, yn geuol oddifewn, ac ynddi ryw beth tebyg i wê y pryf copyn, ond ei fod yn bêr iawn ei arogl, yn enwedig pan fyddo newydd ei agor. Y mae yn tyfu yn yr India Ddwyreiniol, ac a arferir yn fynych yn *sauce*, a dywedir ei fod yn adfywio ac yn iachâu y galon, ac yn glanhau y cylla; pan losgir ef, fod ei fwg yn feddyginiaeth i afiechyd yn y ddwyfron. Exod. 30. 23. Esa. 43. 24. Yr oedd yn perthyn, ac yn rhan o'r enaint sanctaidd, ac yn arwyddo yr Ysbryd Glân a'i radau yn nghalonau y saint; y maent yn bêr eu harogl, yn gymeradwy a derbyniol gan Dduw a'i bobl; y maent yn puro y galon, ac yn cyffroi y meddwl i garu Duw, ac i fod yn wresog tros ei ogoniant. Can. 4. 4.

CALCEDON, *Gr.* χαλκηδων: maen o'r enw, a alwyd felly, medd Arethas, oddiwrth enw y ddinas Calcedon, yn Bithynia. Y trydydd maen oedd yn sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 19. Y maent o amrywiaeth lliwiau, mewn rhan yn dryloyw, ac mewn rhan yn dywyll.

CALCOL, כלכל [*difäwr y cwbl*] pedwerydd mab Mahol, Lefiad, cantor nodedig am ei ddoethineb. 1 Cron. 2. 6. 1 Bren. 4. 31.

CALCH, (cy-alch) *Llad.* CALX: ceryg, neu gregin, gwedi eu llosgi, yn ddefnyddiol i adeiladu, &c. Un o freninoedd Moab, gwedi cael gafael ar frenin Edom, naill ai yn fyw ai yn farw, a losgodd ei esgyrn ef yn galch. Amos 2. 1. Barna rhai mai mab brenin Edom a feddylir. 2 Bren. 3. 27. Prideaux.—Lluoedd yr Assyriaid a gyffelybir i losgfa calch, pan y torwyd y rhan fwyaf o honynt ymaith trwy haint, gan dân digofaint Duw. Esa. 32. 12.

CALDEA—AID, *Heb.* כשדים *Casidim* [*fel ysbeilwyr*] *Gr.* Χαλδεα, *Caldea:* ac oddiwrth y cyfieithiad Groeg y gelwir y wlad Caldea, a'i thrigolion Caldeaid, yn yr holl gyfieithiadau eraill. Bernir iddynt gael yr enw *Casidim* oddiwrth כשד (*Chesed*) mab Nachor, brawd Abraham, hiliogaeth pa un y bernir eu bod: ond llawer o ansicrwydd a dadl sydd am ddechreuad yr enw. Yr oeddynt yn adnabyddus wrth yr enw hwn yn amser Moses; yr hwn a eilw Ur yn Mesopotamia, y lle y daeth Abraham allan o hono, Ur y Caldeaid, i'w wahaniaethu oddiwrth le arall o'r un enw. Geilw Jerome hwynt, 'yr hen genedl.' Dywed Esaiah am danynt, 'Nid oedd y bobl hyn,' (pen. 23. 23.) sef nid oeddynt yn bobl gyfrifol (gwel Deut. 32. 21.), nid oeddynt yn cael eu cyfrif yn mhlith y cenedloedd mawrion a chryfion y byd, hyd amseroedd diweddarach. Pobl anfoesol, diddysg, greulon, oeddynt; heb gyfreithiau, heb drigfanau sefydlog; yn crwydro mewn anialwch eang, diffaeth, yn anrheithio fel yr Arabiaid gwylltion. Fel hyn y gosodir hwynt allan yn Job 1. 17. Felly y parhausant i fod, nes i Assur, rhyw frenin cadarn yn Assyria, eu casglu yn nghyd, a'u sefydlu yn Babilonia, a'r wlad gymydogaethol. Esa. 23. 13. Barna yr Esgob Lowth, a llawer o amseryddwyr eraill, mai Ninus oedd yr Assur hwn, yr hwn oedd yn byw yn amser y Barnwyr, yn ol eu meddyliau hwy, er bod eraill yn cyfrif ei fod yn oesi wyth cant o flynyddoedd yn gynt. Goresgynodd hwn Babilon oddiar yr Arabiaid, olynwyr Nimrod yn yr ymerodraeth hôno; casglodd y Caldeaid, ac a'u sefydlodd yno i ddiogelu ei feddiant o'r ddinas, yr hon y darfu iddo ef a'i olynwyr ei helaethu a'i haddurno. Lowth ar Esa. 23. 13. Ond y mae llawer o ansicrwydd yn yr hen hanesiaeth am y pethau hyn a'u cyffelyb. Y mae gwlad Caldea, yn yr ystyr mwyaf helaeth, yn cynnwys Babilonia; ac yr oedd yr afon Tigris o du y dwyrain iddi, Mesopotamia i'r gogledd, anialwch Arabia i'r gorllewin, a llynclyn Persia, a rhan o Arabia Ffelix, i'r dehau iddi. Yr oedd y tir yn fras, ond heb nemawr o wlaw; ac nid oedd llawer o'i eisieu, gan fod yr afonydd, y Tigris a'r Euphrates, yn ei ddyfrhau yn flynyddol. Ei enw cyntaf oedd Sinar. Gen. 11. 2.——Yn Dan. 2. 2, 4. arwydda Caldeaid, ryw blaid, neu gymdeithas, o ddysgedigion, (neu yn cymeryd arnynt eu bod felly) gwybyddion, seryddwyr, planedwyr, dewinwyr, y rhai a drigent, meddent, mewn talaeth wrthynt eu hunain; y lleill o'r bobl a alwent Babiloniaid. Edr. ASSYRIA, BABILON.

CALEB, *Heb.* כלב [*fel y galon*] 1. Mab Jephunneh o lwyth Judah, yr hwn a anfonwyd gyda Josuah i edrych ansawdd gwlad Canaan, ac a roddasant air da iddi yn wyneb drygair y deg eraill; dywedodd yr Arglwydd na chai y rhai hyny oedd yn rhoddi dryg-air i'r wlad fyned iddi; ond Caleb a Josuah a gaent fyned iddi; ac felly y bu. Jos. 14. 6.——2. Ardal yn Judah. 1 Sam. 30. 14. Edr. JOSUAH.

CALED—I, (cal) durfin; durfing; gwasgfa, helbul, cystudd, gofid, cyfyngder.—1. Galluog, nerthol, ystyfnig-naws, megys ag yr oedd meibion Serfiah yn rhy gryfion ac anystwyth i Dafydd i'w plygu. 2 Sam. 3. 39.——2. Pethau anhawdd eu gwybod; megys gwybod achosion, deall iaith, cwestiynau, &c. Exod. 18. 26. 1 Bren. 10. 1. Ezec. 3. 5.——3. Creulondeb; megys caethiwed, ac ymadrodd gwr caled. Exod. 1. 14. Ioan 6. 60. Mat. 25. 24.——4. Gofidus a galarus. 1 Sam. 1. 15.——5. Trwm, anhawdd, gofidus, chwerw-dost. Exod. 1. 14. Gen. 35. 16.—Dywedir fod yr Arglwydd yn caledu dynion, pan fyddo yn eu gadael yn eu caledrwydd, yn gyfiawn. Exod. 4. 21. a 7. 3. a 14. 4. Rhuf. 1. 24.

'Brawd a anwyd erbyn caledi.' Hwnw yn unig sydd yn frawd ac yn gyfaill cywir, a ymddug felly mewn cyfyngder a chaledi, yn gystal ag mewn rhan o lwyddiant a hawddfyd. Diar. 17. 17. Gwel Ruth 1. 16. Esth. 4. 1—14. Y cyfryw un yw Crist. Ioan 13. 1. Edr. BRAWD.

CALNEH, כלנה [*ein cyflawniad*] dinas a adeiladwyd gan Nimrod, yn ngwlad Sinar. Gen. 10. 10. Yr un a Calno, tebygol. Esa. 10. 9. Amos 6. 2.

CALFARIA, *Heb.* GOLGOTHA; *Gr.* Κρανιον; *Llad.* CALVARIA: [*lle y benglog*] Calfaria yn Lladin a arwydda yr un peth a Golgotha; sef *pen*, neu *penglog*;—κρανιον, *penglog*, yw y gair yn Luc a gyfieithir *Calfaria* yn Lladin, ac a gadwyd yn ein cyfieithiad ninnau. Y mae y bryn yn cael ei alw felly, medd rhai, oddiwrth y tebygolrwydd sydd ynddo i lun penglog; neu am mai dyma y lle o ddienyddiad i ddrwg-weithredwyr; neu am mai yma y teflid penglogau yr holl anifeiliaid a leddid yn bech-ebyrth yn Jerusalem. Yr oedd y bryn yma yn sefyll o du y gogledd i fynydd Sïon, ac yn y gogledd-orllewin i Jerusalem; a chan mai yno y byddai drwg-weithredwyr yn cael eu dienyddio, yr ydoedd wedi ei gau y tu allan i'r ddinas, ac yn cael ei gyfrif yn lle aflan a melldigedig. Luc 23. 33. Ar y bryn hwn y croeshoeliwyd Iachawdwr y byd.

CALON—AU, (cal) meddwl; yni; dewrder, hyder. Y rhan dufewnol hôno o gorph dyn, y sydd, trwy ei hysgogiadau diorphwys yn ei dderbyn a'i daflu allan, yn cadw y gwaed yn nghorph dyn mewn symudiad parhaus.—Y groth, 'brawd un galon,' yw brawd un fam. Arwydda, 1. Yr holl ddyn. Ps. 45. 1.——2. Yr enaid a'i gynneddfau. 1 Sam. 1. 13. Diar. 23. 26.——

Digitized by Google

3. Y gydwybod. Job 27. 6.——4. Yr ewyllys a'r serchiadau. Mat. 22. 37.——5. Y côf a'r myfyrdod. Luc 2. 51.——6. Bwriad. Esa. 7. 2.——7. Eisteddfod a ffynon y serchiadau, a gweithred. Mat. 15. 19. ——8. Y deall. Hos. 7. 11.——9. Canol peth. Exod. 15. 8. Ezec. 27. 4. *Heb.*——10. Y bedd. Mat. 12. 40.—Bod heb galon, yw bod heb ddeall. Hos. 7. 11.—Calon ddau-ddyblyg, enaid heb ei uno i ofni ac i wasanaethu yr Arglwydd. Ps. 12. 2. a 86. 11. Hos. 10. 2. Iago 1. 8.—Calon galed, gareg, enaid heb ei gyfnewid trwy ras. Ezec. 11. 19. Esa. 46. 12. —Calon Duw yw ei ewyllys a'i arfaeth, &c. Esa. 63. 4. —Calon newydd, enaid wedi ei gyfnewid gan Ysbryd Duw. Ezec. 36. 26. Edr. Gwared.

CALL—INEB, (all) doeth, deallus, synwyrlawn, cyfrwys; parodrwydd deall, synwyr i ddosparthu rhwng pethau a'u gilydd, megys drwg a da. Exod. 1. 10. 2 Sam. 13. 3. Mat. 10. 16. a 25. 2, 4, 9. Diar. 1. 4. Heb. 5. 14. Y mae callineb yn cael ei osod gyferbyn ag ynfydrwydd, megys yn hollol wrthwyneb iddo; (Diar. 12. 16.) ac i ffolineb yn adn. 23.

CALLESTR, (ca-llestr) caled-faen, careg dân. Deut. 8. 15. Parodd Duw i ddwfr bistyllio o'r graig gallestr i ddisychedu Israel yn yr anialwch. Ps. 114. 8. Wyneb neu dalcen fel callestr, a arwydda hyfder a gwrolder mawr. Esa. 50. 7. Ezec. 3. 9. Gwel Goode ar Job 28. 9.

CAM—AU, (cy-am) llam, camre; cerddediad.— 'Cam rhyngof fi ac angeu,' a arwydda bod mewn perygl ac enbydrwydd mawr. 1 Sam. 20. 3.

CAM—U, *Heb.* כפת *cephet*; *Gr.* καμπτω, *campto*; annuwioldeb, anghyfiawnder, anonestrwydd, geudab; crwca, gŵyr, crwm. Exod. 2. 13. Galar. 3. 36.— Cam-arfer. 1 Cor. 7. 31. a 9. 18.—Cam-attal. Lef. 19. 13.—Cam-dyst. Exod. 20. 16.—Cam-fater. Exod. 23. 7.—Cam-fucheddu. 2 Cron. 36. 14.— Cam-achwyn. 'Os dygais ddim o'r eiddo neb trwy gam-achwyn, yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd.' Luc 19. 8.—'A's dugym ddim y ar nep trwy hocced, mi ei talaf yn bedwar plyc.' W. S.—'Os gwnaethym gam â neb mewn dim, mi a adferaf yn pedwar-plyg.' Gwel Campbell's *Dissertations*, *p.* 610. Nid yn unig trwy gam-achwyn, neu ryw beth gyda chodi y trethi; ond os treisiais i neb mewn dim; neu os gwnaethym gam â neb mewn unrhyw beth. Y mae y gair *Gr.* συκοφαντεω, a gyfieithir yma *cam-achwyn*, yn cyfateb i'r gair *Heb.* עשק trwy yr hwn y mae LXX. yn ei gyfieithu; ac a gyfieithir i'r Gymraeg yn Ps. 72. 4. a 119. 134. *gorthrymder*. yn Preg. 5. 8. *trais*, ac yn Preg. 7. 7. *trawsedd*. Gwel Parkhurst a Doddridge. Mae natur ysbryd yr efengyl yn ymddangos yn o hynod yn Zaccheus, yn tòri grym ei syched am eiddo anghyfiawnder: ac nid yn unig hyny, ond yn rhoddi ynddo egwyddor wrthwyneb i orthrymder a thrais; sef egwyddor o gariad a haelioni. Natur ysbryd yr efengyl ydyw gweithio dynion at reol y gyfraith, beth bynag oeddynt o'r blaen. Exod. 22. 1. 2 Sam. 12. 6.

Cam-arfer, cam-dreulio, arferyd peth mewn modd ni ddylid, a'i dreulio er mwyn cyflawni chwant pechadurus. Gwel 1 Cor. 7. 31. a 9. 18.—Cam-attal, peidio talu pan y byddo yn uniawn gwneuthur hyny: os ydyw talu cyflog i weithiwr yn beth teilwng ac uniawn, y mae yn gam ac yn annheilwng ei attal. Lef. 19. 13. Iago 5. 4.—Cam-dystiolaeth, tystiolaeth anghywir, gau-dystiolaeth: yr hyn sydd drosedd o'r nawfed gorchymyn. Exod. 20. 16. Mat. 19. 18. Rhuf. 13. 9. 'Ffiaidd gan yr Arglwydd wefusau celwyddog.' Diar. 12. 22.—Cam-fater, mater anghywir, twyllodrus. Ymgadw yn mhell oddiwrth ymadrodd, neu air gau, yn ol cyfieithiad Ainsworth. Ymadrodd yn cael ei gyfeirio at swyddogion—annogaeth i beidio gŵyro barn, fel y mae y geiriau o'r blaen yn dangos. Exod. 23. 7.—Cam-fucheddu, byw gan chwanegu trosedd, fel y mae y gair yn arwyddo. 2 Cron. 36. 14. Ffrwyth cam-egwyddor ydyw camfuchedd, yn gyffredinol.

CAMEL, *Gr.* καμηλος; *Heb.* גמל [*ad-dalcr*, yn arwyddo tymher ddialgar y creadur hwn] anifel cadarn, mawr, pedwar-troediog, â chlustiau byrion, heb ddim cyrn. Nid oes ganddo ddim dannedd blaen yn yr ên uchaf, ac mae yn cnoi y cil. Y mae ganddo chwech neu wyth yn yr ên isaf, yn llydain, ac yn tafla allan. Y mae y camel gwedi ei wisgo â blew hirion, y rhai a fwria efe yn y gwanwyn; ac y maent yn cael eu casglu i wneuthur defnydd dillad â hwynt. Mat. 3. 4. Ei wddf sydd hir a main, felly mae ei goesau hefyd. Pan gyfodo ei ben i fynu, y mae yn uchel iawn. Y mae natur, yn rhyfedd, gwedi ffurfio y creadur hwn i deithio lleoedd sychion, poethion, a thywodlyd; y mae gwybodaeth sicr iddo deithio amryw gannoedd o filltiroedd heb brofi dim gwlybwr. Mae yn cael ei gyfrif gan Moses yn mhlith yr anifeiliaid aflan. Lef. 11. 4. Deut. 14. 7.—'Camelod blithion.' Gen. 32. 15. Camelod blithion, yn mhlith yr Arabiaid, yw y parth mwyaf o'u cyfoeth; y maent yn mhob ffordd yn ddefnyddiol; ac y mae tiriondeb rhagluniaeth i'w ganfod yn fawr yn darparu y cyfryw greadur i'r gwledydd hyny, lle nis gallasai un creadur arall fod o'r cyffelyb ddefnydd. Y mae y gameles yn rhoddi ei llaeth yn wastad; ie, nid yw yn peidio pan y bydd yn drwm â'i llwdn. Ei llaeth, gwedi ei gymysgu â thair rhan o ddwfr, sy ddiod hyfryd ac iachus.*—Pan fyddo y camelod i gael eu pynorio, plygant eu gliniau wrth orchymyn y gyrwr; ac os oedant i wneyd hyny, tarawant hwynt â phren, a gwasgant eu gyddfau i lawr: ac yna, fel pe byddai gorfod arnynt, griddfanant yn eu ffordd hwy, a phlygant eu gliniau, a gosodant eu boliau ar y ddaear, ac arosant yn y dull hwnw nes eu pynorio, ac yna peri iddynt gyfodi. Gwel Buffon's *Nat. Hist.*, *vol.* x., *p.* 21. Bochart, *vol.* ii., *p.* 10.

'Haws yw i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw.' Y mae yn Arabia yspeilwyr, a fyddant yn marchogaeth, yn lled gyffredin, i mewn i dyau, ac yn ymddwyn yn dra chreulawn, onis gellir arferyd moddion i'w rhwystro. O achos hyn y maent yn gwneuthur y drysau yn o isel, nid oes nemawr un o honynt yn fwy na thair troedfedd o uchder. Rhaid i'r rhai hyn fod yn lled anghyfleus i'r rhai sydd yn cadw camelod, pan fyddo arnynt eisieu eu dwyn i mewn i'r cynteddau. Pa fodd bynag, y maent yn eu dysgu, nid yn unig i ostwng ar eu gliniau i'w pynorio, a'u dadbynorio, ond i ymlusgo ar eu gliniau trwy y fath fân-ddrysau a hyn. Diammeu fod yn rhaid i hyn fod yn dra anhawdd: ac y mae yn dangos cyffelybiaeth ein Harglwydd yn naturiol iawn, Fod yn haws gwthio camel trwy ddrws cyn lleied a chrai nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw. Y mae y gyffelybiaeth hon yn dangos anmhosiblrwydd i'r dyn sydd â'i galon yn ei gyfoeth fyned i mewn i deyrnas nefoedd. Mat. 19. 24. Marc 10. 25. Gwel Harmer. Y mae hon yn ddiareb gyffredin gan y Rabbiniaid a'r Arabiaid; ac hefyd yn mhlith yr Indiaid Dwyreiniol, i ddangos anhawsdra neu anmhosiblrwydd peth. Gwel *Fiftieth Continuation of the Accounts of the East India Missions*, *p.* 252.

CAMLAS, (cam-glas) ffos, gŵyth, clawdd, ffrydle, adwy-ddwfr.—Tir camlas, sef tir llawn o ffosydd. 'Y dydd hwnw y bydd i'r Arglwydd ddyrnu o gamlas (sef ffrwd) yr afon Euphrates hyd afon yr Aipht.' Esa. 27. 12. Dr. M.

* Gwel Pliny's *Natural History*, *lib.* ii., *cap.* 41.

Digitized by Google

CAMOG, (cam) rhan o gànt olwyn. 1 Bren. 7. 23.

CAMON, [*cummin*] dinas yn perthyn i lwyth Manasseh, tu hwnt i'r Iorddonen, lle y claddwyd Jair, un o farnwyr Israel. Barn. 10. 5.

CAMP—AU, (camp) cylch; ymdrech: chwareuyddiaeth; gwobr ymdrech, camp-dlws: rhinwedd, cynneddf, naws, ansawdd, teithi.—Camp dda, camp ddrwg.—Yr oedd yn mhlith yr hen Gymry bedair camp ar hugain. Y rhai hyn a ranent yn dri dosparth; sef deg gwrol gampau; deg mabol gampau; a phedwar gogampau.

Glendid dyn yw ei *gampau*. *Diar.*

'Un sydd yn derbyn y gamp.' 1 Cor. 9. 24. Sef y camp-dlws, y cyngwystl. Cyfeiria yr apostol at y chwareuyddiaethau a'r ymdrechiadau yn mhlith y Groegiaid. Yr oedd pawb yn rhedeg, neu yn ymdrechu, ond un oedd yn ennill y gamp. Ymdrechfa a rhedegfa yw bywyd y Cristion; yn enwedig gweinidogion y gair: ac y mae o'r pwys mwyaf eu bod yn ymdrech yn gyfreithlon ac yn ffyddlon. Yn yr ymdrechfa, neu yr yrfa ysbrydol, geill pawb ennill y gamp; nid yw bod un yn cael ei goroni ddim yn rhwystr i eraill gael eu coroni hefyd. Coron anllygredig yw y gamp-dlws; y mae yn fawr ei werth, ac yn dragywyddol ei barhad.—'Yr ydwyf yn cyrchu at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu.' Phil. 3. 14.—'Am y gamp yr uchel 'alwedigaeth Duw in-Christ Iesu.' W. S. Edr. NOD. Y gamp, neu y gamp-dlws, yr uchel alwedigaeth, neu alwedigaeth Duw oddi uchod, at yr hwn y mae yr apostol yn cyrchu, yw adgyfodiad gogoneddus, a bywyd tragywyddol. I feddiannu hwn y galwodd Duw ef; effaith galwedigaeth Duw yw y cyrchu sydd ynddo yn barhaus, wrth y nôd, neu yr iawn reol osodedig, ac nis gorphwys nes ei chyflawn fwynhau. Edr. CYFREITHLAWN, GALWEDIGAETH, YMDRECH, YMESTYN.

CAMPHIR, math o bren pêr ei arogl, ac allan o hono y defnynna glud peraidd. Y mae efe o ryw y lawrydd; dywedir fod rhai o honynt yn 300 troedfedd o uchder, a deg llath neu ychwaneg o gylch-fesur. Y camphir goreu sydd i'w gael yn China, Japan, ac ynys Borneo.—'Cangen o rawn camphir yw fy anwylyd i mi, yn ngwinllanoedd Engedi.' Can. 1. 14. Mae llawer o amrywiaeth meddyliau pa blanigin a feddylir wrth כפר *copher*, a gyfieithir *camphir*; ond barn y teithwyr dwyreiniol diweddar yw, mai y planigyn *henna*, neu *hinna*, a feddylir, yr hwn sydd mewn cymeradwyaeth mawr gan yr Arabiaid, a'r cenedloedd dwyreiniol. Y planigyn hardd a pheraidd hwn, medd y Dr. Shaw, oni thorir ef yn flynyddol, a'i gadw i lawr, a dyf yn ddeg neu ddeuddeg troedfedd o uchder, ac yn rhoddi ei flodau yn sypiau, ac yn rhoddi yr arogl mwyaf hyfryd, fel camphir. Syr William Jones, yr hwn a welodd yr *hinna* gyntaf yn ynys Hindduan, neu Johuna, a'i darlunia yn blanigyn hardd iawn, yn nghylch chwe troedfedd o uchder cyn iddo flodeuo. Mae ei arogl yn beraidd, a bydd y merched yn ei ddwyn yn gyffredin yn eu mynwesau. Defnyddia yr eglwys y pethau mwyaf peraidd a hyfryd mewn naturiaeth i osod allan rinweddau ei hanwylyd, a'r hyfrydwch ysbrydol yr oedd yn ei gael yn ei gymdeithas. Mae yn felusach na'r mêl—yn werthfawrocach na'r aur, a'r gemau gwerthfawrocaf—ac yn bereiddiach na'r *hinna*.—Y gair a gyfieithir cangen o rawn, אשכל *eschol*, a arwydda *swp*; y mae llawer o rawn mewn un swp, yn arwyddo y cyflawnder o ras a bendithion ysbrydol sydd yn Nghrist. Y mae yn llawn o fendithion a chysuron, fel swp o rawn yn llawn o win hyfryd ac adfywiol.—Yr eglwys yn ei gras, ac hefyd yn ei haelodau a debygir i gamphir; y mae holl wir aelodau Crist yn debyg iddo; oblegid mai 'o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras.' Ioan 1. 16. Can. 4. 13.

CAMWEDD—AU—U, (cam-gwedd) trosedd, anwiredd, anghyflawnder, cam. Y gair *Heb.* פשע a gyfleithir *camweddau*, a arwydda *gwrthryfelgarwch* yn erbyn Duw neu ddyn. Gen. 31. 16. a 50. 17. Exod. 34. 7. Yr un gair sydd yn cael ei gyfieithu *camwedd*, yn Gen. 50. 17, &c. ag sydd yn cael ei gyfieithu *gwrthryfel*, yn 1 Bren. 12. 19.—Yr ydoedd offrwm gwedi ei osod dros gamwedd. Lef. 5. 15. Ond pan ddaeth Iesu i'r byd, daeth i ddibenu camwedd, ac i beri i'r bwyd-offrwm beidio. Dan. 9. 24, 27. Edr. PECHOD.

CAN, cysylltair; o herwydd, am, yn gymaint; er pan; fel, can hyny, can ddywedyd. Rhagddod, gyda; o;

Côf gan bawb a gâr. *Diar.*

CAN, dysglaer, gwyn, gwynder, megys bara càn, sef bara gwyn.

CAN—U, (caint) *Heb.* כן *Llad.* CANTICUM, CANERE: caniad, cerdd, hymn.—1. Càn o fawl a diolchgarwch; megys yr oedd cân Moses, Deborah, Hannah, Dafydd, &c. Exod. xv. Barn. v. 1 Sam. ii. Neu alarnad; megys Dafydd a Jeremiah. 2 Sam. i. Galar. i—v.——2. Yr achos ar ba un y cyfansoddir y gân; felly Duw yw cân ei bobl; ei ragoriaethau, a'i rad ddaioni, yw yr unig achos, a'r defnydd o honi. Exod. 15. 2.—'Cerdd yr Arglwydd—Cân yr Oen,' a elwir felly, am mai Duw a'r Oen ydyw testun y gân a'r moliant. Ps. 42. 8. a 137. 3. Dat. 15. 3.—Yr oedd Job a Dafydd yn gân i'w caseion, hyny ydyw, yr oeddent yn wrthddrychau o wawd a dirmyg iddynt. Job 30. 9. Ps. 69. 12.

Caniadau newyddion, ydyw rhai newydd eu cyfansoddi; neu rai am waredigaethau a thrugareddau newyddion, y rhai sydd yn wastad yn felusion a hyfryd. Ps. 33. 3. a 40. 3.

Caniadau ysbrydol, y rhai sydd ar achos ysbrydol; ac o ddefnydd ysbrydol a dwyfol; mewn cyferbyniad i ganiadau gwag, cnawdol, masweddol, a thrythyll, a elwir cân ffyliaid. Eph. 5. 19. Col. 2. 16. Preg. 7. 6.—Byddai gan yr Iuddewon ganiadau yn cael eu canu agos trwy y nos, o flaen eu huchel-wyliau, yn enwedig y nos gyntaf o ŵyl y Pasc. Esa. 30. 29.

Nid ydyw canu yn cael ei briodoli i un creadur ond angelion, dynion, ac adar. Nid yw pob crochwaedd, a bloedd â'r llais, yn addas i'w alw yn ganu; ac onidê, paham y gelwir peraidd sain, cethlyddiaeth, a mwyn byncio yr adar, yn ganu, (Can. 2. 12.) rhagor lleisiau yr anifeiliaid; megys rhuad y llew, brefiad yr ŷch a'r ddafad, a gweryriad y march, crochnad yr asyn, cyfarthiad y ci, rhochiad y mochyn? Y mae bloedd drystfawr buddugoliaethwyr, ac ysgrech a chrochwaeddi y buddugoliaethedig, yn wahanol iawn oddiwrth beraidd-sain canu. Pan ddisgynodd Moses a Josuah o'r mynydd, dywedodd Josuah, 'Y mae sŵn rhyfel yn y gwersyll.' Dywedodd Moses, 'Nid llais bloeddio am oruchafiaeth, ac nid llais gwaeddi am golli y maes; ond sŵn canu a glywaf fi.' Exod. 32. 17, 18. Yn eglur yn gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall.

Nid ydyw yr adar gwylltion yn y coedydd yn canu yn gyffredin dros ddeng wythnos; ond mae y rhai sydd yn cael digonedd o ymborth, mewn adar-dŷ, yn canu agos trwy y flwyddyn: nid yw y fenyw o un rhyw o adar un amser yn canu—y ceiliogod o bob rhyw sydd yn canu. Nid oes un siampl, medd Mr. Barrington, o aderyn yn canu a fyddo yn fwy mewn maintioli na'r mwyalch, neu yr aderyn du; ond dywedwn ni, y Cymry, fod ceiliog yr iâr yn canu; *Gr.* εφωνησε, *a rhoddodd ei lais allan.*—Y.

Digitized by Google

farn gyffredin yw, mai yr ëos ydyw y cantwr mwyaf rhagorol o'r adar. Y mae ei dôn, neu goslef, yn fwy meddal ac addfed nag un aderyn arall; ac ar yr un pryd, trwy roddi ei alluoedd cerddorol allan, dichon fod yn dra ysplenydd a gwych. Dichon hefyd ganu yn hŵy heb attal; a phan y byddo anadliad yn angenrheidiol, gwna hyny gyda llawer iawn o ddeall: y nesaf ato yn hyn ydyw yr ehedydd, yn gystal ag mewn amrywiaeth a chylch. Cana yr ëos, os goddefir yr ymadrodd, gyda rhagor deall a destliad na'r holl adar. Fel yr hen areithiwr, y mae yn dechreu ei sein-nôd yn isel ac yn araf, i arbed y llais i chwyddo nodau eraill—yr hyn a wna, trwy hyny, gyd âg effaith rhyfedd a hyfryd.

Y mae canu, fel rhan o addoliad dwyfol, i'w wahaniaethu oddiwrth bob gweithred grefyddol arall. —1. Oddiwrth weddi; oddiwrth ba un y mae yn cael ei wahaniaethu yn Iago 5. 13. 1 Cor. 14. 15. Yr oedd Paul a Silas yn gweddïo, ac yn canu mawl. Act. 16. 25.——2. Oddiwrth roddi diolch. Yr oedd yr Arglwydd Iesu wrth weini y Swper Sanctaidd, yn diolch, ac wedi hyny yn canu hymn. Mat. 26. 26—30. Eph. 5. 19, 20.——3. Y mae yn wahanol oddiwrth foliannu Duw; er ein bod yn moliannu wrth ganu, etto nid yw pob moliant yn ganu: un ffordd o foliannu Duw ydyw; ond y mae ffyrdd eraill i foliannu Duw heblaw hon—gellir ei foliannu yn ein gweddïau, ein pregethau, ein geiriau, a'n bucheddau. ——4. Nid llawenydd ysbrydol tufewnol yw; y mae yr agwedd hon yn addasu dyn i ganu, ond nid canu yw yr agwedd ei hun. Nid oes dim yn addas i'w alw yn ganu heb y llais. 'Canu a phyncio yn y galon i'r Arglwydd,' (Eph. 5. 19.) nid yw ddim amgen na chanu â'r galon, neu o'r galon, yn wresog, ac yn wirioneddol. Arwydda canu, fod y llais yn cael ei roddi allan, a hyny yn drefnus, yn rheolaidd, ac yn beraidd, yn addas i'r Duw sydd yn cael ei foliannu, ac i sylwedd neu fater y gân.

Y mae canu wedi bod, er y cynoesoedd, yn rhan o addoliad, yn gystal yn mhlith cenedloedd eilun-addolgar, ag addolwyr y gwir Dduw. Canodd Moses ac Israel yn beraidd wedi y waredigaeth ryfedd wrth y Môr Coch. Exod. xv. Felly y gwnaeth Deborah a Barac wedi hyny, wedi gwaredigaeth Israel oddiwrth Jabin brenin Canaan. Barn. v. Pan ddygwyd cerddoriaeth i'r graddau mwyaf o berffeithrwydd gan Dafydd, ac y cyfansoddodd lawer o bêr-ganiadau ysbrydol, efengylaidd, i'w canu yn addoliad Duw yn y deml, y mae yn galw ar bawb, holl genedloedd y ddaear, i foliannu yr Arglwydd. Ps. 66. 1, 2.

Canodd Crist a'i apostolion hymn, neu psalm, gyd â'u gilydd, ar ol cyfranogi o Swper yr Arglwydd; hyn a wnaethant fel eglwys, a Christ yn ei chanol a ganodd hymn, a hwythau gyd âg ef. Mat. 26. 30.—Yr oedd eglwys y Corinthiaid yn canu psalmau yn nyddiau yr apostolion. 1 Cor. 14. 26.

Yn niwedd y ganrif gyntaf, ysgrifenodd Pliny lythyr at yr ymerawdwr Trajan, yn hysbysu iddo, mai sylwedd yr achwyniad yn erbyn y Cristionogion oedd, 'Eu bod yn cyfarfod â'u gilydd ar ryw ddiwrnod neillduol, cyn dydd, i ganu cân i Grist fel Duw.' Gwel *ep. lib.* x., *ep.* 97. Coffa Tertullian, yn y drydedd ganrif, am ddarllen yr ysgrythyrau, canu psalmau, pregethu, a gweddïo, fel rhanau o'r addoliad cyhoeddus.

Yr oedd canu, fel pob rhan arall o'r addoliad cyhoeddus, yn yr eglwysi Cristionogol, ar y cyntaf, yn syml, a diaddurn; ac yr oedd yr holl gynnulleidfa yn cyd-ganu yn gerddgar, yn ddeallus, yn rheolaidd, ac yn ysbrydol. Diwygiodd Luther (yr hwn a hoffai gerddoriaeth yn fawr, ac oedd ddeallus yn y gelfyddyd hòno) ar gerddoriaeth y Pabyddion; ond Calvin, yn ei sefydliad o eglwys Geneva, a daflodd allan o'r addoliad cyhoeddus bob peth yn y gerddoriaeth ond mesurau hawdd, difrifol, a sobr. Rhanodd y Psalmau yn ddosparthiadau bychain; ac a'u gosododd i'w canu yn yr eglwysi yn rheolaidd, yn un llais. Am beth a ddylid ei ganu yn addoliad Duw, Edr. HYMNAU, ODLAU, PSALMAU.

Er mai y Caniadau yn Llyfr y Psalmau, yn benaf, a ddylid eu harferyd: ond gellir cynghaneddu rhanau eraill o'r gair yn fuddiol, gan ddynion heb fod dan ddylanwadau anffaeledig yr Ysbryd, a'u harferyd er adeiladaeth; ond dylai fod gofal mawr i'r cyfryw ganiadau fod yn ysgrythyrol, yn un â chysondeb y ffydd, ac wedi eu gosod allan gymaint ag y gellir yn iaith yr ysgrythyrau.* (Tertullian's *Apolog.*, *cap.* 39.) Y mae hen dadau yr eglwys yn achwyn yn drwm yn erbyn y canu gwag, ysgafn, a ddygwyd i mewn i'r eglwysi; tebycach i ganu mewn chwareuyddiaethau, i foddhau y glust, ac ysbryd gwag dynion cnawdol, nag addoliad dwyfol, er adeiladaeth dynion, a mawl i Dduw. Gwel Bingham's *Antiquities.*

**CAN Y CANIADAU**, y gân ragoraf, neu y gân benaf, nid yn unig o holl ganiadau eraill Solomon, ond o holl ganiadau y byd. Nid yn unig am fod y testun penaf, a'r defnydd goreu ynddi, hyny yw, Crist a'i eglwys; ond hefyd am ei bod yn helaethach nag un o Psalmau Dafydd. Nid cariad Solomon at ferch Pharaoh, nac yr un arall o'i wragedd, ydyw sylwedd y gân hon; oblegid ni ysgrifenwyd mo honi tan ar ol adeiladu tŵr Libanus; (pen. 7. 4.) yr hwn ni adeiladwyd nes ei fod ef mewn gwth o oedran. Ond yn nechreuad ei deyrnasiad y priododd efe ferch Pharaoh. Yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad y dechreuodd adeiladu y deml: yr hon, â'i dŷ ei hunan, a barhaodd yn waith iddo am ugain mlynedd; felly yr oedd wedi teyrnasu pedair ar hugain o flynyddoedd cyn dechreu tŵr Libanus. Pa hyd y bu yn adeiladu y tŷ mawr costus hwnw, nis gwyddom. 1 Bren. 7. 2. a 10. 17. Ond yr oedd y tŵr wedi ei adeiladu cyn yr amser yr ysgrifenwyd y llyfr hwn. Y mae llawer o'r arwydd-luniau yn y gân hon, os cymhwysir hwynt at bendefiges, yn hytrach yn wrthuni iddi nag yn un math o harddwch; megys, pan ei gelwir yn 'geidwad gwinllanoedd'—ac y dywedir fod iddi 'ben fel Carmel —a thrwyn fel tŵr Libanus—llygaid fel pysgod-lynoedd—dannedd fel deadell o ddefaid'—a'i bod 'yn ofnadwy fel llu banerog,' &c. Ond os deallir y pethau sydd ynddi am y briodas, a'r gymdeithas nefolaidd sy rhwng Crist a'i eglwys, sef ei bobl, ymddangosant yn athrawiaethol, yn wresog, ac yn odidog ragorol. Y mae y llyfr hwn yn cynnwys ynddo, yn fyr, ddanteithion a brasder yr efengyl. Y rhai sydd yn cael fwyaf o gymdeithas â Duw, a gânt fwyaf o fudd ysbrydol wrth ei ddarllen.——Y mae y pedair pennod cyntaf yn cynnwys geiriau mwyn-serch rhwng Crist a'i eglwys, yn dangos hoffed a theced gan bob un eu gilydd. Yn y bummed bennod, y mae yr eglwys, trwy ofid edifeiriol, yn cydnabod ei hesgeulusdra yn peri i Grist sòri; gan ddangos ei dolurus gŵyn am ei golli tros amser, a'i diwyd ofal i'w geisio drachefn; a'i disigl ffydd nas collasai ef mor llwyr, nad oedd efe yn eiddo iddi hi, a hithau yn eiddo iddo yntau etto. Ac yn y tair pennod diweddaf, y mae Crist yn gymmodlawn yn ei dyddanu; a phob un yn dangos brydferthed ganddynt eu gilydd. Er bod geiriau y llyfr hwn yn serchogaidd, etto y mae y deall yn ysbrydol; heb ynddo na gwŷn cnawdol, nac anlladrwydd anianol. Eithr fel y deallai dyn odidogrwydd Crist ynddo ei hun, a'i serch i'w ffyddloniaid, y mae yr Ysbryd Glân yma yn arfer ymadroddion hysbys i ddyn; ac yn

* The ancients made no scruple of using Psalms and Hymns of human composition, provided they were pious and orthodox for the substance, and composed by men of eminence, and received by just authority, and not brought in clandestinely into the church. Bingham's *Antiquities of the Christian Church*, *b.* xiv., *ch.* ii., *s.* 17.

Digitized by Google

rhoddi i Grist ac i'w eglwys eiriau arferol rhwng dau ddyn ieuanc yn caru; neu ddau briod yn hoffi eu gilydd. Felly mewn manau eraill o'r Ysgrythyr Lân, y mae yr un ysbryd yn cyffelybu undeb a thegwch Crist a'i eglwys i ddyweddïad, neu briodas, ar ammodau cariad, a'r gwychder a berthyna i hyny; fel y gwelir yn Ezec. 16. 8. Hos. 2. 19. Ps. 25. 10, 11. Mat. 22. 2. Bibl y Dr. Morgan.

CANA, [*meddiant*] 1. Cana Galilea, pentref yn agos i Nazareth, lle gwnaeth Crist ei wyrth gyntaf, a elwid felly i'w gwahaniaethu oddiwrth Cana yn llwyth Aser. Ioan 2. 1. Jos. 19. 28.——2. Afon ar gyffiniau Ephraim a Manasseh. Jos. 16. 8. a 17. 9.

CANAAN, כנען [*marchnatäwr*] cyfieithir ef *marchnadyddion*, Ezec. 17. 4. Zeph. 1. 11.—*marsiandwr*, Hos. 12. 7. Esa. 23. 8. Diar. 31. 24.

1. Mab ieuengaf Ham, ac ŵyr Noah. Gen. 9. 18. Galwyd mab ieuengaf Ham wrth yr enw hwn yn brophwydoliaethol, medd Parkhurst, am y byddai ei hiliogaeth yn Phœnicia, dros amser maith, y marchnadyddion mwyaf yn y byd; a'u hanedigion, y Carthaginiaid yn Affrica, a ddilynasant eu siampl. Nid oes hanes am ei enedigaeth na'i farwolaeth wedi ei roddi gan Moses. Dychymygant iddo gael ei eni yn yr arch. Yr ydoedd melldith Noah, tebygol, yn briodol yn unig i'r mab hwn i Ham, ac nid ydyw yn ymddangos iddo gyrhaedd i'w feibion eraill ef. Yr Hebreaid a gredent mai Canaan yn gyntaf a ganfu noethder ei daid Noah, ac a'i mynegodd i Ham ei dad: ac am hyny y disgynodd y felldith arno. Yr oedd hiliogaeth Canaan yn lliosog. Ei fab hynaf Sidon a sylfaenodd y ddinas o'r enw, ac ydoedd dad y Sidoniaid a'r Phœniciaid. Yr oedd i Canaan ddeg eraill o feibion, y rhai oeddynt dadau i gynnifer a hyny o lwythau; sef y Jebusiad, yr Amoriad, y Girgasiad, yr Heflad, yr Arciad, y Siniad, yr Arfadiad, y Semariad, a'r Hemathiad. Gen. 10. 15—18. Tebygol i Canaan fyw a marw yn Palestina, yr hon a alwyd oddi wrtho ef Canaan. Dangosent ei feddadail mewn ogof yn mynyddoedd y llewpardiaid, yn agos i Jerusalem.

2. Y wlad lle yr oedd hiliogaeth Canaan yn preswylio. Y mae hi yn agos i 200 o filltiroedd o hŷd, o Dan i Beerseba; ac yn nghylch 80 milltir o led. Y mae Môr y Canoldir o du y gorllewin iddi; Libanus a Syria o du y gogledd; Arabia Garegog o du y dwyrain; anialwch Paran a'r Aipht o du y dehau. Dyma faintioli gwlad Canaam, yr hon a addawyd i'r Israeliaid; eithr hi a gyfrifir yn bresennol o'r afon fawr Euphrates, hyd afon Nilus. Exod. 23. 31. Y mae yn awr yn llawn o arwyddion melldith, fel na wyddis gan anialwch pa le y bu y dinasoedd penaf yn sefyll. Rhaid ei bod gynt yn wlad dra ffrwythlawn, trwy fendith neillduol Duw arni hi. Rhydd Moses ddesgrifiad godidog o honi yn Deut. 8. 7, &c., mewn amryw ystyriaethau yn rhagori ar wlad yr Aipht, yr hon oedd mor enwog gynt am ei ffrwythlonrwydd, yn enwedig yn rhyw a nifer ei hanifeiliaid, ac yn ei holew a'i gwin. Mae ei hawyr yn gymhedrol, y tymhorau yn rheolaidd, yn enwedig ei gwlaw cynnar a diweddar. Yr oedd ei daear mor fras fel na ofynai wrtaith, ac yr oedd yn hawdd ei haredig âg aradr bychan, ac un iau ychain. Am ragoroldeb yr ŷd yno, dywedir fod bara Jerusalem yn rhagori ar bob bara; a bod ŷd llwyth Aser yn neillduol yn rhagori ar bob ŷd arall. Yr oedd ei ffrwythau yn ddanteithiol, ei llysiau yn hyfryd-beraidd, a'i phlanigion yn iachusol. Yr oedd grawn y gwinwydd yno yn fawrion, yn beraidd, ac yn hyfryd i'r archwaeth. Yr oedd y palmwydd a'u ffrwythau mewn cymeradwyaeth mawr; ac yr oedd ei balm yn feddyginiaethol iawn. Edr. BALM, GILEAD. Yr oedd y gwinwydd yno yn dwyn ffrwythau ddwy waith, ac weithiau dair gwaith, yn y flwyddyn. Yr oedd y coed yno mewn gwyrddlesni parhaus—yr oedd y blagur newydd yn ymddangos cyn casglu yn gwbl yr hen ffrwythau. Yr oedd y coedydd a'r creigiau yn dyferu mêl, a alwent 'mêl gwyllt.' Mat. 3. 4. Dywedir fod y gwenyn mor aml fel y gosodent en diliau rhwng cangenau y coed, a chlogwyni y creigiau, a hwyrach mai hwn a alwent y 'mêl gwyllt.' Nid ydynt yn dystrywio y gwenyn yno i gael eu mêl, fel yn ein gwledydd ni.

Os gellir edrych ar un man ar ein daear ni yn fwy cysegredig na'i gilydd, Canaan yw y lle. Yno y pereriniodd yr hen batrieirch, ac y mae eu llwch yn gorwedd hyd ddydd brawd; yno y bu addoliad Duw dros oesoedd yn cael ei gynnal; ac yno y ganed, y bu byw, ac y dyoddefodd Iachawdwr y byd; gwladeiddiwr o'r wlad hon oedd Tywysog y bywyd; ac yno y cwblhaodd y gwaith y bydd coffa a moli byth am dano; yno y tywalltwyd yr Ysbryd Glân, y planwyd Cristionogrwydd, ac oddi yno y taenodd ar led dros wyneb y ddaear. Y mae ei holl gynnyrch, a phob gwrthddrych ynddi, mewn ystyriaeth, yn gysegredig trwy y defnydd a wnaed o honynt gan yr Ysbryd Glân, yn gyffelybiaethol, i ddangos a gosod allan bethau ysbrydol yn eglur i ni. Ei mynyddoedd, ei hafonydd, ei choedydd, ei llysiau, ei phlanigion, ydynt oll wedi eu defnyddio i'r dyben hwnw. Mae yr Iachawdwr, yr iechydwriaeth, ïe, y nefoedd ei hun, i'w canfod yn ffugyrol yn ngwrthddrychau y wlad hon; a gwybod natur y wlad, ei gwrthddrychau, a'i chynnyrch, sydd lawer o help i ddeall y Bibl ei hun. Pan yn y dyddiau diweddaf y blagura Cristionogrwydd yno yn ogoneddus, hwyrach y bydd y Bibl yn fwy deallus i Gristionogion gwlad Canaan nag un wlad yn y byd. Ymddyddenais âg un fu anghredadyn a gafodd ei argyhoeddi o wirionedd yr ysgrythyrau trwy deithio yno, a chanfod pob peth yn cyfateb yn hynod i'r hanes am danynt. Dewisodd Duw y fan hon o'r ddaear, yn benaf, i amlygu ei ogoniant ynddo; a hyfryd ydyw meddwl am dani rhagor un man arall o'r byd. Daw ei gwrthddrychau yn mhellach dan ein hystyriaeth, dan eu priodol enwau.

Y CANAANEAID oeddynt hiliogaeth Canaan. Eu trigfa gyntaf oedd yn ngwlad Canaan, yn mha le y lliosogasant yn ddirfawr. Yr oeddynt yn hynod fel marchnadyddion a milwyr; fel hyn casglasant lawer o olud, a phoblogasant y rhan fwyaf o ynysoedd Môr y Canoldir. Pan oresgynodd Josuah wlad Canaan, ffôdd llawer o honynt i Affrica a gwlad Groeg. Dywed Procopius iddynt yn gyntaf gilio i'r Aipht, ac yn raddol iddynt fyned yn mlaen yn Affrica, ac a daenasant dros yr holl daleithiau ëang hyd at gyfyng-fôr Gibraltar, ac yn cadw o hyd eu hen iaith, heb ond ychydig o gyfnewidiad. Dywed yr awdwr hwn, fod yn yr hen ddinas Tingis, a sylfaenwyd ganddynt hwy, ddwy golofn o feini gwynion, â'r argraff ganlynol arnynt, yn iaith a llythyrenau Phœnicia: 'Pobl ydym a gadwyd trwy ffoi rhag yr yspeiliwr hwnw, Josuah mab Nave, yr hwn oedd yn ein hymlid ni.' Y trefedigion a ddygwyd gan Cadmus i Thebes, yn Bœtia, a'i frawd Cilix i Cilicia, oeddynt o hiliogaeth Canaan. Tybir mai ei hiliogaeth ef a boblogasant Sicily, Sardinia, Malta, Cyprus, Corfu, Majorca a Minorca, Gades, Ebusus. Bochart *in Can.* Edr. enwau meibion Canaan: hefyd, DAFYDD, HAM, JOSUAH, NOAH.

CANCR, *Gr.* *γαγγραινα, gangrain:* math o afiechyd peryglus, sydd yn ysu ac yn madru y cnawd lle y cymero afael. Wrth ei rediad buan yn y cnawd, y mae yr holl gorph mewn perygl; ac yn fynych y mae yn anfeddyginiaethol heb dori ymaith y lle afiach. Ymddengys, wrth edrych trwy chwydd-wydr, fod lliaws mawr o fân bryfed yn ymborthi ar y cnawd, a hyny yw yr achos o hono.

Digitized by Google

Cyfeiliornadau a heresiau a gyffelybir yn yr ysgrythyrau i gancr; am ei fod yn fuan yn ymdaenu tros enedidiau dynion, yn eu llygru ac yn eu difa: y maent yn bwyta bywyd crefydd, ac yn dwyn dystryw ac angeu ar bersonau ac eglwysi. 2 Tim. 2. 17.

CANDACE, *Gr.* Κανδακη, [*un â meddiant*] enw brenines o Ethiopia, yr hon y daeth ei heunuch i Jerusalem i addoli yr Arglwydd, ac a fedyddiwyd gan Phylip. Act. 8. 27. Edr. EUNUCH.

CANFOD, (can-bod) gweled, llygadu, cael golwg ar. Job 23. 8. Mat. 13. 15. Marc 11. 13. Act. 16. 17. Diar. 13. 3.

CANGEN—AU, *Heb.* ענף 1. Rhan o bren. Barn. 9. 48.——2. Crist a elwir 'Cangen o rawn camphir.' Can. 1. 14. Edr. CAMPHIR.——3. Yr eglwys, neu wir aelodau Crist. Ioan 15. 5. Edr. GWINWYDDEN.——4. Breninoedd a gwyr mawrion, y rhai sydd yn cysgodi eu deiliaid â chyfreithiau da, &c. Ezec. 17. 6. Dan. 4. 12.——5. Plant, y rhai sydd yn dyfod oddiwrth eu rhieni fel cangenau oddiwrth y pren. Job 15. 32. Joel 1. 7.—'Eithr tydi a fwriwyd allan o'th fedd, fel cangen ffiaidd.' Esa. 14. 19. 'Fel y pren a ffieiddir.' Lowth. Cangen neu bren ffiaidd, ydyw y cyfryw ag y crogwyd drwg-weithredwyr arno. 'Y mae yn ysgrifenedig,' medd Paul, 'melldigedig yw pob un sydd yn nghrog ar bren.' Gal. 3. 13. Deut. 21. 23. Yr oedd yr Iuddewon, gan hyny, yn barnu y pren ar ba un y crogwyd un, yn felldigedig, ac yn ffiaidd. Yr oedd y pren ar ba un y crogid y drwg-weithredwyr—y ceryg â pha rai y cai un ei labyddio —y cleddyf gyd â'r hwn y lleddid un—a'r cadach â'r hwn y tagid un—yr oedd y pethau hyn oll yn cael eu cyfrif yn ffiaidd, ac i gael eu claddu gyda chorph y dienyddiedig, fel y pethau mwyaf ffiaidd.*

CANIAD—YDD, (can-iad) cantor, un â chanddo ddawn canu, un yn canu.—'Dafydd mab Jesse, peraidd ganiedydd Israel.' 2 Sam. 23. 1. Edr. DAFYDD, PSALMAU.

CANIATAD, (caniad) goddefiad, cenad, cydsyniad, trwydded. Gen. 19. 21. Neh. 1. 11. Mat. 8. 31. Heb. 6. 3.

CANLYN, (can-glyn) dilyn, erlyn.—1. Dilyn un a fyddo gwedi myned o'r blaen. 1 Sam. 25. 27.——2. Canlyn Crist, neu ddilyn yr Oen, yw gwneuthur proffes gyhoedd o'r efengyl, a thrwy ffydd fywiol gwneuthur ymroad diffuant i ganlyn ei siampl mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd: ymhyfrydu yn ei air a'i ordinhadau, gan bwyso ar ei hollalluog nerth.— Y mae gweithredoedd y saint yn eu canlyn; nid ydyw eu gweithredoedd yn myned o'u blaen, ond yn eu canlyn; i ddangos mai eu personau sydd yn cymeradwyo eu gweithredoedd, ac nid eu gweithredoedd eu personau; a'r ddau yn cael eu cymeradwyo trwy Grist. Hefyd, i ddangos fod Duw yn gwobrwyo gwaith ei ras yn ei bobl. Dat. 14. 13. Mat. 10. 42. a 25. 40. Marc 9. 41. Heb. 6. 10.

CANLLAW—IAU, (can-llaw) mur-ganllaw; cynghorwr neu amddiffynwr mewn llŷs; gwaith o goed neu faen, a wneid o amgylch penau tai gwastad-nen yr Iuddewon, a'r gwledydd cymydogaethol iddynt, i rwystro i neb syrthio oddiar nenau y tai, neu i ymladd â'r gelynion oddi arnynt. Deut. 22. 8. Jer. 5. 10.

CANMOL—ADWY, (can-mawl) moli, clodfori; teilwng o ganmoliaeth.——1. Moliannu a rhyfeddu mawr ac anfeidrol ddaioni Duw. Ps. cxxxviii.——2. Dadgan rhinweddau a chymhwysderau dynion; (Gen. 12. 15. Diar. 12. 8.) neu eilunod mudion a ffugiol. Barn. 16. 24.—'Yr Arglwydd canmoladwy.' 2 Sam. 22. 4.—'Mawr yw yr Arglwydd, a chanmoladwy.' 1 Cron. 16. 25. Ni chanmolir yr Arglwydd byth gan neb, nes y gwelant ef yn ganmoladwy, ac yn deilwng o ganmoliaeth, o ran ei hawddgarwch anfeidrol ynddo ei hun, a'i ddaioni annhraethol i ni.

*Canmawl* dda, taw ddrwg. *Diar.*

CANOL—YDD, (cant-ol) cymherfedd, perfeddbwynt.—1. Y pwynt cyfartal rhwng dau barth mewn amser; y cyfrwng, cyn agosed i'r naill ag i'r llall. Num. 35. 5. Ezec. 48. 15.——2. I mewn i ryw beth, megys canol y môr. Jonah 2. 3.——3. Yn mysg. Hos. 11. 9. Zeph. 3. 5. Luc 2. 46.——'Canolydd,' cyfryngwr. 1 Tim. 2. 5. W. S.

CANT—OEDD, deg o ddegau.—1. Rhifedi terfynol a phenodol. Gen. 11. 10. a 17. 17.——2. Rhifedi mawr anmhenodol. Diar. 17. 10. Preg. 6. 3.

CANWRIAD, (can-wr) swyddog yn rheoli cant o filwyr. Mat. 8. 5. a 27. 54.

CANWYLL—AU, (can-gwyll) *Llad.* CANDELLA; *Saes.* CANDLE; goleu; llusern; peth i roddi goleu yn y nos. Luc 15. 8. Trwy draws-ddwyn, arwydda canwyll, neu lusern, un peth a fyddo mewn rhyw ystyr yn ateb dyben, neu yn cyflawni swydd canwyll; megys y llygad, 'canwyll y corph yw y llygad.' Mat. 6. 22. Luc 11. 34.—'Goleuni, neu llusern y corph yw y llygad.' W. S. Fel y mae canwyll yn ddefnyddiol i weithio neu deithio yn y nos, y mae llygad iach, craff, yr un fath mor ddefnyddiol; ac y mae holl aelodau y corph yn ei oleuni yn gallel gwneyd eu gwasanaeth a'u gorchwylion. Felly hefyd y gelwir athraw goleu a deallus, yr hwn, trwy ei addysg a'i fuchedd, sydd yn goleuo eraill yn ngwybodaeth y gwirionedd dwyfol, er eu cysur a'u hiechydwriaeth. Dywedir am Ioan Fedyddiwr, 'Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo;' sef yn athraw hynod o ddefnyddiol. Ioan 5. 35.

Gelwir ysbryd dyn yn 'ganwyll (neu lamp) yr Arglwydd, yn chwilio holl gelloedd y bol.' Diar. 20. 27. Sef ysbryd dyn wedi ei oleuo, yn cyflawni ei swydd yn ddeallus ac yn ddiduedd, ac yn barnu yn gywir am bob peth, yn enwedig am dano ei hun, yn ol tystiolaeth gywir y gair. Heb. 4. 12, 13. 1 Ioan 3. 19, 20, 21.

'Pa sawl gwaith y diffydd canwyll yr annuwiolion?' Job 21. 17. Canwyll, yn y fan yma, a arwydda llwyddiant, hawddfyd, esmwythder, cysuron, &c. Diffydd canwyll llwyddiant yr annuwiol gan farnedigaethau disymwth a dychrynllyd. Diar. 13. 9. a 20. 20. a 24. 20. Mat. 25. 8.

Yn nghanol nos o brofedigaethau, ofnau, a pheryglon, goleuodd Duw ganwyll neu [נר] lamp Dafydd, ac a lewyrchodd ei dywyllwch, trwy wellhau ei amgylchiadau, symud ei ofnau, a dyddanu ei ysbryd. Ps. 18. 28.

O herwydd eu hanwyldeb a'u diogelwch, geilw Duw ei bobl, 'canwyll ei lygad.' Deut. 32. 10. Ps. 17. 8. Zech. 2. 8. Y maent hwy yn dyner ac yn hawdd eu dolurio, fel llygad; ond y maent wedi eu diogelu yn rhyfedd, fel y llygad. Edr. LLYGAD.

Goreu *canwyll* pwyll i ddyn. *Llywarch.*

CANWYLLBREN, (can-gwyll-pren) canwyllydd; offeryn i ddal canwyll. Exod. 25. 31. Yr oedd y canwyllbren oedd yn perthyn i'r babell, a'i bwysau, yn dalent o aur pur, yn sefyll yn y lle sanctaidd, ar gyfer bwrdd y bara gosod, ar yr ystlys ddehau, i oleuo y cysegr. Gosododd Solomon ddeg o'r cyfryw yn y deml; pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aswy, o flaen y gafell. 1 Bren. 7. 49. Yr oedd y canwyll-

* Gwel Kalinski *Vaticinia Observationibus illustrata*, p. 342.

Digitized by Google

bren hwn gwedi ei wneuthur o un dryll cyfan o aur coeth, o un cyfanwaith morthwyl, ac iddo baladr â chwech o geinciau yn myned allan o'i ystlysau, tair o un ystlys, a thair o ystlys arall gyferbyn a'u gilydd. Yr oedd tair padell o waith almonau, a chnap a blodeuyn ar bob cainc. Yr oedd hefyd gnap dan bob dwy gainc ar y paladr; ac yr oedd ar y canwyllbren bedair padell o waith almonau. Yr oedd hefyd yn perthyn iddo efeiliau a chafnau o aur coeth.

Yr oedd pedwar peth yn cael eu cysgodi yn y canwyllbren hwn; sef yr eglwys mewn undeb â Christ, ac yn derbyn goleuni oddi wrtho, yr hwn ydyw ffynon pob cyfraniad i'r eglwys; (2 Sam. 22. 29.)—y weinidogaeth yn yr eglwys—y gair—a'r Ysbryd Glân. Zech. 4. 2. Dat. 2. 1. Eph. 3. 20. a 5. 8.

I. *Yr oedd y canwyllbren aur yn gysgod o'r eglwys.* Y mae yr Arglwydd yn ddehonglydd i ni ar y mater yma yn Dat. 1. 20.

1. Yr oedd y canwyllbren yn derbyn ac yn cyfranu goleuni; felly yr eglwys. Dyben a defnydd yr eglwys gwedi derbyn goleuni ydyw rhoddi i eraill, a dal y gwirionedd, fel y mae canwyllbren yn dal y goleuni. Phil. 2. 15. 1 Tim. 3. 15. Canwyllbren ydyw, nid haul.

2. Fel yr oedd y canwyllbren o aur (fel aur y mae yn dra gwerthfawr, Galar. 4. 2. Job 28. 15. Diar. 3. 14. 1 Petr 1. 7. a 3. 3, 4. 2 Petr 1. 4.) felly y mae yr eglwys o saint; am hyny y mae yr eglwysi yn cael eu galw canwyllbrenau aur; nid pres, na phlwm, nac ychwaith peth gwedi ei oreuro, ond aur—nid dynion halogedig, aflan, anwybodus, rhagrithiol, ond saint pur.

3. Yr oedd amryw geinciau yn y canwyllbren, gan hyny yn wahaniaethol; ond y cwbl yn dyfod allan o'r un paladr, ac wedi eu gwneuthur o'r un dryll aur, ac am hyny yn *un*; felly y mae yr eglwys yn amryw gangenau; etto y mae yr holl eglwysi yn tarddu o, ac yn dibynu ar, yr un Crist, ac yn *un* ynddo ef, un dryll gwedi ei weithio yn baladr ac yn gangenau; un Pen sydd iddynt, ac y maent oll yn derbyn o'i gyflawnder; ac yn cael eu harwain a'u llywodraethu wrth yr un rheol, sef y gair, a chan yr un Ysbryd.

4. Yr oedd purdeb, parhad ei goleuni yn llewyrchus, yn nghyd â'i dysgyblaeth fanwl, yn cael ei arwyddo trwy efeiliau a chafnau y canwyllbren. Yr oedd yr efeiliau yn tynu ymaith yr hyn ydoedd yn attal llewyrchiad y lamp, yn arwyddo bod llygredigaethau, ac aelodau llygredig, i gael eu tori ymaith o'r eglwys, fel y llewyrcho eu goleuni ger bron dynion, (Mat. 5. 15, 16.) ac fel y byddo teml Duw yn cael ei chadw yn ddilwgr. 1 Cor. 3. 11, &c. Iago 1. 3.

5. Yr oedd addurniadau y canwyllbren, sef yr almonau, y blodau, a'r cnapiau, yn arwyddo y doniau â pha rai y mae yr eglwys wedi ei harddu, i ddal allan ei goleuni gyda mwy o weddeidd-dra a phrydferthwch.

6. Yr ydoedd yr offeiriaid i ofalu am olew pur yr olew-wydden, i roddi yn y lampau, i beri iddynt losgi yn wastad. Yr oedd Aaron i drefnu y canwyllbren âg olew o hwyr hyd foreu, bob amser, ger bron yr Arglwydd; felly y mae yr Arch-offeiriad mawr, Iesu Grist, yn cyfranu o'i Ysbryd i'r eglwys yn feunyddiol, ac o oes i oes. Y mae yn rhodio yn nghanol y saith ganwyllbren aur, i'r dyben i'w trefnu a'u goleuo. Exod. 27. 20. Lef. 24. 2. Dat. 2. 1. 1 Ioan 2. 27. Eph. 4. 8—12. Zech. 4. 1—5.——Yr oedd y morwynion ffôl heb yr olew hwn, er eu holl broffes; ond ni thal dim trwsio y lamp heb yr olew; ni wna yr efeiliau heb yr olew byth y tŷ yn oleu. Rhaid cael yr Ysbryd Glân i oleuo yr eglwys a'i sancteiddio, ac i farwhau ei llygredigaethau. Rhuf. 8. 13.

II. *Yr oedd y canwyllbren hefyd yn y babell yn gysgod o'r weinidogaeth yn yr eglwys.* Dat. 1. 20. Y saith seren yn dysgleirio ar ben y canwyllbren, angelion y saith eglwys ydynt. Canys fel y mae y canwyllbren yn cynnal y lamp a'r goleuni, felly y mae yr eglwys yn cynnal y weinidogaeth: ac megys y mae y lamp yn tywynu yn y canwyllbren, felly y mae y weinidogaeth yn yr eglwys. Eglwys heb weinidogaeth sydd megys canwyllbren heb oleu. Ni rydd canwyll mewn canwyllbren ddim goleu heb dân arni; felly ni rydd gweinidog mewn eglwys ddim goleuni yn ei fywyd na'i athrawiaeth, ond fel y byddo dan driniaeth goruchwyliaeth danllyd yr Ysbryd Glân. O mor aml y gwelir y rhai a elwir yn ganwyllau yn y canwyllbren, heb erioed eu tanio gan Ysbryd Duw! Yr ydoedd Ioan yn ganwyll yn llosgi ac yn goleuo. Ioan 5. 35.



III. *Yr oedd y canwyllbren aur hefyd yn gysgod o oleuni y gair, o'r hwn y mae y weinidogaeth yn dysgleirio*; ac y mae yr ysgrythyr yn cael ei chyffelybu i lamp neu ganwyll, Ps. 119. 105.—i ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, 2 Petr 1. 19.—i aur, ac aur pur, (Ps. 19. 10.) yr hyn sydd yn gwneuthur y cyfeiriad etto yn fwy cyflawn; canwyllbren aur ydoedd hwn; felly aur yw y gair, ie, gwerthfawrocach nag aur.

IV. *Yr oedd y canwyllbren aur yn gysgod o'r Ysbryd Glân hefyd:* y mae y testun hwn yn eglur ar y mater: 'Ac yr oedd saith o lampau tân yn *llosgi** ger bron yr orsedd-fainc, y rhai yw saith Ysbryd Duw.' Dat. 4. 5. Y mae yn ymddangos yn dra eglur mai yr Ysbryd Glân, y trydydd Person yn y Drindod, a feddylir yma, wrth fod Ioan yn gweddïo am 'ras a thangnefedd oddiwrth y saith Ysbryd.' Dat. 1. 4. Y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei osod allan yn yr ymadrodd hwn, 'saith Ysbryd Duw,' mewn cyferbyniad i'r saith ganwyllbren yn ngweledigaeth Ioan, (Dat. 1. 12, 13.) ac mewn cyferbyniad i'r saith lamp, y rhai oedd ar ben pob canwyllbren yn y deml; ac hefyd i arwyddo amrywiaeth a pherffeithrwydd ei ddoniau a'i radau, a'i weithrediadau yn ei eglwys, ac yn nghalonau ei bobl; oblegid y nifer saith, yn yr ysgrythyrau, a arwydda perffeithrwydd.

CAP—IAU, (cap) penguwch, penwisg, cwfl, cwcwll. Capan côr, capan canonaidd.—'Gwna iddynt hefyd gapiau.' Exod. 28. 40. a 20. 9. a 39. 28. Lef. 8. 13. Ezec. 44. 18. Yn ol barn yr Iuddewon, yr un peth oedd y capiau a'r meitr, a'u bod hwy wedi eu gwneuthur o ddarn o liain, 16 o latheni o hŷd, yn gorchuddio penau yr offeiriaid fel helm. Yr oedd capiau yr offeiriaid yn grynion; ond meitr yr arch-offeiriad, meddant, yn fain yn y pen uchaf. Edr. MEITR. Yr oeddynt yn gosod allan eu purdeb a'u hawdurdod yn eu swydd—yr oeddynt yn goronog.

CAPAN—AU, (cap) capan côr, capan drws, gwarddrws. Yr oedd gwaed oen y pasc i gael ei daenellu ar gapan drws yr Israeliaid, i arwyddo y dylai gwaed Crist, yr hwn yr oedd oen y pasc yn ei gysgodi, fod yn barchus genym, ac na ddylai gael ei sathru dan draed, a'i farnu yn aflan; Heb. 10. 29.—ac i ddangos hefyd y dylai ein ffydd ynddo, a'n cyffes o hono, fod yn amlwg ac yn gyhoedd, fel unig foddion ein diogelwch, ac unig wrthddrych ein ffydd, ein gobaith, a'n gorfoledd. Edr. PASC.

CAPEL, *Llad.* CAPELA; *Saes.* CHAPEL: tŷ addoliad cyhoeddus. Y mae Bethel yn cael ei galw 'capel y brenin,' oblegid fod breninoedd Israel yn addoli y llo aur yno. Amos 7. 13.

CAPERNAUM, *Gr.* Καπερναουμ [*maes dyddanwch*] prif ddinas yn Galilea, lle byddai yr Iesu yn fynych yn aros. Yr oedd yn sefyll ar lan môr Galilea, ar gyffiniau Zabulon a Naphtali. Mae yn awr, yn ol prophwydoliaeth ein Hiachawdwr, yn bentref gwael ac

* Yn *llosgi*, nid yn *eistedd*, megys y mae yn argraffiad 1752, a 1789

Digitized by Google

anrheithiedig, heb ynddo ddim ond ychydig o gabanod gwaelion, a physgotwyr yn byw ynddynt. Mat. 11. 23. Edr. Iesu.

CAPPADOCIA, talaeth yn Asia yn uno â Pontus, Armenia, Galatia. Coffâ Ptolomy, lib. v., cap. 6, y trigolion, ac a farna iddynt gael yr enw oddiwrth yr afon Cappadox. Galwyd hwynt gynt *Leuco Syri*, y Syriaid Gwynion. Yr oedd y dalaeth hon gwedi ei rhanu yn ddau barth; sef y Mwyaf, yn agos i Fôr Pontus, a'r Lleiaf yn agos i Lycaonia. Dygwyd Cristionogaeth yno yn foreu, (Act. 2. 9. 1 Petr 1. 1.) a bu yn flodeuog yno hyd A.D. 900. Y mae yn bresennol dan lywodraeth y Twrc; ond y mae Cristionogaeth heb lwyr ddarfod yno. Priodorion o'r wlad hon oedd Strabo, Gregory Thaumaturgus, Basil, a Gregory Nazienzen.

CAPTEN. Edr. Cadben.

CAPHTOR—IM, *Heb.* כפתרים [*afalau*]. Y mae Calmet ac awdwyr eraill yn cytuno (er fod rhai yn gwrthwynebu) mai Crete, ynys yn Môr y Canoldir, ydyw Caphtor yr Hebreaid. Gen. 10. 14. Amos 9. 7. Edr. Philistiaid.—'Gweddill ynys Caphtor.' Jer. 47. 4. Dywedir fod y Caphtoriaid, yn gystal a'r Philistiaid, o hiliogaeth Mizraim, tad yr Aiphtiaid. Gen. 10. 14. 1 Cron. 1. 12. Pa un a sefydlodd y Caphtoriaid yn gyntaf yn Cappadocia, fel y barnodd rhai o'r hynafiaid, neu yn ynys Crete, fel y barnodd eraill; neu, ynte, a ddarfu iddynt fudo yn uniongyrchol o ryw barthau o'r Aipht, o herwydd eu cyfyngu am le—yr hyn, wrth ystyried y lle y mudasant iddo, sydd yn ymddangos yn fwyaf tebygol: dilys yw, iddynt yru allan yr Afiaid o'r rhan hòno o Palestina sydd yn gyfagos i Gaza, a sefydlu eu hunain yno. Deut. 2. 23. Jos. 13. 3. O herwydd hyny y galwyd y wlad, Gwlad (nid *ynys*) Caphtor. Wrth 'weddill ynys (neu, yn hytrach *gwlad*) Caphtor,' deallir y gweddill yn aros yn y wlad hòno, o lawer a breswylient gynt ynddi hi. Gwel Blayney.

CAR, neu GER, gorair, yn agos—car llaw, car bron, yn agos, o flaen, yn ngwyddfod.—'Rhaid i ni oll ymddangos gar bron brawdle Crist.' 2 Cor. 5. 10.—εμπροσθεν, *o flaen*, yn ngŵydd yr orsedd, a'r hwn fydd yn eistedd arni.

CAR, CEIR, (cy-ar) *Saes.* Car: Cerbyd, mèn; clwyd; cludair; car-llusg; car-trol; car-bidlo; cardirwyn; car-pysgota; car yr ên.—'Tarewaist fy holl elynion ar gar yr ên.' Ps. 3. 7. Sef yn ddiarbed, yn niweidiol, ac yn waradwyddus. Esa. 22. 7.

CAR, CERAINT, (ca-ar) perthynas; un o'r un gwaed, neu deulu, neu genedl; cyfaill. Num. 27. 11. Ioan 18. 26. Câr clyd, perthynas o'r nawfed âch.—'Y mae dy geraint (οι φιλοι) i'th anerch. Anerch y Ceraint wrth y henwae.' 3 Ioan 15. W. S.

CARAI—EIAU, math o rwymyn, o groen, gwëad, neu blethiad; carai esgid. Gen. 14. 23. Marc 1. 7. Luc 3. 17. Ioan 1. 27.

CARAWG, (car) baedd gwyllt; afon, nant.—'Ydd aeth allan ev a ei ddiscupulon dros garoc Cedron.' Ioan 18. 1. W. S.

CARAWL—OLAU, (câr-awl) cân, cân cariad:—Carawl plygain, sef boreuol gân.—'E glywai gyncanedd a charolae.' Luc 15. 25. W. S.

CARBUNCL, *Llad.* Carbunculus; math o faen gwerthfawr, o liw coch tanbaid, y goreu o honynt a geir yn ynys Ceylon. Hwn oedd y maen cyntaf yn yr ail res o feini gwerthfawr yn nwyfroneg yr archoffeiriad. Exod. 28. 18. Diar. 31. 10. Esa. 54. 11.

CARCHAR—AU—U, (carch) gëol. 1. Lle i gyfyngu ar, ac i gospi cyrph dynion. Gen. 39. 20.——2. Cyflwr isel, gwael, a chystuddiol. Preg. 4. 14.——3. Y caethiwed y mae dynion ynddo wrth naturiaeth, gan Satan, a'u chwantau drygionus eu hunain. Esa. 42. 7.——4. Y bedd, o'r hwn nis gellir symud ymaith. Esa. 53. 8.——5. Rhwymau tynion o attaliaeth a rydd Duw ar Satan a'i offerynau. Dat. 20. 7.

'Ac a'i rhoddasant yn y carchardy yn nhŷ Jonathan yr ysgrifenydd.' Jer. 37. 15. Yr oedd, ac y mae etto, yn arferedig yn y gwledydd dwyreiniol, i wneyd tai gwyr mawrion yn garcharau (Gen. 39. 20.) Ie, yr ydoedd carchar yn y palas breninol ei hun. Jer. 32. 2. Nid tai cyffredin, medd Syr John Chardin, wedi eu hadeiladu i'r dyben hwnw, ydyw y carcharau dwyreiniol; ond rhan o'r tŷ y preswylia y barnwyr ynddo. Llywydd, neu uchel-faer tref, neu cadben gwyliadwriaeth, a garcharant y cyfryw a gyhuddir yn eu tai eu hunain; neillduant ran o hono i'r dyben hwnw pan osodir hwynt yn y swyddau hyny; ac a ddewisant yn geidwad y carchar, y dyn mwyaf addas yn eu teuluoedd. Tebygol gwneyd tŷ Jonathan yn garchar, yn ganlynol i'w wneyd yn ysgrifenydd i'r brenin. Gwel Harmer's *Observ. chap.* vii., *obs.* 37.——Tebygol, mai mewn cyfeiriad at y bedd y galwodd Dafydd yr ogof hòno yr oedd efe ynddi, yn garchar; yn yr hon yr oedd megys pe buasai gwedi ei gladdu yn fyw. Ps. 142. 7.——Paul ydoedd 'garcharor Iesu Grist,' sef mewn rhwymau o achos Crist a'i efengyl. Eph. 3. 1.——'Carcharorion gobeithiol,' sef yr Iuddewon yn Babilon; a phechaduriaid sydd felly yn ysbrydol tra y maent yn y bywyd hwn. Zech. 9. 12.——'Yr ysbrydion yn ngharchar,' sef trigolion yr hen fyd, y rhai a anufuddhasant i Noah, pregethwr cyfiawnder, a'i bregeth; ac am eu hanufudd-dod a'u drygioni, boddwyd eu cyrph yn eigion y dylif, ac mae eu hysbrydoedd yn ngharchar uffern, erbyn dydd y farn. 1 Petr 3. 19, &c. Luc 16. 23. Yr un ysbryd a fywhaodd Grist, ac a'i cyfododd o feirw, oedd gynt yn Noah yn pregethu i'r hen fyd, trigolion pa un a anufuddhasant, ac ydynt yn awr yn ngharchar tan ddigofaint Duw.

CARCHEMIS, כרכמיש [*dwyn ymaith oen*] dinas ar yr afon Euphrates, yn perthyn i Assyria. Cymerwyd hi gan Pharaoh-Necho, brenin yr Aipht, a rhoddodd warchawdlu ynddi, y rhai a ddyfethwyd gan Nebuchodonosor, brenin Babilon. 2 Cron. 35. 20. Jer. 46. 2. 2 Bren. 23. 29.

CARDOTA—YN, (car-dawd) erfyn elusen, neu rodd; un tlawd. Marc 10. 46. Edr. Bartimeus, Lazarus.

CAREDIGRWYDD, (caredig) hynawsedd, tynerwch, tiriondeb. Gen. 20. 13. Ruth 2. 20. Arwydda drugaredd, ymgeledd, tosturi. Ps. 31. 21.

CAREDD, (câr) tra chariad; chwant anghymedrol, bai, pechod.—'A chaffael o honaw le y amddiffyn ehun, am y caredd.' Act. 25. 16, 18. W. S.

CAREG, CERYG, (càr) careg nadd, careg lefain, careg clo.—1. Maen, neu ddarn o graig. Gen. 28. 18.——2. Peth o natur anmhlygedig. Ezec. 36. 26.——3. Unrhyw beth niweidiol. Ps. 91. 12. Job 5. 23.——4. Crist, ei deyrnas, a'i eglwys. Dan. 2. 45. Mat. 21. 44. 'Y gareg a dorwyd allan o'r mynydd, yr hon ni thorwyd â llaw, yn myned yn fynydd mawr.' Dan. 2. 34, 35.——Y mae Iehofah yn fynych yn yr ysgrythyrau yn cael ei alw yn Graig, megys yn Deut. 32. 4, 18, 30, 31. 1 Sam. 2. 2. 2 Sam. 23. 3, &c.——Crist a elwir yn Graig. Exod. 17. 6. Num. 20. 8. Deut. 18. 5. Ps. 19. 14. 1 Cor. 10. 4, &c.——Mae Crist, hefyd, yn fynych, yn cael ei alw yn Faen, neu Gareg, yn yr ysgrythyrau, i arwyddo ei fod yn Dduw, a'i natur yn anghyfnewidiol a chadarn. Nid o waith dwylaw, i ddangos ei fod, ac yn gweithredu ynddo ac o hono ei hun; ac yn rhoddi bôd a gweithrediad i bob

Digitized by Google

peth arall. Ac yn mherthynas i'w natur ddynol, nid oedd yno ddim gwaith dwylaw, hyny yw, dim gweithrediad dynol, a chyffredinol natur, yn ei genedliad yn mru y wyryf; 'Yr Ysbryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di.' Luc 1. 35. Felly yr oedd yr hwn a ddodwyd yn y preseb yn blentyn, ar yr un pryd yn Dduw mawr; y Bachgen a roddwyd i ni mewn amser, yn Fab Duw er tragywyddoldeb; yr hwn a welwyd yn faban gwael, yn cael ei gynnal ar liniau Mair, oedd ar yr un pryd yn Dduw cadarn, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth; yr hwn oedd yn ymddangos yn gareg mor fechan ag y gorfu arno ffoi rhag llid Herod, ydoedd Brenin y breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi, yr hwn y mae ganddo bob awdurdod yn y nefoedd ac ar y ddaear; yr hwn a ysigodd ben y diafol, ac a ddryllia, cyn bo hir, ei holl waith, a'i ddelw oddiar y greadigaeth. Dyma y seren y prophwydwyd am dani a ddeuai allan o Jacob, ac a ddrylliai gonglau Moab.—At y gareg, yn y lle hwn, y mae Crist ei hun yn cyfeirio, pan y mae yn sôn am y maen a wrthododd yr adeiladwyr yn myned yn ben y gongl.

Bechan a gwael, yn ol barn ddynol, oedd yr olwg ar deyrnas, ac eglwys Crist yn y byd, yn ei dechreuad: ond, o'r diwedd, â yn fynydd mawr, ac a leinw yr holl ddaear. Esa. 11. 9. a 2. 2. Gwelir holl elynion teyrnas y gareg gwedi eu dryllio, a'u malurio fel llestr pridd; a'r gareg fechan, sef eglwys Crist, priodas-ferch yr Oen, wedi ei dyrchafu allan o gyrhaedd llid a gwaradwydd yn dragywydd. Dan. 2. 34, 35, 45.

Dywedir yn Job 41. 24. am y lefiathan, fod 'ei galon ef yn galed fel careg,' hyny ydyw, y mae efe yn nerthol anghyffredin, ac ëondra a glewder anorchfygol ynddo.—Calon Nabal oedd yn marw o'i fewn, ac yn myned fel careg, pan y dywedodd ei wraig iddo am y perygl yr oedd wedi taflu ei hun iddo, trwy ei sarugrwydd. Yr oedd ei galon wedi myned yn ansyfladwy fel careg, yr oedd wedi crebychu, neu ei dirdynu gan y braw; â'r crebychiad dirdynawl hwn a fu achos ei farwolaeth. 1 Sam. 25. 37.

'Tynu ymaith y galon gareg,' &c., a arwydda tynu ymaith y tueddfryd ystyfnig, anmhlygedig, ac anhywaith, y sydd yn y galon, yn rhwystro iddi dderbyn argraffiadau caredigol oddiwrth y gair, a'r moddion cyffredinol, trwy y rhai y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu ar ddynion. Y mae yma *dynu* a *rhoi*; *tynu* y galon gareg, a *rhoi* calon dyner o gig yn ei lle. Nid yw yr Arglwydd yn unig yn tynu y caledrwydd a'r anhyweithdra o galon pechadur, ond yn planu neu yn dodi ynddo egwyddor newydd, gan ei wneuthur yn ewyllysgar yn nydd ei nerth: nid yn unig tynu yr awch sydd mewn dynion am wneuthur drwg y mae yr Ysbryd Glân, ond eu gwneuthur yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da. Jer. 24. 7. a 32. 39. Ezec. 11. 19. a 36. 26. Ps. 110. 3. Tit. 2. 14.

'Fel un yn rhwymo careg mewn tafl; felly y gwna y neb a anrhydeddo ffol.' Diar. 26. 8. Pan fyddo careg wedi ei rhwymo mewn tafl, y mae y taflíedydd yn rhwystro yn ei amcan ei hun o'i thaflu, a'i lafur yn myned yn ofer; felly y mae y neb a anrhydeddo ffol. Ond gellir troi y geiriau ffordd arall: *Fel un yn gosod maen gwerthfawr mewn carnedd geryg*, lle y cuddir ac y collir ef; ac megys nad yw y gareg fechan yma yn cynnyddu dim ar y garnedd, ac nad yw gymaint ag i'w chanfod yno; felly nid yw y ffol yn anrhydeddusach wrth bentyru anrhydedd arno.

'Bydded i chwi geryg cyfiawn:' hyny yw, bydded i chwi bwysau cyfiawn a didwyll. Lef. 19. 36. Yn Deut. 25. 13., 'Na fydded genyt yn dy gôd amryw bwys, mawr a bychan:' *Heb., careg a chareg.*—'Careg uniawn sydd foddlawn ganddo ef:' *Heb., careg berffaith.* Diar. 11. 1. Gwel hefyd Diar. 16. 11. a 20. 10.—Cafod ruthrol o genllysg a elwir yn geryg yn cael eu bwrw o'r nefoedd. Jos. 10. 11.

'Careg wen ac enw newydd.'—Yr oedd yn arfer yn mhlith rhai o'r Groegiaid o roi careg wen wrth ryddhau un ag a fyddai wedi ei gyhuddo o ryw fai: ond os ei euog-farnu a gâi y cyhuddol, rhoddid iddo gareg ddu; ond nis gellir cael allan trwy un o'r hen arferion y byddid yn ysgrifenu yr enw newydd arni. Y mae amryw o'r dysgedigion o'r farn fod yr enw newyda yn cyfeirio at arferiad tywysogion, y rhai a roddent enw newydd i'r cyfryw ag a ryngai bodd iddynt ddyrchafu i ryw urddas ac anrhydedd tra mawr; o'r hyn y mae genym amryw siamplau yn yr Hen Destament; yn neillduol y lleoedd canlynol: (Gen. 41. 45.) lle y mae Pharaoh yn newid enw Joseph, ac yn rhoddi iddo enw newydd Saphnath-Paaneah. Dafydd yn newid enw Solomon, ac yn rhoddi iddo enw newydd Jedidah. 2 Sam. 12. 25. Daniel hefyd yn cael newid ei enw yn Babilon, ac yn cael enw newydd Beltesassar. Dan. 1. 7. Dr. Goodman, Hammond, Vitringa, Grotius, yn nghyd âg amryw eraill, a dybiant fod hyn yn cyfeirio at yr arwydd-nôd, neu y coffddryll a roddid i orchfygwyr buddugoliaethus, yn y chwarëyddiaethau yn mhlith y Groegiaid, gan adrodd eu henwau, ac arwyddo y gwobr a fyddai iddynt am eu gorchestwaith. Dat. 2. 17. Gwel ychwaneg am hyn dan y gair Barnu.

CARFAN, (carf) cynnalydd, trawst, paladr, cledren; rhes; carfan gwely, sef erchwyn gwely; carfan gwehydd; carfan o wair. 1 Sam. 17. 7.—'Yno ydd eisteddesont yn y garvanae, o vesur cantoedd a'dec a' dau geiniae.' Marc 6. 40. W. S.

CARIAD, (car) serch, hoffder, anwyldeb: y tueddnwyd, neu y rhwymyn-serch hwnw sydd yn ennyn yn meddwl dyn wrth sylwi ar rywbeth mewn un arall yn ei foddhau. 2 Sam. 1. 26. a 13. 5. Felly yr ydym yn caru Duw pan fyddom yn ymhyfrydu yn ei berffeithrwydd. 1 Ioan 4. 19, 20, 21. Ac yr ydym yn caru dynion, oblegid rhyw odidogrwydd yr ydym yn meddwl ein bod yn ei ganfod ynddynt.

'Duw cariad yw.' 1 Ioan 4. 8, 16. Sef daioni a hawddgarwch perffaith; ac nid yw yn casâu dim ond yr hyn y dylai perffaith gariad dwyfol ei gasâu. Y mae yn anfeidrol ddedwydd ei hun, ac yn llawenychu yn nedwyddwch ei greaduriaid; ac nid yw yn casâu dim ond yr hyn sydd yn groes i'w sancteiddrwydd ef, ac i'w dedwyddwch hwythau. Y mae ei gariad yn gweithredu tu ag at ei greaduriaid o'r daioni perffaith sydd ynddo ei hun.

Gwrthddrych penaf cariad Duw yw ef ei hun: yn flaenaf ac yn benaf y mae yn caru ei hun; am hyny, efe ei hun, sef ei ogoniant, ydyw y gwrthddrych penaf yn ei olwg yn ei holl weithredoedd. Diar. 16. 4. Rhuf. 11. 36. Dat. 4. 11. Eph. 1. 6. Y mae ei ddedwyddwch yn deillio oddiwrth arsynied ei hun, ei natur, ei berffeithrwydd, ac yn y boddlonrwydd, y cariad, a'r hyfrydwch y mae yn ei gael ynddo ei hun. Nid oes amgen, ac nis dichon iddo gael dim allan o hono ei hun, i chwanegu at ei ddedwyddwch hanfodol.

Y mae y Personau Dwyfol yn cyd-garu eu gilydd: y mae y Tad yn caru y Mab a'r Ysbryd Glân; a'r Mab yn caru y Tad a'r Ysbryd Glân; ac y mae yr Ysbryd Glân yn caru y Tad a'r Mab. Dywedir yn aml fod y Tad yn caru y Mab. Ioan 3. 35. a 5. 20. Geilw ef ei *Anwyl Fab*. Mat. 3. 17. a 17. 5. Col. 1. 13. Edr. Anwyl. Yr oedd ei hyfrydwch ynddo er tragywyddoldeb: gan ei fod 'yn ddysgleirdeb ei ogoniant, ac yn wir lun ei berson:' (Heb. 1. 3.) o'r un hanfod, ac yn meddiannu yr un perffeithiau a'r Tad. Diar. 8. 30, 31. Ioan 17. 24. Col. 2. 9. Iё, carodd ef fel ei was, fel Cyfryngwr, yn ei gyflwr o ddarostyngiad ac ufudd-dod, a than ei holl ddyoddefiadau; pan yr oedd yn dyoddef ei ddigofaint fel Mechnïydd, yr

Digitized by Google

oedd yn wrthddrych ei gariad fel ei Fab. Esa. 42. 1. Mat. 3. 17. Ioan 10. 17. Ac yn awr y mae ar ei ddeheulaw, mae yn edrych arno gyda hyfrydwch, ac yn gwbl foddlawn i'w aberth, ei iawn, a'i gyfiawnder. —Y mae y Tad yn caru yr Ysbryd Glân, am ei fod yn deillio oddi wrtho, ac yn meddiannu yr un hanfod a pherffeithiau. Job 33. 4. Ps. 33. 6. Ioan 15. 26. 1 Ioan 5. 7.—Mae y Mab hefyd yn caru y Tad, fel y mae yn unig-anedig iddo, ac yn meddiannu yr un hanfod a pherffeithiau. Carodd ef hefyd fel dyn, ac fel Cyfryngwr, yn berffaith ac yn gyfiawn, â'i holl galon, ac a fu ufudd iddo hyd angeu, i brynu ei bobl. Ps. 40. 8. Ioan 14. 21. a 10. 18. Phil. 2. 8. Mae y Mab hefyd yn caru yr Ysbryd Glân, fel y mae yn deillio oddi wrtho ef fel y Tad, a gelwir ef Ysbryd y Mab. Gal. 4. 6. Ac y mae Crist yn llefaru am dano yn aml gyda hoffder a hyfrydwch. Esa. 48. 16. a 61. 1. Ioan 14. 16—26 a 15. 26. a 16. 7, 13. Y mae yr Ysbryd Glân yn caru y Tad a'r Mab, ac yn tywallt cariad Duw yn nghalonau ei bobl: yn chwilio dyfnion bethau (neu *τα βαθη*, *ddyfnderau)* Duw, ac yn eu dadguddio iddynt: yn cymeryd o eiddo yr Iesu, ac yn eu mynegi iddynt; ac felly y mae yn Ddyddanydd iddynt hwy, ac yn Ogoneddydd yr Iesu. 1 Cor. 2. 10, 11, 12. Ioan 16. 14.

Y mae yr holl greaduriaid a wnaeth Duw yn wrthddrychau ei foddlonrwydd, fel y maent yn greaduriaid iddo ef. Nid ydyw yn casâu hyd yn nod y cythreuliaid, fel y maent yn greaduriaid iddo ef, ond fel y maent yn ysbrydion gwrthryfelgar yn ei erbyn: y mae yn cynnwys cariad cyffredin i bob dyn, fel y maent yn hiliogaeth Duw, yn greaduriaid iddo, ac yn waith ei ddwylaw: y mae yn eu cynnal ac yn eu cadw, ac yn tywallt arnynt fendithion ei ragluniaeth dyner. Act. 17. 28. a 14. 17. Mat. 4. 24. Mae yr angelion sanctaidd yn wrthddrychau ei gariad; dewisodd hwynt i dragywyddol ddedwyddwch; y maent yn sefyll ger ei fron, yn ei wyddfod, a phob amser yn gweled ei wyneb. 1 Tim. 5. 21. Mat. 18. 10. Ond y mae ganddo gariad neillduol i'r etholedigion yn Nghrist. Eph. 1. 3, 4. a 2. 4. Y mae hwn yn gariad neillduol a gwahanredol. Mal. 1. 2. Rhuf. 9. 11, 12. Edr. ETHOLEDIGAETH.

Ymddangosodd cariad y TAD tu ag atynt, 1. Yn cynnwys meddyliau o hedd tu ag atynt er tragywyddoldeb, ac yn trefnu ffordd eu heddwch a'u cymmod yn Nghrist. 2 Cor. 5. 18, 19.——2. Yn eu hethol yn Nghrist i iechydwriaeth. 2 Thes. 2. 13.——3. Yn eu rhoddi i Grist, a'u cadw ynddo. Deut. 33. 3. Judas 1.——4. Yn ei waith yn trysori ynddo iddynt hwy bob bendith ysbrydol. Eph. 1. 3, 4.——5. Yn ei waith yn ethol ac yn gosod Crist i fod yn Iachawdwr iddynt, ac yn ei addaw, ei addasu, a'i anfon i'r byd i weithio gwaith yr iechydwriaeth. Ioan 3. 16. Tit. 3. 4, 5. 1 Ioan 4. 9, 10.——6. Yn maddeu eu pechodau trwy waed Crist. Esa. 37. 17. Eph. 1. 7. ——7. Yn eu mabwysiadu i fod yn blant iddo. 1 Ioan 3. 1.——8. Yn eu hadgenedlu. Jer. 31. 3. Eph. 2. 4, 5.——9. Ac yn rhoddi bywyd tragywyddol iddynt. Rhuf. 6. 23.

Ymddangosodd cariad MAB DUW tu ag atynt, 1. Yn dyweddïo personau yr etholedigion, y rhai yr oedd ei hyfrydwch gyda hwynt cyn dechreu y byd. Diar. 8. 31. Hos. 2. 19.——2. Yn mechnïo drostynt er daioni, a chymeryd eu hachos a'u mater arno i'w wneuthur yn dda, gyd â'r hyfrydwch a'r llawenydd mwyaf. Ps. 40. 6, 7, 8. Heb. 7. 22.——3. Yn cymeryd eu natur arno yn nghyflawnder yr amser, i'w prynu, i weithredu cyfiawnder iddynt, a chymmod drostynt. Rhuf. 8. 3, 4. Gal. 4. 4, 5. Heb. 2. 14, 17. ——4. Yn rhoddi ei hun yn aberth, ac yn dodi ei einioes yn bridwerth drostynt, ac yn tywallt ei waed, er eu glanhad a maddeuant pechodau. Eph. 5. 2, 25. Tit. 2. 14. 1 Ioan 3. 16. Dat. 1. 5.

Cariad yr YSBRYD, y dywedir am dano yn Rhuf. 15. 30. a ymddengys, 1. Yn ei waith yn dyfod i galonau yr etholedigion, i'w hargyhoeddi o bechod, ac o gyfiawnder, a'u cysuro.——2. Yn amlygu iddynt ras a bendithion y cyfammod tragywyddol.——3. Yn egluro ac yn cymhwyso yr addewidion iddynt.——4. Yn tywallt cariad Duw yn eu calonau.——5. Yn planu pob gras ynddynt, ac yn eu nerthu i weithredu ar bob achlysur, ac yn mhob dyledswydd, yn enwedig mewn gweddi.——6. Yn cyd-dystiolaethu â'u hysbryd hwy eu bod yn blant i Dduw, yn ernes o'u hetifeddiaeth, ac yn eu selio hyd ddydd prynedigaeth. Ioan 16. 7, 8. Rhuf. 8. 15—27. Eph. 1. 13, 14. Edr. TAD, MAB, YSBRYD.

Y mae rhai yn gwahaniaethu, ac yn sôn am gariad o ewyllys da, trwy ba un y mae Duw yn dymuned ac yn ewyllysio yn dda iddynt; yna mae yn dyfod cariad o haelioni, a chymwynasgarwch, trwy ba un y mae yn gweithredu da ynddynt a thu ag atynt; ac yna, wedi hyny, cariad o hyfrydwch a boddlonrwydd ynddynt. Ond a ydyw y golygiadau hyn ddim yn tueddu i ddangos Duw fel un cyfnewidiol fel ninnau? Nid yw cariad Duw nac yn cynnyddu, nac yn lleihau: ond yr un ydyw, er tragywyddoldeb, yn ddigynnydd, ac yn ddileihad, cyn a chwedi y cwymp; cyn a chwedi eu tröedigaeth, &c. Mae tröedigaeth yn gwneuthur cyfnewidiad ynddynt hwy, ond nid yn Nuw, nac yn ei gariad tu ag atynt. Y mae Duw yn cyfnewid ei oruchwyliaethau tu ag atynt, ond nid ei gariad. Y mae dadguddiedigaethau ei gariad iddynt yn amrywiol ac yn wahanol, yn fwy ac yn llai i amrywiol bersonau, ac i'r un personau ar amrywiol amserau; etto, nid felly y mae cariad yn nghalon Duw; y mae yr un, ac yn ddigyfnewid.

1. Y mae achos cynhyrfiol cariad, mewn neb rhyw greadur, yn y gwrthddrych; ond y mae achos cynhyrfiol cariad Duw ynddo ei hun, ac nid yn y gwrthddrychau: *Ei ddaioni hanfodol ei hun yw yr achos.* Nid oedd dim yn y gwrthddrychau i haeddu, nac i ddenu cariad; ond yn y gwrthwyneb, yr oedd ynddynt bob gwrthuni ac anhawddgarwch. Gelynion oeddynt—a beth sydd mewn gelynion yn haeddu ac yn denu cariad? Rhuf. 5. 8, 9, 10. Hos. 14. 4. Deut. 7. 7. Carodd Crist yr eglwys, nid am ddim hawddgarwch oedd ynddi, ond yn ngwyneb ei hanhawddgarwch, a'i hanharddwch i gyd, ac a'i rhoddes ei hun drosti, 'fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhau â'r olchfa ddwfr trwy y gair.' Eph. 5. 25, 26.—Gan fod achos cynhyrfiol cariad Duw ynddo ei hun, am hyny y mae yn

2. Yn fawr gariad, yn anfeidrol, fel Duw ei hun. Eph. 2. 5. Ioan 15. 13. Eph. 3. 19. 1 Ioan 3. 1. Y mae grym y cariad yn fawr, pan y mae yn caru yn ddifesur wrthddrychau â'r gwrthuni mwyaf ynddynt.

3. Y mae yn dragywyddol ac yn anghyfnewidiol. Y mae yr achos cynhyrfiol yn ddigyfnewid, am hyny mae y cariad yn ddigyfnewid. Jer. 31. 3. Seph. 3. 17. Rhuf. 8. 35, 39. Cariad Duw tu ag at ei bobl yn ei Fab (oblegid yn ei Fab y mae yn eu caru) yw yr achos cynhyrfiol o'i amrywiol oruchwyliaethau tu ag atynt yn holl drefn iechydwriaeth: o gariad y gwnaed y cwbl a'r a wnaed, ac a wneir byth. O gariad y rhoddodd ei unig-anedig Fab; Ioan 3. 16.—y bu y Mab hwnw farw dros ei bobl. 1 Ioan 3. 16. a 4. 9. Yn ngrym yr un cariad y mae yn eu galw, ac yn eu bywhau. Eph. 2. 5. Y mae nid yn unig yn trugarhau wrthynt, ond y mae yn trugarhau wrthynt o gariad atynt. Y mae trugaredd yn ehedeg atynt ar adenydd cariad tragywyddol—yn eu hymgeleddu â dwylaw cariad—yn eu cynnorthwyo âg ysgwydd cariad—yn eu ceryddu â gwialen cariad—yn eu golchi ac yn eu meddyginiaethu o gariad. Cariad sydd yn dyfod â Duw atom ni, ac yn eiddo i ni; ac yn dyfod â ninnau at Dduw, ac yn eiddo iddo. Y mae y cariad

Digitized by Google

tragywyddol hwn yn dodi yr holl briodoliaethau dwyfol ar waith tu ag at ei bobl; yn trefnu ei holl raglunïaethau yn y modd goreu; ac yn dyfod â holl gyfoeth y nefoedd yn eiddo iddynt. Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab—beth arall a all efe arbed, a fyddo er daioni iddynt? Rhuf. 8. 32. Mŷn cariad dwyfol ei wrthddrychau i gyd wrth ei fodd ei hun, ac ato ei hun, dros byth, er maint yw llid uffern, a hudoliaeth byd a chnawd.

4. Y mae yn gariad neillduol at bersonau ei bobl yn Nghrist, yn wahanol oddiwrth bersonau pawb eraill, ac oddiwrth bob peth sydd ynddynt neu ganddynt; yr hwn a'n carodd *ni—a'm* carodd *i*. Eph. 2. 4. Gal. 2. 20. Cariad Duw yn ei Fab at bersonau ei bobl sydd yn eu gwahaniaethu oddiwrth eraill, yn eu harddu, ac yn eu cyfoethogi.

Cyffelybir y cariad hwn i win—i angeu a'r bedd—i farwor tanllyd—i fflam angerddol (Can. 1. 2, 4. a 8. 6.)—i gariad tad at ei blentyn (Ps. 103. 13. a 27. 10.)—i gariad mam at ei phlentyn sugno (Esa. 49. 15.)—yr iâr at ei chywion (Mat. 23. 37.)—brawd at frawd, a chyfaill at gyfaill (Ioan 15. 14, 15.)—ac i gariad y Tad at y Mab. Ioan 17. 23, 26.

Y pwnc blaenaf yn nghân y gwaredigion ydyw cariad Duw yn Nghrist. Nid rhyfedd gymaint iddo eu prynu, eu golchi, &c., wedi iddo eu caru: ond y rhyfeddod fwyaf oedd iddo erioed eu caru, yn wyneb eu holl wrthuni. Dat. 1. 5.

Y mae cariad Duw yn cael ei dywallt yn nghalonau ei bobl trwy yr Ysbryd Glân: sef yn cael ei amlygu mewn modd eglur a helaeth, nes y byddont yn caru yr hwn a'u carodd hwy yn gyntaf; ac oddiar yr egwyddor hon o gariad, y maent yn ymegnïo yn hyfryd mewn ufudd-dod i'w gyfreithiau Ps. 119. 40. Y mae yr egwyddor nefolaidd hon o gariad yn ymhyfrydu mewn cymdeithas ysbrydol â Duw, ac â'i bobl hefyd: y mae yn anmhosibl i neb garu Duw a chasâu ei bobl. 1 Ioan 4. 20. Pa le bynag y mae cariad yn y galon, y mae efe yn egluro ei hun trwy garu y brodyr: hyny yw, y rhai sydd yn ymddangos eu bod o'r gwirionedd; ac os ydym yn caru y brodyr, yr ydym yn llawen gyd â'r rhai sydd yn llawen, ac yn wylo gyd â'r rhai sydd yn wylo; hyny yw, yr ydym yn llawenhau yn eu gwynfyd, ac yn ymofidio yn eu hadfyd.

'Cariad a guddia liaws o bechodau.' 1 Petr 4. 8. Iago 5. 20. Y mae yn hir-ymaros, 1 Cor. 13. 4.—yn adeiladu, 1 Cor. 8. 1.—ni wna ddrwg, Rhuf. 13. 10.—cyflawnder y gyfraith ydyw. Nid ydyw proffes fawr, a llawer o wyrthiau, *ddim*, heb gariad. 1 Cor. 13. 1, 2, 3. Y mwyaf o'r holl radau ydyw, 1 Cor. 13. 13.—byth ni chwymp ymaith, 1 Cor. 13. 8, &c.

Y mae gan Bernard, yn un o'i epistolau, y cyfryw ymadroddion a'r rhai hyn am gariad: 'Yn ddiau,' medd efe, 'nid yw cariad heb ofn a dymuniad; ond y mae yn sancteiddio ac yn llywodraethu y ddau.—Ond, o herwydd ein bod yn gnawdol, ein cariad sydd gnawdol ar y cyntaf; yr hwn, os cyfarwyddir ef mewn iawn drefn, gan gynnyddu dan nodded gras, a berffeithir gan yr Ysbryd. Yn y lle cyntaf, y mae dyn yn ei garu ei hun er ei fwyn ei hun;—yna, pan welo efe nad yw efe yn gwbl ddigonol er dedwyddwch iddo ei hun, y mae yn dechreu, trwy ffydd, ymgeisio â Duw, megys yn angenrheidiol i wneyd ei ddedwyddwch yn gyflawn. Yna y mae yn dyfod i garu Duw yn yr ail radd o gariad, ond etto er ei fwyn ei hun, ac nid er mwyn Duw. Ond pan y dygir ef, trwy ei angen a'i eisieu, i gael cydnabyddiaeth â Duw, yna, yn raddol, y mae yn dechreu dyfod i adnabod Duw, fel y mae efe; ac yn ganlynol, yn gweled ei fod yn anfeidrol deilwng o gael ei garu. Gwedi profi fod yr Arglwydd yn dirion, y mae yn dyfod i'r trydydd gradd, sef i garu Duw o herwydd yr hyn ydyw ynddo ei hun. Yn y gradd hwn y mae efe yn sefyll; ac nis gwn i fod neb yn y bywyd hwn yn cyrhaedd y pedwerydd gradd, sef bod dyn yn dyfod i'w garu ei hun yn unig er mwyn ac ar gyfrif Duw. Y rhai a brofasant hyn, cadarnhaent ef: yr wyf yn addef ei fod yn ymddangos i mi yn beth anmhosibl. Ond, daw hyny i ben, pan ddygir y gwas da a ffyddlawn i mewn i lawenydd ei Arglwydd.' Gwel Milner's *Church History, vol.* iii., *p.* 426.

CARIAD-WLEDD—OEDD, (αγαπαι) gwleddoedd cariad, yn mha rai yr oedd y prif Gristionogion, y tlodion a'r cyfoethogion, yn cyd-fwyta yn garedig gyd â'u gilydd—yn gyffredin wedi cyfranogi o'r Swper Sanctaidd. Yr un peth a feddwl yr apostolion, tebygol, wrth y gair 'byrddau.' Act. 6. 2. Yr arfer hon a fenthycodd y brif eglwys oddiwrth yr Iuddewon crefyddol; y rhai, ar ol iddynt aberthu, a fwytaent gig yr aberth yn llawen gyd â'u gilydd. Neu, yn ol gorchymyn ein Harglwydd, (Luc 14. 12, 13.) i ddyddanu y tlodion, ac i ddangos eu hundeb a'u cariad at eu gilydd, bwytaent ac yfent yn nghyd, naill ai cyn ai ar ol Swper yr Arglwydd. Y mae Tertulian yn dangos fod y cyfryw wleddoedd yn ei amser ef. 'Yr ydym ni yn ymgyfarfod â'n gilydd (medd efe) fel, trwy gydfwriad sanctaidd, y gallom ni ymosod ar Dduw, trwy y fath ymdrech ag a fyddo boddlawn ganddo ef, lle yr ydys yn gweddio, ac yn agoryd yr ysgrythyrau; ac ar ol y cyfarfod hwn, bydd swper yn dechreu gyda gweddi; yr ymddyddanion a fyddant y cyfryw ag sydd yn gweddu i glustiau Duw; a chwedi i ni ymolchi, a chanu psalm, nyni a fyddwn yn ymadael mewn sobrwydd.' Ond ymlusgodd doethineb a meddwdod i mewn trwy rai halogedig, fel y gadawyd yr arfer heibio agos yn llwyr. Judas 12.—Yr oedd amryw bethau yn cael eu harfer ynddi, megys golchi traed, Ioan 13. 5.—cusan sanctaidd, neu gusan cariad. 1 Petr 5. 14. Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20, &c. Y rhan fwyaf o Gristionogion a farnasant fyned o'r pethau yn rhy lygredig wrth eu harfer. Gwel Cave's *Primitive Christians, part.* vii., *cap.* ii. *Suiceri Thesaurus in Αγαπαι.*

CARLAM—AU—U, (car-llam) carniad, pedwarcarniad. March carlamog, sef march carial.—'Yna y drylliodd carnau y meirch gan garlamau, carlamau ei gryfion ef.' Barn. 5. 22. Darluniad hynod o hardd ac egnïol o ffoad gelynion wedi eu cwbl orchfygu, ac yn y braw a'r dychryn mwyaf yn carlamu nes dryllio carnau y meirch. Y mae pob peth yn eu herbyn, gan fod Duw yn eu herbyn; hyd yn nod carnau y meirch yn dryllio, ar gyflymdra pa rai yr oeddynt yn ymddiried am eu heinioes.

CARMEL, כרמל [*gwinllan Duw*] 1. Dinas yn llwyth Judah, ar fynydd o'r enw hwn. Jos. 15. 55. Yma yr oedd Nabal yn trigo. 1 Sam. 15. 12.——2. Mynydd yn cyrhaeddyd o Fôr y Canoldir, hyd at ddyffryn Jezreel. Cafodd ei enw oddiwrth ei ffrwythlonrwydd; ac arferir ef yn aml gan y prophwydi i arwyddo unrhyw le ffrwythlawn. Gwel *Universal History, vol.* ii., *p.* 404. Yr ydoedd yma amledd o winwydd, ac olew-wydd, a phob coedydd ffrwythlawn yn tyfu.—Yma yr offrymodd Elias ei offrwm rhagorol, ac a atebwyd trwy dân o'r nefoedd, ac y gorchymynodd ladd y 450 o brophwydi Baal. 1 Bren. 18. 19—40. Edr. ELIAS.——Yr oedd rhyw le bras a ffrwythlawn yn cael ei alw Carmel, neu Saron. Esa. 33. 9. a 35. 2.—Pen y saint sy fel Carmel; Iesu, eu pen a'u brenin, sydd yn anfeidrol uchel a dyrchafedig, gogoneddus, a ffrwythlawn; gobaith, eu gras penaf sydd yn myned tu fewn i'r llên, ac iddo gylch-olwg helaeth, a hyfryd ragorol, ac yn ffrwythlawn dros ben mewn gweithredoedd da. Can. 7. 5.

CARMI, כרמי [*fy ngwinwydden*] 1. Pedwerydd mab Reuben, a phen cenedl y Carmiaid. Num. 26. 6.——2. Tad Achan, o lwyth Judah. Jos. 7. 1, 18.

Digitized by Google

arbed y wialen yn casâu ei fab,' (Diar. 13. 24.) hyny yw, nid yw yn ei garu yn y modd y dylai, gan ei fod yn attal oddi wrtho, yr hyn a fyddai yn llesol iddo.—Y mae yr annuwiol yn casâu addysg, (Ps. 50. 17.) a chas gan ffyliaid wybodaeth. Diar. 1. 22. Ac y maent yn casâu ei bobl, (Ps. 34. 21.) 'a hwy a aurheithir.'—Y mae hefyd gasineb at bechodau dynion, ac nid at eu personau; fel hyn y mae y cyflawn yn casâu hyd yn nod y wisg halogedig. Judas 23.—'Y peth sydd gas genyf, hyny yr wyf yn ei wneuthur.' Rhuf. 7. 15. Y mae y duwiol yn casâu pechod, am ei fod yn drosedd o gyfraith Duw. Edr. EDIFEIRWCH.

'Yn gas ganddynt Dduw;' *Gr. θεοσυγεις, casäwyr Duw.* Rhuf. 1. 30. Y mae y Duw anfeidrol sanctaidd a da, yn ei FOD, ei briodoliaethau, a'i weithredoedd, yn wrthddrych o gasineb dyn llygredig dan y cwymp. Mor fawr yw ei dywyllwch a'i bechadurusrwydd! Y mae yn casâu yr hawddgarwch a'r prydferthwch mwyaf. Rhuf. 8. 7. Num. 10. 35. Deut. 32. 41. Ps. 68. 1. a 83. 2. a 139. 21.

CASGL—IAD—ION—U, (cas). hel yn nghyd; dwyn pethau at eu gilydd; tyru.—Y mae yr Arglwydd yn casglu gwasgaredigion Israel—ei ŵyn—yr holl genedloedd, &c. Ps. 147. 2. Esa. 11. 12. a 40. 11. a 43. 5. a 52. 12. a 56. 8. Jer. 31. 10. Ezec. 11. 17. a 28. 25. Joel 3. 2. Hab. 2. 5. Mat. 23. 37. Mic. 2. 12. a 4. 6. Seph. 3. 19, 20. Zech. 10. 8. a 14. 2, 14. Y mae y dull hwn o lefaru yn gyffelybiaethol, oddiwrth fugeiliaid yn casglu eu praidd; neu ryw dywysog buddugoliaethus yn casglu ei gaethion o dir y gelyn; neu gybyddion yn pentyru golud; ac a arwydda gwaith caredig ac effeithiol Crist, trwy yr efengyl, yn dwyn pechaduriaid ato, ac i undeb ag ef ei hun, o bob pellder, ac o afael eu holl elynion, i fyw dan ei ofal a'i gadwraeth, ac yn ei gymdeithas hyfryd byth.

Crist 'yn casglu myrr gyd â'i bêr-arogl,' a arwydda ei foddlonrwydd a'i hyfrydwch yn ngras ei bobl. Can. 5. 1. a 4. 13, 14.—'Crist yn casglu lili,' (Can. 6. 2.) a arwydda hyfrydwch mawr Crist yn ei bobl; ei waith yn eu casglu yn ysbrydol i gredu ynddo, i undeb a chymdeithas â'u gilydd, fel blodau hardd a pheraidd yn llaw Crist; a'u cynnulliad ganddo at eu gilydd yn y nefoedd byth. Mat. 3. 7. a 13. 48. a 24. 31. Y mae Crist, weithiau, yn dyfod i'w ardd i blanu lili newyddion, ac weithiau i gasglu y rhai addfed i'w baradwys fry.

'Na chasgl fy enaid gyda phechaduriaid.' Ps. 26. 9. Y mae casglu, weithiau, yn cael ei arferyd am gymeryd ymaith. Num. 20. 24. a 27. 13. Y gair אסף a arwydda cymeryd ymaith, yn gystal a chasglu, fel yr ydys yn cymeryd ymaith yr ŷd o'r meusydd, i'w gasglu i'r ysgubor, neu yr aeron o'r berllan, i'w casglu i'r tŷ. Rhaid cymeryd peth ymaith o un man i'w gasglu i fan arall. Felly y mae y Psalmydd yma yn dymuno ar Dduw na chymerai ei enaid ymaith yn mhlith pechaduriaid; hyny yw, gyd â'r rhai, o herwydd ei beiau, sydd yn haeddu marw.—'Casglu at ei bobl,' (Gen. 25. 8.) a arwydda, dygiad hyfryd y duwiolion yn angeu i gymdeithas dragywyddol â'u gilydd.—'Casglu cyfoeth,' sef tyru golud trwy lawer o boen a llafur. Diar. 28. 8. Preg. 2. 26. Jer. 48. 36. Luc 12. 17.

CASIA, קסה [*y rhisgl*] math o bren pêr ei arogl, a enwir yn mhlith dewis lysiau olew yr eneiniad. Exod. 30. 24. Ps. 45. 8. Dywedir mai rhisglyn pren yw y *casia*, a'i fod yn tyfu yn yr India Ddwyreiniol. Edr. AROGL-DARTH, GWISGOEDD.

CASIPHIA, כספיא [*arian*] lle y preswyliai Ido, penaeth yr Iuddewon yno. Tybyga Calmet mai lle oedd yn agos i fynydd Caspius, a Môr Caspia, rhwng Media a Hyrcania. Ezra 8. 17. Ezra, pan oedd ar ddychwelyd i wlad Judea, a anfonodd at Ido i Casiphia, fel y dygai y Nethiniaid yn weinidogion i dŷ yr Arglwydd.

CASLUHIM, כסלחים [*gorchudd byrddau*] mab Mizraim, a'i hiliogaeth. Annilys yw y lle y trigasant—hwyrach yr Aipht Uchaf, medd Calmet. Gen. 10. 14. 1 Cron. 1. 12.

CASTELL—U, (cast) *Llad.* CASTELLUM; *Saes.* CASTLE; amddiffynfa, tŵr, llystyn, trefan: adeilad gadarn i ddiogelu rhag gelynion. Gen. 25. 16. Iesu Grist, yn ei haeddiant anfeidrol, ei allu anorchfygol, a'i ofal diddòr am danynt, yw castell a diogelfa ei bobl. Ps. 31. 3. a 34. 7. Deut. 32. 11. Mic. 4. 8.—'Bwrw cestyll i'r llawr:' beth bynag a ddefnyddir at rwystro rhedfa awdurdodol yr efengyl yn enaid dyn, mae yr un efengyl, yn ngwirionedd ei hathrawiaeth, purdeb a chywirdeb ei dysgyblaeth, yn ddigon nerthol a galluog, trwy weithrediad Ysbryd Duw, i'w bwrw i'r llawr. 2 Cor. 10. 4.

CASTOR a POLUX, y rhai hyn oeddynt ddau frawd, yn ol y chwedl genedlig, meibion Iau a Leda, a ddaethant o'r un ŵy; oblegid hyny yr oeddynt yn cael eu darlunio â hanner plisgyn ŵy ar ben pob un. Yr oeddynt mewn cyfrifiad mawr oblegid arwriaeth. Yr oedd morwyr yn neillduol yn eu parchu yn fawr, ac yn talu addoliad iddynt; am y credent mai hwy oedd yn cadw y môr rhag lladron, a'u bod yn abl gwneuthur yr ystorm yn dawel; am hyny y galwent arnynt yn eu cyfyngderau; a phan y byddai dynion yn cychwyn i fordaith gwnaent addunedau iddynt, a dodent eu llun yn arwydd ar eu llongau.—Dyma yr arwydd oedd ar y llong y mordwyodd Paul ynddi i Rufain. Act. 28. 11. Gwel Calmet's *Dictionary, Frag.* 214.

CATYRFA, (ca-tyrfa) byddin, lleng; hefyd, can mil o filwyr.—'Ac Iudas wedi iddo gahel catyrfa o wyr.' Ioan 18. 3. W. S.

CATHOD, (cy-ath) *Saes.* CAT: cath fôr, neu môrcath; cath eithin, sef ysgyfarnog; cath goed, gwrcath. Yn Ffrainc, y mae y cathod oll o liw y plwm; ac yn ngogledd Ewrop y maent oll yn wynion.—'A'r cathod a gyd-atebant yn ei gweddw-dai hi.' Esa. 13. 22. a 34. 14. Jer. 50. 39. 'Y bleiddiaid a udant.' Lowth. —*Heb.* איים *aiim.* Barna Bochart a Vitringa mai *jackals*, gwas y llew, a feddylir wrth y gair hwn. Creadur digon adnabyddus yw hwn yn y gwledydd dwyreiniol: y mae yn llai na'r llwynog, a rhwng y ci a'r llwynog. Ant allan y nos yn yroedd i ymofyn am ysglyfaeth, yn udo ar eu gilydd; un yn dechreu, a'r lleill yn ateb.—Ond ammeu Parkhurst ai nid math o adar aflan a feddylir wrth y gair.

CATHL—AU, (ca-thyl) cân, caniad, mydr, gwawdgân, cywydd, awdl, cerdd; peroriaeth, cynghanedd, pereidd-gân.

Cymerwch *gathl* a sallwyr lân,
A moeswch dympan hefyd.
*E. Prys,* (Ps. 81. 2.)

CAU, (ca) cloi, bolltio, gwneuthur peth yn ddiogel; cau allan, dodi mewn lle arall, peidio gwneuthur derbyniad. Num. 12. 14. Gal. 3. 32.—Cau ar un, a arwydda carchariad, neu gyfyng-ddalfa arno. Job 12. 14. Dat. 20. 3.—Cau clustiau, sef peidio gwrando. Diar. 21. 13.—Cau llaw, sef peidio a thosturio. Deut. 15. 7.—Cau ar eiriau, neu weledigaeth, sef dirgelu yr ystyr o honynt. Dan. 12. 4. a 8. 26.—Cau trugaredd, neu dosturi, ydyw peidio a chydymdeimlo a chymhorth. Ps. 77. 9. 1 Ioan 3. 17.—Cau y nefoedd, yw attal gwlaw tymhorol neu ysbrydol. 1 Bren. 8. 35. Dat. 11. 6.—Cau teyrnas nefoedd, sef cam-ddarlunio y ffordd a'r moddion i gyrhaedd dedwyddwch tragywyddol, a rhwystro eraill i arfer gwir foddion iechydwriaeth. Mat. 23. 13.—Y mae dynion yn cael eu cau

Digitized by Google

mewn anufudd-dod, neu anghrediniaeth, (*απειθεια*) pan fyddo Duw, mewn barn, yn eu rhoddi i fynu i Satan, ac i ddilyn eu chwantau afreolus eu hunain. Rhuf. 11. 32.——'Cyd-gau i'r ffydd,' a arwydda fod holl orchymynion, ordinhadau, a rhagluniaethau dwyfol, yn nghyd â dylanwadau ysbrydol, yn cyd-dueddu i annog dynion i gredu yn Mab Duw, fel yr unig Iachawdwr. Felly yr oedd holl drefniadau neu ddefodau Moses, yn nghyd â'r ddeddf foesol, yn athraw i'n dwyn at Grist. Gal. 3. 23.——'Cau y pyrth yn yr heolydd,' a arwydda, fod y genau yn ffaelu ymagor gan henaint a gwendid, i gyflawni y swyddau perthynol iddo, fel y porth i'r holl gorph, i dderbyn lluniaeth, a thrwy eiriau i roddi allan y meddwl i eraill. Preg. 12. 4.

CAUAD-FRIG, (cau-brig) brig-llawn, brig-dew.—'Cangenau o'r prenau cauad-frig i wneuthur bythod.' Neh. 8. 15.

CAWAD—AU, CAWOD—YDD, (caw) 1. Tywalltiad, neu ddyferiad gwlaw o gwmwl. Zech. 10. 1.——2. Bendithion y cyfammod gras, trwy weinidogaeth y gair. Deut. 32. 2. Ps. 72. 6. Ezec. 34. 26. Mic. 5. 7. Zech. 10. 1.

CAWDD, CODDION, (caw) coddiant, sarhad; anfodd, llid, digofaint.

> Oes dy ddurtur na ddod ar *gawdd*,
> Dan nawdd anifail creulawn.
>
> *E. Prys*, (Ps. 74. 19.)

CAWELL, CEWYLL—U, (caw) *Gr.* *καλαθος*; balleg, basged, cest, cestog. Cawell pysgota, cawell saethau: bwrw yn dy gawell, sef ymlenwa.—Y tri chawell a welodd pobydd Pharaoh, oeddynt yn arwyddo tri diwrnod o fywyd. Gen. 40. 17—20.—Arwydda cawell, yr ymborth ynddo. Deut. 28. 5.—Cawell saethau, math o gôd, neu wain, fyddai gan ryfelwyr gynt i ddwyn eu saethau ynddo.—'Y cawell saethau a drystia;' sef y saethau yn y cawell. Job 39. 23.—'Cawell y Caldeaid fel bedd agored,' sef eu saethau a laddant luoedd. Jer. 5. 16.—Pan gyffelybir plant i saethau, y tŷ yw y cawell. Ps. 127. 5.—Pan gyffelybir Crist i saeth, amddiffyniad Duw yw y cawell, lle y mae wedi ei guddio a'i ddiogelu. Esa. 49. 2.—Pan gyffelybir barnedigaethau Duw i saethau, ei arfaeth a'i ragluniaeth yw y cawell. Galar. 3. 13.

CAWG—IAU, (caw) osgy, osged; llestr i ddal dwfr, neu i olchi. Exod. 12. 22. Ioan 13. 5.

CAWL—ION, (caw) bresych; potes, isgell a bresych wedi eu berwi ynddo. Gen. 25. 29, 30. 2 Bren. 4. 38. Hag. 2. 12. Am un saig o hono y gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint. Edr. ESAU.

CAWR—I, (ca-gwr) *Heb.* גבר arwr, gwawr, gwron, cadgun, arwron, rhyswr. Weithiau, arwydda cawr y diafol; megys yn y llwon cyffredin, mŷn cawr, y cawr mawr. Yn y prif amserau, pan y rhenid Cymru yn llwythau, blaenor y llwyth a alwent 'y cawr;' yn mhlith y Brytaniaid gogleddol, yr enw cyffredin arno oedd, 'Priodawr;' ac yn y dehau, 'Brutwn gwledig,' y galwent ef. Ond yn yr ysgrythyrau meddylir dynion o faintioli, a chreulondeb anghyffredin; a elwir yn *Heb.* נפלים hyny yw, rhai yn syrthio ar eraill, ac yn eu hyspeilio trwy drais a gorthrech, o'u heiddo, a'u bywyd, hwyrach. Neu, yn ol Mr. Bate, rhai wedi syrthio oddiwrth ryw un, neu ryw rai, gwrthgilwyr; felly yr esponia efe y gair yn Gen. 6. 4., 'Cawri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny;' hyny yw, gwrthgilwyr, wedi cilio neu syrthio oddiwrth Dduw. Yn yr un modd y mae Mr. Ainsworth yn deall y gair; 'yr hwn,' medd efe am y gair Hebraeg, 'a arwydda *syrthio*, megys eu bod yn *wrthgilwyr*, wedi syrthio oddiwrth Dduw, neu yn hytrach yn syrthio, neu yn rhuthro, yn ffyrnig, ac yn greulawn, ar ddynion (Job 1. 5.) a'r rhai a wnaethant iddynt, trwy ofn a gorthrech i syrthio o'u blaen; yr ydoedd y cyfryw yn ddynion o faintioli anghyffredin, fel nad oedd eraill ond fel ceiliogod rhedyn wrthynt.' Num. 13 33. Y maent yn cael eu galw yn y Galdaeg, *Gibbaraja*, hyny yw, *cedyrn*; ac felly yr oedd Nimrod yn גבר (*gibbor*) hyny yw, 'yn gadarn ar y ddaear.' Gen. 10. 8. Y maent hefyd yn cael eu galw *Rephaim*, yn Deut. 2. 11. sef rhai ofnadwy, rhai mae eu hofn yn syrthio ar y rhai a edrych arnynt; o ba herwydd hefyd y gelwir hwynt *Emmim*. Gwel Parkhurst ar y gair נפל.

CAWS, COSYN, (caw) *Llad.* CASEUS; caws maidd, caws gwyn: cawsa, sef hel caws. Y mae yn arferiad yn rhai parthau o Gymru i wragedd tlodion newydd briodi i fyned oddi amgylch i dai amaethwyr i gawsa, neu i hel caws. Ffrwyth llaeth wedi ei geulo a'i ddryllio, a gwasgu y maidd allan o hono, a'i galedu, yw caws. 1 Sam. 17. 18. 2 Sam. 17. 29. Job 10. 10. Llaeth yw wedi ei buro o'i faidd, ac yn aml o'i hufen hefyd. Cynghor meddygon yw bwyta caws yn brin ac yn gynnil ar unwaith.*

CEBAR,† כבר [*egni*] afon yn Assyria, yr hon sydd yn rhedeg i'r Euphrates, yn y pen uchaf o Mesopotamia. Gerllaw yr afon hon y cafodd Ezeciel amryw o'i weledigaethau. Ezec. 1. 1. a 3. 15, 23. a 10. 15, 22.

CED, (cy-ed) budd, lles, rhodd, cymhorth; rhan.—'Can ys cyfrifit ef gyd a ni, ac a gawsei ged yn y weinidogaeth hynn.' Act. 1. 17, 25. W. S.

CEDAR, [*duaidd*] mab Ismael, hiliogaeth yr hwn oedd yn pabellu yn anialwch Arabia, yn porthi praidd, ac yn dilyn bwäau a saethau: (Gen. 25. 13. Esa. 21. 16. a 42. 11. Ezec. 27. 21.) yr oeddynt yn trigo mewn pebyll o flew geifr, wedi eu gwau; ac y mae haneswyr credadwy yn dywedyd nad oedd ganddynt ddim tai ond y rhai hyn.——Yr eglwys a gyffelybir iddynt, o herwydd ei gwael-wedd, a'i duwch ynddi ei hun, ei herlidigaethau, a'i phrofedigaethau. Can. 1. 5. Edr. ISMAEL.

CEDES. Crybwyllir am dair dinas o'r enw Cedes yn yr Hen Destament—1. Dinas yn Judah. Jos. 15. 23.——2. Un arall yn Issachar. 1 Cron. 6. 72.——3. Cedes-Naphtali, dinas yn Galilea Uchaf, a roddwyd i Naphtali; ac wedi hyny a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Gersom. Hefyd dinas noddfa. Jos. 19. 37. a 20. 7.

CEDORLAOMER, כדרלעמר [*fel cenedl o gaethion*] brenin Elam. Gen. 14. 1. Edr. ELAM.

CEDRON, כדרן [*pygddu*] dyffryn tywyll cysgodol drwyddo; yr afon sydd yn rhedeg tua'r dehau-ddwyrain, yn ystlys ddwyreiniol Jerusalem, trwy ddyffryn Jehosaphat. Yr oedd Dafydd yn ei chroesi wrth ffoi rhag Absalom ei fab, a'r Iesu wrth fyned i ardd Gethsemane. 2 Sam. 15. 23. Ioan 18. 1. Nid yw afon Cedron ond bechan yn gyffredinol, er fod yr holl aberoedd o amgylch Jerusalem yn rhedeg iddi; ond yn amser gwlawogydd a llifeiriant trymion, bydd yn chwyddo yn erwin; ac, ar y cyfryw achlysuron, dygai gyda hi holl fudreddi y ddinas fawr, yr hwn a ddygid iddi gan y dyfr-ffosydd cyffredin, a chan y trigolion. Yn y dyffryn gerllaw yr afon hon y llosgodd Asa, Hezeciah, a Josiah, ddelwau eu hen dadau gwrthgiliedig. 2 Cron. 29. 16. 2 Bren. 23. 4. Gwel Maundrell's *Journey*, *May 9th*.

---

* Caseus ille bonus, quem etat avara manus. Yn newydd y mae yn llwytho y cylla; yn rhy hen poetha y gwaed yn ormodol. Dywed y Dr. Quincy nas dichon iddo fod yn rhy hen; canys po hynaf y byddo, mwyaf i gyd yr effeithia ar dreuliad y bwyd yn y cylla.

† Adnabyddid yr afon hon gan y Groegiaid wrth yr enw Chaboras; ac yn awr gelwir hi Khabour.—C.

Digitized by Google

CEDRWYDD, (cedr-gwydd) ארז [*cryf*, *parhaus*] coed cyfrifol yn yr ysgrythyrau; ac yr oedd llawer o honynt yn tyfu o amgylch Libanus; ac y mae etto rai o honynt yn tyfu arno. Y mae y coed hyn yn hirion ac yn breiffion iawn. Y mae y rhai a welir yn Libanus y dydd hwn, yn bymtheg troedfedd ar hugain, a thros un troedfedd a deugain o gylch-fesur. Gwel Well's *Sacred Geography*. Mae cangenau yn tarddu allan o'r gedrwydden, o fewn deg neu ddeuddeg troedfedd i'r llawr. Y mae ei changenau yn fawrion, ac o gryn bellder oddiwrth eu gilydd; y mae ei dail yn lled debyg i ddail rhos mair, ac yn wastad yn wyrdd-leision; ac y mae sudd yn dyfod o honi, i'r hwn y priodolir amrywiol effeithiau. Byddent yn gwneuthur defnydd o'r cedrwydd yn adeiladau cyffredinol yr Iuddewon, nid yn unig yn drawstiau ac yn fyrddau, ond hefyd yn nghyrph eu muriau, yn y rhai yr oeddynt yn eu cyd-osod â'r ceryg, fel y byddai weithiau dair rhes o feini ac un o gedrwydd. 1 Bren. 6. 36. a 7. 12. 1 Cron. 17. 1. Ezra 6. 4. Yr ydoedd y coed hyn o fawr ddefnydd at wneuthur pethau a amcenid i barhau yn hir; maent agos yn anmhydradwy, o herwydd eu chwerwder, yr hyn sydd yn eu gwneuthur na fwyty y pryfed hwynt. Yr oedd y deml yn Jerusalem, a phalas y brenin Solomon, gwedi eu hadeiladu o gedrwydd, ac yr oedd y fath helaethrwydd o honynt yn y deml, fel y mae hi weithiau yn cael ei galw Libanus: 'Libanus, agor dy ddorau.' Zech. 11. 1. A'r tŷ lle yr oedd Solomon yn byw, a elwir 'tŷ coedwig Libanus.' 1 Bren. 7. 2. Y mae Josephus yn dywedyd fod Solomon gwedi planu y fath helaethrwydd o gedrwydd yn ngwlad Judea, fel yr oeddynt cyn amled a'r sycomorwydd, y rhai sydd goed tra chyffredin yno.——Yr oedd coed cedrwydd yn cael eu defnyddio i lanhau y gwahanglwyf; ac hefyd yn y dwfr neillduaeth. Lef. 14. 4. Num. 19. 6.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn cael ei gyffelybu i gedrwydden, o herwydd ei gadernid, ei ragoroldeb, ei uchder gogoneddus, ei gysgod adfywiol, ei brydferthwch teg, ei hyfrydwch, a'i barhad. Efe ydyw defnydd mawr adeilad ei eglwys. Efe sydd yn ein puro oddiwrth ein gwahan-glwyf pechadurus. Ezec. 17. 23. Can. 5. 15.——Y mae y saint hefyd yn cael eu cyffelybu i gedrwydd, o herwydd eu cadernid, eu harddwch, a'u parhad mewn anllygredigaeth yn adeilad yr eglwys; nid ydynt yn gwywo nac yn ymollwng yn hollol dan un brofedigaeth. Ps. 92. 12. Can. 1. 17. Esa. 41. 19. Can. 8. 9.——Yr Assyriaid a'r Amoriaid a gyffelybir i gedrwydd, i ddangos eu cadernid mawr, eu balchder, a'u llwyddiant. Ezec. 31. 3. Amos 2. 9.——Y mae breninoedd yn cael eu tebygu i gedrwydd, i osod allan eu sefyllfa uchel, eu henwogrwydd, a'u hamddiffyniad i eraill. 2 Bren. 14. 9. Ezec. 17. 3—22.——Y mae gwyr mawrion a beilchion yn cael eu cyffelybu i gedrwydd. Esa. 2. 13. a 10. 33, 34.

CEFN—AU, (caf) cwrwm, trum, trum y mynydd, trum y tŷ; y tu ol i'r corph; tu cefn, sef tu ol; y mae iddo ef gefn da, sef y mae iddo ef blaid gref.—Glain cefn, gleiniau cefn, sef asgwrn y cefn, cymalau y cefn.

Y mae gwneuthuriad y cefn o amryw fân esgyrn, neu gleiniau gwedi eu cymalu a'u cydio â'u gilydd mewn dull gwahanol i'r holl gymalau eraill yn y corph. Y mae i bob un dwll yn ei ganol, a thyllau pob un gyferbyn a'u gilydd, fel y mae rhedfa, neu le ceuol trwyddo, o'r naill ben i'r llall, i'r madruddyn, neu babwyryn y cefn, redeg trwyddo, i ba un y mae amryw dyllau bob ochr, i'r gïau fyned allan oddiwrth y madruddyn, a thaenu bob ochr dros yr holl gorph, mor angenrheidiol i deimlad a bywyd y creadur.

Anaf yn nglau, angeu yn ngwythi. *Diar.*

Y mae gwneuthuriad y cefn y mwyaf cyfleus a allai fod. Pe buasai efe yn un asgwrn i gyd, ni buasai un ysgogiad yn y cefn; a phe buasai yn ddau neu dri o esgyrn gwedi eu cymalu i ysgogiadau, buasai y perygl mwyaf i'r madruddyn gael ei ysigo yn y cymalau; heblaw hyny, ni buasai y cwbl mor ystwyth i'r amrywiol ysgogiadau a'r ystumiau angenrheidiol i ni fod ynddynt. Pe buasai ei wneuthuriad o amryw fân esgyrn heb fod un sylwedd meddalach rhyngddynt *(cartilage)* ni buasai dim mwy defnydd o hono na phe buasai ond un asgwrn. Yn fyr, y mae ei holl drefniad yn dangos doethineb a gofal neillduol yn rhoddi gocheliadau rhag pob perygl ac anghyfleusdra. Y mae yr esgyrn a'r cysylltiadau gwedi eu haddasu mewn modd rhyfedd er grym, ysgogiad, a gweithrediad. Y mae y cefn yn gryf ac yn ystwyth; ac etto y madruddyn, yr hwn sydd anhebgorol at fywyd dyn, gwedi ei amddiffyn gyd â'r diogelwch mwyaf. Mae yn gryf, yn ddiogel, yn ystwyth, ac yn gyfleus.

'Canys ti a deflaist fy holl bechodau o'r tu ol i'th gefn.' Esa. 38. 17. Geiriau cyffelybiaethol ydynt yn arwyddo bod ei holl bechodau gwedi eu maddeu. Yn ngwrthwyneb i hyn, dywedir, 'Cofier anwiredd ei dadau o *flaen* yr Arglwydd; ac na ddilëer pechod e fam ef. Byddant bob amser *ger bron* (נגד יהוה) IEHOFAH.' Ps. 109. 14, 15.—'Canys y mae fy ngolwg ar eu holl ffyrdd hwynt; nid ydynt yn guddiedig o'm gŵydd i, ac nid yw eu hanwiredd guddiedig oddiar gyfer fy llygaid.' Jer. 16. 17.—'Weithian eu gweithredoedd eu hun a'u hamgylchynodd; y maent (נגד פני היו) *ger bron fy wyneb*.' Hos. 7. 2. Ps. 90. 8. Nid oes geiriau cyffelyb i'r rhai hyn i'w cael yn yr holl ysgrythyrau. Y rhai nesaf atynt yw y geiriau yn Mic. 7. 19. 'Efe a ddarostwng ein hanwireddau; a thi a defli eu holl bechodau i ddyfnderoedd y môr.' Cymerwyd y dull yma o ymadroddi oddiwrth waith y cyhoeddwr yn gosod allan achos y cyhuddedig o flaen y barnwr, ac yn dwyn tystion neu brofion o flaen y barnwr: os bydd y rhai hyny yn cael eu bwrw o'r tu cefn i'r barnwr, y mae y cyhuddedig yn rhydd. Felly, yn y cyffelyb fodd, dywedir fod yr Arglwydd yn bwrw holl bechodau ei bobl o'r tu ol i'w gefn, pan y byddo efe yn eu maddeu, ac yn eu derbyn hwythau yn rasol i'w heddwch.

'Yna y tynaf ymaith fy llaw, a'm tu cefn a gei di ei weled: ond ni welir fy wyneb.' Exod. 33. 23. *Heb.* את אחרי *y tu ol*. Tebygol iddo gymeryd arno agwedd a dull y ddynoliaeth a gymerai mewn amser i undeb anwahanol â'i Berson Dwyfol. 'Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, yn llawn gras a gwirionedd, ac ni a welsom ei ogoniant ef.' Neu, hwyrach, fod y geiriau i'w deall yn ffugyrol, i arwyddo llai dadguddiad o'i ogoniant a'i bresennoldeb, fel pe gwelai un tu cefn gwr, ac nid ei wyneb, lle mae nodiadau gwahaniaethol personau yn fwy amlwg i'w gweled.

Crist 'yn rhoi ei gefn i'r curwyr, a'i gernau i'r rhai a dynent y blew,' a arwydda ei barodrwydd a'i ewyllysgarwch i ddyoddef. Esa. 50. 6.——Troi cefn, gwegil, neu wâr ar Dduw, a arwydda dirmygu o hono; ac ymadawiad oddiwrth wybodaeth, cariad, proffes, ac ymarferiad o'i wirionedd. Jer. 2. 27. a 32. 33.——Yr arddwyr a aredant gefn yr eglwys, ac a estynant eu cwysau yn hirion (Ps. 129. 3.) pan y mae yn cael ei herlid a'i gorthrymu yn fawr; ond fel y mae aredig yn rhagflaenu hau a medi, felly y mae cystuddiau yr eglwys yn rhagflaenu ei hadfywiad, ei ffrwythlonrwydd, a thragywyddol bwys gogoniant. Edr. AREDIG.

CEFN-GRWM. Edr. CRWM.

CEFFYL—AU, *Gr.* Καββαλης; *Llad.* CABALLUS: march, creadur adnabyddus yn ein gwlad ni. 1 Bren. 18. 5. Edr. MARCH.

CEG—AU—U, (cy-eg) *Heb.* חך safn, llwnc.—Ceg yr annuwiol a gyffelybir i fedd agored—ffiaidd a drewllyd yw sawyr eu geiriau cableddus a llygredig. Ps. 5. 9. Rhuf. 3. 13. Mat. 12. 34.—'Gosod y gyllell



Digitized by Google

ar y geg,' sy ddull o ymadrodd yn dangos y pechadurusrwydd a'r perygl o anghymedroldeb, a phesgi ein hunain yn ddiofn. Diar. 23. 2. Judas 12. Ac y dylem ni fod yn dra ymdrechgar am fyw yn sobr ac yn gymedrol yn mhob peth, bob amser, yn mhob cymdeithas; bydded yr achlysuron y peth a fyddont, hyd yn nod pan yr eisteddom i fwyta gyda thywysogion, ar fyrddau pa rai y mae temtasiynau i lythineb a meddwdod yn fynych. Mat. 5. 29, 30. a 18. 8. Gen. 22. 6, 10. Deut. 18. 3. Num. 33. 35. 1 Cor. 9. 27.

**CEGIN—AU**, (cêg) *Llad.* COQUINA: lle i drin bwyd. Ezec. 46. 23.

**CENGL—WCH**, (cang) tengl, rhwym, argengl. Jer. 46. 4.

**CEHELATHA**, קהלתה [*cynnulleidfa*] un o wersylloedd Israel yn yr anialwch. Num. 33. 22.

**CEIDWAD—AID**, (cadw) gwarcheidwaid, gwyliwr, golygwr, gwaredwr, achubwr; un a gadwo ac a waredo dynion allan o berygl a chyfyngder; ac hefyd un a fyddo yn cadw tŷ, neu yn gwylio ac yn gwarchod carchardy. Preg. 12. 3. Act. 12. 6.—Gwyliwr. Gen. 4. 9.——Enw priodol i Iesu Grist. Esa. 43. 11. Jer. 14. 8. Luc 2. 11. 1 Tim. 2. 3. Ps. 121. 4. Efe yw Ceidwad ei bobl yn mhob ystyriaeth—eu Ceidwad cyflawn, galluog, tyner, dyfal, a thragywyddol; ni huna, ni flina, ac ni phalla byth. Edr. GWAREDWR, IACHAWDWR.——'Megys ceidwaid maes y maent o amgylch yn ei herbyn.' Jer. 4. 17. 'Megys gwilwyr y meusydd yr oeddynt wrthi o amgylch.' Dr. M. שמרו שדי *ceidwaid meusydd.* Yn ngwledydd y dwyrain mae ŷd yn tyfu mewn meusydd agored heb eu cau; a phan fyddont yn addas i'w casglu, rhoddant geidwaid oddi amgylch iddynt; mwy os byddant yn agos i ryw brif-ffordd, a llai os na byddant—felly y gwnant yn Arabia. Gwel Harmer, *chap.* v., *Obs.* 15. Tebyg i'r rhai hyn yw y gwylwyr o wlad bell, sef o Babilon, i warchae ar ddinasoedd Judah.

**CEILAH**, קעילה [*yn dadmer*] 1. Tref yn llwyth Judah. Jos. 15. 24. Yr oedd yn lle o beth cyfrifiad, yn nghylch 400 mlynedd ar ol Crist.——2. Mab Nahum. 1 Cron. 4. 19.

**CEILIOG—OD**, (caill) *Gr.* αλεκτωρ; oddiwrth yr *Heb.* חלכת־אור *(dyfodiad y goleuni)* y gwrryw o'r adar.—'Cyn canu o'r ceiliog y'm gwedi deirgwaith.' Mat. 26. 34. Luc 22. 34. Ioan 13. 38. 'Cyn canu o'r ceiliog ddwywaith y gwedi fi deirgwaith.' Marc 14. 30. Y mae hen awdwyr, Groeg a Lladin, yn crybwyll am ddau ganiad y ceiliog; y cyntaf oedd yn fuan wedi canol y nos, a'r llall ynghylch tri o'r gloch y boreu; y diweddaf oedd y mwyaf nodedig gan ddynion, fel arwydd o'u cychwyniad i'w gwaith, ac a alwent yn neillduol yn ganiad y ceiliog; at hwn yn unig y cyfeiria Matthew, &c., gan olygu geiriau ein Hiachawdwr yn eu hystyr gyffredinol; ond Marc yn fwy manwl yn rhoddi i lawr yn neillduol eiriau ein Hiachawdwr, a grybwyll am ganiad y ceiliog ddwywaith. Gwel Wetstein ar Marc 14. 30. Scheuzcer *Phys. Sacr.* ar Marc 13. 35.

Nid cyfannedd ond *ceiliog.* *Diar.*

**CEILIOG RHEDYN**, math o bryf o ryw y locust, ond ei fod yn fychan. Y mae llaweroedd o honynt mewn gweirgloddiau, mynyddoedd, gwrychoedd, &c. Y gwrryw o honynt a gân tra pery y tês. Bydd minteioedd o honynt yn difa cnwd y ddaear. Amos 7. 1. Yr oedd y ceiliog rhedyn yn cael ei gyfrif yn lân dan y gyfraith. Lef. 11. 22. Er fod ein cyfieithwyr ni ryw fodd wedi gadael y gair חגב *Hagab* yn y lle hwn heb ei gyfieithu, y mae cyfieithwyr y Bibl Saesonaeg wedi ei gyfieithu *grasshopper*, neu *geiliog rhedyn*; ac y mae yr un gair Hebraeg mewn lleoedd eraill yn cael ei gyfieithu *ceiliog rhedyn*; megys yn Num. 13. 33. Preg. 12. 5. ac yn Esa. 40. 22. החגבים a gyfieithir *locustiaid.* Gallent osod allan y saint gweiniaid yn eu caniadau, y rhai ni fedrant ganu ond ychydig pan ddarfyddo tês llwyddiant, a dyfod dryc-hin profedigaethau.——Dynion a gyffelybir i geiliogod rhedyn, i arwyddo eu gwaelder, eu gwendid, eu hannheilyngdod; neu o herwydd eu bod yn lluoedd aml yn difa cnwd y ddaear, a bod yn hawdd eu difa, a'u lladd hwythau. Num. 13. 23. Esa. 40. 22. Nah. 3. 15.

'Bydd y ceiliog rhedyn yn faich,' i'r hen wr bron marw; y gofid lleiaf sydd drwm a blinderus ganddo; y mae yn anynad, ac yn faich iddo ei hun. Preg. 12. 5. Neu, yn ol eraill, 'y ceiliog rhedyn fydd yn faich;' bydd yn faich iddo ei hun, pan ddelo y corph, oblegid henaint, a churiad y cnawd, heb ddim ond y croen a'r esgyrn. Y mae ysgerbwd dyn yn debyg iawn i'r ceiliog rhedyn—ei aelodau yn waelion ac yn feinion, ac esgyrn ei gymalau yn lympau anheirdd; yr holl ysgerbwd yn druanaidd ac yn anolygus; ei lais yn chwibanllyd, fel yntau; a'i ben yn ysgwyd.—Arglwydd, pa beth yw dyn! Edr. HAGAB.

**CEINIOG**, *Gr.* δηναριον; *Llad.* DENARIUS:—Ceiniog gyfraith; ceiniog gota. Y gair a gyfieithir ceiniog yw bath Rhufeinaidd, yn gydwerth â saith geiniog a thair ffyrling o arian Prydain. Yr oedd hyn yn gyflog i ddyn am ddiwrnod o waith (Mat. 20. 1—17.) am hyny y cyffelybir gwobr bywyd tragywyddol i gyflog diwrnod o waith i ddyn; am ei fod yn llafurio yma yn nydd ei fywyd am y bara a bery i fywyd tragywyddol. Ioan 6. 27.

**CEISIAD—AID**, (cais) treth-gasglydd; ceisbwl, gofynwr. Y gair *Heb.* נשה a arwydda, *rhoddi benthyg.*—'Rhwyded y ceisiad (neu y gorthrymwr) yr hyn oll sydd ganddo.' Ps. 109. 11. Calon galed, gybyddlyd, yn ceisio rhwydo eiddo iddi ei hun, pa un bynag ai cam ai cymhwys a fyddo.—'Pen-cais y deyrnget,' sef pen-publican. Luc 10. 1. W. 8.

**CEISIO**, (cais) argeisio, ymofyn, ymgeisio; bod yn dyfal chwilio am ryw beth. Gen. 37. 16. Gofyn mewn gweddi (Ezra 8. 21.) neu trwy unrhyw foddion eraill a fyddo yn ateb y dyben i roddi i ni fwynhad o'r peth. Diar. 2. 4.—Y mae Duw yn ceisio dynion, pan byddo, trwy gyfiawnder ac eiriolaeth ei Fab, ac effeithioldeb ei Ysbryd, yn awdurdodi gweinidogaeth y gair i ddychwelyd ac adferu eu heneidiau o'u cyflwr truenus a chyfeiliornus. Ezec. 34. 16. Ps. 119. 176. Luc 15. 4—9. a 19. 10.——Ceisio Duw, ei enw, neu ei wyneb, ydyw gofyn ei gyfarwyddyd, gweddïo am ei ffafr a'i ras, ac ymorphwys arno ef fel ein rhan a'n cynnaliwr. Ps. 63. 1. a 83. 16.——Rhagrithwyr fyddant yn ceisio Duw yn amser trallod a chyfyngder; yn foreu, neu yn ddyfal, y ceisiant ef, ond nis cânt; oblegid eu bod hwy yn ei geisio yn hytrach o orfod nag o ddewisiad; nid o gariad ato, ond o ran rhyddid ac esmwythder iddynt eu hunain. Diar. 1. 28. Job 27. 9. a 35. 12. Esa. 1. 15. Jer. 11. 11. a 14. 12. Mic. 3. 4. Zech. 7. 13.——Ceisio, argeisio, ac ymgeisio âg allor, neu deml, ydyw mynych dramwy at y cyfryw, i ddyben crefyddol. 2 Cron. 1. 5. Deut. 12. 4.——Ceisio gweithredoedd yr Arglwydd, ydyw bod yn eu hystyried yn ddyfal ac yn ofalus, ac yn ymofyn am ddeall da ynddynt. Ps. 111. 2.——Dinas a geisiwyd, sef yr hon y gofalwyd am dani. Esa. 62. 12.——Ceisio deddfau Duw, ydyw ymofyniad manwl am eu gwybod, ac ufuddhau iddynt. Ps. 119. 45, 155.——Ceisio barn, neu ddrygioni, ydyw ymroddi mewn arferiad o gyfiawnder, neu i wneuthur drwg. Esa. 1. 17. Diar. 11. 27. a 17. 19. Yn yr un modd ceisio heddwch a thangnefedd. Ps. 34. 14. Jer. 29. 7.——Ceisio enaid, neu einioes un, yw dymuno ac arfer pob moddion tu ag at ei ladd a'i ddystrywio.

Digitized by Google

Ps. 35. 4. a 38. 12.—'Sion, yr hon nid oes neb yn ei cheisio;' sef heb fod Duw na dyn yn ei hystyried, nac yn gofalu am dani. Y mae rhai yn meddwl fod dirmygwyr yr eglwys yn cyfeirio at ystyr gwreiddiol y gair ציּוֹן yr hyn yw *sych*, neu *diffaeth*. Jer. 30. 17.

CELAIN, (cêl) *Llad.* CADAVER; burgun, buria, abo, abwy:—1. Corph marw dyn, neu anifel. Num. 14. 29. Esa. 14. 19. Mat. 24. 28.——2. Delwau ac eilunod. Jer. 16. 18.——'Pa le bynag y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod.' Mat. 24. 28. Hyny yw, pa le bynag y byddo nodau barnedigaethau Duw, yno bydd y saethau hefyd; pa le bynag yr ymguddio pechadur, tra byddo yn gelain farw ddrewedig, mewn camwedd a phechod, yno yr ymgasgl eryrod digofaint Duw. Neu, pa le bynag trwy holl wlad Judea y byddo yr Iuddewon gwrthnysig, yno y bydd lluoedd y Rhufeiniaid (arwydd pa rai ydyw yr eryr) yn fuan i'w dinystrio. Job 39. 27—30. Luc 17. 37.

CELANEDD, (celan) galanasdra, lladdfa; pentwr o gyrph meirwon.—'A gauo ei glust rhag clywed celanedd.' Esa. 33. 15. *Heb., rhag clywed gwaed;* sef a gauo ei glust rhag clywed cynnygiad i dywallt gwaed. Y mae hyny yn arwyddo ei fod yn casâu ac yn ffieiddio pob creulondeb. Ps. 5. 6.

CELFI, colofnau, arfau.—'Lle y drylliwyd wrth gelfi benau y fam a'r plant.—Eu plant a ddryllir wrth gelfi.' Hos. 10. 14. a 13. 16. Dr. M.

CELFYDD—YD—AU, (celf) medrus, cywrain; crefft, cywreinrwydd; y wybodaeth yn perthyn i ryw gangen o waith yn ei holl ddirgelion. Exod. 36. 2. 1 Cron. 22. 15. Jonah 1. 8. Act. 18. 3.

CELI, (cel) y dirgeledig; un o enwau Duw:—Duw Celi, sef y Duw dirgeledig.

Ysbryd twn, gwelwn GELI—oreubarch,
Yw'r aberth a geri.
*W. Middleton,* (Ps. 51. 17.)

CELU, (cêl) CELO; cuddio, dirgelu, peidio adrodd neu amlygu rhyw beth. Gen. 28. 17. Deut. 13. 8.

Gwel, a chêl, a chlyw. *Diar.*

CELWRN—YRNAU—AID, (cêl-gwrn) math o lestr crothog; crwc; cynnog. 1 Bren. 17. 12. Esa. 40. 15.

CELWYDD—AU, (cêl-gwydd) geudab, ffalsedd; celu o ŵydd; anwiredd a ddywedir mewn bwriad i dwyllo, neu o leiaf yn tueddu at hyny; neu i enllibio enw da arall. Barn. 16. 10. Eph. 4. 25. Y mae y pechod hwn yn droseddd o'r nawfed gorchymyn, ac yn cau dynion allan o'r nefoedd. Exod. 20. 16. Dat. 22. 15.

CELL—OEDD, (cy-ell) *Heb.* כלא *Llad.* CELLA; ystafell; bwyd-tŷ; lle cadwer amguedd tŷ; cuddygl, clöer. Gen. 6. 14. 1 Bren. 6. 5.

CELLWAIR—EIRIAU—US, (cell-gwair) gwawdio; chwareu; crybwyll; cyfeirio at. Gen. 19. 14. Diar. 26. 19.

CEMARIAID, [*duon*] offeiriaid Baal, neu Moloch. Seph. 1. 4. Cyfieithir y gair *offeiriaid* yn 2 Bren. 23. 5. Hos. 10. 5.

CEMUEL,* *Heb.* כמואל [*Duw a gyfododd*] 1. Mab Nachor, a thad Aram. Oddi wrtho y tarddodd y Cemeliaid, y rhai oedd yn cyfanneddu yn Syria. Gen. 22. 21.——2. Mab Siphtan, o Ephraim. Num. 34. 24.

CEN, *rhagddod;* (can) gyda, yn meddiant o; megys da cenyf.—CEN, *cysylltiad;* o herwydd; am; yn gymaint ag; megys, cen ei fod, cen y bydd.

* Ymddengys fod un arall o'r enw hwn, ag oedd yn dywysog ar y Lefiaid. 1 Cron. 27. 17.—C.

CEN, (en) croen, pilionen; ysgen, marwdon, caen, crawen, crest, blisg; oddiwrth ysgen y daeth SKIN, *Saes.* tebygol.—Cèn ceryg, cèn y coed, cèn y pysgod, sef yr hyn sydd ar y pysgod hyny a fernid yn lân wrth y gyfraith. Lef. 11. 9, 10. Deut. 14. 9. Y peth a syrthiodd oddiwrth lygaid Paul oedd yn rhyw fath o groen tebyg i hwn. Act. 9. 18.

CENAD—AU—U—ON, (can) mynegwr, negeswr, negeseuwr; un yn dwyn cenadwri oddiwrth un gwr, neu un deyrnas, at un arall. Gen. 32. 3. 2 Bren. 16. 7. Cymhwysir yr enw, 1. At Grist; yr hwn yw cenad y Tad at ddynion, i ddehongli ei ewyllys iddynt, ac i ddangos ei uniondeb tu ag atynt, yn ei ŵg yn ceryddu, ac yn neillduol yn ei gariad a'i ewyllys da yn achub. Job 33. 23.——2. Ioan Fedyddiwr, a gweinidogion eraill hefyd, y rhai a anfono yr Arglwydd i fynegi ei ewyllys a'i orchymynion i'w bobl. Mal. 3. 1 a 2. 7. 2 Cor. 5. 20. a 8. 23.——3. Cystuddiau, neu brofedigaethau celyd; neu cenad Satan, hyny ydyw, Satan ei hun. 2 Cor. 12. 7.——4. Barnedigaethau yr Hollalluog. Diar. 17. 11.——5. Ysplwyr gwlad Canaan. Jos. 6. 17. Iago 2. 25.——'Digofaint y brenin sydd megys cenad angeu.' Diar. 16. 14. Sef yn ofnadwy iawn. Edr. ANFON, APOSTOL.

CENAW—ON, (can) *Gr.* Κωνιδιον; hil, eppil; cywion; impyn; cenawon cyll, cenawon cadudd. Cywion eirth, 2 Sam. 17. 8.—Llewod, Job 4. 10.—Dreigiau, Galar. 4. 3.—Cwn, Marc 7. 27.

CENEAID, [*meddiant diogel*] cenedl oedd yn trigo yr ochr orllewinol i'r Môr Marw. Barn. 1. 16. Yn amser Saul yr oedd y Ceneaid gwedi ymgymysgu a'r Amaleciaid. Yr oedd tiroedd y Ceneaid yn rhandir Judah. Yr oedd y Ceneaid yn trigo mewn mynyddoedd a chreigiau, fel yr oedd yn anhawdd myned yn agos atynt; er hyny dygwyd hwynt i gaethiwed dan Nebuchodonosor, yn ol prophwydoliaeth Balaam. Num. 24. 21, 22.

CENATH, [*pryniad*] tref yn Manasseh, tu hwnt i'r Iorddonen. Num. 32. 42. Cafodd yr enw Noba, ar ol Noba, Israeliad a'i gorchfygodd.

CENAZ, [*meddiant y galar hwn*] 1. Pedwerydd mab Eliphaz, mab Esau, un o dduciaid Edom. Gen. 36. 15.——2. Tad Othniel, a brawd ieuengaf Caleb. Jos. 15. 17. Barn. 1. 13.

CENCHREA, porthladd yn agos i Corinth. Act. 18. 18. Yr oedd yn ddinas go fawr o faintioli.*

CENEDL, (can) *Gr.* γενος; *Llad.* GENS, GENUS: Cenedlaeth pobl, tylwyth, rhywogaeth, hiliogaeth, carenydd; y rhai a darddo oddiwrth yr un cyff, neu dylwyth; (Gen. 25. 13.)—pobl yr un wlad. Jer. 2. 11. —'Cenedl a gyfyd yn erbyn cenedl.' Mat. 24. 7. Yr oedd Palestina gwlad yr Iuddewon, yn cynnwys amryw ardaloedd neu daleithiau; sef Judea, Galilea, Iturea, ac Abilene, &c. A breniniaeth, neu lywodraeth, y gellid galw pob un o'r rhai hyn, am fod tetrarch, neu raglaw, dan yr ymerawdwr, ar bob un o honynt. Luc 3. 1. Gellid galw trigolion pob un o'r ardaloedd hyny yn genedl (2 Cron. 15. 6.) lle y sonir am ymladdau rhwng yr Iuddewon a'u gilydd. Tebygol nad ydyw y geiriau, 'Cenedl a gyfyd yn erbyn cenedl,' yn eu prif ystyr (fel y maent yn rhagfynegiad o'r helyntion o flaen dinystr Jerusalem, ac nid o'r rhai a ddygwyddent o flaen diwedd y byd) yn arwyddo ond rhyfeloedd yn Palestina yn unig, rhwng y naill a'r llall o'r ardaloedd rhag-ddywededig; neu, ynte, terfysgoedd ac ymladdau rhwng trigolion yr un ardal; naill ai rhwng yr Iuddewon a'u gilydd, neu rhyngddynt hwy a phobl eraill yn eu mysg. Tybir fod y

* Planwyd eglwys yma. Rhuf. 16. 1.—C.

Digitized by Google

geiriau 'cenedl yn erbyn cenedl,' yn arwyddo terfysgoedd ac ymladdau rhwng yr Iuddewon a rhai o'r cenedloedd eraill yn byw yn yr un dalaeth neu ddinas â hwynt; a bod y geiriau, 'teyrnas yn erbyn teyrnas,' yn arwyddo y rhyfeloedd rhwng y naill dalaeth a'r llall, yn ngwlad yr Iuddewon. Marc 13. 8. Luc 21. 10. Gwel Hammond ar Mat. 24. 7. ac Esgob Newton.

CENEDLAETH—AU, (cenedl) hiliogaeth dynion, eppilaeth, achau hynafiaid. — 1. Hanes am darddiad achau a bywydau dynion.—'Llyfr cenedlaethau Adda,' (Gen. 5. 1.) a arwydda hanes y plant a genedlodd Adda, a holl ddygwyddiadau eu hamseroedd, eu hoedran, a'r hyn a ddygwyddodd yn niwrnod eu bywyd. Diar. 27. 24. Gen. 6. 9. a 25. 19. Y mae deg o genedlaethau yn cael eu cyfrif o Adda hyd Noah. ——2. 'Cenedlaethau y nefoedd a'r ddaear,' ydyw yr hanes am eu ffurfiad. Gen. 2. 4.——3. Llyfr cenedliad Iesu Grist, ydyw yr hanes am ei achau, ei enedigaeth, ei fywyd, a'i farwolaeth. Mat. 1. 1. Fod y Messiah gwedi dyfod o lwynau Abraham, Judah, a Dafydd, yn ol yr addewid, sydd amlwg. Yn nechreu y Cronicl y mae genym ni achau tros fwy na 3500 o flynyddoedd. 1 Cron. i—vi. Y mae Matthew yn gwneuthur yr achau o Abraham hyd Grist, yn 42 o genedlaethau; a Luc yn casglu achau dros bedair mil o flynyddoedd, o Adda hyd Grist. Mat. i. Luc iii. Y mae Matthew yn rhoddi achau Joseph, a Luc achau Mair. Yr achos fod yr achau yn ymddangos yn anghytun yw, 1. Am fod i rai dynion amryw enwau.—2. Fod eraill yn mabwysiadu plant.—3. Eraill yn cyfodi had i'w brawd; y cyntaf-anedig yn fab yn ol y gyfraith, a'r lleill yn feibion naturiol.——Tebygol fod llygad yr apostol ar hyn, pan y mae yn sôn am achau anorphen: megys pe bai cymaint o geinciau, nes ydyw yn waith anorphen chwilio y cwbl. 1 Tim. 1. 4. Tit. 3. 9.——'Nid â y genedlaeth hon heibio, hyd oni wneler hyn oll.' Mat. 24. 34. Y bobl oedd yn byw yn amser marwolaeth Crist, nid oeddynt wedi meirw pan ddystrywiwyd Jerusalem a'r genedl Iuddewig, gan y Rhufeiniaid. ——'Cenedlaeth anffyddlawn a throfaus.' Mat. 17. 17. 'Anffyddlawn a thrawsedic.' W. S. 'Anffyddlawn a gwrthnysig.' Dr. M. Y mae trofaus yn wrthwyneb i ffyddiog neu ffyddlawn, yn mhob ystyriaeth; megys yn troi at ryw gyfeiliornad, yn lle cerdded ar hyd uniawn lwybrau ffydd. Mae y dyn anffyddiog yn rhwym o fod yn ddyn trofaus; oblegid nid oes dim yn gwir sefydlu yr enaid ar y graig ond ffydd. 'Craig yw Duw,' medd Moses, gadarn, ddiysgog, nad oes dim a'i try o'i le byth; 'Ei ffyrdd ydynt farn, cyflawn ac uniawn yw efe.' Ond am y genedlaeth hon, y mae yn ŵyrog, yn camu allan o'i gyfraith, ac yn myned yn groes iddo, yn anghyfiawn; yn troi yn ol ac yn y blaen, heb sefydlu ar y gwirionedd. Y mae ffydd yn union dyn, o ran ei amcanion a'i fwriadau; lle byddo yn gweithredu ar ei gwir wrthddrych, sef Iesu Grist, y mae yn puro y galon oddiwrth drawsedd a thwyll. Y mae y gair פתלתל yr hwn yn Deut. 32. 5. a gyfieithir *gwyrog a throfaus* (sef gair o'r un gwreiddyn) yn cael ei gyfieithu yn Job 5. 13. yn *gyfrwysdra*—yn Ps. 18. 27. yn *olygon uchel.* Y gair *Gr.* πολυπλοκον (LXX.) a arwydda, peth cuddiedig, megys dichell; ac hefyd, peth gwedi mawr ddyrysu, megys edafedd wedi troi y naill oddiwrth y llall. Deut. 32. 4, 5. Mat. 17. 17. Luc 9. 41. Y mae ffydd, yn wyneb y pethau hyn oll, yn sefydlu yr enaid ar Grist, yn tynu pob dichell o'i ysbryd, yn ei union, ac yn ei buro.

CENEDLOEDD, (can) ethniciaid, pobloedd, paganiaid; y rhai allan o'r cyfammod; estroniaid i ammodau yr addewid; anadnabyddus o'r gwir Dduw, a'i wir grefydd; pawb heblaw yr Iuddewon, a gyfrifid felly. Mae yr apostol Paul, yn gyffredinol, yn cyfrif yr holl genedloedd dan yr enw Groegiaid; a holl ddynolryw yn yr ymadrodd, Iuddewon a Groegiaid. 1 Cor. 6. 9, 10. Eph. 2. 2, 3, 12. a 5. 8.—Dywedwyd i Abraham mai yn ei hâd ef y bendithid yr holl genedloedd; y byddent yn ymgynnull at y Gwaredwr, ac y byddent yn etifeddiaeth iddo ef, yn cyd-lawenhau â'i bobl; y caent eu goleuo, a'u hachub ganddo. Gen. 22. 18. a 49. 10. Ps. xxviii. Deut. 32. 43. Esa. 42. 6, 7. a 49. 5—8. a lx. a 11. 10. Fel moddion o ddarpariaeth at gyflawniad yr addewidion hyn, a llawer o'r cyffelyb, gadawyd nifer mawr o'r Iuddewon, ar ol y caethiwed, yn wasgaredig yn mysg y Paganiaid. Cyfieithwyd yr Hen Destament i'r Groeg, yr hon ydoedd yr iaith fwyaf cyffredin yn eu plith. Yr oedd sôn am ddyfodiad Crist yn y cnawd wedi ymledaenu yn mhell ac yn agos yn eu plith. Pan ddaeth Crist, pregethodd y rhan fynychaf yn Galilea, lle yr oedd cynnulleidfaoedd lliosog o honynt. Pan oedd y Groegiaid yn ceisio ei weled, efe a atebodd, gan ddangos mai ar ol ei adgyfodiad y cai rhifedi mawr o Genedloedd eu dwyn i'r eglwys. Mat. 4. 17, 18. Ioan 12. 20—24. Fel yr oedd y Cenedloedd gynt yn amddifad o wybodaeth am addoliad y gwir Dduw, y mae cenedl-ddyn, neu ethnic, weithiau, yn arwyddo y cyfryw a fyddo oddi allan i'r eglwys, y rhai ydynt annoethion, yn llawn didduwiaeth, eilun-addoliaeth, &c.——Yr ydym i ymddwyn tu ag at ddynion ysgymunedig, megys tu ag at yr ethnic a'r publican. Mat. 18. 17.—Paul oedd Apostol i'r Cenedloedd, eithr Petr i'r Iuddewon. Gal. 2. 7. 1 Tim. 2. 7.——Y Cenedloedd y rhai a fathrant y cyntedd nesaf allan i'r eglwys tros fil a deucant a thriugain o ddyddiau, ydyw y Papistiaid eilun-addolgar, y rhai sydd debyg i'r hen genedloedd tywyll mewn anwybodaeth, eilun-addoliaeth, a choel-grefydd. Dat. 11. 2, &c.

CENEDLU, eppiliaw; hiliaw.— 1. Ennill plant naturiol. Barn. 8. 20. Gen. 5. 3.——2. Yn oruwchnaturiol, megys yr oedd Isaac. Heb. 11. 17.——3. Yn ysbrydol, megys y cenedlir pob gwir gredadyn, yn yr hyn y mae gweinidogion y gair fel offerynau. 1 Cor. 4. 15. Y gair yw yr offeryn a ddefnyddir yn gyffredinol. 1 Petr 1. 23. a Iago 1. 18. Ps. 19. 7. Yr Ysbryd Glân yw y gweithiwr. Tit. 13. 5. Ioan 1. 13. a 3. 8.——4. Dwyn allan; felly y mae Duw yn cenedlu y gwlith a'r gwlaw. Job 38. 28.

'Myfi heddyw a'th genedlais—cyn sylfaenu y mynyddoedd, o flaen y bryniau y'm cenedlwyd.' Ps. 2. 7. Heb. 1. 5. Diar. 8. 24, 25. Geiriau a lefara y Tad am y Mab, a chan y Mab am dano ei hun. Y mae y cenedliad hwn yn perthyn i Grist o ran ei Dduwdod, trwy ba un y mae y Tad yn Dad i'r Mab, a'r Mab yn Fab i'r Tad, fel Personau Dwyfol yn yr un hanfod anfeidrol. Mae y cenedliad dwyfol a goruchel hwn yn hanfodol i'r Duwdod. Nid ydyw cenedlu yn cael ei briodoli i'r Mab, nac i'r Ysbryd Glân, ond yn unig i'r Tad; yr hyn sydd yn ei wahaniaethu oddiwrth y ddau eraill, ac yn rhoddi iddo yr enw Tad gyda phriodoldeb; a bod yn genedledig sydd yn perthyn yn briodol i'r Mab fel yr ail Berson; o herwydd hyny, gelwir ef, 'Unig-anedig y Tad.' Ioan 1. 14. Yr hyn sydd yn ei wahaniaethu oddiwrth y Tad a'r Ysbryd Glân. A'r hyn sydd yn perthyn yn briodol i'r Ysbryd Glân, fel Person Dwyfol, ydyw ei fod yn *deilliaw*, neu yn cael ei *anadlu*, ac sydd yn ei wahaniaethu oddiwrth y Tad a'r Mab; am hyny, gelwir ef *Ysbryd*—'Anadl yr Hollalluog.' Job 33. 4. Ps. 33. 6. 2 Thes. 2. 8. Nid gwahaniaeth sydd ynddynt mewn enw yn unig, ond y mae peth yn yr hanfod tragywyddol sydd yn eu gwahaniaethu, ac heb ddibynu ar ddim damweiniol ac allanol. Dywed y Sabeliaid fod i'r Duwdod dri enw, Tad, Mab, ac Ysbryd; ond nid yw hyn yn gwahaniaethu: pe byddai

Digitized by Google

ar ddyn dri enw, William Henry Frederick, ni byddai William wedi ei wahaniaethu oddiwrth Henry, na Henry oddiwrth William, na Frederick oddiwrth y ddau, gan nad ydyw ef ond un dyn â'r tri enw arno. Rhyw beth *yn* yr Hanfod Dwyfol, ac nid dim allanol sydd yn eu gwahaniaethu—nid gwaith allanol—nid eu gwaith yn nhrefn yr iechydwriaeth—nid swyddau, y rhai ydynt yn achlysurol, a allent fod neu beidio, pe mynasai Duw hyny; ond peth *yn* yr Hanfod, ac o angenrheidrwydd bod fel yr Hanfod; a beth sydd yn yr Hanfod a ddichon eu gwahaniaethu ond yr hyn a grybwyllwyd? dangosed ac enwed neb a allo. Os yw un o'r Personau Dwyfol yn Dad yn yr Hanfod Dwyfol, ac arall yn Fab yn yr Hanfod Dwyfol, rhaid fod rhywbeth yn yr Hanfod sydd yn sail o'r berthynas, ac yn gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall, ac nis dichon fod yn ddim arall ond cenedliad; a'r hyn sydd yn gwahaniaethu y trydydd Person oddiwrth y ddau eraill yw, nad yw yn cenedlu, nac yn genedledig. Oddiwrth y cenedliad y tardda y berthynas, ac oddiwrth y berthynas gwahaniaeth y Personau. Dywed hen awdwr, 'Digenedledig, cenedledig, a deilliad, nid ydynt enwau hanfod na swydd, ond dull hanfodiad, ac felly yn gwahaniaethu personau.'—Hawdd deall, gan hyny, fod gwahaniaeth y Personau yn dibynu ar genedliad y mab: os cymerir ymaith hyny, dystrywir y berthynas rhwng y Tad a'r Mab, ac y mae y gwahaniaeth yn darfod. Mae y gwahaniaeth hwn yn hanfodol ac yn angenrheidiol, ac nid yn ddamweiniol, neu o ddewisiad. Nid oes un rheswm arall a ellir ei roddi byth paham y mae yr enw Tad yn cael ei briodoli i'r Tad, ac nid i'r Mab, a'r Ysbryd Glân hefyd. O ran creadigaeth, rhagluniaeth, mabwysiadu, ac ail-eni ei bobl, y mae enw Tad mor briodol i'r Mab a'r Ysbryd Glân ag i'r Tad, o ran eu bod hwy yn gweithredu fel y Tad yn yr holl weithredoedd hyn: ond buasai y Person cyntaf yn Dad pe na buasai creadigaeth nac iechydwriaeth byth yn cymeryd lle: felly hefyd y buasai y Mab yn Fab. Heb hyn nis gellir byth amddiffyn athrawiaeth y Drindod. Os gwadir tragywyddol genedliad y Mab, nis gellir byth brofi ei fod yn Berson gwahanol yn y Duwdod, ac felly nis gellir profi ei Dduwdod. Nid oes dim yn y Duwdod ond sydd dragywyddol; am hyny y mae y cenedliad yn dragywyddol; ac felly y mae y Tad yn dragywyddol, a'r Mab yn dragywyddol, a'r Ysbryd Glân yn dragywyddol. Nis gellir nodi un mynyd, neu gythrym, mewn amser, nac yn nghragywyddoldeb, yn yr hwn nid oedd Crist yn unig-anedig Fab y Tad; am hyny rhaid ei genedlu o hono er tragywyddoldeb, neu ei fod yn Fab iddo trwy dragywyddol genedliad.—Wrth ystyried y cenedliad hwn, rhaid gofalu yn neillduol i roddi heibio bob peth sydd yn cynnwys neu yn arwyddo anmherffeithrwydd; megys rhaniad natur, lliosogiad hanfod, blaenoriaeth, cyndod, ysgogiad, cyfnewidiad, llygriad, lleihad, peidiad a gweithredu, &c. Afresymol yw ymresymu oddiwrth yr hyn sydd naturiol i'r hyn sydd oruwch-naturiol; oddiwrth natur derfynedig a meidrol, at natur anfeidrol, annherfynedig, a thragywyddol.—Nid oes dim rhaniad yn yr Hanfod rhwng y Tri Pherson: nid oes dim lliosogiad fel mewn genedigaeth naturiol; nid gweithred yn darfod ac yn myned heibio yw cenedliad y Mab, fel mewn cenedliad naturiol; ond tragywyddol genedliad. Yn y cenedliad naturiol y mae y cenedledig ar ol y cenedlwr; ond yma y mae y Mab a'r Tad yn ogyd-dragywyddol. Fel hyn ymddengys fod gwahaniaeth anfeidrol rhyngddynt.

Nid ei swydd sydd yn gwneuthur Crist yn Fab Duw; ac nid ei osodiad yn ei swydd yw ei genedliad. Pa fodd y gall swydd wneuthur person, na chenedlu perthynas? Ond y Mab tragywyddol a gymerodd y swyddau cyfryngol arno, trwy arfaeth dragywyddol y Drindod.—Nid ei gnawdoliaeth yn nghroth y forwyn, trwy nerth yr Ysbryd Glân, sydd yn ei wneuthur yn Fab Duw; ond y Duwdod yn Mherson y Mab a ymgnawdolodd. Yr oedd y peth sanctaidd, sef y ddynoliaeth sanctaidd, yn nghroth y forwyn, mewn undeb personol â Mab Duw: 'am hyny,' medd yr angel, 'y peth sanctaidd a enir o honot ti, a elwir yn Fab Duw.'—'Heddyw,' *heddyw* Duw yw ei dragywyddoldeb. Nid oes na doe nac yfory i Dduw, ond un *heddyw tragywyddol*; ac y mae heddyw Duw yn cynnwys ein doe, ein heddyw, a'n hyfory ni. Cenedliad, gan hyny, cyflawn, perffaith, tragywyddol, *hanfodol* a *phersonol* yn y Duwdod anfeidrol yw, yn nechreuad ei ffordd, cyn ei weithredoedd erioed. Y tragywyddol Fab hwn a ymgnawdolodd, ac a aned o Fair Forwyn, ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw. Rhuf. 1. 4. Mae y dirgelwch hwn yn fawr; ond nid mwy na phob peth arall yn perthyn i'r Bôd Dwyfol ac anfeidrol. Nid amgyffred yw ffydd; ond credu un sydd yn amgyffred, gyda pharch a boddlonrwydd gostyngedig. Y mae ffydd yn credu fod Duw yn amgyffred ei hun, a'i fod yn dywedyd yn uniawn am dano ei hun, yr hyn y mae gwedi ei ddywedyd yn ei air. Edr. MAB, TRINDOD

CENEZIAID, hen drigolion, tebygol, mynydd-dir Judah. Addawodd Duw eu gwlad i Abraham. Gen. 15. 19.

CENFAINT, CENFEINNIAU, (cen-maint) yr holl eppil; mintai gref.—'Cenfaint o foch.' Luc 8. 32.

CENFIGEN, (cen-migen) *Heb.* כנאה cynghorfynt, câs, drwg-ewyllys, tra châs. Yn gyntaf, Cenfigen yw bod yn ddrwg gan un weled arall yn llwyddo; megys, 1. Mewn golud. Ps. 73. 2, 3. Gen. 26. 14.——2. Mewn parch a dyrchafiad. Dan. 6. 4.——3. Yn gwneyd daioni ac uniondeb. Preg. 4. 4.——4. Yn cael ei garu. Gen. 37. 4, 11. Act. 7. 9.——5. Mewn crefydd, o ran doniau, defnyddioldeb, cymeradwyaeth gyda dynion, ac arddeliad gan Dduw. Num. 11. 27, 28, 29. a 16. 3. Neh. 2. 10. Act. 5. 16, 17.——Yn ail, Neu fod yn dda gan un weled gofid arall, neu ddrwg yn dygwydd iddo. Diar. 17. 5. a 21. 10. a 24. 17. Ps. 35. 15, 26. a 38. 16.

Y mae yr Arglwydd, yn ei air, yn dywedyd yn erbyn cenfigen. Diar. 24. 1, 19. Gal. 5. 26. Ps. 37. 1. 1 Petr 2. 1. Gwelir echlysonrwydd y pechod hwn, 1. Oddiwrth ymchwydd, balchder, ac anwybodaeth, y mae cenfigen yn deilliaw. 1 Tim. 6. 4. ——2. Y mae yn arwain i derfysg, a phob gweithred ddrwg. Iago 3. 16.——3. Y mae yn nôd o ddynion yn gwasanaethu eu chwantau. Tit. 3. 3.——4. Y mae yn pydru yr esgyrn. Diar. 14. 30.——5. Y mae yn lladd. Job 5. 2.——6. Ni wyr y dyn sy dan lywodraeth cenfigen ddim am gariad. 1 Cor. 13. 4.——7. Y mae yn waeth na llid a digofaint. Diar. 27. 4. ——8. Yr hyn y mae dyn mewn cenfigen yn ddymuno ac yn fwriadu i arall, a fydd debyg o ddyfod iddo ei hun. Ezec. 35. 11. Ps. 7. 15. a 57. 6. Diar. 26. 27. Cymh. Esth. 5. 11—14. a 7. 9, 10.——9. Miriam a darawyd â gwahan-glwyf am y pechod hwn. Num. 12. 1, 2, 9, 10.——10. Cenfigenu wrth Moses ac Aaron a wnaeth Corah, Dathan, ac Abiram, pan agorodd y ddaear ei safn, ac a'u llyncodd yn fyw. Ps. 106. 16, 17. Num. 16. 1, 3, 30—33.——11. Y mae yn bechod cythreulig. Iago 3. 14, 15.——12. Y mae yn cau allan o deyrnas Dduw.——Gal. 5. 21.—Yr oedd rhai yn pregethu Crist o genfigen, o anfoddlonrwydd i anrhydedd yr apostol, er mwyn gofidio ei ysbryd, a lleihau ei barch a'i gymeriad. Phil. 1. 15. ——'At genfigen y mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom:' ysbryd yr hen ddyn pechod, yr hwn sydd

Digitized by Google

a'i gartref ynom: chwantau cnawdol, y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid. Iago 4. 5.—Y pechod hwn sydd yn erbyn y chweched gorchymyn.

'Cenfigen a ladd yr annoeth.' Job 5. 2. Peth annoeth iawn yw cenfigen, 1. Am nad ydyw daioni eraill yn niwed i ni. Nid oes dim llai genym ni am fod mwy gan arall. Nid oedd ffrwythlonrwydd Leah, mewn un gradd, yn achos o ddiffrwythdra Rahel. Nid ydyw ein rhan ni yn lleihau trwy gynnydd rhan un arall. Heblaw hyny, nid ydyw ein poen ni am gynnydd arall yn ychwanegu dim at yr eiddom ni. Ni ddygodd cenfigen chwanegiad i neb erioed.——2. Gwna y doeth holl ddaioni arall yn ddaioni iddo ei hun: tyner ymaith genfigen, a bydd eiddo y naill yn eiddo y llall. Y mae yn fendith fawr i ddyn ei hun gael calon i fendithio Duw am ei fendithion i eraill. Fel hyn, gallwn fwynhau holl lawenydd a chysuron eraill; eu rhoddion a'u gwaredigaethau; eu hiechyd a'u tangnefedd; eu cyfoeth a'u llawnder; eu doniau, ie, eu gras, pan allom, yn wirioneddol, o'r galon, lawenhau ynddynt. Ond, yn y gwrthwyneb, y mae y cenfigenus, bob amser, yn sefyll yn ei oleu ei hun, nis gall lawenhau yn ei drugareddau ei hun, o herwydd ei genfigen alarus wrth yr eiddo ei frawd. Gwel Caryl *in loc.*

CENIN—EN, (cen) llysiau o ryw y wynwyn. Num. 11. 5. Bernir eu bod yn dda rhag y gwaianwst.

CENLLUSG, (can-llusg) defnynau o wlaw gwedi rhewi yn eu disgyniad trwy ganolbarth yr awyr; y maent yn fynych yn dilyn mellt a tharanau. Pan fyddo y defnynau yn dechreu disgyn, gwlaw ydynt; yn syrthio, cyfnewidir hwynt yn yr oerfel yn genllusg, fel y mae yn wirionedd ei bod yn gwlawio cenllusg, fel y dywedir yn Exod. 9. 18. Po bellaf y bo disgyniad y defnynau, mwyaf, yn gyffredinol, y bydd maintioli y cenllusg, oblegid, yn disgyn, y mae llawer o ronynau dwfr yn ymuno â hwynt, felly y mae eu maintioli yn cynnyddu nes y delont i'r ddaear. ——Bu llawer o ystormydd o genllusg yn ofnadwy iawn. Coffâ y Dr. Halley am ystorm o genllusg, Ebrill 29, A.D. 1697, yn Swyddi Caerlleon a Lancaster, yr hon, dros driugain milltir o hŷd, a dwy o led, a wnaeth alanastra mawr iawn, trwy hollti coedydd, lladd anifeiliaid bychain o bob rhyw, a tharo i lawr ddynion, ceffylau, &c. Mezeraus, yn ei hanes o Ffrainc, a goffâ am gawod o genllusg yn yr Ital, A.D. 1510, a wnaeth ddystryw mawr iawn, yn lladd anifeiliaid, adar, a physgod, a bod rhai o'r ceryg yn pwyso can pwys.——'A welaist ti,' medd Duw wrth Job, 'drysorau y cenllusg? y rhai a gedwais i hyd amser cyfyngder, hyd ddydd ymladd a rhyfel?' Gan fod gan Dduw y fath beiriannau rhyfel wrth ei orchymyn, pa mor fuan y dichon iddo ddinystrio gwlad, neu y byd!——Cenllusg ofnadwy oedd un o blâau yr Aipht: Exod. 9. 24. ac â cheryg cenllusg y lladdwyd lluoedd breninoedd Canaan. Jos. 10. 11.——Barnedigaethau Duw ar deyrnasoedd a gyffelybir i dymhestl o genllusg, o herwydd eu bod yn aml yn ddisymwth, yn ofnadwy, a thrwy gyfarwyddiad y nefoedd; y maent yn hawdd yn dyfetha personau a meddiannau dynion. Esa. 28. 2. a 30. 30. Dat. 8. 7. a 11. 19. a 16. 21.

CEPHAS, [*careg*] enw a roddodd ein Hiachawdwr ar Petr. Ioan 1. 42.

CERBYD—AU, (carp) mèn; cåd-gerbyd: 1. Math o gàr a arferid gynt mewn rhyfel, i ddwyn rhyfelwyr a'u harfau. Annhebygol fod gan Israel y cerbydau hyn, yr oedd llawer o fynyddoedd yn eu gwlad. Gwel Exod. 14. 7. Jos. 11. 4. Barn. 4. 3. 1 Sam. 13. 5. 2 Sam. 8. 4.——2. Math arall oedd cerbydau ysgafn, i ddwyn rhai ar deithiau. Gen. 46. 29. 1 Bren. 18. 44.——3. Cerbydau Duw ydynt angelion, rhagluniaethau, a chymylau, trwy ba rai y mae efe yn dangos ei fawredd a'i allu, yn gwrthsefyll ac yn gorchfygu ei gaseion, yn cynnal ac yn diogelu ei bobl. Ps. 68. 17. Hab. 3. 8. Esa. 66. 15.—'Cerbydau Amminadib.' Edr. AMMINADIB.——'Cerbyd Solomon (*palas*, Dr. M.) o goed Libanus, ei byst o arian, ei lawr o aur, ei lèni o borphor, ei ganol wedi ei balmantu â chariad,' ydyw yr hyn y mae Crist yn dangos ei ogoniant trwyddo; yn diogelu, yn cysuro, ac yn dwyn ei bobl ynddo, ac yn gorchfygu ei elynion. Gellir ystyried wrth y cerbyd hwn y cyfammod tragywyddol, yn cynnwys holl drefn fawr yr iechydwriaeth, a'r pregethiad cyffredinol o hono trwy yr efengyl. Y mae gair ac addewidion Duw fel pyst arian, yn werthfawr, yn gedyrn, ac yn ddianwadal, yn cynnal y ffyddloniaid dan eu holl orthrymderau.—Y llawr, neu y sedd, ar yr hon y mae Crist yn eistedd, a gyfeiria at y drugareddfa, ag sydd, fel aur, yn anfeidrol werthfawr, dysglaer, a pharhaus. Ps. 80. 3.—Y llèni porphor, neu gochion, sydd yn arwyddo cyflawnhad pechadur, trwy ufudd-dod a dyoddefaint Crist, yn amddiffynfa, yn harddwch, ac yn ogoniant tragywyddol i'r rhai sydd trwy ffydd yn y cerbyd hwn.—E ganol wedi ei balmantu o gariad i ferched Jerusalem, a arwydda, cariad tragywyddol Crist tu ag at ei bobl, yn achos cynhyrfiol o holl drefn yr iechydwriaeth, a holl oruchwyliaethau Duw tu ag atynt, ac yn orphwysfa dragywyddol iddynt. Can. 3. 9, 10.

'Cerbydau heiyrn.' Jos. 17. 16, 18. Barn. 1. 19. a 4. 3, 13. Câd-gerbydau oeddynt, wedi eu gorchuddio, neu eu harwisgo, tebygol, â dalenau haiarn, fel nas gellid yn hawdd eu dryllio. Nid wedi eu harfogi â phladuriau, fel y cyfieitha rhai y geiriau. Nid hyny ydyw ystyr naturiol y geiriau Hebraeg, ac nid oes prawf fod y cyfryw gerbydau yn arferedig mor foreu ag amser Josuah a'r Barnwyr. Cyrus oedd y cyntaf a arferodd y cyfryw gerbydau yn mhlith y Persiaid. Gwel Xenophon, *Cyropæd. lib.* vi., *p.* 324. *edit.* Hutchinson, *note* 4.

CERDD—I, (cêr) cân, caniad, cathl.—1. Geiriau detholedig wedi eu cyd-weu, a'u cylymu yn nghyd; prydyddiaeth. 1 Cron. 6. 32. Ps. 137. 4.——2. Tôn, neu fesur a genir ar offeryn. Esa. 23. 16. Dan. 3. 5. ——3. Yr offeryn ar yr hwn y cenir. Dan. 3. 5, 7, 10, 15.—Cerddgar, yn beraidd, yn fwyn, yn gydseiniol. Ps. 33. 3.

Tri rhaid *cerdd;* godidog amcan, synwyr, a defnydd.
*Trioedd.*

CERDDOR—ION, (cer) celfyddwr; un yn gwneuthur cerddoriaeth; cantor ar ryw offeryn cerdd; chwareuydd telyn, organ, &c. 2 Bren. 3. 15. Mat. 9. 23. Dat. 18. 22.

CERDDED, (cardd) ymsymud o le i le; myned, ymlusgo. Gen. 3. 14. Exod. 17. 5. Dywedir fod creaduriaid difywyd yn cerdded, o herwydd eu bod yn ymsymud; megys ceinciau coed, &c. Gen. 49. 22.—dyfroedd, Esa. 8. 6.—y lleuad, Job 31. 26.

CERF—IAD—IO, (cerf) cerfiadaeth; gwaith wedi ei dori ar goed, ceryg, haiarn, neu bres, &c. 1 Bren. 6. 35. 2 Cron. 2. 14. Act. 17. 29.

CERETHIAID, כרתי [*torwyr*] 1. Y Philistiaid, neu ryw lwyth o honynt.—'Wele fi yn estyn fy llaw ar y Philistiaid, a thoraf ymaith y Cerethiaid.' Ezec. 26. 26. Gwel Seph. 2. 5. 1 Sam. 30. 14. Edr. PHILISTIA.——2. Galwyd gosgordd-lu Dafydd wrth yr enw hwn. Paham y cawsant yr enw sydd anhysbys; annhebyg iawn eu bod yn Philistiaid o genedl. Benaiah mab Jehoiada oedd dywysog arnynt. 1 Cron. 18. 17. Edr. PELETHIAID.

Digitized by Google

CERN—AU, (carn) ochr yr wyneb. Esa. 50. 6. Mic. 5. 1. Luc 6. 29.

CERNOD—IAU, tarawiad ar y gern. Ioan 18. 22. a 19. 3.

CERUB—IAID, *Heb.* כרוב [*megys y rhai uchel*] y cerubiaid ydynt yn cael eu hystyried, yn gyffredinol, yn fath o angelion, neu ysbrydion gwasanaethgar; megys Ps. 18. 10., 'Marchogodd hefyd ar y cerub, ac a ehedodd: ïe, efe a ehedodd ar adenydd y gwynt.'—Nid oes genym ond darluniad go dywyll yn yr ysgrythyrau o'r cerubiaid; ond maent, yn gyffredinol, yn cael eu gosod allan fel rhyw greaduriaid byw, âg amryw wynebau—weithiau, â chanddynt draed ac esgyll: pan byddo i'r un cerub bedwar wyneb, maent wedi eu benthyca oddiwrth ddyn, ŷch, llew, ac eryr: eu hadenydd a ddarlunir fel yn fawrion, a'u traed fel traed ŷch; yr oedd dwylaw dyn iddynt odditan eu hadenydd ar eu pedair ystlys: ond i ba un ai i ŷch, ai i ddyn, yr oedd yr holl gyffelybrwydd yn debyg, nid yw y dysgedigion yn cytuno. Hyn sydd sicr, mai anhawdd cysoni yr amryw leoedd o'r ysgrythyr lle mae crybwylliad am y cerubiaid, heb farnu eu bod yn cael eu gosod allan mewn gwahanol ddulliau, weithiau yn nes at un o'r dulliau hyny, bryd arall yn nes at y llall. Os, gan hyny, gwedi ein holl chwilio, byddwn yn methu dyfod i benderfyniad yn eu cylch, gweddus i ni ymostwng a chydnabod ein hanwybodaeth; er, hwyrach, wrth ddyfal ymholi, y gallwn ddyfod yn lled agos at y gwir.

Y mae darluniad o'r cerubiaid wedi ei roddi i ni bedair gwaith yn yr ysgrythyrau, a phob un o honynt yn wahanol. Yn Exod. 25. 18, 20. y rhoddir y darluniad cyntaf o honynt, er fod crybwylliad am danynt yn Gen. 3. 24. Y maent wedi eu gwneuthur, yn ol fel mae Moses yn eu darlunio, 'o'r drugareddfa,' neu o ddefnydd y drugareddfa, yn gyfanwaith morthwyl, yn nau gwr y drugareddfa, yn lledu eu hesgyll i fynu, gan orchuddio y drugareddfa â'u hesgyll, a'u hwynebau bob un at eu gilydd, a thu a'r drugareddfa. Pa sawl aden sydd iddynt—pa sawl wyneb—a pha ddull sydd ar eu cyrph, y mae Moses yno yn hollol ddystaw. Hyn sydd sicr, iddo eu gwneuthur yn ol y portreiad a ddangoswyd iddo yn y mynydd.—Yn nheml Solomon, y mae yn dra eglur fod dau gerub yn chwanegol, a'u dull yn wahanol. Yr oedd eu hwynebau tu a'r dwyrain, a'u cefnau tu a'r dehau, a'u hadenydd yn lledu, nid tu ag i fynu, ond o'r naill bared i'r llall, a'u hadenydd yn nghanol y tŷ oedd yn cyffwrdd â'u gilydd.——Yr oedd y cerubiaid ar yr arch yn wahanol, ac yn debyg i ddau ddyn, a'u hwynebau tu ag at eu gilydd, yn ymaflyd yn nwylaw eu gilydd, ac yn edrych tu ag i lawr. 1 Bren. 6. 27.—Y mae yn dra sicr fod cerubiaid Moses ar yr arch yn y deml, gyda cherubiaid Solomon. Yr oedd y cerubiaid yn y babell wedi eu gwneuthur o ddefnydd y drugareddfa, ac yn nglŷn â hi; sef yn un darn o gyfanwaith morthwyl; a'r drugareddfa oedd cauad yr arch. Wrth hyn, nid oedd yr arch yn gyflawn heb y drugareddfa, sef ei chauad; ac ni buasai y drugareddfa chwaith yn gyfan heb y cerubiaid, gan mai un darn oeddynt. Yn ganlynol, rhaid fod cerubiaid y babell yn y deml, gyd â'r rhai a wnaeth Solomon. Yr oedd Solomon wedi gwneuthur y cerubiaid yn y deml cyn dwyn yr arch i'w lle. Dywedir yn 1 Bren. 6. 23., 'Efe a wnaeth yn y gafell ddau o gerubiaid, o bren olewwydd, pob un yn ddeg cufydd ei uchder.' Ac yn pen. 8. 6., 'Felly yr offeiriaid a ddygasant arch cyfammod yr Arglwydd i'w lle ei hun, i gafell y tŷ, i'r cysegr sancteiddiolaf, dan adenydd y cerubiaid.' Dan adenydd y cerubiaid, dygwyd yr arch; wrth hyn rhaid fod y cerubiaid yno o'r blaen, fel y gwelir wrth adn. 7. 'Canys y cerubiaid oedd yn lledu eu hadenydd dros le yr arch.' Nid yn unig tros yr arch, ond tros le yr arch, cyn ei dwyn yno.——Yr oedd yr unrhyw ddodrefn yn y deml ag oedd yn y babell, o ran eu defnydd, ond bod dodrefn y deml, gan mwyaf, yn fwy ac yn helaethach: megys yn lle y *noe* oedd yn y babell, yr oedd *môr* yn y deml, &c., i arwyddo fod yr oruchwyliaeth yn ëangu. Ond am yr arch a'i pherthynasau, yr un oeddynt yn ddiwahan yn y deml ag yn y babell: i ddangos mai yr un Crist, a'r un iechydwriaeth drwyddo, sydd yn yr eglwys dan bob goruchwyliaeth; ac er cyfnewid ei goruchwyliaethau, yr un yw Iesu Grist, ddoe, heddyw, ac yn dragywydd. Heb. 13. 8.

Y mae y darluniad o'r cerubiaid ar barwydydd teml Ezeciel etto yn wahanol. Mae palmwydden yn cael ei gweithio rhwng dau gerub; a dau wyneb oedd i bob cerub, sef wyneb dyn, a wyneb llew. Nid oes yma sôn am adenydd iddynt, ond yn unig am eu dau wyneb, a'r balmwydden rhyngddynt, a'r ddau wyneb yn edrych ar y ddwy balmwydden o bob tu.

Y mae y darluniad geir o honynt yn ngweledigaeth Ezeciel wrth afon Chebar, etto yn gwahaniaethu yn hynod oddiwrth y lleill i gyd. Ezec. 1. 4, 5, &c. Y mae yn y weledigaeth hòno, yn ymddangos, gyffelybrwydd i bedwar peth byw—dull dyn oedd iddynt:—pedwar wyneb a phedair aden oedd i bob un o honynt. Wyneb dyn a wyneb llew oedd ar y tu dehau iddynt ill pedwar, a wyneb eryr a wyneb ŷch oedd iddynt ill pedwar. Eu hadenydd oedd wedi eu cysylltu y naill wrth y llall, dwy wedi eu dosparthu oddi arnodd, wedi eu cysylltu â'u gilydd, a dwy oedd yn cuddio eu cyrph. Ac yr oedd dwylaw dyn dan eu hadenydd, ar eu pedwar ystlys. Ac yr oedd eu traed yn uniawn, a gwadn eu traed fel gwadn troed llo. Yr oeddynt yn gwreichioni fel lliw efydd gloyw. Pan gerddent n throënt—ond aent bob un yn uniawn rhag ei wyneb. 'Dyma y peth byw a welais,' medd y prophwyd, 'wrth afon Chebar: a gwybum mai y cerubiaid oeddynt.' Ezec. 10. 20.—Yr oedd yn ymyl y pethau byw un olwyn, gyd â'i phedwar wyneb. Eu gwedd a'u gwaith oeddynt fel pe byddai olwyn yn nghanol olwyn—yr oedd cantau yr olwynion yn uchel, yn ofnadwy, ac yn llawn llygaid.

Y mae y darluniad o'r pedwar anifel, neu yn hytrach *ζωα, pethau byw*, yn Dat. 4. 6, &c., yn gwahaniaethu oddiwrth y rhai hyn i gyd. *Un wyneb* oedd i bob un o honynt, a *chwech o adenydd*; yn hyn yn debyg i'r seraphiaid, yn Esa. vi.—Yr oedd *llaw* gan seraphiaid Esaiah, a'r *pethau byw* gan Ioan yn debyg i *gerubiaid* Ezeciel. Esa. 6. 6. Dat. 4. 6.—Yr oedd y *pethau byw* gan Ioan yn llawn llygaid o'r tu blaen, o'r tu ol, ac oddifewn, yr un fath a chantau olwynion Ezeciel.

Os yr un arwyddocâd sydd i'r cerubiaid ag anifeiliaid neu bethau byw Ioan, y mae yn eglur ddiammheuol eu bod yn arwyddo gweinidogion enwog yr efengyl; y rhai ydynt wrol fel llewod; yn llafurus, yn amyneddgar, ac yn ddyfal fel ychain; yn graff eu golygon fel eryrod; yn hynaws, yn dirion, ac yn ddeallus fel dynion. Y maent yn un â'r pedwar henuriaid ar hugain yn syrthio ger bron yr Oen, yn ei addoli, ac yn ei foliannu am eu prynu i Dduw, ac â thelynau, ac â phiolau aur ganddynt, yn llawn arogl-darth, y rhai ydyw gweddïau y saint. Prynedigion yr Oen, wrth hyn, y maent yn eu harwyddo. A phaham nas dichon y ddau gerub ar y drugareddfa arwyddo yr un peth? sef angelion, neu weinidogion yr eglwysi, Iuddewig a Chenedlig, ac yn eu cynnrychioli; yn cael eu bôd o'r drugareddfa; eu cynnaliaeth ar y drugareddfa; yn edrych arni gyda syndod a gorfoledd tragywyddol, a gogoniant y Duwdod yn dysgleirio arnynt a thrwyddynt.—At y cerubiaid a'u hadenydd y mae y lleoedd canlynol yn cyfeirio: Ps. 36. 8. a 61. 5. 1 Petr 1. 12.—Gall fod estyniad eu hadenydd yn arwyddo sirioldeb a phar-

Digitized by Google

odrwydd meddwl gwir weinidogion y gair, yn nghyhoeddiad gras ac iachawdwriaeth gyflawn yr Iesu, i fyd euog; a'u dymuniad i sefyll yn gyflawn yn ei ewyllys; yn gystal a'u hollol ddibyniad arno am gynnorthwyon o bob gras a dawn, i'w galluogi i gyflawni eu swydd oruchel. Bod eu hwynebau y naill tu ag at y llall, a arwydda undeb meddwl, a'u cydsyniad â'u gilydd yn egwyddorion a gwirioneddau sylfaenol yr efengyl; yn nghyd âg ymroddiad dianwadal i draethu holl gynghor Duw. Y maent yn dibynu ar Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, fel unig sail eu gobaith eu hunain, a swm mawr a sylwedd mater eu gweinidogaeth. Bod wynebau y cerubiaid tu ag at y drugareddfa, a arwydda eu bod bob amser yn eu gweinidogaeth yn gosod allan y cymmod mawr a wnaed trwy waed ac aberth Crist, gan gyfeirio pechaduriaid truenus ato, am gyfiawnder a heddwch, maddeuant ac iachawdwriaeth.—Gellir galw gweinidogion yr efengyl yn gerubiaid y gogoniant; o herwydd eu bod yn milwrio mewn milwriaeth ogoneddus—am eu bod gwedi cael ymddiried iddynt am drysor gogoneddus yr efengyl—eu bod gwedi eu cynnysgaethu â doniau a gras gogoneddus, a chanddynt 'weinidogaeth ag sydd yn rhagori mewn gogoniant.'

Y cerubiaid ar y drugareddfa oeddynt hefyd yn drychioli yr angelion sanctaidd, y rhai oedd yn esgyn ac yn disgyn ar Grist, i weini iddo, pan ydoedd efe yma yn y byd, yn ei gyflwr o ddarostyngiad. Ioan 1. 51. Mat. 4. 11. Luc 2. 9, 13. a 22. 43. a 24. 4. Ac y mae efe yn awr yn eistedd ar orsedd ei ogoniant, a myrddiynau o honynt yn ei amgylchynu. Dan. 7. 10. Ps. 68. 17. Yr oeddynt gwedi eu gweithio o'r un darn o aur a'r drugareddfa, a hwnw o aur coeth, hwyrach, i ddangos purdeb natur ysbrydol yr angelion, a bod eu cynnaliaeth a'u parhad yn eu sefyllfa sanctaidd, yn dibynu ar Grist, o'r hwn yr oedd y drugareddfa yn gysgod: ac hefyd fod Crist, trwy yr anfeidrol iawn a dalodd, gwedi uno yr holl etholedigion yn mhlith dynion, yn un gymdeithas nefolaidd gyd â'r angelion. Exod. 25. 18—22. Col. 1. 16, 17. Heb. 12. 22. 1 Cor. 11. 10.—Yr oedd y cerubiaid ar y drugareddfa â'u hwynebau y naill tu ag at y llall, a phob un yn syllu ar y drugareddfa, megys yn ewyllysio edrych i mewn i ddirgelwch a mawr amryw ddoethineb Duw, yn iechydwriaeth dyn. Exod. 25. 20. 1 Petr 1. 12. Eph. 3. 10. Heb. 9. 5.—Tebygol mai at y cerubiaid dychymygol yn y deml, ar hyd ei pharwydydd, a'r rhai hyny ar y drugareddfa, neu, ynte, at yr angelion yn rhoddiad y gyfraith ar Sinai, y mae yr apostol yn cyfeirio yn ei epistol at yr Hebreaid (pen. 12. 22.) lle y dywedir fod duwiolion y Testament Newydd yn dyfod 'i'r Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angelion.' Nid oedd y bobl yn gyffredinol, dan yr hen oruchwyliaeth, yn cael dyfodfa i'r cysegr, at y drugareddfa, lle yr ydoedd y cerubiaid; ond pan rwygwyd llèn y deml, trwy farwolaeth Crist ar y groes, cafwyd ffordd rydd i'r cysegr sancteiddiolaf, at orseddfainc y gras, i gymdeithas yr angelion, neu y cerubiaid euraidd a glân. —Am y cerubiaid a'r cleddyf tanllyd, &c., &c. Edr. Cleddyf, Anifel.

Brenin Tyrus a elwir yn 'gerub eneiniog.' Ezec. 28. 14. Fel pe dywedasai Duw, Megys y mae yr angelion yn ogoneddus o ran eu natur, a'r gwaith a roddais i iddynt, sef diogelu dynion; felly yr wyt tithau, brenin Tyrus, yn tybied ac yn dy farnu dy hun dy fod ar dy orsedd fel cerubiaid y gogoniant. Neu, ynte, ei fod gan ddysgleirdeb aur a pherlau, yn debyg i gerub.

CERYDD—ON—U, (cêr) *Heb.* גערה *Llad.* Castigatio: sèn, argyhoeddiad, cosp.—1. Cosp am ryw fai â gwïalen, &c. Diar. 10. 17. a 22. 15.——2. Barnedigaethau yr Arglwydd. Deut. 28. 20.——3. Rhybydd caredig a brawdol.——Y mae mewn cerydd caredig, hyfforddiad ac addysg, ac arfer moddion i gael y beius oddiwrth ei fai. Dylai fod mewn cerydd brawdol a thadol ddangos y bai, yn ei natur, y drwg o hono, a'r canlyniadau peryglus o hono, a hyny mewn ysbryd addfwynder, gan ein hystyried ein hunain. Y gair מוסר (Deut. 11. 2. Diar. 3. 11. a 5. 12. a 10. 17, &c.) a arwydda addysg, hyfforddiad, diwygiad, a dysgyblaeth. Gair arall hefyd, a gyfieithir weithiau *cerydd*, ac weithiau *cospedigaeth*, תוכחה a arwydda sèn, argyhoeddiad, dadl, rheswm. Y gair olaf a gyfieithir *cerydd*, yn Diar. 1. 23, &c. Y gair גערה (Esa. 30. 17. a 50. 2. a 66. 15, &c.) a arwydda, attaliad, rhwystr, ffrwyniad, cystwyad.

'Ac a geryddodd y cryd,' (Luc 4. 39.) sef yn yr un modd ag y ceryddodd y gwynt, a'r môr, (Mat. 8. 26.) yn dangos awdurdod Crist ar bob afiechyd, ac ar yr elfenau, fel y mae ymadroddion cyffelybiaethol yn yr ysgrythyr yn gosod allan, nid yn unig fod y creaduriaid difywyd yn weision i Dduw, ond fod heintiau, newyn, &c., at ei alwad, i gospi pechaduriaid gwrthryfelgar, megys yn Hab. 3. 5., 'Aeth yr haint o'i flaen ef, ac aeth marwor tanllyd allan wrth ei draed ef.' Ac ar ymyl y ddalen, 'Aeth cryd poeth,' neu glefydau gwres, 'allan wrth ei draed ef.' Cyffelybiaeth ragorol i ddangos y gallu dwyfol, i'r hwn y mae yn rhaid i bob peth ymddangos. Gwel Ps. 104. 7. a 106. 9.

CERWYN—I, (càr) llachdwm, trwp, trwp-darllaw, neu lestr macsi. Y gair *Gr.* ληνος, a gyfieithir *cerwyn*, a arwydda *gwin-wryf*, neu y llestr yn mha un y sathrent y grawnwin. Dat. 14. 19.

CESAIL—EILIAU, (cês) y twll tan y fraich, mynwes.

Mynych y syrth mefl o *gesail*. *Diar.*

'A'r pwdr fratiau dan dy geseiliau odditan y rhaffau.' Jer. 38. 12. Dyben y bratiau oedd i rwystro y rhaffau i'w briwo a'u harcholli.

CESAIR, (ces-air) cenllusg.—'Ac yr ydoedd cesair a thân.' Dat. 8. 7. W. S.

CESAR, neu CÆSAR, *Gr.* Καισαρ. Hwn oedd enw Julius, yr ymerawdwr cyntaf yn Rhufain, ac ar ei ol ef a gymerwyd gan ei olynwyr. Barna rhai ei alw felly am ei *dori allan* (*cæso*) o groth ei fam; neu am ei eni â gwallt (*cæsaries*) ar ei ben. Yn y Testament Newydd, priodolir yr enw i Augustus, Luc 2. 1. a 20. 22.—Tiberius, Luc 3. 1.—ac i Claudius, Act. 11. 28. Oddiwrth yr ymerawdwr galwyd llawer o ddinasoedd wrth yr enw hwn.*

CESAREA. Yr ydoedd dwy ddinas o'r enw; sef Cesarea Philippi, yn nghanol y wlad, a adeiladwyd gan Phylip y tetrarch, ac a'i galwodd wrth yr enw hwn o anrhydedd i Tiberius Cæsar, ac a chwanegodd ei enw ei hun; a Cesarea ar lân Môr y Canoldir, a adeiladwyd gan Herod Fawr, o anrhydedd i Augustus, ac a'i galwodd ar ei enw; yr oedd yn sefyll yn nghylch 37 o filltiroedd yn y gogledd-orllewin i Jerusalem.† Yma yr oedd Cornelius yn byw: yma yr yswyd Herod gan bryfed: yma yr oedd Phylip yn byw gyd â'i ddwy ferched: yma y bu Paul yn sefyll ger bron Ffelix a Ffestus, ac y bu yn garcharor ddwy flynedd. Act. 10. 1. a 12. 23. a 8. 40. Pen. xxii, xxiv. Bu yma eglwys enwog tros lawer o flynyddoedd.

CETURAH, כטירה [*arogl peraidd*] gwraig Abraham ar ol Sarah, o'r hon y bu iddo chwech o feibion. Gen. xxv. Edr. Abraham.

* Tebygol mai Nero ydoedd y Cesar y cyfeirir ato yn Act. 25. 8, 10, &c.—C.

† Y mae mesuriad manylach yn gosod Cesarea yn agos i 35 o filltiroedd i'r gogledd o Joppa, ac yn 55 o filltiroedd o Jerusalem. Enw y lle yn bresennol yw Kaiseraih.—C.

Digitized by Google

CETHR—AWL, (ceth) llym, treiddiaw, teryll.—'Wele yn dyfod o'r gogledd wynt cethrawl.' Ezec. 1. 4. Dr. M.

CETHR—I—U. (ceth) hoel, hoelen hir; swmwl; hoelio, swmylu.—'Bydd y rhai a weddillwch o honynt yn gethri yn eich llygaid.' Num. 33. 55. Mae y geiriau yn dangos pa mor hynod ofidus a phoenus y byddai y naill i'r llall, mor anoddefol a chethri yn y llygaid. Byddent, fel y dywed Josuah, 'yn ffrewyll yn eu hystlysau ac yn ddrain yn eu llygaid.' Jos. 22. 13.

CEUDOD—AU, (cau) gwagle, ceuedd, monwes; y gwagle tu mewn i ddyn neu anifel. Num. 25. 8. Ps. 5. 9. Esa. 51. 1.

Pe dywedai dafawd, a wyddai *ceudawd*, ni byddai gymydawg neb rai. *Diar.*

CEUFFOS—YDD, (cau-ffos) ffos ddofn, gagendor.—'Bwrier hwynt yn tân, ac mewn ceuffosydd, fel na chyfodant.' Ps. 140. 10. Wrth y ceuffosydd, deallwn tristwch, a gofidiau, a phrofedigaethau mawrion, a phydew heb waelod, rhan ddychrynllyd holl bechaduriaid diedifeiriol.

CEULAN—ENYDD, (ceu-glan) torlenydd afon. Jos. 4. 18. Esa. 8. 7.

CEULO, (caul) tewychu, cawsio. Job 10. 10.—Dywedir fod dynion yn 'ceulo ar eu sorod,' mewn cyfatebiad i wlybwr, yr hwn oni thywallter o lestr i lestr, a waeloda, ac a dewycha ei waddod: felly dynion heb weled dim, neu ond ychydig o gyfnewidiadau, ydynt yn ceulo mewn diofalwch cnawdol, heb ofni bygythion. Seph. 1. 12.——'Y dyfnderau a geulasant yn nghanol y môr;' (Exod. 15. 8.) hyny yw, y Môr Coch. (Yr un gair a gyfleithir *ceulo* yn Job 10. 10. a Seph. 1. 12.) Gellir meddwl fod gwaelod y môr gwedi ceulo, sadio, a chaledu; nid allent gerdded llaid yr eigion heb iddo geulo a chaledu. Ond meddwl rhai mai y dyfroedd ar bob llaw oedd wedi ceulo.

CI, CWN, dyfyriad o CION: ci coeg, ci dryc-hin, ci tam. Creadur adnabyddus; a gyfrifid yn aflan dan y gyfraith; yr oedd yn dra dirmygus gan yr Iuddewon. Yr ymadrodd atgasaf a allent hwy arfer oedd cyffelybu dyn i 'gi marw.' Yr oedd Dafydd yn ei alw ei hun yn 'gi marw,' i ddangos i Saul nad oedd iddo ddim anrhydedd o erlid ar ol ei fath. 1 Sam. 24. 14.——Mae erlidwyr yn cael eu galw yn gwn, i ddangos eu haflendid, a'u creulonder gwaedlyd. Ps. 22. 16.——Ci, neu gwn, sydd enw a roddir i'r diafol, Ps. 22. 20.—gau-athrawon, Esa. 56. 10, 11. Phil. 3. 2.—dynion ansanctaidd, aflan, Mat. 7. 6. Deut. 22. 18. 2 Petr 2. 22. Dat. 22. 15. Diar. 26. 11. Ps. 59. 6.—y cenedloedd. Mat. 15. 27.——Y gair *Heb.* כלב *(celeb)* am gi, a arwydda *gafaelgar*, o herwydd ei afaelgarwch â'i ddannedd mewn unrhyw beth. Bochart, *vol.* ii., *p.* 663. Cyfleitha rhai y geiriau am Nabal, 'a Chalebiad oedd efe,' (1 Sam. 24. 3.) 'a chiaidd oedd efe;' i arwyddo ei dymher sarug, costogaidd.

Y mae llawer o gynneddfau tra rhagorol yn perthyn i'r ci, yn gyffredinol; megys bywiogrwydd amgyffred, hyddysg, hydrin, serchogrwydd, ffyddlondeb i'w berchenog, ufudd-dod, gofalusrwydd, gwroldeb, llonder, gwg ei feistr a'i tristâ, a'r arwydd lleiaf o'i foddlonrwydd a'i llona yn ddioed. O'r holl greaduriaid, y ci sydd fwyaf ymlynol wrth ddyn; ac nid oes un creadur â mwy o amrywiaeth yn ei ryw na'r ci: y maent yn amrywio yn yr amrywiol wledydd. Bernir y bugeil-gi yr agosaf at y rhyw dechreuol. Mewn anialwch, a gwledydd diboblogaidd, y mae llawer o gwn gwylltion yn myned yn yroedd lliosog i hela, ac yn ymosod ar deirw, baeddod, ïe, llewod a dywalgwn hefyd. Yn America, lle y mae llawer o honynt ceddynt yn ddofion gwedi myned yn wylltion, y maent wedi lliosogi i'r fath radd, fel yr ânt yn fyddinoedd i leoedd trigiannol, ac a ymosodant ar anifeiliaid, ac y maent yn dra pheryglus i'r trigolion hefyd. Y maent yn rhwymedig, er eu hamddiffynfa, i'w gwrthsefyll a'u lladd, fel bwystfilod creulawn eraill. Ond gwareiddir hwynt yn hawdd trwy diriondeb.——Y Tyrciaid, medd Busbequis, a gyfrifant y ci yn greadur aflan a ffiaidd, ac am hyny gyrant ef o'u tai; ac y maent yno yn gyffredin, heb fod yn perthyn i neb yn neillduol; y maent yn gwylied yr ystrydoedd yn hytrach na thai neillduol, ac yn byw ar y gweddillion a deflir i'r ystrydoedd. *Legat. Turc. epist.* iii., *p.* 178.—Y mae cwn yn lliosog yn ystrydoedd Aleppo, medd Russel, heb neb yn eu perchenogi, ac yn byw ar y pethau mwyaf braenedig. *Nat. Hist. p.* 60. Dichon hyn roddi ychydig oleuni ar Ps. 59. 7, 15, 16.

Barna rhai, mai wrth כלב *ci*, yn Deut. 23. 18. y mae i ni ddeall *gwrryw-gydiwr*, a elwir yn yr adnod o'r blaen קדש *puteiniwr*, ac a roddir yn adn. 18. gyda phutain, (Gwel Bochart, *Hieroz., lib.* ii., *cap.* lvi., *p.* 690) ond nid yw yr ystyr yn ymddangos yn debygol i fod y gwir ystyr. Yr un modd y cyfryw drueiniaid ffiaidd a feddylir wrth *κυνες*, *cwn*, yn Dat. 21. 8. a 22. 15. Galwai y Groegiaid rai wedi ymroddi i fryntwaith, er ei fod yn beth arferedig iawn yn eu plith (Rhuf. 1. 27, 28.) *κυναδοι*, sef *rhai heb ddim mwy gwylder na chwn*. Gwel Le Clerc ar Deut. 23. 18. a Daubuz ar Dat. 22. 15. Arwydda y gair *Heb.* קדש y cyfryw drueiniaid ag a fyddont gwedi ymroddi i frynti, pa un bynag ai benyw ai gwrryw fyddont, fel y mae yn eglur oddiwrth 1 Bren. 14. 24. a 15. 12. 2 Bren. 23. 7. Hos. 4. 14.

Yn gyffelybiaethol, arwydda cwn yn yr ysgrythyrau, 1. Anghredinwyr, ac estroniaid i gyfammod Duw: 'Nid da cymeryd bara y plant, a'i fwrw i'r cwn;' sef i rai estronol i gyfammod Duw. Mat. 15. 26.——2. Dirmygwyr halogedig o wirionedd Duw, ac erlidwyr creulawn pregethwyr y gwirionedd. Mat. 7. 6.——3. Gelynion y duwiolion, y rhai sydd am eu dyfetha: Ps. 22. 16, 20. yn enwedig yr holl elynion ffyrnig a roddasant Grist mor greulawn i farwolaeth.——4. Dynion halogedig, wedi eu llychwino â phob ffieidd-dra a drygioni. Dat. 22. 15.——5. Gwrthgilwyr ffiaidd, a ddychwelant fel y ci at ei chwydfa. 2 Petr 2. 22.——6. Gau-athrawon ariangar, y rhai a besgant eu hunain yn lle porthi praidd Duw. Esa. 56. 10, 11. Phil. 3. 2.

CIB—AU—YN, (ci) plisg ffrwythau; megys pys, ffa, &c., peiswyn. 2 Bren. 4. 22. Pilionen y winwydden a gyfleithir oddiwrth yr un gair. Num. 6. 6.——Pethau gweigion, dirawn, dignewyllod. Luc 15. 16. a 16. 21.——Mesur yn cynnwys pedwar galwyn. 'Ac ei cuddiei mewn tri chibened o vlawd.' Luc 13. 21. W. S. Edr. MESUR.

CIBROTH-HATTAAFAH, קברות־התאוה [*beddau y blys*] un o wersyllfaoedd Israel yn yr anialwch; lle y blysiasant gig, ac y lladdwyd hwynt o herwydd hyny. Num. 11. 34, 35. Ps. 78. 30.

CICAION. Y mae awdwyr yn amrywio cymaint yn nghylch y cicaion, fel mae yn anhawdd penderfynu pa fath brysgen ydoedd. Un anhawsdra mawr ydyw, am nad oes dim sôn am y cicaion yn un lle yn y Bibl Hebraeg, ond yn unig yn llyfr Jonah. Yr hanes a rydd Jerome am y cicaion yw, mai prysgen ydyw, yn tyfu yn lleoedd tywodlyd Palestina, ac yn cynnyddu mor ddisymwth, fel y mae, mewn ychydig ddyddiau, yn dyfod i gryn faintioli. Ei dail sydd fawrion, ac yn debyg i ddail y winwydden. Y mae yn sefyll ar ei phaladr ei hun, heb ei hattegu â dim arall, ac oddi tani yn gysgodfawr iawn. Esbonwyr diweddar ydynt agos i gyd o'r un feddwl (er fod rhai hynach yn amrywio llawer) mai y *Palma Christi* ydyw y cicaion. Planigyn tebyg i lili ydyw, a'i ddail yn llyfnion, ac yn taflu ar led, â manau duon arnynt. Dywed Dioscorides fod math o hono yn tyfu yn fawr fel pren, a chyn daled a ffigys-bren. Ei ddail sydd debyg i ddail



Digitized by Google

pren eiryn, er eu bod yn lletach, yn llyfnach, a duach. Ei gorph a'i gangheuau sydd geuol fel cecysen. Y mae rhai o'r farn mai y rhywogaeth olaf yma a grybwyllir am dani yn llyfr Jonah. Gwel pen. 4. 6—10. Bochart, *Hieroz.*

CICONIA, *Heb.* חסידה yr hyn a arwydda *caredigrwydd;* fel y dywedir y dengys cywion y ciconia i'w mamau yn eu henaint, gan eu porthi: *Gr.* στορκος; *Saes.* STORK. Aderyn gwyn, tebyg iawn i'r garan ydyw, ond ei esgyll agos yn dduon; nytha yn y ffynidwydd uchel (Ps. 104. 17.) ac ar benau tai a simneiau mewn dinasoedd: maent yn bur adnabyddus yn yr Almaen. Y mae yn cadw yn aml yn agos i'r dyfroedd, ac yn ymborthi ar bysgod, nadroedd, a'r cyffelyb. Y ciconiaid a adawant y wlad ar ddiwedd yr hâf, ac ni ŵyr neb i ba le y maent yn myned; dychwelant yn ol drachefn yn y gwanwyn: oddiwrth hyn y mae y prophwyd yn dywedyd, 'Y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau.' Jer. 8. 7. Pan fyddont yn dyfod arwyddant fod y gauaf wedi myned heibio. Yn y Galdaeg gelwir ef yn aderyn gwyn, oddiwrth ei blu gwynion. Fel y dywed y bardd Lladin:—

——Cum vere rubenti
Candida venit avis longis invisa colubris.

Sef,

Pan yn y gwanwyn tirion yr eda wen sydd yn dyfod, gan y nadroedd y peth casaf.

*Virgil, George.* ii., *lin.* 320.

Gwel Lef. 11. 19. Deut. 14. 18. Job 39. 13, ar ymyl y ddalen. Zech. 5. 9.

CIG—AU, (ci) cnawd, cigfwyd.—1. Cig creaduriaid glân a ellid ei fwyta. Gen. 9. 4. 1 Bren. 17. 6 ——2. Perthynasau a charenydd. Rhuf. 11. 14.—— 3. Cig a gwaed, goleuni a rheswm natur. Mat. 16. 17. Gal. 1. 16. 'Ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw;' hyny yw, ein cyrph breuol, llygredig; maent yn llestri rhy ganddryll i ddal gogoniant y nefoedd; gan hyny mae yn rhaid eu rhoi i orwedd yn y ddaear, a gadael yno y breuolder a'r llygredigaeth a gawsont oddi yno, cyn y gallont fod yn gymhwys i gael cymdeithas ddigyfrwng â Duw yn y nefoedd. 1 Cor. 15. 30. ——'Calon o gig,' sef effeithiau yr efengyl ar y gydwybod, yn ei meddalhau, ac yn ei gwneuthur yn deimladwy, ac yn hawdd iddi dderbyn argraffiadau yr Ysbryd Glân; mewn cyferbyniad i galon gareg. Ezec. 36. 26. Edr. CNAWD.

CIGFA—OEDD, (cig-ma) cigle, lle y gwerthid cig; marchnadfa gig.—'Beth bynag a werthir yn y gigfa, bwytewch.' 1 Cor. 10. 25. *εν μακελλω, in macello.* Y mae y gair Lladin *macellum,* medd Ainsworth, yn arwyddo marchnadfa gig, neu bysgod, a phob math o luniaeth. Yr oedd Corinth yr amser hwnw dan lywodraeth y Rhufeiniaid, ac nid rhyfedd bod galw rhyw le cyhoeddus yn y ddinas wrth yr enw Lladin *macellum.* Gwel Ainsworth's *Dictionary.* Michaelis' *Introduction to the New Testament, by* Dr. Marsh. Er deall dull yr apostol o ymadroddi yn y bennod uchod, rhaid meddwl i'r Corinthiaid, yn eu llythyr at yr apostol, ofyn iddo ef dri pheth yn nghylch cig gwedi ei aberthu i eilunod:—1. A allent fyned, yn ddibechod, gyd â'u cydnabyddwyr i gyfrannogi, yn nheml yr eilun, o'r aberthau a aberthwyd i eilunod? 2. A allent hwy brynu, a bwyta y cig a werthid yn y gigfa, yr hwn a aberthwyd i eilunod? 3. Pan wahodded neb o honynt gan eu cymydogion Paganaidd i'w tai, a allent yn ddifai fwyta cig yno a aberthwyd i eilunod? Y gofyniad cyntaf a atebodd yr apostol yn 1 Cor. viii. Y ddau ddiweddaf y mae yn eu hystyried yn y bennod hon. Y mae yr apostol yn trin y mater yn ddoeth ac yn ddichlynaidd; ac yn dangos y gallai arferiad o bethau cyfreithlawn, o herwydd rhyw amgylchiadau, fod yn anfuddiol ac yn anadeiladol i eraill; ac na ddylem geisio ein budd ein hunain yn unig, ond budd, cysur, ac adeiladaeth eraill hefyd.

CIGFRAN, aderyn ysglyfaethus, aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 15. Y gigfran a anfonodd Noah allan o'r arch, nid myned ymaith yn hollol a wnaeth, ond myned a dychwelyd yr oedd, at ac o amgylch yr arch, yn ol ac yn mlaen, ond ni ddaeth byth i mewn at Noah i ddywedyd y newydd hyfryd am dreiad y dyfroedd. Os ydoedd cyrph y meirwon i'w cael, yr oedd ei chylla yn gallu cyd-ddwyn â hwynt. Felly mae yn well gan ddynion cnawdol, cigfranaidd, bleserau burgunllyd na'r efengyl. Gen. 8. 6, 7.——Trefnodd Duw gigfrain, er maint eu gwanc, i borthi y prophwyd Elias wrth afon Cerith. 1 Bren. 17. 4.

CIGWAIN—EINIAU, (cig-gwain) crafanc, tryfer; math o ffyrch bychain oedd ganddynt yn trin eu cig yn y babell a'r deml. Exod. 27. 3. Num. 4. 14 1 Cron. 28. 17.

CIL—ION, (cy-il) cefn; encil; ciliad, enciliad; dirgelfa, ymguddfa; ymadawiad; cilfa; cilfaig. Cil y lleuad; cil drws; cil cleddyf; cnoi cil; cil boch; cil llygad; cil dwrn; cil haul. Rhydd enwau i amryw leoedd; megys Cil Owain, Cil Bwrw, Cil Gadan, Cil Haul, &c.—'Beth bynag a hollto yr ewin, ac a fforchogo hollt yr ewinedd, ac a gnoo ei gil, o'r anifeiliaid; hwnw a fwytewch.' Lef. 11. 3, &c. מעלת גרה *dwyn i fynu y cil;* sef dwyn i fynu yr ymborth o'r cylla cyntaf i'w gnoi drachefn. Y mae gan y creaduriaid a gnoant eu cil, ddau, tri, neu bedwar cylla. Y mae gan yr ŷch bedwar cylla; yn y cyntaf, a'r mwyaf, a elwir *ventriculus,* cesglir yr ymborth heb ei gnoi; cesglir y glaswellt, &c., iddo fel y torir ef ganddo oddi ar y ddaear. Yr ymborth gwedi ei ddryllio a'i fwydo yn ddigonol trwy rym cyhyrol y cylla a'r gwlybwr a dderbynir iddo, a ffurfir yn belenau bychain, ac a deflir i fynu i'w safn, lle y gwneir ef yn fân trwy ei gnoi; yna yr anfonir ef i lawr i'r ail gylla—a hyn a elwir 'cnoi y cil.' Yn yr ail gylla, a elwir *reticulum,* malir ef yn fanach, a thaflir ef i'r trydydd cylla, a elwir *omasum.* O hwn yr â yr ymborth i'r pedwerydd cylla, a elwir *abamassum.* Yno y troir ef yn gaul, ac yr â i'r llestri llaethog, ac y cymysga â'r gwaed, er magwraeth i'r anifel. Barna Junius fod tarddiad y gair Saesonaeg *cud, chewing the cud,* yn tarddu o'r gair Cymraeg *chwyd,* taflu i fynu; sef y pelenau wedi eu taflu i fynu o'r cylla cyntaf. Dyben cnoi y cil ydyw er mânhau yr ymborth, fel y gallo y cylläon weithredu arno yn fwy cyflawn i dynu y maeth allan o hono yn gwbl, er magwraeth y creadur.

Y mae cnoi y cil yn arwydd neillduol o fyfyrio ar y pethau a roddwyd o'r blaen yn nghadw yn y meddwl, i'w droi yn fagwraeth ysbrydol; oddiwrth hyn yr oedd cnoi y cil, a fforchogi yr ewin, yn nôd neillduol o'r anifeiliaid glân. 'Myfyrio yn nghyfraith yr Arglwydd ddydd a nos,' ydyw hen arfer duwiolion yn mhob oes. Ps. 1. 2. Geiriau Duw yw ymborth yr enaid (Amos 8. 11.) y rhai a ddylai pawb eu cofio. 1 Cor. 11. 2. Mal. 4. 4. 'Chwilio yr ysgrythyrau,' a dal yr hyn sy dda,' (Act. 17. 11. 1 Thes. 5. 11.) a chofio gorchymynion Duw i'w gwneuthur. Ps. 103. 18. Y rhai glân o galon, a phur eu meddwl, a ymhyfrydant mewn pethau pur.

CILDYN—U—RWYDD, (cil-tyn) cyndyn, anhydyn, afrywiog, ystyfnig, gwrthnysig. Jos. 22. 19. Job 9. 20. Diar. 2. 15. Esa. 1. 5. Jer. 3. 17. Edr. CYNDYN.

CILDDANNEDD, (cil-dant) y boch-ddannedd, y malyddion. Barn. 15. 19. Lle mae y gair cilddant yn ein Bibl ni, cyfieithir yn y Bibl Saesonaeg, *asgwrn yr ên, cern;* gelwir ef unwaith yn *ddannedd yr ên.* Diar. 30. 14. 'Duw a holltodd y cilddant oedd yn

Digitized by Google

yr ên;' Duw a holltodd, neu a agorodd wrth hollti, y twll *Mactes*, yr hwn sydd yn *Lehi*, lle yr adeiladwyd dinas. 'Udwch drigolion Mactes.' Seph. 1. 11. Y mae y gair Mactes yn cael ei gyfieithu *morter* yn Diar. 27. 22. Felly gellir cyfieithu y geiriau Mactes Lehi, sef cilddant yr ên, *twll y morter*. Ac yn ol pob tebygoliaeth, cymerodd y ddinas ei henw oddiwrth Mactes Lehi, *y twll morter* mewn gên asyn, yr hwn y cafodd Samson y waredigaeth wyrthiol trwyddo. Duw a agorodd ffynon iddo mewn ffordd wyrthiol, pan ydoedd efe bron marw o syched; ac er coffadwriaeth am y waredigaeth ddyblyg, a'r wyrth hefyd, galwodd hi 'ffynon y geilwad, yr hon sydd yn Lehi.' Barn. 15. 19.——Creulondeb yr annuwiol. Job 29. 17. Ps. 58. 6. Diar. 20. 14. Edr. EN-HACCORE.

CILFACH, (cil-mach) lle i ymneillduo, lle i lechu: crigyll, angorfa, ongl.—'Cilfach y môr.' Jos. 18. 14. 'Cilfachau y dyfnder.' Job 38. 16. 'Cilfachau y mynyddoedd.' Job 39. 3. 'Cilfachau y bol,' (Diar. 18. 8.) sef y lleoedd mwyaf dirgel, tufewnol, a chuddiedig. Geiriau hystyngwyr a archollant yn ddwfn iawn, ac anhawdd meddyginiaethu eu harchollion.—Yr oedd cilfach a glàn iddi yn werthfawr i Paul a'i gymdeithion yn eu mordaith beryglus tua Rhufain. Act. 27. 39.

CILGWTHIAW, (cil-gwth) gwthiaw ar gil, gwthiaw yn ol, gyru ar encil neu ar ffo. Ps. 44. 5. Act. 7. 27.

CILICIA, [*cyffyrddiad*] gwlad yn y dehau-ddwyrain i Asia Leiaf, yn sefyll ar y pen dwyreiniol i Fôr y Canoldir. Y brif ddinas oedd Tarsis, lle y ganwyd Paul. Act. 21. 30. Poblogwyd Cilicia ar y cyntaf gan Tarsis, ŵyr Japheth. Gen. 10. 4. Paul a bregethodd yr efengyl yn foreu yno, a chasglwyd yno eglwys (Act. 15. 23.) yr hon a barhaodd yn lled flodeuog hyd ddechreuad yr wythfed ganrif. Mae y wlad i gyd yn bresennol yn meddiant y Twrc.

CILIAW, (cil) 1. Cadw draw, myned oddiwrth. Job 1. 1. Esa. 31. 6.——2. Lleihau neu fyned ymaith. Gen. 27. 44.

CILION, כליון [*cyflawn*] mab Elimelec a Naomi, yr hwn, yn amser newyn, a aethai efo ei rieni i wlad Moab; a briododd, ac a fu farw yno. Ruth 1.

CIMHAM, כמהם [*fel hwy*] 1. Mab Barzilai y Gileadiad, yr hwn a aeth gyda Dafydd i Jerusalem, ac a gafodd lawer o'i ewyllys da am garedigrwydd ei dad i Dafydd yn ei gyfyngder. 2 Sam. 10. 37, 38.——2. Dinas yn agos i Bethlehem. Jer. 41. 17.

CINIAW—A, (cin) nawnbryd; yn fwy priodol *pryd*. Y mae rhai yn ein gwlad yn arfer y gair ciniaw am foreufwyd, ac eraill am nawnfwyd, neu giniaw echwydd, neu nawnbryd. Mae y gair *Heb.* ארחה yn Diar. 15. 17. yr hwn a gyfieithir *pryd*, yn cael ei gyfieithu *fforddolion*, yn Esa. 21. 13. ac felly yn arwyddo pryd i deithwyr. Mr. Barker a ddywed, fod y gair Hebraeg yn ateb i'r gair Cymraeg *cyfarwys*, yr hwn a arwydda cêd, neu rodd o ewyllys da, a roddir ar ryw achos cyhoedd cyffredinol, neu ryw achosion tra phwysig. Y mae Mr. Leigh, a Parkhurst, yn dangos fod y gair *Gr.* *αριστον*, yn arwyddo *pryd*, heb un amser penderfynol i'w fwyta; a'i fod yn dyfod oddiwrth air a arwydda darpariaeth i rai cyn myned i ryfel.——Goruchwyliaeth yr efengyl. Mat. 22. 1—14. Y mae yr efengyl yn bryd helaethlawn i ddiwallu yr enaid. Esa. 25. 6, 7. Yn bryd hefyd i fforddolion Sion. Ioan 6. 53. 1 Petr 1. 11. Yn bryd bob amser i fyned ato cyn myned i ryfela â byd, cnawd, a diafol.

CINNERETH, כנרת [*megys y goleuni*] dinas yn Naphtali, o du y gorllewin i Fôr Tiberias; o ba un hyd at y Môr Marw yr ydoedd gwastadedd, a elwir hefyd, *y rhos*, *rhosdir*, wrth yr Iorddonen. Deut. 4. 49. Jos. 11. 2. a 12. 3. a 19. 35. Barna Calmet ac eraill, mai yr un oedd a Tiberias; ond y mae Reland o wahanol feddwl. Dilys yw, mai yr un ydyw llyn Genesar, neu Cinnereth, a Môr Tiberias, neu Môr Galilea. 1 Mac. 11. 67. Eraill a farnant ei bod yn sefyll yn y lle yr adeiladwyd Capernaum. Edr. LLYN MOR, TIBERIAS.

CIOS, ynys yn y rhan ogledd-ddwyreiniol o Fôr y Canoldir, y nesaf at Lesbos, gyferbyn a Smyrna yn nghylch deuddeg milltir o'r tir. Gelwir hi yn awr Scio. Nid oes hanes am blaniad Cristionogrwydd yno yn foreu: ond cawn esgob oddi yno yn y cynghorau cyffredin, mewn oesoedd diweddarach: ac y mae Cristionogrwydd heb ei ddiwreiddio yn llwyr oddi yno etto. Act. 20. 15.

CIP—IO, (cib) *Heb.* כבע (*cibo*), ysgipio, caffio; dwyn o drais, ysglyfiaw; cymeryd peth ymaith mewn brys, yn ddisymwth. 1 Bren. 20. 23. Mat. 11. 12.

CIR, dinas neu wlad dan lywodraeth brenin Assyria. Rhoddir hanes am afon Cyrrhus, a dinasoedd a enwyd Cyropolis, Cyrena, a Carine, fel lleoedd yn gorwedd yn y parthau hyn; rhan o Media, tebygol, medd rhai, a alwyd Syromedia, oddiwrth y Syriaid a ddygwyd yn gaethion yno. 2 Bren. 16. 9.

CIR, CIR-HERES, CIR-HARES, CIR-HERESETH, 1. Prif ddinas y Moabiaid, a anrheithiwyd gan Jehoram, brenin Israel, (2 Bren. 3. 25, &c.) ac a ddystrywiwyd wedi hyny gan yr Assyriaid a'r Caldeaid. Esa. 15. 1. a 16. 7, 11. Gen. 48. 31.——2. Lle yn Media, lle y dygwyd y Syriaid, a rhai o'r Hebreaid yn gaethion gan yr Assyriaid; rhai o drigolion pa un oedd yn rhyfela yn myddin Senacherib yn erbyn Judah. Amos 1. 5. a 9. 7. Esa. 22. 6.

CIRIATH, קרית [*dinas*] yr oedd dinas o'r enw yn agos i Gibeon, yn rhandir Benjamin. Jos. 18. 28.

CIRIATHAIM, קריתים [*dwy ddinas*] 1. Dinas o du y dwyrain i'r Iorddonen, yn nghylch deng milltir o'r gorllewin i Medebia. Tebygol ei hadeiladu cyn anrheithiad Cedorlaomer. Gen. 14. 5. Cymerodd Sehon hi, hwyrach, oddiar y Moabiaid, a chymerodd Moses hi oddi arno yntau, ac a'i rhoddodd i'r Reubeniaid; ond adgymerodd y Moabiaid hi drachefn mewn amser. Dinystriwyd hi gan y Caldeaid; ond ail adeiladwyd hi yn nghylch A.D. 400, a gelwid hi Ciriatha. Num. 32. 37. Jer. 48. 1, 23.——2. Ciriathaim, neu Cartan, yn llwyth Naphtali. Jos. 21. 32. 1 Cron. 6. 76.

CIRIATH-JEARIM, neu CIRIATH-BAAL, [*dinas y coed*] dinas yn Judah, yn sefyll naw neu ddeg milltir o du y gogledd i Jerusalem. Yma bu arch Duw lawer o flynyddoedd, wedi ei dwyn o dir y Philistiaid. Jos. 9. 17. a 15. 9, 10. 1 Sam. 7. 1.

CIRIED, (cir) haelioni, elusen.—'Ei giried ev a erys.' 2 Cor. 9. 9, 10. W. S.

CISLEU, כסלו [*hyder, rhyfyg*] y nawfed mis o flwyddyn gysegredig yr Hebreaid, a'r trydydd o'r flwyddyn wladol. Yr oedd yn cyfateb yn o agos i'r mis Tachwedd. Zech. 7. 1.

CISON, קישון [*caledrwydd*] 1. Dinas yn rhandir Issachar, ac a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Gersom. Jos. 19. 20.——2. Afonig sydd yn rhedeg trwy ddyffryn Jezreel, o du y dehau i fynydd Tabor, ac yn myned i Fôr y Canoldir yn Acco, neu Ptolemais. Barn. 5. 21. Dywed y Dr. Shaw fod ei tharddiad yn agos i fynydd Carmel, a'i bod yn rhedeg i'r gogledd-orllewin i'r môr. Bydd yn chwyddo yn fawr iawn

Digitized by Google

clais dwfr a glân, ymyl y dwfr; clais erwydd, estyll; clais y dydd, toriad y dydd, toriad y wawr, y goleu cyntaf y boreu. Act. 20. 11.—'Y main a gleisiesont;' (Mat. 27. 51.) W. S., sef a holltwyd.—'Yn cleisio,' (Mat. 28. 1.) W. S., yn dechreu gwawrio, yn dyddhau.

CLAUDA, [*cloff*] *Llad.* CLAUDA; ynys fechan yn Môr y Canoldir, yn agos i Crete, a elwir yn bresennol Gero. Bu Paul a'i gyfeillion yn hwylio heibio iddi yn y fordaith i Rufain. Act. 27. 16.

CLAUDIA, [*cloff*] pendefiges o Rufain, yr hon y dywedir iddi gael ei dychwelyd i'r ffydd trwy weinidogaeth Paul. 2 Tim. 4. 21. Y mae rhai gwyr dysgedig yn barnu mai Cymraes ydoedd y bendefiges hon, ac mai Gwladys Ruffydd oedd ei henw yn Nghymru; ond yn Rhufain Claudia Ruffina. (Y mae merched yn Nghymru o'r enw Gwladys hyd y dydd hwn.) Dywedir mai ei gwr oedd Pudens, a enwir yn yr un lle; ac mai gwr mawr iawn ydoeddd, ac un o'r saint o deulu Cesar. Phil. 4. 22. Gwel Fox's *Acts and Monuments*, Dr. Gill, a Mr. M. Henry, ar 2 Tim. 4. 21. Godwin's *Catalogue.* Gwel hefyd *Drych y Prif Oesoedd.*

CLAUDIUS, [*cloff*] un o ymerawdwyr Rhufain. Ymddengys fod amryw o'r enw wedi bod yn Rhufain. Act. 11. 28. a 18. 2.

CLAUDIUS LYSIAS, swyddog oedd gan y Rhufeiniaid gynt yn Jerusalem, i amddiffyn y werin. Dangosodd hwn lawer o diriondeb tu ag at Paul yn ei gyfyngderau. Act. xxi, xxii, xxiii.

CLAUAR—DER, (clau-ar) *Gr.* *κλιαρος, cleiaros;* tymherus, gweddol, araf, mwynaidd, esmwyth; heb fod yn oer nac yn frwd. Angel eglwys Laodicea a elwid felly, oblegid nad oedd yn gwbl anmharchu Crist a'i achos, nac ychwaith yn wresog yn ei garu ac yn ei anrhydeddu, trwy ddwyn ei achos yn mlaen yn siriol; felly yr oedd yn ffiaidd ganddo. Dat. 3. 16.

CLAMP, (llamp) talp, crug, cruglwyth: clamp o ddyn, dyn gwrol, corphorol.—'Clamp toes,' y genedl Iuddewig, trwy rinwedd y cyfammod a elwir felly. Rhuf. 11. 16.

CLAWDD, CLODDIAU, (llawdd) ffos, ffosle, cladd rhych, rhigol.—1. Ffos ddofn i ddiogelu meusydd. Esa. 37. 33.——2. Dichellion y rhai drygionus i faglu y duwiol. Ps. 7. 15.——3. Cyfeiliornad peryglus, neu golledigaeth. Luc 6. 39.

CLAWR, CLORIAU, (llawr) clawr daear, clawr bwrdd; dyfod a pheth i glawr, hyny yw, ei ddwyn i'r goleu.—Caead neu orchudd ar beth. 2 Sam. 17. 19.

CLEDR—AU, (lled) rhyw beth teneu-wastad; asdell dô:—Cledr llaw, cledr y ddwyfron. 1 Bren. 18. 44.

CLEDD—YF—AU, (lledd) *Llad.* GLADIUS; cadgnaw, ffoswm:—cleddyf drws, cleddyf car.——1. Arf rhyfel: ac mewn aralleg a arferir i osod allan ryfel. Gen. 34. 25. Lef. 26. 25.——2. Dialedd a barnedigaethau Duw. Deut. 32. 42.——3. Awdurdod llywodraethol. Rhuf. 13. 4.——4. Gair Duw yw 'cleddyf yr Ysbryd,' am ei fod yn cael ei wneuthur yn effeithiol trwy yr Ysbryd i orchfygu ac i wrthsefyll pob gwrthwynebiad. Eph. 6. 17. Ein Hiachawdwr a ddywed 'na ddaeth efe i ddanfon tangnefedd ar y ddaear, ond cleddyf,' hyny ydyw, bydd fy efengyl yn achos achlysurol o erlidigaethau a thrallodau i'w phroffeswyr; nid o'i natur ei hun, ond oddiwrth a thrwy lygredigaethau dynion. Mat. 10. 34.—Cleddyf Crist yn dyfod allan o'i enau, sef oddiwrth ei awdurdod a'i ewyllys: ac wedi ei wregysu ar ei glun, yn barod i fod yn foddion argyhoeddiad a dychweliad pechaduriaid ato ei hun. Eph. 6. 17. Can. 3. 8. Dat. 1. 16. Ps. 45. 3.—Gyru 'y cleddyfau yn sychau, a'r gwaywffyn yn bladuriau,' a arwydda gadael rhyfel heibio, a mwynhad o hir heddwch, yn dymhorol ac yn ysbrydol, yn nghyd â diwydrwydd a llwyddiant yn llafurio y meusydd. Esa. 2. 4.—Rhoddion a gras. Mic. 4. 3.—Gyru 'y sychau yn gleddyfau, a'r pladuriau yn waywffyn, a arwydda fod rhyfel a phrinder mawr yn nesâu. Joel 3. 10.—'Cleddyf tanllyd ysgwydedig;' neu, fel y mae rhai yn cyfieithu y gair, *fflam cleddyf yn ymdroi*, neu, *yn ei droi ei hun;* y gair a arferir yma am droi dyn allan o baradwys, a arwydda ei fod yn cael ei droi allan fel gwraig ysgaredig allan o dŷ ei gwr; ac na byddo i ddychwelyd yno byth mwy; felly, nid oedd y dyn i ddychwelyd yn ol i hyfrydwch cymdeithas â Duw, ar hyd ffordd yr hen gyfammod o weithredoedd.——Gallai fod y Mawrhydi Dwyfol, yr hwn yn Nghrist sydd yn cymmodi y byd âg ef ei hun, tra yr oedd y cerubiaid a'u cleddyf tanllyd yn ysgwyd yn ddychrynllyd i gadw ffordd pren y bywyd, yn ei ddadguddio ei hun rhwng y cerubiaid, megys ar orsedd o ras, i annog y pechadur i ddyfod yn ostyngedig i gymdeithas rydd âg ef ei hun, trwy ffordd newydd y cyfammod gras. Gwelwn wrth gymharu Dat. xxi, a xxii, fod deuddeg porth y ddinas sanctaidd yn agored yn feunyddiol, ac angel wrth bob porth, megys i dderbyn yr etholedigion i mewn o bedwar cŵr y byd; sef y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen. Er fod ffordd newydd a bywiol wedi ei chysegru at y Tad, trwy aberth y Mab; etto yr halogedig nid â ar hyd-ddi; oblegid nid â i mewn yno ddim aflan. Dim ond a fyddo wedi ei olchi trwy anfeidrol rinwedd aberth Crist. Gen. 3. 24.

CLEFYD—AU, (claf) anhwyl, afiechyd, clwyf.—1. Llygredigaeth corphorol, neu ysbrydol. Mat. 3. 23. a 8. 17.——2. Dymuniad hiraethlon yr enaid am Grist. Can. 2. 5. a 5. 8.——Duw sydd yn anfon clefydau. Deut. xxviii. Ond fel effeithiau pechod, oblegid pechod ydyw yr achos haeddiannol o glefydau. Yr hen Hebreaid a gyfrifent eu clefydau i oruchwyliaeth ysbrydion drwg, megys dienyddwyr y dialedd dwyfol; a phan fyddai rhyw beth anghyffredinol, hwy a'i cyfrifent i law ddigyfrwng y nef; megys y gwnaeth cyfeillion Job. Pen. 4. 7, 8.

CLEMENT, [*tirion*] *Llad.* CLEMENS: crybwyllir am Clement (Phil. 4. 3.) lle y mae Paul yn dywedyd fod enw Clement yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd. Dywedir ei fod gwedi hyn yn esgob yn Rhufain, ac yn awdwr yr epistol a enwir ar ei enw, at eglwys Corinth.

CLEOPHAS, Κλεοπας [*yr holl ogoniant*] yn ol dywediad yr hen dadau am dano, yr oedd yn frawd i Joseph, tad cyfrifedig ein Hiachawdwr, ac yn ŵr i Mair chwaer Mair Forwyn, a thad Simon, a Iago Leiaf, Judas, a Joseph, neu Joses. Er fod Cleophas a'i deulu yn ddilynwyr i'n Hiachawdwr, etto parhaodd yn anwybodus am y dirgelwch yn mherthynas i'w farwolaeth a'i adgyfodiad; a phan ddaeth hyny i ben, aeth i ammeu yn fawr ai efe oedd y Messiah. Ar y prydnawn ar ol ei adgyfodiad, pan oedd Cleophas a dysgybl arall yn ymdaith tu ag Emmaus, gan ymddyddan â'u gilydd yn mherthynas i'r Iesu, daeth ef ei hun atynt ar ddull ymdeithydd fel hwythau, ac yn dangos iddynt, allan o'r ysgrythyrau, yr angenrheidrwydd o ddyoddefaint y Messiah, mewn trefn iddo gael mynediad i'w ogoniant. Cleophas a'i gyfaill a gymhellasant Grist i aros gyda hwynt, ac efe a wnaeth; ac ar doriad y bara, eu llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant. Luc 24. 18, 31—35. Tebygol mai priodor o Galilea oedd Cleophas, yn hytrach nag o Emmaus. Edr. EMMAUS. Nid oes dim ychwaneg o hanes am dano.

Digitized by Google

**CLINDARDDACH**, (clin-tardd) trwst, sŵn, clecian: megys y gwna drain wrth losgi; *llais* drain, fel yr arwydda y gair *Heb.* קל felly y gelwir sŵn cerbydau yn *llais* neu *lef* cerbydau; felly y clindarddach neu y clecian a wna tân wrth losgi sofl, a elwir llais neu lef fflam. Joel 2. 5. Ezec. 1. 24. Y gair a gyfleithir yma *sŵn*, a gyfleithir yn Preg. 7. 6. *clindarddach.*—'Chwerthiniad dyn ynfyd sydd fel clindarddach drain dan grochan,' yn ddisynwyr, yn ddiddefnydd iddo ei hun, ac i eraill; ac yn fyr iawn ei barhad; oblegid y digofaint sydd ar ddyfod ar fyd y rhai anwir.

**CLO—IAU**, (llo) argau; diwedd, gorphen, diweddglo, rheswm; offeryn i rwym-gau drws, &c. Neh. 3. 3. Anghrediniaeth ydyw y clo sydd yn cadw Crist allan o galon dyn, â bàrau o anystyriaeth a diogi. Can. 5. 5.

**CLOCH, CLYCH**, (clog) yr oedd clych yn rhan o'r addurn ag oedd yn perthyn i fantell ephod yr offeiriad dan y gyfraith; ar ei godrau o amgylch yr oedd pomgranadau o sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad; bob yn ail, cloch a phomgranad. Pan yr elai yr offeiriad i'r cysegr (nid i'r sancteiddiolaf, canys nid oedd y fantell hon am dano pan âi yno) i weini ger bron yr Arglwydd, byddai sain y clych yn arwydd i'r rhai oedd yn y cyntedd yn addoli nad oedd Duw wedi lladd yr offeiriad, ond ei fod yn derbyn ei aberth drosto ei hun a hwythau. Exod. 28. 34, 35. Luc 1. 10.——Yr oedd sain y clych yn arwyddo llais Crist, yr Offeiriad tragywyddol, yn ei eiriolaeth ffrwythlon a llwyddiannus dros ei bobl; cafodd dderbyniad gan y Tad, o herwydd iddo fyned i mewn i'r cysegr trwy ei waed ei hun, wedi ei addurno yn berffaith gwbl yn ol gofyniadau y gyfraith; gan hyny, cafodd i ni dragywyddol ryddhad: ac y mae efe yn byw bob amser i eiriol dros ei bobl. Y mae yn gysur mawr i bob gwir addolwr, fod clych euraidd eiriolaeth Crist heb dewi, yn arwydd ei fod yn fyw; ac y mae yr Ysbryd Glân yn dwyn yr hyfryd sain euraidd hwn, yn mhregethiad yr efengyl, i'r cyntedd nesaf allan, sef yr eglwys filwriaethus yn y byd.

Gallai hyn hefyd gysgodi gweinidogion yr efengyl yn eu bywyd ac yn eu hathrawiaeth; y clych aur yn arwyddo y dylent hwy fod yn llefaru yn groyw mewn gweddïau gwresog at Dduw, trostynt eu hunain, a thros y rhai hyny y byddont yn gweini yn eu plith; ac hefyd bod ganddynt athrawiaeth bur, efengylaidd, a dilwgr, yn seinio yn groyw-eglur, yn beraidd, ac yn ddeallus, uwch ben eu gwrandawyr. Y mae gweinidogion heb hyn fel clych heb dafod. Nid clych yn unig oedd wrth fantell yr ephod, ond yr oedd yno yr un rhifedi o bomgranadau hefyd, i ddangos y dylai Cristionogion (ac yn enwedig gweinidogion y gair) fod yn ffrwytho yn gyfatebol i'r broffes a wnant, a'r athrawiaeth y maent yn gyhoeddi. Pe na chlywsid sain y clych gynt, buasai yn arwydd fod yr offeiriad gwedi marw; felly, oni chlywir athrawiaeth iachus a phur, a gweled bywyd ffrwythlawn, hardd, a phêr-aroglaidd, yn gysylltiedig â hi, arwydda fod y dyn, neu y gweinidog hwnw yn farw mewn camwedd a phechod. 2 Cor. 2. 17. 1 Thes. 2. 3, 5. 2 Cor. 7. 2. 1 Tim. iii. Tit. 1. 6. hyd y diwedd.

Ansicr yw pa bryd y dygwyd clych i'r eglwysi Cristionogol i wasanaeth crefyddol i alw y gynnulleidfa yn nghyd. Yn yr eglwysi dwyreiniol, rhoddent arwydd o awr y gwasanaeth â rhugl (*rattle*), neu trwy guro byrddau â morthwyl; yr arferiad hwn a barhaodd yn hir yn eu plith. Arferwyd clych mor foreu ag A.D. 874 yn Eglwys Groeg. Rhoddent hefyd arwydd âg udgorn. Innoceritus Ansaldus a ddywed y rhoddent gynt arwydd âg udgorn, ac mai yn nghylch y chweched ganrif yr arferwyd clych gyntaf yn yr eglwysi. Yr amser o ddygiad clych i eglwysi Lloegr sydd ansicr. Dywed Bede eu bod yn arferedig yn nghylch A.D. 680.——Byddai yn arferiad o fedyddio, neu o'r hyn lleiaf, cysegru clych at wasanaeth crefyddol gan y Pabyddion. Llawer o ddefodau a rhinweddau coel-grefyddol a briodolir ganddynt hwy i ganiad clych ar ol y marw, neu wrth eu claddu.

*Canu clych, neu gnul, ar farwolaeth dynion yn Mrydain.*—Dywedir mai hyn oedd yr achos dechreuol o hyny: Pan feddylid am ryw un ei fod ef yn agos i angeu, byddid yn canu clych i rybuddio pawb o fewn cyrhaeddiad sain cloch, am ei amgylchiad difrif-ddwys; ei fod yn myned, neu yn ol yr iaith sathredig, ei fod yn mron *pasio;* oblegid hyny y mae y gair *passing bell* yn ei arwyddo, fel y gallent hwy gyduno â'r gweinidog, ei berthynasau, a'i gyfeillion, mewn gweddi at Dduw tros eu brawd a fyddai yn wynebu byd tragywyddol, a gorchymyn ei enaid i freichiau trugaredd. Gwel *Christian Guardian. vol.* i., *p.* 48.

Pan ddaeth Pabyddiaeth i ymdaenu ar hyd ein gwlad, a gosod i fynu weddïau tros y meirw, ni ddechreuent ganu clych hyd oni byddai y dyn farw; fel mae y Pabyddion (yn gyfeiliornus) yn dywedyd y dylid gweddïo dros y meirw, am iddynt gael dyfodfa lwyddiannus allan o'r purdan.

**CLOD—AU—YDD**, (llod) gair da; mawl. 1. Cydnabyddiaeth mewn geiriau o rinweddau un. Edr. Mawl. Jos. 6. 27. Esth. 9. 4. Rhuf. 2. 20.——. 2. Annogaeth ac amddiffyn. Rhuf. 13. 3. 1 Petr 2. 20

**CLODFAWR—ORI**, (clod-mawr) *Llad.* Collaudare: moliannu; gosod allan glod mawr; talu diolch. Gen. 49. 8. Ps. 7. 17. Esa. 38. 18. Luc 19. 37. Yr ydym ni yn clodfori ac yn dyrchafu Duw wrth gydnabod ei oruchelder; yn ei foliannu wrth gydnabod ei berffeithrwydd ynddo ei hun; ac yn talu diolch iddo, wrth gydnabod ei fod yn ddaionus i ninnau. Edr. Mawl.

**CLODDIO**, (clawdd) palu, ffosu. 1. Gwneuthur clawdd, ffos, neu bydew. Gen. 26. 19. Esa. 51. 1. Jer. 2. 13.——2. Dyfal chwilio am beth, trwy lafur caled. Job 3. 21. Luc 6. 48.—'Cloddio gwinwryf,' gan Matthew, yn pen. 21. 33. a eglurir gan Marc yn pen. 12. 1. cloddio lle i winwryf, neu wingafn. 'Ac a wnaeth ynthi winwasgpren.' 'Ac a gloddiawdd bwll y dderbyn y gwin.' W. S. Marc 12. 1. Edr. Gwinwryf.

'Cloddio a bwrw tail,' sef chwilio i, ac amgeleddu gwreiddyn pechadur diffrwyth, trwy foddion gras, ac ordinhadau yr efengyl.——Dynion annuwiol ydynt yn 'cloddio drwg:' y maent yn chwilio yn ddyfal trwy lafurus boen, am feiau oeddynt o'r blaen yn guddiedig, fel y gallont eu cyfodi, megys o ddyfnder anghof, er mwyn gwaradwyddo a niweidio eu cymydogion. Diar. 16. 27. a 17. 9.——Y goruchwyliwr anghyfiawn, 'nis gallai gloddio,' nis gallai wneyd dim gwasanaeth llafurus. Luc 16. 3.——'Cloddio pydewau na ddaliant ddwfr,' gwneuthur eilunod, ymofyn cymhorth byddinoedd, &c. Dyfal geisio cymhorth a chysur o'r creadur, yn yr hwn nid oes un cysur parhaus a sylweddol; ac nis gellir cael dim ynddo pan fyddo fwyaf yr angen am dano. Jer. 2. 13. Rhuf. 8. 22. Y mae dyn, nid yn unig gwedi gollwng ei afael o bob daioni a chysur sylweddol, a throi ei gefn ar Dduw, ond y mae wedi gafaelu mewn drygioni a thwyll, ac yn wynebu ar ddystryw tragywyddol.

**CLOE**, [*gwyrdd lysieuyn*] gwraig grefyddol y mae Paul yn crybwyll am dani yn 1 Cor. 1. 11.

**CLOFF—ION**, (clo) cam; un na byddo gogyhyd ei esgeiriau, neu ei liniau; un a fyddo felly trwy enedigaeth, neu ddamwain. Gen. 32. 21. 2 Sam. 4. 4. Diar. 6. 7. Act. 3. 2. Mewn ystyr gyffelybiaethol, y rhai gwaelaf a mwyaf analluog. Ezec. 33. 23.—Yr

Digitized by Google

oedd cloffni, neu ryw anaf arall, yn gwneuthur aberth dan y gyfraith yn anghymeradwy; ac hefyd yn anghymhwyso dyn i swydd yr offeiriadaeth: er i'r anifel fod yn anifel glân, neu y dyn fod o deulu offeiriadol. Lef. 21. 18. Deut. 15. 21. Mal. 1. 13. Y gwendidau naturiol, y rhai yr oedd yn rhaid i'r offeiriaid dan y gyfraith fod yn rhydd oddi wrthynt, sydd yn dangos mor hollol gyfan, sanctaidd, a phur, yr oedd yn rhaid fod Iesu Grist, i fod yn dderbyniol yn yr offeiriadaeth; ni ŵyrodd erioed mewn meddwl, gair, na gweithred; ac ni bu arno erioed y gradd lleiaf o gloffni yn ei rodiad yn ol y gyfraith. Iesu ydyw yr aberth cymeradwy, 'yr hwn trwy yr Ysbryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, megys oen difeius a difrycheulyd.' Ioan 19. 4. Heb. 7. 26. a 9. 14. 1 Petr 1. 18.—Dyn cloff, yn ysbrydol, yw hwnw, na bo wedi ei unioni, ei sicrhau, a'i sefydlu yn grediniol yn egwyddorion ac ysbryd yr efengyl. Nid oes un o'r cyfryw yn offeiriad neu yn weinidog cymeradwy gan Dduw dan y Testament Newydd; ac nid yw eu haberthau o weddïau a dyledswyddau eraill, ond cloffion i gyd, tra na byddont wedi eu huno trwy ffydd â Iesu Grist, yr aberth difai, ac yn ei ddwyn ef yn mhob dyledswydd yn mreichiau eu ffydd at Dduw; a thrwy rym yr undeb effeithiol hwnw âg ef, yn cael eu dwyn i rodio yn ddigloffni yn ffyrdd yr Arglwydd. Diar. 21. 27. Tit. 1. 6—9. 1 Tim. iii.

CLOFFI, myned yn gloff. Arwydda y gair, yn gyffelybiaethol, 1. Cerdded yn anwastad o herwydd ammheuaeth, a diffyg adnabyddiaeth o'r hyn sydd gywir. 1 Bren. 18. 21.——2. Syrthio i brofedigaeth a magl o herwydd gwendid. Ps. 38. 17. Jer. 20. 10.

CLOREN—AU, (clawr) conell, cynffon. Esa. 19. 15.—'Nac ofna, ac na feddalhaed dy galon, rhag dwy gloren y pentewynion myglyd hyn.' Esa. 7. 4. Bu Resin a Phecah yn ddau bentewyn; yr oeddynt wedi gwneyd cyd-losgiad dychrynllyd, ac yr oedd yr Iuddewon yn ofni effeithiau mwy dychrynllyd etto oddi wrth eu hymgyfeillach, eu cyd-gynghor, a'u cynghrair; ond mae eu llwyddiant wedi terfynu, ac nid ydynt ond dwy gloren pentewynion myglyd, yn barod i ddiffodd yn gwbl. Esa. 8. 4. 2 Bren. 15. 29, 30.

CLORIAN—AU—U, (clawr) mantol, tafol, offeryn i bwyso neu dafoli.—'Clorianau anghywir sydd ffiaidd gan yr Arglwydd.' Diar. 11. 1. a 16. 11. a 20. 23. —Clorian yn llaw yr hwn oedd yn eistedd ar y march du, a arwydda prinder o ymborth tymhorol neu ysbrydol; ac etto bydd 'barn wrth linyn, a chyfiawnder wrth bwys.' Dat. 6. 5. Esa. 28. 17.

Clyw yr Un sy'n *clorianu*
Nef lachar, a'r ddaear ddu.
*W. Wyn.*

CLUD—O, (llud) baich, llwyth, pwn; yr hyn a ddygir gan un, yr hyn a gludir o un man i fan arall. Num. 4. 19, 24, 27, 31, 47, 49. Barn. 18. 21. Y pwysau, y beich-lwyth; canys pwysau y mae y gair *Heb.* כבוד yn ei arwyddo.

Diriad a *glud* i ddedwydd, ac o fôr ac o fynydd. *Diar.*

CLUDER—EIRIAU, (clud) yr hyn a gludir; llwythau, &c. Gair ydyw hwn sydd yn berthynol, yn fwyaf neillduol, i'r dull o ddwyn coed ar hyd y môr, gan eu cadwyno hwy yn nghyd i nofio. 1 Bren. 9. 9. 2 Cron. 2. 16.

CLUDYDD ARFAU, yswain, ceidwad a dygiedydd arfau rhyfel. 1 Sam. 14. 17. a 16. 21.

CLUN—IAU, (cy-llin) morddwyd, pen uchaf y glun, ffolen, pedrain.—Rhoddi y glun i lawr, sef eistedd: nyni awn o glun i glun, sef o gam i gam: mab wrth glun, sef wrth ei ystlys.—'A chorn du ysgrifenydd wrth ei glun.' Ezec. 9. 2. במתניו *wrth ei lwynau.* Y mae y dull hwn o ddwyn y corn du wrth y llwynau yn arferedig yn bresennol yn mhlith y cenedloedd dwyreiniol. Yn Barbary, medd Shaw (*Travels*), y mae yr *Hojos*, sef yr ysgrifenyddion, yn dwyn eu cyrn duon wrth eu gwregysau. Y rhan o'r corn (os gellir galw celfin o bres felly) sydd yn myned rhwng y gwregys a'r wisg uchaf ac sydd yn dwyn y pinau, sydd hir a gwastad; ond y llestr sydd yn dal yr inc ag sydd yn gorphwys ar y gwregys, sydd bedair-onglog, ac â chaead arno. Dywed Mr. Hanway am y Persiaid (*Travels, vol.* i.,) eu bod yn dwyn eu hinc a'u pinau gyda hwynt mewn gwain, yr hon a ddodant dan eu gwregys. Cymh. Harmer's *Obs. vol.* ii.

'Gwregysa dy gleddyf ar dy glun, O Gadarn, â'th ogoniant a'th harddwch.' Ps. 45. 3. גבור *yr Un cadarn.* Un o enwau y Messïah. Esa. 9. 6. Gwisgo y cleddyf ar y glun, a arwydda parotoi i ryfel. Exod. 32. 27. 1 Sam. 25. 13. Can. 3. 8. Y cleddyf ysbrydol yw gair Duw. Eph. 6. 17. Am hyny y mae cleddyf Crist yn briodol yn dyfod allan o'i enau. Dat. 1. 16. 'Ac âg anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir.' Esa. 11. 4.——Ac am fod Ehwd yn ŵr llaw chwith, gwisgai ei ddagr, neu ei gleddyf, ar ei glun ddehau. Barn. 3. 16, 21.

CLUST—IAU, (cly) un o bump synwyr corph dyn; offeryn y clywed, a'r wybodaeth a dderbynir trwy hyny. Y mae gwaith y Creawdwr mawr i'w weled yn rhyfedd yn nhrefniad y glust, i ateb y dyben o honi. Y tu allan iddi, pe buasai yn bilen ystwyth, buasai yn cwympo i lawr dros y twll, ac felly yn rhwystro rhydd fynediad y sŵn i'r glust; pe buasai, drachefn, yn asgwrn caled, buasai yn peri anesmwythder wrth orwedd, ac a fuasai yn dra anghymhwys, ar amryw achosion eraill; ond gan ei bod yn fath o ledr gwydn, cymer ei gwasgu, ac a ddychwel i'w lle drachefn, yn union-gyrch. Y mae y glust yn llawn troion, pibellau, a llinynau. Y mae pibell o'r glust i'r genau. Trwy hon y mae peth awyr sydd yn dyfod i'r genau yn myned i'r glust; ond gan y byddai yr awyr sydd yn dyfod allan o'r ysgyfaint yn rhy laith i'w glust, y mae y twll sydd yn myned o'r genau i'r glust gwedi ei addasu i'r anadl fyned heibio. O herwydd y bibell hon rhwng y genau a'r glust, y mae rhai yn clywed yn llawer gwell â'u genau yn agored, ac os y bibell hon a gau, ni chlyw y glust hòno ddim. Y mae ffynonau yn y glust yn magu cŵyr melyn chwerw, gwydn, fel na byddo y glust yn rhy sech, nac yn rhy wleb; ac hefyd y mae blew oddi amgylch y glust a'r cŵyr melyn hwn, ag sydd yn attalfa rhag i bryfed mân fyned i mewn iddi a'i niweidio. Er fod yr holl esgyrn yn tyfu, etto y mae rhai o esgyrn bychain a phibellau y glust o'r un maintioli mewn plant bychain a henafgwyr: oni buasai hyny, byddai pob llais yn cyfnewid gyda thyfiant y dyn, a byddai hyn yn anghyfleusdra mawr i blant adnabod dynion wrth eu llais. Mewn dyn o gyflawn oed, drachefn, y mae pibell y glust yn agored hyd bilen y drwm; ond y mae yn nghauad mewn plentyn cyn ei eni; canys pe byddai yn agored, byddai gormod lleithder yn niweidiol i'r bilen hòno. Bob yn ychydig y mae y bibell yn agoryd, ac yn cael ei charthu mewn plentyn, fel y delo i glywed, yr hyn o'r blaen nis gallasai, ac nid ydoedd angen arno. Yn dufewnol yn y glust y mae pilen deneu, yr hon a elwir y drwm, neu *membrana tympani;* tu fewn i hòno y mae pedwar o esgyrn bychain, y rhai a elwir y *malleus*, y morthwyl; yr *incus*, neu yr eingion; y *stapes*, y gwrthafl; a'r *orbiculare*, y crwn. Y mae i'r esgyrn hyn linynau ag sydd yn eu symud ac yn eu haddasu i holl ddybenion clyw, i bob math o sŵn, uchel neu isel, anhyfryd neu hyfryd. Nid pilen y drwm, neu y *membrana tympani* ydyw offeryn y clyw, ond y mae yn rhyw fodd yn addasu y sŵn i'r *sensorium*, ag sydd yn mhellach i mewn. Y mae y tu mewn i bilen y

Digitized by Google

drwm, heblaw y pedwar asgwrn bychain hyn, ddau o dyllau bychain, a elwir *foramina*, neu *ffenestræ;* a chynnifer a hyny o bibellau tröedig; pedwar cyhyr (*muscle*) a chainc o gieuyn (*nerve*).—Y *vestibulum* a'r *cochlea*. Lle ceuol yw y *vestibulum*, ac y mae y gieuyn clyw (*autitory nerve*) gwedi ei daenu arno tu fewn: yn hwn, yn fwyaf neillduol, y mae y synwyr clyw yn gynnwysedig. Mae y rhanau eraill o'r glust yn hollol angenrheidiol i gario ac addasu y sŵn i'r rhan hon o honi; ond yn hon y mae eisteddfod y clyw.—Y mae y naill beth gwedi ei addasu i'r llall tu fewn i'r glust i'w haddasu yn rhyfedd iawn i'w gorchwyl; ond y mae yn mhell tu hwnt i amgyffred neb i ddirnad pa fodd y mae symudiadau y tafod yn y naill ddyn yn cario ei feddwl yn ei briodol sŵn ei hun, yn ei holl amrywiaeth, trwy y glust, i fod yn gwbl ddeallus i ddyn arall. Y mae y synwyr hwn bob amser yn agored ac yn effro; canys pan y byddom yn cysgu y mae ei angen arnom, fel pan dderbynio y glust ryw sŵn, y deffrôm o'n cwsg. 'Yn ofnadwy ac yn rhyfedd y'n gwnaed.' Ps. 139. 14. Gwel Cicero, *De Nat. Deor.*, *lib.* ii., *cap.* 57.

Y gwas yn Israel a wrthodai fyned yn rhydd o'i wasanaeth yn y seithfed flwyddyn, a fyddai yn cael tyllu ei glust â mynawyd, wrth orsin, neu ystlys-bost, drws ei feistr, yn arwydd ei fod ef yn foddlawn i'w wasanaethu am byth. Gallai fod hyn yn arwyddo ymrwymiad difrifol yr Arglwydd Crist i ufudd-dod ewyllysgar yn ein lle ni. Exod. 21. 6. Deut. 15. 16, 17.——'Clustiau Duw,' a arwyddant ei wybodaeth o'i bobl, a'i barodrwydd i ystyried eu cwynion, a'u gwaredu hwynt oddiwrth eu trallod a'u gelynion. Ps. 34. 15. a 116. 2. Iago 5. 4.——'Clywed yn y glust,' ydyw cael dywedyd peth yn ddirgelaidd i ni. Mat. 10. 27.——Gostwng clust, gogwyddo clust, rhoddi clust, ydyw gwrando ac ystyried yn ddyfal yr hyn a orchymynir neu a erchir, a bod yn barod ac ewyllysgar i'w wneuthur. Ps. 31. 2. a 116. 2. a 130. 2. a 49. 4.——Cau clustiau, a arwydda anghydsyniad, a chwbl wrthodiad. Esa. 33. 15.——Clustiau agored, clustiau yn gwrando yn ewyllysgar; parodrwydd i wrando a derbyn addysg. Esa. 50. 5. a 48. 8. Diar. 25. 12.——Clustiau wedi trymhau, sydd yn arwyddo anghymhwysder i ganfod, neu anmharodrwydd i wrando, ufuddhau, a derbyn gwirioneddau dwyfol. Esa. 6. 10. a 59. 1.—Clustiau dienwaededig, a chlustiau yn troi ymaith rhag gwrando y gyfraith, neu glustiau cauad, sydd yn arwyddo gwrthnysigrwydd, cyndynrwydd, ac anedifeirwch, yr hwn sydd yn anghymhwyso dyn i dderbyn cynghor ac addysg da. Jer. 6. 10. Act. 7. 51. Diar. 21. 13. a 28. 9.——Clustiau yn merwino, deisyfiad chwannog am glywed rhyw beth newydd, sef y cyfryw gywreinrwydd ymadrodd ag a fyddo yn boddhau y nwydau a'r serchiadau. 2 Tim. 4. 3. Edr. Merwino.

'Y rhai y mae ganddynt glustiau, ac nid ydynt yn clywed.'—1. Delwau ac eilunod o waith dwylaw dynion. Ps. 115. 6. a 135. 17.——2. Dynion, y rhai y mae ganddynt gyfleusderau ac odfäon i wrando a dysgu gwirionedd Duw, a chynneddfau naturiol i'w ystyried, etto nid ydynt yn ymroddi at hyn. Jer. 5. 21. Ezec. 12. 2. Marc 8. 18.——Clustiau yn clywed, calon gwedi ei pharotoi gan Dduw i dderbyn addysg. Mat. 11. 15. a 13. 9, 43. Marc 4. 9, 23. a 7. 16. Dat. 2. 7, &c.

CLUST-DLYSAU, (clust-dlws) addurniadau o aur, arian, &c., i grogi wrth y clustiau. Yr oedd yn beth cyffredin yn ngwledydd y dwyrain i feibion a merched wisgo clust-dlysau. Gen. 35. 4. Dwy waith y rhoddwyd hwynt i wneuthur delwau o honynt. Exod. 32. 1, 2, 3. Barn. 8. 24, 25, 26. Dwy waith yr offrymwyd hwynt yn offrwm i'r Arglwydd. Exod. 35. 22. Num. 31. 50.

CLUSTOG—AU, (clust) gobenydd, lle i ogwyddo y glust, neu y pen, yn esmwyth i gysgu. 1 Sam. 19. 13. Yr heddwch a'r llwyddiant ag ydoedd y gau-brophwydi yn eu haddaw i'w gwrandawyr, i'w hesmwytho i gysgu mewn diofalwch cnawdol, a gyffelybir i 'glustogau wedi eu gwnio wrth eu penelinoedd,' fel y byddent bob amser wrth law. Ezec. 13. 18, 20. Edr. Penelin.

CLWYF—AU, (clw) afiechyd, gweli.—Clwyf y brenin, y manwynau: clwyf tegla, clwyf dygwydd: clwyf gwahanol, clwyf mawr, sef y gwahan-glwyf. Lef. 13. 2. Deut. 28. 27. Nah. 3. 19.——'Y pen oll sydd glwyfus;' sef adfyd a chyni, yn cyrhaedd rhai yn mhob sefyllfa; y rhai uchaf a mwyaf eu hanrhydedd, yn gystal a'r rhai mwyaf isel a gwael. Esa. 1. 5. 2 Cron. 28. 5—8.

CLYD—O—WR, (llyd) gwresog, cynhes, cysurus; nodded, amddiffynfa.—'Ymwisgasoch, ac nid hyd gydwr i neb.' Hag. 1. 6. Y mae llesâd oddiwrth drugareddau cyffredin yn dibynu ar fendith Duw arnynt; ac y mae Duw yn attal ei fendith yn aml yn gerydd am ddiofalwch dynion am ei achos mawr yn y byd; megys yma, Lef. 26. 20. Deut. 28. 38—40. 2 Sam. 21. 1. Ps. 107. 34. Esa. 5. 10. Jer. 14. 4. Hos. 4. 10. Hag. 2. 16. Joel 1. 10—13. Mat. 6. 33.

Mai oer a wna ysgubawr *glyd*. *Diar.*
Colles ei *glydwr* a gyrchodd tŷ iangwr. *Diar.*

CLYTIO, (clwt) rhoddi clytiau wrth eu gilydd, cyweirio.—'Y beilchion a glytiasant gelwydd i'm herbyn.' Ps. 119. 69. Y gair *Heb.* טפל a arwydda *cylymu yn nghyd*. Cyfieithir ef *asio* yn Job 13. 4.—*gwnïo* yn Job 14. 17.

CLYWED, (clyw) clybod, gwrandaw.—Bod Duw yn clywed, neu yn gwrandaw, a arwydda, perffeithrwydd ei wybodaeth o, a'i sylwad ar bethau. Ps. 78. 21, 59. Jer. 8. 6. Exod. 6. 5.—Crist yn llefaru y pethau a glywodd gan y Tad, sef y pethau, fel Duw, y mae efe yn eu gwybod cystal a'r Tad; neu yn hytrach, y pethau yr ydoedd ei ddyndod yn ei ddysgu gan, neu yn mherthynas i'r Tad; a'r pethau yr oedd y Tad gwedi rhoddi gorchymyn iddo eu cyhoeddi i ddynion. Ioan 8. 26, 40.

CNAIF, (cna) *Gr.* κναω, κνεω; cnu, cneifiad, cnwd o wlan. Yr oedd yr Arglwydd gwedi gorchymyn i'r offeiriad gael blaenffrwyth o gnaif y defaid yn rhan iddo, yn mhlith pethau eraill. Deut. 18. 4.—Dannedd yr eglwys sydd fel deadell o ddefaid gwastad-gnaif; (Can. 4. 2.) chwanegiad gan y cyfieithwyr ydyw y gair *defaid*. Dodwyd ef i mewn yn gyson â pen. 6. 6. Y gair קצוב yr hwn a gyfieithir *cnaif*, a arwydda gwneuthur peth wrth fesur yn rheoladd; felly y cyfieithir y gair yn 1 Bren. 6. 25., 'Un fesur ac un agwedd oedd y ddau gerub.' Esbonwyr yn gyffredin ydynt yn cytuno am ddannedd yr eglwys, mai pregethwyr y gair a feddylir wrthynt, y rhai sydd yn cnoi ymborth i'w gwrandawyr, ac yn cnoi cil trwy fyfyrio ar y gwirionedd. Os felly, ei harddwch yw dyfod i fynu o'r olchfa yn fynych; byw mewn undeb cymdeithasol â'u gilydd; bod yn cerdded wrth yr un rheol, yn synied yr un peth.

Y mae llinyn mesur Duw wedi ei estyn allan, ac nid yn unig y dylai, ond y mae yn *rhaid i esgob* gael ei dòri oddiwrth bob peth gwaharddedig. Os oedd Solomon ddoeth yn medru gwneuthur y cerubiaid yn hardd, yn un fesur, ac yn un agwedd, oni fedr y Duw doeth wneuthur ei eglwys yn hardd, yn rheolaidd, yn wastad, a chymesur? Can. 4. 2.

CNAP—IAU, (cna) cnwc, boglyn, boglwm; darn crwn, oddfyn, pwnc, cygn, hurwg.—Yr oedd cnapiau, neu foglynau, yn un o addurniadau y canwyllbren aur yn y babell. Exod. 25. 31—36. a 37. 17—22.

Digitized by Google

Edr. CANWYLLBREN, MOR.——Yr oedd y cedrwydd ar hyd parwydydd y deml oddifewn wedi eu cerfio yn gnapiau, ac yn flodau agored. Yr oedd y ddau gnap coronog ar ben colofnau y deml yn bum cufydd eu huchder; ac yr oedd rhwydwaith, a phlethiadau o gadwynwaith a phomgranadau i guddio y cnapiau. Yr oedd y cnapiau o waith lili, ac yn bedwar cufydd. 1 Bren. 6. 18. a 7. 16—20. Yr oedd cywreinwaith hynod yn perthyn i gnapiau y ddwy golofn, yn gwneuthur eu hedrychiad yn wych ac yn addurnedig. Os golygir y colofnau hyn yn gysgodol o'r apostolion a gweinidogion yr efengyl, gellir golygu y cnapiau hardd ar eu penau, yn arddangos y gras mawr, y doniau, a'r harddwch ysbrydol a fyddai arnynt. Act. 4. 33. Y rhwydwaith, y cadwynwaith, a'r pomgranadau, a arwyddant, yn gyfatebol, pêr-arogl a llwyddiant eu gweinidogaeth.

CNAWD, CNODAU, (nawd) cig.—1 Y rhan dyner o ddyn ac anifel, yr hwn a lygra yn fuan. Lef. 13. 11. Ps. 79. 2.——2. Pob creadur byw ar wyneb y ddaear: felly, daeth *diwedd pob cnawd* ger bron Duw, pan oedd wedi bwriadu, ac ar fyned, i ddystrywio dyn ac anifel oddiar wyneb y ddaear, â diluw. Gen. 6. 13.——3. Dynion yn gyffredinol a elwir yn gnawd; y maent mewn rhan o sylwedd cnawdol, ac yn llygradwy a gwrthnysig mewn drygioni. Ioan 17. 2. Gen. 6. 3.—Gwneuthur cnawd yn fraich i ni, ydyw dysgwyl wrth, a phwyso ar, ddynion am gymhorth ac ymwared. Jer. 17. 5.——4. Y natur ddynol: felly dywedir fod Crist wedi ei wneuthur yn gnawd pan gymerodd ein natur i undeb anwahanol â'i dragywyddol Berson. Ioan 1. 14. Act. 2. 30.——5. Y rhan hòno o'r corph y mae natur yn ein dysgu i'w orchuddio. Gen. 17. 11, 14. Lef. xv. Ezec. 16. 26. a 23. 20.——6. Yr hyn sydd wan ac analluog i gynnorthwyo. Esa. 31. 3. A chnawd yn fynych a arwydda y natur ddynol yn ei chyflwr adfydus a gwan. Gen. 6. 12. Num. 16. 22. Deut. 5. 26. Ps. 145. 21. Esa. 49. 26. Act. 2. 17. 1 Cor. 1. 29.——7. Ceraint a elwir yn un cnawd. Gen. 37. 27. Esa. 58. 7. Hefyd, gwr a gwraig mewn ystâd briodas ydynt un cnawd; o herwydd bod ganddynt yr un awdurdod y naill ar gorph y llall. Gen. 2. 24. Eph. 5. 30, 31. Puteindra sydd yn gwneuthur y pleidiau yn un cnawd. 1 Cor. 6. 15, 16.——8. Y cyflwr marwol yr ydym ynddo yma yn y byd: felly y mae i 'wragedd flinder yn y cnawd.' 1 Cor. 7. 28. Cafodd Paul brofedigaethau a chystuddiau yn ei gnawd. Gal. 4. 14. Col. 1. 24.—Dyddiau cnawd Crist ydyw holl amser ei ddarostyngiad.—Corph ei gnawd ef, ydyw ei natur ddynol yn ei iselder a'i gwendid. Heb. 5. 7. Col. 1. 22.——9. Calon wedi ei hadnewyddu trwy ras yr efengyl, ar yr hon yr argreffir y gyfraith sanctaidd, gan yr Ysbryd Glân, a elwir yn llechau cnawdol y galon. 2 Cor. 3. 3. Yr un peth a feddylir wrth galon dyner o gig, yn Ezec. 36. 26. Edr. CIG.——10 Cyfiawnder deddfol, a'r holl ddefodau a'r gwasanaeth seremoniol. Y mae yr apostol yn dangos mai nad drwy hyn y cyrhaeddodd Abraham gyfiawnder, i ymddangos ynddo ger bron Duw; (Rhuf. 4. 1.) ac yn gofyn i'r Galatiaid a berffeithid hwy yn y ffordd yma? Gal. 3. 3.——11. Llygredigaeth natur trwy y cwymp, a elwir yn fynych yn y Testament Newydd yn gnawd, i ddangos ei drosglwyddiad trwy genedliad naturiol, &c. Rhuf 7. 24, 25. a 8. 3, 6, 7, 12. a 13. 14.

'Yn ol y cnawd.' Naill ai yn ol yr ymddangosiad allanol (felly yr oedd yr Iuddewon yn barnu Crist, yn ol ei ymddangosiad gwael oddi allan, Ioan 8. 15.) neu yn ol galluoedd cyffredinol natur; felly yr oedd Ismael wedi ei eni yn ol y cnawd: ond yn fwyaf cyffredinol, yr ymadrodd a arwydda, yn ol tueddiadau pechod ein natur oddifewn. neu y pechod sydd yn trigo ynom. Rhuf. 8. 1, 4. Edr. DYNOL.——Nid yw y saint yn milwrio yn ol y cnawd, nac yn hau i'r cnawd. 2 Cor. 10. 3. Gal. 6. 8.——Mae bod 'yn y cnawd,' a bod 'yn yr Ysbryd,' yn ymadroddion ag sydd yn cael eu gosod ar gyfer eu gilydd yn y Testament Newydd, i arwyddo dau beth ag sydd yn hollol groes i'w gilydd. Bod yn y cnawd, yw bod yn y cyflwr y genir ni, yn gwbl dan lywodraeth natur lygredig, yn ei holl dueddiadau pechadurus. Rhuf. 8. 8. Bod yn yr Ysbryd, yw bod wedi ein geni drachefn o'r Ysbryd Glân: bod dan ei lywodraeth a'i arweiniad nefol, yn cael ein harwain i bob gwirionedd, gan farweiddio gweithredoedd y cnawd. Rhuf. 8. 9. Nid yw y dyn ail-anedig, yr hwn sydd yn, neu yn rhodio yn ol, yr Ysbryd, yn rhydd oddiwrth weithrediadau y cnawd, neu y pechod sydd yn trigo ynddo; eithr y mae yn rhydd oddiwrth ei awdurdod arglwyddaidd. Nid yw y cnawd yn cael ei ddiddymu yn y credadyn tra byddo yma yn y byd; ond y mae yn cael ei farweiddio trwy yr Ysbryd—ei groeshoelio, yn nghyd â'i wyniau a'i chwantau—y mae yr Ysbryd ynddo yn chwennych yn erbyn y cnawd, yn mhob peth; a chan fod y cnawd yn chwennych yn erbyn yr Ysbryd, y mae yno ryfel parhaus. Rhuf. 7. 6, 22, 33. Gal. 5. 17, 24.

'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni.' Ioan 1. 14. Y geiriau hyn a osodant allan ymgnawdoliad Mab Duw.—1. Nid y Tad na'r Ysbryd Glân a ymgnawdolodd, ond y Gair; sef y Duwdod yn Mherson y Mab. Nid oes i ni ddeall wrth y Gair yr Hanfod Dwyfol, fel yn berthynol i'r Tri Pherson; canys yna buasai y Tri Pherson wedi ymgnawdoli; ond yr Hanfod yn Mherson y Mab a ymgnawdolodd.——2. Y Gair a wnaed yn gnawd, a arwydda yr un peth ag iddo 'gyfranogi o gig a gwaed—dyfod yn y cnawd—ac ymddangos yn y cnawd;' yr holl ymadroddion hyn a arferir i osod allan ei gnawdoliad; Heb. 2. 14. 1 Ioan 4. 2, 3. 1 Tim. 3. 16. ac a arwyddant iddo ef, yr hwn sydd wir Dduw, ddyfod yn wir ddyn, ac iddo gymeryd yr holl natur ddynol i undeb â'i Berson Dwyfol.—Nid yw y gair cnawd yn arwyddo corph dynol yn unig, fel y gwahaniaethir ef oddiwrth ysbryd, neu enaid dynol, (Mat. 26. 41.) ond y natur ddynol yn gyflawn, yn gynnwysedig o gorph ac enaid, fel yr arferir y gair yn Rhuf. 3. 10. a 1. 3, 4. 1 Petr 3. 18. Cymerodd wir gorph a gwir enaid dynol i undeb â'i Berson Dwyfol. Nid y Gair oedd ei enaid; ond cymerodd y Gair tragywyddol gorph ac enaid dynol i undeb âg ef ei hun. Yr oedd ganddo ddeall dynol; doethineb yn gystal a chorpholaeth dynol, yn y rhai yr oedd yn cynnyddu. Luc 2. 52. Marc 13. 32. Yr oedd ganddo ewyllys dynol yn wahanol oddiwrth yr ewyllys dwyfol, er nad yn wrthwyneb iddi, ond yn ddarostyngedig iddi. Ioan 6. 38. Luc 22. 42. Yr oedd ganddo serchiadau dynol; megys cariad, Marc 10. 21. Ioan 13. 23.—llawenydd, Luc 10. 21.—tristwch, galar, digofaint, &c. Mat. 26. 38. Marc 3. 5.—Heb hyn ni buasai yn aberth cyflawn dros bechodau—yr hyn oedd yn gofyn enaid a chorph i brynu eneidiau a chyrph ei bobl. Esa. 53. 10. Heb. 10. 10.——3. Nis gallai y Gair gael ei *wneyd* mewn un ystyr, sef ei greu: gan mai Creawdwr pob peth ydyw, nis gallasai gael ei greu ei hun; ac hefyd nis gallasai gael ei droi yn gnawd; nis gallasai y natur ddwyfol gael ei chyfnewid yn natur ddynol, gan ei fod yn ddigyfnewid; ond cymerodd y Gair natur ddynol, ymddangosodd yn y cnawd yma yn y byd.——4. Cenedlwyd y natur ddynol gan yr Ysbryd Glân yn nghroth y Forwyn Fair, o'i sylwedd hi, ac yn ddibechod. Ffurfiwyd y corph, ac unwyd enaid Crist â'r corph, ac yn ddiattreg, yn gythrymawl cymerodd Mab Duw y natur ddynol yn gyflawn i undeb personol âg ef ei hun: y fynyd y cenedlwyd ac



Digitized by Google

y ffurfiwyd hi yr oedd yn hanfodi yn Mherson Mab Duw.——5. Natur ddynol a gymerodd Crist, ac nid *person* dynol—peth sanctaidd yw, ac nid person. Y mae gwahaniaeth rhwng undeb *hanfodol* y Personau Dwyfol a'r undeb *personol;* undeb hanfod ydyw hwnw. Hefyd, undeb personau yw yr undeb dirgeledig rhwng Crist a chredinwyr ynddo, er nad ydynt yn un person. Cymerodd Crist natur ddynol, ond nid person dynol. Nid natur a gymerodd natur, na pherson a gymerodd berson; ond person a gymerodd natur. Pe buasai yr Hanfod Dwyfol wedi ymgnawdoli, buasai yr holl Bersonau wedi ymgnawdoli; ond Person y Mab a gymerodd y natur ddynol. Nid y natur ddynol a gymerodd Berson y Mab; ond Person y Mab a gymerodd y natur ddynol. Ni bu natur ddynol Crist yn hanfodi ar ei phen ei hun un mynyd yn wahanedig oddiwrth Berson y Gair; ond hanfodi y mae yn ei Berson er ei chenedliad. Pe buasai natur ddynol Crist yn berson dynol, nis gallasai gweithredoedd a wnaed gan bob un o'r ddwy natur gael eu priodoli i'r person; ac nis gallasai yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd Iesâu neb ond efe ei hun; iawn drosto ei hun a fuasai: a'r cyfiawnder a weithredodd fuasai yn gyfiawnder iddo ei hun. Ond gan ei fod wedi ei gwblhau gan natur ddynol mewn undeb â Pherson Mab Duw, y mae ei rinwedd yn fwy helaeth; ac felly y mae i bawb ac ar bawb a gredant. ——6. Y mae y ddwy natur wedi eu huno yn ei Berson Dwyfol. Cymerodd y Person Dwyfol y natur ddynol, ac a ymunodd y ddwy natur â'u gilydd, fel nad ydynt ond un Person. Eglur yw, oddiwrth yr ysgrythyrau, fod ynddo ddwy natur; ac y mae mor eglur nad ydyw ond un Person.——7. Undeb personol yw, ond nid undeb personau. Undeb personau yn yr un hanfod yw undeb y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, yn y Duwdod; ond nid undeb dau berson yw hwn, ond undeb person a natur yn un person.——8. Undeb naturiaethau yw; ond nid cymysgedd naturiaethau. Y mae priodoliaethau y ddwy natur yn para yn wahanol, er yr undeb hwn. Nid yw y natur ddynol yn cyfranogi o briodoliaethau anghyfranogol Mab Duw; sef yn Hollalluog, yn Hollbresennol, yn Hollwybodol, &c. Y mae yn anrhydedd, ac yn ddyrchafiad rhyfedd i'r natur ddynol, tu hwnt i ddim a gafodd, neu a gaiff neb byth; ond natur ddynol ydyw, a holl briodoliaethau dynoliaeth yn perthyn iddi.——9. Y mae yr undeb hwn yn annattodol: er i angeu ysgar corph ac enaid Crist oddiwrth eu gilydd; etto, nid ysgarodd y naill na'r llall oddiwrth Berson Mab Duw.——10. Er bod y ddwy natur yn cadw y priodoliaethau priodol i bob un o honynt; etto, priodolir priodolaeth y naill a'r llall i Berson Crist. Nis gellir dywedyd yn addas i Dduwdod Crist ddyoddef, na bod dynoliaeth Crist yn hollbresennol; ond addas dywedyd i Berson Crist ddyoddef, a'i fod yn hollbresennol. Nis gellir dywedyd bod y Duwdod yn ddyndod, na dyndod yn Dduwdod; ond gellir dywedyd fod Duw y Gair, yn ddyn, a bod y dyn Crist yn Dduw, Cyfaill IEHOFAH. Zech. 13. 7.——11. Yn ganlynol i'r undeb hwn, y mae cymundeb swyddau, a gallu ac awdurod i'w gweini yn y ddwy natur. Trwy rinwedd yr undeb hwn, y mae Crist yn Gyfryngwr yn y ddwy natur, ac yn gweithredu fel Cyfryngwr yn y ddwy natur: 'Un Cyfryngwr sydd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.' 1 Tim. 2. 5. Nid yw yn cyfryngu yn y natur ddynol yn unig; canys yr oedd yn Gyfryngwr cyn iddo gymeryd y natur ddynol, ac a gwblhaodd rai pethau perthynol i'w swydd cyn hyny: ond yr oedd pethau eraill perthynol i'w swydd, ag yr oedd yn rhaid wrth y natur ddynol i'w cyflawni: a phan yr oedd yn angenrheidiol, ac nid cyn hyny, y cymerodd efe hi. Ynddi, fel gwedi ei huno â'i Berson Dwyfol, y mae yn Dduw-ddyn, ac yn Brophwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenin, yn Farnwr, Deddfwr, ac Achubwr; ac y mae ganddo awdurdod ar bob cnawd, i roddi bywyd tragywyddol i'r cwbl a roddwyd iddo gan y Tad; ac ar ei adgyfodiad, rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, i osod ordinhadau a swyddwyr yn ei eglwys: ac awdurdod i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn. Ioan 5. 27. a 17. 2.——12. Y mae rhai gweithredoedd yn cael eu gweithredu gan y Person Duw-ddyn trwy gyd-lafuriad, neu gyd-weithrediad, y ddwy natur yn y Person; megys yn yr offrymiad o hono fel iawn dros bechod. Fel Duw-ddyn, efe yw yr offeiriad sydd yn offrymu; ei natur ddynol, cynnwysedig o gorph ac enaid, yw yr aberth: ei natur ddwyfol yw yr allor sydd yn ei saucteiddio, ac yn rhoddi iddo ei rinwedd i wneyd iawn.* Tywalltwyd ei waed yn y natur ddynol i lanhau oddiwrth bechod; ond trwy ei hundeb â Mab Duw y mae y fath effaith yn canlyn y gwaed. Y pridwerth yw bywyd a marwolaeth Crist; ond y natur ddwyfol, i'r hon y mae y natur ddynol wedi ei huno yn Mherson Mab Duw, sydd yn ei rhinweddu ac yn ei wneyd yn ddigonol. Y mae anfoniad yr Ysbryd Glân yn effaith ei eiriolaeth yn y natur ddynol, ac hefyd ei allu a'i awdurdod yn y natur ddwyfol, yn ol y drefn rhwng y Personau Dwyfol.——13. Nid yw natur ddynol Crist yn wrthddrych addas o addoliad; nid ydyw i'w addoli fel y cyfryw; ac nid yw addoliad yn cael ei roddi iddo o'i herwydd; etto, y mae Person Dwyfol Crist, a'r natur hôno mewn undeb âg ef, yn wrthddrych teilwng o addoliad: y mae Duw yn y cnawd yn cael ei addoli: y mae Crist cyflawn yn cael ei addoli. 'Pan ddygodd ei gyntaf-anedig i'r byd, sef pan yr ymgnawdolodd, dywedodd, 'Ac addoled holl angelion Duw ef.' Heb. 1. 6. Ac ar ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, 'rhoddodd Duw iddo enw sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin,' sef mewn ffordd o addoliad dwyfol. Phil. 2. 9, 10. Y mae yr hyn a wnaeth yn y cnawd yn annogaeth ac yn rheswm paham y rhoddir bendith ac anrhydedd i'w Berson â'r ddwy natur wedi ei huno ynddo. 'Teilwng yw yr Oen a laddwyd i dderbyn gallu,' &c. Dat. 5. 12, 13. Y mae mor deilwng o addoliad wedi ymgnawdoli ag oedd cyn hyny; ond nid yw yn fwy teilwng o addoliad oblegid hyny, er bod ein rhwymedigaethau ni yn fwy iddo o herwydd ei ymostyngiad, a'r prynedigaeth trwy hyny.

CNAWDOL—RWYDD, anianol, yn perthyn i'r cnawd, llygredig. *Cnawdol,* sef llygredig, ydym oll, a chwbl sydd genym, ac a allwn ei gyrhaeddyd, fel yr ydym yn llygredig yn deillio oddiwrth yr Adda cyntaf, yr hwn sydd o'r ddaear yn ddaearol. Crëwyd Adda yn dduwiol, yn ol Duw, sef yn ol delw yr hwn a'i crëodd: pan gollodd efe ddelw Duw, trwy droseddu yn ei erbyn, nid oedd erbyn hyny ond daearol, neu gnawdol. Cenedlodd Adda fab ar ei ddelw ei hun, sef yn gnawdol a llygredig fel yntau. Gen. 5. 3. Rhuf. 7. 14. 2 Cor. 1. 12.

Chwantau cnawdol, sef yr hyn a gynhyrfir ynom trwy lygredd natur, yr hyn sydd elyniaeth yn erbyn Duw, ac yn rhyfela yn erbyn yr enaid. Rhuf. 8. 7. 1 Petr 2. 11.

CNEIFIO, tocio, gwelleifio; tori gwlan oddiar ddefaid, y gwallt oddiar ben, &c. Gen. 31. 19. Deut. 15. 19. 2 Sam. 14. 26. Act. 18. 18. Byddai yr Israeliaid yn arferol o wneuthur gwleddoedd pan fyddent yn cneifio eu defaid. 1 Sam. 25. 2—10. 2 Sam. 13. 24. Yr oedd ganddynt dai cneifio. 2 Bren. 10. 12, 14.

CNEUEN, CNAU, (cna) mesen: math o ffrwyth â phlisg caled iddynt. Y mae amryw rywogaethau o

* Gwel Vitringa, *Obs. Sacr., lib.* iv., *cap.* 15., *sec.* 6.

Digitized by Google

honynt; megys cnau ffreinig, cnau barfog, cnau y ddaear, &c. Gen. 43. 11. Cyffelybir y saint i gnau; Can. 6. 11. yr olwg allanol arnynt ar y ddaear sydd ddirmygus a gwael; ond a ddiogelir gan ras a chyfiawnder Iesu; ac y maent oll yn werthfawr a gogoneddus o fewn. Ps. 45. 13.

CNIDUS, penrhyn a dinas yn Asia Leiaf, gyferbyn a'r ynys Crete. Yr oedd ynys hefyd o'r un enw, rhwng y penrhyn a Crete, a barna rhai mai yr ynys hon a feddylir yn Act. 27. 7.

CNOI, (cno) malu, neu fanhau â dannedd; brathu.

Hir y *cnoir* tamaid chwerw. *Diar.*

Y creaduriaid a gyfrifid yn lân dan y gyfraith, oeddynt y rhai a gnöent y cil, ac a fforchogent yr ewin. Lef. 11. 4. Deut. 14. 7, 8. Gallai fod hyn yn ddarluniad o braidd Crist, y rhai sydd yn lân, gwedi eu glanhau yn ei waed oddiwrth eu pechodau; ac ynddynt egwyddor uniawn i gnoi eu cil, trwy fyfyrio yn ddyfal ar wirioneddau y gair: ac hefyd eu bod yn fforchogi yr ewin, trwy eu rhodiad manwl a hardd yn llwybrau y gyfraith.——'Cnoi a thraflyncu eu gilydd;' sef digofaint yn gweithio allan enllibau a gwaradwyddiadau maleisus yn erbyn eraill—yr hyn sydd yn gwbl groes i gariad. Gal. 3. 15. Cariad sydd yn adeiladu; ond cenfigen sydd yn tynu i lawr—yn lladd yr ynfyd: a lle y mae cenfigen ac ymryson, yno y mae terfysg a phob gweithred ddrwg. 1 Cor. 8. 1. Job 5. 2. Iago 1. 10. Diar. 14. 30. Edr. CIL.

CNU—AU, (cna) cnaif: hyny o wlan a'r a gneifir oddiar un ddafad ar yr un pryd.—A dillad gwedi eu gwneuthur o gnu, neu o wlan ei ddefaid, yr oedd Job yn arferol o ddilladu yr anghenog. Job 31. 20.——'Cnu Gedëon,' ar yr hwn yr oedd gwlith yn helaeth yn disgyn un noswaith, a'r holl ddaear o'i hamgylch yn sych; a'r ail noswaith y llawr oddi amgylch yn wlyb, a'r cnu yn sych; gallai hyn fod yn drychioli y genedl Iuddewig, yr hon ydoedd yn mwynhau ordinhadau gwlithog effeithiol tŷ Dduw, y rhai sydd yn ffrwythloni enaid, tra yr oedd y byd cenedlig yn amddifad o honynt; ac ydynt yn awr wedi eu rhoddi i fynu i galedwch a gwywdra ysbrydol, tra mae y Cenedloedd yn mwynhau helaethfawr freintiau ffrwythlawn efengyl Crist. Barn. 6. 37, 38, 39.

CNWD—YDAU, (cnu) toraeth, cynnydd, cyllid; cynnyrch y ddaear. Gen. 19. 25. Deut. 32. 13. Cnwd o ŷd; cnwd o eira.—Mewn cyffelybiaeth, holl ddynolryw ar wyneb y ddaear, y rhai a darddant o'r ddaear fel cnwd tew, o'r rhai y mae Israel Duw, sef yr eglwys, yn flaen-ffrwyth. Jer. 2. 3. Esa. 21. 10. Iago 1. 18. Dat. 14. 4.

COCH—ION, (co-och) *Gr.* κοκκινον (*coccinon*), gwridog. Y mae y lliw hwn yn cael ei gymhwyso at Grist; megys trwy yr anner goch, neu ei wisg yn goch; i arwyddo ei ddyoddefiadau gwaedlyd, neu ddadymchweliad gwaedlyd ei elynion. Num. 19. 2. Esa. 63. 2.——Gallai y crwyn hyrddod cochion oedd yn toi y babell, osod allan ddyoddefiadau Crist, yn nghyd âg erlidigaethau a thrallodau ei eglwys. Exod. 26. 14. a 39. 34.——Y 'gwin coch,' a'r 'meirch cochion,' sydd yn arwyddo effeithiau ofnadwy barnedigaethau Duw. Ps. 75. 8. Zech. 1. 8. a 6. 2. Dat. 6. 4.——Y mae yr eglwys yn cael ei galw, 'Gwinllan y gwin coch,' i arwyddo ei bod yn agored i ddyoddefiadau ac erlidigaethau gwaedlyd; ac hefyd ei bod hi yn dwyn ffrwyth cymeradwy gan Dduw. Esa. 27. 2. 'Y ddraig goch fawr,' a arwydda ymerawdwyr Rhufain, yn eu herlidigaethau creulawn o'r Cristionogion. Dat. 12. 3.——'Cochder y llygaid,' a arwydda helaethrwydd o win; neu fel gwedi mwydo mewn gwin, neu feddwi arno. Gen. 49. 12. Diar. 23. 29.——Lliw anghrist ydyw hefyd. Dat. 17. 3. Edr. ANNER, DRAIG, GWIN, MOR, YSGARLAD.

COCHL—AU, (coch) *Llad.* CHLANYS; gwisg uchaf, arwisg, gorwisg, mantell. Yn 1 Thes. 2. 5. 'mewn rhith cybydd-dod,' neu, *mewn cochl cybydd-dod;* hyny yw, dwyn cybydd-dod dan liw neu rith o wir grefydd, megys y gwnaeth y Phariseaid ddwyn cybydd-dod dan gochl hir-weddïau. Mat. 23. 14.—Cymeryd rhyddid megys 'cochl malais,' tan esgus o grefydd, yw peidio ag ufuddhau i gyfreithiau a swyddogion gwladol, ond yn cymeryd arnynt fod yr efengyl yn eu rhyddhau oddi wrthynt. 1 Petr 2. 16.——Duw yn 'gwisgo zel fel cochl,' yw dadguddiad o'i ddigofaint barnedigaethol yn cospi ei elynion, a thrwy hyny yn gwaredu ei bobl. Esa. 59. 17. Beth bynag a fyddo y cochl y byddo Duw yn ymddangos ynddo, yn ei oruchwyliaethau tu ag at ei greaduriaid, y mae yn sicr ei fod 'wedi ymwisgo â chyfiawnder fel llurig;' a thrwy gyfiawnder y mae efe yn gweithredu y cwbl y mae yn ei wneuthur: yn ei gyfiawnder y mae efe yn cospi ei elynion, ac yn yr un cyfiawnder yn gwaredu ei bobl. Er nad yw ei bobl ef, bob amser, yn canfod ei gyfiawnder yn ei oruchwyliaethau rhagluniaethol tu ag atynt, o herwydd byrdra a gwendid golwg eu ffydd i edrych trwodd. Ps. 89. 14. a 103. 6. Esa. 30. 18.——Cynghor ein Hiachawdwr ydyw, Os dygir ein pais wrth gyfreithio, am roddi ein cochl hefyd. Gwell ydyw dyoddef cam ddwywaith, na gwneyd cam unwaith. Mat. 5. 40. Edr. GWISG.

COD—AU, (co-od) cwd, ysgrepan. Cyfoeth yn cael ei ddyfetha trwy felldith Duw, sydd fel cyflog a gasgler i gôd dyllog; nid ydyw yn llesâu ei berchenog, ond yn darfod yn annysgwyliadwy ac yn ddisymwth rhwng ei ddwylaw. Hag. 1. 6.——Duw 'yn gwnïo ac yn selio camwedd dynion mewn côd,' ydyw ei waith yn manwl gofio pob gweithred ac amgylchiad perthynol iddynt, mewn trefn i'w ceryddu, eu cyhuddo, a'u cospi o'u plegid. Job 14. 17.

CODAID—EIDIAU, (cod) llonaid côd, neu ysgrepan. Gen. 42. 35. Diar. 7. 20.

CODI, (cawd) cwnu, derchafu, esgyn, cychwyn.—'Codi y wawr.' Gen. 32. 24.

CODDI, (cawdd) cyfyngu, sènu, dondio, cystuddio.—'Pa wylo a wnewch gan goddi vy-calon?' Act. 21. 13. W. S.

CODDIANT, (cawdd) anfoddlonrwydd, llid, digter.—'Ac nac arswydwch rhag eu coddiant.' Esa. 51. 7. Dr. M.

COED—YDD, (cawdd) manwydd, defnydd-goed; prenau. Arferir coed yn danwydd. Gen. 22. 6.——'Syrthio dan y coed,' ydyw llewygu gan galed-waith y gwasanaeth gwaelaf; megys dwyn a chymynu coed, yn yr hwn wasanaeth, yn fynych y gosodid caeth-weision. Galar. 5. 13. Deut. 29. 11. Jos. 9. 24, 23, 27.——'Coed Libanus,' sef cedrwydd. Can. 3. 9.——Byddin yr Assyriaid o flaen Jerusalem oedd megys coed, neu gynnud, pan dorodd yr Arglwydd, trwy ryw bla tanllyd, 185,000 o honynt mewn un noswaith. Esa. 30. 33.——Coed, neu goedwig, y gelwir niferoedd o goed yn cyd-dyfu; neu y man lle y tyfant. Ps. 50. 10. 2 Sam. 18. 6. Edr. PREN.

COEG—ION, (co-oeg) gwag, diddim, disylwedd, cwbl ddiles.—Buwch goeg, sef hesp; cnau coegion, sef gwag.——Coeg a chwbl ddisylwedd yw pob dyn diras. Ps. 26. 4. Esa. 32. 5.——'Coeg ddigrifwch,' sef digrifwch gwag, disylwedd; ymadrodd nad ydyw yn adeiladu y gwrandawyr. Y gair *Gr.* ευτραπελια, yr hwn a gyfleithir *coeg ddigrifwch*, a arwydda, hyawdledd mewn ymadrodd, ymadroddus; dyn ag y byddo hawdd ganddo droi ei ymddyddan, a'i gymhwyso at y peth a fyddo mewn llaw, er mwyn peri ysgafnder a chwerthin gwag. Eph. 5. 4.

Digitized by Google

COEL—ION, (caw-el) cred, hyder, darogan.—'Rhoddi coel.' 1 Tim. 4. 1. 'Yr ystyrio. W. S.—Mae y gair *Gr.* *προσηχω*, a gyfieithir *coel*, yn 1 Tim. 4. 1. a Act. 8. 11. yn cael ei gyfieithu *dal ar*, yn Act. 16. 14. a 1 Tim. 1. 4. a Tit. 1. 14.—Yn 1 Tim. 4. 14. *glynu wrth*.

COELBREN, cwtws; pren a arferent wrth ddewis swyddwyr, ac enw yr ymgeiswyr arno; yr hyn a arferid ei fwrw, neu ei dynu, er mwyn penderfynu rhyw bwnc fyddai mewn dadl, ac a fethid mewn un modd arall ei benderfynu. Lef. 16. 9, 10. Galwad difrifol ar Dduw ydyw am eglurhad o'i feddwl i'n cyfarwyddo ni yn y peth a fyddo uniawn, trwy daflu, neu fwrw rhyw beth, yr hyn a fydd yn derfyn ar yr ymryson. Diar. 18. 18. Bwrw disiau, neu ddernyn o ryw beth i lestr, a feddylir wrth Diar. 16. 33., 'Y coelbren a fwrir i'r arffed;' hyny yw, a fwrir i *fynwes*, neu i ganol y llestr. Edr. Arffed. Dylai yr achos y byddom yn ceisio penderfyniad o'i herwydd, fod yn achos pwysig a syml, ac na byddo un ffordd arall yn wybodus i ni, trwy yr hon y galler ei benderfynu ef. Y dull o gyflawni y weithred a ddylai fod, mewn modd sobr a difrifol, rhag ein cael ni yn euog o gymeryd rhagluniaeth, a thrwy hyny, enw Duw, yn ofer; yr hyn sydd drosedd o'r trydydd gorchymyn. Gan hyny, y mae bwrw coelbren mewn modd ysgafn, anystyriol, ac heb fod o gwbl angenrheidrwydd, yn beth tra beius. Act. 1. 24, 25, 26. 1 Sam. 14. 41, 42.

Yr oedd yr arferiad cyfreithlawn o'r coelbren, 1. I wahaniaethu y naill oddiwrth y llall; megys yr oeddid yn gwneuthur â'r ddau fwch, i wybod pa un a offrymid, a pha un a fyddai yn ddiangol. Lef. 16. 9. Yr un modd y gwneid â dynion, megys Achan, Jonah, Matthias. Jos. 7. 16—19. Jonah 1. 7. Act. 1. 24, 25, 26.——2. I ranu tiroedd. Num. 26. 55, 56.——3. I drefnu cylchoedd dynion mewn swyddau, a'u rhanu. 1 Cron. 24. 5. a 25. 8. Luc 1. 9. Ymddengys fod hiliogaeth Aaron wedi lliosogi cymaint, fel nas gallent wasanaethu yn y deml i gyd ar unwaith; gan hyny, rhanodd Dafydd hwynt yn bedwar ar hugain o gylchoedd, y rhai a wasanaethent yn wythnosol yn eu tro. Felly y dywedir am Zacharias, 'ddyfod o ran iddo arogl-darthu:' hyny yw, ddyfod i'w ran ef, neu ddyfod i'w ran ef wrth goelbren. Yr oedd rhyw ranau o'r gwasanaeth yn fwy anrhydeddus na'u gilydd: yr offeiriaid a'r Lefiaid a ddosparthent y cwbl yn eu plith eu hunain wrth goelbren. Yr Iuddewon a ddywedant, fod tri offeiriad yn nghylch gwasanaeth yr arogl-darth: un fyddai yn dwyn y lludw ymaith, yr hwn ydoedd yn aros er y gwasanaeth o'r blaen; un arall fyddai yn dwyn padellaid o farwor tanllyd oddiar allor y poethoffrwm, ac wedi ei osod ef ar yr allor aur, efe a ymadawai; y trydydd a âi i mewn gyd â'r arogl-darth, ac a'i taenellai ar y marwor tanllyd, a thra byddai y mŵg yn esgyn, byddai yntau yn eiriol dros y bobl. Dyma y rhan a ddaeth i Zacharias, a'r rhan fwyaf anrhydeddus o'r holl wasanaeth ydoedd. Gwel Macknight ar Luc 1. 5—9.

COEL-GREFYDD, crefydd na byddo dim sail iddi yn ngair Duw, ac a fyddo gwedi ei sylfaenu ar ryw fympwy, neu goel ddynol; ewyllys-grefydd. Y mae y gair *Gr.* *δεισιδαιμονεστερους*, sydd yn cael ei gyfieithu *coel-grefydd*, yn arwyddo *ofn ysbrydion aflan*, neu *ysbrydion drwg*; ofni ac addoli Daimoniaid* yn ormodol. Am y Daimoniaid, neu yr ysbrydion aflan hyn y dywedir eu bod hwy yn dodi eu coel arnynt: cyfieithir hwynt *cythreuliaid*, yn 1 Tim. 4. 1. a 1 Cor. 10. 20. Y mae Parkhurst a Schleusner yn dywedyd nad oedd y gair yn swnio mewn ystyr gwaradwyddus, tramgwyddus, yn nghlistiau yr Atheniaid, fel yr ymddengys yn ein cyfieithiad ni; oblegid fod y gair yn cael ei arfer weithiau, gan hen ysgrifenwyr, mewn ystyr cymeradwy, megys pe dywedasai Paul eu bod hwy yn dra chrefyddol, yn dyfal addoli ac yn ofni y duwiau. Act. 17. 22. Gwel Parkhurst a Leigh.—Y wir grefydd Iuddewig a alwyd yn goel-grefydd gan Ffestus. Act. 25. 19.

COES—AU, (co-es) llorp, gomach, esgair, hegl, bèr. Lef. 11. 21. Y mae dau asgwrn yn y goes; y mwyaf a elwir y *tibia*, a'r lleiaf *fibula*. Mae coesau a thraed y creaduriaid oll yn hynod o addas i'w hachosion a'u dull o fyw. Edr. Troed.

'Ac addurn y coesau.' Esa. 3. 20.—'A'r llawdrau.' Dr. M.—'*The ornaments of the legs.*' *Saes.*—*The fetters.* Esgob Lowth. *Heb.* צעד Cyfieithir ef *cadwynau* yn Num. 31. 50.—*breichled*, yn 2 Sam. 1. 10. lle y dywedir mai addurn am y fraich ydoedd. Hwyrach eu bod yn addurn am y coesau ac am y breichiau hefyd.——Y mae coesau, neu esgeiriau gwr, yn cael eu rhoddi, yn gyffelybiaethol, am ei nerth. Ps. 147. 10. Gelwir hwynt 'y gwyr cryfion,' y rhai sydd yn gwanychu mewn henaint. Preg. 12. 3. Wrth y coesau, yn y lleoedd hyn, yr ydys yn deall y cluniau hefyd, o'r corph i'r traed.——Coesau delw Nebuchodonosor, o haiarn, ydoedd yn arwyddo cadernid yr ymerodraeth Rufeinaidd. Dan. 2. 33, 40.——Coesau Crist fel colofnau marmor, a arwydda ei gadernid i sefyll dan y baich o anwireddau ei bobl, a'i fod yn ddigon abl i'w dwyn i dir anghof; i oddef y pwys gogoniant cyfryngol a roddwyd iddo; ac i gyflawni yn hollol ac yn berffaith yr holl waith a roddwyd arno; ac i gynnal ei bobl dan eu holl lesgrwydd a'u beichiau trymion. Can. 5. 15.

COETH—I, (co-eth) puredig, glân, profedig, têr; puro, glanhau. Exod. 27. 20. Lef. 24. 2. Dat. 1. 15. a 2. 18. Edr. Puro.

COF—ION, (co-of) coffa, coffadwriaeth. Un o alluoedd neu gynneddfau yr enaid, yw y côf; cludfan meddyliau, yn yr hwn y byddwn yn dodi y peth a welom, a ddeallom, neu a ddychymygom, ac yn eu dwyn gyda ni dros ystod amser; fel y gallom eu hadalw wrth achlysur. 1 Cor. 15. 2.——Y ffordd oreu i gryfhau y côf ydyw cael ei adnewyddu, ei gryfhau, a'i sancteiddio gan yr Ysbryd Glân—arfer llawer arno—a bod amrywiaeth o bethau gwedi eu gosod a'u trefnu yn wahaniaethol yn y meddwl.

COFIO, (côf) meddwl am, adgofio, adgoffa, coffau.—1. Galw i gôf bethau. Deut. 15. 15.——2. Dal yn ein meddwl ryw beth i ddyfod a fyddo o bwys, fel y gallom ni ddarparu ar ei gyfer; neu sylwi arno ef pan ddelo. Exod. 20. 8.——3. Meddwl, ac ystyried. Ps. 63. 6. a 119. 55. Mat. 16. 9.——4. Gwneuthur cyfrif, a gwobrwyo. Preg. 9. 15.——5. Crybwyll gyda mawl a dyrchafiad. 1 Cron. 16. 12. Ps. 103. 2.——Mae dynion yn 'cofio Duw,' neu, 'ei enw,' pan y byddont yn meddwl am dano, yn credu ynddo, ac yn ymddiried iddo am gymhorth ac ymwared. Ps. 20. 7.——Y mae Duw yn cofio dynion, pan y mae yn eu hystyried, yn gofalu am danynt, a thrwy ei ewyllys da yn eu gwaredu hwynt, yn enwedig ar ol hir oediad, neu attaliad ar ei ddewisol drugareddau. Ps. 74. 2. Felly cofiodd Duw Noah, Abraham, a Lot, gan eu gwaredu hwynt, yn ngwyneb dystryw a pherygl. Gen. 8. 1. a 19. 29.——Y mae Duw yn cofio trugaredd, pan y byddo yn trugarhau mewn modd neillduol. Ps. 25. 6. Hab. 3. 2.——Y mae yn cofio, neu yn crybwyll am bechod,

* Ymddengys oddiwrth Plato mai rhyw fodau canol rhwng duwiau a dynion oedd y daimoniaid, yn nghredo y Groegiaid. Yr oedd dau fath o honynt, y naill oeddynt eneidiau dynion da, y rhai, ar ol eu marwolaeth, a ddyrchefid i'r anrhydedd o fod yn ddaimoniaid, ac wedi hyny yn dduwiau; y lleill oeddynt o uwch tarddiad na'r rhyw ddynol. Dywed Philo nad oedd eneidiau, daimoniaid, ac angelion, ond gwahanol enwau yn golygu yr un peth. Heblaw hyn, tybid fod rhai daimoniaid o natur aflan a drwg.—C

Digitized by Google

neu gyfiawnder, pan fyddo yn cospi un, ac yn gwobrwyo y llall. Jer. 31. 34. Esa. 43. 25. Ezec. 18. 22. —Dynion drygionus ac anghristaidd, a gofir, pan geryddir neu y cospir hwynt am eu pechodau. 3 Ioan 10. Ps. 137. 7. Dat. 16. 19.

COFIADUR—ON, cofrestrydd, ceidwad cof-lyfrau, ysgrifenydd, ysgrifenedydd, cof-weinydd; swyddog a fyddai yn ysgrifenu pethau mewn rhestr, neu gof-lyfr, ac yn coffâu y brenin o'r pethau a fyddai eisiau eu hystyried. 2 Sam. 8. 16. a 20. 24.

COFLAID—EIDIO, (cofl) llonaid breichiau, peth anwyl; breicheidio, mynwesu, ymgaredigo. Gen. 29. 13.—Fy nghoflaid, sef fy anwylyd; da gan fam ei choflaid, sef ei phlentyn bychan.—Cofleidio mab, hyny yw, ti a gei un o'th eiddot dy hun i'w fwynhau yn dy fynwes. 2 Bren. 4. 16.—Cofleidio craig, ydyw ffoi yn chwannog ati am drigfan a chysgod. Job 24. 8. —Cofleidio y tomenydd, ydyw dyfod i'r tlodi mwyaf, neu y gwasanaeth gwaelaf; neu fod corph marw un yn cael ei daflu i'r cwn. Galar. 4. 5.—Crist yn cofleidio ei bobl â'i ddeheulaw, sydd yn dangos ei gynnaliaeth caredigol a grasol, ac ymweliadau dyddanus a chysurol ei Ysbryd. Can. 2. 6. a 8. 3.—Cofleidio doethineb, ydyw derbyn Crist a'i wirionedd i'r galon, ac ymhyfrydu yn ei ddilyn ef. Diar. 4. 8.

COFFADWRIAETH—AU, (côf) cofen, cofiaeth, dargofa. Arwydda, 1. Enw; canmoliaeth. Diar. 10. 7. Esa. 26. 13.——2. Yr hyn a fyddo yn tueddu i ddwyn ar gôf unrhyw beth neu berson: enw Duw IEHOFAH, ydyw ei goffadwriaeth o genedlaeth i genedlaeth, neu, yn mhob cenedlaeth; yr enw wrth ba un y cofir am dano, y gelwir arno, y meddylir ac y llefarir am dano. Exod. 3. 15.—Arian y cymmod, y rhan o'r bwyd-offrwm a losgid ar yr allor, a'r thus a ddodid ar y bara gosod, a elwir yn goffadwriaeth; yr oeddynt fel pe buasent yn dwyn ar gôf i Dduw ei gyfammod â'i bobl, a'r trugareddau angenrheidiol iddynt; ac yn dwyn Iesu ar gôf iddynt hwythau, megys offrwm, ac iawn, ac eiriolwr drostynt. Exod. 30. 16. Lef. 2. 2. a 24. 7. Ps. 20. 3. At hyn y mae geiriau yr angel, yn ei ymddyddan â Chornelius, yn cyfeirio, 'Dy weddïau di a'th elusenau a ddyrchafasant yn goffadwriaeth ger bron Duw.' Act. 10. 4. Ps. 141. 2. Heb. 13. 16. Dat. 8. 3.—Y meini yn nwyfroneg yr arch-offeiriad ac ar ei ysgwydd, oeddynt yn goffadwriaeth; yr oeddynt i ddwyn ar gôf iddo am weddïo yn daer dros y llwythau; ac megys yn galw am drugareddau oddiwrth Dduw iddynt. Exod. 28. 11, 12.

COG—AU—ESAU, *Llad.* COQUUS; dyn i ddarparu a thrin bwyd yn barod i'w fwyta. 1 Sam. 8. 13. a 9. 23. Ezec. 46. 24.

COG—AU, (co-og) un o'r adar aflan a waherddir eu bwyta. Lef. 11. 16. Nid ydyw naturiaethwyr yn cwbl gytuno pa fath ydyw. Y mae rhai o'r farn mai y fôr-wylan a feddylir wrth y gair *Heb.* שחף. Gwel Ainsworth a Parkhurst.

COGINIAETH, (cog) darpariaeth ymborth. Gwneuthur coginiaeth, gwneuthur bwyd yn flasus i'r archwaeth; felly yr oedd Jerusalem i'r milwyr oedd yn ei dinystrio. Ezec. 24. 10.

COGEL—EILIAU, (cog) *Gr.* κογαλος; ffon, cwlbren; offeryn i ddal y llîn ar y droell i'w nyddu. Yr ydys yn barnu nad oedd yr hen ddull o nyddu yr un ag ydyw yn ein dyddiau ni â throell, ond â gwerthyd a chogel, fel y mae etto yn rhai manau. Diar. 31. 19. Nid oedd bod â llaw yn dal y cogel, neu nyddu, yn orchwyl rhy wael gan ferched boneddigion yn yr oesoedd gynt, mewn gwledydd eraill, nac yn ein gwlad ninnau hefyd: oddiwrth hyny y mae merched heb eu priodi, yn cael eu galw, yn ol iaith y gyfraith, *spinsters*, neu nydd-wragedd. Pool.

COGFRAN—OD, (cog-bran) 'A'r gogfran.' Lef. 11. 18. Deut. 14. 16. *Heb.* תנשמת Un o adar y dwfr, aflan dan y gyfraith. Barna Michaelis mai yr ŵydd a feddylir wrth y gair, oddiwrth ei chwythlais, neu ei hysiad, pan gynhyrfir hi.

COGWRN, (cog-gwrn) unrhyw gorph crwn; cragen, neu blisgyn crwn.—Cogwrn o ŷd; cogwrn ŵy; cyw yn ei gogwrn.—'Cogwrn cynhauaf.' Esa. 17. 11. Dr. M.

COHATH, *Heb.* קהת [*cynnulleidfa*] mab Lefi, (Gen. 46. 11.) pen y Cohathiaid, y rhai a benodwyd i ddwyn yr arch, yn nghyd â llestri sanctaidd y babell, tra y byddai yr Israeliaid yn teithio yn yr anialwch. Num. 4. 4, 5, 6. Exod. 6. 18.

COL—ION, (co) pig, pentir, penarth; barf ŷd.—'Beth a wna y col gyda y gwenith?' Jer. 23. 38. Dr. M. Felly y cyfieitha y Dr. Blayney y geiriau.

COLAIAH, *Heb.* קוליה [*llais yr Arglwydd*] 1. Tad y gau brophwyd Ahab. Jer. 29. 21.——2. Gwr arall o'r enw. Neh. 11. 7.

COLEDD—U, (côl) mynwes, mynwesu: edrych ar ol; dwyn gyda; amgeleddu. Esa. 13. 14. a 40. 11. —Llafurio a thrin tir. Ezec. 36. 9, 34.

COLER—AU, (col) y gwddf; addurn y gwddf.—'Colerau oedd am yddfau eu camelod hwynt:' ar ymyl y ddalen, *lloer dlysau;* ac yn ol cyfieithiad y *Dutch, mân leuadau,* neu fân loerau; gwddf dlysau aur lloerenawg, y rhai oeddent yn cymeryd eu henw oddiwrth y lloer, ac a wisgid am yddfau eu camelod i'w hadduruo, yn ol graddau eu perchenogion. Barn. 8. 21.——'A'm hamgylcha fel coler fy mhais.' Job 30. 18. *Heb. ceg fy mhais.* Yr ystyr yw, fod Duw wedi gwregysu corph Job o amgylch â phoen a gofid mor gyfyng ag yr oedd ei wddf wedi ei amgylchu gan geg ei bais, neu y twll y rhoddai ei ben trwodd.

COLOFN—AU, (colof) *Llad.* COLUMNA; piler, post, tybost.—Pedwar colofn y corph, sef y coesau a'r breichiau.—1. Attegion i gynnal adeilad. Barn. 16. 25, 26, 29.——2. Maen coffadwriaeth am ddyn, neu weithred. Gen. 35. 14, 20. 2 Sam. 18. 18.—Colofnau y ddaear a'r nefoedd ydyw y creigiau a'r mynyddoedd, y rhai sydd yn gedyrn sylfaeni y ddaear, a'u huchder yn ymddangos yn cyrhaedd megys hyd y nefoedd. Job 9. 6. a 26. 11.—Coesau Crist fel colofnau marmor, a'i draed fel colofnau o dân, sydd yn dangos ei gadernid a'i addasrwydd i gynnal ac i ddwyn yn mlaen ei achos yn y byd, ac mor ofnadwy ydyw efe yn ei ragluniaethau ceryddol i'w bobl, a chospedigaethol i'w elynion. Can. 5. 15. Dat. 10. 1. Edr. COESAU.

Y mae yr eglwys yn cael ei galw, 'Colofn a sylfaen y gwirionedd,' neu colofn ac atteg, neu gynnalydd y gwirionedd; canys hyny mae y gair *Gr.* εδραιωμα, yn ei arwyddo. Y mae Paul mewn traws-ymddwyn, yn benthyca ei ymadrodd oddiwrth un o hen arferion y cenedloedd, y rhai a arferent ysgrifenu eu cyfreithiau ar lechau, ac felly eu crogi ar golofnau, fel y byddis yn arfer gosod rhyw gyhoeddiadau yn ein trefydd ninnau ar furiau a physt, fel y gellid eu darllen; felly, yn a thrwy yr eglwys y mae gwirioneddau Duw yn cael eu cynnal a'u gosod allan ger bron dynion ac angelion. 1 Tim. 3. 15.

Yr oedd arferiad dan yr Hen Destament o eneinio colofnau, ac ymddengys fod hyny yn cael ei ystyried fel rhan o addoliad sanctaidd: 'Bethel, lle yr eneiniaist y golofn,' &c. Gen. 31. 13. Edr. ENEINIO.

Yr apostolion, a'u cyd-lafurwyr yn y brif eglwys, a elwir yn golofnau, o herwydd eu bod yn offerynol i

Digitized by Google

gynnal achos Crist yn y byd; ac hefyd i ddangos ac i gyhoeddi gwirioneddau gogoneddus yr efengyl. Gal. 2. 9.

Gosodir yr eglwys allan, yn dyfod i fynu o'r anialwch fel colofnau mŵg; nid rhyw fŵg cyffredin yw hwn, ond mŵg wedi ei bêr-arogli, &c. Yr un gair Hebraeg sydd am balmwydden yn Pen. 7. 7. felly y mae yr eglwys yn esgyn yn uniawn, fel palmwydden hir-braff, tu a'r nef, ei gweddïau sydd fel arogl-darth, ei serchiadau, ei mawl, a'i diolchgarwch, &c., y rhai ydynt effeithiau naturiol Ysbryd Duw; a lle y mae Ysbryd Crist yn gweithredu yn nghalon pechadur, y mae yn rhaid y bydd yr effeithiau hyn yn tarddu, ac yn esgyn i fynu o anialwch y byd at Dduw, mor naturiol ag y bydd mŵg yn tarddu ac yn esgyn o'r man lle bo tân, i fynu tu a'r haul. Can. 3. 6.—— Swyddogion a llywodraethwyr duwiol a elwir yn golofnau. Ps. 75. 3.

'Doethineb yn adeiladu ei thŷ, ac yn naddu ei saith golofn.' Y mae rhai yn deall wrth y colofnau hyn y patrieirch, y prophwydi, efengylwyr, apostolion, bugeiliaid ysbrydol, ac athrawon. Sicr yw, fel y mae y nifer saith yn arwyddo perffeithrwydd, neu nifer digonol, myn Duw gadw nifer digonol o'i dystion, wedi eu naddu a'u trefnu gan ei Ysbryd, wrth reol ei air, fel y byddont yn gynnaliaeth ac yn addurn i'w achos yn y byd. Diar. 9. 1.——Gwraig Lot a aeth yn golofn halen, neu fel y mae rhai yn deall y lle, hi a aeth yn *gôf-arwydd tragywyddol*: gwnaed hi yn dyst tragywyddol o gyfiawn farn Duw. Y mae hyn yn cael ei ddywedyd naill ai yn gyffelybiaethol, ai yn wirioneddol. Yn gyffelybiaethol, ei bod yn golofn o dragywyddol barhad, fel y mae y cyfammod tragywyddol yn cael ei alw yn gyfammod halen. Num. 18. 19. Neu yn wirioneddol a phriodol, oblegid mae math o halen metelaidd ag a ddeil yn ngwyneb y gwlaw a'r tywydd, ac sydd yn ddigon caled mewn adeiladau, fel mae Pliny, Solinus, ac eraill, yn tystiolaethu. Gellir casglu oddiwrth Deut. 29. 23. fod yr halen yma wedi ei gymysgu â brwmstan. Ac hefyd, y mae Josephus, ac eraill, yn dywedyd fod y golofn hon yn aros yn eu hamser hwy; ond methodd gan neb o'r teithwyr diweddar yn y parthau hyny o'r byd ganfod dim gweddill o honi. Gen. 19. 26. Luc 17. 32. Gwel Esgob Patrick, Poole, Maundrell, Shaw.

Yr oedd dwy golofn nodedig yn y deml a elwid Jachin a Boaz. Yr oeddynt yn sefyll o flaen y tŷ, ac yn mhorth y deml. 2 Cron. 3. 15. 1 Bren. 7. 21, 22. Eu defnydd oedd pres; eu huchder oedd 18 cufydd, y ddwy 36; ond nid enwir ond 35, am fod un cufydd wedi ei guddio â'r cnap coronog ar eu penau; neu, yr oedd gosail pob colofn yn 17 cufydd; hyn, yn nghyd â 18 cufydd y golofn ei hun, a wna 35 cufydd. Eu cylch oedd 12 cufydd, a'u tryfesur yn bedwar cufydd. Yr oeddynt yn geuol, a thrwch y pres oedd ynghylch pedwar modfedd. Yr oedd cnapiau harddwych ar eu penau. Edr. CNAPIAU. Gan nad oeddynt yn cynnal, na dim o'r adeiladaeth yn gorphwys arnynt, rhaid eu bod er harddwch ac er addysg, yn benaf. Yr oeddynt yn arwyddocaol, 1. Mai gallu a ffyddlondeb Crist yw cynnaliaeth ac amddiffynfa ei bobl.——2. Grym a chadernid yr eglwys ynddo a thrwyddo; 'Pyrth uffern nis gorchfygant hi.' Mat. 16. 18.——3. Y mae pob sant yn golofn yn nheml Duw (Dat. 3. 12.) yn enwedig gwir weinidogion y gair. Jer. 1. 18. Gal. 2. 9.—Rhagoriaethau colofn yw, bod yn syth ac yn gref; felly y gweddai i weinidogion y gair, a phob sant fod, fel y gallont fod yn goronog yn y diwedd. 2 Tim. 4. 7, 8. Edr. TEML.

COLOMEN—OD—AIDD, (colom) *Llad.* COLUMBA; creaduriaid glân wrth y gyfraith. Ymborthant ar y gronynau puraf, ac yfant y dwfr gloywaf: y maent yn dirion, yn ddiniwed, yn hardd, a ffrwythlawn; ac nid ydynt yn hunan-amddiffynol, ond hwy a gaséir ac a ddinystrir gan adar ysglyfaethus; maent yn garedig i'w gilydd, ac yn alarus iawn pan gollont eu gilydd. Yr oedd colomenod, neu ddurturod, yn aberthau gan dlodion dan y gyfraith.—Yr oedd Iesu Grist yn cael ei osod allan trwy y rhai hyn, yn ei larieidd-dra, ei burdeb, a'i gariad anghydmarol. Lef. 1. 14. a 5. 7. a 12. 8. Luc 2. 24.—Ymddangosodd yr Ysbryd Glân fel colomen, i ddangos ei diriondeb a'i gariad; a bod ei lais yn yr efengyl, yn dwyn rhyw arwydd fod y dyfroedd diluw o ddigofaint dwyfol wedi treio. Mat. 3. 16. Can. 2. 12.—Yr eglwys a gyffelybir i golomen, i ddangos ei gwendid naturiol, a'i bod yn agored i elynion; ei harddwch ysbrydol, purdeb ei hymborth, sef Iesu Grist, a'i wirioneddau; ei llarieidd-dra a'i diweirdeb, a'i galar cwynfanus o herwydd ei absennoldeb, a'i ffrwythlonrwydd ysbrydol mewn gweithredoedd da, &c. Ps. 68. 13. Can. 2. 14. Mat. 10. 16.—Y deg llwyth y rhai oeddynt wedi digaloni, ac ymollwng mewn caethiwed a chystudd, a elwir yn golomen ynfyd heb galon. Hos. 7. 11.—Griddfan, neu drydar fel colomen, ydyw galaru yn y modd chwerwaf. Esa. 38. 14. a 59. 11. Neh. 2. 7.——Dywedir fod y bedwaredd ran cab o dom colomenod er pum sicl o arian, yn amser newyn yn Samaria. Nid yw esbonwyr yn cytuno yn nghylch y gair *Heb.*: רום: yr hwn a gyfieithir *tom colomenod.* Yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf tebygol ydyw, mai y gwehilion salwaf a mwyaf diwerth o bob ŷd a feddylir, â'r hwn y byddis yn arfer porthi colomenod ar yr amser hyny o'r flwyddyn na bo dim iddynt i'w gael yn y maes. Y mae y gair *tom* yn cael ei arfer am yr hedion, ysgubion y llawr, yr hyn ydoedd agosaf i fyned gyd â'r manus i'r domen, i ddangos mor wael a salw ydoedd; yn yr ystyr hwn y mae yr un gair yn cael ei arfer mewn amryw leoedd eraill. 2 Bren. 6. 25. a 9. 37. Ps. 83. 10. Jer. 8. 2. Phil. 3. 8. Gwel hefyd Edwards *on the style of the Holy Scriptures.*—Colomenaidd, sef tebyg i golomen. Can. 4. 1.—'Y mae i ti lygaid colomenod.' Can. 1. 15. I ddeall llawn ystyr y gyffelybiaeth hon, ni ddylem ei chyfeirio at y colomenod cyffredin yn ein plith ni, ond i lygaid mawrion a hardd colomenod Syria. Y rhai a welsant yr aderyn hardd dwyreiniol hwnw, y *carrier pigeon*, a ddeallant y gyffelybiaeth oreu. *New Translation of Solomon's Song.* Gwel Brown's *Observations.*

COLOSSE, *Gr.* Κολοσσαι, COLOSSÆ, neu COLOSSE, neu COLLOSSIS: [*cosp, cerydd*] dinas yn Phrygia Leiaf, ar yr afon Lycus, yn lled agos i Laodicea a Hierapolis. Dywedir fod y tair dinas hyn wedi eu dystrywio gan ddaear-gryn, A.D. 66. Ond Colosse a adeiladwyd wedi hyny, ac a alwyd Chonæ; dywedir ei bod yn sefyll hyd y dydd hwn.—Nid oes dim hanes fod Paul yn Colosse; barn gyffredinol hynafiaeth yw, mai Epaphras, neu ryw efengylwr arall, wedi ei anfon gan Paul, a blanodd eglwys yn Colosse. Ond y mae y meddwl hwn yn ddiweddar wedi cael ei ammeu a'i wrthwynebu yn fawr. Hônant fod amlygrwydd tufewnol yn yr epistol ei hun, fod yr apostol wedi bod yno.—1. Fod y geiriau yn Pen. 1. 25. yn profi hyny. Yn llefaru am yr eglwys, dywed, 'I'r hon y'm gwnaed i yn weinidog, yn ol goruchwyliaeth Duw, yr hon a roddwyd i mi *tu ag atoch chwi*, i gyflawni (neu i bregethu yn gyflawn) gair Duw.' Os rhoddwyd goruchwyliaeth Duw i Paul tu ag at y Colossiaid, i bregethu gair Duw, a ellir meddwl, er fod Paul yn aml yn Phrygia, y buasai yn esgeuluso myned i bregethu i Colosse?——2. Trwy yr holl epistol y mae yr apostol a'r Colossiaid yn ymddangos â gofal neillduol am eu gilydd, fel rhai gwedi eu rhwymo yn un â'u gilydd, fel cyfeillion. Gwel Pen. 2. 5. a 4. 7, 8, 15. hefyd, Pen. 1. 7.——

Digitized by Google

3. Ysgrifenodd ei anerch at y Colossiaid â'i law ei hun, fel y byddai yn gwneyd at yr eglwysi eraill a blanwyd ganddo ei hun, ag oeddynt yn adnabod ei ysgrifen. Pen. 4. 18.——4. Darfod galw y Colossiaid ganddo sydd eglur, yn ol barn rhai, oddiwrth y geiriau yn pen. 2. 6, 7. a 1. 6. Y geiriau hyn, medd Mr. Lardner (*Can.*, *vol.* ii., *p.* 14.) a ddengys yn amlwg ddarfod galw y Colossiaid i'r ffydd trwy weinidogaeth apostol; a phwy a allasai hwnw fod ond Paul ei hun, yr hwn a deithiodd mor aml i'w gwlad, ac a bregethodd gyd â'r fath lwyddiant? Gwel Macknight. Ond nid ydyw yn ymddangos o bwys mawr, fel y sylwa T. Scott, i allel penderfynu gyda sicrwydd am y mater.—Y mae cyfatebolrwydd neillduol rhwng yr epistol hwn â'r epistol at yr Ephesiaid; a bernir, yn gyffredinol, eu hysgrifenu yn nghylch yr un amser, a'u hanfon gyd â'r un genad, sef Tychicus; er na enwir Onesimus yn yr epistol at yr Ephesiaid, yr hwn oedd gyda Tychicus, ac yn Golossiad. Gellir barnu fod yr eglwys yn Colosse yn dra llwyddiannus ac yn flodeuog; am hyny y mae yr epistol yn fwy llawn o ganmoliaeth na cheryddon; o ddiolchgarwch nag achwyniadau; o annogaethau na rhybyddion. Tebygol fod Epaphras, eu gweinidog, yn garcharor yn Rhufain pan yr ysgrifenwyd yr epistol hwn. Y gwr duwiol hwn, er ei ddyfodiad i Rufain, a fu mor ymdrechgar yn achos yr efengyl, fel y daeth dan sylw y swyddwyr gwladol, ac a gafodd ei garcharu. Philem. 23. Edr. Epaphras. Tebygol i'r apostol glywed am ryw gau athrawon, y rhai, trwy gymysgu â'u gilydd draddodiadau Iuddewaidd, ac egwyddorion cyfeiliornus rhai o'r philosophyddion Paganaidd, ac a draddodant y cyfryw gymysgedd dynol ac anghyson yn lle y wir athrawiaeth efengylaidd, er niwed mawr i eneidiau dynion, trwy eu gwyro oddiwrth y gwirionedd pur fel y mae yn yr Iesu; yn yr hwn yr oeddynt wedi eu cyflawni, yr hwn yw pen pob tywysogaeth ac awdurdod; ac yn yr hwn y mae yn preswylio holl drysorau doethineb a gwybodaeth. Rhag y twyllwyr hyn y mae yr apostol yn neillduol yn rhybyddio y saint yn Colosse; a rhag pawb, y rhai trwy ddefodau coel-grefyddol a gwag-philosophi, a'u denant oddiwrth wirionedd pur a digymysg yr efengyl. Rhydd olygiadau tra ardderchog a gogoneddus ar Berson Crist, ei gyflawnder cyfryngol, a'i ddyrchafiad yn ei swyddau; cyflawnder a rhadlonrwydd yr iechydwriaeth ynddo. Y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig ynddo; gan hyny, gwag dwyll oedd y cwbl arall, a thraddodiadau dynion tywyll a llygredig eu meddwl.

COLUDD—ION, (col) y glas goludd, perfedd, tripa; cylla; amysgaroedd. Num. 5. 22. Ezec. 7. 19. 2 Cron. 21. 15. Y bwyd wedi ei dreulio yn y cylla a ddygir i'r coluddion, ac yno mae y ffrwyth, neu y maeth, yn cael ei neillduo i'r llestri llaethog (*lacteals*) a'r rhan arall, sef y carthion, a fwrir allan, y rhai sydd wedi eu cymhwyso trwy ringelliad y coluddion i'w wasgu a'i yru yn mlaen trwyddynt. Y mae yn y coluddion fân ffynonau, i'w hireiddio; a'r rhai hyny yn amlach tu a'r diwedd, fel y mae y carthion yn ddiffrwythach a sychach. Rhag i'r hwn fyddo yn myned trwy y coluddion eu dolurio a'u niweidio, y maent gwedi eu gwisgo a'u llithrigo â rhyw fath o sudd bras, olewaidd, yr hwn sydd yn eu hamddiffyn yn y modd goreu, ac yn hwyluso mynediad y carthion drwyddynt. Y mae hefyd, trwy blygiadau, amryw gilfachau ynddynt, i gadw rhan ddiffrwyth o'r ymborth, nes y byddo gyfleus i ddyn ymarllwys.——Mae y coluddion yn agos chwech hŷd gwr;* pe byddent yn fyrach âi yr ymborth drwyddynt cyn i'r llestri llaethog dderbyn yr holl faeth oddi wrtho. Y maent wedi eu cydio a'u crychu wrth y cefndedyn (*mesentery*) i'w cadw yn eu lle yn mhob ystum ac agwedd a ddichon i'r corph fod ynddo, fel ag y byddai y ffordd drwyddynt fod bob amser yn rhwydd ac yn ddirwystr. Coluddyn yr eisteddfod sydd yn uniawn, a'r unig ran o honynt sydd wrth ewyllys dyn fel y gallo ymarllwys yn ddirwystr, wrth ei ewyllys ei hun. Heblaw galluoedd y coluddion, y mae llinynau oddi amgylch yr holl fol, i'w dynu yn nghyd, a gwisgo yr holl goluddion, i'w harllwys yn fwy nerthol, wrth achos.——Y mae byrniad y coluddion gyd âg un o'r pethau mwyaf rhyfedd perthynol i'r corph. Y maent wedi eu sypynio, a'u rhoddi mor wastad ar eu gilydd, a'u diogelu wrth y cefndedyn, fel, er meithder eu hŷd, a'u holl droellau, y cedwir hwynt yn eu lle yn mhob agwedd a ddichon dyn roddi ar ei gorph, ac y diogelir hwynt rhag niwed, er mor feddal a thyner ydynt. Y mae byrniad y llestri tufewnol yn nghorph dyn yn dra rhyfedd; fel y mae y galon yn gweithio ac yn taflu y gwaed allan bedwar ugain o weithiau bob mynyd—y cylla yn treulio yr ymborth—yr ysgyfaint yn anadlu trwy filoedd o bibellau, y rhai nas gallant ballu am fynyd—y coluddion yn gweithio yn rheolaidd—yr afu, yr arenau, &c., yn tynu ymaith oddi wrthynt eu neillduadau priodol—y cwbl yn ddirwystr am fynyd. Sylwch ar y rhaffchwareuwr a'r llam-dreiglwr, pa nifer o wrth a chroesdroiadau a raid i'r rhanau tufewnol oddef yn yr holl ystumiau y taflant eu cyrph iddynt; neu yr ysgwydiadau a gânt weithiau trwy godymau ac ysigiadau—ac etto, er hyn i gyd, heb brofi dim niwed parhaus. Wrth sylwi ar hyn, rhaid penderfynu eu bod oll wedi eu diogelu yn ofalus, eu hamgylchynu yn y modd goreu, a'u byrnio yn dra chywrain. Gwel Keil's *Anat.*, *p.* 45; Dr. Willis' *Pharmaceut*; Mr. Cowper's *Anat.*,; Dr. Cole *in Phil. Trans.*, *No.* 125.

* Ymddengys fod coluddion gwahanol greaduriaid yn wahanol eu hŷd. Eiddo yr hwrdd ydynt 27 hŷd ei gorph; yr ych, 22; y llew, 3; a'r morgi gwyn (*Shark*) tua 3 rhan o 4 ei hŷd.—C.

COLURO, *Gr.* κολλουριον; *Llad.* Collyrium, *eli llygaid*, fel y cyfieithir ef yn Dat. 3. 18. *cuddio*, lliwio y wyneb.—'Ac a golurodd ei hwyneb.' 2 Bren. 9. 30. השם בפוך עיניה *a roddodd ei llygaid mewn lliw.* Rhyw beth oedd פוך *pwc* oedd gan y merched gynt i liwio eu llygaid âg ef. Er cryfhau eu llygaid, ac er harddwch, y merched, yn Aleppo, medd y Dr. Russel, a liwiant tu fewn i geuad y llygad yn ddu, â rhyw lwch a alwant *Ismed*. Felly hefyd y gwna y merched yn Barbary. Russel's *Nat. Hist. of Aleppo*, *p.* 102. Pa ddefnydd, a pha ddefod bynag y mae y geiriau yn eu darlunio, hyn a wnaeth Jezebel, gan ddysgwyl, trwy hyny, wneyd ei hun yn gymeradwy gan Jehu. 2 Sam. xi. cynnwysiad y bennod.

COLYN—AU, (col) colyn dôr, sef bach drws; y tenwn a êl yn rhwyll, oblegid ei debygolrwydd i golyn; (Diar. 26. 14.) y rhan hyny o rai creaduriaid yr hwn a arferent fel arf i niweidio ac i yru eu gwenwyn i gnawd eu gelynion.——Pechod ydyw colyn angeu, yr hwn sydd yn ei wneuthur yn niweidiol a pheryglus i ddynion: ond i'r cyfryw sydd yn Nghrist, tynwyd ei golyn trwy farwolaeth Crist dros bechod: a hwy a ymadawant mewn heddwch, i fod gyd â'r Arglwydd. 1 Cor. 15. 55, 56.—Colynau yn nghynffonau y locustiaid. Dat. 9. 10. Edr. Locust.

COLL—ED—ADWY—EDIG—AETH, (co-oll) *Cald.* קלור *Llad.* Collarium: y peth a fo yn colli;* yn ddarostyngedig i golli, wedi colli, dystryw. Dan. 6. 2.—'Rhodded ei golled am ei waith;' gwnaed i fynu y golled a gafodd, trwy gael ei wneuthur yn analluog i ddilyn ei alwedigaeth, ac i ennill ei fywyd. Exod. 21. 19.—Treulio i ychydig neu ddim defnydd, a elwir yn golled. Mat. 26. 8. Marc 14. 4.——'Yr hwn sydd werthfawrusach na'r aur colladwy.' 1 Petr 1. 7. Y mae yr aur yn colli yn ei bwysau wrth ei

Digitized by Google

brofi yn y tân; bob tro y profer ef, y mae rhyw faint yn colli o hono; ac hefyd, y mae yr holl bethau gwerthfawroccaf a phuraf a fedd y ddaear, megys aur, &c., yn ddarostyngedig i balldod a cholled; ond y mae ffydd y saint yn cael ei mawrygu, ei chadarnhau, ei dwyseiddio, a'i phuro yn ffyrnau tanllyd profedigaethau.——Y mae Duw yn cyffelybu ei bobl i 'braidd colledig; eu bugeiliaid wedi eu gyru ar gyfeiliorn.' Jer. 50. 6. 'Defaid cyfrgolledig tŷ Israel;' y bobl ag oeddynt yn crwydro yn ffyrdd pechod a dystryw, trwy anwybodaeth ac esgeulusdra eu bugeiliaid: at y rhai hyny yr anfonwyd Crist, ac y mae yntau yn anfon ei ddysgyblion. Mat. 10. 6. a 15. 24. —Y mae holl ddynolryw yn golledig wrth natur, yn eu cyflwr o bechod a thrueni; yn crwydro yn anialwch y byd; yn mhell oddiwrth Dduw; yn estroniaid i ammodau yr addewid; heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd; yn ddyeithriaid i ffordd heddwch; heb un cartref i fyned iddo; na dim gwir gysur ganddynt; ac nid ydynt o un defnydd ysbrydol yn y byd. Luc 19. 10. a 15. 6, 9, 32. Ps. 119. 176. Esa. 53. 6. Mat. 8. 11.——Judas oedd 'mab y golledigaeth,' a haeddodd golledigaeth, ac sydd yn ngafael colledigaeth. Y mae genym y cyfryw ymadroddion yn 2 Sam. 12. 5. lle y dywed Dafydd wrth Nathan, 'Euog o farwolaeth yw y gwr a wnaeth hyn.' *Mab angeu yw y gwr a wnaeth hyn. Heb.* Felly mae y *Dutch* yn cyfieithu y lle. Ioan 17. 12. *Dutch Annot.* Felly y mae Anghrist yn cael ei alw yn fab colledigaeth, ar yr un cyfrif; am ei fod yn euog, wedi ei roddi i fynu, ac yn tynu at golledigaeth. 2 Thes. 2. 8. Gwel hefyd Mat. 23. 15. Deut. 25. 2. Gen. 20. 3. Eph. 2. 3. Rhuf. 9. 22. 1 Petr 2. 8. Judas 4. Edr. ANGHRIST, JUDAS.

COLL, CYLL, COLLEN, (co-oll) *Gr.* καρυλος; *Llad.* CORYLUS: glasbren, glaswydden; coed cnau. Yr oedd y cyll yn mhlith y coed hyny y cymerodd Jacob wïail o honynt i'w gosod yn y cafnau dyfroedd lle yr oedd y praidd yn yfed. Gen. 30. 37.

Tost a fydd mŵg *coll. Diar.*

CONFFORDDUS, *Llad.* CONFORTARE; *Ffr.* CONFORT; *Saes.* COMFORT: Dyddanus, cysurus. Zech. 1. 13.

CONDEMNIO, *Llad.* CONDEMNARE; *Ffr.* CONDEMNER; *Saes.* CONDEMN.—1. Euog-farnu, dedfrydu i gosp. Deut. 25. 1. Yn yr ystyr hwn ni chondemniodd Crist y wraig a ddaliwyd mewn godineb, ond llefarodd wrthi, megys yr unig un a allai faddeu pechodau, a'r hwn yn yr un modd sydd yn cyfiawnhau ei holl bobl, 'nid wyf finnau yn dy gondemnio di chwaith, dos, ac na phecha mwyach.' Ioan 8. 10, 11.——2. Rhoddi barn angharedig, ac anghyfiawn, ar bersonau, amcanion, neu weithredoedd dynion. Luc 6. 37.——Y mae duwiolion yn condemnio annuwiolion, trwy eu hymarweddiad onest, hardd, cydffurfiol â'r gair, ac ufudd-dod iddo, yr hwn sydd hollol wrthwyneb iddynt hwy; felly yr oedd y Ninifeaid, trwy eu parodrwydd i wrando ar rybydd Jonah, a'u hufudd-dod i'w air, yn condemnio yr Iuddewon, y rhai a wrthodasant wrando ar Grist a'i apostolion, er eu mynych rybyddio a'u galw ganddynt i edifarhau a chredu yr efengyl; a bod eu cenadwri yn cael ei chadarnhau trwy lawer o wyrthiau tra rhyfeddol. Yr un modd brenhines y dehau, Noah, &c. Mat. 12. 41, 42. Jonah iii. 1 Bren. 10. 1. 2 Cron. 9. 1. Luc 11. 31. Heb. 11. 7.——'Y farn a ddaeth o un camwedd i gondemniad.' Edr. PECHOD.

'Condemnio pechod yn y cnawd,' neu *yn ei gnawd*, hyny yw, cnawd Crist. Anfonodd Duw ei Fab i'r byd wedi ei wneuthur yn gnawd, neu ei wneuthur o wraig, a than y ddeddf, ac felly tan holl felldithion pechodau ei etholedigion; oblegid yr Arglwydd a roddes arno ef eu hanwiredd hwy i gyd, fel un ag oedd wedi ymrwymo i fod yn fechnïydd drostynt. Gan fod cyfrifiad o euogrwydd troseddiadau ei bobl arno ef, eu mechnïydd, y mae yn rhaid, o angenrheidrwydd, i gondemniad a chosp ddilyn hyny; oblegid lle bynag y delo cyfiawnder o hyd i bechod, ni all lai na'i gondemnio a'i gospi. Yr ydoedd Duw yn dangos ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd ar gyhoedd y byd, trwy gospi pechod hyd yn nod ar ei Fab ei hun; ïe, rhoddwyd cymaint o gospedigneth arno ef ag ydoedd holl bechodau ei holl etholedigion yn ei haeddu; fel, trwy hyny, y caent hwy dragywyddol ryddhad. Rhuf. 8. 3. Col. 1. 22. 1 Petr 2. 24. a 3. 18. a 4. 8. Eph. 1. 7. Col. 1. 4. a 3. 13, 22.——'Os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon;' hyny yw, os ydym yn cael ein heuog-farnu a'n condemnio yn llys ein cydwybod ein hunain, ac nid ydyw yr hyn a wyddom am danom ein hunain ond ychydig, pa faint mwy euog a chondemniol ydym wrth gyfraith llys y Duw hollwybodol? 1 Ioan 3. 20. Preg. 7. 21. 1 Cor. 4. 4. Edr. DAMNEDIGAETH.

'Am bechod, a gondemniodd bechod yn y cnawd.' Rhuf. 8. 3. Ymadrodd unigol ydyw hwn yn yr ysgrythyrau. Priodolir y gair *condemnio* yn hytrach i bersonau nag i bethau; ac etto addas yw ei briodoli i bethau, i arwyddo ein hanghymeradwyaeth o honynt. Ond dilys yr arwydda yn y fan hon lawer mwy nag anghymeradwyo pechod; 'Am bechod,' περι αμαρτιας, ymadrodd anmherffaith, yn lle προσφορα περι αμαρτιας, offrwm dros bechod. Heb. 10. 8, 18. Trwy offrwm dros bechod, y dybenodd gamwedd, a gwnaeth gymmod dros anwiredd, tynodd ymaith bechod, seliodd bechodau, fel nas caent ddyfod allan na'u gweled mwy yn erbyn ei bobl. Dan. 9. 24. Heb. 9. 26. Y mae yr hyn ydoedd yn condemnio troseddwyr gwedi cael ei gondemnio gan Grist pan gondemniwyd ef. Barnwyd ef i farwolaeth, ac i'r pechadur yn credu yn Nghrist i gael bywyd, fel nas gwnai mwyach ddianrhydedd i Dduw na niwed iddynt hwy. Condemniwyd pechod, pob pechod; a hyny gan Dduw ei hun; a hyny hefyd yn nghnawd Crist: am hyny y mae i gael ei farwolaethu yn mhawb a gredant yn Nghrist, a'i hollol ddiddymu am byth.

CONGL—AU, *Gr.* γωνια; *Llad.* ANGULUS: ongl, cornel, cilfach, ebach.—1. Cŵr eithaf unrhyw beth, megys gwlad, maes, adeilad, &c. Lef. 19. 9. Deut. 32. 26. Neh. 9. 22. Job 1. 19. Ps. 118. 22. Diar. 21. 9. Esa. 11. 12. Jer. 49. 32. Zech. 9. 15. Act. 10. 11. a 26. 26.—Conglau, neu bedair congl tir, a arwydda yr holl dir. Num. 24. 17. Ezec. 7. 2.—— 2. Rhyw ran dywyll, ddyrys, neu anweledig o dŷ neu wlad. Diar. 21. 9. Esa. 30. 20. Act. 26. 26.

'Y gongl a ddaeth allan o Judah,' ydoedd naill ai eu llywiawdwyr penaf, y rhai oedd yn addurno ac yn cyfrwymo eu teyrnas yn amser Nehemiah, y Maccabeaid, &c. (cymh. 1 Sam. 14. 38. ymyl y ddalen) neu yn hytrach yr Arglwydd Iesu, yr hwn yw y pen congl-faen sydd yn cysylltu, yn addurno, ac yn cadarnhau ei eglwys. Zech. 10. 4. Ps. 118. 22. Esa. 28. 16.—Yr oedd taenelliad y gwaed ar gyrn, a phedair congl yr allor, yn dangos fod hawl i holl derfynau y ddaear i'r iechydwriaeth sydd yn Nghrist. Exod. 27. 2. Ezec. 45. 19.

'Congl-faen:' maen a wnelo ran o ystlys a thalcen yr adeilad ar unwaith, a fyddo yn ei haddurno, ac yn ei chyfrwymo a'i chadarnhau. Job 38. 6. Ps. 144. 12. Jer. 51. 26. Mewn ystyr cyffelybiaethol, rhoir congl am bersonau, megys Dafydd; i ddangos fel yr oedd holl Israel, a fuasai ar wasgar trwy y rhyfeloedd, yn cael eu huno ynddo a than ei lywodraeth. Crist hefyd, o'r hwn yr oedd Dafydd yn gysgod. Yr oedd Dafydd yn cael ei wrthwynebu a'i wrthod gan ei frodyr ei hun, gan Saul, ei dywysogion, ei swyddog-

Digitized by Google

ion, y rhai ydynt yn cael eu hystyried fel adeiladwyr. Crist hefyd, Mab Dafydd, a wrthodwyd gan ei frodyr yr Iuddewon, yr offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r Phariseaid, a phenaethiaid y bobl, y rhai oeddynt megys pen-adeiladwyr yr eglwys; a chan Herod frenin, a'i swyddogion yntau: ond fel y dyrchafodd yr Arglwydd Dafydd i'r orsedd yn wyneb ei holl wrthwynebwyr, felly y dyrchafodd Duw Iesu, Mab Dafydd, â'i ddeheulaw, i fod yn ben congl-faen ei eglwys, i uno ei holl etholedigion yn mhlith Iuddewon a Chenedloedd â Duw, ac â'u gilydd ynddo; ïe, efe ydyw y pen congl-faen sydd yn uno yr holl etholedigion yn mhlith dynion ac angelion â'u gilydd, gan eu cysylltu yn eglwys iddo ei hun. Ps. 118. 22. Esa. 28. 16. Zech. 10. 4. Rhuf. 9. 33. Eph. 2. 20. 1 Petr 2. 6. Heb. 12. 22.

CONSURIO—IAETH—WYR, *Llad.* CONJURARE; *Ffr.* CONJURER; *Saes.* CONJUROR: tyngedwyr; rhai yn arfer enw Duw gyda bwriad o fwrw allan gythreuliaid o'r rhai fyddo wedi eu meddiannu ganddynt. Tebyg mai gair sathredig yn y wlad oedd *consurio*, a bod y cyfieithwyr dysgedig wedi ei arfer er mwyn i'r werin ei ddeall; ac onidê, mae y gair *tyngedu* yn well gair. Y mae yr un gair Groeg yn cael ei gyfieithu *tyngedu* yn Mat. 26. 63. a Marc 5. 7. Pan anfonodd ein Hiachawdwr ei ddysgyblion i bregethu yr efengyl, rhoddes iddynt awdurdod ar ysbrydion aflan, i'w bwrw hwynt allan. Mat. 10. 1. Marc 3. 15. Luc 10. 17. Act. 16. 18. Dywed rhai fod y ddawn hon wedi parhau yn yr eglwys yn nghylch dau cant o flynyddoedd wedi dyddiau yr apostolion. Rhai yn traws-feddiannu ac yn ffugeiddio y ddawn hon (er nad oedd hi ganddynt) oedd y consurwyr hyny a grybwyllir yn Act. 19. 13.; nid oedd yr hyn oeddynt yn ei wneuthur ond yn unig trwy swyngyfaredd a chynghrair â'r diafol.

CONYN, (cawn) paladr, bonyn, corsen; colyn.—'Angeu, p'le may dy gonyn?' 1 Cor. 15. 55. W. S.—'Ac yn y cynffonney yr roeddent conynney.' Dat. 9. 10. W. S.

COOS, [*cwr uchaf, copa*] ynys yn Môr y Canoldir, yn agos i Asia Leiaf, ac ynddi ddinas o'r un enw. Llyncwyd y ddinas gan ddaear-gryn, yn nghylch 400 o flynyddoedd cyn Crist. Brodorion o'r ynys hon oedd y darluniedydd Appeles, a'r meddyg rhagorol Hippocrates. Yr oedd gan drigolion yr ynys hon freninoedd o'r eiddynt eu hunain mor foreu ag amser Jehosaphat, os nid yn foreuach. Syrthiasant gwedi hyn dan lywodraeth y Persiaid, y Pontiaid, a'r Rhufeiniaid. Bu Paul yn mordwyo heibio yma yn ei fordaith i Jerusalem; ond nid ymddengys fod yma un eglwys rai oesoedd wedi hyn. Yr ydym yn cael fod yma eglwys wedi ei sefydlu yn y bedwaredd, y bummed, a'r chweched ganrif; ond er pan syrthiodd i ddwylaw y Saraceniaid a'r Tyrciaid, ni welwyd ond golwg wael ar Gristionogaeth, a phob peth arall ynddi. Stancora, neu Lango, y gelwir hi yn awr. Act. 21. 1.

COPA, (cop) *Heb.* גַּף (*gep*), pen, crib, uchedd; y cwr uchaf.—1. Y lle uchaf ar graig, neu fynydd, &c. Barn. 15. 8. Esa. 2. 21. Ezec. 24. 7, 8. a 26. 4, 14. ——2. Pen dyn, neu ei goryn. Ps. 7. 16. a 68. 21.

COPI, *Ffr.* COPIE; *Saes.* COPY: ad-ysgrifen, yr hyn a dynir allan o ysgrifen wreiddiol. Deut. 17. 18. Jos. 8. 32.

COPR, *Llad.* CUPRUM; *Belg.* KOPER; *Teut.* KYPFFER; *Saes.* COPPER: mettel caled, trwm, nesaf at aur ac arian. 2 Tim. 4. 14. Edr. EFYDD.

COPYN—OD, (cop) pryf digon adnabyddus; y mae pedwar math ar hugain o honynt. Rhai o honynt sydd flewog trostynt oll; eraill yn llyfnion. Llawer o'r copynod sydd yn dra gwenwynig, a'u brathiad, er nad yw ond bychan iawn, sy dra pheryglus, ac weithiau yn achos o farwolaeth ddisymwth, yn enwedig y *Tarantula*. Byddant arferol, fel meddyginiaeth i'r rhai a frathwyd, o chwareu rhyw gerddoriaeth i beri iddynt ddawnsio a chwysu y gwenwyn allan. Nid ydyw y brathiad mor wenwynig a hyn ond pan fyddo yr hin yn wresog. Y copynod a ddodwyant rifedi mawr o wyau, weithiau bum cant neu chwech. Y maent yn ddiwyd iawn yn gwneuthur gwëoedd i ddal gwibed, &c., a hyny o ryw lud sydd yn dyfod allan o'u hymysgaroedd eu hunain. Wrth wau eu gwëoedd, medrant daflu eu hunain yn uchel iawn i fynu. Pan ddaliant ysglyfaeth, sugnant ei holl leithder, ac yna gadawant ef yn farw. Meindra eu hedafedd, a thröau cywrain eu gwaith, sy gelfydd iawn. Hyder ac ymgeisiadau cnawdol dynion i'w hachub eu hunain, a gyffelybir i dŷ, neu wëoedd, y pryf copyn, y rhai ni ddaliant yn nydd profedigaeth. Job 8. 14. Esa. 5. 59.

COR—OD, *Heb.* דַּק [*bychan*] nâr, corodyn; sypyn o ddyn; dyn bychan o faintioli, eiddil, dinerth. Un o'r nodau ydoedd yn anaddasu dynion i wasanaeth y bwyd-offrwm dan y gyfraith. Lef. 21. 20. 1 Tim. 3. 2, 3. Gellir gweled wrth hyn, fod yn rhaid i'r gyfraith berffaith gael ufudd-dod perffaith. Rhaid i holl addolwyr a gwasanaethwyr y Duw perffaith, fod yn berffaith o ran egwyddor eu calon; er nad ydynt yn y byd hwn yn berffaith ddilygredd. 1 Ioan 3. 24.

CORAH, [*moel, noethlwm, rhewllyd*] 1. Mab Esau ac Aholibamah, un o dduciaid Edom. Gen. 36. 15, 16.——2. Mab Ishar, mab Cohath, mab Lefi, yr hwn gan fod yn anfoddlon i'r swydd oedd ganddo, fel Lefiad, a chan genfigenu awdurdod Moses ac Aaron, efe yn nghyd â Dathan ac Abiram, meibion Eliab, ac On a Peleth, penaethiaid y Reubeniaid, yn nghyd â 250 o benaethiaid y gynnulleidfa, a gyd-gyfodasant yn erbyn Moses ac Aaron, ac a ddywedasant eu bod yn cymeryd mwy o awdurdod arnynt nag ydoedd yn perthyn iddynt, gan fod yr holl gynnulleidfa yn sanctaidd i'r Arglwydd. Safodd Duw o blaid ei weision, ac a amddiffynodd eu hawdurdod. Dialodd Duw ar y gwyr uchelfrydig hyn am eu hannuwioldeb, trwy beri i'r ddaear ymagor a'u llyncu hwy yn fyw. Num. xvi. 1 Cor. 5. 23—38. Exod. 6. 24. Tebygol fod meibion Corah wedi ffieiddio mawr-frydigrwydd eu tad, ac fe allai iddynt gael achubiaeth wyrthiol rhag eu dyfetha gyd â'r gwrthwynebwyr, ac iddynt gael aros yn eu gorchwyl sanctaidd. Num. 26. 11. Rhai o'u hiliogaeth ydoedd Samuel, Heman, ac eraill o gantorion y deml yn amser Dafydd; ac iddynt hwy y mae un ar ddeg o'r Psalmau gwedi eu traddodi i'w canu gyda cherddoriaeth, sef yr 42, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 84, 85, 87, 88. Yr oedd rhai o honynt yn borthorion i'r deml. 1 Cron. xxvi.

Y mae yr apostol Judas, wrth ddangos cyflwr, a chynneddfau drwg, a barnedigaethau gau-athrawon, yn dywedyd eu bod 'gwedi eu dyfetha yn ngwrthddywediad Corah.' Yr un ysbryd melldigedig o wrthwynebu pob awdurdod, sydd yn mhob gau-athraw hyd heddyw. Er llyncu o'r ddaear Corah, Dathan, ac Abiram, etto yr ydoedd eu hysbryd yn fyw yn y gynnulleidfa dranoeth drachefn, a chlywyd ei waedd ef yn llefain yn erbyn Moses ac Aaron, 'Chwi a laddasoch bobl yr Arglwydd.' Nid 'a'u *dyfethir* yn ngwrthddywediad Corah,' mae yr apostol yn ei ddywedyd, ond 'a'u *dyfethwyd*;' i ddangos bod y ddedfryd gwedi ei rhoddi arnynt yn nedfryd Corah, ac mor sicr ag iddynt hwy, sef Corah a'i lu, gael eu dyfetha, felly y caiff y grwgnachwyr melldigedig hyn eu dyfetha, ac nid yw eu colledigaeth yn hepian. Judas 11. Gellir gosod yr ymadrodd hwn yn mhlith prif ymadroddion cynnwynol, a iaith brophwydoliaethol y Bibl, yr hon yn fynych sydd yn adroddi am bethau sicr o ddyfod i



Digitized by Google

Rufain.' Act. 18. 2. Cyhoeddwyd y gyfraith hon gan Claudius yn erbyn yr Iuddewon, yn ol barn yr amseryddion goreu, yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad, yn cyfateb i A.D. 51. Yr haf y flwyddyn hòno, gellir barnu yn addas i'r apostol ddyfod i Corinth. Wedi dyfod yno, pregethodd yn y synagog bob Sabboth. Ond y rhan fwyaf o'r Iuddewon yn ei wrthwynebu, dywedodd wrthynt, 'O hyn allan mi âf at y Cenedloedd.' Act. 18. 6. Dywed ei fod yn eu mysg mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr: (1 Cor. 2. 3.) ond ymddangosodd yr Arglwydd iddo mewn gweledigaeth, ac a lefarodd wrtho yn neillduol am beidio ofni, eithr llefara ac na thaw, am fod i mi bobl lawer yn y ddinas hon. Mewn ufudd-dod i'r gorchymyn, pregethodd agos i ddwy flynedd, ac a gasglodd yno eglwys flodeuog, yn mha un yr oedd rhai Iuddewon enwog; ond y rhan fwyaf oeddynt genedloedd eilunaddolgar. Yr oedd yr eglwys yn dra lliosog, a chymaint yn ngofal yr apostol fel yr ysgrifenodd ddau o lythyrau maith a rhagorol ati.

Yn fuan gwedi planu eglwys yno gan yr apostol, daeth athrawon eraill i'w plith, yn gosod eu hunain i fynu fel pen areithwyr, ac yn hòni yn fawr eu rhagoroldeb mewn doethineb a gwybodaeth, i'r dyben i leihau ei awdurdod yn eu plith, ac i ddwyn anmharch ar ei weinidogaeth. Trwy y rhai hyn y rhanodd y Corinthiaid yn bleidiau, ac aethant yn ddadleuwyr poethlyd, ac a redasant i lawer o annhrefn a chyfeiliornadau. Ymddengys iddo ysgrifenu ei lythyr cyntaf atynt yn ateb i un a dderbyniodd efe oddi wrthynt. Pen. 7. 1. Yn y seithfed, a rhai o'r pennodau canlynol, y mae yr apostol yn dadrys, ac yn egluro rhai pethau ammheus a dadleuol. yn penderfynu mewn perthynas i ryw drefniadau, yn nghylch pa rai yr oedd y Corinthiaid yn ymgynghori âg ef. Ond er iddynt ysgrifenu ato i ofyn ei gyfarwyddiadau yn nghylch y pethau hyn, etto nid oeddynt wedi rhoddi un crybwylliad yn nghylch y beiau cywilyddus, a'r annhrefniadau yn eu plith: ond cafodd hyfforddiad am y pethau hyn ffordd arall, mwy dirgel. Ysgrifenwyd y llythyr, gan hyny, nid yn unig i ateb eu gofynion hwy trwy lythyr, ond hefyd i wrthwynebu ac i ddiwygio llawer o gyfeiliornadau a llygredigaethau mewn athrawiaeth a dysgyblaeth, i wrthwynebu a dymchwelyd awdurdod y gau athrawon, ac i adsefydlu ei awdurdod ei hun, fel apostol Crist yn yr eglwys. Trwy wirioneddau cyffredinol, y mae, gyda llawer o ddoethineb a medrusrwydd, yn agor y ffordd i wrthwynebiad mwy neillduol o'r annhrefniadau anferth, a'r cyfeiliornadau peryglus yn eu plith, i ba rai yr oeddynt gwedi cael eu llithio. Y mae yn gosod allan wirionedd ac ewyllys Duw mewn perthynas i amrywiol bethau neillduol, gyda llawer o nerth rheswm a bywiogrwydd ymadrodd; y mae yn ateb eu gofynion, a chyda thynerwch a doethineb mawr y mae yn cymysgu annogaethau a chyfarwyddiadau am amrywiol bethau eraill. Er nad ydyw wedi ei ysgrifenu gyd â'r un cysondeb trefn â'r Epistolau at y Rhufeiniaid, a'r Ephesiaid, a'r Colossiaid, etto y mae yn llawn o ddefnyddiau mwyaf pwysig a buddiol. Y mae rhai pethau yn cael traethu am danynt yn fwy arbenig a chyflawn gan yr apostol ynddo, nag yn un rhan arall o'r ysgrythyrau; megys yr adgyfodiad yn pen. xv., ac yn y pennodau o flaen hòno, am y prawf neillduol a rhyfedd a roddwyd o ddwyfoldeb yr efengyl, a osodwyd o flaen y byd yn y cyfraniad helaeth o ddoniau goruwch-naturiol, y rhai yr oedd llawer o'r prif Gristionogion gwedi eu cynysgaeddu â hwynt. Wrth yr hanes a rydd yr apostol am danynt yn achlysurol yn y pennodau hyny, o'r personau yn eu meddiannu; o ddull eu cyfraniad a'u gweithrediad; a'r defnyddioldeb o honynt; yr ydym yn deall eu bod oll yn deilliaw oddiwrth Ysbryd Duw, a'u bod yn dra rhyfedd yn eu gweithrediadau; bod yn mhob eglwys lawer yn gyfranogion o'r doniau hyn, wedi eu derbyn, naill ai trwy arddodiad dwylaw yr apostolion, neu ddylanwad digyfrwng yr Ysbryd Glân; bod y dynion ysbrydol yn arferyd y doniau hyn yn gyhoeddus ger bron yr holl fyd, er cadarnhad yr efengyl; neu yn eu cymanfaoedd er eu hadeiladaeth eu hunain. Yn absennoldeb yr apostolion yr oedd y dynion ysbrydol, trwy y doniau hyn, yn enwedig trwy y doniau i wneuthur gwyrthiau, a llefaru â thafodau, yn dychwelyd llawer; ac yr oedd yn gorfod ar y cenedloedd a ddeuent i'w cymanfaoedd, (fel y gwnai llawer, pen. 14. 24.) dystiolaethu yn wir fod Duw yn eu plith. Fel hyn, er i'r efengyl gael ei gwrthwynebu yn ddirfawr gan wyr mawrion y byd, o bob gradd a sefyllfa, etto yn mhob gwlad, trwy nerthoedd yr Ysbryd Glân, a'r doniau rhyfedd hyn yn mhlith y Cristionogion, gorchfygodd bob gwrthwynebiad, ac ymdaenodd mor effeithiol, nes y dymchwelodd Baganiaeth yn y taleithiau mwyaf poblog a moesgar o ymerodraeth Rhufain. Ond er mor arderchog a rhyfedd oedd y doniau hyn, mae yr apostol yn dangos rhagoriaeth gwir sancteiddrwydd, a gwir gariad at Dduw a dynion, arnynt oll. Y maent yn wahanol yn eu natur a'u buddioldeb; heblaw hyny, nid ydoedd y doniau hyn yn hanfodol i'r wir eglwys, fel yr oedd ffydd, gobaith, a chariad: ond pethau achlysurol oeddynt, ac am hyny nid oeddynt i barhau, ond byddai iddynt ballu a pheidio; ond cariad byth ni chwymp ymaith; y mae yn hanfodol i wir grefydd, yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw. ——Yn pen. xv., rhydd yr apostol yr eglurhad a'r cadarnhad mwyaf helaeth o adgyfodiad Crist, ac adgyfodiad gwir gredinwyr yn y dydd diweddaf, a geir yn yr holl ysgrythyrau: y mae yr apostol yn traethu am yr erthygl fawr hon o'n ffydd gyda neillduol fywiogrwydd, grym ymresymiad, a phriodoldeb eglurhad, yn ogoneddus iawn.

Y mae yn gwbl eglur ysgrifenu yr Epistol Cyntaf gan yr apostol tra yr oedd yn aros yn, neu yn agos i Ephesus (pen. 8. 10. a 16. 15—20.) ac nid hir cyn iddo adael Ephesus. Pa flwyddyn yr ysgrifenwyd ef, nid hawdd yw penderfynu; hwyrach mai yn nghylch A.D. 60, yn ol Mynegai y Bibl yn niwedd yr argraffiad 1746. Er fod rhai yn barnu A.D. 57 yn fwy tebygol. Ysgrifenwyd yr Ail Epistol yn nghylch hanner blwyddyn neu flwyddyn ar ol y cyntaf, o Macedonia. Pan anfonodd ei lythyr cyntaf at eglwys Corinth, yr oedd wedi penderfynu aros yn Ephesus tan ar ol y Pentecost canlynol (1 Cor. 16. 8.) fel y gallai Titus ddychwelyd, yr hwn a ddygodd ei lythyr cyntaf, atynt, a rhoddi hanes iddo pa fath dderbyniad a gafodd. Ond cychwynodd yn gynt na'i fwriad cyntaf o herwydd y cythrwfl a'r erlidigaeth a gododd Demetrius yno. Aeth i Troas, porthladd nodedig i'r gogledd i Ephesus, lle y byddai teithwyr o Ewrop i Asia yn arferol glanio. Yma y pregethodd yr efengyl gyda llwyddiant, ond ni chafodd lonydd yn ei ysbryd, am na chafodd Titus yno yn ol ei ddysgwyliad (2 Cor. 2. 19.) ac am hyny ymadawodd oddi yna, ac a aeth i Macedonia. Yno y daeth Titus ato, ac a'i llonodd yn fawr â newyddion da o Corinth. Gwedi hyn, ysgrifenodd yr apostol ei ail lythyr atynt; ac anfonodd ef, tebygol, gyda Titus a'i gymdeithwyr, yn ddiattreg. Gwedi deall gan Titus wrthddadleuon a rhesymau y blaid wrthwynebol yn ei erbyn, y mae, mewn dull cywrain, yn eu dwyn i mewn yn ei ail lythyr, yn eu gwrthbrofi, ac yn eu troi yn eu herbyn eu hunain, ac mewn gwawdiaith finiog a rhagorol, yn eu gorchuddio â chywilydd, ac yn eu gwneuthur yn ddirmygedig.

Geill yr Epistolau hyn ymddangos i lawer o ddarllenwyr yn llai pwysfawr nag eraill, o herwydd bod cymaint o bethau ynddynt perthynol i amgylchiadau neillduol yr eglwys hòno, a'r wrthblaid ynddi yn

Digitized by Google

erbyn yr apostol; ond y gwir yw, y maent yn fwy addysgiadol o'r achos hwnw; gan fod yr apostol o'r herwydd yn cael achlysuron i roddi llawer o gyfarwyddiadau a rhybyddion yn nghylch amryw o bethau perthynol i amgylchiadau cyffredinol buchedd ac ymarweddiad, y rhai nis gallesid eu traethu mor addas mewn traethodau yn nghylch athrawiaethau a dyledswyddau Cristionogrwydd yn gyffredinol. Er eu bod yn perthyn yn fwyaf i amgylchiadau neillduol eglwys Corinth, etto, y maent yn fuddiol i eglwys Crist yn mhob oes, gan eu bod yn cynnwys pethau pwysfawr, nad ydynt i'w cael mewn un man arall o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Heblaw y pethau a grybwyllwyd yn yr Epistol Cyntaf, y mae yn ei ail lythyr yn coffâu iddo wneyd gwyrthiau yn mhlith y Corinthiaid a chyfranu iddynt ddoniau ysbrydol wedi iddynt gredu: iddo bregethu yr efengyl yn rhad iddynt: iddo ddyoddef llawer o galedi ac erlidigaethau yn ei ymgais i bregethu yr efengyl i'r cenedloedd: (2 Cor. 4. 8. a 11. 23.) iddo gael ei gipio i fynu i'r drydedd nef, a llawer o bethau eraill mewn perthynas iddo ei hun, na buasem yn gwybod am danynt, oni buasai i'r gau athrawon, a'u plaid wrthwynebol yn Corinth, ei annog i'w hadrodd. Ymddengys, yn ei ail lythyr, yn neillduol o hyderus yn naioni ei achos, ac y byddai i Dduw ei gynnorthwyo, a'i ddwyn allan yn fuddugoliaethus trwy y cwbl. Er ei wrthwynebu gan blaid gref a chyfrwys, y mae yn rhyfedd ei glywed yn haeru ac yn hòni yn gadarn ei awdurdod apostolaidd, ac yn brawf o hyny, yn cyfeirio yn hyf at y nerthoedd gwyrthiol a weithredodd ac a gyfranodd yn mhlith y Corinthiaid. Gyda llawer o wylder yn wir, ac addfwynder, etto, gyda hyder diysgog, y mae yn cyhoeddi ei wrthwynebwyr a'i ddirmygwyr eu bod yn genadau Satan, ac yn eu bwgwth â barnedigaethau gwyrthiol, wedi ymdrechu, trwy bob moddion, am adferiad y rhai a hudwyd trwy eu twyll a'u dichellion. Y mae yr apostol yn yr ymrysonfa yn ymddangos yn odidog, yn onest, yn ddiddichell, ac yn ddiammheuol tan ddylanwadau dwyfol, fel apostol Crist. Pe buasai twyll a dichell yn bod, yn y cyfryw amgylchiadau, buasent yn sicr o gael eu dwyn i'r goleu. Ar yr holl Epistol Cyntaf, ysgrifenodd Thomas Morton, W. Sclater, J. Lightfoot, *Horæ Heb.*

CORLAN—AU—U, (côr) defeidtŷ, cauadle; unrhyw le diogel i gadw praidd yn nghyd. Num. 32. 16. Esa. 13. 20.—1. Gwlad y byddo cenedl o bobl yn ei meddiannu, ac yn cyd-drigo ynddi. Jer. 23. 3.——2. Eglwys ac ordinhadau Crist: ei bobl yw ei braidd, yntau ydyw y bugail; yn ei eglwys at ei ordinhadau y maent yn ymgasglu: y maent yn cael mynediad i mewn trwyddo, fel eu drws; yn cael eu dwyn i undeb â'u bugail, ac â'u gilydd ynddo, ac hefyd i gymdeithas felus, adfywiol, a hyfryd, a chyd-orphwys dan amddiffyniad ei allu a'i ffyddlondeb; a gwirionedd ei air a'i gyfraith fel muriau o ddysgyblaeth iddynt. Ioan 10. 1, &c. Bu amser pryd yr oedd yr Iuddewon a'r Cenedloedd mewn dwy wahanol gorlan; ond tynwyd y mur gwahaniaeth o ddefodau ymaith, fel nad oes mwyach ond 'un gorlan, ac un bugail.' Ioan 10. 16. Ezec. 34. 14.——'Saron hefyd fydd yn gorlan defaid, a glyn Achor yn orweddfa gwartheg.' Esa. 65. 10. Arwydd o'r heddwch a'r llawnder a gai yr Iuddewon, sef y deg llwyth, yn eu dychweliad i drigfanau y lleoedd hyny. Barn. 5. 16. 1 Sam. 24. 3. 2 Sam. 7. 8. Ps. 78. 70. 2 Cron. 32. 28. Mic. 2. 12. Hab. 3. 17. Seph. 2. 6.——Y gair *Gr.* αυλη, a gyfieithir *corlan*, a arwydda unrhyw le cauedig, diorchudd; megys cyntedd, cynteddfa. Cyfleithir ef *llys* yn Mat. 26. 69. Marc 14. 66. a 15. 16.—*neuadd*, Luc 22. 55.—*cyntedd*, Dat. 11. 2.

CORN, CYRN, (côr) *Heb.* קרן *Gr.* κερας; *Llad.* Cornu: corn anifel er addurn ac amddiffynfa; corn pori; corn y geg; corn brefant; corn gwddf; corn mwg; corn gwydd aradr; corn du; corn o frethyn, neu wlanen.—'A hi a escorawdd ar ei map cyntaf enit ac y cornawdd ef mewn cadachae.' Luc 2. 7. W. S.

Y mae corn yn arwydd-lun o allu, awdurdod, a gogoniant.—'Cyrn Joseph fel cyrn unicorn,' a arwydda awdurdod a llywodraeth ei hiliogaeth yn llwythau Manasseh ac Ephraim, a fu fawr a galluog iawn. Deut. 33. 17.——Corn Hannah a ddyrchafwyd, pan anrhydeddodd yr Arglwydd hi mor fawr a rhoddi iddi blentyn i fod yn llywodraethwr yn Israel: megys pe dywedasai, fy anrhydedd a'm henwogrwydd yn Israel, yr hwn oedd o'r blaen dan gwmwl, o herwydd fy anffrwythlondeb, sydd yn awr yn ymddangos trwy allu a daioni Duw tu ag ataf, yn fy anrhydeddu â mab. 1 Sam. 2. 1. Ps. 18. 2, 10. a 89. 17.——Duw ydyw corn iachawdwriaeth ei bobl; trwy ei allu a'i awdurdod, ac er mwyn ei ogoniant, y mae efe yn achub ac yn diogelu ei bobl, ac yn gwthio eu gelynion o'u blaen. 2 Sam. 22. 3. Ps. 18. 2.——'Fy nghorn,' medd Dafydd (tebygol yn Mherson y Messïah) hyny yw, nerth a gallu fy nheyrnas, 'a ddyrchefi fel unicorn;' fel nerth y creaduriaid cryfaf, i'r rhai y cyffelybir teyrnasoedd ac ymerodraethau. Ps. 92. 10. — Nerth anorchfygol i gornio a darostwng gelynion. Dan. 7. 8, 11. a 8. 9, 21. Zech. 1. 18. 19, 21. Dat. 17. 12.——'Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro.' Ps. 132. 17. 'Yna,' sef yn Jerusalem, y gwnaf i awdurdod breninol a mawrhydi Dafydd ymestyn yn adnewyddol yn ei lin breninol; mor gynted ag y diffodder un, cynneuir un arall mor oleu ddysglaer ag y byddo yn harddwch i enw fy ngwas eneiniog, hyd oni ymddangoso y Tywysog Mawr, y Messïah, i eistedd ar ei orseddfainc. Yna dyrchefir corn iachawdwriaeth yn nhŷ Dafydd, gwasanaethwr Duw, i ddarostwng holl ymerodraethau y byd, a goresgyn pob gwrthwynebiad, trwy allu tragywyddol ac anorchfygol. Luc 1. 69.——Dafydd yn cael ei eneinio â chornaid o olew, pan nad oedd Saul yn cael ei eneinio ond â phiolaid, a allai fod yn arwyddo helaethrwydd doniau a chadernid llywodraeth Dafydd goruwch Saul. 1 Sam. 10. 1. a 16. 1.

Y mae yr annuwiolion yn 'dyrchafu eu cyrn' pan fyddont yn ymffrostio yn ben-uchel o'u gogoniant, eu gallu, a'u hawdurdod, ac yn bygwth dinystrio eraill. —'Tori eu cyrn,' ydyw cymeryd eu hawdurdod oddi arnynt. Ps. 75. 10. Jer. 48. 25.

'Cyrn yr allor.' Edr. Allor.—'Rhwymo yr aberth â rhaffau hyd wrth gyrn yr allor.' Ps. 118. 27. Nid ydym yn cael y geiriau hyn yn y gyfraith, ac ni chawn fod y fath arferiad ganddynt a rhwymo yr aberth wrth gyrn yr allor; gan hyny y mae yn o sicr y dylid deall yn y geiriau *ellipsis*, hyny yw, fod gair wedi ei adael allan ynddynt, yr hwn a ddylid ei chwanegu, megys y mae yn y Caldaeg: 'Rhwymwch ef â rheffynau hyd oni offrymoch ef; a thywalltwch ei waed ar gyrn yr allor.' Gwel Ainsworth a Hammond ar y Psalmau.

Yr ydoedd y corn yn offeryn y byddid yn chwythu ynddo mewn rhyfel. Josuah oedd yn gorchymyn i'r bobl, pan oeddynt wrth Jericho, floeddio pan glywent ganu yn hir-llaes â chorn yr hwrdd; ac felly y bu, hyd oni syrthiodd mur y ddinas. Jos. 6. 5, 18, 20. Edr. Udgorn.

CORN DU, corn i ddal du, neu inc ysgrifenu. Ezeciel, yn ei weledigaeth, oedd yn gweled gwr â chorn du ysgrifenydd wrth ei glun, i nodi nôd ar y dynion oedd yn ocheneidio ac yn gwaeddi am yr anwiredd a wneid yn y ddinas. Arferiad cyffredin yn mhlith pobl y dwyrain oedd dwyn eu corn du wrth eu cluniau; ac felly y mae yr ysgrifenyddion yn ngwlad y Tyrciaid hyd heddyw. Parodrwydd Crist

Digitized by Google

i nodi a gwaredu ei bobl yn nghanol trallod ac adfyd cyffredinol, sydd yn ymddangos wrth y gwr â'r corn du wrth ei glun. Ezec. 9. 2, 3, 11.

CORNCHWIGL—OD, (corn-chwig) cornicell; un o'r adar a gyfrifid yn aflan wrth y gyfraith, ac sydd at faintioli y gogfran. Ei gylfin sydd hirfain, du, a lled gam. Y mae ganddo siobyn o blu ar ei ben, yr hwn y bydd yn ei godi ac yn ei ostwng wrth ei achlysur. Ei goesau sydd lwydion a go fyrion; ei wddf a'i ddwyfron sy led goch; ei esgyll a'i gynffon yn dduon, gyda rhesau gwynion ynddynt: ei esgyll yn lled grynion yn y blaenau: ei ehediad sy led araf. Nid ydynt i'w gweled yn y gwledydd gogleddol ond am o gylch tri mis yn y flwyddyn: tebygol eu bod yn symud i ryw barthau cynhesach i dreulio y rhan arall. Y gornchwigl sydd hardd-deg luniaidd o gorph a lliw; ond ei lais sy grug ac anmheraidd. Byddant yn nythu yn gyffredin mewn rhosydd grugog, cwmydd corsog, neu forfëydd brwynog. Hynod ydyw eu cyfrwysdra yn twyll-hudo dynion, cŵn, &c., ymaith oddiwrth eu nythod. Lef. 11. 19. Deut. 14. 18. *Heb.* דוכיפת (*duchipath*). Bochart a Parkhurst a farnant mai yr aderyn Upupa, Hoopæ, neu Hoop, a feddylir wrth y gair Hebraeg. Gwel Bochart, *vol.* iii. Math o adar tra hardd, ond aflan iawn. Ceir hwynt yn amryw barthau o Ewrop, yr Aipht, ac ynys Ceylon. Y maent yn aml yn ymweled â'n hynys ninnau, ond nid mewn tymhorau sefydlog, ac nid ydynt yn hilio yma. Tebygol iddynt gael yr enw oddiwrth y sŵn a wnant. Gwel Ray, Pennant, Brooks.

CORNELIUS, [*pelydr yr haul*] canwriad Rhufeinig o'r fyddin a elwid yr Italaidd, yn trigo yn Cesarea. Er mai ethnig, neu genedl-ddyn, o darddiad oedd Cornelius, etto yr oedd yn 'ŵr defosiynol, ac yn ofni Duw, ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, ac yn gweddïo Duw yn wastadol;' fel y daeth ei weddïau a'i elusenau 'yn goffadwriaeth ger bron Duw.' Gorchymynodd Duw, trwy ei angel, iddo gyrchu Simon Petr, yr hwn a'i cyfarwyddai, yn nghyd â'i holl dŷ, yn mhellach yn nhrefn yr iechydwriaeth. Efe a ddychwelwyd yn Gristion tra enwog a rhagorol. Act. 10. 1, &c. Dywedir fod gweddïau ac elusenau Cornelius wedi dyfod yn 'goffadwriaeth ger bron Duw;' hyny yw, y maent wedi cael derbyniad fel ffrwythau ac effeithiau ffydd a chariad, yn ol yr ychydig oleuni oedd ganddo. Y geiriau hyn ydynt yn cyfeirio at arian y cymmod, a'r rhan o'r bwyd-offrwm a losgid ar yr allor, a'r thus a ddodid ar y bara gosod, yr hwn a elwid yn *goffadwriaeth*; yr oeddynt megys pe buasent yn dwyn ar gôf i Dduw ei gyfammod â'i bobl, a'r trugareddau angenrheidiol iddynt; ac yn dwyn Iesu ar gôf iddynt hwythau, megys offrwm ac iawn, ac eiriolwr drostynt. Exod. 30. 16. Lef. 2. 2. a 24. 7. Gwel hefyd Ps. 30. 3. a 141. 2. Heb. 13. 16. Dat. 8. 3. Diammeu fod Cornelius wedi ei addysgu yn y wybodaeth o'r gwir Dduw yn gywir; ac yr oedd yn ei ofni, sef yn ei barchu ac yn ei addoli: gan hyny y mae yn rhaid ei fod yn adnabyddus o'r dadguddiad dwyfol o'r gwir Dduw, a threfn yr iechydwriaeth yn mhlith yr Iuddewon. Gwyddai am Fessiah, am Waredwr i ddyfod; ond nis gwyddai mai Iesu o Nazareth oedd y Messiah hwnw, nes yr hysbyswyd hyny iddo gan Petr. Yr oedd ganddo ffydd fywiol, wirioneddol; ond ffydd yr hen oruchwyliaeth, ac nid ffydd y Testament Newydd, ydoedd; sef mewn Messiah i ddyfod, ac nid mewn Messiah wedi dyfod, wedi gorphen ei waith, a myned i'w ogoniant.

CORNEL—AU—U, (corn) congl, lle dirgel; gwthio neu gasglu i gongl.—'Ni chornelir dy athrawon mwy.' Esa. 30. 20. Hyny yw, ni bydd y fath brinder o honynt ag a fu o'r blaen, pan oeddynt yn cael eu herlid a'u gyru i gonglau.

CORNET. *Llad.* Cornu; *Ital.* Cornetto: corn chwythu, neu leisio; offeryn wedi ei wneyd o gorn, neu y cyffelyb, i seinio mewn rhyfel, neu mewn cysegr-wyliau. Dan. 3. 5, 7, 10. Y mae y *corn*, yn Hos. 5. 8. yn cael ei gyfieithu *cornet*, yn y Bibl Saesonaeg.

CORNIO, hwylio, gwthio ymaith â chyrn. Edr. Corn. Exod. 21. 29. Deut. 33. 17. 1 Bren. 22. 11. Ezec. 34. 21. Dan. 8. 4. a 11. 40.

CORNIOG, â chyrn iddo. Ps. 69. 31.

CORNWYD—YDD, (corn-gwyd) gweli, llynor, gweli crawnllyd; math o afiechyd blin. Dolur poenus, yn gwynio ac yn poethi yn erwin, ydyw. Exod. 9. 9, 10, 11. Lef. 13. 18, 19. Deut. 28. 27, 35. Job 2. 7. Esa. 38. 21. 2 Bren. 20. 7.—Y gair *Gr.* ἑλκος, a gyfieithir *cornwyd*, a arwydda rhyw hen ddolur crawnllyd, a fyddo naill ai wedi ei wneuthur yn friw, neu archoll, ai o ryw godiad chwysigenod. Luc 16. 20, 21. Dat. 16. 11.—Yr un ystyr sydd i'r gair *Heb.* פצע ac y mae yn cael ei gyfieithu weithiau *ysigdod*, weithiau *archoll*. Exod. 21. 25. Deut. 23. 1 1 Bren. 20. 37. Can. 5. 7.

CORON—AU—I, *Heb.* קרן *Llad.* Cornu, Corona; *Saes.* Crown: talaith.—1. Rhyw addurn crwn a wisgir ar y pen gan freninoedd, &c., i arwyddo mawrhydi ac awdurdod breninol, neu ymerodrol. 1 Cron. 20. 2. Mewn cyfatebiad i hyn y rhoddwyd y goron ddrain ar ben ein Hiachawdwr bendigedig. Mat. 27. 23. Marc 15. 17. Ioan 19. 5. Diammeu fod yr Iuddewon am ychwanegu creulonder at eu dirmyg, ac onidê, buasai coron o wellt yn gwneuthur y tro, o ran gwawd, cystal a choron o ddrain: ac hefyd yr oedd yn rhaid i Grist ddyoddef cosp y felldith ddyledus am bechod, a drain oeddynt ffrwythau y felldith.——2. Mewn ystyr cyffelybiaethol, arwydda anrhydedd a gogoniant. Job 19. 9. Galar. 5. 16. Dat. 4. 10.——3. Awdurdod helaeth a buddugoliaeth. Dat. 19. 12. a 4. 4.——Y mae Paul yn galw y Philippiaid yn llawenydd ac yn goron iddo: hyny yw, yr oeddynt yn anrhydedd, yn ogoniant, ac yn addurn i'w weinidogaeth, trwy yr hon, fel moddion, yr oeddynt wedi cael eu dychwelyd at Grist. Phil. 4. 1. Gwel hefyd 1 Thes. 2. 19, 20.

Yr oedd coron o aur oddi amgylch yr allor aur, bwrdd y bara gosod, a'r drugareddfa, i ddangos fod Crist, yr hwn yr oeddynt oll yn ei gysgodi, yn goronog, yn ogoneddus, ac wedi ei wisgo âg awdurdod goruchel yn ei swydd, a'i holl waith cyfryngol. Yr oedd coron sanctaidd hefyd ar ben Aaron yr arch-offeiriad, i arwyddo gogoniant, awdurdod, ac effeithioldeb offeiriadaeth Crist tros ei bobl. Exod. 25. 11, 25. a 29. 6, 30. Lef. 8. 9. a 21. 12.

Rhai a dybiant fod arferiad yn mhlith yr Iuddewon o wisgo priodas-fab a phriodas-ferch â choron-bleth o flodau, &c., ar ddydd eu dyweddi, neu eu priodas; ac mai at hyny y cyfeiria y geiriau yn Nghaniad Solomon, 'Ewch allan, merched Sion, ac edrychwch ar y brenin Solomon yn y goron â'r hon y coronodd ei fam ef, yn ei ddydd dyweddi ef, ac yn nydd llawenydd ei galon ef.' Can. 3. 11. Tybygid mai at yr arferiad hwn y mae y prophwyd Ezeciel yn cyfeirio yn pen. 16. 12. lle y sonir am y goron hardd a roddwyd i'r Iuddewon yn eu priodas o gyfammod gwladol â Duw; sef eu cyfoeth a'u henwogrwydd anrhydeddus, a'u trefnusrwydd mewn llywodraeth wladol ac eglwysig: am yr hyn y maent yn galaru, gwedi ei golli trwy gaethiwed Babilon, gan waeddi, 'Syrthiodd y goron oddi am ein pen: gwae ni yn awr bechu o honom.' Galar. 5. 16.—Y mae Solomon yma, fel mewn lleoedd eraill, yn gysgod o Grist; a gogoniant ei goroniad ef, yn gosod allan ogoniant hysbysol Crist, yr hwn y mae yn ei gael oddiwrth ei eglwys.—Yr hen ddefod o

Digitized by Google

goroni y pleidiau ammodus wrth briodi a arferir etto yn Eglwys Groeg. 'Yr ail ddefod,' medd y Dr. King, 'yr hyn a elwir yn fwyaf neillduol yn briodas, a elwir y swydd o *goroniad priodasol*, oddiwrth y ddefod neillduol ynddi o goroni y pleidiau. Gynt y coronau hyn fyddent o flodau, prysgenau, neu ddail gwyrddleision: ond y mae ganddynt yn gyffredinol yn mhob eglwys goronau *arian* i'r dyben hwnw.' Gwel Dr. King's *Rites, &c., of the Greek Church in Russia.* Dywed y Dr. Russel hefyd, fod y ddefod o goroni y pleidiau priodasol wrth briodi yn arferedig yn mhlith y Maronitiaid yn Syria. Gwel Dr. Russel's *Natural History of Aleppo.*

'Diau y dygwn ef ar fy ysgwydd, a rhwymwn ef yn lle coron i mi.' Job 31. 36. Er mor wahanol ac anghyffelyb i'n defodau ni yw rhwymo ysgrifen am y pen, etto rhoddir hanes am y cyfryw ddefod yn y dwyrain, yn arferedig yn ein dyddiau ni. Pan fyddo llywodraethwr dan yr ymerawdwr, y *Great Mogul*, yn derbyn llythyrau oddiwrth ei feistr, y fynyd y gwelo y llythyr-gôd, disgyna oddiar ei farch, a syrthia yn gorchreiniol ar y ddaear; gwedi hyny, cymer y llythyr-gôd oddiwrth y genad, ac a'i *rhwyma yn ddiogel am ei ben*, ac yn dychwelyd i'r ystafell y bydd yn arferol o wneuthur negesau, y mae yn ei ddarllen, ac yn ei ateb yn y fan.——Gellir dywedyd fod i'r Arglwydd Iesu goron, neu ogoniant, pedwar-plyg:—1. Fel Duw o'r un hanfod a'r Tad. Heb. 1. 2, 3.——2. Mae iddo goron fel Cyfryngwr, o ran yr awdurdod a'r gallu sydd ganddo i gyflawni ei holl swyddau.——3. Yn yr eglurhad o'i ogoniant yn nghyflawniad ei swyddau: yn neillduol, yn nychweliad ei bobl ato, trwy wialen ei nerth, sef yr efengyl.——4. Mae efe yn cael ei goroni pan fyddo ei bobl yn cael ei nerthu â gras i'w ogoneddu: nid fel pe baent yn ychwanegu dim at ei ogoniant hanfodol ac anfeidrol ef, ond trwy gydnabod ei fod ef felly, yn neillduol trwy ei gydnabod ef yn ei gyfoeth o ras. Esa. 62. 1, 5. 2 Cor. 11. 2. Luc 24. 26. Ioan 17. 24.

Y mae amryw fanau yn y Testament Newydd yn cyfeirio at y gwobrau a roddid i orchfygwyr gorchestol yn nghampau y Groegiaid. Yn y chwareuyddiaethau hyn, byddid yn arfer anrhydeddu ennillwr y campau â choron-blêth o flodau, neu ryw ddail gwyrddleision, megys y llawryf, &c. At hyn y mae yr apostol Paul yn cyfeirio, pan y mae yn dywedyd, 'fod pob un a'r sydd yn ymdrechu, yn ymgadw yn mhob peth:—fel y derbyniont goron lygredig,' a fydd yn gwywo ac yn diflanu yn fuan. 1 Cor. 9. 25. Mewn cyferbyniad i hyn y dywed yr apostol Petr, y derbyn y saint 'anniflanedig goron y gogoniant;' sef y cyfryw goron ag sydd wedi ei gwneuthur, nid o ddefnyddiau llygredig, eithr anllygredig. 1 Petr 5. 4. Hon yw coron y bywyd y mae Iago yn sôn am dano, yn wyneb coron lygredig, farwol, ddiflanedig, yr ymdrechwyr. Iago 1. 12. Dat. 2. 10. Hon yw coron cyfiawnder, yr hon a rydd y Barnwr mawr yn yr ymdrechfa ysbrydol, yn nydd y gwobrwy. 2 Tim. 4. 8. Cyfeirio at y goron hon y mae Paul, pan y dywed ei fod 'yn cyrchu at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu.' Phil. 3. 14. Rhag bod yn faith, cymhared y darllenydd y testynau canlynol, y rhai, tybygid, sydd yn cyfeirio at y campau a'r gwobrau; yn gystal eu hymdrechiadau a'u gyrfaoedd. 2 Tim. 2. 5. Heb. 10. 32. 1 Tim. 6. 12. 2 Tim. 4. 7. Heb. 12. 1, 2. Rhuf. 9. 30, 31. 1 Cor. 9. 24, &c. Edr. CAMP, GALWEDIGAETH.

Y mae ar ben yr eglwys 'goron o ddeuddeg seren;' sef athrawiaethau gogoneddus y deuddeg apostol, y rhai y mae yn eu gwisgo, sef yn eu proffesu a'u dangos i eraill, fel ei harddwch a'i gogoniant, ac ydynt arwyddion amlwg o'i hundeb priodasol â Christ, a'i chyflwr breninol yn ganlynol i hyny. Dat. 12. 1. —Y mae y saint 'yn bwrw eu coronau' o flaen gorsedd-faine Duw; y maent yn dibrisio eu hunain o'u holl wychder a'u gogoniant, mewn cymhariaeth iddo ef, gan briodoli eu holl gynnaliaeth, eu sancteiddrwydd, a'u dedwyddwch i Dduw yn Nghrist. Dat. 4. 10.——'Gwraig rymus,' neu, yn ol y cyfieithiad Saesonaeg, *gwraig rinweddol*, 'sydd goron i'w gwr.' Diar. 12. 4. a 31. 10.—Felly y mae plant yn goron i'w rhïeni. Diar. 17. 6.——'Coron anrhydeddus yw penllwydni;' sef arwydd anrhydeddus o ddoethineb ac awdurdod. Diar. 17. 6. a 20. 29.——Cyfoeth sydd goron i'r doethion, fel y mae yn ennill iddynt, ac yn eu gosod allan yn anrhydeddus. Diar. 14. 24. Mae anrhydedd, cyfoeth, ac awdurdod, yn cael eu galw yn goron. Diar. 17. 6. a 27. 24. a 4. 9. Exod. 25. 11, 25. a 29. 6. a 39. 30. Lef. 8. 9. a 21. 12. 2 Sam. 1. 10. Esth. 6. 8. Job 19. 9. a 29. 14. a 31. 36. Ps. 21. 3. a 89. 39. a 132. 18. Esa. 28. 1, 3, 5. a 62. 3. Zech. 9. 16. Dat. 3. 11. a 12. 1. a xiii.——Coroni yw, 1. Rhoddi coron ar ben un. 1 Bren. 16. 16. 2 Tim. 2. 5.——2. Amddiffyn, cyfoethogi, anrhydeddu. Ps. 5. 12. a 8. 5. Heb. 2. 7, 9. Ps. 65. 11. a 103. 4. Diar. 14. 18.——Rhai coronog Assyria oeddynt fel locustiaid; eu tywysogion a'u gwyr mawrion oeddynt yn dra lliosog. Nah. 3. 17.——Tyrus hefyd a elwir yn ddinas goronog; o herwydd ei llywodraeth freninol, ei gogoniant, ei hawdurdod, a'i chyfoeth goruwch eraill. Esa. 23. 8.

CORPH, CYRPH, *Heb.* גוף *Llad.* CORPUS: sylwedd cyfansawdd, cyfrwymol, cyd-gysylltiadol; yr hyn sydd naill ai anianol neu ysbrydol.——Mewn perthynas i gorph dyn, y mae pedwar peth yn neillduol i sylwi arnynt.—1. Cyffelybrwydd hollol y ddwy ystlys i'w gilydd; y llaw ddehau yn ateb i'r aswy, y naill lygad i'r llall, y naill ochr y wyneb i'r llall, a hyny i'r manylrwydd mwyaf—i eilfyddu pa un yw un o anhawsderau mwyaf celfyddwyr delwau. Y mae y ddau lygad yn gyffredinol yn ateb i'w gilydd yn gwbl; ac ni chyfateb yr un o honynt ond i'w gymhar, pe cymharech ef â deng mil o rai eraill. Y mae y tebygolrwydd hwn yn dibynu ar lawer o amrywiol bethau; megys llun, lliw, gosodiad, &c. Felly y cyfateb dwy aden aderyn i'w gilydd; ac er nad oes tebygolrwydd rhwng dwy goes gwrachod y lludw o'r un ochr, etto cyfateb pob un i'w chymhar.——2. Byrniad y cwbl. Nid oes dim yn fwy rhyfedd, pan ystyriom yr holl lestri perthynol iddo, a'r gwaith cywrain i'w gyflawni gan bob un, ac mor hanfodol ydynt i fywyd dyn; pe pallai gwaith un o honynt am yr yspaid lleiaf o amser, byddai farw yn y fan; ac etto, er mor aml, mor dyner, mor feddal, mor ddyrysedig, ac yn gweithredu yn wastad er cynnal bywyd, y mae y cwbl wedi eu byrnio yn y fath fodd gyd â'u gilydd, fel nad yw un yn rhwystro y llall mewn un gradd. Y mae yr holl lestri yn cydweithio, er bod eu gwaith yn gwbl wahanol, yn ddirwystr, yn y galon, y gwythïenau, y rhedweli, y cylla, yr ysgyfaint, y coluddion, yr afu, yr arenau, &c y cwbl yn gynnwysedig o fewn cwmpas bychan, yn gweithio yn ddyfal bob mynyd, a gwaith pob un yn angenrheidiol, etto pob un yn myned yn mlaen â'i waith yn mhob ystum a ddichon fod ar y corph—gwedi eu byrnio, a'u gosod, a'u sicrhau, gan y celfyddwr cywrain i ateb i hyn. Edr. COLUDDION——3. Priodoledd arall yn perthyn i gorph dyn ydyw ei *harddwch*. Pan ystyrir amrywiol ranau a defnyddiau y corph, nis gellir lai na rhyfeddu fod ei ymddangosiad mor hardd; y maent gwedi eu cyfansoddi, eu haddasu, eu gosod mor gyfatebol i'w gilydd, a'u harwisgo mor geinwych, fel y mae ymddangosiad y cwbl yn neillduol o hardd, parchus, a dymunol.——4. Y mae galluogrwydd y corph i *sefyll* yn hynod i sylwi arno, yn enwedig pan yr ystyrir mor fychan ydyw y gosail y mae yn gorphwyso arno. Rhoddwch

Digitized by Google

ddelw dyn i orphwys ar ei gwadn, ni saif hanner awr heb gynnaliaeth; rhaid ei sicrhau âg attaliadau, ac onidê yr awel leiaf o wynt a'i teifl i lawr. Ond am gorph dyn byw, y mae yn cael ei gynnal yn rhyfedd, trwy weithrediadau naturiol, agos yn mantoli yn barhaus. Plentyn bach yn dysgu cerdded, hwyrach, yw y mantolwr goreu yn y byd.

Ymddengys, yn eglur, fod uchder a lled y corph yn wahanol, yn ngwahanol ranau o'r dydd: y mae yngbylch modfedd yn fwy y boreu na'r nos. Y mae y corph yn darfod tyfu pan y byddo yr esgyrn mor galed fel nad estynant yn hŵy trwy egnïad y galon, ac ysgogiadau y gwaed. Gwel y Dr. Paley's *Natural Theology*.

Corph dyn, yn ei gyflwr presennol, a elwir yn gorph anianol; o herwydd ei ffurfio yn ol anian, o gig, gwaed, gïau, ac esgyrn, &c. A chan mai yn ol anian lygredig y ffurfiwyd, neu y cenedlwyd ef, y mae efe yn ddarostynedig i farwolaeth, pydredd, a llygredigaeth; canys ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw. Gelwir ef yn gorph anianol hefyd, mewn gwrthwahaniaeth oddiwrth gorph ysbrydol, yr hwn a geir yn adgyfodiad y meirw. Edr. ADGYFODIAD.

Y mae corph hefyd yn cael ei roddi mewn cyferbyniad i gysgod. Fel y dywed yr apostol am ddefodau y gyfraith, mai cysgod pethau i ddyfod oeddynt, ond fod y corph o Grist. Col. 2. 17. Heb. 8. 5. a 10. 1. ——Yr ydym yn darllen yn Col. 1. 22. am gorph cnawd Crist, hwnw oedd y corph y dywedodd efe am dano, 'Hwn yw fy nghorph yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch.' Y corph a ddodwyd yn medd newydd Joseph o Arimathea, yr hwn ni welodd lygredigaeth. Hwn yw y corph a gymhwyswyd, neu a ddarparwyd iddo yn mru y wyryf, trwy ryfeddol weithrediad yr Ysbryd Glân—y corph a gynnyddodd mewn maintioli—y corph y poerwyd arno, a fflangellwyd, a hoeliwyd wrth y groes, a wanwyd â gwaywffon, ac a dynwyd yn ddifywyd i lawr oddiar y pren; ïe, hwn yw y corph a gyfododd o'r bedd ar foreu y trydydd dydd, yn yr hwn yr esgynodd i'r nefoedd; ac er mwyn sicrhau i'w ddysgyblion mai ei gorph sylweddol ydoedd, dywedodd wrthynt, 'Teimlwch fi, a gwelwch; canys nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod genyf fi.' Luc 24. 39. Gwel Mat. 26. 16. 1 Cor. 11. 24. Marc 15. 43. Luc 23. 52. Ioan 19. 40. a 20. 12. 1 Cor. 10. 16. a 11. 29. Heb. 10. 5, 10. 1 Petr 2. 24. Ni bu corph Crist erioed ond mewn un man ar unwaith. Mae yn rhaid i *gorph* fod mewn rhyw *fan;* a'r hyn ag sydd mewn mwy nag un man ar unwaith, rhaid mai Ysbryd Dwyfol ydyw. Yr oedd corph Crist, sef sylwedd ei natur ddynol, yn absennol o'r nefoedd pan oedd efe yma ar y ddaear; ac hefyd, pan esgynodd i'r nefoedd, gadawodd y ddaear, ac nid oedd yma mwy: eithr o ran ei Dduwdod anfeidrol, ni adawodd efe y nefoedd pan y disgynodd i'r ddaear, nac ychwaith ni adawodd efe y ddaear pan yr esgynodd i'r nefoedd; oblegid ei fod yn Holl-bresennol, yn llenwi pob man ar unwaith.

Y mae gan Grist gorph arall yn cael sôn am dano, sef ei eglwys, ei gorph dirgeledig, ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll. Eph. 1. 23. a 4. 12. Megys y parodd Duw i drwm-gwsg syrthio ar Adda, ac y cymerodd un o'i asenau, ac a'i gwnaeth yn wraig iddo, ac y dywed Adda ei bod yn asgwrn o'i esgyrn, ac yn gnawd o'i gnawd; felly pan syrthiodd trwm-gwsg marwolaeth ar Iesu, yr ail Adda, ar y groes, ffurfiwyd ei eglwys o'i gorph ef, i fod yn ddyweddi iddo yn dragywydd: 'Oblegid aelodau ydym,' medd Paul, 'o'i gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef.' Gen. 2. 21—23. Eph. 5. 30. 'Efe,' sef Crist, 'yw pen corph yr eglwys.' Col. 1. 18. Fel y mae undeb rhwng y pen a'r aelodau, felly y mae undeb rhwng Crist a'i eglwys. Fel mae y corph yn derbyn lluniaeth trwy y pen, felly mae corph yr eglwys yn derbyn ei holl gynnaliaeth ysbrydol trwy Grist, ei phen. Megys y mae yr un anian yn y pen a'r corph, a'r un gwaed yn rhedeg trwyddynt, gan fod y gwddf yn eu cysylltu â'u gilydd; felly y mae yr un anian ysbrydol, sanctaidd, a chyflawn, yn nghorph eglwys Crist, ag sydd ynddo ef ei phen; gan eu bod gwedi eu huno â'u gilydd trwy ffydd; oblegid mai o'i gyflawnder ef y mae corph yr eglwys yn derbyn, a gras am ras. Col. 2. 19. 1 Cor. xii. hyd xv. Eph. 2. 16. a 3. 6. a 4. 4, 12. a 5. 23. Rhuf. 12. 5.—Dywedir fod y Cenedloedd yn gyd-etifeddion ac yn gyd-gorph; hyny yw, y mae iddynt y gymdeithas agosaf â'r Iuddewon, yn Nghrist Iesu; y maent yn cael eu dwyn, trwy gredu yn Iesu Grist, nid yn unig yn blant i'r un Tad, ac yn gyd-etifeddion o'r un etifeddiaeth nefol, ond yn aelodau o'r un a'r unrhyw gorph dirgeledig. Eph. 2. 16. a 3. 6.——'Corph pechod,' a 'chorph y farwolaeth.' Y mae pechod yn debyg i gorph, a chanddo aelodau lawer, sef chwantau yn nglyn wrtho; y mae yn beth marwol, yn haeddu, ac yn arwain i farwolaeth, y cyfryw ag a'u gwasanaethant. 'Cyflog pechod yw marwolaeth.' Rhuf. 6. 6, 23. a 7. 24.

'Iawn farnu corph yr Arglwydd:' 1 Cor. 11. 29. gwneuthur gwahaniaeth rhwng y bara a'r gwin yn Swper yr Arglwydd, a bara a gwin cyffredin. Y mae dwy ran mewn sacrament; un yn allanol, sef yr elfenau yn cael eu gosod allan i synwyrau y corph; a'r llall yn ysprydol, yn cael ei gosod allan i gynneddfau yr enaid: o'r olaf y mae dyn anianol yn amddifad; oblegid â'r elfenau yn unig y mae a wnelo efe, am nad oes ganddo ffydd i ganfod ac i farnu dyben marwolaeth Crist, trwy doriad y bara, a thywalltiad y gwin, yn yr ordinhad sanctaidd. 1 Cor. 11. 29.—'Cymerwch, bwytewch: hwn yw fy nghorph.' Mat. 26. 26. Ymadroddion sacramentaidd ydyw y rhai hyn, lle rhoddir yr arwydd dros yr hyn sydd yn cael ei arwyddo; megys y mae enwaediad yn cael ei alw yn gyfammod. Gen. 17. 10. A'r oen yn cael ei alw yn basc. Exod. 12. 11, &c. 1 Cor. 10. 16. Edr. SWPER.——'Corph y nefoedd o ddysgleirdeb.' Exod. 24. 10. Wyneb eglurdeg y ffurfafen, gloywlas-wybr heb gymylau.

Enwaediad ysbrydol a elwir 'dyosg corph pechodau y cnawd,' o herwydd ei fod yn gynnwysedig mewn marweiddio llygredigaeth natur, ac ymwrthod â'r dull pechadurus o fyw ag y buwyd yn ymhyfrydu ynddo o'r blaen. Col. 2. 11. a 3. 8, 9. Rhuf. 6. 4.——Y mae y godinebwr 'yn pechu yn erbyn ei gorph ei hun:' nid yn unig am fod y corph yn offerynol yn y pechod o odineb, megys mewn rhyw bechodau eraill, eithr yn wrthddrych iddo; yn gymaint a bod gan bechodau eraill wrthddrychau oddi allan, y rhai a gam-arferir; megys y mae y lleidr yn niweidio, neu yn cam-arfer eiddo eraill; y meddwyn, ddiodydd; y glwth, fwydydd, &c., a'r lleiddiad, berson dyn arall: ond y mae y godinebwr yn cam-arfer, ac yn niweidio ei gorph ei hun. 1 Cor. 6. 16.

'Aderyn y corph.' Lef. 11. 17. Deut. 14. 16. *Great owl. Saes. Heb.* כוס Math o aderyn aflan yn ol cyfraith Moses; a elwir כוס *gorchuddio, cuddio,* oddiwrth ei waith yn ymguddio o olwg dynion y dydd, ac yn dyfod allan y nos. Cyfieithir yr un gair *dylluan,* yn Ps. 102. 7. Tebygol mai math o adar ydynt anhysbys yn ein gwledydd ni.

CORPHOL—OROL, (corp) corph-fawr, mawr ei faint. Num. 13. 32. 2 Sam. 21. 20. Disgynodd yr Ysbryd Glân mewn rhith corphorol ar Iesu Grist, pan fedyddiwyd ef. Luc 3. 22.——Y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol yn Mherson y Cyfryngwr. Y mae holl hanfod a phriodoliaethau y Duwdod mewn undeb sylweddol a thragywyddol â'r natur ddynol yn mherson y Mab. Y mae holl gyflawnder y Duwdod yn Mherson Crist: nid fel pe pai y dyndod meidrol yn gallu cynnwys

Digitized by Google

y Duwdod anfeidrol; ond trwy ryw ryfeddol a sylweddol undeb. Y mae pob cyflawnder ynddo yn *gorphorol*, yn gyfatebol i *gysgodau* y gyfraith. Yn *hanfodol* neu *sylweddol* (fel y mae meddwl mwyaf priodol y geiriau) mewn cyferbyniad i ddynion ac angelion, y rhai a dderbyniant eu holl ddoniau o'i gyflawnder ef; ond nid ydyw yn preswylio yn neb, yn gorphorol, ond yn Nghrist. Col. 2. 9.——'I ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol.' 1 Tim. 4. 8. Hyny yw, ychydig ddyben y mae ymarfer corphorol yn ei ateb; neu, tros ychydig amser y mae buddioldeb mewn dim o ymarferiadau y corph mewn crefydd.

CORPHOLAETH—AU, (corphol) personolaeth, ansodwedd, ansodoldeb. 1 Sam. 16. 7. Luc 2. 52. a 19. 3.—'Gwae y gwnïadyddesau, y rhai a weithiant foledau am ben pob corpholaeth.' Ezec. 13. 18. Hyny yw, rhai o bob maintioli, mawrion neu fychain. Yr oedd y gau brophwydi yn cymhwyso eu prophwydoliaethau gwenieithus at dymherau a thueddiadau pob math o ddynion, mawrion a bychain, uchelradd ac iselradd; fel y gallent wneuthur ysglyfaeth o honynt. Neu, hwyrach, y meddylir delwau o bob maintioli.

CORS—YDD, (cor) lleithle, dyfrlle; lle morfäog. Ezec. 47. 11. Y mae y gair *Heb.* נבים yr hwn a gyfieithir *corsydd*, yn Ezec. 47. 11. yn y rhif unigol, yn cael ei gyfieithu *ffos*, yn Esa. 30. 14. Corsydd yr afon yw rhyw leoedd diffrwyth, yn agos iddi, ac heb gael dim llesâd oddi wrthi; yn arwyddo rhyw wrandawyr gwael, sydd yn treulio eu dyddiau yn agos i redegfa afon iechydwriaeth heb gyfnewidiad cyflwr.

CORSEN—AU—U—I, CORSI, (cors) yr hyn a dŷf mewn cors, corswellt, corsgawn; gwellt neu baladr ŷd; addfedu, neu ŷd yn corsenu.—'Neu golosgiad ŷd cyn corsi.' Esa. 37. 27. Dr. M. Gen. 41. 5, 22. Yr oedd amryw fath o honynt yn yr Aipht, ac yn ngwlad Canaan, &c. Yr oedd rhai o honynt yn cael eu harfer yn ffyn, er, tybygid, mai ffyn go siomedig oeddynt. 2 Bren. 18. 21. Esa. 36. 6. Dat. 11. 1. a 21. 15.—Ffon gorsen a roddwyd yn llaw ein Hiachawdwr, mewn ffordd o wawd, yn lle teyrnwïalen; ar gorsen hefyd yr estynwyd yr yspwng yn llawn o winegr a bustl iddo, pan oedd efe ar y groes. Mat. 27. 29, 30, 48.—Y saint gweiniaid a gyffelybir i gorsenau, o herwydd eu bod yn hawdd eu dryllio; ac i ddangos gofal Crist am danynt, a'i dynerwch tu ag atynt: 'Corsen ysig nis tyr.' Esa. 42. 3. Mat. 12. 20.——Mewn golygiad ar amlder y cyrs oedd yn tyfu yn yr Aipht, yr Aiphtiaid a'u breninoedd a gyffelybir i ffon gorsen, a ffon gorsen ddrylliedig; i ddangos eu hanalluogrwydd i gynnorthwyo Israel; a'u parodrwydd i'w niweidio; yn nghyd â phawb eraill a ymddiriedent ynddynt am nodded a chynnorthwy. Esa. 36. 6. Ezec. 29. 6.——Israel wedi eu taro gan farnedigaeth Duw, a gyffelybir i gorsen yn siglo mewn dwfr. 1 Bren. 14. 15.——Yr oedd Ioan Fedyddiwr yn anhebyg iawn i gorsen yn ysgwyd gan wynt. Efe a dystiolaethodd yn ddiysgog am Grist, mai efe oedd y gwir Fessïah addawedig; ac a ddilynodd sancteiddrwydd manwl yn ddiysgog, yn wyneb ystormydd o demtasiynau a phrofedigaethau; ac yn ddigryn a gyhoeddodd farn Duw yn erbyn pechaduriaid diedifeiriol, pa fath bynag a fyddai eu sefyllfaoedd a'u mawredd yn y byd. Mat. 11. 7. Luc 7. 24.——Y mae corsen yn fesur o chwe chufydd, neu un ar ddeg o droedfeddau, 2328 o fodfeddau. Ezec. 40. 3, 5. Brown.——Dywedir gan Jeremiah, fod cyrs Babilon wedi eu llosgi â than. Pen. 51. 32. Hyny yw, yn ol barn rhai, y corsenau oedd yn tyfu ar làn yr afon Euphrates, y rhai oeddynt fel gwarchglawdd o'r tu allan i fur y ddinas, fel na allai y gelynion ddynesu ati; ond, yn ol barn eraill, yr hyn i'm tyb i, sy fwy tebygol, fod y dyfroedd wedi sychu allan o'r llynau a'r dyfrgloddiau o amgylch y ddinas, fel yr oedd mynedfa i'r gelynion i mewn iddi: o herwydd fod y gair *Heb.* אגם a gyfieithir yma *cyrs*, mewn amryw leoedd eraill yn cael ei gyfieithu *llynau*, neu gasgliad dyfroedd. Exod. 7. 19. Ps. 107. 35. Esa. 19. 10, &c.

CORTYN—AU, a CORTENI, (cort) *Llad.* CHORDA, CORD; *Saes.* CURTAINS: rhaff-lèni, â'r rhai y gwneid pebyll, a mân-demlau. Yr oedd y babell yn cael ei galw cortynau, gan roddi rhan tros y cyfan: fel y dywed Dafydd, 'Wele fi yn trigo mewn tŷ o gedrwydd, ac arch cyfammod yr Arglwydd dan gortynau:' hyny yw, yn y babell. 2 Sam. 7. 2. 1 Cron. 17. 1. Esa. 54. 2. Gwel Exod. 26. 1. Fel yr oedd yr arch yn aros dan gortynau, neu mewn pabell, hyd nes yr adeiladwyd y deml, ac y dygwyd hi yno i'w lle trigiannol; felly yr oedd Crist, a'r hwn yr oedd yr arch yn gysgod, mewn gwaeledd a thlodi, heb le i roi ei ben i lawr, ond yn cael ei ymlid o fan i fan, tra yr oedd yma yn anialwch y byd, hyd nes yr esgynodd i'r trigfanau fry, lle y mae yno yn eistedd ar ddeheulaw y Tad.——Dywedir fod Josiah, brenin Judah, wedi bwrw i lawr dai y Sodomiaid, lle yr oedd gwragedd yn gwau cortynau i'r llwyn. Yr oedd y llèni, neu y cortynau hyn, yn amgylchu y ddelw, ac yn gwneuthur math o dŷ iddi, fel y mae y gair Hebraeg yn arwyddo, yr hyn, yn ol y Groeg, sydd yn arwyddo temlau bychain, neu drigfanau. 2 Bren. 23. 7. Gwel Esgob Patrick ar y lle.——'Yn ddisymwth y dystrywiwyd fy lluestai, a'm corteni yn ddiatreg.' Jer. 4. 20. Corteni o'r rhai mae y lluestai, neu y pebyll, yn gynnwysedig. Bydd y dinasoedd cryfion, y palasau uchel, y tai têg, yn cael eu dadymchwelyd fel luesty bugail, neu ryw babell wael.

CORUS, *Heb.* כר (*cor*); *Cald.* כורין (*coryn*): mesur Iuddewig helaethaf, yn cynnwys yr un faint a'r omer; yr hwn sydd yn cyfateb i ddeg epha, neu 17,468 o fodfeddau cyfangorph; hyny yw, medd Symson, pum galwyn a deugain. Ezec. 45. 11, 14.

CORWYNT—OEDD, (cor-gwynt) cylchwynt, corwynt, trowynt, troellwynt. Rhoddir amrywiol enwau ar y corwynt yn cyfateb i'w amrywiol briodoliaethau neillduol; megys *Prester*, gwynt cryf, gyda fflamau o luched yn tori allan: *Ecnephias*, gwynt nerthol disymwth, yn tori allan o ryw gwmwl; y mae yn aml yn Môr Ethiopia, yn neillduol tu a'r Penrhyn Dehau Affric (*Cape of Good Hope*): yr *Exhydria* sydd wynt yn rhuthro allan o gwmwl, yn nghyd â llawer o wlaw: y *Typho*, neu *Vortex*, y mwyaf priodol i'w alw yn gorwynt, neu dymhestlwynt, yw gwynt rhuthrog, yn chwyrndroi bob ffordd, ac yn dwyn pob peth gyd âg ef. Disgyn yn aml oddi uchod. Geilw yr Indiaid ef *Orancan*; a'r Tyrciaid, &c., *Oliphant*. Y mae hwn yn aml yn y Môr Dwyreiniol, yn benaf yn nghylch Siam, China, &c., ac yn peri fod morio yn y parthau hyny yn dra pheryglus. Y Dr. Franklin a farnai fod y corwynt, a rhaiadr pistyllog yn y môr (*water spouts*) yn tarddu oddiwrth yr un achos. Cyfodant, y rhan amlaf, ar ol tawelwch a phoethder mawr, ac ydynt amlaf yn y parthau cynhesaf y byd. Effeithiau y corwynt yn y ddwy India ydynt yn ddychrynllyd iawn; mae yn chwythu i lawr dai: yn diwreiddio coed, ie, coedwigau cyfain: yn gwneyd ceudyllau yn y ddaear, ac yn taflu coed, ceryg, priddfeini, a'r ddaear, i bob parth. Taflant feusydd cyfain o'r cyrs siwgr yn yr awyr, a byddant wedi eu gwasgaru ar wyneb y wlad. Diwreiddiant y coedydd cadarnaf yn y goedwig, a gwasgarant hwynt fel sofl; dygant ymaith y melinau gwynt mewn mynyd; codant lestri efydd trymion o amryw gannoedd o bwysau, ac a'u curant yn chwilfriw.

Digitized by Google

Cyfodant ddyfroedd o'r môr, nes agos a dylifo y wlad. Y mae gwlad y Swiss yn ddarostyngedig i gorwyntoedd erchyll iawn. Y mae taranau a mellt yno mor aml yn y gauaf ag yn yr haf; a chyd â'r rhai hyn y mae corwyntoedd ofnadwy iawn, a godant ddyfroedd o'r llynoedd yn golofn i'r cwmwl, ac yn dwyn gyda hwynt gorph mawr o ddwfr, ac a ddisgyn ar leoedd eraill, nes agos a boddi y wlad.

'Llwybr yr Arglwydd sydd yn y corwynt; ac efe a gerdd â chorwyntoedd y dehau.' Nah. 1. 3. Zech. 9. 14. a 7. 14. Esa. 5. 28. a 40. 24. Buan a dioed yw ei farnedigaethau a'i waredigaethau, a sicr ydynt o ddal ei elynion. Diar. 1. 27.—Gelynion creulon a chryfion a gyffelybir i gorwynt. Esa. 28. 2. •Dan. 11. 40.—Pethau o fyr barhad a gyffelybir i gorwynt. Diar. 10. 25. Hos. 8. 7.

CORYN—AU, (cor) caran, siad, siol pen, copa; pryf-copyn. Gen. 49. 26. Deut. 33. 16. Job 2. 7. Esa. 3. 17.

COSP—EDIGAETH—AU, (cy-osp) poen, artaith, dysalaeth, dienydd; yr hyn y mae euogrwydd yn rhwymo troseddwyr iddo; y drwg o ddyoddef yn eael ei osod ar y drwg o wneuthur.

Nid â *cosp* ar ynfyd. *Diar.*

Arwydda cospedigaeth gyfiawnder yn yr hwn sydd yn cospi, a bai yn haeddu y gosp yn y cospedig. Nid o'i ben-arglwyddiaeth y mae Duw yn cospi; ond yn gyfiawn, yn ol haeddiant un. Am fod holl blant dynion yn bechaduriaid, sef troseddwyr o gyfraith gyfiawn Duw, y maent yn gyfiawn yn ddarostyngedig i gospedigaeth. Gellir golygu cospedigaeth pechod gwreiddiol a gweithredol fel yn amserol, neu yn dragywyddol, yn y byd hwn a'r hwn sydd yn dyfod. Y mae cospedigaeth dragywyddol, i ba un yr â yr annuwiolion gwedi marw; Mat. 25. 46. 2 Thes. 1. 9. ac y mae cosp yn y bywyd hwn; 'Paham y grwgnach dyn byw, gwr am gospedigaeth ei bechod?' Galar. 3. 39. Sef am gosp yn y bywyd hwn.

Yn y byd hwn y mae dyn yn agored i gosp am bechod yn ei enaid a'i gorph.—1. *Yn ei enaid yn dufewnol:* 1. Trwy golli delw Duw, yr hon y mae pawb yn ol am dani. Rhuf. 3. 10—33.——2. Yn nghaethiwed yr enaid dan arglwyddiaeth pechod, ac amryw chwantau. Rhuf. 6. 16. Eph. 2. 1, 2, 3.——3. Yn ei amddifadrwydd o wybodaeth am Dduw, a pharch iddo. Rhuf. 2. 10.——4. Yn ei amddifadrwydd o gymdeithas â Duw. Eph. 4. 18.——5. Yn y dychryn a'r anobaith sydd yn aml yn ei feddiannu. Eph. 2. 12. Heb. 10. 27. Deut. 28. 65.

2. *Yn allanol yn y corph.*—1. Yn ei waith yn colli anfarwoldeb y corph. Yn ei greadigaeth yr oedd corph Adda, fel ei enaid, yn anfarwol; ond yn awr, y mae y corph yn farw, o herwydd pechod. Rhuf. 8. 10. Felly hefyd y mae yn ddarostyngedig i lawer math ar glefydau ac afiechyd cyn marw—oll yn effaith pechod. Deut. 28. 22. Ioan 5. 14.——2. Llafur, poen, a lludded corphorol. Gen. 3. 17, 18, 19. Y gwragedd a ymddygant ac a esgorant ar blant mewn aml boenau a gwewyr, mwy nag un creadur arall—a'r cwbl yn ffrwyth ac effaith pechod. Gen. 3. 16. ——3. Colli y llywodraeth ar y creaduriaid sydd fath arall o gosp am bechod dyn. Ezec. 14. 21.——4. Llawer o drallodau a chyfyngderau, yn ein personau, ein teuluoedd, a'n hamgylchiadau, ydynt yn gospedigaethau am bechod; ac yn arwyddion o anfoddlonrwydd Duw o'i blegid. Y mae melldith y gyfraith yn dilyn dynion a'u meddiannau, yn y tŷ ac yn y maes, yn y cawell ac yn y toes, &c. Deut. xxviii. ——5. Drygfyd, a dystryw cyffredin, ydynt farn Duw am bechod; megys boddi yr hen fyd, llosgi dinasoedd y gwastadedd, caethiwed yr Iuddewon, rhyfeloedd, newyn, heintiau, daeargrynfäau, &c.——6. Yn ddiwedd eddaf angeu ei hun sydd gyflog pechod. Gen. 2. 17. Rhuf. 6. 23.

*Y mae cospedigaeth dragywyddol mewn byd arall am bechod.* Yr holl annuwiolion, fel y goludog hwnw, y fynyd y byddant feirw, a godant eu golygon yn uffern, mewn poenau. Luc 16. 23. Yn yr adgyfodiad, daw cyrph yr annuwiolion allan o'u beddau, 'i adgyfodiad barn,' neu ddamnedigaeth (Ioan 5. 29.) 'a dyoddefant yn gospedigaeth ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef.' 2 Thes. 1. 9. Bydd y gospedigaeth ofnadwy hon yn gynnwysedig yn yr hyn a gollasant, ac yn yr hyn a deimlant byth: collasant bob peth da, dymunol, a dyddanus, sef y nefoedd a'i holl ddedwyddwch: a byddant yn deimladwy byth o ddigofaint Duw, yr hwn a dywelltir arnynt fel tân angerddol. Bydd y gosp ddychrynllyd hon yn dragywyddol: hyny mae pechod yn ei haeddu yn gyfiawn; ac am nas dichon neb yn uffern byth wneuthur iawn am bechod, ni dderfydd eu cosp byth. Heblaw hyny, byddant yn parhau i bechu; am hyny, bydd yn gyfiawn i'r gosp parhau. Nid oes yno edifeirwch, na maddeuant pechod, na chyfnewidiad cyflwr byth; ond 'yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn etto,' &c. Dat. 22. 12.——Dyma y canlyniadau o bechu yn erbyn Duw!

Sonir am amryw fath o gospedigaethau yn yr ysgrythyrau; a'r rhan fwyaf o honynt, os nad y cwbl oll, yn arferedig yn mhlith yr Iuddewon, y rhai y rhoddir hanes am danynt dan yr amrywiol enwau.

COSTREL—AU, (costr) math o gydau a wneir o grwyn, yn gyffredin o grwyn geifr, â'r tu blewog i mewn, wedi eu gwnïo a'u pygu, fel y dalient unrhyw wlybwr: yr oeddynt yn gwaethygu cryn lawer wrth heneiddio, yn enwedig os cedwid hwy yn agos i'r tân; byddent yn sych-grino ac yn crebachu, fel yr aent yn fuan yn ddiddefnydd, trwy fod y pyg yn colli, neu yn toddi, a'r gwnïadau yn darfod neu yn dattod, a thrwy hyny ni ddalient ddim gwlybwr. Mat. 9. 17. At hyny y mae y Psalmydd yn cyfeirio, pan y mae yn dywedyd, 'Canys ydwyf fel costrel mewn mŵg:' wedi crebachu a chrino, 'ond nid anghofiais dy ddeddfau.' Ps. 119. 83.——'Costrel Duw,' yn yr hwn y mae efe yn rhoddi dagrau ei saint, ydyw ei goffadwriaeth a'i ofal am ei bobl, a'i barodrwydd i sylwi ar eu gorthrymderau, i wrando eu gweddïau, a'u hachub a'u gwaredu, a dial ar eu gelynion. Ps. 56. 8. Os ceidw Duw ddagrau ei saint mewn costrel, diammeu y dial eu gwaed hwynt ar eu gelynion.——'Costrelau y nefoedd,' ydyw y cymylau, y rhai a ddaliant ac a dywalltant y gwlaw a'r gwlith allan, fel y gwelo Duw yn dda. Job 38. 27.——Trigolion Jerusalem oeddynt fel costrelau, pan dywalltodd Duw iddynt win ei ddigofaint nes y rhwygwyd, neu y torwyd hwynt. Jer. 13. 12.

'Ac ni ddodant win newydd mewn costrelau hen:' fel yr oedd eu costrelau yn gyffredin o grwyn, pan elent yn hen, byddai gwin newydd llawn o waith yn berygl o'u dryllio; felly, yn yr un modd, nid buddiol a fuasai i'r dysgyblion ymprydio llawer y pryd hwnw, tra yr oeddynt etto heb eu hefengylu, a'u dwyn i adnabyddiaeth eglur o drefn y cyfammod gras. Mat. 9. 17. Marc 2. 22. Luc 5. 37, 38. Jos. 9. 4. Jer. 48. 12. Hos. 3. 1. Heb. 2. 15.

COST, COSTUS, (cy-ost) *Llad.* CONSTARE; *Saes.* COST; traul, pris: yr hyn sydd brin a gwerthfawr; uchel-bris.—'A'r brenin a orchymynodd ddwyn o honynt hwy feini mawr, a meini costus, a meini nâdd, i sylfaenu y deml.' 1 Bren. 5. 17. a 7. 9, 10, 11. Y gair *Heb.* יקר yr hwn a gyfieithir yma *costus*, a gyfieithir yn 1 Sam. 3. 1. *gwerthfawr*—yn 1 Sam. 18. 30. *anrhydeddus*—yn Ps. 45. 9. *pendefigesau*—yn Zech. 11. 13. *têg*—ac yn Zech. 14. 6. *dysglaer*.



Digitized by Google

**COZBI**, כזבי [*celwyddwr*] merch Sur, tywysog Midian, yr hon a laddwyd gyda Zimri yn eu haflendid gan Phinees. Num. 25. 6, 15.

**CRACH—LYD**, (rhach) cramen; maraidd, eiddil, bach; megys crach foneddig, crach swyddog. Arwydd ydynt o anmhuredd y gwaed. Un o'r anafau ydoedd yn anghymhwyso dynion i'r swydd offeiriadol dan y gyfraith, oedd bod yn grachlyd. Lef. 21. 10. Crist ydoedd yr offeiriad cwbl sanctaidd a dihalog, ac yn ateb yn mhob peth i ofynion y gyfraith, heb ddim anaf ynddo, ac a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw. Heb. 9. 14. a 7. 26.——Rhaid i weinidogion Crist fod yn bur yn eu cyflyrau, eu hegwyddorion, eu hathrawiaeth, a'u bucheddau. 1 Tim. 3. 2, 3, 7. 2 Tim. 2. 15. Yn eu cyflyrau rhyngddynt a Duw: rhaid i'r cyflwr fod wedi ei ryddhau oddiwrth euogrwydd a llywodraeth pechod, cyn byddo neb yn weinidog cymeradwy gan Grist.——'Wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw:' ni chymer Iesu fenthyg neb o gaeth-weision y diafol i'w wasanaethu; oblegid y mae ei weision yn wyr rhyddion, 'wedi eu rhyddhau o law eu gelynion, yn ei wasanaethu ef yn ddiofn.' Rhuf. 6. 22. Luc 1. 74. Ac hefyd bod eu cydwybodau wedi eu puro trwy waed Crist, oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw. Heb. 9. 14. Rhaid bod y galon, neu y gydwybod, wedi ei thrin gan Ysbryd Duw, a'i gwneuthur yn dir da, i dderbyn had da egwyddorion yr efengyl, cyn byth y gwelir ffrwyth efengylaidd a pharhaus. Beth bynag a allo dynion broffesu am egwyddorion yr efengyl, diffrwyth a didrefn a fyddant yn y cwbl, heb hyn. Nid mynych y tŷf egwyddorion da mewn cyflwr drwg; ac anfynych y ceir athrawiaeth dda lle byddo cyflwr ac egwyddorion drwg; a lle byddo yr egwyddorion a'r athrawiaeth yn ddrwg, nid oes lle i ddysgwyl fod y fuchedd yn gywir ac yn bur; oblegid y mae y fuchedd fel ffrwyth yr egwyddorion. Y pethau sydd yn dyfod allan o ddyn sydd yn ei halogi. Mat. 7. 18. Luc 6. 43, 44, 45. Mat. 15. 18. Sicr yw, na oddef Duw ddynion aflan eu bucheddau yn ei eglwys yn hir; yn neillduol i drin ac i ddwyn llestri y tŷ; sef arferyd eu doniau mewn athrawiaeth a dysgyblaeth. Gan hyny, 'Ymlanhewch, y rhai a ddygwch lestri yr Arglwydd.' Esa. 52. 11.

**CRAFU**, (craf) cripio, cosi, ysgraffinio; un o'r seremoniau a arferid dan y gyfraith, tu ag at lanhau y gwahanglwyf mewn tŷ, ydoedd crafu o amgylch, a thywallt y llwch o'r tu allan i'r ddinas. Lef. 14. 41.

**CRAFF—U**, (craf) manwl; craffu âg ewin; craffu â golwg, craffu arno, edrych yn graff; sylwi yn fanwl; sylldremu; edrych yn bryderus. Esa. 14. 16. Act. 13. 19. a 14. 9. a 23. 1. 2 Cor. 3. 7, 13. Ps. 130. 3. Diar. 31. 27. Luc 4. 20. Act. 10. 4. Rhuf. 16. 17.

**CRAGEN, CREGYN**, (crag) *Llad.* CONCHA; sylwedd caled; amwisg ac amddiffynfa amryw fath o bysgod a malwod. Mae y gragen yn cael ei ffurfio allan o wlybwr sydd yn dynoddi o honynt ac yn caledu am danynt. Y mae yr un lun a'r pysgodyn; ac amryw o honynt yn hardd ac yn gywrain iawn yn eu lliwiau a'u caboledd. Gan nad ydyw y gragen yn tyfu gyd â'r pysgodyn, mae y cranc a'r ceinwych, &c., yn bwrw eu cregyn unwaith yn y flwyddyn, a rhai newydd yn cyfateb i faintioli y pysgod yn cael eu ffurfio am danynt.—'Ac efe a gymerth gragen i ymgrafu â hi.' Job 2. 8. Y mae yr un gair חרש yn cael ei gyfieithu *pridd-lestr*, Ps. 22. 15.—*llestr pridd*, Diar. 26. 23. —*priddell*, Esa. 4. 9. Darn o lestr oedd gan Job i ymgrafu âg ef yn y llwch. Nid oedd un meddyg, na gwraig, na châr, na chyfaill, i'w ymgeleddu yn ei flinfyd a'i waeledd; peth ofnadwy yw bod yn llaw Satan! Wele yma un o weision ffyddlon Duw mewn gwaeledd tra mawr! Profwyd ef, a daeth allan fel aur wedi ei buro!

**CRAIG, CREIGIAU**, (crai) un o galed-ranau y ddaear; clogwyn o geryg ansyfladwy mewn cyfrwymiad; oblegid hyny, y gair *Heb.* צר a arwydda *cyfrwymiad*, neu amryw ranau o ddefnydd gwedi eu rhwymo yn nghyd, ac yn cyd-sefyll yn gadarn; ac fel y cyfryw y mae craig yn arwydd-lun o nerth a chadernid. Yr oedd creigiau yn dra chyffredin yn ngwlad Canaan, yn sefyll yn uwch na gwastadedd y ddaear; ac amryw o honynt oeddynt yn gysgod a diogelwch i'r trigolion mewn amser o berygl; a byddent yn fynych yn ffoi iddynt yn ngwyneb rhuthriadau disymwth eu gelynion. Pan orchfygwyd y Benjaminiaid gan lwythau eraill Israel, hwy a ffoisant i'r anialwch, i graig Rimmon, ac a gawsant ddiogelwch yno bedwar mis. Barn. 20. 47. a 21. 13. Yn nghopa craig Etam y bu Samson mewn diogelwch ac amddiffynfa. Barn. 15. 8. Mynych y ffodd Dafydd i holltau ac ogofeydd y creigiau, pan oedd yn cael ei erlid gan Saul; megys yn Maon, Adulam, ac Engedi, lle yr oedd ogof dra helaeth, yn yr hon yr ymguddiodd Dafydd a'i wyr, pan oedd Saul yn ceisio ei einioes. Yma y cafodd Dafydd y cyfle i ladd Saul, ond a nacäodd. 1 Sam. 22. 1. a 23. 25. a 24. 2, 4, 5. Y mae amryw greigiau eraill yn cael sôn am danynt yn yr ysgrythyr; y rhai y sylwir arnynt dan yr amrywiol enwau.

Y mae yr enw craig yn cael ei roddi i Dduw, mewn ystyr cyffelybiaethol; oblegid mai Duw ydyw cadernid, cysgod, a diogelfa ei bobl, fel ag yr oedd y creigiau yn y gwledydd hyny, yn mhob amser o berygl. Deut. 32. 4, 15, 30, 31. Ps. 18. 2, 31. 1 Sam. 2. 2. 2 Sam. 22. 32, 47. a 23. 3. Ps. 19. 14. a 62. 7. a 71. 3. a 94. 22. a 78. 35. Esa. 17. 10. ——Mynych y mae Crist, yn yr ysgrythyrau, yn cael ei alw yn Graig; gelwir ef felly yn neillduol yn y tri ystyriaeth hyn:—1. Fel sylfaen ei eglwys. Mat. 16. 18. 1 Cor. 3. 11.——2. Fel ei chysgod a'i diogelfa, yn ngwyneb pob peryglon. Esa. 32. 2.—— 3. Fel y mae efe yn dyfrhau ac yn adfywio ei eglwys, yn wyneb ei gwywdra a'i ffaeledigaeth. 1 Cor. 10. 4. Esa. 32. 2. Zech. 13. 1. Jer. 2. 13.——Crist ydyw 'Craig yr oesoedd,' sef y Graig y mae yr eglwys yn yr holl oesoedd yn pwyso arni, ac yn ymgysgodi tani. Craig gadarn, anmhlygedig, ansyfladwy, y sydd abl i ddal yn ddiysgog byth, y rhai oll a bwysant arno, a phyrth uffern nis gorchfygant hwynt. Y rhai a adeiladant eu gobaith arno a fyddant 'fel tŷ ar y graig,' yr hwn a saif i fynu yn ngwyneb yr holl gurfeydd a'r llifeiriaint, oblegid eu sylfaenu ar y graig Mat. 7. 25. Eph. 2. 20. Esa. 26. 4. *Heb.*

'Canys hwy a yfasant o'r Graig ysbrydol a oedd yn canlyn: a'r Graig oedd Crist.'* 1 Cor. 10. 4. 'A oedd yn canlyn:' Barnai yr enwog Archesgob Usher fod y graig ei hun yn eu canlyn, ar ol Tertulian. Gwel Usher's *Annals*. Rhai a ddywedant mai Crist oedd yn canlyn, ac nid y dyfroedd o'r graig, yr hon oedd yn cysgodi Crist yn ysbrydol yn ei gynnaliaeth. Gwel Dr. Shuckford's *Connection*. Tebygol fod y dyfroedd wedi canlyn Israel dros hir dro, o'r hyn lleiaf, hyd oni ddaethant at ryw ddyfroedd naturiol; ond pe buasent yn eu canlyn ar hyd eu holl daith ni buasent mewn angen dwfr drachefn yn Cades: ond rhaid ystyried fod yn agos i ddeunaw mlynedd ar hugain o'r pryd y daethant at y graig gyntaf hyd y pryd y daethant at yr ail. Yn y Bibl Hebraeg ס sydd

---

* Ni ddywedir mai y graig naturiol, na'r dyfroedd o'r graig, oedd yn canlyn; ond y 'graig ysbrydol oedd yn canlyn; a'r graig hono (oedd) Crist—angel cynnrychiolddeb Duw, yr hwn a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt,' (Esa. 63. 9.) ac o'r hwn yr oedd y graig yn gysgod.—C.

Digitized by Google

yn Num. 33. 11. yn y gair *Sin;* ac yn adn. 36. y sydd ynddo; yr hyn sydd yn gwneuthur sain ac ystyr cwbl wahanol. Yn y Bibl Saesonaeg, hefyd, y mae S a Z yr un modd wedi eu gosod; fel y mae yn gwbl eglur eu bod yn ddau le gwahanol, a dylasent gael eu gwahaniaethu yn y Biblau Cymreig. Sicr yw, wrth amryw ysgrythyrau, fod y dyfroedd wedi eu canlyn yn yr anialwch. 'Efe a holltodd y graig, a'r dyfroedd a ddylifodd; *cerddasant* ar hyd lleoedd sychion yn afonydd.' Ps. 105. 41. a 78. 15, 20. Esa. 41. 17, 18. a 43. 20. a 48. 21. Ymddengys hefyd fod y dyfroedd yn eu canlyn pan oeddynt yn gwersyllu wrth Sinai, pan 'gymerodd Moses y llo a wnaethent, ac a'i llosgodd â thân, ac a'i malodd yn llwch, ac a'i taenodd ar wyneb y dwfr.' Exod. 32. 20. Ac yn Deut. 9. 21., 'A bwriais ei lwch ef i'r afon oedd yn disgyn o'r mynydd.'

Yr oedd y graig hon yn gysgod o Grist:—1. Yr oedd hi yn cael ei henw oddiwrth *sychder, cras, diffrwyth,* (oblegid hyny yw ystyr y gair *Horeb* yn Hebraeg) ac nid oedd dim tebygolrwydd ynddi i roddi dwfr i'r fath nifer o bobl ac anifeiliaid. Yr oedd Crist fel gwreiddyn o dir sych yn ngolwg rhai. Esa 53. 2. Ac onid yw yn rhyw beth tra rhyfedd fod yr hwn ag oedd yn cwyno ar y groes, 'Y mae syched arnaf,' yn galw ar eraill, 'Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed.' Ioan 7. 37.——2. Ni ddaeth dim dwfr allan o'r graig nes y tarawyd hi; a rhyfedd na ddaethai tân allan o'r graig gallestr, yn lle dwfr, oblegid hyny oedd yn ei natur. Felly, yr oedd yn weddus i dywysog ein hiechydwriaeth gael ei berffeithio trwy ddyoddefiadau. Heb. 2. 10. Pan wanwyd ei ystlys ef â gwayw-ffon, daeth allan ddwfr a gwaed; rhyfedd na buasai tân digofaint tragywyddol yn difa y gwrthwynebwyr; oblegid ein Duw ni sydd dân ysol. Ioan 19. 34. A thrwy hyn yr 'agorwyd ffynon i dŷ Dafydd, ac i breswylwyr Jerusalem, i bechod ac aflendid.' Zech. 13. 1.——3. Ni tharawyd y graig âg un offeryn heblaw gwialen Moses; felly, yr Arglwydd a fynai ddryllio Crist â chyfraith Moses, am ein hanwireddau ni, gan iddo gymeryd cospedigaeth ein heddwch ni arno, a myned yn fechnïydd tros y dyledwyr. Esa. 53. 5, 10. Gal. 3. 13.——4. Tarawyd y graig yn ngŵydd henuriaid Israel, yn wyneb eu grwgnach a'u tuchan: ar uchel floedd y dorf afreolus, ac ar ddymuniad yr henuriaid, ac amryw o honynt yn sefyll gerllaw, yr hoeliwyd Iesu ar y groes. Mat. 27. 41.——5. Yr oedd arwydd tra rhyfedd o'r mawrhydi dwyfol yn cael ei roddi ar y graig yn Horeb. Pan oedd Crist yn dyoddef ar ben Calfaria, dadguddiodd ei hun yn ei ryfeddol allu a'i Dduwdod i'r fath raddau, nes yr oedd hyd yn nod ei elynion yn gorfod cyfaddef, 'Yn wir, Mab Duw ydoedd hwn.' Mat. 27. 54.——6. Wedi taro y graig, pistyllodd dyfroedd yn llifeiriol i'w diodi, i'w golchi, ac i'w canlyn yn yr anial cras. Wedi croeshoelio Crist, ei gladdu, ei adgyfodi, tywalltwyd yr Ysbryd Glân, yn ffrydiau tra rhyfedd a helaeth ar ddydd y Pentecost; a bydd gyd â'i bobl yn yr anial dyrys, bob amser, hyd ddiwedd y byd. 'Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megys y dywedodd yr ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef.' Ioan 7. 38. Act. 4. 31.

Pan ballodd y dyfroedd drachefn o bob parth, yr oedd yn dda i Israel gael cyfarwyddyd i fyned at y graig eilwaith (yr hon, er ei bod yn wahanol o ran lle ac amser, etto nid oedd ond un fel cysgod). Pan ballo holl gysuron daear, Ie, pan ballo cysuron nefol hefyd, wedi i ni, trwy ein cam-ymddygiadau, dristâu yr Ysbryd Glân, fel nad oes na hwyl na thymher ar ein hysbrydoedd, y mae yn dda iawn meddwl fod Iesu Grist yr un yn ei Berson, ei gyfoeth, a'i ras; ac nad oes cyfnewidiad arno, na chysgod troëdigaeth; a bod croesaw i bechadur ddyfod i ddyfroedd ei haeddiant ef bob amser, heb arian, ac heb werth. Esa. 55. 1. Ioan 4. 10. a 6. 35. a 7. 37. Dat. 21. 6. a 22. 17. Jer. 2. 13.

Nid oedd un gorchymyn i daro y graig yr ail waith, er i Moses yn ei wŷn wneuthur hyny. '*Lleferwch* wrth y graig, a hi a rydd ei dwfr,' yw y gorchymyn; ond Moses a *darawodd* y graig *ddwy waith;* yr hyn beth oedd feius ynddo. Num. 20. 8, 9, 10. Felly, nid rhaid ail groeshoelio Crist; ond i ni lefaru wrtho mewn gweddi, efe a rydd ddwfr y bywyd yn barhaus i ni wrth ein hangen. Edr. Moses.

CRAIR, CREIRIAU, (cra) arwydd, peth i'w gadw er mwyn un: corph y marw. Creiriau oeddynt gyrph y saint, neu ran o honynt, ar ba rai y rhoddai dyn ei law wrth wneuthur llw; oddiwrth hyn arwydda crair, gweithred ammod. 'Nawdd y creiriau,' sef nawdd y cyrph meirw. *Cyfreithiau Cymreig.*—Ysgrin y creiriau, arch y dystiolaeth. Crair yw enw y gloch leiaf yn yr eglwysi. Canu crair, sef canu y gloch am y meirw.—'Yspeilio Micah am ei offeiriad a'i greiriau,' sef ei ddelwau. Barn. xviii. cynnwysiad y bennod.

CRAMEN—AU, (cram) crachen, crach; afiechyd y gwaed wedi tòri allan. Lef. 13. 2. a 14. 56. Edr. Crach.

CRAS—U—ION, (cra) sych, sych-galed, crin; coeglyd, haerllug. Ruth 2. 14. 1 Sam. 17. 17.—Tir cras, hyny yw, tir diddwfr, diffaeth, a chan hyny, diffrwyth. Ps. 63. 1.—'Y rhai cyndyn a breswyliant grasdir.' Ps. 68. 6. Amddifadir gwrthwynebwyr cyndyn, drygionus, o bob gwir gysur, ac a'u gosodir yn agored i bob trueni.

CREU, CREADIGAETH—AU, (cre) *Heb.* ברא (*bara*) peri; cread; creadwriaeth.—1. Rhoddi pethau mewn bod gweithredol, y rhai nad oeddynt o'r blaen ond mewn posiblrwydd yn unig; yr hyn a elwir yn gyffredin llunio neu wneuthur peth o ddim defnydd. Gen. 1. 1. A pha beth bynag a wnaed, neu a ffurfiwyd fel hyn, sydd waith Creawdwr, ac a elwir yn *greadigaeth.*——2. Newid dull, cyflwr, a sefyllfa defnydd, yr hwn nid oes ynddo ddim addasrwydd i'r cyfryw gyfnewidiad, ac sydd yn gofyn cymaint gallu i'r gorchwyl ag oedd gwneuthur peth o ddim; megys troi daear yn gnawd. Gen. 4. 21, 27. a 2. 19.——3. Gwaith Duw yn dwyn pethau oddi amgylch yn nhrefn ei ragluniaeth. Esa. 45. 7. Ps. 104. 30.——4. Cyfnewid pechadur, a rhoddi ynddo egwyddor newydd, a'i ffurfio i ddull cwbl newydd, yr hyn a berthyn i Dduw yn unig; ac y mae yn gymaint, os nad mwy, gorchwyl na chreu byd; oblegid nad oedd ond gwagle pan lefarodd Duw y greadigaeth naturiol i fod; ond yn y greadigaeth ysbrydol, llefara i fod yn wyneb holl wrthwynebiad uffern a natur lygredig. Eph. 2. 10. a 4. 24. 2 Cor. 5. 17.——5. Adnewyddu a glanhau y galon oddiwrth lygredd natur trwy weithrediadau sancteiddiol yr Ysbryd Glân. Ps. 51. 10.——6. Arwydda, weithiau, gwneuthur pethau hynod, gwyrthiol, ac anfarwol. 'Yr Arglwydd a wna (*Heb.* ברא *a grea*) beth newydd,' &c. Num. 16. 30. Yn neillduol cnawdoliaeth rhyfedd Mab Duw. Jer. 31. 22.

1. Duw yw Creawdwr pob peth. Gen. 1. 1. Esa. 37. 16. a 42. 5. a 45. 12. Act. 14. 15. a 17. 24.—Y mae gwaith creadigaeth yn cael ei briodoli i bob un o'r Tri Pherson yn yr Hanfod Dwyfol. 'Myfi yw Iehofah sydd yn gwneuthur pob peth, yn estyn y nefoedd fy hunan, yn lledu y ddaear o honof fy hun.' Esa. 44. 24. Y mae yn eglur oddiwrth yr ymadrodd *Heb.* בראשית ברא אלהים 'Yn y dechreuad y creodd Duw', &c. Gen. 1. 1. Y mae y gair אלהים yn enw lliosog, yn dangos fod Personau yn yr Hanfod tragywyddol: a bod y Personau hyny yn cyd-weith-

Digitized by Google

redu yn nghreadigaeth y byd. Ei fod yn enw lliosog a ymddengys oddiwrth Preg. 12. 1., 'Cofia dy *Greawdwyr*.' *Heb*. Priodolir y gwaith i'r Tad: Esa. 42. 5, 6. Act. 4. 3, 24.—i'r Mab: Ioan 1. 3. Col. 1. 16. Heb. 1. 2, 10, 11.—i'r Ysbryd Glân: Ps. 33. 6. Job 26. 13.——2. Y defnyddiau o ba rai y creodd Duw bob peth: 'Nid o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.' Heb. 11. 3.——3. Y pryd y creodd Duw y bydoedd: 'Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.' Gen. 1. 1. Heb. 1. 10.——4. Y modd y creodd efe y cwbl: 'Trwy ei air.' Ps. 33. 6. 'Canys efe a ddywedodd, ac felly y bu.' Ps. 33. 9.——5. Yr amser a gymerodd y Creawdwr i orphen ei waith: 'Chwe diwrnod.' Gen. 2. 2. Exod. 20. 11.——6. Y cyflwr y creodd Duw ei holl waith: 'Wele yr oedd pob peth yn dda iawn.' Gen. 1. 31.——7. Dyben Duw yn ngwaith y greadigaeth: 'Efe a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun.' Diar. 16. 4.

Y mae Moses yn rhoddi hanes y greadigaeth gyd âg ardderchogrwydd goruchel, addas i'r Creawdwr, ac mewn modd hynod i osod allan ei fawredd anfeidrol. 'Efe a ddywedodd, ac felly y bu; efe a orchymynodd, a hyny a safodd.' Ps. 33. 9. Y mae yn ymddangos gyda mawrhydi anfeidrol, a phob cyflawnder o allu, doethineb, a daioni, ynddo ei hun. Y mae yn rhoddi bôd i bob peth; trefn ar bob peth; ac yn rhoddi amrywiaeth bywydau yn ol natur pob creadur, o hono ei hun, gyd âg anfeidrol hawsdra. Y mae â'i air yn rhoddi bôd i bob peth, o ddiddym defnydd: yn rhoddi trefn o'r annhrefn mwyaf: goleuni o'r tywyllwch: yn rhoddi pob peth yn ei le ei hun, yn hardd a gogoneddus, yn gynnorthwyol ac yn llesol i'w gilydd, heb un ar y ffordd nac yn niweidiol i'r llall. Y rhai na welant yn amlwg, yn y pethau a wnaed, ei dragywyddol allu a'i Dduwdod, ydynt yn ddiesgus. Rhuf. 1. 30. 'Gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd;' sef yn addas i'r gweithiwr dwyfol; yn brydferth, yn hardd, ac yn llesol i'w gilydd. Gallasai y Creawdwr mawr wneuthur pob peth mewn mynydyn; ond barnodd yn fwy addas i'w fawrhydi a'i ddoethineb dwyfol, i weithio mewn dull graddiannol: fel y gallem ni, ei greaduriaid, mewn myfyr pwyllog ar ei ryfeddodau, sylwi yn fwy neillduol a manwl ar yr amrywiaeth perffeithrwydd a gogoniant dwyfol a amlygir ynddynt. Y mae y lleiaf, fel y mwyaf, o'i greaduriaid, yn dadgan gogoniant a mawredd Duw. Ps. viii. a xix.

Gan mai Duw yn unig yw Creawdwr pob peth, y mae yn rhaid ei fod yn perchenogi pob peth yn gwbl; yn cynnal pob peth; ac yn llywodraethu ac yn trefnu y cwbl i'w ogoniant ei hun. Nis dichon un creadur fod, a pharhau mewn bod, ond ynddo ac o hono. Yr un gair nerthol a'r a greodd sydd yn cynnal o hyd. Y mae EFE goruwch oll, a thrwy oll. Creadigaeth barhaus yw cynnaliaeth greadigol. Beth yw bywyd un creadur, ond Duw yn bywhau bob mynyd? Beth yw nerth unrhyw greadur, ond Duw yn nerthu ac yn peri grym o hyd? Fel y mae *bôd* pob peth ynddo, yr un modd hefyd y mae *symudiadau* pob peth ynddo. Duw yn gweithredu ar y creadur sydd yn peri iddo fod y peth ydyw fel creadur bob mynyd; a phan ddarfyddo effeithioldeb dwyfol arno, derfydd yntau hefyd. Y mae pob peth yn dibynu ar yr achos cyntaf yn hollol tra y byddont mewn bod. 'Efe sydd yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll.' Act. 17. 25, 28. Nis dichon Duw wneuthur dim heb fod yn dibynu arno ei hun. Os na all un creadur gynnal ei hun, pa fodd y gall gynnal arall? Nagê; ond Duw y Creawdwr sydd yn cynnal pob peth.

1. Dyben *penaf* y greadigaeth oedd gogoniant Duw ei hun: 'Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun.' Diar. 16. 4. Sef, er amlygu ei ogoniant ei hun. 'Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw.' Ps. 19. 1. 'Ei anweledig bethau ef,' sef ei *hanfod* a'i *briodoliaethau*, 'wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragywyddol allu a'i Dduwdod.' Rhuf. 1. 20. Sef yr holl briodoliaethau dwyfol, yn neillduol ei anfeidrol allu. 'O Arglwydd Dduw; wele, ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear, â'th fawr allu, ac â'th fraich estynedig.' Jer. 32. 17. Hefyd, amlygir ei ddaioni yn hynod yn ngwaith y greadigaeth. Y mae Duw yn ymddangos yn cyfranu o'i ddaioni, gan iddo wneuthur pob peth yn dda iawn, a phob peth yn cyd-dueddu ac yn cyd-weinyddu i ddaioni a dedwyddwch ei greaduriaid; y mae y ddaear yn llawn o'i ddaioni, ac yn galw ar bawb i'w foliannu o'i blegid. Ps. 33. 5. a 136. 1—5. Y mae amlygiad hynod, hefyd, o'i ddoethineb yn amrywiol ranau o'r greadigaeth. 'Yr Arglwydd trwy ddoethineb a seiliodd y ddaear; trwy ddeall y sicrhaodd efe y nefoedd. Trwy ei wybodaeth yr holltodd efe y dyfnderau, ac y defnyna yr wybrenau wlith.' Diar. 3. 19, 20. Y mae doethineb Duw i'w ganfod yn mhob creadur—yn eu dull—cyflead yr amryw ranau o honynt yn y modd mwyaf addas i ateb dyben eu gwneuthuriad—a'r naill ran yn weinyddgar i'r llall. 'Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb.' Ps. 104. 24.

2. Dyben *is* yw daioni dyn; sef dynion yn gyffredinol. Gwnaed y ddaear i'w phreswylio gan ddyn, a darostyngwyd pob creadur iddo; sef i'w ddefnyddio ganddo, ac i'w wasanaethu. Ps. 8. 5—8. Esa. 45. 12, 18. Y cyrph nefol, yr haul, y lloer, a'r sêr, ydynt yn gweini iddo. Gen. 1. 24. Hos. 2. 21, 22. Addurnwyd ei dŷ â goleuadau ardderchog a defnyddiol. Yn neillduol, gwnaed y ddaear, a phob peth er mwyn ei bobl etholedig, y rhai, yn yr amrywiol oesoedd, oeddynt i gael bod ac i fyw arni; ar ba un, fel gorsaf, yr oedd gwaith y prynedigaeth ac iachawdwriaeth i gael eu cwblhau yn y modd mwyaf cyhoeddus. Nid yw y rhai hyny o blant dynion yn ateb dyben eu creadigaeth, nad ydynt yn cydnabod Duw yn y cwbl o'i weithredoedd, yn ei ryfeddu, ei barchu, a'i addoli.

**CREADUR—IAID**, (cread) yn gyffredinol, pob peth a'r a grewyd: (Dat. 5. 13. Heb. 4. 13.) ond, yn neillduol, dyn.—'Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur.' Marc 16. 15. Rhaid deall wrth y geiriau hyn, mai creadur rhesymol a feddylir; ac onidê, ni byddai yr efengyl o ddefnydd iddynt. I ddynion, fel pechaduriaid colledig, a neb ond hwy, y mae yr efengyl, a'i newyddion da, yn angenrheidiol, ac yn addas; ac iddynt hwy y mae wedi ei rhad roddi. Gan hyny, y gorchymyn ydyw, pregethwch yr efengyl i bob dyn, yn mhob man; i Iuddewon ac i Genedloedd; i gaethion a rhyddion; pa gyflwr bynag y byddont ynddo. Gwel Mat. 10. 5.——'Canys ni a wyddom fod pob creadur yn cyd-ocheneidio, ac yn cyd-ofidio hyd y pryd hwn: ac nid yn unig y creadur, ond ninnau hefyd, y rhai sydd genym flaenffrwyth yr Ysbryd.' Rhuf. 8. 22, 23. Tebygol fod yr apostol yn y lle hwn, yn galw pawb a phob peth, yn greadur, a'r nad yw yn greadur newydd, neu a'r nad oes ganddo flaen-ffrwyth yr Ysbryd. Edr. OCHENEIDIO.

**CREADURIAETH**, (creadur) yr un a CHREADIGAETH. Marc 10. 6. 2 Petr 3. 4. Dat. 3. 14. Marc 13. 19. Rhuf. 1. 20.

**CRED, CREDU**, (cre) 1. Rhoddi coel, neu gred, neu ymddiried i ryw beth. Gen. 45. 26.——2. Rhoddi cydsyniad i wirioneddau yr efengyl; felly y gwnaeth Simon Magus. Act. 8. 13.——3. Bod wedi cwbl argyhoeddi yn y meddwl. Ioan 6. 69.——

Digitized by Google

4. Derbyn Crist, ac ymorphwys arno am iechydwriaeth. Ioan 1. 12. Rhuf. 9. 33.——5. Hyderu ar un. 1 Cron. 20. 20. Edr. FFYDD.

CREDADYN, (cred) un yn credu; dyn yn rhoddi cred i wirioneddau gair Duw, yn neillduol yr efengyl, neu y gair am Grist. 2 Cor. 6. 15.—'Na fydd anghredadyn, ond credadyn.' Ioan 20. 27. Na fydd yn ddiffydd, ond yn credu. Yr hwn sydd heb gredu, y mae efe yn ddiffydd.—Nid credadyn neb heb gredu.

CREFYDD—AU—OL, (cref) dyhewyd, duwiolder: gwir addoliad Duw; anrhydedd ac ofn; gofalus ofn cydwybod, rhag gwneuthur ar fai; onestrwydd cydwybod. Dr. D. Edr. ADDAWL. Y gair *Gr.* θρησκια, a arwydda rhoddi addoliad a gwasanaeth i Dduw. Yr ydys yn barnu fod y gair Groeg hwn yn tarddu o'r gair *Heb.* דרש sef *ceisio*; hyny yw, ceisio Duw; ymadrodd a arferir yn yr Hen Destament i osod crefydd allan. 1 Cron. 28. 9. 2 Cron. 15. 2. a 17. 4. Ps. 9. 10.——Addoliad allanol a seremoniol yr Iuddewon. Act. 26. 25. Gal. 1. 13.

Ewyllys grefydd; sef crefydd yn ol mympwy ac ewyllys dyn, yn lle yn ol rheol gair Duw, Col. 2. 18, 23. Edr. COEL-GREFYDD.

Rhai crefyddol yw y rhai a ymroddant i wasanaethu ac addoli Duw; wedi eu rhoddi eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, a chwedi hyny i'w bobl. Act. 13. 43. a 17. 4, 17. Y mae rhai yn cymeryd arnynt fod yn grefyddol, heb fod felly. Un a fo yn cymeryd arno, neu yn meddwl ei fod (δοκει) yn grefyddol; hyny yw, yn wir addolwr Duw, heb attal, neu ffrwyno ei dafod, twyllo ei galon y mae, ac ofer yw ei grefydd. Pe bai ynddo wir barch i Dduw, yn ei gymhell i'w addoli, gwnai yr un ysbryd iddo barchu ei orchymyn yn ei eiriau hefyd. Iago 1. 26.

CREFFT—WR—WYR, celfyddyd; rhai medrus mewn celfyddyd; celfyddwyr. Deut. 27. 15. Esa. 3. 3. Hos. 13. 2. Act. 19. 24, 38. Dat. 18. 22.—'Glyn y crefftwyr,' (1 Cron. 4. 14.) a elwir felly am fod yno lawer o ofaint, seiri, &c., yn trigo. Neh. 11. 35.

CREISION, (cras) marwydos, sorod.—'Fel pan losgo y tân greision.' Esa. 64. 2. '*As the melting fire burneth.*' *Saes.* Sef, *y llosgo y tân toddedig.*

CRESCENS, *Gr.* Κρησκης, [*tyfadwy*] un o gydlafurwyr Paul yn y weinidogaeth, a ymadawodd oddi wrtho o Rufain i fyned i Galatia. 2 Tim. 4. 10.

CRETE, [*cnawdol, anianol*] ynys yn sefyll yn Môr y Canoldir. Mae Crete ynghylch yr un pellder o Ewrop, Asia, ac Affric. Hwyrach y bydd yr hanes canlynol am y Cretiaid yn gynnorthwyol tu ag at ddeall Epistol Paul at Titus.

Gelwir Crete yn bresennol Candia, oddiwrth enw ei phrif ddinas; a alwyd gynt wrth yr amrywiol enwau Aeria, Chithonia, Idæa, Curete, Macaris, &c. Y mae, yn ol Strabo, yn 277 o filltiroedd o hŷd (Strabo, *lib.* x. *p.* 387.) ac yn ol Pliny, 270 (Pliny, *lib.* xiv. *cap.* 12.) ac yn ol Scylack, 312. Ei lled, yn ol Pliny, nid yw dros 55 o filltiroedd.* Galwyd hi Hectomopolis, oddiwrth ei chan dinas. Ei chylch sydd oddeutu 600 o filltiroedd. Yn yr hen oesoedd, yr oedd yn nodedig am yr afon Lethe—mynydd Ida—dyrysfa *(labyrinth)* Dædalus—cyfreithiau Minos,† un o'i breninoedd—bedd-adail Jupiter, a'i enw yn argraffedig arno.

Yn ol hanes hen awdwyr, poglogwyd y ddinas ar y cyntaf o Palestina: Bochart (*Canaan, lib.* i., *cap.* 15.) a farna hyny yn debygol, o herwydd y gelwir y parth hwnw o Palestina, sydd yn gorwedd ar Fôr y Canoldir, gan yr Arabiaid, Keritha, a chan y Syriaid, Creth; ac am y geilw yr Hebreaid y trigolion Crethi, neu Crethim, a gyfieitha y LXX. Κρηταις, *Creteaid.* Ezec. 25. 15. Seph. 2. 5. Nad yw y prophwydi hyn yn llefaru am yr ynys Crete sydd eglur oddiwrth eu gwaith yn uno y Philistiaid gyd â'r Cretiaid, fel yr un bobl. Y Crethim, gan hyny, oeddynt rai o'r Philistiaid. Gelwir Creti, gwlad y Philistiaid, yn 1 Sam. 30. 14, 16. Ychwanega Bochart, fod y Cretiaid yn Palestina yn saethyddion enwog, a bod rhai o honynt yn ngosgorddlu y brenin Dafydd. 2 Sam. 8. 18. a 15. 18. a 20. 23. 1 Bren. 1. 38. 1 Cron. 18. 7. Yn y lleoedd hyn gelwir hwynt yn ein cyfieithiad ni, Cerethiaid; ond y gair gwreiddiol yw Creti. Cafodd Creti yr enw, tebygol, oddiwrth air Hebraeg sydd yn arwyddo *dinystrio*, am eu bod yn gwneuthur galanastra mawr â'u saethau; at hyn y mae cyfeiriad hardd yn Ezec. 25. 16. והכרתי את־כרתים (*Vehicrathi et-Cerithim*), y rhai a gyfieitha ein cyfieithwyr ni, 'toraf ymaith y Cerethiaid,' ond y cyfieithiad llythyrenol yw, *toraf ymaith y torwyr ymaith*, sef y Cerithim. Syr Isaac Newton, yn ei Amseryddiaeth, a ddywed, 'Llawer o'r Phœniciaid a'r Syriaid, cyn Crist 1045, a ffoisant o Sidon rhag y brenin Dafydd, i Asia Leiaf, Crete, gwlad Groeg, a Lybia; ac a ddygasant gyda hwynt ddysgeidiaeth, cerddoriaeth, prydyddiaeth, mettelau a'u gwneuthuriad, a chelfyddydau eraill, a defodau ac arferion y Phœniciaid; a dygasant gyda hwynt rai yn hysbys yn y dirgeledigaethau crefyddol, y rhai a alwent Curetis, Idæi, Dactily,' &c.

Y Creti o Palestina, tebygol, a roddasant eu henwau eu hunain ar yr ynys. Yn eu sefyllfa newydd, parhausant yn saethyddion enwog, medd Tournefort, ac i arfer yr holl gelfyddydau a arferasent gynt yn Palestina; yn enwedig morwriaeth. Dygasant hefyd gyda hwynt holl ddrwg-foesau y Canaaneaid, gwedi ymroddi yn hynod i lythineb, meddwdod, a phob anniweirdeb. A chyda hyny yr oeddynt yn nodedig gybyddlyd a chelwyddog; yn gymaint felly fel y daeth *siarad fel y Cretiaid*, yn ddiareb am ddywedyd celwyddau a thywllo: a *chelwydd Cretiaid*, a arwyddai y celwydd mwyaf haerllug a digywilydd. Epimenides, un o'u prydyddion, a Strabo, priodor o Crete, a osodasant y Cretiaid allan yn waradwyddus, fel celwyddwyr nodedig; yn enwedig Epimenides, yr hwn mewn awdl* a goffeir gan Paul (Tit. 1. 12.) sydd yn eu cyhuddo, nid yn unig am gelwydd, ond hefyd am lythineb a segurdod. Yr hanes hwn am y Cretiaid sydd yn dangos priodoldeb gorchymyn yr apostol i Titus 'i'w hargyhoeddi yn llym, fel y byddont iach yn y ffydd.' Tit. 1. 13. Dywed Mr. Tournefort, yr hwn a fu yno yn nechreu y ddeunawfed ganrif, fod ei thrigolion presennol yn fwy rhinweddol. Tebygol i'r efengyl wellhau eu moesau.

Yn A.D. 1204, y Venetiaid a gymerasant Canea, ail brif ddinas yr ynys, a chyda hi yr holl ynys. Bu yn

* Ymddengys, yn ol mesuriad diweddarach, mai 160 o filltiroedd o hŷd yw Crete, a bod ei lled yn dra anghyfartal, yn amrywio o 35 i 6 o filltiroedd. Myn rhai i'r ynys hon gael ei phoblogi o'r Aipht, ac mai yr un yw a Caphtor yn Deut. 2. 23.—C.

† Am hanes mwy helaeth o'r ynys hon, a chyfreithiau Minos, Gwel *Universal History, Vol.* viii., *b.* 2., *Chap.* 1.

* Geiriau Epimenides i gyd ydynt fel y canlyn:—Κρητες αει ψευσται, κακα θηρια, γαστερες αργαι; ταφον, Ανα, σειο κρητες ετεκτηναντο; ξυ δε ου θανες, εσσι γαρ αιει. *Y Cretiaid sy bob amser yn gelwyddog, drwg fwystfilod, boliau gorddiog: Gwnaethant fedd-adail i ti, O frenin; ond ti ni buost farw, canys byw ydwyt bob amser.* Yr achlysur o herwydd pa un yr ysgrifenodd Epimenides y llinellau hyn oedd fel y canlyn: Yr oedd yn Crete fedd-adail â'r argraff ganlynol arno; Ενθαδε κειται, ου,διον επικαλουσι; *Yma y mae yn gorwedd yr hwn a alwant Jupiter.* O herwydd yr argraff hon y geilw y prydydd hwynt yn gelwyddwyr, gan honi fod Jupiter yn anfarwol. *Glass. Philo. Sacr, Tract.* ii., *cap.* 7., *p.* 962.

Digitized by Google

eu meddiant hyd A.D. 1645, pan orchfygodd y Tyrciaid hi, ac ydynt yn y meddiant o honi hyd yn hyn.

Gwedi planu yr efengyl yn Crete gan yr apostol a'i gynnorthwywr Titus, gwreiddiodd mor ddwfn, ac a daenodd mor helaeth dros yr ynys, fel mae yn parhau yno hyd heddyw: ac y mae yn bresennol yn grefydd y trigolion, y rhai ydynt yn gyffredinol o Eglwys Groeg. Y maent yn mwynhau rhyddid crefyddol yn ddirwystr, ond talu teyrnged i'r Tyrciaid. Dywed Tournefort (*vol.* i., *p.* 25.) fod amgylchoedd Canea, yn neillduol o hardd. Rhwng y ddinas a'r mynyddoedd agosaf y mae yno goedwigau helaeth o'r olew-wydd, gwinllanoedd, meusydd, gerddi, nentydd, wedi eu cyffinio â myrtwydd: ond dwy ran o dair o honi sydd fynyddig. Crete, er hyny, sydd yn un o'r ynysoedd harddaf yn Môr y Canoldir; a phe cai ei diwyllio a'i hamaethu, fel yn yr amseroedd gynt, dygai yn dra helaeth holl angenrheidiau a danteithion bywyd.

Er nad oes hanes yn yr Actau am fordaith Paul i bregethu yr efengyl yn Crete, etto, eglur yw ei fod yno: 'Er mwyn hyn y'th adewais yn Crete, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit henuriaid yn mhob dinas, fel yr ordeiniais i ti.' Tit. 1. 5. Pa bryd yr aeth yno gyntaf; pa un ai cyn ai gwedi ei garchariad cyntaf yn Rhufain; pa bryd ac o ba le yr ysgrifenodd ei Epistol at Titus, yr hwn a ellir edrych arno fel Epistol at y Cretiaid—am y pethau hyn, methais gael boddlonrwydd gan neb o'r dysgedigion: am hyny yr wyf yn barnu mai ofer a diles fyddai i mi adrodd yma eu hamrywiol ddychymygion yn eu cylch. Gwel Michaelis's *Introduction.*

CREULON—DEB, (crau-llawn) un yn llawn gwaed, gwaedlawn; ffyrnig, gorwyllt, gerwin, calon galed. Gen. 49. 5, 7. Job 30. 21. —'Tosturi y drygionus sydd greulon.' Diar. 12. 10. Yn lle y tosturi hyny sydd yn naturiol i ddynion eraill, nid oes ynddo ddim ond creulondeb. Y mae tosturi yn cael ei alw yn greulondeb yma, yn yr un modd ag y mae gwendid Duw yn cael ei alw yn nerth, neu yn gryfach, a ffolineb Duw yn cael ei alw yn ddoethineb, neu yn ddoethach na dyn. 1 Cor. 1. 25.

CREYR—OD, (cre) crychydd. Crëyr glas; crëyr gwyn; crëyr copog; crëyr copog lleiaf.—'A'r crŷr (neu *crëyr*) yn ei ryw.' Lef. 11. 19. Deut. 14. 18. Math o adar aflan yw yr אנפה a gyfieithir *crëyr; heron, Saes.*: ond anhawdd i ni, yn y gwledydd hyn, benderfynu pa fath oeddynt. Barna Bochart mai math o eryrod, neu hebogau, oeddynt; ond hwyrach bod ein cyfieithiad ni, a'r Saesonaeg, mor agos i'w lle ag un.

CRIB, CRIBOG, (cy-rhib) copa; copäog; uchelfryniog; crib tŷ, crib mynydd, crib ceiliog; cribau cyffion.—'Mynydd Duw sydd fel mynydd Basan; yn fynydd cribog fel mynydd Basan.' Ps. 68. 15. Edr. BASAN.

CRIBDDEILIWR—WYR, (crib-dail) trawsddeiliwr, traws-gipiwr, yspeiliwr, trais-gymhellwr; hyny a arwydda y gair *Gr.* *αρπαγης*, a gyfieithir *yspeilio* yn Heb. 10. 34., ac yn Mat. 23. 25. *trawsedd*; ac yn Luc 11. 39. *trais*; yn 1 Cor. 5. 10, 11. a 6. 10. *cribddeilwyr.* Edr. LLADRAD.

CRIN, (cri) sych, dinôdd, brau, di-ireidd-dra, yn hawdd ei dori; llaw-gauad; anhael. Esa. 56. 3. Ezec. 17. 24.—'Os gwnant hyn yn y pren îr, pa beth a wneir yn y crin?' Luc 23. 31. Ymadrodd diarebol yw hwn: galwai yr Hebreaid ddynion da yn goed irion, a dynion drwg yn goed crinion. Cymh. Ps. 1. 3. â Jer. 17. 6, 8. Os daeth y fath ing a gofid i'm cyfarfod pan y rhoddais fy hun yn lle pechaduriaid, yr hwn wyf, nid yn unig yn un diniwed, ond yn Fab Duw ei hun pa beth a ddaw o'r trueiniaid hyny a'r nid ydynt yn profi dim o'm cynnorthwyon, a'r rhai y mae eu heuogrwydd personol yn eu gwneuthur yn danwydd mor gymhwys i lid dwyfol ag yw coed crinion i dân ysol? 'Pwy o honom a drig gyd â'r tân ysol? pwy o honom a breswylia gyda llosgfeydd tragywyddol?' Esa. 33. 14.

CRISPUS, [*modrwyog*] enw dyn; yr hwn oedd arch-synagogydd; a gredodd yn yr Arglwydd; a fedyddiwyd gan Paul. Act. 18. 8. 1 Cor. 1. 44.

CRIST, [*eneiniog*] un wedi ei eneinio. *Gr.* Χρισ-τος (*Christos*) CRIST, *Heb.* משיח (*Messiah*). Ioan 4. 25. — 1. Un wedi ei anfôn gan Dduw; Mab Duw, yr Arglwydd Iesu Grist, y Messïah gwir, Iachawdwr y byd; cenedledig gan y Tad cyn yr oesoedd, yn gyd-sylweddol, yn ogyd-dragywyddol, a gogyfuwch a'r Tad o ran ei ddwyfolder; yn llai na'r Tad, ac o sylwedd Mair Forwyn, o ran ei natur ddynol; prif wrthddrych y prophwydoliaethau; a addawyd ac a osodwyd allan trwy gysgodau yn yr Hen Destament; a ddymunwyd ac a ddysgwyliwyd yn fawr am dano gan yr hen batriarchiaid; gobaith am iechydwriaeth y Cenedloedd; gogoniant, dedwyddwch, a chysur y Cristionogion.

Yr hyn a roes ddechreuad i'r ymadrodd *ο* Χριστος (*o Christos*) a משיח (*Messïah*) sef y Crist, y Messïah, oedd y ddefod o eneinio, trwy yr hon y byddai breninoedd ac arch-offeiriaid pobl Dduw, ac weithiau y prophwydi, yn cael eu cysegru a'u gosod yn eu galwedigaeth sanctaidd; oblegid cyfrifid yr holl swyddau hyn yn sanctaidd yn mhlith yr Israeliaid. Exod. 28. 41. 1 Bren. 19. 16. Yr oedd yr ymadrodd hwn, yn ei arferiad dechreuol, yn cael ei gymhwyso at yr holl freninoedd a'r arch-offeiriaid o genedl Israel, yn dda ac yn ddrwg. Dyma yr enw a roddodd yr Hebreaid i'r Iachawdwr a'r Gwaredwr hwnw yr oeddynt yn ei ddysgwyl; yr hwn a addawyd trwy y prophwydi; ac yr oedd eu holl waredwyr tymhorol yn ei gysgodi. Yr oedd yr olew yn arwyddo yr Ysbryd Glân; a'r eneiniad yn arwyddo gosodiad cyfreithlon yr eneiniedig i'w swydd; a chyfraniad o gynneddfau a doniau addas i gyflawni y gwaith perthynol i'r swydd. Felly y mae Crist, eneiniog y Tad, wedi ei alw a'i osod yn gyfreithlon i'w swyddau o fod yn Brophwyd, yn Offeiriad, a Brenin i'w eglwys. Seliodd Duw Dad EF, ac a'i heneiniodd â'r Ysbryd Glân ac â nerth. Ioan 6. 27. Act. 10. 38.—Y mae yn feddiannol o'r cymhwysiadau mwyaf hefyd i gyflawni pob rhan o'r gwaith tra phwysfawr perthynol i'w swyddau; 'oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Ysbryd.' Ioan 3. 34. Edr. ENEINIO.

Ni chyd-gyfarfu yr holl swyddau yn neb erioed ond yr Arglwydd Iesu Grist. Ond y mae pob swydd angenrheidiol i'w eglwys yn cyd-gyfarfod ynddo ef; ac y mae yn feddiannol o ddoniau a chymhwysderau goruchel i'w cyflawni oll, yn berffaith ac yn ogoneddus. Y mae holl gyflawnder y Duwdod ynddo, ac y mae natur greadigol yn ei ddynoliaeth gwedi ei chario i'r gradd eithaf o berffeithrwydd a gogoniant. Esa. 9. 7.

Y mae yn waith hyfryd ac adeiladol i gymharu â'u gilydd ragddywediadau y prophwydi am y Messïah, a hanes rhyfedd yr efengylwŷr am Iesu o Nazareth—a sylwi mor hollol y mae y naill yn cyfateb i'r llall. Y maent yn cwbl gyd-uno mai morwyn fyddai ei fam—y byddai o lwyth Judah—tŷ Dafydd—a'i enedigaeth yn Bethlehem, dinas Dafydd. Y mae eu tystiolaeth yn un am dano, y byddai yn Dduw ac yn ddyn—yn ddyrchafedig ac yn cael ei ddarostwng—yn Arglwydd ac yn was—yn offeiriad ac yn aberth hefyd—yn deml ac yn Dduw yn y deml—yn drugareddfa ac yn Arglwydd ar y drugareddfa—y byddai yn ŵr tlawd, gofidus, a chynnefin â dolur, ac y byddai marw—ac y byddai gwedi hyny yn fuddugoliaethus

Digitized by Google

ar angeu, ac yn llywodraethwr gogoneddus, goruwch pawb, ac yn hunan-ddibynol yn ei deyrnas dragywyddol. Y mae yr holl bethau hyn yn ymddangos yn gwbl groes i'w gilydd, etto yn cyd-gyfarfod yn hyfryd yn mherson y Messïah, sef Iesu o Nazareth, yn ol tystiolaeth y prophwydi, a hanes yr efengylwyr am dano. Bydd cyfleusderau aml, tan eiriau eraill, i helaethu am dano, gan hyny ni chwanegaf yma. Edr. Agwedd, Brenin, Cnawd, Gwas, Iesu, Offeiriad, Prophwyd. Gen. 49. 19. Esa. 11. 1, 2. Mat. i. Luc 1. 26—36. Luc 3. 22—31. Mic. 5. 2. Mat. ii. Luc ii. Hag. 2. 6, 7. Mal. 3. 1. Esa. 7. 14. Jer. 31. 22. Mat. 1. 18—25. Esa. 9. 6, 7. 14. Luc 1. 16, 17, 35. Rhuf. 1. 4. a 9. 5. Deut. 18. 15—18. Act. 3. 22. a 7. 35, 37. Mat. 11. 5. a 17. 5. Ps. xxii. a lxix. Esa. liii. Luc 24. 36. Heb. 1. 3, 8—10. 1 Cor. 15. 3, 4. Phil. 2. 7—11. 1 Petr 1. 19—21.

2. Y mae y gair yn cael ei arfer am yr athrawiaeth mewn perthynas i Grist. Act. 8. 5. Eph. 4. 20.

3. Holl gorph dirgeledig Crist, sef ei eglwys; y pen a'r aelodau etholedig yn nghyd. 1 Cor. 12. 12.

'Gau Gristau,' ydyw y cyfryw ag a gymerant arnynt mai hwy yw y Messïah. Mat. 24. 24. Edr. Iesu.

CRISTAL, (crist) *Gr.* χρυσταλλος; *Saes.* Chrystal: math o fŵn caled dysglaer, o ddull onglog rheolaidd, wedi ei gyfansoddi o ddalenau digymysg. Nid oes ynddo ddim ystwythdra, ac ni thery dân chwaith. Y mae tri rhyw o gristal pur, heblaw yr amryw fath o hono sydd yn gymysgedig â sylweddau eraill. Yr oeddynt yn cael cristal gynt mewn ynys yn y Môr Coch; a'r cwpanau, a'r llestri eraill, a wneid o hono a gyfrifid yn dra gwerthfawr; ond yn bresennol nid yw o gymaint gwerth. Job 28. 17.—Dull y ffurfafen oedd ar benau y cerubiaid—y môr o wydr o flaen gorsedd-fainc Duw—yr afon o ddwfr y bywyd—a goleuni y Jerusalem newydd, a gyffelybir i gristal, i ddangos eu purdeb, eu dysgleirdeb, a'u heffeithiau llewyrchol. Ezec. 1. 22. Dat. 4. 6. a 22. 1. a 21. 11. Edr. Gwydr.——'Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini dysglaer.' Esa. 54. 12. *Heb.* ברכר *Saes.* Agates: rhyw faen gwerthfawr dysglaer: yn arwyddo y byddai gweinidogion yr eglwys, ei hordinhadau a'i haelodau, yn bur; y rhai a'i goleuant ac a'i harddant, trwy amrywiaeth eu doniau a'u gras.

CRISTIONOGION, dynion wedi eu heneinio yn ysbrydol, â'r un ysbryd ag yr eneiniwyd Crist, i fod yn aelodau, yn addolwyr, ac yn ganlynwyr i Grist.—'Y mae genych chwi *eneiniad* (*Gr.* Χρισμα, *Chrisma*) oddiwrth y sanctaidd hwnw, a chwi a wyddoch bob peth.' 1 Ioan 2. 20. Hwnw ydyw y gwir Gristion, ag a dderbyniodd Ysbryd Crist, yn ei gyd-ffurfio yn mhob peth â Christ. Nid yw enw o fod yn Gristion yn ddigon, heb fod yn feddiannol ar Ysbryd Crist. 'Od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef.' Rhuf. 8. 9. Yr enw hwn a roddwyd gyntaf ar y dysgyblion yn Antiochia, ag y sydd yn parhau ar drigolion y rhan hyny o'r byd a'r sydd yn derbyn athrawiaeth ysgrythyrau y ddau Destament. Act. 11. 26.

CROCH, (cy-rhoch) uchel-lef, uchel-floedd, uchelwaedd; gerwin-floedd, ysgrech.—'A chyhoeddwr a lefodd yn groch;' sef â llef uchel. Dan. 3. 4.—'A'r dyrfa gan groch-lefain;' sef gan wneuthur dadwrdd, trwst, a therfysg, yn nghyd â ysgrech-floeddau. Marc 15. 8. Dat. 18. 2.

CROCHAN—AU, (croch) efyddyn; llestryn; llestr i ferwi ynddo yn gyffredinol, o bridd, haiarn, pres, aur, &c. 2 Bren. 4. 38, 39.—'Er gorwedd o honoch yn mysg y crochanau, byddwch fel esgyll colomen wedi ei gwisgo âg arian, a'i hadenydd âg ur melyn.' Ps. 68. 13. *Heb.* שפתים *rhesau*, neu rhesau o geryg ar ba rai y gosodent eu crochanau i ferwi. Dywed Niebuhr am yr Arabiaid crwydrol, eu bod yn gosod eu crochanau ar amryw o geryg gwahanedig, uwch ben twll wedi ei gloddio yn y ddaear. Gorwedd rhwng y rhai hyn a arwydda y cyflwr isaf o gaethiwed: canys hwn, tebygol, oedd gorphwysfan y caethwas gwaelaf. Darluniad addas o gyflwr Israel yn yr Aipht, yn llettya fel caethion rhwng rhesau o odynau y priddfeini, wedi eu gorchuddio â chlai a mŵg, yn wael iawn yr olwg arnynt. Ond gwedi meddiannu Canaan, yn amser Dafydd a Solomon, yr oeddynt yn ymddangos yn hardd a godidog; a mwy felly etto, fel yr oeddynt yn bobl sanctaidd i'r Arglwydd. Fel hyn, pan droir caethion Satan at Grist, wedi eu cyflawnhau a'u sancteiddio ganddo, y maent yn dechreu edrych yn hardd; ac yn y nefoedd yr ymddangosant yn eu cyflawn degwch, ac ôl y crochanau wedi ei lwyr ddileu, a byddant fel esgyll wedi eu harddu âg arian, a'u hadenydd âg aur melyn. Ps. 81. 6. Exod. 1. 14. 1 Cor. 6. 9—11. a 12. 2. Eph. 2. 1—4. Tit. 3. 3.——Jerusalem a gyffelybir i 'grochan berwedig,' â'i wyneb tu a'r gogledd; trwy y Caldeaid, fel moddion, y rhai a ddaethant i'r gogledd, y gwarchaewyd ac y llosgwyd Jerusalem, a'r trigolion a boenydiwyd hyd angeu, megys mewn dwfr berwedig. Jer. 1. 13.——Y crochan aur, yn yr hwn yr oedd y manna yn cadw, a allai fod yn gosod allan ordinhadau gwerthfawr yr efengyl, yn y rhai y mae Crist i'w gael, ac yn cael ei gadw i'r cenedlaethau, ger bron a than olygiad Duw. Exod. 16. 33. Edr. Manna.——'Moab yw fy nghrochan golchi; dros Edom y bwriaf fy esgid.' Ps. 60. 8. Cymaint a phe dywedai, er balched oedd y Moabiaid a'r Edomiaid yn eu herbyn, yn yr anialwch, hwy a wnaed yn awr yn ddeiliaid, yn weision, ïe, yn gaethion i ni, i dynu ein hesgidiau, ac i olchi ein traed. Gwel *Llyfr yr Homiliau.*

CROCHENYDD, (crochan) priddlestrydd, cragenydd; un yn gwneuthur crochanau, neu ryw lestri eraill o bridd neu glai. Jer. 18. 2, 3, 4.——Y mae Duw yn cael ei gyffelybu i grochenydd; efe sydd yn llunio ein cyrph o glai; gan ein llunio, a gwneuthur â ni, fel y gwelo fod yn dda. Rhuf. 9. 21. Esa. 64. 8.——Y mae Duw, er mwyn dangos ei lywodraeth gadarn a diammodol ar ddynion, a'i awdurdod goruchel ar eu calonau, yn fynych yn arfer y cyffelybiaeth o grochenydd, yr hwn a wnai fel y myno â'i glai; weithiau llestr i barch, ac weithiau i anmharch; yn awr yn ei ffurfio, ac yn y man yn ei dori, &c. Ps. 2. 9.

CROEN, CRWYN, (craw) *Heb.* עור *Gr.* χρως; gorchudd cnawd creadur, dyn ac anifel.

Yn y *croen* y ganer y blaidd y bydd marw. *Diar.*

Pilen fawr dew yw y croen, yn gorchuddio yr holl gorph, gwasanaetha fel peiriant teimlad, ac yn orchudd ac yn harddwch i'r holl gorph.——Y mae y croen yn gynnwysedig o dair rhan; sef y bilionen allanol, a elwir *cuticle, epidemeris*, neu *scarf-skin*. Y ganol a elwir *corpus reticulare*, am ei fod yn llawn o fân dyllau fel rhwyd neu ogr. Y dufewnol a elwir *cutis*, ac y mae gwedi ei ffurfio o fân linynau o benau y rhedweliau, y gwythienau, y giau, y gewynau, &c. Oddiwrth y rhai hyn y mae yn codi yn ronynau mân dirifedi ar y croen, a elwir *pupillæ piramidales*, yn y rhai y mae teimlad yn gynnwysedig. Y mae hefyd yn y croen gilchwyrn bychain dirifedi, a elwir *miliary glands*; y llestri hyn sydd yn ysgaru y chwys, ac yn ei ddwyn i'r bilen allanol. Y mae y *cuticle*, neu y bilen allanol, yn nodedig am gèn mân a chwys-dyllau na wêl y llygaid noeth ddim o honynt heb help drychau. Y mae y cèn gwedi ei osod ar gorph dyn, fel ar y pysgod, yn gorwedd ar eu

Digitized by Google

gilydd, a hyn sydd yn peri fod y croen yn ymddangos yn wyn, ac onidê byddai yn goch fel y gwefusau, lle nad ydynt yn gorwedd ar eu gilydd, ond yn cyfarfod yn unig. Oddi rhwng y cèn hyn y mae chwys yn dyfod allan o'r chwys-dyllau, y rhai y maent yn eu gorchuddio. Dywed Leewenhoek, fod yn mhob troedfedd ysgwar, yn nghylch 144,000,000 o chwys-dyllau. Barna M. Perrault, fod maeth yn cael ei dderbyn i mewn i'r corph trwy y mân dyllau hyn; a hyny sydd yn peri fod cigyddion a chogyddion, &c., y rhan amlaf yn tewychu. A'r un fath fod planigion yn derbyn maeth trwy y rhisgl, ac nid yn unig o'r gwraidd.——Defnyddiwyd crwyn yn foreu. Gwisgoedd cyntaf dynion oedd o grwyn anifeiliaid. Gen. 3. 21.——Cenedloedd y gwledydd gogleddol a wisgwyd â chrwyn er yr hen oesoedd.——Gwneir memrwn o grwyn defaid, neu eifr. Edr. MEMRWN.

'A'r Arglwydd Dduw (IEHOFAH ELOHIM) a wnaeth i Adda, ac i'w wraig, beisiau crwyn, ac a'u gwisgodd am danynt hwy.' Gen. 3. 21. *Heb.* כתנות *peisiau.* Arwydda y gair Hebraeg, *gwisg yn glynu*, cyfagos; y wisg nesaf i mewn, crisbin. Y peisiau crwyn a wnaed gan yr Arglwydd i'n rhïeni cyntaf oedd, diammeu, o grwyn yr anifeiliaid hyny, y rhai, trwy osodiad dwyfol, a laddwyd yn aberth, fel cysgod o ddyoddefiadau a marwolaeth yr hâd addawedig; a gwaith Duw yn eu gwisgo â'r rhai hyn, oeddynt yn arwyddo mantell cyfiawnder, a gwisgoedd iechydwriaeth, â pha un y caent eu gwisgo yn ganlynol i'r iawn a wnaeth Crist drostynt. Esa. 61. 10. Gal. 3. 27. Rhuf. 12. 13, 14. Dat. 7. 9, 13, 14. a 19. 8. Ac i'w dysgu gan bwy yr oeddynt i'w cael, sef ganddo ef, yr hwn oedd yn offeiriad ac yn aberth, trefnwyd dan y gyfraith (Lef. 7. 8.) fod i'r offeiriad a offrymai y poeth-offrwm i gael croen y poeth-offrwm a offrymai efe.——Prophwydi, a saint dan erlidigaethau, yn fynych wedi hyny, a wisgasant wisgoedd o grwyn. Heb. 11. 37.——'Blingo y croen,' a arwydda gorthrymu dynion, hyd na bo ganddynt ond eu heinioes yn unig wedi ei adael. Mic. 3. 2, 3.——'Dianc â chroen y dannedd,' ydyw dianc heb ddim ond bywyd, wedi cael, fel pe bai, guro y dannedd o'r pen, a phrin fod genau wedi ei adael i gwyno. Job 19. 20.——'Croen am groen;' hen ddiareb ydoedd hon, yn dangos fod dyn am gadw ei fywyd, tros a fyddai i fywyd cyfeillion a pherthynasau fyned ar goll, yn nghyd â phob mantais allanol. Job 2. 4.——*Heb.* עור בעד עור *croen, ie, hyd groen;* sef y croen nesaf i mewn, yr hwn nis gellir ei dynu ymaith heb y boen a'r golled fwyaf; etto, goddef dyn y boen a'r golled hon er mwyn cadw y bywyd gwerthfawr.

CROES, (cro) *Llad.* CRUX; tro, croesbren: gwrthwyneb; fel gwynt croes; croes-hynt, sef croes-ffordd; heb groes, heb wahardd, sef heb ddim rhwystr:—math o grog-bren wedi ei wneuthur o ddau ddarn o bren, y naill ar draws y llall, ar ddull T neu X. Ar y fath gyntaf y dywedir i Grist ddyoddef. Nid ydyw ysgrifenwyr yn cytuno pa un ai bod yr arferiad o gospedigaeth y groes yn mhlith yr Iuddewon ai nad oedd.—1. Marwolaeth y groes oedd y fwyaf ofnadwy o'r holl farwolaethau cospedigaethol, o ran y cywilydd a'r boen ydoedd yn ei dilyn; mor waradwyddus ydoedd a'i bod yn nôd penaf o ffieiddiad ar y gwaelaf o ddynion. Mat. 27. 32. Marc 15. 30, 32.——2. Holl ddyoddefiadau Crist yn ei gorph a'i enaid, a elwir y groes; ac yn neillduol ei farwolaeth boenus, waradwyddus, ar y groes. Eph. 2. 16. Heb. 12. 2.——3. Athrawiaeth yr efengyl, yn cyhoedddi Crist wedi ei groeshoelio, ac iechydwriaeth trwy Grist croeshoeliedig. 1 Cor. 1. 17, 18. Gal. 5. 11.——4. Y cyfryw orthrymderau ag y bydd y ffyddloniaid yn eu dyoddef er mwyn Crist a'i gyfiawnder; croes neillduol yw hon, yn perthyn i gredinwyr yn unig. Gal. 6. 14.——5. Unrhyw beth gofidus wedi ei anfon gan Dduw i'r corph neu y meddwl. Hon yw y groes gyffredin sydd yn nglŷn wrth bawb fel y maent yn ddynion. Mat. 10. 38. a 16. 24. Marc 8. 34. Luc 9. 23.——'Cyfodi y groes,' ydyw ymostwng yn ewyllysgar dani er mwyn Crist. Mat. 16. 24. Ni ddylai Cristion wneuthur croes iddo ei hun; nac ychwaith addoli na mawrhau croes Crist (sef y pren) hyny sydd yn perthyn i Grist, yr hwn a groeshoeliwyd ar bren 1 Cor. 2. 2.

CROESHOELIO, (croes-hoelio) cospedigaeth y groes, hoelio ar groesbren. Mat. 27. 22. Y modd y byddid yn cyflawni y boenedigaeth hon oedd fel y canlyn:—Yn gyntaf, byddid yn ffangellu y troseddwr â chyrt; ac weithiau byddid yn cylymu darnau o esgyrn wrth y ffrewyllau hyn, fel y byddai dyoddefiadau yr euogfarnol yn fwy llymdost. Crist a ffangellwyd yn dra chreulon cyn ei groeshoelio; ar ol i Pilat roddi y ddedfryd arno, gorchymynodd ei ffangellu, ac a'i rhoddodd i'w groeshoelio. Mat. 27. 26. Yr oedd hefyd yn arferiad gwneuthur i'r hwn a groeshoeliwyd ddwyn ei groes i'r dienyddle; fel hyn y cymhellwyd Crist i ddwyn y pren yr hwn yr oedd i ddyoddef arno. Nid yw awdwyr yn cyduno yn gwbl pa un ai cyn ai gwedi gosod y groes i fynu y byddid yn hoelio traed a dwylaw y croeshoeliedig. Amryw awdwyr credadwy a ddywedant mai cyn ei chodi i fynu y gwneid hyn. Dywed Mr. Burder, 'Pan groeshoelid dyn, hoelid ef ar y groes tra yr oedd hi yn gorwedd ar y llawr, trwy y dwylaw gwedi eu hestyn ar eu hŷd gyd, a thrwy y ddau droed yn nghyd; yna sythid y groes, ac yr ergydid ei throed yn dra ffyrnig i dwll yn y llawr, gwedi ei ddarparu i'w derbyn. Yn y modd hwn y byddai y corph, yr hwn y byddai ei holl bwys yn crogi wrth yr hoelion oedd yn myned trwy y dwylaw a'r traed, yn cael ei gwbl ddad-gymalu, a'r dyoddefwr, o'r diwedd, yn trengu trwy rym y boen. Byddai tân weithiau yn cael ei gynneu wrth y groes, fel y darfyddai am y croeshoeliedig trwy y mŵg a'r fflam.' Gwel Burder's *Oriental Customs.* Byddai ysgrifen achos cospedigaeth y troseddwyr yn ysgrifenedig ar ben y groes, fel y gallai pawb ei weled. Ond nid oedd uwch ben yr Iesu un bai yn ysgrifenedig, ond yn hytrach lled-arwydd mai efe ydoedd y Messïah; ac ni allodd neb gael gan Pilat ei newid.—Crist a groeshoeliwyd trwy wendid ei natur ddynol, ond byw y mae trwy nerth Duw. 2 Cor. 13. 4. 1 Petr 3. 18.——'Ail groeshoelio Crist' y bydd dynion pan fyddont yn diystyru ei berson, neu ei swyddau, neu yn hollol wrthod ei gyfiawnder a'i efengyl. Heb. 6. 6.—'Croeshoeliwyd y saint gyda Christ:' oblegid ei fod yn eu cynnrychioli hwynt yn ei farwolaeth, hwythau yn cael eu gwneuthur yn gyfranogion o effeithioldeb a rhinwedd ei farwolaeth, trwy gymhwysiad o'r Ysbryd Glân, i dôri grym a llywodraeth eu pechod, i'w gwneuthur yn farw i'r ddeddf, ac i'r byd; ac yn raddol i farweiddio eu holl lygredd tufewnol. Gal. 2. 20. a 5. 24. a 6. 14. Rhuf. 6. 6.

CROESANAETH, (croesan) serthedd, budr-eiriad, brynti. — 'Na chroesanaeth, nac ymadrodd ynvyd.' Eph. 5. 4, 12. Rhuf. 1. 27. W. S.

CROES-FFORDD—FFYRDD, lle byddo y naill ffordd yn myned drwy y llall. Obad. 14.

CROG—I, (crog) *Gr.* κρεμαω; rhwym-ddibynu; dibynu; megys y dywed Job, fod Duw 'yn crogi y ddaear ar ddiddim.' Job 26. 7. Yn gymaint nad oes gan y ddaear un sylfaen, atteg, na chynnalydd, ond nerth Duw. Cymh. Ps. 24. 2. a 104. 5. a 136. 6.——Israel a grogasant eu telynau ar yr helyg, ar làn afonydd Babel; gan dystio trwy hyny, fod iddynt fwy o achos, a'u bod yn fwy parod i alaru nag i chwareu eu tannau. Ps. 137. 2.——'Arno ef y crogant holl

Digitized by Google

ogoniant tŷ ei dad.' Esa. 22. 24. Sef ar Eliacim yn gysgodol; ac ar Grist yn sylweddol. Dyrchefir ei holl berthynasau ganddo, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt: a dygir hwynt oll i gydnabod eu dibyniad arno, a'u dyled iddo.

CROG-BREN, (crog-pren) dienydd-bren; pren dial; dienyddle drwg-weithredwyr.—Yr oedd y crog-bren a ddarparasai Haman i grogi Mordecai yr Iuddew arno, yn ddeg cufydd a deugain o uchder, sef yn nghylch pum llath ar hugain. Ac yn lle Mordecai, efe ei hun a'i feibion a grogwyd arno. Esth. 7. 9. a 9. 13.

CROGLATH, (crog-llath) telm, magl, tag-fagl, byddagl; math o lath wrthneidiol, yn tagu neu yn dal aderyn yn nghrog, pan gyffyrddo â hi.—'A syrth yr aderyn yn y fagl ar y ddaear, heb fod croglath iddo?' Amos 3. 5. Na feddylied neb fod y drygau sydd yn dyfod, neu a allant ddyfod, i'w cyfarfod, yn dyfod trwy ryw ddamwain neu ddygwyddiad; nac ydynt: ond dyfod y maent trwy neillduol ragluniaeth Duw (adn. 6.) a hyny fel gwialen am bechod. 'Oni werthir dau aderyn y tô er ffyrling? ac ni syrth un o honynt ar y ddaear heb eich Tad chwi.' Mat. 10. 29.

CROMBIL—OD, (crom-il) cropa aderyn: yr hyn a fyddid yn ei dynu allan o'r aderyn a offrymid ar yr allor. Lef. 1. 16. Edr. CYLLA.

CROMLECH, (crom-llech) maen gwastad, neu yn hytrach ceuol, neu yn gogwyddo i lawr naill ochr. Yr enw cyffredin am *grair gorsedd, maen llôg*, neu *maen gorsedd*, yr hon a osodir o fewn y *cylch cynghrair;* arni y cyflawnent lawer o ddefodau arwyddol ac ystyrfawr y Derwyddon.—'Ac yn nghromlechydd y creigiau.' Esa. 7. 19. *Holes of the rocks, Saes.* tyllau y creigiau. *On the craggy rocks*, ar greigydd clegyrawg. בנקיקי *tyllau*, neu *lleoedd ceuol*, megys mewn creigiau. Parkhurst.—'Gan ladd y plant yn y glynoedd dan gromlechydd y creigiau.' Esa. 57. 5. Cyfeiria y geiriau at arferion dychrynllyd y cenedloedd Paganaidd o aberthu eu plant i'w heilunod, mewn rhyw leoedd neillduol, tywyll, cuddiedig, rhwng clogwyni creigiau.

CRONGLWYD—AU, (crong-glwyd) nen tŷ, y glwyd sydd yn dal y tô ar y tŷ.—'Y daethant dan gysgod fy nghronglwyd i;' sef daethant i'm tŷ. Gen. 19. 8.—'Nid ydwyf fi deilwng i ddyfod o honot dan fy nghronglwyd;' sef i fy nhŷ. Mat. 8. 8.

CRONICL—AU, hanes am bethau a fuant mewn amseroedd gynt; oddiwrth y gair *Gr.* Χρονος; *Llad.* CHRONICA; *Saes.* CHRONICLE. Y mae dau lyfr a elwir felly yn y Bibl, y rhai ydynt yn cynnwys hanesion am yn nghylch 3500 o flynyddoedd, wedi eu casglu yn nghyd. Yr enw a roddir arnynt yn y Groeg ydyw Παραλειπομενον (*Paraleipomenon*) sef y rhelyw, neu yr hyn sydd yn ol; yn ol eraill, *y pethau a aethant heibio*, neu *a aed heibio iddynt*, neu *y pethau a adawyd allan.* Canys ynddynt yr adroddir amryw bethau yr aed heibio iddynt yn ddisylw, neu a adawyd allan o lyfrau eraill yr Ysgrythyrau Sanctaidd; pethau er hyny ydynt wir deilwng o gael eu cadw mewn coffadwriaeth, a'u cyfranu i eglwys Dduw.

Nid ydyw y ddau lyfr hyn ond un gan yr Hebreaid (mewn rhai copiau) ac a elwir דברי הימים *geriau y dyddiau*, hyny yw, *yr amseroedd:* canys felly yr adroddant hwy am flwyddyn, sef rhyw nifer penodol o ddyddiau; felly y mae y gair הימים yn arwyddo, *dydd a nos; yr amser.* Gwel Exod. 13. 21, 22. Yr un gair a gyfieithir *blwyddyn* yn Lef. 25. 29. Barn. 17. 10. a 21. 19. 1 Sam. 1. 3, 7. a 27. 7. Gan hyny, ystyr yr enwad ar y llyfrau hyn, yn ol yr Hebraeg, ydyw, Adroddiad o'r pethau ag oeddynt deilwng o sylw a choffadwriaeth, a ddygwyddasent yn eglwys Dduw o bryd i bryd, o fewn tir Israel a'u dinasoedd. Y mae yn gynnwysedig ynddynt rywbeth yn mherthynas i gyflwr yr eglwys o ddechreuad y byd hyd wedi y dychweliad o gaethiwed Babilon: a thebyg eu hysgrifenu gan Ezra. 2 Cron. 36. 20—23. Cymh. Ezra 1. 1, 2, 3.

Amcan y llyfrau hyn, yn benaf, ydyw, cyflawni hanesiaeth breninoedd Judah ac Israel; ac i gasglu y darnau o hanesiaeth sanctaidd a adawyd allan o lyfrau Samuel a'r Breninoedd, &c., ac i egluro rhai ymadroddion a grybwyllir yno, ac i roddi cyfrif a hanes manwl a chywir o'r cenedlaethau; fel y gellid dangos fod Crist wedi dyfod o'r genedl, y llwyth, a'r teulu, o'r hwn yr oedd efe i gael ei eni.

Y mae y llyfr cyntaf yn dechreu â'r achau o Adda hyd yn mhell wedi y caethiwed; llawer o ba rai a gasglwyd o ranau eraill o'r ysgrythyrau. Yna yr adroddir hanes dyrchafiad Dafydd i'r orsedd, ar ol marwolaeth Saul: rhoddir hanes mwy cyflawn nag yn un man arall o lywodraeth dufewnol y deyrnas—o drefniadau yr offeiriaid a'r Lefiaid yn ngwasanaeth y cysegr—y parotoad a wnaeth i adeiladu y deml—a'i gynghorion a'i annogaethau i Solomon ei ganlynwr, ac i henuriaid Israel. Y mae y gwr yn ol calon Duw yn ymddangos yn fwy dysglaer ac anrhydeddus yn y llyfr hwn nag yn ail lyfr Samuel, ac yn nechreu llyfr cyntaf y Breninoedd. Tebygol fod yr achau yn Matthew a Luc, mewn amryw ystyriaethau, yn cyfeirio at y rhai yn y llyfr hwn. Luc 1. 5. Yn yr achau y mae amrywiaeth geiriau a llythyrenau oddiwrth rai mewn ysgrythyrau eraill; ond y mae yn eglur fod i lawer o bersonau fwy nag un enw, ac y gelwid hwynt wrth y naill neu y llall, heb ddim gwahaniaeth; ac y mae silliad a llafariad, yn y rhan fwyaf o ieithoedd, yn cyfnewid yn o fawr mewn hir amser.

Yn yr ail lyfr y mae yr hanes yn y llyfr cyntaf yn cael ei ddwyn yn mlaen, gan ddechreu gyda dyrchafiad Solomon i'r orsedd, ac yn rhoddi hanes am yr amrywiol freninoedd Judah a deyrnasasant olynol, hyd gaethiwed Babilon; ac yn diweddu gyda chrybwylliad am orchymyn Cyrus am adferiad yr Iuddewon, ac ail adeiladu y deml. Y mae yr hanes yn y llyfr hwn yn rhoddi llawer o oleuni ar yr ysgrifeniadau prophwydoliaethol, ac nis gellir yn hawdd eu deall hebddo.

Y mae Jerome yn galw llyfrau y Cronicl yn ddyfyriad o hanesiaeth yr Hen Destament, ac yn neillduol o angenrheidiol tu ag at iawn ddeall yr ysgrythyrau. Y mae D. Pareus o'r farn fod defnyddiau y ddau lyfr wedi eu cyfansoddi gan amryw brophwydi, pob un yn ysgrifenu yr hyn a ddygwyddodd yn ei ddyddiau; ac i Ezra wedi hyny iawn drefnu a dosparthu yr amrywiol goffadwriaethau, fel eu gwelir yn bresennol, a rhagddodi yr achau yn y dechreu.

CROTH—AU, (cro) peth fyddo yn chwyddo, cryndedd, y bol, y bru:—croth coes; croth y wawr:—y rhan hyny o gorph y fenyw lle y cenedlir ac y meithrinir y plentyn hyd ei enedigaeth. Y mae y groth wedi ei chyfleu a'i hamddiffyn yn gref âg esgyrn, er cysur a diogelwch y fam a'r plentyn. Yr hen Roegiaid a alwent y groth, μητρη (*metrê*) y fam; felly, yn mhlith y Cymry, gelwir amrywiol afiechyd y groth, y fam eni—gwaith y fam—clwyf y fam—gwynt y fam.

'Yr hwn sydd yn credu ynof fi, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef.' Ioan 7. 38. *Gr.* κοιλια, *bol;* y dyn oddi mewn, y galon, y meddwl, yr enaid. —'Allan o'i *vru* ef.' W. S. Y rhai sydd yn dyfod at Grist yn sychedig, dan deimlad o'u hangen, sef yn credu ynddo, a gânt nid yn unig ryw gysur neillduol am ychydig, ond cânt ffynon ynddynt, afon ynddynt i ddylifo allan, sef helaethrwydd parhaus o ddylanwadau yr Ysbryd, i'w hadfywio a'u ffrwythloni, er eu cysur eu hunain, ac adeiladaeth eraill. Ps. 36. 8.



Digitized by Google

Esa. 48. 18. Y mae Ysbryd Crist yn aros ac yn trigo yn wastad ynddynt, ac yn rhoddi allan afonydd bywiol, iachus, a diddarfod. Y mae nid yn unig yn gweithredu ar yr enaid, ond ynddo, yn y galon, yn y dyn oddi mewn, fel bwyd a diod yn y cylla, er magwraeth a chynnaliaeth.——'Croth y wawr.' Ps. 110. 3. Edr. Gwlith.

CROYW—I, (cro) crwn, llawn, claer; llwfn; bywiog; pêr, dihallt, disurni.—Llais croyw, sef llawn, eglur, hyglyw:—siarad yn groyw, sef yn eglur, yn wahanredol:—iaith groyw, sef eglur, llwfn:—dwfr croyw, sef dihallt: Iago 3. 12.—bara croyw, sef heb surdoes:—croyw-bêr, sef melus iawn:—croyw-glaer, sef dysglaer:—croyw-grai, sef cri iawn:—croyw-rydd, sef yn rhedeg yn glaer.—Hyfal croyw rydd.—'Peilliad wedi ei gymysgu yn groyw trwy olew.' Lef. 2. 5. Sef heb surdoes.—'Yn groyw y bwyteir ef.' Lef. 6. 16. a 10. 12. Sef heb surdoes.——'Dyddiau y bara croyw.' Act. 20. 6. Sef y pasc, pan yr oeddynt i fwyta bara croyw. Edr. Pasc.

CRWM, CRYMU, (crw) cam, plygedig, anuniawn; plygu, camu.—Un o'r nodau ag oedd yn anaddasu dynion i wasanaeth y cysegr, dan y gyfraith, oedd bod yn gefn-grwm. Lef. 21. 20. Rhaid i weision Crist fod yn uniawn, yn ddiwyrni yn egwyddor eu hysbrydoedd: gwedi eu rhyddhau gan Dduw odditan iau drom llywodraeth pechod, fel y gallont rodio yn sythion. Lef. 21. 6, 8. Ps. 32. 2. Na byddo chwant am bethau darfodedig daear yn eu crymu i roddi eu serch arnynt; ond bod eu serchiadau ar bethau sydd uchod; eu golwg yn uniongyrch ar ogoniant Duw; a'u dysgwyliad yn unig wrth Dduw, am bob bendithion angenrheidiol i fywyd a duwioldeb. 2 Tim. 3. 2. Col. 3. 2. Ps. 5. 3.—Dyma y fath un yw ein Harch-offeiriad ni, Iesu Grist; yn berffaith gwbl yn sylweddu yr holl gysgodau. Efe a aeth trwy ei waith mawr yma ar y ddaear, yn uniawn syth ac yn ddiwyrni; ac felly y cyflawna ei holl swyddau.

CRWYDR—O—IAD, (crwyd) yn cilio, yn symud o'i le; ciliedydd; llechiedydd:—Ar grwydr, sef ar ymlid, ar ffo.—'Mab gwaradwyddus a gwarthus a anrheithia ei dad, ac a ŷr ei fam ar grwydr.' Diar. 19. 26.—'Yr hwn a anrheithia ei dad, ac a ŷr ei fam ar grwydr, sydd fab yn peri gwaradwydd a gwarth.' *Saes.* Yr hwn sydd yn afradloni meddiannau ei dad, ac yn gwneyd ei hen fam yn amddifad o gynnaliaeth trwy hyny; neu yn eu gyru oddi cartref, ac ar grwydr, trwy ei drahausder a'i afreolaeth, sydd yn waradwydd i'w deulu, ac yn flin-beth, cas-beth i bob cymdeithas, ac a ddaw yn y diwedd ei hun i ddiystyrwch a gwaradwydd. Y mae y cyfryw anghenfilod yn rhith dynion, yn mhob cenedlaeth. Deut. 21. 18—21. Luc 15. 12—16, 30. Diar. 10. 1. a 17. 25. a 23. 22—25. a 28. 24. a 30. 11, 17. Edr. Cain, Gwibiad.

CRYBWYLL—IAD—ION, (cy-rhybwyll) adrodd, dywedyd, mynegi, llefaru mewn pwyll.—'A chrybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ,' &c. Deut. 6. 7. Ymdrechwch trwy bob ffordd ac ymarferiadau sanctaidd i wneuthur y gyfraith yn gynnefin ac yn adnabyddus i chwi a'ch teuluoedd. 1 Sam. 4. 18. 2 Cron. 20. 34.

CRYCH—U, (cy-rhych) *Llad.* Crispus; dilyfn, cudynog.—Dwfr crych.—'Ei wallt yn grych, (neu gudynog, ymyl y ddalen) yn ddu fel y fran.' Can. 5. 11. Edr. Du, Gwallt.

CRYCHNI, (crych) crychiaden, doleniad.—'Yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni.' Eph. 5. 27. Hyny yw, ni bydd ar eglwys Crist ddim pall-dod na chulni, na gwrthuni llygredigaeth; eithr bydd heb un arwydd o henaint arni, ac wedi ei chyflawni, a'i chwbl harddu â gras yr Ysbryd Glân, pan atebir dyben Crist yn ei roddi ei hun drosti: hi a fydd yn gyflawn o burdeb a harddwch tragywyddol.

CRYCHNEIDIO, (crych-naid) crych-lamu, neidio, neu lamu o lawenydd; megys yn bod wedi ei orchfygu gan lawenydd.—'Fy arenau a grychneidiant.' Diar. 23. 16. Yr un gair Hebraeg a gyfieithir yn Ps. 28. 7. 'llawenydd fy nghalon.'

CRYCH-NYDWYDD—AU, (crych-nydwydd) nydwydd i grychu.—'A'r crych-nydwyddau.' Esa. 3. 22. 'A'r pyrsau.' Dr. M.—*And the crisping pins. Saes.*—*And the little purses.* Dr. L. Pyrsau bychain. Cyfieithir yr un gair, *côd, dwy gôd,* yn 2 Bren. 5. 23. Cyfieithir ef *pin,* yn Esa. 8. 1. oddiwrth hyn dychymygir mai math o grych-nydwyddau oeddynt. Tebygol fod y pyrsau a'r pin yn o debyg eu llun i'w gilydd.

CRYD, (cy-rhyd) math o afiechyd blin:—cryd poeth; cryd dyspeidiawl; cryd diddyspaid; cryd peunyddiawl; cryd tridiau; cryd melyn; cryd iau melyn; cryd cymalau.—Y cryd poeth oedd un o'r barnedigaethau a fygythiodd Duw ar Israel, os anufuddhaent i'w gyfreithiau. Deut. 28. 22. Y mae y gair *Heb.* קדח a'r *Gr.* πυρετος, yn arwyddo rhyw glefyd tanbaid hynod; oblegyd fod y geiriau yn arwyddo ennynu, tanio, llosgi. Mat. 8. 14. Marc 1. 30. Luc 4. 38.—'Ac a geryddodd y cryd.' Luc 4. 39. Edr. Cerydd.

CRYF—ION, (crw) cadarn, gwrol, galluog, nerthol.—Gwaredwr Sion sydd gryf; ïe, yn gryfach na'i holl wrthwynebwyr. Jer. 50. 34. Luc 11. 22.—'Cariad sydd gryf fel angeu.' Can. 8. 6. Edr. Cariad.

CRYMAN—AU, (crwm) 1. Arf cam miniog, i fedi âg ef. Deut. 16. 9. Jer. 50. 16.——2. Barnedigaethau Duw yn tori i lawr, neu yn medi ei wrthwynebwyr. Joel 3. 13. Dat. 14. 15—19.

CRYMU, (crwm) 1. Camu, goblygu, darostwng. Job 9. 13. Ps. 38. 6.——2. Ymostwng mewn ffordd o ufudd-dod ac anrhydedd. Esa. 40. 23.——3. Rhith ymostyngiad mewn edifeirwch a galar am bechod.—'Crymu y pen fel brwynen.' Esa. 58. 5. Mic. 6. 6. Edr. Brwynen.

CRYNO, (crwn) talfyr, difyr, taclus, dillyn, destlus, peth wedi ei gyd-gasglu yn fyr a hardd; llawer o fater mewn ychydig eiriau.—'Ac od oes un gorchymyn arall, y mae wedi ei gynnwys yn gryno yn hwn;' neu wedi eu cyd-gasglu yn, neu i hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Rhuf. 13. 9.

CRYNHOI, (crwn) cyd-gasglu, cyfanu, cyfundebu.—'Fel y gallai grynhoi yn nghyd yn Nghrist,' &c. Eph. 1. 10. Y mae pechod wedi gwasgaru dynion oddiwrth eu gilydd, ac oddiwrth Dduw; goruchwyliaeth Duw, trwy yr efengyl, yn nghyflawnder yr amseroedd gosodedig ganddo, ydyw crynhoi yn nghyd yn Nghrist, ac uno drachefn dan un pen, sef Crist, yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear ynddo ef. Y gair *Gr.* ανακεφαλαιομαι, a arwydda, *crynhoi yn nghyd dan un pen.* Y mae yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear wedi eu gwasgaru trwy bechod. Gwasgarwyd angelion oddiwrth eu gilydd; a rhai oddi wrth Dduw tros byth: a'r hyn a ddygwyddodd i rai a allasai ddygwydd i'r lleill, o'u rhan eu hunain. Dattododd pechod yr holl gylymau ag oedd yn uno pethau ar y ddaear, ac a'u gwasgarodd oddiwrth eu gilydd. Gan fod rhwymyn cariad a thangnefedd wedi ei dori, nis gall fod undeb rhyngddynt â'u gilydd, nac â Duw. Gelyniaeth, tywyllwch, ac annhrefn, sydd yn llywodraethu; ac nid ydyw gogoniant Duw i'w weled ar ei waith, ond delw y diafol.——Y mae y Duw mawr,

Digitized by Google

o'i anfeidrol ddaioni a'i raslonrwydd, gwedi arfaethu, er tragywyddoldeb, i ail sefydlu a chrynhoi yr holl bethau yn y nef ac ar y ddaear, i undeb, i un corph, a rhoddi terfyn tragywyddol ar bob annhrefn. Y ffordd a arfaethodd Duw i gyflawni y gorchwyl mawr hwn, oedd, trwy osod ei Fab ei hun, Crist Iesu, yn ben arnynt, a'u crynhoi hwythau i undeb â'u pen hwn, i gael bywyd ynddo; eu llywodraethu a'u cynnal ganddo; ac iddo yntau gael yr holl ogoniant yn dragywydd o'u cadwraeth, eu cysur, a'u dyddanwch: eu dyrchafiad, eu gogoneddiad, a'u parhad diball byth, yn eu ffyddlondeb i'r Arglwydd. Parhad eu pen, yw eu parhad hwythau; tra safo efe, y safant hwythau: canys y mae cadwraeth dynion ac angelion yn gorphwys yn gwbl arno ef tros byth. Y maent mewn undeb â Duw yn Nghrist; mewn undeb â'u gilydd, fel ei gorph, ei gyflawnder, ei deulu, ei deyrnas, &c. Yr un pen sydd iddynt; yr un llywodraeth sydd arnynt; yr un ysbryd sydd ynddynt, sef ysbryd cariad; yr un amcan meddwl sydd ganddynt; yr un ymborth, yr un cynnaliaeth, a'r un etifeddiaeth sydd iddynt. Mae yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear, sef dynion ac angelion etholedig, trwy oruchwyliaeth Duw, yn nghyflawnder yr amseroedd, i gael eu crynhoi a'u hail sefydlu ynddo, yn ansigledig ac yn anwasgaredig yn dragywydd. Crist yw canol-bwynt y cwbl; grym a chadernid pob peth; ac ynddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll. Col. 1. 17, 20. a 2. 10. Gen. 49. 10. Dan. 9. 24. Luc 12. 42. Gal. 4. 2, 4. a 3. 16. Phil. 2. 9, 10. Heb. 1. 2. a 9. 10. 1 Petr 1. 20. Hag. 2. 7.

CRYN—U, (cryn) lled-ysgwyd, gosiglo, echrydu, crydu.—Yr oedd mynydd Sinai yn crynu yn ddirfawr pan oedd Duw a Moses yn cyfarfod a'u gilydd arno. Exod. 19. 18.—Y mae crynu yn effaith ofn, parch, neu wendid. 1 Sam. 13. 7. 'Ofn a ddaeth arnaf, a dychryn, ac a wnaeth i'm holl esgyrn grynu.' Job 4. 14. a 37. 1. Jer. 33. 9. Dan. 5. 19. Hab. 3. 16. Mat. 28. 4. Marc 5. 33. Act. 9. 6. Heb. 12. 21. Iago 2. 19.—parch, Esa. 66. 2.—crynu o wendid, Preg. 12. 3.

CRYSOLITHUS, *Gr.* χρυσολιθος (oddiwrth χρυσος, *aur*, λιθος, *maen*) maen gwerthfawr, o liw yr aur. Yr oeddynt i'w cael gynt yn Ethiopia. Gelwir ef Topaz yn bresennol. Y seithfed maen oedd yn sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 20.

CRYSOPRASUS, *Gr.* χρυσοπρασος (oddiwrth χρυσος, *aur*, a πρασον, *ceninen*) maen gwerthfawr, a'i liw yn tebygu i sudd ceninen, ond yn tueddu ychydig i liw yr aur. Y degfed maen oedd yn sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 20.

CU, hoff, anwyl, hawddgar, dymunol, caradwy. Deut. 21. 15. 2 Sam. 1. 26.—'Mor gu genyf dy gyfraith di!' Ps. 119. 27.

CUALL—EILL, (cu-all) ynfyd, ffol, gwallgof, creulawn, ffyrnig, gorwyllt, lled ynfyd; enbyd.—Dial cuall, sef dial ffyrnig, creulawn. Rhuf. 1. 21, 22. a 10. 19. W. S., ymyl y ddalen.

CUB, *Heb.* כוב enw talaeth yn Mareotis yn yr Aipht, medd Ptolemy a Grotius. Ezec. 30. 5. Nid oes grybwylliad am dani yn un man arall yn yr ysgrythyrau. Newcome.

CUCUMER—AU, *Llad.* Cucumer; *Saes.* Cucumber: planigyn, a'i flodau yn debyg eu llun i glychau; ei ffrwyth sydd debyg i afal, o ran ffaethder ei fwydion; ac ynddo dair cell, lle cynnwysir yr hâd aml, yn ddwy rês. Yr oedd helaethrwydd o honynt yn tyfu yn yr Aipht a Phalestina; a hwy ydoedd ymborth cyffredin caeth-weision a thlodion y wlad. Num. 11. 5.—'Merch Sion a adewir megys lluesty mewn gwinllan, megys lletty mewn gardd cucumerau.' Esa. 1. 8. Byddid arferol o adeiladu math o fythod gwael, mewn gerddi a gwinllanoedd, i wylwyr i wylio eu ffrwythau rhag bwystfilod rheibus, hyd nes yr addfedent i'w casglu; ac yna gadewid hwynt; a thebyg mai tymhor y cucumerau oedd yr un byraf. Job 27. 28. Felly y gadawyd Jerusalem; tra yr oedd yr holl wlad oddi amgylch iddi yn anrheithiedig, a'r dinasoedd wedi eu llosgi, yr oedd gan yr Arglwydd wylwyr yno; ac yno yr oedd efe am adael ychydig weddill, dros ryw hyd; ond daeth ei dinystr hithau. Esa. 1. 7, 9.

CUDYN—AU, (cud) tusw o wallt. Num. 6. 5. Barn. 16. 13. Ezec. 8. 3.

CUDD—IO—IEDIG, *Heb.* כחד (*cechêd*) *Gr.* κευθω (*keuthô*): celu, celcio; celedigaeth, celciad, cuddfa; argelwch.

1. Cuddio, rhoddi gorchudd ar beth, cadw yn ddirgel; felly y mae Duw yn cuddio ei orchymynion, pan na byddo yn eu heglurhau. Ps. 119. 10. 'Ni chudiais dy gyflawnder yn fy nghalon;' eithr eglurais ef mewn geiriau ac ymarweddiad. Ps. 40. 10. Hyn oedd gwbl wrthwyneb i'r gwr â'r un dalent, yr hwn a'i cuddiodd hi yn y ddaear, fel na chai efe ei hun, na neb arall, nac elw na chlod oddi wrthi. Mat. 25. 25.

2. Cadw, neu drysori; felly y mae y ffyddloniaid yn cuddio gair Duw yn eu calonau, pan y trysorant ef yn eu côf, eu barn, eu cydwybod, a'u serchiadau; fel y byddo iddo drefnu eu holl ymarferiad mewn calon a bywyd, a rhoddi cynnaliaeth a chysur cryf iddynt. Ps. 119. 11.

3. Diogelu: cuddia Duw ei bobl rhag ing, ac eithaf trallod, yn nghysgod y graig fawr, ac yn nirgelfa ei babell, sef Crist. Ps. 27. 5. a 32. 7.

Duw sydd yn ymguddio, ac yn cuddio ei wyneb, pan y mae yn peidio egluro ei ogoniant a'i ewyllys da, yn ei ordinhadau, a'i ragluniaethau. Ps. 89. 46. Esa. 64. 7. Job 13. 4. Ps. 30. 7.—Duw yn cuddio ei wyneb oddiwrth bechod, ac yn cuddio pechod, sydd yn arwyddo cwbl faddeuant (Ps. 51. 9. a 32. 2. a 85. 2.): fel un yn cuddio peth ffiaidd allan o olwg, nad ydyw yn bwriadu nac yn ewyllysio edrych arno. Y drugareddfa yn unig oedd yn weledig yn y babell; yr oedd y gorchymynion oedd yn gofyn y pechadur yn guddiedig yn yr arch, tani.——Y mae Duw yn cuddio balchder oddiwrth ddynion, pan y byddo yn eu siomi, ac yn eu difeddiannu o'r peth y byddont yn tueddu i fod yn falch o hono. Job 33. 17.——Dynion yn cuddio eu pechodau, a arwydda eu bod yn gwadu, yn ceisio eu lleihau, ac yn gwneuthur esgusion drostynt. Ps. 32. 5. Diar. 28. 13.——Crist a'i efengyl sydd 'drysor cuddiedig,' a 'doethineb cuddiedig,' am nad adwaenir hwynt gan ddynion anianol. Mat. 13. 14. 1 Cor. 2. 7.——Y mae yr efengyl yn guddiedig, pan fyddo dynion, trwy eu hanghrediniaeth a'u bydolrwydd, yn ddiystyr o honi; yn ddideimlad o'u hangen am dani; ac yn ddiolwg ar ei gwerthfawrogrwydd, a gogoniant yr Arglwydd ynddi. I'r rhai y llewyrchodd Duw trwy ei Ysbryd yn eu calonau, y mae yn ddrych goleu, yn dangos iddynt ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist; a hwy a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant. Ond os cuddiedig yw, yn y rhai colledig y mae, neu (εν τοις απολλυμενοις) *rhai sydd yn dystrywio eu hunain.*

'Bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw.' Col. 3. 3. Bywyd dirgeledig, llawn o ryfeddodau, yw byw trwy un arall, sef Crist. Ynddo ef y mae iddynt gyflawnder a nerth. Bywyd anadnabyddus yn *bresennol* ydyw; y mae yn guddiedig, mewn gradd mawr, i bawb, o ran y cyflawnder, y perffeithrwydd, a'r gogoniant o hono. 1 Ioan 3. 2, 3. Y mae Duw yn anweledig; y mae Crist gyda Duw yn anweledig;

Digitized by Google

felly hefyd y mae bywyd ei bobl ynddo. Ond y mae eu bywyd yn ddiogel, wedi ei guddio rhag pob gelyn, 'gyda Christ yn Nuw,' fel y gwreiddyn a'r ffynon. Yn nyfnder y gauaf oer, nid yw bywyd y cangenau yn ymddangos, ond y mae yn guddiedig yn y gwreiddyn y pryd hwnw; a phan gyfnewidio y tymhor, ymddengys y bywyd cuddiedig yn y cangenau, mewn harddwch a ffrwythlonrwydd. Felly y mae bywyd pob credadyn; y mae yn ddechreuol, ac mewn gradd bychan, ynddynt hwy yn bresennol; ond yn lled anadnabyddus iddynt hwy eu hunain, ac yn fwy cuddiedig oddiwrth y byd; ond y mae yn y perffeithrwydd, y cyflawnder, a'r gogoniant o hono, gyda Christ yn Nuw, ac ymddengys pan ymddangoso Crist eu bywyd hwynt.

CUDDFA—EYDD, (cudd-ma) ymguddfa, lloches, celfan, diogelfa, llechfan; cudd-bentwr, cudd-grug, casglfa. — 'Rhoddaf i ti—guddfeydd dirgel.' Esa. 45. 3. Sardis a Babilon, pan gymerwyd hwynt gan Cyrus, oeddynt y dinasoedd cyfoethocaf yn y byd. Crœsus, yr hwn a osodir allan fel y brenin cyfoethocaf yn y byd yr amser hwnw, a roddodd i fynu ei holl olud i Cyrus, â chyfrif manwl yn ysgrifenedig o'r cwbl, yn cyfrif yr hyn a gynnwysai pob certwyn yn neillduol, pan ddygwyd hwynt ymaith; a rhoddwyd hwynt i Cyrus wrth ei balas yn Babilon. Gwel Xenophon, *Cyrop. lib.* vii. Rhydd Pliny hanes *(Natural History)* o'r cyfoeth a gasglodd Cyrus yn Asia, bod yr aur yn gymaint a £126,224,000 o'n harian ni. Duw a roddodd y trysorau hyn oll i'w was Cyrus, yr hwn a gyfododd, a alwodd, ac a lwyddodd, yn benaf, i'r dyben i ryddhau ei bobl o'u caethiwed. 'Er mwyn Jacob fy ngwas, ac Israel fy etholedig, y'th elwais erbyn dy enw.' Esa. 45. 4.

CUFYDD—AU, *Llad.* CUBITUS: mesur o gylch hanner llath o hŷd, sef o benelin gwr i benau ei fysedd, oedd y cufydd cyffredin: y cufydd a elwid cufydd y cysegr, oedd yn nghylch dwy fodfedd ar hugain, sef cufydd a dyrnfedd. Ezec. 44. 13. Gwel ychwaneg o hysbysrwydd am hyn yn y Tabl sydd yn argraffedig yn niwedd y rhan fwyaf o Fiblau.

CUL—ION, (cu) aflydan. caeth, cyfyng; prin, teneu, difras, dignawd.—'Cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd:' sef, felly y barna dynion cnawdol hi. Rhaid i ddyn ymwadu âg ef ei hun i rodio ynddi: ond y mae yn ddigon ëang i'r penaf o bechaduriaid, ynddi ei hun, ac o du yr Arglwydd. Mat. 7. 14. Edr. PORTH.——Teneu, difras; creaduriaid âg ychydig o gig arnynt, a elwir yn rhai culion. Gen. 41. 3. Num. 13. 20. Ezec. 34. 20.—'Paham y gwelai efe eich wynebau chwi yn gulach na'r bechgyn sydd fel chwithau?' sef yn deneuach, yn waeth yr olwg; *Heb. yn dristach.* Dan. 1. 10.

Pan fo *culaf* yr ŷch, goreu fydd y'ngwaith. *Diar.*

CULNI, (cul) culedd, culder, teneuder, truander. —'Anfonodd gulni (neu ddarfodedigaeth) i'w henaid.' Sef, iddynt hwy, i'w personau; ond yn fwy priodol, i'w cyrph; megys yn Ps. 105. 18. y dywedir am Joseph, 'Cystuddiasant ei draed ef mewn gefyn; ei enaid a aeth mewn heiyrn.' Sef, bwytasant yn ddiau, ond ni chawsant ddim maeth; nid oeddynt yn pesgi arno, ond yn hytrach yn culhau, hyd nes yr oeddynt o'r diwedd yn darfod i farwolaeth. Ond, tebygol i'r Arglwydd roddi arwyddion o'i ddigofaint ar eu heneidiau hefyd, mewn anesmwythder meddwl, ac euogrwydd cydwybod. Ps. 106. 15. Esa. 10. 16. a 24. 16. Job 16. 8. Num. 11. 33.

CUN, (cu) arglwydd, tywysog, penaeth.

Ac ni chedwir un bydol *gun*,
O'i nerth ei hun a'i luoedd.
*E. Prys*, (Ps. 33. 15.)

CUNNOG—AU, (cun-dawg) *Gwydd.* CUINNOG: crwc, celwrn, ystwc; ysten, piser; costrel; llestr i ddal llaeth.—'Hi a agorodd gunnog o laeth.' Barn. 4. 19. Cyfieithir yr un gair נאד *costrelau*, yn Jos. 9. 4, 13. ac a arwydda costrelau wedi eu gwneuthur o grwyn anifeiliaid, y fath ag a arferir etto yn ngwledydd y dwyrain. Gwel Harmer's *Observations.*

CURFA—EYDD, (cur) curiad, maeddiad; cospgurfa.—Un o'r rheolau tan gyfraith Moses oedd, 'Pan fyddai i ŵr a wnelai â benyw, a hithau yn forwyn gaeth, wedi ei dyweddïo i ŵr (*Heb. enllibio gan*, neu *am ŵr*) ac heb ei rhyddhau, neu heb roddi rhyddid iddi, bydded iddynt gurfa,' &c. Lef. 19. 20. *Heb. bydded curfa.* Y mae rhai yn meddwl mai y fenyw yn unig oedd i gael y gurfa, am fod y gair yn y rhyw fenywaidd; eraill a farnant fod y gurfa i'r ddau. Y gwr yn unig oedd i ddwyn aberth, am nad oedd hi mewn amgylchiadau i gael aberth. Pe buasai hi yn rhydd, buasai y ddau yn cael eu marwolaethu. Exod. 21. 20, 21. Deut. 22. 23, 24. Lef. 20. 10. Ioan 8. 4, 5. Heb. 13. 4.

CUR—IO, culhau, teneuo, bod brasder un yn darfod; palldod ar natur. Amryw bethau sydd fel achos o guriad; ac yn neillduol gwasgfa corph neu feddwl. 2 Sam. 13. 4.

CURO, (cur) *Gr.* κρουω (*crouô*):—1. Maeddu, baeddu, briwo, pwyo, dyrnu, dulio. Exod. 30. 36. Lef. 2. 14.——2. Ceryddu, sef curo, neu daro â'r tafod. Ps. 141. 5.——3. Ceryddu mewn ffordd o gosp. Act 16. 22.——4. Cnithio, neu guro wrth ddrws, am ei agoryd. Act. 12. 13.——Y mae yr Arglwydd Iesu yn curo wrth ddrws calon ei bobl, trwy ei air, ei Ysbryd, a'i ragluniaethau, i'w deffroi. eu cynghori, a'u cymhell i'w dderbyn fel rhad rodd Duw, ac Iachawdwr digonol iddynt; yr hwn a ddaeth i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid. Can. 5. 2. Dat. 3. 20.——Curo wrth ddrws Duw, ydyw mynych a dyfal geisio wyneb a ffafr Duw yn Nghrist mewn gweddi. Mat. 7. 8. Luc 11. 10.——Curo dwylaw, sydd arwydd o lawenydd a gorfoledd mawr. 2 Bren. 11. 12. Ps. 47. 1. a 98. 8. Esa. 55. 12.——Curwlaw, yw gwlaw trwm iawn yn curo; neu wlaw yn peri llifeiriant, mewn ffordd o farn. Ezec. 13. 11, 13. ——Curwyr, cur-gospwyr, cernodwyr, tarawyr â gwïail. Esa. 50. 6. Cyflawnwyd Esa. 50. 6. yn Mat. 26. 67. a 27. 26.

CUS, *Heb.* כוש [*du*] 1. Mab hynaf Ham, a thad Nimrod, a Seba, a Hafila, a Sabta, a Raama, a Sabteca. Gen. x.——2. Enw gwlad, lle trigai y Cusiaid, hon ydyw Ethiopia. Esth. 1. 1. a 8. 9.——3. Mab Jemini. Enw a roddir ar y brenin Saul, neu un o'i ganlynwyr, y mae yn ansicr pwy, gan nad ydyw yn cael ei enwi ond yn nhitl Ps. vii. Cymhar. 1 Sam. 9. 1. a 22. 7. 2 Sam. 16. 15. Barn. 3. 13. a 19. 16. Edr. ETHIOPIA.

CUS—ION—AN—AU—U, (cu) *Gr.* κυω (*cuô*), κυσω (*cusô*). Yr oedd cusanu yn arferiad gynt fel arwydd o gyfeillgarwch, parch, ymostyngiad, anrhydedd, &c. Gen. 27. 26, 27. 1 Sam. 20. 41. a 10. 1. Sonir am amryw fath o gusanau yn yr ysgrythyrau; megys, yn 1. Cusan cywir, fel arwydd serchiadol o garedigrwydd. 1 Sam. 20. 41.——2. Bradwraidd; felly y cusanodd Judas ei feistr, a Joab Amasa. Mat. 26. 49. 2 Sam. 20. 9. Diar. 27. 6.——3. Rhagrithiol a gwenieithus; felly y cusanai Absalom y rhai a ymgryment iddo ef. 2 Sam. 15. 5.——4. Eilunaddolgar; byddent naill ai yn cusanu y ddelw ei hun, neu yn cusanu eu llaw yn arwydd o barch ac addoliad i'r elluu. A chan na ddichon iddynt gusanu yr haul a'r lleuad. cusanent eu llaw o barch iddynt. Hos. 13. 2. 1 Bren. 19. 18. Job 31. 27. Dywedir

Digitized by Google

am ddelw o bres i Hercules, yn Agrigentum, yn Sicily, fod y genau a'r ên iddi wedi eu treulio gan gusanau yr addolwyr. Mae y Siamese hyd heddyw, ar eu hymadawiad o'u haddoliadau, gwedi derbyn bendith yr offeiriad, yn myned ac yn cusanu yr eilun, ac yn ymgrymu iddo ef. Gwel Cicero, *Actio* 2. *in Verrem, lib.* iv, *cap.* xliii, & *Actio* 4. *Complete System of Geography.*——5. Cnawdol a phuteinllyd. Diar. 7. 13.——6. Ysbrydol. Can. 1. 2. a 8. 1.——7. Cusan sanctaidd, a arferid gynt yn mhlith Cristionogion, ac a arferir etto mewn ffordd o gyfarchiad. Rhuf. 16. 16. 1 Cor. 16. 20. 2 Cor. 13. 12. 1 Petr 5. 14.

'Cusenwch y Mab,' hyny ydyw, anrhydeddwch, addolwch, a cherwch ef. Ps. 2. 12. 1 Sam. 10. 1.

'Cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant,' megys y bydd cyfeillion yn arferol o wneuthur, pan gyfarfyddont. Ps. 85. 10. Exod. 4. 27. Arwydd o gydgordiad, cariad, a llawenydd, priodoliaethau y Duwdod yn nhrefn fawr yr iechydwriaeth yn Nghrist; hwn yw מלכי־צדק *(Melchisedec)* Brenin cyfiawnder a heddwch; y maent yn cydgyfarfod ynddo. Heb. 7. 2. 'Yna gwaith cyfiawnder fydd heddwch.' Esa. 32. 17. Mae cyfiawnder a heddwch hefyd yn ymgusanu yn y credinwyr; 'Gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tu ag at Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist.' Rhuf. 5. 1——'Cusanau ei fin;' (Can. 1. 2.) sef Crist. Min Crist yw ei wirioneddau grasol; canys 'tywalltwyd gras ar ei wefusau. Ps. 45. 2. Mat. 5. 2, 3, &c. Cusanau ei fin a arwyddant cymhwysiad o'i wirioneddau at gyflwr yr enaid, mewn ffordd gysurol, gynnaliaethol; yr hyn sydd arwydd neillduol o gariad Crist a'i ffafr, ac a rydd fawr gysur i enaid trallodedig, hiraethus am ei gymdeithas. Edr. Cariad-wledd.

CUSAIAH, *Heb.* קישיה [*cadwyn yr Arglwydd*] mab Abdi, a thad Ethan, Lefiad, o deulu Merari. 1 Cron. 6. 44. a 15. 17.

CUSAN-RISATHAIM, *Heb.* כושן־רשעתים [*duad anwireddau*] brenin Mesopotamia, yr hwn a orthrymodd Israel wyth mlynedd, ac a waredwyd oddiwrth ei greulondeb gan Othniel mab Cenaz. Barn. 3. 8, 9, 10.

CUSI, *Heb.* כושי [*trafferthus*, neu *taer*] 1. Un a ddygodd y newydd i Dafydd am ddymchweliad Absalom. 2 Sam. 18. 21.——2. Tad Selamiah. Jer. 36. 14. ——3. Tad y prophwyd Sephaniah. Pen. 1. 1.

CUWSAN, *Heb.* כושן [*du*] 'Dan gystudd y gwelais wersylloedd Cuwsan.' Hab. 3. 7. Wrth Cuwsan, tebygol, y meddylir Ethiopia; canys felly y cyfieithir Cus y rhan amlaf. Gen. 10. 6, 7. Edr. Cus. Gweledd y prophwyd, mewn gweledigaeth, fraw, dychryn, a chystudd yr Ethiopiaid, yr Arabiaid, y Midianiaid, y Moabiaid, yr Ammoniaid, ac eraill a breswylient y gwledydd cyfagos, pan glywsant am y gwyrthiau mawrion a wnaeth Ihehofah yn gwaredu Israel. Cymh. Num. 12. 1. Exod. 2. 16, 21. Num. 31. 7, 8. Barna rhai fod y cyfeiriad at Barn. 3. 10. a 7. 1.

CUT—IAU, (cwt) cryg-nyth, caban, hogldy, penty, cwt, twll moch: cut y moch; cut y gwyddau; cut yr ieir.—'Ymestyn ar eu glythau, a bwyta yr ŵyn o'r praidd, a'r lloi o ganol y cut.' Amos 6. 4. *Heb.* רבק lle y rhwymir anifeiliaid, yn neillduol lloi i'w pesgi. Cydunir âg ef bob amser עגל *llo*. Cyfieithir ef *tŷ* yn 1 Sam. 28. 24.—*pasgedig*, Jer. 46. 21. Mal. 4. 2. Darlunia y geiriau ddynion gwedi ymroddi i lythineb a meddwdod, yn byw mewn diofalwch a chwantau cnawdol. Ps. 73. 8. Luc 12. 19, 20.

CUTHA, *Heb.* כות [*ysig*] talaeth yn Assyria. 2 Bren. 17. 24, 30. Yr un y tybia Calmet a Cush, a gyfieithir Ethiopia yn Gen. 2. 13.

CWARTUS, dysgybl sydd yn anerch y Rhufeiniaid gyda Paul, Rhufeinydd, tebygol. Rhuf. 16. 23.

CWBL—HAU, (cwb) y cyfan, y cyfan oll; cyflawni, cyflawni addewid; hyny yw, gwneuthur i fynu yn gwbl gyflawn yr hyn a gynnwysir ynddi. 2 Sam. 7. 25. 2 Cron. 34. 31. Jer. 23. 20.—Duw a gwblha bob peth er daioni i'w bobl; beth bynag a addawodd efe, ac a ofynant hwythau mewn ffydd, efe a'i gwna drostynt ac iddynt; ac a'u galluoga hwythau i bob gair a gweithred dda. Ps. 57. 2. Job 23. 14.—— Duw a gwblha gynghor ei genadon; pan ddygo efe i ben ei fwriadau a fynegwyd trwy y prophwydi, mewn addewidion a bygythion. Esa. 44. 26. Edr. Cyflawni.

CWCWLL, CYCYLLAU, (cwg) *Llad.* Cucullus: cwl, cwff, penguwch, penwisg,—'Yna y rhwymwyd y gwyr hyny yn eu peisiau, eu llodrau, a'u cycyllau.' Dan. 3. 21. Math o benwisgoedd oedd y cycyllau. Taflu y tri llanc yn eu gwisgoedd fel hyn i'r tân oedd yn dangos fod llid y brenin yn boeth ac yn greulawn iawn; yr oedd am eu llosgi hwy a'r cwbl a berthynai iddynt, ar frys.

CWERYL—AU, *Llad.* Querela; mater, cwyn, achos, achwyniad, cynghaws, dadl. Diar. 23. 11. Col. 3. 13.

CWESTIWN—YNAU, *Llad.* Questio; gofyniad, holiad. Y mae amryw fath o gwestiynau, neu holiadau, yn yr ysgrythyrau; 1. Crefyddol. Deut. 6. 20. Mat. 2. 2.——2. Cableddus. 2 Bren. 18. 34, 35. Ioan 8. 48.——3. Rhai caledion; â'r cyfryw y daeth brenines Seba i brofi Solomon. 1 Bren. 1. 1. 2 Cron. 9. 1.——4. Rhagrithiol; felly yr holodd Herod y doethion am ymddangosiad y seren. Mat. 2. 7.——5. Rhai manylgais; felly yr oedd un yn gofyn i'r Iesu yn nghylch nifer y rhai cadwedig. Luc 13. 23. A'r dysgyblion hefyd yn gofyn iddo, Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd? Mat. 18. 1. ——6. Rhai ffol neu ynfyd, ac annysgedig; y rhai sydd yn magu ymrysonau, ac y dylid eu gochelyd. 2 Tim. 2. 23. Tit. 3. 9.——7. Cadarnhaol; felly y llefarodd Aaron a Miriam, gan farnu fod yr Arglwydd gwedi llefaru drwyddynt hwy yn gystal a Moses. Num. 12. 2. Hefyd, geiriau Balaam am Dduw. Num. 23. 19, &c.——8. Cwynfanus. Gen. 42. 28.—— 9. Nacaol; felly y llefarodd Nehemiah wrth Sanbalat a Gesem. Neh. 6. 3.——10. O ammheuaeth ac anghrediniaeth (2 Bren. 7. 19.) neu o ddiystyrwch a gwawd: felly y llefarodd brodyr Joseph wrtho; a Pharaoh am yr Arglwydd. Gen. 37. 8. Exod. 5. 2.——11. Mewn ffordd o ryfeddod, neu er mwyn peri sylwi yn fanwl. Can. 3. 6. a 8. 5. Esa. 63. 1. Marc 4. 41.

CWHWFAN—U, (cw-hwfan) ysgwyd, lled-daflu, chwyfanu, gogrynu. Yr un gair *Heb.* נפה a gyfieithir *nithio*, yn Esa. 30. 28. ac *ysgwyd llaw*, yn Esa. 13. 2. ag a gyfieithir *cwhwfan* yn yr amrywiol leoedd eraill yr arferir ef ynddynt. Exod. 29. 24. Num. 5. 25, &c. Ystyr y gair yw estyniad allan, estyniad megys y gwneir wrth gynnyg neu roddi rhyw beth. Num. 8. 11. 'Ac offrymed (*cwhwfaned*, ymyl y ddalen) Aaron y Lefiaid ger bron yr Arglwydd, yn offrwm (*Heb. offrwm cwhwfan*) gan feibion Israel, fel y byddont hwy i wasanaethu gwasanaeth yr Arglwydd.' Y cwhwfan yn yr adnod hon (medd Ainsworth), a ddehonglir trwy y cyfieithiad *Gr. neillduo;* yr un geiriau ag a arferir am weinidogion Crist; megys y dywedir, 'Neillduwch i mi Barnabas a Saul, i'r gwaith y gelwais hwynt iddo.' Act. 13. 2. felly yn Rhuf. 1. 1. Ein cyfieithiad ninnau o Num. 8. 14. sydd yn cadarnhau hyn; 'A *neillduа* y Lefiaid o blith meibion Israel.'

Digitized by Google

CWLWM, CYLYMU, (cw-llwm) rhwymo, rhwymiad; gwasgiad, gwasgu. Cwlwm dolen; llwm gwlwm, sef cwlwm caled; cwlwm gwythi.—'Cylyma hwy am dy wddf:' sef byddant fel cadwyn-wddf, yn addurn i ti; defnyddia hwynt ar bob achos. Diar. 3. 3. a 6. 21.——'Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd.' Eph. 4. 3. Sef yr undeb barn sanctaidd, serchiadol, sydd rhwng pobl Dduw â'u gilydd; yr hyn sydd ffrwyth yr Ysbryd, yn eu galluogi i fyw yn nghyd yn gyfeillgar a heddychol â'u gilydd, fel un gwr, ac un galon.

CWLLTWR—YRAU, (cwll) *Llad.* CULTER; *Saes.* COULTER: un o'r offer a berthyn i'r aradr, oddiwrth *cwll*, gwahaniad, yn arwyddo ei fod yn gwahanu, neu yn hollti y tir yn gwysau. 1 Sam. 13. 20, 21.

CWMIN, *Llad.* CUMMINUM; *Saes.* CUMMIN: planigyn, neu lysieuyn lled debyg i'r ffenigl, ei gangau a'i flodau yn siobynau; y mae yn llïosog yn ynys Malta, lle yr hauir ac yr amaethir ef fel ŷd; a byddai yr Israeliaid yn hau yr had yn y meusydd, ac yn ei ddyrnu â gwïalen. Mat. 23. 23. Esa. 28. 25, 27. Dywedir ei fod yn feddyginiaethol yn afiechyd y cryd cymalau, y bendro, gwyntogrwydd, coluddwst, anmhlantadrwydd, &c.

CWMPAS—OEDD, 1. Amgylch, cylchedd, cylchfesur. Exod. 34. 8. 1 Bren. 7. 31.——2. Offeryn wrth yr hwn y llunia y crefftwr gylch-fesurau. Esa. 44. 13.——'Y mae y gwynt yn dychwelyd yn ei gwmpasoedd;' hyny yw, y mae y gwynt yn chwythu, yn awr o un parth, bryd arall o barth arall, ac felly yn cylchu pedwar ban y byd. Preg 1. 6.

CWMPEINI, *Ffr.* COMPAGNIE; *Saes.* COMPANY: cymdeithas, cydgyfeillion, cydgyfuniad, cydfasnachwyr; cydrestr, neu gydres; megys o filwyr mewn byddin. Dat. 18. 17.

CWMWL—YLAU, (cwm-gwl) cymwl; tywyllu, gorchuddio.—1. Pentwr o ddefnynau dwfr, yn dyrchafu o'r ddaear yn darth, ac o'r môr yn golofnau, i entrych yr awyr. 2 Sam. 22. 12.——2. Niwl, neu darth boreuol, yr hwn sydd beth diflanedig. Hos. 6. 4.——3. Nifer mawr, neu liaws. Heb. 12. 1. Esa. 60. 8.——4. Y nefoedd, neu y wybrenau. Ps. 36. 5. a 68. 34.——5. Yn gyffelybiaethol, arwydda cystuddiau, trallod, a galar. Preg. 12. 2. Galar. 2. 1.——Y mae Duw yn rhwymo y dyfroedd yn ei gymylau, ac yna yn ei ddefnynu yn wlaw ar wyneb y ddaear. Job 26. 8. a 38. 9.——Pan sonir yn y gair am ddyfodiad Crist i'r farn, dywedir ei fod yn dyfod ar y cymylau. Mat. 24. 30. Dat. 1. 7. Edr. GWLAW, GWLITH.

Ar eu taith o'r Aipht trwy yr anialwch i wlad yr addewid, yr oedd yr Arglwydd yn myned o flaen yr Israeliaid, y dydd mewn colofn o niwl i'w harwain ar y ffordd, a'r nos mewn colofn o dân i oleuo iddynt; fel y gallent fyned ddydd a nos. Exod. 13. 21. Yr arwydd hynod hwn o'r presennoldeb dwyfol, a elwir yn fynych, y cwmwl—cwmwl yr Arglwydd—y golofn gwmwl. Exod. 16. 10. a 40. 34, 38. Lef. 16. 2. Num. 9. 19. a 10. 34. a 12. 5. Deut. 31. 15. Neh. 9. 19. Ps. 78. 14. Gelwir ef hefyd, goleuni tân—tân yn goleuo liw nos, Ps. 78. 14. a 105. 39.—cwmwl a mŵg—llewyrch tân fflamllyd. Esa. 4. 5.——Y mae cwmwl, cymylau, a goleuni a thân, yn arwyddion o'r presennoldeb dwyfol. Un a arwydda fod cymylau a thywyllwch o'i amgylch o ran ein hadnabyddiaeth ni o hono, yn ei hanfod a'i oruchwyliaethau; a'r llall yn arwyddo ei burdeb a'i eiddigedd sanctaidd dros ei ogoniant ei hun, ac iechydwriaeth ei bobl; a'i fod fel tân yn difa pawb a phob peth a fyddo yn gwrthwynebu hyny. Exod. 24. 17.——Llefarodd yr Arglwydd ar fynydd Sinai o ganol y tân, y cwmwl, a'r tywyllwch,—a golwg ar ogoniant yr Arglwydd oeddd fel tân yn difa ar ben y mynydd. Deut. 5. 22. Exod. 24. 17.——Yr oedd yr Arglwydd yn ymddangos (trwy lewyrch tanllyd, yn ddiammeu) ar y drugareddfa, yn y cwmwl. Lef. 16. 2. Ond yn yr anialwch, yr oedd ymddangosiad y cwmwl a'r tân ar ddull colofn, uwch ben gwersyll Israel, ac yn myned o'u blaen yn eu holl deithiau. Y mae yn anhawdd amgyffred, yn gwbl eglur, pa fath oedd dull y golofn. Y mae rhai yn barnu fod gosail, neu wadn y golofn, yn gorchuddio yr holl wersyll, a'i chanol uwch ben y babell, a'i huchder yn entrych y nefoedd, fel ysgol Jacob, ac yn meinhau tu ag i fynu. Ac er ei bod yn symud o flaen y gwersyll yn eu teithiau, etto ei bod yn parhau yn gysgod ac yn amddiffynfa i'r gwersyll. Er fod y golofn yn cael ei galw yn golofn niwl, ac yn golofn dân, etto y mae yn dra eglur nad ydoedd ond un golofn, a'i hymddangosiad yn dywyll y dydd, ac yn oleu y nos. Hyn sydd sicr, fod yr Arglwydd yn ymddangos y dydd, weithiau, yn llewyrchus ac yn danllyd, yn y cwmwl. Exod. 14. 20, 24. a 16. 16. Num. 9. 21. a 16. 42. Wrth y geiriau, 'A gogoniant yr Arglwydd a ymddangosodd,' rhaid i ni ddeall iddo roddi rhyw arwydd neillduol o'i bresennoldeb, trwy lewyrchu yn ddysglaer, ac fe allai, yn *danllyd*, yn y cwmwl. Oddiwrth y golygiadau hyn, y tybia amryw o'r beirniaid mwyaf dysgedig, megys Rivet, Buxtorf, Vitringa, &c., fod y golofn niwl yn amgylchynu y golofn dân, fel amwisg am dani, am fod y golofn dân yn llewyrchu ac yn fflamio yn y golofn gwmwl y nos, eithr yn anamlwg y dydd, ond ar achosion neillduol a phwysig. Hwyrach fod yr Arglwydd, trwy wahanol arwyddion yn y golofn, yn rhoddi amlygrwydd eglur i'w bobl o'i foddlonrwydd neu ei anfoddlonrwydd tu ag atynt. Tân ydoedd, fel tân yn difa, yn llewyrchu, yn goleuo, ac yn fflamllyd. Y mae yn dra thebygol ei fod fel tân Sinai, yn rhy lewyrchus, ac yn rhy fflamllyd, heb y cwmwl yn amwisg am dano; ond yn y cwmwl yr ydoedd yn goleuo ac yn arwain yn gysurus, ac yn amgeledd feunyddiol iddynt. Yn y golygiadau hyn yr ydoedd yn gysgod neillduol o Grist:

1. *O ran ei Berson*, yr hwn yw dysgleirdeb gogoniant y Tad—y Gair wedi ei wneuthur yn gnawd, ac yn trigo yn ein plith ni, yn llawn gras a gwirionedd, a gogoniant.

2. *O ran ei gyfryngdod*, rhwng Duw a dyn, yn cyrhaedd o'r ddaear i'r nefoedd; heb yr hwn nis gall pechadur oddef purdeb tanllyd sancteiddrwydd a chyfiawnder dwyfol. Duw yn Nghrist sydd yn addas ac yn oddefol i bechadur tlawd i gymdeithasu âg ef. Gall edrych ar ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist, yn gysurus.

3. *Yn ei arweiniad a'i gyfarwyddiadau.* Yr oedd y golofn yn eu harwain hwynt trwy yr anialwch i dir yr addewid. Nid oedd yn symud yn gyflymach, nac yn hŵy heb orphwys, nag y gallai yr *holl* wersyll ei ganlyn. Yr oedd ei symudiadau wedi eu haddasu i amgylchiadau *pob un* yn y gwersyll. Yr oeddynt yn teithio *yn y cwmwl*. Num. 10. 34. Weithiau y cwmwl a arosai yn hir, sef blwyddyn gyfan; weithiau, fis neu ddau, weithiau, dau ddiwrnod, neu o hwyr hyd foreu. Num. 9. 21. Ar brydiau eraill, byddai dri o ddyddiau heb orphwys. Exod. 15. 22. Num. 10. 33. Pan drigai y cwmwl yn hir ar y babell, meibion Israel a gadwent *wyliadwriaeth* yr Arglwydd, ac ni chychwynent. Yr oeddynt yn cadw *gwyliadwriaeth* fel y gallent weled pan symudai y cwmwl; a bod yn ddyfal wrth y gwaith perthynol i bob un o honynt, hyd nes y symudai. Pa un bynag ai dydd ai nos fyddai, pan gyfodai y cwmwl, yna y cychwynent. Yr oedd iddynt yn eu holl daith fod yn hollol farw i'w hewyllys eu hunain, a chychwyn, a theithio, a gorphwys wrth gyfarwyddyd Duw yn

Digitized by Google

unig. Yr oedd iddynt yn arweinydd gweledig i bawb—ffyddlon, cywir, amyneddgar, dyfal, a pharhaus. Nis gallai y gwlawogydd ei ddiffoddi, na'r gwynt ystormus ei wasgaru. Exod. 13. 21, 22. a 40. 34—38. Deut. 1. 33. Neh. 9. 12, 19. Ps. 78. 14. a 99. 7. a 105. 30. Esa. 4. 5, 6. 1 Cor. 10. 1, 2. Zech. 2. 5. Jer. 31. 2. Felly y mae Crist Iesu yn arwain ei bobl, trwy anialwch y byd drwg presennol, i'r Ganaan nefol, â goleuni ei air a'i Ysbryd; ac hefyd drwy ei fod wedi gadael i ni esiampl, fel y canlynem ei ôl. Heb. 10. 19, 20. 2 Petr 1. 19. Rhuf. 8. 14. Ioan 1. 9. a 14. 6. Na feddylied neb fod amgylchiadau yr eglwys, yn hyn, yn waeth yn bresennol nag oeddynt yn yr anialwch: nagê, ond yn hytrach y maent yn rhagori llawer; yr oedd miloedd o bethau tra phwysig, yn mha rai nad allai y cwmwl fod o ddim cyfarwyddyd iddynt; ond nid oes dim perthynol i'w bobl nad yw Crist yn gyfarwyddwr cyflawn, digonol iddynt, trwy ei air a'i Ysbryd. Y mae y cyfarwyddiadau wedi eu rhoddi, ac nid oes ond eisieu cadw gwyliadwriaeth yr Arglwydd i'w hadnabod.

4. *Yn ei amddiffyniad a'i ddiogelwch.* Yr oedd y golofn yn amddiffyniad rhag y poethder oddi uchod, rhag llid gelynion, a rhag dinystr oddiwrth bob un o honynt. Yr un modd y mae Crist yn gwaredu ei bobl oddiwrth boethder digofaint Duw, ac oddiwrth eu holl elynion ysbrydol. Rhuf. 5. 9. Luc 1. 73, 74, 75. Y prophwyd, pan y mae yn prophwydo am ddiogelwch ac amddiffyniad ei eglwys trwy Grist a'i iechydwriaeth, sydd yn cyfeirio at y golofn hon. 'A'r Arglwydd a grëa ar bob trigfa o fynydd Sïon, ac ar ei gymanfaoedd, gwmwl a mŵg y dydd, a llewyrch tân fflamllyd y nos: canys ar (neu *uwch ben*) yr holl ogoniant y bydd amddiffyn,' neu *orchudd*. Esa. 4. 5. Neu, yn hytrach, ar y cwbl, y gogoniant a fydd yn amddiffyn; sef ar bob cymanfa, fel yr oedd ar yr holl wersyll yn yr anialwch.——Pan yr oedd Pharaoh yn erlid ar ol Israel wrth y Môr Coch, y golofn niwl a ddaeth rhwng llu yr Aiphtiaid a llu Israel. 'A'r Arglwydd a edrychodd ar fyddin yr Aiphtiaid trwy y golofn dân a'r cwmwl, ac a derfysgodd fyddin yr Aiphtiaid.' Felly bu y golofn gwmwl yn ddystryw i'r Aiphtiaid, ac yn ddiogelwch i'r Israeliaid. Exod. 14. 19, &c.——Megys yr edrychodd yr Arglwydd ar fyddin yr Aiphtiaid trwy y golofn dân a'r cwmwl, ac a derfysgodd fyddin yr Aiphtiaid; felly, pan oedd yr Iuddewon yn erlid yr Iesu, i geisio ei ddal, amlygodd gymaint o'i Dduwdod anfeidrol iddynt, pan y dywedodd efe wrthynt, 'Myfi yw!' nes yr aethant yn wysg eu cefnau, ac a syrthiasant i lawr. Nid rhaid iddo ond ymddangos, ond edrych—i ddelwi—i doddi—ac i orchfygu ei elynion dros byth. Exod. 14. 24, 25. Ioan 18. 6. Gwel Lowth ar Esa. 4. 5.

5. *Yn ei bresennoldeb gyd â'i eglwys.* Yr oedd y golofn yn barhaus gyd âg Israel, yn eu holl amgylchiadau; pa beth bynag a'u cyfarfyddai yn eu taith, a pha beth bynag a'u gadawai, yr oedd y golofn yn myned gyda hwynt, a IEHOFAH yn y golofn; felly y mae Crist yn bresennol gyd â'i eglwys, bob amser, hyd ddiwedd y byd; trwy y dyfroedd, trwy yr afonydd, a thrwy y tân, i'w diogelu a'u cysuro. Esa. 43. 1, 2, 3. Mat. 28. 20. Dat. 1. 13, 16, 20. 2 Cor. 6. 16, 17, 18. Ps. 48. 14.——Diammeu mai cyfeirio at y golofn y mae y geiriau godidog hyny yn Zech. 2. 5., 'Byddaf iddi yn fur o dân o amgylch, medd yr Arglwydd, a byddaf yn ogoniant yn ei chanol.' Yn nghanol y gwersyll yr oedd y babell, a chanol y golofn uwch ei phen; gallasai cylch y golofn ymddangos oddi allan i'r gwersyll fel mur tanllyd oddi amgylch iddo.

6. Mae yn dra thebygol fod y cwmwl yn dyhidlo gwlaw yn dirion arnynt; yr hyn oedd o fawr les iddynt yn mhoethder yr anialwch. At hyn y mae geiriau Dafydd yn cyfeirio, Ps. 68. 9., 'Dyhidlaist wlaw graslawn, O Dduw, ar dy etifeddiaeth; ti a'i gwrteithiaist wedi ei blino.' Felly y mae Crist, trwy ei air a'i Ysbryd, yn cysuro ac yn peri cynnydd i'w eglwys, yn nghanol profedigaethau tanllyd yn y byd presennol. Deut. 32. 2. Esa. 44. 3. a 45. 8. a 55. 9, 10, 11. Hos. 6. 3. a 14. 6, 7. Ezec. 34. 26. Barn. 5. 4. Exod. 15. 17. a 16. 4.

'Ninnau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch.' Heb. 12. 1. Gall fod yr apostol yn cyfeirio at y golofn oedd yn arwain Israel yn yr anialwch, gan olygu y duwiolion y soniasai efe am danynt yn y bennod o'r blaen, o ran eu ffydd a'i heffeithiau grasol, yn siamplau i arwain a chyfarwyddo Cristionogion trwy anialwch y byd i'r orphwysfa nefol, lle maent yn gorphwys ar ben eu taith. Megys yr oedd yr ochr dywyll o'r golofn at yr Aiphtiaid, felly nid yw annuwiolion yn gweled dim gogoniant yn eglwys Dduw; dim ond ei brychau a'i gwaeledd. Neu eu bod, o ran amldra, fel defnynau; ac, o ran eu hundeb â'u gilydd, yn gwmwl o ddefnynau. Eraill a dybiant, mai eu hamldra fel llu o adar a feddylir; megys y dywedir gan y prophwyd Ezeciel, pan mae yn sôn am falais Gog; 'Dringi hefyd fel tymhestl, deui, a byddi fel cwmwl i guddio y ddaear, ti a'th holl fyddinoedd, a phobloedd lawer gyda thi.' Ezec. 38. 9. Esaiah hefyd, wrth brophwydo am alwad y cenedloedd, sydd yn eu cyffelybu i gwmwl, ac i golomenod yn ehedeg i'w ffenestri. Esa. 60. 8.——*Cwmwl y gogoniant*, yr hwn oedd yn aros ar y drugareddfa, oedd yn arwyddo mawrhydi gogoneddus presennoldeb Crist yn ei eglwys. 1 Bren. 8. 10.—'O herwydd mi a ymddangosaf ar y drugareddfa yn y cwmwl.' Lef. 16. 2. *Yn y cwmwl yr ymddangosaf ar y drugareddfa. Heb.* Wrth y cwmwl ar y drugareddfa, deallir, mŵg yr arogl-darth. Yr oedd mŵg yr arogl-darth, fel cwmwl yn cuddio y drugareddfa. Adn. 13.

Ymddangosodd Duw yn fynych mewn cwmwl, i ddangos ei fawrhydi; a bod ei ogoniant, ei arfaeth, a'i weithredoedd yn anchwiliadwy. Exod. 14. 20. Ps. 104. 3. Mat. 17. 5.——Y mae yr Arglwydd yn marchog ar y cwmwl ysgafn, ac mae y cymylau yn llwch i'w draed, pan y byddo yn dyfod mewn modd disymwth ac ofnadwy, i waredu ei bobl, ac i ddystrywio ei elynion. 2 Sam. 22. 12. Esa. 19. 1. Nah. 1. 5.——Cwmwl goleu a gysgododd Crist, a'r rhai oedd gyd âg ef, ar y mynydd, pan ddaeth y cyfryw lef ato oddiwrth y mawr ragorol ogoniant, 'Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd.' Mat. 17. 5. 2 Petr 1. 17. Yr oedd y cwmwl goleu yn arwyddo dau beth, 1. Sirioldeb ac heddychlonrwydd. 'Cwmwl, a thywyllwch, a thymhestl,' oedd ar Sinai, yn arwyddo gŵg ac anfoddlonrwydd; ond cwmwl goleu sydd yn gorchuddio Crist a'i eglwys yn y nef ac ar y ddaear, a'r llef ynddo yn cyhoeddi boddlonrwydd. Exod. 16. 10. a 19. 6. a 20. 21. a 40. 34. Num. 11. 25. 1 Bren. 8. 10, 11. 2 Cron. 5. 14.——2. Eglurdeb dysglaer. Felly y mae goruchwyliaeth yr efengyl mewn cymhariaeth â'r gyfraith a'i holl gysgodau. Y mae efengyl Crist yn llewyrchu yn ogoneddus. Y mae y gwirioneddau sydd yn tystiolaethu am Grist fel drych dysglaer, yn ei ddangos yn ogoneddus, a'r ordinhadau sydd fel cwmwl goleu yn ei orchuddio—y mae EFE yn eglur i'w weled ynddynt. 2 Cor. 3. 18. a 4. 4, 5, 6.——Y 'cwmwl gwyn,' *Gr.* λευκη, claerwyn, canaid, dysglaer, ar ba un y mae Crist yn ymddangos yn eistedd, mewn gweledigaeth i Ioan, a arwydda ei fawrhydi breninol a gogoneddus, ac eglurdeb ei sancteiddrwydd a'i uniondeb yn ei farnedigaethau. Dat. 14. 14——Crist wedi ei wisgo â chwmwl, a arwydda dwyfoldeb a mawrhydi ei berson, yn nghyd âg aneglurdeb ei weithredoedd ofnadwy; ei weithredoedd ydynt i ni yn fynych yn anamlwg, o ran y dyben a'r diwedd o honynt. Dat. 10. 1. Ps. 97. 2.

Digitized by Google

Galar. 3. 44. Luc 21. 7.——'Dysglaer gymylau,' yn Zech. 10. 1. a arwyddant gymylau yn dysgleirio gan fellt, yn rhagflaenu gwlaw.

Rhagrithwyr a gau athrawon, a elwir yn 'gymylau diddwfr:' gellid, wrth eu hymddangosiad, ddysgwyl defnyddioldeb a budd oddi wrthynt; ond nid oes i'w gael ond siomedigaeth. Yn lle gwlitho athrawiaeth iachus fendithfawr ar yr eglwys, nid ydynt ond cuddio Haul y Cyfiawnder o'i golwg, ac felly yn rhwystr i'w chynnydd. Mal. 4. 2. Y maent yn cael eu gyru oddi amgylch gan wyntoedd eu balchder, eu swyddymgais, eu budr-elw, a'u gau athrawiaeth; ac oni bydd i Dduw, o'i anfeidrol drugaredd, eu hachub a'u hattal yn eu gyrfa gau, diammeu y chwythir hwy o'r diwedd i dragywyddol golledigaeth. 2 Petr 2. 17. Judas 12. I'r ystyr yma y mae geiriau Solomon: 'Y neb a ymffrostia o achos gau rodd, sydd debyg i gymylau a gwynt heb wlaw.' Diar. 25. 14.

Dynion yn gyffredinol a gyffelybir i gwmwl yn darfod: tra y maent yn byw, nid oes ganddynt ond ychydig o wir ddedwyddwch a chysur, a'u dyddiau ydynt yn prysuro i ddybenu. Job 7. 9.

Pechodau a gyffelybir i gwmwl: mor fawr yw eu rhifedi, fel y maent yn tywyllu, ac yn ysgaru rhwng yr enaid a Duw; ac yn rhag-arwyddo y dymhestl fawr o ddigofaint Duw.

Y mae Duw yn dileu camweddau ei bobl fel cwmwl, rhag iddynt dori yn gawod farnedigaethol arnynt. Esa. 44. 22.—Ewyllys da brenin sydd megys 'cwmwl gwlaw diweddar,' yn dra defnyddiol a hyfryd. Diar. 16. 15. Pa faint mwy ewyllys da Duw!

CWNCWERWR—WYR, *Ffr.* CONQUERANT: gorchfygwr, buddugoliaethwr.—'Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na chwncwerwyr, trwy yr hwn a'n carodd ni.' Rhuf. 8. 37. *Gr.* ὑπερνικῶμεν, yr ydym yn gorchfygu yn gyflawn ac yn berffaith; yr ydym yn gorchfygu yn gryf elynion cedyrn iawn; y mae genym ni yn a thrwy Grist fwy o nerth nag y sydd angenrheidiol i orchfygu ein hamryw elynion nerthol. Gwel Wetstein, Schleusner, a Coccejus. Y mae y gair Groeg, a arferir yn unig yn y fan hon, yn gryf ac yn helaeth ei ystyr, ac a arwydda gorchfygu yn rhagorol, dros ben mesur, ac yn ogoneddus iawn. Nid yn unig nid ydyw eu gorthrymderau yn eu gwahanu oddiwrth gariad Crist, ond y maent yn *gorfoleddu* ynddynt. 'Trwy yr hwn a'u carodd,' y maent fel hyn yn fwy na chwncwerwyr. Y mae ei gariad tu ag atynt—ei afael ynddynt—a'i gynnorthwy iddynt, yn anfeidrol, yn anorchfygol, ac yn dragywyddol. Ein gwahanu oddiwrth gariad Crist, yw cael ein gorchfygu; ond bod heb ein gwahanu yw gorchfygu: ond yn ein holl orthrymderau, yr ydym yn fuddugoliaethus iawn, a'i gariad yn anfeidrol gadarn tu ag atom sydd yn peri i ni fuddugoliaethu yn orfoleddus ac yn ardderchog. Mynega y geiriau orchestwaith, mawredd, cyflawnder, a pharhad tragywyddol y fuddugoliaeth. Diddymir a dryllir eu gelynion â dymchweliad tragywyddol, a byddant hwythau yn fyw, ac yn berffaith iach, a dyddanus am byth. Mwy na chwncwerwyr yw bod, er gwaethaf gelynion, yn etifeddion bywyd tragywyddol, lle nis daw gelyn byth yn agos atynt, na dim i'w blino na'u haflonyddu.

CWNING—EN—OD, (cwn) *Llad.* CUNICULUS; *Saes.* CONEY: creadur adnabyddus yn ein gwlad; a gyfrifir yn aflan dan y gyfraith. 'Am ei bod yn cnoi ei chil, ac heb fforchogi yr ewin, aflan yw i chwi.' Lef. 11. 5. Canmolir ei doethineb am ei bod yn gwneuthur ei thŷ mewn lle diogel. Diar. 30. 26. Ps. 104. 18. Yr enw a roddid yn *Heb.* ydoedd שפן creadur tra adnabyddus yn ngwlad Judea, ac a elwir yn bresennol *askoko;* ond y mae y rhai hyn yn wahanol oddiwrth ein cwningod ni; y maent yn wanach, ac yn byw yn gwbl yn y creigiau. Gwel Parkhurst.

CWNU, (cwn) cyfodi, cynnal.—'Ac mi a welais anivel yn cwny o'r môr.' Dat. 13. 1. Luc 11. 7, 8. W. S.

CWPAN—AU, (cwb) *Gr.* κυπελλον (*kupellon*); *Llad.* CUPA: cib, carfen, phiol.—1. Llestr o aur, o arian, o bren, neu o bridd, &c. Gen. 40. 11. Luc 22. 17.——2. Gwin neu ryw beth arall a roddir ynddi; felly y rhoddir y cynnwysol dros y cynnwysedig. Megys y dywedir, 'Y cwpan hwn yw y Testament Newydd yn fy ngwaed;' ac hefyd, 'Pwy bynag a fwytao y bara hwn, neu a yfo gwpan yr Arglwydd,' sef yr hyn sydd yn gynnwysedig ynddi. 1 Cor. 11. 25, 26, 27, &c. Troell ymadrodd, neu drofeg mewn Rheitheg ydyw, a elwir traws enwad *(metonomy).* Amryw siamplau o'r drofeg hon a geir yn yr ysgrythyr, megys, 'Galw yr wyf yn dyst i'th erbyn heddyw y nefoedd a'r ddaear;' sef eu preswylwyr, neu y rhai a gynnwysant. Deut. 30. 19. 'Breninoedd a ddygant i ti anrheg, er mwyn dy deml yn Jerusalem:' hyny ydyw, y gwasanaeth grefyddol a gyflawnir yn y deml. Ps. 68. 29. Edr. SWPER.——3. Cystudd trwm, a gofid caled. Esa. 51. 17. Mat. 20. 22, 22. Ioan 18. 11. Edr. PHIOL.

CWPL—AU, cyd, cydiad, cysylltiad, cwswllt, cwplws. Barn. 19. 3. 'Deuddeg cwpl o ychain.' 1 Bren. 19. 19. 2 Bren. 5. 17. Edr. YCHAIN.

CWR, CYROEDD—AU, (cw) min, ochr, ymyl, goror, parth, cyffin, terfyn, congl. Gen. 19. 4. Deut. 13. 8. Amos 3. 12. Hag. 2. 12.—'Pob un at ei elw ei hun o'i gŵr;' hyny yw, o'i fangre, neu ei breswylfod ei hun. Pa le bynag mae y gwyliedyddion deillion yn preswylio mewn tref neu wlad; pob un at ei elw ei hun o'i fangre, neu ei gŵr; dyna sydd ganddynt yn eu golwg. Esa. 56. 11. Neu, o'r mwyaf o honynt hyd y lleiaf o honynt. Jer. 6. 13. At y golygiad cyntaf y mae y gair *Heb.* קצה yn tueddu; a dyna farn y cyfieithwyr, oblegid rhoisant ef ar ymyl y ddalen, *tuedd.* Mae y cyfieithwyr Seisnig o'r un farn wrth arfer y gair *quarter.*

CWREL—AU, *Llad.* CORALIUM; *Saes.* CORAL; peth o gynnyrch y môr, a elwir yn gyffredin *llysiau y llongwr.* Math o fôr-lysieuyn amryliw a thewsypiog.* Y mae dau air *Heb.* yn cael eu cyfieithu *cwrel,* sef ראמות Job 28. 18. Ezec. 27. 16. a פני Galar. 4. 7. Y diweddaf a arwydda rhyw fath o faen gwerthfawr; rhai a dybiant mai yr hedfaen ydyw. Y maent yn tyfu ar greigiau yn y môr; eu gwraidd sydd feinion iawn, prin y maent i'w canfod. Y maent o natur greigaidd, ac mor galed pan y maent yn y môr ag ydynt wedi eu tynu allan. Y mae tri rhyw o honynt, sef y du, y gwyn, a'r coch; y du yw y gwerthfawrocaf; nid yw y gwyn o fawr ddefnydd; ond y coch sydd ddefnyddiol er meddyginiaeth ac addurn hefyd. Y cwrel coch sydd i'w gael mewn amryw barthau o'r byd, ond yn fwyaf neillduol yn Môr Ethiopia a Môr y Canoldir. Ezec. 27. 16. Er gwerthfawroced yw y cwrel, nid ydyw i'w gystadlu i ddoethineb; sef Iesu Grist, a gwir grefydd. Job 28. 18.

CWRLID, *Ffr.* COUVRELIT: *Saes.* COVERLID: gwrthban. Y gair *Heb.* מסך a gyfieithir *cwrlid* yn Esa. 28. 20. a gyfieithir *cauadlen* yn Exod. 26. 36, 37.—ac yn 2 Sam. 17. 19. *clawr,* neu *cauad,*—*gorchudd,* yn 2 Bren. 16. 18.—*tô,* yn Esa. 22. 8.——'Cul yw y cwrlid i ymdroi ynddo.' Esa. 28. 20. Y mae y geiriau hyn yn ymddangos fel rhyw ymadrodd

* Yn ol barn naturiaethwyr diweddar, nid cynnyrch llysieuog yw y cwrel: ond sylwedd a ffurfir yn drigfa iddynt eu hunain gan greaduriaid bychain, y rhai a elwir Polypiaria.—E.

Digitized by Google

diarebol, a'u hystyr yw, y caent brofi fod pob moddion amddiffyniad yn rhy ffaeledig i'w diogelu, ac i'w gorchuddio rhag y drygau oedd yn dyfod arnynt. Nid oedd eu gwelyau ddim ond *matras*, gwedi ei daenu ar y llawr, a llenllian, neu wrthban *(cwrlid)* i'r hwn a orweddai, i ymdroi ynddo *

CWSG, (cws) cyflwr o lonyddwch, hûn. Ps. 132. 4. Diar. 4. 16. Zech. 4. 1.——'Wele fi yn gwneuthur Jerusalem yn phiol gwsg (neu *phiol gryndod*, neu *wenwyn*) i'r bobloedd oll o amgylch.' Zech. 12. 2. Caiff holl elynion Jerusalem, ac eglwys Dduw hyd ddiwedd y byd, wybod, er gwaned yw hi i'w hamddiffyn ei hun, fod Duw drosti. Y maent yn sychedu yn ddirfawr am ei gwaed, ond yn eu hymgais i'w dyfetha, meddwa Duw hwynt â'i farnedigaethau: byddant yn crynu ac yn syrthio fel rhai wedi yfed gwenwyn cryf. Yr un gair *Heb.* רעל a gyfieithir *euog* yma, a gyfieithir yn Nah. 2. 3. *ysgwyd yn aruthrol.*

CWTER—YDD, *Saes.* GUTTER; ffos, dyfrglawdd, dyfr-lleu, bargod-gafn, dyfr-banlle. 2 Sam. 5. 8. Gen. 30. 38.

CWTOGI, (cwta) byrhau, lleihau. Num. 11. 23. Esa. 50. 2. Cyflawni barnedigaethau mewn ychydig o amser. Rhuf. 9. 28.

CWTWS, CYTYSAU, (cwt) coelbren, rhan, cyfran. Esa. 57. 6.—Tynu cytysau, sef bwrw coelbrenau.

CWYMP—O—IAD—AU, (cy-gwymp) syrthiad, syrthio, llithro, llithriad, cilio yn ol. Jer. 8. 4. Iago 1. 11. Act. 20. 9.——'Er iddo gwympo, ni lwyr fwrir ef i lawr.' Ps. 37. 24. Y mae hyn yn wir noddedig am y dyn Crist Iesu, yr hwn y mae IEHOFAH yn cynnal ei gerddediad, yr hwn, 'er iddo gwympo' trwy farwolaeth, a gyfodwyd drachefn trwy ei law alluog, a'i fraich estynedig. Yr hyn sydd yn wir yr un ffunud am y ffyddloniaid; a dylai hyn fod yn gysur ddynt yn eu holl beryglon a'u temtasiynau. Ps. xci.

CWYN—O—ION, (cy-gwyn) *Heb.* ריב achos, dadl, cweryl, mater, achwyniad; cynghaws, anghytundeb, galaru, alaethu, gofidio, cyd-ymdeimlo, cyd-ofidio, cyd-alaru, tosturio.—Cŵyn anianol, sef achwyniad gwirioneddol.—Y mae genyf gŵyn i ti, sef yr ydwyf yn tosturio wrthyt.

'Y mae cŵyn rhwng yr Arglwydd a'r Cenedloedd;' sef y mae gwrthddadl rhyngddo, nid yn unig â'r Iuddewon, ond â'r Cenedloedd hefyd. Jer. 25. 31. Hos. 4. 1. a 12. 2. Mic. 6. 2.

Holl geraint a chydnabod Job a gwynasant iddo. Job 42. 11. Yr oedd hyn yn arwydd o'u caredigrwydd i Job, a'u cydymdeimlad âg ef yn ei ofidiau; yr oeddynt yn dyfod megys yn gyfranog âg ef yn ei brofedigaethau. Yr un gair *Heb.* נוד a gyfieithir yn Job 2. 11. *cyd-ofidio âg ef*, ag a gyfieithir yn Pen. 42. 11. *cŵyno iddo*; ac hefyd yn Ps. 69. 20. *tosturio*, ymyl y ddalen, *cyd-gwynfan.*

CWYNFAN—AU, (cwyn-ban) galar, griddfan, ochain, trydar. Ps. 55. 2. a 77. 3. Mae y gair hwn yn cael ei arfer fel berf *(verb)* ac hefyd fel enw cadarn *(substantive).* Jer. 15. 18.

CWYR—YDD, (cy-gwyr) sylwedd hydawdd, adnabyddus yn ein gwlad, a wneir o grwybr gwenyn. —Cŵyr clust; cŵyr gwenyn; cŵyr melyn; cŵyr coch; cŵyr crydd. Arferir y cŵyr yn ddefnydd canwyllau, i selio llythyrau, &c. Ps. 97. 5.—Calon Iesu Grist a doddodd fel cŵyr; rhyfedd oedd ei ofid a'i drallod yn nghanol fflamau angerddol digofaint ei Dad er ein mwyn ni. Ps. 22. 14.

'Fel y tawdd cŵyr wrth y tân, dyfether y rhai annuwiol o flaen Duw:' Ps. 68. 2. Mic. 1. 4. sef yn hawdd a disymwyth.

CWYS—AU, (co-gwys) carai o dir a dorir âg aradr. —'Yr arddwyr a arddasant ar fy nghefn; estynasant eu cwysau yn hirion.' Ps. 129. 3. Job 31. 38. Hos. 10. 10. Edr. ARDDWYR, CEFN.

CY, (cw) rhagddawd mewn geiriau cyfansawdd, ac o'r un ystyr a *com* neu *con* yn Saesonaeg, yn y geiriau *compact* a *concord*; ac a arwydda gweithred o bob tu. Edr. CYD.

CYBYDD—ION, (cwb) *Lad.* CUPIDUS: cyrrith, amgauwr; ceisiwr, neu rheibiwr arian. Y mae yn y Groeg ddau air a ellir eu cyfieithu cybydd; sef πλεονεκτης *(pleonectês)* a arwydda, *ceisiwr*, neu *caffwr chwaneg*; a'r llall, φιλαγυρος *(philagyros) carwr arian.* 1 Cor. 5. 10. a 6. 10. Luc 16. 14. 1 Tim. 3. 2. Y gair *Heb.* בצע a arwydda *un rheibus, chwannog am elw*, neu *ennill.* Esa. 32. 5, 7. Y golygiad cyntaf, sef y meddwl llythyrenol o'r gair, a gymerir oddiwrth y dull y byddent yn pwyso arian mewn taledigaeth: obegid yn nyddiau Abraham a Moses, ac y rhawg wedi hyny, byddent arferol o'u pwyso yn eu taliadau. Gwel Gen. 23. 16. Exod. 12. 17. Jer. 32. 9, 10. Nid oes ammheuaeth na byddent yn tori neu yn tocio eu harian i gyfartalu y pwysau, fel y mae arfer rhai gwledydd hyd heddyw, yn neillduol China. Felly, un chwannog i elw a gyffelybir i un a fyddai yn tori neu yn tocio pob dernyn o arian i wneuthur i fynu y swm wrth bwys. 'Yn y golygiad hwn,' medd Mr. Parkhurst, 'tebygwn, y mae בצע yn gybydd, neu tociwr.' Mae gair arall yn Hebraeg a gyfieithir *cybydd*, כלי ac a ellir, tybygid, roddi yr ystyr hwn iddo, sef *fy nghwbl i*, neu *y cwbl i mi*; un yn crafangu y cwbl. Cybydd-dod yw ceisio ychwaneg, neu y cwbl, o dra serch at arian, neu y byd, a'r pethau sydd yn y byd. Y mae hon yn agwedd ar ysbryd dyn, hollol groes i'r ddeddf, yr hon a orchymyn i ni garu a cheisio Duw â'n holl galon. Cymeryd y creadur yn lle Duw ydyw, yr hyn sydd yn eilun-addoliaeth. Felly, gan hyny, y gelwir cybydd-dod gan yr apostol. Col. 3. 5. Mae y chwant bydol hwn yn arwain dynion i bob twyll, anghyfiawnder, trais, gorthrymder, a llawer o chwantau eraill, ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth. Nid oes boddloni arno; mae yn cynnyddu gyd âg amser, ac yn blaguro fwyaf yn henaint mewn dynion annuwiol. Y mae yn ffiaidd gan Dduw, ac yn cau allan o deyrnas nefoedd. Mic. 2. 2. 1 Cor. 6. 10. 1 Tim. 6. 10. Heb. 13. 5.

CYCHWYN, (cy-gwyn) dechreu taith, neu orchwyl. Cychwyn haul, sef codiad haul. Gen. 32. 12. Exod. 40. 36. Jos. 3. 1.

CYD, (cy) fel rhagddawd mewn geiriau cyfansawdd sydd o'r un ystyr a *cy, cyf, cym, cys*; megys yn y geiriau hyn, cydymaith, cydamddiffyn, cydallu, cydair, cydaddaw, cydwybod. &c.

CYD-BARTIAETH, (cyd-barti) tueddrwydd; tueddu i barchu neu anmharchu dynion, oblegid rhyw achosion cnawdol. Y gair *Gr.* προσκλισιν, a arwydda, tueddu i ryw ochr neu blaid, fel y mantola clorian pan fyddo rhyw un yn pwyso ar un pen iddo. 1 Tim. 5. 21. Ond 'heb wneuthur dim o gyd-bartiaeth,' yw rheol y Cristion yn mhob peth, a thu ag at bawb. Leigh.

CYD-DORIAD, (tori).—'Gochelwch y cyd-doriad.' Phil. 3. 2. Felly y geilw yr apostol yr enwaediad, mewn ffordd o ddirmyg: y rhai a gymysgent y gyfraith a'r efengyl, gan geisio dal yr enwaediad i fynu, a hyny o ran traddodiad yn unig, gan ddywedyd fod yn rhaid enwaedu ar y Cristionogion; ac onidê, na lesâ Crist ddim iddynt; er eu bod hwy eu hunain

* Gwel Lowth ar Esa. 30. 1. lle y mae y gair yn cael ei gyfieithu *gorchudd.*



Digitized by Google

yn amddifad o enwaediad y galon. Yr oeddynt nid yn unig yn tori neu yn rhwygo eu cnawd, fel y gwneid yn yr enwaediad (yr hyn oedd bechadurus, o herwydd ei fod yn waharddedig ynddo ei hun, pryd nad oedd fel sêl y cyfammod, Lef. 19. 28. a 21. 5.) ond yr oeddynt hefyd yn cyd-dori ac yn cyd-rwygo yr eglwys, gan ei llarpio fel y gwnai cŵn. Y gair *Gr.* κατατομη, a arwydda cigyddio, darnio, difynio, llarpio.

CYD-DDINASYDD—ION, (cyd-dinas) rhai yn cyd-drigo yn yr un ddinas, ac yn cyd-gyfranogi o'i breintiau. Eph. 2. 19.

CYD-DDWYN, (cyd-dwyn) cyduno, cydsynied, goddef, goddef yn amyneddgar. Num. 14. 27. Jer. 44. 22. Act. 18. 14. 2 Cor. 11. 1.

CYD-DDYODDEF, (cyd-goddef) cyd-deimlo, tosturio; ffrwyth undeb rhwng pleidiau a'u gilydd; fel aelodau y corph â'u gilydd. Rhuf. 8. 17. 1 Cor. 12. 26. 2 Tim. 1. 8. Heb. 4. 15.—Mae y duwiolion yn cyd-ddyoddef gyda Christ. Rhuf. 8. 17.——1. Oblegid yr undeb rhyngddynt â'u gilydd. Y mae ei dda ef yn eiddo iddynt hwy, sef ei gyfiawnder, ei ras, ei etifeddiaeth, &c.; felly y mae eu drwg hwythau yn eiddo iddo yntau, yn gyfrifedig, eu pechodau, eu dyoddefiadau, &c. Act. 9. 4, 5, &c.——2. Trwy gydymdeimlad. Heb. 2. 17. a 4. 15. Esa. 63. 9.——3. Y maent yn dyoddef erddo, ac yn ei achos, ac oblegid yr un pethau ag y dyoddefodd Crist. Ps. 38. 20. 1 Petr 3. 17, 18. a 4. 13, 14. Mat. 5. 11, 12. Act. 5. 41.

CYD-EISTEDD, (eistedd) eistedd yn nghyd.—'Ac a'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu.' Eph. 2. 6. Fel y mae Crist yn eistedd yn y nefoedd fel person cyffredinol, ac yn cynnrychioli ei holl bobl; felly y maent hwythau yn cyd-eistedd *ynddo ef*, er nad ydynt yno etto yn eu personau eu hunain. Y mae Crist yn rhoddi hawl iddynt i'r etifeddiaeth, ac wedi cymeryd meddiant dragywyddol o honi yn eu henwau. Y mae efe yn eistedd yno fel eu cynnrychiolwr, a hwythau yn cyd-eistedd ynddo. Aeth i'r nefoedd, fel yr arch-offeiriad i'r cysegr, âg enwau ei bobl ar ei ddwyfroneg; ac fel y maent yn awr yn cyd-eistedd *ynddo*, ar ol yr adgyfodiad hwy a *gyd-eisteddant gyd âg ef*, yn berffaith, gyrph ac eneidiau, yn dragywydd.

CYD-ETIFEDD—ION, (etifedd) cyd-hawlwyr, cyd-gyfranogwyr mewn etifeddiaeth. Y gair *Gr.* κληρονομια (*klêronomia*) a arwydda etifeddiaeth wedi dyfod trwy goelbren. Eph. 3. 6. Mae y duwiolion, Iuddewon a Chenedloedd, yn gyd-etifeddion â'u gilydd, ac hefyd oll yn gyd-etifeddion â Christ. Trwy eu hundeb âg ef, mae iddynt oll hawl i'r etifeddiaeth. Y mae efe yn etifedd naturiol, fel y mae yn berson dwyfol; ac yn oruchwyliaethol, fel Cyfryngwr, trwy drefniad yn y cyfammod tragywyddol; y maent hwythau yn gyd etifeddion trwy eu hundeb âg ef. Yr un etifeddiaeth sydd iddynt hwy ag yntau, yn ol y gradd y gallant oll ei mwynhau; a'i hawl ef i'r etifeddiaeth sydd yn rhoddi hawl iddynt hwythau, trwy eu perthynas âg ef. Ac am fod ei hawl ef yn anghoiladwy a thragywyddol, felly y mae eu hawl hwythau. Y mae ei hawl ef i'r etifeddiaeth yn flaenorol, fel eu cynnrychiolwr; y mae eu hawl hwythau iddi trwy eu perthynas âg ef, fel hawl y wraig trwy ei pherthynas â'i phriod; a hawl yr aelodau trwy eu hundeb â'r pen. Y maent yn frodyr iddo, yn aelodau o hono, yn gangenau ynddo, ac mewn cyfammod priodas âg ef, na thorir byth. Y maent yn etifeddu bywyd, gras, cariad, a heddwch â Duw; gallu, awdurdod fel brenhinoedd ac offeiriaid i Dduw; a gogoniant tragywyddol mewn corph ac enaid, ynddo a thrwyddo. Rhuf. 8. 17. 2 Tim. 2. 11, 12. Dat. 3. 21. Ioan 17. 22, 24. Gal. 4. 7. Phil. 3. 21. 1 Thes. 4. 17. Luc 22. 29.

CYD-FILWR—WYR, (milwr) rhai yn cyd-filwrio, neu yn cyd-ryfela mewn rhyfel tymhorol neu ysbrydol. Phil. 2. 25. Philem. 2.

CYDFOD, (bod) cyd-drigo, cyd-fywiolaethu; undeb, heddwch. Trigo yn nghyd, sydd yn arwydd o heddwch rhwng rhai â'u gilydd; a'u bod yn ymhyfrydu yn nghyfeillach eu gilydd. 2 Cor. 6. 16.

CYD-FRADWRIAETH, (brad) ymuno â'u gilydd i wneuthur bradwriaeth. Y gair *Heb.* קשר a arwydda bod rhai wedi rhwymo eu gilydd âg ammodau i wneuthur bradwriaeth. 2 Sam. 15. 12. Jer. 11. 9. Ezec. 22. 25.

CYD-FWRIAD—AU, (bwriad) cydundeb, cydgysylltiad, cyduniad. Esa. 8. 12. Act. 9. 24. Gen. 37. 18. 1 Sam. 22. 8. 1 Bren. 16. 9. 2 Bren. 9. 14. Amos 7. 10. Yr un gair *Heb.* קשר a gyfieithir yn y lleoedd hyn *cyd-fwriad*, ag a gyfieithir mewn lleoedd eraill *cyd-fradwriaeth*; ei briodol ystyr yw rhwymo, cyd-rwymo.

CYD-FWYTTA, *G.* Συνεσθιω; brwyta yn nghyd. Cyd-fwyta a arwydda cyfeillgarwch cymdeithasgar a chyweithas.—Yr Iuddewon a'i cyfrifent yn beth anghyfreithlawn iddynt, a ffiaidd ganddynt, fod yn bwyta gyda, neu yn cyd-fwyta, neu yn cyd-yfed â'r Cenedloedd. Gal. 2. 12. Y mae hyny yn eglur wrth ymadroddion y wraig o Samaria, yn ei hymddyddan â'r Iesu wrth ffynon Sichar: 'Pa fodd yr wyt ti, a thi yn Iuddew, yn gofyn diod genyf fi, a mi yn wraig o Samaria?' Y rheswm paham yr oedd hi yn gofyn gyda syndod, ydoedd, 'oblegid nid yw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid.' Ioan 4. 9. Yr oedd gwrthwynebiad gelyniaethol hefyd gan y Samariaid at yr Iuddewon. Pan oedd yr Iesu unwaith yn wynebu tua Jerusalem, 'Efe a ddanfonodd genadau o flaen ei wyneb; a hwy wedi myned, a aethant i mewn i dref y Samariaid, i barotoi iddo. Ac nis derbyniasant ef, oblegid fod ei wyneb ef yn tueddu tua Jerusalem.' Sef ei fod yn un o'r Iuddewon, neu yn un o'r addolwyr arferol o gynnull yn Jerusalem. Luc 9. 51, 52, 53. Yr oedd mor ffiaidd gan yr Iuddewon gyfeillachu â'r Samariaid, nes y dywedent, 'Fod yr hwn a fwytâi ddim a fyddai yn perthyn i Samariad, mor aflan a phe bwytâi gig moch.' Ac, 'Nid oes yr un o'r Samariaid yn dyfod yn broselyt yn Israel; ac nad oes iddynt gyfran yn adgyfodiad y meirw mwy na dynion Sodoma.'——Pan oedd Joseph yn croesawu ei frodyr ar eu hail-ddyfodiad i'r Aipht i geisio lluniaeth, nis gallai yr Aiphtiaid gyd-fwyta â hwynt: 'Gosodasant fwyd iddo ef wrtho ei hun, ac iddynt hwy wrthynt eu hun, ac i'r Aiphtiaid, y rhai oedd yn bwytta gyd âg ef, wrthynt eu hunain: oblegid ni allai yr Aiphtiaid fwyta bara gyd â'r Hebreaid; o herwydd ffieidd-dra oedd hyny gan yr Aiphtiaid.' Yr oedd yr Aiphtiaid yn ffieiddio yr Hebreaid am mai bugeiliaid oeddynt: ac am eu bod yn bwyta, ac yn aberthu y cyfryw anifeiliaid ag oeddynt hwy yn eu haddoli fel eu duwiau. Gen. 43. 32. a 46. 34. Exod. 8. 26.——Dyna un peth oedd yn blino y Phariseaid beilchion, rhagrithiol, yn fawr iawn, ac yn peri iddynt rwgnach, fod Iesu Grist yn 'derbyn publicanod a phechaduriaid, ac yn bwyta gyda hwynt.' Mat. 9. 10. Luc 15. 2. Yr oedd y publicanod yn ngolwg yr Iuddewon yn dra adgas, o herwydd eu swydd, sef casglu trethi dros y Rhufeiniaid, y rhai yr oeddynt dan eu llywodraeth; eu hanghyfiawnder a'u trais llygredig yn eu swydd; yr oeddynt yn gyffredin yn ddynion mor anenwog, fel prin y barnai yr Iuddewon fod un dyn gonest yn eu plith; ac o herwydd hyny byddent yn mynych gysylltu enwau publicanod a phechaduriaid yn nghyd, fel yn arwyddo yr un peth; ac mor ffiaidd oedd ganddynt gymdeithasu â hwynt drwy gyd-fwyta, a phe buasent ddynion cenedlig; yr hyn beth oedd dra aflan

Digitized by Google

yn eu golwg. Rhaid, bob amser, i'r rhai a fyddo yn cyfeillachu, fod o'r un tueddfryd, yr un feddwl, ac yn cydsynied â'u gilydd, cyn byddo y gyfeillach yn gwbl wrth fodd pawb o'r gymdeithas. Pan fyddo duwiolion yn cyd-fwyta, neu yn cymdeithasu yn gyfrinachol âg annuwiolion, gan eu bod o wahanol egwyddor i'w gilydd, rhaid fod un o'r ddwyblaid yn ymollwng i dueddfryd y llall; rhaid fod yr annuwiolion yn cael eu hennill i dymher, ysbryd, ac arferiadau y duwiolion; neu fod y duwiolion yn cael eu denu yn llygredig i'w hysbryd, eu tymher, a'u harferiadau halogedig hwy: y peth olaf hyn, o herwydd gwendid eu cnawd, a fu yn achos o ofid a galar dwys i'r duwiolion lawer gwaith. Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn hyn, fel yn mhob peth arall, yn rhagori ar bawb; medrai efe gyfeillachu â rhai halogedig heb ymhalogi oddiwrthynt; ond yn hytrach, trwy ei gymdeithas sanctaidd, nefolaidd, a grasol, â hwynt, eu hennill i gyfiawnder a heddwch Duw, ac i sancteiddrwydd yn mhob ymarweddiad.

Y mae cyd-fwyta, yn yr ysgrythyrau, yn cael ei osod allan fel arwydd o gydundeb a chyfeillgarwch heddychlawn. Pan oedd Jacob a Laban yn gwneuthur cyfammod o gydundeb rhyngddynt â'u gilydd, ar eu hymadawiad, 'Hwy a gymerasant geryg, ac a wnaethant garnedd, ac a fwytasant yno ar y garnedd.' Gen. 31. 46. Yr oedd hyn yn cael ei wneuthur fel arwydd o'u cydundeb, a'u hymadawiad heddychol. —Pan oedd Adoniah yn ymddyrchafu i geisio bod yn frenin ar orsedd-fainc Dafydd, gwahoddodd y rhai o'i gyfrinach, a phawb a'r a oedd yn ewyllysio ei esgyniad i'r orsedd, i gyd-fwyta âg ef; yr hyn ydoedd yn dangos eu cydsyniad âg ef yn ei fwriad dichellgar; y rhai, pan glywsant ddyrchafu o'r Arglwydd Solomon i'r orsedd, a ddychrynasant; o herwydd eu bod trwy gyd-fwyta âg ef, gwedi dangos eu boddlonrwydd i'w amcanion, a thrwy hyny ddyfod yn gyhoeddus yn gyfranogion o'i drosedd. 1 Bren. 1. 9, 41, 49 —Ar ol adferiad Job o'i gystudd a'i dlodi mawr, 'Ei holl geraint, a'i holl garesau, a phawb o'i gydnabod o'r blaen, a ddaethant ato, ac a fwytasant fwyd gyd âg ef yn ei dŷ, ac a gwynasant iddo, ac a'i cysurasant ef, am yr holl ddrwg a ddygasai yr Arglwydd arno.' Job 42 11. Trwy fwyta bwyd gyd âg ef, yr oeddynt yn gosod allan eu hundeb, eu cyfeillgarwch, a'u caredigrwydd tu ag ato; eu bod yn tosturio wrtho, yn cyd-ymdeimlo ac yn cyd-ofidio âg ef yn ei adfyd; ac yn cyd-lawenhau âg ef yn ei wynfyd a'i lwyddiant.

'Gyd â'r cyfryw ddyn na chyd-fwyta chwaith;' neu yn ol cyfieithiad y Dutch, 'Gyd â'r cyfryw un na fydded i chwi gymaint a bwyta.' 1 Cor. 5. 11. Hyny yw, Na fydded i chwi gymdeithas gyfrinachol, a chyweithas â'r cyfryw un, na chyfeillach gyhoeddus chwaith; fel y cywilyddio efe: fel y mae yr apostol yn ei egluro mewn man arall. Gwel 2 Thes. 3. 14. Wrth gymdeithasu â'r cyfryw byddys yn cynnwys ac yn cyfranogi o'u pechodau ger bron pawb. Er bod yn frodyr o ran eu proffes o Gristionogaeth, etto yr oedd yr apostol yn gorchymyn peidio cydgymysgu na chyd-fwyta â hwynt, fel cyfeillion neillduol. Nid cymdeithas eglwysig yn unig, neu yn benaf, y mae yr apostol yn ei feddwl; pe felly y deallid ef, ni byddai dim priodoldeb yn ei sylwad yn adn. 10. ond cymdeithasu yn garedigol ac yn fynwesol, gan fod yn ymhyfrydu yn nghyfeillach y cyfryw, fel cyfeillion neillduol. Rhuf. 16. 17. 2 Thes. 3. 14. 2 Cor. 6. 14. Eph. 5. 11. 2 Tim. 3. 5. 2 Ioan 10. Jos. 23. 12. Hyd ag y mae ynom, dylem arfer dysgyblaeth eglwysig at y cyfryw, a'u bwrw allan, os na ellir eu diwygio; ond nid oes achos ymadael âg ordinhadau sanctaidd, pan nad allom gael y gymdeithas mor bur ag y dymunem. Hwyrach i Judas gyfranogi o'r pasc gyda Christ a'i ddysgyblion; ond nid oedd yr ordinhad yn llai buddiol iddynt hwy er i Judas gyd-gyfranogi â hwynt. Ond pan *nad allom*, o ran amrafael amgylchiadau, *eu dysgyblu*, dylem ddangos ein hanfoddlonrwydd i'w bucheddau, trwy beidio cyd-ymgymysgu a chyd-fwyta â hwynt, fel cyfeillion neillduol, yr hyn a allwn ei wneyd.*

CYD-FFURF—IO, (cyd-ffurf) cyd-ymffurfio, cyd-ddullio, cyflunio; tebygoli. Rhuf. 12. 2. Y mae y saint yn cael eu cyd-ffurfio â Christ; y maent yn cael eu gwneuthur yn debyg iddo trwy eu perthynas gyfammodol â Duw, o ran agwedd sanctaidd eu hysbrydoedd, eu hymarweddiad dichlynaidd, a'u bywyd profedigaethus, gorthrymedig, yn y byd drwg presennol: byddant wedi eu cyd-ffurfio âg ef mewn gogoniant hefyd. Phil. 3. 10.

CYD-GARCHAROR—ION, (carcharor) rhai yn yr un carchar; cyd-gaethion. Rhuf. 10. 7. Col. 4. 10. Philem. 23.

CYD-GENEDL, cyd-wladwyr, cyd-darddiad, cyd-berthynol. 1 Thes. 2. 14.

CYD-GRYMU, (crwm) 1. Cyd-blygu, cyd-wneuthur arwydd o ddarostyngiad. Esa. 46. 2.——2. Cyd-blygu; bod â deu-pen yn nghyd, fel yr oedd y wraig hòno ag oedd ysbryd gwendid ynddi. Luc 13. 11.

CYD-GWYMPO, (cwymp) cwympo yn nghyd, cyd-syrthio. Ps. 141. 10.

CYD-GYFODI, (cyfod) cyfodi yn nghyd, cyfodi gyd â'u gilydd.—'Ac a'n cyd-gyfododd.' Eph. 2. 6. —'Os cyd-gyfodasoch gyda Christ.' Col. 3. 1. Gellir dywedyd fod i'r Cristion gyfodiad triphlyg; y cyntaf yn *sacramentol*; felly y cyfodir ef yn y bedydd.—Yr ail yn *gorphorol*; felly y cyfodir ef yn nydd y farn o lwch y ddaear. Y trydydd sydd gyfodiad *ysbrydol*; felly y mae yn rhaid cyfodi yn y bywyd hwn, o ran cyflwr yr enaid, o farwolaeth pechod: 'Fel megys ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd.' Rhuf. 6. 4.——Y gair cyd-gyfodi a arwydda fod rhyw gysylltiad neillduol rhwng adgyfodiad Crist ac adgyfodiad ei bobl, yn mhob ystyr: a bod ei adgyfodiad ef yn achos o'u hadgyfodiad hwy. Fel ag yr oedd Crist yn berson cyfiredinol, yn cynnrychioli ei bobl, y mae, trwy osodiad dwyfol, gysylltiad anwahanol rhyngddo ef â hwy, yn mhob peth—yn ei ddyoddefiadau, ei farwolaeth, ei gladdedigaeth, ei adgyfodiad, &c. Rhuf. 6. 5—12. Y mae Crist yn achos *haeddiannol*, yn achos *effeithiol*, ac *arddangosiadol*, o'u hadgyfodiad hwy. Adgyfodir hwy trwy ei *haeddiant*, a thrwy *rym* ei adgyfodiad ef, a byddant yn debyg iddo. Phil. 3. 10, 21. 1 Cor. 15. 47. Cwymp yr Adda cyntaf ydoedd cwymp ei holl hiliogaeth, am eu bod ynddo yn gyfammodol; felly adgyfodiad yr ail Adda ydyw adgyfodiad ei holl hâd yntau, oblegid yr un achos, sef am eu bod ynddo yn gyfammodol.

CYD-GYNNORTHWY—WYR, (cynnorth) rhai mewn undeb yn cynnorthwyo. 3 Ioan 8.

CYD-GYNNULLIAD, (cynnull) cyd-gasglu, cyd-dyru. 2 Thes. 2. 1. Heb. 10. 25.

CYD-GYSYLLTU, (cyswllt) cyfuno, cyd-rwymo, cyd-adeilio. Ps. 122. 3. Eph. 4. 16.

CYDIO, (cyd) 1. Uno, cyfuno, cysylltu. Exod. 28. 7. Job 3. 6. Esa. 5. 8. Ezec. 37. 17.——2. Adnabod yn gnawdol: 'Oni wyddoch chwi fod yr hwn sydd yn cydio â phutain yn un corph?' 1 Cor. 6. 16.

CYDLUNIO, (llun) cyd-ddullio, cyd-ffurfio; llunio pob rhan yn nghyd, neu yn gysylltiedig. Job 10. 8. Ps. 33. 15.

* Gwel Leigh. *Dutch Annotations.* Dr. Doddridge. Dr. Guyse. M. Poole. *Assembly of Divines.* Macknight, &c.

Digitized by Google

CYDNABOD, (nabod) 1. Addef neu gyffesu, cyfaddef, arddelwi. Deut. 8. 5. 'A Judah a adnabu y pethau hyny.' Gen. 38. 26. Sef a gydnabu.——2. Sylwi ar un, neu rai, er amgeledd, diogelwch, a chysur. Exod. 2. 2.

CYDNABOD—AU, cyfeillion, perthynasau, cymydogion. Job 19. 14. Ps. 55. 13. a 88. 8. Luc 2. 44. a 23. 49.

CYDNABYDD—IAETH—AU, (cydnabod) yr hyn a gydnabyddir, cynnefindra, cymdeithas. Mae y gair *Gr.* επιγνωσις, a gyfieithir *cydnabyddiaeth*, yn Col. 2. 2. a 2 Tim. 2. 25. yn cael ei gyfieithu *gwybodaeth*, yn 1 Tim. 2. 4. a 2 Tim. 3. 7. yr hwn yw ystyr mwyaf priodol y gair. Gwel Rhuf. 1. 28. a 3 20. a 10 2. Col. 1. 9.

CYDNABYDDUS, yn gwybod, gwybodus, deallus. Act. 26. 3.

CYD-NESAU, (nesâu) agosâu yn nghyd. Esa. 41. 1. a 45. 20.

CYD-OGONEDDU, (gogonedd). Y mae cydogoneddiad y saint â Christ yn cynnwys, 1. Eu tebygolrwydd iddo mewn gogoniant. Ioan 17. 22. Phil. 3. 21.——2. Eu cyd-fwynhad gyda Christ o'r gogoniant, o ran cyflwr, lle, ac amser.——3. O ran troeglwyddiad y gogoniant oddiwrth Grist, a thrwyddo, iddynt hwy. Ei ogoniant ef a adlewyrcha arnynt hwy. Ymddysgleiriant yn mhelydr ei ogoniant ef. Bydd yr eglwys fel gwraig Brenin y Gogoniant, yn cyfranogi, trwy ei hundeb priodasol, o'i ogoniant ef, yn ei deyrnas a'i lys breninol. Rhuf. 8. 17. Ps. 45. 11, 14. Edr. CYD-EISTEDD, CYD-GYFODI.

CYD-ORWEDD, (gorwedd) gorwedd yn nghyd.—'Nid mewn cyd-orwedd ac anlladrwydd.' Rhuf 13. 13. κοιτη, *gwely*, yn enwedig y gwely priodasol. Arwydda yma, mewn dichlynaidd ymadrodd, cydorwedd yn gnawdol, sef godineb. Arferir y gair yn yr un ystyr gan y LXX. yn Lef. 18. 20, 23. Y gair *Heb.* קרב a arferir yno, a arwydda, agosâu â'r agosrwydd mwyaf. Barna rhai fod y gair κοιτη, a gyfieithir *cyd-orwedd*, yn Rhuf. 13. 13. yn arwyddo *gorwedd yn hir yn y gwely*. Priodol ystyr y gair ydyw *gwely*, neu *lle i orwedd:* felly y cyfieithir ef yn Luc 11. 7. Am hyny gellir ei olygu yn arwyddo *gorwedd yn anllad*, neu *gorwedd yn hir yn y gwely*, a'i gyfieithu, 'Nid mewn gorwedd,' neu 'hir orwedd,' effaith naturiol cyfeddach a meddwdod. Y gair ασελγεια, a gyfieithir *anlladrwydd*, a arwydda, dull meddal, masw, rhyseddgar, a mwythus o fyw—hwn a hir orwedd ydynt gymdeithion anysgaredig â'u gilydd, ac a ddynodant ddyn hollol ddiffrwyth, dan lywodraeth y cnawd, yn porthi y chwantau gwaelaf. a mwyaf anwrol.—'Y gwahaniaeth,' medd y Dr. Doddridge, 'rhwng codi am bump o'r gloch y boreu ac am saith, dros yr yspaid o ddeugain mlynedd, a golygu fod dyn yn myned i'w wely yr un awr, sydd yn agos yn cyfateb i ddeg o flynyddoedd o fywyd dyn;' a thrwy hyny y cyfansoddodd efe y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau.

CYDRADD, (gradd) cyfuwch, heb fod yn uwch nac yn is. Ps. 55. 13.

CYD-SEFYLL, (sefyll) sefyll yn nghyd. 2 Petr 3. 5. —'Ynddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll.' Col. 1. 17. Sef, yn a thrwy Grist y mae pob peth yn cael eu cynnal mewn bod, ac i sefyll at y deddfau a roddwyd iddynt ganddo ef ar y cyntaf. Edr. CRYNHOI.

CYD-STAD, cystal, cystadl; yr un o ran cyflwr. —'Cyd-stad ydynt â'r angelion.' Luc 20. 36. Sef mewn ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb.—'Yn cymetrol â'r angelion.' W. S.

CYSTADLU, (stad) cydraddu, cymharu, cyffelybu 2 Cor. 10. 12.

CYDSYNIO, (syniaw) cyduno mewn barn, cydweled, bod o'r un feddwl; cyduno i wneuthur unrhyw weithred, da neu ddrwg. Deut. 13. 8. Esa. 7. 2. Mat. 18. 19. Act. 22. 20. a 24. 9.—'Yr wyf fi yn cydsynio â'r ddeddf mai da yw.' Rhuf. 7. 16. *Gr.* *συμφημι, Yr wyf yn dywedyd gyd â'r ddeddf*, yr un peth ag y mae hithau yn ei ddywedyd.

CYDWEDD—OG, (cyd-gwedd) priodasol, un dan yr un iau.—'Ffyddlawn gydweddawl.' Phil. 4. 3. W. S. 'Fy ngwir gymhar.' Rhai a farnant, oddiwrth y geiriau hyn, fod yr apostol yn briod; ac mai ei wraig a feddylir yma: ond gan fod y geiriau yn y Groeg yn y rhyw wrrywaidd (συζυγε γνησιε) tebygol mai gwr a feddylir, naill ai Euodias neu Syntyche, o herwydd ei ymddygiad rhagorol fel gwr. Eraill a farnant, mai ceidwad y carchar a feddylir, yr hwn, wedi ei dröedigaeth, gellir barnu, a fu yn dra buddiol i'r apostol. Neu, ynte, Clement, yn ol meddwl eraill; ond nid oes sicrwydd pwy a feddylir.

CYD-WEITHIO, (gwaith) gweithio yn nghyd. Marc 16. 20.—'Ac ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.' Rhuf. 8. 28. Cyffelybiaeth gwedi ei chymeryd oddiwrth gyfferi meddygol, y rhai, yn gyffredinol, ydynt gymysg o amryw ddefnyddiau, peth yn chwerw a peth yn felus, a'r cwbl yn cyd-weithio â'u gilydd er lles a daioni i'r clwyfus: felly y mae holl adfyd a hawddfyd pobl Dduw, eu chwerw a'u melus, yn cyd-weithio er daioni iddynt yn y diwedd, sef tragywyddol bwys gogoniant.——'Yn cyd-weithio.' 2 Cor. 6. 1. Edr. GRAS.

CYDWYBOD—AU, (cyd-gwybod) y gair *Llad.* CONSCIENTIA, a'r gair *Saes.* CONSCIENCE, yr hwn sydd yn tarddu o hono, a arwyddant yr un peth a chydwybod yn Gymraeg. CYDWYBOD, *tystiolaeth meddwl un ei hunan;* gwybodaeth, adfeddwl; un yn gwybod am dano ei hun, ymwybod, gwybod ei fod yn euog neu na bo. Y mae y gair *Gr.* συνειδησις, yn tarddu oddiwrth y gair συνειδεω, sef συν, *cyd*, ac ειδεω, *gwybod;* ac y mae y gair *Gr.* ειδω, neu ειδεω, yn tarddu oddiwrth y gair *Heb.* ידע yr hwn sydd yn arwyddo *gwybod* neu *adnabod*, yn yr ystyr helaethaf o'r gair.——Cydwybod, ydyw y gallu sydd yn enaid dyn i roddi barn ar foesoldeb neu anfoesoldeb ei weithredoedd: eu purdeb a'u hunionder, neu eu brynti a'u gwyrni; pa un a ydynt hwy yn gyd-ffurfiol âg union reol cyfraith Duw. Cydwybod, gan hyny, ydyw rheol dufewnol gweithred, a hi yn ystyried y rheol oddi allan; sef cyfraith Duw. Rhaid bod mewn cydwybod ddeall a barn: adnabyddiaeth o'r gyfraith, yn uniondeb ei rheolau, ac hefyd ystyriaeth o'n gweithredoedd yn ei hwyneb. Rhaid, gan hyny, fod gan ddyn, cyn y barno yn gywir, wybodaeth eglur, drwyadl, o'r gyfraith, y rheol wrth ba un y mae i farnu: adnabyddiaeth hefyd o hono ei hun, o'i weithredoedd, ei amcanion, ei ddybenion, a'i egwyddorion, yn wyneb y gyfraith hon. Rhaid hefyd ei fod yn hollol ddiduedd, ac yn rhoddi barn arno ei hun ger bron Duw. Rhyw beth rhyfedd mewn dyn yw cydwybod; sef dyn yn galw ei hun i gyfrif ger bron Duw, wrth reol Duw, ac yn rhoddi barn arno ei hun. Llys goruchel yw mewn dyn ei hun; ond, y mae 'Duw yn fwy na'n calon, ac a ŵyr bob peth;' yr hwn ei hun a rydd farn gywir ar ol pob barn o'r eiddom ni: ond bydd barn gywir Duw yn cael ei chyhoeddi yn llys cydwybod pob dyn, er ei fawr gysur, neu ei ddirfawr ofid.——Pan fyddom yn barnu fod rhyw beth yn gywir, yr ydym yn gwneuthur hyny mewn sicrwydd; neu yn ol tebygolrwydd yn unig; neu mewn ammheuaeth; felly y gwahaniaethir cydwybod i ben-

Digitized by Google

derfynol, neu sicr; tebygol ac ammheuol, neu betrusol; a'r achos o ammheuaeth a elwir petrusder cydwybod; yr hyn a symudir trwy wybodaeth mwy eglur.—Trachefn, y mae cydwybod yn gwahaniaethu o ran amser; megys *rhagflaeniad;* yr hyn ydyw y farn yr ydym yn ei rhoddi o flaen y weithred: Gen. 22. 3. a 39. 9. 1 Sam. 24. 7.: ac hefyd *canlyniad;* yr hyn sydd ar ol, neu gwedi y weithred: Ps. 51. 3. Act. 5. 41.; ac yna y mae cydwybod yn gwahardd, neu yn gorchymyn yn yr achos cyntaf; yn yr olaf yn cymeradwyo neu yn anghymeradwyo, yn peri cysur neu ofid.

CYDWYBOD DDRWG, yw, 1. *Cydwybod dywyll,* yn cam-farnu am bethau, trwy y tywyllwch sydd ynddynt, heb wybodaeth i wahaniaethu rhwng drwg a da; ac yn casâu y goleuni, fel nad argyhoedder eu gweithredoedd. Y maent mor dywyll fel y tybiant eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw, trwy ladd ei weision. Ioan 16. 2. Dyma y fath gydwybod oedd gan Paul cyn ei dröedigaeth, pan yr oedd yn erlid ac yn anrheithio yr eglwys, ac yn tybied ynddo ei hun, fod yn rhaid iddo wneuthur llawer o bethau yn erbyn enw Iesu o Nazareth. Act. 26. 9.

2. *Cydwybod farwaidd, gysglyd,* heb deimlo mwy na dyn yn cysgu ar ben yr hwylbren, yn nghanol y môr, er ei fod yn y perygl mwyaf. Diar. 23. 34. Yr oedd cydwybod Pharaoh yn cael ei deffro, weithiau, gan farnedigaethau Duw arno, ond yn fuan yn dychwelyd i'r un cysgadrwydd a dideimladrwydd. Felly yr oedd Dafydd dros amser, nes y daeth Nathan ato, a'i brofi yn euog, a dywedyd, 'Ti yw y gwr.' 2 Sam. 12. 7.

3. *Cydwybod bleidiol,* yn ddisylw o bechodau mawrion, er yn fanwl yn nghylch pethau bychain: fel y Phariseaid. Mat. 22. 23. Yr arch-offeiriaid, o gydwybod, yn pallu bwrw yr arian yn y drysorfa, am mai gwerth gwaed ydoedd, a hwythau gwedi taflu yr un arian i Judas am fradychu yr Iesu. Mat. 27. 6. Yr un fath yr oedd y brenin Saul hefyd yn ei ufudd-dod rhagrithiol a hannerog i orchymyn Duw.

4. *Cydwybod aflan;* felly y mae cydwybod pob dyn anghrediniol, diadgenedledig.—'I'r rhai halogedig a'r di-ffydd, nid pur dim; eithr halogedig yw hyd yn nod eu meddwl a'u cydwybod hwy.' Tit. 1. 15. 1 Cor. 8. 7.

5. *Cydwybod gwedi ei serio;* sef wedi caledu trwy dwyll pechod, a thrwy fynych arferiad o hono, fel y mae yn ddideimlad o hono, ac yn ddiarswyd o'r canlyniadau o hono. 1 Tim. 4. 2. Jer. 8. 6.

6. *Cydwybod anobeithiol;* fel Cain a Judas.—— Crybwyll yr apostol am *gydwybod gamsyniol a chyfeiliornus,* 1 Cor. 8. 7.—*cydwybod ammheus,* Rhuf. 14. 14, 23.—*cydwybod wan,* Rhuf. 14. 1, 14. 1 Cor. 10. 29. a 8. 7—12. Crybwyllir hefyd am *gydwybod archolledig, gystuddiedig:* (Diar. 18. 14.) felly y tarawodd calon Dafydd ef am rifo y bobl. 2 Sam. 24. 10.

CYDWYBOD DDA, sydd mewn dyn wedi ei adnewyddu gan yr Ysbryd Glân, ac yn gweini ei swydd yn dda, yn oleu, yn ddiduedd, yn dyner, fel yn Josiah, yn ymostwng mewn tristwch duwiol am bechod; ac yn anhawdd ganddi roddi lle i bechod, fel Joseph; ac yn methu cydfyned âg eraill, fel Nehemiah. Neh. 5. 15.

*Cydwybod bur,* yw cydwybod wedi ei thaenellu a'i phuro â gwaed Crist. Nid oes ond iawn am bechod a all ddieuogi cydwybod, a hwnw yn adnabyddus i'r enaid trwy ffydd; yr hyn sydd yn ei hadnewyddu a'i gwneuthur yn onest a diragrith ger bron Duw; ac yn tueddu at burdeb yn mhob ymarweddiad. Nid oes modd i'r gydwybod fod yn bur, heb iawn gredu yr efengyl; nac ychwaith, os byddwn ddichellgar a rhagrithiol, neu halogedig, mewn un rhan o'n hymddygiad. 1 Tim. 1. 5. a 3. 9. 2 Tim. 1. 3. Heb. 9. 14.

*Cydwybod ddirwystr.* Act. 24. 16. Cydwybod ddieuog, heb un rhwystr ynddi; canys os bydd rhwystr ynddi, hithau a rwystra y dyn yn mhob peth; yn ei ddyfodfa at Dduw, a'i gymdeithas âg ef; yn ei fwynhad o gysuron dwyfol; yn ei gyflawniad o ddyledswyddau, &c. Ni ddichon dyn â chydwybod euog, rwystrus, lwyddo mewn dim. Rhaid, yn gyntaf, gael y rhwystr o'r gydwybod; yr hyn beth ni symud dim byth ond dadguddiad o iawn, sef aberth Crist; a'r dyn a gafodd, ac sydd yn mynych gael, dadguddiad o'r iawn, sydd yn sicr o ymarfer i gael cydwybod ddirwystr tu ag at Dduw a dynion.

Y mae effeithiau cydwybod dda yn neillduol o hyfryd, ac yn ddechreuad nefoedd ar y ddaear. Y mae dedwyddwch dyn yn gynnwysedig lawer iawn ar gyflwr ei gydwybod. Os bydd cydwybod pechod yn aros, nid oes dim a wna dyn, tra byddo felly, yn dderbyniol. Un o effeithiau cydwybod dda yw, 1. Rhyddhad oddiwrth euogrwydd pechod. Heb. 10. 1, 2.——2. Heddwch tu ag at Dduw, trwy gredu yn nghyflawnder Crist. Rhuf. 5. 1.——3. Llawenydd a gorfoledd yn Nuw. Rhuf. 5. 11. 2 Cor. 1. 12. Diar. 15. 13, 15. ——4. Hyfder a gorfoledd dan waradwyddiadau, enllibiau, ac erlidigaethau oddiwrth y byd. 1 Petr 2. 19. a 3. 16. 1 Sam. 12. 3.——5. Gwaredigaeth oddiwrth ofn marwolaeth a'r farn a fydd. Tit. 2. 15. 1 Ioan 3. 21. 2 Tim. 4. 8.

Y neb a fyno gael a chadw cydwybod dda, ymddyddaned â'i galon yn aml—rhodied yn fanwl yn ei holl ffyrdd trwy edrych yn barchus ar holl orchymynion Duw (Ps. 119. 6.): yn neillduol, trwy gymdeithasu yn ddyfal â gwaed neu aberth Crist, trwy ffydd, yr hyn yn unig a ddichon buro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon.

*Gwneuthur peth er mwyn cydwybod,* yw ei wneuthur yn y fath fodd, na byddo cydwybod yn cael ei rhwystro na'i halogi. Rhuf 13. 5.——Bwyta peth ddullio, cyflunio.—'Na chyd-ymffurfiwch â'r byd wedi ei aberthu i eilunod, 'a chanddynt gydwybod o'r eilun,' ydyw ei fwyta gyda pharch i'r eilun, fel pe baent yn credu fod rhyw ddwyfolder, neu rinwedd ynddo. 1 Cor. 8. 7.

Nid *cydwybodus* ond cywir.
Nid cywir ond meddylgar. *Diar.*

CYD-WYLO, (cyd-wylaw) cyd-alaru, cyd-gwynfan, cyd-alaethu, cyd-ofidio.—'Os ydyw ei gwysau ef yn cyd-wylo.' Job 31. 38. Trwy ffugyr ymadrodd, golyga Job fod tir a'i gwysau yn llefain, ac megys yn wylo yn erbyn dynion a bechant yn yr achos, trwy ei gamfeddiannu, trwy drais ac anghyfiawnder, neu trwy orthrymu neb o'i blegid. Cawn y cyffelyb ymadrodd yn Hab. 2. 10, 11.; 'Cymeraist gynghor gwarthus i'th dŷ, trwy ddystrywio pobloedd lawer; pechaist yn erbyn dy enaid. O herwydd (neu am hyny) y garreg a lefa o'r mur, a'r trawst a'i hetyb o'r gwaith coed. Gwae a adeilado dref trwy waed, ac a gadarnhao ddinas trwy anwiredd.' Y mae y ceryg a'r coed, y trawstiau a'r muriau, yn dystion cywir yn erbyn trawsder ac anghyflawnder y dynion a'u camfeddiannant er gorthrymu eraill. Hyn a wada Job mewn perthynas iddo ei hun.

CYDYMAITH—ION, (cyd-ymdaith) cyd-deithwyr; rhai yn cyd-fyned â'u gilydd, mewn ffordd neu farn. Diar. 17. 17. a 22. 24. a 27. 10. 2 Cor. 8. 23. Philem. 17. Dat. 1. 9. Edr. CYFAILL.

CYD-YMDAITH—IO, cyd-rodio, cyd-deithio, cydgerdded. Act. 1. 21. a 20. 4.

CYD-YMDEITHAS, (cyd-ymdaith) cymdeithas, cyfeillgarwch. Ps. 94. 20.

CYD-YMFODDLONI, (boddlawn) 'Yn cyd-ymfoddloni â'r rhai,' &c. Rhuf. 1. 32.—'Yn cyd-syniaw' W. S. a Dr. M.—*Gr.* συνευδοκουσι, *sef yn cyd-ymhyfrydu.*

CYD-YMFFURFIO, (cyd-ffurf) cyd-ffurfio, cyd-

Digitized by Google

hwn,' &c. Rhuf. 12. 2. *Gr.* *μη συσχηματιζεσθε*, *cyd-ymagweddu*. 1 Petr 1. 14. Cyd-agweddu â dynion llygredig y byd yn eu hegwyddorion ac yn eu bucheddau. 1 Ioan 2. 16. Eph. 4. 17, 18, 19. Peidio a chyd-agweddu â hwynt yn eu drwg foesau; na chwaith mewn eilun-addoliaeth, coel-grefydd, nac mewn dim croes i drefn, ordinhadau, a gwirioneddau yr efengyl, yr hon sydd yn dysgu dynion i ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol; a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon. Tit. 2. 11, 12.

CYD-YMGYMYSGU, (cyd-cymysg) ymgyfeillachu yn gnawdol. 1 Cor. 5. 9.

CYF. Edr. CYD.

CYFADGAN, (ad-gan) diareb.

A choeg *gyfadgen* pobloedd. *E. Prys*, (Ps. 44. 14.)

CYFADDAS, (addas) cymhwys, gweddus, cydweddawl. Mat. 26. 16. Marc 6. 21. Luc 22. 6. Act. 24. 25. Gal. 6. 10. 1 Petr 5. 6.

CYFADDEF, (addef) cydnabod, cyffesu; yr hyn sydd wrthwyneb i gelu: peidio a chelu, addef. Deut. 26. 3. 1 Bren. 8. 33. Ioan 9. 22. Heb. 11. 13. 1 Ioan 1. 9.

CYFAGOS, (agos) tra agos, agos iawn. Y gair *Heb.* קרבה a gyfieithir *cyfagos*, yn Diar. 10. 14. ac Ezec. 6. 12. a arwydda yr agosrwydd mwyaf, hyd yn nod *y tu mewn i beth*; y perfedd oddifewn. Gen. 18. 23. Exod. 3. 20. a 29. 13. Lef. 1. 9. Ps. 55. 10. a 62. 5. a 64. 6. a 103. 1. Jer. 4. 14. a 9. 8.

CYFAILL—EILLION, (aill) cyfaill, cydymaith; un a gerir, ac a garo; un a ddywedo, ac a gadwo gyfrinach; un a ymddiriedo, ac yr ymddiriedir iddo; un a gyd-deimlo mewn cystuddiau, ac a gynnorthwyo, hyd eithaf ei allu, mewn pob anghaffael ac angenoctid; un a roddo ac a gymero gynghor, addysg, a cherydd: yr hwn a ddangoso, ac y dangosir iddo, eithaf ewyllys da: megys yr oedd Jonathan a Dafydd tu ag at eu gilydd.—Y mae tri gair *Heb.* am gyfaill; dau (sef הב דוד) yn arwyddo *caru*, a'r llall (רעה) a arwydda *porthi*, *amgeleddu*. Y gair Groeg mwyaf cyffredin yw φιλος, a arwydda un yn caru, neu yn cael ei garu; cariad. Y mae gair Groeg arall a arferir weithiau, εταιρος.

Y mae Solomon, yn llyfr y Diarebion, yn dangos cynneddfau cyfaill cywir (pen. 17. 17.) Un yn 'caru *bob amser*' ydyw: nid yn unig mewn hawddfyd a llwyddiant, ond hefyd mewn adfyd a chyni; pan na all gynnorthwyo, etto y mae yn caru.—' Y mae cyfaill a lŷn yn well na brawd.' Diar. 18. 24. Y mae yn gwneuthur cymwynas gyda mwy o garedigrwydd calon. Efe a argyhoedda ac a gerydda, pan welo rywbeth o'i le. ' Ffyddlon yw archollion y caredig;' ei geryddon llymaf a darddant o gywirdeb enaid ffyddlon, gwir garedig, a diduedd. (Pen. 27. 6.) Adwaenir ef wrth gynghor ffyddlon a da, yn gystal ag wrth ei gerydd prydlawn a thirion.—' Olew ac arogldarth a lawenycha y galon; felly y gwna mwynder cyfaill trwy gynghor ffyddlon;' *Heb. trwy gynghor yr enaid;* trwy y fath gynghor ag sydd yn dyfod o'i galon a'i enaid, ag sydd iaith meddyliau difrifaf ei galon. Diar. 27. 9.—' Haiarn a hoga haiarn: felly gwr a hoga wyneb ei gyfaill;' neu, fel y mae eraill yn cyfieithu y gair, ' Haiarn a lawenycha (hyny yw, a loywa) haiarn: felly y llawenycha gwr wyneb ei gyfaill.' Y mae cymdeithas cyfaill yn adfywiad ac yn llonder i un a fyddai yn llwrf ac yn isel mewn tristwch a gofid. Diar. 27. 17.

Y mae Crist, fel cyfaill, fel yn mhob peth arall, yn rhagori yn anfeidrol ar bawb. Y mae ynddo bob cynneddfau a rhinweddau godidog ag sydd yn ofynol mewn cyfaill, yn eu hanfeidrol berffeithrwydd. Efe a garodd ei eglwys, ac y mae yn ei charu; ac yn tywallt ei gariad yn ei chalon, nes y mae hithau yn ei garu yntau yn ol. Efe yw yr un sydd yn adrodd cyfrinach y cynghor tragywyddol, a dirgelwch y cyfammod gras, i'w eglwys; ac iddo y tâl iddi hithau adrodd cyfrinach ei phrofiad, ac eithaf ei gwendid, ei hofnau, a'i hammheuon; efe a'u ceidw, ac ni ailadrodda hwynt i warthruddo ei briod. Teilwng yw efe i ymddiried ynddo, am fater corph ac enaid, dros byth. I'w bobl y mae yntau yn ymddiried am ei enw, ei waith, a'i ogoniant mynegol yn y byd. Efe a ddichon gyd-oddef a chyd-deimlo â'i bobl yn eu cystuddiau a'u gorthrymderau: ac y mae yn abl i gynnorthwyo yn ddigonol yn mhob angenoctid, adfyd, a chyni. Efe a ddangosodd eithaf ewyllys da at ei bobl, gan roddi ei hun (o gariad arnynt) i farw yn eu lle.

Cyfeillach ydyw melysder a hyfrydwch cydnabyddiaeth, a magwriaeth cariad. Y mae pob rhyw a graddau o gyfeillgarwch yn cyd-gyfarfod yn Nghrist tu ag at ei ddyweddi; y mae yn gyfeillgarwch priod a brawd; ac od oes un berthynas yn y byd, yn yr hon y mae cyfeillgarwch, y mae y cwbl yn rhy fychan i osod allan gariad Crist.——Y mae mewn cyfeillgarwch gydsyniad o'r ddwy blaid, undeb mewn barn a charedigrwydd, cyd-deimlad y naill at y llall, yn eu hawddfyd a'u hadfyd, fel pe bai un enaid mewn dau gorph. Y mae rhyddid, yr hwn yw bywyd cyfeillgarwch, y fath gyweithasrwydd rhydd rhwng cyfeillion, tywalltiad cyfrinach calon ddinag. Y mae y naill yn cysuro ac yn hyfrydu yn y llall. Y mae hefyd gyd-anrhydeddu; y naill yn anrhydeddu y llall; pob un yn rhoddi anrhydedd i'w gilydd; yr hyn oll a geir yn y cyfeillgarwch cyweithas sydd rhwng Crist a'i eglwys, oddieithr yn y peth olaf y mae rhywfaint o wahaniaeth. Er fod Crist yn galw ei bobl yn gyfeillion iddo, ac yn hyny, mewn rhan, yn ymostwng atynt, etto, er hyn i gyd, rhaid cofio mai nid cyfeillach o gydraddolion ydyw. Y mae Crist yn anrhydeddu ei bobl trwy roddi anrhydedd *arnynt;* hwythau ydynt yn ei anrhydeddu yntau, trwy roddi yr anrhydedd iddo ag y mae efe yn deilwng o hono. Ioan 17. 22. Ps. 29. 2. Diammeu y bydd i'r hwn sydd yn cynhyrfu cyfeillach mewn eraill, gadw deddfau cyfeillach ei hun; efe a gyfrif elynion ei bobl yn elynion iddo ei hun. Ac fel y mae ei gyfeillach yn *felus a hyfryd*, felly y mae yn *sicr a dianwadal* yn mhob amgylchiad. Ni bydd arno byth gywilydd o'i bobl, ond a'u haddef yn mhob amgylchiad.

' Cyfaill Duw.' Yr enw hwn a roddir yn benaf i Abraham. ' Ond tydi, ein Duw ni, a roddaist y wlad hon i hâd Abraham dy garedigol (neu dy gyfaill) yn dragywydd.' 2 Cron. 20. 7. ' Eithr ti, Israel, wyt hâd Abraham fy anwylyd,' neu fy nghyfaill. Esa. 41. 8. Yr un gair *Heb.* אהב sef *caru*, neu *un a gerir*, sydd yn y ddau le. ' A cyflawnwyd yr ysgrythyr, yr hon sydd yn dywedyd, Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder; a Chyfaill Duw y galwyd ef.' Iago 2. 23. Mae yr enw hwn yn cael ei roddi iddo, nid yn unig o herwydd i Dduw yn fynych ymddangos iddo, ac ymddyddan yn gyfeillgar âg ef, a dadguddio cyfrinach iddo (Gen. 18. 17. ' A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf?') eithr hefyd, o herwydd iddo wneuthur cyfammod o gyfeillgarwch tragywyddol âg ef, ac â'i hâd hefyd. Gen. 12. 2, 3. a 17. 2, 4, 7. Ac, yn enwedigol, o herwydd iddo adnewyddu ei gyfammod pan offrymodd ei fab Isaac, ac a'i cadarnhaodd trwy lŵ, a thrwy hyny a'i derbyniodd i agosach cyfeillgarwch a chymundeb âg ef ei hun. Gen. 22. 16, 17, &c. Ac ar y prawf yma o ufudd dod Abraham, sef offrymiad ei fab, y mae yr apostol Iago yn adrodd yr ysgrythyr, lle y gelwir Abraham yn gyfaill Duw. Iago 2. 22, 23.

Ein Hiachawdwr a eilw ei apostolion yn gyfeillion,

Digitized by Google

Ioan 15. 15. 'Ond mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion;' y mae yn mhellach yn adrodd y rheswm paham; 'oblegid pob peth a'r a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi.' Fel y bydd dynion yn arfer adrodd eu cynghor a'u holl galon i'w cyfeillion, yn enwedig os bydd y mater o ryw bwys a chanlyniad, neu ei fod o ryw lesâd iddynt ei wybod a'i ddeall: felly y dadguddiais innau i chwithau beth bynag sydd yn angenrheidiol er eich addysg, eich swydd, a'ch cysur, a'ch iechydwriaeth. Ac nid yn unig i'r apostolion y mae yr enw hwn yn perthyn, ond y mae yn perthyn i'r holl wir gredinwyr yn gystal a hwythau. 'Bwytewch, gyfeillion,' &c. Can. 5. 1. Mewn cyfeiriad at ddull yr Iuddewon yn eu priodasau, o fod cyfaill y priod-fab gyd âg ef, yn gweini yn y cyfryw achos iddo ef a'i gyfeillion, y mae Ioan Fedyddiwr yn cael ei alw yn 'gyfaill y priod-fab,' yr hwn trwy ei athrawiaeth a'i fuchedd, oedd yn parotôi pobl yr Iuddewon i Grist. Ioan 3. 29.

Cyfaill sydd air cyffredin o gyfarchiad, pa un bynag ai i gyfaill, neu i elyn. Gelwir hwnw oedd heb y wisg briodas am dano, 'Y cyfaill.' Mat. 22. 12. Ein Hiachawdwr a eilw Judas fradwr, 'Y cyfaill.' Mat. 26. 50.

Yr ydym wedi dal sylw fod dau air yn y Groeg yn cael eu cyfieithu *cyfaill:* un, φιλος *(philos)* a arwydda cariadusrwydd, serchogrwydd, cymeriad, parch, ac anrhydedd: a'r llall, εταιρος *(etairos)* a arwydda rhyw adnabyddiaeth gyffredin yn unig, megys adnabyddiaeth cymydogol, neu rai a fyddai yn cyd-fasnachu, neu yn dygwydd cyd-gerdded â'u gilydd, cydymaith cynnefin. Nid yw yn angenrheidiol yn arwyddo serchogrwydd, na parchedigaeth, fel y mae φιλε, neu φιλος, ac a'i harferir gan awdwyr cenedlig, yn gystal a chan Matthew, am ddynion y byddo yn lled difater genym am danynt; ie, hyd yn nod rhai cwbl atgas a thra beius. Leigh a ddywed ei fod yn arwyddo gwestai, un yn bwyta ar yr un bwrdd, ac yn cael amgeledd dan yr un gronglwyd, neu yn dilyn yr un alwedigaeth. Arferir ef amryw weithiau gan yr efengylwr Matthew, yn Pen. 11. 16. a 20. 13. a 22. 12. a 26. 50.——Gelwir cymydog yn gyfaill; 'Pwy o honoch fydd iddo gyfaill, ac a â ato hanner nos, ac a ddywed wrtho, O gyfaill, moes i mi dair torth yn echwyn.' Luc 11. 5. Φιλε *(phile)* ydyw y gair sydd yma am gyfaill. Gwel Leigh, Parkhurst, Campbell.

CYFAMMOD—AU, (cyd-ammod) cytundeb, cynghrair; cytundeb rhwng pleidiau. Mae y gair *Heb.* ברית a gyfieithir *cyfammod* yn gyffredinol, weithiau yn cael ei gyfieithu *cynghrair.* 'Felly y gwnaethant gynghrair yn Beerseba.' Gen. 21. 32. Sef, gwnaethant gytundeb trwy lŵ, o bob tu. 'Am hyny efe a alwodd y lle hwnw Beerseba: *(ffynon y llŵ)* oblegid yno y tyngasant ill dau.' Adn. 31. 'Yna y cymerodd Abraham ddefaid a gwartheg, ac a'u rhoddes i Abimelech; a hwy a wnaethant gynghrair ill dau.' Adn. 27. Sef hwy a gyd-wnaethant ammod trwy lŵ, oblegid hyny ydyw ystyr y gair cynghrair. Crair,* yr hwn ydyw gwreiddyn *cynghrair*, a arwydda y peth y cymerai y cyfammodwyr eu llŵ arno, sef y peth y gosodent eu llaw arno wrth wneuthur llŵ, ymcyfrwng; ac hefyd rhyw arwydd; rhyw beth a gedwir gan un er mwyn eraill: felly yr oedd y defaid a'r gwartheg yn arwyddion ac yn greiriau yn y cyfammod hwn. 'Nawdd y creiriau,' sef nodded y saint. 'Ysgrin y creiriau,' sef arch y dystiolaeth.

* Crair yw yr hyn a gedwir er mwyn un arall; rhyw beth a gedwir o barch a charedigrwydd tu ag at y marw. Creiriau, oedd rhyw ranau o gyrph y saint, neu rhyw ddillad, &c. a fyddai yn perthyn iddynt, ar yr hyn y gosodai dyn ei law pan gymerai ei lŵ. Oddiwrth hyn y daeth fod crair yn arwyddo offeryn cyfammod.—*Myn fy nghrair*, llŵ a arferid yn Nghymru gynt.

Y mae tri gair yn Hebraeg yn cael eu cyfieithu *cyfammod, cynghrair.*—1. כרת ברית a gyfieithir yn *wneuthur cyfammod,* (yn ol yr Hebraeg, *tori,* neu *daro* cyfammod) yn mhob man lle ceir y gair yn yr Hen Destament. 2 Sam. 3. 12. Job 5. 23. Ezec. 17. 18. Mae y gwr enwog a dysgedig hwnw, Mr. Joseph Mede, yn treiglo y gair *Heb.* ברית oddiwrth ברת *bwyta*; y mae efe yn dangos, trwy ysgrythyrau, ac oddiwrth awdwyr cenedlig hefyd, ei fod yn arferiad gynt, o fod cyfammodwyr yn cyd-fwyta â'u gilydd wrth wneuthur cyfammod. 'Felly,' medd efe, 'y gellir galw cyfammod (neu y geilw yr Hebreaid gyfammod) *bwytâd.*' Gen. 26. 30, 31. a 31. 54. 2 Sam. 3. 20. Gwel Mede's *Works, p.* 370. Unwaith yr arferir y gair cynghrair yn y Testament Newydd, yn Act. 23. 13. ac yn gyfieithiad o'r gair *Gr.* Συνομοσιαν *(Synomosian)* yr hyn a arwydda, rhai wedi ymrwymo trwy lŵ i fod o'r un fwriad; cyd-fwriad trwy lŵ, neu gytundeb trwy lŵ. 'Rhai o'r Iuddewon, wedi llunio cyfarfod, a'u rhwymasant eu hunain â diofryd, gan ddywedyd, na fwytaent, ac nad yfent, nes iddynt ladd Paul. Ac yr ydoedd mwy na deugain o'r rhai a wnaethant y cynghrair hwn.'——2. אלה *Llŵ.* 'Bydded yn awr gynghrair rhyngom ni;' hyny yw, bydded llŵ rhyngom ni. Gen. 26. 28.——3. חזה cytundeb sefydlog, cytundeb sicr, cyd-ammod, wedi ei benderfynu yn gwbl o'r ddwyblaid. Y gair Groeg sydd gan y LXX. ydyw συνθηκη, *cyfammod*; *συν*, *cyd*, a θηκη, *sefydliad, cyd-sefydliad, cyd-osodiad, cyd-ouchwyliaethiad, cyd-ammod*, neu *gyd-grair, cyfrwng.* 'Grwnaethom ammod âg angeu, ac âg uffern y gwnaethom gynghrair.' Esa. 28. 15, 18.—Y mae yn werth ein sylw, fod y gair *Heb.* כרת yr hwn air a gysylltir â ברית *cyfammod*, ac a gyfieithir gan rai dysgedigion, *tori ymaith burwr*, neu *dori ymaith aberth glanhad*, neu *lanhawr*, yn cael ei gysylltu yn gystal a אלה *llŵ*, *cynghrair*, ag ydyw â ברית *cyfammod.* Gwel Deut. 29. 12, 14.

Yr ydoedd gynt, ar wneuthuriad cyfammod, aberth yn cael ei ladd. 'Cesglwch fy saint yn nghyd ataf fi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth. Ps. 50. 5. A'r aberth a leddid ar yr achos hwnw oedd y *crair*, ar yr hwn y byddai y pleidiau yn cyd-ammodi trwy lŵ. Byddid hefyd yn tori, neu yn hollti yr aberth, a'r cyfammodwyr a aent rhwng y darnau. Gen. 15. 9, 10, 17. 'A mi a roddaf y dynion a droseddasant fy nghyfammod, y rhai ni chwblhasant eiriau y cyfammod a wnaethant ger fy mron; wedi iddynt fyned rhwng rhanau y llo a holltasant yn ddau, tywysogion Judah, a thywysogion Jerusalem, yr ystafellyddion, yr offeiriaid, a holl bobl y wlad, y rhai a aethant rhwng rhanau y llo,' &c. Jer. 34. 18, 19. Tebygol mai oddiwrth hyn y mae yr ymadrodd Hebreaidd hwnw, *Taro ammod*, ac a arferir yn sathredig yn ein plith ninnau, *Taro bargen*; (a dyna yr achos y bydd rhai yn taro eu dwylaw yn nghyd wrth wneuthur ammod, neu *fargen)* ac mai dyna wir ystyr כרת ברית sef gwneuthur cyfammod, neu gytundeb, trwy daro, tori, neu hollti rhyw greadur, a roddid yn aberth ar yr achos hwnw, fel y gwelir uchod.——Mae lle cadarn i feddwl, mai oddiwrth y dull neu y ffurf o lŵ, a arferid wrth wneuthur cyfammod, y mae tarddiad yr ymadrodd hwnw, a arferir weithiau yn yr Hen Destament, 'Fel hyn y gwnelo Duw i mi, ac fel hyn y chwanego.' Fel pe dywedasai y cyfammodwr, gan edrych ar yr aberth drylliedig ger ei fron, Fel y drylliwyd yr aberth hwn i fod yn grair, ac yn arwydd o'r cyfammod, felly y gwnelo Duw i minnau, a llawer yn ychwaneg, os byddaf yn euog o dori y cyfammod hwn. Ruth 1. 17. 1 Sam. 3. 17. a 9. 35. a 19. 13. a 24. 3. Ond hwyrach mai gwell golygu yr ystyr o *ddewis*, yr hyn sydd berthynol i'r geiriau ברה—ברא—בור fel y mwyaf addas; cytuna yr ystyr hwn â chyfammod, i ba un y mae personau yn myned o wir ewyllys a dew-

Digitized by Google

isiad—yn dewis arall i fod gyda hwynt yn y cyfammod—yn dewis ammodau y cyfammod—ac ynghylch pa bethau, pa bersonau y cyfammodir.

Yn y Testament Newydd, gelwir ef, y rhan fynychaf, Διαθηκη *(Diathêkê) gosodiad, trefniad, llythyr cymun, ewyllys diweddaf un, cyfammod* neu *drefniad testamentaidd*, neu *roddiad o ryw bethau wrth ewyllys gan un wrth farw*. Yr hyn sydd yn ei rwymo i roddi y pethau addawedig, ydyw ei ewyllys ei hun. Mae Διαθηκη, weithiau, yn cael ei gyfieithu *cyfammod*, ac weithiau *testament*. Heb. 7. 22. a 13. 20. Edr. TESTAMENT.

CYFAMMOD, yn yr ysgrythyr, a arwydda, 1. Y dadguddiad graslawn o ewyllys Duw, mewn pethynas i iechydwriaeth pechaduriaid, trwy y Cyfryngwr mawr, Iesu Grist. Rhoddwyd amrywiol amlygiadau o'r drefn ddwyfol hon i'r eglwys, gyda graddol chwanegiad goleuni, o'r addewid yn Eden, hyd ddyfodiad y Messiah. Ar Sinai, gosodwyd i fynu yn yr eglwys oruchwyliaeth a threfniadau cysgodol, i ddangos gyda mwy o eglurdeb a manylrwydd, Berson Crist, ei waith, ei ddyoddefiadau, ei swyddau, a natur ei deyrnas. Am nad oedd amcan Duw i'r oruchwyliaeth hon barhau ond hyd ddyfodiad y sylwedd mawr, Crist Iesu, gelwir hi, 'Yr hen gyfammod;' sef yr hen osodiad, neu drefniad, ag oedd yn yr amseroedd pried i gael ei diddymu, ac i roddi lle i oruchwyliaeth mwy ysbrydol, cyflawn, dysglaer, a gogoneddus; yr hon sydd i barhau hyd ddiwedd amser, ac a elwir, 'Y cyfammod newydd.' Heb. 8. 6, 8. Jer. 32. 40. Gal. 3. 17. Nid o ran ei fod yn gwahanu, o ran sylwedd, oddiwrth yr hen: yr oedd Crist wedi ei addaw yn hwnw, ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth yn cael eu gosod allan yn offrymau y gyfraith; a chynnifer ag a gadwyd dan y gyfraith, neu yr Hen Destament, a gadwyd yn unig trwy ffydd yn ngwaed y Messiah oedd i ddyfod. Gal. 3. 6. 'Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.' Credodd, mewn modd neillduol, addewid y cyfammod yn mherthynas i Grist, yn yr hwn y bendithid y rhai a gredent, yn mhlith yr holl genedloedd. Gen. 12. 3. Ond gelwir y testament, neu y cyfammod hwn, yn *newydd*, o ran trefn ei oruchwyliaeth, gan ei fod yn cael ei gadarnhau o newydd trwy waed a dyoddefiadau aberth Crist; a chan ei fod wedi ei ryddhau oddiwrth y defodau hyny, trwy y rhai yr oedd yn cael ei weini gynt; fel y mae yn cynnwys dadguddiad eglurach o ddirgelion crefydd; ac felly mae helaethrwydd mwy o ddoniau a gras yr Ysbryd yn nglŷn wrtho: fel nad ydyw byth yn heneiddio, neu i gael ei ddiddymu.——2. Am *enwaediad*, yr hwn oedd arwydd, neu insel, o'r hen gyfammod. Gen. 17. 9, 13. ——3. Dyledswyddau y cyfammod. Ps. 25. 14. *Heb.* 'Pâr iddynt weled ei gyfammod;' Efe a ddadguddia, ac a bâr iddynt wybod a deall dyledswyddau, ac a dywallt iddynt fendithion y cyfammod.——4. Am y cyfreithiau a'r ammodau a ofynir gan ddynion trwy neu yn ol y cyfammod, neu orchymynion Duw; y rhai ydynt dystion, neu dystiolaethau o ewyllys Duw, ac o ddyled dyn. Ps. 25. 10.——5. Am y deng air deddf, neu y deg gorchymyn, yn y rhai y mae ammodau y cyfammod. Deut. 4. 13.——6. Cyfraith, crefydd, a phobl yr Iuddewon, y rhai oeddynt mewn cyfammod â Duw. Dan. 11. 28.——7. Am yr adduned, yr addewid, neu yr ymrwymiad, trwy yr hwn y mae mab a merch yn cytuno i'w rhwymo eu hunain, y naill i'r llall, mewn priodas; a hwn a elwir 'cyfammod Duw,' Diar. 2. 17. oblegid mai Duw a sefydlodd y gymdeithas a'r ymrwymiad cyfunol hwnw; ac oblegid fod Duw yn cael ei alw yn dyst ac yn farnwr, yn yr addewid a'r cyfammod difrifol hwn, ac yn ddialydd y troseddwr o hono.

Mae yr ysgrythyr yn sôn am amryw gyfammodau; megys y cyfammod â Noah, Abraham, cyfammod Sinai, &c.; ond gellir eu golygu oll dan y ddau hyn, sef y CYFAMMOD GWEITHREDOEDD, a'r CYFAMMOD GRAS, fel y geilw duwinyddion hwynt: gan nad yw yr holl gyfammodau eraill y sonir am danynt, ond gwahanol oruchwyliaethau o'r cyfammod gras.

1. Pleidiau, neu yr Ymdrinyddion yn y Cyfammod Gweithredoedd ydoedd Duw ac Adda. Duw, TAD, MAB, ac YSBRYD GLAN, yn anfeidrol sanctaidd, cyfiawn, a da, fel Creawdwr a Phen-llywydd pob peth. Adda, yn ddyn ar ddelw Duw; yn wreiddiol gyfiawn, ac yn berffaith sanctaidd; yn gwbl abl, ac wedi ei osod gan ei Greawdwr mewn amgylchiadau tra manteisiol i gyflawni ammodau y cyfammod.

2. Ammodau y cyfammod oeddynt ufudd-dod perffaith a pharhaus i'r ddeddf sanctaidd oedd yn ei feddwl, ac i'r gorchymyn neillduol a roddwyd iddo gan Dduw, 'o beidio bwyta o ffrwyth y pren gwybodaeth da a drwg.' Gen. 2. 17.

3. Y gosp am doriad o'r ammod oedd, marwolaeth. Yr oedd bywyd parhaus yn wobr am ufudd-dod; a marwolaeth yn gosp am anufudd-dod. *Marwolaeth!* gair byr, ond mawr ei bwys, a helaeth ei ystyr. Y mae dyfnderoedd o drueni yn gynnwysedig ynddo; marwolaeth ysbrydol—ymadawiad â Duw—melldith y ddeddf—digofaint dwyfol—holl lwgr natur—llywodraeth greulawn Satan—cyhuddiadau cydwybod euog—ac arteithiau tragywyddol uffern—mwy o drueni nag a ellir byth ei fynegi, sydd gynnwysedig yn y farwolaeth hon. Bod Adda wedi anufuddhau a thori y cyfammod, sydd gwbl hysbys yn y canlyniadau gofidus o hyny, yn nghyflwr pob dyn, yn gystal a thrwy dystiolaeth Gair y gwirionedd. Edr. PECHOD.

4. Gosodir Adda allan yn yr ysgrythyrau, mae yn dra amlwg, nid fel person neillduol, unigol, ar ei ben ei hun; ond fel person cyffredin, yn sefyll dros, ac yn cynnrychioli, neu yn dynsodi, ei holl hiliogaeth. Yr oedd ei holl hiliogaeth, nid yn unig yn ei lwynau, fel ei blant a'i hil, ond hefyd i'w hystyried a'u golygu ynddo fel Pen-cyfammodwr. Y mae hil pawb yn lwynau eu rhieni, yn ol trefn a deddf natur: eithr ni bu un tad, ond y tad cyntaf, yn ben-cyfammodwr i'w hiliogaeth, oddieithr yn gysgodol. Ond yr oedd holl blant Adda yn gyfammodol ynddo; a'i weithred ef o ufudd-dod neu anufudd-dod, oedd yn weithred iddynt hwy, yn gymaint a phe buasent yn ei chyflawni yn eu personau eu hunain. Nid oes dim gwahaniaeth yn hyn; 'trwy anufudd-dod yr un dyn hwn y gwnaed llawer yn bechaduriaid.' Rhuf. 5. 19. Pechodd pawb o'i hiliogaeth ei bechod ef, ynddo ef; ac y mae pawb, yr un fath ag yr oedd yntau, dan felldith y cyfammod toredig hwn. Ac o herwydd ein bod yn gydgyfranogion âg ef yn ei anufudd-dod, yr ydym hefyd yn gyd-gyfranogion yn llwgr ei natur. Yn nhoriad y cyfammod hwn, trwy anufudd-dod y pen-cyfammodwr, syrthiasom *oll* i ddyfnderoedd o lygredd a gofidiau. 'Y gorchymyn, yr hwn ydoedd i fywyd, hwnw a gaed i ni i farwolaeth,' trwy ein hanufudd-dod iddo. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn, ymddengys yn amlwg ein bod dan arglwyddiaeth pechod, a melldith y ddeddf, tra y parhao ein hundeb a'n perthynas â'r cyfammod hwn.

Er fod y cyfammod hwn yn dra dychrynllyd i ni a'i torodd, a'r olwg arno yn wgus iawn; etto, ynddo ei hun, y mae yn gyfammod tra gogoneddus, ac yn addas i'r Duw a'i gwnaeth. Po mwyaf manwl y chwiliom ac y treiddiom i mewn iddo, mwyaf y gwelir ei ogoniant. Os ystyriwn y gyfraith a roddwyd i Adda, ac a ddodwyd yn garedigol yn ei feddwl, y mae hon 'yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda;' nid ydyw yn gofyn ond yr hyn sydd gyfiawn i Dduw, ac yn dda i'r dyn. Y mae yn dra eglur fod (heblaw y gorchymyn pendant a roddwyd i Adda) y gyfraith foesol, sef y deg gorchymyn, yn perthynu i'r cyfammod hwn, fel rheol ammodol o hono. Hyn a feddylir wrth ddelw Duw, ar ba un y crewyd y dyn; sef cyfraith Duw, o

Digitized by Google

ran ei sylwedd a'i hysbrydolrwydd, yn nghalon ac ysbryd y dyn. Am hyn y dywedir, 'Y dyn a wnel y pethau hyn, a fydd byw trwyddynt;' ac y geilw yr apostol y ddeddf, 'Y gorchymyn ag oedd i fywyd;' sef trwy ufudd-dod i ba un yr oedd bywyd i'w gael i Adda a'i hiliogaeth. Er nad yr un yw y ddeddf a'r cyfammod gweithredoedd, etto yr oedd y ddeddf yn amnod y cyfammod hwnw. Anufudd-dod iddi oedd anghyfiawnder mawr; anghyfiawnder i Dduw, a thrueni mawr i'r dyn. Os oedd myned yn groes i'r gyfraith yn *ddrwg mawr*, y mae yn rhaid bod y gyfraith ei hun yn *ddaioni mawr*.——Yr oedd y gorchymyn pendant allanol, hefyd, yn orchymyn *esmwyth iawn:* sef peidio a bwyta o ffrwyth *un* pren o'r ardd; tra yr oedd yr ardd oll, hyd at hwn, a'i holl goedydd, a'u ffrwythau, yn eiddo iddo. Gosodwyd y dyn yn yr amgylchiadau mwyaf manteisiol yr oedd bosibl, i gwblhau yr ammodau cyfiawn a gogoneddus hyn: o herwydd 'Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn:' gosododd y dyn hwn mewn amgylchiadau cysurus ac addas iddo; a cher ei fron lwybr uniawn iddo gerdded. Yr oedd yn ymostyngiad mawr yn yr Arglwydd i ymgyfammodi â'i greadur; ac yn fraint arbenig i Adda a'i hiliogaeth gael eu Creawdwr dyrchafedig mewn cyfammod â hwy: braint nas cafodd un creadur arall, am a wyddom. Nid felly, y mae yn amlwg, y bu gosodiad yr angelion yn eu cyflwr creadigol:—'I'r Duw goruchel,' medd yr Esgob Beveridge dduwiol, 'gymeryd darn o ddaear, a'i weithio ar lun a dull dyn, ac anadlu yn ei ffroenau anadl einioes, ac yna myned mewn cyfammod âg ef, a dywedyd, 'Gwna hyn, a byw fyddi,' pan yr oedd y dyn yn rhwym i wneuthur y peth (pa un bynag a gai efe fyw ai ni chai drwy hyny) ydoedd, yn ddiammeu, yn weithred o gariad ac ymostyngiad dirfawr, ac i synu o'i blegid.'

Ond y mae yn dra eglur, er mor gyfiawn a gogoneddus yw y cyfammod hwn, etto nas gall estyn y radd leiaf o gysur na chymhorth i'r dyn a'i torodd. Y mae hyny, yn mhob gradd o hono, yn beth 'nas gall y ddeddf.' Rhuf. 8. 3. Nid hyny, mewn un mesur, oedd y dyben o hono, nac amcan Duw wrth ei wneuthur. Y mae yn cyd-gau pob peth dan bechod, a'r felldith ddyledus o'i herwydd. Nid grym i gynnorthwyo y troseddwr; ond grym pechod i'w gondemnio am ei drosedd, yw y gyfraith gwedi ei throseddu. Nid ydyw yn sôn am edifeirwch a maddeuant; ond yn ddiball yn cyhoeddi marwolaeth a melldith dragywyddol yn erbyn yr anufuddhawr. Y mae yn wir am bawb oll, gan hyny, mai 'cynnifer ag y sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent;' Gal. 3. 10. tan euogrwydd, a than lywodraeth pechod, yn ddigymhorth ac yn ddigysur.

Gallwn weled hefyd yn amlwg iawn, fod pob meddyginiaeth a gynnygir i ymgeleddu cyflwr y pechadur, os bydd yn ei adael dan y cyfammod hwn, neu dan y ddeddf, nid yn unig yn annigonol, ond hefyd yn greulawn; fel pe byddem yn cellwair â'i fawr drueni, ac â'i gyflwr dychrynllyd. Megys pe gwelech ryw un yn fawr ei drafferth am iachâu toriad ar groen un a fyddai gwedi ei fwrw i'w golli, heb ymgais yn y mesur lleiaf am achub ei fywyd. Nid cysur ac ymgeledd dan y ddeddf, ond gwaredigaeth oddi yno, fel y caffom ymgeledd a gwir ddyddanwch, ydyw yr unig feddyginiaeth gyfatebol i'n cyflwr, ac a wir iachâ ein briwiau. Tra byddom dan y cyfammod hwn, erys pob peth sydd yn perthyn i'r cyfammod yn ein cyflyrau, yn ddiysgog; sef melldith y gyfraith—grym llygredigaethau—teyrnasiad Satan—a gwg Duw anfeidrol yn mhob peth. 'Pydew heb ddwfr' ydyw; dim gras, dim cysur, dim bendith, i'w cael ynddo; ond y mae yn 'bydew erchyll,' yn 'bridd tomlyd,' ac yn llawn trueni o bob rhyw.

Y mae yn eglur hefyd nad yw gwaredigaeth yn bosibl i ni odditan y ddeddf, heb *gyfiawnder:* sef y cyfiawnder hwnw y mae hi yn gyfiawn yn ei ofyn, ac sydd yn gyfiawn yn ddyledus arnom ni oll iddi. Syrthiasom oll dan felldithion y cyfammod hwn, trwy anghyfiawnder—'carcharwyd ni yn gyfiawn,' oblegid ein hanghyfiawnder. Saif Duw cyfiawn byth o blaid cyfiawnder, beth bynag a fyddo y canlyniadau. Y mae mor anmhosibl i Dduw beidio bod yn gyfiawn ag ydyw iddo beidio bôd. Nis gall faddeu yn anghyfiawn, mwy na chospi yn anghyfiawn. Os gall faddeu yn anghyfiawn, geill gospi hefyd yn anghyfiawn. Os gall wneuthur *un* peth, gall hefyd wneuthur *pob* peth yn anghyfiawn. Anfeidrol Fod yn anghyfiawn sydd feddwl rhy ddychrynadwy i'w lettya un mynyd. Mae Satan yn anghyfiawn: ond nid yw efe yn fôd anfeidrol, ond meidrol, neu â therfynau iddo. Y mae Duw y nefoedd yn Fod anfeidrol; ac felly y mae hefyd yn gyfiawn; ie, yn anfeidrol ac anghyfnewidiol gyfiawn. Llai o niweid yw, i filiynau o greaduriaid fod yn druenus byth, nag i *un* gael ei achub yn anghyfiawn. Tra byddo Duw yn gyfiawn, y mae yn wrthddrych anfeidrol deilwng o barch, cariad, ufudd-dod, anrhydedd, addoliad, a mawl; ond pe gwnai un weithred anghyfiawn, darfyddai, gyda hyny, ei deilyngdod o barch. Ond y mae yn anmhosibl i Dduw fod yn anghyfiawn. Y mae anfeidrol allu, a mawredd Duw o blaid cyfiawnder, yn anghyfnewidiol: am hyny, mae anghyfiawnder, sydd â dim ond meidroldeb o'i blaid, yn sicr o gael ei drechu. O ddiffyg iawn olygiad ar y pethau hyn, y mae llawer o ganlyniadau niweidiol i ni, a dianrhydeddus i Dduw, yn tarddu. Rhodded Duw i ni ddeall da yn mhob peth!

Os yw y golygiadau hyn yn gywir am y Duw mawr, ac yn ysgrythyrol, gwelwn, yn ddiammheuol, ei fod yn anmhosibl gwaredu dyn odditan fygythion y cyfammod toredig hwn, heb gyfiawnder. A ydych chwi yn credu hyn, O ddynion! Os ydych, pa le yr ydych yn meddwl ei gael? Os trowch at y ddeddf, y mae yno gyfiawnder pur yn *gofyn;* ond ni fedd hi gyfiawnder *i'w gyfranu.* Os trowch atoch eich hunain, ac edrych yno, nid oes yno un gronyn mwy o gysur i'w gael. Anghyfiawnder sydd yno, a dim ond hyny. Wele, ynte, ddyn anghyfiawn, yn ngafael deddf gyfiawn, a Duw anfeidrol gyfiawn o'i phlaid! Gofynaf, ac atebed y neb a allo, 'A ddygir y caffaeliaid oddiar y cadarn? neu a waredir y rhai a garcherir yn gyfiawn?' Os ceir cyfiawnder o'u plaid, gwaredir hwynt; onidê, caethion a fyddant byth. I feddiannu y cyfiawnder a weryd rhag angeu, rhaid troi ein golwg oddi wrthym ein hunain, a'r ddeddf hefyd, i ryw le arall; sef at yr 'hwn sydd yn ddiwedd i'r ddeddf, er cyfiawnder i bob un a'r sydd yn credu.'

Fel y mae y gair *Cyfammod*, yn yr ystyr gyffredinol o hono, yn arwyddo trefniad neu sefydliad rhwng pleidiau, yn nghylch ryw achosion perthynol iddynt, neu yn ddadleuol rhyngddynt; felly, y Cyfammod Gras, yn ol yr ystyr hwn, yw trefniad neu sefydliad grasol Duw mewn perthynas i gadwedigaeth dyn colledig. Yr oruchwyliaeth hon o ras a thrugaredd, a elwir yn fynych yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, wrth yr enw Cyfammod; ac, weithiau, Testament—Cyfammod Newydd—Cyfammod Hedd—Cyfammod Sanctaidd—Cyfammod Tragywyddol, &c.

1. Mae ynddo eithaf perffeithrwydd, o ran ei drefniad. Doethineb dwyfol a'i trefnodd: gosodiad penaf y Duwdod ydyw. Y mae wedi ei luniaethu yn hollol. 2 Sam. 23. 5. Y mae pob peth wedi ei olygu ynddo. Nid oes dim annhrefn ynddo; dim yn wan, na dim yn eisieu ynddo. Y mae y Personau Dwyfol yn dysgleirio yn ogyfuwch, gyd âg anfeidrol ogoniant; y mae yr holl briodoliaethau yn cael eu cyd-ddyrchafu: y mae pob gorchymyn yn cael ei anrhydeddu, tra byddo yr addewidion grasol yn cofleidio y pechadur a'i tros-



Digitized by Google

eddodd. 'Rhanau o'i ffyrdd' yw pob gwaith arall o eiddo y Duwdod (Job 26. 14.) ond ei ffyrdd, yn gyflawn, yw y cyfammod hwn.

2. Fel y mae y drefn yn eithaf doeth, felly hefyd y mae ei sefydliad yn *sicr*. Y mae ei sicrwydd yn tarddu oddiwrth ei berffaith uniondeb ynddo ei hun; a chyflawnder ac anghyfnewidioldeb y pleidiau yn ymgyfammodi. Os yw trefniad y cyfammod yn *gyflawn* ac yn *sanctaidd*, a'r pleidiau hefyd yn gyflawn, ac yn gwbl alluog i gyflawni eu hammodau, y mae yn rhaid ei fod yn gyfammod sicr, na syflir byth. Ysgydwir pob peth arall; ond y mae hwn yn dragywyddol ddisigl; mor ddianwadal ac mor gadarn a'r pleidiau sydd yn cyfammodi. Y mae yr ammodau ynddo gwedi eu cyflawni, y mae yr addewidion yn ddianwadal, a'r breintiau yn dragywyddol sicr.

3. Y pleidiau yn y cyfammod hwn, yw y Personau Bendigedig yn y Duwdod, sef TAD, MAB, ac YSBRYD GLAN. Y Tad, yn sefyll dros anrhydedd, gogoniant, priodoliaethau, llywodraeth, a chyfraith sanctaidd Duw, a ddirmygwyd, ac a ddianrhydeddwyd gan ddyn; a'r Mab yntau, fel Pen Cyfammodwr a Mechnïydd mawr, yn sefyll dros, ac yn cynnrychioli y rhai oll o blant dynion a etholwyd ac a gredant ynddo er eu hiechydwriaeth; a'r Ysbryd Glân, yn ymrwymo i weithredu yn yr etholedigion, fel Ysbryd Crist, yn Sancteiddydd a Dyddanydd. Felly y mae iaith yr ysgrythyrau, 'Gwneuthum ammod â'm hetholedig—gosodais gymhorth ar un cadarn—fy ngwirionedd hefyd a'm trugaredd a fydd gyd âg ef—cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd.' Ps. 89. 3, 19, 24, 28, 29. O'r achos hwn y gelwir Crist, yn 'gyfammod pobloedd,' (Esa. 42. 6.) hefyd, yn 'Dad tragywyddoldeb.' Esa. 9. 6. Y mae yn Berson Tragywyddol; ac, yn nhrefn y cyfammod hwn, yn Dad tragywyddoldeb; yn Dad, fel Pen Cyfammodwr, i hâd tragywyddol; yn awdwr iechydwriaeth dragywyddol iddynt; ac yn sicrhau etifeddiaeth dragywyddol iddynt i'w mwynhau. Ni bu yr Adda cyntaf i'w hiliogaeth ond Tad *brau a thrwstan:* syrthiodd yn fuan o'i uchel ddedwyddwch. Yn y codwm, collodd ei fywyd ei hun a'i gysuron, a'r eiddo ei hiliogaeth hefyd. Ond y mae yr etholedigion yn Nghrist yn *hâd tragywyddol:* ac yntau yn Dad tragywyddol iddynt. Ni bydd efe heb hâd, na hwythau heb Dad, yn dragywydd. Felly y mae ammodau y cyfammod yn rhedeg: 'Gosodaf hefyd ei hâd yn dragywydd.' Gwelwn yma hâd, trwy osodiad dwyfol, yn nhrefn y cyfammod, i barhau byth. Gosodwyd hwynt yn Nghrist, mewn arfaeth gadarn dragywyddol; gosodwyd hwynt yn heddwch Duw, trwy ffydd ynddo; gosodir hwynt hefyd yn sanctaidd a difeius ger ei fron yn dragywydd.

4. Ammodau y cyfammod hwn, o du Crist, mechnïydd ei bobl, oedd cyflawni ar eu rhan, yr hyn oll oedd ddyledus arnynt i Dduw a'i gyfraith. Yr oedd cyflawnder dwyfol yn eu gofyn. Nid yw cyflawnder yn gofyn ond yr hyn sydd gwbl gyflawn; a hyny sydd *raid* iddo gael, gan ei fod yn anmhosibl i Dduw fod yn anghyfiawn. Bydd cyflawnder anghyfnewidiol Duw byth yn eu herbyn nes y caffo, yn gyflawn, yr hyn sydd ddyledus arnynt. Hyn sydd yn gwneuthur eu hiechydwriaeth yn orchwyl mor fawr, ac yn peri fod y fath anfeidrol anhawsderau ar y ffordd.——Y mae dyled y dyn, fel pechadur, yn ddyblyg; sef dyled o *ufudd-dod*, a dyled o *ddyoddefaint*. Y mae y gyfraith sanctaidd yn cyhoeddi melldithion yn erbyn y dyn, fel troseddwr euog, ac yn gofyn ufudd-dod perffaith i roddi hawl i fywyd, ac i bob bendith berthynol i hyny. Y mae awdurdod, llywodraeth, a sancteiddrwydd dwyfol, wedi cael anmharch mawr gan ddyn: rhaid iddynt gael anrhydedd i'r *gradd*, ac yn yr un *natur*, ag yr anmharchwyd hwy. Rhaid i bechod gael ei ddangos yn anfeidrol adgas, a Duw a'i gyfraith yn anfeidrol ogoneddus. Rhaid i'r diafol gael ei ddystrywio, a'i waith gael ei ddattod dros byth. Rhaid i hyn oll gael ei gwblhau yn y *natur a bechodd*. Y mae y gyfraith yn gofyn y ddyled gan yr anian a bechodd; ac ni chymer un anian arall yn ei lle. Nid cyflawnder a fyddai gofyn iawn ond gan y natur a bechodd. Dyn a bechodd; a'r natur ddynol sydd dan ofyniad, ac a raid wneuthur yr iawn. Ond dyn, yr adyn tlawd, sydd heb ddim i dalu. Mae y natur ddynol mor ddwfn mewn tlodi a thrueni, ag ydyw y gofynion yn ei herbyn yn drymion. O ba le, gan hyny, a thrwy ba foddion, y gall gwaredigaeth byth ddyfod iddo? Pwy a all ddattod y cwlwm, trwy ddyfais ddofn, i symud yr anhawsderau? Y mae, tebygwn, ddystawrwydd hollol trwy y nef a'r ddaear. Arafed pawb! Syllwn, gyda pharch dyladwy, ar fawr amryw ddoethineb Duw yn agoryd dorau i ddyfod â dirgeledigaethau dwyfol i'r amlwg. Wele, y Duwdod anfeidrol yn Mherson y Mab, yn cymeryd y natur ddynol i undeb Personol âg ef ei hun! Yn nghroth y Forwyn Fair, ac o'i sylwedd, y gwnaed hyn. 'Pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad.' Gal. 4. 4, 5. Y Person goruchel hwn, y sydd yn Dduw ac yn ddyn, a roddodd ei hun i sefyll yn lle ei bobl, ac a gyflawnodd, yn y natur a bechodd, ammodau y cyfammod trostynt, i'r perffeithrwydd eithaf. Trwy ei ufudd-dod a'i ddyoddefaint, efe a fawrhaodd y gyfraith, a gondemniodd bechod yn y cnawd, ac a'i dangosodd yn bechod, yn adgas, ac yn dra phechadurus. Ysigodd ben y sarph, ac a yspeiliodd dywysogaethau ac awdurdodau ar y groes.

Wele, y Person rhyfeddol hwn! a syned pawb wrth edrych arno, yn sefyll ei hunan, ac 'o'r bobl nid oedd neb gyd âg ef;' a thrwy ei rym a'i rinwedd ei hun yn cyflawni y gyfraith, ac yn boddloni cyflawnder, ar ran miloedd o droseddwyr; yn achub y pechadur, ac yn dystrywio Satan a'i holl lywodraeth! Wele, EFE, yn mawredd ei berson, a rhinwedd ei aberth, yn disgyn i ddyfnderoedd y felldith, ac i angeu; ac, fel Jonah yn y moroedd mawrion, yn tawelu yr ystorm, ac yn esgyn i'r uchelder; gan orchymyn pregethu edifeirwch a maddeuant, yn ei enw ei hun, yn mhlith yr holl genedloedd! Bydd dirgelwch ei Berson, a mawredd ei waith trostynt, yn sail gobaith, ac yn sylwedd cân y gwaredigion byth!

5. Trwy eu hundeb cyfammodol â Christ, y mae i'w holl bobl etholedig hawl i'r hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd efe trostynt. Yr oeddynt hwy ynddo, fel eu pen a'u cynnrychiolwr, yn cyflawni holl ammodau y cyfammod: a thrwyddo y maent yn etifeddu yr holl addewidion. I Grist, yn flaenorol, y gwnaed yr holl addewidion; a thrwyddo y maent yn dyfod yn etifeddiaeth i'w holl hâd etholedig. Yn y golygiadau hyn, yr oedd yr Adda cyntaf yn *ffurf* yr un oedd ar ddyfod, ac y gelwir Crist, 'yr ail Adda.' Trwy yr undeb cyfammodol rhwng Adda a'i hil, yr oeddynt hwy yn pechu ynddo, ac yn tori y cyfammod: felly, hefyd, yr un modd, trwy yr undeb cyfammodol rhwng Crist a'i bobl etholedig, y maent hwy yn *un* âg ef, yn yr hyn oll a wnaeth ac a ddyoddefodd trostynt. Trwy ei gyflawnder ef y cyflawnheir hwy; trwy ei sancteiddrwydd ef y sancteiddir hwy; trwy ei fywyd ef y bywheir hwy; a thrwy ei fuddugoliaeth ef y buddugoliaethant hwythau hefyd. Y mae Crist yn ffurf ac yn effeithiol achos o'r hyn a fydd ei holl bobl hefyd.

6. Wedi bwrw golwg byr ar gariad a daioni Duw tu ag at ei bobl, yn yr arfaeth dragywyddol, yn eu rhoddi i Grist, fel eu pen a'u cynnrychiolwr: ac wedi ystyried hefyd y modd y rhoddodd Mab Duw ei hun, o'i wir ewyllys, i sefyll yn eu lle, ac yr ymrwymodd

Digitized by Google

i gyflawni holl ammodau y cyfammod trostynt—ystyriwn yn mhellach am y dull yn mha un y maent hwy yn cael eu gwneuthur yn feddiannol, yn eu personau, o ddoniau a breintiau y cyfammod hwn; sef trwy undeb ysbrydol a phersonol â Christ, eu Pen goruchel yn y cyfammod. Gwaith yr Ysbryd tragywyddol ydyw yr undeb dirgelaidd a gogoneddus hwn. Y mae y symudfa hon yn orchwyl mor orchestol, fel nad oes ond 'gweithrediad nerth y cadernid, a gyfododd Grist oddiwrth y meirw,' a all ei gwblhau ef. Eph. 1. 19, 20. Yr Ysbryd Glân yw y gweithydd galluog; a'r efengyl yn cyhoeddi Crist i bechaduriaid, ydyw yr arf nerthol trwy ba un y mae yn gweithredu. 'Gallu Duw yw hi er iechydwriaeth i bob un a'r sydd yn credu.' Rhuf. 1. 16. Yn ngwneuthuriaid yr undeb goruchel hwn, y mae cyfnewidiad rhyfedd a thragywyddol yn cael ei weithredu yn y pechadur, o ran ei gyflwr, ac o ran syniad ei feddwl. Y mae pob un o'r ddau yn cyfateb i'r cyfammod y trosglwyddwyd ef iddo. Y mae iddo, o ran ei gyflwr, fywyd newydd yn Nghrist. Y mae yn sefyll, yn dragywyddol, ar dir ac ar sylfaen newydd gyda Duw; sef ar sail yr IAWN drosto yn y cyfammod; hyny yw, Iesu Grist; 'Efe yw yr Iawn.' 1 Ioan 2. 2. Dyma GRAIG na siglir byth mo honi. Dyma ddigon i bechadur ger bron Duw, sydd dân ysol. 'Y mae Crist yn bob peth, ac yn mhob peth.' Col. 3. 11. Pa beth bynag ydyw Crist, ynddo ei hun, fel pen-cyfammodwr, y mae efe yn hyny, o gwbl, i'r pechadur sydd mewn undeb âg ef. Y mae holl freintiau ac addewidion y cyfammod yn eiddo iddo ef; a phob goruchwyliaeth a rhagluniaeth yn newid eu natur a'u dybenion tu ag ato. Gwedi ei impio i mewn ynddo, y mae efe yn tyfu yn gangen fywiol ar y gwreiddyn newydd, ac yn cyfranogi o'i holl frasder, a'i gyflawnder anchwilindwy. Y mae Crist i'r rhai hyny sydd mewn undeb âg ef, 'yn ddoethineb, yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth.' 1 Cor. 1. 30. Y maent mewn heddwch â Duw trwyddo; ac y mae Duw yn Dduw iddynt, yn holl gyflawnder ei briodoliaethau. Nid ydyw yn dywedyd, 'Myfi a fyddaf yn obaith i chwi, yn borth i chwi, yn oleuni i chwi, yn fywyd i chwi, yn haul i chwi, yn darian i chwi,' &c., ond 'Myfi a fyddaf yn Dduw i chwi!' yr hyn sydd fyrddiynau o weithiau yn fwy nag y mae yn bosibl ei gynnwys mewn unrhyw ymadrodd arall mwy na'u gilydd. Y mae yn cynnwys ynddo, pa beth bynag *yw Duw*; pa beth bynag sydd *gan Dduw*; ac hefyd pa beth bynag a *all Duw ei wneuthur*. Y mae ei holl briodoliaethau hanfodol yn wastadol yn rhwymedig i ni; a nyni a allwn eu harddelwi hwynt, ac ymaflyd ynddynt. Gallaf estyn yr hyn y mae y prophwyd yn ei ddywedyd am ei gyfiawnder a'i nerth, 'Yn ddiau yn yr Arglwydd (medd un) y mae i mi gyfiawnder a nerth,' (Esa. 45. 24.) at ei holl briodoliaethau eraill, a dywedyd, Yn ddiau yn yr Arglwydd y mae i mi drugaredd i faddeu i mi; doethineb i'm haddysgu; gallu i'm hamddiffyn; gwirionedd i'm cyfarwyddo; gras i goroni fy nghalon ar y ddaear, a gogoniant i goroni fy mhen yn y nef. Ac os ydyw yr *hyn ydyw* efe, gwedi cael ei roddi i mi trwy gyfammod, yna, yn fwy o lawer, y mae yr hyn sydd ganddo, wedi cael ei roddi i mi. Bu ei Fab farw drosof fi: y mae ei Ysbryd yn byw ynof fi. Ai efe biau y ddaear? hi a fydd yn gynnysgaeth i mi; Ai efe biau y nef? hi a fydd yn etifeddiaeth i mi: A oes ganddo angelion? hwy a'm gwarchadwant: A oes ganddo gysuron? hwy a'm cynnaliant: A oes ganddo ras? hwnw a'm sancteiddia: A oes ganddo ogoniant? hwnw a'm gwna yn wynfydedig. 'Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant: ni attal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith.' Ps. 84. 11. Esgob Beveridge. Trwy eu hundeb â Mab Duw, y maent hwythau yn feibion; yn 'etifeddion i Dduw, ac yn gyd-etifeddion â Christ.' Rhuf. 8. 17. Mae yr holl 'addewidion mawr iawn a gwerthfawr,' cynnwysedig yn y cyfammod hwn, yn eiddo iddynt—addewidion o drugaredd, o ras, ac o ogoniant—addewidion am bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb—addewidion am gynnaliaeth, ac am gysuron—am nerth i fyw, ac am nerth i farw—am fuddugoliaeth ar fyd, cnawd, a diafol—ac am adgyfodiad gogoneddus y dydd diweddaf, a mynediad helaeth i'r deyrnas dragywyddol. Y mae yr holl ragluniaethau a'u cyferfydd yn gynnwysedig yn y cyfammod, a than lywodraeth yr addewidion; ac yn rhwym oll, trwy sefydliad tragywyddol, i gyd-weithio er daioni iddynt. O! etifeddiaeth deg!—'Efe a roddodd ei hun i mi, ac a'm cymerodd innau iddo ei hun. pa beth nis gwna i mi a'r a allo? a pha beth na all efe ei wneuthur i mi a'r a fyno? A oes arnaf fi eisieu ymborth? Gall Duw wlawio manna o'r cymylau: (Exod. 16. 4.) neu beri i'r soflieir ddisgyn, a'm porthi â'u cig eu hunain, fel y gwnaethant i'r Israeliaid; neu beri i'r cigfrain ddwyn i mi fara a chig, fel y gwnaethant i Elias. 1 Bren. 17. 6. A oes syched arnaf? Gall Duw agor y creigiau, a rhoddi y gallestr yn llif-ddyfroedd, fel y gwnaeth efe i Israel. Deut. 8. 15. A ydwyf fi gwedi fy mwrw i ffwrn danllyd? Gall wahardd cynddaredd y fflamau angerddol, fel y gwnaeth â'r tri llanc. Dan. 3. 15. A ydwyf fi gwedi fy mwrw yn mhlith llewod rheibus? Gall gau eu safnau, eu gwneuthur mor ddiniwed a'r ŵyn, fel y gwnaeth i Daniel. Dan. 6. 22, &c. Ac fel hyn, ni all fod dim eisieu arnaf, na all Duw ei dori; dim petrusder, na all Duw ei ddattod; dim ofn, na all Duw ei wasgaru; dim peryglon, na all Duw eu rhagflaenu. Ac y mae mor sicr y gwna efe y pethau hyn ag y gall efe eu gwneuthur hwynt, gan iddo roddi ei hun yn Dduw i mi yn ei Fab.' Esgob Beveridge.

Y mae syniad meddwl y pechadur gwedi ei gyfnewid hefyd. Y mae gwedi ei eni drachefn, a'i feddwl gwedi ei adnewyddu. Y mae gwedi cael ei wir oleuo gan yr Ysbryd Glân, i weled ei gyflwr fel troseddwr o'r cyfammod cyntaf, a'r felldith ddyladwy iddo trwy hyny. Y mae yn cael ei droi at Dduw yn Nghrist, ei fywhau a'i nerthu i 'gymeryd gafael ar y bywyd tragywyddol,' yn y Cyfryngwr. Y mae yr Ysbryd Glân yn ei ladd, ac yn ei fywhau; yn peri iddo deimlo barn marwolaeth ynddo ei hun, i gael bywyd mewn un arall; yn ei ladd ef i'r cyfammod cyntaf, fel y caffo fywyd yn yr ail. Y mae yr holl 'hen bethau wedi myned heibio, a phob peth yn cael ei wneuthur yn newydd.' 2 Cor. 5. 17. Y mae y felldith yn colli ei gafael, a phechod yn cael ei dynu o'i lywodraeth. Y mae y pechadur yn marw i'r ddeddf, a'r ddeddf yn marw iddo yntau. Nid yw efe yn dysgwyl mwy oddi wrthi nag oddiwrth briod gwedi marw; nac yn ofni mwy oddi wrthi nag oddiwrth elyn wedi marw. Y mae y gofynwr, er ei fod yn fyw fel dyn, etto wedi marw fel gofynwr i'r dyledwr, pan gaffo gyflawn dâl: felly hefyd y mae y gyfraith yn marw i'r pechadur sydd yn credu yn Nghrist, o ran ei gofynion a'i barn ddamniol, ac yntau yn marw iddi hithau.

7. Gan fod y pechadur, sydd mewn gwir undeb â Christ, yn cael ei fywyd ysbrydol a'i fywioliaeth mewn un arall, gwelwn yr angen am, a'r lle mawr sydd i ffydd yn ei gyflwr. Gair yr efengyl sydd yn tystiolaethu am Grist. Trwy gredu y dystiolaeth hòno, *yn unig*, y mae i ni gael gwir adnabyddiaeth o hono, a rhan ynddo. Y mae graddau yn y ffydd hon; ond y mae cadwedigaeth dragywyddol yn gysylltiedig wrth y radd leiaf o honi. Edr. FFYDD.

Gwelwn, gan hyny, 1. Mor anfeidrol bwysfawr yw athrawiaeth y DRINDOD. Sylfaen y cwbl o'n hiechydwriaeth ydyw. Onid oes Bersonau yn yr Hanfod Dwyfol, nis gall fod cyfammod rhyngddynt, na gwahanol weithrediadau penodol iddynt; yr hyn sydd ar unwaith yn dadymchwelyd holl drefn yr iechydwriaeth yn y sylfaen. Y mae pob cyfeiliornad mewn perthynas i'r athrawiaeth hon yn *sylfaenol*; ac yn effeithio ar y cwbl o'r adeiladaeth.

Digitized by Google

2. Anfeidrol gyflawnder yn ei Berson, ei swyddau, a'i waith. Trwy werth ei aberth, llanwodd ammodau y cyfammod âg iawn: cyflawnodd hwynt oll. Y mae ynddo hefyd ddigon i ateb holl amrywiol angenion ei bobl dros byth. 'Yr hwn sydd yn dyfod ataf fi (medd Crist) ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser.' Ioan 6. 35. Y mae ynddo wala a gweddill; y mae ei gyflawnder yn afon, a'i ffrydiau o amrywiol fendithion a lawenhânt ddinas Duw a'i dinasyddion i dragywyddoldeb.

3. Nad oes noddfa nac ymgeledd i gyflwr pechadur allan o'r cyfammod hwn, mewn un gradd. Gwrthodir pob peth gan Dduw, a'r cwbl a elwir gan ddynion, yn 'ddoethineb, yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth,' a'r nad ydynt yn tarddu oddi wrth y cyfammod hwn, trwy undeb â Christ. Pa bethau bynag ydynt, nid ydynt hwy yn perthynu yn y radd leiaf i iechydwriaeth pechadur. Y mae y breintiau a'r bendithion hyn yn Nghrist, o wahanol natur, ac yn anfeidrol uwch ac yn fwy rhagorol nag unrhyw beth mewn anian ddynol a fyddo yn tebygu iddynt. Cyfiawnder y cyfammod hwn sydd gyfiawnder dwyfol: nid oes mewn natur greadigol ddim i'w gyffelybu iddo. Ni welir yn y nefoedd byth ei fath: ac nid ydyw yn gymhwys ond i bechadur. I droseddwyr *yn unig* y mae efe yn addas; ac iddynt hwy *yn unig* y dadguddir ef. Y mae sancteiddrwydd y cyfammod hwn hefyd o wahanol natur, ac yn tarddu o wahanol ffynon. Crist ydyw yr awdwr a'r ffynon o hono. Gwrthddrych i'w ryfeddu byth fydd pechadur gwedi ei olchi yn ngwaed Iesu Grist, ac yn cael bywyd oddi wrtho ef, fel aelod ynddo. 'Pwy ydyw y rhai hyn? ac o ba le y daethant?' sydd ofynion cymhwys wrth weled yr olwg ddysgleirwych arnynt hwy, 'gwedi golchi eu gynau, a'u cànu hwy yn ngwaed yr Oen.' Dat. 7. 13, 14. Caru un a fu farw drostynt, fydd eu cariad; a chanmol un a'u golchodd hwynt oddi wrth eu pechodau yn ei waed ei hun, fydd eu caniadau byth: a chân newydd ydyw hon yn y nefoedd ei hun.

4. Gwelwn fod yn rhaid cael cyfnewiad cyflwr cyn y gellir cael cyfnewidiad mewn pethau eraill. Y mae yn rhaid cael y cyflwr yn Nghrist: ac yna 'bydd *pob peth* yn newydd.' Pan y byddo y pechadur, o ran ei gyflwr, 'yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd; yr hen bethau a aethant heibio; gwnaed pob peth yn newydd.' 2 Cor. 5. 17. Yr hwn a wnaeth yr undeb, a wnaeth hefyd bob peth arall i gyfateb iddo: mae hen bethau y pechadur yn myned heibio; a phethau Crist a phethau yr Ysbryd, yn eiddo iddo yn eu lle. Wrth yr hen bethau, y mae i ni ddeall, yn ddiammeu, damnedigaeth a melldith y ddeddf, yn y cyflwr—cyflawnder a nerth dyn ei hun—ei sancteiddrwydd deddfol, a'i rinweddau moesol—arglwyddiaeth pechod, a'r mwyniant cnawdol llygredig, yn llwybrau pechod. Yn lle yr hen bethau hyn, y mae *pob peth* yn newydd: mae Crist yn gyfiawnder i wisgo am yr enaid—sancteiddrwydd efengylaidd yn dylifo oddi wrtho trwy gorph, enaid, ac ysbryd—pechod yn cael ei ddiorseddu, a'r pechadur yn cael ei ryddhau oddi wrtho—doethineb a grym ysbrydol yn Nghrist, yn nghyd â llawenydd anhraethadwy a gogoneddus.

5. Gan fod y cyfammod yn sicr, a'r pen-cyfammodwr yn wreiddyn byw ac anfarwol i'w bobl, y mae holl freintiau y cyfammod yn sicr hefyd; a'r rhai a impiwyd yn y gwreiddyn dwyfol hwn, ydynt yn sicr o flaguro yn dragywydd. Mae iddynt, ynddo ef, ddigon o gynnaliaeth, ac y mae yr undeb yn anwahanol. Edr. ARFAETH, CYFRYNGWR, ETHOLEDIGAETH, MECHNIYDD.

CYFAMSER, (amser) tymhor, pryd, oedfa, yspaid; yr un amser, yr un pryd —Yr un pryd ag y byddo rhyw weithred gwedi ei gwneuthur; fel y dywedir am Judah, 'Yn y cyfamser hwnw y darfu i Judah fyned i waered oddiwrth ei frodyr;' sef yr un amser ag y gwerthwyd Joseph. Gen. 38. 1. Luc 12. 1. a 13. 1. Ioan 4. 31.

CYFAMSEROL, *Gr.* ευκαιρος (*eucairos*), prydlawn, amserol; heb fod yn rhy gynnar, nac yn rhy ddiweddar.—'Fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol;' (Heb. 4. 16.) neu i'n cymhorth mewn pryd. 'Ac y gael ras yn gymhorth temhoraidd.' W. S. Y mae gras yn ras cyfamserol, o ran y Duw sydd yn ei roddi—o ran y personau sydd yn ei dderbyn—ac o ran yr amser, a'r dyben o'i roddi. Marc 6. 21. Ps. 46. 1. a 104. 27. Y mae Duw yn gwneuthur pob peth yn gyfamserol, yn ei iawn bryd. Deut. 11. 4. Ps. 145. 15. Gal. 6. 9. Y mae gan Dduw gymhorth gyferbyn a *phob* pryd, a *phob* trallod, a fyddo ar ei bobl. Gyferbyn ag amseroedd gorthrymderau; Exod. 2. 23, &c. Ps. 50. 15.—erlidigaethau, a phrofedigaethau: 1 Cor. 10. 13. Jer. 29. 10, 11.—amseroedd o wasanaeth caled. Heb. 13. 5. Deut. 31. 6, 7, 8. Jos. 1. 5. 1 Cron. 28. 20.—ac amseroedd marwolaeth: 2 Sam. 23. 5. Luc 2. 28, 29.—Y mae yr orseddfainc yn rhydd, bob amser, i fyned ati, ac nid ydyw byth yn dlawd; ond y mae yno drugaredd a gras yn gymhorth bob amser: ac er y gall Duw, yn ei ddoethineb, oedi ateb ein gweddïau; etto efe a'u hetyb mewn amser cyfaddas; yr amser goreu er dadgan ei ogoniant ef, ac er ein gwir lesâd ninnau.

CYFAN—EDD, (cyfa) cyflawn, hollol, digoll, heb ddim yn eisieu, difreg, heb dori. Jos. 8. 31. 1 Cor. 1. 10. Iago 1. 4.

Gnawd gan gywir air *cyfan*. *Diar.*

CYFANNEDD—AU—U, (an-tedd) trigfan, preswylfod, preswylfa; preswylio, trigo, aros, byw. Lef. 7. 26. Ps. 22. 3. a 37. 27. a 83. 12. Esa. 13. 20. a 65. 21, 22. Jer. 10. 25. Zech. 7. 7. Mat. 12. 45. —Arferir cyfannedd weithiau am gartrefol.

Dy glod a wna yn *gyfannedd*.
*E. Prys*, (Ps. 22. 22.)

CYFAR, (âr) erw, darn o dir, yr hyn a ardd un wedd, neu un iau ychain, mewn un diwrnod. 1 Sam. 14. 14. Esa. 5. 10.

CYFAR—EDD—ION—U, (cy-far) swyn, swyno; hud, hudo; rheibio; llygad-dynu. 2 Cron. 33. 6. Edr. SWYN-GYFAREDD.

CYFARCH—IAD—AU, (arch) anerch, dyanerch. —Y mae yn arwyddo, 1. Ymostyngiad parchedig a chroesawgar i rieni, blaenoriaid, &c., ufudd-dod parodol isafiaid i'w huchafiaid; a'u boddlonrwydd i roddi iddynt eu hanrhydedd a'u parch dyledus. Exod. 18. 7. ——2. Ymofyn am heddwch. Barn. 18. 15. 1 Sam. 10. 4.——3. Yr un peth ag anerch.—'Cyfarch gwell.' 1 Cor. 16. 21. Col. 4. 10.——Y Phariseaid a'r gau athrawon oeddynt yn fawr am gael cyfarchiadau, a'u galw gan ddynion, Rabbi, Rabbi. Mat. 23. 7. Marc 12. 28. Luc 11. 43.—'Os cyferchwch well i'ch brodyr yn unig, pa ragoriaeth yr ydych chwi yn ei wneuthur?' Mat. 5. 47. Yr oedd cyfarchiadau pobl y dwyrain yn amrywio cryn lawer, yn ol graddau sefyllfaoedd y rhai a gyfarchent. Y cyfarchiad cyffredin ydyw gosod y llaw ddehau ar y fynwes, gan ogwyddo ychydig ar eu cyrph; ond pan gyfarchent ryw un o'u pendefigion urddasol, ymgryment agos at lawr, ac a gusanent ymyl ei wisg. Isafiaid, o barch ac ymostyngiad i'w huchafiaid, a gusanent eu traed, eu gliniau, neu eu gwisgoedd. Cusanent y llaw hefyd. Pan ddygwyd yr Arglwydd Macartney i wydd ymerawdwr China, yn y flwyddyn 1793, daliwyd sylw, fod y Chineaid yn ymostwng ar eu hŷd ar lawr: ac ar y ddefod fawrwych, ar ddydd genedigaeth yr ymerawdwr, y bobl a benliniasant, ac a ymgrymasant naw gwaith gyd â'r fath ddifrifolder, a phe buasent yn addoli duwiau. Gwel Burder's *Oriental Customs.*

Digitized by Google

'Na chyferchwch well i neb ar y ffordd.' Luc 10. 4. Y mae yn gorchymyn iddynt brysuro yn eu gorchwyl, ac nad ymdröent er dim. Ceir y cyffelyb ymadrodd yn 2 Bren. 4. 29. 'Gwregysa dy lwynau, a chymer dy ffon yn dy law, a dos ymaith: o chyfarfyddi â neb, na chyfarch iddo; ac o chyfarch neb di, nac ateb ef.' Yr oedd y genadwriaeth ar yr hon yr oedd dysgyblion Crist wedi eu hanfon mor bwysig, ag yr ydoedd yn gofyn iddynt wneuthur y prysurdeb mwyaf, a gochelyd y pethau hyny a fyddai yn debygol i'w hafrwyddo; yn enwedig os rhyw ddefodau a fyddent. Fel hyn y dylid deall yr ymadrodd, neu y gorchymyn hwn: oblegid nis gallwn feddwl y buasai yr Arglwydd Iesu yn gorchymyn i'w ddysgyblion esgeuluso, neu amharchu, yr un o'r defodau hyny yn afreidiol, y rhai oedd mewn arferiad cyffredin, a'r rhai oedd ddiniwed ynddynt eu hunain. Yn yr achos mewn llaw, pe buasai yn ganiataol iddynt roddi a derbyn y cyfarchiadau cyffredin, tebygol y buasai yn gryn rwystr iddynt, o herwydd yr amser a dreulient yn hyny. Y mae amryw deithwyr credadwy yn dywedyd, y byddant mewn rhai manau yn ngwledydd y dwyrain yn attal dyeithriaid ar y ffordd, i gael gwybod ganddynt o ba le y byddant yn dyfod, ac i ba le y byddant yn myned. O gywreinrwydd yn unig yr ymholant fel hyn; am hyny byddai yn ddigon addas a chymhesur peidio eu hateb. Y mae y golygiad hwn ar y mater, yn dangos nad oedd dim anfoesgarwch yn y gorchymyn a roddodd Crist i'w weinidogion, yr hwn a roddwyd yn unig i'w dysgu pa fodd i ymddwyn yn addas i'r genadwri bwysig oeddynt yn ei dwyn.——Grotius a ddywed, ar y mater hwn, nad oedd y cyfarchiadau hyny yn mhlith pobl y dwyrain yn cael eu gwneuthur trwy agweddiad ysgafn, neu air, ond trwy grymu ac ystumio llawer ar y corph, cusanu, a chofleidio.

'Heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch.' Heb. 11. 13. 'Ay cymeryd hwynt yn *ddiolchus*.' W. S.—'Credu a *chofleidio*.' *Saes.* Er fod pob un o'r ddau yn gyfieithiad da, er hyny y mae y gair *Gr.* ασπασαμενοι, yn ateb i'r ddau, sef *cyfarch trwy gofleidio.* Y mae yma radd fawr o natur ffydd yn cael ei ddangos; y mae yn cyfarch yr addewidion, gan eu cofleidio a'u cusanu yn y modd caredicaf, a 'hwy etto yn mhell.' Y mae y gair ασπασαμενοι, yn arwyddo, *cofleidio â'r meddwl*, gafael ar beth gyda dymuniad awchus a serchiadol; ac yn cael ei gymeryd, yn gyffelybiaethol, oddiwrth forwyr, y rhai, wedi bod mewn peryglon lawer, pan ddelont i olwg y porthladd a ddymunent, er eu bod hwy etto yn mhell, y maent yn ei gyfarch gyda bloedd orfoleddus. Felly, pechadur, wedi cael ei ddwyn i olwg grediniol ar y peryglon mawrion y mae efe ynddynt, wrth natur, a dderbyn yr ymwared a'r diogelwch hyfryd y mae yr addewid yn ei roddi, gyd â'r llawenydd a'r gorfoledd mwyaf.

CYFARFOD—YDD, (arfod) *Heb.* קרב (*carab*) cyfrwch, cynadl, ymgyhwrdd; cymanfa, cyd-dyrfa, casgliad o ddynion. Gen. 14. 17. a 29. 13. Exod. 4. 27. a 19. 17. a 25. 22. Num. 23. 3. Diar. 7. 15. Esa. 33. 20. Act. 23. 12.

CYFARTH, (arth) udaw, wban, oernadu; peufer, fel y gwna cŵn, a rhai creaduriaid aflan eraill. Ps. 59. 6.—'Cŵn mudion ydynt hwy oll, heb fedru cyfarth.' Esa. 56. 10. Gwylwyr yr Iuddewon a gyffelybir yma i gŵn mudion, heb fedru cyfarth. Dyna y dyben y byddis yn cadw cŵn wrth dai, mewn llawer man, fel y byddo iddynt gyfarth os daw lladron, neu ryw beth arall yn y nos i aflonyddu y tŷ; onis gallant gyfarth nid ydynt dda i ddim; gall y tŷ fod yn y perygl mwyaf heb gael dim rhybudd oddi wrthynt hwy. Felly y rhai sydd dan enw gwyliedyddion, neu weinidogion, yn yr eglwys, os byddant 'yn cysgu, yn gorwedd, ac yn caru hepian,' nid ydynt o les yn y byd; gall yr eglwys fod yn y perygl mwyaf, mewn nos o wrthgiliadau, dirywiad, a barnedigaethau, heb iddynt hwy fod o un cynnorthwy yn eu rhybuddion, eu cynghorion, eu hyfforddiadau, a'u haddysgiadau duwiol; oblegid, 'ni fedrant gyfarth.'—'Pa fodd y pregethant onis danfonir hwynt?' Rhuf. 10. 15.

CYFARWYDD—ION—WYR, (arwydd) cywrain, call, gwybodus, medrus, deheuig, hwylus, hyddysg. —'A Hiram a anfonodd gyd â'i weision longau, a gweision cyfarwydd ar y môr.' 2 Cron. 8. 18. Preg. 9. 11.——Dewiniaid a chonsurwyr, neu wyr doethion. Jer. 9. 17.——Y GYFARWYDD, magïen, pryf yn goleuo y nos.

CYFARWYDDO, hyfforddi, addysgu, cyfeirio, arlwyo, arwain. Ps. 7. 9. a 25. 14. a 32. 8. a 119 133. Diar. 6. 22. a 16. 9. Preg. 10. 10. Esa. 9. 16. a 40. 13. Act. 8. 31.—Mae yr Arglwydd yn cyfarwyddo ffordd a chalon ei bobl, trwy ei air, ei Ysbryd, a'i ragluniaethau. 1 Thes. 3. 11. 2 Thes. 3. 5.——Y mae Duw mor anfeidrol ddoeth, a hanfodol wybodus, fel nas gall neb creaduriaid ei gyfarwyddo yn llwybr barn, nac yn neb rhyw weithred. Esa. 40. 13. Job 11. 7, &c. a 28. 12, 21, &c. Rhuf. 11. 34. 1 Cor. 2. 16. Esa. 64. 4. Mae y BOD DWYFOL, uwch ben ei holl weithredoedd, yn ei fawredd anfeidrol ei hun, heb un terfyn ar ei wybodaeth, ei ddoethineb, a'i allu, nac eisieu cyfarwyddyd na chymhorth gan neb. Nid oes gan neb ddim i roddi iddo ond ei eiddo ei hun.

CYFATEB—OL, (ateb) cynhebygu, cyngweddu. Gal. 4. 25. 1 Petr 3. 21.

CYFATTAL, (attal) dal gafael sicr a diogel yn erbyn gwrthwynebiadau, trwy fawr ymdrech. Y gair *Gr.* κρατεω, a gyfieithir *cyfattal* yn Col. 2. 19. a gyfieithir *glynu*, yn Heb. 4. 14.—*dal*, yn Mat. 26 48, 50. Marc 14. 14, 46. 2 Thes. 2. 15. Dat. 2. 1, 13, 14, &c. —*attal*, yn Ioan 20. 23. Act. 2. 24. a 3. 11.—*ymaflyd*, yn Mat. 9. 25. a 12. 11. Marc 1. 31.—*cadw*, yn Marc 9. 10.——'Cyfattal y pen,' dal gafael sicr a diymmod, ac ymlyniad parhaus wrtho, yn wyneb pob cyfeiliornadau ac erlidigaethau. Mae ffydd 'yn cyfattal y pen,' sef Crist, fel aelodau y corph naturiol, ac yn derbyn ei holl fywyd a'i chynnaliaeth yn barhaus oddi wrtho.

CYFATHRACH—U, (mathrach) perthynas, carenydd trwy briodas; cyd-gymhwysiad, yn ol deddf priodas; cyfuesafiaeth; neu perthynas yn ol deddf natur. Ruth 2. 20.

CYFATHRACHWR—WRAIG, cyfnesaf, câr agos; câr drwy y gyfraith; câr-waredwr. Un ag oedd ganddo awdurdod i briodi gwraig un a fyddai gwedi marw. Mae y gair *Heb.* יבם yn arwyddo, yn fwyaf neillduol, *brawd gwr*. Ymddengys oddiwrth lyfr Ruth, fod y gyfraith (Deut. 25. 5, &c.) mewn perthynas i ddyn gymeryd gwraig ei frawd a fyddai gwedi marw, a chyfodi hâd i'w frawd, yn cyrhaedd yn mhellach na brawd y gwr, sef at y cyfryw berthynas ag a fyddai yn meddu hawl gollyngiad yn rhydd, neu waredigaeth. Y mae yr un gair, yn y rhyw fenywaidd, yn Ruth 1. 15. yn cael ei gyfieithu *chwaer yn nghyfraith.* Pen. 3. 9, 12, 13. a 4. 1, 3, 6. Dalier sylw, mai nad יבם *brawd y gwr*, neu *brawd yn nghyfraith*, sydd yn mhob man lle y ceir y gair *cyfathrachwr*, yn llyfr Ruth; eithr y mae hefyd y gair Hebraeg arall גאל *gwaredwr*, neu yr hwn y mae yn iawn iddo ollwng yn rhydd. Edr. GWAREDWR, PRYNWR.——Y mae yn eglur oddiwrth Gen. 38. 8. fod yr arferiad o briodi gwraig brawd a fyddai gwedi marw yn llawer hynach na chyfraith Moses; ac y mae llawer o genedloedd yn ngwledydd y dwyrain yn dal yr arferiad i fynu hyd y dydd hwn. Edr. BRAWD.

Digitized by Google

CYFDDYDD, (dydd) gwawriad y dydd, toriad y dydd, clais y dydd; yr amser llwyd-dywyll rhwng dydd a nos. Job 7. 4. Ps. 119. 147. Edr. DYDDHAU.

CYFEBR—U—ON, (cyfab) bod caseg, asen, neu ddafad, â rhai ieuainc ynddynt. Gen. 30. 41. a 31. 10. Ps. 78. 71.

CYFEDDACH, (cyfedd) cyd-yfed medd; gwledd arbenig; cyd-yfed gyda hoffder yn yr arferiad; cadw cymdeithas â'r meddwon. Rhuf. 13. 13. Gal. 5. 21. 1 Petr 4. 3.—'A'r brenin a ddywedodd wrth Esther, yn nghyfeddach y gwin;' sef pan ddygwyd y gwin ger bron, ac iddynt ddechreu llawenhau wrth yfed. Yn mhlith y Persiaid (medd haneswyr) ni byddent arferol o ddwyn y gwin i'r bwrdd, hyd nes y cymerid y bwydydd a'r aeron ymaith; oblegid dwfr a yfid gyda bwyd. Esth. 5. 6. a 7. 1, 2.

CYFEILIORN—AU—US, (meiliorn) diarffordd, gŵyrawg, traws-ŵyrawg, dydröawg. Num. 22. 32. Ps. 95. 10. Diar. 5. 23. Esa. 29. 24. a 30. 28 Jer. 50. 6. Iago 5. 19.—'Gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus.' 1 Tim. 4. 1.—'Ysbrydoedd crwydrol.' W. S. Y gair *Gr.* πλανης, a arwydda nid yn unig cyfeiliornus mewn anwybodaeth, ond eu bod yn dwyllodrus a dichellgar, yn denu eraill o'r iawn, trwy hôni rhyw ysbrydoliaeth, neu ddadguddiad oddiwrth yr ysbryd; ond nid ysbryd y gwirionedd sydd yn eu harwain, ond ysbrydion cyfeiliornus.

CYFEIRIO. (cyfer) cyfarwyddo, anfon ar gyfer; ymgeisio at.—'Yn fore y cyfeiriaf atat.' Ps. 5 3. a 119. 5. a 141. 2. Esa. 57. 9. Ezec. 4. 3. Luc 1. 79

CYFENW—I, (enw) enwad, ail enw.—'Ioan, yr hwn oedd a'i gyfenw Marc.' Act. 12. 12.—CYFENWI, &c., dodi enw ar un, at yr hwn oedd ganddo o'r blaen, i arwyddo rhyw swydd, neu berthynas; enw y byddo hawl i ryw enwogrwydd oddi wrtho, neu drwyddo. Esa. 45. 4. Mat. 10. 3. Act. 1. 23.—'Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn arch-offeiriad, yn ol urdd Melchisedec' Heb. 5. 10.

CYFER, *Heb.* קבל (*kebel*) rhag y wyneb, gyferbyn, cyfer i heddyw.—'Ar gyfer eu gilydd;' y naill yn wynebu y llall. Gen. 15. 10. Exod 26. 17. Num. 25. 4.——'I fynu bawb ar ei gyfer;' hyny yw, rhag ei wyneb. Jos. 6. 5.

CYFIAWN, (cyf-iawn) iawn, uniawn, dyledus, cyfreithlawn, gwir, cywir; un cywir, didwyll.—1. Un ag a fyddo gwir a didwyll yn ei weithredoedd a'i ymddygiadau tu ag at eraill. Gen. 6. 9. Luc 23. 50.——2. Y Creawdwr mawr, yr hwn sydd *hanfodol* gyfiawn, ac yn ffynon cyfiawnder ei holl greaduriaid. Deut. 32. 4. Ezra 9. 15.——3. Gwr geirwir a ffyddlawn i'w air a'i addewid. 1 Ioan 1. 9.——4. Yr hwn, yn ei fywyd a'i angeu, a gyrhaeddodd berffeithrwydd uniondеr cyfraith Duw, sef Iesu Grist. 1 Petr 3. 18.——5. Un ag y sydd yn gyfiawn trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist. Rhuf. 1. 17. a 3. 22. a 4. 6.——6. Un heb ei argyhoeddi o'i bechadurusrwydd, ac yn ei *dybied* ei hun yn gyfiawn, ac nid ydyw. Luc 18. 9.——7. Dyn ystyriol, arafaidd, calon dyner. Diar. 12. 10. Mat 1. 19——8. Un haelionus a thrugarog wrth y gwan a'r anghenus. Ps. 37. 25.

CYFIAWNDER, (cyf-iawnder) uniondeb, iawnder, gwirionedd. Y gair *Heb.* צדק yr hwn a gyfieithir *cyfiawnder*, a arwydda uniawn, cyd-bwys, cyd-wastad, cywir, fel y gellir gweled oddiwrth y geiriau yn Lef. 19. 36., 'Bydded iwch' glorianau צדק *cyfiawnder*, cerryg צדק *cyfiawnder*, epha צדק *cyfiawnder*, hin צדק *cyfiawnder*.' Cymh. Deut. 25. 15. Job 31. 6. Yr un gair צדק a gyfieithir *uniawn* yn Ezec. 45 10., 'Bydded genych glorianau uniawn, ac epha uniawn, a bath uniawn.' Y mae yr ysgrythyrau a grybwyllwyd yn dangos yn eglur fod golygiad y gair yn cael ei gymeryd oddiwrth fantol, a chyd-bwysedd clorian (tafol) neu gyfartalrwydd pwysau a mesur. Felly y gosodid allan gyfiawnder yn mhlith y Rhufeiniaid (ac hefyd yn ein plith ninnau, fel y mae yr arwyddluniau ar byrth rhai dinasoedd, a thai cyfnewid, yn dangos) trwy lun un yn dal clorian yn ei law, gan ei ddal yn gwbl wastad, y ddau ben yn ymddangos yn gyd-bwys, heb fantoli y naill ffordd na'r llall. Y mae yr Ysbryd Glân yn cadw yr un golygiad wrth ddangos anghyfiawnder. Cymh. Ps. 62. 9. Dan. 5. 25, 27. Mat. 7. 2. Luc 6. 38. Yr un gair a gyfieithir *cymedrol*, yn Joel 2. 23., 'Efe a roddes i chwi y cynnar-wlaw yn gymedrol;' ar ymyl y ddalen, *yn ol cyfiawnder*.

Wrth ystyried y geiriau *Heb.* צדק *cyfiawnder*; a כבד *gogoniant*; un, sef cyfiawnder, yn arwyddo mantol gywir, cyd-bwys; a'r llall yn arwyddo pwysau gogoniant, gellir gweled yn eglur mai bod yn ddigon o bwysau, yn nghlorian cyfiawnder, ydyw gogoniant, neu yr achos o hono. Dyna oedd yn arwyddo fod Belsassar yn anghyfiawn, sef wedi ei bwyso yn y clorianau, a'i gael yn brin. Dan. 5. 27. Bod dynion yn brin, neu yn rhy fychan o bwysau, yn nghlorian cywir cyfraith Duw, sydd yn eu gwneuthur yn wrthodedig, ac yn eu cau allan o ddedwyddwch gogoniant. Gosodir yr anghyfiawnion allan, yn gyffelybiaethol, yn yr ysgrythyrau, wrth ûs, sofl, llwch, a'r cyffelyb bethau ysgafn, i ddangos nad oes dim gogoniant yn perthyn iddynt. Ps. 1. 4. a 35. 5. Mat. 3. 12. Job 21. 18. Esa. 17. 13. a 29. 5.

I. Cyfiawnder hanfodol, yw y perffeithrwydd a'r uniondeb hwnw sydd yn Nuw, trwy yr hwn y mae efe yn anfeidrol uniawn tu ag ato ei hun, ac yn ei holl ymddygiadau tu ag at ei greaduriaid. Ps. 89. 14. Job 36. 3.

II. Y rhinwedd gwladwriaethol hyny, o roddi i bawb yr hyn sydd yn perthyn yn briodol iddynt: ac a ellir ei alw, 1. Yn iawnder cyfranedig, yr hyn a berthyn i freninoedd, a rhai mewn awdurdod, &c. Job 29. 14.——2. Iawnder cymwynasgar, yr hyn sydd yn perthyn i bawb, yn eu cyd-farchnadaeth, tu ag at eu gilydd. Gen. 18. 19.——3. Trugaredd Duw yn Nghrist, a'i gyfiawnder tu ag at bechadur. Ps. 51. 14——4. Gwirionedd ac uniondeb Duw yn cyflawni ei addewidion. Esa. 45. 19.——5. Gogoneddus ffrwyth a gwobr cyfiawnder. Ps. 24. 5.——6. Ufudd-dod a dyoddefaint Crist, trwy yr hyn y cyflawnodd efe y gyfraith, ac y llwyr foddlonodd gyfiawnder Duw; yr hyn a gyfrifir fel eiddo yr etholedigion, a hwy a gyfiawnheir trwy ffydd ynddo. Dan. 9. 24.——7. Gweithred anrhydeddus o gyfiawnder, ac eiddigedd duwiol, yn tarddu oddiar wir awyddfryd dros Dduw a'i achos. Ps. 106 31.——8. Sancteiddrwydd ac uniondeb buchedd. 1 Cor. 15. 34.——9. Yr efengyl, a elwir yn air cyfiawnder, oblegid mai trwyddi hi y dadguddir i ni gyfiawnder Duw, ac am ei bod yn dystiolaeth gywir am dano. Heb. 5. 13.

Un o'r rhagoriaethau godidog sydd yn *hanfodol briodol* i'r Duw mawr, yw bod yn gyfiawn: am ei fod yn gyfiawn, y mae yn wrthddrych anfeidrol deilwng o gariad, parch, ac anrhydedd, ei greaduriaid. Y mae Duw yn gyfiawn yn hanfodol; y mae cyfiawnder yn wreiddiol ac yn hanfodol yn Nuw; y mae ynddo ac o hono, ac nid yn ddeilliedig oddiwrth neb arall. Gan ei fod yn hanfodol ynddo, y mae yn anfeidrol ac yn anghyfnewidiol. Ps. 36. 6. Y mae cyfiawnder mewn creaduriaid yn cyfateb i ryw gyfraith, neu reol; y mae cyfraith Duw yn rheol i ddynion, yr hon sydd sanctaidd, cyfiawn, a da; ond nid oes i Dduw un gyfraith allan o hono ei hun; y mae efe yn gyfraith iddo ei hun; ei natur a'i ewyllys ydynt reol cyfiawnder iddo. Y mae yn ewyllysio rhai pethau am eu bod yn gyfiawn, yn un â'i natur a'i berffeithrwydd moesol; y mae pethau eraill yn gyfiawn, am ei fod yn eu

Digitized by Google

hewyllysio; megys ei holl orchymynion pendant. Pe na buasai Duw yn hanfodol gyfiawn, ni buasai yn wrthddrych teilwng o gariad, ond yn hytrach o gâs, dychryn, a braw. Oni bai ei fod yn hanfodol gyfiawn, ni byddai yn wrthddrych teilwng o barch, anrhydedd, ac addoliad, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Oni bai ei fod yn hanfodol gyfiawn, ni byddai yn wrthddrych teilwng o'n hymddiried; canys pa ymddiried a ellir ei roddi i un a ddichon wneuthur anghyfiawnder â ni? Oni bai fod Duw yn gyfiawn, ni byddai ei drugaredd, ei heddwch, ei addewidion, &c., o ddim gwerth; canys wrth wneuthur yn anghyfiawn, gallai droi ei drugaredd yn greulondeb; ei heddwch yn ddigofaint; a'i addewidion yn gelwydd. Ni byddai yn deilwng o ufudd-dod, oni bai ei fod yn gyfiawn, a'i gyfraith yn gyfiawn. Ni byddai chwaith yn wrthddrych i ymhyfrydu ynddo; ond darfyddai pob gorfoledd a hyfrydwch ar unwaith dros byth. BOD anfeidrol yn FOD anghyfiawn, sydd feddwl rhy ddychrynadwy i roddi lle iddo am fynyd. Y mae cyfiawnder mor hanfodol i Dduw, fel y mae mor anmhosibl iddo beidio a bod yn gyfiawn, ag ydyw iddo beidio a bôd. Deut. 32. 4. Ps. 25. 8. a 119. 137 a 36. 6. Llai o niwed fyddai i filiynau o greaduriaid fod yn druenus byth, nag i'r Arglwydd achub un yn anghyfiawn. Y mae achub un yn anghyfiawn yn wrth-ddywedyd mewn geiriau; canys y mae anghyfiawnder a thrueni, a chyfiawnder a dedwyddwch, wedi eu cysylltu yn ddiwahan â'u gilydd.

Gan fod Duw yn hanfodol gyfiawn, nis gall feddwl na gwneuthur dim ond sydd yn gytun â'i hanfod, yn gyfiawn. Os arfaethu y mae, y mae ei arfaeth yn gyfiawn. Rhuf. 9. 11, 15. Os llywodraethu, y mae yn llywodraethu yn gyfiawn. Dan. 4. 37. Os ceryddu a wna, y mae ei geryddon yn gyfiawn. Ps. 89. 30, 32. Mic. 7. 9. Y mae yn maddeu yn gyfiawn. Rhuf. 3. 26. 1 Ioan 1. 9. Yn achub yn gyfiawn. Esa. 45. 21. Yn barnu yn gyfiawn. Rhuf. 2. 5. Act. 17. 31. Mat. 16. 27. 2 Cor 5. 10. Yn cospi yn gyfiawn. 2 Thes. 1. 6. Barn. 1. 6, 7. 2 Cron. 36. 21. Y mae yn rhaid hyd yn nod i Pharaoh, fel genau dros ei holl elynion, ddywedyd fod yr Arglwydd yn gyfiawn. Exod. 9. 27.

Y mae Duw yn gyfiawn, Yn gyntaf, Tu ag ato ei hun.—Yn ail, Tu ag at ei greaduriaid.

I. Tu ag ato ei hun; trwy wneuthur ei ogoniant ei hun yn rheol a dyben anghyfnewidiol ei holl oruchwyliaethau, mewn ffordd o gyfiawnder. Y mae gogoniant anfeidrol a thragywyddol yn perthyn yn hanfodol i'r Duw mawr; a'r peth sydd yn gyfiawn yn perthyn i Dduw, byddai yn anghyfiawn iddo fod hebddo. Gwnai yr Arglwydd anghyfiawnder âg ef ei hun, pe rhoddai efe ei ogoniant i arall, neu ei fawl i ddelwau cerfiedig; ond hyn nis gwna. Nis gall efe wneuthur nac ewyllysio dim ond sydd yn gyfiawn tu ag ato ei hun, a thu ag at ei greaduriaid; oblegid cyfiawnder yw rheol ei ewyllys, a'i ewyllys yw rheol ei weithred: ac nis gall efe ewyllysio na gweithredu dim ond sydd anfeidrol gyfiawn, tu ag ato ei hun yn y lle cyntaf, ac yn flaenaf.—I'r BOD Dwyfol wneuthur anghyfiawnder âg ef ei hun, a fyddai yr anghyfiawnder mwyaf o bob anghyfiawnder; yr hyn nis gall ei wneuthur mwy na gwadu ei hun. Llai peth a fyddai gwneuthur anghyfiawnder â phob bôd arall, gan fod y BOD Dwyfol yn anfeidrol fwy ynddo ei hun na phob bôd creadigol; ïe, yr holl fodau creadigol yn nghyd; a'i ogoniant, yn ganlynol, yn anfeidrol fwy o bwys a chanlyniad. Y mae Duw, gan hyny, yn gyntaf, yn gyfiawn iddo ei hun, a gogoniant ei briodoliaethau a'i lywodraeth.

Y mae perthynas agos rhwng cyfiawnder Duw a'i sancteiddrwydd: yr un peth ydynt, a'u hystyried ynddynt eu hunain. Gellir ystyried ei gyfiawnder fel amlygiad o'i sancteiddrwydd. Sancteiddrwydd a chyfiawnder ydynt yr un yn yr Hanfod Dwyfol: a chyfiawnder sydd yn cyflawni yr hyn y mae sancteiddrwydd yn ei ofyn. Y mae sancteiddrwydd yn casâu pechod, a chyfiawnder yn ei gospi o angenrheidrwydd natur; etto, yn ddoeth ac yn ben-arglwyddiaethol, o ran y dull, yr amser, a'r graddau o hono, er nad byth yn fwy nag yr haeddai pechod. Ps. 5. 4, 5, 6. Gen. 18. 25.

II. Y mae yr Arglwydd yn gyfiawn tu ag at ei greaduriaid. 'Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffordd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd.' Ps. 145. 17. Caiff pawb eithaf cyfiawnder ar law Duw; oblegid, 'Nid yw yr Arglwydd yn gweled yn dda wneuthur cam â gwr yn ei fater.' Galar. 3. 26. Rhan o gân Moses, a chân yr Oen, yw, 'Cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenin y saint.' Dat. 15. 3—1. Y mae Duw yn ei gyfiawnder, er mwyn amddiffyn cyfiawnder ei lywodraeth, yn cospi y troseddwyr o'i gyfraith sanctaidd, cyfiawn, a da. Nid creulondeb yn yr Arglwydd sydd yn peri iddo gospi troseddwyr o'i gyfraith; na fydded i neb fod yn euog o feddwl mor gableddus am y Duw da: 'Canys nid o'i fodd y blina efe, nac y cystuddia blant dynion.' Galar. 3. 33. Gwir yw, fod yr ysgrythyrau yn sôn am ddigofaint Duw, a'i fod yn ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol. Ond cofiwn, mai digofaint cyfiawn ydyw. Rhuf. 2. 5. Byddai Duw yn anghyfiawn tu ag ato ei hun, pe byddai iddo beidio cospi troseddwyr ei gyfraith; ond yn hytrach nag y bydd efe byth yn anghyfiawn tu ag ato ei hun, na thu ag at neb arall, mỳn ei ogoniant cyfiawn wrth gospi yn gyfiawn droseddwyr ei gyfraith, pwy bynag a fyddo yn druenus byth o herwydd hyny. 'Arglwydd y lluoedd a ddyrchefir mewn barn; a'r Duw sanctaidd a sancteiddier mewn cyfiawnder.' Esa. 5. 16. Y mae yn gyfiawn gyda Duw fod y rhai sydd yn gwneuthur drwg yn haeddu marwolaeth. Rhuf. 1. 32. Gan hyny, y mae cysylltiad rhwng gwneuthur drwg a haeddu marwolaeth, yn ol cyfiawnder Duw; ac y mae barn Duw yn ol gwirionedd. Rhuf. 2. 2. Gan fod cysylltiad rhwng pechod a haeddu marwolaeth, nis gall y Duw cyfiawn lai na chyhoeddi y pechadur yn euog, ac yn ganlynol, ei gospi; oddieithr i iawn gael ei roddi drosto. 'Canys cyfiawn yw ger bron Duw dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi.' 2 Thes. 1. 6. 'Cyfiawn wyt ti, O Arglwydd, ac uniawn yw dy farnedigaethau.' Ps. 119. 137.

2. Y mae yr Arglwydd, drachefn, mor gyfiawn yn achub *rhai* o'i greaduriaid, ag ydyw yn cospi y *lleill*. Nis gall efe achub a maddeu yn anghyfiawn, mwy na chospi yn anghyfiawn. Pe gallai faddeu yn anghyfiawn, efe a allai hefyd gospi yn anghyfiawn. A phe gallai wneuthur *un peth* yn anghyfiawn, efe a allai hefyd wneuthur *pob peth* yn anghyfiawn. Ond nis gall hyny fod. Fel y dywed yr apostol, 'fod yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog;' y gallwn ninnau ddywedyd fod yn anmhosibl i Dduw fod yn anghyfiawn: oblegid nad oes anghyfiawnder gyda Duw. Rhuf. 9. 14. Gan hyny, rhaid fod yr Arglwydd bendigedig yn maddeu, ac yn achub y rhai a gedwir i fywyd tragywyddol, trwy gyfiawnder. Un o'i ragoriaethau anfeidrol ef, ar bawb eraill, ydyw, ei fod yn 'Dduw cyfiawn ac yn Achubydd.' Esa. 45. 21.—'Ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau.' 1 Ioan 1. 9.——Yn gymaint a bod y rhai sydd yn gwneuthur drwg yn haeddu marwolaeth; a bod wyneb yr Arglwydd yn erbyn y rhai sydd yn gwneuthur drwg (Rhuf. 1. 32. 1 Petr 3. 12.) rhaid bod iawn yn cael ei roddi dros y pechadur i gyfiawnder, am y trosedd o'i reolau (sef y gyfraith sanctaidd), o'r hyn y mae efe yn euog, cyn y gellir maddeu iddo. 'Oblegid ni chyfrif yr Arglwydd yr anwir yn gyfiawn.' Exod. 34. 7.——Ond 'gosodwyd Crist gan Dduw yn *iawn*, trwy ffydd yn ei waed, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant pechodau; i ddangos ei gyfiawnder

Digitized by Google

ef y pryd hwn, fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu.' Rhuf. 3. 25, 26. Gan fod yr Arglwydd Iesu Grist, trwy ei fywyd a'i angeu, gwedi rhoddi perffaith a digonol iawn, tros, ac yn lle pechadur, 'y cyfiawn dros yr anghyfiawn,' cafwyd ffordd gyfiawn i faddeuant gerdded i'r byd; ïe, bydd cyfiawnder Duw yn ogoneddus i dragywyddoldeb wrth faddeu i bechaduriaid euog, a gredant, ar gyfrif yr iawn anfeidrol hwn. Y mae mor gyfiawn i Dduw faddeu ar gyfrif yr iawn a'i boddlonodd, ag ydyw iddo gospi heb iawn. 'Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd, canys myfi a gefais iawn.' Job 33. 24. Os ydyw yn gyfiawn i Dduw faddeu i bechadur, ar gyfrif yr iawn a'i boddlonodd yn ei le, byddai yn anghyfiawn iddo beidio maddeu yn enw a thrwy haeddiant yr iawn hwnw. Ni chyd-saif â chyfiawnder Duw gospi y pechadur, wedi derbyn iawn drosto. Canys, 'Ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau. ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder.' 1 Ioan 1. 9.

Dilys yw fod yn gyfiawn i Dduw gospi pechaduriaid: ac y mae mor ddilys hefyd nas dichon Duw wneyd dim ond sydd gyfiawn. Os maddeu i bechaduriaid, gan hyny, a'u derbyn i'w heddwch, y mae yn ddilys fod yn gyfiawn iddo wneyd hyny. Ond nis dichon rheswm amgyffred pa fodd y dichon fod yn gyfiawn iddo gospi a pheidio cospi pechaduriaid. Os nad ydyw yn gyfiawn cospi pechaduriaid, nid oes eisieu cymmod drostynt; ac os nad ydyw yn gyfiawn peidio a'u cospi, nis gellir cael cymmod, oblegid y mae yn groes i natur Duw i wneuthur yr hyn nid yw gyfiawn. Y mae yn gyfiawn i Dduw gospi pechaduriaid—ac nis dichon Duw wneyd dim ond sy gyfiawn: pa sail a ddichon fod i Dduw gymmodi â phechadur? hyny yw, bod yn gyfiawn i Dduw beidio cospi pechaduriaid, a'u derbyn i'w heddwch? Cwlwm yw hwn nas gellir byth ei ddattod, heb olygu trefn fawr cyfryngdod Crist, a bod pechaduriaid yn cael eu heddychu â Duw trwy farwolaeth ei Fab, yr hwn a osododd Duw yn iawn drostynt. Rhuf. 3. 25. a 5. 10. Y mae yn dra diogel, os cymmoda Duw â phechaduriaid, y rhaid gwneyd iawn i gyfiawnder; o herwydd geill beidio bod yn Dduw, mor gynted a pheidio bod yn gyfiawn. Ond yn Nghrist y mae Duw yn ymddangos yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu. Y mae yr holl drefn fawr hon yn tarddu o ddyfnderoedd doethineb Duw yn unig, ac yn mhell tu hwnt i amgyffred dyn. Ond er nas dichon iddo amgyffred hanfod, a holl ddyfnderoedd y drefn, y mae sail ddigonol i gredu, ar dystiolaeth Duw, a bod yn gadwedig trwyddi. Sherlock.

'Y mae Duw yn gyfiawn odiaeth.' Job 34. 17. צדיק כביר *helaeth gyfiawn, cadarn gyfiawn, tragywyddol gyfiawn.* Y mae ei gyfiawnder mor helaeth a'i hanfod; ac mor helaeth a'i holl amcanion a'i holl weithredoedd: y mae mor gadarn, fel na syflir byth mo hono oddiwrth gyfiawnder gan ddim. Ni bydd ei ddigofaint mor boethlyd fel yr elo dros derfynau cyfiawnder i gospi; ac ni ddwg ei ddaioni anfeidrol ef dros derfynau cyfiawnder i drugarhau. Y mae yn gadarn—yn helaeth—ac yn ogoneddus gyfiawn yn mhob peth.

'Am yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael ef: ardderchog yw o nerth, a barn, a helaethrwydd cyfiawnder.' Job 37. 23. 'Yn aml o gyfiawnder.' Dr. M. '*In plenty of justice.*' *Saes.* *Heb.* ורב צדקה Arwydda y gair רב a gyfieithir *helaethrwydd*, amldra, llawer, mawredd; mawredd mewn rhifedi—mewn maintioli—mewn gallu—cadarn, fel yn Esa. 63. 1., 'Cadarn i iachâu.' Y mae cyfiawnder Duw, fel ei drugaredd, yn ateb i holl ystyr y gair; mae yn helaeth—mae yn aml—yn gadarn—ac y mae yn dra ardderchog yn y cwbl. Beth bynag sydd yn Nuw, y mae yn hanfodol, ac yn helaeth ynddo—yn gadarn ac yn ddigyfnewid. Y mae ei hanfod yn gyfiawnder, ac y mae ei gyfiawnder mor helaeth a'i hanfod. Y mae yn gyfiawn yn mhob peth, a thu ag at bob creadur; y mae ganddo berffaith uniondeb i'w lywodraethu; a pherffaith wybodaeth i'w gyfarwyddo; a pherffaith ddoethineb i drefnu holl weithrediadau cyfiawnder tu ag at bawb; a pherffaith allu i weithredu cyfiawnder bob amser. Meddai wrth farnwyr Israel, 'Cyfiawnder, cyfiawnder a ddilyni.' Deut. 16. 20. Arwydda dyblu y gair, helaethrwydd o gyfiawnder. Os gorchymynodd hyny i farnwyr, pa faint mwy y gwna efe hyny ei hun? Efe a gyfiawna ei addewidion yn gyfiawn; ac a dywallt ei fygythion cyfiawn yn ofnadwy ar holl wrthddrychau ei ddigofaint. Y mae ganddo gyfiawnder i bawb; y mae yn achub ac yn cospi yn helaethrwydd ei gyfiawnder.

III. Y mae yr holl waith a wnaeth yr Arglwydd Iesu, fel Cyfryngwr, dros, ac yn lle ei bobl, yn cael ei alw, 'Cyfiawnder y ddeddf;' oblegid ei fod yn ateb yn gyfiawn i'w holl ofynion. Rhuf. 8. 4. Gelwir ef, 'y cyfiawnder sydd o,' neu, 'drwy ffydd;' o herwydd mai nid yn ein personau ni y cyfiawnir ef, eithr ei fod yn cael ei dderbyn trwy ffydd, megys y gosodir ef allan yn yr efengyl. Rhuf. 3. 22. a 4. 13. a 10 6. Gelwir ef hefyd yn 'gyfiawnder Duw:' Duw y Tad a'i trefnodd; Duw y Mab a'i cyflawnodd; a Duw yr Ysbryd Glân sydd yn ei gymhwyso; ac y mae yn anfeidrol deilwng o dderbyniad a gwobr dwyfol. Rhuf. 1. 17. a 3. 21.—Mae y cyfiawnder hwn, 1. Yn gyfiawnder dwyfol.——2. Yn gyfiawnder digonol, yn cyfateb yn gyfiawn i'r cyfiawnder gofynol yn y gyfraith. Esa. 42. 21.——3. Yn gyfiawnder tragywyddol, trwy yr holl genedlaethau yn cael ei ddadguddio yn yr efengyl; ac i bara byth am yr eglwys. Dan. 9. 24. Ps. 103. 17——4. Yn gyfiawnder rhad, 'i bawb ac ar bawb a gredant.' Rhuf. 3. 22.

IV. Y mae credinwyr yn cael eu gwneuthur yn 'gyfiawnder Duw yn Nghrist:' gan fod cyfiawnder Iesu, eu mechnïydd, yn cael ei gyfrif iddynt, gosodir hwynt yn berffaith gyfiawn ger bron Duw farnwr. 2 Cor. 5. 21.—Y mae gan y saint gyfiawnder triphlyg: 1. Cyfiawnder eu personau yn Nghrist: defnydd hwn ydyw sancteiddrwydd natur ddynol Crist, ufudd-dod ei fywyd, a'r boddlonrwydd a wnaeth trwy ei ddyoddefiadau, yn cael eu cyfrif iddynt; o hwn y maent yn ymffrostio, ac ynddo y maent yn ymogoneddu. Esa. 45. 24.——2. Cyfiawnder eu natur, wedi ei hadnewyddu gan yr Ysbryd Glân; â hwn y maent yn ymwrthod, yn gwbl, yn y pwnc o gyfiawnhad, ac o ran dim llaw sydd ganddynt hwy yn y cyfiawniad o hono. Esa. 64. 6. Phil. 3. 9.——3. Eu cyfiawnder bucheddol ac ymarferol. Wrth edrych yr ysgrythyrau, gwelwn fod cyfiawnder ymarferol yn meddiannu lle nid bychan yn ngwaith yr Ysbryd Glân, ac yn nghrefydd y duwiolion. 'Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn.' 1 Ioan 3. 7. Sef, y mae yn dangos yn amlwg, trwy hyny ei fod wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd yn nghyfiawnder Crist. 'Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw a phlant diafol; pob un ag sydd heb wneuthur cyfiawnder nid yw o Dduw.' 1 Ioan 3. 10. Ps. 15. 2. Nid yw crefydd pawb ond ofer heb hwn. Nis gallwn fod yn blant i Dduw, yn tebygoli iddo, nac yn cymdeithasu âg ef, heb ymgais difrifol am hwn. 1 Ioan 1. 6, 7, 8. Rhaid ei fod yn tarddu o egwyddor gyfiawn yn yr enaid, ac yn nôd penaf i gyrchu ato yn ein holl ymdriniaeth a'n masnach fydol; a hyny yn ol rheol gyfiawn cyfraith uniawn yr Arglwydd. Nid *elw*, ond *cyfiawnder*, a ddylai fod ein *dyben*; nid ein nwydau ein hunain, na helynt y byd hwn, ond y gyfraith gyfiawn, a ddylai fod ein *rheol*, yr hon sydd yn cyrhaedd at bersonau, meddiannau, ac enw da pawb. Un o effeithiau gras yw dysgu byw yn gyfiawn. Tit. 2. 11, 12. Ac yn llwybrau cyfiawnder y mae y bugail da yn arwain ei

Digitized by Google

braidd. Ps. 23. 3. Y rhyw hwn o'i gyfiawnder, tebygol, a amddiffynodd Job yn ormodol. Job 35. 2.

Y maent yn 'credu i gyfiawnder;' a'u 'ffydd a gyfrifir iddynt yn gyfiawnder.' Trwy ffydd y maent yn derbyn cyfiawnder Iesu, a'r gwrthddrych hwn o'u ffydd a gyfrifir iddynt yn gyfiawnder, i'w cyfiawnhau ger bron Duw. Rhuf. 10. 10. a 4. 3, 5, 9. Edr. Credu, Ffydd.

Y mae yr Ysbryd Glân 'yn argyhoeddi o gyfiawnder;' hyny yw, yn dangos nad oes gan bechadur ddim o'i eiddo ei hun, a bod Iesu Grist yn berson cyfiawn, a'i fod wedi perffaith gwblhau ei gyfiawnder cyfryngol drosto. Ioan 16. 10. Edr. Argyhoeddi.

CYFIAWNHAD, (cyf-iawn) ymadrodd yn perthyn i lŷs barn, a arferir mewn achosion a drinir mewn llysoedd barn.—'Pan fyddo ymrafael rhwng dynion, a dyfod i farn i'w barnu; yna cyfiawnhant y cyfiawn, a chondemniant y beius.' Deut. 25. 1. Diar. 17. 15. Esa. 5. 23. Mat. 12. 37. Cyfiawnhad ydyw yr hyn sydd yn sefyll ar gyfer, neu yn wrthwyneb i gondemniad; a hyn yw meddwl y gair pa le bynag yr arferir ef mewn ystyr efengylaidd. Yn mhob man lle y trinir yr athrawiaeth o gyfiawnhad, y mae yn golygu llysoedd barn, yn nghyd â'r achosion cyfreithiol a drinir ynddynt. Y mae dynion yn cael eu gosod allan fel troseddwyr yn cael eu cyhuddo o bechod, ac yn cael eu cyhoeddi yn euog ger bron Duw; gan hyny, y maent yn agored i gondemniad a marwolaeth; ond yn ol yr athrawiaeth efengylaidd o gyfiawnhad, y maent yn cael eu cyfiawnhau trwy ffydd yn ufudd-dod a marwolaeth Crist; sef eu glanhau oddiwrth bob cyhuddiadau, eu cwbl ryddhau oddiwrth gollfarnedigaeth, a'u cyhoeddi yn gyfiawn, a hawl gyfiawn yn dyfod iddynt i fywyd tragywyddol.

Gweithred o ras Duw ydyw *Cyfiawnhad*, yn cyfrif ac yn cyhoeddi dyn yn gyfiawn, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddo: yr hwn gyfiawnder a dderbynir gan y pechadur trwy ffydd. Rhuf. 5. 19. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21.

Y mae yr athrawiaeth hon, o gyfiawnhad pechadur euog ger bron Duw, trwy ffydd yn unig yn nghyfiawnder Crist, yn athrawiaeth sylfaenol o'r grefydd Gristionogol, ac yn gwahaniaethu Cristionogrwydd yn hollol oddiwrth bob crefydd arall yn y byd. Y mae yn athrawiaeth o'r pwys a'r canlyniad mwyaf; ac y mae ymorphwysiad enaid ar ddim arall, heblaw cyfiawnder Crist yn unig, am gymeradwyaeth gyda Duw, yn gyfeiliornad dinystriol. Nis gellir bod yn iach yn y ffydd o ran un pwnc arall, os bydd un yn gyfeiliornus yn y pwnc tra phwysfawr hwn. Ac yn ol fel y byddo gweithrediadau ffydd, yn aml ac yn fywiog ar Grist er cyfiawnhad, y bydd cynnydd eiu dyddanwch, ac y blagura pob gras arall. Y sawl a chwennycho eithaf eglurdeb ar y mater gogoneddus hwn, astudiant yn fanwl ac yn barhaus Epistolau rhagorol Paul; yn enwedig ei Epistolau at y Rhufeiniaid, y Galatiaid, yr Ephesiaid, y Philippiaid, y Colossiaid, a'r Hebreaid—yn nghyd â llyfrau Moses, Psalmau Dafydd, a phrophwydoliaethau efengylaidd Esaiah a Jeremiah. Ac os bydd dim ammheuaeth yn aros etto, ystyriant bregethau Crist a'i apostolion.

Gallwn gasglu yn fyr, oddiwrth yr Ysgrythyrau Sanctaidd,

1. Mai gwrthddrychau cyfiawnhad efengylaidd yw pechaduriaid euog, a ragluniwyd er tragywyddoldeb i hyny; ac a alwyd mewn amser trwy yr efengyl i gymdeithas Crist, yn ol boddlonrwydd ewyllys Duw. Rhuf. 8. 30. 1 Cor. 1. 9. Nid oes un achos *haeddiannol* o gyfiawnhad yn y gwrthddrychau, mwy nag eraill.

2. 'Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau.' Rhuf 8. 30, 33. Ni pherthyn, ac nid yw yn waith addas i neb arall. 'Un gosodwr cyfraith sydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli.' Iago 4. 12.

2 E

3. Y peth sydd yn cyfiawnhau yw cyfiawnder Crist yn unig, heb ddim arall. Efe yn unig yw ein tangnefedd ni, yr hwn a osododd Duw yn iawn. Rhuf. 3. 20—31. a 4. 1—6. a 5. 18, 19, 20. a 10. 3, 4, 5, &c. a 11. 6, 7. Phil. 3. 8, 9. Tit. 3. 7. Gal. 2. 16. Act. 13. 39. Nid ein gwaith ni *tros* Dduw, na gwaith Duw *ynom* ni, ond gwaith Crist *trosom* ni, yn ei fywyd a'i farwolaeth, ydyw y peth sydd yn cyfiawnhau pechadur, a'r achos haeddiannol o'i gymmod â Duw. 1 Cor. 1. 30. Eph. 1. 6. Edr. Iawn.

4. Y mae y cyfiawnder hwn yn dyfod yn eiddo i'r pechadur trwy undeb â Christ, trwy ffydd. Rhuf. 3. 22. a 4. 3, 4. a 5. 1, 10. Gal. 2. 16. a 3. 8, 11, 24. Phil. 3. 9. Tystiolaeth am Grist a'i gyfiawnder ydyw yr efengyl. Trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân y mae y pechadur yn credu tystiolaeth y Tad am ei Fab, ac yn ymorphwys, trwy ffydd, yn wyneb ei holl ddrwg, ac heb ddim da, ar ufudd-dod a dyoddefiadau Mab Duw, fel yr unig achos haeddiannol o'i gyfiawnhad ger bron Duw. Rhuf. 1. 17. Eph. 1. 19. Ioan 16. 7—11. 1 Ioan 5. 10, 11. Nid ffydd yw y cyfiawnder, ond hi sydd yn *derbyn* cyfiawnder. Ioan 1. 12. Rhuf. 5. 17. Act. 10. 43. Nid oes dim a wnelo un gras arall yn y gwaith o gyfiawnhad, ond ffydd yn unig. Nid iaith y Bibl yw dywedyd bod dyn yn cael ei gyfiawnhau trwy ei edifeirwch, ei gariad, &c., er mai pechadur edifeiriol sydd yn cael ei gyfiawnhau; ond *trwy ffydd*. Canys hi sydd yn credu tystiolaeth y gair; yn golygu, yn derbyn, ac yn ymorphwys ar Grist, er cyfiawnhad. Edr. Ffydd.

5. Am y rhanau cynnwysedig yn y *cyfiawnhad* hwn:—1. Y mae yn cynnwys cwbl faddeuant o'r holl bechodau. Rhuf. 4. 6, 7, 8.——2. Tragywyddol dderbyniad a chymmod â Duw. 2 Cor. 5. 19. Y mae yr hwn a gyfiawnheir yn heddwch Duw; yn gymeradwy ganddo, a'i wasanaeth yn gymeradwy; a chanddo hawl i fywyd tragywyddol. Rhuf. 5. 17, 18. ——3. Y mae Duw yn ymddwyn tu ag ato fel un cyfiawn. Y mae y farn o gondemniad, oedd arno fel pechadur, yn cael ei thynu ymaith, a hawl i fywyd tragywyddol yn cael ei roddi, yn nghyd â phob cynnorthwy ac addasrwydd i feddiannu a mwynhau y bywyd hwnw. Y mae Duw, yn ei holl oruchwyliaethau, yn ymddwyn tu ag ato fel un cyfiawn yn Nghrist. Y mae Duw mewn heddwch trwyadl a gwirioneddol âg ef, heb ddim llidiawgrwydd ynddo. Esa. 27. 4. Rhuf. 5. 1. Y mae gras yn teyrnasu trwy gyfiawnder tu ag ato i fywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist. Rhuf. 5. 21. Wedi ei gyfiawnhau, mae y pechadur yn cael ei sancteiddio, ei nerthu, ei ymgeleddu, ei ddyddanu, a'i arwain ar ei daith, nes ei gorphen mewn llawenydd.

Er nad yw *cyfiawnhau* a *maddeu* i'w gwahanu, etto y maent i'w gwahaniaethu: er eu bod yn cytuno mewn rhai pethau, etto y maent yn gwahaniaethu mewn pethau eraill. Un peth yw bod pechadur yn cael maddeuant, a pheth arall yw ei fod yn cael ei gyfiawnhau.—1. Y mae maddeuant yn cymeryd ymaith bechod oddiwrth y pechadur, ond nid yw yn rhoddi iddo gyfiawnder, fel y mae cyfiawnhad yn gwneyd. Y mae maddeuant yn cymeryd ymaith y dillad budron; ond y mae cyfiawnhad yn gwisgo â newid dillad. Zech. 3. 4.——2. Y mae maddeuant yn rhyddhau oddiwrth gospedigaeth, a rhwymedigaeth iddo: 'Yr Arglwydd a dynodd ymaith dy bechod; ni byddi marw;' (2 Sam. 12. 13.) ond nid ydyw yn rhoddi hawl i fywyd tragywyddol: ond y mae cyfiawnhad yn gwneyd hyny: am hyny y gelwir ef, 'cyfiawnhad bywyd.' Rhuf. 5. 18. Ac y mae y rhai a gyfiawnhawyd yn cael eu gwneyd yn 'etifeddion yn ol gobaith bywyd tragywyddol.' Tit. 3. 7.——3. Y mae rhagor yn ofynol er cyfiawnhad, nag er maddeuant: yr oedd gwaed Crist yn ddigonol er maddeuant; ond er cyfiawnhad, y mae

Digitized by Google

o honynt, i'w galw gan yr Ysbryd Glân. Neu, yn hytrach, rhifedi mawr, neu dyrfa o genedloedd; mwy o lawer nag oedd yn nyddiau yr apostol. Rhuf. 11. 25. Cymh. Dat. 7. 9.

CYFLAWNI, (llawn) perffeithio, cwblhau; gwneyd yn gyflawn, dwyn i ben, gorphen. Gen. 50. 3. Heb. 9. 6.—Cyflawni addewid, bygythiad, neu brophwydoliaeth, yw gwneuthur yr hyn a addawyd, a fygythiwyd, neu a rag-ddywedwyd. Galar. 2. 17. Mat. 26. 54. ——Cyflawni cyfraith, gorchymyn, neu ewyllys, yw ufuddhau i'r unrhyw. Rhuf. 13. 8.——Cyflawni eirchion a dymuniadau, ydyw caniatâu y pethau a erchir ac a ddymunir. Ps. 20. 5.

CYFLE—AU—OEDD, (lle) lle nodedig, lle cyfleus, lle parod wrth law. Zech. 10. 6. Esa. 35. 7.

CYFLEU, gosod pethau yn drefnus yn eu lleoedd. Jos. 4. 8. 1 Sam. 12. 8. Trefnu geiriau ac ymadroddion yn gymhwys. Job 37. 12.

CYFLOG—AU, (llôg) tâl, pwyth, gwobr, gwobrwy, gwerth.—1. Yr hyn a ennillir trwy wasanaeth, ac sydd deilwng i ddyn am ei orchwyl, yn ol cytundeb, neu arferiad. Gen. 29. 15. Hag 1. 6.——2. Cospedigaeth a phoen dragywyddol am lafur dynion yn pechu yn erbyn Duw: 'Cyflog pechod yw marwolaeth;' sef y peth a haeddai pechod, ac sydd sicr o'i ddilyn, oni ryddheir ni oddi wrtho. Rhuf. 6. 23.——Cyflawn a gweddus ydyw talu cyflog i wasanaethwr. Lef. 19. 13. Deut. 24. 15. 1 Tim. 5. 18.

CYFLUNIAETH—U, (lluniaeth) dogn, neu gyfran o fwyd, pryd: 'Cymmedr-vwyt,' W. S. sef bwyd mewn cymedroldeb a threfn. Luc 12. 42. Y gair *Gr.* Σιτομετριον, a gyfieithir *cyfluniaeth*, a arwydda rhyw fesur o ŷd, a arferid gynt ei roddi i gaeth-weision mewn teulu at eu cynnaliaeth. Fod hyn yn arferiad yn mhlith y Groegiaid sydd sicr, a bod yr Iuddewon, yn yr un modd, yn cyfranu bwyd i'w teuluoedd, a ymddengys oddiwrth Diar. 30. 8. Mae y gair *dogn* yn cael ei arfer yno ar ymyl y ddalen. Diar. 31. 15. Arferir y gair gan y LXX. fel berf, am *fesur ŷd*, i gyfateb y gair *Heb.* כלכל *porthi, maethu,* (Gen. 47. 12.) ar ymyl y ddalen, *fel bwydo plentyn.*

CYFLWR—YRAU, (llwr) ansawdd, helynt, gradd, agwedd, sefyllfa, tueddiad, tymher. Preg. 3. 18. Phil. 4. 11. Ezec. 16. 55. Heb. 11. 37.

CYFLWYN—O, (llwyn) rhoddi peth o wirfodd: anrhegu, gosod. Luc 2. 22. Col. 1. 22.

CYFLYM—DER—U, (llym) buan, chwimwth; parodol, bywus, craff. 1 Sam. 20. 38. Preg. 7. 9. a 9. 11. Esa. 60. 6. Mal. 3. 5.

CYFNESAF—IAID, (nesaf) cyfathrachwr, perthynas agos, câr, cyfaill. Lef. 25. 25. Job 19. 14. Ps. 38. 11. Edr. Cyfathrachwr.

CYFNEWID—IAD—AU, (newid) newidwriaeth, iawn, aralliad, cyfechwyn.—1. Iachâd o gystudd. Job 14. 14.——2. Darostyngedig i fod mewn un modd ar un pryd, ac mewn modd arall bryd arall. Neu, yn ymsymud yn debyg i'r haul, yr hwn sydd ar un pryd yn y dwyrain, yn peri dydd, bryd arall yn y gorllewin, yn peri nos. Weithiau yn tueddu tu a'r gogledd, i wneuthur hâf; bryd arall yn agosâu at y dehau, i beri y gauaf. Eithr gyda Duw, yr hwn yw Tad y goleuni, 'nid oes gyfnewidiad, na chysgod troedigaeth;' nid yw efe yn pellâu, yn codi, nac yn machludo; ond bob amser, yn agos at y rhai a'i hofnant, ac a alwant arno mewn gwirionedd. Iago 1. 17.——3. Yr hyn a roddir am beth arall; iawn, newidiaeth. Lef. 27. 10. Mat. 16. 26. Marc 8. 37.

CYFNEWID—WYR, (newid) arianwyr, arianydd-wyr (*Bankers*) cyfnewidwyr arian. Mat. 25. 27. Luc 18. 23.

CYFNOD—AU, (nod) cyswllt, arfod, amser; ysbaid amser gosodedig.—'Ac yn nghyfnod y flwyddyn y daeth llu y Syriaid yn ei erbyn ef.' 2 Cron. 24. 23 Dr. M.

CYFNOS—AU, (nos) 1. Hwyr, dechreunos, gwyll y nos. Diar. 7. 9.——2. O dri o'r gloch y prydnawn hyd fachlud haul, pan fyddo yr haul ar ei ogwyddiad, sef o gylch hanner ei ogwyddiad hyd ei fachludiad. Dyna y pryd yr oedd yr oen pasc i gael ei ladd, rhwng y ddau hwyr: yn nghylch yr un pryd hefyd yr offrymid yr aberth prydnawnol. Dechreuwyd croeshoeliad Crist ar y drydedd awr, hyny yw, am naw o'r gloch y boreu, amser yr aberth boreuol; diweddodd ei groeshoeliad ar y nawfed awr, sef tri o'r gloch yn y prydnawn, amser yr aberth prydnawnol. O'r chweched awr hyd y nawfed y bu y tywyllwch ar yr holl ddaear, sef o ddeuddeg o'r gloch hyd dri. Ar y nawfed awr y dolefodd yr Iesu, ac a ymadawodd â'r ysbryd. Marc 15. 25, 33, 37. Dyna yr awr y byddid arferol o offrwm y pasc. Crist, y gwir Oen Pasc, a laddwyd yn mhrydnawn y byd, yn yr amseroedd diweddaf. Exod. 12. 3—11. Ezra 9. 6. Edr. Pasc.

CYFOD—I, (cwf) codiad, cwnfad, dyrchafiad; codi, cwnu, dyrchafu —1. Tarddu, neu ddyfod o blith. Act. 20. 30.——2. Sefyll i fynu. Gen. 31. 35. Galar. 1. 14. Hab. 2. 19.——3. Ymddangos yn fwy gogoneddus. Mal. 4. 2.

CYFOED—ION, (oed) cyfoeswr, cydoed; rhai o'r un oed. Gal. 1. 14.

*Cyfoed fydd da a dedwydd. Diar.*

CYFOETH—AU, (oeth) gallu, awdurdod; golud' meddiannau, eiddo. dâ, pethau y bywyd hwn. Gen. 13. 6. a 26. 24. Diar. 1. 13.—'A gofyn o ba gyvoeth ydd han oedd.' Act. 23. 34. W. S. Sef, o ba lywodraeth, talaeth, neu ardal.——'Yn ol cyfoeth gras Crist,' y mae maddeuant pechodau yn dyfod i'r saint. Eph. 1. 7. Edr. Gras.

CYFOETHOG—ION, (cyfoeth) galluog, goludog. —1. Y rhai y mae ganddynt lawer o dda yn y byd hwn. Gen. 13. 2. Exod. 30. 15. Marc 12. 41. Iago 1. 10, 11.——2. Y cyfryw a hyderant yn eu llwyddiant allanol. Luc 6. 24.——3. Y rhai y mae ganddynt helaethrwydd o ras a doniau ysbrydol, a hawl i fywyd a dedwyddwch tragywyddol. Iago 2. 5.——4. Y cyfryw a dybiant fod ganddynt helaethrwydd o ras a doniau ysbrydol, tra y maent etto yn amddifaid o honynt. Dat. 3. 17.——5. Dynion doethion, synwyrol, wedi eu haddurno â helaethrwydd o ddoniau rhagorol. Preg. 10. 6.——Y mae Duw yn gyfoethog, ac y mae ganddo bob helaethrwydd o ras a thrugaredd ynddo ei hun, ac y mae efe yn dra pharod i roddi pethau mawrion a da i bechaduriaid. Eph. 2. 4.

CYFRAID—EIDIAU, (cyf-rhaid) cymhesurwydd, addasran, gweddeidd-ran; rhan angenrheidiol at gynnaliaeth. Act. 20. 24. Phil. 2. 25.

CYFRAITH—EITHIAU, (rhaith) gosodedigaeth, deddf Cytundeb rhwng pleidiau i wneuthur rheol llywodraeth. Cyfraith wladol y sydd, neu a ddylai fod, yn osodedigaeth gyflawn, wneuthuredig o gyfundeb y brenin a'i deyrnas. Trefn llywodraeth ydyw cyfraith; yn cynnwys y rheolau wrth ba rai y mae yn rhaid i'r llywydd a'i ddeiliaid agweddu. Y gyfraith ydyw y rheol sydd gan gyfiawnder i fesur gweithredoedd a moesau dynion.

Gan fod dynion yn feidrol, yn anmherffaith, yn annhrugarogion, yn anghyfiawn, ac yn greulawn, y mae eu cyfreithiau a'u gosodiadau yn ddarostyngedig i fod

Digitized by Google

felly hefyd. Trefn a gosodiad gwladol ymerodraeth Brydain sydd agosaf at berffeithrwydd, tebygol, o un a fu ar y ddaear erioed. Mae pawb yn ddarostyngedig i'r gyfraith, a'r gyfraith hòno yn edrych gyd â'r un golwg uniawn, gyflawn, ar y naill a'r llall. Nid ydyw trigfanau a meddiannau y tlodion yn ddim llai diogel na'r eiddo y cyfoethogion; a bywydau y naill yr un mor werthfawr a bywydau y lleill. Annrhaethol yw y fraint o fyw dan y fath osodiadau uniawn a chywir.

Ond un gosodwr cyfraith sydd, a phob anmherffeithrwydd ac anghyfiawnder yn anfeidrol bell oddi wrtho, sef DUW. Y mae ganddo awdurdod i osod cyfraith i bawb, canys ei greaduriaid ef ydyw pob peth. Y mae ganddo, hefyd, bob cymhwysder i'r cyfryw orchwyl tra phwysfawr. Y mae yn anfeidrol ddoeth, ac yn berffaith wybodus o bob creadur, yn ei holl amgylchiadau, ei dueddiadau, ei gysylltiadau, a'i derfynau. Y mae yn hanfodol gyfiawn, ac nis gall orchymyn ond yr hyn sydd uniawn, cymhwys, a llesol, yn ol ei berffaith wybodaeth am ansawdd a natur pob creadur. Bod y fath un a Duw yn gosod cyfreithiau allan, sydd achos teilwng o'r llawenydd a'r gorfoledd mwyaf. Y mae felly yn y nefoedd, ac a fyddai felly ar y ddaear hefyd, oni bai ein hollol anadnabyddiaeth o'r Duw hwn, a'n gelyniaeth tu ag ato ef a'i lywodraeth.

Y mae y Duw anfeidrol hwn wedi ymostwng i roddi cyfraith i ni ddynion ar y ddaear, ac y mae hi, fel yr hwn a'i rhoddodd, 'yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda.' Dododd y Creawdwr mawr hi, ar y cyntaf, yn egwyddor, neu yn dueddiad sanctaidd tufewnol, yn meddwl y dyn yn ei greadigaeth. Yr oedd ei feddwl yn gweithredu yn berffaith uniawn yn mhob peth, fel y mae y gyfraith yn llefaru, heb un tueddiad croes i hyny ynddo. Ar ol ei droseddiad o orchymyn Duw, collodd y dyn y tueddiad a'r egwyddor sanctaidd hon o'i feddwl. Collodd wybodaeth gywir o bob peth: collodd sancteiddrwydd a chyfiawnder, fel egwyddor yn ei dueddu ef yn uniawn ac yn gryf at yr hyn sydd gyfiawn. Ond yn awr y mae efe gwedi tywyllu ei ddeall, a chwedi ymddyeithrio oddiwrth fuchedd Duw, trwy yr anwybodaeth sydd ynddo, trwy ddallineb ei galon. Gwedi hyn y mae yn dra thebygol i'r Arglwydd amlygu i Adda, ac i eraill o'i weision, a alwodd efe i wybodaeth o'r gwirionedd, o bryd i bryd, swm y gyfraith, yn ei hamrywiol orchymynion. Yr oedd eilun-addoliaeth, halogiad y Sabboth, anufudd-dod i rïeni, llofruddiaeth, godineb, a lladrata, a cham-dystiolaeth, yn cael edrych arnynt, gan yr hen batrieirch, yn bechodau gwarthus, teilwng o gospedigaeth, cyn rhoddiad y gyfraith ar Sinai. Gen. iv, a vi, a 9. 5, 6, 22, 23, 24, 25. a 12. 14. a 18. 20. a 19. 5. a 20. 2, &c. a xxxiv, a xxxviii, a xxxix, *in toto*. Y mae yn dra thebygol i hâd Abraham golli llawer, a dirywio yn eu hadnabyddiaeth o'r gyfraith, yn gystal ag o Dduw, y rhoddwr o honi, tra y buont yn eu caethiwed hir a chaled, yn yr Aipht. Yn y trydydd mis wedi eu dwyn allan oddi yno i'r anialwch, ymddangosodd IEHOFAH mewn modd newydd, rhyfedd, a dychrynadwy iawn iddynt ar fynydd Sinai, ac a roddodd grynodeb o'r gyfraith iddynt mewn deg o orchymynion, byrion, a chynnwysfawr hynod.* Rhoddwyd hi o ganol y mwg, y tywyllwch, a'r tân fflamllyd, gwedi ei hysgrifenu â bys Duw, ar ddwy o lechau ceryg. Rhoddodd Duw y gyfraith yn y modd dychrynadwy hwn, i'r dyben i ddangos i bawb y parch mwyaf iddi, a'i ddigofaint tanllyd yn erbyn y troseddwyr o honi; ac i ddangos i bechaduriaid eu hangen anhebgorol o iawn yn ei hwyneb, ac o gyfryngwr rhyngddynt â Duw.

Y mae y pedwar gorchymyn cyntaf yn cynnwys ein dyled tu ag at Dduw, gwedi eu hysgrifenu ar un lech; a'r chwech olaf yn cynnwys ein dyledswydd tu ag at ein gilydd, ar y llech arall. Swm, neu grynodeb y gyfraith, ydyw cariad; sef caru Duw â'n holl galon, a charu ein cymydog fel ni ein hunain. 'Canys hyn, Na odineba, Na ladd, Na latrata, Na ddwg gam-dystiolaeth, Na thrachwanta; ac od oes un gorchymyn arall, y mae gwedi ei gynnwys yn gryno yn yr ymadrodd hwn, Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Rhuf xiii, *ult*. Mat. 22. 37—40.

1. Y mae Duw yn llefaru y gorchymynion yn y nifer unigol, megys wrth bob un ar ei ben ei hun; fel pe na byddai yn perthyn i neb arall ond efe; fel na byddo gan neb ddim esgus; a gorfydd i bob un roddi cyfrif i Dduw am y trosedd o honynt.

2. Y maent hefyd wedi eu rhoddi, gan mwyaf, mewn ystyr nacäol, i wahardd pechodau; yr hyn sydd yn arwydd o lwgr ein natur, a'n tueddiad cryf i'r hyn sydd yn groes iddynt.

3. Y mae awdurdod oruchel Duw yn y naill fel y llall, fel nas gellir troseddu un o honynt heb droseddu yr holl gyfraith.

4. Y maent yn dra ëang, yn yr ystyr o honynt, ac yn rhwymo yr holl ddyn, gorph ac enaid, bob amser, yn mhob peth, i ufudd-dod, neu i gospedigaeth am anufudd-dod. Ps. 119. 66.

5. Y mae Duw ynddynt yn gorchymyn pob dyledswydd croes i'r pechodau a waherddir; ac yn gwahardd pob pechod croes i'r dyledswyddau a orchymynir ynddynt. Nid oedd neb ond Duw ei hun yn abl rhoddi cymaint ystyr a sylwedd mater mewn mor ychydig eiriau. Y mae y deng air yn mynegi i ni anfeidrol berffeithrwydd, hawddgarwch, cyfiawnder, uniondeb, sancteiddrwydd, a daioni Duw; yn nghyd â'r agwedd hòno o barch, ffydd, cariad, ufudd-dod, ac addoliad, a weddai fod ar ein hysbrydoedd tu ag at y BOD gogoneddus hwn bob amser; a hyny yn cael ei ddangos yn ein geiriau, ein bucheddau, a'n hymarweddiad yn mhob peth. Y mae hyn yn ddyledus i ni roddi i Dduw â'n holl galon, â'n holl enaid, â'n holl feddwl, ac â'n holl nerth; (Marc 12. 33.) ac *anghyfiawnder i Dduw*, yr hwn yw yr anghyfiawnder gwaethaf a all fod, yw attal hyn oddi wrtho.

6. Y mae ein dyledswydd tu ag at ein gilydd yn cael ei gosod allan yn gyflawn o ran ein meddyliau, geiriau, a'n gweithredoedd, yn mhob sefyllfa, amgylchiad, a pherthynas, y sydd yn bosibl i ni fod ynddynt—ac yn y cwbl y mae 'y ddeddf yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda.' Nid yw yn gorchymyn i ni wneuthur i eraill ond yr hyn a ddymunem, yn yr unrhyw amgylchiadau, i eraill wneuthur i ninnau, ac sydd gyfiawn a da i ni wneuthur i'n gilydd.

7. Rhoddodd Duw y gyfraith i ddyn syrthiedig, nid fel y cai efe fywyd drwyddi, a thrwy ei ufudd-dod iddi; hyny nis dichon fod, ac yntau eisoes yn droseddwr—ond rhoddwyd hi, 1. I ddangos cyfiawn awdurdod Duw ar ei greaduriaid, er eu bod hwy wedi ei wrthod ef a'i wasanaeth.——2. I ddangos amldra ein camweddau; mawredd ein heuogrwydd ger bron Duw; a dyfnder ein llwgr. Rhuf. 5. 20. a 7. 7.——3. I ddangos hefyd ein hangen o Grist, fel Cyfryngwr, rhyngom a gofynion y ddeddf, a pherffeithrwydd ei ufudd-dod iddi, yr hwn yw 'diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un a'r y sydd yn credu.' Rhuf. 10. 4.——4. Ac hefyd i amlygu gwir waith yr Ysbryd Glân ar galonau ei bobl, yr hwn sydd yn ysgrifenu y gyfraith yn eu calonau, ac yn ei dodi yn eu meddyliau. Heb. 8. 10.

8. Y mae yn dra amlwg fod anwybodaeth o'r ddeddf yn fawr iawn yn y byd Cristionogol; hyny yw, o ran ei natur, ei heangder, ei manylrwydd, ei rhagoroldeb, ei pherffeithrwydd, a'i gogoniant: ac y mae yn dra sicr genyf fod canlyniadau niweidiol iawn yn tarddu oddiwrth yr anwybodaeth hwn. Sail deddfoldeb, a mam a mammaeth penrhyddid Antinomaidd ydyw anwybodaeth o'r ddeddf. Pwy a fedr ymddiried ynddo

* Yn nghylch rhaniad y Deg Gorchymyn cyfeirir y darllenydd at erthygl tra dyddorol yn Kitto's *Cyclopædia of Biblical Literature*, o dan y gair DECALOGUE.—C.

Digitized by Google

ei hun, a'i gyfiawnder ffiaidd a bratiog, yn yr olwg arno ei hun yn wyneb sancteiddrwydd a phurdeb y ddeddf? A phwy a welodd, yn y radd leiaf, ogoniant rhagorol y ddeddf, a ddymunai ryddid i'w thori, ac i fyw yn groes iddi? Gwaith Crist ydyw gwared ei bobl oddiwrth bechod, neu *ανομια (anomia) anghyfraith*, a'r melldithion dyledus i'r troseddwr am hyny—trwy yr hyn y mae yn cymmodi y ddeddf â'r pechadur, a'r pechadur â'r ddeddf. Gwir gogoneddus yw, mai Crist ydyw priod y credadyn, ac nid y ddeddf; ond er hyny, yn yr undeb â'r priod hwn, y mae yn cael nerth i ddwyn ffrwyth i Dduw—i ymhyfrydu yn nghyfraith Duw, yn ol y dyn oddi mewn—i ffieiddio ei hun, ac i werthfawrogi santeiddrwydd. Rhuf. 7. 22. Y mae yn dra sicr, mai yn ol y gradd o'n hadnabyddiaeth o'r ddeddf, y bydd ein hadnabyddiaeth *sylweddol* o Grist hefyd; ac na ddichon fod gan neb gariad gwirioneddol at Grist, heb fod ganddynt gariad at y ddeddf hefyd. Mynai Crist achub ei bobl: yr oedd hyn yn nghynghor, rhagluniad, ac arfaeth fawr y Drindod er tragywyddoldeb. Ond nid ydoedd yn unol â'r arfaeth ddaionus hon eu hachub hwynt trwy sathru y ddeddf dan draed. Buasai hyny, nid yn unig yn anaddas i Dduw, ac yn hollol groes i'w hanfod sanctaidd, ond yr oedd, hefyd, yn *anmhosibl*, canys troseddiad o'r ddeddf ydyw ei dinystr. Gwell oedd gan Grist wisgo cnawd, ufuddhau iddi yn ei berson ei hun drostynt, a marw dan ei melldithion, na'i gadael tan un gradd o ddirmyg a gwaradwydd. Pe byddai y gyfraith yn gyfiawn sydd yn damnio, a'r Gwaredwr sydd yn achub yn anghyfiawn, damnedigaeth yn sicr a fyddai yn fuddugoliaethus: ond gwaredigaeth gyfiawn i bechadur anghyfiawn, yn wyneb deddf gyfiawn, y mae yr efengyl yn ei chyhoeddi. *Grym* a gogoniant yr iechydwriaeth ydyw ei bod yn gyfiawn: am ei bod yn gyfiawn, hi a saif byth. Y mae hi mor gadarn a thragywyddol a Duw ei hun.

Edrychwn, gan hyny, ar y gyfraith; ac yn y drych hwn gwelwn Dduw yn anfeidrol ogoneddus mewn mawrhydi, cyfiawnder, a sancteiddrwydd—gwelwn ddyn yn bechadurus, i'r gradd eithaf, a phechod yn dra phechadurus—gwelwn hefyd, yn y drych hwn, berffeithrwydd annherfynol ufudd-dod a chyfiawnder Crist, yn nghyd â natur a gwerthfawrogrwydd gwaith yr Ysbryd Glân, yn adnewyddu pechadur yn ysbryd ei feddwl i ddelw Duw. Nid yr efengyl, nac ysbryd yr efengyl, sydd yn sathru y ddeddf; ond yr ysbryd o anghyfraith (*ανομια*) sydd ynom dan y cwymp, mewn rhyw ddull neu gilydd, sydd yn ymddangos yn elyniaethol iddi, ac am ryw ffordd i ddianc rhag cospedigaeth, er ei sathru tan draed. Ond na thwylled neb ei hun; nid oes ond un ffordd i achub pechadur; ac y mae hòno wedi ei phalmantu âg ufudd-dod Crist i'r gyfraith; a phob un ag sydd yn cerdded hòno, sydd hefyd yn ymhyfrydu yn nghyfraith Duw yn ol y dyn oddi mewn. Edr. Deddf.

CYFREITHLAWN, (cyfraith) yn un â'r gyfraith, yn cyfateb i'r gyfraith.—'Pob peth sydd gyfreithlawn i mi;' hyny yw, pob peth o ran bwydydd a diodydd, ag oedd waharddedig dan gyfraith Moses, ydynt gyfreithlawn i'w cymeryd, mewn cymedrolder, dan yr efengyl. *Cymedrolder* yw ein hunig reol. Ond etto, dylem mewn pethau cyfreithlawn gadw ein golwg ar lesâd ac adeiladaeth ein hunain a'n brodyr: canys nid ydynt, mewn llawer amgylchiad, yn llesâu ac yn adeiladu mwy nag yn eu gormodedd. 1 Cor. 10. 23.

Clywodd Paul, yn mharadwys, 'eiriau annhraethadwy, y rhai nid yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd;' clywodd eiriau nas galiesid eu hadrodd, neu, ynte, na chafodd awdurdod i'w hadrodd. Yr oeddynt er ei gysur a'i gynnaliaeth ei hun, yn ei waith tra phwysfawr, ac nid yn angenrheidiol eu hadrodd er adeiladaeth i'r eglwys yn gyffredinol. 2 Cor. 12. 4. *Gr. Αρρητα ρηματα—α ουκ ἐξον ανθρωπω λαλησαι, nad yw bosibl i ddyn eu hadrodd*; neu, nad yw gyfreithlawn, heb orchymyn neillduol i hyny.

'Ni a wyddom mai da yw y gyfraith, os arfer dyn hi yn gyfreithlawn.' 1 Tim. 1. 8. Ni a wyddom, ac ydym yn cyfaddef gyda sicrwydd gwybodaeth, fod y ddeddf yn dda. Y mae yn gyfiawn, yn hardd (*καλος*) yn ogoneddus, ac er llesâd i bawb; ond dichon peth da gael ei gam arferyd; felly y dichon y gyfraith dda gael ei harferyd yn anghyfreithlawn; ac yn y cam arferiad hwn nid yw yn dda i ni, er ei bod yn dda ynddi ei hun. Ei harfer yn gyfreithlawn (*νομιμως*) ydyw ei harfer i'r dyben y rhoddwyd hi. Nid i'r rhai cyfiawn y rhoddwyd hi; ni buasai raid wrthi pe buasem yn gyfiawn; oblegid troseddau y rhoddwyd hi, i'r rhai digyfraith ac anufudd, &c., i'w hargyhoeddi, eu hattal, a'u gwneuthur yn ddiesgus yn y diwedd. 'Oblegid troseddau,' y mae yn fuddiol i bawb i ddangos pechod; eu hangen am gyfiawnder mewn un arall; a'r angen sydd arnynt am gyfnewidiad calon a bywyd, trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân; ac i'w cyfarwyddo i gerdded llwybrau yn rhyngu bodd Duw.

'Od ymdrech neb, ni choronir ef, onid ymdrech yn gyfreithlawn;' (*νομιμως*) yn *ddeddfol*, yn ol y rheolau gosodedig. Gall un redeg yn gyflym, ond oni rêd efe yn y rhedegfa, yn rheolaidd, ni fydd ganddo un hawl i'r goron neu y wobr. Felly ninnau; oni bydd ein llafur ysbrydol o iawn egwyddor, i iawn ddyben, ac yn ol rheolau y Gair sanctaidd, ni bydd dim llwyddiant arno. Gallwn fod yn ymdrechwyr dyfal yn ol ein dychymygion ein hunain; ond ni byddwn byth yn orchfygwyr, heb ymdrechu yn gyfreithlawn. 2 Tim. 2. 5. 1 Cor. 9. 25.

CYFREITHIWR—WYR, (cyfraith-gwr) *Gr. Νομικος*; un yn deall ac yn trin y gyfraith. Swydd y cyfreithwyr oedd chwilio yr ysgrythyrau, a'u darllen a'u heglurhau i'r bobl; ac ateb yr ammheuon a allent gyfodi yn eu cylch. Y cyfreithwyr, yn gyffredin, oeddynt yn elynion i Grist, yn nyddiau ei gnawd, a wrthwynebasant gynghor Duw yn eu herbyn eu hunain, ac a euog-farnwyd ganddo, am iddynt osod beichiau trymach ar ysgwyddau eraill nag a ewyllysient hwy eu hunain ddwyn. Mat. 22. 35. Luc 7. 30. a 11. 45, 46. a 14. 3.—Y mae yr apostol yn sôn am Zenas y cyfreithiwr, fel un o blaid achos Crist a'i bobl. Zenas, tebygol, oedd gyfreithiwr Rhufeinaidd. Tit. 3. 13.

CYFRAN—AU—U, (cyf-rhan) dogn, gradd, mesur; agweddi, egweddi, engweddi, rhan. Preg. 9. 6. Ioan 13. 8. Act. 8. 21. a 26. 18. Rhuf. 15. 27. Edr. Rhan.—Cyfranu, yn gyffredinol, yn y Testament Newydd, a arwydda, rhoddi o ewyllys da ran i un a fyddo mewn angen o'r pethau daionus o eiddo Duw a fyddo genym, pa un bynag ai pethau y bywyd hwn at gynnaliaeth corph, ai doniau ysbrydol at les enaid. Rhuf. 1. 11. a 12. 13. Gal. 6. 6. Eph. 4. 28. Phil. 4. 15. 1 Thes. 2. 8. 1 Tim. 6. 19. Heb. 13. 16. Y gair *Gr. ευμεταδοτος*, sydd gynnwysfawr, ac a arwydda, cyfranu gyda pharodrwydd a hyfrydwch—neu fel y mae yn ein cyfieithiad ni yn o addas, 'Bod yn hawdd ganddynt gyfranu.' 1 Tim. 6. 18. Arwydda, yr haelioni tosturiol a pharod a ddylai fod yn y naill ddyn tu ag at y llall; sef rhanu o drugareddau yr Arglwydd, fel y byddo un yn derbyn gan Dduw, ac y byddo y llall mewn angen; a hyny o barodrwydd meddwl, a hyfrydwch calon.

'Yn iawn gyfranu gair y gwirionedd.' Y mae yr apostol yn annog Timotheus i fod yn yr eglwys fel pen-teulu yn y tŷ; trwy ei weinidogaeth i roddi i bob un ei ran o'r gair, yn ol fel y mae yn perthyn i'w gyflwr, ac amgylchiadau ei sefyllfa. Nid yw esbonwyr yn cytuno yn nghylch y gyffelybiaeth. Rhai a

Digitized by Google

dybiant mai oddiwrth yr offeiriaid a'r Lefiaid yn tori ac yn dadgymalu yr aberthau, gan wneuthur â hwynt yn ol y gosodiad yn y gyfraith, y cymerwyd hi. Eraill a dybiant, mai oddiwrth oruchwyliwr, neu benteulu, y rhai a roddant i bob un dan eu gofal fel y byddo eu hachosion yn gofyn. Eraill, mai oddiwrth y llafurwr yn cwyso ei dir yn gywir wrth ei aredig; —ac nid annhebyg iawn yw hyn; oblegid y mae yr apostol yn sôn am lafurwr yn y chweched adnod. 2 Tim. 2. 15.—Y peth sydd i'w gyfranu yw 'gair y gwirionedd'—sef yr efengyl—a elwir felly, oblegid mai tystiolaeth wir am Grist yw, yr hwn yw y gwirionedd y tystiolaethir am dano. *Iawn gyfranu yr efengyl*, yw ei chyhoeddi yn bur, heb ddim chwanegiad ati; *yn gyflawn*, heb dynu dim oddi wrthi, a thrwy hyny trin gair Duw yn dwyllodrus; *i'r iawn wrthddrychau*, sef pechaduriaid colledig, fel meddyginiaeth addas iddynt; a gosod allan yr holl wirioneddau yn eu priodol leoedd a'u cysylltiad â'u gilydd, a dangos yr effeithiau priodol iddynt o'u gwir gredu. Am y medrusrwydd ysbrydol hwn, y gweddai i'r rhai sydd yn gweinyddu y gair lafurio ac ymdrechu, trwy ddyfal weddi a myfyrdod; fel y byddont yn brofedig, yn gymeradwy, ac yn dderbyniol (δοκιμον) gan Dduw, yn ddifefl (ανεπαισχυντον) heb ddim achos cywilydd ger bron dynion. Y mae bod heb allu iawn gyfranu y gair, yn gwneuthur y cyfryw yn anmhrofedig, neu yn anghymeradwy ger bron Duw, ac yn anhardd ger bron dynion—a thrwy hyny yn hollol anghymhwys i'r weinidogaeth. Ond 'yr hwn sydd yn gwasanaethu Crist,' yn ffyddlawn, ac yn fedrus, 'yn y pethau hyn, sydd hoff gan Dduw, a chymeradwy gan ddynion.' Rhuf. 14. 18. Mat. 7. 29. a 24. 45. Marc 4. 33. Luc 12. 42. Rhuf. 16. 18. 2 Cor. 10. 18. Eph. 6. 19. Tit. 2. 7, 8.

'Fel y gwneler cyfraniad dy ffydd di yn nerthol.' *Gr.* Κοινωνια της πιστεως, *y ffydd yr wyt ti yn gyfranog o honi, yn nghyd â'r holl saint*; neu, trwy yr hon yr wyt yn cyfranu i'r holl saint. 'Yn gweithredu yn nerthol, trwy adnabod (neu eglurhad o) bob peth daionus sydd ynoch chwi,' sef yn Philemon a'i deulu, 'yn Nghrist Iesu,' fel ffrwyth o hono, a thu ag ato, ei achos, a'i bobl. Philem. 6.

CYFRANOG—ION, (rhan) bod â rhan yn.—Y mae y saint 'yn gyfranogion o'r galwedigaeth nefol.' Heb. 3. 1. Y maent oll wedi eu galw â'r un galwedigaeth, a hwnw yn nefol; nid yn ddaearol, fel galwedigaeth Abraham o Ur y Caldeaid. Y maent oll yn gyd-gyfranogion o'r holl fendithion gwerthfawr, a'r gogoniant goruchel perthynol i'r galwedigaeth hwnw. 'Fe a'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist.' Heb. 3. 14. Nid oeddynt felly wrth natur, ond gwnaed hwynt trwy ffydd yn gyfranogion o Grist, fel y mae efe, trwy undeb ysbrydol, yn gyflawn yn eiddo iddynt, yn ei berson, ei swyddau, a'i holl berthynasau. Y mae yn eiddo iddynt trwy roddiad y Tad—trwy ymroddiad Crist ei hun—trwy undeb yr Ysbryd—a thrwy eu ffydd a'u dewisiad eu hunain o hono; gan hyny y mae yn eiddo iddynt yn gyfreithlawn. Phil. 3. 7, 8, 9. 1 Ioan 5. 12. Ioan 1. 12. Er fod y saint yn gyfranogion o Grist, etto, nid rhan o Grist sydd ganddynt; eithr y mae gan bob un o honynt Grist cyflawn, yn ei berson, a'i holl swyddau.——Y maent yn 'gyfranogion o addewid Duw, a'r llesâd' sydd ynddi; y mae ganddynt hawl yn yr holl addewidion, trwy Grist, a hwy a gânt gyfranogi o'r holl fendithion a gynnwysir ynddynt. Eph. 3. 6. 1 Tim. 6. 2.——Y maent 'yn gyfranogion o'r duwiol anian,' ac o sancteiddrwydd Crist, pan, trwy undeb â Christ, a chymdeithas âg ef, y maent yn cael eu newid i'r unrhyw ddelw. 2 Petr 1. 4. Heb. 12. 10. *Duwiol anian:* θειας φυσεως. Y mae rhai awdwyr enwog yn barnu, nad yw eu cymhwyso yn unig at y cynneddfau grasol a gyfrenir i'r duwiolion yn yr ail-enedigaeth, yn gosod allan ystyr y geiriau yn y cyflawnder o honynt; ond eu bod yn gosod allan yr undeb dirgeledig rhwng Crist a'i bobl; preswyliad yr Ysbryd Glân ynddynt; eu cymundeb a'u cymdeithas â'r Tad ac â'i Fab ef, Iesu Grist—yr hyn bethau ydynt oll yn gynnwysedig yn yr addewidion. Gwel Dr. Owen *on Perseverance*; Dr. I. Gerhardius, *in loco*.——Y mae y saint hefyd 'yn gyfranogion o ddyoddefiadau Crist, a chystudd yr efengyl,' pan y maent yn cael eu herlid am lynu yn ngair Crist a'i ffyrdd. 1 Petr 4. 13. 2 Cor. 1. 7. 2 Tim. 1. 8.——Y maent 'yn gyfranogion o ras Paul,' a gweinidogion eraill, pan y maent yn derbyn addysg ysbrydol drwy eu gweinidogaeth. Phil. 1. 7.

Bod yn 'gyfranog o bechodau rhai eraill,' ydyw cydsynio â hwynt yn eu pechodau, a bod yn dychymygu, yn tueddu at, llawenhau yn, cynnorthwyo yn, neu fod yn gyfranog o fudd, neu fwyniant, eu pechodau; bod yn achos o honynt drwy siamplau drwg; eu hannog; peidio a'u hargyhoeddi; dadleu trostynt; peidio gweddïo a galaru o'u plegid. Dat. 18. 4. Eph. 5. 11.

CYFRGOLL—EDIG, (cyfor-coll) colledig, cwbl golledig, dystrywiedig; wedi cwbl ddarfod am dano; cyfieithiad addas o'r gair *Gr.* απολεω. Mat. 10. 6. a 18. 14. Ioan 10. 28. Rhuf. 2. 12.—'Map y cyfergoll.' 2 Thes. 2. 3. W. S. Edr. COLLEDIG.

CYFRIF—ON, (cyf-rhif) cyfrifiant, cyfrifiad; rhif, nifer, eirif, rhifed.—Arwydda, 1. Cyfartalu pethau wrth rif, trwy ddyfal ystyriaeth ac astudrwydd. Mat. 10. 30. a 18. 23. Rhuf. 14. 12.——2. Edrych ar beth gyda golwg barchus, gan ei fawrhau. Ps. 144. 3. Esa. 2. 22. a 53. 3. Act. 20. 24. 2 Thes. 5. 13.——3. Bwrw neu ddyfalu rhyw beth, yn ol y wybodaeth a fyddo genym o hono; y parch a'r bri a fyddo genym iddo. Phil. 3. 8.——4. Barnu i un, yn ol y gyfraith, yr hyn oedd efe ei hun, neu arall yn ei le, wedi ei wneuthur, mewn trefn i'w gospi, neu i'w wobrwyo am dano; megys y dywedodd Paul, yn ei lythyr, wrth Philemon, yn mherthynas i Onesimus, gwas Philemon, yr hwn a fuasai euog o ryw drosedd yn erbyn ei feistr: medd Paul wrtho ef, 'Os gwnaeth efe ddim cam â thi, neu os yw yn dy ddyled, cyfrif hyny arnaf fi.' Bydded ei drosedd ef yn dy olwg megys pe buaswn i yn euog o hono yn ei le; a myfi a unionaf y cam a wnaeth efe â thi, ac a dalaf ei holl ddyled; ac os ydwyt yn garedig tu ag ataf fi, bydded genyt yr un caredigrwydd tu ag ato ef, 'derbyn ef fel myfi.' Philem. 17, 18, 19.——Yn debyg i hyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder i ddyn heb weithredoedd; pan y byddo ufudd-dod a dyoddefiadau Crist, dros, ac yn lle y pechadur, yn cael ei roddi yn gyfreithlawn at gyfrif y troseddwr euog, fel pe buasai ef wedi ei wneuthur yn ei berson ei hun, a hyny i'w wneuthur yn gyfiawn ger bron Duw y barnwr. Ps. 32. 1, 2. Rhuf. 4. 6, 11. Edr. CYFIAWNHAU.

CYFRIFOL, a CHYFRIOL, (bri) briol, anrhydeddus, enwog; yn haeddu parch. Gal. 2. 2, 6.

CYFRINACH—AU—U, (cyfrin) rhin, dirgelwch; cymdeithasu. Yr hyn a ddyweder, neu a wneler yn ddirgel. Gen. 49. 6. Barn. 3. 19. Act. 5. 2.

Nid *cyfrinach* ond rhwng dau. *Diar.*

'Cyfrinach Duw;'—dirgelwch Duw, peth dirgeledig gyda Duw. Y mae dirgeledigaethau rhagluniaethol ac athrawiaethol, ac y mae Duw yn eu hysbysu i'w bobl trwy ei air a'i Ysbryd, a chyflawniad ei ragluniaethau. Amos 3. 7. Ps. 25. 14. Ioan 15. 15. Diar. 3. 22. Ioan 7. 17. Ond y mae dirgeledigaethau meddwl a chynghor Duw yn anfeidrol, ac hysbys yn unig iddo ef ei hun. Deut. 29. 29.

CYFRODEDD, (cyfrod) cyd-blethiad; cyd-blethu,

Digitized by Google

nydd-droi, amdroi, amnyddu.—'Llian main cyfrodedd.' Exod. 26. 1, 31. a 36. 37. a 27. 9, 16, 18. a 38. 9, 10, 18. Sef llian, â'r edau wedi eu cyd-blethu, a'u nydd-droi, yr hyn oedd yn eu gwneyd yn gryfach, ac yn fwy parhaus.

Cadarnach yw yr edau yn *gyfrodedd* nac yn ungorn. *Diar.*

Yr oedd pob peth yn perthyn i'r babell a'r gwasanaeth yno, wedi eu gwneyd yn y modd, ac o'r defnydd goreu. Y goreu sydd yn gweddu i Dduw o bob peth, a phob amser, ac yn mhob modd.

CYFRWY—AU, (rhwy) dibr, gobell, ysdarn; cyfrwy untuog, cyfrwy merch. Offeryn i farchogaeth arno. Lef. 15. 9.

CYFRWYS—DRA, (rhwys) call, dichellgar, ystrywgar, cadnoaidd, ffelgraff. 1 Sam 23. 22. Job 5. 12. 2 Cor. 12. 16. 2 Petr 1. 16. Eph. 4. 14.

Nid *cyfrwys* ond *epa*. *Diar.*

CYFRYNGWR, (cyf-rhwng) canolydd, eiriolwr; cyflafareddwr, dyddiwr, cyfrwng-farnydd; gwr canol rhwng dwy blaid anghytun. *Gr.* *Μεσιτης*, *gŵr canol*. Nid yw y gair cyfryngwr yn arferedig yn yr Hen Destament: y gair *Heb.* מליץ a gyfieithir *dyddiwr*, (Job 9. 33.) a arwydda, *arddangoswr*, *eglurwr*; neu un yn trefnu ac yn egluro achosion rhwng pleidiau anghytunol, yn ddiduedd, ac mewn uniondeb ar bob llaw. *Dyddiwr* yw y cyfieithiad o'r gair *Daysman* yn Saesonaeg,—Μεσιτης, gan y LXX. Edr. DYDDIWR.

Y mae yn ofynol mewn cyfryngwr addas ei fod mor agos i'r naill blaid ag i'r llall—ei fod o ddewisiad, a thrwy foddlonrwydd y ddwy blaid—ei fod, nid yn unig yn feddiannol o egwyddor uniawn, ac yn ewyllysio gwneuthur cyfiawnder, ond ei fod, hefyd, yn gymhwys o ran deall a gwybodaeth, i allu barnu pa rai ydynt ofynion cyfiawn y ddwy blaid; rhaid iddo, hefyd, o'i fodd a'i wir ewyllys ei hun gymeryd y gwaith arno, a phob plaid yn ymddiried iddo, ac yn ymrwymo i sefyll wrth ei gyflafareddiad; ac yn olaf, y mae yn angenrheidiol iddo allu ymrwymo am gyflawniad ammodau o bob tu.

1. Daeth anghytundeb mawr, trwy bechod, rhwng Duw a dynion: y mae pellder anfeidrol rhwng y ddwy blaid; ac nid oes modd byth i'w cymmodi, heb ŵr canol addas rhyngddynt.

2. Y mae yr Arglwydd Iesu Grist, o'i wir fodd, a thrwy drefniad dwyfol, wedi cymeryd y gwaith arno o gyfryngu rhyngddynt. Y mae y Tad wedi ymfoddloni ynddo, ac wedi ymddiried iddo am bob peth perthynol i'w ogoniant, i anrhydedd ei briodoliaethau, ei gyfraith, a'i lywodraeth; bydd pawb o'r blaid arall, cyfranogion o'r cymmod, yn hollol foddlawn fod eu hachos yn ei law, ac ymostyngant gyda hyfrydwch i ammodau y cyfammod hedd.

3. Y mae Iesu Grist yn hollol gymhwys, o ran ei berson, i'r swydd a'r gwaith tra phwysig hwn. Yr oedd yn angenrheidiol iddo fod yn ganol ŵr o ran ei berson, mewn trefn i fod yn Gyfryngwr o ran ei swydd. Pe buasai yn Dduw yn unig, buasai yn Gyfryngwr rhy uchel ar du dyn; pe buasai yn ddyn yn unig, buasai yn Gyfryngwr rhy isel ar du Duw: ond gan ei fod yn Immanuel, Duw-ddyn, y mae yn Gyfryngwr cymhwys rhwng Duw a dynion. Gan ei fod yn Berson Dwyfol, ac yn Fab y dyn hefyd, y mae yn gydradd â'r ddwy blaid; y mae yn ddigon uchel mewn mawrhydi i'r naill, ac yn ddigon isel mewn natur a chyd-deimlad â'r llall. Y mae natur y ddwy blaid yn berffaith yn cyfarfod yn ei Berson gogoneddus. Y mae yn berffaith Dduw ac yn berffaith ddyn, yn un person. Un, nid gan gymysgu y sylwedd, ond trwy undeb person.

4. Gan ei fod yn Berson Dwyfol, y mae yn hollol gymhwys o ran deall a gwybodaeth, i amgyffred a barnu yn addas am ofynion y Duwdod. 'Y mae y Mab yn adnabod y Tad—aneirif yw ei ddeall.' Mat. 11. 27. Ps. 147. 5. Y mae holl anfeidrol fawrhydi, perffeithrwydd, a gogoniant y Duwdod, yn gwbl adnabyddus iddo; a gall fesur a phwyso y dianrhydedd anfeidrol a wnaed iddo, trwy bechod dyn. Y mae graddau y bai a'r anghyfiawnder yn y naill blaid, a gofynion cyfiawn y blaid a gafodd y cam, yn gwbl wybodus iddo. Y mae yn hanfodol gyfiawn, fel na chynnyg wneuthur cymmod, ond ar ammodau perffaith uniawn. Ond pa fodd, meddwch, y daw y cymmod byth i ben, gan fod gofynion y naill yn anfeidrol fawr ac yn gyfiawn, a'r llall yn hollol dlawd i'w hateb? I ddattod y cwlwm, a symud yr anhawsdra anfeidrol hwn oddiar ffordd y cymmod, ymrwymodd y Cyfryngwr yn Fechnïydd dros y dyn. A chan fod y dyndod gwedi ei gymeryd at Dduw yn ei berson, y mae ynddo gyflawnder ac addasrwydd i sicrhau y cyfammod hedd, trwy gyflawni yr holl ofynion dwyfol ar ran dyn. Yn y Cyfryngwr, gan hyny, y mae y cyfammod wedi ei luniaethu yn hollol, gan anfeidrol ddoethineb, a iechydwriaeth gyflawn ynddo yn sicr ac yn dragywyddol, gan fod yr holl ammodau gwedi eu cyflawni, a'r cyfammod gwedi ei gadarnhau, a'i selio â gwaed y Cyfryngwr. Yn y drefn ryfedd hon, y mae mawr amryw ddoethineb Duw, ac ëangder difesur cariad Dwyfol yn cyd-ddysgleirio. Y benaf o ffyrdd Duw ydyw. Y mae y Personau Dwyfol yn cyd-lawenhau ynddi er tragywyddoldeb, a daw yr holl eglwys fawr i gyd-orfoleddu o'i phlegid, dros byth. Diar. 8. 30, 31. Seph. 3. 17. Jer. 32. 41. Deut. 30. 9. 1 Tim. 2. 5. Heb. 8. 6. a 12. 24.

'Pwy yn ystyried y pethau hyn yn y goleu (medd Witsius dduwiol) a all beidio tori allan mewn gorfoledd a mawl i'r Duw anfeidrol sanctaidd, cyfiawn, cywir, da, a gogoneddus! O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! O ddirgelwch y mae yr angelion yn chwennych edrych iddo! Gogoniant i'r Tad, yr hwn a drefnodd, a roddodd, ac a dderbyniodd y fath Gyfryngwr a Mechnïydd! Gogoniant i'r Mab, yr hwn o'i wir fodd a wisgodd ein natur, a fechnïodd drosom ni, ac a aeth trwy y cwbl gyd â'r fath amynedd a ffyddlondeb! Gogoniant i'r Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn dangos, yn tystiolaethu, ac yn ernes o'r fath ddedwyddwch annrhaethol i ni! Parch i Ti, O Iesu, gwir a thragywyddol Dduw, gwir ddyn dihalog, y ddwy natur, mewn undeb personol, a chynneddfau priodol pob un o honynt, heb eu colli, ar unwaith yn dy Berson! Ti a folwn—ti a gydnabyddwn—atat ti y deuwn—wrth dy draed yr ymostyngwn—ac o'th law yn unig y dysgwyliwn am iechydwriaeth! Ti yw yr unig Waredwr. Dymunem fod yn drysor priodol i ti: yr ydym felly trwy dy ras, ac a barhawn felly yn dragywydd. Bydded i holl fyd dy etholedigion dy adnabod gyda ni, dy gydnabod a'th addoli, ac felly gael eu hachub trwot ti. Hyn yw swm a sylwedd ein ffydd, ein gobaith, a'n dymuniadau penaf! Amen.'

Yr oedd Moses, fel cyfryngwr rhwng Duw ac Israel, yn gysgod hynod o Grist—ond bod Crist yn rhagori yn anfeidrol arno. Mwy na Moses yw, fel y mae yn fwy na phawb. Derbyniodd Moses y gyfraith danllyd gan Dduw, cyhoeddodd hi i'r bobl, ac a eiriolodd drostynt; ond nid oedd Moses yn abl ei chyflawni drostynt, a'u prynu oddiwrth ei melldith: ond 'Crist a'n llwyr brynodd oddiwrth felldith y ddeddf.' Gal. 3. 13, 19, 20.

'Cyfryngwr nid yw i un'—nid oes angen am gyfryngwr ond lle byddo dwy blaid, a'r ddwy blaid hyny mewn ymrafael. 'Ond Duw sydd un'—un anfeidrol FOD yw Duw, yn berffaith dda a chyfiawn, gyd â'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth—gan hyny, os oes, trwy ryw ymrafael, angen am gyfryngwr rhwng Duw a dynion, y mae yn rhaid bod y bai yn gwbl ar y dyn, ac er llesâd y dyn y mae y

Digitized by Google

Cyfryngwr wedi ei drefnu. Yr un yw Duw o hyd, ond dyn sydd wedi colli ei le priodol, trwy droseddu y gyfraith. Gal. 3. 20.

CYFRYW, (cyf-rhyw) o'r un rhyw, cyffelyb, tebyg, y fath. Mae y gair yn gyffredinol yn cael ei arfer yn y radd gymhariaethol, megys 'Ymaith â'r cyfryw un.' Act. 22. 22.—'Yn erbyn y cyfryw nid oes deddf,' &c. Gal. 5. 23. Rhuf. 1. 23. 2 Cor. 10. 11. 3 Ioan 8.

CYFYL, (byl) agosrwydd; agos, yn agos, cyferbyn, yn ngŵydd.

Ni ddaw drwg yn dy *gyfyl*. *E. Prys*, (Ps. 91. 7.)

CYFYNG—DER—AU—DRA, (cyfyng) culni, anëangdra; gofid, cyni, dyryswch, a gwasgfa meddwl; trallod, caledwch, ac adfyd. Y gair *Heb.* צר yr hwn a gyfieithir *cyfyngder*, a ateb i'r holl eiriau uchod, ac amryw yn rhagor o'r un natur. Deut. 31. 17. Job 5. 19. Ps. 4. 1. a 25. 17. Diar. 11. 8. 2 Cor. 2. 4.

CYFF—ION, (cyf) corph pren, boncyff:—cyff pren; cyff gwenyn; cyff cler; cyff elusen.

Cyff Cenedl, tadog, neu wreidd-gorph cenedl.

Cyff Jesse, teulu breninol Dafydd, mab Jesse; yr hwn oedd wedi myned yn isel, a diflagur iawn, pan darddodd y Messïah allan o hono. Esa. 11. 1.

Cyffion, 1. Darnau o goed wedi eu gwneuthur yn ddelwau; gau dduwiau, y rhai yr ymofynid â hwynt gan eilun-addolwyr. Hos. 4. 12.——2. Math o beiriant a wnaed o gyffion, neu ddarnau o goed, i gospi, neu boenydio, drwg-weithredwyr âg ef: yn yr hwn yr eisteddai un mewn modd tra anesmwyth, yn crogi megys gerfydd ei goesau. Jer. 29. 26. Act. 16. 24.——Trallod blin a gofidus a gyffelybir i gyffion. Job 13. 27.

CYFFAITH, (ffaith) cymysg; ancwyn.—'Can ys y maent heb gyffeith gair bron trwn Dyw.' Dat. 14. 5. W. S.

CYFFELYB, (cyffal) cynnhebyg, cyhafal, eilior, cyfeisor; o'r un dull ac agwedd. Exod. 7. 22. Job 1. 8.

Pob *cyffelyb* a ymgais. *Diar.*

CYFFELYBRWYDD—IAETH—AU, (cyffelyb) cynnhebygrwydd, lledrith, tebygoliaeth. Deut. 4. 16. Hos. 12. 10.——'Ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion.' Phil. 2. 7. Efe a wnaed yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr; efe a gymerodd arno holl wendidau y natur ddynol, etto heb bechod. Heb. 2. 17. Rhuf. 8. 3.——'Y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda,' ydyw plant bychain, y rhai ni phechasant yn weithredol, fel Adda, ond ydynt yn bechaduriaid gwreiddiol ynddo, a thrwy hyny ydynt ddarostyngedig i farwolaeth. Rhuf. 5. 14.——'O ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth.' Heb. 11. 19. Edr. Isaac.

CYFFES—ION—U, (ffes) addefiad, proffes, tystiolaeth: *Gr.* *ομολογια*, *am ryw yn addef yr un peth.* 2 Cor. 9. 13. Heb. 3. 1. a 10. 23.

Cyffesu a arwydda, 1. Cydnabod a chyfaddef yn ddirgel, fel y gwna troseddwr o flaen barnwr. Jos. 7. 19. Ps. 32. 5.——2. Addef neu arddelwi rhyw beth yn gyhoeddus, fel yn eiddo i ni; felly y cyffesa Crist ei bobl yn nydd mawr y farn. Y maent hwy yn ei gyffesu, ac yn dal perthynas âg ef, drwy eu geiriau, eu bywyd, a'u hymarweddiad yn y byd; gan ufuddhau i'w orchymynion yn ngwyneb gwrthwynebiadau a phrofedigaethau y byd, cnawd, a diafol. Yntau a'u cyffesa hwythau ger bron ei Dad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Mat. 10. 32.——3. Clodfori a moliannu enw yr Arglwydd. Heb. 13. 15.——4. Addef pechodau mewn gweddi o flaen Duw, gyda thristwch duwiol am danynt, yr hyn yw ffrwyth argyhoeddiad, neu wrth ryw ddyn duwiol, proffadol; oddiwrth yr hwn y dysgwyliom gael cysur, neu addysg. Ps. 32. 5. Mat. 3. 6. Iago 5. 16.

Yr ydoedd yn ddeddf yn Israel i'r arch-offeiriad, ar ddydd y cymmod blynyddol, yr hwn oedd ar y degfed dydd o'r seithfed mis, wneuthur cyffes i Dduw, yn enw yr holl bobl, gan osod ei ddwylaw ar ben bwch byw, yr hwn wedi ei ollwng yn rhydd, neu yn ddiangol, oedd, yn gysgodol, yn dwyn ymaith holl anwireddau meibion Israel. Lef. 16. 21. Cysgod o Grist, yr hwn y rhoddwyd holl anwireddau ei bobl arno, ac efe a'u dug yn ei gorph ei hun ar y pren. Dywedir y byddai yr Iuddewon, am ddeng niwrnod o flaen dydd y cymmod, yn gwneuthur cyffesion neillduol, pob un o'i bechodau ei hun; os troseddiadau a fyddent o'r llech gyntaf, cyffesent hwy i Dduw yn unig; os byddent yn droseddiadau o'r ail lech, cyffesent hwynt hefyd i'r rhai y gwnaethent gam â hwynt.—Arwydda cyffes, weithiau, yr hyn a gyffesir, sef crefydd Crist. Heb. 3. 1.

CYFFIN—IAU, CYFFINYDD—IAU, (ffin) terfyn; bargod; terfynau; bargodion, godreuon. Jos. 13. 26. Mat. 4. 14.

CYFFRO—AD—AU—OI, (ffro) 1. Annog. Hos. 12. 14. 2 Petr 1. 13.——2. Codi terfysg, terfysgu. Ruth 1. 19. Act. 17. 5.——3. Cynhyrfu, ymgynhyrfu. Ps. 39. 2. a 77. 18.

CYFFREDIN—OL, (cyffred) cyfoll, hollol, arferol.—1. Y bobl gyffredin, isafiaid: y rhai a elwid, yn ol rhediad yr iaith Hebraeg, *meibion dynion*, neu *feibion y bobl*; mewn cyferbyniad i'r uchafiaid, y rhai a elwid *meibion gwyr*. Jer. 26. 23. Ezec. 23. 42. Ps. 62. 9. Canys felly y barnodd ein cyfieithwyr ni, a'r Saeson hefyd, am y geiriau *Heb.* בני אדם gwreng (*men of low degree*) בני איש (*men of high degree*) Ps. 49. 2. Ond hwyrach nad oedd sail ddigonol i'r tyb hwn.——2. Yr hyn a fernid yn aflan wrth y gyfraith. Act. 10. 14. a 11. 9.——3. Peth halogedig; sef heb ei olchi. Marc 7. 2.——4. Peth heb ei gysegru, neu ei neillduo at wasanaeth Duw. 1 Sam. 21. 4.——5. Yr hyn y mae yr un rhyddid i'r naill a'r llall ddyfod ato, a'r un hawl ynddo. Jer. 31. 5.——6. Yr hyn sydd yn perthyn i bob un o'r gymdeithas, y naill fel y llall. Act. 4. 32.——7. Yr hyn sydd yn pethyn i holl blant Duw, y naill fel y llall, yn ddiwahaniaeth, megys ffydd, Tit. 1. 4. ac iechydwriaeth, Judas 3. yr hon a gyhoeddir i bawb yn gyffredinol, ac a dderbynir gan bawb a gedwir i fywyd tragywyddol. Edr. Gwreng, Iechydwriaeth.

Câs *cyffredin* heb gyfraith. *Diar.*

CYFFWRDD, CYHWRDD, (hwrdd) 1. Teimlo yn arafaidd. Luc 8. 44.——2. Gwneyd niwed i un. Gen. 26. 11. Ruth 2. 9.——3. Dinystrio, neu orchfygu. Heb. 11. 28.——4. Cyd-orwedd â gwraig. Gen. 20. 6. Diar. 6. 29. 1 Cor. 7. 1.——5. Gafael mewn peth, ymhel â. Num. 16. 26.——Mae Duw yn 'cyffwrdd â chalonau dynion,' pan y mae yn eu tueddu at ryw beth. 1 Sam. 10. 26.——Mae Duw yn 'cyffwrdd â'r ddaear, nes y mae hi yn toddi,' pan y mae yn anfon ei farnedigaethau dychrynllyd ar ei thrigolion. Amos 9. 5.——'Efe a gyffwrdd â'r mynyddoedd, a hwy a fygant,' pan fyddo efe yn symud pob rhwystrau, yn hawdd, oddiar ei ffordd, ac yn darostwng y balch a'r uchel. Ps. 144. 5.——Nid oedd Alexander a'i lu 'yn cyffwrdd â'r ddaear,' yn eu hymdaith yn erbyn y Persiaid; sef teithient gyd â'r fath gyflymdra aruthrol fel pe buasent yn ehedeg, ac heb gyfarfod âg un rhwystr effeithiol. Dan. 8. 5.——'Gwaed a gyffwrdd â gwaed,' pan fyddo lladdiadau, a phechodau gwaeddfawr eraill, yn cael eu gwneuthur yn fynych, ac yn agos at eu gilydd, megys y naill ar sodlau y llall. Hos. 4. 2.

'Na chyffwrdd, ac na archwaetha, ac na theimla; y rhai ydynt oll yn llygredigaeth wrth eu harfer.' Col.

Digitized by Google

2. 21, 22. Dyma eiriau cyfraith Moses, 'Na chyffwrdd â pheth aflan, na archwaetha, ac na theimla;' yn cyfeirio at fwydydd a diodydd, y rhai a grybwyllodd yr apostol am danynt yn adn. 16, y rhai yr oedd yr Iuddewon a'r dysgawdwyr Iuddewig yn dal llawer arnynt, fel arferiadau â neillduol deilyngdod yn perthyn iddynt. Cyfleitha rhai y geiriau, *Na fwyta, &c.* Addas, tebygol, medd Parkhurst, priodoli y geiriau, μη αψη, a μη θιγης, i *fwydydd*; na fwyta y cyfryw a'r cyfryw bethau; dyma iaith y gau athrawon Iuddewaidd, neu rai gwedi eu llygru gan ddysgeidiaeth y Pythagoreaid. Gwel Macknight, Roberts.

CYGLY—U, (cly) clyw, clywed.—'Yna Martha pan gigle he ddyvot o'r Iesu,' &c. Ioan 11. 20. W. S.

CYHOEDD—I, (hoedd) noeth, eglur, hysbys, digel, anghuddiedig, gwybyddus i lawer; hysbysu, eglurhau, gwneuthur yn wybyddus i laweroedd drwy rybudd. Diar. 27. 5. Mat. 12. 16. Exod. 33. 19. Lef. 23. 21.

CYHOEDDIAD, (cyhoedd) dadganiad, cyhoeddedigaeth. 1 Bren. 22. 36. 2 Cron. 24. 9.

CYHOEDDWR—WYR, (cyhoedd-gwr) cyhoedd ddadganwr, pregethwr, efengylwr.—'Wele ar y mynyddoedd draed yr efengylwr, cyhoeddwr heddwch.' Nah. 1. 15. 'Cyhoeddwr heddwch,' ydyw cyhoeddwr y cymmod yn Nghrist—darostyngiad gelynion yr eglwys; megys yr Assyriaid a'r Babiloniaid gynt: Anghrist a'r breninoedd Anghristaidd, yn ddiweddar. Dystrywiwyd y lleill, a dystrywir y rhai hyn hefyd; a chaiff Sïon gadw ei gwyliau mewn diogelwch a llawenydd. Esa. 40. 9, 10. a 52. 7. Luc 2. 10, 14. Act. 10. 36. Rhuf. 10. 15.

CYHUDDO—ION, (hudd) 1. Beio, neu achwyn ar un; yr hyn a ellir ei wneuthur yn gyfiawn, neu yn anghyfiawn: yn ddirgel, neu yn gyhoeddus. Dan. 3. 8. Marc 3. 2. Act. 24. 2.——2. Euog-farnu, coll-farnu. Ioan 5. 45.—Gelwir Satan yn 'Gyhuddwr y brodyr ger bron Duw, ddydd a nos.' Yr oedd efe yn ddibaid trwy ei oruchwylwyr, yn cyhuddo y prif Gristionogion ger bron swyddogion gwladol; ac y mae bob amser yn eu cyhuddo wrth Dduw, wrth y byd, ac wrth eu cydwybodau eu hunain. Dat. 12. 10. Job i. Zech. 3. 1, 2, 3.

CYHUDDOL, (cy-hudd) cyhuddedig, achwynedig, beiedig. Act. 25. 16.

CYLCH—AU—OEDD, (cyl) cant, cylchig; cylchyn, cylchwy; cwmpawd, cwmpas; gyrfa; ymyl; tro; oddi amgylch; mewn perthynas i.——Cylch yr haul, sef gyrfa yr haul: cylch-ynad, sef barnwr cylch.——Cylchoedd—eu nifer yw pump; sef y cylch poeth, y ddau gylch tymherus, a'r ddau gylch oerfelog, neu rewlyd.——Cylch tŷ Dduw, sef mewn perthynas i dŷ Dduw; yn nghylch tair blynedd; yn nghylch y wlad; cylch o gylch, sef oddi amgylch yn gyflawn.——'Cylch y nefoedd.' Job 22. 14.——'Cylch ar wyneb y dyfnder.' Diar. 8. 27.——'Ei elynion yn ei gylch.' Galar. 1. 17.

CYLYMAU—U. Dan. 5. 12. Exod. 26. 11. Edr. CWLWM.

CYLLA—ON, (cwll) y rhan hyny o gorph dyn ag sydd yn derbyn yr ymborth o'r genau: y mae yn dechreu yn ngwraidd y tafod, ac yn gwasanaethu i ddwyn y bwyd i'r bol. Y gropa mewn ehediaid ydyw. Y mae i'r anifeiliaid ag sydd yn cnoi eu cil bedwar cylla; ond sylwyd nad oes gan rai o honynt sydd â phedwar yn Ewrop, ddim ond dau yn Affrica, am fod y llysiau yno, tebygol, yn fwy maethlawn. Mae y gropa mewn ehediaid yn llawer mwy galluog i dreulio eu hymborth, yn rhai o honynt, na'r cylla mewn dyn ac anifel. Y mae y nôdd, neu y gwlybwr, a elwir y *gastric juice*, sydd yn dynoddi allan o gilchwyrn bychain yn y cylla, i dreulio yr ymborth, a'i droi yn gaul i borthi y gwaed, â chynneddfau rhyfeddol iawn yn perthyn iddo.—1. Nid yn unig y mae efe yn wlybwr, ond y mae yn *edrwyth*, ac yn tawdd-chwalu yr hyn a ddelo i'r cylla.——2. Nid yw o'r un natur a'r aliw na'r bustl. Trwy brofiadau allan o'r corph nid ydyw yn gweithredu yr un fath ag un o'r dydoliadau hyn ar ddefnyddiau ymborth.——3. Nid yr un peth yw treuliad y cylla a braeniad, ychwaith. Y mae y nôdd hwn yn gwrthweithredu braeniad yn gryf iawn, ac yn adferyd sylweddau wedi braenu.——4. Nid ydyw yn gweithio, ychwaith, trwy eplesu; canys y mae yn dechreu gweithio ar y wyneb, yn groes i eplesu, sydd yn dechreu yn nghanol, neu yn nghalon y defnyddiau.——5. Nid treuliad gwres a phoethder ydyw; canys treulia cylla oer y môr-bysg, y *cod* a'r *sturgeon*, gregyn y cranc a'r ceimwch, sydd galetach nag ystlysau y cylla sydd yn eu cynnwys.——6. Mae o natur wahanol yn yr amrywiol greaduriaid, yn addas i amrywiaeth eu hymborth. Yn yr adar sydd yn gigweiniol, ni effeithia y nôdd hwn sydd yn eu cylläon ar rawn. Mewn defaid ni effeithia ddim ar wellt, neu borfeydd, heb ei fod yn gyntaf wedi ei gnoi a'i ddryllio. Y nôdd sydd yn nghylla yr ŷch a'r ddafad, yn treulio gwellt a llysiau, ni effeithia mewn un gradd ar gig neu gyrph anifeiliaid; ac yn nghylläon yr anifeiliaid hyny sydd yn ymborthi ar gig, nid yw yn effeithio nac yn gweithredu dim ond ar sylwedd marw; canys y mae pryfed ac ednogion byw i'w cael yn aml yn eu cylläon. Er nad yw yn effeithio ar y cylla tra byddo y dyn byw, etto, y mae yn bwyta gwisgoedd y cylla, yn aml, pan y caffo weithredu arnynt trwy angeu disyfyd, cyn colli ei rym a'i fywiogrwydd. Mor hynod yw hyny; ac etto, mor angenrheidiol ydyw y gwahaniaethol weithrediad.——Pwy, a ystyrio, na wêl yn mhob peth fanylrwydd, doethineb, a gweithrediad y Creawdwr mawr! Gwel Dr. Paley's *Natural Theology*.—Durham's *Physico Theology, vol.* ii.—Chambers' *Universal Dictionary, vol.* ii.

'Arfer ychydig win, er mwyn dy gylla, a'th fynych wendid;' sef dim ond ychydig. Yf win, i iachâu dy windidau, nid i beri gwendidau. Mae Paul yn gorchymyn i Timotheus yfed *ychydig* win, er mwyn ei gylla, a'i fynych wendid; er hyny, nid yw efe byth yn gorchymyn iddo bregethu ychydig; nac ydyw, er ei fod yn ddyn gwan a salaidd, y mae yn gorchymyn iddo ger bron Barnwr byw a meirw, i 'bregethu y gair mewn amser, allan o amser.' 1 Tim. 5. 23. Doddridge *in loc.*

CYLLELL—YLL, (cwll) twca; offeryn llym a miniog, digon adnabyddus, a arferir at amryw bethau. Gen. 22. 6. 1 Bren. 18. 28. Ezra 1. 9. Jer. 36. 23. —'A Sephora a gymerodd gyllell lem.' Exod. 4. 25. *Heb.* צר *careg lem.* Llawer o genedloedd a arferent lechau celyd yn lle arfau heiyrn cyn ffurfiad y cyfryw arfau yn eu plith: megys yr Indiaid yn America, ac ynysoedd y Môr Deheuol.——Arferir y gair, yn gyffelybiaethol, am greulonder didrugaredd gorthrymwyr gormesol. Diar. 30. 14. Ac, hefyd, am wyliadwriaeth, ac attaliad yn erbyn glythineb, i arwyddo fod eisieu tori y blys a'r chwant anghymedrol, yn wyneb yr hudiad. Diar. 23. 2.——Y cyllyll a arferent yn lladd ac yn darnio yr aberthau, a allent gysgodi Pilat, Herod, ac offerynau eraill, yn y driniaeth greulawn a gafodd Crist Iesu, pan roddwyd cospedigaeth ein heddwch ni arno ef, ac y rhoddodd ei enaid yn aberth dros bechod. Ezra 1. 9. Esa. liii.

CYMAIN, (maint) cyfartal, cyfuwch, cynnifer.—'Ond chwithau hefyd cymain un.' Eph. 5. 33. 'Can hyny *pop un* o hanoch.' W. S.—'Chwithau bawb.' Dr. M.—*Gr.* πλην και υμεις οι καθ' ενα. Y mae yn ddyledswydd ar *bob un* i garu ei wraig, a hyny am ei



Digitized by Google

*bod* yn wraig: ac nid oes neb yn cyflawni un ddyledswydd arall tu ag ati yn addas, fel y mae yn gofyn, heb ei charu.

CYMAINT, (maint) o un, neu yr un faint; o'r un nifer; o'r un faintioli, neu yn gyfartal. Gen. 26. 12. 2 Sam. 24. 3. Mat. 19. 29. Marc 10. 30. Dat. 18. 6.

CYMAL—AU, (mal) cydiad, neu gyswllt aelodau yn nghyrph creaduriaid. Job 31. 22. Can. 7. 1.—Wrth 'gymalau a mêr,' yn Heb. 4. 12. y meddylir yr amcanion cadarnaf, y dychymygion a'r tueddiadau dirgelaf yn nghalon dyn; y rhai y mae gair Duw, yn ei awdurdod miniog, argyhoeddiadol, yn cyrhaedd trwodd atynt, yn eu dadguddio, ac yn eu barnu.

'Cymal cynnaliaeth.' Y mae yr eglwys yn cael ei chyffelybu i'r corph naturiol—Crist yw y pen, a'r credinwyr gwirioneddol ynddo yw yr aelodau. Fel yn y corph naturiol, y mae undeb rhwng yr holl aelodau â'u gilydd, ac â'r Pen, Crist Iesu. Y maent wedi eu cyd-gynnull, eu crynhoi at eu gilydd, pan oeddynt yn wasgaredig; wedi eu haddasu a'u cydgysylltu â'u gilydd—trwy y cysylltiadau y mae y naill aelod yn wasanaethgar i'r llall, ac i'r holl gorph; ac hefyd y naill aelod yn rhoddi cynnaliaeth i'r llall; felly y mae y cysylltiadau yn gymalau cynnaliaeth.—Felly y Pen, sef Crist, ydyw ffynon bywyd i'r holl gorph, a phob aelod o hono. 'O'r hwn y mae yr holl gorph,' &c. Nid oes un gradd o gynnaliaeth gan y naill aelod i roddi i'r llall, ond a dderbynio o hono ef. Rhaid, mewn corph iachus, fod undeb rhwng pob aelod â'r pen, a chysylltiad rhyngddi â'r aelodau eraill nesaf ati, fel y byddo yn addas i dderbyn ac i gyfranu. Os na bydd yn derbyn, ni bydd ganddi ddim i gyfranu; ac os felly, bydd yn wywedig ei hun, ac yn achos gwywedigaeth i eraill. Y mae anfeidrol gyflawnder yn Nghrist, ond trwy y cymalau cynnaliaeth y gwneir ni yn gyfranog o'r cyflawnder hwnw er ein cynnaliaeth. Yr Ysbryd Glân yn benaf sydd yn cysylltu yr aelodau â'u gilydd, a'r holl gorph â'r Pen. Yn yr ail le, y mae ffydd yn afaelgar yn y Pen, ac yn derbyn magwraeth a chynnaliaeth o hono. Yr hyn y mae ffydd yn ei dderbyn, er adeiladaeth y dyn ei hun, y mae cariad yn ei gyfranu er llesâd eraill hefyd, 'yn nerthol weithrediad yn mesur pob rhan.' Nid yr un mesur sydd i'r aelodau oll, ond y mae mesur priodol i bob rhan, fel yn y corph naturiol. Y mae y nerthol weithrediad, nid yn unig yn cysylltu yr aelodau, ond hefyd yn peri cynnydd yn y cysylltiad hwnw, yn ol mesur pob rhan. Yn yr undeb hwn, a thrwy gyfraniad o'r Pen, sef Crist, a'r aelodau â'u gilydd, y mae yr Ysbryd Glân yn nerthol weithredu i beri cynnydd y corph, mewn cariad. Heb gariad, ni bydd yr aelodau yn gynnaliaethol i'w gilydd; ac heb ffydd, ni bydd gan gariad ddim i'w roddi. Y mae ffydd yn derbyn, a chariad yn cyfranu. Gan mai ffydd sydd yn derbyn, y mae yn rhaid fod gair ac ordinhadau Crist o fawr werth gan yr holl wir aelodau, trwy ba rai y mae Crist yn cyfranu i ffydd o'i gyflawnder mawr ei hun. Eph. 4. 16. Col. 2. 19.

'Cymalau morddwydydd' yr eglwys, neu yn hytrach yr addurn, neu y wisg hardd am ei chymalau, sydd yn arwyddo prydferthwch ei hysgogiadau ysbrydol, a'i bucheddiad allanol, wedi gwregysu ei lwynau â gwirioneddau dwyfol, a gwisgo am ei thraed esgidiau parotoad efengyl y tangnefedd. Can. 7. 1. Eph. 6. 14, 15.

CYMANFA—OEDD, (cyman) cynnulleidfa, tyrfa; amryw yn cyd-gyfarfod yn yr un fan. Exod. 12. 16. Yn gyffredinol, yn yr ysgrythyrau, yr ydys yn deall wrth gymanfa, casgliad o amryw bersonau wedi dyfod at eu gilydd i gyd-addoli Duw. Lef. 23. 3. Num. 28. 18.——Sonir am gymanfa sanctaidd, neu neillduol, i Baal. 2 Bren. 10. 20.——Y mae yr Arglwydd yn galw y gymanfa sanctaidd, &c., yn 'ffieidd-dra, ac yn anwiredd,' o herwydd y cam-arferiad a wnaed o honi. Esa. 1. 13. Amos 5. 21.——Gelwir yr Iuddewon, yn eu gwrthgiliadau, yn 'gymanfa anffyddloniaid.' Jer. 9. 2.——'Cymanfa a chynnulleidfa,' neu eglwys (εκκλησια) 'y rhai cyntaf-anedig;' yr eglwys Gristionogol, yn cynnwys Iuddewon a Chenedloedd, gwedi eu galw yn nghyd trwy yr efengyl. Heb. 12. 23.

Yr oedd y gymanfa, neu y gynnulleidfa, yn Israel, yn cael ei galw yn nghyd trwy lais yr udgorn arian. Num. 10. 2, 7. Felly, yn yr un modd, y mae cymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf anedig, gwedi eu galw âg udgorn mawr yr efengyl, i gyd-gyfarfod yn Nghrist, ac yn enw Crist, yr hwn a wnaeth y ddau (sef Iuddewon a Chenedloedd) yn un âg ef, ac â'u gilydd ynddo. Num. 10. 2.

CYMDEITHAS—AU—U, (ymdaith) cyfeillach, cymundeb, cyd-ymdeithas; rhai yn cyd-deithio, neu yn cyd-fyned â'u gilydd; yn cyd-feddwl; yn cydewyllysio, yn cyd-farnu, yn cyd-garu, yn cyd-gasâu, &c., mewn gair, yn cyd-wneyd pob peth. Y gair *Gr. κοινωνια*, a gyfieithir *cymdeithas* y rhan amlaf, a arwydda cyfranu rhyw beth i eraill; yn yr ystyr hwn arferir ef yn 2 Cor. 9. 13. ac a gyfieithir yno *cyfraniad*. Hefyd, arwydda *cyd-gyfraniad*; yn yr ystyr hwn arferir ef yn 1 Cor. 10. 16. 'onid cydgyfraniad gwaed Crist yw?' Arferai y Groegiaid y gair hefyd, medd Chandler, ar Eph. 5. 11. i arwyddo cyd-gyfraniad o ddefodau crefyddol, ac o'r bendithion a ddychymygid oedd i'w cael trwyddynt. Hefyd, arwydda cymdeithas, neu gyd-gyfeillion gwedi ymuno â'u gilydd trwy ryw rwymyn cyffredin i feddiannu rhyw ragorfreintiau trwy eu hundeb â'u gilydd. Yr oedd llawer o'r cyfryw gymdeithasau, a alwai y Lladinwyr *Sodalitia*. Ac am fod amryw o honynt wedi eu sefydlu i gyflawni defodau crefyddol, golygent y duw hwnw, i anrhydedd pa un y sefydlwyd y gymdeithas, yn ben y gymdeithas, ac yn awdwr y llesâd a gaent trwy eu cymdeithas yn ei addoliad. Yn yr ystyr hwn, priodolir y gair, gyda llawer o addasrwydd, i ddysgyblion Crist mewn undeb, trwy yr unrhyw werthfawr ffydd, i'r un gymdeithas neu gymundeb eglwysig, i addoli yr unig wir Dduw, trwy gyfryngiad ei Fab, Iesu Grist, ac i dderbyn oddi wrtho, trwy yr un cyfryngiad, bob bendith dymhorol, ysbrydol, a thragywyddol. Y Tad, a'i Fab ef, Iesu Grist, yw pen y gymdeithas ryfedd hon; ac oddi wrtho y mae yr holl fendithion yn dylifo i'r holl frawdoliaeth yn y gymdeithas.

Y mae i'r saint gymdeithas â Duw yn Nghrist. Sail cymdeithas â Duw ydyw undeb. Y mae undeb cyfammodol rhwng Duw â'i bobl, yn eu cymeryd i berthynas gyfammodol âg ef: trwy rinwedd yr undeb hwn y mae efe yn Dduw iddynt hwy, a hwythau yn bobl iddo ef. Undeb priodasol yw, y fath ag sy rhwng gwr a gwraig. 'Dy briod yw yr hwn a'th wnaeth.' Esa. 54. 5. Ffrwyth yr undeb cyfammodol hwn yw rhoddiad yr Ysbryd yn yr adenedigaeth. 1 Ioan 4. 13. Rhwymyn yr undeb hwn yw cariad tragywyddol Duw tu ag atynt. Hwn sydd yn eu tynu ato, ac yn eu huno âg ef. Mae yr undeb yn anwahanol; canys nid oes dim a'u gwahana oddiwrth gariad Duw yn Nghrist Iesu. Y mae cariad Duw yn cael ei dywallt yn eu calonau gan yr Ysbryd Glân, ac mae eu calonau yn cael eu cyfarwyddo i gariad Duw, y maent yn cael eu gwreiddio a'u seilio ynddo, ac yn amgyffred gyd â'r holl saint ei fesurau anfeidrol, Eph. 3. 17, 18. Ffrwyth yr undeb hwn ydyw hawl yn gyfammodol yn Nuw; y mae Duw yn Dduw iddynt hwy! Zech. 13. 9. Ps. 31. 14. Phil. 4. 19. Gen. 15. 1. Galar. 3. 24.

Oddiwrth hyn y mae y gymdeithas rhwng Duw a'i bobl, ac a elwir wrth amrywiol enwau yn yr ysgryth-

Digitized by Google

yrau: megys, 1. Eu trigiad y naill yn y llall. 'Yr hwn sydd yn aros,' neu (μενων) *yn trigo* 'mewn cariad, sydd yn aros (*yn trigo*) yn Nuw, a Duw ynddo yntau.' 1 Ioan 4. 16. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 22. 'Nyni a ddeuwn ato,' medd Crist, 'ac a wnawn ein trigfa gyd âg ef,' sef gyd â'r hwn sydd yn ei garu, ac yn cadw ei air. Ioan 14. 23.

2. Rhodio gyd â'u gilydd, fel cyfeillion cymmodol, heddychlawn, a chariadus. Amos 3. 3. 'Mi a breswyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn eu mysg,' medd Duw. 2 Cor. 6. 16. Enoch a Noah a rodiasant gyda Duw—sef yn ei heddwch—yn ei gyfeillach—yn ei ofn—ac i bob rhyngu bodd iddo. Gen. 5. 24. a 6. 9.

3. Yn y gymdeithas, neu y cymundeb hwn, y mae pob plaid yn cael y lle a weddai iddynt. Nid ydyw y dyn ag sydd yn feddiannol o'r fraint oruchel hon yn ei ddyrchafu ei hun, ac yn bychanu Duw; nac ydyw; ond yn y gwrthwyneb, y mae efe yn rhoddi mawredd, gogoniant, a chlod i Duw, ac yn cymeryd gwaeledd, gwarth, a chywilydd iddo ei hun. Y mae efe yn cyfrif ei hun yn ddim, a Duw yn bob peth; y mae efe yn ddrwg, a Duw yn anfeidrol dda a chyfiawn; y mae efe yn hollol dlawd, yn byw ar Dduw holl-gyfoethog; y mae efe yn wan, yn pwyso ar y breichiau tragywyddol. Y mae yma gyd-fywioliaeth heddychol, rydd, a chariadus, trwy gyfrinach gyfeillgar. Y mae holl gyfiawnder mawr y Cyfryngwr yn drysor rhydd i'r pechadur, yn wyneb ei holl angenion; ac y mae yn cael tywallt ei holl achwyniadau a'i ofidiau fel i'w fynwes. Y mae cyfnewidiad o ran gofal am achosion o bob ochr. Y mae achos y pechadur yn hollol yn ngofal Duw; y mae rhyw hiraeth gwirioneddol yn nghalon y pechadur, yntau, am ogoniant i enw, a llwyddiant i achos Duw yn y byd.

4. Y mae y gymdeithas hon yn drwyadl, ac yn gyffredinol o bob ochr. Y maent yn cymdeithasu â'u gilydd yn mhob peth. Y mae pob achos gan y credadyn yn achos rhyngddo â Duw; a rhyddid ganddo i fyned at Dduw yn y cwbl. Y mae y pethau mwyaf cyffredin sydd yn perthyn iddo, yn ei rodiad a'i alwedigaeth yma yn y byd, yn achosion pwysig rhyngddo ef â Duw. Y mae yn bwyta ac yn yfed, ac yn dwyn yn mlaen ei holl fasnach fydol, a'i ymdriniaeth â dynion, gyda golwg ar Dduw, ac ymofyniad am ei gyfarwyddyd a'i gymhorth. 1 Cor. 10. 31.

5. Y mae y gymdeithas hon, hefyd, i'w mwynhau yn holl ordinhadau Duw, ac yn wyneb holl wirioneddau Duw—yn y gorchymynion, yn eu purdeb dwyfol—yn yr addewidion, yn eu cyflawnder a'u rhadlonrwydd—yn holl ddirgeledigaethau yr iechydwriaeth, yn eu doethineb mawr, eu cysondeb hardd, a'u cysylltiad gogoneddus. Weithiau, y mae yr enaid yn ymdywallt ger bron Duw, mewn ymostyngiad a galar duwiol; weithiau, yn ymgysuro yn nghyflawnder yr iechydwriaeth, a graslonrwydd yr addewidion; felly hefyd, ar brydiau, y mae y gorchymynion, yn eu huniondeb a'u sancteiddrwydd, yn hyfrydwch ac yn orfoledd iddo. Y mae yn gweled, âg wyneb agored, ogoniant yr Arglwydd, yn ei wirioneddau, megys mewn drych, ac yn golygu Duw a'i ogoniant fel ei hyfrydwch a'i ddyben penaf. 1 Cor. 1. 9. Eph. 3. 9. 2 Cor. 13. 13. Phil. 2. 1. 1 Ioan 1. 3, 7.

Ni ddichon neb gymdeithasu â Duw, a rhodio yn y tywyllwch—heb adnabod ffordd y cymmod yn Nghrist—yn farw mewn pechod—ac yn byw yn ansanctaidd ac yn anghyfiawn. 1 Ioan i. Pa gyfeillach a ddichon fod rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder—rhwng goleuni a thywyllwch—rhwng Crist a Belial? 2 Cor. 6. 14, 15. Ond rhai mewn cymmod â Duw trwy Grist, ac wedi eu sancteiddio gan yr Ysbryd Glân, ac yn rhodio yn ddichlynaidd yn ffyrdd sanctaidd Duw, sydd yn mwynhau y fraint oruchel.

Y mae yn amlwg oddiwrth yr ysgrythyrau canlynol fod i'r saint gymdeithas â phob un o'r Personau Dwyfol. 1 Ioan 1. 3. Phil. 2. 1. 2 Cor. 13. 14.—1. A'r Tad, yn ei gariad tragywyddol, yn ei drugaredd, ei ffyddlondeb, a'i diriondeb tu ag atynt. 1 Ioan 3. 1. Esa 63. 9. Ps. 103. 13. Mal. 2. 10.——2. A'r Mab, yn yr hyn yw o ran ei Berson—yn yr hyn a wnaeth drostynt—yn y gras a dderbyniant oddi wrtho yn ei holl swyddau a'i berthynasau—eu prophwyd, eu harchoffeiriad, a'u brenin—eu pen, eu brawd, a'u priod, &c., yn ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd. 1 Cor. 1. 30. Jer. 23. 6. Esa. 45. 24.—yn ei gariad ac yn ei ffyddlondeb. Eph. 5. 2.——3. Y mae iddynt gymdeithas â'r Ysbryd Glân, yn ei berson, ei swydd, ei waith, yn ei holl gyfraniadau o ras, doniau, a chynnorthwyon—yn ei gariad, ei dynerwch, a'i ffyddlondeb. 2 Cor. 13. 13. Rhuf. 15. 30.

Yn y gymdeithas felus hon, y mae ymostyngiad Duw, ac anrhydedd plant Duw, yn ymddangos yn rhyfedd. Y mae yn gymdeithas ddymunol a gwerthfawr o'u tu hwy. Eu dyddanwch, eu hyfrydwch, a'u cynnaliaeth yn y byd ydyw. Dyma afon eu hyfrydwch, sydd â'i ffrydiau yn barhaus yn eu llawenhau. Yn y mwynhad o honi y maent yn agos i ddedwyddwch y nefoedd; perffeithrwydd o honi, a pharhad tragywyddol o honi, fydd y nefoedd.

'A chymdeithas ei ddyoddefiadau:' y mae i'r saint gymdeithas â Christ yn ei ddyoddefiadau; efe a ddyoddefodd yn eu lle hwynt; y mae y dyoddefiadau hyn yn cael eu cyfrif iddynt, ac y maent yn cael profiad o'u rhinwedd yn eu calon. Phil. 3. 10. 1 Petr 4. 13.

'Cymdeithas yr efengyl,' ydyw y cyd-feddiant a'r rhyddid cyweithas sydd rhwng y saint, yn eu proffes o wirioneddau, eu profiad o fendithion, a'u cyflawniad parchus o reolau ac ordinhadau yr efengyl. Phil. 1. 5. Gal. 2. 9.

CYMEDROL, (medr) cymhesurol, cymhwys, addas, canolig; cyfiawn; heb fod yn ormod nac yn rhy fychan. Joel 2. 23. Edr. CYFIAWN.

CYMEDROLDER, (medr) tymherusrwydd, sobreiddrwydd, dirwest. Y gair *Gr.* εγκρατεια, a gyfieithir *cymedrolder*, a arwydda hunan-lywodraethiad; sef bod gan un awdurdod arno ei hun, o ran chwantau a phleserau cnawdol; diweirdeb, sobrwydd. 2 Petr 1. 6. Yr un gair a gyfieithir *dirwest*, yn Act. 24. 25. a Gal. 5. 22.; a gair o'r un gwreiddyn a gyfieithir *ymgadw*, yn 1 Cor. 7. 9. a 9. 25.

CYMER—AU—YD—ODD, derbyn, gafaelu yn, &c., cydlif, cyd-ffrwd. Cymer dau ddwfr. Y mae llawer o leoedd yn Nghymru yn cael yr enw hwn oddiwrth eu sefyllfa wrth gydiad dwy afon. 2 Sam. 19. 30. Ps. 109. 8. Eph. 4. 28.

CYMERAWD—ADWY, (cymer) derbyniol, cyfrifol, cyfrïawl, teilwng o barch, gwiw, anrhydeddus. Lef. 1. 4. Deut. 33. 24. Esth. 8. 5. Ps. 19. 14. Rhuf. 1. 28.—'Gwnaeth ni yn gymeradwy yn yr anwylyd' Eph. 1. 6. Yr anwylyd yw Crist, yr hwn sydd anfeidrol anwyl gan y Tad—ei anwyl Fab—υιος της αγαπης, *Mab ei gariad.* Col. 1. 13. Mat. 3. 17. a 17. 5. Luc 9. 35. Etholodd ni ynddo cyn seiliad y byd; a'n bendithiodd ni â phob bendith ysbrydol ynddo; ac a'n gwnaeth ni yn gymeradwy ynddo, y rhai oeddym yn hollol anghymeradwy ynom ein hunain. Yn ei Fab mae y Tad yn golygu ei bobl: a chan fod ei Fab yn anfeidrol anwyl, y maent hwythau yn anwyl ac yn gymeradwy ynddo. Gan mai ynddo ef y maent hwy yn gymeradwy, y mae eu cymeradwyaeth yn sefyll ar sail anfeidrol uchel a dyrchafedig. Nid gall fod ar sail uwch nag yn ei anwyl Fab, ac er ei fwyn yn hollol ac yn gwbl. Y mae eu cymeradwyaeth yn dragywyddol a digyfnewid, fel y sail ar ba un y mae yn sefyll. Nid ydyw yr apostol yn dywedyd, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymeradwy yn ein cariad, yn ein sancteiddrwydd, &c., ond 'yn yr anwylyd.' Y mae yr anwylyd yr un

Digitized by Google

mor anwyl yn parhau. Heb. 13. 8. Nid oes un cyfnewidiad yn nheilyngdod y Mab, nac yn meddwl a chariad y Tad tu ag ato. Am hyny y maent hwythau hefyd yn ddigyfnewid, ac yn dragywyddol gymeradwy ynddo. Oddiwrth eu cymeradwyaeth yn yr anwylyd, y mae eu holl fendithion, eu gras, a'u cysuron hwy yn tarddu. Gan fod y Tad wedi eu hethol ynddo, ac mai yr anwylyd sydd yn eu gwneuthur hwy yn gymeradwy, y mae mawl a gogoniant tragywyddol i'r Personau Dwyfol, am y drefn ryfedd hon, sydd yn dangos cariad a gras mor anfeidrol fawr, anchwiliadwy, a gogoneddus. Wele! dyma gariad a gras sydd uwchlaw gwybodaeth!

'Yr ydym yn ymorchestu, pa un bynag ai gartref y byddom, ai oddi cartref, ein bod yn gymeradwy ganddo ef.' 2 Cor. 5. 9. 'Yr ydym yn ymorchestu,' φιλοτιμουμεθα, *yr ydym yn ymdrechu am dano*, fel ein huchel-gais, ein hanrhydedd, ein hurddas, a'n gogoniant penaf; yn ymegnïo am dano fel am y peth mwyaf ei bwys, ei anrhydedd, a'i ddedwyddwch; a hyny trwy gredu yn yr hwn a'i boddlonodd, sef ei anwyl Fab; trwy ufuddhau iddo—trwy ddyoddef drosto—a thrwy ochelyd y pethau sydd yn ei anfoddloni. Nid ydyw ond peth bychan, mewn ystyr, pa un ai gartref y byddom, ai oddi cartref, ond peth o anfeidrol bwys yw ein bod yn gymeradwy ganddo ef. Dyma y nôd penaf yn ei olwg wrth feddwl am fyw, ac wrth feddwl am farw. Ond cyrhaedd at hyn, y mae pob peth yn dda.

CYMHAR—ION—U, (pâr) cydwr, cyfranogwr, cyfaill.—1. Un tebyg i un arall. Felly y mae 'yr hwn a yspeillo ei dad neu ei fam yn gyfaill i ddinystriwr.' Diar. 28. 24.——2. Creaduriaid o'r un rhyw, megys adar, &c. Esa. 34. 15.——3. Gwr a gwraig, y rhai ydynt un pâr; a phob un yn gymhar i'w gilydd. Mal. 2. 14.

Pob edn a edwyn ei *gymhar*. *Diar.*

CYMHELRI, (pelri) terfysg, dwys-ofid, cynhwrf meddwl.—'Mae arnaf gymelri mawr beunydd.' 2 Cor. 11. 28. W. S.

CYMHELL, (pell) *Llad.* Compello; *Saes.* Compel: dirio, dirgymhell, argymhell; annog gyda phob diwydrwydd, cynnyg gyda phob taerineb; gwasgu ar, gorfodi. 1 Sam. 28. 23. 2 Bren. 5 16.—'Hi a'i cymhellodd ef i fwyta bara.' *Heb. Hi a ymaflodd ynddo:* sef annogodd ef gyda phob taerineb. 2 Bren. 4. 8.——'Pwy bynag a'th gymhello un filltir, dos gyd âg ef ddwy.' Mat. 5. 41. Y mae yn debygol fod ein Harglwydd yn cyfeirio ei ymadrodd hwn, pan y mae efe yn gorchymyn hynawsedd, heddychlonedd, ac ymostyngiad i awdurdod, at y dull a'r arferiad ag oedd yn mhlith y Persiaid. Fel y mae yn llywodraeth Brydain redegwyr llythyrau, a chenadwyr dros y brenin; felly yr oedd yn mhlith y Persiaid y cyfryw swyddogion, y rhai, trwy awdurdod eu breninoedd, neu eu hymerawdwyr, a allent gymeryd anifeiliaid pobl wrth eu hachlysur, pa bryd bynag y gwelent yn dda alw am danynt; ie, dynion hefyd i ddwyn beichiau, i deithio, &c., ac nid oedd wiw eu gwrthwynebu. Yr oedd yr arferiad hwn yn mhlith yr Iuddewon, fal yr ymddengys oddiwrth Mat. 27. 32., 'Hwy a gawsant ddyn o Cyrene, a'i enw Simon; hwn a gymhellasant i ddwyn ei groes ef.' Marc 15. 21. Luc 14. 23. a 24. 29. Gal. 6. 12.

'Y mae cariad Crist yn ein cymhell ni;' (2 Cor. 5. 14.) sef cariad Crist tu ag atom ni. Y mae crediniaeth o gariad Crist tu ag atom yn ein cymhell ni. Efe a'n carodd pan oeddym yn feirw; ac o'i fawr gariad bu farw dros y meirw, fel y byddai i'r meirw gael eu bywhau. Y mae ystyriaeth o fawredd a rhadlonrwydd cariad Crist, fel hyn yn marw drosom, pan oeddym ni yn feirw mewn camweddau a phechodau, a than gollfarn, yn cymhell pawb a gafodd eu bywhau ynddo, i fyw iddo ef, yr hwn a fu farw drostynt, ac nid iddynt eu hunain mwyach. Nid oedd parodrwydd ynddynt hwy i hyn o'r blaen, ond yn gwbl groes i hyny; ond y mae cariad Crist yn gweithredu yn dra effeithiol arnynt; y mae yn eu cymhell hwynt, sef yn eu dwyn gyd âg ef (συνεχει) yn *anorchfygol*—fel llong â'r gwynt yn llenwi ei hwyliau, yn cael ei dwyn yn llwythog (gwedi tòri pob peth ag oedd yn ei hattal) gan ffrwd gref i ganol y cefnfor: felly, yn gyffelyb i hyn, y mae cariad Crist yn cymhell yr enaid sydd yn ei brofi, er pob dalfeydd, allan o hono ei hun, o hunan-elw, hunan-ddybenion, a pharch, i fyw i ogoniant un arall, sef yr hwn a fu farw drosto. Crist yw y cwbl ganddo. Y mae yn haeddu y cwbl, ac mae yn cael y cwbl. Yr arwydd oreu o'n bod yn fyw yn ysbrydol, yw ein bod yn byw i'r hwn a fu farw i roddi bywyd i ni. 1 Petr 4. 1, 2. Rhuf. 6. 8, 11, 12. 1 Cor. 6. 19, 20. 2 Cor. 5. 15 Gal. 2. 19, 20. Tit. 2. 13. Act. 3. 16. I attal y rhai sydd fel hyn yn cael eu cymhell, rhaid cael rhyw beth cryfach na'r cariad sydd yn eu dwyn; ond nid oes dim cryfach na chariad Crist. Rhuf. 5. 8. a 8. 31, 35, 36. Can. 8. 6, 7.—'Pe gallech (medd Mr. Hervey) roddi un llwrf, digalon, yn nghanol byddin yn cychwyn i'r frwydr; neu yn hytrach, pe gallech osod cwch bychan yn nghanol rheiedr gorwylltion yr afon Nilus, chwi a ganfyddech ystyr y gair cynnwysfawr συνεχει.' Gwel *Theron and Aspasio.*

CYMHEN—U, (pen) ffraeth, hyawdl, tafod-rydd; canmol, taclu, tacluso, addurno.—'Velly a's ein anwiredd ni a gymenna wirionedd Duw,' &c. Rhuf. 3. 5. W. S.

CYMHESUR—DEB, (cymhes) addas, rhesymol, gweddus, cymhwys, cyfaddas. Mae y gair *Gr.* *αρεστος*, sydd yn cael ei gyfieithu *cymhesur*, yn arwyddo boddhaol, cydunol, dymunol; ac a gyfieithir *boddlawn*, Ioan 8. 29.—*yn dda gan*, Act. 12. 3.—*rhyngu bodd*, 1 Ioan 3. 22. Gair Groeg arall, *σωφρονας*, a gyfieithir *cymhesur*, yn Tit. 2. 2. a arwydda symledd, diweirdeb. Hwn, fel y gair cymedroldeb, a arwydda, doethineb i lywodraethu chwantau cnawdol, ac attal anghymedroldeb mewn bwydydd a diodydd.——'Ny wnaeth hwn ddim ancymmesur.' Luc 23. 41. W. S. Sef dim (*ατοπον*) *allan o'i le.*——'Er gwarder a' chymesurdap Christ.' 2 Cor. 10. 1. W. S.

CYMHORTH—AU, (porth) help, cynnaliaeth, diogelwch rhag perygl. Deut. 33. 7. Ps. 20. 2. Gelwir yr Arglwydd 'yn gymhorth a chynnorthwywr ei bobl;' y mae efe yn eu cynnorthwyo yn mhob dyledswydd—yn eu cynnal dan bob baich—ac yn eu cadw, neu yn eu gwaredu oddiwrth bob drwg. Ps. 46. 1. a 94. 17. Heb. 4. 16.——Elusen i rai tlodion a elwir felly. Act. 11. 29. Rhuf. 15. 26.——Cymhorth yr etholedigion a osodwyd ar Grist, yr 'Un cadarn;' y mae pryniad, a holl oruchwyliaeth eu hiechydwriaeth, gwedi eu rhoddi i'w ofal. Ps. 89. 19.

CYMHWYS—O, (pwys) addas, gweddus, cyfleus, cyfaddas; yn cydweddu, ac yn cydbwyso, heb fod yn mantoli i un ochr. Gen. 2. 18. Exod. 8. 26. Barn. 5. 30. Diar. 26. 1. Can. 5. 12. Marc 7. 27. Luc 14. 35.—'Gwr cymhwys.' Lef. 16. 21. *Heb.* איש עתי *gwr wrth law, gwr yn ymyl, gwr cyfleus.*——Cymhwyso, a arwydda, 1. Addasu, cyweddu, cyfaddasu, cymhesuro, cymedroli. 1 Bren. 6. 35. Diar. 22. 18. Esa. 44. 13.——2. Darparu, parotôi. Rhuf. 9. 22. Heb. 10. 5.

CYMMOD—I, (bod) cysyliad, heddwch, cydfod; tangnefedd, heddychlonedd; cysilio. Exod. 29. 33, 36. Lef. 1. 4.—Yr iawn, neu y pridwerth, i heddychu cyfiawnder Duw, i wneuthur i fynu am y troseddau a wnaed iddo trwy bechod. Rhuf. 3. 25. Job 33. 24. 1 Ioan 2. 2. Y gair *Heb.* כפר a gyfieithir weithiau yn *iawn*, ac weithiau *cymmod*, a arwydda *cysgodi*,

Digitized by Google

*cuddio, gorchuddio, taenu dros.* Yr oedd y cymmod cysgodol i gael ei wneuthur trwy daenellu gwaed yr aberth, megys i guddio beiau y troseddwr. Exod. 29. 33.—'A hwy a fwytânt y pethau hyn y gwnaed y cymmod â hwynt;'—o waed y rhai y gwnaed y cymmod—a hyny oedd, yn adn. 20., trwy ddodi o'r gwaed ar y glust ddehau, ar fawd y llaw ddehau, ac ar fawd y troed ddehau; adn. 21., ac ar yr holl wisgoedd. At hyn y mae y testynau hyny ag sydd yn sôn am guddio pechod yn cyfeirio. Ps. 32. 1. a 85. 2. Rhuf. 4. 7. Yr oedd yma gysgod o waed ac aberth Iesu Grist, yr hwn sydd berffaith a digonol iawn dros bechodau ei bobl. Dyma y gwaed na wêl cyfiawnder ddim euogrwydd yn neb a daenellwyd âg ef. Yn nghysgod hwn y gall pechadur tlawd fyw yn ddiogel byth. Yr oedd y rhai y gwnaed y cymmod drostynt â'r gwaed, i fwyta o gig yr aberth; i ddangos fod y rhai a gânt Grist drostynt i'w cyfiawnhau, i gael Crist ynddynt i'w sancteiddio, ac i fod yn gynnaliaeth beunyddiol a pharhaus iddynt. Exod. 29. 33.

CYMMODI, a arwydda, 1. Heddychu rhai yr oedd ymrafael rhyngddynt o'r blaen. 2 Cor. 5. 18, 19, 20. Eph. 2. 16. Heb. 2. 17.——2. Adferu ffafr a charedigrwydd, lle yr oedd wedi bod unwaith, a chwedi colli. Mat. 5. 24. 1 Cor. 7. 11.——Y mae cymmod dauddyblyg; sef cymmodi Duw â ni, a'n cymmodi ninnau â Duw. Cymmodir Duw â ni trwy roddi iawn i'w gyfiawnder; yr hyn a wnaeth Crist yn ei farwolaeth; canys Efe yw yr iawn. Edr. IAWN. Gwaith yr Ysbryd Glân yw cymmodi dynion, pan, trwy ei ras, y cymmodir dynion a threfn yr iechydwriaeth, trwy Grist, ac â Duw, a'i ddeddf, a'i holl briodoliaethau, a'i ffyrdd. Rhuf. 5. 10. Cymmod cyfiawn ydyw o bob tu, ar sail cyfryngdod Crist.

Ar ddydd mawr y cymmod, yr oedd yr arch-offeiriad yn myned i'r cysegr sancteiddiolaf amryw weithiau. Lef. xvi.—1. Gwedi lladd y pech-aberth drosto ei hun a'i deulu, yr oedd i gymeryd llonaid ei ddwylaw o arogldarth peraidd mân, a'i ddwyn o fewn y wahan-len; ac yr oedd i roddi yr arogl-darth ar y tân, ger bron yr Arglwydd, fel y cuddiai mŵg yr arogl-darth y drugareddfa, fel na byddai efe farw.——2. Gwedi hyny yr oedd i ddwyn i mewn waed ei bech-aberth ei hun, a'i daenellu yn ol y rheolau gosodedig.——3. Gwedi hyny drachefn, yr oedd efe i fyned allan, a lladd y pechaberthau dros y bobl; ac yr ydoedd i fyned i mewn y drydedd waith â gwaed y rhai hyny.——4. Gwedi taenellu allor yr arogl-darth, yr ydoedd yn myned i mewn y bedwaredd waith i ddwyn y thuser allan. Dywed yr Iuddewon ei fod yn taenellu y gwaed y diwrnod hwnw dair a thriugain o weithiau: ond y mae llawer o'u dywediadau yn mhell oddiwrth fod i gyd yn wir. Gwel Ainsworth *in loc.*

'Trwy yr hwn yr awrhon y derbyniasom y cymmod.' Rhuf. 5. 11.—'Can yr hwn yr awrhon y derbyniasem y cyssyl,' ymyl y ddalen, y cymmot, heddychiad. W. S. Dr. M.—'*By whom we have now received the atonement.*' *Saes.*—*δι ου νυν τμν καταλλαγην ελαβομεν.* Y mae y cyfieithiad Cymraeg yma yn fwy addas na'r Saesoneg: arwydda y gair Groeg nid iawn (*atonement*), ond cymmod, effaith iawn. Nid nyni sydd yn derbyn yr iawn, ond Duw: ond nyni sydd yn derbyn y cymmod, effaith yr iawn a dderbyniodd Duw. Nid gwneuthur y cymmod y mae y credadyn, mewn un ystyr, nac mewn un gradd; ond ei dderbyn ef wedi ei wneuthur. Gelwir gweinidogaeth yr efengyl, *διακονιαν της καταλλαγης*, *gweinidogaeth y cymmod*, (2 Cor. 5. 18.) 'gweinidogaeth y cysseiliat.' W.S. Ynddi hi y dadguddir trefn y cymmod yn Nghrist, ac y cyhoeddir hi i'r byd. Derbyn y weinidogaeth hon, gan hyny, trwy ffydd, yn wirioneddol, yw derbyn y cymmod. Gelwir Crist 'ein tangnefedd ni:' derbyn Crist yn ngweinidogaeth yr efengyl yw 'derbyn y cymmod.' Ioan 1. 12. Col. 2. 6. Lle mae Crist yn preswylio yn wirioneddol, y mae cymmod yno hefyd, Y mae derbyn y cymmod, gan hyny, yn arwyddo, 1. Fod y pechadur yn wybodol ac yn deimladwy o'r ymrafael sydd rhwng Duw a dynion, o herwydd eu pechodau.—2. Y pwys dirfawr o fod yr ymrafael hwn yn cael ei derfynu trwy gymmod.—3. Nis dichon hyny fod byth mewn un ffordd arall ond yn unig trwy Grist.—4. Ei fod yn derbyn Crist fel yr amlygir ef yn yr efengyl i'r dyben hwnw.—5. Bod yr hwn sydd yn derbyn Crist, trwy gredu ynddo, yn derbyn y cymmod, ac yn brofiadol o heddwch Duw.—Y gair yr *awrhon* (*νυν*) a gyfeiria at oruchwyliaeth yr efengyl; hefyd, at yr amser y byddo un yn credu yn Nghrist. Yr awrhon y mae derbyn y cymmod; nid wedi marw. Credu, yw derbyn y cymmod; mae y naill yn gysylltiedig â'r llall; mae yn y weithred o gredu, dderbyniad o'r cymmod, a mwynhad o heddwch Duw.

CYMUN—DEB, (cy-ymun) *Llad.* COMMUNIO; *Saes.* COMMUNION: cydun, cydundeb, cymdeithas; amryw mewn undeb â'u gilydd yn cyd-gofio am ddrylliad corph, a thywalltiad gwaed, Iesu Grist, yn Swper yr Arglwydd; a thrwy ffydd yn cael cymdeithas âg ef yn yr ordinhad hon. Yr un gair *Gr. κοινωνια*, a gyfieithir yma *cymun*, ag a gyfieithir *cymdeithas* mewn amryw leoedd eraill. 1 Cor. 10. 16. Edr. SWPER, CYMDEITHAS.

CYMWYN—AS—AU—GAR, (mwyn) budd, lles, elw; parodrwydd caredig i wneuthur lles i un; gweithred a wneir o diriondeb a charedigrwydd; tro da a wneler gan un o fwynder i arall: ffrwyth undeb ydyw cymwynas.—'Gwneler cymwynas i'r annuwiol, etto ni ddysg efe gyfiawnder.' Esa. 25. 10. Act. 24. 27.—Y gair *Heb.* חן a gyfieithir *cymwynasgarwch*, a arwydda gras, ffafr, caredigrwydd; a'r gair *Gr. χρηστοτης*, yn yr un modd, a arwydda caredigrwydd, hynawsedd, tiriondeb, &c. Ps. 112. 5. 1 Cor. 13. 4. Gal. 5. 22. Eph. 2. 7. a 4. 32. Col. 3. 12.

CYMYDOG—ION, (cymwd) agos, cyfagos, nesaf; o'r gymydogaeth, cyffelyb.—1. Un yn byw yn yr un cwmwd, neu yn ein hymyl. 2 Bren. 4. 3. Exod. 11. 2.——2. Un y caffom gyfle i wneuthur rhyw lesâd iddo, bydded agos neu bell. Mat. 22. 29.——3. Cydweithiwr, ag a fyddo hefyd â pherthynas naturiol rhyngddo a ni. Act. 7. 27.——4. Un a gymero drugaredd arnom, gan ein gwaredu o gyfyngder, er trigo o hono yn mhell oddi wrthym. Luc 10. 36.——5. Un a fyddo mewn eisieu, bydded ei drigfan yn agos neu yn mhell. Diar. 3. 28.——6. Cyfaill. Job 16. 21.——7. Mab. 2 Sam. 12. 11.

Yr Iuddewon, yn gyffredinol, yn nyddiau ein Hiachawdwr, a dybient nad oedd neb yn gymydogion, y rhai y dylid eu caru, ond eu cenedl eu hunain; ac y gallent gasâu pawb eraill; eithr dangosodd Crist iddynt fod pawb, hyd yn nod gelynion, yn gymydogion; ac y dylid dangos caredigrwydd a chymwynasgarwch iddynt hwy. Mat. 5. 43—48. Luc 10. 29—37.

CYMYN—U—WYR—YDD, (cy-mun) ysglodioni' naddu; tori neu hollti coed â chymynen neu fwyell, neu fwyell gynnud; ysglodionwr, naddwr; torwr coed. Deut. 19. 5. 1 Bren. 5. 6. Luc 3. 9.—Yr ydoedd cymynu coed, a gwehynu dwfr, yn cael eu cyfrif yn swyddau lled waelion gynt. Deut. 29. 11. Dyma y swydd a roddodd Josuah i'r Gibeoniaid, y rhai a'i twyllasent ef. Jos. 9. 21, 27.

CYMYSG—ION, (mysg) 1. Y naill beth yn mhlith y llall, megys dilledyn cymysg o lin a gwlan. Lef. 19. 19.—Myrr ac aloes. Ioan 19. 39.——2. Pobl gymysg, sef Aiphtiaid ac eraill, y rhai a ddaethant gyd âg Israel allan o'r Aipht, ac a ddaethant ran o'r ffordd tua Chanaan. Exod. 12. 38. Y bobl hyn oeddynt y rhai a ddechreuasant flysio a sôn am ddaioni y wlad y

Digitized by Google

CYNGHOR—ION, (cyd-gôr) barn, amcan, arfaeth, arfeddyd, cymanfa o gynghoriaid.—1. Amryw wedi ymgasglu yn nghyd i ymgynghori yn nghylch rhyw achos, ac i gyd-ddadgan eu bwriadau. Act. 22. 30. a 23 1. *Gr.* **Συνέδριον**, neu ***Sanhedrin***, hyny yw, rhai yn cyd-eistedd i ymgynghori ac i farnu. Yr oedd cynghor yr Iuddewon (yr hwn a elwid *Sanhedrin*) yn cynnwys deg neu ddeuddeg a thriugain o ddynion, o henuriaid y bobl, ac o'r offeiriaid, &c. Luc 22. 66. Gelwir hwynt Senedd ar ymyl y ddalen. Yr oedd cynghor mawr yr Iuddewon yn cynnwys deuddeg a thriugain o farnwyr, yn ol rhifedi cynnorthwywyr Moses (Num. xi.) y rhai a eisteddent ar ddull hanner lleuad yn y deml, sef mewn ystafell yn nghyntedd y deml. Yr amser y dechreuodd sydd anhysbys. Dyma y man lle y condemniwyd yr Iesu, er nad oedd ganddynt, yr amser hwnw, awdurdod i roddi neb i farwolaeth. Ioan 11. 47. a 18. 31. Mat. 27. 1.——2. Addysg, hyfforddiad, cyfarwyddyd. Dan. 4. 27. Dat. 3. 18.——3. Bwriad, neu feddwl dirgel. Ezra 4. 5. Job 10. 3.

'Cynghor Duw,' ydyw, 1. Ei fwriad neu ei arfaeth. Act. 4. 28. Esa. 46. 10. Ps. 33. 11.——2. Ei ewyllys dadguddiedig trwy athrawiaeth yr efengyl, yr hon sydd yn egluro ffordd iechydwriaeth i bechaduriaid. Luc 7. 30.——3. Cyfarwyddyd ei air—cynhyrfiadau ei Ysbryd—arweiniad ei ragluniaeth. Ps. 73. 24. Dat. 3. 18.——'Sefyll yn nghyngor yr Arglwydd,' ydyw bod yn gyfeillgar âg ef, yn gwybod ei feddwl a'i ewyllys. Jer. 23. 18, 22.——'Pwy bynag a ddywedo wrth ei frawd Raca, a fydd euog o gynghor;' sef a fydd yn agored, ac mewn perygl o gael ei ddwyn o flaen y cynghor mawr, neu y *Sanhedrin*, yr hyn a gyfrifid yn fwy peth na bod yn euog o farn, a dwyn un i gael ei farnu yn y llys dinasaidd, yn yr hwn yr oedd tri ar hugain o farnwyr. Mat. 5. 22. Edr. RACA.

'Cynghor hedd a fydd rhyngddynt ill dau.' Zech. 6. 13. 'Ill dau;' sef IEHOFAH, a'r gwr â'i enw BLAGURYN, sef Crist, yr hwn a adeilada deml IEHOFAH, ac a ddwg y gogoniant, yr hwn a eistedd ac a lywodraetha ar ei frenin-fainc, ac a fydd yn offeiriad hefyd ar ei frenin-fainc. Rhwng IEHOFAH a'r BLAGURYN, adeiladydd y deml, y brenin a'r offeiriad hwn, y bydd cynghor hedd. Y mae y ddau yn heddychol, ac yn ymhyfrydu yn eu gilydd yn anfeidrol, yn y cynghor, yr arfaeth, a'r gwaith sydd yn cael ei wneuthur gan y BLAGURYN. Y mae cynghor hedd rhyngddynt mewn perthynas i eraill; sef pechaduriaid, ag sydd yn cael eu dwyn, trwy y cynghor hwn, i heddwch a chymmod tragywyddol â IEHOFAH. Y 'cynghor hedd' yma a elwir yn Esa. 54. 10. 'cyfammod hedd, yr hwn ni syfl.' Cyfammod grasol, doeth, cadarn, tragywyddol yw, rhwng y Personau Dwyfol, mewn perthynas i iechydwriaeth y rhai a roddwyd i Grist gan y Tad. Esa. 51. 6. a 57. 19. a 59. 21. a 61. 8. Jer. 31. 35, 37. a 33. 20. Ezec. 34. 25. a 37. 26. Ps. 89. 33, 34. a 103. 17.

'Yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun.' Eph. 1. 11. Dyma reol Duw yn ei holl waith, ac yn neillduol yn ngwaith iechydwriaeth ei bobl; sef 'cynghor ei ewyllys ei hun.' Nis gall fod gwell rheol nag ewyllys Duw anfeidrol ddoeth, cyfiawn, a da. Efe sydd yn gweithio pob peth, ac yn ol cynghor ei ewyllys, sef ei ewyllys anfeidrol ddoeth a chyfiawn, y mae yn gweithio pob peth. Nid ydyw yn gweithio dim yn y tywyllwch, heb ddyben, ac heb wybod pa beth y mae yn ei wneuthur: ond y mae yn gweithio pob peth â'i ewyllys goruchel, gyd â'r doethineb mwyaf, ac i'r dybenion goreu. Nid rhaid iddo mewn dim fyned allan o hono ei hun am gynghor. Nid yw efe yn edrych allan o hono ei hun, ar bethau oddi allan, i wybod beth i wneuthur, na pha fodd, na pha bryd ychwaith. Nid yw yn ymgynghori â neb—'Pwy a fu yn gynghorwr iddo ef?' Nagê; y mae hyn yn addas i greadur terfynedig, sydd âg eisieu cynghor arno: ond y mae Duw 'yn fawr mewn cynghor—ac yn rhyfedd mewn cynghor.' Y mae ei ddigonolrwydd ynddo ei hun, o ran cynghor a gweithred; a'i ewyllys sanctaidd yn unig reol ei waith. Esa. 28. 29. Jer. 32. 19. O herwydd ei ewyllys y mae pob peth, ac y crewyd hwynt. Dat. 4. 11. 'Y neb y myno y mae efe yn trugarhau wrtho.' Rhuf. 9. 18. Mae yn gyntaf yn ewyllysio, ac wedi hyny y mae yn gweithio yr hyn y mae yn ei ewyllysio, gyd âg anfeidrol ddoethineb a gallu. Ewyllys gyfiawn, sanctaidd a da, yw ei ewyllys, ac wrth anfeidrol ddoethineb y mae yn effeithiol weithredu; am hyny y mae ei waith yn gyfiawn, yn ddoeth, a da. Ps. 104. 24. Ac y mae ei gynghor yn dragywyddol ddigyfnewid. Ps. 33. 11. Heb. 6. 17.

Nid anaddas golygu ychydig yn mha ystyr y mae cynghor, a chynghori yn briodol i Dduw.

1. Nid yw yn arwyddo fod diffyg gwybodaeth ar Dduw. Y mae hyn yn perthyn i ddynion, ac o herwydd hyny y maent yn ymgynghori, ac yn cynghori âg eraill; ond y mae gwybodaeth Duw yn berffaith, yn aneirif, ac yn gyfiawn am bob peth. Nis gall fod cynnydd ar ei wybodaeth trwy gynghori. Yn mhlith dynion, lle byddo llawer o gynghorwyr y bydd diogelwch. Diar. 11. 14. a 27. 9. Ond nid felly y mae gyda Duw.

2. Nid yw yn arwyddo chwaith anghyfartalrwydd rhwng y Personau Dwyfol yn ymgynghori: y mae felly yn mhlith dynion yn ymgynghori yn aml; mewn achos o bwys ymgynghorir â dynion a dybir fyddo yn meddu cynneddfau a gwybodaeth uwch, a'u barn yn cael ei dilyn. Ond nid oes anghyfartalrwydd rhwng y Personau Dwyfol; y maent yn un mewn hanfod, ac yn mhob priodoledd perthynol i'r hanfod. Holl-wybodol Dad, Holl-wybodol Fab, a Holl-wybodol Ysbryd Glân.

3. Nid ydyw yn arwyddo fod hir amser yn cael ei dreulio yn y cynghor; canys meddwl Duw yw ei gynghor. Ps. 33. 11.

4. Ond pan briodolir cynghor i Dduw mewn perthynas i waith iechydwriaeth, arwydda ei fod yn achos o bwys neillduol. Yn nghylch pethau o bwys yr ymgynghora dynion, ac nid am bethau bychain, diles, a diganlyniad; felly y mae iechydwriaeth dyn, nid yn unig i'r dyn, ond hefyd er gogoniant Duw; y mae gwedi ei drefnu yn ddoeth er amlygu gogoniant yr holl briodoliaethau dwyfol; am hyny nis rhoddwyd ef i law neb ond i law Mab Duw. Ps. 21. 5. Ioan 17. 4.

5. Hefyd, arwydda cydundeb meddwl y Tri Pherson Dwyfol. Y maent yn un mewn hanfod, ac yn un y maent yn cytuno. Y maent yn cytuno yn y cynghor, ac yn cyd-ymhyfrydu yn y drefn fawr a benderfynwyd ynddo. Ps. 40. 5, 8. Esa. 25. 1.

6. Nid yn nghylch y personau i'w hachub yr oedd y cynghor gymaint, ag yn nghylch y ffordd i'w hachub, a Pherson yr achubwr. Dewisodd Duw y personau i'w hachub o'i ben-arglwyddiaeth, ac o'i ewyllys da; er fod yn angenrheidiol wrth gydsyniad y Personau yn hyny; ond y Person, a'r ffordd i'w hachub, a driniwyd yn y cynghor yn benaf. Cael person ag oedd yn addas, a'r gwaith addas oedd iddo i'w wneuthur, i hyny, er amlygiad o holl rinweddau y Duwdod. Rhagderfynedig gynghor Duw a sefydlodd bob peth gyd âg anfeidrol ddoethineb; sef, i'r Mab fod yn achubydd—iddo gymeryd natur ddynol i undeb personol âg ef ei hun—i'r natur hôno fod yn ddibechod—pa fodd y gallai hyny fod, sef trwy gael ei eni o wyryf—iddo fod yn Feichnïydd drostynt—ac yn y natur ddynol wneyd iawn am bechod, a dwyn i mewn gyfiawnder tragywyddol. Yn nghylch hyn yr oedd y cynghor—hyn a benderfynwyd—a hyn a gwblhawyd!

Digitized by Google

**CYNGHORI—WR—WYR**, (cynghor) cynghawsydd, dadleuwr; un a fyddo yn astudio ac yn dyfal bwyso achosion, er mwyn eu penderfynu; yn enwedig y cyfryw ag y byddo breninoedd yn ymgynghori â hwynt. 2 Sam. 15. 12. Diar. 11. 14. Esa. 4. 5.

Un o enwau Crist, y Cyfryngwr gogoneddus, ydyw Cynghorwr; yr oedd efe yn y cynghor a'r arfaeth dragywyddol, pan osodwyd i lawr, ac y penderfynwyd trefn fawr iechydwriaeth. Y mae ganddo ef ddoethineb a gwybodaeth anfesurol, i gyfarwyddo, ac i gynghori ei bobl yn mhob achos; efe yw eu doethineb. Esa. 9. 6. Diar. 1. 30. a 8. 14. Luc 7. 30. Dat. 3. 18. 1 Cor. 1. 30. Ni *wnaed*, ar y cyntaf, ddim hebddo ef; ond pob peth trwyddo *ef*, o herwydd ei anfeidrol *allu*. Felly hefyd ni *threfnwyd* dim hebddo, ond pob peth drwyddo, o herwydd ei anfeidrol *ddoethineb*. Ioan 1. 3. Diar. 8. 22—31.

Tystiolaethau yr Arglwydd yw cynghorwyr y saint, trwy ba rai y mae cynghor Duw yn cael ei amlygu iddynt; ac â'r rhai y maent yn ymofyn am addysg, ac oddiwrth y rhai y maent yn derbyn cynghor a chyfarwyddyd yn mhob achos rhyngddynt â Duw a dynion. Y mae cynghor cyflawn, doeth, a da, wedi ei roddi iddynt gan Dduw, ac nid oes i'w gael yn un lle arall. Ps. 119. 24. Mic. 4. 9.

Cynghori, yw annog gyda thaerineb a thiriondeb; hyfforddi, cyfarwyddo. 1 Thes. 2. 11. 1 Tim. 4. 14. Heb. 3. 13.

**CYNGHRAIR—EIRIAU**, (cyd-grair) cyfammod, cytundeb trwy lŵ. Gen. 21. 27. 1 Sam. 22. 8. Job 5. 23. Esa. 28. 15. Ezec. 17. 17. Act. 23. 13. Edr. CYFAMMOD.

**CYNGHYD**, (cy-wng) meddwl, bwriad, petrusder. Act. 18. 14. W. S.

**CYNHEN—AU—U**, (cy-ten) ymryson, ymrafael, ymddadleu. Corn y cynhen; sef blaenor y gynhen. —'Trwy falchedd yn unig y cyffry cynhen.' Diar. 13. 10. Y gair *Gr.* ερις, a gyfieithir *cynhen*, a arwydda, bod yn boethlyd o ddigofaint. Rhuf. 1. 29. a 13. 13. Y mae cynhen yn bechod ag sydd yn cydfyned â chenfigen. Un o weithredoedd y cnawd yw, ac y mae yn drosedd o'r chweched gorchymyn. Gal. 5. 20. Num. 27. 14. Deut. 32. 51. 1 Cor. 1. 11. a 3. 3. Tit. 3. 9.

**CYNHES—RWYDD**, (cy-tes) gwresogrwydd, tesogrwydd. Gen. 43. 30. 1 Bren. 1. 1. Preg. 4. 11. —'Pa fodd y mae dy ddillad yn gynhes?' Job 37. 17. Y mae rhyw ddirgelwch yn hyn, er mor gynnefin, fel pe dywedasai, tu hwnt i'n hamgyffred. Er bod achos o hyn yn natur pethau, etto nid yw hyn yn ddigonol. 'Bwyta yr ydych, ond nid hyd ddigon; yfed, ac nid hyd fod yn ddiwall: ymwisgasoch, ac nid hyd glydwr.' Hag. 1. 6. Paham? ai ar y bwyd, neu y ddiod, neu y dillad, yr oedd y bai? Nagê; ond Duw a attaliodd ei fendith, ac yna y pallodd rhinwedd llesol y cwbl. Y mae yn hawdd canfod nas gall un creadur ddim, ond y peth y gwnelo Duw ef; nid oes dim i gael oddiwrtho, ond yr hyn a roddo Duw trwyddo. Er mor amlwg ydyw, etto pell ydyw meddyliau meibion dynion oddiwrth iawn syniad am hyn yn aml.

**CYNHWRF**, (cy-twrf) aflonyddwch, cyffröad, symudiad, ysgogiad, ysgydwad; ymrafael, anghydfod. 1 Sam. 4. 14. Job 3. 26. Nah. 3. 2. Act. 15. 39. Mat. 27. 24.

**CYNHYRFIAD—AU**, (cy-twrf) aflonyddwch, ysgydwad, cychwyniad, crynedigaeth. Ioan 5. 3.

**CYNI**, (cy-gni) tristwch, blinder; gofid, trallod, gwasga, cyfyngder. Ps. 107. 39. Y gair *Heb.* [illegible] a gyfieithir *cyni*, a arwydda, yn fwyaf neillduol, gofid meddwl, a thristwch.

**CYNLLWYN—ION**, (cyn-llwyn) dichell, rhagod, cyfragod; llechu yn ddirgel i ruthro ar ysglyfaeth, neu ar elynion; megys y pum mil gwyr a osododd Josuah rhwng Bethel ac Ai. Jos. 8. 12. Y mae yr Arglwydd yn gosod cynllwyn i'w elynion, a gelynion ei eglwys. 2 Cron. 20. 22. Y mae y diafol yntau yn gosod cynllwynion i'r saint. Eph. 6. 11. Y mae gan y diafol ddwy ffordd i ymosod ar y duwiolion. Un trwy greulondeb cyhoeddus erlidwyr, fel yr oedd yr ymerawdwyr Paganaidd, Anghrist, a phawb o'r cyffelyb ysbryd. A ffordd arall sydd ganddo yw, yn ddirgelaidd ac yn ddichellgar i'w denu o'r uniawn lwybr, trwy ddichellion cyfeiliornwyr hocedus a chyfrwys yn cynllwyn i dwyllo—trwy ddeniadau dichellgar y byd a'r cnawd—trwy *dwyll* cyfoeth, a chwantau twyllodrus, yn gweithredu ar galon fwy ei thwyll na dim. I sefyll yn erbyn y cynllwynion hyn, rhaid gwisgo am danom 'holl arfogaeth Duw.' Y mae yr apostol fel pe bai yn golygu sefyll yn erbyn ei gynllwynion yn beth anhawdd iawn, os nid y peth anhawsaf, yn y rhyfel ysbrydol.

**CYNLLWYNWYR**, gwyr gwedi eu darparu i gynllwyn. Jos. 8. 19. Barn. 9. 25. Jer. 51. 12.

**CYNNAL**, (cyd-dal) cynnorthwyo, darborthi, goddef, dwyn, sefyll dan. Cynnal cyfeddach; cynnal gwyl; cynnal pen yr iau; cynnal braint llys.—1. Attegu, dal i fynu. Ps. 119. 116, 117.——2. Porthi, neu faethu. Gen. 50. 21.——3. Arwain, a barnu achosion. Deut. 1. 9.——Y mae Duw yn cynnal ei bobl mewn blinderau a chystuddiau, 1. Trwy beidio rhoddi arnynt fwy baich nag a allont ei ddwyn. 1 Cor. 10. 13.——2. Trwy eu cyfarwyddo, eu nerthu, eu dyddanu â'i Ysbryd; a'u hattal rhag pethau niweidiol iddynt. Esa. 41. 1. 2 Cor. 1. 4.——'Yn cynnal gair y bywyd.' Phil. 2. 16. Y mae y geiriau wedi eu benthyca oddiwrth oleudai ar hyd glàn y môr (medd Beza) lle y mae goleuni yn cael ei gynnal i gyfarwyddo y morwyr mewn nosweithiau tywyll, i ochelyd creigiau cyfagos, ac i'w cyfarwyddo i'r porthladd. O'r un cyffelyb ddefnydd y gweddai i bob Cristion fod, yn enwedig gweinidogion y gair, yn dysgleirio megys goleuadau yn y byd, trwy gynnal gair y bywyd. 'Gair y bywyd,' yw Crist yn yr efengyl, neu dystiolaeth yr efengyl am Grist, yr hwn yw goleuni y bywyd. Mae yr efengyl yn cael ei galw 'gair y bywyd,' am ei bod yn cyhoeddi bywyd i bechadur marw, dan gollfarn, i'r neb a gredo yn Nghrist i gael bywyd. Y mae hefyd yn air bywiol, ac yn nerthol weithredu trwy yr Ysbryd Glân ar galonau pechaduriaid, i'w bywhau, eu cynnal, a'u dyddanu yn nghanol byd o orthrymderau.

Ein dyledswydd yw cynnal y gair bywiol hwn yn y byd, trwy ei gredu, a byw arno ein hunain, a'i ddangos, yn athrawiaethol ac yn fucheddol, i eraill, yn ei gyflawnder, ei ddysgleirdeb, a'i harddwch. Y mae yr apostol yn annog y Philippiaid crediniol i ddysgleirio megys goleuadau yn y byd. Dichon rhai fod yn ganwyllbrenau (medd Zanchy) heb fod yn oleuadau; yn cynnal y goleuni, yn athrawiaethol, heb fod y goleuni ynddynt eu hunain, fel y maent yn 'oleuni yn yr Arglwydd.' Os byddwn yn byw ar air y bywyd, byddwn yn oleuadau yn dysgleirio, a thrwy hyny eraill yn cael llesâd oddi wrthym; yn cael eu cyfarwyddo i ochelyd creigiau athrawiaethau cyfeiliornus, a llwybrau gau, a'u cyfeirio i'r porthladd tawel, tu hwnt i holl dònau cynddeiriog y byd a'i beryglon. Act. 13. 26. a 20 34, 35. Dan. 12. 3. Ioan 5. 39. a 6. 68.

**CYNNALIAD**, (cyd-dal) atteg; peth i gynnal peth arall i fynu. 2 Sam. 22. 19.—Yr Arglwydd yw cynnaliad ei bobl; yn wyneb eu holl wendid, a llid, ac ymgyrch eu holl elynion, efe a'u cynnal, ac a'u dyrcha yn dragywydd. Ps. 18. 18.

Digitized by Google

CYNNALIAETH, (cyd-dal) cadwraeth; lluniaeth; yr hyn ydyw moddion cynnaliaeth. 1 Bren. 5. 11. Ezra 4. 14. Act. 12. 20. Edr. CYMALAU.

CYNNAR, (cyn-dar) yn gyntaf, yn fuan, yn fore, yn amserol. Esa. 28. 4.—Dwy waith yn y flwyddyn y byddai helaethrwydd o wlaw yn ngwlad Canaan; y cyntaf, sef y cynnar-wlaw, yn mis Medi, yn fuan ar ol hau; a'r llall, sef y diweddar-wlaw, yn mis Mawrth, ychydig cyn y cynauaf, i addfedu yr ŷd. Y mae y cynnar a'r diweddar-wlaw yn arwyddo, hefyd, yn yr addewidion, pob rhyw fendithion, y rhai y mae yr Arglwydd yn eu rhoddi i'w bobl yn eu hamser, ac yn gymedrol, sef yn gymhwys ac yn addas er eu cynnaliaeth a'u cysur. Fel y cynnar a'r diweddar-wlaw i'r ddaear, felly y mae yr Arglwydd Iesu, yn ei ymweliadau grasol, i'w bobl; yn eu cysuro ac yn eu ffrwythloni, trwy ei rinweddau iachusol ei hun. Deut. 11. 14. Jer. 5. 24. Hos. 6. 3. Joel 2. 23. Zech. 10. 1. Edr. GWLAW.

CYNNEFIN—DRA, (cyd-defin) arferol, defodol, arferedig, gnawd.—Gellir dywedyd am un wedi cynnefino â rhyw beth, neu ryw le, ei fod felly trwy arferiad hir a pharhaus. Pan y mae Jeremiah, neu Duw trwyddo, yn ymliw â'r Iuddewon, am eu hanhyweithdra, mae yn eu cyffelybu i 'asen wyllt, gwedi ei chynnefino â'r anialwch.' *Heb. Wedi ei dysgu yn yr anialwch.* Jer. 2. 24.—Pan mae y prophwyd Esaiah yn sôn am Grist yn ei dlodi, ac iselder ei ddyoddefiadau, y mae yn ei alw yn 'ŵr gofidus, a chynnefin â dolur;' gellir cyfieithu y gair 'gŵr gofidus, ac yn adnabod dolur;' sef yn adnabod, ac yn gwybod am ddolur a gofid yn wir brofiadol, i'r graddau eithaf. Esa. 53. 3. 'Efe a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd.' Heb. 5. 8.——Y gair γυμναζω, a gyfieithir *cynnefin*, yn Heb. 5. 14. a 12. 11. 2 Petr 2. 15. a arwydda, ymarfer mewn ymdrech, neu ymarferiad ymdrechgar, ac y mae yn cael ei gyfieithu *ymarfer*, ac yn *ymarfer corphorol*. 1 Tim. 4. 7, 8.——'Y rhai o herwydd cynnefindra, y mae ganddynt synwyr,' &c. Nid babanod, y rhai ydynt anghynnefin â gair cyfiawnder, sef yr efengyl; ond rhai mewn oedran, sydd trwy ymarfer ymdrechgar a dyfal mewn gweddi, myfyrdod, astudrwydd, a gwrando diwyd, ganddynt ddeall, a meddwl parod ac addas i dderbyn gwirioneddau mawrion yr efengyl, ac i ymborthi arnynt, fel bwyd cryf, er maeth a chynnaliaeth i'w heneidiau. Heb. 5. 14. Edr. EFENGYL, GAIR.

CYNNEU—AD, (cynne) tanio, goleu tân. Num. 11. 3. Luc 22. 55. Dywedir, yn gyffelybiaethol, pan fyddo llid, neu ddigofaint yn ymgynhyrfu, ei fod yn cynneu. Gen. 30. 2. Ps. 106. 40.

CYNNEU—AU, (cynne) tân mawr, llosgiad tân ar ryw achos arbenig.—Byddai yr Iuddewon arferol o wneyd cynneu o dân ar gladdedigaeth eu breninoedd da; a hyny fel arwydd o barch ac anrhydedd i'w coffadwriaeth. Tebygol y byddai maintioli y tân yn gyfatebol i'r parch a'r bri a fyddai gan y deiliaid i'w brenin. Os bychan fyddai y parch, bychan fyddai y cynneu. Pan oeddynt yn claddu Jehoram ddrygionus, brenin Judah, 'Ei bobl ni wnaethant iddo gynneu megys cynneu ei dadau;' yr hyn ydoedd arwydd o'u diystyrwch o hono. 2 Cron. 21. 19, 20. Yr ochr arall, pan oeddynt yn claddu Asa, o barch iddo, 'Hwy a gynneuasant iddo gynneu mawr iawn.' 2 Cron. 16. 14. Wrth gymharu Jer. 34. 5. â'r lleoedd hyn, gellir gweled fod pêr-aroglau yn cael eu llosgi yn y cynneuau hyn, ar, neu yn agos at gyrph y meirw. Nid oedd yn arferiad yn mhlith yr Iuddewon i losgi corph y meirw, er nad yw yn waharddedig iddynt. Gwyr Jabes Gilead a losgasant gyrph Saul a'i feibion Ond llosgi pêr-aroglau yn agos iddynt oedd yn arferedig yn eu plith.

CYNNIFER—OEDD, (cyd-nifer) 1. Y cyfryw, neu bawb. Ioan 1. 12. Act. 2. 39. Phil. 3. 15.——2. Llawer, neu gymaint nifer. Ioan 6. 9.

CYNNIL—AD—O, (cyn-dil) annhreulgar, ymarbedus, diwastraff, arbedus, diafradlon.—'A'r hyn a gynnilodd dy dadau hyd y dydd hwn.' Esa. 39. 6.—'A drysorodd dy dadau.' Lowth. Edr. HEZECIAH.

CYNNIWAIR, (cyn-diwair) cyrchu, dygyrchu, mynych gyrchu, mynych dramwy; chwifio oddi amgylch, gwib-rodiana, cerdded o le i le. Exod. 32. 27. 2 Bren. 4. 9.—'Cynniweiriwch, cynniweiriwch trwy y pyrth.' Esa. 62. 10. Ewch allan trwy y pyrth yn finteioedd, i barotoi ffordd y bobl. Wele y maent yn dyfod yn lluoedd, â'u hwynebau tu a'r eglwys; byddwch ddiwyd, byddwch ffyddlon i symud pob rhwystr oddiar eu ffordd, a rhoddwch dderbyniad croesawgar iddynt. Y mae y geiriau fel pe baent yn cael eu llefaru yn benaf wrth flaenoriaid yn wyneb diwygiad mawr.——'Cynniweiriwch o borth i borth trwy y gwersyll,' &c. Exod. 32. 27.

CYNNIWEIRFA—ON, cyrchfa, cynnired, hygyrchedd, y fan lle byddo cynniwair.—'Ewch, ac edrychwch am ei gynniweirfa ef, lle y mae efe yn tramwy;' *Heb. ei droedle ef;* sef ei lwybr, ar yr hwn y mae ei droed yn mynych dramwy. 1 Sam. 23. 22.

CYNNIWEIRYDD, un yn cynniwair, neu yn mynych dramwy drwy wlad neu dref. Esa. 33. 8. Rhan o'r barnedigaethau y mae yr Arglwydd yn eu bwgwth ar yr Edomiaid, ydyw dibobli eu gwlad yn y fath fodd, fel na byddo 'cynniweirydd trwyddi byth bythoedd.' Esa. 34. 10. Jer. 9. 12. Yr un peth yw bod gwlad heb gynniweirydd trwyddi, a'i bod yn anghyfannedd heb drigiannydd.

CYNNORTHWY—ON, (cyd-dorth) cynnaliaeth, amgeledd, help, cadwraeth, gwaredigaeth. Exod. 18. 15. 2 Sam. 10. 11. Ps. 44. 20. Phil. 1. 19 Edr. CYMHORTH.

CYNNRYCH—IOL—DEB, (cyn-drych) cynllun, gwrthddrych; gwydd, gwyddfod, presennol.—'Angel ei gynnrychioldeb a'u hachubodd hwynt.' Esa. 63. 9. Edr. ANGEL——'Hwy a gynneuasant dân, ac a'n derbyniasant ni oll, o herwydd y gawod gynnrychiol, ac o herwydd yr oerni.' Act. 28. 2. *Present rain.* *Saes.—Propter imbrem instantem.* Mont.—*Propter imorem, qui imminebat.* Margin.—*Propter imbrem, qui urgebat.* Beza. Tybygid fod y gair *cynnrychiol* yn cael ei arfer yn y lle uchod yn yr ui ystyr a'r gair *cyndrychiol*, sef presennol, yn y golwg. Y mae y Dr. Davies yn esbonio y ddau i'r un ystyr, *præsens.* Diammeu mai *cynnrychiol* y dylai y gair fod yn y lle hwn.

CYNNUD, (cynne) tanwydd, coed tân, peth i'w losgi. Jos. 9. 21. 2 Sam. 24. 22. Dyma ran o'r swydd a roddes Josuah i'r Gibeoniaid, yn lle eu lladd, sef tori cynnud. Edr. CYMYNU.

CYNNULL—IAD, (cyd-dull) casglu, cyd-gasglu, cyd-dyru pethau, neu rai gwedi eu casglu yn nghyd, casgliad. Exod. 3. 16. Lef. 19. 9. Gen. 49. 10. Esa. 33. 4.

Y llaw a rydd a *gynnull.* *Diar.*

CYNNULLEIDFA—OEDD, (cyd-dull) tyrfa, cymanfa, eglwys. Jos. 22. 17.—Yr Israeliaid, gwedi iddynt fod yn cyd-wersyllu yn yr anialwch ddeugain mlynedd, ac yn cyd-gyfarfod dair gwaith yn y flwyddyn, ar eu gwyliau arbenig, a elwir 'y gynnulleidfa,' a 'chynnulleidfa yr Arglwydd.' Lef. 4. 15. Yr oeddynt yn neillduol yn bobl gyfammodol i'r Arglwydd, yn dibynu arno, ac yn ddarostyngedig iddo. Num. 27. 17. a 31. 16.—Cael 'tori o'r gynnulleidfa,' oedd bod



Digitized by Google

un yn cael ei symud o blith yr Hebreaid trwy farwolaeth; neu ynte, yn cael ei ddifreinio trwy esgymundod. Num. 19. 20.——Mae y gair *Gr.* *εκκλησια*, *eglwys*, yn cael ei gyfieithu *cynnulleidfa*; sef yr eglwys filwrus, yr hon y mae Crist yn ei chynnull yn nghyd, o Iuddewon a chenedloedd, yn bobl briodol iddo ei hun; yn yr hon hefyd y mae efe yn 'pregethu cyfiawnder,' yn 'moliannu enw ei Dad,' ac 'yn ei fynegi i'w frodyr.' Ps. 22. 22. a 40. 9, 10.——'Cynnulleidfa y meirw,' ydyw pechaduriaid diadgenedledig, neu ddamnedig. Diar. 21. 16.

CYNNUTA, (cynnud) casglu cynnud, neu danwydd. Num. 15. 32.

CYNNWYS, (cyd-ddwys) gèni, dal, cyd-ganoli. Gen. 36. 7. 1 Bren. 9. 27. Ioan 1. 25.

CYNNYDD—U, (cyn-dydd) tyfiad, codiad, mwyhad, prifiad; cynnyrch; tyfu, mwyhau, prifio, myned yn mlaen mewn corph neu enaid, neu bob un o'r ddau. Job 20. 28. Diar. 1. 9. Eph. 4. 16. 1 Tim. 4. 15. Gen. 30. 30. Ps. 62. 10. Ioan 3. 30.

Golwg y perchen yw *cynnydd* y da. *Diar.*
Ni elwir cywrain ni *gynnydd*. *Diar.*

CYNNYG—ION, (cyn-dyg) cymhelliad i dderbyn rhodd, yr estyniad, neu y dygiad allan, a wneir gan un o ryw beth i arall ei dderbyn, ar ryw achos. Mal. 1. 8. Luc 6. 29. a 23. 36. Act. 8. 18.

CYNNYRCH, (cyn-dyrch) cynnydd, cynnyddiaeth, anghwanegiad.—1. Yr hyn a dŷf neu a ddyrchafa oddiar beth arall; megys cynnyrch, neu ffrwyth y ddaear, sef yr hyn a dardd o'r ddaear, ffrwyth tir, toreth, cnwd. *Lef.* 26. 4. Zech. 8. 12. Deut. 14. 22. ——2. Dynion daearol, cnawdol, y rhai ydynt fel cnwd wedi tyfu o'r ddaear. 'Yn gynnyrch dynion pechadurus.' Num. 32. 14.

CYNNYSGAETH—AU—U, (cynnysg) gwaddol, rhodd, neu ran a roddir wrth briodi; rhan priodas. Weithiau gelwir ef gwaddol, ac weithiau cynnysgaeth; yr un gair Hebraeg sydd yn ateb i'r ddau, sef מהר yn arwyddo *brysiad*, *prysuriad*, *cyflymiad*. Felly y galwai yr Hebreaid gynnysgaeth yn *arian prysuriad*, i arwyddo eu bod yn rhwyddhau ac yn prysuro priodas. Bate. Dylid gochelyd arian-garwch wrth briodi; sef bod cariad at y gynnysgaeth yn wresocach na chariad at y person. Gen. 30. 20. 1 Sam. 18. 25. Rhoddai y priod-fab gynnysgaeth i'r briodas-ferch, neu i'w thad, yn mhlith yr Hebreaid; felly hefyd oedd arferiad y Groegiaid, a'r hen genedloedd; ac felly y gwnant etto yn ngwledydd y dwyrain. Edr. GWADDOL.

CYNT. Edr. GYNT.

CYNTAF, (cynt) blaenaf, penaf, &c. Gellir dywedyd fod peth yn gyntaf mewn amryw ystyriaethau. 1. Mewn rhifedi. Gen. 8. 5, 13.——2. O ran trefn. Mat. 22. 25, 38. a 28. 1.——3. O ran creadigaeth. 1 Cor. 15. 47.——4. O ran genedigaeth. Gen. 38. 28. Deut. 21. 17. Jer. 4. 31.——5. Mewn anrhydedd. Esth. 1. 14.——6. O ran amser. Heb. 9. 1. a 10. 9.

Y gorchymyn cyntaf o'r deg, 'Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i,' a osod allan y BOD Dwyfol, yn ei anfeidrol berffeithrwydd a'i gyfiawnder.

1. Y mae ei Hanfod o hono ei hun; ac y mae yn dibynu arno ei hun; y mae ei hawddgarwch a'i berffeithrwydd mor anfeidrol, fel y mae yn wir haeddiannol ac yn deilwng o holl serch, hyder, ufudd-dod, ac addoliad pawb. Y mae ei gyfiawnder mor anfeidrol, fel y mae ynddo ddigon i ddiangenu pawb; y mae ei ddaioni y fath, fel mai ein dedwyddwch penaf ydyw glynu wrtho, a'i fwynhau. Ps. 31. 19. Pan y mae yn dywedyd, 'Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i,' y mae yn cynnwys y daioni a'r graslonrwydd mwyaf i ni, ac heb ofyn ond yr hyn sydd deilwng i Dduw oddi wrthym. Nis gallwn ei gael *ef* a duwiau eraill hefyd. Y mae yn anfeidrol ymostyngiad iddo roddi ei hun yn Dduw i ni, a'i wrthod sydd bechod ag anfeidrol ddirmyg ar Dduw ynddo.

2. Y mae Duw, yn y gorchymyn hwn, yn gofyn yr hyn sydd deilwng iddo gael oddiwrth bawb; sef ei fod yn *unig* yn Dduw i ni; a'n bod ninnau yn ei iawn adnabod—yn hyderu yn unig arno—yn ei ofni, ei garu, ufuddhau iddo yn benaf, â'n holl galon, ac â'n holl enaid—yn ei wasanaethu, ac yn ymofyn am ein dedwyddwch yn unig ynddo. Ps 48. 14. Jer. 50. 5. 1 Cor. 8. 6. Deut. 10. 12, 13. Ps. 42. 11. Esa. 43. 10. Ioan 17. 3.

3. Y mae, hefyd, yn gwahardd pob peth ynom sydd groes i hyn; sef pob pechod; canys y mae yn mhob troseddiad o gyfraith Duw, ymwrthodiad â Duw ei hun. Yn neillduol, y mae yn gwahardd, 1. Didduwiaeth ein meddyliau. Ps. 14. 1. Hos. 13 4. Eph. 2. 12.——2. Ymddiried mewn dyn, neu un creadur arall, yn lle Duw. 2 Cron. 15. 12. Jer. 17. 5. Eph. 5. 5. Phil. 3. 19.——3. Anghredu rhagluniaeth Duw. Seph. 1. 12.——4. Diystyru gwasanaeth Duw, a charu gogoniant dynion yn fwy na'i ogoniant ef. Job 21. 15. Ioan 5. 44. Tit. 1. 16.——5. Ymgynghori â dewiniaid, swynwyr, &c., sydd yn gwrthod Duw, a chymeryd y diafol yn lle Duw. *Lef.* 19 31. a 20. 6, 27. Deut. 18. 10.——6. Hefyd, priodoli ein llwyddiant a'n rhagoroldeb i ni ein hunain, neu i ddim arall, yn lle i Dduw ei hun, sydd ddidduwiaeth. 1 Cor. 4. 6.

4. Mae y gorchymyn hwn yn dangos, 1. Dyfnder trueni a phechadurusrwydd dyn, yn ei ddidduwiaeth, a'i hollol ymadawiad â Duw.——2. Ei fawr ynfydrwydd a'i ffolineb yn cymeryd yn lle Duw yr hyn nid yw Dduw. Ps. 115. 6. a 135. 16, 17, 18. Jer. 2. 12, 13.——3. Anfeidrol werth y Cyfryngwr, yr hwn yw ein tangnefedd ni, a'n cymmodwr â Duw. 2 Cor. 5. 19, 20. Eph. 2. 14.——4. A neillduol angen am yr Ysbryd Glân, i'n hadnewyddu a'n dychwelyd at Dduw. Esa. 55. 7. Act. 26. 18.

Ymadawiad â Duw yw ein trueni, a dychwelyd at Dduw yw ein dyledswydd a'n dedwyddwch. Nid oes ond y Duw anfeidrol, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, yn ddigon i ddyn: ond y mae y Duw hwn, yn nhrefn iachawdwriaeth, yn ddigon i ddyn pechadurus, yn wyneb ei holl drueni. Cael Duw Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, yn Dduw i ni, yw cael pob peth; sef pob cyfiawnder a dedwyddwch ar unwaith; hyn a fynai Duw ei roddi i ni, sef ei hunan anfeidrol; na foddlonwn ninnau ar lai. 'Duw a digon.'

CYNTAF-ANEDIG—ION, y cyntaf a agoro y groth o ddyn ac anifel: y cyntaf a enid mewn teulu; y mab hynaf. Gen. 27. 19. Exod. 4. 22. *Lef.* 27. 26. Num. 3. 12. a 8. 16. a 13. 2, 22, 29. a 34. 19. Yr oedd breintiau neillduol yn briodol i bob gwrryw cyntaf-anedig yn mhlith cenedloedd eraill, yn gystal ag yn mhlith yr Iuddewon. Yn mhlith yr Iuddewon yr oedd deuparth o holl feddiannau ei dad iddo; sef dau cymaint a phob un o'i frodyr. Gen. 48. 22. Deut. 11. 27. 2 Cron. 5. 1, 2.——Yr oedd iddo ragoriaeth ac awdurdod dros ei frodyr. Gen. 27. 29. a 49. 3. 1 Cron. 5. 1, 2.——Yr oedd hefyd, hynafiad Crist, a bendith Abraham, yn gyffredinol, yn gysylltiedig yn yr amseroedd hyny, â'r enedigaeth fraint. Gen. 49. 8. 1 Cron. 5. 2. Felly, yr oedd y cyntaf-anedig, nid yn unig yn cysgodi yn odidog, cynulleidfa, neu eglwys y cyntaf-anedigion, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac ydynt yn gyfranogion o'r etifeddiaeth dragywyddol (Heb. 12. 23.) ond yr oedd, hefyd, bod yn hynafiad y Messiah, â bendith odidog Abraham yn perthyn iddo. Gan hyny, yr ydoedd diystyru yr enedigaeth fraint yn diystyru y fraint

Digitized by Google

arbenig o fod yn hynafiad Crist, a thrwy hyny, yn diystyru Crist ei hun, sylwedd yr addewid; ac hefyd yn diystyru yr etifeddiaeth dragywyddol, yr hon oedd yn cael ei harwyddo wrth y ddeuparth o feddiannau ei dad. Am hyny, mae yr apostol yn galw Esau yn *halogedig*, am iddo werthu ei enedigaeth fraint. Halogedigaeth ei feddwl, a'i ddiystyrwch o bob peth ysbrydol a nefol, ydoedd yr achos iddo ei gwerthu. Nis gallasai ddangos ei ddiystyrwch yn fwy o'r rhagoroldeb mwyaf ar y ddaear, na thrwy ei gwerthu am un saig o fwyd.

Y mae llawer o dduwinyddion enwog o'r farn, fod yr offeiriadaeth, yn amser y patrieirch, yn rhan o'r enedigaeth fraint; ond nid ydyw y tyb hwn yn ymddangos â sail iddo, wrth ystyriaeth mwy manwl a dwys o'r mater. Y mae yn dra amlwg fod pawb yn aberthu fel eu gilydd, yn ddiattalfa, yn yr amseroedd hyny; a'r un rhyddid ganddynt i aberthu ac i gyflawni pob rhan arall o addoliad dwyfol. Er mai Cain oedd y cyntaf-anedig, etto yr oedd Abel yn aberthu fel yntau; a'i aberth yn dderbyniol. Y mae amryw siamplau o'r cyffelyb i'w cael gwedi y diluw. Gwel Outram, *De Sacrif., lib.* i, *cap.* 4.—Vitringa, *Observ. lib.* i, *cap.* 11.—Parkhurst, dan y gair Πρωτοτοκια, *3rd Edit.*—Dr. Owen *on the Hebrews, Exercit.* x, ond yn enwedig Vitringa.

Pan ddinystriwyd cyntaf-anedig yr Aiphtiaid, ordeiniodd Duw fod i bob cyntaf-anedig, o ddynion ac anifeiliaid dofion, yn mhlith yr Hebreaid, gael eu cysegru iddo. Exod. 13. 12, 13. Y gwrrywiaid yn unig oedd yn ddarostyngedig i'r ddeddf hon; ond yr oeddynt i gael eu prynu â phum sicl o arian. Num. 18. 16. Prynwyd Crist, diammeu, cyntaf-anedig Mair, er na roddir hanes am hyny. Pum sicl oedd yn cyfateb i ddeuddeg swllt a chwe cheiniog o'n harian ni. Cyntaf-anedig i anifel glân a offrymid yn y deml, ond nid oeddynt i'w prynu; y gwaed i'w daenellu o amgylch yr allor, a'r brasder i'w losgi yn y tân, ar yr allor, a'r cig i fod yn eiddo yr offeiriad. Num. 18. 17, 18, 19. Am anifel aflan, yr oedd yn rhaid naill ai ei brynu, neu roddi rhyw beth yn gyfnewid am dano. Exod. 13. 13.

Yr oedd y cyntaf-anedig yn eiddo Duw mewn modd neillduol arbenig: 'Cysegra i mi bob cyntaf-anedig, sef beth bynag a agoro y groth, yn mysg meibion Israel, o ddyn ac anifel: eiddo fi yw.' Exod. 13. 2. a 22. 29. 'Eiddo fi yw pob peth a agoro y groth,' &c. Exod. 34. 19. Lef. 27. 26. Num. 3. 13. a 8. 16, 17. a 18. 15. Y mae pawb a phob peth yn eiddo yr Arglwydd mewn modd cyffredinol. 'Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder.' Ps. 24. 1. a 50. 12. Exod. 9. 29. a 19. 5.—Yr oedd yr holl Iuddewon yn eiddo yr Arglwydd trwy ffafr, neu ras cyffredinol, â'r rhai y gwnaethai yr Arglwydd gyfammod grasol, yr hwn gyfammod a wnaeth efe âg Abraham, ac â'i holl hâd ynddo ef; yr hwn a ddewisodd efe i fod yn gyfaill neillduol iddo; er mai eiddo ef yr holl ddaear. 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Fy mab i, sef fy ngyntaf-anedig, yw Israel.' Exod. 4. 22. Jer. 31. 9. Nid yn unig am mai hwy oedd y bobl gyntaf, a'r genedl gyntaf, a broffesasant wir addoliad Duw, a bod ganddynt y blaenoriaeth ar y Cenedloedd, y rhai oeddynt frodyr ieuengaf, y gelwir hwynt yn gyntaf-anedig; ond yr oeddynt felly trwy neillduol etholiad a dewisiad o honynt, oddiwrth yr holl bobloedd eraill; (Amos 3. 2.) yr oedd Duw yn gwneuthur â hwynt yr hyn nad oedd efe yn ei wneuthur âg un genedl arall.—Ond yr ydoedd cyntafanedigion Israel yn eiddo Duw trwy hawl neillduol, mewn modd gwahanol, nid yn unig oddiwrth blant unrhyw genedl arall, ond mewn modd mwy neillduol na chenedl Israel yn gyffredinol; sef trwy hawl y waredigaeth ryfedd hôno a gafodd yr holl gyntaf-anedigion, pan ddinystriwyd pob cyntaf-anedig drwy holl wlad yr Aipht. Yn ganlynol i'r waredigaeth ryfedd hon, y mae yr Arglwydd yn hôni hawl neillduol ynddynt, i fod yn eiddo iddo, ac i fod yn wasanaethgar iddo, trwy ymroddiad cyflawn i'w waith a'i addoliad. Oddiwrth hyn y rhyddhaodd yr Arglwydd hwynt, trwy gymeryd llwyth Lefi yn eu lle at ei wasanaeth. 'Wele, mi a gymerais y Lefiaid o blith meibion Israel, yn lle pob cyntaf-anedig.' Num. 3. 12. Y Lefiaid oeddynt yn 22,000—rhifedi cyntaf-anedigion meibion Israel oeddynt 22,273; am y 273 dros ben, yr oeddynt i dalu pum sicl am bob un. Num. iii.

Y mae Crist yn cael ei alw 'cyntaf-anedig Duw.' Heb. 1. 6. 'Cyntaf-anedig pob creadur,' yn yr un ystyr. Col. 1. 15. Yn ol barn amryw o wyr dysgedig, y mae yr enwad 'Cyntaf-anedig,' a briodolir i Grist gan yr apostol, (Heb. 1. 6.) yn anaddas iddo o ran ei Dduwdod a'i ddyndod; ond yn briodol iddo o ran ei ragoriaeth, ei awdurdod, a'i arglwyddiaeth; ac o'r un arwyddocâd âg 'Etifedd pob peth.' Adn. 2. Nid ydyw yn cael ei alw yn gyntaf-anedig o ran ei Dduwdod, ond yn 'unig-anedig;' a chyntaf-anedig Mair o ran ei ddyndod. Gwel Dr. Owen *in loco*. Efe yw Etifedd ac Arglwydd pob creadur, yr hwn a osododd y Tad yn Frenin nef a daear. Oblegid yr oedd y cyntaf-anedig â hawl ganddo, gynt, i feddiannu etifeddiaeth ei dad. Jehosaphat a roddodd y freniniaeth i Jehoram, 'canys efe oedd y cyntaf-anedig.' 2 Cron. 21. 3. Yr oedd y cyntaf-anedig yn arglwydd, hefyd, ar ei frodyr, y rhai oeddynt oll yn weision iddo. Gen. 27. 37. O herwydd hyn, yn mhlith yr Iuddewon a chenedloedd eraill hefyd, yr oedd y geiriau 'cyntafanedig,' 'etifedd,' ac 'arglwydd,' yn ymadroddion cyfystyr. 'Dros gymaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl.' Gal. 4. 1.—*Heres apud antiquos pro domino ponebatur.*—Yn ol y deongliad hwn o'r geiriau 'cyntaf-anedig,' ac 'etifedd,' y mae ymadroddion yr apostol yn dra addas am Grist. Gan mai efe a greodd bob peth, ac a wnaeth y bydoedd, y mae efe yn etifedd ac yn arglwydd pob peth. Mat. 28. 18. Col. 1. 16. Heb. 1. 2. Ei gynfab yw Crist, goruwch breninoedd y ddaear.—'Cyntaf-anedig Mair' y gelwir ef yn Mat. 1. 25. a Luc 2. 23. nid gyda golwg ar un fu gan ei fam ar ei ol, yr oedd efe ei chyntaf-anedig, ond o herwydd na bu iddi yr un o'i flaen. Yr oedd efe felly mewn ffordd ryfedd; yr ydoedd yn gyntafanedig *gwyryf*, ac fel hyny heb un brawd naturiol. Ganwyd ef heb bechod.

'Y cyntaf-anedig oddiwrth y meirw.' Col. 1. 18. Y cyntaf a gyfododd trwy ei nerth ei hun, i fywyd tragywyddol ac anfarwoldeb. Y dernyn perffaith cyntaf perthynol i'r byd newydd, a'r ystâd o dragywyddol ogoniant. Nid oes neb o'r gwaredigion yn berffaith ogoneddus yn bresennol fel y byddant byth. Ond y mae Crist felly. Bu yn mhlith y meirw, ond cyfododd i fywyd ac anfarwoldeb, perffaith, tragywyddol. Dat. 1. 18. Nid y cyntaf-anedig *oddiwrth* y meirw yn unig yw Crist; ond hefyd y cyntaf-anedig *o'r* meirw, a chanddo gyflawn arglwyddiaeth ar y meirw yn gystal ag ar y byw. Rhuf. 14. 9. Y mae ei arglwyddiaeth yn cyrhaedd i wlad angeu, ar yr holl farwolion, a gall eu bywhau y modd a'r pryd y myno. Efe yw yr achos haeddiannol o adgyfodiad ei holl bobl. Ni buasai iddynt hwy byth adgyfodiad, oni buasai i Grist gyfodi. Ond y mae efe yn achos haeddiannol o'u hadgyfodiad, yn mhob ystyr—i fywyd o gyflawnhad ger bron Duw—i fywyd grasol a sanctaidd yma—ac i fywyd o ogoniant tragywyddol wedi eu myned oddi yma. Efe, hefyd, ydyw yr achos effeithiol o'u hadgyfodiad hwy oll. Trwy rym a rhinwedd ei adgyfodiad, a'u hundeb âg ef, yr adgyfodir yr holl eglwys. Rhuf. vi. 1 Cor. xv. Efe ydyw cynffurf, neu siampl, eu hadgyfodiad hwy. Gwneir eu cyrph gwael hwy yn un ffurf â'i gorph gogoneddus ef. Phil. 3. 21.—'Mae efe yn gyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer.' Rhuf. 8. 29. Mae efe o'r un natur â hwynt; ac mewn undeb a pherthynas agos â hwynt; mae iddo gyflawn flaenoriaeth ac arglwyddiaeth

Digitized by Google

yn eu plith; a byddant oll yn debyg iddo, ac yn ddarostyngedig iddo, fel eu brawd hynaf. Ato ef y bydd eu dymuniad oll. Yntau a fydd yn eu plith, yn cymdeithasu â hwynt, ac yn eu llywodraethu gyd âg anfeidrol diriondeb, graslonrwydd, a doethineb. Mae yn maethu ac yn addysgu ei eglwys; yn darparu at ei hangenrheidiau presennol, ac yn ei chynnysgaethu âg etifeddiaeth bywyd tragywyddol.

'I gymanfa a chynnulleidfa (neu eglwys) y rhai cyntaf-anedig.' Heb. 12. 23. Mae y saint, dan y Testament Newydd, yn cael eu dwyn trwy undeb â Christ, i hawl o holl freintiau cyntaf-anedigion. Y maent, fel cyntaf-anedigion Israel yn yr Aipht, wedi eu gwaredu dan gysgod y gwaed. Gwaredwyd hwy dan gysgod gwaed oen y pasc oddiwrth berygl yr angel dinystriol; mae y saint yn bresennol yn cael eu gwaredu a'u diogelu oddiwrth ddamnedigaeth a digofaint Duw, dan gysgod gwaed Crist, yr hwn yw Oen Duw. Ioan 1. 29. Y maent yn cael eu cynnysgaethu â breintiau tra goruchel yn Nghrist; yn cael eu gwneuthur 'yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef.' Dat. 1. 6. Y maent i gyd, trwy y fraint oruchel hon, yn cael eu 'gwneuthur yn etifeddion i Dduw, ac yn gyd-etifeddion â Christ.' Rhuf. 8. 17.

Wrth 'gyntaf-anedig angeu,' (Job 18. 13.) y deallir y creulonaf a'r mwyaf dychrynllyd o bob marwolaeth. Edr. BLAEN-FFRWYTH, CYNBLANT.

CYNTEDD—AU—OEDD, (cyn-tedd) neuadd, cadlys, hongl, llanerch, drws; mynedfa gauedig i mewn i dŷ, neu balas. 2 Sam. 17. 18. Esth. 6. 4. Jer. 36. 10. a 38. 6.—Yr ydoedd i'r babell un cyntedd; yr ydoedd dau gyntedd i deml Solomon; (1 Bren. 6. 36. a 2 Bren. 21. 5.) ac yr ydoedd tri i deml Herod, fel ei gelwir gan awdwyr, sef yr ail deml wedi ei hadgyweirio a'i haddurno gan Herod, yr hon oedd yn sefyll yn amser ein Hiachawdwr. Y cyntaf oedd Cyntedd y Cenedloedd; a elwid felly, o herwydd fod caniatad i'r Cenedloedd fyned hyd yno, a dim pellach. Yr ail a elwid Cyntedd Israel; o herwydd fod gan holl Israel hawl i fyned i mewn yno; sef os byddent hwy yn lân yn ol defodau y gyfraith. Y trydydd, ydoedd Cyntedd yr offeiriaid; lle yr oedd allor y poeth-offrwm yn sefyll, a lle yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid yn cyflawni eu gwasanaeth. 1 Bren. 6. 36. 2 Cron. 4. 9. Yn gyfatebol i hyn y gelwid addoliad Duw, lleoedd addoliad, ordinhadau Duw, a chymdeithas â Duw ynddynt, yn gynteddau Duw. Ps. 65. 4. a 84. 2, 10. a 96. 8.——'Ac efe (Solomon) a wnaeth gyntedd yr offeiriaid, a'r (עזרה) cyntedd mawr, a dorau i'r (עזרה) cynteddoedd; a'u dorau (sef dorau cyntedd yr offeiriaid a'r עזרה) a wisgodd efe â phres.' 2 Cron. 4. 9.——'Canys Solomon a wnaethai bulpud pres, ac a'i gosodasai yn nghanol y (עזרה) ac a safodd arno (neu עמד *arno yr oedd*) ac a ostyngodd ar ei liniau.' 2 Cron. 6. 13. Amlwg yw, oddiwrth adn. 12. a 1 Bren. 8. 22. fod Solomon yn awr o flaen allor yr Arglwydd, ac, yn ganlynol, yn nghyntedd yr offeiriaid, am hyny, nis gallasai fod yn nghyntedd mawr y bobl gyffredin. Yn y ddau le, os yr un ystyr sydd iddo yn mhob un o honynt, tebygol yr arwydda עזרה yn ol y Dr. Taylor (*Hebrew Concordance*) gwaith pedronglog, gwedi ei godi yn uwch na'r palmant, â rhagfur o amgylch iddo, a drws yn y mur hwn o flaen allor y poeth-offrwm; a thebygol iddo gael yr enw hwn oddiwrth yr help yr oedd yn ei roddi i'r brenin i gael ei weled a'i glywed gan holl gynnulleidfa Israel, wrth weddïo ei weddi ragorol.——Y mae 'cyntedd,' mewn ystyr gyffelybiaethol, yn arwyddo eglwys Crist. Zech. 3. 7. Ac hefyd, arwydda, gau eglwys anghrist. Dat. 11. 2.

CYNTEDDFA, man neu le y cyntedd. Exod. 27. 9, 12, &c. Lef. 6. 16, &c.

CYPRESWYDD—EN, *Heb.* בקר (*coper*) pren sydd yn tyfu yn uchel, ac yn dra chryf hefyd. Pren trwm ydyw, ei ddail yn wastad yn leision; y mae yn bêr ei arogl, ac yn hir iawn ei barhad; o ba herwydd, hwyrach, y gwneid delwau o hono. Esa. 44. 14. Yr oedd amledd o honynt yn tyfu yn Engedi. Can. 1. 14. a 4. 13. Y Rhufeiniaid a'i cyfrifent yn bren tyngedfenawl, ac a'i harferent mewn defodau claddedigaeth. Ei ffrwyth sydd feddyginiaeth ragorol rhag clwyf y gwaed, ond yn cael ei esgeuluso yn ddirfawr. Dywedir fod ei ddail a'i ffrwyth yn feddyginiaethol. Ei ffrwyth ydynt addfed tua dechreu y gauaf.

CYPRUS, a alwyd felly, tebygol, oddiwrth yr amldra o cypreswydd oedd yn tyfu yno. Ynys fawr yn Môr y Canoldir, yn nghylch 175 o filltiroedd o hŷd, a 60 ei lled, yn sefyll yn nghylch can milltir o Syria. Y tir ydoedd dra thoreithiog, ond ei thrigolion oeddynt anfoesol iawn; ei chyfreithiau oeddynt yn erbyn diweirdeb, ac o blaid godineb ac anlladrwydd. Hiliogaeth Cittim, yn ol barn Josephus, a'i poblogodd ar y cyntaf. Daeth yr ynys hon i fod yn dalaeth Rufeinig, A.M. 3950. Yr Iuddewon, ar eu gwasgariad, a dyrasant yn lliosog iddi; ond yn A.D. 118, ymlidiwyd hwy allan o'r ynys, am iddynt, mewn modd diffaith, ladd 240,000 o'r trigolion cynhenid.—Planwyd Cristionogrwydd yn yr ynys hon gan ryw ffoaduriaid, yn amser erlidigaeth, ac a gadarnhawyd gan Paul a Barnabas, a Marc; ac y mae yn parhau, mewn rhyw fesur, hyd heddyw. Y mae hi yn bresennol yn meddiant y Twrc. Act. 11. 19, 20. a 13. 4. a 15. 39.

CYRCHU, (cwr) dygyrchu, gorllwyn, canlyn, erlyn, dwyn at, cynnull.—1. Dwyn at. 1 Sam. 6. 21. Esa. 56. 12. Ioan 10. 16.——2. Nesâu, dyfod at, ymgynnull. Luc 8. 4.——3. Gobwyso tua chanolbwynt, cyfeirio at nôd. Phil. 3. 14. Y gair *Gr.* διωκω, yn Phil. 3. 14. a gyfieithir *cyrchu*, a gyfieithir *erlid*, *rhuthro ar:* Mat. 10. 23. Gwneuthur yn erbyn, sef gyda bwriad ac awyddfryd erlidus a niweidiol. Act. 26. 11. Y mae Mr. Burroughes yn sylwi ar hyn, 'Yr un gair ydyw,' medd efe, 'ag a arwydda erlid; o herwydd fod yn yr apostol yr un awyddfryd yn bresennol yn cyrchu neu yn gwasgu at y nôd, neu wrth reol osodedig, ag a fuasai ynddo gynt yn erlid y rhai oeddynt yn cyrchu at y nôd y pryd hwnw.' Fod ganddo yr un awyddfryd yn cyrchu at y nôd, ag a fuasai ganddo yn cyrchu eraill o flaen brawdlysoedd, ac i'w carcharu. Edr. CAMP, NOD.

Nid calonawg ond a *gyrcha.* *Diar.*

CYRHAEDD, (cwr-haedd) dyfod hyd at; cael gafael yn, cyffwrdd â. Gen. 28. 12. Job 20. 6. Esa. 8. 8. Jer. 51. 9. 2 Cor. 10. 14. Phil. 3. 11, 12.

CYRENE, Κυρηνη, [*mur*]. Gelwir hi yn awr Cairoan, yn uheyrnas Barea. Gwlad o Lybia, yn Affrica, yn y gorllewin i'r Aipht, ac yn y dehau i Fôr y Canoldir. Yr oedd ei phrif ddinas o'r un enw a hithau, Cyrene. Bu unwaith yn wlad gadarn, gyfoethog, yn ddigon abl i wrthwynebu Carthage. Priodor oddi yno ydoedd Simon, yr hwn a gymhellwyd i ddwyn croes yr Iesu. Mat. 27. 32. Luc 23. 36. Act. 2. 10. Yr oedd lliaws mawr o Iuddewon yn Cyrene, llawer o honynt a dderbyniasant y grefydd Gristionogol, ond eraill a safasant yn fileinig yn erbyn y ffordd hòno. Act. 11. 20. Daeth y wlad yma i fod agos yn anialwch, trwy ryfeloedd parhaus a thywallt gwaed. Y mae yn bresennol yn meddiant y Twrc.

CYRRITH, (cwr-rhith) cynnildeb, cybyddiaeth; cybydd.—'Nid yn gyrrith.' Tit. 1. 7. W. S.

CYRUS, כורש [*yr haul*] mab Cambyses brenin Persia, a Mandane merch Astyages, brenin Media. Mae llawer o ystoriau anghyson ac anhygoel yn mherthynas i Cyrus, ac nid etyb un dyben eu coffâu hwynt. Ond sicr, tybygid, y gellir casglu hyn oddiwrth ei hanes, ei

Digitized by Google

fod yn ŵr enwog, yn rhyfelwr glew, a thra llwyddiannus. Cyfodwyd ef gan Dduw, fel offeryn, i waredu yr Iuddewon o'u caethiwed. Gosodir ef, neu hwyrach, breniniaeth y Persiaid, allan gan y prophwyd Daniel, dan y golygiad o hwrdd â dau gorn iddo; yn arwyddo y byddai iddo uno y ddwy ymerodraeth ynddo ei hun, sef Media a Persia. Dan. 8. 3—20. Y prophwydi yn fynych a rag-ddywedasant am Cyrus. Y mae Esaiah yn prophwydo am dano ef wrth ei enw dros ddau can mlynedd cyn ei eni. Esa. 44. 28. Edr. Babilon, Persia.

CYSEGR—AU, (cy-segr) *Llad.* Sacer, Sacratum, Sacrum, Consecratum: lle sancteiddiol: megys, 1. Y gelwid y rhan ddirgelaf a mwyaf neillduol o'r babell a'r deml, yn gysegr sancteiddiolaf; yn yr hwn yr oedd yr arch a'i pherthynasau yn sefyll, ac i'r hwn nid oedd neb i fyned ond yr arch-offeiriad yn unig; a hyny ddim ond un dydd yn y flwyddyn, sef ar ddydd y cymmod. Lef. 4. 20. Neu ddodrefn y lle hwnw. Num. 10. 21.——2. Gelwid y rhan hyny lle yr ydoedd y canwyllbren aur, bwrdd y bara gosod, allor yr arogl-darth, &c., yn sefyll, 'y cysegr,' neu 'y lle sanctaidd.' 2 Cron. 26. 18.——3. Yr holl babell, neu y deml. Exod. 26. 33. Jos. 24. 26. 2 Cron. 20. 8.—Gelwir ef 'cysegr yr amddiffynfa,' neu 'gysegr cadernid,' o herwydd ei fod yn lle cadarn, hawdd ei amddiffyn; ac o herwydd ei fod yn perthyn i Dduw, cadernid ac amddiffynydd Israel; ac am mai yno yr ydoedd Duw, ar orseddfa trugaredd, lle yr ydoedd amddiffyniad a nodded i bechadur. Dan. 11. 31.—Yr oedd yn cael ei alw yn 'gysegr bydol,' am mai defodau cnawdol a gyflawnid ynddo, a chysgodau bydol o bethau daionus i ddyfod. Heb. 9. 1.—Y mae hyd yn nod y cyntedd, lle yr oedd y bobl yn dyfod i addoli, weithiau, yn cael ei alw 'y cysegr.' Lef. 12. 4.——4. Unrhyw le nodedig i addoli Duw yn gyhoeddus. Ps. 73. 17. a 134. 2.——5. Gwlad Canaan, a elwir felly, o herwydd fod pabell Duw a'i deml ynddi. Exod. 15. 17. ——6. Nef y nefoedd, lle y mae Duw, a'i angelion, a'i saint, yn preswylio byth. Ps. 102. 19. Heb. 8. 2. a 9. 11.——7. Temlau eilunod a elwir yn gysegr. Esa. 16. 12. Amos. 7. 9.

'Cysegr bychan,' neu 'cysegr i ychydig,' sef o rifedi, neu, cysegr dros ychydig, sef o amser. Ezec. 11. 16. Mae y geiriau Hebraeg מעט מקדש yn cynnwys ynddynt yr ystyriaethau uchod. Y mae מעט yn dra mynych yn cael ei gyfieithu *ychydig;* ac y mae y gair hwn yn gwbl mor briodol i ychydigrwydd mewn nifer, ag ydyw efe i fychanigrwydd mewn mesur; a dyna yr ystyr y mae y gair yn cael ei gymhwyso at y gaethglud. Gwel Jer. 29. 6. 'Byddaf yn gysegr bychan iddynt yn y gwledydd lle y deuant.' Addewid ydyw hon a roddodd yr Arglwydd i'r Iuddewon hyny a gaethgludasid i Babilon. Fel pe dywedasai yr Arglwydd, 'Na feddylied yr Iuddewon hyny sydd etto yn aros yn Jerusalem, a'u teml a'u breintiau ganddynt, fy mod i am *adael* y rhai hyny a gaethgludwyd i blith y Caldeaid; na, mi a fyddaf yn gysegr i *ychydig* o honynt yn y gwledydd lle y deuant, dros *ychydig* o amser; sef deng mlynedd a thriugain. Byddaf fi iddynt hwy, fy nghaethion, yn y man lle y byddont, yr hyn y mae yr Iuddewon beilchion yn *tybio* y bydd y deml iddynt eu hunain, yn ymddiffynfa, yn ogoniant, ac yn gysur. Cânt hwy yn Jerusalem y deml am ychydig amser, ond heb Dduw: caiff y lleill yn Babilon Dduw, ond heb y deml. Hwy a gânt y fath gymundeb â Duw yn nhir eu halltudiaeth, ag y meddyliwyd nad oedd yn bosibl i'w gael ond yn y deml yn unig.' Ezra 9. 8. Neh. 2. 12. Ps. 90 1. a 91. 3. Esa. 8. 14. Jer. 15. 11. a 42. 11. Ezec. 6. 8. a 12. 15. Col. 3. 3.

CYSEGR-YSPEILIO, ydyw cymeryd at wasanaeth dyn ei hun, yn *lladradaidd,* yr hyn fyddo yn perthyn i wasanaeth ac achos Duw, megys degwm, &c., yr hyn sydd yn bechod tra mawr. Mat. 3. 8, 9. Rhuf. 2. 22. Mae barn Duw yn cael ei dangos yn eglur ar gysegrysbeilwyr yn y byd hwn. Jos. vii. 2 Bren. xii. 2 Cron. xxviii. Dan. v. Act. vi.

CYSEGRFA—OEDD, (cysegr-man) mân â phethau cysegredig, mân â phethau sanctaidd; yr un peth a chysegr. Ezec. 45. 4. a 48. 21. Heb. 8. 2.

CYSEGR-WYL, gwyl y cysegriad. Mae y gair *Gr.* εγκαινια, yn arwyddo adnewyddiad, neu adferiad, am ei bod yn goffadwriaeth am buredigaeth a glanhad y deml, ac adferiad o addoliad Duw ynddi, gwedi ei llygru gan y Cenedloedd. Gan fod yr ŵyl hon yn y gauaf, nis gellid bod yn ei chadw mewn coffadwriaeth am gysegriad y deml gan Solomon, yr hyn oedd yn dygwydd yn mis Ethanim, yn cyfateb i ran o'n Medi a'n Hydref ni. 1 Bren. viii. Nis gallai fod ychwaith yn goffadwriaeth am gysegriad y deml gan Nehemiah, yr hyn oedd yn y gwanwyn. Ezra 6. 15. Ond yr ŵyl hòno a gedwid yn goffadwriaeth am waith Judas Maccabæus yn diwygio ac yn adgyweirio y deml; yr hwn a fwriodd allan y delwau a'r allorau, ac a ddileodd y delw-addoliaeth a osodasid i fynu yno gan Antiochus Epiphanes, gan alltudio yr offeiriaid, a chysegru allor newydd. Yr oedd yr adferiad hwn o addoliad Duw yn achos o orfoledd nid bychan gan bob Israeliad gwir grefyddol, ac yn cael ei ystyried megys cysegriad newydd o'r deml: ac yr oedd yr ŵyl, yn ganlynol, mewn parch mawr. Gan hyny, er mai o osodiad dynol yr ydoedd, nid oedd ein Harglwydd yn petruso bod yn bresennol ynddi. Yr oeddynt yn cadw y gysegrwyl dros wyth niwrnod yn olynol, yn dechreu ar y pummed dydd ar hugain o fis Cisleu; sef rhan o'n Tachwedd a rhan o'n Rhagfyr ni; a chan hyny yn nuaf. 1 Mac. 4. 56, 59. 2 Mac. 10. 5, 8. Dywedir y byddent yn goleu llawer iawn o lampau ar yr ŵyl hon yn eu teuluoedd; weithiau un i bob mab, weithiau un i bawb, pa un bynag ai mab ai merch. Byddai rhai yn ychwanegu lamp bob dydd i bawb yn eu tŷ; a byddai ganddynt lawer yn nghrog wrth eu drysau oddi allan. Fel hyn, os byddai y teulu yn cynnwys deg o bersonau, goleuid deg o lampau y diwrnod cyntaf, ac ugain yr ail, ac felly yn mlaen hyd yr wythfed dydd. Byddai y meibion yn gwledda ar yr ŵyl hon wrthynt eu hunain, a'r merched wrthynt eu hunain. Yr oedd yr ŵyl hon yn cael ei chadw mewn lleodd eraill, yn gystal ag yn Jerusalem. Ioan 10. 22. Josephus, *Antiquities, lib.* xii, *c.* 7, *sec.* 6, 7. Doddridge, Whitby, Campbell.

CYSEGRU, *Llad.* Consecro: cyflwyno, diofrydu, sancteiddio; neillduo mewn modd difrifol at wasanaeth Duw. Yr oedd holl genedl yr Hebreaid wedi eu cysegru yn bobl neillduol, ac yn wasanaethwyr y Duw byw. Gen. xvii. Exod. xiv, xix—xxiv. Deut. v, xxvi, xxvii, xxix.——I gadw coffadwriaeth o ddinystr cyntaf-anedigion yr Aiphtiaid, gorchymynodd yr Arglwydd gysegru cyntaf-anedigion Israel, yn ddyn ac anifel, i fod yn eiddo iddo ef. Exod. xiii. ——Y Lefiaid, y rhai a gymerodd yr Arglwydd yn lle y cyntaf-anedigion, a gysegrid trwy olchiad, offrymu aberth, a thrwy daenelliad olew a gwaed: yn yr un modd y cysegrid yr offeiriaid, y babell, y deml, a'r holl ddodrefn sanctaidd i holl ddefodau gwasanaeth Duw. Exod. xxviii, xxix. Num. 1. 49, 50. a 3. 10. a vii, viii. 2 Cron. 2. 4. a 7. 9. Ezra 6. 16, 17. ——Byddai yr Iuddewon, weithiau, yn cysegru eu tai, ac hyd yn nod muriau eu dinasoedd; yr hyn a wneid (fel y tybir) trwy weddi a diolchgarwch. Deut. 20. 5. Neh. 12. 27.—Yr oedd y cysegriad hwn, &c., yn gosod allan neilldnad difrifol Iesu Grist i'w swyddau cyfryngol—a'r saint i wasanaeth Duw—yn nghyd â neillduad breintiau a bendithion i'w mwynhau ganddynt. Y mae yr Iesu wedi ei 'gysegru yn dragy-

Digitized by Google

wydd;' y mae wedi ei gymhwyso a'i osod gan yr Ysbryd Glân, mewn modd anniddymol, i fod yn Brophwyd, Offeiriad, a Brenin tragywyddol i'w eglwys; a thrwy golli ei waed y rhoddodd efe ei hun a'i bobl i fynu i wasanaeth ei Dad. Heb. 7. 28. 1 Petr 2. 9.—Efe a gysegrodd i ni ffordd newydd a bywiol at Dduw, trwy ufudd-dod ei fywyd, ac anfeidrol haeddiant ei farwolaeth. Heb. 10. 20.—Y mae y saint, a chymaint ag a feddont, yn gysegredig i'r Arglwydd trwy eu neillduad a'u hymroddiad ewyllysgar iddo, a'u cyflawn dderbyniad ganddo yn y Cyfryngwr. Esa. 23. 18. Ezec. 43. 20. Mic. 4. 14. 1 Petr 2. 9.

CYSGOD—AU, (cy-ysgawd) *Heb.* חשך (*chosec*): gwasgod, ysgawd, diogelwch.—1. Y drychiolaeth a wnelo unrhyw gorph sylweddol o hono ei hun, drwy fod yn sefyll rhwng yr haul, neu y goleuni, a rhyw ddefnydd arall: diffyg goleuni mewn lle nas gall y goleuni gyrhaedd, o herwydd rhyw gyfangorph yn sefyll rhyngddo. Barn. 9. 36. Esa. 38. 8. Act. 5. 15.——2. Cauadle, neu orchudd i lechu dano rhag gerwindeb y tywydd, yn ei wres, neu ei oerni; megys tŷ, pabell, pren, &c. Gen. 19. 8. Job 7. 2. Esa. 4. 6. Jonah 4. 5. Marc 4. 32.——3. Pethau o fyr barhad, ag a fyddo yn diflanu yn ddisymwth, megys dyn a'i ddyddiau, i ddangos ei ddiddymdra, a elwir yn gysgod. Job 14. 2. 1 Cron. 29. 15. Ps. 109. 23.——4. Amddiffyniad a diogelwch mewn amser o berygl. Gen. 19. 8. Num. 14. 9. Esa. 25. 4.——5. Breninoedd a llywiawdwyr a elwir yn gysgod, o herwydd fod gweiniaid yn cael llechu yn ddiogel dan aden eu llywodraeth. Barn. 9. 15. Esa. 30. 2. a 10. 1. Galar. 4. 20.——6. Y defodau Iuddewig a elwir yn 'gysgod daionus bethau i ddyfod.' Heb. 8. 5. a 10. 1. Pethau disylwedd a diflanedig oeddynt mewn cyferbyniad i'r sylwedd, sef Crist: 'y corph sydd o Grist.' Col. 2. 17. Nid oeddynt ond dangosiad lled dywyll ac anmherffaith o bethau ysbrydol, nid gwir ddelw y pethau.——7. Yr arwydd, neu y tebygoliaeth lleiaf o beth. Iago 1. 17.

Dywedir fod yr Arglwydd yn cysgodi ei bobl rhag pob niwed a pherygl. Fel y mae llywodraethau gwladol, a drefnir mewn cyfiawnder a barn uniawn, yn ddiogelwch i weiniaid rhag peryglon tymhorol; felly y mae llywodraeth rasol Duw yn Nghrist yn diogelu deiliaid ei deyrnas ysbrydol rhag eu holl elynion. Ps. 17. 8. a 63. 7. Can. 2. 3. Esa. 4. 6. a 25. 4. a 32. 2.——'Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw! am hyny yr ymddiried meibion dynion dan gysgod dy adenydd.' Ps. 36. 7. Y mae y geiriau yn cyfeirio at ddull yr amryw adar, y rhai a gysgodant eu cywion â'u hadenydd, er eu nodded a'u diogelwch, megys yr iar, ac eraill. Deut. 32. 11. Mat. 23. 37. Luc 13. 34. Neu, fel y barna rhai, y maent, yn nghyd âg amryw leoedd eraill o'r ysgrythyr, yn cyfeirio at y drugareddfa yn y babell a'r deml, o'r hon yr oedd y cerubiaid wedi eu gwneuthur, yn un darn o gyfanwaith morthwyl, a thros yr hon yr oeddynt yn lledu eu hadenydd, gan ei chysgodi. Exod. 25. 20. 2 Sam. 22. 11. Heb. 9. 5. Edr. ARCH, TRUGAREDDFA.—Gellir golygu yr ymadroddion canlynol â'r un cyfeiriad iddynt: 'Gobeithio yn ei drugaredd ef.' Ps. 33. 18. 'Gobeithio yn dy farnedigaethau.' Ps. 119. 43. 'Preswyliaf yn dy babell byth; a'm hymddiried fydd dan orchudd,' neu gysgod, 'dy adenydd.' Ps. 61. 4. a 57. 1. a 17. 8. a 63. 7. a 91. 4. Ruth 2. 12. Pan gaffo pechadur euog y fraint fawr o droi ei wyneb at Grist, a'r gwaith a wnaeth efe fel Cyfryngwr (yr hyn ydyw sylwedd yr arch a'r drugareddfa,) yno, ac yno yn unig, y mae ***trugaredd gyfiawn*** yn ei gofleidio, ac yn ei ymgeleddu; nid yn unig y mae yn cael ei ddwyn i gymmod a heddwch â Duw, drwy yr iawn anfeidrol hwn, ond y mae holl briodoliaethau gogoneddus y Duwdod mewn cyd-gordiad hyfryd, wedi ymrwymo, drwy gyfiawnder, i gysgodi drosto, ac i fod yn amddiffyniad tragywyddol iddo. Ps. 91. 1. Can. 2. 3. Esa. 4. 5. a 25. 4. a 32. 2. a 49. 2. a 51. 16.

'Hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau,' &c. Can. 2. 17. Hyd oni ddiflano yr holl gysgodau. Neu, yn hytrach, y mae yr eglwys yn erfyn ar Grist, ei phriod, i fod yn agos ati, i'w chysuro a'i chynnorthwyo tra parhao ei nos a'i chysgodau tywyll a dychrynadwy. Cysgodau tywyll ydyw pob gradd o anwybodaeth a phechod, blinderau, ac erlidigaethau. Galar. 3. 1—4. Mic. 3. 6. Eph. 5. 8. 1 Ioan 1. 6. Y mae y dydd yn gwawrio, a'r cysgodau yn cilio, pan y byddo Haul Cyfiawnder yn cyfodi arni, a hithau âg wyneb agored yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd, a thrwy hyny yn cael prawf o gysur a llawenydd yr Ysbryd Glân. Mal. 4. 2 2 Cor. 3. 18. 2 Petr 1. 19. Y mae yn ddydd ar yr eglwys pan y byddo yr Ysbryd Glân, trwy y gair, yn gweini iddi radd mawr o wybodaeth, sancteiddrwydd, heddwch, cysur, a gorfoledd. Esth. 8. 16. Rhuf. 13. 12, 13. 1 Thes. 5. 5. Hyd oni ddelo hyny yn gyflawn, 'Tro, a bydd debyg, fy anwylyd, i iwrch,' &c. Golyga ei hanwylyd yn ddigon o gysur a chynnaliaeth iddi yn ei nosweithiau mwyaf tywyll, a than y cysgodau mwyaf dychrynllyd; ac y mae yn gwbl sicr mai cilio a wnant i gyd, ac y gwawria dydd dysglaer arni i bara byth. Ps. 57. 3. a 123. 2. Esa. 2 2.

'Cysgod angeu,' a arwydda, 1. Perygl mawr, ac megys marwol, neu yn bwgwth marwolaeth. Ps. 23. 4. a 107. 10.——2. Gofidiau a thrallodau yn y byd hwn, y rhai, trwy eu tywyllwch o anghysur, ydynt ofnadwy fel angeu. Jer. 13. 16.——3. Pethau cuddiedig, ac annhebyg i ddyfod byth i oleuni. Job 3. 5. a 12. 22.——4. Amgyffrediad ofnadwy o farwolaeth. Job 24. 17.——5. Y cyflwr trwm, tywyll, a digysur ysbrydol, yr hwn y mae holl ddynolryw ynddo wrth naturiaeth. Y maent yn ngafaelion, a than felldithion y cyfammod toredig, a than ddedfryd collfarnedigaeth, a hyny yn farwolaeth dragywyddol; ond, er rhyfeddod a bery yn dragywydd, cyfododd Haul Cyfiawnder 'i lewyrchu i'r rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angeu, i gyfeirio eu traed i ffordd tangnefedd.' Esa. 9. 2. Mat. 4. 16. Luc 1. 79. Edr. GLYN.

CYSGU, (cwsg) huno. Cysgu a arwydda, 1. Rhwymiad, neu glöad y synwyrau, er mwyn i'r corph gael gorphwys, dadluddedu, ac adfywio o farweidd-dra blinder. Gen. 28. 16. Barn. 4. 21.——2. Llywodraethiad pechod ar galonau dynion, yr hyn sydd yn gwneuthur yr enaid yn ddifraw, yn annheimladwy ac anystyriol o hono ei hunan, ac o'r Arglwydd hefyd, fel pe byddai yn cysgu. Dyma gwsg ysbrydol, yr hwn yw gorphwysiad yr enaid mewn pechod, yn nghanol y peryglon mwyaf. Barn. 16. 19. Diar. 23. 34. Rhuf. 13. 11. Eph. 5. 14.——3. Esgeulusdra, segurdod, a diofalwch ysbrydol, yr hyn sydd mewn rhan yn y duwiol, o herwydd y llygredd sydd ynddynt. Can. 5. 2, 3. Mat. 13. 25. a 25. 5. Marc 13. 26.——4. Attaliad zel a bywiogrwydd ysbrydol dros amser. Can. 5. 2.——5. Marwolaeth; sef dattodiad holl gylymau natur, a gwahaniad enaid a chorph oddiwrth eu gilydd. Jer. 51. 39. 1 Thes. 5. 10.——6. Segurdod a diogi. Diar. 6. 10. a 10. 5. a 24. 33, 34. Edr. HUNO.

Ni chair da o hir *gysgu*. *Diar.*

CYSON, (cy-son) cydsain, cydgerdd, cydlais, cyduniad, yn un air.—'Nid oedd eu tystiolaethau yn gyson;' sef yn un air, yn dywedyd yr un peth â'u gilydd. Marc 14. 56.

CYSONDEB, (cy-son) cyd-gordiad, cyfuniant, cydundeb.—'Prophwydwn yn ol cysondeb y ffydd;'

Digitized by Google

sef yn ol gair Duw, yr hwn yw rheol ffydd. Rhuf. 12. 6. Barna rhai mai yr un peth a feddylir wrth gysondeb ffydd, αναλογια (*analogia*) ag wrth fesur ffydd, yn adn. 3. Y mae doniau ysbrydol yn yr eglwys yn ol mesur dawn Crist. Dylai pawb gydnabod beth yw y mesur hwnw iddynt hwy, a pheidio ymgais am waith na addaswyd hwynt iddo; 'eithr synied i sobrwydd, fel y rhanodd Duw i bob un.' Gwel Campbell's *Prelim. Dissert.* Macknight.——Nis dichon fod 'cysondeb rhwng Crist a Belial.' 2 Cor. 6. 15. Gan eu bod yn hollol groes i'w gilydd yn mhob peth, nis gall fod cydgerdd (συμφωνησις) a chynghanedd rhyngddynt. Gwaith hollol ofer ydyw ymgais am wneuthur cydgordiad rhyngddynt mewn dim; ond rhaid i bob un ochri yn gwbl gyd â'r naill neu y llall o honynt. Yr un gair a arferir yn Mat. 18. 29. Luc 5. 36. Act. 5. 9. a 15. 15.

CYSUR—O—OL—ON—US, (cws) hyfrydwch, dyddanwch; dyddanu, ymgeledd; dyddanus, llawen, hyfryd. Gen. 37. 35. Job 6. 10. Ps. 23. 4. a 119. 50, 76. Esa. 57. 18. Jer. 16. 7. Mat. 9. 2, 22. Luc 8. 48. Gen. 5. 29. Job 7. 13. Can. 2. 5. Act. 24. 10. a 27. 22, 36.

CYSURWR—WYR, dyddanwr, un yn cysuro. 2 Sam. 10. 3. 1 Cron. 19. 3. Job 16. 2. Ps. 69. 20. Edr. DYDDANYDD.

CYSWLLT, CYSYLLTAU, (cy-swllt) cydiad yn, cynglyn; cydiad, sef yr hyn sydd yn cydio rhanau wrth eu gilydd. Gen. 32. 25.

CYSYLLTIAD—AU, cydiadau, cynglynion, cyfundebau. 1 Bren. 7. 29. 1 Cron. 22. 3. Col. 2. 19.

CYSYLLTIEDIG, gwedi eu cysylltu, neu eu huno â'u gilydd. Ezec. 46. 22.

CYSYLLTU, cydio, cynglynu, asio, cyfuno. 1 Cor. 6. 17. Ezec. 1. 9. Mat. 19. 6. Marc 10. 9.—'Gwae y rhai sydd yn cysylltu tŷ at dŷ, ac yn cydio maes wrth faes, hyd oni byddo eisieu lle.' Esa. 5. 8.

CYSYLIAW, (cysyl) cymmodi, ymgynghori.—'Hwn a'n cysiliawdd ni yddo ehun, trwy Iesu Christ.' 2 Cor. 5. 18.——'Gweinidogaeth cysiliat.' Col. 1. 20, 21. W. S.

CYSTADL—U, (cys-dadl) cyfartal, cydradd, cyfuwch, cyd-wastad, cystal: cydraddu, gwneyd yn dda, neu yn gydwerth.—'Er nad yw y gwrthwynebwr yn cystadlu colled y brenin.' Esth. 7. 4. Y mae Esther, wrth y geiriau hyn, yn rhoddi lled hysbysiad fod y brenin yn cael llawer o elw oddiwrth yr Iuddewon, trwy y trethi a'r teyrngedau oedd arnynt i'w talu; ac y byddai y golled a gai y brenin, trwy ddinystrio yr Iuddewon dros ei holl lywodraeth, mor fawr, na byddai Haman ddim yn abl i'w gwneuthur yn dda â'r deng mil talentau arian (a sonir am danynt yn pen. 3. 9.) a ddarfu iddo addaw i drysorau y brenin am gael eu dyfetha.

CYSTAL, (cys-tâl) cydwerth, cyfartal, cydradd; peth a fyddo heb dalu mwy na llai na pheth arall. Mat. 20. 12. Ioan 5. 18.

CYSTUDD—IAU—IO—IOL—EDIG, (cys-tudd) trallod, gofid, helbul, ing, cyni, cyfyngder. Gen. 16. 11.—Cystudd a arwydda bob math o adfyd, gorthrymder, &c. Exod. 3. 7. Job 5. 6. Pan rodder cystudd ar bechaduriaid diedifeiriol, y mae yn gospedigaeth gyflawn iddynt, ac yn deilliaw oddiwrth ddigofaint cyflawn Duw, a fydd yn ddinystr tragywyddol iddynt. Nah. 1. 6. Rhuf. 2. 8. 2 Thes. 1. 6.——Er fod pechaduriaid edifeiriol, sydd yn credu yn Mab Duw, gwedi eu gwaredu ganddo oddiwrth y digofaint sydd ar ddyfod, etto y mae aml a blin gystuddiau yn eu cyfarfod, fel ceryddon tadol oddiwrth Dduw, ac yn arwydd o'i gariad tu ag atynt, ac er llêsad iddynt. Trwy y pethau hyn y mae yn eu dysgu i wellâu—'a'r holl ffrwyth yw tynu ymaith eu pechod.' Esa. 27. 9. a 48. 18.——'Ein byr ysgafn gystudd'—byr ac ysgafn, wrth ystyried yr hyn a haeddasom; a'r hyn a ddyoddefodd Crist drosom; ac hefyd os cymherir â'r tragywyddol bwys gogoniant addawedig, ac mewn gobaith genym i'w fwynhau. Edr. RHAGOROL.

'Yn eu holl gystudd hwynt, efe a gystuddiwyd.' Esa. 63. 9. 'Yn eu holl gystudd hwynt, nid oedd cystudd.' Dr. M. Y mae un yn cyfieithu yn ol y *Ceri* [לו] ar ymyl y ddalen, a'r llall yn ol y *Chetib* [לא] yn y testun. Y mae y cyfieithiadau o'r geiriau yn amrywio llawer. Y mae ein cyfieithiad ni a'r Saesonaeg yn rhoddi ystyr addas a gogoneddus; sef fod yr Arglwydd megys yn cyd-ddyoddef â'i bobl yn eu holl gystuddiau.—1. Gosodir yr Arglwydd allan fel rhan o gorph y genedl Iuddewig, a'i fod yn cydgyfranogi â hwynt yn eu holl lwyddiant a'u blinderau.——2. Nad oedd un amser yn eu cystuddio hwynt o'i fodd; ond megys o'i anfodd, gyda thristwch, a siarad yn ddynol.——3. Nad oedd byth yn eu cystuddio ond o angenrhaid, ac yntau megys wedi ei ddwyn i gyfyngder. Y peth diweddaf a wna tad yw ceryddu mab anwyl ganddo, yr hwn sydd megys rhan o hono ei hun; a phan y cerydda, gwna hyny gyda gofid. Geiriau hynod ar yr achos hwn a gawn yn Barn. 10. 16. 'A'i enaid ef a dosturiodd, o herwydd adfyd Israel. Edr. TOSTURI.

CYSTUDDIWR—WYR, blinwr, aflonyddwr: y rhai a fyddo yn cystuddio eraill. Barn. 2. 18. Ps. 143. 12. Esa. 51. 23. a 60. 14. Arwydda, hefyd, y neb a fyddo yn cael ei gystuddio; megys

Er's dyddiau bum *gystuddiwr;*
Ni chel y grudd *gystudd* gwr.
*H. Davi.*

CYTTAL, (cyd-dal) cyd-fydio, cyd-drigo, cyd-feddiannu, byw yn nghyd, megys gwyr a gwragedd.—'Nyni a bechasom yn erbyn ein Duw, ac a gyttaliasom â gwragedd dyeithr.' Ezra 10. 2, 10. Y gair *Heb.* ישב yn y lle hwn, a arwydda *trigo yn sefydlog, aros, preswylio, cartrefu.* Yr oedd cyttal â gwrageddd dyeithr yn beth anghyfreithlon i Israel yn ol deddf Duw 'Nac ymgyfathracha â hwynt: na ddod dy ferch i'w fab ef, ac na chymer ei ferch ef i'th fab dithau.' Y rheswm paham y mae yr Arglwydd yn gorchymyn fel hyn yw, 'canys efe a dry dy fab di oddiar fy ol i, fel y gwasanaethont dduwiau dyeithr: felly yr ennyn llid yr Arglwydd i'ch erbyn chwi,' &c. Deut. 7. 3, 4. Dyma ieuo anghymarus.

CYTUN, neu CYDUN, (cyd-un) unedig, o'r un feddwl; rhai gwedi uno mewn meddylfryd, bwriad, a gweithrediad. *Gr.* συμψυχοι *eneidiau yn un.* Barn. 20. 11. Ezra 3. 9. Act. 1. 14. Phil. 2. 2.

CYTUNO, neu CYDUNO, (cyd-un) 1. Cydsynio, Ps. 50. 18. Act. 5. 40. Phil. 2. 2.——2. Ammodi. Mat. 20. 2, 13.——3. Cymmodi. Mat. 5. 25.

CYTHLWNG, (cwth-llwng) bod heb lyncu; bod heb fwyta dim er rhyw amser penodol; bod yn ymattal oddiwrth fwyd; ymprydiad. *Gr.* νηστις, *heb fwyta.* Mat. 15. 32. Marc 8. 3. Mae y gair cythlwng, yn Act. 27. 33. i'w ddeall am gymeryd ychydig o luniaeth; bod heb wneuthur pryd cyflawn.

CYTHRAUL—EILIAID, (cy-traul, neu cythrawl, *gwrthwynebwr)* enw a roddir ar yr angel syrthiedig. Y mae iddo enw yn Groeg sydd yn ateb yn gwbl i'r gair cythraul yn Gymraeg. Απολλυων *(Apollyôn)* dinystrydd, treuliedydd, dystrywydd; yn *Heb.* אבדון *(Abàdon).* Dat. 9. 11. Mae gair arall yn Hebraeg a gyfieithir *cythraul,* sef שד *yspeilydd, treuliedydd,*

Digitized by Google

'Cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd.' Ps. 41. 3. Y mae yr Arglwydd yn cyweirio, neu yn troi ac yn gwneuthur yn esmwyth holl wely y duwiol yn ei glefyd, trwy roddi iddo nerth cyfatebol, ac amynedd dan ei holl ddyoddefiadau—trwy amlygu ei gariad iddo yn, a thrwy ei glefyd—trwy ddangos iddo y llesâd o'i gystuddiau—a thrwy roddi iddo obaith gwynfydedig am waredigaeth allan o honynt fel aur wedi ei buro. Rhuf. 5. 3, 4, 5. Heb. 12. 5, 6, &c. Edr. GWELY.

**CYWEITHAS—AU**, (cy-gwaith) cyfeillach, cymdeithas. Y mae y gair yn cael ei arfer fel enw gwan yn 1 Petr 2. 18. ac yn arwyddo, tyner, hynaws, caruaidd, cyfeillgar.

Nid *cyweithas* ond brawd. *Diar.*

**CYWILYDD—IO**, (cy-gwilydd) gwarthrudd, sarhad, gwarth, gwaradwydd. Nid oedd dim cywilydd, nac achos i fod, ar ddyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd. Gen. 2. 25 ——'Talcen puteinwraig oedd i ti, gwrthodaist gywilyddio.' Jer. 3. 3. Arwydd o anedifeirwch, a chaledu ac ymhyfhau mewn pechod, ydyw gwrthod cywilyddio, pan fyddo achos cywilydd yn bod. Jer. 6. 15. a 8. 12. Seph. 3. 5. Da yw bod yn cywilyddio pan fyddom wedi gwneuthur drwg; ond gwell yw peidio gwneuthur drwg, o'r hyn y mae cywilydd. Mae rhai dynion gymaint eu digywilydddra, fel y maent yn ymogoneddu yn yr hyn y dylent gywilyddio o'i herwydd, sef eu pechod.——'Cywilydd pobloedd yw pechod.' Diar. 14. 34. Phil. 3. 19. Judas 13.——Y mae rhai yn cywilyddio yr yr hyn y dylent ymffrostio ynddo, sef Crist a'i efengyl. Nid oes dim yn fwy gogoneddus, nac yn fwy teilwng o'n haddefiad. Y gwerth, y gogoniant, a'r llesâd mwyaf i bechaduriaid, ydyw Crist yn yr efengyl; ac nid oes dim ond ein hanwybodaeth o honynt a bar i ni gywilyddio o'u plegid. Y mae pob peth yn ddirmygedig ac yn gywilyddus a'r sydd yn perthyn i'r diafol a'i deyrnas, ac a fyddant mewn dirmyg tragywyddol yn mhen ychydig amser. Ond am yr Arglwydd Iesu, a phob peth perthynol iddo, y mae yn anfeidrol deilwng o barch ac anrhydedd. Y mae iddo enw goruwch pob enw, ac iddo y plyga pob glin. Phil. 2. 9, 10. Pawb a'i hadwaenant, gyda Paul, nid oes arnynt gywilydd o efengyl Crist. Rhuf. 1. 16.—Yn ei waith yn prynu ei bobl, Crist a gymerodd arno eu dirmyg a'u gwaradwydd hwynt; a'u diystyrodd, ac a aeth trwyddynt. Esa. 53. 2, 3. Heb. 12. 3. Nid gweddus, gan hyny, i neb o'i ganlynwyr fod yn gywilydd ganddynt ef a'i eiriau. Y mae hyny yn nôd amlwg o'u hanwybodaeth o hono, a'u hanffyddlondeb iddo. Bydd cywilydd gan Fab y dyn hwythau hefyd, dan ddel yn ngogoniant ei Dad, gyd â'r angelion sanctaidd. Marc 8. 38. Y mae y diafol am ddangos y byd yn ei holl ogoniant, a phechod yn ei fwyniant, i ddenu dynion oddiwrth Dduw; ac y mae yn dangos Crist a'i achos yn ei waradwydd a'i ddirmyg yn unig, i'r un dyben, sef eu cadw oddi wrtho, a rhag ei addef. Ond gau olygiadau yw y rhai hyn; yr Ysbryd Glân yw Ysbryd y gwirionedd; ac y mae ei oleuni ef yn dangos pethau yn gwbl wrthwyneb; sef y byd yn ei wagedd; pechod yn ei adgasrwydd a'i ganlyniadau; a Christ yn ei ardderchogrwydd gogoneddus.

**CYWIR**, (cy-gwir) diwygus, uniawn, cyflawn, ffyddlawn, diffuant, diragrith, didwyll, pur. Gen. 42. 11. Diar. 16. 11. Zech. 7. 9.

Nid *cywir* ond meddylgar,
Nid meddylgar ond serchawg.
*Diar.*

**CYWRAIN**, (cy-gwrain) celfyddgar, manwl. Exod. 36. 21. a 28. 8.

**CYWREINRWYDD**, medrusrwydd mewn celfyddyd. Exod. 31. 4.

**CYWYDD**, (cy-gwydd) math o awen-gerdd, bardd gân.

Y rhai a'i hofnant ef yn lân,
A ganan' yr un *cywydd*.
*E. Prys*, (Ps. 118. 4.)

# CH.

**CHALCOL**, כלכל [*difâwr y cwbl*] pedwerydd mab Mahol, Lefiad, cantor nodedig am ei ddoethineb. 1 Cron. 2. 6. 1 Bren. 4. 31.

**CHAMOS**, *Heb.* כמוש [*tynu ymaith*] eilun-dduw y Moabiaid. Jer. 48. 7, 13. Num. 21. 29.

**CHEPHIRAH**, 1. Dinas y Gibeoniaid, a roddwyd wedi hyny i'r Benjaminiaid. Jos. 9. 17. a 18. 26.—2. Mab Ciriathaim. Ezra 2. 25.

**CHERAN**, mab Dison, mab Seir. Gen. 36. 26.

**CHERITH**, כרית [*tori ymaith*] y mae yr afonig hon tu hwnt i'r Iorddonen, ac yn rhedeg i'r afon islaw Bethsan. 1 Bren. 17. 3. Edr. ELIAS.

**CHILEAB**, כלאב [*ei dad yn gwbl*] mab Dafydd o Abigail. 2 Sam. 3. 3.

**CHUB**, dinas Mareotis, talaeth yn yr Aipht, medd Ptolomy. Ezec. 30. 5. Gwel Newcome.

**CHWAER, CHWEIRYDD**, neu yn amlaf **CHWIORYDD**, oddiwrth *chwiawr* (chwai) merch yr un tad neu fam. Ioan 11. 1.—1. Cyfnither. Gen. 26. 7.—2. Rhai yn proffesu yr un grefydd. Rhuf. 16. 1. 1 Cor. 7. 15.—3. Dinasoedd a theyrnasoedd a elwir yn chwiorydd, o herwydd eu tebygolrwydd i'w gilydd. Jer. 3. 8, 10. Ezec 16. 46.—4. Y cenedloedd. Can. 8. 8.—5. Yr eglwys, neu y saint, y rhai a dderbyniasant y dduwiol anian. Nis gall *un* enw, nac *un* berthynas osod allan gariad Crist at ei eglwys; am hyny



gelwir hi wrth bob enw a arwydda berthynas ac anwyldeb, megys chwaer, dyweddi, &c. Can. 4. 9.

**CHWAL—U—WR**, (chwa-al) taenu, gwasgaru, dryllio. Ps. 1. 4. a 68. 2. Diar. 10. a 21. 6. Esa. 19. 7. Jer. 15. 7. a 18. 17. Esa. 36. 19. Nah. 2. 1. Iago 1. 6.

**CHWANEN, CHWAIN**, (chwa) yr oedd Dafydd yn cyffelybu ei hun i chwanen, i ddangos, tebygol, y cai Saul gryn drafferth yn ei ddal, ac mai ychydig fyddai y budd os cai afael arno. 1 Sam. 26. 20.

**CHWANNOG**, (chwant) serchog, awyddus, cybydd; tueddu yn gryf, neu gogwyddo at; chwannog i ymladd. Diar. 1. 19. a 15. 27. 1 Tim. 6. 10. Ioan 6. 21.

Bechan teyrnas i *chwannog*. *Diar.*

**CHWANT—AU**, (chwan) dymuniad, blys, tueddfryd. Dywed yr apostol fod chwantau cnawdol yn rhyfela yn erbyn yr enaid. 1 Petr 2. 11.—Yr awch a'r anwydiad mewn dyn at ddrwg neu dda. Preg. 12. 5. Mae pob chwant croes i'r gyfraith yn bechod. Edr. TRACHWANT.

**CHWAREU—ON**, (chwar) difyrwch, arabedd, camp, cellwair; ystumiau corphorol yn dangos llawenydd ysbrydol neu gnawdol; rhyw ddigrifwch ysbrydol neu gnawdol i ddyfyru dynion, megys dawnsio, llamsachu, neu ryw wamal-waith arall, fel y gwnaeth yr Israeliaid ger bron y llo aur. Exod. 32. 6. Chwareu

Digitized by Google

go greulon a wnaeth y llanciau hyny o flaen Abner a Joab, pan laddasant eu gilydd. 2 Sam. 2. 14.——Dywedir fod Dafydd yn chwareu ger bron yr Arglwydd. 2 Sam. 6. 21. Y mae gwaith Dafydd yn chwareu ger bron yr Arglwydd, yn gytun â dull cyffredin yr Iuddewon o fynegi eu llawenydd a'u diolchgarwch. Byddent arferol, yn dyrfaoedd, mewn cydberoriaeth, o ganu Psalm o fawl a gorfoledd gyda cherddoriaeth, udgyrn, tympanau, a dawnsiau sanctaidd. Exod. 15. 20. Barn. 11. 34. a 21. 21. Ps. 36. 11. a 104. 4. a 149. 3. Yr oedd Dafydd yn hyn yn dangos ger bron yr holl bobl ei waeledd yn ei olwg ei hun, gwresogrwydd ei gariad, ei ddiolchgarwch, a'i lawenydd yn yr Arglwydd. Gweddus yw mawl yn mhawb, ac anrhydedd penaf dyn yw addoli a moliannu Duw. Ni bu, yn ei holl fywyd, olwg mwy ardderchog na hon ar y brenin duwiol, er i Michal wawdio a'i ddirmygu. Edr. Dafydd.

CHWECH, *Heb.* ww *Gr.* εξ *Llad.* Sex: *Gwydd.* She: y chweched; y chweched ran; y chweched waith; chweched.——'Mewn chwech o gyfyngderau efe a'th wared di;' Job 5. 19. sef mewn llawer, yn ddiderfyn, yn ei holl gyfyngderau. Mae *tri*, *chwech*, a *saith*, yn rhifon cyflawn, perffaith, yn yr ysgrythyrau; rhifon o berffeithrwydd ydynt. Deut. 17. 6. Preg. 4. 12. 1 Sam. 2. 5. Jer. 15. 9. Diar. 24. 16. Edr. Tri, Saith. Gwnaeth yr Arglwydd y bydoedd mewn chwe diwrnod; gallasai wneyd y cwbl mewn mynyd, ond gwelodd yn addas gymeryd rhif cyflawn o ddyddiau i waith mor gyflawn berffaith.

CHWEDL—AU, (chwed) dywediad, ymadrodd, ystori; ryw ddywediad gwag, disail. Yr oedd gan y cenedloedd gynt beth dirifedi o chwedlau yn nghylch cyfodiad a gorchestwaith eu duwiau, &c. Nid oedd yr Iuddewon, yn amser yr apostolion, nemawr yn ol iddynt am ddychymygion disail, a thraddodiadau y tadau, &c. 1 Tim. 4. 12. Tit. 1. 14. 2 Petr 1. 16.——Y mae yr 'halogedig a'r gwrachiaidd chwedlau,' (teilwng yn unig i hen wrach eu hadrodd) yn cael eu gosod mewn cyferbyniad i wir dduwioldeb. Nis gallai y ddau gydfyned.——'Ac mewn cybydd-dod, trwy chwedlau gwneuthur, y gwnant farsiandiaeth o honoch.' 2 Petr 2. 3.——'A thrwy gybydd-dra, ac wrth eiriau gwneuthyr y marsiant am danoch.' W. S.—'A thrwy gribddeiliaeth wrth eiriau dychymygus y marchnattant chwi.' Dr M.—Και εν πλεονεξια πλαστοις λογοις υμας εμπορευσονται. *Gr.* Gwel Schleusner.——'Trwy gybydd-dra y gwnant farsiandiaeth o honoch *trwy chwedlau ffugiol.*' Macknight.—'Trwy *areithiau cywrain.*' Parkhurst. Arfer, medd ef, Plato, yr ymadrodd πλαστειν λογους, i arwyddo gwneuthur araeth gywrain. Gwel *Apol. Socrat.*, *sec.* 1. Meddwl yr apostol yw, yr areithiau cywrain, disylwedd, o ran llesâd enaid, a wnai y gau athrawon, er boddhau eu gwrandawyr, er mewn budr elw.

Gnawd i ddyn ofyn *chwedlau.* *Diar.*

CHWEGR—AU, (chweg) mam yn nghyfraith, sef mam gwraig neu ŵr. Ruth 1. 14. Mat. 8. 14. Luc 4. 38.

A garo ei gwr cared ei *chwegr.* *Diar.*

CHWEGRWN, (chwegr) tad yn nghyfraith. Gen. 38. 13.

CHWERTHIN—IAD—AU, (chwarth) crechwenu, gwenu; ystum yn dangos llawenydd neu wawd. Gen. 17. 17. a 18. 12. a 21. 6. Job 5. 22.—Dywedir fod Duw yn chwerthin am ben dynion, pan fyddo heb ystyried eu blinderau a'u gofidiau; eu barnu yn ddidrugaredd; yn hollol ddiystyr o'u gwrthwynebiad iddo ef, ei waith, a'i bobl. Job 9. 23. Ps. 2. 4. a 37. 13. Diar. 1. 26. Pan fyddo Duw yn chwerthin yn nialedd pechaduriaid diedifeiriol, arwydda ei fawr anfoddlonrwydd iddynt; ei ddiystyrwch o honynt; ac mor hawdd iddo eu dystrywio.——Y mae yr Arglwydd yn llenwi genau ei waredigion â chwerthin (Ps. 126. 2.) pan fyddo y newyddion da o lawenydd mawr yn eu llenwi â gorfoledd yr iechydwriaeth. Chwarddodd Abraham yn ngwyneb yr addewid o Grist, mewn llawn sicrwydd ffydd o'r cyflawniad o honi, a'i ran dragywyddol ynddi. Gen. 17. 17. Ioan 8. 56.——Ond y mae chwerthiniad pechaduriaid yn tarddu oddiwrth ammheuon am gyflawniad o addewidion Duw, gan mor groes i reswm a threfn naturiaeth y maent weithiau yn ymddangos; neu oddiwrth anystyriaeth; neu ddiystyrwch o eraill. Gen. 18. 12. Luc 6. 25.——Chwerthiniad yr ynfyd sydd wag, peryglus, a darfodedig, fel clindarddach drain dan grochan. Y mae crochan du o ddigofaint Duw uwch eu pen yn crogi. Job 20. 5. Ps. 118. 12.

CHWERW—DER, (chwar) *Gr.* πικρος; sur, gofidus, anhyfryd, blindost, garw.——1 Yr hyn sydd yn groes i felus, ac yn anghymeradwy i'r archwaeth. Exod. 15. 23.——2. Galar, gorthrymder, a gofid caled. 1 Sam. 1. 10. Job 7. 11. Jer. 31. 15. Ezec. 27. 31. Mat. 26. 75.——3. Cenfigen maleisus, a drwg ewyllys. Act. 8. 33. Eph. 4. 31. Iago 3. 14.——Y dwfr a arferid i brofi y wraig y byddai ei gwr mewn eiddigedd o'i herwydd mewn achos godineb, a elwid yn 'ddwfr chwerw;' nid cymaint o ran ei flas, tebygol, ag o ran y canlyniadau poenus ac ofnadwy oedd iddo i'r rhai euog. Num. 5. 23.

Ni cheir y melus heb y *chwerw.* *Diar.*

CHWIBANOGL—AU, (chwib) pibell ganu, offeryn cerdd. Dan. 3. 5, 7, 10, 15.—'Pa un bynac vo ai chwibanogl ai telyn. 1 Cor. 14. 7. W. S.——Chwibanogl y mynydd, math o aderyn.

CHWIBAN—U, (chwib) chwithrwd; lleisio neu seinio yn debyg i chwibanogl. Arferir y gair mewn dau ystyr; megys y gellir tarfu y defaid wrth chwibanu, felly yn yr un modd y casglir y gwenyn yn nghyd. Arferir ef hefyd mewn ffordd o syndod, dirmyg, a gwatwar. 1 Bren. 9. 8. Galar. 2. 15.——Duw yn 'chwibanu ar y Cenedloedd,'—'am y gwibedyn a'r wenynen.' Esa. 5. 26. a 7. 18. Megys y casglir y gwenyn wrth chwibanu arnynt; felly, hyn a arwydda fod Duw yn galw yr Aiphtiaid a'r Assyriaid yn nghyd i ddyfetha gwlad: y byddai iddynt ddyfod cyn amled â gwibed neu wenyn, a gorchuddio yr holl wlad.——Y mae Duw yn chwibanu ar yr Iuddewon gwasgaredig, i'w casglu fel gwenyn i'r cwch, i ddangos mor hawdd oedd iddo eu dwyn adref o'u caethiwed, er mor wasgaredig oeddynt: dim ond â chwibaniad. Zech. 10. 8.——'A bydd yn y dydd hwnw i'r Arglwydd chwibanu ar y gwibedyn sydd yn eithaf afonydd yr Aipht, ac am y wenynen sydd yn nhir Assyria.' Esa. 7. 18. Yr oedd casglu gwenyn yn nghyd trwy chwibanu, yn arferedig yn Asia yn y bedwaredd a'r bummed ganrif. Coffa Cyril am dano fel peth cyffredin yn ei ddyddiau ef; ac y mae yn arferiad yn parhau hyd heddyw yn Lithuania a Muscovy, gwledydd lle mae gwenyn yn lliosog: meistr y cychod a'u harwain allan i ymborthi, ac a'u dychwel drachefn drwy chwythiad ei chwibanogl. Gwel *Nature Displayed.* Bochart.

CHWILFRIW—IO, (chwil-friw) tori yn fân, dryllio yn fân.—Gwna fo yn chwilfriw; sef gwna fo yn ddarnau mân.—'Ac a'm drylliodd yn chwilfriw.' Job 16. 12. Ysgydwodd fi yn ddarnau; ysgydwodd fi yn ddirfawr; פצפצני *drylliodd fi yn ddarnau mân;* sef yn chwilfriw. Y mae Duw yn saethu aml saeth at ei bobl; ac y mae weithiau, fel pe bai yn hyfrydu i'w gofidio; ond eu llesâd sydd yn ei olwg yn y cwbl.

CHWILIO, (chwil) dyfal geisio, olrhain, ymofyn yn ddiwyd am beth, chwiliaith. Gen. 31. 34. Num.

Digitized by Google

10\. 33. Yr ysgrythyrau ydynt ffynghloddiau euraidd, ynddynt hwy mae trysorau bywyd tragywyddol; gan hyny y mae yn fraint eu chwilio. Ioan 5. 39. Nid wrth chwilio y cafodd Duw ddrygioni yr Iuddewon allan, am ei fod yn ddigon amlwg i bawb. Jer. 2. 24. ——Wrth 'chwilio yr hynafiaid,' y meddylir, edrych eu barnau, a pha beth a ddygwyddodd iddynt hwy. Job 8. 8.——Priodol i Dduw yn unig yw 'chwilio y calonau.' Jer. 11. 20. Rhuf. 8. 27. Dat. 2. 23.

Tair ffordd sydd i chwilio calon dyn; sef yn y peth nas tybio; yn y modd nas tybio; ac yn y pryd nas tybio. *Barddas.*

CHWITH—O—IG, (chwi-ith) aswy, yn perthyn i'r llaw aswy; annehau, anhylaw, anhyffordd, anhyfedr, anhylwydd. Llaw chwith, llaw aswy; bydd yn chwith iddo, bydd yn anhylaw, hyny yw, bydd edifeirwch iddo o'i blegid. Chwithodd arno; sef synodd a rhyfeddodd.—'Yn chwithig,' (Barn. 20. 16.) sef yn medru, tebygol, ymladd â'r llaw chwith yn gystal a'r ddehau; am hyny yn taflu y ceryg yn fwy dinystriol; gan fod eu gwrthwynebwyr yn ddiamddiffyn felly i'w hergydion. Yr ydoedd y Gibeaid yn medru ymladd â phob llaw, megys yr ydoedd rhai o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 12. 2. Gwr llaw chwith oedd Ehwd. Barn. 3. 15.

CHWYDU, CHWYDIAD, (chwyd) *Heb.* קיא *co*; bwrw allan o'r sybwll, cyfogi, ymgyfogi, gloesio, bwrw i fynu.—Dywedir fod Duw yn chwydu eglwys, neu weinidog, allan o'i enau, pan trwy ffieiddiad o'u pechod, a chasineb tu ag ato, y byddai yn eu rhoddi i fynu i fyw fel y mynent. Dat. 3. 16. Jer. 14. 19. ——Y mae dynion yn 'chwydu cyfoeth,' pan fyddont, trwy dristwch a chywilydd, yn gorfod eu gadael i eraill. Job 20. 15. Diar. 25. 16.——Y mae dynion yn 'yfed, yn chwydu, ac yn syrthio,' pan fyddo barnedigaethau Duw yn eu syfrdanu, ac yn eu gwneuthur yn waradwyddus a thruenus. Jer. 25. 27. Hab. 2. 16.——Y mae dynion yn dychwelyd 'megys ci at ei chwydiad,' pan fyddont yn dychwelyd at eu hen arferion pechadurus, y rhai a adawsant unwaith. Megys y mae ci wrth iddo fwyta drachefn yr hyn a chwydodd, yn dangos mai nid y bwyd oedd yn erbyn ei gylla, ond mai rhyw boen oedd efe yn ei gael oddi wrtho, ydoedd yn peri iddo ei chwydu; felly y ffol pechadurus yn dychwelyd at ei ffolineb. *Heb. Yn ail wneuthur ei ffolineb,* sydd yn dangos mai nid casâu ei ffolineb yr oedd, ond mai rhyw ofid a gafodd efe oddi wrtho, a hyny a barodd iddo ymadael âg ef dros dro. Diar. 26. 11. 2 Petr 2. 22.——Y mae tir yn chwydu ei drigolion, pan fyddont yn cael eu bwrw allan o hono yn llidiog, trwy gleddyf a chaethiwed. Lef. 18. 28.

CHWYDD—O, (chwy) dymchwy, tynchwydd; balchder; afiechyd mewn cnawd. Lef. 13. 2, 10, 19, 28. a 14. 56.——'Gwybodaeth sydd yn ymchwyddo:' nid yw gwybodaeth heb gariad yn adeiladol i'r hwn a'i meddianno, nac i neb arall chwaith. Eglur yw fod gan yr angelion syrthiedig eu gwybodaeth ëang, ond balchder ac ymchwydd sydd ganddynt yn lle gostyngeiddrwydd, gelyniaeth a chasineb yn lle cariad at y gwirionedd. Po mwyaf o wybodaeth a gyrhaeddo dynion, heb eu hystwytho â chariad at Dduw a'i wirionedd, mwyaf y maent yn ymchwyddo, ac yn tebygu fwy-fwy i'r diafol. Adnabyddiaeth wirioneddol o Dduw yn ol y gair, o'i fawredd, ei berffeithrwydd a'i ogoniant, ac o honom ein hunain fel pechaduriaid gwael, a'n gwna i'w fawrhau ef, a ffieiddio ein hunain. 1 Cor. 8. 1.——Chwyddo a arwydda *claf.* 1 Tim. 6. 4. 2 Tim. 3. 4. 2 Petr 2. 18. Judas 16.

CHWYRN—U, (chwyr) cyflym, chwimwth, buan, ebrwydd, esgud, dihafarch; disgyrnu, rhuo. Gen. 33. 13. Esa. 5. 29.

CHWYS—U, (chwy) lluchwys, llafur, poen: llafurio yn dost. Chwys yw y tawchleithder sydd yn tarthio allan o'r mân dyllau, sef y chwysdyllau *(pores)* yn nghorph dyn ac anifel, pan dwymno trwy lafur, neu wres arall, neu trwy afiechyd. Gen. 3. 19.——Ein Hiachawdwr, pan oedd yn cael ei wasgu gan bwys digofaint dwyfol, o achos ein pechodau, a chwysodd megys defnynau gwaed ar y ddaear. I dynu ymaith ein melldith, bwytaodd fara trwy chwys ei wyneb; ac i ddangos drymed oedd, yr oedd ei chwys yn waedlyd, ac yn iawn am bechod. Luc 22. 44.

CHWYTH—U, (chwy) anadl, ffun; chwa, awel 1. Gyru gwynt; anadlu. Exod. 15. 10. Ps. 147. 18. ——2. Anadliad yr Ysbryd Glân; rhoddiad dirgelaidd o allu i argyhoeddi, i buro, i adfywio, ac i ddyddanu ei bobl. Can. 4. 16. Ioan 3. 8.——Duw yn chwythu ar feddiannau dynion, neu chwythiad ei Ysbryd arnynt, a arwydda mor hawdd, disymwth, a dirgelaidd, y distrywia efe hwynt a'u meddiannau. Hag. 1. 9. Esa. 40. 7, 24.——Yn mherthynas i ryfel, yr oedd chwythiad yr udgorn, yn arwyddo fod y gelynion yn agosâu; neu alwad i ymfyddino yn eu herbyn. Jer. 6. 1. Hos. 5. 8.——Chwythiad, neu ganiad yr udgyrn arian, neu y cyrn hyrddod gan yr offeiriaid wrth Jericho, ac ar yr uchel wyliau, oedd yn rhag-ddangos pregethiad yr efengyl, i orchfygu pob rhwystrau, ac i wahodd pechaduriaid i wledda gyda Christ. Num. x. Jos. vi. Edr. JUBILI, UDGYRN. 'A Saul etto yn chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn dysgyblion yr Arglwydd.' Act. 9. 1. Y geiriau, yn hardd, a ddarluniant Saul fel mor llawn o fygythion, ac mor awyddus i gelanedd yn erbyn y dysgyblion, fel yr oedd poethder ei nwydau drwg yn effeithio ar ei anadl, ac yn peri iddo dynu ei anadl yn fuanach ac yn gryfach, fel y gwna dynion mewn digter llidiog. 'Yr oedd yn anadlu creulondeb. Ps. 37. 12. *Heb.* Y mae y cyffelyb ymadrodd gan Homer: *Μενεα πνειοντες, yn anadlu cynddaredd.* Pope. Neu, yn hytrach, *dewrder.* Gwel *Iliad.* 3. *l.* 8. Cicero a arfer y geiriau, *Scelus anhelantem:* hyny yw, yn anadlu drygioni. *Catal* 2.—*Deliberate valour breathed:* hyny yw, yn anadlu dewrder pwyllog. Gwel Milton's *Paradise Lost, B.* i. *l.* 554. Gwel Elsner, Wetstein, a Kypke, *in loc.*

# D.

DA—OEDD, enw cadarn; megys da bywiol; da marwol; da cyffro, sef symudadwy; da digyffro, sef ansymudadwy; da byw, a da bathol; da gwahanedig, a da diwahanedig; da duon; da blithion. *Cyfreith. Cymreig.*—Cyfoeth, golud, meddiant bydol, eiddo. Gen. 24. 10. Mat. 19. 22. a 25. 14. Luc 12. 19. 1 Ioan 3. 17.——GOBAIR, megys da da, sef da iawn: da ddyn! da yr eneth! da fachgen!

DA, enw gwan.—1. Yr hyn sydd fuddiol, gweddus, addas a chymhwys, ac yn ateb dyben ei wneuthuriad. Gen. 1. 4. a 2. 18.——2. Dyn rhinweddol, duwiol, haelionus a thrugarog. Rhuf. 5. 7.——3. Cyfreithlawn i'w arfer; felly mae pob peth a greodd Duw yn dda, pan gymerir ef trwy dalu diolch. 1 Tim. 4. 4. ——4. Yr hyn sydd onest ac uniawn. Ps. 37. 27. Mat. 26. 10.——5. Cymhwysir y gair at amryw bethau cymeradwy, yn ol eu rhyw a'u natur, megys addewid, 1 Bren. 8. 56.—athrawiaeth, neu addysg,

Digitized by Google

Diar. 4. 2.—blynyddoedd, Gen. 41. 35.—bugail, Ioan 10. 11.—cyffes, 1 Tim. 6. 13.—cynghor, 2 Sam. 17. 7. cydwybod, Act. 23. 1.—diwrnod, 1 Sam. 25. 8, &c. Edr. y geiriau hyn.

Er fod y gair yn cael ei gymhwyso at greaduriaid, etto, dywedir gan ein Harglwydd, 'Nad oes neb da ond un, sef Duw.' Nid oes neb yn dda fel Duw; nid oes neb yn *bod* ynddo ac o hono ei hun, heb ddibynu ar neb arall, yn berffaith, anfeidrol, ac anghyfnewidiol dda, ond efe: ond pawb eraill a'r sydd yn dda, cael eu gwneuthur felly y maent trwy ddaioni Duw. Y mae yr Arglwydd yn dda ynddo ei hun, ac yn ddaionus i eraill. Ps. 119. 68.

1. Y mae Duw yn *hanfodol* dda; yn ddaioni perffaith, digymysg; y mae pob da ynddo ef; a dim ond da. Deut. 32. 4. Y mae yn ddaioni anfeidrol, diderfyn.——2. Y mae yn dda yn ei holl briodoliaethau; ei 'holl ddaioni' y mae yn eu galw. Exod. 33. 19. ——3. Y mae yn dda yn ei gyfraith, y mae hòno yn addas iddo, yn sanctaidd, yn gyflawn, ac yn dda.—— 4. Mae yn dda yn ei holl weithrediadau, ei drefniadau, ei ragluniaethau, ei oruchwyliaethau, ei geryddon, ei gospedigaethau, a'i farnedigaethau. Nis gall Duw perffaith wneuthur ond sydd dda. Y mae pethau sy ddrwg i'n teimladau ni yn dyfod oddiwrth Dduw; ond mae Duw yn dda sydd yn eu rhoddi, da ynddo ei hun —yn ei ddybenion yn eu rhoddi—ac yn y ffrwythau o honynt. Job 2. 10. Heb. 12. 5, 6, &c. Oni bai fod drwg moesol ynom ni, ni ddeuai dim drwg dyoddefol oddiwrth Dduw i ni: ond dichon Duw beri fod pethau chwerwon yn llesol. Nid oes neb yn barnu y llywodraeth hòno yn ddrwg, a'r sydd yn cospi drygioni; ond i'r gwrthwyneb, pawb a'i barnant yn dda, ac yn llesol.——5. Yn nhrefn yr iechydwriaeth, yn benaf, y mae anfeidrol ddaioni Duw yn ymddangos, ac yn cael ei gyfranu. Yn y drych hwnw y gwelir 'daioni a chariad Duw ein Hiachawdwr tu ag at ddyn.' Tit. 3. 4. Y mae yn ddaioni rhad, anhaeddiannol i ni; y mae yn ddaioni cyflawn, goludog; y mae yn ddaioni tragywyddol. 'Yr hwn,' o'i wir ddaioni, 'nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll; pa wedd gyd âg ef na ddyry efe i ni bob peth?' Rhuf. 8. 32. Y mae pob meddwl annhirion am Dduw yn feddwl anghyflawn am dano, ac yn dra phechadurus. Ps. 25. 8. a 86. 5. a 119. 68. Bydded i olud ei ddaioni ein tywys i edifeirwch; peri i ni ei garu, ac ymgais am fod yn debyg iddo, a'n cysuro yn mhob drygfyd. Neh. 1. 5.—8. Rhuf. 2. 5, 6. a 12. 6. Eph. 5. 1.*

'Awyddus i weithredoedd da.—Yn barod i bob gweithred dda.' Tit. 2. 14. a 3. 1, 14. Nid gweithred dda, yn unig, yw gwneyd peth da, ond gwneyd y peth da hwnw yn dda, sef yn addas, fel y gweddai iddo gael ei wneyd. Y mae yn angenrheidiol, 1. Ei fod yn ol gorchymyn ac ewyllys Duw; pob gweithred ddrwg sy drosedd o gyfraith dda Duw, ac yn anghydffurfiad â hi: felly y mae yn mhob gweithred dda gydffurfiad â hi. Y pethau a wneir yn ol ewyllys a thraddodiadau dynion, ac nid yn ol gorchymyn Duw, a dorir ymaith o gofrestr gweithredoedd da.——2. Rhaid eu bod yn tarddu yn y gwneuthurwr o gariad at Dduw, ac nid o gau ddybenion. 'Diwedd y gorchymyn yw cariad.' 1 Tim. 1. 5. Ioan 14. 15. Cariad at Dduw yw y gwreiddyn ar ba un y mae gwir ufudd-dod yn tyfu, a'r ffynon o ba un y mae yn tarddu.——3. Rhaid eu gwneyd mewn ffydd; 'canys heb ffydd anmhosibl yw rhyngu bodd Duw.' Heb. 11. 6. Rhuf. 14. 23.—— 4. Rhaid eu gwneyd er gogoniant Duw. 1 Cor. 10. 31. 'Ffrwythau cyfiawnder, sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw.' Phil. 1. 11.

Gweithredoedd da, y sydd yn wirioneddol felly, ydynt ffrwythau yn tarddu o undeb ysbrydol â Christ; y maent 'wedi eu crëu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da.' Eph. 2. 10. Maent yn gyntaf yn Nghrist, fel y cangenau yn y winwydden; ac yna y maent yn dwyn ffrwythau. Ioan 15. 1—8. Y mae ffydd yn Nghrist yn gweithio trwy gariad. Gal. 5. 6. Y mae gair yr efengyl, pan y credir ef â'r galon, yn hâd da ynddi, ac yn dwyn ffrwythau da, cyfatebol iddo ei hun. Luc 8. 15. 2 Tim. 3. 16.——1. Y mae gweithredoedd y goreu o ddynion yn anmherffaith. Preg. 7. 20. Dat. 3. 2. Y mae eu gwybodaeth o reol gweithredoedd da yn anmherffaith; ac felly y mae eu ffydd a'u cariad, o ba le y tarddant. Y mae pechod yn trigo ynddynt, ac yn eu hattal rhag cyflawni yr hyn a ewyllysiant fel ag yr ewyllysient. Rhuf. vii.——2. Nid oes dim haeddiant yn perthyn iddynt. Nid ydynt yn llesâu Duw, nac yn rhoddi dim iddo, fel nad ydyw yn ennillwr erddynt. Job 22. 2. a 35. 7. Ps. 16. 2.——3. Y maent oll yn ddyledus i Dduw, fel nad oes neb yn gwneyd ond a ddylai, er gwneyd a allo; nid ydyw ond talu ei ddyled gyflawn i Dduw; canys y mae gan Dduw hawl gyflawn i'r hyn oll a ddichon i bob un ei wneyd; ac wrth adael heb ei wneyd yr hyn a ddylasai, y mae yn ddyledwr euog ger bron Duw. Luc 17. 10.——4. Am nas dichon neb wneyd dim heb ras a nerth Crist i'w cynnorthwyo, nis dichon iddynt haeddu dim ganddo. ——5. Nid oes dim cyfatebolrwydd rhwng gweithredoedd dynion, â thrugaredd Duw a bywyd tragywyddol. Ni haeddai neb y trugareddau tymhorol a fwynhânt, pa faint llai bywyd tragywyddol?——6. Nid ydynt yn effeithiol i wneyd iawn am bechod—i haeddu maddeuant pechodau—i gyfiawnhau pechadur, ac i'w gymmodi â Duw; nid o weithredoedd y ddeddf y mae y pethau hyn i'w cael, ond yn hollol rad trwy ras. Rhuf. 3. 20—31. Nid ydynt yn achos cynhyrfiol na haeddiannol o iachawdwriaeth, ond ei heffeithiau yn unig. Nid y ffrwyth sydd yn peri y tyfiant yn y pren, ond effeithiau hyny ydyw y ffrwyth. 2 Tim. 1. 9. Tit. 3. 5. Ond etto nid oes neb wedi ei achub—ei gyfiawnhau—ei heddychu â Duw—a chael maddeuant o'i bechodau—ac mewn undeb â Christ, nad yw yn dwyn ffrwythau addas, ac yn derbyn o gyflawnder Crist, a gras am ras. Ioan 1. 16. Tit. 2. 11, 12. Y mae y rhai sydd wedi eu prynu oddiwrth bob anwiredd yn cael eu puro hefyd, a'u gwneyd yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da. Tit. 2. 14. Eph. 2. 10.——7. Y maent yn angenrheidiol, 1. I ddangos ein hufudd-dod i Dduw, yr hwn sydd yn eu gorchymyn—i ddangos ein diolchgarwch iddo—ac i ogoneddu ein Tad yr hwn sydd yn y nef, ac i beri eraill i'w ogoneddu hefyd. Mat. 5. 15. Ioan 15. 8.—2. I harddu ein proffes, ac athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr yn mhob peth. 1 Tim. 2. 9, 10. Tit. 2. 10. I ddangos ein ffydd i eraill wrth ei ffrwythau—i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr—ac i rodio mewn cymdeithas â Duw yn ei lwybrau sanctaidd. Iago 2. 18. 1 Ioan i.—3. Er argyhoeddiad—er adeiladaeth—ac er siampl i eraill: i ddangos iddynt yr hyn a ddylent hwythau fod—yr hyn y mae gras Duw yn ei wneyd—a'r hyn sydd raid iddynt hwythau gael eu gwneyd, cyn y byddont yn addas i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Col. 1. 12.

DABESETH, דבשת [*llifeirio o fêl*] terfyn etifeddiaeth meibion Zabulon. Jos. 19. 11.

DABERATH, דברת [*peth*] 1 Dinas yn agos i fynydd Tabor, yn nherfyn Zabulon. Jos. 19. 12.—— 2. Un arall yn lwyth Issachar. Jos. 21. 28.

DABRE—D, (abred) dyred, dwyre, dring, brysia, prysura.—'Dabre y fynydd yma.' Dat. 4. 1. W.S.

* Uwchlaw pob peth, bydded i ni gredu fod Duw yn berffaith a da, i'r fath raddau nas gall dim fod yn berffeithiach a gwell. Bradwardin, *de Causa Dei*.——Daioni buddiol, daioni hyfrydol, daioni anrhydeddus, daioni pob daioni.——Nid rhaid i ni ofni byw na marw (medd Ambrose), gan fod genym Dduw mor ddaionus.

Digitized by Google

**DADEBRU**, (ebru) adfywiocâu, ail gaffael bywyd, adfywio, deffro 1 Bren. 17. 22. 2 Bren. 13. 11. Galar. 1. 21.

**DADGAN**, (cân) *Llad.* DECANTO; adrodd, ail adrodd, cyhoeddi, moliannu, traethu. Ps. 19. 1. a 66. 2. a 79. 13. Rhuf. 9. 17.

**DADGUDDIAD**, (dadgudd) ymadguddiad, annirgeliad, egoriad, eglurhad. Yn llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, y mae Duw wedi rhoddi dadguddiad cyflawn o'i feddwl a'i ewyllys i ni, mewn perthynas i bob peth sydd i'w credu a'u gwneuthur er ei ogoniant ef, ac er ein hiechydwriaeth, ein cysur, a'n dedwyddwch tragywyddol ninnau. 'Dynion sanctaidd Duw a lefarasant,' dros Dduw wrth ddynion, 'megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.' 2 Petr 1. 21. Efe a 'lefarodd lawer gwaith, a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, ond yn y dyddiau diweddaf a lefarodd wrthym ni yn ei Fab.' Heb. 1. 1. 'Ni welodd neb Dduw erioed; yr uniganedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef.' Ioan 1. 18. Y mae y dadguddiad dwyfol hwn o feddwl Duw, a roddwyd i ni yn yr ysgrythyrau sanctaidd, â phrawf diammheuol iddo, tufewnol ac allanol, o'i sicr wirionedd. Pwy ond y Duw anfeidrol ddoeth, cyfiawn, sanctaidd, grasol, a daionus, a fuasai yn cyhoeddi y fath wirioneddau sanctaidd a gogoneddus? Fel y mae argraff mawrhydi, doethineb, a daioni Duw, ar ei holl weithredoedd, felly y mae i'w weled yn ei holl wirioneddau amlygiad o'i fawredd gogoneddus yn ei uniondeb, ei gyfiawnder, ei ddoethineb, ei gariad, a'i ddaioni. Pwy ond Duw a roddasai gyfreithiau mor uniawn ac ëang; ac a gyhoeddasai efengyl mor llawn o ddirgeledigaethau dyfnion, a thrysorau grasol—mor addas i Dduw, ac mor gymhwys i'n cyflyrau ninnau fel pechaduriaid? Barnem hwnw yn ynfyd, neu yn hurtyn, i'r gradd eithaf, yr hwn, wrth edrych arno ei hun, y nefoedd, a'r ddaear, a'u holl luoedd, a wadai nad gwaith Duw ydynt; ac na chanfyddai fawredd, gallu, doethineb, a daioni Duw yn amlwg ynddynt oll. I'm tyb i, nid llai dall ac ynfyd ydyw yr hwn a ddarlleno yr ysgrythyrau, yn bwyllog ac yn ystyriol, heb ganfod a chydnabod, gyda pharch duwiol, Duw yn llefaru ynddynt yn awdurdodol, yn gyflawn, ac yn rasol. Y mae mor hawdd i ddyn o syniad ysbrydol ammeu ei fôd ei hun ag ammeu nad dadguddiad dwyfol sydd yn gynnwysedig yn yr ysgrythyrau. Y mae y gogoniant dwyfol ynddynt yn ei orchfygu gan ei eglurder. Y mae hefyd y prawf allanol mwyaf boddlongar o wirionedd y dadguddiad cynnwysedig ynddynt, i'w ganfod yn nghymwysderau a duwioldeb y rhai a ysgrifenasant yr ysgrythyrau—y gwyrthiau a wnawd er cadarnhad eu hanfoniad—llwyddiant eu cenadwri trwy offerynau anolygus, yn wyneb y gwrthwynebiadau mwyaf a chreulonaf—ac yn nghyflawniad y prophwydoliaethau. Y mae y prawf diweddaf hwn yn brawf sydd yn cynnyddu, yn ngolwg pawb a ystyrio, beunydd mewn cadernid ac eglurdeb. Y mae y prophwydoliaethau genym yn ein dwylaw, wedi eu llefaru er ys miloedd o flynyddau; y rhai y mae rhagluniaethau Duw tu ag at y byd yn gyffredinol, a'r eglwys yn neillduol, i'w cyflawni bob dydd hyd ddiwedd amser, os gwirionedd ydynt. Pwy a ddichon eu hammeu, am un fynyd, a daflo ei olygon, ac a edrycho ar agwedd bresennol teyrnasoedd y ddaear—ar yr Iuddewon—ar Anghrist—ac ar waith Duw yn mhlith ei bobl yn barhaus yn y byd? Nis gellir byth yn ddigonol gydnabod daioni Duw, a'n rhwymedigaethau iddo, am ei ddadguddiad dwyfol i ni, yr hwn sydd yn dra chyflawn, eglur, sicr, a diammheuol.

**DADGUDDIAD IOAN Y DUWINYDD.** Y llyfr hwn sydd yn diweddu ac yn gorphen yn gyflawn y dadguddiad o feddwl Duw a'i ewyllys, yr oedd efe wedi arfaethu i'w roddi i'r eglwys. Y mae ei gynnwysiad yn helaeth ac yn bwysfawr: dull ei gyfansoddiad sydd yn allegawl, gan mwyaf, ond yn oruchel, ardderchog, ac addurnol. Ni roddwyd geiriau at eu gilydd, hyd yn nod gan yr Ysbryd Glân ei hun, yn rhagori mewn mawredd addurnol ar rai rhanau o'r Dadguddiad. Y mae rhediad yr holl lyfr o'r dechreu i'r diwedd, yn un dull dwyfol, ardderchog, ac ofnadwy. Nis darllen neb a'i hystyrio, heb deimlo a phrofi arswyd a pharchedig ofn, gan gydnabod ei fod yn troedio tir sanctaidd. Y mae mawredd Duw a'r Oen yn llewyrchu gyd âg anfeidrol ddysgleirdeb—y mae dull sanctaidd a gwedd hardd yr eglwys—ei ffyddlondeb dan bob dyoddefiadau—ei hysbryd diwair, pur, a siriol—ei buddugoliaethau—ei gogoniant, a'i gorfoledd tragywyddol—yn ein llenwi â syndod a diolchgarwch.

Am awdurdod dwyfol y llyfr hwn, heblaw y prawf tufewnol yn y gwaith ei hun, y mae pob sicrwydd allanol o'i dderbyniad gan yr eglwys, fel y cyfryw, er ei gyhoeddiad cyntaf. Gwel Mr. Mede, a Syr Isaac Newton, ar Daniel. Nid oes un ammheuaeth, ychwaith, yn gyffredinol, nad yr un Ioan yw yr awdwr o hono ag a ysgrifenodd yr efengyl a'r epistolau canonaidd dan yr enw hwnw, sef 'Ioan y dysgybl anwyl.' Y farn fwyaf cyffredin a derbyniol, yn mhlith y dysgedigion, am amser yr ysgrifeniad ydyw, mai yn nghylch diwedd y ganrif gyntaf yr ysgrifenodd Ioan ef. Grotius, Hammond, a Lightfoot, ydynt o'r farn mai yn nheyrnasiad Claudius Cesar yr ysgrifenwyd ef. Y mae Syr Isaac Newton, ac Esgob Newton, yn gweled hyny yn rhy fuan; ac yn meddwl mai dan deyrnasiad Nero yr alltudiwyd Ioan i ynys Patmos, lle y cafodd y gweledigaethau cynnwysedig ynddo. Y mae Vitringa yn barnu yr amser yn ddiweddarach na hyny, ac mai dan deyrnasiad Domitian yr alltudiwyd Ioan, &c. Y mae yn ymddangos yn o eglur mai yn ddiweddar yn y ganrif gyntaf yr ysgrifenwyd ef, wedi i'r efengyl ymdaenu yn helaeth dros y gwledydd dwyreiniol, ac i eglwysi gael eu sefydlu trwyddynt, a dechreu dirywio. Y mae y cyfenwad, neu y titl a roddir iddo, yn dangos, nid yn unig ei ardderchogrwydd, ond hefyd y cynnwysiad o hono:—'Dadguddiad Iesu Grist, yr hwn a roddes Duw iddo ef, i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder; a chan ddanfon trwy ei angel, efe a'i hysbysodd i'w wasanaethwr Ioan.' Pen. 1. 1. Rhoddwyd y Dadguddiad hwn gan Dduw y Tad i Grist, fel cyfryngwr a phrophwyd mawr ei eglwys; yr hwn a hysbysodd efe trwy ei angel i Ioan. Dadguddiad prophwydoliaethol ydyw, a roddwyd i Ioan mewn modd anarferol, mewn gweledigaeth. Y pethau a ddadguddir i Ioan yw y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder; sef y pethau oedd i gael eu cychwyniad yn fuan yn amser Ioan, ac i ddyfod i ben yn ddidor nes y cyflawnid pob peth. Y mae Ioan yn cael y weledigaeth ar ddydd yr Arglwydd; ac yn cael gorchymyn i ysgrifenu mewn llyfr yr hyn ydoedd yn ei weled, a'i anfon i'r saith eglwys oedd yn Asia.

Yn y bennod gyntaf rhydd ragymadrodd, neu arweiniad i mewn, difrifol a phwysig; yn nghyd â desgrifiad o'r weledigaeth a gafodd Ioan o Iesu Grist, a'i ymddangosiad gogoneddus ac ardderchog iddo. Y mae yr ail a'r drydedd yn cynnwys epistolau at weinidogion y saith eglwys.

Mae amryw awdwyr dysgedig o'r farn, gyda llawer o briodoldeb a thebygolrwydd, i'm tyb i, fod y saith epistol at y saith eglwys yn Asia, i'w hystyried, nid yn unig fel yn perthynu i'r eglwysi hyny, a'u hagwedd ysbrydol yn amser Ioan; ond eu bod i'w golygu hefyd yn brophwydoliaethol, o amrywiol ddull a gwedd yr eglwys Gristionogol o oes i oes, hyd ddiwedd amser. Gwel Brightman, Moore, Vitringa, Gill, Reader.

Digitized by Google

Pennod iv. a'r v. sydd yn cynnwys desgrifiad ardderchog o Dduw a'r Oen, ar yr orsedd yn ogoneddus, yn cael eu haddoli gan yr holl eglwys, yn ei holl aelodau a'i gweinidogion; yn nghyd âg agoriad y llyfr seliedig o arfaeth Duw gan Iesu Grist, er gorfoledd annhraethadwy yr angelion a'r gwaredigion. Y mae agoriad y seliau, pen. vi.—udganiad yr udgyrn, pen. viii. a'r ix.—cyfodiad y bwystfilod, pen. xiii.—tywalltiad y phiolau, pen. xvi.—yn cynnwys darluniadau allegawl a phrophwydoliaethol o ddystrywiad Rhufain Baganaidd; llywodraeth a chreulondeb y Saraceniaid a'r Tyrciaid; yn nghyd a thaeniad cyfeiliornadau twyllodrus Mahomet; cyfodiad Angbrist, sef Rhufain Babaidd; amser ei deyrnasiad, a'i fawr rwysg; ei greulondeb tu ag at y saint; a dialedd Duw arno, yn drwm ac yn drwyadl yn y diwedd. Ond gan nad ydwyf yn ysgrifenu esboniad ar y Dadguddiad, ymattaliaf, wedi sylwi ychydig ar y ddau beth canlynol, tu ag at iawn ddeall y llyfr hwn:—

Yn gyntaf, Y mae yn angenrheidiol i'r darllenydd lafurio i'w wneuthur ei hun yn dra hyddysg o iaith allegawl y prophwydi. Y mae iaith gyffelybiaethol y prophwydi yn cael ei defnyddio gan Ioan, yn y llyfr hwn, yn fwy helaeth nag yn un o'r hen brophwydi. Y mae yn wir ei fod wedi benthyca llawer o'i arwyddluniau gan yr hen brophwydi, yn enwedig Daniel; ond y mae Ioan wedi eu dilyn, a helaethu llawer arnynt. Y mae agos holl wrthddrychau natur, gweledig yn y nef a'r ddaear, wedi eu defnyddio ganddo fel arwyddluniau cyffelybiaethol o bethau gwladol ac eglwysig. Y mae ganddo haul, lleuad, a ser; tir a môr; afonydd a ffynonau; awyr a mynyddoedd, priodol iddo; yn gosod allan, yn allegawl, y cyfryw bethau ag sydd yn cyfateb iddynt mewn teyrnas, neu yn yr eglwys. Y mae goruwch-swyddwyr, mewn gwladwriaeth, yn cyfateb, yn gyffelybiaethol, i'r haul, y lleuad, a'r ser, yn y ffurfafen; ac y mae dymchweliad llywodraeth yn cael ei osod allan mewn geiriau allegawl, fel pe bai holl natur yn cael ei dattod a'i dystrywio—yr haul yn duo, y ser yn syrthio, y ddaear yn crynu, &c. Dat. 6. 12, 13. Nid yw bosibl deall y prophwydoliaethau heb fod yn hyddysg yn null allegawl y prophwydi o ysgrifenu.

Y mae ystyriaeth arall hefyd yn llawer o gymhorth tu ag at iawn ddeall gweledigaethau y llyfr hwn, sef yw hyny, bod amryw o'r gweledigaethau ynddo am bethau ag oedd yn cydamseru â'u gilydd—megys arosfa y wraig yn y diffeithwch dros amser, amseroedd, a hanner amser; teyrnasiad y bwystfil â'r saith ben iddo, dros 42 o fisoedd; mathriad y cyntedd, o'r tu allan i'r deml a'r ddinas sanctaidd, gan y cenedloedd, ddau fis a deugain: y ddau dyst yn prophwydo, wedi ymwisgo mewn sachlian, 1260 o ddyddiau; y butain fawr, â deg corn y bwystfil a'r saith ben iddo:—y mae yr holl weledigaethau hyn am bethau yn cydamseru neu yn cydoesi; neu yn rhoddi gwahanol olygiadau ar yr un gwrthddrychau. Y mae golygfa y rhan fwyaf o'r gwrthddrychau hyn yn Ewrop, dan deyrnasiad y pedwerydd bwystfil yn Daniel, sef ymerodraeth Rhufain, yn ei hamrywiol gyfnewidiadau.

Yr awdwyr mwyaf hynod a ysgrifenasant ar y Dadguddiad, ydynt, Mede, Daubuz, Vitringa, Syr Isaac Newton, yr Esgob Newton, Lowman;* heblaw yr amrywiol ysgrifenwyr ar y Testament Newydd, neu ar y holl Fibl.

DADGUDDIO, (dadgudd) diargelu, egluro, amlygu, arddangos. Y gair *Gr.* *αποκαλυπτω*, a gyfieithir *dadguddio*, yn gystal a'r gair *Heb.* גלה sydd yn cyfateb iddo, a arwyddant *diorchuddio*; tynu ymaith orchudd oddiar wrthddrych i'w wneuthur yn amlwg; neu diorchuddio llygaid i weled y gwrthddrych hwnw. Y mae y gair Hebraeg a'r gair Groeg yn nghyfieithiad y LXX. yn cael eu harferyd am agoriad llygaid Balaam i weled angel yr Arglwydd ar y ffordd. Num. 22. 31. a 24. 4, 16. Fel y mae y gair yn cael ei ddefnyddio i osod allan amlygiad o bethau dwyfol i ddynion, arwydda, diargelu y gwrthddrychau, a diorchuddio llygaid meddyliau dynion i'w gweled. Y mae yr un gwrthddrychau yn cael eu hamlygu i bawb sydd â'r ysgrythyrau sanctaidd ganddynt; ond nid ydyw pawb yn eu canfod yn yr un modd, oblegyd bod gorchudd ar galonau y rhan amlaf o ddynion. 'Yr ymadrodd am y groes, i'r rhai colledig ynfydrwydd yw.—Y dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw; canys ffolineb ydynt ganddo.' 1 Cor. 1. 18. a 2. 14. Y mae yn clywed yr ymadrodd am y groes yn mynegi y pethau sydd o Ysbryd Duw; ond er eu bod yn bethau gwerthfawr a gogoneddus, nid ydyw yn gweled gwerth na gogoniant ynddynt; oblegid fod y gorchudd ar eu calonau. Nis dichon i feddwl ac anian lygredig weled gogoniant mewn pethau sanctaidd sydd yn gwbl groes i'r anian hôno. Y mae Duw, gyda rhoddi y gwrthddrychau yn amlwg o'u blaen, yn llewyrchu i galonau ei bobl, i roddi iddynt oleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist. Gyda hysbysu y gwrthddrychau y mae yn rhoddi iddynt anian dduwiol i'w synied, a goleuni ysbrydol yn y meddwl i'w canfod yn eu natur, eu gogoniant, eu cysylltiad, a'u priodol leoedd. Nid egluro gwahanol wrthddrychau y mae Duw iddynt, nag sydd eisoes yn y Bibl wedi eu dadguddio, ond tynu ymaith y gorchudd oddiar eu calonau, fel y gwelont y gwrthddrychau hyny yn eu priodol oleuni, ac y cymeradwyont hwynt. Felly, â wyneb agored y maent yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd yn y drych, gyd â'r fath hoffder a hyfrydwch, fel y newidir hwynt i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr Arglwydd. 2 Cor. 3. 18. Y pethau annhraethadwy a ddarparodd Duw i'w bobl, y mae yn eu hegluro iddynt trwy ei Ysbryd. Ni ddichon cig a gwaed eu dadguddio na'u canfod—ni ddichon na dysg, na doniau, na doethineb dynol, cyffredin yn mhlith dynion, eu dadguddio. Gwaith neillduol a grasol Duw yw dadguddio ei Fab yn ngalonau ei bobl. Gal. 1. 16. Mat. 16. 17. 'Nid edwyn neb y Mab ond y Tad; ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab; a'r hwn yr ewyllysio y Mab ei ddadguddio iddo.' Mat. 11. 27.

* Mae chwyldroadau y flwyddyn 1848 gwedi esgor ar lfaws o esbonwyr ar Lyfr y Dadguddiad. Yr esboniadau diweddaraf, teilwng o sylw, ydyw yr eiddo Moses Stuart, Woodhouse, Keith, Conder, ac yn neillduol esboniad cyflawn a manwl y Parch. Mr. Elliott, sef ei '*Horæ Apocalypticæ*,' mewn tair cyfrol, wyth-plyg, yr hwn a gynnwys ymchwiliad helaethach a beirniadaeth manylach nag un arall, ac sydd yn drysor tra gwerthfawr i eglwys Crist. Y mae traethawd Fleming hefyd, a ysgrifenwyd yn y flwyddyn 1701, gwedi dyfod i fri y dyddiau hyn, o herwydd ei nodiad ar y flwyddyn 1848, fel yr amser y byddai y bummed phiol yn cael ei thywallt allan, ac y gwanheid awdurdod y Pab, hyd ei ddystryw terfynol yn y flwyddyn 2000. Fe allai y dylid crybwyll hefyd am waith dyddorol y Dr. Cumming, a draddodwyd ganddo mewn ffurf o '*Lectures*' yn 1849. Y mae esbonwyr Germani yn gwahaniaethu yn gwbl oddiwrth dduwinyddion Lloegr, o ran natur a dyben Llyfr y Dadguddiad, gan ei olygu yn gyfansoddiad chwareuyddol (*drama*) i osod allan fuddugoliaeth Cristionogaeth ar Iuddewiaeth a Phaganiaeth, yn hytrach na phrophwydoliaeth *hanesyddol*. O'r rhai hyn y mae Pareus, Hartwig, Eichhorn, ac eraill, yn nghyd â Moses Stuart o'r America. Barna eraill fod maes y brophwydoliaeth i'w gyfyngu at ddinystr Jerusalem, ac oddi yno at gwymp Rhufain Baganaidd, yn nghyd â'r milflwyddiant, yr adgyfodiad cyffredinol, y farn ddiweddaf, a chyflwr gogoneddus yr eglwys yn y Jerusalem nefol, ac nad ydym i edrych am hanes *olynol* eglwys Crist ynddo. O'r rhai hyn y mae Grotius, Lücke, Ewald, Bleek, Schott, De Wette, Hug, Dr. Davidson, &c. Ond y farn fwyaf gyffredin ydyw, mai prophwydoliaeth hanesiol o deyrnas Crist ydyw o'i chychwyniad hyd ei pherffeithiad mewn gogoniant, yn ol Vitringa, Mede, Syr Isaac Newton, Esgob Newton, Faber, S. Lloyd, Elliott, a lluaws eraill. Yn ol yr esboniad hwn, tybir fod y seithfed phiol wedi dechreu ei thywallt yn chwyldroadau cyffredinol y flwyddyn 1848, a bod cwymp Babilon Fawr yn nesâu.—C.

Digitized by Google

Y mae Duw yn 'dadguddio pethau dyfnion allan o dywyllwch.' Job 12. 22. Mae yn dadguddio dyfnion bethau Duw (Ps. 92. 5.) sef ei feddyliau. Meddyliau Duw ydyw ei gynghorion a'i drefniadau. Nid ydyw Duw yn meddwl i gynghori a phenderfynu; ond ei feddyliau yw ei gynghorion. Wrth ystyried y pethau hyn y gwaeddodd yr apostol allan, 'O ddyfnder!' Rhuf. 11. 33. Y mae yn eu dadguddio i ddynion yn ol ei ewyllys ei hun, o ran ei ddewisiad o'r personau, y dull, a'r amser. Amos 3. 7. Gen. 18. 17. Dan. 2. 22.—Y mae dyfnion bethau dynion. Ps. 64. 6. Diar. 20. 5. 'Ond gwae y rhai a ddwfn geisiant i guddio eu cynghor oddiwrth yr Arglwydd.' Esa. 29.15. 'Canys y mae efe yn chwilio y calonau ac yn profi yr arenau.' Jer. 17. 10.——Y mae gan Satan ei ddyfnderau, fel y dywedant, Dat. 2. 24. 'Ond nid oes dim cuddiedig a'r nas dadguddir; na dirgel a'r nas gwybyddir.' Mat. 10. 26.——'Y dydd y dadguddir Mab y dyn.' Luc 17. 30. Y dydd y dadguddir ef, nid yn y prophwydoliaethau am dano, na phregethiad yr efengyl o hono, ond yn holl fawrhydi ei Berson dwyfol, gyda gogoniant addas iddo. Mat. 24. 30. 2 Thes. 1. 10. Tit. 2. 13. 2 Petr 3. 10.

**DADL—EU**, (dad-yl) 1. Mater ag a fyddo rhwng pleidiau, heb fod, neu, na oddefir ei fod, yn oleu ac yn eglur i bob plaid; ac o herwydd hyny fod y pleidiau yn parhau yn anghydsyniol yn ei gylch. 1 Sam. 24. 15. Jer. 51. 36.——2. Rheswm, cwyn, achos, cynghaws. Job 13. 6.——3. Ammheuaeth, ansicrwydd, neu anhyder y meddwl. 'Heb na digder na dadl.' 1 Tim. 2. 6. 'Na darammau.' W. S.—'*Doubting*.' *Saes*. *Gr*. Διαλογισμον. Y mae y ddau gyfieithiad yn rhoddi cyflawn feddwl y gair. Gall fod dyn yn dadleu yn ei feddwl ei hun am wirionedd y ffydd, addewidion Duw, a'i barodrwydd i wrando gweddi; neu gall fod mewn ysbryd ymrafaelgar, a dadleugar, yn ymryson âg eraill. Y mae y ddwy agwedd hyn ar feddwl dyn yn ei anaddasu i weddïo.

**DADLEU**, (dadl) ymryson, arddadlu; amrafaelio ac ymryson mewn geiriau, neu mewn ymresymiad. Barn. 6. 31. 1 Sam. 25. 39. Job 23. 6. Diar. 31. 9. Mic. 7. 9. Rhuf. 9. 20.——Y mae yr Arglwydd yn 'dadleu â dynion,' pan y byddo trwy ei air, ei Ysbryd, a'i ragluniaethau, yn eu hargyhoeddi o'u pechod, ac yn eu ceryddu am dano; neu pan fyddo yn eu cospi â'i farnedigaethau. Esa. 3. 13. Jer. 2. 9. Ezec. 38. 21.——Y mae efe hefyd yn 'dadleu dros ei bobl' yn erbyn eu gwrthwynebwyr, pan ddadguddio gyfiawnder eu hachos, ac y cospo eu gelynion. Ps. 35. 1. a 43. 1. Esa. 51. 22. Joel 3. 22. Mic. 7. 9.——Proffeswyr a 'ddadleuant â'u mam,' pan ymroddant mewn gostyngeiddrwydd i arferyd y moddion mwyaf ennillgar, a thebycaf i lwyddo, i ddiwygio eu heglwys a'u gwlad. Hos. 2. 2.——Y mae dynion yn 'dadleu yn erbyn Duw,' pan y byddont yn ymresymu, yn anghytuno, yn gwrthwynebu, ac yn beio ar Dduw, yn wyneb trefn yr iechydwriaeth, ac athrawiaethau gogoneddus yr efengyl. Mae yr apostol yn dangos fod yr ynfydrwydd hwn yn fawr. Rhuf. 9. 20. Oddiwrth y cyfryw 'gyndyn ddadleu dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwirionedd ganddynt,' y gorchymynir i ni gilio. 1 Tim. 6. 5.

**DADLEUDY**, llys barn, lle i brofi achosion, ac i ddadleu cwyn. Mat. 27. 27. Ioan 18. 33. Act. 23. 35. *Gr*. πραιτωριον, oddiwrth y gair *Llad*. PRÆTORIUM, llys i'r Prætor i wrando achosion. Oddiwrth Marc 15. 16. a Ioan 18. 28. tebygol ei fod yr un, neu ran o balas Pilat. Cyfieithir yr un gair, *llys*, yn Phil. 1. 13.

**DADLWYTHO**, (llwyth) gwaghau o lwyth. Act. 21. 3.

**DADRODDI**, (rhodd) rhoddi peth yn ol, wedi unwaith ei dderbyn. Deut. 24. 13.

**DADSEINIO**, (sain) ail seinio, neu seinio mewn atebiad; ateb-lef, gwrth-seinio, gwrth-daro, gwrthguro, megys y gwna llef yn erbyn mur, neu graig. 1 Sam. 4. 5.

**DADWINO**, (edwin) pallu, diflanu, heneiddio, treulio. Y mae dau air Hebraeg yn cael eu cyfieithu *dadwino*; sef, *wwy* yn Ps. 31. 9. 'Dadwinodd fy llygaid gan ofid.' Ac yn adn. 10. cyfieithir ef *pydru*; 'A'm hesgyrn a bydrasant.' Yn Ps. 6. 7. cyfieithir ef *treulio*; 'Treuliodd fy llygaid gan ddigter.' Y gair arall a gyfieithir *dadwino*, yn Esa. 24. 4. ydyw נבל* ac a arwydda, crino, tygio, gwywo, a tyrthio, fel dail neu flodau; gwisgo, treulio. Cyfieithir ef *syrthio*; yn Esa. 1. 30. a 34. 4. a 40. 7, 8. Jer. 8. 13. Edr. DEDWINO.

**DADWRDD—YRDDAU**, (gwrdd) terfysg, cyffro, cythrwfl, mawr drwst, godwrdd, ymffrost, ffwdan. 2 Bren. 19. 28. Ps. 74. 23. Esa. 37. 29. Y mae yn arwyddo gwag siarad, fel y gwna dyn meddw. Diar. 23. 29.

**DADYMCHWEL—YD**, (ymchwel) taflu drosodd, didrefnu: taflu peth mewn modd terfysglyd, megys â'i wyneb i lawr; dyrysu. Job 12. 15. Ps. 146. 9. Esa. 24. 1. 2 Tim. 2. 14, 18.

**DAEAR, DAIAR**, (dai-ar) *Gr*. Γαια, Γαιερα, *(gaiera)* oddiwrth y gair *Heb*. גאה *(gahe)* *Llad*. TERRA.—Tyfu, cynnyddu, oblegid mai o'r ddaear y mae tyfiant pob peth. Y corph tra mawr hwn o bridd, ceryg, &c. pa un sydd yn ein cynnal, ac yn ein maethu. Gen. 1. 10. Y bydysawd cyfan o fòr a thir yn nghyd. Gen. 1. 1.——Y mae y ddaear agos yn gron; nid yw ei chylch o'r dwyrain i'r gorllewin ond 107 o filltiroedd yn fwy na llinell canol-ddydd lledanedd, o begwn y gogledd i begwn y dehau. Y mae ei chylch dros 25,000 o filltiroedd; ei thryfesur *(diameter)* ydyw 7957¾ o filltiroedd;† ei harwyneb ydyw 199½ o filiynau o filltiroedd ysgwar. Y mae tair rhan o bedair o honi gwedi eu toi gan foroedd, os nid ychwaneg. Rhenir hi yn bedair rhan, sef, ASIA, EWROP, AFFRICA, ac AMERICA. Y mae iddi ddau ysgogiad; un yn flynyddol o amgylch yr haul, yr hwn sydd yn llywodraethu tymhorau y flwyddyn, ac yn peri haf a gauaf; a'r llall ar ei phegwn ei hun yn feunyddiol, a'r ysgogiad hwn sydd yn peri dydd a nos. Y mae yn ddydd ar y rhanau hyny o'r ddaear sydd yn wynebu yr haul, ac yn nos ar y rhanau cyferbyniol; a chan fod pob rhan o honi â'i gwyneb at yr haul, ac yn y gwrthwyneb, trwy y symudiad beunyddiol hwn, yn y pedair awr ar hugain, y mae yn ganlynol yn ddydd ac yn nos yn mhob man yn gylchynol, yn y cyfamser. Ei phellder oddiwrth yr haul ydyw 81,000,000 o filltiroedd. Edr. PLANEDAU.

* Cyfieithir y gair נבל hefyd, *bod yn ffol*, yn Diar. 30. 22.—*diffygio*, yn Exod. 18. 18.—*pallu*, yn 2 Sam. 22 46. a Ps. 18. 45.—*diflanu*, yn Esa. 28. 1, 4.—*gwael*, yn Nah. 3. 6.—*diystyru*, yn Deut. 32. 15.—*bwrw i lawr*, yn Jer. 14. 21.—*anmharchu*, yn Mic. 7. 6.—C.

† Ymddengys oddiwrth fesuriaeth manylach mai 7899 o filltiroedd yw tryfesur y ddaear o begwn y gogledd i begwn y dehau, a 7925 o filltiroedd o'r dwyrain i'r gorllewin, ac felly, nad yw ei thryfesur ond 26 o filltiroedd yn hwy un ffordd na'r llall. Ceir mai 196,663,356 o filltiroedd ysgwar yw ei harwyneb; o ba un y mae 46½ o filiynau yn dir, a 150 o filiynau yn foroedd: neu, a golygu fod ei harwyneb yn cynnwys 30 o ranau, yna bydd 7 rhan yn dir, a 23 rhan yn fôr. Ei phellder oddiwrth yr haul yw 95,071,447 o filltiroedd; ac felly y mae yn troi mewn cylch oddeutu iddo o 597,352,914 o filltiroedd. Cyflawna hyn mewn 365 o ddyddiau, 5 o oriau, 48 o fynydau, a 44.19 o eiliadau, gyd â'r cyflymdra o 68,143 o filltiroedd bob awr. Dosranir y ddaear yn awr nid i bedair rhan fel cynt, ond i bump—sef, Asia, Ewrop, Affrica, America, ac Oceania; yr olaf yn cynnwys ynysoedd lliosog Môr Tawel y De.—C.

Digitized by Google

Y gair daear a arwydda, hefyd, yn yr ysgrythyrau· 1. Holl drigolion y ddaear. Gen. 11. 1.* Ps. 96. 1· Jer. 22. 29.——2. Yr holl greaduriaid a gynnwysir ar y ddaear, ac yn y byd i gyd, dynion ac anifeiliaid, llysiau a mwnau, dyfroedd a physgod, &c. 'Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder.' Ps. 24. 1. ——3. Weithiau, nid ydyw yr holl ddaear, neu holl deyrnasoedd y ddaear, yn arwyddo dim ychwaneg na rhyw ranau o'r ddaear, megys ymerodraeth y Caldeaid a'r Assyriaid. 'Arglwydd Dduw y nefoedd a roddes i mi deyrnasoedd y ddaear.' Ezra 1. 2. Esa. 10. 14. Yr un modd hefyd y mae Judea, tebygol, sef tir yr Iuddewon, yn cael ei alw yr holl ddaear. 'Llawenydd yr holl ddaear yw mynydd Sïon.' Ps. 48. 2. Jer. 51. 25. Gwlad yr Iuddewon, yn fwyaf neillduol, sydd yn ngolwg yr apostol, pan y dywed, 'Byr waith a wna yr Arglwydd ar y ddaear.' Rhuf. 9. 28. Sef, efe a ddwg ddinystr disymwth ar y tir a'r bobl hyn. Daear (γη) ydyw y gair Groeg a gyfieithir *gwlad*, yn Mat. 9. 26.—*tir*, yn Luc 4. 25. Cyfieithir ef *daear*, yn Marc 15. 33.——4. Cyflwr isel a gwael. Dat. 6. 13. a 12. 13.——5. Dychymygion, tueddiadau, a mwyniant cnawdol. Ioan 3. 31. Dat. 12. 4. a 13. 11.

DAEAREN, enw y ddaear yn y rhyw fenywaidd; y ddaear, y llawr. Job 16. 18. a 28. 5.

DAEAROL—ION, yn perthyn i'r ddaear, anianol. Ps. 10. 18. Ioan 3. 12. Iago 3. 15. Adda a'i holl hâd ydynt ddaearol, o herwydd llunio eu cyrph o'r ddaear; ac o herwydd eu bod wedi myned, trwy bechod, yn farwol a llygredig. 1 Cor. 15. 40, 47, 49. 2 Cor. 5. 1.——'Fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau.' Phil. 2. 10. Tra dyrchafwyd, gan Dduw, yr Iesu hwnw a'i dibrisiodd ei hun, gan gymeryd arno agwedd gwas, i fod yn frenin goruchel, gogoneddus, a'i lywodraeth yn cyrhaedd o uchder y nefoedd i ddyfnder uffern. Y mae holl deulu y nefoedd, sef yr angelion sanctaidd, ac ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, yn ymostwng, ac yn ei addoli yn ddiflino. Mat. 24. 31. a 25. 31. Eph. 1. 21, 22. Col. 1. 16. a 2. 10. 2 Thes. 1. 7. Heb. 12. 22, 23. Dat. 4. 6, &c. a 5. 9, 10. Holl drigolion y ddaear hefyd a ymostyngant iddo, gan ei gydnabod ef yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad, naill ai o'u bodd, neu o'u hanfodd; hyn a wna yr holl saint o'u gwirfodd, gyd â'r parch mwyaf. Y 'tan-ddaearolion bethau,' yw yr holl ddynion sydd wedi marw, ac yn eu beddau; yn nghyd â'r holl lu damnedig sydd yn uffern. Bydd pob creadur rhesymol, yn mhob man o'r greadigaeth, yn dyfod i ymostwng i'r Cyfryngwr, ac i roddi y goron ar ei ben.

DAEARFOCH—YN, (daear-moch) creadur tra blonegog ydyw; dywedr fod ei floneg yn fuddiol at iachâu poen yn mhen y glun (*sciatica*) ac afiechyd yn y llwynau. Ei flew ydynt ddefnyddiol at wneuthur puntrau lluniedyddion a goreurwyr. Er mai pethau go eirwon ydyw crwyn daearfoch, y maent yn dra buddiol i gadw gwlaw allan; hwy ydoedd tô nesaf allan y babell sanctaidd, a hwyrach eu bod yn arwyddo yr olwg wael ar Grist a'i eglwys yn allanol; er fod yno gysgod a diddosrwydd cysurus. Exod. 25. 5. a 26. 14. a 36. 19. Arferent gynt grwyn daearfoch hefyd at wneuthur esgidiau. Ezec. 16. 10. ——'Crwyn daearfoch.' *Heb.* תחש* Nid oes crybwylliad am y creadur hwn yn yr ysgrythyr ond yn y lleoedd uchod. Y mae yn anhawdd penderfynu pa greadur ydoedd, neu a ydyw yn adnabyddus yn ein gwledydd ni, ai nad yw. Barnai yr Iuddewon ei fod yn greadur glân, yr hyn nid oedd y daearfochyn, yn ol cyfraith Moses. Nid oes nemawr o air wedi rhoddi mwy o ddyryswch a phetrusder i feirniaid dysgedig na hwn. Bochart a farna nad un anifel, ond mai lliw a feddylir wrtho. Nid oes un o'r hen gyfieithiadau yn ei olygu yn enw un anifel, ond y Caldaeg; oddiwrth ba un y mae ein cyfieithiad ni, a'r Saesonaeg, wedi ei gyfieithu *daearfochyn*. Y LXX. a'r *Vulgate*, a'i cyfieithant, *Crwyn wedi eu lliwio o liw y violet*—y Syriaeg, *Nefliw*—yr Arabaeg, *Du*—Coptic, *Violet*—Bochart, HYSGINIS, sef *glas tywyll*.

DAEARGRYN—FAAU, rhyw gynhwrf a therfysg ofnadwy, neu ysgydwad yn y ddaear, neu ryw ran o honi, a ddygwydd trwy ryw darth amnwythedig, a lochesir yn ngheudyllau ei chrombil; yr hyn sydd effaith cynneuad rhyw fygfaen brwmstanaidd, a hwnw yn cael lle i dori allan, a chan gyfarfod â rhyw gymysg ddefnyddiau, o wahanol natur iddo, yn ei ffordd, a wna ruthr a chyffröad dychrynllyd, nes peri i'r ddaear grynu. Math o daranau dan y ddaear ydyw daeargryn. 1 Bren. 19. 11. Y gwledydd lle mae helaethrwydd o fygfeini, nitr, neu gellystr, yn nghrombil y ddaear, ac amledd o geuolau mewn creigiau, sydd fwyaf darostyngedig i ddaeargryn. Y mae daeargryn yn un o'r pethau mwyaf ofnadwy sydd yn ymddangos yn natur. Mynych y llyncwyd dinasoedd cyfain trwy ddaeargryn, ac y dyfethwyd y wlad oddi amgylch.

Crybwyllir am amryw ddaeargrynfäau yn yr ysgrythyrau. Yr hynotaf oedd un a ddygwyddodd yn nyddiau Uzziah, brenin Judah. Josephus a ddywed fod y ddaeargryn yma mor echrynawl ag y darfu iddi hollti mynydd ar draws ei hanner, yr hwn oedd yn sefyll yn y gorllewin i Jerusalem, a symud un hanner iddo yn nghylch hanner milltir o'i le. Gwel Amos 1. 1. Zech. 14. 5. Daeargryn arall, tra hynod, a goruwch naturiol, a ddygwyddodd ar farwolaeth ein Hiachawdwr. Mat. 27. 51. Rhai ysgrifenwyr ydynt o'r farn fod y grynfa hon yn deimladwy dros yr holl fyd: eraill a dybiant mai yn ngwlad Judea yn unig yr ydoedd, neu yn unig yn y deml, pyrth yr hon a ysgydwid, a'i llen a rwygwyd yn ddwy, oddi fynu hyd i waered. Rhaid fod rhyw amgylchiadau tra ofnadwy yn dilyn y tro hwn, pan yr effeithiai gymaint ar y canwriad, a'r rhai oedd gyd âg ef, nes eu dwyn i gyffaddef mai Mab Duw oedd yr hwn a hoeliwyd, ag yr oeddynt yn ei wylio. Mat. 27. 54.

Y mae yr ysgrythyr yn sôn yn fynych am gryniad y ddaear, sigliad a chynhyrfiad seiliau y mynyddoedd, &c., megys effeithiau gallu Duw, ei ddigofaint, a'i ddialedd. Ond nid yw yr ymadroddion hyn, bob amser, i'w ddeall yn llythyrenol, fel pe mewn gwirionedd y byddai y ddaear yn crynu; ond gosod allan y maent fawredd, cadernid, a gallu pen-arglwyddiaethol Duw. Gwel Ps. 18. 7. a 46. 3. a 104. 32. a 114. 4. ——Yn allegawl, arwydda cyfnewidiadau mawrion yn nghyflwr gwladol ac eglwysig teyrnasoedd y ddaear. Dat. 6. 12. a 16. 18.

* 'A'r holl ddaear ydoedd o un iaith,' &c. Y mae esbonwyr yn amrywio yn nghylch y gair '*daear*,' gan y'i cyfieithir ef *gwlad*, neu *dir*, mewn manau eraill. Barna Luther, Calvin, Poole, Patrick, Wells, Samuel Clarke, Henry, Pye Smith, ac eraill, nad oedd cymysgedd yr ieithoedd yn cofleidio 'holl drigolion y ddaear.' Gwel '*Kitto's Cyclopædia of Biblical Literature*,' o dan y gair '*Tongues, confusion of*;' a'r '*Encyclopædia Brittanica*,' (7fed argraffiad, 1812) o dan y gair '*Philology*.—C.

* Cyfeithir y gair *Heb.* תחש (*tachash*) yn y cyfieithiad Saesonaeg hefyd yn *badger*, yn cyfateb i'r 'daearfochyn' yn y Gymraeg, ond ymddengys na cheir mo'r anifel hwn mewn un wlad allan o Ewrop. Y mae mwy o resymau o blaid y golygiad mai anifel o'r rhyw afraidd ydoedd y *tachash*, nag un arall. Gelwir y rhai hyn gan drigolion gwledydd dwyreiniol Affrica wrth yr enwau *pecasse*, *empacasse*, *thacasse*, *facasse*, a *tachaitze*—enwau yn tebygu yn fawr i'r *Heb. tachash*. Y maent o gryn faintioli, ac o liw llwyd neu las-goch. Ceir darluniau o honynt ar lawer o adeiladau (*monuments*) yr Aipht, ac oddiwrth hyn gellir casglu eu bod yn lliosog, a'u crwyn yn hawdd i'w cael.—C.

Digitized by Google

**DAEARYDD**, (daear) ffau.—'I'r llwynogod y mae dayerydd.' Luc 9. 58. W. S.

**DAFAD, DEFAID**, (daf) *Gr.* οις; *Llad.* Ovis. Y gair *Heb.* צאן am *ddafad*, a arwydda *ffrwythlonrwydd*. Sylwa Columella, er nad oes un creadur gwedi ei wisgo â gorchudd mwy cynhes na'r ddafad, etto ei bod yn rhynllyd iawn, ac yn wan i oddef oerfel. Gwel Columella, *lib.* viii., *cap.* 3. Anifeiliaid tyner (*Molle pecus.* Virgil*) ydynt, a rheidiol iawn iddynt gael tŷ, neu gysgod diogel yn y gauaf, a pho ieuengaf y byddont, tyneraf o gwbl ydynt. Y mae y Psalmydd yn cyfeirio at ffrwythlonrwydd y defaid, yn Ps. 144. 13,—'Y dolydd a wisgir â defaid,' gan amled oeddynt. Ps. 65. 13. Y mae genym hanesion am ddefaid Palestina, eu bod yn ffrwythlon hynod. Dywed Bochart, fod y defaid dwyreiniol, nid yn unig yn dwyn dau oen (Can. 4. 2.) ond weithiau tri neu bedwar, a hyny ddwywaith yn y flwyddyn. Y mae y defaid yn greaduriaid tra defnyddiol, ac hefyd yn dra digost i'w cadw. Y mae eu cig yn fwyd tyner ac iachus—eu gwlan i wneuthur gwisgoedd o hono, er clydwch a harddwch—eu crwyn, wedi eu trin, a wnant amryw o'n gwisgoedd, a gwisgir llyfrau â hwynt—y mae eu llaeth yn fwy maethlawn, ac a rydd fwy o gaws ac ymenyn na llaeth gwartheg—â'u perfedd gwneir tannau offer cerdd—eu biswail sydd wrtaith rhagorol—a'u hesgyrn, gwedi eu calch-losgi, a wnant brawf-foddion i'r coethyddion. Y mae amryw o rywogaethau o ddefaid. Y rhai Yspaenaidd sydd yn cael eu cyfrif yn rhagorol o ran gwlan; a defaid bychain Cymru, a rhai cynffon lydan Syria, Barbari, ac Ethiopia, sydd yn rhagori o ran eu cig tyner a blasus. Y mae cynffonau y diweddaf a enwais, rai o honynt, yn fawr iawn, yn llusgo y ddaear, ac yn cael eu cynnal â byrddau, ar olwynion bychain, ac yn pwyso hanner cant o bwysau. Y maent yn ddarostyngedig i amryw aflechyd a llesgrwydd. Y mae iddynt elynion creulawn mewn bleiddiaid, cŵn, &c. Y maent yn ddiniweid ac yn weiniaid i amddiffyn eu hunain; yn dueddol i grwydro, ac yn cael eu tarfu yn aml; y maent hefyd yn ddystaw ac yn ddirwgnach yn eu cyfyngderau. Da iddynt gael amddiffynfa, cadwraeth, ac ymgeledd, mewn ffyddlondeb, tynerwch, a gallu bugail gofalus. Y maent yn cydnabod hyn yn eu parodrwydd i wrando llais y bugail, ac i'w ganlyn. Yn yr holl bethau hyn mae y duwiolion yn cael eu cyffelybu i ddefaid, dan ofal ac yn nghadwraeth eu Bugail da, yr Arglwydd Iesu, yr hwn a roddodd ei einioes dros ei ddefaid, ac sydd yn eu cyrchu, yn eu dioglu, ac yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol. Ps. 74. 1. a 79. 13. a 95. 7. Esa. 53. 6. Jer. 23. 2, 3. Ezec. 34. 6, 12. Mic. 7. 14. Mat. 10. 6, 16. a 25. 32, 33. a 26. 31. Ioan x. Heb. 13. 20. 1 Petr 2. 25. Edr. Bugail.

**DAFADEN—OG**, (dafad) chwydd caled, diddolur, chwaren. Dafaden ddof; dafaden wyllt, sef y cancr. —'Neu y dafadenog.' Lef. 22. 22. *Heb.* יבלת *gwreinyn*, neu chwydd-frychau yn y croen, ac heb droi yn grach, etto yn lledaenu ac yn taenu dros y corph. Un o'r anafau oedd yn anghymhwyso dynion i'r offeiriadaeth o dan y gyfraith.

**DAFYDD**, דוד [*anwyl, anwylyd*] mab ieuengaf Jesse, o lwyth Judah. Ganwyd ef yn Bethlehem, A. M. 2919. Bugeilio defaid ei dad oedd ei waith yn ei febyd; a thebygol nad ydoedd ei waith yn hyn yn barotoad anaddas i'r lle mawr a roddwyd iddo gan yr Arglwydd, fel blaenor ei bobl, gwedi hyny. Yr oedd yn adnabod yr Arglwydd yn foreu. Nid annhebyg iddo gyfansoddi amryw o'i Psalmau pan yr oedd ar hyd feusydd Bethlehem, yn bugeilio praidd ei dad.

Yr hanes cyntaf a gawn am dano yw, pan yr eneiniwyd ef gan Samuel, yn ol gorchymyn Duw, i fod yn frenin ar Israel, yn lle Saul, pan ydoedd yn nghylch deunaw oed. 1 Sam. xvi. Dwy ar hugain oed oedd, medd Bedford; a deg ar hugain pan ddechreuodd deyrnasu yn Hebron. O ran ei berson, 'yr oedd yn wridgoch, a theg yr olwg, a hardd ei wedd.' Pan yr ymddangosodd ger bron Samuel, gwedi i'r Arglwydd wrthod ei frodyr, dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, 'Cyfod, eneinia ef: canys dyma efe. Yna y cymerth Samuel gorn yr olew, ac a'i heneiniodd yn nghanol ei frodyr. A daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Dafydd o'r dydd hwnw allan.' Cawn ef yn aml, yn ei Psalmau, yn coffâu gyda syndod a diolchgarwch, ddaioni Duw tu ag ato, yn ei ddyrchafiad yn y modd hynod hwn i'r orsedd. 'Etholodd hefyd Dafydd ei was, ac a'i cymerth o gorlanau y defaid: oddiar ol y defaid cyfebron y daeth ag ef i borthi Jacob ei bobl, ac Israel ei etifeddiaeth.' Ps. 78. 70, 71.

Yr ydoedd Saul yn fwy golygus gwr na Dafydd; a mwy o addasrwydd ynddo, o ran ymddangosiad, i'r freniniaeth. Nid oedd teulu Jesse yn enwog, ac nid oedd Bethlehem ond 'bechan yn mhlith miloedd Judah;' a Dafydd hefyd ydoedd yr ieuengaf o'i frodyr; etto yr Arglwydd a ddywedodd, 'Eneinia ef, dyma efe!' Yr oedd hyn yn rhagddangos y byddai i Grist, o hâd Dafydd, er mai y diystyraf o'r gwyr oedd, gael yr orsedd, i 'lwyddo, a chael ei dderchafu, a bod yn uchel iawn.' Gwelodd yr Arglwydd yn dda y pryd hwn ddethol, o blith meibion Israel, y person ag yr oedd Crist i ddyfod o hono, a'i nodi yn anrhydeddus, trwy ei eneinio yn frenin ar ei bobl. Yr ydoedd rhagoriaeth nodedig yn eneiniad Dafydd rhagor i eneiniad Saul. Yr oedd eneiniad Saul yn terfynu yn ei berson ei hun; ond yn eneiniad Dafydd, sefydlwyd y freniniaeth ar Israel ynddo ef a'i deulu, tra y byddai Israel yn freniniaeth; ac nid yn unig hyny, ond, yr hyn sydd yn anfeidrol fwy, sefydlwyd y freniniaeth yn ei hâd ar yr eglwys gyffredinol, Israel ysbrydol, hyd ddiwedd amser; ie, yn oes oesoedd. Ar ysgwydd Crist, o hâd Dafydd, y mae ac y bydd y llywodraeth byth; 'ac ar helaethrwydd ei lywodraeth, a'i dangnefedd, ni bydd diwedd: ar orseddfa Dafydd, ac ar ei freniniaeth ef, i'w threfnu ac i'w chadarnhau â barn, ac â chyfiawnder, o'r pryd hwn ac hyd byth.' Esa. 9. 7. Luc 1. 32, 33.

I. Fel yr ydoedd Dafydd yn un o hynafiaid Crist, felly hefyd yr ydoedd yn gysgod neillduol o hono. Oblegid hyny y gelwir Crist wrth yr enw Dafydd yn aml yn yr ysgrythyrau. 'Cyfodaf hefyd un bugail arnynt, ac efe a'u portha hwynt, sef fy ngwas Dafydd; efe a'u portha hwynt, ac efe a fydd yn fugail iddynt—a'm gwas Dafydd a fydd yn dywysog yn eu mysg.' Yn fynych y gelwir ef yn Fab Dafydd—ac o hâd Dafydd. Ezec. 34. 23, 24. a 37. 24. Jer. 13. 13. a 30. 9. a 33. 17. Mat. 9. 27. a 12. 23. a 22. 42. Rhuf. 1. 3. 2 Tim. 2. 8. Dat. 5. 5. Gan fod Dafydd yn un o hynafiaid, ac yn gysgod o Grist, a'i eneinio gan Dduw i fod yn frenin ar ei bobl, a bod breniniaeth ei eglwys i fod yn ei dŷ yn dragywydd, gellir golygu ei eneiniad ef fel eneiniad Crist ei hun. Eneiniwyd Crist mewn ystyr ynddo; am hyny, y mae yr ysgrythyrau yn llefaru am ei eneiniad ef ac eneiniad Crist fel un. 'Cefais Dafydd fy ngwasanaethwr: eneiniais ef â'm holew sanctaidd.' Ps. 89. 20. Yr un modd y mae gorsedd-fainc Dafydd a gorsedd-fainc Crist yn un. 'Iddo ef y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd.' Luc 1. 32. Dafydd 'yn gwybod dyngu o Dduw iddo trwy lŵ, mai o ffrwyth ei lwynau ef o ran cnawd, y cyfodai efe Grist i eistedd ar ei orseddfa ef.' Act. 2. 30.

Fel hyn y mae dechreuad y freniniaeth, trwy osodiad Duw, yn nhŷ Dafydd, yn ymddangos fel gosodiad newydd o freniniaeth Crist yn y byd, gyda mwy o

* *Georgic* iii. *lin.* 295—321. Bochart, *vol.* ii., p. 453.



Digitized by Google

ba herwydd y mae Môr y Canoldir yn cael ei alw Môr y Philistiaid. O gŵr eithaf y Môr Coch, gan hyny, ar draws i Fôr y Canoldir, ac ar hyd ei lân ef, cyn belled a mynydd Libanus, yr oedd y terfyn gorllewinol o'r dehau i'r gogledd. Drachefn, y diffeithwch yn nghŵr eithaf gwlad Canaan yn y dehau; a'r deheuddwyrain i'r gwledydd cyfagos, tu draw i'r Môr Marw, a thu cefn i'r Iorddonen, hyd yr afon fawr Euphrates, oedd yn gwneuthur terfyn yn y dwyrain a'r dehau: a llinyn union oddiwrth Fôr y Canoldir, heibio i fynydd Libanus, at yr afon Euphrates, a nodai allan y terfynau yn y gogledd, neu y gogledd-orllewin. Y mae yn lled anhawdd cwbl benderfynu am y terfynau hyn, wedi cymaint o amser; ac o herwydd hyny y mae amryfal dybiau yn nghylch rhai pethau perthynol iddynt; eithr y mae y gosodiad hwn, tebygid, yn cytuno â'r gosodiadau ag sydd yn cael edrych arnynt yn fwyaf cywir. Gen. 15. 18. Num. 34. 3. Deut. 11. 24. Jos. 1. 4. 1 Bren. 4. 21, 24. Ps. 72. 8.

Er mai Dafydd ei hun a fu yn y frwydr gyda Goliath, etto yr oedd holl Israel yn fuddugoliaethus yn ei fuddugoliaeth ef. Yr un modd y mae buddugoliaeth Crist yn fuddugoliaeth dragywyddol i'w holl bobl. 'Cymerwch gysur,' medd Crist wrth ei ddysgyblion, 'myfi a orchfygais y byd.' Ioan 16. 33. Y mae ei oruchafiaeth ef yn gweini cysur effeithiol iddynt hwy, yn nghanol gorthrymderau y byd.

V. Cafodd Dafydd le mawr yn yr eglwys, hefyd, fel *prophwyd*. Trwy y cysgod enwog hwn o Grist, nid yn unig y perffeithiwyd y gwaith a roddwyd i Josuah, o ddarostwng y Canaaneaid, ond dygodd hefyd holl drefniadau Moses mewn perthynas i addoliad Duw i berffeithrwydd. Fel hyn, gwelwn fod yn angenrheidiol cael, nid un, ond amryw brophwydi, offeiriaid, a breninoedd, i osod allan holl gyflawnder Crist yn y swyddau hyny. Dafydd a berffeithiodd yr holl addoliad Iuddewig, yn ei holl drefniadau a'i osodiadau, fel na wnaed dim cyfnewidiad arno mwyach tra parhaodd yr oruchwyliaeth hòno. Trefnodd holl ddosparthiadau y swyddogion, y barnwyr, y porthorion, a'r offeiriaid, meibion Aaron; a gosodiadau y cantorion i ganu yn nhŷ yr Arglwydd â symbalau, a nablau, &c., a'u dosparthu hwy yn bedwar dosparthiad ar hugain. Parhaodd yr holl osodiadau hyn hyd ddyfodiad Crist. 1 Cron. xxiii, xxiv, xxv, xxvi. Luc 1. 5. Diddymodd y babell a adeiladwyd gan Moses, ac a osododd babell i fynu ei hun yn Jerusalem, i ddwyn arch Duw i mewn iddi. 2 Sam. 6. 17. 2 Cron. 16. 1. Wedi hyny, yn niwedd ei ddyddiau, derbyniodd, trwy yr Ysbryd, bortreiad o'r deml, yn ol yr hwn yr oedd ei fab Solomon i'w hadeiladu. Dangosodd Duw iddo hefyd y fan a ddewisodd efe i'w hadeiladu, sef yn llawr-dyrnu Arafna y Jebusiad. Deut. 12. 5, 6, 7. 2 Sam. 14. 18, *ult*. 'Mi a etholais Jerusalem i fod fy enw yno; ac a ddewisais Dafydd i fod ar fy mhobl Israel.' 2 Cron. 6. 6. Am hyny y gelwid hi y ddinas sanctaidd, lle y bu addoliad Duw yn cael ei gadw hyd ddyfodiad Crist; lle y casglwyd yr eglwys Gristionogol gyntaf ar ol esgyniad Crist; a lle y tywalltwyd, mewn modd nodedig, yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost. Mam eglwys yr holl fyd oedd yr eglwys yn Jerusalem. 'Y gyfraith,' sef yr efengyl, 'a â allan o Sion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem.' Esa. 2. 3.

Fel prophwyd, dan ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân, y cyfansoddodd Dafydd y Psalmau, i'w canu yn addoliad Duw yn gyhoeddus yn mhob oes, tra byddai eglwys gan Dduw ar y ddaear. Sylwedd y caniadau dwyfol hyn yw, mawrhydi gogoneddus Person y Messiah—gwaith ardderchog y prynedigaeth—bendithion lliosog a gogoneddus yr efengyl, a'i llwyddiant dros yr holl ddaear—gwaredigaeth a dyrchafiad yr eglwys o'i holl bechodau a'i gorthrymderau, hyd nes yr ymddangosai yn gyflawn ar ddeheulaw ei phriod, ac yn debyg iddo. Edr. Psalmau. Yn yr olwg ar Grist a'i iechydwriaeth, y mae ei enaid, yn mherson ac yn mhrofiad yr holl eglwys, yn gystal a'i brofiad ei hun, wedi ei lenwi â syndod, gorfoledd, a diolchgarwch, a'r dymuniadau mwyaf hiraethlawn am fwynhad o hono. Mai yr efengyl, a'i gwrthddrychau anfeidrol ogoneddus, yw sylwedd y caniadau peraidd hyn, sydd eglur, tu hwnt i ammheuaeth, oddiwrth yr esboniadau dwyfol a roddir arnynt yn y Testament Newydd. Luc xxiv. Act. ii. Heb. 1. 8. a 2. 6—10. a 5. 6. a 7. 17. a 10. 5, 6, 7, 13. 1 Cor. 15. 25. Eph. 4. 8. Y maent, trwy orchymyn Duw, i'w canu yn yr eglwys. Y mae hyn yn amlwg oddiwrth ditlau amryw o honynt, yn eu cyflwyno i'r pen-cerdd—sef i'r blaenor ar y rhan hòno o'r addoliad dwyfol yn y deml. Peraidd ganiadydd Israel, o herwydd hyn, y gelwir ef; sef oblegid iddo gyfansoddi, dan ysbrydoliaeth Duw, ganiadau peraidd ac efengylaidd am Grist a'i iechydwriaeth, i'w canu gan yr eglwys hyd nes yr elo yn gyflawn i wlad y gogoniant. Yr oedd Psalmau Dafydd yn beraidd yn yr eglwys yn nyddiau yr apostolion. Act. 16. 25. Eph. 5. 19. Col. 3. 16. Un o Psalmau Dafydd, y mae yn dra thebygol, a ganwyd gan Grist a'i ddysgyblion wrth fwyta y pasc, a'r swper diweddaf. Y mae yn ddigon hysbys y byddid arferol o ganu y Psalmau canlynol ar ol y pasc, sef y cxiv, cxv, cxvi, cxvii, a'r cxviii. Y mae rhyw bereidd-dra nefolaidd ynddynt hyd heddyw, i bob dyn ysbrydol a phrofiadol, yn rhagori ar bob caniadau eraill, er eu cael dan yr anfantais fawr o gyfieithiadau. Y mae y golygiadau mwyaf gogoneddus ar ddirgeledigaethau dwyfol yn cael eu gwisgo ganddo yn holl harddwch prydyddiaeth. Y mae ei ehediadau yn gryfion; ei eiriau yn ddetholedig; ei gyffelybiaethau yn addas ac yn oleu; ei faterion yn bwysig ac yn efengylaidd; ei ysbryd yn dduwiol a gwresog.

Y mae doniau naturiol, a gras ysbrydol, yn cydddysgleirio yn hardd odidog yn y rhan fwyaf o amgylchiadau ei fywyd ef. Ei wroldeb fel milwr—ei 'ddoethineb yn ei holl ffyrdd;' (1 Sam. 18. 14.)—ei ffydd gadarn—ei dduwioldeb diragrith—ei ffyddlondeb a'i dynerwch fel cyfaill—ei gydwybod dyner, a'i ysbryd maddeugar tu ag at ei elynion marwol. Dyma y pethau sydd yn cyd-gyfarfod yn harddwych i brydferthu y gwr yn ol calon Duw. 'Cefais Dafydd, mab Jesse, gwr yn ol fy nghalon,' medd Duw, 'yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys.' Act. 13. 22. 1 Sam. 13. 14. Nis gellir gael tystiolaeth uwch a mwy cyflawn am un creadur. Diammeu nad oedd Dafydd heb ei wendidau yn ei amser goreu; etto, gwendidau oeddynt; ïe, gwendidau plentyn ufudd, a gwas ffyddlon i Dduw a'i bobl. Ni welir yn Dafydd falchder, cenfigen, twyll, a rhagrith Saul. Y mae yn ymddiried yn yr Arglwydd yn *unig*, er nad heb weithrediadau anghrediniaeth, a'u heffeithiau pechadurus a gofidus; y mae ei galon yn gywir gyd â'r Arglwydd, er ei fod yn llesg, yn gloff, ac yn anmherffaith yn ei wasanaeth. Gwnaeth Dafydd 'yr hyn oedd union yn ngolwg yr Arglwydd, ac ni chiliodd oddiwrth yr hyn oll a orchymynodd efe iddo, holl ddyddiau ei einioes, ond yn achos Urias yr Hethiad.' 1 Bren. 15. 5.

VI. Er y buasai ddymunol genyf ddiweddu hanes Dafydd yma, ond nid felly y diwedda yn yr hanesiaeth sanctaidd. Y mae yn cael ei ddangos yno dan gwmwl du yn achos Urias, gwraig yr hwn a halogodd, ac a dywalltodd ei waed yntau trwy law meibion Ammon, i'r dyben i guddio ei bechod, ac i gael gwraig Urias yn wraig iddo ei hun. 'Gyda pha fath anewyllysgarwch, gyda pha fath ofn,' medd y duwiol Esgob Hall, 'yr ydwyf yn edrych ar drychineb y gwr yn ol calon Duw! O brophwyd sanctaidd! pwy all addaw iddo ei hun y saif yn ddigwymp, pan yr edrycho arnat ti wedi syrthio, ac yn archolledig? Er i lygaid halogedig edrych arnat ti gyda boddlon-

Digitized by Google

rwydd, fel siampl i'w hesgusodi yn eu pechodau; nis edrychaf fi byth arnat heb wylofain, a'th ystyried fel drych galarus o freuolder dynol.'

Heb sylwi yn fanwl ar hanes ei gwymp, yr hwn a ellwch ei ddarllen yn gyflawn yn 2 Sam. xi. gallwn ystyried ychydig bethau mewn perthynas i'r dygwyddiad gresynol hwn i ŵr Duw, er ein haddysg a'n rhybydd.

1. Llawnder, segurdod, a mwyniant o esmwythder cnawdol, a ellir eu gweled ynddo fel yn rhagflaenu ei gwymp. Nid ar unwaith, yn gyffredinol, y mae neb yn syrthio; ond y mae adfeiliad dirgelaidd, yn aml, yn rhagflaenu, ac yn gwneuthur yn agored i brofedigaethau y gelyn. Y mae meddwl sanctaidd gyda Duw, fel y gwelwn yn Joseph, yn gwrthneidio, gyda braw, oddiwrth gynnygiadau y temtiwr. Ond pan y byddo dyn yn raddol wedi colli ei olwg ar Dduw, ac yn esgeuluso cymdeithas feunyddiol âg ef; wedi colli ei barch i ddeddf Duw, ac yn diystyru y gorchymyn, yn lle crynu wrth y gair; pan y byddo yn cellwair â phechod yn y galon, ac yn ymddifyru mewn meddyliau halogedig; wedi colli manylrwydd yn ei rodiad, a ffyddlondeb yn ei alwedigaeth dros Dduw—yn yr agwedd bechadurus hon y mae yn hawdd i'r gelyn lwyddo, oni ragflaena gras Duw, ac iddo yntau syrthio i bethau mor ffiaidd, y buasai yn arswydo wrth feddwl am danynt, mewn syniad ysbrydol o ran ei enaid. Yn yr agwedd bechadurus hon, y mae fel dinas warchaëedig â'i phyrth oll yn agored, a'i holl geidwaid yn cysgu yn ddiofal, neu yn byw yn afradlon, ac yn ddiystyr o'u perygl oddiwrth y gelynion gwyliadwrus sydd yn eu hamgylchu. Pan aeth y fyddin i'r rhyfel, 'arosodd Dafydd yn Jerusalem;' ac yn lle bod yn gweddïo ar Dduw drosto ei hun a'i filwyr, 'ar ei wely, ac yn rhodio ar nen ei dŷ,' y gwelwn ef. Yn y segurdod cnawdol hwn, canfu, fel Efa, wrthddrych têg iawn yr olwg, brysiodd, cyrchodd y gwrthddrych; ac ar draws y gorchymyn sanctaidd, ac yn ddiystyr, yr awr hòno, o holl ddaioni Duw tu ag ato, cyflawnodd ei chwant aflan a phechadurus. Arferodd ddichellion i guddio ei bechod; ac yn y diwedd ychwanegodd affaith gwaed gwirion at ei odineb; a 'lladdodd Urias â chleddyf meibion Ammon.' Fel hyn y gwelwn fod un pechod yn rhwyddhau y ffordd i'r llall; a'r ail yn caledu y galon i'r trydydd. A'i adael iddo ei hun, i ba le nad â dyn—i ba ddyfnder ni syrth—a pha hyd ni erys mewn pechod!

2. Er ein rhybydd, golygwn yn mhellach amgylchiadau pechod Dafydd. Yn ol tystiolaeth Duw ei hun, yr oedd yn ŵr gwir dduwiol—ie, yn enwog mewn duwioldeb; yr oedd wedi cael profiad helaeth, yn aml, o ddylanwadau sanctaidd yr Ysbryd Glân, ac wedi yfed yn helaeth o'i gysuron dwyfol; yr oedd wedi ei gyfodi i fynu gan yr Arglwydd i gyflawni gwaith mawr drosto; wedi dangos ffyddlondeb mawr yn mhob peth, a chwedi llwyddo yn hynod yn y gorchwyl pwysfawr a roddwyd iddo. Yr oedd wedi cael ei attal yn fynych rhag pechu, yn wyneb y cynhyrfiadau i hyny, oddiwrth Saul, Nabal, &c. Etto, er hyn i gyd, wele ef yn syrthio yn ffiaidd; ie, i'r naill bechod ar ol y llall, fel pe na buasai attalfa arno; hefyd, y mae yn parhau yn ei bechod yn ddiedifeiriol yn hir—ddeuddeng mis, neu ychwaneg, tebygol. Yn yr amser hwn y mae yn amddifad, beth bynag oedd ganddo o ffurf crefydd, o bresennoldeb Duw; o ddyfodfa ato mewn gweddi, o ateb i weddi, o ddadguddiedigaethau dwyfol, a chysuron yr Ysbryd Glân. Y mae yn bryd gwaeddi, 'Am hyny yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio.' 1 Cor. 10. 12. Luc 22. 23. Rhuf. 11. 20. Eph. 6. 10—18. 1 Petr 1. 5. 2 Petr 2. 9.—Y mae ei siampl yn arwydd rhybyddiol i bawb, i ochelyd y creigiau y dryllodd efe yn eu herbyn. Nid am fod yn hoff gan yr Arglwydd goffâu pechodau ei bobl, yr ysgrifenwyd yr hanes am danynt, ond er addysg a rhybydd i bawb, hyd ddiwedd amser, rhag iddynt hwythau gerdded yr un llwybrau.

3. Fel yr oedd ei gwymp yn anesgusodol, ac yn hollol o hono ei hun, a'i chwant pechadurus, felly, gallwn weled fod ei adferiad yn *hollol* o'r Arglwydd. Eglur yw, na fuasai byth yn ymunioni i'r lân o hono ei hun. Y mae yn natur pob gwrthgiliad ymadawiad *tragywyddol* â Duw. Os edrychwn arno wedi ei gwymp, gwelwn ef yn llwythog o euogrwydd; yn wrthddrych tra annheilwng o drugaredd; yn ddideimlad o'i gyflwr, yn galed ei galon, yn iach ei ysbryd, ac yn ddiymofyniad am Dduw. Nid oedd yn haeddu dim llai nag i'r Arglwydd ei adael dros byth yn ei bechod, ac i fedi o ffrwyth ei weithredoedd. Ond trugaredd a ail-ymwelodd âg ef, ac a'i hadferodd yn gyflawn. Yn rhad y mae Duw yn trugarhau, er ei fwyn ei hun. Exod. 33. 19. Deut. 7. 8. Esa. 43. 25. Eph. 2. 5.

4. Yn y ffordd a gymerodd yr Arglwydd i'w adferyd i edifeirwch a'i ffafr, gallwn weled llwybr Duw yn gyffredinol yn ei oruchwyliaethau grasol tu ag at bechaduriaid. Trwy weinidogaeth ei weision yn mhregethiad y gair, y mae yn eu dwyn yn euog ger bron Duw—'Ti yw y gwr,' medd Nathan y prophwyd wrth Dafydd. Aeth y fath oleuni ac awdurdod dwyfol gyda dywediad argyhoeddiadol y prophwyd, nes y gwaeddodd Dafydd, 'Pechais yn erbyn yr Arglwydd.' Y mae yr Arglwydd yn gosod ger bron Dafydd ei bechod, yn ei holl amgylchiadau echryslawn, ac yn sylwi yn fanwl ar bob cam a gerddodd efe yn y cyflawniad o hono, yn nghyd â'r holl diriondeb a'r daioni y pechodd yn ei erbyn. 'Myfi a'th eneiniais—myfi a'th waredais o law Saul—rhoddais i ti dŷ dy arglwydd, a gwragedd dy arglwydd yn dy fynwes—rhoddais i ti dŷ Israel a Judah—a phe rhy fychan a fuasai hyny, myfi a roddaswn i ti fwy o lawer.' Pa fath diriondeb dwyfol sydd yn ymddangos yma! 'Dirmygaist air yr Arglwydd.' Dyma gychwyniad ei gwymp. 'Tarewaist Urias yr Hethiad â'r cleddyf—a'i wraig a gymeraist i ti yn wraig—gwnaethost hyn mewn dirgelwch.' Wele yma gyhuddgwyn trwm iawn yn ei erbyn! Ond y fynyd y cwympodd Dafydd, ac y cyfaddefodd ei bechod, y mae yr un genad o ladmerydd yn cyhoeddi dros Dduw—'Yr Arglwydd hefyd a dynodd ymaith dy bechod di, ni byddi di marw.' 2 Sam. xii.

Pa hanes ryfedd a gawn ni yma! Wele ddau wrthddrych rhyfedd ger ein bron! Pa un sydd i'w ryfeddu fwyaf, a'i dyfnder pechadurusrwydd y dyn, ai anfeidrol amynedd a thrugaredd faddeuol Duw? Pwy ond Duw ein hiechydwriaeth a allasai drugarhau yn y modd rhyfedd hwn? Sylwch, rhaid tynu ymaith ein pechod, neu collir ni byth. Nid oes neb ond Duw a all dynu ymaith bechod, yr hwn a roddodd bechodau ei bobl yn gyfrifedig ar ei Fab ei hun, ac a'i traddododd ef drostynt. Pan y mae yr Arglwydd yn tynu ymaith bechodau rhyw bechadur yn neillduol, y mae yn ei argyhoeddi, ac yn rhoddi edifeirwch difrifol i'r pechadur hwnw am ei bechod. Nid ydyw maddeuant ac ysbryd diedifeiriol byth yn cyd-drigo gyd â'u gilydd. Gwel Ps. vi, xxxii, li, lxxvii.

5. Gwelwn yn siampl Dafydd, yn nghyd â siamplau amryw eraill yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, fod yn yr iechydwriaeth fawr yn Nghrist feddyginiaeth ddigonol i'r pechadur mwyaf euog ac aflan. O'r ffynon rinweddol hòno y derbyniodd Dafydd y cwbl tu ag at ei adferiad:—Ei argyhoeddiad—ei edifeirwch—ei faddeuant, a'i gymmod â Duw—ei lanhâd oddiwrth ei bechod—adnewyddiad y cysuron a gollodd—ac adnewyddiad ei ddefnyddioldeb yn nhŷ a gwaith yr Arglwydd. Meddyginiaeth ddwyfol ydyw yr iechydwriaeth, anfeidrol ddigonol, rhad, a thragywyddol, i holl bechadurusrwydd a thrueni dynion. Psalm li. Ezec. 36. 26, &c.

Digitized by Google

6. Gan fod iechydwriaeth yn eiddo yr Arglwydd, a bod y fath ddigonolrwydd dwyfol ynddi i amgeleddu cyflwr y pechadur mwyaf euog, aflan, ac annheilwng, na anobeithied neb am dano ei hun, nac eraill chwaith. 'Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt,' medd Duw wrth Israel wrthgiliedig, 'caraf hwynt yn rhad.' Hos. 14. 4. Y mae yr Arglwydd yn ymogoneddu yn mawredd ei iechydwriaeth, a rhadlonrwydd ei gariad a'i ras, yn ngwyneb gwrthgiliadau pechadurus ei bobl. Y mae yn eu hadferyd yn gyflawn, ac yn eu llwytho â daioni. Exod. 15. 26. Esa. 44. 23. Jer. 3. 22. Mic. 7. 18, 19. Seph. 3. 17. Luc 1. 77. a 15. 20. a 24. 47. Eph. 3. 8.

7. Yn ddiweddaf, na feddylied neb nad oes drwg mewn pechod, am fod maddeuant o hono gyda Duw mor gyflawn a grasol. Casgliad echrydus ydyw hwn; ond a wneir yn aml gan ddynion dan lywodraeth gau egwyddorion a chwantau llygredig. Ymddengys oddi wrth siampl Dafydd y gwna yr Arglwydd bechod yn chwerw i'r cyfryw ag y mae yn maddeu iddynt. 'Mi a ymwelaf,' medd yr Arglwydd, 'â'u camwedd â gwialen, ac â'u hanwiredd â ffrewyllau.' Ps. 89. 32. Gair trwm ydyw hwnw o enau Duw—'Nid ymedy y cleddyf â'th dŷ di byth.' Gwaith gofidus yw darllen ein pechodau yn ein dyoddefiadau ceryddol o law Duw o'u herwydd. Aflendid a thywallt gwaed oedd pechodau Dafydd; â'r rhai hyny y mae Duw yn ei geryddu yn ei deulu: ac am iddo ef ddirmygu gorchymyn Duw, y mae ei fab Absalom, wedi lladd ei frawd o'r blaen, yn diystyru llywodraeth ei dad, ac yn codi gwrthryfel tost yn ei erbyn. 2 Sam. 13. 28, 29. a 18. 14, 15, 33. 1 Bren. 2. 23, 24, 25. Y mae yn wir fod ei bechod wedi ei faddeu, ond y mae yn wir fod y cleddyf hefyd, mewn modd galarus iawn, yn ei dŷ oblegid ei bechod. Er na throdd Duw ei drugaredd oddi wrtho, etto 'ymwelodd â'i anwiredd â ffrewyllau.' Pwy wrth ddarllen hanes Dafydd, ac ymddygiad Duw tu ag ato, a ddichon beidio a chydnabod mai peth chwerw a gofidus ydyw pechod yn mhawb, yn mhob gradd o hono; fod Duw yn ei ffieiddio, ac y gwna i bawb a gaffont faddeuant o hono, ei ffieiddio hefyd, yn nghyd â'u ffieiddio eu hunain o'i blegid; ac nas dichon i neb rodio mewn cymmod â Duw, ac yn nghysur ei drugaredd faddeuol, heb yr agwedd sanctaidd hon ar ei feddwl?

VII. Yn gerydd ar Israel, y mae yr Arglwydd yn goddef i Satan weithredu ar falchder calon Dafydd, i'w annog ef i rifo y bobl. Y cadbeniaid, yn mhen naw mis ac ugain niwrnod, a ddygasant y cyfrif, tri chan mil ar ddeg o ryfelwyr. Y mae y rhifedi yn wahanol iawn yn 1 Cron. xxvii. I'w cymmodi rhaid gadael allan yn un y 288,000, heblaw eu swyddwyr ag oedd yn gwasanaethu yn gylchynol bob mis. Ni chyfrifwyd llwythau Lefi a Benjamin. Y mae ansicrwydd wedi y cwbl yn y rhifedi. Nid hwyrach na fynai Duw ddim iddo wybod eu rhifedi; y rhai oeddynt i fod yn ddirifedi.——Ar hyn calon Dafydd a'i tarawodd ef, a chyfaddefodd ei bechod i'r Arglwydd, gan ddywedyd, 'Pechais yn ddirfawr—ynfyd iawn y gwnaethum.' 2 Sam. 24. 10. Gad, gweledydd Dafydd, a ddaeth ato ef oddi wrth yr Arglwydd, a'i ddewisiad iddo o dri phla, sef saith mlynedd o newyn —neu ffoi dri mis o flaen ei elynion—neu haint yn y wlad dri diwrnod. Dafydd a ddewisodd dridiau o nodau, a bu farw ddeng mil a thriugain o'r bobl. Y mae Dafydd yn ymbil â'r Arglwydd, ac efe a edifarhaodd, ac a ddywedodd wrth yr angel oedd yn dinystrio y bobl, 'Digon bellach; attal dy law.' A Gad a ddaeth at Dafydd, ac a orchymynodd iddo adeiladu allor i'r Arglwydd yn llawr-dyrnu Arafna y Jebusiad. Dafydd a brynodd y llawr-dyrnu, a'r ychain, gan Arafna, er iddo eu cynnyg yn rhad, er deg a deugain o siclau o arian. Deg sicl a deugain o arian, tebygol, am yr ychain a'r coed; a chwe chan sicl o aur, wrth bwys, am y lle. Fel hyn y cymmodir yr hanes yn 2 Sam. 24. 24. â 1 Cron. 21. 25. Yno yr adeiladodd Dafydd allor i'r Arglwydd, ac a offrymodd boethoffrymau ac offrymau hedd. 'A'r Arglwydd a gymmododd â'r bobl, a'r pla a attaliwyd oddiwrth Israel.' 'Yr Arglwydd a'i hatebodd ef o'r nefoedd trwy dân ar allor y poeth-offrwm.' Ar hyny y dywedodd Dafydd, trwy ddadguddiad dwyfol, yn ddiammeu, 'Hwn yw tŷ yr Arglwydd Dduw, a dyma allor y poeth-offrwm i Israel.' Yn y fan hon, wedi ei brynu gan un o'r Canaaneaid, yr adeiladwyd y deml yn fuan wedi hyny. 1 Cron. 22. 1. 2 Cron. 3. 1. Y mae y cwbl yn cysgodi Crist a'i aberth; yn yr hwn y mae Duw yn cymmodi y byd âg ef ei hun, ac yn attal pob pla oddiwrth y sawl a gredant ynddo. Galar. 3. 32, 33. 2 Cor. 5. 19.

VIII. Y mae cariad Dafydd at addoliad Duw yn ymddangos yn aml yn holl ystod ei fywyd. Pan yr oedd fel wedi ei alltudio yn mhell oddiwrth bob cyfleusdra i'w bresennoli ei hun, gyd â'i frodyr, yn addoliad yr Arglwydd, y mae ei feddwl yn drallodedig iawn, ac fel yn y cyfyngder mwyaf. 'Fy enaid a hiraetha, ïe, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd.' O herwydd hyn y mae yn cenfigenu wrth yr adar ag oedd yn ehedeg ac yn nythu yn gyfagos i allorau yr Arglwydd. Ps. lxxxiv. Wedi ei ddyrchafu i'r orsedd, gwnaeth babell i'r arch yn Jerusalem, fel y gallai gael yr ordinhadau sanctaidd yn agos ato. 2 Sam. 6. 17. 1 Cron. 15. 12. Cyrchodd yr arch o Ciriath-jearim, un o drefydd y Gibeoniaid, naw neu ddeg milltir yn y gogledd-orllewin i Jerusalem. Yr oedd yr arch wedi bod yno o bedwar ugain i bedwar ugain a deg o flynyddoedd, oddiar pan y dychwelodd o wlad y Philistiaid. Jos. 9. 17. a 15. 9, 60. 1 Sam. 7. 1. 1 Cron. xiii. 'Ac o'r dydd y trigodd yr arch yn Ciriath-jearim, y bu dyddiau lawer: nid amgen nag ugain mlynedd.' 1 Sam. 7. 2. Nid oes i ni feddwl mai ugain mlynedd yw yr holl amser y bu yr arch yno; canys y mae sicr ei bod yno lawer hwy; ond ugain mlynedd, a feddylir, o flaen y dygwyddiadau y rhoddir hanes am danynt yn y rhan ganlynol o'r bennod. Nid hawdd penderfynu yn fanwl pa sawl blwyddyn y bu yno—o 80 i 90 o flynyddoedd, y mae yn debyg. Bu y babell yn hir yn Siloh; symudwyd hi oddi yno i Nob; ac oddi yno, ar ol marwolaeth Samuel, tebygol, i Gibeon, ond yr oedd yr arch y dyddiau hyn yn Ciriath-jearim. 1 Bren. 3. 3, 4, 1 Cron. 21. 29, 30. 2 Cron. 1. 3. Trwy ychydig o annhrefn yn ei chyrchiad i fynu, heb sylwi yn ddigon manwl ar y cyfarwyddiadau a roddasai yr Arglwydd, mewn perthynas i'w dygiad yn orchuddiedig ar ysgwyddau y Lefiaid (Num. 4. 5, 6.) dygasant hi yn ol dull y Philistiaid, ar fên newydd. Pan ysgydwyd yr arch gan yr ychain oedd yn ei dwyn, Uzzah a ymaflodd ynddi i'w hattal rhag syrthio, a Duw a'i tarawodd am yr amryfusedd hwn, nes y bu efe farw. A Dafydd a ofnodd yr Arglwydd, ac a drodd yr arch i dŷ Obed-Edom, lle y bu dri mis. Pan fynegwyd i Dafydd i'r Arglwydd fendithio tŷ Obed-Edom er mwyn arch Duw, efe a aeth yr ail waith yn fwy rheolaidd, ac a'i dygodd i fynu o dŷ Obed-Edom, yn llwyddiannus ac yn orfoleddus, i Jerusalem 1 Cron. xv. O dra gorfoledd a llawenydd ysbrydol, efe a 'ddawnsiodd â'i holl egni ger bron yr Arglwydd.' 2 Sam. 6. 14. 'A Dafydd oedd wedi ymwisgo mewn gwisg o lïan main; a'r holl Lefiaid, y rhai oedd yn dwyn yr arch, a'r cantorion, Chenaniah hefyd, meistr y gân, a'r cerddorion.' 1 Cron. 15. 27. Yr oedd Dafydd, gyda bod yn brydydd rhagorol, yn gerddor cywrain hefyd. Yr oedd caniadau Sïon yn enwog yn yr holl fyd. Ps. 137. 3 Yr oedd Dafydd yn medru canu—yr oedd yn gywrain ac yn gelfyddgar fel cerddor. Cysegrodd y ddawn hon, fel pob dawn arall a roddwyd iddo, i'r Arglwydd a'i wasanaeth. Y mae yn

Digitized by Google

mae yr amlygiad o hono o hyd gyda mwy o neillduolrwydd yn y cyfammodau hyn:—megys hâd y wraig—hâd Noah—hâd Abraham—hâd Israel—hâd Dafydd. O ran ei swyddau hefyd y mae yr amlygiad yn gynnyddol. Ysigwr pen y sarph oedd efe yn nghyfammod Adda; Achubwr gweddill etholedig ydoedd yn nghyfammod Noah; Bendithiwr holl deuluoedd y ddaear yw yn nghyfammod Abraham. Yn nghyfammod Sinai yr amlygir ef yn Brophwyd, megys Moses; ac yn Arch-offeiriad, megys Aaron, yr hyn oedd o'r blaen wedi ei gysgodi yn offeiriadaeth Melchisedec. Yma y gosodir allan ei freniniaeth ddisigl a thragywyddol, wedi ei chadarnhau â chyfammod a llŵ Duw. 'Tyngais unwaith i'm sancteiddrwydd, na ddywedwn gelwydd i Dafydd. Bydd ei hâd yn dragywydd; a'i orseddfainc fel yr haul ger fy mron.' Ps. 89. 35, 36. Yn yr holl Psalm hon, y mae Duw yn ymorfoleddu yn ei gyfammod hwn â Dafydd, ac yn ei adrodd, yn ei holl ranau, gyda hyfrydwch calon. Y mae Dafydd, yntau, yn gwaeddi yn yr olwg arno, 'Pwy ydwyf fi, O Arglwydd Dduw? a pha beth yw fy nhŷ, pan ddygit fi hyd yma?' Y mae yn edrych arno fel yr anrhydedd penaf a osododd Duw arno—yn gorfoleddu ynddo fel y penaf o fendithion ei fywyd—ac yn marw yn yr olwg arno, gyda llawn sicrwydd gobaith.

Yn niwedd ei ddyddiau, gosododd Dafydd ei deyrnas mewn trefn ragorol; a chadarnhaodd Solomon yn y freniniaeth ar ei ol; a rhoddodd iddo bortreiad o'r deml, yr hon oedd efe, trwy ordeiniad Duw, i'w hadeiladu. Gwnaeth barotoad hynod o helaeth tu ag at y draul o adeiladu y deml, ac a annogodd ei holl benaethiaid i gryfhau breichiau Solomon yn y gwaith. Hwythau, yn ol siampl eu tywysog duwiol, a gyfranasant yn haelionus iawn at y gorchwyl gogoneddus. Rhoddodd Dafydd ynghylch 46,000 o dunelli o aur ac arian, heblaw pres, haiarn, a meini gwerthfawr, a defnyddiau eraill yn aneirif. Y mae ei holl feddylfryd yn ei ddiwedd, fel yn ei holl fywyd, neu yn hytrach gyd âg ychwanegiad zel, am addoliad Duw, a gogoniant ei enw a'i achos yn y byd, a daioni Sïon. Y mae lle i feddwl yn gryf fod adferiad hynod arno yn ei ddiwedd, ac ar lawer o bobl Israel trwyddo. Yn niwedd dyddiau Dafydd, a dechreuad teyrnasiad Solomon, y bu cenedl Israel, yn mhob ystyr, yn fwyaf enwog a llwyddianus, ac y bu gwir dduwioldeb yn fwyaf pur a grymus yn eu plith o un amser. Yr oedd holl dir yr addewid yn eu meddiant; dau o'r breninoedd doethaf a duwiolaf a fu erioed yn llywodraethu arnynt; y swyddogion, y rhan amlaf, yn y wladwriaeth ac yn yr eglwys, yn enwog am dduwioldeb; ac addoliad Duw yn eu plith, yn ol trefn yr oruchwyliaeth hòno, yn ei holl harddwch a'i ogoniant. Tebygol na chyrhaeddodd gwir grefydd i'r un graddau o enwogrwydd blodeuog mewn un deyrnas ar y ddaear o hyny hyd heddyw. Yr oedd y dyddiau hyfryd hyny yn bortreiad lled gyflawn o lwyddiant crefydd Crist tros wyneb y ddaear yn y dyddiau diweddaf, pan yr elo y gareg fechan yn fynydd mawr, a'r ddaear yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd. Esa. 11. 9. Dan. 2. 44. Hab. 2. 14.——Yn ei henaint yr oedd ei gorph yn lleg, ac wedi colli ei wres naturiol gan ddiffrwythdra. 'Er ei enhuddo ef mewn dillad, etto ni chynhesai efe.' Ei weision a'i hannogasant i geisio llances o forwyn, i sefyll o flaen y brenin, i wneuthur ymgeledd iddo, a gorwedd yn ei fynwes i'w wresogi. Cawsant Abisag, Sunamites, yr hon oedd dêg iawn: ond ni bu i'r brenin a wnaeth â hi. 1 Bren. 1. 1—4. Wedi teyrnasu ar Israel ddeugain mynedd, sef saith yn Hebron, a thair ar ddeg ar hugain yn Jerusalem, 'efe a fu farw mewn oedran têg, yn gyflawn o ddyddiau, cyfoeth, ac anrhydedd,' A.M. 2990, C.C. 1015, yn 70 mlwydd oed. Bu iddo lawer o feibion ac un ferch o'i wragedd a'i orderchadon. 1 Cron. 3. 9. Claddwyd ef, tebygol, mewn bedd-adail ardderchog, (2 Cron. 32. 33.) adfail pa un sydd i'w weled hyd heddyw. Gwel Pocock, Maundrell, Radziville, Villalpandus, *Univer. Hist.*, *vol.* ii. *p.* 446.

Bedford, yn ei Amseryddiaeth Ysgrythyrol, a rydd y cyfrif canlynol o'r trysorau a roddodd Dafydd a'r tywysogion tu ag adeiladu y deml.

| | *Talent.* |
|---|---|
| Rhoddiad cyntaf Dafydd o aur, 1 Cron. 22. 14 | 100,000 |
| Yr ail, 1 Cron. 29. 4 | 3,000 |
| Offrymiad y tywysogion | 5,000 |
| Y cwbl | 108,000 |

*Aur pur, yn ol 9 pwys yn mhob talent.*

| | *Pwysau.* |
|---|---|
| Offrymiad cyntaf | 900,000 |
| Yr ail | 27,000 |
| Y tywysogion | 45,008 |
| Y cwbl | 972,008 |

*Ei werth yn ol £4 yr owns, neu £48 y pwys, sydd fel y canlyn:*

| | £ |
|---|---|
| Offrymiad cyntaf | 43,200,000 |
| Yr ail | 1,296,000 |
| Y tywysogion | 2,160,384 |
| Y cwbl | £46,656,384 |

| | *Talent.* |
|---|---|
| Yr arian a barotodd Dafydd y tro cyntaf, 1 Cron. 22. 14 | 1,000,000 |
| Yr ail, 1 Cron. 29. 4 | 49 000 |
| Y tywysogion | 10,000 |
| Y cwbl | 1,059,000 |

| | |
|---|---|
| | *Pwysau.* |
| Yr arian pur, 9 pwys i bob talent | 9,531,000 |
| | £ |
| Ei werth am 5s. yr owns, neu £3 y pwys | 28,593,000 |
| | £ |
| Yr aur i gyd | 46,656.384 |
| Yr arian i gyd | 28,593.000 |
| Y ddau yn nghyd | £75,249,384 |

Y mae y Dr. Prideaux, wrth edrych ar y fath swm dirfawr, yn lled feddwl fod y talentau uchod yn wahanol oddiwrth y talentau a grybwyllir gan Moses, (Exod. 38. 24, 27.) ac yn llawer llai eu gwerth. Gwel Prideaux's *Connect. p.* 6., 8*th edition.*—Parkhurst dan y gair ככר

Y mae Dafydd yn cael ei roddi (mewn trawsenwad) am Lyfr y Psalmau, yr hwn a ysgrifenwyd gan Dafydd. 'Trachefn, y mae efe yn penu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw, ar ol cymaint o amser,' &c. Heb. 4. 7.

DAGER—AU, *Heb*, דקר *dacar; Saes.* DAGGER: math o gyllell hir, â blaen main iddi.—A dagr y lladdodd Ehwd Eglon, yn ei ystafell haf. Bu hyny yn foddion, yn llaw yr Arglwdd, i ddarostwng y Moabiaid o flaen meibion Israel, ac i'r wlad gael llonydd bedwar ugain mlynedd. Barn. 3. 16, 21, 22.

DAGON, דגון *(gwenith, pysgodyn)* eilun-dduw y Philistiaid, neu gau-dduw Asdod. Gosodir ef allan yn gyffredinol, fel rhyw anghenfil, hanner o ddyn, a hanner o bysgodyn. Oddiwrth yr hyn y mae rhai yn treiglo ei enw, sef oddiwrth דג *(dag) pysgodyn;* eraill yn tybied mai duw ŷd bara ydoedd, a dreiglent ei enw oddiwrth דגן *(dagan) ŷd.* Yn Gaza, yn Palestina, yr oedd teml Dagon yn sefyll, yr hon yr ymaflodd Samson yn ei cholofnau, gan ei thynu i lawr ar yr holl addolwyr ag oedd ynddi, ac arno ei hun hefyd. Barn. 16. 21—30. Dywedir fod i weled hyd heddyw ryw ranau o honi yn sefyll i fynu. Pan ddaliwyd arch Duw gan y Philistiaid, a'i gosod i fynu yn nheml Dagon, yn Asdod, fel pe buasai yn anrhaith cyfreith-

Digitized by Google

**DALFA,** (dal) man i ddal, carchar, lle i ddiogelu ac i sicrhau un rhag dianc. Gen. 40. 3. Num. 15. 34.

**DALILAH,** דלילה [*tlawd*] y wraig dwyllodrus hòno a hudodd Samson, ac a'i bradycbodd i ddwylaw y Philistiaid. Barn. 16. 4, &c. Edr. SAMSON.

**DALMANUTHA,** [*dwfr-lestr darparedig*] enw tiriogaeth, a dinas, fel y tybir, yn sefyll o du y dwyrain i Fôr Tiberias. Dywed un efengylwr, i Grist a'i ddysgyblion ddyfod i barthau Dalmanutha. Marc 8. 10. Dywed y llall iddynt ddyfod i barthau Magdala. Mat. 15. 39. Ond y mae yn dra hawdd cysoni dywediadau y ddau efengylwr â'u gilydd, wrth ystyried mai dinas a thiriogaeth ydoedd Dalmanutha o fewn ardal Magdala.

**DALMATIA,** [*llusern*] talaeth o Illyricum, ac yn gorwedd gyda glân y Môr Adriatic o du y dwyrain. Bu Titus yno yn pregethu yr efengyl, ac y mae Cristionogrwydd yn para mewn rhyw ddull yno hyd heddyw. 2 Tim. 4. 10

**DALL—INEB, DEILLION,** (all) *Gwydd.* DALL; tywyll, dallni.—1. Un heb olwg naturiol. Ioan 9. 1. Tybir nad oedd dallineb y Sodomiaid hyny a ymosodasant ar dŷ Lot, yn ddallineb naturiol a pharhaus; ond ei fod yn ddallineb yn y mater hwnw yn unig. Gen. 19. 11. Felly, yn yr un modd hefyd, y tarawyd y Syriaid hyny â dallineb, y rhai a ddaethent i ddal Eliseus y prophwyd. 2 Bren. 6. 18.——2. Anwybodus; heb un gradd o wir wybodaeth ysbrydol a rhesymol, yn parhau yn gyndyn a gwrthnysig. Mat. 15. 14. Rhuf. 2. 19.——3. Rhai gwedi llygru eu barn trwy wobrwy. Exod. 23. 8.——4. Y cyfryw ag a ddenir yn hawdd i gyfeiliornad, o herwydd gwiriondeb ac anwybodaeth. Deut. 27. 18.

Arferir y gair weithiau i osod allan, 1. Gweinidogion anwybodus, rhai heb agoryd llygaid eu meddyliau gan Ysbryd Duw, i ganfod gwirioneddau yr efengyl—y pechodau sydd yn wrthwyneb i wir rinwedd efengylaidd—a'r dinystr disymwth sydd yn dyfod ar warthaf yr annuwiol. Esa. 56. 10.——2. Y cyfryw ag a wrthodant efengyl a ffydd Crist, o herwydd twyll y gelyn. 2 Cor. 4. 4.——3. Y cyfryw ag a fyddo yn parhau mewn casineb at frawd. 1 Ioan 2. 11.——4. Rhai gwedi ymchwyddo trwy falchder, a thyb dda o honynt eu hunain. Dat. 3. 17.——Y mae Duw yn dallu dynion yn ysbrydol, pan y mae yn tynu addysg a hyfforddiad eglur oddi wrthynt, ac yn attal goleuni ei Ysbryd; yn eu rhoddi hwy i fynu i'w hewyllysiau a'u chwantau cnawdol, ac yn goddef i Satan a'i oruchwylwyr eu twyllo. Esa. 29, 10. a 44. 18. Ioan 9. 39. a 12 40. ——Y mae Satan (duw y byd hwn) yn dallu meddyliau dynion, gan eu hattal hwynt oddiwrth wybodaeth iachusol o'r gwirionedd, trwy effeithioldeb gau gynghorion, a thrwy eu llithio yn dwyllodrus i gyflawni amryw chwantau, nes y bo eu cydwybodau fel wedi eu serio. 2 Cor. 4. 4.

Dan y gyfraith nid oedd neb dall na chloff nac anafus i wasanaethu yn yr offeiriadaeth; nac un anifel cloff neu ddall i gael ei aberthu. I ddangos nad ydyw gwasanaeth tywyll, a gwasanaethwyr anwybodus ac anghrediniol, yn gymeradwy gan Dduw. Ac hefyd i ddangos y byddai Iesu Grist, ein Harch-offeiriad mawr, a'n haberth ni, yn meddu cyflawnder o bob gwybodaeth, doethineb, a gallu i gyflawni ei swydd. Lef. 21. 18. ——Y mae yn beth mor hanfodol i Weinidogion y gair fod yn graff eu golygon ysbrydol, fel y gelwir hwynt yn WELEDYDDION. 1 Sam. 9. 9. Esa. 29. 10. a 30. 10. Amos 7. 12. Y maent yn cael llygaid ysbrydol gan Dduw, i weled gogoniant yn Nuw, a phob peth sydd yn perthyn iddo. Ac hefyd i weled trueni a gwaeledd dyn—anferthwch a drwg pechod—y canlyniad, a'r perygl ofnadwy, o fyw a marw dan ei lywodraeth. Buasai yn anghysondeb mewn geiriau fod enw GWELEDYDD ar un heb weled dim; pa faint mwy anghyson yw fod dynion yn cael eu galw, a'u cyfrif, yn weledyddion ysbrydol, neu weinidogion y gair, pan nad ydynt, mewn gwirionedd, ond tywyllwch a dallineb o anwybodaeth ysbrydol? Yr oedd Paul wedi cael agoryd ei lygaid ei hun, cyn iddo gael ei anfon i agoryd llygaid eraill. Act. 26. 18. Un o'r rhinweddau godidog sydd yn perthyn i weinidogion yr efengyl ydyw, eu bod yn 'llawn o lygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol.' Dat. 4. 6. Y maent yn edrych yn mlaen tu ag at Dduw, ac yn dysgwyl wrtho am gyfarwyddyd ac addysg yn mhob peth. Y maent yn edrych yn ol arnynt eu hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân hwy yn olygwyr, gan fwrw golwg arnynt. Act. 20. 28. 1 Petr 5. 2.

Yr oedd hyn yn un nôd arbenig yn dynodi y Messïah, yn ol prophwydoliaethau yr hen brophwydi am dano, y byddai iddo roddi llygaid i'r deillion; ac y mae Crist ei hun yn cyfeirio dysgyblion Ioan at hyn yn ei atebiad i'w gofyniad, 'Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddysgwyl?—Mynegwch i Ioan y pethau a glywch, ac a welwch; y mae y deillion yn gweled eilwaith,' &c. Mat. 11. 4, 5. Luc 7. 21, 22. Esa. 29. 18. a 35. 5. Y mae yr efengylwyr yn coffâu am fwy nag un o ddeillion a iachawyd ganddo. Mat. 9. 27, 28. a 20. 30. Ioan 9. 6, 7. Yn hanes Matthew am Bartimeus, dywedir i ddau ddeillion gael eu hiachâu: (pen. 20. 30—34.) ond gan mai Bartimeus ydoedd y mwyaf hynod am ei ffydd, ac oedd yr hwn a lefodd ar ei ol, nid yw Marc yn coffâu ond yn unig am dano ef. Dygwyddodd pan yr oedd yr Arglwydd yn myned allan o Jericho: ond y mae Luc yn rhoddi hanes am gardotyn dall arall a iachawyd ganddo, pan 'oedd efe yn nesâu at Jericho.' Pen. 18. 35—43. Y mae rhai yn barnu mai yr un ydyw hanes y tri efengylwr, ac y gellir cyfieithu y geiriau εν τω εγγιζειν, *tra yr oedd efe etto yn agos i Jericho:* fel y mae y gair i'w ddeall yn y lleoedd canlynol: Luc 19. 29. a 10. 9. a 15. 1. a 18. 40. Gwel Doddridge a Campbell. Ond y mae amgylchiadau yr iachâd mor wahanol gan y ddau efengylwr, fel y mae yn ymddangos i mi fod tri wedi cael eu hiachâu ganddo;—un wrth fyned i Jericho, a'r ddau arall wrth fyned oddi yno. Dywedir yn Matthew iddo *gyffwrdd* â'u llygaid; ond yn Luc yr ymadrodd yw, 'A'r Iesu a *ddywedodd* wrtho, Cymer dy olwg: dy ffydd a'th iachaodd;' heb sôn dim am gyffyrddiad. Y mae Chemnitius o'r un feddwl, ac amryw eraill. Gwel Chemnitius *in Harm.*

Dangosodd Crist, yn ei wyrthiau ar y ddaear, beth ydoedd y gwaith perthynol i'w swydd gyfryngol, trwy yr efengyl, hyd ddiwedd amser; sef agoryd llygaid pechaduriaid tywyll, a'u troi o'r tywyllwch i'r goleuni. Act. 26. 18. Esa. 42. 7. Ps. 146. 8——'Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod.' Ioan 9. 41. Pe byddech yn deimladwy o'ch dallineb, a bod arnoch eisieu eich goleuo; ac yn y gydnabyddiaeth o'ch dallineb yn gofyn i mi am oleuni, ni byddai arnoch y pechod hwnw o fy ngwrthod i, ond chwi a gaech eich gwared, fel llawer eraill, oddi wrtho; 'eithr yn awr, meddwch chwi, yr ydym ni yn gweled; am hyny y mae eich pechod yn aros;' neu yr ydych chwi yn y tywyllwch hwn, gan feddwl eich bod chwi yn gweled, yn aros yn eich pechod o anghrediniaeth, ac yn fy ngwrthod i, y gwir Fessïah. Y mae y rhai hyny a waredir oddiwrth bechod yn cael eu gwneuthur yn deimladwy o hono yn gyntaf, yn edifeiriol am dano, ac yn gwerthfawrogi meddyginiaeth yr efengyl. Ioan 15. 22 24. 1 Ioan 1. 8. Rhuf. 3. 17.

'O fyddariaid, gwrandewch; a'r deillion, edrychwch i weled: Pwy sydd ddall ond fy ngwas i?' &c. Esa. 42. 18, 19. Y geiriau hyn a leferir, tebygol, gan yr Arglwydd wrth genedl yr Iuddewon, y rhai oeddynt, fel cenedl, yn was i'r Arglwydd, yn broffesedig; wedi



Digitized by Google

ei anfon at ei waith, ac wedi ei berffeithio â phob manteision a rhagorfreintiau; etto, wedi y cwbl, yr oedd y gwas hwn, i'r gradd eithaf, yn ddall ac yn fyddar, heb weled gogoniant y Messïah yn eu plith, ac heb glywed i ddeall, credu, ac ufuddhau i lais yr efengyl, pan y pregethwyd hi gan Grist a'i apostolion, yn nerthol ac yn oleu iddynt hwy. Y mae yr Arglwydd, mewn rhyw fath o ddigllonedd tosturiol, yn eu cyfarch, 'O fyddariaid, gwrandewch,' &c. Yr ydwyf yn arwain deillion o'r oenedloedd ar hyd ffordd, hyd yma, hollol anadnabyddus iddynt; ac y maent yn cerdded llwybrau nid adnabuant. Adn. 16. Chwi bobl y breintiau mawrion, ac sydd er hyny yn ddeillion, edrychwch i weled—ystyriwch, craffwch ar y gweithredoedd, fel y gweloch pwy ydwyf fi, a pheth ydyw y gwaith sydd yn cael ei wneuthur. Esa. 43. 8. Ezec. 12. 2. Ioan 9. 39, 41. Amos 3. 2. Hos. 9. 7.

'Dall ydyw, heb weled yn mhell.' 2 Petr 1. 9.—'Dall ydyw, ac ni wyl ddim o bell.' W. S. a Dr. M. —'Dall ydyw, yn cauad ei lygaid.' Macknight. Y gair *μυωπαζων*, a arwydda, medd Bochart, (*α μυειντας ωπας) cauad y llygaid*. Dall a *μυωπαζων* yw hwnw, gan hyny, yr hwn sydd yn wirfoddol yn cau ei lygaid, fel na welo; fel y dywed Job, 'yn gwrthwynebu y goleuni;' (pen. 24. 13.) *Heb.* מורדי אור *gwrthryfelwyr yn erbyn y goleuni*, o herwydd pan ddaeth y goleuni i'r byd, nis adnabuant ef, eithr casasant ef, ac ni ddaethant i'r goleuni, fel nad argyhoedder eu gweithredoedd hwynt.* Ioan 1. 10. a 3. 20.

DAMARIS, Δαμαρις [*gwraig fechan*] gwraig grediniol, a ddychwelwyd i'r ffydd trwy bregethiad Paul yn Athen. Rhai a dybiant mai gwraig Dionysius, yr Areopagiad, ydoedd. Act. 17. 34.

DAMASCUS, דמשק [*dinas yn y gwastadedd*]. Y mae yn cael ei alw yn *Heb.* דומשק *Dumesec*, 2 Bren. 16. 10. דרמשק *Darmesec*, yn 1 Cron. 18. 5, 6. a'r un fath trwy holl lyfrau y Cronicl. *Gr.* Δαμασκος, *Damascos*, yn Act. 9. 2. Dinas enwog ydoedd, a fu dros hir amser yn brif ddinas Syria, yn sefyll yn nghylch 160 o filltiroedd yn y gogledd-ddwyrain i Jerusalem, yn y gwastadedd hyfryd rhwng mynydd Libanus yn y gorllewin, a Hermon yn y dehau. Yr oedd y ddinas hon mewn bod yn nyddiau Abraham. Gen. 14. 15. Priodor o Damascus oedd Eleazar, pen gwas Abraham. Gen. 15. 2. Tua diwedd teyrnasiad Solomon, gwnaeth Rezon hi yn brif ddinas ei deyrnas, sef Syria. 1 Bren. 11. 24. Cymerwyd hi gan Jeroboam mab Joas, brenin Israel. 2 Bren. 14. 28. Yn nghylch can mlynedd wedi hyny, A. M. 3264, y dinystrwyd hi gan Tiglath-Pileser, ac y dygwyd ei thrigolion yn gaethion i Cir. Esa. 7. 8. a 8. 4. a 9. 9. a 17. 1. Amos 1. 3, 4, 5. Yn fuan gwedi hyn daeth yn ddinas flodeuog, a chymerwyd ac anrheithiwyd hi gan Nebuchodonosor. Jer. 25. 9, 10. a 49. 23. 24. Ezec. 27. 18. Yn mhen rhyw dalm o amser hi a ddaeth i feddiant y Rhufeiniaid. 2 Cor. 11. 32. Pregethwyd yr efengyl yma yn foreu, gan Ananias, Paul, ac eraill; parhaodd yma eglwys Gristionogol, mewn trefn dda, dros hir amser. Ond er's llawer o oesoedd, nid oes ynddi ond ychydig o wir Gristionogrwydd. Oddi yma y gollyngwyd Paul trwy ffenestr, ar hyd y mur mewn basged, fel y diangai, rhag ei ddal gan y llywydd. 2 Cor. 11. 32, 33. O Damascus y mae y sidanau *damasc*, y rhosynau, a'r eirin *damasc*, yn dyfod i Ewrop.

DAMMEG—ION, (meg) cyffelybiaeth, dychymyg, dyfal; gosod allan wirionedd mewn cyffelybiaeth, neu un peth dan rith o beth arall; cymhwyso rhyw ddywediad ffugiol at wirionedd diffuant; yr hyn sydd yn ei wneuthur yn fwy hynodol, ac yn fwy boddhaol, na phe lleferid ef mewn iaith eglur. Mae y gair *Gr.* παραβολη, a arferir gan yr efengylwyr, yn meddu yr un ystyr helaeth iddo a'r gair *Heb*, משל yn yr Hen Destament. Mae yn arwyddo, nid yn unig yr hyn a alwn ni dammeg, ond hefyd unrhyw gyffelybiaeth, neu ddiareb, neu rag ddywediad, neu unrhyw beth a draddodir yn ffugyrawl, neu yn farddonawl; weithiau unrhyw addysg fuddiol, megys yn Luc 14. 7. Cyfieitha ein cyfieithwyr ni y gair weithiau *diareb*, Luc 4. 23, —*cyffelybiaeth*, Heb. 9. 9. a 11. 19. Yn ol ystyr cyffredin y gair, math o gyffelybiaeth yw dammeg. Y mae yn gwahaniaethu oddiwrth gynllun, neu siampl, yn mha un nid oes yn briodol un gyffelybiaeth, ond peth o'r un fath; felly y mae hanes y Pharisead a'r publican, y rhai a aethant i'r deml i weddïo; y gwr goludog a Lazarus; y Samariad trugarog; a'r ynfyd yn yr efengyl, yr hwn, am fod ei olud wedi cynnyddu, a addawodd iddo ei hun fod ganddo ddâ lawer, dros lawer o flynyddoedd. Nid pob math o gyffelybiaeth ychwaith sydd yn addas i gael ei galw yn ddammeg. Y gyffelybiaeth a gymerir oddiwrth bethau meirwon, nid ydyw hòno yn addas ei galw yn ddammeg; megys cyffelybiaeth teyrnas nefoedd i ronyn o hâd mwstard, neu i lefen. Mwy addas ydyw ei galw yn ddammeg, os bydd y gyffelybiaeth gwedi ei chymeryd oddiwrth bethau byw. Hefyd, rhaid i'r peth yn y gyffelybiaeth fod yn weithredadwy, ac â dichoniad iddo. Y mae ffug-chwedl Jotham am y prenau yn myned i ddewis brenin, yn hytrach yn addysg-wers na dammeg; canys a'i deall yn llythyrenol, nid oes dichoniad iddi. Y mae gwahaniaeth, hefyd, rhwng dammeg ac alegori. Mewn alegori (yr hon nid yw ddim amgen na gwers wedi ei thraddodi mewn traws-ddwyn) y mae i bob un o'r prif eiriau, trwy y cwbl, ddau ystyr; sef y llythyrenol a'r ffugyrol. Rhaid i bob peth fod yn berthynol, a'i ystyried y naill ffordd neu y llall. Y mae yr alegori bob amser yn anmherffaith, os na bydd felly. Nid ydyw felly mewn dammeg, lle y golygir yn benaf y cyfeiriad, ac nid y geiriau yn wahanredig. Bod cyffelybrwydd yn y prif bynciau yw yr hyn oll sydd yn ofynol; nid yw yr holl fân amgylchiadau ond megys addurniadau iddi. Y prif bynciau a ddylai fod yn ein golwg wrth ymgais eu deall ein hunain, a'u hegluro i eraill. Ymofyn am ddirgeledigaethau yn mhob peth yn amgylchiadau bychain addurnedig y ddammeg, sydd yn dangos diffyg synwyr, os nid plentynrwydd. Mae dammegion ein Hiachawdwr yn rhoddi siamplau o bob math. Nid ydyw yn gwneuthur dim gwahaniaeth pa un a fyddo y ddammeg yn wir neu yn ffugiol. ——Bu ymofyniadau yn cael eu gwneuthur cyn hyn, pa un a ydoedd dammegion ein Hiachawdwr gwedi eu hamcanu i wneuthur ei athrawiaethau yn eglur i'r werinos, neu, ynte, i'w cadw hwynt yn guddiedig oddi wrth eu llygaid; o herwydd dywedyd o hono, yn Luc 8. 10. 'Fel yn gweled na welant, ac yn clywed na ddeallant.' Etto, er hyny, mwy rhesymol ydyw meddwl mai er addysg i'r anwybodus y maent wedi eu hamcanu; nid yn unig am fod yr holl rai a ysgrifenasant ar natur dammeg yn cytuno mai ffordd eglur o lefaru ydyw, wedi ei haddasu at ddeall y rhai gwaelaf, a mwyaf dwl; ond hefyd, o herwydd fod ein Hiachawdwr ei hun yn dywedyd (Mat. 13. 13.) 'Am hyny yr ydwyf yn llefaru wrthynt hwy ar ddammegion: canys a hwy yn gweled, nid ydynt yn gweled; ac yn clywed, nid ydynt yn clywed, nac yn deall.' Hyny yw, nid oeddynt yn ystyried, nac yn gofalu am wybod, yr hyn ag oedd efe, mewn ffordd gyffredin, eglur, yn ei ddywedyd wrthynt, ac yn ganlynol, nid oeddynt hwy yn ei ddeall; a chan hyny efe a lefarodd wrthynt mewn dammegion, neu trwy gyffelybiaethau, gwedi eu benthyca oddiwrth bethau yr oedd y rhai mwyaf anwybodus yn eu deall; i egluro iddynt ryw beth nad oeddynt yn ei ddeall; ac er fod rhai o'r rhai hyn nad oedd yr apostolion yn eu hamgyffred yn y fan; at yr hyn y mae ein Harglwydd yn ymddangos fel un a fyddai

* Gwel Bochart, *Hierozon*, *p.* 31, 32.

Digitized by Google

yn rhyfeddu, gan ddywedyd, 'Oni wyddoch chwi y ddammeg (hawdd ei deall, a chynnefin) hon?' a pha fodd y gwyddoch yr holl ddammegion? Marc 4. 13. Etto efe a'i heglurodd iddynt (sef i'w ddysgyblion) drachefn; adn. 43. ac a orchymynodd iddynt, am ba beth bynag a lefarai efe wrthynt yn y tywyllwch, ar iddynt ei ddywedyd yn y goleuni. Mat. 10. 27. Er y gallai y dammegion hyn fod yn eglur ac yn ddeallus i'r rhan fwyaf o ddynion yr amseroedd hyny, oblegid fod ein Hiachawdwr yn fynych ynddynt yn cyfeirio at bethau yn union yn eu gŵydd, etto, gan fod y gwrthddrychau hyn wedi eu symud oddi wrthym ni, nid ydyw pawb yn bresennol yn canfod eu grym a'u gogoniant: nac ychwaith, fe allai, yn eu cyflawn ddeall, heb ryw ychydig o gynnorthwy.

DAMNEDIGAETH, *Llad.* DAMNATIO; *Saes.* DAMNATION: collfarnedigaeth, barnedigaeth; bod dan ddedfryd yn cael ei farnu yn euog; neu y gosp i ba un y mae euogrwydd yn rhwymo y troseddwr. Luc 23. 40. Ioan 3. 19. Rhuf. 3. 8. a 8. 1. 1 Tim. 3. 6. Nid ydyw damnedigaeth yn air o wreiddyn Cymreig. Barn, barnedigaeth, a chollfarnedigaeth, sydd gan W. Salisbury, yn y manau yr arferir ef, oddieithr un man, 1 Tim. 3. 6. lle y mae yn cael ei gyfieithu *enllib;* barn, ar ymyl y ddalen. Yr un gair *Gr.* κριμα, a gyfieithir *barnedigaeth*, yn 1 Cor. 11. 29. ag a gyfieithir *damnedigaeth* mewn lleoedd eraill.—'Gweinidogaeth damnedigaeth,' ydyw y gyfraith doredig; y mae hi yn barnu yn euog, ac yn collfarnu ei holl droseddwyr; nid oes dim maddeuant yn perthyn iddi, na dim rhyddhad odditan ei dedfryd, heb iawn perffaith, digoll, yr hwn ydyw Iesu Grist y cyflawn. 2 Cor. 3. 9.—'Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu.' Rhuf. 8. 1. Sef dim collfarn; y maent wedi eu cyfiawnhau, ac yn heddwch Duw.

DAMNIO, *Llad.* DAMNARE; *Ffr.* DAMNER; *Saes.* DAMN: collfarnu, barnu yn euog, cospi troseddwyr. 1 Bren. 8. 32. Diar. 12. 2. Ioan. 3. 17.—'Gan wybod fod y cyfryw un wedi ei ŵyrdroi, ac yn pechu, gan ei fod yn ei ddamnio ei hunan.' Tit. 3. 11. 'Wedy varnu y cantho y hunan.' W. S. Y mae y dyn a fyddo heretic yn hunan-farnol, fel y mae y gair *Gr.* αυτοκατακριτος, yn arwyddo; y mae efe yn dodi arno ei hunan yr un farnedigaeth, neu gospedigaeth ag a arferir ei rhoddi gan yr eglwys ar ddrwgweithredwyr; sef ei dori ei hun allan o'r eglwys yr hon yr oedd efe yn aelod o honi. Y mae Macknight o'r farn, fod yr heretic hunan-farnol i'w ddeall am ddyn a fyddo yn dysgu athrawiaeth gyfeiliornus, ac yntau yn gwybod ei bod hi yn gyfeiliornus. 1 Ioan 3. 20. Y mae dyn cyfeiliornus, yn ei fuchedd a'i ymarweddiad, yn cael ei fwrw allan gan yr eglwys; ond y mae dyn cyfeiliornus yn ei farn a'i athrawiaeth, yn ei fwrw ei hunan allan.——'A chan droi dinasoedd Sodoma a Gomorrah yn lludw, a'u damniodd hwynt â dymchweliad;' sef, a'u cospodd hwynt â dymchweliad. 2 Petr 2. 6. 'Ac a droes dinasodd Sodoma a Gomorrha yn llydw, ay dymchwelawdd ac ay cyfyrgolles hwynt.' W. S.

DAMWAIN—EINIAU, (gwain) dygwydd; peth sydd yn dyfod i ddyn, neu y peth y mae dyn yn dyfod iddo, heb ei ragweled, na rhagwybod dim yn ei gylch. Gen. 28. 11. Ruth 2. 3. 1 Sam. 6. 9. Preg. 2. 14. Y mae llawer o bethau yn ddamweiniol ac yn ddygwyddiadol mewn perthynas i ddynion; ond nis dichon fod un ddamwain mewn perthynas i Dduw: oblegid nad oes dim yn dyfod i ben ar nad yw efe wedi ei ragweled, a'i ragwybod i'r perffeithrwydd a'r manylrwydd eithaf. Oblegid 'hysbys i Dduw ei weithredoedd oll erioed.' Act. 15. 18.

DAN, דן [*barn*] 1. Dinas yn nghŵr eithaf Judea, yn agos i droed mynydd Libanus, yn agos i darddiad yr Iorddonen. Yma y gosododd Jeroboam un o'r lloi aur i fynu. Jos. 19. 47. Barn. 18. 29.——2. Pummed mab Jacob, a'r hynaf o'i feibion o Bilhah, llawforwyn Rahel. Efe oedd dad y llwyth a elwir ar yr enw hwn; yr hwn lwyth oedd â'i randir mewn gwlad ffrwythlawn, rhwng llwyth Judah o du y dwyrain, a gwlad y Philistiaid yn y gorllewin; ond aeth terfynau eu rhandir yn rhy fychan iddynt, oblegid nad oedd efe ond darn o diriogaeth Judah; am hyny ymladdasant yn erbyn Lesem, neu Lais, ac a'i hennillasant; galwasant hi Dan, yn ol enw eu tad. Er na feddai Dan ond un mab, sef Hushim, etto, yr oedd y llwyth hwn yn cynnwys 62,700 pan oeddynt yn dyfod i fynu o'r Aipht, a hwy a gynnyddasant yn yr anialwch hyd yn 64,400. Y llwyth hwn, yn nghyd âg Aser a Naphtali, oedd yn gwneuthur un aden o'r gwersyll yn yr anialwch, ac yn cychwyn yn olaf. Num. 10. 25.——'Dan a farn ei bobl fel un o lwythau Israel.' Ystyr y gair דן ydyw *barn*, a rhag-ddywedodd Jacob, er mai mab un o'i law-forwynion oedd, y byddai yn ben llwyth gwahanol, ac y byddai iddo ymyraeth âg achosion cyffredin y wladwriaeth, fel pe buasai yn fab i Rahel neu Leah. 'Dan fydd sarph ar y ffordd, a neidr ar y llwybr; yn brathu sodlau y march, fel y syrthio ei farchog yn ol.' Gen. 49. 16, 17. Y mae yn y geiriau ddarluniad prophwydoliaethol o gynneddfau y Daniaid, fel yn gyfrwys ac yn niweidiol, fel seirph a nadroedd. Pe byddem hysbys o'u holl hanes, diammeu yr ymddangosai eu llwyddiant mewn cyfrwysdra a dichellion yn nodedig. Yr oedd Samson o'r llwyth hwn, yr hwn, yn dra annysgwyliadwy, a gladdodd y Philistiaid yn hollol ddinystr teml Dagon. Rhagorodd y llwyth hwn mewn dichellion, yn hytrach nag mewn rhyfel cyhoeddus. Ond er hyny, mewn rhyfel yr oedd y llwyth hwn, yn ol prophwydoliaeth Moses, fel cenaw llew yn neidio o Basan, yn greulon ac yn anwrthwynebol, yn gafaelyd ac yn dyfetha yr ysglyfaeth. Deut. 33. 22. Yn Samson y cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon yn nodedig.

DAN, cyfnewidiad o TAN; cymerir y gair, 1. Mewn perthynas i leoedd; megys y mae pethau ar y ddaear *dan y nefoedd, dan yr haul, &c.*, Barn. 1. 7. Preg. 6. 1, 12.——2. Islaw o ran cyflwr, sefyllfa, gallu, ac awdurdod; megys y darllenwn am beth 'dan draed;' Rhuf. 16. 20. 'Dan bechod—dan y ddeddf—dan ras—dan felldith;' sef dan argraff, effeithioldeb, a llywodraeth y pethau hyn. Rhuf, 3. 9. a 6. 13.——3. Dan, oddi dan, o ran amddiffyniad; felly y mae y saint 'dan gysgod,' neu 'adenydd,' Duw yn Nghrist. Ps. 91. 1—4. Can. 2. 3. Mat. 23. 37. Edr. TAN.

DANADL, (danad) chwyn, pethau diles mewn tir. Job 30. 7. Nid yw y dysgedigion yn gallu cwbl benderfynu am y gair *Heb.* חרול pa un ai ysgall ai danadl poethion a feddylir wrtho; pa un bynag, y mae eu tyfiant yn arwydd o ddiogi, diofalwch, neu anghyfannedd-dra mawr. Diar. 24. 31. Esa. 34. 13. Hos. 9. 6. Seph. 2. 9.

DANFON, (anfon) yr un ag anfon. Exod. 4. 13. Ioan 3. 17. Edr. ANFON.

DANGOS—IAD, (caws) 1. Gosod peth allan, ei wneuthur yn eglur i edrych arno; arddangos. Exod. 9. 16. a 33. 18. Mat. 8. 4.——2. Cyfranu; gwneuthur yn effeithiol tu ag at. Ps. 17. 6. a 50. 23.——3. Mynegu peth trwy eiriau. Jer. 38. 21.

DANNEDDOG, (dannedd) yn meddu dannedd.—'Wele, gosodaf di yn fên-ddyrnu newydd ddanneddog.' Esa. 41. 15. Byddid arferol o ddyrnu ŷd yn ngwledydd y dwyrain â mên â dannedd yn ei holwynion, neu rhol-brenau. Llusgent hon dros yr ŷd i'w ysgar oddiwrth y gwellt, ac i ddryllio y gwellt yn

Digitized by Google

ymborth i'w hanifeiliaid. Y mae yr Arglwydd yn edrych ar ei bobl yn eu cyflwr isel, gwael, fel pryf, ac yn addaw yn rasol eu cynnorthwyo, eu hadnewyddu, o ran gras a doniau, a'u gwneuthur yn fuddugoliaethus, ac yn ddychrynadwy i'w gelynion. Wedi eu hadnewyddu fel hyn, a'u gwneuthur yn ddanneddog, trwy eu medrusrwydd yn cyhoeddi gwirioneddau Duw yn llym ac yn argyhoeddiadol, dyrnant y mynyddoedd, a gosodant y bryniau fel mwlwg; byddant nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr. 2 Cor. 10. 4. 5. Heb. 4. 12, 13.——'Cyfod merch Sion, a dyrna (medd yr Arglwydd); canys gwnaf dy gorn yn haiarn, a'th garnau yn bres; a thi a ddrylli bobloedd lawer: a chysegraf i'r Arglwydd eu helw hwynt, a'u golud i Arglwydd yr holl ddaear.' Mic. 4. 13. Dyma yr agwedd ogoneddus a welwyd ar eglwys Crist ar ol dydd y Pentecost, pan y gwisgwyd yr holl swyddwyr â nerth o'r uchelder, a phan oedd y gwirioneddau fel dannedd llymion yn cario argyhoeddiadau yn effeithiol i gydwybodau pechaduriaid; a dynion oedd fel mynyddau cryfion, a bryniau uchel, yn cael eu dyrnu, eu malu, a'u darostwng dan lywodraeth Crist. Act. ii, iii, ix, x.——Y mae yr eglwys yn isel arni, pan y byddo ei dannedd wedi pylu, a'r halen wedi colli ei flas. Nid oes neb ond yr Arglwydd a all ei hadnewyddu a'i dyrchafu; ond y mae efe, yn ei ffyddlondeb, yn ymweled â hi yn ei hisel radd, ac yn ei gosod, trwy ei Ysbryd, yn olygus, yn llwyddiannus, ac yn ddefnyddiol. Edr. DYRNU.

DANIEL, דניאל [*Duw fy marnwr*] 1. Mab Dafydd o Abigail y Garmelites, a elwir hefyd Chileab. 2 Sam. 3. 3. 1 Cron. 3. 1.——2. Offeiriad o deulu Ithamar, yr hwn a ddaeth gyd âg Ezra o Babilon. Ezra 8. 2.

DANIEL Y PROPHWYD. Yr oedd Daniel o'r hâd breninol, yn hardd, ac yn dda yr olwg arno o ran ei berson, heb ddim gwrthuni ynddo. Dan. 1. 4. Caethgludwyd ef i Babilon gan Nebuchodonosor, yn y bedwaredd flwyddyn i Jehoiacim, brenin Judah, A.M. 3398. Trwy orchymyn y brenin, cafodd Daniel, yn nghyd â thri o fechgyn eraill, eu dwyn i fynu yn nysgeidiaeth y Caldeaid. Rhoddwyd arnynt enwau newyddion, a Daniel a elwid Beltesassar. Dan. 1. 7. Rhoddes Duw Daniel mewn ffafr a thiriondeb gyd â'r pen-ystafellydd. Y brenin Nebuchodonosor hefyd a fawrygodd Daniel, ac a roddes iddo roddion mawrion lawer; ac a'i gwnaeth yn benaeth ar holl dalaeth Babilon, ac yn ben i'r swyddogion ar holl ddoethion Babilon; ac yr oedd yn eistedd yn mhorth y brenin, i fod yn agos ato, i farnu drosto, ac i bawb gael caniatâd ganddo ef, cyn eu dyfodiad i wydd y brenin. Belsassar, wyr Nebuchodonosor, a'i gwnaeth yn drydydd i lywodraethu yn y freniniaeth. Pan ddaeth Darius i'r orsedd, wedi i Babilon gael ei goresgyn gan y Mediaid a'r Persiaid, gosodwyd Daniel yn benaf o'r tri rhaglaw, i'r rhai y rhoddai y tywysogion gyfrif. Yn y sefyllfa oruchel hon, yn nghanol mawredd a phrofedigaethau yn nglŷn wrth hyny, a llygaid pawb yn graff arno, y cyfryw oedd ei ffyddlondeb, a'i rodiad dichlynaidd, fel na chaed gan ei elynion nac amryfusedd na bai ynddo, i roddi yn ei erbyn, ond o ran cyfraith ei Dduw. Edr. DARIUS. Y mae yr hanes sanctaidd am dano, yn ei osod allan nid yn unig fel y gwr mwyaf enwog yn yr oes yr oedd yn byw ynddi, ond yn un o'r rhai mwyaf enwog a fu erioed ar y ddaear; yn neillduol,

1. *Am ei ffydd.* 'Trwy ffydd,' medd yr apostol, 'y cauodd safnau y llewod.' Heb. 11. 33. Trwy genfigen y rhaglawiaid, a thywysogion y brenin, y taflwyd Daniel i ffau y llewod, am na pheidiai a gweddïo ac ymbil o flaen ei Dduw am ddeng niwrnod ar hugain. O herwydd i Daniel, trwy ffydd, roddi ei ymddiried yn yr Arglwydd, Duw a ddanfonodd ei angel, ac a gauodd safnau y llewod, fel na wnaethant iddo niwed. Codwyd Daniel o'r ffau, 'ac ni chaed niwed arno, o herwydd credu o hono yn ei Dduw.' Dan. 6. 22, 23.

2. *Am ei gyfiawnder.* Enwir ef bedair gwaith gan Ezeciel, fel un o'r tri gwyr mwyaf hynod o bawb am eu cyfiawnder. Pen. 14. 14, 20. 'Pe byddai yn ei chanol y tri wyr hyn, Noah, Daniel, a Job, hwynt hwy yn eu cyfiawnder, a achubent eu henaid eu hun yn unig.' Y mae y gair *cyfiawnder*, yn y lle hwn, i'w olygu yn yr ystyr helaethaf, ac a arwydda enwogrwydd y gwyr hyn yn holl gorph crefydd: sef yn eu ffydd yn nghyfiawnder mawr yr efengyl (Rhuf. 1. 17. a 3. 21. a 5. 18.)—eu parch i gyfraith gyfiawn Duw yn ei holl orchymynion sanctaidd—eu gofal diwyd am addoliad Duw, yr hyn sydd yn gyfiawn ddyledus iddo—eu hymddygiad cyfiawn tu ag atynt eu hunain, a thu ag at bawb eraill. Ymddangosodd ysbryd rhagorol yn Daniel yn sefyll dros Dduw a'i orchymynion sanctaidd yn ngwyneb y peryglon mwyaf. Yn ieuanc 'nid ymhalogai efe trwy ran o fwyd y brenin, na thrwy y gwin a yfai efe:' yn hytrach na pheidio gweddïo arno, cymerai ei fwrw i ffau y llewod gwancus i'w larpio. Pan fwriwyd y tri llanc i'r ffwrn am beidio addoli delw y brenin, tebygol fod Daniel yn absennol ar negesau y brenin; neu, ynte, eu bod yn ei weled yn rhy uchel yn ffafr y brenin i roddi cyhuddiadau i'w erbyn.

3. *Am ei ddoethineb.* Yr oedd ganddo 'ysbryd rhagorol, a gwybodaeth a deall, dehongl breuddwydion, ac egluro dammegion, a dattod cylymau. Ac o herwydd hyny y gosododd brenin Babilon ef yn benaeth y dewiniaid, astronomyddion, Caldeaid, a brudwyr.' Dan. 5. 11, 12. Yn mhrophwydoliaeth Ezeciel yn erbyn brenin balch Tyrus, dywed y prophwyd wrtho yn wawdus, 'Wele di yn ddoethach na Daniel; ni chuddir dim dirgelwch oddi wrthyt.' Pen. 28. 3. Yn nghanol doethion y byd, parodd yr Arglwydd iddo ragori arnynt oll.

4. *Am ei weddïau,* a'i ymostyngiad edifeiriol ger bron Duw, yn ymbil gyd â'r gostyngeiddrwydd mwyaf, am ei ffafr iddo ef, a'i genedl bechadurus. Y mae yr olwg arno yn addas yn mhob man; ond y mae yn ymddangos wedi ei wisgo â neillduol harddwch pan y mae yn goblygu ger bron yr Arglwydd, yn yr agwedd addas a weddai fod ar bechadur ger bron y Mawrhydi Dwyfol, sef gyd âg edifeirwch duwiol, parch, a hyfdra sanctaidd.

5. Mae yn cael ei alw *gwr y dymuniadau* (ymyl y ddalen) gan hoffed oedd gan Dduw a dynion. Dan. 9. 23. Dangosodd Duw ei ffafr yn neillduol iddo, yn rhoddi doethineb iddo i ddehongli breuddwydion y brenin, a'r ysgrifen ar y pared, yr hyn a'i dyrchafodd i hynodrwydd nid bychan yn mhlith dynion; ac yn y waredigaeth a gafodd efe o ffau y llewod. Rhoddodd iddo amryw weledigaethau nodedig mewn perthynas i ragluniaethau Duw tu ag at deyrnasoedd y ddaear, ac amgylchiadau yr eglwys hyd ddiwedd y byd. Anfonodd Duw yr angel Gabriel i hysbysu iddo wrandawiad ei weddi, ac am amser dyfodiad y Messiah. Y mae y fath amlygrwydd manwl ac eglur yn ei brophwydoliaethau, fel yr haerodd Porphyry, a Collins* wedi hyny, mai wedi eu cyflawniad yr ysgrifenodd Daniel ei brophwydoliaethau.†

---

* Yr oedd Porphyry yn byw yn niwedd y drydedd ganrif. Ysgrifenodd y Pagan hwn bymtheg o lyfrau yn erbyn Cristionogrwydd—deuddeg o ba rai a ysgrifenodd i daflu diystyrwch ar lyfr Daniel. Cafodd ei ateb gan Eusebius, Appolinarius, a Methodius.——Sais oedd Collins, ac a droediodd yr un llwybr a Porphyry, o elyniaeth yn erbyn crefydd Crist. Cafodd ei waith yn erbyn Cristionogrwydd ei wrthbrofi yn rhagorol gan yr Esgob Chandler, a Mr. Chandler.

† Heblaw Porphyry a Collins, gwnaeth Semler hefyd y beirniedydd ysgrythyrol yn Germani, ymosodiad ar lyfr Daniel—ac ar ei ol ef dadleuai Michaelis ac Eichhorn yn erbyn y

Digitized by Google

Nid ydyw yr Iuddewon yn cyfrif Daniel yn mhlith y prophwydi, gan iddo fyw bywyd gwr llys, yn hytrach na bywyd prophwyd; ac am nad oedd ei ddadguddiedigaethau ond trwy freuddwyd a gweledigaeth nos—yr hyn a gyfrifent y radd isaf o ddadguddiad. Ond yr achos o'u gelyniaeth yn ei erbyn diammeu yw, am ei fod wedi nodi amser dyfodiad y Messïah mor hynod amlwg, fel nas gallant wrthsefyll ei eglurdeb. Y mae ein Hiachawdwr, trwy gydnabod Daniel yn brophwyd, wedi terfynu y ddadl hon. Mat. 24. 15. Er nad ydyw enw Daniel wedi ei osod yn nechreu ei lyfr, etto y mae digon o brawf tufewnol yn y llyfr ei hun, mai efe yw yr awdwr o hono, heblaw ei dderbyniad yn yr eglwys fel y cyfryw yn mhob oes. Y mae trefn ei brophwydoliaethau yn hynod eglur, fel y mae yn ddefnyddiol, fel agoriad tu ag at deall gweledigaethau Ioan yn y Dadguddiad, ac amryw o weledigaethau Esaiah ac Ezeciel. Y mae ei iaith yn ddiaddurn, ac yn llai hedegog ac allegawl na iaith y prophwydi eraill—yn debycach i iaith hanesydd na iaith y prophwydi: ond, er hyny, y mae ei iaith yn fyr, eglur, a chynnwysfawr; a'i ddarluniadau yn oleu ac yn naturiol. Yn y Galdaeg yr ysgrifenodd o'r ail bennod hyd y seithfed bennod; o ran, tebygol, eu bod yn perthyn i amgylchiadau yr ymerodraeth hòno, gan mwyaf. Y rhan arall a ysgrifenodd yn Hebraeg.

Barn y rhan fwyaf o awdwyr ydyw, iddo farw yn Caldea neu Media. Yr oedd yn hen pan rwyddhaodd rhagluniaeth y ffordd i'r Iuddewon i ddychwelyd i'w gwlad, ac yn analluog, wrth bob tebygolrwydd, i'r fath hirdaith. Os gorfu arno, trwy ryw ragluniaeth anhysbys i ni, symud i Media, nid rhyfedd nad oes grybwylliad am dano yn llyfrau Ezra a Nehemiah. Hwyrach fod ei sefyllfa yn y wladwriaeth, ac ewyllys y brenin, yn gofyn ei arosfa yn ngwlad ei alltudiad. Beth bynag am hyny, dilys yw, iddo ef, yr hwn a weddïodd mor daer drostynt, wneuthur pob rhwyddineb a allasai i'w gydwladwyr i ddychwelyd; a bod eu rhyddhad yn achos o orfoledd nid bychan iddo.

Ysgrifenodd amrywiol awdwyr yn enwog ar y llyfr hwn, megys Mede, Syr Isaac Newton, yr Esgob Newton, Prideaux, Gill, Scott, Kett, Hewit, Willet, a Dr. Owen ar y 70 wythnos, *Exercit*. 14. ar Heb.*

DANNOD, (annod) gwarthruddo, edliw. Y mae yr un gair *Gr*. *ονειδιζω*, yn cael ei gyfieithu weithiau *gwaradwyddo*, Mat. 5. 11. Luc. 6. 22. Rhuf. 15. 3. 1 Tim. 4. 10.—*edliw*, Mat. 11. 20. a 27. 44. —*difenwi*, Marc 15. 32.—ac weithiau *dannod*, Marc 16. 14. Iago 1. 5.——Y gair Groeg a arwydda, nid yn unig ceryddu mewn geiriau, neu ddwrdio, ond hefyd bychanu, gwarthruddo, trwy edliw rhyw fai i un, pa un ai yn gyfiawn, ai ynte yn anghyfiawn. Aeth Crist trwy y gwaradwydd hwn, a dyma ran ei ganlynwyr oll hyd heddyw. Difenwyd ef yn anghyfiawn yn ei boenau mwyaf gan y gwaelaf o ddynion. Dywedir pob drygair yn erbyn ei ganlynwyr. Mat. 5. 11. a 27. 44.——Crist a ddannododd i'w ddysgyblion eu hanghrediniaeth. Marc 16. 14. Yr oedd eu hangrediniaeth yn feius, ac yn arwydd o galedrwydd calon. Marc 6. 52. Argyhoeddodd Crist hwynt o'u bai, ac a'u ceryddodd yn garedig, yn addas, ac yn sanctaidd, i'r dyben, nid i'w gwarthruddo, ond i'w sancteiddio, a'u meddyginiaethu.——Y mae Duw 'yn rhoddi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod.' Iago 1. 5. Er mai pechaduriaid mawrion sydd yn gofyn ganddo, nid yw yn edliw eu beiau iddynt wrth roddi; yn eu gwarthruddo, nac yn eu digaloni o'u plegid. Nid yw yn beio arnynt am ofyn gormod, na gofyn yn rhy aml; ond y mae yn rhoddi, o'i anfeidrol ddaioni ei hun, yn helaeth, yn aml, ac yn barhaus, i'r neb a ofyno ganddo mewn ffydd yn ei addewidion. Os ystyriwn mai pechaduriaid euog a ffol sydd yn gofyn, a llawer o euogrwydd a ffolineb yn perthyn iddynt yn eu gwaith yn gofyn—y mae rhoddwr haelionus, ac heb ddannod, i ofyn ganddo, yn annogaeth gref i ddyfal barhau mewn gweddi: dyma y fath un ydyw Duw!

DANT, DANNEDD, (dan) *Gr*. *οδους*, *οδοντος*, *Llad*. DENS, DENTES: boch-ddaint, cil-ddannedd, dannedd malu, dannedd blaen; dannedd ôg, dannedd cribau, dannedd olwyn: *celwydd yn dy ddannedd*, sef celwydd mawr cywilyddus. Y mae y dannedd yn esgyrn celyd iawn, ac megys wedi eu gwydro oddi amgylch, o ran nad oes yr un bilen yn eu cylchu, fel am yr holl esgyrn eraill, i'w cadw rhag effeithiau niweidiol yr awyr, gwlybwr, oerni, a phoethder. Buasai y cyfryw bilen yn ein rhwystro i gnoi ac i fwyta. Y mae y dannedd blaen yn gymhwys i dori; a'r lleill, sef y cil-ddannedd, i falu y bwyd; gan fod y naill yn llymion, a'r lleill yn eirwon. Y mae y dannedd yn tyfu hyd y diwedd, am fod traul mawr arnynt yn eu gwaith; y mae hyn yn amlwg oddiwrth fod y dant fydd ar gyfer y dant a gollwyd yn myned yn hwy na'r lleill. Nid oes dannedd gan blant bychain, am y byddent, yn lle bod yn llesol, yn niweidiol iddynt. Y creaduriaid hyny sydd â dannedd iddynt yn y ddwy ên, nid oes ganddynt ond un cylla i dderbyn a pharotoi eu hymborth; ond yn y rhai sydd heb ddannedd yn yr ên uchaf, neu heb ddim dannedd, y mae ganddynt dri chylla, fel mewn anifeiliaid, ac adar grawnweiniol. Y mae doethineb Duw i'w weled yn fawr yn ngosodiad y dannedd; pe buasai y rhai blaen yn ol, neu y cil-ddannedd yn mlaen, buasent yn gwbl annaddas ac yn annefnyddiol. Rhyw weithiwr doeth, darbodus, a fu yma, medd Galen. Y mae y dannedd hefyd yn ddefnyddiol i ymadroddi, ac yn harddu y wynebpryd. Rhai anifeiliaid sydd â dannedd blaen iddynt yn y ddwy ên; a rhai heb ddim ond mewn un yn unig; ac mae gan rai fwy nag un res o ddannedd yn yr un ên. Y mae gan rai milod ysgythr-ddannedd yn hwy ac yn uwch na'r lleill, i ymaflyd yn, ac i ddal eu hysglyfaeth.

Dynion yn cael eu cyffelybu i fwystfilod gwylltion, eu hymadroddion cywilyddus a pheryglus, eu gallu a'u medrusrwydd i wneuthur drwg, a elwir, 'dannedd fel gwaywffyn, cleddyfau,' &c. Job 4. 10. Ps. 57. 4. Diar. 30. 14. Y mae Duw yn tori y dannedd hyn pan wnelo ddynion yn anabl i niweidio eraill. Ps. 3. 7. a 58. 6.——'Ysgyrnygu,' a 'rhincian dannedd,' a arwydda, cynddaredd, galar mawr, anobaith, a phoen. Ps. 35. 16. Mat. 8. 12. Act. 7. 54.——'Glendid dannedd,' a arwydda, newyn trwm. Amos 4. 6.—— Y rhai drygionus ydynt yn cwyno fod y tadau wedi 'bwyta grawnwin surion,' a bod 'dincod ar ddannedd y plant,' (Ezec. 18. 2.) i arwyddo fod y plant wedi gorfod dyoddef am eu troseddiadau a'u hanwireddau hwynt. ——'Dy ddannedd sydd fel deadell o ddefaid gwastadgnaif.' Can. 4. 2. Dannedd yr eglwys yn wastad, a arwydda, ei bod yn un lân, a'i hymborth yn bur.

'Dant am ddant.' Exod. 21. 24. Lef. 24. 19. 20. Deut. 19. 21. Barn. 1. 6, 7. 1 Sam. 15. 33. Esa. 13. 16—18. Mat. 5. 38, 39, 40. a 7. 2. Dat. 16. 6. Nid rheol ymddygiad personau neillduol tu ag at eu gilydd ydyw y gyfraith hon, ond rheol i'r barnwyr pa fodd i wneuthur barn rhwng gwr a gwr: 'Fel y gwnaeth, gwneler iddo.' Dyma reol gyfiawn y barnwyr, wrth ba un y mae iddynt rodio yn ddiduedd: 'Nac arbeded dy lygad; bydded einioes am einioes; llygad am lygad, dant am ddant,' &c. Y mae yr Arglwydd cyfiawn yn ei ragluniaethau, yn aml, yn mesur i

chwe phennod gyntaf; ond fe'u hatebwyd hwy yn gampus gan Hengstenberg, Hävernick, Stäublin, Jahn, ac eraill.—C.

* Heblaw yr awdwyr a nodir uchod fel ysgrifenwyr ar y llyfr hwn, gellir enwi esboniadau Melancthon, Calvin, Venema, Bertholdt, Rosenmüller, Hävernick, Lengerke, Broughton, a Wintle.—C.

Digitized by Google

ddynion â'r un mesur ag y maent hwy wedi mesur i eraill; ond nid ydyw y gorchymyn hwn, mewn un gradd, yn cynnwys ymddial dynion ar eu gilydd. Gau esboniad yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid oedd tynu y casgliad hwn oddiwrth y geiriau, a'u cymhwyso at ymddygiad personol dynion at eu gilydd. Yr un ydyw cyfraith Duw, yn yr ystyr o honi, yn mhob oes, a than bob goruchwyliaeth; a'r un ydyw y troedd o honi. Y mae dial yn groes i orchymyn Duw, ac yn bechadurus bob amser; ond mewn lle barn, cyflawnder a weddai fod yn eistedd ac yn llywodraethu, megys o'r dechreu felly yr awr hon, ac hyd ddiwedd amser.——'Hyder ar ffalswr yn nydd cyfyngder, sydd megys dant wedi ei dori.' Diar. 25. 19. Hyder ar ddim ond ar Dduw ei hun, sydd bechadurus, poenus, ac anfuddiol, yn nydd cyfyngder; fel dant wedi ei dori, yr hwn sydd anhardd, diddefnydd, a phoenus; felly y bydd pob peth a hyderir arno, ond y Duw holl-ddigonol; ond y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a adnewyddant eu nerth. Esa. 40. 31.

DANTEITHIOL, (dant-aeth) blasus, hyfryd; boddhaol i'r dant.—'Danteithiol a gwych.' Dat. 18. 14. *Gr.* *τα λιπαρα και τα λαμπρα.* 'Holl bethau breision a gwychion.' W. S. a Dr. M. Pethau moethus yn ymborth, pethau hardd, claer, dysglaer, a gwych, yn eu holl wisgoedd a'u holl anneddau. Yr holl bethau hyn a ânt ymaith oddiwrth Babilon Anghristaidd yn nydd ei gofwy. Mwynhaodd hwynt yn hir, ac yn helaeth; am ei cham-ddefnyddiad o honynt, mewn eilun-addoliaeth, balchder, a phob afiendid a ffieidddra, Duw a'i hyspeiliodd o honynt, ac yn gyfiawn a'i dynoethodd i waradwydd tragwyddol. Felly y gwna hefyd â holl annuwiolion y ddaear!

DANTEITHION, (dant-aeth) bras-fwyd, bwyd blasus, dantaith; y cyfryw a fwyty breninoedd. Gen. 49. 20. Diar. 23. 3.—'Na âd i mi fwyta o'u danteithion hwynt;' sef gweithredwyr anwiredd. Ps. 141. 4. Y mae danteithion gan y rhai a weithredant anwiredd; sef mwyniant pechod, mewn golud, melusweddd buchedd, parch, mawredd bydol, a thrythyllwch cnawdol. Dyma y pethau y mae eu calonau llygredig yn eu cyfrif yn ddanteithion, ac y maent yn ymborthi arnynt gyda hyfrydwch. Y mae y goreu o ddynion yn ddarostyngedig i gael eu llithio ganddynt: yn cydnabod ei wendid ei hun, a'u pechadurusrwydd hwythau, y mae y Psalmydd yn llefain am gymhorth ac am gadwraeth.——'A lanwodd ei fol o'm danteithion; efe a'm bwriodd i allan.' Jer. 51. 34. 'Efe a lanwodd ei fol; efe a'm bwriodd o'm hyfrydwch.' Dr. Blayney. Barna efe fod cyfeiriad yn y geiriau at ein rhieni cyntaf yn cael eu bwrw allan o baradwys. Yr oedd gwlad Canaan yn hyfrydwch i Israel, fel etifeddiaeth yr Arglwydd; fel gwlad dan fendith Duw; yn neillduol am fod cysegr Duw yno, ei ordinhadau a'i bresennoldeb. Oddi yno y bwriodd brenin Babilon yr Iuddewon allan gyda chreulondeb gwaedlyd. Hyn a ddaeth arnynt am eu pechodau yn erbyn yr Arglwydd.

DAR, fel rhagddod mewn geiriau cyfansawdd, a arwydda, *o flaen, ar,* neu *yn nghylch bod:* yn cyfateb agos i *pre* yn Saesonaeg. Darblygu, sef plygu ar; daramred, sef rhedeg oddi amgylch.

DARBOD, (pod) ystyried, sylwi, rhagofalu, rhagddarparu, gwneuthur darpariaeth flaenorol.

> Paham y cuddi d' wynebpryd,
> O *darbod* hyd ein blinder.
>
> *E. Prys,* (Ps. 44. 24.)

'Yn darbod pethau rhagorol.' Rhuf. 2. 18. *Gr.* *δοκιμαζεις τα διαφεροντα, profi pethau a gwahaniaeth rhyngddynt.* '*Approving the things that are more excellent.*' *Saes.* Y geiriau a arwyddant fod gan yr Iuddewon y cyfryw wybodaeth, trwy eu bod wedi eu haddysgu o'r ddeddf, neu, o'r hyn lleiaf, eu bod yn meddwl hyny, ag y gallent wahaniaethu rhwng drwg a da, gwirionedd a chyfeiliornad. Phil. 1. 7, 8. Ac nid hyny yn unig, ond hefyd, eu bod yn addas i farnu pa un o ddwy ddyledswydd oedd y fwyaf angenrheidiol a rhagorol. Y mae cadw bywyd naturiol yn ddyledswydd angenrheidiol; ond y mae cadw gorchymynion Duw yn ddyledswydd fwy rhagorol. Y mae caru tad a mam yn ddyledswydd; ond y mae caru Crist a'i achos yn y byd yn ddyledswydd fwy rhagorol, ac i flaenori yn ein serch a'n hymlyniad wrthi.——'Heb ddarbod dros yr eiddo.' 1 Tim. 5. 8. Heb ddarbod (*προνοει*) *heb ragofalu a darparu pethau addas* tu ag at eu cynnaliaeth. 'Dros yr eiddo,' (*των ιδιων*) ei berthynasau, ei gyfnesaf, ei rïeni, a'u rhieni hwythau. Y maent yn eiddo iddo i ofalu am danynt, a'u cynnal a'u cysuro yn ol gorchymyn Duw. 'Efe a wadodd y ffydd,' os nid o ran proffes, etto o ran bucheddiad, a'i ymddygiad hollol groes i athrawiaeth y ffydd: 'a gwaeth yw na'r di-ffydd;' o ran ei fod yn pechu yn erbyn mwy o oleuni, ac yn dwyn dianrhydedd ar y ffydd y mae yn ei phroffesu. Y mae yn proffesu ei fod yn adnabod Duw, ond ar weithredoedd yn ei wadu: y mae yn ffiaidd, yn anufudd, ac at bob gwethred dda yn anghymeradwy. Tit. 1. 26. Esa. 58. 7. Nid yw y cyfryw yn gymhwys i fod yn aelod o un gymdeithas eglwysig; ond os parha heb ddiwygio wedi aml rybydd, dylai gael ei dori allan.

DARFOD—U, (bod) *Heb.* אבד dybenu, diweddu, cwblhau, gorphen, terfynu. Y mae y Psalmydd yn dangos, mewn dull ardderchog, ragoroldeb Crist ar bob creadur; ïe, y nefoedd a'r ddaear, trwy hysbysu eu darfodiad hwy, a'i barhad yntau. 'Efe yn y dechreuad a seiliodd y ddaear, a'r nefoedd ydynt waith ei ddwylaw:' Efe, yr hwn yn ei fawredd galluog a roddodd ddechreuad iddynt, wedi iddynt yn gwbl ateb dybenion eu gwneuthuriad, a rydd derfyn iddynt. 'Hwy a ddarfyddant—Tithau yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni ddarfyddant.' Ps. 102. 26, &c. Y mae anghyfnewidioldeb a pharhad tragywyddol Crist, o ran ei Berson a'i swyddau, yn sail o gysur sylweddol i bawb a ymddiriedant ynddo, yn wyneb cyfnewidiad, palldod, a darfodedigaeth pob peth arall. Oblegid fod Crist yn Dduw galluog, a digyfnewid, y mae ei addewidion yn sicr o gael eu cyflawni; ei eglwys yn sicr o gael ei chynnal; ei bobl yn sicr o gael eu gwaredu yn mhob cyfyngder, o'u holl beryglon, a'u diogelu yn dragywyddol. 'Dy flynyddoedd di sydd yn oes oesoedd.' Ps. 102. 24. Heb. 1. 10. Esa. 51. 6. a 66. 22.

'Rhai ar ddarfod am danynt,' ydyw rhai mewn cyflwr gwael, isel, digymhorth, yn dymhorol neu yn ysbrydol; pa rai y mae udgorn mawr yr efengyl yn cyhoeddi newyddion da i bechaduriaid, yn eu hadfywio, yn eu cysuro, a'u gwaredu o wlad eu gelynion. Esa. 27. 13.

Ar dywalltiad y seithfed phiol i'r awyr, daeth llef uchel allan o deml y nef, oddiwrth yr orsedd-fainc, yn dywedyd, 'Darfu!' Dat. 16. 17. Nid yw y gair 'darfu' yma yn arwyddo diwedd y byd; canys y mae y byd gweledig yn parhau yn hir wedi hyn. Nid ar yr awyr naturiol sydd yn amgylchynu y ddaear, y tywalltwyd y phiol; ond ar awyr teyrnas Anghrist. Y mae gan deyrnas Anghrist ei haul, ei lleuad, ei sêr, a'i hawyr briodol iddi ei hun, yn ei llywodraethu, ac yn ei chynnal. Ac fel nas dichon un creadur fyw heb awyr, felly pan dywelltir phiol digofaint Duw ar awyr Anghrist, bydd darfod am dano yn hollol. Y mae ei holl oleuadau, a'r awyr yn mha un y maent yn symud yn eu cylchoedd, ac yn llywodraethu yn effeithiol yn ei deyrnas, â digofaint Duw wedi ei dywallt arnynt. Ar hyn darfu ei deyrnasiad; darfu i'r Arglwydd gyf-

Digitized by Google

lawni ei amcanion, a'i brophwydoliaethau am dano; darfu, mewn gradd mawr, iselder, cystuddiau allanol, a gorthrymder yr eglwys. Medd yr Arglwydd Iesu, 'Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd.—Darfu!—Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd. I'r hwn sydd sychedig, y rhoddaf o ffynon dwfr y bywyd yn rhad.' Dat. 21. 5, 6.

DARFODIAD—AU, (bod) dyfod i ddiwedd; diweddu; terfyniad.—'Darfodiad terfynedig a lifa trosodd mewn cyfiawnder.' Esa. 10. 22. 'Y cyflawniad a benderfynwyd sydd yn llifo mewn cyfiawnder; canys cyflawnwyd ef; a'r hyn a benderfynwyd, y mae IEOFAH, Duw y lluoedd, yn ei wneuthur yn nghanol y tir.' Adn. 22, 23. Dr. Bagot. כליון הרוץ שוטף צדקה *terf-darfodiad*, neu *darfodedigaeth* (Deut. 28. 65.) *terfynedig, cyfiawnder yn llifo*, neu yn llifo mewn cyfiawnder.' Y difrodiad a'r dinystr yn y wlad oedd yn derfynedig gan ewyllys a chynghor Duw, ac yn llifo, er mor ofnadwy, etto mewn cyfiawnder.——'Efe a orphen ac a gwtoga y gwaith mewn cyfiawnder.' Rhuf. 9. 28. Y mae y defnydd a wneir gan yr apostol o'r geiriau hyn yn profi fod yr Ysbryd Glân yn golygu hefyd ddychweliad gweddill yr Iuddewon at yr Arglwydd Iesu, a thywalltiad ei farnedigaethau cyfiawn ar y genedl yn gyffredinol am iddi ei wrthod. Dan. 9. 24—27.

DARFODEDIGAETH, (darfodedig) treuliad, darfodiad, afiechyd difâol.—'Os chwi ni wrandewch arnaf, &c., gosodaf yn oruchaf arnoch ddychryn, darfodedigaeth,' &c. Lef. 26. 14, 16. Deut. 28. 22. Y mae y geiriau hyn yn dangos mai Duw sydd yn gosod clefydau ac afiechyd ar ddynion, a hyny yn gospedigaeth, neu yn gerydd meddyginiaethol am eu pechodau. Pan y mae yr Arglwydd yn gosod yn oruchaf ar ddynion, nid oes neb, na dim moddion, a lwydda i'w cael yn isaf, nes y tyno yr Arglwydd hwynt ymaith. Beth a all neb ei wneuthur i ymunioni i'r làn, pan y byddo yr Arglwydd yn gosod darfodedigaeth yn uchaf; rhaid darfod am dano. Llwybr llwyddiannus, yn mhob ystyr, i gorph ac enaid, ydyw y llwybr o ufudd-dod i'r Arglwydd.

DARFFO, (darfod) pan ddarffo; sef pan orphenir.—'Pan ddarffo y cynauaf gwin.' Esa. 24. 13. a 33. 1. '*When the vintage is done.*' *Saes.* Sef pan orphenir cynauaf y gwin.

DARIUS, דריוש [*ymofynydd*] brenin Media, am hyny y gelwir ef, Darius y Mediad. Dan. 5. 31. a 6. 9, 25. a 9. 1. a 11. 1. Hwn ydoedd Cyaxeres mab Astyages, a brawd Mandane mam Cyrus, ac Amyite mam Efil-Merodach, brenin Babilon. Efe ydoedd y cyntaf a deyrnasodd ar Babilon o freninoedd y Mediaid a'r Persiaid, gwedi gorchfygu y ddinas hòno gan Cyrus. Er mai Cyrus a orchfygodd Babilon, etto yr oedd ei hynawsedd ef mor fawr tu ag at ei ewythr Cyaxeres, fel y gwahoddodd ef i Babilon, ac y rhoddodd iddo y blaenoriaeth yn y llywodraeth tra y bu efe byw. Wedi i Cyrus ddwyn ei ewythr Cyaxeres, neu Darius, gyd âg ef i Babilon, hwy a ymgynghorasant pa fodd i osod trefn llywodraeth reolaidd ar yr holl ymerodraeth. Rhanasant hi yn gant a saith ar hugain o daleithiau; rhoddwyd llywodraeth y taleithiau hyn i'r rhai a fuasent yn fwyaf cynnorthwyol i Cyrus yn y rhyfel. Ar y tywysogion hyn y gosodwyd tri o arolygwyr, neu o raglawiaid, y rhai oeddynt i fod yn y llŷs bob amser; ac i ba rai yr oedd tywysogion y taleithiau i roddi hanes am bob peth a ddygwyddai yn eu taleithiau priodol, ac y rhoddent gyfrif, fel na byddai y brenin mewn colled; a hwy oeddynt i hysbysu i'r tywysogion ewyllys y brenin am bob achosion llywodraethol. Dan. 6. 1, 2, 3. Daniel oedd y penaf o'r tri. Da yr ydoedd yn haeddu y cyfryw flaenoriaeth, o herwydd ei oed mawr, ei brofiad yn y cyfryw orchwyl, ac oblegid ei enwogrwydd am ei ddoethineb trwy holl wledydd y dwyrain. Yr oedd Daniel yn rhagori ar y rhaglawiaid a'r tywysogion; 'o herwydd bod ysbryd rhagorol ynddo ef; a'r brenin,' sef Darius, 'a feddyliodd ei osod ef ar yr holl deyrnas.' Fel y gwnaeth y rhagoriaeth hyn Daniel yn *ail* ŵr yn y deyrnas, a'i fod trwy hyny yn *nesaf* dan y brenin, cenfigenodd y tywysogion wrtho ef yn ddirfawr, a chyd-fwriadasant pa fodd y dyfethent ef. Ni fedrent gael un achos na bai yn ei erbyn, ond o achos cyfraith ei Dduw; o herwydd ffyddlawn oedd efe. Cynghorasant y brenin i osod deddf freninol, a chadarnhau y gorchymyn, am fwrw i ffau y llewod pwy bynag a archai arch gan un Duw na dyn dros ddeng niwrnod ar hugain, ond gan y brenin. Daniel a aeth i'w dŷ, ac a weddiodd dair gwaith yn y dydd, fel arferol, â'i ffenestri yn agored tua Jerusalem. Cyhuddwyd Daniel wrth y brenin fel troseddwr ei gyfraith: bu ddrwg iawn gan y brenin, a rhoddodd ei fryd ar waredu Daniel. Ond gan nad oedd lle i newid y gyfraith, a Daniel yn euog, nis gallasai. 'Dy Dduw,' medd y brenin wrth Daniel, 'yr hwn yr ydwyt yn ei wasanaethu yn wastad, EFE a'th achub di.' Felly y gwnaeth. Ar hyn, ysgrifenodd y brenin, ac a osododd gyfraith trwy holl lywodraeth ei deyrnas, i bawb grynu, ac ofni rhag Duw Daniel. Daniel a lwyddodd yn nheyrnasiad Darius ac yn nheyrnasiad Cyrus y Persiad. Edr. DANIEL. Y mae yn dra thebygol fod Cyrus, yn yr yspaid y taflwyd Daniel i ffau y llewod, ar ei hynt filwraidd, yn Syria, oddiyno tu a'r Môr Coch, a chyffiniau Ethiopia, yn darostwng yr holl wledydd hyny o'i flaen. Ni theyrnasodd Darius ond dwy flynedd yn Babilon, cyn iddo farw, yn 64 oed.

Sonir yn llyfr Ezra am Darius arall, yr hwn a fu yn amddiffynwr cyhoedd i'r Iuddewon gweiniaid, ac yn gynnorthwywr iddynt i adeiladu y deml yn Jerusalem; fel y gwelwch yr hanes yn llyfr Ezra, a phrophwydoliaethau Haggai a Zechariah. Hag. i. Zech. vii. Y mae hwn yn cael ei alw gan haneswyr cenedlig, Darius Hystaspes, am mai Hystaspes oedd enw ei dad. Hwn oedd y pummed o freninoedd ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid. Darius, Cyrus, Cambyses ei fab, Artaxerxes, neu Smerdius y Magiad, a Darius Hystaspes, y pummed. Mae rhai yn barnu (megys Usher, Rollin, Calmet, Brown, ac eraill) mai y Darius hwn oedd Ahasferus, gwr Esther; eraill (megys Prideaux, Scott, *Universal History*) a farnant mai Artaxerxes Longimanus ydoedd. Gan fod gwyr mor enwog am ddysgeidiaeth a'u gwybodaeth o hanesyddiaeth ac amseryddiaeth, yn methu cydweled yn yr achos dadleuol hwn, nid gwiw i mi ymgais am benderfynu y ddadl. Teyrnasodd 36 o flynyddoedd, ac a fu farw A. M. 3519.—Y mae bedd-argraff y brenin hwn, yn coffâu y gallai yfed llawer o win heb feddwi, yn dangos fod y Persiaid yn barnu fod cryfder i yfed diod gadarn yn anrhydedd iddynt.* Hynod mor wael yw barn dynion llygredig am yr hyn sydd yn anrhydedd i ddynoliaeth! Ni fyddai hyn ddim yn anrhydedd i anifel; pa faint llai i ddyn rhesymol? Ei anrhydedd penaf oedd, ei fod yn offeryn yn llaw yr Arglwydd, fel Cyrus, er amddiffyniad, ymgeledd, a chynnorthwy i'w bobl weiniaid, yn wyneb eu holl elynion, i adeiladu y deml, a threfnu addoliad Duw yn eu plith.

Mae rhai yn barnu am y Darius y crybwyllir am dano yn Neh. 12. 22. mai yr hwn a enwir gan haneswyr cenedlig, Darius Codomanus, ydyw. Hwn oedd y diweddaf o freninoedd y Persiaid; yr hwn a orchfygwyd gan Alexander Fawr, brenin Macedonia, âg ychydig o filwyr gwrol, mewn tair brwydr orchestol. Y gyntaf wrth afon Granicus yn Phrygia; yr ail wrth fylchau Issus, yn Cilicia; a'r drydedd yn ngwastadedd Arbela, yn Assyria. Yn mrwydr Issus yr oedd gan

* Ηδυναμην και οινον πινειν πολυν και τουτον φερειν καλως.

Digitized by Google

Darius 600,000 o filwyr; yn yr ymladdfa yn ngwastadedd Arbela yr oedd ganddo 1,100.000. Nid oedd rhifedi milwyr Alexander ddim dros 74,000, yn un o'r ddwy ymladdfa. Mor wir ydyw geiriau y Psalmydd, 'Ni waredir brenin gan liaws llu: ni ddianc cadarn trwy ei fawr gryfder.' Ps. 33. 16.

Lladdwyd Darius gan ei raglawiaid, Bessus a Nabyranes, yn ei gerbyd. Pan gafodd Alexander ef yn farw yn ei gerbyd, wylodd uwch ei ben, ac a'i hanfonodd i Sisigambis ei frenines, i'w gladdu yn meddau breninol Persia.

Gyda marwolaeth y Darius hwn y darfu am ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid; canys cymerodd ymerodraeth y Groegiaid ei lle, trwy fuddugoliaeth Alexander arno. Ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid sydd i ni ddeall wrth yr arwyddlun o hwrdd â dau gorn iddo, yr hwn sydd yn cornio yn greulawn 'tu a'r gorllewin, tu a'r gogledd, a thu a'r dehau.' Y mae buddugoliaeth Alexander ar Darius yn cael ei darlunio yn hynod gywir, dan yr arwydd o'r bwch geifr yn dyfod o'r gorllewin hyd at yr hwrdd—yn taro yr hwrdd—yn tòri ei ddau gorn—yn ei fwrw i lawr—yn ei sathru ef; ac nid oedd a allai achub yr hwrdd o'i law. Dan. 8. 5, 6, 7. ——Llawer a soniwyd am wroldeb a llwyddiant Alexander; ond yr holl achos o'i lwyddiant oedd yn gwbl o'r Arglwydd. Ewyllys Duw oedd iddo fod yn offeryn yn ei law i ddarostwng ymerodraeth y Persiaid Yn llaw yr Arglwydd, rhedodd gyd â'r fath gyflymdra ar hyd wyneb yr holl fyd, fel pe na buasai efe yn cyffwrdd â'r ddaear.

DARLLEAIN, DARLLAIN, DARLLEN, (llen) lleu, lleuain, darllen, adrodd argraff neu ysgrifen. Y mae Duw y nefoedd gwedi hysbysu i ni ei feddwl trwy ysgrifen neu argraff: i'w ddeall, rhaid i ni ei wrando, ei ddarllen, a myfyrio ynddo. Yr oedd breninoedd Israel i ysgrifenu bob un iddo ei hun gopi o'r gyfraith mewn llyfr, trwy orchymyn Duw, a darllen ynddo holl ddyddiau ei fywyd; fel y dysgai ofni yr Arglwydd, a chadw holl eiriau y gyfraith. Deut. 17. 18, 19.——Y mae darllen yr ysgrythyrau yn gyhoeddus yn rhan neillduol o addoliad Duw, arferedig yn mhob oes. Luc 2. 16. Act. 13. 15—17. a 15. 21. Mae Paul yn cynghori Timotheus i lynu wrth ddarllen, wrth gynghori, ac wrth athrawiaethu. 1 Tim. 4. 13. Y mae darllen yr ysgrythyrau yn gynnorthwyol i gynghori ac athrawiaethu; heb hyny, bydd y cynghor a'r athrawiaeth yn dlawd ac yn egwan. Wrth ddarllen yn gyhoeddus yn addoliad Duw, dylid gochelyd pob ystum corphorol anmharchus ac anweddaidd; a lleisiau dyeithr ac anhyfryd: ond dylid darllen gair Duw *fel gair Duw*, yn sobr, yn bwyllog, yn ddeallus; gyd âg agwedd a llais addas a hyfryd. Y mae darllenwr da yn esboniwr da: a phob darllenwr drwg a ddylai dewi.

Ni bydd ddoeth ni *ddarlleno*. *Diar.*

DARN—AU, (arn) dryll, rhan, clwt, llain. Yr ydoedd gwaith Abraham yn rhanu yr anifeiliaid yn ddarnau, a'u gosod ar gyfer eu gilydd, yn arwyddo fod holl gystuddiau ei bobl dan neillduol drefniad Duw, ac yn derfynedig; ac y byddai iddynt hwy yn yr amser gosodedig gael eu hadferyd i'w gwlad, a'u dwyn at eu gilydd, darn at ddarn, asgwrn at asgwrn. Gen. 15. 17. Ezec. 37. 7, 11, 14.

'Ti a gei ddarn o arian.' *Gr.* στατερα, arian bath Groegaidd, gwerth 2s. 6c. o'n harian ni.—'Onid yw eich athraw chwi yn talu teyrnged?' *Gr.* διδραχμα. Y *didrachma* ydoedd dreth a ofynid gan bob un tu ag gynnal y deml; oddiwrth ba un yr oedd yr Iesu yn rhydd, fel Mab Duw, tŷ pa un oedd y deml. Gwerth y *didrachma* oedd oddeutu pymtheg ceiniog. Yr oedd y *statera* yn werth dau *didrachma*; ac am hyny yn ddigon dros yr Iesu a Petr. Y mae pob amgylchiad o'r wyrth hon yn dra rhyfedd. Y mae tlodi Crist yn fawr, gan na feddai gymaint a modd i dalu y dreth. Y mae ei ufudd-dod i'r llywodraeth, a'i ofal rhag rhoddi rhwystr i neb, i'w gweled yn neillduol: gwell ydoedd ganddo wneuthur gwyrth i dalu na thramgwyddo neb. Y mae ei hollwybodaeth, ei hollalluogrwydd, a dwyfoldeb ei berson, yn dysgleirio yn ogoneddus, yn nghanol ei waeledd a'i dlodi mawr. Pwy ond Duw hollwybodol a allasai ddywedyd, y daliai Petr bysgodyn—y cai efe ddarn o arian—a hwnw yn *statera*, y darn ydoedd yn eisieu, yn safn y pysgodyn a ddelai i fynu yn *gyntaf*? Wele yma bob peth yn cael ei rag-ddywedyd gyd â'r manylrwydd mwyaf; a phob peth yn cael ei gyflawni yn gyfatebol. Gofala yr un Arglwydd na bydd eisieu ar ei ganlynwyr, hyd ddiwedd amser, dim a fyddo yn angen arnynt, er i ofynion trymion anghyfiawn gael eu rhoddi arnynt hwy. Yr un yw efe a hwythau, a'u hachos yr un. Mat. 17. 27. Rhuf. 14. 20. 1 Cor. 8. 13. a 10. 23. 1 Thes. 5. 22. 1 Ioan 2. 10.

DARN-GUDDIO, (cuddio) chwiw-guddio, chwiwladrata. Y gair *Gr.* ενοσφισομαι, a gyfieithir *darnguddio*, a arwydda lladrad dirgelaidd, neu neillduo un rhan oddiwrth y llall, i'r dyben i'w feddiannu yn dwyllodrus.——'A *ddarn-guddiodd* beth o werth y tir.' (*κτημα, meddiant).* Act. 5. 1, 2, 3, Y mae y gair χωριον, yn adn. 8. yn penderfynu mai tir oedd y meddiant a werthodd. Yr oedd y darn-guddio hyn yn Ananias a'i wraig, yn bechod mawr. Eu balchder rhagrithiol a barodd iddynt ei addunedu i'r Arglwydd yn eu calon; nid oes sôn ddarfod iddynt ei wneuthur mewn geiriau.—Y mae Ainsworth yn coffâu (ar Lef. 7. 16.) fod bwriadu y peth yn y galon i'r Arglwydd, yn ol barn yr Iuddewon, yn rhwymo fel adduned, pe buasai heb ddywedyd un gair o'i enau.—Eu cybydddod a barodd idddynt ddarn-guddio o'r gwerth wedi hyny; a chan ei fod wedi ei addunedu yn *gwbl*, yr oedd *darn-guddio peth* o hono yn gysegr-yspail. Y mae Petr yn ei alw, 'yn ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân.' Yr oedd yr Ysbryd gwedi disgyn o'r nef i osod i fynu eglwys yn y byd; yr oedd y gwerth megys wedi ei addaw tu ag at y gorchwyl hwn. Yr ydoedd yr apostolion yn weision drosto yn y gwaith; dywedyd celwydd wrth yr apostolion oedd yr un peth a dywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân, gweision yr hwn oeddynt. Yr oeddynt yn pechu yn erbyn hollwybodaeth yr Ysbryd Glân; yr oedd yn anghyfiawnder â'i waith, ac yn dwyll o'r fath waethaf.——Y mae *darn-guddio* meddiannau eu meistr yn bechod mawr mewn gweision: y mae yn anonestrwydd, yn anghyfiawnder, ac yn anffyddlondeb i'r adduned sydd arnynt fel gweision, ac i'r ymddiried a roddwyd iddynt; y mae ar unwaith yn drosedd o'r wythfed a'r nawfed gorchymyn. Tit. 2. 10.

DARNIO, (darn) tòri yn ddrylliau, hollti yn ddarnau, dryllio, chwilfriwio, clytio, lleinio.——'A Samuel a ddarniodd Agag ger bron yr Arglwydd yn Gilgal.' 1 Sam. 15. 33. Gwnaeth Samuel y weithred hon mewn ufudd-dod i orchymyn Duw, fel gweinidog Duw yn gwneuthur dialedd cyfiawn ar y brenin creulon hwn. Arbedodd Saul greulon y gwr hwn, yn groes i orchymyn Duw, o hunan-ewyllys a hunan-foddhad; ond o ufudd-dod i orchymyn Duw, y mae Samuel dirion, addfwyn, yn darnio Agag yn ddiarbed. Y mae rhyw Agag hoyw, rhyw oreuon, gan bob rhagrithiwr, i'w harbed bob amser; ond y mae pob pechadur edifeiriol yn ffyddlon i Dduw, ac yn ddiarbed o'r pethau hyny y mae yr Arglwydd wedi gorchymyn eu difrodi. Barn. 19. 29. 2 Cron. 28. 24. Marc 5. 4.

DAROGAN—WR, (gogan) rhag-argoeli, arddarmain, armain; dewin, brudiwr, coel-gyrchwr. Y gair *Heb.* נחש a arwydda *ymofyn, a chwilio allan.* Gen. 30. 27. a 44. 5. Ystyr y gair מנחש gan hyny, yw *chwiliwr*; un yn chwilio allan, neu yn ymofyn

Digitized by Google

am wybod pethau sydd i ddyfod, trwy ryw arwyddion, megys ehediad adar, &c. Yr oedd y pechod hwn yn dra chyffredin yn mhlith y Paganiaid. 1 Bren. 20. 33. Num. 24. 1. Ezec. 21. 21. Ac y mae yn arferiad rhy gyffredin hyd heddyw, yn mhlith Cristionogion mewn enw: ond y mae yn hollol groes i air Duw. Lef. 19. 26. Deut. 18. 10. Y mae y pechod hwn, fel pob pechod arall, yn tarddu o ddidduwiaeth calon dyn, a'i anhyder ar yr Arglwydd. Nid oes neb ond Duw a ŵyr bethau i ddyfod. Esa. 45. 21. a 46. 9, 10. Y mae wedi rhoddi yn ei air bob hysbysrwydd angenrheidiol i'w eglwys, am ei holl ragluniaethau tu ag at y byd yn gyffredinol, a'r eglwys yn neillduol, hyd ddiwedd amser. Pwyso ar Dduw, ac ymostwng iddo, yn wyneb ei holl drefniadau, yw ein dyledswydd a'n braint ni. Y mae yn ddigon i bob un sydd yn caru Duw, ac yn pwyso arno, mai yr Arglwydd sydd yn teyrnasu. Ymostwng i Dduw, a phwyso arno, yw y gelfyddyd o fyw yn dduwiol yn y byd. Mic. 6. 8. Daroganwyr pechadurus, annuwiol, ydyw holl wneuthurwyr Almanacau, sydd yn ceisio dywedyd pa fath dywydd fydd am y flwyddyn; a pha gyfnewidiadau a gymerant le yn mhlith teyrnasoedd y ddaear. Nid llawer, os dim, llai pechaduriaid, yw y rhai sydd yn ymofyn â hwynt, ac yn rhoddi coel iddynt. Pa ynfydrwydd ydyw meddwl y dichon un creadur gwael ragfynegi y tywydd am flwyddyn, yr hwn nis gŵyr pa fath dywydd a fydd, na pha beth a ddygwydd iddo ei hun am un diwrnod! Y mae yn resynus gweled cymaint anwybodaeth a didduwiaeth yn parhau yn y wlad.

DAROSTWNG, (gostwng) tynu i lawr, iselhau, dianrhydeddu, difreinio, gwneuthur yn ufudd.—'Yr Arglwydd sydd yn darostwng ac yn dyrchafu.—Efe a ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder.' 1 Sam. 2. 7. Dan. 4. 37. Ps. 55. 19. a 75. 7.—— Y mae balchder yn gynnwysedig yn mhob gweithred o anufudd-dod; canys y mae dyn wrth anufuddhau yn dyrchafu ei ewyllys ei hun yn erbyn ewyllys Duw. I wneuthur dyn yn ufudd i Dduw, rhaid iddo gael ei ddarostwng mewn edifeirwch am ei drosedd a aeth heibio, ac i ufudd-dod rhagllaw i ewyllys Duw. Lle na byddo edifeirwch am yr anufudd-dod blaenorol, nis dichon fod ufudd-dod pur a pharod rhagllaw.—— 'Efe a'i darostyngodd ei hun.' Phil. 2. 8. Edr. Cnawd, Agwedd, Dibrisio, Ffurf, Geni, Iesu, Temtasiwn.

DAROSTYNGEDIG, (darostwng) plygedig; bod yn ufudd i lywodraeth un arall; yn wasanaethgar; agored. Ps. 66. 3. Rhuf. 8. 7. 1 Cor. 14. 32, 34. a 16. 16. Eph. 5. 24. Tit. 2. 5, 9. 1 Petr 2. 18. a 3. 5. Heb. 12. 9.

DAROSTYNGIAD, (darostwng) ymostyngiad, iselliad, ufudd-dod.—'Yn gogoneddu Duw o herwydd darostyngiad eich cyffes chwi i efengyl Crist.' 2 Cor. 9. 13. O herwydd ufudd-dod eich cyffes, neu eich ufudd gyffes, o efengyl Crist. Y mae y darostyngiad, neu yr ufudd-dod hwn i efengyl Crist, yn arwyddo derbyniad cyflawn ac ewyllysgar o'r efengyl, yn ei holl athrawiaethau gogoneddus; yn nghyd âg ufudd-dod parod a chyhoeddus i'w holl orchymynion sanctaidd. Y mae mewn ufudd-dod gwir gredinwyr, ddarostyngiad meddwl a bucheddiad i awdurdod a llywodraeth rasol yr efengyl yn mhob peth. Y mae yr Ysbryd Glân drwyddi yn caethiwo yn hyfryd bob meddwl i ufudd-dod Crist. 2 Cor. 10. 5.

DARPAR—ION—U, *Llad.* Præparatio, Apparatus: darmerthu, darbod, parotoi, arlwyo.—'I ddarparu i'r Arglwydd bobl barod.' Luc 1. 17. Y mae y geiriau yn gosod allan effaith rhagorol gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr ar yr Iuddewon. Yr oedd ei weinidogaeth yn awdurdodol, ac yn dra effeithiol; yn gweithredu yn rymus ar feddyliau ei wrandawyr: nid gwneuthur canlynwyr iddo ei hun oedd ei ddyben, ond eu parotoi i'r Arglwydd Iesu, yn barod i'w dderbyn fel y gwir Fessiah; i wrando arno, ac i ufuddhau iddo. Yr un yw effeithiau yr efengyl ar bawb, yn mhob oes; nid ydyw yn cael neb yn barod i'r Arglwydd—ond yn elynion iddo. Ond y mae yn eu parotoi hwynt iddo; sef yn dangos eu hangen o hono; ei ardderchogrwydd a'i ogoniant anfeidrol; ei gyflawnder a'i addasrwydd iddynt; ac yn eu tueddu i wneuthur derbyniad o hono, ac ufuddhau iddo. Fel hyn y maent wedi eu sancteiddio, ac yn gymhwys i'r Arglwydd; wedi eu darparu i bob gweithred dda. 2 Tim. 2. 21.

Y mae Duw, yn mawredd anfeidrol ei gariad, ei ddoethineb, a'i ddaioni ei hun, gwedi darparu, er tragywyddoldeb, bethau annhraethol i'r rhai a'i carant, ac a ddysgwyliant wrtho; ac y mae yn awr gwedi eu hegluro i ni trwy ei Ysbryd, yn yr efengyl. Ps. 31. 19. Esa. 64. 4. 1 Cor. 2. 9. Y darpariad hwn o eiddo Duw, a arwydda, ei feddwl tragywyddol am ei bobl; ei gariad tu ag atynt; ei rag-olygiad o'u cyflyrau a'u hangenion; ei rag-drefniad o bob peth iddynt yr oedd ei anfeidrol ddaioni am ei wneuthur iddynt dros dragywyddoldeb; ac effeithioldeb ei ewyllys yn cyflawni ei holl gynghor tu ag atynt hwy. Dyfnion bethau Duw ydynt, sydd yn mhell tu hwnt i feddwl pawb ond ei feddwl ei hun. Yr Ysbryd, yr hwn sydd yn chwilio pob peth, yn unig a ddichon eu hegluro i ni. Mat. 13. 11. a 16. 17. 1 Ioan 2. 27.

'A darpar-ŵyl y pasc oedd hi.' Ioan 19. 24. Y mae y gair *Gr.* *παρασκευη*, a gyfieithir yma *darpar-ŵyl*, medd y Dr. Campbell, bob amser yn arwyddo y dydd o flaen y Sabboth, ac nid y dydd o flaen un ŵyl arall, oni fyddai yr ŵyl hòno yn dechreu ar y Sabboth. Felly y geilw Marc *παρασκευη*, *y darpar-ŵyl*, 'sef y dydd cyn y Sabboth.' Pen. 15. 42. Yr oedd gorchymyn neillduol gwedi ei roddi am rag-barotoi y dydd o'r blaen i gadw y Sabboth. Exod. 16. 5, 23. Ond nid oedd gorchymyn cyffelyb am rag-ddarpariad i'r gwyliau eraill, oni byddent yn dechreu ar y Sabboth. Dichon 'darpar-ŵyl y pasc,' yn y lle hwn, arwyddo darpariad yr ebyrth hedd a fyddent yn arferol o gael eu haberthu yn saith niwrnod yr ŵyl. Num. 28. 19. Deut. 16. 2. 2 Cron. 30. 22. a 35. 7, 8, 9, 13. Yn yr holl fanau yr arferir y gair *παρασκευη*, *darpar-ŵyl*, gan yr efengylwyr, arwydda y chweched dydd, yn cyfateb i'n dydd Gwener ni, sef y dydd o flaen y Sabboth Iuddewig. Mat. 27. 62. Marc 15. 42. Luc 23. 54. Ioan 19. 14. Mewn deddf i Augustus Cesar, a goffëir gan Josephus (*Ant. lib.* vi., *cap.* 6., *sec.* 2.) y dydd o flaen y Sabboth a elwir,

*Τη προ ταυτης (υμερος σαββατου) παρασκευη.*

DARSTAIN—EINIAU—O, (ystain) dadseinio, adseinio, adleisio, diaspedain, tincio.

Can gelwyddog wefusau rhai'n
Y sydd yn *darstain* crasder.
*E. Prys*, (Ps. 31. 18.)

DAS, DEISI, *Heb.* גדיש *gadis*; twr, pentwr, crug, cruglwyth, cludair, swp. Exod. 22. 6. Barn. 15. 5. —'Dasau o ŷd.' Dr. M. Neh. 13. 15.

DATGUDDIAD. Edr. Dadguddiad.

DATTOD, neu DAD-DOD, (tawd) rhyddhau, dadgylymu, dadrwymo, dadwneuthur, dadblygu, dad-ddyrysu.—'Oblegid iddo ddattod fy rhaff, a'm cystuddio, hwythau a ollyngasant y ffrwyn yn fy ngolwg.' Job 30. 11. Wrth 'ddattod ei raff,' y mae Job yn meddwl dadrwymo, dadwneuthur, a dadblygu ei raff, fel na byddo hi yn dda i ddim, er ei bod hi o'r blaen, cyn ei dadblygu, yn gadarn i rwymo, a chadw gyd â'u gilydd. Wrth ei 'raff,' y mae yn meddwl yr awdurdod oedd ganddo fel swyddog, yr hwn oedd yn gryf fel rhaff, i gadw y bobl mewn darostyngiad ac ufudd-dod iddo. Duw a'i dadwisgodd o'r awdurdod hwn; dadblygodd ei



Digitized by Google

'raff,' a'r werinos a 'ollyngasant y ffrwyn,' neu a ymddygasant yn anllywodraethus, ac yn haerllug, fel mul neu farch, heb ffrwyn na genfa. Job 12. 18, 21. a 29. 20. 2 Sam. 16. 6. Ps. 2. 2.——'A ddattodi di rwymau Orion?' Job 38. 31. Hyny yw, A ddattodi di rwymau yr oerfel a'r rhew; a throi, drwy hyny, y gauaf yn haf? Edr. ORION.

Dyben ymddangosiad Mab Duw yn y cnawd ydoedd, i 'ddattod gweithredoedd y diafol.' 1 Ioan 3. 8. Mae y gair *Gr* λυω, a gyfieithir yma *dattod*, yn arwyddo, ***dystrywio, dinystrio;*** megys tynu i lawr adeiladaeth, trwy ddattod y defnyddiau oddiwrth eu gilydd (Ioan 2. 19. Eph. 2. 14.) dystrywiad y byd yma isod, trwy ddadglymu rhwymau yr holl elfenau, fel y byddont yn ymollwng oddiwrth eu gilydd (2 Petr 3. 10, 11. 12.) lle yr arferir yr un gair. Ymddangosodd Mab Duw yn y cnawd, i ddattod, a thrwy hyny dinystrio gweithredoedd y diafol, tros ac yn y pechaduriaid hyny a gedwir i fywyd tragywyddol. Dyoddefodd dros ein pechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn; a thrwy hyny a wnaeth iawn dros ein pechodau. Mab Duw yn y cnawd, yn iawn dros bechod, ydyw sail, sicrwydd, a'r achos haeddiannol o ddystrywiad holl lywodraeth y diafol ar bechaduriaid, a dattodiad ei holl waith ynddynt. Trwy roddi ei hun yn iawn ac yn bridwerth, dadsylfaenodd holl deyrnas y diafol: 'A thrwy farwolaeth efe a ddinystriodd yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo.' Heb. 2. 14. Gen. 3. 15. Mat. 19. 29. Luc 10. 18. Col. 2. 15. Eph. 2. 2.

Y mae Duw yn dattod rhwymau ei bobl, wrth faddeu u pechodau—symud euogrwydd o'u cydwybodau—eu gwaredu odditan lywodraeth pechod, fel nad arglwyddiaetho arnynt—eu gwaredu o ddwylaw eu holl elynion, a'u dwyn i ëangder. Ps. 116. 16. Job 36. 8. Esa. 28. 22. a 52. 2.

DATHAN, דתן [*defod*, neu *gyfraith*] mab Eliab, mab Reuben, yr hwn a gydfwriadodd gyda Corah, ac Abiram ei frawd, mewn gwrthryfel yn erbyn Moses ac Aaron. Fel yr ymunodd â hwynt yn eu gwrthryfel pechadurus, felly y cydgyfranogodd yn eu dinystr disymwth ac ofnadwy. Num. xvi.

DAU, *Gr.* δυο; *Llad.* DUO: un ac un. I ddangos y fendith, y cysur, a'r buddioldeb o fod dynion yn byw mewn cymdeithas heddychol, gariadus, gymwynasgar, gyd â'u gilydd, dywed Solomon, mai 'gwell yw dau nac un:—a rhaff deircainc ni thorir ar frys.' Preg. 4. 9, 12. Ac oblegid mai 'gwell yw dau nac un,' yr anfonodd yr Arglwydd Iesu ei apostolion allan bob yn ddau a dau, fel y gallent fod yn gynnorthwyol ac yn annogaethol i'w gilydd, yn eu gweinidogaeth dra phwysig. Marc 6. 7. Exod. 4. 14.——Y mae dwywaith, weithiau, yn cael ei roddi am rif annherfynol. 1 Bren. 17. 12. Job. 33. 14. Ps. 62. 11.

'Dau-eiriog,' yw bod yn gyfnewidiol ac yn dwyllodrus mewn geiriau: dywedyd un peth wrth un, a pheth arall wrth un arall, i ateb rhyw ddybenion gau. 'Rhaid i'r diaconiaid fod—nid yn ddau-eiriog.' 1 Tim. 3. 8. Yr un peth a feddylir wrth fod yn ddau-eiriog, a bod yn athrodwr, yn wenieithiwr, yn dwyllodrus, ac yn ansefydlog, un yn dwyn masnach yn mlaen mewn athrod, mal yr arwydda y gair *Heb.* רכל. Diar. 11. 13. a 20. 19. Y mae y cyfryw yn anaddas i fod yn *aelodau eglwysig*, a pha faint mwy i fod mewn *swyddau sanctaidd* yn yr eglwys?

'Dau-ddyblyg,' a arwydda llawnder a helaethrwydd mawr. Y mae yr Arglwydd yn 'talu yn ddau-ddyblyg,' pan y byddo yn rhoddi yn helaethion ac yn aml; bendithion ar fendithion; gras ar ras; a chysuron ar gysuron.—'Derbyniodd o law yr Arglwydd yn ddau-ddyblyg am ei holl bechodau.' Esa. 40. 2. a 61. 7. 'Hi a dderbyn o law IEHOFAH fendithion dau-ddyblyg i'w chospedigaeth am ei phechodau.' Esgob Lowth. Yn lle ei cheryddu am ei phechodau, y mae IEHOFAH gwedi troi i'w chysuro a'i bendithio hi; 'cyflawnwyd mesur ei milwriaeth' gaeth a galarus; derbyniodd IEHOFAH iawn boddlongar am ei phechod; a hithau a dderbyn fendithion amrywiol a helaeth; sef 'pob bendith ysbrydol yn Nghrist Iesu.' Eph. 1. 3. Nid yw ei chystudd a'i galar oblegid ceryddon Duw am ei phechod, ddim i'w gymharu â'i gorfoledd a'i dedwyddwch; a hwy a fyddant yn ddau-ddyblyg, yn annhraethadwy a gogoneddus. Esa. 61. 7. Job 42. 10. 2 Cor. 9. 8. Ioan 1. 16. a 8. 34. Rhuf. 5. 20. Col. 1. 19. Y mae bendithion ysbrydol yn rhagori gymaint yn eu natur a'u gwerth i ni, ar fendithion tymhorol, fel y gellir eu galw yn fendithion dau-ddyblyg; y mae dwbl lawenydd o'u herwydd—sef llawenydd trwyadl, cyflawn, a thragywyddol.*

'Gwr dau-ddyblyg ei feddwl, sydd anwastad yn ei holl ffyrdd.' Iago 1. 8. a 4. 8. *Gr.* διψυχος, *dau-feddwl;* meddwl wedi ymranu; dau feddwl yn tueddu i ffyrdd gwahanol a gwrthwynebol. 'Meddwl dau-ddyblyg,' neu 'galon ddau-ddyblyg,' (*Heb.* כלב ולב *a chalon a chalon*, Ps. 12. 2.) ydyw calon wedi ymranu (Hos. 10. 2.) y meddwl â dau wrthddrych yn ei olwg, ac wedi ymranu a chloffi rhyngddynt, ac heb benderfynu pa un o'r ddau i ddewis. Y mae Duw yn ei olwg, a'r byd hefyd yn ei olwg. Y mae ei galon anghredinIol yn ofni anhawsderau a gofidiau o'r blaen; ac hefyd yn dychrynu rhag dinystr tragywyddol o fyned yn ol. Fel Balaam, y mae yn gweled duwioldeb yn dda yn ei ganlyniadau, ond y chwant am wobr anghyfiawn yn ei attal, ac yn ei gadw hebddo.

'Deu-parth,' a arwydda, dau cymaint, neu parth helaeth. Deut. 21. 17. 2 Bren. 2. 9. Y mae Eliseus yn dymuno cael gradd helaeth o ysbryd Elias, ei ysbryd gwrol dros Dduw a'i achos, yn ngwyneb grym eilun-addoliaeth; ei ysbryd taer mewn gweddi; a'i ysbryd prophwydoliaethol a gwyrthiol. Yn hyn cafodd ei ddymuniad.

DAW—ON, neu DAWF, DOFION, mab yn nghyfraith; neu, un yn briod â merch un arall. Gen. 19. 14. 1 Sam. 18. 18. a 22. 14. 2 Bren. 8. 27. Neh. 6. 18. a 13. 28.

DAWN, DONIAU, *Heb.* נתן *neten*; *Gr.* δανος, *danos*; *Llad.* DONUM: rhodd, rhinwedd, cymhwysder i ryw beth; yr hyn a roddir yn rhad, o ewyllys da.

Gweddw crefft heb ei *dawn*. *Diar.*

Y mae yr Arglwydd Iesu yn ei galw ei hun, neu yr Ysbryd Glân, 'Dawn Duw'—rhodd rad, annhraethol Duw; rhodd ddigymhar, heb ei hail, i'w rhoddi gan Dduw ei hun. Ioan 4. 10. 'Rhoddodd—traddododd—a tharawodd ei Fab drosom ni.' Ioan 3. 26. Rhuf. 4. 25. a 8. 32. Zech. 13. 7. 'Pa wedd gyd âg ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?' Y mae Duw yn yr efengyl yn ei roddi i gynnifer ag a'i derbyniant, yn ei holl gyflawnder anfeidrol, i fod yn rhan, ïe, yn bob peth, iddynt, dros dragywyddoldeb. Ioan 1. 12. 1 Ioan 5. 12.——Y mae yr Ysbryd Glân, a'i ddoniau gwyrthiol, yn cael ei alw 'Dawn Duw.' Act. 8. 20. Y mae yr Ysbryd Glân yn 'ddawn,' neu 'rhodd Duw,' o ran ei berson—ei radau, y rhai ydynt ffrwythau yr Ysbryd—ei gysuron—a'i ddoniau. Fel y mae Efe yn Berson Dwyfol, gogyfuwch â'r Tad a'r Mab, y mae yn ddawn annhraethol. Oddiwrth ei breswyliad o ran ei Berson, yn nghalonau ei bobl, y mae ei ras a'i holl gysuron yn deillio iddynt. Y mae Efe yddynt yn ffynon o ddwfr bywiol yn tarddu i fywyd tragywyddol.——Y mae y bywyd tragywyddol trwy Grist, yn cael ei alw 'Dawn Duw,' *Gr.* χαρισμα, ***rhad rodd,***

* Benedictiones spirituales ut longe præstantiores corporalibus, eleganter proponuntur sub notione *dupli*. Cæteræ simplices sunt: hæ altero tanto præstantiores. Qui spirituales benedictiones accipit duplo gaudet. Qui corporalibus, accipit simplex. Vitringa.

Digitized by Google

rhodd rasol, neu o ras yn unig. Y mae yn anhawdd cael gair mewn un iaith yn cyfateb iddo. Nid ydyw yn arferedig gan un awdwr Paganaidd yn yr iaith Roeg. Gair cysegredig yw, a arferir gan yr Ysbryd Glân i osod allan y ffynon o ba un y mae holl rodd-ion Duw i'w bobl yn tarddu—sef ei ewyllys da ei hun. Y mae yn cael ei roddi yn hollol rad, heb ei ryglyddu gan neb; ond yn ei holl ogoniant a'i ddedwyddwch di-derfyn, a phob cymhwysder iddo, 'dawn Duw' ydyw. Dawn addas i'w anfeidrol haelioni, o wir ewyllys da Duw; ac nid oedd neb ond Duw a allasai roddi byw-yd o'r fath natur sanctaidd a gogoneddus, ei lenwi â'r fath ddedwyddwch, a'i estyn i'r fath barhad. 'Cyf-log pechod yw marwolaeth:'—y mae dyn yn haeddu hyny: ond mewn cyferbyniad i hyny, y mae yr apos-tol yn dywedyd, 'Dawn Duw yw bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd.'* Rhuf. 6. 33. Luc 12. 32. Mat. 11. 25, 26. a 25. 34. 2 Tim. 4. 8. 1 Petr 1. 3, 4.

Y mae cyfiawnder mawr yr efengyl yn cael ei alw, *dawn cyfiawnder; Gr.* δωρεας της δικαιοσυνης, *rhad rodd cyfiawnder.* Rhuf. 5. 16, 17.

Y mae cyfiawnder mawr y Cyfryngwr (a elwir *cyfiawnder Duw*, Rhuf. 1. 17. *y cyfiawnder sydd o Dduw*, Phil. 3. 9.) yn cael ei ddadguddio yn yr ef-engyl ger bron byd o bechaduriaid euog; ac y mae, fel rhad rodd Duw, trwy ffydd Iesu Grist, i bawb, ac ar bawb a gredant. Rhuf. 3. 22. Y mae yn *ddawn annhraethol* ynddo ei hun, ac yn cynnwys *pob dawn* arall ynddo, fel yn gysylltiedig âg ef. Edr. CYF-IAWNDER.

Y mae swyddau eglwysig, a chymhwysderau i gyf-lawni y dyledswyddau perthynol iddynt, yn addas, yn ffyddlawn, ac er adeiladaeth, yn cael eu galw yn *ddawn* neu *ddoniau* yr Ysbryd; y rhai y mae efe yn eu gweithredu, ac yn eu hanu i bob un o'r neilldu, megys y mae yn ewyllysio. 1 Cor. 12. 4, 11, 28, 31. a 14. 12. Rhuf. 12. 6. Gan fod Duw yn anrhyd-eddu personau â'r swyddau a'r doniau ysbrydol hyn, er ei ogoniant ei hun, yn adeiladaeth a dyddanwch ei eglwys, mae yn bechadurus ac yn beryglus iawn i *es-geuluso* eu harferyd yn ffyddlon i'r dyben y rhoddwyd hwynt.† 1 Tim. 4. 14. Act. 20. 28. Heb. 13. 17.

DAWNS, *Heb.* דוץ *douts; Dutch*, DANSSEN: *Dan.* DANTZE; *Ffr.* DANSER; *Saes.* DANCE. Mae y geiriau *Heb.* כרכר חול a gyfleithir y rhan amlaf yn ein Biblau ni *dawns, dawnsio*, yn arwyddo llamu neu bibellu o lawenydd. Y mae sôn yn yr ysgrythyrau am ddawnsio eilun-addolgar, Exod. 32. 18.—cnawdol a halogedig, Marc 6. 22.—chwarëus, Mat. 11. 16, 17. —ac ysbrydol a sanctaidd; yn dangos mewn ystum-iau gweddaidd, addas, a diwair, lawenydd sanctaidd y meddwl yn yr Arglwydd, ac am ei waredigaethau. Exod. 15. 20. 2 Sam. 6. 14. Luc 15. 25. Barn. 21. 21. Yn mhlith yr Iuddewon, meddant, y de-chreuodd dawnsio mewn dull sanctaidd; yn dangos, yn allanol, eu gorfoledd a'u llawenydd ysbrydol yn symudiadau eu cyrph, yn nghyd â chaniadau duwiol, a cherddoriaeth beraidd. Byddai yr arferiadau hyn yn eu plith ar eu huchel-wyliau, ac ar eu buddug-oliaethau nodedig ar eu gelynion. Barn. 21. 21. 1 Sam. 18. 6. a 30. 16. Fel yr oeddynt yn dirywio yn eu hysbrydolrwydd, diammeu eu bod yn dirywio yn eu caniadau a'u dawnsiau hefyd. Oddiwrth yr Iuddewon y cafodd yr Aiphtiaid yr arferiad; ac oddi yno y daeth at y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, gyda pha rai yr oedd yn rhan arbenig o'u haddoliad i'w gau-dduwiau. Yn mhlith y Pabyddion y mae yr arferiad hwn yn gyffredin ar eu huchel-wyliau, a'u Sabbothau mwyaf hynod, megys y Pasc a'r Sulgwyn. Alltud-iodd Tiberius yr ymerawdwr y cyfryw oferwyr murs-enaidd allan o Rufain. Domitian a fwriodd allan am-ryw seneddwyr o'r senedd am iddynt ddawnsio. Fel y mae yr arferiad hwn yn gyffredin yn ein plith ni, mae, yn ddiammeu, yn un o weithredoedd y cnawd, ac yn tueddu at anlladrwydd a halogedigaeth.

DEADELL—AU—OEDD, (dead) gre, mintai, gyr, byddin.—'Capten y ddiadell y elwit diadell yr Ital.' Act. 10. 1. W. S.——Y mae yr eglwys yn cael ei chyffelybu i ddeadell, oblegid lliosogrwydd ei hael-odau; eu hundeb a'u cariad at eu gilydd, eu perth-ynas â'r un bugail, sef Crist, Bugail ac Esgob eu heneidiau; y maent yn adnabod ei lais, ac yn ei gan-lyn ef yn unig; yn ymborthi ar yr un borfa, gerllaw y dyfroedd tawel, sef anchwiliadwy olud Crist. Can. 1. 7. Esa. 40. 11. Act. 20. 28.——Y mae gwallt yr eglwys yn cael ei gyffelybu i ddeadell o eifr; Can. 4. 1. sef ei haelodau bywiol o gredinwyr gwirioneddol, mewn undeb â Christ, eu pen, yn lliosog, yn hardd, ac yn agos iawn at eu gilydd mewn ffydd a chariad. Edr. GWALLT.—Ei dannedd a gyffelybir i ddeadell o ddefaid gwastad-gnaif. Can. 4. 2. Edr. DANNEDD.

'Melldigedig yw y twyllodrus, yr hwn y mae yn ei ddeadell wrryw, ac a adduna ac a abertha un llygr-edig i'r Arglwydd.' Mal. 1. 14. Pwy bynag oedd yn ewyllysio offrymu addunedau, neu roddion gwirfodd, y rheol oedd, 'offrymwch wrth eich ewyllys eich hun, un gwrryw perffaith-gwbl—nac offrymwch ddim y bydd anaf arno.' Lef. 22. 19—22. Yr oedd y bobl, yn amser y prophwyd Malachi, yn dangos eu hunain yn dwyllodrus hynod yn addoliad Duw: er mai brenin mawr ydoedd, a'i enw yn ofnadwy, etto hwy a aberth-ent un llygredig, y cloff a'r clwyfus, iddo, ac nid gwr-ryw perffeith-gwbl, yn ol y gyfraith. Fel hyn yr oeddynt yn dangos eithaf diystyrwch o hono, fel pe bu-asai y peth salaf a feddent yn ei wasanaethu. Y mae yn anfeidrol addas a chyfiawn iddo amddiffyn ei hun a'i ogoniant, trwy gyhoeddi melldith uwch ben y cyf-ryw annuwiolion twyllodrus a rhagrithiol. Mal. 1. 8, 12, 13. Hos. 11. 12. Deut. 23. 21, 22.

DEALL—US, (de-gall) dallt, dyall, gwybod, cyr-haeddgar, gwybodus. Un o alluoedd neu gynneddfau yr enaid ydyw y deall, â pha un yr ydym yn canfod gwrthddrychau, yn dirnad eu hansawdd, a'u cymharu â'u gilydd, i'r dyben i farnu yn uniawn mewn perth-ynas iddynt. Luc 24. 45. Eph. 4. 18.—Y mae cyn-nysgaethu dyn â'r gynneddf odidog hon, yn rhoddi iddo ragoroldeb nid bychan, fel creadur, ar anifeiliaid direswm. Ps. 32. 9. a 49. 20.—Nid oes gan ddeall dyn yr un gwrthddrych ynddo ei hun; ond rhaid rhoddi gwrthddrychau iddo, a rhoddi goleuni a chyfrwng addas trwy ba rai y gall edrych ar y gwrthddrychau. Gwedi hyny y mae barn dyn am danynt yn dibynu llawer ar dueddiad ac ansawdd y meddwl. O herwydd hyny, ni wel y naill ddyn ddim prydferthwch mewn gwrthddrychau sydd yn ymddangos i arall yn llawn o harddwch a gogoniant,—Y mae deall cryf gan y di-afol, a gwybodaeth helaeth; ond, oblegid y gwyrni llygredig sydd ynddo, o ran ei anian a'i dueddiad, nid ydyw yn canfod nac yn barnu yn addas am y pethau y mae yn ei wybod. Y mae yn mhob anian elyniaeth yn erbyn yr hyn sydd yn groes iddi; ac mae yr elyn-iaeth yn rhwym o gynnyddu gyda chynnydd gwybod-aeth o hono.

Y mae deall dyn, pob dyn dan y cwymp, gwedi ei dywyllu trwy bechod. Eph. 4. 18. Rhuf. 3. 11. Yr oedd gwybodaeth sanctaidd yn y deall yn rhan o ddelw Duw ar y dyn, yr hon a gollwyd trwy y cwymp: y mae gwedi ymddyeithrio oddiwrth fuchedd Duw, trwy yr anwybodaeth sydd ynddo. Fel cynneddf, y mae deall dyn wedi gwanychu yn mhob ystyr, ac yn ei gweithrediadau tu ag at bob gwrthddrych; ond yn

* Gwel Anselm *in loc.*

† Gwel Neander's *History of the Planting, &c., of the Christian Church, vol.* i. *ch.* 5. Argraffiad 1842.—C.

Digitized by Google

**DECAPOLIS**, [*deg dinasog*]. Mae y gair *Gr.* Δεκαπολις, yn arwyddo deg dinas. Ardal ydoedd Decapolis, medd Lightfoot, o du y gogledd a'r dwyrain i Fôr Tiberias; ac yr oedd rhan o honi o du y dehau-orllewin i'r môr hwnw. Enwau y dinasoedd oeddynt Bethsan, Gadara, Hippo, Pella, Capha-Tzemach, Beth-Gubron, Caphar-Carnaim, Cæsarea-Philippi, Orbo, ac un arall nad oes coffadwriaeth am ei henw: ond nid ydyw pawb o'r un feddwl am enwau dinasoedd Decapolis. Pregethodd yr Arglwydd Iesu yn y wlad hon, ac a iachaodd y trigolion cleifion oedd ynddi. Mat. 4. 25. Marc 5. 20. a 6. 31.

**DECHRE—U**, (de-cre) *Gr.* αρχη *(archê)* cychwyn, blaenu, myned yn nghylch rhywbeth.—'Yna y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd.' Gen. 4. 20. 'Galw ar enw yr Arglwydd,' a arwydda yr un peth ag addoli yr Arglwydd. Nid meddwl y geiriau yw, mai yn amser Enos y *dechreuwyd* addoli yr Arglwydd; yr oedd Abel gyfiawn yn wir addolwr Duw, a diammeu wedi ei ferthyrdod fod Adda a'i deulu yn parhau i gynnal addoliad Duw yn eu plith. Ond y geiriau a arwyddant, fod adferiad neillduol ar wir grefydd yr amser hwnw. Y mae yn dra thebygol fod addoliad Duw wedi dirywio i radd mawr yn ngwrthgiliad Cain a'i hiliogaeth; ond yn amser Enos, ymwelodd yr Arglwydd â theulu Adda, a thrwy dywalltiad ei Ysbryd arnynt, a adfywiodd ei achos sanctaidd yn eu plith. Yr oedd Enos yn *ddechreu* hâd o dduwiolion; y rhai, o oes i oes, a fu yn galw ar enw yr Arglwydd. Dyma y diwygiad cyntaf ar wir grefydd yn y byd, ac sydd yn cael ei goffâu gyda neillduolrwydd a hynodrwydd. Seph. 3. 9. Rhuf. 10. 13. Ps. 116. 17.

**DECHREUAD**, (dechreu) cychwyniad, cychwynfa, yn gyntaf. Cychwyniad amser yn gyffredinol. Gen. 1. 1. Ps. 102. 25. Cychwyniad rhyw yspaid o amser yn neillduol, megys y wladwriaeth Iuddewig, &c. Exod. 12. 2. Esa. 1. 26. Deut. 11. 12.——'Ofn yr Arglwydd yw dechreuad doethineb.' Diar. 1. 7. a 9. 10. Y dyn nad yw yn ofni yr Arglwydd, sydd heb gychwyn bod yn ddoeth; nid oes ganddo un gradd o wir ddoethineb; ond y mae ynfydrwydd a ffolineb yn ei feddiannu ef yn hollol.——'O'r dechreuad.'—1. Er tragywyddoldeb, cyn creu un creadur. Diar. 8. 23. 2 Thes. 2. 13.——2. Er cychwyniad amser, yn mhen cyntaf amser. 1 Ioan 3. 8.——3. Cychwyniad yspaid neillduol o amser, megys gweinidogaeth Crist ar y ddaear. Ioan 8. 25.——4. Cyflwr cyntaf, neu swydd oruchel. Judas 6. Edr. Angelion.

'Yn y dechreuad.' *Gr.* εν αρχη. Ioan 1. 1. Y mae yr efengylwr, yn y geiriau hyn, yn gosod allan dragywyddoldeb a dwyfoldeb Person Crist. Os oedd *yn y dechreuad*, yna rhaid ei fod *cyn y dechreuad.* Oni buasai ei fod *cyn y dechreuad*, ni allasai fod *yn y dechreuad.* Os oedd Crist, o ran ei berson, yn nechreu amser, ac yn nechreu creadigaeth, yna rhaid ei fod *cyn* amser, a *chyn* creu dim. Gan hyny, y mae efe ei hun yn ddigrëedig; ac os ydyw yn ddigrëedig, yna rhaid ei fod yn Dduw tragywyddol; canys nid oes ond Creawdwr a chreaduriaid yn bod. Nid ydyw yn dywedyd (fel Moses, Gen. 1. 1.), 'Yn y dechreuad y *creodd*' Duw y Gair, neu y gwnaed y Gair; ond *yn y dechreuad*, pan yr oedd Duw yn creu, *yr oedd y Gair;* am hyny yr oedd efe ei hun heb ddechreu, ac yn ddigrëedig. Y mae yr Arglwydd Iesu yn cael ei alw, 'y Dechreu.' Dat. 1. 8. a 21. 6. a 22. 13.——'Dechreuad creadigaeth Duw.' Dat. 3. 14. Efe yw y dechreuad, y pen, yr achos effeithiol o'r greadigaeth, a holl oruchwyliaethau Duw tu ag at y byd a'r eglwys: mae y cwbl yn dechreu o hono, ac yn diweddu ynddo ac iddo. Col. 1. 15, &c. Yr Iehofah a'i meddiannodd (ראשית דרכו) *y dechreu, y pen, y penaf* o'i ffyrdd: sef o'i waith yn y greadigaeth. Y *dechreuad* yw, am ei fod cyn pob peth—yn rhoddi bôd a chynnaliaeth i bob peth—ac uwchlaw, ac yn llywodraethwr ar bob peth. Y mae efe cyn pob peth—trwyddo ef y crewyd pob dim—ac ynddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll. Col. 1. 16, 17. Heb. 1. 10.

**DEDAN**, דדן [*eu hanwylyd*] 1. Mab Ramah, ŵyr Cus, mab Cam. Tebygol i'w hiliogaeth wladychu yn Arabia Ffelix. Gen. 10. 7.——2. Mab Jocsan, mab Ceturah o Abraham; ŵyr Abraham, a thad yr Assurim, a'r Leturim, a'r Leummim. Gen. 25. 2, 3. Y mae y Dr. Wells, a'r Dr. Blayney, yn barnu mai Dedan mab Jocsan, ac nid Dedan mab Ramah, a adeiladodd ddinas Dedan, ar gyffiniau gwlad Edom, yr hon, tebygol, mewn amser, a gysylltwyd âg Edom.* Esa. 21. 13. Jer. 25. 23. a 49. 8. Ezec. 25. 13. a 27. 15, 20. Yr oedd y Dedaniaid yn marchnata llawer â'r Tyriaid mewn ifori, ebonus, a brethynau gwerthfawr i gerbydau. Hwy a orthrymwyd yn dost gan yr Assyriaid a'r Caldeaid.

**DEDWINO**, (edwin) gwywo, diflanu, difanu, dyfetha. Ps. 31. 9. Edr. Dadwino.

**DEDWYDD—WCH**, (dy-ad-gwydd) llwyddiannus, didrwch, ffynedig, tyciannus, toraethus, gwynfydedig; gwynfyd, ffawd, ffynedigaeth.—'Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau.' Rhuf. 4. 7. Y maent yn ddedwydd o ran eu cyflwr rhyngddynt a Duw—yn ddedwydd yn mhob sefyllfa ac amgylchiad—yn ddedwydd wrth fyw ac yn ddedwydd wrth farw. Y mae maddeuant pechod yn symud ymaith yr achos, set pechod, o bob annedwyddwch. Iago 5. 11. 1 Petr 3. 14. Mat. 11. 6. Y mae dedwyddwch pob creadur yn gynnwysedig yn ei waith yn ateb y dyben, ac yn meddiannu y mwyniant hwnw y crewyd ef erddynt. Crewyd dyn i ogoneddu Duw a'i fwynhau—i edrych ar ei brydferthwch—ei addoli—ymhyfrydu ynddo—a'i ogoneddu. Collodd dyn y dedwyddwch hwn trwy ei bechod; ac y mae gwedi troi i ymofyn am ddedwyddwch mewn ffordd arall, ac mewn gwrthddrychau gwahanol. Jer. 2. 13. Ond cyfeiliorni y mae efe: rhaid iddo ddyfod yn ol at ddyben ei greadigaeth; onidê, nis gall efe fod byth yn ddedwydd: rhaid iddo gael ei ddwyn i heddwch â Duw, i fwynhau Duw, a'i ogoneddu. Nis gall gael ei heddychu â Duw heb iawn dros ei bechod; ac nis gall fwynhau Duw a'i ogoneddu heb anian addas i hyny, sef delw Duw, yn yr hon y crewyd ef. Nid oes iawn am bechod ond aberth Crist (Act. 4. 12.) ac nis gellir ei adnewyddu i ddelw Duw ond trwy yr Ysbryd Glân yn nerthol weithredu i hyny drwy yr efengyl. Nis gall, gan hyny, fod byth yn ddedwydd, heb gredu yn yr Arglwydd Iesu, a phrofi 'golchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân.' Tit. 3. 5. Gwaith hollol ofer a diles yw ymofyn am ddedwyddwch mewn un ffordd arall. Nis gall cymaint o greaduriaid ag sydd mewn bod byth lenwi lle Duw. Y maent oll yn dibynu ar Dduw am bob peth (Ps. 146. 15, 16.) ac y maent oll yn nghyd yn anfeidrol îs a llai na Duw. Am hyny nid ydyw meddiannu llawer, mwy nag ychydig o honynt, yn chwanegu dim at ddedwyddwch dyn. Nid ydyw pob gwybodaeth, ond y wybodaeth hòno sydd yn tueddu y dyn yn ol at Dduw, fel ei ddyben a'i fwyniant penaf, mewn un gradd yn gynnorthwyol tu ag at wynfydedigrwydd dyn. Rhaid ein dwyn at Dduw, ein hadferyd i ddelw Dduw, ac i gymdeithasu â Duw, neu fod yn annedwydd hollol dros byth. Eph. 5. 26. Ioan 3. 3, 16. Rhuf. 12. 2. 1 Petr 3. 18. Ps. 4. 6, 7. a 73. 25, 26. a 43. 14. a 16. 11.

**DEDDF—AU**, (dedd) *Gr.* θεσμος; cyfraith, rheol, gosodedigaeth; ordinhad, penderfyniad, cynghor, awdurdod, grym, tueddiad cryf. Y mae y gair deddf yn arwyddo, 1. Rheol a gosodedigaeth, yn rhwymo cre-

* Wells' *Geography of the Old Testament.*—Dr. Blayney on Jer. 28. 23.

Digitized by Google

pen a'u priod. 1 Cor. 9. 21. 2 Cor. 10. 5. Edr. CYFRAITH.

DEDDFWR—WYR, (deddf-gwr) 1. Dodwr cyfraith, gwneuthurwr cyfraith, rheolwr.—'Yr Arglwydd yw ein deddfwr.' Esa. 33. 22.—'Un gosodwr cyfraith sydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli,' a hwnw yw yr Arglwydd. Iago 4. 12. Y mae pob cymhwysder yn yr Arglwydd i fod yn ddeddfwr, neu yn osodwr cyfraith i'w greaduriaid—y mae ei awdurdod arnynt fel eu Creawdwr yn oruchel ac annibynol; y mae yn hanfodol ac yn anfeidrol ddoeth, cyfiawn, a da:—y mae ei holl osodiadau, gan hyny, yn ddoeth, yn uniawn, yn addas i'w greaduriaid, ac er eu llesâd mwyaf. Y mae yn ddaioni mawr yn yr Arglwydd tu ag at ei greaduriaid, iddo ymostwng i roddi rheolau iddynt, perthynol i'w cyflyrau a'u hamgylchiadau yn mhob ystyr. Eu dyledswydd a'u dedwyddwch yw ymostwng iddo yn mhob dim, a'u pechod mawr a'u hannedwyddwch yw peidio. Fel y mae Efe yn Frenin ac yn Farnwr, yn gystal ac yn Ddeddfwr, dichon gadw a cholli. *Dichon* gadw a cholli: y mae ganddo awdurdod a gallu i hyny. 1 Sam. 2. 6.——'Nid ymedy y deyrn-wïalen o Judah, na deddfwr oddi rhwng ei draed ef.' Gen. 49. 10. Y gair *Heb.* מחקק a arwydda *llywodraethwr* a *barnwr*, yn gystal a *deddfwr:* felly mae amryw o ddysgedigion yn cyfieithu y gair yn y lle hwn. *Gr.* ηγουμενος, *Tywysog.—Chal. Ysgrifenydd.—Saes. Esboniwr.—Syr. Legislator, llywodraethwr, un yn arfer awdurdodaeth.* Ni bu ond un deddfwr, neu roddwr cyfraith, i holl Israel, a hwnw oedd Moses. Num. 21. 18. Nid oedd eu breninoedd yn *ddeddfwyr*, yn yr ystyr mwyaf priodol o'r gair. Nid oeddynt ond i *gopio* y gyfraith mewn llyfr, a darllen ynddo holl ddyddiau eu bywyd; a chadw holl eiriau y gyfraith i'w gwneuthur hwynt. Deut. 17. 18, &c. Nid gwneuthurwyr deddf oeddynt yn ol eu swydd; yr oeddynt i lywodraethu y bobl yn mhob peth yn ol y gyfraith osodedig.—Y mae y geiriau yn nodi allan, yn eglur, amser dyfodiad y Messïah, dan yr enw *Silo*. Er i'r llwythau eraill golli eu llywodraethwyr a'u barnwyr yn mhell cyn hyny, etto byddai i lywodraethwr a barnwr gael ei gyfodi a'i fagu yn Judah, o oes i oes, hyd nes y delai y Silo. Wrth fendithio y llwythau, y mae Jacob yn addaw y rhagorfraint hon i Judah; sef na byddai i'r 'deyrnwïalen,' neu wïalen y llwyth, ymadael o'r llwyth, 'na'r barnwr,' neu y llywodraethwr, oddi rhwng ei draed, ond y byddai i'r llwyth barhau yn llwyth gwahanol, â'i lywodraethwyr a'i farnwyr ganddo, hyd oni ddelai y Messïah. Y mae hanesiaeth yn gwirioneddu y brophwydoliaeth; yr oedd y llywodraeth yn y llwyth hwn yn amser ein Hiachawdwr; canys darllenwn yn aml yn yr Efengylwyr am yr 'arch-offeiriaid, yr ysgrifenyddion, a'r henuriaid.' Yr ydoedd eu hawdurdod, y mae yn wir, gwedi ei chwtogi mewn prif achosion bywyd perthynol i'r llywodraeth; hwy a allasent farnu, ond nid dienyddio, heb gydsyniad y Rhaglaw Rhufeinaidd, fel y gallwn gasglu oddiwrth Ioan 18. 31. Yr oedd y deyrn-wïalen yn ymadael yr amser hwnw, a hi a ymadawodd yn llwyr, heb ddychwelyd byth yn ei hol, yn mhen deugain mlynedd gwedi hyny, pan gymerwyd eu dinas, y dinystriwyd eu teml, ac y lladdwyd hwythau â'r cleddyf, neu eu gwerthwyd yn gaeth-weision.——2. 'Y deddfwyr,' sef y llywodraethwyr, 'a ddaeth i waered o Machir.' Barn. 5. 14. 'Fy nghalon sydd tu ag at ddeddfwyr,' llywodraethwyr, 'Israel.' Adn. 9.

DEFNI, (dafn), dyferion, defni bargod, dyferion bondo.—'Ymserth gwraig sydd megys defni parhaus.' Diar. 19. 13. a 27. 15. a 21. 9, 19. Y mae y tŷ hwnw yn annymunol ac yn ofidus sydd yn gollwng defni parhaus, fel nas gall y trigiannydd fyned i'w wely eistedd wrth y bwrdd, na bwyta ei fwyd yn gysurus; felly y mae ymserth gwraig anynad yn flinder trwm a beunyddiol i'w phriod, ac yn peri pob annhrefn i'w holl deulu.

DEFNYDD—IAU—IO, (defn) sylwedd, mater, peth, elfen; yr hyn y gwneir peth arall o hono; arfer peth; defnyddio arf, yw gweithio âg ef. Esa. 54. 16.—'A'r defnyddiau gan wir wres a doddant.' 2 Petr 3. 10. 'Defnyddiau.' *Saes. Elements.* Y mae Mede yn barnu mai wrth y defnyddiau (στοιχεια) y meddylir y cyrph nefol, yr haul, y lloer, a'r ser, llu y nefoedd. Y mae y gair *Gr.* στοιχεια, yn cyfateb i'r gair *Heb.* צבא oddiwrth στειχω, *myned*, neu *gerdded*, yn drefnus, ac yn filwraidd. Y gair *Heb.* צבא yr un fath a arwydda, *sefyll*, neu *gerdded*, mewn dull milwyr: צבא השמים *llu y nefoedd*. Mede, *fol.* 613—617. 'Y nefoedd a ânt heibio gyda thwrf; a'r defnyddiau (neu y ddodrefn y nefoedd, neu luoedd y nefoedd, y rhai ydynt y cyrph nefol uwch ein penau) a doddant gan wir wres.'——Rhaid i greadur gael defnydd i weithio âg ef, neu i weithio arno; ond gall Duw wneuthur neu greu y defnydd ei hun, a rhoddi bôd i beth nad oedd mewn bôd o'r blaen, ac wedi hyny gall roddi gwahanol ddull a threfn ar y defnydd hwnw yn ddiderfyn. Heb. 11. 3.

DEFNYN—AU, (dafn) dyferyn, rhenyn bach o ryw wlybwr, megys gwlithyn.—'Efe a wna y defnynau dyfroedd yn fân.' Job 36. 27. Duw sydd yn peri fod y cymylau yn dyferu ac yn defnynu yn fân ac yn esmwyth, ac nid yn ymdywallt yn foroedd ar unwaith ar ben y byd a'i drigolion. Rhyfedd yw gwaith Duw yn crogi llèni tewion o ddyfroedd uwch ein penau; y mae ei allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni yn cael eu hamlygu mor rhyfedd yn y modd tirion, graddiannol, y mae yn dyhidlo dwfr o honynt ar ben y ddaear. Er bod Philosophyddion yn craffu ar ail achosion i'r pethau hyn, ac yn medru dangos pa fodd y mae y naill beth yn effeithio ar y llall; ond y mae yn amlwg i bob rheswm fod yn rhaid i bob ail achos gael achos o flaen hwnw, hyd nes dyfod at yr achos cyntaf, a hwnw yw Duw. 'Efe a wna,' sydd yn rhoddi iawn olygiad ar bob peth. Nid oes na gallu, na thueddiad, nac effeithioldeb mewn dim, ond fel y mae EFE yn peri hyny bob mynyd yn barhaus. Gen. 2. 5, 6. Ps. 65. 5—13. a 147. 8. Jer. 14. 22.

'Llanwyd fy mhen â gwlith, a'm gwallt â defnynau y nos.' Can. 5. 2. Arwydd o iselder a thrueni mawr yw bod dyn yn cael ei wlychu â gwlith y nefoedd, ac â gwlaw heb ddiddos. Dan. 4. 25. Esa. 4. 6.——Defni hefyd a arwydda blinder a thrallod, Amos 6. 11. yn ol ymyl y ddalen. Gellir barnu, gan hyny, fod Crist, wrth y geiriau, *nos, gwlith, defnynau*, yn cyfeirio at ei ddyoddefiadau dros ei eglwys, yn ei gyflwr o ddarostyngiad yma yn y byd, pan oedd ei chwys fel 'defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear,' yn arwydd amlwg dristwch a dyoddefiadau angeuol ei enaid yn dufewnol. Luc 22. 43. *Gr.* ωσει θρομβοι αιματος, megys *defnynau*, neu megys *tolcheni* o waed.

DEFNYNU, dyferu, dafnu, fel y daw gwlaw o'r cymylau, a'r gwlith o'r wybrenau. Barn. 5. 4. Diar. 3. 20.—'Fy athrawiaeth a ddefnyna fel gwlaw.' Deut. 32. 2. Nid fel tân yn llosgi ac yn difa; nid fel cafod ystormllyd, yn dystrywio pob peth; ond defnyna yn rasol, yn dirion, yn heddychol, fel y gwlaw, i oeri, i ddisychedu, a ffrwythloni pawb a'i derbynio.——'A'r dydd hwnw y bydd i'r mynyddoedd ddefnynu meluswin.' Joel 3. 18. Mae y geiriau i'w deall yn gyffelybiaethol, ac yn gosod allan bregethiad yr efengyl yn gyflawn ac yn ddysglaer, a thywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân ar yr eglwys, a'i chyfranogiad trwy hyny, o lawenydd annhraethadwy a gogoneddus. Esa. 2. 3. a 35. 6. a 41. 18. a 44. 3.

'Defnynwch, nefoedd, oddi uchod, a thywallted yr

Digitized by Google

wybrenau gyflawnder.' Esa. 45. 8. Wrth gyflawnder, mae i ni ddeall cyflawnder mawr yr efengyl, *dawn* cyflawnder. Rhuf. 5. 17. Mae y nefoedd yn defnynu, a'r wybrenau yn tywallt cyflawnder, pan fyddo y cyfiawnder hwnw yn cael ei bregethu yn ei anfeidrol gyflawnder a'i raslonrwydd i bechaduriaid; yr Ysbryd Glân yn cydweithredu ac yn argyhoeddi o gyflawnder; a phechaduriaid euog yn cael eu nerthu i gredu ynddo er iechydwriaeth. Y mae yr ymadrodd yn oruchel ac yn ddysglaer hardd; yn dangos fod cyflawnder a iechydwriaeth yn anwahanol gysylltiedig â'u gilydd; a bod y dadguddiad a'r cyfraniad o honynt yn effeithio yn ysbrydol er heddwch, cysur, ac ymgeledd i eneidiau pechaduriaid, fel cawodydd ffrwythlon o wlaw ar y ddaear. Ps. 72. 6, 7. a 85. 10, 11, 12.

DEFOD—AU, (def) sefydliad, trefn, gosodiad, arferiad, dull. Gen. 19. 31. Luc 2. 27. Ioan 18. 39. —'Nid oes genym ni gyfryw ddefod, na chan eglwysi Duw.' 1 Cor. 11. 16. Geill y gair *defod*, yn y lle hwn, gyfeirio naill ai at ddull gwragedd yn gweddio Duw yn ben-noeth, &c., neu ynte at ddull rhai yn bod yn ymrysongar yn nghylch rhyw fân amgylchiadau. Nid oes genym ni y cyfryw ddefod ac arferiad, na chan eglwysi Duw. Ond yn y gwrthwyneb, yr ydym ni yn ceisio addysgu ein gilydd, a chymeryd ein haddysgu gan ein gilydd yn mhob peth, mewn cariad, addfwynder, a gostyngeiddrwydd. 1 Tim. 1. 6, 7. a 6. 4.

DEFODOL, (defod) tymhorol, arferedig.—'Efe a geidw i ni ddefodol wythnosau y cynhauaf:' (Jer. 5.24.) neu, 'digonolrwydd o bethau dyfodol (neu osodedig) y cynauaf a geidw efe i ni.' Dr. Blayney. *Vulg. Sept.* Efe sydd yn rhoddi digonolrwydd o ffrwythau ar y ddaear, efe sydd yn eu haddfedu yn eu hamser; ac efe hefyd sydd yn rhoddi hin dymhoraidd ac addas i'w casglu. Er mai efe sydd yn gwneuthur hyn oll yn flynyddol yn ngolwg pawb, etto 'ni ddywedant yn eu calon, Ofnwn weithian yr Arglwydd ein Duw.'

DEFOSIWN—YNAU, *Llad.* DEVOTIO; *Saes.* DEVOTION: duwiolder, duwiolfrydedd, crefyddolder, dyhewyd.—'Wrth ddyfod heibio, ac edrych ar eich defosiynau.' Act. 17. 23. *Gr. τα σεβασματα, eich defosiynau*—eich *duwiau a addolwch.* Ymyl y ddalen. Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu yn 2 Thes. 2. 4. 'yr hyn a addolir.' Y mae hefyd yn cael ei arferyd am wrthddrych addoliad, sef Duw, a dybient ei fod felly. Doeth. 14. 20. Nid ydyw yn cael ei briodoli i'r gwir Dduw. Y mae y gair yn arwyddo, yn y lle hwn, ymroddiad yr Atheniaid i'w harferiadau crefyddol, y fath ag oeddynt yn amlwg i'r apostol oddiwrth amldra eu hallorau. 'Wrth ddyfod heibio, ac edrych ar eich defosiynau, mi a gefais allor yn yr hon yr ysgrifenasid, I'R DUW NID ADWAENIR.' Yn mhlith y pethau yr oeddych yn eu haddoli (eich *σεβασματα*) mi a welais allor â'r ysgrifen hon arni, 'Yr hyn a addolir.' 2 Thes. 2. 4. *Gr. η σεβασμα.* Mae y gair yn cyfeirio, medd yr Esgob Newton, at gyfenwad ymerawdwyr Rhufain, *σεβαστος, ardderchog, parchadwy.* Y mae yr apostol yn rhagfynegi y byddai i'r 'dyn pechod, mab y golledigaeth,' ymddyrchafu, nid yn unig goruwch y swyddwyr cyffredin a'r barnwyr, y rhai a elwir weithiau yn dduwiau yn yr ysgrythyrau; ond hefyd goruwch esgobion, a'r prif esgobion, breninoedd, ymerawdwyr—ie, goruwch Crist, a Duw ei hun—'hyd onid ydyw efe, megys Duw, yn eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw.' Pan fyddo y Pab yn cael ei urddo, a'i gysegru, gosodir ef i eistedd ar orsedd uwch ben yr allor fawr yn eglwys St. Petr, yn Rhufain, a'r allor dan ei draed; ac yno, megys Duw, yr ymgrymir ger ei fron, ac y rhoddir addoliad iddo. Esgob Newton, *Dissert.* xxii.

DEFOSIYNOL, duwiol, sanctaidd, addolwr Duw. —'Gwr defosiynol.' Act. 10. 2, 7. a 22. 12. Gwr sanctaidd—gwr duwiol—milwr duwiol. Act. 10. 7. Dr. M. Mai y gair *Gr. ευσεβης*, yn arwyddo *addolwr gwir a pharod.* Y cyfryw un ydoedd Cornelius y canwriad, a milwr oedd dano, yn gystal ag Ananias. Nid oes un sefyllfa na galwad gyfreithlawn yn anaddasu dynion i fod yn wir addolwyr Duw; ac anrhydedd penaf pawb, yn mhob gwlad a sefyllfa, ydyw bod felly. Y mae dyled ar bawb i'w addoli; ac y mae angen ar bawb am dano.

DEFFRO—I, (dy-effraw), adfywio, dihuno, bod yn astud; dadebru, cyffroi yn fywiog, ac ymosod at ryw orchwyl yn fywiog ac yn egniol. Barn. 5. 12. Fel y mae cwsg naturiol yn perthyn i'r corph, a'r enaid yn ddarostyngedig i gwsg ysbrydol a phechadurus; felly y mae deffroi yn arwyddo ymysgwyd ac ymgyffroi oddi wrth syrthni y corph neu y meddwl: hefyd, cyfodiad o farwolaeth naturiol neu ysbrydol. Gen. 28. 16. Barn. 16. 14. Job 14. 12. Ps. 3. 5. a 139. 18. Dan. 12. 2. Eph. 5. 14.——'Deffroi o gysgu,' a 'deffroi yn gyfiawn,' sydd yn arwyddo adfywiad cyffrous y meddwl at gyflawnder, at bethau ysbrydol a thragywyddol; i synied am danynt gyd â'r dyfalwch, y serch, a'r dwysder sydd ddyladwy i'r cyfryw bethau anfeidrol eu gogoniant. Dynion gwedi eu deffroi oedd y tair mil, Act. ii. ceidwad y carchar, Act. xvi.—agwedd ddeffro iawn a welir ar Paul, 2 Cor. 5. 9, 10, 11. Phil. 3. 8.—y rhai y sonir am danynt yn Esa. 2. 3, 4, &c. Ezec. xxxvii. ——Y mae colledigaeth dragywyddol yn nglŷn wrth gwsg ysbrydol a phechadurus. Mat. 25. 8. 9, 10. Luc 12. 20.——Y mae yn gynnwysedig mewn gwir ddeffroad ysbrydol gan yr Ysbryd Glân, trwy yr efengyl, adnabyddiaeth oleu o'n cyflyrau fel pechaduriaid—cydnabyddiaeth ddeffrous o enbydrwydd a mawr berygl ein cyflwr—ymgais ddifrifol am waredigaeth ac ymgeledd —dyfal arferiad o bob moddion yn tueddu i hyny—a gwerthfawrogi Crist a'i iechydwriaeth uwchlaw pob peth. Edr. CYSGU.

'Pan ddeffroech, y dirmygi eu gwedd hwynt.' Ps. 73. 20. 'Gwnai eu gwedd hwynt yn ddirmygus yn y ddinas, O Arglwydd.' Dr. M. *Gr.* Κυριε, *εν τη πολει σου την εικονα αυτων εξουδενωσεις, O Arglwydd, yn y ddinas, eu gwedd hwynt a wnei yn ddim.* LXX. Y mae y gair *Heb.* עיר yn arwyddo *deffroi, cynhyrfu*; ac yn cael ei briodoli i ddinas, oblegid y cyffro a'r cynhwrf sydd ynddi. Hyn a arweiniodd rai i'w gyfieithu yn y llyfr hwn, *dinas*, ac eraill *deffroi.* Yn ol ein cyfieithiad ni, y geiriau a arwyddant, pan ddeffroi yr Arglwydd, neu pan y deffroi yr Arglwydd yr annuwiolion bydol, esmwyth, y byddai iddo y pryd hwnw ddirmygu eu gwedd hwynt; sef hwy yn y wedd falch, greulawn, fydol, gnawdol, a phechadurus, a fu arnynt yma yn y byd. Adn. 6, 7. Yn y wedd oreu a fu arnynt, nid oeddynt ond fel breuddwyd aneilun un yn cysgu. Nid oedd na sail na sylwedd yn eu holl wychder a'u dedwyddwch. Hwy a gyfodant i warth a dirmyg tragywyddol. Eu tegwch a dderfydd yn y bedd o'u cartref. Ps. 90. 5. Job 20. 6—9. a 36. 8, 9. Dan. 12. 2. 1 Cor. 7. 31. Luc 12. 19, 20. Ps. 49. 14.

Y mae 'cysgu' a 'deffroi,' yn cael eu priodoli yn allegawl i'r Arglwydd, ac a arwyddant, cyfnewidiad ei ragluniaethau tu ag at yr eglwys a'i gelynion. Y mae yr eglwys yn achwyn yn drwm, Ps. 44. 9, &c., 'Nid wyt yn myned allan gyd â'n lluoedd; gwnaethost i ni droi yn ol oddiwrth y gelyn,' &c. 'Deffro, paham y cysgi?' &c. Adn. 23. Y cyfryw amser na byddo yr Arglwydd yn ymddangos yn gyhoeddus, yn alluog, ac yn awdurdodol, o blaid ei eglwys, sydd, gan hyny, yn cael ei gyfrif fel pe byddai yn cysgu. Ond pan y byddo yn ei ragluniaethau barnedigaethol yn taro ei elynion, yn eu dyrysu, ac yn eu siomi yn eu holl gynghorion a'u hamcanion; yn eu maglu yn eu rhwydau eu hunain; yna y dywedir ei fod fel un wedi deffroi

Digitized by Google

Ps. 78. 65. ‘Rhoddes ei bobl i'r cleddyf—tân a ysodd eu gwyr ieuainc;—yna y deffrodd yr Arglwydd fel un o gysgu, fel cadarn yn bloeddio gwedi gwin; ac efe a darawodd ei elynion o'r tu ol; rhoddes iddynt warth tragywyddol.’ Ni raid iddo ond deffroi, fel Crist ar y môr, i orchfygu ei holl elynion, ac i ostegu pob ystorm. Mat. 8. 25. Marc 4. 39. Zech. 2. 13. Y mae dau beth yn deffroi yr Arglwydd o'i gwsg; sef llid ei elynion, a'u creulondeb tu ag at ei bobl. Ps. 7. 6. a 78. 65, 66. Y mae gweddiau ei bobl yn eu cyfyngderau, hefyd, yn ei ddeffroi i'w hamddiffyn hwynt. Esa. 51. 9, 10. a 62. 1. Luc 11. 7. Mat. 8. 25.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn cael ei osod allan fel yn gorphwys yn fuddlon yn nghymundeb ei bobl, ac yn ‘llonyddu yn ei gariad.’ Y mae yr eglwys yn tynghedu merched Jerusalem, na fyddai iddynt ei ddeffroi na'i aflonyddu, a pheri iddo gilio, trwy un dymher, ymarweddiad, egwyddor, nac agwedd anaddas. Y mae cysgadrwydd ysbrydol—caledrwydd calon—ysbryd annghrediniol, anniolchgar, tuchanllyd—a bywyd penrhydd, yn deffroi, yn digio, ac yn tristâu yr Arglwydd, ac yn peri iddo gilio oddiwrth ei bobl. Can. 2. 7. a 3. 5. a 8. 4. Seph. 3. 17. Exod. 23. 20, 21. Esa. 59. 2. a 63. 10. Eph. 4. 30. Y mae Crist yn ei eiriolaeth fry yn y nef, a'r eglwys yn ei gweddïau yma ar y ddaear, yn erfyn ar yr Ysbryd Glân, dan y gyffelybiaeth o ‘ogledd-wynt,’ i ddeffroi, ac i chwythu yn fywiog, yn nerthol, ac yn iachus, ar yr eglwys, dan y gyffelybiaeth o ardd, fel y byddai ei gras, fel pêr-arogl-au, gael eu hadfywio i sirioldeb a ffrwythlonrwydd, a'u gwasgaru er gogoniant ei phriod, ac adeiladaeth eraill, yn gystal a'i chysur ei hun. Can. 4. 16. Gan fod yn anhawdd penderfynu pa un ai Crist ai yr eglwys sydd yn llefaru yn y geiriau, nid anaddas eu golygu fel iaith pob un o'r ddau, gan eu bod yn y dymuniad hwn yn hollol gytuno.

**DEG—AU**, *Gr.* δεκα (*deka*); *Llad.* DECEM: naw ac un; rhif o berffeithrwydd.—‘Deng waith,’ hyny yw, llawer gwaith. Gen. 31. 7.——‘Deg o feibion,’ hyny yw, llawer o feibion. 1 Sam. 1. 8.——‘Deg o wragedd,’ hyny yw, amryw o wragedd. Lef. 26. 26. Rhifedi terfynedig am rifedi annherfynedig.——‘Deg punt—deg talent,’ sydd yn arwydddo amryw ddoniau, oedfaon, a manteision. Luc 19. 12—25. Mat. 25. 14—30.——‘Degfed ran y ddinas a syrthiodd,’ (Dat. 11. 13.) sef un deyrnas, un o'r deg corn, neu ran fawr o diriogaeth Anghrist.——Y mae ‘deng niwrnod’ yn arwyddo yspaid o amser terfynedig gan Dduw. Y mae Brown, Esgob Newton, ac eraill, yn barnu fod y deng niwrnod yn arwyddo deng mlynedd o erlidigaeth yr eglwys dan Dioclesian; ond nid ydyw hyny yn ymddangos â sail iddo; oblegid nis gellir profi, trwy un hanes, i eglwys Smyrna ddyoddef deng mlynedd o erlidigaeth dan un ymerawdwr, mwy na'r eglwysi eraill. Y mae Vitringa yn sylwi, gan fod deg yn rhif o berffeithrwydd, ei fod yn arwyddo amser hir, yn hytrach na byr, os bydd amgylchiadau yr ymadrodd yn goddef. Gen. 31. 7, 41. 1 Sam. 1. 8. Y mae ‘cystudd ddeg niwrnod,’ gan hyny, yn arwyddo cystudd trwm a pharhaus.* Dat. 2. 10. Y mae amser, a phob amgylchiad perthynol i gystudd ei bobl yn hysbys i'r Arglwydd, a than ei drefniad. Er mai Satan a'i offerynau sydd yn carcharu ac yn cystuddio; etto, mesur Duw sydd iddynt, o ran amser a graddau, ac nid eu mesur eu hunain. Y mae creulondeb y diafol tu ag atynt yn ddiderfyn, ond terfyn ei allu ei hun i'w cystuddio; ond ‘tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog.’ Iago 5. 12. Esa. 27. 8, 9.

**DEG-TANT.** Y mae y gair *Heb.* עשור a gyfieithir *deg-tant*, i'w weled dair gwaith yn llyfr y Psalmau; sef yn Ps. 32. 2. a 92. 3. a 144. 9. Priodol ystyr y gair ydyw *deg*; ond nid yw yn arwyddo offeryn cerdd mewn un man arall o'r ysgrythyrau. Y mae yn ddadl yn mhlith y dysgedigion pa un ai darluniad o'r nabl, sef y nabl deg-tant, neu a ydyw yn arwyddo offeryn cerdd gwahanol oddiwrth y nabl. Yn Ps. 33. 2. a 144. 9. gellir ei olygu fel darluniad o'r nabl fel enw gwan; yn Ps. 92. 3. y mae gosodiad y gair fel pe bai yn enw cadarn, ac yn arwyddo rhyw offeryn gwahanol oddiwrth y nabl; ‘Ar ddeg-tant, ac ar y nabl.’ Am ei lun, a'r dull o chwareu arno, nid ydyw ond gwaith ofer ymofyn yn nhywyllwch hynafiaeth; ac nid ydyw y golled o bwys.

**DEGWM—YMAU**, y degfed, y ddegfed ran o unrhyw beth. Rhoddodd Abraham i Melchisedec, fel offeiriad y Duw goruchaf, ‘ddegwm o'r anrhaith,’ ar ol ei fuddugoliaeth ar y breninoedd, fel arwydd o'i gydnabyddiaeth ddiolchgar o ddaioni yr Arglwydd yn rhoddi y fuddugoliaeth iddo. Gen. 14. 20.——Addunedodd Jacob yn Bethel i'r Arglwydd, ‘O'r hyn oll a roddech i mi, gan ddegymu mi a'i degymaf i ti.’ Gen. 28. 22.——Dan gyfraith Moses yr oedd tri math o ddegymau i gael eu talu gan y bobl (heblaw y rhai yr oedd y Lefiaid i'w talu i'r offeiriaid. Num. 18. 26, 27, 28.) sef yn 1. I'r Lefiaid, tu ag at eu cynnaliaeth. Lef. 27. 30—33. Deut. 18. 1. Num. 18. 21. ‘Mi a roddais i feibion Lefi bob degwm yn Israel, yn etifeddiaeth am eu gwasanaeth y maent yn ei wasanaethu, sef gwasanaeth pabell y cyfarfod.’ Yr oeddynt i'w fwyta yn eu hanneddau: ‘a bwytewch ef yn mhob lle, chwi a'ch tylwyth.’ Adn. 31. Am hyny yr oedd i'w dalu yno hefyd. Neh. 10. 37.——2. Yr oeddynt hwy i ddegymu eu hŷd, eu gwin, eu holew, a chyntaf-anedig eu gwartheg, a'u defaid; ac yr oeddynt i'w fwyta ger bron yr Arglwydd eu Duw, yn y lle a ddewisodd efe i drigo o'i enw ef ynddo, hyny yw, yn Jerusalem; a chyn hyny yn y manau y trefnodd yr Arglwydd i'w babell fod. Ond os byddai y ffordd yn rhy hir, fel na allent ei ddwyn ef yno, yr oeddynt hwy i dalu ei werth yn arian. Yr oedd y degwm hwn at gynnal gwyliau ac offrymau i'r Arglwydd. Deut. 14. 22—27.——3. Heblaw y degymau hyn, yr oedd degwm arall bob tair blynedd; ‘a'r Lefiaid, a'r dyeithr, a'r amddifad, a'r weddw, y rhai a fydd yn dy byrth di, a ddeuant, ac a fwytânt, ac a ddigonir.’ Deut. 14. 28, 29. Y mae rhai yn ammeu pa un a ydoedd hwn yn wahanol oddiwrth yr ail, mewn un ystyr, ond ei fod i'w fwyta yn eu cartrefydd yn lle Jerusalem, yn nghyd â'r Lefiaid a'r tlawd, bob trydedd flwyddyn. Gwel Ainsworth ar Deut. 14. 22. Goodwin's *Moses and Aaron*, *lib.* 6, *cap.* 3.—Selden, Prideaux, Sir Henry Spelman, Calmet.

Byddai y Groegwyr a'r Rhufeiniaid yn degymu eu meddiannau i gynnal aberthau i'w heilunod.* Byddai y Phariseaid yn degymu y mintys, a'r anis, a'r cwmin. Ac er nad ydyw yn ymddangos fod degwm llysiau yn ofynedig; er hyny, nid ydyw yr Arglwydd Iesu yn beio arnynt am wneuthur hyny, ond am ‘adael heibio y pethau trymach o'r gyfraith.’ Mat. 23. 23. Mae llawer o ddadleuon gwedi bod, ac etto yn bod, mewn perthynas i foesoldeb degymau; ac felly yn rhwymo pawb, yn mhob oes, a than bob goruchwyliaeth, i gysegru y ddegfed ran o'u meddiannau i'r Arglwydd. Gan mai achos mewn dadl ydyw, yn mhlith y rhai mwyaf o ran eu dysg a'u doniau,† rhyfyg a fyddai i mi

* Denarius enim numerus est obsolutus & et perfectus, ac proinde significationem habet temporis longioris, si circumstantæ oratiunis faveant.—Persecutio, quæ hic prænnnciator Smyrnæis, ita a domino, describitur, ut præsumere deberent, eam fore gravissimam—tam haud dubie respectu malorum quæ sustinerent, quam respectu temporis, quod ex divino consilio illi afflictioni destinatum erat. Vitringa *in loco*.

* De Lært *in vita Salonis*. Herodotus *in Clio*.

† Gwel y ddadl yn cael ei gosod i lawr yn helaeth yn *Cyclopædia* Chambers, gan y Dr. Rees, dan y gair TITHE.



Digitized by Google

feddwl ei benderfynu. Ond hyn a ellir ei farnu, gyda phob sicrwydd, ei fod yn ddyledswydd ar bawb i anrhydeddu yr Arglwydd 'â'u *holl* gyfoeth, a'r pethau penaf o'u holl ffrwyth—felly y llenwir eu hysguboriau â digonoldeb.' Diar. 3. 9, 10. Nid oes angen ar yr Arglwydd am ddim; ete bîau bob peth; ond y mae yn dysgwyl cydnabyddiaeth ddiolchgar oddi wrthym, o'i ben-arglwyddiaeth a'i ddaioni, yn rhoddi i ni mor helaeth; a bod gofal genym ni am ei achos a'i addoliad yn y byd.

DEHAU, DEHEU, DEHEU-BARTH. Geilw yr Hebreaid bedwar pwynt y nefoedd, קדם *o'r blaen*, y dwyrain—אחור *tu ol*, y gorllewin, שמאל *yr aswy*, y gogledd—מין *deheulaw*, y dehau. Golygu dyn yn sefyll â'i wyneb tua chodiad yr haul, y mae y dwyrain o'i flaen, y gorllewin o'i ol, y gogledd ar ei law aswy, a'r dehau ar ei law ddehau.*——Yn yr ysgrythyrau, nid ydyw y gair dehau yn arwyddo hanner cylch deheuol y ddaear, neu yr wybr, ond rhyw le neu wlad yn gorwedd yn y dehau i ryw wlad arall. Y mae yn nodi, yn aml, rhyw anialdir o du y dehau i Jerusalem; yn cynnwys anialwch Shur, Sin, a Paran, mynydd-dir Idumea, a rhan o Arabia Garegog.†

'Dywedaf wrth y dehau, Nac attal.' Esa. 43. 6. Y mae yr Arglwydd yn llefaru gyd â'r un mawrhydi ag wrth greu y byd, pan y dywedodd, 'Bydded goleuni.' Mae ei bobl yn cae leu golygu fel carcharorion Satan, yn cael eu hattal ganddo; ond fel nas gallasai angeu attal Pen mawr yr eglwys, wedi iddo wneuthur cyflawn iawn dros bechod, felly nis gall Satan a'i holl luoedd attal y prynedigion, pan ddywedo yr Arglwydd trwy yr efengyl, 'Nac attal.'——Wrth y dehau y meddylir, preswylwyr y dehau; sef preswylwyr y gwledydd deheuol o wlad Judea, pa rai ydynt Arabia, Seba, Lybia, yr Aipht, ac Ethiopia. Num. 13. 29. Mat. 12. 42. Dan. 8. 9. a 11. 5. Obad. 19.

'Meddianna di y gorllewin a'r dehau.' Deut. 33. 23. Nid yw y cyfleithiad hwn yn un â gwirionedd yr hanesiaeth ysgrythyrol; rhan llwyth Naphtali oedd y parth mwyaf gogleddol o'r wlad; ac yr ydoedd llwythau Aser a Naphtali yn gwladychu i'r gorllewin iddo. Priodol ystyr y gair *Heb.* ים a gyfleithir *gorllewin*, ydyw, *y môr*, fel y cyfleithir ef gan y LXX. a'r *Vulgate*; a'r môr a feddylir yma ydyw môr Cinnereth (Jos. 12. 3.) neu lyn Gennesaret (Luc 5. 1.) môr Galilea, môr Tiberias. Ioan 6. 1. Yr oedd llwyth Naphtali yn meddiannu rhan fawr o'r môr hwn; sef y rhan orllewinol o'r gogledd i'r dehau. Y prophwyd Esaiah, yn llefaru am lwyth Naphtali, a'i darlunia fel yn sefyll 'wrth ffordd y môr.' Esa. 9. 1. Mat. 4. 13, &c. Am hyny dylai y geiriau gael eu cyfleithu, 'Meddianna di y môr a'r dehau.'

DEHEULAW, llaw ddehau. Llaw ddehau mewn cyferbyniad i'r llaw aswy.—Yn allegawl, deheulaw a arwydda gallu yn cael ei arferyd yn orchestol ac yn egnïol, i gyflawni rhyw waith neu orchwyl, ac yn cael ei briodoli i'r Arglwydd, ac i ddyn. Exod. 15. 6, 12. Job 40. 9, 14. Ps. 17. 7. a 18. 35. a 20. 6. a 21. 8. 45. 4. a 74. 11. a 77. 10. a 89. 42. a 118. 15, 16.—Lle o barch, dyrchafiad, ac anrhydedd. 1 Bren. 2. 19. Ps. 45. 9.—Agosrwydd at un. Ps. 91. 7. a 109. 6, 31. a 110. 5. a 121. 5. Job 30. 12. Zech. 3. 1.——Dyrchafwyd Crist 'â deheulaw Duw;' sef â rhagorol fawredd nerth ei gadernid ef, mewn dull dwyfol arddercbog. Act. 5. 31. Eph. 1. 19, 20.——Y mae yn cael ei alw, 'Gwr ei ddeheulaw;' (Ps. 80. 17.) sef y gwr y mae efe yn ei garu, ei anrhydeddu, ac yn ei gynnorthwyo yn alluog.——Galwodd Jacob y mab yr hwn oedd anwyl ganddo, Benjamin, sef mab y ddeheulaw.

* Gwel Caryl ar Job 23. 9.—Geirlyfr y Dr. Davies.

† *Complete System of Geography, vol.* ii. *p.* 1223.—Shaw's *Travels, p.* 438.

Gen. 35. 18.—Crist ydyw y mab hwnw, yr anwylyd (*ο υιος μου ο αγαπητος*, *fy mab hwn, yr anwylyd*) yn yr hwn y boddlonwyd y Tad, ac yn yr hwn y mae yn gwneuthur eraill yn gymeradwy fel meibion; ac er mwyn yr hwn y mae yn caru pob un ag y mae yn ei garu. Mat. 3. 17. Marc 1. 11. a 9. 7. Diar 8. 30. Eph. 1. 6. Col. 1. 13.

Y mae Crist wedi ei ddyrchafu, a'i osod i eistedd ar ddeheulaw Duw—ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd. Ps. 110. 1. Mat. 22. 44. Marc 12. 36. Luc 20. 42. Act. 2. 33, 34. Eph. 1. 20. Heb. 1. 3. Y mae eisteddiad Crist ar ddeheulaw Duw, tybygaf, yn cael ei briodoli iddo o ran ei swydd offeiriadol, ac o ran ei swydd freninol.—Yn Heb. 1. 3. dywedir am dano, fel offeiriad, 'Gwedi iddo buro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd.' Y mae cyfeiriad yn y geiriau hyn at fynediad yr arch-offeiriad ar ddydd mawr y cymmod i'r cysegr sancteiddiolaf. Lef. 16. 2—19. Yr oedd yno arddangosiad o'r presennoldeb dwyfol ar yr orsedd. rhwng y cerubiaid, yn gysgod o'r nefoedd. Yr archoffeiriad yn unig oedd i fyned i mewn yno, a hyny yn unig un dydd yn y flwyddyn. Pan yr âi i mewn, yr oedd yn sefyll yn gweini, gyda phob gostyngeiddrwydd a pharch, o flaen y cynnrychioliad o'r presennoldeb dwyfol. Nid oedd i fyned yno i eistedd rhwng y cerubiaid, ond i addoli wrth droed-fainc yr Arglwydd, ac i fyned allan drachefn. Adn. 17. Ond nid felly y gwnaeth Crist, medd yr apostol; gan fod ei aberth yn anfeidrol fwy ei werth a'i effeithioldeb nag yr eiddynt hwy; felly, wedi iddo ei offrymu, aeth i'r lle sancteiddiolaf, sef i'r nef ei hun, i'r presennoldeb gwirioneddol, dwyfol, a gogoneddus; nid i weini mewn iselder a darostyngiad, ond i gyfranogi o orsedd-fainc y mawredd a'r gallu: gan hyny, mae yn offeiriad ar ei frenin-fainc. Zech. 6. 13. Y mae hyn yn dangos, yn y modd mwyaf cadarn ac eglur, anfeidrol werth a digonolrwydd ei aberth. Heb. 9. 11, 12.

Y mae yr Arglwydd Iesu, fel brenin, yn eistedd ar ddeheulaw Duw—ar ddeheulaw y gallu—ar ddeheulaw gallu Duw. Mat. 26. 64. Luc 22. 69. Heb. 8. 1. Y mae 'eistedd' yn arwyddo yn yr ysgrythyrau, yr un peth a theyrnasu. 'Yr Arglwydd sydd yn eistedd yn frenin yn dragywydd.' Ps. 29. 10.—'Eistedd y mae Duw ar orsedd-fainc ei sancteiddrwydd.' Ps. 47. 8. a 99. 1.—'Yr hwn sydd yn preswylio (ישב *yr hwn sydd yn orseddawg*) yn y nefoedd a chwardd.' Ps. 2. 4.—'Ac a eistedd, ac a lywodraetha ar ei frenin-fainc.' Zech. 6. 13. 'Eistedd ar fy neheulaw—llywodraetha di yn nghanol dy elynion.' Ps. 110. 2.——Y mae 'eistedd ar ddeheulaw Duw, yn arwyddo ei fod yn eistedd ar orsedd-fainc Duw, fel y mae yr un orseddfainc yn perthynu i 'Dduw a'r Oen.' Dat. 3. 21. a 22. 1. Act. 7. 56. Mae eistedd ar yr un orsedd, yn arwyddo cyd-deyrnasu.* Nid ydyw y Tad yn peidio a theyrnasu, fel llywodraethwr mawr ar yr holl greadigaeth; ond rhoddodd i'r Mab, fel Cyfryngwr, orsedd a llywodraeth mor ëang, mor alluog, mor ogoneddus a dyrchafedig, a'i orsedd ei hun; a phob cymhwysderau i'r fath anfeidrol ddyrchafiad. Nid *sefyll* y mae yr Arglwydd Iesu, fel gweinidog brenin, ond *eistedd*, fel brenin ar ei orsedd. Y ddeheulaw ydyw y llaw sydd yn dal y deyrnwïalen; eistedd ar ddeheulaw brenin yn dal y deyrnwïalen yn ei ddeheulaw, gan hyny, a arwydda fod y deyrnwïalen yn y canol rhwng y ddau; sef eu bod yn cyd-gyfranogi yn y llywodraeth. Rhoddes yr Hen Ddihenydd (sef Duw) i'r Arglwydd Iesu, fel Cyfryngwr, lywodraeth, a gogoniant, a breniniaeth; fel y byddo i'r holl bobloedd, cenedloedd, a ieithoedd ei wasanaethu: 'ei lywodraeth sydd lywodraeth dragywyddol, yr hon nid â ymaith, a'i freniniaeth ni ddyfethir.' Dan. 7. 14. Y mae gwedi ei ddyrchafu

* Gwel Vitringa.

Digitized by Google

goruwch pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw.* Eph. 1. 21.——Y mae eisteddiad Crist, gan hyny, ar ddeheulaw Duw, yn arwyddo, ei gyfranogiad o gyflawnder o lawenydd a digrifwch; (Ps. 16. 11.)—o fawrhydi dwyfol ardderchog; (1 Bren. 2. 19. Mat. 20. 27.)—y cyfryw fawredd nad yw yn gweddu i un creadur byth gyfranogi o hono; (Heb. 1. 4, 5, &c.)—gallu a llywodraeth ar bob peth; (Ps. 110. 1. Act. 2. 33. 36.)—ei gymhwysderau anfeidrol yn ei addasu i'r fath ddyrchafiad. Dat. 5. 12, 13.——Ei waith yn eistedd ar ddeheulaw Duw a arwydda, hefyd, ei fod yn y cwbl feddiant o'i orsedd, neu ei lywodraeth, gyda sicrwydd a diogelwch heddychol. Mae wedi ei *osod* arni, yn ol arfaeth ddwyfol; gyda boddlonrwydd yr holl bersonau a'r priodoliaethau dwyfol; er gorfoledd holl luoedd Duw, angelion a gwaredigion. Y mae ei orsedd wedi ei chadarnhau trwy gyfiawnder;—pwy, gan hyny, a feiddia, neu, a all ei dynu oddi arni? Neb byth.† Ps. 45. 6. Luc 1. 33. Mic. 4. 7.

'Cynnaliaf di â deheulaw fy nghyfiawnder.' Esa. 41. 10. Deheulaw yn gwneuthur ac yn amddiffyn cyfiawnder; yn cyflawni holl osodiadau a barnedigaethau cyfiawnder dwyfol. Y mae Duw yn cynnal ei bobl yn gyfiawn, yn ogoneddus, ac yn effeithiol.——'Etto, cofiaf flynyddoedd deheulaw y Goruchaf.' Ps. 77. 10. Blynyddoedd, neu, medd eraill, cyfnewidiadau deheulaw y Goruchaf; sef y cyfnewidiadau a weithredodd ei ddeheulaw, mewn amseroedd gynt, pan oedd pob peth yn isel, yn gyfyng, ac agos yn anobeithiol. Yr un ydyw efe etto, ac yr un yw ei ddeheulaw mewn cadernid ac effeithioldeb; ie, y *Goruchaf* ydyw efe; goruwch pob gelyn, pob creadur, a phob anhawsderau; yn oruchel, yn alluog, ac yn dragywyddol. Beth nas dichon y cyfryw un ei wneuthur o blaid fy enaid llesg a digalon? Fy ngwendid ydyw peidio gobeithio ynddo, a dysgwyl wrtho.——'Calon *(deall, synwyr)* y doeth sydd ar ei ddeheulaw,' yn barod i'w ddefnyddio gyda deheudra ac effeithioldeb. Preg. 10. 2. a 2. 14.

**DEHEU-WYNT.** Gwynt araf, gwresog, ydyw y deheu-wynt, yn gyffredinol. Job 37. 17. Luc 12. 55. Gellir meddwl, gan hyny, mai wrth y deheu-wynt, yn Can. 4. 16. y mae i ni ddeall, goruchwyliaethau adfywiol a chysurus yr Ysbryd Glân, yr hwn, yn yr ysgrythyrau, a gyffelybir i wynt. Ioan 3. 8. Y mae anadliad yr Ysbryd Glân yn angenrheidiol yn ei wahanol oruchwyliaethau, tu ag at adfywiad, ffrwythlonrwydd, cynnydd, ac addfedrwydd gras yr eglwys, fel y gwynt naturiol ar ardd o bêr-lysiau.

**DEHONGL—IAD,** (de-hongl) lladmeru, hysbysu, egluro, esbonio. Dehongli breuddwydion a gweledigaethau oedd ddawn neillduol Duw i rai o'i weision, megys Joseph, Daniel, &c. Gen. 40. 22. a 41. 12. 15.——Rhoddir dehongli am gyfieithu yn Ioan 1. 41. 'Nyni a gawsom y Messïas, yr hyn o'i ddehongl (neu ei gyfieithu o'r Hebraeg) yw y Crist,' neu yr Eneiniog.

'Gan wybod hyn, nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddehongliad priod.' 2 Petr 1. 20. *Gr.* ἰδιας επιλυσεως, *dehongliad o ddychymyg dyn ei hun.* Y mae y prophwydoliaethau wedi eu llefaru gan ddynion sanctaidd Duw, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan; mae yr un Ysbryd ag a gynhyrfodd y prophwydi i brophwydo, wedi esbonio y prophwydoliaethau trwy yr apostolion: y mae y Testament Newydd yn egluro yr Hen; fel y mae yr esboniad, yn gystal a'r prophwydoliaethau eu hunain, yn ddwyfol, ac nid yn ddynol. Neu, yr ystyr yw, nid oedd y prophwydi yn eu prophwydoliaethau, yn esbonio, neu yn cyhoeddi eu meddyliau priod eu hunain; ond meddwl Duw, fel y mae yr adnod ganlynol yn egluro y geiriau: am hyny y mae yn deilwng i gael ei alw yn 'air sicrach y prophwydi;' a'i gyffelybu i 'ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll;' canys gair Duw anfeidrol ddoeth a chywir ydyw, yr hwn y mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog. Yr hwn a anfonodd Duw sydd yn llefaru geiriau Duw. Y mae yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun yn ceisio ei ogoniant ei hun.* Ioan 3. 34. a 7. 18. 1 Cor. 2. 24. Edr. Prophwydoliaeth.

**DEIAL,** *Saes.* Dial, oddiwrth y gair *Llad.* Dies, *diwrnod;* am ei fod yn dangos yr awr o'r dydd. Yr hynafiaid a'i galwent hefyd *Sciathericum,* am ei fod yn gwneuthur hyny trwy y cysgod. Pa rai o'r cenedloedd dwyreiniol, ai y Caldeaid, ai y Pheniciaid, neu yr Iuddewon, a ddychymygasant yr offeryn hwn i fesur amser, sydd ansicr. Ni wyddai y Groegwyr ddim am awr-fynegau cyn amser Anaximenes Milesius, yr hwn oedd yn cyd-oesi â Cyrus. Y mae llawer o amrywiaeth yn ngwneuthuriad awr-fynegau; a hyny o herwydd gwahanol sefyllfa yr orsafau; ac amrywiol lun neu ddull yr arwynebau, ar ba rai y darlunir hwynt; oddiwrth yr hyn y gelwir hwynt, *cyhydeddol, gwastad, uwch-benol, pegynol, syth, ar ogwydd, tueddol, crwn-geuol, &c.* Edr. *Ant. Univ. Hist. vol.* xii. *p.* 133.——Deial (מעלות *graddau*) Ahaz yw y cyntaf sydd genym grybwylliad am dano mewn hanesiaeth. Pa fath oedd hwnw, er y gellir dychymygu llawer, nis gellir penderfynu nemawr am dano. Mae yn amlwg fod arno ugain o raddau; onidê, nis gallasai fyned ddeg o raddau yn ol, neu yn mlaen: ac i'r haul, yn ganlynol y cysgod gyd â'r haul, ddychwelyd ddeg o raddau, ar hyd y graddau y disgynasai ef ar hyddynt, ac i ddoethion Babilon sylwi ar y wyrth ryfedd hon:—'Canys anfonwyd at Hezeciah genadau, tywysogion Babilon, i ymofyn am y rhyfeddod a wnaethid yn y wlad'—yn hytrach (בארץ) yn y *ddaear.* Yr oedd y wyrth hon yn arwydd i Hezeciah yr iachâi yr Arglwydd ef o'i glefyd, ac y cai efe fyned i fynu i dŷ yr Arglwydd y trydydd dydd. Esa. xxxviii. 2 Bren. xx. 2 Cron. 32. 31. Nid yw yn hawdd penderfynu pa faint o amser a nodwyd wrth ddeg o raddau; etto nis gallasai fod yn fwy na *chwech awr,* sef o godiad haul hyd ganol dydd; felly, os oedd pob gradd yn cynnwys hanner awr, yr oedd y deg yn cynnwys pum awr; ac os felly, yr oedd y wyrth yn llawer mwy nodedig. Os oedd yn un ar ddeg o'r gloch yn Jerusalem pan ddechreuodd yr haul, neu y cysgod, fyned yn ol, yr oedd yn hanner dydd yn Babilon; yr hyn a wnai y wyrth yn Babilon yn fwy hynod nodedig nag yn Jerusalem——Yr oedd yr Arglwydd wrth beri i'r haul a'r lleuad sefyll wrth ddymuniad Josuah, a dychwelyd yr haul yn ol ddeg o raddau i gadarnhau ffydd Hezeciah yn addewid Duw iddo, yn dangos yn hynod o amlwg fod holl luoedd y nef wrth orchymyn Duw; gall eu gyru yn mlaen, neu yn ol, neu beri iddynt sefyll, yn ol ei ewyllys, gyd â'r un hawsdra y naill a'r llall. Gwelwn hefyd, nad oes dim yn ormod ganddo i'w wneuthur i gadarnhau ffydd, ac ychwanegu cysur i'w bobl. Gwel *Appendix to Calmet's Dictionary.*

* Dubium non est quum summa Christi gloria hoc dicto exponatur, quam certis quibusdam gradibus consecutus est. *Primo* enim dum in humili adhuc conditione esset, radii quidam gloriosæ majestatis subinde emicuerunt. 2 Petr 1. 16, 17. Dinde exaltatus est ex conditione mortali, ad immortalem, in resurrectione: quæ est glorificationis initium. Postea ex immortali quidem, sed hactenus terrestri, ad cælestem in adcensione: quæ est gloriæ progressus. Denique in cælis id est consecutus ut ad dextram Dei sederet: in qua re glorificationis apex & coronis est. Mat. 16. 19. Heb. 8. 1.

† Gwel Witsius, *Exercit,* xxi. *in Symbolum.*—Vitringa, *Obs. Sacr., lib,* ii., *cap.* 4. Dr. Owen ar Heb. 1. 3. Dr. T. Goodwin ar Eph. 1. 19 21.

* Gwel Limborch's *Theology, lib.* i., *cap.* 2., *sect.* 7. Leigh *in loco.* Beza. Cameron.

Digitized by Google

4. 6. Pe buasai yn bosibl i Dduw heb gnawd i fyw yn y byd, ac i ninnau oddef yr olwg arno, ni buasai byw ddim amgen nag y bu Iesu byw yn y cnawd, a dodi heibio holl wendidau dibechod y natur ddynol oedd ef yn ddarostyngedig iddynt.

Delw a arwydda, yn aml, rhyw lun wedi ei osod i fynu i'w addoli. Yr oedd rhai o'r darluniadau hyn yn cynnrychioli y gwir Dduw; megys y llo aur a wnaeth Aaron, wrth addoli pa un yr oeddynt yn bwriadu addoli IEHOFAH; ond, yn nghyfrif yr Arglwydd, aberthu a wnaethant i gythreuliaid, y rhai y buont yn puteinio ar eu hol. Act. 7. 41. Lef. 17. 7. Exod. 32. 4, 5. Felly, hwyrach, y mae i ni olygu y lloi a osododd Jeroboam i fynu yn Dan a Bethel, fel cynnrychau yn mha rai yr oedd IEHOFAH i gael ei addoli; addoliad pa rai sydd yn cael ei wahaniaethu yn eglur oddiwrth addoliad Baal. 2 Bren. x. Yr un oedd dyben yr Israeliaid wrth Sinai, a Jeroboam; ac addoliad cythreuliaid y geilw yr Ysbryd Glân bob un o'r ddau. 2 Cron. 11. 15.——Y cenedloedd a wnaent luniau i'w haddoli o bethau yn y nefoedd, ar y ddaear, ac yn y dyfroedd; o'r haul a'r lloer, o ddynion ac anifeiliaid; rhai yn gerfiedig o bren a maen; a rhai yn doddedig o aur, arian, pres, &c. Y mae y prophwyd Esaiah, mewn dull bywiog ac addurnedig rhagorol, yn gosod allan ynfydrwydd a ffolineb y cyfryw wagedd ddiles, yn pen. xliv. 'Nid oes ddeall gan y rhai a ddyrchafant goed eu cerfddelw, ac a weddïant dduw nid all achub.' Esa. 44. 20. Yn erbyn y cyfryw ynfydrwydd pechadurus y mae yr ail orchymyn wedi ei roddi.——Yr oedd rhai o'u heilunod yn fawrion iawn. Yr oedd delw Nebuchodonosor, yn ngwastadedd Dura, yn ddeg troedfedd a phedwar ugain o uchder, o leiaf, ac yn naw troedfedd o led. Dan. 3. 1.——Yr oedd delw Apollo, yn Rhodes, yn gant ac wyth ar hugain o droedfeddi o uchder, a gallai y llongau uchaf, yr amseroedd hyny, meddant, noffio rhwng cluniau y ddelw. Edr. CYTHREULIAID, EILUN.

Rhoddir amrywiol enwau yn Hebraeg ar eilunddelwau; megys אים *eilun*, am ei fod yn cael ei addoli mewn dychryn, neu yn peri dychryn i'w addolwyr. Jer. 50. 38.—אליל *eilun*, am mai peth *diddym* yw. Lef. 19. 4. 1 Cron. 16. 26. Esa. 2. 20. Cymh. Act. 14. 15. 1 Cor. 8. 4.—גלל *eilun*, *tom*, pethau ffiaidd. Lef. 26. 20. Deut. 29. 17.—חמם *delw*, *poeth*, delw yr haul, mae yn debygol. Lef. 26. 30. 2 Cron. 34. 7. Ezec. 6. 4, 6.—מצבה *colofn*. Lef. 26. 1.—סמל *delw*; arwydda yn Arabaeg, *gwneuthur heddwch*. Deut. 4. 16. 2 Cron. 33. 7, 15. Ezec. 8. 3, 5. Delw fenyw, meddant, ydoedd; hwyrach yn cyfeirio at y wraig fel mam y Tangnefeddwr mawr—עצב *tristwch*, oddiwrth y llafur a'r tristwch a barent i'w haddolwyr.—פלץ *eilun*, *crynu*, oddiwrth y dychryn a barnent i'w haddolwyr. 1 Bren. 15. 13. 2 Cron. 15. 16.—פסל *cerf-ddelw*. Deut. 7. 25. Esa. 42. 8, &c.—ציר *cyfyngder*, *trallod*, am eu bod yn peri trallod i'w haddolwyr. Esa. 45. 16.—צלם *delw*. Dan. 2. 31. a 3. 1.—שכיה *cyffelybrwydd*. Lef. 26. 1. Num. 33. 52.—שקוץ *ffieidd-dra*. 1 Bren. 11. 5, 7.—תרפ *delw dyn*. Dengys hyn yn amlwg briodoledd a chyflawnder yr iaith Hebraeg; mae geiriau gwreiddiol (*roots*) yn mynegi prif ystyr y deilliedig; gyda hyn y mae yr iaith hefyd yn gynnwysfawr, yn nerthol, ac yn ardderchog.

'Y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir ddelw y pethau.' Heb. 10. 1. Y gair *Gr.* σκια, *cysgod*, weithiau, a ddynoda llun anmherffaith, a dynir yn gyntaf gan luniedydd â phridd-galch (*chalk*) ac nid εικων, *y gwir lun* neu *ddelw* y gwrthddrych sydd i'w ddangos, ag sydd gan y lluniedydd yn ei olwg i'w berffeithio. Eraill a farnant yr arfer yr apostol y gair σκια, *cysgod*, yn yr un ystyr ag yn Col. 2. 17. 'Y rhai ydynt (σκια) gysgod pethau i ddyfod, ond y corph yw Crist.' Yn ol y farn hon am ystyr y gair, y *cysgod* ydyw y tebygolrwydd tywyll ac anmherffaith o un corph a wneir trwy rwystriad pelydr yr haul: ond yr εικων, y *ddelw*, ydyw y corph ei hun sydd yn achosi y cysgod. Αυτην την εικονα, *gwir ddelw*, a arwyddant y pethau eu hunain sydd yn dyfod i ni trwy weinidogaeth Crist. Felly y deall Chrysostom a Theophylact, ac eraill, y geiriau.

DELLT, unigol, DELLTEN, (dell) ffiochenau, ais, esyth, delltwaith ffenestr. Yr oedd dellt, ac y maent etto,* yn cael eu harferyd yn ngwledydd y dwyrain i wneuthur llestri â hwynt. Barn. 5. 28. Diar. 7. 6. 2 Bren. 1. 2.——'Yn ymddangos trwy y dellt.' Can. 2. 9. Y mae efe, sef Crist, anwylyd yr eglwys, yn edrych trwy y ffenestri, ac yn craffu yn fanwl ar yr eglwys, yn ei holl ymddygiadau mwyaf dirgel; ac yn edrych arni gyda â'r hoffder a'r hyfrydwch mwyaf serchog. Heblaw hyny, y mae yn *ymddangos*, neu yn *ymflodeuo*, trwy y dellt, fel y gallo yr eglwys ei weled fel blodeuyn hardd, pêr-arogl, er ei hadfywiad a'i chysur. מציץ מן החרבים *yn blodeuo*, sef yn tòri allan fel blodeuyn ardderchog, trwy ddellt y *ciosk*, neu y deildŷ.†—Yr holl gysgodau gynt, a holl ordinhadau yr efengyl, ydynt fel dellt, trwy ba rai y mae Crist yn ymddangos, ac y mae y duwiolion yn edrych ar ei ogoniant. 2 Cor. 3. 18.

DEMAS, [*poblogaidd*]. Nid oes genym chwaneg o hanes am y gwr hwn, ond ei fod yn foreu yn broffeswr Cristionogrwydd: ac hwyrach yn bregethwr. Bu dros amser yn wasanaethgar i Paul pan ydoedd yn garcharor; ond a'i gadawodd ef oddeutu y flwyddyn 65, i ddilyn rhyw alwedigaeth fydol, er mwyn elw. Col. 4. 14. 2 Tim. 4. 10. Dywedir iddo syrthio i gyfeiliornad Ebion a Cherinthus, y rhai oeddynt yn gwadu Duwdod Crist. Y mae eraill yn barnu, oddiwrth Col. 4. 14. iddo gael edifeirwch am ei bechod, a dychwelyd at Paul drachefn i weini iddo ef yn ei gadwynau.

DEMETRIUS, [*yn perthyn i Ŷd*] gôf arian yn Ephesus. Act. 19. 24.——Crybwyllir hefyd am Gristion rhagorol o'r un enw, â gair da iddo gan bawb. 3 Ioan 12.

DENU, (dân) hudo, llithio, gogwyddo un i ryw beth trwy dwyll a dichell, neu trwy eiriau teg a thiriondeb. Geiriau denu, geiriau darbwyllol, areithiol, cymhenol, gwag ogoneddus; yn boddhau clustiau yn merwino, yn lle eglurhau y gwirionedd er adeiladaeth ysbrydol. Y mae yr apostol yn gosod geiriau a ddysgir gan yr Ysbryd Glân mewn cyferbyniad i eiriau a ddysgir gan ddoethineb ddynol; ac yn gwrthod y naill yn mhregethiad yr efengyl, ac arferyd y llall, gan gyd-farnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol. Yn y wisg a roddodd yr Ysbryd Glân am danynt y mae y gwirioneddau dwyfol yn ymddangos oreu; ac nis gellir eu newid heb fod mewn perygl o wneuthur cam â'r gwirionedd. 1 Cor. 2. 4, 13.

'Mi a'i denaf hi, ac a'i dygaf i'r anialwch.' Hos. 2. 14. Y mae yn y geiriau hyn gyferbyniad at ddygiad Israel o wlad yr Aipht i'r anialwch, a thrwyddo i wlad yr addewid. Yr Arglwydd a'u denodd hwynt o'r Aipht, trwy weinidogaeth Moses ac Aaron; felly y mae yn addaw etto ddenu ei bobl, trwy weinidogaeth yr efengyl, o'u cyflwr wrth natur, o gaethiwed pechod, chwantau bydol, a digrifwch cnawdol, i fyned ar bererindod i ymofyn am wlad well; ac wedi cefnu ar yr Aipht, y mae yn addaw dywedyd wrth fodd eu calon; sef eu haddysgu, eu dyddanu, a'u cynnal yn

* Gwel Shaw's *Travels*, p. 207.

† Gwel Parkhurst.—Mr. T. Williams.—Mr. Harmer ar Ganiad Solomon.

Digitized by Google

'Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad.' 1 Tim. 1. 15. Fel y mae y gair yn wir ac yn ffyddlawn o du yr Arglwydd, yr hwn a'i llefarodd ac a'i tystiolaethodd, y mae yn haeddu derbyniad cyflatebol i'r amlygrwydd a'r sicrwydd o hono; sef pob derbyniad cyflawn, dilys, sicr, diolchgar, gorfoleddus, a fedr dyn ei roddi iddo. Y mae yn air o anfeidrol bwys i ni, sef 'dyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid;' ac y mae, o ran y gwirionedd o hono, yn gorpbwys ar y sylfaen gadarnaf, sef gwirionedd Duw, yr hwn mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog. 1 Tim. 4. 9. 2 Tim. 2. 11. Heb. 6. 18.

**DERNYN**, (darn) darn bychan, lleinell, rhenyn, llain, clwtyn. 1 Sam. 2. 36. Y gair a gyfieithir *dernyn*, yn Marc 2. 21. a gyfieithir *llain*, yn Mat. 9. 16.

**DERW—EN**, *Gr.* δρυς *(drys) Llad.* QUERCUS; dâr, mesbren. Dywed Linnæus fod pedwar-ar-ddeg o rywogaethau o honynt. Dywed Miller fod ugain math o honynt. Y maent yn goed anniben iawn yn tyfu, ond o hir barhad. Cadwant yn sychion neu yn wlybion, dros hir flynyddoedd, heb waethygu dim. Am eu bod yn goed cauad-frig, cysgod-fawr, y byddent arferol gynt o eistedd, addoli, a chladdu danynt. Ac am eu bod yn goed caled, parhaus, y gwnaent ddelwau o honynt. Gen. 35. 8. 1 Bren. 13. 14. 1 Cron. 10. 12. Esa. 44. 14. Ezec. 6. 13. Hos. 4. 13. Derw Basan oedd yn cael eu cyfrif y rhai goreu, am hyny y byddent yn gwneuthur rhwyfau o honynt. Ezec. 27. 6. ——Llywiawdwyr, a gwyr cedyrn a nerthol a gyffelybir i dderw Basan, uchel a chedyrn, i ddynodi eu gallu, eu cadernid, a'u haddasrwydd, o herwydd hyny, i fod yn gysgod ac yn amddiffynfa i eraill. Esa. 2. 13. a 6. 13. Zech. 11. 2.——Y mae y genedl Iuddewig yn cael ei chyffelybu i'r 'llwyfen a'r dderwen: y rhai wrth fwrw eu dail, y mae sylwedd ynddynt:' felly, dan bob profedigaeth, ceryddon, a barnedigaeth, y mae ynddi hâd sanctaidd, yr hwn a fydd ei sylwedd hi, ac o herwydd hyny, ni lwyr ddyfethir hi; eithr blagura etto, ar ol pob ystorm erwin a gauaf du. Yr oedd Crist ynddi, yn hâd sanctaidd, cyn ei ddyfodiad yn y cnawd; ac etto, er bod yr Iuddewon yn bresennol 'yn elynion, o ran yr efengyl; eithr o ran yr etholedigaeth, caredigion ydynt oblegid y tadau: canys diedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw. Y Gwaredwr a ddaw allan o Sïon, etto, ac a dry ymaith annuwioldeb oddiwrth Jacob.' Rhuf. 11. 26—30. Y mae yr hen wreiddyn yn sanctaidd trwy gyfammod tragywyddol Duw âg Abraham; trwy yr un cyfammod y mae y cangenau hefyd felly; er tori rhai o honynt ymaith trwy anghrediniaeth. Rhuf. 11. 16, 17.

**DETHOL**, dewis, neillduo. Edr. ETHOL.

**DEUBAR**, (dau-pâr) deu-ryw, dau fath. 'Yn ol tafodiaith y ddeubar bobl:' (Neh. 13. 24.) amryw bobl. *Heb. pobl a phobl.*

**DEUDDEG**, neu **DAU-AR-DDEG**, deg a dau. Mewn cyfeiriad at ddeuddeg llwyth Israel—y deuddeg torth o fara gosod (Lef. 24. 5—9) y cymerodd Crist iddo ddeuddeg apostol, athrawiaeth pa rai sydd yn cael ei galw y deuddeg seren yn y goron ar ben yr eglwys efengylaidd. Dat. 12. 1.——Dywedir fod deuddeg mil o bob un o lwythau Israel wedi eu selio: (pen. vii.)—bod i'r Jerusalem newydd ddeuddeg porth: (pen. xxi.)—a bod pren y bywyd yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth. Pen. 22. 2.

**DEUGAIN**, dau ugain. Yr oedd yr yspaid hwn o amser yn cael ei ystyried yn gysegredig. Arferir yn yr ysgrythyrau y rhif deugain yn aml, mewn achos o gystudd, darostyngiad, a chospedigaeth. Moses a'i darostyngodd ei hun ddwywaith ddeugain niwrnod mewn ympryd a gweddi. Deut. 9. 9, 18.—Ymprydiodd Elias ddeugain niwrnod. 1 Bren. 19. 8.—Felly y gwnaeth ein Harglwydd hefyd. Mat. 4. 2. Marc 1. 13. Deugain niwnod y Garawys, yn goffadwriaeth am hyny, a gyfeiriant at yr un peth.—Deugain niwrnod o oediad a roddwyd i'r Ninifeaid i edifarhau. Jonah 3. 4.—Cystuddiwyd Israel am eu pechodau yn yr anialwch ddeugain mlynedd. Num. 14. 33, 34.—Deugain mlynedd y gwnaeth yr Arglwydd yr Aipht yn ddiffeithwch anrheithiedig anghyfanneddol am ei bradwriaeth i Israel. Ezec. 29. 11, 12, 13.—Deugain niwrnod y byddai pob gwraig yn Israel aflan a esgorai ar wrryw. Lef. 12. 4.—Deugain niwrnod a deugain nos y gwlawiodd yr Arglwydd ar y ddaear yn amser y diluw. Gen. 7. 12.—Deugain niwrnod y dygodd y prophwyd Ezeciel anwiredd tŷ Judah. Ezec. 4. 6.—Deugain mlynedd, dair gwaith, y pregethodd Noah edifeirwch i'r hen fyd. Gen. 6. 3.—Deugain niwrnod gwedi ei adgyfodiad yr esgynodd Crist i'r nefoedd. Act. 1. 3—9.—Yspaid deugain mlynedd a roddodd efe i'r Iuddewon, gwedi ei groeshoelio, i edifarhau, cyn dinystrio eu dinas a'r deml gan y Rhufeiniaid.—Deugain gwialenod yn unig, yr oedd y barnwyr i roddi i ddrwgweithredwyr. Deut. xxv.

**DEUNAW**, wyth a deg. Gen. 14. 14. 2 Cron. 11. 21. Luc 13. 4, 11.

**DEUTERONOMIUM**. Y diweddaf o bum llyfr Moses; a elwir felly oddiwrth y gair *Gr.* Δευτερονομιον, yn arwyddo, *ail adroddiad o'r gyfraith.* Gan fod y genedlaeth a ddaeth allan o'r Aipht, yn gyffredinol, wedi marw, y mae Moses, ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, yn ail-adrodd crynodeb o'u teithiau yn yr anialwch, ac amryw o'r cyfreithiau a roddwyd iddynt; ac yn chwanegu atynt rai newyddion, fel y gellir gweled yn Pen. i—xxv. Y mae yn rhoddi iddynt amryw gynghorion difrifol, syml; yn dangos y melldithion a fyddai iddynt am anufudd-dod, a'r bendithion am ufudd-dod. Pen. xxvi—xxxi. Chwanegwyd y bennod ddiweddaf, yn rhoddi hanes am farwolaeth Moses, gan Josuah, neu gan Ezra, pan gasglodd efe y llyfrau yn nghyd. Y mae rhai yn barnu mai Moses ei hun, trwy ysbryd prophwydoliaeth, a ysgrifenodd hanes ei farwolaeth ei hun. Y mae cyfansoddiad y llyfr hwn yn fwy addurnol, dyrchafedig, ac ardderchog; ac hefyd yn fwy eglur ac ymarerfol, na'r lleill o lyfrau Moses. Edr. EZRA, MOSES.

**DEUWCH**, (dyfod) galwad ac annogaeth wirfoddol i ddyfod. Exod. 16. 9. Esa. 1. 18. a 55. 1. Mat. 11. 28. a 25. 34. Edr. DYFOD.

**DEWIN—IAID**, (dew) dewinydd, chwiliogydd, duwinydd; un âg ysbryd y duwiau ynddo; dywedwr pethau anamlwg. Byddent yn arfer y gair *Dew* gynt, (oddiwrth y gair *Llad. Deus*, a'r *Gr.* Θεος) yn lle y gair *Duw*. Gwel Act. 4. 39. cyfieithiad W. S. Nid ydyw y gair dewin, o ran ei ansawdd, yn cario un ystyr drwg mwy na da; ond fel y mae trwy arferiad cyffredinol yn cael ei gymeryd mewn ystyr drwg. Arferir y gair yn yr ysgrythyrau mewn ystyr drwg, am ddynion drwg, twyllodrus, yn hudo dynion ar eu hol, er mwyn elw, trwy gymeryd arnynt hysbysu rhyw ddirgelwch am bethau i ddyfod. Y mae wyneb Duw yn erbyn y dynion a ymofyno â dewiniaid. Lef. 19. 31. a 20. 6. Jer. 27. 9. Zech. 10. 2. Edr. BRUDIWR, CONSURWR, DAROGANWR.

**DEWINIAETH**, (dewin) chwiliogaeth, dadguddio, dewinio, neu hysbysu rhyw ddirgelwch, trwy ryw gyfaredd. 'Onid dyma y cwpan yr yfai fy arglwydd ynddo, ac yr arferai ddewiniaeth wrtho?' Gen. 44. 5, 15. Y mae rhai beirniaid dysgedig yn cyfieithu y rhan ddiweddaf o'r adnod fel hyn: 'Ac yr ymofynai yn fanwl am dano.' והוא נחש ינחש בו *A chan ymofyn yr ymofynai efe am dano.*—Adn. 15. נחש ינחש *oni wyddoch chwi yr ymofynai gwr o'm bath i yn fanwl?* neu *gan ymofyn yr ymofynai gwr o'm bath i?*

Digitized by Google

Fel pe buasai Satan yn dywedyd, Ni byddai neb i'th wasanaethu, oni bai dy fod yn eu cyflogi hwynt; ysbryd chwantus am wobr sydd yn peri i Job dy ofni, a'th addoli; y mae efe yn cael ei elw a'i gyfoeth drwy hyny, ac mae ei gyfoeth a'i lwyddiant yn gynnorthwy i'w dduwioldeb. Y mae y geiriau yn bentwr o gelwyddau yn erbyn Duw a'i was enwog Job; ond maent yn dangos beth ydyw barn Satan, a phawb sydd yn meddiannu ei ysbryd, am Dduw ac am dduwiolion. Job 1. 21. a 2. 10. a 21. 14, 15. Mal. 1. 10. Mat. 16. 26. 1 Tim. 4. 8. a 6. 6.——Y mae Dafydd, yn ei berson ei hun, ond yn benaf, yn mherson Crist, yn achwyn oblegid ei elynion cedyrn, diachos, y rhai a wnaethant gam âg ef yn ddiachos. Ps. 69. 4. a 119. 78. Rhoddodd Crist achos teilwng, trwy ei anfeidrol gariad a'i ddaioni, i bawb ei garu, a gelynion diachos ydyw ei holl elynion.

DIACON, *Gr.* διακονος *(diaconos)* 1. Gweinidog, gwas: yn benaf, medd Wetstein, un yn gwasanaethu byrddau.—'Pwy bynag a fyno fod yn fawr yn eich plith chwi, bydded yn weinidog (διακονος, yn *ddiacon*) i chwi.' Mat. 20. 6.—'Yna y dywedodd y brenin wrth y gweinidogion' (τοις διακονοις) *wrth y diaconiaid.* Mat. 22. 13. Ioan 2. 5, 9.

2. Gweinidog, neu was i Dduw. Felly y priodolir ef i swyddogion gwladol. Rhuf. 13. 4. 'Gweinidog Duw ydyw efe.' (Θεου γαρ διακονος εστι) *Diacon Duw ydyw efe.*

3. Gweinidog neu was Duw, neu Grist, yn ei eglwys, i bregethu yr efengyl. Διακονος, *diacon, diaconiaid,* yw y gair Groeg am y gair *gweinidog, gweinidogion,* yn y lleoedd canlynol: 1 Cor. 3. 5. 2 Cor. 6. 4. a 11. 15, 23. Eph. 3. 7. Col. 1. 7, 23, 25. Felly y mae Crist ei hun yn cael ei alw, 'Gweinidog yr enwaediad;' (*Gr.* Διακονον περιτομης, *diacon yr enwaediad:* Rhuf. 15. 8.) fel yr oedd efe yn Iuddew genedigol, wedi enwaedu arno, yn arwydd o'i rwymedigaeth i gadw defodau a chyfreithiau Moses; ac a gyfyngodd ei weinidogaeth i ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel. Mat. 15. 24.

4. Y mae math neillduol o weinidogion yn eglwys Crist yn cael eu galw yn ddiaconiaid, swydd a gorchwyl pa rai, yn benaf, oedd gofalu am, a gweini i'r tlodion. Phil. 1. 1. 1 Tim. 3. 8, 12.

5. Y mae yn cael ei briodoli i holl ganlynwyr Crist yn gyffredinol. Ioan 12. 26. 'Lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog (ο διακονος, *fy niacon*) hefyd.

DIAFOL, *Gr.* διαβολος (*diabolos*) *Llad.* Diabolus; *Ffr.* Diable; *Ital.* Diavolo. Hwn ydyw y gair y mae y LXX yn gyffredin yn ei roddi yn gyfieithiad o'r gair *Heb.* שטן *Satan.* 1. Cron. 21. 1. Job 1. 6, 7, 9, 12. a 2. 1, 2, 3, 4, 6, 7. Ps. 109. 6. Zech. 3. 1, 2. Weithiau επιβουλος, *cynllwynwr*; (*gwrthwynebwr,* yn y cyfleithiad Cymraeg*)*; 1 Sam. 29. 4. 2 Sam. 19. 21. 1 Bren. 5. 2. Y mae y gair *Gr.* διαβολος, yn arwyddo gwrthwynebwr, cyhuddwr, cyhuddwr ar gam, enllibiwr, absenwr, athrodwr. Mae yr un gair yn cael ei gyfleithu *enllibaidd,* yn 1 Tim. 3. 11. 2 Tim. 3. 3. 'Nid yn enllibaidd.' *Gr.* Nid yn *ddiefl,* nid yn *ddiaflaidd,* sef yn debyg i'r diafol, a than ei lywodraeth; canys felly y mae pob enllibiwr. Nid yw y gair Groeg byth yn y rhif lliosog yn yr ysgrythyrau, ond pan y mae yn cael ei briodoli i ddynion yn y lleoedd uchod. Y mae yn nodi allan y penaf o'r angelion syrthiedig—'penaeth y cythreuliaid'—'tywysog llywodraeth yr awyr'—dan ba un y mae y lleill i gyd yn gweithredu, y rhai a elwir δαιμονια (*demoniaid*) cythreuliaid. Y mae yr angel syrthiedig yn cael ei alw felly, oblegid iddo gyhuddo ac enllibio Duw wrth ein rhieni cyntaf, fel pe buasai efe yn wrthwynebwr i'w cynnydd hwynt mewn gwybodaeth a dedwyddwch. Gen. 3. 5. Ioan 8. 44. 1 Ioan 3. 8. Ac am ei fod, o'r tu arall, yn cyhuddo ac yn enllibio y brodyr ger bron Duw ddydd a nos. Dat. 12. 9, 10. Job 1. 10, &c. —Y mae yr Arglwydd Iesu yn galw Judas yn ddiafol, am y byddai iddo ef, dan ddylanwad neu gynhyrfiad yr ysbryd hwnw, ei yspïo, ei gyhuddo, a'i fradychu.—Y mae dynion drwg yn cael ei galw yn blant diafol, am eu bod dan lywodraeth y diafol, ac yn gwneuthur ei weithredoedd; yn tebygoli iddo yn eu gelyniaeth yn erbyn Duw a'i bobl, yn eu gwaith yn enllibio ac yn eu gwaradwyddo hwynt; ac am eu bod yn offerynau yn cael eu defnyddio gan y diafol i ddwyn yn mlaen ei achos yn y byd. Ioan 8. 34. a 13. 2. Act. 13. 10.

DIAL, DIALEDD, (al) *Heb.* גאל (*goel*) cosp, cospedigaeth. Y mae gwahaniaeth rhwng *cospi* a *dial* mewn rhyw ystyr. Y mae yn gyfreithlawn ac yn ddyledus ar y swyddogion gwladol, a rhai mewn swyddau cyhoeddus, gospi beiau a fyddo yn niweidiol i'r wladwriaeth; ond nid ydyw yn gyfreithlon i un dyn neillduol na chyhoeddus, ddial: nid ydyw hyny yn perthyn i neb ond i'r Duw mawr yn unig. Deut. 32. 35, 36. Rhuf. 12. 19. Heb. 10. 30. Nah. 1. 2. Ps. 94. 1. a 149. 7. 2 Thes. 1. 8. Dial a arwydda gwneuthur iawn i ni ein hunain, yn nghospedigaeth eraill; ond y mae yn rhy beryglus i un creadur fyned yn nghyd â hyny, rhag iddo fyned i nwydau pechadurus, a myned dros derfynau cyfiawnder i'w ddinystr ei hun. Dyoddef a maddeu i'n gilydd sydd orchymynedig i ni. 'Myfi biau dial,' medd Duw. Nid oes ond Duw yn unig a ŵyr y gradd o ddrwg sydd yn mhob bai; ac efe yn unig a all gyfartalu y gosb iddo yn gyfiawn, ac yn sanctaidd. Y mae Duw wrth ddial ar bechaduriaid yn mynu iawn i'w sancteiddrwydd a'i gyfiawnder, mewn modd addas i Dduw anfeidrol gyfiawn a sanctaidd. Y mae yn gweddu yn ogoneddus i Dduw ddial, ac a fyddai yn anaddas iddo beidio. Y mae yn anfeidrol bell oddiwrth Dduw, pan y byddo yn rhoddi dial, bob peth sydd mewn dynion yn llygredig ac yn bechadurus. Y mae yn dial mewn cysondeb mwyaf âg anfeidrol ddaioni ei hanfod, ei sancteiddrwydd, a'i gyfiawnder. Y mae ei ddial yn ofnadwy, ond y mae yn gyfiawn; ac am ei fod yn gyfiawn y mae yn ofnadwy. Luc 18. 7. Dat. 6. 10. 2 Petr 3. 3—7.

DIALYDD, (dial) dialwr, cospwr. Y mae y gair *Heb.* גאל (*goel*) a gyfleithir *dialydd,* yn cael ei gyfieithu yn aml *prynwr.* Priodol ystyr y gair yw *agos berthynas, cyfathrachwr;* yr hwn oedd ganddo, wrth gyfraith Moses, hawl i ryddhau etifeddiaeth ei frawd wedi ei gwerthu; i ddial ei farwolaeth, trwy ladd y llofrudd, os cyfarfyddai âg ef y tu allan i'r ddinas noddfa. Lef. 25. 25. Num. 35. 19, 21, &c. Deut. 19. 6, 12. Jos. 20. 3, 5, 9. Felly yr ydoedd yn gysgod o'n cyfathrachwr a'u prynwr, Iesu Grist; yr hwn a brynodd ei bobl oddiwrth felldith, ac oddiwrth bob anwiredd; ac a ddygodd yn ol yr etifeddiaeth dragywyddol iddynt: ac a ddialodd ar y llofrudd hwn, sef Satan. Ioan 8. 44. Job 19. 25. Ps. 18. 14. a 107. 2. a 119. 154. Esa. 35. 9. a 43. 1. a 51. 10. a 52. 3. a 59. 20. a 63. 4. Hos. 13. 14. Tit. 2. 13. Gal. 3. 13.——Nid oedd gan yr hen Roegwyr un swyddog i edrych yn neillduol ar ol y llofruddion; perthynasau y lladdedig yn unig oedd ganddynt hawl i edrych ar ol y llofrudd, a dial arno. Gwel Homer, *Iliad,* ix., *lin.* 628, &c. Pausania, *lib.* v., *c.* i., *lib.* 8. *c.* 34.——Dialydd ydyw yr Arglwydd ar bob un a orthrymo neu a dwyllo ei frawd mewn dim. 1 Thes. 4. 6.

DIAMMEU, (di-ammeu) yn wir, yn ddiau, yn ddiddadl. 1 Bren. 13. 32. Diar. 22. 16. 2 Tim. 1. 5, 12. Phil. 3. 8.—'Y pethau a gredir yn ddiammeu yn ein plith.' Luc 1. 1. Yn hytrach, *y pethau a gyflawnwyd yn ein plith*—περι των πεπληροφορημενων εν ημιν πραγματων—*quæ in nobis completæ sunt verum. Vulg.* Gwel Campbell, Doddridge.

DIAMDLAWD. Amdlawd yw bod yn hollol dlawd,

Digitized by Google

yn dlawd o bob tu. Diamdlawd yw helaethrwydd o bob tu, llawnder, digonedd, helaethlawn, diwall.——'Gwin o bob math yn ddiamdlawd.'—'*Stores of all sorts of wine.*' *Saes.* Neh. 5. 18.

DIANA,* *Gr.* αρτεμις. Gelwid hi hefyd *Hebe, Trivio et Hecate, Lucina.* Un o'r deuddeg goruwchdduwiau y Paganiaid; merch Jupiter a Latona, meddent, a chwaer Apollo. Hi ydoedd brenines y nef, sef y lleuad; Diana y galwent hi ar y ddaear, a Hecate yn uffern; yn cynnorthwyo gwragedd wrth esgor, galwent hi Lucina. Byddai gwragedd yn y cyfryw amgylchiad yn arfer gweddio arni, am na wyddent, druain, am neb gwell i alw arno. Yn amser y prophwydi Esaiah a Jeremiah, addolent hi yn Palestina dan yr enw Menni, sef *nifer*, neu *y miseedd.* Jer. 7. 18. Esa. 65. 11. yn Hebraeg. Ezec. 16. 25. Ei llun oedd helyddes â hanner lleuad ar ei phen; neu wedi ei gorchuddio â bronau drosti, yn arwydd o'i ffrwythlonrwydd; a'i gosail gwedi ei addurno â phenau ceirw, cŵn, &c. Byddent yn ei haddoli gyda llawer o ddifrifwch yn Ephesus. Act. 19. 27—35. Ond digon ydyw hyn am beth nad oedd ddim ond prawf o ddallineb ac ynfydrwydd pechaduriaid gwedi colli y gwir Dduw. Gwel Parkhurst dan y gair שדה.

DIANC, (anc) cilio, ffoi, gochelyd, ymogelu, brysio ymaith.—'Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iechydwriaeth gymaint?' Heb. 2. 3. Luc 21. 36. Rhuf. 2. 3. 1 Thes. 5. 3. Y mae dull yr ymadrodd mewn ffordd o ofyniad, yn sicrhau, yn y modd cadarnaf, na ddiangwn ni ddim. Yr iechydwriaeth ydyw yr unig ffordd i ddianc rhag cyfiawn daledigaeth am drosedd ac anufudd-dod. Adn. 2. Mae colledigaeth pawb a'i hesgeuluso, yn gyfiawn, yn sicr, ac yn anocheladwy. Y maent yn pechu yn erbyn y daioni a'r cariad mwyaf; y maent yn diystyru iechydwriaeth, a phob rhagoroldeb ynddi; ac yn esgeuluso yr unig feddyginiaeth a drefnodd Duw i bechadur colledig. Pa fodd, gan hyny, y gellir dianc? Esa. 20. 6. 1 Cor. 10. 13, &c. Mat. 3. 7, 9. Heb. 10. 29. Gen. 19. 17, 22.

DIANGFA, (dianc) ymwared, achubiaeth, gwaredigaeth, rhyddhad.—'I'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfäau rhag marwolaeth.' Ps. 68. 20. *Heb.* למות תוצאות *mynediadau*, neu *ffyrdd marwolaeth*, sef y ffyrdd i, neu oddiwrth farwolaeth: hyny yw, Ffyrdd i elynion yr eglwys gael eu marwolaeth, ac i'r eglwys ei hun gael diangfa. Y mae llawer o ffyrdd i, ac oddiwrth farwolaeth, gan yr Arglwydd; gall gymeryd y ffordd a fyno, i bob un o'r ddau. Yr oedd y tân yn ddiangfa i'r tri llanc, ac yn farwolaeth i'r rhai a'u bwriasant hwynt i'r ffwrn:—yr oedd y Môr Coch yn ddiangfa *rhag* marwolaeth i'r Israeliaid, ac yn ffordd i farwolaeth i Pharaoh a'i luoedd. Y mae gan Dduw ddiangfäau rhag marwolaeth, pan fyddo gofidiau angeu yn cylchynu; pan fyddo rhwyd gwedi ei darparu gan elynion, a phydew gwedi ei gloddio, a dim ond cam, megys, rhwng un ac angeu. Ps. 18. 5. a 57. 7, a 116. 3. 1 Sam. 18. 11. a 19. 10, 13. a 21. 10. 2 Sam. 21. 16. Job 5. 18. Deut. 32. 39.——'Yn nghyd â'r demtasiwn,' y cyfyngder, a'r brofedigaeth, efe a wna ddiangfa hefyd. *Gr.* την εκβασιν, *mynediad allan.* 1 Cor. 13. 13.

DIANGOL, (dianc) diogel, dyasgen, dienbyd.—'Rhai diangol y cenedloedd.' Esa. 45. 20. 'Gweddillion y cenedloedd:' (Dr M.) yn meddwl y rhai oedd yn weddill heb eu dystrywio gan farnedigaethau Duw o'r cenedloedd, ac etto yn glynu wrth eu heilunod. Ond gan fod y prophwyd yn prophwydo am alwad y cenedloedd (adn. 23, &c.) wrth y 'rhai diangol o'r cenedloedd,' y mae yn meddwl y rhai cadwedig o'r cenedloedd; y rhai trwy ffydd yn Nghrist oeddynt gwedi dianc oddiwrth ddigofaint dwyfol, ac oddiwrth holl ffieidd-dra eu heilun-addoliaeth. ac oferedd eu meddwl. Eph. 4. 17, &c.

DIANNOD, (annod) yn lleugys, yn y man, yn ddiattreg, yn ddioed, yn ebrwydd.—'Ac yn ddiannot y dygwyddawdd i lawr wrth ei draet ev.' Act. 5. 10. W.S. Sef yn y man.

DIANRHYDEDD—U, (anrhydedd) difrio, anmharchu, sarhau, dadfrio.—Y mae y rhai sydd yn tòri y ddeddf yn dianrhydeddu ac yn anmharchu Duw, yn ei awdurdod ddwyfol oruchel, yn ei sancteiddrwydd, a'i gyfiawnder. Rhuf. 2. 23. Y maent, yn eu hanufudd-dod iddo, yn tystiolaethu eu bod yn barnu nad oedd ganddo awdurdod i orchymyn, neu ei fod yn gorchymyn yr hyn oedd yn anaddas iddynt hwy ei wneuthur, yr hyn sydd ddianrhydedd i'w awdurdod oruchel, ei uniondeb, a'i sancteiddrwydd.

Yr oedd yr Iuddewon yn dianrhydeddu Crist trwy fychanu a dirmygu ei berson, fel Mab Duw; yn gwadu ei anfoniad oddiwrth Dduw; yn cablu ei eiriau, ei weithredoedd, a'i athrawiaeth; ac yn llawn gelyniaeth yn ceisio ei ladd. Ioan 8. 19. Y mae neillduol fawredd yn ymddangos yn yr amynedd digyffro, y tiriondeb a'r addfwynder sydd i'w weled yn Nghrist, yn ei holl atebion ef i'w geiriau enllibus, llidiog, a dirmygus.

DIANWADAL—WCH, (anwadal, *Heb.* סלסל) sefydlog, safadwy, gwastad, digyfnewid.—'Dianwadalwch ei gynghor—trwy ddau beth dianwadal.' Heb. 6. 17, 18 Wrth gynghor Duw y mae i ni ddeall ei arfaethiad i anfon ei Fab i'r byd o hàd Abraham, i fod yn Iachawdwr i etifeddion yr addewid. Y mae dianwadalwch cynghor Duw yn tarddu oddiwrth yr hyn ydyw Duw ynddo ei hun; sef oddiwrth anghyfnewidioldeb ei hanfod—perffeithrwydd ei ddoethineb a'i wybodaeth—anfeidroldeb ei ddaioni—hollalluogrwydd ei allu—annibynolrwydd ei ben-arglwyddiaeth. Am fod ei hanfod yn ddigyfnewid, y mae bod ei gynghor yn ddianwadal. Fel nas dichon i dywyllwch ddyfod o oleuni, felly nis dichon cynghor anwadal ddyfod o hanfod dianwadal. Nis gallasai gyfnewid er gwell, heb gyfnewid yn yr hanfod er gwell—yr hyn sydd yn anmhosibl. Yr oedd perffaith ddoethineb yr hanfod dwyfol digyfnewid, yn arfaethu ac yn penderfynu pob peth yn y modd goreu. Nis gallasai y cynghor gyfnewid er gwaeth, drachefn, heb i'r hanfod gyfnewid er gwaeth—yr hyn sydd gabledd dychrynllyd i feddwl unwaith. Y mae cynghor ei ewyllys, gan hyny, yn berffaith dda, ac yn ddianwadal. Yr oedd Duw yn ewyllysio, o'i anfeidrol ddaioni a'i gariad tu ag atynt, ddangos yn helaethach i etifeddion yr addewid ddianwadalwch y cynghor hwn, ar ba un yr oedd eu holl iechydwriaeth yn gorphwys yn dragywyddol; fel y gallent, trwy hyny, gael cysur cryf. I'r dyben i ddangos hyn, rhoddodd iddynt addewid ddianwadal, ac a gadarnhaodd hòno trwy lŵ dianwadal. Trwy y ddau beth hyn, neu y ddwy weithred hyn, y mae y dadguddiad a'r dangosiad mor ddianwadal a'r cynghor ei hun: canys y mae mor anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog ag iddo gyfnewid ei hanfod, a bod yn anwadal yn ei gynghor. Nid yr addewid a'r llŵ sydd yn gwneuthur y cynghor yn *ddianwadal;* ond *dangos* dianwadalwch y cynghor y maent. Buasai y cynghor yn ddianwadal pe buasai yr addewid heb ei ddadguddio felly, ond heb yr addewid yn ei ddadguddio felly, ni chawsem ni yn bresennol ddim cysur oddiwrth ei ddianwadalwch. Yn yr addewid, wedi ei chadarnhau â llŵ Duw, yr ydym yn gweled y cynghor dianwadal; ac wrth gredu dianwadalwch yr addewid, yr ydym yn credu hefyd ddianwadalwch y cynghor. Y mae yr addewid mor

* Gelwid hi Diana, mae yn debygol, oddiwrth y gair Lladin, *dies*, yn arwyddo *diwrnod*, neu yn gyntefig, *goleuni.*

DIBON, דִּבֹן [*deall*] dinas a roddwyd i lwyth Gad gan Moses; yr un, tebygol, a Dibon-Gad. Num. 32. 3, 33, 34, a 33. 45. Jos. 13. 9. Esa. 15. 2.——2. Dinas yn Judah, yr un a Debir, tebygol. Nah. 11. 25.——Yr un ydyw Dibon a Dimon (Esa. 15. 2. 9.) yn ol barn Jerome.

DIBRIS, (pris) distadl, diwerth, dirmygus, dielwig, heb anrhydedd. Obad. 2. Marc 6. 4.

DIBRISIO—IODD, (di-bris) 'Eithr efe a'i dibrisiodd ei hun.' Phil. 2. 7.—'Eithr ef y diddymiawdd ehun.' W. S.—'Eithr efe a'i diddymodd ei hun.' Dr. M.—'*Made himself of no reputation.*' *Saes.* *αλλ' εαυτον εκενωσε, efe a waghaodd ei hun—sed ipse sese inanivit.* Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *gwneyd yn ofer*, Rhuf. 4. 14. 1 Cor. 1. 17. a 9. 15. 2 Cor. 9. 3. Mae y geiriau yn gosod allan gweithred rydd, ewyllysgar, rasol, o eiddo Crist tu ag ato ei hun, yn ei ddarostyngiad rhyfedd at waith y prynedigaeth. Ymddangosodd yn y cnawd—cymerodd arno agwedd gwas—yr hwn ac yntau yn gyfoethog a aeth yn dlawd. 1 Tim. 3. 16. 2 Cor. 8. 9. Yr oedd yn parhau i fod yr hyn ydoedd er tragywyddoldeb fel Person Dwyfol, ond efe a gymerodd arno yr hyn nad oedd; sef *cnawd—agwedd gwas—tlodi—bod yn ufudd hyd angeu*, sef *angeu y groes.* 'Mor llygredig oedd ei wedd yn anad neb, a'i bryd yn anad meibion dynion.' Esa. 52. 14. Yr oedd gogoniant hanfodol yn perthyn iddo fel Person Dwyfol; yr oedd iddo hefyd ogoniant cyfryngol o ran ei swydd; dyosgodd, neu gwaghaodd ei hun o'r holl ogoniant yn mhob ystyr, o ran y mynegiad neu y dangosiad o hono, ac a'i darostyngodd ei hun i'r holl ddirmyg, tlodi, a dyoddefaint dyledus i'w bobl fel pechaduriaid, i'r dyben i'w hachub.* Os ystyriwn ei hanfod fel Duw yn ei holl ogoniant a'i berffeithrwydd diderfyn, a chymharu hyny âg agwedd y dyn tlawd, diystyraf o bawb, sydd yn nghrog rhwng y ddau leidr ar ben Calfaria, gallwn ganfod cyflawn ystyr y gair, *Efe a'i dibrisiodd*, neu *a waghaodd ei hun:* a thyna hefyd fesur ei gariad at yr eiddo.† Edr. AGWEDD.

DIBYN, (dib) serthallt, diphwys, llechwedd, goriwaered. Mat. 8. 32. Marc 5. 13. Luc 8. 33.

DICLAH דִּקְלָה [*palmwydden*] seithfed mab Joctan. Gen. 10. 27. Trigodd ei hiliogaeth yn Arabia Ffelix, lle mae y palmwydd yn lliosog.

DICHELL—ION (dig) *Gr.* *τεχνη*, ystryw, cyfrwysedd, ystranc, twyll, hoced —'Canys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef.' 2 Cor. 2. 11. *αυτου τα νοηματα, ei feddyliau, ei gynghorion*, y rhai ydynt yn ddichellgar a chyfrwys. Y gair Groeg a arwydda, yn gyffredinol, *meddyliau:* ond, weithiau, arwydda, meddyliau cyfrwys, ystrywgar, twyllodrus, pan fyddo rhyw berson yn *ymddangos* yn un peth, ac yn *bwriadu* peth arall. Yr un gair a gyfieithir *meddwl*, yn 2 Cor. 10. 5. Mae yr apostol yn annog y Corinthiaid i faddeu i'r dyn a ysgymunasid ganddynt, a'i gysuro, megys y maddeuasai yntau iddo, ar ei wir edifeirwch; rhag, trwy ddysgyblaeth rhy lymdost, iddo ef ddigaloni, a chael ei lyncu gan ormod tristwch; a thrwy hyny iddynt gael eu siomi, neu gael eu gorchfygu trwy gyfrwysdra (*πλεονεκτηθωμεν*) gan Satan: 'Canys nid ydym ni heb wybod ei ddichellion ef.'—'Rac bod y Satan ein gorchfygu: can nad anwybot genym y amcanion ef.' W. S.—'Rhag ein siomi gan Satan: canys nid ydym heb wybod ei amcanion ef.' Dr. M.—'*Lest Satan should get an advantage over us.*' *Saes.*—Y gair Groeg a gyfeiria at ddull masnachwyr cybyddlyd, y rhai sydd yn gwylied i ddal ar bob achlysur a chyfleusdra i dwyllo a cham-golledu eraill. Vorstius. Y mae Satan yn brysur, yn weithgar, ac yn cymeryd pob mantais i hudo dyn i bechu yn rhyfygus, ac wedi hyny peri digalondid, ac i'w lyncu gan ormod tristwch ac anobaith. 'Nid ydym ni heb wybod ei ddichellion ef;' ond yn brofiadol o honynt yn ein personau ein hunain, ac hefyd yn mhersonau eraill yn yr eglwysi dan ein golygiad. Mae 'dyfodiad y dyn pechod, mab y golledigaeth, yr anwir hwnw, gyda phob dichell anghyfiawnder yn y rhai colledig.' 2 Thes. 2. 9, 10. Dichellion, llawer o honynt, celwyddog, anwir, yn cadw dynion mewn pob anghyfiawnder a drygioni, ac yn eu maethu a'u magu ynddynt. Anwir ydyw ef ei hun; anwiredd yw ei athrawiaeth; cadw a maethu dynion mewn anwiredd ac anghyfiawnder yw ei ddyben.——Mae dichellion a chyfrwysdra sarphaidd yn perthyn i ddynion fel pechaduriaid syrthiedig; yn tebygu yn hyn, fel pob peth arall, i'r hen sarph, sef Satan, yr hwn sydd yn twyllo yr holl fyd. Dat. 12. 9. Rhuf. 13. 3. Ps. 10. 7. a 38. 12. a 50. 19. a 119. 118. Diar. 12. 2, 19. Esa. 32. 7. Oddiwrth hyn mae yr Arglwydd yn gwared y rhai sydd wir edifeiriol, ac yn derbyn maddeuant pechodau. Ps. 32. 2. Ioan 1. 47.——'Mi a'ch delisis chwi trwy ddichell.' 2 Cor. 12. 16. O hyn yr oedd rhai gau-athrawon yn mhlith y Corinthiaid yn ei gyhuddo. Er na phwysodd arnoch, meddent, ei gyfrwysdra oedd hyny; bu gyfrwys, ac a'ch daliodd trwy ddichell. Yn ateb i'r cyhuddiad hwn, mae yr apostol yn gofyn, 'A wnaethum i elw o honoch chwi, trwy neb o'r rhai a ddanfonais atoch?' Adn. 17, 18. Y mae y rhai sydd weithwyr twyllodrus eu hunain, yn llafurio er mwyn elw, ac nid er lleshau eneidiau dynion a gogoniant Duw, yn barnu fod pawb yn debyg iddynt; ac yn ymgais am gyfeirio llygad pawb at feiau eraill, fel na syllont ar eu beiau hwy. 2 Cor. 11. 13.

DICHELLGAR, (dichell) ystrywgar, twyllodrus, cyfrwysddrwg, hocedus. Diar. 7. 10. a 14. 17.——'Hwn a fu ddichellgar wrth ein cenedl ni.' Act. 7. 19. Felly y mae yr Ysbryd Glân yn galw callineb brenin yr Aipht, a'i holl ddychymygion cyfrwys-ddrwg i attal cynnydd a lliosogiad yr Hebreaid; ond yr oedd ei holl ddichellion yn ofer. Exod. 1. 10. Ps. 105. 25 Esa. 54. 17.

DICHON, (dig) *Gr.* *ισχυειν*, medru, gallu, effeithioli.—'Dichon Duw, ie, o'r meini hyn, gyfodi plant i Abraham.' Mat. 3. 9. Mae y geiriau yn neillduol hardd a chyrhaeddgar. Mae Ioan yn tystiolaethu, yn gadarn ac egniol, yn erbyn gau hyder y Phariseaid a'r Saduceaid; yn cyfeirio at y meini o'u blaen, ac yn dangos fod gallu Duw mor anfeidrol fel y gallai fywhau a sancteiddio y rhai hyny, a'u gwneuthur mewn ystyr mwy ardderchog yn blant i Abraham, ac yn etifeddion yr addewid, na hwy, y rhai nad oedd ganddynt ond tadogaeth naturiol i ddangos eu bod felly; ac y byddai iddo wneuthur hyny yn hytrach nag i'w addewid ballu, ac y byddai i'w bath etifeddu y bendithion addawedig, a gogoniant ei deyrnas. Mae parhad yr eglwys yn gorphwys yn hollol ar raslonrwydd, ffyddlondeb, a daioni Duw, ac nid ar ddynion, nac ar ddim mewn dynion. Pwy bynag a wrthgilio ac a ymlygro, dichon Duw gyfodi eraill yn eu lle, o'r pechaduriaid mwyaf anolygus ac annhebyg. Pwy a osod derfyn iddo? dichon wneuthur meini yn ddynion byw—ie, yn gredinwyr sanctaidd, ufudd.

* 'He that was and is God, took upon him the form of a man. The apostle doth not say that Christ made that form of no reputation, or Christ *εκενωσε* that form; but Christ being in that form *εκενωσε εαυτον*, made himself of no reputation; not by any real change of his Divine Nature, but taking to himself the human, wherein he was of no reputation. It being he that was so, in the nature and by the dispensation, wherein he was so: and it being not possible, that the Divine Nature of itself, in itself should be humbled, yet he was humbled, who was in the form of God, though the form of God was not.—*Vin. Evang.*, by Dr J. Owen.

† Gwel Witsius *Exer.* i. *de Orat.* Waterland's *Sermons.*

Digitized by Google

'Ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.' Ioan 3. 3. Mae y geiriau yn gosod allan anaddasrwydd pob dyn heb ei eni drachefn, o ran agwedd a syniad ei feddwl, i weled a chanfod teyrnasiad ysbrydol Crist, trwy yr efengyl, yn y byd, ac ar galonau pechaduriaid; ac am na chanfyddant ei deyrnas, nas dichon iddynt fyned i mewn iddi. Y mae y ddau air hyn, *gweled* a *myned* i mewn, er eu bod yn gysylltiedig, etto i'w golygu yn wahanol. Mae teyrnas Dduw yn ysbrydol yn ei natur, ei chyfreithiau, ei dybenion, a'i chysuron; ni *wel* dyn anianol y deyrnas ysbrydol hon; nis dichon iddo ei gweled heb ei eni drachefn; a thrwy hyny feddiannu deall a goleuni ysbrydol. Ac os na ddichon iddo ei *gweled*, ni ddichon iddo chwaith fyned i *mewn* iddi; mae hyny yn groes i sefydliad Duw, yn gystal a'i ddymuniad ei hun. 2 Cor. 2. 14. Mae esbonwyr yn gyffredin yn golygu y gair *gweled* yn gyfystyr â'r geiriau *myned i mewn*, ac yn arwyddo cyfranogi, mwynhau, meddiannu. Sicr yw fod *gweled* yn arwyddo, yn aml, *mwynhau*, neu *ddyoddef*, fel y byddo natur y gwrthddrych; megys *gweled* daioni, *gweled* bywyd, *gweled* llygredigaeth, *gweled* marwolaeth, &c. Er bod hyny yn gynnwysedig, etto nid hyny yw y cwbl sydd yn gynnwysedig ynddo. Y gair nis *dichon weled*, a arwydda, yn dra sicr, ei anaddasrwydd a'i anghymwysder i hyny; ac felly y mae pob dyn heb ei oleuo a'i eni drachefn gan Ysbryd Duw.

'Ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono ei hun.' Ioan 5. 19. *ου δυναται, ni ddichon, ni all, nid yw yn bosibl iddo*. Gan fod ei hanfod yr un â'r Tad, y mae yn rhaid iddynt gydweithredu yn mhob peth. Fel nad oes gwahanol hanfod iddynt, nis gall fod iddynt wahanol gynghor, gwahanol ewyllys, gwahanol allu, na gwahanol weithrediad: 'Pa beth bynag y mae y Tad yn ei wneuthur,' yn nghreadigaeth, trefniad, a llywodraeth y byd, '*hyny* hefyd y mae y Mab yr *un ffunud* (*ομοιως, yr un dull, yr un modd*) yn ei wneuthur.' Mae holl drefniadau, cynghorion, a gweithredoedd Duw, yn gydradd, yr un ffunud, yn perthynu i'r Personau Dwyfol; nis dichon, o herwydd undeb hanfod, y naill ewyllysio na gweithredu yn wahanol oddiwrth y lleill. Nid yw undeb y natur ddynol â Pherson Dwyfol y Mab yn effeithio dim gwahaniaeth yn hyn; gan ei fod yn Dduw, yn gystal ag yn ddyn, ni ddichon iddo wneuthur dim o hono ei hunan; ac os na ddichon iddo wneuthur dim, ni ddichon iddo gynghori dim, nac ewyllysio dim o hono ei hun:—y mae undeb y ddwy natur y fath, fel nad ydynt ond *un person*. Mae y gair bach *ομοιως*, *yr un ffunud*, o neillduol bwys. Nid oes neb ond Duw a ddichon weithredu yr un ffunud a Duw; ond y mae y Mab yn gweithredu yr un ffunud a'r Tad; gan hyny, y mae y Mab yn Dduw gogyfuwch a'r Tad. Nid yw y Mab yn gweithredu fel offeryn yn llaw y Tad, ond yn gweithredu yn mhob peth yr un ffunud, gyd â'r un awdurdod, yr un gallu, yr un rhyddid, a'r un doethineb a'r Tad—y mae anfeidrol berffaith gydraddoldeb hanfod rhyngddynt. Ioan 5. 17. a 8. 28. Gwel Zanch., *De Tribus Elohim, lib. quart, cap. secund.*

DIDEN—AU, (did) *Heb.* דד *(dad) Gr. τιτθη, (titthe)* teth, tethau; bronau merch. Ezec. 23. 3.

DIDOI, (toi) diorchuddio, dynoethi.—'A didol y tô a wnaethant lle yr oedd efe.' Marc 2. 4. Luc 5. 18, 19, 20. Mae penau y tai yn y gwledydd dwyreiniol yn wastad; yr oedd yr Iesu yn yr ystafell nesaf at nen y tŷ; tebygol fod grisiau oddi allan i fyned i nen y tŷ; a thynasant gymaint o'r pridd-lechau, sef tô y tŷ, ag oedd yn angenrheidiol i ollwng i waered y gwely yn yr hwn y gorweddai y dyn claf. Mawr oedd eu ffydd yn yr Iesu, a'u llafurus gariad tu ag at y claf!

DIDOL—I—EDIG, (tawl) gwahan, gwahanedig, wedi ei neillduo, o'r neilldu.—'Didoledig oddiwrth bechaduriaid. Heb. 7. 26. Er i Grist gyfranogi o'r un natur a phechaduriaid, byw yn eu plith, cyflawni pob dyledswydd tu ag atynt, a chyfeillachu yn rhydd â hwynt, etto yr oedd yn hollol ddidoledig oddi wrthynt oll, o ran cyfranogiad mewn un gradd o'u llwgr. Yn yr ystyr hwn yr oedd yn hollol ddidoledig, ac yn ysgaredig oddiwrth bawb a anwyd i'r byd. Er ei fod yn ddyn wedi ei eni i'r byd, etto y mae yn ddidoledig oddiwrth bechaduriaid, o ran cyfraniad yn y gradd lleiaf o euogrwydd na llwgr Adda, gwreiddyn a chynnrychiolwr ei holl had. Y cyfryw un oedd weddus i ni, i gyfryngu rhyngom a Duw, o achos pechod, ac i wneuthur iawn drosom.——'Y rhai hyn yw y rhai sydd yn eu didoli eu hunain.' Judas 19. Yn cynnwys meddyliau uchel am eu doniau, eu doethineb, a'u cyfiawnder eu hunain, rhagor eraill: ac yn eu hymchwydd ffol yn didoli oddi wrthynt. Esa. 65. 5. Neu yn anoddefol o iau ddysgyblaethol yr eglwys arnynt, o herwydd hyny yn ymneillduo i benrhyddid buchedd aflan. Adn. 4.——Yn nydd mawr y farn, bydd y Barnydd cyfiawn yn gwneyd didoliad amlwg, manwl, cyflawn, a thragywyddol, o'r cyfiawnion a'r anghyfiawnion oddiwrth eu gilydd. Mat. 13. 49. a 25. 32. Yr oeddynt wedi eu didoli er tragywyddoldeb yn yr arfaeth: mewn amser y didolwyd hwynt yn bersonol, trwy alwad yr efengyl, a sancteiddiad yr Ysbryd Glân; yn nydd y farn bydd pob un yn ymddangos yn gyhoeddus, gyd â'r blaid a ddewisodd yma yn y byd, y naill yn ogoneddus ac yn hollol ddedwydd, a'r llall yn warthus, ac yn druenus byth.

DIDWN, (twn) cyfan, heb doriad, diddrylliad.—

Cenwch ei gerdd, clodforwch hwn,
A'i *ddidwn* ryfeddodau.
*E. Prys*, (Ps. 105. 2.)

'Didwn ei air fel crair cred;' mae ei air mor ffyddlon a chyfammod y ffydd.

DIDUEDD, (tuedd) annhueddol, anmhleidgar, diragfarn. Mae y 'doethineb sydd oddi uchod yn ddiduedd:' (Iago 3. 17.) 'yn ddiddosparth,' W.S.—yn ddidraws-farnu. Y mae yr apostol yn beio ar y Cristionogion am eu bod yn diystyru eu brodyr tlodion, ac yn dangos parch gormodol yn eu cynnulleidfaoedd i'r cyfoethogion, er eu bod o fucheddiad anaddas i'w proffes. 'Onid ydych chwi,' medd yr apostol, 'dueddol ynoch eich hunain? ac onid aethoch yn farnwyr meddyliau drwg?' *ου διακριθητε εαυτοις*, 'onid ydych chwi dueddol ynoch eich hunain?' Y mae y ddoethineb sydd oddi uchod yn gwbl groes i hyn, *αδιακριτος*, yn ddiduedd. Yr oedd yr ysbryd tueddol yn eu plith, yn edrych mwy ar gyfoeth un, a'i sefyllfa yn y byd, nag ar rinweddau, rhadau, ysbryd, a delw Duw. Mae y ddoethineb sydd oddi uchod yn gweled rhagoriaeth y pethau sydd oddi uchod, ac yn parchu yn fawr y cyfryw sydd wedi eu llenwi â hwynt.

DIDWYLL, (twyll) diddichell, dihoced.—'Di dwyll laeth y gair.' 1 Petr 2. 2. *το λογικον αδολον γαλα, llaeth y gair*, yr hwn sydd bur a digymysg, heb ddim twyll ynddo, nac yn twyllo neb trwy ei gredu ac ufuddhau iddo. Twyll a siomedigaeth yw pob peth a chwanegir at wirionedd yr efengyl. Y mae yn hollol ddigonol ynddo ei hun; ac yn fagwriaethol i gyd, ac yn peri cynnydd i bawb sydd yn ei chwennych, ac yn cyfranogi o hono trwy ffydd. Trwy air Duw y mae ei blant yn cael ei hail-eni, a thrwy yr un gair, sef yr efengyl, y maent yn cael eu magu ac yn cynnyddu mewn grym a maintioli ysbrydol. 2 Cor. 2. 17. a 4. 2. Esa. 55. 1. a 66. 11. Ps. 19. 10. a 119. 103. Diar. 24. 13, 14.——'Gweddi o wefusau didwyll,' yw gweddi ddiragrith, yn ddiffuant, yn gosod achos ger bron Duw yn gywir, ac yn gofyn

Digitized by Google

pethau uniawn, ac i iawn ddybenion. Ps. 17. 1. a 145. 18. Mat. 15. 8.

DIDYMUS. Edr. Thomas.

DIDDANU. Edr. Dyddanu.

DIDDARBOD, (darbod) difeddwl, diofal, annarbodus, diragddarbod, diragweliad.—'Y rhai wedi diddarbodi,' &c. Eph. 4. 19. *απηλγηκοτες, Being past feeling—απο*, yn arwyddo, *diddymiad, αλγεω, dolurio.* Y gair Groeg, medd Raphelius, a arwydda y gradd eithaf o ddideimladrwydd, anobaith, a difrawwch: ac yn gosod allan yr agwedd meddwl mwyaf anystyriol a llygredig; wedi ymroddi i bechod, o gariad ato, ac anobaith gallel byth ymysgwyd oddi wrtho. 1 Tim. 4. 2. Rhuf. 1. 24, 26, 28. Deut. 29. 19.

DIDDIM, (dim) peth heb ddim, anoberi.—'Yr holl genedloedd ydynt megys diddim ger ei fron ef, yn llai na dim.' Esa. 40. 47. Yr holl genedloedd o ran eu cyflyrau yn ysbrydol y mae y prophwyd yn ei olygu. Y maent hwy, a'u holl eilunod, eu holl rinweddau, eu doethineb, eu dysgeidiaeth, &c., mor bell oddiwrth fod yn gymeradwy ger bron Duw, y maent megys diddim, ie, llai na dim, maent yn bechadurus, ac yn dra ffiaidd yn ei olwg. Pob cnawd, yn ei holl wychder, ei flodau, a'i odidogrwydd sydd wellt, a'i holl odidogrwydd fel blodeuyn y maes. Rhuf. 8. 6. 1 Cor. 1. 17. Dan. 4. 35. Esa. 34. 12.

DIDDORI, (diddawr) diofal, diystyr, anystyriol, difraw, diddarbod.——'Eb ddiddori.' Eph. 4. 19. W. S., ymyl y ddalen.

DIDDOS—I, (dos) diddefni, diddiferfa.

Adail dedwydd yn *ddiddos.* *Diar.*
Yn *ddiddos* ei fyfyrdod. *E. Prys*, (Ps. 1. 2.)

'Mèni diddos,' yw certwyni gorthöedig. Num. 7. 3. Y mae rhai yn barnu mai math o gerbydau hardd a feddylir, arferol gynt i farchogaeth ynddynt, gan dywysogion a breninoedd, wedi eu gorchuddio i gadw allan y gwres, llwch, a gwlaw. Cyfieithir yr un gair, *elorau meirch*, yn Esa. 66. 20.——'A phabell yn ddiddos rhag tymhestl, a rhag gwlaw.' Esa. 4. 6. 'Yn ymguddfa rhag tymhestl.' Dr. M. Y mae gwres a thymhestloedd mawrion, yn iaith y prophwydi, yn aml, yn arwyddo barnedigaethau ofnadwy yn syrthio ar ddynion, neu erlidigaethau ar yr eglwys. Ps. 11. 6. Esa. 32. 2, 19. Ezec. 38. 22. Dat. 16. 21. Can. 1. 6. a 2. 11. Y mae diogelwch yr Arglwydd i'w bobl yn y cyfryw amseroedd blinion, yn cael ei gyffelybu i babell, ymguddfa, neu diddos, yn eu cadw a'u diogelu rhag dim niwed oddi wrthynt. Y mae yn eglur, oddiwrth adn. 5. fod y geiriau yn cyfeirio yn fwyaf neillduol at ddiogelwch yr Arglwydd i'w bobl yn yr anialwch. Yr hyn oedd efe iddynt hwy yr amser hwnw, a'u hamgylchiadau cyfyng yno, hyny a fydd efe i'w eglwys yn mhob oes, a phob amgylchiad, hyd ddiwedd amser. Yr Arglwydd Iesu yw y gwr a fydd iddi 'megys ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymhestl,' &c. Esa. 32. 2. Yn nghanol y tymhestloedd mwyaf, efe a fydd iddi yn ddiddos ddiogel, ddiddefni. Edr. Cwmwl.

DIDDRWG, (di-drwg) diniwed, gwirion, dibechod.

Nid dedwydd ond *diddrwg*,
Nid *diddrwg* ond dibechod. *Diar.*

'Y cyfryw arch-offeiriad sanctaidd, diddrwg, &c. oedd weddus i ni.' Heb. 7. 26. Yr ydoedd yr Arglwydd Iesu, ein Harch-offeiriad ni, yn berffaith sanctaidd (*οσιος*) o ran ei natur; ac yn berffaith ddiddrwg (*ακακος*) o ran ei fucheddiad. Fel ag yr ydoedd yn sanctaidd (*οσιος*) nid oedd pechod yn bresennol gyd âg ef, ac yn barod i'w amgylchu, fel y mae gyd â'r goreu o ddynion. Rhuf. 7. 18, 21. Heb. 12. 1. Fel ag yr ydoedd yn ddiddrwg (*ακακος*) yr oedd yn gwbl rydd oddiwrth effeithiau y cyfryw egwyddor bechadurus 'Nid *adnabu* bechod,—Ni *wnaeth* bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau.' 2 Cor. 5. 21. 1 Petr 2. 22. Ioan 8. 46.

DIDDYFNU, (dyfnu) dilaethu, tynu oddiwrth y fron. Yr oedd yr Iuddewon yn diddyfnu eu plant dair gwaith; yn gyntaf, oddiwrth y fron, yr hyn a wnaent yn mhen tair blynedd, neu yn gynt, y rhan amlaf; yn ail, oddiwrth y fammaeth, yn mhen saith mlynedd; a'r drydedd waith, oddiwrth bethau plentynaidd. 1 Cor. 13. 11.—'Eithr gosodais a gostegais fy enaid, fel un wedi ei ddiddyfnu oddiwrth ei fam; fy enaid sydd ynof fel un wedi ei ddiddyfnu.' Ps. 131. 2. Fel y mae plentyn wedi ei ddiddyfnu yn ddystaw am y fron, yn ngofal ei fam am dano, felly y mae enaid y Psalmydd yn farw, ac yn ddiymgais am bethau mawrion, a sefyllfa uchel yn y byd. Gellir cyfieithu y geiriau, 'Fel un wedi ei ddiddyfnu gyd â'i fam, neu ar ei fam, sef ar freichiau, neu ar fynwes ei fam (עלי אמו *super matrem suam*). Mae wedi ei ddiddyfnu, ar etto gyd â'i fam, yn byw ar a roddo hi iddo, a'i gofal am dano.' Y mae y gyffelybiaeth yn neillduol o hardd a chynnwysfawr, ac yn gosod allan agwedd ysbrydol enaid wedi ei lareiddio a'i farweiddio i'r byd, a'r pethau sydd yn y byd, ac yn ymlonyddu ac yn ymdawelu yn ngofal Duw am dano. Mae dyn, fel pechadur tywyll, llygredig, yn nglŷn wrth y byd a'i orwagedd, o ran ei serch a'i awyddfryd, fel y plentyn wrth y fron; ei ddymuniad a'i gysur penaf yw; ond mae Ysbryd Duw yn diddyfnu ei bobl oddiwrth bob peth, i fyw yn unig ar Dduw eu hiechydwriaeth, ac i ymddigrifo ynddo. Ps. 86. 4. Hab. 3. 18.

DIDDYM—U, (dym) gwneuthur peth yn ddim, dirymu, dileu.

Dyn *diddym*, sef yw hwnw, heb dda ganddo.
*Cyfreithiau Cymreig.*

Diddymu cynghor, neu gyfammod, ydyw ei dori, ei ddileu, neu rwystro ei gyflawniad. 2 Sam. 15. 34. a 17. 14. Esa. 8. 10. a 14. 27. a 19. 3. a 28. 18. Jer. 33. 20. Gall Duw ddiddymu holl gynghorion dynion, ond pa beth bynag sydd o Dduw ni all dyn ei ddiddymu. Act. 5. 39. Mae Duw yn dewis pethau nad ydynt fel y diddymai y pethau sydd: pethau ffol, pethau distadl, a diwerth yn ngolwg dynion; felly yr oedd dynion yn barnu pregethiad o Grist wedi ei groeshoelio. Ond y mae Duw yn dewis hyn, sef pregethu Crist wedi ei groeshoelio; a hyny nid mewn doethineb ymadrodd, ond â'r geiriau a ddysgir gan yr Ysbryd Glân, i ddiddymu y pethau o werth a chymeradwyaeth gan ddynion, ac y maent yn ymffrostio o'u plegid, ac yn hyderu arnynt. 1 Cor. 1. 28. Dyoddefodd Mab y dyn lawer o bethau ac a'i dirmygwyd. Marc 9. 12. *Gr. εξουδενωθη, nihili, fiat, Mont. a gyfrifwyd yn ddim.* Yr hwn a gyfrifwyd yn ddim, a'r pregethiad o hono, a ddewisodd Duw i ddiddymu y pethau sydd gan ddynion i'w parchu ac i hyderu arnynt. Esa. 53. 3. Rhuf. 4. 17. a 15. 3, 10. Luc 16. 15. 2 Cor. 12. 11.

DIEGWAN, (egwan) nerthol, grymus, cadarn, dilesg, pybyr, galluog.—'Ac efe yn ddiegwan o ffydd,' &c. Rhuf. 4. 19. Mae y gair 'Efe a nerthwyd yn y ffydd,' (adn. 20) yn dangos o ba le y tarddodd grym ffydd Abraham. Mae y cyfieithiad Cymraeg yma yn ateb i briodol ystyr y gair *Gr. ενεδυναμωθη*, 'efe a nerthwyd,' yn well na'r Saesonaeg, *was strong in faith:—robustus factus est fide*, 'efe a wnawd yn gadarn yn y ffydd.' Beza. Yr oedd yr Arglwydd yn nerthu ffydd Abraham yn gynnyddol, fel yr oedd yr anhawsderau ar ffordd cyflawniad yr addewid yn chwanegu. Trwy effeithioldeb yr Ysbryd Glân ar ei feddwl, nid ystyriodd ei gorph ei hun, yr hwn ydoedd yr awrhon gwedi marweiddio, na marweidd-dra bru Sarah; ond

Digitized by Google

ystyriodd, ac yr oedd yn gwbl sicr ganddo, am yr hyn a addawsai Duw, ei fod yn abl i'w wneuthur hefyd. Golwg trwy ffydd ar allu, cyflawnder, a ffyddloneb Duw, a nerthodd ei ffydd yn yr addewid, yn wyneb pob darfodedigaeth yn y creadur, i radd mor fawr a hynod ag sydd yn gwneuthur ei ffydd yn siampl i'r holl eglwys. Rhuf. 4. 18. Heb. 11. 11, 12. Gen. 17. 19. a 18. 11. Ps. 100. 5.

**DIETHR.** Edr. Dyeithr.

**DIENBYD,** (enbyd) *Gr.* ακινδυνος (*acindynos*) difraw, dibryder, diberygl.—'Jerusalem a gyfanneddir yn ddienbyd.' Zech. 11. 14. Mae y gair *Heb.* בטח yn cael ei gyfieithu *hyderus*, Gen. 34. 25.—*diogel*, Deut. 12. 10.—*hyder*, Esa. 36. 4. Diar. 25. 19. Bydd diogelwch Jerusalem y fath, fel y bydd ei phreswylwyr yn hyderus ac yn ddiofn. Y mae yr Arglwydd yn rhoddi i'w bobl y cyfryw olwg ar ei fawredd anfeidrol, ei allu, a'i ffyddlondeb i'w diogelu, a'i berthynas gyfammodol â hwynt, fel y maent yn cael eu gwared oddi wrth eu holl ofn. Ps. 34. 4.

**DIENEIDIO,** (enaid) difywydu, lladd. Deut. 19. 11. a 22. 26. a 27. 25. Ps. 31. 13. a 94. 6. Edr. Lladd, Llofruddiaeth.

**DIENWAEDIAD—EDIG,** (enwaediad). Gelwir yr Iuddewon yr enwaediad, a'r Cenedloedd y dienwaediad. Rhuf. 2. 26, 27. a 3. 30. a 4. 9. Gal. 2. 7. Eph. 2. 11.—'A minnau yn ddienwaededig o wefusau.' Exod. 6. 12. *Heb. gwefusau gormod*—gwefusau rhy fawrion a thewion, ac oblegid hyny, yn anaddas i lefaru yn groyw ac yn eglur.——'Cyfrifwch yn ddienwaededig ei ffrwyth ef; tair blynedd y bydd efe megys dienwaededig i chwi.' Lef. 19. 23.——'Torwch ymaith ei aflendid,' sef ei ffrwyth, 'tair blynedd y bydd efe aflan i chwi; na fwytaer ef,' Dr M. Pob pren ymborth a blanent yn ngwlad Canaan, yr oeddynt i beidio a bwyta ei ffrwyth am dair blynedd. Y bedwaredd flwyddyn yr oedd ei holl ffrwyth yn sanctaidd i foliannu yr Arglwydd, neu yn sancteiddrwydd moliant i'r Arglwydd. Y bummed flwyddyn yr oeddynt i fwyta o hono, 'fel y chwanego efe ei gnwd i chwi.' Nid oedd gyfreithlawn iddynt fwyta o ffrwythau y coedydd, heb offrymu yn gyntaf y blaen-ffrwyth i'r Arglwydd; nid oedd y ffrwyth yn ei eithaf perffeithrwydd cyn pen tair blynedd; am hyny yr oedd yn anaddas offrymu y blaen-ffrwyth i'r Arglwydd cyn pen pedair blynedd; a chyhyd nes offrymid y blaenffrwyth i'r Arglwydd. yr oedd yr holl ffrwyth i'w olygu yn aflan, neu yn ddienwaededig; ac am hyny yn waharddedig iddynt fwyta o hono. Nid oes dim yn lân i bechadur ond a sancteiddir gan Dduw iddo; ac y mae yn addas ac yn ddyledus i'w olygu ef yn mlaenaf yn mhob peth.——Dynion 'dienwaededig o galon a chlustiau,' ydyw dynion halogedig, anufudd, a gwargaled. Act. 7. 51. Ezec. 44. 7. Lef. 26. 41.——'Marw o farwolaeth y dienwaededig,' yw marw trwy law dyeithriaid, rhai dienwaededig: neu marw yn annuwiol ac yn druenus, fel rhai dienwaededig, allan o gyfammod Duw. Ezec. 28. 10, &c. Edr. Enwaediad.

**DIENYDD—WR,** (dien) un yn marwolaethu, crogwr, arteithiwr, dialeddwr.—'Y brenin a anfonodd ddienyddwr.' Marc 6. 27. *Gr.* σπεκουλατωρ, *gosgorddwr, gwyliedydd, milwr.* Y gair dienyddwr a arwydda un ag sydd felly wrth ei swydd; ond arwyddocâd y gair Groeg yw, gosgorddwr, neu warchawdwr, un o'r milwyr oedd yn gweinyddu i Herod. Nid oedd un dienyddwr, wrth ei swydd, yn yr amseroedd hyny.

**DIEPPIL—EDD,** (eppil) diffrwyth, anmhlantadwy, heb had, heb hiliogaeth. Esa. 49. 21. Can. 4. 2. [illegible]

**DIESGUS,** (esgus) diasswyn, digyfrith, diddiffyniad.—'Hyd onid ydynt yn ddiesgus.' Rhuf. 1. 20. a 2. 1. Y mae y Duwdod a'i dragywyddol allu, ei anfeidrol gyflawnder a'i berffeithrwydd, mor amlwg i'w gweled wrth eu hystyried, yn ngweithredoedd Duw, fel y mae pob dyn yn ddiesgus, nad ydyw yn eu gweled; yn credu ei fod, ac yn credu ynddo; yn ei addoli, ac yn ei ogoneddu fel Duw. Y mae argraff ddwyfol ar ei holl weithredoedd; ac y mae ei fawredd, wrth eu hystyried, i'w weled yn amlwg ynddynt oll; fel y mae holl genedloedd y ddaear, y rhai nid oes ganddynt y gair dadguddiedig, yn hollol ddiesgus, yn eu didduwiaeth, eu heilun-addoliaeth, eu haflendid, a'u halogedigaeth pechadurus. Ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst; gan hyny mae pawb yn ddiesgus, ag nad ydynt yn credu ynddo, ac yn ei addoli. Act. 14. 17. a 17. 24—29.

**DIEUOG—I,** (euog) difai, dinam, digyhuddedig.—'Nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.' Exod. 20. 7. Deut. 5. 11. לא ינקה *nid glân, nid pur, nid diniwed*; hyny yw, euog fydd yn nghyfrif Duw, ac am hyny yn ddarostyngedig i felldith y gyfraith, a digofaint Duw. Cyfieithir y gair *cospedigaeth*, yn 1 Bren. 2. 9. Nid heb gospedigaeth fydd gan yr Arglwydd. Y mae yn cael ei gyfieithu *gwirion*, yn Job 9. 28. Felly yma, nid gwirion, nid diniwed, gan yr Arglwydd. Y mae efe yn gyfiawn yn agored i gospedigaeth, o herwydd ei anmharch i enw yr Arglwydd, sef i'r Arglwydd ei hun, ac yn sicr o gael ei gospi, oni ragflaena edifeirwch a maddeuant i droi ymaith y gospedigaeth.——'Ni ddieuoga yr anwir.' Nah. 1. 3. *Heb.* ונקה לא ינקה *A chan ddieuogi ni ddieuoga*; yr un geiriau a gyfieithir, 'Heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn.' Exod. 34. 7. Mae yn maddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod, i bechaduriaid edifeiriol sydd yn credu yn Iesu Grist, fel iawn dros eu pechodau; ond ni ddieuoga, ni chyfrif hwynt yn y farn yn ddieuog, y rhai diffydd a diedifeiriol; gofwya hwynt â chospedigaeth gyfiawn, gyfatebol i'w beiau. Y mae yr Arglwydd yn cyfrif pawb y peth ydynt yn wirioneddol, ac yn ymddwyn tu ag atynt yn gyfatebol. Exod. 23. 7, 21. Jos. 24. 19. Job 10. 14. Mic. 6. 11.

**DIFA,** (dif) dyfetha, ysu, treulio, afradloni, difrodi.—'Ac wele y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei difa.' Exod. 3. 2. *Heb. Heb ei bwyta.* Duw sydd dân ysol; er hyny preswylia yn ei eglwys, yr hon yr oedd y berth yn ei arwyddo, yn ddysglaer, yn ngoniant ei briodoliaethau, a'i oruchwyliaethau tanllyd, ac etto heb ei difa, am ei fod yn preswylio gyd âg ewyllys da. Deut. 33. 16. Yr oedd yn rhyfeddod fawr i Moses, paham nad oedd y berth, a hi yn llosgi, yn cael ei difa hefyd; ond nid mwy rhyfeddod oedd hyn na bod Israel yn yr Aipht yn cael eu cystuddio a'u dolurio; a'r eglwys yn y byd, o oes i oes, yn cael ei chystuddio, ei gorthrymu, a'i herlid, ac etto heb ei difa. Mae Iehofah yn nghanol y berth a'r tân, a'i ewyllys da tu ag at ei eglwys; am hyny y mae, ac y bydd, heb ei difa. Gen. 15. 13—17. Deut. 4. 20. Ps. 66. 12. Esa. 43. 2. Dan. 3. 27. Difa Duw ei wrthwynebwyr fel tân angerddol yn difa drain neu sofl. Heb. 10. 27. Ps. 59. 13. a 144. 6. Jer. 8. 13. Zech. 5. 4.

**DIFAI—EIUS,** (bai) dibechod, dianaf, heb drosedd.—'A'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw.' Heb. 9. 14. Mae y geiriau yn cyfeirio at oen y pasc, a'r offrymau gorchymynedig dan gyfraith Moses. Y rheol gyffredin ydoedd, 'Na offrymwch ddim y bydd anaf arno; o herwydd ni bydd efe gymeradwy drosoch—un gwrryw perffeith-gwbl o'r eidionau, neu o'r defaid, neu o'r geifr. Os bydd anaf arno, os cloff, [illegible]

Digitized by Google

ffrwytho y tir, sef pawb oddi amgylch iddynt.* Mat. 13. 22. Eph. 5. 11. Tit. 3. 14. 2 Petr 1. 8. Gwel Mintert, Parkhurst, Witsius *in loco*. Hammond, Leigh, Gerard *in* 2 Petr 2. 17.

DIFLAS—ODD—RWYDD, (di-flas) di-halen, merf, anflasus, adflasus.—'Ar brophwydi Samaria y gwelais hefyd beth diflas.' Jer. 23. 13. 'Diflaster.' Dr. M. Y gair *Heb.* תפל a gyfleithir *ynfydrwydd, ffolineb*, yn Job 1. 22. a 24. 12. Y mae yn arwyddo peth afresymol, ffiaidd, anhoff. Peth ynfyd a ffiaidd oedd gwaith y gau brophwydi yn prophwydo yn Baal, sef yn enw yr eilun-dduw Baal, i'r bobl, yn lle prophwydo yn enw IEHOFAH, a thrwy eu celwydd yn hudo y bobl i bob cyfeiliornad. Gal. 2. 14.

'Eithr o diflasodd yr halen, â pha beth yr helltir ef?' Mat. 5. 13. Marc 9. 50. Luc 14. 34. Os bydd y rhai sydd yn dysgu eraill yn dywyll eu hunain; ac os bydd y rhai sydd yn diwygio eraill yn anfoesol ac yn annuwiol eu hunain, pa fodd yr adferir hwynt? Maent yn annhebyg i gael eu hadferyd; ond byddant y gwrthddrychau mwyaf diddefnydd a dirmygedig ar wyneb y ddaear; a'u sathru gan ddynion a gânt, a'u bwrw allan gan Dduw. Lef. 2. 13. Ezec. 16. 3, 4. 2 Cor. 2. 14, 15. 2 Petr 2. 13. 21. Y mae rhai yn cyfieithu y geiriau εν τινι αλισθησεται, *pa fodd yr helltir âg ef?* 'Ni thâl efe ddim.' Ni ddichon neb halltu â sylwedd heb halltrwydd ynddo: felly nis dichon y tywyll oleuo eraill; na dynion cyfeiliornus ddysgu y gwirionedd yn gywir i eraill; na dynion halogedig wneyd eraill yn sanctaidd ac yn dduwiol. Y mae yn ofynol fod halen athrawiaeth iachus, profiad ysbrydol, a buchedd sanctaidd, yn ngweinidogion y gair; heb hyny, pa fodd yr helltir â hwynt? Gallant wneuthur pleidwyr dadleugar, a goganwyr ffol; ond dyna holl effeithiau eu gweinidogaeth. Gwel Dr. Tengstadius, Bishop Sandermania's *Philological Remarks on St. Matthew's Gospel.*

DIFRAW, (di-braw) diofal, diystyr, diofn, dibryder, hyderus. 2 Cron. 29. 11. Ezec. 39. 6. Zech. 1. 15.

DIFROD—I, (difr) anrhaith, yspail, dystryw, difeithder; anrheithio, yspeilio, dystrywio, dinystrio, hafogi. Esa. 5. 6. Joel 1. 10, 15. Zech. 14. 11. Num. 21. 3. Deut. 3. 6. a 13. 15.

DIFRYCHAU—EULYD, (brychau) glân, dihalog, pur, dinam.—Mae yr Arglwydd Iesu, nid yn unig yn oen difai, dianaf, ond hefyd yn dditrycheulyd, ασπιλος, *difai*, heb gymaint a brycheuyn arno. Bu fyw mewn byd halogedig, yn hollol rydd oddi wrth bob gradd o halogedigaeth. Gallai efe ddywedyd am y diafol, 'Nid oes iddo ddim ynof fi.' Ioan 14. 30. Y mae ganddo rywbeth, ie, llawer peth, yn y goreu o ddynion; ond nid oedd dim o'i eiddo halogedig yn Nghrist; nac oedd, gymaint ag un brycheuyn. 1 Petr 1. 19. Iago 1. 10. 2 Petr 3. 14.

DIFUDD—IO, (budd) dielw, diynnill, digêd.—'Difudd i chwi yw hyny,' (Heb. 13. 17.)—*dibroffit*, W. S. sef y mae yn dra niweidiol ac yn beryglus iawn i chwi.—'Chwi a aethoch yn ddifudd oddi wrth Grist.' Gal. 5. 4. 'Ny vuddia Christ ddim ywch.' W. S. κατηργηθητε απο του Χριστου, 'chwi a ddiddymwyd oddiwrth Grist;' hyny yw, nid yw Crist o ddim budd i chwi; yr ydych chwi yn rhydd oddi wrtho, trwy ymgyfiawnhau yn y ddeddf; chwi a syrthiasoch ymaith oddi wrth ras. Fel y wraig wedi marw y gwr, mae hi yn rhydd (κατηργηται) oddi wrth ddeddf y gwr; felly mae y rhai sydd yn priodi y ddeddf er cyfiawnhad, yn rhydd oddi wrth Grist, a Christ yn rhydd oddi wrthynt hwythau. Rhuf. 7. 2, 3.

* Qui nullum salutarem fructum ferunt, nec in seipsis, nec suis sectatoribus.—Arbores, frugi perdœ, eo quod suos fructus corrumpant.



DIFURIO, (mur) digaeru.—'Yn difurio y gaer.' Esa. 22. 5. 'Yn dinystrio y gaer.' Dr. M.

DIFWRIAD, (bwriad) difeddwl, diamcan. Num. 35. 22.

DIFWYNO, (difwyn) llygru, dyfetha, dystrywio, anurddo, difuddio, anfuddioli. Num. 33. 52. Esa. 65. 8. Mal. 3. 11.

DIFYR—WCH, (difyr) hyfryd, llon, hylon, dyddan, llawen, gorhoenus, gorawenus, llonwych, digriflon.—'Y neb a garo ddifyrwch a ddaw i dlodi.'—*gwledda*. Dr. M. Diar. 21. 17. Luc 15. 13—16. a 16. 24, 25. 1 Tim. 5. 6. 2 Tim. 3. 4.

DIFFAITH—EITHFA—OEDD—WCH, (ffaith) anialwch, dyrysni, anghyfannedd, disathr, dyserth. ——'Adeiladant hefyd yr hen ddiffeithfa, codant yr anghyfanneddfa gynt, ac adnewyddant ddinasoedd diffaith, ac anghyfannedd-dra llawer oes.' Esa. 61. 4. a 44. 26. a 49. 8, 17, 19. a 51. 3. a 52. 9. a 58. 12. a 60. 10, 15. Jer. 49. 13. Ezec. 36. 4. 33—36. Wrth gymharu yr ysgrythyrau hyn â'u gilydd, nid anhawdd canfod meddwl yr Ysbryd Glân yn y cyfryw ymadrodd ag a arferir ynddynt. Y mae yn dra eglur mai wrth 'hen ddiffeithfa—anghyfanneddfa gynt—dinasoedd diffaith—ac anghyfannedd-dra llawer oes,' y deallir y cenedloedd dyeithriol i Dduw, ac effeithiau ei wirionedd a goruchwyliaethau ei ras ar eu calonau, yn nghyd âg eglwysi dirywiedig wedi eu hyspeilio gan elyn pob daioni, a phob peth hardd, gwerthfawr, a dymunol: gwedi myned yn anialwch drachefn, yn ddiffrwyth yn ysbrydol, ac yn sathrfa i elynion. Mae cyflyrau dynion, o ran eu hagweddau ysbrydol, yn cael eu cyffelybu i wlad wedi ei dyfetha gan elynion, a'i gwneuthur yn anialwch. Mae yr Arglwydd, yn llìosogrwydd ei dosturiaethau, yn addaw ymweled â hwynt yn rasol, i'w harloesi, eu gwrteithio, eu hadnewyddu, a'u ffrwythloni. Pan fyddo yr Arglwydd yn cysuro Sion, sef ei eglwys, dywedir, 'y gwna efe ei hanialwch hi fel Eden, a'i diffeithwch fel gardd yr Arglwydd.' Y mae y gyffelybiaeth yn hardd ac yn ardderchog, ac yn arwyddo llawer mwy nac adferiad allanol yn unig, o gaethiwed Babilon, &c.

'Bydded ei drigfan ef yn ddiffeithwch,' &c. Act. 1. 20. Ps. 69. 25. a 109. 8. Y geiriau a gynnwysant brophwydoliaeth, neu ragfynegiad o ddinystr trwyadl holl elynion Crist a'i achos yn y byd; ac y mae Petr yn eu cymhwyso at Judas, fel y blaenaf a'r penaf o honynt. Y mae eu pechodau yn tynu dinystr ofnadwy arnynt, eu teuluoedd, eu meddiannau, a'u trigfanau hefyd. Myn Duw ddangos yn amlwg i bawb, ei anfoddlonrwydd tu ag at y trigiannydd, trwy nodau o'i anfoddlonrwydd ar ei drigfan. Edr. ANIAL, ANIALWCH.

DIFFODD—I, (ffawdd) dyhuddo, rhoddi tân allan, darfod.—Fel y cyffelybir digofaint Duw o ran ei burdeb, ei angerdd poethlyd, annyoddefol, i dân; felly y mae attal ei ddigofaint, neu ei droi ymaith, yn cael ei alw, ei ddiffoddi. Ezec. 20. 48. Y mae plant, o ran y cynhesrwydd a'r cysur ydynt i'w rhieni, yn cael eu cyffelybu i farwor; a breninoedd yn cael eu cyffelybu i oleuni neu lamp, o ran y llesâd ydynt i'w deiliaid; yn eu hyfforddi ac yn eu hamddiffyn; felly gelwir eu tori ymaith trwy farwolaeth, eu diffoddi. 2 Sam. 14. 7. a 21. 17.

'Canwyll (neu lamp) y drygionus a ddiffoddir.' Diar. 13. 9. Eu holl ymddangosiad gwych; eu holl oleuni y fath ag ydyw; eu holl broffes wag o grefydd; eu holl gynnaliaeth, a'u holl gysuron, y cwbl i gyd a ballant ac a ddarfyddant dros byth. Pan fyddo y waedd ganol nos, pan fyddo mwyaf angen am danynt, bydd eu lampau yn diffoddi. Mat. 22. 13. a 25. 8. Diar. 20. 20. a 24. 20. Job 18. 5, 6. a 21. 17. Esa.

Digitized by Google

diffygiol;' am hyny ni ddiffygiant. Glynant wrth ffyrdd yr Arglwydd yn gwneuthur daioni, gyda hyfrydwch calon, heb ddiffygio. Luc 18. 1. Gal. 6. 9. 2 Thes. 3. 13. Dat. 2. 3. Mae eiriolaeth Crist o'u plaid, yn nghanol profedigaethau y diafol a'r byd, fel na ddffygia eu ffydd. Luc 22. 32. Y gair *Gr.* εκλειπω yn y fan yma, fel yn Heb. 1. 12. a arwydda *pallu*, neu ddarfod yn *hollol*. 'Mi a weddïais drosot, fel na phallai (neu, *ddarfyddai*) dy ffydd.' Hi a ddichon fod mewn llesmair, ond *ni ddiffygia yn hollol.*

DIFFYGIOL, (diffyg) gwallus, aballus, blinedig. —'Yr Iesu gan hyny yn ddiffygiol gan y daith, a eisteddodd felly ar y ffynon.' Ioan 4. 6. Y mae y pethau lleiaf yn hanes ein Hargiwydd mawr, yn llawn o ardderchogrwydd ac addysgiadau mwyaf godidog. Yn nrych y geiriau hyn, gwelwn, 1. Ei wir ddynoliaeth yn ymddangos yn eglur. Fel yr oedd yn Dduw, yr oedd diffygio yn hollol anmherthynol iddo; ond o ran ei ddynoliaeth, a'i holl wendidau dibechod, yr oedd yn ddarostyngedig i flinder, i newyn a syched, i ofidiau a doluriau, ïe, i farwolaeth ei hun. Yr oedd yn wir ddyn, ac yn wir Dduw, a chyflawnder y ddwy natur yn eu holl briodoliaethau yn perthyn iddo.——2. Gan ei fod yn ddarostynedig i flinder ei hun, dichon lefaru gair o gysur mewn pryd wrth y diffygiol, a'u cynnorthwyo yn eu holl wendidau.——3. Yn ei ddarostyngiad mawr rhoddodd siampl i ni fel y dilynem ei ôl. Fe biodd yr anifeiliaid ar fil o fynyddoedd; gallasai efe alw am eu gwasanaeth i gyd fel ei eiddo, yn gyfiawn; ond ni fynai gynnorthwy neb o honynt yn ei waith mawr; cymerodd arno agwedd gwas, mewn darostyngiad a gostyngeiddrwydd, i gwblhau y gwaith anfeidrol bwysig a roddwyd iddo ef. Ioan 4. 34.

'Un peth sydd ddiffygiol.' Marc 10. 21. Neu, mewn un peth yr wyt yn ddiffygiol. Nid ydyw y geiriau yn arwyddo nad oedd ond un peth; ond yr oedd yn ddiffygiol mewn un peth, ac yr oedd sylwi ar yr un peth yn ddigon i'w brofi, ac i ddangos beth ydoedd, sef nad oedd ganddo fawr o gariad at Grist, ond bod y byd a'i bethau yn rhagori mewn gwerth yn ei olwg.

DIFFYN—U, (diff) *Llad.* DEFENDERE: differ, diffryd, noddi, achlesu, amddiffyn.—'Enw Duw Jacob a'th ddiffyno.' Ps. 20. 1. *Heb.* ישגבך *a'th ddyrchafo;* sef i ardderchogrwydd a diogelwch, tu hwnt i gyrhaedd pob gelyn. Y Duw hwnw a ddyrchafodd Jacob o'i holl gyfyngderau, a'th ddyrchafo ac a'th ddiffyno dithau.

DIG — IO — LLAWN — LLONEDD, DIGDER, DIGOFAINT, (dy-ig) *Gr.* οργη; llid, anfoddlonrwydd, bâr, llidiogrwydd, digllonrwydd, irad, irllonedd, gwythlonder, gwythlonedd, tra-llid.——Y mae dau fath o ddig, neu ddigofaint; un yn anghyfiawn, ansanctaidd, a phechadurus; a'r llall yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn dda. Y mae digofaint mewn dyn yn aml yn anghyfiawn, yn greulawn, ac yn bechadurus; ond mae digofaint, fel y mae yn Nuw, yn gyfiawn, yn anfeidrol sanctaidd, a gogoneddus. Pechod ydyw peidio a digio yn gyfiawn, ac yn sanctaidd; ond nis gall fod felly heb fod yn llawn o gariad at Dduw, ac at ein cymydog, a chasineb at bechod—yn rhyw fath o eiddigedd duwiol dros Dduw a'i ogoniant, a llesâd ein cymydogion. A chan nad oes dim yn dianrhydeddu Duw, nac yn drygu dynion, ond pechod, y mae yn rhaid bod ynddo gasineb diffuant at bechod. Felly yr oedd digllonrwydd Crist yn berffaith sanctaidd. Marc 3. 5. Yr oedd digllonedd llidiog Moses, ac eiddigedd Phineas, pan yr eiddigeddasant hwy dros Dduw a'i ogoniant, o'r un natur, er nad i'r un gradd o berffeithrwydd. Exod. 11. 8. a 32. 19. Num. 25. 11. Ps. 106. 30. Mae digofaint yn bechadurus pan fyddo yn anghyfiawn, ac yn ansanctaidd; yn tarddu o falchder, hunan-gariad, cybydd-dod, casineb at Dduw a'n cymydog, a chariad at bechod. Felly yr oedd yn Dafydd a Nabal; y naill dan lywodraeth ei falchder, a'r llall ei gybydd-dod. 1 Sam. xvi. Yn meibion Jacob yr oedd yn bechadurus yn ei natur, ac yn y gradd o hono, yn eu gyru i ymddial ac i ladd. Gen. xxxiv. Ps. 37. 8. 1 Petr 3. 8, 9. Iago 1. 20. Rhuf. 12. 19. Col. 3. 8, 13.

Y mae digofaint yn Nuw yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn anfeidrol addas yn y BOD DWYFOL ac anfeidrol ogoneddus. Nid rhyw wŷn neu gynhyrfiad afreolaidd poethlyd, megys mewn dyn pechadurus, ydyw ei ddigofaint ef; ond gweithred gyfiawn, trwy ba un y mae y Duw mawr yn dangos ei gyfiawn anfoddlonrwydd tu ag at bechod, a phechaduriaid. Os ydyw yn beth cyfiawn yn Nuw, fel yn sicr y mae, i garu ei hun a'i ogoniant, i garu uniondeb a sancteiddrwydd, y mae hefyd yn beth cyfiawn ynddo gasâu yr hyn sydd groes i hyny; a dangos ei anfoddlonrwydd a'i ddigofaint yn erbyn pechod yn yr amser, a'r ffordd, a'r gradd, y gwelo yn gymhwys. Nid ydyw yn anghytun â'i gyflawnder i oedi digofaint, na chymeryd y naill berson i ddyoddef yn lle y llall, os bydd y person yn ymroddi ei hunan yn lle y llall o'i wir fodd, a hawl ganddo hefyd yn ei fywyd ei hun, fel yr oedd gan Grist. Ioan 10. 18. Oblegid ein hanwybodaeth o fawredd a pherffeithrwydd Duw, a'r drwg sydd mewn pechod, mae meddyliau y rhan fwyaf yn annhirion, yn annhyner, ac yn angharuaidd am Dduw, oblegid ei ddigofaint. Gwybydded pawb fod y gradd lleiaf o ddianrhydedd a roddir i'r Duw mawr, yn anfeidrol fwy drwg na phe bai cymaint o greaduriaid a greodd, neu a ddichon Duw eu creu, yn druenus dros bob tragywyddoldeb. Nid yw bod, hanfod, dedwyddwch, a gogoniant y creaduriaid oll, ond megys diddim, a llai na dim, i'w cymharu â Duw eu Creawdwr. Y mae Duw gwedi dangos ei anfoddlonrwydd a'i ddigofaint yn erbyn pechod, yn ei gyfraith danllyd; ei farnedigaethau ar ddynion o'i blegid; ar eu cyrph, eu heneidiau, eu henwau, a'u meddiannau; o'r nefoedd ac o'r ddaear; yn ei geryddon llym ar ei bobl; yn mhoenau tragywyddol y damnedigion a chythreuliaid:—ond, yn benaf, yn nyoddefiadau ei anwyl Fab, fel offrwm ac aberth dros bechodau ei bobl. Yn angeu y groes y gwelir dros byth fawredd llid Duw—y drwg diamgyffred sydd mewn pechod—dyfnderoedd difesur cariad Crist, ac ardderchogrwydd ei Berson. Y mae ein drwg ni a'i dda yntau i'w gweled yn yr un drych, yn eu maintioli difesur. Gan i Fab Duw ddyoddef felly am bechodau eraill, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, paham y gwrgnach dyn byw, gwr am gospedigaeth ei bechod? Galar. 3. 39. Rhuf. 2. 4, 5. Heb. 10. 26—31. 2 Cor. 4. 11. Luc 24. 26. Nid oes gysgod i bechaduriaid rhag digofaint dwyfol, ond yn yr iawn a wnaeth Mab Duw dros ein pechodau. 1 Ioan 2. 2. Esa. 32. 2. Ps. 32. 7. a 119. 114.

Oblegid ei lymder tost, ei losgfëydd annyoddefol, ei waith yn ysu holl gysuron dynion ar unwaith, y mae digofaint Duw yn cael ei gyffelybu i dân. Deut. 32. 22. Ps. 11. 6. Esa. 9. 18. a 30. 27, 30. a 33. 14. Jer. 15. 14. Ezec. 22. 21. Seph. 1. 18. a 3. 8. Heb. 12. 29.——Defnyddiwyd yr elfen dân, yn aml, gan yr Arglwydd, i ddangos ei ddigofaint trwyddo. Gen. 19. 24. Exod. 9. 24. Lef. 10. 2. 2 Bren. 1 10. Ps. 78. 63. Mat. 3, 10, 12. 2 Thes. 1. 8. 2 Petr 3. 7.

Wrth 'ddydd digofaint,' deallwn, y dydd y byddo Duw, mewn modd ofnadwy, yn dangos ei anfoddlonrwydd yn erbyn pechod, trwy dywallt ei farnedigaethau yn dymhorol neu yn dragywyddol ar bechaduriaid diedifeiriol. Job 20. 28. Rhuf. 2. 5.

Y mae dynion 'yn trysori iddynt eu hunain ddigofaint erbyn dydd y digofaint,' trwy barhau yn eu

Digitized by Google

pechaduriaid. Y mae yr Ysbryd Glân, hefyd, yn cael ei ddadguddio yn holl amrywiaeth a chyflawnder diderfyn ei ras a'i ddoniau, fel digonol Sancteiddydd, Arweinydd, a Dyddanydd, gyferbyn a holl halogrwydd, tywyllwch, a thrueni dyn. Y mae y DRINDOD yn yr UNDOD, yn cael ei amlygu yn nghyflawnder anfeidrol ei hanfod a'i briodoliaethau, fel rhan ei bobl, eu llawenydd, eu hyfrydwch, a'u dedwyddwch tragywyddol.

'Digonir hwynt pan ddihunant â'i ddelw; canys digonolrwydd llawenydd sydd ger ei fron, ac ar ei ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd.' Ps. 16. 11. a 17. 15. Mae yn ddigon yma: (2 Cor. 3. 5. a 12. 9.) a digon oddi yma, dros byth. Ps. 63. 5. Jer. 31. 14. Edr. DIHUNO.

A galwn ar y gwr a'n digones; (sef a'n *gwnaeth*.)
*Taliesin.*

DIGRED, (cred) diffydd, anghred, anghredadyn. 1 Cor. 6. 6. a 7. 12. 2 Cor. 4. 4. a 6. 14. Dat. 21. 8. Edr. ANGHREDINIAETH, ANFFYDDLAWN, SANCTEIDDIO.

DIGRIFWCH, (digrif) hyfrydwch, difyrwch, hoen, gorhoen, llonder, llawenydd.—'Dy gyfraith yw fy nigrifwch.' Ps. 119. 77. Y gair *Heb.* שעשעי a arwydda *chwareu o lawenydd*, fel plentyn ar liniau ei fam. Esa. 66. 12. Cyfieithir ef '*a chwery*,' yn Esa. 11. 8. Mae gwirioneddau Duw yn peri y digrifwch mwyaf i'r rhai sydd yn eu gwir gredu, eu deall, a'u derbyn; oblegid eu hunioneb, eu gogoniant, a'u defnyddioldeb cyflawn i bob peth, ac yn ngwyneb pob angen. Y mae yn ddigrifwch gwirioneddol, sanctaidd, a thragywyddol. Ps. 1. 2. a 119. 24, 47, 174. Rhuf. 7. 22. Heb. 8. 10.

DIGWYMP, (cwymp) heb dramgwyddo, heb syrthio.—'Yr hwn a ddichon eich cadw chwi yn ddigwymp.' Judas 24. Syrthiodd yr angelion, llaws o honynt; cwympodd Adda; y mae Cain, Balaam, a Chorah, yn cael eu coffâu gan yr apostol, fel siamplau o'r rhai a gwympasant yn ddychrynllyd i bechod, ac i ddinystr tragywyddol: etto, er nas dichon un dyn gadw ei hun rhag cwympo oddi wrth Dduw; oddiwrth y wir athrawiaeth, i gyfeiliornadau; oddi wrth fucheddiad sanctaidd, i drythyllwch a phen-rhyddid halogedig; oddi wrth garu a chymdeithasu â Duw, i garu y byd a'r pethau sydd yn y byd; etto dichon Duw ei gadw. Ei waith ef ydyw cadw ei bobl; ac mae ganddo allu, cariad, gras, a ffyddlondeb digonol i hyny. Rhuf. 16. 25. Eph. 3. 20. 1 Tim. 4. 16. 1 Petr 1. 5. Ioan 10. 28. 29. Mae y dynion goreu, pan fyddont ar y goreu, yn weiniaid; yn byw lle mae Satan yn trigo, a chanddo lid mawr; ac yn rhodio yn nghanol profedigaethau: etto dichon Duw yr Iachawdwr eu cadw; dichon gynnorthwyo y rhai a demtir, neu a brofir. Heb. 2. 18.

DIGYFRAITH, (cyfraith) didddedf, afreolaidd, anufudd; rhai heb ddeall cyfraith Duw, ac yn anufudd iddi. *Gr.* *ανομος*, *un heb gyfraith*, heb adnabod, na chydnabod cyfraith. I'r cyfryw y rhoddodd Duw y gyfraith. 1 Tim. 1. 9. Oni buasai eu bod yn ddigyfraith, ni buasai raid rhoddi y gyfraith iddynt.* Ond rhoddodd Duw y gyfraith iddynt yn nghanol eu tywyllwch a'u hafreolaeth, i fod fel drych i ddangos iddynt gyflawnder a sancteiddrwydd Duw; eu pechodau hwy, a'u perygl mawr; a'u hangen am gyflawnder i'w gwaredu oddi wrth y perygl dirfawr hwn; ac am waith Ysbryd Duw i gyfnewid eu calonau afreolaidd, ac ysgrifenu y gyfraith yn eu calonau, a'i dodi yn eu meddyliau. Edr. CYFRAITH, DEDDF.

DIGYMYSG, (cymysg) *Llad.* COMMISCEO; *Saes.* UNMIXED; anghymysg, pur.—'Hwnw a ŷf o win digofaint Duw, yr hwn yn ddigymysg a dywalltwyd yn phiol ei lid ef.' Dat. 14. 10. Gwin digymysg, yw gwin pur, heb ei wanhau âg un cymysgedd; felly llid digymysg yw llid trwm, annyoddefol, a dychrynllyd. Pwy a ddichon amgyffred beth ydyw llid Duw yn ddigymysg? Ond hyn fydd rhan phiol y rhai a yfasant win llid godineb Babilon Babaidd. Dat. 14. 8.

DIGYSUR, (cysur) annyddan, dihyfrydwch.—'Y ddigysur.' Esa. 54. 11. Mae yr Arglwydd yn tosturio gyd â'r tirioneb, y cariad, a'r trugarogrwydd mwyaf wrth ei eglwys, ei bobl, yn eu cyflwr digysur; nid oes neb ond ei hunan a ddichon eu cysuro; ond dichon ef wneuthur hyny pan y byddont yn helbulus gan y dymhestl o bob tu, ac y mae wedi addaw hyny iddynt. Mae yn cysuro ei bobl, trwy faddeu eu pechodau; darostwng eu hanwireddau; eu nesâu i agos gymdeithas âg ef; amlygu ei ogoniant iddynt; dyrchafu arnynt lewyrch ei wyneb; gwasgaru eu gelynion, a'u diogelu. Ps. 4. 6. Esa. 40. 1, 2, 9, 10, 11.

DIGYWILYDD, (cywilydd) haerllug, anfoesog, diorchwyledd; anniwair, diful.—'Wyneb digywilydd.' Diar. 7. 13. *Heb.* העזה פניה *hi a gadarnhaodd ei hwyneb*. Darlunia y geiriau un yn cynnyddu mewn anniweirdeb haerllug. Nid ar unwaith y mae dynion yn cyrhaedd y gradd eithaf o anfoesoldeb; ond y mae cynnefino â phechod yn eu cryfhau ac yn eu cadarnhau mewn pechod.

DIHALOG—EDIG, (halawg) pur, glân, anhalog.—Y mae Crist 'yn arch-offeiriad sanctaidd, dihalog.' Heb. 7. 26. Gallasai yr arch-offeiriaid Iuddewig gael eu halogi mewn amrywiol ffyrdd, a'u hanaddasu trwy hyny i waith eu swydd sanctaidd, nes cael eu glanhau; ond mae yr Arglwydd Iesu yn ddihalog byth, ac am hyny mae bob amser yn addas i waith ei swydd oruchel. Mae yn ddiddrwg ynddo ei hun; ac yn anmhosibl iddo gael ei halogi gan neb na dim arall. Y cyfryw arch-offeiriad oedd weddus i ni, i offrymu aberth dros ein pechodau; i eiriol drosom; ac i'n sancteiddio a'n gwneuthur ninnau yn ddihalog. Heb. 13. 11, 12. Eph. 5. 26. 27.

Geilw Crist ei eglwys, 'Fy nihalog.' Can. 5. 2. a 6. 9. *Heb.* תמתי *fy mherffaith*. Mae felly yn nghyflawnder perffaith y Cyfryngwr; yn arfaeth Duw, mae wedi ei rhaglunio i fod yn berffaith; ac mae ei dymuniadau a'i hymdrechiadau parhaus am berffeithrwydd. Phil. 3. 8—14. Rhuf. 8. 29. Col. 2. 10.

'Gwely dihalogedig,' sef cydorweddiad dynion yn yr ystâd briodasol, yn ol gosodiad a threfn Duw. Y mae y stad a'r gwely yn ddihalogedig ac yn anrhydeddus yn mhawb; ond mae gwely puteinwyr a godinebwyr yn halogedig; sef yn bechadurus ac yn ffiaidd, ac yn tynu barn Duw arnynt yn ofnadwy. Heb. 13. 4.

'Crefydd bur a dihalogedig.' Iago 1. 27. 'Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd,' ydyw un o ffrwythau crefydd bur yn y galon. Nid y *cwbl* o grefydd yw hyn; nid hyny yw meddwl yr apostol: ond y mae hyn yn perthyn iddi, ac yn tarddu oddi wrthi. Dichon dynion wneuthur hyn heb wir grefydd; ond nis dichon fod crefydd wirioneddol gan neb ger bron Duw a'r Tad, os byddant yn ddidosturi ac yn ddiymgeledd i rai mewn amddifadrwydd a chyfyngderau. Esa. 1. 16, 17. Mat. 25. 36, 43. Job 31. 16, 17.

Mae etifeddiaeth y saint yn ddihalogedig. 1 Petr 1. 4. Mae etifeddiaethau a meddiannau yma yn halogedig, naill ai yn y caffaeliad, neu yn yr arferiad o honynt, fel y gelwir hwynt 'y mammon anghyflawn.' Luc 16. 9. Y mae anwiredd wedi ei gymysgu felly â chyfoeth, fel y mae yn anhawdd eu gwahanu yn y

* In viros bonos lex non est, quia ipsi sunt instar legis. Aristotle, *Polit.* 3. 9.

Digitized by Google

meddwl oddi wrth eu gilydd. Ein pechod sydd yn halogi ein meddiannau: ond ni bydd un pechod yn y nefoedd; gan hyny ni halogir yr etifeddiaeth.

DIHALLT, (hallt) *Gr.* *αναλον*; dihalen, diheliaidd, diheliog.—'Os bydd yr halen yn ddihallt,' &c. Marc 9. 50. Yn nyffryn yr halen, yn agos i Gebul, oddeutu taith pedair awr o Aleppo, y mae Mr. Maundrell* yn rhoddi hanes iddo dori darnau o graig halen yno, ag ydoedd wedi colli ei halltrwydd yn hollol trwy effeithiau y gwlaw, yr haul, a'r awyr arnynt. Er fod gan y sylwedd wreichion a gronynau halen, etto nid oedd halltrwydd ynddynt. Y mae yn arddangosiad cymhwys o weinidogion â chorff o athrawiaeth ganddynt, a chrefyddwyr â rhith duwioldeb ganddynt, heb ysbryd a chariad y gwirionedd yn eu calonau, a grym duwioldeb yn eu bucheddau. Edr. DIFLAS.

DIHENYDD, (hanu) dihaniad, diddeilliad, diddechreuad.—'Yr hen ddihenydd.' Dan. 7. 9, 13. *Heb.* עתיק יומין *Gr.* *παλαιος ημερων*; *Saes.* ANCIENT OF DAYS.—Priodol arwyddocâd y gair עתק† medd Kircher, Vitringa, a Parkhurst, ydyw *sefydlog, parhaus, arosol, o hir barhad*; un parhaus o ddyddiau; un â'i ddyddiau yn aros, heb fyned a dyfod. Y mae yr enwad yn dra addas i Breswylydd tragywyddoldeb. Y mae perthynas rhwng amser a dynion, fel creaduriaid; ond nid oes dim perthynas rhwng amser a'r BOD tragywyddol. Nid oes dyddiau iddo gwedi myned heibio, na dim i ddyfod. Un *heddyw tragywyddol* ydyw hi gyda Duw. Ni bu erioed yn ieuanc, ac nid â byth yn hen; ond y mae efe y fynyd hon yr hyn oedd erioed, a'r hyn a fydd byth. 'YDWYF' ydyw ei enw; nid mi fum, neu byddaf, ond 'YDWYF.' Y Psalmydd, yn llefaru am y ddaear a'r nefoedd, a ddywed, 'Hwy a ddarfyddant, a thi a barhei:' *Heb.* אתה תעמד *Ti a sefi.* 'Hwy a newidir, Tithau yr un,' *Heb.* אתה הוא *Tithau yw Efe*, sef *Efe yr hwn sydd yn sefyll*, yr hwn sydd yn *parhau*—yr hwn ni newidir, ac ni dderfydd ei flynyddoedd. Ps. 102. 27, 28. Heb. 1. 11, 12. Mal. 3. 6. Iago 1. 17. Nid yw 'ei ddyddiau ef fel dyddiau dyn; na'i flynyddoedd ef fel dyddiau gwr.' Job 10. 5. Y mae efe yn hynach na dyddiau, canys yr oedd EFE cyn bod dyddiau; ac yr oedd pump o ddyddiau cyn bod dyn. Pan y darfydda dyddiau, EFE yr *un* a fydd. Am ei fod yn sefydlog ddigyfnewid yn ei hanfod, y mae felly hefyd yn ei holl briodoliaethau; yn ei gynghor; yn ei arfaeth; yn ei orseddfainc, ei awdurdod, a'i lywodraeth. Y Tad, yr Hen Ddihenydd, a roddes i'r Mab, fel Cyfryngwr, lywodraeth, gogoniant, a breniniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, a ieithoedd ei wasanaethu EF: 'Ei lywodraeth sydd lywodraeth dragywyddol, yr hon nid â ymaith, a'i freniniaeth ni ddyfethir.' Yr ydoedd gorseddfëydd eraill, ond bwriwyd hwynt i lawr; ac un 'megys Mab y dyn,' a ddaeth at yr Hen Ddihenydd, ac a dderbyniodd y llywodraeth ganddo. Dan. 7. 13. Dat. 1. 13, 14.

DIHEURO, (dihaer) esgusodi; amddiffyn; ymlanhau.—'Y modd i ymddiheuro oddi wrth lofruddiaeth, heb wybod pwy a'i gwnaeth.' Deut. xxi. (ystyr y bennod)—sef y modd i amddiffyn, neu ymlanhau oddi wrth lofruddiaeth.

DIHOENI, (di-hoen) nychu, curio, llesgâu, sychu, dysychu, crino, methu.—'Dihoenodd pobl feilchion y ddaear.' Esa. 24. 4. *Heb. uchder pobl y ddaear*; sef y rhai uchel mewn swyddau yn y wladwriaeth; y pendefigion a'r llywiawdwyr; y rhai a eilw y prophwyd yn adn. 21. 'y llu uchel, yr hwn sydd yn yr uchelder;' breninoedd y ddaear ar y ddaear. Gwel 1 Maccab. 1. 25, &c. Y mae pendefigion y ddaear, o herwydd eu pechodau, yn dihoeni yn aml dan farnedigaethau Duw ar y ddaear:—'Am eich anwiredd y dihoenwch.' Ezec. 24. 23. Marc 9. 18.

DIHUN—O, (di-hun) deffro, digwsg, effro; deffro o gwsg natur, Gen. 41. 4.—adgyfodi o gwsg marwolaeth. Ioan 11. 11. Job 14. 12.

*Dihunid* a brydero. *Diar.*

'Digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw di.' Ps. 17. 15. Noda y Psalmydd ei ddedwyddwch ef mewn cyferbyniad i ddedwyddwch y rhai sydd â'u rhan yn y bywyd yma. Y mae ei ddedwyddwch yn gynnwysedig, yn 1. Ei fod mewn cyfiawnder: sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd Crist. Phil. 3. 9.——2. Gweled wyneb Duw yn heddychol ac yn siriol yn y cyfiawnder hwn; sef cael adnabyddiaeth eglur o hono, a phrawf o'i dangnefedd. Ps. 4. 7. a 16. 11. 1 Cor. 13. 12. 2 Cor. 3. 18. 1 Ioan 3. 2, 3.——3. Dihuno â'i ddelw—sef yn ddeffrous yn ei ddelw, neu ei ddelw yn ddeffrous ynddo; neu, yn adgyfodi o'r bedd yn y dydd olaf, yn berffaith ar ei ddelw, mewn corph ac enaid. 1 Cor. 15. 49. Esa. 26. 19. Phil. 3. 21. Yn yr Arglwydd, yn ei heddwch, a'r mwynhad o hono, y mae ei ddedwyddwch cyflawn, digonol; ac heb fod yn ei gyfiawnder, nis gellir cael hyn; ac heb fod ar ei ddelw, nis gellir ei fwynhau. Cymh. 1 Ioan 3. 2.

Er dihuno lawer gwaith yn y byd hwn, heb fod yn hollol ar ei ddelw, y mae boreu yn prysuro pan y dihuna y cyfiawnion heb gysgu mwy, yn gwbl ac yn dragywydd ar ei ddelw ogoneddus.

DIL—IAU—ION, (il) dil-mêl; crwybr. Adail cŵyraidd y gwenyn, yn llawn o gelloedd bychain, iddynt osod eu hwyau a'u mêl ynddynt. Y mae gwneuthuriad yr adail hon, a'i chellodd, yn un o weithredoedd mwyaf rhyfedd creaduriaid direswm. Y mae y celloedd yn chwe-onglog, ac wedi eu cyfleu yn y modd mwyaf addas a ellid lunio, i ofyn ychydig o ddefnyddiau i'w gwneyd, ac i gynnwys llawer o fêl ynddynt. Y mae eu gwneuthuriad yn dra chywrain, yn ol rheolau mwyaf manwl mesuriaeth, i gymeryd ychydig o le, ychydig o gŵyr i'w gwneyd, ac i gynnwys llawer o fêl. Y farn gyffredin oedd, fod gan bob gwenynen o'r haid, gell iddi ei hun i drysori ei hymborth; ond camsyniad yw hyny; maent yn arfer y celloedd i gyd yn gyffredin, fel y gellir gweled yn y cychod gwydr, arferedig gan rai.—Beth bynag sydd felus, hyfryd, a iachusol, a gyffelybir yn yr ysgrythyrau i'r dil mêl, neu ddyferiad y dil mêl, megys gair Duw. Ps. 19. 10. a 119. 103.—Gweddïau, moliant, ymadroddion grasol ac adeiladol y saint. Can. 4. 11. Rhadau sanctaidd yr eglwys, y rhai sydd gymeradwy gan Grist. Can. 5. 1.

'Y dyn llawn a sathra y dil mêl; ond i'r newynog pob peth chwerw sydd felus.' Diar. 27. 7. Dynion llawn o hunan-dyb, a chwantau a rhagofalon bydol, a sathrant yr addewidion a'r bendithion gwerthfawrocaf; ond y sawl sydd yn cydnabod eu hangenion a'u hannheilyngdod, ydynt yn llawen ac yn ddiolchgar am y briwsion lleiaf.

DILEFEINLLYD, (di-lefn) disurdoes, dieples, croyw, cri.——'Megys yr ydych yn ddilefeinllyd.' 1 Cor. 5. 7. Bod yn ddilefeinllyd, yn allegawl, ydyw bod yn bur, ac yn ddihalog, yn ddigyfeiliornad, ac yn credu; yn deall, ac yn dal gwirionedd yr efengyl yn yr athrawiaeth, o egwyddor ddiragrith, ac o fucheddiad sanctaidd. Yr ydych yn ddilefeinllyd fel eglwys,

* Maundrell's Journey to the Euphrates.

† עתק Primo significandi modo, significat perdurare, perseverare in loco. Kircher. Locus Dan. 7. 9. עתיק יומין Longe commodius, exponitur per *permanens, consistens, durabilis* dierum. Vitringa in Jesaiam, *cap.* 46. 4.—Permaneus diebus; cujus dies manent, non finiuntur, sed semper pergant. Coccejus in עתק

Digitized by Google

wedi eich galw i burdeb a gwirionedd diragrith; 'am hyny, certhwch allan yr hen lefain, malais a drygioni.' 'Crist ein pasc ni a aberthwyd drosom ni:' yr oeddynt ar wyl y pasc i fwyta bara croyw saith niwrnod; ac yr oedd yr enaid a fwytai fara lefeinllyd i gael ei dòri ymaith oddi wrth Israel; felly y mae yr halogedig i gael ei dòri ymaith o'r eglwys. Exod. 12. 15—19.

DILES, (di-lles) annefnyddiol, diddefnydd, difudd. Yn ddiles ac yn ofer y cynnorthwya pawb ni, oni fydd Duw o'n plaid. Esa. 30. 7.

DILEU, (di-le) symud o le; diddymu, difanu, tynu ymaith, crafu ymaith, dystrywio.—'Dilëaf ddyn yr hwn a greais oddiar wyneb y ddaear:' (Gen. 6. 7.) hyny yw, dystrywiaf ddyn. Priodol ystyr y gair *Heb.* מחה a'r gair *Gr.* ἐξαλειφω, a gyfieithir yma, ac mewn manau eraill, yn aml, *dilëu*, yw sych-rwbio, dilychu, diolio, dioli, dadlythyru ysgrifen, fel na byddo mwyach yn ddarllenadwy. Duo, difanu, neu rwbio, neu grafu ysgrifen, fel nas gellir ei darllen. Yn Num. 5. 23. mae y gair yn cael ei gyfleithu *golchi ymaith.* 'Ysgrifened yr offeiriad y melldithion hyn mewn llyfr, a golched hwynt ymaith â'r dwfr chwerw:' hyny yw, eu dileu, trwy eu sych-rwbio. Yn yr ystyr hwn y cymhwysir y gair at ddileu enw neu ysgrifen. Exod. 32. 32, 33. Num. 5. 23. Ps. 69. 28. Dat. 3. 5.

'Dileu pechodau.' Neh. 4. 5. Ps. 51. 1, 9. a 109. 14. Esa. 43. 25. Jer. 18. 23. Y gair Hebraeg a arwydda, hefyd, *symud*, symud peth o ryw le fel nad ymddangoso mwy. Yn yr ystyr hwn, y mae yn cael ei briodoli i gwmwl yn cael ei symud ymaith gan wynt. 'Dilëais dy gamweddau fel cwmwl, a'th bechodau fel niwl.'* Esa. 44. 22.

Dilëodd Crist 'ysgrifen-law yr ordeiniadau, yr hon oedd i'n herbyn ni.' Col. 2. 14. Trwy roddi iawn digonol dros bechodau ei bobl, dilëodd yr ysgrifen yn adgoffa ac yn dangos y ddyled oedd i'w herbyn, ac ar eu ffordd at Dduw. Er mai yn rasol, ac yn rhad, y maent yn cael eu maddeu i ni, etto, dileu eu pechodau a wnaed gan y Mechnïydd mawr ar y groes, trwy roddi iawn drostynt. 'EFE yw yr iawn dros ein pechodau ni—yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau.' 1 Ioan 2. 2. Eph. 1. 7. Arwydda dileu bob dyled, a choffadwriaeth o honi: mai gwaith Duw yw maddeu; canys nis gall y dyledwr ddileu ei ddyled ei hun: ei fod yn maddeu trwy iawn; canys ar y groes y dilëwyd yr ysgrifen-law: dyma y fan y cyfarfu y Tad fel gofynwr, a'r gyfraith a dorwyd fel ysgrifen ganddo yn ei law; a'r Mab, y Mechnïydd dros ei bobl, yr hwn a atebodd yn gyflawn y gofynion yn llaw y Tad, ac a ddilëodd yr ysgrifen-law, gan ei hoelio wrth y groes. Gan hyny, na ato Duw i ni ymffrostio ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist; nerth Duw ydyw hi i'r rhai cadwedig. Gal. 6. 14. 1 Cor. 1. 18. 1 Ioan 3. 5.

'Pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddilëir.' 1 Cor. 13. 10. καταργηθησεται, *a ddiddymir*, a wneir yn anfuddiol, ac yn ddiffrwyth. Mae yr un gair yn cael ei gyfleithu *diffrwytho*, yn Luc 13. 7. Pan ddelo perffeithrwydd yn mhob peth, sef mewn gwybodaeth, cariad, &c., dilëir, neu tynir ymaith bob anmherffeithrwydd. Yr anmherffeithrwydd sydd yn cael ei ddileu, ac nid y gwrthddrychau, na'r wybodaeth o honynt. Mae o ran yn ddydd pan y tòro y wawr yn y boreu; ond y mae yr hyn sydd o ran yn cael ei ddileu gan gyflawnder goleuni pan gyfodo yr haul.

DILIN, (dil) *pro. dilyfn*, medd y Dr. Davies—curedig, gweithiedig, gwastad, hyddwyn, pur.—'A'r brenin Solomon a wnaeth ddau cant o darianau aur dilin.' 1 Bren. 10. 16. *Heb.* זהב שחוט *aur profedig*, neu *puredig*; neu aur wedi ei estyn yn ddalenau teneuon, trwy ei guro â morthwylion. Y mae Parkhurst yn barnu mai ystyr priodol y gair שחוט yw *dihysbyddu, sychu*; a'i fod yn cael ei briodoli i aur wedi ei buro o'i sothach a'i anmhuredd. Diammeu yr arwydda yr aur goreu a mwyaf puredig, wedi ei weithio yn y modd mwyaf cywrain. Y mae yn debygol nad aur i gyd oedd tarianau Solomon, ond coed wedi eu gwisgo âg aur. Nid i ryfel y gwnawd y tarianau hyn, ond er dangos mawr wychder ac ardderchogrwydd breninol, ac i'w dwyn o'i flaen yn achlysurol. 1 Bren. 14. 25—28. 2 Cron. 9. 15. a 12. 9, 10.

DILUW, *Llad.* DILUVIUM: yn hytrach dylif, medd y Dr. Davies, oddi wrth *dy* a *llif*. Edr. DYLIF.

DILYN, (llyn) *Heb.* דלק *(delec)* canlyn, erlyn, ymlid, olrhain, eilfyddu, efelychu.—'Dilyn Crist;' sef parhau i'w addef yn wyneb pob gwrthwynebiadau; glynu wrtho trwy ffydd a chariad; a dilyn ei ôl mewn buchedd. Arwydda fod Crist yn wrthddrych penaf ein ffydd a'n serch; ein hanwylyd, ein cyfaill, a'n hathraw penaf; ein pen a'n priod. Ni ddilyn neb ef yn drwyadl, yn ffyddlawn, ac yn wastadol, ond a welo fwy o werth a hawddgarwch ynddo nag yn mhob peth arall. Marc 10. 21. Luc 9. 59. Wrth gyflawn ddilyn yr Arglwydd, y mae i ni ddeall, ei ddilyn â'r *holl* galon, yn ei *holl* ewyllys, ac yn barhaus. *Heb.* ימלא אחרי *fe lanwodd*, neu *gyflawnodd ar fy ol i.* Num. 14. 24. a 32. 15. Deut. 1. 36. Jos. 14. 8, 9, 14.——'Solomon ni chyflawnodd (yr un gair) ar ol yr Arglwydd, fel Dafydd ei dad.' 1 Bren. 11. 6. 'Am na chyflawnasant ar fy ol i.' Num. 32. 11.

'Dilyn yr Oen,' yw credu ynddo, yn ei aberth fel iawn, a'r unig iawn dros bechod; ei gyhoeddi a'i addef fel y cyfryw, ger bron dynion, yn wrthwyneb i bob peth arall mae plant dynion, yn eu tywyllwch, am osod i fynu yn ei le; a dilyn ei siampl yn mhob peth. Dat. 14. 4.

'Dilyn cariad—tangnefedd—heddwch â phawb,' yw edrych ar y pethau hyn fel pethau dymunol, gorchymynedig i gyrchu atynt, ac i'w gwneuthur; ymgais â phob moddion a fyddo yn tueddu atynt ynom ein hunain ac eraill hefyd. Ymgais yn ddifrifol am fyw mewn heddwch a chariad â phawb, er ymwadu â ni ein hunain, a cholledu ein hunain. 1 Cor. 14. 1. 2 Tim. 2. 22. Heb. 12. 14.

'Dilyn cyfiawnder,' yw parhau mewn ysbryd tywyll, cyfeiliornus, i ymofyn am gyfiawnder trwy weithredoedd y ddeddf, heb gydnabod fod yr ysgrythyr wedi cyd-gau pob peth dan bechod. Rhuf. 9. 30. Gal. 3. 22.

Dilyn peth, yw byw ynddo, a glynu yn barhaus yn yr arferiad o hono, megys drygioni, 1 Sam. 12. 25. Diar. 11. 19.—gwobrau, Esa. 1. 23.—adnabod yr Arglwydd, Hos. 6. 3.—yr hyn sydd dda, 1 Thes. 5. 15. 1 Petr 3. 13.

DILYNWR—WYR, (dilyn) canlynwr, olrhainwr, efelychwr.—'Gwrandewch arnaf fi, ddilynwyr cyfiawnder.' Esa. 51. 1. Mae y gair *Heb.* צדק a gyfieithir yma *cyfiawnder*, yn arwyddo yr hyn sydd yn union a chywir mewn gweithrediad a bucheddiad, ac mewn ymadrodd. Dilyn cyfiawnder, gan hyny, yw dilyn athrawiaeth gyflawn, sef yr efengyl, a bucheddiad cyfatebol iddi yn mhob peth. Y mae cyfiawnder wedi ei golli, ac yn dra phell oddi wrth ddyn; mae yn bosibl i'w gael; ond ni cheir ef heb ddyfal lafurio am dano. Mae y rhai sydd yn gweled gwerth cyfiawnder yn ei ddilyn yn ddyfal, gyda newyn a syched am dano; ac y maent yn sicr o lwyddo; 'hwy a ddiwellir.' Mat. 5. 6.

* מחה amovit aliquid loco, ne amplius appareat. Kircher.—Notat enim aliquid, quale sit, quali modo removere, quali loco movere. Vitringa in Jes. 44. 22.

Digitized by Google

'Byddwch ddilynwyr Duw, fel plant anwyl.' Eph. 5. 1. Nid byddwch yn wrandawyr am Dduw yn unig, yn edrychwyr, yn ganmolwyr, ond yn ddilynwyr Duw. Y mae Duw yn ei le yn mhob peth, perffaith ddaioni ydyw. Ein dyledswydd, ein braint, a'n dedwyddwch ni ydyw bod yn debyg iddo. Mat. 5. 45, 48. Luc 6. 35, 36. Ioan 13. 15, 16, 34. 1 Petr 2. 21. Ioan 8. 39. 1 Cor. 4. 16. Phil. 3. 17.——'Fel plant anwyl.' Nid fel y mae yn Greawdwr, yn Llywodraethwr, ac yn Farnydd; byddai hyny yn anmhosibl; ond fel y mae yn Dad: yn ostyngedig, ac yn garedig, fel y gweddai plant y fath un fod. Yn 'gymwynasgar, yn dosturiol, ac yn maddeu i'ch gilydd, megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau.' Eph. 4. 32.

DILYS, (llys) anwrthodadwy, anocheladwy, sicr, diogel.—'Ac yn ddilys ydd ywch im goddef.' 2 Cor. 11. 1.—'A' hynn a wn yn ddilys,' Phil. 1. 25, sef yn sicr.—'Ac y chwitheu y mae yn beth dilys,' Phil. 3. 1. 8, sef diogel.—'Ac yn ddilysrwydd mawr.' 1 Thes. 1. 5, sef sicrwydd mawr.—'Val y mae yn ddilys yn 'air Duw.' 1 Thes. 2. 13. W. S.

DILYTH, (llyth) dilesg, neu ddilysiant, medd y Dr. Davies.

> A wnelo hyn ni lithra fyth,
> Fe gaiff y *ddilyth* goron.
> *E. Prys*, (Ps. 13. 5.)

Sef y goron sicr, barhaus, diddiflanedig.

DILLAD—U—EDYN, (dill) gwisg, trwsiad, archenad; addurn unrhyw beth. Y mae dillad er harddwch ac er diogelwch. Nid oedd noethder dyn yn anharddwch iddo yn ei greadigaeth; ac nid oedd angen dillad arno er ei ddiogelwch. Yr oedd y dyn, fel yr holl greaduriaid eraill, yn hardd ynddo ei hun yn ei greadigaeth, heb fenthyca harddwch gan greaduriaid eraill; ac yr oedd pob peth yn addas ac yn gysurus i'w natur. Ond pan bechodd y dyn, daeth cywilydd ac anharddwch, ac aeth ei sefyllfa yn anghysurus iddo, ac yn beryglus. Rhaid iddo wrth ddillad er harddwch a diogelwch. Wedi colli delw Duw, ar ba un y crewyd ef, mae yn ddarostyngedig i nwydau a chwantau afreolus anghymedrol, ac felly i gywilydd. Am y noethder pechadurus hwn y mae yr ysgrythyrau yn sôn yn aml. Exod. 32. 25. Ezec. 16. 22. Hos. 2. 3. 2 Cor. 5. 3. Dat. 3. 17. a 16. 15.

Yn allegawl, 'dillad gwynion' a arwyddant lawenydd, anrhydedd breninol, a dyrchafiad gogoneddus. Preg. 9. 8. Dat. 3. 5, 18. a 4. 4.——Bod 'heb halogi dillad,' yw bod o ymarweddiad pur, sanctaidd, a diragrith. Dat. 3. 4.——'Yn goch ei ddillad,' a arwydda fuddugoliaeth waedlyd Crist ar elynion ei bobl, a dystryw ofnadwy ei elynion. Esa. 63. 1. Dat. 19. 13.——'Dillad budron,' a arwyddant bechadurusrwydd a gwaeledd. Zech. 3. 3.——'Gwisgo â newid dillad,' a arwydda waith yr Arglwydd yn trugarhau, yn maddeu, yn puro, ac yn adnewyddu ei bobl, mewn modd amlwg a gogoneddus; ac yn sefyll o blaid ei weision yn ei swydd, yn erbyn cyhuddiadau y diafol; yn eu harddu, ac yn eu hawdurdodi yn eu gwaith. Zech. 3. 4.

'Bydded i'r gwragedd eu trefnu eu hunain mewn dillad gweddus.' 1 Tim. 2. 9. *εν καταστολη κοσμω, dillad hardd, prydferth, diwair, gostyngedig*; y cyfryw ag a weddai i bechaduriaid euog, a gafodd drugaredd, yn chwennych byw yn dduwiol, ac am farweiddio a chroeshoelio y cnawd, yn nghyd â'i wyniau a'i chwantau.

'Ac o bydd genym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hyny.' 1 Tim. 6. 8. Canys y mae y Tad nefol yn gwybod bod arnom eisieu ymborth a dillad, ac yn gofalu am danom. Mat. 6. 28.

Dilladu y noeth, a phorthi y newynog, sydd ran o'r gyfraith freninol, perthynol i holl ddeiliaid yr Arglwydd yma yn y byd; ac mae y ffydd hòno yn farw sydd heb y cyfryw weithredoedd o drugaredd yn tarddu oddi wrthi. Esa. 58. 7. Ezec. 18. 7. Mat. 25. 36. Iago 2. 15, 16.

Os cymerai un ddilledyn ei gymydog ar wystl, yr oedd yr Arglwydd yn gorchymyn iddo ei roddi adref erbyn machludo haul. Exod. 22. 26, 27. Mae gofal a thiriondeb yr Arglwydd i'w weled yn fawr yn ei holl gyfreithiau a'i gyfarwyddiadau, o ran ein hymddygiad tu ag at ein gilydd: ni fyn i ni fod yn galed, yn greulon, ac yn ddidosturi tu ag at ein gilydd mewn dim. 'Hwnw yw ei ddilledyn am ei groen ef: mewn pa beth y gorwedd? A bydd, os gwaedda efe arnaf, i mi wrando; canys trugarog ydwyf fi.' Deut. 24. 6, 10, 12, 13. Job 24. 3, 9. Mat. 5. 48. Luc 6. 36. Eph. 5. 1, 2. Ps. 86. 15.

DIM, (im) *Gr. ουδεν, ουθεν*; dyddim, diddim, diddym, peth heb ddim; pob peth, oll; neb.—Dim gwaith: dim yn y byd: y dim lleiaf: dim ŵy, y bilen sydd yn amgylchu yr ŵy yn y plisgyn.

> Nid *dim* ond Duw, nid Duw ond *dim*.
> Nid anfeidrol ond *dim*, nid Duw ond *dim*.
> Gwell Duw na *dim*.—*Diarebion Cymreig*.

'Tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynof fi.' Ioan 14. 30. *εν εμοι ουκ εχει ουδεν. Nid yw efe yn cael dim ynof fi*. Dr. M. Dim euogrwydd, dim llygredd, dim awdurdod arno; dim euogrwydd i'w gyhuddo o hono; dim llygredd i weithredu arno; na dim awdurdod arno mewn un modd. Os dyoddefodd farwolaeth gan hyny, nid o'i achos ei hun y dyoddefodd, ac nid o'i anfodd, ond o'i wirfodd;—*rhoddi* ei hun a wnaeth, i ddyoddef dros ein pechodau ni, y cyfiawn dros yr anghyfiawn. Dan. 9. 26. 1 Sam. 12. 5. Act. 28. 18. a 24. 19. Edr. DIFRYCHEULYD.

'Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.' Ioan 15. 5. *χωρις εμου, yn wahanedig oddi wrthyf fi*; heb undeb â mi, a chyfraniadau o ras a nerth oddi wrthyf fi—fel y mae y gangen mewn undeb â'r pren, ac yn derbyn nôdd trwy yr undeb hwnw i ddwyn ffrwyth. 'Ni ellwch chwi wneuthur dim;' sef dwyn dim ffrwyth ysbrydol o sancteiddrwydd. 'Megys na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid aroswch ynof fi.' Adn. 4. Nid, ni ellwch wneuthur *llawer* o bethau, neu *ryw* bethau mawrion; nagê, ond ni ellwch wneuthur dim—dim yn ysbrydol, yn sanctaidd, ac yn fywiog. Y mae dibyniad pob credadyn, bob mynyd, yn hollol ac yn gwbl, yn mhob peth, ar Grist. Nid yn unig ni allant wneuthur dim, ond y maent yn sicr o wywo, a chael eu taflu i'r tân i'w llosgi: ond ynddo a thrwyddo, gallant ddwyn ffrwyth lawer. Esa. 26. 12. Jer. 10. 23. Phil. 1. 11. a 4. 13. Hos. 14. 8. Eph. 2. 10. Iago 1. 25. 2 Cor. 3. 5.

'Ni wn i ddim arnaf fy hun.' 1 Cor. 4 4. *ουδεν γαρ εμαυτω συνοιδα. Ni wn i fy mod yn euog o ddim*. Dr. M. Nid wyf yn cydnabod dim yn feius ynof fy hun. Nid oedd yn foddlonol yn byw mewn dim yn wybodus iddo ei hun, yr oedd ei gydwybod yn ei gyhuddo o'i blegid, yn groes i air Duw: nis gallasai gan hyny euog-farnu ei hun. Nis gallasai chwaith ei gyfiawnhau ei hun: 'canys pwy a ddeall ei gamweddau?' 'Yn hyn,' medd yr apostol, 'ni'm cyfiawnhawyd, eithr yr Arglwydd yw yr hwn sydd yn fy marnu.' Addas i ni lefain gyd â'r Psalmydd, 'Glanhâ fi oddi wrth fy meiau cuddiedig.' Ps. 19. 12.

DIMON, [*gwaedlyd*] yr un a Dibon, Esa. 15. 2, 9. afon yn nghyffiniau gwlad Moab. 2 Bren. 3. 22.

DIMONAH, dinas yn y dehau i Judah. Jos. 15. 22.

Digitized by Google

DINAH, [*barnedigaeth*, neu *un yn barnu*] merch Jacob o Leah. Ganwyd hi ar ol Zabulon. Pan oedd Dinah oddeutu 15 neu 16 oed, aeth allan i ryw wledd oedd gan y Sichemiaid, i weled merched y wlad. Sichem mab Hemor yr Hefiad, tywysog y wlad, a'i serchodd, ac a'i cymerodd, ac a'i treisiodd. Dymunodd ar Hemor ei chymeryd yn wraig iddo. Cynnygiodd meibion Jacob i'r Sichemiaid ammod yr enwaediad; y mae Hemor a Sichem yn eiriol arnynt am ei derbyn; ac yn y fantais hòno y mae meibion Jacob, Simeon a Lefi, yn eu lladd hwynt. Gen. xxxiv. Beth a ddaeth o Dinah wedi y dygwyddiad galarus hwn, nid yw hysbys. Yr Hebreaid a haerant iddi briodi Job, ond heb sail. Nid oes derfynau i ddychymygion, am hyny gwell tewi.

DINAIAID, דִּינָיֵא [*barnwyr*] pobl a wrthwynebasant ail adeiladu y deml. Ezra 4. 9.

DINAS—OEDD, (din-as) *Heb.* דִּין caer, tref gaerog, trefan. Dywed y Rabbinod nad oedd un tŷ colomenod i fod o fewn 50 o gufyddau i ddinas yn Israel; a lloriau dyrnu oeddynt i fod yn yr un pellder. Yr oedd y coed i fod 25 o gufyddau oddi wrth y ddinas. Nid oedd cyffeith-bwll (*tan-pit*) na bedd, i fod o fewn 50 cufydd iddynt. *Bava Bathra, cap.* ii. *hal.* 5.

Y mae dinasoedd mawrion, yn mhob oes o'r byd, gwedi cael eu hadeiladu gan ddynion er anrhydedd a gogoniant breninoedd a theyrnasoedd; er masnach a chyfleusderau bywioliaeth; er diogelwch rhag gelynion; er amddiffyniad rheolaidd cyfreithiau a breintiau dinasyddion. Y dinasoedd mwyaf enwog gynt oedd Babilon, yn Caldea; Ninifeh, yn Assyria; Thebes, Memphis, ac Alexandria, yn yr Aipht; Jerusalem a Samaria, yn Canaan; Susan, Persopolis, a Rey, yn Persia; Antioch, yn Syria; Ephesus, Philadelphia, a Pergamus, yn Asia Leiaf; Athen, Corinth, a Philippi, yn nhir Groeg. Y dinasoedd mwyaf enwog a lliosog yn bresennol, yw Cairo, yn yr Aipht; Ispahan, yn Persia; Delhi, yn yr India Ddwyreiniol; Pekin a Nankin, yn China; Caer Cystenyn, yn Twrci; Rhufain, yn yr Ital; Paris, yn Ffrainc; Caerludd, neu Llundain, yn ynys Brydain; Dublin, yn yr Iwerddon; Edinburgh, yn yr Alban; Petersburgh, yn Rwssia; Berlin, yn Prwssia; Vienna, yn yr Almaen; Copenhagen, yn Denmark; Stockholm, yn Sweden; Hague, Amsterdam, a Rotterdam, yn Holland; Philadelphia, New York, a Boston, yn Nhaleithiau America; Quebec, yn Canada; heblaw amryw eraill.

Ni bu un ddinas erioed ar y ddaear mor enwog a Jerusalem:—'Dinas y Brenin mawr' ydoedd. Ps. 48. 2. Edr. Jerusalem.——Dinas, yn allegawl, a arwydda unrhyw gyfiwr sefydlog, cyflawn, esmwyth, rheolaidd, diogel. Ps. 107. 36. Diar. 10. 15. Heb. 13. 14. Y mae yr eglwys ar y ddaear yn cael ei galw yn ddinas. Can. 3. 3. a 5. 7. Dinas fawr—dinas gadarn—dinas sanctaidd—dinas Duw. Dat. 21. 2, 10. a 22. 19. Esa. 26. 1. Dat. 11. 2. Heb. 12 22. Ps. 46. 4. a 87. 3. Esa. 60. 14. a 66. 12. Yr Arglwydd yw ei Duw a'i brenin; y mae ei iechydwriaeth yn furiau ac yn rhagfur; y mae holl gyflawnder y bendithion sydd yn Nghrist, holl ddoniau, rhadau, a dyddanwch yr Ysbryd, fel afon hyfryd, yn ei llawenhau; y mae ei threfn yn ogoneddus ac yn rheolaidd, yn ol y gair; y mae yr Arglwydd Iesu yn frenin tragywyddol arni, yn ei llywodraethu yn dirion, yn rasol, ac yn effeithiol. Pechaduriaid o blant dynion, yn credu yn Mab Duw, yn ymddiried ynddo fel eu Hiachawdwr, ac yn ymostwng iddo fel eu Brenin, yw ei dinasyddion. Sail y ddinas hon yw yr Arglwydd Iesu yn ei Berson a'i aberth, megys y gosodir ef allan yn athrawiaethau yr apostolion a'r prophwydi. Eph. 2. 20. Ei hordinhadau yw y rhodfëydd lle y mae y Brenin a'i dinasyddion yn cyd-gyfarfod yn aml, ac yn cymdeithasu â'u gilydd. Y rhai hyn yw heolydd ac ystrydoedd y ddinas.—Mae y nefoedd, neu yr eglwys yn y nefoedd, yn cael ei galw yn 'ddinas barhaus, ac iddi sylfaeni, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw.' Y mae cyflwr y seintiau yno yn sefydlog, ac yn ddigyfnewid, yn rheolaidd, yn gymdeithasgar, yn ddiogel, ac yn ddedwydd byth. Y mae breintiau y dinasyddion yn aneirif, yn anfeidrol werthfawr, ac yn dragywyddol. Duw a'r Oen yw ei theml; gogoniant Duw a'i goleuodd, a'i goleuni ydyw yr Oen; a'i weision ef sef y dinasyddion, a'i gwasanaethant byth. Ni fydd yno ddim gwaith ond hyny.

Wrth y ddinas fawr yn Dat. 11. 8. a 16. 19. y mae i ni ddeall y sefydliad anghristaidd trwy y byd. Y mae yn cael ei galw y ddinas fawr, oblegid gallu a helaethrwydd llywodraeth Anghrist; cysylltiad rhyfeddol ei holl aelodau â'u gilydd, yn enwedig ei hoffeiriaid, ei hymgyflwynwyr, a'i mynachod.

'A dinasoedd y cenedloedd a syrthiasant;' sef y cenedloedd yn perthyn i Anghrist; holl gyfoeth a gallu y blaid Anghristaidd, Mahometanaidd, a Phaganaidd, gwedi ymuno â'u gilydd yn erbyn Crist a'i achos, yn cael eu hollol ddinystrio, a llawer o'u dinasoedd gwedi eu dystrywio gan ddaear-grynfäau, rhyfeloedd, &c. Dat. 16. 19.

'Cyfoeth y cyfoethog yw dinas ei gadernid ef.' Diar. 10. 15. Yn ei gyfoeth y mae yn ymhyfrydu, yn ymddiried am ei gysur a'i ddiogelwch. Edr. Afon, Jerusalem, Noddfa.

DINAS-FRAINT, (dinas-braint) braint perthynol i ryw ddinas; cyfranogiad o holl freintiau dinesydd. Act. 21. 39. a 22. 28.

DINERTH, (di-nerth) dirym, digadernid, digalon Galar. 1. 6.

DINIWED,* (di-niwed) *Llad.* Innoxius; dieuog, gwirion, glân, diddrwg, diadwyth.—'Diniwed fel y colomenod.' Mat. 10. 16. Y mae y meistr mawr yn cynghori ei weision i fod yn gall fel y seirph i ochelyd peryglon, ond ar yr un pryd i fod yn ddiniwed (ακεραιος) *yn syml, yn annichellgar, ac yn ddidwyll*, fel y colomenod. Y mae y geiriau yn cael eu coffâu fel diareb gyffredin am y creaduriaid hyn. Callineb y sarph, heb ddim o'i gwenwyn; sef callineb diniwed, dibechod, difalais, heb gynnwys llid, na dial, na dichellion drwg; peidio rhedeg i beryglon yn ffol ac yn rhyfygus; a pheidio eu gochelyd yn bechadurus. 'Wele fi,' medd Crist, 'yn eich danfon fel defaid yn nghanol bleiddiaid.' Yr oedd arnynt angen gwyliadwriaeth o bob tu; yr oedd yn ofynol iddynt ymddwyn fel defaid, er i eraill ymddwyn fel bleiddiaid tu ag atynt hwy; ac etto yr oeddynt i arfer pob moddion a ffyrdd o gallineb dibechod i'w hamddiffyn eu hunain. Gwell dyoddef na phechu. Nid gorchwyl bychan yw bod yn ddiargyhoedd a diniwed, yn blant difeius i Dduw, yn nghanol cenedlaeth ddrygionus a throfäus. Phil. 2. 15.

DINIWEIDRWYDD, (diniwed) gwiriondeb, difeiedd, glendid, dieuogrwydd.—'Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd.' Ps. 26. 6. Cyfeiria y geiriau at y golchiadau Iuddewig: 'A golched Aaron a'i feibion eu dwylaw a'u traed.—Pan ddelont i babell y cyfarfod, ymolchant â dwfr, fel na byddont feirw.' Exod. 30. 19, 20. a 40. 32. Esa. 1. 16, 17, 18. Tit. 3. 5. Heb. 10. 19—22. 1 Tim. 2. 8. Nid yw y geiriau yn arwyddo fod Dafydd yn abl glanhau ei hun, a bod ei ddiniweidrwydd yn ffynon iddo ymolchi ynddi; ond y maent yn hytrach yn arwyddo fod Dafydd yn gweled angen o, ac yn llafurio am, lanhad tufewnol, ysbrydol,

* Argraffwyd y gair hwn yn argraffiad 1752, a'r holl argraffiadau canlynol, *diniweid*. Yn yr holl argraffiadau cyntaf diniwed yw.

Digitized by Google

sanctaidd, ac nid yn ymfoddloni ar y golchiadau allanol. Y mae pawb edifeiriol am bechod yn caru byw yn dduwiol, gwedi eu cyfiawnhau trwy ffydd, a'u pechodau gwedi eu maddeu, gwedi eu golchi mewn diniweidrwydd; ac y mae eu personau a'u gwasanaeth yn dderbyniol gyda Duw. Dyma yr agwedd a ddylai fod ar y rhai a amgylchynant allor Duw. Y mae diniweidrwydd gan bechadur edifeiriol, crediniol, yr hwn sydd yn ffieiddio pechod, ac yn sicr amcanu canlyn gorchymynion Duw; ond am bechaduriaid yn glynu wrth eu pechodau, ni fedrant ddilyn diniweidrwydd. Hos. 8. 5.

DINYSTR—IO—IOL, (din-ystriaw) *Heb.* רצכ *Llad.* DESTRUCTIO; *Saes.* DESTRUCTION; dystryw, difäad, colledigaeth; niweidiol, euwiwawl, dystrywiol.—'Ha elyn, darfu am ddinystr yn dragywydd;' neu, *darfu am ddinystr y gelyn yn dragywydd.* Ps. 9. 6. a 46. 9. Exod. 14. 13. Esa. 10. 24, 25. a 14. 6, 7, 8. Nah. 1. 9—13. 1 Cor. 15. 26, 54, 56. Dat. 20. 2. Mae Dafydd yn gorfoleddu yn y fuddugoliaeth a roddodd Duw iddo ar ei holl elynion, a'r ymwared a ddaeth i Israel trwy ddarostyngiad y cenedloedd oddi amgylch ag oedd yn dystrywio eu dinasoedd. Darfu am ddinystr, canys torodd yr Arglwydd rym y gelyn; ac efe a bery yn dragywydd i'w cadw tanodd. Mae y geiriau yn brophwydoliaethol hefyd am ddinystr holl elynion ei eglwys. Yn iaith y Bibl dywedir am beth sydd yn sicr o gael ei wneuthur, ei fod wedi ei wneyd. Mae difäad y gelynion gynt, yn wystl o'r un dinystr i'r rhai presennol, ac a ddichon gyfodi etto; 'darfu am eu dinystr, darfu eu coffadwriaeth gyda hwynt.' Edrych ar yr ysgrythyrau uchod.

'I ddinystr y cnawd.' 1 Cor. 5. 5. I ddinystr pechod, a elwir yn gnawd yn aml, yr hyn a fuasai yn dinystrio y dyn; sef yr hyn a ddylasai gael ei ddinystrio, sef ei chwant, ei falchder, ei gybydd-dod, a'i drythyllwch. Mae amryw awdwyr dysgedig yn barnu mai dinystr y corph a feddylir, trwy roddi rhyw afiechyd neu bla arno mewn ffordd wyrthiol, ag a fuasai yn peri i'w gnawd gurio a darfod i raddau mawrion; ond nid yw hyn yn gytun âg ysbryd tyner iachusol yr efengyl; ac ni buasai y cyfryw ddinystr i'w gorph yn foddion i achub ei ysbryd. Nid oes dim cysylltiad rhwng dinystr y corph ac iechydwriaeth yr ysbryd; ond mae cysylltiad anwahanol rhwng dinystr chwantau llygredig ac iechydwriaeth yr enaid; ac mae y bwrw i Satan, a sonir yma am dano, yn osodiad o drefniad Duw yn ei eglwys, ag sydd, trwy fendith Duw arno, yn llesol i hyny. 1 Tim. 1. 20. 1 Bren. 13. 34. Mat. 18. 15.

Dinystr, weithiau, a arwydda tynu i lawr, neu ddymchwelyd dinas, neu ryw adeiladaeth. Gen. 19. 14, 29. Exod. 34. 13. 'Dinystrwch eu hallorau hwynt,' sef na adewch faen ar faen o honynt.

'O achos bwyd na ddinystria waith Duw.' Rhuf. 14. 29. Trwy gam-ddefnyddio eu rhyddid efengylaidd, mewn perthynas i fwydydd, yr oeddynt yn tramgwyddo eu brodyr gweiniaid, ac yn dinystrio yr undeb, y tangnefedd, a'r cyd-gordio, y rhai ydynt gangenau rhagorol o waith Ysbryd Duw yn nghalonau ei bobl, ag y mae efe yn ymhyfrydu ynddynt. Y mae yn ymddangos yn bechod mawr, pan, trwy beth mor lleied a pheidio ag ymattal oddi wrth fwydydd, y mae gwaith Duw yn cael ei ddinystrio. Mae y cyfryw ymarferiad yn tueddu i hyny, pa beth bynag a wna Duw i rwystro y dyben rhag cael ei gyflawni.

'Fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol.' Heb. 2. 14. Mae nerth marwolaeth gan y diafol, nid o ran un hawl sydd ganddo fel barnwr i gyhoeddi y ddedfryd yn erbyn neb: hyn sydd gan Dduw yn unig: ond y mae yn hudo i bechod, yr hyn yw yr achos haeddiannol o farwolaeth: mae hefyd yn cynhyrfu llygredigaethau dynion i farwolaethu eu gilydd; yn eu dychrynu hwy yn aml âg ofn marwolaeth: y mae hefyd yn ddialeddwr digofaint llidiog Duw ar bechaduriaid cyndyn, diedifeiriol. 'Anfonodd arnynt gynddaredd ei lid, llidiawgrwydd, a digder, a chyfyngder, trwy anfon angelion drwg.' Ps. 78. 49. Trwy ei farwolaeth, dinystriodd Crist nerth y diafol fel hyn i farwaethu ei bobl. Tynodd ymaith bechod trwy yr iawn a wnaeth; nis gall roddi coll-farn bellach ar neb sydd yn credu yn Nghrist. Croeshoeliodd ein hen ddyn ni gyd âg ef, er mwyn dirymu corph pechod, fel rhagllaw na wasanaethom bechod. Rhuf. 6. 6. Fel hyn dinystriodd Crist yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, ac y gwaredodd ei blant oddi wrth farwolaeth ysbrydol a thragywyddol; ac hefyd, oddi wrth yr ofnau oedd yn eu caethiwo dros eu holl fywyd.

'Y gelyn diweddaf a ddinystrir yw yr angeu.' 1 Cor. 15. 26. Neu, yn hytrach, angeu, y gelyn diweddaf, a ddinystrir. Angeu yw y gelyn diweddaf a gyferfydd â'r credadyn; gelyn yw a ofnir yn aml, mwy neu lai, gan y goreu: y mae ynddo ei hun yn elyn i'w natur, yn eu dattod oddi wrth eu gilydd, ac yn attal rhan o honynt dan ei awdurdod, yn ddifwynhad o gyflawn ddedwyddwch yn Nghrist. Yn yr adgyfodiad, llwyr ddinystrir hwnw, trwy waredu cyrph y duwiolion oddi tan ei awdurdod, ac o'i wlad: canys yr hyn sydd farwol a lyncir gan fywyd. 2 Cor. 5. 4.

'Y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau,' neu gyfeiliornadau, 'dinystriol.' 2 Petr 2. 1. Yr apostol a eglura beth mae yn ei feddwl wrth yr heresiau, neu y cyfeiliornadau hyn, sef 'gwadu yr Arglwydd yr hwn a'u prynodd hwynt.' Ei wadu yn athrawiaethol o ran ei berson, ei swyddau, a'i waith, neu bob un o honynt. Ei wadu yn fucheddol yn eu bywydau, trwy fyw yn anaddas i'r efengyl. Y mae heresiau athrawiaethol yn ddinystriol i'r rhai sydd yn eu cyhoeddi, ac i'r rhai sydd yn eu derbyn, ac yn eu credu. Y mae cyfeiliornadau yn nghylch person, swyddau, a gwaith Crist yn ddinystriol; oblegid fod y pethau a drefnodd Duw i fod yn iachusol ac yn gadwedigaeth i bechaduriaid yn cael eu dinystrio, ac nid oes dim arall a ellir ei osod i fynu byth a etyb y dyben yn eu lle. 1 Cor. 3. 11. Y maent yn cauad y drws gwirioneddol yn erbyn pechaduriaid i gael diangfa; yn gwrth-hoelio ac yn sicrhau eu cadwynau am danynt; ac yn tueddu i'w gwneuthur yn esmwyth ac yn rhyfygus yn eu pechodau. Y mae y cyfryw gyfeiliornwyr yn tynu arnynt eu hunain ddinystr buan. Y mae cyfeiliornadau dinystriol yn dinystrio yn fuan iawn. Y mae y cyfryw yn gwrthod y gwir i gredu celwydd, a hyny am y pethau mwyaf eu pwys a'u gwerth. Os bydd egwyddorion athrawiaethol dynion yn ddrwg ac yn gyfeiliornus, ni ddichon eu buchedd-au, yn tarddu oddi wrth yr egwyddorion hyny, fod yn wirioneddol, yn sanctaidd, ac yn dduwiol. Trwy gredu y gwirionedd, mae dynion yn cael eu rhyddhau a'u sancteiddio. Nid oes un sylfaen i adeiladu arni gan y rhai a wadant sail yr apostolion a'r prophwydi; a pha fodd y dichon i'r adeilad fyned rhagddo, a sefyll, heb sail iddo? Ioan 8. 22. a 17. 17. Eph. 2. 20.——Y mae cyfeiliornwyr i'w gwylied yn neillduol yn eu herbyn; canys y maent yn gweithredu yn ddirgel, trwy dwyll a chyfrwysdra: 'Y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn,' (οιτινες παρεισαξουσιν) *y rhai a ddygant i mewn yn gyfrwys-ladradaidd.* Y maent hwy eu hunain yn ymddangos yn ngwisgoedd defaid; ac y maent yn taenu eu cyfeiliornadau dan rith gwirioneddau. Ni ddyoddef y diafol, ei weision, na'u nwyddau, y goleuni; rhaid *ymrithio* i gael derbyniad: mae hyn yn gwneuthur y perygl yn fwy.

DINYSTRIWR—WYR—YDD, un yn dinystrio; un wedi ei anfon a'i awdurdodi i ddinystrio. Job

Digitized by Google

33. 22. Exod. 12. 23. Esa. 16. 4. 1 Cor. 10. 10.—'Myfi a greais y dinystrydd i ddystrywio.' Esa. 54. 16. Duw a'i gwnaeth fel y mae yn greadur; y mae yn goddef iddo ddinystrio fel gwialen ar eraill am eu pechodau; ac y mae yn ei lywodraethu ac yn ei derfynu o ran lle ac amser yn ei waith yn dinystrio. Mae pawb yn mhob peth dan lywodraeth Duw i ateb ei ddybenion doeth a sanctaidd. Y mae yn aml yn cymeryd y naill greadur yn ei law i gospi a cheryddu y llall; ond pan fyddo ei amcan gwedi ei gyflawni yn llwyr, dinystria y dinystrydd yn fuan. Ni lwydda un offeryn a lunier yn erbyn yr eglwys; ond mae pob peth yn cyd-weithio er daioni iddi, ac er gogoniant Duw yn ei hiechydwriaeth. Esa. 54. 17.

DIOBAITH, (di-gobaith) anobeithiol, diddysgwyliad.—'Drwg diobaith ydyw; pwy a'i hedwyn?' Jer. 17. 9. Arwydda y gair *Heb.* אנש *llesg, gwan, gwanfrydig, anwadal.* Y mae calon dyn yn llawn o dwyll ac anwadalwch; nid gwiw ymddiried iddi. Y mae yn fwy ei thwyll a'i dichellion na dim arall; mae tu hwnt i adnabyddiaeth a meddyginiaeth pawb ond Duw ei hun. 'Gofidus yw, pwy a'i hedwyn?' Dr. M. Y gair a gyfieithir *gofid*, yn Ps. 69. 20.—*gofidus*, Esa. 17. 11.—*blin*, Jer. 17. 16. Y mae twyll y galon yn peri blinder gofidus i'r dyn ei hun, ac i bawb eraill a wnelo ddim âg ef, ac a ymddiriedo ynddo. Ond mae y Duw mawr yn ei hadnabod yn ei holl amcanion a'i throion twyllodrus; am hyny mae yn addas feddyg iddi, a dichon efe yn gwbl iachâu ei holl bläau; a dichon roddi i bob un yn ol ei ffyrdd, ac yn ol ffrwyth ei weithredoedd. Jer. 17. 10.

DIOD—YDD, (iawd) llyn, gwirawd; gwlybwr i'w yfed i ddisychedu ac i lòni natur. Mae y ddiod a yfir mewn gwahanol wledydd yn amrywiol. Yn ein gwlad ni, y diodydd mwyaf cyffredin ydyw dwfr, diod frag, gwin, syder, cymysg-lyn, *brandy, tea, &c.* Y diodydd cyntaf arferedig gan ddynolryw, oeddynt, yn ddiammeu, dwfr a llaeth; ond gloddest ac anghymedroldeb a barodd yn fuan i ddynion ddysgu gwneuthur diodydd cedyrn, yn poethi ac yn meddwi, o lysieuau a phlanigion, megys y winwydden, haidd, ceirch, gwenith, afalau, rhwnen, &c. 'Dwfr,' medd y Dr. Cheyne, 'ydyw y ddiod a drefnodd y Creawdwr mawr yn gyffredinol i ddisychedu dyn, ac sydd yn ateb y dyben i dreulio ymborth yn y cylla oreu o ddim. Y mae diodydd cryfion poethion, yn mhob ystyr, yn anaddas ac yn dra niweidiol, yn yr arferiad gwastadol o honynt. Trwy boethi y gwaed yn ormodol, y maent, yn lle cryfhau, yn gwanhau natur; yn niweidiol i holl lestri tufewnol dyn, yn prysuro yr ymborth yn rhy fuan, cyn y caffo gyd-ferwi yn y llestri i gael y rhinwedd allan o hono; a thrwy hyny yn llenwi y corph â hadau pob afiechyd, megys y dwymyn, cryd cymalau, cymalwst, graeanwst, yr eisglwyf, &c. Y maent yn bechadurus yn y gormodedd o honynt, ac yn groes i orchymyn Duw; y maent yn niweidio dyn, trwy dywyllu a phylu y deall, llygru y meddwl, ac ennyn chwantau aflan halogedig.' *Essay on Health, p. 47., & seq.* Edr. MEDDWDOD.

Yr ydoedd gwin a diod gadarn yn waharddedig i'r offeiriaid dan y gyfraith. Yr oeddynt yn waharddedig hefyd i'r hwn oedd ag adduned Nazaread arno. Num. 6. 3, 4. Deut. 14. 26. Amos 2. 11, 12. Luc 1. 15. Heb fwyta bara nac yfed diod gadarn, cynnaliodd yr Arglwydd yr Israeliaid yn yr anialwch ddeugain mlynedd yn ddigonol ac yn iachus: 'Fel y gwybyddech,' medd Duw, 'mai myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi.' Deut. 29. 6. 'Gwin na diod gadarn nac ŷf di, na'th feibion gyda thi, pan ddeloch i babell y cyfarfod, fel na byddoch feirw.'—'A hyny er gwahanu rhwng y cysegredig a'r digysegredig, a rhwng aflan a glân.' Lef. 10. 9, 10.——Yr ydoedd diod offrwm yn cael ei hoffrymu gyd â'r bwyd offrwm yn aml dan y gyfraith. 'Gyd â'r offrwm poeth, neu yr aberth, bedwaredd ran hin o win, am bob oen, yn ddiod offrwm; gyda hwrdd y drydedd ran hin o win. Ac felly y gwneir am bob ŷch.' Num. 15. 5, 7, 11. a 28. 7. Lef. 23. 13. Yn amser Hezeciah, pan y purodd efe dŷ Duw, dywedir, 'Y poeth offrymau hefyd oedd yn aml, gyda brasder yr hedd offrwm, a'r ddiod offrwm i'r poeth offrymau.' 2 Cron. 29. 35.——Y dull o offrymu oedd trwy dywallt: 'pâr dywallt y ddiod gref yn ddiod offrwm i'r Arglwydd, yn y cysegr.' Num. 28. 7. Wrth waelod yr allor, lle yr oedd gwaed yr aberthau i gael ei dywallt, tebygol.

Yr oedd y bwyd a'r diod offrymau hyn yn cysgodi llawnder a rhinwedd y bendithion sydd yn Nghrist: cysuron a dyddanwch yr Ysbryd Glân; a hyfrydwch Duw yn ei bobl trwy Grist. Ps. 104. 15. a 116. 13. Eph. 5. 18. Can. 1. 2, 4. a 2. 5. Barn. 9. 13. Phil. 2. 27. 2 Tim. 4. 6.

Y mae athrawiaeth yr efengyl yn ddiod i'r rhai sydd yn ei chredu, yn peri iddynt lawenydd cynnaliaethol a sylweddol. Mewn dull ardderchog odiaeth o ymadrodd, y mae y prophwyd Esaiah yn dyfod a'r bwystfilod, y dreigiau, a chywion yr estrys, yn gogoneddu Duw, 'am roddi o honof,' medd ef, 'ddwfr yn yr anialwch, a'r afonydd yn y diffaethwch, i roddi diod i'm pobl, fy newisedig.' Pen. 43. 20. Y mae cyfeiriad y geiriau at daith yr Israeliaid trwy yr anialwch, y rhai a ddiododd Duw â dwfr o'r graig; ac yr oedd yr holl fwystfilod yn llawenychu yn y cyd-gyfranogiad o hono. Ond yma y maent i'w deall yn allegawl, am bregethiad yr efengyl i'r Iuddewon, a chan yr Iuddewon yn gyntaf i'r Cenedloedd, y rhai sydd yn cael eu cyffelybu yma i fwystfilod creulawn a dinystriol; mae y Cenedloedd yn gorfoleddu yn y cyd-gyfranogiad â'r Iuddewon o'u holl freintiau a'u bendithion ysbrydol. Rhedodd y dyfroedd bywiol iachus hyn i anialwch y Cenedloedd, er eu gorfoledd mawr diderfyn. Esa. 11. 6, 7. a 25. 3. a 42. 10, 11. a 48. 21. Ps. 86. 9. a 89. 1. Eph. 2. 13.

'A'm gwaed i sydd ddiod yn wir.' Ioan 6. 55. Y mae Crist yn ei ddyoddefiadau, ei aberth, a'r iawn a wnaeth trwy hyny dros bechodau, yn peri iddynt gynnaliaeth, cysur, a dyddanwch gwirioneddol a sylweddol. Y mae yn wirioneddol yn ddiod, *αληθως εστι ποσις*, '*sy wir ddiawt.*' W.S. Wrth ei waed mae i ni ddeall ei aberth, yr hwn ydyw yr iawn dros ein pechodau ni. Fel y mae yfed diod iachus yn disychedu, yn cysuro, ac yn cynnal natur; felly y mae credu yn aberth Crist, fel y mae yn iawn dros bechod, yn cysuro, yn lloni, ac yn cynnal meddwl egwan terfysglyd pechadur euog: mae yn wirioneddol yn ddiod, ac yn rhoddi gwir ddyddanwch, a chysur cryf.

DIOED, (oed) heb oedi, yn y man, allan o law, yn ebrwydd: fel y cyfieithir yr un gair *Gr. εξαυτης*, yn y lleoedd canlynol: Act. 11. 11. a 23. 30. Phil. 2. 23.—'Yn ddioed mi a aufonais atat.' Act. 10. 33.—'Yn ebrwydd.' W. S. Mae y gair bychan hwn yn neillduol yn dangos parodrwydd meddwl Cornelius i ufuddhau i orchymyn yr angel iddo; ufuddhaodd gyd â'r parodrwydd mwyaf, heb roddi lle i resymau cnawdol, na negeseuau eraill. Agwedd addas iawn ar feddwl dyn pan fyddo Duw yn llefaru.

DIOER, (goer) diammeu, dilys, diau, mewn gwirionedd, yn sicr.—'Er ein mwyn ni yn ddioer ydd scrivenwyt hyn.' 1 Cor. 9. 10. Luc 12. 5. W. S.

DIOFAL, (di-gofal) gwallus, esgeulus, anghryno, anofal; esmwyth, cysurus, difraw. Mae y gair hwn, y rhan amlaf, yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo difrawder anystyriol, diofni peryglon trwy anystyriaeth ffol a chnawdol. Barn. 18. 7, 27. Esa. 32, 9, 11. a 47. 8. Ezec. 30. 9.—'Ni a'ch gwnawn chwi yn ddiofal,' *αμεριμνους*, yn ddiogel, yn ddiberygl, heb achos pryderu.

Digitized by Google

eu cadwraeth, a'u holl ymgeledd. Nis dichon fod gan un creadur ddim ond a roddo Duw iddo ef bob mynyd. Ond o bob creadur, dyn sydd â mwyaf o ddyled arno i ddiolch. Y mae trefn ryfedd y prynedigaeth, a sancteiddiad dyn, yn gosod arno rwymedigaethau sydd yn trechu holl ddiolchgarwch pawb hyd byth. Y mae yn dra addas iddo ofyn, 'Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?' Y mae anniolchgarwch y naill greadur i'r llall, am ryw ryglyddon, neu gymwynasau, yn wrthun, ac yn arwydd sicr o ysbryd gwrthun, brwnt, gwael, a dirmygedig; pa faint mwy fyth ydyw hyny mewn creadur tu ag at Dduw? a pha faint mwy fyth mewn pechadur yn wyneb prynedigaeth y byd trwy ein Harglwydd Iesu Grist? Y mae yr Ysbryd Glân yn llenwi y gwaredigion â diolchgarwch, ac â mawl tragywyddol, trwy ddangos iddynt eu gwaeledd truenus eu hunain; mawredd a gogoniant Duw; ei anfeidrol ddaioni a'i ddoethineb yn eu prynedigaeth, eu galwad, eu cyfiawnhad, eu sancteiddiad a'u gobaith o ogoneddiad. Parha eu diolchgarwch pan na byddo angen am edifeirwch, maddeuant, ffydd, &c.

Yr oedd aberthau diolch gynt dan yr hen oruchwyliaeth. Lef. 7. 12, 15. a 22. 29. Ein rhesymol wasanaeth ni ydyw rhoddi ein hunain, ein cyrph a'n heneidiau, 'yn aberthau byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw.' Dyma ein rhesymol wasanaeth, ac y mae yn afresymol iawn rhoddi iddo ddim llai na hyn. Y mae y cwbl yn gymeradwy ganddo trwy Iesu Grist. Rhuf. 12. 1. Eph. 5. 20. 2 Cor. 2. 14. Ps. 100. 4. Esa. 51. 3. Heb. 13. 15.

'Yn mhob dim diolchwch.' 1 Thes. 5. 18. Eph. 1. 16. 1 Thes. 2. 13. 2 Thes. 1. 3. Col. 1. 12. Yn mhob dim, sef yn mhob sefyllfa, yn mhob peth, ac yn mhob amgylchiad yn y sefyllfa hòno; beth bynag ydyw y sefyllfa a'r amgylchiad, hyny ydyw ewyllys Duw yn Nghrist Iesu tu ag atom ni.* Yn Nghrist Iesu y mae yn trefnu holl amgylchiadau ei bobl, a phob peth perthynol iddynt; ac os ewyllys Duw ydynt yn Nghrist, y mae yn rhaid eu bod yn anfeidrol ddoeth a da, ac yn sicr o ateb y dybenion goreu. 'Yn mhob dim diolchwn,' gan hyny. Os ydyw y ddaear yn llawn o drugareddau yr Arglwydd, nis dichon fod un sefyllfa ar y ddaear yn amddifad o honynt; am hyny, 'yn mhob dim diolchwn.' Rhyw agwedd ryfedd o sancteiddrwydd, ac o barch i Dduw, a welir ar yr Arglwydd Iesu, pan y dywedodd, 'I Ti yr wyf yn diolch, O Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u dadguddio o honot i rai bychain. Ie, O Dad, canys felly y rhyngodd bodd i Ti.' Mat. 11. 25, 26. Luc 10. 21. Ni chafodd y Duwdod erioed y fath barch o'r blaen, yn wyneb dyfnderoedd y drefn ddwyfol yn iachawdwriaeth ei eglwys. Offrymodd y diolch tanllyd hwn, fel Cyfryngwr, dros ac yn enw pob un o'i bobl, a hwythau a ddiolchant mewn gradd is, â'r un ysbryd, hyd byth. Efe ydyw blaenor y gân, ond hwythau a'i canlynant mewn tânau is, fel y byddo rhyw gyd-gordiad rhyfedd yn yr eglwys, o fawl i'r Duwdod tragywyddol.

Y mae gofyn bendith ar ein hymborth yn cael ei alw yn ddiolch, am ein bod ni yn hyny yn cydnabod daioni Duw tu ag atom ynddynt. Luc 22. 17, 19. a 24. 30. Mat. 14. 19. a 15. 36. Act. 27. 35. 1 Cor. 10. 30. 1 Tim. 4. 4.

DIONYSIUS, Διονυσιος [*un y cyffyrddodd Duw âg ef*]. Yr oedd un o'r enw hwn yn seneddwr yn llŷs goruchel Areopagus yn Athen. Wrth glywed Paul yn areithio ger bron y llŷs hwnw, am adgyfodiad y meirw, esfodd Dionysius ei alw i'r ffydd. Act. 17. 34. Mae rhai yn meddwl mai ei wraig ydoedd Damaris, yr hon a gredodd yr un amser. Gwedi hyny gwnawd ef yn esgob yn Athen. Wedi llafurio a dyoddef llawer er mwyn yr efengyl, llosgwyd ef yno A.D. 95. Yn ei ieuenctid dywedir iddo gael ei ddwyn i fynu yn holl ddysgeidiaeth y Groegiaid; ddarfod iddo fyned i'r Aipht i ddysgu seryddiaeth; a'i fod yn On pan fu yr Iachawdwr farw, a'i fod wedi dywedyd wrth sylwi ar y tywyllwch anarferol, 'Naill ai mae Duw naturiaeth yn dyoddef ei hun, neu mae yn cyd-ddyoddef âg un sydd yn dyoddef.'

DIORN, (di-orn) diofn, difraw, diddychryn.

> Ac yn fy enw i yn *ddiorn*,
> Dyrchefir ei gorn efo.
>
> *E. Prys*, (Ps. 89. 24.)

DIOTREPHES, *Gr.* Διοτρεφης [*un a faethwyd gan Dduw*] pwy oedd, a pha le yr oedd yn byw, nid yw hysbys; ni chawn ychwaneg hanes am dano, nag a roddir gan yr apostol, am ei uchder yn chwennych y blaenoriaeth yn yr eglwys, a'i angharedigrwydd yn gwag-siarad yn erbyn yr apostol a'i gyfeillion â geiriau drygionus; heb dderbyn y brodyr ei hun, mae yn gwahardd y rhai a ewyllysiai, ac yn eu bwrw hwy allan o'r eglwys. 3 Ioan 9.

DIR, (ir), sicr, gwir, angenrheidiol, gorfod, caledi. Fel rhagddod chwanega at ystyr y gair, fel y gwelir yn y geiriau canlynol:—

> Pa hyd y goddefaf y *dir*,
> Tra codir fy nghaseion?
>
> *E. Prys*, (Ps. 13. 2.)

DIRDRA, (dir-dra) gorthrymder mawr; sarhad, traws-niwed; mawr-gam.

> A throer i'w hol y rhai y sy
> Yn chwennych i mi *ddirdra*.
>
> *E. Prys*, (Ps. 40. 14.)

DIRAGRITH, (di-rag-rith) diledrith, diffuant, diffug, gwirioneddol. Ffydd, cariad, a brawdgarwch diragrith, ydyw ffydd wirioneddol, weithgar; cariad a brawdgarwch sydd yn ymddangos mewn ffrwythau addas, a ffrydiau o ymgeledd gymwynasgar, parod a pharhaus yn tarddu oddi wrthynt. Rhuf. 12. 9. Iago 3. 17. 1 Tim. 1. 5.

DIRDYNU, (dir-tyn) dwys-dynu, chwap-dyniad, ginio.—'Eraill a ddirdynwyd.' Heb. 11. 35. Amrywiol ydyw barnau awdwyr am y dull hwn o gospedigaeth. Y mae y gair *Gr.* τυμπανιζω, oddiwrth y gair τυμπανον, yn arwyddo yn hytrach *curo* na *dirdynu*. Barna rhai yr arwydda bob un o'r ddau, ac y byddent yn eu dirdynu yn gyntaf, ac wedi hyny yn eu curo â rhyw fath o gwlbrenau, neu *batoons*, â pha rai y byddent yn ffonodio drwg-weithredwyr ar wadnau eu traed. Y mae yn dra amlwg fod y geiriau yn cyfeirio at y rhai a ddyoddefasant yn amser y Maccabeaid; yn enwedig y wraig a'i saith mab y rhoddir hanes am danynt yn 2 Mac. vi. vii. Y darluniad yno ydyw yr eglurhad goreu ar y gair. Dywed Eleazer yno, iddo 'ddyoddef ei guro yn dost ar hyd ei gorph.' Pen. 6. 30. Dywedir am dano (adn. 19.) 'Efe a aeth yn ewyllysgar i'r poenau.' *Gr.* αυθαιρετως επι το τυμπανον προσηγε, *efe a aeth yn ewyllysgar i'r tympanum*:—Yr un gair ag a arferir gan yr apostol.—Adn. 28. 'Efe a aeth yn gyflym i'w arteithio.' *Gr.* επι το τυμπανον ευθεως ηλθε, *efe a aeth yn gyflym i'r tympanum.* Y mae y gair yma yn nodi rhyw fath neillduol o gospedigaeth, pa fath bynag ydoedd hwnw: ond nid ydyw deall hyny yn awr o ddim pwys na chanlyniad.

'Eraill a ddirdynwyd,' neu a arteithiwyd (*were tortured*) neu a ddirboenwyd, heb dderbyn, ond yn gwrthod ymwared ar yr ammodau pechadurus y cynnygiwyd ef; 'fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.' Mawr ydyw creulondeb y gelyn, a dynion hefyd dan ei lywodraeth; nid yw ddigon ganddynt ladd y duwiolion,

* Possumus autem εν παντι, vel ad res ipsas, vel ad quasnis circumstantias referre. Beza *in loco.*

Digitized by Google

ond rhaid eu dirboeni a'u harteithio hwynt hefyd. Ond y mae ffydd, â Duw mawr yn ei golwg, ac âg adgyfodiad gwell mewn gobaith, yn fuddugoliaethus arno yn ei holl greulondeb gwaedlyd. Nid gweithredu yn y tywyll'wch y mae ffydd, ond yn hollol yn y goleuni, ac mewn iawn bwyll ac ystyriaeth. Wrth wrthod y byd, ei barch a'i fwyniant, a dyoddef ei ŵg a'i boenau, y mae ganddi hithau bethau gwell yn ei golwg, a hi a fydd yn sicr o'u derbyn hefyd; adgyfodiad gwell, a bywyd gwell, a hwnw i barhau byth. Dan. 12. 2, 3. 2 Cor. 4. 17, 18.

DIRFAWR, (dir-mawr) tra mawr, anfad fawr, enfawr, mawr iawn, abrwysgl. 2 Cron. 33. 12. Ps. 21. 1. a 31. 11. a 38. 6. a 78. 15. Esa. 64. 12. Mat. 8. 6.—'Ac a ddechreuodd ymofidio a thristâu yn ddirfawr.' Marc 14. 33. Y mae y geiriau a arferir gan yr efengylwyr, yn enwedig Marc, i osod allan ddyoddefiadau yr Arglwydd Iesu yn yr ardd, yn mynegi gofid a thristwch meddwl yn y gradd mwyaf a ddichon geiriau osod allan. 'Efe a ddechreuodd ymofidio,' λυπεισθαι, *i gael ei drywanu gan y gofid mwyaf treiddgar.*—'Tristâu yn ddirfawr,' αδημονειν, *cael ei wasgu i lawr*, ei orwasgu, ei lethu, ac agos ei orchfygu gan dristwch.—εκθαμβεισθαι, *i gael ei lenwi â dychryn a braw aruthredd.* Y mae fy enaid yn athrist hyd angeu.' Περιλυπος εστιν η ψυχη μου εως θανατου, *Y mae fy enaid wedi ei amgylchu â thristwch marwol o bob tu.* Torodd ar ei draws gyd â'r fath gyflawnder a grym, fel nad oedd un ffordd o ddiangfa yn agored. O'i wir fodd yr aeth i'r dyfnderau dirfawr hyn o ddyoddefiadau, pan 'y rhoddodd ei hun drosom, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd.' Eph. 5. 2.

DIRGEL—U—OEDD—ION, (dir-cel) cuddiedig, dan gudd, dan gel; rhin:—'Dirgelwch,' peth cuddiedig:—'Dirgeledigaethau,' sef pethau dirgel, cuddiedig:—'Dirgelfa,' sef lle i ddiogelu a chuddio:—'Dirgel-leoedd,' sef lleoedd cuddiedig:—'Dirgelion dynion,' 'dirgelion y galon,' sef holl fwriadau, tueddiadau, cynhyrfiadau, a gweithredoedd dynion, adnabyddus yn unig i Dduw a hwynt eu hunain. Dwg Duw y rhai hyn i'r amlwg, ac a farna ddirgelion dynion. Rhuf. 2. 16. 1 Cor. 14. 25.

'Dirgeledigaethau doethineb,' sef mawr a rhagorol ardderchogrwydd, melysder, hyfrydwch, a gogoniant gwir dduwioldeb mewn cymundeb â Duw, a mwynhad o'i dangnefedd a'i ddelw. Job 11. 6. Y mae nid yn unig ddirgelwch mewn doethineb, ond dirgeledigaethau; sef dirgelwch ar ddirgelwch; dirgelwch anchwiliadwy: y mae yn ngwirioneddau a gweithredoedd Duw, fawr amryw ddoethineb; ac, 'y maent yn ddau cymaint a'r hyn sydd,' sef yn adnabyddus i ni; neu yn llawer mwy nag sydd hyd yn nod wedi ei ddadguddio. Y mae dirgeledigaethau gan yr Arglwydd iddo ei hun, heblaw y pethau a amlygwyd i ni. Deut. 29. 29. Y pethau amlwg, sef y pethau a amlygodd Duw, a roddwyd i ni, ac i'n plant hyd byth: ond mae pethau dirgel gyda Duw, nas dichon neb ond efe ei hun eu gwybod a'u hamgyffred. Y mae y pethau sydd ganddo ef ddau cymaint, sef llawer cymaint, a'r pethau sydd genym ni trwy ddadguddiad. Dylem gywilyddio oblegid ein hanwybodaeth o'r pethau amlwg; a dylem addoli yn barchus y dirgeledigaethau sydd yn y Duw mawr, heb eu dadguddio. Y mae yn addas, ac yn fraint i ni gael addoli yn barchus yr hyn nas gallwn byth ei amgyffred. 'Fel yr amlygo i ti ddirgeledigaethau doethineb (canys dyryswch ydynt i'r anwir) a'r wybodaeth a dynodd Duw oddi wrthyt o herwydd dy bechod.' Felly y cyfieithia J. M. Good y geiriau.

Dirgelwch yw y gair a arferir yn y Testament Newydd yn gyfieithiad o'r gair μυστηριον, *dirgel, cuddiedig.* Arwydda, yn gyffredinol, *pethau dirgeledig* nes eu dadguddio hwynt, ac a fuasent yn parhau yn guddiedig byth heb ddadguddiad dwyfol o honynt. Nid ydyw y gair yn cael ei briodoli i osod allan anamgyffrediad y pethau, er fod llawer o honynt yn anamgyffredadwy; ond yn hytrach eu dirgelwch, a'u anhysbysrwydd nes eu hegluro: 'Y dirgelwch oedd guddiedig er oesoedd ac er cenedlaethau, ond yr awr hon a eglurwyd i'w saint ef.' Col. 1. 26. Felly y mae i ni olygu ystyr y gair yn y manau lle y cyfarfyddom âg ef; nid cymaint yn gosod allan natur y pethau, ag yr ydoedd anwybodaeth pawb o honynt, nes eu hysbysu. 'Gwybod y dirgelion oll;' sef holl wirioneddau dadguddiedig y grefydd Gristionogol: 'dirgelwch y ffydd.' 1 Cor. 13. 2. 1 Tim. 3. 9. 'Ac yn ddiddadl mawr yw dirgelwch duwioldeb.' Sef mawr yn ddiammeu yw y dirgelwch dwyfol a ddadguddir i ni yn yr efengyl, 'Duw a ymddangosodd yn y cnawd.' 1 Tim. 3. 16. Pethau ydynt na ddaethent byth i galon dyn, oni buasai i Dduw eu cwblhau, a'u cyhoeddi trwy bregethiad yr efengyl. Yr hyn sydd wedi ei ddadguddio, nid yw ddirgelwch mwyach, mor belled ag y mae wedi ei ddadguddio; ond dichon er hyny, fod dirgeledigaethau yn y pethau dadguddiedig heb eu dadguddio, a'u hegluro.

'Dirgelwch Duw—dirgelwch Crist—dirgelwch yr efengyl ——dirgelion teyrnas nefoedd,' a arwyddant bethau cuddiedig am Dduw, a'i amcanion mawrion; am Grist, ei Berson, ei waith, a'i swyddau; am deyrnas nefoedd, a goruchwyliaethau yr efengyl, a eglurwyd i ni gan Dduw yn y dadguddiad o Grist trwy yr efengyl.

Dirgelwch oedd toriad yr Iuddewon ymaith trwy anghrediniaeth, a galwad y Cenedloedd, a'u himpiad i mewn yn y wir olew-wydden, hyd nes y cyflawnodd Duw y pethau hyn yn eu hamser. Rhuf. 11. 25. Eph. 3. 3, 4, 9.

Dirgelwch i ni yw pob peth yn Nuw, ei arfaeth, ei drefniadau, ei amcanion, a'i waith, ond fel y byddo efe yn eu hegluro i ni; a dirgelwch yw pob peth sydd heb ei egluro yn y pethau a eglurwyd. Gwel Rhuf. 16. 25, 26. 1 Cor 2. 7—11. Eph. 1. 9. a 3. 3, 5, 6, 9. a 6. 19. Col. 1. 26, 27.

Y gair hefyd a arwydda, weithiau, ystyr allegawl, ffugyrol, yn wahanedig oddiwrth ystyr llythyrenol, ac a adroddir i ni trwy ddammeg, ffug-chwedl, arallegawl, gweithred arwyddol, arddangosiadol, breuddwyd neu weledigaeth. Y mae dirgelwch yn yr ymadrodd, ac eisieu eglurhad o hono. 'Dirgelwch y saith seren,' sef yr hyn y mae y saith seren weledigaethol yn ei arwyddo; 'y saith seren, angelion y saith eglwys ydynt.' Dat. 1. 20. Yn yr un ystyr y mae y gair i'w gael yn pen. 17. 5. Cymh. Mat. 13. 11. Marc 4. 11. Luc 8. 10. Eph. 5. 32. Wrth edrych amgylchiad y gair yn y lleoedd hyny, gellir gweled mai yn yr ystyr allegawl hwn mae y gair i'w ddeall ynddynt.——'Dirgelwch yr anwiredd,' sef anwiredd yn gweithredu yn ddirgel, ac etto heb ddyfod i'r amlwg yn gyflawn. 2 Thes. 2. 7 ——Gorphenir 'dirgelwch Duw,' pan gaffo yr holl brophwydoliaethau mewn perthynas i'r eglwys eu cyflawni. Dat. 10. 7.

'Dy rai dirgel,' Ps. 83. 3. sef ei bobl anwyl, y rhai y mae efe gwedi eu cuddio a'u diogelu yn nirgelfa ei babell. Ps. 27. 5. a 31. 20. Y mae ei babell yn cael ei galw yn ddirgelfa, am fod Duw yno yn mhlith ei bobl, yn anweledig; yr oedd y cwbl yn y babell dan lèni, yn guddiedig o ŵydd y bobl; nid oedd y ffordd i'r cysegr sancteiddiolaf yn agored etto; ond, er hyny, yr oedd Duw yn hyfforddwr ac yn amddiffynwr i'w bobl yn mhob trallod a chyfyngder.

'Gwrandewais di yn nirgelwch y daran,' Ps. 81. 7. sef yn y cwmwl o ba un y taranodd Duw yn ofnadwy yn erbyn Pharaoh a'i luoedd; neu ar Sinai yn nghanol y tywyllwch, y tân, a'r dymhestl ddirfawr, pan ddeisyfasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt. Exod. 19. 16. a 20. 18. Deut. 5. 5, 33. Heb. 12. 19. Nid

Digitized by Google

oes na tharanau, na thywyllwch, na thymhestl, yn abl attal gweddïau ei bobl at yr Arglwydd. Nid ymddangosodd Duw erioed i'w bobl mewn dull mwy dychrynllyd ac ofnadwy nag ar Sinai; etto aeth gweddi ato yno, ac efe a'i gwrandawodd yn rasol o ganol y tân. Y mae yr Arglwydd am i ni sylwi ar hyn, fel peth tra nodedig ac addysgiadol. Os gwrandawodd weddi yno, gwrendy yn sicr, ynte, yn awr, oddiar orsedd-faine y gras.

DIRMYG—U—US—WYR—EDIG, (myg) diystyrwch, dianrhydedd, anmharch, gwarth, gwaradwydd. Y mae y fath dywyllwch, ynfydrwydd, a gelyniaeth yn nghalon pechadur dan y cwymp, fel mae yr Arglwydd, ei gynghor, ei air, ei ddeddfau, a'i eglwys, yn ddirmygedig ganddo. Lef. 26. 15. Num. 11. 20. 2 Sam. 12. 9. Ps. 107. 11. Diar. 13. 13. Amos 2. 4. Mal. 1. 6. Jer. 6. 10. Mat. 18. 10. Ioan 12. 48. 1 Cor. 11. 22. 1 Thes. 4. 8. a 5. 20. Y maent oll yn ddiwerth, ac yn ddiystyr ganddo, ffolineb ydynt yn ei olwg. Er bod Duw, a phob peth perthynol iddo yn anfeidrol werthfawr, gogoneddus, a hawddgar ynddo ei hun, etto ni wel dyn anianol ef felly. Am fod Duw yn anmharchus yn ei olwg, y mae ei air, a phob peth sydd yn perthyn iddo, yn ddiystyr ganddo. Po mwyaf o Dduw sydd yn y peth, neu y personau, mwyaf dirmygedig ydynt ganddo. 'Pwy a ddeall ei gamweddau?' Pwy sydd yn amgyffred y drwg sydd ynddynt? Pa anghyfiawnder yw dirmygu Duw o anfeidrol fawredd a daioni? Y mae pechadurusrwydd y bai yn cyfateb i fawredd y gwrthddrych sydd yn cael ei ddirmygu, a'n rhwymedigaethau ninnau iddo. Y mae y dirmyg hwn yn ein hysbrydoedd yn ymddangos yn ein meddyliau anaml am Dduw; ein meddyliau anmharchus am dano; ein hoerfelgarwch tu ag ato; ein diystyrwch o'i air, ei ordinhadau, ei waith, a'i bobl. Pwy na wel yr angenrheidrwydd anhebgorol am galon ac ysbryd newydd? 'Ei ddirmygwyr a ddirmygir.' 1 Sam. 2. 30.

'Dirmyg Crist.' Heb. 11. 26. Dirmygwyd Crist yn ei berson ei hun, pan fu yma yn y byd: yr oedd yn ddirmygedig i eneidiau anianol, cnawdol,* ac yn ffiaidd gan y genedl Iuddewig. Esa. 49. 7. 'Dirmygedig yw, a diystyraf o'r gwyr,' meddent. Esa. 53. 3. Anmharchwyd, a gwatworwyd, a phoerwyd arno, a dirmygwyd ef. Luc 18. 32. Marc 9. 12. Dirmygwyd, ἐξουδενωθῃ ei *ddirmygu* â'r dirmyg mwyaf, a'i wrthod. Anmharchwyd Crist hefyd yn ei eglwys, yn ei bobl, yn mhob oes. Yr oedd Crist yn yn cael ei ddirmygu yn ei bobl yn yr Aipht. Eu crediniaeth yn yr addewid am Grist a wnaeth yr holl wahanineth rhyngddynt hwy â'r Aiphtiaid, ac oedd yr achos gwirioneddol o holl elyniaeth yr Aiphtiaid yn eu herbyn, a'u dyoddefiadau hwythau oddi wrthynt. Y gair 'dirmyg Crist,' a arwydda eu holl adfyd a'u gorthrymder yno o achos Crist. Hyn a farnodd Moses, yn sobr ac yn bwyllog, yn fwy golud na thrysorau yr Aipht, ac a'i dewisodd yn hytrach, pan y gallasai feddiannu y cyntaf; 'canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy.'

'Na ddirmyga gerydd yr Arglwydd.' Heb. 12. 5. *Gr.* μη ολιγωρει, *Nac edrych yn fychan ar gerydd yr Arglwydd.* 'Nac eskulusa.' W. S. Nid oes un cerydd ond oddiwrth yr Arglwydd, ac y mae efe yn awr yn mhob peth: edrych yn fach ar y cerydd, yw bychanu y ceryddwr ei hun. Er na byddo un yn dirmygu y cerydd, etto dichon ei fychanu yn ormodol, trwy edrych arno fel peth cyffredin, heb weled llaw Duw yn neillduol ynddo; trwy ymgryfhau yn ddynol ac yn gnawdol dano; trwy fod heb ganfod Duw a'i ddybenion ynddo, yn ei gariad at ei berson, ei gasineb at ei bechod, a'i ddyben grasol yn addysgu mewn hyfforddiadau o sancteiddrwydd a duwioldeb. Yr ydym yn addas yn parchu Duw yn ei geryddon, wrth ymostwng yn sanctaidd i'w ewyllys ynddynt; pwyso arno danynt; a chydsynied â dybenion Duw ynddynt; a thrwy ymwrthod â'r achos o'i anfoddlonrwydd sydd yn peri iddo ein ceryddu. Diar. 3. 11. Job 5. 17. Dat. 3. 19. Y mae Job yn synu wrth fod Duw yn sylwi cymaint ar ddyn, ag ymostwng i'w geryddu yn lle ei ddryllio: 'Pa beth yw dyn, pan fawrheit ef? a phan osodit dy feddwl arno? ac ymweled âg ef bob boreu, a'i brofi ar bob moment?' Job 7. 17, 18. Y mae Duw wedi gosod ei feddwl, sef ei serch, ei gariad, a'i ofal, ar y dyn y mae yn ei geryddu. Y mae yn ymweled âg ef, nid yn ei esgeuluso fel un diofal am dano; a hyny yn aml hefyd, sef *bob boreu*, yn feunyddiol, yn barhaus; Ie, yn ei brofi bob moment. Y mae dyn bob moment yn cyfnewid; nid yr un driniaeth sydd yn addas iddo y naill foment a'r llall; i addasu ei oruchwyliaethau iddo gyd â'r manylrwydd mwyaf, y mae Duw yn ei brofi bob moment. Dirmygu, gan hyny, y cerydd, yw dirmygu Duw yn ei gariad, ei diriondeb, a'i ofal mwyaf. Pan y mae yr apostol, yn dywedyd, 'Na ddirmyga gerydd yr Arglwydd,' y mae hefyd yn gorchymyn y gwrthwyneb, sef ei barchu, ei fawrhau, a'i ogoneddu yn ei geryddon, fel Duw anfeidrol ddoeth, grasol, a daionus yn mhob peth. Ni roddodd Job ddim yn ynfyd yn erbyn yr Arglwydd; ond bendithiodd ef, ac a'i haddolodd. Job 1. 20, &c.——Nid ydyw Duw yn dirmygu cystudd ei bobl, eu calon ddrylliog gystuddiedig; ac nid gweddus iddynt hwythau ddirmygu ei gerydd yntau. Ps. 22. 24. a 51. 17.

DIRNAD, (nad) dehongliad; egluro, dehongli. Barn. 7. 15. a 14. 14.

DIROLLWNG, (dir-gollwng) gollwng yn ddisymwth, ac yn fyrbwyll.—'Eithr pechod pan o'rphenner a ddirollwng varvolaeth.' Iago 1. 15. W. S.

DIRPER, (peru) haeddu, rhaid.—'Can ys dirpr yddynt vvy vot yn ddarestyngedic.' 1 Cor. 14. 34. W. S.

DIRUS, (di-rus) diarswyd, diofn, digilio yn ol, rhyfygus.

> Nid felly bydd y drwg *dirus*,
> Ond fel yr ûs ar gorwynt.
>
> *E. Prys*, (Ps. 1. 4.)

DIRWEST, (gwest) *Gr.* ασιτια, νηστεια, *Heb.* צום ympryd, unpryd, cythlwng, cadgor. Act. 24. 25. a 27. 21.—'Ffydd, addfwynder, dirwest.' Gal. 5. 22. Yr un gair ag a gyfieithir *cymedrolder*, yn 2 Petr 1. 6. Un o ffrwythau yr Ysbryd yw. Y mae y gras hwnw sydd yn dwyn iechydwriaeth, yn dysgu dynion i fyw yn sobr, sef yn gymedrol, yn wyliadwrus, gan groeshoelio y cnawd, a'i wyniau, a'i chwantau. Gal. 5. 24. —'Ac fel yr oedd efe yn ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd.' Act. 24. 25.—'Ac mal ydd oedd ef yn dosparth am gyfiawnder; a chymedroldep, ac am y varn y ddyvot.' W. S.—'Ac fel yr oedd efe yn tracthu am gyfiawnder, a diweirdeb, a'r farn a fydd.' Dr. M. Y gair εγκρατεια, a arwydda ymattaliad yn mhob ystyr oddiwrth gyflawniad chwantau anghymedrol.——'Ac wedi bod hir ddirwest.' Act. 27. 31.—'A phan fuasai bellach hir ympryd.' Dr. M. Πολλης δε ασιτιας υπαρχουσης, yr ystyr yw, Pan oedd agos bawb wedi esgeuluso eu hymborth, yn ofni am eu bywydau, ac yn dysgwyl i bob mynyd fod y diweddaf, nid oedd ganddynt ond ychydig neu ddim tuedd at fwyd.

DIRWY—O—OL, (dir) treth, camgwl, fforffed,

* 'With y dirmygedig o enaid;' neu 'wrth y dirmygedig gan ddyn.' *Saes.* 'Yr hwn y dirmygwyd ei berson.' Lowth. Ei qui animæ est fastidio. Vitringa. Homo carnalis & carnalibus imbutus præjudiciis nihil invenit in Christo Jesu quod amet. Inde non omnes sane sed omnes נפשים ψυχικοι carnales. *Ibid.*

Digitized by Google

sarhad, colled. 'Ddirwy o dda.' (Esra 7. 26. Deut. 22. 19.) attafaeliad, anrhaith-oddef.—'Gwin y dirwyol a yfant.' Amos 2. 8. Y mae y prophwyd yn beio ar Israel, ac yn mynegi eu hanwireddau, sef eu hanghyfiawnder, eu creulonder, eu ffieidd-dra, a'u heilunaddoliaeth: yn gwerthu y cyfiawn am arian—yn gwyro ffordd y gostyngedig, neu y cystuddiedig—yn dilyn ymlosgach ffiaidd—yn yfed gwin y dirwyol—yn attafaelu eiddo y tlodion, i gael gwledda arnynt yn nhŷ eu duw. Mae rhyw gwlwm rhyfedd rhwng pechodau a'u gilydd: eilun-addolwyr, treiswyr, gorthrymwyr, halogwyr anniwair, sydd ddarluniad cywir o'r un bobl, wedi ymadael â Duw. Ond mae y cyfryw bechodau yn addfedu pob person a chenedl i farn: 'Metha gan y buan ddianc—a'r cadarn ni wared ei enaid ei hun.' Amos 2. 6, 7, 8, 14.

DIRYM—U—ODD—IAD, (di-grym) egwan, dinerth, diawdurdod.——Gwneuthur gorchymyn, neu addewid yn ddirym (ακυροω) yw gwneuthur yn ddiawdurdod ac yn ddieffaith. Nis dichon neb, na dim, wneuthur na gorchymynion Duw na'i addewidion yn ddirym. Y mae eu hawdurdod a'u grym yn dibynu arno ef ei hun: ond dichon dynion ymddwyn tu ag atynt, a gwneyd mor lleied ddefnydd o honynt, a phe baent yn ddirym. Felly y gwnaeth yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, trwy ddyrchafu eu traddodiadau eu hunain, ar draws, ac yn groes i orchymynion sanctaidd Duw. Mat. 15. 6.

'Canys os y rhai sydd o'r ddeddf yw yr etifeddion, gwnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn ddirym.' Rhuf. 4. 14. Os ydyw yr athrawiaeth ddeddfol hon yn wir, nid oes angen am yr addewid, nac am ffydd i'w chredu; y mae y cwbl yn ofer, yn afreidiol, ac yn ddiles. Y mae yr addewid a ffydd yn gysylltiedig anwahanol â'u gilydd; yr addewid ydyw sail ffydd; ac y mae rhoddiad yr addewid yn arwyddo ei bod i'w chredu, a'r bendithion addawedig i gael eu cyfranu: ond y mae pob un o'r ddau yn ofer ac yn afreidiol, os y rhai sydd o'r ddeddf yw yr etifeddion: nis gall fod o'r *ddau*—sef o'r ddeddf ac o'r addewid. 'Am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras; fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl hâd.' Rhuf. 4. 16.

'A ddirymodd yn ei gnawd ei hun y gelyniaeth, sef deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau.' Eph. 2. 15. 'Deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau,' oedd y ddeddf seremoniol, yn cynnwys yr holl ddefodau Iuddewig, yn gwahaniaethu yr Iuddewon oddiwrth yr holl Genedloedd, ac yn achos o elyniaeth barhaus rhyngddynt: ar y groes, dilëodd Crist hon, trwy aberthu ei hun fel gwrth-gysgod a sylwedd y cwbl; trwy ddileu ysgrifen-law yr ordeiniadau, tynodd ymaith achos yr elyniaeth rhwng yr Iuddewon a'r Cenedloedd, a thrwy hyny a ddirymodd, neu a ddiddymodd yr elyniaeth hefyd. Cymododd y ddau â Duw, ac â'u gilydd hefyd, trwy y groes, neu trwy aberthu ei hun drostynt ar y groes. Nid gwneuthur yr Iuddewon yn Genedloedd, na'r Cenedloedd yn Iuddewon, ond creu y ddau ynddo ei hun, fel eu pen cyffredin, yn *un dyn newydd*, gan wneuthur heddwch. Maent fyth i gyd-ymborthi ar yr un aberth, fel yr achos haeddiannol ac effeithiol o'u cymmod tragywyddol â Duw, ac â'u gilydd.

DISANCTAIDD, (di-sanctaidd) ansanctaidd, aflan, halogedig, heb sancteiddrwydd, ysgeler. Y gair *Gr.* *ανοσιος*, a gyfieithir *disanctaidd*, yn 1 Tim. 1. 9. a gyfieithir *annuwiol*, yn 2 Tim. 3. 2.

DISERCH, (di-serch) digariad, dihoffder, anghu.—'Yn ddiserch i'r rhai da,' (2 Tim. 3. 3.) sef yn llawn o gasineb atynt, a gelyniaeth yn eu herbyn. Gan nad ydynt yn caru daioni, nis dichon iddynt garu y *rhai da*, sef y rhai sydd yn caru ac yn gwneuthur daioni. Tit. 1. 8.

DISGYN—FA, (cyn) *Llad.* DESCENDO: myned i waered, myned i lawr, dyfod i lawr, tynu i lawr, darostwng. Gen. 11. 5, 7. a 18. 21. Exod. 19. 18. Ezec. 26. 20. Ioan 6. 38. Iago 1. 17. a 3. 15. Mae *disgyn* ac *esgyn* yn eiriau cyferbyniol, ac o ystyr wrthwyneb. 'Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd.' Eph. 4. 10. 'Efe a ddyrchafodd, beth yw ond darfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear.' Yr oedd yn anmhosibl i Grist ddyrchafu heb ddisgyn; o herwydd dwyfoldeb ei berson, nid allasai fyned yn uwch; nid oes dim uwch na Duw i fod: y GORUCHAF ydyw. Ps. 57. 2. Gan fod y Psalmydd yn priodoli esgyn i'r Arglwydd, mae Paul yn ei eglurhad arno, yn cadarnhau fod hyny yn arwyddo iddo ddisgyn yn gyntaf, ac onidê, nis gallasai esgyn fod yn briodol iddo. 'Yr hwn a ddisgynodd i barthau isaf y ddaear,' sef i'r groth, ac i'r bedd, 'yw yr hwn a esgynodd goruwch yr holl nefoedd.' Ps. 63. 9. a 139. 15. Disgynodd i barthau isaf, fel na byddai neb mor isel mewn trueni nas gallasai ei achub;—esgynodd fel cynnrychiolwr neu berson cyffredin, yn wyneb yr holl rwystrau ydoedd ar ffordd y rhai yr oedd efe yn eu cynnrychioli, ac a'u symudodd oddiar eu ffordd. Yr oedd y ddeddf yn ei gofynion a'i melldithion; yr oedd holl alluoedd y tywyllwch; a holl nerth angeu ar eu ffordd; yn ei esgyniad symudodd hwynt oll, ac a agorodd y ffordd i fywyd iddynt. Ioan 6. 38. Rhuf. 10. 7.

Y mae Duw yn disgyn, neu yn dyfod i lawr, pan y byddo rhyw arwydd gweledig o'i bresennoldeb yn symud tu a'r ddaear; (Exod. 19. 18. Luc 3. 22.) neu, pan mae yn dangos trwy ei weithredoedd, ei fod yn sylwi ar bethau, megys ar bechodau i'w cospi. Gen. 11. 7. a 18. 21. Ps. 144. 5. Y mae hyn yn cael ei briodoli i Dduw, fel llawer o bethau eraill, oddi wrth ddull dynion: ond nid oes na disgyn nac esgyn yn briodol i'r hanfod dwyfol, yr hwn sydd yn llenwi pob man ar unwaith.

DISIGL (di-sigl) diysgydwad, digryn.—'Ei galon sy ddisigl, yn ymddiried yn yr Arglwydd.' Ps. 112. 7. נכון לבו *Ei galon sydd wedi ei pharotoi yn gadarn.* Y mae wedi ei pharotoi â chadernid, trwy ymddiried yn yr Arglwydd, rhag ofn chwedl ddrwg. Ni ddichon dim gadarnhau calon dyn yn wirioneddol, ond ymddiried yn yr Arglwydd Iesu, yn yr hwn y mae pob cyflawnder o ras a chadernid, i achub, cynnorthwyo, a gwaredu, y sawl a ymddiriedant ynddo.

'Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl.' Heb. 10. 23. Cyffes ein gobaith, sef ein ffydd fel yr achos a sylfaen ein gobaith—cyffes ein gobaith, sef ein haddefiad cyhoedd o grefydd Crist, ei hegwyddorion sylfaenol, a'n crediniaeth o honynt—yn ddisigl (ακλινη) yn ddigloffni, yn ddiammheuaeth, yn ddiwyro i'r naill law na'r llall, yn gadarn, yn ddidynu yn ol; ond gyda llawn sicrwydd o wirionedd yr efengyl; gyda chwbl ymroddiad i lynu wrthi, yn wyneb pob gwrthwynebiadau, gyda ffyddlondeb a diwydrwydd hyd y diwedd.

'Gan ein bod yn derbyn teyrnas ddisigl.' Heb. 12. 28. 'Gan yn bod ni yn cymered attom teyrnas, ni ellir y scydwyd.' W. S. Teyrnas Crist a goruchwyliaeth yr efengyl o honi; y mae hon i barhau yn ddisigl hyd ddiwedd amser. Y mae holl deyrnasoedd mawrion y ddaear wedi eu siglo, a'u dryllio yn ddarnau; ie, llawer o honynt gwedi eu cwbl ddiddymu yn dragywydd. Ond am y deyrnas hon, nis gellir ei siglo mewn un ystyr, na thrwy unrhyw foddion. Nid ydyw yn ddarostyngedig i un math o ddirywiad tufewnol, na goresgyniad allanol. Y mae ei sylfaen yn gadarn, yn nhragywyddol arfaeth Duw; ei rheolau a'i chyfreithiau yn uniawn; ei brenin yn anfarwol, yn anorchfygol, ac yn hollalluog; a'i holl ddeiliaid yn anfarwol ac yn anorchfygol, ynddo a thrwyddo. Tebygol fod hyn yn cael ei briodoli yn y fan yma i

Digitized by Google

deyrnas Crist, yn fwyaf neillduol, mewn cyferbyniad i'r oruchwyliaeth Iuddewig, yr hon a siglwyd ac a symudwyd gan Dduw ei hun; ond mae goruchwyliaeth yr efengyl yn ddisigl ac yn ddigyfnewid; ni fydd un dull na threfn arall ar ei deyrnas hyd ddiwedd y byd. Ysgydwyd nefoedd a daear y byd Paganaidd eilunaddolgar; ysgydwir nefoedd a daear y byd anghristaidd; ond er cymaint o elyniaeth sydd yn ei herbyn yn y byd, mae teyrnas Crist yn ddisigl.

DISODLI, (di-sawdl) diwadnu, gweithio tanodd, dadymchwelyd. Gen. 27. 36. Jer. 9. 4.

DISPEROD, (dispar) *Llad.* ERRO; crwydr, cyfeiliorn. Mat. 18. 12.

DISTADL, (ystadl) salw, disenw, dibris, dirmygus, diystyr.—'Pethau distadl y byd, a phethau dirmygus, a ddewisodd Duw.' 1 Cor. 1. 28. 'Pethau gwaelion y byt.' W.S. *Gr. αγενης, diachyddiaeth, diwelygordd, diedrif.* Y mae Duw gwedi dewis y cyfryw rai nad oedd na mawredd na theilyngdod yn perthyn iddynt o ran mawredd eu hachau, na daioni eu teidiau; ond rhai gwaelion, distadl, dienw, digyfrif, yn mhlith dynion; fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef; ond y byddai y clod yn gwbl i Dduw, a'i ras yn rhad anhaeddiannol.

DIST—IAU, (dis) trawst, ceibr.—'Ein distiau sydd ffynidwydd.' Can. 1. 17. Y tŷ ydyw yr eglwys yma yn y byd, yn ei haelodau, ei gweinidogion, a'i hordinhadau. Heb benderfynu yn neillduol beth sydd i'w ddeall wrth swmerau a distiau y tŷ hwn, canys nid yw awdwyr yn cytuno, gallwn gasglu oddiwrth y geiriau, fod yr eglwys yn adeilad ogoneddus, gadarn, barhaus. Y mae y sylfaen yn gadarn, mae y meini ar y sylfaen yn fywiol; eu hundeb â'u gilydd yn ddiwahan; y mae yr holl adeilad, yn mhob rhan o honi, yn cydgynnal eu gilydd ar y sylfaen. Y mae y weinidogaeth yndi a'r ordinhadau, yn sicr o barhau, er i'r gweinidogion feirw yn olynol. Mae y cedrwydd a'r ffynidwydd yn brenau parhaus, diddarfod; felly y mae gweinidogaeth yr eglwys a'i hordinhadau; ie, ei holl aelodau. Ioan 11. 26. 1 Bren. 6. 9, 36. a 7. 12. a 10. 27. 1 Tim. 3. 15. Heb. 3. 6. 2 Tim. 2. 19. 1 Cor. 6. 19. Eph. 2. 20, 22. Ps. 52. 8. a 92. 13.

DISWYDD—O, (di-swydd) un heb swydd ganddo, un wedi colli ei swydd. 2 Bren. 23. 5. 2 Cron. 36. 3. —'Ac wedi ei ddiswyddo ef.' Act. 13. 22.—*και μετασησας αυτον, wedi ei symud.*—'Ac yn ol y ysmuto ef.' W. S. Y gair a arwydda, symud o swydd, neu o fywyd, neu o'r naill fan i fan arall. Act. 7. 16. Heb. 11. 5. Oblegid ei anufudd-dod i orchymyn Duw, y cafodd Saul ei ddiswyddo o fod yn frenin, a'i symud oddiar y ffordd trwy farwolaeth. Bu farw dan arwyddion trymion o anfoddlonrwydd Duw. Er i Dafydd, ei olynwr, gael ei geryddu yn drwm, etto ni chafodd ei ddiswyddo. Yr oedd calon Dafydd yn uniawn gyd â'r Arglwydd, er ei wendidau, ond yr oedd Saul yn dwyllodrus ac yn ŵyrog yn y cwbl, ac ar y goreu.

DISYFYD, (syfyd) diattreg, dirybydd, disymwth, diymaros.—'Ac yn ddisyfyt yd euth sain o'r nev.' Act. 2. 2. a 16. 26. 2 Thes. 2. 2. W.S.

DISYMWTH, (di-symwth) disyfyd, diswta, dirybydd, ar frys, talmyrth.—'Dinystr disymwth;' sef dinystr buan, annysgwyliadwy. 1 Thes. 5. 3. Dywedir am y cyntaf ac ail ddyfodiad yr Arglwydd, ei fod yn ddisymwth; sef yn annysgwyliadwy, pan na byddo dynion yn meddwl am dano, nac yn ymbarotoi i'w gyfarfod a'i roesawi. Mal. 3. 1. Mat. 24. 44, 50.

DISYNWYR, (di-synwyr) diddeall, ynfyd, ffol, diystyriaeth, difeddwl. Diar. 9. 16. a 12. 11.

DIWAHARDD. Act. 28. 31. Edr. GWAHARDD.



DIWAIR, (gwair) dihalog, dilwgr, pur. 1 Petr 3. 2.

DIWALL—U, (di-gwall) helaeth-lawn, gorllawn, diamdlawd, ffiwch, cyflawn, di-eisiau, digonol. Ps. 66. 12. Diar. 19. 23. Hag. 1. 6.—'O lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir.' Esa. 53. 11. Bu enaid Crist mewn llafur, mewn tristwch dirfawr, mewn ymdrech, yn y pwll isaf; mewn tywyllwch yn y dyfnderau. 'Y mae dy ddigofaint,' medd efe wrth y Tad, 'yn pwyso arnaf; ac â'th holl dônau y'm cystuddiaist. Fy enaid a lanwyd o flinderau.' Ps. 88. 3, 6, 7. Nid aeth y llafur caled hwn yn ofer; nid yn ofer ac am ddim y treuliodd ei nerth. O'r llafur hwn gwel ffrwyth yn ei ddyrchafiad a'i ogoneddiad ei hun; yn nghyfiawnhad, sancteiddiad a gogoneddiad tyrfa ddirifedi o bechaduriaid. Gwel bawb y dyoddefodd drostynt mor sanctaidd, ac mor ddedwydd ag y dymunai eu bod; ond ni wêl neb ond y rhai y bu ei enaid mewn llafur drostynt. Bu y llafur hwn yn fawr tu hwnt i amgyffred neb ond yr hwn a ddyoddefodd, ond bydd y ffrwyth yn gyfatebol. Ei bobl dlodion hefyd a fwytânt ffrwyth ei lafur ef, ac a ddiwellir. Ps. 22. 26. Mat. 5. 6.

DIWEDD—AF—AR—IAD, (diw) terfyn, dyben, pen, gorphen, ffin. Arwydda weithiau y rhan olaf o ryw yspaid o amser. Mat. 28. 1.—'A'i ddiwedd fydd trwy lifeiriant:' (Dan. 9. 26.) sef, cyflawnir dystryw hollol y genedl Iuddewig, fel gwladwriaeth, a dinystr Jerusalem fel ei phrif ddinas, trwy farnedigaethau ofnadwy ac anwrthwynebol.

'Diwedd pob cnawd a ddaeth ger fy mron.' Gen. 6. 13. Sef, mae amser dinystr yn agos. Amos 8. 2. Jer. 51. 13. Ezec. 7. 2, 3, 6.——Mae yr Arglwydd Iesu yn cael ei alw 'Y Diwedd.' Dat. 21. 6. Mae efe yn aros yn dragywydd; efe yw dyben pob peth, ac efe yw perffeithiwr y cwbl, yn dwyn holl fwriadau ac amcanion mawrion y Duwdod i gyflawn berffeithrwydd. Bydd efe yn ddyddanwch tragywyddol i'w bobl, wedi i bob peth arall ddarfod. Diwedda y cwbl trwy nerthol weithrediad ei allu a'i ras, yn ei ogoniant a'i ddyrchafiad ei hun, a dedwyddwch tragywyddol ei bobl ynddo a chyd âg ef. Edr. ALPHA, DYRCHAFU.

'Fydd gyd â'r diweddaf.' Esa. 41. 4. Mae y Duw mawr, yr hwn ydyw y cyntaf, wedi rhoddi bod i greaduriaid, y rhai sydd yn ol ei ewyllys a'i drefn i barhau byth: ond yr hwn a roddodd ddechreuad iddynt, a fydd byth gyda hwynt, yn eu cynnal ac yn eu trefnu, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ei hun. Nis gallant fod hebddo, nac yn anddibynol arno, nac heb ei lywodraeth arnynt. Bydd gyd â'r diweddaf o'i bobl, ac yn wyneb y gelyn diweddaf, yn ddiflino ac heb ddiffygio. Parhâ ei amynedd, ei ras, a'i drugaredd, ac ymddangosant yn ymgeledd y diweddaf. Bod Duw gyd â'r diweddaf, a arwydda ei bresennoldeb gyda phawb o'i bobl, o'r dechreu hyd y diwedd. Y mae efe yn llenwi yr yspaid rhwng y dechreu a'r diwedd. Mae efe heb ddechreu ei hun, o'r dechreu hyd y diwedd, a hyd byth heb gyfnewidiad.

'Crist yw diwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un a'r y sydd yn credu.' Rhuf. 10. 4. Crist yw τελος, *cyfeiriad* y gyfraith; ato ef yr oedd yr holl aberthau a'r gosodiadau Iuddewig yn cyfeirio ac yn cyfarwyddo pechaduriaid. Neu yn hytrach, Crist yw *perffeithiad* y gyfraith. 'Diwedd y gorchymyn yw cariad,' &c. sef perffeithiad a chyflawniad y gorchymyn. 1 Tim. 1. 5. Mae Crist yn berffaith yr hyn y mae y gyfraith yn ei ofyn. Y mae efe wedi ei chyflawni yn hollol, ac i'r perffeithrwydd mwyaf. Nid oedd ganddi ofyniad nad atebodd efe iddo, yn ei ufudd-dod ac yn ei farwolaeth. Nid ei diddymu a wnaeth, ond ei chyflawni; a thrwy hyny ei chadarnhau a'i hanrhydeddu i'r gradd eithaf. Gan iddo wneuthur hyny yn enw a thros ei bobl, fel eu cynnrychiolydd a'u mechnïydd, y mae yn 'ddiwedd y ddeddf, er cyfiawnder i bob un a'r y sydd yn credu' ynddo. Ymddengys yn amlwg oddi wrth

Digitized by Google

'Diwrnod yr Arglwydd,' sef amser gosodedig gan yr Arglwydd i gwblhau rhyw waith, megys cospi a dyfetha ei elynion, a phobl ragrithiol. Esa. 13. 6. a 34. 8. Ezec. 30. 2. Joel 1. 15. a 2. 2.—'Diwrnod cymeradwy gan yr Arglwydd:' (Esa. 58. 5.) diwrnod gwedi ei dreulio mewn gwaith, ac mewn modd cymeradwy gan yr Arglwydd.

'Hyd ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau, yma y purir y cysegr.' Dan. 8. 14. Mae y geiriau yn ateb un sanct i ymofyniad un arall. 'Pa hyd y bydd y weledigaeth, y cymerir ymaith yr offrwm gwastadol, (nid yw y gair *am* yn yr iaith wreiddiol) a chamwedd anrhaith, i roddi y cysegr a'r llu yn sathrfa?' Yr ateb yw, 'hyd ddwy fil a thri chant o ddiwrnodau.' Y mae yn ddiammeu, fod y diwrnodau i'w deall yn iaith y prophwydi am flynyddoedd: dwy fil a thri chant o ddiwrnodau, gan hyny, yw dwy fil a thri chant o flynyddoedd. Y mae yn anhawdd nodi amser dechreuad amser penodol yn eu prophwydoliaethau, hyd nes y cyflawnir hwynt, ac y bydd y dygwyddiadau yn dangos hyny gyda sicrwydd. Y mae y dysgedigion yn amrywio yn eu dehongliadau o'r geiriau hyn; ac nid hawdd ydyw penderfynu, gyda sicrwydd, pa bryd i ddechreu cyfrif y blynyddoedd. Tebygol eu bod hwy yn cyd-amseru â 1260 o ddyddiau Ioan yn y Dadguddiad, ond eu bod yn dechreu yn gynt—hwyrach mai yn nechreu teyrnasiad Alexander Fawr, yr hwn a ddarlunir yma dan lun bwch gafr, yr hwn a darawodd yr hwrdd a'r ddau gorn ganddo, sef ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid. Aeth Alexander drosodd i Asia, A. M. 3670, C. C. 334. Os felly, y mae y ddwy fil a thri chant o ddyddiau, sef blynyddoedd, yn tynu at ddiwedd, ac yn cyd-redeg â 1260 Ioan.* Edr. Dydd.

DIWYD—RWYDD, (gwyd) dyfal, diesgeulus, astud, manwl.——'Byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr.' 2 Petr 1. 10. Y mae galwedigaeth ac etholedigaeth yn weithredoedd Duw tu ag at ei bobl mewn perthynas i'w hiechydwriaeth, a'r naill yn anwahanol gysylltiedig â'r llall. Y mae etholedigaeth yn dragywyddol, yn gangen o arfaeth dragywyddol Duw, yn dewis ei bobl o'i gariad a'i ben-arglwyddiaeth; y mae galwedigaeth mewn amser yn gweithredu tu ag at y rhai a etholwyd, i'w neillduo yn bersonol, ac yn sanctaidd i Dduw trwy yr efengyl. Mae pob un o honynt yn sicr ac yn ddigyfnewid; 'canys diedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw;' ond y maent yn hollol anadnabyddus i ni, ond fel y byddo ein galwedigaeth yn egluro ein hetholedigaeth, ac effeithiau a ffrwythau galwedigaeth ynom, yn egluro ac yn tystio ein bod yn alwedigion, neu gwedi gwir ufuddhau i'r alwedigaeth nefol yn yr efengyl. Nid yw y sicrwydd o'r pethau, mewn perthynas i ni ein hunain, yn cael ei roddi i neb mewn diofalwch cnawdol, ond mewn diwydrwydd ysbrydol a pharhaus. Mae diofalwch cnawdol ynddo ei hun, yn gwrth-brofi ein galwedigaeth; y mae pawb sydd yn cael eu galw, yn cael eu galw i ddiwydrwydd ysbrydol, a pharodrwydd i bob gweithred dda: y mae yr Ysbryd Glân, yn yr alwedigaeth effeithiol hon, yn cenedlu y cyfryw ysbryd o ddiwydrwydd ffyddlawn yn y rhai a alwyd. Y mae yr apostol yn cymeradwyo y cyfryw ysbryd, ac yn annog pawb i barhau ynddo hyd y diwedd, er eu cadarnhad, eu sicrwydd, a'u gorfoledd. Diwydrwydd (σπουδη) a arwydda prysurdeb, dyfalwch, gweithgarwch, difrifwch, awyddfryd: ac a arwydda yma hollol ymegniad ac ymroddiad awyddfrydig, dyfal, a pharhaus yn mhethau Duw, yn ddiarbed, ac yn ddiflino. Phil. 2. 12. Rhuf. 9. 11, 16, 29. a 11. 29. Tit. 2. 14. 1 Ioan 2. a 3. 19. Ps. 119. 165.

'Gan roddi cwbl ddiwydrwydd.' *Gr.* *σπουδην πασαν παρεισενεγκαντες*—'Studium omne adinferentes, vel subinferentes.' *Yn dwyn i mewn gwbl*, neu *bob diwydrwydd.* Diwydrwydd yn mhob peth, yn mhob ffordd, bob amser; diwydrwydd yn gochelyd, a diwydrwydd yn ymgyrhaedd at. Gan fod Duw wedi rhoddi i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr, rhoddwn ninnau gwbl ddiwydrwydd i gyrhaedd a meddiannu y pethau addawedig. Y mae yn anaddas i Dduw, yn anffyddlondeb i ni ein hunain, ac yn ddiystyrwch o'r pethau mwyaf eu gwerth, i fod yn ddiofal, yn ddiawydd, yn segurllyd, ac yn ddifater am danynt. Nid *am* ein diwydrwydd, ond *yn rhoddi* cwbl ddiwydrwydd, y cawn hwynt. 'Llaw y diwyd a gyfoethoga.' Diar. 10. 4. Rhuf. 12. 8, 11. Heb. 6. 11.

DIWYGIO—IAD, (di-wyg) iawniad, ad-drefniad, ad-ffurfiad; gwellhau, difeio, adgyweirio, adnewyddu.—'Hyd amser y diwygiad.' Heb. 9. 10. *μεχρι καιρου διορθωσεως, hyd amser yr adgyweiriad.* Nid mor addas, medd y Dr. Owen, yw y gair diwygiad yma: nid diwygio, neu wellhau, yr addoliad Iuddewig a wnawd; ond ei osod yn gwbl o'r neilldu, pan y dygwyd y trefniadau efengylaidd i mewn. Ond cyfarwyddodd a threfnodd Duw bob peth yn yr amser nodedig hwn, ac i barhau yn ddigyfnewid, yn y modd goreu i'w ogoniant ei hun, ac er iechydwriaeth dragywyddol yr eglwys. Diwygiad oedd, os golygir ystâd yr eglwys yn gyffredinol, trwy ddwyn i mewn bethau gwell, yn tueddu ac yn cyfeirio yn fwy uniongyrch at y dybenion mawrion yn ngolwg Duw mewn perthynas i'w eglwys, a'i ogoniant ei hun ynddi a thrwyddi.*

DIYMGELEDD, (ymgeledd) digymhorth, difaeth, digysur.—'Na âd fy enaid yn ddiymgeledd.' Ps. 141. 8. Y gair *Heb.* פרה a arwydda dynoethi, neu dywallt allan: Na *ddynoetha*, na *thywallt allan* fy enaid; sef ymgeledda, cryfha, cysura, a chadw fy enaid. Enaid diymgeledd, yw enaid dyeithr i weithrediadau sanctaidd yr Ysbryd Glân, yn cymhwyso iechydwriaeth Crist iddo. Y mae angen ymgeledd ar ein heneidiau; y mae yr hyn a'u hymgeledda, yn effeithiol, yn nhrefn Duw yn Nghrist; cyfranogiad o'r cyflawnder sydd ynddo ef trwy yr Ysbryd, yn unig, a wir ymgeledda enaid pechadur euog, halogedig, a thruenus. Enaid yn cael ei adael yn ddiymgeledd, sydd yn cael ei adael yn gwbl yn y cyflwr truenus y daeth iddo trwy y cwymp: rhag hyn y gweddïa pob duwiol gyd â'r taerineb mwyaf, yn ddibaid.

DIYMMOD—I, (ymmod) disigl, diysgogiad, anhylithr.—'Byddwch sicr, a diymmod.' 1 Cor. 15. 58. —'Byddwch sicr a disigl.' Dr. M.—'Byddwch ffurfion a' diymmot.' W. S. Byddwch sicr, yn sefydlog, yn ddianwadal, yn holl bynciau athrawiaethol y ffydd, ac yn eich ymlyniad wrth Grist, ac yn ei ffyrdd; heb hyny, nis gellwch fod yn helaethion yn ngwaith yr Arglwydd, na llwyddo yn eich eneidiau.

DIYSGOG—I—OL, (ysgog) diysgwydedig, sefydlog. Act. 27. 41.

DIYSTYR—U—WCH, (ystyr) difeddwl, anystyriol, dibarch, dibwys, disylw.—'Lamp ddiystyr,' yw lamp ddiddefnydd, ddiolew, ddioleu. Job 12. 5.—'Diystyru cynghor Duw,' yw diystyru ei air, ei gyfraith, athrawiaeth yr efengyl, yr holl addysgiadau a'r hyfforddiadau y mae y Duw mawr yn rasol wedi eu rhoddi i ni er ein cyfarwyddyd, ac er ein diogelwch, a'n hiechydwriaeth. Luc 7. 30. Num. 15. 31. Diar. 1. 25. a 15. 5. Esa. 5. 24. Hos. 4. 6. Y mae hyn yn mhawb yn arwydd o ffolineb, ynfydrwydd, a

* Gwel Syr Isaac Newton ac Esgob Newton ar y prophwydoliaethau. *Dissert.* 15.

* *Διορθουσθαι*, merito dicuntur quæ recta ad suum scopum diriguntur, cum illa antea eodem quidem, sed sinuoso quodum ambitu, tenderent. Beza.

Digitized by Google

chalon-galedrwydd; ac yn gyffredinol yn rhagflaenu dinystr disymwth ac ofnadwy.

'Herod a'i filwyr, gwedi iddo ei ddiystyru a'i watwar,' &c.—'Gan ddiystyru gwaradwydd.' Luc 23. 11. Heb. 12. 2. Y mae ymddygiad Herod a'r milwyr tu ag at yr Iesu yn amlygu y dirmyg mwyaf a fedrent hwy ddangos iddo; gwisgasant wisg glaerwen am dano—hen beth garpiog, hwyrach—mewn gwawd a dirmyg, i'w wneuthur yn watwar-gerdd. Diystyrodd Crist y gwaradwydd hwn; nid ymollyngodd dano; ni wnaeth gyfrif mawr o hono, mewn cymhariaeth i'r effeithiau gogoneddus oedd i ganlyn ei ddyoddefiadau yn iechydwriaeth ei eglwys, a dinystr ei gelynion. Diystyrwyd ef, a diystyrodd yntau y diystyrwch, ac a orphenodd ei waith yn fuddugoliaethus.

DO, (o) gorair; ïe.—*Do*, a *naddo*; sef ïe, a nagê.

DOCTOR—IAID, *Llad.* DOCTOR; *Gr.* διδασκαλος (*didaskalos*) athraw, dysgawdwr.* Y mae yr un gair Groeg, weithiau, yn cael ei gyfieithu *athraw*, Mat. 9. 11. a 10. 24. Luc 3. 12. Act. 13. 1. 1 Tim. 2. 7. 2 Tim. 1. 11.—weithiau *dysgawdwr*, Ioan 3. 10.—brydiau eraill, *doctor*, *doctoriaid*, Luc 2. 46. a 5. 17. Act. 5. 34. Pan oedd yr Iesu yn ddeuddeng mlwydd oed, cafodd ei rïeni ef yn eistedd yn nghanol y doctoriaid yn y deml, yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt—neu yn ymofyn â hwynt. Byr ydyw yr hanes a roddir am yr Iesu yn ei ieuenctid: pan yn ddeuddeng mlwydd oed, gwelwn ef gyda Mair a Joseph yn Jerusalem, yn ol y gyfraith: (Exod. 34. 23. Deut. 16. 16.) ar ddiwedd yr ŵyl. ymddangosodd yn y canol, wrth draed y doctoriaid, lle y byddai y dysgaduriaid yn arferol o fod. Byddai y dysgawdwyr yn eistedd yn hanner cylch, a'r dysgyblion yn y canol, wrth eu traed. Byddai y doctoriaid, ar y gwyliau arbenig, yn arferol o ddysgu y bobl, yn un o ystafelloedd y deml, yn y gyfraith, yn gyhoeddus. Jer. 23. 5, 6, 7, 10. Ioan 18. 20. Yr oedd yr Iesu yno yn gwrando, yn ateb, ac yn holi. Wrth y geiriau hyn gallwn ganfod dull y doctoriaid yn athrawiaethu, sef eu bod yn egluro y gyfraith, yn holi y dysgadur, ac yn rhoddi rhyddid iddo ymofyn â hwynt er ychwaneg o hyfforddiad ac eglurdeb. Gallwn fod yn dra sicr ei fod yn eu plith gyda phob gwylder, gostyngeiddrwydd, addfwynder, a mwyneidd-dra perthynol i'w oed. Yr ydoedd heb gymeryd arno yn bresennol y swydd o fod yn athraw yn gyhoeddus i'r bobl. Diammeu fod ei ymofynion doeth â hwynt yn tueddu i eglurhau y gwirionedd, ac i oleuo pawb oedd yn gwrando. Etto ymofyn yr oedd fel dysgadur, ac nid fel dysgawdwr. Yn yr oed hwn, yr oedd y fath ddoethineb ynddo, fel y synodd pawb wrth ei ddeall a'i atebion. Er na chafodd ei ddysgu yn un o athrofäau y doctoriaid a'r Rabbiniaid yn Jerusalem, o ba rai yr oedd 400. meddent; etto, yr oedd ei rïeni wedi ei ddysgu mor fanwl, ac yntau mor llawn o'r Ysbryd Glân, fel y synodd pawb yn aruthrol wrth ei ddeall a'i atebion. Deut. 6. 7. Ioan 7. 15.—Εξισταντο, *bu aruthr.* Arwydda y gair syndod i'r gradd mwyaf, i orchfygu natur, nes y byddo yn colli arno ei hun gan ryfeddod.——Y mae yr ychydig hanes hwn yn rhoddi i ni olwg hyfryd ar yr Iesu yn ei fabandod; y dull sanctaidd y treuliodd ei ddyddiau boreuol, a'r ysbryd doethineb a deall a orphwysodd arno. Esa. 11. 2. Blaguryn a dyfodd yn llwyddiannus, ac a flodeuodd yn foreu, oedd: ni hauodd rhïeni erioed yr hâd da mewn daear mor dda, a'r ffrwyth mor doreithiog.—Wedi hyn, aeth i waered gyda hwynt i Nazareth, a bu yn ostyngedig iddynt. Gweithiodd, tebygol, wrth alwedigaeth ei dadmaeth Joseph, fel yr oedd yn cael ei alw yn *fab y saer*, ac yn *saer*. Mat. 13. 15. Marc 6. 3. Dywed yr Iuddewon ei fod yn gwneyd cribynau ac iauau. Yr ydoedd canonau yr Iuddewon yn gofyn i bawb ddwyn eu plant i fynu i ryw alwedigaeth. Tebygol i dlodi y teulu beri i Grist weithio ei alwedigaeth, tra yr oedd ef gartref gyd â'i rïeni, ac yn cyd-gynnal â hwynt. Pa hanes rhyfedd yw hwn!

* Gwel Campbell's *Prelim. Dissert.*, *p.* 321, &c.

DODAI, דודי [*fy anwylyd*], tywysog dosparthiad o 24,000 o ddynion yn gwasanaethu Dafydd a Solomon yn yr ail mis. 1 Cron. 27. 4.

DODANIM, mab, neu hiliogaeth mab ieuengaf Jafan, ac ŵyr Japheth. Gen. 10. 4. Hwyrach iddynt breswylio yn ynys Rhodes: ac oddi yno aethant i Epirus. Geilw y LXX. Dodanim, Rhodanim, yn cyfnewid ד yn ר dwy lythyren yn dra thebyg i'w gilydd. Gwel *Ancient Universal History, vol.* i. *p.* 308, *vol.* x. *p.* 70.

DODI—AD, (dawd) *Gr.* διδωμαι; *Llad.* DARE: gosod, cyfleu, rhoddi, planu.—'Dodi o honoch heibio, o ran yr ymarweddiad cyntaf, yr hen ddyn;' sef bwrw oddi wrthych; ymwrthod âg ef o'ch gwirfodd, yn *hollol* ac yn *dragywydd.* Eph. 4. 22. Rhuf. 13. 12. Col. 3. 8. Heb. 12. 1. Iago 1. 21. 1 Petr 2. 1. Dodi o honoch heibio yr hen ddyn, mor gyflawn ac mor foddlawn ag y dododd Crist ei einioes drosoch. Ioan 10. 18. 1 Ioan 3. 16.——Dodiad a arwydda rhoddiad, gosodiad, trefniad, sefydliad rheolau a chyfreithiau. Rhuf. 9. 4. 1 Cor. 14. 16.

DODREFN—YN, (dyodrefn) amguedd tŷ, trefnau, taclau.—'Gwefusau gwybodaeth sydd ddodrefnyn gwerthfawr.' Diar. 20. 15. Y mae gwybodaeth yn harddwch, yn ddefnyddiol, ac yn werthfawr iawn mewn teulu, mewn eglwys, ac mewn gwladwriaeth. Y mae yn harddu ac yn defnyddio yr holl ddodrefn eraill. Beth wneir â chyfoeth, a gallu, a lluoedd, &c. heb wybodaeth i'w hiawn ddefnyddio? Dyn heb wybodaeth sydd debyg i anifel, ond ei fod yn fwy llygredig a phechadurus. Bywyd tragywyddol ydyw adnabod y gwir Dduw, a'r hwn a anfonodd efe, Iesu Grist. Ioan 17. 3.

'Dodrefn y cadarn,' â pha rai y mae yn cadw ei neuadd, sef calonau pechaduriaid, ydyw yr holl lygredigaethau, ar ba rai y mae yn gweithredu, ac yn eu defnyddio i gynnal ei deyrnas i fynu, i lygru ac i gaethiwo dynion, ac i ddianrhydeddu Duw. Y dodrefn hyn ydyw ei arfogaeth, yn yr hwn y mae efe yn ymddiried. Nis gallasai y diafol byth drigo yn nghalon dyn, oni bai yr arfau hyn. Pa fodd y dichon Satan drigo mewn calon lawn o wybodaeth, ffydd, cariad, ufudd-dod, ac ofn duwiol? Anwybodaeth, gan hyny, ac anghrediniaeth, anghariad, &c., yw yr arfogaeth a'r dodrefn sydd ganddo yn cadw ac yn addurno ei neuadd, yn drigfa addas iddo ei hun. Pan ddel un cryfach nag ef arno, sef Crist Iesu, mae yn ei orchfygu, ac yn dwyn ymaith ei holl arfogaeth, ac yn llwyr yspeilio ei holl ddodrefn ef. Mat. 12. 29. Marc 3. 27. Luc 11. 21, 22. Edr. LLESTRI, TLYSAU.

DODWY—A, (dodw) gosod, rhoddi, dodi; dodi ŵy.—'Wyau asp a ddodwyasant.' Esa. 59. 5. Wrth wyau yr asp, deallwn yr holl gau athrawiaethau halogedig, y rhai mae y gau athrawon yn mhob oes yn dodwy arnynt, ac yn eu dwyn allan. Y maent fel wyau yr asp, yn llawn o wenwyn, a'r hwn a fwytao o honynt a fydd marw. 'Y mae eu gwefusau yn traethu celwydd, a'u tafod yn myfyrio anwiredd. Nid oes a alwo am gyfiawnder, nac a ddadleu dros y gwirionedd: maent yn gobeithio mewn gwagedd, ac yn dywedyd celwydd.' Wyau yw athrawiaethau gau, o ba rai y tyr allan y gwiberod mwyaf gwenwynig a niweidiol: y maent yn lladd ac yn dystrywio pawb a frathant, ac i'w gochelyd fel y pethau mwyaf niweidiol i ni, a dianrhydeddus i Dduw.

Digitized by Google

DOEG, [*anesmwyth*] Edomiad, penaf o'r bugeiliaid oedd gan y brenin Saul, yr hwn a gyhuddodd Ahimelech mab Ahitub, yr offeiriad, wrth Saul, ac wrth orchymyn y brenin, yn greulon iawn, a laddodd bump a phedwar ugain o wyr, yn dwyn ephod liain. 1 Sam. 22. 18.

DOETH—ION, (oeth) call, synwyrol, pwyllog; un yn meddiannu doethineb. Mat. 7. 24.—'Doethion a ddaethant o'r dwyrain.' Mat. 2. 1. μαγοι απο ανατολων, *magiaid o'r dwyrain*, neu *magiaid dwyreiniol; doethion* o sect neu grefydd y *magiaid*. Yr oedd sect o ddoethion crefyddol cenedlig o'r enw hwn, y rhai a flagurasant fwyaf yn Persia, ac oddi yno a ymdaenasant dros amryw barthau dwyreiniol, yn enwedig Assyria ac Arabia.* Pa sawl un oedd o honynt—o ba le y daethant—mewn pa faint o amser—pa bryd—ac yn mha dŷ yr oedd yr Iesu yn Bethlehem, &c. sydd â llawer o ddadleuon gwedi bod yn eu cylch, a llawer o ddychymygion wedi eu hysgrifenu gan y naill a'r llall; ond dychymygion yw y cwbl ond sydd wedi ei roddi i lawr i ni gan yr efengylwyr. Am fod Arabia yn aml yn cael ei galw y *dwyrain*, (Gen. 25. 6. 18. Job 1. 3. Barn. 6. 3. 1 Bren. 4. 30. Jer. 49. 28.) a bod y wlad hòno yn enwog am aur, thus, a myrr, barna Grotius, Doddridge, Campbell, &c., mai y wlad hòno a feddylir yma. Eraill mai Persia oedd. Am amser dyfodiad y Magi, barna rhai mai o fewn deugain niwrnod puredigaeth Mair y daethant, tra yr oedd Joseph a Mair, a'r dyn bychan, etto yn Bethlehem; eraill a farnant, mai yn mhen blwyddyn gwedi ei enedigaeth, gwedi iddynt dreulio ychydig amser yn Nazareth, yr hyn y mae y geiriau yn Mat. 2. 16. a Luc 2. 39. yn tueddu i gadarnhau. Ond gan nad yw yr Ysbryd Glân gwedi hysbysu y pethau hyn yn sicr, nis dichon neb ond dychymygu mewn perthynas iddynt. Hyn sydd sicr, iddynt ddyfod trwy grybwylliad a chyfarwyddyd dwyfol, i ymofyn am yr Iesu: 'Gwelsom ei seren ef yn y dwyrain,' meddant, 'a daethom i'w addoli ef.' Gwelsant seren: a hysbyswyd iddynt trwy ddadguddiad dwyfol, tebygol, mai i'w cyfarwyddo ato yr ymddangosodd y goleuad newydd rhyfedd hwn. 'Y seren a welsent yn y dwyrain, a aeth o'u blaen, hyd oni ddaeth a sefyll goruwch y lle yr oedd y mab bychan. A phan ddaethant i'r tŷ, gwelsant y mab bychan gyda Mair ei fam, a syrthiasant i lawr, ac a'i haddolasant: ac wedi agoryd eu trysorau, a offrymasant iddo anrhegion, aur, thus, a myrr.' Yr oedd yn arferedig yn y gwledydd hyny i anrhegu rhyw un enwog a fyddent yn ymweled âg ef. Gen. 43. 11—15. 1 Sam. 9. 7, 8, a 10. 27. 1 Bren. 10. 2. Ps. 72. 10. Diar. 18 16. Yr oedd eu haddoliad a'u hanrhegion yn dangos eu crediniaeth ynddo, a'u parch iddo, yn addas i fawredd ei Berson a'i swydd: ac yr oedd yr anrhegion yn gyfamserol iawn tu ag at gynnorthwyo Joseph a Mair yn eu taith gostfawr i'r Aipht, gwlad hollol ddyeithr iddynt, tebygol, ac etto yr oeddynt i drigo yno enyd o amser. Yr oedd dyfodiad y Magiaid yn arddangosiad os nid yn wystl, y byddai i'r Cenedloedd rodio at ei oleuni, a breninoedd at ddysgleirdeb ei gyfodiad. Esa. 60. 3, 5, 6.

DOETHINEB, (doeth) callineb, synwyr, pwyll. Y mae doethineb yn briodoledd hanfodol yn Nuw, ac yn gyfranedig oddi wrtho mewn amrywiol raddau i'w greaduriaid. Y mae amryw greaduriaid yn ddoeth, ond doethineb yw Duw. Doethineb pur, perffaith, diderfyn, anchwiliadwy, a thragywyddol, fel efe ei hun. Esa. 40. 13. Job 11. 17. Ps. 136. 5. Duw unig ddoeth yw. Rhuf. 16. 27. 1 Tim. 1. 17. Judas 25. Y mae efe yn ddoeth o angenrheidrwydd hanfod, yn anffaeledig, ac yn wastadol. Y mae dyfnder golud doethineb, a mawr amryw ddoethineb, ynddo. Rhuf. 11. 33. Eph. 3. 10. Edr. AMRYW. Y mae ynddo ddyfnderoedd o ddoethineb, nas dichon yr holl greaduriaid byth ei blymio; mae ynddo olud ac amrywiaeth o ddoethineb, nas dichon neb byth eu cyfrif. Nid oes dim yn groes i ddoethineb ynddo, a môr ydyw heb waelod, ac heb derfynau, o ran amrywiaeth, mesur, a pharhad. Y mae pob meddwl ynddo, pob cynghor, pob dyben, pob gair, a phob gweithred o eiddo Duw, yn ddoeth ac yn dda. Y mae yn ddoeth yn ei holl fwriadau a'i ddybenion; ac yn ddoeth i ddewis y modd, yr amser, ar offerynau mwyaf addas i gyflawni ei fwriadau. Fel mae ei wybodaeth yn anfeidrol, yn adnabod pob peth ar yr un olwg; felly mae ei ddoethineb yn anfeidrol i drefnu pob peth yn y modd goreu. Y mae hwnw yn ddoeth yr hwn sydd yn gweithredu i ddybenion teilwng ac anrhydeddus, ac yn addasu pob peth yn y modd goreu i gyflawni hyny; felly y mae y Duw mawr yn gweithredu yn mhob dim: Duw unig ddoeth yw. Y mae yn unig ddoeth, 1. Oblegid nad oes neb mor ddoeth; nid ydyw doethineb pawb yn nghyd, ond megys dim mewn cymhariaeth i'w ddoethineb ef.—2. Am mai efe yn unig sydd ddoeth, ynddo ac o hono ei hun. Nid cynneddf yw yn Nuw, fel mewn dyn, a ellir ei gwahanu oddi wrtho, ond Duw ei hun yw; nis gall fod, heb fod yn ddoeth. Rhuf. 11. 34. Esa. 40. 14.—3. Am fod pawb yn cael eu holl ddoethineb oddi wrtho. Y mae ei ddoethineb ef ynddo ac o hono ei hun; ac mae doethineb pawb eraill, yn mhob gradd o hono, yn deillio oddiwrtho ef. Esa. 28. 26. Dan. 2. 21. 4. Am mai efe yn unig sydd ddoeth, a phob math o ddoethineb ynddo. Y mae creaduriaid yn ddoeth at ryw bethau, megys dynion at ryw waith neu gelfyddyd; ond y mae holl amrywiaeth doethineb yn Nuw. Y mae yn ddoeth yn ei fwriadau, ac yn ei holl ffyrdd. Fel nas dichon fwriadu na gweithredu yn anghyfiawn, oblegid ei gyfiawnder; felly nis dichon fwriadu na gweithredu yn annoeth, oblegid ei ddoethineb.—5. Efe yn unig sydd yn wastad, yn annherfynol, ac yn anfethedig ddoeth. Am ei fod yn berffaith ddoeth, nis gellir chwanegu at, na thynu oddiwrth ei ddoethineb. Job 11. 6, 7. Rhuf. 11. 33. Ps. 92. 2. Diar. 21. 20.

Y mae Duw gwedi amlygu ei ddoethineb, fel ei briodoliaethau eraill, yn ei holl weithredoedd. 'Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Dduw! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb.' Ps. 104. 24. Y mae argraff doethineb dwyfol ar wneuthuriad pob creadur, a phob rhan o hono; ac hefyd yn y dyben o'i wneuthuriad yn ol ei ryw. Y mae y naill beth yn ateb i'r llall, a'r cwbl yn cytuno i ddwyn yn mlaen ddybenion Duw yn y greadigaeth, mewn modd tirionferth, ardderchog, a gogoneddus. Y mae amrywiaeth, addasrwydd, a dybenion gwneuthuriad yr holl greaduriaid, yn amlygu doethineb diderfyn ac anchwiliadwy.

Y mae holl ragluniaethau Duw tu ag at bawb, byd ac eglwys, a llywodraeth foesol Duw ar y cwbl, yn amlygu dyfnderoedd yr unrhyw ddoethineb anolrheinadwy. Rhuf. 11. 33. Yn cyflawni maent yn bresennol, ond pan y byddont oll wedi eu cyflawni yn berffaith, gwaedda pawb a gaffo iawn olwg arnynt, O ddyfnder golud doethineb Duw!

Mae holl drefn iechydwriaeth yn amlygu doethineb Duw, yn ei holl fawredd a'i amrywiaeth diderfyn. 'Trwy yr eglwys,' a rhagluniaethau Duw tu ag ati, 'yr hysbysir i'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd, fawr amryw ddoethineb Duw.' Eph. 3. 10.

Y mae Crist yn cael ei alw 'doethineb,—doethineb Duw,'—am ei fod yn Dduw anfeidrol ddoeth; am fod holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig ynddo, fel Cyfryngwr. Yn ei berson ac yn ei osodiad i fynu yn ei swydd, a'r dybenion i'w hateb trwy hyny, mae yr amlygiad mwyaf cyflawn o ddoethineb dwyfol a welir byth. Diar. viii. 1 Cor. 1. 24.

* Gwel Prideaux, *part.* 1., *b.* 3. & 4.—*Universal History*, *vol.* v., *p.* 143.—Hyde's *Religio Veterum Persarum.*

Digitized by Google

'Doethineb Duw mewn dirgelwch,' yw yr efengyl sydd yn hysbysu Crist a threfniadau Duw ynddo. 1 Cor. 1. 24. a 2. 6, 7. Col. 2. 3. Gwnaed ef i ni gan Dduw yn ddoethineb—trefnwyd, a gosodwyd ef yn yr arfaeth, ac amlygwyd ef yn yr efengyl, *i ni yn ddoethineb*. Y mae yn ddoethineb *dros*, ac *i'w* holl bobl: mae drostynt yn ddoeth yn golygu, yn trefnu, ac yn goruwch-lywodraethu eu holl achosion yn y llys fry, ac yma ar y ddaear isod; mae yn dadguddio i ni feddwl Duw, a thrwy ei air a'i Ysbryd, yn ein gwneyd yn ddoeth i iechydwriaeth. 1 Cor. 1. 30. Eph. 1. 8. Col. 4. 5. Nid oes neb yn wir ddoeth, ond y rhai sydd yn adnabod Duw, a'r hwn a anfonodd efe, Iesu Grist: yn ofni Duw, yn ei barchu, ac yn ei addoli. Pwy ond yr ynfyd a'r gwallgofus a anmharcha ac a ddianrhydedda Dduw? 'Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd.' Ps. 111. 10. a 90. 12. Diar. 9. 10. Deut. 4. 6. Mat. 24. 45. 2 Tim 3. 15. Y doethineb y mae Duw yn ei roddi, ac sydd oddi uchod, ydyw hwn, ac y mae yn bur, yn heddychol, boneddigaidd, hawdd ei drin, yn llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd, a diragrith. Iago. 1. 5. a 3. 17.

Doethineb a arwydda weithiau, 1. Synwyr a challineb i ganfod beth sydd addas neu yn anaddas i'w wneuthur, o ran amser, lle, dull, a moddion, neu ddybenion. Preg. 2. 13.——2. Gwybodaeth y celfyddydau breiniol; felly yr ydoedd Moses yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid. Act. 7. 22.——3. Parodrwydd i ddychymygu, a medrusrwydd i ffurfio cywreinwaith. Exod. 31. 2, 5.——4. Cyfrwysdra dichellgar. Exod. 1. 10. 2 Sam. 13. 3. Job 5. 13.——5. Aniandddeddf a synwyroldeb creaduriaid direswm. Job 39. 17. ——6. Cyfrwysdra cnawdol, a dybenion bydol, llygredig, tywysogion y byd hwn, yn trefnu eu hachosion bydol a gwladwriaethol, yr hwn y mae Duw yn aml yn ei wneuthur yn ynfydrwydd. Doethineb y cnawd yw, yn gweithredu yn gyfrwys-ddrwg, i gynnal pechod a theyrnas y diafol yn y byd. 1 Cor. 1. 19, 20 a 2. 7, 8. 2 Cor. 1. 12.

Nid yw yr efengyl i gael ei phregethu mewn doethineb ymadrodd, fel na wneler croes Crist yn ofer: 1 Cor. 1. 17. sef mewn geiriau chwyddedig, ac areithyddiaeth ddynol, ddengar; ond yn eglurhad y gwirionedd, ac mewn geiriau a ddysgir gan yr Ysbryd Glân. 1 Cor. 2. 13.

'Yn noethineb Duw,' neu yn noeth drefniad Duw, 'nid adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw.' 1 Cor. 2. 21. Nid adnabu neb o'r hen Philosophyddion Paganaidd mo Dduw, trwy eu holl ddysgeidiaeth a'u gwybodaeth ddynol. Yr oedd hyn gwedi ei drefnu yn ddoeth gan Dduw, fel y byddai yn fwy amlwg yr angenrheidrwydd o'r efengyl, a nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân trwyddi, ar feddyliau pechaduriaid. Nid llawer o'r rhai doethion hyn a alwyd. 1 Cor. 1. 26. Mat. 11. 25. Luc 10. 21.

DOF—I, (of) *Gr.* δομαω; *Llad.* DOMARE: gwarhau darostwng, hyweddu. Dan. 2. 40. Marc 5. 4. Iago 3. 7, 8.

DOFYDD, (dof) gwarhâwr; un o enwau yr Arglwydd.

Toddai y ddaear o'i flaen ef,
Pan glywid llef Duw *Ddofydd*.
*E. Prys*, (Ps. 46. 6.)

DOGN—I, (dog) mesur, cyfran, digon.—'Dogn dydd yn ei ddydd:' sef mesur, neu gyfran dydd yn ei ddydd. Exod. 5. 13. a 16. 4. דְּבַר־יוֹם בְּיוֹמוֹ *gair* neu *beth*, y diwrnod yn ei ddiwrnod—sef digonedd o fara. Diar. 30. 8. Yr oeddynt yn cael cyfran addas ddigonol o fanna dros y diwrnod, yn y diwrnod: nid cyn y diwrnod, ond *yn* y diwrnod; nid digon am flwyddyn yn y diwrnod, ond digon y dydd hwnw. Fel hyn yr oeddynt yn cael prawf newydd beunyddiol o ofal tirion yr Arglwydd am danynt, ac yn cael eu dysgu i fyw trwy ffydd ar ei ofal a'i haelioni, yn foddlawn, ac yn gymedrol.

DOL—YDD, DOL-DIR, (ol) gweirglawdd, gwastadfaes, gwastad-tir, porfâad-tir.—'A bod yr anialwch yn ddol-dir, a chyfrif y dol-dir yn goed-tir.' Esa. 32. 15. Effaith tywalltiad yr Ysbryd o'r uchelder, ydyw troi yr anialwch yn ddol-dir arloesedig, a ffrwythlawn. Wrth yr anialwch, deallwn, y Cenedloedd, neu bechaduriaid, yn eu cyflwr diffrwyth, diras, anghyfiawn, ac annuwiol, dan y cwymp: ar y rhai hyn y mae yr Ysbryd yn cael ei dywallt o'r uchelder, a'r canlyniad ydyw, eu bod yn cael eu cyfnewid a'u sancteiddio; eu dysgu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon. 'Yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a erys yn y dol-dir.' Esa. 32. 16. Tit. 2. 12. Barna rhai, gan fod y rhan gyntaf o'r adnod yn golygu galwad y Cenedloedd, fod y rhan olaf yn golygu gwrthodiad yr Iuddewon. Mae geiriau cyffelyb iddynt yn Esa. 29. 17. 'Onid ychydig bach fydd etto hyd oni throir Libanus yn ddol-dir, a'r dol-dir (neu Carmel) a gyfrifir yn goed?' Beth bynag am y cymhwysiad neillduol o'r geiriau, y maent yn ddiammeu yn arwyddo cyfnewidiadau mawrion ar yr eglwys, a'i dull a'i hagwedd yn y byd. Hwyrach y gellir deall y geiriau, 'a chyfrif y dol-dir yn goed-tir,' cyfrif proffeswyr cnawdol, y rhai ydynt yn ddoldir mewn ymddangosiad yn unig, y peth ydynt mewn gwirionedd, sef yn goed-tir heb eu harloesi na'u darostwng erioed. Wedi tywalltiad yr Ysbryd o'r uchelder, bydd y cyfryw oleuni yn yr eglwys, fel y bydd rhagrithwyr cnawdol yn ymddangos y peth ydynt, a'u twyll yn dyfod i'r amlwg i'w ffieiddio. Pan fyddo pawb yn y tywyllwch, gelwir y coeg-ddyn yn foneddig, a'r cybydd yn hael, er mawr niwed ac anharddwch yr eglwys; ond ni oddef rhagrithwyr ddydd dyfodiad yr Arglwydd, yn ngoruchwyliaethau goleu, poeth, tanbaid yr Ysbryd Glân: pan fyddo yr anialwch yn cael ei droi yn ddol-dir, coed-tir fyddant hwy, ac y cyfrifir hwynt hefyd. Mal. 3. 2.

DOLEF—AIN, (llef) bloedd, banllef, crochlef.—Y mae gwaith yr ysbryd aflan yn dolefain yn y dyn oedd gwedi ei feddiannu ganddo, yn dangos mor uchel yw awdurdod Mab Duw ar y cythreuliaid, mor druenus ac anobeithiol yw eu cyflwr hwythau, a'r dysgwyliad dychrynllyd ac ofnadwy sydd ynddynt am farnedigaeth, a'r poenau a barotowyd iddynt. Er ei fod yn poeni yn ddirfawr y dyn truan a feddiannwyd ganddo, etto mae, ar ei ran ei hun, yn crochwaeddi ar Fab Duw, 'Yr wyf yn atolwg i ti na'm poenech.' Hyny sydd wedi ei benderfynu iddo; mae gallu ac awdurdod gan Fab Duw i wneuthur hyny; a hyny mae yntau, yn ddychrynadwy iawn, yn ei ddysgwyl. Pa un ai creulondeb ai trueni dychrynllyd sydd i'w ganfod fwyaf? O! y fath agwedd ddychrynllyd a wnaeth pechod ar greaduriaid glân y goleuni!

DOLEN—AU, (dôl) bwa, plygiad, cerni, dôl-ystum, arwestr.—Dolen gwellaif, dolen cawg; bach a dolen, cwlwm dolen. Exod. 26. 4, 5. a 36. 11, 12, 17.

DOLUR—IAU—US, (golur) *Llad.* DOLOR: ing, gloes, poen; archoll, briw; clwyf, clefyd.—'Doluriau uffern a'm hamgylchynasant.' 2 Sam. 22. 6. Ps. 18. 5. Cyfieithir yr un gair *Heb.* חבלי *gofidiau, doluriau, rheffynau.* Y mae y gyffelybiaeth yn cael ei chymeryd oddiwrth ddull helwyr yn cylchynu eu helfa â rhwydau i'w dal, ac wedi hyny eu lladd. Felly Dafydd a fu gwedi ei amgylchu â rhwydau uffern, y rhai a barodd iddo ddolur a gofid nid bychan: yn ei gyfyngder hwn, gwaeddodd ar yr Arglwydd; clybu ei lef o'i deml, anfonodd, ac a'i gwaredodd oddiwrth ei elynion cedyrn, ac a'i dug i ëangder. Ps. 18. 6, 16, 17, 19.

Digitized by Google

'Gŵr gofidus, a chynnefin â dolur.—Diau efe a ddug ein doluriau.' Esa. 53. 3, 4. Y doluriau, neu y dyoddefiadau dyledus i ni o herwydd ein pechodau. Gan i'r 'Arglwydd roddi arno ef ein hanwiredd ni i gyd,' cymerodd yntau y doluriau, yr archollion, a'r dyoddefiadau dyledus am yr anwireddau hyny. 'Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl.' Esa. 53. 8.

'Mi a wn oddiwrth eu doluriau.' Exod. 3. 7. Nid yn unig yr oedd yr Arglwydd yn gwybod am eu cystuddiau a'u doluriau, sef eu gofidiau a'u dyoddefiadau, ond yr oedd yn tosturio wrthynt, yn cyd-ddyoddef gyd â'u gwendid: a chan ei fod yn gwybod ac yn tosturio, mae yn sicr i'w cynnal danynt, a'u gwaredu allan o honynt.

DONIAU, (dawn) rhoddion, cymhwysderau.—Y mae doniau cyffredinol, gwyrthiol, grasol, a chadwedigol. Y doniau cyffredinol, a gwyrthiol, a ellir eu colli; ac mae yr Arglwydd yn eu cymeryd ymaith yn aml, pan fyddo ei ddybenion yn eu rhoddi gwedi eu hateb; neu yn gerydd am bechodau neu esgeulusdra y rhai a'u derbyniasant; ond diedifarus yw doniau grasol a chadwedigol Duw, a'i alwedigaeth sanctaidd trwy yr efengyl. Ps. 103. 2. Rhuf. 11. 29. a 12. 6. 1 Cor. 12. 1, 28, 31. Edr. DAWN.

DOR, דור prif ddinas talaeth yn ngwlad Canaan' Goresgynodd Josuah hi, a lladdodd ei brenin. Jos. 11. 2. a 17. 11. Yn Hebraeg, *Nephath-Dor*. Mae yn sefyll ar Fôr y Canoldir, rhwng Cesarea a mynydd Carmel.

DOR—AU, (or) *Heb.* שער *Gr.* θυρα; drws, porth' —'A gauodd y môr â dorau.' Job 38. 8. Mewn dull ardderchog ac addurnedig, mae yr Arglwydd yn llefaru wrth Job, i ddangos ei fawredd ei hun, a diddymdra Job. Er mor derfysglyd ac ofnadwy yw y môr mawr, mae y Duw mawr yn ei drin a'i lywodraethu mor hawdd ag y trinia mammaeth blentyn newydd ei eni. Pan ruthrodd efe allan o'r ddaear, fel pe deuai allan o'r groth, efe a'i cauodd â dorau, gosododd y cwmwl yn wisg iddo, a niwl tew yn rhwymyn iddo. Y mae ei ddorau gwedi eu cadarnhau â throsolion, ac yn effeithiol yn ei gadw o fewn y terfynau gosodedig. A pha beth y mae Duw yn llywodraethu y creadur ofnadwy hwn? Dim ond y gorchymyn, 'Hyd yma y deui, ac nid yn mhellach.' Dyma rwymyn digon cryf, a dorau digon cedyrn. Y mae yn rhaid iddo orchfygu Duw cyn y tòro y rhai hyn. Edr. DRWS.

DORCAS, *Gr.* Δορκας, ewig, neu iyrches; *Syr.* טביתה *Tabitha*, yn arwyddo yr un peth. Cawn yn Act. 9. 36—41. hanes am ryw ddysgybles yn Joppa a'i henw *Tabitha*, (neu *Dorcas*, yn Groeg,) yr hon oedd yn llawn o weithredoedd da, ac elusenau; iddi glafychu a marw, ac i Petr ei chyfodi o farw i fyw. O herwydd y wyrth ryfedd hon, 'llawer a gredasant yn yr Arglwydd.' Act. 9. 42. Er nad yw yr hanes am y wraig hon ond byr, y mae yn anrhydeddus iawn. Fel pren wedi ei blanu wrth y dyfroedd, ac yn estyn ei wraidd wrth yr afon, y mae yn llawn o ffrwythau. Gwneuthur gweithredoedd da oedd ei chelfyddyd, ac yr oedd yn ddiwyd ac yn ffyddlawn iawn wrth ei gwaith sanctaidd. Er hyny, bu glaf, ac a fu farw. Ond y mae yr Iesu yn Arglwydd ar y meirw yn gystal a'r byw, ac a all alw ei bobl yno, neu oddi yno, fel y gwelo efe yn dda. Y mae dywedyd, 'Cyfod,' yn enw yr Iesu, o enau ei apostol, yn ddigon i'w dwyn yn ol o wlad angeu.

DOS, (os) berf archedigol; megys, 'Dos i'r arch—dos allan o'th wlad.' Gen. 7. 1. a 12. 1. Mae mawredd Duw yn ei arch; pan fyddo yn erchi, y mae awdurdod dwyfol yn yr archiad yn peri y peth.

DOS—AU, (os) defnyn, gronyn.

Yn *ddiddos* ei fyfyrdod. *E. Prys*, (Ps. 1. 2.)

Sef yn ddiddefni, yn ddigolled, yn ddiball.

DOSPARTH—IAD—AU—U, (gosparth) rhan, rhaniad; gwahaniad, neillduad.—Er mwyn iawn drefn yn ngwasanaeth yr Arglwydd, dosparthodd Dafydd yr offeiriaid, y Lefiaid, y cantorion, a'r porthorion, yn ddosparthiadau; ac yr oedd pob dosparth i wasanaethu yn ei gylch. Yr oedd y drefn hon yn ysgafnhau y gwaith, ac yn gofalu na byddai un rhan o hono yn cael ei esgeuluso; diammeu fod y cwbl wedi ei wneuthur trwy gyfarwyddyd a gorchymyn Duw i Dafydd. Bob wythnos yr oedd mil yn dyfod i mewn, a mil yn myned allan, yn eu cylchoedd. 2 Bren. 11. 5, 6, 7. 2 Cron. 23. 8.

Dosparthwyd gwlad Canaan gan ddynion dewisedig o bob llwyth, ac wedi hyny Josuah a fwriodd goelbren ger bron yr Arglwydd yn Siloh; felly rhanodd Josuah y wlad i feibion Israel, yn ol eu rhanau. Jos. 18. 4, 9, 10. Yr Arglwydd, yr hwn a roddodd y wlad iddynt, ac a'u dygodd i mewn iddi, oedd yn dewis rhan a sefyllfa pob llwyth ynddi. Nid oedd neb â mwy o hawl i ddewis, na neb a allasai ddewis yn well ac yn ddoethach. Y mae ei ragluniaeth ddoeth yn pènu yr amseroedd rhag-osodedig, a therfynau preswylfod pawb o blant dynion. Act. 17. 26. Mae yr amseroedd dyfodfa pawb i'r byd, a therfynau eu preswylfod, wedi eu rhag-osod gan Dduw, i ateb ei ddybenion doeth ei hun.

'Y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosparthu drwg a da'—προς διακρισιν, *i ganfod*, *i farnu*, ac i *wahaniaethu* rhwng drwg a da; sef rhwng gwir a gau-athrawiaeth; a rhwng iawn a cham-ddefnydd o'r gwirionedd dwyfol. Heb. 5. 14. Y mae y diafol yn taenu ei gyfeiliornadau ar hyd y byd, dan rith gwirionedd dwyfol; ac os na lwydda trwy hyny, ymgais i ŵyro dynion i gamddefnyddiad o'r gwirionedd, naill ai i'w digaloni a'u rhwystro, neu eu llenwi â rhyfyg penrhydd. Gwirioneddau dwyfol yn unig, a'r rhai hyny yn cael eu hiawn-ddefnyddio, yw gwir ymborth iachus yr enaid, a bâr iddo lwyddo a chynnyddu mewn cryfder ysbrydol.

DRACHMA, *Gr.* Δραχμη; cyfieithir ef *dryll*, yn Luc 15. 8, 9. Y drachma, arian Groegaidd oedd, o werth yn nghylch saith ceiniog a thair ffyrling o'n harian ni. Ond y gair *Heb.* דרכמן *dracmon* oedd enw ar arian bath Persia, ac o werth yn nghylch pum' swllt ar hugain. Dywedir bob amser ei fod yn aur. Ezra 2. 69. Neh. 7. 70, 71, 72. Hwyrach mai oddi wrth Darius y Mediad, brenin cyntaf yn ymerodraeth y Persiaid, y cafodd yr enw, am fod ei lun arno: דר *dar*, כ *tebyg*, מין *delw*.

DRAENOG—IAID, (draen) yn llawn drain. Y gair *Heb.* קפד a gyfieithir *draenog*, Esa. 34. 11, yn pen. 14. 23, *aderyn y bwn*; ond *draenogiaid*, gan y Dr. M.—yn Zech. 2. 14. *dylluan*. Y gair אנקה a gyfieithir *draenog*, Lef. 11. 30. *Saes.* FERRET.—Nid hawdd cyfieithu enwau creaduriaid, y rhai, hwyrach, nad ydynt i'w cael yn ein gwledydd ni: ond rhaid barnu am eu rhyw, nid yn gwbl oddi wrth yr enw, ond hefyd oddi wrth amgylchiadau y lleoedd y sonir am danynt yn yr ysgrythyrau.* BITTERN yw y cyfieithiad Saesonaeg o'r gair yn y lleoedd uchod.

* Mae awdwyr y '*Mission to the Jews*,' yn dywedyd, tu dalen 73, 'Cymerodd y Dr. Keith y gwaith o holi ein harweinydd Ibraim yn nghylch Petra: oblegid yr oedd efe wedi bod yno gyd â'r Dr. Robinson o America. Oddi wrtho ef y cawsom ein hysbysu fod creadur garw blewog, yr hwn a feddyliem ni oedd y *Porcupine*, i'w weled yn fynych yn Wady Mousa, a bod yr Arabiaid yn ei alw *kangfud*, yr hwn sydd yn amlwg yr un peth a'r Hebraeg *kippud*, y gair a ddefnyddir yn Esaiah, er ei fod yn *bittern* yn y cyfieithiad Saesonaeg.'—E.

Digitized by Google

Pa greadur bynag a feddylir wrth אנקה yr oedd yn aflan dan y gyfraith. Mae tri math o ddraenogiaid; sef draenogiaid America, sydd heb glustiau iddynt—draenogiaid Malacca, â chlustiau crogedig—a draenogiaid cyffredin ein gwlad. Darlunio y creadur hwn sydd afreidiol, gan ei fod yn ddigon adnabyddus: mae wedi ei gynnysgaethu âg arfogaeth ddraenogaidd i amddiffyn ei hun heb ymladd, ac i niweidio ei elyn heb ymosod arno. Yn amddifad o nerth a chyflymdra i ddianc, gall amdroi ei hun yn ei belen, a chyfeirio o bob rhan o'i gorph arfogaeth bigog-llym. Y mae ei drwnc, yr hwn a dywallt yn helaeth pan osoder arno gan ofn, mor ffiaidd a drewllyd ei arogl, fel y mae yn peri i'w elyn ffoi oddi wrtho; ond y mae rhai creaduriaid, fel y cadno, yn ei feistroli. Trig a mewn agenau creigiau, cyffion a holltau hen goed, a bol clawdd, yn mhell oddi wrth anneddau dynion. Gorphwys y dydd, ond yn meiddio dyfod allan y nos—ac yn un o gysgaduriaid y gauaf. Ei ymborth yw gwreiddiau, pryfed, ffrwythau, ac ednogynau; a geill fyw yn hir heb ddim ymborth. Cam-gyhuddir ef o suguo gwartheg, yr hyn nis dichon iddo wneuthur, o herwydd bychanrwydd ei safn. Creadur llariaidd amyneddgar ydyw; a threfnwyd arfogaeth iddo cyfatebol i'w fwyneidd-dra. Gellir gweled daioni a doethineb y Creawdwr mawr yn y peth lleiaf o'i weithredoedd.

DRAIG, DREIGIAU, (dra) *Gr.* Δρακων; *Llad.* Draco. Y mae y gair yn cyfateb yn gyffredinol yn yr Hen Destament i'r gair תנין yr hwn a arwydda pysgod, morfilod, neu fôrfeirch mawrion, (Gen. 1. 21. Job 7. 12.) neu seirph mawrion gwenwynllyd. Esa. 13. 22. a 34. 13. Jer. 9. 11.—Yn allegawl, gelwir Satan yn ddraig, oblegid ei allu, a'i greulondeb gwenwynllyd a niweidiol. Dat. 20. 2. Buddugoliaethwyr a gormesdeyrn creulawn, megys breninoedd Assyria, yr Aipht, &c., a gyffelybir i ddreigiau, oblegid eu gallu a'u creulondeb i ddrygu. Esa. 27. 1. a 51. 9. Ezec. 29. 3. Ps. 74. 13.

Wrth y 'ddraig goch fawr,' yn Dat. 12. 3. deallwn ymerodraeth waedlyd Rhufain, yr hon, trwy annogiad a than lywodraeth Satan, a ddifaodd y cenedloedd, ac a erlidiodd yr eglwys Gristionogol yn foreu, ac yn greulon iawn. 'A'r ddraig a safodd ger bron y wraig (sef yr eglwys) yr hon ydoedd yn barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi, pan esgorai hi arno.' Dyma ddarluniad dychrynllyd o greulondeb ymerawdwyr Rhufain, dan lywodraeth Satan, tu ag at yr eglwys Gristionogol a'i meibion; ond cafodd yr eglwys wan, yn ei holl wewyr a'i gofid (adn. 2.) ymwared, a lle i ymguddio gan Dduw. Adn. 4.

'Er i ti ein curo yn nhrigfa dreigiau.' Ps. 44. 19. Trigfa dreigiau, yw lleoedd, sefyllfa, neu amgylchiadau anial, llawn o beryglon, gelynion, ac erlidwyr creulon; yn ddiymgeledd, a phawb am eu dyfetha. Duw yn eu curo yn y cyfryw amgylchiadau, sydd yn dangos y cyfyngder a'r cystuddiau mwyaf: 'etto ni'th angofiasom di, ac ni buom anffyddlawn yn dy gyfammod:' sef cofiasom, carasom, ac a ymlynasom wrthyt, a buom ffyddlawn i'th gyfammod: ie, a da iawn oedd fod ganddynt gyfammod i bwyso arno, ac ymhyfrydu ynddo yn y cyfryw amgylchiadau. Ps. 74. 13, 14. Esa. 27. 1, 4. a 34. 13, 14. Dat. 12. 9. a 13. 2. a 16. 10.

'Ffynon y ddraig,' Neh. 2. 13. Yr oedd y ffynon hon o du y dwyrain i Jerusalem; a dangosir hi hyd heddyw mewn math o ogof dan-ddaearol. Y mae y trigolion yn ei galw Ffynon Mair, ac yn cwbl gredu i Mair Forwyn arferyd ei dwfr iddi ei hun a'i theulu. Gwel Calmet.

DRAIN—EN, (dra) *Heb.* דרדר (*derder*) manwydd pigog, diddefnydd yn gyffredin, ond yn danwydd, ac i wneuthur gwrychoedd a pherthi.—'Drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i ti.' Gen. 3. 18. Sef chwyn niweidiol, yn lle ffrwythau defnyddiol iachus. Drain, yn allegawl, a arwyddant unrhyw beth niweidiol, yn peri gofid a thrallod—megys gofalon y byd hwn—hudoliaeth golud—a chwantau am bethau eraill, y rhai sydd yn tyfu mewn calonau llygredig ansanctaidd: yn peri llawer o flinder a gofid meddwl; ac yn niweidiol iawn; gan eu bod yn tagu y gair, ac yn attal ei rinweddau iachusol yn nghyflwr y pechadur. Mat. 7. 16. a 13. 22. Luc 8. 14. Jer. 4. 3. Heb. 6. 8.

Arwyddant hefyd, dynion gofidus, a gelyniaethol i eglwys Dduw; felly y bu y Canaaneaid, yr Assyriaid, y Sidoniaid, &c., i Israel. Y maent yn peri blinder a gofid mawr dros amser, ond yn fuan y dyfethir hwynt gan dân digofaint Duw. Num. 33. 55. Jos. 23. 13. Esa. 10. 17. a 33. 12. Ezec. 28. 24. Nah. 1. 10. Ps. 18. 12.

'Ffordd y diog sydd fel cae drain,' yn llawn o anhawsderau a blinderau, a'i ddiogi a'i ddiofalwch yn eu cynnyddu, pan y buasai diwydrwydd a gofal yn eu rhagflaenu: 'ond ffordd yr uniawn sydd yn wastad,' ac a godir yn sarn. Diar. 15. 19.

Mae yr Arglwydd yn cauad i fynu ffordd ei bobl â drain, pan yr ymwelo â hwynt â gorthrymderau, a blinderau trymion, pigog, i'w hattal i gael eu ffyrdd eu hunain. Nid ar eu ffordd i ddyfod ato, ond ar eu ffordd i gilio oddi wrtho, y mae yn rhoddi y cae drain. 'Af,' medd Israel, 'ar ol fy nghariadau,' sef ar ol fy eilunod a'm duwiau, y rhai a gymerais yn gariadau yn lle y Duw yr ymgyfammodais âg ef wrth Sinai. 'Am hyny,' am dy bechod ysgeler hwn, 'wele, mi a gauaf i fynu dy ffordd di â drain:' paraf i gystuddiau a blinderau i'th gyfarfod yn mhob man, nes y byddo mor gyfyng arnat, fel y bydd yn dda genyt ddychwelyd at dy wr cyntaf, gan ddywedyd, 'Gwell oedd arnaf fi yna nag yr awr hon.' Hos. 2. 6, 7.

'Megys lili yn mysg y drain, felly y mae fy anwylyd yn mysg y merched.' Can. 2. 2. Mae y geiriau cyffelybiaethol hyn yn dangos rhagoroldeb yr eglwys ar bawb eraill, yn ngolwg Crist: ei chyflwr adfydus, profedigaethus, yn byw yn y byd yn nghanol gorthrymderau, a gelynion pigog fel drain; (Num. 33. 55.) a'i diniweidrwydd hithau, ei thiriondeb, a'i haddfwynder, yn nghanol ei gelynion a'i phrofedigaethau. Mat. 10. 16.

'Coron o ddrain.' Mat. 27. 29. Marc 15. 17. Ioan 19. 2, 5. Ni chlywsom am neb a goronwyd â drain, ond y Person rhyfedd hwn. Wele boen a dirmyg gwedi eu huno a'u gilydd! Gwedi ei goroni fel hyn, hwy a gurasant ei ben ef â chorsen, neu wialen, fel y byddai i'r drain frathu ei ben, a chael eu cyflawn effaith arno. Yn arwain y goron ddrain a'r wisg borphor, y dygodd Pilat ef allan, a'i dangosodd i'r bobl, gan ddywedyd, 'Wele y dyn!' Dyn yn sicr yw, ond ni welwyd erioed y fath olwg ar ddyn o'r blaen! Pa hyd y gwisgodd y goron ddrain, neu pa un a oedd hi ar ei ben ar y groes, ai peidio, nid yw hysbys. Ffrwyth y felldith yw y drain; a Christ, trwy wisgo y goron ddrain, a'i grogi ar bren, &c., 'a'n llwyr-brynodd oddiwrth felldith y ddeddf.' Gal. 3. 13.

'Yn lle drain y cyfyd ffynidwydd.' Esa. 55. 13. Sef yn lle llygredigaethau y cyfyd ffrwythau yr Ysbryd;—yn lle annuwiolion pigog, niweidiol, y cyfyd duwiolion hardd a defnyddiol;—yn lle llywodraethwyr gormesol, anghyfiawn, creulawn, cyfyd swyddogion heddychol, a threthwyr cyfiawn. Esa. 60. 17. Yn lle bugeiliaid diofal, yn pesgi eu hunain, ac yn gorthrymu y praidd, cyfyd bugeiliaid wrth fodd calon Duw, yn porthi y praidd â gwybodaeth ac â deall. Jer. 3. 15. a 23. 4.

DREW—I—IANT—EDIG, (rhew) dryg-sawr, drwg-arogl, dryg-wynt.—'Pa faint mwy ffiaidd a drewedig ydyw dyn, yr hwn sydd yn yfed anwiredd

Digitized by Google

fel dwfr?' Job 15. 16. Y gair נתאב *ffiaidd*, medd Mr. Caryl, a arwydda, peth mor ffiaidd, fel y mae yn wrthodedig gan yr holl synwyrau: yr hyn nis gall y llygaid edrych arno; nis gall y clustiau oddef clywed am dano; na'r ffroenau ei arwynto; na'r dwylaw ei deimlo. Y mae dyn yn ei bechod yn un telpyn o ffieidd-dra. Y gair נאלה a arwydda, *llygriad, pydrni, sorod, ysgarth dyn* neu *anifel*. Y mae pob dull o ymadrodd yn pallu i osod allan ffieidd-dra dyn. Ps. 14. 3. a 53. 3. 'Wele, ni roddes Duw ymddiried yn ei saint; a'r nefoedd nid ydynt lân yn ei olwg ef:' ond y mae dyn mor llygredig, fel y mae yn sychedu am, ac yn ymhyfrydu yn, ei anwiredd. Gan hyny, pa daiondeb bynag a gaffo dyn oddiwrth Dduw, nid yn y dyn ffiaidd hwn y mae yr achos o hono, ond yn y daioni anfeidrol sydd yn Nuw ei hun.

DRINGO, (drinc) esgyn, dyrchafu. Ps. 132. 3. a 139. 8.

DROMEDARIAID, *Gr.* δρομος, *rhedegwr;* math o gammeirch, neu gamelod bychain ydynt, â chrwmp ar eu cefnau, yn gwneuthur math o gyfrwy naturiol i farchogaeth arno. Mae cyflymdra y creaduriaid hyn, a'u parhad efo ychydig gynnaliaeth i deithio hir amser, yn hynod iawn. Teithiant dros gan milltir y dydd am ddyddiau lawer, a phedair awr ar hugain heb sefyll i orphwys, nac i'w porthi, heb ddangos un arwydd o flinder. Y mae rhai yn meddwl mai y dromedariaid a feddylir wrth yr 'anifeiliaid buain,' yn Esa 66. 20. Addaswyd hwynt i deithio trwy anialwch diffaith Arabia ac Affrica; galwant hwynt, Llongau yr anialwch. Teithiant yn ddiflino, gyda buandra anghredadwy, mewn gwledydd poethion, heb ond ychydig gynnaliaeth, sef ychydig does o flawd haidd, a phiolaid o ddwfr neu laeth.*

DROPSI, *Gr.* υδρωψ, *(ydrops)* dyfr-glwyf.—'Haint dwfr.' W.S. 'Ac wele, yr oedd ger ei fron ef ryw ddyn yn glaf o'r dropsi—ac efe a'i cymerodd ato, ac a'i hiachaodd ef, ac a'i gollyngodd ymaith.' Luc 14. 2, 4. Y mae iachâd y dyn hwn, os ystyriwn ansawdd yr afiechyd, yn hynod. Adferwyd ef i'w iechyd, i'w rym, ac i'w iawn faintioli, yn ddioed. Pa fath bynag oedd yr olwg arno yn dyfod, neu yn cael ei ddwyn, at yr Arglwydd Iesu, gollyngodd ef ymaith âg arwyddion o iachâd perffaith arno, o ran ei rym, ei liw, a'i faintioli. Os gofyn neb, Pa fodd y gallai hyn fod? Atebaf, yr hwn a allai iachâu y dropsi yn y fan trwy gyffyrddiad yn unig, a allasai hefyd yn hollol ddiddymu y gormodedd dwfr, yr achos o hono. A fydd dim yn anhawdd i Dduw? Y mae y cwbl o'r hanes byr yn dangos hynawsedd, tiriondeb, ac effeithioldeb Crist yn gweithredu; a sicrwydd goleu, a pherffeithrwydd y wyrth. Yr un yw yr Iesu etto!

DRUD—ANIAETH, (rud) glew, cadarn, calonog, anturiol: uchel-bris, mawr-bris.—'Gair yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Jeremiah o achos y drudaniaeth.' Jer. 14. 1. הבצרות y *sychder*, neu y *gwaharddiadau*, neu yr *attaliadau*, sef o'r cafodydd, a hyny yn peri sychder, a'r sychder yn achos o brinder a drudaniaeth; a phechod yn achos haeddiannol o'r cwbl. Adn. 7, 8. Darlunia y prophwyd effeithiau galarus y sychder hwn ar y ddaear, ar ddynion, ac ar anifeiliaid, mewn pryddiaeth â geiriau cyffrous, effeithiol; ac yn arwain meddwl y darllenydd i ganfod y drwg anferth o bechod, yr achos o'r holl balldod, a'r darfodedigaeth gofidus ar bob peth: 'Aml yw ein cildynrwydd ni; pechasom i'th erbyn.' Adn. 7.

DRUSILA, [*gwlithog*], trydedd ferch Herod Agrippa Fawr, marwolaeth ddychrynllyd pa un y cawn hanes am dano yn Act. xii., a chwaer Agrippa, Bernice, a Mariamne. Act. 25. 23. Addawyd hi yn wraig i Epiphanes mab Antiochus, brenin Comagena, dan yr ammod iddo gymeryd ei enwaedu; ond gwedi iddo wrthod ymostwng i hyny, rhoddwyd hi i Azizus, brenin Emesa yn Syria, yr hwn a gymerodd ei enwaedu i'w chael. Yn fuan hi a ymadawodd â'i gŵr, ac a briododd Ffelix, o'r hwn y cafodd fab a'i enw Agrippa. Yr oedd yn cael ei chyfrif yn un o'r merched harddaf a phrydferthaf yr oes hòno; ond nid mor ddiwair ag hardd. O flaen Ffelix, a'i wraig Drusila, y safodd Paul, ac yr ymresymodd mor hynod am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd, nes y dychrynodd Ffelix. Act. 24. 24, 25.

DRWG—YGAU, (rhwg) *Heb.* רע drygioni, ysgelerder, mall; pechadurus, anwir, diras, echryslon, anfad.—Y gair drwg a arwydda, yn yr ysgrythyrau, 1. Yr hyn sydd ddrwg ynddo ei hun; sef yr hyn sydd yn groes i gyfraith sanctaidd Duw, sef *drwg moesol*, fel y geilw duwinyddion ef. Gen. 8. 21. a 39. 9. Exod. 32. 22. Ioan 3. 19, 20. Heb. 3. 12. Y mae pob peth sydd groes i gyfraith Duw, yn ddrwg ynddo ei hun; yn dianrhydeddu Duw, ei awdurdod, a'i briodoliaethau; mae yn niweidiol i ninnau,—yn llygru y gydwybod, yn aflanhau y meddwl, yn tywyllu y deall, yn caledu y galon, ac yn tynu arnom orthrymderau a gofidiau aneirif. Gan fod y gyfraith yn dda, y mae yn rhaid fod pob peth sydd yn groes iddi yn ddrwg—sef drwg ynddo ei hun—drwg yn mhob ystyr—drwg i bawb, yn enwedig i'r hwn sydd yn euog o hono. Mae y fath ddrwg, fel nad oes dim ond iawn drosto a'i symud byth; ac nid oes dim a ddichon fod yn iawn drosto, ond yr hyn sydd yn rhoddi anrhydedd cyfartal i Dduw, ei gyfraith, ei lywodraeth, a'i briodoliaethau, i'r dianrhydedd a gawsant trwy y drwg hwn o bechod. Iesu Grist y Cyfiawn, yn unig, yw yr iawn hwnw. 1 Ioan 2. 2.——2. Arwydda hefyd yr hyn sydd flin, gofidus, chwerw, ac yn ddrwg i'n teimladau. Gen. 47. 9. a 50. 15, 20. Job 2. 11. Ps. 34. 21. Yn yr ystyr hwn y mae drwg yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd. Amos 3. 6. Preg. 12. 1. Ac mae dyddiau yn ddrwg, sef yn adfydus, ac yn llawn o orthrymderau: ac mae rhyw gam neu sarhad oddiwrth ddynion yn cael ei alw yn ddrwg. Diar. 17. 13. Mat. 5. 39.——3. Y mae Satan yn cael ei alw. *y drwg—ysbryd drwg—yr un drwg.* Ioan 17. 15. Mat. 5. 37. a 6. 13. 1 Ioan 3. 12. Act. 19. 12. Ynddo ef y dechreuodd y drwg, ac o hono mae yn deillio: awdwr pechod yw; y mae yn pechu ei hun o'r dechreuad, ac yn denu dynion i bechu. Dysgir ni i weddïo yn erbyn y drwg yn mhob ystyr, ac yn benaf yn erbyn drwg moesol, yr hwn yw yr achos o'r drygau sydd yn anhyfryd ac yn niweidiol i ni. Mat. 6. 13. 1 Cron. 4. 10.

'O herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuenctid.' Gen. 8. 21. Bryd calon dyn yw ei fwriad, ei amcan, y dychymygiad o'r ffurfiad sydd yn y meddwl—y mae y cwbl yn ddrwg, o'i ieuenctid—sef yn ddechreuol, yn wreiddiol, yn tyfu i fynu yn gyntaf. Oblegid arogl esmwyth, neu beraidd, aberth Noah, fel cysgod o aberth Crist, y mae yr Arglwydd yn cyhoeddi, 'Ni chwanegaf felldithio y ddaear mwy er mwyn dyn, er bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuenctid.' Gen. 8. 21.

'Os bydd dy lygad yn ddrwg, dy holl gorph fydd yn dywyll.' Mat. 6. 23. Os bydd dy lygad yn *aneglur*, yr hwn yw canwyll y corph, y mae yn rhaid i'r holl gorph fod yn dywyll; felly, os bydd ein barn am bethau, a'n hadnabyddiaeth o honynt, o'u natur, eu gwerth a'u defnyddioldeb, yn dywyll, bydd ein holl ymddygiad a'n rhodiad, yn gyfatebol, yn dywyll. Os na bydd ein goleuni a'n barn yn gywir ac yn oleu, nis dichon fod ein syniadau a'n serchiadau yn gywir, na'n rhodiad yn uniawn.

---

* Gwel Morgan's *History of Algiers*, p. 101.—*Appendix to* Calmet's *Dictionary, Fragment* 122.



Digitized by Google

'Drwg-anwydau,' Rhuf. 1. 29. *κακοηθειας*, *moesau drwg*, neu ynte, arwydda y gair, *golygu pob peth yn yr olwg waethaf*, a hyny o dymher ddrwg y meddwl. Gwel Wetstein.

**DRWS, DRYSAU**, (rhws) *Gr.* θυρα *(thyra)* dôr, porth, bwlch, tramwyfa, mynedfa. Oddiwrth hyn mae enwau amryw fynedfaoedd rhwng mynyddoedd, megys Drws-y-coed, Drws-y-nant, Drws-Ardudwy, &c.—Drws tŷ, Marc 1. 33. a 2. 2. a 11. 4.—ystafell, Mat. 6. 6.—carchar, Act. 5. 19, 23.—y deml, Act. 3. 2.—bedd, Mat. 27. 60. a 28. 2.——Bod wrth y drws, yw bod yn agos. Mat. 24. 33. Marc 13. 29. Iago 5. 9. Dat. 3. 20.——'Drws agored,' a arwydda, cyfleusdra rhydd i bregethu yr efengyl, a phob rhwystr gwedi ei symud. Dat. 3. 8. 1 Cor. 16. 9. 2 Cor. 2. 12.——Drws ymadrodd wedi ei agoryd i weinidogion y gair, a arwydda cynnorthwyon oddiwrth yr Ysbryd Glân i bregethu yr efengyl yn oleu ac yn hyf. Col. 4. 3.——Drws y ffydd gwedi ei agoryd i'r Cenedloedd, Act. 14. 27. a arwydda y drws agored y mae yr efengyl yn ei gyhoeddi i'r Cenedloedd i ddyfod at Grist, ac i gredu ynddo er eu hiechydwriaeth, a hwythau yn cael dyfodfa ato, ac at Dduw trwyddo.——Y mae yr Arglwydd Iesu yn galw ei hun 'y drws,' η θυρα.——'Drws y defaid,' Ioan 10. 7, 9. Efe yn ei berson a'i gyfryngdod, yw yr unig ffordd o ddyfodfa at Dduw. Y rhai sydd yn credu ynddo yn unig sydd wir aelodau o'r eglwys ar y ddaear, ac a dderbynir i'r trigfanau nefol. Y mae dyn, fel pechadur, wedi ei gau allan yn gwbl oddiwrth Dduw, ac yn ganlynol, o bob dedwyddwch: nid oes ffordd o gymmod a dyfodfa iddo byth, mewn un gradd, ond Crist yn unig. 'Nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi,' medd Crist. Ioan 14. 6. Dyfod at y Tad, yw dyfod hefyd i'r eglwys yn wirioneddol, a chael hawl i holl freintiau a bendithion y cyfammod tragywyddol yn Nghrist. 'Os â neb i mewn trwof fi, efe a fydd cadwedig; ac efe a â i mewn ac allan (yn ddirwystr, gyd âg eithaf rhyddid a diogelwch) ac a gaiff borfa.' Ioan 10. 9. Bod tu allan i'r drws hwn yw bod yn agored i'r holl beryglon a ddaethant i mewn trwy bechod, a bod yn golledig, ac yn hollol ddiymgeledd, a digysur gwirioneddol. Yn nghanol pob ffurfiau a chyflawniadau crefyddol, y mae pawb nad ydynt yn credu yn Nghrist, ac yn gwneyd defnydd o hono, fel drws at y Tad, heb Dduw, heb obaith, heb fywyd, heb borfa; sef heb wir gysur, a dyddanwch sylweddol. Drws i bechadur yw, ac ni ddichon neb ddyfod trwy y porth cyfyng (ie, êang hefyd) hwn, ond yn y teimlad bywiog o'i bechadurusrwydd a'i golledigaeth. Deut. 28. 6. Heb. 10. 19. Eph. 2. 18.

**DRYCH—AU**, (dry), *Gr.* δερκω, *gweled*; golygiad, edrychiad, trem, dull, agwedd; adlewycheg. Drych ymwisgo; drych meirionig, neu drych dimai, wyneb gwelwlas.

*Drych* i bawb ei gymydog. *Diar.*

Moses a wnaeth noe bres y babell o ddrychau gwragedd, y rhai a ymgasglent yn finteioedd at ddrws pabell y cyfarfod. Exod. 38. 8. a 30. 18. Yr oedd y gwragedd, yn ddiammeu, yn ymgasglu at ddrws y babell i weddïo ac i addoli Duw. Pan yr oedd prinder am bres at waith y babell, dangosasant eu ffyddlondeb a'u zel at wasanaeth yr Arglwydd, trwy ymadael yn barod ac yn ewyllysgar â'u drychau at yr achos, y rhai oeddynt yn gyfleus iddynt, ac o gryn werth ganddynt, diammeu. Barna rhai eu bod yn cadw gwyliadwriaeth yno, fel yr oedd y gwragedd hyny, tebygol, a halogwyd gan feibion Eli. 1 Sam. 2. 22. Yn mhlith yr Iuddewon yr oedd y merched yn aml yn borthorion. Llances oedd ddrysores yn mhalas yr arch-offeiriad; Ioan 18. 17. Mat. 26. 69. 'Yna y dywedodd y llances oedd ddrysores,' &c. Arwydd dda am wirionedd ein gras, a'n ffyddlondeb i'r Arglwydd, yw, pan y byddom yn foddlawn i ymadael â'n cysuron a'n cyfleusderau ein hunain, er ei fwyn ef a'i achos. I hyn y mae cariad Crist yn cymhell y rhai a fywhawyd ganddo: sef, 'fel na byddont byw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.' 2 Cor. 5. 15.

Yn y cynfyd byddai drychau yn cael eu gwneyd o bres caboledig, o arian, alcan, arian a phres yn gymysgedig, &c. Y diweddaf o'r rhai hyn oeddynt yn rhoddi mwyaf gwerth arnynt.* Yr oedd drychau yr hynafiaid yn gyffredinol yn grynion ac yn fychain; ond fel y cynnyddodd dynion mewn cyfoeth a rhysedd, cynnyddodd maintioli a gwerth drychau eu gwragedd. Byddai drychau yn arferedig hefyd mewn amrywiol ddull a modd gan ddaroganwyr, yn eu dewiniaeth a'u daroganau.

Y mae gair yr Arglwydd fel *drych*, yn rhoddi dangosiad cywir, goleu, o ddyn, i'r manylrwydd mwyaf. Y mae hyn yn cadarnhau ei ddwyfoldeb, canys pwy ond Duw, chwiliwr y calonau, a allasai roddi darluniad cywir o galon dyn, i'r manylrwydd eithaf, yn ei holl amcanion, dybenion, dychymygion, twyll, dichellion, a'i hamryw chwantau aflan, a dyfnderoedd ei didduwiaeth! Iago 1. 23, 24.

Y mae yr efengyl yn ddrych cywir, goleu, dysgloer, yn dangos gogoniant yr Arglwydd Iesu yn ei berson, ei waith, ei gariad, a'i ras. Tystiolaeth gywir y gair am dano, sydd yn dangos dirgelwch ei berson, a'r gwaith a wnaeth dros bechaduriaid;—pa fodd y bu fyw, a pha fodd y bu farw;—pa beth yw i Dduw dros bechadur, a pha beth yw i'r pechadur a'i derbynio, yn wyneb ei holl angenion. Dychymygion disail yw pob meddwl am dano, ond sydd yn cael ei roddi i ni trwy dystiolaeth y gair am dano. 'Tystiolaeth Duw am ei Fab,' sy ddrych cywir, perffaith, sicr, a gogoneddus: trwy gredu y dystiolaeth ddwyfol oruchel hon am dano, y mae pechaduriaid yn cael eu goleuo am dano, ac yn cael gwir adnabyddiaeth o hono. Mae edrychiad arno yn y drych hwn, yn dra goruchel a gogoneddus. Nis gall y rhai a'i cawsant lai na'i garu â'r cariad goruchaf, ymddiried ynddo, ymlynu wrtho, ymroddi iddo, ac ufuddhau iddo. Trwy oleuo llygaid eu meddyliau, i edrych ar ei ogoniant yn y drych hwn, y mae yr Ysbryd Glân yn eu newid i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant. 2 Cor. 3. 18. Edr. WYNEB.

'Y drychau hefyd.' Esa. 3. 23.—'*The glasses*,' *Saes.*—'*Transparent garments*,' Dr. Lowth; *gwisgoedd tryloyw.*—*Heb.* הגלינים—τα διαφονη λακωνικα, LXX. Gwisgoedd y gellid gweled trwyddynt, y fath a arferai y Lacedemoniaid. Math o wisgoedd sidanaidd trylow; mein-wê o lîn neu sidan; a wisgid yn unig gan y rhai mwyaf moethus. Gwisgoedd anllad ac anweddus oeddynt: ac am hyny yn annheilwng i roddi ychwaneg o hanes am danynt.

Yr oeddynt hefyd yn crogi drychau wrth eu gyddfau, ac yn dra hoff o honynt. Exod. 38. 8. Mae y drychau hyn yn rhan o wisgiad y merched yn y Levant hyd heddyw: (Shaw's *Travels p.* 241.) a hwyrach mai y drychau hyn a feddylir, yn ol ein cyfieithiad ni. Gwel Lowth *in loc.*

**DRYCHIOLAETH**, (drychawl) lledrith, anelun, gwag-ysbryd. Job 4. 16. Mat. 14. 26. Marc 6. 49.

**DRYGAIR**, (drwg-gair) gair anmharchus, gair gwaradwyddus.—'Gwyn eich byd—pan y dywedant bob drygair yn eich erbyn er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog.' Mat. 5. 11. Pob rhyw ddrwg: nid oes terfyn ar y gwaradwydd â pha un y mae Satan a'i offerynau yn gwaradwyddo Crist, ei achos, a'i bobl; y maent yn dywedyd pob drygair. Y mae y gwynfydedigrwydd yn cael ei briodoli yn unig i'r rhai hyny

* Gwel Pliny, *lib.* xxiii. *cap.* 9.

Digitized by Google

ydd yn cael eu hanmharchu fel hyn er *mwyn* Crist, oblegid eu perthynas â Christ, eu hagosrwydd ato, a'u tebygolrwydd iddo; a'r drwg eiriau hefyd a ddywedir yn eu herbyn, yn gelwyddog, a hwy heb roddi dim achlysur i'r gwrthwynebwr i ddifenwi. Anrhydedd ydyw dyoddef anmharch yn y cyfryw achos. 1 Petr 2. 12. a 3. 9. a 4. 14. Act. 5. 41. a 9. 16. 1 Tim. 5. 14.

**DRYGANIAETH**, (aniaeth) dryganedd, dryganian, dryganwyd.—'Ac o bydd mab drygionus i'w guro, pared y barnwr iddo orwedd, a phared ei guro ger ei fron, yn ol ei ddryganiaeth, dan rifedi.' Deut. 25. 2. Gallai y barnwyr leihau y gwialenodiau yn ol y byddai natur ei fai, a'i nerth yntau i'w dyoddef; ond nis gallent roddi mwy i neb na deugain gwialenod.

**DRYGCHWANT**, (drwg-chwant) trachwant, anfladrwydd. Col. 3. 5.

**DRYGFARN**, (drwg-farn) dedfryd anghyfiawn, dedfryd ofnadwy, ofidus; barnedigaeth drom, ddychrynllyd.—Y pedair drygfarn y mae Duw yn eu bwgwth ar Jerusalem, ydyw y cleddyf, a newyn, a bwystfil niweidiol, a haint. Ezec. 14. 21.

**DRYGFYD**, (drwg-byd) adfyd, cystudd, trallod.—Y mae Duw yn ei anfeidrol diriondeb a'i ddaioni, yn gweled drygfyd ei bobl; ac efe yw eu gobaith yn nydd y drygfyd. Act. 7. 34. Jer. 17. 17. Ps. 94. 13.

**DRYGHIN**, (drwg-hin) hin wlybyrog, dymhestlog. —'A'r bore, Heddyw, dryghin; canys y mae y wybr yn goch ac yn bruddaidd.' Mat. 16. 3.—χειμων, *tempestl*, W. S.—*tymhestl*, (Act. 27. 20.) tywydd gwlybyrog, tymhestlog.

**DRYGIONI**, (dryg-iawn). Edr. DRWG.

**DRYGSAWR**, (drwg-sawr) drewiant, drewdod, archwa. Joel 2. 20.

**DRYGU**. Edr. DRWG.

**DRYLL—IO—IEDIG**, (rhyll) darn, rhan; darnio, dystrywio; dinystrio, dystrywiedig.—'Pa wraig, a chanddi ddeg dryll o arian.' Luc 15. 8. *Gr. deg drachma.* Yr ydoedd pob *drachma* yn werth naw ceiniog. Nid oedd cyfoeth y wraig yn fawr, am hyny yr oedd yn rhoddi mwy o werth ar bob darn oedd ganddi; yn trafferthu llawer i chwilio am dano wedi ei golli, ac yn gorfoleddu yn fawr wedi ei gael. Yn y ddammeg y mae yr Arglwydd Iesu yn cyfiawnhau ei hun am ei fod yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwyta gyda hwynt. Ceisio y colledig yr ydoedd: ac y mae hyn yn achos o gymaint pwys a chanlyniad, fel y mae llawenydd yn ngŵydd angelion Duw am un pechadur a edifarhao. Mae gwerth enaid yn fawr yn ngolwg angelion Duw, ac adferiad un pechadur yn peri llawenydd mawr iddynt. Rhydd y geiriau amlygiad hynod o ogoneddus ar y creaduriaid glân fry; eu sancteiddrwydd, eu hawyddfryd dros ogoniant Duw, a'i anrhydedd yn y byd; a'u cariad tu ag at eneidiau dynion. Ac os oes llawenydd yn ngŵydd angelion Duw, pa faint mwy sydd yn y Duw mawr ei hun? Seph. 3. 17.

'Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef.' Esa. 53. 10. Hysbysa y geiriau, a gosodant allan yn gadarn ac yn ardderchog, hyfrydwch y Duwdod yn nhrefn fawr yr iechydwriaeth. Er fod angeu Crist, yr Oen difeius, yn beth dychrynadwy ynddo ei hun, fel yr oedd dyfnderoedd ei ddyoddefiadau, dwysder a llymder ei arteithiau, a'i loesion yn anamgyffredadwy; etto fel yr oedd ei ddyoddefiadau yn ganol-bwynt ac yn sylfaen yr holl drefn fawr i gyd, yr oedd dyoddefiadau y groes yn arogli yn beraidd iawn. Eph. 5. 2. Y mae y drylliad hwn yn golygu ei holl ddyoddefiadau yn ei gorph a'i enaid. Y gair דכא a arwydda *malurio, sathru, dryllio, gwanhau gan ofidiau*, nes y bydd yr holl nerth yn darfod. Y IEHOVAH a *fynai*, sef dryllodd ef yn ol boddlonrwydd ei ewyllys. Yr oedd i'r Duw mawr anfeidrol foddlonrwydd yn ei ewyllys ei hun, yr hon a arfaethasai ynddo ei hun; yr oedd hefyd yr un boddlonrwydd yn y cyflawniad o'r arfaeth, a phob rhan o honi, ag oedd iddo yn yr arfaeth ei hun. Gan mai canol-bwynt yr arfaeth ydoedd aberth Crist, yn hwnw yr oedd, ac y bydd, ei hyfrydwch penaf. Mae Duw yn ymhyfrydu i'r gradd eithaf mewn sancteiddrwydd, cyfiawnder, a daioni—y mae hyny yn unol â'i natur—yn nyoddefiadau Crist dysgleiriodd y priodoliaethau hyn yn eu gogoniant mwyaf. Mae y dangosiad hwn o honynt yn addas i Dduw edrych arno. Y mae yn ymhyfrydu ynddynt yn y graddau lleiaf o honynt yn ei greaduriaid, pa faint mwy hyfrydwch yn y moroedd mawrion a dorodd allan yno?

'Agos yw yr Arglwydd at y rhai drylliedig o galon. —Calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.—I iachâu y drylliedig o galon.' Ps. 34. 18. a 51. 17. Luc 4. 18. Y mae drylliad calon, a sonir yn y lleoedd hyn am dano, yn rhoddi un olwg ar ansawdd gwir edifeirwch. Y mae y gofid am bechod cymaint fel nas dichon yr enaid sefyll dano; y mae y galon yn cael ei dryllio. Os na ddryllir y galon am dano, ni ddryllir byth mo honi oddi wrtho; ni bydd ar y dyn eisieu meddyg; ni bydd yr efengyl o werth; ac ni bydd ef na'i aberthau yn gymeradwy gan yr Arglwydd. Ond yn y drylliad edifeiriol hwn am bechod, y mae yr Arglwydd yn agos yn ei feddyginiaeth, yn ei gynnaliaeth, yn ei ymgeledd, a'i gysuron.

**DRYSOR—ES**, (drws) *Gr.* θυρωρος; porthor.—'I hwn y mae y drysor yn agoryd.' Ioan 10. 3. Daeth yr Arglwydd Iesu i'w swydd trwy y drws; sef trwy osodiad a threfniad dwyfol. Pan ddaeth gan hyny i weinyddu yn ei swydd, agorodd y drysor iddo; sef cafodd gyflawn ryddid i fyned â'i waith yn mlaen, mewn perthynas i iechydwriaeth ei bobl; ac y mae yr Ysbryd Glân yn agoryd calonau pechaduriaid, trwy bregethiad yr efengyl, i wneuthur derbyniad rhydd a chyflawn o hono; mae y defaid yn gwrandaw ar ei lais, ac maent yn ei ganlyn.

**DU—O**, (tywyll) tywyll-liw, pyg-liw, gwrm; *Heb.* דיו (*dyo*) *inc*, du ysgrifenu. Jer. 36. 18. Y mis du, sef Tachwedd. Pan briodolir duaidd i gyrph, croen wyneb, gwisgoedd, arwydda cyfyngder mawr, tristwch, a galar trwm. Jer. 8. 21. a 14. 2. Joel 2. 6. Mal. 3. 14. yn *Heb.*—Ond pan briodolir duaidd i wallt y pen, arwydda harddwch, goerder, iachusrwydd. Lef. 13. 37. Can. 5. 11.——O herwydd ei llygredigaethau a'i dyoddefiadau, mae yr eglwys yn *ddu;* ond o herwydd ei chyflwr yn Nghrist, ei chyfiawnder, ei gras, ei sancteiddrwydd, ei hordinhadau, a'i threfn, mae, ar yr un amser, yn hawddgar. *Du* ynddi ei hun, ond hawddgar yn Nghrist;—*du* o ran ei sefyllfa isel, orthrymedig, yn y byd, ond hawddgar o ran ei dyrchafiad ysbrydol;—*du* o ran ei pherthynas â'r Adda cyntaf, ond hawddgar o ran ei pherthynas â'r ail Adda; —*du* yn ngolwg y byd, ond hawddgar yn ngolwg yr Arglwydd. 2 Cor. 4. 8, 9, 10. Ps. 149. 4. Esa. 61. 10. Luc 15. 22. Rhuf. 13. 14. 2 Cor. 5. 21. Eph. 5. 26, 27. Dat. 19. 7, 8.

**DUC—IAID**, (ug) tywysog, arglwydd, llywydd, blaenor, penaeth. Arferir y gair *Heb.* אלף yn aml yn Gen. xxxvi. Exod. 15. 15. 1 Cron. 1. 51—54. i arwyddo blaenoriaid, neu benau teuluoedd yn Edom, ac wedi ei gyfieithu, nid yn anaddas, *duciaid*. Cyfieithir yr un gair, *llywodraethwr*, Diar. 2. 17.—*tywysogion*, Diar. 16. 28. a 17. 9. Jer. 3. 4. a 13. 21. Mic. 7. 5. Zech. 12. 5, 6.—*penaeth*, Zech. 9. 7.—*ffordd-wr*, Ps. 55. 13. Wrth gymharu y cyfieithiadau, canfyddir priodol ystyr y gair; sef blaenor, hyfforddwr, cynghorwr, &c.

**DULIO**, (dul) curo, baeddu, maeddu, pwyo.—

Digitized by Google

gelwch, ëangder, manylrwydd, ardderchogrwydd, ac awdurdod ei air, yn amlygu ei ddwyfoldeb, ac yn tystiolaethu mai un mwy nag un creadur a'i llefarodd. Y mae wedi ei wisgo âg ardderchogrwydd, a mawredd dwyfol. Y mae delw Duw arno, a'i fawredd a'i awdurdod ynddo.

II. Y mae yn angenrheidiol anhebgorol, nid yn unig i ni gredu fod Duw, ond hefyd adnabod pa fath un yw y Duw hwn, sydd yn bod. Am hyn y mae y tywyllwch mwyaf yn aros yn meddwl pob dyn dan y cwymp, nes yr agorir ei lygaid, ac y troir ef o'r tywyllwch i'r goleuni. Y mae pob mawredd, pob perffeithrwydd, a'r daioni mwyaf, yn cyd-gyfarfod ynddo.

O dri anghenfod y mae Duw: sef, y mwyaf parth bywyd; y mwyaf parth gwybod; a'r mwyaf parth nerth: ac nis gellir namyn un o'r mwyaf ar un peth. *Barddas.*——Tri banogion Duw: bywyd cyfoll; gwybodaeth cyfoll; a chadernid cyfoll. *Ibid.*——Edr. DA.

Y mae yn ddiddechreu ei hun, ac yn rhoddi dechreuad i bob peth. Y mae yn annibynol ei hun, a phob creadur yn dibynu yn gwbl arno bob mynyd. Y mae pob creadur, o'r mwyaf i'r lleiaf, yn ddyledog iddo am bob peth; sef pob cynneddfau, pob perffeithrwydd, a phob dedwyddwch. Nid oes un perffeithrwydd nad yw ynddo, ac nid oes dim anmherffeithrwydd, mewn un gradd, ynddo. Bôd ysbrydol, pur, diranau, diderfyn, ac anfeidrol yw. Y mae ei holl briodoliaethau yn hanfodol ynddo. Nid rhanau o hono ydynt, ond EFE ydynt. Mae sancteiddrwydd, cyfiawnder, gallu, &c., yn hanfodol ynddo; nis gall fod, heb fod yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn alluog. Fel y dywed yr apostol, 'Duw, cariad yw;' felly hefyd y gellir dywedyd, Duw sancteiddrwydd yw—-Duw cyfiawnder yw—-Duw doethineb yw—Duw gallu yw, &c. Y maent oll ynddo yn ddigymysg, yn ddiranau, yn anfeidrol, ac yn dragywyddol. Hefyd, nid oes dim ynddo yn groes i'r priodoliaethau hyn; ond gallu yw heb ddim gwendid; cyfiawnder yw, heb ddim anghyfiawnder; sancteiddrwydd yw, heb ddim anwiredd; doethineb yw, heb ddim annoethineb; trugaredd yw, heb ddim creulondeb; harddwch cyflawn, heb ddim anharddwch; bywyd, heb ddim ond bywyd, &c. Nid oes dim a weddai fod ynddo, nad yw ynddo; ac nid oes dim ynddo, na weddai fod ynddo.

III. Cynneddfau yw priodoliaethau creaduriaid, ond hanfod ydynt yn Nuw: *ουτεων και αυταρκης, hunan-hanfodol, a hunan-ddigonol.* Y mae angelion a dynion mewn bod, er colli cyfiawnder, sancteiddrwydd, trugarogrwydd, &c., ond nid cynneddfau palledig ydynt yn y Duw mawr, ond hanfod pur, diball, digymysg, a diderfyn. Y mae pob perffeithrwydd yn hanfodol ynddo, yn ddiddibyniad, yn ddichwanegiad, yn ddileihad, ac yn ddiderfyn. Nis dichon fod pall ar un briodoledd ynddo, mwy nag ar Dduw ei hun: ond nis gall fod ynddo gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth. Nid oes dim yn ddeilliedig ynddo; ond y mae yn fywyd, yn oleuni, yn allu, yn sancteiddrwydd, &c., ynddo ac o hono ei hun. Y maent yn gwbl yn ddeilliedig yn mhob creadur, ond y maent yn ffynon wreiddiol yn Nuw. Nis gallwn ddirnad nac amgyffred y pethau hyn; gwybodaeth rhy ryfedd yw i ni! etto y mae yn hyfryd credu, meddwl, a myfyrio, ar y Duw mawr, er nas gallwn ei amgyffred.

IV. Nid oes un briodoledd yn Nuw yn groes i un arall ynddo; ond y mae cysondeb dwyfol ynddynt yn hanfodol ynddo. Y mae ei weithrediadau allanol yn wahanol, ond nid ydyw ei briodoliaethau yn groes i'w gilydd yn y gweithredoedd hyny. Golygiad cyfeiliornus am Dduw yw meddwl hyny. Nid yw yn trugarhau yn anghyfiawn, nac yn cospi yn greulawn; ond y mae cyfiawnder yn ei drugaredd, ac anfeidrol harddwch a phrydferthwch yn ei gyfiawnder. Y mae trefn fawr a sefydliad cyfryngdod Crist, yn dehongli pob dirgelwch yn ngweithrediad allanol y priodoliaethau yn iechydwriaeth pechaduriaid. Y mae Duw yn berffaith sanctaidd wrth garu pechadur, canys yn y Cyfryngwr y mae yn ei garu. Y mae yn gyfiawn wrth faddeu pechodau, canys yn *iawn* y Cyfryngwr y mae yn maddeu. Y mae yn maddeu yn hollol rad, ac yn gwbl gyfiawn hefyd. 1 Ioan 1. 9. Ni buasai raid wrth Gyfryngwr a Mechnïydd pe buasai yn addas i Dduw ddangos trugaredd i bechaduriaid heb olygu gofynion cyfiawnder dwyfol yn yr achos; a'r hyn nid ydyw yn gweddu i Dduw, sydd yn anmhosibl iddo ei wneuthur. Heb. 2. 10. Ni buasai raid wrth farn gyffredinol gyhoeddus, pe buasai yn addas i Dduw gospi yn greulawn, heb olwg ar ogoniant ei gyfiawnder, yn ei weithrediadau—hyd yn nod tu ag at ei holl elynion. Bydd dydd digofaint, hefyd, yn ddydd o ddadguddiad cyfiawn farn Duw. Rhuf. 2. 5. Bydd ei gyfiawnder, y dydd hwnw, yn ei holl farnau, yn amlwg i bawb, ac yn anfeidrol ogoneddus. Gwelir yno, y mae yn wir, *lestri digofaint*, a *llestri trugaredd*; ond ni bydd llestri digofaint yn llestri creulonder, na llestri trugaredd heb eu hachub yn gyfiawn. 'Ei holl ffyrdd ydynt farn: cyfiawn ac uniawn yw EFE.' Deut. 32. 4. Geiriau nodedig a lefarir am yr Arglwydd Iesu yn Marc. 3. 5., 'Iddo edrych arnynt yn ddigllawn, gan *dristâu* am galedrwydd eu calonau hwynt.' Tristâu a arwydda dosturi: wele, ynte, ddigofaint a thosturi tu ag at yr un gwrthddrychau.

V. Y mae holl briodoliaethau Duw, hefyd, yn ogyfuwch. Perffeithder gogoneddus, annherfynol, a thragywyddol y Duwdod ydynt. Nid ydyw mwy a llai, pethau mawrion a bychain, mewn un ystyr yn berthynol i'r Duwdod; ond BOD unigol, diranau, digymysg, a digyfnewid yw. Nid ydyw yn anaddas dywedyd fod y priodoliaethau moesol yn llywodraethu ac yn rheoli y lleill o ran eu gweithrediadau. Nis dichon ei allu weithredu dim yn groes i'w sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, a'i wirionedd. Yn cyfateb i hyn y dywed yr apostol, fod 'yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog:' byddai hyny yn groes i'w briodoliaethau grasol a moesol. Nid ydyw hyn yn terfynu ei allu, ond yn dangos ei fod yn gweithredu yn sanctaidd, ac yn gywir, yn anfeidrol addas iddo ei hun. Gan mai priodoliaethau hanfodol ydynt, y mae yn rhaid eu bod oll yn ogyfuwch.

VI. Y mae yr hanfod dwyfol, a holl briodoliaethau yr hanfod hefyd, yn ogyfuwch ac yn gydradd yn mhob un o'r Personau Dwyfol. Y mae yn yr hanfod dwyfol, yn ol tystiolaeth eglur a diammheuol y gair am dano, DRINDOD O BERSONAU. Edr. TRINDOD. Y mae y Personau yn wahanol, ond y mae yr hanfod dwyfol yr un, a'r holl briodoliaethau dwyfol yr un yn hanfodol yn mhob un o honynt. Un Person sydd i'r TAD —arall i'r MAB—ac arall i'r YSBRYD GLAN; ond Duwdod y TAD, a'r MAB, a'r YSBRYD GLAN, sydd unrhyw, gogoniant gogyfuwch, a mawrhydi gogydtragywyddol. Y mae y TRI PHERSON, yn yr hanfod dwyfol, yn anfesuredig, yn dragywyddol, yn hollalluog, yn hollwybodol, ac yn anfeidrol sanctaidd a chyfiawn. Yr un ydyw y cariad dwyfol, y tosturi, a'r trugarogrwydd, yn y TRI PHERSON. Y mae y MAB mor gyfiawn a'r TAD, a'r TAD yn caru â'r un cariad a'r MAB, a'r un trugarogrwydd yn hanfodol ynddynt; ac felly hefyd yr YSBRYD GLAN. Yr un gwrthddrychau sydd i'w cariad. Arfaeth y TRI PHERSON ydyw yr arfaeth dragywyddol; a gwrthddrychau yr arfaeth ydyw gwrthddrychau cariad tragywyddol y TRI PHERSON. Mae gwahanol swyddau a gweithrediadau yn perthynu iddynt, ond yr un priodoliaethau. *Personau*, nid *priodoliaethau*, yn y DUWDOD ydynt; ac y mae priodoliaethau hanfodol y Duwdod yr un fath yn perthynu i bob un o honynt. Unrhyw yw y TAD—unrhyw yw y MAB—ac unrhyw yw yr YSBRYD GLAN.

Digitized by Google

*rhagori*, ὑπερεπερισσευσεν, yn *gormodi*, ac yn *rhagori yn ddirfawr*. Rhuf. 5. 20. Gan mai Ysbryd Duw sydd yn eu hegluro, mae dwyfoldeb, nid yn unig yn y pethau, ond hefyd yn yr eglurhad o honynt; y maent yn cael eu hegluro i'r meddwl, yn ol y gair, yn eu cysondeb, eu haddasrwydd, eu mawredd, a'u gogoniant; gyda sicrwydd, anwyldeb, ac effeithioldeb mawr. Maent yn ymddangos yn addas i Dduw, ac yn gorchfygu meddwl tywyll a gelyniaethol dyn, i gymmod â hwynt, ac ymostyngiad iddynt.

**DWFR, DYFROEDD,** (dwy) *Gr.* ὑδωρ *(ydôr)* gwy, aw, mèr. Y drydedd o'r pedair elfen gyffredin yw dwfr, ac y mae yn dra angenrheidiol tu ag at gynnaliaeth dyn, a'r rhan amlaf o greaduriaid, a thyfiant llysiau, coedydd, &c. Gan fod yr elfen ddwfr mor angenrheidiol er cynnaliaeth a chysur y rhan fwyaf o greaduriaid, y mae y Creawdwr mawr gwedi trefnu helaethrwydd o hono. Mewn modd rhyfedd iawn, y mae yn cael ei anfon i ddyfrhau y ddaear trwy ffynonau, ffrydiau, ac afonydd mawrion. Y mae y cymylau gwedi eu dylenwi â dwfr, yn cael eu gyru gan wyntoedd uwch ben y ddaear, ac yn ei ddefnynu ef yn wlaw ac yn wlith arni, i'w hireiddio a'i ffrwythloni. Y dwfr sydd yn tarthio o'r moroedd mawrion, ac yn disgyn o'r niwl cymylog ar banau uchaf y ddaear, sydd yn rhoddi dechreuad i ffynonau; o ba rai mae y ffrydiau a'r afonydd mwyaf yn tarddu. Trwy ryw weithrediad rhyfedd o eiddo y Creawdwr, mae y dwfr, er ei fod yn dyfod o'r môr heli, etto yn colli ei halltrwydd, ac yn disgyn ar y ddaear yn groyw, fel y byddo yn addas ac yn hyfryd at wasanaeth dynion, a'r creaduriaid eraill arni. Y mae yn briodol i'r dwfr, fel pob llifnôdd *(fluid)* arall, fod iddo esgyn i'r un uchder ag y disgynodd o hono. Y mae priodolrwydd arall neillduol yn perthyn iddo, i esgyn mewn pibell fechan o wydr, heb bwysau yn ei wthio i fynu: ac a esgyn yn uwch po gulaf y byddo y bibell. Mewn pibell â dau droed iddi, un yn gulach na'r llall, esgyn y dwfr yn uwch yn y troed culaf nag yn y lletaf. I nodi achos y priodolrwydd hwn yn yr elfen ddwfr, sydd yn dyrysu y dynion mwyaf craffus a threiddgar. Nis gellir trwy unrhyw foddion boethi dwfr yn fwy na berw-ias. Y mae absennoldeb gwres i ryw raddau, yn ei galedu yn iâ; ac adferiad gwres yn ei doddi ac yn ei ddychwelyd ef yn llif-nôdd dyfrog drachefn.——Nid yw pwysau y dwfr yn brawf o'i burdeb neu ei anmhurdeb. Y mae ei bwys yn gorphwys ar y gradd o awyr neu o dân a fyddo ynddo; fel o'r achos hyn, nad ydyw yr un dwfr ddwy fynyd yr un bwysau. Pe rhoddech delpyn o iâ gloyw mewn clorian gywrain, nid erys yr un fynyd yn gyd-bwysedd.

Y mae y dyfroedd yn dra llawn o breswylwyr. Ynddynt yn chwareu ceir y morfeirch mawrion, a'r ednogynau lleiaf. Nid oes un dafn o ddwfr heb fod yn llawn o greaduriaid byw. Nid ydyw yr ysgai amryw liwiau sydd ar wyneb y dyfroedd bryntion yr hâf, ond lluoedd nifeiriol o bryfed mân yn magu—fel y gwelir trwy wydrau.

Oddiwrth amrywiaeth ymddangosiad a defnyddioldeb dyfroedd, yr arferir hwynt yn gyffelybiaethol yn yr ysgrythyrau, yn aml iawn, a chyda llawer o amrywiaeth. Oblegid eu helaethrwydd, eu ffrwythlonrwydd, eu rhadlonrwydd, a'u heffeithiau cysurol ac adfywiol i'r sychedig a'r lleeg, a glanhaol i'r budr, a'u hiachusrwydd yn y cyfranogiad o honynt, mae yr iechydwriaeth yn cael ei chyffelybu iddynt; y cyflawnder diderfyn o fendithion sydd yn Nghrist—eu rhadlonrwydd a'u haddasrwydd i buro, i lanhau, i gysuro ac i ffrwythloni y pechadur sydd trwy ddylanwadau yr Ysbryd Glân, yn gyfranog o honynt.

Y mae dyfroedd, yn aml, yn arwyddo athrawiaeth ffrwythlawn, ddyddanus, yr efengyl, yn ei heffeithiau rhagorol ar enaid pechadur, trwy gyd-weithrediad nerthol yr Ysbryd Glân. Ps. 23. 2. Can. 4. 15. Esa. 27. 3. a 35. 6, 7. a 44. 3. a 55. 1. a 66. 12. Ezec. 36. 25. a 47. 1—11. Dat. 22. 17. Amos 5. 24. Edr. Afon, Ffynon, Gwlaw, Gwlith, &c.

Pobloedd, torfeydd, byddinoedd, a lluoedd o erlidwyr, oblegid eu cyffro, eu terfysg, eu trwst, a'u bloedd echryslawn, y galanastra a'r dinystr y maent yn achos o hono, a gyffelybir i ddyfroedd cryflon chwyddedig, yn dystrywio pob peth o'u blaen. Ps. 124. 5. Esa. 8. 7. a 17. 12. Dat. 17. 15.——Y mae digofaint Duw a'i ddychrynfeydd; ofnau, gorthrymderau, ac erlidigaethau, o herwydd yr un achos, yn cael eu cyffelybu i ddyfroedd. Job 27. 20. Ps. 69. 1. Can. 8. 7. Esa. 30. 28, 33.——Fel y mae ffrydiau yn dylifo o ffynonau, felly y cyffelybir plant a hil dynion, i ddyfroedd. Esa. 48. 1. Diar. 5. 16.——Y mae dynion 'fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaear;' pan fyddont feirw, nis gellir eu casglu hwynt i fywyd drachefn, ond yn wyrthiol. 2 Sam. 14. 14.——Y mae Duw yn 'dyfrhau ei winllan bob moment,' trwy gyfraniadau parhaus o gynnaliaeth a chysuron iddi.' Esa. 27. 3.——Y mae gweinidogion yn dyfrhau yr eglwysi, trwy bregethu yn aml wirioneddau ffrwythlawn yr efengyl iddynt, fel y garddwyr yn dyfrhau gwelyau y pêr-lysiau yn amser sychder. 1 Cor. 3. 6, 7, 8.

Y mae dyfroedd yn arwyddo agos bob llif-nôdd, neu wlybwr; megys dagrau, Jer. 9. 1.—gwlaw, Job 22. 11. —cymylau, Ps. 104. 3.—pob peth addas i'w yfed yn ddiod. 1 Sam. 25. 11. Esa. 33. 16.

'Dyma yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, sef Iesu Grist; nid trwy *y dwfr* (εν τω ὑδατι) yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed.' 1 Ioan 5. 6. 'Dyma yr Hwn a ddaeth,' sef Mab Duw, Iesu Grist, yr Iachawdwr gosodedig, trwy drefniad dwyfol. Mab Duw yw o ran ei Berson; Iesu Grist yw o ran ei swydd; o ran ei fod yn Grist, yr eneiniog, y mae yn Iesu, sef yn Iachawdwr; a Mab Duw yw y person a eneiniwyd i'r swydd. Y mae dull ei ddyfodiad a'i amlygiad yn gyhoeddus yn sicrhau dwyfoldeb ei Berson, a gwirionedd ei osodiad yn ei swydd: yn ei fedydd, ac yn ei angeu, a'i adgyfodiad, cafodd dystiolaeth ei fod yn Fab Duw, ac, yn ganlynol, y gwir Fessïah: cafodd ei gysegru i'w swydd yr un fath a'r offeiriaid gynt, trwy ddwfr a gwaed, sef purdeb difrycheulyd ei berson a'i fywyd, a gwerth a digonolrwydd ei aberth; efe a sancteiddiwyd, neu a gysegrwyd, trwy waed y cyfammod. Heb. 10. 29. Daeth yn cyfateb yn gyflawn i'r holl gysgodau, ac i'r holl brophwydoliaethau am dano. Ni chafwyd erioed ac ni cheir neb arall byth yn cyfateb iddynt mor gyflawn. Mewn modd rhyfedd iawn, pan wanwyd ef, 'daeth allan waed a dwfr' o'i ystlys ar y groes, yn arwyddo y bydd iddo, yn ngweinyddiad ei swyddau, wneuthur cymmod dros bechod â'i waed, a sancteiddio pechaduriaid â'i Ysbryd; yn iawn drostynt i Dduw, ac yn eu glanhau hwythau i'w fwynhau. A'r Ysbryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu i'r holl bethau, er mwyn gwneuthur y rhai sydd yn credu yn diogel mewn perthynas i wirionedd yr holl bethau hyn am berson Crist a'i swyddau; oblegid yr Ysbryd sydd wirionedd hanfodol o ran ei Berson, ac yn wir yn ei waith a'i dystiolaeth. Ioan 19. 34, 35. a 5. 32, 36, 39. a 14. 17, 26. a 15 26. Mat. 3. 16, 17. a 17. 5. Esa. 1. 16, 18. Ezec. 36. 25, 27. Tit. 2. 14. a 3. 5. Galar. 3. 13. Rhuf. 5. 9. a 8. 16, 23. Heb. 9. 14. 1 Petr 2. 24.

**DWFR-LESTRI MEINI,** llestri i ddal dwfr i ddefodau puredigaeth a glanhad yr Iuddewon, yn ol cyfraith Moses. Ioan 2. 6. Edr. Ffiolyn.

**DWG, DWYN,** (wg) arweddu, cludo, cymeryd, tynu, dwys-dynu.—'Efe a'i dwg i ben.' Ps. 37. 5. Dwg Duw i ben ei ddyben a'i drefn ei hun, mewn perthynas i'w bobl. Y mae pob peth perthynol iddynt gwedi ei drefnu a than ei olygiad. Y mae wedi trefnu

Digitized by Google

pob peth er ei ogoniant ei hun, ac er daioni a llesâd ei bobl; efe a ddwg hyny i ben yn effeithiol, ac yn y modd a'r amser goreu. Eu dyledswydd a'u braint hwy ydyw treiglo eu ffordd, sef eu hamgylchiadau, eu negeseuau, eu profedigaethau, &c., ar yr Arglwydd, yr hwn sydd yn trefnu ac yn effeithio pob peth yn y modd goreu, 'ac ymddiried ynddo.' Y mae ganddo ryw ddyben neillduol i'w gwblhau er ei ogoniant ei hun, mewn perthynas i'w holl bobl; ac y mae yn eu rhoddi hwynt, bob un o honynt, yn yr amgylchiadau mwyaf addas i ateb y dyben hwnw. Dichon ymddangosiad pethau yn rhagluniaethau Duw, olygu yn dywyll ac yn groes iawn, ond ymddiried ynddo yw eu braint, 'efe a'i dwg i ben.' Ni siomwyd mo hono erioed o'i ddyben, nac yn y moddion a ddewisodd i'w gwblhau.

'Ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.' Ioan 10. 28. a 6. 37. a 17. 11, 12. a 18. 9. Gafael cariad, ffyddlondeb, a gallu dwyfol, ydyw gafael Crist yn ei bobl. Tra byddont yn yr afael hon, nid oes le i ammeu eu cadwedigaeth; ond beth os dygir hwynt oddi yno? Pwy a wna hyny? Medd Crist, Neb. Cais llawer trwy ddeniadau a chyhuddiadau, ond ni lwydda neb. Rhaid i'w gariad oeri, neu ei allu a'i ffyddlondeb ballu, yn gyntaf; ond y mae hyny yn anmhosibl. Y mae yn anmhosibl, gan hyny, eu dwyn allan o'i law. Y gair *αρπασει τις*, a arferir yma, a arwydda, *dwys-dynu gyda brys a ffyrnigrwydd tanllyd*; yn dangos mawr ymdrech y gelyn i'w tynu o'i law, ond ni lwyddodd, ac ni lwydda byth.

'Wedi iddo ddwyn (neu *yn dwyn*) meibion lawer i ogoniant.' Heb. 2. 10. Mae y gair dwyn, yn y fan yma, yn arwyddo holl drefniadau a gweithrediadau gras pen-arglwyddiaethol, cariad a doethineb dwyfol, yn y gorchwyl mawr hwn o ddwyn meibion lawer i ogoniant: yn gyntaf, yn eu gwneuthur hwy yn feibion, ac wedi hyny yn eu dwyn, nid i Ganaan, ond i ogoniant. Yr oedd yn rhaid symud yr holl rwystrau oedd ar eu ffordd; a chwedi hyny, eu dwyn bob un yn bersonol, o holl ddyfnderoedd pechod, llygredigaeth, a melldith, i ogoniant yn gyflawn. Yr oedd y rhwystrau yn fawrion, sef gofynion cyflawnder dwyfol, a melldith y ddeddf; a holl alluoedd y tywyllwch, a llygredigaethau eu calonau eu hunain; gorthrymderau y byd, a nerth angeu. Pwy fuasai yn cynnwys y fath amcan o ddirfawr bwys, ond Duw? I'r dyben i gwblhau yr amcan grasol hwn, sefydlodd ei Fab ei hun yn dywysog eu hiechydwriaeth; ac efe a'i perffeithiodd, neu a'i cysegrodd, i'r swydd, a'r gwaith mawr, trwy ddyoddefiadau. Y mae yr holl waith i'w dwyn i ogoniant, yn gwbl yn gorphwys ar y tywysog hwn, ac mae yn hollol addas i'r gwaith, ac a'i cwblha yn ogoneddus. Esa. 3. 6, 7. a 53. 10. Rhuf. 3. 25, 26. a 8. 14, 15. a 11. 36. 1 Cor. 8. 6. Heb. 7. 28. a 12. 2. Eph. 1. 5, 14, 18. a 2. 6, 18.

DWRDIO, (dwrd) sènu, dondio, sordio, ceryddu. Barn. 8. 1. Neh. 5. 7. a 13. 11, 17.

DWRN, (gwrn) y llaw, y llaw yn gauad. Esa. 40. 12.—'Taro â dwrn anwiredd;' sef yn greulawn, yn waedlyd, yn anghyfiawn. Esa. 58. 4.

DWTHWN, (dy-twn) diwrnod, cyswllt, pryd, amser, tymhor. Jos. 4. 14. Luc 13. 31. a 23. 12.

DWYFLWYDD—YNEDD, (dwy-blwydd). Edr. BLWYDDYN.

DWYFRON—AU, (dwy-bron) parwyden, mynwes, didenau.—Dwyfron yr eglwys, a arwyddant, ei harddwch a'i ffrwythlonrwydd, a'r fagwriaeth iachus, gyflawn, a charedigol, a rydd i'w holl wir aelodau, trwy addewidion ac athrawiaethau magwriaethol yr efengyl, yn ngweinidogaeth y gair a'r ordinhadau dwyfol. Y maent yn debyg i 'ddau lwdn iwrch o efelliaid, yn pori yn mysg y lili,' o ran eu harddwch, eu gweddeidddra, a'u hiachusrwydd. Y mae gwefusau Crist, hyny yw, ei eiriau grasol, a'i wirioneddau hardd, yn cael eu cyffelybu i 'lili yn dyferu myrr dyferol.' Can. 4. 5, 11. a 5. 13. Felly y mae bronau yr eglwys gwedi eu llenwi, nid â dychymygion dynion, a heresiau cyfeiliornus, ond â gwirioneddau dwyfol. Ezec. 16. 7. Esa. 66. 11. 1 Petr 2. 2. Jer. 31. 14.——'Ei dwyfron a'i breichiau o arian.' Dan. 2. 32. Wrth ddwyfron delw Nebuchodonosor, deallwn ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid, yr hon a gyfododd ar ol ymerodraeth Babilon, ag oedd is na hi. Adn. 29. Edr. ARTH.——'Curo y ddwyfron,' a arwydda cystudd, a thristwch mawr. Nah. 2. 7. Luc 18. 13. a 23. 48. ——'Tynu ymaith bronau,' a arwydda ing, a gorphwyllder anobeithiol. Ezec. 23. 34.

DWYFRONEG, y ddwyfroneg barnedigaeth, oedd ddarn o wisgoedd sanctaidd yr arch-offeiriad dan y gyfraith. Yr oedd wedi ei gwneuthur o'r un defnydd godidog a'r ephod, ac oddeutu deg modfedd ysgwâr o faintioli. 'Pedair-ongl fydd hi yn ddau-ddyblyg; yn rhychwant ei hŷd, ac yn rhychwant ei lled.' Exod. 26. 16. Yr oedd arni ddeuddeg o feini gwerthfawr, gwedi eu gosod mewn boglynau aur, yn eu lleoedd. Yr oedd y meini gwedi eu gosod yn bedair rhes, tri maen yn mhob rhes, ac enwau meibion Israel wedi eu naddu ar y deuddeg maen, o naddiadau sêl. (Edr. enwau pob un o'r meini.) Yr oedd dwy fodrwy o aur ar gyrau y ddwyfroneg, a dwy gadwyn blethedig trwy y ddwy fodrwy, y rhai oeddynt i fod yn nglŷn wrth ddau foglyn ar ysgwyddau yr ephod. Yr oedd dwy fodrwy aur ar ddau pen y ddwyfroneg, ar ymyl sydd ar ystlys yr ephod o'r tu mewn; yr oedd dwy fodrwy aur hefyd ar ystlys yr ephod oddi tanodd tua ei thu blaen, ac yr oedd y ddwyfroneg i gael ei rhwymo wrth fodrwyau yr ephod, â llinyn o sidan glas. Yn nwyfroneg y farnedigaeth, yr oedd Aaron i ddwyn enwau meibion Israel ar ei galon, pan âi i mewn i'r cysegr, yn goffadwriaeth ger bron yr Arglwydd yn wastadol. Yr oedd y ddwyfroneg, a'r meini, ac enwau y deuddeg llwyth arnynt, diammeu, yn cysgodi ac yn arwyddo gosodiad yr eglwys, a'i holl wir aelodau, mewn cyflwr ardderchog a gogoneddus yn Nghrist, a'i waith yn eu cyflwyno yn barhaus ger bron Duw, yn ei eiriolaeth drostynt fry yn y nefoedd. Maent oll gwedi eu rhoddi iddo mewn arfaeth dragywyddol, a chwedi eu gosod yn y cyfammod tragywyddol, megys sêl ar ei galon ac ar ei fraich. Can. 8. 6. Gelwid hi 'dwyfroneg y farnedigaeth,' am fod yr Urim a'r Thummim arni, â pha rai yr oedd Aaron i ymofyn â'r Arglwydd dros feibion Israel, mewn achosion o bwys ac anhawsdra. Exod. xxviii, xxxix. Edr. URIM a THUMMIM.

Yr oedd dwyfroneg hefyd yn rhan o arfogaeth i amddiffyn y galon, a'r rhanau hyny o'r corph anhebgor i fywyd pob dyn. 1 Sam. 17. 4. 1 Bren. 22. 34.—'A gwisgo dwyfroneg cyfiawnder.' Eph. 6. 14. Heb benodi, yn sicr, dan ba olygiad mae y gair 'cyfiawnder' i'w gymeryd yn y lle hwn, gallwn benderfynu yn gadarn fod cyfiawnder, yn mhob ystyr o hono, yn gyfrifol, yn gyfranogol, ac yn ymarferol, yn amddiffynfa gadarn i fywyd pawb sydd yn ei feddiannu; ac nas dichon un dyn fod yn ddiogel, heb gyfiawnder yn wisg am dano. Cyfiawnder dwyfol yr efengyl yn wisg am y pechadur trwy gyfrifiad, a thrwy ffydd ynddo, sydd yn amddiffyn pechadur rhag melldith y gyfraith, a digofaint dwyfol. Yn mhob achos egwyddorol ac ymarferiadol, mae y Duw cyfiawn o blaid cyfiawnder, yn mhob ystyr. Os ydyw y person yn gyfiawn, mae yn gwbl ddiogel; os bydd yr achos yn gyfiawn, y mae yr achos hwnw yn sicr o lwyddo. Y mae ffydd a chariad yn ddwyfroneg o ran eu gwrthddrych, y defnydd maent yn ei wneyd o hono, a'r llwybrau grasol y maent yn eu cerdded. 1 Thes. 5. 8.

Digitized by Google

'A'r dwyfronegau.' Esa. 3. 20.—*'And the tablets.' Saes.* *'And the perfumed boxes:'* sef y gorflychau pêr-arogl; Lowth, ar ol Jerome. בתי נפש *olfactoria,* llestri bychain, neu flychau i'w harogli; blychau pêr-arogl. Y maent etto mewn arferiad gan y pendefigesau yn Persia. Wrth wddf-gadwyni pa rai, y rhai ydynt yn crogi islaw eu bronau, y mae blwch mawr o bêr-aroglau wedi ei gydio; rhai o'r blychau ydynt gymaint a llaw dyn; y rhai cyffredin ydynt o aur; ac eraill wedi eu gorchuddio â thlysau a gemau: y maent oll wedi eu tyllu trwyddynt; y maent wedi eu llenwi â glud (*paste*) du, yn dra ysgafn, wedi ei wneuthur o *musk* ac *amber*, ond o arogl cryf. Gwel *Complete System of Geography.*

DWYRAIN, (dwyr, dwyre) *Heb.* אור (*aor*) *goleuni. Llad.* ORIENS, *ab* ORIRI, *cyfodi.* Edr. DEHAU.—Wrth y dwyrain, y mae i ni ddeall, yn aml, y gwledydd hyny y rhai oeddynt o du y dwyrain i wlad Canaan; megys Arabia Ddiffaeth, gwlad y Moabiaid, y Midianiaid, a'r Ammoniaid; (Barn. 6. 3. Job. 1. 3.) ïe, hefyd Assyria, Mesopotamia, Babilonia, a Chaldea, y rhai oeddynt yn y dwyrain-ogledd, neu yn y gogledd, i wlad Judea. Dywedir am Balaam, Cyrus, a'r Doethion, neu y Magiaid, iddynt ddyfod o'r dwyrain. Num. 23. 7. Esa. 46. 11. Mat. 2. 1.——Yr Assyriaid a'r Caldeaid a gyffelybir i wynt y dwyrain, Hos. 12. 1. Jer. 18. 17.——'A bu, a hwy yn ymdaith o'r dwyrain,' Gen. 11. 2. neu מקדם *tu a'r dwyrain*, fel yn Gen. 13. 11. Mae rhai yn meddwl fod y gair קדם yn arwyddo rhyw wlad neu dalaeth yn neillduol; mae talaeth Bahkter yn bresennol yn arwyddo y dwyrain; a Bactria, neu Bactriana, oedd y dalaeth fwyaf ddwyreiniol o ymerodraeth Persia. Mae anhawsdra yn ymddangos i ddehonglwyr yn nghylch priodol ystyr y geiriau hyn, oblegid bod mynydd Ararat yn Armenia, ar ba un y bernir i'r arch orphwys, yn gorwedd i'r gogledd o Sinar. Ond gallasai Noah yn hawdd, gwedi ei ddyfodiad o'r arch, sefydlu o du y dwyrain i Sinar, er fod yr arch gwedi gorphwys o du y gogledd. O ba le bynag y daethant, yn Sinar y darfu iddynt drigo, ac adeiladu dinas a thŵr. Edr. ARARAT, BABEL, EUPHRATES, GWYNT, HIDECEL.

DWYS—ACH—EDIG, (gwysg) dywasg, pwysfawr, trwm.—'Mesur da dwysedig;' neu πεπιεσμενον, *dywasgedig.* Luc 6. 38.——'Gan ddwys ocheneidio yn ei ysbryd;' neu αναστεναζω, *ocheneidio yn drwm, ocheneidio yn ddwfn.* Marc 8. 12. Ystyriaeth o bechadurusrwydd a thrueni y genedl, a effeithiodd mor drwm ar ei ysbryd tyner, grasol, a sanctaidd, nes parodd iddo fel hyn ocheneidio yn ddwys; yn dangos ynddo y tosturi, y purdeb, a'r graslonrwydd mwyaf.

'Golch fi yn llwyr ddwys oddiwrth fy anwiredd.' Ps. 51. 2. *Heb.* הרבה כבסני—*golch fi yn aml—golch fi lawer.* Y mae y Psalmydd yn cydnabod fod angen llawer o olchi arno, oblegid aflaned oedd; ac yn ymbil am i'r Arglwydd ei olchi, a hyny yn drwyadl. Y mae y geiriau yn cyfeirio at y golchiadau dan y gyfraith gynt. Lef. 11. 25, 32. Exod. 19. 10. 1 Ioan 1. 7. Dat. 7. 14.

'A ddwys-bigwyd yn eu calon.' Act. 2. 37. Pigwyd hwynt mor ddwys, mor drwm a gofidus, nes y parodd iddynt alar, gofid, a chystudd calon. Cyrhaeddodd pigiad y cleddyf dau-finiog trwodd, 'hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mer.' Heb. 4. 12.

DYBEN—U, (dy-ben) diweddiad, gorpheniad, terfyniad; amcan, bwriad, meddwl.—'Y mae dyben i'r pethau am danaf fi.' Luc 22. 37. Hyny yw, y mae cyflawniad buan i bob peth perthynol i mi, ac a ysgrifenwyd gan y prophwydi am danaf. Y pethau oedd i'w cyflawni ganddo yn ei gyflwr o ddarostyngiad, angenrheidiol hanfodol er iechydwriaeth ei bobl.——'Nes dybenu goleuni a thywyllwch.' Job 26. 10. *Heb. Hyd ddiweddiad goleuni gyda thywyllwch.*

'I ddybenu camwedd.' Dan. 9. 24. *Heb.* כלא הפשע *attal camwedd.* Hyn yw priodol ystyr y gair כלא yr hwn a gyfieithir *attal*, Ps. 40. 11. a 119. 101. Exod. 36. 6.—*gwarchae*, Ps. 88. 8.—*gwahardd*, Hag. 1. 10. Num. 11. 28.—*lluddio*, 1 Sam. 25. 33. Gen. 8. 2. Y mae anwiredd yn cael ei gyffelybu, naill ai i lifeiriant wedi dylifo a thaenu dros wyneb yr holl ddaear, a gwaith y Messïah oedd rhoddi attalfa arno, trwy ei ddileu a'i sychu i fynu; neu, ynte, i fwystfil gwyllt, rheibus, a holl blant dynion yn cael eu dyfetha yn ofnadwy ganddo; hwn a gondemniodd ac a ddinystriodd Mab Duw yn y cnawd. Y mae ein cyfieithwyr dysgedig ni yn golygu y gair כלא o'r un ystyr a'r gair כלה yr hwn a arwydda *dybenu*, neu *difa*, fel y cyfieithir ef gan y Dr. M. Ond nid oes sail ddigonol am gyd-darawiad y ddau air; ac nid ydyw y gair כלא yn un man yr arferir ef yn arwyddo *dybenu.* Gwel y Dr. Owen ar yr Hebreaid, *Exer.* xiv.

DYBLWCH, DYBLYG, *Heb.* כפל *Saes.* DOUBLE: plyg, plygiad; dau-ddyblyg, dau cymaint, &c. Gen. 4. 15. 2 Sam. 12. 6. Dat. 18. 6.—'Dyblwch iddi y ddau cymaint yn ol ei gweithredoedd:' llenwch iddi yn ddau-ddyblyg; hyny yw, yn helaeth iawn, ond nid mwy nag yr haeddodd. Y mae y geiriau yn dangos toster a llymder barnedigaethau Duw, a'i ddigofaint arni. Y mae dau-ddyblyg yn arwyddo mesur helaeth; yn ddau-ddyblyg mewn cymhariaeth i eraill; am fod ei gweithredoedd hi yn haeddu y llanw dau-ddyblyg, yn fwy erchyll, ofnadwy, a chreulawn, na gweithredoedd neb arall. Cosp dau-ddyblyg, ond nid mwy na chymhwys a chyfiawn. 'O herwydd derbyniodd o law yr Arglwydd yn ddau-ddyblyg am ei holl bechodau;' sef yn helaeth, ac yn fwy na'r cenedloedd eraill am yr un pechodau; am fod pechodau Jerusalem yn fwy anesgusodol, yn erbyn mwy o oleuni, helaethach breintiau, ac amlach trugareddau. Jer. 16. 18. a 17. 18. Luc 12. 47. Neu, gellir deall y geiriau, gyda Lowth a Vitringa, am fendithion dau-ddyblyg, sef helaeth, cyflawn, tragywyddol, yn rhagori yn ddau cymaint ar ei cheryddon am ei phechodau. Mae yr Arglwydd am ddyblu ei chysuron, a'i chyflawni â bendithion i'r helaethrwydd mwyaf. Esa. 40. 2. a 61. 7. Y mae holl fendithion yr iechydwriaeth yn gysylltiedig â'u gilydd. Mae y rhai sydd yn Nghrist Iesu gwedi eu bendithio â phob bendith ysbrydol. Eph. 1. 3.

DYBRYD, (dybr) prudd, anhylon, gwrthun, erchyll.—Cyflafan ddybryd, gweithred erchyll.

Tithau, O Arglwydd, pa ryw hyd,
Rhoi arnaf *ddybryd* brudd-der?
*E. Prys*, (Ps. 6. 3.)

Egorai'r ddaear yn y man,
A llyncai Dathan *ddybryd.*
*E. Prys*, (Ps. 106. 17.)

DYCHAN—U, (dych) gogan; sèn; goganu, enllibio.—'Gan ych dychanu chwi.' 1 Petr 4. 4. W. S.

DYCHLAM—U, (dych-llam) cynhyrfu, ysponcio, curiad y galon. Job 37. 1.

DYCHRYN—U—IADAU—FAAU, (cryn) cryndod, echryn, ofn mawr, braw, arswyd.—'A bu dychryn Duw:' (1 Sam. 14. 15.) sef dychryn mawr iawn; dychryn gwyrthiol a ddododd Duw ar yr holl wersyll, fel nad oeddynt yn gallu meddiannu eu hunain, nac ystyried beth i'w wneuthur. Mor hollol mae ysbrydoedd y milwyr mwyaf gwrol a chadarn dan awdurdod Duw!——'Yr oedd dychryn yr Arglwydd arnynt hwy;' sef ofn yr Arglwydd, neu ddychryn oddiwrth yr Arglwydd. 2 Cron. 14. 14.——'Hyny a'i harwain ef at frenin dychryniadau:' (Job 18. 14.) sef dychryniadau cryfion, cedyrn, yn gorchfygu ac yn darostwng, fel brenin; y penaeth, neu y mwyaf o'r holl ddychryniadau. Wrth



Digitized by Google

olygu cysylltiad y geiriau hyn, gellir barnu mai angeu ydyw y brenin dychrynllyd hwn. Y mae angeu yn benaf o'r pethau dychrynllyd ag sydd yn cyfarfod dynion, fel y mae yn ddialedd cospedigaethau am bechod; ac y mae yn ei ragflaenu, yn aml, afiechyd, poenau gofidus, a loesion dychrynllyd :—y mae ynddo ei hun, fel gormeiliwr dychrynllyd, yn gorthrymu ac yn darostwng natur dano, ac yn ei dattod oddiwrth ei gilydd, a'r holl gylymau hyfryd rhwng dyn a phob peth dymunol yn y byd; yn benaf, y mae yr enw hwn yn addas iddo, oblegid y canlyniadau dychrynllyd o hono i bechadur, fel y cyfryw, mewn byd arall. I'r rhai sydd yn marw yn Nghrist, y mae gwynfydedigrwydd yn lle dychryn ynddo. Dat. 14. 13. Ioan 11. 26. Job 24. 17. a 4. 14. Ps. 55. 4. Diar. 14. 32. 1 Cor. 15. 55, 56. Heb. 2. 15.

'Ymlawenhewch mewn dychryn.' Ps. 2. 11. Mae yn ddyledswydd arnom wasanaethu yr Arglwydd, ac ymlawenhau ynddo; ond oblegid ein gwaeledd a'n pechadurusrwydd, ac o herwydd ei burdeb, ei fawredd, a'i ardderchogrwydd yntau, mae yn addas i ni ei wasanaethu mewn ofn ac arswyd duwiol, ac ymlawenhau ynddo 'gyda gwylder a pharchedig ofn.' Heb. 12. 28, 29. Ps. 82. 1—8. a 89. 7. a 95. 1—8. a 97. 1. a 99. 1. a 119. 120. Phil. 2. 12. Heb. 4. 1, 2.

'Heb ofni dim dychryn.' 1 Petr 3. 6. Yn gwneyd yn dda, heb ofni y canlyniadau o hyny, na phrofedigaethau, nac erlidigaethau. Mae yn addas i ni ofni digio Duw trwy weithredoedd drwg; ond mae yn gweddu i ni wneuthur yn dda, heb ofni dim dychryn; ond rhoddi ein cyfan ymddiried yn yr Arglwydd, ac yn ei amddiffynfa. Diar. 1. 5. Luc 21. 9.

DYCHWEL—ION—YD, (chwel) adweddu; troi yn ol; ymchwelyd; dattroi, ymdroi.—Mae dyn trwy bechod gwedi ymadael â Duw; y mae ei gefn arno, a'i wyneb at y byd, a'r cnawd, ei elw, ei anrhydedd, a'i fwyniant ei hun. Y mae ffordd gwedi ei hagoryd yn y Cyfryngwr, i bechadur ddychwelyd at yr Arglwydd; yn yr efengyl mae yr Arglwydd yn taer alw arno, gan ddywedyd, 'Trowch eich wynebau ataf fi, holl gŷrau y ddaear, fel y'ch achuber.' Esa. 45. 22. Mae y galwad grasol hwn yn cael ei effeithioli gan yr Ysbryd Glân ar galonau pechaduriaid, i ufuddhau i'r alwedigaeth nefol, a dychwelyd at yr Arglwydd. Mewn gwir ddychweliad, y mae yn gynnwysedig, 1. Ymostyngiad a galar duwiol am ei ymadawiad â'r Arglwydd.—2. Cydnabyddiaeth o'i hollol annheilyngdod o dderbyniad yn ol drachefn.—3. Ymroddiad ewyllysgar, hiraethlawn, am gymmod a derbyniad gyda Duw.—4. Cymmod â'r ffordd, yn mha un yn unig y mae Duw yn derbyn pechadur, sef yn nghyfryngdod Crist.—5. Dyfodiad oddiwrth bob peth arall yn gwbl at Dduw, fel ei ran, ei etifeddiaeth, ei Dduw, ei Arglwydd, a'i Frenin, byth. —6. Dychweliad at ei orchymynion a'i ffyrdd, ei bobl, a'i waith, gyd âg ymroddiad i fyw mwyach i'r hwn a fu farw drosto, ac a gyfodwyd. Y mae y dychweledig yn greadur newydd. Ps. 51. 13. Diar. 1. 23. Esa. 49. 5. Jer. 3. 1. a 4. 18. Zec. 1. 3. Mat. 18. 3. Act. 3. 19. Luc 15. 18. Hos. 14. 1.——Gwaith Duw, trwy yr efengyl, yw dychwelyd pechadur. Jer. 17. 14. a 31. 18. Galar. 5. 21. 2 Tim. 2. 25. Etto, y mae yr Arglwydd yn gweithredu arno ef yn y cyfryw fodd effeithiol ac addas i'w natur, ar ei holl gynneddfau, fel mae yn dychwelyd yn wybodus, yn y goleu, yn ewyllysgar, ac â'i holl galon. Ps. 110. 3. Act. 26. 18. Hos. 2. 7. Joel 2. 12. Dychweliad ydyw o egwyddor sanctaidd, a chyfnewidiad syniad y meddwl. Oddiwrth olwg oleu ar bechod, o ran y drwg, y ffieidd-dra, a'r perygl o hono; yn nghyd â golwg ar yr Arglwydd, yn ei fawredd, ei sancteiddrwydd, ei daioni, a'i raslonrwydd yn Nghrist, mae y pechadur yn cael ei ennill yn ol yn wirioneddol, ac yn drwyadl. Dychweliad ydyw ar sail y cyfammod gras, ac y mae gafael cadarn y cyfammod ynddo ef, ac ymgeledd y cyfammod yn cael ei weini iddo, yn helaeth ac yn barhaol. ——Y mae yr Arglwydd yn dychwelyd at ei bobl, pan yn ei raslonrwydd, y mae yn maddeu eu pechodau—yn darostwng eu hanwireddau—yn eu gwared o ddwylaw eu gelynion—ac yn eu dyddanu hwynt trwy lewyrchu ei wyneb arnynt. Mic. 7. 14. Num. 10. 36. Esa. 63. 17. Ps. 60. 1.

DYCHYMYG—ION—U, (cymyg) dammeg, dadl orchestol, caffaeliad; tyb, amgyffred, darfelyddiad. Barn. 14. 12. 1 Cron. 28. 9. 2 Cron. 2. 14. Ezec. 17. 2. Y gair, yn aml, a arwydda, gweithrediadau y meddwl ynddo ei hun, o'i fywiogrwydd, ei esmwythder, a'i gynhwrf ynddo ei hun, yn ddisail, yn ddiröl, ac yn aflywodraethus. Ps. 38. 12. a 106. 29. Diar. 16. 9. Nah. 1. 9. Fel mae calon dyn dan y cwymp yn llygredig, felly mae yn llawn o ddychymygiou drwg. Ps. 106. 29, 39. a 28 4. a 36. 4. a 38. 12. a 52. 2. Preg. 7. 29.—'Gan fwrw dychymygion i lawr.' 2 Cor. 10. 5. *Gr.* λογισμους καθαιρουντες. 'Yn bwrw i lawr,' neu 'yn tynu ymaith, darbwylliadau, ymresymiadau.' Y mae calon dywyll dyn yn llawn o ymresymiadau dychymygol, disail, i gyd yn ymddyrchafu yn erbyn gwybodaeth Duw; yn ei wneuthur yn anufudd ac yn gyndyn. Nid oes dim parodrwydd ynddo i dderbyn yr efengyl, ond yn hollol i'r gwrthwyneb; y mae ei resymau a'i ddychymygion yn ymgodi yn ei herbyn. Y mae yr Ysbryd Glân yn nerthol weithredu trwy yr efengyl, i fwrw yr holl bethau tywyll dychymygol hyn i lawr, ac yn hyfryd yn caethiwo y meddwl i ufudddod Crist. Buddugoliaeth hyfryd ydyw hon ar galon pechadur llygredig, sydd yn dwyn gwaredigaeth ryfeddol iddo, o'r caethiwed gwaethaf, a mwyaf truenus. Dyn sydd yn ben ac yn arglwydd arno ei hun, nes y byddo gwedi darfod â'i ddychymygion, ac yn cymeryd tystiolaeth Duw am bob peth, yn foddlonrwydd digonol iddo i ymorphwys arni, ac yn rheol iddo weithredu wrthi.

DYDDAN—WCH—YDD, (dân) cysur, hyfrydwch, difyrwch; cysurwr, dyddanwr.—Y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei alw, o Παρακλητος, *y Dyddanydd—Dyddanydd arall:* y mae Crist yn Ddyddanydd, ac y mae yr Ysbryd Glân yn Ddyddanydd arall. Y mae yr un enw, Παρακλητος, yn cael ei briodoli i'r Arglwydd Iesu, ac yn cael ei gyfieithu *Eiriolwr*, yn 1 Ioan 2. 1. Mae y gair yn arwyddo *amddiffynwr un mewn llys yn ei absennoldeb*; hefyd, *addysgwr, rhybuddiwr, arweinydd, dyddanydd.* Yn yr ystyr flaenaf y priodolir y gair i'r Arglwydd Iesu yn ngweinyddiad ei swydd offeiriadol yn awr yn y nefoedd dros ei bobl. Edr. EIRIOLWR. Yn y golygiadau diweddaf y mae yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glân, yn ngweinyddiad ei swydd yntau tu ag atynt yma yn y byd. Y mae yn 'dwyn ar gôf iddynt,' ac yn eu 'tywys i bob gwirionedd,' a thrwy hyny yn eu dyddanu yn effeithiol.* Ioan 14. 16. a 15. 26. a 16. 7. Fel y mae dyn yn greadur euog, llygredig, mae yn ganlynol yn anghysurus ac yn druenus; ac nid oes neb o blant dynion yn meddiannu gwir ddyddanwch, ond a ddyddenir gan yr Ysbryd Glân. Llawer o ymgeisiadau sy gan ddynion am ddifyrwch a dyddanwch, yn eu cyflwr pechadurus; ond fel y maent ynddynt eu hunain, yn hollol lygredig, nid oes dim ond pethau llygredig yn eu dyddanu; pa rai yn y diwedd sydd yn chwanegu at eu gofid a'u trueni. Mwyniant pechod sydd yn rhoddi ond dyddanwch tra byr, a brau, ac yn sicr o ddiweddu mewn tristwch tragywyddol.

1. Mae yr Ysbryd Glân yn Ddyddanydd, o drefniad dwyfol, yn y cyfammod tragywyddol. Wrth ddyddanu

* Gwel Hammond, Campbell, ar Ioan 16 6.—Witsius, *Exercit* i. *in Orat. Dom. sec* 16.—Mintert, *Lexicon Græco-Latinum in verbo.*—Outram, *De Sacri*, 360.

Digitized by Google

ei bobl, y mae yn gweinyddu yn y swydd y gosodwyd ef ynddi, yn y cynghor mawr, ac a ddarfu iddo yntau, gyd âg anfeidrol gariad ac ewyllysgarwch, ei chymeryd arno. Mae y Personau Dwyfol yn gweini yn ngwaith iechydwriaeth yr eglwys, trwy ac yn ol y trefniad Dwyfol rhyngddynt mewn perthynas i hyny. Y mae yr un doethineb Dwyfol, cariad, a daioni, yn y naill fel y llall: y mae y gosodiad a'r derbyniad o'r swyddau yn tarddu oddiwrth yr un ffynon o gariad rhydd, a daioni anfeidrol ynddynt. Yr un cariad oedd yn gosod, ac yn cydsynio â'r gosodiad; a'r un cariad yn parhau o hyd yn ngweinyddiad y swydd. Mae yr Ysbryd Glân, gan hyny, yn gweini dyddanwch i'w bobl, trwy sefydliad Dwyfol, yn holl ddwyfoldeb ei Berson, a mawredd ei ddoethineb, ei gariad, a'i ras.

2. Mae yn dyddanu yn ol trefn y cyfammod. Nid ydyw yn myned allan o'r sefydliad a'r drefn Ddwyfol, am ddefnydd y dyddanwch: y mae holl ddefnydd dyddanwch pechadur, fel y cyfryw, yn y drefn Ddwyfol, neu y cyfammod tragywyddol; ac yno yn unig. Oni buasai y drefn ryfedd hon, ni buasai un dafn o ddyddanwch byth i bechadur i'w gael. O orsedd-fainc Duw a'r Oen, y mae yr afon yn dyfod allan, sydd â'i ffrydiau yn llawenhau dinas Duw. Dat. 22. 1. Ps. 46. 4. O anchwiliadwy olud Crist, y mae yn cymeryd defnydd eu dyddanwch: 'Efe a gymer o'r eiddof,' medd Crist, 'ac a'i mynega i chwi.' Ioan 16. 14, 15.

3. Mae yn eu dyddanu yn wirioneddol, trwy wneyd eu cyflyrau yn ddiogel ac yn gysurus. Nid eu dyddanu mewn cyflwr drwg y mae; ni byddai y cyfryw ddyddanwch ond ffuantus, twyllodrus, a darfodedig, a hollol anaddas i Dduw y gwirionedd. Yn y llwybr twyllodrus hwn, y mae y diafol, tad y celwydd, yn ymgais am ddifyru ei weision am ychydig amser yma yn y byd. Ond mae yr Ysbryd Glân yn dwyn y pechadur i undeb gwirioneddol â Christ; yn ei wared oddiwrth ddamnedigaeth a llywodraeth pechod; yn puro y gydwybod, ac yn sancteiddio ei natur; yn ei ddwyn i heddwch a chymmod â Duw, ac yn ei waredu o feddiant y tywyllwch; ac wedi hyny yn ei ddyddanu. Rhuf. 5. 1, 2, 3, &c. a 8. 1, 2, 3. Mat. 9. 2, 3, &c. Yn ei ddwyn i'r arch rhag y diluw; tan gysgod y gwaed rhag y dinystrydd; i'r noddfa rhag y dialydd; ac wedi hyny yn ei ddyddanu. Gen. vii. Exod. xii. Heb. 6. 18. 'Dyddanwch yn Nghrist' ydyw. Phil. 2. 1.

4. Mae yn eu dyddanu yn y goleu. Yn y tywyllwch y mae y gelyn yn ceisio dyddanu pechaduriaid â chelwydd; ond y mae yr Ysbryd Glân, fel Dyddanydd, yn tywys i bob gwirionedd. Y mae yn goleuo pechadur i adnabod y gyfraith sanctaidd, yn ei holl uniondeb, ei hëangder, ei hysbrydoldeb, a'i hanghyfnewidioldeb; hefyd, i adnabod ei hunan, yn ei holl bechadurusrwydd a'i lygredigaeth, yn ei hwyneb: yn y cyfwng hwn, mae yn cymeryd o eiddo yr Iesu, ac yn eu mynegu iddo. Mae yn ei argyhoeddi o bechod, yn gyntaf, i weled ei berygl, ac i'w ddarostwng; yna mae yn ei argyhoeddi o gyfiawnder, ac o farn; sef o holl drefn fawr yr iechydwriaeth yn Nghrist, i'w ddyddanu yn wirioneddol ac yn effeithiol. Ioan 16. 8, 9, 10. Act. 26. 18.

5. Dyddanwch yr ysgrythyrau ydyw dyddanwch yr Ysbryd Glân. Rhuf. 15. 4. Dyddanwch trwy gredu ydyw, ac nid trwy ddychymygu, na thrwy dymherau disail. Trwy gredu, a rhodio yn ol rheol y gair, yn ofn yr Arglwydd, y maent yn cael dyddanwch yr Ysbryd Glân. Gal. 6. 16. Act. 9. 31. Mae holl gynghor a threfn Duw yn Nghrist, mewn perthynas i iechydwriaeth gyflawn pechadur colledig, wedi ei hysbysu i ni, yn y gair; y mae ynddo addewidion mawr iawn a gwerthfawr; cynghor a chyfammod Duw wedi ei sicrhau â'i lw, fel y gallent gael *cysur cryf*, y rhai a ffoisant i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'u blaen. Heb. 6. 18. Fel mae yr ysgrythyrau yn union, yn wirionedd, yn sanctaidd, yn sicr, ac yn gadarn ddigyfnewid, felly y mae dyddanwch yr Ysbryd ar sail y gwirionedd, yn gywir, yn wirioneddol, yn sanctaidd, ac yn gryf: deil yn wyneb cyhuddiadau y diafol, llygredd calon llawn o bla, profedigaethau y byd, a gofidiau angeu. Gan ei fod yn ddyddanwch cyfiawn a sanctaidd, ar sail sicr, y mae yn rhaid ei fod yn gadarn iawn: y mae Duw yn ei holl drefn Ddwyfol o'i blaid. Y mae yr ysgrythyrau fel bronau yn llawn llaeth, yn rhoddi, ar yr un pryd, fagwraeth iachus a dyddanwch i'r plant bychain sydd gwedi eu geni o Dduw. Esa. 66. 11. 1 Petr 2. 2. Y maent yn sylfaen gadarn i bwyso arni; yn gyfarwyddyd cyflawn yn mhob achos; a'u cynnwysiad yn gwbl addas i gyflwr pechadur, fel y cyfryw. Nid dadguddio rhyw ddirgeledigaethau nad ydynt eisioes yn ddadguddiedig yn yr ysgrythyrau, y mae yr Ysbryd Glân wrth ddyddanu ei bobl; ond eu tywys i'r gwirioneddau dadguddiedig, yn eu cysondeb a'u cyflawnder; a gwneyd i'r praidd orwedd yn y porfeydd gwelltog hyn. Ps. 23. 2. Nid oes dim ag sydd yn addas i gyflwr pechadur, er ei iechydwriaeth, er ei gyfarwyddyd, a'i ddyddanwch, nad ydyw yn gynnwysedig yn y gair; ac i gael llesâd o'r gwirionedd, mae yr Ysbryd Glân yn nerthu y pechadur i'w ddeall, ei gredu, ei dderbyn, a chyfranogi o'i ymgeledd sanctaidd. Mae dyddanwch i feddwl ysbrydol yn mhob rhan o'r gair. Ps. cxix.

6. Y mae yn eu dyddanu gyda llawer iawn o dynerwch. 'Fel un yr hwn y dyddana ei fam ef, felly y dyddanaf fi chwi; ac yn Jerusalem y'ch dyddenir.' Esa. 66. 13. Y mae mam yn dyddanu gyd âg anwyldeb a thynerwch mawr; heb edrych ar ddim yn ormod a fyddo yn tueddu er dyddanwch i'w phlentyn. Y mae gwedi ymddwyn ac esgor arno; wedi dyoddef doluriau erddo; nid gormod ganddi, ond hyfrydwch ydyw iddi, ei ddyddanu yn ei holl ofidiau: 'Felly,' medd Duw, 'y dyddanaf fi chwi:'—rhywbeth yn gyffelyb, ond gyd âg anfeidrol ragoriaeth:—'Ac yn Jerusalem y'ch dyddenir:'—nid yn y byd, a'r cnawd, ond yn yr eglwys, gyd â'i bobl; yn a thrwy yr ordinhadau dwyfol yno. Mae yn eu dwyn yno yn gyntaf, ac yn eu dyddanu gwedi hyny â dyddanwch sanctaidd ei bobl. Ps. 119. 132. Ioan 16. 21. Esa. 49. 15. a 54. 7, 8, &c. a 61. 1, 2, 3. a 65. 18, 19. Hos. 2. 19, 20.

7. Dyddanydd tragywyddol ydyw. Y mae y Dyddanydd yn Berson tragywyddol: y mae yn aros yn ei swydd gyd â'i bobl yn dragywyddol. Ioan 14. 16. Y mae cyfammod Duw, a'i addewid, sylfaen eu dyddanwch, yn gyfammod tragywyddol. Esa. 54. 10. Y mae eu hundeb â Christ yn annattodol, (Rhuf. 8. 35, &c.) ac y mae eu hetifeddiaeth yn etifeddiaeth dragywyddol. Ps. 37. 18. 1 Petr 1. 4. Y mae eu sancteiddrwydd a'u dyddanwch yn cyd-gynnyddu; er nad eu sancteiddrwydd ydyw sylfaen eu dyddanwch, etto dyddanwch sanctaidd ydyw eu dyddanwch; y mae eu dyddanwch yn cynnyddu eu sancteiddrwydd, a'u sancteiddrwydd yn eu haddasu i fwynhau y dyddanwch. Y mae yn anmhosibl dyddanu dyn cnawdol â phethau dwyfol, ysbrydol. Nid ydynt yn perthyn iddo, ac nis gall eu mwynhau. Ni ddichon y byd dderbyn y Dyddanydd, heb dderbyn y Sancteiddydd yn gyntaf. Pan byddo y rhai a sancteiddiwyd yn berffaith sanctaidd, byddant yn berffaith ddedwydd; ac am fod eu cyflwr newydd o gymmod a sancteiddrwydd yn angholladwy a thragywyddol, y mae eu dyddanwch yn dragywyddol. 2 Thes. 2. 16. Gan mai Duw Ysbryd Glân ydyw y Dyddanydd, rhaid bod dyddanwch yr eglwys, a phob aelod o honi, yn ddwyfol, yn oruchel, yn gryf, yn sanctaidd, ac yn dragywyddol; yn addas i fawredd y Person sydd yn ei weinyddu.

'Duw yr amynedd a'r dyddanwch:—Duw pob dyddanwch.' Rhuf. 15. 5. 2 Cor. 1. 3. Y mae yr Arglwydd yn cael ei alw felly, am ei fod yn hollol

Digitized by Google

gymmodlawn yn Nghrist â'r rhai sydd yn credu ynddo; am mai efe a drefnodd ffordd a moddion o ddyddanwch i bechaduriaid; efe sydd yn eu dwyn i gyflwr y mae dyddanwch yn addas iddynt; ac efe yw yr hwn a'u dyddana yn wirioneddol yn eu holl orthrymderau. Esa. 51. 12. Ps. 94. 19.——Mae yr Arglwydd Iesu yn cael ei alw, 'Dyddanwch yr Israel.' Yr oedd wedi ei addaw i Israel yn neillduol fel gwrthgysgod Noah, 'i'w cysuro am eu gwaith, a llafur eu dwylaw;' o hono ef yr hanodd Crist yn ol y cnawd; yr oeddynt yn dysgwyl am dano, yn ol yr addewid; ac y mae efe yn sylfaen, yn ffynon, ac yn achos haeddiannol o holl ddyddanwch y gwir Israeliaid, hyd dragywyddoldeb. Luc 2. 25.——Mae dyddiau blinion yn dyfod, yn y rhai y dywed pob un heb Grist, Dyddanwch yr Israel, 'Nid oes i mi ddim dyddanwch ynddynt.' Preg. 12. 1.

DYDD—IAU—HAU, (ydd) *Llad.* Dies; *Saes.* Day: rhaniad amser oddiwrth ymddangosiad, neu guddiad yr haul.—Y mae dydd o ddau fath, sef dydd celfydd, a dydd naturiol. Wrth y cyntaf y meddylir, yr amser tra byddo y goleuni yn llewyrchu, neu tra byddo yr haul uwchlaw y terfyn-gylch; y rhan arall o amser tra fyddo yr haul islaw y terfyn-gylch, a elwir nos. Wrth y dydd naturiol y meddylir, y rhan hyny o amser y bydd y ddaear yn troi, neu yn gwneyd chweliad ar ei phegwn, ac y bydd ei holl gylch wynebol yn ymddangos i'r haul; sef fel y geilw y Groegiaid ef, *νοχθημερον*, *nos-dydd*; sef pedair awr ar hugain. Yr oedd yr Hebreaid yn cyfrif dechreuad y dydd yn yr hwyr; felly yr oedd yr Atheniaid, y Bohemiaid, yr Awstriaid, y Marcomaniaid, a'r Silesiaid; yr un fath mae yr Italiaid, a'r Chineaid, yn cyfrif yn bresennol. Mae y Caldeaid, y Persiaid, y Syriaid, a'r Groegiaid yn ei gyfrif yn dechreu gyda chodiad haul. Y mae yr Aiphtiaid, a'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop, yn ei ddechreu ganol nos. Yr Umbri a'r Arabiaid a ddechreuant eu diwrnod ganol dydd, pan y byddai yr haul yn y cylch canol-ddydd.

Yn iaith y prophwydi, arwydda dydd neu ddiwrnod, flwyddyn; ac wythnos a arwydda saith mlynedd; mis, deng mlynedd ar hugain; a blwyddyn, neu amser, tri chant a thriugain. Ezec. 4. 5, 6. Dan. 9. 24. a 7. 25. Dat. 9. 15. a 11. 3.—'Y mae un dydd gyd â'r Arglwydd megys mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd megys un dydd.' 2 Petr 3. 8. Nid yw amser yn perthynu i'r Arglwydd, ond i ni; nid ydyw amser hir a byr, ond yr un peth iddo ef, a'r un peth mewn cymhariaeth i dragywyddoldeb. Nid ydyw yr Arglwydd yn hynach nac yn ieuengach y naill amser na'r llall; na thragywyddoldeb nac yn hŵy nac yn fyrach. Ei flynyddoedd ef sydd yn oes oesoedd, ni chawsant ddechreu, ac ni ddarfyddant. Ps. 102. 24, 27.

Fel y mae dydd yn rhan o amser hynodol at waith, felly mae rhyw amser neillduol i weithredu trugaredd neu farn, yn cael ei alw yn ddydd, neu ddiwrnod; y 'dydd hwnw,' neu 'y diwrnod hwnw,' sef yr amser hwnw, byr neu hir, pan byddo yr Arglwydd yn cwblhau rhyw orchwyl arbenig mewn ffordd o drugaredd neu farn. Ps. 37. 13. Mal. 4. 1. Jer. 50. 4—30. Esa. 2. 11. a 19. 16, 19, 24. a 61. 2.

Wrth 'ddydd Crist,' mae i ni ddeall amser ei ddyfodiad y waith gyntaf, yn ei ddarostyngiad, i brynu ei bobl. Ioan 8. 56. Yr ail waith, yn holl ogoniant ei Dad, i farnu y byd. Y mae dydd gwedi ei sefydlu, a mawr fydd y gwaith i'w wneuthur ganddo. 1 Cor. 3. 13. Phil. 1. 6. 2 Petr 3. 12.

'Dydd prynedigaeth,' yw gwrth-gysgod y flwyddyn Jubili, pan roddir yr holl brynedigion mewn cyflawn feddiant o'u hetifeddiaeth, gan eu cyfathrachwr, Mab Duw, eu Prynwr. Eph. 4. 30.

Y mae dydd, neu ddyddiau diweddaf, yn arwyddo, amser etto i ddyfod, yn mhen llawer o ddyddiau, Gen. 49. 1.—yspaid goruchwyliaeth yr efengyl, gwedi dyfodiad Crist yn y cnawd, Esa. 2. 2. Heb. 1. 1.—neu y rhan ddiweddaf o'r yspaid hwnw, 1 Tim. 4. 1. 2 Tim. 3. 1.—neu ddyddiau marwolaeth a barn, Iago 5. 3.

'Cystudd ddeng niwrnod,' a arwydda cystudd byr, terfynedig; neu erlidigaeth ar yr eglwys am ddeng mlynedd, Dat. 2. 10., o A. D. 302 i 312.——1260 o ddyddiau teyrnasiad Anghrist—42 o fisoedd—amser, amseroedd, a hanner amser, a arwyddant yr un rhifedi o ddyddiau, sef 1260 o flynyddoedd. Dat. 11. 2, 3. a 12. 6—14. a 13. 6. Os dechreuir y rhifedi hwn yn y flwyddyn 606, pan y cafodd y Pab yr enw o Esgob Catholig, neu Cyffredinol, ar y byd Cristionogol, diwedda yn y flwyddyn 1866. Edr. Anghrist.——'Nid oes rhyngom ni ddyddiwr.' Job 9. 33. Edr. Cyfryngwr.

Arwydda dyddiau, yn aml, blwyddyn, neu blynyddoedd; sef cyson-drefn blynyddoedd o ddyddiau. מקץ ימים *yn niwedd dyddiau*, sef yn niwedd y flwyddyn. Gen. 4. 3. Hyn yw ystyr cywir y geiriau, ac nid y geiriau annherfynedig, *talm o amser*.——'Arosodd Dafydd yn ngwlad y Philistiaid flwyddyn (ימים *dyddiau*) a phedwar mis.' 1 Sam. 27. 7.——'Yn mhen dwy flynedd lawn, (מקץ שנתים ימים *yn niwedd dwy o ddyddiau*) y bu i Pharaoh freuddwydio.' Gen. 41. 1.——Elcanah a aeth 'bob blwyddyn i addoli, ac i aberthu i Arglwydd y lluoedd yn Siloh:' ימים מימים *dyddiau wrth ddyddiau*, neu *blwyddyn wrth flwyddyn*; sef bob blwyddyn, yn ol ein cyfieithiad ni. 1 Sam. 1. 3. Am hyny, yn addas y cyfleithir y geiriau זבח ימים (*aberth dyddiau*) aberth blynyddol. 1 Sam. 2. 19.——'Unwaith yn y flwyddyn.' 2 Sam. 14. 26. מקץ ימים לימים *o ddiwedd dyddiau i ddyddiau*; sef diwedd pob blwyddyn.——'Ac yn ol talm o ddyddiau y sychodd yr afon.' 1 Bren. 17. 7. מקץ ימים *yn niwedd y dyddiau*; sef yn niwedd y flwyddyn; o herwydd peidiodd a gwlawio yn y gwanwyn.——Y geiriau 'ychydig ddyddiau,' yn Gen. 27. 44. a 29. 20. a ddylent gael eu cyfleithu *un flwyddyn*. A'r geiriau ימים או עשור *blwyddyn*, neu *ddeng mis*, ac nid 'deng niwrnod o'r lleiaf.' Gen. 24. 55. Gwel y Dr. Hale's *Analysis of Chronology*.

DYDDFU, (dyddf) gwanhau, llesgâu, llesmeirio, diffygio. Gen. 47. 13.

DYDD-GWAITH, (dydd-gwaith) dydd gweithio ynddo, mewn cyferbyniad i ddydd Sul a dydd gwyl.

DYDD-GYLCH, (dydd-gylch).—'O ddydd-gylch Abia:' Luc 1. 5, 8. *Gr.* *εφημερια*; cylch beunyddiol, neu wasanaeth am ddiwrnod, yn briodol; a ddel ar gylch, cylchol; gwasanaeth i'w gyflawni yn mhen cylch o amser; neu y teulu, neu y dosparth ydoedd i gyflawni y gwasanaeth hwnw. Ymddengys wrth gymharu 1 Cron. 24. 19. â Pen. 9. 27. ac â 2 Cron. 23. 8. a 2 Bren. 11. 5, 6, 7. fod cylchoedd yr offeiriaid yn wythnosol, neu saith niwrnod bob un, a'u bod yn dechreu ac yn diweddu ar y Sabboth. Dosparth Abia ydoedd yr wythfed (1 Cron. 24. 10.) o'r pedwar dosparthiadau ar hugain y dosparthodd Dafydd yr offeiriaid. Bob boreu, neu ddechreu wythnos y dyddgylch, yr holl offeiriaid ydoedd i wasanaethu y dydd hwnw, neu yr wythnos hôno, a safent yn gylch, ac un a fwriai goelbren pa ran o'r gwaith sanctaidd ydoedd i bob un i'w wneyd; a daeth o ran wrth goelbren fel hyn, i Zacharias arogl-darthu y dydd yr ymddangosodd yr angel iddo, tra yr oedd wrth y gorchwyl sanctaidd hwnw. Lightfoot, Macknight, Whitby, Poole's *Synopsis*.

DYEITHR—IAID, (dy-eithr) alltud, estron, un mewn gwlad ddyeithr, Gen. 23. 4.—un diystyredig, Ps. 69. 8.—un caethiwus, erlidiedig, Obad. 12. Heb.

Digitized by Google

13. 2.—un heb fod o genedl Israel, neu o deulu Aaron. Exod. 20. 10. Esa. 14. 1. Num. 3. 10. a 16. 40.—Mae y rhai sydd yn byw trwy ffydd, yn cyfaddef eu 'bod yn ddyeithriaid a phererinion ar y ddaear.' Y maent wedi eu geni oddi uchod; y mae eu hetifeddiaeth a'u hymarweddiad yn y nefoedd; yn ceisio gwlad well, sef un nefol, maent yn teithio fel dyeithriaid trwy y byd hwn tu a'u cartref nefol; ac y maent yn erlidiedig, yn aml, gan blant y byd hwn. Heb. 11. 13. Ps. 39. 12. Phil. 3. 20. Ioan 14. 4, 5. 2 Cor. 5. 1. Mae yr Arglwydd yn annog ei bobl i ddangos llawer o fwyneidddra a thiriondeb tu ag at ddyeithriaid. Exod. 22. 21. Lef. 19. 10. Num. 15. 14. a 19. 10. a 35. 18.—Gan nad oedd ond ychydig o lettyau i deithwyr yn y dyddiau gynt, yr oedd yn arferedig i ofyn dyeithriaid i gael lletty ac ymgeledd. Gen. xviii, xix. Barn. xix.

Y mae dynion, yn eu cyflwr wrth natur, gwedi ymddyeithrio oddiwrth Dduw, buchedd Duw, ei addewidion, ei gyfammod, ei ffyrdd, a'i bobl. Ps. 54. 3. Joel 3. 17. Eph. 2. 12. a 4. 18. Y mae y darluniad hwn o ddyn dan y cwymp, o ran ei gyflwr, ac agwedd ei ysbryd, yn ei osod allan yn annuwiol, ac yn dra thruenus. Bod yn ddyeithr i Dduw yw bod yn ddyeithr i bob daioni a dedwyddwch. Trwy waed Crist, a gweithrediadau Ysbryd y gras, y mae y rhai oeddynt gynt yn mhell, yn cael eu gwneuthur yn agos. Eph. 2. 13.——Mae gau-athrawon yn cael eu galw yn ddyeithriaid, am nad ydynt gwedi dyfod trwy y drws galwad cyfreithlawn, i gorlan y defaid; y maent yn ddyeithriaid i Grist a'i bobl. Nid ydyw y defaid yn adnabod llais dyeithriaid. Ioan 10. 5. Edr. Benyw, Gwragedd.

DYFAL—ACH—WCH, (bâl) diwyd, astud, dibaid, diorphwys.

> Tri dyfal gyfangan Ynys Prydain; un oedd yn Ynys Afallon (*Glastonbury*), yr ail yn Nghaer Caradawg (*Aimsbury, or Old Sarum*), a'r trydydd yn Mangor (*Bangor is y Coed*). Yn mhob un o'r tri lle hyny yr oedd 2400 o wyr crefyddol; ac o'r rhai hyny 100 cyfnewidiol bob awr o'r 24 yn y dydd a'r nos, yn parhau mewn gweddïau a gwasanaeth i Dduw yn ddidranc, ddiorphwys. *Triodd.*

Wrth hyn y mae yn amlwg i Gristionogrwydd daenu yn foreu, ac yn helaeth, yn mhlith yr hen Gymry. Llawer o ddychymygion a fu, ac sydd yn parhau, am y modd y dygwyd y grefydd Gristionogol gyntaf i'w plith. Yr hanes mwyaf tebygol i wir a welais sydd yn gynnwysedig yn yr hen gronicl canlynol:—

> Un o dri menwedigion teyrnedd Ynys Prydain, Bran Fendigaid ab Llyr Lledïaith, a ddygws gyntaf ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry, o Rufain, lle bu efe saith mlynedd yn ngwystyl ei fab Caradawg. *Triodd.*

'Gweddi ddyfal,' yw gweddi daer, barhaus. Act. 12. 5. Rhuf. 12. 12. Eph. 6. 18.——'Dysgwyl yn ddyfal am yr Arglwydd,' yw dysgwyl yn hiraethlawn, yn ddidòr, yn ddiwyd, ac yn barhaol. Ps. 40. 1.——'Cadw y gorchymynion yn ddyfal,' yw eu cadw yn awchus, yn gyflawn, yn barhaus, yn mhob peth a wnelom, yn holl agwedd y meddwl, a'r fuchedd allanol. Ps. 119. 4.

'Byddwn ddyfal, gan hyny, i fyned i mewn i'r orphwysfa hòno.' Heb. 4. 11. 'Byddwn ddyfal,' *σπουδαζωμηυ*, 'Rown eyn bryd.' W. S.—'Ymroddwn.' Dr. M. Y gair a arwydda, hollol ymroddiad, diwyd, parhaus; yn ymwrthod â phob peth fyddo yn tueddu i attal, ac i gyrchu at bob peth, a phob moddion, a fyddo yn gynnorthwyol.

'Ac efe mewn ymdrech meddwl, a weddïodd yn ddyfalach.' Luc 22. 44. *εν αγωνια γενομενος, ac efe yn cael ei wasgu gan ing, cyfyngdra, ac ymdrech meddwl, a weddïodd yn ddyfalach; εκτενεστερον, yn ddwysach*, gyd â'r gradd mwyaf o ddifrifwch yn ngweithrediadau ei feddwl, ei enaid, a'i gorph. Y mae y geiriau yn gosod allan y fath ing a chyfyngder meddwl, nas dichon tafod byth ei fynegi, na meddwl ei amgyffred. Trwy lefain cryf a dagrau yr offrymodd weddïau ac erfyniau, pan yr offrymodd ei hun yn offrwm ac yn aberth i Dduw trosom. Heb. 5. 7. Eph. 5. 2.

DYFEILIORNI, (meiliorn) gwneuthur anghyfiawnder; gwneuthur yn feius, ac yn gamweddus.—'I ddym yn poeni ac y cael eyn dyveilliorni, herwydd yn bod yn gwir obeithio ar Dduw byw.' 1 Tim. 4. 10. W. S.—'Yn cael ein gwaradwyddo:' *Gr. ονειδιζομεθα; edliwio, gwaradwyddo, dannod.* Mat. 27. 44. Iago 1. 5.

DYFER—ION—U, defnyn, defnynu.—'Dy wefusau, fy nyweddi, sydd yn dyferu fel dil mêl.' Can. 4. 11. a 5. 13. Mae athrawiaethau a gweddïau yr eglwys yn hyfryd, yn iachus, ac yn adeiladol. O helaethrwydd y galon y mae y genau yn llefaru yn barhaus; yn dyferu yn ddyfal, yn ddidor, ac yn ddiddarfod. Nid oes dim yn natur yn cyfateb i felusder a hyfrydwch gwirioneddau dwyfol, yn eu gweinyddiad yn yr eglwys, dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Ps. 119. 10, 103. a 45. 2. Col. 4. 6.

DYFERLIF, (dyfer-llif) gwaedlif, cerddediad gwaed, hâd, &c. Lef. 12. 7. a 15. 2. Ezec. 23. 20.——Yr oedd y cyfryw ddyferlif yn dra aflan dan y gyfraith; yr oedd y person, yr hwn yr oedd y cyfryw afiechyd arno, yn aflanhau pob peth y cyffyrddai âg ef; ond nid oedd y fam yn aflanhau ei phlentyn sugno. Iachâodd yr Arglwydd wraig a fuasai mewn dyferlif gwaed ddeuddeng mlynedd, trwy ei gwaith yn cyffwrdd âg ymyl ei wisg. Er bod cyhyd o amser yn afiach; er dyoddef llawer gan lawer o feddygon, a threulio cymaint oedd ar ei helw; ac er na chawsai ddim llesâd, eithr yn hytrach myned yn waeth-waeth—etto, yn ei thlodi a'i gwendid mawr, daeth at yr Arglwydd Iesu mewn ffydd, gan ddywedyd, 'Os câf yn unig gyffwrdd â'i wisg ef, iach fyddaf;—a'r wraig a iachâwyd o'r awr hòno.' Mat. 9. 20, &c. Marc 5. 25, &c. Luc 8. 43, &c. Mae yr hanes yn cael ei adrodd gan yr efengylwyr, gyda llawer o addasrwydd a harddwch ymadrodd, yn dangos gwaeledd y wraig, ac iselder ei chyflwr; natur ac effeithioldeb ffydd; gallu a graslonrwydd Crist. Mae efe yn llawn rhinwedd—yn llawn gras a gwirionedd; nid oes un cyflwr yn anfeddyginiaethol iddo; ac y mae gwir ffydd ynddo, yn sicr o dynu rhinwedd allan o hono. Gwybu yr Iesu ynddo ei hun fyned rhinwedd allan o hono: a hithau a wybu yn ei chorph ddarfod ei hiachâu o'r pla. Nid oedd dim rhinwedd yn ngwisgoedd yr Arglwydd Iesu, mwy nag mewn gwisgoedd eraill; ond yr oedd ei chyffyrddiad hi â'i wisg, yn arwydd o'i ffydd ynddo, yn ei Berson, ei allu, a'i drugarogrwydd; ac yr oedd ei waith yn ei hiachâu ar hyny, yn dangos bod ei ffydd yn gywir am dano, a'i fod yn holl-wybodol, yn gwybod am weithrediadau ffydd yn ei bobl yn mhob amgylchiad, ac yn mhob gradd o honi.

DYFETHA, (dy-feth) diddymu, dystrywio, difrodi, dinystrio. Mat. 21. 41. Marc 12. 9. Act. 3. 23. 2 Thes. 2. 8. Diar. 13. 7. Ps. 2. 12. a 5. 6. a 68. 2. a 73. 27. Mat. 27. 20. Marc 3. 6. a 11. 18. a 1. 24. Luc 4. 34.

> Dysg i'th blentyn ennill da,
> Cyn dysgu modd o'i *ddyfetha.*

'Na fydd ry gyfiawn; ac na chymer arnat fod yn rhy ddoeth; paham y'th ddyfethit dy hun?' Preg. 7. 16. Mae yn anmhosibl i un dyn fod yn rhy gyfiawn, yn wirioneddol: gofynion cyfiawn y gyfraith yw, 'caru Duw â'n holl galon, a'n cymydog fel ni ein hunain;' nis dichon un dyn, gan hyny, yn yr ystyr hwn, fod yn rhy gyfiawn, trwy garu Duw yn ormod. Pe baem yn feddiannol o'r cyfiawnder deddfol hwn, yn ein personau ein hunain, byw fyddem, ac nid dyfetha ein hunain. Bod yn gyfiawn ar sail yr efengyl,

Digitized by Google

trwy ffydd yn Nghrist, yw yr unig ffordd a drefnodd Duw i bechadur i fyw. Rhuf. 1. 17. Nis dichon un dyn fod yn rhy ddoeth, yn wirioneddol, chwaith; ond dichon dyn fod yn rhy gyflawn, ac yn rhy ddoeth, yn ei olwg ei hun, trwy gam-farnu am dano ei hun, a thybied ei hun yn well nag ydyw, a dyfetha ei hun felly; ac nid oes un ffordd mwy sicr iddo ddyfetha ei hun, na hon. Gellir cyfieithu y geiriau, medd beirniaid dysgedig yn yr iaith Hebraeg, 'Na fydd hunangyfiawnhawr mawr.'* Gwel Rhuf. 10. 2, 3. a 12. 3, 16. 1 Sam. 15. 21. Col. 2. 18. 1 Tim. 5. 23. Diar. 3. 7. a 25. 16. Mat. 7. 6. a 18. 30. Ioan 23. 8. a 16. 2. Act. 26. 9.

DYFNDER—AU—OEDD, (dwfn) eigion, dyfnfôr, affwys. Edr. DWFN.—1. Y gymysgfa afluniaidd yn nechreu creadigaeth y byd. Gen. 1. 2.——2. Y môr a'i ddyfn-leoedd. Job 41. 31, 32. 2 Cor. 11. 25.——3. Pethau dyeithr, anadnabyddus, ac anchwiliadwy. Esa. 33. 19. Job 12. 22. Dan. 2. 22.——4. Y bedd, a gwlad y meirw. Rhuf. 10. 7.——5. Uffern, sydd yn bydew diwaelod. Luc 8. 31. Dat. 20. 3. Diar. 9. 18.——6. Gorthrymderau mawrion ac ofnadwy. Ps. 130. 1. a 88. 6. Rhuf. 8. 39.

'Dyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw,' a arwydda eu bod yn anfeidrol ac yn anchwiliadwy. Rhuf. 11. 33.——'Dyfnder cariad Crist,' yw ei ddarostyngiad rhyfedd i'r pwll isaf, mewn tywyllwch, yn y dyfnderau (Ps. 88. 6.) i achub y pechaduriaid gwaelaf o ddyfnder uffern. Eph. 3. 18.——'Taflu pechodau i ddyfnderoedd y môr,' a arwydda eu bod yn cael eu maddeu yn hollol, ac yn dragywyddol, yn ol golud ei ras, a lliosogrwydd ei dosturiaethau, a mawredd gwerth aberth Crist. Mic. 7. 19. Ps. 51. 1. Tit. 2. 14.——Wrth 'ddyfnderoedd Satan,' y deallir dychymygion tywyll a disail, a gweithredoedd cywilyddus a dirgelaidd twyllwyr. Dat. 2. 24. Yr oedd cyfeiliornwyr twyllodrus yn galw eu dychymygion cyfeiliornus yn ddyfnderau; ond y mae yr Arglwydd Iesu yn eu galw wrth eu henw priodol, sef 'dyfnderoedd Satan.'——Y mae lluoedd y Caldeaid yn cael eu galw 'y dyfnder,' oblegid eu rhifedi, eu trwst, eu buddugoliaeth, a'r dystryw a wnaent. Ezec. 26. 19. a 31. 4, 15. Amos 7. 4.

'Dyfnder mawr yw dy farnedigaethau.' Ps. 36. 6. Y mae meddwl y Psalmydd gwedi ei orlenwi â dirfawredd y perffeithrwydd dwyfol, yn defnyddio y golygiadau mwyaf ëang yn naturiaeth, er hyny yn anghyfartal yn mhell i'r gwrthddrychau, i osod allan eu hanfeidredd:—

O IEHOFAH, dy drugaredd sydd hyd y nefoedd!
Dy wirionedd, hyd y cymylau!
Dy gyfiawnder, fel mynyddoedd cedyrn!
Dy farnedigaethau, dyfnder mawr! *Hebraeg.*

Yn araeth Zophar y Naamathiad, (Job 11. 7, &c.) cawn y cyffelyb olygiadau o holl ëangderau naturiaeth, gwedi eu pentyru ar eu gilydd gyda mwy fyth o ardderchogrwydd, pe bai bosibl, trwy y dull nacäol ac ymofynol y maent yn cael eu gosod allan:—

A elli di wrth chwilio gael Duw?
A elli di gael perffeithrwydd yr Hollalluog?
Uchelderau y nefoedd yw, Beth a wnei?
Dyfnach nag uffern, Beth a wyddost?
Ei fesur sydd hŵy na'r ddaear,
A lletach yw na'r môr! *Hebraeg.*

Y mae gwir adnabyddiaeth o'r Duw mawr yn sicr o orlenwi y meddwl â'i anfeidredd diderfyn, ac â'i harddwch, ei brydferthwch, a'i ddaioni digymhar, ac anhywerthadwy. Y mae yn fawr—y mae yn hardd—ac y mae yn anwyl!—'Mor werthfawr dy drugaredd, O Dduw!'†——Y mae ei farnedigaethau, sef ei arfaeth a'i drefniadau, yn ddyfnder mawr, fel y maent yn guddiedig yn meddwl Duw; yn anchwiliadwy, oblegid dyfnder ei ddybenion, a'u heffeithiau gogoneddus; ac o herwydd amrywiaeth y ffyrdd dirgelaidd sydd gan y Duw mawr i'w cyflawni oll. Rhuf. 11. 33.

DYFOD—IAD, (bod) esgyn, dygwydd, dyfod i ben; tyfu, cynnyddu; esgyniad, nesâd.—'Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod? ai un arall yr ydym yn ei ddysgwyl?' Mat. 11. 3. Luc 7. 19. *ο ερχομενος, yr hwn sydd yn dyfod*, yn cyfateb i'r gair *Heb.* הבא gwedi ei gymeryd o Ps. 118. 16. 'Bendigedig yw a ddel yn enw yr Arglwydd.' Enw yn darlunio y Messïah addawedig, yr hwn yr oedd yr holl dduwiolion, dan yr hen oruchwyliaeth, yn dysgwyl yn hiraethlawn am dano. Mat. 21. 9. Marc 11. 9. Luc 19. 38. Ioan 6. 14. a 12. 13. Heb. 10. 37. Daeth o'i wir fodd, yn ei anfeidrol gariad a'i ras, oddiwrth Dduw, at ddynion, yn y cnawd, i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid. Ioan 13. 3. Luc 19. 10. Heb. 10. 5, 7. Nid ydyw y gair 'dyfod' yn arwyddo symudiad, o ran ei Dduwdod, o un lle i'r llall; y mae hyny yn gwbl anmhriodol i'r hwn sydd yn llenwi pob lle ar unwaith; arwydda ei gnawdoliaeth, a'i gwblhad o'r gwaith perthynol iddo yn ol yr arfaeth ddwyfol, yr addewidion, a'r prophwydoliaethau am dano. Daeth atom mewn dull addas i sefyll drosom ni, ac i ddyoddef dros ein pechodau.

Y mae dyfodiad yn cael ei briodoli i'r Arglwydd, o ran un math o amlygiad a ddichon efe wneuthur o hono ei hun, trwy ei farnedigaethau ar ei elynion, neu trwy ei ddysglaer ymddangosiad yn mhregethiad yr efengyl, nes byddo holl gyfeiliornadau anghristaidd yn cael eu difa, gan eglurdeb yr amlygiad o hono yn athrawiaethol, fel y tywyllwch gan oleuni boreuol yr haul. 2 Thes. 2. 8. Esa. 11. 4. Hos. 6. 5. Dat. 2. 16. a 19. 15, 20, 21. Ond yn benaf i'w ail ddyfodiad 'heb bechod,' sef heb bech-aberth, 'er iechydwriaeth.' Heb. 9. 28. 'Wele! y mae efe yn dyfod gyd â'r cymylau—gyda nerth a gogoniant mawr:'—ac mor ddyrchafedig ac amlwg, fel y 'gwel pob llygad ef.' Dat. 1. 7. Dan. 7. 13. Mat. 24. 30, 37, 39. 2 Petr 1. 16. 1 Ioan 2. 28. Weithiau, mae y dyfodiad hwn yn cael ei alw ei ymddangosiad, oblegid yr amlygrwydd dysglaer o Grist i bawb y pryd hwnw. Col. 3. 4. 2 Tim. 1. 10. a 4. 1, 8. Tit. 2. 13. 1 Petr 1. 7. 'Ymddengys â thân fflamllyd, yn rhoddi dial ar y sawl nid adwaenant Dduw,' &c.; ond daw er iechydwriaeth, ac i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu. 2 Thes. 1. 7—10.

Y mae pechaduriaid yn dyfod at Grist, pan y maent yn credu ynddo. 'Yr hwn sydd yn dyfod ataf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser.' Ioan 6. 35. Trwy dyniad y Tad, sef trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân ar eu heneidiau, yn athrawiaeth yr efengyl, maent yn credu ynddo, ac yn dyfod ato; a phawb fel hyn a ddel ato, sydd yn cael derbyniad croesawgar ganddo. Adn. 37, 44, 45. Y maent yn cael eu dysgu gan Dduw i adnabod Crist, eu hangen o hono, a'i addasrwydd iddynt; ac yn yr adnabyddiaeth hon o hono, y maent, o ran agwedd eu meddyliau, yn dyfod ato i ymlynu wrtho, i dderbyn ganddo, ac i'w wasanaethu dros byth. Mat. 11. 28. Heb. 11. 6.

'Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim.' Ioan 6. 37. Yn yr argraffiadau 1746, 1752, a 1799, o'n Biblau Cymraeg, mae gwall-argraff, trwy roddi *nis bwrir*, yn lle *nis bwriaf*. Iawn gyfieithiad o'r *Gr. ου μη εκβαλω εξω*, yw, *nis bwriaf allan ddim*, ond bod yr ystyr yn gadarnach yn y Groeg.

DYFODFA—AU, (dyfod) nesâd, derbyniad; y ffordd i ddyfod. 2 Cron. 23. 13. a 33. 14. Ezec. 42. 12. a 46. 19.—'Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll;' sef i heddwch Duw, ac i gymundeb par-

* Gwel Romaine's *Discourses on the Law & Gospel, Ser.* vi.
† Gwel Lowth, *De S. Poesi. Heb. Prælect.* 16.

Digitized by Google

haus âg ef, gyda hyder am bob peth sydd yn perthyn i fywyd a duwioldeb. Rhuf. 5. 2. Eph. 2. 18. a 3. 12. Heb. 4. 16. a 10. 19. Y mae y gair *Gr.* προσαγωγη, a arferir yn y lleoedd uchod, yn arwyddo yn hytrach dygiad, neu arweiniad i mewn. Felly y mae yn cael ei gyfleithu yn 1 Petr 3. 18. '*dwyn* at Dduw.' Mae Crist nid yn unig yn 'ffordd,' ond hefyd yn 'arweinydd' i'w bobl at Dduw; y mae yn eu dwyn ato. Gyda golwg ar fawredd ei berson, digonolrwydd ei aberth, a chyflawnder ei swydd, y maent yn myned yn ei law yn hyderus, gyda hyfdra at Dduw, yn wyneb pob annheilyngdod a ddichon fod ynddynt hwy eu hunain. Heb. 4. 14, 15, 16. Eph. 3. 12.

DYFYN—U, (dwf) gwysio, galw; gwys-rybuddio—'Gwyr Benjamin, gwedi eu dyfyn, yn ymgasglu yn erbyn yr Israeliaid.' Barn. xx. cynnwysiad y bennod.

DYFFRYN—OEDD, (dyfrhynt) glyn, cwm, ystrad, allmor.—Y gair *dyffryn*, yn cyfateb i'r gair *Heb.* נחל a arwydda gwastad-tir, â ffrydiau yn rhedeg trwyddo. Mae y gair *ystrad* hefyd yn o agos o'r un meddwl.—Mae llawer o ddyffrynoedd yn cael sôn am danynt yn yr ysgrythyrau, pa rai câf achlysur i grybwyll am danynt, dan eu hamrywiol enwau. Yr oedd dyffrynoedd breision yn gorwedd o amgylch Samaria; ac yr oedd y ddinas yn sefyll ar godiad tir, yn golygu y dyffrynoedd hyny. Esa. 28. 1—4.

Wrth 'ddyfryn y celaneddau,' a 'glyn lladdedigaeth,' meddylir Tophet, glyn mab Hinnom. Jer. 7. 22. a 31. 40.——Wrth 'ddyffryn y fforddolion,' deallir, yn ol barn Calmet, y brif-ffordd wrth droed mynydd Carmel, o Judea, yr Aipht, a gwlad y Philistiaid, i Phœnicia. ——'A chwi a ffowch i ddyffryn y mynyddoedd,' Zech. 14. 5. sef y dyffrynoedd oddi amgylch Jerusalem, i ba rai darfu i breswylwyr y ddinas hòno ffoi, pan warchaewyd arni gan luoedd y Rhufeiniaid.

DYGAM, (cam) gŵyr, gwyrog, cyndyn, trofaus.—'Yn veibion i Dduw, yn ddigwliedic ym-pervedd cenedlaeth ddrygionus ddygam.' Phil. 2. 15. W. S.

DYGAS, (cas) ffiaidd, adgas, echryslawn.

> Mewn pechod lluniwyd fi,
> Ac mewn drygioni *dygas*.
> *E. Prys*, (Ps. 51. 5.)

DYGWYDD—ODD, (cwydd) damchwain, damwain; canlyniad; cyfan-osodedig, dogniad.—'Y clwyf dygwydd,' y gloesion llewyg, y gloesion mawr, clwyf tegla.

'Ni wyddost beth a ddygwydd mewn diwrnod.' Duw sydd yn trefnu pob peth; ac nid yw yn gweled yn dda hysbysu i ni, yn neillduol, beth mae ar fedr ei wneuthur; ond mae yn galw arnom yn mhob peth i roddi ein hyder arno, i ddysgwyl wrtho, ac ymostwng iddo. Diar. 27. 1. Preg. 11. 2.

'Dyro i mi y rhan a ddygwydd o'r da.' Luc 15. 12. το επιβαλλον μερος της ουσιας. Y cyfran perthynol iddo ef wrth y cyfreithiau. Wrth gyfreithiau yr Hebreaid a'r Rhufeiniaid, ni allai y pen-teulu ranu ei feddiannau yn ol ei ewyllys ei hun; ond yr ydoedd y gyfraith yn penodi dosparth i bob un o'r meibion. Yr oedd y dyn ieuanc, gan hyny, yn dymuno meddiannu yn ddiattreg yr hyn a ddygwyddai iddo ef yn fuan, yn ol trefn y gyfraith. Yr oedd brys anaddas arno i fyned oddi tan lywodraeth ei dad tirion, ac yn ei hunan-dyb, a'i ysbryd anmhlygedig, i lywodraethu ei hun, a'i feddiannau. Y mae y ddammeg hon yn dra defnyddiol i ddangos ffolineb a phechadurusrwydd y cyfryw ymddygiad, a'r gofidiau sydd, yn gyffredinol, yn ei ddilyn; hefyd natur gwir edifeirwch, a graslonrwydd Duw i'r edifeiriol.

DYGYFOR, (cyfor) ymchwyddo, cyfodi i fynu; gwneuthur cynhwrf; tymhestlog, terfysglyd.—'Y rhai anwir sydd fel y môr yn dygyfor.' Esa. 57. 20. Jer. 46. 7. Mae y gair yn arwyddo y cynhwrf a'r aflonyddwch diorphwys sydd yn y môr, ac yn yr anwiriaid yn gyffelyb iddo. Y mae y gyffelybiaeth yn hardd ac yn dra chynnwysfawr; fel mae y môr yn dygyfor gan ryw gynhwrf ac aflonyddwch diorphwys, ei dônau yn cael eu taflu a'u chwalu gan wyntoedd, felly yr anwiriaid: nid oedd dim heddwch iddynt nac ynddynt. Y maent yn dygyfor ac yn aflonydd gan euogrwydd, ofnau, a gweithrediadau llygredigaethau cryfion, yn eu taflu, ac yn eu chwalu; fel y môr yn bwrw allan dom a llaid o fwriadau, dichellion, a gweithredoedd drwg. Mae eu ffyrdd yn flin bob amser; yn bwriadu drwg, ac yn chwythu yn erbyn eu holl elynion. Ps. 10. 5. Fel mae y mor yn agored i wyntoedd i chwythu arno, a'i gynhyrfu, felly y maent hwythau yn ddarostyngedig i ruthriadau a chynhyrfiadau y diafol, yr hwn sydd yn ddiflino ac yn ddiorphwys yn pechu ei hun, ac yn annog eraill yn mlaen â'r un gwaith. Jer. 48. 8.

DYHEU—O, (heu) chwythu, erthu, chwythu yn galed, erthychu.—'Y rhai a ddyheuant ar ol llwch y ddaear ar ben y tlodion.' Amos 2. 7.—'Dyheuadasant uwch ben y tlodion yn llwch y ddaear.' Dr. M. Sef y maent yn chwennych gweled y tlawd a'r truenus yn fwy gorwael a gresynol. Ymadrodd yn amlygu y creulondeb mwyaf. Gwel 1 Sam. 4. 12. 2 Sam. 13. 19. Job 2. 12. Ps. 69. 26. a 109. 16.

'Agorais fy ngenau, a dyheuais: oblegid awyddus oeddwn i'th orchymynion di.' Ps. 119. 131. Fel dyfroedd i'r lluddedig sydd ar ddarfod am dano gan syched, felly mae gwirioneddau dwyfol i'r plant bychain, sydd yn chwennychu didwyll laeth y gair. Maent yn hyfryd ac yn ddymunol—mwy dymunol nag aur, a melusach na dyferiad diliau mêl. Ps. 19. 10. Esa. 55. 1, 2, 3. Rhuf. 15. 4.

DYHIDLO, (hidlaw) dystyllo, defnynu, tywallt.—'Dyhidlaist wlaw graslawn, O Dduw, ar dy etifeddiaeth.' Ps. 68. 9. Edr. CWMWL.

DYHIR, (hir) sefyllian, dioberwr, diffaith; dyn diles. Act. 17. 5. W. S.

> Rhag y gwr twyllgar gwared fi,
> A rha drygioni 'r *dyhir*.
> *E. Prys*, (Ps. 43. 1.)

DYHIROGOD, (dyhir) diffaith, diles; puteiniaid.—'Aberthasant gyda dyhirogod.' Hos. 4. 14. 'Aberthasant gyda merched da.' Dr. M. Y gair *Heb.* קדש a arwydda *neillduad*, neu *ymroddiad i ryw waith*; pa un ai i'r Arglwydd a'i waith sanctaidd, ai ynte i bechod ac aflendid. Yn yr ystyr diweddaf, yn ddiammeu, y mae y gair i'w olygu yn y lle uchod, fel y mae amgylchiadau y fan yn dangos. Oblegid eilun-addoliaeth Israel, a'u puteindra oddiwrth yr Arglwydd a'i addoliad, mae yn bygwth eu rhoddi i fynu yn ddigerydd, a'u merched a'u gwragedd i bob aflendid cnawdol, ffiaidd, ac aflan. 'Nid ymwelaf â'ch merched pan buteiniont, nac â'ch gwragedd pan doront briodas.' Hos. 4. 14.

DYHUDDO, (hudd) gorchuddio, diddigio, heddychu.—'Pan ddyhudder fi tu ag atat.' Ezec. 16. 63. 'Pan wnelwyf iawn drosot.' Dr. M. Ystyr priodol y gair *Heb.* כפר yw *gorchuddio*. Y mae yn cael ei briodoli i iawn, am ei fod yn gorchuddio pechod. Exod. 32. 30. Ps. 32. 1. a 78. 38. a 85. 2. Jer. 18. 23. Rhuf. 4. 7. Y mae yn cael ei briodoli i'r pechadur dros yr hwn y gwneir yr iawn, am ei fod yn cael ei guddio a'i ddiogelu oddiwrth y gospedigaeth ddyledus iddo am ei bechod. Yn yr iawn y mae yr Arglwydd yn dyhuddo tu ag at bechadur, yn cymmodi âg ef, ac yn ei guddio ef rhag y gosp a haeddai yn gyfiawn. Y mae iawn o du Crist, y Mechnïydd; maddeuant o du yr Arglwydd, ar gyfrif yr iawn hwnw; ac edifeirwch diffuant o du y pechadur, yn bethau cysylltiedig an-

Digitized by Google

wahanol â'u gilydd, yn ngwaith Duw yn ymgymmodi â phechadur.

DYHYSPYDD—U, (hysbydd) sych, hysp; sychu. Nah. 2. 2. Job 14. 11.—'Dyhyspyddu Ninifeh,' a arwydda ei hollol ddystrywiad, fel afon wedi ei dyhysbyddu o'i dyfroedd.

DYLED—ION—WYR, (dyl) *Gr.* οφειλημα; *Llad.* DEBITUM: rhwymedigaeth; gofyn; gwasanaeth; yr hyn a fyddo rhan un i'w wneuthur. Y mae pob peth mae Duw yn y gyfraith yn ei ofyn oddi wrthym, yn gyflawn, ac yn ddyled arnom ninnau ei gyflawni. Y mae yn gyflawn ddyledus i ni garu Duw â'n holl galon, a'n cymydog fel ni ein hunain. Y mae palldod yn ein hufudd-dod i'r gyfraith, yn ein gwneuthur ni yn ddyledwyr i Dduw o iawn am ein hanghyflawnder, neu i ddyoddef cospedigaeth cymhesur â'r bai. Gan nas gallwn ni byth wneuthur iawn, nid oes genym un gobaith i ddianc rhag y gospedigaeth, ond trwy weddïo ar ein Tad o'r nef i faddeu ein dyledion. Mat. 6. 12. Luc 11. 4.

'Am hyny, frodyr, dyledwyr ydym, nid i'r cnawd, i fyw yn ol y cnawd.' Rhuf. 8. 12. Yr ydym ni yn ddyledwyr mawrion, ond nid i'r cnawd, sef i bechod, i'n chwantau llygredig, nac i'r diafol; ond yr ydym yn ddyledwyr mawrion iawn i Dduw, i'w gydnabod yn mhob peth; i ddiolch yn mhob dim; i'w wasanaethu a'i addoli; i roddi ein hunain yn gwbl iddo, gyrph ac eneidiau. Y mae ein dyled hwn yn feunyddiol, yn barhaus, ac yn dragywyddol. Y mae ein dyled i'r Arglwydd yn cyfateb i'w ardderchogrwydd, a'i berffeithrwydd; i'w ddaioni tu ag atom yn ein creadigaeth, ein cynnaliaeth, a'n prynedigaeth; i fawredd a gwerth annhraethol gwaith Crist drosom; i gariad, dyddanwch, amgeledd, a holl waith yr Ysbryd Glân ynom ni; ac i holl freintiau a bendithion y cyfammod tragywyddol. Yn addas y gallai yr apostol ddywedyd, 'Dyledwyr ydym!' Rhuf. 6. 7, 14. 1 Thes. 5. 8. Eph. 5. 20. Col. 3. 17.

DYLIF—O, neu DILUW, (llif) gorlif, ffrydiau, rhyferthwy; llanw, gorlanw.—Trwy ddylif mawr y boddodd Duw holl drigolion yr hen fyd, am eu pechodau, oddigerth Noah a'i deulu, ac ychydig o'r anifeiliaid ac o'r ehediaid—sef saith o'r anifeiliaid glân, ac o'r ehediaid, a dau o'r rhai aflan, a gadwyd gyda Noah a'i deulu yn yr arch. Gen. 7. 1—10. Yr amser y bu y dylif oedd y chwe chanfed flwyddyn o fywyd Noah, A. M. 1657, cyn Crist, 2343.* *Cyclopædia.* 'Rhwygwyd ffynonau y dyfnder mawr, a ffenestri y nefoedd a agorwyd;' (adn. 11.) hyny yw, rhuthrodd y dyfroedd allan o eigionydd cuddiedig yn mherfedd y ddaear, a'r cymylau a dywalltasant eu dyfroedd yn ffrydiau dibaid ar y ddaear, tros ddeugain niwrnod. Parhaodd y dylif i gynnyddu dros 'ddeng diwrnod a deugain a chant,' neu bum mis o amser, nes yr ymgryfhaodd y dyfroedd tu ag i fynu bymtheg cufydd, yn nghylch wyth llath yn uwch na'r holl fynyddoedd uchel dan y nefoedd. Ar yr ail ddydd ar bymtheg o'r ail fis, sef tua diwedd Hydref, y dechreuodd y dylif; tua diwedd Mehefin y dechreuodd penau y mynyddoedd ymddangos. Yn mhen deugain niwrnod gwedi hyny, sef tua dechreu Awst, yr anfonodd Noah y gigfran allan, i edrych a sychasai y dyfroedd oddiar wyneb y ddaear. Yn mhen pedwar diwrnod ar ddeg, sef tua chanol Medi, yr anfonodd allan y golomen, y drydedd waith, i edrych a dreiasai y dyfroedd, ac ni ddychwelodd hi mwy ato ef. Tua dechreu Tachwedd, sef yn yr ail fis, a'r seithfed dydd ar hugain o'r mis, yr aeth Noah a'i deulu allan o'r arch, gwedi bod ynddi flwyddyn a deng niwrnod. Gen. vi, vii, viii.

Y mae traddodiadau hanesiol am y dylif, gyd âg ychydig amrywiaeth o ran rhai o'r amgylchiadau, i'w cael yn mhlith y Cenedloedd Paganaidd, yn y rhan fwyaf o barthau y ddaear. Y mae amryw awdwyr cenedlig gwedi ysgrifenu am dano; sef Berosus, Hieronymus, Mnaseas, Nicolaus, Melo, Abydenus, Plato, Ovid, a Lucian. Yn mhlith y Brahminiaid yn yr India Ddwyreiniol, ac yn mhlith yr Indiaid yn Mexico a Peru, cafwyd traddodiadau coffadwriaethol amlwg am dano.* Yr oedd hen goffadwriaeth o'r dylif yn mhlith y Cymry, fel yr ymddengys oddiwrth y chwedl ganlynol:—

> Un o dair engir ddichwain Ynys Prydain; toriad llyn Llion, a myned bawdd hyd wyneb yr holl diroedd, oni foddes yr holl ddynion, namyn Dwyfan a Dwyfach, a ddiangasant mewn llong foel, ac o honynt hwy yr adeppiliwyd Ynys Prydain. *Triodd.*

Y mae arwyddion amlwg o'r cyffredinolrwydd o hono hyd heddyw, i'w cael yn mherfedd y ddaear, yn mhob parth o'r byd. Yn Ffrainc, yr Ital, Switzerland, Germany, Lloegr, a llawer iawn o wledydd eraill, ac ar benau y mynyddoedd pell oddiwrth y môr, ceir coedydd yn ddwfn yn y ddaear—dannedd ac esgyrn anifeiliaid—cregyn y môr—tywysenau o ŷd, ac i'w cael mewn mynor a challestr—pysgod gwedi eu troi yn geryg; ac nis gellir dychymygu pa fodd y gallent hwy ddyfod yno, ond trwy ryw gymysgfa hynod o'r môr a'r tir, fel yn y diluw. Yr ydys yn barnu fod y ddaear yn fwy llawn o drigolion nag yn bresennol, ac hwyrach yn cynnwys oddeutu 80,000 o fyrddiynau o drigolion; am hyny yr oedd yn rhaid fod y dylif yn gyffredinol, ac yn gwbl dros y ddaear, i ddystrywio yr holl liaws aneirif o drigolion arni. Pe na buasai felly, pa raid i Noah wrth arch i'w achub, a'i deulu, a'r anifeiliaid? hawdd fuasai iddynt fyned i ryw gongl heb eu gorchuddio gan y dyfroedd.

Yr oedd y ddaear wedi ei 'llenwi â thrawsedd;' (Gen. 6. 11.) sef, mae yn dra thebygol, â gelyniaeth a chreulondeb yn erbyn achos Duw a'i bobl yn y byd; yr oedd 'pob cnawd,' sef y cyffredinolrwydd o ddynion, 'wedi llygru eu ffordd ar y ddaear:' yr oeddynt gwedi ymroddi i ddaearoldeb a chnawdolrwydd—yr oeddynt yn bwyta, yn yfed, yn gwreica, yn gwra; buont anufudd pan ydoedd hir-amynedd Duw yn aros, a Noah, pregethwr cyflawnder, yn eu rhybuddio; yn y diwedd, er lliosoced oedd y blaid, ac er cryfed oedd y cawri, dygodd Duw y dylif ar fyd y rhai anwir, ac a'u dyfethodd hwynt. 1 Petr 3. 20. 2 Petr 2. 5. Yn y dyddiau rhagflaenol i'r dylif, yr oedd plaid gref gan Satan yn y byd; ei deyrnas gwedi ymdaenu yn gyffredinol dros y ddaear, ac achos Duw yn isel, a'i bobl ond ychydig o nifer. Etto gofalodd Duw am yr ychydig nifer hyny; cadwodd ei achos yn fyw, pan y dystrywiodd ar unwaith yr anwir ddynion; planodd ei eglwys yn y byd newydd, adnewyddodd ei gyfammod, a chwanegodd addewidion grasol. Mae dystryw yr hen fyd yn dangos diwedd sicr annuwioldeb, ac achos Satan a'i holl ddeiliaid, a buddugoliaeth yr eglwys ar ei holl elynion, yn yr amseroedd mwyaf cyfyng ac isel arni. Edr. ARCH NOAH. *Cyclopædia.*

'A'r holl genedloedd a ddylifant ato.' Esa. 2. 2. Yn y dyddiau diweddaf, pan y bydd 'mynydd tŷ yr Arglwydd gwedi ei barotoi yn mhen y mynyddoedd;' sef pan y bydd achos Duw yma yn y byd yn gadarn,

* Y mae ymchwiliadau manylach wedi cymeryd lle yn ddiweddar o barth i amseriad a chyffredinolrwydd y diluw. Cyfeirir y darllenydd yn neillduol at waith y *Professor* Wallace '*On the True Age of the World*,' o gylch yr amseriad, ac at draethodau medrus y Dr. J. Pye Smith, '*Scripture and Geology*,' Lyell's '*Principles of Geology*,' ac eraill, am natur ac effeithiau y rhyferthwy hwn. Mae llyfryn bach newydd ei gyhoeddi gan y Dr. King, Glasgow, '*The Principles of Geology explained and viewed in their relations to Revealed and Natural Religion*,' ag sydd yn cynnwys ymchwiliadau diweddaraf Daearyddwyr (*Geologists*) mewn dull poblogaidd.—C.

* Gwel y Dr. Kitto's *Daily Bible Illustrations.* Cyf. i. Mae y Dr. Kitto yn dadleu yn gadarn dros gyffredinolrwydd y dylif, yn erbyn y Dr. Pye Smith.—E.

Digitized by Google

yn uchel, ac yn ddyrchafedig, a chadernid holl lywodraethau y byd yn gadernid iddo; bydd yr holl genedloedd, yn holl gyrau y ddaear, yn troi eu hwynebau ac yn dylifo ato. Y gair 'dylifo ato,' yn y fan yma, a arwydda cywirdeb eu hadnabyddiaeth, cadernid eu hamcan, a lliosogrwydd eu nifer. Ezec. 17. 22, 23. Mic. 4. 1. Jer. 3. 16, 17.

**DYLUD—O**, (glud) glynu, dilyn, dyrnu.—'Na phenrhwyma eneu yr ych a vo yn dyludo'r yd.' 1 Cor. 9. 9. W. S.

**DYLLUAN—OD**, (dyllu) neu, medd y Dr. Davies, *dall-huan;* aderyn o'r rhyw hebogaidd. Y mae amryw fath o ddylluanod; megys y ddylluan wen; dylluan frech; dylluan rudd, yn cael ei alw hefyd, aderyn y corph; dylluan gorniog; dylluan glustiog; a'r coeg ddylluan.—Y mae un nôd neillduol iddynt i gyd, ac yn eu gwahaniaethu oddiwrth yr holl adar, sef bod eu llygaid fel llygaid y dywalgi *(tiger)* a'r cathod, gwedi eu ffurfio i ganfod yn well yn y cyfnos, nag yn nysgleirdeb ganol dydd. Y mae rhai o honynt, megys y ddylluan wen, yn gweled yn graff yn nhywyllwch duaf y nos. Y mae yr holl adar mân yn elynion iddynt, ac os canfyddant ddylluan allan y dydd, ymgasglant oddi amgylch iddi, dangosant iddi bob dirmyg ac anmharch; y mae hithau yn goddef y cwbl, gan nas gall weled pa le i ffoi, na pha fodd i niweidio ei gelynion, nes byddo cysgodau yr hwyr yn lleihau dysgleirdeb goleuni yr haul, a hithau, trwy hyny, yn gallel canfod. Y maent yn byw ar lygod, pryfed, &c. Y mae un ddylluan yn well na hanner dwsin o gathod i ddystrywio llygod. Dywedir gan hen ysgrifenydd, fod, yn y flwyddyn 1530, y llygod gwedi amlhau yn y morfeydd yn agos i Southminster, i'r fath radd, fel yr oeddynt yn dyfetha y glaswellt; ie, hyd yn nod y gwreiddiau. Ond yn y diwedd, difawyd yr holl lygod gan y dylluanod.

Yr oedd y תנשמת a gyfleithir *dylluan*, yn aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 17. Deut. 14. 16. Esa. 34. 11. Pa aderyn ydoedd hwn, nid ydyw awdwyr dysgedig yn cytuno. Rhai a farnant mai aderyn y bwn, neu bwncath y wern, a feddylir (Parkhurst); eraill, mai *ibis* yr Aipht ydoedd. Mae y LXX. yn cyfieithu y gair *ibis*. 'Pur yn ddiau yw pob peth i'r rhai pur;' am hyny nid yw o fawr ganlyniad yn bresennol i allel penderfynu pa aderyn ydoedd.

'Ydwyf fel dylluan y diffaethwch;' (Ps. 102. 6.) neu fel dylluan lleoedd diffaeth anghyfanneddol, yn unig, yn alarus, ac yn ddigalon; Duw wedi cuddio ei wyneb, a chyfeillion gwedi pellhau oddi wrtho. Oblegid ei dristwch, yr oedd yn ymbellhau oddiwrth bob cyfeillach ddynol. Y mae galar trwm yn caru neillduolrwydd, ac yn pellhau oddiwrth bob cymdeithas; yn neillduol pan fyddo y galar yn ysbrydol, a'r tristwch yn dduwiol, fel y gallo yr enaid dywallt ei gŵyn ger bron yr Arglwydd. Y mae y Psalmydd yn cyfansoddi y psalm hon yn mherson yr eglwys, yn nghaethiwed Babilon, neu mewn rhyw iselder arall; ac yn gosod allan brofiadau galarus y saint, yn aml, yn y byd drwg presennol. Mic. 1. 8.

**DYMA**, (yma) llyma, y lle hwn, y fan.—'Dyma amynedd a ffydd y saint.' Dat. 13. 10. Dyma yr amser y profir amynedd a ffydd y saint; a thyma yr amser yr ymddengys amynedd a ffydd y saint yn dra gogoneddus ac enwog, yn eu hymlyniad wrth yr Arglwydd mewn amseroedd blinion, ac mewn erlidigaethau mawrion a chreulawn. Edr. Yma.

**DYMCHWEL**, (chwel) gwrthdroi, dadymchwelyd. —'Gan ddymchwelyd eich eneidiau chwi:—yn dymchwelyd tai cyfain.' Act. 15. 24. Tit. 1. 11. Dyma waith y gau-athrawon yn nyddiau yr apostolion, ac yn mhob oes o hyny hyd heddyw. Y maent yn ofersiaradus, ac yn dwyllwyr meddyliau, yn dymchwelyd eneidiau oddiwrth y gwirionedd. 2 Petr 2. 18. Eu hymgais ydyw, fel offerynau yn llaw Satan, er mwyn hunan-glod a budr-elw, dad-wneyd y gwaith a wnaed trwy weinidogaeth y gwir athrawon; a thrwy anaefydlu a therfysgu eneidiau gweiniaid, y maent yn eu dyrysu, yn eu rhwystro, ac yn eu hanaddasu at bob gwaith da. Yn gyffredinol, y maent yn gosod pwysau mawr ar bethau bychain, yn hidlo gwibedyn, ac yn llyncu camel; yn bychanu y gwir athrawon, a gwaith Duw trwyddynt; yn anufudd ac yn afrywiog; ac yn byw dan lywodraeth eu nwydau afreolus, a'u hysbrydoedd chwerwon. Yn ddichellgar y maent 'yn ymlusgo i deiau,' yn llygru, ac yn dymchwelyd tai cyfain â'u cyfeiliornadau. 2 Tim. 3. 6.

**DYMUNO—IAD—OL**, (unaw) damuno, deisyfu, attolygu, erfyn; erfyniad, deisyfiad; hyfrydlawn, ceiswiw, tirion.—'Efe a ddyry i ti ddymuniadau dy galon.' Ps. 37. 4. Pan fyddo y galon yn ymddigrifo yn yr Arglwydd, y mae ei dymuniadau yn sanctaidd, yn ysbrydol, ac yn ddwyfol, ac felly yn un â gorchymynion ac addewidion sanctaidd Duw. Y mae pob dymuniad croes i gyfraith Duw yn ddymuniad pechadurus, ac ni rydd Duw sanctaidd mo hono, ond mewn ffordd o farn. Ps. 106. 15. Fel y mae Duw yn rhoddi i'w bobl galonau newyddion, y mae ynddynt syniadau a dymuniadau newyddion am bethau newyddion. Y mae yr 'hen bethau gwedi myned heibio,' o ran eu dymunoldeb, a serch y meddwl tu ag atynt. I'r galon newydd y mae pethau Crist a phethau yr Ysbryd yn ymddangos mor ddymunol ag ydynt yn angenrheidiol; ac nid oes dim a lenwa y meddwl puraidd, ond cael ei lenwi â hwynt, a chyflawn fwynhad o honynt. Fel y mae Duw yn anfeidrol gyfoethog, ac yn anfeidrol rasol—rhydd yn rhwydd, yn rhad, ond etto yn ddoeth, ac yn ben-arglwyddiaethol, ddymuniad ei galon. Y mae pob bendith ysbrydol gwedi eu trysori yn Nghrist er tragywyddoldeb. Tit. 1. 2. O anchwiliadwy olud Crist, y mae yr addewidion yn llawn; am y cyfranogiad o honynt, y mae yr Ysbryd yn cenedlu dymuniadau ffyddiog yn yr enaid; 'y rhai newynog a leinw efe â phethau da.—Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder: canys hwy a ddiwellir.' Luc 1. 53. Mat. 5. 6.

'Dymuniant yr holl genedloedd a ddaw.' Hag. 2. 7. Y mae yr Arglwydd Iesu yn dra dymunol ynddo ei hun, ac 'oll yn hawddgar;' (Can. 5. 16.) nid oes un gwrthddrych yn fwy dymunol i'r holl genedloedd i'w gael; mae yn addas iddynt, yn ddigonol, ac yn addawedig iddynt; y mae yr amser yn dyfod, pan y caiff yr holl genedloedd ei wir adnabod; ac y bydd yn ddymunol ganddynt; y gwasanaethant ef, ac yr ymfendithiant ynddo. Ps. ii, a lxxii. Daw atynt, ac a ddadguddir iddynt, yn holl fawredd a harddwch ei Berson, cyflawnder ei iechydwriaeth, a chyfoeth ei ras. Daw atynt fel y boreu-oleuni, pan gyfodo haul foreu-gwaith heb gymylau, â meddyginiaeth yn ei esgyll. 2 Sam. 23. 4. Mal. 4. 2.

'Efe a drodd fy nghyfnos ddymunol yn ddychryn i mi.' Esa. 21. 4. Y mae y prophwyd yn rhagfynegi dinystr Babilon gan y Mediaid a'r Persiaid, mewn dull ymadrodd hardd, bywiog a godidog; yn dynsodi Babilon, ac yn llefaru yn ei berson ei hun am yr hyn a ddygwyddai iddi a'i thrigolion.* Y 'gyfnos ddymunol' yr oeddynt yn hiraethu am dani, ac yn dysgwyl llawer o lawenydd a hyfrydwch ynddi, a drodd Duw yn ddychryn; llanwyd lwynau ei thrigolion â dolur; gwewyr a'u daliasant fel gwewyr gwraig wrth esgor. Adn. 3. Edr. Babilon.

'A'th ddymuniad fydd at dy ŵr.' Gen. 3. 16. Y

* 'It is a passage singular in its kind, for its brevity and force; for the variety and brevity of its movements; and for the strength and energy of colouring with which the action and event is painted.' Lowth.



Digitized by Google

mae amryw esbonwyr yn golygu תשוקתך *dy ddymuniad,* fel yn arwyddo chwant y rhywiau i'w gilydd; ond gan y priodolir ef i Abel (Gen. 4. 7.) rhaid fod iddo ystyr gwahanol. Y mae ei ystyr yn dra eglur, os ystyriwn fod dau ddull o ymadroddi yn yr iaith Hobraeg, i arwyddo parodrwydd un i wasanaethu y llall. Un a fynega astudrwydd allanol, a'r llall a arwyddn tymher dufewnol, a pharodrwydd y meddwl i ddangos parch. עיני אל יד *llygaid ar law.* 'Wele, fel y mae llygaid gweision ar law eu meistriaid, neu fel y mae llygaid llaw-forwyn ar law ei meistres.' Ps. 123. 2. *Sef,* y maent hwy yn sefyll gyda sylw manwl i gyflawni eu dymuniadau. Y llall ydyw y gair uchod, 'ein dymuniad fydd tu ag ato.' *Sef,* ni a fyddwn barod o galon i roddi iddo bob parch a gwasanaeth. Gwel Shuckford.

DYNE—AD, (ne) tywallt, gwehynu, gwallaw, dywallaw: tywalltiad.—'Yr hwn a ddineawdd ef arnom yn ehelaeth.' Tit. 3. 6. W. S.

DYN—ION, (dy-yn) *Heb.* אדם *(adam); Llad.* Homo: bôd dynol; y creadur o ddyn; gwrryw neu fenyw; gwrryw. Dyn bach, maban; dyn mwyn, dyn caruaidd. Y mae dyn, o ran ei greadigaeth, yn greadur ardderchog: rhoddodd ei Greawdwr ef yn ben ar y bydؙyma isod; (Gen. 1. 28.) ac y mae yn meddiannu galluoedd i feddylied, ac adfeddylied; i adfwriadu a gweithredu. Y mae yn greadur cymysgedig, ac yn grynodeb o'r greadigaeth; yn cynnwys corph o bridd y ddaear, fel yr anifeiliaid; ac ysbryd anfarwol, fel yr angelion. Dyn ydyw y gadwyn-dorch yn ngraddfesurfa y greadigaeth, ag sydd yn cylymu trigolion nefoedd a daear, creaduriaid rhesymol ac afresymol, â'u gilydd. Nid rhyw gynneddf yn perthyn iddo, ydyw enaid dyn, ond hanfod sylweddol ac anfarwol, a ddichon hanfodi heb y corph. Am greadigaeth, a chwymp dyn, Edr. Adda.

Y mae yr Iachawdwr yn cael ei alw '*y dyn* Crist Iesu—*Mab y dyn*' i arwyddo ei fod yn wir *ddyn,* ond nid *dyn yn unig—Verus sed non merus homo:* Perffaith Dduw a pherffaith ddyn, yn un Person.' 1 Tim. 2. 5. Mat. 8. 20. Edr. Crist, Cyfryngwr.——'Dyn Duw,' ydyw dyn mewn heddwch â Duw; trwy gyfammod yn eiddo Duw; yn llawn o Ysbryd Duw; ar ddelw Duw; a chwedi hollol ymroddi i Dduw a'i wasanaeth. 2 Tim. 3. 17.——'Y dyn pechod.' Edr. Anghrist.——'Yr hen ddyn,' ydyw yr anian lygredig sydd yn mhob dyn wrth naturiaeth, ag sydd wedi ymdaenu dros yr holl ddyn, ac yn gweithredu yn gryf yn mhob cynneddf o'i enaid, a phob aelod o'i gorph. Dyn ydyw oblegid cyflawnder ei aelodau—y mae ganddo ddeall, ewyllys, meddyliau, dychymygion, serchiadau, &c., oll yn llygredig, ac yn elyniaeth yn erbyn Duw. Nid oes dim o blaid Duw, a chyfiawnder, a sancteiddrwydd, mewn dyn dan y cwymp; ond y mae ynddo 'hen ddyn' yn gyflawn yn erbyn Duw. Y mae y corph hwn o bechod yn cael ei alw yn 'hen ddyn,' am ei fod yn tarddu o'r Adda cyntaf; y preswylydd cyntaf yn nghalon dyn; ac y mae yn rhaid iddo gael ei ddystrywio a'i ddyosg yn mhob un a achubir. Eph. 4. 24.——'Y dyn newydd—y dyn oddi mewn—dirgel ddyn y galon,' sydd yn arwyddo yr anian dduwiol, yr hon, yn ol Duw, a greuir yn y rhai a ad-enir, mewn 'gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd.' Eph. 3. 16. a 4. 24. Rhuf. 7. 22. 2 Cor. 4. 16. Col. 3. 9, 10. Y mae yn cael ei galw yn 'ddyn,' oblegid ei chyflawnder hithau hefyd; y mae pob peth perthynol i ddyn ynddi, ac yn gweithredu yn sanctaidd; sef deall, ewyllys, serch, syniad, ymadroddiad, a bucheddiad—y mae y cwbl *yn ol* Duw, yn tebygu i Dduw, mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd. Y mae yn cael ei galw yn 'ddyn newydd,' oblegid nad ydyw yn neb wrth naturiaeth, ond yn ddeilliedig o'r ail Adda, yr Arglwydd o'r nef; ac yn cael ei hadnewyddu yn y dyn gan yr Ysbryd Glân, trwy ras pen-arglwyddiaethol Duw. Tit. 3. 3, 4, 5. Er mai bychan a gwan ydyw yn ei chychwyniad, etto y mae yn gyflawn yn ei holl ranau. Yn 'dyosg yr hen ddyn, ac yn gwisgo y dyn newydd,' trwy nerth yr Ysbryd Glân, a weddai fod dyfal waith ein bywyd, yn mhob peth.——'Gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gyd âg ef, er mwyn dirymu corph pechod, fel rhagllaw na wasanaethom bechod.' Rhuf. 6. 6. Crist yn ei farwolaeth a wnaeth iawn dros *holl* gorph pechod, fel y cyfryw, yn ei bobl. Fel yr oedd holl gorph pechod, nid yn unig yn afiechyd mawr, ond hefyd yn *fai* mawr; corph beius, hollol groes i Dduw oedd, ac yn elyniaeth yn ei erbyn. Nid oedd bosibl ei ddystrywio, heb wneuthur iawn drosto; na'i ddystrywio yn gyflawn, heb fod yr iawn yn gyflawn; ond gan fod yr iawn yn gyflawn, y mae holl gorph pechod gwedi ei ddirymu a'i ddiaystrio, 'fel rhagllaw na wasanaethom bechod.' Y mae sancteiddhad, yn gystal a chyfiawnhad pechadur, yn tarddu oddiwrth aberth Crist; a golwg trwy ffydd ar Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, ydyw y moddion mwyaf effeithiol, o drefniad Duw, i farwhau ein llygredigaethau, a'n bywhau i Dduw. Y mae marwolaeth Crist, fel y mae yn iawn am bechod, yn farwolaeth i'r hen ddyn; y mae yn anghyfiawn iddo fyw, os gwnawd iawn drosto. Y mae bywyd Crist hefyd, yn fywyd i'w holl bobl, fel y maent hwy mewn undeb âg ef, fel eu Pen-cyfammodwr. 'Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd,' medd Crist. Ioan 14. 19.——'Fel y creai y ddau ynddo ei hun yn un dyn newydd, gan wneuthur heddwch.' Eph. 2. 15. Y mae y rhai oll a gredant, o'r Iuddewon a'r Cenedloedd, yn un dyn newydd yn Nghrist eu Pen. Col. 3. 2. Y maent oll yn un eglwys, yn gyfranog o'r un breintiau, a'r un ordinhadau ganddynt; yr un efengyl, a'r un Ysbryd yn rhoddi bywyd iddynt, ac yn eu huno hwynt â'u gilydd. Nid Iuddewon a Chenedloedd ydynt mwyach; y mae pob gwahaniaeth o'r fath gwedi ei ddileu yn Nghrist, a hwythau yn un dyn newydd yn heddwch Duw, ac mewn heddwch tragywyddol â'u gilydd. 'Dyn' ydynt o ran eu hundeb â'u gilydd, ac â Christ eu Pen; cyflawnder eu gras, a'u doniau ysbrydol; eu harddwch a'u defnyddioldeb i'w gilydd, ac i'r byd yn gyffredinol. 'Dyn newydd' ydynt, am eu bod yn perthyn i drefn, cyfammod, a chreadigaeth newydd; gwedi eu hadnewyddu gan yr Ysbryd Glân, â phob peth yn newydd a berthyn iddynt—sef cyfiawnder, sancteiddrwydd, gorfoledd, &c., undeb newydd â Christ, a pherthynas newydd â Duw, ac â'u gilydd trwyddo.

DYNESU, (nes) nesâu, dyfod yn agos, dyfod ger bron. Gen. 45. 4. 1 Sam. 14. 38.

DYNIAWED, DYNIEWYD, (iaw-ed) blwyddiad, bustach, enderig, eidion ieuanc. Mic. 6. 6.

DYNOETHI, (noethi) dihatru, amnoethi, arnoethi, dadguddio, hynoethi, diarcheni, dyosg; gwaradwyddo.—'Am hyny y dynoethais innau dy odre di dros dy wyneb, fel yr amlyger dy warth.' Jer. 13. 26. Cospedigaeth gyffredin ar ferched anllad oedd eu dynoethi, a'u gosod allan felly i olwg y byd; yr ydoedd hon yn ffordd o gyhoeddi eu beuai er eu gwaradwydd; felly y mae yr Arglwydd yn bwgwth gwneuthur â'r Iuddewon yn y geiriau hyn.

DYNOL, (dyn) yn perthyn i ddyn, dyniadol.—'Pechodau dynol,' ydyw pechodau y mae dynoliaeth dan y cwymp yn ddarostyngedig iddynt. Num. 5. 6.—'Mi a'i ceryddaf â gwialen ddynol.' 2 Sam. 7. 14. 'Gwialen ddynol,' ydyw gwialen ysgafn, dyner, na phery yn hir; nis gall dyn daro yn drwm nac yn hir. Mi a'i ceryddaf ef fel tad ei blentyn, ac nid fel barnwr y dienyddiedig. Deut. 8. 5. Job 5. 17. Ps. 89. 11. a 94. 12, 13. Diar. 3. 11, 12. Jer. 10. 24. a 30. 11.

Digitized by Google

1 Cor. 11. 32. Heb. 12. 5—11.——Y mae dynion drwg, hefyd, yn aml, yn llaw yr Arglwydd, fel gwialen i geryddu ei bobl. Ps. 17. 14. Esa. 10. 5, 6.

'Tynais hwynt â rheffynau dynol.' Hos. 11. 4. 'Rheffynau dynol,' a 'rhwymau cariad,' a arwyddant yr un peth. Y mae yr Arglwydd yn coffâu ei diriondeb tu ag at Ephraim: cymerodd ef erbyn ei freichiau, fel tad wrth ddysgu ei blentyn i gerdded;—arferodd 'reffynau *dynol*,' ac nid rheffynau *anifeilaidd*, tu ag atynt: gallasai eu gorchymyn hwynt gyd âg awdurdod a bygythiadau; ond, yn lle hyny, denodd hwynt yn garuaidd, ac yn dirion, yn y modd mwyaf addas i'w natur ddyoddef. Yr oedd yn gofalu na chai yr iau wasgu yn drwm arnynt i'w dolurio yn ei wasanaeth, a bwriodd atynt fwyd, fel y caent gynnaliaeth a chysur. 2 Cor. 6. 16. Ps. 125. 3. Lef. 26. 13. Ezec. 37. 29, 27. Ioan 12. 32.

'Rhodio yn ddynol,' ydyw rhodio yn ol dyn (*κατα ανθρωπον*) ac nid yn ol Duw, yn ol gair Duw, ac yn ol yr Ysbryd. 1 Cor. 3. 3. Rhuf. 8. 1, 27. Y mae 'rhodio yn gnawdol,' (*κατα σαρκα*) a rhodio yn ol dyn, yn arwyddo yr un peth; hyny yw rhodio, nid yn ol yr Ysbryd, ond yn elyniaethol i Dduw. Rhuf. 8. 6, 7.

'Temtasiwn ddynol;' *πειρασμος ανθρωπινος*, profedigaeth *gyffredin* i ddynion, ac nid peth anghyffredin a dyeithr; profedigaeth ysgafn a gwan—pob peth sydd ddynol, nis gall fod llawer o bwysau na grym ynddo. Y mae yr apostol yn annog y rhai yn mhlith y Corinthiaid oedd yn tybied eu bod yn sefyll, i edrych na syrthient; ac yn crybwyll iddynt y byddai eu syrthiad hwy yn fwy anesgusodol, gan nad oeddynt mewn un brofedigaeth neillduol ac anghyffredinol. Heblaw hyny, '*ffyddlawn* yw Duw, yr hwn ni âd eich temtio uwchlaw yr hyn a alloch.' Ni allai un brofedigaeth eu cyfarfod, nad allai Duw drefnu diangfa iddynt, yn nghyd â'r demtasiwn. 1 Cor. 10. 13.——Nid yw yr efengyl yn 'ddynol,' (Gal. 1. 11.) *ουκ εστι κατα ανθρωπον*. Nid yn ol dyn, ond yn y gwrthwyneb, yn ol Duw. Nid peth a ddaeth i galon dyn; ond dyfnion bethau Duw ydyw—y mae dyfnderoedd o ddoethineb, cariad, daioni, a gallu dwyfol ynddi yn ddadguddiedig. Er llesâd i ddyn y mae, ond nid o ddyn y tarddodd: ac nid ar ddyn y mae ei llwyddiant, a'i heffeithioldeb yn gorphwys. Y mae yr efengyl yn tarddu o Dduw yn gwbl; ac y mae ei gogoniant a'i llwyddiant yn gorphwys arno yn hollol; nid oes eisieu doethineb, awdurdod, trefniadau, na thraddodiadau dynol i'w haddurno a'i chynnorthwyo.* Y mae hi yn gyflawn ynddi ei hun, ac ni oddef ychwanegu ati. Efengyl Duw—efengyl Crist ydyw; ac y mae yn gyflawn o fendithion. Rhuf. 15. 29.

DYNWARED, (gwared) eilfyddu, efelychu, arddullio; gwawdio, gwatwar.—'Ond hwynt a'i dynwaredasant, ac a'i gwatwarasant.' 2 Cron. 30. 10. Dr. M. Sef, a'i gwawdiasant. 2 Cron. 36. 13.

DYODDEF, (ddef) goddef, ymoddef, ymaros; cynnal; caniatâu.—1. Goddef peth, neu ganiatâu iddo fod: 'Nis dyoddefodd Duw iddo wneuthur i mi ddrwg:' hyny yw, nis caniataodd Duw iddo, ond a'i hattaliodd ef. Gen. 31. 7.——'Na ddyoddef bechod ynddo:' sef cerydda am dano, ac ymdrecha ei attal. Lef. 19. 17. ——2. Goddef profedigaethau, gorthrymderau, a marwolaeth. 1 Thes. 2. 2. Heb. 2. 18. 1 Petr 3. 17. a 4. 19.——Y mae 'dyoddefiadau Crist,' yn arwyddo yr hyn a ddyoddefodd yn ei Berson ei hun dros bechodau; (Edr. ABERTH) neu ddyoddefiadau ei bobl er ei fwyn. 1 Petr 2. 21, 23. Heb. 2. 10. a 5. 9. 2 Cor. 1. 5. Col. 1. 24. Mat. 5. 11. Luc 6. 22.——'Dyoddef gyda Christ—fel Cristion—yn ol ewyllys Duw,' ydyw dyoddef mewn undeb â Christ, ac mewn ymlyniad ffyddlawn wrtho, ac ymorphwysiad arno; dyoddef er ei fwyn mewn modd sanctaidd, gostyngedig, amyneddgar, ac addfwyn. Rhuf. 3. 18. 1 Petr 4. 13, 16, 19. Edr. CYD-DDYODDEF.

Ewyllys Duw ydyw i'w bobl ddyoddef, i'w profi, eu puro, i ogoneddu ei ras ynddynt a thrwyddynt. Y mae yn fraint iddynt hwythau ddyoddef *yn ol* ewyllys Duw, yn blygedig, yn ostyngedig, yn addfwyn, yn nghyd â phob hir-ymaros. Diar. 3. 11. Esa. 27. 9. Heb. 12. 5—12. Os ewyllys Duw ydyw iddynt ddyoddef, mae yn rhaid fod rhyw ddybenion doeth a da i'w hateb, trwy hyny; gweddai iddynt hwythau gydnabod hyny yn eu holl ddyoddefiadau.

'Y rhai nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, a ddyoddefant yn gospedigaeth, ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef.' 2 Thes. 1. 8, 9. Er mor ofnadwy, cyfiawn, a thragywyddol, fydd y dyoddefiadau, etto cospedigaeth fyddant; am hyny, mae yn rhaid fod y personau yn dyoddef, yn euog o ddrwg cyfatebol i'r dyoddefiadau mawrion a thragywyddol hyn. Yn mawredd a thoster y gospedigaeth, gellir gweled mawredd y drwg a haeddodd y cyfryw ddinystr ofnadwy.

DYODDEFGAR—WCH, (dyoddef) amyneddus, hir-ymarhous, hwyrfrydig i ddig.—'Dyoddefgarwch Duw.' Rhuf. 2. 4. a 3. 25. Edr. AMYNEDD.——'Gan wybod fod gorthrymder yn peri dyoddefgarwch; a dyoddefgarwch brofiad.' Rhuf. 5. 3, 4. Y mae gorthrymder yn peri dyoddefgarwch, nid ynddo ac o hono ei hun, ond trwy y golygiadau y mae yr Arglwydd yn ei roddi iddynt ar ei drefn a'i ddybenion mewn perthynas iddynt, yn eu dyoddefiadau. Y mae yn dangos iddynt, mai nid rhyw ddamwain, neu ddygwyddiad ydyw eu gorthrymderau; ond mai efe sydd yn eu trefnu, o gariad, i ateb y dybenion goreu; eu bod yn fyr, yn ysgafn, ac yn odidog ragorol, o ran y Duw sydd yn eu trefnu, a'r dyben ynddynt; eu bod gwedi eu cydffurfio â Christ ynddynt; a bod tragywyddol bwys gogoniant yn eu canlyn. Ps. 39. 9. Rhuf. 8. 29. 1 Cor. 10. 13. 2 Cor. 4. 17, 18. Y mae dyoddefgarwch yn peri profiad mwy trwyadl o honynt eu hunain; o'u llygredigaethau a'u cyndynrwydd; hefyd, o wirionedd eu gras, eu ffydd, yn ymddiried yn yr Arglwydd danynt, a'u cariad yn glynu wrtho ynddynt. Y maent yn cael prawf neillduol o allu, tiriondeb, a doethineb Duw, yn eu cynnal danynt, yn eu cysuro ynddynt, ac yn trefnu diangfëydd iddynt o'u holl gystuddiau. 2 Cor. 2. 9. 2 Petr 2. 9.

DYOSG, (osg) diwisgo, dynoethi, diarchenu, dadwisgo, dihatru, diddilladu, diamhuddo, tynu oddiam. —Dyosg archenad; dyosg esgidiau oddiam draed.——'Dyosg yr hen ddyn—dyosg corph pechodau,' sydd ymadroddion i'r un ystyr; ac y maent yn arwyddo y rhanau hyny o sancteiddhad, ag sydd yn gynnwysedig yn marwhad a chroeshoeliad pechod, ac ymwrthodiad cyflawn â holl gorph pechod, yn ei amcanion, ei dueddiadau, ei syniadau, a'i chwantau llygredig. Y mae y gair *dyosg* yn arwyddo ein bod oll gwedi ein gwisgo, wrth naturiaeth, â holl gorph pechodau; hefyd, bod yr Ysbryd Glân yn gweithredu y cyfryw gyfnewidiad yn meddwl y rhai a sancteiddir, fel y maent hwy o'u gwirfodd, ac â'u holl galon, yn ymwrthod â'r hen bethau —'yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Ysbryd—yn croeshoelio y cnawd, a'i wyniau a'i chwantau.' Col. 2. 11. a 3. 9. Eph. 4. 22. Rhuf. 8. 13. Gal. 5. 24.

'Nid ydym yn chwennych ein dyosg, ond ein harwisgo.' 2 Cor. 5. 4. Er eu bod hwy, tra yn y babell hon, sef y corph, yn ocheneidio yn llwythog; etto, nid

* Nihil valet in evangelio humana sapientia, humana auctoritas, humanum placitum ac *δογμα*. Solum & merum evangelium prædicandum est; nihil quod sit *κατα ανθρωπον*. *Coccejus.*

Digitized by Google

eu blinderau, a'u llwythau yn y babell, oedd yr achos penaf ganddynt am eu chwennychiad i'w dyosg; ond gwedi cael eu gwisgo â sancteiddrwydd yma yn y byd, (adn. 3.) a chael prawf o'r dedwyddwch annhraethol, sydd wedi ei barotoi iddynt yn y tŷ tragywyddol, yn y nefoedd, y maent yn chwennych cael eu harwisgo â'r tŷ hwnw, fel y llyncer yr hyn sydd farwol gan fywyd. Y mae y geiriau yn gosod allan yn hardd, ac yn gyflawn, natur y cyfnewidiad a ddygwydd i'r saint yn angeu—*dyosg* ac *arwisgo* fydd; ymadael dros byth â phob peth sydd farwol, yn deillio oddiwrth yr hen Adda, a'i godwm erchyll, ac yn meddiannu yn gyflawn y bywyd tra helaeth a thragywyddol a ddaeth trwy yr ail Adda. Ni bydd dim yspaid o amser rhwng y ddau; erbyn y byddont gwedi eu dyosg, hwy a fyddant gwedi eu harwisgo. Os gwedi ein harwisgo â chyfiawnder Crist, ac â'r dyn newydd, nid yn noethion y'n ceir, am un mynyd; ond bydd y dyosg a'r arwisgo yn cymeryd lle ar unwaith. Y mae yr apostol yn golygu y corph megys gwisg am yr enaid; a phan byddo yr enaid gwedi ei ddyosg o'r wisg hon, bydd ganddo un arall i'w harwisgo yn y fan, 'adeilad gan Dduw—tŷ nid o waith llaw—tragywyddol—yn y nefoedd.' Yn y wisg hòno 'bydd yn cartrefu gyd â'r Arglwydd.' 2 Cor. 5. 8. Am y gogoniant hwn y mae yn ocheneidio, yn chwennychu, ac yn deisyfu ei fwynhau. Edr. DYN, ESGIDIAU, PEN.

DYRCHAFU—IAD—AEL, (dyrch) esgyn; mawrhau, mawrygu; esgyniad, arwyrain, archafael, cyfarchafael.—Y mae yr Arglwydd yn ddyrchafedig yn ei hanfod, fel y mae yn feddiannol ac yn gyflawn o bob perffeithrwydd a rhagoroldeb; y mae yn anfeidrol deilwng o gael ei ddyrchafu, ac y mae yn ddyrchafedig yn Sion, yn mhlith ei bobl. Ps. 92. 8. a 99. 2. Esa. 57. 15. Y mae ei enw, yn mhob dadguddiad o hono, yn ogoneddus, ac yn ddyrchafedig; y mae mawredd a dymunoldeb ynddo; addasrwydd dwyfol, a thiriondeb grasol. Neh. 9. 5. Esa. 12. 4.

Y mae dyrchafiad Crist i'r uchelder yn arwyddo iddo ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear, iddo gwblhau y gwaith perthynol iddo fel Cyfryngwr. Edr. DISGYN. Y mae ei ddyrchafiad yn gynnwysedig yn ei adgyfodiad—ei esgyniad—ei eisteddiad ar ddeheulaw y Tad—yn y rhoddiad iddo o bob awdurdod yn y nefoedd ac ar y ddaear—ac yn ei osodiad i fod yn Farnwr pawb. Ioan 3. 35. a 5. 22. Mat. 11. 27. a 28. 18. Ps. 68. 18. Eph. 4. 8. Dyrchafodd yn ei swydd fel offeiriad, yn rhinwedd ei aberth, a'r iawn a wnaeth, i ymddangos ger bron Duw, ac i eiriol yn y swydd hòno, dros ei bobl. Heb. 7. 26. Esgynodd fel brenin, yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion, ac i gymeryd meddiant o'r orsedd berthynol iddo, yn y swydd hòno, ac i deyrnasu, 'hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed.' 1 Cor. 15. 25. Eph. 1. 21, &c. Yr oedd Crist yn dyrchafu yn ei swydd, fel person cyffredin, yn cynnrychioli ei holl eglwys; ac felly yr oedd hithau yn cyd-ddyrchafu ynddo. Yr oedd dyrchafiad y Pen yn ddyrchafiad yr holl gorph hefyd. Aeth i'r cysegr trwy ei waed ei hun, gan gael i ni dragywyddol ryddhad. Heb. 9. 12. Col. 3. 1. Yr oedd gogoniant diamgyffred yn ei ddyrchafiad—llanwodd yr holl nefoedd â syndod a gorfoledd. 'Dyrchafodd Duw â llawen floedd, yr Arglwydd â sain udgorn.' Ps. 47. 5. a xxiv. a 68. 24, 25. Yr oedd y Duwdod yn gorfoleddu wrth weled y drefn fawr yn dyfod i ben mor ogoneddus; ac yr oedd yr angelion a'r gwaredigion yn cyd-orfoleddu wrth weled y priodoliaethau dwyfol yn cyd-ddysgleirio yn Mherson a gwaith y Cyfryngwr, a'r diafol gwedi cael ei faeddu a'i siomi dros byth, a'i deyrnas gwedi hollol ddystrywio.——Yr hwn sydd yn ddyrchafedig yn y nefoedd, a fydd hefyd yn ddyrchafedig yn mysg y cenedloedd ar y ddaear pan y caffont eu goleuo trwy yr efengyl, i'w wir adnabod, a'u hangen o hono. Ps. 46. 10. 1 Cron. 29. 11. Esa. 2. 11, 17. Esec. 38. 23. Dat. 16. 3, 4.

Efe yw dyrchafydd ei bobl—dyrchafydd eu penau, o byrth angeu, ac o'r tomenau. Ps. 3. 3. a 9. 13. a 27. 6. a 30. 1. a 37. 34. 1 Sam. 2. 8. Yn y dyfnder y mae yn eu cael oll, dan felldith, ac yn llygredig; oddi yno y maent yn cael eu dyrchafu i undeb â Christ; i heddwch â Duw trwyddo; i gyflwr o gyfiawnhad; i fod yn feibion i Ddnw; i fod yn unffurf â delw ei Fab; i gael buddugoliaeth ar y byd, y cnawd, a Satan; ar angeu a'r bedd; i fod yn etifeddion i Dduw, ac o ogoniant tragywyddol. Yn yr holl ystyriaethau hyn, efe ydyw eu dyrchafydd cyfiawn, grasol, galluog, a thragywyddol.

Y mae dyrchafu llygaid a dwylaw at yr Arglwydd, yn arwydd allanol o agwedd y meddwl yn dufewnol, o ran ffydd yn yr Arglwydd, a'n dysgwyliad dyfal wrtho am gymhorth a gwaredigaeth. Ps. 28. 2. a 86. 4. a 143. 8. a 119. 48.

'Pwy bynag a ddyrchafo ei hun, a ostyngir.' Mat. 23. 12. Luc 14. 11. a 18. 14. Pwy bynag a'i dyrchafo ei hun ger bron Duw, megys y Phariseaid; neu yn ei ymddygiad ym mhlith dynion, trwy ymofyn am y lle uchaf, a fydd yn sicr o gael ei ddarostwng; y mae Duw yn ei wrthwynebu ac yn ei ffieiddio; y mae gair Duw yn ei erbyn, am hyny nis dichon iddo lwyddo yn ei amcan anaddas. Y mae yn ddiystyr o Dduw, ac o'i bechod yn ei erbyn; y mae yr olwg arno yn wrthun i'r gradd eithaf, fel pe na byddai yn ddigon ganddo i bechu yn erbyn Duw, ond yn ymddyrchafu yn ei bechod; ac fel y dyn pechod, yn 'ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw.' 2 Thes. 2. 4. Un o reolau sefydlog llywodraeth Duw ar ei greaduriaid, yw i'r hwn a ddyrchafo ei hun gael ei ddarostwng. Y mae yn deilwng o'n sylw, nad oes un gair o eiddo yr Arglwydd Iesu yn cael ei ddywedyd mor aml a hwn; canfyddir ef, o leiaf, ddeg o weithiau yn yr efengylwyr. Mat. 18. 4. a 20. 26, 27. a 23. 12. Marc 9. 35. a 10. 43, 44. Luc 14. 11. a 18. 14. a 22. 26. Ioan 13. 14. Edr. OFFRWM.

DYRNAID—EIDIAU, (dwrn) llonaid llaw.—'Bydd dyrnaid o ŷd ar y ddaear, yn mhen y mynyddoedd.' Ps. 72. 16. Y mae y geiriau hyn yn gyffelybiaethol, ac yn gosod allan gynnydd teyrnas yr Arglwydd, o ddechreuad bychan iawn, megys 'dyrnaid o ŷd yn mhen y mynyddoedd,' lle amlwg iawn, etto, lle diffaith, annhebyg iddo gynnyddu llawer, er hyny yn cynnyddu mor rhyfedd, nes y byddo yn tebygoli i goedwig Libanus. Dyrnaid oedd yr eglwys yn nyddiau yr apostolion, yn Jerusalem: ac mewn llawer man, lawer gwaith, gwedi hyny; ond o'r dechreuad bychan hwn, cynnyddodd yn odidog, mewn lliosogrwydd nifer, mewn doniau ardderchog, ac mewn sancteiddrwydd nefolaidd. Ei phobl oedd fel gwellt y ddaear o amldra a harddwch; ei ffrwyth a ysgydwodd fel Libanus, o ran grym ffydd, gwresogrwydd cariad, a godidogrwydd doniau ei haelodau. Job 8. 7. Esa. 2. 2, 3. a 29. 17. a 30. 23. a 32. 16, 20. Mat. 13. 31, 32, 33. 1 Cor. 3. 6—9. Dat. 7. 9. Hos. 14. 5, 6, 7. Ps. 92. 12, 13, 14.

DYRNFEDD, (dwrn-bedd) lled llaw, neu fesur o bedair modfedd. Y mae dyrnfedd foel, a dyrnfedd bica, neu gorniog: dyrnfedd bica, yw dyrnfedd â'r fawd yn syth, ac yn mesur chwe modfedd. Y mae y Psalmydd yn golygu ei ddyddiau yn fyrion, ond yn fesuredig gan Dduw, yn dywedyd, 'Wele, gwnaethost fy nyddiau fel dyrnfedd;' neu, Wele, rhoddaist fy nyddiau o ddyrnfeddi. Ps. 39. 6.

DYRNOD—IAU, (dwrn) cernod, dwrn-ergyd. Y mae dyrnod, neu ddyrnodiau, yn arwyddo, yn aml, cystuddiau trymion; ceryddon Duw ar ei bobl, 2 Sam. 7. 14. Ps. 39. 10. Esa. 30. 26.—creulonder, trais, a

Digitized by Google

gorthrymder. Jer. 6. 7.—'O herwydd bod digofaint, gochel rhag iddo dy gymeryd di ymaith â'i ddyrnod.' Job 36. 18. Y mae digofaint yn erbyn pechaduriaid yn arfaeth, yn mygythion, ac yn marnedigaethau Duw. Y mae weithiau yn cymeryd ymaith â'i ddyrnod, heb ail daro: (Nah. 1. 9.) felly y gwnaeth â Herod, Ananias a Sapphira, ac â Nadab ac Abihu. Act. 12. 23. a 5. 5. Lef. 10. 1.

**DYRNU—WR**, (dwrn) arfer y dwrn, dwrn-waith, ffustio.—Y mae yn amlwg, oddiwrth yr ysgrythyrau, fod yn y gwledydd dwyreiniol wahanol ddull o ddyrnu, a gwahanol offerynau yn arferedig i hyny; ac i gyd yn wahanol iawn i'r dull a'r offerynau arferedig yn ein plith ni, yn y parthau hyn o'r byd. Enwir pedwar offeryn dyrnu yn Esa. 28. 27. sef ôg, mèn âg olwynion danneddog iddi, (Esa. 41. 15.) ffon, a gwïalen. Yr oeddynt hefyd yn arferyd ychain, ac anifeiliaid eraill, i sathru yr ŷd. Deut. 25. 4. Y mae yr un offerynau yn arferedig hyd heddyw yn y gwledydd hyny. Yr oedd eu lloriau dyrnu allan yn y meusydd, yn cynnwys darn o dir, wedi ei gauad i mewn â math o foel-glawdd o bridd. Yno byddent yn cludo yr ysgubau, ac yn eu taenu yn wastad, ac yn gyru yr ychain, yn llusgo yr ôg, neu y fèn ddanneddog, ar hyd-ddynt, i ysgar yr ŷd oddiwrth y gwellt, ac i ddryllio y gwellt yn fwyd i'w hanifeiliaid.

'Y mae yn nodedig,' medd Mr. Wolff, yn hanes ei fywyd yn Ceylon, (tu dal. 113.) 'yn yr anifeiliaid wrth ddyrnu fel hyn, na wnant na bisweilio na throethi tra fyddont wrth y gwaith; hyn a sylwais arno fy hun, gannoedd o weithiau.'

Yn cyfeirio at hyn, y mae yr Arglwydd yn gorchymyn peidio 'cau safn yr ŷch tra fyddo yn dyrnu.' Deut. 25. 4. Y mae pob creadur gwasanaethgar i ni yn deilwng o ymgeledd gyfatebol oddi wrthym; pa faint mwy y dylai ein gweinidogion, y rhai sydd yn ein gwasanaethu yn ffyddlawn, gael eu gwobrwyo yn addas? Trwy gyfatebolrwydd rheswm, y gweddai i'r rhai sydd yn llafurio yn nghylch iechydwriaeth eneidiau dynion gael cynnaliaeth gysurus ganddynt. 'Ai dros ychain (yn unig) y mae Duw yn gofalu? ynte er ein mwyn ni yn hollol y mae yn dywedyd?' 1 Cor. 9. 9, 10.

Arwydda dyrnu, yn gyffelybiaethol, dygn-flino, anrheithio, difrodi, dystrywio. Esa. 27. 12. a 28. 27. a 41. 15, 16. Mic. 4. 13. Hab. 3. 12.——Oddiwrth ddoethineb y llafurwr yn arferyd gwahanol offerynau i ddyrnu amrywiol rawn, rhai yn drymach, a rhai yn ysgafnach, y mae y prophwyd yn dangos doethineb yr Arglwydd yn ei amrywiol ragluniaethau a'i oruchwyliaethau tu ag at ei bobl. 'Nid âg ôg y dyrnir ffacbys; ac ni throir olwyn mèn ar gwmin:' ond mewn barn, ac wrth fesur, y mae ei holl ymddygiad tu ag atynt. Edr. Llawr.

**DYRYS-GOED**, coed cyd-blethedig, coed dyryslyd, prysglwyn; cauad-lwyn.—'Hynod oedd gwr, fel y codasai fwyeill mewn dyrys-goed.' Ps. 74. 5.——'Hynod fyddai (fel un yn dwyn [peth] i odidawgrwydd, yr hwn a godai) fwyeill mewn dyrys-goed.' Dr. M.

> I'w cherfio'r seiri goreu gynt,
> A roesan' wynt i'w *bwyeill.*
> *E. Prys*, (Ps. 74. 5.)

Y mae yn anhawdd penderfynu pa un ai y coed yn yr anialwch, cyn eu cwympo a'u haddasu at ryw waith, a feddylir wrth y dyrys-goed; neu, ynte, coed cydblethedig cywrain yn y deml. Yr ystyr yw, y mae yn dra amlwg, yr oedd coed o hynodrwydd gynt yn cael eu rhoddi i'r gwyr oedd yn adeiladu, ac yn cerfio y deml ogoneddus hon; ond yn awr ei dryllwyr sydd yn enwog, y rhai sydd yn bwrw cysegroedd Duw yn tân. 1 Bren. 5. 6, 8, 10, 18. 2 Cron. 2. 14, 16. a 36. 18. Jer. 46. 22, 23. Esa. 64. 11. 2 Bren. 25. 9. I ddybenion sanctaidd, doeth, a da, y mae yr Arglwydd yn goddef i'w elynion gael eu hewyllys mewn gradd, a llwyddo yn erbyn ei achos, a'i bobl yn y byd; i brofi a phuro ei bobl; i'w ogoneddu ei hun, yn ei ofal am ei eglwys, yn ei chyflwr isel; ac i ddangos cyfiawnder ei farn yn erbyn ei elynion. Ond nid hir y pery ymffrost ei elynion: 'gwneuthurwr iechydwriaeth o fewn y tir' yw yr Arglwydd; 'edrych ar ei gyfammod,' ac ni rydd 'enaid ei ddurtur i gynnulleidfa y gelynion.' Adn. 12, 19, 20.

**DYRYSNI**, (dyrys) prysgle, prysglwyn. Esa. 9. 18. Gen. 22. 13. Jer. 4. 29.

**DYSG—U**, *Gr.* διδασκω; *Llad.* Doceo: addysgu, athrawu, athrawiaethu.—Dysgu a arwydda, 1. Cael gwybodaeth o bethau, trwy wrandawiad ar eraill yn athrawiaethu, neu trwy sylwad y meddwl ei hun ar yr hyn sydd i'w ganfod yn ngwirioneddau, neu yn rhagluniaethau Duw. 1 Cor. 14. 3. Ps. 119. 71. Yn aml y mae y Psalmydd yn gweddïo ar yr Arglwydd ei ddysgu ef yn ei ddeddfau; yr hyn sydd yn dangos ei gydnabyddiaeth o'i dywyllwch, yn ei anaddasu i ddeall gwirioneddau Duw, er eu dadguddio iddo. Nid oes neb ond Duw a ddichon ddysgu pechadur tywyll. Y mae Duw yn dysgu ei bobl yn wirioneddol, yn gyflawn, yn effeithiol, ac yn dirion iawn. Mat. 11. 29. Ioan 14. 28. Y mae yn peri iddynt ddeall y gwirionedd, yr *holl* wirionedd, yn y cysondeb o hono; a'r rhagor sydd rhwng y gwirionedd a chyfeiliornadau; yn cymmodi y meddwl â'r gwirionedd, ac yn rhoddi profiad o'i rinwedd; yn nerthu i rodio yn ol y gwirionedd, a phwyso arno. Ps. 119. 12, 26, 27, 66, 108, &c. Edr. Dadguddio.——2. Dysgu, hefyd, a arwydda efelychu, arddullio, neu ddilyn ôl rhyw un; gwneuthur fel y gwnaeth yntau. Felly y darfu i'r Iuddewon ddysgu gweithredoedd y Cenedloedd, sef eu canlyn hwy yn eu gweithredoedd eilun-addolgar halogedig. Ps. 106. 35.——3. Adnabod meddwl eraill. Gal. 3. 2.——Y mae rhai yn 'dysgu bob amser, ac heb allu dyfod un amser i wybodaeth y gwirionedd.' 2 Tim. 3. 7. Y gwragedd llwythog o bechodau, yn cael eu harwain gan amryw chwantau, y rhai hyny a ddwg y gau athrawon yn gaeth, a chan ba rai y maent yn dysgu; ond am nad ydynt yn clywed y gwirionedd gan y gau athrawon hyn, pa fodd y dichon iddynt ddyfod i wybodaeth o hono? Megys y safodd Jannes a Jambres yn erbyn Moses, felly y mae y rhai hyn hefyd yn sefyll yn erbyn y gwirionedd; pa fodd, gan hyny, y gallant ddyfod i wybodaeth y gwirionedd, nes darostwng yr elyniaeth yn eu calonau yn ei erbyn? Gwrthwynebed y sawl a fyno y gwirionedd, y mae y gwirionedd yn gryf, ac a lwydda yn sicr yn y diwedd.

'Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd.' Heb. 5. 8. Dysgodd Crist ufudd-dod, nid fel yr ydym ni yn dysgu ufudd-dod, sef dysgu i adnabod ein dyledswydd, a chael ein cyfarwyddo pa fodd, a'n nerthu i'w chyflawni; nid ydoedd angen hyn ar Grist; yr oedd yn gwbl hysbys o bob peth, ac yn barod i holl ewyllys ei Dad; ond dysgodd ufudd-dod yn brofiadol, trwy weithredu ufudd-dod, a hyny yn yr amgylchiadau mwyaf anhawdd i ufuddhau. Phil. 2. 8. Galwyd am holl rasau ei ddynoliaeth sanctaidd i weithrediad bywiog a nerthol; sef ei ffydd, ei ostyngeiddrwydd, ei hunan-ymwadiad, ei addfwynder, ei amynedd, a'i gariad. Gweithredodd yr holl rasau hyny yn gyflawn, ac yn ogoneddus, yn ei holl ddyoddefiadau. Y dyoddefiadau a alwodd yn neillduol am eu gweithrediadau. Yr oedd ufudd-dod gwirioneddol, cyflawn, a gogoneddus, yn ei holl ddyoddefiadau. Ynddynt dysgodd yr hyn na elwir neb arall byth i'w ddysgu; sef beth ydyw i un dibechod ddyoddef dros bechaduriaid; i un cyfiawn ddyoddef dros yr anghyfiawn. Ni bu, ac ni bydd byth, y fath ufuddhawr, na'r fath ufudd-dod. Yr ydoedd ei ufudd-dod yn hyn, yn unigol, ac yn neillduol; ac nis dichon neb byth

Digitized by Google

amgyffred yn gyflawn am dano: ond yn gymaint a dyoddef o hono ef gan gael ei demtio, dichon gynnorthwyo y rhai a demtir. Y mae yn drugarog, ac yn archoffeiriad ffyddlawn. Heb. 2. 17, 18.——Nid oes neb ond y prynedigion, canlynwyr yr Oen, a all ddysgu y gân am brynedigaeth, a rhoddi y gogoniant yn gyflawn i'r hwn yn unig y mae yn deilwng, sef i Dduw a'r Oen, Dat. 14. 3.

DYSGAWDWR. Edr. ATHRAW.

DYSGEDIG—ION, (dysg) un wedi cyrhaedd gwybodaeth trwy ddysgeidiaeth; un gwedi ei addysgu.—'A Moses oedd ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aipht.' Act. 7. 22. Bod yr Aiphtiaid mewn cymeriad mawr am eu dysgeidiaeth, mewn oesoedd wedi dyddiau Moses, sydd eglur oddiwrth y ganmoliaeth a roddir i ddoethineb Solomon, 'ei fod yn fwy na holl ddoethineb yr Aipht.' 1 Bren. 4. 30.

DYSGEIDIAETH. Edr. ATHRAWIAETH.

DYSGL—AU, (ysgl) *Llad.* DISCUS: llestr, cawgen, bwydiar. Yr oedd llawer o ddysglau yn perthyn i wasanaeth y babell, yn angenrheidiol i'r bwyd-offrwm, ac yn cynnwys cig yr aberthau, pan yr oedd yr offeiriaid yn ymborthi arnynt. Nid oedd y dysglau arian tywysogion y llwythau yn perthyn i wasanaeth y cysegr; canys yr oedd yn rhaid i'r rhai hyny fod i gyd o aur; (Exod. 25. 29.) ond yr oeddynt yn perthyn i wasanaeth y cyntedd, ac allor y poeth-offrwm. Yr oedd pob un o honynt yn pwyso 130 o siclau.

DYSGLAER—EIRIO, (dys-claer) *Gr.* *Σελαγεω*; ysplenydd, ech-dywynedig, claer-wych, harddwych, tryloyw.—Gelwir barnedigaethau Duw, 'Ei gleddyf a'i waew-ffon ddysglaer,' o herwydd eu bod hwy yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn ofnadwy iawn. Deut. 32. 41. Hab. 3. 11.——'Gwisgoedd dysglaer,' a arwyddant, purdeb, sancteiddrwydd, ac ardderchogrwydd gogoneddus; ac yn aml yn ddarluniad o rai yn gweinyddu mewn swyddau goruchel, ac yn arwydd o ardderchogrwydd y personau, a'u zel a'u ffyddlondeb yn eu gwaith sanctaidd. Marc 9. 3. Luc 9. 29. a 24. 4. Dat. 15. 6. a 19. 8.

Goleuni dysglaer oedd, yn aml, yn arwydd o'r presennoldeb dwyfol, yn gweithio yn dirion, yn rasol, ac yn ogoneddus, fel Duw yr iechydwriaeth, yn ei oruchwyliaethau tu ag at ei eglwys. Exod. 24. 10. 2 Sam. 22. 13. Ezec. 1. 4. a 8. 2. a 10. 4. Act. 26. 13. 2 Thes. 2. 8. Edr. CWMWL.

Yr oedd dysgleirdeb croen wyneb Moses, gwedi bod gyda Duw ar y mynydd, yn arwydd o berffeithrwydd gogoneddus y gyfraith, yn nghyd â holl osodiadau cysgodol yr oruchwyliaeth hòno, fel y gosodent allan, trwy arwyddion cysgodol, yr Arglwydd Iesu, a'i iechydwriaeth. 2 Cor. 3. 7.

'Yr hwn, ac efe yn ddysgleirdeb ei ogoniant ef.' Heb. 1. 3. *ος ων απαυγασμα της δοξης*, llewyrchiad, pelydriad, arddysgleirdeb y gogoniant. Nid yw y gair yn cael ei arferyd mewn un man arall yn yr holl ysgrifeniadau sanctaidd, ond yn y lle hwn. Y mae awdwr y llyfr a elwir Doethineb Solomon, (pen. 7. 26.) wrth roddi clod doethineb, yn ei galw, 'dysgleirdeb y goleuni tragywyddol.' Mae y geiriau, 'dysgleirdeb ei ogoniant,' yn gyfieithiad agos iawn o'r geiriau yn Ezec. 10. 4. את נגה כבד יהוה *dysgleirdeb gogoniant IEHOFAH.* Y mae yn dra thebygol fod y geiriau yn cyfeirio meddwl yr Hebreaid at ryw beth cysgodol yn eu plith, ag oedd yn eu haddysgu yn y dirgelwch mawr hwn. Gelwir yr arch hefyd, 'y gogoniant,' 'ei brydferthwch.' 1 Sam. 4. 22. Ps. 78. 61. Y mae Crist yn ateb yn gyflawn i'r holl arwyddion dysglaer o ogoniant Duw yn eu plith, ac y mae yr apostol yn galw eu meddyliau oddiwrth y cysgodau at y sylwedd. Mae yr apostol yn llefaru am berson yr Arglwydd Iesu, yr hwn trwyddo ei hun a burodd ein pechodau: ac y mae yn dangos ei fod yr hyn nas dichon un creadur, na'r holl greaduriaid yn un, byth fod, sef, 'dysgleirdeb y gogoniant dwyfol.' Mae o'r un hanfod dwyfol a'r Tad; y mae yr un gogoniant a'r dysgleirdeb hanfodol yn y naill a'r llall; mae Crist yn ddelw neu yn amlygiad perffaith y Duw anweledig i ni: 'Y neb a'm gwelodd i,' medd Crist 'a welodd y Tad:—Myfi a'r Tad un ydym.' 'Unrhyw yw y Tad, unrhyw yw y Mab, ac unrhyw yw yr Ysbryd Glân.' Ioan 1. 14. 2 Cor. 4. 4. Col. 1. 15. Edr. DELW. Y mae rhai yn meddwl fod y geiriau yn gyfeiriad at yr haul a'i belydr. Y mae yn sicr fod yr Arglwydd Iesu, y gair Dwyfol, o ran ei berson, ei swyddau, a'i weithrediadau iachusol tu ag at ei bobl, yn cael ei gyffelybu i'r goleuni, yn ei effeithiau tirion ar y byd naturiol. Gwel 2 Sam. 23. 4. Esa. 9. 2. a 49. 6. a 60. 1, 3. Mal. 4. 2. Luc 1. 78. a 2. 32. Ioan 1. 4—9. a 8. 12. a 12. 35, 36, 46. Yn ysgrifenu at yr Hebreaid, mae yr apostol, yn y lle cyntaf, yn hysbysu iddynt fawredd dwyfol a gogoneddus Person y Cyfryngwr: yn ei alw yn Fab Duw—dysgleirdeb y gogoniant— a gwir lun Person y Tad. Geiriau sydd yn dangos ei fod yn *wahanol* berson, ac etto yn un â'r Tad, yn ogyfuwch mewn hanfod a phob perffeithrwydd. Y mae yn well na'r angelion, ac yn etifeddu enw mwy rhagorol na hwy. Y mae yn cynnal pob peth; am hyny, y mae pob peth crëedig fel diddim mewn cymhariaeth iddo. Dyma y Person, yr hwn yn ei anfeidrol fawredd, sydd yn llenwi yr holl swyddau yn a thros yr eglwys, er ei hiechydwriaeth.

DYSGWYL—IAD—FA, (gwyl) edrych am, neu aros am un, ymaros, gobeithio.—Y mae yr Arglwydd yn 'dysgwyl i drugarhau.' Esa. 30. 18. Y mae yr Arglwydd, fel un â bendith ganddo, yn barod i'w chyfranu; ond mae dynion yn anmharod i'w derbyn; yn lle eu taro am eu hynfydrwydd pechadurus a'u gwrthnysigrwydd, mae yn goddef, yn aros, yn dysgwyl i drugarhau. Gŵyr fod eisieu trugaredd arnynt, ac nad oes ond ei drugaredd ef a ddichon eu hachub: mae yn dysgwyl am adeg addas er ei ogoniant ei hun, a'u gwir lesâd hwythau, i'w gwaredu a'u cysuro. Y mae Duw yn trugarhau mewn amser addas, gyd â'r doethineb mwyaf. 'Dysgwyl i drugarhau,' a arwydda ei fod yn arfaethu trugarhau, yn bwriadu, ac yn hoffi trugarhau; hefyd ei fod yn gweinyddu trugaredd yn y ffordd, ac yn yr amser goreu, ac ystyried pob peth. Nid yw ei amser ef a'n hamser ni yn cyfateb yn aml; ond yn ei amser ei hun y gwna efe bob peth. Ioan 2. 4. a 7. 6.

Gwaith ei bobl yn 'dysgwyl wrth yr Arglwydd,' a arwydda bod eu hedrychiad arno, a'u gobaith ynddo fel eu hunig noddwr a'u gwaredwr, a'u parodrwydd i ufuddhau iddo, fel eu Harglwydd a'u Brenin. Ps. 55. 3, 5. a 27. 14. a 123. 2. a 130. 5, 6, 7. a 131. 3. Diar. 20. 22. Mae pob annogaeth i ddysgwyl wrtho; gwedi rhoddi i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr; wedi trugarhau wrth filoedd o'r fath bechaduriaid a ni; ni waradwyddir neb a ddysgwyliant wrtho—dysgwyliodd ef lawer wrthym ni—ac efe a ŵyr oreu yr amser i drugarhau. Ond y mae yn weddus fod dysgwyliad pawb wrtho, mewn ffydd, yn ostyngedig, yn amyneddgar, yn wyliadwrus rhag pob peth a fyddo yn ei anfoddloni, ac yn dyfal gyrchu at ei holl ewyllys, a'i gynghor. Trugaredd ryfedd yw, i bechadur, fod lle i ddysgwyl; nid oes dim lle, na sail i ddysgwyl am drugaredd yn uffern; y mae heb ei haddaw i'r preswylwyr yno.——Yr oedd iechydwriaeth yr Arglwydd gan yr hen Jacob i ddysgwyl am dani, pan yr ydoedd pob peth arall yn pallu iddo. Gen. 49. 18.

DYSGYBL—U—ION—IAETH, *Llad.* DISCIPULUS: ysgolhaig, canlynwr, dysgwr; un yn dysgu gan arall. Arwydda, yn y Testament Newydd, credadyn, Cristion, canlynwr i Iesu Grist. Yn yr efengylau, yn gyffredin, arwydda yr apostolion, y rhai a ddysgasant

Digitized by Google

gan Iesu Grist, fel eu hathraw; ond yn yr Actau a'r Epistolau, arwydda canlynwr i Iesu Grist, yr hwn sydd am ei ddysgu yn y gwirionedd am dano, a bod yn ganlynwr iddo.——Dysgyblion Ioan, oedd y rhai a ddysgwyd gan Ioan, ac yn ganlynwyr iddo. Mat. 9. 14. Ioan 1. 35. Luc 11. 1.

DYSPAIDD—EDIG, (yspaidd) mab dyspaddedig; ystafellydd.—Nid oedd i un dyspaidd ddyfod i gynnulleidfa yr Arglwydd. Deut. 23. 1. Nid oes i ni feddwl fod y gwaharddiad hwn yn cyrhaedd mor belled a difreinio y dyspaddedig o freintiau cymdeithas wladol, na manteision crefyddol hanfodol i wir grefydd; ond yn unig yn eu nodi â rhyw wahaniaeth anmharchus oddiwrth eraill. Hwyrach eu bod yn cael eu cauad allan o bob swydd yn y gynnulleidfa, a'u bod yn cael eu hattal rhag ddyfod i gynnulleidfa Israel i addoli, neu ymuno yn y gwleddoedd sanctaidd; ond eu bod i addoli y tu allan, fel yr oedd yn ganiataol i'r cenedloedd dienwaededig wneuthur. Yr ydoedd y gyfraith hon yn tueddu i attal rhieni rhag anafu eu plant, yr hwn ydoedd arferiad tra chyffredin yn y gwledydd a'r oesoedd hyny. Nid oedd un offeiriad âg anaf arno, i offrymu bara ei Dduw; 'Ni chaiff un gwr y byddo anaf arno nesâu.' Lef. 21. 17—21. a 22. 22, 23, 24. Ond yn lle eu cau allan, y mae yr Arglwydd Iesu yn iachâu yr anafus; ïe, pob clefyd, a phob afiechyd. Gal. 3. 28. a 6. 15. Esa. 56. 3.

DYSTAIN, (tain) *ystiwart*, pen-swyddwr; goruchwyliwr: ynad llys; rheolwr.

> Y *dystain* a ddyly rannu y llettŷau; iddo ei hunyn nesaf i'r llys, a'r holl swyddwyr gyd âg ef; efe y sydd ben ar yr holl swyddwyr. *Cyfreithiau Cymreig.*

Y geiriau שר הטבחים a gyfieithir *dystain*, yn Gen. 37. 36. a 39. 1. a 40. 3, 4. a arwyddant pen y cigyddion, neu pen y dienyddwyr, neu blaenor y gosgordd-lu. Rhai o'u gosgordd-lu oedd y dienyddwyr gan y tywysogion gynt. Un c'i osgordd (σπεκουλατωρα) a anfonodd Herod i dori pen Ioan Fedyddiwr. Marc 6. 27. Y gair טבח a gyfieithir *côg*, sef un yn lladd anifeiliaid, yn 1 Sam. 9. 23, 24. a 8. 13.

DYSTAW—RWYDD, (taw) dison, disiarad, didrwst; tawedogrwydd.—'Dysgwyl yn ddystaw am iechydwriaeth yr Arglwydd,' yw dysgwyl yn ostyngedig, yn amyneddus, yn ddirwgnach, ac yn ddiolchgar am le i ddysgwyl. Felly gweddai i bechadur ddysgwyl wrth y Duw y pechodd yn ei erbyn; a da fydd hyny iddo yn y diwedd. Galar. 3. 26.——'Eistedd yn ddystaw,' yw eistedd yn ddiswn, ac yn ddigynhwrf, a digyffro. Felly y gwnaeth merch y Caldeaid er ys oesoedd. Esa. 47. 5.——'Llef ddystaw fain,' yw llef isel, yn dwyn meddwl eglur i'r person y cyfeirir hi ato, ond yn anadnabyddus i eraill; y fath ydyw llef yr Ysbryd trwy yr efengyl, yn llefaru yn nghalon y pechadur, i'w blygu ger bron Duw, i ddysgwyl yn ddystaw am iachawdwriaeth. 1 Bren. 19. 12. Ps. 89. 15. Zech. 4. 6. Iago 3. 17.

Yr ydoedd awdurdod dwyfol yr Arglwydd Iesu yn ymddangos yn hynod, pan lefarai wrth y môr, 'Gostega, dystawa—a'r gwynt a ostegodd, a bu *tawelwch mawr.*' Ac wrth y cythraul aflan, 'Dystawa, dos allan o hono—a'r cythraul a aeth allan o hono.' Marc 4. 39. Luc 4. 35.——'Disgyn i ddystawrwydd,' yw disgyn i wlad y meirw, y rhai ni foliannant yr Arglwydd. Ps. 115. 17. a 94. 17. Job 3. 17, 18.——'Dystewi yn yr Arglwydd,' sef ymostwng iddo, ymorphwys arno, ac ymlonyddu ynddo, oddiar olwg ar ei ben-arglwyddiaeth, ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni. Nid oes le i'n diogelu rhag ofnau a pheryglon, ond yn yr Arglwydd. Os efe sydd wrth y llyw, y mae yn weddus i bawb yn y llong fod yn ddystaw, er mor beryglus y dichon ymddangosiadau fod. Ps. 37. 7.——Y mae yr Arglwydd yn ddystaw wrth un pan na byddo trwy y gair yn ei argyhoeddi, yn goleuo, yn hyfforddi, yn ceryddu, ac yn ei gysuro, nac yn gweithredu iechydwriaeth drosto. Ps. 28. 1. Barn. 18. 9. 1 Bren. 22. 38.

DYSTRYCH, (ystrych) ewin, ysgai.—'Can wyned a dystrych y dôn.'

> Y gwaethum hyn oedd ddrwg,
> Yn dy lân olwg *dystrych*
> *E. Prys.* (Ps. 51. 4.)

DYSTRYW—IO, *Llad.* DESTRUCTIO, DESTRUO; *Saes.* DESTRUCTION, DESTROY; dinystr, dystrywedigaeth; dinystrio, difrodi, dyfetha. Edr. DINYSTR. Job, yn llefaru am fawredd Duw o ran ei wybodaeth a'i allu, a ddywed, 'Mae uffern yn noeth ger ei fron ef, ac nid oes dô ar ddystryw.' Job 26. 6. Wrth uffern a dystryw, yr un peth a feddylir; dystryw yw uffern; dystryw dynion a'u holl gysuron, dros byth; dystryw eu cyrph a'u heneidiau, eu parch a'u gwychder, &c.; dystryw cyflawn o'r cwbl yw, yn ddifeddyginiaeth, ac yn ddiddarfod. I ddystryw mae ffordd lydan pechod yn arwain. Er nas gwyddom yn mha le mae uffern, beth sydd yn cael ei wneyd, na pheth a ddyoddefir yno, na pheth a ddaeth o'r rhai a ddystrywiwydyno, etto gŵyr Duw; nid oes dô ar ddystryw iddo. Gŵyr ef holl ddirgelion uffern, holl ddichellion y cythreuliaid, holl ddyfnderoedd y poenau, a holl waelodion y trueni sydd yno; os felly, pa faint mwy y gŵyr holl ddirgelion calonau meibion dynion? Ps. 139. 8. Diar. 15. 11. Esa. 14. 9. Amos 9. 2. Heb. 4. 13.

'Dinas dystryw y gelwir un.' Esa. 19. 18. Mae rhai copiau o'r Bibl Hebraeg yn darllen החרס yn lle ההרס *dinas yr haul*, ac nid *dinas dystryw*. Llawer a ysgrifenwyd gan feirniaid dysgedig yn nghylch yr enw hwn; a pha ddinas a feddylir; ond gan fod yr Esgob Lowth yn gadael y peth heb ei benderfynu, rhyfyg fyddai i mi ymgais â hyny. Y mae Vitringa ac eraill, yn barnu mai Heliopolis, dinas hynod am ei heilunaddoliaeth, a feddylir; fel pe buasai hyny yn arwydd hynod o allu buddugoliaethol yr efengyl, fod dinas mor nodedig am ei heilun-addoliaeth yn lefaru iaith Canaan, neu yn proffesu crefydd Canaan. Gwel Vitringa a Lowth *in loco.*—Prideaux's *Connect. p.* 2. *b.* iv.—Dr. H. Owen's *Enquiry into the Present State of the* LXX. *Vers.*—Dr. Kennicott's *Dissert. General*, *p.* 10., *sec.* xxi.

DYSYLU, (sylu) sylweddu, cryfhau. seilio.—'Mal gwedy eich gwreiddier a'ch dysyler yn-cariat.' Eph. 3. 18. 'Gwedy dysylu sail y ffydd.' W. S.—Argument yr Epistol at y Rhuveiniaid.

DYSYML, (syml) cywir, didwyll, annichellgar.—'A Jacob oedd wr dysyml, yn cyfanneddu mewn pebyll.' Gen. 25. 27.—'A Jacob oedd wr perffaith, yn cyfanneddu mewn pebyll.' Dr. M. *Heb.* תם *perffaith, cyflawn:* yr un gair ag a arferir am Noah, Job, ac eraill; arwydda, nid yn unig fod Jacob yn wr cywir, syml, annichellgar, yn ei ymddygiad tu ag at ddynion; ond hefyd, ei fod yn wr duwiol, yn ofni Duw, fel Job, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni; yn byw fel pererin a dyeithr yma yn y byd.

DYWEDYD, (gwedyd) llefaru, adrodd.—1. Ewyllysio ac erchi gyd âg awdurdod, gallu, ac effeithioldeb. Gen. 1. 3, 6, 9.——2. Haeru, adrodd. Gen. 37. 20.——3. Llefaru. Barn. 12. 6.——4. Addaw. Luc 23. 43.——5. Ateb. Exod. 3. 13, 14.——6. Dysgu, sicrhau. Mat. 17. 10.——7. Esbonio, egluro. Heb. 5. 11.——8. Rhybuddio. Col. 4. 17.——9. Cyfaddef, cydnabod. Luc 17. 10. Edr. LLEFARU.

DYWEDDI—O, (gwedd) priod, priod-ferch; ymgyfammodi i briodi; priodi. Byddai yn arferiad yn mhlith yr Iuddewon i'r ddau ddyn ymgyfammodi

Digitized by Google

â'u gilydd, cyn i'w priodas gael ei chyflawni. Byddai hyn yn cael ei wneuthur, naill ai trwy ysgrifen, neu trwy roddi darn o arian i'r ddyweddi, yn ngŵydd tystion; ac wrth ei roddi, dywedai y mab ieuanc wrth y ferch, 'Derbyn y darn hwn yn wystl o'th ymrwymiad i fod yn wraig i mi.' Byddai ei derbyniad o'r gwystl yn arwydd o'i hollol gydsyniad, a'i hymrwymiad iddo. Wedi eu dyweddïad, byddai yn oddefol i'r ddau ddyn ieuanc i ymweled y naill â'r llall, yr hyn nid oedd gyfreithlon o'r blaen. Yr oedd eu dyweddïad yn eu rhwymo i'w gilydd, er nad oedd yn caniatâu yr un rhyddid a'r cyfammod priodasol. Os byddai i'r ddyweddi droseddu yn erbyn ei hammod, yr oedd i gael ei chospi am odineb, yr un fath a phe buasai yn wraig briodasol.

'Mi a'ch dyweddïais i un gwr, i'ch rhoddi chwi megys morwyn bur i Grist.' 2 Cor. 11. 2.—'Oblegid darperais chwi i un gwr.' Dr. M.—Y gair αρμοζομαι, a arwydda, medd Mr. Parkhurst, *parotoi, addasu*, yn hytrach na *dyweddïo*. Y dyben oedd gan yr apostol yn ei holl weinidogaeth yn mhlith y Corinthiaid, oedd eu parotoi a'u haddasu i Grist, trwy eu gwrthodiad â'u holl eilunod, a'u chwantau llygredig; a'u hymroddiad yn hollol i Grist yn unig, fel eu hanwylyd, eu priod, a'u Harglwydd.

Mae Crist yn galw ei eglwys, ei 'ddyweddi.' Can. 4. 9, 10. a 5. 1. Carodd hi â chariad tragywyddol, a rhoddodd ei hun drosti, i'w phrynu oddiwrth bob anwiredd; y mae yn ei sancteiddio, ac yn ei glanhau, fel y gosodai hi yn ogoneddus iddo ei hun, yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw. Mae yn fwy neillduol iddo *ei hun*, i'w mwynhau ac i ymogoneddu ynddi, nag un rhan arall o'i greadigaeth. Y mae mewn undeb agosaf â Christ; y mae ei Ysbryd ynddi, a'i ddelw arni; a chaiff ei chyd-ogoneddu gyda Christ, a threulio tragywyddoldeb yn y gymdeithas anwylaf â Christ, ei phriod. Eph. 5. 25, 26, 27. Tit. 2. 14. 'Mi a'th ddyweddïaf â mi fy hun,' medd Crist wrthi, 'yn dragywydd; ïe, dyweddïaf di â mi fy hun mewn cyfiawnder;' y mae yn gyfiawn yn eiddo iddo trwy roddiad y Tad —trwy ei ddewisiad ei hun—a thrwy eu hymroddiad ewyllysgar iddo, yn nydd ei nerth; ac mae hithau yn hollol gyfiawn ynddo, a thrwy ei hundeb âg ef. —'Ac mewn *barn*, ac mewn *tiriondeb*, ac mewn *trugaredd*, ac mewn *ffyddlondeb*.' Y mae yma bob peth yn cael eu henwi sydd angenrheidiol yn y pleidiau, i wneuthur y cyfammod rhyngddynt yn gysurus, yn ddymunol, ac yn barhaol. Y mae cyfiawnder a barn yn sylfaen iddo, tiriondeb a thrugaredd yn y gweinyddiad o hono; ac am fod ffyddlondeb o bob tu, ni thorir ef. Y mae yr Arglwydd ei hun yn ymrwymo i edrych am fod y cyfammod yn cael ei wneuthur felly; 'Mi a'th ddyweddïaf â mi fy hun.' Y mae y cariad, a'r daioni, a'r tiriondeb a amlygir yn y geiriau, yn anfeidrol; ei waith ef ydyw y cwbl. Y mae yn enwi ynddo bob peth angenrheidiol i'w wneuthur yn gyfammod addas rhwng y cyfryw bleidiau â Duw a phechadur—sef *cyfiawnder*, a *barn*, a *thiriondeb*, a *thrugaredd*. Y mae yn addas i'r Arglwydd, ac yn gymhwys i'r pechadur hefyd; canys y mae ynddo drugaredd i faddeu, a thiriondeb i gyddwyn âg ef, i'w gynnorthwyo, a'i gysuro. Nid mi a'th *achubaf*, yn unig, ond mi a'th *ddyweddïaf*; nid â rhyw un arall, ond â mi *fy hun*: o gariad anwylaf, mi a'th ddygaf i'r undeb agosaf â mi fy hun, fel y byddech yn eiddo i mi, a minnau yn eiddo i tithau, i gyd-feddiannu, ac i gyd-fywiolaethu byth gyd â'n gilydd! O gariad difesur! O ras anchwiliadwy! Zanchius *in loco*.

# E.

E, rhagddod mewn geiriau. Aml y rhoddir hi yn lle rhagenw.

E fynai'r gath bysgod, ond ni fynai wlychu ei throed. *Diar.*

EANG—DER, (ang) helaeth, llydan, mawr, rhydd.

*Eang* yw y byd i bawb. *Diar.*

'Dy orchymyn di sydd dra ëang.' Ps. 119. 96. Wrth y gorchymyn, deallwn, holl gorph gwirioneddau dwyfol. Y mae yn ëang, oblegid ëangder y dadguddiad o Dduw sydd ynddo; sef o'i berffeithrwydd, ei hanfod, ei briodoliaethau, ei arfaeth, ei gynghor, a gwaith y Personau Dwyfol yn nhrefn yr iechydwriaeth. Y mae yn y gorchymyn, neu y gwirionedd dwyfol, ddadguddiad cyflawn o'r pethau mwyaf ëang, dyfnion a gogoneddus; sef dyfnion bethau Duw, mewn perthynas i iechydwriaeth yr eglwys. Cynnwys hefyd ëangder o gyfarwyddiadau, hyfforddiadau, cysuron, a chynnaliaeth i bechadur tlawd, cyfatebol i amrywiaeth yr amgylchiadau y dichon un fod ynddynt. Nid oes dim yn perthyn i bechadur, i'w gyflwr rhyngddo â Duw, i'w ddyledswydd i Dduw, ac i'w ddedwyddwch yma, ac oddi yma, nad ydyw gwedi ei olygu yn y dadguddiad dwyfol. Mae y gair yn addas i bawb, yn mhob amgylchiad a sefyllfa. Y mae cyfnewidiadau yn perthyn i bethau eraill, ac mae *diwedd* ar bob perffeithrwydd; 'ond gair ein Duw ni a saif byth.' Esa. 40. 8. 1 Petr 1. 25. Mat. 5. 18. Rhuf. 7. 12, 14. Heb. 4. 12, 13.

'Eang yw y porth, a llydan yw y ffordd sydd yn arwain i ddystryw.' Mat. 7. 13. Y mae y porth yn ëang a'r ffordd yn llydan, oblegid amrywiaeth y ffyrdd o bechu, ac i gyd yn arwain i'r un fan; hefyd, oblegid nad yw y rhai sydd yn cerdded y ffyrdd hyn yn cadw eu hunain o fewn terfynau gorchymynion Duw, ond yn tòri ar draws y rheolau sanctaidd, ac yn rhodio yn ddiattalfa yn ol eu hewyllysiau eu hunain; yn aml, hefyd, nid ydynt mewn blinder fel pobl eraill. Ps. 73. 5.

Y mae yr Arglwydd yn ëangu ar ei bobl—yn ëangu eu calonau—pan mae yn eu gwaredu o gyfyngderau, erlidiau, a phrofedigaethau; yn rhyddhau eu meddyliau o gadwynau eu llygredigaethau; ac yn eu dwyn i adnabyddiaeth, ac i fwynhad o holl ëangder yr efengyl. Y mae ëangder yn cael ei osod o flaen pechadur yn yr efengyl: yn yr adnabyddiaeth o'r efengyl trwy ffydd, y mae yntau yn cael ëangu arno. Ps. 31. 8. a 118. 5. a 119. 32, 45. 2 Cor. 6. 11, 13.

EBACH—AU, (eb-ach) cilfach, gwasgodfa, lloches. —'Hwy a ganfuesont ryw ebach a' thorlan iddaw.' Act. 27. 39. W. S.

EBAL, *Heb.* עיבל [*cruglwyth o hynafiaeth*].— 1 Mab Sobal, o hiliogaeth Seir yr Horiad. Gen. 36. 23.——2. Mynydd yn agos i Sichem, gyferbyn a mynydd Garizim, a dyffryn rhyngddynt. Y mae y ddau fynydd yn debyg i'w gilydd o ran hŷd, uchder, a'u dull. Yr oedd Ebal o du y gogledd, a'i ben yn llwm, ac yn ddiffrwyth: yr oedd Garizim o du y deau, ac yn dra ffrwythlawn. Ar y mynyddoedd hyn y gorchymynodd Duw osod llwythau Israel, chwech ar bob un, i ddadseinio *Amen* i'r bendithion a'r melldithion a gaent eu cyhoeddi gan yr offeiriaid yn y dyffryn rhyngddynt. Deut. xxvii, a xxviii. Jos. 8. 30—35. Y dull oedd fel hyn, medd Calmet, chwech o dywysogion y llwythau cyntaf a enwir, a esgynasant i ben mynydd Garizim; a thywysogion y chwech llwyth arall a esgynasant i ben mynydd Ebal. Yr offeiriaid, a'r arch, a Josuah, a henuriaid Israel, a safent yn

Digitized by Google

nghanol y dyffryn, rhwng y ddau fynydd. Yr oedd y Lefiaid yn gylch oddi amgylch yr arch, a'r bobl a'u henuriaid oeddynt wrth droed pob un o'r ddau fynydd, chwech llwyth o bob tu. Gwedi eu gosod hwynt yn drefnus fel hyn, yr offeiriaid a droent eu hwynebau tua mynydd Garizim, ac yna a gyhoeddent y fendith, megys, 'Bendigedig yw y gwr ni wnel ddelw gerfiedig,' &c. Y chwech llwyth ar y mynydd, a'r chwech llwyth wrth odre y mynydd, a atebent, *Amen*. Wedi hyny, yr offeiriaid a droent eu hwynebau tua mynydd Ebal, ac a gyhoeddent, 'Melldigedig yw y gwr a wnel ddelw gerfiedig,' &c. A'r chwech tywysog ar y mynydd hwnw, a'r chwech llwyth fel o'r blaen, a atebent, *Amen*. Dywedir eu bod *ar*, ac *ar gyfer*, y ddau fynydd. Deut. 27. 12. Jos. 8. 33. Heblaw cyhoeddi y melldithion ar fynydd Ebal, yr oeddynt hefyd i osod yno geryg mawrion, eu calchu â chalch, ac ysgrifenu holl eiriau y gyfraith arnynt; naill ai y Deg Gorchymyn, neu dalfyriad o holl gyfreithiau Moses. Yr oeddynt hefyd, i adeiladu yno allor o geryg cyfain, heb u naddu, i offrymu arni boeth-offrwm i'r Arglwydd: ac hefyd hedd-aberth, a bwyta yno, a llawenychu yno ger bron yr Arglwydd. Deut. 27. 7. Yr oedd y cwbl yn dangos uniondeb, cyflawnder, a pherffeithrwydd sanctaidd y gyfraith, a'i melldithion; nad oes bosibl ein gwaredu oddiwrth ei melldithion, ond trwy yr Hwn a roddodd ei hun yn aberth drosom, ac a wnaed yn felldith drosom, i'n llwyr brynu ni oddiwrth felldith y ddeddf; a bod cymundeb gorfoleddus rhwng Duw a'i bobl, ar gyfrif yr aber h hwnw, yn wyneb y gyfraith danllyd, a'i melldithiont ofnadwy. Yr ydoedd gwaith yr henuriaid a'r bobl yn ateb *Amen*, pan gyhoeddid melldithion y ddeddf, yn arwyddo eu cydsyniad hwy â'r ddeddf, ei bod yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn dda; ac nad oedd yn greulawn yn eu melldithion, ond yn gwbl addas, yn mhob ystyr, yr hyn a ddylasai fod, ac mai hwy oedd yn ddrwg, yn ei throseddu. Nid oes neb byth a wir werthfawroga aberth y Cyfryngwr, ond y rhai a welsant berffeithrwydd ac uniondeb y gyfraith, a'u bod hwythau yn hollol feius, ac anesgusodol. Rhyw drefn ryfedd yw hòno, sydd yn dwyn Duw a phechaduriaid i gyd-wledda â'u gilydd ar fynydd Ebal! Allor o geryg, heb raid eu naddu, ac aberth difai i Dduw, sef Crist Iesu, perffaith, cyflawn, a difai, yw unig sail y cymmod a'r wledd ryfedd hon. Lef. iii. Act. 10. 36. Col. 1. 20. Rhuf. 5. 10. Eph. 2. 16, 17. Heb. 13. 20, 21. Phil. 3. 3.

EBARGOFI—WYD, (argof) anghofio, gollwng dros gôf, gollwng yn anghof.—'Ebargofio y ddeddf,' sef peidio a sylwi yn graff ar y ddeddf, a gweithredu yn ol ei gorchymynion sanctaidd. Mae anghymedroldeb yn tueddu i hyny. Diar. 31. 5. Preg. 8. 10.

EBED, *Heb.* עבד [*gwas*] 1. Tad Gaal. Barn. 9. 26.——2. Mab Jonathan, o deulu Adin, yr hwn a ddychwelodd o Babilon, a chyd âg ef ddeg a deugain o wrrywiaid. Ezra 8. 6.

EBED-MELEC, [*gwas y brenin*] Ethiopiad, gwas y brenin Zedeciah. Bu yn offeryn efo y brenin i waredu Jeremiah y prophwyd o ddaear-dŷ tomlyd Malciah. Oblegid ei garedigrwydd i'r prophwyd, y mae yr Arglwydd yn addaw trwyddo, ei waredu pan gai y ddinas Jerusalem ei difrodi gan Nebuchodonozor a'i luoedd. Jer. 38. 7, 8. a 39. 15—18.

EBEN-EZER, *Heb.* אבן־העזר [*maen y cymhorth*] Tra yr ydoedd Samuel yn gweddïo ac yn aberthu, y mae yr Arglwydd yn dryllio y Philistiaid â tharanau mawrion, a lladdwyd hwynt o flaen Israel. Yn goffadwriaeth am y fuddugoliaeth ryfedd hon, y mae Samuel yn gosod i fynu faen rhwng Mispeh a Sen, ac yn galw ei enw, Eben-ezer, ac yn dywedyd, 'Hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyni.' Oddiwrth y maen hwn, galwyd y maes, Eben-ezer. Yr ydoedd gosod i fynu y golofn yn arwydd o gydnabyddiaeth ddiolchgar Israel o ddaioni yr Arglwydd tu ag atynt, ac yn annogaeth i bawb yn y cyfryw amgylchiadau, i alw arno, a rhoddi eu hymddiried ynddo. 1 Sam. 4. 1. a 5. 1. a 7. 12. Gen. 22. 14. Exod. 17. 15. Ps. 71. 6, 17. Esa. 46. 3, 4.

EBENUS, *Heb.* הובנים [*du, tywyll*] math o goed celyd, trwm; cymerant eu llathru a'u llyfnhau yn hardd-glws, ac am hyny arferent hwynt mewn brithaddurn i amryfalu brith-waith. Y mae y coed hyn o amryw liwiau, sef yn ddu, yn goch, ac yn wyrdd; ond y muchudd-ddu *(jet-black)* a gyfrifir oreu. Y mae yn tyfu yn yr India Ddwyreiniol; o ynys Madagascar a St. Maurice, y dygir y rhan fwyaf o hono i Ewrop. Yr oedd y pren hwn mewn cymeriad mawr yn yr hen oesoedd, ac yn wrthddrych y marchnadyddion o Dedan. Ezec. 27. 15.

EBIASAPH, *Heb.* אבי־אסף [*tad y cynnulliad*, neu *fy nhad yr hwn a ychwanegodd*] Lefiad, mab Elcanah, a thad Assir. 1 Cron. 6. 23.

EBOL—ION, (eb-awl) *Gr.* πωλος *(pôlos) Llad.* PULLUS: blanc; llwdn caseg, neu asen.—Ar 'ebol asen, ar yr hwn nid eisteddodd dyn erioed,' y marchogodd yr Arglwydd Iesu, brenin Sïon, i Jerusalem, yn arwydd o'i hollol gyd-ffurfiad â'r ddeddf, ac o'i ostyngeiddrwydd a'i addfwynder yn ngweinyddiad ei swydd. Mat. 21. 7. Deut. 17. 16, Jos. 11. 6. Barn. 5. 10. 1 Bren. 1. 33. Yr oedd ei ymddangosiad fel hyn, yn marchogaeth i Jerusalem, yn cyfateb yn gwbl i'r brophwydoliaeth am dano. Zech. 9. 9. Er nad oedd ynddo ddim yn wrthun ac yn ddirmygus, etto yr oedd ei ymddangosiad yn y dull hwn, yn isel, yn ostyngedig, ac yn addfwyn iawn. Mae holl amgylchiadau y peth yn dangos hyn. Nid march golygus oedd dano, ond asen; nid ei eiddo ei hun, ond eiddo arall; ac nid asen gwedi tyfu i'w chyflawn faintioli, ond *ebol* llwdn asen, 'ar yr hwn nid eisteddodd dyn erioed.' Nid â thaclau addurnedig, ceinwych, yn ei gylch, dim ond dillad rhai o'r dyrfa arno; ac, tebygol, y rheffyn oedd yn ei gylymu, yn lle ffrwyn harddwych, yn ei ben. Dyma Frenin Sïon—y Cyfiawn—yr Achubydd—y Llariaidd! Yr oedd yn fuddugoliaethus yn ei iselder; yn fawrfrydig yn ei ddarostyngiad mwyaf; yn Frenin galluog i achub Sion, ac i ddystrywio ei gelynion. Fel yr oedd hyn yn gyflawniad y brophwydoliaeth am dano, felly yr oedd yn cyfateb i gymeriad oen y pasc ar y *degfed* dydd; canys ar y dydd hwnw yr aeth Crist, gwir oen y pasc. i mewn i Jerusalem, i aberthu ei hun drosom. Lightfoot. Yr oedd ei ymddangosiad breninol, fel hyn, yn dystiolaeth eglur nad oedd ei deyrnas o'r byd hwn; ac ar yr un pryd, yn taflu dirmyg a gwarth, yn y modd mwyaf cyhoeddus, ar holl fawr-rwysg a gwychder dynion cnawdol, plant y byd hwn.

EBRAN, (eb-ran) gogawr; porthiant anifeiliaid. —'Dy ychain hefyd, a'th asynod, y rhai a lafuriant y tir, a borant ebran bur.' Esa. 30. 24. Y geiriau ydynt ran o brophwydoliaeth, yn rhagfynegi trugareddau Duw i'w eglwys. Wrth yr ychain a'r asynod, trwy lafur pa rai y mae eraill yn cael eu cynnaliaeth, mae i ni ddeall, yn ddiammeu, y rhai sydd yn poeni, neu yn llafurio yn y gair a'r athrawiaeth; y rhai sydd yn ymborthi eu hunain, ac yn ganlynol, yn porthi eraill, sef ποιμνιον του Θεου, *praidd Duw*, âg ymadrodd iachus (λογον υγιη). Oni phorthir yr anifeiliaid sydd yn llafurio, ni cheir ond ychydig o lafur oddi wrthynt; felly hefyd, y rhai sydd yn golygu praidd Duw, oni byddant hwy yn ymborthi ar athrawiaethau iachus yr efengyl eu hunain, ni chaiff y praidd dan eu gofal, ond bywioliaeth dlawd ac afiachus. Y mae hon yn addewid dra gwerthfawr i'r eglwys, sef addaw y byddai ei gweinidogion yn iachus yn y ffydd, ac mewn profiad ysbrydol o ddyfnion bethau Duw; a thrwy



Digitized by Google

hyny yn gryfion i lafurio, ac i borthi defaid Crist. Tit. 2. 8. 1 Tim. 5. 17. a 6. 3. Ioan 21. 16, 17.——בליל המץ אכלו Y rhan fwyaf o gyfieithwyr, yn dilyn Kimchi, a gyfieithiant y geiriau, *ebran pur*. *Clean provender*. *Saes*. Ond arwydda y gair חמץ *lefen*, neu *lefeinllyd*. Lef. 23. 17. Exod. 12. 15. Arwydda, medd Bochart, ebran cymysgedig, lled-sur, i gymhorth cylläon yr anifeiliaid, pan fyddent yn alaru ar eu bwyd. Mae gan yr Arabiaid yr un gwahaniaeth o ebran sur a melus hyd heddyw. Arwydda y geiriau y byddai eu hebran yn flasus ac yn iachus.

EBRWYDD, (eb-rhwydd) buan, cyflym, prysur. Y mae yr efengylwyr wrth roddi hanes gwyrthiau ein Hiachawdwr, yn sylwi yn aml eu bod hwy yn cael eu gwneuthur yn ebrwydd, yn ddioed, yn y fan. Yn ebrwydd y cafodd llygaid y deillion olwg—yn ebrwydd y crinodd y ffigysbren—yn ebrwydd yr ymadawodd y gwahan-glwyf a'r gwahan-glwyfus—yn ebrwydd y sychodd ffynonell gwaed y wraig â'r diferlif. Mat. 20. 34. a 21. 19. Marc 1. 42. a 5. 29. Luc 13. 13. ——Yr oedd tri pheth yn ymddangos yn ei holl wyrthiau; sef graslonrwydd, gallu, a pherffeithrwydd.—1. Yr oeddynt yn wyrthiau grasol; iachâu, nid lladd dynion, yr ydoedd.—2. Yr oedd gallu dwyfol yn ymddangos ynddynt oll, y fath a amlygwyd yn nghreadigaeth y byd. A'i air, yn gyffredinol, yr oedd yn iachâu y cleifion, yn agoryd llygaid y deillion, ac yn cyfodi y meirw.—3. Yr oedd, hefyd, berffeithrwydd yn ei waith. Nid iachâu yn raddol yr oedd, oddigerth y dall yr agorodd ei lygaid, y cawn hanes am dano yn Marc 8. 22. Ioan ix. ond yr oeddynt *yn y fan—yn ebrwydd* (ευθεως) yn berffaith iach. Yr oedd y dyn claf o'r parlys mor berffaith iach, fel yr oedd yn abl cymeryd ei wely i fynu, a myned i'w dŷ. Chwegr Petr a gododd, ac a wasanaethodd arnynt. Mat. 8. 14, 15. a 9. 6, 7. Nid oes eisieu amser, mwy na defnyddiau, moddion, ac offerynau ar Dduw i weithio. Y mae yn aml yn cymeryd amser, fel yn nghreadigaeth y byd; etto, o'n rhan ni, ac nid o'i ran *Ef*, mae yn gwneuthur hyny, fel y gallem ni gael hamdden i sylwi ar ei waith, a'i ddull yn gweithio; fel, trwy hyny, yr adnabyddom ef, a'i dragywyddol allu, a'i Dduwdod. Wrth ddysgwyl wrth yr Arglwydd, da i ni synied felly am dano; dichon ein cynnorthwyo yn ebrwydd, yn y fan, yn ddioed. Nid oes dim yn anmhosibl, dim yn anhawdd, ac nid rhaid iddo oedi gweithio un fynyd. Ei anrhydeddu yw dysgwyl wrtho, fel y cyfryw.

'Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb, ac na fydd gyfranog o bechodau rhai eraill.' 1 Tim. 5. 22. Mae llawer yn ymgais am fyned i'r weinidogaeth yn bechadurus, o gau ddybenion pechadurus, a Duw erioed heb eu galw a'u hanfon. Wrth roddi dwylaw yn ebrwydd (ταχεως, *ar frys*) mae i ni ddeall, rhoddi dwylaw yn *ysgafn*, ac yn *anystyriol*; heb ymofyniad difrifol, a chael prawf o'r person yn gyntaf. Nid *newyddian*—nid yn *ebrwydd*—'a phrofer y rhai hyny yn gyntaf,' yw y cyfarwyddiadau sanctaidd mewn perthynas i rai yn myned i'r weinidogaeth. 1 Tim. 3. 6, 10. Y mae pechod y rhai hyny yn fawr, sydd yn rhuthro i'r weinidogaeth, a Duw heb eu danfon; ac y mae y rhai sydd yn dodi dwylaw yn ebrwydd arnynt, yn gyfranog o'u pechodau rhyfygus. Num. 16. 26. Jos. 9. 14. 1 Bren. 12. 30.

ECRON, *Heb*. עקרון [*diffrwyth*] un o brif ddinasoedd y Philistiaid. Yr oedd yn ddinas gadarn, ac yn sefyll yn agos i Fôr y Canoldir, o amgylch pedair milltir ar ddeg ar hugain o du y gorllewin i Jerusalem; deng milltir o Gath, a phedair ar ddeg o Asdod. Y ddinas hon a roddwyd yn gyntaf i lwyth Judah, ac wedi hyny i lwyth Dan. Jos. 15. 45. a 19. 43. Llwythau Judah a Simeon a'i hennillasant oddiar y Philistiaid: (Barn. 1. 18.) ond y Philistiaid yn fuan a'i hadfeddiannasant; ac nid ymddengys i'r Iuddewon erioed gael meddiant heddychol o honi. Yr Ecroniaid a addolent yr eilun-dduw Baal-zebub. Hwy yn gyntaf a annogasant ddychwelyd arch Duw i dir Israel. 1 Sam. 5. 10. Anrheithiwyd hi gan yr Assyriaid, a chwedi hyny, gan y Caldeaid. Amos 1. 8. Seph. 2. 4.——'Ac efe a weddillir i'n Duw ni, fel y byddo megys penaeth yn Judah, ac Ecron megys Jebusiad.' Zech. 9. 7. Y mae rhai dysgedigion, sef Eben-Ezra, Ribera, Junius, Piscator, a Hutchinson, yn golygu y geiriau fel addewid, byddai gweddill i gael eu hachub o'r Philistiaid, pan byddai barnedigaethau yn cael eu tywallt ar y wlad yn gyffredinol, ac yn cael eu dwyn at yr Arglwydd trwy bregethiad yr efengyl; ac y byddent yn enwog ac yn ddefnyddiol, fel penaeth yn Judah; a byddai yr Ecroniaid, fel amryw o'r Jebusiaid, yn enwedig Arafnah, yn broselytiaid yn trigo yn yr eglwys. Eraill a farnant fod ystyr y geiriau yn gwbl groes i hyn, ac wrth 'Efe a weddillir i'n Duw ni,' y meddylir yr Iuddewon, sef ei bobl weiniaid orthrymedig, y rhai a gymerodd Duw oddi rhwng dannedd y Philistiaid; canys yr oedd yr arfer greulawn anifeilaidd hòno yn eu plith, o fwyta cnawd, ac yfed gwaed eu gelynion. Er gwaned ac er llesged oedd y gweddill a achubir oddi rhwng dannedd y Babiloniaid, yr Assyriaid, y Philistiaid, &c., gwnai Duw hwynt fel penaeth yn Judah, yn enwog, ac yn olygus; a byddai yr Ecroniaid, sef y Philistiaid, neu holl elynion ei bobl, fel y Jebusiaid, a'r Canaaneaid eraill, i'w difrodi a'u dinystrio yn llwyr. Esa. 4. 3. a 10. 21, 22. a 11. 11. a 17. 6. a 24. 6. Barn. 1. 21. Zech. 12. 5. a 14. 9. Rhuf. 11. 5. Eph. 2. 12, 14. Dat. 16. 6.——Pregethwyd yr efengyl yn Ecron yn foreu; ond y mae yr holl wledydd hyny yn awr, er ys rhai oesoedd, dan ymerodraeth y Twrc.

ECHDOE, (ech-doe) y diwrnod cyn doe.—'Doe ac echdoe,' a arferir yn aml am yr amser a aeth heibio. 1 Cron. 11. 2.

ECHEL—AU, (ech-el) *Gr*. αξων; *Llad*. AXIS: echel-mèn, sef y pren sydd yn cynnal y fên, ac y try yr olwynion arno. 1 Bren. 7. 32.

ECHRYS—LAWN, (ech-rhys) drwg, niweidiol, ofnadwy, dychrynllyd. Echrys-haint, neu haint echryslawn, adwyth, tarawiad disymwth.

> Ofer ddynion, ac *echrys* lu,
> Fyth yn min-gamu arnaf.
> *E. Prys*, (Ps. 35. 15.)

ECHWYN—O—ION, (wyn) benthyg.—'Y neb a gymero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd; a'i rodd a dâl efe iddo drachefn.' Diar. 19. 17. Mae y tlawd yn cael y rhodd, a'r Arglwydd yn gosod ei hun yn ad-dalwr yn ei le. Mor dirion y mae y Duw mawr yn ymddangos yn y cwbl, yn ei dystiolaeth sicr y gair am dano! Ond pwy a gredodd yr ymadrodd? Neb, ond y sawl sydd yn gweithredu yn gyfatebol i'r dystiolaeth hon. 2 Sam. 12. 6. Esa. 58. 7—11. Mat. 10. 40, 41. a 25. 40. 2 Cor. 9. 6, 7, 8. Phil. 4. 17.——'Yr annuwiol a echwyna, ac ni thâl adref.' Ps. 37. 21. Un o nodau dyn annuwiol yw hwn. Mae o anian ac egwyddor anghywir, ac yn anghyfiawn; ac y mae yr egwyddor dufewnol hon yn tori allan mewn ffrwythau cyfatebol, fel byddo achlysuron yn rhoddi cyfle.

> Câs a *echwyno* ag na byddo ganddo a'i talo. *Diar*.

ECHWYNWR, gofynwr, caelwr, benthycwr. Luc 7. 41. 2 Bren. 4. 1.

ED, עד [*tystiolaeth*] yr enw a roddwyd ar yr allor a adeiladodd y Reubeniaid a'r Gadiaid. 'Canys tyst fydd hi rhyngom ni, mai yr Arglwydd sydd Dduw.' Jos. 22. 34.

EDAF—EDD, EDAU, (ed-af) yr hyn a nyddir o sidan, o lin, neu wlan, i wneuthur defnyddiau o honynt.—'Mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y

Digitized by Google

brenin.' Ps. 45. 14. לרקמות *mewn cywreinwaith*, *mewn gemwaith*; sef gwisgoedd hardd, godidog, ceinwych; y cyfryw a weddai i bendefigesau; y cyfryw a ddarlunir gan fam Sisera—'gwisgoedd symudliw o wnïadwaith o'r ddeutu.' Barn. 5. 30. Wrth y gwisgoedd hardd a gwerthfawr hyn, dealiwn holl addurniadau dwyfol yr eglwys; gwaith y Cyfryngwr drosti, a gwaith yr Ysbryd Glân ynddi. Gwedi dyosg yr hen ddyn, a'i bratiau budron ei hun, a'i hadduruo â'r cyfiawnder sydd o Dduw, trwy ffydd Iesu Grist; a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd yn ol cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd, bydd yn addas i gael ei dwyn at y brenin, ei phriod gogoneddus, i'w chyd-ogoneddu gyd âg ef. Ioan 17. 24. Bydd yn addas i'w phriod, ac i'w sefyllfa ogoneddus gyd âg ef: ond bydd byth dan rwymau i'w phriod am y cwbl o wahaniaeth rhyngddi a'r ffieiddiaf a'r truenusaf yn uffern.——Y mae gwefusau yr eglwys fel 'edau ysgarlad.' Can. 4. 3. Offerynau ymadrodd ydyw y gwefusau: wrth y gwefusau, gan hyny, y mae i ni ddeall ei hathrawiaethau, ei hyfforddiadau, ei gweddïau, a'i diolch; y mae y rhai hyn yn hardd, yn weddaidd, ac yn beraidd, trwy ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glân, a'i ffydd yn Iesu Grist. 1 Cor. 1. 17, 18. a 2. 4, 12, 13. 'Ymadrodd am y groes,' yw yr efengyl, ac mae y gwefusau cochion yn arwyddo ei bod, medd Coccejus, yn ymffrostio yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, ac yn llawenychu yn ei waradwydd, fel ei rhan, heb gyfrif ei ogoniant yn warth. Esa. 61. 7. Gal. 6. 14. Ps. 4. 2. Hefyd, y mae gwefusau cochion yn arwyddo bywyd, bod yn iachus ac yn heini, yn ieuanc ac yn fywiog; yn ymborthi ar ymborth iachus, sef didwyll laeth y gair; heb ei llesgâu gan lygredigaethau, a marweidd-dra ysbrydol.

**EDEN**, *Heb.* עדן *Gr.* *αδεν*, [*hyfrydwch*]. Y mae y gair *Aden* yr un yn yr ieithoedd dwyreiniol a'r gair *Eden*; ac y mae dau ystyr iddo gyd âg ychydig amrywiaeth yn ei lafariad. Un ystyr ydyw, *preswylfa sefydlog*; yr ystyr arall yw, *hyfrydwch*, *heddychlonrwydd*, *esmwythder*. Yr oedd i'r gair Eden un o'r ddau ystyr hwn, yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, er ein bod ni yn ei adferyd fel enw priodol. Syr W. Jones, *Works*, *vol.* iv.——1. Talaeth yn Asia oedd Eden, yn mha un yr oedd Paradwys. Yr Arglwydd Dduw a blanodd (גן בעדן) ardd yn Eden. Yr oedd sefyllfa gwlad Eden yn agos i Gosan, Haran, a Reseph. Esa. 37. 12. Y mae y prophwyd Ezeciel yn cysylltu marchnadyddion Eden gyda marchnadyddion Haran, Canneh, Seba, Assur, a Chilmad. Ezec. 27. 23. Wrth feibion Eden, y rhai oeddynt o fewn Telassar, y gallwn ddeall trigolion Eden, yn preswylio yn nhalaeth Telassar; neu a osodasant eu hunain mewn rhyw amddiffynfa gadarn, fel yr arwydda y gair חל־אשר rhag difrodiadau yr Assyriaid. Am sefyllfa Eden, a'r ardd yn Eden, y mae amryw awdwyr gwedi manwl chwilio ac ysgrifenu, ond y maent yn anghytun yn eu barnau.* Huetius, Wells, Brown, &c., oeddynt o'r farn ei bod yn wlad yn agos i Babilon, a bod sefyllfa yr ardd lle y mae yr afonydd Tigris, neu Hidecel, a'r Euphrates yn ymuno, a chwedi hyny yn ymranu yn ddwy o ffrydiau, neu afonydd, y rhai sydd yn rhedeg i lynclyn Persia. Y mae Calmet o'r farn fod Eden yn cynnwys ynddi wlad Armenia, lle ceir penau y pedair afon, Euphrates, Tigris, Phasis, ac Araxes. Y mae y Cadben Wilford gwedi rhoddi hanes am le ar fynydd Caucasus, ag sydd yn ateb yn nodedig i ddarluniad Moses o wlad Eden, a'r ardd ynddi. Yn y lle hwn y mae afon yn ymledu yn llyn, ac o hono y mae pedair afon yn rhedeg; ac yn cyfateb i afonydd Paradwys yn gwbl yn mhob peth. Hwyrach y gellir cyfieithu y geiriau fel hyn: 'Ac afon a gyfododd yn,' neu 'yn agos i Eden, i ddyfrhau yr ardd—ac aeth yn llyn—ac oddi yno hi a ranwyd, ac aeth yn bedwar pen,' sef penau afonydd. *Asiatic Researches*, *vol.* vi.—Am fod Eden yn wlad hyfryd a ffrwythlon, unrhyw wlad hyfryd a ffrwythlon a gyffelybir i Eden.——2. Yr ydoedd dyffryn o'r enw hwn rhwng mynydd Libanus ac Anti-Libanus, yn Syria; ac wrth dŷ Eden, gellir meddwl rhyw balas hyfryd oedd gan freninoedd Syria yno. Amos 1. 5. Esa. 51. 3. Ezec. 28. 13. a 31. 9, 16, 18. Joel 2. 3.——3. Mab Joah. 2 Cron. 29. 12.

**EDER**, *Heb.* עדר [*deadell*] 1. Dinas yn Judah. Jos. 15. 21——2. Mab Musi. 1 Cron. 23. 23.

**EDFRYD**, (ed-bryd) adferyd, edfryd. Y gair *αποκαθιστημι*, a gyfieithir *edfryd*, yn Mat. 17. 11. Marc 9. 12. a arwydda, medd Campbell, *adferyd*, neu, *orphen*. Yn yr ystyr ddiweddaf, y mae yn golygu y gair yno, ac yn cyfieithu y lle, 'i *orphen* y cwbl, rhaid i Elias yn wir ddyfod yn gyntaf;' sef i orphen yn gyflawn yr hen oruchwyliaeth. Felly y mae yn barnu y dylid cyfieithu yr un gair yn Act. 3. 21. 'Yn amseroedd *cyflawniad* pob peth,' yn lle 'yn amseroedd *adferiad* pob peth.' Ond y mae dehonglwyr, yn gyffredin, yn golygu y geiriau, fel yn gosod allan effaith gweinidogaeth syml Ioan Fedyddiwr, yn iawn drefnu moesau da yn mhlith yr Iuddewon, trwy bregethu edifeirwch iddynt. Yr oedd, o ran ei weinidogaeth, yn barotowr ffordd yr Arglwydd; sef yn parotoi meddyliau dynion i'w dderbyn, a chredu ynddo.

**EDIFEIRWCH**, (edifar) edifarwch, edifeiriant. Edifeirwch, yn ei ystyr briodol, a arwydda bod trosedd; bod y troseddwr yn cydnabod ei drosedd; yn ofidus o'i blegid, ac am ddadwneyd yr hyn a wnaeth, a gwneuthur iawn drosto, pe bai bosibl iddo. Mewn ystyr anmhriodol, y mae edifeirwch yn cael ei gyfrif i'r Arglwydd, pan y dywedir iddo edifarhau wneuthur o hono ddyn ar y ddaear—a gwneuthur Saul yn frenin—ac edifarhau am ei weision. Gen. 6. 6, 7. 1 Sam. 15. 11. Deut. 32. 36. Ps. 135. 14. Hos. 11. 8. Pell fyddo oddi wrthym feddwl fod yr Arglwydd, perffaith ddoeth a da, wedi gwneuthur dim sydd âg achos edifeirwch o'i blegid; nagê, yn ei greaduriaid y mae cyfnewidiad, ac nid yn yr Arglwydd; ac, yn ganlynol i'r cyfnewidiad ynddynt hwy, y mae yntau yn newid ei oruchwyliaethau tu ag atynt, fel y gwnai un a fyddai yn edifeiriol newid ei lwybr a'i weithredoedd. Er fod yr Arglwydd yr *un* o ran ei feddwl, ei arfaeth, ei gynghor, a'i ddyben; etto, nid ydyw yr un o ran ei ffyrdd, a'i oruchwyliaethau. Nid cyfnewidiad yn ei ewyllys, ei arfaeth, a'i gynghor, ydyw edifeirwch yn yr Arglwydd; ond cyfnewidiad yn ei ragluniaethau, a'i oruchwyliaethau. Job 23. 13. Gwaith yr Arglwydd yn *edifarhau* am y *drwg* a fygythiodd, neu y *da* a addawodd, yn *ammodol*, a arwydda ei waith yn attal y naill a'r llall. Ps. 106. 45. Jer. 18. 10.

'Diedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw.' Rhuf. 11. 29. Diedifarus, sef sicr a digyfnewid. Nid pob doniau, ond y dawn o etholedigaeth, a'r doniau sydd ddeilliedig oddiwrth etholedigaeth gras, megys cyfiawnhad, sancteiddhad, a iechydwriaeth gyflawn yn ei holl amrywiol gangenau. Adn. 28. Nid pob galwad, ond y galwad hwnw y mae yr apostol yn sôn am dano: 'Y rhai a ragluniodd efe, y rhai hyny hefyd a alwodd efe; a'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhaodd efe; a'r rhai a gyfiawnhaodd efe; y rhai hyny hefyd a ogoneddodd efe.' Rhuf. 8. 30. Yn y gadwyn ryfedd hon y mae y naill

* Gwel '*Kitto's Cyclopædia of Biblical Literature*,' dan y gair PARADISE, lle y ceir erthygl ragorol gan y Dr. J. Pye Smith barth i sefyllfa Eden, yr hon y barna efe mai tu a'r rhan ddeheuol i Armenia yr ydoedd—C.

Digitized by Google

dorch euraidd yn nglŷn wrth y llall, ac i gyd mor sicr a'u gilydd; y mae y galwad mor ddigyfnewid a'r rhagluniad; a phob un mŵr ddigyfnewid a meddwl, cynghor, ac arfaeth y Duw digyfnewid. Diedifarus; sef y mae ei foddlonrwydd mwyaf yn yr hyn a wnaeth; y mae yn ymhyfrydu, ac yn ymorfoleddu yn y gwrthddrychau, ac yn ei holl raslonrwydd haelionus tu ag atynt.

Y mae y gair edifarhau, yn ein cyfieithiad ni, weithiau, yn dywyll ac ammheus. Dywedir am Judas, 'Bu edifar ganddo;' ond y gair *Gr.* *μεταμεληθεις*, a arwydda yn fwy priodol, *pryder*, ac *anesmwythder gwedi cyflawni rhyw weithred*. Y gras o edifeirwch Cristionogol a osodir allan bob amser trwy y gair *Gr.* *μετανοια*, ystyr priodol pa un ydyw *cyfnewidiad meddwl o ddrwg i dda*; cyfnewidiad calon o bechod i sancteiddrwydd; cyfnewidiad trwyadl yn hytrach na diwygiad; dyosg yr hen ddyn, a gwisgo y dyn newydd.——Y gair edifeirwch a arwydda, yn yr ystyr priodol o hono, gweithred troseddwr yn edifarhau am ryw fai a wnaeth. Mai dau air Groeg yn cael eu cyfiethu yn ein Biblau ni, *edifeirwch*; sef *μετανοια*, *cyfnewidiad meddwl*, a *μεταμελομαι*, *gofidio*, neu fod yn gythryblus am beth wedi ei gyflawni.* Pechod ydyw y weithred a gyflawnwyd. Y mae yr ystyriaeth am y gosb ddyledus am dano yn peri terfysg brawychus; ond y mae edifeirwch yn cynnwys mwy na hyny, sef *cyfnewidiad meddwl* mewn perthynas i'r weithred ei hun. Pob trosedd a arwydda fod deddf gwedi ei throseddu, a bod deddfwr gwedi ei ddirmygu trwy yr anufudd-dod i'w ddeddf. Dirmyg y meddwl o'r deddfwr a'i gyfraith, sydd yn peri fod neb yn ei throseddu. Cyn yr edifarhao un troseddwr am ei drosedd, rhaid iddo gydnabod ei fod yn feius; sef bod y Duw yr hwn a roddodd y gyfraith, yn oruchel, yn ogoneddus, yn hawddgar, ac yn dda, ac yn gwbl deilwng o ufudd-dod parod a pharchus; fod y gyfraith a droseddwyd, yn mhob gorchymyn o honi, ac yn ei holl fendithion, yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda; a'i fod yntau yn hollol feius ac anesgusodol, fel troseddwr o honi, yn ansanctaidd, yn anghyfiawn, ac yn ddrwg. Tra byddo dyn yn meddwl yn gul ac yn anmharchus am y Duw mawr; ac yn meddwl am gyfraith Duw fel yn rhyw beth a ellir yn hawdd ei hebgor, i'w thaflu o'r neilldu yn ddisylw, ac yn ddiystyrllyd, fel pe byddai yn gofyn gormod, neu yn rhy fanwl—nid edifarha y dyn byth am ei drosedd o honi, yn yr ysbryd hwn. Ond pan welo fod Duw yn hawddgar ac yn ogoneddus, y gyfraith yn uniawn i gyd oll, sancteiddrwydd neu gydffurfiad â hi yn brydferth ac yn ddymunol, ac yntau, fel troseddwr, yn euog, yn ffiaidd, yn adgas, ac yn haeddiannol o gosbedigaeth dragywyddol—gwelir arno agwedd dyn edifeiriol.——Nid cyfnewidiad *teimlad* yn unig ydyw *edifeirwch*; ond cyfnewidiad *meddwl*, *barn*, a *thueddiad*. Dichon *teimladau* dyn gyfnewid yn fawr, ac yn aml, ac etto, y meddwl, y syniad, a'r tueddiad, yr un. Y mae teimladau anghysurus, yn aml, yn tarddu oddiwrth olwg ar erchylldod y gosb; ond y mae gwir edifeirwch yn tarddu oddi wrth olwg ar erchylldod a ffieidd-dra y bai, yn haeddu y fath gosb ofnadwy. Nid tymher yn diflanu, gan hyny, ydyw gwir edifeirwch am bechod, ond cyfnewidiad sanctaidd yn holl ansawdd yr enaid, yn ei iachau o'i bla yn sylweddol ac yn wirioneddol. Sancteiddrwydd mewn pechadur ydyw, yn gweithredu yn addas tu ag at Dduw mewn galar duwiol, mewn gostyngeiddrwydd a hunan-ffieiddiad, a chyfaddefiad rhwydd a pharod o'i fai; yn gweithredu tu ag at y gyfraith mewn anwyldeb, hyfrydwch, a pharch iddi, a dymuniad hiraethlawn am gydffurfiad â hi—yn gweithredu tu ag at bechod mewn ffieiddiad o hono, ac ymgais ddifrifol am waredigaeth oddi wrtho—tu ag ato ei hun mewn soriant, zel, awyddfryd, ac ymddial—tu ag at ei gymydog mewn tiriondeb a mwyneidd-dra, yn hawdd ganddo farnu eraill yn well nag ef ei hun. Yn ol y gradd y mae dyn yn adnabod Duw y mae yn adnabod ei bechadurusrwydd ei hun, a'r mawr ddrwg sydd mewn pechod; golwg ar Dduw, yn yr amlygiad mwyaf dysglaer a chyfiawn a wnaeth o ddyfnderoedd ei ddaioni, mawredd ei gariad a'i ras, sydd yn gweithredu yr edifeirwch mwyaf difrifol a sylweddol—gan mai yno y gwelir drwg pechod yn fwyaf eglur. Yn Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio yn aberth dros bechaduriaid, ac yn iawn dros bechod, y gwelir daioni Duw yn ei holl ëangderau difesur; yno gan hyny, y mae yr Ysbryd Glân yn troi wyneb pechadur, mewn modd neillduol, i ddryllio ei galon, a'i lenwi â galar duwiol, yn gystal a gobaith a gwir lawenydd sylweddol. Gwel yr ysgrythyrau canlynol:—Zech. 12. 10. Esa. 66. 2. a 55. 7. Jer. 3. 25. a 31. 19. Luc 18. 13. 1 Tim. 1. 15. Eph. 3. 8. Job 40. 4. a 42. 6. Ezec. 6. 9. a 20. 43. a 36. 21. Ps. 32. 5. a 51. 3, 4, 8, 17. a 119. 104, 113. Rhuf. 7. 21. Hos. 14. 3, 8.——Nid oes un gras yn gweithredu, yn wirioneddol, yn enaid pechadur, heb edifeirwch. Trwy gredu tystiolaeth y gair dwyfol am Dduw, yr adnabyddwn Dduw; trwy adnabod Dduw y mae cariad ato yn cael ei genedlu; yn y cariad ato nis dichon neb beidio ymgais am ryngu ei fodd, trwy ufudd-dod parod iddo. Ond pwy sydd yn gwir garu Duw, trwy amlygiad o'i gariad tu ag atom ni, ac yn ufuddhau iddo o gariad tu ag ato, heb wir edifeirwch am iddo erioed ei ddianrhyddeddu a'i anmharchu? Y mae yn amlwg fod gwir edifeirwch yn cydraddu â mesur ein ffydd yn yr Arglwydd, fel Duw yr iechydwriaeth; ein gwybodaeth o hono, ein cariad tu ag ato, a'n hufudd-dod iddo.

Am yr angenrheidrwydd o edifeirwch, y mae tystiolaethau amlwg ac aml yn y gair. Act. 2. 28. a 3. 19. a 5. 31. a 11. 18. a 17. 30. Heb. 6. 1. Luc 13. 3, 5. a 24. 47. 2 Cor. 7. 10. Heblaw hyny, y mae natur pethau ynddynt eu hunain, yn dangos hyny yn dra amlwg. Y mae pob dyn diedifeiriol, tra parhao felly, yn parhau yn elyn gwrthryfelgar yn erbyn Duw. Ni chymmodir ef byth â Duw, ac â sancteiddrwydd a chyfiawnder, tra byddo mewn cariad â phechod. Po mwyaf dysglaer ydyw y dadguddiad o Dduw, a'i berffeithrwydd, mwyaf gelyn ydyw yntau iddo. Nid ymâd dyn byth â phechod, tra y byddo heb edifarhau am iddo bechu. Gwaredu dyn diedfeiriol oddiwrth bechod, heb roddi edifeirwch iddo sydd beth anmhosibl. Edifeirwch gwirioneddol am bechod ydyw gwir ymadawiad âg ef. Yn y gwrthwyneb, *byw* mewn pechod sydd drachefn yn beth anmhosibl i bechadur gwir edifeiriol. Ni wna pechadur diedifeiriol, tra parhao felly, ddim â'r efengyl; y mae yn hollol anghymeradwy ganddo. Ond y mae trefn fawr yr iechydwriaeth, yn ei holl gangenau, ei heffeithiau, a'i ffrwythau, i bechadur diedifeiriol. yn ymddangos yn ngoleuni yr Ysbryd Glân, yn nodedig ogoneddus—yn addas i'r Duw a'i trefnodd, ac yn feddyginiaeth addas iddo yntau. Y mae rhyw gymysg rhyfedd o alar a llawenydd yn llenwi ei feddwl wrth edrych arni.

Y mae yr ysgrythyrau yn gosod allan edifeirwch fel dyledswydd o'n tu ni, ac hefyd fel gras o du yr Arglwydd; ac nid ydyw yn llai gras am ei fod yn ddyledswydd, nac yn llai dyledswydd am ei fod yn ras. Os nad ydyw yn iawn i ddyn garu pechod, y mae yn ddyled arno edifarhau am dano. Act. 17. 30. Mat. 11. 20, 21, 22. Dat. 2. 21. Ond mae dyn, fel pechadur llygredig, yn gymaint gelyn i Dduw, ac mewn cymaint cariad â phechod, fel nad oes neb a edifarha heb i'r Arglwydd roddi edifeirwch iddo. Act. 5. 31.

* Gwel Campbell's *Dissert.* vi.—Mintert.—Witsius' *Œcon. Fœd.*, *lib.* iii. *cap.* 12, *sec.* 135, &c.

a 11. 18. 2 Tim. 2. 25. Y mae yr Ysbryd Glân yn rasol yn argyhoeddi o bechod; yn dwysbigo y galon; yn enwaedu ar y galon; yn rhoddi calon newydd, ac ysbryd newydd, ac yn tynu ymaith y galon gareg; yna mae y pechadur yn cofio ei ffyrdd drygionus, a'i weithredoedd nid oeddynt dda, ac yn ffieiddio ei hun am ei anwiredd, ac am ei ffieidd-dra. Y mae yn cael ei argyhoeddi o bechod, ei ddryllio am bechod—yn ei gyfaddef, ac yn ymadael âg ef. Ioan 16. 8. Deut. 30. 6. Act. 2. 37. Ezec. 36. 26, 27, 31.—Y mae yn cael ei alw yn 'edifeirwch tu ag at Dduw—ac edifeirwch i fywyd;' am fod y pechadur edifeiriol gwedi ei wir fywhau trwy ras, yn gwir ddychwelyd at Dduw, ac yn sicr o fwynhau bywyd tragywyddol gyda Duw, Act. 3. 19. a 11. 18. a 20. 21.—Am y gwahaniaeth rhwng yr edifeirwch goruchel hwn, ac edifeirwch dynol, rhagrithiol, deddfol, ac amserol, Edr. AHAB, JUDAS, NINIFEAID, &c.

'Oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch.' Heb. 12. 17. Edr. ESAU.——'Y rhai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch,' sef y rhai sydd yn gyfiawn yn eu tyb eu hunain, ac, yn ganlynol, heb weled angen edifeirwch arnynt. Y cyfryw rai ydoedd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion, y rhai a rwgnachasant yn erbyn yr Iesu, am ei fod 'yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwyta gyda hwynt.' Luc 15. 2, 7. a 18. 10, 11, 14. Marc 2. 16. Mat. 9. 13.

'Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn Dywysog, ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau.' Act. 5. 31. 'I roddi edifeirwch,' neu, medd Dr. Doddridge, 'I anfon trwyddo ef ammodau heddwch a chymmod.' Y mae *δουναι μετανοιαν*, yn arwyddo yma, medd ef, *rhoddi lle i edifeirwch*. Yn ol yr esboniad hwn, nid ydyw rhoddi edifeirwch, yn arwyddo dim mwy na phregethu edifeirwch yn ei enw ef. Ai yr un peth, ynte, ydyw pregethu edifeirwch a rhoddi edifeirwch? Ai yr un peth ydyw pregethu maddeuant a rhoddi maddeuant? 'Rhoddodd edifeirwch i Israel;' sef i bawb o Israel a edifarhaodd, neu a edifarhant byth. Y mae y cyfryw goll ymadrodd yn dra aml yn yr ysgrythyrau; megys yn 1 Cor. 4. 5. 'Ac yna y bydd y glod i bob un gan Dduw;' sef pob un a dderbynio glod yr amser hwnw, a'i derbyniodd gan Dduw. Hefyd, Rhuf. 3. 23, 24. 'A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad,' &c., sef pawb a gyfiawnhawyd, *fel hyn yn unig* y cyfiawnhawyd hwynt. Felly y mae i ni ddeall hefyd y geiriau yn Ioan 1. 9. pa un ai cyfleithir y geiriau, 'Yr hwn yn dyfod i'r byd sydd yn goleuo pob dyn;' neu, 'Yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd;' hyny yw, efe sydd yn goleuo pawb a'r y sydd yn cael eu goleuo: y maent oll yn derbyn eu goleuni oddiwrth Grist. Felly, nid yw bod corph pobl Israel heb edifarhau ddim yn un prawf nad oedd llawer o honynt wedi cael edifeirwch; a phawb a edifarhaodd, efe a roddodd edifeirwch iddynt, trwy weithrediad nerthol yr Ysbryd Glân ynddynt. Felly yn addas yr esponia y Doctor ei hun y geiriau yn Act. 11. 18. 'Fe roddes Duw gan hyny i'r Cenedloedd hefyd edifeirwch i fywyd;' sef, medd y Doctor, nid yn unig efe a wnaeth gynnygion o hono, ond a'i gweithredodd yn rasol yn nghalonau rhai o honynt. Yr un fath y gwnaeth hefyd âg Israel; nid yn unig efe a anfonodd iddynt ammodau heddwch—a roddodd le i edifeirwch; ond hefyd a'i gweithredodd yn rasol yn nghalonau *rhai* o honynt. Felly hefyd, yn 2 Tim. 2. 25. 'I edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirionedd.' Y mae y geiriau yn arwyddo, yn ddios, nid pregethu edifeirwch, na rhoddi lle i edifeirwch; ond, a roddai Duw iddynt hwy gyfnewidiad meddwl i gydnabod y gwirionedd ag yr oeddynt o'r blaen yn ei wadu. Athrawiaeth eglur y Bibl yw, fod Duw yn rhoddi edifeirwch; a pha raid sydd i geisio troi y geiriau oddiwrth eu hystyr llythyrenol a mwyaf priodol, a thywyllu un prawf o ddwyfoldeb Person Crist, a chauad un ffynon o ddyddanwch annhraethol i bechadur tlawd?

EDLIW—IODD, (ed-liw) dannod, ymherio, lliw ied. Mat. 11. 20. a 27. 44.

EDNOD, (edn) adar. 1 Bren. 4. 23.

EDOM, *Heb.* אדום [*coch*] Esau mab Isaac a brawd Jacob, a enwyd felly. Rhoddwyd yr enw hwn iddo, naill ai o ran ei liw, yr hwn pan aned a ddaeth allan yn goch drosto i gyd, fel cochl flewog; neu o herwydd iddo werthu ei enedigaeth-fraint i Jacob am gawl coch. Gen. 25. 25, 29—34. Idumea a enwyd oddiwrth Edom, ac a elwir yn aml, gwlad Edom. Edr. ESAU, IDUMEA.

EDREI, *Heb.* אדרעי [*crug mawr*]. 1. Prif ddinas brenhiniaeth Basan, yn agos i ba un y gorchfygwyd Og. Gwedi hyny hi a roddwyd i hanner llwyth Manasseh, tu hwnt i'r Iorddonen. Jos. 13. 31.——2. Dinas yn Naphtali. Jos. 19. 37. Bu yno Esgob Cristionogol dros rai oesoedd.

EDRYCH, (ed-rhych) *Gr.* *δερκω (dercô)* golygu, syllu, tremio, canfod, bwrw golwg ar beth.—Y mae edrych yn arwyddo, 1. Sylwi ar beth yn fanwl. Lef. 13. 5.——2. Deall yn gyflawn, a dadguddio. Dat. 5. 4, 5.——3. Chwilio am, a dewis. Act. 6. 3.——4. Credu, neu ymddiried yn. Esa. 17. 7, 8.——5. Gofal, gwyliadwriaeth, a gocheliad dyfal. Luc 8. 18. a 17. 3, a 21. 34. Act. 5. 35. a 20. 28. Heb. 3. 12.——'Edrych ar yr Arglwydd,' ydyw ei wir adnabod, ei garu, dysgwyl wrtho mewn ffydd am bob bendith ysbrydol—am gyfarwyddyd, am gynnaliaeth, ac am gysuron; ac hefyd ei ddilyn. Ps. 5. 3. a 34. 5. Esa. 17. 7. a 45. 22. Jonah 2. 4. Mic. 7. 7. Heb. 12. 2.——Gwaith Duw yn edrych ar ddynion, a arwydda ei adnabyddiaeth gyflawn o honynt, ac o'u holl ymddygiad; ei ofal am danynt, a'i diriondeb iddynt. Ps. 53. 2. a 14. 2. a 33. 14. Galar. 3. 50.—ei gymeradwyad o honynt; Gen. 4. 4. Num. 16. 15. Esa. 66. 2.—ei diriondeb a'i dosturi tu ag at ei bobl yn eu gorthrymderau. Edrychodd yr Edomiaid yn greulawn ac yn bechadurus iawn, trwy edrych gyda hyfrydwch ar yr Iuddewon yn cael eu lladd, a'u dinasoedd yn cael eu llosgi, a'u golud yn cael ei yspeilio. Obad. 12.

'Nac edrychwch arnaf, am fy mod yn ddu, ac am i'r haul edrych arnaf.' Can. 1. 6. Nac edrychwch arnaf gyda dirmyg a digllonedd; nac edrychwch yn unig, neu yn benaf, ar fy ngwendidau a'm profedigaethau, ac felly tramgwyddo wrth grefydd o'm hachos; canys profedigaethau a'm cystuddiasant, ac a'm hanmharchasant yn ddirfawr; ond er fy mod fel hyn yn ddu, yr ydwyf yn hawddgar hefyd, fel lleni Solomon.

EDUMA, pentref, deuddeg milltir o du y dwyrain i Sichem.

EDUTH, עדות [*tystiolaeth*] titl Psalm lx. a lxxx., naill ai nôd cerddoriaeth, yn awr yn anhysbys i ni; neu arwydda fod y Psalmau yn cynnwys tystiolaeth Dafydd am ei ffydd yn Nuw, a'i ddiolchgarwch iddo am ei waredigaethau, i'w canu gan offeiriaid Duw o flaen ei arch yn y cysegr.

EDDI, (edd) penau edafedd; rhidens, amaerwy.—Yr oedd gorchymyn i feibion Israel i wneuthur iddynt eddi ar odreu eu dillad, a rhoddi pleth o sidan glas ar eddi y godreu. Y dyben o hono ydoedd, iddynt edrych arno, 'i gofio holl orchymynion yr Arglwydd, ac i'w gwneuthur hwynt.' Num. 15. 38, 39. Deut. 22. 12. Mat. 23. 5. Efo sidan glâs yr oeddynt yn cylymu yr eddi yn siobynau, ar bedwar cwr eu harwisgoedd. Un o'r siobynau hyn a feddylir wrth *ymyl* (*κρασπεδον*) gwisg yr Arglwydd Iesu, yr hwn yn mhob peth a

Digitized by Google

gyd-ymffurfiodd â gorchymyn Duw. Mat. 9. 20. a 14. 36. Marc 6. 56. Luc 8. 44.——Fel arwydd o sancteiddrwydd ac ufudd-dod mwy manwl na chyffredin i'r gorchymyn dwyfol, y Phariseaid a wnaent ymyl-waith (*τα κρασπεδα, y siobynau*) eu gwisgoedd yn helaeth, neu, y siobynau eu gwisgoedd yn fawrion. Mat. 23. 5. Yr oedd hyn yn gwahaniaethu yr Iuddewon oddiwrth bawb, ac yn eu cofföu o'u perthynas â Duw, fel ei bobl gyfammodol, a'u rhwymedigaethau, o'r achos hyny, yn fwy na phawb, i rodio i bob rhyngu bodd iddo. Gwel Campbell ar Mat. 9. 20.

EFA, *Heb.* חוה [*byw, bywyd; un yn bywhau*] galwodd Adda ei wraig wrth yr enw hwn, wedi rhoddiad yr addewid o'i hâd i ysigo pen y sarph, mewn ffydd yn yr addewid hòno; canys hi oedd, neu oedd i fod, yn fam כל חי *pob un*, neu pob un sydd yn byw, (*οι ζωντες*, 2 Cor. 5. 15.) sef i Dduw, yn ysbrydol ac yn dragywyddol, gan ei bod yn fam i Grist, yr hâd addawedig, yr hwn yw bywyd pob credadyn. Ioan 1. 4. a 11. 25. Col. 3. 4. 1 Ioan 1. 2.——Duw wedi creu y dyn a ddywedodd, 'Nid da bod dyn ei hunan, gwnaf iddo ymgeledd (*Heb. cymhorth*) cymhwys iddo:' *Heb. megys ger ei fron*—yn cyfeirio at ddygiad yr anifeiliaid a'r ehediaid ger bron Adda, ond yn eu plith oll ni chafodd gymhorth ger ei fron. 'A'r Arglwydd a wnaeth o asen Adda wraig iddo, ac a'i dug at y dyn. Ac Adda a ddywedodd, Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i; hon a elwir gwraig (*ischa*, y gwrrywes) oblegid o ŵr y cymerwyd hi.' Rhoddodd Adda yr enw hwn *ischa*, arni, i arwyddo dull ei chreadigaeth —rhoddodd yr ail enw Efa, i arwyddo ei grediniaeth o'r addewid, ac yn nhrefn yr iechydwriaeth trwy hâd y wraig, sef Crist Iesu. Felly enwodd Lamech Noah, gan ddywedyd, 'Hwn a'n cysura ni am ein gwaith, a llafur ein dwylaw, o herwydd y ddaear yr hon a felldigiodd yr Arglwydd.'* Gen. 5. 29.

Crewyd Efa, tebygol, ar y chweched dydd, gwedi i Adda gael adolygiad o'r holl greaduriaid. Ni bu Adda ac Efa byw yn hir yn eu cyflwr o ddiniweidrwydd a dedwyddwch gyd â'u gilydd. Tebygol iddynt fyw yn eu cyflwr creadigol nes ar ol y Sabboth cyntaf; ond dros ba hyd gwedi hyny, nis dichon neb ond dychymygu; ac nid ydyw o ganlyniad i'w wybod. Am eu trosedd a'u cwymp dychrynllyd yn ganlynol i hyny, Edr. ADDA.——Dywedodd yr Arglwydd wrth Efa, gwedi iddi droseddu ei orchymyn, 'Gan amlhau yr amlhaf dy boenau di, a'th feichiogi: mewn poen y dygi blant, a'th ddymuniad fydd at dy wr, ac efe a lywodraetha arnat.' Wrth eu bwrw ill dau allan o baradwys, Efa a feichiogodd ac a esgorodd ar Cain, ac a ddywedodd, 'Cefais wr gan yr Arglwydd.' Hi a esgorodd eilwaith ar ei frodyr. Abel a Seth, a diammeu amrywiol o feibion a merched gyda hyny, er nas cofféir am danynt yn yr hanesyddiaeth sanctaidd. Y flwyddyn y bu hi farw sydd ansicr. Hwyrach iddi farw oddeutu yr un amser ag Adda, oddi amgylch A. M. 930.

EFENGYL—U—WYR, *Gr.* *ευαγγελιον*; *Llad.* EVANGELIUM. Y gair Groeg a arwydda, *cenadwri dda*, neu *newydd da*.† Y mae yr efengyl yn cynnwys, 1. Dadguddiad o drefn Duw yn Nghrist mewn perthynas i gadwedigaeth pechaduriaid colledig. Yn yr ystyr hwn, yr oedd yr efengyl yn cael ei hamlygu i'r eglwys yn yr hen amseroedd, trwy addewidion, cysgodau, a phrophwydoliaethau. Yr ydoedd y drefn fawr, fel hyny, yn cael ei dadguddio yn raddol i'r eglwys, a mwy o ddyfnion ddirgeledigaethau Duw, o bryd i bryd, yn cael eu hegluro hyd nes cododd Haul Cyfiawnder i'r rhai oedd yn ofni ei enw: oblegid hyn, y mae yr addewid i Abraham yn cael ei galw efengyl. Gal. 3. 8.

2. Cyhoeddiad o ddyfodiad y Messïah addawedig, sef o'i Berson fel Duw-ddyn; o'i waith a'i ufudd-dod perffaith i'r gyfraith; o'i ddyoddefiadau a digonolrwydd ei aberth; o'i fuddugoliaeth gyflawn ar uffern, angeu, a'r bedd; o'i adgyfodiad anrhydeddus, a'i esgyniad gorfoleddus i'r nefoedd. 1 Cor. 15. 2, 3, 4. Y mae gorchymyn i gyhoeddi y newyddion da hyn i bob creadur; sef pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd. Luc 24. 47. Marc 16. 15.

3. Gellir golygu yr efengyl hefyd fel yn cynnwys tystiolaeth ddwyfol am Berson a dyfodiad Crist; am berffeithrwydd a digonolrwydd ei waith a'i aberth; a bod bywyd tragywyddol ynddo yn holl gyflawn ystyr y gair hwnw, i'r penaf, i'r gwaelaf, a'r annheilyngaf o bechaduriaid a gredo ynddo. Tystiolaeth Duw am ei Fab ydyw; 'A hon yw y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab; roddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol; a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef.' 1 Ioan 5. 10, 11 Ioan 3. 16. 1 Tim. 1. 15.

Fel hyn y mae Duw yn yr efengyl yn dadguddio, yn cyhoeddi yn awdurdodol, ac yn tystiolaethu yn sicr, fod Mab Duw, yr Arglwydd Iesu, yn bob peth i Dduw dros bechadur, sydd yn ofynol; a phob peth *i'r* pechadur yn gyflawn sydd yn angenrheidiol. Gweinidogaeth cyfiawnder—gweinidogaeth yr Ysbryd —gweinidogaeth bywyd—gweinidogaeth rhyddid, yw. 2 Cor. iii.——Y mae yr enwau mwyaf anrhydeddus yn cael eu rhoddi iddi a ddichon fod; sef, 'Efengyl Duw,' sef yr Efengyl y mae Duw yn awdwr o honi, ac yn gorchymyn ei phregethu; yn ei harddel, ac yn gweithredu trwyddi:—'Efengyl gras Duw,' sef y newydd da am ras Duw:—'Efengyl Crist,' sef y newyddion y rhai a gyhoeddodd Crist, neu sydd yn cael eu cyhoeddi am Grist, trwy grediniaeth o ba rai y derbynir Crist:—'Efengyl y tangnefedd,' sef y newyddion da am dangnefedd a chymmod rhwng Duw a phechadur, trwy waed neu aberth Crist: Eph. 2. 13, 16.—'Efengyl ein hiechydwriaeth,' sef y newyddion da am iechydwriaeth:—'Efengyl y deyrnas,' &c. sef y newyddion da am deyrnasiad y Messïah addawedig. Rhuf. 15. 16. Act. 20. 24. Rhuf. 1. 16. a 15. 19. 2 Cor. 9. 13. a 10. 14. Eph. 1. 13. a 6. 15. Mat. 4. 23. a 24. 14. Edr. ARFAETH, CYFAMMOD, CYFRYNGWR, GRAS.

Y gair efengyl, weithiau, a arwydda gweinidogaeth yr efengyl. Rhuf. 1. 9. 1 Cor. 9. 18. Hefyd, arwydda yr 'hanes am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu, hyd y dydd y derbyniwyd ef i fynu i'r nef.' Yn yr ystyr hwn mae i ni ddeall y geiriau canlynol: 'Dechreu efengyl Iesu Grist,' sef yr efengyl yn ol St. Marc. Marc 1. 1. Act. 1. 1. Gwel Campbell, *Dissert.* v. *part* 2.

'Canys i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megys ag iddynt hwythau.' Heb. 4. 2. Yn hytrach, 'Canys i ni y cyhoeddwyd y newyddion da a gyhoeddwyd iddynt hwy,' neu, 'megys y cyhoeddwyd hwynt iddynt hwy.' Yr oedd y newyddion da a gyhoeddwyd iddynt hwy, yn cynnwys mwy nag addewid o Ganaan ddaearol, sef o wlad well i holl hâd Abraham trwy ffydd; y mae yr un addewidion gogoneddus yn cael eu cyhoeddi i ninnau; mae yr addewid wedi ei gadael i ninnau hefyd, ac mae gorphwysfa etto yn ol i bobl Dduw, yn yr addewid a gawsant *hwy*. Trwy ffydd yr aeth y rhai a'i hetifeddasant i mewn iddi, a thrwy anghrediniaeth ni allai y lleill fyned i mewn; trwy yr un ffordd y mae i ninnau etifeddu yr orphwysfa sydd etto yn ol, ond trwy anghrediniaeth byddwn yn sicr o fod yn ol o honi. 'Ofnwn gan hyny—rhag bod neb o honoch yn debyg i fod yn ol.' Heb. 4. 1.

* Gwel Jonathan Edwards, *on Original Sin, part* 2 § 3.

† Gwel Dr. Davidson's '*Introduction to the New Testament.*' Hefyd, 'Olshausen *on the Gospels*,' *vol.* i. *Introduction.*—C.

Digitized by Google

EFENGYLES, (efengyl) merch yn cyhoeddi newyddion da.—'Dring rhagot, yr efengyles Sion, i fynydd uchel; dyrchafa dy lef trwy nerth, O efengyles Jerusalem: dyrchafa, ac nac ofna; dywed wrth ddinasoedd Judah, 'Wele eich Duw chwi.' Esa. 40. 9. 'Dring rhagot, i fynydd uchel, O ferch, yr hon a ddygi newyddion gorfoleddus i Sion; dyrchafa dy lef gyda nerth, yr hon a ddygi newyddion da i Jerusalem.' Esgob Lowth. Y mae y gwr dysgedig hwn yn barnu mai i Sion y dygir y newyddion hyfryd, a bod cyfeiriad yn y geiriau at y ddefod oedd yn bod yn mhlith y merched yn Israel o ymgynnull ar ryw achos gorfoleddus, megys buddugoliaeth nodedig, gyda cherddoriaeth a dawnsiau, â thympanau yn eu dwylaw, yn gyd-gor, i ymuno gyd â'r meibion, yn eu cân fuddugoliaethus, ac yn ymbyncio yn nghyd, fel y gwnaeth Miriam a'r gwragedd wrth y Môr Coch (Exod. 15. 20, 21.) ac fel y gwnaeth merch Jephthah a'r gwyryfon, pan aethant allan i gyfarfod a'i thad, 'â thympanau, ac â dawnsiau.' Barn. 11. 34. Felly hefyd, pan ddychwelodd Dafydd o ladd y Philistiaid, daeth y gwragedd allan dan ganu a dawnsio i gyfarfod a'r brenin Saul, â thympanau a gorfoledd, ac âg offer cerdd dannau, dan ganu ac ymateb; 'Saul a laddodd ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn.' 1 Sam. 18. 6, 7.

Felly yma, IEHOFAH a roddodd y gair trwy ei brophwyd, newydd gorfoleddus o adferiad Sion, ac o waith Duw yn dychwelyd i Jerusalem, (Gwel Esa. 52. 8.) ac annogir y gwragedd gan y prophwyd i gyhoeddi y newyddion hyfryd â llais cryf o leoedd uchel, o ba rai y gellid eu clywed oreu dros yr holl wlad; a byrdôn y gân oedd i fod, 'Wele eich Duw chwi!'——Mae Vitringa, ac eraill, yn barnu, mai Sion oedd i gyhoeddi y newyddion gorfoleddus, sef ei hathrawon a'i hefengylwyr: yn Sion yr oeddynt yn trigo; gweinidogion Sion (sef yr eglwys) oeddynt; a'u hiaith hwy oedd iaith yr holl eglwys; yr oedd yr holl eglwys yn gorfoleddu wrth y newyddion hyfryd, ac am eu cyhoeddi hwynt yn uchel i'r holl fyd eu clywed. Cynnwys y geiriau ddarluniad hynod o'r eglwys yn Jerusalem, a'i swyddwyr sanctaidd, ar ol dydd y Pentecost. Gwel Vitringa, Lowth. Goddef y geiriau bob un o'r ddau gyfieithiad, ac y mae yr un mater yn cael cyfeirio ato yn mhob un o'r ddau; er bod y gyffelybiaeth yn ymddangos yn fwy cyson a hardd yn y cyntaf.

EFIL-MERODACH, אויל־מרודך [*yr ynfyd Merodach*] mab Nebuchodonosor. Ei enw priodol oedd Merodach; ond oblegid ei ddrygioni a'i ynfydrwydd galwyd ef Efil-Merodach. Dywedir iddo lywodraethu yr ymerodraeth yn amser gwallgofrwydd ei dad. Pan ddychwelwyd synwyr ei dad, Efil-Merodach a gafodd ei garcharu ganddo, oblegid ei gam-drefniad yn llywodraethu. Yn y carchar, bu cyfeillach rhyngddo ef â Jehoiacim, brenin Judah; a phan ddaeth i'r orsedd ar ol ei dad, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, dyrchafodd ben Jehoiacim, ac a'i dug ef allan o'r carchardy. Jer. 52. 31—34. Gwedi iddo deyrnasu ddwy flynedd, yn ol y Dr. Prideaux, yn ddrwg ac yn ormesol annyoddefol, ei berthynasau ei hun a fradfwriadasant yn ei erbyn, ac a'i lladdasant ef. Neriglissar ei frawd yn nghyfraith a ddaeth i'r orsedd ar ei ol; a Laborosoarchod ar ei ol yntau; a Belsassar yn ddiweddaf. Gwel Calmet.—Prideaux's *Connection.*

EFORY, (mory) *Gwydd.* MARAX; *C.* Y VURA: yfory, dydd ar ol heddyw; yr amser i ddyfod. Iago 4. 13, 14.

EFRE, (bre) ller: *Gr.* ζιζανιον; *Ffr.* IVROYE, neu IVRAYE; am ei fod, meddant, yn *enifre*, sef yn meddwi y rhai a fwytânt fara, neu a yfant ddiod, gwedi eu gwneuthur o hono. Pa lysieuyn a feddylir wrth y ζιζανιον, y mae yn anhawdd penderfynu; hwyrach ei fod yn fwy adnabyddus yn y gwledydd hyny na chyda ni. Efre ydyw yn ein tri chyfieithiad ni. Y mae yn amlwg oddiwrth ddammeg efre y maes, 1. Ei fod yn tebygu yn ei darddiad i wenithen; canys pan yr oedd y ddau yn ehedeg y canfyddwyd y gwahaniaeth rhyngddynt: canys 'wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna yr ymddangosodd yr efre hefyd.'——2. Ei fod yn niweidiol i'r gwenith.——3. Ei fod yn hollol ddiddefnydd; am hyny yr oeddynt i 'gasglu yr efre i'w llwyr losgi.' Y mae yr Arglwydd Iesu yn cyffelybu plant y drwg i'r efre hyn; fel yr efre, y maent yn yr un byd a phlant y deyrnas; yn cyd-dyfu â hwynt; yn cyfranogi o'r un breintiau a thrugareddau, yn aml, â hwynt; y ddau yn tebygu i'w gilydd yn gymaint, fel nas dichon dynion, y rhai mwyaf craff, eu gwahaniaethu; y mae y ddau yn cyd-addfeddu, ond i hollol wahanol ddiwedd. Er nas dichon dynion eu gwahaniaethu hwynt, 'Mab y dyn a ddenfyn ei angelion, a hwy a gynnullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd.' Bydd y naill i'w llosgi, a'r lleill i'w diogelu dros byth. Mat. 13. 24—43. Ni lwyr ddidolir hwynt hyd y dydd diweddaf. Y mae y ddau ryw hyn o ddynion yn cyd-dyfu â'u gilydd, sef yn cydfyw, yn cyd-gyfeillachu, ac yn cyd-fasnachu, i ddybenion mawrion o ran y drwg, ac o ran y da, ac o ran yr Arglwydd ei hun, a'i achos yn y byd; ond yn nydd y farn, bydd didoliad tragywyddol rhyngddynt. Gwaith y gweision yw gwylio yn ddeffrous, ond nid eu gwaith hwy yw didoli; ni roddwyd i neb o honynt awdurdod na medr i hyny. Nid dyfetha ond achub y *gwaethaf* o ddynion, yw gwaith y gweision. Nid dyben yr Arglwydd yn y ddammeg yw rhoddi cyfarwyddyd mewn perthynas i ddysgyblaeth eglwysig; rhaid i ystyr y ddammeg gyd-sefyll â'r rhanau eraill o'r gair; ond dangos y mae y dull a'r agwedd a fyddai ar y byd yn gyffredinol; sef y byddai y drwg a'r da i gyd-fyw, yn aml, gyd â'u gilydd; ac mai pwyll, amynedd, a dyoddefgarwch, ac nid eu dyfetha, yw dyledswydd y gweision tu ag atynt.

EFRYDD—ION, (brydd) anafus, cloff, anmherffaith; un â diffyg rhyw ran ynddo.—'Galw y tlodion, yr efryddion,' &c. Luc 14. 13. *Gr.* αναπηροι, *rhai wedi colli rhyw aelod.*——'Ymgasglodd efryddion yn fy erbyn.' Ps. 35. 15. *Heb.* נכים *tarawyddion,* rhai yn *taro,* sef â'u tafodau, Jer. 18. 18. Mat. 27. 39, &c. Luc 23. 35—39.—neu rhai *wedi eu taro,* a thrwy hyny wedi eu hanafu:—*cloffion,* 2 Sam. 4. 4. a 9. 3.—meibion anenwog, a gwaelach na'r ddaear, Job 30. 8. Neu, 'ymgasglodd y tarawyddion, neu y *ffrewyllwyr,* yn fy erbyn—rhwygasant fi, ac ni pheidient.' Cynnwys y geiriau ddesgrifiad prophwydoliaethol o ffangelliad yr Arglwydd Iesu. Yr oedd y ffangellwyr gyd âg eithaf gelyniaeth a chasineb ato, yn ddiarbed yn ei rwygo, ac ni pheidient, o ran eu meddwl creulon, a'u dymuniad. Mat. 27. 26. Ioan 19. 1.

EFYDD—YN—YNAU, (mydd) *Gwydd.* COPER; pres, copr, llatwm, elydr, elydyn, arian bath. Mat. 10. 9. Llestr wedi ei wneuthur o brês. Marc 7. 4. 1 Sam. 2. 14. Edr. PRES.

EGIN—O—YN, (cin) blaen-dardd, blaen-darddu. ——'A'r gwinwydd â'u hegin grawn.—Y mae i'n gwinllanoedd egin grawn.' Can. 2. 13, 15. a 7. 12. Dywed y Dr. Gill fod y gair סמדר yr hwn a arferir yn unig yn y gân hon, yn y lleoedd uchod, yn arwyddo *blodeuyn.* Y LXX. a'i cyfieithant, κυπριζειν, *blaendarddu,* sef blaen-darddiad y blodeuyn, yn arwyddo nesâd y gwanwyn, a chychwyniad y winwydden i ffrwytho yn addas i'r tymhor. Wrth flaen-darddiad y blodau yn ngwinllan Crist, deallwn, arwyddion o adfywiad ar yr eglwys yn ei grasau; chwanegiad ei haelodau, trwy fod rhai o'r newydd yn cael eu bywhau yn ysbrydol; ac amlhad ei chysuron, trwy dyw

Digitized by Google

chanwyll ei lygad ef. Zech. 2. 8. Deut. 22. 10 Act. 20. 28. 1 Cor. 1. 2. a 11. 22. a 15. 9. Gal. 1. 13. 1 Tim. 3. 5.

Y mae eglwys gan Dduw, yn mhob oes, er pan ddechreuodd yn nheulu Adda, ac i barhau hyd ddiwedd y byd. Er ei bod hi weithiau yn fechan, a than erlidigaethau yn fynych, ac weithiau yn cael ei symud oddi wrth y naill bobl at bobl eraill, a gelyniaeth mawr iawn iddi yn wastadol, yn y byd, etto ni ddyfethir hi byth: 'Duw a'i sicrhâ hi yn dragywydd.' Ps. 48. 8. a 125. 1. 2. Mat. 16. 18. Esa. 33. 20. Dan. 7. 14. Ioan x.

Yr un ydyw yr eglwys yn y rhanau hanfodol o honi, yn mhob oes, er ei bod yn amrywio llawer yn yr amrywiol oesoedd, o ran ei gosodiadau, a'i hamgylchiadau. Crist yw ei sylfaen a'i phen; ei air yw ei rheol awdurdodol i'w chyfarwyddo yn mhob peth; a gogoniant Duw, a iechydwriaeth dynion, ydyw dyben ei sefydliad yn mhob oes.

Dros ddwy fil a hanner o flynyddoedd yr oedd yr eglwys i'w chael, gan mwyaf, yn nheuluoedd y patrieirch, a'r penau teuluoedd oeddynt yr athrawon a'r offeiriaid. Gen. 18. 19. Job 1. 5. Dros y rhan fwyaf o'r amser hwnw, nid oedd ynddi hi lawer o ordinhadau nac aelodau.—Dros 1530 o flynyddau gwedi hyny, yr oedd yr eglwys gwedi ei chyfyngu, gan mwyaf, i'r genedl Iuddewig. Yn yr yspaid hwn, yr oedd ei hordinhadau yn dra lliosog; y dadguddiedigaethau iddi yn aml, ac yn eglur, a'i breintiau yn fawrion. Gwedi dyfodiad Crist yn y cnawd, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw, cyfnewidiwyd agwedd yr eglwys yn y byd yn fawr. Hyd yn hyn yr oedd sancteiddiolaf yr eglwys, a holl wasanaeth ei chysegr, yn amlwg, yn perthyn i fynydd teimladwy. Heb. 12. 18. Ond pan esgynodd Crist i'r nefoedd, symudodd y drugareddfa, ac eisteddle addoliad, o'r ddaear i'r nefoedd; dileodd holl ddefodau gwasanaeth y cysegr bydol, y rhai oeddynt yn bresennol ond egwyddorion llesg a thlodion. Gorchymynodd i 'bregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd.' Luc 24. 47. Yn fuan, trwy bregethiad yr apostolion, a nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, lluoedd yn Judea, ac yn yr holl wledydd oddi amgylch, a gredasant yn Nghrist, y rhai a ffurfiwyd yn eglwysi, mewn undeb a chymdeithas â'u gilydd, yn cyd-addoli, ac yn cyd-alw ar yr Arglwydd Iesu.

Trwy ddiwydrwydd, hyfdra, a zel yr apostolion, ac eraill, taenwyd yr efengyl yn fuan dros lawer o wledydd Asia, Ewrop, a rhai parthau o Affrica. Yr oedd agwedd yr eglwys yn nyddiau yr apostolion yn hynod ddysglaer a gogoneddus. Yr oedd ei hathrawiaeth yn bur; ei gweinidogion yn ddoniol, yn danllyd, ac yn sanctaidd; a'i haelodau yn ymroddi yn gwbl i'r Arglwydd ac i'w bobl—yn 'ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol, ac yn byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol.' Tit. 2. 12. Lliaws y rhai a gredasant oedd o un galon, ac un enaid; ac yr oeddynt yn parhau yn athrawiaeth ac yn nghymdeithas yr apostolion, ac yn tòri bara, ac mewn gweddïau. Act. 4. 42. a 4. 31—34. Ps. xlv, lxxii, a xcvii. Esa. xi, xxxv, xlix, liv, lv, a lx, &c. Dat. 6. 2, &c.——Gwedi hyny, yn dra buan, anurddwyd hi yn fawr, gan amryw gyfeiliornadau dinystriol, a gorthrymwyd hi yn dost, gan erlidigaethau gwaedlyd, gan amrywiol o ymerawdwyr Rhufain, olynol. Cafodd ychydig hamdden dan lywodraeth Cystenyn Fawr, yr ymerawdwr Cristionogol cyntaf, yn y bedwaredd ganrif. Yn yr haf-ddydd hyfryd hwn, tyfodd llawer o chwyn drwg yn y winllan, ac ymlusgodd iddi lawer iawn o greaduriaid gwenwynllyd, er parch, esmwythder, a budr-elw. Am eu cam-ddefnyddiad o'u llwyddiant, tywalltodd Duw ei farnedigaethau yn ddychrynllyd ac yn ofnadwy arnynt. Yn raddol, cododd y bwystfil hwnw, Pabyddiaeth, ei ben i fynu, ac a lygrodd yr eglwys weledig â llawer iawn o ddefodau gwag, o drefniad dynol, ac a erlidiodd yn fwy gwaedlyd na neb o'i flaen, bawb na chyd-ffurfient â'i gyfeiliornadau a'i goel-grefydd ef.—Ond yn yr holl oesoedd tywyll, blinion, yr oedd gan Dduw wir addolwyr.—'Y wraig a ffôdd i'r diffaethwch, lle yr oedd ganddi le gwedi ei barotoi gan Dduw, fel y porthent hi yno fil a deucant a thriugain o ddyddiau.' Dat. 12. 6. Y mae y dyddiau hyn, a deufis a deugain y ddau dyst i brophwydo wedi ymwisgo mewn sachliain, yn agos a chyflawni. Yn fuan udgana y seithfed angel, a theyrnasoedd y byd a ânt yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist ef; ac efe a deyrnasa yn oes oesoedd. Dat. 11. 13. Edr. ANGHRIST, ARFAETH, ARGRAFF, TEYRNAS.

**EGNI—OL**, (eg-ni) eidiogrwydd, nertholdeb, taerder, llwyr-ymgais. 2 Sam. 6. 14. 2 Bren. 23. 25. Preg. 9. 10. Act. 18. 28.

**EGWAN**, (gwan) eiddil, llesg, llegach. Ps. 109. 24.

**EGWYD—YDD**, (eg-wyd) meinedd y goes, meilwn, y ffêr; burwy, hual, llyffethair. 2 Sam. 3. 34.

**EGWYDDOR—ION**, (eg-gwyddor) cyn-reol, cynsail, cyn-osodedigaeth; yr wyddor.—Egwyddorion crefydd, pynciau blaenorol a sylfaenol crefydd.

'Mae arnoch drachefn eisieu dysgu i chwi beth ydyw egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw.' Heb. 5. 12.—'Beth ydiw deunyddiau dechreuad ymadroddion Dyw.' W.S.—*τινα τα στοιχεια της αρχης των λογιων του Θεου*;—*dysgu i chwi ryw egwyddorion o ddechreuad o oraclau*, neu *ymadroddion Duw*. Macknight. Y gair *Gr.* *στοιχεια*, a gyfieithir yma *egwyddorion*, a gyfieithir *defnyddiau*, yn 2 Petr 3. 10. a arwydda, cyn-ddefnyddiau, neu ranau cyfansoddol rhyw beth. Arwydda hefyd, ffurf y grefydd Iuddewaidd, y rhai a eilw yr apostol, 'gwyddorion y byd—egwyddorion llesg a thlodion;' (Gal. 4. 3, 9.) dull addoliad Paganaidd, tebygol, neu Iuddewig. Col. 2. 8. 'Ymadroddion Duw,' oedd yr hen ddadguddiedigaethau cynnwysedig yn ysgrifeniadau Moses a'r prophwydi. Rhuf. 3. 2. Egwyddorion ymadroddion dechreuol Duw, ydoedd ystyr, dyben, a defnyddioldeb yr holl drefniadau Iuddewig, ac ymadroddion Duw yn yr ysgrifeniadau sanctaidd yn eu gosod hwynt allan. Y mae egwyddorion blaenorol yn perthyn i grefydd, eglur ac angenrheidiol; mae yn rhaid deall y rhai hyn yn gyntaf, i'r dyben i fyned rhagom at wybodaeth fwy, sef at berffeithrwydd; ac wedi deall y rhai hyn, y mae y llwybr yn rhydd ac yn hawdd i ddeall y pethau mwyaf a dyfnaf; ac heb hyny, nis gellir cynnyddu mewn dim, mwy nag y geill un ddarllen heb ddysgu y wyddor yn gyntaf.

**EHEDEG**, (hêd) hedeg, ehedfan; ffoi, dianc.—'Pa fodd y dywedwch wrth fy enaid, Eheda i'ch mynydd,' neu ehedwch i'ch mynydd, sef Dafydd a'i gymdeithion gweiniaid. Ps. 11. 1. Iaith ei gymdeithion *ofnus*, y mae yn debyg, y rhai a'i cynghorent ef a'i blaid wan, i ehedeg o'r llys i ryw fynydd, neu le o ddiogelwch, rhag dygasedd a brad ei elynion: ond yn lle ffoi fel yr ofnog digalon, y mae yn penderfynu aros lle mae ei ddyledswydd yn ei alw, ac ymddiried yn yr Arglwydd am ei amddiffyn a'i ddiogelu. Ps. 7. 1. a 9. 10. 2 Cron. 14. 11. Esa. 26. 3, 4.

**EHEDIAD—IAID**, (ehed) peth yn ehedeg, aderyn.—Fel mae y rhyw hwn o greaduriaid yn byw, mewn rhan, yn yr awyr, ar y ddaear, ac yn y dyfroedd, felly y maent gwedi eu haddasu i'r amrywiaeth hwn o fywioliaeth. Y mae eu cyrph yn ysgafn, yn brydferth, yn addas i ehedfan ac i nofio; y mae gosodiad eu pluf yn y modd mwyaf addas i ehedeg, i nofio, ac at gynhesrwydd. Y mae ganddynt adenydd cywraint i'w dwyn trwy yr awyr. Y mae eu cynffonau yn gwasanaethu yn rhyfedd i ehedeg yn wastad, yn sefydlog, i esgyn



Digitized by Google

a disgyn, ac i droi yn yr awyr. Y mae ganddynt gwdolew i iro eu pluf, a medr rhyfedd i'w drin, a thaenu mesur cymedrol o hono dros eu pluf allanol, yr hyn sydd yn eu cadw rhag i'r dwfr fod yn niweidiol iddynt. Mae ganddynt hefyd draed i gerdded, i nofio, i ddringo, i ddal, ac i ddwyn eu hysglyfaeth. Hynod o ryfedd fel y mae y Creawdwr doeth a da gwedi addasu pob creadur i'w ddyben, ei sefyllfa, a dull ei fywioliaeth. Edr. Adar.

EHEGR, (hegr) ebrwydd, prysur, buan, cyflym, allan o law.—'Ac yn ebegr Angel yr Arglwydd y trawodd ef.' Act. 12. 23. W.S.

EHI, *Heb.* אחי [*fy mrawd*] mab Benjamin. Gen. 46. 21. Gelwir ei enw ef Ahiram yn Num. 26. 38.

EHUD—RWYDD, (hud) byrbwyll, rhyfygus, digynghor, chwidr, disynwyr, brysgar.—'Yr ehud a goelia bob gair.—Y rhai ehud a etifeddant ffolineb.' Diar. 14. 15, 18. Ond y mae yr Ysbryd Glân, trwy yr efengyl, yn peri i galon y rhai ehud ddeall gwybodaeth. Trwy dynu ymaith y llygredd moesol o'r galon, y mae y synwyrau naturiol, yn aml, yn cael eu cryfhau. Y mae cael iawn olwg ar bethau ysbrydol yn arafu ac yn dofi dynion, ac yn eu dwyn i'w hiawn bwyll. Y mae yr efengyl yn addas i gyflyrau pawb; y mae ei chyflawnder ynddi ei hun, a meddyginiaeth addas ynddi i gyflyrau pob dyn. Esa. 32. 3, 4. Yr oedd aberth dros y neb a bechai yn amryfus, a thros yr ehud. Ezec. 45. 20.

'Wrth oll ehudrwydd ancyflawnder.—Am hyn ydd envyn Duw yddwynt ehudrwydd cadarn.' 2 Thes. 2. 10, 11. W.S.

EHWD, *Heb.* אחוד [*moliannwr*] mab Gera, mab Jemini, gwr llaw-chwith, neu, yn hytrach, *gwr anafus o'i law ddehau.* *Heb.* Meibion Israel a anfonasant anrheg gyd âg ef i Eglon, brenin Moab, yr hwn a'u gorthrymodd hwy yn dost dros ddeunaw mlynedd. Ehwd a wnaeth ddager ddau-finiog, ac a laddodd Eglon â hi yn ei ystafell hâf. Gwedi hyny diangodd Ehwd i fynydd Ephraim, ac a gasglodd hyny a allai o feibion Israel, ac a ennillasant rydau yr Iorddonen tua Moab, ac ni adawsant i neb fyned trwodd. A hwy a darawsant o'r Moabiaid yn nghylch deng mil o wyr, pawb yn rymus, a phawb yn wyr nerthol, ac ni ddiangodd neb. Trwyddo y darostyngwyd Moab dan law Israel, ac y gwaredwyd Israel oddi tan eu hiau orthrymus hwynt. Barn. 3. 15, &c.

EIDION—AU, (aid) bu, buwch, ŷch, tywarchawr. Gen. 32. 5. Exod. 20. 24. Lef. 22. 19. Deut. 22. 1. Hab. 3. 17.

EIDDIGEDD—U, (eiddig) drwgdyb, cynghorfynt; y chwant a'r gofal fydd ar ddyn i wneuthur unrhyw beth.

O ddirfawr *eiddigedd* daioni. *Diar.*

Yr oedd eiddigedd Paul dros y Corinthiaid yn arwyddo ei fawr ofal am danynt, a'i ofn rhag bod eu meddyliau wedi eu llygru oddi wrth y symlrwydd sydd yn Nghrist. 2 Cor. 11. 2, 3.

Eiddigedd y duwiolion—creulawn fel y bedd, yw eu dymuniad hiraethlawn am gymdeithas â Christ, a'u gofal mawr rhag ei golli. Can. 8. 6.

'Eiddigedd Duw,' a arwydda ei fawr ofal am ei ogoniant ei hun, anrhydedd ei ordinhadau, a diogelwch ei bobl; a'i barodrwydd tanllyd i gospi y neb a'i anmharcho, neu a niweidio ei bobl. Exod. 20. 5. Zech. 1. 14. a 2. 8. Yr Arglwydd, neu Iehofah eiddigus yw ei enw; 'Duw eiddigus yw efe:'—mae eiddigedd am ei ogoniant ei hun yn gweddu i'r Arglwydd; y mae yn eiddigeddu yn danllyd iawn, ond yn sanctaidd, ac yn gyflawn, fel y gweddai i Dduw, ac y byddai yn anaddas ac yn anweddus i'w fawrhydi beidio. Nid oes dim gwyniau, neu gynhyrfiadau yn y Duw mawr, fel mewn creaduriaid, ag sydd yn arwyddo eu gwendid a'u hanmherffeithrwydd; ond mae yn gweithredu yn sanctaidd, gyda gweddeidd-dra dwyfol, yn addas i'r achos yn gofyn. Ni oddef yn ei greaduriaid yr hyn nid yw yn weddus iddo oddef, heb ddangos ei anfoddlonrwydd yn y modd a'r gradd y gwelo ei ddoethineb a'i ddaioni fod yn oreu. Exod. 34. 14. Deut. 4. 24. a 6. 15. Nah. 1. 2. Jos. 24. 19.

EIDDIL, (aidd-il) *Heb.* דל (*del*) egwan, bychan, llesg, gwael. 2 Sam. 3. 39.

EIDDO, (aidd) *Gr.* ιδιος, *idios*; *Llad.* Suus: meddiant, perchenogaeth; yr eiddo ei hun.—'Eiddo yr Arglwydd y ddaear—y byd a'i gyflawnder—yr arian a'r aur—y nefoedd.' Exod. 19. 5. 1 Cron. 29. 11. 16. Job 41. 11. Ps. 24. 1. a 50. 11, 12. a 89. 11. Hag. 2. 8. Mewn modd neillduol arbenig, mae ei bobl yn eiddo iddo. Y maent yn eiddo y Tad trwy etholiad; ac yn eiddo y Mab trwy roddiad y Tad, trwy bryniad, a thrwy waith y Tad, â'i air a'i Ysbryd, yn eu tynu ato; a thrwy eu hymroddiad hwythau iddo, yn ganlynol i hyny. Ioan 17. 6, 10. a 6. 37, 44. Byddant yn eiddo iddo o ran ei gyflawn feddiant o honynt, a'u cyflawn fwynhad hwythau o hono yntau, y dydd y gwnelo briodoledd, sef ei *drysor neillduol*, neu ei *dlysau*. Mal. 3. 17. Y mae yr eglwys, gyda gorfoledd, yn hôni ei hawl yn Nghrist fel ei heiddo, a'i hollol ymroddiad iddo yntau, gyda gorfoledd cariad, a llawn sicrwydd ffydd, gan ddywedyd, 'Fy anwylyd sydd eiddof fi, a minnau yn eiddo yntau.' Can. 2. 16.

EIDDUNAWD, (eiddun) dymuno; peth dymunol.—'Mal y rrai sy yn cyfri yn lle eiddunet byw mewn gwafyd tros amser.' 2 Petr 2. 13. W. S. Edr. Moeth.

EIGION, (aig) anoddyfn, caddug-lyn, y canol, pwll diwaelod, y dyfnfor.—'Trwy eigion byd y trig yn ben,' sef trwy ganol byd y bydd yn benaeth.——'Ai foddi yn eigion y môr.' *Gr.* εν τῳ πελαγει της θαλασσης, *yn y dyfn-for*, neu *yn y cefn-for*. Mat. 18. 6. Gwel Kypke, Raphelius, Wetstein. Yr oedd boddi yn y môr yn gospedigaeth aml yn mhlith yr hynafiaid, gwedi crogi, weithiau, feini mawrion am yddfau y personau euog; neu wedi eu hamdroi mewn lleni o blwm. Yr oedd gwedi myned yn ddiareb am ddinystr buan, dychrynllyd, ac anocheladwy. Gwel y Dr. Doddridge.

EINGION, (ang) *Gr.* ακμον; *Llad.* Incus: eingion gôf. Esa. 41. 7.

EILCHWYL, (ail-chwyl) ail dro, eilchwaith, ail waith, drachefn, etto.—'Na chais eilchwyl.' Luc 6. 30.—'Nag arch drachefyn.' W. S. Yr eglurhad goreu ar y geiriau ydyw yr ysgrythyrau canlynol:—Exod. 22. 25, 26, 27. Neh. 5. 1—19. Ezec. 18. 7. Mat. 6. 12. a 18. 27—35. Na ofyn eilchwyl, os bydd yn orthrwm, ac yn anhawdd iddo dalu. Gwell eu colli na'u gofyn trwy gyfraith, os bydd yn cyd-sefyll â dyledswyddau eraill.

EILWAITH, (ail-gwaith) yr ail waith, yr ail dro, trachefn.

Pryn hen, pryn *eilwaith*. *Diar.*

'Ac a'th rydd di eilwaith yn dy le.—Ac a osododd y pen-trulliad eilwaith yn ei swydd.—Ewch eilwaith.' Gen. 40. 13, 21. a 43. 2. Sef, drachefn, yr ail waith.

EILLIO, (ell) cneifio, tocio, gwelleifio.—Eillio y pen, y traed, a'r farf, ydynt eiriau cyffelybiaethol, ac yn arwyddo anrheithiad hollol y wlad, o un pen iddi i'r llall, ac yspeiliad y bobl o bob graddau, o'r uchaf hyd yr isaf, gan frenin Assyria, yr hwn oedd yr ellyn a gyflogodd Duw i'r dyben hyny. Blew y pen, ydyw y graddau uchaf yn y wladwriaeth; blew y traed ydyw y

Digitized by Google

bobl gyffredin; y farf yw y brenin, yr arch-offeiriaid, sef y rhai mwyaf goruchel mewn awdurdod a mawrhydi. Eillio y rhai hyn ydyw eu hyspeilio a'u hanrheithio yn llwyr. Esa. 7. 20.

'Efe a eilliodd hanner eu barfau hwynt.' 2 Sam. 10. 4. Y mae eillio neu dori barf un, yn mhlith yr Arabiaid, yn nôd o fwy o ddiystyrwch na fflangellu, neu haiarn-nodi; a llawer o bobl yn y wlad a ddewisant farw yn hytrach na dyoddef y cyfryw gospedigaeth. Dr. Arvieux.

EINIOES, (ein-ioes) bywyd; bywyd dyn; holl amser bywyd dyn.—'Rhoddodd Crist ei einioes,' sef ei *hunan*, ei *fywyd*, 'drosom.' Ioan 10. 11. a 15. 13. 1 Ioan 3. 16. Yr einioes ydyw y peth gwerthfawrocaf gan ddyn, 'yr hyn oll sydd gan ŵr a ddyry efe am ei einioes;' ond rhoddodd Crist ei einioes drosom. Nis gall neb fod yn ddysgybl gwirioneddol iddo yntau, ag 'na chasao, hyd yn nod ei einioes ei hun, er ei fwyn.' Y mae Crist yn fwy o werth ynddo ei hun, ac yn anfeidrol fwy o werth i ni, na'r einioes. Y neb, gan hyny, a garo ei einioes i wrthodiad, neu i ymadawiad â Christ, a'i *cyll* yn sicr. Y mae efe yn y tywyllwch, heb iawn adnabod ac iawn bwyso pethau. Nid ydyw einioes ond o ychydig werth, heb Grist; canys einioes bechadurus yw; ac einioes dan farn o gondemniad ac mewn cyflwr colledig ydyw; ond 'yr hwn sydd yn casâu ei einioes yn y byd hwn, er mwyn Crist, a'i ceidw i fywyd tragywyddol.' Job 2. 4. Marc 8. 35. Luc 14. 26. a 17. 33. Ioan 12. 25. Y mae casâu yr einioes yn cynnwys casâu pob peth arall, sef pob meddiannau a pherthynasau. Y neb nid yw yn canfod ac yn barnu Crist yn fwy ei werth na phob peth, sydd etto heb ei iawn adnabod, ac nid yw deilwng o hono, ac nis gwna dderbyniad gwirioneddol o hono. Pan ystyriom pwy, a pheth yw Crist, ac mor ddiwerth yw pob peth arall hebddo, y mae yn gywilydd i ni feddwl fod dim anhawsdra na gwrthddadl ynom i hyn. Nid ymadrodd caled, ond anfeidrol rasol a daionus, ydyw yr ymadrodd sydd yn galw ar ddyn i ymwrthod â phob peth, a chymeryd Crist ei hun yn rhan gyflawn dragywyddol iddo.

EIRA, (air) eiry, ôd; *Heb.* שלג *dysglaer, claerwyn.* Tarth ydyw yr eira, yn cydio yn nghyd, ac yn rhewi gan oerfel yn yr awyr. 'Duw sydd yn rhoddi yr eira.—Efe a ddywed wrth yr eira, a bydd ar y ddaear.' Job 37. 6. Ps. 147. 16. Oerfel corph yr awyr yw yr achos naturiol o hono. Pan fyddo corph yr awyr yn gynhes, mae y tarth yn disgyn yn wlaw; ond pan fyddo oerfel corph yr awyr yn ei rewi, mae yn disgyn yn eira. Y mae yr eira, fel y gwlaw, yn rhinweddol i adfywio a ffrwythloni y ddaear, ac i ymolchi âg ef. Job 9. 30. Esa. 55. 10. Oblegid ei glaerder a'i ddysgleirdeb, y defnyddir ef, yn gyffelybiaethol, i arwyddo rhyddhad oddiwrth euogrwydd pechod a llygredigaeth, a gogoniant a rhagoroldeb aberth Crist. Ps. 51. 7. Galar. 4. 7. Esa. 1. 18. Gweithred ryfedd o eiddo Duw trwy Grist a'i aberth, ydyw glanhau pechadur, a'i wneuthur yn wynach na'r eira—sef yn bur, yn ddysglaer, ac yn ogoneddus.

'Megys oerder eira yn amser cynauaf, yw cenad ffyddlawn i'r rhai a'i gyrant.' Diar. 25. 13. 25. Y mae y geiriau yn cyfeirio at hen arferiad o oeri gwin a diodydd eraill âg eira, fel y gwneir yn bresennol âg iâ gwedi ei gadw. Y mae yr un arferiad yn y gwledydd dwyreiniol, yn neillduol yn Syria, hyd heddyw. Fel y mae y cyfryw ddiod yn hyfryd ac yn gysurus yn mhoethder yr hâf, felly y mae cenadau ffyddlawn yn llòni ac yn cysuro y rhai a'u gyrant. Diar. 13. 17. a 26. 6. Phil. 2. 25—30.

'Pan wasgarodd yr Hollalluog freninoedd ynddi, (neu *erddi*) yr oedd hi yn wen fel eira yn Salmon.' Ps. 68. 14. Yr oedd y gwaith yn ddysglaer ac yn ogoneddus, medd rhai; ond, yn hytrach, yr oedd hi, sef y golomen; neu hi *fydd* תשלג (trydydd person, amser dyfodol, rhyw fenywaidd) yn wen fel eira yn Salmon. Pan ddystrywiodd yr Hollalluog freninoedd Canaan, er ei eglwys, yn amser Josuah, yr oedd hi yn enwog am burdeb, sancteiddrwydd, a godidogrwydd. Cenedl enwog am burdeb a duwioldeb a ymladdodd ryfeloedd Canaan dan Josuah. Yn amseroedd y Barnwyr, hefyd, yr oeddynt yn gyffredin yn cael eu diwygio cyn iddynt gael eu gwaredu, a'u gwneuthur yn fuddugoliaethus. Yn yr holl oesoedd a aethant heibio, ac sydd i ddyfod, pan fyddo yr Arglwydd yn gwaredu ei eglwys, y mae hefyd yn ei glanhau a'i phuro. Barn. 2. 7. Jer. 2. 3. Y mae yn prynu ei bobl oddiwrth bob anwiredd, yn eu rhyddhau o ddwylaw eu holl elynion, ac yn eu puro iddo ei hun, yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da. Tit. 2. 14.

Hon pan wasgarodd Duw yn chwyrn,
Pob cedyrn o'i gaseion,
Oedd mor ddysglaerwych ac mor wen,
Ag eira ar ben bryn Salmon.
*E. Prys*, (Ps. 68. 14.)

'A wrthyd dyn eira Libanus, yr hwn sydd yn dyfod o graig y maes? neu a wrthodir y dyfroedd oerion rhedegog sydd yn dyfod o le arall?' Jer. 18. 14. Y mae rhai yn cyfleithu y geiriau fel hyn: *A balla eira Libanus o graig y maes?* neu, *a sychir y dyfroedd oerion rhedegog*, hyny yw, *sydd yn dyfod o'r mynydd hwnw?* Parkhurst a Blayney. 'Felly ni phallaswn innau i fy mhobl, pe buasent yn ymddiried ynof: ond fy mhobl a'm hanghofiasant i, ac a arogl-darthasant i wagedd.' Adn. 15. Jer. 2. 13. Mae mynydd Libanus yn hynod o ddefnyddiol i'r gwledydd oddi amgylch, canys o herwydd ei uchder, y mae yr eira yn aros arno, ac yn toddi yn yr hâf, a thrwy hyny yn llenwi â dyfroedd yr afonydd a'r ffynonau yn y dyffrynoedd oddi tanodd. Gwel Maundrell's *Journey*.

EIRIACH, (air) arbed, prin, goddef, tolio, gwrthymbil.—'Nac eiriach ef.' Deut. 13. 8. Esa. 9. 19. *Heb.* תחמל *na fydd dyner-serchog o hono, i wrthddadleu drosto.* Mae y gorchymyn yn fanwl iawn, yn erbyn y perthynasau agosaf, a'u hannogant i ymadael oddiwrth yr Arglwydd. 'Na chydsynia—na wrando arno—nac arbeded dy lygad ef—nac eiriach ef:'—na fydd serchog tu ag ato, ac yn dyner o hono—ac na chela arno. Deut. 13. 6, 7, 8. Nid oes un creulonder mwy a ddichon y naill ddyn ddangos i'r llall, na thrwy ei demtio i ymadael â Duw, a thrwy hyny annog Duw i ddigofaint yn ei erbyn.' 'Eb eiriach y devait,' (Act. 20. 29.) sef heb harbed. 'Hwn a heua yn eiriachus, a vet hefyt yn eiriachus.' 2 Cor. 9. 6. W.S. 'Eithr eiriachaf,' (2 Cor. 12. 6.) hyny yw, yr wyf yn arbed. W. S.

Melldithiant nac *eiriachant* hwy,
Dod fendith fwy i minnau.
*E. Prys*, (Ps. 109. 28.)

EIRIAS, goleu-dân, tanllwyth, cynneu; corph tân yn wrthwyneb i ffagl.

Os chwalu mŵg mewn gwynt sy hawdd,
Os tawdd cwyr wrth *eirias-dân*.
*E. Prys*, (Ps. 68. 2.)

EIRIOL—WR, (air-iawl) dadleu dros un; dadleuwr, amddiffynwr, canolydd, cyfryngwr; lluddiwr; un a luddio beth i fyned rhagddo.—'Y mae i ni Eiriolwr gyd â'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn.' 1 Ioan 2. 1. Y gair παρακλητος, a gyfieithir *Eiriolwr* yma, a *Dyddanydd*, yn Ioan 15. 16, a 15. 26. a 16. 7. a arwydda *amddiffynydd un mewn llys yn ei absennoldeb.* Edr. DYDDANYDD. Yn yr ystyr hwn priodolir y gair i'r Arglwydd Iesu yn ngweinyddiad ei swydd offeiriadol fry yn y nefoedd, yn y gwir gysegr, dros ei bobl. Nid arferir y gair hwn yn y Testament Newydd, ond yn y lleoedd uchod, ac y cymhwysir ef i'r Ysbryd Glân, ac i Grist. Y mae Crist, fel archoffeiriad, yn Eiriolwr yn y nefoedd, a'r Ysbryd Glân

Digitized by Google

yn *Baracletos*, yn *Ddyddanydd*, yn Addysgwr, yn Rhybuddiwr, ac yn Arweinydd, yn yr eglwys yma yn y byd, ac yn nghalon pob gwir aelod ysbrydol o honi. Y mae Crist yn mynegi ei aberth gwerthfawr fry yn erbyn pob cyhuddwr; y mae yr Ysbryd Glân yn cymeryd o eiddo yr Iesu, ac yn eu mynegi i'r gydwybod yma i'w thangnefeddu. Yr un achos, a'r un ddadl, sydd gan bob un o blaid y pechadur, sef aberth Crist dros ei bechodau.

Cysgodwyd eiriolaeth Crist i'r eglwys, dan yr Hen Destament, yn ngwaith yr arch-offeiriad yn myned i mewn i'r cysegr unwaith bob blwyddyn, i wneuthur cymmod dros y bobl, trwy waed yr aberth a aberthwyd oddi allan; ac hefyd yn mwg yr arogl-darth peraidd. Yr oedd yno berson mewn swydd gysegredig; un o'r bobl yn myned i mewn drostynt, â'u henwau oll ar ei galon, ac ar ei ysgwyddau. Gwaed yr aberth oedd ganddo i'w daenellu ar, ac o flaen y drugareddfa saith waith. Arogl-darth peraidd, yn llosgi yn y thuser aur, a'r mwg yn gwmwl yn cuddio y drugareddfa. Felly yma hefyd yn y sylwedd:—

1. Y mae Crist, o ran ei berson, yn ei swydd oruchel, yn ymddangos ger bron Duw yn y nefoedd trosom ni. Y mae efe yno yn cynurychioli holl gorph yr eglwys, ac yn trin ei holl achos drosti. *Un* o'r bobl yw, yn ymddangos dros *filoedd* o'i frodyr, yn holl ardderchogrwydd ei Berson Dwyfol, ac awdurdod ei gysegriad i'w swydd. Y Person a fu yn rhwym am ddyled miloedd, y rhoddwyd eu hanwireddau oll arno, sydd âg wyneb hyderus, â hyfdra ac ëondra neillduol ac addas iddo ei hun, yn ymddangos ger bron Duw; nid fel person unigol ar ei achos ei hun, ond drosom ni. Fel yr oedd yr arch-offeiriad i ymddangos ger bron Duw âg enwau y deuddeg llwyth ar ei galon ac ar ei ysgwyddau, yn goffadwriaeth ger bron Duw, Exod. 28. 9, 21, &c., felly, yr un modd, Crist hefyd, a'i bobl ynddo, mewn coffadwriaeth ger bron Duw. 'Gosod fi,' medd yr eglwys, 'fel sêl ar dy galon, fel sêl ar dy fraich.' Can. 8. 6. Yno byddaf yn hardd, yn dderbyniol, ac mewn coffadwriaeth dragywyddol. At hyn mae y geiriau yn cyfeirio. Y mae am gael bod yn mherson Crist; am ymddangos ger bron Duw *ynddo*. Yr oedd yr enwau hyn yn perthyn i wisgoedd sanctaidd yr arch-offeiriad: ni buasai wedi ei wisgo yn addas i'w swydd hebddynt. Felly Crist a'i eglwys, neu ei bobl: nid yw efe yn addas o fewn i'r cysegr hebddynt. Drostynt hwy y mae yn ymddangos; a byddant yno mewn modd ardderchog iawn, mewn coffadwriaeth dragywyddol. Lle byddo dadleuwr, y mae yn rhaid fod yno hefyd hawlwyr (*clients*) tros ba rai y mae efe yn ymddangos, ac yn dadleu. Lle byddo pen, rhaid bod yno aelodau; a lle byddo priodas-fab, rhaid bod yno briodas-ferch hefyd.

2. Fel yr oedd yr arch-offeiriad gynt yn dwyn gwaed yr aberth gyd âg ef, ac yn ei daenellu ef ar y drugareddfa: (Lef. 16. 14.) felly y mae Crist yn cyflwyno ei farwolaeth, ei aberth mawr, drosom ni yn y deml uchod. Y mae yr aberth sylweddol y tu fewn i'r llen, gyd â'r drugareddfa; a'r drugareddfa megys â gwaed y taenelliad ar ei hwyneb. 'Yn nghanol yr orseddfainc mae yr Oen yn sefyll megys wedi ei ladd.' Dat. 5. 6. Hyn sydd yn rhoddi grym, bywyd, ac effeithioldeb i'w eiriolaeth.

Ond heblaw hyn, 3. Y mae yn eiriol hefyd. Yr eiriolaeth hon yw yr arogl-darth peraidd, sydd fel cwmwl yn toi y drugareddfa, ac yn myned gyda gweddïau y saint. Dat. 8. 4. Meddyliais yn fynych fod gweddi Solomon gynt, wrth gysegru y deml (1 Bren. viii.) yn gysgod neillduol o eiriolaeth Crist dros ei bobl. Mae Solomon yno yn gweddïo dros eraill a'u gweddïau; sef pan weddïent, am i Dduw eu gwrando o'r nefoedd. Adn. 30, 38, &c. Y mae eu gweddïau hwy yn myned i'r nefoedd yn eu cyfyngderau, ac yn wyneb eu pechodau aml, yn holl rym a rhinwedd gweddi y brenin. Gallasai yr annheilwng a'r euog ymgysuro yn wyneb eu gwaeledd a'u gweddïau tlodion, am fod gweddi ragorol y brenin o'u plaid; ac er ofni cael gwrandawiad o'u rhan eu hunain, etto y caent wrandawiad er ei fwyn ef a'i weddi. Felly hefyd yma. Y mae y saint oll yn gweddïo: etto llawer o amheuon ac ofnau sydd ynddynt yn fynych am wrandawiad eu gweddïau tlodion. Cofient, nad aeth un o'u gweddïau erioed yn gymeradwy i'r nef, heb yr arogl-darth gyda hi. Er mai gwir saint sydd yn gweddïo, etto nis gwrandawyd un weddi o'r eiddynt, heb ei rhinweddu a'i phereiddio gan yr arogl-darth. Y mae holl rym a rhinwedd eiriolaeth Crist, gyda phob gweddi ac ochenaid a ddel oddiwrth y saint gweiniaid, yn eu gwneuthur o fawr werth, ac i arogli yn beraidd y tu fewn i'r llen. Ni wrandawyd un weddi erioed er ei mwyn ei hun, na'r person oedd yn gweddïo; gwrandawyd, a gwrandewir, miloedd o weddïau trueiniaid, er mwyn eiriolaeth fawr y Cyfryngwr. Erys yn wirionedd cadarn byth, mai 'Pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw; efe a'u rhydd i chwi.' Ioan 16. 23.

Gallwn ystyried eiriolaeth Crist fel yn gynnwysedig yn y pedwar peth canlynol:—

1. Y mae ei weddïau, pan oedd ar y ddaear, etto yn parhau yn yr un grym ac effaith, a phan oedd yn eu gweddïo yn ei gyflwr o ymddarostyngiad. Nid oes un mewn anghof, ond maent yn beraidd yn nghlustiau y Tad yn barhaus; yn enwedig ei weddi yn Ioan xvii, yr hon sydd fel arogl-darth peraidd, yn llosgi yn ddiddarfod, ac yn bortreiad neillduol o'i eiriolaeth yn y nef. Yr oedd y weddi hono, fel eiriolaeth, yn addas i'w ystad o ddarostyngiad: ond y mae ei eiriolaeth fry mewn dull addas i'w ystad o ddyrchafiad.

2. Y mae ei waed, gwedi ei dywallt, a'i daenellu, 'yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel.' Heb. 12. 24. Tywalltwyd gwaed y ddau, yn anghyfiawn—yn greulawn—gan frodyr—ac am fod eu gweithredoedd yn dda. Y mae gwaed pob un yn llefaru, ac yn gwaeddi. 'Llef gwaed dy frawd,' medd Duw wrth Cain, 'sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaear.' Gen. 4. 10. Ond rhyfedd y gwahaniaeth sydd yn eu hiaith! Gwnaeth gwaed Iesu, pan y'i tywalltwyd, *iawn* am bechod, ie, am bechod y rhai hyny oedd yn ei dywallt: gwnaeth gymmod drostynt; ac y mae yn dywedyd yn barhaus am faddeuant, yn lle dialedd iddynt. Dywedydd croyw a chadarn o blaid pechadur yw gwaed yr aberth gwerthfawr a wnaeth *iawn*: y mae yn dywedyd o blaid pechadur ar dir cyfiawnder: ac ni feiddia neb na dim byth ei wrth-ddywedyd. Y mae mor gyfiawn iddo waeddi am faddeuant, ag oedd i waed Abel waeddi am ddialedd.

3. Ewyllys y natur ddwyfol. 'Yr wyf yn ewyllysio,' ydyw iaith Crist wrth y Tad. Ioan 17. 24. Y mae yn dywedyd hyn gyd âg ardderchogrwydd addas i ddwyfoldeb ei berson. Y mae ei ewyllys dwyfol yn anghyfnewidiol byth o'u plaid. Yn yr olwg hon y mae yr eiriolaeth o'u tu mor gadarn, anghyfnewidiol, ac anfeidrol, a Duwdod ei hun. Pan ddywedodd y Person Dwyfol hwn, 'Yr wyf yn ewyllysio,' pwy sydd yn abl gwrthsefyll ei ewyllys? pwy a all ei rwystro i gael ei amcan mawr i ben? Nid rhaid iddo ond dywedyd hyn i beri i fyrdd o ddiafliaid ffoi, a phob rhwystr ddifianu, i'w bobl gael ffordd rydd ato i'w drigfan nefol. Gwnaeth bob peth erioed, 'yn ol cynghor ei ewyllys ei hun.' Nid oedd raid iddo ond ewyllysio, i beri i'r holl fydoedd ymddangos yn ddioed, fel y maent:—ac nid rhaid iddo ond ewyllysio, i beri iddynt ar unwaith ddifianu dros byth, fel na wneir mo'u lle mwyach. Achos o gysur tragywyddol, gan hyny, ydyw, fod yr un ewyllys dwyfol yn eiriolaeth Crist dros yr eglwys, yn y nef.

4. Dymuniad ac erfyniadau y natur ddynol. Nid yw ddim mwy anmhriodol i'r natur ddynol erfyn yn y nef nag oedd iddi erfyn yma ar y ddaear. Y mae yn

Digitized by Google

wir fod gwahaniaeth mawr yn y dull. Yr oedd efe yma yn ei ystad o ddarostyngiad, yn 'offrwm gweddïau ac erfyniau trwy lefain cryf a dagrau:' (Heb. 5. 7.) ond y mae yno mewn dyrchafiad, a'i ddull, yn mhob ystyr, yn addas i'w ystad oruchel, a gogoniant ei Berson. Etto, er ei anfeidrol ddyrchafiad, mae efe heddyw yn y nef, yn 'medru cyd-ddyoddef gyd â'n gwendid ni,' ac 'yn byw,' yn ei ogoniant, 'bob amser i eiriol trosom ni.' Heb. 4. 15. a 7. 25. Yn hyn, fel yn mhob peth arall, y mae Crist yn berson digyffelyb: nid oes ei fath mewn nef na daear. Y mae yn Nghrist (os goddefir yr ymadrodd) ddwy ffynon i'w gariad a'i dosturi; un yn y Person Dwyfol, a'r llall yn y natur ddynol. Y mae yn caru fel y mae yn Dduw—y mae yn caru fel y mae yn ddyn. Y mae yn trugarhau fel Duw—y mae yn cyd-oddef ac yn tosturio fel dyn. Yn y golygiadau hyn, y mae anfeidroldeb megys yn dynesu atom ni yn rhyfedd. Y mae cariad, fel y mae yn Nuw, yn beth rhy ryfedd i ni; yr ydym yn soddi megys yn ëangder ei ryfeddodau; neu, y mae ei ryfeddodau fel pe baent yn ein llethu gan eu dwyfoldeb a'u mawrder. Ond, wele ef yn addas ac yn agos atom! Mae yr hwn sydd yn Dduw perffeithlawn yn berffaith ddyn hefyd; ac y mae yn caru, yn cyd-oddef, ac yn tosturio, fel y mae yn ddyn. Ninnau a wyddom beth yw hyny; yr ydym, o ran ein profiad, gyd âg ef, ac yn agos ato. Ac fel y mae Crist yn sefyll tu ag at ei bobl, mewn pob perthynas agos a charuaidd, yn Dad, yn Frawd, yn Briod, yn Gyfaill, &c., felly y mae ganddo hefyd deimladau addas i bob perthynas. Y cynneddfau a'r teimladau sydd yn *rhanedig* mewn dynion, ydynt *yn gyfan ac oll yn un* yn Nghrist. Yr oedd Jonathan yn caru Dafydd fel cyfaill—Joseph yn caru Benjamin fel brawd—Abraham yn caru Sarah fel priod—Jacob yn caru Joseph fel tad—Rahel yn caru ei phlant fel mam—ond yn Nghrist y mae yr holl ffrydiau hyn yn cyd-gyfarfod. Mae ynddo EF gariad a theimladau Tad, Priod, Cyfaill, a phob perthynas; ac heb fod un yn rhwystr i'r llall, nac yn lleihau y llall: ond oll yn cyd-aros, ac yn cyd-weithio, yn rhyfedd ogoneddus a sanctaidd, yn ei natur ddynol. Y mae efe yn wirioneddol yn ateb i bob enwad a roddir iddo yn y gair. Os Brawd, os Cyfaill, os Priod, y gelwir ef, y cyfryw ydyw mewn gwirionedd; y mae ganddo deimladau addas i bob cyfryw enwad. Ac megys nad ymadawodd Crist, yn ei ystad o ddyrchafiad, âg un swydd, nac un berthynas, y bu yn sefyll ynddi yn ei ystad o ddarostyngiad; felly hefyd ei gymhwysderau i'w swyddau, a'i deimladau addas i'w berthynasau tu ag at ei bobl, nid ydynt wedi eu colli na'u lleihau, ond yn hytrach wedi eu perffeithio. Gan hyny, y mae efe yn eiriol, nid fel un diofal am lwyddiant ei waith, ond fel mam dros ei phlentyn—fel gwr dros ei anwyl briod—fel cyfaill dros gyfaill, &c. Y mae yn eiriol hefyd dros gyfeillion a fuont unwaith yn elynion, ond a wnaed yn gyfeillion trwy ei waith yn marw drostynt. Ac 'os, pan oeddynt yn elynion, y bu iddynt gael eu heddychu â Duw trwy ei farwolaeth, mwy o lawer, gwedi eu heddychu, yr achubir hwynt trwy ei fywyd' o eiriolaeth drostynt. Rhuf. 5. 10. Yn mhellach, y mae ganddo hawl yn y rhai y mae yn eiriol drostynt, fel ei brynedigion; mae efe gwedi talu am danynt, gwedi eu llwyr brynu â'i waed; yn ganlynol, gwybyddwn fod y natur ddynol, mewn undeb â'r Person Dwyfol, â'i herfyniadau yn gwbl effro a gwresog o'u plaid. Mae efe yn nghylch eu hachos â'i holl galon, yn holl dynerwch ei deimladau caruaidd a thosturiol, ac yn holl bwysfawrogrwydd anfeidrol ei Berson, a'i haeddiant. Felly, os llwyddodd Moses dros Israel anufudd—os llwyddodd Esther dros fywyd ei chyd-genedl, gyda brenin annuwiol—os llwyddodd Abigail gyda Dafydd dros Nabal—pa faint mwy y llwydda yr EIRIOLWR perffaith hwn? Ni chollodd efe achos erioed: ond y mae myrddiynau yn awr ger bron yr orsedd fry, yn iach, ac yn ddiangol yn dragywydd, yn dystion byw o effeithioldeb ei eiriolaeth drostynt. Dat. 7. 9.

Gallwn feddwl fod cyrn y ddwy allor gynt, yn cysgodi anfeidrol rym a rhinwedd cyfryngdod Crist. Yr oedd i'r allor bres, a'r allor aur, bedwar corn bob un. Cyrn, yn yr ysgrythyrau, a arwyddant rym, gallu, a rhagoroldeb; felly cyrn yr allor bres a arwyddant rym a rhagoroldeb aberth Crist, i dynu ymaith bechodau ei bobl; a chyrn yr allor aur (allor yr arogl-darth) yn dangos effeithioldeb eiriolaeth Crist o blaid ei bobl.

Ystyriwn, yn mhellach, pa le y mae yn eiriol, sef 'gyd â'r Tad.'—*Y Tad;* ei Dad ef, a'n Tad ninnau —nid ei Dad ef yn unig, ond ein Tad ninnau hefyd—nid ein Tad ni yn unig ychwaith, ond ei Dad yntau hefyd. Nis gall un person fod yn fwy derbyniol gyd â'r Tad na'i anwyl Fab ei hun; nac un achos yn fwy derbyniol ganddo nag achos ei blant ei hun. Wrth weled Tad ar yr orsedd, a Brawd i ni yn eiriol gyd â'r Tad, pwy nid ymgysurai, gan ryfeddu a diolch, am i'w achos syrthio i ddwylaw mor dda? Fel troseddwyr, y mae ein hachos ni yn ddrwg; ond y mae yr Eiriolwr yn Frawd, gyd â'r Tad, ac yn iawn hefyd am y troseddau; gan hyny, y mae pob plaid yn y llys yn un o ochr y troseddwr. Wrth edrych ar hyn, gofynwn yn hyf, 'Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau—Crist yw yr hwn a fu farw—yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni.'

Y mae efe hefyd bob amser yn ei swydd, ac wrth ei orchwyl. Nid fe ddaw ryw bryd i eiriol, ond 'y mae i ni Eiriolwr,' &c. Nid rhaid ofni iddo ddyfod i'r llys yn rhy ddiweddar, nac i neb golli ei fater o herwydd hyny; y mae efe yno bob amser, heb flino na diffygio, heb huno na hepian. Er i'w weision gysgu, a rhoi lle i'r gelyn ddyn hau efrau, nid felly ein Heiriolwr. Y mae efe yn fwy effro a diflino na'r gelyn ei hun. Llawenhaed y rhai sydd 'trwyddo ef yn dyfod at Dduw—y mae efe yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.' Heb. 7. 25.

'Y mae i *ni*.'—Eiriolwr dros ei bobl yw efe; ac y mae yn eiriol dros bob un o honynt yn neillduol. Y mae yn cyffesu enw pob un o honynt ger bron ei Dad, a'i angelion sanctaidd. Dat. 3. 5. 'Mi a weddïais drosot,' medd efe wrth Petr. Luc 22. 32. Y mae y geiriau yn dangos natur eiriolaeth Crist; ei bod dros bob un o'i bobl yn benodol, ac yn ol eu hamrywiol angenion. O Berson anfeidrol! yn medru trin achosion pawb o'i bobl, yr un mynyd, fel pe baent ond un dyn! Nis gall mammaeth fod ond gyd âg un maban ar unwaith; nis gall meddyg ymweled ond âg un o'i gleifion yr un mynyd: nac un dadleuwr ymdrin ond âg achos un o'i hawlwyr (*clients*) ar unwaith; ond y mae ein Heiriolwr mawr yn anfeidrol fwy na phawb; ac yn medru trin achos pawb o'i eiddo yr un mynyd—medr wrando ar, cyd-oddef â, ac erfyn dros, fyrddiynau ar unwaith, heb niweidio dim ar achos un wrth ymdrin âg achos y llall. Y mae yn eiriol nid yn unig dros bob un o'i bobl yn neillduol, ond dros bob gras yn ol y byddo yr ymosodiadau arno: 'Mi a weddïais drosot, na ddiffygiai dy ffydd di;' ac hefyd yn erbyn pob cyhuddiad ac ymdrechiad o eiddo y diafol i beri niwed iddynt; 'Satan a'ch ceisiodd' (ἐξῃτήσατο) a'ch *taer geisodd,* neu a *erfyniodd eich cael;* ond yn erbyn hyny, 'Mi a weddïais.' Adn. 31.

Am ffrwythau eiriolaeth Crist, y maent yn amrywiol, ac yn dra gwerthfawr; megys, yn 1. Maddeuant beunyddiol o'n pechodau. 'O Dad, maddeu iddynt,' yw ei iaith dirion barhaus, ger bron yr orsedd uchod. 'Os pecha neb, y mae i ni Eiriolwr;' ac effeithioldeb yr eiriolaeth yn unig sydd yn eich hachub rhag y farn ddyledus i'n beiau beunyddiol.

2. Ffrwyth yr eiriolaeth yw, dyfodiad ac arosiad yr Ysbryd Glân, fel Dyddanydd i'w bobl. 'Mi a weddïaf ar y Tad (medd Crist) ac efe a rydd i chwi Ddyddan-

Digitized by Google

ydd arall, fel yr aroso gyda chwi yn dragywyddol.' Ioan 14. 16. Edr. DYDDANYDD.

3. Ffrwyth eiriolaeth Crist hefyd yw nerth y credadyn yn erbyn temtasiynau y gelyn, a'r cryfhad a roddir i'w ras egwan, fel na ddiffygio: 'Mi a weddïais drosot, na ddiffygiai dy ffydd.' Fel pe dywedasai Crist, Y mae genyt ronyn o wir ffydd; ac y mae fy ngweddi hefyd o'i phlaid; am hyny, er i'r diafol dy nithio, ni ddiffygia dy ffydd. 'Nid wyf yn gweddïo (medd efe wrth y Tad) ar i ti eu cymeryd allan o'r byd, eithr ar i ti eu cadw hwynt rhag y drwg.' Ioan 17. 15. Y mae yr eiriolaeth yn eu golygu mewn byd llawn o ddrwg, a hwythau yn ffol ac yn weiniaid i ymgadw rhagddo; ïe, mewn dirfawr berygl o gael eu llygru a'u gorchfygu. Ond, medd yr Eiriolwr, 'Y Tad sancteiddiol, cadw hwynt trwy dy enw, y rhai a roddaist i mi.' Adn. 11.

4. Trwy yr un eiriolaeth y mae cymeradwyaeth a derbyniad i'n gwasanaeth anmherffaith. Dan y gyfraith, yr oedd Aaron i wisgo 'o'r tu blaen i'r meitr, ar ei dalcen, ddalen o aur coeth, wedi naddu arni, fel naddiadau sêl, SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD: a hi a fydd (medd Duw) ar dalcen Aaron, fel y dygo Aaron anwiredd y pethau sanctaidd a gysegro meibion Israel yn eu holl roddion sanctaidd: ac yn wastad y bydd ar ei dalcen ef, fel y byddo iddynt ffafr ger bron yr Arglwydd.' Exod. 28. 36—38. Wele yma ddynion yn myned at waith sanctaidd, i addoli Duw sanctaidd! ond y mae anwiredd yn glynu wrth y pethau sanctaidd. Beth ddaw o honynt? A wrthodir hwy a'u gwasanaeth o herwydd yr anwiredd? Nid felly; wele un arall yn cyfryngu, yn cyflwyno *Sancteiddrwydd i'r Duw sanctaidd*, yn dwyn anwiredd eu pethau sanctaidd, ac yn ennill derbyniad a ffafr iddynt!——Oblegid anwiredd y pethau sanctaidd y bu y cyhuddwr yn haerllug yn gwrthwynebu Josuah yr arch-offeiriad; ond bu yr Eiriolwr mawr yn amddiffynwr iddo. Zech. 3. 1—5. 'Gan fod wrth hyny i ni Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw—awn yn hyderus at orsedd-fainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymhorth cyfamserol.' Heb. 4. 14, 16.

5. Y mae effeithioldeb moddion, a'u cynnydd mewn sancteiddrwydd drwyddynt, yn tarddu oddiwrth eiriolaeth Crist. 'Sancteiddia hwynt (medd efe) yn dy wirionedd: dy air sydd wirionedd.' Ioan 17. 17. Y mae efe yma yn gweddïo dros rai wedi eu sancteiddio yn ddechreuol, neu mewn rhan; ac felly yn erfyn am eu cynnydd hyd at berffeithrwydd. Y mae yn dra amlwg na chynnydda sancteiddrwydd trwy nerth ei rinwedd ei hun. Rhaid i'r Tad sancteiddiol, nid yn unig ei blanu, ond hefyd roddi y cynnydd. Os gwir sancteiddrwydd ydyw, y mae yn ol y gwirionedd; ac os yw yn ol y gwirionedd, y mae yn cael magwraeth a chynnydd trwy y gwirionedd; 'Sancteiddia hwynt yn (neu trwy) dy wirionedd.' Ond i ateb y dyben gwerthfawr hwnw yn nghyflwr dyn, rhaid i'r gwirionedd gael effeithioldeb dwyfol oddi uchod, am hyny gweddïa Crist; a ffrwyth ei eiriolaeth yw pob bendith iachusol a gyfrenir i unrhyw ddyn trwy wirionedd yr efengyl. Arwydd neillduol fod i ni ran yn eiriolaeth Crist ydyw, fod y gwirionedd yn gadael effeithiau iachusol a sancteiddiol ar ein calonau. Ffrwyth yr eiriolaeth hon ydyw llwyddiant yr efengyl yn mhob gradd, yn mhob gwlad, ac yn mhob calon. 'Gofyn i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant.' Ps. 2. 8. Nid rhoddiad mewn arfaeth yn unig a feddylir yma, ond rhoddiad gweithredol, trwy ddarostyngiad y cenedloedd i ufudd-dod Crist, trwy yr efengyl. Y mae yn y cyfammod rhwng y Tad a'r Mab, le i Grist ofyn, fel Eiriolwr, nes byddo yr holl genedloedd yn weithredol yn etifeddiaeth iddo, ac hyd nes byddo pob un o'i bobl yn berffaith sanctaidd, ac yn gwbl ar ei ddelw. 'Sancteiddia hwynt,' fydd ei weddi barhaus, hyd oni byddo ei eglwys 'yn ogoneddus, heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw.' Eph. 5. 27.

6. Y mae pen draw sancteiddiad yn ngolwg ei eiriolaeth ef, sef gogoneddiad ei bobl: 'Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi, fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi.' Ioan 17. 24. Y mae Crist yn fawr am gyfeillach ei bobl: nid yw yn dymuno neb amgenach na hwy i gyd-wledda âg ef yn nhŷ ei Dad Cafodd y fath foddhad yn eu cymdeithas yma, fel nas dichon dau neu dri ymgyfarfod yn ei enw, heb iddo ei hun fod yno yn y canol; a'r gymdeithas a ddechreuwyd yma ni dderfydd byth. Y mae yn erfyn ar ei Dad am gael ei rai anwyl gyd âg ef yn ei ogoniant. Er mor dda yw y lle y mae ynddo, nid yw yn ei weled yn rhy dda iddynt hwythau hefyd. Ië, gwell ganddo hwynt na'r lle; a haws ganddo adael y lle na bod hebddynt. Ac wrth erfyn am eu cael i'r lle, y mae yn erfyn am iddynt gael bod yn gyfranogion o bob cymhwysder i'w haddasu iddo.

EIRYN, (aren) cilchwyrn, chwaren, ffrwyth coed eiryn, careg gwrryw. Lef. 21. 20. Deut. 23. 1.

EISIEU, (es) diffyg, angen, angenoctyd, tlodi, rhaid, angenrhaid. Exod. 16. 18. Deut. 2. 7. a 15. 8. 1 Ioan 3. 17.

EISOES, EISYS, (es-oes) cyn hyn, yn barod, hefyd, er hyny. Preg. 1. 10. Mal. 2. 2. 1 Tim. 5. 15. Mat. 17. 12. Ioan 3. 18. 1 Cor. 5. 3.

EISTEDD, (eiste) seddu, eiste. Agwedd gorphorol arferedig wrth orphwys: Gen. 18. 1. Ioan 4. 6.—wrth fwyta bwyd: Gen. 37. 25. Marc 6. 39.—wrth roddi barn: Ruth 4. 1. 1 Bren. 2. 12.—mewn tristwch a galar: Ezra 9. 3. Neh. 1. 4. Esa. 3. 26.—ac wrth addysgu, a gwrando ar yr addysg. Mat. 23. 2. Luc 10. 39.——Eistedd, hefyd, a arwydda, parhad sefydlog a llonydd. Mic. 4. 4.——Eistedd gyd âg un, a arwydda cyfeillgarwch cyfrinachol. Ps. 26. 5.——'Eistedd yn y llwch,' ac 'yn y tywyllwch,' a arwydda, bod mewn tlodi, dirmyg, anwybodaeth, a thrallod. Esa. 47. 1. Luc 1. 79. Mic. 7. 8.——'Eistedd ar orseddfeinciau,' a arwydda, gogoniant sefydlog, gallu, ac awdurdod. Mat. 19. 28.——Pan fyddo eistedd yn cael ei briodoli i Dduw, ac i Grist, fel Cyfryngwr, arwydda, awdurdod ddwyfol, a'r llonyddwch tawel perthynol i'r Duwdod: Ps. 29. 10. a 47. 8.—neu eu gwaith yn barnu ac yn cospi dynion: Dan. 7. 9, 26. Joel 3. 12. Mat. 26. 64.——Gwaith Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw, a arwydda ei agosrwydd at Dduw, ei ddyrchafiad gogoneddus, ei allu, a'i lywodraeth sefydlog ar yr eglwys, a phob peth perthynol iddi. Ps. 110. 1. Eph. 1. 20.——Anghrist yn eistedd yn nheml Duw, yw ei drigiad yn yr eglwys, a'i ymboniad o awdurdod i lywodraethu cydwybodau dynion. 2 Thes. 2. 4. Edr. ANGHRIST, CYD-EISTEDD, DEHEULAW.

EISTEDDFA—LE—OEDD, (eistedd-ma, eisteddlle) gorsedd, trigfa, preswylfa, gorphwysfa; lle, neu fan i eistedd. 1 Sam. 4. 13. a 20. 25. Job 23. 3. a 29. 7. Ps. 1. 1. a 139. 2. Amos 6. 3. Luc 14. 7. —'Eisteddfa gwatwarwyr,' lle yr ymgynnull gwatwarwyr yn nghyd i gyd-wawdio Duw, ei bobl, a'i achos. Cyfryw y cofféir am danynt yn Diar. 1. 22. a 3. 34. a 13. 13. 2 Petr 3. 3, 4. Mae y LXX. yn cyfieithu y geiriau *eisteddfa pläau*; *Gr.* καθηδρα λοιμων, y gair a gyfieithir *pla* yn Act. 24. 5. Nid oes un pla yn fwy llygrol a dychrynllyd na goganwyr Duw a duwioldeb. Edr. GORSEDD-FAINC.

EITHAF—OEDD, (aith) eithafig; a fo yn y cwr; a fo pellaf; pell, maith-bell, diweddaf, y pellaf. Eithafoedd y byd, sef parthau pellaf y byd. 'Mi a'th osodais di yn oleuni i'r cenedloedd, i fod o honot yn iech-

Digitized by Google

ydwriaeth hyd eithaf y ddaear.' Act. 13. 47. Y mae yr eithafon byd yn cynnwys y parthau fo rhyngddynt. Y mae awdurdod a llywodraeth Crist, fel Cyfryngwr ac Iachawdwr, yn cyrhaedd 'hyd derfynau y ddaear:' ac os ydyw yn iechydwriaeth hyd derfynau eithaf y ddaear, mae felly hefyd yn y parthau rhwng y terfynau hyny, sef i'r holl ddaear. Y mae pawb o'i thrigolion, yn mhob cŵr iddi, âg eisieu iechydwriaeth arnynt; y mae gwedi ei darparu ar eu medr, a hi a gyhoeddwyd, ac a gyhoeddir etto iddynt, yn yr amser priodol.

'Canys digofaint Duw a ddaeth arnynt hyd yr eithaf.' 1 Thes. 2. 16. *Gr.* εις τελος, *i'r diwedd*, neu, *dros amser hir*, yn *barhaol*. Y mae y gair yn golygu amser hir ei barhad, yn gystal a'r gradd o hono. Gwel Macknight.

EL-ELOHE-ISRAEL, [Duw, Duw Israel] Yr oedd Jacob newydd gael yr enw Israel gan y gwr a fu yn ymdrech âg ef yn Peniel, ac a orchfygwyd ganddo. Y mae Jacob yn mynegi ei ffydd yn mawredd y Person a fu yn ymdrech âg ef, sef mai 'y Duw cadarn,' oedd, fel mae y gair yn arwyddo: a bod 'y Duw cadarn' hwn yn Dduw i Israel, ac wedi dangos ei hun yn Dduw iddo yn ei gadernid dwyfol, yn ei waredu o'i gyfyngderau, ac o ddwylaw ei elynion. Pwy ond 'y Duw cadarn' a fuasai yn troi calon Esau yn heddychol tu ag ato? Ac yr oedd gwaith Duw yn gwneuthur Esau yn heddychol, yn arwydd o ofal Duw am Jacob fel ei Dduw, a'i fod yn Dduw iddo. Y 'Duw cadarn' yn Dduw i Israel oedd yn ddigon i bwyso arno yn wyneb cyfyngderau etto i ddyfod, ac yn achos digonol o orfoledd tragywyddol iddo. Gen. 32. 20.

ELAH, *Heb.* אלה [*llw*] 1. Un o dduciaid Edom. Gen. 36. 41.——2. Mab Baasa, brenin Israel, yr hwn y lladdodd Zimri ei was ef, ac efe yn yfed yn feddw yn Tirsah, yn nhŷ Arsah, yr hwn oedd yn ben-teulu yn Tirsah. 1 Bren. 16. 8.——3. Enw y dyffryn yr oedd Saul a byddinoedd Israel yn gwersyllu ynddo, pan yr ymladdodd Dafydd â Goliath. 1 Sam. 17. 19.

ELADAH, *Heb.* אלעדה [*cymanfa Duw*] mab Tahath, ŵyr i Ephraim. 1 Cron. 7. 20.

ELAM, *Heb.* עילם [*dyn ieuanc*]. 1. Mab hynaf Sem. Oddi wrtho ef y cafodd Elam, dinas yn Persia, ei henw, a'i hiliogaeth a breswylient ynddi. Cedorlaomer ydoedd frenin Elam, sef yr Elam yma yn Persia, tebygol, er bod Raleigh, Gill, ac eraill, yn meddwl mai rhyw Elam arall yn Arabia, neu Syria, ydoedd, lle y gallai fod trefedigaeth o'r Elamitiaid. Oddi amgylch A. M. 2078, darostyngodd Cedorlaomer freniniaethau Sodom, Gomorrah, Admah, Seboim, a Belah, neu Soar. Gwedi ei wasanaethu am ddeuddeg mlynedd, hwy a wrthryfelasant yn ei erbyn ef. Casglodd fyddin fawr i'w darostwng, mewn cynghrair âg Amraphel brenin Sinar, Arioch brenin Elasar, a Tidal brenin y cenedloedd, neu *Goiim*. Gen. xiv. Rhag iddynt gael eu cynnorthwyo gan y breninoedd cymydogaethol, darostyngodd yn gyntaf y Rephaimiaid yn Asteroth-Carnaim; a'r Zuziaid yn Ham, yr un a'r Zamzumiaid, tebygol; a'r Emiaid yn Safeh-Ciriathaim; a'r Horiaid yn eu mynydd Seir—gwlad pa rai a feddiannwyd gan yr Edomiaid wedi hyny. Gen. 32. 3. a 36. 20. Gwedi iddynt fyned hyd Elparan, dychwelasant, a daethant i Enmispar, hòno yw Cades, ac a darawsant holl wlad yr Amaleciaid, yr Amoriaid, a'r preswylwyr oddi amgylch Haseson-tamar. Yn ddiweddaf, yn nyffryn Sidim, yr hwn ydoedd yn llawn o byllau clai, ymladdasant â'r breninoedd gwrthryfelgar, ac a'u gorchfygasant hwynt. Dychwelasant â chaethion lawer, ac ysglyfaeth fawr. Abraham, pan glywodd gaethiwo Lot, âg ychydig weision, ac ychydig o freninoedd Canaan mewn cynghrair âg ef, a ymlidiodd ar eu hol hwynt hyd Dan, a'u tarawodd hwynt, ac a'u hymlidiodd hyd Hobah, y tu aswy i Damascus. Dug drachefn y caethion, a'r holl ysglyfaeth, a Lot a'i gyfoeth. Shuckford a farna mai yr un ydyw Cedorlaomer a Ninyas yr Assyriad; Bedford sydd o'r farn mai rhaglaw ydoedd dan Zammeis, brenin Assyria; ond nid yw pawb yn cyduno âg un o'r ddau. Gen. xiv.——2. Un a ddychwelodd, â'i feibion, o'r caethiwed gyda Zorobabel. Ezra 8. 7.

ELATH, *Heb.* אילת [*cadernid*] dinas o Edom, gerllaw Ezion-Gaber, ar y llync-lyn Elana o'r Môr Coch. Dafydd, gwedi darostwng yr Edomiaid, a gymerodd Elath. Rezin brenin Syria, a ddug Elath at Syria, ac a yrodd yr Iuddewon o Elath. Deut. 2. 8. 1 Bren. 9. 26. 2 Bren. 14. 22. a 16. 6.

EL-BETHEL, אל ביתאל [*Duw Bethel*, neu *Duw tŷ Duw*] yr enw a roddodd Jacob ar yr allor a adeiladodd yn Bethel, wedi ei ddychweliad o Padan-Aram; (Gen. 35. 7.) rhoddodd yr enw arni a roddodd Duw yn rasol arno ei hun. Yr oedd yr allor a'r enw yn goffadwriaeth barhaus iddo, i 'Dduw ymddangos yno iddo pan y ffoisai efe o ŵydd ei frawd.'

ELCANAH, *Heb.* אלקנה [*eiddigedd Duw*] mab Jeroham, o Ramathaim Zophim, o fynydd Ephraim, Lefiad o deulu y Cohathiaid, a gwr Hannah a Peninnah, a thad Samuel. 1 Sam. 1. 1, 4, 8, &c., a 2. 20. 1 Cron. 6. 26, 27.

ELDAAH, *Heb.* אלדעה [*gwybodaeth o Dduw*] mab Midian, ŵyr Ceturah o Abraham. 1 Cron. 1. 33.

ELDAD, *Heb.* אלדד [*anwylyd Duw*] Eldad a Medad oeddynt o rifedi y dengwr a thriugain hyny o henuriaid Israel, a gasglodd Moses, yn ol cyfarwyddyd Duw iddo, i fod yn gynnorthwyol iddo ef, fel barnwyr ar y bobl. Y ddau ŵr hyn, o wylder gostyngedig, tebygol, (1 Sam. 10. 22. Exod. 3. 11. a 4. 13, 14. a 6. 12, 30. Jer. 1. 6. a 36. 8.) a drigiasant yn y gwersyll, yn lle myned i babell y cyfarfod gyd â'r lleill; a gorphwysodd yr Ysbryd arnynt hwy, yn arwydd o'u dewisiad gan Dduw i'r swydd. Josuah a fynegodd hyn i Moses, ac a archodd i Moses eu gwahardd. A Moses a atebodd, 'O na byddai holl bobl yr Arglwydd yn brophwydi, a rhoddi o'r Arglwydd ei Ysbryd arnynt.' Num. 11. 24—30.

ELEAD, *Heb.* אלעד [*tystiolaeth*, neu *dragywyddoldeb Duw*] ŵyr Ephraim, yr hwn, yn nghyd âg Ezer ei frawd, a laddwyd gan ddynion Gath, y rhai a anwyd yn y tir, sef yn ngwlad yr Aipht, ac a ddaethant i waered i wlad Gosen i ddwyn anifeiliaid yr Israeliaid, ac a laddasant y rhai a'u gwrthwynebodd, yn mhlith pa rai yr oedd Elead. Y mae hyn yn fwy tebygol nag i Ezer ac Elead fyned i Gath i ddwyn anifeiliaid y trigolion. Ephraim eu tad a alarodd o'u plegid hwynt, ddyddiau lawer; a'i frodyr a ddaethant i'w gysuro ef. I Cron. 7. 21. 22.

ELEALEH, *Heb.* אלעלה [*esgyniad Duw*, neu *uchelder Duw*]. Dinas a roddodd Moses i lwyth Reuben, oddeutu milltir o Hesbon. Y Moabiaid a'i meddiannasant, a thra yr oedd ŷn eu meddiant, anrheithiwyd hi yn dost gan yr Assyriaid a'r Caldeaid. Num. 32. 37. Esa. 15. 4. Jer. 48. 34.

ELEASAH, *Heb.* אלעשה [*creadur Duw*] mab Helez, a thad Sisamai. 1 Cron. 2. 39.

ELEAZAR, *Heb.* אלעזר [*cymhorth Duw*] 1. Trydydd mab Aaron, ac a ddaeth i'r swydd arch-offeiriadol ar ei ol. Aeth i wlad yr addewid gyda Josuah, ac a'i cynnorthwyodd i ranu y wlad rhwng y llwythau. Bu oddeutu tair blynedd ar hugain yn offeiriadu yn Siloh. Pan fu farw, hwy a'i claddasant ef yn mryn Phinees ei fab, yr hwn a ddaeth ar ei ol i'r offeiriadaeth. Parhaodd yr arch-offeiriadaeth yn nheulu Eleazar hyd ddyfodiad Crist, ond yr ychydig amser y bu yn nheulu Eli, yr hwn oedd o deulu Ithamar, mab ieuengaf Aaron,

Digitized by Google

Yn amser Dafydd, yr oedd un ar bymtheg o ddosbarthiadau o deulu Eleazar, a dim ond wyth o deulu Ithamar. 1 Cron. 24. 2—6.——2. Mab Abinadab, i dŷ yr hwn y dygodd gwyr Ciriath-jearim yr arch, gwedi ei hanfon adref gan y Philistiaid. Y mae Calmet, a rhai ysgrifenwyr eraill, gwedi dychymygu fod Eleazar yn offeiriad, neu o'r hyn lleiaf yn Lefiad; ond nid oes prawf digonol o hyny; ac nid ydoedd Ciriath-jearim yn un o ddinasoedd yr offeiriaid. 1 Sam. 7. 1.——3. Mab Dodo, yr Ahohiad (1 Cron. 8. 4.) yr ail o dri chedyrn Dafydd. Yn Mhazdammim, yr Israeliaid a ffoisant o flaen y Philistiaid; ond Eleazar a darawodd arnynt, nes diffygio ei law, a glynu o'i law ef wrth y cleddyf; a'r bobl a ddychwelasant ar ei ol, yn unig i anrheithio. 2 Sam. 23. 9—12. 1 Cron. 11. 12, 13, 14. Yr oedd hefyd yn un o'r tri chedyrn a ruthrasant trwy wersyll y Philistiaid, ac a dynasant ddwfr o bydew Bethlehem, ac a'i cymerasant, ac a'i dygasant at Dafydd. 2 Sam. 23. 16.——4. Mab Eliud, a thad Mathan. Mat. 1. 15.——5. Mab Mahli, a brawd Cis, o deulu Merari. 1 Cron. 23. 21, 22.——6. Offeiriad yn amser Nehemiah. Neh. 12. 24.

ELEPH, *Heb.* אלף [*mil*] dinas yn llwyth Benjamin. Jos. 18. 28.

ELHANAN, *Heb.* אלחנן [*trugaredd Duw*]. Mab Dodo o Bethlehem, un o gedyrn llu Dafydd; yr un, tebygol, ag Elhanan mab Jair, neu Jaareh-Oregim, y Bethlehemiad. 2 Sam. 21. 19. a 23. 24. 1 Cron. 11. 26. a 20. 5.

ELHUZAI, *Heb.* אלעזי [*Duw yw fy nerth*] un o filwyr enwog Dafydd. 1 Cron. 12. 5.

ELI, *Heb.* עלי [*dyrchafael.*] 1. Arch-offeiriad o deulu Ithamar, mab ieuengaf Aaron, yr hwn a farnodd Israel ar ol Abdon. Barn. 12. 13, 14. Paham y trosglwyddwyd yr arch-offeiriadaeth iddo, o deulu Eleazar, nid yw hysbys; ond y mae yn sicr i'r trosglwyddiad gymeryd lle trwy drefniad dwyfol. 1 Sam. 3. 20. Bu yn barnu Israel ddeugain mlynedd. Daeth Samuel ar ei ol fel barnwr. Ahitub, brawd Ichabod, ŵyr Eli, a ddaeth ar ei ol ef i'r arch-offeiriadaeth; ac Abiah ei fab a ddaeth ar ei ol yntau; ac Ahimelech ei frawd a ddaeth ar ei ol yntau, holl deulu pa un a laddwyd gan Saul, oddigerth Abiathar; a Zadoc o deulu Eleazar a ddaeth i'r arch-offeiriadaeth yn ei le. Oddeutu 43 o flynyddoedd gwedi hyny Solomon a'i diswyddodd ef. Gwedi hyny, bu gweddillion teulu Eli yn byw mewn cyflwr gwael, ac yn isel arnynt.

Er bod Eli yn ŵr duwiol, yr oedd ganddo ef feibion, Hophni a Phinees, annuwiol iawn. 'Meibion Eli oedd feibion Belial, nid adwaenent yr Arglwydd.' 1 Sam. 2. 12. Er eu holl fanteision, yr oeddynt yn anwybodus o'r Arglwydd, yn anrasol, yn halogedig, ac yn ffiaidd iawn eu hymddygiad. Yr oeddynt mewn swydd sanctaidd, ac o herwydd hyny yn fwy eu pechod: 'Yr oedd pechod y llanciau yn fawr iawn yn ngolwg yr Arglwydd; a ffieiddiodd dynion offrwm yr Arglwydd.' Cam-ymddygodd Eli yn bechadurus tu ag at ei feibion annuwiol, trwy fod yn rhy dyner o honynt. 'Ei feibion a haeddasant iddynt felldith, ond nis gwaharddodd efe iddynt.' Pen. 3. 13. Er nad oedd yn ddystaw wrthynt, etto nis argyhoeddodd hwynt gyd â'r llymdra, y sobrwydd, y difrifwch, a'r taerineb yr oedd y fath achos yn gofyn. Efe a'u *hargyhoeddodd*, ond dylasai eu *cospi* hefyd, ac yntau yn farnwr yn Israel. Oblegid ei dynerwch pechadurus hwn tu ag at ei feibion, mae gwr i Dduw yn cael ei anfon i argyhoeddi Eli o'i fai, i gyhoeddi anfoddlonrwydd Duw yn ei erbyn, a barn Duw ar ei deulu. Am iddo anrhydeddu ei feibion yn fwy na'r Arglwydd, mae yn bwgwth yn drwm, 'Wele y dyddiau yn dyfod pan dorwyf dy fraich di, a braich tŷ dy dad, ac ni bydd hen ŵr yn dy dŷ di byth. A'r gwr o'r eiddot, yr hwn ni thoraf ymaith oddiwrth fy allor, fydd i beri i'th lygaid ballu, ac i beri i'th galon ofidio; a holl gynnyrch dy dŷ di a fyddant feirw yn wyr.' Yn wyneb y pethau trymion hyn, y mae ymostyngiad Eli dan alluog law Duw yn dra addas. Dywedodd, 'Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg.' Nid oes yma un esgusodiad o hono ei hun, un lleihad o'i fai, nac un achwyniad am doster y farn; ond, yn y gwrthwyneb, cydsyniad llawn â barn Duw, er mor ofnadwy; a chydnabyddiaeth o'i ben-arglwyddiaeth, ei gyfiawnder, a'i ddaioni. Yn y cyfryw amgylchiad, Aaron a dawodd. Lef. 10. 3.——Hezeciah, pan y bygythiwyd ef â barnedigaethau Duw, a ddywedodd, 'Da yw gair yr Arglwydd.' 2 Bren. 20. 19. Dyma yr ymddygiad a weddai i'r fath bryfed gwael a ni tu ag at y Duw mawr.

Y mae gofal Eli am arch Duw, yn ei oriau diweddaf hefyd, yn dirion, yn dduwiol, ac yn gyffrous. Wedi i'r Philistiaid orchfygu yr Israeliaid mewn ymladdfa, y maent hwy yn cyrchu arch Duw i'w dychrynu, ac yn meddwl, er eu pechadurusrwydd diedifeiriol, y byddai i arch Duw sicrhau y fuddugoliaeth iddynt. Ond y mae y Philistiaid yn eu taro eilwaith; yn dal yr arch, ac yn lladd Hophni a Phinees. Pan ddaeth cenad â'r newyddion athrist hyn ato, a phan grybwyllodd am arch Duw, yntau a syrthiodd oddiar yr eisteddle, a'i wddf a dorodd, ac efe a fu farw. Yr oedd Eli yn eistedd ar eisteddfa gerllaw y ffordd, yn dysgwyl; canys yr oedd ei galon yn 'ofni am arch Duw.' Pen. 4. 13. Yr oedd achos iddo ofni am dano ei hun, am ei wlad, ac am ei blant; ond yr oedd y cwbl wedi eu llyncu yn ei ofal am arch Duw.

Wele yma hanes syml ac addysgiadol iawn:—gwr duwiol yn marw dan nodau o anfoddlonrwydd Duw; ei haul yn machludo dan gwmwl. Gwelwn na oddef Duw bechod yn neb yn ddigerydd; ei blant ei hun am ei fod yn eu caru efe a'u cerydda. 'Chwi yn unig a adnabum o holl deuluoedd y ddaear (medd efe) am hyny ymwelaf â chwi am eich holl anwireddau.' Amos 3. 2.

Gwelwn yn nrych hanes y gwr hwn, pa fath drueni y mae rhïeni yn ei ddwyn ar eu teuluoedd, trwy gyddygiad a goddefiad rhy foddhaol âg ynfydrwydd a llygredigaethau eu plant. Bydded i rïeni difraw, a phawb ag sydd yn cynnwys pechodau yn eraill, a aliant eu hattal, ystyried hyn. 1 Sam. ii, iii, a 4. 14—22. 1 Bren. i., iii.

2. Y diweddaf o hynafiaid Crist yn ol y cnawd. Luc. 3. 23.

ELI, [*fy Nuw*] *Eli, Eli,* neu *Eloi, Eloi* (Marc) *lama sabachthani?* hyny yw, 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?' Mat. 27. 46. Nid dyma y geiriau yn Ps. 22. 1. yn berffaith gywir. Yn lle *sabachthani*, cawn yn y Psalm, *ghazabthani*, neu *ozebtheni*. Syro-Caldaeg oedd iaith gwlad Judea yr amser hwnw; ac yn yr iaith hòno y mae y geiriau yn cael eu llefaru gan yr Arglwydd. Yn Marc, y gair Syriaeg, Ελωι a arferir, yr hwn sydd o'r un natur a'r gair *Heb.* אלי sef *fy Nuw.* Yr oedd Duw wedi ei adael, nid o ran yr undeb personol rhwng y ddwy natur yn Mherson Crist, nac o ran ei berthynas gyfammodol, nac o ran ei gynnaliaeth effeithiol ddigonol i'r natur ddynol, yn yr amgylchiadau rhyfedd yr oedd hi ynddi, yr amser hwnw, ond o ran teimlad cysurol o bresennoldeb Duw iddo. Nid oedd achos ynddo ei hun i Dduw wneuthur hyny; ond fel yr oedd yn fechnïydd, yn dyoddef dros eraill, ac yn aberth dros bechodau, yr oedd achos cyfiawn i Dduw guddio ei wyneb oddi wrtho.

ELI—ON, (el) ennaint.—'Ira hefyd dy lygaid âg eli llygaid, fel y gwelech.' Dat. 3. 18. Wrth lygaid yr eglwys yma y meddylir, ei deall, a'i gwybodaeth o bethau Duw: Nid oedd yn gweled yn gywir ac yn eglur. Os bydd y llygaid yn ddyfrllyd neu yn weiniaid, ni bydd gwrthddrychau, er yn eglur ynddynt eu hunain, ddim yn ymddangos felly i ni. Yr oedd yr eglwys

Digitized by Google

hon yn cam-farnu am bob peth perthynol i'w chyflwr ysbrydol; a'r achos oedd am ei bod yn *ddall*. Yr oedd agwedd ei chyflwr yn ddigon hawdd i'w ganfod, ond yr oedd hi yn ddall, ac nis gall y dall ganfod dim er mor eglur y byddont. I ganfod gwrthddrychau yn eglur rhaid cael dadguddiad eglur o honynt, a llygaid goleu, iach, i'w gweled. Yn yr ysgrythyrau, y mae pethau Duw ag sydd yn perthyn i gyflyrau, yn ddigon eglur wedi eu dadguddio; gan hyny, os na chanfyddwn hwynt, ar ein llygaid, sef ar ein deall ni, y mae y palldod. Gwaith yr Ysbryd Glân ydyw tynu y gorchudd oddiar galonau pechaduriaid, fel yr edrychont â wyneb agored, sef heb un gorchudd, ar ogoniant yr Arglwydd yn nrych yr ysgrythyrau; am hyny, wrth eli llygaid (κολλουριον) y mae i ni ddeall yr Ysbryd Glân yn ei weithrediadau cadwedigol, yn dwyn dyn i adnabyddiaeth o hono, a'i angenion ysbrydol. Yr hwn sydd heb ei oleuo gan yr Ysbryd nid yw yn gweled angen am Grist, a'r bendithion ynddo; am hyny nid yw yn canfod dim gogoniant na gwerth ynddynt. Prynu eli llygaid yw gweddio am dano, ei dderbyn, a'i ddefnyddio; heb yr effeithiau eglurhaol ac iachusol hyn, nid yw pawb ond deillion a chamsyniol yn eu barnau am danynt eu hunain a'u cyflyrau.

**ELIAB**, *Heb.* אליאב [*Duw yw fy nhad*] 1. Mab Helon, penaeth llwyth Zabulon. Num. 1. 9.——2. Mab cyntaf-anedig Jesse, brawd Dafydd. 1 Sam. 16. 6. a 17. 13.——3. Gwr cadarn milwraidd i ryfel, un o'r rhai a ddaethant at Dafydd yn Siclag. 1 Cron. 12. 9.——4. Mab Elcanah, a thad Jeroham, o lwyth Lefi. 1 Cron. 6. 27.

**ELIACIM**, *Heb.* אליקים [*adgyfodiad Duw*, neu *Duw yr adgyfodiad*]—1. Mab Hilciah, yr hwn a ddaeth ar ol Sebna yn ben-teulu i frenin Hezeciah. Efe, yn nghyd â Sebna yr ysgrifenydd, a Joah mab Asaph y cofiadur, a anfonwyd yn genadau at Senacherib i ofyn heddwch; ond ni chawsant ond eu difrio gan Rabsaceh, tywysog ei lu. Ar hyn hwy a ddychwelasant at y brenin, â'u dillad yn rhwygedig. Wedi hyny yr anfonodd y brenin Eliacim, a Sebna, a henuriaid yr offeiriaid, at Esaiah, i ofyn ei weddiau drostynt. 2 Bren. 18. 18, 26—37. a 19. 2. Esa. 22. 20, &c. a 36. 3. a 37. 2.——2. Mab Abihud, a thad Azor. Mat. 1. 13.——3. Un o âch yr offeiriaid a ddychwelasant gyda Zorobabel. Neh. 12. 41.

**ELIADA**, *Heb.* אלידע [*gwybodaeth Duw*] 1. Mab Dafydd, o un o'i ordderchadon. 2 Sam. 5. 16. 1 Cron. 3. 8.——2 Tywysog yn myddin Jehosaphat. 2 Cron. 17. 18.——3 Tad Rezon. 1 Bren. 11. 23.

**ELIAH**, *Heb.* אליה [*yr Arglwydd Dduw*] Y mae dau o'r enw hwn, y rhai a gyttaliasant â gwragedd dyeithr, wedi y caethiwed, ac a'u rhoddasant ymaith. Ezra 10. 21, 26.

**ELIAM**, *Heb.* אליעם [*pobl Dduw*] 1. Tad Bathseba, gwraig Urias yr Hethiad. 2 Sam. 11. 3.——2. Mab Ahitophel y Giloniad; un o'r deg ar hugain gwyr cedyrn yn myddin Dafydd. 2 Sam. 23. 34. Tybia rhai mai yr un oedd y ddau hyn, ac mai Eliam mab Ahitophel oedd tad Bathseba, ac i Ahitophel ymuno âg Absalom yn ei fradwriaeth, o herwydd yr anfri a roddodd ymddygiad Dafydd ar ei deulu. *Ancient Universal History*, *vol.* iv.

**ELIAS**, *Heb.* אליהו (*Elihu*) [*Duw yr Arglwydd*] prophwyd Duw; priodor o Thesbe, tu hwnt i'r Iorddonen, yn Gilead; er fod rhai yn barnu fod yr enw *Thesbiad* wedi ei roddi iddo, nid oddiwrth y lle yr oedd yn byw, ond oblegid ei fod yn *ddiwygiwr* mawr yn Israel; canys y gair תשבי a arwydda *y dychwelwr*. Yr oedd yn preswylio yn Gilead; ond y mae y gair yn hollol ddystaw am ei dad, a'i deulu, a'r llwyth yr oedd yn perthyn iddo, am ei ddygiad i fynu, a'i alwedigaeth.

Yn nesaf at Moses, Elias, tebygol, oedd y prophwyd mwyaf enwog o holl brophwydi yr Hen Destament. Efe a Moses, y rhai oeddynt yn tebygu mor fawr i'w gilydd, oedd y ddau a ddetholwyd i'r anrhydedd arbenig o fod gyda Christ yn ei wedd-newidiad: 'y rhai a ymddangosasant mewn gogoniant, ac a ddywedasant am ei ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem.' Luc 9. 30, 31. Tri sydd o breswylwyr y nefoedd â chyrph ganddynt, ac y mae Elias yn un o'r tri. Ymddengys yn ei holl fywyd yn hynod o ran ei gymedrolder, ei ymneillduad oddiwrth bob cymdeithas, ei wrolder, a'i eiddigedd dros achos Duw, y cyfryw ag a ymddangosasant wedi hyny yn Ioan Fedyddiwr, yr hwn y prophwydwyd am dano dan yr enw Elias, gan y byddai yn meddiannu gradd mawr o'r un ysbryd. Y mae holl berwylion ei fywyd yn bwysfawr, mor belled ag y mae genym hanes am dano. Cyfodwyd ef mewn amser pan ydoedd gwir grefydd yn isel iawn yn Israel; oddeutu pump a thriugain o flynyddoedd ar ol marwolaeth Solomon. Yr oedd y deyrnas wedi ymranu yn ddwy, sef Judah ac Israel, a than lywodraeth dau wahanol frenin. Yn Judah yr oedd gwir addoliad Duw yn parhau, ond nid heb lawer o lygriad; ond am Israel, yr oedd agos yn hollol wedi gwrthgilio oddi wrth Dduw i eilun-addoliaeth, ac yr oedd y tywysogion yn ddiffaith ac yn ddrwg. Yn y cyfamser, pan yr oedd Ahab, yr hwr a werthodd ei hun i wneuthur drygioni, yn teyrnasu, yr anfonwyd Elias at bobl Israel wrthryfelgar.

Yn ddisymwth, cawn Elias yn prophwydo, ac yn dywedyd wrth Ahab annuwiol, 'Fel mai byw Arglwydd Dduw Israel, yr hwn yr ydwyf yn sefyll ger ei fron, ni bydd y blynyddoedd hyn na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i.' 1 Bren. 17. 1. Dros dair blynedd a hanner, ni roddodd y nefoedd wlaw, ac ni chafwyd ffrwyth ar y ddaear. Yn y cyfamser, y mae yr Arglwydd yn dangos ei fawr ofal am Elias, yn ei ddiogelu rhag creulondeb ei elynion, ac yn ei borthi mewn modd rhyfedd iawn: 'Dos oddi yma,' medd yr Arglwydd wrtho, 'ac ymguddia wrth afon Cerith; ac o'r afon yr yfi; ac mi a berais i'r cigfrain dy borthi di yno.' Llawer a wrth-ddadleuwyd ac a ddychymygwyd yn nghylch y cigfrain yn porthi y prophwyd: rhai yn barnu nad cigfrain a feddylir wrth y gair *Heb.* הערבים ond mai marchnadwyr oeddynt, neu Arabiaid, neu breswylwyr Arabia, neu Arabo, neu Oreb; ond y mae yn dra amlwg, oddiwrth yr hanes, mai dychymygion ydyw y pethau hyn i gyd; canys ni buasai y prophwyd yn guddiedig pe buasai yr Arabiaid, neu ryw farchnadyddion, yn ei borthi. Gofynir, wedi hyny, yn mha le y cafodd y cigfrain y bara a'r cig? Yn ateb, medd rhai, ar fwrdd Ahab; medd eraill, ar allorau Baal; medd eraill drachefn, un o'r saith mil ni phlygasant eu gliniau i Baal a gafodd orchymyn i'w barotoi; ond dychymygion ydyw y cwbl, ac nid oes dim diwedd ar ddychymygu mwy na buddioldeb o hono; ac y mae i'r naill ddychymyg gystal sail a'r llall, sef meddwl y dyn ei hun. Y mae yn llawn ddigon i foddloni pawb sydd yn parchu Duw a'i air, fod Duw wedi dywedyd, 'mi a **berais** i'r cigfrain dy borthi di yno;' a'r hwn a barodd i'r cigfrain i'w borthi, a allasai hefyd barotoi bara a chig iddynt mewn deng mil o ffyrdd, neu eu cyfarwyddo lle yr oeddynt i'w cael. Y mae awdurdod a goruwchlywodraeth Duw yn hyn i'w weled yn fawr; gan fod y cigfrain yn adar ysglyfaethus, yr oeddynt, o ran tuedd eu natur, yn fwy tebyg i yspeilio y prophwyd o'i ymborth, na chario bara a chig iddo: ond ar yr achos hwn, attaliodd Duw eu Creawdwr eu tuedd naturiol, ac a barodd iddynt weithredu yn gwbl groes i ddeddf natur ynddynt. Fel hyn cafodd y prophwyd ei borthi yn gysurus gan Dduw, tra yr oedd llawer eraill yn newynu. Bu y prophwyd yn y sefyllfa hon yn nghylch yspaid blwyddyn; ac er i ddwfr naturiol yn



Digitized by Google

yr afon ballu, a sychu, ni phallodd y bara a'r cig, yr hyn a addawodd Duw iddo. Fel hyn y dichon Duw gynnal ei bobl yn y cyfyngderau mwyaf, yn y ffordd y gwelo efe yn dda.

Wedi i ddwfr yr afon sychu, daeth gair yr Arglwydd ato ef, gan ddywedyd, 'Cyfod, dos i Sarephta, yr hon sydd yn perthyn i Sidon, ac aros yno: wele, gorchymynais i wraig weddw dy borthi di yno.' Felly, fe gododd, ac a aeth i Sarephta, gyd â'r parodrwydd mwyaf, heb ymgynghori â chig a gwaed, ac heb ammeu dim. A phan ddaeth, cyfarfu yn mhorth y ddinas â gwraig weddw yn casglu briwydd i barotoi ychydig flawd, ac ychydig olew, iddi hi a'i mab, fel eu tamaid diweddaf, heb wybod yn mha le y cai hi ychwaneg. Gorchymynodd y prophwyd iddi weini iddo ef yn gyntaf o'i hychydig, gan sicrhau iddi, trwy air yr Arglwydd, 'Y blawd yn y celwrn ni threulia, a'r olew o'r ystên ni dderfydd, hyd y dydd y rhoddo yr Arglwydd wlaw ar wyneb y ddaear.' Yr oedd pob peth wedi ei drefnu gan yr Arglwgdd yn hynod. Y wraig at ba un y cafodd ei anfon, a ddaeth allan o'r ddinas, erbyn bod y prophwyd wrth borth y ddinas; cafodd ei meddwl ei dueddu i'w dderbyn, a gweini iddo o'i hanghen at ei gynnaliaeth. Cafodd y prophwyd ymgeledd, a chafodd y wraig a'i phlentyn waredigaeth rhag marw o newyn. Ni chai un o wragedd tlodion Israel yr anrhydedd o weini i brophwyd Duw—yr oeddynt wedi pechu eu braint ymaith. O'i ben-arglwyddiaeth y mae yr Arglwydd yn attal ac yn rhoddi, o'i ewyllys da, y pryd ac i'r neb y myno, ac felly yr anfonodd y prophwyd i Sarephta yn Sidon, at wraig weddw, i'w borthi yno ganddi. Y wraig a aeth. ac a wnaeth yn ol gair Elias. 'Ni ddarfu y celwrn blawd, a'r ystên olew ni ddarfu, yn ol gair yr Arglwydd.' Mat. 9. 28, 29, 30. a 19. 36. Luc 1. 37, 45. Ioan 4. 50, 51.——Er mai un o'r cenedloedd oedd y wraig hon, etto y mae yn amlwg ei bod yn adnabyddus o'r gwir Dduw; a thebygol yn ei wir addoli. Pan y dywedodd y prophwyd, 'Gwna i mi deisen fechan yn *gyntaf*—y blawd yn y celwrn ni dderfydd,' hi a nerthwyd yn y ffydd, ac a *ufuddhaodd* yn wyneb pob anhawsdra. Yr oedd yn un o'r gorchymynion caletaf yn ei hamgylchiadau presennol hi a roddwyd i neb erioed; ond ei ffydd hi a orchfygodd bob rheswm cnawdol, ac yn derbyn 'prophwyd yn enw prophwyd, a dderbyniodd wobr prophwyd:' dros ddwy flynedd y cafodd hi, a'i mab, a'r prophwyd, eu porthi yn wyrthiol â digonedd o fara. Er fod ein cyfleithiad ni yn nodi yr amser, 'yspaid blwyddyn,' ymyl y ddalen, 'llawer o ddyddiau,' y mae yn amlwg, oddiwrth barhad y newyn, i Elias aros gyda hi lawer mwy na blwyddyn. Gwel 1 Bren. 18. 1.

Cafodd ffydd y prophwyd ei phrofi drachefn; bu farw mab y wraig dlawd, ac y mae hi yn edliw i Elias mai efe oedd yr achos o'i phrofedigaeth athrist. Cymerodd Elias y bachgen, ymestynodd arno, ac a daer weddïodd am ei adferiad i fywyd. Gwrandawodd yr Arglwydd arno, 'ac enaid y bachgen a ddychwelodd i mewn iddo, ac efe a ddadebrodd.'

'Ar ol dyddiau lawer, daeth gair yr Arglwydd at Elias, yn y drydedd flwyddyn'—sef yn y drydedd o'i arosiad yn Sarephta. Tebygol ei fod yn Sarephta dros ddwy flynedd; pa rai, yn nghyd â'r flwyddyn y bu wrth afon Cerith, a wnant y tair blynedd a hanner y parhaodd y newyn. Barna rhai mai dwy flynedd union y bu yn Sarephta, a bod y chwe mis cyn iddo ymguddio wrth afon Cerith. Nid yw yn ymddangos oddiwrth yr hanes ei fod yn adnabyddus iawn yn Sarephtah, er y gwyrthiau a wnaeth. Dywedodd yr Arglwydd wrtho, 'Dos, ymddangosodd i Ahab—ac Elias a aeth i ymddangos i Ahab.' Wele yma siampl nodedig o wroldeb ffyddiog, ufudd-dod, a ffyddlondeb. Beth oedd iddo ddysgwyl oddi wrth Ahab ddrygionus, yn llawn o gynddaredd a chreulondeb yn ei erbyn, ond ei ladd ganddo? Ond Elias a aeth i ymddangos i Ahab! Elias a gyfarfu âg Ahab, a'r brenin a ddywedodd wrtho, 'Onid tydi yw yr hwn sydd yn blino Israel?' Elias a ddywedodd, 'Ni flinais i Israel; ond tydi, a thŷ dy dad: am i chwi wrthod gorchymynion yr Arglwydd, ac i ti rodio ar ol Baalim.' Yn mha le y mae cynddareld y brenin? 'Y mae calon y brenin yn llaw yr Arglwydd, efe a'i try lle y myno.' Gwroldeb ac awdurdod Elias yn argyhoeddi y brenin, fel blinwr Israel, a ddychrynodd ac a arafodd Ahab, ac y mae wrth ddymuniad Elias, fel pe buasai o'i blaid, yn galw ei holl bobl, a phrophwydi Baal, a phrophwydi y llwyni, i fynydd Carmel. Y pwnc i'w benderfynu oedd, pa un ai Duw y nefoedd, neu yr eilun Baal oedd Dduw. Rhyfedd anwybodaeth y bobl, i gynnwys ammheuaeth yn y gradd lleiaf, am hyn! Ac etto y mae Elias yn ymddangos fel pe buasai yn sefyll ei hunan o blaid yr Arglwydd yn yr ymrysonfa. Y mae mawrhydi ardderchog yn ymddangos yn Elias ar yr achos hwn! Safodd gyda gwroldeb diofn, ac a ddywedodd wrth yr holl bobl, 'Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl? Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef; ond os Baal, ewch ar ei ol yntau.' Gyda hyder disigl yn yr Arglwydd, gwnaeth y beiddiad hyf hwnw—'Y Duw a atebo trwy dân,' yn llosgi yr aberthau, 'bydded efe yn Dduw.' Gyda thaerineb sanctaidd efe a weddïodd, 'O Arglwydd Dduw Abraham, Isaac, ac Israel, gwybydder heddyw mai tydi sydd Dduw yn Israel, a minnau yn was i ti, ac mai trwy dy air di y gwnaethum yr holl bethau hyn. Gwrando fi, O Arglwydd, gwrando fi, fel y gwypo y bobl mai tydi yw yr Arglwydd Dduw, ac mai ti a ddychwelodd eu calon hwy drachefn.' 1 Bren. xviii. Yn ateb i'r weddi hon, 'Tân yr Arglwydd a syrthiodd, ac a ysodd y poeth-offrwm, a'r coed, a'r ceryg, a'r llwch, ac a leibiodd y dwfr oedd yn y ffos.' Difaodd y tân, nid yn unig yr offrwm, ond yr allor hefyd, am nad oedd aberthau i gael eu hoffrymu yno yn ddefodol; ond wrth gysegru y deml, yr aberthau yn unig a yswyd. Hyn a benderfynodd y ddadl a'r ymryson. Prophwydi Baal, y rhai a fuant yn bloeddio yn erchyll ar yr hyn nid oedd Dduw, a waradwyddwyd yn gywilyddus. A'r holl bobl a welsant, ac a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a ddywedasant, 'Yr Arglwydd, efe sy Dduw! Yr Arglwydd, efe sy Dduw!' Y prophwyd, gyd âg awdurdod anwrthwynebol, fel pe buasai y deyrnas yn eiddo iddo, a orchymynodd ddal prophwydi Baal; ac Elias a'u dygodd i waered i afon Cison, ac a'u lladdodd hwynt yno, yn ol cyfraith Moses. Deut. 13. 5. a 18. 20. Jer. 48. 10. Dat. 19. 20. a 20. 10.——Ar ol hyn, Ahab a aeth i fynu i fwyta wrth orchymyn y prophwyd, ac Elias a aeth i fynu i ben Carmel i weddïo, ac ni pheidiodd eiriol dros y wlad, nes y gwrandawyd ei weddi, ac y tywalltodd y nefoedd wlaw mawr. 'Ahab a farchogodd, ac a aeth i Jezreel. A llaw yr Arglwydd oedd ar Elias; ac efe a wregysodd ei lwynau, ac a redodd o flaen Ahab, nes ei ddyfod i Jezreel.' Er fod Elias yn hen, a chwedi ei wanhau o ran ei natur gan lafur, lludded, ac ymprydiau, etto nerthodd yr Arglwydd ef i redeg, fel rhedegwr, o flaen cerbyd Ahab, i ddangos ei barch i Ahab o ran ei swydd oruchel; ac i ddangos iddo ef fod ei argyhoeddiadau llymion yn cyd-sefyll âg ufudd-dod a ffyddlondeb iddo fel swyddog gwladol.—Pan fynegodd Ahab yr holl hanes i Jezebel, y modd y lladdasai Elias yr holl brophwydi â'r cleddyf, hi a anfonodd genad ato, gan ei fygwth y byddai ei einioes ef fel eu heinioes hwythau. 1 Bren. xix. Pan welodd hyny, efe a gyfododd, ac a aeth am ei einioes, ac a ddaeth i Beerseba; gadawodd ei lanc yno, heb allel myned yn mhellach, gan flinder a llesgrwydd: ond efe a aeth i'r anialwch daith diwrnod, ac a eisteddodd dan ferywen, ac a ddeisyfodd iddo gael marw.

Digitized by Google

Dywedodd, 'Digon yw: yn awr, Arglwydd, cymer fy einioes: canys nid ydwyf fi well na'm tadau.' Nis gallwn lai na synu wrth weled ei wroldeb ar yr achos hwn yn pallu; a'i ffydd yn ymollwng i ddigalondid. Ond gwagedd yn ddiau yw pob dyn ar y goreu; ac nis dichon neb sefyll ond fel y cynnalio yr Arglwydd ef. 'Ofn dyn sydd yn dwyn magl; ond y neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd a ddyrchefir.' Diar. 29. 25. Yn lle rhedeg pob antur, yn ymddiried yn amddiffynfa yr Hollalluog, a sefyll wrth ei waith yn ceisio diwygio Israel, ac yn dilyn yr oruchafiaeth a ennillodd eisoes, trwy ddystrywio addoliad Baal, ac adferyd addoliad Duw yn y wlad; ffödd oddi wrth ei waith, ac y mae yn dymuno ac yn gweddio am farw! Ond yr Arglwydd tirion, yr hwn sydd yn dosturiol iawn wrth ei bobl yn wyneb eu llesgrwydd, eu gwendid, a'u llwfrdra, a ymddangosodd i ddyddanu meddwl dihoenedig ei was ffyddlon. Efe, yr hwn a orchymynodd i'r cigfrain, ac i wraig weddw, ei borthi, sydd yn awr yn anfon ei angel i barotôi bwyd iddo. 1 Bren. 19. 5, 6, 7. Ac wedi hyny, i ddangos nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ac y dichon yr hwn a'n gwnaeth ein cynnal heb luniaeth, Elias, fel Moses, a'n Harglwydd bendigedig, a ymprydiodd ddeugain niwrnod, a deugain nos, hyd nes y daeth i Horeb mynydd Duw; ac yno yr aeth efe i fewn ogof, ac a lettyodd yno. Yn y lle hwn, mor hynod am y dadguddiad a wnaeth Duw o hono ei hun i Moses, y mae yr Arglwydd, gyd âg ymostyngiad mawr, ac etto gyd âg ardderchogrwydd a mawrhydi ofnadwy a dychrynllyd, yn llefaru wrtho, gan ofyn iddo, 'Beth a wnei di yma, Elias?' Y mae yn peri iddo fyned allan, a sefyll ger ei fron yn y mynydd. A'i wynt mawr a chryf y mae yn rhwygo y mynyddoedd, ac yn dryllio y creigiau; â'i ddaeargryn y mae yn siglo seiliau y ddaear: ac â thân o'r nefoedd y mae ei oleuni dysglaer yn tywynu: ond, tra yr oedd yn dangos mawredd ei allu, yn y pethau dychrynadwy hyn, y mae yn llefaru yn ei diriondeb a'i drugaredd wrth ei was, yn y llew ddystaw fain, 'Beth a wnei di yma, Elias?' Nid yno oedd y lle iddo fod yn bresennol, ond yn ngwlad Israel, wrth ei waith yn diwygio y wlad, yn dystrywio addoliad Baal, ac yn adferyd y bobl at yr Arglwydd. Yno, i'r ogof y ffödd, ac y gyrodd ei ofnau ef i ymguddio, yn lle dilyn ei orchwyl tra phwysfawr, a gadael ei amddiffyniad i'r Arglwydd. Mae yr Arglwydd yn gwrando ei gwynion—yn ei argyhoeddi o'i lwfrdra yn ffoi oddiwrth ei waith—yn ei annog a'i gefnogi, trwy sicrhau iddo, er pob ymddangosiad nad oedd ond efe ei hun yn sefyll dros yr Arglwydd, etto fod yn Israel saith o filoedd, y gliniau oll ni phlygasant i Baal. Y mae yn ei anfon i eneinio Hazael yn frenin ar Syria, a Jehu yn frenin ar Israel, ac Eliseus yn brophwyd yn ei le ei hun.

Weithian, wedi ei waredu o'i ofnau, gyd â'i hyfdra a'i wroldeb gynt, gwelwn ef, fel cenad Duw, yn sefyll i argyhoeddi Ahab a'i wraig annuwiol, am roddi Naboth i farwolaeth, a chymeryd meddiant o'i winllan. Yn ddiofn y mae yn dywedyd y gwir, ac yn cyhoeddi dinystr ofnadwy oddiwrth Dduw arnynt. 1 Bren. 21. 17—24. Yn yr un ysbryd ffyddlon a dewrwych mae yn argyhoeddi Ahaziah mab Ahab, ac yn rhagfynegi ei farwolaeth, pan yn ei glefyd yr anfonodd genadau i ymofyn â Baalzebub, duw Ecron. 2 Bren. 1. 3, 4. —Y brenin Ahaziah, yn llawn cynddeiriogrwydd a chwerwder, a anfonodd dywysog a deg a deugain i'w ddal. Y tywysog a nesâodd ato, ac Elias a safodd yn ddiarswyd. Pan lefarodd y tywysog, 'Ti ŵr Duw, tyred i waered'—Elias a atebodd, 'Os gŵr Duw ydwyf fi, disgyned tân o'r nefoedd, ac ysed ti a'th ddeg a deugain. A thân a ddisgynodd o'r nefoedd, ac a'u hysodd hwynt.' Adn. 12. Y brenin yn rhyfygus a anfonodd fintai arall; hwythau hefyd a ddyfethwyd yr un modd. A thrydedd fintai a anfonwyd; y tywysog a ymbiliodd â'r prophwyd am eu bywydau: ac angel yr Arglwydd a orchymynodd iddo fyned i waered gyd âg ef. Efe a aeth at y brenin, ac yn ddiarswyd a ddywedodd wrtho, 'Gan farw y byddi farw.' Ni chafodd y brenin na'i fam Jezebel, genad i wneuthur dim niwed iddo. Nid o ofn, nac ysbryd ymddial, y galwodd Elias am dân o'r nefoedd i ddifa y dynion, ond trwy ddadguddiad neillduol o ewyllys Duw iddo, yn yr achos hwnw. Nid yw ei ymddygiad yn hyn yn siampl i ni i'w chanlyn yn groes i orchymyn Duw, 'I garu ein gelynion, i fendithio y rhai a'u melldithiant; a gwneuthur da i'r sawl a wnel niwed i ni.' Luc 9. 54. Yr oedd yn addas ynddo ef, ac a fuasai yn bechod iddo beidio; ond byddai mor bechadurus ynom ni ddilyn ei siampl yn groes i orchymyn Duw, a phe buasai yntau yn peidio o anufudd-dod i Dduw.

Fel yr oedd ei holl fywyd yn rhyfeddol, felly hefyd yr oedd ei ddiwedd. Yr oedd yr Arglwydd am ei gymeryd i fynu mewn corwynt i'r nefoedd. 2 Bren. 2. 1. Tebygol i'r Arglwydd ddadguddio iddo yr amser ac amgylchiadau ei drosglwyddiad. Cyn ei symudiad, ymwelodd â meibion y prophwydi yn Bethel, i annog, yn ddiammeu, y dynion ieuainc oedd yn cael eu haddysgu yno. Yr oedd gan Dduw, yr amser gwrthgiliedig hwnw, ei athrofa yn Bethel, lle yr oedd y lloi aur yn cael eu haddoli. Yr oedd amryw athrofäau yn y wlad, gan mwyaf wedi eu sefydlu gan Elias, ac i gyd dan ei olygiad ef. Meibion y prophwydi a gawsant ryw grybwylliad dwyfol am symudiad Elias oddi wrthynt, yn gystal ag Eliseus y prophwyd. Daeth Elias ac Eliseus gyd â'u gilydd at yr Iorddonen; fel yr holltwyd y Môr Coch, ac yr holltodd Josuah yr un Iorddonen, felly Elias a darawodd y dyfroedd â'i fantell, a hwy a ymwahanasant: a hwy ill dau a aethant drosodd ar dir sych. Ac fel yr oeddynt yn myned dan rodio ac ymddyddan, wele osgordd ogoneddus wedi ei pharotoi i drosglwyddo yr hen brophwyd o fyd o orthrymderau i wlad y gogoniant, sef 'cerbyd tanllyd, a meirch tanllyd, a hwy a'u gwahanasant hwynt ill dau. Ac Elias a ddyrchafodd mewn corwynt i'r nefoedd. Ac Eliseus oedd yn gweled, ac efe a lefodd, Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel, a'i farchogion. Ac nis gwelodd ef mwyach.'

Ni chafodd neb o holl weision Duw, ond Enoch, y fath anrhydedd o'r blaen a dianc rhag y ddedfryd gyffredinol hòno a gyhoeddwyd yn erbyn dyn wedi iddo bechu, 'Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.' Anrhydeddodd Duw yn y modd hwn ei was yn neillduol, yr hwn a fu mor eiddigeddus dros ei ogoniant, a anturiodd bob canlyniadau yn ei achos, ac yn gwrthwynebu eilun-addoliaeth cenedl wrthgiliedig ac erlidgar. Yr oedd hyn yn dystiolaeth gyhoeddus o wirionedd yr athrawiaeth a ddysgodd efe i'r bobl; yn amlygiad eglur o fyd arall o wobrau i'r rhai a lynant wrth yr Arglwydd, ac a ddyoddefant yn ei achos; ac yn rhag-ddangosiad o esgyniad yr Iachawdwr. 2 Bren. ii.

Gwedi ei esgyniad, daeth ysgrifen oddiwrth Elias y prophwyd at Jehoram brenin Judah, yn ei argyhoeddi, yn ei rybuddio, ac yn ei fwgwth â barnedigaethau Duw am ei bechodau. Dygwyddodd esgyniad Elias cyn i Jehoram deyrnasu ei hun, yn nheyrnasiad Jehosaphat ei dad. 2 Bren. iii. Am hyny, rhaid barnu i Elias ysgrifenu yr ysgrifen hon mewn ysbryd prophwydoliaeth, yn rhagweled beiau Jehoram; ac fe allai i'r ysgrifeu gael ei gadael gyd âg Eliseus, neu ryw prophwyd arall, i'w rhoddi iddo mewn amser addas. Y mae rhai yn barnu mai Eliseus, ac nid Elias, a feddylir wrth awdwr yr ysgrifen, a bod y naill enw gwedi ei roddi yn lle y llall; neu bod Eliseus yn cael ei alw yn *Elias*, am fod cymaint o ysbryd Elias ynddo. 2 Cron. 21. 12—15.

Y mae Ioan Fedyddiwr yn cael prophwydo am

Digitized by Google

dano dan yr enw Elias, am iddo ddyfod o flaen yr Arglwydd yn ysbryd a nerth Elias. Luc 1. 17. Mat. 11. 14. a 17. 10—14. Mal. 4. 5, 6. Eccles. 48. 1, &c. Yr oedd pob un o'r ddau hyn yn byw mewn amseroedd enbyd, pan yr oedd gwir grefydd yn isel arni, a'r wlad wedi ei llygru i raddau mawr gan gau grefyddau ac athrawiaethau. Cafodd pob un o'r ddau eu cyfodi i fynu i sefyll dros Dduw a'i achos gyda hyfdra, gwroldeb, a ffyddlondeb anghydmarol. Yr oedd Elias ei hun, o blaid Duw a'i achos, yn sefyll yn nerthol ac yn fuddugoliaethus ar ben Carmel, yn erbyn y brenin a holl rym y llŷs a'r lliaws. Yr oedd Ioan Fedyddiwr yr un fath, yn ei ddyddiau yntau, yn sefyll yr unig weinidog cyhoeddus yn erbyn holl amryfusedd cadarn, cyfeiliornadau, a drwg foesau yr oes. Edr. Ioan Fedyddiwr.

Yr oedd Elias, fel yr holl brophwydi, yn cysgodi yr Arglwydd Iesu, pen prophwyd ac athraw ei eglwys: ond gan fod nefoedd a daear gwedi eu cymmodi trwy aberth mawr y groes, yr oedd esgyniad ein Harglwydd yn llai dychrynadwy, a chyd âg arwyddion mwy o heddychlonrwydd, tangnefedd, a graslonrwydd dwyfol. Nid cerbyd tanllyd, ond cwmwl goleu a'i derbyniodd ef allan o olwg y dysgyblion. Act. 1. 9.

ELIASAPH, *Heb.* אליסף [*Duw yn chwanegu*] mab Duel o lwyth Gad. Num. 1. 14.

ELIASIB, *Heb.* אלישיב [*Duw a ddychwel*] archoffeiriad o hiliogaeth Eleazar. Daeth Joiada ei fab ar ei ol i'r swydd sanctaidd. Neh. 12. 10.

ELIATHAH, *Heb.* אליתה [*ti yw fy Nuw*] yr wythfed mab i Heman. Yr oedd yn ugeinfed cylch y Lefiaid. 1 Cron. 25. 27.

ELICA, *Heb.* אליקא [*pelican Duw*] Harodiad, ac un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 25.

ELIDAD, *Heb.* אלידד [*anwyl gan Dduw*] mab Cislon o lwyth Benjamin. Un o'r dirprwywyr a ddetholwyd i ranu y wlad. Num. 34. 21.

ELIEL, *Heb.* אליאל [*fy Nuw sy Dduw*] 1. Gŵr enwog, cadarn o nerth, o lwyth Manasseh. 1 Cron. 5. 24.——2. Lefiad o deulu Cohath. 1 Cron. 6. 34. ——3. Y mae dau o'r enw yn mhlith cedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 46, 47.

ELIEZER, *Heb.* אליעזר [*fy Nuw yn gymhorth*] 1. Gwas Abraham, a goruchwyliwr ei dŷ, yr hwn oedd yn llywodraethwr ar yr hyn oll oedd ganddo. Y mae yn cael ei alw Eliezer o Damascus:—'A goruchwyliwr fy nhŷ yw Eliezer yma o Damascus.' Gen. 15. 2. בן משק ביתי *mab yr hwn sydd yn rhedeg oddi amgylch fy nhŷ.* Parkhurst. Neu, yn ol eraill, *mab fy nhŷ, y goruchwyliwr.* 'Mab y tŷ,' ydys yn galw hyd heddyw, yn y gwledydd dwyreiniol, caethwas wedi ei ryddhau a'i freinio. Gwel Volney's *Travels, vol.* i. Gallwn gasglu, gan hyny, mai un genedigol o Damascus oedd Eliezer, a brynwyd fel caethwas gan Abraham, ac iddo ymddwyn mor addas a ffyddlon fel y rhoddodd Abraham ei ryddid iddo, ac a'i gosododd yn llywodraethwr ar hyn oll oedd ganddo. Pan anfonodd Abraham ef ar y neges tra phwysfawr o ymofyn am wraig i'w fab Isaac, yr oedd yn henafgwr. Oddeutu triugain mlynedd cyn hyn, yr oedd Abraham wedi dywedyd am dano fel goruchwyliwr ei dŷ: a'r geiriau a gyfieithir, 'Ei was hynaf yn ei dŷ,' a ellir eu cyfieithu, *Ei was hynaf, yr henafgwr yn ei dŷ.* Y mae yr hanes am dano yn Gen. xxiv. yn ei amlygu yn eglur fel gŵr hynod am ei ddoethineb a'i dduwioldeb. Bu siampl ei feistr Abraham, a'r addysgiadau a gafodd ganddo, yn fendithiol iddo, fel yr oedd yn was addas i dad y ffyddloniaid, a chyfaill Duw. Y mae duwioldeb yn mhob sefyllfa yn addurn gogoneddus; ac y mae Eliezer yn dysgleirio fel siampl i bawb yn ei sefyllfa ef, mewn duwioldeb, parch i Dduw, a ffyddlondeb yn negesau ei feistr, hyd ddiwedd amser.——2. Mab Moses a Sephorah. Yr oedd ganddo fab a'i enw Rehabiah, meibion yr hwn a amlhasant yn ddirfawr. Exod. 18. 4. 1 Cron. 23. 17, 18. ——3. Lefiad; un o'r rhai oedd yn seinio mewn udgyrn o flaen arch Duw, pan symudodd Dafydd hi i Jerusalem. 1 Cron. 15. 24.——4. Mab Zichri o lwyth Reuben, yr hwn oedd yn dywysog yn amser Solomon. 1 Cron. 27. 16. Lefiad arall o'r enw a ddychwelodd o gaethiwed Babilon. Ezra 10. 23.——5. Mab Dodafah o Maresah, yr hwn a brophwydodd yn erbyn Jehosaphat, am iddo ymgyfeillachu âg Ahaziah, brenin Israel. 2 Cron. 20. 37.——6. Mab Jorim, un o hynafiaid yr Iachawdwr. Luc 3. 29.

ELIHOREPH, *Heb.* אליחרף [*Duw yr ieuanc*] mab Sisa, ac un o ysgrifenyddion Solomon. 1 Bren. 4. 3.

ELIHU, *Heb.* אליהוא [*efe yw fy Nuw fy hun*]. 1. Gŵr cadarn nerthol, un o benaethiaid miloedd yn Manasseh, ac a fu gynnorthwyol i Dafydd. 1 Cron. 12. 20.——2. Un o borthorion y deml. 1 Cron. 26. 7.——3. Un o frodyr Dafydd, yr hwn oedd dywysog ar lwyth Judah. 1 Cron. 27. 18.——4. Un o gyfeillion Job, mab Barachel y Buziad, o genedl Ram, neu o hiliogaeth Nachor brawd Abraham, o'i ail fab Buz. Y mae eraill yn barnu, mai Aram mab Cemuel, a feddylir. Job 32. 2. Gen. 22. 21. Jer. 25. 20, 23, 24. Llawer o wahanol farnau sydd wedi bod, ac etto yn parhau, am y gŵr hwn; rhai yn barnu mai yr Arglwydd Iesu ydoedd, &c. Ond y mae yr hanes yn neillduol o eglur am dano, pwy oedd, ac o ba genedl a theulu yr ydoedd, ac yn sicrhau mai nid dychymyg yw y llyfr hwn, ond mai gwir hanes cywir sydd yn gynnwysedig ynddo. Y mae yn ymddangos yn ŵr ieuanc o ddoethineb, gwybodaeth, doniau, a gwylder neillduol o hynod a nodedig. Yr oedd yn gwrando ar y ddadl rhwng Job a'i gyfeillion, a chafodd ei anfoddloni yn fawr wrth eu dull yn ei thrin. Yr oedd cyfeillion Job yn ei anfoddloni, am eu bod yn barnu yn rhy galed am dano, fel rhagrithiwr drwg, a mor lleied o brawf ganddynt o hyny; 'A'i ddigofaint ef a gynneuodd yn erbyn ei dri chyfaill, am na chawsent hwy ateb, ac er hyny, farnu o honynt Job yn euog.' Job 32. 3. Mae Job yn ei anfoddhau, am ei fod yn fwy ei ymdrech i amddiffyn ei hun yn erbyn cyhuddiadau ei gyfeillion, nag amddiffyn yr Arglwydd yn uniondeb, doethineb, a daioni ei ragluniaethau yn mhob peth. Nid yw yn cyhuddo Job o un bai, ond ei gam-ymddygiad yn y ddadl rhyngddynt. Y mae yn eglur ei fod yn deall, ac â golygiadau mwy cywir am yr achos a ddadleuir yn ei gylch, nag un o'r pleidiau yn yr ymrysonfa; etto y mae yn amlwg ei fod yntau yn bwrw yn rhy galed ar Job, ac yn rhoddi golygiadau rhy erwin ar ei eiriau. Y mae yn llefaru yn dra ardderchog am Dduw, ei fawredd, ei ben-arglwyddiaeth, ei uniondeb, a'i ddaioni yn ei holl ffyrdd, a'i raslonrwydd yn ei holl ragluniaethau: 'Efe a edrych ar ddynion, ac os dywed neb, Mi a bechais, ac a ŵyrais unioneb, ac ni lwyddodd i mi; efe a wared ei enaid rhag myned i'r clawdd, a'i fywyd a wel oleuni.—Am yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael ef; ardderchog yw o nerth, a barn, a helaethrwydd cyfiawnder; ni chystuddia efe.' Job 33. 27, 28. a 37. 23.

ELIM, *Heb.* אלים [*dyffrynoedd*] un o wersyllfaoedd plant Israel, lle cawsant ddeuddeg ffynon o ddwfr, a deg palmwydden a thriugain, ffynon i bob llwyth. Mae i sylwi arno, fod y rhifedi yn ateb i'r deuddeg llwyth, a'r deg ar hugain henuriaid; a'r deuddeg apostol, a'r deg a thriugain dysgybl. Ni chafodd y Dr. Shaw, teithiwr diweddar, ond naw ffynon, ond cafodd 2000 o balmwydd, yn y lle hwn. Num. 33. 9.

Digitized by Google

ELIMELEC, *Heb.* אלימלך [*fy Nuw sy frenin*] gŵr Naomi o Bethlehem. Yr oedd iddynt ddau o feibion, Mahlon a Chilion. Yn amser newyn trwm ffoisant o Bethlehem i wlad Moab, lle y trigasant yn nghylch deng mlynedd. Elimelec a'i ddau fab a fuant feirw yno. Ruth 1. 1, &c. Edr. NAOMI, RUTH.

ELIN—OEDD, (glin) ongl, congl, plyg; penelin. —'Gwae y gwniadyddesau clustogau tan holl elinoedd dwylaw fy mhobl.' Ezec. 13. 18. Dr. M. Edr. PENELIN.

ELIOENAI, *Heb.* אליועיני [*tu ag ato ef mae fy llygaid*] 1. Mab Asiel, o lwyth Simeon. 1 Cron. 4. 36.——2. Mab Asaph, ac un o borthorion y deml. 1 Cron. 26. 3.——3. Mab Zerahiah, ac un o'r rhai a ddychwelasant gyd âg Ezra o Babilon. Ezra 8. 4. a 10. 22.

ELIPHAL, *Heb.* אליפל [*gwyrth Duw*] mab Ur, blaenor enwog yn myddin Dafydd. 1 Cron. 11. 35.

ELIPHALET, *Heb.* אליפלט [*Duw fy ngwaredwr*] 1. Mab Dafydd. 2 Sam. 5. 16.——2. Mab Esec. 1 Cron. 8. 39.

ELIPHAZ, 1. Mab Esau, o Adah, merch Elon. Gen. 36. 4.——2. Un o gyfeillion Job, ac un, fel yr ydys yn barnu, o hiliogaeth Teman, ŵyr Esau. Job 2. 11.

ELISAH, 1. Mab Jafan. Gen. 10. 4, 1 Cron. 1. 7. Oddiwrth Elisah y daeth Hellas.——2. Peloponnesus, lle oedd yn enwog am borphor. Ezec. 27. 7. Gwel Bochart, Hellas, Michaelis, Newcome.

ELIZABETH, ELISEBA, *Heb.* אלישבע *Gr.* Ελισαβετ, [*Duw cyflawn*, neu *yn gyflawnder*] 1. Gwraig Aaron, merch Aminadab, a chwaer Nahason. Exod. 6. 23.——2. Un o dylwyth Aaron, gwraig Zacharias, a mam Ioan Fedyddiwr. Luc 1. 5, &c. Y mae y wraig hon yn cael tystiolaeth gan yr Ysbryd Glân, ei bod hi, yn gystal a'i gŵr, 'yn gyflawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd.' Pan gyfarchodd Mair iddi, a hi y pryd hwnw wedi beichiogi ar fab yn ei henaint, y plentyn yn ei chroth a lâmodd, ac Elizabeth a lanwyd â'r Ysbryd Glân, ac yn llawn o syndod a gorfoledd sanctaidd, a fendithiodd Mair ei chares, ac a fendithiodd ffrwyth ei chroth hi, gan alw Mair yn fam ei Harglwydd: 'O ba le,' meddai, 'y mae hyn i mi, fel y delai mam fy Arglwydd ataf fi?' Luc 1. 40--44.

ELISAMA, אלישמע [*Duw yn gwrandaw*] 1. Mab Ammihud, tywysog meibion Ephraim. Num. 7. 48. ——2. Mab Jecamiah. 1 Cron. 2. 41.——3. Gelwir dau o feibion Dafydd wrth yr enw hwn. 1 Cron. 3. 6, 8. ——4. Tad Nethaniah, a thaid Ismael, yr hwn a laddodd Gedaliah. 2 Bren. 25. 25.——5. Offeiriad a anfonwyd gan Jehosaphat, gyd âg eraill, i addysgu y bobl yn nghyfraith yr Arglwydd. 2 Cron. 17. 9.

ELISEUS, *Heb.* אלישע (*Elisha*) [*iachawdwriaeth Duw*] mab Saphat o Abel-Meholah. Dysgybl Elias, a phrophwyd enwog ar ei ol ef yn Israel. Pan gafodd Elias ef yn aredig â deuddeg cwpl o ychain o'i flaen, Elias, trwy gyfarwyddyd dwyfol, a fwriodd ei fantell arno, fel crybwylliad o'i alwad i fod yn ddysgybl iddo, ac yn brophwyd i'r Arglwydd ar ei ol. Ar hyn cyfododd, ac a aeth ar ol Elias, ac a'i gwasanaethodd ef. 1 Bren. 19. 16—21. Wedi hyn ymlynodd wrth Elias, i dderbyn ei addysgiadau nefolaidd; yn y modd mwyaf sobr y mae yn dywedyd wrth Elias drachefn a thrachefn, 'Nid ymadawaf â thi.' Pan ddywedodd Elias wrtho, 'Gofyn y peth a wnelwyf i ti, cyn fy nghymeryd oddi wrthyt;' ni ddymunodd fendithion daearol, golud, parch, ac esmwythder, ond i gael ei addasu i'w swydd trwy gyfraniad mwy helaeth o ysbryd y gras; 'A dywedodd Eliseus, bydded gan hyny attolwg ddau parth o'th ysbryd di arnaf fi;' sef mesur helaeth o Ysbryd Duw i orphwys arno. Ni cheisiodd yn ofer: pan gymerwyd Elias oddi wrtho, yn ei ŵydd, cafodd yr arwydd a roddodd Elias iddo i'w sicrhau y cai ei ddymuniad, sef ei *weled* pan gymerwyd ef oddi wrtho. Pan ddychwelodd Eliseus ar ol esgyniad ei feistr, cymerodd fantell Elias a syrthiasai oddi wrtho, ac a darawodd ddyfroedd yr Iorddonen â hi, ac a ddywedodd, 'Pa le y mae Arglwydd Dduw Elias?' Y mae y geiriau yn Hebraeg yn hytrach yn gadarnach, fel hyn, 'Pa le y mae IEHOFAH DUW Elias (אף הוא) ie, Efe?'* *Efe*, nid neb arall; y mae efe yr un, ac etto gyda mi, er i Elias gael ei gymeryd oddi wrthyf.—'Pa le y mae Arglwydd Dduw Elias, ac yntau hefyd? Ac efe a darawodd y dyfroedd *eilwaith*.' Dr. M. Fel pe buasai Eliseus yn galw am Elias hefyd; ond y mae y cyfieithiad hwn yn wrthodedig gan y rhan fwyaf o gyfieithwyr. Y mae rhai yn barnu gyd â'r Dr. M. i Eliseus daro y dyfroedd ddwy waith; sef iddo daro â'r fantell yn gyntaf; ond pan welodd na wnai y fantell ei hun, er mai mantell Elias oedd, wahanu y dyfroedd, gwaeddodd gyd â'r fantell, am 'IEHOFAH, Duw Elias ei hun.' A phan welodd meibion y prophwydi hyn, dywedasant, 'Gorphwysodd ysbryd Elias ar Eliseus.' A daethant i'w gyfarfod ef, ac ymgrymasant hyd lawr iddo, fel arwydd o'u parch a'u hymostyngiad iddo fel eu harolygwr yn lle eu tad Elias: a hwy a fynent chwilio am Elias, ond ni chawsant ef.——Trwy fwrw halen i'r ffynonell, iachaodd ddyfroedd Jericho. Nid oedd y moddion ond gwael, ond gyda gair yr Arglwydd y mae pob moddion yn ddigonol. 'Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, Myfi a iachêais y dyfroedd hyn.' Buasai y gair yn ddigonol heb yr halen, pe buasai yr Arglwydd yn ewyllysio hyny: ond trwy foddion, yn gyffredinol, y mae Duw yn gweithredu, a'r rhai hyny, yn aml, yn foddion distadl yn ngolwg dynion. 1 Cor. 1. 18—30. a 4, 4, 5. 2 Bren. 2. 21. a 4. 41. a 6. 6. Exod. 15. 25, 26. Iago 5. 14, 15.

Fel pe buasai y gwylltfilod dan ei awdurdod, wrth ei orchymyn, dwy arth o'r goedwig a ddrylliasant ddau blentyn a deugain, y rhai a felldigodd efe, am eu diystyrwch a'u gwawd o hono fel prophwyd Duw. Yr un peth yw gwawdio prophwyd Duw, a dirmygu Duw; ie, Duw sydd yn cael ei ddirmygu a'i wawdio yn ei weision. Yr oedd y plant hyn wedi cael eu dwyn i fynu mewn eilun-addoliaeth, a chwedi eu dysgu i ddirmygu prophwydi yr Arglwydd. Clywsant fod Elias wedi ei gymeryd i fynu i'r nefoedd; maent yn watwarus yn peri iddo yntau fyned i fynu ar ei ol, fel y caent wared o hono yntau hefyd: 'Dos i fynu moelyn, dos i fynu moelyn.' Y mae y geiriau yn cynnwys pob dirmyg a diystyrwch tu ag at yr hen ŵr parchus a duwiol, a phob gelyniaeth a fedrent ddangos yn ei erbyn fel gwas Duw. Mae eu diwedd dychrynllyd yn dangos mai yn ysbryd Duw y melldithiodd

* Prif ystyr y gair *Heb.* הוא (*Hu*) ydyw, *Bôd*, neu *hanfod parhaus*; ac a arwydda, yn gyffredinol, *efe*, neu *hi*; ond yn neillduol, fel enw cadarn, un o'r enwau dwyfol yw הוא (*Hu*) *efe yr hwn sydd o hanfodiad parhaus.* Y mae yn gyfartal, yn aml, *i'r gwir a'r tragywyddol Dduw.* Gwel Esa. 48. 12. ac yn neillduol, Ps. 102. 27. אתה הוא (*etta Hu*) *Ti yw Efe.*—Cymraeg, 'Tithau yr un ydwyt.' Arwydda y geiriau, hanfod tragywyddol ac anghyfnewidiol Duw. Felly yw ystyr y gair yn y fan hon, 'Pa le y mae IEHOFAH, Duw Elias (אף הוא *ap Hu*) ie, EFE?' sef y *Bôd tragywyddol*, fel y dylid cyfieithu y geiriau. Tebygol mai oddiwrth y gair Hebraeg y tarddodd y gair Cymraeg Hu, yr hwn a arwydda goruchedd, ardderchogrwydd, a galluogrwydd. Enwad ar y Duwdod ydyw yn iaith yr hen brydyddion—'Hu Gadarn, Por hoyw geidwad,' &c. Iolo Goch. Cyfieitha J. M. Good y geiriau canlynol yn Job 8. 19. 'Wele! dyma lawenydd ei ffordd ef,' fel hyn: 'Wele! (הוא) y Tragywyddol, yn llawenhau ei redegfa,' &c.'—Huon sydd enw arall o'r un tarddiad ac arwyddocâd. Parkhurst's *Lexicon*, a J. M. Good ar Job.

Digitized by Google

*Heb. os yw eich enaid*, neu *eich meddwl*. Gen. 23. 8. 1 Sam. 18. 1. Diar. 27. 7. Ps. 27. 12.

Y mae Anghrist yn marsiandio yn eneidiau dynion, trwy werthu pardynau, a gwaredigaeth o'r purdan, &c. iddynt. Dat. 18. 13.

Y mae Elihu yn galw ei enaid, 'anadl yr Hollalluog,' am i Dduw, yn nghreadigaeth enaid dyn, anadlu yn ei ffroenau anadl einioes. Y gair *Heb.* נשמה a arwydda *anadl*, trwy drawsenwad a arwydda *enaid* hefyd; canys y mae dyn yn anadlu tra byddo ei enaid ynddo, a phan ymadawo ei anadl, mae ei enaid yn ymadael â'i gorph. Job 33. 4.

'Pan osodo efe ei enaid yn aberth dros bechod—o lafur ei enaid y gwel—am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth.' Esa. 53. 10, 11, 12. Y mae y geiriau prophwydoliaethol hyn am Grist, yn dangos fod dyoddefiadau Crist yn ddirfawr iawn; iddo ddyoddef yn ei enaid yn gystal ag yn ei gorph, ac iddo ddyoddef yn eithaf ewyllysgar, ac yn wirfoddol. Gal. 1. 4. Tit. 2. 11. 1 Tim. 2. 6. Mat. 20. 28. a 26. 38. Ioan 10. 14. Edr. ABERTH.

'Ni ddaeth Mab y dyn i ddystrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw.' Luc 19. 56. Ioan 3. 17. a 12. 47. Y mae eneidiau dynion wedi eu dystrywio eisoes, fel y maent yn euog ger bron Duw, ac wedi eu llygru gan bechod; ond tra byddont ar y ddaear, mae yn bosibl eu cadw; daeth Mab y dyn, ac a fu farw i'r dyben hyny; ac ni chollir pwy bynag a gredo ynddo, ac a ufuddhao i'r efengyl; ond gan nad oes iechydwriaeth yn neb arall, bydd pawb eraill yn golledig. Act. 4. 12. Ioan 3. 36. Marc 16. 16, 17.

'A chadwer eich ysbryd oll, a'ch enaid, a'ch corph, yn ddiargyhoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist:' 1 Thes. 5. 23.) hyny yw, *ολοκληρον υμων, y cwbl o honoch, yr holl ddyn*, ei ddeall a'i gydwybod, ei ewyllys a'i serchiadau. Y mae y gair Groeg, medd Chandler, yn cael ei briodoli i ddinas a'i holl adeiladau yn sefyll; i ymerodraeth yn meddiannu ei holl daleithiau; ac i fyddin heb golli un o'i milwyr:—felly, medd yr apostol, 'cadwer chwi oll yn *gwbl*,' yr holl ddyn, a phob rhan o hono. Y mae yr iechydwriaeth mor ëang a cholledigaeth; a'r feddyginiaeth mor llydan a'r clwyf. Os ydyw y dyn wedi ei sancteiddio mewn un rhan o hono, mae gwedi ei sancteiddio yn mhob rhan, sef yn ei holl enaid, ac yn ei holl gorph. Nid ydyw y geiriau *το πνευμα, yr ysbryd*, ac *η ψυχη, yr enaid*, ond dau air yn arwyddo yr un sylwedd ysbrydol ac anfarwol mewn dyn, yn ei amrywiol gynneddfau, a'i wahanol weithrediadau. Y mae rhai yn barnu fod y gair *ysbryd* yn arwyddo y rhan anfarwol o ddyn; y gair enaid yn arwyddo y bywyd anifeilaidd perthynol i ddyn ac anifel. Cymhar. Heb. 4. 12. Eph. 5 23. Gwel Macknight, Parkhurst, dan y gair Πνευμα, Doddridge, a Whitby.

'Enaid-faddeu,' un yn rhoddi i fynu yr ysbryd, neu yn euog o drosedd marwol.'—'A' llawer a canlynant y ffyrdd-enaidvaddeu.' 2 Petr 2. 2. W.S.

ENAIM, עינים [*llygaid*, neu *ffynonau*] 'Ac a eisteddodd yn nrws Enaim.' Gen. 38. 14. Beirniaid a wahaniaethant yn nghylch ystyr y gair hwn. Ai enw priodol, ai galwedigol? ac os y diweddaf, pa un ai *ffynonau* ai *llygaid* yw ei ystyr? Jerome a farna y diweddaf, ac mai croes-ffordd ydoedd, lle y dylai y teithiwr edrych yn ofalus pa ffordd a gymer.—*Inbivio itineris. Vulg.*—Ond tebygol i'r lle gael ei alw Enaim oddi wrth ffynonau yn gyfagos iddo. A hwyrach mai yr un lle a Chesib ydoedd, yn ol y cyfieithiad Samariaeg.—'Drws Enaim;' 'Pyrth Enaim.' LXX. Lle agored, croes-ffordd; y cyfryw leoedd yr hygyrchai puteiniaid yn aml iddynt. Ezec. 16. 25.

ENAINT, ENEINIAU, (enain) olew; eli arogl-bêr; iraid. Edr. AROGL-DARTH, OLEW.—'O herwydd arogl dy enaint daionus:' *Heb.* שמניך טובים *dy eneiniau daionus*, yn y rhif lliosog, yn arwyddo yr helaethrwydd o hono. Wrth eneiniau Crist, y mae i ni ddeall ei ddoniau, ei radau, a'i ragoriaethau, yn mhob ystyr. Eneiniwyd Crist 'âg olew llawenydd yn fwy na'i gyfeillion;' ac o'i gyflawnder ef y mae ei holl gyfeillion yn derbyn. Y mae 'fel yr enaint gwerthfawr ar y pen, yn disgyn ar hyd y farf, sef barf Aaron; yr hwn oedd yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef.' Ps. 133. 2. Yr enaint hwn, sef yr Ysbryd Glân, a'i ddoniau sanctaidd, gwedi ei dywallt ar Grist, y pen, y mae yn disgyn i'w holl aelodau, ac oddi wrtho ef y maent yn derbyn yr eneiniad, yr hwn sydd yn eu dysgu hwynt am bob peth. Can. 1. 3. Ps. 45. 7. Ioan 1. 16. 1 Ioan 2. 27. Esa. 61. 3. Ioan 12. 3. Phil. 4. 18. 2 Cor. 2. 14, 15, 16.—'Enaint tywalltedig yw ei enw.' Enw Crist yw efe ei hun, yn ei Berson, ei swyddau, a'i berthynasau; neu yn yr efengyl sydd yn ei ddadguddio ac yn ei gyhoeddi. Fel y mae pêr-arogl enaint yn fwy adnabyddus ac effeithiol pan y tywelltir ef, felly mae Crist; po mwyaf y mae yn cael ei ddadguddio a'i egluro i ni, mwyaf gwerthfawr y bydd i ni, a mwyaf hyfrydwch y bydd ei ragoriaethau yn ei beri. Y mae holl enw Crist yn enaint i gyd; nid oes dim yn anhyfryd ynddo, ond i ni ei wir adnabod; ond y mae i gyd yn werthfawr, yn llesol, ac yn hyfrydwch. Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio at eneiniad personau, llestri sanctaidd, ac offrymau dan yr hen oruchwyliaeth. Lef. 2. 1, 2, 3. Y mae Crist yn cyfateb yn gyflawn i'r holl gysgodau gynt; ac yn tra rhagori yn ei Berson ei hun arnynt oll—'Am hyny y llancesau a'i carant.'

ENBYD, (en-byd) anturus, peryglus.—'Y daw amseroedd enbyd:' *Gr. καιροι χαλεποι, amseroedd gofidus, blin*, a *gorthrymus*. 2 Tim. 3. 1.

ENBYDRWYDD, (enbyd) perygl, pyd. 1 Sam. 28. 21. Luc 8. 23.

ENCIL—WYR, (en-cil) gwrthgiliad, mynediad yn ngwrthgefn, ymadawiad, gwrthgiliad; gwrthgilwyr, ymneillduwyr. Esa. 66. 5. Jer. 8. 5. a 39. 9.

ENCYD, (en-cyd) cryn ffordd; enyd amser. Gen. 32. 16. Marc 6. 31.

ENDOR, *Heb.* עין־דור [*ffynon cenedlaeth*]. Dinas yn Manasseh, yn yr hon yr oedd y ddewines yn byw yr aeth y brenin Saul i ymgynghori â hi yn ei gyfyngder. 1 Sam. xxviii.

ENEAS, *Αινεας*, gwr claf o'r parlys yn Lyda, a iachawyd gan Petr. Act. 9. 34.

EN-EGLAIM, *Heb.* עין־עגלים [*ffynon y'cerbydau*] Dinas yn nechreu y Môr Marw, lle mae yr Iorddonen yn rhedeg i mewn iddo. Ezec. 47. 10.

ENEINIO—IAD—IOG, (enain) tywallt enaint ar un; tywalltiad o enaint ar un, neu ar ryw beth; un gwedi ei eneinio. Yr oedd eneinio yn hen arferiad.—Yr hanes cyntaf a gawn o hono ydyw gwaith Jacob yn eneinio y golofn yn Bethel. Gen. 28. 18. a 35. 14. Gwedi hyny, y mae yr Arglwydd yn dywedyd wrtho ef, 'Myfi yw Duw Bethel, lle yr eneiniaist y golofn.' Gen. 31. 13. Yr oedd yr eneiniad hwn o'r golofn yn dangos eneiniad Crist a'i bobl â'r Ysbryd Glân; y rhai ydynt yn cael eu galw yn 'feini bywiol.' 1 Petr 2. 4, 5.——Yr oedd eneinio yn arferiad cyffredin dan y gyfraith. Yr oedd yr Hebreaid yn eneinio ac yn pêr-arogli o ran iechyd, glanweithdra, a destlusrwydd. Ruth 3. 3. Byddent yn eneinio y gwallt, y pen a'r farf. Ps. 132. 2. Yn eu gwleddoedd, eneinient yr holl gorph; ond weithiau dim ond y pen a'r traed. Ps. 23. 5. Mat. 6. 17. Luc 7. 37, 38. Ioan 12. 3. Byddent arferol hefyd o eneinio a phêr-arogli cyrph meirw, i'w cadw rhag llygredigaeth. Marc 14. 8. a 16. 1. Luc 23. 56.



Digitized by Google

Yr oedd eneinio âg olew yn cael ei gyfrif gynt yn feddyginiaethol ac yn iachus. Nid oedd yr apostolion wrth iro y cleifion ond gwneuthur yr hyn oedd yn arferedig yn eu plith, tebygol, er bod yr iachâd trwy eu gwaith yn gwneuthur hyn yn *wyrthiol*. Marc 6. 13. Iago 5. 14. 'Yn Yemen, hyd heddyw, y maent yn eneinio eu cyrph âg olew, i'w cryfhau a'u hamddiffyn rhag gwres yr haul. Yn Sana, mae yr holl Iuddewon a llawer o'r Mahometaniaid, yn eneinio eu cyrph, pan y byddo rhyw saldra arnynt.' Gwel Niebuhr, *vol.* ii. Y mae yr arferiad yn gyffredinol yn y gwledydd dwyreiniol, o ran harddwch ac iechyd; ïe, y mae rhai yn ei farnu yn feddyginiaeth rhag haint y nodau.——Yr Hebreaid a eneinient eu breninoedd. eu hoffeiriaid, a'u prophwydi, yn eu cysegriad i'w swyddau sanctaidd. Exod. 29. 29. Lef. 4. 3. Barn. 9. 8. 1 Sam. 9. 16. 1 Bren. 19. 15, 16.

Er nad oes un gorchymyn wedi ei roddi gan Moses mewn perthynas i eneiniad breninoedd a phrophwydi; etto gwelwn Samuel yn eneinio Saul, a Dafydd gwedi hyny. 1 Sam. 10. 1. a 11. 14, 15. a 16. 13. Cafodd Dafydd ei eneinio dair gwaith; yn gyntaf, gan Samuel yn Bethlehem; yn ail, gan wyr Judah, yn Hebron; a chwedi hyny gan holl lwythau Israel yn Hebron, ar ol marwolaeth Abner. 2 Sam. 2. 4. a 5. 1, 2, 3, &c. Solomon hefyd a eneiniwyd gan Sadoc, yr arch-offeiriad; a chan y prophwyd Nathan. 1 Bren. 1. 39, 45. Nid ydym yn darllen am un o freninoedd Israel a gafodd ei eneinio, ond Jehu, mab Nimsi. 1 Bren. 19. 15, 16. Am y prophwydi nid ydym yn darllen am eneiniad un o honynt yn neillduol, o ran y dull o wneuthur hyny. Cafodd Elias orchymyn i eneinio Eliseus, a diammeu iddo wneuthur hyny, er nad oes genym hanes, ond am iddo fwrw ei fantell arno ef. 1 Bren. 19. 19.

Yr oedd holl lestri sanctaidd y babell a'r deml yn cael eu heneinio wrth eu cysegru. Exod. 30. 25.—28. Yr ydoedd y pethau, neu y personau, a fyddent yn cael eu heneinio, i'w golygu gwedi eu cysegru mewn modd neillduol i'r Arglwydd, a'i waith sanctaidd. Tywalltiad yr enaint a arwyddai eu neillduad gan Dduw i'r swydd; a'r olew a arwyddai yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau a'i gynnorthwyon, i'w haddasu i'r swydd a'r gwaith perthynol iddi. Yr oedd yr holl eneiniadau hyn yn cysgodi eneiniad Crist, a'i bobl ynddo a thrwyddo. Eneiniwyd Crist â'r Ysbryd Glân, ac â nerth, i arwyddo ei neillduad a'i addasiad rhyfedd i'w swydd, a'r gwaith perthynol iddi. Act. 10. 38. Edr. CRIST. Eneiniwyd Crist yn y groth, yn nghysegriad y natur ddynol, a'i huniad â'r Duwdod. Eneiniwyd Crist yn gyhoeddus, pan ddisgynodd yr Ysbryd Glân arno, a phan ddechreuodd weini yn gyhoeddus yn ei swydd, fel Prophwyd mawr ei eglwys. Mat. 3. 16. Esa. 61. 1. Dan. 9. 24. Eneiniwyd Crist yn ei offrwm a'i aberthiad o hono ei hun, pan yn ei ddyoddefiadau dirfawr, y gweithredodd ffrwythau sanctaidd yr Ysbryd Glân ynddo mor beraidd, fel mae ei aberth i Dduw o arogl peraidd, yn 'arogl bywyd i fywyd' i'w holl eglwys. Eph. 5. 2. 2 Cor. 2. 14. Eneiniwyd ef hefyd ar ei esgyniad i'r nefoedd, pan y derbyniodd roddion i ddynion, ac y mae arogl ei ddoniau yn pêr-arogli o'r nefoedd i'r ddaear. Eph. 4. 8, 11.

Y mae holl gyfeillion Crist hefyd, sef ei wir ganlynwyr, yn cael eu heneinio âg olew llawenydd; mae ganddynt yr eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw—ac y mae yr eneiniad yn eu dysgu am bob peth. 1 Ioan 2. 20, 27, 28. Y maent oll yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân oddiwrth Grist, fel Ysbryd Crist, fel Sancteiddydd a Dyddanydd: y mae yn eu cysegru ac yn eu puro yn bobl briodol i Dduw; yn eu gwir oleuo yn ngwirioneddau Duw, ac yn eu tywys i bob gwirionedd. Fel yr oeddynt yn eneinio gynt o ran iechyd, glanweithdra, a destlusrwydd, felly y mae yr Ysbryd Glân yn feddyginiaethol, yn brydferthwch, ac yn ddyddanwch tragywyddol i'r rhai oll sydd gyfranog o hono. Luc 10. 34. Esa. 1. 6. Ps. 23. 5.

'Dryllir yr iau o herwydd yr eneiniad.' Esa. 10. 27. Y mae yr Arglwydd yn cysuro ei bobl, y rhai a breswyliant yn Sion, trwy addaw iddynt gael eu gwared oddiwrth yr Assyriaid; a gwaredwyd hwynt, nid trwy lu, na thrwy nerth, ond trwy Ysbryd yr Arglwydd, fel olew sanctaidd yn dywalltedig ar Hezeciah, a'r prophwyd Esaiah, i weddïo ar yr Arglwydd yn yr achos. Yn y waredigaeth ryfedd hon, mae y prophwyd, yn ol ei arfer, yn golygu gwaredigaeth ysbrydol oddiwrth iau pechod a diafol, caethiwed ysbryd, ac ofnau poenus. 'Dryllir yr iau,' pa fodd? 'O herwydd yr eneiniad,' neu trwy Ysbryd yr Arglwydd, yr hwn yr oedd yr olew gynt yn ei gysgodi. Yr eneiniad ar Grist, ac oddi wrtho a thrwyddo ef, ar ei bobl, a ddryllia bob iau gaethiwus, a phob ofnau gofidus; canys, 'lle mae Ysbryd yr Arglwydd, yno mae rhyddid.' 2 Cor. 3. 17. Rhuf. 8. 15. Trwy yr eneiniad y gosodwyd Crist yn ei swyddau goruchel; a dyben ei osodiad ynddynt ydyw dryllio iau Satan a phechod oddiar bechaduriaid, a gwaredu pechaduriaid o'u pechodau a'u trueni. O herwydd y gosodiad hwn, a'r dyben o hono, ac o herwydd mawredd anfeidrol y person a osodwyd, y mae y gwaith yn sicr o lwyddo yn ei law, a'r iau yn sicr o gael ei dryllio: 'Ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law.' Esa. 53. 10. 'O herwydd yr eneiniad' y mae yr efengyl yn llwyddo, pechaduriaid yn cael eu gwaredu o feddiant Satan, ac y dryllir pob awdurdod a gallu a ymgyfodo yn erbyn helaethiad teyrnas Mab Duw. Zech. 4. 6. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 10. 4, 5. Dat. 11. 15. Esa. 11. 2. O herwydd yr eneiniad anfonir cenadon olynol i bregethu yr efengyl, y llwydda yr efengyl o oes i oes, ac y blagura yr eglwys, y dryllir pob iau, ac y bydd ei bobl, nid yn weision, ond yn feibion, ac yn etifeddion i Dduw trwy Grist. Eph. 4. 13. Gal. 4. 7.

Eneinio, weithiau, a arwydda parotoi. 'Eneiniwch y darian,' sef parotowch y darian. Esa. 21. 5.

ENFYS, (en-bys) *Gr.* ιρις; bwa gwlaw. Edr. BWA.—'Ac yr oedd enfys o amgylch yr orsedd-faine, yn debyg yr olwg arno i smaragdus.—'Ac enfys oedd ar ei ben.' Dat. 4. 3. a 10. 1. Cylch yr enfys oedd yn y ddau le hyn, mae yn amlwg, ac nid hanner cylch, fel y bwa gwlaw. Yr oedd o amgylch yr orsedd-faine, ac ar ben yr angel, fel coron oddi amgylch iddo. Yr oedd yn debyg yr olwg arno i smaragdus, maen gwerthfawr o'r lliw gwyrdd *mwyaf hyfryd*.* Cawn y cyffelyb olygiad yn Ezec. 1. 28. 'Fel gwelediad y bwa a fydd yn y cwmwl ar ddydd gwlawog, fel hyn yr oedd gwelediad y dysgleirdeb o amgylch.' Gwelediad yr enfys o amgylch yr orsedd, ac ar ben angel mawr y cyfammod, a'r lliw gwyrdd hyfryd, a arwydda fod Duw yn gweithredu yn ei gyfammod grasol, yn ei holl oruchwyliaethau tu ag at ei eglwys. Cyfammod *hedd* yw. Fel y gwyrdd, y mae yn hyfryd yr olwg arno i Dduw a'i bobl, ac yn dragywyddol yn ei barhad. Y mae yn gylch crwn, ac yn cynnwys Duw a'i bobl mewn cymmod ac undeb anwahanol, a gogoniant y naill, ac iechydwriaeth y llall, wedi eu sicrhau ynddo; ac y mae holl oruchwyliaethau Duw tu ag at ei eglwys, o fewn y cylch hyfryd a gogoneddus hwn. Gwel Coccejus, Vitringa, Cowper, Reader.

EN-GANIM, *Heb.* עין־גנים [*ffynon y gerddi*]. 1. Dinas yn llwyth Judah. Jos. 15. 34.——2. Dinas yn llwyth Issachar, a roddwyd i'r Lefiaid o lwyth Gerson. Jos. 19. 21. a 21. 29.

EN-GEDI, *Heb.* עין־גדי [*ffynon dedwyddwch*]. Yr un yw a Hazezon-Tamar, dinas y palmwydd. Yr oedd hi yn sefyll ar du gogledd-orllewin, neu, medd

* Nullius coloris aspectus jucundior est. Nam herbas quoque virentes frondesque avide spectamus. Quoniam nihil omnino viridius comparatum illis viret. Plin. *Nat. Hist. lib.* 37, cap. 5.

Digitized by Google

eraill, tu dehau-orllewin i'r Môr Marw. Hon, tebygol, ydoedd dinas y palmwydd, a gymerwyd gan y Moabiaid a'r Amaleciaid. Barn. 3. 13. Yr ydoedd wedi ei hadeiladu yn foreu, ac a breswyliwyd gan yr Amoriaid, ac a yspeiliwyd gan Cedorlaomer. Gen. 14. 7. Rhoddwyd hi i lwyth Judah. Jos. 15. 62. Yma bu Dafydd yn ymguddio mewn ogofëydd rhag Saul, ac y torodd gŵr mantell Saul. 1 Sam. 24. 1, &c. Yma gwersyllodd y Moabiaid a'r Amoniaid, pan ddaethant yn erbyn Jehosaphat. 2 Cron. 20. 2. Yr oedd yno lawer o winllanoedd rhagorol, cypreswydd, a phalmwydd. Can. 1. 14. Peth anarferol oedd fod pysgodwyr yn sefyll ar y Môr Marw, o En-gedi hyd En-eglaim, a physgod y Môr Marw fel pysgod y Môr Mawr, yn llawer iawn; yr oedd yn beth mor newydd ac mor rhyfedd, fod cenadau Duw yn pregethu yr efengyl yn mhlith y Cenedloedd, a bod neb o honynt yn meddiannu yr un ffydd a'r un rhagorfreintiau ag Abraham a'i had, y rhai oeddynt yn gwir gredu. Fel yr oedd y dyfroedd sanctaidd yn iachâu dyfroedd y Môr Marw, a'r pysgod ynddo, felly y mae athrawiaethau yr efengyl yn iachâu y Cenedloedd.

EN-HACCORE, *Heb.* עין־הקורא [*ffynon y geilwad*] enw y ffynon a agorodd yr Arglwydd yn wyrthiol i ddisychedu Samson wedi iddo ladd mil o'r Philistiaid â gên asyn. 'Duw a holltodd y cilddant oedd yn yr ên, fel y daeth allan ddwfr o hono.' Barn. 15. 19. —'*God clave an hollow place that was in the jaw.*' *Saes.*—'Duw a holltodd geudwll oedd yn yr ên.' Y mae y gair כתש a gyfieithir yma *cilddant* yn cael ei gyfieithu *morter* yn Diar. 27. 22. Yn ferf y mae yn arwyddo *pwyo:* oddiwrth ceudod *morter* y mae wedi ei gyfieithu yn Saesoneg *ceudwll;* ac oddiwrth ddefnyddioldeb morter i bwyo âg ef, yn cyfateb i ddefnyddioldeb y cilddant, y cyfieithwyd ef yn Gymraeg *cilddant.* Gellir cyfieithu y geiriau, 'Duw a holltodd y ceudwll oedd yn Lehi.'—Gwedi i Samson daflu yr ên o'i law, a galw y lle hwnw Ramath-Lehi, sef *tafliad yr ên;* Duw a holltodd y ceudwll yn Lehi, sef y lle y taflodd yr ên. Mae y ffynon yn Lehi hyd y dydd hwn, medd haneswyr. Y mae yr ên gwedi braenu, ond y mae Lehi, lle taflodd yr ên, a'r ffynon ynddo, yn aros.

Crist yn ei ymdrech caled â'i elynion, a sychedodd; ond ni agorwyd un ffynon i'w ddisychedu a'i adfywio. Efe nid yn unig a sathrodd y gwinwryf *ei hunan,* fel y gwnaeth Samson yma, ond yfodd gwpan digofaint Duw drosom ni, yr hyn ni allasai Samson ei wneuthur. Gwel Parkhurst, *Scripture Illustrated, by the Editor of Calmet's Dictionary.*

EN-HADAH, עין־חדה [*ffynon llawenydd*] dinas yn Issachar. Jos. 19. 21.

EN-HAZOR, *Heb.* עין־חצור [*ffynon y llys*] dinas yn Naphtali. Pa un ai yr un yw y lle hwn a Hazorenan, sydd yn anhawdd ei benderfynu. Jos. 19. 37. Num. 34. 9. Ezec. 47. 17. a 48. 1.

ENLLIB—IO—AIDD, (en-llib) cabl, athrod, traws-gyhuddiad; drwg-absen, drygair; cablu, absenu, athrodi.—'Yn enllibaidd.' 2 Tim. 3. 3. 'Yn gau-gyhuddwyr.' W.S. 'Yn hortwyr.' Dr. M. *Gr.* διαβολοι, *diefliaid,* yn gyhuddwyr, yn enllibwyr.—Oddiwrth y gair hwn mae y gair *diafol,* am ei fod yn ysbryd celwyddog, ac yn gau-gyhuddwr. Y mae yr apostol yn rhoddi darluniad arswydus o gau-grefyddwyr cyfeiliornus y dyddiau diweddaf; yn mhlith llawer o bethau dychrynllyd eraill, y maent yn enllibio ac yn cablu pawb a'u gwrthwynebant, yn anfwyn, ac yn ddiserch i'r rhai da. Rhuf. 1. 30, &c. Tit. 3. 3.——'Heb dderbyn enllib.' Ps. 15. 3. Y mae yr hwn a dderbynio enllib yn euog o droseddu y nawfed gorchymyn, fel yr hwn sydd yn ei gario. Edr. ABSENWR, ATHRODWR.

ENLLYNU, (llyn) gwlychu tamaid.—'Hwnw yw ev, yr vn y rhoddwy vi iddo dameit wedy'r i mi ei enllynu: ac ef a enllynawdd dameit, ac eu rhoes i Iudas Iscariot, ap Simon.' Ioan 13. 26. W.S.

ENNYN, (en-yn) cynneu, ffaglu, rhoi tân mewn peth; cynhyrfu llid a digofaint.—'Ennyn cynhen,' cynhyrfu, cyffroi cynhen. Diar. 26. 21. a 18. 25. a 29. 22.

ENOCH, *Heb.* חנוך [*cyflwynedig*] 1. Mab Cain. Gen. 4. 17. Cain a alwodd enw y ddinas a adeiladodd efe yn nhir Nod, o du y dwyrain i Eden, yn ol enw ei fab Enoch. Dyma y ddinas gyntaf sydd â hanes am dani yn yr ysgrythyrau.

2. Mab Jered, a thad Methuselah. Gen. 5. 19. Enoch a anwyd A. M. 622, cyn Crist 3382. Yr oedd yn cyd-oesi âg Adda 308 o flynydoedd, ac a gafodd ei addysgu ganddo yn yr hyn oll a wyddai am Dduw, am ei gwymp ei hun, ac am yr addewid o hâd y wraig. Mae Enoch yn enwog yn yr hanesyddiaeth sanctaidd am ddau beth: sef, 1. Am ei dduwioldeb; 'Enoch a rodiodd gyda Duw dri chant o flynyddoedd.' 2. Am neillduol ffafr Duw iddo, 'Duw a'i cymerodd ef;' hyny yw, symudwyd ef, fel na welai farwolaeth; 'ac ni chaed ef, am ddarfod i Dduw ei symud ef.' Heb. 11. 5.——1. Y mae 'rhodio gyda Duw,' yn eiriau cyffelybiaethol, arferedig yn yr ysgrythyrau, ac yn gosod allan y cymmod trwyadl, a'r cymundeb agosaf ac anwylaf, sydd rhwng Duw yn Nghrist a gwir gredinwyr. Arwyddant *fywyd o dduwioldeb:* nid gyda Duw *weithiau,* ond *rhodio* gyda Duw, sef byw *beunydd,* yn *mhob peth,* gyda Duw. Wrth naturiaeth, y mae pob dyn, fel y mae yn bechadur syrthiedig, yn rhodio yn wrthwyneb i Dduw, ac y mae ei syniad, sef ei farn a'i dueddiad, yn elyniaeth yn erbyn Duw. Nid oes cymmod na chymundeb rhwng Duw ac un pechadur er cwymp Adda, ond yn y Cyfryngwr; rhaid, gan hyny, fod gan Enoch adnabyddiaeth o Grist, trwy ffydd yn yr addewid: yr un peth ydyw rhodio gyda Duw, a 'rhodio yn Nghrist Iesu—rhodio yn yr Ysbryd—rhodio ger bron Duw—rhodio yn ei holl ffyrdd—rhodio yn ei wirionedd—rhodio yn llewyrch ei wyneb.' Col. 2. 6. Rhuf. 8. 1. Gen. 17. 1. Deut. 10. 12. Ps. 26. 3. a 89. 15. 'Nis dichon dau rhodio yn nghyd, heb fod yn gytun.' Amos 3. 3. Rhodio gyda Duw, gan hyny, a arwydda cymmod o du Duw, a chyfnewidiad sanctaidd yn meddwl y pechadur; fel y mae ganddo hyfder tu ag at Dduw, ymorphwysiad arno, a thueddiad sanctaidd i fyw yn ei heddwch, ac yn ei gyfeillach, ac i bob rhyngu bodd iddo: byw yn heddwch Duw—gyda Duw, o ran agoarwydd ato—ar Dduw, am ei gynnorthwyon—ac i Dduw, a'i ogoniant, fel dyben penaf ei fywyd. Bywyd o edifeirwch, o ffydd, ac o ufudddod yw. Tra byddo dyn heb edifeirwch am ei bechod, y mae gwyneb ei feddwl yn hollol wrthwyneb i Dduw; tra byddo heb ffydd yn Nghrist a'i aberth, y mae heb heddwch â Duw, ac agosrwydd ato; tra byddo heb ufudd-dod iddo, y mae yn wrthwynebwr yn ei erbyn. Y mae rhyw gyfeillach sanctaidd rhwng Duw a'i bobl, na ŵyr y byd ddim am dano; y mae yn dechreu yma yn y byd, ond nid ydyw yn diweddu gyd â'r bywyd hwn, ond y mae i barhau byth mewn gwlad well, a hòno yn un nefol.

2. Dangosodd Duw arwydd hynod o'i foddlonrwydd iddo—'Duw a'i cymerodd ef:' sef yn mlodau ei ddyddiau, yn ol yr amseroedd hyny, yn ei gorph, heb brofi loesion angeu, gwedi cael tystiolaeth gan Dduw ddarfod iddo ryngu bodd Duw. 'Ni welwyd ef,' neu איננו *nid oedd efe,* sef ar y ddaear. Er i'w gyfeillion ei geisio o gariad at ei dduwioldeb syml, *nid oedd* i'w gael; ac er i'w elynion ei geisio o elyniaeth ato a'i grefydd, *nid oedd,* ond cymerodd Duw ef, ar unwaith allan o'u cyrhaedd. Yr oedd yn bregethwr

Digitized by Google

cyfiawnder, a gallwn farnu oddiwrth y golygon a roddir i ni gan Judas yr apostol, ei fod yn bregethwr syml, hyf, ac arswydus iawn: byddai ei ddull yn sicr o gynhyrfu cynddaredd y pechaduriaid yr anfonwyd ef atynt. Trwy ei gymeryd ef yn fyw i'r nefoedd, gwaredodd Duw ef oddiwrth eu cynddaredd llidiog, a dygodd dystiolaeth o'i gymeradwyaeth o hono, ac a roddodd dystiolaeth amlwg o fyd arall o wobrau i'w bobl. Er i Enoch, ac Elias 1221 o flynyddoedd wedi hyny, gael eu cymeryd i fynu heb weled marwolaeth, er addysg a chysur i'w cyfoedion, yn gystal ag yn arwydd a thystiolaeth neillduol o foddlonrwydd Duw i'w ffyddlondeb drosto, etto nid esgynasant ond fel personau neillduol; ond esgynodd Crist fel ysgub y blaenffrwyth, yn cysegru yr holl gynauaf; esgynodd fel cynnrychiolwr cyffredin ei bobl; ac mewn effaith yr oeddynt i gyd yn esgyn ynddo; ac a esgynant drwyddo yn ogoneddus, i fod yn wastad gyd â'r Arglwydd.

Diammeu, fod Enoch yn brophwyd Duw yn ei ddyddiau, yn enwog am ei sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, a'i ffyddlondeb ger bron Duw yn ngweinyddiaeth ei swydd. Y mae Judas yn coffâu ei eiriau prophwydoliaethol, gwedi eu cael trwy draddodiad, neu ysbrydoliaeth union-gyrch, am ail ddyfodiad yr Arglwydd, i roddi barn ar holl drigolion y byd: os prophwydodd am ei ail ddyfodiad, nid annhebyg iddo bregethu llawer am ei ddyfodiad cyntaf.——Am Lyfr Enoch, a holl ddychymygion yr Iuddewon a'r dwyreinwyr, am nad ydynt yn haeddu ein crediniaeth yn y mesur lleiaf; nid teilwng eu hadrodd ychwaith.

ENOS, *Heb.* אנוש [*dyn marwol*] mab Seth, a thad Canaan. Bu fyw 905 o flynyddoedd. Gen. 5. 7—11.

ENTRYCH, (trych) yr ëangder mawr; y wybren; y ffurfafen.—'Yn llosgi hyd entrych awyr.' *Heb.* עד־לב השמים *hyd galon y nefoedd:* sef hyd ganol y nefoedd. Deut. 4. 11.

ENW—I—OG, (nw) *Heb.* שם *(shem) Gr.* *ονομα* (*onoma*)*: Llad.* NOMEN: henw; yr enwad, neu y galwad, wrth ba un y gwahaniaethir y naill berson, neu beth, oddiwrth y llall. Y mae llawer o'r enwau yn yr ysgrythyrau yn arwyddocaol, ac yn mynegi yr achlysur o roddi yr enw, neu yn ddarluniad o'r peth. Y mae yr enwau hyny sydd yn dechreu neu yn diweddu yn *el*, neu yn dechreu â *Ia*, neu *Ieho*, neu yn diweddu yn *Iah*, yn dwyn perthynas â Duw, fel sill o'r enwau ELOHIM a IEHOFAH. Yr oedd i lawer o bersonau a phethau amrywiol enwau, ac y maent weithiau yn cael eu galw wrth y naill enw, ac weithiau wrth enw arall. Felly y mae tad yn nghyfraith Moses yn cael ei alw Jethro a Reuel—mab ieuengaf Isaac, Jacob ac Israel—ŵyr Jehosaphat, Jehoahaz, Ahaziah, ac Azariah, &c. Y mae rhai llythyrenau hefyd yn cael eu newid yn yr un enw, fel Goshmu a Geshem; Achan ac Achar.

Y mae enw, fel y priodolir ef i Dduw, yn cynnwys pob peth trwy ba rai y mae yn hysbysu, neu yn dadguddio, neu yn amlygu ei hun: 1. Efe ei hun. Ps. 29. 2. a 34. 3. a 61. 5.——2. Ei ditlau. Exod. 3. 13, 14. a 6. 3.——3. Ei briodoliaethau. Exod. 33. 19. a 34. 6, 7.——4. Ei air. Ps. 5. 11. Act. 9. 15.——5. Ei addoliad a'i wasanaeth. 1 Bren. 5. 5. Mal. 1. 6.——6. Ei ewyllys, ei fwriad, a'i arfaeth, mewn perthynas i iechydwriaeth ei bobl, a'i ras, a'i drugaredd, sydd yn cael eu hamlygu trwy hyny. Ioan 16. 26. a 17. 26. Ps. 22. 22.——7. Ei allu i gynnorthwyo. Ps. 20. 1. 1 Sam. 17. 45.——8. Yr amlygiad o'i ddoethineb, ei ddaioni, a'i allu yn y greadigaeth, a'i ragluniaeth. Ps. 8. 1, 9.——9. Ei awdurdod oruchel. Mic. 4. 5.——10. Ei anrhydedd, ei ogoniant, a'i glod. Ps. 76. 1.

Yr enw, neu yr enwau, a roddir i Grist, a arwyddocânt, 1. Crist ei hun, ei Berson Dwyfol, fel y mae yn Fab Duw, (Ioan 1. 21. Heb. 1. 1.) neu yr hyn ydyw yn wirioneddol. Gelwir ei enw ef yn Rhyfeddol, yn Dduw cadarn. Esa. 7. 14. a 9. 6.——2. Ei ditlau, megys Achubwr, Prophwyd, Offeiriad, Brenin, &c. Mat. 1. 21. Dat. 19. 13.——3. Yr efengyl, a phroffes o hono. Act. 9. 15. Mat. 10. 22. a 19. 29. Dat. 2. 13.——4. Ei ddyrchafiad fel Cyfryngwr, i'r awdurdod, yr anrhydedd, y gallu, a'r gogoniant mwyaf goruchel. Phil. 2. 9, 10. Eph. 1. 20, 21.

Enw, fel y mae yn cael ei briodoli i ddyn, a arwydda, 1. Yr enwad y gelwir un arno. Luc 1. 60, 63.——2. Y personau eu hunain. Luc 10. 20. Dat. 3. 4. a 13. 8. yn Groeg.——3. Bri, cyfrifiad neu amair. Deut. 22. 14. Diar. 22. 1.——4. Enwogrwydd, anrhydedd a gogoniant. Deut. 26. 19. Seph. 3. 20. 2 Cron. 26. 8, 15.——5. Coffadwriaeth. Deut. 29. 20.——6. Hiliogaeth, trwy ba rai y cedwir enw un. Deut. 25. 7. Esa. 66. 22.

Yr oedd enwau gynt, nid yn unig yn nod o wahaniaeth rhwng personau a'u gilydd, ond hefyd yn ddarluniad o'r fath oeddynt. Felly y mae enw Duw, enw Crist, yn ddarluniad o'r fath un ydyw Duw, ac ydyw Crist. 'Er mwyn ei enw:' sef er mwyn ei fod yr hyn ydyw, ac er mwyn amlygu hyny, ac fel y byddo, o'r herwydd, yn cael ei garu a'i glodfori. 'Galw ar ei enw,' yw galw arno yn ol yr hyn ydyw. Y mae yn naturiol i bob creadur ateb i'w enw, megys wrth reddf natur; felly mae Duw yn sicr o ateb y neb a alwo arno, yn ol yr hyn ydyw ef mewn gwirionedd; yr hyn nis gall neb ei wneuthur, heb wir adnabyddiaeth o hono, *yn ol* ei air. Ps. 89. 16.

Fel mae Duw yn anfeidrol fawr, y mae yn rhaid i'w enw fod yn addas iddo, fod yn *enw mawr*, ac yn haeddiannol o barch mawr, a moliant mawr. Ps. 99. 3. Jos. 7. 9. 1 Sam. 12. 22. 1 Cron. 17. 21. Yn ol gradd mawredd yr enw, mae y pechod o'i halogi a'i ddiystyru. Ezec. 36. 22, 23.—'Ni ddyoddef eich anwiredd, oblegid y mae fy enw ynddo.' Exod. 23. 21. Hyn a arwydda, nid yn unig fod awdurdod Duw ynddo, ond ei fod o'r un hanfod, a'r un priodoliaethau, a'r un perffeithiau ynddo. Yr un yw â Duw, sef Person yn yr un hanfod dwyfol a'r Tad; canys mae yn chwanegu, 'Os gan wrando, y gwrandewch ar ei *lais ef*, a gwneuthur y cwbl a *lefarwyf*,' yna y rhoddaf y bendithion addawedig. Exod. 3. 14. a 34. 6. Ps. 72. 19. a 83. 18. Esa. 42. 8. a 44. 6. a 57. 15. Jer. 23. 6. Ioan 5 23. a 10. 30, 38. a 14. 9, 10. Col. 2. 9. Dat. 1. 8. a 3. 7. Edr. ANGEL.

Cymeryd enw yr Arglwydd yn ofer, yn groes i'r gwaharddiad yn y trydydd gorchymyn, ac sydd yn bechod ysgeler, sydd yn cynnwys diffyg o barch i Dduw yn ein meddwl, ac yn ganlynol, yn enwi enw Duw yn ysgafn yn ein hymadroddion cyffredin; geiriau anystyriol a chellweirus am Dduw, ei air, ei ordinhadau, ei ragluniaethau, &c., diystyru addoliad Duw, ac arferiad ysgafn, twyllodrus, o ddyledswyddau; gwawdio a goganu pobl Dduw; cablu gwaith Ysbryd Duw ar eneidiau pechaduriaid trwy yr efengyl; pob arferiad o enw Duw mewn consuriaeth a swyn-gyfaredd; pob llwon anudon, rhegfeydd, a melldithion, a cheisio anrhydedd i'n henwau ein hunain, yn lle ymgais am ogoneddu Duw yn mhob peth. Mat. 12. 31, 32. Mat. 3. 4. Job 31. 14, 15. Mat. 15. 8, 9. 1 Thes. 4. 8. Ps 74. 18. Deut. 18. 10, 11, 12. Zech. 5. 3. Iago 5. 11 Ps. 109. 17.

'Adnabod un wrth ei enw,' (Exod. 33. 12.) a arwydda cymdeithas neillduol a chyfrinachol. Nid oedd gan freninoedd y dwyrain ond ychydig o gydnabyddiaeth â'u deiliaid, gan na byddent, ond yn bur anaml, yn ymddangos yn gyhoeddus. Pan fyddent, gan hyny, yn adnabod eu gweinidogion wrth eu henwau, yn ymddyddan â hwynt, ac yn caniatau iddynt ddyfod i'w gwyddfod, yr oedd yn nôd o gymeriad a hoffder mawr: at hyn, hwyrach, mae cyfeiriad y geiriau.

Digitized by Google

'Dyfod yn enw Crist,' a arwydda traws-feddiannu ei enw; cymeryd arnynt ei enw a'i swydd, a thrwy hyny hudo dynion i dwyll a dinystr. Mat. 24. 5.

Y mae 'rhoddi enw' yn arwydd o awdurdod a llywodraeth, fel y mae tad yn rhoddi enwau ar ei blant, a meistr i'w gaethwas, neu berchenog i'w anifeiliaid. Rhoddodd Adda enw ar ei wraig, a'r holl anifeiliaid. Gen. 2. 23. Y mae Duw yn rhoddi enwau ar rai cyn eu geni, megys Solomon, Ioan Fedyddiwr, y Messiah, &c. Mae wedi cyfnewid enwau eraill, fel Abram, Sarai, a Jacob.

Mae Duw yn gwarafun i'w bobl gofio enw duwiau eraill, 'Na chlywer hyny o'th enau:' gormod parch iddynt fyddai hyny, fel pe arwyddai eu bod yn rhyw beth. Exod. 23. 13. Hos. 2. 17. Zech. 13. 2.

'Rhai enwog y gynnulleidfa,' Num. 1. 16. a 16. 2. *Heb.* קריאי העדה *galwedigion y gynnulleidfa*—sef, tywysogion y llwythau, penaethiaid y bobl, neu rai mewn swyddau goruchel, y rhai a fyddent yn cael eu galw i'w cynghor, neu at eu gwaith. Ar yr achlysuron hyn, hwy a'u galwent yn y dull canlynol; Aaron a'i hiliogaeth—Hur a'i deulu—Caleb a'r rhai dano, &c. Nid oeddynt yn galw wrth eu henwau neb ond y swyddwr, neu blaenor y bobl; y blaenoriaid oeddynt y galwedigion.

'Mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw.' Ioan 10. 3. Y mae Wetstein a Wolfius yn cadarnhau fod y bugeiliaid yn yr hen oesoedd yn rhoddi enwau ar eu defaid, fel y gwneir gyda ni ar gŵn, meirch, &c. Y geiriau a arwyddant fod pob un o'i bobl yn hollol ac yn wahaniaethol adnabyddus i Grist, eu Bugail, yn eu holl amgylchiadau. Fel yr adnebydd tad ei blant, ac y geilw hwynt wrth eu hamrywiol enwau, felly, ond gyda mwy rhagoroldeb, yr adnebydd Crist ei holl boll, ac y gofala am danynt.

'Enwi enw Crist,' yw proffesu crefydd Crist, a hòni eu hunain yn ganlynwyr iddo. Gweddus yw i'r cyfryw, mewn modd neillduol a thrwyadl, ymadael oddi wrth anghyfiawnder. 2 Tim. 2. 19.

'Gwell yw enw da nag enaint gwerthfawr.' Preg. 7. 1. *Heb.* טוב שם משמן טוב *gwell enw nag enaint da.* Diar. 22. 1. Y mae y ffugr a elwir ar gyfenw (*paronomasia*) yn y geiriau yn Hebraeg. Rhoddir enw am enw da, fel yr enw gwraig am wraig dda, Diar. 18. 22.—dydd, am ddydd da, Luc 19. 42.—neu ddydd drwg, Job 18. 20. Joel 1. 15. Enaint da yw enaint gwerthfawr, yn arogli yn beraidd, ac sydd yn ddefnyddiol. 'Enw da,' yw enw yn llyfr y bywyd—'enw yn nhŷ Dduw,' yn nghofrestr ei blant. Luc 10. 20. Esa. 56. 5 Yr enw newydd a geir trwy ffydd yn Nghrist. Heb. 11. 2. Nid oes enw da gan neb yn wirioneddol, heb fod eu cyflwr yn dda, a'u hymarweddiad yn sanctaidd, yn cyfateb i'w cyflwr. Geilw Duw bawb y peth ydynt yn wirioneddol; os etholedigion, gelwir hwynt felly; yr un fath, os ffyddloniaid, plant Duw, saint, &c., ydynt yn wirioneddol, felly y gelwir hwynt. Nid *enw* yn unig y sydd, ond cyflwr, anian, agwedd, ac ymarferiad, yn cyfateb i'r enw. Felly mae enw, neu gyflwr da, yn well na phob peth gwerthfawr, hyfryd, a dymunol yn y byd.

'Ac a alwodd ar enw yr Arglwydd.' Gen. 12. 8. a 21. 33. Mae y Dr. Shuckford yn gryf o'r farn nad arwydda קרא בשם galw *ar* enw, ond galw *yn* enw. Felly y galwodd Abraham *yn* neu *wrth* yr enw IEHOFAH, yr hwn a ymddangosodd iddo. קרא על בשם arwydda, *galw ar yr enw*; ond קרא בשם *galw yn yr enw*, ac a arferir, tebygol, pan yr offrymai gwir addolwyr Duw eu gweddïau yn enw y Cyfryngwr; neu pan offrymai y gau addolwyr eu gweddïau yn enw eu rhai gau. 1 Bren. 18. 26. Canys fel nad oedd gan y gwir addolwyr ond un Duw ac un Arglwydd, felly yr oedd gan y gau addolwyr dduwiau lawer, ac arglwyddi lawer. קרא יהוה a arwydda, *galw ar* IEHOFAH. Ps. 14. 4. a 17. 6. a 30. 8. a 53. 4. a 118. 5, &c., a קרא על יהוה a arwydda yr un peth; (1 Sam. 12. 17. Jonah 1. 6. &c.) ond קרא בשם a arwydda enwi *wrth yr enw*; (Gen. 4. 17. Num. 32. 42. Ps. 49. 11. Esa. 43. 7.) neu galw *yn yr enw*, pan arferir ef fel yn arwyddo addoliad dwyfol. Gwel Shuckford, *Connection, vol.* i. Dysgodd Duw Abraham, yn y dyddiau boreuol hyn, i nesâu ato trwy Gyfryngwr; a bod y Cyfryngwr hwnw, yr hwn ar ol hyny sydd wedi ymddangos yn y cnawd, yn adnabyddus wrth yr enw IEHOFAH.*

Y mae llawer o enwau priodol yn cael eu hysgrifenu yn wahanol yn yr Hebraeg, ac yn ein cyfieithiad ninnau, megys—

| | |
|---|---|
| Mas, Gen. 10. 23............. | Mesech, 1 Cron. 1. 17. |
| Obal, adn. 28 ................ | Ebal, adn. 22. |
| Peniel, Gen. 32. 30........... | Penuel, Gen. 32. 31 |
| Zepho, adn. 23................ | Zephi, 1 Cron. 1. 36. |
| Sepho, adn. 23................ | Sephi, adn. 40. |
| Pau, adn. 39 ................. | Pai, adn. 50. |
| Alfah, adn. 40 ............... | Aliah, adn. 51. |
| Jemuel, Gen. 46. 10........... | Nemuel, Num. 26. 12. |
| Jachin, adn. 10............... | Jarib, 1 Cron. 4. 24. |
| Sohar, adn. 10................ | Zerah, Num. 26. 13. |
| Gerson, adn. 11............... | Gersom, 1 Cron. 6. 16. |
| Job, adn. 13.................. | Jasub, Num. 26. 24. |
| Esbon, adn. 16................ | Ozni, adn. 16. |
| Muppim, adn. 21............... | Huram, 1 Cron. 8. 5. |
| Husim, adn. 23................ | Suham, Num. 26. 42. |
| Deuel, Num. 1. 14............. | Reuel, Num. 2. 14. |

Yr enwau canlynol ydynt yr un yn Hebraeg, ond yn wahanol yn Gymraeg:—

| | |
|---|---|
| Phut, Gen. 10. 6.............. | Put, 1 Cron. 1. 8. |
| Philistim, adn. 14............ | Philistiaid, adn. 12. |
| Amoriad, adn. 16.............. | Amoriaid, Gen. 15. 16. |
| Girgasiad, adn. 16............ | Girgasiaid, adn. 21. |
| Gaza, adn. 19................. | Azzah, Deut. 2. 23. |
| Gaza, Gen. 47. 5.............. | Azzah, Jer. 25. 20. |
| Rephaimiaid, Gen. 14. 5.... | Cawri, Deut, 2. 20. |
| Rephaimiaid, Gen. 15. 20.... | Cawri, Deut. 3. 11, 13. |
| Naphis, Gen. 25. 15........... | Nephis, 1 Cron. 5. 19, |
| Temani, Gen. 36. 34........... | Temaniaid, 1 Cron. 1. 45. |
| Raamses, Exod. 1. 11.......... | Rameses, Exod. 12. 37. |
| Ishar, Exod. 6. 18............ | Is-har, Num. 3. 19. |
| Mahali, adn. 19............... | Mali, 1 Cron. 6. 19. |
| Osea, Num. 13. 18............. | Josuah, Deut. 32. 44. |
| Osea, adn. 16................. | Josuah, Deut. 34. 9. |
| Jazer, Num. 32. 3............. | Jaazer, Num. 32. 35. |
| Bene-Jaacan, Num. 33. 31.. | Meibion Jacan, Deut. 10. 6. |

Geiriau sydd a'u horgraff yr un yn Hebraeg, a ddylent fod felly yn ein cyfieithiad ninnau.—*Contemnenda non est, accurata circa* NOMINA *diligenta ei, qui voluerit probe intelligere sanctas literas.* Gwel Dr. Kennicott's *Remarks.*

**ENWEDIG,** (enw) priodol, neillduol; yn enwedig, yn bendifaddeu, yn neillduol. Act. 25. 26. Gal. 6. 10. 1 Tim. 4. 10. a 5. 8, 17.

**ENWAED—U—IAD—EDIG,** (enwaid) *Heb.* מול *tori ymaith*, am fod y blaen-groen i gael ei dori ymaith; *Gr.* περιτομη, *tori oddi amgylch; Llad.* CIRCUMCISIO, *amdrychiad, cylch-doriad.* Dywedir fod yr arferiad o enwaediad yn gyffredin yn mhlith y rhan fwyaf o genedloedd cysefin digymysg o'r byd; tystiolaethir ei fod yn ddefod yn Mexico, Terra Australis, Tongabatoo. Gwel *Modern Universal History, vol.* xvii. *Ceremonies and Religious Customs, vol.* iii. Captain Cook's *Voyages to the Pacific Ocean.*

Gorchymynodd Duw i Abraham enwaedu pob gwrryw: 'A chwi a enwaedwch gnawd eich dienwaediad; a bydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a chwithau.

* Y mae Faber yn barnu mai wrth 'enw yr Arglwydd,' y dylid deall y 'DYN-IEHOFAH,' fel hâd y wraig, yr hwn yr oedd hiliogaeth Cain yn ei anghredu. 'Ar enedigaeth Enos, fel gwrthdystiad ffurfiol a chyhoeddus yn erbyn anffyddiaeth y Cainiaid, trwy orchymyn Seth, yr hwn a osodasai Duw yn lle Abel, dechreuwyd galw ar ENW yr IEHOFAH. Wrth y gair *enw* y mae i ni ddeall yma, nid titl yr IEHOFAH, ond, os nad wyf yn camsynied, ei Enw Personol.' Faber's *Diss. App.* 7.—E.

Digitized by Google

Pob gwrryw yn wyth niwrnod oed a enwaedir i chwi, trwy eich cenedlaethau.' Yr oedd iddo enwaedu yr hwn a aner yn ei dŷ, a'r hwn a bryner am arian. Pob gwrryw dienwaededig oedd i gael ei dori ymaith o fysg ei bobl, oblegid iddo dori cyfammod Duw. Gen. xvii. Yn ganlynol i'r gorchymyn hwn, enwaedwyd Abraham yn y 99 flwyddyn o'i oed. Enwaedwyd hefyd ei fab Ismael yn 13 oed, a'i holl deulu. Adn. 23—27.—— Adnewyddodd yr Arglwydd i Moses y gorchymyn yn nghylch yr enwaediad, ac a barodd, 'Na fwytaed neb dienwaededig o'r pasc.' Exod. 12. 48, 49. Esgeulusodd Moses enwaedu ar ei ddau fab tra yr oedd gyda Jethro yn Midian; esgeuluswyd ef hefyd tra bu yr Israeliaid yn teithio yn yr anialwch ddeugain mlynedd. Gwedi myned trwy yr Iorddonen, rhoddodd yr Arglwydd orchymyn i Josuah, gan ddywedyd, 'Gwna i ti gyllyll llymion, ac enwaeda ar feibion Israel drachefn yr ail waith.' Oddiwrth y geiriau hyn, tebygol, fod enwaediad cyffredinol o feibion Israel cyn eu hymadawiad o'r Aipht; ac yn cyfeirio at yr enwaediad hwnw, mae yr enwaediad hwn yn ngwlad yr addewid, yn cael ei alw, 'yr ail waith.' Yr oedd y gorchymyn hwn, os ystyrir yr holl amgylchiadau perthynol iddo, yn brofiad neillduol o ffydd Josuah. Newydd fyned i wlad lawn o elynion, a'r holl wrrywiaid dros amryw ddyddiau yn hollol analluog i wrthsefyll eu hymosodiadau, oedd yn brofedigaeth nid bechan. Y mae eu hufudd-dod parod i'r gorchymyn, yn y cyfryw amgylchiadau peryglus, yn brawf o'u ffydd, a'u hymostyngiad i ewyllys Duw, a'u hymddiried ynddo am eu hamddiffynfa; ac ni bu eu hymddiried ynddo yn ofer. Nid oes sôn am elyn yn ymosod arnynt yn eu saldra. Cawsant fwyta y pasc yn llawen wedi hyny. Jos. v.

Nid yw y gyfraith yn crybwyll am y gweinidog oedd i weinyddu yr ordinhad hon. Gallai y tad, neu ryw berthynas ei chyflawni. Nid yw yn ymddangos i Zacharias, er mai offeiriad oedd, enwaedu ar ei fab Ioan. Luc 1. 59. Nis gellir casglu oddiwrth siampl Sephorah, (Exod. 4. 25, 26.) fod yn gyfreithlon i wragedd wneuthur hyny. Er i'r Arglwydd gymeradwyo yr enwaediad hwn, nid oes un prawf iddo gymeradwyo y dull y gwnawd ef.

Yr oedd enwaedu yn arferiad cyffredin yn mhlith yr Arabiaid, y Saraceniaid, yr Ismaeliaid, y rhai oeddynt o hiliogaeth Abraham. Yr oedd, medd Herodotus, yn arferiad yn mhlith rhai o'r Aiphtiaid, ond nid yn gyffredin, tebygol, ond yn mhlith yr offeiriaid, a rhyw swyddogion eraill; ond nid oedd yn sacrament, nac yn ddefod sanctaidd rhwymedig arnynt dan berygl o gael eu tori ymaith o blith y bobl, yn mysg un genedl, ond yr Iuddewon yn unig. Gwedi dyfod Crist, mae hon, fel pob ordinhad waedlyd arall, a'r holl gysgodau, wedi diflanu, a'i hollol ddiddymu. Darn mawr oedd hwn o ganol-fur y gwahaniaeth rhwng yr Iuddewon a'r Cenedloedd, yr hwn a ddattododd Crist, ac a ddirymodd trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth, sef deddf y gorchymynion mewn ordinhadau, fel y creai y ddau ynddo ef yn un dyn newydd, gan wneuthur heddwch. Eph. 2. 11, 14.

Fel ordinhad Duw, yr oedd yr enwaediad yn arwydd o gyfammod Duw, ac yn sêl o hono. 'Ac efe a gymerodd arwydd yr enwaediad, yn insel cyfiawnder y ffydd, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad.' Rhuf. 4. 11. Yr oedd Duw, yn ei gyfammod âg Abraham, gwedi addaw, 1. Bod yn Dduw iddo.—2. Amlhau ei hâd.—3. A darparu etifeddiaeth iddo ef a hwythau. Yr oedd yn addaw bod yn Dduw iddo, ei darian, a'i wobr mawr iawn (הרבה מאד) Y mae yr un addewid hon yn cynnwys y cwbl ynddi: nid oes dim ychwaneg gan y Duw mawr i'w addaw, nag addaw ei hun. Yn yr addewid o amlhau ei hâd, mae Crist, yn benaf, yn gynnwysedig, yn yr hwn y byddai i holl genedloedd y ddaear gael eu bendithio. Yr oedd yr enwaediad yn ei gnawd, a'i hiliogaeth, yn arwydd ac yn sêl o'r cyfammod grasol hwn.

Y mae dwy fendith neu ragorfreintiau yn y cyfammod grasol hwn, yr oedd yr enwaediad yn arwydd ac yn sêl o honynt; sef, cyfiawnhad trwy ffydd yn Nghrist, hâd Abraham; a sancteiddiad trwy waith tufewnol yr Ysbryd Glân ar y galon. Yr oedd toriad y cnawd, a thywalltiad gwaed y person trwy hyny, yn arwyddo yn eglur iawn, fod y person enwaededig yn haeddu dyoddef hyd at dywalltiad ei waed, sef cymeryd ymaith ei fywyd, yn mhob ystyr o hono; ond bod yn y cyfammod yr oedd yr enwaediad yn arwydd a sêl o hono, ddarpariad aberth yn ei le, i ddyoddef drosto; a chan fod yr arwydd yn y rhan hôno o'r corph oedd yn cenedlu hâd, yr oedd yn arwyddedig y byddai yr aberth hwn o'r natur ddynol, ac o hâd Abraham. Yr oedd yr arwydd o'r pethau mawrion hyn yn sêl yn nghnawd Abraham, i gryfhau a chadarnhau ei ffydd; ac yr oedd y sêl yn arwydd ddangosiadol o natur trefn Duw i gyfiawnhau pechadur euog, trwy farwolaeth ei Fab. Yr oedd bendith a rhagorfraint arall tra angenrheidiol, ie, neillduol o werthfawr, yn arwyddedig ac yn seliedig yn y cyfammod hwn, sef sancteiddiad calon pechadur. Yn Nghrist mae pob un sydd yn credu ynddo yn cael ei enwaedu âg enwaediad nid o waith llaw, trwy ddyosg corph pechodau y cnawd yn enwaediad Crist, sef yr enwaediad mae Crist yn ei ofyn, ac yn ei weithredu ar galonau eu bobl. Col. 2. 11. Deut. 30. 6. Jer. 4. 4. Crist ei hun trwy ei Ysbryd, yn yr efengyl, ydyw yr enwaedwr; y blaen-groen sydd yn cael ei dori ymaith, ydyw corph pechodau y cnawd; yr holl aelodau, sef llygredigaethau, sydd yn gwneuthur i fynu gorph pechod. Dyma enwaediad y galon yn yr Ysbryd; y rhai sydd yn gwasanaethu Duw yn yr Ysbryd, ac yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd. Rhuf. 2. 25—29. Phil. 3. 3. Eph. 4. 22, 24. Act. 2. 28. 1 Petr 3. 21. Gal. 3. 27, 28. Tit. 3. 5. Y mae pawb sydd yn nghyfammod grasol Duw yn Nghrist, gwedi eu henwaedu fel hyn yn y galon; mae cleddyf miniog Duw, sef ei air, wedi cael effaith ddwys ar eu calonau; y maent wedi eu dryllio oddiwrth bechod, trwy ddwys-bigiadau llymion, a gwir edifeirwch.

Cafodd Iesu Grist ei enwaedu pan oedd yn wyth niwrnod oed, a galwyd ei enw ef Iesu. Nid oedd arno ef eisieu ei enwaedu o'i ran ei hun; nid oedd ganddo ef gorph pechodau i'w ddyosg, nac angen arno am faddeuant; ond yr oedd ei enwaediad yn brawf o'i fod o hâd Abraham yn ol y cnawd, fel yr oedd yr addewid am dano: a thrwy hyny daeth dan y ddeddf, ac yn yr ordinhad hon, ymrwymodd i gadw yr holl ddeddf, a dyoddef ei holl felldithion, 'fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad.' Gal. 4. 4, 5. a 5. 3. Yn ei enwaediad, rhoddodd wystl i'r gyfraith o'r tâl llawn a gai ganddo, yn ei roddiad o hono ei hun yn gyflawn dros ei bobl, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd. Torwyd rhan o'i gorph sanctaidd ymaith yn yr enwaediad, wedi hyny torwyd ef ymaith yn gyflawn o dir y rhai byw. Esa. 53. 8. Ond gan i Grist ein llwyr-brynu oddiwrth felldith y ddeddf, trwy iddo gael ei wneuthur yn felldith drosom, y mae y sacramentau gwaedlyd gwedi eu hollol ddiddymu a'u terfynu. Ond er nad oes angen am aberth mwyach *trosom*, mae yr un angen am enwaediad y galon *ynom*, trwy enwaediad Crist; ac nid oes neb yn wirioneddol yn nghyfammod Duw, heb yr arwydd a'r sêl hon ganddynt.

ENYD, (en-yd) yspaid, encyd, talm; arfod, adeg.—'Ychydig enyd.' Ioan 16. 16—19. a 12. 35. *Gr.* μικρον, *ychydig amser:* (rhoddir χρονον, *amser*, i mewn gyd âg ef yn Ioan 7. 33.)—*enyd bach*, Ioan 14. 19. —*ychydig bachigyn*, Heb. 10. 37.——'Bydded enyd

Digitized by Google

rhyngoch chwi a hithau, yn nghylch dwy fil o gufydd-au wrth fesur: *na** nesewch ati, fel y gwypoch y ffordd y rhodioch ynddi.' Jos. 3. 4. Yr oedd yr offeiriaid, a'r arch, oddeutu tri chwarter milltir o flaen y bobl, hyd oni ddelent i'r fan yr oeddynt i sefyll ynddo, sef yn nghanol yr Iorddonen. Yr oedd hyn i ddangos parch dyledus i'r arch, fel arwydd o bresennoldeb yr Arglwydd yn eu plith. Exod. 3. 5. a 19. 12. Ps. 89. 1. Heb. 12. 28, 29. Yr oedd hefyd yn arwydd mai yr arch oedd yn eu diogelu hwy, ac nid hwy yr arch: yn brofiad o ffydd yr offeiriaid oedd yn ei dwyn, fel siampl addas i'r holl bobl oedd yn canlyn: ac yr oedd yn rhoddi cyfleusdra mwy i'r holl bobl i gael golygiad o'r arch, rhaniad y dyfroedd, a'r ffordd yr oeddynt i rodio ynddi.——'Nyd oeddech yn cahel enhyd.' Phil. 4. 10. W. S. a Dr. M. 'Eisieu amser cyfaddas oedd arnoch.' *ηκαιρεισθε δε, nid oedd cyfleusdra genych.*

EPA—OD, (ab) *Heb.* קוֹף ab, gwrab. Creadur pedwar troediog, y tebycaf yn ei lun o'r holl greaduriaid i ddyn. Y mae amrywiol fath o honynt, ond y rhai a elwir *satyrs* yw y tebycaf i ddyn. Y maent yn o debyg i hen ŵr anhardd; caent eu haddoli gynt fel duwiau gan yr Aiphtiaid; ac y maent yn cael eu haddoli hyd heddyw mewn amryw fanau yn yr India Ddwyreiniol. Y nesaf at y *satyr* yw yr *ourang outang* yn ei debygolrwydd i ddynolryw; a'r nesaf at hwnw yw y *baboon*. Y mae Maffeus (*Hist. Ind., lib.* i.) yn darlunio teml i'r epa yn India, â phorthfa, neu redfa golofnog iddi, i dderbyn aberthau a offrymid yno, a saith gant o golofnau iddi, dim llai eu maintioli a'u gwychder na cholofnau y Pantheon yn Rhufain. Pan anrheithiodd y Portuguese (A. D. 1554) ynys Ceylon, yr oedd teml ardderchog ar gopa Adame, yn mha un y cawsant flwch bychan, yn llawn o aur, a gemau, hefyd un o ddannedd yr epa. Breninoedd y wlad, yn chwennych ei ad-brynu, a gynnygiasant 700,000 *ducats* am dano. Mawr yw tywyllwch ac ynfydrwydd plant dynion wedi colli Duw!——Llongau Solomon a ddygent iddo ifori ac epäod. 1 Bren. 10. 22.

EPAPHRAS, *Gr.* Επαφρας [*gorchuddiedig âg ewyn*] priodor o Colosse, a phregethwr ffyddlon, llafurus, a llwyddiannus yno, trwy lafur pa un y cafodd llawer o drigolion Colosse eu dychwelyd at yr Arglwydd. Pan oedd Paul yn garcharor yn Rhufain, aeth Epaphras o Phrygia i ymweled âg ef, ac a fu yn gyd-garcharor â Phaul yno. Y mae Paul yn ei alw yn 'anwyl gyd-was, a ffyddlon weinidog i Grist.' Col. 1. 7. Wedi clywed fod gau-athrawon wedi llygru a thrallodi llawer o'r Cristionogion yn Colosse, gosododd yr achos o flaen Paul, yr hwn, trwy gyfarwyddyd Duw, a ysgrifenodd llythyr atynt, i iawn drefnu pethau yn eu plith. Dywedir iddo ddyoddef merthyrdod yn Colosse. Col. 4. 12.

EPAPHRODITUS, *Gr.* Επαφροδιτος [*prydferth*] gweinidog enwog yr efengyl yn Philippi. Medd Paul am dano, 'Fy mrawd, a'm cyd-weithiwr, a'm cyd-filwr, ond eich cenad chwi, a gweinidog i'm cyfreidiau innau.' Phil. 2. 25. Yr oedd y Philippiaid wedi ei anfon drostynt yn genad i ddwyn eu cyfraniad at angenrheidiau Paul, yn garcharor yn Rhufain: 'Mi a gyflawnwyd, wedi i mi dderbyn,' medd efe, 'gan Epaphroditus, y pethau a ddaethant oddi wrthych chwi.' Pen. 4. 18. Trwy ei ffyddlondeb yn gweini i Paul, bu yn glaf yn agos i angeu: 'Oblegid gwaith Crist y bu efe yn agos i angeu, ac y bu diddarbod am ei einioes, fel y caflawnai efe eich diffyg chwi o'ch gwasanaeth tu ag ataf fi.' Pen. 2. 30. Y mae hyn yn dangos nad oedd y doniau gwyrthiol wrth ewyllys yr apostolion eu hunain, ond wrth ewyllys yr Ysbryd Glân; onidê, buasai Paul wedi iachau Epaphroditus. Y mae geiriau Paul am dano yn ei ddangos yn ŵr serchog, a thra mwynaidd ei ysbryd: bu yn athrist iawn, oblegid i'r Philippiaid glywed ei fod yn glaf, a'u bod mewn tristwch mawr o'r achos hwnw. Dychwelodd yn fuan atynt, gan ddwyn gyd âg ef Epistol Paul at y Philippiaid.

EPENETUS, *Gr.* Επαινετος [*canmoladwy*] dysgybl anwyl gan Paul; yr hyn oedd yn anrhydedd nid bychan iddo, medd Theophylact. Y mae Paul yn ei alw, 'blaen-ffrwyth Achaia yn Nghrist.' Rhuf. 16. 5. Y mae tŷ Stephanus hefyd yn cael ei alw blaen-ffrwyth Achaia. Tŷ Stephanus oedd y teulu cyntaf; a hwyrach mai Epenetus oedd y cyntaf o'r teulu hwnw a dderbyniodd y ffydd Gristionogol. 1 Cor. 16. 15. Mewn rhai copïau darllenir yn Rhuf. 16. 5. *Asia* yn lle *Achaia.**

EPICURIAID, *Gr.* Επικουρειοι, sect o philosophyddion yn mhlith y Groegiaid, canlynwyr un Epicurus, Atheniad. Math o Atheistiaid oeddynt, yn gwadu Duw fel Creawdwr a llywodraethwr y byd, ac anfarwoldeb yr enaid; ac yn cyfrif holl ddedwyddwch dyn yn gynnwysedig mewn melyswedd buchedd, a digrifwch. Bu Paul yn ymddadleu â rhai o honynt, yn Athen. Act. 17. 18. Plaid oeddynt yn mhlith y cenedloedd Paganaidd, o'r un cyffelyb egwyddorion a'r Saduceaid yn mhlith yr Iuddewon.

EPISTOL, *Gr.* Επιστολη o Επιστελλω, *anfon; Llad.* EPISTOLA; llythyr, yn mha un yr hysbysir meddwl un wrth gyfaill, yn mhell oddi wrtho. Weithiau, y mae y gair Groeg yn cael ei gyfieithu *llythyr*; megys yn Act. 9. 2. a 23. 25. 2 Cor. 3. 2, 3.—ac weithiau mae yn cael ei adael *epistol.* Rhuf. 16. 22. Col. 4. 16. 2 Thes. 2. 15. a 3. 17. 2 Petr 3. 1, 16. Y mae un ar hugain o lyfrau y Testament Newydd yn cael eu galw yn epistolau; y pedwar ar ddeg cyntaf a ysgrifenwyd gan Paul; y saith eraill a ysgrifenwyd, un gan Iago, dau gan Petr, tri gan Ioan, ac un gan Judas. Gwel enwau yr amrywiol awdwyr, a'r eglwysi at ba rai yr ysgrifenwyd hwynt.

EPPIL—IO, (eb-pil) hiliogaeth, adian; y tô, neu y genedlaeth a ddaw; ein plant a'n hwyrion; amlhau, ffrwythloni. Gen. 31. 8. a 48. 6. Jer. 31. 12. Gal. 4. 27. Edr. HILIOGAETH.—'Gan beri iddynt fwrw allan eu plant, fel na eppilient.' Act. 7. 19.—'Val na chaffent vot yn vyw.' W. S.—'*That they might not live.*' *Saes.* Ζωογονεω, yr hwn a gyfleithir yn Luc 17. 33. *a'i bywha hi*, sef a'i ceidw yn fyw. Ζωσει, *a'i ceidw*, Marc 8. 35. Luc 9. 25. Yn yr ystyr hwn yr arferir y gair gan y LXX yn aml fel cyfieithiad o'r gair *Heb.* חיה *byw*, neu החיה *peri byw*. Exod. 1. 17. Gwel Suicer *Thesaur.*, Schleusner, Parkhurst. Gorchymynodd Pharaoh i'w swyddwyr, tebygol, ac nid i'w rhieni, eu bwrw allan fel na byddent byw: hyn, tybygaf, yw ystyr priodol y geiriau. Nid ydynt yn golygu y rhieni, fel na eppilient hwy; ond fel na chai y plant a eppilient fyw.

EPHA, *Heb* איפה [*blinedig*] 1. Sych-fesur Iuddewig, yr un gynnwysiad a *bath*, ac yn cynnwys deg *omer*; yn cyfateb i saith galwyn a hanner o'n mesurau ni. Exod. 16. 36. Ezec. 45. 11. Parkhurst.——Dan rith gwraig yn eistedd mewn epha, a thalent o blwm wedi ei fwrw arni yn yr epha, a dwy wraig yn dyfod allan, â gwynt yn eu hesgyll, ac yn cyfodi yr epha, a'r wraig ynddi, a'r plwm arni, rhwng nefoedd a daear, ac yn ei dwyn i wlad Sinar, y dangosir, tyb-

* Nid '*Nesewch* ati,' fel yn yr argraffiadau 1752 a 1759.

* Ymddengys mai της Ασιας (Asia) yn hytrach na της Αχαιας (Achaia) yw y geiriau a geir yn y MSS. gorea, a'r darlleniad hwn a ddewisa Grotius, Mill, Bengel, Whitby, Olshausen, Tholuck, ac eraill.—C.

Digitized by Google

ygaf, hollol wasgariad yr Iuddewon gan farnedigaethau Duw trwy y Rhufeiniaid, wedi i'w hanwireddau ddyfod yn gyflawn trwy groeshoeliad Crist, a gwrthodiad yr efengyl. Zech. 5. 5—11. Y mae yn dra annhebyg mai Babilon a feddylir wrth y wraig yn yr epha, fel y crybwyllir yn nghynnwysiad y bennod, yn ein Biblau ni. Dwyn yr epha i Sinar a arwydda, gwasgariad a chaethiwed y genedl fel o'r blaen; ei gwaith yn adeiladu iddi dŷ yno, ei sicrhau, a'i gosod ar ei hystôl ei hun, a arwydda y byddai eu gwasgariad a'u caethiwed o hir barhad. Wedi eu hamgylchynu â'u pechodau, a'u gwasgu yn drwm gan farnedigaethau Duw, y maent, gan offerynau yn llaw rhagluniaeth Duw, wedi eu gwasgaru i wlad eu gelynion, ac yno i aros, nid am 70 o flynyddoedd, ond yn barhaus, fel tŷ neu golofn gref, wedi ei sicrhau ar ei sylfaen, i hir aros yn ddiysgog. Felly y gwelir heddyw, ac er pan ddymchwelodd Titus Vespasian eu llywodraeth, ac y cymerodd Jerusalem; a'u gwasgariad cyflawn a diweddaf gan Ælius Adrianus. Y cyffelyb farnedigaethau a orddiwes pob gwlad a dilyno lwybrau anwireddus yr Iuddewon, pan byddo eu mesur yn llawn: nid yw Duw dderbyniwr wyneb. Gwel Pemble.——2. Mab hynaf Midian: yr oedd yn preswylio yn Arabia Petræa, neu Garegog. Rhoddodd ei enw i ddinas o du y dehau-ddwyrain i'r Môr Marw, lle mae Ptolemy yn coffâu am ddinas a elwid Ippos. Yr oedd yn Midian ac Epha amlder o gamelod a dromedariaid. Gen. 25. 4. Barn. 6. 5. Esa. 60. 6.——3. Mab Jadai. 1 Cron. 2. 47.——4. Gordderch-wraig Caleb, a mam Haran, a Mosa, a Gazez. 1 Cron. 2. 46.

EPHAI, *Heb.* עיפי [*blinedig*] Netophathiad, y crybwyll Jeremiah am ei feibion. Jer. 40. 8.

EPHPHATHA, *Heb.* yn hytrach *Syr.* הפתח [*ymagor*].—Dywedodd yr Arglwydd Iesu y gair hwn pan agorodd glustiau y dyn byddar âg attal dywedyd arno, yn nhueddau Tyrus a Sidon. Estynodd ei fysedd yn ei glustiau, a boerodd, a gyffyrddodd â'i dafod, a chan edrych tu a'r nef, efe a ocheneidiodd, ac a ddywedodd wrtho, Ephphatha. Y mae gwaith Crist yn ocheneidio, yn arwydd o'i dosturi wrth gystuddiau plant dynion, o bob math; y mae ei waith yn rhoddi ei fysedd yn ei glustiau, yn poeri, yn cyffwrdd â'i dafod, ac yn llefaru wrtho, yn dangos bod holl rinwedd ei iachâd ynddo ef ei hun, a'i fod yn meddyginiaethu eneidiau dynion yn gyffredinol, trwy yr efengyl, â chyffyrddiad neu nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân. Marc 7. 34. Act. 16. 14.

EPHER, *Heb.* עפר [*llwch*] 1. Ail fab Midian, a brawd Epha. 1 Cron. 1. 33. Y mae sôn am dir Hepher tu hwnt i'r Iorddonen. 1 Bren. 4. 10. Mae yn ansicr pa un a ddarfu i'w hiliogaeth boblogi ynys Upher yn y Môr Coch, neu ddinas Orpha yn Diarbec. Polyhistor a Chleodamus a ddywedant iddo orchfygu Lybia, a'i galw Affrica; dywedir hefyd fod Hercules gyd âg ef yn yr anturiaeth hon. Gwel Calmet.——2. Mab Ezra. 1 Cron. 4. 17.——3. Gwr cadarn enwog o Manasseh. 1 Cron. 5. 24.

EPHESUS, *Gr.* Εφεσος, [*dymuniad*] gynt un o'r dinasoedd mwyaf enwog yn Ionia, yn Asia Leiaf. Dywedir i'r ddinas hon gael ei hadeiladu gan arglwyddes ardderchog a'i henw Ephesus, Amasoniad; neu gan Androclus, mab Codrus, brenin Athen, yn nghylch dyddiau Dafydd, neu yn foreuach. Yr oedd yn sefyll ar yr afon Cayster, yn nghylch 23 o filltiroedd o du y gogledd i Miletus, a 63 o du y gorllewin i Laodicea. Yn ol Strabo, yr oedd Ephesus gynt yn un o'r dinasoedd mwyaf ei marchnadyddiaeth yn y parthau hyny o Asia. Cyn amser Alexander yr oedd gan yr Ephesiaid frenin yn teyrnasu arnynt. Cymerwyd hi gan Antiochus, brenin Syria. Wedi iddi ddyfod i ddwylaw y Rhufeiniaid, y trigolion a wrthgiliasant at Mithridates, brenin Pontus; ac o herwydd hyny hwy a anrheithiwyd yn ofnadwy gan Sylla, y câd-flaenor Rhufeinaidd. Dystrywiwyd hi gan ddaeargryn, A.D. 19, ond a ail adeiladwyd yn fuan. Anrheithiwyd hi gwedi hyny yn dost iawn, olynol, gan y Saraceniaid, y Tartariaid, a'r Tyrciaid; fel nad ydyw yn bresennol ond pentref bychan, a 40 neu 50 o dai ac amddiffynfa ynddo, ac a elwir Ajasalouc.

Yn y dyddiau gynt, yr oedd ei henwogrwydd yn fwyaf o herwydd teml fawr i'r dduwies Diana oedd ynddi. Dywedir bod ei hŷd yn 425 o droedfeddi, ei lled yn 220, a bod ei nen yn cael ei gynnal gan 127 o golofnau, 70 o droedfeddi o uchder, wedi eu rhoddi gan gynnifer a hyny o freninoedd. Lluniwyd hi gan un Ctesiphon; ac er ei chyfodi hi ar draul holl Asia Leiaf etto buwyd 220 o flynyddoedd yn ei hadeiladu. Rhoddwyd hi ar dân saith waith. Yn nghylch 360 cyn geni Crist, un Erostratus, yn anobeithio gwneyd ei hun yn enwog un ffordd arall, a'i llosgodd, i wneyd iddo ei hun enw trwy ddrygioni.

Yr oedd yr Ephesiaid yn nodedig am ddewiniaeth a swynyddiaeth. Pan ddaeth Paul yno gyntaf, oddeutu A. D. 54. (Act. 18. 19, 20, 21.) nid arosodd yno ond ychydig ddyddiau, ond yr oedd Apolos yn pregethu yno yn nghylch yr un amser. Rhai misoedd wedi hyny dychwelodd Paul yno, ac a bregethodd, gyda llawer o lwyddiant, dros dair blynedd, hyd A. D. 57. Rhai o'r Iuddewon crwydraidd, meibion Scefa, y rhai oedd gonsurwyr, a gymerasant arnynt enwi uwch ben y rhai oedd âg ysbrydion drwg ynddynt, enw yr Arglwydd Iesu; ond un dyn yr oedd yr ysbryd drwg ynddo, a ruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd, ac a fu drwm yn eu herbyn; hwythau a ffoisant allan o'r tŷ, yn noethion ac yn archolledig; ofn a syrthiodd ar yr holl Iuddewon a'r Groegiaid; y rhai oeddynt yn preswylio yn Ephesus, ac enw yr Arglwydd Iesu a fawrygwyd. Llawer o'r rhai a fuasai yn gwneuthur rhodres-waith, neu *manyl-waith* swynyddiaeth, a ddygasant eu llyfrau yn nghyd, ac a'u llosgasant yn ngŵydd pawb; a hwy a fwriasant eu gwerth hwynt, ac a'u cawsant yn ddeng mil a deugain o ddarnau arian—£5000 o'n harian ni, medd Macknight—£6250, medd Brown: beth bynag, yr oeddynt o werth mawr. Ychydig wedi hyn, mae Demetrius, gôf arian, yn codi terfysg mawr yn erbyn Paul; ar hyn, Paul a ymadawodd i fyned i Macedonia. Rhai blynyddau wedi hyny, Paul, yn ei daith ddiweddaf i Jerusalem, a anfonodd o Miletus am henuriaid yr eglwys ato. Gwedi gorchymyn praidd Duw iddynt, eu rhybuddio am y gau athrawon, a gweddio gyda hwynt, ymadawodd a hwynt â galar mawr. Yn mhen pump neu chwe mlynedd gwedi hyny, pan oedd yn garcharor yn Rhufain, ysgrifenodd atynt lythyr rhagorol. Y mae yn gosod allan ynddo athrawiaethau yr efengyl yn rheolaidd, ac yn dra eglur, yn eu holl ddyfnderoedd, eu cyflawnder, a'u rhadlonrwydd; eu cysylltiad â'u gilydd, a'u heffeithiau sanctaidd ar eneidiau pawb a'u gwir gredant. Y mae yn cynnwys crynodeb o egwyddorion y grefydd Gristionogol, mwyaf cadarn a goleu a welir byth.* Ysgrifenodd amryw awdwyr arno yn rhagorol, megys H. Zanchy, Bodius, Röel, Dr. T. Goodwin, Baynes.

Y cyntaf o'r saith epistol at y saith eglwys yn Asia, a gyfarwyddwyd at angel yr eglwys oedd yn Ephesus. Y mae rhai o'r farn, gyda llawer o briodoldeb a thebygolrwydd, i'm tyb i, fod yr epistolau hyn yn gyfaddasol i saith yspaid o amserau ar yr eglwys yn gyffredinol, o adgyfodiad Crist hyd ei ail-ddyfodiad. Yn y golygiad hwn, y mae yr epistol at eglwys Ephesus yn gymhwysiadol iawn i oes gyntaf yr eg-

* Est hæc Epistola ceu epitome totius Christianæ doctrinæ & omnium ferme præcipuorum locorum communium, qui in Theologia tractari solent, compendium. Zanch.

Digitized by Google

lwys, pan oedd ei llafur, ei hamynedd, a'i phurdeb yn fawr; ond yn fuan y dirywiodd ac yr ymadawodd â'i chariad cyntaf. Beth bynag am hyny, y mae yr argyhoeddiad tyner, a'r rhybydd sobr a roddir iddi, yn addysgiadol i bawb â'r un agwedd arnynt, o ran eu hysbrydoedd, ag angel yr eglwys hôno, hyd ddiwedd amser.

EPHESDAMMIM, neu, PASDAMMIM, *Heb.* פס דמים [*defnyn o waed*] lle yn Judah, rhwng Socho ac Azecah, o du y gorllewn i ddyffryn Elah. Yma yr oedd y Philistiaid yn gwersyllu, pan yr oedd Goliath yn sarhau ac yn gwaradwyddo Israel. 1 Sam. 17. 1, 2, 19.——Ymgasglodd y Philistiaid yma gwedi hyny, gwedi coroni Dafydd, a gwnaeth Eleazar a Sammah, cedyrn Dafydd, laddfa fawr o honynt. 2 Cron. 11. 13, 14, 18. 2 Sam. 23. 11, &c.

EPHLAL, *Heb.* אפלל [*barnu*] mab Zabad. 1 Cron. 2. 37.

EPHOD, *Heb.* אפוד [*rhwymo, gwregysu*] arwisg, neu y wisg uchaf a wisgai yr offeiriaid Iuddewig. Yr oedd dwy fath o honynt; yr oedd un i'r offeiriaid, o liain diwaith; un arall i'r arch-offeiriad, gwedi ei gwneuthur o aur, a sidan glas a phorphor, ac ysgarlad, a lliain main cyfrodedd. Yr oedd hon yn addurnawl harddwych, yn waith cywrain. Ar ei dwy ysgwydd yr oedd dau faen gwerthfawr, ac enwau y deuddeg llwyth arnynt, yn feini coffadwriaeth i feibion Israel. Exod, 28. 6, &c. Ar y rhan hyny o'r ephod oedd dros ddwyfron yr arch-offeiriad, yr oedd addurn pedair-onglog, a elwid y ddwyfroneg, yr hon a gysylltai â bachau aur wrth yr ysgwyddau, ac wrth wregys yr ephod, yn mha un yr oedd deuddeg maen yn cynnwys enwau llwythau Israel. Exod. 28. 29. Edr. DWYFRONEG.

Yr oedd yr ephod a wnaeth Gedeon yn wisg gostfawr iawn, a thebygol gwedi ei gwneuthur yr un dull ag ephod yr arch-offeiriad; y mae rhai yn barnu iddo wneuthur dwyfroneg i ymofyn â'r Arglwydd â hi. Beth bynag, bu hyny yn dramgwydd i Gedeon, ac i'w dŷ. Barn. 8. 26, 27, 28. Deut. 7. 16.

Cawn hanes am eraill, heblaw yr offeiriaid, ar achosion neillduol, gwedi eu gwisgo âg ephod liain, pan y byddent wrth waith sanctaidd, megys Samuel a Dafydd. 1 Sam. 2. 18. 2 Sam. 6. 14.

'Dwg i mi, attolwg, yr ephod. Ac Abiathar a ddug yr ephod at Dafydd. A Dafydd a ymofynodd â'r Arglwydd;' hyny yw, trwy yr arch-offeiriad. Nid oes i ni feddwl i Dafydd wisgo yr ephod ei hun, ac ymgynghori â'r Arglwydd yn lle Abiathar. 1 Sam. 30. 7, 8. Gwel *Appendix to* Calmet's *Dictionary, Frag.* 236.

Yr oedd yr ephod a'r meini coffadwriaeth, âg enwau y deuddeg llwyth arnynt, ar ysgwyddau yr arch-offeiriad, yn arwyddo, 1. Fod yr Arglwydd Iesu, trwy ei allu, ei ffyddlondeb, a'i ras, yn gynnaliwr effeithiol i'w eglwys, a phob aelod o honi. Esa. 9. 6. a 46. 3, 4.——2. Bod ei holl bobl ynddo mewn coffadwriaeth ger bron yr Arglwydd. Nis gall edrych ar eu harch-offeiriad heb eu canfod hwythau hefyd; y mae eu henwau yn wastad ger ei fron. Mal. 3. 16. Eph. 5. 27. Luc 10. 20.——3. Dwyn eu henwau ger bron yr Arglwydd yn y wisg gostfawr geinwych hon, a arwydda ei gyfiawnder tra gwerthfawr a gogoneddus. Esa. 45. 24. Phil. 3. 9.

EPHRAIM, *Heb.* אפרים [*ffrwythlawn*] mab ieuengaf Joseph, o Asenath, merch Potiphar. Joseph a gyflwynodd ei ddau fab, Ephraim a Manasseh, i'w dad Jacob, yn ei henaint, i'w bendithio ganddo. I arwyddo y byddai Ephraim yn fwy na Manasseb, ac y byddai ei hâd yn lliaws o genedloedd, croesodd ei ddwylaw, ac a osododd ei law ddehau ar ben Ephraim, a'i law aswy ar ben Manasseh. Gen. 48. 8—22. Ei feibion Suthelah, Becher, Tahan, oeddynt benau teuluoedd lliosog. Num. 26. 35, 36. Edr. ELEAD.——Pan ddaeth Israel o'r Aipht, yr oedd yr Ephraimiaid yn rhifo 40,500; eu cadben oedd Elisama mab Ammihud; eu hyspiwr oedd Josuah mab Nun; Cemuel mab Siphtan oedd eu penaeth yn rhanu y wlad. Yr oeddynt wedi lleihau wyth mil yn yr anialwch. Num. 2. 18, 19. a 13. 8. a 26. 37. a 34. 24. Yr oedd Ephraim, Manasseh, a Benjamin, yn gwersyllu tu ol i'r babell, ac yr oeddynt yn cychwyn ar ol yr arch; am hyny dywedir ei bod yn eu harwain, ac yn cyfodi ei nerth o'u blaen. Num. 2. 18—24. a 10. 21—24. Ps. 80. 1, 2. Yn ngwlad Canaan, yr oedd rhandir Ephraim yn nghanol y wlad, a Môr y Canoldir o du y gorllewin, a'r Iorddonen o du y dwyrain iddi. Yr oedd Deborah y brophwydes, a fu yn barnu Israel, o'r llwyth hwn. Felly hefyd yr oedd Abdon, yr hwn a farnodd Israel wyth mlynedd. Barn. 5. 12. a 7. 24, 25. a 8. 1, 2, 3. a xii. Bu y babell yn Siloh, yn llwyth Ephraim, tros yn nghylch 320 o flynyddoedd. Yr oedd 20,800 o wyr cedyrn o'r llwyth hwn yn coroni Dafydd; yn nheyrnasiad pa un, Heles y Peloniaid oedd eu pencadben; a Hosea mab Azaziah ydoedd eu rhaglaw. 1 Cron. 12. 30. a 27. 10, 20.

Jeroboam mab Nebat, o'r llwyth hwn, a'i hudodd, a naw eraill o lwythau Israel, i osod i fynu iddo ef freniniaeth wahanol, yr hon a barhaodd 254 o flynyddoedd; sef o A. M. 3029 i 3283. Yr oedd y rhan fwyaf o freninoedd Israel o'r llwyth hwn; ac yr oedd y ddwy ddinas freninol ynddo, sef Sichem a Samaria. Yr oedd un o'r lloi aur yn Bethel, dinas arall ynddo. Gan fod y llwyth hwn mor nodedig yn mysg y deg, gelwid, yn aml, y cwbl wrth yr enw hwn, yn enwedig gan y prophwyd Hosea. 2 Cron. 25. 7. Esa. xxviii. Hos. iv, v, vi, &c. Edr. ISRAEL.

Y mae Ephraim hefyd, 1. Yn enw dinas yn agos i Bethel, yn nghylch wyth milltir o Jerusalem. Abiah a'i cymerodd oddiar Jeroboam. 2 Cron. 13. 19. Yn agos i'r ddinas hon yr oedd Baal-Hazor, lle yr oedd Absalom yn cadw ei ddeadellau. Yma, tebygol, y ciliodd yr Arglwydd Iesu, pan yr oeddynt wedi cydfwriadu i'w ladd. Ioan 11. 54.——2. Mynydd-dir yn y llwyth hwn, yn agos i'r terfyn deheuol iddo. Barn. 17. 1. a 19. 1. 1 Sam. 1. 1. Jer. 4. 15. a 31. 6. a 50. 19.——3. Coedwig tu hwnt i'r Iorddonen, yn agos i Mahanaim, lle y gorchfygwyd Absalom a'i fyddin; yr hon a alwyd 'Coed Ephraim,' o herwydd lladdfa yr Ephraimiaid gan Jephtha yno. Barn. xii. 2 Sam. 18. 6.

EPHRATAH, neu EPHRATH, *Hebraeg*, אפרתה [*ffrwythlawn, llawnder*] gelwir Bethlehem wrth yr enw hwn. Gen. 35. 16, 19. Ruth 4. 11. Mic. 5. 2. Edr. BETHLEHEM.—'Wele clywsom am dani yn Ephratah,' &c. Ps. 132. 6. Barna rhai mai Siloh, yn mynydd Ephraim, a feddylir yma, am fod yr Ephraimiaid unwaith yn cael eu galw yn Ephrateaid. Barn. 12. 5. Ac mai wrth feusydd y coed, y mae i ni ddeall Ciriath-jearim. Eraill a farnant mai Jerusalem a feddylir wrth Ephratah, am ei bod yn yr ardal hôno. Ond y mae y geiriau yn gosod allan weithrediadau meddyliau Dafydd, o bryd i bryd, mewn perthynas i'r arch. Pan yr oedd yn byw yn Bethlehem Ephratah, clywodd yn aml am dani, ac am yr esgeulusder mawr o honi. Gwedi ei wneuthur yn frenin, ymofynodd am dani, a chafodd hi yn Ciriath-jearim, mewn lle anenwog, yn meusydd y coed. Ni chafodd esmwythder, nes ei dwyn oddi yno i Jerusalem, y ddinas freninol, lle gwedi hyny, yr adeiladwyd teml ardderchog iddi. Crist, gwrth-gysgod yr arch, a glybuwyd am dano yn gyntaf yn Ephratah, ac a'i cafwyd yno yn mhlith yr anifeiliaid, fel pe buasai yn meusydd y coed. Mic. 5. 2.

EPHRON, *Heb.* עפרון [*llwch*] 1. Hethiad, mab



Digitized by Google

wawdio, a'i ddirmygu. 'Megys y pryd hwnw, yr hwn a anwyd yn ol y cnawd, a erlidiodd yr hwn a anwyd yn ol yr Ysbryd, felly yr awr hon hefyd.'—Y mae y ddau hâd bob amser, ac yn mhob man, yn wrthwyneb i'w gilydd; ond yr hwn a anwyd yn ol y cnawd sydd yn erlid; nòd crefyddwr cnawdol ydyw, sydd â rhyw eilun ganddo i sefyll drosto heblaw gwir dduwioldeb; ei elw, ei blaid, ei barch, a gelyniaeth yn erbyn Crist, ei achos, a'i bobl, yn egwyddor ei feddwl. Gen. 21. 9. Gal. 4. 29. Er bod erlidigaeth yn gwbl groes i lythyren ac ysbryd yr efengyl, etto llawer o erlid sydd gwedi bod, ac yn bod, yn mhlith rhai dan yr enw Cristionogion. 'Nid oddiwrth Grist y mae erlidigaeth,' medd Jortin, 'ond o'r diafol; lle y mae erlidigaeth yn dechreu, y mae Cristionogrwydd yn darfod. Nid arferodd Crist drawsineb ond unwaith, a hyny i ymlid dynion drwg allan o'r deml, ac nid i'w hymlid iddi.'

Erlidiwyd Crist yn ei berson ei hun pan oedd yma yn y byd, fel y gwelir yn hanes yr Efengylwyr am dano; y mae hefyd yn cael ei erlid yn barhaus, yn ei aelodau, y rhai sydd mewn gwir undeb âg ef, ac yn anwyl ganddo. Yn mhob oes, hyd yn hyn, y maent yn cael, mwy neu lai, eu gwaradwyddo, eu hanrheithio, a'u lladd. Ond 'gwyn eich byd,' medd Crist, 'pan y'ch gwaradwyddant, ac y'ch erlidiant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn, er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog.' Mat. 5. 11. Act. 9. 4. Yr ydoedd y pechod dirfawr o erlid eglwys Dduw, yn gorwedd yn drwm ar feddwl Paul tra y bu byw yn y byd. 'Yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw.' 1 Cor. 15. 9. 1 Tim. 1. 13. Taro ei bobl yw taro Duw yn y man mwyaf tyner, sef ar ganwyll ei lygad. Deut. 32. 10. Zech. 2. 8. Y mae barnau dychrynllyd Duw ar erlidwyr yn mhob oes yn ddangosiad neillduol o echryslondeb y pechod, ac anfoddlonrwydd Duw iddo.——Am erlidigaethau yr Eglwys, gwel Limborch's *Introduction to the History of the Inquisition.* A. Robinson's *History of Persecution.* Lockman's *History of Popish Persecutions.* Doddridge's *Sermons on Persecutions.* Jortin's *ditto.* Fox's *Martyrology.* Bower's *Lives of the Popes.* Woodrow's *History of the Sufferings of the Church of Scotland.* Neal's *History of the Puritans, and of New England.* Walker's *Sufferings of the Clergy.* *History of the Bohemian Persecutions.*

ERNES—AU, (ern) gwystl, bridyw. *Gr.* αρραβων; *Llad.* ARRHA, ARRHABO, o'r *Heb.* ערבון yr hwn a gyfieithir *gwystl*, yn Gen. 38. 17, 18, 20. Byddent yn rhoddi ernes, fel arian gwystl, i weinidogion wrth eu cyflogi. Yr oeddynt hefyd yn rhoddi *arrhabon*, neu ernes, mewn cytundeb, fel rhan o arian y pryniad, yn arwydd o'u cyfammod, ac yn wystl am y rhan arall oedd heb ei thalu. Yn y golygiad hwn y mae yr Ysbryd Glân yn y saint yn cael ei alw 'ernes,' 'ernes eu hetifeddiaeth.' 2 Cor. 1. 22. a 5. 5. Eph. 1. 14. Y mae y cwbl gwedi ei addaw yn gyntaf, ac y mae yr ernes yn cael ei rhoddi fel rhan o hono, ac yn gadarnhad o'r addewid o'r cwbl, yn yr amser priodol, gosodedig. Y mae ernes yn gwahaniaethu oddi wrth wystl yn y golygiad hwn; y mae y gwystl i'w ddychwelyd pan gyflawnir yr addewid o dalu y cwbl, yn ol y cytundeb; ond y mae yr ernes yn rhan o'r taliad, ac o'r un natur a'r hyn sydd yn ol. Heblaw hyny, y mae y gwystl yn gyffredin o gymaint neu fwy gwerth na'r peth addawedig; ond nid ydyw ernes ond rhan o hono. Byddid mewn masnach yn rhoddi ernes, pan na ellid talu y cwbl; neu ynte, pan na allai y person, o herwydd rhyw amgylchiadau, dderbyn a mwynhau y cwbl. Yr etifeddiaeth, sef bywyd tragywyddol, ydyw y peth addawedig gan Dduw i'w bobl; ond nid yn y byd hwn y mae yr etifeddiaeth i'w mwynhau; i gadarnhau yr addewid hon i ni, y mae Duw yn rhoddi ei Ysbryd, fel rhan flaenorol o honi, ac yn sicrhad i'w bobl o'r cwbl: y mae yn ernes o'r etifeddiaeth a *bwrcaswyd* ac a *addawyd.* Y mae yr etifeddiaeth gwedi ei hadbrynu gan Grist, eu cyfathrachwr, i'w bobl, yr hon y collodd dyn trwy bechod bob hawl iddi; y mae gwedi ei haddaw iddynt yn y Gair; y mae Duw yn 'ewyllysio dangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor' yn hyn; ac i sicrhau ei bobl o'r etifeddiaeth, y mae yn rhoddi iddynt ernes yr Ysbryd, neu yr Ysbryd Glân yn ernes.—Y mae yr apostol yn llefaru am berson, ac nid am unrhyw ddawn, gwaith, neu rodd; *yr hwn* (ος εστιν) nid *yr hyn.* Rhoddiad a phreswyliad yr Ysbryd Glân ei hun, yn mhersonau ei bobl, ydyw, mewn modd arbenig, yr ernes. 'Yr hwn a'n gweithiodd ni i hyn yma yw Duw: yr hwn hefyd a roddodd i ni ernes yr Ysbryd.' Yma y mae y gwaith a'r Ysbryd fel ernes yn cael eu gwahaniaethu. Y mae gwaith gan yr Ysbryd Glân yn cael ei weithredu arnynt; felly y mae ar lawer nad ydyw yn preswylio ynddynt, fel ernes yr etifeddiaeth. Nid yw yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi i breswylio ynddynt, fel yn ei deml, ac yn Ddyddanydd, ond yn etifeddion yr addewid: ond y mae ei roddiad a'i breswyliad yn y rhai hyn yn dragywyddol, ac yn ernes diammheuol o'u hawl i'r etifeddiaeth. Y mae yr Arglwydd tirion gwedi rhoddi iddynt bob sicrwydd allanol a ellir ei roddi, sef ei air, ei addewidion, ei gyfammod, a'i lŵ, a dadguddiad o'i ffyddlondeb a'i ddianwadalwch yn y cwbl; rhyngodd bodd iddo hefyd roddi y sicrwydd tufewnol hwn, sef yr Ysbryd Glân, yn ernes. Esa. 59. 21.

Er mai preswyliad yr Ysbryd Glân yn ei bobl sydd yn fwyaf neillduol yn cael ei alw yn ernes, etto, y mae yn ddiammeu fod gweithrediadau ynddynt cyfatebol iddo fel ernes. Y mae ei weithrediadau cadarnhaol a chysurol ynddynt, yn flaen-ffrwyth yr Ysbryd, ac yn sicrhaol o gynauaf mawr i ddyfod. Mae yn cysuro eu calonau 'i *bob* golud sicrwydd deall.' Mae iddynt lawenydd yn yr Ysbryd Glân, annhraethadwy a gogoneddus. Rhuf. 8. 23. Col. 2. 2. 1 Petr 1. 8, 9. Mae y sicrwydd goruchel hwn, a'r llawenydd annhraethadwy, fel ernes, yn rhan o'r hyn sydd yn ol; er mai rhan fechan ydyw, a'i chymharu â'r cyflawn fwynhad, etto y mae, fel y blaen-ffrwyth, o'r *un* natur, ac yn *rhan* o hono: nid *gwahanol* bethau a fyddant, ond yr *un* pethau wedi eu *hychwanegu* i'r cyflawnder mwyaf y dichon iddynt ei fwynhau. Y mae Duw wedi rhoddi ei ernes yn ddi-alw yn ol; ac y mae yr ernes yn rhy werthfawr gan Dduw i'w cholli. Mae pob peth sydd yn perthyn i iechydwriaeth yr eglwys yn angholladwy i gyd. Mae hawl gan Dduw yn ei bobl, yn un achos, oblegid ei ernes ynddynt; y mae hawl sicr ganddynt hwy o'r etifeddiaeth, oblegid ernes yr etifeddiaeth wedi ei rhoddi gan Dduw iddynt hwy i'r dyben hyny.——Gwel Macknight, Zanchy, Musculus, a Goodwin ar Eph. 1. 14. Dr. Owen *on Communion with God, and on the Spirit.*

ERTHYL—U, (erth-yl) erthyliad, peth a esgorir cyn tymp; esgor peth annhymmig. Job 3. 16. Ps. 58. 8. Preg. 6. 3. Exod. 23. 26. Hos. 9. 14.

ERWIN—DEB. Edr. GERWIN.

ERYR—OD, (er-yr) *Heb.* נשר *dryllio*; *Gr.* αετος, *Llad.* ACQUILA, *Ffr.* AIGLE; *Saes.* EAGLE.—Mae yr eryr yn un o'r mwyaf, y cryfaf, a'r cyflymaf o'r holl adar ysglyfaethus. Y mae ei gylfin yn gryf ac yn fachog, ei goesau yn felynion, ac wedi eu gorchuddio â phluf hyd y bodiau; y mae iddo bedair o fodiau, tair yn ol, ac un yn mlaen; ei ewinedd sydd braff, bachog, a chryf, yn addas i grafangu ei ysglyfaeth; y mae ei lygaid yn ddwfn yn y pen, ond yn fawr, yn ddysglaer, yn llym, ac yn dreiddiol; ac mae ei adenydd yn fawrion ac yn gryfion. Y mae yn ehedeg yn uchel ac yn

Digitized by Google

fuan; yn gallu arogli o bell; yn bwrw ei bluf yn flynyddol: yn nythu yn dra uchel yn y creigiau; ac yn gyffredinol yn byw yn hir; ac yn alluol, ar rai achosion, i fyw yn hir heb ymborth. Yr oedd gan un Mr. Owen Holland, o Gonwy, eryr yn ei gadwraeth am naw mlynedd, yr hwn oedd wedi bod yn meddiant gwr boneddig arall dros ddeuddeg ar hugain o flynyddoedd, a pha beth ydoedd ei oed pan y cafodd y gwr hwnw ef o'r Iwerddon, nid yw hysbys. Mae Keysler yn coffâu am eryr yn Vienna a fu fyw mewn cadwraeth am 104 o flynyddoedd. Ei ymborth yw adar, ysgyfarnogod, wyn, mynod, ie, a phlant bychain, os geill ddyfod o hyd iddynt. Gwel *Prod. Nat. Hist. Scot. lib.* iii., *p.* 2. a 14. Rhoddir yno hanes am ddau o blant wedi eu cario ymaith gan eryrod, ac a gafwyd yn eu nythod heb ddim niwed arnynt. Yr achos paham y dichon yr eryr edrych ar yr haul yn ei ddysgleirdeb mwyaf, yw, medd y Jesuit Angelus, yn ei *Optics*, am fod iddo ef ddau bâr o amrantau, un yn dew ac yn gauad, a'r llall yn deneu ac yn fain; y mae yn tynu y diweddaf dros y llygaid i edrych ar wrthddrychau cànaid, ysplenydd, dysglaer.

Y mae llawer o amrywiaeth o honynt yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, yn eu lliwiau, &c. Yr un a elwir gan yr Indiaid yn America *Yzuahili*, ydyw y mwyaf a'r hawsaf ei wareiddio i hebogyddiaeth. Yr oedd yr holl rywogaethau o honynt yn aflan dan y gyfraith.

Y mae yr eryrod yn dyner iawn o'u cywion; a phan fyddont yn alluog i ehedeg, 'efe a gyfyd ei nyth â'i lais; a *gastella* dros ei gywion;' neu a ymsymud, neu a gylch-eheda uwch ben ei gywion. Mae y gair רחף yn cael ei gyfieithu *ymsymud*, yn Gen. 1. 2.—*crynu*, yn Jer. 23. 9. yr unig leoedd yr arferir y gair, heblaw yn y fan hon. 'Y lleda ei esgyll, y cymer hwynt, ac a'u dwg ar ei adenydd,' pan y byddont gwedi blino; 'felly y dygodd yr Arglwydd ei bobl o'r Aipht, ac a'u harweiniodd, ac a'u diogelodd yn yr anialwch.' Yn yr un gyffelyb, y mae yr Arglwydd etto, trwy yr efengyl, a gweithrediadau ei Ysbryd arnynt, yn denu, yn annog, ac yn dwyn yn effeithiol, bechaduriaid o gaethiwed Satan; yn eu harwain, yn eu cynnorthwyo, ac yn eu diogelu, yn eu holl daith i'r bywyd. Ar ei adenydd, nid rhwng ei ewinedd, mae yr eryr yn dwyn ei gywion; felly mae Crist yn dwyn ei eglwys. Exod. 19. 4. Deut. 1. 31. a 32. 11. Dat. 12. 14. Esa. 31. 5. a 46. 4. a 63. 9. Hos. 11. 3.

'Fel yr adnewyddir dy ieuenctid fel yr eryr.' Ps. 103. 5. Fel y mae yr eryr yn bwrw ei bluf, a rhai o'r newydd yn tyfu, fel y mae yn ymddangos yn ieuanc ac yn hardd; felly y mae yr Arglwydd, trwy ei Ysbryd, 'yn adnewyddu ei bobl yn ysbryd eu meddwl.' Rhuf. 12. 2. Y mae angen arnynt am yr adnewyddiad sancteiddiaidd hwn yn barhaus, er eu grym, eu cysur, eu bywiogrwydd, a'u harddwch; y mae yr Arglwydd, yn ei ffyddlondeb, yn cofio am danynt hwy, ac yn eu hadnewyddu yn y dyn oddi mewn, o ddydd i ddydd. Tit. 3. 5. 2 Cor. 4. 10.

'Ehedant fel eryrod.' Esa. 40. 31. Y mae ehediad yr eryr yn rhagori ar ehediad yr holl adar, 1. Yn ei gyflymdra. Solomon, yn annog i beidio rhoddi ein llygaid ar olud, sef y peth nad yw, a ddywed, 'golud yn ddiau a gymer adenydd, ac a eheda ymaith megys eryr tu a'r wybr;' sef yn gyflym iawn, ac yn anadferadwy. Diar. 23. 5. 2 Sam. 1. 23. Galar. 4. 19. Deut. 28. 49. Hos. 8. 1. Hab. 1. 8.——2. Yn sythder ei ehediad. Y mae yr adar eraill yn cylch-ehedeg, mwy neu lai, i gyd; ond dichon yr eryr ehedeg yn syth, fel saeth o fwa.——3. Y mae yn ehedeg yn uchel iawn; nid oes un creadur corphorol a ddichon gyrhaedd i'r un uchder a'r eryr. Ehedeg fel yr eryr, gan hyny, ydyw ehedeg yn gyflym, yn syth, ac yn uchel iawn: hyn a wna y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd, ac y mae efe yn adnewyddu eu nerth; ar adenydd ffydd, cariad, a gobaith, a serchiadau ysbrydol, ehedant at 'y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw.'

'Pa le bynag y byddo y gelain (Luc, y *corph*) yno yr ymgasgl yr eryrod.' Job 39. 30. Mat. 24. 28. Luc 17. 37. Diareb Hebreaidd ydyw y geiriau hyn, yn dangos y bydd y cyffelyb achosion yn dwyn, yn gyffredin, yr un cyffelyb effeithiau. Y mae y rhan fwyaf o eglurwyr diweddar yn priodoli y geiriau hyn i ddystrywiad y genedl Iuddewig trwy luoedd y Rhufeiniaid, lluman-arwydd pa rai oedd yr eryr. Yr Iuddewon ydyw y gelain; yr eryrod ydyw lluoedd y Rhufeiniaid, y rhai a fyddent mor sicr o'u cael a'u dystrywio hwynt, lle bynag y byddent, ag ydyw yr eryr o gael a dryllio ei ysglyfaeth. Felly hefyd bydd i farnau Duw fod yn sicr o oddiweddyd holl elynion ei deyrnas. Gwel y Dr. Doddridge.

Cyffelybir i eryrod, yn aml, yn yr ysgrythyrau, freninoedd a'u byddinoedd buddugoliaethus, yn ysglyfaethu, yn gorthrymu, yn anrheithio, ac yn lladd cenedloedd a phobloedd; megys brenin Assyria, yr Aipht, a Babilon, yn myned yn gyflym at eu hysglyfaeth, fel eryrod ar adenydd mawrion. Hos. 8. 1. Ezec. 17. 3, 7. Dan. 7. 4. Hab. 1. 8. Jer. 4. 13. a 48. 40. Galar 4. 19.

'Helaetha dy foelder fel yr eryr,' &c., sef wedi iddo fwrw ei bluf, fel arwydd o anrheithiad, gorthrymder, gofid, a galar. Mic. 1. 16.

ESAIAH, *Heb.* ישעיה [*iachawdwriaeth yr Arglwydd*] mab Amos, a phrophwyd enwog.—Y mae rhai yn barnu ei fod o hâd breninol. Prophwydodd yn nyddiau Uzziah, Jotham, Ahaz, a Hezeciah, breninoedd Judah. Y mae ei wraig yn cael ei galw yn brophwydes, am ei bod hi yn wraig i brophwyd, mae yn debygol, ac nid am ei bod yn prophwydo. Yr oedd iddo ddau o feibion, sef Sear-jasub, a Maher-shalal-has-baz. Pen. vii, viii. Edr. dan y geiriau hyn. Y mae yn draddodiad yn mhlith yr Iuddewon a'r Cristionogion iddo ef gael ei farwolaethu gan Manasseh yn nechreuad ei deyrnasiad, trwy ei dori â llif, gwedi iddo brophwydo bump a deugain, neu yn hytrach, driugain mlynedd, ond, medd Vitringa yn ei *Prolegomena*, dychymyg disail yw. Nid yw debyg iddo brophwydo dan deyrnasiad Manasseh waedlyd; onidê, buasai hanes wedi ei adael am hyny; ac mae yn fwy tebyg fod geiriau yr apostol (Heb. 11. 37.) yn cyfeirio at ddyoddefiadau y merthyron dan erlidigaethau Antiochus Epiphanes, nag at farwolaeth Esaiah.

Y mae ei ysgrifeniadau, mewn rhan, yn hanesiol, ac mewn rhan, yn brophwydoliaethol, a barddonol.—Y mae hanes y brenin Uzziah, a ysgrifenwyd ganddo ef, yn awr wedi ei golli. 2 Cron. 26. 22. Y mae yr ysgrifeniadau sydd genym ni o'i waith, yn cynnwys rhan werthfawr ac ardderchog iawn o'r Bibl. Y mae Jerome yn galw ei ysgrifeniadau ef yn grynodeb o'r Bibl, ac yn gasgliad o ba beth bynag sydd o wybodaeth anghyffredin o fewn cyrhaeddiad meddwl dyn, mewn naturiaeth, a moesolrwydd, a duwinyddiaeth.* Y mae ei brophwydoliaethau wedi eu hysgrifenu mewn dull barddonol, yn ol trefn y brydyddiaeth Hebraeg, yn ol barn yr Esgob Lowth. Gwel *Prelim. Dissert.* Y mae ei olygiadau yn dra goleu ac efengylaidd: ei iaith yn ardderchog; a'i addurniadau yn briodol, yn ddysglaer, ac yn harddwych. Yn gymysgedig â'i brophwydoliaethau yn erbyn yr amrywiol deyrnasoedd brigog yn y dyddiau hyny, ni a gawn aml addewid werthfawr am y Messiah, ei waith, ei deyrnas fendigedig yn y byd, fel y gwelwn yn pen. 1. 18, 25, 26, 27. a 2. 1—5. a 4. 2—6. a 7. 14. a 8. 14. a 9. 6, 7. a xi, xii, xxv, xxvi, a 28. 16. a xxxv. O'r *ddeugeinfed*

* Quid loquar de Physica, Ethica & Theologica? Quicquid Sanctarum est Scripturarum, quicquid potest humana lingua proferre & mortalium sensus accipere, isto volumine continetur

Digitized by Google

bennod hyd ddiwedd y llyfr, er bod gwaredigaeth yr Iuddewon o Babilon, a gwagedd eilunod, yn achlysurol yn cael crybwyll am danynt; etto yr amcan penaf yw, rhagfynegi cnawdoliaeth, dyoddefiadau, a gogoniant y Messïah; gosodiad i fynu yr eglwys efengylaidd yn mhlith y Cenedloedd; anghrediniaeth a gwrthodiad yr Iuddewon, a'u hadferiad drachefn yn y dyddiau diweddaf.

Heblaw yr esbonwyr cyffredin ar yr holl Fibl, ysgrifenodd Vitringa, (Isellmyn) yn ddysgedig ac yn oleu ar y llyfr hwn yn Lladin. Y Dr. Lowth, Esgob Llundain, a roddodd gyfieithiad newydd o hono, yn nghyd â chystrawion achlysurol ar yr iaith, yr hwn sydd ddefnyddiol tu ag at iawn ddeall meddwl yr Ysbryd Glân ynddo. Yr ydwyf yn cyfrif fy hun dan rwymedigaethau mawrion i'r ddau awdwr hyn, yn enwedig y cyntaf, yr hwn sydd i'm tyb i yn esboniwr heb ei ail, o ran dysg, deall, gwybodaeth, duwinyddiaeth iachus, a golygiadau efengylaidd.*

ESAMPL. Edr. SIAMPL.

ESHARADON, *Heb.* אסר־חרן [*rhwymiad, hyfrydwch*, neu *lawenydd*] y trydydd mab i Senacherib, brenin Assyria, yr hwn a deyrnasodd yn ei le ef. 2 Bren. 19. 37. Wedi teyrnasu 29 o flynyddoedd yn Ninifeh ar Assyria, Mesessimordacus, brenin Babilon, a fu farw heb adael un mab i lywodraethu ar ei ol; yn ganlynol i hyny, bu y deyrnas mewn llawer o aflywodraeth a chythrwfl dros wyth mlynedd; yn y cyflwr terfysglyd hwn, Esarhadon a gofleidiodd yr achlysur i gymeryd meddiant o Babilon, a'i chwanegu at ei ymerodraeth o'r blaen, ac a deyrnasodd ar y ddwy dros 13 o flynyddoedd. Wedi teyrnasiad llwyddiannus dros 42 o flynyddoedd, bu farw, a'i fab Saosduchin, yr hwn a elwir yn llyfr Judith (pen. 1. 1.) Nebuchodonosor, a deyrnasodd yn ei le ef. Llefarir am dano yn yr ysgrythyrau, fel brenin Babilon a brenin Assyria: tywysogion brenin Assyria a ddaliasant Manasseh ac a'i dygasant i Babilon. 2 Cron. 33. 11. Yn Ezra 4. 10. gelwir ef *Asnappar mawr ac enwog;* yr hwn sydd yn dangos ei fod yn frenin o ragoroldeb ac enwogrwydd tu hwnt i neb arall a fu o'i flaen yn un o'r ddwy deyrnas. Darostyngodd yr Aipht ac Ethiopia; a Thartan ei ben cadben, a gymerodd Ashdod. Alltudiodd y gweddill o'r deg llwyth i'r parthau dwyreiniol o'i ymerodraeth; ac a ddygodd bobl o Babilon, ac o Cutha, ac o Afa, o Hamath, a Sepharfaim, ac a'u cyfleodd yn ninasoedd Samaria, yn lle meibion Israel. Esa. 37. 38. 2 Bren. 17. 24—38. 2 Cron. 33. 11. Ezra 4. 2, 10. Nah. 3. 8, 10. Edr. SAMARIA.

ESAU, *Heb.* עשו [*gweithiwr*] mab Isaac a Rebeccah, a brawd Jacob. 'Pan gyflawnwyd dyddiau Rebeccah i esgor, wele gefeilliaid oedd yn ei chroth hi. A'r cyntaf a ddaeth allan yn goch drosto i gyd fel cochl flewog; a galwasant ei enw ef Esau;' sef un cryf o *wneuthuriad*, a pharod i *waith*. Yr ydoedd Esau, pan gynnyddodd, yn wr yn medru ac yn hoffi hela, ac yn wr o'r maes; yr oedd Isaac yn hoff ganddo Esau, am ei fod yn bwyta o'i helwriaeth; ond Jacob ydoedd wr dysyml, yn cyfanneddu mewn pebyll; a Rebeccah a hoffai Jacob. Un diwrnod Jacob a ferwodd gawl o fresych cochion iddo ei hun; Esau a ddaeth o'r maes yn ddiffygiol, ac a ofynodd i Jacob iddo gael yfed o'r cawl coch hwnw. Jacob a nacâodd, oni werthai iddo ei enedigaeth-fraint. Ar hyn, Esau a ddiystyrodd ei enedigaeth-fraint, ac a'i gwerthodd am un saig o fwyd. Yr ydoedd braint y cyntaf-anedig yn cynnwys bendithion cyfammod Duw i Abraham a'i hâd; nid yn unig mewn perthynas i wlad Canaan, ond hefyd, Crist a'i iechydwriaeth. Yr ydoedd Jacob yn gweled gwerth mawr ynddynt, ond Esau a'u diystyrodd. Nis gellir meddwl fod Esau mewn perygl o farw o angen, ac yntau yn nhŷ Isaac ei dad; meddwl y geiriau, 'Wele fi yn myned i farw,' yw, 'Ni byddaf fi byth fyw i etifeddu Canaan, na dim o'r bendithion addawedig i ddyfod, a beth waeth pwy a'u caffont wedi i mi farw.' Iaith dyn halogedig oedd, fel y sylwa yr apostol, Heb. 12. 16, 17. un yn ddiystyr hollol o fendithion ysbrydol, ac yn llwyr-frydig am y cyflawniad o'i chwant presennol. Mat. 22. 5. Luc 14. 18, 20. Phil 3. 18. 19. Ei halogedigaeth, yn ol sylwad yr apostol, oedd yr achos iddo werthu ei enedigaeth-fraint, a'r holl fendithion cynnwysedig ynddi, a chysylltiedig â hi. Dangosodd ei halogedigaeth yn ei barodrwydd, ar achlysur mor ysgafn, i ymadael â hi: yn ei waith, heb ychwaneg o ystyriaeth, yn cadarnhau y gwerthiad â llw; yn ei ddiofalwch a'i ddiystyrwch o'r hyn a wnaeth, wedi i rym y brofedigaeth ddarfod; 'Efe a fwytaodd, ac a yfodd, ac a gododd, ac a aeth ymaith,' yn hollol ddiystyr o'r hyn a wnaeth: 'felly (medd yr Ysbryd Glân) y diystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint.'

Pan oedd Esau yn 40 mlwydd oed, efe, er mawr chwerwder ysbryd i'w rieni, a gymerodd ddwy o wragedd, o ferched y Canaaneaid, sef Judith, merch Beeri yr Hethiad, a Basemath, merch Elon yr Hethiad. Gen. 26. 34, 35.——Oddeutu 30 o flynyddoedd wedi hyny, wedi heneiddio Isaac, ac yn cydnabod ei hun yn agos i farw, bwriadodd fendithio Esau; ond bu Isaac fyw wedi hyn 44 o flynyddoedd. Dymunodd arno hela helfa iddo, a gwneuthur iddo flasus-fwyd, y fath a garai, 'fel y bwytawyf,' medd Isaac, 'fel y'th fendithio fy enaid cyn fy marw.' Esau a aeth i'r maes i hela helfa, ac i'w dwyn: yn y cyfamser, y mae Rabeccah yn dysgu Jacob, yn rhith Esau, i'w chael. Pan ddychwelodd Esau, ac yr hysbysodd ei dad iddo yr hyn a wnaed, y mae Esau yn cwynofain, a thrwy daerni yn caffael bendith yntau hefyd. Ond wrth fendithio Esau, y mae Isaac yn addef iddo wneuthur Jacob yn arglwydd iddo; ac iddo roddi ei holl frodyr yn weision iddo. Y mae bendith Isaac i Esau yn ddarluniad prophwydoliaethol o ansawdd y wlad y preswyliai ei hiliogaeth ynddi, a'u holl helyntion tra byddent yn genedl: 'Wele, yn mrasder y ddaear y bydd dy breswylfod, ac yn mysg gwlith y nefoedd oddi uchod. Wrth dy gleddyf hefyd y byddi fyw, a'th frawd a wasanaethi: onid bydd amser pan feistrolech di, ac y torech ei iau ef oddi am dy wddf.' Edr. IDUMEA.

'Chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith; oblegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi.' Heb. 12. 17. Gwrthodwyd ef gan ei dad fel gweinidog Duw yn hyny, pan yr oedd yn ewyllysio etifeddu y fendith; taer-geisiodd y fendith (*αυτην, hi*) trwy ddagrau, ni chafodd ei gais le trwy edifeirwch, neu gyfnewidiad meddwl ei dad. Mae yn amlwg mai y peth oedd Esau yn ei geisio oedd y fendith, ac nid edifeirwch. Nid oedd yn cydnabod un bai ynddo ei hun, ond yn ei frawd: nid oedd yn ceisio newid ei feddwl ei hun, ond meddwl ei dad i ddadwneyd yr hyn a wnaeth; ond ni chafodd Isaac le i hyny, ni oddefodd Duw iddo, gweinidog yr hwn oedd yn y cwbl: 'Mi a'i bendithiais ef, a bendigedig hefyd fydd efe.' Er i Esau ddyrchafu ei lef a wylo, a thaer-geisio y fendith trwy ddagrau, etto y mae yn dra amlwg fod ei feddwl yn hollol heb ei gyfnewid, ac mai Esau halogedig oedd efe etto yn parhau.

Ennynodd llid Esau yn ddirfawr yn erbyn Jacob, am iddo yn dwyllodrus ei yspeilio ef o'i fendith. Bwr-

* Heblaw yr awduron a enwyd uchod, cyfeirir y darllenydd at Gyfieithiad o'r Prophwyd Esaiah, gan y Parch. J. Jones, (Tegid) yn mha un y cymharir cyfieithiadau Schmidt, De Dieu, Vitringa, Lowth, Stock, Dathe, Rosenmüller, Gesenius, ac eraill, Hefyd at waith y Dr. Henderson ar Esaiah, a'r eiddo J. A. Alexander, New York, ar Brophwydoliaethau Esaiah.—C.

Digitized by Google

ladodd ladd Jacob o'r achos, ar ol marwolaeth ei dad, yr hyn yr oedd efe yn ei ddisgwyl, yn gamsyniol, a ddygwyddai yn fuan. Rebeccah a'i siomodd, trwy anfon Jacob i Padan-Aram.—Pan welodd Esau mai drwg oedd merched Canaan yn ngolwg Isaac ei dad (nid oes sôn am ei fam) Esau a gymerodd Mahalath, merch Ismael, mab Abraham, yn wraig iddo, at ei wragedd eraill.—Tebygol i Esau symud oddiwrth ei rïeni ar ol hyn, i wladychu yn Seir, lle yr oedd gweddill yr Horiaid yn preswylio; priododd Aholibama, merch Ana yr Hethiad, mab Sibeon yr Horiad. Gen. 36. 2, 4, 20.

Yn mhen ugain mlynedd, Jacob a ddychwelodd o Padan-Aram, i ba le y ffôdd rhag digofaint Esau. Jacob a anfonodd genadau âg anrhegion i ddyhuddo ei frawd; y mae yntau yn dyfod o fynydd Seir i gyfarfod Jacob, â 400 o wyr gyd âg ef, i'r dyben, tebygol, i'w ddystrywio ef, a'r hyn oll a feddai. Pan gyfarfuant o du y dehau-ddwyrain i Fôr Galilea, yr oedd Esau wedi ei lareiddio, ac efe a gyfarchodd Jacob yn dra charedig. Jacob a fu daer arno dderbyn ei anrhegion, ac yntau, gyda gradd o anhawsdra, a'u cymerodd. Wedi hyn cawn hwynt yn cyd-gladdu eu tad Isaac: ond gan nad allai y wlad eu cynnwys hwy a'u hanifeiliaid, Esau a ddychwelodd i'w fynydd Seir, y wlad a roddodd yr Arglwydd iddo i'w hetifeddu. Gen. 36. 8. Deut. 2. 5. Jos. 24. 4.—Nid oes hanes am ei farwolaeth. Yr oedd i Esau bump o feibion, a phedwar ar ddeg o ŵyrion, y rhai oeddynt dduciaid yn ngwlad Edom. Yr Edomiaid, hiliogaeth Esau, a gyd-briodasant â'r Horiaid, nes y darfu am y diweddaf, a'r Edomiaid a feddiannasant, yn gwbl, eu gwlad. Edr. Idumea.——Y mae Shuckford, ac eraill, wedi ceisio gwneyd allan fod Esau yn ddyn duwiol; ond gan fod hyny yn gwbl groes i dystiolaeth yr apostol am dano, yn ei alw yn un *halogedig*, nid oes achos ychwanegu geiriau yn nghylch hyny.

'Canys cyn geni y plant etto, na gwneuthur o honynt dda na drwg, fel y byddai i'r arfaeth yn ol etholedigaeth Duw sefyll, nid o weithredoedd, eithr o'r hwn sydd yn galw, y dywedwyd wrthi, Yr hynaf a wasanaetha yr ieuengaf. Megys yr ysgrifenwyd, Jacob a gerais, eithr Esau a gasêais.' Rhuf. 9. 11, 12, 13. Nid ydyw Duw yn casâu un creadur, fel y cyfryw; canys y mae ei holl weithredoedd yn dda iawn yn ei olwg. Fel y mae dynion yn bechaduriaid wrth natur, y maent oll yn gwbl haeddiannol o gasineb Duw, ac angerdd ei ddigofaint; nid oes dim gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall, oni wna yr Arglwydd wahaniaeth rhyngddynt: os gwna mewn un gradd i'r naill ragori ar y llall, bydd hyny yn hollol o ras, ac o'i ewyllys da; y mae yn gwneyd hyny am ei fod, o'i ben-arglwyddiaeth, yn dewis gwneuthur felly. Y mae hyn wedi ei ddangos yn dra amlwg, yn ei wahanol ymddygiad tu ag at y ddau frawd, Jacob ac Esau. Yr oedd y ddau yn hollol anhaeddiannol o ewyllys da yr Arglwydd; ond cyn eu geni, ac, yn ganlynol, cyn gwneuthur o honynt dda na drwg, hysbysodd ei fwriad arfaethol, o ddangos ei ddaioni i Jacob rhagor i Esau. Pe buasai yr arfaeth yn dibynu ar weithredoedd dynion, gan fod y sylfaen yn ansicr, nis gallasai yr adeiladaeth fod yn sicr; ond gan fod yr arfaeth yn dibynu ar sylfaen sicr, safadwy, sef cariad pen-arglwyddiaethol Duw, bydd i'r arfaeth yn ol etholedigaeth Duw sefyll. Nid am eu hiliogaeth, ond am eu personau hwy ill dau, y mae yr apostol yn ysgrifenu, fel siampl o etholedigaeth a galwedigaeth i fywyd tragywyddol, yn ol arfaeth Duw a'i ras. Am arfaeth a galwedigaeth i fywyd tragywyddol, y mae yr apostol wedi bod yn sôn yn y bennod o'r blaen, adn. 30. ac mae adn. 22. o'r bennod hon, yn gwneuthur hyny tu hwnt i bob dadl. O'i gariad rhad y mae yn rhag-barotoi llestri trugaredd *i ogoniant;* a thrwy hir-ymaros, y mae yn goddef llestri digofaint, wedi eu cymhwyso *i golledigaeth.* Llestri trugaredd yw, nid yr Iuddewon na'r Cenedloedd, fel y cyfryw, ond y rhai a alwodd efe *o'r* Iuddewon, ac *o'r* Cenedloedd.—'Y *gweddill* a achubir o feibion Israel.' Rhuf. 9. 24, 27.

Y mae y cynllun yn hynod addas i gadarnhau y testun y mae yr apostol yn ymadroddi yn ei gylch: yr oedd y ddau hyn o'r un tad ac o'r un fam, ac nid fel Isaac ac Ismael, o wahanol famau; yn efeilliaid; a chyn gwneuthur o honynt dda na drwg, a phob un o'r ddau yn wreiddiol yn bechaduriaid, o ran eu cyflyrau wrth naturiaeth, y dywedodd yr Arglwydd wrth Rebeccah, 'Yr hynaf a wasanaetha yr ieuengaf.' Galwad Duw, gan hyny, a wnaeth yr holl wahaniaeth rhyngddynt; ac os o'r hwn sydd yn galw, yna y mae o'r hwn sydd yn ethol; canys ni byddai galwedigaeth, oni bai fod etholedigaeth.

ESBAN, אשבן [*tân y mab*] mab Dison, ac ŵyr Esau. Gen. 36. 26.

ESBON, neu OZNI, pedwerydd mab Gad, a thad tylwyth yr Ozniaid. Gen. 46. 16. Num. 26. 16.

ESBONIO, *Llad.* Expono; dehongli, hysbysu, egluro, amlygu.—'Efe a esboniodd iddynt yn yr holl ysgrythyrau y pethau am dano ei hun.' Luc 24. 27. —'Efe a agorodd iddynt yn yr holl ysgrythyrau y pethau oeddynt ysgrifenedig o honaw ef.' Dr. M. Wrth yr holl ysgrythyrau, deallwn, *Moses a'r holl brophwydi;* y mae yn yr holl ysgrifeniadau sanctaidd hyn addewidion, rhag-ddywediadau, a rhag-ddangosiadau cysgodol o'r Arglwydd Iesu, ei ddarostyngiad, ei ddyoddefiadau, a'i ddyrchafiad, a'i fynediad i mewn i'w ogoniant. Y mae y pethau am yr Iesu ynddynt i gyd, a dyben penaf eu cyfansoddiad oedd i'w ddadguddio. Pwy bynag nad yw yn gweled Iesu yn yr holl ysgrythyrau, y mae yn sicr nad ydyw yn eu deall fel yr oedd ef yn eu deall, ac am hyny nis dichon fod yn eu hiawn ddeall, ac y mae yn anaddas i'w hesbonio i eraill. Act. 24. 14, 15. Ioan 1. 45. Gen. 5. 15. a 22. 18. a 26. 4. a 49. 10, 11. Deut. 18. 15. Ps. 132. 11. Esa. 7. 14. a 9. 6, &c.

ESCOL, *Heb.* אשכל [*grawn-swp*] 1. Un o gynghreirwyr Abraham, a'i cynnorthwyodd yn erbyn Cedorlaomer brenin Elam. Gen. 14. 24.——2. Dyffryn, neu afon (נחל) neu ddyffryn âg afon yn rhedeg trwyddo, yn nhu dehau i Judah—a alwyd felly, naill ai oddi wrth Escol, neu oddi wrth y grawn-swp a ddygodd yr yspiwyr oddi yno, pan aethant i yspio y wlad. Num. 13. 24.

ESEAN, *Heb.* אשען [*cynnaliedig*] dinas yn Judah. Jos. 15. 52.

ESEC, *Heb.* עשק [*cynhen*] 1. Yr enw a roddodd Isaac ar y ffynon y bu bugeiliaid Gerar yn ymgynhenu â bugeiliaid Isaac yn ei chylch. Gen. 26. 20. ——2. Mab Mola. 1 Cron. 8. 39.

ESGAIR, ESGEIRIAU, (esg) *Gr.* σκελος; *Llad.* Crus; côs, llorp, gomach, hèr. Y mae esgeiriau yn arwyddo, weithiau, cryfder dyn. Ps. 147. 10. Deut. 28. 35. Diar. 26. 7. Ioan 19. 31, 32, 33.

ESGEULUS—O, (cael) *Llad.* Negligens: gwallus, diddarbod, difraw, diofal, annyfal, gwallygus.—'Duw, wedi esgeuluso amseroedd yr anwybodaeth hon.' Act. 17. 30.—'Ac amser yr anwybot hyn, nid oedd Dew yn ystyriaw.' W. S.—'Ac yn amseroedd yr anwybod hyn, nid oedd Duw yn cymeryd arno weled.' Dr. M. *Gr.* υπεριδων ο Θεος. Y gair *υπερειδω*, a arwydda *edrych heibio, esgeuluso, diystyru, ymddwyn fel pe bai un heb weled.* Mintert. Y mae yr un gair Groeg yn cael ei arferyd gan y LXX. yn Lef. 20. 4. 'Os pobl y wlad gan guddio a guddiant eu llygaid oddi wrth y dyn hwnw (pan

Digitized by Google

roddo efe ei hâd i Moloch) ac nis lladdant ef.' Cuddio llygaid yn y fan hon, a arwydda, peidio edrych ar y dyn a'i fai, i'w gospi am dano. Deut. 21. 1—4. Felly nid oedd Duw yn holl amseroedd yr anwybodaeth hon, er amldra a ffieidd-dra y pechodau, yn edrych arnynt i'w cospi o'u plegid, a'u hollol ddinystrio. Neu, ynte, yr oedd yn eu hesgeuluso mewn cymhariaeth, heb roddi y fath alwad taer a chyffredinol ar y Cenedloedd ag y mae yn bresennol trwy yr efengyl, i edifarhau a derbyn maddeuant pechodau. Yr awr hon, mae o'i anfeidrol ddaioni, yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man i edifarhau. Luc 24. 27. Y mae y gair yn cael ei gyfieithu *dirmygu* yn y lleoedd canlynol, Lef. 26. 15, 43. Num. 11. 20. Gwel 1 Sam. 15. 23, 26.

'Minnau a'u hesgeulusais hwythau;' (Heb. 8. 9.) sef a ymddygais tu ag atynt fel y gwnai gwr tu ag at ei wraig buteinllyd, a dorodd ei chyfammod âg ef trwy ei haflendid.

'Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iechydwriaeth gymaint?' Heb. 2. 3. Esgeuluso iechydwriaeth, yw bod yn ddiystyr o'r efengyl sydd yn ei chyhoeddi. Mat. 22. 5, 6. Gollwng y pethau a glywsom i golli; neu bod y gair heb ei gyd-dymheru â ffydd. Heb. 2. 1. a 4. 2. Mae esgeuluso iachawdwriaeth yn bechod ac yn ynfydrwydd mawr iawn. Y mae yn bechod mawr, ac yn cynnwys ynddo ddiystyrwch o Dduw, yn wyneb y dadguddiad mwyaf eglur o holl ddyfnderoedd ei ddoethineb, ei gariad, a'i ddaioni. Mae ynddo ddiystyrwch o'r Tad, yn ei waith yn rhoddi ei Fab drosom; diystyrwch o'r Mab, yn holl ddyfnderoedd ei gariad a'i ddyoddefiadau; a diystyrwch o'r Ysbryd Glân, yn ei holl raslonrwydd, ei radau, a'i gysuron. Y mae hefyd yn cynnwys ynddo yr ynfydrwydd a'r ffolineb mwyaf; canys pwy ond ynfydion gwallgof a esgeulusai yr unig feddyginiaeth i'w cyflyrau truenus sydd bosibl iddynt byth ei chael. Heb yr unig iechydwriaeth hon, y mae eu cyflyrau yn hollol anaele, dros dragywyddoldeb.

ESGID—IAU, (es-cid) archen, archeniad. *Gwydd.* Cuarau, Brog: *Heb.* נעל *peth gwedi ei sicrhau; Gr.* υποδημα, *peth oddi tanodd, gwedi ei rwymo.*— Mae y gair Hebraeg a'r Groeg yn ddarluniad o ddull gwneuthuriad esgidiau gynt, sef gwadn dan y troed, gwedi ei rwymo oddi arnodd, a'i sicrhau felly wrth y troed. Gelwir hwynt sandalau, yn Marc 6. 9. Act. 12. 8. Yr oedd gan yr hynafiaid ddau fath o esgidiau, sef rhai yn gorchuddio y traed i gyd, fel ein hesgidiau ni yn bresennol, y rhai a alwent hwy *Calceus, Mulleus, Pero, Phæcasium;* a rhai eraill yn amddiffyn gwadnau y traed yn unig, gwedi ei cylymu oddi arnodd â chareiau, y rhai a alwent *Caliga, Solea, Crepida, Baxea, Sandaleum.* Yr oedd esgidiau y milwyr yn cael eu gwneuthur o fettel, megys haiarn a phres. 'Haiarn a phres fydd dan dy esgid di:' neu fydd dy esgidiau. Deut. 33. 35. Yr oedd gan Goliath fotasau pres am ei draed. 1 Sam. 17. 6. Dywed Vegetius fod y Rhufeinwyr yn gwisgo esgidiau heiyrn. Byddent hefyd yn gwisgo pres a haiarn yn ddalenau dan eu hesgidiau, ac â hoelion ynddynt; ac felly y mae pob gradd yn gwneuthur yn ngwledydd y dwyrain hyd heddyw. Gwel Bellon, *Observ. lib.* iii. *cap.* 44.

Yn mblith yr Iuddewon yr oedd y caeth-weision yn myned yn droed-noeth; yr oedd eraill, pan yr aent allan, yn gorchuddio eu traed a'u coesau; a'u pendefigesau a'u gorchuddient â defnyddiau gwerthfawr a harddwych. Can. 7. 1. Ezec. 16. 10. Judith 10. 4. Gwel Lady M. W. Montague's *Letters, let.* xxix., a *let.* xxxiii. Homer, *Il.* 14. *l.* 186.—Yn gyffredinol, nid oedd eu hesgidiau o fawr werth; am hyny, mae par o esgidiau yn arwyddo gwobr bychan iawn. Amos 2. 6.

'Dyosg dy esgidiau oddiam dy draed.' Exod. 3. 5 Jos. 9. 5. Yr oedd dyosg esgidiau yn y dyddiau hyny, yn arwydd o barchedigaeth, fel y mae hyd heddyw mewn amryw o'r gwledydd dwyreiniol. Y mae yr Iuddewon yno yn dyosg eu hesgidiau cyn yr elont i mewn i'w synagogau. At hyn y cyfeiria y prydydd Rhufeinaidd Juvenal,

*Observant ubi festa* mero pede *Sabbata reges.*
*Sat. 6. lin.* 158.

Sef, 'Mae breninoedd yno yn cadw gwyliau sabbothol yn droed-noeth.' Tebygol fod yr offeiriaid yn gweini yn y babell yn droed-noeth, gan nad oes dim hanes am eu hesgidiau na'u sandalau yn y desgrifiad o'u gwisgoedd. Y mae y Mahometaniaid yn dyosg eu hesgidiau, ac yn eu gadael wrth ddorau eu temlau. Y mae y Gentoos, yn bresennol, yn dyosg eu hesgidiau pan yr elont i'w temlau, neu i ystafell rhyw wr mawr. Ymddangos yn ngwydd un yn droed-noeth, yw yr arwydd mwyaf o barch yn eu plith. Nid ydyw y Cristionogion yn Abyssinia, hyd heddyw, byth yn myned i'w tai o addoliad, heb ddyosg eu hesgidiau Gwel Joseph Mede's *Works.* Millar's *Hist. Propogation of Christianity, vol.* ii. Yr oedd yr Arglwydd yn gorchymyn hyn i Moses a Josuah, fel arwydd o'u gostyngeiddrwydd, eu hunan-ffieiddiad, a'u dwfn barch ger bron y presennoldeb dwyfol; ac o'u cydnabyddiaeth nad oedd eu rhodiad yn lân ac yn bur ger ei fron ef. Gen. 28. 16, 17. Preg. 5. 1. Ioan 13. 10. Act. 7. 33.

'Fel hyn y bwytewch ef,' sef y pasc, 'wedi gwregysu eich lwynau, a'ch esgidiau am eich traed, a'ch ffyn yn eich dwylaw.' Exod. 12. 11. Yr oedd hyn i gyd yn arwydd o frys mawr; canys, yn gyffredinol, yr oeddynt, yn ddiammeu, yn dyosg eu hesgidiau pan yr aent i fwyta, fel y gwnant yn y gwledydd dwyreiniol hyd heddyw. Gwel Harmer's *Observat.* Yr oedd gwisgo eu hesgidiau, ar yr achlysur hwn, nid yn unig yn arwyddo brys mawr, ond hefyd eu rhyddhad o'u caethiwed, a'u llawenydd mawr o herwydd hyny; gan fod heb esgidiau yn arwyddo galar, darostyngiad, a chaethiwed. Esa. 20. 4. 2 Sam. 15. 30. Ezec. 24. 17.

Gwr 'yn dyosg ei esgid, ac yn ei rhoddi i'w gymydog,' oedd arwydd o roddiad i fynu ei hawl iddo. Ruth 4. 7. Os gwrthodai un wneuthur rhan cyfathrachwr â gweddw ei frawd trwy ei phriodi, yr oedd y gyfathrach-wraig, yn ngwydd yr henuriaid, i ddattod ei esgid oddiam ei droed, a phoeri yn ei wyneb, yn arwydd ei fod yn haeddu cael ei drin, ac ymddwyn tu ag ato, fel caethwas, neu ryw wael-ddyn dirmygus. Deut. 25. 9. Mae rhai yn barnu mai nid yn wyneb y dyn yr oedd y wraig i boeri, ond ar *arwyneb* (לפני Deut. 11. 25.) yr esgid, gwedi ei thynu oddiam ei droed: neu ynte, poeri ar y ddaear *yn ei wydd,* neu o'i flaen, yr hyn ydoedd yn arwydd o anmharch a chywilydd. Deut. 4. 37. Num. 12. 14. Esa. 50. 6. Gwel *Appendix to* Calmet's *Dictionary. Frag.* 101.

Dwyn, neu ddattod esgidiau un, a arwydda y gwasanaeth gwaelaf a ellir wneuthur iddo. Y cyfryw wasanaeth yr oedd Ioan Fedyddiwr yn golygu ei hun yn rhy wael i'w wneuthur i Grist, ac yn ormod anrhydedd iddo. Y caeth-weision oedd, yn gyffredin, yn dwyn yr esgidiau, neu y sandalau, y rhai a enwent, *pueri sandali-geruli.* Yr oedd Ioan yn gweled ei hun yn rhy wael i fod yn *sandali-gerulus* i'r Iachawdwr, gan y fath feddyliau parchus oedd ganddo am dano. Mat. 3. 11. Luc 3. 16.

'Dros Edom y bwriaf fy esgid:' hyny yw, darostyngaf Edom dan fy nhraed; ac a wnaf i'r Edomiaid wasanaethu yn y gwasanaeth gwaelaf caeth-weision: neu, mi a daflaf fy esgid ar Edom, fel i ryw le dirgel, y fath a fyddent yn taflu sandalau, neu ddillad budron iddo, cyn eistedd i lawr i fwyta. Ps. 60. 8. Gen.

Digitized by Google

25. 23. Num. 14. 18. 2 Sam. 8. 14. 1 Cron. 18. 13. Gwel Merrick's *Annot.*

'A gwisgo am eich traed esgidiau parotoad efengyl tangnefedd.' Eph. 6. 15. Y mae esgidiau haiarn, neu o bres, yn neillduol o fuddiol i filwyr, pan fyddo gorfod arnynt droedio ffyrdd geirwon, a rhyfela â gelynion hefyd; felly y mae efengyl y tangnefedd yn gweithredu y fath agwedd ar eneidiau y rhai sydd yn ei gwir gredu, ag sydd yn eu haddasu i'r amgylchiadau mwyaf cyfyng, ac i ymladd â'r gelynion mwyaf creulon, yn yr amgylchiadau hyny. Nid ydyw gerwindeb y ffordd o ddim niwed, os bydd esgidiau addas am eu traed; felly y mae y rhai sydd wedi eu cyfiawnhau trwy ffydd, ac yn byw yn heddwch Duw, 'yn gorfoleddu mewn gorthrymderau.' Rhuf. 5. 3. Edr. Amynedd.

'Mor dêg yw dy draed mewn esgidiau, ferch pendefig!' Can. 7. 1. Fel yr oedd bod heb esgidiau, neu tynu esgid, yn arwydd o dlodi, caethiwed, a bod heb hawl i'r etifeddiaeth wedi ei cholli, anaddas fuasai fod yr eglwys heb ei hesgidiau, gan ei bod yn ei phriod wedi ei gwaredu o'i thlodi a'i chaethiwed, a'i hawl i'w hetifeddiaeth wedi ei adferyd iddi. Y mae yn ei hesgidiau yn rhydd, yn gyfoethog, ac yn byw mewn sicr obaith o etifeddiaeth dragywyddol. Y mae eisoes mewn meddiant o freintiau uchel; yn hardd yn ei rhodiad; ac, yn aml, yn gysurus ac yn orfoleddus, dan obaith gogoniant Duw, yr hyn y mae esgidiau am y traed yn ei arwyddo. Esa. 20. 4. 2 Sam. 15. 30. Rhuf. 5. 2. Merch pendefig ydyw, trwy ei genedigaeth ysbrydol; a gwraig yr Oen, trwy ei ffydd ynddo; y mae ei hagwedd a'i hymddangosiad, i lygad ysbrydol, yn addas i'r fath waedoliaeth, a pherthynas oruchel.

'Nac esgidiau;' (ηηδε υποδηματα) 'eithr eu bod â sandalau am eu traed;' (αλλ'-υποδεδεμενους σανδαλια.) Mat. 10. 10. Marc 6. 9. Nid oedd iddynt feddu dim esgidiau, ond y sandalau oedd eisoes am eu traed. Yr oeddynt i gael pob peth oedd yn gynnorthwyol, ond nid dim oedd yn debyg o fod yn rhwystr iddynt yn eu gwaith. Bod gwahaniaeth rhwng esgidiau a sandalau sydd eglur oddi wrth y lleoedd hyn; er y barna Beza ac Erasmus mai yr un oeddynt. Yr oedd esgidiau yn fwy gwych na'r sandalau, ac yn cael eu gwisgo yn fwy anghyffredin; ac yr oeddynt yn cael eu gwneyd o ledr mwy esmwyth. Yr oedd sandalau â'u gwadnau o bren, a'r rhan uchaf o ledr wedi ei gydio â hoelion. Gwnaent sandalau hefyd o frwyn, a rhisgl y palmwydd, &c.

ESGOB—ION, neu YSGOB, (cob) *Gr.* επισκοπος; *Llad.* Episcopus; *Gwydd.* Espag: golygwr, goruchwyliwr; un yn llywodraethu.

Câs *esgob* heb ddysg. *Diar.*

Y mae yr Arglwydd Iesu yn cael ei alw wrth yr enw hwn. 1 Petr 2. 25. Mae efe yn esgob, neu yn olygwr eneidiau, wrth ei swydd, fel eu prophwyd, a'u brenin; mae efe yn *bwrw golwg* (επισκοπεω) arnynt yn ewyllysgar (εκουσιως) yn rhydd, yn barod, o'i gariad a'i ewyllys da tu ag atynt. Y mae yn anfeidrol gyflawn o bob cymhwysder i gyflawni ei swydd; mae ynddo gariad difesur; gwybodaeth o honynt, a'u holl amgylchiadau, sydd berffaith gyflawn; a ffyddlondeb a gallu cyfatebol i'w gariad a'i wybodaeth o honynt. Oddi wrtho ef, fel ffynon anhyspyddedig, y mae pob gradd o ysbryd bwrw golwg, ac edrych ar ol y praidd, yn deilliaw, sydd gan neb o'i weision dano. Mae efe yn rhoddi o'i Ysbryd ei hun i bawb y mae efe yn osod yn y swydd esgobaidd dano: os oes neb wedi rhuthro i'r swydd sanctaidd, heb Ysbryd Crist ganddo, yn ei addasu i'r swydd, nid Crist a'i gosododd ynddi.—Yn mhob man arall, heblaw y lle hwn, yn y Testament Newydd, mae y gair yn cael ei briodoli i ddynion sydd yn olygwyr ar braidd Crist. Act. 20. 28. Phil. 1. 1. 1 Tim. 3. 2. Tit. 1. 7. Y gair yn nghyfieithiad y LXX., o ba un, tebygol, y cymerodd ysgrifenwyr y Testament Newydd ef, a arwydda *golygwr.* 1. Golygwyr byddin, y rhai a elwir yn ein cyfieithiad ni, swyddogion, neu dywysogion. Num. 31. 14. Barn. 9. 28. 2 Bren. 11. 15.——2. Golygwyr ar weithwyr. 2 Cron. 34. 12, 17.——3. Golygwyr, neu goruchwylwyr ar dŷ yr Arglwydd. 2 Bren. 11. 18.——4. Swyddwyr gwladol, neu eglwysig. Neh. 11. 9, 14, 22.——5. Y mae Eleazar yn cael ei alw felly, yn y cyfieithiad hwnw; oblegid ei fod yn golygu y babell a'i dodrefn. Num. 4. 16.

Yn y Testament Newydd, y mae yn cael ei briodoli i olygwyr ysbrydol yn eglwys Dduw, yn unig; ac y mae yn arwyddo mai eu gwaith ydoedd gwylied dros, bwrw golwg ar, a phorthi praidd Duw. Nodau rhai o anfoniad Duw, ac felly i'w derbyn gan yr eglwys, yw y rhai a ganlyn; sef, 'Eu bod yn ddiargyhoedd, yn wr un wraig, yn wyliadwrus, yn sobr, yn weddaidd, yn llettygar, yn athrawaidd; nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa; eithr yn dirion, yn anymladdgar, yn ddiariangar.' 1 Tim. 3. 2, 3. Mewn esgob, y mae dysg a doniau yn *angenrheidiol;* ond nid ydynt yn *ddigonol,* nac yn nôd chwaith fod un dyn gwedi ei alw i'r swydd oruchel hon, heb ei fod gwedi ei gynnysgaethu hefyd âg *ysbrydolrwydd meddwl,* a *sancteiddrwydd buchedd.* Bydded ei ddysg a'i ddoniau o'r gradd helaethaf, heb sancteiddrwydd efengylaidd, mewn ysbryd a bywyd, mae yn llygru teml Duw; a Duw a lygra, neu a ddystrywia hwnw yn y diwedd. Nid chwant at fudr-elw, neu am dra-arglwyddiaeth, sydd yn cymhell y rhai a anfonodd Duw i'r swydd, ond cariad syml a diragrith at ogoniant Duw, ac eneidiau dynion. Y mae gwaith y swydd sanctaidd, a llesâd ac ymgeledd praidd Duw, yn fwy yn eu golwg na dim elw, na pharch, a ddichon iddynt gael wrth weinyddu ynddi. Y maent yn deilwng o gynnaliaeth a pharch hefyd, 'y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth;' ond y mae yr achosion cymhelliadol hyn yn rhy wael i'w hannog i gymeryd y fath swydd arnynt. Ioan 21. 15, 16, 17. 1 Tim. 5. 17. Gwneuthur masnach, neu farsiandiaeth fydol, er mwyn budr-elw, o'r swydd sanctaidd hon, sydd bechod ysgeler iawn. Yn lle porthi y praidd, porthi eu hunain a wna y cyfryw rai; a llywodraethu y praidd â thrais a chreulondeb. Y cyfryw a eilw y prophwyd yn gwn gwancus, na chydnabyddant â'u digon, yn wynebu at eu ffordd eu hun, pob un at ei elw ei hun o'i gŵr; cŵn mudion, heb fedru cyfarth; yn cysgu, yn gorwedd, ac yn caru hepian. Esa. 56. 10, 11. Ezec. 34. 10. Zech. 11. 17. I deyrnas Satan y mae yr achosion cymhelliadol uchod yn perthyn; olwynion cynhyrfiol yn ei lywodraeth halogedig ef ydynt. Golygiadau eraill, dybenion eraill, a hollol wahanol, ïe, cynhyrfiadau ysbrydol, pur, ac efengylaidd, yn cael eu gweithio ynddynt gan yr Ysbryd Glân, sydd yn meddiannu, yn cymhell, ac yn annog gwir genadon Crist. Eu gwaith penaf yn y byd yw 'edrych at y weinidogaeth a dderbyniasant gan yr Arglwydd, ar iddynt ei chyflawni hi.' Col. 4. 17.

ESGOBAETH, swydd golygwr, neu esgob yn eglwys Crist. Act. 1. 20.

ESGOR, (es-cor) dwyn newyddian i'r byd; hefyd, ysgar, gollwng ymaith, gwahanu.—Y mae tri pheth, medd meddygon, yn ofynedig mewn esgoriad naturiol: yn 1. Fod ymdrech addas yn y fam a'r plentyn, y naill i esgor a'r llall i gael esgor arno.—2. Bod y plentyn yn dyfod i'r byd â'i ben yn flaenaf, yr hyn yw ei gyflëad naturiol.—3. Bod yr esgoriad yn fuan ac yn rhwydd.—Effeithiau pechod ydyw doluriau a gwëwyr esgor. 'Wrth y wraig y dywedodd, Mewn poen y dygi blant.' Gen. 3. 16. 'Ond cadwedig fydd wrth ddwyn plant, os arosant hwy mewn ffydd,

Digitized by Google

a chariad, a sancteiddrwydd, yn nghyd â sobrwydd,' 1 Tim. 2. 15. (*δια της τεκνογονιας*) *trwy yr esgoriad*, neu *yr esgoredigaeth*. Adda a luniwyd yn gyntaf, ond Efa a bechodd yn gyntaf; etto, er hyny, cadwedig fydd trwy esgoriad; trwy esgoriad ar Iachawdwr, priodol Hâd y wraig; 'os arosant mewn ffydd,' &c. Os bydd ganddynt y fath ffydd wirioneddol ynddo, yr hon a barhâ, ac a weithia trwy gariad. Trwy y wraig y daeth pechod i'r byd; trwy esgoriad gwraig hefyd y daeth Ceidwad a Gwaredwr oddi wrtho i'r byd. Er iddi bechu yn gyntaf, etto cadwedig fydd hi a'i hiliogaeth, os bydd ganddynt wir ffydd—y mae Gwaredwr wedi esgor arno. Y mae y geiriau yn cyfeirio at yr addewid gyntaf yn Eden, am Hâd y wraig. Gen. 3. 15.

Annuwiolion yn 'esgor ar wagedd, ar gelwydd, ar wynt,' a arwydda nad yw eu holl boen a'u llafur yn ateb un dyben llesol iddynt hwy eu hunain, nac i neb arall. Y maent yn *ymddwyn*, ac yn *beichiogi*, ac yn *esgor*: sef, y maent yn llawn poen, trafferth, a gofidiau; ond gwynt, gwagedd, celwydd, ac anwiredd, ydyw yr holl ffrwyth. Ni ddaw dim allan o honynt, ond yr hyn sydd yn cyfateb i'r meddwl tywyll, llygredig, sydd ynddynt. Iago 1. 15.. Y gair *Heb.* און a gyfieithir *gwagedd*, yn Job 15. 35. a arwydda *gwagedd*, *celwydd*, neu *anwiredd*; yr hyn sydd, medd Parkhurst, yn peri galar, a chystudd, sef drygioni, anwiredd, a gwagedd. Ps. 7. 14. Esa. 26. 18.—Mae y geiriau *llef—gwewyr—gofid—cnofeydd—tristwch* gwraig *wrth esgor*, yn arwyddo, yn allegawl, tristwch, gorthrymderau, a gofidiau trymion, disymwth, anocheladwy, nas gellir dianc rhagddynt, mwy na gwraig feichiog rhag gwewyr esgor. Esa. 13. 8. a 21. 3. Jer. 6. 24. a 13. 21 a 22. 23. Hos. 13. 13. Ioan 16. 21. 1 Thes. 5. 3.

'Cyn ei chlafychu,' sef Sïon, 'yr esgorodd: cyn dyfod gwewyr arni, y rhyddhawyd hi ar fab.' Esa. 66. 7. Y mae y geiriau yn brophwydoliaeth am lwyddiant yr efengyl, yn benaf yn mysg y Cenedloedd, yn nyddiau yr apostolion; ac yn aml, gwedi hyny, hyd ddiwedd amser. Yr oeddynt yn cael eu dychwelyd i'r ffydd, ac yn cael eu geni yn Sïon, yn lluoedd, yn ddisymwth, ac yn annysgwyliadwy iawn, fel pe buasai gwraig yn esgor cyn dyfod gwewyr arni. Y mae yr Arglwydd, weithiau, yn dwyn ei waith yn mlaen gyda llaw uchel a braich estynedig; yn bywhau dyffryn o esgyrn sychion ar unwaith, fel 'y buont fyw, ac y safasant ar eu traed, yn llu mawr iawn.' Ezec. 37. 10. Er nad ydyw y gwaith yn llwyddo, yn gyffredinol, heb lafur ei weision, a gweddïau yr eglwys, (adn. 8.) etto, nid oes dim cyfatebolrwydd rhwng y llafur a'r llwyddiant, yn aml, gan mor helaeth, mor ddisymwth, ac mor ogoneddus ydyw.

'A gweled o honoch hwynt yn esgor.' Exod. 1. 16. —'A gweled o honoch eu hesgoredd-le.' Dr. M.—'Ar yr ystolion.' Ainsworth.—*Heb.* על אבנים *wrth y meini*; sef y cafnau meini, yn y rhai, tebygol, medd Parkhurst, y golchent y mamau newydd esgor, a'r plant newydd eni; y rhai sydd yn gyffredin mewn rhai gwledydd poethion hyd heddyw. Bates. Llawer o gyfieithiadau a Geiriaduron a gyfieithant y geiriau fel y Dr. M. *esgoredd-le*, neu *leoedd*: y cyfryw ag a arferir gan wragedd yn esgor; ond annhebyg iawn y buasai ystolion at y cyfryw achos yn cael eu gwneyd o feini.

ESGUD, (cud) bywiog, pybyr, heinif, diwyd, hoyw, blawdd.—'Bydded pob un esgud i wrando, diog i lefaru, diog i ddigofaint.' Iago 1. 19. 'Bid pob dyn ebrwydd y wrandaw.' W. S. Prysurdeb i lefaru, a arwydda meddwl chwyddedig, yn barnu ei wybodaeth ei hun yn rhagori ar eraill; ond ysbryd esgud i wrando, a arwydda, meddwl distadl gan y dyn am dano ei hun, a'i wybodaeth, a'i barodrwydd i gymeryd ei ddysgu gan eraill. Esgud i wrando gair y gwirionedd y mae yr apostol yn ei feddwl, yr hwn sydd yn rhoddi y cysur penaf i'r rhai sydd wedi eu hennill trwyddo, ac ydynt yn ei wrando, fel Mair, gyda hyfrydwch calon. Luc 10. 39.

> Y pryd hwn cyfyd dyn i'w waith,
> Ac i'w oruchwyliaeth *esgud*.
> *E. Prys*, (104. 23.)

ESGUS—ODI—ODOL, (es-cus) asswyn, cyfrith, diffyniad.—'Ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod.' Ioan 15. 22. Y mae parodrwydd mawr mewn pechaduriaid diedifeiriol i esgusodi eu hunain; ond y mae eglurdeb, graslonrwydd, a daioni yr efengyl, yn gwneuthur pawb a'i clywant yn fwy diesgus na neb: ac i gymharu â'u pechodau hwy, nid yw pechodau eraill yn deilwng i'w galw yn bechodau, mewn ystyr; 'Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod,' mewn cymhariaeth i'r hyn sydd arnynt yn bresennol, trwy eu casineb ataf fi a'm geiriau. Ioan 15. 16, 17, 18. Luc 14. 19. Rhuf. 2. 15. Edr. DEDDF.

ESGYN, (cyn) *Heb.* נסק *Llad.* ASCENDERE; *Saes.* ASCEND: dyrchafu, dringo. Edr. DEHEULAW, DYRCHAFU.——'A Duw a esgynodd oddi wrtho ef.' Gen. 35. 13. Nid oes un math o symudiad yn briodol i Dduw, yr hwn sydd â'i hanfod yn llenwi pob lle ar unwaith; gan hyny, y mae yn rhaid i ni ddeall mai rhyw arwydd gweledig i Jacob o'r presennoldeb dwyfol a esgynodd, a elwir yn aml gogoniant yr Arglwydd; sef arwydd dysglaer a gogoneddus o'i bresennoldeb. Gen. 17. 22. a 18. 33. Ezec. 1. 28. a 3. 23. a 8. 4.

'Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddi eithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, sef Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef.' Ioan 3. 13. Y mae yr Arglwydd Iesu yn llefaru am dano ei hun fel Prophwyd mawr ei eglwys, yn rhagori ar neb a fu o'i flaen. Cafodd Moses ddadguddiad o feddwl Duw ar fynydd Sinai, ond ni esgynodd i'r nef; nac Elias, nac un prophwyd arall, gwedi hyny; ond am Fab y dyn, yr hwn a ddisgynodd o'r nef, o ran ei gnawdoliaeth, ac sydd *yn y nef*, er hyny, o ran ei Dduwdod, cafodd ef gyflawn wybodaeth o holl berffeithrwydd, arfaeth, ac amcanion y Duwdod, *yn y nef*; yr oedd fel Person Dwyfol yn y cynghor, yn cyd-arfaethu ac yn cyd-drefnu â'r Tad a'r Ysbryd Glân; fel Crist eneiniog ac anfonedig y Tad, derbyniodd yr hyn yr ydoedd i'w draddodi i'w eglwys, yn y nefoedd, mewn modd ardderchog, cyflawn, a pherffaith, ar unwaith. Gan hyny, y mae yn anfeidrol ragori ar bawb a fu o'i flaen, neu a ddichon ddyfod ar ei ol byth. Ac er iddo ddisgyn i ymgnawdoli, mae efe, er hyny, yn y nef, yn y cynghor, yn yr arfaeth, ac yn y trefniadau sydd i'w cyflawni, yr un fath ag oedd er tragywyddoldeb. *Gr.* *ο ων εν τω ουρανω*, *yr hwn sydd yn y nefoedd, fel ei breswylfod a'i gartref.*

'Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn.' Ioan 1. 51. Gen. 28. 12. Y mae y geiriau yn dangos mawredd Person yr Arglwydd Iesu, ac effeithioldeb ei swydd. Hyd yn nod yn ei gyflwr o ddarostyngiad yma yn y byd, y mae yn Arglwydd ar holl angelion y nef: fel gweinidogion ei lŷs, y maent yn dyfod ac yn myned, yn esgyn, ac yn disgyn, wrth ei archiad. Y maent yn weision iddo, yn ei addoli, yn ufuddhau iddo, ac yn ei gydnabod fel eu Harglwydd. Agorodd ef y nefoedd, yr hon a gauwyd trwy bechod yr Adda cyntaf; ac y mae efe yn ei swydd, fel yr ysgol a welodd Jacob, yn ffordd o gymundeb rhydd rhwng nefoedd a daear.

'Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd?' Ateb; 'Y glân ei ddwylaw,' &c. Sef Crist yn flaenaf, a esgyn i'r lle sanctaidd yn y nefoedd; a'i holl bobl, y 'genedl gyfiawn, yr hon a geidw wirionedd,' a brynwyd



Digitized by Google

ac a burwyd oddiwrth bob anwiredd ganddo, ynddo, a thrwyddo. Ps. 24. 3. a 15. 1. a 26. 6. a 68. 18. Esa. 26. 2. Ioan 13. 36. Eph. 4. 8, 9, 10. Heb. 12. 28, 29. 1 Tim. 2. 8. Iago 4. 8. Edr. DISGYN.

ESGYNFA—AU, (esgyn) dringiad, dyrchafiad: grisiau i esgyn ar hyd-ddynt. Ezec. 40. 26. 1 Bren. 10. 5. Hefyd yr hyn a esgynir iddo, ystafell, eisteddle. 'Yr hwn a adeilada ei esgynfëydd yn y nefoedd.' Amos 9. 6. 'Yr hwn a adeiladodd yn y nefoedd ei gylchau.' Dr. M. Y mae yr un gair עלית yn cael ei gyfieithu *ystafelloedd.* yn Ps. 104. 13. 2 Sam. 18. 33. 1 Bren. 17. 19. Wrth esgynfëydd yr Arglwydd yn y nefoedd, mae i ni ddeall yr awyr barthau, neu y bydoedd nefol, y rhai ydynt y naill uwch ben y llall, ag sydd fel esgynfëydd i'r palas fry, nef y nefoedd. Y mae ganddo dŷ ardderchog uwchlaw y pellenau dysglaer, a'u cylchau sydd uwch eu penau, ac nid ydynt ond megys grisiau neu esgynfëydd i hwnw. Ioan 14. 2, 3. 2 Cor. 5. 1.

ESLI, Εσλι, [*yn agos ataf*] mab Naggai, un o hynafiaid Crist. Luc 3. 25.

ESMWYTH—ACH—AU--DER--DRA, (mwyth) gorphwysol, llonydd, heddychol, ysgyfala; llonyddu, tawelu; llonyddwch, tawelwch, gorphwysdra.—'A mi a esmwythâf arnoch.' Mat. 11. 28. Gwaith Crist yn unig yw esmwythâu ar bechaduriaid; y mae efe yn esmwythâu pawb sydd yn dyfod ato mewn ffydd. Y mae efe yn addas i wneuthur hyny, oblegid mawredd gogoneddus ei Berson—a chyflawnder anfeidrol ei swyddau. Mae efe yn esmwythâu yn rhad—yn garedig—yn effeithiol—yn gyflawn, ac yn dragywyddol. Fel y mae pechod yn achos gwreiddiol a haeddiannol o bob anesmwythder, y mae yr Arglwydd Iesu yn esmwythâu yn effeithiol ac yn gyflawn, trwy symud ymaith yr achos hwnw, yn yr euogrwydd, yr arglwyddiaeth, a'r halogedigaeth o hono. Dyfod ato, yw credu ynddo, fel pechadur colledig; y mae credu ynddo, fel iawn dros ein pechodau ni, yn esmwythâu y gydwybod yn wyneb gofynion y gyfraith, ac ofn damnedigaeth, ac yn heddychu y pechadur â Duw. Y mae ei waed yn glanhau oddiwrth halogrwydd pechod; ac mae ei Ysbryd, trwy yr efengyl, yn dystrywio ei lywodraeth ar yr enaid. Gan fod yr esmwythdra hwn yn gyflawn, yn gyfreithlawn, ac yn cael ei weini gyd âg awdurdod dwyfol, nid oes neb, na dim, a ddichon anesmwythâu pan esmwythâo efe. Esmwythâodd ei eglwys oddiwrth iau drom y defodau Iuddewig; esmwythâodd arni yn aml oddiwrth erlidigaethau a gorthrymderau ei holl elynion; ac esmwythder cyflawn a thragywyddol fydd rhan pawb a gredant ynddo. 2 Thes. 1. 7. Esa. 38. 14. Esther 4. 14. Jos. 1. 13. Rhut. 6. 13. a 8. 2. Ioan 16. 33. Act. 15. 10. Gal. 2. 13. a 4. 4, 5. Col. 4. 14. 1 Petr 2. 24. Dan. 12. 13.

'Esmwythdra y rhai anghall a'u lladd;' oblegid eu hanwybodaeth, eu hanystyriaeth, a'u calon galedwch, yw yr achos o'u hesmwythdra, ac nid gwir waredigaeth o'u perygl mawr a'u trueni. Y maent yn sicr, yn hyn, yn dra anghall, sef eu bod yn esmwythâu eu hunain mewn cyflwr drwg, ac nid yn cael eu hesmwythâu gan Grist, trwy symudfa cyflwr. Diar. 1. 32. Bydd dydd y farn yn ddydd o anesmwythder i'r holl bechaduriaid diedifeiriol, a diffydd yn Nghrist; ond bydd esmwythach ar rai na'u gilydd; y rhai mwyaf anesmwyth arnynt y dydd hwnw yw y rhai a wrthodasant yr efengyl, ac a ddirmygasant y cenadon oedd yn ei chyhoeddi, am fod eu pechodau hwy yn fwy ysgeler na phechodau hyd yn nod y Sodomiaid. Mat. 10. 15.

ESROM, mab Phares, a thad Aram; un o hynafiaid Crist. Ruth 4. 18. Mat. 1. 3. Luc 3. 34.

ESTAOL, אשתאול [*merched cryfio*
Barn. 13. 25.

ESTHER, neu HADASSAH, *He*
merch Abihael, ewythr Mordecai, o
Ei rhieni a fuant feirw pan ydoedd h
a fagasid gan ei chefnder, (nid ei hew
Calmet) Mordecai, yr hwn a'i cyn
iddo pan fu ei thad farw. Yr oed
weddeiddlwys, a glân yr olwg. Esthe
og oedd hi o berffeithrwydd ei theg
yn llawen, megys yn hawddgar.' Ap
a Mordecai oeddynt o hiliogaeth y r
Babilon gyd â'r gaethglud a gaethgl
choniah, brenin Judah, yr hwn a g
buchodonosor. Edr. MORDECAI.
o'r holl daleithiau lancesau têg yr
ddewis brenines arall yn lle Fasti, yr
ufudd-dod, a anfoddhaodd y brenin,
yn eu plith. Cafodd ffafr yn ngolw
yn edrych arni. Pan, wedi ei glanh
at y brenin, efe a'i hoffodd rhagor yr
hi a gafodd ffafr a charedigrwydd yn
yr holl wyryfon; ac efe a osododd
ei phen, ac a'i gwnaeth yn frenines
yr achos o'i dyrchafiad i fod yn fre
wnaeth wledd fawr i'w holl dywyso
a galwyd hi *gwledd Esther.* Gw
ryddid i'r taleithiau oddiwrth dreth
roddion i'r rhai oedd oddi amgylch
a mawredd y brenin. Y mae gor
Duw ar bob peth—hyd yn nod llygr
dynion, a'i ofal mawr am ei eglwys
hynod yn nyrchafiad y gaethgludes
fad hon i'r fath sefyllfa mor oruchel;
yr Arglwydd, yn benaf, er mwyn ei e
ganddo gaethion yn Babilon, a llawe
lon iddynt trwy y gwledydd, a Ham
llŷs yn ceisio eu dyfetha hwynt oll,
odd y gaethes Esther i fod yn ei
effeithiol i'w gwared. Yr oedd yn r
ynion yn aml, a'r elyniaeth yn eu
gan fod gorfod iddynt ladd 75,000 w
hunain. Esther 9. 16. Bu Esther
offeryn o waredigaeth i'w chenedl yr
cyfryw enw a pharch iddynt trwy yr
fawr hòno, fel yr aeth llawer o bobl
lytiaid i'r grefydd Iuddewig, ond dia
fod yn llawer o gefnogrwydd i weisio
Ezra a Nehemiah, yn eu gwaith g
chwelyd a sefydlu yr Iuddewon yn eu
ac i osod iawn drefn yn eu plith, o
wladol, ac addoliad Duw. Pan yr y
brenin â Nehemiah, ac yr erfyniodd
brenin ei anfon i Jerusalem i'w hadeila
gwraig y brenin (yr hon oedd Esthe
ei ymyl.' Neh. 2. 6. Yr hyn sy gry
ei bod yn gynnorthwyol iddo yn y
brenin: (Gwel Prideaux's *Con., fol.*
ac, yn ganlynol, anfonwyd ef â llyt
chymynion at y tywysogion, ac at
coedwig y brenin, fel y rhoddai iddo
adau yn Jerusalem.

Yr Hebreaid a alwent lyfr Esther
neu *blyg-lyfr Esther*, am mai hi yw
nodedig yn yr hanes byr, cynnwysedi
mor hynod offeryn yn ngwaredigaeth
ewon. Pwy a'i cyfansoddodd sydd
mysg y dysgedigion—rhai yn barnu
mai Mordecai. Y farn fwyaf tebyg i w
decai ydoedd yr awdwr o hono, ac i
mhlith y llyfrau canonaidd. Er na
am un o'r enwau trwy ba rai y gos
allan yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd,

Digitized by Google

dra amlwg ei fod wedi ei fwriadu, ac y mae yn hynod o addas i ddangos mai Duw Israel yw y gwir Dduw, yr hwn sydd yn goruwch-lywodraethu pob peth, ac yn cyflawni ei amcanion o drugaredd a barn, trwy y ffyrdd a'r offerynau y gwelo efe fod yn dda. Hwyrach gadael allan enw yr Arglwydd ynddo yn fwriadol. Y mae pethau hollol hysbys yn cael eu hadrodd am wir addolwyr yr IEHOFAH; megys y cydfrad yn eu herbyn i'w dyfetha, a'r waredigaeth ryfedd a gawsant; fel y gallai pob darllenydd farnu, oddiwrth y pethau eglur a diammheuol hyn, ai nid Duw Israel oedd y gwir Dduw, a phen-llywodraethwr mawr yr holl fyd. Y mae yr adroddiad eglur a diaddurn o bethau a ddygwyddasant yn ngŵydd yr holl fyd yn tystiolaethu yn anorchfygol, yn wyneb holl ragfarnau y gelynion adgasaf, o blaid y Duw byw, ac mai Duw Israel oedd hwnw.

Y mae amryw bennodau ychwanegol at y llyfr hwn i'w cael yn yr Apocrypha; ond ni buont erioed yn mhlith yr ysgrifeniadau Hebraeg, ac ni ddarfu yr Iuddewon erioed eu cymeradwyo; y maent yn cynnwys yr un pethau wedi eu hail-adrodd, gyda chwanegiadau, i'r dyben i addurno yr hanesiaeth; ond, mewn gwirionedd, ei anurddo y maent; heblaw hyny, y mae rhai pethau ynddynt yn anghytun â'r amseroedd i ba rai y mae yr hanes yn perthyn. Edr. HAMAN, MORDECAI.

ESTRON—IAID—ESAU, (trawn) *Llad.* EXTRANEUS: alltud, un dyeithr, arall-wlad, arall-fro. 'Estronieithus,' a 'gwefusau estronol,' a arwyddocant un o iaith arall, neu lediaith, neu lygriaith. 1 Cor. 14. 21. Esa. 28. 11. Edr. DYBITHR.

ESTRYS—IAID, *Heb.* יען oddiwrth eu gwaith yn galw yn uchel ar eu gilydd. Lef. 11. 16. Deut. 14. 15. Mae y gair חסידה yn cael ei gyfleithu *estrys* yn Job 39. 13. yr hwn a gyfleithir mewn manau eraill *ciconia*. Ar ymyl y ddalen y mae yn cael ei gyfleithu yma *ciconia*, a'r gair נצה yn cael ei gyfleithu *estrys*. Gellir cyfleithu y geiriau, 'Adenydd yr estrys sydd estynedig, â phlu ac esgyll y ciconia.' Y gwir yw, nad ydyw un o'r ddau air yn briodol enw yr estrys ond y gair יען. Ond gan fod y darluniad canlynol yn ateb i'r estrys, gellir meddwl ei fod yn cael ei alw yma נצה *pluog*, neu *aderyn pluog*, oddiwrth harddwch ei blu. Y tàlaf o'r holl adar ydyw; y mae ei uchder, pan y safo yn syth, yn saith neu wyth troedfedd. Y mae yn fawr ei faintioli, ei goesau yn hirion, ei adenydd yn fyrion, a'i wddf yn bedwar neu bump rhychwant. Y mae ei draed yn fforchog, â dau o fodiau mawrion iddynt, ond y naill yn fwy na'r llall: y mae yr hwyaf yn saith modfedd o hŷd, âg ewin crafanc iddo; y mae y llall oddeutu pedair modfedd, ac heb ewin iddo. A'r rhai hyn y lluchia geryg yn ol, wrth redeg, ar ei ganlynwyr. Dywed yr Arabiaid nad ydyw byth yn yfed; ac nid yw hyn yn annhebyg, oddiwrth y lleoedd anial y preswylia ynddynt. Esa. 13. 21. a 34. 13. Job 30. 29. Jer. 50. 39. Y mae yn bwyta agos bob peth, gwellt, ceryg, haiarn, crwyn, blew, &c. Y mae ei hwyau yn fawrion, a rhai o honynt dros bum modfedd o dryfesur, ac o bwysau yn bymtheg pwys: mae y plisg yn galed, ac y maent yn gwneuthur llestri i yfed o honynt. Y maent yn dra ffrwythlon, yn dodwy 30ain neu 40ain o wyau yn yr un tymhor. Pan byddo perygl yn agos, y mae yr estrys yn cuddio ei ben, yn unig, er diogelwch; ac yn barnu, fel pechadur ffol, nad oes berygl, am nad ydyw yn ei weled.* Dywedir y gellir eu cymeryd gan ddyn wedi ei orchuddio â chroen yr estrys, ac yn dynwared rhai o'i ystumiau a'i ysgogiadau. Haera rhai nad oes gan

* ..............Stat lumine clauso
Ridendum revoluta caput; creditque latere,
Quæ non ipsa videt. *Claudian.*

yr estrys na chlyw, archwaeth, arogliad, na chôf; os felly, priodol iawn y dywedir am dani, 'Ni chyfranodd Duw iddi ddeall.' Gwel *Modern Universal History.*

Y mae pluf ei adenydd mewn bri mawr, ac yn cael eu defnyddio yn addurniadau mewn hetiau, ac yr oeddynt gynt mewn gwelyau, gortho, &c. Lliw naturiol ei bluf yw cymmysg du a gwyn, ond rhoddir llawer o liwiau cywrain iddynt gan gelfyddyd. Cawn hanes cyflawn o gynneddfau yr aderyn hwn yn Job 39. 13—18. 'Yr hon a âd ei hwyau yn y ddaear, ac a'u cynhesa yn y llwch; ac y mae hi yn gollwng dros gôf y gallai troed eu dryllio hwynt, neu anifel y maes eu sathru.' Er ei bod yn eu gadael yn y ddaear, neu yn y tywod, nid ydyw hanes cyffredin naturiaethwyr yn wir, ei bod yn eu gadael i'w cynhesu gan wres yr haul; canys dywedir yma (תחמם) *y cynhesa hi hwynt*, sef trwy eistedd arnynt. Ond y mae yn gollwng dros gôf y gallai traed teithiwr, neu anifel, eu dryllio hwynt, ac heb ofalu am eu gosod, fel yr adar eraill, ar goedydd, neu holltau creigydd, er eu diogelwch.

'Caled yw hi wrth ei chywion, fel pe na byddent eiddo hi.' Fel y mae yn ddiofal am nyth i adael ei hwyau ynddo, felly hefyd y mae yn ddiserch ac yn ddiofal am ei chywion, ond yn ehedeg ymaith oddi wrthynt pan fyddo perygl, ac yn eu hanghofio byth wedi hyny. Yn gwbl groes i'r iâr serchog, yr hon a amddiffyn ei chywion yn wyneb y gelyn cryfaf, er bod mewn perygl o golli ei bywyd ei hun. Fel hyn y mae ei gwaith yn aml yn ofer, oblegid ei bod yn ddiofn perygl i'w chywion; ac yn ganlynol yn ddiofal am eu diogelwch. Y mae yr estrysiaid yn ddiareb am eu hanserchogrwydd a'u creulondeb. Galar. 4. 3.

'Oblegid ni roddodd Duw iddi ddoethineb, ac ni chyfranodd iddi ddeall.' Job 39. 17. Mae y Creawdwr mawr yn cyfranu ei ddoniau i'w greaduriaid, yn ol ei ewyllys ei hun. Y mae pob creadur yr hyn y gwnelo Duw ef. Pob rhodd ddaionus, nid yn unig mewn dyn, ond hefyd mewn anifeiliaid, eu harddwch, eu cryfder, eu cyflymdra, eu cyfrwysdra, eu serchogrwydd, &c., oddi uchod y maent oll, oddiwrth eu Creawdwr. Oddiwrth Dduw y mae y gradd lleiaf o ddoethineb mewn anifeiliaid a dynion yn gyffredin; pa faint mwy yn y duwiolion.

'Yr amser yr ymgodo hi yn uchel, hi a ddiystyra y march a'i farchog.' Job 39. 18. Nid ydyw ei adenydd yn ateb y dyben i'w godi oddiar y ddaear, ond y maent yn gynnorthwyol iddo redeg gyd â'r cyflymdra mwyaf, a thrwy hyny yn diogelu ei hun. Rhedant yn gynt na'r march mwyaf cyflym. Y maent yn o aml yn Arabia, ond yn lliosog iawn yn Ethiopia, ac y mae yr Ethiopiaid yn bwyta eu cig. Y mae rhai o honynt mor gryfion fel y mae yr Arabiaid yn marchogaeth arnynt. Yn ngwledydd poethion Affric y mae yr estrysiaid i'w gweled, weithau, yn heidiau lliosog, ac yn ymddangos o bell yn debyg i fyddin o feirch. Yr oeddynt yn waharddedig yn ymborth dan gyfraith Moses. Lef. 11. 16. Deut. 14. 15. Mewn lleoedd anial y mae eu cynniweirfa y rhan amlaf. Esa. 13. 21. a 34. 13. Job 30. 29. Jer. 50. 39.

ESTYN—EDIG—IAD—YDD, (es-tyn) *Llad.* EXTENDO; parhau, hwyhau, mwyhau, gohirio, helaethu, estyn allan. Y mae Duw yn estyn ei law heddychol a chynnorthwyol at bechaduriaid, pan, trwy wahoddiadau ac addewion yr efengyl, y mae yn erfyn arnynt gymmodi âg ef yn Nghrist, ac yn addaw eu cynnorthwyo â'i allu a'i ras. Diar. 1. 24. Rhuf. 10. 21.——Y mae Duw yn estyn trugaredd a heddwch fel afon, pan y mae, o'i ben-arglwyddiaeth a'i ras, yn eu cyfranu yn effeithiol, yn helaeth, ac yn barhaus, ar ei bobl. Ps. 36. 10. Esa. 66. 12.

Digitized by Google

'Creawdydd y nefoedd a'i hestynydd.' Esa. 42. 5. Duw a greodd y defnyddiau yn gyntaf, wedi hyny efe a estynodd, a ledodd, ac a ffurfiodd y nefoedd o'r defnyddiau hyny; a'u gwnaeth yn hardd, yn ogoneddus, ac yn ddefynyddiol i ateb y dybenion gan y Creawdydd yn ei olwg. Mae y nefoedd fel hyn wedi ei hestyn yn addurnedig ac yn geinwych, yn dadgan gogoniant Duw, ac yn mynegi gwaith ei ddwylaw. Ps. 19. 1.

Y mae Duw yn estyn ei law ar ddynion, ac yn eu herbyn, pan y byddo yn eu cospi â'i farnedigaethau am eu pechodau. Esa. 5. 25. Jer. 6. 12. a 15. 6. Ezec. 16. 27. Edr. BRAICH.

ETAM, *Heb.* עיטם [*eu haderyn*] dinas o Judah, rhwng Bethlehem a Tecoah, ac a gadarnhawyd gan Rehoboam. 2 Cron. 11. 6. Yn agos iddi yr oedd craig, i'r hon yr aeth Samson i aros wedi taro y Philistiaid. Barn. 15. 8. O ffynon yn agos i'r ddinas hon, hwyrach ffynon y gerddi, y dygodd Pilat, ac fe allai Solomon o'i flaen, ddwfr trwy ddyfr-ffosydd i Jerusalem, oddi amgylch y mynyddoedd ar y ffordd. Joseph. *De Bello, lib.* iii., *cap.* 13. Y mae teithwyr yn rhoddi hanes am ddyfroedd hyfryd, a chrwn-byllau mawrion, yn agos i Bethlehem, wedi eu gwneuthur, medd traddodiad, gan y brenin Solomon.

ETIFEDD—ION—U, (tifedd) treftadog: *Gr.* κληρονομος, *un yn meddiannu etifeddiaeth trwy goelbren*, oddiwrth y dull y rhanwyd gwlad Canaan, rhwng y deuddeg llwyth, yn etifeddiaethau. Y mae Crist yn etifedd pob peth. '*Yr hwn a wnaeth efe* (sef y Tad) yn etifedd pob peth.' Heb. 1. 2. Fel yr oedd efe yn Dduw, yr oedd yn etifedd pob peth yr un fath, ac yn gydradd â'r Tad. Etifedd yma, a arwydda, meddiannydd, Arglwydd, a llywodraethwr pob peth. Y mae yn cael ei briodoli yma i Grist o ran ei swydd, fel Cyfryngwr: pa beth bynag ydyw o ran ei swydd, y mae felly trwy *osodiad*. 'Yr hwn a *wnaeth* efe,' *Gr.* εθηκε, yr hwn a *drefnodd*, a *osododd* efe. Trwy drefniad a gosodiad y mae Crist yn Dduw-ddyn, ac y mae yn ei holl swyddau. Y mae yn ei swyddau trwy *osodiad*. Ps. 2. 6. Act. 2. 36. Heb. 3. 1, 2. Deut. 18. 18. Golygir yma ei *osodiad* trwy y cyfammod rhyngddo ef a'r Tad: yr addewidion a wnawd iddo cyn ei ddyfodiad yn y cnawd, o'r cyfryw *etifeddiaeth*; ac hefyd, ei osodiad, ar ei esgyniad i'r gogoniant, yn y meddiant a'r llywodraeth o bob peth. Mae y geiriau *pob peth*, yn mynegi ëangder a manylrwydd ei lywodraeth. Nid oes dim yn yr holl greadigaeth faith i gyd nad yw yn ei feddiant, a than ei lywodraeth; a'r cwbl er mwyn ei eglwys. 'A'i rhoddes ef yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys.' Eph. 1. 22. *Pob peth,*—ei etholedigion yn benaf, ac erddynt hwy *pob peth* arall, sef angelion da a drwg; dynion y byd, a holl lywodraethau y byd; cwbl awdurdod yn ei eglwys a'i holl drefniadau; holl ragorfreintiau a rhadau yr eglwys; pob doniau addas er ei hadeiladaeth a'i chysur; a gogoniant tragywyddol. Mat. 21. 38. a 25. 32. 2 Cor. 2. 14. Rhuf. 14. 10. 2 Tim. 4. 8. Ioan 17. 2. Heb. 9. 12. Eph. 1. 14. a 4. 8—13. Ioan 17. 5, 22, 24. 1 Cor. 12. 7, 13, 14. 1 Petr 3. 10, 11.——Mae y saint yn etifeddion yr addewid, cyfiawnder, iechydwriaeth, gras y bywyd, y deyrnas, y byd, i Dduw, a chyd-etifeddion gyda Christ. Trwy Grist, a'u hundeb â ef, y mae ganddynt hawl rydd, gyfreithlon, i'r holl addewidion, bendithion, creaduriaid, a holl gyfiawnder Duw. Heb. 1. 14. a 6. 17. a 11. 7. Rhuf. 4. 13. a 8. 17. Iago 2. 5. 1 Petr 3. 7. Gal. 4. 7.——Y mae holl feibion Duw fel hyn yn etifeddion, 'Os plant, etifeddion hefyd;' ac y mae eu hetifeddiaeth yn anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig. 1 Petr 1. 4.

ETIFEDDIAETH—AU, (etifedd) etifiant, treftadaeth, meddiant. Yr hyn a feddianno un trwy dreftadaeth, neu rhyw hawl gyfiawn. Mae Duw ei hun, yn ei holl gyfiawnder dwyfol, a'i iechydwriaeth, yn etifeddiaeth i'w bobl; y mae ganddynt hawl gyfiawn ac anrhydeddus iddi trwy Iesu Grist, eu Pen-cyfammodwr; y maent hwy yn byw arni, ac yn ymhyfrydu ynddi. Ps. 16. 5. a 73. 25, 26. a 119. 57. Galar. 3. 24.——Y mae ei bobl yn etifeddiaeth yr Arglwydd; y mae ganddo hawl gyfiawn ynddynt fel eu Creawdwr, eu Prynwr, a'u Gwaredwr; ac y mae ganddo ofal am danynt, ac hefyd y mae ei bresennoldeb gyda hwynt. Deut. 4. 20. a 32. 9. Ps. 33. 12. a 78. 71. a 94. 14. a 106. 5. Jer. 10. 16. Joel 2. 17.——Y mae y Cenedloedd yn etifeddiaeth Crist, gwedi eu rhoddi iddo fel Cyfryngwr, i'w galw, eu hachub, a'u gwaredu ganddo. Ps. 2. 8. a 22. 27. a 72. 8. Dan. 7. 13, 14.——Am fod etifeddiaeth Canaan ddaearol yn cysgodi y Ganaan nefol, y mae y ddiweddaf, yn aml, yn cael ei galw yn etifeddiaeth. Act. 20. 32. Eph. 1. 14. Heb. 9. 15. 1 Petr 1. 4, &c. Y mae gorchymynion Duw yn etifeddiaeth ei bobl; y mae ganddynt hawl ynddynt—y maent yn byw arnynt—ac yn ymhyfrydu ynddynt. Ps. 119. 111.——Yr Arglwydd oedd etifeddiaeth y Lefiaid, am eu bod yn byw ar ei aberthau. Deut. 10. 9.——Plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd; efe sydd yn eu rhoddi, a dylai rhieni eu cyflwyno hwy yn llawen i'r Arglwydd. Ps. 127. 3.——Etifeddiaeth dyn annuwiol ydyw cospedigaethau ofnadwy, a gwaeau diddarfod. Job 20. 29. a 27. 13.

'A thi a etifeddi ynot dy hun, yn ngwydd y Cenedloedd.'—'Ac ymhalogi ynot dy hun.' Dr. M.—'A mi a halogir o'th blegid di yn ngwydd y Cenedloedd;' sef mi a oddefaf fy enw gael ei halogi dros amser. Ezec. 22. 16. Cymh. pen. 20. 9, 14. a 36. 21, 22. Gwel Newcome a Vatablus. Y mae gwahaniaeth cyfieithiadau y geiriau yn tarddu oddi wrth yr anhawsdra penderfynu gwreiddyn y gair נחלת pa un ai o נחל a arwydda *etifeddu*, neu o חלל a arwydda *halogi*. Gogwydda fy meddwl i at gyfieithiad Dr. M. fel yn fwy unol â rhanau eraill o'r llyfr.

ETWA, (ed-gwa) etto, er hyn, hyd yn hyn.—'Etwa ar dy 'air di, mi a vwriaf y rhwyt.' Luc 5. 5. a 22. 47. W. S.

ETHAM, *Heb.* אתם [*eu harwydd*, neu *nerth*] y drydedd wersyllfa i'r Israeliaid, yn eu taith o'r Aipht, yn agos i ben uchaf y Môr Coch. Exod. 13. 20. Num. 33. 6.

ETHAN, *Heb.* איתן [*cryf*] 1. Ethan yr Ezrahiad, y gwr doethaf yn ei oes: etto yr oedd Solomon yn ddoethach nag ef. 1 Bren. 4. 31. Yr un yw Ethan yr Ezrahiad ag Ethan mab Cusi, mab Merari, o lwyth Lefi, yr hon oedd bencerdd yn ngwasanaeth y deml. 1 Cron. 6. 44. a 15. 17, &c. Cyfenwir Ps. lxxxix, ar enw Ethan yr Ezrahiad. Gelwid ef hefyd, yn ol barn rhai, Jeduthun; yr oedd iddo chwech o feibion, y rhai oeddynt benau cynnifer o ddosparthiadau o gantorion yn y deml. Cyflwynwyd amryw o'r Psalmau iddo ef a'i feibion i'w canu. 1 Cron. 16. 41, 42. Ps. xxxix, lxii, &c.——2. Mab Zerah, mab Judah. 1 Cron. 2. 6.

ETHANIM, *Heb.* אתנים [*cryf*] y seithfed mis o'r flwyddyn gysegredig, a'r cyntaf o'r flwyddyn wladol. Yr oedd 30 o ddyddiau yn y mis hwn, ac yr oedd yn ateb, mewn rhan, i Medi a Hydref. Yn y mis hwn y cysegrwyd teml Solomon. 1 Bren. 8. 2. Gwedi dychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon, gelwid ef Tizri.

ETHBAAL, *Heb.* אתבעל [*y llywodraethwr*] brenin y Sidoniaid, tad Jezebel, gwraig Ahab. 1 Bren. 16. 31.

ETHER, *Heb.* עתר [*careg*] dinas yn llwyth Judah. Jos. 15. 42.

Digitized by Google

ETHIOPIA—AD—AID—ES, [*Groeg, llosgiad wyneb*, oddiwrth *αιθω, llosgi*, ac *οψις wyneb*; *Heb.* כוש *cush, du*]. Y mae y LXX. yn cyfieithu y gair כוש Αιθιοπια, *Ethiopia*, yn gyffredinol, a'r cyfieithwyr i'r amrywiol ieithoedd wedi hyny a'u dilynasant. Y mae yr ysgrythyrau, yn o debygol, yn crybwyll am dair gwlad wrth yr enw hwn: 1. Cush, neu Ethiopia, ar làn yr afon Gihon.——2. Cush, neu Ethiopia, o du y dwyrain i'r Môr Coch.——3. Cush, Ethiopia, neu Abyssinia, o du y dehau i'r Aipht, a dehau-orllewinol i'r Môr Coch. Pan y sonir yn yr ysgrythyrau am Ethiopia, rhaid sylwi yn fanwl ar wahaniaethu rhwng y gwledydd sydd yn myned dan yr enw hwn, a'r gwahanol genedloedd oedd yn preswylio ynddynt. Nid ydyw yr hanes sanctaidd yn enwi ond un Cush, mab Ham, a brawd Canaan, a thad Nimrod, Sebah, Hafilah, Sabta, Raamah, a Sabtecha; a thaid Sebah a Dedan. Pa un a ydyw yr holl wledydd yn cael eu henwau oddi wrtho ef, a elwir Cush, neu Ethiopia, yn yr ysgrythyrau, sydd ansicr. Y mae llawer yn barnu mai yn Arabia Ddedwydd, o du y dwyrain i'r Môr Coch, yr oedd ei drigfa ar y cyntaf. ac i'w hiliogaeth fyned trosodd oddi yno dros y môr i Ethiopia, a'i poblogi.

1. Dygodd brenin Assyria y Cushiaid, neu y Cuthiaid, yn ol tafodiaith Caldea, o'r cyntaf, sef Ethiopia ar làn yr afon Gihon, i breswylio yn ngwlad y deg llwyth, lle yr addolasant Nergal eu duw. 2 Bren. 17. 24.

2. Sonir am yr ail, sef Cush, neu Ethiopia, o du y dwyrain i'r Môr Coch, gyda Midian, ac a ysgydwyd gan y ddaear-gryn a ddygwyddodd pan ddisgynodd Duw ar fynydd Sinai. Hab. 3. 7. Gelwir Sephora, gwraig Moses, Cushes, neu Ethiopes, am ei geni yn y wlad hon. Num. 12. 1. Tebygol mai Ethiopiaid o'r wlad hon, dan Zerah eu brenin, a aethant, 1,000,000 o honynt, yn erbyn Asa brenin Judah. Rhai a farnant mai brenin y wlad hon ydoedd Tirhaca, (2 Bren. 19. 9.) ac mai yr un wlad a feddylir yn y lleoedd canlynol; Esa. 43. 3. a 45. 14. Topaz Ethiopia, a gafwyd yn y Môr Coch, ar gyffiniau y wlad hon.

3. Cush, Ethiopia, neu Abyssinia, gwlad dehau-orllewin i'r Môr Coch, ac o du y dehau i'r Aipht. Dywedir fod Ahasferus yn teyrnasu o India hyd Ethiopia, sef Abyssinia. Yr oedd y wlad hon unwaith yn ymerodraeth ëang iawn, yn cynnwys pump a deugain o deyrnasoedd. Y mae yn wlad fynyddig, boblog. Y trigolion ydynt dduon, neu rudd-efydd. Y mae yno rai mynyddoedd halen, ac yn eraill y mae mwngloddiau o haiarn, ac efydd, ac aur. Yr afon fwyaf yn Ethiopia ydyw y Nilus, i ba un y mae y rhan fwyaf o'r afonydd bychain yn rhedeg. Y mae y Nilus, medd awdwyr credadwy, yn rhanu yn ddwy gainc; y Niger, yr hon sydd yn myned trwy wledydd meithion Affrica, tu a'r gorllewin; a'r Nile, yr hon sydd yn rhedeg trwy wlad yr Aipht i Fôr y Canoldir. Y mae hon yn chwyddo dros ei cheulanau, ac yn llifo yr holl wlad, yn Mehefin a Gorphenaf, pan fyddo yr eira yn toddi ar fynyddoedd Abyssinia, a gwlawogydd trymion gyda hyny. Dros bedwar mis yn y flwyddyn, y mae mwy o wlawogydd yn Abyssinia, nag, hwyrach, yn un parth arall o'r byd.

Y mae rhai yn barnu mai yn y wlad hon yr oedd breninea Sheba yn teyrnasu. Y mae yn ddiogel fod yr Ethiopiaid yn enwaedu, yn cadw y seithfed dydd yn Sabboth hyd heddyw. Hwyrach dwyn Cristionogrwydd i Ethiopia gan yr eunuch mor fore a dyddiau yr apostolion. Ceir hanes am eglwys Gristionogol yno yn y bedwaredd ganrif, ac o hyny hyd yn hyn. Gwnaeth y Mahometaniaid ymdrechiadau gwaedlyd i daenu eu twyll yn y wlad hon; ond yn ofer. Bu cenadau Pabaidd hefyd yn ymdrechu taenu eu cyfeiliornadau hwythau yno, wedi denu y brenin i fod o'u tu; ond wedi gwrthryfel o'r achos, gwaharddwyd y Pabyddion i ddyfod i'r deyrnas. Y mae eu Cristionogrwydd yn gymysgedig â llawer o ddefodau coelgrefyddol, ac yn dra llygredig. Ond diammeu yr ymwel yr Arglwydd etto yn rasol â'r wlad hon, ac yr estyn Ethiopia etto ei dwylaw yn brysur at Dduw; ac y genir rhai i Dduw yn Ethiopia. Ps. 68. 31. a 87. 4.

Cyffelybir yr Iuddewon gan y prophwydi i'r Ethiopiaid, o herwydd eu hanwybodaeth, eu diddarbodaeth, eu ffieidd-dra Paganaidd, a'u cynnefindra â llwybrau pechadurus. Jer. 13. 23. Amos 9. 7.

ETHNIG, *Gr. εθνικος*; cenedl ddyn; un o'r cenedloedd, mewn cyferbyniad i un o'r genedl Iuddewig. —'Bydded ef i ti megys yr ethnig a'r publican.'—'Bit ef y-ty megis cenedlic a phublican.' W. S. Gadawodd ein cyfieithwyr ni y gair Groeg yn y fan hon heb ei gyfieithu; yr un gair, yn y rhif llïosog, a gyfieithir *cenedloedd*. Mat. 6. 7. a 18. 17. Bydded ef i ti, nid fel brawd yn yr Arglwydd, ac aelod o gorph dirgeledig Crist, ond golyga ef fel pechaduriaid diedifeiriol eraill; ac ymddwyn tu ag ato, fel y mae i ti ymddwyn yn ol cyfarwyddiadau gair Duw tu ag atynt hwythau. Y mae ei barhad yn ei bechod, wedi cymaint o rybyddion caredig, yn profi ei fod etto, yn ol pob ymddangosiad, heb ei gyfnewid; ac y mae ein hymddygiad ninnau tu ag ato i fod fel tu ag at y cyfryw.

ETHOL—EDIG—AETH—ION, (tol) *Gr. εκλεκτομαι, εκλεκτος*; *Llad.* ELIGERE: dethol, dewis, dewisedig; detholedigaeth, detholedigion. Ethol yw dewis rhyw beth, neu rhyw le, neu rhyw bersonau, o blith eraill, i ryw ddybenion, swyddau, gwasanaeth, neu waith neillduol, yn ngolwg yr etholwr. Arwydda bod ganddo *hawl* i ddewis, *ewyllys rydd* yn dewis, a *dybenion* i'w hateb trwy hyny. Hefyd, y mae yr etholedig yn cael ei ystyried yn hyny, yn gwbl, yn ddyoddefol, ac yn hollol wrth ewyllys yr etholwr. Y mae yn aml yn cael ei briodoli i le neillduol, megys Jerusalem. 1 Bren. 11. 13. Neh. 1. 9. O bersonau i ryw swyddau, megys Dafydd, i fod yn frenin: (1 Cron. 28. 4.) y deuddeg apostol i'r swydd oruchel hòno: (Luc 6. 13. Ioan 13. 18. Act. 1. 24. a 15. 7.) y diaconiaid: Act. 6. 5.—Ond yn fwyaf neillduol, y gair etholedig, neu etholedigion, a lefarir, yn 1. Am Grist, yr hwn, er tragywyddoldeb, a etholwyd ac a neillduwyd gan y Tad, i fod yn ben-cyfammodwr i'w eglwys, ac yn Gyfryngwr, ac yn Fechnïydd, i'w phrynu a'i gwaredu. Esa. 42. 1. Luc 23. 35.——2. Am yr angelion, y rhai a ddewisodd Duw o blith eraill, i fod yn gyfranogion o ddedwyddwch tragywyddol. 1 Tim. 5. 21.——3. Am genedl Israel, yr hon a etholodd, ac a neillduodd yr Arglwydd o blith y cenedloedd eraill, i fod yn eglwys ac yn bobl iddo. Esa. 45. 4. a 65. 9, 22. Ps. 105. 43.——4. Am y rhai a ddewiswyd gan Dduw yn Nghrist i gaffael iechydwriaeth a bywyd tragywyddol, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl. Tit. 1. 1. Dat. 5. 8, 9.

ETHOLEDIGAETH, yn yr ystyr diweddaf, 1. Sydd weithred yn tarddu o *gariad neillduol* Duw. Cariad Duw yn unig oedd yr achos cymhelliadol yn y weithred hon. Yr oedd y cariad hwn yn Nuw hefyd yn hollol *rydd* a *rhad*; nid oedd un achos ynddynt hwy yn ei gymhell i'w caru; ac nid oedd Duw yn rhagweled y byddai un achos haeddiannol byth, yn y gwrthddrychau. *Pechaduriaid* a *gelynion* ydoedd gwrthddrychau ei gariad; ac felly y buasent yn parhau oni buasai iddo ef eu caru; ac yn ganlynol, eu gwaredu. Rhuf. 5. 6—10. Eph. 2. 4. Y mae y cariad neillduol hwn tu at wrthddrychau yr etholedigaeth, yn *dragywyddol* ac yn *ddigyfnewid*. Jer. 31. 3.

2. Gweithred o *ben-arglwyddiaeth* Duw ydyw, yn

Digitized by Google

ol boddlonrwydd ei ewyllys ei hun. Nid oes yr un rheswm paham y mae efe yn dewis y gwrthddrychau, ond ei awdurdod a'i ewyllys. Y mae ganddo *awdurdod* i wneuthur hyny; a'r neb y *myno* y mae efe yn trugarhau wrtho. Rhuf. 9. 11—23. Mae *awdurdod* Duw ar ei greaduriad yn oruchel, ac yn annibynol, yn tra rhagori ar bob awdurdod a ddichon fod gan un creadur ar y llall, i'r gradd y mae y Creawdwr mawr yn rhagori ar ei greaduriaid. Nis dichon fod gan un creadur awdurdod gyfiawn ar greadur arall ond a roddo Duw iddo; ond y mae awdurdod Duw ar bob creadur, ac yn hollol annibynol. Y mae ganddo hefyd awdurdod ar bechaduriaid, fel llywodraethwr a barnydd cyfiawn, i'w heuog-farnu a'u cospi yn gyfiawn; ac os arbed neb, o'i ben-arglwyddiaeth a'i ewyllys da y mae yn gwneuthur hyny. Gallasai adael pawb yn eu trueni, ac o'i ben-arglwyddiaeth y mae yn dewis ac yn achub y sawl y mae yn ei achub.

3. *Etholedigaeth diammodol yw, ac anghyfnewidiol.* Nis dichon dim ddygwydd yn y gwrthddrychau nad oedd Duw yn ei ragweled cyn eu hethol. Nid ynddynt hwy yr oedd achos eu hetholiad, ond yn Nuw ei hun; ond y mae efe yn anghyfnewidiol. 'Y mae efe yn un, a phwy a'i try ef? a'r hyn y mae ei enaid yn ei chwennychu, efe a'i gwna.' Y mae cadarn sail Duw, *yn etholiad ei bobl*, yn sefyll yn ddigryn ac yn ddigyfnewid. Job 23. 13. 2 Tim. 2. 19. Ps. 33. 11. Gan nad ydyw iechydwriaeth o weithredoedd, ond o'r hwn sydd yn galw, bydd i'r arfaeth yn ol etholedigaeth Duw sefyll. 'O herwydd Arglwydd y lluoedd a'i bwriadodd, a phwy a'i diddyma? Fy nghynghor (medd efe) a saif, a'm holl ewyllys a wnaf.' Rhuf. 9. 11. Esa. 14. 27. a 46. 10.

4. *Y mae yn dragywyddol.* Etholodd Duw hwynt o'r dechreuad i iechydwriaeth, cyn seiliad y byd. 2 Thes. 2. 13. Eph. 1. 4. Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed. Y mae rhagwybodaeth Duw o bethau i ddyfod yn gorphwys ar ei arfaeth yn arfaethu y cyfryw bethau i ddyfod. Yn ganlynol, y mae efe wedi gosod, er tragywyddoldeb, gyd âg ef ei hun, pa bethau bynag oedd efe i'w cyflawni mewn amser. Os yw hyn yn grededig am bob cangen o arfaeth Duw, pa faint mwy am ei osodiad penaf mewn perthynas i iechydwriaeth ei bobl, yn mha un yr oedd ei ogoniant yn y modd mwyaf ardderchog i ddysgleirio allan?*

5. Y mae yn *etholedigaeth bersonol*, sef o nifer penodol o bersonau o hiliogaeth Adda syrthiedig, i gaffael iechydwriaeth a bywyd tragywyddol. Y mae cynghor Duw yn hyn yn (ορισμενη βουλη) *rhagderfynedig*, yr hyn ni fuasai pe na buasai y personau yn derfynedig. Y maent yn cael eu galw, 'y rhai a etholodd—llestri trugaredd—y rhai a appwyntiodd Duw i gaffael iechydwriaeth—y rhai a etholodd Duw o'r dechreuad i iechydwriaeth—y rhai a ragluniwyd i'w galw, eu cyfiawnhau, a'u gogoneddu—y defaid a roddwyd i Grist gan y Tad—y gweddill yn ol etholedigaeth gras—ychydig wedi eu dewis—rhywogaeth etholedig.' Act. 2. 23. Ioan 13. 18. Rhuf. 9. 23. 1 Thes. 5. 9. 2 Thes. 2. 13. Rhuf. 8. 29. a 11. 5. Ioan 10. 29. Mat. 22. 14. 1 Petr 2. 9.

6. Y maent wedi eu *hethol* i gredu—i fod yn sanctaidd ac yn ddifeius—wedi eu raglunio i fod yn un ffurf a delw ei Fab—i fabwysiad—wedi eu hethol o'r dechreuad i iechydwriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd. Eph. 1. 4, 5. Rhuf. 8. 29. 2 Thes. 2. 13. Yn yr etholedigaeth yr oedd Duw yn bwriadu dangos y caredigrwydd mwyaf i bechaduriaid, a dangos yr adgasrwydd mwyaf at bechod—ei gospi yn ol ei haeddiant, ei gondemnio, a'i ddystrywio, yn nghyd â holl lywodraeth bechadurus y diafol. Yr oedd cymaint o drugaredd ag a ddengys Duw byth i bechaduriaid, a chymaint o sancteiddrwydd ag a gyfrana efe byth iddynt, ac, yn ganlynol, a feddiannant hwythau, i gyd yn yr etholedigaeth. Nis dichon i un weithred o eiddo y Duw mawr, mewn amser, ddangos cymaint o gyfiawnder, sancteiddrwydd, a daioni Duw, ag oedd yn ei arfaeth yn nhragywyddoldeb yn *ethol;* canys yr oedd y cwbl a ddangosir yn ei holl weithredoedd mewn amser yn gynnwysedig yn ei arfaeth yn ethol. Yn ethol yr oedd y cariad a'r daioni mwyaf yn gweithredu yn Nuw, yn anfeidrol sanctaidd ac yn gyfiawn. Ni buasai neb yn sanctaidd—ar ddelw Mab Duw—yn credu ac yn ufuddhau i'r gwirionedd—nac yn parhau hyd y diwedd, oni buasai eu bod wedi eu hethol i hyny. Sylfaen yr holl adeiladaeth yw yr etholedigaeth. Y cyfiawnhad, yr hyn oedd Israel yn ei geisio trwy weithredoedd y ddeddf, ac ni chafodd, yr etholedigaeth a'i cafodd; ond pe buasai heb etholedigaeth, ni chawsai neb y fraint byth. Am hyny, gwadu a chablu etholedigaeth, yr un peth ydyw a gwadu a chablu Duw, yn yr amlygiadau mwyaf gogoneddus o'i gariad a'i ddaioni; a chablu *holl* drefn yr iechydwriaeth, yn holl ddyfnderoedd doethineb Duw ynddi; holl ffrwythau sancteiddrwydd trwyddi, a holl gysuron y duwiolion, a gogoniant tragywyddol, sydd yn tarddu allan o honi.

7. *Etholedigaeth yn Nghrist* ydyw. Y maent yn cael eu bendithio â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yn Nghrist, mewn amser, am eu bod wedi *eu hethol ynddo ef* cyn seiliad y byd. Pe buasent heb eu *hethol ynddo*, ni buasent byth yn cael eu *bendithio ynddo*. Ni buasai Crist yn Gyfryngwr i bechaduriaid o ddynion mwy na'r angelion syrthiedig, na'i farwolaeth yn iawn dros bechodau y naill mwy na'r llall, oni buasai gosodiad Duw yn yr arfaeth, ac iddo yn y gangen hòno yn neillduol o'r arfaeth, etholedigaeth, drefnu hyny. Etholedigaeth, yn yr arfaeth fawr dragywyddol, a drefnodd, ac a osododd yr undeb cyfammodol rhwng Crist a'i etholedigion, yr hwn ydyw sylfaen gadarn yr holl iechydwriaeth. Oni buasai gosodiad y Personau Dwyfol yn yr arfaeth, ni buasai marwolaeth Crist yn iawn dros bechodau neb; ond y mae efe yn *etholedig*, a hwythau yn *etholedigion ynddo;* ac, yn ganlynol, yn y cyfammod, yr un yw efe a hwythau. Y mae efe yn gwbl drostynt hwy, ac iddynt hwy, yr hyn sydd yn angen arnynt hwy ei fod.

Gelwir Crist, yn aml, yn yr ysgrythyrau, mewn ffordd o ragoroldeb, yr *etholedig*, neu, *dewisedig* Duw. 'Wele fy ngwas, yr hwn yr ydwyf yn ei gynnal; fy etholedig, yn yr hwn y mae fy enaid yn foddlon.' 'Os hwn yw y Crist (ο χριστος) etholedig Duw.' 'Maen bywiol—eithr etholedig gan Dduw, a gwerthfawr.' 'Gwnaethum ammod â'm hetholedig.' 'Dyrchefais un etholedig o'r bobl.' Esa. 42. 1. Luc 23. 35. 1 Petr 2. 4. Ps. 89. 3, 19. Y mae Crist yn etholedig Duw, fel y mae yn Dduw, ac fel y mae yn ddyn. Fel yr oedd yn Dduw, nis gellid ei ethol i ogoniant a dedwyddwch hanfodol ychwanegol i'r hyn oedd ganddo eisoes mewn gradd anfeidrol, er fod ei ogoniant mynegol yn ychwanegol trwy hyny. Fel dyn, etholwyd ef gan Dduw i'r graddau uchaf o ogoniant a dedwyddwch a allai dynoliaeth eu meddiannu a'u mwynhau. Fel Duw-ddyn, etholwyd ef i'r swydd a'r gogoniant o fod yn Gyfryngwr rhwng Duw a dyn, a Phen yr holl greadigaeth etholedig. Ei anfeidrol deilyngdod a'i addasrwydd, o ran ei natur ddwyfol, oedd sylfaen ei etholiad; ond, o ran ei natur ddynol, yr oedd ei etholiad yn rhydd ac yn ben-arglwyddiaethol; yn y golygiad hwn, ei etholiad oedd *sylfaen*

* Omnisque futurorum præscientia in decreto Dei fundatur: consequenter ab æterno apud sese constituit, quiquid exsequitur in tempore. Id si de omnibus Dei decretis credendum est, comprimus teneri debet de eximio hoc decreto, quo constituit gloriam suam revelare in æterno hominum statu. Witsius *De Œc. Fœd., lib.* iii. *cap.* 4. *sec.* 13.

Digitized by Google

ei *deilyngdod.* Yr oedd ei etholiad, fel yr oedd ef yn Dduw, yn amlygiad o fawr amryw ddoethineb Duw, yn dewis un â chymhwysderau mor addas ynddo i'r swydd —ac nid oedd neb yn abl barnu am ei addasrwydd, ond anfeidrol ddoethineb. Yr oedd ei etholiad, fel yr oedd ef yn ddyn, yn amlygiad gogoneddus o ben-arglwyddiaeth Duw a'i ras.

Y mae pen-arglwyddiaeth Duw yn etholiad Crist, yn ymddangos amryw ffyrdd:—1. O ran y natur oedd i'w dyrchafu felly, sef y natur ddynol, rhagor naturiaeth un rhyw arall o greaduriaid.——2. Iddo gymeryd hâd naturiaeth gwympiedig, lygredig, sef naturiaeth creaduriaid wedi gwrthryfela, myned yn elynion, yn ffiaidd, ac yn druenus.——3. Yn dewis y gangen o'r hiliogaeth yr oedd i gael ei ddynoliaeth o honi, sef o hâd Abraham, Dafydd, &c.——4. O herwydd ei etholiad gan Dduw, yr oedd y dyn Crist Iesu yn rhydd oddi wrth lwgr y natur ddynol, ac, yn ganlynol, yn rhydd oddi wrth bechod a damnedigaeth: yr oedd cariad rhad, pen-arglwyddiaethol, neillduol Duw tu ag ato ef, yn gystal a thu ag at ei holl bobl, yn ymddangos yn hyn. Yr oedd ei holl sancteiddrwydd, ufudd-dod, gweithredoedd da, a'i barhad, yn tarddu oddi wrth gariad neillduol Duw tu ag ato ef, fel ei etholedig, yn gystal ag i'w holl aelodau ynddo. Am mai etholedig Duw oedd yr hwn yr oedd yn ei gynnal, ni ddiffygiodd yn ei holl ddyoddefiadau trymion. Pe buasai ei nerth, ei egni, a'i gariad, yn cael eu gorchfygu gan ei ddyoddefiadau, buasai trwy hyny yn euog o bechod, ac ni buasai ei ddyoddefiadau yn aberth o arogl peraidd, ac ni ddaethai ef, na'i bobl ynddo, byth i'r lân. Ond am mai etholedig Duw ydoedd, cynnaliwyd ef yn effeithiol. Y mae ei gyfiawnhad a'i ogoneddiad ef, yn gystal a'i holl aelodau, yn ffrwyth rhag-wybodaeth a rhagluniad Duw. Bydd y dyn Crist Iesu, fel ei holl aelodau etholedig, yn edrych ar gariad Duw tu ag ato, fel yr etholedig; ac wrth edrych bydd yn rhyfeddu, yn llawenychu, ac yn gorfoleddu ynddo byth. Bendithia Dduw byth am ei gariad rhyfedd, pen-arglwyddiaethol, yn ei ddewis, ac yn ei gynnal rhag soddi yn y dyfnderau mawrion y bu ynddynt, a'r gogoniant annhraethol a thragywyddol sydd ganddo i'w fwynhau.

Crist, yn ei etholiad, yw Pen yr etholedigaeth, a Phen yr holl etholedigion: etholwyd Crist, ac etholwyd yr etholedigion ynddo; dyma y ffordd y penderfynodd Duw i'w cael hwynt yn ol ato ei hun. Dewisodd Grist, a rhoddodd ei bobl etholedig iddo, i fod yn eiddo iddo, yn aelodau o hono; fel y trefnodd y Pen i ogoniant, trefnodd yr holl aelodau ynddo. Felly, etholiad Crist ydyw sylfaen eu hetholiad hwy; fel mae ei gyfiawnhad a'i ogoneddiad, yn sylfaen eu cyfiawnhad hwy a'u gogoneddiad. Heb etholedigaeth Crist, a'i etholedigion ynddo, ni buasai Crist yn llesâu dim, ni buasai ei farwolaeth yn iawn, ni buasai ei gyfodiad er cyfiawnhad, na'i esgyniad er gogoneddiad; ni byddai gwiw sôn am iechydwriaeth, na bywyd; nid ydyw y cwbl oddi amgylch i ni ond tywyllwch, annhrefn, ac ammheuaeth. Nid ydyw prynedigaeth, na galwedigaeth, nac adgyfodiad, na gogoneddiad, ond sŵn geiriau tywyll, ammheüus, a disylwedd, heb etholedigaeth. Y mae holl hiliogaeth Adda, yn ddiddadl, yn druenus am byth, heb etholedigaeth i achub y rhai a achubir. Edrychaf, gyda gorfoledd, ar y drefn ryfedd gwedi ei chwblhau; a rhyfeddaf, gyda pharch diddarfod, ddyfnion bethau Duw, yn cael eu hamlygu ynddi a thrwyddi hi. 'Mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw! mor fawr yw eu swm hwynt!' Ps. 139. 17.

Y mae y rhai fel hyn a etholwyd yn Nghrist, yn cael eu galw yn ol arfaeth Duw, trwy ei Ysbryd ef yn gweithio mewn pryd amserol—y maent yn ufuddhau trwy ras i'r alwedigaeth—yn cael eu cyfiawnhau yn rhad—yn cael eu gwneuthur yn feibion i Dduw trwy fabwys—a wneir yn gyffelyb i ddelw ei unig Fab ef, Iesu Grist—a rodiant yn grefyddol mewn gweithredoedd da—ac o'r diwedd, trwy drugaredd Duw, a feddiannant ddedwyddwch tragywyddol.

Y mae 'duwiol ystyried rhagluniaeth, a'n hetholedigaeth ni yn Nghrist, yn llawn o ddyddanwch melus, hyfryd, ac annhraethol i'r duwiolion, a'r rhai sydd yn clywed ynddynt eu hunain weithrediad Ysbryd Crist yn marwhau gweithredoedd y cnawd, a'u haelodau daearol, ac yn tynu i fynu eu meddwl at bethau uchel a nefol, yn gystal oblegid ei fod yn cadarnhau yn fawr, ac yn cryfhau eu ffydd am iechydwriaeth dragywyddol, i'w mwynhau trwy Grist; ac oblegid ei fod yn gwresog ennynu eu cariad tu ag at Dduw; felly i'r rhai manylaidd a chnawdol, sydd heb Ysbryd Crist ganddynt, y mae bod barn rhagluniaeth Duw yn wastadol ger bron eu llygaid, yn dramgwydd tra pheryglus, trwy yr hwn y mae y diafol yn eu gwthio naill ai i anobaith, ai ynte i ddifrawwch aflanaf fuchedd, nid dim llai peryglus nag anobaith.' Gwel ERTHYGL XVII., Eglwys Loegr.

Dylem sylwi yn dda, mai nid arfaeth Duw ydyw ein rheol ni o ran ein cred a'n hufudd-dod; arfaeth Duw ydyw ei reol ei hun, yr hwn sydd yn gweithio pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei hun. Ond mae addewidion Duw i'w credu genym ni, ac ewyllys Duw i'w chanlyn, fel y gwneir hwynt yn amlwg i ni yn ngair Duw.

Nodau amlwg etholedigion Duw:—1. Rhai gwedi eu galw a'u cyfiawnhau, ac i'w gogoneddu. Rhuf. 8. 30. 2 Petr 1. 10. Dat. 17. 14.——2. Rhai sydd yn meddiannu ffydd o weithrediad Duw. Tit. 1. 1.——3. Nad oes dim gan neb yn gyfiawn i'w roddi yn eu herbyn. Rhuf. 8. 33.——4. Rhai y mae yr efengyl yn dyfod atynt, nid mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr. 1 Thes. 1. 4, 5.——5. Rhai sanctaidd ac anwyl gan Dduw. Col. 3. 12. Phil. 4. 1.——6. Rhai sydd yn gwisgo am danynt ymysgaroedd trugareddau, cymwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros. Col. 3. 12.——7. Rhai nas gellir eu twyllo i gyfeiliornadau dinystriol, a bucheddau annuwiol anunol â chyfiwr o ras ac iechydwriaeth. Mat. 24. 24.

Fod yr etholedigaeth yn athrawiaeth ysgrythyrol, ac felly yn ddwyfol, mae yr ysgrythyrau canlynol yn profi yn eglur ac yn ddiammheuol, i'm tyb i:—Mat. 11. 25, 26. a 15. 13. Cymhar. Ioan 15. 2. Mat. 24. 22, 24, 31. a 25. 34. Marc 13. 20, 27. Cymhar. Mat. 13. 22. Luc 4. 25—29. a 10. 20, 21. a 12. 32. a 18. 7. Ioan 1. 13. a 6. 37, 39, 64, 65. a 10. 16, 26—29. â 15. 16, 19. a 17. 6, 10, 11, 20. Act. 2. 23, 29. a 4. 28. a 9. 15. a 13. 48. a 22. 10, 14. Rhuf. 8. 28, 29. a 9. 11—29. a 11. 2—8, 33. a 16. 13. Gal. 1. 15. 1 Cor. 1. 36, 27, 28. Eph. 1. *in tot.*, a 2. 5, 10. a 3. 11, 21. Phil. 4. 3. Col. 3. 12. 1 Thes. 1. 4. a 3. 3. a 5. 9. 2 Thes. 2. 13, 14. 1 Tim. 5. 21. 2 Tim. 1. 9. a 2. 10, 19. Tit. 1. 1. 1 Petr 1. 2, 4, 5, 20—23. a 2. 4, 6, 9. a 5. 13. 2 Petr 1. 10.——Edr. ARFAETH, ARGRAFF, CYFAMMOD, CRYNHOI, &c. ——Witsius, *Œcon. Fæd.*—Zanch.—Turretin.—Jonathan Edwards' *Remarks on Important Theological Controversies.*

EUBULUS, *Gr.* Ευβουλος [*cynghorwr da*] dysgybl Rhufeinig, yr hwn oedd, y mae yn debyg, yn garedigol i Paul, pan yr ydoedd efe yn y carchar yno. 2 Tim. 4. 21.

EULUN, neu EILUN—ADDOLIAD, *Gr.* Ειδωλον, delw, eilun-dduw, gau-dduw; llun dim i'w addoli, pa un ai o'r gwir Dduw, (Act. 7. 41.) neu o gau-dduw. Act. 15. 20. 1 Cor. 12. 2. Dat. 2. 14, 20.—'Ni a wyddom nad yw eilun ddim yn y byd.' 1 Cor. 8. 4. Er ei fod yn ddefnydd, hwyrach, a chywreinwaith arno, etto nid ydyw ddim fel Duw, neu yn lle

Digitized by Google

Duw. Y mae yn ddefnydd, ac yn llun rhyw beth dychymygol, neu mewn bod, ond hyny yn unig ydyw, nid yw ddim yn Dduw. Gelwir eilunod wrth enwau ofnadwy, i ddangos y dylem ni eu ffieiddio, a ffoi oddi wrthynt; megys *dychryn*, 2 Cron. 15. 16. *Heb.—poenau gofidus*, Ps. 106. 36. Esa. 45. 16. *Heb.—tom dduwiau*, Deut. 29. 17, &c.—*tramgwyddiadau*, Seph. 1. 3.—*diddim, gwagedd, celwydd*, Lef. 19. 4. *Heb. &c.—duwiau dyeithr, duwiau newyddion.*—Yr ydoedd y cenedloedd, gwedi colli y gwir Dduw, yn gwneuthur lluniau pob peth, ac o bob defnyddiau, i'w haddoli; megys y ser, yr haul, y lloer, ysbrydion, dynion, y tân, anifeiliaid o bob rhyw, afonydd, planigion, yr elfenau, &c. Rhai a addolent faen mawr. Yr oedd yr Aiphtiaid yn addoli teirw, giachod, llyffaint, cenin, winwyn, &c. Dywedir fod gan y Groegiaid oddeutu 30,000 o eilunod. Ni bu gan yr Hebreaid erioed eilunod o'r eiddynt eu hunain, er iddynt, yn aml, yn ffol ac ynfyd, gymeryd eilunod y cenedloedd eraill. Eu parodrwydd i addoli y llo wrth fynydd Sinai sydd yn rhoddi lle i ammeu eu bod yn euog o'r cyfryw ffieidddra yn yr Aipht. Exod. xxxii. Ezec. 20. 7, 8. Yn yr 862 o flynyddoedd y trigasant yn Nghanaan, cyn caethiwed Babilon, adlithrasant i eilun-addoliaeth bedair ar ddeg neu bymtheg o weithiau. Barn. ii. hyd at 2 Bren. xxiv. Bu eilun-addoliaeth yn grefydd sefydledig yn hir yn mhlith y deg llwyth; ac ni bu teyrnas Judah ond anfynych yn hollol rydd oddi wrtho: o herwydd anfynych y byddai yr uchelfeydd gwedi eu puro yn llwyr allan. 2 Bren. xvii. Jer. iii. Ezec. xvi., xx., xxiii. Er eu dychweliad o Babilon, mae yr Iuddewon yn ffieiddio eilunod, ac wedi dyoddef llawer o'r achos hyny. Y maent yn ffieiddio Cristionogion am eilun-addoliaeth, oblegid eu bod yn addoli Iesu o Nazareth fel Duw. Ond yn hyn y maent o'u gwirfodd yn cyfeiliorni. Mahometaniaid a gymerant arnynt fod yn gryf iawn yn erbyn eilun-addoliaeth. Y Pabyddion a addolant Mair, a seintiau, ac angelion dirifedi, yr elfenau yn y swper sanctaidd, creiriau, delwau, &c. Ac yn wir, nid ydyw eglwys Groeg nemawr llai eilunaddolgar na'r Pabyddion.

Ond heblaw eilun-addoliaeth allanol, y mae yr ail orchymyn, fel yr holl orchymynion, yn ysbrydol, ac yn dra ëang, yn cyrhaedd at agwedd y galon a'r meddwl, yn dufewnol. Y mae cybydd-dod, sef çaru y byd, a'r pethau sydd yn y byd—blys anghymedrol at fwydydd a diodydd—caru a phwyso ar un creadur yn lle Duw, yn eilun-addoliaeth yn nghyfrif Duw, ac yn nodi dyn yn eilun-addolwr, fel pe bai efe yn addoli eilunod. Ezec. 14. 3, 4. Eph. 5. 5. Col. 3. 5. 1 Petr 4. 3. Phil. 3. 19.

Y mae yr ail orchymyn yn gwarafun, fel pechod ofnadwy, bob meddyliau a dychymygion cyfeiliornus am y gwir Dduw; amrywio oddi wrth reol gair Duw yn ein haddoliad o hono; ac ymgyfathrachu âg eilunaddolwyr. Act. 17. 29. Deut. 5. 12, 32. 1 Cron. 28. 9. Neh. 13. 25.

Y mae yr Arglwydd gwedi dangos ei eiddigedd yn erbyn eilun-addoliaeth yn dra ofnadwy. Nid oes un pechod yn fwy yn erbyn perffeithrwydd gogoniant Duw, a'r anrhydedd dyledus iddo; nac yn dangos yn fwy anwybodaeth, ffolineb, ac ynfydrwydd pechaduriaid dan y cwymp. 'Hwy a newidiasant wirionedd Duw yn gelwydd, ac a addolasant ac a wasanaethasant y creadur yn fwy (neu *παρα, yn hytrach*) na'r Creawdwr, yr hwn sydd fendigedig yn dragywyddol. Amen.' Rhuf. 1. 25. Esa. 44. 7—20. Exod. xxxii. Num. 25. 3, 4. 1 Bren 12. 26—33. a 14. 9, 11. Jer. 7. 24, 33, 34. a xv. 1 Cron. xxi. Barn. 8. 27. 2 Cron. 28. 6, &c. 1 Cor. 10. 7, 14.

**EUNICE**, *Gr.* Ευνικη [*buddugoliaeth dda*] merch Lois dduwiol, a mam Timotheus; Iuddewes enedigol, ond yn briod âg un o'r Cenedloedd. Y mae ei henw hi, a'i mam Lois, gwedi eu nodi yn barchus yn llyfr Duw, am eu ffydd, a'u llafur yn addysgu Timotheus yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. 2 Tim. 1. 5. a 3. 15.

**EUNUCH**, *Gr.* Ευνουχος [*gwely-geidwad*] dyspaidd; mab dyspaddedig; ystafellydd. Cadwriaeth gwelyau ac ystafelloedd tywysogion a thywysogesau, a roddid, ac a roddir etto, i'r cyfryw, yn y gwledydd dwyreiniol; oddi wrth hyn, gelwir ystafellyddion eunuchiaid, pa un bynag a fyddont yn ddyspaddedig ai peidio. Y mae yr un gair סריס yn cael ei gyfieithu weithiau *tywysog*, Gen. 37. 36. a 39. 1.—*ystafellydd*, 2 Bren. 20. 18. Esth. 1. 10. a 2. 3. Dan. 1. 3. Jer. 38. 7.—*dyspaddedig*, Esa. 56. 3, 4.—'Eunuch galluog,' Ευνουχος δυναστης, rhaglaw, neu swyddwr yn llys Candace, brenines Ethiopia. Act. 8. 27. 'Ac wele ryw Eunuch o Ethiopia, sef Raglaw Candace Brenines yr Ethiopiait.' W. S.

Yr arfer o ddyspaddu meibion, fel y mae yn erbyn deddf natur, felly y mae yn hollol waharddedig gan Dduw, ac y mae y cyfryw yn llusedig o gynnulleidfa yr Arglwydd, neu o bob swydd eglwysig a gwladol. Deut. 23. 1, 2.—Yr eunuch, neu ystafellydd Candace, brenines Ethiopia, oedd, tebygol, *broselyt* i'r grefydd Iuddewig; ac ar ei ddychweliad o Jerusalem, cyfarfu Phylip âg ef, trwy gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, ac a bregethodd iddo yr Iesu; ac ar ei gyffes o'i ffydd yn Nghrist, cafodd ei fedyddio gan Phylip; bernir iddo sefydlu Cristionogrwydd yn y wlad hôno, ac y mae yn parhau yno, mewn rhyw lun, hyd heddyw. Act. 8. 27—39. Edr. Ethiopia.

'Y mae eunuchiaid a aned felly,' sef yn ddidueddiad o ran natur i briodi. 'Eraill a'u gwnant eu hun yn eunuchiaid er mwyn teyrnas nefoedd:' sef a ymgadwant oddiwrth briodi, er mwyn ymroddiad mwy cyflawn a diranedig i'r Arglwydd a'i waith; 'ond nid yw pawb yn derbyn y gair (neu y *gallu*) hwn, ond y rhai y rhoddwyd iddynt; y neb a ddichon ei dderbyn, derbynied.' Mat. 19. 11, 12.

**EUODIAS**, *Gr.* Ευωδια [*arogl-bêr*] gwraig enwog yn eglwys Philippi, yr hon, yn nghyd â Syntyche, a gyd-lafuriodd (*συνηθλησαν, gyd-ymdrechasant*, neu *gyd-ymcrchestasant*) â'r apostol Paul yn taenu yr efengyl. O herwydd rhyw ymrafael rhyngddynt, mae yr apostol yn 'attolwg iddynt synied yr un peth yn yr Arglwydd.' Phil. 4. 2, 3.

**EUOG**, (eu) camgylus, beius, traws-wybodol, anwirion. Y mae pob peth a wneir gan ddyn, ar feddwl, gair, neu weithred, sydd yn groes i gyfraith uniawn Duw, yn ei wneuthur yn euog ger bron Duw. Nid ei gydnabyddiaeth o'i drosedd a feddylir wrth fod dyn yn euog, ond ei drosedd o'r gyfraith sydd yn ei wneuthur yn euog, pa un ai byddo yn cydnabod hyny ai peidio. Y mae pob dyn yn euog neu yn ddieuog, hyny yw, yn droseddwr, neu yn berffaith ufudd: fel y mae pawb yn droseddwyr, maent yn euog a than farn Duw; ac nid oes ond gwaed Crist a ddichon buro y gydwybod oddi wrth weithredoedd meirwon. Heb. 9. 14. Edr. Cydwybod, Cyfraith.

Pwy bynag a gyfranogo o swper yr Arglwydd 'yn annheilwng, sydd yn euog o gorph a gwaed yr Arglwydd.' 1 Cor. 11. 27. Y mae yn euog, trwy hyny, o ddiystyrwch ac anmharch o'r pethau a arwyddoceir yn y gosodiad sanctaidd, sef corph a gwaed Crist, y peth mwyaf sanctaidd a goruchel sydd mewn bod—sef y Person goruchel, ei iawn a'i gyfiawnder.

'Euog o farwolaeth,' hyny ydyw, euog o drosedd yn haeddu marwolaeth. Mat. 26. 66.—'Euocau a wnaethoch a lladd y cyfion.' Iago 5. 6. W. S. Hyny yw, *Gr.* *κατεδικασατε, euog-farnu* a wnaethoch, &c.

**EUPHRATES**, *Gr.* Ευφρατης; *Heb.* פרת [*cynnyddol, ffrwythlon*] afon nodedig o Asia, yn tarddu o fynyddoedd Armenia; y mae yn rhedeg ar gyffiniau

Digitized by Google

Cappadocia, Syria, Arabia Deserta, Caldea, Mesopotamia, ac yn myned i Lychlyn Persia. Y mae hi a'r Tigris yn ymuno, ac wedi hyny yn ymranu; ac yr oeddynt gynt yn rhedeg i'r môr yn ddwy ffrwd; ond y mae yn anhysbys yn awr a ydynt yn rhedeg yn ddwy, neu yn un ffrwd. Dywed Moses, (Gen. 2. 14.) mai yr Euphrates (פרת) ydoedd y bedwaredd afon oedd â'i dechreuad yn Eden; ac yr oedd yn myned trwy Babilon. Mae ei rhedegfa, gan mwyaf, yn hyfryd, trwy wastadedd ffrwythlawn; a'i cheulanau wedi eu haddurno â gwyrddlesni gwastadol yr helyg, y palmwydd, a phorfeydd breision. Ei dwfr sydd, y rhan amlaf, yn afloyw; ond wedi sefydlu, neu eu hidlo, y mae yn dra iachus—y mae yr Arabiaid yn ei farnu yn feddyginiaeth gyffredinol rhag pob afiechyd. Oddiwrth doddiad yr eira ar fynyddoedd Armenia, a gwlawogydd, y mae yn fynych yn dylifo dros ei cheulanau, ac yn gorchuddio y gwastad-tir o bob tu iddi; ac er, wrth hyny, ei bod yn ffrwythloni y tir, y mae hefyd yn aml yn niweidio y ffrwythau y mae yn achos o honynt. O herwydd hyny, y mae brenin Assyria a'i fyddinoedd yn goresgyn gwlad Judea dan Senacherib ac Esarhadon, yn cael eu cyffelybu i'r afon Euphrates, yn gryfion ac yn fawrion, yn taenu dros, ac yn dystrywio y gwledydd oddi amgylch. Esa. 8. 6, 7. Yr Euphrates oedd y terfyn gogledd-ddwyreiniol y wlad addawedig i had Abraham; ac yn nyddiau Dafydd a Solomon yr oeddynt yn ei chyflawn feddiannu. Exod. 23. 31.

Yn nghwymp Babilon Babaidd, tywalltwyd, neu, tywelltir, 'y chweched phiol ar yr afon fawr Euphrates; a sychodd ei dwfr hi, fel y parotoid ffordd breninoedd y dwyrain,' neu y rhai sydd *απο ανατολων ηλιου, o godiad haul.* Y mae dehonglwyr y llyfr hwn, yn cyfaddef anhawsdra nid bychan i egluro a chymhwyso y geiriau hyn; a hwyrach na ddeallir, i foddlonrwydd, mo honynt, nes eu cyflawni. Beth sydd i'w ddeall wrth yr afon fawr Euphrates? Pwy yw y breninoedd o godiad haul? A ffordd i ba beth sydd yn cael ei pharotoi iddynt? Dyma y gofynion sydd anhawdd eu hateb a'u penderfynu. Gellir deall, mor belled a hyn, feddwl yr Ysbryd Glân, sef bod yr afon fawr Euphrates, mewn ystyr cyfriniol, yn amddiffynfa ac yn gynnaliaeth i Babilon Babaidd, fel yr oedd yr afon hon, mewn ystyr llythyrenol, i Babilon Baganaidd. Edr. BABILON. Fod sychu yr afon hon yn bla ar Babilon, ac yn foddion neillduol i rwyddhau y ffordd, a phrysuro ei dinystr; a bod y breninoedd o godiad haul yn elynion i Babilon; ac wedi symud y rhwystr, yn cael ffordd rydd i gofleidio Cristionogrwydd, yn ei burdeb gogoneddus. Hwyrach fod i ni ddeall, gan hyny, wrth Euphrates, Babilon Babaidd, holl gyfoeth a galluoedd y teyrnasoedd (Ffrainc yn benaf, yn ol barn Vitringa) ag sydd hyd yma gwedi bod yn amddiffynfa ac yn gynnorthwy i'r grefydd Babaidd; a '*sychu* y dwfr,' a arwydda eu tlodi a'u gwanhau; neu ynte, bod dyfroedd yr afon yn cael eu troi o'u rhedegfa gyffredin, fel y gwnaed wrth gymeryd Babilon Baganaidd, sef o fod yn gynnaliaeth ac yn amddiffynfa i Babilon Anghristaidd, ac yn rhwystr i ddyfodfa y breninoedd gogoneddus sydd yn dyfod gyd â'r haul, ac yn teyrnasu wrth liw dydd goleu, er gwae i Babilon, ac er cynhyrfiad i ysbrydion aflan anghristaidd i gynnull eu holl luoedd i ryfel y dydd hwnw, dydd mawr Duw Hollalluog. Dat. 16. 12, 13, 14.——Am fod gollwng yn rhydd y pedwar angel, sef blaenoriaid eu byddinoedd, sydd yn rhwym yn yr afon fawr Euphrates, dan udganiad y chweched udgorn, yn arwyddo gosodiad i fynu ymerodraeth fawr y Twrc, barna rhai mai dinystr yr ymerodraeth hòno a feddylir wrth sychu yr afon fawr Euphrates. Amser a ddengys bethau yn fwy eglur. Gwel Pareus, Coccejus, Vitringa, a Dr. F. Roberts' *Key.*

3 C

EUROCLYDON, *Gr.* *Ευροκλυδων, ab Ευρου κλυδων [tymhestl ddwyreiniol]* gwynt tymhestlog yw, cyffredin yn Môr y Canoldir, a thra adnabyddus i'n morwyr ni dan yr enw *Levanter.* Act. 27. 14. Mae yn chwythu o bob parth, o'r gogledd-dwyrain oddi amgylch i'r gogledd ac i'r dehau-ddwyrain.

EURYCH, (aur) *Llad.* AURIFEX; eur-ôf, gôf aur, purwr aur; efydd-weithiwr, tinc-ôf. Y gair צרף a gyfieithir yn y rhif lliosog, *eurychod,* (Neh. 3. 32.) a gyfieithir *gofaint aur,* (adn. 8.)—yn y rhif unigol, *toddydd.* Barn. 17. 4. Mal. 3. 2, 3.

EUTYCHUS, *Gr.* *Ευτυχος* [*ffawdus*] gwr ieuanc yn Troas, yr hwn a eisteddai mewn ffenestr, tra yr oedd Paul yn ymresymu yn hir, wedi ei orchfygu gan gwsg, a gwympodd i lawr o'r drydedd lofft, ac a gyfodwyd i fynu yn farw. Paul a aeth i waered, a syrthiodd arno, ac a'i cofleidiodd, ac efe a adfywiodd, ac a ddychwelodd at y gymdeithas. Act. 20. 9—12.

EWIG, (ew-ig) hydd; danas; anifel pedwar carnol deadellog. Mae cyrn yr ewigod yn gangenog, ac yn syrthio ymaith yn flynyddol; ond anaml y mae gan y fanyw gyrn. Maent yn hirhoedlog, a phan yn ieuainc, y maent yn hardd ac yn serchog. Mae yr ewigod yn llydnu mewn poen mawr, ac a gynnorthwyir, meddant, gan sŵn y taranau. Job 39. 1—4. Ps. 29. 9. Mae eu syched yn gryf ac yn ofidus. Maent yn ofnog, yn gyflym, ac yn llamu yn mhell. 2 Sam. 24. 34. Ps. 18. 33. Hab. 3. 19. Esa. 13. 14. Edr. HYDD, IWRCH.

EWIN, (ew-in) *Gr.* *ονυξ*; *Llad.* UNGUIS; sylwedd cornaidd er amddiffyn blaen bysedd a bodiau dynion; crafanc adar; rhaniad y sylwedd carnaidd yn nhraed anifel fforch-droediog. Y mae yr ewinedd yn dra buddiol er amddiffyn penau y bysedd, y rhai sydd yn dyner iawn o herwydd nifer lliosog y gewynau sydd yn terfynu yno er teimlad.

'Ni adewir ewin yn ol,' a arwydda eu cyflawn ymadawiad o'r Aipht, fel na fyddai dim yno i'w denu yn ol; yr hyn a waharddodd Duw iddynt. Deut. 17. 16. a 28. 68. Hos. 9. 3. Mae ufudd-dod manwl, cadarn, cyflawn Moses i orchymyn Duw yn hyn, yn dangos natur gwir ufudd-dod ffydd yn mhawb sydd â'u calonau yn uniawn gyd â'r Arglwydd.

Yr 'ewinedd o bres,' oedd gan bedweryydd bwystfil Daniel, a arwyddant allu a chreulondeb y Rhufeiniaid i anrheithio, ysglyfaethu, a chadw y gwledydd a oresgynasant. Dan. 7. 10.—'Ewin-ddrud,' sef creulawn, ffyrnig.

> Duw, daethant arnaf fi, wyr beilch,
> Fel llu o weilch *ewin-ddrud.*
> *E. Prys,* (Ps. 86. 14.)

EWYLLYS—IO, (ewyll) *Gr.* *θελημα*; *Llad.* VOLUNTAS; tuedd a gogwydd y meddwl; dymuniad; dewisiad.—1. Un o alluoedd yr enaid, trwy yr hwn y mae, yn rhydd, yn dewis ac yn gwrthod gwrthddrychau; yn cwblhau neu yn ymattal oddiwrth ryw weithredoedd.——2. Y mae natur yr ewyllys, ynddi ei hun, fel ewyllys, yn rhydd; ac onidê, ni byddai yn ewyllys, ac ni byddai y fath gynneddf mewn dyn. Ond dyn yn ei gyflwr syrthiedig, nis dichon ewyllysio yn wahanol i'r anian sydd ynddo; gan nad oes sancteiddrwydd ynddo, nis dichon iddo ewyllysio yr hyn sydd groes i'r anian sydd ynddo; gan nad yw yn adnabod Duw, nac yn ei garu, nis dichon iddo ewyllysio ei foddhau na'i fwynhau. Y mae yn ewyllysio yn rhydd, yn ol y peth ydyw, pa un bynag ai halogedig ai sanctaidd y byddo; y mae yn amlwg na chyfnewidia ei anian lygredig ei hun; oblegid nid ewyllysia hyny byth heb ei gyfnewid. Am hyny, rhaid iddo gael ei gyfnewid gan un arall, sef gan yr Arglwydd, cyn yr ewyllysia yr hyn sy dda. 'Y mae syniad,' ac *ewyllysiau* 'y cnawd, yn elyniaeth yn

Digitized by Google

erbyn Duw; canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; oblegid nis gall chwaith.' Rhuf. 8. 7, 8. Eph. 2. 3. Nid anallu, neu anaddasrwydd *naturiol*, fel cynneddf yr enaid, sydd yn yr ewyllys i ddewis yr hyn sydd dda, ond anallu ac anaddasrwydd *moesol* a *phechadurus*. Gelyniaeth yn erbyn Duw yw syniad y dyn, ac *am hyny* mae y synio a'r ewyllysio yn ol yr elyniaeth hòno, yr hon sydd yn gwbl groes iddo: 'canys y rhai sydd yn y cnawd, am bethau y cnawd maent yn synio.' Y rhai sydd wedi eu hachub trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân, ac wedi eu hadnewyddu yn ysbryd eu meddwl; mae y rhai hyny yn synied pethau yr Ysbryd, yn unol â'r hyn ydynt fel pechaduriaid wedi eu hadnewyddu. Y mae ansawdd ewyllys pob dyn yn dangos beth ydyw; ac yn ol ei ewyllys y mae ei rodiad yn gyffredinol. Os ydyw yr ewyllys heb ei chyfnewid yn sanctaidd, nid ydyw y goleuni a ddichon fod yn y deall, na'r gweithrediadau a'r cynhyrfiadau a ddichon fod yn y serchiadau, yn sanctaidd ac yn ysbrydol, ac yn nodi dyn gwedi ei wir gyfnewid. Ps. 1. 2. a 110. 3. Rhuf. 7. 15, 18.

Ewyllysio neu mynu, a arwydda, 1. Dewis a dymuno. Phil. 2. 13.——2. Gofyn gyda hyfdra. Ioan 17. 24.——3. Gorchymyn gyd âg awdurdod. Ioan 21. 23.——4. Goddef. Iago 4. 13.

Ewyllys Duw a arwydda, 1. Ei awdurdod i ddewis neu wrthod. Rhuf. 9. 19.——2. Ei gynghor, ei ragluniaeth, a'i arfaeth. Eph. 1. 11. Iago 1. 18.——3. Ei air, ei gyfreithiau, a chyhoeddiadau yr efengyl, trwy ba rai mae yr Arglwydd yn hysbysu i ni yr hyn mae yn ewyllysio gyfranu i ni; neu yr hyn y mae yn ewyllysio i ni wneuthur mewn ufudd-dod iddo. Mat. 7. 21. Rhuf. 12. 2.——4. Ei diriondeb, a'i ewyllys dadguddiedig i ni yn ei weithredoedd grasol. Deut. 33. 16. Luc 2. 14.

'Hyn yw ewyllys Duw, sef eich sancteiddiad chwi.' 1 Thes. 4. 3. Ei ewyllys yn ei arfaeth, yn ddadguddiedig yn ei addewidion, ac yn ei orchymynion. Y mae darpariad yn nhrefn Duw i gwblhau hyny.—'Yr hwn sydd yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd.' 1 Tim. 2. 4. Y mae yn bwriadu achub dynion o bob math, o bob sefyllfa, ac amgylchiad; o bob llwyth, iaith, a chenedl; y mae gwaith pob dyn yn ymgais am wybodaeth ysbrydol, ac iachawdwriaeth, yn unol â'i orchymyn. ——Cafodd ewyllys ei Dad ei hanrhydeddu i'r gradd eithaf gan Grist, yn ei ufudd-dod a'i ddyoddefiadau; ufuddhaodd i'w ewyllys yn ei fywyd yn berffaith, ac ymostyngodd iddi yn berffaith sanctaidd yn ei ddyoddefiadau. Mat. 26. 39. Ps. 40. 8.——'Nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae,' sef yr etholedigaeth. Pe buasai felly, ni buasai neb gadwedig; canys ni buasai neb yn ei gyflwr llygredig yn ewyllysio yn sanctaidd ac yn dda; ond gan ei bod o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau, dichon y pechaduriaid mwyaf a gwaethaf gael eu cyfnewid a'u hachub: 'canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynddynt ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef.' Rhuf. 9. 16. Phil. 2. 13. Ioan 1. 13. Yn nydd nerth yr Arglwydd bydd y rhai cyndynaf yn ewyllysgar, ac nid cyn hyny. 'Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth.' נדבת עמך *dy bobl ewyllysgaryddion*, yn nydd dy nerth. Yn lle offrymu aberthau fel cynt, yn nydd nerth Duw, trwy yr efengyl, offrymant eu hunain yn *wirfoddiaid* i'r Arglwydd. Y mae yr un gair yn cael ei arferyd am yr aberthau gwirfodd gynt dan y gyfraith. Exod. 25. 2. a 35. 21, 22, 29. 1 Cron. 29. 5, 6, 9, 14. Barn. 5. 2, 9. Neh. 11. 2. Yn lle yr aberthau, offrymant eu hunain yn aberthau byw, sanctaidd, a chymeradwy gan Dduw, mewn harddwch sancteiddrwydd. ——Yn nghyndynrwydd halogedig ewyllys dyn, y mae ei bechadurusrwydd yn benaf yn gynnwysedig; a hyd nes byddo hwn gwedi ei symud, trwy sancteiddiad yr ewyllys, ni bydd neb yn rhedeg llwybrau Duw, nac yn gweithredu mewn ufudd-dod i Dduw. Am hyny, y mae yr etholedigaeth a iechydwriaeth dragywyddol, yn gwbl o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau. O'i ewyllys da ei hun y tosturiodd wrthym. Yn ei 'ewyllys da ef,' yn unig, 'y dyrchefir ein corn ni.' Ps. 89. 17. Esa. 60. 10. Iago 1. 18.

EWYN—OEDD—U, (ew-yn) ewyn-gaen, ewyngant; dystrych y dòn; gorferw; swyfi; glafoerion y genau; burym.—'Malu ewyn,' bwrw ewyn, glafoeri, ewynu. Marc 9. 18, 20. Luc 9. 39.

'Tònau cynddeiriog y môr, yn ewynu allan eu cywilydd eu hunain.' Judas 13. Y mae yn y geiriau ddarluniad bywiog o ysbryd cynhenus, cythryblus, ac aflonydd, gau-athrawon; ac effeithiau llygredig a gwarthus eu holl gynhyrfiadau, iddynt eu hunain a'u canlynwyr. Fel tònau cynddeiriog y môr, y maent yn ymchwyddo yn uchel, yn amcanu ac yn bwgwth dymchwelyd y gwirionedd, a dystrywio y wir eglwys; fel tònau y môr, y maent yn ewynu llaid llygredig, ac ewyn disylwedd; fel yr un tònau y maent yn dymchwelyd arnynt eu hunain, ac yn myned, er eu mawr gywilydd, yn ddiddim; ac y mae y gwirionedd, fel creigiau diymmodol, yn sefyll yn gryf ac yn ogoneddus, gwedi i'w holl gynddeiriogrwydd hwy ddarfod.

*Ewyn* dwfr addewid gwas. *Diar.*

EWYTHR—EDD, (gwythr). Arferir ewythr a modryb fel enwau o barch i henaint.—'Merched Salphaad fuant yn wragedd i feibion eu hewythredd.' Num. 36. 11. 'Ei ewythr a'i cyfyd i fynu;' *Heb.* דודו *ei anwylyd*, neu *ei agos berthynas*. Amos 6. 10. Dr. N.

*Ewythr* yw brawd tad, neu fam, neu hendad, neu henfam neu orhendad, neu orhenfam.

*Cyfreithiau Cymreig.*

EXODUS, neu ail lyfr Moses, *Gr.* Εξοδος, [*ymadawiad*, neu *mynediad allan*]. Mae yn cael ei alw gan Grist, *Llyfr Moses*. Marc 12. 26. Yn Hebraeg mae yn cael ei alw ואלה שמות *Llyfr yr enwau*, oddiwrth y geiriau â pha rai y mae y llyfr yn dechreu. Ond cyfieithwyr yr Hen Destament i'r cyfieithiad Groeg, a elwir y Deg a Thriugain, a'i galwasant Εξοδος, *Exodus*, neu yr *Ymadawiad*; am mai ymadawiad plant Israel o'r Aipht yw yr hanes penaf sydd yn gynnwysedig ynddo. Y mae yn cynnwys hanesiaeth am yr Israeliaid, a'r amgylchiadau perthynol iddynt, yn nghylch 145 o flynyddoedd, sef o farwolaeth Joseph, A.M. 2369, hyd osodiad y babell i fynu yn yr anialwch, A.M. 2514. Gwelwn yn yr hanes rhyfedd yn y llyfr hwn, 1. Rhagluniaeth neillduol Duw yn cadw ac yn amlhau ei bobl yn eu gorthrymderau. ——2. Eu gwaredigaethau hynod o gaethiwed yr Aipht.——3. Eu mynediad trwy y Môr Coch, a dystrywiad yr Aiphtiaid yn y môr.——4. Y dull rhyfedd y cynnaliodd Duw hwynt yn yr anialwch.——5. Rhoddiad y gyfraith, a Duw yn adnewyddu ei gyfammod â hwynt wrth fynydd Sinai.——6. A gosodiad pabell Duw i fynu yn eu plith. Ond gan y daw yr amrywiol ddefnyddiau cynnwysedig yn y llyfr hwn dan ein hystyriaeth mewn geiriau eraill, nid ydyw yn rheidiol helaethu arnynt yma. Y mae cyfeiriadau aml iawn at yr amrywiol bethau cynnwysedig yn y llyfr hwn, yn y Psalmau, y Prophwydi, a chan ein Harglwydd, a'i apostolion; a hyny yn y cyfryw iaith ag sydd yn dangos eu bod yn golygu yr hanes ynddo, nid yn unig fel yn wirionedd, ond hefyd wedi ei roddi gan *ysbrydoliaeth Duw*. Y mae amryw o brophwydoliaethau ynddo wedi eu cyflawni, rai oesoedd wedi eu llefaru; megys yr hon a roddir i ni yn y geiriau canlynol: 'Ac ni chwennych neb dy dir di, pan elych i fynu i ymddangos ger bron yr Arglwydd

Digitized by Google

dy Dduw, dair gwaith yn y flwyddyn.' Pen. 34. 24. Yr hyn y mae holl hanesiaeth y bobl hyn yn tystiolaethu a gyflawnwyd yn fanwl.

EZBON, *Heb.* אצבן [*awyddus i wrando*] 1. Mab Bela, ac ŵyr Benjamin. 1 Cron. 7. 7.——2. Mab Gad. Gen. 46. 16.

EZECIEL, *Heb.* יחזקאל [*nerth Duw*] mab Buzi, offeiriad a phrophwyd, yr hwn a ddygwyd yn gaeth i Babilon gyda Jehoiacin, brenin Judah. Nid yw yn ymddangos iddo brophwydo cyn ei gaethiwed. Yn y ddegfed flwyddyn ar hugain gwedi y diwygiad mawr a wnawd yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Josiah, ac yn y bummed flwyddyn o deyrnasiad Jehoiacin, ac o deyrnasiad Zedeciah, yn nhir y Caldeaid, wrth afon Chebar, cafodd efe weledigaeth y cerubiaid a'r olwynion. Pen. i. Yn yr un flwyddyn hefyd y dadguddiodd yr Arglwydd iddo y 390 o flynyddoedd o eithaf amynedd Duw tu ag at dŷ Israel, a'r deugain mlynedd o arbediad tŷ Judah, a'r farnedigaeth a roddai efe ar y ddau ar ol hyny, fel y gosodir y cwbl allan yn pen. iv, v, vi, vii.

Yn y chweched flwyddyn, dygwyd ef i Jerusalem mewn gweledigaeth, a dadguddiwyd holl eilun-addoliaeth ffiaidd yr Iuddewon yno; a hysbyswyd iddo y cospedigaethau ofnadwy a roddai Duw arnynt, oblegid y cyfryw ffieidd-dra. Pen. viii, ix, x, xi. Ar yr un pryd, addawodd yr Arglwydd i'r gaethglud, y byddai efe yn gysegr bychan i'r Iuddewon yn Babilon, os hwy a ymgadwent oddiwrth y cyfryw bechodau ffiaidd, a glynu wrth yr Arglwydd, a'i addoli ef yn unig: hefyd y dygai efe hwynt yn ol i'w gwlad eu hunain; a pheri iddynt flaguro yno mewn heddwch a chyfiawnder. Pen. 11. 16—25.——Yn y seithfed flwyddyn y dadguddir iddo, trwy arwyddion ac mewn geiriau, oresgyniad Jerusalem gan y Caldeaid, ffoedigaeth Zedeciah, tyniad allan ei lygaid, ei gaethiwed a'i farwolaeth yn Babilon. Pen. xii, xiii, xiv, xv, xvi, xvii, a xviii. Y pennodau hyn ydynt, gan mwyaf, yn perthynu i'r un achos, gyd âg amrywiaeth helaethiad arno.——Y mae yn rhagfynegi dinystr sicr Jerusalem; a dymchweliad breniniaethau Ammon, Moab, Edom, y Philistiaid, Tyrus, a'r Aipht, trwy y Caldeaid. Gwedi clywed am ddinystr Jerusalem, y mae yn rhagfynegi yn hyfryd ddyfodiad y Messïah, eu Brenin a'u Bugail ysbrydol; eu gwaredigaeth o Babilon, ac o'u gwasgariad presennol; ymuniad heddychol y llwythau; purdeb eu haddoliad, a dystryw eu gelynion, yn enwedigol Gog a Magog; a'u sefydliad dedwydd yn eu tir eu hunain yn y dyddiau diweddaf. Trwy hanés arwyddol o honynt hwy, eu gwlad, y deml, a'r llwythau, y mae yn darlunio yr eglwys efengylaidd yn y dyddiau diweddaf. Pen. xxv—xlviii.

Dechreuodd Ezeciel brophwydo chwe blynedd cyn dinystr Jerusalem gan Nebuchodonosor, a pharhaodd i brophwydo un ar bymtheg o flynyddoedd gwedi hyny. Pen. 1. 1. a 40. 1. a 29. 17.——Y mae yn argyhoeddi yr Iuddewon o'u pechodau, yn noeth ac yn llymdost. Y mae yr Ysbryd Glân gwedi ei arwain i lefaru mewn dull unigol iddo ei hun, ac yn fwy aml mewn gweledigaethau arwyddol nag un o'r prophwydi eraill, a'r rhai hyny yn fawreddig ac yn dra rhyfeddol. Mae yn ysgrifenu gyda grym, mawr-egni, pwys, ac ardderchogrwydd; a chyda helaethiad anarferol ar yr amrywiol destunau ymadrodd dan ei ystyriaeth. Gwel Lowth's *Prælect.* xxi., *p.* 279. Newcome's *Preface to his Translation.*

Yr oedd yn cyd-oesi â Jeremiah, ac yn prophwydo yr un amser; Jeremiah yn dechreu ychydig o'i flaen ef. Er bod Jeremiah yn prophwydo yn Judea, ac Ezeciel yn Caldea, etto mae cyd-gordiad rhyfedd rhyngddynt, yr hyn sydd yn brawf diammheuol o ddwyfoldeb prophwydoliaethau pob un o'r ddau.—Pa hyd y bu fyw, a pha bryd a pha le y bu farw, nid yw yr ysgrythyrau yn cofflâu; ac nid yw yr holl hanesion dychymygol a roddir gan yr Iuddewon, ac eraill, yn deilwng o'n hystyriaeth na'n cred, yn y mesur lleiaf. Gwel Calmet.

EZEL, *Heb.* חזאל [*yn dangos y ffordd*] mynegfaen, mae yn debygol, yn dangos y ffordd i'r fforddolion. 1 Sam. 20. 19. Neu, hwyrach, yr arwydda y maen wrth ba un y byddai Dafydd a Jonathan yn mynych gyfarfod â'u gilydd.

EZER, *Heb.* עזר [*trysor*] 1. Tad Husah o Judah. 1 Cron. 4. 4.——2. Offeiriad a ddychwelodd o Babilon. Neh. 12. 42.——3. Mab Seir yr Horiad. Gen. 36. 21, 27.

EZION-GABER, *Heb.* עציון גבר [*asgwrn cefn dyn*] dinas wrth Eloth, ar fin y Môr Coch; o du y dwyrain iddo, ar lychlyn Elam, ac o du gorllewin y llychlyn, medd y Dr. Shaw, oddeutu triugain milltir gogledd o Sinai, a deng milltir ar hugain o Eloth: ond *wrth* Eloth, medd y gair. 1 Bren. 9. 26. Yr Israeliaid a ddaethant o Ebronah i Ezion-gaber, ac oddi yno i anialwch Sin, neu *Tsin* (Edr. CRAIG) hwnw yw Cades. Num. 33. 35.——Cyn belled a hyny y gwrthdeithiodd yr Israeliaid wedi bod wrth gyffiniau deheuol gwlad yr addewid. Yma y gwnaeth Solomon longau, ac a'u hanfonodd i Ophir am aur; o ba achos y geilw yr Arabiaid hi, 'Y porthladd euraidd.' Ar gefn o greigiau yn y porthladd hwn y drylliwyd cyf-lynges Jehosaphat ac Ahaziah. Oddiwrth y creigiau hyn cafodd y lle yr enw Ezion-gaber, sydd yn arwyddocâu *asgwrn cefn dyn,* am fod y creigiau yn tebygu iddo.

EZRA, *Heb.* עזרה [*cymhorth*] mab Seraiah, yr hwn, tebygol, ydoedd yr offeiriad penaf, ac a laddwyd gan frenin Babilon yn Riblah. Ezra 7. 1. 2 Bren. 25. 18. Eraill a farnant, yn fwy tebygol, mai ei ŵyr neu ei orwyr ydoedd. Yn yr un adnod ag y gelwir Ezra yn fab Seraiah, gelwir Azariah hefyd yn fab Meraioth, er bod chwech rhyngddynt. 1 Cron. 6. 7, 8, 9. Ezra 7. 1. Peth cyffredin yn yr ysgrythyrau yw galw un yn fab i ryw un o'i henafiaid, o ba un yr oedd yn deillio. Yr oedd Ezra yn ŵr hynod am ei sancteiddrwydd, ac hefyd am ei ddysgeidiaeth; yn neillduol am ei ddeall a'i fedrusrwydd yn ei wybodaeth o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Yn llythyr Artaxerxes y brenin, gelwir ef, 'ysgrifenydd perffaith deddf Duw y nefoedd:' canys Ezra a barotoisai ei galon i geisio cyfraith yr Arglwydd, i'w gwneuthur, ac i ddysgu yn Israel ddeddfau a barnedigaethau. Adn. 10, 12.——Yn y seithfed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, brenin Persia, C.C. 458, cafodd awdurdod freninol, trwy ewyllys da Esther â'i ffafr gyd â'r brenin, mewn rhan, tebygol, i fyned i Judea, a phwy bynag o bobl Judea oedd ewyllysgar i fyned gyd âg ef, i iawn drefnu pob peth yn y wladwriaeth a'r eglwys, yn ol cyfraith Duw. Cychwynodd o Babilon ar y dydd cyntaf o fis Nisan (yn nghylch canol Mawrth) a llawer a gychwynasant gyd âg ef. Casglodd hwynt wrth yr afon sydd yn myned i Ahafa, ac yno y gwersyllasant dridiau, ac anfonodd am yr offeiriaid a'r Lefiaid. Gwedi dyfod 250 o honynt, cyhoeddodd ympryd i ymbil ar yr Arglwydd am ei gyfarwyddyd iddynt, a'i amddiffyniad ar eu taith; canys nid oedd ar fedr dangos un gradd o anhyder yn yr Arglwydd, trwy ofyn gan y brenin fyddin i'w hamddiffyn. Yma rhoddodd i gadwraeth a gofal y penaethiaid oedd gyd âg ef, yr arian a'r aur a roddasai y brenin iddo i wasanaeth y deml, gwerth yn nghylch £800,000.—Daeth 1775 o rifedi i Jerusalem ar y dydd cyntaf o'r pummed mis, wedi bod bedwar mis cyflawn ar eu taith o Babilon yno. Ezra vii, viii.

Gwedi iddo ddyfod i Jerusalem, ymosododd yn egniol yn nghylch gwaith yr Arglwydd, âg awdurdod freninol brenin Persia yn ei amddiffyn. Ond cyfarfu âg anhawsderau annysgwyliadwy. Yr oedd dirywiad nid bychan yn mysg y bobl, ac am hyny yr oedd yn

Digitized by Google

angenrheidiol wrth yr ymegnïad mwyaf i ddiwygio y cam-arferion a'r llygriad yn eu plith. Yr oeddynt wedi cyd-ffurfio â ffieidd-dra y gwledydd, trwy gyd-gyfrinachu a chyd-briodi â hwynt; yr hâd sanctaidd a ymgymysgodd â phobl y gwledydd; a llaw y penaethiaid a'r tywysogion a fu gyntaf yn y camwedd, yr hyn oedd wedi bod yn foddion o'i daenu ef yn fwy cyffredin, ac felly yn peri mwy o anhawsdra i'w ddiwygio. Ezra 9. 1—4. Pan glywodd Ezra hyn, gofidiodd yn dra mawr, a rhwygodd ei ddillad, a thynodd ei wallt a'i farf, ac a eisteddodd yn syn. Ei ymddygiad a dynodd sylw cyffredin; a'r rhai hyny a ofnodd eiriau Duw a ymgasglasant ato; ac efe, yn y modd mwyaf cyhoeddus, a dywalltodd ofid ei enaid o'r achos ger bron yr Arglwydd; cyfaddefodd bechodau y bobl iddo gyda llawer o ymostyngiad a gorchwyledd, ac ymbiliodd ar yr Arglwydd drostynt. Effeithiodd hyn ar y bobl, a hwy a wylasant âg wylofain mawr. Sechaniah mab Jehiel a annogodd Ezra i ymwroli a diwygio y camwedd, gan addaw y byddai iddynt ymgyfammodi â Duw ar fwrw allan yr holl wragedd a'r plant, a gwneuthur yn ol y gyfraith. Ac Ezra a gyfododd ac a dyngodd benaethiaid yr offeiriaid a'r Lefiaid, a holl Israel, ar wneuthur yn ol y peth hwn.

Yr oedd Ezra nid yn unig yn bregethwr cyfiawnder, ond hefyd yn ben-swyddwr gwladol, hyd ddyfodiad Nehemiah; a chyflawn awdurdod ganddo fel swyddwr, nid yn unig i ddangos beiau, ond hefyd i'w diwygio. Mewn yspaid tri mis, ymofynwyd yn fanwl iawn yn yr achos; ac yn nghylch 113 o'r offeiriaid, y Lefiaid, a'r Iuddewon eraill, a ysgarasant oddiwrth wragedd dyeithr, er bod iddynt blant o rai o honynt. Nid yw yn ymddangos iddynt fwrw eu plant ymaith, ond eu dwyn i fynu yn y grefydd Iuddewig. Bu Ezra yn flaenor eglwysig a gwladol yn Jerusalem am dair ar ddeg o flynyddoedd. Gwedi i Nehemiah ddyfod ac ail-adeiladu muriau Jerusalem, Ezra, yn cael ei gynnorthwyo gan chwech ar hugain o Lefiaid, a ddarllenodd ac a eglurodd y gyfraith i'r holl bobl, yn gynnulledig o'r boreu hyd yr hwyr, dros wyth niwrnod gŵyl y pebyll. Darllenasant yn eglur yn y llyfr, yn nghyfraith Duw, gan osod allan y synwyr, fel y deallent wrth ddarllen; a'r holl bobl oedd yn sefyll yn eu lle. I ddarllen, ac egluro y gyfraith, yr oedd yn sefyll mewn *pulpud*, neu areithfa, o goed. Effeithiodd hyn ar y bobl; wylasant, cyfaddefasant eu pechodau, a gwnaethant, a seliasant gyfammod â Duw am eu hymddygiad yn ol llaw. Tywalltodd Duw ei Ysbryd ar y bobl yn helaeth trwy weinidogaeth Ezra, a bu diwygiad mawr yn eu plith. Megys y gwnaeth yn nyddiau Josuah, pan ddygodd ei bobl gyntaf i'r wlad, felly hefyd y gwnaeth yn bresennol ar eu dychweliad o Babilon. Gwedi eu dygiad cyntaf i'w gwlad eu hunain, a'u sefydliad trwy Zorobabel a Josuah yr arch-offeiriad, bu dirywiad mawr yn eu plith, fel y sylwyd; ond bu gweinidogaeth y gwr hwn, tra enwog am ei ddysg, ei ddoniau, ei awyddfryd sanctaidd, a'i ffyddlondeb, trwy ddylanwadau yr Ysbryd Glân, yn effeithiol iawn i ddechreu diwygiad mawr. Gwedi i Nehemiah gymeryd ei le fel swyddwr gwladol, yr oedd yn parhau fel offeiriad ac fel ysgrifenydd i ddysgu ac annog y bobl.

Efe a ysgrifenodd, yn ol barn gyffredin y dysgedigion, lyfrau Ezra, Nehemiah, ac Esther, a hefyd dau lyfr y Cronicl; o'r hyn lleiaf, efe a gasglodd y defnyddiau yn nghyd, os nid efe oedd eu hysgrifenydd cyntaf. Efe hefyd, tebygol iawn, ac yn ol barn y rhan fwyaf o Iuddewon a Christionogion, a ddiwygiodd feiau a allasent, o oes i oes, ymlusgo i mewn i'r ysgrifeniadau dwyfol; a gasglodd yn nghyd y llyfrau canonaidd; ac a osododd yr ysgrifeniadau sanctaidd yn eu hiawn drefn; a gyfnewidiodd enwau rhai; a chwanegodd rai ymadroddion i wneuthur rhai manau yn fwy dealladwy. Yr Iuddewon, yn ol eu cyffes eu hunain, a gadwasant yr ysgrifeniadau sanctaidd fel y cawsant hwynt gan Ezra, o ran y llyfrau a'u trefn, hyd amser Crist; ac oddi wrthynt hwy y cafodd y Cristionogion hwynt. Gwedi hyn yr amlhawyd adysgrifeniadau (*copies*) o'r gyfraith yn fawr; adeiladwyd synagogau yn y wlad, a sefydlwyd fod llithoedd o'r gyfraith yn gyntaf, ac wedi hyny o holl lyfrau yr Hen Destament i gael eu darllen ynddynt bob Sabboth. Ezra a gafodd, meddant, yr anrhydedd o ddechreu y ddefod ragorol hon. Er bod y bobl cyn y caethiwed yn myned i dai y prophwydi am hyfforddiadau, ac er ein bod yn darllen am synagogau yn y tir (Ps. 74. 8.) etto, nid ydys yn barnu fod ganddynt adysgrifeniadau o'r gyfraith i'w darllen yn sefydlog ac yn gyhoeddus i'r bobl cyn y caethiwed, fel gwedi hyny. Bu hyn yn un moddion neillduol i'w cadw rhagllaw rhag eilun-addoliaeth.

Ezra a ddosparthodd y llyfrau yn dri dosparth, y rhai a elwid, 1. Y Gyfraith.—2. Y Prophwydi.—3. Yr Hagiographia, hyny yw, *yr ysgrifeniadau sanctaidd*.—Cyfeiria yr Arglwydd Iesu at y dosparthiadau hyn, Luc 24. 44., 'Dyma y geiriau a ddywedais i wrthych, pan oeddwn etto gyda chwi, bod yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenwyd yn nghyfraith Moses, a'r Prophwydi, a'r Psalmau am danaf fi.' Wrth y Psalmau, y mae yn meddwl y trydydd dosparth, yr hwn oedd yn dechreu gyd â'r Psalmau. Y mae pum llyfr Moses wedi eu rhanu yn 54 o ddosparth-ranau; a phob Sabboth darllenid un o'r dosparth-ranau hyn yn eu synagogau. Hyn a wnawd gan yr Iuddewon 'er yr hen amseroedd.' Act. 15. 21. Yr oeddynt yn diweddu y geiriau diweddaf o lyfr Deuteronomium ar Sabboth gŵyl y pebyll; a'r Sabboth gwedi hyny yn dechreu llyfr Genesis; ac felly yn myned trwy y cylch hwn bob blwyddyn. Pan waharddwyd hwynt i wneuthur hyny dan erlidigaeth Antiochus Epiphanes, dosparthasant y Prophwydi yn 54 o ddosparthiadau, ac a ddarllenasant y rhai hyny yn lle y gyfraith. Pan adferwyd darllen y gyfraith drachefn gan y Maccabeaid, y dosparth o'r gyfraith a wasanaethodd yn llith gyntaf, a'r dosparth o'r Prophwydi yn ail lith; ac fel hyn y gwnaent yn amser yr apostolion. Dywedir i Paul, ar ol darllen y gyfraith a'r prophwydi, sefyll i fynu yn y synagog yn Antiochia yn Pisidia; sef gwedi darllen y llith gyntaf allan o'r gyfraith, a'r ail allan o'r prophwydi. Act. 13. 15. Ezra hefyd, yn llawn o'r un ysbryd a'r rhai a ysgrifenasant yr Ysgrythyrau Sanctaidd, a chwanegodd mewn amryw fanau eiriau angenrheidiol tu ag at eu cysylltu, eu hegluro, neu eu cyflawni: o nifer y cyfryw y gellir cyfrif y bennod ddiweddaf o Deuteronomium, yn rhoddi hanes am farwolaeth a chladdedigaeth Moses, ac o osodiad Josuah yn flaenor ar y bobl ar ei ol. Gellir sylwi ar chwanegiadau at yr ysgrifen ar y cyntaf mewn amryw fanau i'w gwneuthur yn fwy dealladwy yn yr oesoedd diweddaf, megys yn y lleoedd canlynol: Gen. 12. 6. a 14. 14. a 22. 14. a 26. 33. Exod. 16. 35. Deut. 2. 12. a 3. 11, 14. Diar. 25. 1. ac amryw siamplau eraill a ellid roddi: mai Ezra ydoedd yr awdwr o'r chwanegiadau hyn sydd ddiammheuol. Yr ydoedd yn angenrheidiol er buddioldeb i eglwys Dduw i'r gwaith gael ei wneuthur gan un dan ysbrydoliaeth Duw; pwy mwy addas nag Ezra, o ran pob cymhwysder, a'r amser yr oedd yn byw ynddo? ac y mae pob hanes yn sicrhau mai efe a'i gwnaeth.

Yn holl ymdrechiadau Ezra er diwygio y wlad, trwy daenu adysgrifeniadau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn mhlith y bobl, ac adferu pob peth yn yr eglwys ac yn y wladwriaeth i gydffurfiad â'r rheolau dwyfol, yr oedd iddo bob cynnorthwy yn Nehemiah dduwiol, y pen-llywydd ar ei ol. Trwy eu cyd-gordiad â'u gilydd yn yr un amcan, a'u cyd-ymdrechiad i'w ddwyn yn mlaen, llwyddodd y gwaith yn hynod yn eu dwylaw; hyd nes o'r diwedd y cyrhaeddodd gryn radd o berffeithrwydd, naw mlynedd a deugain wedi ei ddechreu ef gan Ezra. Yr ydoedd yn fawr gysur, diammeu,

Digitized by Google

iddo, yn niwedd ei ddyddiau, i ystyried y gwaith dan olygiad Nehemiah dduwiol yn debyg o fod yn llwyddiannus wedi iddo orphen ei yrfa.

Cyfododd yr Arglwydd y gwr hynod hwn i ddybenion mawrion o ran ei eglwys, nid yn unig yn ei oes ei hun, ond hefyd hyd ddiwedd amser; canys trwy ei lafur mae yr ysgrifeniadau sanctaidd ef genym yn mhob oes wedi diwygio eu gwallau, eu puro o bob cymysgedd, heb fod o ysbrydoliaeth Duw, a'u crynhoi yn nghyd yn drefnus ac yn gyflawn, i ddangos, yn ddiammheuol, i ni y cwbl o ewyllys Duw. Trysor na fedd y ddaear ddim i'w gyfartalu mewn gwerth. Jerome, y Rabbiniaid, ac eraill, a farnant mai yr un ydoedd Ezra a Malachi. Gwel Prideaux's *Connection*, *Part* i., *Book* v., *pp.* 205—271. *fol.* Hefyd, Calmet's *Dictionary*.

EZRAHIAD, האזרחי [*dyeithr*] yr oedd dau o'r enw hwn, sef, Heman ac Ethan. Ps. lxxxviii. a lxxxix, titl. Yr oedd Heman ac Ethan, meibion Zerah, mab Judah y Patriarch. 1 Cron. 2. 4, 6. Hefyd Heman ac Ethan o lwyth Lefi, cantorion. 1 Cron. 15. 17, 19. a 16. 42. Gelwir y cyntaf Ezrahiad, am eu bod o hiliogaeth Zerah, tebygol; ac yr oeddynt yn byw yn amser Dafydd neu Solomon.

# F.

Gan nad ydyw y llythyren F yn wreiddiol-ddechreuad o un gair Cymraeg, rhaid edrych am eiriau yn dechreu âg F dan y llythyrenau B neu M; canys hwy a newidir yn F yn nhreigliad ymadroddion, er mwyn meddalu ac ystwytho y sŵn; megys brawd, ei frawd; brenin, ei frenin; merch, ei ferch; morwyn, ei forwyn, &c.

F Nullam incipit radicem mere Brit. Dr. Davies.

FASNI, ושני [*yr ail*] mab cyntaf-anedig Samuel. 1 Cron. 6. 28.

FASTI, ושתי [*yn yfed*] gwraig Ahasferus. Esth. 1. 9. Yr oedd yn wraig o lendid mawr; ond am iddi anufuddhau i'r brenin i ddangos ei hun i'r tywysogion, efe a'i bwriodd ymaith yn ddigofus iawn; a hyn a agorodd ffordd i Esther, caethferch o Judah, i gael ei lle, a bod yn wraig i'r brenin. Edr. Ahasferus, Esther.

FAGDDU. Edr. Magddu.

FALL. Edr. Mall.

FERMILION, oddiwrth y gair *Llad.* Vermix, neu Vermiculus, *pryfyn*, *Heb.* שׁשׁר cyfieithiad y LXX. μιλτον; math o liw coch tra hardd, arferedig gan y lliw-wyr i addurno ystafelloedd, neu i liwio delwau. Jer. 22. 14. Ezec. 23. 14. Yr oedd mewn cymeradwyaeth mawr gan yr hynafiaid dan yr enw *Minium*. Y mae dau fath, sef y *naturiol* a'r *celfydd*. Y mae y naturiol i'w gael mewn mŵn-gloddiau arian, yn dywod cochion; yr hwn y maent yn ei barotoi trwy olchiadau, &c. Y fermilion a wneir trwy gelfyddyd, a wneir o *Cinnabar*. Rhai a gymerant arnynt wneyd fermilion o blwm, trwy ei losgi a'i olchi; ond nid yw addas galw hwnw yn fermilion, ond plwm coch *(red lead)* er bod y lliw-wyr yn rhoddi yr enw hwn iddo. Mae dau fath o fermilion yn dyfod i ni o Holland; un yn goch dwfn, a'r llall yn wan; yr un yw y ddau o ran sylwedd, ond bod y *Cinnabar* yn un wedi ei falu yn frasach nag yn y llall; po frasaf fyddo y *Cinnabar*, dyfnaf i gyd yw y lliw.

FINEGR. Edr. Gwinegr.

FORY. Edr. Yfory.

FWLTUR—IAID, *Llad.* Vultur; adar ysglyfaethus, aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 14. Deut. 14. 13. Y mae yr un gair *Heb.* איה yn cael ei gyfieithu *barcud*, Job 28. 7. Y mae wyth rhyw o honynt, medd Linnæus. Y mae eu harogliad a'u golygon yn gryfion, i'w cyfarwyddo at eu hysglyfaeth; ehedant yn araf ac yn drymion. Nythant mewn creigiau uchel, ac y maent yn byw yn nghylch can mlynedd. Cnawd dynion ydyw eu hymborth mwyaf blasus; canlynant y byddinoedd i ryfel yn aml, yn dysgwyl am gnawd y lladdedigion; aroglant gelain hanner can milltir oddi wrtho. Y maent yn elyniaethol i nadrodd; ac yn porthi eu cywion â'u gwaed, os bydd achos: preswyliant leoedd diffaeth. Esa. 34. 15.

# Ff.

FFA, unig, FFAEN, *Heb.* פול *Llad.* Faba, Ponar. Y mae pob math o ffa yn faethlawn, ond yn wyntog. 2 Sam. 17. 28. Ezec. 4. 9. Dan. 1. 12.

FFACBYS, *Gr.* φακος *(phacos)*; mân-bys. Yr עדשים a gyfieithir *ffacbys* yn Gen. 25. 34. 2 Sam. 17. 28. a 23. 11. Ezec. 4. 9. Wrth eu berwi gwnant *gawl coch*; hwn oedd y cawl am ba un y gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint, ac a alwyd oddiwrth hyny *Edom*, sef coch. Gen. 25. 30. Gwel Shaw's *Travels*.

FFAFR, *Llad.* Favor; *Saes.* Favour; hoffedd, serch, cymeriad, hawddgarwch, ewyllys da. Y gair *Heb.* חן a'r gair *Gr.* χαρις, a gyfieithir y rhan amlaf *ffafr*, a arwyddant hoffedd, serch, ac ewyllys da tu ag at ryw ddyn heb ei haeddu: ac am fod hoffedd a serchogrwydd tu ag at un yn ymddangos trwy edrychiad boddhaol a charedig y llygaid, dywedir yn aml yn yr ysgrythyrau, am gael ffafr yn ngolwg yr Arglwydd, neu ryw un. Gen. 18. 3. a 39. 21. Exod. 11. 3. a 28. 38.——Ffafr, weithiau, a arwydda *harddwch* a *gweddeidd-dra* ystum. Diar. 31. 30.——'Ond Noah a gafodd ffafr yn ngolwg yr Arglwydd,' Gen. 6. 8. sef a gafodd *drugareddau*, yn ol y Caldaeg. Felly y cyfieithir yr ymadrodd yn y Groeg, *derbyn trugaredd*, *cael trugaredd*. Heb. 4. 16. 2 Tim. 1. 18. Ac y mae *gras* yn wrthwyneb i *weithredoedd*, neu *ddyled*. Rhuf. 4. 4. a 11. 6. Enw priodol yr Arglwydd yw ei fod yn raslawn, (Exod. 34. 6.) a rhagorfraint neillduol ei bobl, ydyw eu bod yn cael ffafr neu ras yn ei olwg; felly y dywedir am Lot, Moses, Dafydd, a Mair. Gen. 19. 19. Exod. 33. 12. Act. 7. 46.

FFAGL—AU, (ffag) *Gr.* φλοξ, φλογος; *Llad.* Flamma; *Saes.* Flame; fflam, eirias, gwen-fflam, goddaith. Barn. 15. 4. Job 41. 19. Esa. 5. 24. Edr. Tan.

FFAIG, (ffai) pen pellaf; eithaf-nôd; dyrys-nôd; attalfa, dyryswch, cyfyng-gynghor.

Dychryn a dolur ar bob *ffaig*,
Fel dolur gwraig wrth esgor.
*E. Prys*, (Ps. 48. 6.)

FFAIR—EIRIAU, *Gr.* φοριον; *Llad.* Forum: prif-farchnad; ymgynnulliad penodol pobloedd i farchnadaeth, &c.——'Ag arian, haiarn, alcam, a phlwm

Digitized by Google

y marchnatasant yn dy ffeiriau.' Ezec. 27. 12. עזבוניך נתנו *a ddodasant yn dy ystordai*. Ystordai a feddylir lle y dodent nwyddau i'w gwerthu. Y mae ystrydoedd hirion, culion, gorchuddiedig, yn bresennol yn ninasoedd y dwyrain, a elwir *bazaars*; yn mhob ochr i ba rai y mae tai bychain yn cynnwys nwyddau i'w gwerthu. Y mae pob cangen wahanol o fasnachaeth â gwahanol *bazaar* iddi. Y mae pob prynwr yn sefyll oddi allan, a'r gwerthwr oddi mewn, yn nghanol ei eiddo oddi amgylch iddo.

FFALS—DER—EDD—WR, (ffal) *Llad.* Falsus; *Saes.* False; gau, anwir; geuog, ffugiol; anghywir, twyllodrus. Tyst ffals, ydyw gau dyst, tyst celwyddog, anghywir. Deut. 19. 18.—'Mae eu deheulaw yn ddeheulaw ffalsder;' sef yn gweithredu anwiredd, neu yn cadarnhau eu hammodau yn dwyllodrus. Ps. 144. 8. Esa. 44. 20. Mat. 5. 30.——'A than ffalsder y llechasom.' Esa. 28. 15. Ein cyfrwysdra a'n dichellion a'n diogela yn ngwyneb pob perygl; yr ydym wedi llunio y fath gynghrair, ac yr ydym wedi trefnu pethau mor gyfrwysgall, fel yr ydym allan o berygl, bygythied faint a fyno trwy ei brophwydi; ac er eu bod hwy yn eu galw yn gelwydd ac yn ffalsder. Esa. 30. 10. Jer. 5. 31. a 14. 13, 14. a 16. 19. a 28. 15, 16, 17. Amos 2. 4. Jonah 2. 8. 2 Thes. 2. 9, 10, 11.——'Hyder ar ffalswr.' Diar. 25. 19. Edr. Dant.

FFAU, FFAAU, (ffa) *Gr.* φωλεος; *Llad.* Fovea; gwâl, lloches, trigfan dreigiau, pwll; ceudwll. Yr oedd gwaredigaeth Daniel, nid o grafanc y llew, ond o ffau y llewod, yn yr holl amgylchiadau o honi, yn wyrth hynod o nodedig. Dan. 6. 12, &c. Y mae Ninifeh yn cael ei galw yn ffau gwedi ei llenwi âg ysglyfaeth, am fod yr ymerawdwyr buddugoliaethus yn llywodraethu yno, yn myned allan o honi i ddystrywio y cenedloedd oddi amgylch, ac yn eu llenwi â'u hyspail. Nah. 2. 12.

FFAWYDD, (ffaw) *Gr.* φηλος; *Llad.* Fagus; coed ffawydd. Mae y pren ffawydd yn tyfu yn syth, yn uchel, ac yn ddigangenau yn y bôn, ac yn wyrdd hâf a gauaf. Mae yn llawn o wyrdd-lud a elwir ystor; mae ei ffrwyth yn tebygu i afalau y pinwydd, ond nid ydynt yn fwytadwy. Mae dau air Hebraeg yn cael eu cyfieithu *ffawydd*, רתה Esa. 41. 9. ערת Gen. 30. 37. Ezec. 31. 8. Nid yw yn hawdd penderfynu pa goed a feddylir wrth y geiriau. Dan y gyffelybineth o blanu coedydd ffrwythlawn, hardd, defnyddiol, fel y cedrwydd, y ffynidwydd, y ffawydd, a'r pren bocs, yn yr anialwch, y mae y prophwyd yn darlunio effeithiau rhagorol yr efengyl ar bechaduriaid yn ngwledydd y cenedloedd; troir anialwch Paganaidd trwyddi yn ardd ffrwythlawn, yn llawn o bob planigion hyfryd, a ffrwythau yr Ysbryd Glân: yn llawn o ddyddanwch nefol, a chlodforedd i'r Arglwydd. Esa. 27. 6. a 32. 15. a 55. 13. a 60. 21. a 61. 3.

FFEL, (ffy-el) gochelgar, synwyrol, cyfrwys.

Och, na wrandawsai Israel,
Gan rodio'n *ffel* fy llwybrau.
*E. Prys*, (Ps. 81. 13.)

FFELIX. Claudius Ffelix a olynodd Cumanus yn rhaglawiaeth Judea, dan ymerawdwr Rhufain. Denodd Drusila i adael ei gwr, Azizus, brenin Emesa, a'i briodi ef. Edr. Drusila. Bu Paul yn sefyll o'i flaen, ac ymresymodd ger ei fron ef a Drusila, Iuddewes halogedig, 'am gyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd,' nes y dychrynodd Ffelix; ond rhag ychwaneg o gynnydd ar ei ddychryn a'i aflonyddwch, archodd i Paul fyned ymaith, ac y byddai iddo alw am dano pan gaffai amser cyfaddas. Archodd i'r canwriad gadw Paul, a chael o hono esmwythdra, ac na lesteiriai neb o'r eiddo i'w wasanaethu, nac i ddyfod ato ef. Pan ddaeth Porcius Ffestus i'r dalaeth ar ei ol, Ffelix yn ewyllysio gwneuthur cymwynas i'r Iuddewon, a adawodd Paul yn rhwym: ond nid atebodd hyn un dyben da iddo. Pan ad-alwyd ef i Rufain, A.D. 60, llawer o'r Iuddewon a'i canlynasant ef yno, i'w gyhuddo ger bron yr ymerawdwr, am ei orthrymder a'i greulondeb. Rhoddasid ef i farwolaeth, oni buasai cymeradwyaeth ei frawd Pallas, yn y llŷs, ei achub. Act. xxiii, xxiv.

FFENESTR, (ffen-estyr) *Gr.* φωστερ; *goleuni*: *Llad.* Fenestra; alches, adwy i ollwng goleu i dŷ. Cyn i wydr ddyfod i arferiad, byddai ffenestri yn rhwyllog, neu yn rhwyd-dyllog, wedi eu gwneuthur o ddellt; neu byddai yn nôr y ffenestr faen gloyw, a elwid *specularis lapis*; ac oddiwrth hyn gelwid ffenestri *specularia*. Cyn hyn, llèni yn unig oedd drostynt yn amddiffyniad rhag y tywydd.

'Ffenestri y nefoedd a agorwyd.' Gen. 7. 11. Goddef y gair *Heb.* ארבת ei gyfieithu *rhaiadr*, neu *dufrddisgynfa eirw*. Gollyngodd y cymylau eu dyfroedd yn bistylloedd ac yn ffrydiau ofnadwy am ben y ddaear. Yn cyfeirio at y geiriau hyn, y mae Duw yn addaw 'agor ffenestri y nefoedd,' sef tywallt bendithion yn helaeth, fel cawodydd ffrwythlawn o'r nefoedd, arnynt. Mal. 3. 10. Y mae 'ffenestri y nefoedd' yn cael eu hagor hefyd i farnedigaethau etto, fel yn amser y dylif. Esa. 24. 18.

'Efe a wnaeth i'r tŷ ffenestri, yn llydain oddi fewn, ac yn gyfyng oddi allan.' 1 Bren. 6. 4. a 7. 4. Nid oedd i'r babell ddim goleuni oddi allan, ac nid llawer chwaith oedd i'r deml: y mae cyflawnder Crist ynddo ei hun (yr hwn yr oedd y deml yn ei gysgodi); nid yw yn derbyn dim gan neb, ond yn rhoddi pob peth i bawb. Doethineb yr eglwys hefyd, doethineb oddi uchod ydyw, yn hollol wahanol oddiwrth ddoethineb y byd hwn. Y mae hi wedi ei chyflawni ynddo ef, 'yn yr hwn y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol;' ac nid rhaid iddi hi fenthyca dim gan philosophi a thraddodiadau dynion, pa rai nid ydynt ond gwag dwyll ar y goreu. Y mae hi oll yn ogoneddus, yn oleu, ac yn ddysglaer oddi fewn. Ps. 45. 13. Col. 2. 9, 10.

'Yn edrych trwy y ffenestri.' Can. 2. 9. Gellir edrych i mewn neu allan trwy ffenestr; felly goddef y geiriau hyn eu cyfieithu y naill ffordd neu y llall. Os *edrych i mewn* ydyw ystyr y geiriau, arwyddant hoffder Crist yn ei eglwys, a'i wybodaeth fanwl o honi, yn edrych arni gyda hyfrydwch calon, megys un yn edrych ar ei anwylyd trwy ffenestr. Os *edrych allan* ydyw arwyddocâd y geiriau, arwyddant y wybodaeth o ran, dywyll, ac anmherffaith, sydd gan ei bobl o Grist yn y byd hwn; nid ydyw ond megys yn dangos ei hun trwy ffenestr, neu ddellt, i'w gymharu â'r wybodaeth gyflawn, a gânt hwy o hono, pan gaffont 'ei weled ef megys ag y mae.' 1 Ioan 3. 2. 1 Cor. 13. 9—13. Edr. Dellt.

FFER—AU, (ffy-er) *Gr.* σφυρον, migwrn, meilwn, meinedd y goes. Ezec. 47. 3. Act. 3. 7.

FFEST, (ffês) *Llad.* Festinus: cyflym, buan, ar frys. —'A'i dialedd hi sydd yn brysio yn ffest.' Jer. 48. 16.

FFESTUS. Porcius Ffestus a olynodd Ffelix yn rhaglawiaeth Judea, A.D. 60. Pan ddaeth Ffestus gyntaf i'r llywodraeth, ac yr aeth efe i fynu o Cesarea i Jerusalem, penaethiaid yr Iuddewon a ddeisyfasant gael barn yn erbyn Paul, yr hwn a adawodd Ffelix yn rhwym, i foddloni yr Iuddewon; yntau a atebodd, heb wybod eu bwriad i gynllwyn iddo i'w ladd, nad oedd arfer y Rhufeinwyr roddi neb rhyw ddyn i'w ddyfetha nes cael o'r cyhuddol ei gyhuddwyr yn ei wyneb, a chael lle i amddiffyn ei hun rhag y cwyn: ond y gwrandawai efe y cyhuddiadau yn ei erbyn ef yn Cesarea. Gwedi i Ffestus ddangos tueddiad i ddychwelyd Paul i Jerusalem, hwyrach gwedi ei

Digitized by Google

obrwyo, Paul, i ragflaenu hyny, a apeliodd at Cesar. Gwedi hyn, cafodd Paul amddiffyn ei hun yn ngwydd Ffestus ac Agrippa, ac a roddodd hanes hynod ac effeithiol o'r modd y troisid, ac y galwesid ef i fod yn apostol: ar hyn Ffestus a daerodd fod llawer o ddysg gwedi ei yru yn ynfyd; ac Agrippa a ddywedodd wrtho, ei fod o fewn ychydig i'w ennill ef i fod yn Gristion. Ffestus a anfonodd Paul i Rufain. Gwedi i Ffestus fod yn y llywodraeth oddeutu dwy flynedd, bu farw, a Nero Albinus a ddaeth ar ei ol i'r swydd. Act. xxv.

FFETAN, (ffêd) sach, cwd, côd. Gen. 42. 27. a 43. 22.

FFIAIDD—EIDD—DRA, (ffi) *Llad.* FASTIDIOSUS; dirmygus, adgas.

*Ffiaidd* ni charer. *Diar.*

1. Mae pob pechod, yn gyffredinol, yn ffiaidd, neu yn ffieidd-dra, ac yn ffieidd-beth: mae yn wrthwyneb hollol i berffeithrwydd Duw a'i gyfraith; yn halogi dynion, a'u gwneuthur yn ffiaidd yn ngolwg Duw; ac a ddylai gael ei ffieiddio, ei gasâu, a'i ochelyd genym ninnau. Esa. 66. 3. Jer. 44. 4. Job 15. 16. Ps. 53. 1. Diar. 6. 16.——2. Gau-athrawiaethau, a gweithredoedd halogedig ac anniwair, y rhai y mae Anghrist yn llawn o honynt, ydynt ffieidd-dra yn ngolwg Duw, a'i bobl sanctaidd. Dat. 17. 4.——3. Eilunod, ac eilun-addoliaeth, ydynt ffieidd-dra ynddynt eu hunain, ac yn gwneuthur dynion yn ffiaidd yn ngolwg Duw, ac y mae llawer o ddefodau halogedig a ffiaidd yn nglŷn wrthynt. 1 Bren. 11. 7. Deut. 7. 26. a 12. 31. Esa. 41. 24.——4. Yr oedd glynu wrth y defodau Iuddewig, heb edifeirwch am bechod, a ffydd yn Nghrist, ac wedi iddynt gael eu dileu dan yr efengyl, yn bechod mawr, ac yn ffieidd-dra adgas yn ngolwg yr Arglwydd, ac yn cadw dynion yn eu ffieidd-dra pechadurus, heb eu gwir lanhau oddi wrtho yn ngwaed Crist. Esa. 1. 13. a 66. 3.——5. Y mae aberth a gweddi yr annuwiolion yn ffiaidd, am fod eu hegwyddor yn y cwbl, a'u dull, a'u dybenion, yn bechadurus, ac yn llawn didduwiaeth. Diar. 15. 8. a 28. 9.——6. 'Ffieidd-dra yr Aiphtiaid yw pob bugail defaid—oblegid nyni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw ffieidd-beth yr Aiphtiaid.' Gen. 46. 34. Exod. 8. 26. Yr oedd bugeiliaid yn ymborthi ar, a Moses ac Israel yn aberthu, yr anifeiliaid hyny ag oedd yr Aiphtiaid yn eu haddoli; am hyny yr oedd yr Aiphtiaid yn ffieiddio y rhai a wnaent felly. Gwel Ainsworth.——7. Mae y rhai sydd yn gwir adnabod eu hunain, a natur pechod, yn ffieiddio eu hunain o'i blegid—eu *hunain* yn gyflawn yn mhob ystyr, gan eu bod gwedi eu llygru yn gwbl gan bechod. Ezec. 6. 9. a 20. 43. Job 42. 6. Mae ffieiddio eu hunain yn groes i feddyliau da am, a hyder arnynt eu hunain; a hunan-gariad, a balchder chwyddedig. Agwedd addas ar ysbryd pechadur ydyw, ac yn nôd o wir edifeirwch efengylaidd.

'Ffieidd-dra anrheithiol,' neu 'y ffieidd-dra anghyfanneddol, yn y lle sanctaidd—gwedi ei osod lle nis dylid.' Dan. 11. 31. Mat. 24. 15. Marc 13. 14. Arwydda y geiriau y ffieidd-beth ag ydoedd yn anrheithio ac yn dwyn anghyfannedd-dra gyd âg ef. Wrth y ffieidd-dra hwn, dealler, yn gyffredin, byddinoedd y Rhufeiniaid, yn amgylchynu ac yn gwarchae ar Jerusalem. Yr oedd ar y banerau luniau oedd y milwyr yn eu haddoli; ac nid oes dim yn fwy cyffredin yn yr ysgrythyrau na galw eilunod yn ffieidd-dra. Yr oedd y banerau ffiaidd hyn gyd â'r byddinoedd, y rhai a wnaethant Jerusalem a'r deml, hyd heddyw, yn anrheithiedig ac yn anghyfannedd. Y mae geiriau yr efengylwr Luc (pen. 21. 20.) yn cadarnhau y dehongliad hwn tu hwnt i bob ammheuaeth: 'Pan weloch Jerusalem gwedi ei hamgylchu gan luoedd, (a elwir gan Daniel, 'lluoedd ffiaidd,' pen. 9. 27.) yna gwybyddwch fod ei hanghyfannedddra hi wedi nesâu.' Y lluoedd, gan hyny, ydyw y ffieidd-dra; a'r ffieidd-dra anghyfanneddol yn y lle sanctaidd, y lle ni ddylai fod, ydyw lluoedd y Rhufeiniaid yn amgylchynu Jerusalem. Dywed Josephus, hanesydd Iuddewig, i'r Rhufeiniaid, wedi iddynt gymeryd y ddinas, ddwyn eu banerau i'r deml; eu gosod gyferbyn a phorth y dwyrain, ac aberthu iddynt yno.——Halogwyd y deml gan Antiochus, trwy osod delw Jupiter Olympus ar allor yr Arglwydd. 1 Mac. 1. 54.——Yn yr unfed flwyddyn ar bymtheg i'r Ymerawdwr Adrian, gosodasant y ffieidd-dra yn y lle sanctaidd, trwy adeiladu teml i Jupiter Capitolinus yn y fan y safai teml Duw yn Jerusalem. Ond y mae yn eglur, wrth gymharu geiriau y tri efengylwr a geiriau Daniel â'u gilydd, fod ein Hiachawdwr yn cymhwyso y geiriau at fyddinoedd y Rhufeiniaid yn dystrywio Jerusalem. Addas iawn y gelwir hwynt 'y ffieidd-dra,' a'r 'ffieidd-dra anrheithiol,' am mai anrheithio Jerusalem, a'i gwneuthur yn anghyfannedd, oedd eu gwaith. A phan welir y lluoedd hyn yn y lle sanctaidd, fel yr oedd Jerusalem a'i hamgylchoedd yn cael eu golygu, 'Yna y rhai a fyddant yn Judea, ffoant i'r mynyddoedd' am ddiogelwch. Hyn a gofiwyd, ac a wnawd gan y Cristionogion; y rhai oll oedd yn credu yn Nghrist, pan warchaewyd ar Jerusalem, a ffoisant i Pella, a lleoedd eraill tu hwnt i'r Iorddonen; ac nid ydym yn darllen i un o honynt gael eu dyfetha yn ninystr Jerusalem——mor fuddiol oedd y gocheliad hwn iddynt. Gwel Josephus' *Jewish Wars, book* vi., *chap.* vi., *sec.* i. Eusebius' *Ecclesiastical History, book* iii., *chap.* v. *Bishop* Newton *on the Prophecies, Dissert.* xix.

FFIGYS—BREN—WYDD, *Heb.* תּאנ *Gr.* συκον; *Llad.* FICUS; ffigys; ffrwyth y ffigys-bren. Mae y ffigys-bren yn gysgodfawr, a'i ddail yn fawrion; mae rhai yn yr India Ddwyreiniol yn taenu eu cangenau mor helaeth, fel y cysgodant hanner cant, medd rhai, pedwar cant, medd eraill, o wyr meirch danynt: mae yn briodol yn neillduol i'r pren hwn ddwyn ei ffrwyth yn gyntaf o flaen y dail. Dywed Pliny am dano, hefyd, y sodda mewn dwfr yn sych, ac y nofia wedi ei wlyb-nawsio; ac na addfeda heb ei ysgrofinio â bachau heiyrn. A dail y pren hwn, tebygol, y gorchuddiodd ein rhïeni cyntaf eu noethni. Gen. 3. 7. Y ffigys goreu a geir o Twrci, yr Ital, Yspaen, a Provence. Y maent yn faethlawn yn ymborth, ac yn feddyginiaethol, yn dda i'r cylla, ac yn hawdd eu treulio ganddo; yn addfedu cornwydydd, ac yn iachâu briwiau. Cafodd Hezeciah ei gyfarwyddo i roddi swp o ffigys wrth ei gornwyd, ac a'i iachâodd. Beth bynag oedd rhinwedd naturiol y ffigys i iachâu ei gornwyd, y mae yn ddiammeu fod yr iachâd hwn yn wyrthiol. 2 Bren. 20. 7. Esa. 38. 21.

'Y ffigys-bren a fwriodd allan ei ffigys irion,' Can. 2. 13. Y mae yr Arglwydd Iesu yn coffâu hyn fel un arwydd, gyd âg eraill, fod y gauaf gwedi myned heibio, a'r gwlaw gwedi pasio. Crist a wna hyn yn arwydd o fod yr hâf yn agos, pan yw cangen y ffigysbren yn dyner, a'i ddail yn tòri allan. Mat. 24. 32. Felly, yn gyffelyb i hyn, y mae yr eglwys; pan fyddo ei haelodau byw, y gwir saint, yn gweithredu ffydd ar Grist, cariad tu ag ato, ac ufudd-dod iddo, mae y ffrwythau hyn yn arwydd fod y gauaf oerllyd, diffrwyth, o gyflwr natur wedi myned heibio a'u bod yn eiddo Crist, ac yn gyfranog o'i amgeledd, fel y dygont ffrwyth i Dduw. Rhuf. 7. 4. Hos. 9. 16. Jer. 24. 2. Mic. 7. 1.

'Ffigys irion,' sydd yn arwyddo y cynhyrfiadau dechreuol, a gweithrediadau cyntaf gras mewn dynion, a phlanigion ieuainc yn eglwys Dduw.

Y genedl Iuddewig, a chrefyddwyr mewn enw yn

Digitized by Google

unig, heb ffrwythau yr Ysbryd arnynt, a gymharir i ffigys-bren diffrwyth; cafodd yr Iuddewon eu harbed, cloddio oddi amgylch iddynt, a bwrw tail atynt trwy weinidogaeth yr Iachawdwr a'i apostolion; ond ni chafodd, wrth geisio, ddim ffrwyth arnynt; felly etto, mae y breintiau mwyaf yn ddieffaith i lawer, yn aml, a hir-amynedd Duw tu ag atynt yn diweddu yn eu dystryw, yn lle iechydwriaeth dragywyddol eu heneidiau. Luc 13. 6. Mae yr un peth yn cael ei ddal allan yn y ffigys-bren na chafodd yr Arglwydd Iesu ond dail yn unig arno, heb ddim ffrwyth arno, a'r hwn a felldithiodd efe, gan ddywedyd, 'Na fwytaed neb ffrwyth o honot byth mwy.' Mat. 21. 19. Marc 11. 13, 21. Mae yr achos paham na chafodd ffrwyth arno, a roddir gan Marc, 'canys nid oedd amser ffigys,' gwedi peri llawer o ymofyniad yn mhlith y beirniaid am briodol ystyr y geiriau. Gan roddi heibio bob eglurhad arall o honynt, ymddengys eu hystyr yn bur amlwg os golygwn y geiriau, 'amser ffigys,' fel am amser pob rhyw ffrwyth neu rawn, yn arwyddo amser eu casglu wedi iddynt addfedu. Y mae *καιροι συκων*, *amser ffigys*, Marc 11. 13. yn arwyddo yr un peth a *ο καιρος των καρπων*, *amser ffrwythau*, Mat. 21. 31. sef *amser casglu ffrwythau*. Gan fod ffrwyth yn ymddangos ar y ffigys-bren cyn y dail, a dail ar y pren hwn, ac amser casglu ei ffrwyth heb ddyfod, yr oedd achos iddo edrych am ffrwyth arno. Nid ydyw y geiriau, 'canys nid oedd amser ffigys,' yn rhoddi yr achos paham na *chafodd* ffrwyth, ond paham y *ceisiodd* efe ffrwyth, sef am fod dail arno, y rhai oeddynt yn dyfod ar ol y ffrwyth, ac am nad oedd etto yn amser casglu ffigys. Wrth ystyried y ddau amgylchiad, sef bod dail arno, ac nad oedd amser ffigys etto, nid oedd un achos paham na chafodd efe ffrwyth arno, ond diffrwythdra y pren. Os rhoddir y geiriau, 'a phan ddaeth ato, ni chafodd efe ddim ond dail,' mewn cromfachau, ymddengys ystyr y geiriau yn eglur iawn. Neu trwy draws-gyfleu y geiriau fel y canlyn, ymddengys eu hystyr yn dra amlwg: 'Ac wedi iddo ganfod ffigys-bren âg arno ddail, efe a aeth i edrych a gaffai ddim arno; canys nid oedd amser ffigys. A phan ddaeth ato ni chafodd efe ddim ond dail.' Yn cyfateb yn gwbl i'r geiriau hyny yn Marc 16. 3, 4. lle mae ein cyfieithwyr ni gwedi rhoddi geiriau yn nghanol yr ymadrodd mewn cromfachau, fel yr ymddangosai cysylltiad y geiriau yn nechreu a diwedd yr ymadrodd. Y mae yn eglur nad ydyw y geiriau, 'canys yr oedd efe yn fawr iawn,' yn niwedd yr adnod, yn cysylltu â'r geiriau yn uniongyrchol o'u blaen, sef, 'pan edrychasant, hwy a ganfuant fod y maen wedi ei dreiglo ymaith,' ond â'r geiriau o flaen y rhai hyny, 'pwy a dreigla i ni y maen ymaith oddiwrth ddrws y bedd, canys yr oedd efe yn fawr.' Y cyfryw ddull o ymadrodd a geir yma. Nid oedd gwaith yr Iesu yn melldithio y pren hwn yn dangos rhyw anfoddlonrwydd pechadurus ynddo, gwedi cael ei siomi, ac yntau â chwant bwyd arno; ond gweithredodd y wyrth ar y pren diffrwyth hwn i ddangos mawredd ei allu, ac i annog ei ddysgyblion i ymorphwys ar fawredd nerth Duw, ac i ofyn cynnorthwyon ganddo mewn ffydd yn wyneb holl anhawsderau y gwaith o'u blaen: ac i ddangos hefyd, yn addysgiadol, ddiwedd cenedl neu ddynion diffrwyth, pa fath bynag fyddai eu hymddangosiad. Nid oes dim ond ffrwythau da a foddlona yr Arglwydd; mae diffrwythder a melldith yn nglŷn wrth eu gilydd yn ddiwahan. Gwel Doddridge, Campbell, Macknight, Shaw's *Travels*.

'Fel ffigys yr addfediad cyntaf.' Jer. 24. 2. Rhydd Dr. Shaw grybwylliad am dri math o ffigys, y cyntaf a elwir *boccore* (והבכרה y rhai a grybwyllir yma am danynt) y rhai a addfedant yn nghylch canol neu ddiwedd Mehefin; yr ail math a eilw *kermez*, neu ffigys hâf, y rhai na addfedant, ond anaml, cyn Awst; a'r trydydd a eilw *ffigys gauaf*; y rhai hyn ydynt yn gyffredin yn hŵy o lawer, ac o liw duach na'r *kermez*, yn addfedu ar y pren, ie, wedi syrthio ei ddail; ac os bydd y gauaf yn dymhoraidd, a gesglir yn y gwanwyn fel tamaid hyfryd. Gwel Shaw's *Travels*. Barna y Doctor mai y rhai diweddaf hyn oedd y rhai oedd yr Arglwydd Iesu yn eu dysgwyl ar y pren yn nghylch amser y pasc yn mis Mawrth. Mat. 21. 19. Marc 11. 13.

'Ac a wniasant ddail y ffigys-bren,' &c. Gen. 3. 7. *Heb.* עלה תאנה *dail y pren tristwch*, oddiwrth erwindeb a phigog-lymedd y tu uchaf i ddail y pren hwn. Gwisgodd ein rhïeni cyntaf ef fel sach-lïan naturiol, fel arwydd o'u tristwch am eu hanufudd-dod, gan y gallasent wisgo dail amryw brenau eraill yn llai annymunol ac anghyfleus. 'Gwnaeth wisg addas i'w anufudd-dod,' medd Irenæus,* 'fel pe buasai yn cyfaddef nad oedd yn deilwng o un wisg a barai hyfrydwch i'r corph.'

FFI—O, bwrw ymaith, ffieiddio, hwtio.—'A'th drigolion i'w ffeio.' Mic. 6. 16. Seph. 2. 15. Dr. M.

FFIRCYN, *Saes.* Firkin.—'Y rhai a ddalient bob un ddau ffircyn neu dri.' Ioan 2. 6. *χωρουσαι ανα μετρητας δυο η τρεις*, *dau fesur neu dri*. Y mae yn ansicr pa fesur a feddylir; amryw o'r beirniaid a farnant mai y *bath* sydd i'w ddeall wrth y gair *μετρητης*, am mai hwnw ydoedd y prawf fesur yn mhlith yr Iuddewon; hefyd, cyfieithir y gair בת gan y LXX. *μετρητης*, y gair a arferir yma, yn 2 Cron. 4. 5. Barna rhai yn anaddas rhoddi enw llestr mor ddiweddar a ffircyn yn gyfieithiad o hono, ac y buasai yn well rhoddi y gair *mesur*, neu *bath*, yn ei le. Gwel Lightfoot, Campbell, Parkhurst. Am nas gellir yn sicr benderfynu pa fesur ydoedd hwn, rhaid bod y cynnwysiad o hono mor ansicr. Y ffircyn a gynnwysai naw galwyn; a'r bath oddeutu saith a hanner, er bod rhai yn barnu pedwar a hanner; os felly, nid ydyw y bath yn cynnwys ond hanner a gynnwysai ffircyn, yn ol y cyfrif lleiaf. Yr oedd mesur y gwin yn fawr, ac yn sicrhau tu hwnt i bob dadl, wirionedd y wyrth, ac nid rhyw dwyll dirgel rhwng Crist a'r gwasanaethwyr, yr hyn a allesid feddwl, pe buasai ond ychydig o hono. Nid er annogaeth i anghymedrolder y lliosogodd yr Arglwydd Iesu y gwin mor ryfedd, ond i amlygu ei ogoniant ei hun; a'i ddysgyblion a gredasant ynddo yn ganlynol i hyny. Yr oedd cryn lawer o win yn ofynol, gyda phob gweddeidd-dra a chymedrolder, ar y cyfryw achos.

Byddai gwleddoedd priodasol yn parhau saith niwrnod yn mhlith yr Iuddewon, a byddai lliaws mawr o bobl yn ymgasglu yn nghyd. Gen. 29. 27, 28. Barn. 14. 12. Tobit 11. 19.

FFLAM—LLYD, (ffla) *Heb.* להב *Gr.* φλωξ; *Llad.* Flamma.—*Est vetustas vox. Brit.* Hen air Cymraeg yw, medd y Dr. D. Ffagl, eirias, eirias-dân, goddaith. Y mae yr Arglwydd yn cael ei alw yn fflam, am fod ei ogoniant yn ddysglaer; ac y bydd iddo, yn ei gyfiawnder digllawn, ddyfetha ei elynion, fel y llosga tân ddrain a mieri. Esa. 10. 17.

'Yr hwn sydd yn gwneuthur ei genadon yn ysbrydion: a'i weinidogion yn dân fflamllyd.' Ps. 104. 4. Penderfyna yr apostol mai yr angelion a feddylir yn y lle yma. Heb. 1. 7, 14. Yr ysbrydion crëedig hyn a elwir angelion, מלאכי *cenadon*, oddiwrth eu swydd a'u gwaith, 'ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, gwedi eu *danfon* i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iechydwriaeth.' Y mae yr Arglwydd yn dra gogoneddus yn eu gwneuthuriad; efe a'u gwnaeth

* Existentibus & aliis foliis multis, quæ minus corpus ejus vexare potuissent: mordet autem & pungit corpus. *Lib.* iii, *cap.* 37.

Digitized by Google

yn ysbrydion bywiog, nerthol, cyflym, ac effeithiol yn eu gwaith; y mae eu hymddangosiad yn ddychrynllyd, a difäant elynion Duw yn ofnadwy iawn. Ymddangosasant fel meirch a cherbydau tanllyd. 2 Bren. 2. 11. a 6. 17. Edr. ANGEL, ANGERDD, TAN.

FFLANGELL—U, *Gr.* φραγελλιον; *Llad.* FLAGELLUM, oddiwrth y gair Lladin FLAGRUM: ffrewyll, golch-ffon; ffrewyll gwedi ei gwneuthur o reffynau, careiau, neu wïail, i gospi drwg-weithredwyr. Yr oeddynt yn dynoethi y dyn i'w fflangellu i'w hanner, yn cylymu ei ddwylaw wrth gyff neu golofn, go isel, fel y derbyniai y gwïalenodau ar ei gefn plygedig. Gwaharddwyd i'r Iuddewon roddi dros ddeugain gwïalenod; ond os byddai y dryganiaeth yn fawr, rhoddent y gwialenodau yn drymach. Rhag iddynt fyned dros ben y nifer hwn, byddai yn ddefod yn eu plith i roddi 'deugain gwïalenod *ond un.*' 2 Cor. 11. 24. Y ffrewyll â pha un y byddent yn fflangellu oedd wedi ei gwneuthur o dri rheffyn gwahanol—tair ar ddeg o wïalenodau â'r cyfryw fflangell a roddai ddeugain gwïalenod ond un. Yr Arglwydd Iesu, yn rhagfynegi ei ddyoddefiadau, sydd yn nodi hyn yn mhlith eraill, y byddai iddo gael ei fflangellu; a chawn hanes i Pilat ei fflangellu, a'i roddi i'w groeshoelio. Mat. 20. 19. a 27. 26. Marc 10. 34. Ioan 19. 1.

Yr oedd y gospedigaeth hon yn mhlith y Rhufeiniaid, yn annhebyg yn ei hamgylchiadau, i fflangellu yn mhlith yr Iuddewon. Yn mhlith yr Iuddewon nid oedd mor greulawn a gwaradwyddus: ni chaent roddi dros ddeugain gwïalenod i neb. Ond yn mhlith y Rhufeinwyr yr oedd yn gospedigaeth greulawn a gwaradwyddus iawn. Eglur yw, mai yn y dull Rhufeinaidd y fflangellwyd Crist, gan i Pilat ei draddodi ef i'w filwyr i'w fflangellu. Nid oedd terfyn wedi ei osod i nifer y gwïalenodau, ac yr oedd y corph wedi ei ddynoethi a'i gylymu yn blygedig wrth gyff go isel, yn yr agwedd mwyaf cyfleus i'r fflangellwyr arfer y creulondeb mwyaf. Gwel *Universal History, vol.* ii. Yr ydoedd yn arferedig, medd Lardner, yn mhlith y Rhufeiniaid, i fflangellu y rhai a fyddent wedi eu barnu i ddyoddef marwolaeth; ond ni fyddai neb yn dyoddef cospedigaeth mor echryslon ond caethweision, euog o'r troseddiadau mwyaf. Yr oedd pob peth gwaradwyddus a dolurus, yn mhlith plant dynion, yn cyd-gyfarfod yn nyoddefiadau ein Hiachawdwr mawr. Yr hyn yr ydoedd pechod yn ei haeddu, oedd yn rhaid iddo yntau ddyoddef. 'Efe a archollwyd am ein camweddau ni; efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni; cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef.' Esa. 53. 5.

Y mae Duw, fel tad, 'yn fflangellu pob mab a dderbynio.' Heb. 12. 6. Y gair a arwydda y gradd mwyaf o ddyoddefiadau a gyferfydd â'i blant yma yn y byd; ond er eu fflangellu, eu derbyn y mae yn rasol, yn garedigol, ac i'w dyddanu byth. Nid er eu dystryw, ond er eu llesâd, y mae yn eu ceryddu mor llymdost, fel y byddont gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef. Am ei fod yn caru, ac i'r dyben, trwy hyny, eu cynnyddu mewn sancteiddrwydd, y mae mor anhyfryd yn eu fflangellu. Dat. 3. 19.

FFLWCH, (fflw) ehelaeth, llawn; diamdlawd, dibrin; hael, haelwych; gorhoenus, cryf.

Yr Arglwydd a wna ddychryn *fflwch*
Drwy holl anialwch Cades.
*E. Prys*, (Ps. 29. 8.)

FFOADUR—IAID, (ffo) un ar ffo, un a ddiangodd; crwydrad, gwybiad. Barn. 12. 4. Esa. 15. 5. 2 Bren. 25. 11.

FFOEDIGAETH, (ffoad) enciliad, ffoadwriaeth, deoliad; rhedfa, ymlidfa, gyrfa. Mat. 24. 20.

FFOI, (ffo) *Gr.* φευγω; *Llad.* FUGERE; rhedeg ymaith, encilio, gwrth-deithio. Y gair ffoi, yn gyffredinol, a arwydda, cydnabyddiaeth o berygl yn agos, i'w ochelyd gyd â'r prysurdeb a'r ymdrechiadau mwyaf.—'Ond chwantau ieuenctid ffo oddi wrthynt.' 2 Tim. 2. 22. Chwantau ieuenctid (δε) gan hyny, ffo oddi wrthynt—rhag iddynt dy anghymhwyso i'r Arglwydd a'i waith, a bod yn anmharod i bob gweithred dda. Adn. 21. 'Pwy bynag a'i glanhao ei hun oddiwrth y pethau hyn, sydd lestr i barch, wedi ei sancteiddio, ac yn gymhwys i'r Arglwydd.' Nid chwantau cnawdol yn unig y mae yr apostol yn ei feddwl, ond hefyd uchelfryd, balchder, tra-arglwyddiaeth, byrbwylldra, a chyndynrwydd, y rhai sydd yn addas iawn i'w cyfrif yn mhlith (τας νεωτερικας επιθυμιας) *chwantau ieuenctid.* Mae y chwantau hyn yn gorddiwes llawer sydd yn rhydd oddiwrth y rhai cnawdol i radd mawr, ac yn eu hanaddasu yn hynod i waith y weinidogaeth, ac i fugeilio praidd Duw. Yr oedd Timotheus yn nghylch deunaw mlwydd ar hugain o oedran pan ysgrifenodd Paul yr epistol hwn ato, am hyny, nid anaddas oedd y rhybydd hwn iddo ef, ac i bawb eraill.

'Y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen.' Heb. 6. 18. Cyfeiria y geiriau at y llofruddiog yn ffoi am ei einioes i'r noddfa rhag y dialydd. Num. 35. 6. Deut. 4. 42. a 19. 5, 11. Mae addewid ddigyfnewid Duw, yr hon a sicrhawyd ganddo trwy lw, wedi ei gosod o'n blaen, fel y noddfa o flaen y llofruddiog; nid oes diogelfa i bechadur i ffoi rhag y llid a fydd, ond yn yr addewid rad yn Nghrist, mwy nag i hwnw rhag y dialydd, ond yn y noddfa; yr ydym ni gwedi ffoi gyd â'r prysurdeb a'r awyddfryd mwyaf, i gymeryd gafael yn yr unig obaith hwn. Yr oedd y llofruddiog yn ffoi am ei fywyd—yr oedd ei einioes mewn perygl mawr, ac yn sicr o gael ei chymeryd oddi arno, oni chyrhaeddai y noddfa cyn i'r dialydd ei ddal; felly y mae y rhai sydd yn ffoi at yr addewid, yn cydnabod fod eu bywyd, sef eu dedwyddwch dros byth, mewn dirfawr berygl, o ran dim sydd ynddynt eu hunain i'w hachub; yn yr addewid, neu yn Nghrist ynddi, y mae y noddfa a drefnodd Duw i bechadur; am hyny, y mae pawb yn farwol yn mhob man arall: yn cydnabod hyn maent yn ffoi, nid ar antur, ond i'r noddfa; nid heb neges, ond i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'u blaen, â'u holl rym, a'u hegni, a chyd â'r gorfoledd a'r diolchgarwch mwyaf. Gan fod y gobaith wedi ei osod o'u blaen yn yr efengyl gan Dduw, y mae ganddynt hawl gyfreithlawn i ffoi iddi, ac i gymeryd gafael ynddi: a chan fod yr addewid yn ddianwadal, y mae i ni, y rhai a ffoisom yma, gysur cryf. Edr. DANGOS, DIANWADAL.

FFOL—INEB, (ffo-yl) *Heb.* אויל *Llad.* STULTUS, ynfyd, disynwyr, ffiadr; ynfydrwydd, annoethineb.

Nid *ffolineb* ond meddwdod. *Diar.*

Ffol yw yr hwn sydd yn siarad ac yn gweithredu yn ddisynwyr, yn annoeth, ac yn ddireswm, am yr hyn mae yn ei ddywedyd, neu yr hyn mae yn ei wneuthur. Y mae pob dyn sydd yn ansanctaidd ac yn bechadurus, yn nghyfrif Duw, yn ffol ac yn ynfyd; yn gweithredu yn anystyriol ac yn ynfyd iawn; yn dymuned, yn ynfyd i'r gradd eithaf, na bai un Duw; yn ddiymgais am ei heddwch, ac am ei foddhau; yn ymddiried i'r diafol, i'r byd, ac i'w calonau eu hunain, y twyllwyr mwyaf a ddichon fod; yn dewis y pethau mwyaf ffiaidd, gwael, a darfodedig, o flaen pethau mwyaf pwysig, dwyfol, a thragywyddol; ac fel hyny yn dystrywio eu hunain, er pob cynghor a rhybydd oddiwrth Dduw i'r gwrthwyneb. Ps. 14. 1. a 49. 10. Edr. Llyfr y Diarebion i gyd.

'Duw a etholodd ffol-bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion.' 1 Cor. 1. 27. Dynion isel eu sefyllfaoedd yn y byd; diddysg, digymeriad, a dibarch



Digitized by Google

gan y byd—y rhai a gyfrifai y byd yn ffol; etholodd Duw y rhai hyn, i'w gwneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth, trwy roddi iddynt ddoethineb oddi uchod. Yn eu hanwybodaeth a'u hynfydrwydd, y mae yr annuwiolion yn cyfrif Iesu Grist wedi ei groeshoelio, a'r pregethiad o hono, yn nghyd â'r holl bethau sydd o Ysbryd Duw, yn ffolineb—sef pethau disynwyr, distadl, a diangen am danynt. 1 Cor. 1. 23. a 3. 19. 'Ond i'r rhai a alwyd, y mae yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw;'—y maent yn ei brofi yn allu Duw tu ag atynt, ac yn ei weled yn ddoethineb Duw yn ei osodiad i fynu yn ei swyddau. Edr. DOETHINEB, YNFYD.

FFOLEN—AU, (ffol) *Heb.* עפלים pedrain, morddwyd, clun.—'Ffolenau aur,' sef darnau o aur, â llun eu ffolenau arnynt, sef y rhanau hyny o'u cyrph oedd dan farn Duw oblegid yr arch. 1 Sam. 6. 4, 5. Tebygol yw, mai y lledewigwag (*piles*) oedd y pla y tarawodd Duw y Philistiaid âg ef; a diammeu ei bod yn farn drom, boenus, waradwyddus; ac yr oedd y ffolenau aur, offrymau na orchymynwyd gan Dduw Israel, yn goffadwriaeth o'u cywilydd, ac o fuddugoliaeth Duw ar y Philistiaid.

FFOLOG—OD, (ffol) dynes ffol, disynwyr.—'Y ffolog a'i tyn ef (ei thŷ) i lawr â'i dwylaw.' Diar. 14. 1. Gwraig ddoeth, synwyrol, trwy iawn drefniad ar achosion ei theulu, sydd yn peri llwyddiant mawr a pharhaus ar y teulu y mae yn perthyn iddo; ond y ffolog, trwy ei rhodres, ei segurdod, ei hannoethineb, ei meluswedd, a'i gwastraff, sydd yn dinystrio teulu; ïe, er bod ei gwr yn gymedrol ac yn ddiwyd, a bod y teulu yn llwyddiannus pan y daeth iddo; y mae, fel pe bai, yn ei dynu i lawr â'i dwylaw. Gwell ydyw cynnysgaeth *yn* y wraig na *chyd* â'r wraig. 1 Bren. 16. 31. a 21. 25.

FFON, FFYN, (ffy-on) llawffon, cwlbren, cyrllysg, berllysg. Pastwn i ymgynnal âg ef; pren neu wialen i guro neu gospi; ffon-dafl i daflu ceryg, neu ryw beth arall; ffon-fugeilaidd, arferedig gan fugeiliaid i gyfarwyddo neu ddal eu praidd. Yn gyffelybiaethol, gelwir bara yn ffon, am mai cynnaliaeth dyn ydyw. Lef. 26. 26. Esa. 3. 1.

Gelwir yr Aipht yn 'ffon gorsen ddrylliedig,' am fod Israel yn ymgynnal arni; ond byddai ei hyder yn ofer, fel un yn pwyso ar gorsen ddrylliedig; ac yn niweidiol iddynt, fel un yn pwyso ar gorsen, a hòno yn myned i'w law, ac yn tyllu trwyddi. Yr un fath i bawb ydyw pob hyder arall tu yma i Dduw ei hun. 2 Bren. 18. 21.

Yr oedd yr Assyriaid a'r Babiloniaid fel ffon yn llaw yr Arglwydd i geryddu ei bobl, a chospi y teyrnasoedd oddi amgylch â hi. Esa. 10. 5, 15. a 14. 5.

'Drylliaist ffon ei ysgwydd ef.' Esa. 9. 4. Pren yr iau, medd Vitringa, sydd yn gwasgu ar yr ysgwydd, neu y gwddf; trwy ba un y gosodir allan orthrymder pechod, a gwasanaeth caled pechaduriaid. Trwy yr efengyl y dryllir iau eu baich, a ffon eu hysgwyddau, a gwïalen y gorthrymwr, y diafol, megys yn nydd Midian, pan y rhyddhawyd yr Israeliaid oddi tan eu hiau hwynt trwy Gedeon. Barn. 7. 22.

Ffon yr Arglwydd Iesu i gysuro ei bobl fel eu bugail, yw gwirioneddau cynnaliaethol yr efengyl, trwy ba rai y mae yn eu cynnal, yn eu dyddanu, ac yn eu cyfarwyddo. Ps. 23. 4. Maent yn llesg ac yn weiniaid, yn analluog i gynnal eu hunain; y mae gwirioneddau mawrion a sicr yr efengyl yn gwbl addas iddynt yn wyneb eu holl drueni, yn mhob ystyr ac yn mhob amgylchiad; trwy amlygiad iddynt o'r gwirioneddau am dano ei hun, a'u nerthu i'w credu ac i bwyso arnynt, y mae yn eu cysuro yn effeithiol, ac yn eu cynnal pan rodiont yn nghanol peryglon, ofnau, a gelynion dychrynllyd. Ffon ydyw hon na thyr byth, ac na phydra; y mae mor gadarn ac mor barhaus a Duw ei hun; y mae wedi ei rhoddi i bechaduriaid, ac nid yw yn addas i neb arall. Rhuf. 15. 4.

'A chymerais i mi ddwy ffon, un a elwais Hyfrydwch, a'r llall a elwais Rhwymau; a mi a borthais y praidd.' Zech. 11. 7—14. Yr Arglwydd Iesu yw y person sydd yn llefaru mewn perthynas i'w ofal am ei eglwys, fel bugail am ei braidd. Y *ddwy ffon* a arwyddant ei gyfammod â hwynt, a'i lywodraeth arnynt. Y mae ei gyfammod â hwynt wedi ei iawn drefnu yn mhob peth, yn hardd, ac yn ogoneddus; yn amlygu harddwch a phrydferthwch anfeidrol y Duwdod; ac yn harddu yr eglwys, yn ei haelodau a'i swyddwyr, âg addurniadau sanctaidd, a doniau ysbrydol; mewn ffydd fywiog, edifeirwch dwys, cariad gwresog, ac ufudd-dod hardd. O'i ofal am danynt, a'i lywodraeth arnynt, y mae eu cariad a'u hundeb â'u gilydd yn tarddu yn gwbl. Efe yw y rhwymwr yn y frawdoliaeth sanctaidd hon. Tori y ddwy ffon, 'Hyfrydwch a Rhwymau,' a arwydda waith Crist yn rhoddi i fynu ei ofal a'i gadwraeth o'i bobl, o herwydd eu pechodau: 'Dywedais, *ni* phorthaf chwi.' Mewn byr amser, yn gyntaf, torodd ymaith dri bugail, sef amryw o'u swyddogion drygionus yn y wladwriaeth ac yn ei eglwys, ond yn lle diwygio, eu henaid a'i ffieiddiodd ef, a'i enaid yntau a alarodd arnynt hwy. Yna dywedodd, 'Ni phorthaf hwynt.' Pan fyddo Crist yn tori ei gyfammod â phobl, o ran ei amddiffyniad drostynt, a'i gyfraniadau grasol iddynt, y mae ffordd rydd i gyfeiliornadau, llygredigaethau, a phob anghydfod i ddyfod i mewn. Pan doro efe ei 'ffon Rhwymau,' derfydd am bob brawdoliaeth dangnefeddus; ac anghariadoldeb, cenfigen, ac ymraniadau, a ddeuant i mewn i ddystrywio y cwbl. Adn. 6. Mae yr Arglwydd yn hir yn porthi neu yn bugeilio defaid y lladdfa, o herwydd trueiniaid y praidd—ei etholedigion, ei bobl wael, cystuddiol, a dirmygedig; er eu mwyn hwynt mae yn arbed y bras, sydd yn eu pesgi eu hunain i'r lladdfa. Ond gwedi iddo eu hachub hwy, dywed wrth y rhai hyny, 'Ni phorthaf chwi: a fyddo marw, bydded farw; ac y sydd i'w dori ymaith, torer ef ymaith.' Adn. 9.

'Na ffon—ond llaw-ffon yn unig—na ffyn.' Mat. 10. 10. Marc 6. 8. Luc 9. 3. Mewn amryw adysgrifeniadau o efengyl Matthew, ceir y gair yn y rhif llïosog (ῥαβδους yn lle ῥαβδον) fel yn Luc, ac felly mae y cyfieithwyr Saesoneg wedi cyfieithu y gair yn y ddau le (*staves*) yn y rhif llïosog. Y mae yn amlwg mai ystyr gorchymyn yr Arglwydd i'w ddysgyblion, yn hyn fel pethau eraill, oedd iddynt gymeryd yr hyn oedd yn angenrheidiol iddynt i'r daith; a pheidio trwy ragofalon, llwytho eu hunain â phethau afreidiol a allasent fod yn rhwystr iddynt yn eu gwaith mawr: gofalai yr Arglwydd am eu cynnaliaeth.

'Ac a addolodd â'i bwys ar ben ei ffon.' Heb. 11. 21. Yn Gen. 47. 31. cyfieithir yr un geiriau Hebraeg, 'Israel a ymgrymodd ar ben y gwely.' Y gair *ymgrymu*, yn aml, a arwydda, *addoli*, neu ymgrymu, mewn ffordd o addoliad, Gen. 24. 26, 48. Exod. 4. 31. lle mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *addoli*, yn nghyd â llawer o fanau eraill. Y mae מטה a arwydda *gwely*; hefyd, os cyfnewidir y bogeiliaid, arwydda *gwïalen*, neu *ffon*; felly y mae yn cael ei gyfieithu yn Psalm 110. 2. Jer. 48. 17. Ezec. 19. 11. Yr apostol a rydd yr ystyr diweddaf i'r gair, yr un fath a'r LXX. Tebygol i'r hen batriarch Jacob ymgrymu ar y gwely yr oedd yn gorwedd arno, mewn ffordd o addoliad parchus i'r Arglwydd, ac ymgynnal yn ei wendid a'i lesgrwydd, ar ben ei ffon. Fel hyn ymgrymodd ar y gwely, ac a addolodd ar ben ei ffon hefyd; ac y mae yr apostol yn gosod allan yr achos yn gyflawn yn y geiriau y mae efe wedi eu harferyd. Yn y *Vulg. Llad.*, cyfieithir y geiriau, *Et adoravit fastigium virgæ ejus*; ac efe a addolodd ben y *ffon*,

Digitized by Google

yn gadael allan y rhagddod *επι*, *ar*, i'r dyben i wyro y geiriau i gynnwys eilun-addoliaeth; ond y mae y cyfieithiad hwn mor groes i eiriau a meddwl yr apostol ag ydyw i dduwinyddiaeth iachus. Y mae y geiriau yn rhoddi golygiad neillduol o ogoneddus o ffydd Jacob wrth farw: efe a addolodd Dduw yn barchus ac yn orfoleddus yn ei ddyddiau diweddaf, er holl lesgrwydd ei natur: efe a ymgrymodd, ymgynnaliodd, ac a addolodd, wrth goffâu am holl ddaioni Duw tu ag ato, ac wrth fendithio ei feibion.

'Ffyn-wewyr.' Act. 23. 23. *Gr.* *δεξιολαβος*, *cymeryd yn y llaw ddehau:* milwr yn dwyn gwaew neu bicell yn ei law ddehau: *Saes.* SPEARMAN.

FFONOD—IAU, (ffon) dyrnod; ergyd â ffon; tarawiad. Luc 12. 47. Y mae y pechod o ommeddiad, neu esgeulusiad, yn gwneuthur pawb yn agored i geryddon yr Arglwydd; ac er nad ydyw anwybodaeth yn esgusodi neb, gan fod yn mhawb, mewn mesur mwy neu lai, foddion i gael gwybodaeth o ewyllys yr Arglwydd; etto y mae yr hwn sydd yn gwybod ewyllys ei Arglwydd, ac nid ymbarotodd, ac ni wnaeth yn ol ei ewyllys ef, yn fwy euog, ac a gurir yn gyfatebol â llawer ffonod, tra byddo y gwas anwybodus yn cael ei guro âg ychydig ffonodiau.

FFORCHOG—I, (fforch) *Llad.* FURCA, FURCATUS: ffwrch, pigfforch, cigwain; hollti neu wahanu yr ewin. Nid ydoedd yr Iuddewon i fwyta o'r anifeiliaid ond yr hwn a hollto yr ewin, ac a fforchogo hollt yr ewinedd, ac a gno ei gil: nid gwedi hollti oddi arnodd yn unig, fel troed ci, &c., ond gwedi fforchogi drwyddo, fel traed yr ŷch, a'r ddafad, &c. Y mae trydydd math o draed, sef rhai heb hollti, megys traed march, &c. Y canol yn unig oedd yn lân, ac yn fwytadwy. Lef. 11. 3, 26. Deut. 14. 4, 5, 6, &c. Diammeu fod y deddfau hyn yn nghylch yr anifeiliaid glân ac aflan, i'w golygu, nid yn unig yn ymarferol i'r Iuddewon, ond hefyd yn addysgiadol i ninnau, ac yn dangos amrywiol gynneddfau dynion glân ac aflan: y mae hyn yn eglur oddiwrth weledigaeth Petr. Act. 10. 12—28. Fforchogi yr ewin, gan hyny, a ddichon arwyddo bod yn meddu iawn ddeall yn ngwirioneddau Duw, gwahaninethu rhwng y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt, megys y gyfraith a'r efengyl; cyfeiliornadau a gwirioneddau; ac yn iawn droedio at wirionedd yr efengyl. Gal. 2. 12, 14. Ps. 1. 1. Diar. 9. 6. 2 Cor. 6. 17.

FFORDD, FFYRDD, (ffôr) llwybr, heol, sarn; modd.—Y mae ffordd, mewn ystyr cyffelybiaethol, yn arwyddo, 1. Ymarweddiad gwr. Esa. 59. 8. Ps. 1. 6. Diar. 2. 12. a 4. 19. a 15. 9, 10. a 16. 17. a 22. 6.——2. Llwybr gwirioneddau Duw. Gen. 18. 19. Ps. 18. 21. a 119. 14, 27, 30.——3. Defod, arferiad, a dull dynion yn byw. Gen. 18. 19. Jer. 10. 2.——4. Llwybr rhagluniaethau Duw, a'i ymddygiad ef tu ag atom ni. Ps. 107. 7. Esa. 55. 8, 9. Rhuf. 11. 33.——5. Gweithredoedd Duw. Job 40. 10.——6. Angeu. Jos. 23. 14. 1 Bren. 2. 2.——7. Trefn yr iechydwriaeth. Act. 9. 2. a 19. 9, 23. Ps. 67. 2. a 77. 13.——8. Athrawiaeth wirioneddol, a elwir 'ffordd y gwirionedd.' 2 Petr 2. 2. Mat. 22. 16.——9. Crist ei hun. Ioan 14. 6.

Y mae Crist yn ffordd at y Tad, ac i'r nefoedd, 1. O herwydd yr iawn a dalodd, a thrwy hyny yn cymeryd yr ysgrifen-law oddiar y ffordd o gymmod â Duw: ni ddaw Duw a phechadur byth i gymmod â'u gilydd, ond ynddo: ond nid oes un ffordd i hyny ond efe yn unig. Nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwyddo. Efe gwedi ei ddryllio yn aberth dros bechod, yw y 'ffordd a gysegrwyd trwy y llèn i ni.' Heb. 10. 20. 1 Ioan 2. 2. a 4. 10. 2 Cor. 5. 19. 1 Petr 2. 24, 25. Rhuf. 3. 25. Yn yr ystyr hwn, yn fwyaf neillduol, mae i ni olygu Crist yn ffordd newydd, bywiol, gysegredig i bechaduriaid, rad, a thragywyddol, sef a deithiwyd gan y saint yn mhob oes, ac i bara byth.——2. Y mae yn ffordd, fel Athraw a Phrophwyd mawr ei eglwys, yn hysbysu holl gynghor, ewyllys, a meddwl Duw iddynt. Ioan 17. 6, 8, 14, 26. Mat. 22. 16. Marc 18. 14.——3. Y mae yn ffordd, fel y 'rhoddodd i ni siampl, fel y canlynem ei ôl ef.' 1 Petr 2. 21. Mae ei ôl i'w weled yn amlwg yn mhob peth, ac yn mhob man y dylem ni fyned iddo; a chanlyn ei ôl, yw cerdded yn uniawn ac yn gywir.——4. Trwy ei Ysbryd y mae yn sancteiddio ei bobl, ac yn eu gwneuthur hwynt yn 'gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.' Col. 1. 12, 13.

'Ffordd yr Arglwydd sydd gadernid i'r perffaith.' Diar. 10. 29. Y mae yr Arglwydd yn ffordd yn ei holl swyddau, 'yn rhoddi cadernid a nerth i'r diffygiol, ac yn amlhau cryfder i'r dirym;' yn ffyrdd ei ordinhadau a'i ragluniaethau y mae yn gwneuthur lleshâd iddynt; ac y mae y llwybrau sanctaidd y maent yn eu cerdded yn tueddu i'w cadarnhau a'u dyddanu. Esa. 40. 31. Ps. 84. 7. Zech. 10. 12. Phil. 4. 13.

Y mae ffordd yr Arglwydd yn cael ei 'pharotoi,' pan y byddo iechydwriaeth yr Arglwydd, a'i ffordd i gadw pechaduriaid, yn cael ei hamlygu; pechaduriaid yn cael eu goleuo i'w hadnabod, a'u tueddu i'w cherdded; a phan y byddo pethau rhwystrus i ledaeniad yr efengyl, ac amlygiad o'i ogoniant, yn cael eu symud; a phob peth yn cael eu parotoi i'w haddasu i ymddangosiad Crist. Esa. 40. 3, 5. Jer. 31. 9.

'Gwae hwynt-hwy; oblegid hwy a gerddasant yn ffordd Cain;' (Judas 11.) sef dilynasant siampl Cain yn casâu ac yn erlid eu brodyr, ac yn ei wrthgiliad a'i ymadawiad hollol â Duw. Y maent yn gwbl yn un ond eu personau: yr un ysbryd, yr un dybenion, yr un cymhelliadau, yr un ffordd, ac felly yr un diwedd fydd iddynt.

Yr oedd yr Iuddewon yn cerdded 'ffordd yr Aipht, ac yn yfed dwfr Nilus—ffordd Assyria, ac yn yfed dwfr yr afon,' wrth arddeisyf cynghrair â'r Aipht ac Assyria, ac yn hyderu arnynt am eu cynnorthwy, i gael ymwared trwyddynt. Jer. 2. 18.

'Ffordd i uffern ydyw tŷ y butain;' am mai yno y mae y rhan fwyaf yn myned sydd yn cyd-bechu â hi; anaml y mae neb yn cael eu gwared oddi yno trwy wir edifeirwch, a ffydd yn yr efengyl. Diar. 2. 18, 19. a 5. 5. a 7. 27. a 9. 18. Preg. 7. 26. Edr. CUL, EANG.

FFORDDOLION, (ffordd) teithwyr, ymdeithwyr. Barn. 5. 6. Job 31. 32. Jer. 9. 2. Galar. 1. 12. Ezec. 39. 14.

FFORTUNATUS. Nid oes wybodaeth ychwaneg am y gwr hwn, ond iddo, yn nghyd â Stephanas ac Achaicus, ddyfod i ymweled â Paul oddiwrth eglwys Corinth, a'i lòni yn fawr. Gyd â'r tri hyn yr anfonodd Paul ei Epistol cyntaf at y Corinthiaid. 1 Cor. 16. 16, 17.

FFOS—YDD, (ffy-os) *Llad.* FOSSA: clawdd, pydew, rhŷch, rhigol, camlas.—'Os y dall a dywys y dall, y ddau a syrthiant yn y ffos:' (Mat. 15. 14.) hyny yw, syrthiant i gyfeiliornadau, i ddrwg-fuchedd, ac i uffern yn y diwedd. Os bydd yr arweinydd a'r arweiniedig yn ddeillion, y mae y ddau yn y perygl mwyaf; nid o osodiad Duw y mae y cyfryw dywysogion deillion; ac nid oes neb ond y dall a'u canlyn. Ofnadwy yw cyflwr y ddau, pan mae yr Iesu yn dywedyd wrth ei ddysgyblion am danynt, 'Gadewch iddynt!' Nid gwiw ceisio ymgeleddu planigion heb eu planu gan y Tad nefol: rhaid eu planu yn gyntaf ganddo ef, cyn y ceir ffrwyth arnynt.

FFREWYLL—AU—U, (ffraw) *Llad.* FLAGRUM: fflangell, chwip.—'Pan ddel ffrewyll lifeiriol, ni ddaw atom ni.' Esa. 28. 15. Wrth 'ffrewyll lifeiriol,' yr

Digitized by Google

ydym yn deall, byddinoedd yn llifeirio, ac yn myned drosodd, (Dan. 11. 10.) y rhai ydynt ffrewyllau yn llaw yr Arglwydd i fflangellu plant dynion am eu hanwireddau. Ond am ein bod ni wedi gwneuthur ammod âg angeu, a chynghrair âg uffern, sef â'r galluoedd hyny sydd yn dwyn angeu a dinystr gyda hwynt trwy eu lluoedd, pan lifeiriant drosodd, ni ddaw atom ni, i'n niweidio; canys yr ydym ni mewn ammod â hwynt. Ond beth medd yr Arglwydd? A ydyw efe yn sicrhau eu diogelwch yn y cyfryw noddfëydd? 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Diddymir eich ammod âg angeu, a'ch cynghrair âg uffern ni saif; pan ddel y ffrewyll lifeiriol, byddwch yn sathrfa iddi: y cenllusg a ysguba noddfa celwydd, a'r dyfroedd a foddant y lloches' Esa. 28. 17, 18. Nid oes dim a ddiogela y rhai hyny sydd yn diystyru amddiffynfa yr Arglwydd. Eu holl ammodau, eu cynghrair, a'u llochesau, a ysguba efe ymaith, ac a'u diddyma.

'Ac a'ch ffrewyllant chwi yn eu synagogau.' Mat. 10. 17. Yr oedd tri o swyddwyr yn perthyn i bob synagog, y rhai a roddent farn ar achosion gwladol; ac yr oedd ffrewyllu yn un o'r cospedigaethau a roddent yn eu llysoedd hyn yn eu synagogau ar ddrwg-weithredwyr. Cymh. Mat. 23. 34. Act. 22. 19. Gwel Witsius, *Vit. Pauli*, *sec.* i. Vitringa, *De Synagog. Vet.*, *lib.* iii., *part* i., *cap.* 2. Lightfoot, *vol.* ii.—— Yn y synagogau y derbyniodd Paul bum waith ddeugain gwïalenod ond un. 2 Cor. 11. 24.

FFRIO, *Llad.* FRIGERE: crasu, poethi, golosgi, cras-boethi.—'Y badell ffrio.' 1 Cron. 23. 29. Mae yr un gair רבכת yn cael ei gyfieithu *crasu* yn Lef. 7. 12. Yr oedd gwaith yr offeiriad yn ffrio neu yn crasu y bwyd-offrwm yn gysgodol o ddyoddefiadau poethlyd yr Arglwydd Iesu, pan roddodd ei hun yn offrwm i Dduw trosom. Eph. 5. 2.

FFROEN—AU—IAD—U, (ffraw) *Gr.* ῥιν (*rin*); ffroenau ydynt dyllau y trwyn. Yn yr iaith Hebraeg darlunir nwydau yr enaid oddiwrth eu heffeithiau ar y corph; felly yr un gair (אפ) sydd am y trwyn a'r ffroenau ag am ddigofaint; am fod y nwyd hwnw, neu ddiffyg o hono, yn effeithio ar y trwyn a'r ffroenau. Nid yn unig y mae y ffroenau yn poethi pan y byddo dyn yn ddigofus (cymh. 2 Sam. 22. 16.) ond hefyd maent yn byrhau; am hyny y gelwir gwr digllawn yn Hebraeg קצר אפים *ffroenau byrion*, sef un yn wastadol yn byrhau ei ffroenau trwy ddigofaint. Diar. 14. 17. Yn y gwrthwyneb, un yn ymgadw rhag digofaint—diog i ddigofaint—hwyrfrydig i ddig, a elwir (ארך אפים) *ffroenau hirion*; ac yn y goiygiad hwn a briodolir i ddyn. Diar. 14. 29. a 15. 18. a 16. 32. a 19. 11. Ac hefyd mewn ymostyngiad at ein dealltwriaeth ni, i'r Arglwydd. Exod. 34. 7. Num. 14. 18. Neh. 9. 17. Esa. 48. 9. Jer. 15. 15. Am fod digofaint yn poethi anadl y ffroenau, darlunir digofaint wrth 'chwythad anadl ffroenau,' (2 Sam. 22. 16. Ps. 18. 15.)—'chwythad ffroenau,' (Exod. 15. 8.)—'anadl Duw,' sef digofaint Duw. Job 4. 9.

'Arogl dy ffroenau megys afalau.' Can. 7. 8. Fel y mae anadl pêr yn arwydd o iechyd yn rhanau tufewnol y corph; felly y mae ocheneidiau a griddfanau sanctaidd, ffrwyth yr Ysbryd, yn y duwiolion, yn arwydd o fod y dyn oddi mewn yn cael ei adnewyddu: hefyd, y mae gwrthddrychau eu harogliad yn beraidd, sef athrawiaethau yr efengyl, a pherffeithrwydd gogoneddus Crist ynddynt. Y maent fel yr afalau euraidd yn tyfu ar bren y bywyd. Nis gall eneidiau sanctaidd, yn byw ar hyfryd-wledd yr efengyl, arogli cyfeiliornadau ffiaidd o un rhyw; ffrwythau y cnawd ydynt, ac nid ffrwythau ysbryd y gwirionedd. Can. 1. 3. a 2. 3. 2 Cor. 2. 14. Edr. AFALAU.

'A ffroenasoch arno;' sef gwasanaeth yr Arglwydd; yn arwyddo eu dirmyg a'u diystyrwch o hono. Mal. 1. 13. Agwedd dyn yn gwrthod peth gyda diystyrwch a ffieidd-dra. Ps. 10. 5. Edr. DIGOFAINT, TRWYN.

FFROM——ASANT——ODD, (ffro) brochus, digllawn; cyffrous; sòr; anfoddog.——'A hwy a ffromasant yn ei herbyn hi. Marc 14. 5. 'Ac wy a ddigiesont wrthei.' W. S. 'A hwy a derfynasant yn ei herbyn hi.' Dr. M. Y gair ενεβριμωντο αυτῃ, a arwydda iddynt ruo fel llewod yn ei herbyn.——'Hwy a ffromasant:' (Act. 5. 33.) 'hwy a dorasant ar eu traws rag dig.' W. S. 'Hwy a ffromasant yn eu calonau:' (Act. 7. 54.) 'y rhwygodd eu calonau gan ddicter.'* W. S. Y gair διαπριονντο, a arferir yn y ddau le hyn, a arwydda, *tori ar draws â llif.* 'Yn y ddau fan,' medd Suicer,† 'mae y gair yn nodi dirfawr boethder meddwl;' ac yn dangos mor fawr oedd eu gelyniaeth yn erbyn Crist, ei efengyl, a'i bobl. Yr elyniaeth rhwng y ddau hâd ydyw y peth cryfaf a welwyd, neu a welir byth, yn mhlith plant dynion ar y ddaear—y mae yn anghymmodol, yn greulon, ac yn farwol; yn gorchfygu holl resymau dynol, a holl gylymau a serchiadau y natur ddynol; ac oni bai fod llaw orchfygol Duw ar hâd y sarph, a'i amddiffynfa oddi amgylch ei bobl, ni byddai dichon i'r un ddaear eu cynnwys.

FFROSTIO—WYR, (ffros) bocsachu, brolio, gwagfostio.—Dyma yr agwedd ddirmygus mae pechod wedi ei wneuthur ar ddynion; yn lle dyrchafu Duw, yr hwn yn unig sy ddyrchafedig, y maent yn dyrchafu eu hunain, ac yn ffrostio o roddion Duw fel pe baent heb eu derbyn ganddo, yn lle diolch am danynt hwy. Rhuf. 1. 30. 2 Tim. 3. 2. Yn fwyaf priodol, ffrostiwr ydyw un yn hòni ei wybodaeth o'r hyn y mae yn anwybodus, neu ei fod yn meddiannu y peth nad yw ganddo.‡ Y mae Iago yn cysylltu ffrostwyr a chelwyddog gyd â'u gilydd: 'Od oes genych genfigen chwerw ac ymyson yn eich calon, na fyddwch ffrostwyr a chelwyddog yn erbyn y gwirionedd:' sef yn ffrostio eu bod yn ddoethion (adn. 13.) yr hyn nid ydynt: y mae cenfigen chwerw yn brawf sier eu bod yn hyn yn gelwyddwyr yn erbyn y gwirionedd. Iago 3. 14.

FFRWD, (ffrw) *Llad.* FRETUM: nant, cornant, afonig, cenllif, ffrydlif.——Ffrwd, yn gyffelybiaethol, sydd yn arwyddo, yn aml, helaethrwydd, lliosogrwydd; rhyw beth yn ymdaenu yn helaeth ac yn gryf, ac yn myned drosodd yn anorchfygol. 'Mi a estynaf iddi heddwch fel afon, a gogoniant y Cenedloedd fel ffrwd lifeiriol.' Esa. 66. 12. *Heb.* נחל Nilus a feddylir, mae yn debyg, yr afon fwyaf hynod yn y byd am lifeirio dros ei cheulanau. *Per* נחל *autem hic intelligi* Nilum *certo teneo. Vox* נחל *est ipsissimum* Nili *nomen.* Vitringa. Rheded cyfiawnder fel ffrwd gref, yn anwrthwynebol, yn ffrwythloni, ac yn cysuro, yn mhob man lle y delo; ac anghyfiawnder yn cael ei orchfygu yn nghalonau a bucheddau plant dynion. Amos 5. 24. Edr. AFON, DWFR.

FFRWST, brys, tra-ffull; terfysg, cythrwfl. Exod. 12. 11. Ps. 31. 32. a 48. 5. a 68. 12.

FFRWYN—O, (ffrwy) *Llad.* FRŒNUM; genfa; attal. Yn lle ffrwyn arferent gynt gyrt, neu fachau, weithiau, trwy ffroenau camelod, mulod, &c., i'w harwain. 2 Bren. 19. 28. Y mae attalfeydd rhaglunniaethol yr Arglwydd, fel ffrwyn, neu fach, yn cadw dynion creulon, rhyfygus, ac anesmwyth, o fewn terfynau; ac y mae efe yn eu harwain, yn aml, i'r lle y myno efe, yn gwbl groes i'w bwriadau hwynt. Esa. 37. 29.

* Dirumpebantur cordibus suis. Beza.

† Utrobique immanis notatur excandescentia. Suicer *Thesaur.*

‡ Apud Atticos Αλαζων est homo mendax. Suicer.

Digitized by Google

'Bydd ffrwyn yn ngenau y bobloedd yn eu gyru ar gyfeiliorn;' (Esa. 30. 28.) sef gau gynghorion i'w cam arwain, fel y cafodd yr Assyriaid eu cam arwain gan eu cynghorion eu hunain rhag cyflawni eu hamcanion gwaedlyd yn erbyn Jerusalem.

'Cadwaf ffrwyn yn,' neu לפי *ar* 'fy ngenau, tra fyddo yr annuwiol yn fy ngolwg.' Ps. 39. 1. *Heb.* מחסום *pen-awr, pen-ffrwyn, amrwym-safn.* Y mae Dafydd yn cydnabod fod y tafod yn aelod anllywodraethus; ac y dylai ein geiriau fod yn anaml yn nghymdeithas yr annuwiolion; ond etto gellir myned yn hyn dros derfynau, a thewi â daioni. Yn hyn, fel pob peth arall, da i ni gael ein cadw, ein dysgu, a'n cyfarwyddo gan yr Arglwydd.

'Y dydd hwnw y bydd ar ffrwynau y meirch, SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD.' Zech. 14. 20. 'Ar *sinclys ffrwyn* y march.' Dr. M. '*On the bells of the horses.*' *Saes.* Y gair מצלות a arwydda rhyw addurniadau perthynol i wisgiad march, ac yn dangos fod parch i'r Arglwydd, ac ufudd-dod iddo, yn ofynol, ac yn gweddu i ni yn mhob peth, ac ar bob achos; a phwy bynag sydd yn gyfranog o hono yn wirioneddol, mae fel y surdoes yn y blawd, yn suro y cwbl. Gwel Harmer's *Observations, vol.* iii.

FFRWYTH—AU—O—LAWN, (ffrwy) *Heb.* פרי *Llad.* FRUCTUS; cnwd, cynnyrch, toraeth, aeron; grym, eidiogrwydd: effaith unrbyw achos.—*Ffrwyth*, a *ffrwythau*, yn yr ysgrythyrau, a arwydda, 1. Cynnyrch y ddaear, coed, llysiau. Deut. 28. 4.——2. Plant, neu hiliogaeth. Ps. 132. 11. Gen. 30. 2. ——3. Gobrwy, a thaledigaeth. Diar. 1. 31. Rhuf. 6. 21. Phil. 1. 22.——4. Mawl a diolchgarwch ydynt ffrwyth y gwefusau. Heb. 13. 15. Esa. 57. 19. Hos. 14. 2.——5. Cynghor, addysg, rhybydd, a siampl dda. Diar. 11. 30. a 12. 14. a 18. 20.——6. 'Ffrwythau addas i edifeirwch,' yw ymarweddiad addas allanol i gyfnewidiad grasol tufewnol. Mat. 3. 8.——7. Cyfraniadau elusengar. Rhuf. 15. 28. ——8. Gweithredoedd cyflawn, a elwir 'ffrwythau cyfiawnder,' am nad oes neb yn eu dwyn, yn wirioneddol, ond y rhai sydd gyfiawn ger bron Duw trwy ffydd, ac wedi gwisgo y dyn newydd, 'yr hwn a grëir mewn cyflawnder a gwir sancteiddrwydd.' Phil. 1. 11.——9. 'Ffrwythau yr Ysbryd sydd yn mhob daioni;' (Eph. 5. 9.) sef tiriondeb a haelioni; 'cyfiawnder,'—mewn ufudd-dod i chwe gorchymyn yr ail lech—'a gwirionedd,' yn groes i bob twyll, rhagrith, a chyfeiliornadau. Rhydd yr Apostol gofrestr mwy neillduol o honynt yn Gal. 5. 22, 23. Y maent yn cael eu galw yn ffrwythau yr Ysbryd, mewn cyferbyniad i weithredoedd y cnawd, am mai yr Ysbryd Glân ydyw y gwreiddyn o honynt, y nôdd sydd yn rhoddi cynnaliaeth, yn annogwr, ac yn gyfarwyddwr iddynt. Nid oes neb yn dwyn y cyfryw ffrwythau, yn wirioneddol, ond a unwyd â Christ yn yr Ysbryd Glân, ac y mae efe, yn ganlynol, yn preswylio ynddynt. Hos. 14. 8. Ioan 15. 2, 4, 16. Rhuf. 7. 4. Dichon fod gweithrediadau ar lawer heb y ffrwythau hyn; ond y ffrwythau sanctaidd sydd yn profi cyfnewidiad cyflwr yn wirioneddol. Rhaid bod gwreiddyn sanctaidd cyn y dichon bod ffrwythau sanctaidd; canys mae yn rhaid i'r ffrwyth gyfateb i'r gwreiddyn yn ol deddf natur, ac felly hefyd yn ol sefydliad grasol Duw yn yr efengyl. 'Ni ddichon pren drwg ddwyn ffrwythau da.' Y mae ffrwythau yr Ysbryd yn addas iddo, yn ddwyfol, yn hardd, yn beraidd, yn hyfryd, yn ddyddanus, ac yn iachus iawn—'y rhai sydd trwy Iesu Grist er gogoniant a moliant i Dduw.'

'A ffrwyth y ddaear yn rhagorol ac yn hardd i'r rhai a ddiangasant o Israel.' Esa. 4. 2. Yr un person sydd yn cael ei alw 'Blaguryn yr Arglwydd,' neu IEHOFAH, a 'Ffrwyth y ddaear,' sef y Messïah. 'Blaguryn IEHOFAH' o ran dwyfoldeb ei Berson fel Mab Duw, a 'Ffrwyth y ddaear' o ran ei ddynoliaeth. Yn ngolwg pawb a ddiangasant, ac a achubwyd ganddo, y mae o ran ei berson, ei waith, a'i swyddau, yn brydferth, ac yn hardd; ie, yn rhagori ar ddeng mil, sef ar *bawb.* Edrych ar ei ogoniant fydd eu gwaith yma ac oddi yma byth; ac yn yr olwg arno y newidir hwynt i'r unrhyw ddelw. 2 Cor. 3. 18. Crist ydyw pren y bywyd sydd yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth bob mis; sef llawer o amrywiaeth ffrwythau, a ffrwyth digonol i'w holl Israel etholedig. Y ffrwythau hyn yw y bendithion ysbrydol sydd i bechaduriaid i'w cael ynddo. Y mae ef yn gyflawn o honynt, fel pren wedi ei lwytho â ffrwythau; y maent yn gwbl addas ac yn hollol rad i bechaduriaid, a'r efengyl yn eu galw i gyfranogi o honynt. Nid ffrwyth gwaharddedig ydyw; nid marwolaeth, ond bywyd tragywyddol, fydd y canlyniad o ymborthi arno. Y mae ei ddail yn feddyginiaeth i'r cenedloedd dros yr holl ddaear, a'i ffrwyth yn gynnaliaeth iddynt. Can. 2. 3. Diar. 8. 19.

'Y llafurwr sydd yn llafurio, sydd raid iddo yn gyntaf dderbyn y ffrwythau.' 2 Tim. 2. 6. 'Dir yw ir llavurwr lavurio cyn nag yddaw dderbyn ffrwytheu.' W. S. 'Rhaid yw i'r llafurwr gan lafurio yn gyntaf dderbyn y ffrwythau.' Dr. M. Y mae y gorair *πρωτον, yn gyntaf,* medd Beza, yn cyfeirio at y gair *llafurio,* ac nid at y gair *derbyn,* ac yna mae ystyr y geiriau yn eglur.* Amlwg yw mai hyn yw meddwl yr apostol, sef annog Timotheus i oddef cystudd fel milwr da i Iesu Grist, a llafurio yn ngwaith y weinidogaeth, oddiwrth siamplau milwyr, ymdrechwyr, a llafurwyr—nid oes un o'r rhai hyn yn dysgwyl gobrwy heb lafur ac ymdrech caled; felly yr apostol, y mae ei lafur yn rhagflaenu ei obrwy; a'i ymdrech a'i boen yn gyntaf, cyn ei fuddugoliaeth a'i orphwysfa. Edr. BLAEN-FFRWYTH.

FFUG, (ffu) *Llad.* FUCUS: twyll, rhith, lledrith, rhagrith.

> Y rhai a dd'wedant *ffug* a hud,
> A phob gwyr gwaedlyd cieulon.
> *E. Prys,* (Ps. 5. 6.)

FFUMER, *Llad.* FUMERIUS; pibell simnai, ceg simnai, corn simnai, twll y mwg, myg-dwll. Hos. 13. 3.

FFUN, (ffy-un) anadl, chwyth; swp, rhwymfaich, ysgub.—'Yr hyn oll oedd ffun anadl einioes yn ei ffroenau.' Gen. 7. 22. 'Yr hyn oll oedd anadl ysbryd bywyd yn ei ffroenau.' Ainsworth. Sef pob creadur byw oedd yn anadlu, a ddinystriwyd gan y diluw oddiar wyneb y ddaear. Y mae y geiriau yn dangos ëangder y farn drom hon. Ni bu un farn ar y ddaear mor gyflawn, ac ni bydd chwaith cyn y dydd mawr olaf, pan ddinystrir yr holl greadigaeth yma isod, heb ei hadferyd drachefn. Yr oedd y diluw yn arddangosiad o hwn; ac y mae y ddau yn dangos echryslonrwydd pechod, a mawredd Duw. Y mae yn creu byd heb ddim anhawsder; ac a'i dystrywia hefyd mewn modd ofnadwy ogoneddus am bechodau ei drigolion.

FFUNUD, (ffun) dull, ffurf, llun, gosgedd, modd: pa ffunud, sef pa fodd; yr un ffunud, sef yr un dull, yr un llun. Deut. 12. 22. Esa. 24. 2.—'Beth bynag y mae efe yn ei wneuthur, hyny hefyd y mae y Mab yr un ffunud yn ei wneuthur.' Ioan 5. 19. *Gr.* *ομοιως ποιει,* gweithredu yn yr un dull a modd, trwy ei allu ei hun, gyd â'r hawsdra, y doethineb, y daioni, a'r cywreinrwydd mwyaf. Nid oes neb a ddichon weithredu yr un ffunud (*ομοιως*) *yn gwbl yr un fath* a

---

* Refertur enim adverbium *πρωτον* ad participium *κοπιωντα* non autem ad *μεταλαμβανειν* quod fefellit Ambrosium, & alios nonnullos. Beza, Macknight.

Digitized by Google

Duw, ond Duw ei hun; y mae y Mab gan hyny yn Dduw, gogyfuwch a'r Tad, o'r un hanfod a pherffeithrwydd. Y mae yr un gair bach hwn, *ομοιως*, *yr un ffunud*, yn cadarnhau Duwdod Crist tu hwnt i bob dadl. Cawn orair arall hefyd yn adn. 23, sydd yn profi yn gadarn yr un pwnc pwysfawr, sef *καθως*, *fel*. 'Fel yr anrhydeddai pawb y Mab (*καθως*) *fel* y maent yn anrhydeddu y Tad:' sef gyd â'r un parch, yn yr un modd, hyd eithaf eu galluoedd, yn barhaus, ac yn ddiddarfod, Y cabledd mwyaf fyddai anrhydeddu neb *fel* Duw, ond Duw ei hun; gan hyny, y mae y Mab yn Dduw *fel* y Tad, heb ddim gwahaniaeth hanfod na phriodoliaethau. Y mae y gorair *ουτω*, *felly*, yn adn. 21. o'r un effaith ac ystyr iddo. 'Megys y mae y Tad yn cyfodi y meirw, ac yn eu bywhau, (*ουτω*) *felly* hefyd y mae y Mab yn bywhau y neb a fyno.' *Felly*, gyd â'r un hunan-allu ac awdurdod, yn yr un modd gogoneddus, yn rhoddi bywyd i eraill o hono ei hun, ac yn ol ei ewyllys ei hun, fel y Tad. Gogyfuwch bersonau ydynt yn yr hanfod, ac am hyny yn gweithredu yr un ffunud.

FFURF—IO—IEDIG, (ffur) *Llad.* FORMA; llun, tebygoliaeth, cyffelybiaeth; llunio.—'A chenyt ffurf y gwybodaeth, a'r gwirionedd yn y ddeddf.' Rhuf. 2. 20. *μορφωσις*, *darluniad*, *crynodeb*. Y mae holl gorph gwirioneddau dwyfol, fel drych, yn dangos pethau dwyfol i ni; ond ffurf gwybodaeth oedd gan yr Iuddewon *yn y ddeddf* yn unig, nid yn y profiad tufewnol, ac yn y weithred yn allanol. Ffurf o beth, yn ddifywyd ac yn farw; ymddangosiad o beth heb y peth, fel rhith duwioldeb heb dduwioldeb ei hun yn wirioneddol.

'Eithr ufuddhau o honoch o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i chwi.' Rhuf. 6. 17.—'Etto ufuddhau o honoch o'ch calonau i'r ffurf hòno o athrawiaeth i'r hon i'ch traddodwyd.' Dr. M. Goddef y geiriau bob un o'r ddau gyfieithiad, a phob un yn rhoddi ystyr iachus a defnyddiol; traddodwyd ffurf o athrawiaeth iddynt fel dadguddiad dwyfol, i'w chredu, ac i ffurfio eu bywydau yn mhob peth yn gyfatebol iddi; traddodwyd hwythau i'r athrawiaeth, gan yr Ysbryd, i'w ffurfio ganddo yn ol delw hòno fel cŵyr, neu fettel toddedig, mewn drychiaden *(mold)* yn derbyn ei argraff a'i lun. Lle y mae ufudd-dod i athrawiaeth, y mae argraff a delw yr athrawiaeth ar y person sydd yn ufuddhau iddi: y mae ef y peth y mae hi yn ei ddysgu ac yn ei orchymyn: felly y mae llun a delw yr efengyl ar y rhai sydd yn ei chredu ac yn ufuddhau iddi. Yr hyn ydyw hi yn athrawiaethol, hyny ydynt hwythau o ran agwedd eu hysbrydoedd a'u bucheddau, yn ol y gradd y maent yn ei chredu ac yn ufuddhau o'r galon iddi hi. Traddodwyd y ffurf, yn gyntaf, iddynt hwy; gwedi hyny, traddodwyd hwythau, trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, i'r ffurf sanctaidd hòno, i'w ffurfio trwyddi ar ei ddelw.

'Bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus.' 2 Tim. 1. 13.—'Cadw wir esampl yr iachus ymadroddion.' W. S. *υποτυπωσις*, *cynllun*, *darluniad*. Yr ymadroddion iachus yw yr efengyl, wedi eu llefaru â'r geiriau a ddysgir gan yr Ysbryd Glân; (1 Cor. 2. 13.) y rhai sydd yn iachus ynddynt eu hunain, am eu bod yn wirionedd, ac yn addas i'r pethau dwyfol y llefarir am danynt; ac hefyd y maent yn iachus, ac yn feddyginiaethol, yn ddyddanus, ac yn gynnaliaethol i bawb sydd yn eu derbyn, ac yn eu dal, trwy ffydd. Y gair *ffurf* (*υποτυπωσις*) a gyfeiria at adeiladwyr; y rhai a dynant yn gyntaf ddarluniad o'r adeiladaeth, ac wedi hyny gweithiant y cwbl yn ol ac yn cyfateb iddo: 'Felly,' medd Paul, 'bydded genyt tithau ffurf yr ymadroddion iachus, yn ol, ac yn gyfatebol, i ba un y mae i ti athrawiaethu, dysgyblu, a bucheddu.' Y mae y ffurf, neu y darluniad, yn hollol gywir, wedi ei dynu gan Ysbryd y gwirionedd; byddwn ninnau yn gywir mor belled ag y byddom yn cyfateb i'r ffurf ddwyfol hòno.

'Ac efe yn ffurf Duw.' Phil. 3. 6. Wrth 'ffurf Duw,' y mae i ni ddeall natur a hanfod, sef y gwir Dduw ei hun. Nid oes neb a ddichon fod yn ffurf Duw (*μορφη Θεου*) ond Duw ei hun. Duw ydoedd er tragywyddoldeb; a chymerodd arno mewn amser agwedd, neu (*μορφη*) *ffurf* gwas; fel y mae yn ei berson yn awr ddwy ffurf, sef ffurf Duw, a ffurf dyn; er nad ydyw yn bresennol âg agwedd caethwas arno, mae y natur ganddo, sef ffurf dyn, a fu yn yr agwedd hòno. Yr un peth yn gwbl yw ffurf Duw a hanfod Duw. Fel, wrth gymeryd arno agwedd, neu ffurf gwas, cymerodd, nid yr *agwedd* yn unig, heb *hanfod y natur ddynol;* ond hanfod y natur yn *agwedd* caethwas: felly pan y dywedir ei fod yn *ffurf* Duw, wrth *ffurf* y mae i ni ddeall yr hanfod.* Edr. AGWEDD.

'I fod yn un *ffurf* (*συμμορφους*) â delw ei Fab ef.'* Rhuf. 8. 29.—'Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un *ffurf* (*συμμορφον*) â'i gorph gogoneddus ef.' Phil. 3. 21.—'Oni ffurfier Crist ynoch.' Gal. 4. 19. Delw ei Fab yw y cynllun; y mae ei holl bobl etholedig gwedi eu rhagluniaethu i fod yn un ffurf â'r ddelw hòno, yn eu cyrph a'u heneidiau. Y gair *ffurf* yma ni arwydda yn unig undeb natur, ond hefyd *cyfatebolrwydd* y natur hòno yn eu personau hwynt, i'r hyn ydyw yn ei berson ef, o ran sancteiddrwydd a gogoniant; bydd cyfatebolrwydd cyflawn yn eu cyrph a'u heneidiau hwy, i'w gorph a'i enaid ef yn awr mewn gogoniant—bydd cyd-ffurf, cyd-lun, cyd-syniad, cyd-weithrediad, cydfwynhad, a chyd-ogoniant rhwng eu personau hwynt oll â'u gilydd, ac â'i berson yntau fel y cynllun. Bydd llawer o ddedwyddwch y nefoedd yn gynnwysedig yn y cyd-ffurf a'r cyd-gordiad rhyfedd hwn, heb un gradd o annhebygolrwydd, nac anghydgerdd byth. Y mae yr Ysbryd Glân yn amgyffred yn berffaith ac yn gwbl y cynllun, sef delw y Mab; ei waith ef yw y ddynoliaeth yn Mherson Crist, yn nghyd â'i holl berffeithrwydd a'i haddurniadau gogoneddus; â'r ddelw hon yn ei olwg, y mae yn gweithredu yr holl etholedigion i'r un ffurf, gyd â'r manylrwydd mwyaf, ac i'r perffeithrwydd eithaf. Ni bydd dim yn eisieu, na dim yn ormod: ond perffaith gyfatebolrwydd. Bydd y gwaith yn addas i'r gweithiwr; fel y mae y gweithiwr yn ddoeth, ac yn gywrain, yn alluog, &c., bydd ei holl berffeithrwydd yn ymddangos yn dra dysglaer a gogoneddus yn ei waith. Dystrywia y ddelw bechadurus a gawsant, ac a'u llunia i ddelw hollol wrthwyneb. Eph. 1. 4, 5, 11. 2 Cor. 3. 18. Col. 1. 18. 1 Ioan 3. 2. Ps. 17. 15.

'Peth ffurfiedig' yw pob creadur—a'r hwn a'u ffurfiodd oll yw Duw, yn ol ei ewyllys, ac i ateb ei ddybenion ei hun. Anweddus iawn yw i'r peth ffurfiedig ddywedyd wrth yr hwn a'i ffurfiodd, 'Paham y'm gwnaethost fel hyn?' Barnem hyny mewn perthynas i'n gwaith ein hunain, wrth drin y coed, y clai, a'r ceryg; ond y mae pellder difesur mwy rhyngom ni a Duw, na rhwng y clai a ni; ond etto yn gwrth-ddadleu yn erbyn Duw y'n ceir ni yn aml—mor ynfyd ydym! Rhuf. 9. 20.

FFURFAFEN, (ffurf-men) *Llad.* FIRMAMENTUM: wybren, awyr-nen. Y gair *Heb.* רקע a gyfieithir *ffurfafen*, a arwyddocâ *ymledu*, neu *ymlediad*, fel aur neu arian yn cael eu lledu dros ryw beth; neu len yn cael ei lledu; canys felly y mae y ffurfafen yn ymddangos i ni. Yr ymlediad hwn, gwaith yr ail ddydd yn nghreadigaeth y byd, a arwydda y corph mawr o awyr ag sydd yn amgylchynu y ddaear, a'r

* Gwel Suicer dan y gair *μορφη*.

Digitized by Google

ëangder lle mae y sêr yn ymddangos. Nid yn ein ffurfafen ni mae y sêr, ond mewn ëangder difesur oddi wrthi; ond *yno* y maent yn *ymddangos* i ni.

Yn ngweledigaeth Ezeciel, (pen. 1. 22.) yr oedd ar benau y cerubiaid, a than yr orsedd-fainc, a than draed Crist, ddull y ffurfafen, fel lliw grisial, neu (קרה) *ia* ofnadwy, ac a allai arwyddo yr eglwys yn ddarostyngedig i Grist; o'r hyn lleiaf, y mae yn dangos yn amlwg fod Crist uwchlaw pob creadur ar ei orsedd yn ogoneddus; yn canfod pob peth megys trwy ddrych dysglaer; ac yn trefnu ac yn llywodraethu pob peth. Edr. GWYDR.

FFUST—IAU, (ffu) *Llad.* FLAGELLUM; ffustfel, gwïal-ffust, ffon-ddyrnu.—'A'r ffustiau—yn lle cynnud.' 2 Sam. 24. 22. Y gair מרג a gyfieithir yma yn y rhif llïosog, *ffustiau*, a gyfieithir yn Esa. 41. 15. *mèn*, sef yr offeryn dyrnu yn ngwledydd y dwyrain hyd heddyw. Edr. DANNEDDOG, DYRNU, MEN.

FFWRN—ES, FFYRNAU, (ffwr) *Gr.* φουρνος; *Llad.* FORNAX, FURNUS: ffoc, odyn, pobtŷ, odyndŷ. Lef. 2. 4. a 11. 35. a 26. 26. Arwydda, 1. Tân mawr i doddi mŵn, neu i buro adwyn, ac i gospi drwg-weithredwyr. Ps. 12. 6. a 21. 9. Gen. 19. 28. Dan. 3. 6—23.——2. Lle o gaethiwed creulawn a phoenus, megys yr oedd yr Aipht yn ffwrn haiarn i'r Israeliaid. 1 Bren. 8. 51. Ffwrn haiarn, hyny yw, naill ai ffwrn wedi ei gwneuthur o haiarn, neu ffwrn arferedig i doddi haiarn; yr hwn sydd yn gofyn y tân poethaf i hyny—yn arwyddo bod eu caethiwed yn yr Aipht yn boeth ac yn greulawn iawn.——3. Barnedigaethau trymion, cystuddiau, a blinderau; y rhai, trwy fendith yr Arglwydd, sydd yn puro y cyfiawnion, ond yn dyfetha yr annuwiolion. Esa. 31. 9. a 48. 10. Ezec. 22. 20——4. Cospedigaeth ofnadwy yr annuwiolion yn uffern. Mat. 13. 42. Mal. 4. 1. ——'Tŵr y ffyrnau.' Neh. 12. 38.

FFYDD, (ffy-ydd) *Heb.* פתח *Gr.* πιστις; *Llad.* FIDES; cred, crediniaeth; ymddiried; ffyddlondeb. Ffydd yw credu tystiolaeth, neu addewid un arall; ac yn ol ein hadnabyddiaeth, a'n coel am wybodaeth, cywirdeb, a ffyddlondeb, yr hwn sydd yn tystiolaethu, neu yn addaw, y bydd ein ffydd yn ei dystiolaeth, neu ei addewid.

Mae ffydd, weithiau, yn arwyddo, 1. Ffyddlondeb un i gywiro yr hyn y mae wedi ei addaw. Rhuf. 3. 3. 'Meibion heb ffyddlondeb ynddynt.' *Heb.* בנים לא־אמן בם *meibion heb ffydd ynddynt.* Deut. 32. 20.——2. Crediniaeth am gyfreithlondeb peth. Rhuf. 14. 22, 23.——3. Athrawiaeth yr efengyl, yr hon a gredir, ag sydd yn sail i ffydd. Act. 24. 24. Gal. 1. 23.——4. A Christ yn yr athrawiaeth, fel gwrthddrych ffydd. Gal. 3. 23.——5. Cred a phroffes o'r efengyl. Rhuf. 1. 8.

Sonir hefyd am ffydd hanesiol a marw, tebyg i ffydd y cythreuliaid. Iago 2. 17, 19, 24.—Am rai yn credu dros amser, ond yn amser profedigaeth yn cilio. Mat. 13. 24. Marc 4. 16, 17. Luc 8. 13.

Y mae hefyd ffydd i weithredu gwyrthiau, neu i wyrth gael ei gwneuthur ar un. Mat. 17. 20. 1 Cor. 13. 2. Act. 14. 9.

Ond heblaw yr holl bethau eraill mewn perthynas i ffydd, pa rai ydynt yn dra angenrheidiol i'w gwybod a'u deall; mae yn gwbl eglur fod ffydd arall yn cael sôn am dani yn yr ysgrythyrau, yn hollol wahanol i'r golygiadau hyn ar ffydd, o ran ei natur, ei tharddiad, ei gwrthddrych, a'i heffeithiau, priodol yn unig i blant Duw a gedwir i fywyd tragywyddol. Dichon fod ffydd yn yr ystyriaethau blaenorol i gyd gan ddyn, ac etto ei gyflwr, ei anian, a'i fywyd yr un; ond mae yn gysylltiedig â'r ffydd hon, *gyfnewidiad cyflwr*, anian, a bywyd. Gelwir hon, 1. Yn 'ffydd etholedigion Duw;' sef y ffydd y maent hwy oll, a neb ond hwy, yn gyfranog o honi; ac sydd yn brawf diammheuol o'u hetholedigaeth. Tit. 1. 1.——2. Ffydd sydd yn rhodd arbenig Duw, ac o weithrediad Duw yn nghalonau y rhai sydd yn ei meddiannu. Eph. 1. 19. a 2. 8. Col. 2. 12. Ioan 6. 45. 2 Thes. 1. 11. Heb. 11. 1.——3. Y mae yn gadwedigol: y mae cyflwr yr hwn sydd yn ei meddiannu gwedi ei ddiogelu am byth. Eph. 2. 8. Rhuf. 1. 16. Marc 16. 16. Ioan 3. 15.——4. Y mae yn cyfiawnhau pechadur ger bron Duw. Rhuf. iii, iv, a v.——5. Yn gweithredu trwy gariad, Gal. 5. 6.—yn puro y galon, Act. 15. 9.—ac yn gorchfygu y byd. 1 Ioan 5. 4.——6. Yn ddiffuant ac yn ddiragrith. 1 Tim. 1. 5. 2 Tim. 1. 5.——7. Ffydd yw sydd yn aros—heb gwbl ddiffygio—ac yn cynnyddu, ac yn rhoddi gogoniant cyflawn i Dduw. Rhuf. 4. 19, 20. 1 Cor. 13. 13. Luc 22. 32. 2 Thes. 1. 3.

Y ffydd hon, fel y mae yn gadwedigol, yn cyfiawnhau pechadur, yn puro ac yn gorchfygu y byd—tystiolaeth Duw, sef y Drindod sanctaidd, yn y gair, yw ei sail: Crist yn y gair yn gyflawn, yn ol y dystiolaeth hòno, yw ei gwrthddrych. 1 Ioan 5. 7—11. Y mae yn arwyddo gwybodaeth yn y deall o'r dystiolaeth hon; cydsyniad yr ewyllys â'r pethau y tystiolaethir am danynt, sef am Grist, a holl drefn fawr yr iechydwriaeth ynddo; ymddiried ac ymorphwysiad y meddwl ar yr hyn yw Crist yn ol y dystiolaeth am dano, yn holl gyflawnder ei haeddiant a'i ras, ac yn ei holl swyddau cyfryngol. Esa. 53. 11. Ioan 6. 69. a 7. 38. a 16. 27. a 20. 31. 2 Tim. 1. 12. Heb. 11. 1. 2 Thes. 2. 10, 12. Act. 8. 37. Esa. 10. 20. a 50. 10. 2 Cron. 16. 8.

Y mae Crist yn wrthddrych o osodiad a threfniad dwyfol, er cyfiawnhad a iechydwriaeth pechaduriaid. Y mae anfeidrol gariad, doethineb, a gras Duw yn cael eu hamlygu yn y gosodiad hwn: yn credu tystiolaeth Duw am dano, y mae gwir ffydd yn adnabod y drefn, yn cydsynio â hi, ac yn ymfoddloni ynddi o'r galon, ac yn ymddiried ynddi yn gwbl ac yn unig am gyflawnhad, ac am iechydwriaeth gyflawn yn mhob ystyr. 'Yr hwn a osododd Duw yn iawn'—'A wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, yn gyflawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth'—'Yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni.' Rhuf. 3. 25. 1 Cor. 1. 30. 2 Cor. 5. 21. Ni buasai efe ddim i ni, oni buasai ei fod wedi ei *wneuthur* felly trwy *osodiad* dwyfol. Y Tad a'i hetholodd, a'i rhoddodd, a roddes ein hanwireddau ni arno, a'i traddododd, a'i drylliodd, a'i cyfododd, ac a'i dyrchafodd â'i ddeheulaw. Esa. 42. 1. a 53. 6. Ioan 3. 16. Rhuf. 8. 32. a 4. 25. a 10. 9. Act. 5. 31. A hyn i gyd er ein cyfiawnhad a'n hiechydwriaeth. Yr hyn ydyw Crist ynddo ei hun, a thrwy osodiad Duw, yn ol tystiolaeth y gair am dano, o ran mawredd ei Berson, cyflawnder ei waith, a'i ddigonolrwydd fel Iachawdwr yn mhob ystyr—hyny y mae ffydd yn golygu ei fod—yn ei gymeradwyo—yn ei ddewis—yn ymlynu wrtho—ac yn ymddiried ynddo. Y mae credu ynddo, gan hyny, trwy y ffydd hon o weithrediad Duw, yn waith tra gogoneddus a llesol—yn rhoddi gogoniant arbenig i Dduw am ei drefn—yn anrhydeddu Crist i'r gradd mwyaf—ac yn dyrchafu y pechadur i gyflwr newydd, goruchel, a gogoneddus iawn. Y mae Crist yn eiddo y pechadur, yn ei holl ragoriaethau, ac yn holl gyflawnder ei swyddau a'i waith. Nid ydyw y pechadur mwyach y peth oedd ef ynddo ei hun fel pechadur, ond yr hyn ydyw yn Nghrist, a thrwy undeb âg ef; hyny yw, y mae yn 'greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio, wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.' 2 Cor. 5. 17. Ac er nad yw y ffydd hon yn *unig*, etto *ffydd yn unig* sydd yn gweithredu yn y golygiad hwn o Grist—y derbyniad o hono—a'r ymorphwysiad arno. —1. Pechadur edifeiriol sydd yn credu; 'canys nid

Digitized by Google

rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion.' Mat. 9. 12.——2. Mae yr hwn sydd yn credu ynddo, yn ei garu hefyd gyda rhagoroldeb uwchlaw pob peth. ——3. Ac os yw yn ei garu, nis gall beidio ag ufuddhau iddo, yn rhydd ac ewyllysgar. Etto ffydd yw y llygad sydd yn ei weled yn nrych y gair, fel yr Israeliaid yn edrych ar y sarph bres; yn gwneuthur derbyniad o hono fel *Crist Duw;* ac yn ymorphwys arno i holl ddybenion mawrion iechydwriaeth. Rhuf. 3. 22. a 1. 17. Gal. 3. 8. Eph. 2. 8.

Gellir yn hawsach ddeall natur y ffydd hon, wrth ystyried yr amrywiol ddull o ymadroddi a arferir gan yr Ysbryd Glân, yn yr ysgrythyrau, am ffydd; megys, 1. Credu tystiolaeth Duw, sef y Tri yn tystiolaethu yn y nef, am ei Fab. 1 Ioan 5. 7—11. Wele yma wrthddrych goruchel ffydd, sef Mab Duw, a bywyd tragywyddol ynddo. Wele hefyd dystiolaeth gogyfuwch yn sylfaen iddi, sef tystiolaeth Duw—y dystiolaeth fwyaf a chadarnaf a ddichon fod mewn un achos byth: ar sail y dystiolaeth ddwyfol hon, y mae y pechadur tlawd yn credu yn y Mab—a thrwy gredu y mae ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun am wirionedd yr hyn y tystiolaetha Duw am dano—fel y cafodd y wraig â'r dyferlif y dystiolaeth ynddi ei hun o fod rhinwedd yn Nghrist Iesu i iachâu. Neu, yn hytrach, y mae ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun, sef y dystiolaeth y mae yn ei chredu—tystiolaeth Duw am ei Fab: mae y dystiolaeth hon *ynddo;* ac y mae yn credu ac yn barnu am Grist yn ol y dystiolaeth. Trwy fod y dystiolaeth *ynddo,* y mae Crist ynddo; canys y mae y dystiolaeth a Christ yn anwahanol; yr un peth yw credu y dystiolaeth a chredu yn Nghrist am yr hwn y mae y dystiolaeth yn llefaru. Y dystiolaeth yw sylfaen ei gred, a'r drych sydd yn dangos y gwrthddrych y mae yn credu ynddo; nid dychymygion am Grist, ond y dystiolaeth sydd *ynddo* yn gadarn ac yn oleu.——2. Troi wyneb oddiwrth bob gwrthddrych, a phob gobaith arall, at yr Arglwydd yn unig am gyfiawnder a nerth. Esa. 45. 22.—— 3. Ffoi fel y llofrudd i'r noddfa, gyd â'r awyddfryd a'r prysurdeb mwyaf, i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'i flaen yn yr addewid. Heb. 6. 18.—— 4. Dyfod at Grist ar annogaeth ei air yn yr addewid, yn wyneb yr annheilyngdod a'r tlodi mwyaf, am dderbyniad, ac am bob peth ganddo. Mat. 11. 28. Ioan 6. 45.——5. Derbyn Crist yn llawen, ac yn gyflawn, yn bob peth, ac yn mhob peth. Ioan 1. 12. Col. 2. 6. ——6. 'Ymaflyd yn ei nerth,' sef yn Nghrist, yr hwn yw gallu Duw, fel y gwnelo heddwch â Duw. Esa. 27. 5.——7. Ymddiried ynddo, sef yn ei ddigonolrwydd, ei allu, a'i ffyddlondeb, ac yn pwyso arno fel sylfaen gadarn o osodiad dwyfol. Ps. 40. 4. Esa. 28. 16.——8. Ymborthi arno, a'r iawn a wnaeth trwy ddrylliad ei gnawd, a thywalltiad ei waed, er cynnaliaeth, magwraeth, cysur, a dyddanwch. Ioan 6. 54. ——9. Gwisgo yr Arglwydd Iesu fel ein diogelwch a'n harddwch penaf. Rhuf. 13. 14.

Dyma werthfawr ffydd etholedigion Duw; sef rhodd anhywerth Duw iddynt, cwlwm undeb pechadur â Christ; agoriad arch cyfammod Duw sydd yn agoryd ei thrysorau anchwiliadwy i'r pechadur, ac yn agoryd cymundeb diddarfod rhwng y pechadur â Christ. 2 Petr 1. 1. Yr hon y mae eiriolaeth fawr Crist yn y nefoedd o'i phlaid, fel na ddiffygio, a gallu dwyfol yn ei nerthu. Luc 22. 32. Rhuf. 4. 20.

Yr un yw yn mhawb ag sydd yn ei meddiannu o ran ei sylfaen, ei gwrthddrych, a'i gweithrediadau, er bod gwahaniaeth mawr o ran y gradd o honi mewn amrywiol wir gredinwyr. Y mae rhai yn *weiniaid,* ac yn meddu ond *ychydig* ffydd. Rhuf. 14. 1. Mat. 6. 30. Mae eraill yn gadarn, ac yn meddiannu *ffydd fawr,* megys Abraham, y canwriad, y wraig o Ganaan, &c. Rhuf. 4. 20. Mat. 8. 10. a 15. 28.

Y mae pawb sydd yn gwir feddiannu y ffydd hon, er na bydd ond bechan o ran y gradd o honi, yn heddwch Duw, ac yn gyfrannogion o'r holl freintiau sydd yn dyfod trwy Grist, yr un fath a'r rhai mwyaf eu ffydd: 'Os plant, etifeddion hefyd,' beth bynag fyddo eu hoed a'u maintioli. Rhuf. 8. 17. Ond heb radd o'r ffydd hon, y mae yn anmhosibl rhyngu bodd Duw, na dyfod at Dduw byth. Heb. 11. 6. Y mae pawb hebddi, pa fath bynag fyddont, yn eu cyflwr drwg wrth natur, dan bechod, a than ddigofaint Duw. Os heb ffydd, y mae hefyd heb Grist, heb yr Ysbryd, heb obaith, ac heb Dduw yn y byd. Nis dichon fod ganddo sancteiddrwydd heb ffydd yn Nghrist, yr hwn yn unig yw ffynnon a gwreiddyn sancteiddrwydd i bechadur; nis dichon orchfygu y byd, heb undeb â Christ, yr hwn a'i gorchfygodd; yn fyr, y mae y diffydd yn gwbl heb iechydwriaeth yn mhob ystyr, a phob cangen o honi, yr hon nis dichon neb ei meddiannu mewn un ffordd ond trwy gredu. Gan mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn heb weithredoedd y ddeddf, ac yr heddychir ef â Duw, trwy ffydd hefyd y meddiennir pob rhagor-fraint arall cysylltiedig â hôno. Rhuf. 3. 28. Ioan 16. 33. 1 Ioan 5. 4. 1 Cor. 1. 30. Edr. ANGHREDINIAETH, CREDU, CYFAMMOD, CYFRYNGWR, CYFIAWNHAD, SAIL, SANCTEIDDHAD, SICRWYDD. Gwel hefyd draethawd rhagorol y Dr. Owen ar *Gyfiawnhad trwy Ffydd.* Witsius' *Exer. Sacr. in Symb., Exer.* iii. *Œcon. Fœd., lib.* iii., *cap.* 7. Ball *on Faith.*

FFYDDLAWN—ONDEB—IAID, (ffydd-lawn) cywir, gwir; cywirdeb. Un ffyddlawn, yw un cywir, credadwy; un yn cadw ei air a'i addewid; un cywir a sicr yn yr hyn a ymddiriedwyd iddo. Y mae ffyddlondeb yn briodoledd ogoneddus yn yr hanfod dwyfol: *Deus est summe perfectus & bonus,* Y perffeithrwydd a'r daioni mwyaf yw Duw; am hyny y mae ffyddlondeb ynddo. Mae yn gywir ac yn ffyddlawn iddo ei hun a'i ogoniant: mae y Personau Dwyfol yn yr hanfod yn ffyddlawn i'r holl ammodau, ymrwymiadau, a'u cyfammod â'u gilydd mewn perthynas i iechydwriaeth yr eglwys. Ymddiriedodd y Tad i'r Mab fel Cyfryngwr, cyn ei ddyfodiad yn y cnawd, ac atebodd y Mab i'w holl ymrwymiadau yn berffaith i'r gradd eithaf. Ymddiriedodd y Mab i'r Tad yn ei ddyfodiad; wedi ei ddyfodiad, yn ei ystâd o ddarostyngiad, ymddiriedodd am gyflawniad o addewidion y Tad iddo am gynnaliaeth, fel ag yr ydoedd yn ddyn, trwy y gwaith gogoneddus ac anfeidrol bwysfawr, ac am ei ogoniant fel Cyfryngwr; y mae yn ymddiried iddo yn awr yn y gogoniant am gael gweled yn gyflawn o lafur ei enaid. Y mae y Tad gwedi ymddiried ei bobl i'r Mab, a'r Mab drachefn gwedi eu hymddiried a'u gorchymyn i'r Tad. Ioan 17. 15, &c. Fel hyn y mae iechydwriaeth yr eglwys yn gorphwys ar y sylfaen gadarnaf, sef ar ffyddlondeb y Personau Dwyfol i'w gilydd. Y mae yr ammodau wedi eu gwneuthur, a'r cyfammod wedi ei sicrhau a'i selio; ac y mae y cyflawniad o hono yn gorphwys ar ffyddlondeb a gallu y Personau yn cyfammodi; y mae y ffyddlondeb hwnw o bob tu mor ddiball a Duw ei hun. Yr hyn a addawodd y Mab i'r Tad dros ei bobl, y mae wedi ei gyflawni yn berffaith: yr hyn a addawodd y Tad i'r Mab, fe a'i cyflawna mor gyflawn. Mae yn *aml* o drugaredd a gwirionedd,—'ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau,' &c. 1 Ioan 1. 9. Exod. 34. 6.

Y mae addewidion y Tad i Grist, fel Cyfryngwr, o'r fath gadarnaf, wedi eu cadarnhau â'i lŵ; 'Tyngais i'm gwas Dafydd (sef Crist) yn dragywydd y sicrhaf dy hâd di: ac o genedlaeth i genedlaeth yr adeiladaf dy orsedd-fainc.' Ps. 89. 3—37. Esa. xlix. a liii. Ffyddlondeb y Personau Dwyfol i'w hammodau i'w gilydd mewn perthynas i iechydwriaeth yr eglwys, sydd yn rhoddi y dadguddiad mwyaf

Digitized by Google

dysglaer a gogoneddus o hono a roddir byth: ond yn hyny y mae hefyd yn gynnwysedig ffyddlondeb Duw i holl hâd Crist, aelodau ei eglwys fel y cyfryw. Y mae yr holl addewidion i'r hâd yn gynnwysedig yn yr ammodau i'r cyfammodwr; ac nis gellir tori yr addewidion â hwy heb ballu mewn ffyddlondeb iddo yntau: ond ffyddlawn yw Duw—mae efe yn aros yn ffyddlawn—nis gall efe wadu ei hun; hyny ydyw, nis gall weithredu yn wrthwyneb i'w berffeithiau hanfodol; gwadu ei hun neu beidio bod yn Dduw, fyddai hyny, yr hyn nis dichon fod mewn un modd. Gallasai beidio ammodi ac addaw, pe buasai yn gweled hyny yn oreu; ond wedi addaw, nis gall beidio a chyflawni yn *ol* y mae gwedi addaw, pa un bynag ai ammodol ai diammodol. Deut. 7. 9. 1 Cor. 1. 9, 18. a 10. 13. 2 Cor. 1. 18. 1 Thes. 5. 24. 2 Thes. 3. 3. 2 Tim. 2. 13. Heb. 10. 23.

Y mae ffyddlondeb yn cael ei briodoli i Grist o ran ei dair swydd: mae yn arch-offeiriad ffyddlawn mewn pethau yn perthyn i Dduw, yr hwn a'i hordeiniodd. Heb. 2. 17. a 3. 2. Y mae yn dyst ffyddlawn a chywir fel prophwyd. Dat. 1. 5. a 3. 14. Ffyddlawn a chywir y gelwir ef fel brenin, ac 'mewn cyfiawnder y mae efe yn barnu ac yn rhyfela.' Dat. 19. 11. Y mae yn ffyddlawn yn cyflawni y gwaith perthynol i bob un o'r swyddau: yn ffyddlawn i Dduw yn ol gosodiad y drefn yn y cyfammod (Ioan 17. 4.); yn ffyddlawn dros ei bobl yn y nefoedd ac ar y ddaear; ac yn ffyddlawn tu ag atynt, yn ystyried eu holl amgylchiadau, eu gwendidau, a'u profedigaethau. Mae y ffyddlondeb dwyfol yn Mherson Crist yn hanfodol, yn dysgleirio yn holl weinidogaeth Crist yn ei swyddau, ac yn ei holl oruchwyliaethau tu ag at ei bobl.

'Cyfiawnder yw gwregys ei lwynau ef, a ffyddlondeb yw gwregys ei arenau,' yn ei gryfhau ac yn ei harddu yn ei holl swyddau, ac yn ei holl weithredoedd. Esa. 11. 5. Dyma y ddau addurn penaf swyddwr, ac a fyddant yn gadernid iddo yn ei waith yn wyneb pob gwrthwynebwyr.

'Mewn ffyddlondeb y'm cystuddiaist.' Ps. 119. 75. 'A chystuddio o honot fi yn ffyddlon.' Dr. M. Yn ffyddlawn, fel un yn caru ei lesâd, ac y buasai yn anffyddlawn iddo pe buasai heb ei geryddu â chystudd. Ps. 25. 10. a 89. 30—33. Heb. 12. 10, 11. Mewn ffyddlondeb hefyd, heb adael temtio ei bobl uwchlaw yr hyn a allent, eithr a wnaeth yn nghyd â'r demtasiwn ddiangfa, fel y gallent ei ddwyn. 1 Cor. 10. 13.

Y rhai sydd gyd â'r Oen, sydd *alwedig*, ac *etholedig*, a *ffyddlawn*. Dat. 17. 14. Y mae y saint yn cael eu galw 'y ffyddloniaid yn Nghrist Iesu'—gelwir Abraham yn 'ffyddlawn.' Eph. 1. 1. Gal. 3. 9. 1 Tim. 4. 3. a 4. 10, 12. Mae y gair πιστος, πιστοι, yn cael ei gyfieithu *credadyn—y rhai oeddynt yn credu.* 2 Cor. 6. 15. Act. 10. 45. 1 Tim. 6. 2. Hyny ydyw ystyr y gair πιστος, *ffyddlawn*, pan briodolir ef i Abraham, mae yn dra eglur, a gellir cyfieithu y geiriau, *Felly gan hyny y rhai sydd yn credu a fendithir gyd âg Abraham, yr hwn oedd yn credu.* Y 'ffyddloniaid yn Nghrist Iesu,' ydyw y rhai sydd yn credu yn Nghrist Iesu.

Priodolir ffyddlondeb i rai yn gweini mewn swyddau yn *gywir*, yn ol yr hyn a ymddiriedwyd iddynt hwy; megys Moses, Sylvanus, ac Onesimus. Heb. 3. 5. 1 Petr 5. 12. Col. 4. 9. 'Yr ydys yn dysgwyl mewn goruchwylwyr gael un (neu τις, *bob un*) yn ffyddlawn.' Y mae anffyddlondeb yn ei anghymhwyso yn hollol i'r cyfryw swydd, ac yn difuddio dyben y swydd. Os felly yn mhob goruchwyliwr mewn pethau gwladol a daearol, pa faint mwy felly yn y rhai sydd yn goruchwyliaethu mewn pethau sanctaidd? 1 Cor. 4. 2. Y mae llawer o wendidau yn mhawb, ond y mae anffyddlondeb yn fai bwriadol, ac yn bradychu yr ymddiried a roddwyd mewn un.

'Bydd ffyddlawn hyd angeu, a mi a roddaf i ti goron y bywyd.' Dat. 2. 10. Y mae ffyddlondeb hyd angeu yn arwyddo ymlyniad wrth Grist a'i achos, er marw drosto: ffyddlondeb hefyd mewn diball ymdrechiadau dros yr achos, i'w helaethu ef, ac i'w daenu ar led fwy-fwy. Y mae ffyddlawn yn gweithredu yn ddiwyd, yn ddyfal, yn gyflawn, hyd eithaf ei allu. Nid oes neb yn ffyddlawn heb wneuthur yr hyn a *allo* efe yn yr achos, a hyny yn *ddyfal* ac yn *barhaus*. Y mae yr Arglwydd a'i achos yn deilwng o hyny, ac y mae llai yn annheilwng iddo, ac yn anffyddlondeb. Er marw yn yr achos, mae gan yr Iesu goron y bywyd i roddi, sef bywyd a choron arno, yn fuddugoliaethus ac yn ogoneddus. Byddent arfer yn y chwarëyddiaethau ar fynydd Olympus o goroni y buddugoliaethwyr;* ïe, byddent weithiau yn coroni rhai gwedi marw, os byddai eu hymdrechiadau gwedi bod yn rheolaidd ac yn orchestol; neu yn coroni colofnau coffadwriaethol i rai gwedi bod yn hardd ac yn ddefnyddiol i'r wladwriaeth yn eu bywyd.

FFYNADWY, (ffwn) a ddichon lwyddo.—'Canys bydd yr hâd yn ffynadwy.' Zech. 8. 12. *Heb.* השלום *heddychol*, sef yn llwyddiannus, yn gynnyrchiol, yn cael addfedu i berffeithrwydd yn heddychol, heb neb i'w ddrygu, a hwythau yn ei fwynhau yn heddychol.

FFYNIDWYDD, Edr. FFAWYDD.—'Ein distiau sy ffynidwydd.' Can. 1. 17. *Heb.* ברת arferedig yn unig yn y fan hon. κυπαρισσοι, LXX. CUPRESSINA, *Vulg.* Anhawdd penderfynu pa bren a feddylir; y cypreswydden, medd rhai. Wrth y tŷ, yn ddiammeu, mae i ni ddeall eglwys Duw; mae y tŷ hwn, yn mhob ystyr, wedi ei wneuthur o'r defnyddiau goreu a mwyaf parhaus, gan ei fod yn adeiladaeth dragywyddol, ac i fod yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd. Eph. 2. 22. Y mae swyddwyr yr eglwys, a'i holl aelodau bywiol, yn gredinwyr iachus, peraidd, ac nid rhagrithwyr braenllyd, twyllodrus.

'Myfi sydd fel ffynidwydden îr, o honof fi y ceir dy ffrwyth di.' Hos. 14. 8. Y mae yr Arglwydd yn cyffelybu ei hun, o ran y peth ydyw, ac a fydd i'w bobl, i bren îr-las, cysgodfawr, yn amddiffynfa ddigonol a chysurus iddynt. Yn ysbrydol ac yn dymhorol, efe yw eu cysgod a'u hamddiffynfa. 'O honof fi y ceir dy ffrwyth di;' hyny yw, bydd ffrwyth i ti arnaf fi, addas a pharhaus; o honof fi y bydd dy holl gynnaliaeth a'th gysur. A pha ffrwyth bynag a geir arnat ti, o honof fi y bydd hwnw. Ioan 15. 1—9. Efe sydd yn gweithio yn mhawb i ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef. Phil. 2. 13. Meddyliwn mai y cyntaf ydyw ystyr y geiriau. Pan y mae Ephraim yn dywedyd, 'Beth sydd i mi mwyach a wnelwyf âg eilunod?' y mae yr Arglwydd yn gwrando ac yn edrych arno ef; yn ei weled gwedi darfod â phob peth arall, yn dywedyd wrtho, 'Myfi sydd fel ffynidwydden îr,' yn gyflawn o nodd, o ddail, a changenau i'th gysgodi; ac hefyd, 'o honof fi y ceir dy ffrwyth di,' sef yr holl fendithion addawedig o'r blaen: bydd cymundeb o hyn allan rhyngof fi a thi; cei fyw arnaf, a chei ffrwyth o honof fi, sef gras am ras. Cei ddyfod ataf am dano yn ddirwystr bob amser, a chei gydnabod dy rwymedigaethau i mi am y cwbl. Ond y mae y ddau ystyr yn cyd-gordio yn dda.

FFYNON, (ffwn) *Heb.* עין [*oin*] *Llad.* FONS: ffynonell, ffynonwys; pen, gwreiddyn, a dechreuad peth.—Yn y parth dehau i wlad Canaan, yn Arabia, a pharthau o Affrica, yr oedd ffynonau dyfroedd yn anaml, am hyny yn werthfawr iawn; o herwydd hyny yr ydym yn cael hanes am ymrysonau yn eu cylch.

* Non solebant Græci vivos tantum honorare coronis, sed mortuos. Si qui enim illustres viri aut caræ memoriæ homines decessissent, in cadavera, urnas, aut tumulos illorum congeri solebant coronæ, honoraria virtutis præmia—ut PERICLES, ANTIGONUS, &c. Vitringa *in loc.*



Digitized by Google

Gen. xxi, xxvi. Exod. ii. Gwel hanes ffynonau enwog gwlad Judea dan yr amrywiol enwau.

Yn gyffelybiaethol, ffynon a arwydda, 1. Gwraig ffrwythlawn a ffyddlawn, yr hon sydd fam plant, ac yn gysur i'w phriod. Diar. 5. 16, 18. Deut. 33. 28.

2. Y mae yr Arglwydd yn cael ei alw yn ffynon, o ran y cyflawnder o fendithion sydd ynddo, yn cyfateb i holl angenion ei bobl; fel ffynon y mae ynddo gyflawnder diddarfod o gynnorthwyon i'w gwaredu a'u dyddanu. Y mae holl ffrydiau iechydwriaeth sydd yn ffynonau i ni, yn tarddu yn gwbl o hono ef; ei gariad, ei ddaioni, ei ddoethineb, a'i ben-arglwyddiaeth, ydyw yr achos o honynt yn eu tarddiad, eu rhediad allan, a'u cymhwysiad, er cynnaliaeth parhaus, a dyddanwch i'w bobl yn mhob cyflwr ac amgylchiad. Jer. 5. 13. a 17. 13. Esa. 12. 3. *Ffynon* yw efe, a'i gyflawnder ynddo ei hun, ac yn rhoddi i eraill; *pydewau* yw creaduriaid, nas ceir ynddynt ond a dderbyniont. Efe yw 'ffynon y gerddi—ffynon y dyfroedd byw —y ffrydiau o Libanus.' Can. 4. 15. Gellir cyfieithu y geiriau, 'O ti ffynon y gerddi—O ti ffynon y dyfroedd byw!' Fel pe byddai yr eglwys yn cydnabod ei rhwymedigaethau iddo ef a'i gyflawnder didrai am ei holl ffrwythlonrwydd a'i harddwch. Geiriau yr eglwys ydynt, ac nid ei hanwylyd, yn ol fy meddwl i. Y mae llawer o erddi, sef o eglwysi a phersonau credniol, ond un ffynon sydd iddynt hwy oll, o ba un y mae eu holl fendithion ysbrydol yn dylifo, sef eu cyfiawnder, eu sancteiddrwydd, eu cynnorthwyon, a'u cysuron. Dyfroedd byw, gloyw, iachus, a pharhaus, sydd ynddo; y maent yn bywhau, yn cynnal bywyd o ras, ac yn addasu i fywyd o ogoniant. Nid annhebyg fod Solomon, yn y geiriau, yn cyfeirio at ffynon a elwid 'ffynon y gerddi;' yr hon, medd teithwyr, sydd yn llifo o Tripoli, ac yn dyfrhau yr holl erddi oddi amgylch. Ac yr oedd un arall, a elwid 'ffynon y dyfroedd byw,' filltir o du y dehau i Tyrus; yr oedd iddi bedair ffynonell, a gwnawd dyfr-ffosydd i ddwyn ei dwfr i ddyfrhau gwastadedd Tyrus, a'r holl erddi. Y ffrydiau o honynt ydynt reieidr yn rhedeg yn hyfryd o ffynonau yn ystlys mynydd Libanus, ac yn ei ffrwythloni, a'i wisgo ef â gwyrdd-lesni peraidd a gwastadol. Gwel Maundrell's *Journey to Aleppo*, *p*. 142. Rawolf's *Travels*, *part* ii, *chap*. 12. Y mae eraill yn barnu fod y cyfeiriad yma at ffrydiau yr Iorddonen, yr hon sydd yn tarddu wrth droed mynydd Libanus, ac yn rhedeg trwy wlad Canaan i'w dyfrhau. Y mae Ezeciel (pen. 47. 6) yn helaethu ar yr un gyffelybiaeth, ac yn dangos dyfroedd y cysegr (yr hwn a wnaed o goed Libanus) yn rhedeg ar hyd y gwastadedd i'r Môr Marw, ac yn iachâu y dyfroedd a'r pysgod; ac yn arwyddo effeithiau rhinweddol yr efengyl ar fyd o bechaduriaid meirwon.

Y mae Crist yn galw ei eglwys yn 'ffynon glöedig—seliedig.' Can. 4. 12. Dywed rhai fod gan Solomon ffynon glöedig, seliedig, iddo ef yn unig i yfed o honi, yn Jerusalem; neu yn Ethan, lle yr oedd ganddo hafdŷ, medd Josephus (*lib*. viii, *cap*. 7.) a gerddi a rhodfeydd hyfryd. Dengys y mynachod ffynon yn agos i Bethlehem, yr hon a hònant ydoedd y ffynon seliedig; ac y mae yn bur hawdd, medd Maundrell, i'w chloi a'i selio. Beth bynag am hyn, mae y geiriau yn dangos fod gan Grist hawl neillduol yn ei eglwys, ei fod yn ymhyfrydu ynddi; a'i bod hithau yn ffyddlawn iddo yntau fel morwyn bur. Diar. 5. 15—18.

'Y dydd hwnw y bydd ffynon gwedi ei hagoryd i dŷ Dafydd, ac i breswylwyr Jerusalem, i bechod ac aflendid.' Zech. 13. 1. Y mae cyfeiriad yn y geiriau hyn at y dwfr neillduaeth a glanhad seremoniol dan y gyfraith. Num. 19. 9, &c. Glanhad moesol a feddylir yma oddiwrth bechod, o ran yr euogrwydd a'r halogrwydd o hono. Nid oedd un ffynon i hyny gwedi cael ei *hagor*. Nid oedd yn Nuw ei hun, nac yn holl waith Duw yn y greadigaeth gyntaf, un ffynon i olchi pechadur aflan; yr ydoedd modd i greu rhai glân yn ddirifedi, ond i olchi yr aflan nid oedd yr un ffynon. Glanhau pechadur ydyw maddeu ei bechod, a'i sancteiddio: nid oes maddeuant i'w gael yn un â gogoniant priodoliaethau a llywodraeth Duw, heb iawn; gwneuthur yr iawn hwnw oedd yn anaddas i Dduw, a'i ystyried fel Duw yn unig, ac yr oedd yn hollol anmhosibl i un creadur. Nid allasai Duwdod-farw, ac ni wnaethai marwolaeth yr holl greaduriaid, am eu bod yn feidrol, yn lle y pechadur, ddim iawn drosto. Heblaw hyny, yr oedd yn addas i'r natur a bechodd, yn unig, i wneuthur iawn; nid oedd cyflawnder yn gofyn un natur arall. Duw yn ei ben-arglwyddiaeth, ei gariad, a'i ras, trwy yr amlygiad mwyaf o ddoethineb dwyfol, a drefnodd yn Mherson Crist, Duw-ddyn, a thrwy ei waith yn rhoddi ei hun yn offrwm ac yn aberth i Dduw dros bechadur, i'r iawn mawr hwn gael ei wneuthur yn gyflawn: 'Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau.' Eph. 1. 7. Efe yw 'yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed,' i olchi yr aflan a'r euog. Edr. Dwfr. Yn nyoddefiadau Crist ar y groes yr agorwyd y ffynon yn wirioneddol, er ei bod yn cael ei hagor yn gysgodol er dechreuad y byd.

Y mae y ffynon hon yn cael ei hagor etto pan fyddo aberth Crist yn cael ei gyhoeddi fel yr unig foddion o drefniad dwyfol i dynu ymaith a dileu pechod, ac i lanhau pechadur yn mhob ystyr. Bydd wedi ei hagoryd i dŷ Dafydd ac i breswylwyr Jerusalem; sef i'r swyddwyr gwladol ac eglwysig, a'r werinos gyffredin, heb ddim gwahaniaeth, pan y bydd i'r Iuddewon, yn y dyddiau diweddaf, yn ol addewid Duw, gael eu dwyn i gydnabod eu pechod yn gwrthod Crist, ac i edrych ar yr hwn a wanasant, am faddeuant o hono. Pen. 12. 10. Wrth edrych ar eu pechod mawr, edrychant yn yr un olwg ar 'y ffynon gwedi ei hagoryd.' Gwaith penaf gweinidogion yr efengyl yw dangos y 'ffynon gwedi ei hagoryd' o flaen pechaduriaid aflan; ac nid oes un athrawiaeth yn deilwng i gael ei galw yn efengyl, ac a ddichon fod o wir lesâd i bechadur, ond yr hon y mae y ffynon, sef Crist a'i aberth, yn sylwedd penaf o honi, a chanolbwynt yr holl wirioneddau eraill i gyd. I'r aflan y mae y ffynon; er eu mwyn hwynt yr agorwyd hi; ac ni wna neb arall ddefnydd o honi, ond y rhai sydd deimladwy o'u haflendid. Yn y cymhwysiad o honi, y mae yn glanhau yr holl ddyn, gorph, enaid, ac ysbryd; y mae hefyd yn glanhau oddiwrth bob pechod; ac y mae y glanhad hwn i barhau byth. Eph. 5. 27. 1 Ioan 1. 7. 1 Thes. 5. 23. Am fod y ffynon yn cael ei dadguddio yn y gair, a'i chymhwyso trwy ffydd ynddo, y mae yn cael ei galw yn 'olchfa ddwfr trwy y gair.' Eph. 5. 26.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn arwain ei braidd *at*, ac *wrth* ffynonau dyfroedd, pan mae yn dadguddio iddynt gyflawnder yr iechydwriaeth yn yr addewidion, yn eu nerthu i gyfranogi o'i chysuron, ac i fyw ar ei bendithion. Dat. 7. 17. Esa. 49. 10. Joel 3. 18.

'Fy holl ffynonau sydd ynot ti;' sef yn yr hwn a anwyd yn Sion, y Duw-ddyn, Crist Iesu. Ps. 87. 5, 6, 7. Gwel Romaine's *Letters*, *let*. xxxvi. Edr. Afon, Dwfr.

FFYNONELL, (ffynon) *Llad*. Fonticulus: ffynonig; ffynon neu ffrwd fechan; dyferlif. 2 Bren. 2. 21. Marc 5. 29.—Y mae llawer o ddadleuaeth yn mhlith naturiaethwyr yn nghylch dechreuad ffynonau. Rhai a'i priodolant i'r gwlaw sydd yn disgyn ar y ddaear, ac yn soddi iddi nes cyfarfyddo â rhyw gorph caled a attalio ei soddiad, ac yna tardd allan yn ffynonau. Eraill a briodolant eu dechreuad i'r tarth sydd yn cyfodi trwy boethder yr haul o'r môr, llynoedd, afonydd, &c. Ond y mae gwrthddadleuon cryfion yn erbyn pob un o'r ddwy farn hyn. Dyfal barhad amryw ffynonau, yn rhoddi yr un faint o ddwfr

Digitized by Google

pan fyddo y gwlaw a'r tarth leiaf a phan fyddo fwyaf, sydd wrthddadl gref yn erbyn pob un o'r ddwy farn. Nid yw y sychder mwyaf yn lleihau amryw o honynt mewn un gradd, na'r gwlawogydd mwyaf yn eu cynnyddu, os na bydd y dwfr yn rhedeg iddynt oddiar wyneb y ddaear. Eraill, gan hyny, a briodolant ddechreuad ffynonau i'r moroedd, o ba rai y mae y dyfroedd yn cael eu sugno i fynu i'r uwchdiroedd, fel yr esgyn y dyfroedd mewn tamaid o fara y rhoddir ei ben ynddo. Ond y mae dadleuaeth yn nghylch hyn hefyd.——Y mae rhai ffynonau gwastadol, a rhai tymhorol, neu yn unig ar ryw dymhorau; ac eraill hefyd dyspeidiol (*intermitting*) am eu bod yn rhedeg, ac wedi hyny yn peidio; ac yn rhedeg drachefn, ac wedi hyny yn peidio; ac eraill yn gylch-gyfnewidiol, y rhai mae eu dyfroedd yn codi ac yn gostwng, yn llanw ac yn treio yn rheolaidd. Dywedir fod ffynon yn Paderborn, yn Westphalia, yr hon sydd yn diflanu ddwywaith mewn pedair awr ar hugain, ac yn dychwelyd yn mhen chwe awr gyda sŵn mawr, a chyd â'r fath rym, fel mae yn troi tair o felinau yn agos i'w tharddiad. *Phil. Trans.*, *No.* 7, *p.* 127. Yn Broseley, yn agos i Wenlock, yn swydd Amwythig, cafwyd ffynon ferwedig yn A.D. 1711. Taniai y dwfr, a llosgai fel *spirits of wine*; ac wedi ei danio, berwai dwfr mewn llestr arno yn gynt nag un tân; ac etto yr oedd y dwfr ei hun mor oer ag un arall. Diflanodd y ffynon dros lawer o flynyddoedd, ac ymddangosodd drachefn yn A.D. 1746, ddeg llath ar hugain yn nes i'r afon.* *Phil. Trans.*, *No.* 334, 482., *sec.* 6.

'Gwynt yr Arglwydd o'r anialwch a ddyrchafa, a'i ffynonell a sych, a'i ffynon a â yn hesp.' Hos. 13. 15. Y mae cyfnewidiad gwynt, meddant, yn effeithio yn fawr ar darddiad ffynonau, ac yn aml yn peri ymddangosiadau cwbl groes i'r hyn a ellid ei ddysgwyl oddiwrth dymhor y flwyddyn, neu drefn naturiaeth. Sylwa y prophwyd ar hyn yn y geiriau yma, er mai anaml y sylwir arno.†

FFYNU, (ffwn) llwyddo, tycio.—'Y bobl a adwaenant eu Duw, a fyddant gryfion, ac a ffynant.' Dan. 11. 32. Y mae gwir adnabyddiaeth o Dduw yn effeithio yn rhyfedd ar y rhai sydd yn ei meddiannu; y mae golwg ar ei fawredd, a'i ddaioni, ei anfeidrol gariad a'i ddoethineb yn nhrefn yr iechydwriaeth, yn eu cryfhau, ac y maent yn cynnyddu fel llo! pasgedig. Mal. 4. 2. Job 6. 6, 7.

FFYRF—ACH, (ffyr) *Llad.* FIRMUS; braisg, praff, cryf.—'Fy mys bach fydd ffyrfach na lwynau fy nhad;' 2 Cron. 10. 10. 'fydd breisgach;' 1 Bren. 12. 12. Ymadrodd diarebol ydyw, ond yn cael ei ddefnyddio yn ffol iawn yn yr achos presennol. Edr. REHOBOAM.—'Byddwch ffyrfion a' diymot.' 1 Cor. 15. 58.—'Y mae ein gobaith yn ffyrf am danoch.' 2 Cor. 1. 7. W. S.

FFYRLING, *fourthing*, *fourthling*, a lygrwyd i *farthing*; dwy hatling, sef y bedwaredd ran o geiniog Lloegr, yr arian bath lleiaf yn y deyrnas hon yn bresennol.——'Ac a fwriodd i mewn ddwy hatling, yr hyn yw ffyrling.' Marc 12. 42. *Εβαλε λεπτα δυο, ο εστι κοδραντης.* *Λεπτον, hatling*, oedd y darn lleiaf o arian bath yn Judea, a darn o'r *λεπτα* a wnai *κοδραντης*, neu ffyrling Rufeinaidd, yr hon oedd yn llai ei gwerth na'n ffyrling ni. Y mae yr hyn oll a adroddir am y wraig weddw dlawd hon, yn dangos fod ei hamgylchiadau yn isel iawn, ond fod ei hysbryd yn rhagorol. Mor graff yw yr Arglwydd Iesu, yn sylwi ar y pethau lleiaf, ac yn canfod ysbryd a dybenion pob un yn yr hyn oll y mae yn ei wneuthur! Y mae efe yn hynod o dirion, ac yn cael ei foddhau gan wasanaeth gwael gwedi ei wneuthur o iawn egwyddor: yn ei gyfrif ef y mae dwy hatling y tlawd yn fwy cymeradwy, yn aml, na chyfraniadau mwy helaeth y cyfoethog.

'Oni werthir pump o adar y tô er dwy ffyrling?' Luc 12. 6. *Gr. ασσαριον δυο*; arian bath Rhufeinig oedd yr *assarius*, yr hwn oedd ddegfed ran o'r *denarius*, sef y geiniog, ac o werth tair ffyrling o'n harian ni. Dau aderyn y tô a allent brynu am un, a phump am ddau o'r rhai hyn. Er mor ddiwerth yw y creaduriaid bychain hyn, etto y maent dan sylw manwl ein Tad nefol; pa faint mwy mae ei bobl yn ei ofal, o ran eu cyrph a'u heneidiau!

FFYRNIG, (ffwrn) *Llad.* FEROX; creulawn, gorwyllt, cynddeiriog, dywal, athrywyllt, ffrochwyllt. Mat. 8. 28.

# G.

GAAL, *Heb.* געל [*ffieidd-dra*] mab Ebed, Canaanead, tebygol; hwyrach mai un o hiliogaeth Hamor, gynt brenin Sichem. Efe, a'r Sichemiaid, a gyd-fwriadasant yn erbyn Abimelech, ac a ymladdasant âg ef; ond Abimelech a'u gorchfygodd hwynt. Barn. ix. Edr. ABIMELECH.

GAAS, *Heb.* געש [*cynnwrf*] mynydd yn rhandir Ephraim, wrth droed pa un yr oedd afonydd Gaas yn rhedeg, lle y ganed Hidai neu Hurai, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 22. 30. 1 Cron. 11. 32. O du y gogledd i fynydd Gaas yr oedd Timnath-Sera, lle y claddwyd Josuah. Jos. 24. 30.

GABBATHA, *Gr.* *γαββαθα* [*uchel*, neu *dyrchafedig*]. Rhyw orsedd, neu eisteddfa ddyrchafedig, wedi ei phalmantu, tebygol; lle yr eisteddodd Pilat, y dug yr Iesu allan, ac a'i condemniodd, ac a'i traddodes i'w groeshoelio. Ioan 19. 13.

GABIS, *Heb.* גביש Cyfieithir ef *cenllusg* yn Ezec. 13. 12, 13. a 38. 22. Jos. 10. 11. Ps. 18. 12. Esa. 30. 30. Arwydda yn Job 28. 28. rhyw faen gwerthfawr, oddiwrth ei debygolrwydd i geryg cenllusg. Er gwerthfawroced ydyw y maen hwn, mae doethineb yn rhagori arno.

GABRIEL, *Heb.* גבריאל [*Duw yw fy nerth*] un o'r angelion penaf; efe a anfonwyd i hysbysu i Daniel ei weledigaethau; i ragfynegi i Zechariah enedigaeth ei fab Ioan Fedyddiwr; ac at Mair wedi hyny, i hysbysu iddi ymddygiad Iesu yn ei bru, a hithau yn forwyn, a'i enedigaeth; ac a hysbysodd iddi am feichiogrwydd Elizabeth ei chares, er's chwe mis. Efe hefyd, mae yn debyg, a ymddangosodd i Joseph, i'w annog i gymeryd Mair ei wraig, a pheidio ei rhoddi ymaith; a'i rhybyddiodd i ffoi i'r Aipht, a dychwelyd oddi yno wedi marwolaeth Herod. Dan. x, xii. Mat. i, ii. Luc ii. Mae ei holl ymddygiad yn cyflawni ei genadwriaeth, yn ei ddangos yn ardderchog, yn dirion, yn fwynaidd, yn hawddgar—fel cenad addas oddiwrth y fath lys goruchel, a chenadwriaeth mor bwysig a gogoneddus.

* Y mae ffynonau twym a berwedig yn gyffredin mewn rhai gwledydd, yn enwedig yn nghymydogaeth y mynyddoedd tanllyd. Un o'r rhai ag sydd yn nodedig yw y ffynon ferwedig a elwir '*The Great Geyser*,' yn Iceland, yr hon sydd yn aml yn taflu allan ei dyfroedd i uchder mwy na chan troedfedd, ac weithiau i gymaint arall. Rheda ffynon, yn agos i Nismes, yn Ffrainc, am saith awr bob dydd, a phaid am bum awr. Un arall, yn Provence, sydd yn rhedeg ac yn treio bob saith mynyd. Gwel Lyell's *Principles of Geology*.—C.

† Catcot's *Treatise on the Deluge*, p. 190.

Digitized by Google

GAD—AEL—O, (ga) הדל [*hadel*] gollwng, goddef, ymadael, ymado, gad iddo, gad lonydd, &c.

Câs ni wnel dda ac nis *gato* i arall. *Diar.*

Mae dynion yn gadael yr Arglwydd pan y byddont o ran eu serch yn oeri tu ag ato; yn cilio oddi wrtho yn eu meddwl; yn anufudd iddo, ac yn ddiymddiried ynddo; ac yn attal oddi wrtho y parch a'r addoliad dyledus. Jer. 2. 13. a 15. 6. a 17. 13.

Dichon yr Arglwydd adael ei bobl o ran ei bresennoldeb cysurol dros amser; ond ni âd hwynt byth o ran ei berthynas gyfammodol â hwynt, fel eu Duw, eu hiechydwriaeth, a'u rhan yn dragywydd; ac o ran gweini iddynt gynnaliaeth barhaus. Ps. 119. 8. a 141. 8. Heb. 13. 5.

Mae rhïeni yn gadael eu hamddifaid i'r Arglwydd, pan y maent yn eu gorchymyn iddo mewn gweddi, ac yn eu hymddiried iddo mewn ffydd yn ei addewidion y bydd iddo eu cadw, eu cyfarwyddo, a gofalu am danynt. Jer. 49. 11.

GAD—IAID, *Heb.* גד [*tyrfa, bagad*] mab Jacob, o Zilpah, llaw-forwyn Leah. Gen. 30. 9, 10, 11. Yr oedd iddo saith o feibion: sef Siphion, Haggai, Suni, Esbon neu Osni, Eri, Arodi, ac Areli. Gen. 46. 16. Num. 26. 15—18. Yr oedd y meibion oll yn dadau tylwythau lliosog. Jacob yn bendithio Gad, a ddywedodd, 'Llu a'i gorfydd; ac yntau a orfydd o'r diwedd.' Gen. 49. 19. Moses, yn ei gân ddiweddaf, a ddywedodd, 'Bendigedig yw ëangydd Gad: megys llew y mae efe yn aros, fel y rhwygo efe yr ysgwyddog a'r pen.' Deut. 33. 20. Y prophwydoliaethau hyn am dano a arwyddant y byddai iddo lawer o elynion, ond y byddai yn wrol ac yn fuddugoliaethus arnynt yn y diwedd. Gwel 1 Cron. 5. 18—21. Pan ddaeth y llwyth hwn allan o'r Aipht, dan eu tywysog Eliasaph, mab Deuel, yr oedd eu rhifedi, o fab ugain mlwydd ac uchod, yn 45,650. Ond hwy a leihasant yn yr anialwch 5,150. Eu hyspïwr i yspïo y wlad ydoedd Geuel, mab Machi. Num. 1. 14. a 13. 15. Wedi gorchfygu Og a Sehon, erfyniodd y Gadiaid a'r Reubeniaid ar Moses ac Eleazer, a phenaduriaid y gynnulleidfa, genadu iddynt breswylio yn eu gwledydd porfäog o du y dwyrain i'r Iorddonen, oblegid bod iddynt lawer o anifeiliaid. Num. xxxii. Caniatawyd iddynt eu dymuniad. Eu milwyr a aethant drosodd i wlad Canaan, ac a gynnorthwyasant yn ffyddlon yn y rhyfeloedd; ac yn mhen saith mlynedd dychwelasant at eu teuluoedd i'w cartrefydd. Jos. 22. 1—9. Un ar ddeg o gadbeniaid o'r llwyth hwn a nofiasant yr Iorddonen, a hi wedi llifo dros ei holl dorlanau, ac a yrasant i ffoi holl drigolion y dyffrynoedd tu a'r dwyrain a thu a'r gorllewin iddi, ac a ddaethant at Dafydd, i'r amddiffynfa i'r anialwch:—'Gwyr cedyrn o nerth, gwyr milwraidd i ryfel, yn medru trin tarian a bwcled, ac wynebau llewod oedd eu hwynebau, ac megys iyrchod ar y mynyddoedd o fuander oeddynt hwy.' 1 Cron. xii.

'Tir Gad,' yw y wlad yr oedd y Gadiaid yn ei chyfanneddu. 1 Sam. 13. 7.—'Afon neu ddyffryn Gad,' yw afon Arnon, yr hon oedd yn myned trwy ran o'u gwlad. 2 Sam. 24. 5. Tiglath-Pileser, neu Tiglath-Pilneser, a'u trosglwyddodd o'u gwlad i Assyria, a'r Ammoniaid a'r Moabiaid a'i meddiannasant. Jer. 49. 1. 1 Cron. 5. 5, 18—26.

GAD, Y PROPHWYD, cyfaill Dafydd, a'i gydymaith, pan oedd Saul yn ei erlid. Gelwir ef Gweledydd Dafydd. 2 Sam. 24. 11. Rhybyddiodd Dafydd i ddychwelyd o wlad Moab i wlad Judah; ac wedi iddo rifo y bobl, a roddodd yn enw yr Arglwydd, ei ddewisiad o dair barn, sef newyn, haint, neu ryfel; pan ddewisodd Dafydd yr haint, a phan wrandawyd gweddi Dafydd am attal y pla, gorchymynodd Gad iddo, trwy gyfarwyddyd dwyfol, i adeiladu allor yn llawr-dyrnu Arafnah y Jebusiad. Ysgrifenodd Gad hanes Dafydd. 2 Sam. xxiv. 1 Cron. xxi. a 29. 29. Edr. DAFYDD.

GADARA, *Heb.* גדר [*cauedig*] prif ddinas Berea, medd Josephus, wyth milltir o du y dwyrain i Fôr Tiberias. Oddi wrthi hi y cafodd ardal Gadara, neu wlad y Gadareniaid ei henw. Geilw Matthew gwlad y Gadareniaid, gwlad y Gergesiaid, lle cyfarfu dau ddieflig â'r Arglwydd Iesu. Mat. 8. 28. Marc 5. 1. Luc 8. 26. Tebygol yw, mai gwlad y Gergesiaid oedd yr enw ar y wlad hòno yn gyffredin, am ei bod yn perthyn, neu o'r hyn lleiaf yn gyfagos, i wlad y Gergesiaid. Gen. 10. 16. a 15. 21. Deut. 7. 1. Jos. 3. 10. A Gadara oedd un ardal o'r wlad hòno, lle yr oedd dinas Gadara yn sefyll. Y mae rhai adysgrifeniadau Groeg yn darllen yr un gair yn Matthew ag yn Marc a Luc. Mae Matthew yn dywedyd i 'ddau ddieflig gyfarfod â'r Iesu, y rhai a ddeuent o'r beddau,' neu o faes yr oedd y dinasyddion yn claddu ynddo;—yn Marc dywedir, 'cyfarfu âg ef o blith y meirw *ddyn* âg ysbryd aflan ynddo;'—yn Luc, 'cyfarfu âg ef ryw *ŵr* o'r ddinas.' Yr oedd un o'r ddau, tebygol, yn fwy ffyrnig a gorwyllt na'r llall; am hyny, yn cael sylwi arno yn unig yn hanes Marc a Luc. Gan fod y Gadareniaid yn byw ar gyffiniau y wlad, yn agos at y Cenedloedd, yr oeddynt yn cadw llawer o foch er mwyn elw, i'w gwerthu iddynt, ac i'r milwyr Rhufeinaidd, er eu bod yn waharddedig fel ymborth i'r Iuddewon eu hunain. Yn gospedigaeth arnynt am y fasnach anghyfreithlon hon; i ddangos gwirionedd y wyrth a wnaeth Crist; hefyd i ddangos mawredd ei allu a'i awdurdod, a chreulondeb y cythreuliaid; goddefodd iddynt fyned i genfaint o foch oedd yn y mynyddoedd cyfagos i Fôr Tiberias; ar hyny rhuthrodd y genfaint, yn nghylch dwy fil o honynt, dros y dibyn i'r môr, ac a'u boddwyd.

GADI, *Heb.* גדי [*fy ngyrfa*] 1. Mab Susi, o lwyth Manasseh, yr hwn a anfonwyd gan Moses, dros y llwyth hwnw, i edrych ansawdd tir Canaan. Num. 13. 11.——2. Tad Menahem, yr hwn a laddodd Salum, mab Jabes, yn Samaria, ac a deyrnasodd yn ei le. 2 Bren. 15. 14.

GADIEL, *Heb.* גדיאל [*Duw yw fy nedwyddwch*, neu *fy ngyrfa*] mab Sodi, o lwyth Zabulon, yr yspïwr dros y llwyth hwnw. Num. 13. 10.

GAFAEL—EILION, (gaf-ael) *Heb.* קבל dalfa; attal, cadw, meddu; gafael cenedl, gafael tŷ, gafael o dir.—'Pan gaffoch afael arno.' Gen. 32. 19. 'Pan gyfarfyddech âg ef.' Dr. M.—'Paham y rhoddaist i mi yn etifeddiaeth un afael ac un rhan?' Jos. 17. 14. Gafael o dir, sef parthiad o dir a elwid felly.

Pedair *gafael* yn mhob rhandir. *Cyfreithiau Cymreig.*

Yr unig wahaniaeth yn y geiriau Hebraeg yn y lle hwn yw, fod un gair (גורל) yn arwyddo rhan fesurol *o dir;* a'r llall (חבל) yn arwyddo *rhan trwy goelbren.*

'A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw?' Job 11. 7. 'A gei di ddyfnder (doethineb) Duw? a gei di berffeithrwydd yr Hollalluog?' Dr. M. Y mae yn amlwg fod Duw; y mae yn hawdd cael hyny; y mae yn hawdd canfod Duw yn gweithredu; y mae ei weithredoedd yn ei ddangos yn amlwg. Ond y dull y mae yn hanfodi, perffeithrwydd ei briodoliaethau, a holl ddybenion doeth ei weithredoedd,—pwy wrth chwilio a eill gael gafael arno? Nid wrth chwilio y ceir yr hyn a ellir wybod am dano, ond trwy ddadguddiad; ond nis dichon meddwl meidrol creadur amgyffred dyfnderoedd anfeidrol y Creawdwr. Mat. 11. 27. Rhuf. 11. 33. 1 Cor. 2. 10, 16. Eph. 3. 8.

'Nid wyf yn bwrw ddarfod i mi gael gafael.' Phil. 3. 13. Sef, cael gafael ar y gamp uchel; dilyn a rhedeg y mae i gael gafael. Y mae pen yr yrfa

Digitized by Google

o'i flaen; mae coron cyfiawnder yn ei olwg: mae adgyfodiad y meirw yn Nghrist, yn ei holl ogoniant, o'i flaen, ac yntau yn ymestyn ato, os mewn un modd y geill ei gyrhaeddyd: ond yn y rhedfa y mae efe etto, heb gael gafael. Gwaith Crist yn ymaflyd ynddo, a'i gwnaeth yn rhedegwr, a'i afael ynddo sydd yn rhoddi grym iddo i ddilyn yn ddyfal, ac yn orchestol, nes y caffo afael. 1 Cor. 9. 24. 1 Tim. 6. 12.

GAFR, (gaf) *Llad.* CAPRA: creadur pedwartroediog, deadellawg, tebyg i'r ddafad o ran maintioli; gwedi ei orchuddio â blew yn lle gwlan; y cyrn yn fwy uniawn a syth na'r ddafad, a barf dan yr ên, ac yn arogli yn drwm. Mae y naturiaethwr enwog, Linnæus, yn cyfrif deuddeg math o honynt. Y mae blew gafrod Angora, yn Twrci yn Asia, yn hynod o fain, yn glaerwyn, ac yn sidanaidd; yn grych-gydynau o wyth neu naw modfedd o hŷd, ac y maent yn cael eu defnyddio yn ngwneuthuriad *camlet.* Y mae y rhyw hwn i'w cael o fewn cylch taith dau neu dri diwrnod. Os newidiant i sefyllfa y bydd tymhor yr hin yn wahanol, y mae y blew yn tyfu yn frasgach ac yn arwach. Mae clustiau y *Capra Mambrina,* neu afrod Syria, yn crogi yn hir, ac yn cyrhaedd agos at lawr. Y rhai hyn ydynt yn aml yn ngwledydd y dwyrain, ac yn diwallu pobl Aleppo â llaeth. Y mae yr afr yn greadur hawdd ei gadw; yn dringo y creigiau mwyaf serth; yn byw ar brysgwydd, manwydd, mieri, &c., na ymbortha anifeiliaid eraill arnynt; ond y maent yn niweidiol i goedydd, trwy eu dirisglo. Y mae eu llaeth yn rhagorol: yn felys, yn faethlawn, ac yn feddyginiaethol. Cyfrifir eu llaeth yn feddyginiaeth rhagorol rhag y darfodedigaeth. Llonaid llwy dê o wirodau corn yr hydd *(spirts of hartshorn)* mewn ychydig o hono yn gynhes, i'w gymeryd yn y gwely y boreu, ac wedi hyny am bedwar o'r gloch prydnawn, a dilyn ei gymeryd ychydig amser, sydd yn feddyginiaethol hynod mewn darfodedigaeth, os cymerir ef cyn i'r afiechyd gynnyddu yn drwm. Gwneir hefyd faidd iachus o'u llaeth, pan byddo natur yr afiechyd yn gofyn pethau i adferyd nerth. Y mae eu blew yn ddefnyddiol i wneuthur gwallt-gapanau, a rhaffau hefyd, y rhai a barhant yn llawer hŵy mewn dwfr na'r rhai a wneir yn y ffordd gyffredin o *hemp.* Eu gwêr sydd ragorol i wneyd canwyllau; eu cyrn a arferir i wneyd carnau cyllyll, &c. Y mae eu crwyn yn ddefnyddiol at fenyg, ac amryw bethau eraill; ac y mae eu cig, yn enwedig cig y mynod, yn ymborth blasus ac iachus.

Yr oedd y geifr yn lân dan y gyfraith, ac i'w harferyd yn ymborth, ac yn aberthau. Num. vii, a xxix. Deut. 14. 5. Luc 15. 29. Edr. ABERTH, BWCH, OFFRWM.

Cyffelybir yr annuwiolion i'r geifr, y rhai a fyddant ar law aswy y Barnwr, gwedi eu didoli oddiwrth y cyfiawnion ar y llaw ddehau, fel y didola y bugail y defaid oddiwrth y geifr. Y mae yr ymadrodd yn dangos perffaith wybodaeth Crist o'r rhai fydd i'w barnu; uniondeb ei farn, yn barnu pob un yn ol yr hyn a fydd mewn gwirionedd, y geifr fel geifr, a'r defaid fel defaid; ei awdurdod oruchel, yn gosod pob un yn y lle perthynol iddo, heb ddim anhawsdra; a didoliad cyfiawn y naill oddiwrth y llall, dros byth. Mat. 25. 31, &c.

GAGENDOR, (gagen-dor) caddug-lyn, llync-lyn, gwag-le.—'Rhyngom ni a chwi y sicrhawyd gagendor mawr.' Luc 16. 26. χασμα μεγα; *holltiad,* neu *agoriad mawr, gwagle ëang yn ymagor.* 'Diffwys ddirvawr.' W.S. ymyl y ddalen. Mae cyflwr y ddwy blaid mewn byd arall, trwy osodiad ac arfaeth Duw,* yn anghyfnewidiol. Mae pellder mawr rhyngddynt a'r pellder hwnw i barhau byth, trwy osodiad anghyfnewidiol Duw. Er fod pellder mawr, etto nid oes un gagendor anhyffordd rhyngddynt yma; gellir gwaredu y rhai sydd yn meddiant y tywyllwch, a'u symud i deyrnas anwyl Fab Duw. Col. 1. 13. Ond ar ol marw, y mae gagendor anhydraidd yn anniddymadwy rhyngddynt.

* Significat decretum Dei, firmum & immutabile, ne quispiam unquam transiret a statu damnatorum ad statum fidelium. Rainold.

GAIR, GEIRIAU, (ga-ir) *Heb.* דבר *Llad.* FAR, FARI; ymadrodd; parabl; gair da. Ymadrodd yn mynegi chwedl, erfyniad, gorchymyn, neu addewid. Gen. 37. 14. a 44. 18. Exod. 8. 13. 2 Sam. 7. 25. 1 Cor. 4. 20. 1 Ioan 3. 18. Hefyd, yr hyn yr ymadroddir am dano. Luc 1. 65. Yn fwy neillduol,

1. Gelwir yr Arglwydd Iesu Y GAIR (ο λογος) Ioan 1. 1—14. 1 Ioan 1. 1. a 5. 7. Dat. 19. 13. Heb. 4. 12, 13. 2 Petr 2. 5. Mae yn dra eglur fod yr efengylwr Ioan yn gosod allan dan yr enw GAIR, Berson dwyfol, tragywyddol, a bywyd yn hanfodol ynddo ei hun, gyd â'r Tad, fel na bu y Tad erioed hebddo; gogyfuwch â'r Tad, ac etto i'w wahaniaethu oddi wrtho. Y mae Ioan yn ysgrifenu am dano fel Person cwbl adnabyddus dan yr enw hwn i'w eglwys; canys llefarir am Grist dan yr enw hwnw yn aml yn yr Hen Destament, Gelwir ef (דבר יהוה) GAIR IEHOFAH, Gen. 15. 1. 4. (cymh. adn. 7, 8, 9, 10.) 1 Sam. 4. 7, 21. a 15. 10. (cymh. adn. 11, &c.) 1 Bren. 13. 9, 17. a 19. 9, 15. Ps. 33. 6. a 107. 20. Ond meddyliwn fod cyfeiriad Ioan yn fwyaf neillduol at Gen. 1. 1. Ps. 33. 6. a Diar. viii. Mae efe yn cael ei alw *Y Gair,* yn *benaf,** os nid yn *unig,* yn y fan hon, am ei fod yn Berson Dwyfol trwy dragywyddol genedliad, yn ddelw y Duw anweledig, yn ddysgleirdeb ei ogoniant, ac yn wir lun ei Berson. Gelwir ef (ο λογος) *Y Gair,* a *Doethineb Duw,* i ddangos ei fawrhydi tragywyddol ynddo ei hun, yr hwn a gymerodd y swydd arno, i amlygu holl gynghor ac ewyllys Duw i ni. Buasai efe Y GAIR pe na chymerasai un swydd arno. Y GAIR oedd gyda Duw, nid o ran ei swydd, ond o ran ei Berson, 'yn hyfrydwch iddo beunydd, ac yn ymlawenhau ger ei fron bob amser.' Diar. 8. 30. Mae yr Iuddewon, yn eu hysgrifeniadau a elwir *Chaldee Paraphrast,* a Philo, yn coffâu am IEHOFAH yn aml dan yr enw hwn. Cafodd Plato, Groegwr doeth, ryw wybodaeth draddodiadol am dano, ac y mae yn ei alw *νους* a *λογος;* ond cabledd fyddai meddwl mai oddi wrthynt hwy y cymerodd Ioan yr enw ardderchog hwn ar Iachawdwr y byd, yn enwedig gan ei fod wedi ei ddadguddio yn aml dan yr enw hwn yn ysgrifeniadau yr Hen Destament. Oni bai ei fod yn ei hanfod yn *Air* ac yn *Ddoethineb Duw,* nis gallasai fod felly yn ei swydd. Nid yw swydd yn chwanegu dim at berffeithrwydd y person sydd ynddi, ond mae perffeithrwydd a doniau y person yn angenrheidiol i gyflawni y swydd a'i pherthynasau. Am ei fod ef Y GAIR, yr oedd yn addas Gynghorwr yn y cyfammod hedd, i hysbysu y Tad, a holl ddyfnderoedd y cynghor, i ddynion, ac i lefaru drostynt yn ei eiriolaeth fawr yn y nefoedd. Ioan 1. 4—18. 'Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef.' Am ei fod yn Air hanfodol, mae yn addas i hysbysu y Tad i ni, trwy amlygu ei hun, a llefaru am dano ei hun.

2. Y mae ewyllys dadguddiedig Duw yn cael ei alw yn *air Duw,* sef yr athrawiaethau, yr addewidion, y gorchymynion, y bygythion, yr hanesion, a'r rhag-ddywediadau cynnwysedig yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Dat. 19. 9. Rhuf. 9. 6. Mae gair Duw yn gwbl addas i'w fawrhydi ef, a'n cyflyrau ninnau, yn mhob rhan o hono; y mae yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda; yn oruchel, yn sicr, ac yn gyflawn, yn awdurdodol, fel gair y Duw a'i llefarodd. Ei

* Gwel *Vind. Evang. by* Dr. Ower

Digitized by Google

ddirmygu yw dirmygu Duw ei hun; ei droseddu yw gwrthryfela yn ei erbyn; ac y mae yn addas i bawb grynu wrtho, ei dderbyn, ei gredu, ac ufuddhau iddo gyd â'r parch mwyaf. Yr oedd y gwr hwnw yn barnu yn addas am dano pan ddywedai, 'yn unig dywed y gair, a'm gwas a iachêir.'—'Efe a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid,' medd yr Arglwydd am ei *air*. Mat. 8. 8. Esa. 55. 11. Edr. DADGUDDIAD.

3. 'Gair Crist' yw yr efengyl; efe yw ei hawdwr, ei gwrthddrych, a'i dyben penaf. Col. 3. 16.—'Gair cyfiawnder,' am mai ynddi hi y dadguddir cyfiawnder Duw; ac am ei bod yn dysgu dynion i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol. Heb. 5. 13. Tit. 2. 12. —'Gair y ffydd,' sef gair ffyddlawn, cywir; gair i'w gredu, ei dderbyn, ac i bwyso arno fel sylfaen ddiysgog, a'r holl wirioneddau dwyfol dadguddiedig ynddo. Rhuf. 10. 8.—'Gair yr iechydwriaeth,' mewn cyferbyniad i'r ddeddf sydd yn weinidogaeth damnedigaeth; ynddi y dadguddir iechydwriaeth gyflawn o drefniad Duw; a thrwy ei chredu y gwneir pechaduriaid yn feddiannol o honi. Act. 13. 26.

'Geiriau y fuchedd hon.' Act. 5. 20. Edr. BUCHEDD.

'Gair ei ras ef,' yw Crist ei hun, i'r hwn y mae yr apostol yn gorchymyn henuriaid Ephesus i'w hadeiladu, ac i roddi iddynt etifeddiaeth yn mhlith yr holl rai a sancteiddiwyd. Act. 20. 32. Efe ydyw rhodd rasol Duw, trysorfa gras, awdwr gras, a'i wrthddrych. Efe sydd yn adeiladu ei eglwys, ac yn rhoddi etifeddiaeth i'w holl bobl. Edr. DADGUDDIAD; hefyd, Witsius, ***Miscel. Sacr.***, ***Exer.*** iii., a Suicer, dan y gair λογος.

'Gair y llŵ,' yw hen ardystiad a chyhoeddiad Duw y byddai Crist yn Offeiriad yn dragywydd. Heb. 7. 28. Gosodiad Crist yn ei swydd trwy 'air y llŵ,' a arwydda rhyw ddifrif-ddwysder cyfammodol yn y gwaith; a bod y cynghor a'r gosodiad yn anniddymol, yn anghyfnewidiol, ac yn dragywyddol. Edr. LLW.

'Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw;' (Mat. 4. 4.) hyny yw, nis dichon y moddion mwyaf addas, a'r trugareddau naturiol yn yr amlder mwyaf o honynt, gynnal bywyd dyn am fynyd, heb i Dduw weithredu cynnaliaeth iddo trwy y pethau hyn; ond dichon Duw ein cynnal heb bob peth, neu trwy y moddion a'r ffordd y myno. Y mae pob moddion ganddo i ddewis wrth ei ewyllys, a phob peth yn ddarostyngedig i'w orchymyn; ond nid yw efe yn rhwymedig wrth ddim: y mae ei ddigonolrwydd at bob peth ynddo ei hun.

GAIUS, *Gr.* Γαιος, [*daearol*] Cristion enwog, a fedyddiwyd gan yr apostol Paul yn Corinth, ei le cartrefol, yn nhŷ yr hwn yr oedd Paul yn aros pan yr ysgrifenodd at y Rhufeiniaid. Yr oedd efe ac Aristarchus gyda Paul pan gyfododd Demetrius y cythrwfl yn nghylch Diana yno. Act. 19. 29. Rhuf. 16. 23. 1 Cor. 1. 14. Ai yr un oedd hwn a Gaius o Derbe, a'r Gaius yr ysgrifenodd Ioan ei epistol ato, nid yw hysbys. Act. 20. 4. Yr oedd Gaius yn enw cyffredin yn mhlith y Rhufeiniaid.

GAHAM, *Heb.* גחם [*eu harweinydd*] mab Nachor o'i orddereh-wraig Reumah. Gen. 22. 24.

GAHAR, *Heb.* גחר [*poethder yn dyfod allan*] Lefiad a ddychwelodd o Babilon gyd âg Ezra. Ezra 2. 47.

GALANAS, (galan) cyflafan, lladdfa; hefyd, yn y Cyfreithiau Cymreig, *iawn am lofruddiaeth.*

Bellach fe'm codir uwch fy nghas,
Sy mewn *galanas* iml.
*E. Prys*, (Ps. 27. 6.)

GALAR—NAD—AU, (gâl-ar) tristwch, wylofain; galar-gŵyn, udfa. Y mae tristwch a galar o amrywiol fath, megys 1. Dawiol alar o achos pechod a'i ganlyniadau: 'Gwyn eu byd y rhai sydd,' fel hyn, 'yn galaru,' yn wirioneddol, 'canys hwy a ddyddenir.' Mat 5. 4. Esa. 66. 10. Ezra 10. 6. Edr. EDIFEIRWCH.——2. Y mae barnedigaethau yn peri galarnadau, yn cael eu galw galar, griddfan, a gwae. Ezec. 2. 10.——3. Araeth alarus am ryw golled, neu wrthwyneb. 2 Cron. 35. 25.

Tri achos cyffredin sydd i *alar*; serch, coll, a gwrthwyneb.
*Barddas.*

——4. Galar naturiol, perthynol i'r natur ddynol yn ei chyflwr dan y cwymp yma yn y byd. Gen. 23. 2. a 50. 10.——5. Galar anobeithiol yn uffern. Mat. 22. 13. a 24. 30.

Ar achos marwolaeth perthynasau neu gyfeillion, byddai yr Hebreaid yn dangos pob arwyddion o alar a fedrent; sef yn rhwygo eu dillad, curo eu dwyfron, ymprydio, gorwedd ar y ddaear, myned yn droednoeth, gwneuthur toriadau yn y cnawd, yn tynu eu gwallt a'u barfau, ac ymfoeli drostynt. Lef. 19. 28. a 21. 5. Jer. 16. 6. Byddai bara galarwyr yn halogedig, a hwythau hefyd. Hos. 9. 4.

Byddent yn galaru weithiau am lawer o ddyddiau, megys deg ar hugain am Aaron ac am Moses: ond saith niwrnod oedd yr amser cyffredin o alar; cyhyd a hyny y galarodd trigolion Jabes-Gilead am Saul. Num. 20. 29. Deut. 34. 8. 1 Sam. 31. 13.

Byddent yn dra galarus ar ol unig-anedig, neu gyntaf-anedig, am fod eu marwolaeth yn tòri ymaith goffadwriaeth y teulu. Zech. 12. 10. Nid oedd i offeiriad alaru ond am ei gyfnesaf; ond nid oedd i'r arch-offeiriad wneuthur hyny chwaith. Lef. 21. 1—7. Byddent yn cyflogi gwragedd a cherddorion ar bibellau, i alaru mor foreu a dyddiau Jeremiah, pen. 9. 17. a 48. 36. Mat. 9. 23. Dat. 18. 22. 2 Cron. 35. 25. Yr oedd hyn yn ddefod yn mhlith y Rhufeiniaid. Ar farwolaeth un na byddai ganddo gyfnesafiaid neu gyfeillion, rhyw un, o enw yn y lle, fyddai yn gwneuthur rhan y galarwyr, ac a gysurid fel hwythau. Cysuro y galarus oedd yn cael ei gyfrif yn waith da iawn; ond nid oedd y cysurwyr yn dyfod atynt nes ar ol claddedigaeth y marw, ac nid yn aml hyd y trydydd neu y pedwerydd dydd ar ol ei farwolaeth. Ioan 11. 19, 39. Byddent weithiau yn myned at y beddau i alaru, fel y gwna merched yn ngwlad y Twrc hyd heddyw. Ni feiddiai yr Iuddewon alaru yn Babilon, tebygol; 'Ni alerwch ac ni wylwch; ond am eich anwiredd y dihoenwch, ac ocheneidiwch bob un wrth ei gilydd.' Ezec. 24. 23. Pan gyfarfyddai un â gorymdeithwyr arwylawl, yr ydoedd yn ddefod iddo ymuno gyda hwynt, i gyd-wylo â hwynt: at y ddefod hon y mae yr apostol yn cyfeirio yn Rhuf. 12. 15., a'n Hiachawdwr yn Mat. 11. 17. Luc 7. 32.

LLYFR Y GALARNAD. Edr. JEREMIAH.

GALARWYR, (galar-gwyr) 'Byddant iddynt fel bara galarwyr, pawb a fwytao o hono a halogir.' Hos. 9. 4. 'Y maent iddynt fel bara galarwyr.' Horsley. Mae y geiriau yn Jer. 16. 7. yn eglurhad ar y geiriau hyn: 'Ni ranant iddynt fwyd mewn galar, i roi cysur iddynt am y marw; ac ni pharant iddynt yfed ò phiol cysur am eu tad, neu am eu mam.'—'*Neither shall men tear themselves for them in mourning, to comfort them for the dead.*' *Saes.* Y cyfieithiad Cymraeg sydd yn fwyaf addas, yn ol barn y dysgedig Dr. Blayney. Nid arwydda y gair *Heb.* פרם *tèri*, ond *rhanu*, fel y dylasai gael ei gyfieithu yn Esa. 58. 7. Cyfieithir ef yn aml *fforchogi*, neu *rhanu* yr ewin. Lef. 11. 5, 6. Dywed Jerome ei fod yn arferiad cyffredin yn mhlith y cenedloedd i gario bwyd i'r galarwyr, ac i wneuthur gwledd; y cyfryw wleddoedd a alwai y Groegiaid περιδειπνα, a'r Lladinwyr *parentalia.* Dywedir mai perthynasau y marw a fyddent yn parotoi y bwyd. Yr oedd y perthynasau yn ym-

Digitized by Google

ddangos yn llawen, gwedi eu coroni â choron-bleth o flodau, neu ddail, ac yn dadgan rhinweddau y marw. At y wledd hon y cyfeiria 'phiol cysur.' Tebygol na pharhâi y gwleddoedd hyn ond un diwrnod ar y cyntaf; ond yn ddiweddarach yr oeddynt yn parhau bob dydd tra byddai y corph heb ei gladdu. O herwydd hyny y galwyd hwynt gan y Rhufeiniaid, *Novem diales Epulæ*, hyny yw, *y naw diwrnod wledd:* oblegid ar y nawfed dydd y dygid y corph allan. Yr oedd yr Iuddewon yn myned i'r fath gostau yn y gwleddoedd hyn, fel y byddai, medd Josephus (*De Bello Judaico*, *lib.* ii, *cap.* 1.) llawer o honynt yn myned i dlodi drwy hyny. Yr oedd y bwyd a wasanaethent yn y gwleddoedd hyn yn aflan, ac yn halogi pawb a fwytâi o hono; yr hwn a alwent 'bara y galarwyr;' a hwn a feddylir, tebygol, wrth 'fara dynion,' yn Ezec. 24. 17. Dechreuad y cyfryw arferiad oedd, diammeu, fod cyfeillion y galarwyr, y rhai a ddöent i'w cysuro (a'u bod yn dyfod mewn rhifedi tra llïosog ar y cyfryw achosion, sydd amlwg oddiwrth Ioan 11. 19.) yn barnu nas gallasai dyn yn y cyfryw alar mawr, fel yr anghofiai ei ymborth ei hun, sylwi nemawr ar y gwesteion, ac anfonent bob un fwyd a diod, gan obeithio y llwyddent, trwy eu siampl, i beri iddo ef fwyta gyda hwynt, er adfywiad ei gorph a'i ysbryd. At yr arferiad hwn y cyfeiria Tobit, pan yn ei gynghorion i'w fab, y cyfarwydda ef i 'fod yn helaeth o'i fara ar fedd y cyflawn.' Tobit 4. 17. Y mae gweddill y cyfryw arferion yn bresennol, medd Syr John Chardin, yn mhlith y Cristionogion dwyreiniol, a'r Mooriaid. Harmer's *Observations*, *chap.* vi, *obs.* 55. Yn Deut. 26. 14. y mae cyfraith yn rhwymo pob un a roddo ddegymau y drydedd flwyddyn, i dystio ger bron yr Arglwydd, ei fod yn ei roddi yn llwyr ac yn ddiattalfa, o herwydd un achos, ac i un dyben arall. 'Ni fwyteais o hono yn fy ngalar (hyny yw, ni threuliais ddim o hono mewn gwleddoedd fy mherthynasau) ac ni ddygais ymaith o hono i aflendid, ac ni roddais o hono dros y marw:' neu, yn fwy llythyrenol, 'ni roddais o hono i ddyn marw.' Byddai y Paganiaid yn rhoddi teisenau ar, neu oddi amgylch bedd y marw, fel offrymau i'r ysbryd ymadawedig. Y teisenau hyn hefyd oeddynt fara galarwyr, ac i'r gradd mwyaf yn aflan. Er bod yr holl arferion Paganaidd hyn yn waharddedig i Israel, etto, tebygol, eu bod yn eu harfer i ryw radd-au; ond, gobeithiwn, heb eu defodau coel-grefyddol ac eilun-addolgar hwy.

GALATIA, neu GALO-GRÆCIA, talaeth yn Asia Leiaf, â Phrygia o du y gorllewin iddi; Pamphylia o du y gogledd; yr afon Halys o du y dwyrain; a Lycaonia o du y dehau. Yr oedd ynddi 22 o ddinasoedd yn y cyn-oesoedd, sef Gordium, Synopa, Pompeiopolis, Ancyra, y brif ddinas, &c. Dywed Josephus, *Antiq.*, *lib.* i, *c.* 7., fod y Galatiaid yn cael eu galw *Gomeriaid:* a Herodotus, *lib.* iv, fod pobl a elwid *Cimmeri*, yn preswylio yn y parthau hyn, a Pliny, *lib.* v, *c.* 3., fod dinas yn Troas, a rhan o Phrygia, a elwid *Cimmeris*. Y mae yr enwau hyn yn tarddu yn amlwg oddiwrth Gomer. Yr oedd Phrygia yn y dyddiau gynt yn cynnwys y rhan fwyaf o barthau gogleddol i Asia Leiaf; ac y mae Bochart yn sylwi fod Phrygia yn y Grew, o'r un arwyddocâd, ac yn cyfeirio at גמר *Gomer* yn Hebraeg. Oddi wrthynt hwy y cafodd y cyfyng-fôr rhwng llyn Mæotis a'r Môr Euchin, yr enw *Bosphorus Cimmerius*, yn awr a elwir *Caffa*. Fel yr oeddynt yn llïosogi, taenasant tu a'r gorllewin, ac a ddaethant i'r wlad a elwir yn awr *Germany*, neu yr Almaen, neu wlad yr Ellmyn. Dywed Diodorus Siculus, i'r Germaniaid darddu o'r *Cimmeriaid*. Geilw yr Iuddewon hyd heddyw y Germaniaid *Aschenasiaid*, oddiwrth Aschenas, mab Gomer; ac nid yw y geiriau *Germen*, *Gemren*, neu *Gomren*, yn gwahaniaethu ond ychydig oddiwrth eu gilydd. Diweddiad geiriau yn y rhif llïosog yw *en* yn iaith y Germaniaid; oddiwrth y rhif unigol, Gomer, y ffurfir Gomeren, neu Gemren, yn y rhif llïosog. O Germany daeth yr un bobl i Gâl, neu Ffrainc, ac oddi yno dros y môr i Brydain, gweddillion pa rai a elwir y CYMRY hyd heddyw. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn, y mae yn amlwg mai hen Gymry oedd y Galatiaid, y rhai a elwid yn y dechreuad Gomeriaid. Y rhai a elwid gan y Groegiaid *Galatæ*, a elwid yn y dechreuad Gomeriaid, medd Josephus: ac y mae yn dra thebygol mai hiliogaeth yr un tad gwreiddiol a boblogodd yr holl barthau gorllewinol hyn o'r byd; a bod y Saeson, neu y *Saxoniaid*, y rhai a ddaethant o *Saxony* yn Germany, a'r Cymry, yn tarddu o'r un gwreiddyn.—Yn 2 Mac. 8. 20. Judas Maccabæus, yn annog y bobl i ymladd yn erbyn y Syriaid, sydd yn coffâu i 8000 o honynt, trwy gymhorth a roddasid iddynt o'r nef, ladd 120,000 o'r Galatiaid. Nid oes hanes am amser nac amgylchiadau y gorchfygiad hwn, ond tebygol nad trefedigion Galatia a feddylir wrth y Galatiaid hyn, ond y Galiaid, sef y Ffrancod, y rhai a oresgynasant lawer o Asia, yn y dyddiau gynt. Yr oeddynt yn gorlenwi eu gwlad eu hunain, ac yn heidio i'r gwledydd dwyreiniol, ac yn cyflogi yn filwyr i'r breninoedd i ymladd yn eu rhyfeloedd hwynt.*—Yn nghylch y flwyddyn A.M. 3824, y Rhufeiniaid a ddifrodasant Galatia; ac yn nghylch A.D. 25, a'i darostyngasant yn dalaeth Rufeinaidd. Yn A.D. 266, y Gothiaid a'i hanrheithiasant yn ofnadwy. Ar ol y Rhufeiniaid, y Saraceniaid a'r Tyrciaid ydynt wedi ei llywodraethu yn dost.

Planwyd Cristionogrwydd yn Galatia gan yr apostol Paul. Act. 16. 6. a 18. 23. Gal. 1. 2. Yn fuan wedi iddo adael y wlad, cyfododd athrawon Iuddewaidd yn mhlith y Cristionogion yno, yn bychanu Paul a'i ddirmygu, ac yn eu gwyro oddiwrth athrawiaeth bur yr efengyl am gyfiawnhad trwy ffydd yn nghyfiawnder Crist, at weithredoedd y ddeddf, a'r defodau Iuddewig. I amddiffyn ei apostoliaeth, i wrthbrofi y cyfeiliornadau hyn, ac i hyfforddi y Galatiaid yn nghylch dyledswyddau Cristionogrwydd, ysgrifenodd yr apostol lythyr rhagorol at eglwysi Galatia. Y mae yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu gyd âg ysbryd gwrol, tanbaid; yn dangos eithaf eiddigedd duwiol yn erbyn cyfeiliornadau dinystriol y gauathrawon, ac o blaid y pwnc sylfaenol Cristionogrwydd o gyflawnhad trwy ffydd. Y mae yn dywedyd iddo wrthwynebu Petr yn ei wyneb, pan oedd i'w feio am ei ymddygiad yn Antiochia, yn rhagrithiol yn cyd-ffurfio â'r Iuddewon mewn perthynas i'r defodau Iuddewig, y rhai oeddynt wedi eu dileu yn Nghrist; ac yn ei awyddfryd mawr y mae yn cyhoeddi yn *anathema* angel o'r nef, pe byddai iddo efengylu yn amgen na'r hyn a efengylasom i chwi. Mae yn hawdd canfod fod yr apostol yn golygu yr athrawiaeth y mae yn ei hamddiffyn o'r pwys mwyaf; ei gwadu sydd yn hollol gyfnewid natur yr efengyl, fel y mae yr apostol yn ei galw yn *efengyl arall*, a'r rhai sydd yn athrawiaethu yn groes iddi, 'ydynt yn *dattroi* efengyl Crist —yr hon nid yw arall;' canys nid efengyl mo'r cyfryw athrawiaeth gyfeiliornus. Mawr oedd tiriondeb yr Arglwydd, a'i ofal am ei eglwys, yn rhoddi i ni trwy ysbrydoliaeth Duw, yn foreu, amddiffyniad mor rhagorol ac anwrthwynebol o'r athrawiaeth sylfaenol hon; ar ba un y mae y wir eglwys yn mhob oes yn cael ei hadeiladu, ac yn sefyll yn anorchfygol gan holl byrth uffern, a'r holl gyfeiliornadau a'r ymdaeru sydd yno yn erbyn yr eglwys a'i sylfaen gadarn. Yn

* Gallorum ea tempestate tantæ fœcunditatis juventus fuit, ut Asiam omnem velut examine aliqo implerent. Denique neque reges orientis sine mercenario Gallorum exercitu ulla bella gesserunt. Justin, *lib.* xxv, *cap.* 2. Well's *Geography.* Rollin's *Ancient History*. Prideaux's *Connection*.

Digitized by Google

y pyrth tywyll gelyniaethol hyn, llawer o gynghori, taeru, ysgrifenu, ac enllibio sydd wedi bod, ac etto yn bod, yn ei herbyn; ond y mae yr Ysbryd Glân, trwy apostol mawr y Cenedloedd, yn para i lefaru yr un gwirionedd o hyd, yn eglur ddiamwheuol, ac yn gadarn anwrthwynebol, er cysur tragywyddol y rhai sydd yn adeiladu eu gobaith arni.

Dros yn nghylch 900 mlynedd bu eglwysi Galatia yn flagurog; rhoddir hanes am lawer o esgobion duwiol, ac amryw gynghorfaoedd eglwysig a gynnaliwyd yn eu plith; ond yn awr er's 900 o flynyddoedd, trwy orthrymder y Saraceniaid a'r Tyrciaid, y mae Cristionogaeth agos wedi ei ddiwreiddio yn hollol oddi yno.

Am yr amser yr ysgrifenwyd yr epistol hwn, mae llawer o amrywiaeth meddyliau hyd yn hyn yn mhlith y beirniaid dysgedig. Gwel Macknight's *Preface to the Epistle.*

GALBANUM, *Heb.* חלבנה (*bras*) LXX. *Gr.* χαλϐανη; *Vulg.* GALBANUM; gwyddlud yn dyferu allan o baladr planigyn yn tyfu yn Persia, ac amryw barthau o Affric. Y mae yn fras, ac yn feddal, fel cwyr; y mae ar y cyntaf, pan dyner ef allan, yn wyn, gwedi hyny y mae yn troi yn felynaidd, neu yn gochaidd. Y mae ei arogl yn gryf, a'i archwaeth yn chwerw. Y mae yn llosgadwy fel resin, ac yn doddadwy mewn dwfr fel glud. Yr oedd yn un o'r pêr-lysiau yn yr arogl-darth, 'i'w ddodi, beth o hono, ger bron y dystiolaeth, o fewn pabell y cyfarfod'—ar y bwrdd, hwyrach, fel y byddai yn barod bob amser i'r offeiriaid i'w losgi ar yr allor aur—yn cysgodi Crist a'i gyfryngdod peraidd ger bron Duw dros ei bobl. Tybia rhai ei fod yn llysieuyn gwahanol oddiwrth yr hyn a elwir Galbanum yn bresennol, am nad ydyw arogl hwn yn beraidd. Edr. AROGL-DARTH. Yr unig fan lle y ceir y gair Hebraeg.* Exod. 30. 34.

GALILEA, *Heb.* גליל *Gr.* Γαλιλαια, [*terfyn, cyffin*] tiriogaeth helaeth a ffrwythlawn yn y parthau gogleddol i wlad Canaan. Yr oedd Galilea Isaf yn gorwedd o du y gorllewin i'r Iorddonen a Môr Tiberias; ac yn cynnwys etifeddiaethau neu randiroedd Issachar, Zabulon, Naphtali, ac Aser. Yr oedd Galilea Uchaf yn gorwedd o du y dwyrain i'r Iorddonen, ac yn cynnwys y rhan fwyaf o etifeddiaeth hanner llwyth Manasseh y tu hwnw i'r Iorddonen, neu ychwaneg. Yr oedd hon yn cael ei galw Galilea y Cenedloedd, am ei bod ar gyffiniau Syria, Arabia, a Phœnicia, gwledydd y Cenedloedd; ac am fod llawer o'r Cenedloedd, yn gymysgedig â'r Iuddewon, yn gwladychu ynddi. Solomon a roddodd ugain dinas o Galilea Isaf, i Hiram, brenin Tyrus, yr hwn a'i galwodd gwlad Cabul, sef bawlyd. Yma y ganwyd Jonah a Nahum, y prophwydi. Benhadad, ac ar ei ol ef Tiglath-Pileser, a anrheithiasant y wlad hon yn ddychrynllyd iawn. 1 Bren. 9. 11. a 15. 20. 2 Bren. 14. 25. a 15. 29. Nah. 1. 1.

Wedi dychweliad yr Iuddewon o Babilon, cadwodd y Samariaid feddiant o Samaria, sef rhandir Ephraim a'r Manassiaid gorllewinol; ond yr Iuddewon a ymdaenasant i Galilea, ac i wlad Perea tu hwnt i'r Iorddonen. Yn Nazareth yn Galilea y preswyliodd ein Hiachawdwr; yma y dygwyd i fynu y rhan fwyaf o'i ddysgyblion; yma y pregethodd Crist, ac y gwnaeth lawer o'i wyrthiau. Yn Galilea, tebygol, y gweddnewidiwyd ef (Edr. GWEDD-NEWIDIAD.) ac yma y gwelodd dros bum cant o'i ddysgyblion ef, cyn ei esgyniad i'r nefoedd. Oddiwrth y wlad hon yr oedd ef a'i ganlynwyr, weithiau, yn cael eu galw Galileaid. Luc 23. 6. Act. 2. 7. Esa. 9. 1.

Yr oedd y Galileaid yn anenwog yn mhlith yr Iuddewon o ran crefydd a dysgeidiaeth; ac yr oeddynt yn barnu na chododd, ac na chodai, yr un prophwyd yn Galilea, heb gofio mai un o'r wlad hono oedd Jonah. Ioan 7. 52. Yr oedd eu tafodiaith yn gwahaniaethu oddiwrth iaith yr Iuddewon yn Jerusalem; yr oedd lleferydd Petr yn ei gyhuddo mai Galilead ydoedd efe. Mat. 26. 73. Dywed Josephus fod y Galileaid yn filwyr dewrion; eu bod yn gwrthsefyll y Cenedloedd o'u hamgylch yn wrol; bod eu gwlad yn ffrwythlawn, ac wedi ei hamaethu a'i diwyllio yn dda; a'u bod yn bobl lafurus a diwyd. Yr oedd y dinasoedd a'r pentrefydd ynddi yn aml, a'r lleiaf o honynt yn cynnwys 15,000 o drigolion. Hwy oedd y cyntaf a wrthryfelasant yn erbyn y Rhufeiniaid, ac o herwydd hyny a anrheithiwyd ac a laddwyd yn ddychrynllyd iawn. Yn nghylch A.D. 10, un Judas, priodor o Golan, yn Galilea Uchaf, a annogodd lawer i wrthsefyll y swyddwyr Rhufeinaidd, ac i wrthwynebu talu treth iddynt. Ffurfiasant eu hunain yn blaid dan yr enw Galileaid. Yr oeddynt agos o'r un daliadau a'r Phariseaid, ac yn barnu yn beth annheilwng i'r Iuddewon i dalu treth i'r Cenedloedd. Bu eu gwrthwynebrwydd i'r Rhufeiniaid yn achos o ryfel hir a gwaedlyd, a llawer o rai diniwed a ddyoddefasant yn drwm o'r achos. Pan yr oedd rhai o'r Galileaid yn Jerusalem ar un o'r gwyliau gosodedig, Pilat a'u lladdodd hwynt yn greulon, yn nghyntedd y deml, ac a gymysgodd eu gwaed yn nghyd â'u haberthau. Y mae yr Iachawdwr yn cael ei gyhuddo gan yr Iuddewon fel un o'r rhai hyn, a'i fod yn gwyrdroi y bobl, ac yn gwahardd rhoi teyrnged i Cesar. Luc 13. 1. a 23. 2.

GALIM, *Heb.* גלים [*rhai yn pentyru*] dinas yn Benjamin, tair neu bedair milltir o Jerusalem, ac yn agos i Anathoth. Yma yr oedd Phalti gwr Michal merch Saul a gwraig Dafydd, yn byw. Y trigolion a ddychrynwyd yn ddirfawr, ac a anrheithiwyd gan fyddinoedd Senacherib. 1 Sam. 25. 44. Esa. 10. 30.

GALIO, *Gr.* Γαλιων, [*un yn byw ar laeth*] brawd Seneca, philosophydd enwog. Ei enw oedd Marcus Annæus Novatus; ond wedi ei fabwysiadu gan Lucius Junius Galio, cymerodd yr enw Galio. Dan yr ymerawdwyr Claudius a Nero, gwnawd ef yn rhaglaw Rhufeinaidd yn Achaia. Yr ydoedd yn ŵr o dymher hynaws a charuaidd: cyflwynodd Seneca rai o'i lyfrau iddo. Yr Iuddewon gwedi cynddeiriogi wrth lwyddiant Paul, a gyfodasant yn ei erbyn, ac a'i dygasant ef i frawdle Galio, yr hwn oedd yn trigo yn Corinth, ac a'i cyhuddasant ef, 'ei fod yn addoli Duw yn erbyn y ddeddf;' sef deddf yr Iuddewon, neu ddefodau Moses; neu yn erbyn deddf y Rhufeiniaid, o beidio dwyn i mewn dduwiau newyddion, heb gydsyniad y senedd. Fel yr oedd Paul yn amcanu agoryd ei enau, dywedodd Galio wrthynt, 'Pe buasai gam, neu ddrwgweithred, O Iuddewon, wrth reswm myfi a gyd-ddygaswn â chwi; eithr os y cwestiwn sydd am ymadrodd, ac enwau, a'r ddeddf sydd yn eich plith chwi, ni fyddaf fi farnwr am y pethau hyn. Ac efe a'u gyrodd hwynt oddiwrth y frawdle.' Y Groegwyr Paganaidd a gymerasant Sosthenes yr arch-synagogydd, ac a'i curasant, mewn anmharch i'r Iuddewon, o flaen y frawdle. 'Ond nid oedd Galio yn gofalu am ddim o'r pethau hyny:' ond *dylasai* ofalu fel barnwr, na byddai neb yn dyoddef ar gam. Act. 18. 12—17. Nid llawer o flynyddoedd wedi hyn, efe a'i frawd a laddwyd trwy orchymyn Nero.

GALW—EDIG—AETH—ION, *Heb.* קול (*col*) a קהל (*cel*) *Gr.* καλεω (*caleô*); *Llad.* VOCARE; *Saes.* CALL; gwahodd, llefain ar un; erchi, rhybuddio i ddyfod; enwi; galwad am borth, deisyfiad, gweddi. —Arwydda galw, 1. Creu, neu effeithioli i ddwyn pethau i fod, â gair. Rhuf. 4. 17. Ezec. 36. 29. ——2. Addef, neu gydnabod. Heb. 2. 11.——3. Cyfrif. Esa. 58. 13. Mal. 3. 15.——4. Cyhoeddi.

* Gwel Bochart, *vol.* iii. Buffon's *Nat. Hist.*, *vol.* i.

Digitized by Google

Joel 2. 15.——5. Addoli Duw trwy weddi a diolchgarwch. Gen. 4. 26. Ps. 105. 1. Edr. Enw.——6. Erfyn am gymhorth a gwaredigaeth mewn trallod. Ps. 50. 15.——7. Gosod mewn swydd. Heb. 5. 4, 5. Esa. 45. 1, 4, 10. Rhuf. 1. 1.——8. Gwahodd pechaduriaid, a'u galw i edifeirwch. Diar. 1. 24. Mat. 22. 14.——9. Bod y peth y gelwir un i'w farnu felly, a'i drin yn gyfatebol i'r hyn y gelwir ef. Mat. 5. 9, 19. a 21. 13. (cymh. Luc 19. 46.) Luc 1. 32, 35. a 2. 23. 1 Ioan 3. 1.——10. Dwyn pechaduriaid i undeb â Christ, ac i gyflwr grasol a sanctaidd. Rhuf. 8. 28. 2 Petr 1. 3.

Y mae galwedigaeth, yn yr ystyr diweddaf hwn, i'w olygu fel un o ffrwythau cyntaf etholedigaeth, a gweithred arbenig Duw tu ag at yr etholedigion, yn eu gwneyd yn gyfranogion o iachawdwriaeth Crist. 'Y rhai a ragluniodd efe, y rhai hyny hefyd a alwodd efe.' Rhuf. 8. 30. Gweithred ydyw trwy ba un y mae y rhai a etholwyd gan Dduw, ac a brynwyd gan Grist, yn cael eu gwahodd yn dirion trwy foddion allanol, ac yn cael gweithredu arnynt yn effeithiol yn dufewnol i'w tueddu yn ewyllysgar, ac i'w dwyn yn effeithiol o gyflwr o bechod i gymundeb â Duw yn Nghrist. Mae yn cael ei enwi yn alwedigaeth,

1. I ddangos y trueni a'r pellder dirfawr yr oedd dyn wedi myned iddo wedi ei ysgaru oddiwrth Dduw, ac, fel Adda, yn ffoi oddi wrtho. 'Yr Arglwydd Dduw a alwodd ar Adda, ac a ddywedodd wrtho, Adda, pa le yr wyt ti?' Gen. 3. 9.——2. I ddangos y moddion a ddefnyddia Duw i ddychwelyd dynion; sef trwy ei lais yn yr efengyl, a'r pregethiad o'r gair; moddion rhesymol ac addas ydynt i weithredu ar greadur rhesymol. Y mae Duw yn y gair yn llefaru wrth greadur â chlustiau ganddo i wrando, deall ganddo i amgyffred, ac ewyllys ganddo i ddewis, &c. ——3. Mae hefyd yn rhoddi gwahanol olygiadau ar y gwaith hwn, fel y gellir edrych arno fel creadigaeth newydd, yn mha un y mae Duw yn galw y pethau nid ydynt, fel pe byddent; o ddiddymder cyflwr o bechod yn dwyn i fywyd; ac yn *llewyrchu* yn eu calonau, fel y parodd i oleuni lewyrchu o dywyllwch yn y greadigaeth gyntaf. Rhuf. 4. 17. 2 Cor. 4. 6. Y mae yn rhyw adgyfodiad rhyfedd, yn mha un, trwy *lef alluog* Crist, y mae y pechadur yn cael ei gyfodi o gyflwr o bechod, yn o debyg fel y galwodd ef Lazarus o'i fedd, ac y geilw y meirw yn y dydd olaf. Eph. 1. 20. a 2. 5. Ioan 5. 25. Fel rhai yn cael eu galw i swyddau a sefyllfaoedd anrhydeddus, felly y maent hwythau yn cael eu galw i anrhydedd a gogoniant tragywyddol. Fel y byddai y rhedegwyr gynt ar fynydd Olympus yn cael eu galw i'r rhedegfa a'r ymdrechiadau am y gamp uchel, felly y maent hwythau yn cael eu galw i ymestyn at y pethau o'r tu blaen, ac i redeg yr yrfa a osodwyd o'u blaen. Phil. 3. 13. Heb. 12. 1.

Yn llefaru am y galwedigaeth hwn, gosodir allan yn y gair, yr hyn y gelwir pechaduriaid oddi wrtho, ac y gelwir hwynt ato, *à quo & ad quem*. Maent yn cael eu galw o farwolaeth, o dywyllwch, o elyniaeth, ac oddiwrth ddigofaint, (Eph. 2. 1. Col. 1. 13, 21. 1 Petr 2. 9. Ioan 3. 36.) i oleuni, i fywyd, i ryddid, i heddwch Duw, i gael trugaredd, i sancteiddrwydd, i gymdeithas â Christ, i'w deyrnas, a'i dragywyddol ogoniant. Gan mai Duw sanctaidd sydd yn eu galw, rhaid ei fod yn eu galw oddiwrth bob peth sydd groes i sancteiddrwydd, ac at bob peth sydd yn sanctaidd. Y gair *galw* a arwydda mai ato ei hun y mae am eu cael; yr hyn nis dichon iddynt wneuthur heb ymadawiad â phob peth croes i Dduw. Nis dichon y serch a'r meddwl gofleidio dau beth hollol wahanol i'w gilydd yn eu natur ar unwaith. Y mae y pethau y mae yn eu galw oddi wrthynt ac atynt, yn gwbl groes i'w gilydd yn eu natur; am hyny, ni ufuddha neb i'r galwad heb gyfnewidiad yn agwedd a syniad y



meddwl, yr hyn y mae galwad Duw yn ei weithredu. Ioan 5. 44, 45. Gal. 5. 13. Col. 3. 15. 1 Cor. 3. 7, 15. Rhuf. 9. 24. 1 Thes. 4. 7. 1 Cor. 1. 9. 1 Thes. 2. 12. 1 Petr 1. 15. a 5. 10.

Yn y galwedigaeth hwn, Duw sydd yn gweithredu yn gwbl, yr un fath ac yn etholedigaeth, cyfiawnhad, a gogoneddiad. Y mae yn gweithredu yn ben-arglwyddiaethol ac yn wahaniaethol, yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras. 'Y rhai a ragluniodd efe, y rhai hyny hefyd (ac nid neb arall) a alwodd efe.' O'i ben-arglwyddiaeth, ei gariad, a'i ras, y rhagluniodd efe hwynt; o herwydd yr un achos, ac yn yr un modd, y mae efe yn *galw y rhai hyny*, ac nid eraill.* Mae yr alwedigaeth yn tarddu o'r un gras, yn gweithredu tu ag at yr un gwrthddrychau, ac i'r un dybenion, ac mor angenrheidiol, ac mor sicr, a'r rhagluniad. Y rhai a neillduwyd yn rasol yn yr arfaeth er tragywyddoldeb, sydd yn cael eu neillduo a'u gwahaniaethu trwy yr alwedigaeth mewn amser; a thrwy yr alwad mewn amser y mae y rhai oedd yn etholedigion yn yr arfaeth yn cael eu nodi, eu gwahaniaethu, a'u dadguddio; gwneuthur yr alwedigaeth, gan hyny, yn sicr, ydyw gwneuthur yr etholedigaeth hefyd yn sicr; ac nid oes un ffordd i ni wybod yn sicr am ein hetholedigaeth, ond trwy adnabyddiaeth sicr o'n galwedigaeth yn ol y gair. Y mae yr etholedigaeth, fel cangen o arfaeth gadarn Duw, yn anghyfnewidiol; felly hefyd diedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw. Ni fwrir allan neb a alwyd i gymdeithas ei Fab. Rhuf. 11. 29. Ioan 6. 37.

Fel mae y galwedigaeth hwn yn oruchel ac yn nefol, o ran yr achos a'r tarddiad o hono, felly hefyd y mae o ran y dybenion a'r effeithiau o hono; y mae Duw ynddo, yn effeithiol weithredu, yn ol ei arfaeth, i dueddu y rhai a alwyd, at bethau uchel a nefol; yn eu haddasu i fwynhau, ac yn eu rhoddi mewn meddiant, o'r breintiau mwyaf goruchel a gogoneddus. Y mae y galwad yn gweithredu yn ei effeithioldeb hyd nes y byddo y galwedigion yn y meddiant cyflawn o'r hyn y galwyd hwynt iddo: ni chyll mo'i wrthddrychau, ac ni leiha ei rym a'i effeithioldeb. Nid myned â hwynt yn erbyn eu hewyllysiau y mae—peth nas dichon fod yw hyny; ond y mae Duw yn y galwedigaeth yn gweithio ynddynt ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da.† Heb. 3. 1. Phil. 2. 13. a 3. 14. Fel y mae graslonrwydd a phen-arglwyddiaeth Duw yn gweithredu yn rhyfeddol tu ag atynt yn ei waith yn eu galw, felly y mae ei ffyddlondeb diball yn cael ei ddangos tu ag atynt wedi eu galw; 'Ffyddlawn yw yr hwn a'u galwodd, yr hwn hefyd a'i gwna;' sef eu dwyn i feddiant cyflawn o'r hyn y galwyd hwynt iddo. 1 Thes. 5. 24. 2 Thes. 3. 3. 1 Cor. 1. 9. a 10. 13. Esa. 49. 7. Edr. Galluog.

Y mae y sefyllfa a'r gwaith y mae yr Arglwydd yn ei ragluniaeth yn galw dynion, yn eu gosod ac yn eu cymhwyso iddynt, yn dyfod dan yr enw *galwedigaeth*, yn y gair, ac y mae yr apostol yn annog pob un i aros ynddo, yn ddiddig, yn ddiwyd, ac yn ffyddlawn. 1 Cor. 7. 20.

GALL—U—OG, (ga-all) grym, nerth, effeithiolaeth, abledd, cymhwysder, dichoniad.—Mae gallu yn hanfodol yn yr Arglwydd, ac oddi wrtho ef y mae pob gallu yn ol y gradd o hono yn deillio i'w greaduriaid oll. Y mae gallu yn Nuw yn annibynol ac yn ddiderfyn, fel ei holl briodoliaethau eraill; ond y mae gallu

* Gwel Erthygl xvii, o Erthyglau Eglwys Loegr.

† Vis quidem est, sed cælestis amoris, eo major quo suavior. Coactio quædam, sed blandissimæ amicitiæ, eo faciens, ut anima catenis peccati ac Diaboli soluta, in jucundissima libertate delicietur. Non trahit Deus invitos et obtorto collo, sed facit volentes; Phil. 2. 13. tam clare veritates suas mentibus ingerens, ut non possint non assentiri, tam efficaciter bonitatis suæ deliciis voluntates demulcens, ut non possint eas nolle. Gwel Witsius' *Œcon. Fæd.*, *lib.* iii, *cap.* v, *sec.* 23.

Digitized by Google

yn y creadur yn ddibynol ar yr Arglwydd, yn ei barhad gwastadol yn gystal a'i ddechreuad. Fel y mae doethineb yn angenrheidiol i iawn-drefnu, felly y mae gallu yn angenrheidiol i effeithioli yr hyn a drefnir; ni thycia y naill heb y llall. Perffaith ddoethineb, perffaith allu, a pherffaith ddaioni, sydd addas i bob gorchwyl—a hyn yw Duw. Edr. HOLLALLUOG.

Gallu a arwydda, weithiau, awdurdod a rhagorfraint; 'Efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw;' (Ioan 1. 12.) 'Rhoes y-ddwynt vraint y vot yn veibion i Dduw.' W. S. Mae yr un gair *ἐξουσια*, yn cael ei gyfieithu *braint* yn Dat. 22. 14. Arwydda yma, yn fwyaf priodol, *addurniant*, *uchel-fraint*. Dr. Fulke. Rhodd Crist yw yr uchel-fraint hon; trwy eu hundeb âg ef maent yn feibion i Dduw, ac yn gydetifeddion âg ef; ac efe sydd yn rhoddi iddynt ysbryd cyfaddas i'r cyfryw fraint oruchel.

'A eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu yn ol Ysbryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw.' Rhuf. 1. 4. Yr oedd adgyfodiad Crist yn eglurhad cadarn a galluog mai Mab Duw oedd. Rhoddwyd Crist i farwolaeth am gabledd, am *alw ei hun yn Fab y Bendigedig*. Marc 14. 61—65. Ni buasai Duw yn ei gyfodi oddiwrth y meirw pe buasai yn dwyllwr; yn enwedig gan ei fod yn aml wedi rhagfynegi ei adgyfodiad ei hun. Yr oedd ei adgyfodiad yn dystiolaeth gyhoeddus, gwedi ei rhoddi gan Dduw ei hun, i wirionedd honiad Crist ei fod yn Fab Duw. Nid o herwydd ei adgyfodiad mae yn cael ei alw yn Fab Duw, ond yr oedd yn Fab Duw er tragywyddoldeb, pe buasai heb ymgnawdoli, na marw, nac adgyfodi; ond yr oedd ei adgyfodiad yn eglurhad cyhoeddus a chadarn, ei fod yn Fab Duw. Edr. ADGYFODIAD.

'Yn Grist gallu Duw.' 1 Cor. 1. 24. Gallu Duw ydyw fel Person Dwyfol; a gallu Duw ydyw hefyd fel Cyfryngwr a Gwaredwr. Er iddo gael ei groeshoelio a marw, etto y mae y pregethiad o hono ef a'i aberth yn foddion galluog yn llaw Duw i achub pechaduriaid o'r trueni mwyaf; gallu Duw ydyw, yr hwn nis dichon dim ei wrthladd, nac un math o anhawsderau fod yn anorchfygol iddo. 1 Petr 1. 5. Rhuf. 1. 16. 2 Cor. 4. 7.

'Nid llawer o rai galluog a alwyd.' 1 Cor. 1. 26. *Gr. ου πολλοι δυνατοι.* 'Nid llawer o gedyrn.' W. S. a Dr. M. Nid llawer o rai fel Nicodemus, Joseph o Arimathea, a Sergius Paulus; ond llawer o bysgodwyr a chrefftwyr tlodion. Y mae yr efengyl yn cael ei chyhoeddi mor rhydd i'r naill a'r llall, ond nid ydyw mor dderbyniol. Trefnodd Duw yn ei ddoethineb mawr i'w bobl fod, gan amlaf, mewn amgylchiadau isel yn y byd, gan nad ydynt *o'r byd*, fel y byddai eu cynnaliaeth a'u cysuron o'r nef, ac nid o'r ddaear; ac y byddai iddynt geisio y pethau sydd uchod, ac nid y pethau sydd ar y ddaear. Col. 3. 1, 2.

GAMALIEL, *Heb.* גמליאל [*gobor Duw*] 1. Mab Pedasur, a thywysog llwyth Manasseh, pan ddaeth Israel o'r Aipht. Num. 1. 10. a 2. 20. a 7. 54.——2. Pharisead nodedig, doctor o'r gyfraith, parchedig gan yr holl bobl, wrth draed pa un y cafodd Paul ei feithrin a'i ddwyn i fynu. Act. 5. 34. a 22. 3. Pan oedd yr apostolion mewn perygl o gael eu lladd gan y cynghor Iuddewaidd, achubwyd hwynt trwy gynghor doeth ac addas y gwr hwn. Dywedir ei fod yn fab Hilel enwog, yn ewythr i Nicodemus, a thros 32 o flynyddoedd yn oreisteddwr y Sanhedrim, ac iddo gofleidio Cristionogrwydd, &c., ond dywediadau ydynt heb lawer o sail iddynt, am a wyddom.

GAMMADIAID. Ezec. 27. 11. Gan nad oes hanes, ond a geir yma, am y bobl hyn oedd yn amddiffynwyr tyrau y Tyriaid, nis gellir penderfynu pwy oeddynt. Pobl o Phœnicia, tebygol. Y mae rhai adysgrifeniadau yn darllen גמרים *Gimerim*, sef Cimmerii, trigolion Crim Tartar—rhai o dylwyth Gomer, o'r hwn yr hanodd y CYMRY. Gwel yr Esgob Newcome *in loc*. Edr. GALATIA.

GANU, (gan) cynnwys.—'Dwy fil o bathau a anai ynddo.' 1 Bren. 7. 26.

GAR, (ga) gomach. Jos. 11. 6. 2 Sam. 8. 4.

GARAN, (gâr) cregyr, crychydd, y gwddf cryg. ——Garan grychydd, garan hwyad, aderyn â llais anhyfryd, galarus. Esa. 38. 14. Jer. 8. 7.

Nid anfeith ond *garan*. *Diar.*

GARD, *Ffr.* GARDE; *Saes.* GUARD; 'gwyr o gard;' sef gosgordd-lu, gwarchawd-lu. 2 Sam. 23. 23. 1 Cron. 11. 25. 2 Cron. 12. 10, 11.

GARDD, GERDDI, (gar) *Heb.* גדר גן (*gadar*) *clawdd*; *Saes.* GARDEN; cadlys, maes cauedig:—gardd lysiau; gardd ŷd; gardd gwair; gardd fagai; lle cauedig i lysiau, blodau, a choedydd ffrwythlawn. Y fwyaf enwog oedd gardd Eden, yr hon sydd yn cael ei galw gardd yr Arglwydd, am mai efe a'i planodd. Gen. 2. 8. a 13. 10. Joel 2. 3. Sonir am ardd y brenin, a gardd Uzza, lle claddwyd Manasseh ac Amon. Jer. 39. 4. 2 Bren. 21. 18, 26.

Yn nyddiau Esaiah, yr Iuddewon a aberthent mewn gerddi, ac a arogl-darthent ar allorau priddfeini, yr hyn nid oedd gyfreithlawn i neb i'w wneuthur ond yr offeiriaid; nac yn un man ond ar yr allor aur yn y deml. Esa. 1. 29. a 65. 3. a 66. 17. Yr oedd y gerddi hyn, meddant, gwedi eu cysegru i Venus ac Adonis, ffieidd-dra y Cenedloedd. Yn yr ardd y pechodd ac y syrthiodd yr Adda cyntaf; mewn gardd y bu ymdrech gwaedlyd yr ail Adda, ac y claddwyd ef. Gen. ii. Ioan 18. 1, 26. a 19. 41.

Cyffelybir yr eglwys i ardd. Can. 4. 12, 16. a 5. 1. a 6. 2. Y mae gwedi ei neillduo oddiwrth y byd anial, diffrwyth; ei phlanu â phlanigion hyfryd, ac mae ffrwythau cyfiawnder i'w cael ynddi; y mae yr Arglwydd yn ei chadw nos a dydd rhag i neb ei drygu; y mae yn rhodio ynddi, yn ei dyfrhau, yn ei gwrteithio, ac yn edrych yn fanwl rhag i chwyn niweidiol dyfu ynddi. Yr oedd y gyffelybiaeth hon yn fwy hynod i'r dwyreinwyr nag ydyw i ni, oblegid arogl peraidd y llysiau, y coedydd, a'r ffrwythau, yn y gwledydd hyny; ac hwyrach fod y cyfeiriad hefyd yn neillduol at ardd yr Arglwydd yn Eden, y lle mwyaf ffrwythlawn a hyfryd ar y ddaear, yn ei holl odidogrwydd cyn y cwymp. Edr. PARADWYS. Pa bethau bynag sydd odidog, defnyddiol, a hyfryd, a ddefnyddir gan yr Ysbryd Glân yn yr ysgrythyrau i osod allan ardderchogrwydd a gogoniant yr eglwys; a gwelir eu priodoldeb yn gyflawn dros dragywyddoldeb, pan fyddo goruchwyliaethau Duw tu ag ati, yn ei holl aelodau, yn gwbl wedi eu gorphen. Fel yr oedd Paradwys yn ben harddwch y ddaear, felly y bydd yr eglwys yn degwch bröydd, ac yn llawenydd yr holl nefoedd, pan welir hi yn ei gogoniant. Ps. 48. 1, 2. a 102. 16. Esa. 58. 11. a 61. 10, 11. Jer. 31. 12. 1 Cor. 6. 13, 19, 20. a 7. 34. Dat. 21. 27.

GARDDWR, (gardd-wr) golygwr, llafurwr, a gwyliwr gardd. Ioan 20. 15.

GAREB, *Heb.* גרב [*bustl*] 1. Un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 38.——2. Bryn yn agos i Jerusalem. Jer. 31. 39.

GARIZIM, *Heb.* גרזים [*cymunwyr*] mynydd yn agos i Sichem, yr hon oedd yn y gwastadedd rhwng y mynyddoedd Ebal a Garizim. Mynydd ffrwythlawn yw Garizim, meddant; am hyny yr oedd y bendithion arno. Yn y flwyddyn A.M. 3672, cyn Crist 332, adeiladodd y Samariaid deml yno i Dduw Israel; 'Ein tadau,' medd y wraig o Samaria, 'a addolasant yn y mynydd hwn,' sef Garizim. Ioan 4. 20. Mae yn debygol fod y deml hon yn sefyll yn amser eia

Digitized by Google

Hiachawdwr, oddiwrth eiriau y wraig. Weithiau, byddai Jupiter Olympus, un o dduwiau y Groegiaid, yn cael ei addoli ynddi. Edr. Ebal.

**GARLANTAU**, *Ffr.* Guirlande; *Saes.* Garland: coron-bleth o flodau neu ddail.—'Offeiriad Jupiter—a ddug deirw a garlantau i'r pyrth;' (Act. 14. 13.) sef teirw wedi eu coroni â garlantau. Byddai y Paganiaid yn arferol o goroni eu haberthau â garlantau. Gwel Potter's *Antiq. of Greece, b.* ii, *c.* 4.

**GARLLEG**, (gar-lleg) *Saes.* Garlick; *Gwydd.* Gairlioc: cra y gerddi, cenin ewinog. Mae Tournefort yn cyfrif deunaw math ar hugain o arlleg. Yr Aiphtiaid oeddynt yn ymborthi ar, ac yn addoli y garlleg. Yn feddyginiaethol, mae garlleg yn gweithredu yn dreiddgar ac yn fywiog. Y maent yn dda i ladd llyngyr, rhag y goluddwst, diffyg anadl, i beri ymadael â llawer o ddwfr. Dywed Sydenham, iddo eu profi yn feddyginiaeth effeithiol, ei hun, yn y dyfrglwyf. Dylid eu harferyd heb eu sychu, yn llawn nôdd; a pheidio a'u cymeryd ar un achos yn rhy aml, nac yn rhy hir, rhag iddynt fod trwy eu poethder yn niweidiol i'r coluddion. Num. 11. 5.

**GARMIAD**, preswylydd Garma. 1 Cor. 4. 10.

**GARW**, *Gr.* χέρρος; gerwin, anllyfn, tònog; sarug, anfwyn.—Dyffryn garw, yw yr hwn ni lafuriwyd, ac ni hauwyd ynddo. Deut. 21. 4. Gair garw (רבר עצב) gair yn dolurio, neu yn peri tristwch; gair cwbl groes i arafwch a mwyneidd-dra. Gair cyffrous, angharedig, a gyffry ddigofaint ac anghariad. Diar. 15. 1.—'A Joseph a lefarodd wrthynt yn arw.' Gen. 42. 7.

'Y mae yn attal ei wynt garw ar ddydd dwyreinwynt.' Esa. 27. 8. Yn nghanol eu gorthrymderau cofiodd am danynt hwy mewn trugaredd, ac ni oddefodd iddynt gael eu dyfetha yn llwyr. Mae yr Iuddewon fel cenedl yn fyw hyd heddyw, er pob peth a allai eu holl elynion i'w dyfetha. Wrth *fesur* y dadleuodd â hwynt. Esa. 57. 16. Job 22. 6. Ps. 6. 1. a 38. 1. a 103. 4. Jer. 10. 24. a 30. 11. a 46. 28. 1 Cor. 10. 13. 1 Petr 1. 6. Y mae cyfieithiad y Dr. M. yn gwahaniaethu oddiwrth ein cyfieithiad awdurdedig ni fel hyn, 'Wrth fesur y berni hon gan ei bwrw allan, efe a fwriodd ymaith (y llall) â'i wynt caled, ar ddydd dwyrein-wynt.' Y mae cyfieithiad Esgob Lowth yn gwahaniaethu oddiwrth y ddau, fel y canlyn, 'Mewn mesur uniawn, pan y rhoddi y dyrnod, y dadleui â hi; gyd âg iawn ystyriaeth, ïe, yn y dymhestl arw, yn nydd y dwyrein-wynt.' A hwn y cytuna Parkhurst a Vitringa.

**GATAM**, mab Eliphaz, mab Esau. Gen. 36. 11.

**GATH**, neu **GETH**, *Heb.* גת [*gwasg*] dinas y Philistiaid, yn nghylch 32 o filltiroedd o Jerusalem. Yr oedd yn hen ddinas, canys rhoddir hanes am ei thrigolion yn amser y patriarch Ephraim. 1 Cron. 7. 21. a 8. 13. Yma y ganed Goliath a'i frodyr. 1 Cron. 20. 5. Ffôdd Dafydd am amddiffynfa at Achis, brenin Gath. Ychydig o flynyddoedd gwedi hyny Dafydd a'i goresgynodd. 2 Sam. 8. 1, 2. Rehoboam a'i cadarnhaodd i Judah. 2 Cron. 11. 8. Hazael, brenin Syria a'i hennillodd. 2 Bren. 12. 17. Uzziah a'i hennillodd hi oddiar y Philistiaid, ac a dorodd i lawr ei mur. 2 Cron. 26. 6. Hwy a'i hennillasant yn ol dan deyrnasiad y brenin Ahaz; a Hezeciah a'i hennillodd drachefn. 2 Bren. 18. 8. Gwedi hyny nid oes nemawr o hanes am dani.—Gelwid ei thrigolion Gethiaid. 2 Sam. 6. 10. a 15. 19, 22. a 18. 2.

**GATH-HEPHER**, neu Gath yn ardal Hepher. Dinas yn Galilea, lle y ganwyd y prophwyd Jonah. 2 Bren. 14. 25. Yr ydoedd yn llwyth Zabulon (Jos. 19. 13.) dwy filltir, medd Jerome, o Sephoris, neu Diocesarea. Am fod llawer o winllanoedd yn ngwlad Canaan, yr oedd amryw ddinasoedd dan yr enw Gath, (*gwasg*) megys Gath-Rimmon, yn llwyth Dan. Jos. 19. 45.——Dinas arall yn llwyth Manasseh, tu draw i'r Iorddonen. Jos. 21. 23.——Un arall yn llwyth Ephraim, y rhai a roddwyd i'r Lefiaid o dylwyth Cohath. 1 Cron. 6. 69.

**GAU**, (ga-au) cuddiedig, gorchuddiedig, ffugiol; twyll, anwir, celwydd. Gau lwybr, gau rodd, geiriau gau, gau weledigaeth, duwiau gau, gau dystiolaeth, rhyfeddodau gau, gau apostolion, gau Gristiau, gau brophwydi, brodyr gau, gau athrawon. Diar. 25. 14. Ps. 119. 104. Esa. 59. 13. Jer. 14. 14. Ezec. 33. 25. Mat. 26. 59. 2 Thes. 2. 9. Mat. 7. 15. a 24. 11, 24. Marc 13. 22. 2 Cor. 11. 13, 26. Y mae gau, yn yr holl ystyriaethau hyn, yn groes i'r gwir. Y mae rhai gwir, cywir, ac uniawn, o'r holl rai a grybwyllir, ac o Dduw y maent: mae y gau yn wrthwyneb i'r cywir, ac o'r diafol y maent oll. Nid oes dim gau a ddichon fod o Dduw, canys Duw gwirionedd heb anwiredd yw. Y mae y gau i'w gochelyd gyda mawr ofal: canys y maent yn dra niweidiol ynddynt eu hunain, ac yn cadw dynion rhag ymofyn am y gwir; ond mae y gwir yn llesol iawn, a gwyn eu byd y rhai sydd yn meddu arno.

**GAUAF**, (gau-af) un o dymhorau y flwyddyn, pan mae y dydd fyraf, a'r hin oeraf, yn gyffredin. Er bod yr hin yn oerach yn y gauaf, gellir dangos, trwy astronomyddiaeth, fod yr haul yn agosach at y ddaear yn y gauaf nag ydyw yn yr hâf; ond y mae yn gynhesach yr hâf am fod pelydr yr haul yn syrthio ar y ddaear yn fwy syth, a'r haul yn aros yn hŵy, ac yn poethi corph yr awyr trwy hyny. Dan y cyhydedd (*equator*) y mae y gauaf, fel y tymhorau eraill, yn dychwelyd ddwy waith yn y flwyddyn, ond mae pob un yn gynhes mewn cymhariaeth i'n gauaf ni, yn y parthau hyn o'r byd. Yn agos i'r pegynau (*poles*) y mae yr oerfel mor ddwys, fel y cyfrifem ni yn auaf o hyd. Yn Sweden, gellir dywedyd fod naw mis yn auaf gerwin, a'r misoedd eraill yn hâf.——'Hâf a gauaf,' ydynt yn arwyddo trwy y flwyddyn, yn wastadôl. Zech. 14. 8.——'Gauafu,' ydyw aros trwy y gauaf. Esa. 18. 6. Act. 27. 12.

Y gauaf, yn allegawl, a arwydda cyflwr ac amgylchiadau tywyll, diffrwyth, tymhestlog, anghysurus, peryglus; megys y mae cyflwr pawb wrth naturiaeth fel pechaduriaid; neu gyflwr o erlidigaethau ar yr eglwys. Can. 2. 11.

Y gair *Heb.* חרף a gyfieithir *gauaf*, a arwydda *dyosg, dadwisgo*, sef y tymhor y dyosgir y coed a'r llysiau o'u blodau a'u ffrwythau; ac yn ganlynol y ddaear o'i harddwisg. Arferir ef mewn cyferbyniad i קיץ *y tymhor bywhaol*, ac yn cynnwys ynddo ein hydref a'n gauaf ni, fel mae y llall yn cynnwys y gwanwyn a'r hâf. בית החרף *gauaf-dŷ*, oedd tŷ yn y ddinas, lle trigent y gauaf. Hyd yn nod yn ngwlad Canaan, yr oedd gan wŷr mawrion auaf-dai a hâf-dai: (Jer. 36. 22. Amos 3. 15.) sef tai yn y trefydd y gauaf, ac yn y wlad yr hâf. Edr. Haf.

**GAUDY**, neu **GEUDY**, **GEUDAI**, toddyn, ysgothfa. Mat. 15. 17. Marc 7. 19.

**GAWRI**, (gawr) bloedd, gwaedd, bonllef, crochlef. —'A'r popul a roes gawri.' Act. 12. 22. 'Am haner nos y bu gawri.' Mat. 25. 6. W. S.

**GAZA**, *Heb.* עזה [*cadarn*] 1. Dinas yn rhandir llwyth Ephraim. 1 Cron. 7. 28.——2. Dinas y Philistiaid, ond a roddwyd i lwyth Judah. Jos. 15. 47. 1 Sam. 6. 17. Yr oedd yn sefyll ar gŵr dehau-orllewin i wlad Canaan, yn nghylch dwy filltir a hanner o Fôr y Canoldir, a thriugain dehau-orllewin o Jerusalem. Bu ddarostyngedig i lawer o gyfnewidiadau: bu yn meddiant y Philistiaid, yr Iuddewon, yr Assyriaid,

Digitized by Google

y Caldeaid, yr Aiphtiaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, fel yr oedd yr ymerodraethau y naill yn gorchfygu y llall. Alexander Fawr a'i dystrywiodd; a thebygol na adeiladwyd hi gwedi hyny. Amos 1. 6. Jer. 47. 1. Seph. 2. 4. Zech. 9. 5. Act. 8. 26. Adeiladwyd Mojuma yn agosach i'r môr, yr hon a alwyd Gaza Fechan. Yn y chwech canrif cyntaf yr oedd yma eglwys Gristionogol, a chrybwyllir am esgob Gaza yn amryw o'r hen gynghorion Cristionogol. Cymerodd Samson byrth y ddinas hon, ac a'u dygodd hwynt i ben y bryn sydd gyferbyn a Hebron, amryw filltiroedd o ffordd. Barn. xvi.

GEBA, neu GABA, *Heb.* גבע [*bryn*] galwyd amryw fanau mewn gwlad fynyddig fel Judea, Gibea, Gibeon, Gabe, Gaba, Geba, &c., yn arwyddo uchelfaoedd. Dinas oedd Geba, tebygol, yn agos i Michmas a Gibea Saul. Jos. 18. 24. a 21. 7. Barn. 20. 10, 33. 1 Sam. 13. 3, 16. a 14. 5. 2 Sam. 5. 25. 1 Bren. 15. 22. 2 Bren. 23. 8. 1 Cron. 6. 60. a 8. 6. 2 Cron. 16. 6. Ezra 2. 26. Neh. 7. 30. a 11. 31. a 12. 29. Esa. 10. 29. Zech. 14. 10.

GEBAL, *Heb.* גבל [*terfyn*] gellir casglu fod dwy Gebal, sef gwlad Gebal o du y dehau i Judea; a mynydd a dinas, yr un â Byblus yn Phœnicia. Jos. 13. 5. Yr oedd trigolion Gebal yn y cynghrair mawr yn erbyn Jehosaphat, brenin Judah. Ps. 83. 7. Yr oedd y Gibliaid yn mhlith seiri Solomon, yn naddu ac yn darparu coed a cheryg i adeiladu y deml. 1 Bren. 5. 18. Yr oeddynt ar waith yn adeiladu ac yn adgyweirio llongau Tyrus. Ezec. 27. 9.

GEBER, *Heb.* גבר [*dyn cadarn*] mab Uri, llywodraethwr talaeth Gilead yn amser Solomon. 1 Bren. 4. 19.

GEBIM, *Heb.* גבים [*uchelderau*, neu *bryniau*]. Esa. 10. 31.

GEDALIAH, *Heb.* גדליה [*Duw yw fy mawredd*] 1. Lefiad, mab Jeduthun. 1 Cron. 25. 3.——2. Mab Pasur. Jer. 38. 1.——3. Mab Amariah, a thaid y prophwyd Sephaniah. Pen. 1. 1.——4. Mab Ahicam, tywysog Iuddewaidd, a aethai drosodd at y Caldeaid, ychydig cyn iddynt gymeryd Jerusalem. Nebuzaradan, dystain Babilon, a phenaeth y milwyr, a'i gwnaeth ef yn swyddog ar y bobl a adawyd yn ngwlad Judah. Aeth y prophwyd Jeremiah ato i Mispah, a llawer o'r Iuddewon, y rhai a ffoisent, a ddaethant o wlad Moab, Ammon, ac Edom, ac a ddodasant eu hunain dan ei lywodraeth a'i amddiffynfa ef; addawodd iddynt ddiogelwch os byddent heddychol, a gwasanaethu brenin Babilon. Baalis, brenin meibion Ammon, a anfonodd Ismael mab Nethaniah i'w ladd ef. Er i Gedaliah gael hysbysrwydd prydlawn o hyny gan Careah a holl dywysogion y lluoedd, etto ni chredodd, ond barnodd mai celwydd yr oeddynt yn ei ddywedyd am Ismael. Croesawodd Ismael a'i gyfeillion yn haelionus iawn; ond Ismael a'r deng ŵr oedd gyd âg ef a darawsant Gedaliah, ac a'i lladdasant, a'r Iuddewon a'r Caldeaid, y rhai a gafwyd yno, sef y rhyfelwyr. Gweddill yr Iuddewon a ffoisant i'r Aipht rhag ofn Nebuchodonosor, am ladd ei raglaw, er dim a allai y prophwyd Jeremiah ddywedyd i'w hannog i beidio. 2 Bren. 25. 22. Jer. xl—xliii.

GEDALTI, mab Heman y Lefiad. 1 Cron. 25. 4.

GEDER, GEDERAH, GEDOR, GEDEROTH. Jos. 12. 13. a 15. 58. 1 Cron. 4. 39. 2 Cron. 28. 18. Bernir yn gyffredin mai yr un lle a feddylir wrth yr amrywiol enwau hyn.—1. Mab Jared, o lwyth Judah. 1 Cron. 4. 18.——2. Mab Maachah, o lwyth Benjamin. 1 Cron. 8. 31.

GEFAIL—EILIAU, (gaf-ael) craffiedydd, gwrthrimyn; gweith-dŷ gôf. Num. 4. 9. Exod. 25. 38. a 37. 23. 1 Bren. 7. 49. 2 Cron. 4. 21. **Edr.** CANWYLLBREN.

GEFELL—IAID, (gaf-ell) dau yn yr un groth, a chyd-anedigion. Gen. 25. 24. a 38. 27.—'Dy ddwyfron sydd fel dau lwdn iwrch o efelliaid, yn pori yn mysg lili.' Can. 4. 5. Y mae y Creawdwr doeth wedi rhoddi i wragedd ddwyfron, fel, os byddai iddynt hwy efelliaid, y gallai pob un o honynt gael ffynon fagwriaethol. Y mae y gyffelybiaeth yma yn hardd iawn: y mae iyrchod yn mhlith lili yn llyfn-wedd ac yn dewion, yn gosod allan fronau yr eglwys yn chwyddedig, ac yn llawnion gan laeth, ac yn arwyddo y fagwraeth gyflawn, iachus, y mae hi yn ei roddi i'w holl blant, trwy weinidogaeth y gair a'r sacramentau. Y mae yr eglwys yn hardd ac yn ffrwythlawn, ac y mae ei holl wir blant yn cael cynnaliaeth fagwriaethol a chysurus. Nid y wir eglwys mo honi os ydyw ei bronau yn ddifagwriaeth. 1 Petr 2. 2.

GEFYN—AU, (gaf) hual, llyffethar. Y mae gefynau, yn allegawl, yn arwyddo gorthrymder a chaethiwed. Job 36. 8. Ps. 68. 6.

GEHAZI, *Heb.* גיחזי [*dyffryn gweledigaeth*] gwas Eliseus y prophwyd, yr hwn a gospwyd â gwahanglwyf tragywyddol am ei gybydd-dod a'i gelwydd yn cymeryd rhoddion Naaman yn enw ei feistr. 2 Bren. iv, v. Ymddyddanai brenin Israel âg ef weithiau, wedi hyny, am wyrthiau ei feistr. 2 Bren. 8. 4, 5.

GEILWAD—AID, (galw) un yn galw; gyrwr, gyriedydd. Geilwad ychain; sef gyrwr ychain yn yr iau. Nid yw yr asyn gwyllt yn ddarostyngedig i ewyllys y geilwad. Job 39. 7.

GELE—OD,* (gel) geleu, gelen, geloden. Creadur yw y gele, digon adnabyddus, ac a ddefnyddir i sugno gwaed o ryw fan afiach o'r corph yn lle ffiaim. Y mae dau fath o honynt, ac a wahaniaethir oddiwrth eu gilydd wrth eu maintioli, ac hefyd wrth eu golygiad arwynebol. Gelwir y fwyaf, gelen bendoll. Y fwyaf a gynnydda i bum modfedd o hŷd, ac y mae dan ei thôr yn felen, ac yn ddu ar ei chefn. Y mae tôr y leiaf yn wyrdd-dduaidd, ac felly hefyd y mae y cefn â llinell lydan o'r un lliw, a phob ochr i hòno linell gochaidd. Hon yw y rhyw a ddylid ei harferyd yn feddyginiaethol. Y dull o waedu â'r creaduriaid hyn a arferwyd yn foreu. Dylid eu dewis o ddwfr gloyw rhedegog, am fod y rhai a geir mewn merllyn budr a llonydd â rhyw beth gwenwynllyd yn eu brathiad. Y meddygon yn gyffredin a ddewisant rai â phenau bychain iddynt, a llinellau gwyrdd-ddu ar eu cefnau, a'u tòrau yn goch-felyn. Ond o ba ddwfr bynag y cymerwyd hwynt, y ffordd oreu yw eu cadw hwynt mewn gwydr, a newid y dwfr yn fynych, fel y glanhaont eu hunain. Cyn rhoddi y gele wrth y croen, dylid ei chymeryd allan o'r dwfr, a'i chadw awr mewn cwpan wag, i waghau ei hun, fel y byddo sychedig. Cyn ei rhoddi wrth y croen, dylai y fan gael ei rwbio yn dda, nes y byddo yn boeth ac yn goch. Gellir eu rhoddi wrth yr arleisiau, a thu ol i'r clustiau, mewn afiechyd yn y pen, ac un lle arall, os bydd yr afiechyd ddim ond mewn un man yn unig, megys cig y dannedd; ac wrth wythïenau y fan hòno yn y lledewigwst (*piles*). Dylid

* *Heb.* עלוקה *alwcah*; *Arab.* ALACAH: ond mae y dysgedig Bochart yn cymeryd y gair Hebraeg i darddu yn hytrach o'r gair Arabaidd *alwc*, sydd yn arwyddo *tynged*, neu *anffawd alarus*, nag o'r gair arall, *alacah*, sydd yn arwyddo *gele*. Fel hyn golyga mai *tynged* neu *marwolaeth*, yw yr hon y mae iddi 'ddwy ferch (sef *Hades*, preswylfa yr ysbrydion ymadawedig, a'r *bedd*) yn llefain, Moes, moes.' Tybia eraill fod hyn yn anghyson â rhediad yr adnod flaenorol, sydd yn sôn am 'ddannedd a chil ddannedd i ddifa,' &c., gan ddeall wrth 'ddwy ferch' y gele, *dwy wefus* y creadur, y rhai sydd ganddi yn gyflawn, ac â pha rai y sugna.—C.

Digitized by Google

golchi yr archollion â dwfr, neu win cynhes, a iachânt yn fuan o honynt eu hunain.

'I'r gele y mae dwy ferch yn llefain, Moes, moes.' Diar. 30. 15. Wrth y ddwy ferch, y deall rhai y ddwy big (dywed eraill fod tair) sydd yn ei thafod i sugno y gwaed, ac nis digonir hi. Cyffelyb iddynt hwy ydyw cribddeilwyr cybyddlyd; nid oes dim digoni arnynt, pa un bynag y byddont yn chwennych pethau y byd i'w trysori, neu ynte, i'w gwario i borthi llygredigaethau annigoniannus. Hos. 4. 18. Mic. 7. 3. Rhuf. 16. 18. 2 Petr 2. 3, 13, 14, 15. Judas 11, 12. Esa. 56. 11. Diammeu mai yn gyffelybiaethol yr arfer Solomon y geiriau, i ddangos nas dichon neb ddigoni eu chwantau, ond mai eu dyledswydd a'u cysur ydyw eu marweiddio, a dyosg yr hen ddyn, yn nghyd â'i chwantau llygredig, twyllodrus.

GELILOTH, dinas gyferbyn a rhiw Adummim. Jos. 18. 17.

GELYN—ION—IAETH, (gâl) cas-ddyn, esgar, ysgar, gwrthwynebwr; câs, dygasedd.

Tri chosp Cristion ar ei *elyn;* maddeu iddo, tewi arno, a gwneuthur daioni iddo hyd eithaf ei allu. *Barddas.*

Hoedl dyn nid *gelyn* a'i rhan. *Diar.*

Anian groes i gariad yw gelyniaeth; mae gelyniaeth anghymmodol rhwng Crist a'i ganlynwyr, a Satan a'i blaid yntau. Gen. 3. 15. Y mae dwy anian hollol wrthwyneb i'w gilydd yn gweithredu ynddynt; oddiwrth hyn y deilliodd holl erlidigaethau yr eglwys yn yr amrywiol oesoedd, er y cwymp yn Eden hyd yn hyn. 'Gelyniaeth a osodaf,' hyny yw, mae yn *gosod* y naill ac yn *goddef* y llall: a'r elyniaeth y mae efe yn ei *gosod* yn nghalonau ei bobl, nid gelyniaeth yw yn erbyn personau annuwiolion, ond yn erbyn delw Satan sydd arnynt, a'i achos, yr hwn y maent yn ei gynnal yn y byd; yn erbyn eu harferion a'u drwg-fucheddau. Y mae eu gelyniaeth yn cynnwys cariad at eu personau sydd yn cael eu dystrywio gan eu pechodau; at Dduw a'i gyfraith sanctaidd sydd yn cael eu dirmygu ganddynt.

Y mae 'syniad y cnawd,' a 'chyfeillach y byd,' yn 'elyniaeth yn erbyn Duw.' Rhuf. 8. 7, 8. Iago 4 4. Nid maent yn ddidduw, ond yn gasineb tu ag ato, ac yn gweithredu yn elyniaethol iddo ef, a'i achos, a'i bobl yn y byd. Gellir tynu ymaith yr elyniaeth, ond ni ellir byth ei chymmodi. Y mae hyn yn dangos yr angenrheidrwydd o ail-enedigaeth, a chyfnewidiad i gael ei weithredu trwy hyny yn syniad meddwl y dyn: heb hyn nis dichon Duw ac yntau byth gyfeillachu a chymdeithasu â'u gilydd.

Mae y ddeddf seremoniol yn cael ei galw y *gelyniaeth,* am ei bod yn dangos gelyniaeth Duw at bechod, yn gofyn iawn drosto; yn cynhyrfu gelyniaeth dyn yn erbyn Duw trwy iau drom y gwasanaeth Iuddewig; ac yn achlysur o elyniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd. Eph. 2. 15, 16. Trwy groes Crist, sef aberth Crist ar y groes, a ffydd ynddo, y mae yr elyniaeth yn mhob ystyr yn cael ei lladd. Ni chymmodir dynion yn wirioneddol a'u gilydd, nes y cymmodir hwynt yn gyntaf â Duw; ond 'yn Nghrist mae Duw yn cymmodi y byd âg ef ei hun.' 2 Cor. 5. 20. Mae mawredd cariad Duw yn ymddangos yn hynod, gan iddo garu gelynion mor fawr a rhoddi ei Fab i farw drostynt: 'canys pan oeddym elynion y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab.' Rhuf. 5. 10.

Mae Satan yn cael ei alw 'y gelyn, y gelyn ddyn.' Mat. 13. 25, 28. Luc 10. 19. Gelyn i Dduw a'i greaduriaid ydyw; y mae yn eu casâu, ac yn ceisio yn ddyfal eu dinystrio. Y mae dynion yn offerynau yn aml ganddo i daenu ei gyfeiliornadau yn mhlith eu gilydd, ac i hudo eu gilydd i bechu.

Gair trwm mae Samuel yn ei ddywedyd wrth Saul, 'fod Duw yn elyn iddo,' sef yn ymladd yn ei erbyn â'i farnedigaethau i'w ddystrywio. 1 Sam. 28. 16.

Y mae gorchymyn Crist yn dirion ac yn rasol iawn, yn peri i ni garu ein gelynion; yn hyn byddwn yn tebygu i Dduw, ac yn dilyn esiampl Crist. Mat. 5. 44. 1 Petr 2. 22, 23. Rhuf. 12. 20. Diar. 24. 17. a 25. 21. Uniawn y dywedodd y gwr hwnw (Soame Jenyns) 'Pe byddai y cenedloedd Cristionogol yn genedloedd o Gristionogion gwirioneddol, ni byddai sôn am ryfeloedd yn eu plith.' Edr. CARIAD, TEYRNAS, TEYRNASU.

GEMARIAH, *Heb.* גמריה [*cyflawniad yr Arglwydd*] 1. Mab Hilciah, yr hwn a anfonodd Zedeciah, brenin Judah, gyd âg Elasa, mab Saphan, at frenin Babilon, i ddwyn y deyrnged iddo. Hwy a ddygasant lythyr hefyd oddiwrth y prophwyd Jeremiah at y gaethglud yn Babilon, yn eu rhybyddio rhag celwydd y gau-brophwydi yn eu twyllo â gobaith o ddychweliad buan o'u caethiwed; ac hefyd yn cynnwys addewid yr ymwelai yr Arglwydd â hwynt yn mhen deng mlynedd a thriugain, ac hefyd y dygai efe hwynt drachefn i Jerusalem. Jer. 29. 3, 4.——2. Mab Saphan, tywysog a chynghorwr y brenin Jehoiacim, o flaen yr hwn, yn nghyd â'r tywysogion eraill, y darllenodd Baruch fab Neriah, lyfr prophwydoliaethau Jeremiah yn erbyn Jerusalem, i'w mynegi i'r brenin. Jer. 36. 12, 13.

GEM—AU, (em) *Llad.* GEMMA; maen gwerthfawr, tlws, glain. Enw cyffredin yw am bob math o feini gwerthfawr. Llawer a ddadleuwyd yn nghylch rhinweddau meddyginiaethol gemau; ond nid cymaint o goel a roddir arnynt am hyny yn bresennol ag yn y dyddiau gynt. Yn allegawl, y maent yn arwyddo y pethau gwerthfawrocaf, pethau ysbrydol a sanctaidd; athrawiaethau ac addewidion yr efengyl, y rhai sydd werthfawrocach na gemau; rhybyddion caredig a cheryddon, yr olew penaf. Na theflwch y rhai hyn, medd Crist, o flaen dynion mochynaidd, sydd yn ymdroi mewn tom llygredigaeth a phob aflendid. Tra byddont, yn yr ystyr hwn, yn gyffelyb i foch; yn lle eu gwerthfawrogi, hwy a'u sathrant dan eu traed yn anmharchus, ac a'ch rhwygant chwithau. O barch i'r pethau sanctaidd, ac er eich diogelwch eich hunain, na theflwch hwynt o flaen y cyfryw foch, ond ymgedwch oddiwrth eu cyfeillach halogedig. Wrth *gwn* a *moch* yma, medd Mr. Perkins, y mae i ni ddeall, nid pechaduriaid yn gyffredinol, ond gelynion cyndyn adgas, sydd yn dangos eu gelyniaeth yn amlwg yn erbyn y gwirionedd. Gal. 4. 30. Titus 3. 10, 11.

GEMWAITH.—'Gemwaith aur yw ei gwisg hi.' Ps. 45. 13. Y cyfryw ag a ddarlunir yn Ezec. 16. 13. 'Felly y'th harddwyd âg aur ac arian, a'th wisg oedd liain main, a sidan, a gwaith edau a nodwydd.' Y gair שבץ a gyfieithir *gemwaith,* sydd yn cael ei gyfieithu *boglynau,* yn Exod. 28. 11, 13. Arwydda y cylchau euraidd yn mha rai y gosodent feini gwerthfawr ar wisgoedd goreuon a phendefigesau. Yma arwydda harddwch godidog yr eglwys, gwedi ei haddurno â gwisgoedd iechydwriaeth. Cyfiawnder dwyfol ei phriod am dani, a ffrwythau sanctaidd yr Ysbryd ynddi yn dufewnol ac yn allanol, yn ei holl ymarweddiad, a harddant yr eglwys yn ogoneddus rhagor neb arall. Nid bratiau budron, ond gemwaith aur, hardd, a drudfawr, yw ei gwisg hi. Rhuf. 3. 22. a 13. 14. Dat. 3. 18. Mat. 5. 16. a 22. 11.

GEN—AU, (ge-en) safn, ael-gerth, càr gên. Y genau, y gwefusau, a'r tafod, ydyw y rhanau hyny o'r corph ag sydd wasanaethgar i ymborthi ac ymadroddi â hwynt. Mae y tri gair, weithiau, yn arwyddo iaith neu ymadrodd. Job 2. 10. a 19. 16. Diar. 12. 16. Y genau, weithiau, a arwydda ddrws, neu fynediad i mewn. Dan. 3. 26. A min, neu wefus, a arwydda ymyl. 2 Bren. 2. 13.

Digitized by Google

Genau yn cael ei briodoli i'r Arglwydd, a arwydda ei ewyllys, ei awdurdod, ei air, neu ei addewid. Esa. 1. 20. Ps. 105. 5. Esa. 40. 5. a 55. 11. Galar. 3. 38.—'Gwialen ei enau,' ac 'Ysbryd ei enau,' ydynt awdurdod effeithiol ei air yn gweithredu yn anwrthwynebol i gospi a dyfetha ei elynion. 'Yna y dadguddir yr anwir hwnw (sef Anghrist) y dyn pechod, yr hwn a ddyfetha yr Arglwydd âg Ysbryd ei enau.' Bydd dysgleirdeb y gwirionedd yn ei ddadguddio, pwy, a pheth ydyw; ac Ysbryd y gwirionedd, trwy ei effeithioldeb, yn ei ddyfetha. Esa. 11. 4. 2 Thes. 2. 8.——'Tarewais hwynt (medd yr Arglwydd) trwy y prophwyd; lleddais hwynt â geiriau fy ngenau.' Hos. 6. 5. Dyma y cleddyf llym sydd yn dyfod allan o'i enau, i daro y cenedloedd âg ef. Dat. 19. 15.

'Agor genau un,' yw peri iddo, a'i gynnorthwyo, i lefaru yn ëofn, yn rhwydd, yn hyderus, ac yn orfoleddus. Num. 22. 28. Ps. 109. 2. Job 3. 1. Ps. 51. 15. Neu gwrando yn astud, fel y gwna rhai trwm eu clyw wrth wrando. Ps. 119. 131.

'Cau genau un,' ydyw peri i un beidio llefaru gan deimlad o gywilydd ac euogrwydd. Rhuf. 3. 19. Ps. 63. 11. Mic. 7. 5. Preg. 12. 4.——'Rhoddi llaw ar y genau,' ydyw un yn cael ei daro yn fud gan ddychryn a chywilydd. Mic. 7. 16.——'Ffrwyno y genau,' ydyw ei attal yn wyliadwrus rhag llefaru yn bechadurus, yn drahaus, ac yn anystyriol. Iago 1. 26. Ps. 39. 1. a 141. 3.——'Nesâu at Dduw â genau,' y mae dynion, pan na byddont ond yn ymddangosiadol ac yn allanol yn addoli Duw; heb fod eu hysbrydoedd yn cyd-ymagweddu yn barchus, a hwythau yn ei addoli ef mewn ysbryd a gwirionedd. Esa. 29. 13. Ezec. 33. 31. Mat. 15. 8.——Dynion a 'osodant eu genau yn erbyn y nefoedd,' pan y llefarant yn ffromuchel, yn draws-falch, heb ofn a pharch i Dduw. Ps. 73. 9. Ezec. 35. 13.——'O helaethrwydd y galon y llefara y genau.' Mat. 12. 34. Am hyny, 'genau y cyfiawn a ddwg allan ddoethineb; ond genau y dryglonus a lefara drawsedd—a lygra ei gymydog—a lefara wagedd.' Diar. 10. 31, 32. a 11. 9. Ps. 144. 8. Edr. SAFN, TAFOD.

GENFA, (gên) ffrwyn, gwênfa. Ps. 32. 9.

GENESIS, *Gr.* Γενεσις [*cenedliad*, neu *cenedlaeth*]. Gelwir y llyfr hwn yn Hebraeg בראשית oddiwrth y gair cyntaf ynddo. Galwodd y Groegiaid ef GENESIS, *cenedliad*, am ei fod yn cynnwys hanes am genedlaethau y nefoedd a'r ddaear, pan grewyd hwynt; ac hefyd am y rhoddir ynddo hanes cenedlaethau Adda, a'r hen batrieirch. Pen. 2. 4. a 5. 1. Moses oedd yr ysgrifenydd o hono, dan ysbrydoliaeth dwyfol. Am hyn nid oes dim ammheuaeth. Y mae y pum llyfr yn cael eu galw, ***Llyfr Moses***, ***Llyfr Cyfraith Moses***, sef Llyfr Cyfraith yr Arglwydd, trwy law Moses. Marc 12. 26. Luc 2. 22. 2 Bren. 14. 6. 2 Cron. 34. 14. Pa bryd yr ysgrifenodd ef, nid yw yn gwbl hysbys; wedi ei osod, tebygol, yn ei swydd oruchel, fel blaenor ar bobl Israel. Cynnwys hanes y byd o'r dechreu hyd farwolaeth Joseph, sef dros 2369 o flynyddoedd. Edr. ADDA, EFA, CREADIGAETH, &c. Y mae ynddo gorph o ddefnyddiau hanesiol gwedi eu crynhoi yn nghyd, o ddyddiau boreuol y byd, am ba rai nid oes genym ddim hanes arall sydd gredadwy, ag sydd yn gwneuthur y llyfr rhagorol hwn o'r gwerth mwyaf. Gwelwn ynddo y bydoedd, a holl gyflawnder eu dodrefn hardd, yn cael eu dwyn, trwy fawredd gallu dwyfol, o ddiddim, i fod, yn hawdd, yn drefnus, ac yn ogoneddus; dyn yn cael ei osod yn y byd, yn ben-arglwydd arno, mewn cyflwr sanctaidd a dedwydd; pechod yn dyfod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ffrwythau y cnawd yn amlhau ac yn cynnyddu yn ddirfawr; a digofaint Duw o'r herwydd yn dyfetha y byd a'i drigolion, trwy farn gyffredinol y diluw mawr. Yn yr addewid yn Eden i'n rhïeni cyntaf, yn foreu iawn wedi iddynt bechu, dadguddir i ni y wawr gyntaf o arfaeth a threfniad tragywyddol Duw, i achub pechaduriaid o'u trueni mawr, trwy Iesu Grist, Hâd y Wraig. Y mae y dadguddiad grasol hwn yn raddol yn myned ar gynnydd, ac addewidion yn cael eu hychwanegu i Noah, Abraham, Isaac, Jacob, &c. Gwelwn ragorwydd ac effeithioldeb yr addewid yn neillduol Abel, Enos, Noah, Abraham, Isaac, Jacob, Joseph, Melchisedec, &c., i Dduw a'i addoliad, oddiwrth y byd llygredig. Y mae gelyniaeth y ddau hâd yn ymddangos o hyd, trwy yr holl oesoedd boreuol hyn. Yn hanes meibion Noah a'u gwasgariad, rhoddir i ni olwg gynnwysfawr ar ddechreuad cenedloedd y ddaear, a theyrnasoedd y byd; cymysgiad ac amrywiaeth ieithoedd y byd; dechreuad Ninifeh a Babilon, dwy o'r dinasoedd mwyaf a fu erioed. Oni buasai i'r Arglwydd roddi i ni yr hysbysrwydd hwn, buasem yn ymbalfalu yn y tywyllwch yn hollol, agos, am yr holl hen oesoedd y byd, a'r hyn a ddygwyddodd ynddynt. Ceir yma hanes am y rhyfel cyntaf a fu yn y byd erioed (pen. xiv.) dystryw Sodom a Gomorrah; ffurfiad y Môr Marw yn ganlynol i hyny, yr hwn sydd wedi dal sylw pawb trwy y pethau neillduol o briodol iddo rhagor un môr arall.

Er fod y llyfr hwn yn neillduol o werthfawr a defnyddiol o ran y trysorau digymhar sydd ynddo o hanesiaeth boreuol pob peth; etto yn benaf y mae ei werth yn anmhrisiadwy oblegid y wybodaeth a roddir i ni ynddo am Dduw ein Creawdwr; ein cyflwr dan y cwymp fel pechaduriaid truenus; yr addewid o Waredwr; ac effeithioldeb yr addewid hòno i ddwyn pechadur yn ol at Dduw, a'i nerthu i rodio gyda Duw. Hyfryd yw gweled pechaduriaid yn waredigion, a'r cymundeb rhydd, cyfeillgar, ar sail yr addewid rad, sydd rhyngddynt hwy â Duw—gofal Duw am ei bobl yn mhob amgylchiad, a'u ffyddlondeb hwythau iddo. Y mae hanes Joseph yn rhagori clod, gwedi ei ysgrifenu yn annynwaredadwy, ac yn anghymarol yn holl hanesion y byd. Y mae ynddo brophwydoliaethau sydd yn yr holl oesoedd yn cael eu cyflawni hyd heddyw, yn dadguddio ëangder trefn Duw; ei hysbysrwydd o'i holl fwriadau a'i amcanion erioed; ac yn brawf diammheuol o ddwyfoldeb y llyfr hwn. Pen. ix, xlix.

Yn ngeiriau Lamech wrth ei wragedd—Noah wrth ei feibion—ac yn ngeiriau Isaac a Jacob yn bendithio eu meibion, cawn, yn ol barn y beirniaid mwyaf dysgedig,* y brydyddiaeth hynaf yn y byd, a hòno wedi ei chyfansoddi dan ddwyfol ddylanwadau; ac yn cynnwys prophwydoliaethau am ansawdd ac amgylchiadau holl genedloedd y ddaear hyd ddiwedd amser.† Y mae argraff ddwyfol i'w ganfod ar yr holl lyfr, yn cynnwys dechreuad dadguddiad dwyfol i ddynion, a sylfaen y cwbl a ddadguddiwyd i'r eglwys yn yr amrywiol oesoedd wedi hyny. Mae y cwbl yn yr Hen Destament a'r Newydd yn cyfeirio at yr hanesiaeth a'r dadguddiad boreuol cynnwysedig yn hwn.

Ar y llyfr hwn, heblaw esbonwyr cyffredin o'r Bibl, gwel Andrew Willet, Henry Ainsworth, A. Fuller, a Dr. Francis Roberts *on the Covenants*.‡

GENI, GENEDIGAETH—FA, (gân) *Gr.* γινομαι; cenedlu, esgor, cael dechreuad; cenedliad, esgoriad, dechreuad; esgoreddfa.—'Canys y meibion a ddaethant hyd yr anedigaethfa.' Esa. 37. 3. Dr. M. Genedigaeth naturiol ydyw, pan y byddo plentyn yn

* Gwel Esgob Lowth *De Sacra Poesi Heb. Præl.* 4.

† In iis positæ fuerint, non modo Israeliticæ gentis, sed et humani etiam generis fortunæ. *Ibid.*

‡ Cyfeirir y darllenydd ymchwilgar hefyd at waith rhagorol y Dr. Hengstenberg *on the Pentateuch*. Graves, *Lectures on the Pentateuch*. Robertson's *Clavis Pentateuchi*. Jamieson's *Critical and Practical Exposition of the Pentateuch*.—C.

Digitized by Google

cael ei eni yn mhen naw mis wedi ei genedliad. Mae rhai yn cael eu geni yn mhen saith neu wyth mis; y rhai a enir yn mhen saith mis ydynt yn fwy tebygol i fyw na'r rhai a enir yn mhen wyth mis; am mai achos y cyntaf yw cryfder y plentyn, ac achos y llall yw gwendid y fam. Nid yw plant wyth mis ond yn anaml yn byw.

Am fod dyn yn cael ei eni mewn pechod, neu yn bechadur, mae yn cael ei eni i flinder a helbul. Job 5. 7. a 14. 1. 'Dyn a aned i flinder;' hyny yw, dyna ei ran a'i etifeddiaeth; mae blinder yn etifeddiaeth i ni trwy dadogaeth, fel yr ydym, hil ac eppil, yn bechaduriaid. Hefyd, y mae tueddfryd naturiol ynddo i bechod, a thrwy hyny i flinder. Mae y fath gysylltiad rhwng pechod a blinder, fel mae yr un gair Hebraeg (עמל) yn arwyddo pob un o'r ddau. Dyma holl gyfoeth dyn yn ei enedigaeth, sef pechod a blinder.

'Yr Arglwydd a gyfrif pan ysgrifeno y bobl, eni hwn yno.' Ps. 87. 6. 'Yr Arglwydd a gofnododd, pan ysgrifenodd y bobl, y byddai yr enw hwn gael ei eni.' Gwel Romaine's *Letters, let.* xxxvi. Tebygol fod y geiriau yn rhagfynegi geni yn Sïon y mwyaf a aned, neu a enir byth, sef y 'Bachgen a aned, a'r Mab a roddwyd.' Esa. 9. 6.

In their records to them it shall,  
By him be made appear  
Of Zion, that the CHIEF OF ALL  
Had his beginning there. *J. Hopkins.*

1. Ganed Crist o forwyn, ac nid o wraig, yn ol trefn natur: 'Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef, IMMANUEL.' Esa. 7. 14. Mat. 1. 23. Nid trwy nerth a rhinwedd y geiriau yn nghreadigaeth dyn, 'Ffrwythwch ac amlhewch,' ond trwy nerth yr Ysbryd Glân, y cenedlwyd dynoliaeth Crist, o sylwedd y Forwyn Fair. Gan ei genedlu o *sylwedd* y forwyn, y mae yn wir hâd y wraig—hâd Abraham—mab Dafydd—a mab y forwyn; trwy hyny mae yn Fab dyn—yn Frawd wedi ei eni erbyn caledi—yn agos berthynas—ac yn gyfathrachwr â ni. Yr oedd y Tri Pherson yn gweithredu yn neillduol yn nghenedliad dynoliaeth Crist: y Tad yn trefnu ac yn parotoi; yr Ysbryd Glân yn gweithredu yn nerthol yn ffurfio y ddynoliaeth o sylwedd y forwyn; a'r Mab yn cymeryd y ddynoliaeth a ffurfiwyd i undeb personol âg ef ei hun—a'r cwbl yn yr un mynydyn. Ps. 40. 6, 7. Heb. 10. 5. Luc 1. 35. Heb. 2. 16. Y benaf o weithredoedd y Duwdod yw hon; yn yr hon y mae yr amlygiad mwyaf o gariad, doethineb, a gallu dwyfol, a welir byth. 'Pan gymerodd y Mab arno waredu dyn, ni ddiystyrodd fru y wyryf.' Yr oedd hyn yn angenrheidiol, i'w wneuthur, o ran ei Berson, yn Gyfryngwr addas. Edr. CYFRYNGWR.

2. Ganed ef hefyd yn ddibechod. Er ei fod yn Fab dyn, etto, am genedlu ei ddynoliaeth yn oruwchnaturiol, sef nid trwy rym y geiriau 'ffrwythwch ac amlhewch,' ac nid yn ol deddf a threfn natur yn nghenedliad pawb, o sylwedd y forwyn, nid oedd yn lwynau Adda, nac yn nghyfammod Adda; am hyny yr oedd yn hollol rydd oddiwrth euogrwydd y trosedd cyntaf, a'r llwgr canlynol i hyny. Anaddas yw dywedyd fod Crist dan y cyfammod gweithredoedd, ac iddo gyflawni hwnw; pe buasai felly, buasai yn euog o'r trosedd o hono, ac yn gyfranog o'r holl lwgr a darddodd o hyny. Nid aeth dano chwaith wedi ei eni; canys yna buasai holl ddeiliaid y cyfammod hwnw i gyd yn gadwedig. Yr oedd ef yn ben-cyfammodwr mewn cyfammod arall hollol wahanol oddiwrth y cyfammod hwnw âg Adda, ac un mwy goruchel a gogoneddus, i'r dyben o gyfodi rhai o ddeiliaid y cyfammod toredig hwnw, a ddetholodd Duw, o'i ben-arglwyddiaeth a'i ras, odditan felldith y cyfammod hwnw, a holl effeithiau y cwymp mawr: i gwblhau hyny yr oedd yn rhaid fod ganddo ddynoliaeth, a hòno yn ddibechod. *Peth sanctaidd* oedd yn ei enedigaeth.

3. Ganwyd ef yn ddyn bach fel ninnau, ac yr oedd yn derbyn magwraeth, ac yn cynnyddu yr un fath a phlant eraill: 'Yr Iesu a gynnyddodd mewn doethineb a *chorpholaeth.*' Luc 2. 52. Yr oedd holl fychanrwydd a gwendidau dibechod y natur ddynol yn perthyn iddo, yn ei febyd a'i ieuenctid. Rhwymwyd ef mewn cadachau; bu yn derbyn magwraeth naturiol oddiwrth ei fam, a phob cymhorth ac ymgeledd angenrheidiol i gyflwr mebyd fel eraill. Luc 2. 12.

4. Ganwyd ef yn yr amgylchiadau mwyaf isel; mewn aman, neu ystabl, y ganed ef; a'i fam a'i dododd mewn preseb yno i orwedd, am nad oedd iddynt le yn y lletty—yr oedd lle i eraill, ond nid iddynt hwy; am fod, tebygol, eu gwedd yn dlodaidd, a'u meddiannau ond ychydig i dalu eu ffordd. Fel hyn, ein Harglwydd, ac yntau yn gyfoethog, er ein mwyn ni a aeth yn dlawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef. 2 Cor. 8. 9. Luc 2. 24. Lef. 5. 7. Amos 9. 11.

5. Ganwyd ef yn Bethlehem, dinas fechan oddeutu chwe milltir o Jerusalem, yn ol y brophwydoliaeth eglur am dano. Mic. 5. 2. Mat. 2. 6. Y dref lle y bu Dafydd. Ioan 7. 42.

6. Ganwyd ef hefyd yn nghyflawnder yr amser a drefnwyd yn fwyaf cymhwys ac addas gan ddoethineb dwyfol, ac y rhagfynegwyd am dano gan y prophwydi. Gal. 4. 4. O herwydd llawer o ddybenion hysbys i Dduw, nid oedd yn addas iddo gael ei eni yn gynt na chwedi hyny. Cafodd y byd brawf digonol o annigonolrwydd *pob peth* i achub a diwygio plant dynion pechadurus, cyn geni yr Achubwr mawr. Daeth pan oedd y byd yn llawn o drigolion, a theyrnas Satan, trwy rym y bedwaredd ymerodraeth Daniel, yn ei chadernid mwyaf. Daeth pan oedd mwyaf angen am dano, a phan oedd amynedd y saint yn dysgwyl am dano agos a darfod mewn anobaith, ond fel yr oedd ffydd yn ngwirionedd addewidion Duw yn eu cynnal. Ganed ef pan yr oedd y deyrn-wïalen wedi ymadael o Judah yn marwolaeth Herod Fawr, yn ol prophwydoliaeth Jacob am dano. Gen. 49. 10. Gwedi marwolaeth Herod, daeth Archelaus i'r orsedd, ond diorseddwyd ef yn fuan gan ymerawdwr Rhufain: gwedi hyny, rhaglawiaid dan ymerawdwyr Rhufain fu yn llywodraethu arnynt, hyd nes dinystriwyd eu dinas, ac y gwasgarwyd hwy o'u gwlad. Edr. DEDDFWR.

7. Er ei eni mewn amgylchiadau tlawd a gwael, nodwyd ei enedigaeth gyda pharch neillduol gan drigolion dysglaer y goleuni; a thywalltwyd yr Ysbryd Glân ar rai o breswylwyr daear i ganu anthem o orfoledd a mawl ar yr achos mwyaf gogoneddus a gorfoleddus a fu erioed ar y ddaear. Bu holl angelion Duw yn ei addoli, a chanodd sêr y boreu, wedi hir ddysgwyl cyflawniad y prophwydoliaethau am dano, gan orfoledd a syndod wrth y weithred fwyaf rhyfedd a welsant, neu a welant byth. Llamodd Ioan Fedyddiwr yn nghroth ei fam o lawenydd; pynciodd Elizabeth a Mair yn rhagorol ar yr achos; Zacharias dduwiol a'r bugeiliaid, yn nghyd â'r hen Simeon ac Anna, a foliannasant Dduw yn beraidd-hyfryd am ei ryfeddodau, yn hyn, i feibion dynion. Yn fuan wedi ei eni, daeth doethion o'r dwyrain i anrhegu y mab bychan fel brenin yr Iuddewon, wedi cael eu harwain i'r lle yr oedd gan ei seren. 'Gwelsom ei seren ef yn y dwyrain,' meddent, 'a daethom i'w addoli ef.' Mat. 2. 2. Edr. DOETHION.

'Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw. Ioan 1. 13. 'Y rhai ni aned o waed,' sef yn ol deddf natur; 'nac o ewyllys y cnawd,' fel y ganed Ismael o ewyllys y cnawd yn Sarah i gael plant; 'nac o ewyllys gwr,' fel yr oedd ewyllys Isaac i Esau gael y fendith; 'eithr o Dduw' yn gwbl: ynddo ef yr oedd yr achos

Digitized by Google

cynhyrfiol; ei ras a'i ewyllys da ei hun a'i tueddodd i drugarhau wrthynt; efe a weithredodd yn nerthol ynddynt i'w cyfnewid, ac i roddi ei anian yn eu calonau; efe a'u derbyniodd yn rasol fel ei blant, ac a ymddygodd fel Tad tu ag atynt. Y rhai a aned fel hyn yn rasol o Dduw ydynt yn gweled gwerth ac addasrwydd yn Nghrist, ac yn gwneuthur derbyniad cyflawn o hono. Edr. Adenedigaeth.

'Dy drigfa a'th enedigaeth sydd o wlad Canaan; dy dad oedd Amoriad, a'th fam yn Hittees.' Ezec. 16. 3. Yr wyt mor hynod o lygredig a ffiaidd a phe buasit wedi dy eni o'r gwaethaf o'r Canaaneaid, y rhai a orchymynodd Duw eu hollol ddystrywio oblegid cyflawnder eu hanwiredd. Gen. 10. 25. a 15. 16. Lef. 18. 25. Deut. 7. 2. 1 Bren. 21. 26. Nid oedd dechreuad y genedl Iuddewig ddim gwell na'u dechreuad hwythau; yr Arglwydd a dosturiodd wrthynt o'i rydd ewyllys a'i drugaredd ei hun; ac a wnaeth iddynt ragori ar eraill trwy ei ymgeledd rasol gyflawn iddynt.

GENEDIGAETH-FRAINT. Edr. Braint.

GENI, (gan) gweddu, dalànu, cynnwys.—'Y mae llawer yn gèni ynddo.' Ezec. 23. 32.—'Am nad yw fy ngair i yn gèni ynoch chwi.' Ioan 8. 37.—'Can nad oes lle i'r gair meuvi ynochwi.' W. S. Y mae yr un gair χωρεω, yn cael ei gyfleithu *gànu*, yn Marc 2. 2.—*dal,* Ioan 2. 6.—*cynnwys,* Ioan 21. 25.—*derbyn,* 2 Cor. 7. 2. Yr oedd eu calonau mor llawn o dywyllwch, rhagfarn, a gelyniaeth yn erbyn yr Arglwydd Iesu, fel nad oedd lle i'w air ynddynt. Nid ydyw yn dywedyd, nid ydych yn gwrando fy ngeiriau, neu nid ydyw yn cael llawer o le ynoch, ond nid oes lle i fy ngair i ynoch; y mae y meddwl yn ei wrthod, a'r galon yn nghauad yn ei erbyn. Os bydd o lesâd i ni, rhaid i'r gair èni ynom, fel ymborth iachus i fod yn fagwraeth i ni; neu gyfferi meddyginiaethol i'n hiachâu. Y sawl nad ydyw y gair yn gèni ynddynt, o ran eu hadnabyddiaeth, a'u cymeradwyaeth o hono, i'w ddefnyddio i'r dybenion y mae pob rhan o hono wedi ei roddi, y maent dan lywodraeth y nwydau mwyaf echryslon, fel yr Iuddewon yma, am ladd yr Arglwydd Iesu. Jer. 22. 21. Exod. 6. 9. Mat. 13. 15, 20, 21. Act. 17. 19, 20, 21. 1 Cor. 2. 14.

GENNESARET, yr un a Chinnereth. Jos. 19. 35. Y tir Gennesaret o du y gorllewin i Fôr Tiberias, yr hwn a elwir Llyn Gennesaret. Luc 5. 1. O du y dehau i ddinas Cinnereth yr oedd gwastad-dir gyd âg afon yr Iorddonen, hyd y Môr Marw; a hwn, tebygol, yw tir Gennesaret.

GERA, גרא [*pererindod*] 1. Tad Ehwd. Barn. 3. 15.——2. Tad Simei. 2 Sam. 16. 5.——3. Mab Benjamin. Gen. 46. 21. Fe allai yr un a mab Bela (yn ol 1 Cron. 8. 3, 5.) cyntaf-anedig Benjamin.

GERAH, ugeinfed ran o sicl: ugain gerah yw sicl. Exod. 30. 13. Y bath Iuddewaidd lleiaf ydoedd.

GERAR, neu GERARAR, dinas y Philistiaid, yn y dehau-orllewin i wlad Canaan, nid yn nebpell o Beerseba a Gaza. Yr oedd tiriogaeth Gerar yn cyrhaedd yn mhell i Arabia Garegog. Yr oedd dan lywodraeth breninoedd a enwid Abimelech: bugeiliaid un o honynt a ymrysonasant â bugeiliaid Isaac, am y ffynonau a gloddiasant. Gen. 10. 19. a xx, xxvi. Dywedir i Judas Maccabæus gael ei wneuthur yn llywodraethwr penaf ar Ptolemais hyd y Gerrheniaid. 2 Mac. 13. 24.

GERGESIAID, preswylwyr Gergesa, tu hwnt i Fôr Tiberias. Yn y wlad hon, pan yr aeth yr Arglwydd Iesu iddi, y cyfarfu dau ddieflig âg ef. Mat. 8. 28. Edr. Gadara.

GERMAIN, (garm) wylofain, griddfan.

> Pan eisteddo ar fainc y frawd,
> Fe glyw y tlawd yn *germain.*
> *E. Prys,* (Ps. 9. 12.)

GERSOM, *Heb.* גרשם [*dyeithr yno*] mab Moses a Sephorah. Exod. 2. 22. a 18. 3. 1 Cron. 26. 24.

GERSON, *Heb.* גרשון [*ei alltudiad*] mab hynaf Lefi. Num. 3. 17. Rhifedigion teulu Gerson pan ddaethant o'r Aipht oeddynt 7500. Teuluoedd y Gersoniaid a wersyllasant ar y tu ol i'r tabernacl tu a'r gorllewin. Gweinidogaeth tylwyth y Gersoniaid oedd dwyn llèni y tabernacl, ac Ithamar, mab Aaron, oedd i'w llywodraethu yn eu gwasanaeth. Num. 3. 21—25. a 4. 24—28. Rhoddwyd iddynt dair ar ddeg o ddinasoedd yn ngwlad Canaan. Jos. 21. 27—33. 1 Cron. 6. 71—76. Yr oedd dwy gangen i deulu Gerson, sef Laadan a Simei; penaethiaid meibion Laadan yn nyddiau Dafydd oeddynt Jehiel, Zetham, a Joel; Selomith, Haziel, a Haran; a meibion Simei oeddynt Jahath, Zizah, Jeus, a Beriah. 1 Cron. 23. 7—11. Meibion Jehiel, Setham a Joel, oeddynt olygwyr ar drysorau tŷ yr Arglwydd. 1 Cron. 26. 21, 22.

GERWIN—DEB, (garw) agarw, afrywiog, llym, dyscethrin, ystyfnig.—'Y cyfoethog a etyb yn erwin.' Diar. 18. 23. Effaith cyfoeth ar ddynion ansanctaidd yw eu gwneuthur yn afrywiog a sarug, gan hyderu ar eu cyfoeth yn lle ar yr Arglwydd. Exod. 5. 2. 1 Sam. 25. 10, 11. Iago 2. 3. Jer. 49. 16.

GESEM, GASMU, Arabiad oedd yn mysg gwrthwynebwyr Nehemiah i adeiladu Jerusalem. Neh. 6. 1, 6.

GESUR—IAID, *Heb.* גשור [*golwg y dyffryn*] 1. Dinas neu wlad o du y dehau i Damascus, a thu y dwyrain i'r Iorddonen. Pa un ai Canaaneaid ai Syriaid oedd y Gesuriaid, nid yw yn amlwg. Ni yrodd meibion Israel allan na'r Gesuriaid, na'r Maachathiaid, eithr trigasant yn mhlith meibion Israel; ond Jair a ennillodd Gesur. Jos. 13. 11, 13. 1 Cron. 2. 23. Yn amser Dafydd, Talmai oedd frenin Gesur, merch yr hwn a briododd Dafydd, ac yr oedd yn fam i Absalom. I Gesur y ffôdd Absolom, wedi lladd ei frawd. 2 Sam. 13. 37.——2. Gesur, neu Gesuri, oedd le y tu dehau-ddwyrain i wlad y Philistiaid. Dafydd a'i filwyr a ruthrasant ar y Gesuriaid pan oeddynt yn trigo yn Siclag. 1 Sam. 27. 8.

GETHER, *Heb.* גתר [*dyffryn profedigaeth*] mab Aram, mab Sem. Gen. 10. 13.

GETHSEMANE,* *Heb.* גת־שמנים [*dyffryn yr olew,* neu *olew-wryf*] pentref ar fynydd yr Olewwydd, yn agos i Jerusalem; yn mha le yr oedd, tebygol, olew-wryf. Yma y byddai ein Hiachawdwr yn ymneillduo yn aml o Jerusalem; ac mewn gardd yn agos yma y bu yn ei ymdrech chwerw yn chwysu y gwaed yn ddafnau i'r llawr, lle y daliwyd ef gan Judas a'i fyddin. Mat. 26. 36—50.

GEUDAB, neu GEUDEB, (gau) celwydd, twyll.—'Geudab yw meibion gwyr.' Ps. 62. 9. Wrth בני אדם *meibion dynion,* a בני איש *meibion gwyr,* y deallir pob math o ddynion, gwreng a boneddig, isel radd ac uchel radd, y tlawd a'r cyfoethog: Ps. 49. 2. i'w gosod oll gyd â'u gilydd yn y clorian i'w pwyso, a gwegi (חבל *tarth, anadl*) neu *ewyn dwfr,* yn y pen arall, y maent yn nghyd (יחד) yn ysgafnach na hwnw.

* Tebygol mai enw ydoedd ar faes bychan, neu ardd, ychydig allan o Jerusalem, dros yr afon Cedron, ac wrth droed mynydd yr Olew-wydd. Mae y man a nodir allan yn awr fel yr ardd yn mha un y bu ein Hiachawdwr yn ei ymdrech chwerw, yn 250 o droedfeddi ysgwar, yn cynnwys wyth o goed olew-wydd hen iawn, ac wedi ei gylchynu â mur isel o geryg rhydd. Gwel Robinson's *Researches in Palestine.*—C.

Nid oes dim yn yr holl greadigaeth yn ysgafnach na hwynt. 'Pan gyfodant yn y clorian,' Dr. M. sef pan y pwysir hwynt yn wirioneddol, ni cheir dim yn ysgafnach. Am hyny nid ydynt yn wrthddrychau i'w hofni, nac i ymddiried iddynt; ond dysgwyliwn wrth Dduw yn unig, ac ofnwn ef, yr hwn yn unig sydd â mawredd yn perthyn iddo. Esa. 14. 15, 17. Dan. 4. 35. Rhuf. 3. 4.

GEWYN, (gaw) gïeuyn, cyhyr. Y gewynau, neu y cyhyrau, ydynt y rhanau cnawdol, neu y llinynau mân hyny o gorph dyn ac anifel, sydd fel rhaffau yn offerynol i bob ysgogiad neu symudiad. Mewn addasrwydd ymadrodd, gewyn yw dau ben y cyhyr, ag sydd yn ei gydio ef wrth yr asgwrn. Byddai y cymalau yn hollol ddiddefnydd heb fod y gewynau: y gewynau sydd yn eu cylymu hwynt wrth eu gilydd, ac yn peri pob ysgogiad o'r eiddynt. Y mae gewyn addas i bob ysgogiad a symudiad o'r holl aelodau; a chan fod aelodau yr holl gorph yn gofyn llawer o ysgogiadau, y mae yn rhaid bod nifer y gewynau yn dra lliosog; ond nid ydyw y difyniaethwyr (*anatomists*) yn cytuno yn nghylch eu nifer: rhai a gyfrifant 529; eraill 446; ac eraill 436.* Hyn sydd sicr, ni ddichon fod un ysgogiad, mewn un ffordd, nac mewn un gradd, y tu fewn neu y tu allan, heb fod gewyn yn perthyn i'r ysgogiad hwnw. Y mae llawer o'r gewynau, neu yn hytrach y cyhyrau, weithiau yn cyd-weithredu i gwblhau yr un gorchwyl. Mae Dr. Nieuentyth yn cyfrif cant o gyhyrau yn gweithredu bob tro yr anadlo dyn. Anadlu sy fendith angenrheidiol i ni bob mynydyn o'n bywyd; etto, ychydig ydym ni yn ei ystyried pa fath drefniad amrywiog o bethau yn cyd-weithredu yn hawdd, yn gyflym, ac yn ddiddyrysni, sydd angenrheidiol tu ag at gael y fendith hòno yn ddirwystr. Y mae y rhan fwyaf o ysgogiadau pob rhan o'r corph wrth ewyllys dyn; ond y mae rhai o honynt heb fod felly, megys ysgogiadau y galon, yr ysgyfaint, y coluddion, &c., sef yr ysgogiadau sydd angenrheidiol at gynnaliaeth bywyd y creadur. Rhaid i'r rhanau hyny o'r corph weithio pan fyddo y creadur yn cysgu; am hyny mae eu hysgogiadau, fel mynediadau y cyrph nefol, yn cerdded wrth orchymyn Duw. Ond yr ysgogiadau angenrheidiol i gerdded, gweithio, gostwng, codi, &c., maent oll wrth ewyllys y creadur. Byddai yr ysgogiadau hyn yn anghyfleus, ac yn anhyfryd, pe na byddent felly. Y mae cyflymdra ysgogiadau y cyhyrau i'w ryfeddu yn fawr. Ysgogiadau y tafod, pan fyddo un yn areithio, ydynt amrywiol, cyflym, a diball; ac mae cyhyr yn gweithredu pob un o'r ysgogiadau: pe pallai un o'r cyhyrau weithredu, byddai pall yn yr ymadrodd yn y fan. Y mae pob sill a swnir yn gofyn ysgogiad y tafod a'r genau priodol i'r sill hòno; y mae amryw sillau yn yr un gair, ac amryw eiriau yn yr un darn o ymadrodd; etto areithia un am oriau heb ball yn sain un sill.—— Y mae nerth y gewynau yn dra rhyfedd. Rhaid i'r nerth bob amser fod yn fwy na'r pwys i'w godi, neu ei symud; ie, weithiau yn fwy na chan cymaint, gan fod y gewyn yn tynu megys y fraich feraf i'r dafl. Dywed Borelli enwog, fod gewyn yr ysgwydd, a elwir *deltoides*, yn arfer nerth 60,000 o bwysau, pan fyddo y fraich yn dal 60 pwys. Pe llamai dyn o gant a hanner o bwysau ddwy droedfedd oddiar y ddaear, byddai raid i'r gewynau roddi nerth 3000 o bwysau. Y mae y galon yn rhoddi nerth 100,000 o bwysau bob ergyd, wrth dywallt y gwaed dros yr holl gorph. Y mae nerth y gewynau yn llawer iawn mwy mewn rhai dynion na'u gilydd. Dywedir am un William Joy, o Gent, iddo godi dwy fil a chant o bwysau o blwm o flaen y brenin William III.; iddo orchfygu nerth ceffylau cryfion, a'u tynu ar ei ol, er eu gyru ffordd arall; ac iddo dori rhaffau cryfion fel tori edef.——Y mae y cyhyrau gwedi eu haddasu i ysgogiadau y cymalau; y maent yn gweithredu trwy fyrhau, ac nid mewn un ffordd arall; pan fyddo y gweithrediad yn darfod, mae y gewyn yn ymollwng i'w agwedd flaenorol; ond nid yw yn rhoddi allan ddim nerth. Un gewyn sydd yn plygu, ac un arall yn unioni y fraich, a phob aelod arall. Nid oes yr un o honynt yn rhwystr i'r llall, er amled ydynt yn nghorph dyn. Y maent weithiau yn myned trwy eu gilydd, fel edef trwy grai y nodwydd, i ragflaenu pob anghymwysder a fyddent heb hyny i'r corph; megys gewynau y bodiau a'r bysedd. Mae y gewynau sydd yn myned o'r goes i'r traed â rhwymyn am danynt yn y ffêr; ac heb hyn byddent yn anhardd ac yn anaddas i'w gwaith.—'Ofnadwy a rhyfedd y'n gwnaed!' Gwel Keill & Cheyne's *Anatomy*. Dr. Paley's *Natural Theology*.

'Oblegid cyffwrdd â chyswllt morddwyd Jacob, ar y gewyn a giliodd.' Gen. 32. 32. Y mae y gair *Jacob* gwedi ei adael allan yn wallus yn mhob argraffiad o'r Bibl yn Gymraeg, ond yr argraffiadau yn 1688, 1728, 1769, a'r Bibl pedwar-plyg 1770. Edr. Jacob.

* Gwel Keill's *Anatomy*, p. 295, 3rd Edit.



GEZER, dinas yn agos i Joppa, yn rhandir Ephraim: y Canaaneaid a breswyliasant yn mysg yr Ephraimiaid yn Gezer. Barn. 1. 29.——Yr oedd Gezer arall o du y dehau-orllewin i wlad Canaan, trigolion pa un a ddyfethodd Dafydd a'i filwyr, pan oeddynt yn trigo yn ngwlad y Philistiaid. 1 Sam. 27. 8.

GIAH, *Heb.* גיח [*tywys*] dyffryn yn agos, tebygol, i Gibeon. 2 Sam. 2. 24.

GIAU, GIEUYN, (gi) arferir y geiriau hyn yn yr un ystyr a *gewyn*, yn ein cyfieithiad ni o'r Bibl; er y byddai yn ddymunol, er mwyn gwahaniaethu a llefaru yn eglur, arferyd y gair *cyhyr* i arwyddo y peth a elwir *muscle*; gewyn, *tendon*; giau, *nerves*; a gïeuyn, *nerve*. Job 10. 11. a 30. 17.—'A'th war fel gïeuyn haiarn:' sef yr wyt yn war-galed, yn anmhlygedig, ac yn gyndyn, yn dilyn dy ffyrdd drygionus. Esa. 48. 4. ——Wrth giau yn Ezec. 37. 4. gellir deall grym, cryfder, ac addasrwydd i weithredu.

GIBBAR. Pymtheg a phedwar ugain o'i hiliogaeth a ddychwelasant o'r caethiwed. Ezra 2. 20.

GIBBETHON, *Heb.* גבתון [*ei ddyrchafiad*] dinas yn Dan, a roddwyd i'r Lefiaid; a hwyrach mai yr un yw a Gabbatha. Baasa mab Ahiah a laddodd Nadab mab Jeroboam yn Gibbethon. 1 Bren. 15. 27. a 16. 15. Jos. 21. 23.

GIBEAH, *Heb.* גבעה [*bryn*] dinas yn sefyll ar fryn yn llwyth Benjamin. Yma y ganwyd ac y trigodd y brenin Saul; am hyny galwyd hi Gibeah Saul. Esa. 10. 29. 1 Sam. 10. 26. a 14. 2. a 15. 34. Yr oedd ei thrigolion yn hynod o lygredig yn amser y Barnwyr, fel y tystia yr hanes dychrynllyd am eu hymddygiad tu ag at wraig y Lefiad, yn Barn. xix.—— 'Dyddiau Gibeah,' neu 'amser Gibeah,' a arwyddocânt amseroedd pan y byddo drygioni ac anwireddau cywilyddus yn cael eu gwneuthur a'u hamddiffyn. Hos. 9. 9. a 10. 9.

GIBEON—IAID, *Heb.* גבעון [*bryn*]. Yr oedd Gibeon yn sefyll ar fryn oddeutu pum milltir o du y gogledd i Jerusalem. Gelwir hi hefyd Geba neu Gaba. 2 Sam. 5. 25. cymh. â 1 Cron. 14. 16.

Y Gibeoniaid oeddynt o dylwyth yr Hefiaid, ac yr oeddynt yn preswylio mewn pedair o ddinasoedd, sef Gibeon, Chephira, Beeroth, a Ciriath-jearim. Trwy gyfrwysdra a thwyll, llwyddasant i gael ammod heddwch â Josuah, a thywysogion y gynnulleidfa a dyngasant wrthynt. Am y twyll a wnaethant, rhoddodd Josuah hwynt yn gymynwyr coed, ac yn wehynwyr dwfr i Israel, i'r gynnulleidfa, ac i allor yr Arglwydd. Jos. ix. Parhaodd y Gibeoniaid yn ffyddlawn i Israel dan y beichiau a roddodd Josuah arnynt; er hyny, y

Digitized by Google

brenin Saul, ar ba achlysur nis gwyddom, o'i serch i feibion Israel, a laddodd lawer o honynt. Anfonodd yr Arglwydd, yn amser Dafydd, dair blynedd o newyn ar y wlad, o achos y creulondeb hwn. Y mae y farn yn cael ei symud trwy grogi saith o feibion Saul gan y Gibeoniaid, i'r Arglwydd, yn Gibeah Saul. 2 Sam. xxi. Er yr amser hwn nid oes genym ni hanes am y Gibeoniaid fel pobl wahanedig: tebygol eu bod hwy, yn nghyd âg eraill a roddwyd gan Dafydd a Solomon at yr un gwasanaeth, yn cael eu galw, 'y Nethiniaid,' neu *rai wedi eu rhoddi*. 1 Cron. 9. 2. Ezra 8. 20. —Hwy a gaethgludwyd gyd â'r Iuddewon i Babilon, a'r rhan fwyaf o honynt a arosasant yn Casiphia, a'r lleoedd oddi amgylch; ond 392 a ddychwelasant gyda Zorobabel, a 220 wedi hyny gyd âg Ezra, ac a drigasant yn Ophel, yn Jerusalem, a lleoedd eraill; a Siha a Gispa oeddynt olygwyr arnynt. Ezra 5. 28. a 8. 20. Neh. 3. 26. a 10. 28. a 11. 21.

Yn agos i Gibeon y dystrywiodd yr Arglwydd lawer o'r Canaaneaid oedd yn ymladd yn erbyn Josuah, trwy fwrw arnynt geryg cenllysg mawrion o'r nefoedd, tra yr ydoedd yr haul a'r lleuad yn sefyll ar ddeisyfiad Josuah. Yn goffadwriaeth o hyn, gosodwyd maen mawr i fynu yn Gibeon. Jos. 10. 10. 2 Sam. 20. 8. Esa. 28. 21.——Bu ymladdfeydd rhwng milwyr Dafydd a milwyr Isboseth, wrth lyn Gibeon, a lladdwyd Asahel yno. 2 Sam. 2. 13. a 3. 30. Yn niwedd teyrnasiad Dafydd, ac yn nechreu teyrnasiad Solomon, cawn hanes fod y babell ac allor y poeth-offrwm yn Gibeon; a hòno oedd uchelfa fawr. 1 Bren. 3. 4. 1 Cron. 16. 39. a 21. 29, 30. 2 Cron. 1. 3. Pa bryd, gan bwy, nac ar ba achlysur, y symudwyd y babell a'r allor yno, nid ydynt wedi eu hysbysu.

Sonir am Glyn, a Llyn Gibeon. Fel yr oedd sefyllfa Gibeon ar fryn, tebyg fod glyn yn agos iddi, a llyn ynddo. Yr un yw a dyfroedd mawrion Gibeon. Esa. 28. 21. 2 Sam. 2. 23. Jer. 41. 12.

GIBLIAID. Edr. GEBAL.

GIDEON, neu GEDEON. *Heb.* גדעון [*dryllïwr*] mab Joas yr Abiezriad, o lwyth Manasseh, a dinas Ophrah. Barn. 6. 11. Geilw Dafydd ef *Jerubbeseth*, yn 2 Sam. 11. 21. Yr ydoedd yr Iuddewon yn ffieiddio yr enw *Baal* gymaint yr amser hwnw, fel y rhoddent *boseth* yn lle Baal yn yr enwau yn diweddu â Baal; megys *Isboseth* yn lle *Isbaal*. Ystyr y gair *boseth* yw *cywilydd*. Wedi marwolaeth Barac a Deborah, meibion Israel a wnaethant ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd; a'r Arglwydd a'u rhoddodd hwynt yn llaw Midian saith mlynedd; sef o A.M. 2752 hyd 2759. Y Midianiaid a'u gorthrymasant hwy yn dost; daethant, yn nghyd â'r Amaleciaid, a meibion y dwyrain, fel locustiaid o amldra, i'r wlad i'w dystrywio. Dinystriasant gnwd y ddaear; ac ni adawsant ddim ymborth i Israel, na dafad, nac eidion, nac asyn. Meibion Israel a wnaethant iddynt, rhag y Midianiaid, y llochesau sydd yn y mynyddoedd, a'r ogofeydd, a'r amddiffynfeydd; ac aethant yn dlawd iawn o achos y Midianiaid. Yn y cyfyngder mawr hwn, gwaeddasant ar yr Arglwydd; yn ateb mae yntau yn anfon prophwyd i'w ceryddu: ond angel yr Arglwydd a ymddangosodd i Gideon fel yr oedd yn dyrnu gwenith mewn lle dirgel, ac a gadarnhaodd iddo y byddai iddo waredu Israel o law y Midianiaid, er ei waeledd a'i dlodi ef a'i deulu. I gadarnhau ei ffydd, parodd yr angel, â chyffyrddiad ei ffon, i dân ddyfod o'r graig, ac ysu ei anrheg. Adn. 21. Wrth orchymyn yr Arglwydd, y mae yn bwrw i lawr allor Baal, ac yn adeiladu allor i'r Arglwydd ar y graig hòno, yn ei galw 'IEHOFAH SHALOM,' hyny yw, *yr Arglwydd a rydd heddwch*; ac a offrymodd boeth-offrwm ar yr allor, a choed y llwyn a dorodd efe i lawr. Gwyr y ddinas, gwedi creuloni am iddo fwrw i lawr allor Baal, a thori i lawr y llwyn yn ei hymyl, sydd yn bwgwth ei ladd. Ei dad a'i hamddiffynodd; 'A ddadleuwch chwi,' medd efe, 'dros Baal? Os Duw yw efe, dadleued drosto ei hun, am fwrw ei allor ef i lawr.' Galwodd ef y dydd hwnw Jerubbaal, hyny yw, *dadleued Baal*. Pan ddeallodd fod y Midianiaid a'u cynghreirwyr wedi croesi yr Iorddonen, a gwersyllu yn nyffryn Jezreel, agos i 200,000 o rifedi, Ysbryd yr Arglwydd a ddaeth ar Gideon, udganodd mewn udgorn, ac Abiezer a aeth ar ei ol ef. Anfonodd genadau i Manasseh, Aser, Zabulon, a Naphtali, a daethant i fynu i'w cyfarfod hwynt. Yr oedd ganddo yn fuan lu o 32,000 o wyr. Trwy arwyddion y cnu gwlithog a'r cnu sych, y mae yr Arglwydd yn cadarnhau y byddai iddo waredu Israel trwy ei law ef. Profodd yr Arglwydd ef gwedi hyny, cyn rhoddi y fuddugoliaeth ryfedd iddo, trwy ddwyn ei lu o 32,000 i lawr i 300, wrth ffynon Harod: 'Rhy liosog yw y bobl,' medd yr Arglwydd wrtho, 'i mi roddi y Midianiaid yn eu dwylaw, rhag i Israel ymogoneddu yn fy erbyn, gan ddywedyd, Fy llaw fy hun a'm gwaredodd.' Barn. 7. 2. Y noson hòno, cyfarwyddodd yr Arglwydd ef a Phurah ei lanc i fyned i wersyll y Midianiaid; clywsant un yn adrodd ei freuddwyd wrth y llall, am dorth haidd a welodd yn treiglo i wersyll y Midianiaid, ac yn taro pabell nes y dymchwelodd ac y syrthiodd. Dehonglodd y llall y breuddwyd; ei bod yn arwyddocaol y dymchwelai Gideon y Midianiaid. Pan glybu Gideon adroddiad y breuddwyd a'i ddehongliad, efe a addolodd, ac a ddychwelodd i wersyll Israel; ac a ddywedodd wrth y gwyr, 'Fel y gwnelwyf fi, gwnewch chwithau.' Efe a roddodd udgyrn yn llaw pob un o honynt, a phiserau gweigion, a lampau yn nghanol y piserau. Gideon a waeddodd, 'Cleddyf yr Arglwydd a Gideon!' a'r holl bobl a waeddasant yr un peth. A drylliasant y piserau, ac a ddaliasant y lampau yn eu llaw aswy, a'r udgyrn yn eu llaw ddehau, i udganu â hwynt. Wedi eu llenwi â dychryn, y Midianiaid a ffoisant, a'r Arglwydd a osododd gleddyf pob un yn erbyn eu gilydd. Gwyr Ephraim a ennillasant rydau yr Iorddonen, ac a ddaliasant ddau o dywysogion Midian, Oreb a Zeeb. Lladdwyd 120,000 o'r Midianiaid. Zeba a Salmunna, yn nghyd â phymtheg mil o wyr, a aethant dros yr Iorddonen; Gideon a'u hymlidiodd hwynt, a ddaliodd y ddau frenin yn Carcor, ac a darfodd yr holl lu. Gideon â'i law ei hun a laddodd y ddau frenin, gan ddial marwolaeth ei frodyr arnynt, ac a gymerth y colerau oedd am yddfau eu camelod hwynt. Gwyr Succoth a Phenuel a wrthodasant borthi llu Gideon, pan yr oeddynt hwy yn erlid ar ol y Midianiaid; a Gideon a'u dinystriodd hwynt gwedi hyny, am eu hanffyddlondeb a'u creulondeb iddynt yn eu cyfyngder. Gwrthododd Gideon arglwyddiaethu ar Israel yn ol eu dymuniad, gan ddywedyd, 'Yr Arglwydd a arglwyddiaetha arnoch:' (adn. 23.) ond gofynodd clust-dlysau eu hysglyfaeth; canys clust-dlysau aur oedd ganddynt, am mai Ismaeliaid oeddynt. Lledasant wisg, a thaflasant yno bob un glust-dlws ei ysglyfaeth; a'u pwys oedd 1700 o siclau aur; sef £2380, heblaw addurniadau eraill. Gideon a wnaeth o honynt ephod, ac a'i gosododd yn ei ddinas ei hun, Ophrah; a holl Israel a buteiniasant ar ei hol hi yno; a bu hyny yn dramgwydd i Gideon ac i'w dŷ. Yr oedd iddo ddeng mab a thriugain. Ar ol barnu Israel ddeugain mlynedd, bu farw mewn oedran têg, yn nghylch A.M. 2798, cyn Crist 1209, ac a gladdwyd yn meddrod Joas ei dad, yn Ophrah yr Abiezriaid. Ond ni wnaeth Israel garedigrwydd â thŷ Gideon, 'yn ol yr holl ddaioni a wnaethai efe i Israel.' Barn. vi, vii, viii. Beth bynag oedd yn ngolwg Gideon wrth wneuthur yr ephod hon, yr oedd y weithred yn feius, ac a fu yn achos o dramgwydd i Israel, ac o ddystryw i'w dŷ ei hun. Hwyrach iddo feddwl fod yn addas iddo ef offeiriadu, gan i'r Arglwydd o'r blaen orchymyn iddo adeiladu allor, ac offrymu poeth-offrwm arni iddo; neu iddo ei gwneuthur yn arwydd coffadwriaethol o'i fuddugoliaeth; beth bynag oedd yr achos,

Digitized by Google

yr oedd y weithred yn bechadurus, ac o ganlyniadau niweidiol. Yr oedd yn fwy gofalus am wybod meddwl yr Arglwydd yn y dechreu cyn myned i ryfel â Midian, nag oedd yn y weithred hon. Y mae ei enw yn cael ei goffâu gan yr apostol yn y gôf-restr anrhydeddus a rydd o wyr enwog am eu ffydd a'u gwroldeb yn achos yr Arglwydd yn y byd. Y prophwyd a gyfeiria at y waredigaeth ryfedd a weithredodd Duw trwy Gideon a'i dri chanwr a'u piserau, eu lampau, a'u hudgyrn, fel yn gysgodol o waredigaeth fawr yr efengyl trwy Grist. Trwy ychydig o bregethwyr tlodion yn seinio udgorn yr efengyl, heb arfau yn y byd ond efengyl ddysglaer, danllyd, gorchfygwyd y byd, y cnawd, a Satan, a'u holl luoedd; dymchwelwyd holl allorau gau-dduwiaeth yn y byd; a dyrchafwyd allor i Dduw yr heddwch, a gosodwyd ei addoliad yn wirioneddol i fynu yn nghalonau llawer o bechaduriaid. Esa. 9. 4, 5.

GIDGAD, *Heb.* גדגד [*byddin barod i ryfel*] mynydd yn anialwch Paran, rhwng Bene-jacan a Jotbatha. Gwersyllodd yr Hebreaid yno. Num. 33. 32.

GIHON, גיחון [*gorwyllt*] 1. Un o geinciau yr afon a aeth allan o Eden i ddyfrhau yr ardd, ac oddi yno a ranwyd, ac a aeth yn bedwar pen. Gihon oedd un o'r pedwar pen ag sydd yn amgylchu holl wlad Cush, neu Ethiopia. Diammeu fod Moses yn darlunio Eden a'r ardd wrth nodau digon amlwg a nodedig yn ei ddyddiau ef; ond yn nghylch yr afonydd y mae amrywiaeth nid bychan yn marnau awdwyr. Calmet a Reland a farnant mai yr afon Araxes yw y Gihon, yr hon sydd yn tarddu yn Armenia, ac yn rhedeg i Fôr Caspia: Bochart, Wells, Brown, &c., a farnant mai y gainc ddwyreiniol o'r afon Euphrates yw Gihon, yr hon sydd yn rhedeg ar hyd ystlys gorllewin i Cush, Susiana, a Chusistan; ond nid oedd y gainc hon o'r Euphrates yn bod yn nyddiau Moses, medd Calmet. Edr. EDEN.——2. Ffynon, neu ffrwd, o du y gorllewin i Jerusalem, yn agos i ba un yr eneiniwyd Solomon. 1 Bren. 1. 33. Hezeciah a argaeodd yr aber uchaf i ddyfroedd Gihon, ac a'u dug hwynt yn union oddi tanodd, tu a thu y gorllewin, i ddinas Dafydd. 2 Cron. 32. 30.

GILBOA, *Heb.* גלבוע [*cylch ymofyniad*] mynydd yn sefyll driugain milltir i du y gogledd o Jerusalem, chwe milltir i'r gorllewin i Bethshan, ac yn y dehau o ddyffryn Jezreel. Yma y gorchfygwyd yr Hebreaid gan y Philistiaid, ac y lladdwyd Saul a'i dri mab. 1 Sam. xxxi. a 28. 4. 2 Sam. 1. 6, 21. a 21. 12. 1 Cron. 10. 1, 8.

GILEAD, neu GALEED, *Heb.* גלעד [*carnedd y dystiolaeth*] 1. Mab Machir, ŵyr Manasseh. Ei feibion oeddynt Jeezer, Helec, Asriel, Sechem, Semida, a Hepher. Gwladychasant tu hwnt i'r Iorddonen. Num. 26. 30, 31, 32.——2. Tad Jephthah, yr hwn, hwyrach, ydoedd o hiliogaeth Gilead, mab Machir. Barn. 11. 1, 2.——3. Mynydd nodedig o du y dwyrain i'r Iorddonen. Yn y mynydd hwn y cyfammododd Laban a Jacob â'u gilydd. Gwnaethant garnedd o geryg, ac a fwytasant yno ar y garnedd. A Laban a'i galwodd hi Jeger-Sahadutha; a Jacob a'i galwodd hi Galeed, sef *carnedd y dystiolaeth*. Gen. 31. 46, 47. Y mae yn ansicr pa un ai oddiwrth Galeed Jacob, neu oddiwrth Gilead mab Machir, y cafodd y mynydd yr enw. Ond gan fod y mynydd yn cael ei alw wrth yr enw hwnw yn mhell cyn amser Machir, mwy tebygol iddo gael yr enw oddiwrth garnedd Laban a Jacob. Num. 26. 30. Yr oedd yr holl wlad berthynol i'r Hebreaid o du y dwyrain yn cael ei galw wrth yr enw hwn, yn cynnwys Perea, Golan, Basan, &c. Num. 32. 3, 26. Ond y parth gogleddol o'r mynydd-dir a elwid yn fwyaf neillduol Gilead. Num. 32. 1. Yr oedd yn dir gwelltog a da i anifeiliaid. 'Pori yn Gilead,' yn gyffelybiaethol, a arwydda cyflwr da, llawn, a llwyddiannus. Can. 4. 1. Jer. 50. 19. Mic. 7. 14. Zech. 10. 10. Yr oedd triagl, neu balm Gilead, yn nodedig iawn am ei rinweddau meddyginiaethol. Jer. 8. 22. a 46. 11. a 51. 8. Gen. 37. 25. Jair, Jephthah, Ibzan, ac Elias, oeddynt wyr enwog o Gilead.——4. Yr oedd dinas a elwid Ramoth Gilead, a Ramoth Mispeh. Dinas y Lefiaid, a dinas noddfa ydoedd. Jos. 20. 8. a 21. 38. Yr oedd yn nodedig am eilun-addoliaeth. Hos. 6. 8. a 12. 11. Bu yn achos o ymryson a rhyfeloedd rhwng y Syriaid a'r Hebreaid, yn amser Ahab a Jehu. 1 Bren. xxii. 2 Bren. viii. a ix.

'Gilead wyt i mi, a phen Libanus.' Jer. 22. 6.—'Gilead ti a fuost i mi yn ben ar Libanus.' Dr. M.—'Gilead a fuost trwof fi, O ben Libanus.' Dr. B. Libanus oedd y mynydd uchaf yn ngwlad Israel; a Gilead oedd y rhan fwyaf bras a chyfoethog o'r wlad. Yr oedd y ddau yn hynod o addas i arwyddo dyrchafiad a chyfoethogiad teulu breninol Judah, trwy ddaioni Duw tu ag atynt; ond am eu pechodau y mae yr Arglwydd yn bwgwth eu gwneuthur yn ddiffaethwch.

GILGAL, *Heb.* גלגל [*treigl*] 1. Dinas neu wlad yn nghylch chwe milltir o Antipatris, gwedi ei phoblogi, tebygol, gan amryw genedloedd: rhoddir hanes i ni am frenin y cenedloedd o Gilgal. Jos. 12. 23. Yr un, medd Calmet, a Galilee y Cenedloedd, ac a arwydda Galilee Uchaf. Esa. 9. 1.——2. Lle oddeutu tair milltir o du gorllewin o'r Iorddonen. Gwersyllodd Josuah a meibion Israel yn Gilgal enyd o amser, a thrwy adnewyddu yr enwaediad, a threiglo ymaith, trwy hyny, waradwydd yr Aipht oddi arnynt, a roddasant yr enw Gilgal i'r lle. Adeiladwyd yma ddinas enwog. Yma y cadarnhawyd y deyrnas i Saul; y crybwyllwyd iddo am ei wrthodiad; ac y darniodd Samuel Agag, brenin yr Amaleciaid, o flaen ei wyneb. 1 Sam. xi., xv. Yn amser Samuel yr oedd yma allor, ac aberthau yn cael eu hoffrymu yno. 1 Sam. 11. 15. Hos. 12. 11.

'Efe a drodd oddiwrth y chwarelau oedd yn Gilgal.' Barn. 3. 19.—'Oddiwrth y delwau cerfiedig.' Dr. M. Y mae yr un gair פסילים yn cael ei gyfieithu *delwau cerfiedig* yn Deut. 7. 25. Esa. 42. 8, &c. Tebygol yw i frenin Moab osod ei eilunod yno yn ddirmyg ar Israel, am fod arch Duw yno, ac enwaedu arnynt yno; neu i ymbil am eu cymhorth i ddarostwng y wlad, gan fod Gilgal yn y mynediad i mewn iddi. Oddi yno y dychwelodd Ehwd at Eglon, fel pe buasai ganddo genadwri oddiwrth Dduw iddo, ac a'i lladdodd. Wedi hyn y mae yn eglur fod eilunod yn cael eu haddoli yno. Hos. 4. 15. Amos 4. 4. a 5. 5.

GILOH, *Heb.* גלה [*gorfoleddu*] dinas yn Judah. Jos. 15. 21. Yma y preswyliai Ahitophel. 2 Sam. 15. 12. a 23. 34.

GIMZO, *Heb.* גמזו [*hyny hefyd*] dinas yn Judah, yr hon a gymerodd y Philistiaid oddiar Ahaz. 2 Cron. 28. 18.

GINATH, *Heb.* גינת [*gardd*] Tad Tibni. 1 Bren. 16. 21.

GIRGASIAID, llwyth o'r hen Ganaaneaid. Jos. 24. 11. 1 Cron. 1. 14. Neh. 9. 8. Dywedir i rai o honynt ffoi i barthau gogleddol Affric; gweddill o honynt, tebygol, oedd y Gergesiaid yn nhu dwyreiniol i Fôr Tiberias. Edr. GADARA.

GIRZIAID. Pan y trigai Dafydd yn Siclag, bwy a ruthrasant ar y Gesuriaid, a'r Girziaid, a'r Amaleciaid. 1 Sam. 27. 8. Llwythau ydoedd y Gesuriaid, a'r Girziaid, o'r Amaleciaid, tebygol, neu o'r Canaaneaid; yn dystrywio y cenedloedd hyn yr oedd Dafydd yn cyflawni gwaith yr Arglwydd, yr hwn yr oedd Saul wedi ei ddechreu. Cenedloedd i'w dystrywio oeddynt; yr oedd Duw wedi gorchymyn hyny.

Digitized by Google

GISPA, penaeth y Nethiniaid. Neh. 11. 21.

GITTAIM, dinas o Benjamin, lle y ffôdd y Beerothiaid ar farwolaeth Saul a Jonathan. Adeiladwyd hi ar ol y caethiwed. 2 Sam. 4. 3. Neh. 11. 33.

GITTITH. Y gair *Gath*, neu *Gittith*, a arwydda *gwin-wryf*. Enw dinas y Philistiaid. Yr oedd dinas y Lefiaid, a elwid Gath-Rimmon; oddiwrth ba un y gelwid Obed-Edom, mab Jeduthun, y Gethiad. 1 Sam. 17. 4. Jos. 21. 25. 2 Sam. 6. 10.—'Ar Gittith,' titl Psalm viii. *Heb.* למנצח על־הגתית *I'r gorchfygwr ar y gwin-wryfoedd*. Sef Crist, yr hwn a sathrodd y gwin-wryfoedd o ddigofaint Duw, a llid ei elynion, ac a fuddugoliaethodd. Dilys yw fod y Psalm yn brophwydoliaethol; penderfynwyd hyn gan Grist ei hun, a'r apostol Paul. Heb. ii. Iddo ef, gan hyny, y cyflwynir y Psalm. Gostegodd y gelyn a'r dialydd trwy ei ddyoddefiadau yn iawn am bechod, a buddugoliaeth gyflawn a thragywyddol y groes. Sathra ei elynion, yn ganlynol, fel sathru grawn-win yn y gwinwryfoedd, a theyrnasa nes darostwng pob gelyn dan ei draed. Gwel Fenwick, *p.* 24. Hefyd titl Ps. lxxxi., a lxxxiv. Wrth Gittith barna rhai y meddylir rhyw fesur a ddysgodd Dafydd gan y Gathiaid; neu ryw offeryn cerdd arferedig gan hiliogaeth Obed-Edom y Gethiaid; neu i'r Psalmau, yn ol barn eraill, gael eu cyfansoddi ar achlysur y fuddugoliaeth a gafodd Dafydd ar Goliath o Gath; neu ar yr achlysur o symud yr arch o dŷ Obed-Edom: neu i'w canu o fawl i Dduw wrth wasgu y grawn-win.

GITHIAID, trigolion Gath, neu Gittaim. 2 Sam. 6. 10. a 15. 19. Neh. 11. 33.

GLAN—HAU, (gla) sanctaidd; pur; hardd; glandeg; prydweddol, hardd-deg; cyflawn. Ysbryd Glân —Ysgrythyr Lân; sef Ysbryd Sanctaidd, Ysgrythyr Sanctaidd:—dillad glân, sef dillad pur a hardd:— 'gwraig lân yr olwg,' sef gwraig hardd-deg, brydweddol: (Gen. 12. 11.)—'y mae wedi darfod yn lân,' sef yn gyflawn ac yn gwbl.

Llaw *lân* diogel ei pherchen. *Diar.*
Asgre *lân* diogel ei pherchen. *Diar.*

Y mae glân yn arwyddo, yn yr ysgrythyrau, bod yn rhydd oddiwrth fudreddi naturiol, neu seremoniol, neu foesol. Diar. 14. 4. Lef. 10. 14. a 13. 6. Job 14. 4. a 25. 4.—diniwed; cyflawn; a rhydd oddiwrth euogrwydd. Act. 18. 6. a 20. 26. Y mae glanhau yn arwyddo tynu ymaith y peth sydd yn aflanhau, pa un bynag ai budreddi naturiol, seremoniol, neu foesol. Marc 7. 19. Mal. 3. 3. Ezec. 43. 20, 26. Num. 8. 21. Lef. 8. 15.

Y mae tri pheth yn cael eu priodoli i lanhau pechadur oddiwrth ei bechod, sef gwaed Crist—yr Ysbryd Glân, yr hwn a elwir 'dwfr glân'—a'r 'gair glân.' Heb. 9. 14. 1 Ioan 1. 7. Dat. 1. 5. Ezec. 36. 25. Tit. 3. 5. Ioan 15. 3. Eph. 5. 26. 2 Tim. 3. 15. Ps. 19. 8. Y mae gwaed Crist, yn glanhau fel y mae yn iawn dros bechod; yn achos haeddiannol o gyfraniad yr Ysbryd Glân i bechadur; ac fel y mae yr olwg arno, fel aberth, yn ei ddyoddefiadau, yn puro y galon.—Y mae yr Ysbryd Glân yn glanhau, trwy ddadguddio Crist, yn holl gyflawnder ei aberth, i'r enaid; trwy ei uno â Christ; trwy ei adgenedlu a gweithredu anian sanctaidd ynddo; a thrwy ei oleuo i weled drwg pechod, a harddwch sancteiddrwydd; trwy dywallt cariad Duw yn ei galon, a chasineb at yr hyn sydd ddrwg.—Mae y gair yn glanhau, oblegid mai y gair yw y drych sydd yn dangos pechod; yn dadguddio y ffynon sydd yn glanhau, ac yn offeryn yn llaw yr Ysbryd Glân i ddwyn pechadur trwy ffydd i'r ffynon hòno; yn ei gyfarwyddo i lwybrau glân, ac at bwy i fyned am nerth i'w cerdded.

Y mae glanhau pechadur, yn arwyddo symud ymaith yr hyn sydd yn ei aflanhau, sef pob pechod, yn mhob ystyr y mae yn ei aflanhau—yn yr euogrwydd yn y gydwybod; yn ei lywodraeth, a'i halogrwydd, yn dufewnol; ac yn ei holl effeithiau a'i weithrediadau yn allanol. Rhyw olwg ryfedd ydyw gweled y Duw sanctaidd yn glanhau pechadur aflan, yn lle ei ddamnio! Rhyw gariad rhyfedd ydoedd cariad Crist at ei eglwys yn aflan, i roddi ei hun drosti i'w glanhau!

Yr oedd yr holl olchiadau a'r defodau seremoniol dan gyfraith Moses, yn gysgod o lanhad pechadur, trwy drefn fawr yr iechydwriaeth yn Nghrist: ac y mae yr ymadroddion a'r geiriau a arferir gan yr Ysbryd Glân yn y Testament Newydd, i osod allan y glanhad ysbrydol hwn, gwedi eu cymeryd oddiwrth y defodau Iuddewig, gan mwyaf; megys glanhau â gwaed—â'r olchfa ddwfr, &c. Edr. ABERTH, CYFIAWNHAU, GOLCHI, GWAHAN-GLWYF, GWAED, PURO, SANCTEIDDIO.

'Cleisiau briw a lanha ddrwg.' Diar. 20. 30. Mae ceryddon dwyfol yn llesol i'n darostwng dan alluog law Duw, ac i dynu ymaith y pechod. Esa. 27. 9. Heb. xii. 1 Petr 5. 5.——'Glendid dannedd,' sydd yn arwyddo prinder ymborth. Amos 4. 6.

'Yn hytrach rhoddwch elusen o'r pethau sydd genych, a phob peth sydd lân i chwi.' Luc 11. 41. *Gr.* *πλην τα ενοντα δοτε ελεημοσυνην.*—'Can hyny rhowch eleesen o'r pethae ys ydd o y mewn, a' nycha pob peth oll vydd yn 'lan y chwy.' W. S.—'Rhoddwch yn elusen yr hyn sydd genych.' Dr. Campbell. Y mae Wolfius, Kypke, a Raphelius, yn cyfieithu y geiriau yr un fath a W. S., sef, Rhoddwch y pethau sydd o mewn (y cwpan a'r ddysgl) yn elusen. Y mae trais, twyll, a chybydd-dod yn aflanhau ein meddiannau i ni; ond y mae trugarogrwydd a haelioni yn eu sancteiddio, trwy eu bod yn cael eu defnyddio i ddybenion da, i gysuro yr angenus a'r tlawd.

GLAN—AU, (llan) min; ymyl, ochr, ceulan.—Glàn y môr, a glàn yr afon, &c., hyny yw, min y môr —yr afon. Ps. 1. 3. Ezec. 47. 7. Deut. 4. 48.

GLAS—IAD—U, (llas) *Heb.* לשד *Gr.* χλωρος, asur; nefliw, plym-liw, gwyrdd-las, brith-las; gwelw, glas-wyn, llwyd. Job 15. 32. Esa. 29. 22. Lliwio â glas.—Glasiad y dydd, sef y wawr. 'Ffoisant ar lasiad dydd.' 2 Bren. 7. 7. Edr. SIDAN.

GLAS-WELLT—YN, (glas-wellt) ir-wellt, porfa: addurn y meusydd, ac ymborth yr anifeiliaid, y deadellau, &c. Y mae gwyrdd-lesni y gwellt yn eu gwneuthur hwy yn esmwyth ac yn hyfryd i'r llygaid; buasai un lliw arall o'r saith yn peri effeithiau niweidiol iawn i'n golygon. Y mae gwyrdd-lesni llysiau a glas-wellt yn tarddu yn hollol oddiwrth oleuni yr haul yn tywynu arnynt. Pe rhoddid hwynt i dyfu yn y tywyllwch, neu lle na byddai ond goleuni lampau neu ganwyllau, byddent yn *gwbl wyn*. Y mae hyn gwedi ei *brofi*. Gwel Durham's *Physico-Theology, vol.* i., *p.* 40., *edit.* 1798. Y mae amrywiaeth y glas-wellt yn hynod; ac y mae pob glas-welltyn yn amrywio oddiwrth y llall, fel na cheir dau yr un fath yn gwbl. Rhyfedd yw yn ngolwg pawb sydd yn sylwi, fod yr un telpyn pridd yn dwyn y fath amrywiaeth o rywiau glas-wellt, coed, llysiau, blodau, &c., a'r rhai hyny yn hollol wahanol eu rhinweddau, eu harogl, a'u lliwiau. Y mae yr un twmpath o dir yn rhoddi rhosyn, tulip, lili, &c., a'r rhai hyn i gyd o wahanol liwiau, aroglau, a rhinweddau.

'Pob cnawd fel glas-welltyn yw.' 1 Petr 1. 24. Esa. 40. 6, 7. Y mae dynion annuwiol yn gyffelyb i las-wellt, oblegid y torir hwynt i lawr yn fuan, ac y gwywant yn fuan wedi eu tori. 'Holl ogoniant dyn sydd fel blodeuyn y glas-welltyn; gwywodd y glaswelltyn, a'i flodeuyn a syrthiodd.'——Cyffelybir hil-

Digitized by Google

iogaeth y duwiolion i wellt y ddaear, oblegid eu lliosogrwydd a'u harddwch. Y mae y glas-wellt fel sêr y nef, a'r tywod ar fin y môr, yn aneirif: maent yn eu blodau a'u gwyrdd-lesni yn hardd yr olwg arnynt; felly y bydd bendith Duw ar hiliogaeth y cyfiawn, yn eu lliosogi, ac yn eu harddu. Job 5. 25.

Y mae 'glas-wellt' yn arwyddo y bobl gyffredin dan lywodraeth y Rhufeiniaid, y rhai dan yr udgorn cyntaf a dlodwyd ac a ddystrywiwyd gan y Gothiaid. Dat. 8. 7. Dan y pummed udgorn, gorchymynwyd i'r locustiaid a ddaethant allan o'r pydew heb waelod, 'na wnaent niwed i las-wellt y ddaear, nac i ddim gwyrdd-las, nac i un pren; ond yn unig i'r dynion oedd heb sêl Duw yn eu talcenau.' Dat. 9. 4. Wrth y glas-wellt, y pethau gwyrdd-las, a'r prenau, y mae yn amlwg, y meddylir y gwir dduwiolion, sydd â sêl Duw yn eu talcenau. 'Y cyfiawn a flodeuant,' medd Solomon, 'megys cangen,' neu fel כעלה *dail gwyrdd-leision*. Diar. 11. 28. Mae y cyfiawnion yn cael eu cyffelybu yn Ezec. 20. 47. i goed îr; 'Wele fi yn cynneu ynot ti dân, ac efe a ysa ynot ti bob pren îr, a phob pren sych'—sef y cyfiawn a'r anghyfiawn, fel y gwelir yn pen. 23. 3. Y mae cyfiawnder bywyd ynddynt trwy eu huno â Christ, gwreiddyn Dafydd. Gwelwn y dichon Duw ddiogelu ei bobl yn nghanol y peryglon mwyaf!

GLESNI, (glas) gwelwedd, glas-wynaidd, gwyrdd-edd, glasbaill ar eisin.—'Y trowyd yr holl wynebau yn lesni.' Jer. 30. 6.

GLEW, (llew) cryf, cadarn, pybyr, dewrwych, drudlew, dihafarch, dewrddrud.—'Galwant ar Dduw yn lew;' (Jonah 3. 8.) sef â'r holl galon, yn ddifrifol, yn daer, fel dynion am lwyddo gyda Duw.——'Yn dal yn lew y gair ffyddlon yn ol yr addysg.' Tit. 1. 9. —'Yn dal yn lew y gair ffyddlon yr hwn sydd wrth yr athrawiaeth.' Dr. M. Y mae cyflawnder a harddwch neillduol yn y gair *Gr.* *αντεχομενον*,* ac yn arwyddo dal y wir athrawiaeth fel yr addysgwyd ef, yn wrthwyneb i bob ymgais i'w dwyn oddi arno; yn *gwrth-ddal*. Nid oes dim yn niweidiol i deyrnas y tywyllwch yn y byd, ond y wir athrawiaeth; gan hyny nid oes dim y mae ymgais y gelyn yn fwy i'w ddwyn oddiar ddynion. Rhaid, yn erbyn holl ddichellion a haerllugrwydd cyfeiliornwyr, ddal yn lew yr athrawiaeth wir (*ο πιστος λογος*). Y mae llawer o gau athrawiaethau; ond y mae un athrawiaeth *wir*, wedi ei llefaru gan Dduw y gwirionedd, ac yn cynnwys dadguddiad gwirioneddol o feddwl Duw; wedi cael hòno unwaith, rhaid ei dal yn lew, fel unig sail ein gobaith am fywyd; ein hunig ymborth iachus, a'n cynnaliaeth. Ei dal yn athrawiaethol, yn gyflawn, ac yn ddigoll; ei dal yn y profiad a syniad addas y meddwl tu ag ati; ei dal, hefyd, mewn bucheddiad sanctaidd addas iddi; nid yn troi oddi wrthi at chwedlau, nac yn troi gras Duw yn drythyllwch, ac yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder.——Y gair a gyfieithir yma *dal yn well*, a gyfieithir *ymlynu, glynu*. Mat. 6. 24. Luc 16. 13.

GLIN—IAU, (glin-iau) *Gr.* *γονυ*; *Llad.* GENU; pen glin, penlin. Cymal y glin ydyw y fath a elwir y *ginglymus*; yn mha un y mae pob asgwrn yn derbyn ac yn cael ei dderbyn. Y mae iddo ddau ysgogiad, sef yn ol ac yn mlaen; yr unig ddau sydd yn eisieu yn y cymal hwn. Mae y gewyn cyswllt yn codi o un asgwrn, ac yn myned am y llall. Y mae y gewyn hwn yn gryf, i gadw yr esgyrn yn eu priodol leoedd; ac yn gryfach yn yr ochrau, nag yn ol ac yn mlaen. Y mae, heblaw hwn, ddau ewyn yn croesi eu gilydd; 'ac yr wyf yn barnu,' medd Cheselden, y difyniaethwr, 'nad â y cymal yn gyflawn o'i le, heb dori y gewynau cryfion hyn.' Y mae penau yr esgyrn wedi eu teisbanu â defnydd meddal gwydn, ac yn cael eu hiro â sudd-wlyb olewaidd, fel na byddai iddynt hwy dreulio, ac y byddai eu symudiadau yn hawdd ac yn esmwyth. Y mae y *petella*, neu badell y glin, yn asgwrn cywrain, a'i ddull a'i swydd yn wahanol i bob asgwrn arall yn y corph. Mae yn grwn, yn dew, ac yn grwm o'r ddeutu, a chwedi ei orchuddio â theisban llyfn. Defnyddioldeb yr asgwrn hwn ydyw amddiffyn y cymal a'r gewyn rhag niwed; ac y mae yn rhoddi i'r gewynau lawer o fantais, yn eu gweithrediadau yn ysgogiadau y cymal. Y mae yn ychwanegiad cyfleus a defnyddiol iawn i'r cymal; y mae yn wahanedig oddiwrth esgyrn y glin, ac heb ei uno yr un fath a'r esgyrn eraill o'r corph wrth eu gilydd. Y mae pob cymal yn gywreinrwydd, medd y Dr. Paley, ac yn ol rheolau manylaf mud-gelfyddydau, i weithredu yr ysgogiadau perthynol iddo.

Y mae glin, neu gliniau, weithiau, yn arwyddo yr holl gorph, neu y dyn; felly gliniau gweiniaid yn camu neu yn ymollwng, ydynt yn arwyddo dynion gweiniaid, digalon, digysur. Job 4. 4. Heb. 12. 12. Esa. 35. 3. Y mae gliniau yn camu neu yn ymollwng, yn gwbl anaddas i daith hir, rhwystrus i gario beichiau trymion, neu i lafur caled: cyffelyb iddynt ydyw dynion, pan fyddo eu meddwl wedi ymollwng; am hyny, medd yr Arglwydd tirion, 'Cryfhewch y gliniau gweiniaid.'——Plygu gliniau i un, a arwydda ei addoli a gweddïo arno (1 Bren. 19. 18. Eph. 3. 14.) neu ei barchu ac ymostwng iddo. Gen. 41. 43. Phil. 2. 10.——Maethu a dyddanu ar liniau, a arwydda, maethu ac ymgeleddu yn dirion ac yn serchiadol, fel y gwna mam ei phlentyn sugno. Gen. 30. 3. a 50. 23. Esa. 66. 12.——Gliniau yn curo y naill wrth y llall, a arwydda, braw anarferol. Dan. 5. 6.

GLO—YN, *Heb.* גחל [*gel*] *Saes.* COAL: math o danwydd a gloddir o'r ddaear, a elwir yn ol ei wahanol natur, glo careg, glo cwlm, glo rhing. Y gair a gyfieithir *tân glo* yn Ioan 18. 18. a gyfieithir *tân o farwor* yn pen. 21. 9.—*marwor tanllyd*, Rhuf. 12. 20. Edr. MARWOR.

GLODDEST—WR, (gloddest-gwr) wttreswr, cyfeddach-walch, diotwr.—'Y neb a fyddo cydymaith i loddestwyr a gywilyddia ei dad,' neu 'a bortho loddestwyr;' ymyl y ddalen. Diar. 28. 7. Priodol ystyr y gair זלל ydyw, *glwth ar gig, difäwr, afradlonwr*. Diar. 23. 20, 21. Yr hwn sydd yn gwario ei amser a'i feddiannau i borthi gloddestwyr a glythion, ac yn byw yn afradlon, sydd yn gwneuthur yr hyn a allo i gywilyddio ei dad; i ddangos ei ynfydrwydd ei hun; ac i ddwyn ei hun i ddirmyg, tlodi, a phob trueni.

GLOYW—I—DER, (glaw) *Gr.* *γλαος*; dysglaer, cànaid, ysplenydd, eirian, annhywyll; megys, pres gloyw, cleddyf gloyw, gwydr gloyw. 1 Bren. 7. 45. Nah. 3. 3. Dat. 21. 18.—'Halogant dy loywder;' sef dy frenin, a'th wyr ardderchog; dy holl harddwch a'th wychder. Ezec. 28. 7.——'Gloywi gwaewffyn—saethau,' &c., a arwydda parotoi i ryfel. Jer. 46. 4. a 51. 11.

GLWTH, (llwth) *Llad.* GULOSUS; gloddestwr; gwâl, gorweddle, gorwedd-fainc.—'Y maent yn ymestyn ar eu glythau.' Amos 6. 4. 'Yn ymestyn ar eu gwâl.' Dr. M. Edr. ANGHYMEDROLDEB, CYMEDROLDEB.

GLYN—OEDD, (llyn) cwm, pant, allmor, pantle; dyffryn bychan, trwy ba un y byddo afon yn rhedeg. —'Glyn cysgod angeu,' yw glyn tywyll, dychrynllyd, ac ofnadwy iawn. Ps. 23. 4. Edr. CYSGOD.

'Baich glyn gweledigaeth.' Esa. 22. 1. Glyn gweledigaeth, ydyw Jerusalem, lle y byddent yn cael

* Proprie qui adhæret alicui velut unguibus affixus, nec se sinit avelli. Bullinger.

Digitized by Google

dadguddiad dwyfol, a gweledigaethau prophwydoliaethol, yn benaf; a lle yr oedd Duw yn amlygu ei hun yn y sancteiddiolaf. Yr oedd y ddinas Jerusalem wedi ei hadeiladu ar ddau fryn gyferbyn â'u gilydd, sef Sïon ac Acra, a glyn rhyngddynt, medd Josephus: rhydd hanes am ddyffryn bychan arall, rhwng Acra a Moriah. *Bell. Jud.* v. 13. a vi. 6.

'Edrych ar dy ffordd yn y glyn, a gwybydd beth a wnaethost.' Jer. 2. 23. Hyny yw, edrych ar dy eilunaddoliaeth yn nglyn mab Hinnom, lle yr oeddynt yn llosgi eu meibion a'u merched yn tân. Jer. 7. 31. Esa. 57. 5, 6. Er eu holl ffieidd-dra yr oedd yn dywedyd, 'Ni halogwyd fi.' 'Edrych ar dy ffordd yn y glyn,' medd Duw, 'pa ffiaidd eilun-addoliaeth sydd yno.' Un o effeithiau dychrynllyd y cwymp, ydyw anwybodaeth o honom ein hunain, a barnu yn dda am y pethau mwyaf ffiaidd a halogedig.

'Torfeydd fydd yn nglyn terfyniad; canys agos yw dydd yr Arglwydd yn nglyn terfyniad.' Joel 3. 14. 'Gweryn lawer a fydd yn nglyn diwedd-brawd: canys agos yw dydd yr Arglwydd yn nglyn diwedd-brawd.' Dr. M.—'Casglaf,' medd Duw, 'yr holl genedloedd, a dygaf hwynt i waered i ddyffryn Jehosaphat, a dadleuaf â hwynt dros fy mhobl.' Adn. 2.—'Deffroed y cenedloedd, a deuant i fynu i ddyffryn Jehosaphat: o herwydd yno yr eisteddaf i farnu yr holl genedloedd o amgylch.' Adn. 12. Am fod Duw, trwy ei farnedigaethau ar elynion ei eglwys, yn terfynu y ddadl rhyngddynt yno, y mae dyffryn Jehosaphat yn cael ei alw 'glyn terfyniad,' neu *glyn y dyrnu*, fel yr arwydda y gair חרוץ Dyrnu a arwydda, yn aml, dystryw mawr ar elynion. Mic. 4. 13. Esa. 41. 15. 2 Bren. 13. 7. Yr oedd dyffryn yn agos i Jerusalem, a elwid dyffryn Jehosaphat, trwy ba un y rhedai afon Cedron; ond yma, yn ol fy meddwl i, wrth ddyffryn Jehosaphat, y mae i ni ddeall y dyffryn hwnw yn yr hwn y cafodd Jehosaphat y fuddugoliaeth hynod ar feibion Ammon, Moab, a thrigolion mynydd Seir, pan y lladdasant bawb eu gilydd. 'A phan ddaeth Judah hyd Mispah, hwy a edrychasant ar y dyrfa, ac wele hwynt yn gelanneddau meirwon yn gorwedd ar y ddaear, heb un diangol.' Yr oedd yma farn ofnadwy, a chwbl *derfyniad* o'r ddadl. Y cyffelyb waredigaeth a rydd Duw etto i'w eglwys, pan fyddo rhifedi a chreulonder ei gelynion yn galw am dani; a *glyn terfyniad* fydd y fan lle dyfethir y torfeydd. 2 Cron. 20. 22, &c.

GLYNU, (glŷn) dylynu, ymlynu; ymlidio. Mae gwr yn glynu wrth ei wraig, trwy roddi ei serch arni yn barhaus, trigo gyda hi yn gwbl, a dangos pob tiriondeb ac ymgeledd iddi. Gen. 2. 24.

Y mae glynu wrth yr Arglwydd, yn dangos agwedd meddwl pechadur euog, teimladwy o'i berygl a'i drueni, yn canfod ynddo iechydwriaeth gyflawn, yn ymroddi i'r Arglwydd yn hollol; yn aros gyd âg ef, yn ngwyneb pob gwrthwynebiad a deniadau; ac yn dylynu wrth ei achos, ei bobl, a'i addoliad, dros holl ddyddiau ei oes.

'Ac a gynghorodd bawb oll, trwy lwyr-fryd calon, i lynu wrth yr Arglwydd.' Act. 11. 23. 'Ac ef a annogawdd bawp oll, er vot yddwynt trwy arvaeth calon 'lynu wrth yr Arglwydd.' W. S. 'Ac a gynghorodd bawb oll trwy lwyr-fryd calon barhau yn yr Arglwydd.' Dr. M. Y mae y gair προσμενω, a gyfieithir yma *glynu*, yn cael ei gyfieithu *aros*, *parhau*. Mat. 15. 32. 1 Tim. 5. 5. Felly, Barnabas a gynghorodd y credinwyr yn Antiochia, trwy lwyr-fryd ac ymroddiad calon, i lynu yn ddiddarfod hyd byth wrth yr Arglwydd, fel yr unig un a allasai roddi ymwared iddynt, a'r unig un teilwng o'u holl serch, eu hymddiried, a'u gwasanaeth. Act. 13. 43. 2 Tim. 3. 14. Heb. 6. 11. a 10. 23. Judas 3. Deut. 10. 20. a 30. 20.

GOB, *Heb.* גוב [*derchafiad*] gwastad-tir y bu ymladdfeydd ynddo rhwng yr Hebreaid a'r Philistiaid. 2 Sam. 21. 18, 19. 1 Cron. 20. 4. ymyl y ddalen.

GOBAITH, (paith) ymddiried, goglyd, dysgwyliad. Dysgwyliad am bethau drwg, ofn ydyw; am bethau da, gobaith ydyw.—I. Dysgwyliad am fwynhau rhyw beth daionus yr ydym etto heb ei feddiannu. Act. 16. 19. Rhuf. 5. 4. a 8. 24. Job 11. 18. Luc 3. 15. Tit. 1. 2. 1 Ioan 3. 3. Y gras o obaith yn y saint, yw dysgwyliad hyderus am bob daioni mewn amser a thragywyddoldeb. Yr Ysbryd Glân sydd yn gweithredu y gras hwn, fel pob gras arall, yn yr enaid; am hyny, y mae yn oruwch natur, ac yn hollol wahanol i obaith dynion deddfol, cnawdol, yn ei darddiad, ei sylfaen, ei wrthddrych, a'i effeithiau. Y mae yn wahanol oddiwrth ffydd, er ei fod yn anwahanol gysylltiedig â hi. Y mae ffydd yn golygu gwirionedd yr addewid; ond y mae gobaith yn golygu y peth da yn yr addewid. Y mae ffydd yn credu y drwg yn gystal a'r da; ond dysgwyl am y da yn unig y mae gobaith: ond y mae y ddau yn *cydraddu* â'u gilydd. Cymysg ydyw gobaith o ddymuniad hiraethlawn; dysgwyliad hyderus; amynedd yn dysgwyl; a llawenydd yn yr olwg ar fwynhau ryw bryd. Rhuf. 8. 24, 25. Nid oes obaith yn uffern nac yn y nefoedd: nid oes un addewid yn uffern yn sylfaen i obaith: nid oes un gwrthddrych yn y nefoedd i obeithio am dano; canys mae y cwbl mewn mwynhad cyflawn dros byth. Ar y ddaear y mae credadyn yn gogoneddu Duw trwy obeithio ynddo. Mae y gobaith hwn wedi ei sylfaenu ar addewidion a pherffeithiau Duw; swyddau, cyfiawnder, ac eiriolaeth Crist. Y mae sylfaen y gobaith hwn yn gadarn, ei wrthddrych yn anhywerth, a'i effeithiau yn rhagorol ac yn sanctaidd. 1 Ioan 3. 2, 3.——1. Gelwir ef gobaith yr efengyl: yr efengyl sydd yn dangos y gwrthddrych i obeithio am dano: addewidion yr efengyl ydyw ei sylfaen, a thrwy yr efengyl y mae yn cael ei genedlu yn yr enaid. Col. 1. 23. Nid oes un drws gobaith i bechadur yn y ddeddf: yr efengyl yn unig sydd yn ei dadguddio. ——2. Gelwir ef hefyd gobaith iechydwriaeth, am mai iechydwriaeth, sef gwaredigaeth gyflawn oddiwrth bechod a thrueni, ydyw y peth y gobeithir am dano. 1 Thes. 5. 8.——3. Gobaith bywiol y mae yn cael ei alw, am ei fod yn tarddu oddiwrth fywyd ysbrydol yn yr enaid, ac yn gwneuthur y sawl sydd yn ei feddiannu yn gysurus, yn fywiog, yn weithgar, ac yn awyddus i weithredoedd da. 1 Petr 1. 3. Nid gobaith bywiol, ond celwyddog yw gobaith plant y byd hwn; y mae yn marw o'u blaen, neu ar y goreu *gyda* hwynt; ond ni bydd i obaith y credadyn ddarfod ond yn y cyflawn fwynhad o'i wrthddrych. Diar. 11. 7. a 14. 32.——4. Gobaith da ydyw; y mae ei sylfaen, ei wrthddrych, a'i effeithiau yn dda. 2 Thes. 2. 16.

II. Gobaith, weithiau, a arwydda gwrthddrych gobaith, sef yr hyn y gobeithir am dano. Felly y geilw yr apostol Crist, o ran ei ddyfodiad yn y cnawd, 'gobaith Israel.' Act. 28. 20.——Bywyd tragywyddol a elwir 'y gobaith gwynfydedig—gobaith cyfiawnder;' sef gobaith wedi ei sylfaenu ar gyfiawnder Crist, ac sydd yn gweithredu i ddwyn ffrwythau cyfiawnder. Tit. 2. 13. Gal. 5. 5. Heb. 6. 18.——'Gobaith wedi ei roddi i gadw yn y nefoedd.' Col. 1. 5.—'Gobaith,' sef y peth a obeithir am dano, 'a oedir, a wanha y galon.' Diar. 13. 12.

III. Gobaith, brydiau eraill, a arwydda sylfaen y gras o obaith. Col. 1. 27. Felly y gelwir yr Arglwydd Iesu, 'ein gobaith,' sef sylfaen ein gobaith, a gwrthddrych cyflawn ein gobaith. 1 Tim. 1. 1. Jer. 14. 8. a 50. 7.

IV. Gobaith, a arwydda yn aml, hyder, ymddiried, coel, goglyd; ac yn gyfieithiad o'r gair במח Act.

Digitized by Google

2. 26. Ps. 16. 9. Diar. 14. 26. Rhuf. 15. 12. 'Y rhai o'r blaen a obeithiasom yn Nghrist,' sef a gredasom ynddo. Eph. 1. 12.

Y mae Duw yn oedi yn hir, yn fynych, cyn rhoddi y pethau da a addawodd;—ein dyledswydd ninnau yw dysgwyl yn hyderus pan fyddo yn oedi hwyaf; ac mae gobaith wedi ei sylfaenu ar addewidion Duw yn galluogi enaid i ddysgwyl felly.—Yn erbyn gobaith fe gredodd Abraham dan obaith am fab, er fod rhagluniaeth yn hir yn ymddangos yn groes i'r addewid. 'Efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw.'*——Y mae gobaith, medd Gurnal, yn gosod y Cristion ar weithredoedd rhagorol ac ardderchog; yn ei wneyd yn ddiwyd ac yn ffyddlon yn y gwasanaeth gwaelef; yn ei gadw yn amyneddgar yn y dyoddefiadau mwyaf; ac yn tawelu ei ysbryd pan fyddo Duw yn oedi hwyaf cyn cyflawni ei addewidion. Ps. 43. 5. a 62. 1. Rhuf. 5. 2, 3. a 8. 17, Heb. 3. 6. Col. 3. 23, 24. Luc 19. 28. 2 Cor. 4. 17, 18. Hab. 2. 3. Edr. Angor, Helm, Achor.

GOBENYDD, (goben) clustog ben, clustog dudded. 1 Sam. 19. 13, 16. a 26. 7.—'Yn cysgu ar obenydd,' (Marc 4. 38.) yn lluddedig gan ei lafur y dydd o'r blaen; y cwbl yn dangos ei wir ddynoliaeth, yn mhob peth yn gyffelyb i ninnau, ond ei fod yn ddibechod. Nid oedd y gobenydd oedd ganddo ond y peth cyffredin ag oedd gan y llongwyr, heb lawer o harddwch nac esmwythder yn perthyn iddo. Wele y cyfoethocaf yn eithaf tlawd yn ei fyd ei hun! ond trwy ei dlodi ef y cyfoethogir llawer.

GOBLYG—U, (plyg) hanner dau-blyg, agos yn ddau-ddyblyg; plyg-droi, amblygu.—'Efe a oblygodd ei wyneb yn ei fantell.' 1 Bren. 19. 13. Yr oedd hyn yn arwydd o'i ostyngeiddrwydd, ei barch, a'i addoliad. Exod. 3. 6. a 33. 23. Esa. 6. 2, 5.

GOBR—WY, GWOBR, GWABR, (gob) *Heb.* כפר cyflog, tâl, gwerth, tâl pwyth, pwyth.—1. Ffrwyth llafur dynion. Preg. 4. 9. a 9. 5. Yr hyn a ennillir trwy weithredoedd drwg, yw gwobr anwiredd, gwobr anghyfiawnder; sef gwobr a ennillir trwy anwiredd ac anghyfiawnder. Mae pob pechod yn anghyfiawnder. Act. 1. 18. 2 Petr 2. 15.

2. Gwobrwy a roddir i wyro barn; yr hyn sydd bechod ysgeler yn yr hwn sydd yn rhoddi ac yn derbyn y wobrwy. Deut. 27. 25. Ps. 15. 5. a 26. 10. Esa. 1. 23. a 5. 23. Y mae Duw yn farnwr cyfiawn, 'Yr hwn ni dderbyn wyneb, ac ni chymer wobrwy.' Deut. 10. 17. Y mae Duw yn wobrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio. Heb. 11. 6. Mae yn rhoddi iddynt, heb ei haeddu, fendithion addas, helaeth, a thragywyddol: Efe ei hun ydyw eu 'gwobr mawr iawn;' sef eu rhan a'u hetifeddiaeth. Mawr, yn wir, ydyw gwobr y sawl y mae Duw yn wobrwy iddynt. Gen. 15. 1. Mat. 5. 12.

Ni arwydda y gair *gwobr* mai am wobrwy y maent hwy yn ofni, sef yn parchu ac yn ufuddhau i'r gorchymyn, er eu bod yn edrych at daledigaeth y gwobrwy i gynnal eu meddwl yn eu llafur a'u proffedigaethau; nagê, ond o ras y mae y gwobrwy, ac mewn ysbryd grasol y maent hwythau yn glynu wrth yr Arglwydd, yn dyoddef drosto, ac yn byw iddo. Tâl yr Arglwydd; ond tâl yn ol ei ewyllys da a'i raslonrwydd ei hun, ac nid yn ol a haeddent hwy. Y maent yn haeddu rhy fach o lawer iddo ef roddi iddynt; ond rhydd yn ol ei haelioni anfeidrol ei hun, yn ddiderfyn ac yn dragywyddol. Ffrwyth ei ras yw eu holl weithredoedd; ac os gwobrwya ef hwynt, gwobrwyo ei ras ei hun a wna. Ond diau y bydd gwobr i'r saint, y rhai sydd yn ofni ei enw. Diar. 24. 14. Dat. 11. 18.

Gwobr yr annuwiolion fydd ffrwyth eu llafur, sef *marwolaeth dragywyddol;* dyma yw cyflog pechod. Rhuf. 6. 23. Ps. 94. 2.

'Gwobr yr Arglwydd yw ffrwyth y groth.' Ps. 127. 3. Rhodd Duw ydyw plant; oddi wrtho ef y gweddai ein bod ni yn eu derbyn, ac yn dangos ein diolchgarwch iddo am danynt, trwy eu cyflwyno iddo, a'u maethu hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Eph. 6. 4.

'Gwobrau a hoffaist ar bob llawr-dyrnu ŷd.' Hos. 9. 1.—'Gosodaist dy galon ar wobrwyon aflendid. Ar bob llawr-dyrnu mae ŷd.' Esgob Horsley. Yr oedd Israel yn priodoli eu llwyddiant i'w heilunod. Pen. 2. 5. A chan eu bod yn barnu mai eu gau-dduwiau oedd yn peri llwyddiant, a bod ŷd ar bob llawr-dyrnu, yr oeddynt yn glynu wrthynt. 'Ond,' medd yr Arglwydd, 'Israel, na orfoledda gan lawenydd, fel pobloedd eraill—y llawr-dyrnu na'r gwinwryf nis portha hwynt.' Puteiniasant oddiwrth dy Dduw; a bydd ei felldith, naill ai yn difa eu meddiannau, neu yn peri na byddont o gysur a llesâd iddynt.

GOCHEL—YD, (cêl) cilio, cadw oddiwrth.—Ar Babilon y syrthiodd dinystr nas gallai ei ochelyd. Esa. 47. 11.—Y mae pethau drwg, a phethau sydd ddilesâd i enaid, a dynion drwg, yn enwedig cyfeilliornwyr, i'w gochelyd; y maent yn beryglus ac yn niweidiol iawn. 1 Cor. 6. 18. Tit. 3. 9, 10. 1 Tim. 6. 11. 2 Tim. 2. 23. a 3. 5. a 4. 15.

GODIDOG—RWYDD, (godid) anghyffredin, dewisol, heb ei gyfryw; ardderchog, hynod, da dros ben. Edr. Ardderchog.

'Canys godidogrwydd a wnaeth efe.' Esa. 12. 5. Y gwaith a elwir yma yn odidog yw gwaith y prynedigaeth; y mae yn waith godidog ynddo ei hun—yn yr awdwr o hono—a'r effeithiau godidog yn tarddu oddi wrtho. Y mae holl fawredd Duw yn ei holl briodoliaethau yn ymddangos ynddo; a bydd y ffrwythau o hono yn ninystr Satan a'i holl amcanion, ac iechydwriaeth dragywyddol ei eglwys, yn odidog ragorol.

'Godidogrwydd Jacob;' sef ei holl allu, ei wychder, ei ardderchogrwydd, a'i ogoniant, y rhai y dyrchafodd Duw hiliogaeth Jacob iddynt; y rhai hyn oll y mae Duw yn eu ffieiddio, o herwydd eu pechodau ffiaidd. Amos 6. 8.

'Fel y byddai godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.' 2 Cor. 4. 7.—'Val y byddei ardderchowgrwydd y *meddiant** hwnw o Duw, ac nyd o hanom ni.' W. S. a Dr. M. *Gr.* *υπερβολη της δυναμεως*, *rhagoroldeb* neu *odidogrwydd.* Y mae yr efengyl yn odidog ragorol yn ei hathrawiaeth ardderchog, yn addas i Dduw a'i briodoliaethau, ac i'n cyflyrau ninnau a'n hangenion:—mae y gorchymynion yn uniawn, a'r addewidion yn rasol iawn; yn yr effeithiau godidog yn cyd-fyned â'r pregethiad o honi—gallu Duw yw hi er iechydwriaeth i bechaduriaid—y mae yn nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr. 'Y mae genym y trysor hwn mewn llestri pridd,' medd yr apostol; pe buasai mewn llestri aur neu arian, ni buasai y llestr yn chwanegu dim at odidogrwydd y trysor, ond y mae y godidogrwydd yn *ymddangos* yn well i ni yn y llestri pridd; nid oes dim yn ymddangos felly yn odidog ond y trysor ei hun. Edr. Dienu, Cystudd, Doethineb.

GODINEB, (god) *Heb.* נאף gwydineb, tòr-priodas; sef y trosedd ag sydd yn tori ammod priodasol;

---

* *παρ ελπιδα επι ελπιδι, τι εστι; παρ ελπιδα την ανθρωπινην επι ελπιδι τη του Θεου, τη παντα νικωση, τη παντα δυναμενη, τη παντων περιγινομενη*—Yn erbyn gobaith, dan obaith. Beth ydyw? yn erbyn gobaith dynol, dan obaith Duw, yr hwn sydd yn gorchfygu pob peth, yn gallu pob peth, sydd yn rhagori ar bob peth. Chrysostom.

* Y gair *δυναμις*, a gyfieithir gan y ddau wyr hyn *meddiant*, a gyfieithir y rhan amlaf *gallu;* ond yn Dat. 18. 3. a gyfieithir *amlder*.

Digitized by Google

felly mae y gair *μοιχος*, *μοιχευω*, yn cael ei gyfieithu yn aml. Mat. 15. 19. a 19. 9. Marc 7. 21. 1 Cor. 6. 9. Gal. 5. 19. Trosedd o'r seithfed gorchymyn ydyw godineb, yr hwn sydd yn gwahardd pob math o aflendid cnawdol yn y meddwl, mewn geiriau aflan, neu weithrediad cnawdol, anghyfreithlawn. Y mae y gorchymyn hwn yn gwahardd, nid yn unig godineb, puteindra, a phob llosgach anghyfreithlawn; ond hefyd chwantau aflan y meddwl, a phob peth a fyddo yn tueddu i ennyn a magu y cyfryw chwantau—megys geiriau, ystumiau corphorol, neu wisgoedd anllad: segurdra, glythineb, a meddwdod, y rhai ydynt yn pesgi y cnawd, ac yn ennyn gwyniau gwarthus. Exod. 20. 14. Lef. 18. 6, 20, 29. a 20. 13, 15. Deut. 22. 22, 25. a 23. 17. Mat. 5. 28. Eph. 5. 3, 4. Esa. 3. 16, 17. Ezec. 16. 49, 50.

'Ysgelerder ydyw y pechod hwn, a thân a ysa hyd oni anrheithio.' Job 31. 11, 12. Y mae yn halogi y meddwl, yn dwyn y galon oddiwrth Dduw, yn tori ammod, ac yn damnio dau enaid ar unwaith. Hos. 4. 11. 1 Cor. 3. 16, 17. a 6. 15. Diar. 2. 19. a 7. 27. Y mae Duw yn barnu y godinebwr yn euog o farwolaeth fel y llofrudd. Lef. 20. 10. Deut. 22. 20, 21. Y mae godineb yn dwyn tlodi, gwarth, a chlefydau blinion gyd âg ef, yn aml, fel melldith Duw ar odinebwyr; melldigedig yw eu rhan ar y ddaear, a Duw a'u barna yn y diwedd i ddinystr tragywyddol. Diar. 6. 26, 33. a 7. 23. a 29. 3. Heb. 13. 4. Job 24. 18. Mal. 3. 5. 1 Cor. 6. 9, 10.

'A llygaid ganddynt yn llawn godineb, ac heb fedru peidio â phechod.' 2 Petr 2. 14. *μεστους μοιχαλιδος, yn llawn o'r odineb-wraig.* Y mae grym a synwyr neillduol yn y geiriau, ac yn arwyddo fod yr odinebwraig yn barhaus o flaen eu llygaid; ïe, bod eu llygaid mor llawn o honi hi, fel na chanfyddent ddim arall. *Er fod gan y bobl hyn lygaid, etto nis canfyddant ddim ond yr odineb-wraig.**

Y mae y rhai sydd yn byw trwy ffydd ar addewidion Duw, yn ymlanhau oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw. 2 Cor. 7. 1.

Yn mhlith y cenedloedd yr oedd godineb yn cael edrych arno yn bechod ysgeler yn foreu iawn. Gen. 20. 9. Yn ol cyfreithiau yr amrywiol wledydd, yr oedd y pleidiau yn cael eu barnu i ddyoddef cospedigaethau gwahanol: megys yn yr Aipht, y gwr i oddef mil o wialenodau, a'r wraig i golli ei thrwyn; tynu eu llygaid yn mhlith y Groegiaid; alltudiaeth dros fywyd yn mhlith rhai; eu marwolaethu yn mhlith eraill. Y Saxoniaid a farnent y wraig i gael ei llosgi, ac i'r gwr gael ei grogi ar grogbren uwch ben ei llwch. Yr Ellmyn a gospent y wraig yn euog o odineb, trwy eillio ei phen. Tacitus, *De Morib. German.*—Trwy beri i'r wraig yfed y dwfr chwerw, trefnodd Duw ddefod i adnabod y pechod, er mor ddirgel y gallai gael ei gyflawni. Num. 5. 12—31.

Godineb a arferir yn gyffelybiaethol, yn aml, yn yr ysgrythyrau; ac a arwydda eilun-addoliaeth, neu wrthgiliad oddiwrth Dduw at gau dduwiau; trwy ba un y mae dynion yn halogi eu hunain yn ffiaidd, ac yn tori eu cyfammod eglwysig â Duw. Ezec. xvi, xxiii. Hos. 2. 2. Dat. 2. 21. Iago 4. 4.

GODRE—ON, (god-rhe) ymyl gwisg, amaerwy, eddi, rhidens, sitrach, ymyl-gylch.—Dynoethi godre, a arwydda godineb: Deut. 22. 30. neu gwaith Duw yn dwyn gwarth a gwaradwydd ar ddynion, oblegid eu ffiaidd bechodau. Jer. 13. 22. Nah. 3. 5.——'A'i odre yn llenwi y deml;' sef gradd llai o'i ogoniant yn cael ei amlygu i'r eglwys yma yn y byd, yr hwn sydd yn ymddysgleirio yn gyflawn yn y nefoedd. Esa. 6. 1. Gwel Vitringa *in loc.*

* *Ουτοι γαρ οφθαλμους εχοντες ουτεν αλλο βλεπουσιν η μοιχαλιδας.* Œcumenius.

GODRO, (godr) armeilio.—'Fel y godroch, ac y byddoch hyfryd gan helaethrwydd ei gogoniant hi.' Esa. 66. 11.—'Fel y godroch ac y byddoch hyfryd o ddysgleirdeb ei gogoniant.' Dr. M.—'Fel y tynoch allan faeth peraidd o helaethrwydd ei thrysorau.' Lowth. Y mae Sïon, neu yr eglwys, yn cael ei chyffelybu i fam iachus yn rhoddi maeth cyflawn i'w holl blant, trwy ragoroldeb y breintiau a'r bendithion gwerthfawr sydd ynddi; y maent hwythau yn cael eu hannog dan y gyffelybiaeth o rai bychain yn sugno bronau, i gyfranogi yn helaeth trwy ffydd o'i breintiau a'i bendithion ysbrydol, fel y cynnyddont, y byddont ddyddanus a hyfryd. Mae bronau ei dyddanwch, sef ei hathrawiaethau a'i haddewidion, yn gyflawn ddigonol i'w diwallu, yn wyneb eu holl angenion. Plant eglwys Duw ydyw ei holl bobl; hi ydyw eu mam a'u mammaeth; ei bronau hi sydd yn eu dyddanu ac yn eu diwallu; y sawl nad ydynt yn cael eu bywioliaeth ynddi a thrwyddi, nid gwir blant Duw ydynt. Gal. 4. 26. Can. 4. 5. 1 Petr 2. 2. Ps. 22. 26. a 36. 8. a 37. 11. 2 Cor. 1. 4, 6. 1 Tim. 4. 6. Rhuf. 11. 17.

GODYWYLL, (tywyll) lled-dywyll, dilewyrch.—'Ac wele, os bydd y pla yn odywyll.' Lef. 13. 6, 28. 'Os bydd yr anafod yn crychu.' Dr. M. *Heb.* כהה *attal.* 'Os bydd y pla wedi ei attal, ac heb ledu.'—לא כהה בם 'Ac nas *gwaharddodd* efe iddynt;' sef nis attaliodd efe hwynt. 1 Sam. 3. 13. Nid oes dim perthynas rhwng bod yn odywyll a bod heb ledu; ond y mae gwrth rhwng bod wedi ei attal ac heb ledu.

GODDAITH, (daith) daith, llosg, golosged, cynneu, goleu-dân.—'Fel y goddeithia fflam fynyddoedd.' Ps. 83. 14. Felly y dyfetha Duw holl elynion ei eglwys, mor fuan, mor hawdd, ac mor llwyr. Joel 1. 19.

GODDEF, (def) dyoddef, ymddyoddef, ymaros, bod yn foddlawn.—'Dynion ydym ninnau yn gorfod goddef fel chwithau;' yn hytrach (*ομοιοπαθεις*) o'r unrhyw hanfod a chwithau, ac yn yr un cyflwr o ran natur a chwithau. Act. 14. 15. Iago 5. 17. Gwel Campbell's *Prelim. Dissert.* Edr. DYODDEF.

GODDIWES, (goddiw) gorddiwes, caffael, cyrhaeddyd, dyfod o hyd.—'Os goddiweddir dyn ar ryw fai.' Gal. 6. 1. 'Er dala dyn ar ryw fai.' Dr. M. *προληφθη*, os cipir dyn yn ddiarwybod, megys gan brofedigaeth annysgwyliadwy; os goddiweddir ef, nid fel peth y mae yn arferol ei ddilyn. Y mae y goreu o ddynion yn ddarostyngedig i hyny yn y byd hwn, sydd yn llawn o achlysuron i bechu. Nid oes ond y Tad nefol a ddichon ein cadw rhag profedigaeth, a'n gwared rhag drwg. Eph. 5. 15. a 6. 12. 1 Ioan 2. 1.

'Gwybyddwch, y goddiwedda eich pechod chwi,' sef cospedigaeth am eich pechod. Num. 32. 23. Esa. 59. 12. Jer. 42. 16. Oni byddai bod yn bosibl i bechadur ddianc oddiar y Duw holl-bresennol, nid yw ond peth ofer iddo feddwl dianc oddiwrth y gospedigaeth gyflawn ddyledus iddo.—Crist yw yr unig ddiangfa.

GOF, (of) celfyddydwr, manyl-weithydd; mettelydd. Gôf du, gôf gwyn, gôf pres, gôf aur, gôf arian, gôf haiarn; sef yw celfyddydwr ar y mettelau hyny. Byddai y gofaint gynt yn darparu y mettel o'r mŵn, fel y gwnant yn y ffwrneisiau yn bresennol. Esa. 44. 12. Act. 19. 24. Gôf hefyd a arwydda offeryn dialedd yn llaw Duw, 'y dinystrydd i ddinystrio.' Y mae yr holl offerynau dinystriol hyn mor hollol dan lywodraeth yr Arglwydd, a'i ofal mor fawr am ei eglwys, fel na lwydda un offeryn a lunir yn ei herbyn hi. Esa. 54. 16, 17.

GOFAL—U—US, (mal) meddwl, pryder, ystigrwydd, dyfalwch, astudrwydd.

Tri *gofal* Cristion: rhag digio Duw; rhag tramgwyddo dyn; a rhag ymwanhau o'i gariadoldeb at bob daioni.

*Barddas.*

Digitized by Google

Y mae Duw yn gofalu am ei greaduriaid, yn enwedig ei bobl briodol; y mae yn eu cynnal, yn darparu drostynt, yn ystyried eu hachos yn fanwl, yn eu llywodraethu, ac yn eu llwyddo. 'Gan fwrw eich holl ofal arno ef; canys y mae efe yn gofalu drosoch chwi.' 1 Petr 5. 7. Mat. 6. 26, 30. 1 Cor. 9. 9. Eich holl ofal, sef eu hiechydwriaeth, eu cynnaliaeth, eu hamddiffynfa, a'u diogelwch; eu gofal am eu heneidiau, eu cyrph, eu hamgylchiadau, eu perthynasau, &c. Gofalu ydyw cymeryd gwaith Duw arnom ni ein hunain; 'y mae efe yn gofalu drosom:' credu, caru, ac ufuddhau yw ein gwaith ni. Y gair hwn, *bwrw*, a arwydda ei fod yn pwyso yn drwm ar y meddwl; ei fod yn boenus, yn niweidiol, ac yn anhawdd iawn ei gael o'r meddwl: gorchest-waith ffydd ydyw rhyddhau y meddwl oddi wrtho, trwy ei fwrw ar yr hwn y mae yn perthyn iddo, sef ar yr Arglwydd, ein Tad nefol. Mae *gofalu* a *thrafferthu* yn cydfyned â'u gilydd; yr ydym ni yn rhy ffol, ac yn rhy weiniaid, i ofalu; am hyny yr ydym yn drafferthus, yn ofidus, yn anfwyn, ac yn llawn o dymherau drwg—fel Martha, yn mawredd ei gofal a'i thrafferth, agos a beio ar Grist ei hunan, yn gystal a'i chwaer. Mae y gofal hwn yn bechadurus ac yn niweidiol; yn tagu y gair, ac yn ein hamddifadu o bob budd a chysur oddi wrtho. Luc 10. 41. Mat. 13. 22. 'Gofal y byd hwn' y mae yn cael ei alw, am ei fod yn tarddu oddiwrth ysbryd y byd hwn; yn meddiannu dynion yn mhob sefylla ac amgylchiad yn y byd; ac am ei fod yn nôd dynion sydd â'u rhan yn y byd hwn, oni chânt waredigaeth oddi wrtho. Y mae yr Arglwydd Iesu yn coffâu tri pheth fel cyfferi meddyginiaethol rhag y gofal anghymedrol pechadurus hwn, sef fod ein Tad nefol yn gofalu, ac yn addas i hyny; na lesâ ein gofal ni ddim; a bod teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef yn anfeidrol fwy eu pwys i ni i'w ceisio yn gyntaf ac yn benaf. Mat. vi.

'Bwyta bara dan bwys, ac mewn gofal,' ydyw ei fwyta mewn cyfyngderau tost, a than ddysgwyliad ofnadwy am farnedigaethau Duw. Lef. 26. 26. Ezec. 4. 16. a 12. 18, 19.

'Nid ydym yn gofalu am ateb i ti yn y peth hwn.' Dan. 3. 16. Gan ein bod gwedi penderfynu dyoddef, nid rhaid i ni roddi ateb mewn geiriau. Yr ydoedd eu meddyliau yn ddiofal; gwedi bwrw eu holl ofal ar yr Arglwydd, yr oeddynt mewn tangnefedd heddychol. Ufuddhau y gorchymyn oedd eu gwaith hwy, eu cadw a'u gwaredu oedd gwaith Duw.

'Llesmeiriasant; y mae gofal ar y môr heb fedru gorphwys.' Jer. 49. 23.—'Llesmeiriasant fel un ofnus ar y môr, heb fedru gorphws.' Dr. M.—'Toddasant yn fôr o anesmwythder, yr hwn nis dichon orphwys.' Dr. Blayney. Yr oedd y chwedl ddrwg a glywsant, gwedi eu llenwi hwynt âg ofnau, a chwedi peri y fath anesmwythder i drigolion Damascus, Hamath, ac Arpad, sef y Syriaid, nes yr oeddynt hwy yn gyffelyb i'r môr yn dygyfor gan anesmwythder. Hwn, mae yn debygol, ydyw ystyr priodol y geiriau; ac yn y golygiad hwn, mae y gyffelybiaeth yn hardd ac yn synwyriawn.

'Fel y byddo i'r sawl a gredasant i Dduw ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da.' Tit. 3. 8.—'Ymovalu y ddangos yn amlwc gweithredoedd da.' W. S. —'Ofalu am ragori mewn gweithredoedd da.' Dr. M. —ινα φροντιζωσι καλων εργων προιστασθαι. *Gr.*— *I oruwch olygu ac amddiffyn gweithredoedd da:*— blaenori ynddynt eu hunain, ac annog eraill ynddynt; amddiffyn gweithredoedd da yn erbyn pawb a fyddo yn eu bychanu fel pethau afreidiol; a rhoddi eu meddwl, a gofalu yn ddyfal am hyny, fel peth o bwys anhebgorol. Gwel Parkhurst, Macknight, a Kypke.

GOFER, (mer) nant, cornant, corafon, aberig, afonig. Diar. 25. 26.

GOFID—IO—US, (mid) cysteg; cyni; trueni; llafur-boen, dygn-boen; trychineb, adfyd; beth bynag fyddo yn blino, yn trallodi, neu yn dolurio corph neu feddwl dyn.—'Gofidiau uffern—gofidiau angeu,' hyny yw, gofidiau mawrion, angeuol, dychrynllyd, marwol. Ps. 18. 5. a 116. 3. Act. 2. 24. Edr. ATTAL. Duw ydyw awdwr gofidiau, ond pechod yw yr achos haeddiannol o honynt. Job 5. 6. Esa. 45. 7. Jer. 23. 10. 'Ni flagura gofid allan o'r ddaear;' nid un creadur sydd yn peri gofid, heb yr Arglwydd; efe yn unig 'sydd yn lladd ac yn bywhau.' Deut. 32. 39. Mae gofidiau y duwiolion yn geryddol, ac yn feddyginiaethol er eu llesâd; ac y maent yn gynnwysedig yn y 'pob peth sydd yn cyd-weithio er daioni iddynt.' Bod heb-ddynt fyddai bod yn amddifad o ryw ddaioni a llesâd. Rhuf. 8. 28. Heb. 12. 10. Edr. CYSTUDD, DOLUR. Y mae gofidiau annuwiolion yn llawer, yn amlhau, yn farwol, ac yn dragywyddol. Ps. 16. 4. a 32. 10. Dat. 9. 5. a 16. 10. a 18. 7, 10.

GOFWY—O, (mwy) ymweliad; anfon drwg neu dda.—'Amser gofwy—blwyddyn eu gofwy;' sef yr amser y byddo Duw yn ymweled â chenedl neu ddynion am eu pechodau. Jer. 10. 15. a 11. 23. a 46. 21. ——'Duw gan eich gofwyo a'ch gofwya chwi:' (Gen. 50. 25.) hyny yw, ymwel Duw â chwi yn sicr mewn trugaredd, yn ol ei addewid. 'Trwy ffydd, Joseph, wrth farw, a goffâodd am ymadawiad plant Israel.' Heb. 11. 22. Gen. 15. 7, 13, 14.——'Gofwyo pechodau—gofwyo allorau Bethel,' sef cospi am danynt. Hos. 8. 13. Amos 3. 14.

'Canys wele fi yn codi bugail yn y tir, yr hwn ni ofwya y cuddiedig.' Zech. 11. 16. Y cuddiedig ydyw yr hon sydd gwedi crwydro, ac yn anweledig gyd â'r praidd; gwaith y bugail ydyw ymweled â hi yn y fan ac yn y cyflwr y mae. Peidio gofwyo y cyfryw un sydd anffyddlondeb mawr mewn bugail, a barn drom ar y praidd. Y mae yn perthyn i fugeiliaid yr eglwys, ystyried yn fanwl wahanol gyflyrau y rhai hyny sydd dan eu gofal, rhoddi addysg ac annogaethau cyfatebol iddynt, a'u hymgeleddu hwynt âg athrawiaeth iachus yr efengyl. Act. 20. 28. Bugail diofal, segurllyd, sydd farn drom iawn ar ddynion; fel mae bugail ffyddlawn, diwyd, a gofalus, y fendith fwyaf a ddichon dynion gael oddiwrth Dduw.

GOFYN, (myn) holi; ceisio; erfyn, deisyf.

Tri phrif *ofynion* Duw: cariad, cyfiawnder, ac ufudd-dod.
*Barddas.*

'Gofyn gan Dduw,' yw gweddïo arno, ceisio rhyw beth ganddo, neu ymgynghori âg ef. Ioan 14. 13. a 15. 7. Esa. 30. 2.——'Gofyn mewn ffydd,' (Iago 1. 5.) ydyw gofyn dan gydnabyddiaeth o'n hangen, a'n hanheilyngdod, ar sail yr addewid, yn enw y Cyfryngwr, yr hwn a ddywedodd, 'Pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi.' Ioan 16. 23. ——'Gofyn ar gam,' neu gofyn (κακως) *yn ddrwg*, ydyw gofyn gan Dduw yr hyn nis addawodd nac a orchymynodd; gofyn yn anghredinìol, yn ddiofal, ac yn esgeulus; a gofyn i ryw ddybenion gau a phechadurus. Iago 4. 3.

'Gofynwch i mi y pethau a ddaw am fy meibion, a gorchymynwch fi am waith fy nwylaw.' Esa. 45. 11. 'A holwch chwi fi am fy mhlant? A roddwch chwi gyfarwyddiadau i mi am waith fy nwylaw?' Lowth. 'Am bethau i ddyfod y maent yn fy holl: A roddwch chwi orchymyn i mi am fy meibion, a gwaith fy nwylaw?' Vitringa. Y mae y geiriau yn cael eu llefaru wrth rai yn ymryson â'u lluniwr, ac yn beio arno oblegid ei ragluniaethau tu ag at ei eglwys: 'Ymrysoned priddell â phriddellau y ddaear,' ond rhyfyg pechadurus ac anaddas iawn yw i'r clai ymryson â'i luniwr —sef pechadur tywyll, ffol, i farnu a chyfarwyddo yr Arglwydd am ei ymddygiad tu ag at ei blant. Sanct Israel â'i luniwr yw Duw, ac mae yn trefnu pob peth tu ag at Israel, sef ei bobl, yn ei ben-arglwyddiaeth,



Digitized by Google

gyd â'r doethineb, y tiriondeb, a'r daioni mwyaf.—Parchu, addoli, a rhyfeddu, sydd addas i'w greaduriaid wrth edrych ar ei waith, ac nid barnu a chyfarwyddo. Edr. CEISIO, GWEDDIO.

GOG, *Heb.* גוג (*gog*) [*gorchudd*] Gog a Magog: y mae y ddau enw hyn yn cael sôn am danynt gyd â'u gilydd yn yr ysgrythyrau. Ail fab Japheth ydoedd Magog, ond ni roddir i ni ddim hanes gan Moses am Gog. Gen. 10. 2. Tywysog Magog oedd Gog; gan hyny wrth Magog mae i ni ddeall y wlad, neù ei thrigolion, a Gog oedd yn frenin arnynt. Ezec. 48. 2, 3. a 39. 1. Edr. MAGOG. Y mae Gog yn cael ei alw *pen tywysog*, neu נשיא ראש *tywysog Rosh*, sef y Rwssiaid, Mesech, a Thubal.* Y mae Michaelis yn cymharu y gair *Gog* â'r gair *Cac* (*Kak*, neu *Chak*) enw cyffredinol ar freninoedd yn mhlith yr hen Dyrciaid, Moguliaid, Tartariaid, Catalaid, a'r Chineaid. Gwel Spic., *Georg.*, *p.* 34. Gog a Magog, oedd, tebygol, yn yr hen oesoedd, yr enw cyffredin ar y cenedloedd yn preswylio parthau gogleddol Ewrop ac Asia, fel y gelwyd hwynt wedi hyny y Scythiaid, ac yn bresennol Tartariaid. Y parthau hyn ydynt yn awr yn perthyn i ymerodraeth Rwssia. Yr hen Dartariaid a alwent eu hunain Mogli, neu Magogli, neu Mungli a Mungugli, biliogaeth Magog. Yn yr India ddwyreiniol y mae heddyw ymerodraeth Mogul, a'r wlad Mogulistan, neu wlad y Moguliaid.

Rhoddir i ni brophwydoliaethau tra hynod yn Ezec. xxxviii, xxxix, a Dat. xx, am luoedd Gog a Magog; eu malais a'u bwriadau creulawn yn erbyn Israel, yn erbyn gwersyll y saint a'r ddinas anwyl; a'u dystryw gwyrthiol, cyflawn, ac ofnadwy. Tebygol fod y ddwy brophwydoliaeth i'w golygu yn wahanol, ac yn perthynu i wahanol amserau a dygwyddiadau. Yn Ezeciel maent yn dyfod o ystlysau y gogledd (Pen. 38. 6, 15. a 39. 2.) ond yn llyfr y Dadguddiad y maent yn dyfod o bedair congl y ddaear. Y mae Gog a Magog Ezeciel yn myned yn erbyn yr Iuddewon gwedi eu dychwelyd i'w gwlad eu hunain; ond yn Ioan y maent yn amgylchynu 'gwersyll y saint,' a'r 'ddinas anwyl.' Y mae Gog a Magog Ezeciel yn eglur yn cyfeirio at y cenedloedd yn preswylio yn y parthau gogleddol; ond yn Ioan y mae yn debyg iawn mai enwau cyfriniol ydynt, ac yn nodi y gelynion diweddaf a gyfodant tua diwedd amser, yn erbyn yr eglwys Gristionogol, gwedi hir heddwch a gogoniant mawr. Yr ymgais diweddaf o eiddo Satan yn erbyn achos Crist yn y byd, fydd ymosodiad Gog a Magog, a'u lluoedd aneirif; ond bydd eu dystryw yn wyrthiol gan dân o'r nefoedd, yn ddisymwth ac yn gyflawn. Y mae dinystr y cyntaf trwy gleddyf a haint; ond tân o'r nefoedd sydd yn dystrywio yr ail elyn. Y mae y chweched ran yn cael ei gadael o'r cyntaf, ond mae y diweddaf yn cael ei lwyr ddinystrio. Ond rhaid aros y cyflawniad i ddeall y prophwydoliaethau yn eglur; er y gellir, cyn eu cyflawni, olygu ynddynt ychydig yn gyffredinol am ddull ac ansawdd yr eglwys yma yn y byd, ei llwyddiant, ei gelynion, a'i gwaredigaethau, hyd ddiwedd amser. Gwel Esgob Newton, Vitringa, a'r Dr. Bryce Johnston ar y DADGUDDIAD.

GOG. Edr. COG.

GOGAN—ION—U, (cân) cablu; rhoddi anghlod, beio ar, athrodi, difrïo, anmharchu; bychanu.—'Yn eich goganu megys drwg-weithredwyr.' 1 Petr 2. 12. Nid oes neb yn erbyn duwiolion, *fel y cyfryw;* rhaid rhoddi dryg-air iddynt yn gyntaf; ac er bod y dryg-eiriau yn gelwyddog i gyd, ceir digon yn barod i'w derbyn yn awyddus, fel pethau gwirioneddol: wedi eu gwneuthur yn ddrwg-weithredwyr, fel y cyfryw, dechreuir eu herlid trwy eu dirmygu, eu gwawdio, eu hyspeilio, a'u cospi, yn aml. Yr ymddiffyniad goreu yw ymarweddiad gonest yn mhlith y cenedloedd; fel y gallont o herwydd y gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad.

Y mae goganau anmharchus yn dra phechadurus, yn niweidiol iawn yn mhlith Cristionogion, ac yn gwbl anghytun â'u honiad, a'u hymddangosiad fel canlynwyr Crist. 2 Cor. 12. 20.——'Gogan-air,' (2 Petr 2. 1.) 'dryg-dafodlen,' W. S. ymyl y ddalen, πασας καταλαλιας, *dywedyd yn erbyn, difrïad, drygair, gwaradwydd.*

GOGLEDD, (cledd) y pwnc hwnw o'r nefoedd y sydd gyferbyn a'r dehau. Edr. DEHAU, DWYRAIN. Dywedir yn yr ysgrythyrau, fod lleoedd yn y gogledd neu yn y dehau, yn aml, o ran eu sefyllfa i wlad Canaan: felly yr oedd Syria yn y gogledd, a'r Aipht yn y dehau i wlad Canaan. Dan. 11. 5—15.

Mae rhai yn barnu fod yr ystafelloedd, y rhai oeddynt tu a'r gogledd yn nheml Ezeciel, yn arwyddo, yn brophwydoliaethol, yr eglwysi Protestanaidd yn Ewrop ac America. Ezec. 42. 11, 13.

O'r gogledd mae Duw yn rhoddi oerni; y gogleddwynt sydd wynt sych, oer; y mae gwynt y dehau a'r gogledd yn angenrheidiol i naturiaeth; felly yr un fath mae argyhoeddiadau llymion, profedigaethau, a phethau anhyfryd yn angenrheidiol er llesâd ysbrydol yr eglwys. Job 37. 9. Can. 4. 16.

'Yn ystlysau y gogledd.' Ps. 48. 2. Esa. 14. 13. Lle yr ydoedd y deml yn sefyll, a harddwch penaf y mynydd. Nid bod mynydd Sïon yn sefyll o du y gogledd i Jerusalem a feddylir; canys yr oedd o'r tu dehau iddi; ond yr ydoedd y deml yn sefyll ar ystlys ogleddol i'r mynydd.

GOGLUD, (clud) coel, hyder, ymddiried.—'Y neb a roddo ei oglud ar ei gyfoeth a syrth.' Diar. 11. 28.—'Y neb a roddo ei goel ar ei gyfoeth a syrthia.' Dr. M. Peth anwadal yw cyfoeth; mae hyderu arno yn eilunaddoliaeth, ac yn ddirmyg dirfawr ar yr Arglwydd, trwy roddi ei greadur o'i flaen. Gan nas dichon cyfoeth gynnal ei hunan, nis dichon yn sicr gynnal y sawl a ymddiriedo ynddo; am hyny y mae yn sicr o syrthio heb ddim i'w gynnal, dan ddigofaint Duw ar yr hwn y cefnodd arno.

GOGONEDD—U—US, GOGONIANT, (coniant) gogoniant, godidogrwydd; ardderchogrwydd yn ymddangos, neu yn dysgleirio: clod, mawl; clodforedd, moliant. Y gair *Heb.* כבוד a gyfieithir *gogoniant*, a arwydda *pwysig;* cyfleithiad o'r gair hwn yw geiriau yr apostol, 'pwys gogoniant,' neu 'gogoniant sylweddol,' pwysig; yn cynnwys ynddo bethau sylweddol, pwysig. Y mae gwag ogoniant yn mhlith dynion; sef dynion yn rhoddi gogoniant i'w gilydd, neu yn ei gymeryd iddynt eu hunain, heb ddim yn sylweddol ogoneddus ynddynt: ond mae pwysau a sylwedd gwirioneddol yn ngogoniant Duw; y mae efe yn cyfranu iddynt bethau sydd yn ogoneddus a sylweddol.

Y mae tri pheth yn gwneuthur gwrthddrych yn ogoneddus, sef mawredd—prydferthwch a harddwch—a gwerthfawrogrwydd a defnyddioldeb. Mawredd, a'r mawredd hwnw yn hardd; ac hefyd yn ddefnyddiol i ni; a'r cwbl ynddo ac o hono ei hun: neu, yn yr ail le, ac mewn ystyr is, wedi ei gyfranu yn sylweddol ac yn wirioneddol, ac nid yn ffugiol ac yn ddangosiadol: yn yr ystyr cyntaf y mae yn Nuw—yn yr ail, yn ei bobl. Y mae yn Nuw, sef yn hanfod y Personau Dwyfol, ogoniant hanfodol, sylweddol, goruchel, ac ofnadwy; hardd a gwerthfawr anfeidrol. Gogoniant a harddwch ydyw i gyd. Mae pob mawredd a gwychder ardderchog ynddo, i radd na ddichon neb amgyffred ond efe ei hun. Y ffafr fwyaf a ddichon ei wneuthur

* Princeps præcipuus—Princeps capitis Mesech et Tubal: utrumque coactum est et violentum. LXX. Int. Symmachus & Theodotio jam viderunt, ראש hic esse nomen proprium Gentis. Gwel Vitringa ar Dat. 20. 8.

Digitized by Google

i neb o'i greaduriaid, ydyw dangos ei ogoniant iddynt. Exod. 33. 18, 19. Job 37. 22. Ps. 138. 5. Y mae yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd—y mae iddo enw gogoneddus—braich ogoneddus—gorsedd ogoneddus—cadernid gogoneddus—a bydd ganddo eglwys ogoneddus. Exod. 15. 11. Deut. 28. 58. Ps. 72. 19. Esa. 62. 12. Jer. 17. 12. Col. 1. 11. Eph. 5. 27.

'Gogoniant yr Arglwydd,' neu כבוד יהוה *Gogoniant Iehofah*, a arwydda yn yr ysgrythyrau, 1. Y Person Iehofah, a elwir מלך כבוד *Brenin y Gogoniant*. Ps. 24. 7, 8, 9. 'Haul (*שמש goleuni*) cyfiawnder'—'dysgleirdeb y gogoniant dwyfol'—'y gwir oleuni,' sef Crist. Mal. 4. 2. Heb. 1. 3. Ioan 1. 4, 9.

2. Dadguddiad dysglaer o briodoliaethau yr Arglwydd, ei sancteiddrwydd, ei ddoethineb, ei allu, ei ddaioni, &c. Lef. 19. 2. Num. 14. 21. Yn yr ystyr hwn mae y nefoedd yn dadgan ei ogoniant. Ps. 19. 1. Cyfodwyd Crist o feirw, 'trwy ogoniant y Tad,' sef trwy fawredd ei allu, ac i ogoniant ei berffeithrwydd, ei ddoethineb, ei uniondeb, ei ddaioni, a'i wirionedd. Rhuf. 6. 4.

3. Ei ras a'i drugaredd, y rhai a eilw yr apostol, 'golud ei ogoniant;' sef y gogoniant mae yn gyfoethog o hono, y mae yn ymogoneddu ynddo fwyaf, fel gwr yn ei gyfoeth. Eph. 1. 18. a 3. 16.

4. Y cwmwl, neu y dysgleirdeb gweledig, y llefarodd Duw ynddo wrth Moses ac eraill, ac a lanwodd deml Solomon. Exod. 16. 7, 10. 1 Bren. 8. 11. Yr oedd hwn yn arwydd neillduol o'r presennoldeb dwyfol; yr ydoedd weithiau mewn dull dynol, ac yn rhag-ddangos cnawdoliaeth Iehofah. Ezec. 1. 28. a 8. 4. a 9. 3. a 10. 4, 18. a 11. 22, 23. a 43. 2—5. a 44. 4. Gellir meddwl fod rhyw ddysgleirdeb goleuni, neu ogoniant, gyda, neu ar, yr arch a'r cerubiaid bob amser: ac o herwydd hyny y gelwir hi 'y gogoniant,' ac 'ei brydferthwch.' Ps. 78. 61. 1 Sam. 4. 21, 22. A gelwir y cerubiaid, o herwydd yr un achos, 'cerubiaid y gogoniant.' Heb. 9. 5. Yr oedd y presennoldeb dwyfol arnynt, ac arwydd dysglaer o hono, tebygol.

5. Yr ydys yn rhoddi gogoniant i'r Arglwydd trwy gydnabod ei fod yn ogoneddus, a phob ardderchogrwydd a rhagoroldeb ynddo; trwy ei garu, ymddiried ynddo, ac ufuddhau iddo, fel y cyfryw Fod gogoneddus; ac amcanu yn ddifrifol ei anrhydeddu, a'i ddangos ef i ddynion fel y cyfryw, yn yr hyn oll a wnelom. Ps. 29. 1. 1 Sam. 6. 5. 1 Cor. 10. 31.—'Dyro y gogoniant i Dduw.' Ioan 9. 24. Pan byddai yr Hebreaid yn tyngu rhyw un, dywedent, 'Dyro ogoniant i Dduw;' cyfaddef y gwir; cydnebydd a chyfaddef fod Duw yn gwybod dy holl feddyliau dirgel; ie, holl ddirgeloedd dynion. Jos. 7. 19. Gwel Calmet a Campbell.

6. Y cyflwr gwynfydedig a gogoneddus y mae yr Arglwydd gwedi ei ddarparu yn y nefoedd, ac yn ei roddi i'w bobl. Rhuf. 5. 2. Ps. 73. 24.

7. Cynnrychioliad, neu arddangosiad anrhydeddus o hono; felly gelwir y gwr yn ddelw a gogoniant Duw, fel y mae yn ei arddangos yn ei flaenoriaeth a'i awdurdod. 1 Cor. 11. 7. A'r wraig sydd yn arddangosiad anrhydeddus o'r gwr.

'Ydynt yn ol am ogoniant Duw.' Rhuf. 3. 23. 'Ydynt yn ol,' trwy bechod, o'u tebygolrwydd iddo mewn gwybodaeth ysbrydol, cyfiawnder, a sancteiddrwydd; yn ol o'i anrhydeddu yn eu holl weithredoedd; ac yn ol o'r rhagorfreintiau gogoneddus a'r dedwyddwch a fuasent yn eu meddiannu pe buasent heb bechu; yn ol o gymeradwyaeth Duw. Macknight.

'A'th Dduw yn ogoniant i ti.' Esa. 60. 19. Jer. 2. 11. Zech. 2. 5. Duw yw gogoniant ei bobl; eu perthynas âg ef yw eu hanrhydedd penaf; eu mwynhad o hono yw eu dedwyddwch gwirioneddol a thragywyddol; a'u cymdeithas âg ef sydd yn eu gwneyd yn anrhydeddus yn ngolwg eraill; ac ynddo ef maent hwy eu hunain yn ymffrostio.

Gogoniant Crist, a arwydda amlygiad o ardderchogrwydd ei berson—cyfiawnder ei ras a'i swyddau—a mawredd ei waith gogoneddus. Ioan 1. 14. a 2. 11. a 17. 5.—Ei ddysgleirdeb gogoneddus yn ei gyflwr o ddyrchafiad yn y nefoedd. Mat. 19. 28. Heb. 2. 9. 1 Tim. 3. 16. Yr oedd gogoniant i Grist gyd â'r Tad cyn bod y byd: yr oedd iddo ogoniant hanfodol fel Person Dwyfol; nid yw hwn yn cael ei roddi iddo, ond y mae yn hanfodol ynddo, yr un fath a'r Tad a'r Ysbryd Glân. Yr oedd gogoniant cyfryngol iddo, hefyd yn yr arfaeth fawr cyn bod y byd; ar ol ei esgyniad, cafodd ei ogoneddu â'r gogoniant hwnw: ymddangosodd yn holl fawrhydi gogoneddus y swydd y gosodwyd ef ynddi cyn bod y byd. Yr oedd y gogoniant hwn i Grist gyd â'r Tad er tragywyddoldeb; ond wedi ei esgyniad y dadguddiwyd ef i'r holl nefoedd, ac efe a ddysgleiria yn anghymarol ogoneddus ynddo, yn nghanol ei eglwys, i dragywyddoldeb; caiff ei bobl ei weled, ac mewn rhan gyfranogi o hono. Ioan 17. 5, 24.

Gogoniant Crist, yw gweinidogion yr efengyl, am eu bod yn cynnrychioli Crist, yn cyhoeddi ei ragoriaethau a'i ddefnyddioldeb i ddynion. 2 Cor. 8. 23.——Mae delw Crist yn cael ei galw gogoniant: 'o ogoniant i ogoniant,' sef yn gynnyddol. Y mae y gradd lleiaf yn ogoneddus, ac yn ddechreuad o ogoniant perffaith, tragywyddol. Y mae pob gweithrediad o honi, a phob ymddangosiad o honi, yn ei ffrwythau, yn harddu dyn, ac yn ogoniant iddo. 2 Cor. 3. 18.

'Fel y cano fy ngogoniant i ti.' Ps. 30. 12.—'Am hyny fy nhafod a gân i ti.' Dr. M. Mae yr apostol yn cyfieithu 'fy ngogoniant,' (Ps. 16. 9.) *fy nhafod*. Act. 2. 26. Pan ddefnyddir y tafod, neu y llais, i iawn ddyben, sef i foliannu Duw ac i fynegu ei rinweddau, mae yn ogoniant, yn harddwch, ac yn anrhydedd i ddyn. Ps. 57. 8. a 108. 1.

'A rhoddi o honof ogoniant yn nhir y rhai byw.' Ezec. 26. 20. Hyn a wnaeth pan ddychwelodd ei bobl o Babilon, ac y gosododd ei deml a'i ordinhadau yn eu plith; pan ymddangosodd Crist yn y cnawd ar y ddaear: a phan osododd i fynu yr eglwys efengylaidd yn mhlith yr holl genedloedd.

'Ar ol y gogoniant y'm hanfonwyd at y cenedloedd, y rhai a'ch hyspeiliasant chwi.' Zech. 2. 8. Crist yr Arglwydd sydd yn llefaru: ymachub o blith y cenedloedd; canys ar ol yr amlygiad o'm gogoniant yn dy ddychweliad o'u gwlad, i'th wlad dy hun, y'm hanfonwyd â barnedigaethau cospedigaethol arnynt hwy; neu, medd eraill, ar ol fy nghnawdoliaeth, fy marwolaeth, fy adgyfodiad, a'm hesgyniad gogoneddus, y'm hanfonwyd at y cenedloedd, i amlygu fy hun iddynt, i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw; fel y byddoch chwi yr Iuddewon, a hwythau y Cenedloedd, yn un eglwys, yn un dyn newydd yn Nghrist. Act. 28. 18. Eph. 2. 15.

Beth bynag sydd yn fwyaf rhagorol, ac y mae dynion yn ymffrostio ynddo, a elwir eu gogoniant. Mat. 6. 29. Ps. 49. 16. Dan. 11. 39. Esa. 8. 7. a 10. 18. a 20. 5. Mic. 1. 15.—Y parch a'r ganmoliaeth y mae dynion yn ei dderbyn gan eu gilydd. Mat. 6. 2. Yr hyn sydd yn boddloni dynion cnawdol, di-dduw. Edr. Ardderchogrwydd, Dyrchafu, Duw, Godidogrwydd.

'Ymhyfrydodd fy ngogouiant.' Ps. 16. 9. Arwydda y gair *Heb.* כבר *yr afu*. Exod. 29. 13. Diar. 7. 23. 'Ymhyfrydodd fy afu.' Yr oedd yr afu yn cael ei olygu gan yr hynafiaid fel eisteddfod cariad a serch. *η γλωσσα μου*, LXX. ac felly yn Act. 2. 26. Yn yr un ystyr arferir ef yn Ps. 30. 12. Rhydd Plutarch hanes i un Bias gael gorchymyn i dynu allan o aberth y rhan oreu a'r rhan waethaf o hono; ac iddo yntau dynu allan y tafod, fel yn bob un o'r

Digitized by Google

ddau; am y gellid ei arferyd i'r dybenion goreu a'r gwaethaf. Iago 3. 9. Y Psalmydd yn ei arferyd i'r dyben goreu, sef i foliannu Duw, a allasai yn addas ei alw ei ogoniant.

GOGR—YNU, (gog) gwagr, hesgyn. Offeryn i wahanu y manion, pylor, &c., oddiwrth y breision; i buro ŷd oddiwrth ûs, graian, a grawn gwan.—'I nithio y cenedloedd â gogr oferedd.' Esa. 30. 28.—'Gogr oferedd, y wyntyll ddinystriol,' medd Lowth. Gogr gwag heb ddim yn aros yn ol ynddo, ond y cwbl yn myned trwyddo. Yr ystyr ydyw, y byddai i'r Arglwydd yn farnedigaethol beri y fath gynhyrfiadau yn mhlith y cenedloedd, yn enwedig yr Assyriaid, ag a fyddai yn y diwedd yn *hollol* ddinystr iddynt, fel un yn gogrynu mewn gogr, nes âi y cwbl drwyddo.

'Myfi a orchymynaf, ac a ogrynaf dŷ Israel yn mysg yr holl genedloedd, fel y gogrynir ŷd mewn gogr; ac ni syrth y gronyn lleiaf i'r llawr.' Amos 9. 9. Gogrynu tŷ Israel a arwydda, y byddai iddo eu gwasgaru, eu taflu, a'u symud o fan i fan, yn mhlith yr holl genedloedd; yr holl bechaduriaid, fel yr ûs, a fyddant feirw yn y gogryniad hwn; ond y gwir dduwiolion, fel y grawn pur, ni syrth yr un o honynt i'r llawr. Y mae gofal Duw am ei bobl yn fanwl ac yn ddiball; myn hwynt yn bur; ond wrth eu puro ni chollir un o honynt. Luc 22. 31. Zech. 13. 9. *Heb.* 'Ni syrth y garegan leiaf i'r llawr;' y mae grawn yn cael eu cyffelybu i geryg oblegid eu pwysau a'u sylwedd. Edr. GWYNTYLL.

GOGWYDD—O, (wydd) gostyngedigaeth, tueddiad, hyblygedd, pwyso i lawr, gwyro. Gogwyddo clust, gogwyddo pen, ysgwydd, yw plygu a gostwng pen, &c.—'A chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr ysbryd.' Ioan 19. 30. Gweithred ei ewyllys ei hun oedd, ac nid o wendid natur. Y mae y pen, *wedi* marw un, yn syrthio i'r fynwes, trwy fod y cyhyrau yn colli eu nerth; ond yr Iesu, ac yntau yn fyw, a ogwyddodd ei ben. Rhoddodd ei hun i ddwylaw angeu yn ewyllysgar. Y mae gogwyddiad ei ben yn weithred addas i'w ddarostyngiad dirfawr.

'Efe a ogwyddodd y nefoedd, ac a ddisgynodd.' 2 Sam. 22. 10. Yr oedd arwydd gweledig yn y nefoedd yn iselhau at y ddaear, o bresennoldeb yr Arglwydd, o blaid ei bobl, ac i ddyfetha eu gelynion; megys cwmwl du yn llawn mellt a tharanau, fel wrth y Môr Coch yn erbyn Pharaoh, ac a fu ar Sinai gwedi hyny. Ps. 97. 2. a 144. 5, 6. Esa. 64. 1, 2.

GOGYFUWCH, (cyfuwch) cydradd, cyfurdd, gogyfurdd, cystadl, cystal.—'Yr hwn ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw.' Phil. 2. 6. Edr. FFURF. 'Gogyfuwch â Duw.' *Gr.* *ειναι ισα Θεω.* Y mae y cyffelyb eiriau i'w cael yn Ioan 5. 15. *ειναι ισον Θεω.* Gwel y beirniaid yma ychydig wahaniaeth: *εισον Θεω* yn Ioan a arwydda, 'yn *gystal* â Duw,' sef yn Dduw, yn Berson Dwyfol o'r un hanfod â'r Tad. Yma, *ισα Θεω*, '*gogyfuwch* â Duw,' a arwydda *ymddangos* fel Duw yn wrthddrych addoliad i angylion a dynion. Am ei fod yn *ffurf* Duw, sef yn wir Dduw, nid oedd yn drais iddo ymddangos felly gyda mawredd a gogoniant dwyfol, a chymeryd iddo ei hun y parch a'r addoliad dyledus iddo yn gyflawn, fel Person Dwyfol. Ni thybiodd hyn yn *drais*, ond peth oedd gyflawn iddo gael, ac sydd yn anghyflawnder yn mhawb a attaliant hyn oddi wrtho.* Nid oedd yn drais ynddo —nid oedd yn cymeryd eiddo arall, heb fod yn perthyn iddo yn hollol gyflawn, wrth lefaru fel Duw, gweithredu fel Duw, a chymeryd addoliad dwyfol iddo ei hun. Ioan 5. 22, 23. Gwel Witsius' *De Oratione, p.* 24, 25. Macknight, Pierce, Whitby, Parkhurst.*

GOGYHYD, (cyhyd) o'r un byd.—'Nid gogyhyd esgeiriau y cloff; felly dammeg yn ngenau ffyliaid.' Diar. 26. 7. Y mae ymgais y ffol i ymddangos yn ddoeth, yn anhardd iawn; yn debyg i ymgais y cloff i rodio yn heinif ac yn hardd: ymgais y ddau sydd yn eu hanharddu yn fawr.

GOLAN, *Heb.* גולן [*tramwyfa*] un o'r dinasoedd noddfa y tu hwnt i'r Iorddonen, yn Basan, yn llwyth Manasseh. Jos. 20. 8.

GOLCH—I—IAD—FA, (gol) enaint-ddwfr, trwyth; glanhau; glanhad; lle i lanhau, baddon. Yr oedd golchi yn aml yn arferedig gan y cenedloedd dwyreiniol. Fel yr oeddynt yn teithio yn droednoeth, neu â sandalau am eu traed, byddent er glanweithdra a diluddediad, yn golchi eu traed pan ddöent o daith. Gen. 18. 4. a 24. 32. a 43. 24. Byddai y gorchwyl hwn yn cael ei wneuthur, yn gyffredinol, gan gaethweision; ond byddai merched, yn aml, yn golchi traed eu rhïeni. Y mae hyn yn dangos ymostyngiad Crist yn fawr, pan olchodd draed ei ddysgyblion, fel siampl o ostyngeiddrwydd a charedigrwydd cymwynasgar i'w holl ganlynwyr. Ioan 13. 1—8.

Y mae golchi traed y saint, yn ol siampl Crist, yn arwyddo gostyngeiddrwydd a charedigrwydd mawr tu ag atynt; na byddo neb uwchlaw y gwasanaeth gwaelaf a fyddo yn tueddu i'w hadloniad a'u cysur. 1 Tim. 5. 10.

Yr holl olchiadau Iuddewig oeddynt yn arwyddocäol o burdeb a sancteiddrwydd buchedd; gwir edifeirwch am bechod; a ffydd yn aberth Crist er ein cymeradwyaeth, yn wyneb ein holl wendidau pechadurus, yn mhob peth. Exod. 19. 10. Dat. 7. 14.

Yr oedd golchiadau yr offeiriaid a'r aberthau, yn arwyddo purdeb difrycheulyd Crist; ein cyfiawnhad a'n sancteiddiad trwy ei aberth a'i Ysbryd. Heb. 9. 10.

Y mae Duw yn golchi dynion trwy roddi iddynt edifeirwch am bechod; eu nerthu i gredu yn aberth Crist er eu cyfiawnhad; trwy faddeu eu pechodau, a'u sancteiddio trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân. Tit. 3. 5. Act. 22. 16. Ioan 13. 8. Esa. 4. 4. Ps. 51. 2, 7.

Y mae golchiad yr adenedigaeth yn hollol wahanol ac yn tra-rhagori ar olchiadau allanol, hannerog, rhagrithwyr a chrefyddwyr cnawdol. Yn yr adenedigaeth, y mae duwiol anian, sef anian sanctaidd yn eu tebygoli i Dduw, yn cael ei chyfranu iddynt. Y mae yr hwch gwedi ymolchi yn para â'r un anian ynddi, i ymdreiglo yn y dom; ac oblegid hyny, hi a ddychwel drachefn i'w budreddi—felly y gwna pob pechadur heb ei ail-eni; ond yn yr adenedigaeth, y mae anian sanctaidd yn cael ei rhoddi i bechadur, a elwir *calon* ac *ysbryd newydd*, yn tueddu dyn at burdeb a sancteiddrwydd.

'Y Phariseaid a'r holl Iuddewon, oni byddai iddynt olchi eu dwylaw yn fynych, ni fwytânt.' Marc 7. 3, 4.—'Y Pharisaieit a'r ol' Iuddeon, dyeithr yddynt 'olchy ei dwylo yn 'orchestol, ny vwytaant.' W. S.—'Y Phariseaid ni fwytânt, hyd oni olchant eu dwylaw, trwy dywallt ychydig ddwfr arnynt; ac os byddent wedi dyfod o'r farchnad, trwy eu trochi.' Dr. Campbell. Nid ydyw y gair *πυγμη*, a gyfieithir *mynych*, byth yn arwyddo hyny, medd y Dr. C., ond y mae yn arwyddo *y dwrn yn nghauad*; felly yn y fan yma, y mae yn arwyddo *golchi y llaw âg ychydig*

* Paritas enim Divinitatis est fundamentum paris honoris. Witsius.

* Cyfeirir y darllenydd hefyd at ymdriniaeth medrus a dyddorol o'r ymadroddion yn Phil. 2. 6. a ymddangosodd yn y *Biblical Review* am fisoedd Ionawr, Mawrth, ac Ebrill, yn 1847.—C.

Digitized by Google

*ddwfr*, trwy *rwbio* y llaw â'r dwrn; ond os byddent wedi dyfod o'r farchnad, byddent yn arferyd mwy o ddwfr, ac yn *trochi* eu dwylaw ynddo. Yr oedd yr holl olchiadau hyn, nid yn ol gorchymyn Duw, ond yn ol traddodiad yr hynafiaid; ac yr oeddynt yn dra gofalus am olchiadau allanol, tra yr oedd purdeb calon, a sancteiddrwydd buchedd, yn cael eu hesgeuluso. Gwel Campbell, Parkhurst, Schleusner, a Mintert.

'Golchi gwisgoedd mewn gwin,'—a 'golchi camrau âg ymenyn,' sydd yn arwyddo llawnder mawr o'r cyfryw fendithion. Gen. 49. 11. Job 29. 6.

Llygaid Crist sydd debyg i 'lygaid colomenod wrth afonydd dyfroedd, gwedi eu golchi â llaeth.' Can. 5. 12. Nid llygaid cochion ydynt, yn llawn llid a chreulonder; ond llygaid fel pe baent wedi eu golchi â llaeth, yn bur, yn dyner, ac yn addfwyn, yn llawn tosturi a thrugaredd tu ag at bechaduriaid truain. Y mae ei galon yn llawn trugarogrwydd, ac y mae ei holl weithredoedd, fel Duw-ddyn a Chyfryngwr, yn rhoddi y prawf mwyaf sicr o'i fod yn arch-offeiriad trugarog yn gystal a ffyddlon. Heb. 2. 17. Edr. GLANHAU, LLAW, TROED.

GOLEU—O—NI, (gawl) *Heb.* גלה (*galeh*) *Llad.* LUX, LUMEN: lleufer, lleuferydd, llewyrch, dysgleirdeb, gloywder; egluro; goleuad yn rhoddi goleuni. Goleuni ydyw y creadur cyntaf a greodd Duw. 'A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu.' Neu, 'ALEIM ddywedodd, Bydded goleuni, a bu goleuni.' Gen. 1. 3. Y mae ardderchogrwydd a mawredd yr ymadrodd yn dra nodedig, ac yn addas i fawredd anfeidrol yr hwn oedd yn llefaru; 'canys efe a ddywedodd, a bu; efe a orchymynodd, a safodd.' Ps. 33. 9. *Heb.*

Y mae goleuni yn gorph gwahanol, a'i ronynau yn rhanedig i'r bychanrwydd mwyaf; a'r gwrthneidrwydd, a'r cyflymdra mwyaf iddynt. Y mae bychanrwydd pelydr y goleuni tu hwnt i amgyffred meddwl dyn. Nid oes dim yn weledig ond fel y byddo pelydr yn dyfod oddiwrth y gwrthddrych yn union-gyrch, neu trwy adlewyrchiad i'r llygad; mae yn rhaid, gan hyny, fod pelydr y goleuni o fychandra hynod i gymaint nifer o honynt fyned i mor lleied lle a chanwyll y llygad, i wneuthur gwrthddrychau mawrion, megys yr haul a'r lleuad, a gwrthddrychau aneirif, heb ddim annhrefn, i gyd yn weledig ar unwaith. Y mae yn rhaid i'r pelydr ddyfod oddiwrth *bob rhan* o'r gwrthddrych i'w wneuthur yn weledig.—Y mae gwrthneidrwydd yn perthyn i'r pelydr. Y maent yn myned rhagddynt yn union-gyrchol, ond fel byddo gwahanol gynneddfau y gwahanol gyrph y maent yn myned trwyddynt, yn eu troi o'u hunion lwybr.——Y mae cyflymdra y goleuni mor fawr, fel y mae yn ehedeg 191,225 o filltiroedd mewn tri-ugeinfed ran mynyd. Pellder yr haul oddiwrth y ddaear ydyw 95,173,127 o filltiroedd; mae y goleuni yn dyfod o'r haul i'r ddaear mewn wyth mynyd. Y mae yn parhau o'r dechreuad i ddylifo o hyd yn ddiball, gyda chyflymdra anamgyffredadwy. Gwaith y Duw mawr ydyw, yr hwn sydd yn rhyfeddol yn ei holl weithredoedd! Y mae y cyflymdra hwn yn ddiammheuol sicr yn bod, er yn annirnadwy: yr achos o hono, ni ddichon fod ddim arall ond yr achos dechreuol o bob peth; a'r achos o'i ddechreuad yw yr achos o'i barhad byth.

Mae gwahaniaeth lliwiau mewn gwrthddrychau yn tarddu oddiwrth ryw wahaniaeth yn y pelydr, yn eu maintioli, neu yn eu natur; a hefyd gwahaniaeth yn ansawdd y defnydd, ar ba un mae y pelydr yn disgyn. Yn y gwyn y mae cymysgfa o'r holl belydr; yn y du, mae yr holl belydr wedi eu colli yn y defnydd; yn y lliwiau eraill y mae rhai pelydr neillduol a gwahanol oddiwrth eu gilydd, yn gwrthdywynu ac yn adlewyrchu ar y llygad. Mae rhai yn barnu nad oes ond tri math o belydr, sef y coch, y melyn, a'r glas; a bod yr holl liwiau eraill yn cael eu ffurfio trwy gymysgiad y rhai hyn.

Ffynon goleuni y byd yma isod yw yr haul; y mae yn harddwch yr holl greadigaeth; ac mor angenrheidiol, fel na ddichon un creadur gyrhaedd perffeithrwydd hebddo. Edr. GLAS-WELLT. Creodd Duw y goleuni y dydd cyntaf, cyn creu haul na sêr; yn mha ddull yr oedd yn gwahaniaethu rhwng dydd a nos nid yw hysbys; ond rhaid ei fod yn rhyw gorph dysglaer, a'r ddaear afluniaidd yn troi oddi amgylch iddo. Ni chrewyd mo'r haul, y lloer, a'r sêr, hyd y pedwerydd dydd.

'Duw goleuni yw,' o herwydd ei burdeb gogoneddus, a'i sancteiddrwydd; oblegid ei ddoethineb, ei ragoroldeb, a'i ddefnyddioldeb; ac oblegid mai efe yw awdwr pob gwybodaeth a chysur i'w greaduriaid. 'Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch.' 1 Ioan 1. 5.—'Goleuni Israel' yw. Ps. 27. 1. Esa. 10. 17.—'Y mae yn trigo yn y goleuni, ni ellir dyfod ato—yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis gellir ei weled.' 1 Tim. 6. 16. Mae y geiriau yn cyfeirio at y gogoniant a'r dysgleirdeb yn y sancteiddiolaf, lle yr oedd IEHOFAH yn trigo yn y cwmwl oddi ar y drugareddfa; ac nid oedd neb ond yr arch-offeiriad, ac yntau ond unwaith yn y flwyddyn, i nesâu ato. Lef. 16. 2. Ezec. 1. 22, 26, 27, 28. Y mae efe *yn y goleuni*, yn meddiannu ei ragoriaethau ei hun; *yn* Nghrist; yn ymddangos yn eglur *yn* ei air a'i weithredoedd. 1 Ioan 1. 7. Tad y goleuni ydyw i bawb eraill. Iago 1. 7.

Gelwir Crist yn 'oleuni——gwir oleuni——goleuni dynion—goleuni y bywyd—goleuni Israel—goleuni i oleuo y cenedloedd.' Ioan 1. 4, 9. a 3. 19, 21. a 8. 12. a 12. 35, 36, 46. Esa. 10. 17. a 42. 6. Act. 13. 47. Y mae yn oleuni ynddo ei hun, oblegid ei anfeidrol burdeb, ei wybodaeth, a'i ddoethineb; y mae yn oleuni o ran gweinyddiad ei swyddau cyfryngol, yn cyfiawnhau pechaduriaid, yn eu sancteiddio, yn eu goleuo, ac yn eu harwain. Tywyllwch yw pob gwrthddrych arall i bechadur euog, halogedig; ond y mae efe yn oleuni, yn gweini cysur a bywyd. Y mae y rhai oedd yn dywyllwch, yn yr Arglwydd Iesu yn oleuni. Eph. 5. 8. Yn ei wyneb ef, sef yn ei Berson, y mae goleuni gwybodaeth gogoniant Duw i'w weled, gan y rhai y llewyrchodd Duw yn eu calonau. 2 Cor. 4. 6.

'Goleuni yw y gyfraith—barnedigaethau (neu orchymynion) Duw sydd fel goleuni yn myned allan.' Diar. 6. 23. Hos. 6. 5. Maent yn oleuni, yn uniawn, yn eglur, ac yn sanctaidd; ac y maent yn rhoddi goleuni cywir, a chysur cryf, i bawb sydd yn eu deall.

'Rhyfeddol oleuni,' yw cyflwr plant Duw yma, ac yn y byd a ddaw—y maent yn ddedwydd, yn sanctaidd, yn gwir adnabod Duw, a'r hwn a anfonodd efe, Iesu Grist. Col. 1. 12. 1 Petr 2. 9. Mae eu 'goleuni yn llewyrchu fwy fwy hyd ganol dydd,' pan fyddo eu sancteiddrwydd, eu gwybodaeth, eu ffrwythau, eu doniau, a'u defnyddioldeb yn cynnyddu. Diar. 4. 18. a 13. 9. a 15. 30. Mat. 5. 16.

'Arfau y goleuni.' Rhuf. 13. 12. Mae yr apostol yn cyffelybu sancteiddrwydd, yn ei amrywiol gangenau a'i weithrediadau, i arfogaeth hardd, gloyw-ddysglaer, yn harddwch ac yn amddiffynfa i'r credadyn. 'Bwriwn oddi wrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwn arfau y goleuni.' Edr. ARF.

'Goleuni,' a arwydda, yn aml, cyflwr o lwyddiant, llawnder, a chysur mawr, yn dymhorol ac yn ysbrydol; a 'nos' a arwydda, adfyd a chaledi, a thrueni tragywyddol yr annuwiolion. Ps. 56. 13. a 139. 12. a 148. 3. Job 33. 30.

'A'r goleuni a lewyrcha ar dy ffyrdd;' (Job 22. 28.) sef goleuni i'th gyfarwyddo, i'th lwyddo, ac i'th gysuro. Ps. 37. 23, 31. 1 Ioan 2. 20.

Digitized by Google

Y mae drwg-weithredwyr, 'yn casâu y goleuni;' (Ioan 3. 20.) hyny yw, Crist, a gwybodaeth o'i ffyrdd, am fod eu gweithredoedd yn ddrwg. Y maent o'u gwirfodd yn y tywyllwch, fel y gallont bechu gyda mwy o ryddid. Y mae yn hawsach, ac yn fwy diboen, pechu yn y tywyllwch nag yn y goleuni; ac am eu bod yn penderfynu glynu wrth eu pechodau, o gariad ato, y maent yn ffoi oddiwrth y goleuni, o gasineb ato.

'Y rhai a oleuwyd unwaith.' Heb. 6. 4. Y rhai a oleuwyd unwaith, yw y rhai a addysgwyd yn athrawiaeth yr efengyl yn wirioneddol; a dderbyniasant wybodaeth trwy yr athrawiaeth o'r gwrthddrychau a ddadguddir yn yr efengyl; ac yn y goleuni athrawiaethol a gymeradwyasant y gwrthddrychau dadguddiedig. Dichon dyn gael hyn oll, ac etto heb ei wir oleuo yn gadwedigol, a'i lunio ar ddelw, ac yn ol ffurf yr athrawiaeth; ac am hyny, dichon wedi y cwbl, syrthio ymaith, a bod yn golledig, gan fod y cyfryw yn ail groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn ei osod yn watwor. Y mae yn annhebyg i'r cyfryw ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; ac nid ydyw yn beth i ni ddysgwyl am dano, yn gyffredinol. Nis gallwn benderfynu na chafodd neb o'r cyfryw eu hadnewyddu i edifeirwch; neu a ydyw yn anghytun â gogoniant y priodoliaethau dwyfol i wneuthur hyny; ond nid oes dim moddion wedi eu gadael i ni tu ag at adferiad y cyfryw, gan eu bod yn wybodus yn dirmygu ac yn gwatwor Mab Duw, yr unig feddyginiaeth.

GOLEU-FYNAG, (goleu-mynag) eglurhad, dangosiad.—'Dod oleu-fynag.' 1 Sam. 14. 41. חבה חמים *dangos y perffaith*, neu *y gwirion*. Sef dangos trwy goelbren pwy oedd berffaith neu ddiniwed, a phwy oedd euog.

GOLGOTHA, *Heb.* גלגלתה [*lle y benglog*] yr un lle a elwid yn Lladin CALFARIA, *y benglog*. Edr. CALFARIA.

GOLIATH, *Heb.* גלית [*mynediad drosodd*] cawr hynod o Gath, o genedl yr Anaciaid; yr oedd ei uchder yn chwe cufydd a rhychwant, sef yn ddeg troedfedd o leiaf; rhai a gyfrifant ei uchder yn ddeuddeg a hanner o droedfeddi; ac yr oedd ei arfogaeth yn pwyso 273 o bwysau. Gwaradwyddodd fyddinoedd Israel ddeugain niwrnod, wedi ymgasglu i ryfel rhwng Sochoh ac Azecah, trwy ofyn un i ymladd âg ef. Dafydd, heb ddim arfau, ond ffon dafl, a'i lladdodd. 1 Sam. xvii. Edr. DAFYDD. Ar yr achlysur hwn, y cyfansoddodd Dafydd, mae yn debygol, Psalm ix, a cxliv. Pedwar o'i frodyr, wedi hyny, a laddwyd gan gedyrn Dafydd. 2 Sam. xxi. 1 Cron. xx.

GOLOCHWYD, (llawch) amddiffyniad, erfyniad, deisyfiad.—'Gwiliwch tu ac at hyn y gyd a phop astudrwydd a golochwyt dros yr holl Sainctæ.' Eph. 6. 18. W. S.——'Trwy eich golochwyt chwi.' Phil. 1. 19. W. S. Sef trwy eich gweddi chwi.

GOLOSG—IAD, (llosg) deiflo; ergyd fflam.—'Golosgiad ŷd cynn corsi.' Esa. 37. 27. Dr. M.

GOLUD—OG, (gol) alaf, berthedd, cyfoeth.—1. Llawnder a helaethrwydd o feddiannau bydol, yr hyn sydd anwadal. Diar. 23. 5. 1 Tim. 6. 17.——2. Amledd, helaethder. 2 Cor. 8. 2.——3. Gelwir hwnw yn oludog, y sawl sydd yn ymddiried yn ei olud, am ei ddiogelwch a'i ddedwyddwch: 'Yn gosod eu gobaith mewn aur, ac yn dywedyd wrth aur coeth, Fy ymddiried wyt; yn llawenychu am fod eu cyfoeth yn fawr, ac oblegid i'w llaw gael llawer;' felly y darlunia Job y cyfryw. Job 31. 24, 25. Mat. 19. 24. Luc 6. 24.——4. Y cyfryw sydd ganddynt helaethrwydd o ras a doniau ysbrydol, a chanddynt hawl i olud tragywyddol yn y nefoedd. Iago 2. 5 ——5. Y rhai sydd yn eu barn gamsyniol eu hunain yn gyfoethog o ras a doniau ysbrydol, er eu bod yn dlawd. Dat. 3. 17. Y mae Duw yn oludog yn mhob ystyr; y mae ynddo gyflawnder o ddoethineb, daioni, gallu, trugaredd, a gogoniant; y mae amldra, amrywiaeth, a dyfnderoedd diderfyn ynddo o bob perffeithrwydd a daioni. Efe ei hun ydyw ei olud, ac ni ddichon dim allan o hono ychwanegu ato. Rhuf. 2. 4. a 9. 23. a 11. 33. Eph. 1. 18. Col. 1. 27. Phil. 4. 19. Y mae yn oludog, sef yn helaeth yn ei gyfraniadau; y mae yn oludog i bawb sydd yn galw arno: yn trugarhau yn barod ac yn rhad, ac yn cyfranu yn helaeth ac yn aml. Rhuf. 10. 12.

Y mae anchwiliadwy olud Crist yn cael ei efengylu i'r cenedloedd, (Eph. 3. 8.) sef Crist a'r holl gyflawnder sydd ynddo o fendithion ysbrydol wedi eu trysori i bechaduriaid. Y mae ynddo bob bendith; ac y mae pob bendith o ran ei mawredd, ei dyfnderoedd, a'i gwerth, yn anchwiliadwy. Y mae ynddo ëangder heb derfynau; amldra heb gyfrif; gwerth na ddichon neb farnu ei faint: bydd miliynau dirifedi o bechaduriaid eithaf tlodion yn gyflawn ynddo byth. Y mae *holl* drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig ynddo. Col. 2. 3, 10. a 1. 27. Edr. ANCHWILIADWY, ANHAWDD, ANWADAL, EILUN-ADDOLIAETH.

GOLUDD, (lluddd) rhwystr, oedi.—'Eb oludd.' Ioan 21. 3. Act. 12. 10. W. S. Sef, yn y man, yn ebrwydd.

GOLWG, GOLYG—US—WYR, (gawl) *Heb.* גלה *Llad.* OCULUS; drem, trem; tremynt; wynebpryd; gwelediad. — Golwg-wasanaeth, llygad-wasanaeth. Eph. 6. 6. Y mae golwg yn arwyddo, 1. Y synwyr sydd yn canfod neu yn golygu. Luc 4. 18. a 7. 21. a 18. 41, 42. Act. 9. 18.——2. Y gwrthddrych a olygir. Joel 2. 4.——Yn ngolwg, neu yn ngolwg un, yw bod yn weledig—ger bron un, ac yn ei wyddfod—neu yn hollol adnabyddus i un—neu yn nghyfrif un. Esa. 11. 3. Diar. 1. 17. Heb. 4. 13.——'Yn wael yn eich golwg chwi,' sef yn eich barn a'ch cyfrif chwi. Job 18. 3.——'Yn fy ngolwg fy hun,' sef yn fy meddwl a fy marn fy hun. 2 Sam. 6. 22.——'Bwrw allan o olwg' sydd yn arwyddo anhyfrydwch ac anhoffder yn y gwrthddrych, a'i ddiarddel allan o ofal ac o barch. 1 Bren. 9. 7. 2 Bren. 23. 27. Jer. 7. 15. a 15. 1.——'Bwrw golwg arnynt,' ydyw eu serchu, a gofalu am danynt. 1 Petr 5. 2.——'Maddeu yn ngolwg Crist,' yw maddeu (ἐν προσωπῳ Χριστου) yn mherson Crist, fel yn ei gynnrychioli; neu yn ei enw, a thrwy ei awdurdod—yn golygu Crist a'i ogoniant, ac nid ei hun yn y weithred. Gwel 1 Cor. 5. 4. 2 Cor. 2. 10.

'Ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr.' Act. 20. 28. *Gr.* ἐθετο ἐπισκοπους, *y gosododd chwi yn esgobion.* Golygu praidd Duw yw gwaith esgobion; nid oes neb yn wirioneddol yn y swydd ond a osodir ynddi gan yr Ysbryd Glân. Yr arwydd eu bod wedi eu gosod ynddi gan yr Ysbryd Glân yw, eu bod yn bwrw golwg ar y praidd yn fanwl ac yn ffyddlon, o draserch atynt, a gofal am danynt; ac y mae eu hesgeulusdra o'r praidd yn brawf na osododd yr Ysbryd Glân hwynt yn y swydd; canys nid yw ef un amser yn gosod neb mewn unrhyw swydd, heb roddi ysbryd addas i gyflawni y gwaith perthynol i'r swydd hòno. Rhuthro i'r swydd heb ei osod gan yr Ysbryd Glân, ac heb fwriad i gyflawni y gwaith perthynol iddi, sydd ryfyg a phechod ofnadwy. Edr. ESGOB, GOFWYO.

GOLWRCH, (gol-gwrch) blwch, cistan.—'Golwrch o irait gwerthfawr.' Mat. 26. 7. W. S.

GOLWYTH, (gawl-gwyth) darn, darn o gig, difyn, cig-ddernyn, teneu-ddarn.—'Ac efe a ranodd i bob un o Israel, yn ŵr ac yn wraig, dorth o fara, a golwyth, a chostrelaid o win.' 1 Cron. 16. 3. Dr. M.

Digitized by Google

GOLYM—U, (llym) awchlym, miniog; awchus, llymhau.—'Golymasant eu tafodau fel sarph.' Ps. 140. 3.

GOLLWNG—YNGDOD, (llwng) rhyddhau, anfon ymaith, dattod, dadrwymo; rhyddhad, rhydd-deb, esmwythâd, llesâd, gwaredigaeth.—Gollwng tafod, ymserthu; gollwng ychain, eu dad-ieuo; gollwng gwraig, ei rhyddhau.—'I bregethu gollyngdod i'r caethion.' Luc 4. 18. Mae y geiriau yn cyfeirio at y rhyddhad cyffredinol oedd yn cael ei gyhoeddi trwy holl wlad Israel, i'r tir ac i'r preswylwyr, ar flwyddyn y Jubili. Lef. 25. 24, 29, 31, 51, 52. Deut. 15. 1, &c. Y mae Crist wedi ei osod yn ei swyddau cyfryngol trwy eneiniad y Tad: fel Offeiriad, y mae wedi pwrcasu rhyddid i'w bobl trwy yr iawn a dalodd; fel Prophwyd, y mae yn cyhoeddi y rhyddid a bwrcasodd; ac fel Brenin, y mae yn awdurdodol yn gosod pechaduriaid yn y meddiant o hono. Y mae yr Ysbryd Glân yn nerthol weithredu gyd â'r cyhoeddiad o'r efengyl, i ryddhau caethion pechod a diafol, ac i'w dwyn hwynt i ryddid gwirioneddol, cyfreithlawn, a thragywyddol. Rhuf. 6. 17—23. Edr. JUBILI.

GOMER, *Heb.* גמר [*cyflawn*] 1. Mab hynaf Japheth, mab Noah. Gomer ydoedd tad y Gomeraniaid, Gomeriaid, Cimmeriaid, a'r Cimri, y rhai a breswylient, yn y prif oesoedd, Galatia, Phrygia, &c. Edr. GALATIA. Oddiwrth ei fab Ascenaz y cafodd y Môr Euxin, a Llychlyn Ascanian, eu henwau. Wedi cyfanneddu Phrygia a Georgia dros rai oesoedd, daethant heibio i ben dwyreiniol y Môr Euxin, neu tros yr Hellespont, i Ewrop, a phoblogasant y gwledydd a elwir yn bresennol Poland, Hungary, Germany, gwlad y Swiss, Ffrainc, Yspaen, Portugal, a Phrydain. Y Scotiaid a'r Gwyddelod sydd yn tarddu o'r un gwreiddyn. Y Gomeriaid hyn a ymranasant yn llwythau, sef y Celtæ neu y Gâliaid, y Belgiaid, y Germaniaid, Sacæ, Titaniaid, &c. Yn foreu, medd Pezron, tu ag amser Isaac, yr oeddynt yn freniniaeth fawr, flodeuog; a'u breninoedd oeddynt Man neu Maneus, Acmon, Uranus, Saturn, Jupiter, a Theutat neu Mercury, yr hwn a ddygodd farchnadaeth i'w plith. Ar ei ol ef rhanodd y freniniaeth fawr hon yn ddarnau; ond bu y Gâliaid a breswylient yn ngwlad y Swiss a Ffrainc, yn ddychryn dros hir amser i'r Rhufeiniaid; rhuthr-gyrchent weithiau yn ddychrynllyd i wlad y Grew. Ond buddugoliaethau y Rhufeiniaid a hiliogaeth Magog o'r diwedd a lyncasant y rhan fwyaf o'r Gomeriaid, oddieithr y gweddill o honynt ag sydd yn Llydaw, yr Iwerddon, a'r Alban. Cofféir Gomer yn mhlith gelynion yr eglwys sydd i'w dyfetha yn y dyddiau diweddaf. Gen. 10. 2, 3. Ezec. 38. 6.——2. Gomer, merch Diblaim. Edr. HOSEA.

GOMMEDD, (gom-medd) nacâu, pallu, rhoi nag, gwrthod.—'Dau beth yr ydwyf yn eu gofyn genyt, na ommedd hwynt i mi cyn fy marw.' Diar. 30. 7. Y mae y gair 'na ommedd hwynt i mi' yn arwyddo ei deimlad o'i angen o honynt, a'i daerineb am danynt. Y mae un yn perthyn i'w gyflwr ysbrydol rhyngddo a Duw fel pechadur, sef 'tynu yn mhell oddi wrtho wagedd a chelwydd,' o ran yr euogrwydd o honynt, y gosp am danynt, a'u llywodraeth arno: y mae y llall yn golygu ei amgylchiadau yn y byd; mae yn erfyn cael ei osod yn yr amgylchiadau mwyaf manteisiol iddo ei hun o ran duwioldeb a phurdeb buchedd. 'Na ommedd hwynt,' er gommedd pethau eraill. Y mae rhai pethau o'r fath bwysau a chanlyniad yn ngolwg credadyn, fel y mae yn eu gofyn yn hyf gan yr Arglwydd, ar sail ei addewidion, a chyda thaerineb mawr. Pethau sydd yn hanfodol i dduwioldeb a sancteiddrwydd, ni ddichon fyw hebddynt, ac nid rhaid iddo, gan eu bod wedi eu haddaw yn y gair.

GOMORRAH, *Heb.* עמרה [*pobl wrthryfelgar*] Un o'r pum dinas a ddinystriwyd gan dân o'r nefoedd. Gen. 19. 24. Edr. SODOM.

GOPHER, y coed y gwnaed arch Noah o honynt. Gen. 6. 14. Geilw *Targum Onkelos* hwynt cedrwydd. Bochart, *vol.* i, *p.* 22. a Fuller, (*Miscel. lib.* iv, *c.* 5.) a'u galwant cypreswydd. Y cyfieithiad Geneva a'u geilw y pinwydd.* LXX. coed pedwar ochrog. *Vulg.* coed llyfnion. Edr. ARCH.

GORCHEST—OL, (cost) *Gr.* εξοχη; rhagoroldeb, rhagor-gamp; dychymyg.—'Ni ofynaf i ti orchest,' hyny yw, Ni ofynaf i ti ddychymyg.—Ar enedigaeth Naphtali mab Bilhah, llaw-forwyn Rahel, hi a ddywedodd, 'Ymdrechais ymdrechiadau gorchestol â'm chwaer, a gorchfygais.' *Ymdrechiadau Duw, ymdrechais â'm chwaer. Heb.* Ymdrechodd â Duw mewn gweddi, tebygol, am blant, a llwyddodd. Ymdrechiadau Duw yw ymdrechiadau dwyfol, ymdrechiadau yn nerth Duw, ymdrechiadau gyda Duw—ac oblegid hyny y maent yn ymdrechiadau gorchestol, a rhagorol. Gen. 30. 8.

GORCHFYGU, (gorch-myg) trechu, athrechu, gorfod; goresgyn; rhagori, blaenori; myned â'r maes, cael y llaw uchaf.—'Gorchfygu' a arwydda ymdrech â gelyn neu ryw anhawsdra, a'u gorfod. 'Crist a orchfygodd y byd.' Ioan 16. 33. Y byd, sef tywysog y byd hwn—holl brofedigaethau y byd—ei wg a'i wên—ei ddeniadau a'i fygythion—pob peth sydd yn y byd yn tueddu i wyro enaid oddiwrth Dduw. Yr oedd y byd yn gwbl yn elyn iddo. Ni chyfarfu â dim ond anhawsderau ynddo, a rhyw rwystr a gwrthwyneb oddiwrth bawb. 'Ond mi a orchfygais y byd.' Gorchfygodd bechod yn y byd trwy roddi iawn drosto, a thrwy ei ddarostwng yn nghalonau ei bobl o ran ei awdurdod a'i lywodraeth. Gorchfygodd bob peth ag oedd yn rhwystr ar ei ffordd yn ngwaith y prynedigaeth, ac a'i gorphenodd. Gorchfygodd fel person cyffredin yn enw a thros filiynau o bechaduriaid, y rhai a orchfygwyd yn Eden yn eu pen-cyfammodwr cyntaf, Adda. Ennillodd y fuddugoliaeth yn ol iddynt. Er mai efe a orchfygodd ei hun, etto y mae holl ffrwyth, gorfoledd, a gogoniant y fuddugoliaeth yn eiddo ei bobl ef, y rhai ydynt ynddo a thrwyddo yn fwy na choncwerwyr. Yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw, sydd yntau, trwy ei ffydd hon, yn gorchfygu y byd: y mae buddugoliaeth Iesu yn eiddo iddo, a nerth Iesu yn cael ei berffeithio yn ei wendid. 'Yr hwn sydd yn gorchfygu,' (ο νικων) sydd enw priodol i bob gwir gredadyn, ac nid ydyw yn briodol i neb ond efe. Nid oes fodd i neb orchfygu ond sydd yn credu yn HAD Y WRAIG, yr hwn a orchfygodd y sarph—'canys nid trwy nerth,' sef ei nerth ei hun, 'y gorchfyga gwr.' 1 Ioan 5. 4, 5. Dat. 2. 7, 17. a 3. 5, 12. a 21. 7. 1 Sam. 2. 9.

'Tro dy lygaid oddi wrthyf, canys hwy a'm gorchfygasant.' Can. 6. 5. Llygaid yr eglwys yw ei hadnabyddiaeth trwy ffydd o Grist, a'i chariad tu ag ato. Trwy gredu tystiolaeth y gair am dano, y mae yn ei adnabod, yn ei garu, yn ei hoffi, yn hiraethu am dano, ac yn ymhyfrydu ynddo. Y mae y fath hoffder gan Grist yn edrychiad yr eglwys arno, a'i serchiadau sanctaidd tu ag ato, nes ydyw fel un wedi ei orchfygu gan harddwch y gwrthddrych. Ni ddichon geiriau roddi mwy annogaeth i barhau i edrych arno, gan eu bod yn dangos eu hoffder yn y cyfryw edrychiad. Y mae y weithred leiaf o eiddo ffydd ar Grist yn ei ogoneddu ac yn ei foddhau; pa faint mwy pan fyddo credadyn 'â wyneb agored yn *edrych* ar ei ogoniant'—yn syllu yn barhaus arno—yn hiraethlawn am dano—ac yn dysgwyl wrtho? 2 Cor. 3. 18. Gen. 32. 26, 27, 28. Exod. 30. 10. Mat. 15. 27, 28.

* Quidam exponunt per terebinthum, quidam per *pinum*, quidam per abietem. Leigh.

Digitized by Google

'Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni.' Rhuf. 12. 21. Na orchfyger di gan ddrygioni dy gas-ddyn a'th elyn, i'th wneuthur yn debyg iddo, ac am ymddial arno. Yn hyn tydi sydd yn cael dy orchfygu, ac yn cael y niwed mwyaf; dilyn di yr hyn sy dda, a gorchfyga ei ddrygioni ef trwy dy ddaioni, sef dy diriondeb a'th gymwynasgarwch tu ag ato. Dyma ysbryd sanctaidd, ardderchog, a buddugoliaethus Cristionogrwydd!

GORCHUDD—IO, (cudd) gwerchyr, clawr, caead, amhudded; llen, llen-gel, llen-gudd; cuddio, llenguddio.—Fel arwydd o'u gwylder, eu diweirdeb, a'u hymostyngiad i'w gwyr, byddai gwragedd yn arferol, yn enwedig yn y dwyrain, o wisgo gorchudd ar eu hwynebau. Gen. 24. 65. Esa. 3. 23. Mewn priodasau yr oedd yn arfer yn mhlith y Groegiaid i roddi gorchudd i'r briodas-ferch. Yn mhlith y Rhufeiniaid, y priod-fab a roddai i'r briodas-ferch orchudd a elwid *flammeum*,* o liw coch neu felyn, yn arwydd o'i gwylder gwridog.—Yr oedd amrywiol fath o orchuddion, fel y mae yr amrywiol eiriau Hebraeg am danynt yn arwyddo; rhai i orchuddio y llygaid a'r wynebpryd yn unig, (Gen. 20. 16. *Heb.*)—rhai i orchuddio y pen i gyd; eraill y corph. Ruth 3. 15.——Gorchudd briodasol, hirllaes (רדיד) Can. 5. 7. Esa. 3. 21, 23.

'Gwylwyr y caerau a ddygasant fy ngorchudd oddi arnaf.' Can. 5. 7. Gwylwyr y caerau yw swyddogion eglwysig. Y maent yn dwyn gorchudd yr eglwys, trwy wadu a gwrthwynebu yr athrawiaeth o gyflawnhad trwy ffydd. Os heb ein gwisgo â'r cyfiawnder hwn (*περιβολαιον νυμφικον, ενδυμα γαμου*) y wisg briodas hon, yn noethion y'n ceir, ac yn waradwyddus. Maent hefyd yn dwyn ei gorchudd trwy ei gosod allan yn waradwyddus, a'i cham-ddarlunio fel un ddrwg, buteinllyd, halogedig, ac aflan, ac nid fel priodas-ferch gwraig yr Oen—'yr hon sydd oll yn ogoneddus o fewn: gemwaith aur yw ei gwisg hi.' Y cyfryw gau wylwyr yw y gelynion creulonaf a gafodd yr eglwys yn mhob oes. Luc 6. 22. Act. 5. 40, 41. 1 Cor. 4. 10—13. Heb. 11. 36, 37. a 12. 2. 1 Petr 4. 14, 16.

Rhoddent orchudd ar wynebau rhai wedi eu barnu i'w colli. Esth. 7. 8.

Yr oedd y gorchudd, neu y llen, ar wyneb Moses yn arwyddo tywyllwch ac aneglurdeb yr oruchwyliaeth hòno: (Edr. MOSES.) ond dilewyd gorchudd y ddeddf seremoniol yn Nghrist, yr hwn a gyflawnodd yr holl gysgodau; ond y mae y gorchudd hyd heddyw ar y genedl Iuddewig, fel mae yn gwrthod Crist, sylwedd yr holl ddefodau Iuddewig; ond pan ymchwelo at yr Arglwydd, tynir ymaith y gorchudd; y pryd hwnw y ffieiddiant eu holl ddefodau gwag, a chofleidiant Grist a'r efengyl. 2 Cor. 3. 15, 16. Hyd heddyw, pan ddarlleno Iuddew y gyfraith yn y synagog, gesyd dros ei wyneb orchudd gwlanen, â phedwar siob, neu dusw o eddi, wrth ei phedair congl, yr hon a elwid *taled*, neu *thaled:* y mae hyn yn beth neillduol iawn, ac yn ymddangos yn arwydd o'r gorchudd sydd ar eu calonau, yn eu hattal rhag canfod diwedd yr hyn a ddilewyd. Er mor eglur yw y dadguddiad efengylaidd o Grist, tra byddo y gorchudd ar y galon, ni chenfydd neb mo hono yn wirioneddol ac yn ogoneddus, fel y mae: rhaid tynu ymaith y gorchudd cyn yr ymchwelant ato.

'Y gorchudd sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd,' yr hwn y mae yr Arglwydd Iesu yn ei ddifa, trwy yr efengyl, yn ei eglwys, ydyw eu hanghrediniaeth, eu hanwybodaeth, a'u cyfeiliornadau dinystriol, ac eilunaddoliaeth yr holl genedloedd. Esa. 25. 7. Y mae dyn anwybodus, anghredinìol, yn gwbl fel dyn â gorchudd ar ei wyneb; nid oes dim yn ymddangos iddo fel y maent; am hyny, y mae yn cam-arferu, a chamymagweddu yn mhob peth: mawr ydyw y fendith o gael difa y gorchudd, trwy oleuo llygaid y meddwl! Esa. 60. 1, 2, 3. Luc 2. 32. Act. 17. 30. Eph. 3. 4, 5, 6. a 4. 18. a 5. 8.

* Lutera demissos velarunt flammea vultus. Lucan, *Pharsal, lib* ii, v. 361.——Ubi tibi corycio glomerarem flammea luto. Virgil.

'A gorchudd y Sabboth yr hwn a adeiladasant hwy yn tŷ.' 2 Bren. 16. 18. Gorchudd y Sabboth oedd ryw fath o gysgod rhag gwres yr haul a'r gwlaw, oedd yn ddefnyddiol ar y Sabboth i'r brenin a'i deulu; neu i'r offeiriaid i ddarllen ac i egluro y gyfraith i'r bobl, ac i'r bobl wrando hefyd, hwyrach. I foddhau brenin Assyria, Ahaz a drodd hwn i ryw ddefnydd arall, tebygol.

GORCHWYL, (chwyl) gwaith, achos, gweithred.—Gorchwyl Duw, gwaith Duw; gorchwyl y brenin, achosion y brenin. 1 Cron. 26. 32.——'Gwr diesgeulus yn ei orchwyl;' sef yn ei waith a'i alwedigaeth. Diar. 22. 29.

'Ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl,' *οικονομια*, am *oruchwyliaeth*. Y mae yr Arglwydd wedi fy ngosod yn oruchwyliwr, ac ymddiriedwyd i minnau am oruchwyliaeth; ac yr wyf yn gyfrifedig i Dduw am y dull y cyflawnaf hi. Os gwnaf hyn o'm bodd, y mae i mi wobr; ond os o'm hanfodd, yr ydwyf wedi fy ngosod yn oruchwyliwr, ac ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl. 1 Cor. 9. 17.

'Edrych ar orchwyl Duw; canys pwy a all unioni y peth a gamodd efe?' Preg. 7. 13. Gorchwyl Duw, ydyw ei waith, ei drefniadau, a'i osodiadau; ein dyledswydd ydyw sylwi arnynt yn fanwl, ymostwng iddynt, a'i barchu ynddynt oll. Dichon eu bod, yn aml, yn ymddangos yn geimion i ni, er eu bod oll yn union i ateb dybenion Duw ynddynt. Nis dichon un creadur eu cyfnewid; hyn fyddai drueni mawr; ymostwng iddynt, a pharchu Duw ynddynt, yw ein dyledswydd a'n braint fwyaf yn y diwedd. Job 37. 14. Ps. 8. 3. a 107. 43. Esa. 5. 12. Preg. 1. 15. Job 9. 12. a 11. 10. a 12. 14. a 34. 29. Esa. 14. 27. a 43. 13. a 46. 10, 11. Dan. 4. 35. Rhuf. 9. 15, 19. Eph. 1. 11.

'Os dilynodd hi bob gorchwyl da;' sef pob gwaith da o diriondeb a charedigrwydd gwasanaethgar. 1 Tim. 5. 10. Ymddengys rhai yn rhy wresog am *rai* pethau daionus, ond nid am *bob* gweithred dda; ymddengys eraill yn fawr eu hawydd dros amser, heb *ddilyn* hyny yn ddyfal ac yn ddiddarfod; ond addas yw *dilyn pob gorchwyl da*. Edr. GORUCHWYLIAETH.

GORCHWYLEDD, (gorch-gwyl) mulder, gwylder, yswylder, gwladeidd-dra, lledneisrwydd. Y mae y gair כלם a gyfieithir *gorchwyledd*, Ezra 9. 6. yn arwyddo cywilydd i'r gradd mwyaf; cyfieithir ef yn aml, *gwaradwydd*, ac y mae yn cael ei roddi ar ol cywilydd, fel yn ychwanegu yr ystyr. Esa. 41. 11. a 54. 4. Ps. 35. 4.

GORCHYMYN, (gor-cy-myn) archiad, rhybydd; athrawiaeth; rheol.—Mae gwaith Duw yn dywedyd yn unig, yn orchymyn; 'Duw yr hwn a orchymynodd;' *Gr. ο Θεος ο ειπων, y Duw yr hwn a ddywedodd* i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch. 2 Cor. 4. 6. Y mae geiriau Duw yn ddeddfau; am hyny, gelwir y Deg Gorchymyn, y *deng air*. Deut. 4. 13.—Mae gorchymynion i'w golygu yn gadarnhaol, yn peri y peth; neu yn nacaol, yn gwahardd y peth. Pa un ai cadarnhaol, neu nacaol, gwna yr hyn a fyno ar ei holl greaduriaid. Esa. 55. 11. 'Dywed wrth yr haul, ac ni chyfyd; ac a selia ar y sêr.' Job 9. 7. Y mae yr holl greaduriaid direswm yn cyflawni ei air: tân a chenllusg, eira a tharth, gwynt ystormus, gwneuthur ei air ef mae y cwbl. Ps. 148. 8. Pan oedd ei bobl gynt ond *ychydig* o rifedi, a *dyeithriaid* yn y tir; a phan rodient o genedlaeth i genedlaeth, o'r naill

Digitized by Google

deyrnas at bobl eraill, beth a'u diogelodd yn y cyflwr amddifad hwn? Ychydig, dyeithriaid, crwydriaid—Dyma ddynion dinodded iawn o'u rhan eu hunain. Etto, yr oedd ei air nacâol yn ddiogelwch cyflawn iddynt yn mhlith y naill bobl a'r llall. 'Na chyffyrddwch â'm rhai eneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi.' Dyma yr amddiffynfa gadarnaf a ddichon fod. Fel y mae Duw yn fawr yn mhob peth, felly y mae ei fawredd yn ymddangos yn ei orchymyn. Edr. DEDDF, CYFRAITH, EANG.

Y mae gorchymyn Duw yn cyrhaedd at ei holl greaduriaid. Ps. 33. 9. a 148. 5. Exod. 34. 11. Galar. 2. 17. Esa. 5. 4. Amos 9. 3. Marc 1. 27. Ac y mae yn arwyddo, 1. Ei awdurdod ar ei greaduriaid. ——2. Ei ewyllys a'i barodrwydd i gynnorthwyo ei bobl yn eu holl gyfyngderau. Ps. 42. 8.——3. Ei awdurdod i ofyn ufudd-dod i'w gyfreithiau. Deut. 11. 22.——4. I effeithioli ein gwaith a'n gwaredigaethau. Ps. 44. 4.——5. I ogwyddo a chynnorthwyo. Job 36. 10.——6. I attal. Esa. 5. 6.——7. I osod, i drefnu, a sefydlu yn ddiysgog. Ps. 33. 9.——8. I gynhyrfu trwy ei ragluniaethau. Esa. 13. 3.——9. I roddi a chyfranu. Lef. 25. 21.

Y mae Duw yn 'gorchymyn ei fendith' pan y byddo yn ei chyfranu; y mae ei awdurdod dwyfol yn y cyfraniad o honi, a phwy a ddichon ei hattal? 'Pan orchymyno ei drugaredd liw dydd,' pwy a'i hattal rhag cerdded ei llwybr at ei gwrthddrychau priodol? Y mae yr awdurdod goruchel hwn yn gwneuthur ei mynediad yn ogoneddus, a'i derbyniad yn gyflawn ac yn addas. Deut. 28. 8. Ps. 42. 8. a 133. 3.

I ddynion mae gorchymyn yn briodol, 1. Oddiwrth rieni at eu plant. Gen. 18. 19.——2. Oddiwrth lywodraethwyr at swyddwyr. Jos. 1. 10.——3. Oddiwrth freninoedd at eu deiliaid. 2 Cron. 14. 4.——4. Oddiwrth weinidog yr efengyl at ei bobl. 2 Thes. 3. 4, 6. 2 Petr 3. 2.

GORDD, (gor) gorddwyn, morthwyl; pren corddi—'Onid yw fy ngair i megys tân, medd yr Arglwydd, ac fel gordd yn dryllio y graig?' Jer. 23. 29. Y mae yr Arglwydd yn dangos rhagoroldeb ei air ar freuddwydion a hudoliaeth y gau brophwydi: ûs ydyw eu geiriau hwy; ond gwenith pur yw gair yr Arglwydd; y mae sylwedd magwriaethol ynddo, fel gwenith; y mae effeithioldeb treiddgar, anwrthwynebol, ynddo, fel tân; y mae nerth a phwysau ynddo, fel gordd, na ddichon un graig, er caleted fyddo, sefyll dan ei ergyd heb ei dryllio. Dryllia galonau ei bobl âg argyhoeddiadau, a gwir edifeirwch; dryllia ei elynion â'r barnedigaethau y mae yn eu cyhoeddi. Y mae yr ordd yn drom, y mae y fraich yn gref, a'r llygad yn gywir, i daro y gwrthddrychau cyfeiriedig.——'Gordd yr holl ddaear,' y gelwir brenin Babilon, oblegid iddo ef a'i luoedd ddarostwng a dryllio cenedloedd y ddaear. Jer. 50. 23. Nah. 1. 2.

GORDDERCH—ION, GORDDERCHAD—ON, (gordd-erch) cyfoden, cywelŷes, cariad-wraig, gordderch-wraig. Y gair *Heb.* פלגש a arwydda, *rhanu, un yn cyfranu yn nghariad gwr, er fod ganddo un arall, neu ychwaneg o wragedd:* math o îs-wraig, neu gwraig o'r ail radd. Yn iaith y Bibl nid arwydda dim yn anfoesol, neu yn anghyfreithlawn. Gelwir Ceturah, yr hon a gymerodd Abraham yn wraig iddo, yn un o'i ordderch-wragedd ef; Hagar ydoedd y llall. Gen. 25. 1, 6. Gordderch Abraham y gelwir hi yn 1 Cron. 1. 32. Gelwir Hagar hefyd yn wraig iddo. Gen. 16. 3. Gelwir Bilhah a Zilpah yn ordderchwragedd ac yn wragedd i Jacob. Gen. 30. 4. a 35. 22. a 37. 2.—Er bod cyfoden y Lefiad yn cael ei galw ei ordderch, etto gelwir ef ei harglwydd, a'i hanniweirdeb hithau yn buteindra. Barn. 19. 1, 2, 27. Ond nid ydoedd gordderch, 1. Yn cael ei hystyried y wraig benaf; fel y dengys siamplau Sarah, Hagar, Bilhah, a Zilpah. Gen. 16. 6, 9. a 30. 3, 4, 9—12. Gelwir gwragedd Solomon yn freninesau; ond nid yw ei ordderchion byth yn cael eu galw felly. 1 Bren. 11. 3. Can. 6. 9.——2. Nid oedd plant y gordderchion byth yn etifeddu, fel y gellir barnu oddiwrth y siamplau crybwylledig.



Yr oedd gan Dafydd ddeg, a chan Solomon dri chant o ordderchion; ac y mae hanes am rai breninoedd yn y gwledydd dwyreiniol, yn ddiweddar, â llawer mwy ganddynt; amryw o ymerawdwyr y Tyrciaid oedd ganddynt o un fil i dair mil o'r cyfryw wragedd. Gwel Habesci's ***Present State of the Ottoman Empire.*** Knolles's ***History of the Turks.*** Hefyd Hanway's ***History of the Revolutions of Persia, part*** vii, ***cap.*** xxxi. Steward's ***Journey to Mequinez, in*** Newbury's ***Collection, vol.*** xvii.

Gan fod gordderchadon yn oddefol yn mhlith yr Hebreaid, nid anarferol fyddai gweled amryw wragedd a gordderch-wragedd yn yr un teulu. Y sefydliad cysefin priodas ydoedd un gwr ac un wraig; ac y mae Crist gwedi dileu gordderchiad yn hollol, a chwedi adferyd priodas i'w sefydliad cysefin yn mysg ei holl ganlynwyr; ac, yn ganlynol, barnwyd gordderchiad yn bechod, a diddymwyd ef yn gwbl yn mhlith Cristionogion. Y sefydliad cyntaf sydd hardd ac yn gysurus, ac y mae pob ymadawiad oddi wrtho yn wrthun ac yn anghysurus.

Gelwid unwaith gau wrthddrychau addoliad, sef eilunod, yn פלגשים *gordderchwyr;* sef rhai yn cyfranu â IEHOFAH yn addoliad ei bobl.

GORDDIOG, (diog) tra diog, segurllyd.—'Boliau gorddiog.' Tit. 1. 12. 'Boliae gorddiogion,'—lluscenaidd, muscrell; ymyl y ddalen. W. S. *Gr.* *γαστερες αργαι, glythion diog,* fel anifeiliaid gwedi gorlenwi eu hunain, yn anaddas i waith. Darluniad echryslawn o'r Cretiaid, o ran eu moesau, ydyw eu galw, 'Bob amser yn gelwyddog—creulawn fel drwg fwystfilod—ac yn dda i ddim ond i besgi eu hunain.'

GORDDU—O, (du) du iawn; yn o ddu; wynebddu; duo y wyneb.—'Os bydd yn nghroen eu cnawd hwynt ddysgleiriadau gwynion wedi gordduo; brychni yw hyny yn tarddu yn y croen; glân yw efe.' Lef. 13. 39. 'Wedi eu crychu.' Dr. M. ***Darkish white,*** gwyn tywyll. ***Saes.***

GORDDYFNDER—AU, (gor-dyfn) dyfn-leoedd; lleoedd cuddiedig, anchwiliadwy i neb, ond i lygaid Duw.—'Gorddyfnderau y ddaear,' hyny yw, parthau isaf y ddaear, lleoedd cuddiedig y ddaear. Y mae y rhai hyny yn llaw Duw, ac yn ddigon hysbys iddo. Ps. 95. 4. a 104. 6.

GORESGYN—IAD, (esgyn) dyfod i fynu; meddiannu; gorchfygu, darostwng.—'Y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd.' Heb. 11. 33. Felly y gwnaeth Josuah, Dafydd, &c.; ffydd oedd eu harfogaeth; trwyddi hi y nerthwyd hwynt o wendid, ac y gwnawd hwynt yn gryfion ac yn fuddugoliaethus mewn rhyfel. Y mae ffydd yn addas at bob tywydd, ac at bob gwaith; ac yn sicr o fod yn llwyddiannus yn y diwedd. Y mae rhai o ardderchog lu y ffyddloniaid gwedi bod yn mhob sefyllfa, yn wyneb pob tywydd â'r gelynion creulonaf ar bob tir—ac etto yn llwyddo. Nerth Duw yw nerth ffydd, beth gan hyny a ddichon ei gwrthsefyll?

GOREU, (gor) godidog, rhagorol; da iawn, da dros ben; o'r goreu; goreu i ti beidio; sef gwell i ti beidio. —'Diau mai cwbl wagedd yw pob dyn pan fyddo ar y goreu.' Ps. 39. 5.—'Pob dyn byw.' LXX. Dr. M. Cwbl wagedd—pob dyn—***yn sefyll*** (נצב) sef er ei fod yn sefyll, yn sefydlog, ac mewn cyflwr da; etto cwbl wagedd ydyw pob dyn ynddo ac o hono ei hun. 'Pob dyn,' gwyr cyfoethog, gwŷr galluog, ie, gwyr duwiol

Digitized by Google

—y maent hwy yn ddarostyngedig i ddamweiniau, cyfnewidiadau, a phrofedigaethau; ie, pan fyddo *oreu* arnynt: am hyny, medd Dafydd, 'Beth a ddysgwyliaf? fy ngobaith sydd ynot ti.' Adn. 7. Y mae sylwedd ynot ti, ie, 'digonolrwydd llawenydd, a digrifwch yn dragywydd.'

'Gwnewch eich goreu ar eich cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddifrycheulyd, ac yn ddiargyhoedd.' 2 Petr 3. 14. 'Rrowch ych bryd ar allu o hono ef ych cael yn ddifrycheulyd ac yn ddilwgyr mewn tengnhefedd.' W. S. a Dr. M. Y mae y gair *Gr. σπουδαζω*, yn cael ei gyfieithu, ***bod yn ddyfal, bod yn astud, bod yn ddiwyd.*** Eph. 4. 3. 1 Thes. 2. 17. 2 Tim. 2. 15. a 4. 9, 21. Tit. 3. 12. Heb. 4. 11. 2 Petr 1. 10. Y mae yn arwyddo hollol ymroddiad, ac ymdrechiad diwyd, dyfal, a pharhaus. Y mae addewidion mawrion, a gobaith gwynfydedig yr efengyl, yn galw ac yn ein hannog i'r dyfalwch a'r diwydrwydd mwyaf; heb hyn ni ddichon i ni fod yn ddifrycheulyd, yn ddilwgr, ac yn ddiargyhoedd; ac yn ganlynol, ni ddichon i ni 'ein cael ganddo ef mewn tangnefedd.' Nid oes dim llai na 'gwneuthur ein goreu' yn ddyledswydd arnom, ac yn addas i ni, â'r cyfryw obaith gwynfydedig genym.

GOREURO, (gor-euraw) gwisgo âg aur; aur-doi. —'I oreuro parwydydd y tai.' 1 Cron. 29. 4. Yr oedd holl barwydydd y deml ei hun gwedi eu 'goreuro âg aur;' ond parwydydd yr ystafelloedd perthynol iddi oeddynt wedi eu gorchuddio âg arian. Y mae yn anhawdd dychymygu am fawr-wychder ac ardderchogrwydd y deml, a'r holl adeiladau perthynol iddi, yn nghylch pa rai y defnyddiwyd cymaint o aur ac arian; ond y mae anchwiliadwy olud Crist yn rhagori yn anfeidrol fwy ar y deml, nag oedd y deml yn rhagori ar y bwthyn gwaelaf ar y ddaear.

Byddai plant dynion mor ynfyd, ac y maent etto, mewn rhai parthau o'r byd, a goreuro darn o bren i'w wneuthur yn eilun-dduw iddynt. Gen. 40. 19.

GORFLWCH, (gor-blwch) cwpan, phiol, carfen, gwn, mail.—Yr oedd gorflychau aur perthynol i wasanaeth y deml, i dderbyn gwaed yr aberthau, ac i ddal dwfr at olchiadau, &c.; yn cysgodi ordinhadau yr efengyl, lle mae Crist a'i aberth i'w cael, a thrwy ba rai y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu i lanhau pechaduriaid euog, aflan. 1 Cron. 28. 17. Can. 7. 2. Edr. BOGAIL.

GORFOD—YDD, (gor-bod) gorchfygu, buddugoliaethu; bod yn rhwym, neu dan angenrheidrwydd; gwneuthur iawn; sicrhau peth.—Gorfod cilio, bod dan angenrheidrwydd i gilio; gorfod gweithred, gwneuthur iawn am weithred; gorfod anifel, sicrhau anifel yn iach.

'Pa fodd ynte y cyflawnid yr ysgrythyrau, mai felly y gorfydd bod?' Mat. 26. 54. Yr oedd pob peth perthynol i Grist, a gwaith y prynedigaeth trwyddo, wedi eu penderfynu yn yr arfaeth dragywyddol; wedi eu rhagfynegi yn yr ysgrythyrau; ac am hyny o orfod yn cael eu cyflawni ganddo. Yr oedd yr arfaeth wedi ei dadguddio, a'i darlunio yn yr ysgrythyrau; yr oedd y gweithiwr cywrain â'i lygad yn y cwbl o'r trefniad, ac â'r darluniad o'i flaen yn ei holl waith; a chyflawnodd, mal yr oedd yn weddus iddo, 'bob cyflawnder.' Mat. 3. 15. Os ydyw ei waith yn cyfateb i'r ysgrythyrau, y mae yn cyfateb hefyd i'r arfaeth; ac y mae yn brawf mai y gwir Grist ydyw; a bydd ei waith yn gyflawn dderbyniol gyd â'r Duw a drefnodd y cwbl. Golwg ogoneddus fydd gweled yr arfaeth, y darluniad o honi yn yr ysgrythyrau, a'r gwaith, yn cyfateb yn gwbl i'w gilydd.

'Ac y gorfyddech pan y'th farner.' Rhuf. 3. 4. Y mae pechaduriaid mor rhyfygus a barnu Duw—ei farnu yn annhirion, yn anghyfiawn, ac yn gelwyddog; ond ymddengys yn ddigon buddugoliaethus, a rhydd, oddiwrth eu cam farn. Mae rhai yn cyfieithu y geiriau, *νικησῃς εν τω κρινεσθαι σε*, ***y gorfyddech pan y barnech***, yn cyfateb i'r geiriau yn Ps. 51. 4. Cyfieithiad y LXX. yw geiriau yr apostol. Y mae Dafydd yn cyfiawnhau yr Arglwydd yn ei geryddon a'i farnedigaethau arno ef a'i deulu: yr oedd ei ddrwg ef yn eu gwneuthur yn gyfiawn; ac nid oedd y cospedigaethau hyn yn groes i addewidion Duw iddo; ond yr oedd ei fygythion a'i addewidion yn cydgordio, ac yn addas i Dduw yn ei oruchwyliaethau tu ag ato ef. Y mae yr apostol yn cymhwyso y geiriau at holl farnau Duw yn gyffredinol, 'gorfydd pan farno.'

GORFOLEDD—U, (gor-mawl) llawenydd mawr; hyfrydwch, digrifwch, digoniant; gawri, llawenychu. Y mae gorfoledd, neu lawenydd, yn deimlad hyfrydlawn oddiwrth feddiant, neu y gobaith o feddiannu, rhyw beth gwerthfawr neu hyfryd; a'r teimlad hwn yn cael ei ddangos mewn ystum ac agwedd gorphorol. 1 Cron. 12. 40. Y mae gorfoledd yn cyfateb i gyflwr yr hwn sydd yn gorfoleddu, a'r gwrthddrych y mae yn gorfoleddu ynddo. Os yw ei gyflwr yn ddrwg, y mae ei orfoledd yn ddisail ac yn ynfyd; am hyny nis dichon iddo roddi boddlonrwydd a pharhau. 'Byr yw gorfoledd yr annuwiol, a llawenydd y rhagrithiwr sydd dros fynyd awr.' Job 20. 5. Os pechod a'i fwyniant ydyw gwrthddrych y gorfoledd, y mae yn bechadurus yn ei natur. Diar. 15. 21. Y mae gorfoledd naturiol, ac yn mhethau natur, a daearol, yn bechadurus yn y gormodedd o hono, ac mewn cam amser, ac anystyriaeth. Esa. 22. 13. a 56. 12. Y mae mwyniant cymedrol o bethau natur yn gyfreithlon, a diolchgarwch gorfoleddus i'r Arglwydd am danynt. Nid oes neb yn mwynhau gwir orfoledd sanctaidd, sylweddol, a diddarfod, ond y rhai sydd yn gorfoleddu yn Nuw trwy Grist. Rhuf. 5. 11. a 15. 17. Phil. 3. 3. Ps. 5. 11. a 20. 5. a 43. 4. Esa. 55. 10. Y maent yn gorfoleddu yn Nuw mewn cyferbyniad i bob peth crëedig; ffynon yw efe; ond pydewau ydynt hwy; y mae ynddo gyflawnder diddarfod a difesur. Y maent yn gorfoleddu ei fod yr hyn ydyw, fel gwrthddrych cyflawn o harddwch, perffeithrwydd, a phob dymunoldeb; ac yn gorfoleddu yn ei gyfammod, ei addewidion, ac yn ei holl ffyrdd. Y maent yn gorfoleddu yn Nghrist, fel Cyfryngwr, a ffordd at y Tad, mewn cyferbyniad i bob peth ynddynt eu hunain. Y mae ynddo achos sylweddol o orfoledd i bechadur yn wyneb ei fawr drueni. Y mae pob peth tu yma i Grist yn annigonol sylfaen o orfoledd i bechadur euog ac aflan. Ond y mae iechydwriaeth yr Arglwydd Iesu yn achos gorfoledd annhraethadwy a thragywyddol i'r rhai sydd yn ei mwynhau. Ps. 51. 12. Y mae Crist yn sylfaen ac yn wrthddrych gobaith ei bobl; ei gyfiawn fwynhau, a bod yn debyg iddo, ydyw eu gobaith; a'i gyfryngdod ydyw sylfaen eu gobaith am hyn mewn gogoniant tragywyddol. Rhuf. 5. 3. Heb. 3. 6.

Y mae Duw yn 'creu Jerusalem yn orfoledd,' pan mae yn diwygio, yn puro, yn adnewyddu, ac yn cyflawni ei eglwys â bendithion ysbrydol, fel mae yn orfoleddus ei hun, ac yn gorfoleddu pawb a'i caro, yn yr olwg arni. Esa. 65. 18. Gwaith Duw ydyw hyn; 'Wele fi yn creu,' &c., o hono ef y mae holl ddefnyddiau ei gorfoledd yn dyfod; ac yn ei fawredd anfeidrol, dichon ei gwneuthur yn orfoledd, er gwaethaf ei thrueni, a'i holl elynion. Lle llawen fydd eglwys Dduw dros byth. Edr. LLAWENYDD.

GORIS, (is) isod, obry, islaw, tan, tanodd; iselach, gwaelach.—'Goris ynys fechan.' Act. 27. 16. *Gr. υποδραμοντες*, ***rhedeg tan***, neu ***islaw.***

GORIWAERED, (gwaer) gorwaered, llethr, gowaered; disgynfa; croes i gorifynu.—'Fel dyfroedd a dywelltir ar y goriwaered.' Mic. 1. 4.

GORLLEWIN, (gor-llewin) achlud, ymachlud

Digitized by Google

haul; mynediad haul yn ei addef; mynediad haul dan ei gaerau. Am fod Môr y Canoldir (neu y môr mawr, fel y gelwir ef yn Jos. xv.) ar y cyffiniau gorllewinol i wlad Canaan, galwai yr Hebreaid y gorllewin ים *y môr*; weithiau ערב *hwyr*, neu *y cyfnos*. Y gwynt gorllewin a alwent רוח הים *gwynt y môr*, o'r un achos. 'Pan weloch gwmwl yn codi o'r gorllewin, yn y fan y dywedwch, Y mae cawod yn dyfod.' Luc 12. 54. 1 Bren. 18. 43—46. Gwyntoedd y gorllewin, a dehau-orllewin, sydd yn chwythu yn gyffredinol, yn Syria a Phalestina, o Tachwedd hyd Chwefror, ydynt, fel y dywed yr Arabiaid, *Tadau y cawodydd*. Gwel Volney's *Voyage in Syria*.

GORMES—OL—U, (gorm) gorthrech, gorthrymiad, trais, gorddwy, gormail, difrawd. Lleuad-ormes, pan fyddo tair ar ddeg yr un flwyddyn: gwenynen ormes, begegyr, bychygyr.—'Myfi hefyd a argyhoeddaf er eich mwyn chwi yr ormes.' Mal. 3. 11. Yr ormes, (אכל) *difrodwr*, *difäwr*. Mae yr Arglwydd yn addaw 'agoryd ffenestri y nefoedd, a thywallt bendith fel na byddo digon o le i'w derbyn; a myfi a argyhoeddaf,' (נערתי) *geryddaf* neu *attaliaf*. Wrth y difrodwr y meddylir y locust, lindys, neu ryw greaduriaid eraill fyddo yn difa ffrwythau y ddaear. Oni attal Duw hwynt, y maent yn sicr o ddifa y bendithion; ond y mae gan Dduw awdurdod gyflawn arnynt, ac ni wnant ond a oddefo iddynt. Mae yma ddifäwr i'n holl gysuron, rhyw 'wyfyn a rhwd yn llygru;' ond nid oes dim heb fod dan lywodraeth Duw.

'Ni ormesais ar neb.' 2 Cor. 11. 9. 'Ny vu vydiogi yn ammorth i nebun.' W. S. 'Yn mhob dim y'm cedwais fy hun,' medd efe, 'heb bwyso arnoch, ac mi a ymgadwaf.' Y mae cyfieithiad W. S. yn rhoddi priodol ystyr y gair ου κατηναρκησα, yn gyflawn; *ni bum trwy ddiogi yn ormes*, neu yn faich ac yn orthrymder i neb; y mae rhai felly, ond ni bum i felly; ac nid ydwyf yn bwriadu bod. Y mae y geiriau yn dangos ysbryd rhagorol yr apostol; y gwaith ac nid y gwobr oedd yn ei olwg.

GORMOD—EDD, (gorm) gormodd, yn rhwy, rhy fawr, rhy liosog.—'Yn yr hyn y mae gormodedd.' Eph. 5. 18. εν ω εστιν ασωτια. '*Yn y peth y mae rhythni*.' W. S. Yn yr hyn y mae afradlonrwydd, afreolaeth, rhysedd. Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *afradlon, rhysedd*. Tit. 1. 6. 1 Petr 4. 4. Y mae gormodedd, afradlonrwydd, ac afreolaeth, yn cyd-fyned â'u gilydd; a'r cyntaf yn achos o'r lleill, ac yn bechadurus. Cymedrolder yw ein rheol yn ein holl arferiad o greaduriaid Duw; hyn sydd yn orchymynedig, a hyn sydd yn llesol i ninnau.

'I'r unrhyw ormod rhysedd.' 1 Petr 4. 4. εις την αυτην της ασωτιας αναχυσιν. *I'r unrhyw gors*, neu *ffos o afradlonrwydd*. Geiriau yn dangos y perygl a'r trueni o fyw yn y pechodau a soniwyd yn adn. 3. Macknight.

GOROR—AU, (gor-or) ucheldir, mynydd-dir; cyffin; terfyn.—'Hwythau a ddug efe i oror ei sancteiddrwydd,' neu i'w oror sanctaidd, sef i wlad Canaan, y wlad a neillduodd ac a sancteiddiodd Duw i'w bobl, a'i holl derfynau wedi eu nodi allan. Num. 34. 2, 3—12.—'Trwy gwbl o'r goror hwnw.' Marc 6. 55. —'Trwy 'r oll vro hono.' W. S.

GORPHEN—WYD, (gor-pen) cwblhad, dybeniad, perffeithiad; cwblhau, dybenu, perffeithio, diweddu, cyflawni.—'Yna pan gymerodd yr Iesu y gwinegr, efe a ddywedodd, GORPHENWYD.' Ioan 19. 30. Gorphenwyd holl ewyllys Duw mewn perthynas iddo: gorphenwyd yr hyn oll a gysgodwyd, ac a ragfynegwyd yn yr ysgrythyrau am dano: gorchfygwyd pob gelyn, a chyflawnwyd pob cyflawnder. Arwydda y gair, 1. Bod gwaith gwedi ei roddi iddo gan y Tad. Ioan 4. 34. a 17. 4. Eneiniwyd ef i swyddau i gwblhau gwaith neillduol perthynol i bob un o honynt. Gorphenodd ar y groes yr hyn oedd i'w wneyd yn ei gyflwr o ddarostyngiad yma yn y byd.

2. Arwydda hefyd mai rhyw orchest-waith oedd, a bod ei gwblhad yn gorphwys yn fawr ar feddwl Crist: yr oedd yn gyfyng arno nes gorphenodd ef. Mwy gwaith na dim a wnawd o'r blaen, neu a wneir byth, gan y Duwdod ei hun. Yr oedd nefoedd ac uffern yn cyd-gyfarfod; un yn gofyn iawn, a'r llall yn ymosod arno, i'w orchfygu yn ei waith. Mae y nefoedd, daear, ac uffern, yn ymosod arno ar unwaith. Nid yw creu a dal bydoedd dirifedi ond megys dim i'w cymharu â'r gwaith a roddwyd i Grist i'w gwblhau.

3. Yr oedd Crist ei hun yn *unig* yn y gwaith hwn; nid oedd cynnorthwywr na chynnaliwr iddo. 'Lle yr ydwyf fi yn myned,' medd efe wrth Petr, 'ni elli di yr *awrhon* fy nghanlyn;' yr oedd y dyfroedd yn rhy ddyfnion, ac yn rhy dymhestlog i Petr fyned gyd âg ef iddynt. Esa. 63. 5. Ioan 13. 36.

4. Y mae y gair *gorphenwyd* yn dangos bod eithaf perffeithrwydd yn y cwblhad o hono. Edrychodd ar yr arfaeth fawr, a'i holl drefniadau dyfnion anfeidrol; edrychodd ar yr holl gysgodau, a holl rag-ddywediadau y prophwydi am dano; edrychodd ar ei holl etholedig bobl, a'u pechodau aneirif; edrychodd ar y gyfraith yn holl berffeithrwydd a manylrwydd ei gofynion cyfiawn; edrychodd ar holl luoedd uffern, cedyrn a chreulawn, &c.—yn wyneb y cwbl, gwaeddodd, GORPHENWYD! Nid oes dim yn ol—nid oes dim yn eisieu. Pe buasai un gorchymyn heb ei anrhydeddu i'r *gradd eithaf;* pe buasai *un* o'i bobl heb ei brynu, ac *un* hatling o'r holl ddyled heb ei thalu; ac *un* gelyn heb ei gwbl faeddu; buasai y gair *gorphenwyd* yn anaddas, am nad oedd yn wir; ond *gorphenwyd* ydyw, am hyny nis rhaid, ac nis gellir ychwanegu ato byth.

5. Gan fod y gwaith gwedi ei orphen, ni ellir ei *ddadwneyd*, ond saif byth yn berffaith ac yn gyflawn. Dyled wedi ei thalu ni ellir yn gyfiawn byth ei gofyn. Pwy gyfana ben y sarph wedi ei ysigo? Pwy a adsylfaena deyrnas Satan? Pwy dyn oddi yno yr ysgrifen-law, wedi ei hoelio gan yr Iesu ar y groes? Pwy a wna y gyfraith gyflawn, a'r Mechnïydd cyfiawn, yn elynion? Pwy a ddadwna y cyfammod tragywyddol, wedi ei selio â gwaed y Pen-cyfammodwr? Y mae ei ddadwneyd mor annhosibl ag ydyw i'r Duw mawr fod yn gelwyddog, neu yn anghyfiawn. O berffeithrwydd y gwaith, rhoddwyd eglurhad a phrawf cyflawn yn adgyfodiad, esgyniad, ac eisteddiad Crist ar ddeheulaw y Tad yn y nefoedd; a rhoddir yn barhaus yn mhregethiad yr efengyl, ac yn y cymhwysiad o'r iechydwriaeth at gyflyrau pechaduriaid yn neillduol. Pan ddelo y Person hwn etto yr ail waith, daw heb bechod, i'w dynu ymaith a'i ddileu—GORPHENWYD hyny!

GORPHWYLL—O, (pwyll) ynfydu, bod yn ffol. —'Any ddywedant, eich bot wedy gorphwyllo?' 1 Cor. 14. 23. W. S.—'Pob gwr gorphwyllog.' Jer. 29. 26. Dr. M.

GORPHWYS—O—FA, (gor-pwys) llonyddu, tawelu, gostegu, bod yn llonydd; peidio, dadluddio.—'Duw a orphwysodd y seithfed dydd;' nid o angenrhaid, fel pe buasai blinder a diffygio yn perthyn iddo; ond yn ol ei gynghor doeth a'i ewyllys, peidiodd a chreu ychwaneg o greaduriaid, ac a ymhyfrydodd yn yr hyn a greodd. Y seithfed dydd edrychodd ar ei waith, ac ymhyfrydodd yn yr amlygiad o hono ei hun a'i rinweddau yn ei greaduriaid. Yr oedd ynddo ei hun yn wrthddrych o anfeidrol hyfrydwch iddo ei hun er tragywyddoldeb; yn awr y mae yn gweled ei greaduriaid yn hardd fel effeithiau ei dragywyddol allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni, ac yn ymhyfrydu yn yr amlygiad. Y mae holl waith Duw yn hyfrydwch

Digitized by Google

iddo, fel mae ei rinweddau a'i ddybenion gogoneddus ei hun yn cael eu hamlygu; ond yn benaf trefn fawr yr iechydwriaeth yn Nghrist. Llynca hon ynddi ei hun ei holl weithredoedd, am fod gogoniant y priodoliaethau a amlygir yn ei holl weithredoedd eraill yn cael ei amlygu yn hon, gyda chwanegiad, i raddau anfeidrol. Fel y goleuni yn yr haul, felly y mae y gogoniant gwasgaredig yn yr holl greaduriaid, wedi ei gyd-gasglu yn hon, ac yn cyd-lawenychu yn y graddau y maent yn y Duwdod anfeidrol ei hunan. Am hyny y dywedir ei fod yn gorphwys, neu yn *llonyddu*, yn ei gariad at yr eglwys, heb ymofyn byth am un ffordd arall i'w ddadguddio; y mae yn ymhyfrydu yn y dadguddiad o hono fel perffaith ddelw o hono ei hun. Ps. 132. 14. Seph. 3. 17. Y mae y seithfed dydd yn orphwysfa i ninnau hefyd wrth orchymyn Duw, i syllu ar weithredoedd Duw, ac i ymhyfrydu yn y dadguddiad o Dduw sydd i'w weled ynddynt. Edr. SABBOTH.

Mae Crist yn 'orphwysfa,' ac y mae yn 'ogoniant,' neu yn ogoneddus. Mat. 11. 29. Esa. 11. 10. Trwy yr iawn a dalodd mae Crist yn ddiogelwch ac yn ddyddanwch tragywyddol i'r rhai sydd yn credu ynddo. —I wneuthur un peth, mewn un man, yn orphwysfa addas, 1. Rhaid ei fod yn lle o ddiogelwch, na ddichon drwg ddyfod yno—na gelyn, na chlefyd, na blinder o un rhyw. Y cyfryw yw Crist, y mae yn gwaredu ac yn meddyginiaethu oddiwrth y pethau hyn. Y mae ei aberth, ei allu, a'i ofal, yn ddiogelwch tragywyddol. ——2. Rhaid bod llawnder o bob daioni addas a chymhwys. Felly y mae Crist, y mae ynddo feddyginiaeth at bob dolur, a chyflawnder gyferbyn â phob angen.——3. Rhaid bod yno allu a rhyddid i drigo ac i gyflawn fwynhau. Felly y mae yn Nghrist. Ioan 10. 9. Y mae efe yn orphwysfa trwy drefniad dwyfol —trwy ei addasiad yn weithredol—trwy yr addewid yn ei gyhoeddi—a thrwy waith yr Ysbryd Glân yn dwyn pechadur ato, ac yn ei nerthu i gredu ynddo. 'Unig orphwysfa' i bechadur ydyw—gorphwysfa rad, addas, ddigonol, a thragywyddol. I gael yr orphwysfa hon rhaid dyfod ato, sef credu ynddo; mae pob gweithred o wir ffydd, yn ol y gradd y byddo, yn rhoddi gorphwysfa i enaid—y cyfryw na ddichon dim arall byth roddi. Yr oedd gorphwysfa y Sabboth—Noah yn yr arch—yr Israeliaid yn nhai y gwaed—y llofrudd yn y noddfa—yr Israeliaid yn Nghanaan, oll yn rhyw arwyddion a chysgodau o'r hyn yw Crist i'w bobl. Y mae efe yn sylwedd pob peth angenrheidiol a dymunol, ac i anfeidredd yn rhagori ar bob peth.

Y mae y nefoedd yn orphwysfa o ran lle, i'r rhai sydd wedi gorphwys yma yn Nghrist o ran cyflyrau. Heb. 4. 3, 9. Yr oedd gorphwysfa gwlad Canaan yn arwydd cysgodol o bob un o'r ddau; a hefyd gorphwysdra y tir y seithfed flwyddyn. Lef. 25. 5. a 26. 34, 35.

Y mae y deml yn cael ei galw 'gorphwysfa yr Arglwydd.' 1 Cron. 28. 2 Ps. 116. 7. Am fod arwydd o'r presennoldeb dwyfol yno, a'i fod yn cyfarfod â'i bobl yno; ond yn benaf am ei bod, â'i holl ddodrefn, yn cysgodi yr Arglwydd Iesu; yn yr hwn y mae yn gorphwys oddiwrth ei lid mewn cymmod tragywyddol â'i bobl; ac ynddo y mae ei holl briodoliaethau wedi eu hanrhydeddu i'r gradd eithaf, a'i holl drefniadau wedi eu cwblhau. Gorphwys ynddo byth yn y cyflawniad boddlongar o'i drefn, mewn heddwch tragywyddol â'i eglwys.

'Pan ddelo yr amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd. Act. 3. 19. *καιροι αναψυξεως*, *amseroedd esmwythâd*, *seibiant*, *addoeriad*. Y mae yr un gair *αναψυξις*, yn cael ei arferyd gan y LXX. yn Exod. 8. 15. yn ol ein cyfieithiad ni, *seibiant*. Amseroedd y mae pethau hyfryd a dyddanus yn cael eu gweithredu a'u cyhoeddi; amseroedd y mae eneidiau lawer, trwy hyny, yn cael esmwythâd hyfrydlawn. Y mae amser trallod, cyfyngdra, drwg, cystudd, adfyd, digofaint, blinder. Ps. 9. 9. Diar. 7. 10. a 24. 10. Preg. 8. 12. Esa. 33. 2. Jer. 2. 27, 28. a 18. 23. a 30. 7. Y mae hefyd amseroedd serchogrwydd—ymweliad—cymeradwy—diwygiad—i orphwys, neu esmwythâd. Ezec. 16. 8, 57. 2 Cor. 6. 2. Heb. 9. 10. O ba le daw yr amseroedd hyfryd hyn? Pwy a'u trefna, ac a gwblha y gwaith dyddanus? Crist, yr Arglwydd; o olwg, o ŵydd, oddi ger bron yr Arglwydd y deuant. Y mae y cyffelyb eiriau i'w cael yn Ps. 17. 2., 'Deued fy marn *oddi ger dy fron.*' מלפניך *Gr. εκ προσωπου σου*, y gair a arferir yma, *o'th wyneb*, *o'th ŵydd*, *oddi ger dy fron*. Ti sydd o'th anfeidrol ddaioni yn trefnu, ac wedi penodi y cyfryw amseroedd; oddi wrthyt ti y deuant, a thi a gwblhai y gwaith o roddi i ni esmwythâd hyfryd, cyfreithlawn, a sylweddol. Dyma yr amseroedd ag y rhagfynegodd y prophwydi am danynt; sef yr amser y dyoddefai Crist, yr adgyfodai, yr esgynai i'r nefoedd, ac y cai edifeirwch a maddeuant pechodau eu pregethu yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd. Gan fod amser gwneuthur iawn dros bechod, a maddeu pechodau er ei fwyn, wedi dyfod, 'Edifarhewch gan hyny, fel y dilëer eich pechodau.' Edr. LLONYDD.

GORSEDD—FA—AU—INC, (gor-sedd) teyrngadair, brenin-fainc, eisteddfa, eisteddle, brawdle, gorsedd barn. Hefyd, esgynfa, gŵyddle, lle gor-eisteddwr. Y mae gorsedd, a gorsedd-fainc, yn arwyddo eisteddfa ardderchog yn mha un yr eistedd tywysogion a breninoedd i dderbyn cyfarchiad gostyngedig eu deiliaid, i roddi gosteg i genadon, neu i weini barn a chyflawnder. Gorsedd, teyrn-wialen, a choron, ydynt arwyddion perthynol i freniuoliaeth, ac awdurdod freninol. Gorsedd-fainc Solomon a ddarlunir yn yr ysgrythyrau fel y fwyaf ardderchog yn y byd. Yr oedd wedi ei gwneuthur o ifori, wedi ei gwisgo âg aur o'r goreu. Yr oedd ei phen yn grwn—chwech o risiau, a chanllawiau o bob tu i'r eisteddle—deuddeg o lewod yn sefyll ar y chwech gris oddeutu; ni wnaethpwyd y fath yn un deyrnas. 1 Bren. 10. 19, 20. Ond y mae y cwbl yn rhy fach i ddangos allan ardderchogrwydd gogoniant breniniaeth Crist, yr hwn yr oedd Solomon yn ei gysgodi.

Gorsedd-fainc a briodolir i'r Arglwydd fel penllywydd pob peth—fel Duw yr iechydwriaeth—ac fel barnwr pawb.—1. Fel pen-llywydd mawr, parotôdd ei orseddfa yn y nefoedd; a'i freniniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth. Ps. 103. 19. a 93. 2. a 45. 6. Yn ei holl lywodraeth, ei weithredoedd, ei farnedigaethau, cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef. Ps. 97. 2. Y mae, fel brenin ar ei orsedd, yn llywodraethu yn ben-arglwyddiaethol, yn awdurdodol, yn oruchel, ac yn ogoneddus.——2. Fel Duw yr iechydwriaeth, y mae yn eistedd ar orsedd-fainc y gras. Awn yn hyderus at *τω θρονω της χαριτος*, *yr orsedd-fainc y gras*. Heb. 4. 16. Y geiriau a gyfeiriant at y drugareddfa yn y babell. Edr. TRUGAREDDFA. Ei fod yn gweini trugaredd a gras ar ei orsedd, a arwydda ei fod yn trugarhau gyda gallu, awdurdod, a mawrhydi breninol, na ddichon neb ei wrthsefyll, na diddymu ei waith. Y mae ar ei orsedd yn ngŵydd yr holl nefoedd a daear, wedi ymddyrchafu i dosturio; y mae dyfodfa hyderus ato trwy yr archoffeiriad mawr a'i aberth; ac y mae yn trugarhau ar y cyfrif hwnw, gyda mawrhydi, ardderchawgrwydd, a gogoniant anfeidrol, wrth y pechadur gwaelaf, a thruenusaf. Y mae yn trugarhau yn ei drefn ei hun, ar ei orsedd, yn ymogoneddu yn ei waith, yn ngŵydd ei holl luoedd aneirif; a phob gweithred a wnelo o drugaredd, fel o farn, a saif byth. Duw yn Nghrist, yw Duw ar ei orsedd yn achub, ac yn cymmodi y byd âg ef ei hun. Edr. DEHEULAW.——3. Y mae gorsedd-fainc barn hefyd, 'brawdle (*βημα*) Crist.'

Digitized by Google

Y mae hon yn cael ei galw, 'gorsedd-fainc wen fawr.' Dat. 20. 11. 2 Cor. 5. 10. Y mae mawredd yr orsedd yn dangos mawredd y person, a mawredd y farn. Y mae ei bod yn 'wen' yn dangos dysgleirdeb, mawredd, purdeb, sancteiddrwydd, ac uniondeb gogoneddus ei farn, yn gwbl, a thu ag at bawb. Ni bydd un cwmwl ar yr orsedd i'w chuddio, ond bydd yn wen ddysglaer, yn ngŵydd pawb. Ni bydd dim brychau anghyfiawnder arni i'w hanharddu a'i llychwino. Gorsedd-fainc—wen—fawr fydd hi; a bydd y Barnwr arni yn ddyrchafedig, yn awdurdodol, yn bur, ac yn ddiduedd, ac yn berffaith gyflawn yn y cwbl. O! ardderchogrwydd anfeidrol Mab Mair y dydd hwnw! yr hwn a ddirmygwyd, a eistedd y dydd hwnw ar orsedd-fainc ei ogoniant! Mat. 25. 31.

'Gorsedd-fainc Satan,' a arwydda gallu, awdurdod, a chreulondeb llywodraeth Satan. Dat. 2. 13.—— 'Gorsedd-fainc anwiredd,' sef y lle y mae anwiredd ac anwiriaid yn eistedd ac yn llywodraethu. Ps. 94. 20. ——'Fel dull cyffelybrwydd gorseddfa.' Ezec. 10. 1. Edr. OLWYN.——'Deuddeg gorsedd-fainc.' Mat. 19. 28. Edr. DEUDDEG.

'A hwy a ruthrasant yn unfryd i'r orsedd.'—'Nad ymroddai efe fyned i'r orsedd.' Act. 19. 29, 31.—*εις τον ϑεατρον—into the theatre, Saes. i'r gampfa.* Y THEATRON, yn mhlith y Groegiaid, oedd adeiladaeth helaeth, wedi ei hadeiladu i ddangos golygfeydd cyhoeddus, chwareuyddiaethau, &c., ac nid hyny yn unig, ond hefyd i gynnal cymanfaoedd cyhoeddus ar achosion pwysfawr. Teml Bacchus yn Athen oedd y *theatre* gyntaf yn y byd; hwyrach fod y *theatre* yn Ephesus yn rhan o deml Diana. Anaddas, tybygaf, y cyfieithir ef yn ein tri chyfieithiad ni, *gorsedd.* Oni buasai *golygfa*, neu *gampfa*, yn well?

GORSIN—AU, (sin) ystlys-bost drws. Exod. 21. 6.—'Wrth osod eu rhiniog wrth fy rhiniog i, a'u gorsin wrth fy ngorsin i.' Ezec. 43. 8. Sef gosod eu traddodiadau hwy gyferbyn a'm gorchymynion i; eu cyfeiliornadau hwy gyferbyn a'm gwirioneddau i; eu haddoliad eilun-addolgar hwy gyferbyn a'm haddoliad sanctaidd i; fel hyn yr halogasant ei enw sanctaidd â'u ffieidd-dra, ac oblegid hyn yr ysodd Duw hwynt yn ei lid.

GORTHO, (tô) gorchudd, cromglwyd, amwisg.

> Llc buont wael eu *gortho.*
> *E. Prys*, (Ps. 107. 40.)

GORTHRECH—U, (gor-trech) gorfod, gorthrymiad, gorchfygiad, goruchafiaeth; gorchfygu, gorfwyo, gormeilio. Barn. 1. 35. a 6. 2. Act. 24. 7.

GORTHRWM—DER—EDIG—U—WR, (gor-trwm) trwm iawn; gormesiad, gorthrech, trais, cystudd, trallod; cystuddio; trallodwr. Gorthrymderau a arwyddant bob math o gystudd, a thrallod, ac erlidigaethau. Exod. 4. 31. Deut. 26. 7. Preg. 4. 1. Mat. 13. 21. Gosodir saint Duw allan yn yr ysgrythyrau fel pobl orthrymedig: y maent yn mhob oes yn cael eu gorthrymu gan y byd, y cnawd, a'r diafol. 'Yn y byd gorthrymder a gewch:' yn y *byd*, yn mhob man o hono, yn mhob oes, a thra byddoch yn y byd; ond yn y byd yn *unig*, derfydd pan orphenont eu gyrfa yn y byd. Ioan 16. 33. Rhuf. 5. 3. Edr. DYODDEF, CYD-DDYODDEF.

'Gan faint y gorthrymder, hwy a wnant i'r gorthrymedig lefain.' Job 35. 9. 'Hwy a wnant wrth fawredd i'r gorthrymedig lefain.' Dr. M. Y gair *Heb.* עשק a arwydda pob math o orthrymder: gorthrymder ar enw da un trwy athrod, enllib, a chamdystiolaeth; gorthrymder ar feddiannau un trwy anghyfiawnder, twyll, a thrais, (1 Sam. 12. 4. Esa. 33. 15. Ezec. 18. 7. Mat. 3. 5.) gorthrymder ar berson dyn, trwy ei niweidio, neu ei gaethiwo. Esa. 52. 4. Pan fyddo gorthrymder ar ddyn fel hyn, yn gyffredinol, o bob tu, mae y gorthrymder yn fawr, ac yn peri i'r gorthrymedig lefain. Ond nid yn aml y dywed y gorthrymedig, 'Pa le mae Duw yr hwn a'm gwnaeth i?'

'Rhaffau gorthrymder,' yw y gorthrymder ei hun, yr hwn sydd yn gwasgu mor galed, ac yn rhwymo mor ddiogel, fel nad oes ymwared. Dichon dyn da fod yn y cyfryw gyflwr truenus; ond y mae dyben Duw yn ddoeth ac yn dda tu ag ato yn hyn oll. Job 36. 8, 9, 10.

'Efe a orthrymwyd, ac efe a gystuddiwyd.' Esa. 53. 7. Y mae amryw yn cyfleithu y geiriau, 'Gofynwyd ef, ac efe a gystuddiwyd.'—'Gofynwyd, ac efe a wnaed yn atebol.' Lowth.—'Gofynwyd taliad.' Parkhurst. Pan ofynwyd iawn, gofynwyd *ef;* ac yn ganlynol i hyny, 'efe a gystuddiwyd.' Yr achos paham y cystuddiwyd ef oedd, am i'r iawn gael ei ofyn ganddo. Aeth yn ewyllysgar i wneuthur y taliad llawn, a thrwy hyny dileu yr ysgrifen-law.—'Nid agorai ei enau.' Ymostyngodd i'r drefn fawr gyd âg eithaf boddlonrwydd: ei drefn ei hun oedd, yn gystal a threfn y Tad. Gwel Poole's *Synops.*, Vitringa, Lowth, Scott, Parkhurst, ar y gair נגש*

'Pan eloch i ryfel yn eich gwlad yn erbyn y gorthrymwr a'ch gorthrymo chwi.' Num. 10. 9. Wele yma achos cyflawn i fyned i ryfel; nid myned i ryfel i orthrymu, ond pan fyddoch yn cael eich gorthrymu. Yn y cyfryw ryfel gellir gyda gostyngeiddrwydd hyderus, ddysgwyl wrth Dduw am lwyddiant; canys yr Arglwydd sydd noddfa i'r gorthrymedig; ac efe a farn yr amddifad a'r gorthrymedig. Ps. 9. 9. a 10. 18.

GORUCHAF—EL—DER—UWCH, (gor-uch) uwch na'r uchaf, y mwyaf rhagorol; y mwyaf dyrchafedig, y penaf.—Y mae uchelder yn perthyn i Dduw. Job 31. 23. Yn aml gelwir ef y Goruchaf—yr Arglwydd Dduw Goruchaf. Gen. 14. 18, 22. a 40. 17. Num. 24. 16. Deut. 32. 8. 2 Sam. 22. 14. Ps. 21. 7. a 46. 4. a 56. 2. a 83. 18. Dan. 3. 26. Luc 1. 32, 35, 76. a 6. 35. Act. 7. 48. *et al.* Nis dichon un dyn fod yn uwch na'r dyn uchaf; nac un angel fod yn uwch na'r angel uchaf; ond mae Duw yn *oruchaf*—y mae yn *uwch* na'r uchaf o bob peth. Anaddas ydyw cystadlu Duw â neb arall; nid oes neb, mewn dim, i'w gymharu iddo. Mae doethineb pawb yn ffolineb; gallu pawb yn berffaith wendid; uchder yn iselder mwyaf, pan gymharir hwynt âg ef.

1. Y mae yn oruchaf yn ei hanfod. Y mae uchelder yn ei hanfod. Nid oes dim cymhariaeth rhwng hanfod digreedig ac anddibynol, a hanfod crëedig, dibynol. Y mae uchder hanfod yn perthyn i Dduw. Y mae yn ddarostyngiad yn Nuw, oblegid uchelder ei hanfod, i feddwl na sylwi ar ddim ond arno ei hun; na rhoi bôd i un hanfod arall. Er nad oes dim yn anhawdd iddo, mae yn ddarostyngiad iddo weithredu allan o hono ei hun, na meddwl am ddim, na serchu dim ond efe ei hun. Nid oes un gwrthddrych yn gwbl addas i feddwl Duw ond Duw ei hun—mae pob gwrthddrych arall yn anfeidrol fychan, ac yn anfeidrol anmherffaith ac anhardd, mewn cymhariaeth iddo. Y mae efe yn llenwi ei feddwl anfeidrol ei hun â phob peth dymunol ynddo ei hun i edrych arno: gan hyny, edrych allan o hono ei hun yw edrych ar wrthddrych llai nag ef ei hun, ac y mae hyny yn ddarostyngiad. O! ddwyfol FOD heb ei fath.

2. Felly hefyd y mae yn oruchaf yn ei briodoliaethau, sef yn rhagori ar bawb yn mhob peth. Nid oes gymhariaeth rhwng doethineb, gallu, a daioni yn Nuw, a'r cyfryw briodoliaethau mewn un creadur. Y maent yn Nuw yn hanfod, yn ffynon ddiddechreu, ddiddarfod, ac yn fôr diderfyn; ond yn mhob creadur maent yn ddeilliedig, yn ddechreuol, yn derfynedig, ac yn ddarfodedig. Ps. 135. 5. 1 Cor. 8. 5.

* נגש adegere ad solutionem debiti denotat, vel ad aliquid aliud operis faciendum. Kircher.

Digitized by Google

3. Y mae yn oruchaf yn ei ben-arglwyddiaeth, yn trefnu ac yn llywodraethu pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun. Eph. 1. 11. Ps. 115. 4. Ei ewyllys a'i foddlonrwydd ei hun yw ei unig reol: 'yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nefoedd, ac â thrigolion y ddaear; ac nid oes a attalio ei law ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur?' Dan. 4. 35.

4. Y mae yn oruchel yn ei holl gynghorion, ei drefniadau, ei feddyliau, ei ffyrdd, &c. Esa. 55. 8. Nid yw yn cynghori â neb; mae cyflawnder cynghor ynddo ei hun; ond y mae wedi amlygu ei gynghor i ni: ac yr oedd hyny yn ddarostyngiad ac yn ddaioni dirfawr ynddo.

5. Y mae o ran ei awdurdod a'i lywodraeth yn oruchel yn mhob man, ar bob peth, bob amser.

'Dirfawr y'th ddyrchafwyd (מאד נעלית) goruwch yr holl dduwiau, ac ar yr holl ddaear hefyd.' Ps. 97. 9. Y mae rhai yn ddyrchafedig mewn rhai manau, heb fod felly mewn manau ereill; ac ar *rai* amserau, ac wedi hyny yn cael eu hiselhau; ond nid felly yw yr Arglwydd, ond y mae yn oruchel yn *mhob* man, ar *bob* peth, *bob* amser.

Y mae Crist yn cael ei alw, 'Mab y Goruchaf;' a'r Ysbryd Glân yn cael ei alw, 'Nerth y Goruchaf.' Luc 1. 32, 35. a 8. 28. Enwau sydd yn hysbysu dwyfoldeb y personau; nid oes un creadur yn deilwng o'r cyfryw enwau. Edr. MAB, YSBRYD GLAN.

'Ei oruchelder sydd ar Israel.' Ps. 68. 34. Yn ei holl fawredd goruchel y mae yn ddadguddiedig i Israel, ac yn amddiffynwr iddo. Duw, yr hwn sydd a'i nerth yn y wybrenau, sydd yn ofnadwy hefyd yn ei gysegr, yn mhlith ei bobl; 'yn rhoddi cadernid iddynt;' sef diogelwch, a phob cysur, a dyddanwch. Y mae Duw yn fawr ac yn oruchel yn *mhob* peth; ond yn *benaf* yn ei eglwys, yn mhlith ei bobl, fel Duw yr iechydwriaeth. Deut. 33. 26. 2 Petr 1. 17. Er mor uchel a dyrchafedig yw Duw, etto preswylia gyd â'r cystuddiedig a'r isel o ysbryd, i'w bywhau, a'u cysuro. Esa. 57. 15.

'Yr hwn a ddaeth oddi uchod, sydd goruwch pawb oll.' Ioan 3. 31. Y mae Crist goruwch pawb o ran ei Berson, gan ei fod yn Dduw Goruchaf; y mae hefyd yn ei swyddau a'i ogoniant cyfryngol. Y mae yn Offeiriad goruwch pob offeiriad; yn Brophwyd goruwch pob prophwyd; ac yn Frenin goruwch pob brenin. Oddi wrtho ef, a'i swyddau cyfryngol, y mae holl gyflawnder, defnyddioldeb, ac effeithioldeb eu swyddau hwy yn deillio. Oni bai ei fod ef yn Offeiriad, ni buasai holl weinyddiad yr offeiriaid gynt yn y swydd hòno ond hollol ofer a diles; oni bai ei fod ef yn Brophwyd, ni byddai holl ymdrech dynion i ddysgu eu gilydd ond hollol aflwyddiannus; ac oni bai ei fod ef yn Frenin, ni byddai awdurdod na llywodraeth gan neb ar eu gilydd. Y mae efe goruwch pawb oll, yn llywodraethu, yn trefnu, ac yn effeithioli gwasanaeth pawb. Rhuf. 9. 5. Eph. 1. 21, 22. 1 Petr 3. 22.—Goruwch pob tywysogaeth—goruwch pob enw. Edr. DYRCHAFU, ESGYN.

'Awdurdodau goruchel.' Rhuf. 13. 1. *Gr.* *αι εξουσιαι υπερεχοντες*. Y mae yr awdurdodau goruchel yma yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth y *tywysogion* sydd yn eu meddiannu (adn. 3.) ac y maent yn arwyddo, nid y personau sydd yn meddiannu yr awdurdod ei hun, pa un ai bod yr awdurdod yn osodedig yn y bobl gyffredin, yn y pendefigion, neu mewn person breninol, neu yn rhanedig rhyngddynt; ond yr awdurdodau a ddynodant y sefydliad gwladol, pa *fath bynag* fyddo. Y mae pob gosodiad a threfn wladol oddiwrth Dduw; ac ni ddichon neb ymosod yn erbyn yr awdurdod, heb wrthwynebu ordinhad Duw; a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain. Macknight.

'Yn y goruwch-leoedd.' Heb. 1. 3. *εν υψηλοις*, *yn y goruchelion*, yn y lleoedd goruchaf, W. S. yn y nefoedd. Heb. 1. 13. a 8. 1. a 10. 12. a 12. 2.

'Goruwch-ystafell.' Marc 14. 15. Luc 22 12. Act. 1. 13. Y goruwch-ystafelloedd oedd y rhai a ddefnyddient fwyaf i anneddu ynddynt yn ngwlad Judea, fel y gwnant hyd heddyw, yn Aleppo; yn y dosparthiadau isaf o'u hadeiladau yr oedd yr anifeiliaid.* Harmer's *Observ.*, *vol.* I. Russel's *Natural History of Aleppo.*

GORUCHAFIAETH—ION, (goruchaf) gorfodaeth, buddugoliaeth, dyrchafiaeth.—'Fod gweddïau dros freninoedd, a phawb sydd mewn goruchafiaeth.' 1 Tim. 2. 2. 'A ffawb or a osoded mewn audurdod.' W. S. a Dr. M. Pawb mewn swyddau goruchel, a llywodraeth, neu arglwyddiaeth ganddynt dan y brenin. Yn y cyn-oesoedd yr oedd yr Iuddewon yn gweddïo dros dywysogion Paganaidd, y rhai yr oeddynt mewn caethiwed danynt; ac yr oedd hyn wedi ei orchymyn iddynt gan Dduw. Ezra 6. 10. a 7. 27, 28. Jer. 29. 7. Wedi hyny daethant mor ragfarnllyd fel na weddïent dros lywodraethwyr Paganaidd, pwy bynag; ïe, yr oedd brwd-frydwyr (*zealots*) yn barnu na ddylai pobl Dduw ufuddhau i dywysogion eilun-addolgar; ac yn aml terfysgent yn erbyn swyddwyr Paganaidd, yn ngwlad Judea, ac mewn gwledydd ereill. Hwyrach i rai o'r Iuddewon ddwyn y farn hon gyda hwynt i'r eglwys Gristionogol. Y mae yr apostol, yn addas i ysbryd yr efengyl, yn gorchymyn gweddïo, yn ddirgel ac yn gyhoedd, dros freninoedd, a rhai mewn goruchafiaeth danynt, fel y gallai y cyfryw swyddwyr wybod eu bod yn ddeiliaid ffyddlawn, ac fel y caent fwynhau heddwch danynt.

GORUCHWYLIAETH, (goruch-gwyl) dysteiniaeth; gwaith goruchwyliwr. Y mae yn aml yn cael ei briodoli i ryw waith sanctaidd yn y babell a'r deml. Num. 4. 16. a 8. 26. a 18. 5. 1 Cron. 23. 32. a 26. 12. 2 Cron. 7. 6. a 8. 14. a 13. 11. a 31. 16. a 35. 2.—Hefyd i weinidogaeth yr efengyl. Eph. 3. 2. Col. 1. 25. Edr. CRYNHOI, GORCHWYL.

GORUCHWYLIWR—WYR, (goruch-wyl-gwr) arolygwr, golygiedydd, dystain.——'Felly cyfrifed dyn nyni, megys gweinidogion i Grist, a goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw.' 1 Cor. 4. 1. 'Goruchwyliwr Duw.' Tit. 1. 7. 'Dirgeledigaethau Duw,' ydyw gwirioneddau yr efengyl; y rhai oeddynt yn guddiedig yn Nuw er tragywyddoldeb, ond a ddadguddiodd i'w eglwys, trwy ei weision, o oes i oes. Gweini y dirgeledigaethau mawrion hyn i'r eglwys yw gwaith gweinidogion Crist. Nid eu dychymygion eu hunain, ond dirgeledigaethau Duw sydd iddynt weinyddu; nid gweinidogion Crist ydynt, os ydynt yn traddodi dim arall. Y gair *οικονομος*, a arwydda arolygwr, a gweinyddwr achosion teulu, neu ddinas. Rhuf. 16. 23.

Mae Duw pob gras yn cyfranu amryw ras, ac mae pob un yn oruchwyliwr ar y gras, neu y rhodd a dderbyniodd; braint yw bod yn (*καλοι εκονομοι*) *oruchwylwyr da*, dros Dduw, er lles eiu gilydd. 1 Petr 4. 10.

GORUG, (amser gorphenedig o *goru*) gwnaeth. Arferir ef yn aml yn yr un ystyr a *did*. 'Efe a orug ddaioni i mi;'—'gorug iddo goron;'—'dyfod a orug.' ——'Gorymdaith a oruc yr Iesu yn-Galilaia.' Ioan 7. 1. W. S. 'A'r Iesu a rodiodd yn Galilea.' Gwel hefyd Ioan 6. 1. a Luc 18. 15.

Dy air, er beilch yn clytio flug,
A'm calon *orug*, cadwaf.
*E. Prys*, (Ps. 119. 69.)

* Busbeques yn rhoddi hanes ei dŷ ardrethol yn Nghaer Cystenyn, a ddywed, 'Pars superior—Sola habitatur—pars inferior equorum stabulationi destinata est.' Yr oruwch-ystafell yn unig ydys yn cyfanneddu ynddi; y rhan isaf sydd wedi ei neillduo yn farch-dŷ i'r ceffylau.

Digitized by Google

**GORWAGEDD**, (gor-gwagedd) dilanw, anfuddiol, tlawd, ofer, coegedd, chwyddedigrwydd; gwag-ogoneddusrwydd.—'Gan ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd.' 2 Petr 2. 18. Geiriau mawr chwyddedig, yn hollol wag o synwyr ac adeiladaeth: nôd gau athrawon yw hwn.

**GORWEDDFA—AU**, (gor-gwedd-fa) gwely, lle i orwedd; peth i orwedd arno. Job 7. 13. Ps. 6. 6. a 139. 3. Esa. 35. 7. a 65. 10.

**GORWEDD—OG**, (gor-gwedd) *Heb.* גהר ar wastad, ar lawr, ar osgo. Gorwedd, weithiau, a arwydda anlladrwydd. Gen. 19. 33. a 39. 7. Exod. 22. 16. *et al.* —Cwsg, cwsg marwolaeth. 1 Sam. 3. 5. Job 7. 4. a 11. 19. a 14. 12. a 20. 11. a 21. 26. Ps. 4. 8.——'Yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni.' 1 Ioan 5. 19. *εν τω πονηρω, yn y drwg, yn yr un drwg*, yn meddiant Satan, yn llawn o bob drygioni, ac yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu ynddo. Eph. 2. 1. a 6. 11. Col. 1. 13. 2 Tim. 2. 26. 2 Cor. 4. 4.

**GORYMDAITH—IAU—IO**, (ymdaith) amdramwyad; cylch-deithio; amdramwy; amgylchu.—'I orymdaith yn y wlad y daethom.' Gen. 47. 4.——'Rhaid i mi orymdaith heddyw.' Luc 13. 33. W. S.

**GOSEN**, *Heb.* גשן [*dynesâd*] 1. Talaeth ffrwythlawn yn ngwlad yr Aipht, yn agos i Fôr y Canoldir, lle y cyfleodd Joseph ei dad a'i frodyr, a lle y preswyliasant dros 200 o flynyddoedd. Gen. 47. 6. Y mae llawer o ddadleuaeth pa dalaeth o'r Aipht a feddylir wrth הארץ גשן *gwlad Gosen*. Yn Gen. 47. 11. gelwir hi 'tir Rameses.' Y mae yn eglur mai gwlad borfaog oedd, ar gyffiniau dwyreiniol yr Aipht. Geilw y LXX. yn eu cyfieithiad *γεσεμ Αραβιας, gesem Arabia*; rhaid bod y cyfieithwyr hyn, y rhai a gyfieithasant y Bibl yn Alexandria, yn yr Aipht, yn deall ansawdd a daearyddiaeth y wlad hòno; am hyny, barna Michaelis bod Gosen ar duedd Arabia; ond nid yn uwch i'r gogledd na Tirbonus Palus, a bod ei chyffiniau deheuol yn cyrhaedd hyd Mons Troicus. Barna rhai mai darlleniad y LXX. (*γεσεμ*, גשם) yw y darlleniad cywir a gwreiddiol; yr hyn a arwydda *gwlad y gwlaw*, a'i bod yn cael ei dyfrhau â chawodydd o'r nefoedd, yn wahanol i'r Aipht, yr hon a ddyfrheir gan yr afon Nilus. Yr oedd 'gwlad y gwlaw' yn addas breswylfod i'r Israeliaid, y rhai oeddynt fugeiliaid ac amaethyddion. Gwel Boothroyd.——2. Gwlad neu ddinas yn agos i Gibeon. Jos. 10. 41. a 15. 51.

**GOSOD**, &c. (sawd) *Heb.* שית dodi, cyfleu; rhoi, rhoddi.—'Bara gosod—Bara dangos.' Exod. 25. 30. Num. 4. 7. 1 Sam. 21. 6. 1 Bren. 7. 48. 1 Cron. 9. 32. 2 Cron. 13. 11. Neb. 10. 33. Mat. 12. 4. Heb 9. 2. 'Bara dangos,' *Heb.* לחם פנים *bara wynebus*, neu *bara y presennoldeb*, am ei fod yn cael ei osod o flaen wyneb, neu yn mhresennoldeb Duw. לפני תמיד *yn wastadol*; *προθεσις των αρτων, gosodiad bara*, neu *dorthau*, Heb. 9. 2. *αρτοι προθεσεως, bara gosod*. Mat. 12. 4. Am wneuthuriad a gosodiad y bara hwn, cawn hanes neillduol yn Lef. 24. 5—9. 'A chymer beilliaid, a phoba ef yn ddeuddeg teisen; dwy ddegfed ran fydd pob teisen. A gosod hwynt yn ddwy res, chwech yn y rhes, ar y bwrdd pur, ger bron yr Arglwydd. A dod thus pur ar bob rhes, fel y byddo ar y bara yn goffadwriaeth, ac yn aberth tanllyd i'r Arglwydd. Ar bob dydd Sabboth y trefna ef hyn ger bron yr Arglwydd bob amser. A bydd eiddo Aaron a'i feibion; a hwy a'i bwyty yn y lle sanctaidd.' Y deuddeg teisen, fel y deuddeg maen ar ddwyfroneg yr arch-offeiriad, y deuddeg careg a osododd Josuah yn nghanol yr Iorddonen, a'r deuddeg careg a gymerwyd o ganol yr Iorddonen, ac a osodwyd yn Gilgal, a arwyddant y deuddeg llwyth, sef holl Israel Duw. Gal. 6. 16. Exod. 28. 21. Jos. 4. 9, 20. Rhanwyd Canaan yn ddeuddeg etifeddiaeth; yn cyfateb i hyn mae deuddeg apostol yr Oen, a deuddeg sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 14. Y deuddeg teisen ar y bwrdd o flaen yr Arglwydd yn wastadol, a arwydda bod eu holl bobl, eu personau a'u gwasanaeth, bob amser yn gymeradwy yn Nghrist, a'i fod yntau â'i wyneb yn llewyrchu arnynt yn rasol; ar y bwrdd pur, sef Crist, maent yn gymeradwy yn wastadol. Eph. 1. 6. Dat. 8. 3, 4. Heb. 7. 25. Mae ei lygaid ef arnynt; a gweddai fod eu llygaid hwythau arno yntau yn wastadol. Ps. 34. 15. a 123. 1, 2, 3. Jer. 24. 6.

Yr oedd 'thus pur' i fod ar y bara yn goffadwriaeth; a phan gymerid y bara ymaith byddai y thus yn cael ei losgi ar yr allor aur yn aberth tanllyd i'r Arglwydd. Y thus a arwydda eiriolaeth beraidd yr Arglwydd Iesu dros ei bobl, a dylanwadau hyfryd ei Ysbryd arnynt; yn goffadwriaeth ac yn arwydd sicr o'u cymeradwyaeth ger bron yr Arglwydd. Tra yr oedd yr offeiriaid yn ymborthi ar y bara, yr oedd y thus llosgedig yn arogli yn beraidd fel aberth tanllyd i Dduw; felly mae Crist yn dderbyniol gan Dduw fel Cyfryngwr, ac yn llesol i'w bobl.

Yr oedd y bara i gael ei *osod* o newydd bob Sabboth, pan yr oedd yr offeiriaid yn eu cylchoedd yn dechreu eu gwasanaeth. 2 Cron. 23. 4. Yr oedd dau offeiriad i gymeryd y ddwy res deisenau, a dau i gymeryd y ddau gwpan â'r thus, un i bob rhes; yr oedd pedwar i fyned o'u blaen hwynt, i ddwyn y bara oedd ar y bwrdd, a'r cwpanau thus ymaith: fel hyn yr oedd y newydd yn cael ei osod yn y fan y tynwyd yr hen ymaith. Yr oedd y bara i fod yn wastadol ar y bwrdd, yn eu teithiau, a phob amser. Num. 4. 7. Yr oedd hefyd yn *newydd*, ac nid yn llwyd ac yn henaidd. Felly mae y duwiolion yn Nghrist, yr un mor gymeradwy ger bron Duw bob amser; a thrwy fywyd ffydd arno, ni heneiddiant ac ni lesgânt yn eu heneidiau. Ps. 71. 9. a 92. 14. Mae y fath undeb rhwng Crist a'i eglwys, fel mae yr un pethau mewn gwahanol ystyriaethau, neu mewn gwahanol raddau, yn cysgodi Crist a'i eglwys hefyd. Felly, yn y golygiad hwn, dichon fod y bara gosod, nid yn unig yn cysgodi yr eglwys, ond hefyd yn dangos beth yw yr Arglwydd Iesu i'w eglwys, sef bara neu ymborth cyflawn, brwd, gwastadol. Mae yma deisen i bob llwyth ger bron Duw; cânt ymborthi arno ger bron Duw, ac yn ei heddwch, yn eu holl deithiau, eu gwersyllfaoedd, a phob amgylchiad a ddichon eu cyfarfod. Efe yn unig yw achos eu cymeradwyaeth ger bron Duw, eu hunig ymborth a'u cynnaliaeth yn y byd.

Yr oedd y bara i gael ei osod yn *frwd*, neu yn newydd bob Sabboth, ac yr oedd yr offeiriaid wedi hyny i ymborthi arno trwy yr wythnos; felly mae Crist fry yn y nefoedd dros ei bobl, ac yn ymborth hefyd iddynt yn ei ordinhadau ar y ddaear: 'Crist sydd bob peth, ac yn mhob peth.' Mae efe yn wastadol yn ymddangos fry drostynt, ac yn wastadol yn ymborth yma iddynt. Heb. 9. 24. Dat. 5. 6. Edr. Eiriol.

'Gosodwyd i ddynion farw unwaith.' Heb. 9. 27. Gosodwyd, trefnwyd, a chyhoeddwyd hyny gan Dduw, yr hwn yn unig oedd ag awdurdod i wneuthur hyny, fel barn gospedigaethol am bechod; sef i ddynion farw unwaith, a dim ond unwaith. Gen. 2. 17. a 3. 19. Felly Crist, yn gyfatebol i hyn, a offrymodd ei hun unwaith, a *dim ond unwaith*, i ddwyn ymaith bechodau llawer.

'Mai i hyn y'n gosodwyd ni,' sef i ddyoddef; nid yn unig i gredu yn Nghrist, ei bregethu, ond hefyd i ddyoddef. Gallasai rhai godi gwrthddadl yn erbyn yr apostolion, fel cenadon Duw, eu bod yn dyoddef; os oeddynt yn gallu gwneuthur gwyrthiau gwirioneddol, paham nad allent achub eu hunain rhag dyoddefiadau? Na chynhyrfed neb, medd yr apostol, yn y gorthrymderau hyn; i hyn y'n gosodwyd ni; y mae hyn yn ol trefniad Duw, ac yn un prawf o'n hanfoniad gan Dduw. Act. 9. 16.

Digitized by Google

GOSPER, *Llad.* VESPER: pryd gosper, prydnawn, hwyr, nos.—'O'r borae 'yd osper.' W. S Act. 28. 23.

GOSTEG—U, (teg) dystawrwydd, tawelwch, llonyddwch, arafwch. Canu ar osteg, canu yn gyhoeddus; rhoddi gosteg, gorchymyn dystawrwydd.—'Nid oes osteg i mi,' nid oes dystawrwydd, ac am hyny, dim ond anesmwythder, ac aflonyddwch. Ps. 22. 2. Yr oedd yn llefain arno yn nydd hawddfyd, ac yn nos adfyd. Yn y nos y cymerwyd Crist, ac yn y dydd y dyoddefodd; ac yr oedd yn gweddïo yn ddibaid heb ddiffygio. Luc 18. 1. a 21. 36. 1 Thes. 5. 17. Eph. 6. 18. Dyma weddïo yn *daer,* ac mewn *gwirionedd.* Iago 5. 16. Ps. 145. 18.

'Pan agorwyd y seithfed sêl, yr oedd gosteg yn y nef, megys dros hanner awr.' Dat. 8. 1. Wrth 'y nef,' y meddylir yr eglwys ar y ddaear; ac wrth 'osteg yn y nef dros hanner awr,' y meddylir tawelwch, a thangnefedd, a rhyddhad yr eglwys oddiwrth erlidigaethau, yn amser Cystenyn Fawr, medd rhai; gwedi dystryw Anghrist, medd eraill. Nid hanner awr historïawl, ond hanner awr weledigaethol, a feddylir; ac am hyny arwydda amser *hir,* ac nid *byr,* fel y barna llawer. Bod hanner awr heb weled gweledigaethau newyddion mewn perthynas i amgylchiadau yr eglwys, sydd arwyddocaol o amser o hir lonyddwch i'r eglwys, medd Vitringa.

Y mae yr Arglwydd yn gostegu pan byddo yn oedi ateb gweddïau ei bobl, neu yn oedi dial ar eu gelynion. Ps. 28. 1. a 83. 1.—'Gostegais fy enaid.' Ps. 131. 2. Edr. DIDDYFNU.

GOSTWNG, GOSTYNGU—EDIG—RWYDD, (twng) iselu, darostwng; isel.—Gostwng y glust, a arwydda gwrando yn astud ac yn amyneddgar ar un. Ps. 86. 1. Diar. 5. 1. Jer. 7. 24. Edr. DAROSTWNG, DYRCHAFU.

'Dysgwch genyf; canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon.' Mat. 11. 29.—'Dyscwch genyf, can vy-bot yn waredigennus ac yn isel o galon.' W. S. —'Am fy mod yn fwyn, ac yn ostyngedic o galon.' Dr. M. Y mae ei ostyngeiddrwydd yn wirioneddol, canys y mae *o galon* yn ostyngedig; y mae yn hollol felly, ac yn berffaith gwbl yn mhob peth, ac yn ngweinyddiad ei holl swyddau. Nid oes neb yn uwch o ran ei berson, nac yn is o ran ei ostyngeiddrwydd. Mae yn llywodraethu gyda mawrhydi dwyfol, ac yn dysgu gyd âg awdurdod oruchel, etto gyda y gostyngeiddrwydd mwyaf. Mae yn ymostwng i ddysgu rhai gwael iawn, ac yn eu dysgu gyda gostyngeiddrwydd ac addfwynder anghymarol.

'Ac a fu ostyngedig iddynt,' sef i'w rïeni. Luc 2. 51. Y mae y geiriau hyn yn fyr, ond y maent yn gynnwysfawr iawn; ac yn dangos y fath ydoedd holl ymddygiad Crist yn ei fabandod a'i ieuenctid. Ufuddhaodd i'r pummed gorchymyn i'r perffeithrwydd mwyaf. Ni chafodd rhïeni erioed y fath barch ac ufudd-dod gan blentyn.

'Ei ras a rydd efe i'r gostyngedig.' Diar. 3. 34. Esa. 57. 15. Iago 4. 6. 1 Petr 5. 5. Rhydd ychwaneg o ras; rhydd gysur a chynnaliaeth dan eu holl orthrymderau, a gogoniant tragywyddol yn y diwedd. Diar. 15. 33. a 18. 12. Un o nodau etholedigion Duw ydyw gostyngeiddrwydd, ag sydd yn cael ei weithredu ynddynt gan yr Ysbryd Glân. Y mae eu gostyngeiddrwydd yn ymddangos yn agwedd sanctaidd eu hysbryd yn eu holl gymdeithas â Duw, yn cydnabod eu gwaeledd a'u hannheilyngdod, ac yn edifarhau mewn llwch a lludw. Lle y mae yn wirioneddol rhyngddynt â Duw, ymddengys hefyd yn eu holl ymddygiad tu ag at eu brodyr, gan dybied eu gilydd yn well na hwynt eu hunain. Col. 3. 12. Phil. 2. 3. Y mae agwedd wrthwyneb i ostyngeiddrwydd yn hollol anaddasu dyn i gael cymdeithas â Duw, ac i dderbyn dim yn ysbrydol oddi wrtho. Rhaid ei ddarostwng yn gyntaf, cyn y caffo ei ddyrchafu gan Dduw trwy gyfraniadau grasol iddo ef. Edr. BALCHDER.

GOSYMDAITH, (ymdaith) traul, lluniaeth, cynnaliaeth i daith.—'Pwy a i ryfely vn amser ar ei osymddaith ei hun?' 1 Cor. 9. 7. W. S.

GOZAN, *Heb.* גוזן [*porfa*] enw afon, a'r wlad hefyd trwy yr hon yr oedd yr afon yn rhedeg. Wedi i freninoedd Assyria orchfygu y wlad hon, trosglwyddasant rai o ddeg llwyth Israel iddi yn gaethion. 2 Bren. 17. 6. a 19. 12. 1 Cron. 5. 26. Esa. 37. 12. Mae Prideaux yn golygu sefyllfa afon Gozan a'r wlad yn Media. *Vol.* i., *p.* 10.

GRADELL, *Llad.* CRATIS: alch, gridyll.—'A'r radell.' Lef. 2. 5. a 7. 9. *Heb.* רחשת *padell, padell ffrïo.* Yr oeddynt yn parotoi y bwyd-offrwm, weithiau, trwy ei bobi ar radell.

GRADD—AU, (rhadd) *Heb.* דרג *Llad.* GRADUS: cam; dring, lled-dring; gris; urdd, dyrchafiaeth.—Gradd carenydd; gradd o oruchafiaeth; gradd ysgol. —'Y rhai a wasanaethant swydd diaconiaid yn dda, ydynt yn ennill iddynt eu hunain radd dda, a hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu.' 1 Tim. 3. 13. Βαθμον καλον, *gradd anrhydeddus,* sef sefyllfa ddyrchafedig ac anrhydeddus yn yr eglwys. Y rhai a wasanaethant yn dda, yn ffyddlawn, ac yn ddoeth, mewn swydd is, a gaent eu dyrchafu i swydd uwch; a byddai eu ffyddlondeb yn ennill iddynt (πολλην παρρησιαν) ryddid a hyfdra mawr yn y ffydd, sef yn ngwasanaeth y ffydd, ac yn dysgu ffydd Crist. Coronir ffyddlondeb yn aml yn y byd hwn â rhyw nôd neillduol o gymeradwyad Duw.

GRAIAN, GRAIENYN, (grae) gro, marian, tywod bras, marianuro. Diar. 20. 17. Esa. 48. 19.

GRAS—LAWN—OL, *Gr.* χαρις; *Llad.* GRATIA: rhad, llâd, cêd, dawn; rhad-rodd; cyfrif, bri, hoffedd; tegwch, harddwch, hawddgarwch, gweddusrwydd; gollyngdod, rhydd-deb; cenad, caniatâd; heddwch, cymmod, cariad, erfyniad, bendith, tâl, diolch. Y mae y gair *gras* yn dyfod oddiwrth *gratia,* a hwnw oddiwrth χαρις, oddiwrth χαιρω, *llawenhau,* neu χαρα, *llawenydd;* neu oddiwrth y gair יקר *bod yn werthfawr.* Mae y gair χαρις, weithiau, yn cael ei gyfieithu *ffafr,* Luc 1. 30. a 2. 52. Act. 2. 47. a 7. 46. a 25. 3, 9.—*diolch,* Luc 6. 32, 33, 34. a 17. 9. 1 Cor. 15. 57. 2 Cor. 2. 14.—*hawddgarwch,* Act. 7. 10.—*cymwynas,* Act. 24. 27.—*rhodd,* 1 Cor. 16. 3. 2 Cor. 8. 4. *Gras* ydyw y cyfieithiad yn mhob man arall lle yr arferir y gair. Y gair *gras* a arwydda yn gyffredinol y pethau canlynol:—

1. Daioni, cariad, caredigrwydd, cymwynasgarwch Duw tu ag at ddynion, neu ddynion tu ag at eu gilydd —a hyny yn hollol rad, wirfoddol, ac anhaeddiannol yn y gwrthddrych o'r daioni hwnw. Mae yn amlwg ei fod yn yr ysgrythyrau, yn aml, o'r un arwyddocâd â chariad rhad tragywyddol Duw, fel yr unig achos cynhyrfiol yn iechydwriaeth dyn. Cymharer Heb. 2. 9. Rhuf. 3. 24. a 5. 15. a 6. 14. 2 Tim. 1. 9. Ioan 3. 16. Eph. 2. 5, 7, 8. Tit. 2. 11. a 3. 3, 4, 5. 2 Cor. 8. 9. Act. 14. 3. a 15. 11, 40. a 20. 24, 32. Yn yr ystyr hwn y mae yr apostol Paul, yn aml, yn arferyd y gair, ac yn gosod allan ras yn Nuw yn wrthwyneb i weithredoedd mewn dyn, fel yr unig achos o iechydwriaeth, yn yr arfaethiad, y pryniad, a'r cymhwysiad o honi, a pharhad unrhyw ddyn yn ei meddiannu. Rhuf. 11. 6. 1 Cor. 12. 9. Eph. 1. 2, 6, 7. Yn yr ystyr hwn cymhwysir ef at ddynion hefyd, o ran eu hewyllys da tu ag at eu gilydd. Yn yr ystyr hwn o'i arferiad rhwng dynion â'u gilydd, y mae yn cael ei gyfieithu yn gyffredinol, *ffafr.* Gen. 39. 4. Luc 2. 52. Diar. 13. 15. Esth. 5. 8.

Digitized by Google

2. Trwy draws-enwad, arwydda unrhyw fendith, anrheg neu rodd, yn amlygu caredigrwydd, ac yn deillio o ewyllys da. 1. Felly y mae Crist yn llawn gras a gwirionedd—ac y mae ei bobl yn derbyn o'i gyflawnder ef, gras am ras; sef bendithion helaeth, gwerthfawrocaf, a mwyaf goruchel a pharhaus. Ioan 1. 14, 16.——2. Yn yr ystyr hwn y mae y dawn cyflawnder yn cael ei alw yn ras. Rhuf. 5. 20. a 3. 24.——3. Cyflwr o gymmod a heddwch â Duw trwy gyfrifiad o'r cyfiawnder hwnw. Adn. 2.——4. Bod dan ras yw bod dan oruchwyliaeth cyfammod grasol Duw yn Nghrist, a than lywodraeth sanctaidd rasol egwyddor o ras, yr hon a eilw yr apostol, *deddf ei feddwl.* Rhuf. 6. 14. a 7. 23. Cynnyddu mewn gras yw cynnyddu mewn sancteiddrwydd tufewnol, mewn doniau ysbrydol, a rhodiad sanctaidd, a duwioldeb. 2 Petr 3. 18. Yn yr ystyr hwn y rhydd Duw ras a gogoniant. Ps. 84. 11.——5. Yr holl ddedwyddwch, cysur, dyddanwch, a'r cyflawnder o fendithion sydd yn Nghrist i'w bobl sydd yn y byd hwn, a'r hwn sydd yn dyfod, a elwir yn ras, yn aml, am mai o rad gariad a haelioni Duw y mae y cwbl yn tarddu. Rhuf. 5. 15, 17. 1 Cor. 16. 23. 2 Cor. 13. 13. Gal. 5. 4. Eph. 6. 24. Phil. 4. 23. Col. 4. 18. 1 Thes. 5. 28. 2 Thes. 3. 18. 1 Tim. 6. 21. 2 Tim. 4. 22. Tit. 3. 15. Heb. 13. 25. Dat. 22. 21.——6. Yn 1 Petr 1. 10. *gras* a arwydda yr *iechydwriaeth*, am ei bod i gyd yn hollol yn tarddu o ras Duw; adn. 13. *gras* a arwydda *gogoniant tragywyddol*, yn ei holl gyflawnder, oblegid yr un rheswm.——7. Mae swyddau sanctaidd, a dynion addas iddynt, pa un ai gwyrthiol ai cyffredinol, yn cael eu galw yn ras, am mai ffafr neillduol i'r personau eu hunain ac i'r eglwys yw eu bod yn cael eu gosod yn y cyfryw swyddau, ac yn cael cynnorthwyon addas i gyflawni y gwaith perthynol iddynt. Eph. 3. 2, 8. a 4. 7. Rhuf. 1. 5. a 12. 3, 6. a 15. 15, 16. 1 Cor. 3. 10. Gal. 2. 7, 8, 9.——8. Yr efengyl a'r pregethiad o honi. 1 Petr 5. 12. Efengyl gras Duw ydyw; efengyl yn tarddu o ras Duw: yn dadguddio graslonrwydd Duw yn Nghrist; yn cyhoeddi bendithion grasol oll yn rhad i ni: a thrwy gredu pa un y mae pechaduriaid yn cyfranogi o'r bendithion hyn. Act. 14. 3.——9. Tuedd elusengar o weithrediad grasol Duw yn y galon, a rhoddion ewyllysgar y saint i'w brodyr. 2 Cor. 8. 4, 7, 19. 1 Cor. 16. 3.

Wrth sylwi yn fanwl ar yr arferiad o'r gair yn y Testament Newydd, gellir gweled nad oes dim yn perthynu i'r eglwys, fel y cyfryw, neu sydd yn ei gwneyd yn eglwys, nad yw yn cael ei alw yn ras; am fod y cwbl yn tarddu o rad gariad a daioni Duw yn unig ag sydd yn gwneuthur dim rhagor rhyngddi, a phob aelod o honi, ag eraill. Duw pob gras yw Duw: ac o'i drysorau anchwiliadwy a diddarfod y mae yn cyfranu i gyfodi eglwys iddo ei hun, a hòno yn sanctaidd, yn gyflawn, ac yn ogoneddus, wedi ei chwbl harddu â doniau ac addurniadau yr Ysbryd Glân. Y mae yn gwbl addas iddi hi, ei holl swyddwyr a'i haelodau, ddywedyd gyd â'r apostol Paul, 'Trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf.' 1 Cor. 15. 10.——'Trwy ras yr ydych yn gadwedig:' y mae pob peth sydd yn perthyn i gadwedigaeth yn gwbl o ras. Eph. 2. 5.

Y mae gras, fel y mae yn raslonrwydd yn Nuw, yn anfeidrol fel efe ei hun; nid oes na dechreu, na diwedd, na therfynau iddo, mwy nag i Dduw ei hun, O ran y cyfraniadau o hono yn Nghrist i'w bobl mae y cyflawnder a'r helaethrwydd mwyaf ynddo. Mae yr apostol yn ysgrifenu am dano mewn geiriau sydd yn dangos y cyflawnder, yr helaethrwydd, a'r dyfnderoedd mwyaf, megys, *τον υπερβαλλοντα πλουτον της χαριτος αυτου εν χρηστοτητι εφ' ημας εν Χριστω Ιησου—rhagorol olud—dirfawr olud* (W. S.) golud tros ben pob mesur a therfynau: golud yn rhagori ar bob trueni a phechod mewn dyn: (Eph. 2. 7.) *τον ανεξιχνιαστον πλουτον του Χριστου*, golud na ellir byth ei gael allan yn gyflawn wrth chwiliad pawb yn fwyaf dyfal ac egniol. Eph. 3. 8. Y mae Duw yn ewyllysio dangos i oesoedd y byd y *rhagorol olud hwn;* a'i gymwynasgarwch, neu ei *garedigrwydd* (W. S.) i ni yn Nghrist sydd yn dangos hyn yn *gyflawn—υπερεπερισσευσεν η χαρις, gras yn rhagor amlhau—yn tra amlhau yn fwy o lawer* (W. S.) yn tra amlhau yn fwy o lawer na phechod, y peth mwyaf sydd yn bod ond gras. Am fod gras yn tra amlhau ac yn rhagori ar bechod, yr achubir y pechadur, ac y teyrnasa gras yn oruchel a gogoneddus, trwy gyfiawnder, i fywyd tragywyddol. Rhuf. 5. 20, 21.—*υπερεπλεονασε η χαρις, y gras a orlenwodd yn ddirfawr.* 1 Tim. 1. 14.—*χαρις τε μεγαλη, gras mawr* oedd arnynt oll. Act. 4. 33. Mae meddyliau cyffredin am ras Duw yn anaddas iawn; nid peth cyffredin yw, ond anghyffredin iawn. Mae pob llawnder, pob mawredd, pob ëangder, pob amrywiaeth yn rhagori ynddo ar bob peth, ac ar holl ffyrdd Duw ei hun. Mae holl briodoliaethau Duw, a'i holl ragluniaethau ar waith yn ei ddangos. Yn mherson Crist, ei swyddau, a'i waith yn iechydwriaeth yr eglwys, yn unig y mae i'w weled yn ei anfeidredd.

Un o'r enwau y mae y Duw mawr yn ei roddi arno ei hun yw ei fod yn raslawn. Nid oes neb yn adnabod Duw yn gyflawn ond Duw: ei dystiolaeth am dano ei hun yw, ei fod yn drugarog a graslawn. Exod. 22. 27. a 34. 6. Ps. 111. 4. a 116. 5. a 145. 8. a 106. 4. a 85. 1. Neh. 9. 31. Jcel 2. 13. Jonah 4. 2. Y gair חנון a gyfieithir *graslawn*, a arwydda y tynerwch, y tiriondeb, a'r tosturi mwyaf, at wrthddrychau hollol annheilwng. Y mae tiriondeb a thosturi mewn creadur yn hawddgar iawn: beth a feddyliwn am DDUW GRASLAWN, sydd yn rasol fel Duw, ac yn addas iddo ei hun! Dyma wrthddrych nad oes ond synu byth wrth feddwl am dano!—Llynced fy meddwl bellach iddo ei hun, fel na byddo genyf feddwl byth am ddim ond efe!

'Troi gras Duw yn drythyllwch,' sef efengyl gras Duw—gair ei ras—athrawiaethau gras, y rhai sydd yn dadguddio ac yn cyhoeddi gras Duw yn Nghrist. Judas 4. Athrawiaethau sanctaidd ydynt, a'u hunig dueddiad yw dysgu dynion i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol: rhaid eu troi o'u hunion redegfa, o'u natur, a'u dyben, i fod yn achlysur i bechu: *μετατιθεμι, symud o'i le, cam-osod, cam-droi, gŵyr-droi.* Ni ddichon neb droi egwyddor o ras yn drythyllwch; ond dichon egwyddor bechadurus ŵyro yr efengyl, neu athrawiaethau gras, yn drythyllwch.

'A ninnau, gan gyd-weithio, ydym yn attolwg i chwi, na dderbynioch ras Duw yn ofer.' 2 Cor. 6. 1. Gellir cyfieithu y geiriau, 'Yn awr, gyd-weithwyr, yr ydym yn attolwg i chwi, na dderbynioch ras Duw yn ofer.' Macknight.—'Velly nineu can hyny megis yn gydweithwyr,' &c. W. S. 'Gras Duw' yw y swydd weinidogaethol, neu y doniau a roddodd Duw iddynt i gyflawni y swydd. 'Derbyn gras Duw yn ofer,' neu yn ddiles, yw peidio defnyddio y doniau hyny trwy segurdod, diogi, a diofalwch; neu eu camddefnyddio i ateb eu dybenion llygredig eu hunain.

'Gwraig rasol,' sef gwraig (חן) dduwiol, dirion, serchog, hawddgar, yn llawn mwyneidd-dra a gweithredoedd da. Diar. 11. 16.

'Geiriau grasol,' geiriau grasusol, yw ymadrodd ac athrawiaeth wirioneddol, sanctaidd, efengylaidd, yn cael ei thraddodi gyda dehcudra, doethineb, serchogrwydd, a thiriondeb; yn ennillgar ar eraill, ac yn tueddu i'w gwneuthur yn ddoeth, yn rasol, ac yn sanctaidd. Preg. 10. 12. Luc 4. 22. Col. 4. 6.

'Hyn sydd rasol, os yw neb o herwydd cydwybod i Dduw yn dwyn tristwch, gan ddyoddef ar gam.'



Digitized by Google

1 Petr 2. 19. Τουτο γαρ χαρις, *hyn sydd hardd; sydd gymeradwy ger bron Duw; hyn sydd ganmoladwy. Saes. thank-worthy.* Os bydd un yn dyoddef o gydwybod i Dduw, y mae yn parchu ac yn anrhydeddu Duw yn hyny, ac y mae yn hyny yn gymeradwy gan Dduw. Gwel Beza, Macknight, Schleusner's *Lexicon in* ΧΑΡΙΣ.

GRAWN, (gra) *Llad.* GRANUM; ŷd, yden, gronyn; mân-aeron.—Grawn eiddew, neu crawel yr eiddew; grawn ysgaw, neu crawel yr ysgaw; grawn gwin, neu ffrwythau y gwinwydd. Gen. 40. 10. a 49. 11. Job 15. 33. 1 Cor. 15. 37.

GREISION, CREISION, (cras) marwydos, sorod, sothach. Esa. 64. 2.

GRESYN—U, (gres) gofidio, galaru am.—'Gwelais y troseddwyr, a gresynais; am na chadwent dy air di.' Ps. 119. 158. Y mae yr un gair קטט yn cael ei gyfieithu *ffieiddio* yn Ps. 139. 21. 'Onid *ffiaidd* genyf?' Arwydda ffieiddio i'r gradd eithaf. Y rhai sydd yn gweled gogoniant, prydferthwch, a gwerthfawrogrwydd gair yr Arglwydd, ni allant lai na thosturio wrth y troseddwyr o hono, a ffieiddio eu hanystyriaeth, eu hesgeulusdra, a'u pechod dirfawr.

GRIDDFAN—AU, cwynfan, ochain, galaru, ocheneidio, alaethu.—'A'r Iesu a riddfanodd yn yr ysbryd, ac a gynhyrfwyd.' Ioan 11. 33. Yr oedd yr Iesu yn wir ddyn, â holl deimladau dibechod y natur ddynol ganddo. Yr oedd ynddo y tynerwch, y tiriondeb, a'r cyd-deimlad mwyaf. Y mae marwolaeth Lazarus yn rhoddi i ni wir olwg arno yn hyn. Griddfanodd—wylodd—fe gynhyrfwyd, neu *ετραξεν εαυτον, ymgynhyrfodd.* Yr oedd ei deimladau tufewnol, a'i agwedd allanol, yn dangos ei diriondeb tosturiol a'i ffyddlondeb, fel cyfaill, at y teulu yr oedd yn ei garu. Edr. OCHENAID, LAZARUS.

GRISIAL, (cris) *Llad.* CHRYSTALLUS. Edr. CRYSTAL.

GRIS—IAU, *Llad.* GRADUS; gradd, dring, lleddring. Exod. 20. 26. 1 Bren. 6. 8. Act. 21. 35. Edr. ALLOR, GORSEDD-FAINC, LLOCHES.

GROEG—IAID—WR. Yn Hebraeg gelwir gwlad Groeg a'i thrigolion, יון *Javan* neu *Ioan.* 'A'r bwch blewog yw brenin Groeg,' מלך יון *brenin Javan.* Dan. 8. 21.—'Wele tywysog tir Groeg a ddaw,' חנה שר יון בא *Wele tywysog tir Javan a ddaw.* Dan. 10. 20.—'Teyrnas Groeg,' מלכות יון *teyrnas Javan.* Pen. 11. 2.—'Gwerthasoch hefyd feibion Judah a meibion Jerusalem i'r Groegiaid,' לבני היונים i *feibion Heiavanim.* Joel 3. 6.—'Yn erbyn dy feibion di, Groeg,' בניך יון *dy feibion di, Javan.* Zech. 9. 13.—'Italia a Groeg,' תובל ויון *Tubal a Javan.* Esa. 66. 19. Ezec. 27. 13, 19. Javan oedd pedwerydd mab Japheth: meibion Javan oeddynt Elisah, Tarsis, Cittim, a Dodanim. Y rhai hyn, mae yn dra thebygol, a boblogasant wlad Groeg, ynysoedd Groeg, a'r gwledydd cylchynol. Oddiwrth Javan y galwyd talaeth o wlad yn Asia Leiaf, Ionia, tebygol; ac oddiwrth Elisah y galwyd gwlad y Groegiaid, Ελλας (*Ellas*) a'i phreswylwyr, Ελληνες (*Ellênes*) yr enw cyffredin arnynt yn y Testament Newydd yn mhob man. Oddiwrth Elisah y cafodd y ddinas Elis ei henw; hefyd meusydd Elysia (*Elysian fields*) yr afon Elissus neu Ilissus, cainc o fôr a elwir Helespont, sef *Elisæ Pontus.* Galwyd hi yn *Græcia* oddiwrth y brenin Γραικω (*Græcus*) mab Thessalus, olynwr Cecrops yn yr orsedd. Gwel Schleusner's *Lexicon in* ΕΛΛΑΣ. Well's *Geography of the Bible.* Rollin's *Ancient History, vol.* iii. Nid ydwyf heb wybod fod hanes y Groegiaid eu hunain am enw eu gwlad yn wahanol. Dywedant hwy mai oddiwrth Helenus, mab Deucalion, brenin Thessaly, y cawsant yr enw Helenes, a'u gwlad yr enw Ellas. Ond y mae yr hanes uchod yn ymddangos i mi yn fwy unol â'r gwirionedd, am ei fod yn fwy unol â'r ysgrifeniadau sanctaidd, ein hunig gyfarwyddwyr sicr mewn hanesion hynafiaeth, a'r amseroedd gynt. Dywed Pliny (*lib.* iv, *c.* 7.) iddynt gael eu galw yn Roegiaid oddiwrth enw hen frenin, am yr hwn nid oedd ganddynt ond traddodiadau ansicr. Geilw Homer hwynt *Helenes, Danai, Argives,* ac *Achaiaid.*

Y mae y wlad yn sefyll yn y parth dehau-ddwyrain o Ewrop. Yr oedd yn cynnwys yn yr ystyr helaethaf Peleponnesus, Achaia, Thessaly, Macedonia, a hwyrach hefyd Epirus o du y gorllewin i Macedonia; ond yn yr ystyr gyfyngaf, nid oedd yn cynnwys ond y tri cyntaf. Taleithiau Achaia oeddynt Ætolio, Attica, Bœtia, Phocis, Doris, Locris, a Megaris. Taleithiau Peleponnesus oeddynt Achaia *propria*, Arcadia, Argis, Elis, Corinth, Laconia, Messenia, a Sicyon. Ynysoedd Groeg (y rhai a elwir yn Ezec. 27. 7. ynysoedd Elisah) ydynt Cephalona, Corcyra (yn awr Corfu) Crete, Cyclades, Cythera, Delos, Eliboea, ac eraill llai eu maintioli. Yn yr ystyr helaethaf hwn mae y gair i'w ddeall yn Act. 20. 2. 'Daeth i dir Groeg,' εις την Ελλαδα, *i Ellas.* Javan a'i feibion, wedi gwasgariad meibion Noah yn Sinar, wrth dŵr Babel, a deithiasant oddi yno tu ag Asia Leiaf, ac a breswyliasant yn y rhan ddeheuol o honi; tra yr oedd meibion Gomer, mab hynaf Japheth, yn preswylio yn y rhan ogleddol. O Asia Leiaf y croesasant mewn amser yr Helespont, neu Elisa Pontus, sydd yn gwahanu Asia Leiaf oddiwrth wlad Groeg. Yn raddol poblogasant y wlad hòno, ac a esodasant i fynu amryw lywodraethau bychain, y rhai y caf achlysuron i roddi hanes am amryw o honynt dan eu henwau priodol. Phylip brenin Macedonia, a'i fab Alexander, a oresgynasant holl wlad Groeg. Wedi gorchfygu gwlad Groeg, Alexander a'i fyddin, oddeutu A.M. 3670, a aeth drosodd i Asia, ac mewn tair ymladdfa a orchfygodd fyddinoedd lliosog y Persiaid. Edr. DARIUS. Mewn chwech (deuddeg, medd yr Esgob Newton) mlynedd, goresgynodd ymerodraeth fawr y Mediaid a'r Persiaid, a rhan o'r India Ddwyreiniol; bu farw gan adael ymerodraeth ar ei ol o 4000 o filltiroedd o hŷd. Ar ol ei farwolaeth, rhanwyd ei ymerodraeth yn bedair rhan, rhwng pedwar o'i dywysogion a blaenoriaid ei luoedd. Lysimachus a gafodd Bithynia, Thrace, a'r parthau gogleddol; Cassander, gwlad Groeg, a'r parthau gorllewinol; Ptolomy, yr Aipht, a gwledydd y dehau; a Seleucus Nicator, Syria, a'r parthau dwyreiniol. Yn mreuddwyd Nebuchodonosor, ymerodraeth y Groegiaid yw y 'bol a morddwydydd pres' y ddelw fawr a welodd. Dan. 2. 32. Hon yw 'y drydedd freniniaeth o bres, yr hon a lywodraetha ar yr holl ddaear.' Yr oedd pres yn arwyddlun addas o ymerodraeth y Groegiaid. Yr oedd hon yn is mewn cyfoeth a gwychder na'r ddwy freniniaeth gyntaf o aur ac arian; hefyd yr oedd y Groegiaid yn nodedig am eu harfau pres, ac yr oedd yn enwad cyffredin arnynt, *Brazen-coated Greeks*, y pres-arwisgedig Groegiaid. Wrth y morddwydydd, tebygol, y meddylir breniniaeth y Seleucidæ, yn Syria, a'r Lagidæ, y rhai a deyrnasasant yn yr Aipht: y ddwy freniniaeth fwyaf enwog o olynwyr Alexander, a'r rhai bu fwyaf a wnelai yr Iuddewon â hwynt. Yn ngweledigaeth Daniel (pen. 7. 6.) rhoddir i ni ddarluniad o Alexander a'i olynwyr, dan yr arwyddlun o lewpard, a phedair aden aderyn iddo, a phedwar pen oedd iddo, a rhoddwyd llywodraeth iddo. Y mae y llewpard a'i bedair aden yn ddangosiad o gyflymdra anarferol buddugoliaethau Alexander. Dywed Prideaux iddo ehedeg yn fuddugoliaethus yn fuanach nag y gallai eraill deithio, yn aml yn ymlid

Digitized by Google

ei elynion amryw ddyddiau a nosweithiau ar garlam gwyllt: ymlidiodd ar ol Darius dros un diwrnod ar ddeg ddeugain milltir bob dydd. Byddai ar warthaf ei elynion heb wybod iddynt, a gorchfygai hwynt cyn iddynt gael hamdden i'w wrthsefyll. Yr oedd yn dyfod ar yr holl ddaear, ac, fel y dywed Daniel, heb gyffwrdd â'r ddaear; ond megys ehedeg ar ddau bâr o adenydd, gyd âg ysgafnder a chyflymdra aderyn. *Connect.*, *Part* I, *Book* viii. Mae y llewpard yn greadur hynod am ei fuandra; 'A'u meirch sydd fuanach na'r llewpardiaid,' medd y prophwyd Habacuc. Pen. 1. 8. Creadur bychan, cryf, cyflym, glew, medd Bochart, yw y llewpard: nid ofna ymladd â'r llew, neu y bwystfilod mwyaf cryfion a rheibus. Yr un modd Alexander, bychan o gorpholaeth, â breniniaeth fechan, â byddin fechan, a anturiodd ymosod ar frenin breninoedd (fel y galwyd ef) sef Darius, ymerodraeth pa un oedd yn cyrhaedd o'r Helespont i'r India. Y mae pedwar pen y bwystfil hwn yn arwyddo rhaniad yr ymerodraeth y crybwyllwyd uchod am dani. 'Rhoddwyd llywodraeth iddo.' Nid ei lewder ei hun, ond rhagluniaeth Duw, oedd yr achos yn peri ei holl lwyddiant. Cawn ddarluniad arall (Dan. viii.) o Alexander a'i fuddugoliaethau, ei farwolaeth, a'i olynwyr, tan yr arwyddion o fwch gafr yn dyfod o'r gorllewin ar hyd yr holl ddaear, ac heb gyffwrdd â'r ddaear—i'r hwn yr oedd corn hynod rhwng ei lygaid, sef Alexander. Y mae gafr yn arwydd-lun addas iawn o ymerodraeth y Groegiaid, neu y Macedoniaid, am fod llawer o afrod yn eu gwlad. Yr oedd arwydd-luniau gafrod ar eu llummanau; eu prif ddinas a enwyd *Ægeæ*, neu *Ægæ*, *tref y gafrod*, a'r bobl a elwid *Ægeæda*, *pobl y geifr*. Gwel Mede's *Works*, *Book* iii. Y bwch a ddaeth hyd at yr hwrdd deugorn a welodd Daniel, sef ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid; efe a *redodd* at yr hwrdd yn angerdd ei nerth—a fu chwerw wrtho—a'i tarawodd—a dorodd ei ddau gorn, sef *ei holl nerth*—a'i bwriodd i lawr—ac a'i sathrodd—ac nid oedd a allai achub yr hwrdd o'i law. Y bwch gafr a aeth yn fawr iawn, ac wedi ei gryfhau, torodd y corn; sef, bu farw Alexander yn 33 o'i oed: a chododd pedwar o rai hynod yn ei le, tua phedwar gwynt y nefoedd. Y mae cydgordiad y prophwydoliaethau â hanesiaeth awdwyr Paganaidd yn nodedig iawn. Y mae manylrwydd, priodoldeb, ac eglurdeb y prophwydoliaethau yn hynod i sylwi arnynt. Nid oes un gwrthddadl i'w ddwyfoldeb a ddichon sefyll yn eu hwyneb yn meddwl un diduedd ac ystyriol. Y mae y darluniad prophwydoliaethol yn briodol, yn addas, yn gyflawn, ac yn eglur iawn—yn cynnwys hanesiaeth oesoedd mewn byr eiriau, ac yn rhoddi golygiad mwy eglur ar Alexander, ei wroldeb, a buander ei fuddugoliaethau—a hanes ei olynwyr, a'r ymerodraeth ar ol ei farwolaeth, na'r hyn oll a ysgrifenwyd am danynt wedi hyny. Amseryddiaeth prophwydoliaethol y geilw Mr. Mede hwynt, Calendar Sanctaidd, ac Almanac mawr prophwydoliaeth. Mede's *Works*, *Book* viii.

Wrth y corn bychan, yr hwn a ddaeth allan o un o honynt, ac a dyfodd yn rhagorol, tu a'r dehau, a thu a'r dwyrain, a thu a'r hyfryd wlad, y mae y rhan fwyaf o ddehonglwyr yn deall breniniaeth y Selucidæ yn Syria, yn enwedig Antiochus Epiphanes, erlidiwr creulawn yr Iuddewon; ond y mae Syr Isaac Newton, ac Esgob Newton, yn barnu y darluniad yn fwy priodol i'r gallu Rhufeinaidd, yr hwn a oresgynodd Macedonia a Groeg yn gyntaf, ac oddi yno y Rhufeiniaid a daenasant ac a oresgynasant y lleill i gyd. Yr oedd teyrnas y Seleucidæ yn Syria, yn un o bedwar pen y bwch; ond y mae y corn bychan hwn yn eglur yn wahanol oddi wrthynt. Y mae y darluniad o'r corn bychan yn cyfateb yn gwbl i'r ymerodraeth Rhufeinaidd yn mhob peth. Gwel yr awdwyr uchod. Ond y mae barn Faber am y corn bychan, y bwystfil Groegaidd, yn amrywio oddiwrth farn y gwyr enwog uchod; ac y mae yn gryf o'r meddwl mai Mahometaniaeth yw y gwrthlun o hono, ac nid y gallu Rhufeinaidd, yn ol eu barn hwy:—1. Annhebyg iawn, meddai ef, y buasid yn gosod allan yr un gallu dan yr arwyddlun corn bychan, wedi ei ddarlunio o'r blaen dan yr arwyddlun bwystfil mawr, creulawn, ac ofnadwy.—2. Y mae y farn hon yn rhoddi ail-adroddiad gweledigaethol o'r un pethau, heb ychwaneg goleuni arnynt.—3. Nis gellir cysoni y golygiad hwn â brudiaeth prophwydoliaethol Daniel; ond yn cyfateb yn gwbl os priodolir ef i Fahometaniaeth.

1. 'Ac o un o honynt y daeth allan gorn bychan.' Dan. 8. 9. Y corn bychan Pabaidd a gyfododd yn mysg y deg corn, a hwy yn sefyll oll, ac a gyd-oesoedd â hwynt; ond y corn bychan hwn a gyfododd o adfeiliad un o bedwar corn y bwystfil Groegaidd, ac nid i gyd-oesi âg un o honynt; ond yr oedd i sefyll i fynu yn niwedd eu teyrnasiad. Yn Mecca y dechreuodd, ond yn fuan goresgynodd Syria, ac felly y daeth yn gorn bychan, un o'r cyrn adfeiliedig y bwch.

2. Yr oedd y corn hwn ar y cyntaf yn fychan, ac wedi hyny efe a 'dyfodd yn rhagorol tu a'r dehau, a thu a'r dwyrain, a thu a'r hyfryd wlad.' Bychan oedd dechreuad Mahometaniaeth; ond yn fuan ymdaenodd i'r dehau i Arabia; i'r dwyrain i Persia; ac, yn yr oesoedd diweddaf, i Hindostan; ac i'r gogledd dros Palestina, Asia Leiaf, a gwlad Groeg; ymestynodd hefyd i'r gorllewin i'r Yspaen ac Affrica.

3. Byddai i'r corn hwn gyfodi o herwydd camwedd, pan gyflawner amser y troseddwyr. Yr oedd adfeiliad cyffredin ar Gristionogrwydd pur, trwy holl wledydd y dwyrain, yr amser y cyfododd Mahomet; a'r ymadawiad pechadurus hwn o eglwysi y gorllewin, wedi corphori yn y Pab yn Rhufain, yr hwn a wnaed yn esgob cyffredinol, A.D. 606, yr amser y rhoddwyd y saint yn ei law (Dan. 7. 25) o ba amser yn ganlynol, y mae i ni gyfrif y 1260 o ddyddiau, yspaid ei deyrnasiad ef, a Mahometaniaeth. Os felly, diwedda yr yspaid nodedig hwn o amser, A.D. 1866. Y mae yn ddynodol i'r ffieidd-dra dwyreiniol a gorllewinol, sef Mahometaniaeth a Phabyddiaeth, corn bach y trydydd a'r pedwerydd bwystfil, i gychwyn yr un amser, a bydd eu diwedd yr un fath.

4. Bydd yn 'wyneb greulawn, ac yn deall dammegion:' Dan. 8. 23. hyny yw, bydd ei allu crefyddol yn cael ei gynnal trwy rym arfau; crefydd oedd i fod, nid yn fwyn fel oen, ond yn greulawn fel draig. Y dammegion yw holl gyfeiliornadau y Koran. Trwy y cleddyf, yn y modd creulonaf, y taenwyd y grefydd waedlyd hon gan y Saraceniaid a'r Tyrciaid, ar hyd amryw wledydd meithion y byd.

5. 'Aeth yn fawr hefyd hyd lu y nefoedd, a bwriodd i lawr rai o'r llu, ac o'r sêr, ac a'u sathrodd hwynt.' Ië, 'ymfawrygodd hefyd hyd at (neu yn erbyn) dywysog y llu, a dygwyd ymaith yr offrwm gwastadol oddi arno (neu ganddo) ef, a bwriwyd ymaith le ei (y tywysog) gysegr ef. A rhoddwyd iddo lu yn erbyn yr offrwm beunyddiol o herwydd camwedd; ac efe a fwriodd y gwirionedd i lawr: felly y gwnaeth, ac y llwyddodd.' Adn. 10, 11, 12. Eglurir y geiriau hyn gan yr angel: 'A'i nerth ef a gryfha, ond nid trwy ei nerth ei hun; ac efe a ddinystria yn rhyfedd, ac a lwydda, ac a wna, ac a ddinystria y cedyrn, a'r bobl sanctaidd. A thrwy ei gyfrwysdra y ffyna ganddo dwyllo; ac efe a ymfawryga yn ei galon, a thrwy heddwch y dinystria efe lawer: ac efe a saif yn erbyn tywysog y tywysogion: ond efe a ddryllir heb law.' Adn. 24, 25. Y mae yr holl ddarluniad hwn yn neillduol briodol i Fahometaniaeth. Llu y nefoedd yw holl weinidogion y gair yn gyfriniol, y rhai a fwriodd i lawr. Ymfawrygodd yn erbyn y tywysog, gan haeru ei fod ef yn fwy na'r

Digitized by Google

Iesu. Dygwyd ganddo yr offrwm gwastadol, trwy roddi attaliad ar addoliad y Cristionogion, a bwriodd wirionedd y wir athrawiaeth i lawr. Nid trwy ei nerth ei hun yr ymgryfhaodd, ond trwy gleddyf y Saraceniaid, &c. Yr oedd yr holl wledydd yn ysgyfala, yn esmwyth, ac yn ddienbyd, pan y taenodd ei gyfeiliornadau trwy gyfrwysdra a chreulondeb. Y mae y gallu hwn i barhau hyd yn 2300 o ddiwrnodau, neu flynyddoedd; neu, fel y mae rhai adysgrifeniadau Hebraeg, 2200, yn ol y cyfrif diweddaf, y flwyddyn C.C. 334, yr amser y daeth y bwch yn erbyn yr hwrdd, sef Alexander Fawr yn erbyn Darius, diwedda yr yspaid hwnw, A.D. 1866; yr un amser ag y diwedda yr 'amser, amseroedd, a hanner amser,' sef y 1260 o ddyddiau, yspaid corn bychan y pedwerydd bwystfil. Purir y cysegr, sef eglwys Dduw, oddiwrth y ddau ffieidd-dra hyn ar unwaith. Gwel Faber's *Essay, vol.* i.

Y bobl fwyaf enwog, yn mhob ystyr, o'r holl hen genedloedd, oedd y Groegiaid. Er fod eu gwladeiddrwydd a'u hanwybodaeth mor fawr yn eu dechreuad, fel y rhoisant yn mhlith eu duwiau y dyn Pelasgus, yr hwn a'u dysgodd gyntaf i ymborthi ar fês yn lle llysiau; etto, gwedi hyny rai oesoedd, daethant i fod yn athrawon y byd mewn dysgeidiaeth, a gwybodaeth o'r celfyddydau. Ni bu milwyr, philosophyddion, na phrydyddion erioed yn fwy enwog ar y ddaear nag oedd yn mhlith y Groegiaid. Ganddynt hwy y cenedlwyd, y magwyd, ac y perffeithiwyd y celfyddydau, ac oddi wrthynt hwy y taenasant ar led yn mhlith y cenedloedd eraill. Y mae ysgrifeniadau y Groegwyr mor orchestol, fel na ragorodd neb arnynt, mewn un iaith, hyd heddyw, er eu cael hwy o'u blaen i'w haddysgu a'u heilfyddu. Groegwr oedd Homer, pen cerddor y byd; yr hwn sydd yn blaenu ar yr holl brydyddion hyd heddyw, ond prydyddion sanctaidd yr ysgrythyrau. Groegwr oedd Aristotle, athraw Alexander Fawr, y philosophydd mwyaf enwog yn yr hen oesoedd; ac y mae yn uchel ei ben yn eu plith etto. Groegwr oedd Demosthenes, yr areithiwr mwyaf ardderchog hynafiaeth. Mae Herodotus, Thucydides, a Xenophon, yn y lle uchaf fel hanesyddion. Rhy faith yma fyddai coffâu am eu holl ysgrifenwyr enwog, megys Plato, Isocrates, Euripides, Sophocles, Hesiod, Polybius, &c.

Y mae yr iaith Roeg yn rhagori ar bob iaith arall dan y nefoedd mewn cyflawnder, amrywiaith, a melusder peroriaeth. I ddywedyd y cwbl mewn un gair, nid oes ond yr ysgrifeniadau sanctaidd, a'r iaith sanctaidd yr ysgrifenwyd hwynt ynddi, yn rhagori ar ysgrifeniadau y Groegwyr. Ysgrifenwyd holl lyfrau y Testament Newydd, gan mwyaf, os nid yn gwbl, yn yr iaith hòno. Wedi amser Alexander, taenodd yr iaith Roeg yn gyffredinol yn y gwledydd dwyreiniol. Cyfleithiwyd ysgrifeniadau yr Hen Destament i'r iaith hòno, agos i dri chant o flynyddoedd cyn Crist, yr hwn a elwir Cyfleithiad y Deg a Thriugain. Gwel Prideaux's *Connect. An. Ptolomy Philadelphi.* Hwn yw y cyfleithiad a arferwyd gan yr apostolion, ac yn ngeiriau pa un y maent yn coffâu, yn eu hysgrifeniadau, ysgrythyrau yr Hen Destament. Pregethwyd yr efengyl, a phlanwyd eglwysi, yn foreu gan yr apostolion, yn y rhan fwyaf o barthau gwlad Groeg; ac y mae lluoedd o honynt hyd heddyw ar enw Cristionogion, er fod Eglwys Groeg, fel Eglwys Rhufain, er's oesoedd yn llygredig iawn.

Y mae i ni ddeall wrth y Groegiaid, yn y Testament Newydd, 1. Priodorion gwlad Groeg. Rhuf. 1. 14. 1 Cor. 1. 22, 23.——2. Un o'r grefydd Baganaidd, mewn cyferbyniad i'r grefydd Iuddewaidd. Ioan 7. 35. Act. 14. 1, 5. a 18. 4. a 19. 10. a 20. 21. Gal. 3. 28. Col. 3. 11. Cymh. 2 Mac. 4. 10—15. a 6. 9. a 11. 24.——3. Groegiaid genedigol, wedi cymeryd at y grefydd Iuddewig. Ioan 12. 20. Act. 17. 4.——4. Iuddewon yn trigo yn ninasoedd a gwledydd y Groegiaid, ac yn llefaru yr iaith Roeg. Y rhai hyn a elwir nid Ελληνες, *Groegiaid*, ond *Ελληνισται, rhai Groegaidd*, sef yn dilyn arferion y Groegiaid, neu yn siarad yr iaith Roeg. Act. 6. 1. a 9. 29. a 11. 20. Gwel Campbell, *Dissert.* i, *sec.* 6. —Yr oedd y rhai hyn, lawer o honynt, yn anadnabyddus o'r iaith Hebraeg, ac yn darllen yr ysgrythyrau yn eu synagogau, yn nghyfieithiad Groeg y Deg a Thriugain.

GRONYN, bychanig o grawn. Edr. GRAWN.

GRUDD—IAU, (gru) boch, cern, boch-cern: y rhan hyny o'r wyneb islaw y llygaid, o bob tu; ac sydd yn eisteddfod harddwch a gwyledd.—'Taro ar y rudd,' neu 'ar y gern,' a 'thynu blew y gern,' ydynt arwyddion o ddirmyg a chreulondeb. 'Pwy bynag a'th darawo ar dy rudd ddehau, tro y llall iddo hefyd.' Mat. 5. 39. Geiriau diarebol ydynt, yn gosod allan ymostyngiad addfwyn i ddiystyrwch, cam, sarhad. Esa. 50. 6. Galar. 3. 30. 1 Bren. 22. 24. Mic. 5. 1.

'Hardd yw dy ruddiau gan dlysau.' Can. 1. 10. 'Ei gruddiau,' sef ei hymddangosiad, ei hedrychiad, a'i hymarweddiad. 'Yn hardd gan dlysau:' 'Hawddgar yw dy ruddiau, yn y tlysau.' Dr. M. Pa addurniadau oedd gynt i'r gruddiau yn y gwledydd dwyreiniol, nid yw hysbys yn bresennol. Dywed Olearius, medd Mr. Harmer, am y pendefigesau yn Persia, y gwisgant dair rhes o dlysau oddi amgylch eu penau, yn dechreu ar y talcen, ac yn disgyn ar hyd eu gruddiau, dan yr ên, fel y mae eu hwynebau megys wedi eu gosod mewn tlysau. Harmer's *Outlines of a new Commentary on Solomon's Song.* Gellir golygu yr eglwys yn hardd yn ei hymddangosiad a'i hymarweddiad gŵyl, gostyngedig, sanctaidd, a duwiol.

'Ei ruddiau fel gwely pêr-lysiau.' Y gruddiau yw y gwely, a'r farf ar y gruddiau yw y pêr-lysiau. Y mae gruddiau barfog yn arwydd o wroldeb ac ardderchogrwydd. Rhoddodd Crist ei ruddiau, neu ei gernau, i'r rhai a dynent y blew, yn ei gyflawn oedran; ac nid oes un olwg harddach arno i'w wir ganlynwyr, nag yn ei ddirmyg a'i waradwydd. Can. 5. 13. Esa. 50. 1.

GRUG, (rhug) myncawg.—'Efe a fydd fel grug yn y diffaethwch, ac ni wêl pan ddêl daioni.' Jer. 17. 6. a 48. 6. *Heb.* ערער *noeth-bren*, pren wedi ei ddeifio, a'i ddynoethi o'i ddail. Yn ol barn Parkhurst, Blayney, &c., nid yw y gair Hebraeg yn arwyddo unrhyw fath o bren yn neillduol, ond pren wedi ei ddeifio, yn hollol noeth, heb ffrwyth na dail arno, y cyfryw ag a geir yn aml yn mhoeth-fanau yr anialwch. Y cyfryw bren sydd arwyddlun priodol iawn o ddyn yn cilio oddiwrth yr Arglwydd, ac yn hyderu ar ddyn, ac yn gwneuthur cnawd yn fraich iddo. Ni bydd ganddo na chysgod na chynnaliaeth; ac ni cheir arno na dail na ffrwythau. Nis dichon dyn di-Dduw lai na bod yn ddiffrwyth ac yn ddigysur, yn ansanctaidd, ac yn druenus.

GRWGNACH—U, &c. (grwgn) *Heb.* רגן *Gr.* γογγυσμος; *Llad.* MURMUR, SUSURRUS; tuchan, manson, gryngian; sibrwd. Mae y gair γογγυσμος weithiau yn cael ei gyfleithu *murmur*, ac weithiau *grwgnach*. Hwyrach y buasai gair Cymraeg lân, gan fod digonolrwydd o honynt yn yr iaith ar bob achos, yn fwy addas, ac yn fwy cynnwysfawr, a dealladwy, na'r gair Lladin *murmur*. Ioan 7. 12, 32. a 6. 41, 43, 61. Act. 6. 1. Phil. 2. 14. 1 Petr 4. 9. Weithiau arwydda sibrwd, siarad dystaw, a dadleu; ond yn fwyaf cyffredinol, anfoddlonrwydd tuchanllyd i bersonau, pethau, neu ryw waith i'w wneuthur. Grwgnachodd yr Israeliaid yn yr anialwch yn erbyn ffyrdd a rhagluniaeth Duw tu ag atynt, er iddo ef

Digitized by Google

harwain yn rhyfedd mewn trugaredd a thiriondeb mawr. Ffrwyth eu hanghrediniaeth oedd eu grwgnach, a'u hysbryd cnawdol, anianol; a dangosodd yr Arglwydd ei anfoddlonrwydd yn fawr tu ag atynt o'r herwydd, trwy eu dinystrio gan y dinystrydd. 1 Cor. 10. 10. Eu hanes a ysgrifenwyd er rhybudd i *ninnau*.

'Gwnewch bob dim heb rwgnach.' Phil. 2. 14. 1 Petr 4. 9. Deut. 1. 27. Ps. 106. 25. Sef yn rhwydd, yn hawdd, a chyda llawenydd calon; gyda golwg ar Dduw yn mhob peth, ac nid arnom ein hunain, nac ar ddynion. Y mae yr Arglwydd yn edrych nid ar y weithred yn unig, ond hefyd ar yr ysbryd, yn mha un y mae yn cael ei chyflawni. Y mae gweision grwgnachlyd i feistr mor dda yn anaddas iawn.

'Paham y grwgnach dyn byw, gwr am gospedigaeth ei bechod?' Galar. 3. 39. Llawer a rwgnachodd dynion tywyll, cnawdol, yn erbyn Crist, a'i wyrthiau, a'i athrawiaeth, pan oedd yn y cnawd ar y ddaear; ac nid ydynt hyd heddyw, mewn un gradd, yn fwy cymmodlawn âg ef. Mat. 20. 11. Luc 19. 7. a 15. 2. Ioan 6. 41, 61. Yn meddwl y grwgnachwyr y mae yr achos, ac nid yn yr Arglwydd Iesu; cyn y peidiant rhaid cyfnewid eu meddwl hwy, gan na chyfnewidia Crist byth. Y mae efe o hyd yr hyn oedd o'r dechreuad, yn wrthddrych anfeidrol hawddgar a da; a bydd felly byth; i'w cymmodi hwy gan hyny âg ef rhaid cyfnewid eu meddwl cnawdol, ac agor eu llygaid i weled ei hawddgarwch, a'i ddymunoldeb; yna hwy a'i carant ac a ymhyfrydant ynddo.

GRYM—US—DER, (rhym) *Heb.* גרם *gerem;* nerth, gallu, cryfder, pybyrwch.—'Grym pechod yw y gyfraith.' 1 Cor. 15. 56. Y mae pechod a'r gyfraith yn gwbl groes i'w gilydd; o herwydd *anghyfraith* (*ανομος*) yw pechod, sef anghydffurfiad â'r gyfraith. Er hyny, grym pechod yw y gyfraith; canys trwy y ddeddf y mae adnabod, ac y cyfrifir pechod; ac yn ganlynol, trwy y ddeddf y mae y pechadur, y troseddwr o honi, yn cael ei farnu yn euog, a'i goll-farnu. Rhuf. 3. 20. a 5. 13. Pan fyddo y ddeddf a phechod yn cyd-gyfarfod, mae y pechadur yn sicr o gael ei euog-farnu; ac nid ydyw y ddeddf yn gwanhau pechod, ond yn hytrach y mae pechod yn ymgryfhau, ac yn ymgynhyrfu yn ei herbyn. Pechod yw colyn angeu, â pha un y mae yn lladd, a grym pechod yw y gyfraith.

'Grym ei adgyfodiad.' Phil. 3. 10. Sef y grym a weithredodd yn ei adgyfodiad, a thrwy hyny sydd yn gweithredu yn ei bobl. Grym adgyfodiad Crist yw yr holl rym sydd gan gredadyn i fyw i Dduw, ac i orchfygu pob rhwystr ar ei ffordd i hyny. Yr un gallu a weithredodd yn Nghrist yn ei adgyfodiad, sydd yn gweithredu yn mhob credadyn i'w fywhau, ei gysuro, a'i sancteiddio; a rhinwedd adgyfodiad Crist sydd yn nerthol weithredu, ac yn effeithioli ynddynt hwythau hefyd. Y mae yr apostol yn hiraethu am adnabyddiaeth brofiadol mwy helaeth o hyn yn ei enaid, yn ei gyfodi i'r làn o holl ddyfnderoedd ac effeithiau y cwymp.

'Y mae yr Arglwydd yn rymus, ac yn gwneuthur grymusder.' Gen. 49. 24. Ps. 118. 16. a 132. 2, 5. Edr. HOLLALLUOG, CADERNID, NERTH. Gwr grymus yw gwr cadarn, nerthol, a gwrol. Jos. 6. 2. Barn. 18. 2. 1 Sam. 16. 18.

GUEL, *Heb.* גאיאל [*iawn, prynedigaeth*] mab Machi; un o'r deuddeg ysbïwyr dros lwyth Gad. Num. 18. 15.

GUNI, *Heb.* גוני [*fy ngardd*] mab Naphtali, pen teulu. Num. 26. 48.

GUR, 'rhiw Gur wrth Ibleam.' 2 Bren. 9. 27. Nid oes grybwylliad arall am dano.

GUR-BAAL, *Heb.* גור־בעל [*ieuanc o'r hwn sydd yn llywodraethu*] dinas yn Arabia; yr un, medd Calmet, a Gabal, neu Gabalene. 2 Cron. 26. 7.

GWAD—U—WR, (gwa) nacâd, gommeddiad, pallu, gwrthod, rhoi nag, negyfaethu. Rhoi nag i gyhuddiad, neu i'r hyn a haerir yn erbyn un. Gen. 18. 13. Mat. 26. 34. Ioan 1. 20.—'Nis gall Duw wadu ei hun:' sef nis gall lefaru, na gweithredu yn groes, neu yn anaddas i'w hanfod, ei natur, y dadguddiad a wnaeth o hono ei hun, a'i addewidion: y mae yn *anmhosibl* iddo fod yn gelwyddog. 2 Tim. 2. 13. Heb. 6. 18. Beth bynag, gan hyny, nad yw yn un â'i berffeithrwydd dwyfol, ni ddichon fod o Dduw, canys nis gall efe wadu ei hun.

Y mae dynion yn gwadu Duw, neu Grist, neu ei enw, lawer ffordd; megys trwy wadu y Bôd o Dduw; neu wadu mai Crist yw y gwir Fessiah; neu trwy wadu fod Duw y fath un ag ydyw, a chynnwys meddyliau am dano anaddas i'w sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, ei drugaredd, a'i allu, &c., neu trwy athrawiaethau, neu feddyliau anaddas am berson Crist, ei swyddau, a'i aberth, &c. Y mae dynion yn gwadu Duw, ac yn gwadu Crist, yn eu geiriau, neu yn eu gweithredoedd. Y maent yn eu gwadu yn eu geiriau trwy eu hollol wadu o ran eu Bôd, neu trwy lefaru, neu athrawiaethu, am danynt yn gwbl groes i'r gwirionedd, a thystiolaeth y gair am Dduw, ac am Grist. Peidio ag addef a chyffesu Crist ger bron dynion, mewn geiriau amlwg a chywir, yw ei wadu. Mat. 10. 32, 33. Marc 8. 38. Y mae hyn yn bechod dirfawr; canys mae dyn, wrth hyny, yn gweithredu yn hollol groes i ddyben Duw yn gosod Crist i fynu, fel unig Iachawdwr i ddynion, a'r cyhoeddiad o hono yn yr efengyl. Un i'w wneuthur yn amlwg yw Crist; ac y mae yn rhaid ei addef ger bron dynion, fel Iachawdwr o drefniad Duw; fel un teilwng i gredu ynddo, i ymffrostio ynddo, ac ymwrthod â phob peth er ei fwyn: ac ymddygiad croes i hyn yw ei wadu, yr hyn sydd ddirmyg dirfawr arno, a chwbl groes i ddyben Duw mewn perthynas iddo.

Drachefn, y mae rhai yn proffesu yr adwaenant Dduw â geiriau, eithr ar *weithredoedd* ei *wadu* y maent, trwy fod yn ffiaidd, ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymeradwy. Tit. 1. 16. Mae dynion, trwy fyw mewn pechod, yn gwadu awdurdod Duw arnynt, eu rhwymedigaethau i ufuddhau iddo, ac uniondeb ei gyfraith. Y mae gwadiad o Dduw yn mhob pechod; ac y mae pechaduriaid rhyfygus yn tystiolaethu yn gyhoeddus, yn eu bywydau, yn erbyn yr hyn oll yw Duw, a'r hyn oll a lefarodd. Gwadu Crist yw pob cyfeiliornad am dano, a phob ymddygiad tu ag ato, fel pe na bai yr hyn ydyw, sef yn Berson Dwyfol; yn Iachawdwr digonol, o drefniad Duw; yn anfeidrol werthfawr a gogoneddus. Act. 3. 13, 14.

Gwadu y ffydd, yw cymeryd cyfeiliornad yn lle gwirionedd, neu ymddwyn yn anaddas i'r gwirionedd. 1 Tim. 5. 8. Dat. 2. 13.

Y mae dynion yn ymwadu â hwynt eu hunain, pan byddont yn ymwrthod â hwynt eu hunain yn hollol ac yn gwbl am iechydwriaeth, ac yn ymddiried yn Nghrist yn unig; sef yn ymwrthod â'u cyfiawnder, eu doethineb, a'u nerth eu hunain; yn ymwrthod â'u hesmwythder, eu gogoniant, a'u helw eu hunain, er mwyn Crist. Mat. 16. 24. Nis dichon Crist fod *i ni* y peth ydyw ynddo ei hun, a'r hyn y mae yr efengyl yn ei osod allan, heb yr ymwadiad hwn â ni ein hunain, am na allwn lynu wrthym ein hunain ac wrth Grist yr un pryd: am hyny nis dichon neb fod yn gadwedig heb ymwadu o'i wirfodd, yn ffyddlawn, ac yn barhaus âg ef ei hun.

GWADN—AU—U, (gwad) gosail, gwaelod, sylfaen; goseilio; tan y troed.—Gwadn càr; gwadn troed; gwadn aradr.—Ar y gwadnau, yn sefyll. Jos.

Digitized by Google

4. 19.——'A gwadnau fy nhraed hefyd y sychais (neu y sychaf) holl afonydd y gwarchaëedig.' Esa. 37. 25.—'Holl afonydd yr Aipht.' Vitringa. Pa fodd â gwadnau ei draed? Barna Vitringa fod cyfeiriad yn y geiriau at arferiad yn mhlith yr Aiphtiaid, yn mhlith pa rai yr oedd yn arferedig yn gyffredin beiriannau dyfrog a alwent *helices*, y rhai, trwy eu gweithio a'u troi â'u traed, oeddynt yn ddefnyddiol i dynu dwfr o'r dyfr-ffosydd a'r afonydd, i ddyfrhau y meusydd a'r gerddi, ac i sychu ffosydd. Olwynion mawrion oedd y peiriannau hyn, â grisiau y tu allan iddynt fel olwyn melin, trwy ba rai yr oedd y gweithiwr yn troi y peiriant â gwadnau ei draed, tra yr oedd ei law yn dal gafael ar atteg yn y pen uchaf i'r peiriant, i'w gynnal; ac fel hyn yr oedd yn codi y dwfr i fynu. Yn gyfatebol i hyn y dywed yr Arglwydd am dir yr Aipht, ei fod yn cael ei ddyfrhau â'r troed, fel gardd lysiau. Deut. 11. 10. Gwel Vitringa *in loc.*

GWADD, (gwa) twrch daear. Yr oedd yn aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 30. Cyfieithir yr un gair התנשמת yn adn. 18. *y gogfran*. Barna Bochart mai math o genau goeg, y madfall (*camelion*) a feddylir wrth y gair Hebraeg. Castalio a farna mai y llyffant yw; ac eraill mai y wenci; ond barn Bochart sydd debycaf i wir.——Sylwa naturiaethwyr ar gywreinrwydd hynod yn ngwneuthuriad llygaid y wâdd. Y maent mor fychain fel y barnodd rhai na feddai lygaid; ond y mae Borrichius yn profi fod ganddo lygaid, a'i fod yn canfod â hwynt; a bod ganddo alluogrwydd i wthio ei lygaid allan tu hwnt i'r croen, neu eu tynu i mewn, wrth ei ewyllys. Y mae yn nodedig am fuander ei glyw. Y mae ei holl aelodau wedi eu haddasu i'w sefyllfa dan y ddaear, ac i gloddio trwyddi. Y mae yn byw ar wreiddiau, pryfed, llyffaint, &c. Nid yw y pryfyn hwn i'w gael yn holl ynys yr Iwerddon.

GWADDOD, (gwadd) llorion, gwaelodion.——'Yfaist waddod y cwpan erchyll.' Esa. 51. 17. Wrth waddod y cwpan meddylir y gorthrymderau a'r blinderau mwyaf, nes ydyw megys wedi ei meddwi ganddynt, ac wedi cysgu yn ddigalon ynddynt, heb ddysgwyl am ymwared o honynt. Ps. 75. 8. a 11. 6. Jer. 25. 15. Mat. 20. 22. a 26. 39.

'Moab—a orphwysodd ar ei gwaddod.' Jer. 48. 11. Dylai pob gwin, meddant, orphwys ar ei waddod dros gryn amser, i gadw ei rym a'i archwaeth; y mae perygl ei niweidio trwy ei dywallt oddiar ei waddod i lestr arall. Y gair *Heb.* שמרים a gyfieithir *gwaddod*, a arwydda *ceidwad*, am fod y gwaddod yn cadw cryfder a blas y gwin. Lowth ar Esa. 52. 6. A thrwy y gyffelybiaeth hon, dangosir fod Moab wedi mwynhau rhagorfreintiau neillduol trwy ei harosfa wastadol yn ei gwlad ei hun. 'Ni thywalltwyd hi o lestr i lestr, ac nid aeth hi i gaethiwed: Am hyny safodd ei blas arni, ac ni newidiodd ei harogl.' Ond oblegid ei heilun-addoliaeth mae yr Arglwydd yn bwgwth anfon mudwyr, 'y rhai a'i mudant hi, a wághânt ei llestri, ac a ddrylliant ei chostrelau.' Jer. 48. 12, 13. Mae y gyffelybiaeth, neu yn hytrach yr aralleg, yn hardd odidog, medd Lowth.

GWADDOL, (gwadd) cynnysgaeth, agweddi, egweddi. Exod. 22. 17.

GWAE (gwa) *Gr.* ουαι; *Llad.* VÆ; och, ochain. Gwae, mewn bygythion, a arwydda trallod blin yn agosi. Mat. 23. 13—29. Iaith galar a thristwch yw 'gwae fi.' Ps. 120. 5. Y mae tri o'r udgyrn yn y dadguddiad â gwae yn perthyn iddynt, sef y pummed, y chweched, a'r seithfed; yn dangos y byddai trallodion blin ar y ddaear, pan udganent. Dat. 8. 13. a 9. 12. a 11. 14.

GWAED, (gwa-ed) gwyar, crau; tras, carenydd, gwaedoliaeth, âch; llif-nodd coch mewn dyn ac anifel, sydd yn cylchynu holl ranau y corph trwy redwelïon (*arteries*) a gwythienau, ag sydd yn angenrheidiol anhebgorol at fywyd a maeth pob aelod. Y mae yn y galon ddwy o ystafelloedd (*ventricles*) sef y ddehau a'r aswy; ac y mae dwy eraill yn nglŷn wrthynt a elwir *auricles*. Yr *auricles* sydd yn derbyn y gwaed yn ei ol o'r gwythienau, ac yn ei dywallt i'r *ventricles*, gwaith pa rai yw ei daflu allan. Y mae yr *auricle* ddehau yn derbyn y gwaed o'r wythïen fawr, *vena cava*; a'r *auricle* aswy sydd yn ei dderbyn o'r *pulmonary vein*, i'w dywallt i'r ystafell aswy. Y mae ysgogiadau y llestri hyn yn groes i'w gilydd; y mae yr *auricle* yn ëangu i dderbyn i mewn pan fyddo y *ventricle* yr un ochr yn ymwasgu i'w daflu allan, ac felly yn y gwrthwyneb. Y mae y *ventricle* ddehau yn fwy na'r aswy. Nid oes dim cymundeb uniongyrchol rhwng y ddwy, ond rhaid i'r gwaed fyned trwy yr ysgyfaint o'r naill i'r llall. I'r ystafell ddehau (*right ventricle*) y mae y gwaed yn dyfod trwy y wythïen fawr (*vena cava*) a'r *auricle*, o'r holl gorph; oddi yno, âg ergyd y galon, y mae yn cael ei dywallt i'r rhedweli yr ysgyfaint (*pulmonary artery*) yr hon sydd yn ei ddwyn i'r ysgyfaint; lle y mae y llif-nodd, oedd o'r blaen yn *wyn*, yn cael ei liwio yn *goch*; oddi yno y mae yn dyfod yn ol trwy wythïen yr ysgyfaint (*pulmonary vein*) i'r ystafell aswy; oddi yno y mae yn cael ei daflu â phob ergyd y galon, trwy redweli fawr (*aorta*) tros yr holl gorph. Y mae cauadau bychain ar bob un o'r llestri hyn yn y galon; maent *oddimewn* ar y gwythienau sydd yn ei dywallt i'r galon, i'w rwystro i redeg yr un ffordd allan; ac *oddi allan* ar y rhedwelïon sydd yn ei ddwyn o'r galon, rhag iddo ddychwelyd yn ei ol. Mae y gwaed y naill ffordd yn agor a'r ffordd arall yn cauad y rhai hyn. Pe bai un o'r cauadau bychain hyn yn rhwystro, neu yn pallu yn ei waith, darfyddai y bywyd yn y fan. Y mae dau ysgogiad i lestri y galon, a elwir *diastole* a *systole*; yn un mae y llestri yn ëangu i dderbyn y gwaed, yn y llall y maent yn ymwasgu i'w daflu allan. Mae y galon yn ymwasgu i daflu y gwaed allan 4000 o weithiau yn yr awr, ac y mae holl waed y corph yn myned trwy y galon, bedair gwaith bob mynyd. Y mae nerth y galon ar bob ergyd yn cyfateb i rai miloedd o bwysau, ac mae y galon yn rhoddi pedair mil o'r cyfryw ergydion bob awr, a hyny dros 60 neu 80 mlynedd, yn nghwsg ac yn effro, ac etto heb ddyrysu, diffygio, na blino. Y mae ysgogiadau y galon yn hollol annibynol ar ewyllys dyn, ac wedi eu trefnu yn y fath fodd, fel y gallant fyned yn ddirwystr yn mha agwedd bynag y byddo y corph. O'r rhedweli fawr (*aorta*) y mae y gwaed yn cael ei ddwyn trwy redwelïon bychain, yn ceincio oddi wrthi, dros yr holl gorph, a phob rhan o hono, i'r manylrwydd mwyaf, i ddwyn maeth i bob rhan. Am y byddai archolli y rhedwelïon mawrion hyn yn peryglu y bywyd yn y fan, i'w diogelu y maent wedi eu gosod yn ddyfnach yn y cnawd na'r gwythienau; neu lle y mae hyny yn niffyg, y mae yr esgyrn wedi eu ffurfio yn amddiffynfa iddynt. Mae y gwythienau yn derbyn y gwaed o'r rhedwelïon, i'w ddwyn yn ol drachefn trwy y wythïen fawr (*vena cava*) i'r galon. Y mae llestri y gwaed, sef y gwelïon a'r gwythienau, mor lliosog ac mor fychain dros yr holl gorph, fel nas gellir cyffwrdd âg un man o hono, â blaen y pin lleiaf, heb archolli un o honynt. Nid ydyw doethineb y Creawdwr i'w weled yn fwy rhyfedd yn un peth nag yn ngwneuthuriad a threfniad y galon, medd Hamburgher. Rhyfedd iawn ein bod yn byw cyhyd, gan fod pethau mor fychain a distadl yn angenrheidiol i gynnal y bywyd. Gwelwn fod ein bywyd yn llaw Duw bob mynyd, yr hwn yn unig a roddodd gynhyrfiad i'r gwaed, ac i ysgogiadau y galon ar y cyntaf; ac sydd o hyd yn cadw yr holl lestri angenrheidiol i fywyd, yn drefnus ac yn ddyfal, yn eu

Digitized by Google

holl ysgogiadau a'u gwasanaeth! Y mae y gwaed yn rhanadwy i radd anamgyffredadwy o fychanrwydd, ac onidê nis gallai fyned trwy lestri bychain diamgyffred, angenrheidiol i'w gario yn wastad dros yr holl gorph. Dywed Lewenhœck fod crynynau (*globules*) y gwaed yn 25,000 o weithiau yn llai na'r tywodyn lleiaf. Y mae y gwaed yn ei lestri yn y corph yn ymddangos i'r llygad yn unffurf ac unrywiol; ond wedi ei ollwng, ac iddo oeri, y mae o hono ei hun yn ymwahanu yn ddwy ran wahanol; un yn goch, yn ymlynu yn glamp, ac a elwir *cruor*; y llall yn deneu ac yn loyw, ac yn cadw ei ffrydiolrwydd wedi oeri, ac a elwir *serum*; yn oer mae y *cruor* ar y wyneb, yn nofio yn y *serum*; gan hyny, y mae y *serum* yn drymach na'r *cruor*. Y mae amryw o ymofynion ynghylch y gwaed etto heb eu cael allan; megys beth yw yr achos o'i dwymdra, ei liw coch, cynhyrfiad ei redegiad, &c. Y Dr. Harvey, physygwr o'r deyrnas hon, a gafodd allan gyntaf gylchrediad y gwaed, A.D. 1628, er bod rhai yn hòni nad oedd hyny yn anhysbys i Hippocrates, Aristotle, Plato, &c. Beth bynag am yr amlygiad cyntaf o hono, y mae y peth ei hun yn ddiammheuol, trwy amryw brofiadau mwyaf eglur. Gwel *Cyclopædia*.—Paley's *Natural Theology*.

Heblaw yr ystyr naturiol o hono, gwaed yn yr ysgrythyrau a arwydda, 1. Llofruddiaeth, ac affaeth gwaed wedi ei dywallt, yn galw am gospedigaeth. Mat. 16. 17. a 27. 25. Luc 11. 50, 51. Act. 5. 28. a 18. 27.——2. Gwaedoliaeth, neu achau. Ioan 1. 13. Act. 17. 26.——3. Y mae cig a gwaed yn arwyddo dynoliaeth, yn enwedig yn yr ystad bresennol o wendidau a llygredigaeth. Mat. 16. 17. Gal. 1. 16. Eph. 6. 12. 1 Cor. 15. 50.

Gwaed Crist a arwydda, 1. Ei gnawdoliaeth. Heb. 2. 14.——2. Ei ddyoddefiadau. Col. 1. 20.——3. Yr hyn oll a wnaeth dros ei bobl, yn enwedig rhoddi ei einioes yn bridwerth, a'r iawn a wnaeth trwy hyny, dros bechodau. Rhuf. 3. 25. a 5. 9. Eph. 1. 7. a 2. 13.——Y bywyd, neu yr einioes, yw y gwaed; 'na fwytewch gig ynghyd â'i einioes, sef ei waed.' 'A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntau.' Y mae yn gyfiawn cospi un â marwolaeth am dywallt gwaed. Gen. 9. 4, 6. Crist a dywalltodd ei waed drosom; sef, rhoddodd ei einioes, trwy ddyoddefiadau, yn bridwerth dros lawer. Y mae yn cael ei alw yn 'werthfawr waed,' oblegid yr iawn digymhar a wnaeth dros bechodau, trwy yr hwn y prynwyd dynion oddiwrth bob anwiredd. 1 Petr 1. 19. Tit. 2. 14. Nid oes dim yn *iawn*, yn *bridwerth*, ac yn *prynu*, ond hwn. Nid yr hyn a dderbyniom ni gan Dduw, na'r hyn a wnelom ni drosto, neu iddo, yw yr iawn; ond yr hyn a wnaeth Crist ac a ddyoddefodd drosom ni, hyny yw yr iawn; am hyny y mae yn fwy ei werth na phob peth arall ynghyd: canys nid iawn yw y *cwbl*; ond *efe* yn unig yw yr iawn dros ein pechodau ni.—Mae yn cael ei alw yn 'waed Duw.' Act. 20. 28.—Y mae yn cael ei alw 'gwaed y cyfammod.' Zech. 9. 11. Heb. 13. 10.—Y mae Moses yn galw gwaed yr anifeiliaid a aberthwyd wrth Sinai, yr hwn a daenellodd ar y llyfr ac ar y bobl, 'gwaed y cyfammod.' Exod. 24. 8. Heb. 9. 20. Y gwaed, trwy yr hwn y cadarnhawyd y cyfammod hwnw; felly trwy waed Crist y cadarnhawyd y cyfammod tragywyddol. Trwy farwolaeth y Testamentwr yr oedd y Testament mewn grym, a'r etifeddiaeth yn sicr i'r holl hâd. Trwy ei waed y cyflawnodd Crist holl ammodau y cyfammod, yr hyn a'i cadarnhaodd yn ddigyfnewid byth. Edr. DWFR, IAWN, ABERTH, GLANHAU, TAENELLU, YFED, CYFAMMOD.

Bod 'yn ei waed,' a arwydda, bod mewn cyflwr isel, gwael, llygredig, a diymgeledd. Ezec. 16. 6.——Rhoddi gwaed i un i yfed, a arwydda cael ei ladd yn greulawn. Dat. 16. 6. Ezec. 16. 38.——Dyn gwaedlyd, yw dyn creulawn, wedi tywallt, neu yn awyddus i dywallt, gwaed yn anghyfiawn. 2 Sam. 16. 7. Ps. 5. 6. a 26. 9. a 55. 23.

Mynych y gwaherddir bwyta y gwaed, yn yr ysgrythyrau, am mai yr *einioes* yw; yn cyfeirio yn neillduol at waed Crist, ac i ymgadw rhag pob arferiad ac ymddangosiad o greulondeb. Lef. 3. 17. a 7. 26. a 17. 10. 1 Sam. 14. 33, 34. Eph. 1. 7.

'Yn waed-wyllt.' 2 Tim. 3. 4. *Gr.* *προπετεις*, *byrbwyll*, fel y cyfieithir yr un gair yn Act. 19. 36. dibwyll, chwidr-frys, gorfrysgar. Arwydda y gair bod yn gryf, yn ddibwyll, yn ddibarch o feddyliau eraill, ac anystyriol o ganlyniadau yr hyn a wnelont iddynt hwy eu hunain, ac i eraill; ffrwyth balchder, hunan-dyb, a diffyg o ofn duwiol.

'A'i chwys ef oedd fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear.' Luc 22. 44. Coffa Aristotle a Diodorus Siculus am chwys gwaedlyd fel effaith ymdrech a gwasgfa anarferol y meddwl. Leti hefyd, yn ei fuchedd o'r Pab Sextus V., *p*. 200, a Syr John Chardin, yn ei hanes o Persia, *Vol*. i, *p*. 126, a goffânt am y cyffelyb ymddangosiad anarferol. Coffa yr hanesydd Thuanus hefyd am esiampl hynod o'r un peth. Thuanus, *Lib*. x, *p*. 221.

GWAEDD—I, (gwae) bloedd, llef, inglef, dolef, crochlef, garm, gawr, bonllef, dias, diaspad. Y mae gwaedd a gwaeddi yn arwyddo, 1. Pechadurusrwydd ac euogrwydd mawr. Gen. 18. 20.——2. Tristwch, galar, a gorthrymder mawr. Gen. 27. 34. Exod. 2. 23. a 3. 7. a 22. 23.——3. Taerineb mewn gweddi. 1 Sam. 7. 8, 9. Ps. 18. 6. a 84. 2. a 88. 1. a 120. 1. Diar. 2. 3.——4. Eiddigedd a digofaint yn erbyn gelynion, a bwriad i'w dystrywio. Esa. 42. 13.

GWAEL—ACH—AF, (gwa) *Gr.* *φαυλος*; *Llad*. VILLIS: salw, dibris, diystyr, diddefnydd, diffaeth. —'Gwaelach na'r ddaear oeddynt.' Job 30. 8. Mae y ddaear yn wael mewn cymhariaeth i ranau eraill o'r greadigaeth sy fwy goruchel a dysglaer; ond y mae pechaduriaid ynddi yn waelach na'r peth gwaelaf. Y mae pechod yn darostwng dyn i'r gradd iselaf.

'Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni.' Phil. 3. 21. *Gr.* *σωμα της ταπεινωσεως ημων*, *corph ein darostyngiad*, mewn cyferbyniad â *τω σωματι της δοξης αυτου*, *corph ei ogoniant*. Corph gwael yw, trwy bechod; mae y corph fel yr enaid wedi pechu, ac wedi ei lygru yn fawr; a thrwy hyny yn ddarostyngedig i wendidau, gofidiau, a dyoddefiadau; y mae yn wan, yn llygredig, ac yn farwol. Y mae *corph ei ogoniant ef* yn gryf, yn anllygredig, yn anfarwol, ac yn dra gogoneddus: 'Fe newidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef.' Dyrchafiad mwy ni ddichon fod iddynt!

'Edrychodd ar waeledd ei wasanaethyddes.' Luc 1. 48. 'Ar iselder ei wasanaethyddes.' W. S. Ar *iselder*, ar *waeledd*: nid oedd yn gweled dim ond gwaeledd ynddi ei hun, yn ei pherson a'i hamgylchiadau, pan yr edrychodd Duw arni, ac yr anrhydeddodd hi mor fawr.

'Efe a edrych ar weddi y gwael.' *Heb.* ערער *un wedi ei yspeilio, a'i hollol ymddifadu o bob peth.* Ps. 102. 17.

GWAELOD—ION, (gwael) llawr, gwaddod, sylfaen, llorion.—'Gwaelodion y ddaear,' yw parthau isaf y ddaear: 'gwaelodion y môr,' yw gorddyfnder y môr, anoddyn y môr. Exod. 15. 5. 2 Sam. 22. 16. Job 36. 30.

GWAERED—YDD, (gwaer) disgynfa, llethr, gorwaered.—I waered, ar i waered, ac ar waered.——'Canys ni adawsânt iddynt ddyfod i waered i'r dyffryn.' Barn. 1. 34.

Ni bydd allt heb *waered*. *Diar.*

Digitized by Google

GWAETH, (gwa) llai da.—'Drwg-ddynion a thwyllwyr a ânt rhagddynt waeth-waeth, gan dwyllo a chael eu twyllo.' 2 Tim. 3. 13. Nid oes dim gobaith am eu gwellhad, ac nid arosant ychwaith fel y maent, ond gwaethygant o hyd ynddynt eu hunain, a byddant rhagor melldith i eraill; y maent yn cael eu twyllo gan y diafol, ac yn offerynol yn ei law i dwyllo eraill; a bydd eu diwedd yn waeth na'u dechreuad. 2 Petr 2. 20. Tebygol fod graddau mewn drygioni yn mhlith y cythreuliaid, ond i gyd am wneuthur y niweid mwyaf i ddynion. Dygodd yr ysbryd aflan gyd âg ef saith ysbryd gwaeth nag ef ei hun, i'r dyben o wneuthur mwy o ddrwg. Mat. 12. 45.

GWAG—LAW—LE, GWEIGION, (gwa) gweili, gweilydd; anolo, coeg, ofer, seithug.—'Y mae yn ei gael yn wag.' Mat. 12. 44. *σχολαζοντα, Scil. τον οικον*, cafodd y tŷ yn wag o drigiannydd, ac wedi ei ysgubo a'i drwsio, ac, fel hyny, yn addas drigle iddo. Y mae yn rhaid bod yr enaid hwnw mewn cyflwr gwael ac echryslawn, ag y mae y diafol yn gael yn addas breswylfa iddo ei hun.——'Yn waglaw,' hyny yw, heb rodd, heb bob peth daionus. Luc 1. 53. Ruth 3. 17. Exod. 23. 15. 1 Sam. 6. 3.——'Pethau gweigion,' *των ματαιων*, pethau ofer, diles, disylwedd. Act. 14. 15.

GWAGEDD, (gwag) gwagder; ofregedd, ffrec.—1. Peth gwag, diddefnydd. Preg. 1. 2.——2. Cyfnewidiol a llygredig. Rhuf. 8. 20.——3. Drygioni, oferedd, celwydd. Ps. 119. 37. a 4. 2. a 12. 2.——4. Eilunod, y rhai nid ydynt dduwiau, ond pethau gweigion, ofer, a diles. 1 Bren. 16. 13. Act. 14. 15. Jonah 2. 8. Esa. 41. 29.——'Ac efe a estyn arni linyn annhrefn, a meini gwagedd.' Esa. 34. 11. Noda, megys â llinyn, y lle a deflir i annhrefn; ac â meini, neu blymen, y lle sydd i fod yn wag, yn anrheithiedig, heb breswylydd. Cymh. Zech. 1. 16. a 4. 9, 10. Galar. 2. 8. 2 Bren. 21. 3.——'Ac i'r cenedloedd ymddiffygio am wir wagedd;' am beth diles, yr hyn y mae Duw yn sicr o ddystrywio. Hab. 2. 13.

GWAG-OGONEDD—IANT, (gwag) Gwag-ogoniant, yw ymogoneddu mewn pethau gwag, disylwedd, sef pethau darfodedig y ddaear, neu glod dynion.—'Na fyddwn wag-ogoneddgar.'—Na wneler dim trwy gynhen, neu wag-ogoniant.' Gal. 5. 26. Phil. 2. 3. Tymher ac agwedd ydyw hon cwbl groes i wir ostyngeiddrwydd, a thybied eraill yn well na ni ein hunain, ac yn arwydd o galon wag, ansanctaidd, didduw. Gogoniant gwag yw pob gogoniant ond a roddo Duw; ac yn y mwynhad o hono, iddo ef yn unig y mae y clod yn perthyn.

GWAG-SIARADUS, (gwag-siarad) brngaldio; baldorddi, dwndro; ffreg-siarad, ffregodi; siarad yn segur ac yn wag yn erbyn rhyw un. *φλυαροι*, 1 Tim. 5. 13. *Saes. tattlers.*—'ofer-iaithus.' W. S. a Dr. M. Yn llawn berw a dadwrdd; un yn berwi drosodd gan siarad gwag, anadeiladol; clebrwr, clebran, dwndriwr.

GWAHAN—IAETH—U, (gwa-han) amrywiaeth, gwahanredoliaeth, parthiad; rhanu, didoli, neillduo.

Tri gwahaniaeth angenorfod rhwng dyn, a phob byw arall, a Duw; ing (neu *meidroldeb*) ar ddyn, ac nis gellir ar Dduw; dechre ar ddyn, ac nis gellir ar Dduw; ac angen newid cyflwr olynol ynghylch y gwynfyd ar ddyn, o anoddef bythoedd y ceugant, ac nis gellir ar Dduw, gan allu pob dyoddef, a hyny gan wynfyd. *Barddas.*

Nid oes dim gwahaniaeth rhwng dynion wrth naturiaeth, o ran eu cyflwr pechadurus a thruenus; ac nid oes dim gwahaniaeth rhyngddynt, o ran y ffordd iddynt gael eu hachub a'u cyfiawnhau. Rhaid iddynt oll gael eu cyfiawnhau trwy ffydd yn nghyfiawnder Crist, yr hwn sydd yn awr yn cael ei gyhoeddi yn yr efengyl i bawb, heb ddim gwahaniaeth. Rhuf. 3. 22. a 10. 12.

'Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist?' Rhuf. 8. 35. Y mae cariad Crist yn gadarn ac yn anghyfnewidiol; a chan na phalla cariad Crist, ni phalla dim sydd yn perthyn i iechydwriaeth ei bobl; deil y cariad trwy bob tywydd, ac a oruwchlywodraetha bob peth, nid yn unig i beidio gwneuthur niwed, ond i gydweithio er daioni. Rhaid i gyfnewidiad gymeryd lle yn ei fynwes ef, yr hyn sydd anmhosibl, cyn y pallo hi yma gyd â'i bobl. Os parha ei gariad, parha ei afael yn ei bobl; ac, yn ganlynol, cânt hwythau rym i wrthsefyll yn erbyn pob gelyn a phob profedigaeth. Yn nghariad anghyfnewidiol Crist y mae hyder yr apostol, ac nid yn ei ffydd na'i gariad ei hun. Y mae yn dra amlwg oddiwrth adn. 37, 39, mai cariad *Crist* at ei bobl a feddylir yma, ac nid eu cariad *hwy* ato ef. Nid yw eu cariad hwy ond effaith ei gariad ef; ni phery yr effaith heb yr achos; ond os pery yr achos, pery yr effaith hefyd.* Gwel Cocceijus, Ham.

'Ac efe a'i gwahana ef, ac a esyd ei ran ef gyd â'r rhagrithwyr,' Mat.—'gyd â'r anffyddloniaid,' Luc.—Mat. 24. 51. Luc 12. 46.—'Ac ei trycha ef ymaith.' W. S.—'Ac a'i tyr ymaith.' Dr. M.—*διχοτομησει*† *αυτον, a'i tyr ef yn ddwy ran.* Y gair a arferir gan y LXX. yn Exod. 29. 17. 'A thyr yr hwrdd yn ei ddarnau.' Lef. 1. 8. Ezec. 24. 4. Yr oedd tori yn ddarnau, neu gwneyd yn ddrylliau, yn gospedigaeth greulawn ofnadwy, ac yn arferedig yn mhlith y Caldeaid (Dan. 2. 5. a 3. 29.) a'r Hebreaid. 2 Sam. 12. 31. 1 Bren. 3. 25. 1 Sam. 15. 33. Barn. 19. 29. Hefyd yn mhlith yr Aiphtiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid.‡ Herodot. iii. 13. Diod. Sic. 1, 2. Sueton. Calig. 2. 27. *liv.* 1. 28.—Barna rhai mai tori trwy ffiangellu a feddylir yn y lleoedd hyn. Whitby, Doddridge, Parkhurst.—Barna eraill, ond yn ddisail, medd Dod, mai ei wahanu trwy ei dori o'i swydd a feddylir, yn cyfateb i'r gair *Heb.* נזר 2 Cron. 26. 21. Ps. 88. 5. Galar. 3. 54. Hyn, tebygol, oedd barn ein cyfieithwyr ni. Mae y geiriau, 'ac efe a gurir â llawer ffonod,' yn adn. 47. yn tueddu yr arwyddocâd yn fwy i ffiangellu, nag un gospedigaeth arall. Beth bynag am natur y gospedigaeth, y mae yn dra sicr y bydd cospedigaeth gweision, neu swyddwyr anffyddlawn, yn ddirfawr, ac yn ofnadwy.——Tafodau gwahanedig. Edr. TAFOD.

GWAHANGLWYF—US—OL, (gwahan-clwyf) *Heb.* צרעת *tarawiad: Gr.* λεπρα a λεπις, cèn; am fod yn yr afiechyd hwn fath o gèn, neu grach gwynion, fel eira, yn gorchuddio y croen. Gelwir ef y gwahan-glwyf, am fod y gwahan-glwyfus i gael ei wahanu oddiwrth gymdeithas â dynion eraill. Yr oedd y gyfraith hon yn cael ei chadw mor neillduol o fanwl, fel na byddai breninoedd gwahan-gleifion yn cael eu hesgusodi, ond yn cael eu neillduo a'u gwahanu oddiwrth ddynion, ac yn cael eu difreinio o'u swyddau. Am ryfyg Uzziah neu Azariah, yn arogldarthu yn y deml, Duw a'i tarawodd â'r gwahanglwyf yn ei dalcen, ac efe a drigodd mewn tŷ neillduol; canys efe a dorasid ymaith o dŷ yr Arglwydd, a Jotham ei fab a lywodraethodd, ac a farnodd y bobl yn ei le. 2 Bren. 15. 5. 2 Cron. 26. 20.—Byddent weithiau yn cymdeithasu â'u gilydd; megys y pedwar yn nyddiau Eliseus, a'r naw yn nyddiau yr Iachawdwr. 2 Bren. 7. 8. 2 Cron. 26. 20.

* Et isthuc, 'quæ est in Christo Iesu,' subandi exhibita, vel nititur, Satis evincit bis Apost. loqui de dilectione Dei, qua ipse nos diligit, non qua nos illum, etiamsi haec ab illa pendeat, et sit semper et juncta. Bucer.

† In duas partes seco, divido, separo. Fuit immanissmum supplicii genus, quo proditores aliique malefici plecti solebant. Mintert.

‡ Et Romanis receptum, quo necorum aut captivorum corpora media dissecabantur. Schleusner.

Digitized by Google

Y mae yr afiechyd hwn yn ymddangos yn y croen mewn cên, neu grach gwynion, sychion, naill ai dros yr holl gorph, neu ar rai rhanau; ac yn gyffredinol âg ysfa erwin, a gwyniau dolurus eraill yn ei ganlyn. Yr oedd y gwahan-glwyf dwyreiniol yn glwyf o'r fath ffieiddiaf, ac yn heintus (*contagious*) i'r gradd mwyaf, fel y byddai yn heintio ac yn llygru dillad a thai. Num. 12. 10, 12. Lef. 13. 47. a 14. 34, &c. Ac yr oedd yn anfeddyginiaethol trwy ddim moddion naturiol, neu gyfferiaeth ddynol. Rhoddir i ni hanes am arwyddion y clwyf dychrynllyd hwn yn Lef. xiii, xiv.

Yn y ddegfed neu yr unfed ganrif ar ddeg, yr oedd y clefyd hwn yn aml yn Ewrop. Dywed Matthew Paris fod naw mil o yspyttai i wahan-gleifion yn Ewrop, yr amseroedd hyny, y rhai a elwid *Lazarettoes*: ond yn bresennol yn anaml y gwelir ef, os nad ydyw y clwyf drwg, neu y chwantach-glwyf (*venereal disease*) yn rhyw fath o hono; y mae M. Tournefort yn barnu hyn yn sicr, yr hwn a welodd amryw wahangleifion yn y Levant. Gwel Calmet. Yr oedd yr Iuddewon yn golygu yr afiechyd hwn fel barn Duw ar ddyn am ryw fai ysgeler. Mae yn sicr fod yr Arglwydd yn taro dynion â'r gwahan-glwyf yn amlwg am eu beiau, megys Miriam, Gehazi, Uzziah, &c. Num. xii. 2 Bren. v. 2 Cron. xxvi.

Yr oedd yn mhob ystyr yn arwyddocaol o bechod, gwreiddiol a gweithredol, yn ei effeithiau ffiaidd, adgas; ei heintusrwydd a'i anfeddyginiaetholrwydd.

Yr oedd llawer o ddefodau i'w gwneuthur wrth lanhau y gwahan-glwyfus. Yr oedd yr offeiriad i edrych arno, ac os barnai ef fod y clwyf yn iachâu, yr oedd i gael ei daenellu seithwaith â choed cedr, ysgarlad, ac isop, wedi eu trochi yn ngwaed aderyn wedi ei ladd. Edr. Adar. Y seithfed dydd yr oedd i eillio ei holl flew, a golchi ei ddillad a'i gnawd mewn dwfr glân. Yr wythfed dydd yr oedd aberth i'w aberthu drosto, ac yr oedd gwaed yr aberth i gael ei roddi gan yr offeiriad ar gŵr isaf ei glust ddehau, ar fawd ei law ddehau, a bawd ei droed dehau; yr oedd i ddodi olew yr un fath ar ol y gwaed, ac yr oedd yr olew i gael ei daenellu saith waith o flaen yr Arglwydd. Gwel Lef. xiv.

Yr oedd y cwbl yn cysgodi glanhâd pechadur trwy dywalltiad a thaenelliad gwaed Crist. Heb. 9. 19. 1 Ioan 1. 7. 1 Petr 1. 19. 1 Cor. 6. 11. At hyn y mae Dafydd yn cyfeirio yn Ps. 51. 7.

Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn feddyg i'r clwyf ffiaidd hwn, ac yr oedd gair o'i enau, yn ddigon i'w symud ymaith yn gyflawn yn y fan. Mat. 8. 2. Luc 5. 12, 13. a 17. 12. Rhoddodd yr un gallu ac awdurdod hefyd i'w apostolion. Mat. 10. 8.

GWAHANLEN. Edr. Llen.

GWAHARDD—ODD, &c. (hardd) gwarafun, attal, rhagod, lluddias, rhwystro, llestair. Gen. 39. 9. Num. 11. 28. Mat. 19. 14. Luc 6. 29. 1 Tim. 4. 3. Edr. Priodi.

GWAHODD—EDIG—ION, (gwa-hawdd) dymuniad, gwys; deniad, annogiad; galwad, cyfarch, denu, annog, peri. Y mae galwad yr efengyl ar bechaduriaid yn cael ei enwi yn wahodd: y mae Duw ynddi yn denu, yn annog, ac yn peri iddynt ddyfod yn y modd mwyaf serchog a thirion, i gyfranogi o'r bendithion a barotodd efe yn Nghrist. Y mae pob annogaeth i'r gwaelaf ddyfod, a'r perygl mwyaf i neb anufuddhau i'r galwad. Nid yn unig mae yn ynfydrwydd ac yn golled fawr, ond hefyd yn bechod mawr; yn cynnwys ynddo ddiystyrwch o Dduw, yn ei gariad a'i raslonrwydd mwyaf. Diar. 1. 24. Mat. 22. 3. Luc 14. 24. Edr. Galw.

GWAIN, (gwa-in) mên, certwyn; gwain cleddyf, sef amwisg cleddyf. 1 Sam. 17. 51. Ezec. 21. 3, 30. Ioan 18. 11.

GWAIR, GWEIRIAU, (gwa-ir) gweir-wellt, dôlwellt, gwyran.—Gwair rhos; gwair gwndwn; gwair bras; brag-wair; ton-wair; gwair hallt, sef gwair oddiar forfëydd a ddylifir gan y môr.

'Y gwair a flaen-dardda.' Diar. 27. 25. חציר *gwellt, llysiau.* Y mae y cyfieithiad yn dra anaddas; canys nid ydynt yn gwneyd gwair yn y gwledydd hyny.*——'Ac wele adladd wedi lladd gwair y brenin.' Amos 7. 1. Gan nad ydynt yn lladd nac yn cyweirio gwair yn y gwledydd hyny, barna Harmer mai *pori i lawr* a ddylai y cyfieithiad fod; *gwedi pori i lawr wair y brenin.*——'Coed, gwair, sofl.' 1 Cor. 3. 12. Edr. Aur.

GWAITH, GWEITH—IO—RED—U—IAD—AU, GWEITHREDOEDD, GWEITHIWR—WYR—YDD, (gwai) gweithred, gorchwyl, perwyl, llafur, poen, cylch, peth, tro; y waith hon, sef y tro hwn. Gen. 18. 32. Felly unwaith, dwywaith, &c. 1. Llafur bydol, daearol, yr hyn a ellir ei weithredu y chwe diwrnod. Exod. 20. 9.——2. Unrhyw weithrediad ar feddwl, gair, neu weithred. Preg. 12. 14.——3. Gweithred anghyffredin, neu wyrthiol. Ioan 7. 21. Mat. 11. 2. Luc 24. 19.——4. Gweithred yn wahanieithedig oddiwrth eiriau. Rhuf. 15. 18. 1 Ioan 3. 18.——5. Gorchwyl, swydd, gorchwyliaeth. Ioan 17. 4. Act. 13. 1, 2. 1 Tim. 3. 1. 2 Tim. 4. 5.——6. Galwedigaeth, marchnadaeth. Dat. 18. 17.

Gwaith Duw, yw y gwaith y mae efe ei hun yn ei weithredu, neu yn ei orchymyn i ni i'w weithredu. Y gwaith mae efe yn ei weithredu ei hun, 1. Yw gwaith y greadigaeth. Gen. 2. 2. Heb. 1. 10. a 2. 7.——2. Rhagluniaeth a chynnaliaeth. Ioan 5. 17. Esa. 5. 19.——3. Prynedigaeth ac iechydwriaeth yr eglwys. Ioan 9. 4. Hab. 3. 2. Dyma ei weithredoedd mawrion a rhyfedd. Deut. 15. 3. 1 Cor. 16. 12.

'Cofia fawrhau ei waith ef.' Job 36. 24. Yr ydym yn mawrhau gwaith Duw pan fyddom yn mawrhau Duw yn ei waith; yn chwilio ei waith i fanylrwydd, i gael ei adnabod ynddynt a thrwyddynt; yn ymostwng iddo yn ei holl ragluniaethau tu ag atom, gyda pharch dyladwy iddo; pan fyddom yn ateb dyben ei weithredoedd tu ag atom. Gwel Caryl ar y lle.

Y mae holl weithredoedd Duw yn addas i'w fawredd, ac yn amlygu ei allu a'i Dduwdod; ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd; ei ddoethineb a'i ddaioni, a'i berffeithiau anfeidrol. 'Perffaith yw ei weithred,' yn addas i'r Duw perffaith sydd yn gweithredu. Deut. 32. 4. Ps. 86. 8. a 111. 2. a 145. 10, 17. Ond nid ydyw yn gymhwys barnu gwaith nes y byddo gwedi ei orphen, ac heb adnabod yn gyflawn holl ddybenion y gweithiwr ynddo. Nid oes neb yn gymhwys i farnu gwaith Duw, ond efe ei hun, gan na ddichon un creadur amgyffred holl gywreinrwydd ei waith, a'i holl amcanion a'i ddybenion ynddo. Y mae bod ei waith yn ei foddhau ei hun, yn rhoddi y ganmoliaeth fwyaf a ddichon fod iddo.

Gwaith Duw, a gwaith Crist, hefyd, ydyw y gwaith gorchymynedig i ni gan Dduw, ac mae efe yn nerthu ei bobl i'w gyflawni. Ioan 6. 29. 1 Cor. 15. 58. a 16. 10. Phil. 2. 30.

Gwaith Duw yw credu—efe sydd yn gorchymyn i ni gredu yr hwn a anfonodd efe; ac ni ellir peidio credu heb anufuddhau i'r awdurdod mwyaf goruchel, yn ei diriondeb a'i ddaioni mwyaf; gweithrediad Duw yw gwir ffydd, efe sydd yn nerthu i gredu. Col. 2. 12. Rhuf. 4. 20.

Y mae gweithredoedd dyn yn *dda* neu yn *ddrwg.* Gweithredoedd da ydyw y rhai hyny sydd yn ofynedig gan Dduw, yn tarddu o egwyddor a dyben union; sef o ufudd-dod a pharch i Dduw; yn un â'i gyfraith *dda*; yn llesol i ni ac eraill. Gelwir hwynt, ἐργα

* Maundrell's *Journey, p.* 144, adargraffiad.—Harmer's *Obs., Vol.* i, *p.* 425.



Digitized by Google

αγαθα,* *gweithredoedd dwyfol*, rhyfedd, *yn peri gorfoledd a llawenydd*. Act. 9. 36. 2 Cor. 9. 8. Eph. 2. 10. Col. 1. 10.—*τα καλα εργα*, *gweithredoedd hardd*, *defnyddiol*, *dymunol*. Tit. 2. 14. Mae y gwrthwyneb yn cael eu galw, *τα εργα τα πονηρα*, *gweithredoedd llafurus*, *gofidus*. Ioan 3. 19. Col. 1. 21.—*νεκρα*, *meirwon*, yn cael eu cyflawni gan ddynion meirwon mewn pechodau a chamweddau; ac yn tynu barn marwolaeth ar y gweithwyr o honynt. Heb. 6. 1. a 9. 14.—*του σκοτους*, *gweithredoedd y tywyllwch*, am fod pawb yn y tywyllwch, ac yn meddiant y tywyllwch, sef Satan, ag sydd yn eu gweithredu. Rhuf. 13. 12. Act. 26. 18.—*της σαρκος*, *gweithredoedd y cnawd*, am mai natur lygredig sydd yn eu gweithredu. Gal. 5. 19.—*τα ακαρπα*, *anffrwythlon*, am nad ydynt o lesâd i neb. Eph. 5. 11.

Fel y mae yn rhaid fod y pren yn dda cyn y byddo y ffrwyth yn dda, felly y mae yn rhaid i bechadur gael ei gymmodi â Duw trwy ffydd yn Nghrist, a'i sancteiddio trwy undeb â Christ, fel y derbynio o'i gyflawnder ef, a gras am ras, cyn y dygo byth ffrwythau da, sanctaidd, a chymeradwy gan Dduw. Ioan 1. 16. a 15. 4, 15.

Gan nad yw gweithredoedd da y duwiolion yn cael eu gweithredu dan y ddeddf fel cyfammod, nid yw eu gweithredoedd yn perthynu i'w cyfiawnhad ger bron Duw; y mae hyny yn gwbl yn perthynu i gyfammod arall, lle y mae gras yn teyrnasu trwy gyfiawnder, sef cyfiawnder Crist, i fywyd tragywyddol. Heblaw hyny, nid ydynt yn addas o herwydd eu hanmherffeithrwydd, y goreu o honynt, er cyfiawnhad. Y mae bod troseddwr yn cael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd, yn wrth-ddywediad mewn geiriau. Ond y mae gweithredoedd da yn amlygu, ac yn tystiolaethu, fod y cyflwr yn dda, a'r dyn yn gyfiawn; oblegid, 'Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, fel y mae yntau (sef Duw) yn gyfiawn.' 1 Ioan 3. 7, 10. a 2. 29.

Nid oes un prawf digonol gan ddyn fod ei ffydd yn gywir ac yn iachusol, os nad ydyw yn *gweithio* trwy gariad; ac y mae annogaethau lawer yn yr ysgrythyrau i'r duwiolion fod yn gyfoethog ac yn helaethion yn wastadol mewn gweithredoedd da. 1 Tim. 6. 18. 1 Cor. 15. 58. Nid ydym yn helaethion mewn unrhyw waith, os gosodwn derfynau heblaw a osododd Duw i ni; nid oes un terfyn wedi ei roddi gan Dduw i weithredoedd da, ond 'amser cyfaddas;' Gal. 6. 10. 'a'n gallu.' 1 Cor. 16. 2. 2 Cor. 8. 2, 3. 'Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth.' Marc 14. 8.

'Gweithredoedd y ddeddf,' yw pa beth bynag y mae y ddeddf yn ei ofyn, neu yn ei orchymyn; a bod un o weithredoedd y ddeddf, yw ymddiried i'w ufudd-dod ei hun i'r ddeddf am gyfiawnhad; neu y mae y gyfraith yn ei ofyn. Gal. 3. 10. a 2. 16. Rhuf. 3. 20, 28. a 4. 2, 6.

'Gweithredoedd y diafol,' ydyw yr holl adeiladaeth fawr o bechod a thrueni, y mae y diafol, gyda chymaint cyfrwysdra, dichellion, diwydrwydd, a chreulonder, wedi ei chyfodi yma yn ein byd ni, yn mhlith plant dynion. I'r dyben i ddattod hon, a dymchwelyd holl lywodraeth y diafol yn y byd, yr ymddangosodd Mab Duw yn y cnawd. 1 Ioan 3. 8. Mat. 12. 29. Luc 10. 18. Ioan 12. 31. a 16. 11. Edr. CYFIAWNHAD, FFYDD, EILUN, BARN, CREADIGAETH, PRYNEDIGAETH.

GWAL—AU, (gwa-al) mur, rhagfur, amgaer; gwlad ddiwylliedig; lle cauedig, gwasgodfa; glwth, gwely, gwely llysiau; lloches, cut.—'Neu a leisia cenew llew o'i wâl heb iddo ddal?' Amos 3. 4. Dr. M.—'Ac yn ymestyn ar eu gwâl.' Amos 6. 4. Dr. M.

Cred i Ddaw
A'n rhoddes, dyfiau,
Gwen-wlad, *gwâl* oleu.

*Taliesin.*

GWALA, (gwal) llawnder, digonolrwydd, digonedd. Exod. 16. 3. Luc 15. 17. Dat. 19. 21.

GWALCH, GWEILCH, (gwal) cudyll, cudyll coch, hebog. Gwalch y weilgi, gwalch y penwaig. Y mae y gwalch yn aderyn craff ei lygad, cyflym ei ehediad, dewr, ac ysglyfgar. Yr oedd yn aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 16. Deut. 14. 15. Yr enw *Heb.* נץ a arwydda cyflymdra ei ehediad.—'Ai trwy dy ddoethineb di yr eheda y gwalch?' Job 39. 26. Y mae y gwalch yn hynod am ei gyflymdra, a pharhad ei ehediad; erys ar yr aden weithiau dair neu bedair awr. Hwyrach fod ei ehediad yn y lle hwn yn cyferio at ei fudiad tu a'r dehau yn ei amser; canys y mae y rhan fwyaf o'r rhyw hebogaidd yn adar tramwyol.

GWALLGOF—I, (gwall-cof) gwall-bwyll, annhrefn, cyfyng-gynghor, terfysg, aflonyddiad; ynfydu. Deut. 28. 34. Diar. 26. 18. 1 Sam. 21. 14. Jer. 25. 16. Y mae y gair שגע a gyfieithir *gwallgof*, yn cael ei gyfieithu *ynfyd*, 2 Bren. 9. 20.—*ynfydrwydd*, Zech. 12. 4.—*gorphwyllog*, Jer. 29. 26. Y mae barnedigaethau yn peri i ddynion wallgofi, pan y byddo eu gofidiau a'u gorthrymderau yn drymion, a hwythau heb amynedd danynt, ac heb un ffordd o ymwared yn ymddangos. 'Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw!'

GWALLT—AU, (gwall) briger, blew pen. Mae pob blewyn o'r gwallt yn cynnwys pump neu chwech o rai eraill, llai, gwedi eu huno â'u gilydd âg arwisg. Hefyd, y mae pob un yn geuol. Y mae gwallt i ddyn fel blew i anifeiliaid, er cynhesrwydd, ac er harddwch. Yn mhlith y Geli (*Gauls*) yr oedd gwallt liaes yn anrhydedd a harddwch mawr; am hyny y gelwid hwynt *Gallia Comata*, sef y *Geli Walltog*; a Julius Cæsar, pan ddarostyngodd hwynt, a barodd iddynt dôri ymaith eu gwallt, yn arwydd o'u darostyngiad. Gwaherddir i'r Iuddewon dalgrynu godrau eu penau, na thôri cyrau eu barfau, na gwneuthur moelni ar eu penau rhwng eu llygaid, dros y marw. Lef. 19. 27. a 21. 5. Deut. 14. 1. Yr oedd y defodau hyn, meddiant, yn arferedig yn mhlith yr Ammoniaid, y Moabiaid, yr Arabiaid, yr Edomiaid, &c. Dywedir fod yr offeiriaid yn cneifio eu gwallt, pan wasanaethent yn y deml, bob pythefnos. Nid oedd ellyn i fyned ar ben Nazarëad holl ddyddiau ei adduned:—'Sanctaidd fydd, gadawed i gudynau gwallt ei ben dyfu.' Ond pan gyflawnai ddyddiau ei Nazarëaeth, yr oedd i eillio ei ben wrth ddrws pabell y cyfarfod, a rhoddi blew ei ben ar y tân a fyddai dan yr aberth hedd. Num. 6. 5, 18. Tòrodd Samson ei adduned wrth eillio ei ben, am hyny y cymerodd yr Arglwydd ei fawr nerth oddi wrtho. Barn. xvi.

Yr oedd gwallt du yn arwydd o harddwch a grymusder. Can. 5. 11. Yr oedd gwallt gwyn* yn arwydd o henaint, synwyroldeb, parchedigaeth, ac arddercbogrwydd. Lef. 19. 32. Dan. ix. Dat. 1. 14. 'Ymdaenodd penwyni ar hyd-ddo, ac nis gwybu efe.' Hos. 7. 9. Yr oedd penwyni Ephraim yn arwyddo fod teyrnas y deg llwyth wedi ei gwanychu, yn llesgâu, ac yn barod i ddarfod. Yr oedd estroniaid, sef yr Assyriaid, yn benaf, wedi bwyta ei gryfder. 2 Bren. 13. 7. a 15. 19. Esa. 1. 7. a 42. 25.

'Dy wallt sydd fel dïadell o eifr, y rhai a ymddangosant o fynydd Gilead.—A gwallt dy ben fel porphor.' Can. 4. 1. a 7. 5. Y mae yr eglwys, yn ei haelodau,

* Αγαθος, ab α auctivo & γαθω lætor, gaudeo. Vel αγαστος, admirabilis, admirandus. Vel αγαν θειος valde divinus. Vel αυτου του αγαν θεειν, a valde currendo, quia omnes ad bonum currunt, *i. e.* expedunt. Mintert.

* *Albi capilli*, mystice significat, ejus tum æternitatem tum majestatem. Vitringa *in Apoca.*, *ch.* 1, 14.

Digitized by Google

fel gwallt yn aneirif—yn cynnyddu, ac yn derbyn magwriaeth o Grist eu Pen. Yn weiniaid ynddynt eu hunain, ac yn cael eu cynnal ganddo fel eu Pen; ac yn hardd-wch ac yn ogoniant iddo. 'Fel porphor,' yn ardderchog, ac yn hardd, yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw; yn gochion, trwy ymolchi yn ngwaed Crist, a'u dyoddefiadau drosto. Edr. EILLIO, PORPHOR.

'Y mae hyd yn nod blew (neu wallt) eich penau chwi yn gyfrifedig oll.' 'Ni chyll blewyn o'ch pen chwi.' Luc 12. 7. a 21. 18. Mat. 10. 30. Y mae y geiriau yn dangos manylrwydd gofal Crist am ei bobl; y mae y peth gwaelaf perthynol iddynt dan ei neillduol sylw, ac yn ei gadwraeth.

'Amlach na gwallt y pen,' a arwydda, yn aneirif. Ps. 40. 12. Felly yr oedd y pechodau a roddwyd ar Grist, fel mechnïydd ei bobl, ac a ddygodd yn ei gorph ar y pren. 1 Petr 2. 24.

Y mae 'gwallt llaes' yn waharddedig i ddyn, am ei fod yn arwydd o ddyn masw, merchedaidd. Yr oedd meibion a merched yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn fwy wrth hŷd eu gwallt nag oddiwrth eu gwahanol wisgoedd. Ond y mae gwallt llaes i wraig yn orchudd, ac yn arwydd o'i darostyngiad, am hyny yn weddaidd ac yn hardd. 1 Cor. 11. 14, 15.

Y mae 'gwallt plethedig' yn waharddedig, fel yn anweddus i rai yn proffesu duwioldeb, ac yn anghytun â gwylder a sobrwydd. 1 Tim. 2. 9. 1 Petr 3. 3. Y mae y gwallt plethedig yn arwydd o falchder ac anlladrwydd, am hyny yn arferedig gan ferched anllad, puteinllyd. Schleusner's *Lexicon*, dan y gair *Πλεγμα*.

GWAMMAL—DER—RWYDD—U, (gwam-bal) anwastad, anwadal, ansefydlog.—'Oferwyr gwammal,' Barn. 9. 4. אנשים רקים ופחזים *Dynion gwag ac ansefydlog*, sef gwag o synwyr, a gwag o dduwioldeb; y rhai a elwir 'ofer ddynion,' yn 2 Cron. 13. 7. Dynion ofer, gwag, ansefydlog, ac afradlon; heb dduwioldeb, heb synwyr, ac heb alwedigaeth sefydlog; ond yn byw ar ddrygioni, ac yn barod i bob gweithred ddrwg.

'Ac â llygaid gwammal.' Esa. 3. 16. 'Ac yn amneidio â'u llygaid.' Dr. M. 'Gwedi gorliwio eu llygaid.' Esgob Lowth. Mae dynion yn pechu â'u llygaid, ac mae balchder ac anlladrwydd yn ymddangos ynddynt. 2 Petr. 2. 14. Y mae llygaid gwammal yn groes i lygaid yn edrych yn uniawn, Diar. 4. 25.—i lygaid colomenaidd, Can. 5. 12.—i lygaid dan ammod, Job 31. 1.

GWAN—U, (gwa-an) trywanu, brathu, treiddio, tyllu. Yr oedd gwânu yn rhan o ddyoddefiadau Crist: 'un o'r milwyr a wânodd ei ystlys ef â gwaewffon.' —'Edrychant arnaf fi yr hwn a wânasant. Zech. 12. 10. Dat. 1. 7. Ioan 19. 34—37. Gwânu, yn y lleoedd hyn, a arwydda *holl* ddyoddefiadau yr Iachawdwr, ac yn gosod allan ei arteithiau dwys, a'i ofidiau mawrion. Ps. 22. 16.——'Ac a'u gwânasant eu hunain â llawer o ofidiau.' 1 Tim. 6. 10. Esmwythder a hawddfyd y mae dynion yn eu golygu wrth geisio golud, ond twyll cyfoeth yw hyn; y mae y rhai hyny sydd yn chwannog iddi yn sicr o gael eu siomi; yn lle esmwythder cânt lawer o ofidiau.

GWAN—ACH—HAU, GWEINIAID, (gwa) llesg, egwan, dirym; gwanychu, digaloni. Y mae gwan a gwendid yn cael eu priodoli i'r corph, neu ysbryd dyn, neu ei amgylchiadau; ac a arwydda weithiau ychydig nerth; weithiau bod yn hollol ddirym ac analluog. Y mae gwendid yn naturiol yn perthyn i bob creadur o'i ran ei hunan; ac ni fedd nerth ond a dderbynio yn wastad yn mhob ystyr. Nid oes neb o hanfod ac o angenrheidrwydd yn nerthol ac yn gadarn, ond Duw; nid oes dim gwendid ynddo ef; mae yn gadarn ynddo ac o hono ei hun; ac mae nerth pob creadur yn ddeilliedig o hono, yn mhob gradd ac amrywiaeth o hono. Y mae gwendid yn cael ei briodoli i'r Arglwydd o ran barn dynion am dano, a'r moddion y mae yn eu defnyddio i gwblhau ei amcanion. Y mae trefn iechydwriaeth trwy angeu Crist ar y groes, a'r pregethiad o hono i bechaduriaid, a'r offerynau sydd yn ei bregethu, yn bethau gwael, distadl, yn ngolwg dynion, i achub a sancteiddio dynion; ond mae gwendid Duw yn gryfach na dynion, hyny yw, y mae ei drefn ef, er ei dirmygu gan ddynion, yn rhagori ar holl ddychymygion y dynion doethaf, ac a ateb y dyben i gyflawni ei amcanion yn ogoneddus, mewn perthynas i iechydwriaeth ei eglwys. 1 Cor. 1. 25.

Fe groeshoeliwyd Crist 'o ran gwendid.' 2 Cor. 13. 4. Ei wendid oedd ei natur ddynol, a'r holl iselder dyoddefiadau, profedigaethau, a gwaradwyddiadau, yr amgylchynwyd ef â hwynt; croeshoeliwyd ef yn y gwendid dirfawr hwn; 'etto byw ydyw trwy nerth Duw,' sef y Person Dwyfol yr oedd y natur ddynol mewn undeb âg ef. Yr oedd yn alluog ac yn nerthol i fyned trwy ac i orchfygu y cwbl. Y mae yn fwy rhyfeddol ei fod *Ef* yn fyw na neb arall; ac o ran ei fod ef, y mae neb arall yn fyw: trwy nerth Duw y mae hyny.

Y mae y ddeddf yn wan trwy y cnawd, sef pechod; ac yn hollol analluog, ac yn annigonol i gyflawnhau ac i sancteiddio pechadur. Deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu, *yn unig*, sydd yn rhyddhau pechadur oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth. Rhuf. 8. 2, 3, &c.

Y mae yr Ysbryd Glân 'yn cynnorthwyo ein gwendid ni.' Rhuf. 8. 26. Y mae gwendid yn perthyn i'r goreu o ddynion; yr ydym oll wedi ein hamgylchu â gwendid—sef gwendidau naturiol a moesol; dyoddefiadau a phechodau. Nid oes neb o hono ei hun yn abl ymgynnal danynt, nac ymunioni o honynt. Gwaith yr Ysbryd Glân yw cynnorthwyo a chynnal ei bobl dan eu gwendidau, a'u gwared hwynt yn gwbl o honynt. Ps. 51. 11, 12. a 143. 10. Y maent yn wan yn mhob gwaith, yn mhob dyledswydd, a than bob croes, ac yn wyneb pob gelyn, ond fel y cynnorthwya efe hwynt; ond y mae efe yn gwbl addas, ac yn ddigonol i'r gwaith, ac yn ffyddlawn iddynt yn nghanol eu gwendidau.

'Nyni y rhai ydym gryfion, a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid.' Rhuf. 15. 1. 'Nyni yr ei cedyrn a ddylem ddwyn gwendit yr ancedyrn.' W. S. a Dr. M. Dylem ymddwyn yn amyneddgar ac yn garedig tu ag atynt er eu gwendidau, ac ymdrech am eu cynnal, eu cryfhau, a'u meddyginiaethu. Y mae cyfeiriad yn y geiriau at deithwyr yn cyd-ymdaith; os bydd i un o honynt gloffi, neu wanychu, i'r lleill i'w gynnal, nes ei ddwyn ef i orphwysfa, i gael ymgeledd ac adnewyddiad. Rhuf. 14. 1, 2. 1 Cor. 9. 22. a 10. 33. Phil. 2. 3, 4. Exod. 23. 5.

'Pan wyf wan, yna yr wyf gadarn.' 2 Cor. 12. 10. Yn nyfnderoedd ei gyfyngderau a'i drallodion, a phan yr ydoedd efe fwyaf profiadol a theimladwy o'i wendid, yna yr oedd Crist yn perffeithio ei nerth yn ei wendid; 'yn llawen iawn, gan hyny,' medd ef, 'yr ymffrostiaf fi yn fy ngwendid, fel y preswylia nerth Crist ynof fi.' Adn. 9. Rhaid i ni leihau, i Grist gynnyddu ynom; ac yn ol y gradd y byddom ni yn ddim y bydd Crist yn bob peth i ni.

'Oblegid gwendid eich cnawd chwi;' (Rhuf. 6. 19.) sef oblegid eich cnawd, neu eich llygredd, yr hwn sydd yn eich gwanhau, ac yn peri eich bod yn weiniaid.—— Gwendid, weithiau, a arwydda bod yn hollol ddirym. 1 Cor. 15. 43—'Gwan yn y ffydd—cydwybod wan.' Edr. FFYDD, CYDWYBOD.

GWANAR, (gwân) tueddu yn mlaen; arwain, arweinydd.

Eich unig Dduw a'ch *Gwanar*.
*E. Prys*, (Ps. 46. 10.)

GWANC—US, (gwang) awydd i fwyd; aflerw, bwyteig, diwala am fwyd.—'A elli di lenwi gwanc

Digitized by Google

cenawon llewod?' Job 38. 39. Geill Duw wneuthur hyn, ac y mae yn gofalu am danynt.

GWAR—DER, (gwa-ar) dôf, llonydd, llariaidd, esmwyth.—Defaid gwâr; sef defaid llonydd, mwynaidd, llariaidd. Ps. 44. 11. E. Prys.——'Attolygaf ywch er gwarder a chymesurdap Crist.' 2 Cor. 10. 1. W. S.

GWAR—AU, GWAR-SYTH, GWAR-GALEDRWYDD, (gw-ar) gwegil; ysgwydd; tyllgorn y gwegil, pillgorn y gwegil. Mae y gair gwâr yn cael ei arferyd yn y Bibl, gan ein cyfieithwyr ni, am y cefn, yr ysgwydd, a'r gwddf. Exod. 23. 27. Jos. 7. 8. Ps. 75. 5. Mae caledu y wâr—bod yn wâr-galed—a gwâr-galedrwydd, yn arwyddo parhau yn gyndyn, ac yn anufudd, er pob rhybuddion, cynghorion, a cheryddon. Nid yw yr enw hwn o wâr-galedrwydd ddim yn cael ei briodoli i neb ond i genedl Israel, y rhai oeddynt yn cyndynu â Duw, ac yn anufudd iddo, er ei holl diriondeb tu ag atynt, yn ei drugareddau, ei rybuddion, a'i geryddon. Exod. 32. 9. a 33. 3, 5. a 34. 9. Deut. 10. 16. 2 Cron. 30. 8. Act. 7. 51. Jer. 7. 26. ——Dywedyd yn wâr-syth, yw dywedyd yn falch, ac yn ben-uchel. Ps. 75. 5.

GWARADWYDD—IAD—AU—O—US, (gwaradgwydd) gwarth, gwarthrudd, cywilydd; gwaradwyddo, edliw, edliwied, lliwied. Gwarth, neu enw anmharchus, ar un yn anhaeddiannol, neu yn enllibiol ac yn genfigenus. Un ffordd sydd gan elynion Crist yn mhob oes o erlid ei bobl a'i achos, ydyw eu gwaradwyddo, a dywedyd pob drygair am danynt hwy yn gelwyddog. Mat. 5. 11. Cafodd Crist ei hun ei ran yn helaeth o hono, yn ei ddarostyngiad a'i ddyoddefiadau; ond 'ni chuddiodd ei wyneb oddiwrth waradwydd a phoeredd,' ond diystyrodd waradwydd, trwy roddi ei hun iddo yn ewyllysgar, yn ei waith yn aberthu ei hun dros ei bobl. Esa. 50. 6. Heb. 12. 2. Mae ei waradwydd *Ef* ar ei bobl, a'u dyledswydd yw ei ddwyn yn ddiddig, ac yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddyoddef anmharch o achos ei enw ef. Heb. 11. 26. a 13. 13. Act. 5. 41.

Ni waradwyddir neb sydd yn ymddiried yn yr Arglwydd, ac yn glynu wrtho, yn y diwedd, ond anrhydeddir a gogoneddir hwynt byth; ond gwaradwyddir eu holl elynion yn dragywyddol, a hyny yn gyfiawn, am fod achos cyfiawn eu gwaradwydd ynddynt eu hunain. Bydd eu pechodau cywilyddus eu hunain yn eu gwneuthur yn waradwyddus ac yn ddirmygedig. Ps. 97. 7. a 129. 5. Diar. 14. 34. Hos. 12. 14.

Yr ydoedd bod yn anmhlantadwy yn waradwydd yn mhlith gwragedd yr Hebreaid, am eu bod, trwy hyny, yn ddigynnorthwy i amlhau hâd Abraham, yn ol yr addewid, ac yn eu hamddifadu o'r anrhydedd o fod yn un o hynafiaid y Messïah. Luc 1. 25. Gen. 30. 23. Esa. 4. 1.

'Gwaradwydd yr Aipht,' oedd dienwaediad, fel yr oedd yn y dyddiau gynt yn nodi dynion yn estroniaid i ammodau yr addewid, fel yr Aiphtiaid; a hwyrach hefyd i Israel esgeuluso enwaedu ar eu plant tra yn yr Aipht, a chyd-ffurfio â'u defodau eilun-addolgar. Jos. 5. 9. Ezec. 23. 3, 8. Eph. 2. 11, 12. Edr. Anmharch, Gwarth, Cabledd, Enllib.

GWARAFUN—O—ODD, (gwa-rhafun) *Heb.* כרע gwahardd, lluddias, rhwystro, llestair, rhagod; attal trwy air neu weithred. Mat. 3. 14. 2 Thes. 2. 16. Act. 16. 6.

GWARCHAE—EDIG—AETH, (gwar-cau) cau i mewn, argau; cylchynu, amgylchynu. Deut. 28. 52, 53. a 32. 36. Zech. 14. 2. Ezec. 4. 8.

GWARCH-DWR, (gwarch-twr) twr i warchae ar ddinas.—'Gwarchaeaf i'th erbyn mewn gwarch-dwr.' Esa. 29. 3. Cyfieitha rhai y gair מצב *llu sefydlog*; sef yn amgylchu; neu gwrth-glawdd. Luc 19. 43. a 21. 20.

GWARCHEIDWAD, (gwarch-cadw) gwyliedydd, golygwr, gwarchawdwr.—'Efe a roddes ei winllan at warcheidwaid.' Can. 8. 11. Y winllan yw yr eglwys, a'r gwarcheidwaid yw gweinidogion yr efengyl. Esa. 21. 11, 12. Edr. Gwinllan.

GWARCH-GLAWDD, (gwarch-clawdd) amgaer, amglawdd, gwrth-glawdd, gwarch-dwr, llys-lyn. Yr oedd yn waharddedig i Israel, pan warchaëent ar ddinas, i dori prenau ymborth i adeiladu y gwarch-glawdd yn ei herbyn hi. Deut. 20. 19, 20. Ezec. 4. 2.

GWARCHOD, (gwarch) cadw, gwylied, dysgwyl, bwrw golwg, gwarchadw.—'Gan warchod wrth byst fy mhyrth i.' Diar. 8. 34. לשמר *yn cadw, yn dysgwyl,* wrth y pyrth, yn ddyfal, a chyda diwydrwydd. ——'Gwarchod y tŷ.' 1 Tim. 5. 14. οικοδεσποτειν, *llywodraethu y tŷ*, a threfnu holl achosion y teulu. ——'Yn gwarchod gartref.' Titus 2. 5. οικουρους, *yn aros yn tŷ*, ac yn gofalu am achosion y teulu. Yn aros yn tŷ, ac yn iawn drefnu a llywodraethu holl achosion perthynol iddo. Y mae y gair yn gynnwysfawr, ac yn gosod allan holl ddyledswydd gwraig yn ei thŷ a'i theulu.

GWARED—U—YDD—IGION—WR, (gwar) cadw, achub, noddi; arbed; rhyddhau; pryniawdwr, noddwr, achubwr. Y mae y geiriau gwared, a gwaredwr, yn arwyddo bod rhyw un, neu ychwaneg, mewn cyfyngder, caledi, neu gaethiwed, ac yn analluog i ryddhau eu hunain o hono. Y cyfryw waredwr oedd Moses i Israel, yr hwn a anfonodd Duw yn llywydd ac yn waredwr iddynt, pan yr oeddynt hwy yn y caethiwed yn yr Aipht. Act. 7. 35. Yn yr amrywiol oesoedd, cyfododd Duw waredwyr i'w bobl pan yr ydoedd cyfyngder arnynt; megys Josuah, Gideon, Jephthah, Samson, &c. Yr oedd yr holl waredwyr hyn yn gysgod o'r Gwaredwr mawr, Iesu Grist, i'r hwn y perthyn yr enw Gwaredwr, mewn ffordd o enwogrwydd neillduol, rhagor pawb eraill. Nid oes un Gwaredydd cyflawn a thragywyddol ond efe, Y mae efe yn gwbl addas o ran ei Berson, fel Duw-ddyn, ac o ran ei osodiad yn ei swyddau, i fod yn Waredwr cyflawn a digonol. Gwaredydd yw ei enw, ac mae yn sicr o ateb i'w enw. Esa. 63. 16. Jer. 50. 34. Gan fod yr enw Gwaredwr yn cael ei briodoli iddo, heb ei gyfyngu at un peth yn fwy na'i gilydd, y mae gan hyny, yn Waredydd cyffredinol i'w bobl oddiwrth *bob* drwg, ac o ddwylaw eu *holl* elynion; sef oddiwrth bechod—y digofaint sydd ar ddyfod—o feddiant y tywyllwch—oddiwrth gorph y farwolaeth—oddiwrth ofn angeu, trallodion, gorthrymwyr, &c. Mat. 1. 21. a 6. 13. Col. 1. 13. Rhuf. 7. 24. a 11. 26. Ps. 31. 15. a 34. 4, 17, 19. a 39. 8. a 119. 134. a 142. 6. Diar. 23. 11. 1 Thes. 1. 10. Heb. 2. 15. Enw a roddir ar ei bobl ydyw 'gwaredigion yr Arglwydd;' sef y rhai a ddewisodd ac a waredodd efe o'u trueni mawr, o'i rad gariad a'i drugaredd atynt. Ps. 107. 2. Esa. 35. 9, 10. a 51. 10, 11. a 62. 12. a 63. 4. Gwaredodd hwynt trwy eu prynu â'i waed; trwy weithredu yn effeithiol arnynt i ddattod gweithredoedd y diafol, a darostwng eu hanwireddau ynddynt; a thrwy ddarostwng a thori dannedd yr annuwiolion, a sathru Satan dan eu traed. Rhuf. 16. 20. 1 Ioan 3. 8. Gal. 3. 13. Edr. Iesu, Digofaint, Pechod, Prynu, &c.

GWARTH—RUDD—US, (gwar) cywilydd, gwaradwydd, dirmyg, anfad-air, lliwiant.—Y mae noethder pechadur, heb gyfiawnder Crist arno, a sancteiddrwydd Crist ynddo, yn warthus ac yn ffiaidd. Dat. 3. 18. Y mae gwyniau llygredig yn warthus iawn; y mae Duw, o farn, yn rhoddi rhai i fynu iddynt, i gyflawni pob aflendid. Rhuf. 1. 26. Edr. Gwaradwydd, Dirmyg.

Digitized by Google

GWARTHAF, (gwarth) copa, uchedd, uchder.—Bod ar warthaf, yw bod yn agos.—'Yna y mae dinystr disymwth yn dyfod ar eu gwarthaf.' 1 Thes. 5. 3.—'Yno y daw arnynt ddestrywiad disymuth.' W. S. a Dr. M. Ar eu gwarthaf, neu *arnynt; αυτοις εφισταται, y bydd arnynt*, yn yr amser presennol. Tra *byddont* hwy yn dywedyd tangnefedd a diogelwch, y *bydd* arnynt ddinystr disymwth.

GWARTHEG, (gwarth) buwchod. Yr oedd gwlad Basan yn hynod am wartheg a defaid, am ei bod yn wlad fras, borfäog.—Y mae gwragedd Israel, neu flaenoriaid y wlad, yn cael eu cyffelybu iddynt, o herwydd eu nwyfau pechadurus, eu hafreolaeth, eu hanlladrwydd, a'u gorthrymder. Amos 4. 1. Deut. 32. 14. Edr. Ych.

GWARTHLE—OEDD, (gwarth-lle) gwarthfa, dirgelwch.—'A'r Arglwydd a ddynoetha eu gwarthle hwynt.' Esa. 3. 17.—*A ddynoetha eu noethni.* Arfer anfoesgar a chreulawn buddugoliaethwyr gynt, oedd dynoethi a dihatru eu caethion yn noethlymun, a gwneyd iddynt deithio yn y cyflwr gresynus a gwaradwyddus hwnw, yn ngerwindeb y tywydd; yn enwedig i boethder anoddefol yr haul yn y gwledydd hyny. I'r merched yr oedd hyny yn radd uchaf o greulondeb, anfri, ac anmharch; yn enwedig i'r cyfryw a ddarlunir gan y prophwyd, y rhai oeddynt wedi ymroddi i bob moethau, a phob addurniadau afreidiol i'w cyrph; ie, hyd yn nod wynebau pa rai braidd a welsid gan ddynion. Cyfrifir hyn bob amser fel y peth caletaf a chreulonaf perthynol i gaethion. Nah. 3. 5, 6. Esgob Lowth ar Esa. 3. 17.

GWASANAETH—U—FERCH—WR, (gwa-as) gweinidog; dyn ieuanc; dynes ieuanc; gweini: gwasanaeth yw gwaith gweinidog. Yr oedd amryw fath o weision yn mhlith yr Iuddewon:—1. Yr oedd rhai yn gaeth-weision dros eu holl fywyd, ac yr oeddynt i'w prynu a'u gwerthu, wrth ewyllys eu meistriaid. Y cyfryw oeddynt estroniaid o fysg y cenedloedd, neu gaethion a gymerent mewn rhyfel. Lef. 25. 44, 45.——2. Caethwas o'r Hebreaid; nid oedd hwn yn rhwym ond dros chwe blynedd; 'a'r seithfed y caiff yn rhad fyned ymaith yn rhydd.' Os perchen gwraig fyddai efe, yr oedd y wraig i fyned allan gyd âg ef. Os ei feistr a roddai wraig iddo, ac iddi blanta iddo feibion neu ferched, y wraig a'i phlant a fyddent eiddo eu meistr, ac yntau a âi allan yn rhydd ei hun. Os byddai y gwas yn hoff ganddo ei feistr, ac a ommeddai fyned yn rhydd, ond a ddewisai aros gyd â'i feistr, yna yr oedd ei feistr i'w ddwyn ef at y barnwr, ac yr oedd i dyllu ei glust ef â mynawyd wrth y ddôr, ac yr oedd i drigo gyd âg ef byth.—Os byddai i'r meistr daro ei wasanaethwr â gwialen, ac iddo farw dan ei law, gan ddial dialer arno; sef, tebygol, yr oedd y barnwr i'w fwrw i gael ei farwolaethu, neu i gael ei gospi, fel y byddai natur ei fai yn ymddangos. Rhuf. 13. 4. Os byddai iddo daro llygad neu ddant ei wasanaethwr, yr oedd i fyned yn rhydd am ei lygad neu ei ddant. Os byddai i ŷch gornio gwasanaethwr, yr oedd perchen yr ŷch i roddi i berchen y gweinidog ddeg sicl ar hugain o arian, ac yr oedd yr ŷch i gael ei labyddio. Exod. xxi. Deut. xv.——3. Gweision cyflog, y rhai a gyflogid, tebygol, am dair blynedd; felly yr oedd gwas am chwe blynedd yn werth dau gyflog gweinidog. Job 7. 1. Esa. 16. 14. Deut. 15. 18.——4. Gweision a ymroddent yn ewyllysgar i wasanaethu arall; fel yr oedd Josuah yn was i Moses, Eliseus i Elias, &c.——5. Deiliaid, yn enwedig swyddogion y llu, ydynt weision i freninoedd; a phawb a dalai deyrnged iddynt. 1 Sam. 8. 11—18.

Gweision Duw ydynt, 1. Iesu Grist, yr hwn mewn ufudd-dod i'w ewyllys, a gymerodd ein natur arno, a gyflawnodd y gyfraith yn lle ei bobl. ac sydd yn gweinyddu holl fendithion y cyfammod gras i'w bobl. Esa. 42. 1. a 49. 3. a 52. 13.——2. Ei holl saint ydynt wedi eu rhyddhau oddiwrth bechod, a'u gwneyd yn weision i Dduw. Caeth-weision oeddynt i bechod; ond trwy yr efengyl y maent gwedi eu rhyddhau oddi wrtho, a'u gwneuthur yn weision cyfiawnder. Rhuf. 6. 16—20. Ps. 31. 16. a 35. 27. a 116. 16. Job 42. 7.——3. Y rhai a alwo yr Arglwydd at ryw orchwyl neillduol yn yr eglwys, neu yn y wladwriaeth; felly yr oedd Moses, Paul, Zorobabel, &c., yn weision yn y gwasanaeth yn ei dŷ y galwodd efe hwynt iddo. Deut. 34. 5. Heb. 3. 5. Mal. 4. 4. Rhuf. 1. 1. Hag. 2. 23.——4. Offerynau yn llaw yr Arglwydd, er trugaredd neu farn; felly yr oedd Nebuchodonosor a Cyrus yn weision iddo. Jer. 25. 9. Esa. 45. 1.

'Er gwerth y'ch prynwyd; na fyddwch weision dynion.' 1 Cor. 7. 23. Sef peidio bod yn weision dynion yn yr hyn sydd bechadurus i ufuddhau iddynt hwy, yn groes i orchymynion Duw; ac na byddai iddynt alw neb yn athrawon ac yn dadau mewn pethau crefyddol, ond Crist ei hun; ac nad ymostyngent i orchymynion a thraddodiadau, nac awdurdod neb rhyw ddynion mewn perthynas i addoliad Duw, yn groes i awdurdod a gorchymyn Duw ei hun. Lef. 25. 42. Dan. 3. 18. 2 Cor. 11. 20. Gal. 2. 4. Eph. 6. 6. Col. 2. 16, 19. 1 Tim. 6. 2.——'Gwas gweision,' yw un wedi ei ddarostwng i'r caethiwed a'r iselder mwyaf. Gen. 9. 25.

Y mae y gair *gwas*, weithiau, yn cael ei arferyd am rai yn yr eglwys nad ydynt blant i Dduw, ac yn blant yr addewid; ond sydd yn y tŷ yn eu cyflwr caeth wrth natur, dan felldith y ddeddf, a than lywodraeth pechod; heb eu rhyddhau gan y Mab, trwy ddeddf ysbryd y bywyd, oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth. Gan nad ydynt blant, nid ydynt yn etifeddion; am hyny ni arosant yn y tŷ byth, i gyfranogi o etifeddiaeth y plant. Er eu bod yn y tŷ, etto gwneuthur pechod y maent, ac y maent yn weision iddo mewn gwirionedd. Ioan 8. 34, 35, 36. Gal. 4. 28, &c.

Gwasanaeth, yn aml, a arwydda addoliad a roddir i Dduw, neu yr addoliad a roddir i gau-dduwiau. Jos. 22. 27. Ezra 6. 18. Rhuf. 9. 4. a 12. 1. Ps. 2. 11. a 72. 11. 2 Bren. 10. 18. Edr. Addoliad.——'Agwedd gwas.' Edr. Agwedd.

GWASARN—U, (gwa-sarn) yr hyn a daenir ar y ddaear, neu y sethrir arno; llaesodr; sathru, taenu ar y ddaear.——Gwasarn odyn, sef y gwellt a roddir ar yr odyn dan yr ŷd.——'A chwi a wasernwch yr annuwiolion:' Dr. M. sef a fethrwch yr annuwiolion. Mal. 4. 3.——'Oni ddeffry y rhai a'th gystuddiant, a thi a fyddi yn wasarn iddynt?' Hab. 2. 7.—'Ac oni fyddi yn ysglyfaeth iddynt?' Newcome.—Prophwydoliaeth yw y geiriau hyn am y modd y byddai gweddill y cenedloedd a yspeiliwyd ac a orthrymwyd gan y Babiloniaid, i ymgyfodi ac ymuno gyd â'r Mediaid a'r Persiaid, eu brathu, eu cystuddio, a'u hyspeilio hwynt o'u holl gyfoeth a feddiannasant trwy drais a gorthrymder.

GWASG—FA—U, (gwa-asg) *Saes.* Squeeze; *Waist*, sef gwasg y gwregys: pwyso i lawr, sengi, mathru, cyngwasgu, gwasgu yn nghyd; gofid, briw.—'Gosodaist wasgfa ar ein lwynau:' Ps. 66. 11. מועקה *rwymyn*, neu *gadwyn* am ein lwynau; yr ydym ni yn meddiant ein gelynion yn cael ein gorthrymu yn drwm. Y mae y gair yn arwyddo un peth a fyddo yn orthrwm i gorph neu feddwl, ac yn anhawdd cael gwared o hono. Diar. 1. 27.——Tyrfa o bobl yn tyru ac yn ymwasgu yn nghyd. Marc 3. 9. a 5. 24, 31. Luc 8. 42, 45.

GWASGAR—EDIG—FA—U, (gwa-ysgar) taeniad, chwâlfa; ysgaru, chwalu; peth wedi ei chwalu.—

Digitized by Google

'Rhyw un a wasgar ei dda, ac fe a chwanegir iddo.' Diar. 11. 24.—'A gyfoethogir yn fwy.' Dr. M. Er ei holl haelioni a'i elusengarwch, y mae, trwy fendith Duw arno, yn cynnyddu mewn cyfoeth.

Mae etholedigion Duw yn bresennol, lawer o honynt, ar wasgar ar hyd y byd, fel y byddont o fendith i eraill yn mhlith pa rai y maent yn byw; ond casglir hwynt at eu gilydd i gyd yn yr amser priodol, fel gwenith i'r ysgubor, ac fel defaid i'r gorlan. Y maent yn cael eu gwasgaru oddiwrth ei gilydd weithiau gan erlidigaethau; ond mae llaw Duw yn hyny er daioni. 1 Petr 1. 1. Act. 8. 1.

Y rhai ar wasgar yn mhlith y Groegiaid, neu y Cenedloedd, yw yr Iuddewon yn byw yn yr Aipht, Assyria, ac yn Asia Leiaf, neu ryw wledydd heblaw Judea. Seph. 3. 10. Ioan 7. 35.

GWASGOD—I, (gwa-ysgawd) cysgod, gwasgodfa, achwre, diddos; cysgodi, gorchuddio.—'Nerth y Goruchav ath wascota.' Luc 1. 35. W. S.

GWASTAD—OL, (gwa-ystad) yn ddyfal, yn barhaus, sefydlog, yn ddibaid, dianwadal, dioriog, diysgog.—'Ceisiwch ei wyneb ef yn wastadol,' sef yn ddyfal, yn ddiwyd, yn ddibaid, ac yn mhob ffordd y mae i'w gael. 1 Cron. 16. 11.——'Yr wyf yn wastad gyda thi.' Ps. 73. 23. Yr oedd mewn heddwch parhaus â Duw; yr oedd gofal Duw am dano, a'i ymgeledd yn cael ei weini iddo yn ddibaid; yr oedd ei ymorphwysiad yntau arno, a'i ymlyniad wrtho yn ddianwadal. Ps. 71. 14. a 119. 44. Yr un yw Duw bob amser, am hyny mae yn haeddu gwasanaeth, addoliad, a moliant gwastadol. Ps. 71. 6. Dan. 6. 16. Heb. 13. 15.

GWASTADEDD, (gwastad) gwastadrwydd, llyfndra; gwastad-tir, brodir, ceimle, gwastad-faes.—Dyffryn-dir a gwastadedd ydynt yr un fath dir, ac yn gyferbyniol i fynydd-dir. Y mae yr anwastad yn cael ei wneuthur yn wastadedd, pan fyddo pob pant yn cael ei gyfodi, a phob mynydd a bryn yn cael eu gostwng. Mewn ystyr ysbrydol y mae y geiriau yn ddiammeu i'w deall; ac y mae hyny yn cael ei gyflawni pan fyddo cyfeiliornadau mewn athrawiaethau yn cael eu diwygio; ysbryd uniawn yn cael ei adnewyddu oddi fewn i ddynion; a'u bywydau yn cael eu gwastadhau yn gyfatebol i reolau sanctaidd y gair. Rhaid i bawb a achubir, gael eu dwyn i gydnabod eu hunain yn bechaduriaid, ac nad ydynt ddim gwaeth na phechaduriaid, ac i ymostwng i gyfiawnder Crist yn yr efengyl. 'Duw a gauodd bawb mewn anufudd-dod, fel y trugarhâi wrth bawb.' Rhuf. 10. 3. a 11. 32. Nid oes un bryn na mynydd, sef pob peth uchel, nad rhaid iddynt gael eu darostwng; ac nid oes un pant, sef neb mor isel mewn pechadurusrwydd a thrueni, na ddichon yr efengyl eu cyfodi.

'Wele fi yn dy erbyn, yr hon wyt yn preswylio y dyffryn, a chraig y gwastadedd, medd yr Arglwydd.' Jer. 21. 13.—'Yr hon wyt yn preswylio y dyffryn, y graig, a'r maes.' Dr. M.—'Yr hon wyt yn preswylio gwastadedd cau craig.' Dr. B. Nid Jerusalem, ond yr amddiffynfa Sïon, yr hon a ennillodd Dafydd, ac a'i galwodd hi dinas Dafydd. Yr oedd y ddinas hon ar wastadedd craig mynydd Sïon, yn cael edrych arni o ran ei sefyllfa naturiol, a'r adeiladau oddi amgylch iddi, yn llwyr gadarn, ac yn anoresgynadwy. Y mae cyfieithiad y Dr. B. yn ymddangos yn addas ac yn gywir. Yr oedd tŷ Dafydd yn ymddiried yn nghadernid eu hamddiffynfa; ond y mae Duw yn dywedyd ei fod yn eu herbyn, ac yn bwgwth ymweled â hwynt yn ol ffrwyth eu gweithredoedd; a chynneu tân yn ei choedwig, yr hon a ysa bob dim oddi amgylch. Mae yr Arglwydd yn abl symud rhwystrau oddiar ffordd ei achos i lwyddo, sydd yn ymddangos fel mynydd mawr, a'u darostwng mor llwyr nes y byddont yn wastadedd fel pe na buasent erioed mewn bod. Zech. 4. 7. Edr. SINAR, IORDDONEN, MAMRE, &c.

GWASTRAFF—U—ANT, (gwa-ystraff) difrodi, treulio, afradloni.—'Gwastraffant aur o'r pwrs.' Esa. 46. 6. Mae yn y geiriau ddarluniad bywiog o eilunaddoliaeth y cyfoethogion yn gwneuthur delwau hardd a chostus, a chwedi hyny yn gostwng ac yn ymgrymu i waith dwylaw dyn. O! ddallineb ac ynfydrwydd plant dynion!

GWASTRAWD—ODION, (gwas-trawd) marchwas, marchydd.——Gwastrodion afwyn; sef, marchweision yr awenau.——'Efe a ddywedodd wrth ei wastrawd, tro dy law a dwg fi allan o'r gâd.' 2 Cron. 18. 33. Dr. M.

GWATWAR—US—WR, (gwad-gar) gwawd, hod, arabedd; gwawdio, cellwair, cyd-gam, dirmygu.—'A'r Phariseaid hefyd, y rhai oedd ariangar, a glywsant y pethau hyn oll, ac a'i gwatwarasant ef.' Luc 16. 4. *ἐξεμυκτήριζον αὐτόν*, *a'i dirmygasant*, ac a'i *gwawdiasant yn ddirfawr*. Yr oedd ei athrawiaeth sanctaidd ef yn gwbl groes i'w chwantau bydol, llygredig hwynt; ac oblegid ei athrawiaeth y dirmygasant ac y gwawdiasant ef yn dra dirfawr. Y mae y darluniad yn naturiol ac yn fywiol, yn gosod allan fawr gariad dyn at ei bechod, a bod llygriad y cnawd yn elyniaeth yn erbyn Duw a'i wirioneddau. Mat. 9. 24. a 20. 19. Marc 5. 40. Luc 16. 14. a 23. 35. Ps. 22. 7. a 80. 6. Edr. DIRMYG, GWARADWYDD.

Pan y mae gwatwar, yn yr ysgrythyrau, yn cael ei briodoli i'r Arglwydd, y mae yn dangos mor ynfyd yw ymddygiad dynion tu ag ato, yn hytrach nag agwedd ei feddwl ef tu ag atynt hwy; y maent yn wrthddrychau o ddirmyg a gwawd. Pan fyddo y fath bryfed a dynion yn ymosod ac yn ymgynghori yn erbyn y Duw *Hollalluog*, y mae eu hymddygiad yn hyn yn ffol, ac yn ddirmygus iawn, pan nad oes dim anhawsdra i'r Arglwydd ddadwneyd eu holl gyngorion. Ond y mae efe yn gweithredu yn mhob peth, a thu ag at bawb, yn addas iddo ei hun, i'w fawredd, ei gyfiawnder, a'i ddaioni.* Y mae yn gwneyd hyny weithiau yn ei bobl; y maent yn dirmygu, yn sanctaidd ac yn dduwiol, ynfydrwydd eu gelynion, a'u bygythiadau yn eu herbyn. Ps. 2. 4. a 37. 13. 2 Bren. 19. 21. Diar. 1. 26.

Y mae chwerthin, gwatwar, digio, yn cael eu priodoli iddo yn ol dull dynion; nid am fod y cyfryw nwydau yn perthyn i'r BOD DWYFOL, ond y mae yn gwneuthur y cyfryw bethau ag a wna dynion yn y cyfryw nwydau. 'Efe a'u gwatwar hwynt,' hyny yw, gâd hwynt yn ddigymhorth, dirmyga, a ffieiddia eu gwaith. Yr oedd gwaith y penaethiaid yn Jerusalem yn ymosod ac yn ymgynghori yn erbyn yr Arglwydd Iesu, ac yntau yn ddyrchafedig ar ei orsedd yn y nefoedd, yn ynfydrwydd ac yn ddirmygedig iawn.

Gwatwarwr sydd bechadur yn y gradd eithaf o galon galedrwydd, ac yn annhebyg o gael ei feddyginiaethu. Nid yn unig y mae hwn yn esgeuluso yr iechydwriaeth, ond yn ei dirmygu ac yn ei gwawdio; ac os bydd yn gwneuthur hyny yn wybodus, ac o gasineb, mae yn agos i gyffiniau y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Ps. 1. 1. Diar. 9. 8. a 13. 1. Act. 2. 13. Heb. 6. 6. Judas 18.

GWATWAR-GERDD, (gwatwar-cerdd) gwawdiaith; testun cellweir-air.—'Gwatwar-gerdd yw y cyfiawn perffaith.' Job 12. 4. 'Y cyfiawn *perffaith*,' sef yr hwn sydd wir gyfiawn; yn enwog am gyfiawnder. Y mae y gair תמים *perffaith*, yn y rhif lliosog, ac a arwydda pob math o berffeithrwydd; perffaith

* Christus ipsa quidem non ridet, sed ipse gloria sua & frustratione hostium eis pudorem incutit. Confer Job 5. 22. a 41. 29. Coccejus.

Digitized by Google

yn mhob ffordd, ac yn y cwbl; yn gyflawn, neu yn *ddwbl* berffaith. Etto mae hwnw yn שחוק yn *wawd*, yn *chwerthiniad*, ac yn *watwar-gerdd*. Po mwyaf o Dduw fyddo mewn dynion, neu ryw bethau, mwyaf i gyd ydynt yn ddirmygedig ac yn ynfydrwydd yn ngolwg dynion cnawdol. I'r Groegiaid, ynfydrwydd oedd yr athrawiaeth am y groes; ac ynfydion oedd y Cristionogion.* 1 Cor. 1. 18, &c. Act. xvii. Galar. 3. 14. Jer. 20. 7, 8. Diar. 14. 2.

GWAU, (gwa) gwëu, eillio, plethu.—'Mae yn anhawdd dywedyd i bwy i briodoli dychymygiad y gelfyddyd ragorol hon,' medd Mr. Chambers, 'os na phriodolwn hi i'r pryf copyn.'——'A'i bais ef oedd ddiwniad, gwedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll.' Ioan 19. 23. Yr oedd cywreinrwydd a gwerth yn y wisg hon o eiddo ein Hiachawdwr, y mae yn amlwg wrth waith y milwyr yn bwrw coelbren am dani yn lle ei thori, a'r sylw mae y milwyr yn ei wneuthur o'i gwneuthuriad. Gwagedd ydyw dychymygu pwy a'i gwnaeth; gan fod y gair yn ddystaw, dychymygion disail ydyw yr hyn oll a ddywedir am hyny. Mair ei fam, medd dychymygion rhai; y gwragedd oedd yn gweini iddo, medd eraill; ond tewi sydd oreu pan y bydd y gair yn ddystaw.

Lle taw Duw, nid doeth yngan. *St. Ffagan.*

Er mai ei bais oedd, y wisg nesaf at ei gorph, dyosgwyd hon oddi am dano, fel y dyoddefai yn noeth, ac yn y dull mwyaf gwaradwyddus. Yr oedd hyn wedi ei rag-drefnu iddo, ac wedi ei rag-fynegi am dano. Ps. 22. 18. Edr. Coᴛʏɴ, Copʏɴ.

GWAUDD—AU, (gwa-udd) merch yn nghyfraith; gwraig mab.—Y mae halogi gwaudd trwy orwedd gyda hi, yn bechod ysgeler. Lef. 18. 15. a 20. 12. Ezec. 22. 11.

Ni ddaw côf i'r chwegr ei bod yn *waudd.* *Diar.*

GWAWD—IO, (gwa-awd) arwyrain, cerddfoliant, mawl, bardd-wawd; cyd-gam; dirmygu.—'Wedi eich gwneuthur weithiau yn wawd, trwy waradwyddiadau a chystuddiau.' Heb. 10. 33.——'Tra ddygid chwi allan weithiau trwy waradwyddeu a gorthrymdereu, y fod yn ddrychioleth.' W. S. 'Tra dygyd chwi allan weithiau trwy wradwydd a chystudd, i fod yn watwargerdd.' Dr. M. θεατριζομηνοι, *y gwnawd chwi yn wawd-ddrych*, ονειδισμοις δε και θλιψεσι, *trwy waradwyddiadau a chystuddiau*; sef yn sylldrychau cyhoeddus i'w dirmygu, eu cystuddio, a'u gorthrymu, fel y gwnaent i ddrwg-weithredwyr ar y chwareuyddfa (*theatre*). Y geiriau a arwyddant gwaradwyddo a chystuddio yn y modd mwyaf cyhoeddus, ar yr olygfa, i bawb eu gweled, ac i ymuno i'w gwaradwyddo a'u cystuddio. Hyn oll a ddyoddefasant yn llawen, gan fod eu hachos yn dda, eu Harglwydd yn ffyddlawn, a'u gwobr yn ddiogel. Ps. 44. 13. a 69. 12.

GWAWL, (gwa-wl) goleuni, llewyrch, pelydredd, dysgleirdeb.

Wele llawn olwg Duw a'i *wawl*,
Maent ar y sawl a'i hofno.
*E. Prys*, (Ps. 33. 18.)

GWAWR—IO, (gwa-awr) llug y dydd, clais dydd, dychlais dydd; eiliw, gne, gorne.—'Ar godiad y wawr,' sef y goleuni boreuol. Gen. 19. 15.——'O gyfodiad y wawr hyd gyfodiad y sêr;' sef yr holl ddiwrnod. Neh. 4. 21.——'Mab y wawr-ddydd;' sef y blaned Venus, y seren foreu. Esa. 14. 12. Yr un ydyw Luciffer, mab y mawr-ddydd, a'r geiriau cyffelybiaethol, 'seren foreu eglur,' yn Dat. 22. 16. Brenin Babilon a feddylir wrth y geiriau 'seren foreu,' neu, 'mab y wawr-ddydd.' Fel y mae y seren neu y blaned foreu yn rhagori ar y sêr eraill yn eu dysgleirdeb a'u heglurdeb, felly yr oedd brenin Babilon yn mhlith tywysogion eraill y byd; ond, er ei wychder, syrthiodd; ie, syrthiodd i beidio codi byth mwy; felly y gwna hefyd holl elynion Duw a'i eglwys. Tebygol mai y gweddill diangol o'r Iuddewon sydd yn gofyn y gofyniad gyda syndod a gorfoledd.

GWAYWFFON, GWAEWFFON, (gwaew-ffon) llost, ystang, saffwy, cadwaew, picell. Erfyn milwraidd yn y llaw i niweidio y gelyn âg ef. Yr oedd hwn yn arf cyffredin yn y cynfyd; am hyny y gelwir milwyr yn ffyn-wewyr. Act. 23. 23. Weithiau arwydda pob math o arfau ymosodol. Nah. 3. 3.

'Cerydda dyrfa y gwaewffyn.' Ps. 68. 30.—'Cerydda anifel y cyrs.' Esgob Horne, Parkhurst. Wrth anifel y cyrs y meddylir y behemoth neu y crocodile, yr hwn sydd yn gorwedd yn nghyrs yr afon Nilus, yn yr Aipht. Yn gyffelybiaethol yma, arwydda unrhyw ddynion, neu lywodraeth fwystfilaidd, greulawn a galluog, yn gormesu ac yn gorthrymu eglwys Crist, hwyrach Rhufain Baganaidd, neu Babaidd, yr hon a elwir Sodom a'r Aipht. Y mae yr Arglwydd yn abl ceryddu, sef darostwng a dystrywio y cyfryw, ac achub ei bobl o'u dwylaw. Gwel Coccejus. Y mae yr Esgob Horne yn cyfieithu yr holl adnod fel y canlyn: 'Cerydda anifel y cyrs, cynnulleidfa y galluog yn mhlith lloi y cenedloedd, yn ymddyrchafu â darnau arian.' Yn aml y mae gelynion creulawn a galluog yr eglwys yn cael eu cyffelybu, yn yr ysgrythyrau, i'r cyfryw fwystfilod, neu anifeiliaid cryfion, creulawn, ac afreolus.

Wrth 'waewffon yr Arglwydd,' y meddylir unrhyw foddion, neu offerynau barnedigaethol yn ei law ef. Hab. 3. 11.

GWDEN—YN—I, (gwd) rhefawg, bodrwy, rhaff dorchedig. Gwdyn càr.—'Pe rhwyment fi â saith o wdyn irion.' Barn. 16. 7. Mae math o helyg, brigau pa rai ydynt gryfion iawn. Gwyddai Samson nad oedd hyn yn wir; wedi ei faglu gan ei bechod, mae y naill bechod yn arwain i'r llall.

GWDDF, GYDDFAU, (gw) gwddw, gwddwg, mwnwgl: gwar, gwegil. Y rhan hyny o gorph dyn ac anifel, rhwng y pen a'r ysgwyddau, ag sydd yn uno y pen a'r corph â'u gilydd. Mewn dyn mae y gwddf yn fyr, yn cyfateb i agwedd syth ei gorph; ond mewn anifeiliaid y mae y gwddf yn hir, yn cyfateb i hŷd y coesau, fel y gallent yn hawdd gael eu hymborth. Yr elephant yw yr unig anifel nad yw felly ganddo; ond mae gan hwnw ddarpariaeth yn ei dduryn (*trunk*) yn gwneuthur gwddf hir yn afreidiol iddo.* Y mae hefyd gan yr anifeiliaid ewyn cryf, yn cyrhaedd o'r pen hyd hanner y cefn, i gynnal y pen, yr hwn sydd drwm, yn hir i bori heb flinder nac anesmwythder i gyhyrau y gwddf. Y mae gan yr holl greaduriaid yddfau, sydd yn meddiannu ysgyfaint a llais, ond llyffaint, ac un math o bysgod. Y mae gyddfau yr adar yn hŵy na gyddfau creaduriaid eraill; a'r rhai sydd â choesau hirion ganddynt yn hŵy na'r lleill—a hyny o angenrheidrwydd, er cyfleusdra i borthi eu hunain. Yn mhob peth, perthynol i bob creadur, y mae gofal a doethineb y Creawdwr i'w weled yn fawr.

'Dy wddf sydd fel tŵr Dafydd,' neu tŵr o ifori, 'yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau; tarianau fil sydd yn crogi ynddo, i gyd yn estylch y cedyrn.' Can. 4. 4. a 7. 4. Nah. 3. 19, 25. 2 Sam. 5. 7, 9. Wrth wddf

* Christiani ab Ethnicis derisi sunt, qui videbantur genus hominum superstitionis nova & maleficæ. Suet. in Vita Nerom.

* Aliorum ea est humilitas ut Cibum terrestrem rostris facile contingant. Quæ autem altiora sunt, ut anseres, ut Cygni, ut grues, ut Cameli, adjuvantur proceritate collorum. Manus etiam data Elephantis, qui propter magnitudinem corporis difficiles aditus habebant ad pastum. Cic. *de Nat. D.* 12. *C.* 47.

Digitized by Google

hwynt, fel yn gyffredin o'r blaen; ac a waharddodd iddynt ddywedyd i neb am y weledigaeth, hyd oni adgyfodai Mab y dyn o feirw.

Y mae yn sicr i'r weledigaeth hon gael effaith wastadol ar feddyliau y tri dysgybl; blynyddau lawer wedi hyn mae Petr yn crybwyll am dani gyda neillduolrwydd hynod. 2 Petr 1. 17. Nid ei natur a newidiwyd, ond ei wedd: yr oedd cynneddfau ei natur ddynol yr un, ond cyfnewidiwyd y wedd oedd arni, yn ei iselder a'i dlodi, i wedd ddyrchafedig a gogoneddus. Sonia yr apostol am gorph gwael, *το σωμα της ταπεινωσεως, corph y darostyngiad*, yr hwn sydd genym ni, ac oedd ganddo yntau yma yn y byd; a *σωμα της δοξης αυτου, corph ei ogoniant ef*, neu ei gorph gogoneddus ef. Yn ei ogoniant yr oedd y dysgyblion yn ei adnabod ef, oddiwrth Moses ac Elias yn eu gogoniant; yr oeddynt yn ymddyddan hefyd mewn iaith ag oedd y tri dysgybl yn ei deall, ac yr oeddynt yn gwybod rywfodd pwy oedd y ddau ŵr. Yr holl ddybenion o'r tro hwn, nis gallwn, yn bresennol, eu hamgyffred; gallwn fod yn ddiogel mai nid heb achos digonol yr anfonwyd dau ŵr enwog o'r gogoniant, ac mewn gogoniant, i gyfarfod â'r Iesu gyda thri o wyr o'r ddaear, yn cynnrychioli yr holl eglwys ar y ddaear. Yr oedd yr eglwys fawr yn y nef ac ar y ddaear, wedi cyd-gyfarfod yn ei chynnrychiolwyr i'w addoli, ac i fod yn dystion o'r cwbl. Yr oedd yr Iesu yn eu plith, fel pen mawr ei eglwys, ac Arglwydd nef a daear. Yr oedd llef y Tad yn dystiolaeth fwyaf ardderchog i fawrhydi ei berson a'i swydd, oedd bosibl i fod. Pa effeithiau a gafodd tystiolaeth y ddau ŵr am yr hyn a welsant ar lu y nefoedd, nid yw hysbys; ond hawdd genyf gredu, nid bychain. Ond yn yr eglwys ar y ddaear y maent yn barhaus ac yn ogoneddus. Effeithiodd yn fawr ar y tri dysgybl o ran cryfhau eu ffydd, ac ëangu eu meddyliau am fawrhydi person Crist; y mae eu tystiolaeth hwy wedi effeithio i'r un dybenion ar yr holl eglwys byth wedi hyny. Ni welwyd erioed saint mewn gogoniant ar y ddaear o'r blaen; ond yn y tro rhyfedd hwn daeth anllygredigaeth i'r golwg. Yr oedd yr ymddyddan rhyngddynt yn mynegi llawer am natur gwynfydedigrwydd cyflwr o ogoniant; sef bod ynddo gyfrinach a chyfeillach hynod a hyfryd iawn. Y mae testyn eu hymddyddan yn dangos y pethau sydd â mawredd a gwerthfawrogrwydd ynddynt, yn mhlith lluoedd y gogoniant. Iesu a'i aberth yw, ac a fydd, testyn mawr eu sylw, eu syndod, a'u gorfoledd byth. Ni buasai un nefoedd, na gogoniant, na dim dedwyddwch i bechadur, oni buasai hwn; ac ynddo y mae yr amlygiad mwyaf o Dduw yn holl ddyfnderoedd ei natur a'i gynghor, a welir byth. Nid i weithio y daeth y ddau o'r nefoedd, ond i ymddyddan ac i weled; yr oedd yr Iesu ei hun yn ddigon i weithio, ac yn ddigon ei hunan i holl iechydwriaeth ei eglwys ar y ddaear; ac erys ef gyda hi pan byddo pawb eraill yn diflanu. Yr oedd ymddangosiad y ddau ŵr hyny, yn benodol, yn dystiolaeth mai i'r Messïah hwn y buont yn gweini ar y ddaear, a bod yr holl gyfraith, y prophwydoliaethau, a defodau yr Hen Destament, i gael eu cyflawni i gyd ynddo. Yr oedd llef y Tad yn fwy tystiolaeth na phe buasai holl saint ac angelion y nefoedd yn cyd-dystiolaethu iddo; a'r dystiolaeth hon yw sylfaen gadarn ein ffydd ni.

'Mewn gwedd arall.'—'Mewn ffurf arall.' W. S. Mewn ymddangosiad allanol anarferol iddo ef. Etto, er y cyfnewidiad hwn yn ei wedd, buasent yn ei adnabod oni buasai i'w llygaid gael eu hattal, fel nas adwaenent ef. Marc 16. 12. Luc 24. 16.—'Dillad gweddus.' Edr. DILLAD.

'Fel y rhodioch yn weddaidd tu ag at y rhai sydd oddi allan. *Gr. ευσχημονως, yn anrhydeddus, yn brydferth, yn hardd, yn gymeradwy.* 1 Thes. 4. 12. Rhuf. 13. 13.——'Rhaid i esgob—fod yn weddaidd.' *κοσμιον, mewn iawn drefn, yn hardd;* yn gymhwys

3 M

yn ei eiriau, ei ystumiau corphorol, ei wisgiad, a'i holl ymddangosiad allanol. Y mae y gair *σωφρονα, sobr*, yn perthyn i agwedd y meddwl; a'r gair *κοσμιον, gweddaidd*, yn perthyn i'w ddull a'i agwedd yn ei ymddangosiad allanol. 1 Tim. 3. 2.——'Y rhai os hebryngi fel y gweddai i Dduw, da y gwnei.' 3 Ioan 6. —'Megis y gwedda erwydd Dyw.' W. S. Yr un peth yw achos Duw, a'i bobl, ag ef ei hun; pa barch bynag a ddangosir iddynt hwy er ei fwyn ef, sydd yn cael ei ddangos iddo ef. Fel y gweddai i Dduw, gan hyny, y dylai ein hymddygiad fod at ei achos.

'Gweddus oedd iddo ef,' &c. Heb. 2. 10. Y mae holl drefn yr iechydwriaeth yn Nghrist yn weddus, ac yn addas i Dduw a'i briodoliaethau; mae yn gweddu iddo ef, yr hwn a'i trefnodd, a buasai yn *anweddus iddo ef* mewn un dull a modd arall. Nid oes dim yn gweddu i gyfiawnder, ond yr hyn sydd gyfiawn, a'r hyn sydd anweddus, sydd anghyfiawn; felly, yr hyn sydd sanctaidd sydd yn gweddu i sancteiddrwydd, a'r hyn yn unig sydd anweddaidd i sancteiddrwydd yw yr hyn sydd ansanctaidd. Gan fod holl drefn yr iechydwriaeth yn Nghrist yn gweddu, *επρεπε*, yn *gymhwys* ac yn *addas* iddo, rhaid y buasai rhyw drefn wahanol yn anaddas i'w Fawrhydi a gogoniant ei briodoliaethau. Am ei bod yn weddus iddo ef, rhaid ei bod yn anfeidrol ogoneddus, ac yn ddigyfnewid.

'Sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth.' Ps. 93. 5. *Byth*, dan bob goruchwyliaeth, yn mhob oes, ac yn mhlith pawb. Y mae sancteiddrwydd yn gweddu i Arglwydd y tŷ; i athrawiaethau a dysgyblaeth y tŷ; i holl drefniadau ac addoliad y tŷ; i'r holl blant a enir yn y tŷ; ac i ddyben Duw yn gosod tŷ, sef eglwys, i fynu yn y byd. Y mae ansancteiddrwydd yn gwbl anaddas i bob peth sydd yn perthyn i'r tŷ; am hyny ni oddef Duw mo hono; ond 'os llygra neb deml Duw, Duw a lygra hwnw.' Edr. DILLAD.

GWEDDEIDD—LWYS, (gwedd-llwys) glân ei gwedd, hardd ei gwedd.—'A'r llances oedd weddeiddlwys, a glân yr olwg.' Esther 2. 7. Y geiriau יפת־חצר a arwyddant ddull corphorol, gweddaidd, a hardd. Yr oedd gosodiad, cysylltiad, a gwneuthuriad ei haelodau, yn hardd, ac yn weddus.

GWEDDI—AU—O, (gwedd) erfyniad, deisyfiad, dymuniad, adolwg, golychwyd; ymbil, deisyfu, ioli, attolygu, erfyn. Gweddi, weithiau, a arwydda holl addoliad Duw; ond gweddi, yn yr ystyr briodol o honi, yw tywallt deisyfiad ein calonau ger bron Duw. Ps. 62. 8. Joel 2. 32.

Mae amryw ranau mewn gweddi, megys, 1. Cyfeiriad parchus o'n deisyfiadau at Dduw, wrth ei enwau priodol, ac yn ol ei drefn ei hun; cyfaddefiad o'n pechodau; erfyniadau am drugaredd trwy y Cyfryngwr; eiriolaeth dros eraill; a diolchgarwch am ddaioni Duw i ni. Y mae hefyd amryw fath o weddi, megys gweddi gyhoeddus, yn yr eglwys; gweddi deuluol, yn y tŷ gartref; gweddi ddirgel, pob un ar ei ben ei hun; a gweddi y meddwl. Eph. 6. 18.

2. Ar Dduw yn unig y dylid gweddïo, oblegid mai rhan o addoliad sydd yn perthyn i Dduw yn unig yw gweddi; ac nid oes neb ond efe a ddichon ein hachub, a chaniatau ein deisyfiadau. Mat. 4. 10. Eph. 3. 20. Esa. 45. 20, 21, 22.

3. Crist Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, yw yr unig ffordd o ddyfodfa i bechadur mewn gweddi at Dduw; yn ei enw ef y mae i ni ofyn pob peth, 'yn yr hwn y mae i ni hyfdra, a dyfodfa mewn hyder trwy ei ffydd ef.' Eph. 3. 12. Ioan 14. 6, 14. a 16. 23. Efe, yn ei aberth, yw y ffordd newydd a bywiol a gysegrwyd i ni trwy y llen, sef ei gnawd ef. Efe, yn ei gyfryngdod, yw gorsedd-faine y gras, yr oedd y drugareddfa gynt yn y babell, yn ei chysgodi. Y mae yr hyn yw efe, fel Cyfryngwr, oll o blaid y

Digitized by Google

pechadur sydd yn credu ynddo. Y mae efe yn ddigonol drosom ni gyda Duw, ac a fedr gyd-ddyoddef â'n gwendid ni. Heb. 4. 16. a 10. 20, 21, 22. Edr. CYFRYNGWR, EIRIOLWR, DRWS, FFORDD.

4. Yr Ysbryd Glân sydd yn cynnorthwyo mewn gweddi; am hyny gelwir ef yn 'Ysbryd gras a gweddïau.' Zech. 12. 10. 'Ni wyddom ni beth a weddïom, megys y dylem; eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn erfyn drosom ni âg ocheneidiau annbraethadwy.' Rhuf. 8. 26. Y mae efe yn ein cymhell i weddïo; yn ein cyfarwyddo a'n harwain at Dduw trwy Grist; yn ein dysgu i iawn drefnu ein hachosion ger ei fron: ac yn ein nerthu trwy ffydd i wneuthur erfyniadau, a deisyfiadau at Dduw. Eph. 2. 18. Nid ydyw gweddïau pawb, heb Ysbryd Duw, ond ffurfiol a difywyd; yn nesâu at Dduw â'r genau, a'i anrhydeddu â'r gwefusau, a'r galon yn pellhau oddi wrtho. Esa. 29. 13. Rhaid i bechadur wrth Ysbryd Duw, i'w ddysgu yn wastadol yn mhob dim o waith Duw. 'Ond y mae *efe* yn ol Duw (*κατα Θεου—at Dduw—yn ol trefn, yn ol ewyllys Duw*) yn erfyn dros y saint.' Sef yn eu dysgu, eu cyfarwyddo, ac yn eu nerthu hwy i erfyn. Y mae pob creadur yn cydocheneidio, ac yn cyd-ofidio; ond ocheneidiau y saint, yn y rhai y mae Ysbryd Duw yn trigo, yn unig sydd erfyniadau yn ol Duw; am hyny yn gymeradwy ganddo, ac yn ddiogel o gael eu hateb yn ddaionus. Y maent hwy, nid yn unig yn ocheneidio, ond y mae eu hocheneidiau hwy yn weddïau yn yr Ysbryd Glân; am hyny y mae eu gweddïau yn beraidd ac yn gymeradwy trwy Grist. Judas 20. Y mae Duw yn awdwr yn gystal ac yn atebwr gweddi.*

5. Y mae gweddi yn addas i bob dyn—bob amser—yn mhob amgylchiad—dros bawb—ac am bob peth angenrheidiol, yn ol ewyllys Duw, ac wedi eu haddaw ganddo yn ei air. 1 Tim. 2. 1. Col. 4. 23. 1 Ioan 5. 14. Y mae yr Arglwydd bendigedig wedi trefnu ffordd o ddyfodfa rydd ato i bawb, bob amser, yn mhob amgylchiad. Y mae hefyd yn gorchymyn i ni weddïo yn wastad, yn ddibaid, heb ddiffygio. Luc 18. 1. 1 Thes. 5. 17. Dyma y ffordd a drefnodd Duw, yn ei fawr ddoethineb, i gyfranu bendithion i ni. Er y gŵyr efe ein hangenion ni yn well na ni ein hunain, etto y mae yn weddus i ni eu hadnabod, cydnabod ein gwaeledd, ymostwng yn edifeiriol ger ei fron, a gofyn yn ostyngedig ganddo, a pharchu ei Fab trwy ofyn pob peth yn ei enw. Ezec. 36. 26, 37. Ps. 50. 15.

6. Y mae yn ofynol, i'r dyben fod ein gweddïau yn gymeradwy, ein bod yn gweddïo ar yr iawn wrthddrych; sef Duw yn unig. Nid oes neb a'i enw yn *wrandawr gweddi* ond efe yn unig. Ps. 65. 2.—Ein bod yn gweddïo yn enw Crist *yn unig*, fel yr *unig* achos haeddiannol i ni gael ein hateb. Ioan 16. 23.—Ein bod yn gweddïo yn yr Ysbryd Glân. Judas 20.—Ein bod yn gweddïo mewn ffydd heb ammeu dim. Iago 1. 6, 7.—Hefyd, i iawn ddyben; sef dyben sanctaidd, yn un â gogoniant Duw. 'Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar eich melus-chwantau.' Iago 4. 3. Diar. 28. 9.—Yn wirioneddol â'n holl galon; yn wir ostyngedig; yn egniol ac yn ddyfal; yn ysbrydol ac yn ddeallus. Jer. 29. 13. Iago 4. 6. Diar. 13. 4. Eph. 6. 18. 1 Cor. 14. 15. Col. 4. 4.—Y mae gweddi ragrithiol, hunan-gyfiawn, a gwaggsiaradus, yn ffiaidd gan yr Arglwydd. Mat. 6. 5, 8. Luc 18. 10, 14.

7. Nid oes sicrwydd mwy genym o ddim, nag y gwrendy Duw weddïau ffyddlawn. Y mae ei orchymynion a'i addewidion yn sicrhau hyn; ei briodoliaethau, a'i holl drefniadau, ynghyd â siamplau y duwiolion a gafodd eu gwrando yn mhob oes, yn sicrhau yr un mater. Mat. 7. 7. Num. 23. 19. Ps. 22. 4, 5. a 44. 21. a 103. 13. a 145. 18, 19. Esa. 45. 19. Dan. vi. Jonah ii. Act. xvi. Rhyfedd fod y Duw mawr yn goddef i'r fath bryfed euog, llygredig, a dynion, i nesâu ato mewn gweddi, ac wedi ymostwng i roddi cymaint sicrwydd i ni am wrandawiad gweddi, fel annogaethau cryfion i ni weddïo.

8. Byddai yr Iuddewon yn gweddïo dair gwaith yn y dydd, sef ar amser yr aberthau boreuol a phrydnawnol, a hanner dydd. Dan. 6. 10. Ps. 55. 17. Act. 3. 1. a 10. 3, 8. Y rhai oeddynt yn agos i Jerusalem a weddïent yn aml yn nghyntedd y deml; eraill a aent i'r synagogau; ac eraill a ddefnyddient fath o adeiladau pen-agored penodol i hyny, a alwent *proseuchæ*, sef tŷ, neu le wedi ei addasu i weddïo. Yr oedd y rhai hyn yn gyffredinol allan o'r dinasoedd, yn agos i afonydd, neu ryw ddyfroedd, canys yr oedd yn arfer yn mhlith yr Iuddewon i ymolchi bob amser cyn gweddïo. Yr oedd yr adeiladau hyn yn benagored, a choed wedi eu plânu oddi amgylch iddynt, yn gysgod rhag y gwres. Yr un peth, oeddynt, tebygol, a'r uchelfeydd; y rhai ar y cyntaf a drefnwyd yn ddiammeu i ddybenion da o'r cyffelyb, ond a gamddefnyddiwyd wedi hyny i eilun-addoliaeth, trwy godi allorau ynddynt. 1 Sam. 9. 19. a 10. 5. Jos. 24. 26. Yn y synagog yr oedd ganddynt ffurf o weddïau i'r holl gynnulleidfa; (Edr. SYNAGOG) ond yn y *proseuchæ* hyn, yr oedd pob un yn gweddïo ar ei ben ei hun, fel y Pharisead a'r Publican yn nghyntedd y deml. Luc xviii. Yr oedd y synagogau â thô arnynt, ond yr oedd y *proseuchæ* yn agored. Yr oedd y synagogau oddi fewn i'r dinasoedd, ond y *proseuchæ* oddi allan iddynt. Yn un o'r rhai hyn yr oedd yr Iachawdwr yn gweddïo ar y mynydd, yn ol meddwl y beirniaid dysgedig. 'A pharhau ar hyd y nos yn gweddïo Duw.' Luc 6. 12. *εν τη προσευχη του Θεου, mewn proseuchæ*, neu *dŷ gweddi* (wedi ei neillduo i wasanaeth Duw) mewn *cafell*, neu *dŷ gweddi*. Yr oedd hwn ar fynydd, tebygol, yn agos i afon, neu ryw ddyfroedd. Yr oedd un o'r *proseuchæ* hyn yn Philippi, yn Macedonia, tu allan i'r ddinas, ar lân afon, lle bu yr apostolion yn llefaru wrth y gwragedd a ddaethant ynghyd.* Act. 16. 13, 14. Gwel Josephus, *Antiq.*, *lib.* xiv., *c.* 10. Calmet, Prideaux's *Connection*, *p.* i., *b.* 6. Whitby, Doddridge, Campbell, Parkhurst.

9. Am yr amser, a'r dull, a'r lle i weddïo, nid oes genym ddim cyfarwyddiadau neillduol yn y Testament Newydd. Dylai dull yr holl gorph fod yn ostyngedig, yn barchus, ac yn weddaidd; y lle a'r amser yn gyfleus, er mwyn dystawrwydd a llonyddwch. Y mae gweddïo yn ddirgel, ac yn gyhoeddus, ac yn deuluol, yn ddyledswydd ar bawb, gorchymyn-

* Meddyliwch fod troseddwr yn cynnyg deisyfiad gostyngedig i'r Barnwr ar achos o'r pwys mwyaf, ond nad yw efe ei hun yn gwybod pa beth, na pha fodd i ysgrifenu. Meddyliwch hefyd fod Dadleuwr medrus yn ffurfio yr holl ddeisyfiad, yr hwn y mae y troseddwr yn ei adysgrifenu, yn ei arwyddo â'i law ei hun, ac yn ei gyflwyno i'r Barnwr. Y mae yr holl ddeisyfiad hwnw yn waith y Dadleuwr: ond hefyd dylid ei gyfrif yn ddeisyfiad y troseddwr, achos yr hwn a ddadleuir, ac i'r hwn y mae yr hyn a ofynir yn dyfod. Y troseddwr hwnw ydym ni; y rhai, er fod genym lawer o bethau i'w dywedyd wrth Dduw, etto nis gwyddom pa beth i weddïo megys ag y dylem. Y Dadleuwr hwnw yw yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn ein dysgu pa bethau, a pha fodd i weddïo, yr hwn sydd yn agoryd llygaid ein meddwl, fel y canfyddom ein hangen ein hunain, ynghyd â rhagoroldeb pethau ysbrydol a nefol; yr hwn sydd yn creu ynom ddymuniad gwresog am y pethau hyny, ac yn ein cynnysgaethu â'r teimladau sydd yn gweddu i fawredd Duw, ein gwaeledd ein hunain, a rhagoroldeb y pethau a ddeisyfir; yr hwn yn olaf sydd yn ein llanw â (παρρησια) rhyddid a hyder sanctaidd. Ac felly y mae efe yn llefain ynom (Gal. 4 6.) fel yr ydym ninnau trwyddo ef yn llefain, Abba, Dad. Rhuf. 8. 15. Y mae yn eiriol drosom âg ocheneidiau annhraethadwy, fel y mae yn creu ac yn cynhyrfu yr ocheneidiau ynom ni. Witsius, *Exer.* 1. *De Oratione, sec.* 16.

* In quâ te quæro Proseuchâ? Juvenal, *Sat.* 3. 296.

Digitized by Google

edig gan Dduw. Byw heb weddi yw byw yn annuwiol, yn hollol anystyriol, ac yn bechadurus. Gan fod gweddi yn rhan neillduol o addoliad Duw, mae y rhai diweddi yn byw heb addoliad Duw hefyd—a pha le yr ymddengys duwioldeb y cyfryw? Ps. 32. 6. Iaith annuwiolion yw dywedyd, 'Pa beth yw yr Hollalluog fel y gwasanaethem ef? a pha fudd fydd i ni os gweddïwn arno?' Job 21. 15. Y mae yr Arglwydd yn sylwi arno fel nôd neillduol o ddynion wedi eu gwir ddychwelyd ato, eu bod yn weddïwyr. 'Y dwg—fy ngweddïwyr, fy offrwm.' Seph. 3. 10. Edr. DYFAL, GWASTADOL, TAER, ELIAS.

GWEDDILL—IO, (gwedd) gwarged, athorion, rhelyw, briwion, briwsion; yr hyn sydd yn ol.—Gweddill o beth, neu bobl, a arwydda, rhan fechan gwedi eu harbed, neu ei gadael ar ol. Gweddill a achubir—gweddill yn ol etholedigaeth gras—gweddill ei etifeddiaeth—gweddill Jacob—y gweddill a alwo yr Arglwydd—gweddill diangol. Rhuf. 9. 27. a 11. 5. Mic. 5. 7. a 7. 18. Joel 2. 32. Ezec. 14. 32. Ni ddinystrir y cwbl o blant dynion; y mae gan Dduw ychydig yn mhob oes o etholedigion gwedi eu galw ganddo, ac a achubir; ei etifeddiaeth ydynt, a diangol fyddant.——Gweddill Baal, yw yr hyn a adawyd o'i addoliad a'i addolwyr. Zeph. 1. 4.

GWEDDOL, (gwedd) trefnus, wedi ei osod mewn trefn, wedi ei gysylltu yn addas; arferol â'r iau, cynnefin âg ymostwng.—'Ebol llwdn asen weddol.' Mat. 21. 5. W. S.

GWEDDW—DOD—ON, (gwedd) *Llad.* VIDUUS: amddifad, unig, wrtho ei hun; dyn gweddw, dynes weddw, sef heb fod yn briod. Gwraig weddw, neu ŵr gweddw, yw rhai gwedi bod yn briod.——Yr oedd yn waharddedig i'r arch-offeiriad briodi un weddw. Lef. 21. 24. Yr oedd yn arferiad i frawd y gwr, briodi gwraig weddw ddiblant 200 o flynyddoedd cyn rhoddi y gyfraith, i'r dyben i gadw yr etifeddiaeth yn y teulu, ac i godi hâd i'w frawd a fu farw. Gen. 38. 8, 11. Yr oedd hyn yn orchymynedig yn benodol dan gyfraith Moses. Deut. 25. 5, 6. Heblaw ei frawd, gallai cyfathrachwr agosaf wneuthur hyny. Ruth iv. Yr oedd gweddwdod ac anmhlantadrwydd yn warth mawr yn mhlith yr Iuddewon, (Esa. 4. 1. a 54. 4.) gan farnu y gallasai gwraig weddw *rinweddol* gael priod, naill ai yn nheulu ei gwr, os bu farw yn ddiblant, neu yn rhyw deulu arall. Y mae yn cael ei goffâu fel barn ar ddynion, pan fyddont feirw heb eu gweddwon i wylo a galaru ar eu hol. Job 27. 15. Ps. 78. 64.

Y mae yr Arglwydd tirion yn cymeryd y gweddwon a'r amddifaid i'w nodded yn neillduol; yn gorchymyn dangos tiriondeb tu ag atynt; ac yn bwgwth â barn ddychrynllyd y rhai a orthrymant y weddw. Ps. 68. 5. a 146. 9. a 94. 5. Mal. 3. 6. Dangos caredigrwydd iddynt a nodir fel cangen neillduol o wir grefydd. Job 29. 13. Iago 1. 27. Exod. 22. 22. Deut. 10. 18. a 14. 20, 21. a 16. 11, 14. a 26. 12, 13. Jer. 49. 11. ——Dan yr efengyl, y mae yr eglwys i ofalu am y gwir weddwon. 1 Tim. 5. 9, 10. Y 'gwir weddwon,' yw 'rhai unig,' *yn hen ac yn ddigymhorth*, 'yn gobeithio yn Nuw, ac yn parhau mewn ymbiliau a gweddiau nos a dydd.'—'Na ddewiser yn weddw un a fo dan driugain-mlwydd oed, yr hon a fu wraig i un gwr,' sef ar unwaith; 'yn dda ei gair am weithredoedd da,' &c. Adn. 9, 10. Nid ydyw y *dewis* yma yn arwyddo *dewis* i fod yn wrthddrychau elusen yr eglwys, ond i fod yn ddiaconesau, neu i weini mewn rhyw swyddau yn yr eglwys; megys i ymweled â'r gwragedd cleifion, addysgu y gwragedd ieuainc, ac amryw swyddau eraill mwy perthynol, o ran gweddeidd-dra, i wragedd nag i feibion. Yr oedd y rhai hyn i gael eu cynnal gan yr eglwys; ac y mae Paul yn cyfarwyddo Timotheus i fod yn ofalus a dichlynaidd, pwy a ddewisai i'r cyfryw swydd a sefyllfa. Gwel Calmet, Macknight.

GWEFL—AU, (gwef) safn, min, gwefus. Gwefl, y rhan amlaf, a arwydda safnau anifeiliaid, a gwefus a arwydda min dynion.—'Llaesant wefl.' Ps. 22. 7. יפטירו בשפה *lledasant wefl*, mewn ffordd o wawd a dirmyg. Job 16. 10. Esa. 57. 4.——'A'm ffrwyn yn dy weflau.' 2 Bren. 19. 29. Y mae y geiriau yn golygu Senacherib, brenin Assyria, fel rhyw fwystfil cryf, creulawn, ac ofnadwy; ond er hyny y mae yn hollol dan awdurdod a llywodraeth Duw, i'w droi ffordd y myno, ac i'w ddarostwng: a hyny a wnaeth yn effeithiol er amddiffynfa i'w eglwys.

GWEFUS, (gwe-bus) gwëus, gwefl, y sylwedd cyhyrawg sydd yn gorchuddio y genau, ac sydd yn harddwch i'r wyneb, yn amddiffyniad i'r genau, yn gynnorthwyol i gadw yr ymborth yn y genau wrth ei falu gan y dannedd, ac yn ddefnyddiol iawn i dori geiriau ac ymadroddi. Am fod y gwefusau mor angenrheidiol i ymadroddi, y maent yn aml, yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo ymadrodd, araeth, iaith. Nid oes un ffugyr yn fwy cyffredin yn yr iaith Hebraeg na math o draws-enwad, yn rhoddi yr achos, neu yr offeryn, yn lle yr effaith; gwefusau yn lle y geiriau a draddodir â'r gwefusau. Oblegid y peiriannau hyn yw yr offerynau penaf yn nyweddiad y geiriau. 'Yn y dydd hwnw y bydd pum dinas yn nhir yr Aipht yn llefaru iaith Canaan: *Heb. gwefus* Canaan. Sef yn gwir addoli Duw yn ol ei drefn ei hun. Esa. 19. 18.

'O herwydd yna yr adferaf i'r bobl wefus bur, fel y galwo pob un o honynt ar enw yr Arglwydd.' Seph. 3. 9. Gwefus bur yma a arwydda, addoliad pur, yn ol trefniad Duw, heb ei llygru gan ddefodau dynol. Os bydd y wefus yn bur, y mae yn rhaid y bydd y galon felly hefyd; canys o helaethrwydd y galon y llefara y genau.

'Gwefusau estronol,' yw iaith estronol. 1 Cor. 14. 21.—'Gwefusau halogedig,' yw ymadroddion halogedig. Esa. 6. 5.—'Gwefusau trofaus,' yr un fath a arwyddant ymadroddion trofaus, cyfeiliornus, a dichellgar. Diar. 4. 24.—'Gwr gwefusau,' sef gwr siaradus; y mae yn gwneuthur cymaint defnydd o'i wefusau, fel pe bai yn wefusau i gyd, a heb ganddo un aelod ond gwefusau. Job 11. 2.—'Agor y gwefusau,' a arwydda ymadroddi yn bwyllog ac yn synwyrol. Job 11. 5. Edr. GENAU.

Y mae Dafydd yn gweddïo am i'r Arglwydd 'gadw drws ei wefusau,' fel na byddai iddo siarad yn bechadurus, ond ymadroddi yn bwyllog, yn fuddiol, ac mewn iawn amser. Ps. 141. 3. Y mae yr Arglwydd yn cadw drws y gwefusau, trwy feddiannu dyn âg ysbryd gwyliadwriaeth, pwyll, synwyr, ac ofn duwiol. I lywodraethu y gwefusau, rhaid, yn gyntaf, llywodraethu yr ysbryd a'r meddwl, a rhoddi doethineb a deall i ddyn. Nid oes neb ond yr Arglwydd a ddichon gadw drws y gwefusau, sef meddiannu dyn âg ystyriaeth, pwyll, ac ofn yr Arglwydd. Heb ei gadwraeth ef bydd y drws yn aml yn agored, pan y dylai fod yn nghauad, ac yn nghauad pan y dylai fod yn agored. Y mae dynion yn ofni Duw am fod yn fanwl yn eu rhodiad, ac am ryngu bodd Duw yn eu holl eiriau a'u bucheddiad.

'Ei wefusau fel lili yn dyferu myrr dyferol.' Can. 5. 13. Y mae y naturiaethwr Pliny yn rhoddi hanes am lili cochion yn Syria, canmoladwy iawn; at y rhai hyny, tebygol, y mae y geiriau yn cyfeirio. Y defnynau gwlithog yn eu blodau a feddylir wrth y defnynau myrr. Cyffelybir y gwefusau i'r lili hyn, o ran eu harddwch a'u pereidd-dra. Gwefusau Crist yw ei wirioneddau; y maent yn bur, yn hardd, yn rasol, yn beraidd, ac yn iachusol; yn fuddiol i bob peth. 2 Tim. 3. 16. Ps. 138. 2. Luc 4. 22. Ioan 7. 46.

Digitized by Google

Esa. 50. 4. Diar. 16. 24. Dyferu a arwydda parhad a helaethrwydd ei ymadroddion; y mae yn llefaru yn barhaus, a phob amser yn ddefnyddiol.

Cyffelybir gwefusau yr eglwys, hefyd, i 'edau ysgarlad,' o herwydd bod ei pharabl yn weddus, yn hardd, ac yn adeiladol. Can. 4. 3. Y mae rhai yn barnu fod gwefusau yr eglwys yn cael eu cyffelybu i edau ysgarlad, am mai aberth gwaedlyd Crist yw y gwrthddrych penaf y mae yn athrawiaethu ac yn ymadroddi am dano; ac y mae ei gwefusau cochion, sef ei hathrawiaeth yn yr aberth hwn, yn harddu ei hymadrodd, ac yn ei gwahaniaethu yn odidog oddiwrth bawb eraill, ac oddiwrth bob gau eglwys. Y mae gwefusau cochion hefyd yn arwydd o iechyd, o ieuenctid, o gryfder, a chalondid; felly y rhai sydd yn byw ar Grist croeshoeliedig, sy ganddynt iechyd, a harddwch ysbrydol, a gwroldeb ffydd i fyw i Dduw.

'A thalwn i ti loi ein gwefusau.' Hos. 14. 2.—'A thalwn loi, ein gwefusau.' Witsius' *Exercit. de Orat.*, *sec.* 42. Wrth y lloi y mae i ni ddeall aberthau; aberth y gwefusau yw moliant. Mae y geiriau yn cyfeirio at yr aberth diolch. Lef. 7. 12. Geilw yr apostol moliant yn ffrwyth y gwefusau, am fod y gwefusau yn offerynau yn moli. Heb. 13. 15. Mae aberthu lloi, teirw, a geifr gwedi eu diddymu; ond y mae aberthu moliant i Dduw ein hiechydwriaeth, i barhau byth. Y mae yr aberth hwn gan bob pechadur edifeiriol.

'Ein gwefusau sydd eiddom ni;' sef y mae genym hawl i addoli y peth a fynom, y dull a fynom, neu beidio addoli yn hollol; y mae ein ffyrdd yn eiddom ni yn gwbl. Ps. 12. 4.——'Fel sorod arian wedi eu bwrw dros ddryll o lestr pridd; felly y mae gwefusau poeth, a chalon ddrwg.' Diar. 26. 23. Gwefusau poethion, yn proffesu cariad gwresog, ac etto y galon yn hollol groes i hyny. Y mae y gyffelybiaeth yn harddwych. Diar. 10. 18. 2 Sam. 20. 9, 10. Ezec. 33. 31. Luc 22. 47, 48.——'Wele cyffyrddodd hwn â'th wefusau, ac ymadawodd dy anwiredd, a glanhawyd dy bechod.' Esa. 6. 7. Yr oedd yr allor bres, yr aberth, a'r tân o'r nefoedd yn llosgi yr aberth, yn cysgodi Crist, ei aberth, a'i effeithiau; yr oedd gwaith y seraph yn cymeryd marworyn oddiar yr allor, ac yn ei roddi i gyffwrdd â gwefusau y prophwyd, yn arwydd fod y prophwyd, trwy aberth Crist, a'r holl ffrwythau o hono, yn cael ei lanhau, ei ddonio, ei awdurdodi a'i addasu i'w swydd; ac y byddai efe a'i waith yn gymeradwy trwy Grist. Jer. 1. 9. Dan. 10. 16. Heb. 9. 13, 14. 1 Ioan 1. 7. a 2. 1, 2.

GWEGI, (gwag) gorwagedd, gwagder, ysgafnder, ofer-chwedl, gwag-beth.—'Yr hoffwch wegi.' Ps. 4. 2. ריק peth *gwag, diles*, a *diwerth*. Dyma y peth y mae dynion gwag yn ei garu, ac yn ei hoffi; ac y maent yn argeisio celwydd, sef cyfeiliornadau diles. Y mae hoffi gwegi yn dangos agwedd wag iawn ar y meddwl. Y mae y cyfryw ddynion yn ysgafnach na gwegi. Ps. 62. 9.——'A'u geiriau a welid yn eu golwg hwynt fel gwegi.' Luc 24. 11.—'Megis ffugiant.' W. S. ληρος, *chwedl wag, ofer, disail, anwir.*

GWEGIL, (gwe-cil) gwâr, y tu ol i'r pen. Troi gwegil at yr Arglwydd, a arwydda anmharch, ac anufudd-dod iddo, a bod yn ddiddysgwyliad wrtho. Jer. 2. 27. a 18. 18. Edr. Gwar.

GWEHELYTH, (helyth) tadwys, tadogaeth, âch, gwely cenedl, cyff cenedl, paladr âch, llin carenydd, bonedd. Gwehelyth ogoniant yw gogoniant hanfodol, perthynol i un o dadogaeth, heb ddeillio iddo oddiwrth neb arall.

> Ei waith a'i iawnder pery byth,
> A'i *wehelyth* ogoniant.
> *E. Prys*, (Ps. 111. 3.)

'Gwehelyth lywydd,' yw llywydd goruchel, arbenig, cyfreithlon. Ps. 10. 16.——'Gwehelyth gyfraith,' cyfraith oruchel, ansoddol, perthynol i deulu Duw. Ps. 119. 44. E. Prys.

GWEHILION, (gwe-hil) gwaelodion, gwaddod, llorion, sorod, sothach, ysbwrial, ysdyferion, mwlwg; coeg ddynion, heb fri arnynt. 1 Bren. 13. 33. 2 Bren. 17. 32. Amos 8. 6.—'Ond efe a wnaeth drachefn o wehilion y bobl offeiriaid i'r uchelfeydd.' 1 Bren. 13. 33. מקצות העם *o rai o'r bobl*, gwedi eu cymeryd allan o'r bobl. *μεροστι, rhyw ran*, LXX. Buasai y goreuon mor anghymeradwy a'r gwehilion, pe na buasent o hâd Aaron. Yr un gair yw ag a gyfieithir yn Gen. 47. 2. *rai* o'i frodyr.

> Mae *gwehilion* i'r gwenith. *Diar.*

GWEHYNYDD, (gwe-hyn) tywalltwr, gwaghawr, tynwr.—'O gymynydd dy goed hyd wehynydd dy ddwfr;' sef pawb oll; yr holl genedl, heb un yn ol. Nid oedd neb rhy wael i gael rhan yn nghyfammod Duw; ac nid oedd neb heb fod dan rwymedigaeth i'w wasanaethu. Deut. 29. 11.

GWEINI—DOG—AETH, Edr. Gwas.—Gelwir yr efengyl, 'gweinidogaeth y cymmod.' 2 Cor. 5. 18, 19. 'Sef bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau.' Yn Nghrist yr arfaethodd ac y sefydlodd drefn y cymmod; yr oedd cynghor a chyfammod hedd yn Nghrist, yn mha un y gosodwyd ac y cytunwyd ei fod ef yn Gyfryngwr ac yn Dangnefeddwr. Neu, *yn Nghrist y mae yn cymmodi*, yn ol ein cyfieithiad ni. Duw, yn ol ei arfaeth a'i gyfammod, a anfonodd ei Fab i wneuthur heddwch; ac a roddodd ein pechodau, a chospedigaeth ein heddwch ni arno ef; gwnaeth yntau gymmod, sef iawn, dros y pechodau a roddwyd arno; a thrwy hyny gwnaeth heddwch â Duw. Dadguddiad a chyhoeddiad o'r drefn fawr hon yw gweinidogaeth yr efengyl—y weinidogaeth werthfawrocaf a phwysfawrocaf a fu erioed, neu a fydd byth yn y byd. Y mae Duw yn gosod gair y cymmod yn ei wir genadau; sef yn peri iddynt ddeall trefn y cymmod, yn gosod angenrhaid arnynt ei egluro a'i gyhoeddi i eraill, ac i fod yn daer arnynt i gymmodi â Duw. Y maent (δεομεθα υπερ Χριστου) *yn erfyn dros Grist*; sef yn dirion, yn daer, ac yn oleu, yn traddodi eu cenadwri gyda bwriad i lwyddo i gael pechaduriaid i heddwch Duw yn Nghrist. Nid oes dim yn deilwng i'w galw yn weinidogaeth yr efengyl, ond gweinidogaeth y cymmod; sef dadguddiad, eglurhad, a chyhoeddiad o drefn fawr y cymmod; ac nid oes neb yn addas i'w galw yn genadon dros Grist, ond y rhai sydd yn ei wneyd yn orchwyl penaf eu gweinidogaeth i eglurhau a dadguddio y drefn hon. Dyben eu gweinidogaeth yw dwyn pechaduriaid at Dduw yn Nghrist; ac am fod pechaduriaid yn gyndyn, a'r achos o'r pwys mwyaf, y maent hwythau yn daer, yn erfyn dros Grist, ac yn Ysbryd Crist. Y maent am lwyddo yn hyn; ac onidê, bydd eu gwaith i gyd yn ofer.

GWEIRGLAWDD—DIR, (gwair-clawdd) sef yw gweirglawdd, tir difwyniant namyn ei wair, a chlawdd yn ei gylch. *Cyfreithiau Cymreig.* Gen. 41. 2, 18.

GWEITH—IO—RED—IAD—WYR. Edr. Gwaith.

GWELED, (gwel) *Heb.* גלה (*gole*) canfod, edrych, golygu, tremio; deall, gwybod, ystyried, darbod. Gwaith y llygaid yw gweled; ac am fod gweled yn un o'r moddion mwyaf rhagorol i ni gael gwybodaeth, y mae gweled, yn aml, yn cael ei roddi am weithrediadau yr holl synwyrau eraill, megys am deimlo, clywed, arogli, ac archwaethu. Exod. 20. 18. Ps. 90. 16. Deut. 5. 24. Jer. 2. 31. Gweled sydd yn rhoddi i ni y wybodaeth fwyaf sicr; ac y mae llai

Digitized by Google

perygl i'n twyllo trwy weled, na thrwy glywed.* Gweled a arwydda, 1. Sylwi ar beth, ac adnabod trwy hyny. Mat. 22. 11. Gen. 37. 14.——2. Canfod trwy brofiad, neu trwy ddadguddiad, neu trwy gredu tystiolaeth Duw. Exod. 5. 19. Rhuf. 7. 23. Ioan 14. 9. Heb. 11. 27.——3. Adnabod Duw trwy ffydd yn nhystiolaeth y gair yn y byd hwn, a mwy cyflawn adnabyddiaeth a mwynhad o hono yn y nefoedd. Job 19. 26. Ioan 3. 2, 3. 1 Cor. 13. 12. Yr ydys yn gweled o ran yma, trwy ffydd; wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth olwg—sef nid wrth olwg y synwyrau naturiol, nac wrth olwg y saint yn y gogoniant. Ond 'gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych, mewn dammeg,' neu gyffelybiaeth ddaearol, yn dangos pethau ysbrydol. Ond gwelir yn y nefoedd 'wyneb yn wyneb,' megys ag y mae; sef heb ddammeg neu gyffelybiaeth, yn eglur, heb gyfryngau; yn ddigwmwl, yn ddiflino, ac yn ddiddarfod. Eu holl waith, eu holl wobr, a'u holl ddedwyddwch fydd gweled Duw. Ni bydd dim arall gan y gwaredigion i'w wneuthur mewn byd arall, ond gweled Duw; hyn fydd eu gwaith a'u holl fwynhad. Y mae digonolrwydd llawenydd ger ei fron, neu yn ei wyddfod. Ps. 16. 11. Mat. 5. 8. Y maent yn ei weled yma, trwy ffydd, yn yr athrawiaethau—yn yr addewidion—ei ordinhadau—ei ragluniaethau; ond yno cânt ei weled megys ag y mae: cânt weled Crist yn holl fawredd ei berson, a gogoniant ei natur ddynol, a bod yn debyg iddo, ac yn wastad gyd âg ef. Ioan 17. 24. Ps. 17. 15.

Gweled wyneb un, neu wyneb yn wyneb, a arwydda, nid yn unig ei ganfod, ond hefyd cyfeillgarwch âg ef. Yn Persia nid oedd neb yn gweled wyneb y brenin, ond ei ben-cynghorwyr. Esther 1. 14. Dat. 22. 4.

Y gwrthddrychau a ganfyddir â'r synwyrau naturiol, a elwir *gweledig;* a'r pethau ni chanfyddir felly, a elwir *anweledig,* neu *y pethau ni welir;* ac mae y pethau *gweledig* ac *anweledig* yn arwyddo yr holl greadigaeth, pob creadur. Col. 1. 16.——Y pethau 'ni welir,' yn 2 Cor. 4. 18. yw y pethau ni welir â llygaid y corph, na llygaid rheswm dynol; y pethau ni welodd llygad, ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw, a drysorwyd yn Nghrist, a ddadguddir yn yr efengyl, ac sydd yn cael eu gweini gan yr Ysbryd Glân i'r rhai hyny a gedwir i fywyd tragywyddol. 1 Cor. 2. 9. Edrych ar y pethau hyn sydd foddion neillduol, trwy yr Ysbryd, i adnewyddu y dyn oddifewn o ddydd i ddydd Adn. 18. 2 Cor. 3. 16. Edrych arnynt a arwydda adnabyddiaeth o honynt—meddylfryd arnynt—serchiadau arnynt—ymddiried ynddynt—a dysgwyliad wrthynt am ddedwyddwch.

'Yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch.' Mat. 23. 14. Yr oeddynt yn gweled Crist, ac etto heb ei ganfod i'w wir adnabod; yr oeddynt yn gweled y gwyrthiau, ac heb ganfod mawredd y person oedd yn eu gweithredu; yr oeddynt yn gweled llawer, etto heb ystyried. Esa. 42. 20. Yr oeddynt yn clywed Crist yn athrawiaethu, ac heb ddeall ei athrawiaethau. Yr oeddynt fel y dall ganol dydd goleu, heb ganfod dim. Barn drom arnynt oedd hon. Ioan 6. 26.

'Ni welant, Arglwydd, pan ddyrchafer dy law,' sef ni ddeallant pan fyddo yr Arglwydd yn llefaru, neu yn gweithio. Ni chanfyddant ei wirionedd, na'i law yn ei waith, na'i ddyben yn gweithio. Ond cânt weled; cânt deimlo cyflawniad dychrynllyd ei air, a'i ddigofaint, yn ei farnedigaethau. Esa. 26. 11.——Gwaith Duw yn gweled personau, neu bethau, a arwydda ei wybodaeth berffaith o honynt; a'i gymeredigaeth, neu ei anghymeredigaeth o honynt. Gen. 1. 4. 2 Bren. 19. 16. Gen. 6. 5.

GWELEDYDD—IGAETH, (gweled). Gweledydd yw un yn gweled, neu yn cael gweledigaethau yn wirioneddol oddiwrth Dduw; megys Samuel, Sadoc, a Gad. 1 Sam. 9. 9, 11, 19. 2 Sam. 15. 27. a 24. 11.—Neu, gau weledyddion, gweledyddion heb weled. Esa. 29. 10. a 30. 10. Amos 7. 12. Mic. 3. 7. Y mae gweledydd yn gyfleithiad addas o'r gair רואה *un yn cael gweledigaeth,* neu ddadguddiad dwyfol trwy weledigaeth, o ryw ddirgelion i'w hysbysu i eraill. Y mae dau air Hebraeg, sef רואה a חוזה yn cael eu cyfieithu *gweledydd.* Y mae y ddau air yn agos yr un ystyr. Y mae gair arall הנביא a gyfleithir *prophwyd,* yn arwyddo *cyfaill,* neu un *cyfeillgar;* un yn cael cyfeillach â Duw, yn gweddïo arno, ac yn cael dadguddiad o'i ewyllys.* Felly y dywedir am Abraham 'Prophwyd נביא yw efe, ac efe a weddïa drosot.' Gen. 20. 7. 'Canys y prophwyd (הנביא) heddyw, a elwid gynt yn הראה *weledydd.*' 1 Sam. 9. 9. Yn llyfrau Moses y mae y gair נביא *prophwyd,* yn cael ei arferyd mewn ystyr mwy cyffredin, am y duwiolion yn rhodio gyda Duw, ac yn cael amlygiad o'i feddwl; yn nyddiau Samuel y gair הראה *gweledydd,* a arferid am brophwyd wrth ei swydd, yr hwn oedd yn cael amlygrwydd o ddirgelion Duw i'w hysbysu i ddynion. Gwedi hyny galwyd ef נביא. Y mae yr adnod gwedi ei rhoddi gan Ezra, neu ryw un arall, fel eglurhad ar y gwahaniaeth yn arferiad y geiriau yn amser Samuel, ac yn yr oesoedd gwedi hyny. Yr oedd gweledydd wrth ei swydd i fod fel llygaid i eraill, i hysbysu yr hyn oedd yn ei weled i eraill, i'r dyben iddynt gyrchu ato, neu i'w ochelyd, fel y byddai natur y peth. Gallasai yr Arglwydd hysbysu i bob dyn, yn ol ei amgylchiad, yr hyn oedd yn angenrheidiol iddo ei wybod; yn lle hyny gwelodd fod yn dda gyfodi *un* i fod yn weledydd i *lawer,* yn yr amrywiol oesoedd—a hyny, yn ddiammeu, i gyfeirio meddyliau yr eglwys, yn mhob oes, at y prophwyd mawr, Iesu Grist, trwy ba un y mae yr holl ddadguddiad cyflawn o feddwl Duw wedi cael ei roddi i'r eglwys. Y mae hyn i'w weled yn amlwg yn holl oruchwyliaethau Duw tu ag at ei eglwys yn y cyn-oesoedd; mae *un* o hyd yn cael ei gyfodi i fod er lles i lawer—megys yr offeiriaid, y prophwydi, y barnwyr, y breninoedd, y rhai oeddynt oll yn cyfeirio at y Gwaredwr addawedig, yn mherson yr hwn byddai yr holl swyddau yn cael eu gweinyddu; ac yn awr y mae yr eglwys wedi ei chyflawni ynddo ef. Y mae efe yn ben-bugail, yn arch-offeiriad, ac yn esgob, neu yn olygwr ar yr holl dŷ. Y mae *un* yn cyfryngu yn mhob oes, fel cysgodau o'r Cyfryngwr mawr, yr hwn oedd i gyflawni a pherffeithio pob peth.

Llefarodd Duw *lawer modd* gynt wrth y tadau trwy y prophwydi—trwy hûn—trwy weledigaethau nos.—Y mae ymddangosiad Duw i Moses yn y berth yn cael ei alw yn weledigaeth fawr. Exod. 3. 3.—Mewn trwm-gwsg cafodd Abraham ac Israel weledigaeth. Gen. xv. a 46. 2. Edr. Esa. 1. 1. a 29. 7, 8. Ezec. 1. 1. Dan. 2. 19, 28. Nah. 1. 1. Mat. 17. 9. Luc 1. 22. a 24. 23.

Yn nyddiau cyntaf yr efengyl hefyd yr oedd yr Arglwydd yn llefaru yn aml trwy freuddwyd a gweledigaeth. Act. 2. 17. a 10. 11—17. a 16. 9. 2 Cor. 12. 1, 2, 3. Dat. 1. 10. Ond 'yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab:' y mae y dadguddiad dwyfol yn y gair yn fwy cyflawn, ac yn fwy eglur; nid oes dim yn eisieu i wneuthur dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio, neu ei gwbl addasu, a'i hyfforddi i bob gweithred dda. Gan hyny, edrych

* Non enim tantum dicimus, vide quid luceat, sed etiam, vide quid sonet, vide quid oleat, vide quid sapiat, vide quid caleat. Austin.

* Gwel Witsius *de Prophetis et Prophetia.*

Digitized by Google

yn awr am freuddwydion a gweledigaethau i gael amlygrwydd o feddwl Duw trwyddynt, yw myned yn ol at yr hen oruchwyliaeth, neu i ddechreu dyddiau yr efengyl, cyn i'r ysgrifeniadau gael eu cyflawni. Beth yw hyny, ond synied mwy nag sydd ysgrifenedig? yr hyn a waherddir gan yr apostol. 1 Cor. 4. 6.

'Y gweledyddion a orchuddiodd efe.' Esa. 29. 10. Mygydodd hwynt, hyny yw, gadawodd hwynt heb un weledigaeth; nid oedd y gweledyddion yn gweled dim, ond yr oeddynt ganol dydd goleu fel dynion â'r mwgwd ar eu hwynebau. Yr oedd y deillion yn cael eu tywys gan ddeillion. Y mae hon yn farn drom ar ddynion, ond nid heb ei haeddu. Esa. 30. 10. Edr. PROPHWYD.

GWELI—AU, (gwâl) archoll, briw.—'Gwelïau crawnllyd.' Esa. 1. 6. Y gwelïau crawnllyd hyn oedd pechodau y wladwriaeth, a barnedigaethau o'u herwydd, y rhai sydd yn difa ac yn dystrywio dynion a theyrnasoedd.

'Beth a wna y gwelïau hyn yn dy ddwylaw?' Zech. 13. 6. 'Y gwelïau hyn;' sef yr archollion, y clwyfau hyn. 'Yna efe a ddywed, Dyma y rhai y'm clwyfwyd â hwynt yn nhŷ fy ngharedigion.' Iesu Grist yw y person sydd â'r gwelïau yn ei ddwylaw; ei garedigion, ei geraint, ei genedl ei hun, y rhai oeddynt yn proffesu eu bod yn garedigion i'r Messiah, yw y rhai a'i clwyfodd. Ond trwy y clwyfau hyn yr agorwyd ffynon i bechod ac aflendid. Adn. 1. Ps. 22. 16. Ioan 18. 35. a 19, 14—18. Diar. 27. 5, 6.

GWELWLAS, (gwelw-glas) glas gwan. Lliw fel glaswellt wedi eu llosgi gan wres yr haul, yn y gwledydd poethion deheuol; neu liw y clai.—'Ac wele farch gwelwlas; ac enw yr hwn oedd yn eistedd arno oedd marwolaeth; ac uffern oedd yn canlyn gyd âg ef.' Dat. 6. 8. 'March â lliw priddlyd.' W. S. Ymyl y ddalen, melyn, llwchwin, gwelw. Dyma ddrychiolaeth athrist, ddychrynllyd.* Edr. PEDWERYDD SEL.

GWELY—AU, (gwâl) *Gr.* κλινη; glwth, nyth, gorweddfa, gorweddle, lle i orphwys, i ddadluddaw, neu i gysgu arno; neu ddarn o dir gwedi ei godi, a'i neillduo i flodau a phêrlysiau. 2 Sam. 4. 5. Can. 6. 2.

Yr oedd amryw fath o welyau yn y gwledydd dwyreiniol, ac yn wahanol iawn yn eu dull a'u gwneuthuriad i'r rhai arferedig yn yr oesoedd hyn yn y gwledydd gorllewinol. Y mae darluniad gwely y ddynes anllad (Diar. 7. 16.) yn ei osod allan yn hardd-odidog a chostus. 'Mi a drwsiais fy ngwely â lleni, ac â cherfiadau, a llieiniau o'r Aipht.' 'Mi a drwsiais fy ngwely â chortinau, ac â thasselau, a llieiniau llin yr Aipht.' Dr. M. Yr oedd y darluniad yn yr iaith Hebraeg, diammeu, yn ddigon deallus yn yr oesoedd a'r gwledydd hyny, er nad ydyw felly i ni. Nid oedd gwely, κραββατος, y dyn tlawd, claf o'r parlys, ond math o fatras go sal, tebygol, ac yn hawdd iddo ei ddwyn wedi ei iachâu. Yr oedd gwely Og, brenin Basan, yn wely o haiarn, 'naw cufydd ei hŷd, a phedwar cufydd ei led, wrth gufydd gwr,' sef yn nghylch pymtheg troedfedd a hanner ei hŷd, a chwech troedfedd a deg modfedd ei led. Pa fath wely oedd gwely y cawr hwn, a pha fodd yr oedd wedi ei wneuthur o haiarn, sydd anhawdd penderfynu; ac nid ydynt o ganlyniad mawr i ni wybod. Yr oedd ei wely, fel efe ei hun, o faintioli nodedig o fawr. Ar loriau wedi eu gorchuddio â llawr-leni, y maent yn bresennol yn gorwedd yn y gwledydd dwyreiniol, neu ar ddarn o'r llawr wedi ei godi yn uwch na'r cwbl, yn ystlys yr ystafell, a math o fatras danynt, a lleni arnynt. Gwel *Fragments to* Calmet's *Dict.*, *No.* 13, *p.* 28.

Yn mhlith y Rhufeiniaid yr oedd *lectus cubicularis*, ystafell wely; *lectus discubitorius*, bwrdd wely, sef gwelyau lle byddent yn gorwedd arnynt wrth fwyta. Yr oedd ganddynt *lectus lucubratorius*, gwely i astudio arno; *luctus funebris*, ar ba un y byddent yn dwyn cyrph y meirw i'w llosgi, neu i'w claddu.—'Gwely dihalogedig.' Edr. DIHALOG.

'Byrach yw y gwely nag y galler ymestyn ynddo.' Esa. 28. 20. Edr. CWRLID.—'Wele fi yn ei bwrw hi ar wely,' sef i gystudd mawr. Dat. 2. 22. 'Ei bwrw hi ar wely,' a arwydda, ei chystuddio â'r fath ofidiau a thristwch, fel na allai ymgynnal, ond ymdreiglo ar wely cystudd, mewn gofid a blinder mawr. Hwyrach fod y geiriau yn cyfeirio at 1 Bren. 21. 4. Wedi sôn am Jezebel o'r blaen (adn. 20.) gallai gyfeirio yn naturiol at Ahab ei gwr, yn gorwedd yn ei wely yn athrist ac yn ddigllon. Ar eu gwelyau y buont yn cyflawni eu chwantau pechadurus; ar welyau y cânt eu cystuddio â chystudd mawr. Yn aml, mae y moddion a fu genym yn pechu, yn foddion yn llaw yr Arglwydd i'n cospi am ein pechodau. Job 33. 19.

'Gorwedd y maent ar welyau ifori.' Amos 6. 4. Y *lectus discubitorius*, y *bwrdd wely*, tebygol, a feddylir yma; y rhai oeddynt wedi eu gwneuthur o ifori, neu eu gorchuddio, neu eu brith addurno âg ifori. Yr oedd y gwelyau iddynt i orwedd arnynt, yn wych ac yn gostfawr, a hwythau yn treulio eu hamser mewn segurdod a moethau arnynt; ac yn pellhau y dydd drwg mewn esmwythder a digrifwch cnawdol. Y mae gwae Duw uwch ben y rhai hyn sydd yn esmwyth arnynt yn Sïon.

'Helaethaist dy wely,' hyny yw, cynnyddaist mewn eilun-addoliaeth a halogedigaeth. Esa. 57. 8.

'A'i nertha ef ar ei glaf wely; cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd.' Ps. 41. 3. Mae y goreu o ddynion yn ddarostyngedig i glefydau blinion a phrofedigaethau; nid oes grym yn neb i ymgynnal yn y cyfryw amgylchiadau, fel y gweddai iddynt, yn sanctaidd ac yn dduwiol. Y mae gofal yr Arglwydd am danynt yn mhob amgylchiad, yn fanwl, ac yn ddiball; a chânt wybod mai yn ol eu dydd y bydd eu nerth. Y mae yr Arglwydd yn eu nerthu ar eu claf welyau, trwy ddangos iddynt yr hyn a haeddent, a pheri iddynt gydnabod eu gwaeledd, trwy ddangos ei gariad a'i ddyben tu ag atynt yn y cwbl; sef eu lleshâd, fel y byddent gyfranogion o'i sancteiddrwydd; trwy ystyriaethau mai byr ac ysgafn ydynt, a'u diweddiad hollol mewn tragywyddol bwys gogoniant. Y mae efe yn cyweirio, neu yn *troi* eu holl wely, trwy roddi iddynt amynedd a dyddanwch ysbrydol ar y gwely, er eu bod mewn clefyd. Nid rhaid i'r Arglwydd gyfnewid amgylchiadau ei bobl i'w cysuro; ar ysbrydoedd ei bobl y mae yn gweithredu y rhan amlaf; ac yna bydd eu hamgylchiadau yn esmwyth, pa fath bynag fyddont. Nid yw cyfnewid amgylchiadau un, heb weithredu yn sanctaidd ar ei ysbryd hefyd, yn chwanegu dim at ei ddedwyddwch. Y mae y geiriau yn dangos tiriondeb a mawr ofal Duw am ei bobl, ac effeithioldeb ei ofal am danynt. Golygiadau ysbrydol, trwy ffydd ar gariad Duw yn ei Fab, a wna bob amgylchiad gofidus yn dawel ac yn esmwyth. 'Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll; pa wedd gyd âg ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?' Rhuf. 8. 32.

'Ein gwely hefyd sydd iraidd.' Can. 1. 16. Mae y gair רענן a gyfleithir *îr* ac *iraidd*, yma, ac yn Ps. 92. 10. Hos. 14. 9., yn cael ei gyfieithu *gwyrddlas*, *gwyrdd*. Deut. 12. 2. Ps. 37. 35. a 52. 8. Y gair a arwydda ffrwythlonrwydd ac ireidd-dra pren, yn hytrach na'i liw. Yn y fan yma, diammeu fod y geiriau yn cyfeirio at ryw ddull o addurno eu gwelyau â blodau, neu gangenau pêr, ffrwythlawn; ac yn gyffelybiaethol, yn gosod allan hyfrydwch a ffrwythlonrwydd y gymdeithas ysbrydol rhwng Crist a'i eglwys. Er benthyca y pethau mwyaf gwych a hyfryd

* Tristis equidem hæc tremenda imago.

Digitized by Google

a fedd y cnawd, etto rhy fach yw y cwbl i fynegi natur, hyfrydwch, a ffrwythlonrwydd cymdeithas Crist â'i bobl. Can. 3. 7. Ps. 110. 3.

GWELL—HAU, (gw-ell) rhagorach, amgenach; yn well.—1. Mwy ei werth; i'w ddewis yn flaenaf. Preg. 9. 4.——2. Mwy derbyniol a chymeradwy. 1 Sam. 15. 28.——3. Callach a doethach. Can. 1. 20.——4. Mwy cyfleus. 1 Cor. 7. 38.——5. Mwy manteisiol; cyflwr mwy cysurus, anrhydeddus, a gogoneddus. Phil. 1. 23.——6. Mwy diogel. Ps. 118. 8.——7. Rhagorach, mwy cysurus a boddlonol. Diar. 15. 16, 17. Ps. 84. 10. a 63. 3.

'Adgyfodiad gwell.' Gwell nag ymwared o ofidiau corphorol yma yn y byd; gwell nag adgyfodiad yr annuwiolion, sydd yn cael mwyniant pechod dros amser; gwell nag adgyfodiad gwyrthiol i'r bywyd presennol, a gafodd rhai. Heb. 11. 35.

'Gwlad well y maent hwy yn ei chwennych.' Heb. 11. 16. Gwell na Chaldea o ba un y daethant; a gwell na Chanaan i ba un yr aethant; gwell nag un wlad ar y ddaear, sef gwlad nefol. Yr oedd hon wedi ei dadguddio a'i haddaw iddynt; trwy ffydd yn yr addewid, yr oeddynt yn canfod ei rhagoroldeb ar ddim yn y byd; yn yr olwg yma yr oedd eu serchiadau yn cael eu dwyn yn gryfion i'w chwennych. Y mae ysbryd nefol yn chwennych pethau nefol, fel y mae syniad daearol yn chwennych pethau daearol. Ps. 119. 72. Heb. 10. 34.

GWELLT, (gw-ell) pob math o'r llysieuyn; irwellt, porfa; ymborth anifeiliaid. Gen. 24. 25. Barn. 19. 19. Num. 22. 4. Edr. GLASWELLT.

GWENCI—OD, (gwanc) bronwen, carlwm.—'Y wenci.' Lef. 11. 29. *Heb.* חלד *ymlusgo;* WEASEL, *Saes.* math o ymlusgiad aflan dan y gyfraith.

GWENDID. Edr. GWAN.

GWENIAITH — U — US — GAR, (gwen-iaith) truth, truth-iaith, ymoliaith, têg-eiriau, hud-iaith. —'Trwy ymadrodd têg a gweniaith yn twyllo calonau y rhai diddrwg.' Rhuf. 16. 18. Geiriau têg, χρηστολογιας, *geiriau cyweithas*, caruaidd; yn hòni llesâd arall mwy na'i lesâd ei hun. Gweniaith, ευλογιας, *bendithion.* Yr oedd y gau-athrawon, gyd âg ymddangosiad o lawer o daerineb, yn gweddio am fendithion arnynt. Dyma ddull ac agwedd dynion yn ngweinidogaeth yr efengyl yn gwasanaethu eu bol eu hunain, ac nid ein Harglwydd Iesu Grist. Ysbryd gonest, cywir, diduedd, yw ysbryd gwir genadau, yn ceisio llesâd eraill a gogoniant yr Arglwydd, ac nid eu llesâd eu hunain. 'Ni buom ni,' medd yr apostol, 'un amser mewn ymadrodd gwenieithus, nac mewn rhith cybydd-dod; Duw yn dyst.' 1 Thes. 2. 5. Edr. CALON DAU-DDYBLYG, RHAGRITH.

GWENITH, (gwen-ith) gwenithŷd.* Y mae ŷd gwenith yn galed, ac yn faethlawn iawn. Nid oes un ŷd a wna fara mwy hyfryd ei flas, a mwy magwriaethol na gwenith. Nid hawdd penderfynu yn mha le y mae gwenith yn tyfu yn naturiol: y farn gyffredin yw, mai Affrica yw y wlad: oblegid mai yr hanes cyntaf a roddir i ni am wenith, yw hanes ei drosglwyddiad o'r wlad hòno i wledydd eraill. Sicily yw y wlad gyntaf yn Ewrop yr hauwyd gwenith ynddi. Gan ei fod yn fwyaf angenrheidiol a defnyddiol at gynnaliaeth dynion, fe dŷf yn mhob gwlad, sef yn y gwledydd oeraf a phoethaf, yn gystal a'r rhai mwyaf cymedrol. Y mae yn tyfu yn Chili a Peru, yn gystal ag yn Ewrop, lle nad oedd yn adnabyddus nes i'r Ewropiaid ei gario yno. Cyfrif Miller bedwar math o hono; ond mae Linnæus yn cyfrif un math ar ddeg o hono. Dywed ysgrifenwyr Iuddewaidd fod y gwenith goreu yn eu gwlad hwy yn tyfu yn Michmash, Mezonichah, ac Ephraim; ond y mae yn sicr fod gwenith Minnith a Phannag yn rhagorol. Ezec. 27. 17.

Dengys yr Arglwydd yr angenrheidrwydd oedd iddo farw, trwy gyffelybiaeth oddiwrth y gronyn gwenith, yr hwn oni syrth i'r ddaear a marw, a erys yn unig; ni cheir dim cnwd oddi wrtho, na chynnydd arno, oni bydd marw. Felly hefyd yr un fath, oni byddai i Grist farw, ni byddai un enaid cadwedig; ond gan ei fod wedi marw a'i fywhau drachefn, bydd cnwd rhyfedd o bechaduriaid i gael eu bywhau a bod yn ogoneddus; 'o lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir.' Os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer; a ffrwyth ei farwolaeth fydd yr holl gynauaf i gyd. Ioan 12. 24. Esa. 53. 11. Hos. 14. 8. 1 Cor. 15. 36.

Pan gyffelybir yr annuwiolion i'r efrau, mae y duwiolion yn cael eu cyffelybu i'r gwenith, oblegid eu rhagoroldeb, eu defnyddioldeb, a gofal Duw am danynt. Mat. 3. 13. a 13. 25. Luc 16. 7.

Oblegid ei faethlonrwydd cynnaliaethol y cyffelybir gair yr Arglwydd i wenith. Jer. 23. 28. Nid yw pob peth arall i roddi magwraeth a dyddanwch i enaid pechadur, ond fel yr ûs i'w cymharu iddo. Edr. GAIR.

GWENNOL, (gwen-dol) gwennol y gwehydd; gwenfol; adar digon adnabyddus. Y maent yn dramwyol, (Jer. 8. 7. Diar. 26. 2.) ac yn dyfod i'n gwledydd ni yn y gwanwyn, ac yn ein gadael oddeutu diwedd mis Medi. Cyn eu hymadawiad y maent yn tyru yn heidiau ar benau tai i ymgynghori am y daith hirfaith o'u blaen. Canfyddir hwynt yn mis Hydref, ar eu taith, yn Affrica, yn mhen saith niwrnod wedi eu cychwyniad. Cyfeiriant eu ehediad tua Congo, Senegal. Y maent yn byw ar ednogion, ac y maent yn ehedeg gyda chyflymdra anghyffredin. Y mae eu traed yn fyrion ac yn eiddil; eu hadenydd a'u cynffonau yn hirion i ehedeg, a throi a chylchu, gyd â'r cyflymdra mwyaf i ddal eu hymborth. Mae eu nythod yn gywrain; ond nid yw nythod y gwennoliaid a welir yn y gwledydd hyn, ddim i'w cymharu i nythod yr *esculent swallow*, a geir ar dueddau China a Choromandel. Y mae y Chineaid yn casglu y rhai hyn oddiar y creigiau, ac yn eu dwyn i'r India Ddwyreiniol i'w gwerthu; ac maent yn eu rhoddi mewn isgell cyw, &c., ac yn ymborthi arnynt fel danteithfwyd o'r hyfrydaf. Gwel Buffon's *Nat. Hist.*

'Aderyn y tô hefyd a gafodd dŷ, a'r wennol nyth iddi, lle y gesyd ei chywion, sef dy allorau di, O Arglwydd y lluoedd.' Ps. 84. 3. Y mae y gair דרור a gyfieithir yma *gwennol*, yn cael ei gyfieithu yn y rhan fwyaf o gyfieithiadau i arwyddo rhyw fath o golomenod. Beth bynag am hyny, nid *yn* yr allorau yr oeddynt yn nythu, ond *yn agos atynt*, yn yr adeiladau oddi amgylch iddynt. Mae rhai yn cyfieithu y geiriau fel hyn: 'Ië, fel y cafodd aderyn y tô ei dŷ, a'r wennol ei nyth i osod ei chywion, felly y caf finnau dy allorau di, O Arglwydd y lluoedd, fy Mrenin a'm Duw.' Fy nyth a'm gorphwysfa innau yw dy allorau di, lle caf dawelwch a dyddanwch hyfrydlawn. Mae y Psalmydd megys yn cenfigenu wrth yr adar: maent hwy yn gallel myned yn rhydd i'w nythod, ac at eu cywion; ond yr oedd ef yn cael ei gau oddiwrth addoliad ac ordinhadau yr Arglwydd, y rhai yr oedd ei enaid yn hiraethu am danynt fel yr aderyn am ei nyth. Gwel Scott, Parkhurst.

Arferir 'gwennol gwehydd' am un peth tra chyflym, megys dyddiau bywyd dyn. Job 7. 6.

GWENWYN, (gwân-gwŷn). Mae llawer o lysiau, a mŵn, yn wenwynllyd; megys cegid, *arsenic, &c.*,

* Barna yr ieithyddwr enwog, Jacob Grimm, fod yr enw Allmanaidd am ŷd, sef *Getraide*, yn tarddu o'r hen air *gitragidi*, neu *getregede*, yr hwn a arwyddai *dôf, hywedd*. 'Y ffrwyth *dôf*, megys ydyw,' meddai, 'y sydd wedi syrthio i ddwylaw dyn, fel y siaradwn am anifeiliaid dôf, mewn cyferbyniad i'r rhai sydd wyllt.' Gwel Humboldt's *Views of Nature*. Argraffiad Bohn, tu dalen 128, &c.—C.

Digitized by Google

ond yr hyn a elwir yn yr ysgrythyrau wrth yr enw yw y gwlybwr hwnw a deifl aspiaid, seirph, a dreigiau allan trwy eu colynau neu eu brathiadau, i ladd creaduriaid eraill. Y peth sydd wenwynllyd ac yn farwol, i rai creaduriaid, sydd hollol ddiniwed ac yn feddyginiaethol i eraill. Gau athrawiaethau, ac ymadroddion llygredig, a gyffelybir i wenwyn aspiaid, y rhai y mae pechaduriaid cyfeiliornus a llygredig yn eu tywallt er mawr niwed i eraill sydd yn gwrando arnynt. Y mae gwenwyn gau athrawiaethau yn ddinystriol, oni cheir meddyginiaeth gwir athrawiaeth rhagddo. Deut. 32. 33. Ps. 58. 4. Rhuf. 3. 13. Iago 3. 8. Edr. Asp.

GWENYN—EN, (gwên) ednogau bychain a ffurfler o bryfed, rhyfedd am eu cywreinrwydd, a'u diwydrwydd yn casglu mêl a chwyr, o flodau a llysiau, ac yn gwneuthur eu diliau. Edr. Dil. Y peth cyntaf i sylwi arno yn y gwenyn yw y duryn, â pha un y maent yn sugno y mêl o flodau a llysiau. Mae wedi ei ffurfio fel ysgub i ysgubo, neu dafod i'w lyfu ymaith. Mae ganddynt ddannedd, â pha rai y gwnant y cwyr, ac y gweithiant eu celloedd âg ef. Y mae eu cyrph wedi eu rhanu yn chwech o gylchau; ac heblaw y perfedd, mae ganddynt fêl-gwd, gwenyn-gwd, a cholyn. Heb y colyn byddai i'r creadur diniwed hwn ormod o yspeilwyr sugurllyd, yn difa ei drysorau melys, ac heb garu gweithio am dano. Y mae ganddi guddfa i'r cwyr, ac un arall i'r mêl. Y mae tri math o wenyn yn mhob haid, sef y gwenyn llafurus, y gwenyn diog, segurllyd (*drone bees*), a'r fam wenynen; y gwenyn gweithgar, llafurus, yw yr amlaf o lawer; ac yr ydys yn barnu nad ydynt na gwrryw na banyw; ond eu defnyddioldeb yw llafurio yn unig, fel y byddo i'r rhai bychain gael ymborth pan yn anabl llafurio i gynnal eu hunain. Y *drone bees*, fel y gelwir, sydd fwy na'r lleill, ac yn dywyllach eu lliw; y rhai hyn ydys yn barnu yw y *gwrrywiaid*. Nid oes dros bump neu chwech o honynt yn mhob cwch. Y maent yn llechu yn nghylch y crwybr; yn gwneuthur ychydig, neu ddim, ond bwyta y mêl, ac yn aml y maent yn cael eu marwolaethu am eu segurdod a'u diogi gan y diwyd a'r llafurus. Y *fam wenynen* sydd fwy anaml fyth; dywed rhai nad oes ond un yn mhob haid; y mae eraill yn barnu nad yw hyn yn wir, ond bod tair neu bedair yn mhob cwch. Y fam wenynen sydd yn dodwy yr holl wyau, o ba rai y deorir yr haid. Mae y wenynen yn greadur darostyngedig i drefn a chyfreithiau; yn fywiog, yn wyliadwrus, yn weithgar, ac yn hunan-ymwadol iawn. Nid oes gan neb drysordŷ iddi ei hun, ond mae pob un yn llafurio er mwyn y cyffredin. Pan byddont yn dechreu gweithio yn eu cychod, y maent yn ymranu yn bedair o ranau neu gymdeithasau; y mae un yn myned i'r meusydd i chwilio am ddefnyddiau; y llall sydd yn ddiwyd iawn yn trefnu ac yn gosod sylfaen a muriau yr ystafelloedd; y drydedd sydd yn llyfnhau yr ochrau tufewnol, a'r conglau; a'r bedwaredd sydd yn dwyn ymborth i'r holl weithwyr hyn i gyd. Ond nid ydynt yn cadw yn gyson at yr un gwaith; canys y mae pob un yn fedrus yn yr holl waith, am hyny y maent yn newid yn aml; y mae y rhai sydd yn gweithio yn myned allan i'r meusydd, a'r rhai oedd yn y meusydd yn cymeryd eu lle yn y gwaith. Y mae ganddynt arwyddion wrth ba rai y maent yn deall eu gilydd; pan byddo eisieu ymborth ar un, hi a estyn ei duryn (*trunk*) at yr hon sydd yn gweini yr ymborth, a'r llall a egyr ei chwdfêl, ac a ddefnyna y mêl i safn agored yr hon sydd yn galw am dano. Mae eu diwydrwydd a'u llafur y fath fel y gorphenant gelloedd ddigon mewn un diwrnod i dair mil o wenyn. Y mae ganddynt ddefnydd neillduol, gwahanol oddiwrth y crwybr, i ddwbio tu fewn i'r llestr, fel y byddo yn hollol ddiddos. Wrth edrych arnynt ar yr olwg gyntaf, mae y cwbl yn ymddangos yn annhrefn, ac afreolaeth; ond wrth sylwi arnynt yn fwy manwl, canfyddir fod pob un yn ddiwyd wrth ei gorchwyl ei hun, ac yn dilyn hwnw yn unig, gyda llawn fwriad. A'u dannedd y maent yn gweithio eu celloedd, ac nid oes diwedd ar eu llafur wrthynt, i'w llyfnhau a'u cywreinio. Y celloedd i'r rhai ieuainc a ffurfir gyd â'r gofal mwyaf; y mae celloedd y *drones* yn fwy; ond cell y fam wenynen yw y fwyaf. Gan fod bywyd y fam wenynen o gymaint canlyniad i'r holl wladwriaeth, mae pob parch, gofal, a thiriondeb, yn cael eu dangos iddi. Dywedir y ceir ynddi, wrth agor ei chorph, bum mil o wyau ar unwaith. Yn yr ŵy mae y pryfyn yn cael ei ffurfio, ac yn cael ei daflu allan yn mhen diwrnod neu ddau. Porthir hwn gan y gwenyn nes y delo i'w gyflawn faintioli yn mhen chwe diwrnod. Wedi hyny cauir ef i fynu mewn ystafell, lle y mae yn myned trwy y dull-newidiad diweddaf, oddeutu ugain niwrnod wedi deor yr ŵy. Wedi iddo gyrhaeddyd i nerth digonol, y mae yn agor ei charchar â'i dannedd; a phan ymddangoso gyntaf yn eu plith, y maent yn tyru oddi amgylch iddi, rhai yn ei glanhau a'i sychu, ac eraill yn ei phorthi, nes y byddo hi yn addas i weithio gyda hwynt; yr hyn y mae yn ymosod yn ei gylch gyd â'r parodrwydd, a'r medrusrwydd perthynol i'r creaduriaid rhyfedd hyn. Pan fyddo y cwch yn rhy lawn, y mae yr hen rai yn peri gorfod ar y rhai ieuainc i ymadael, a myned allan i edrych am drigfanau newyddion. Weithiau y mae anufudd-dod yr ieuainc yn peri rhyfel ofnadwy; ond yr hynafiaid sydd bob amser yn fuddugoliaethus; ac y mae yr ieuainc gwrthryfelgar yn gorfod ymadael wedi eu colledu, ac yn archolledig. Pan fyddont yn ymadael a'u hen drigfanau, y mae yn foreu prysur iawn arnynt; wedi dewis y *fam wenynen*, maent yn myned gyda hi yn gwmwl gyd â'u gilydd i ymofyn am drigfan newydd.

Mae dau fath o gŵyr; un yn fân, a'r llall yn frasach; â'r brasaf y maent yn dwbio y llestr i'w wneyd yn sych ac yn gynhes. Mae y llall mor angenrheidiol at gynnaliaeth y gwenyn a'r mêl. Mae dau fath o fêl hefyd, sef y gwyn a'r melyn. Y mae y gwyn i'w gael yn y diliau heb dân. Mae y melyn i'w gael trwy wres, a'i wasgu mewn cydau dan wasg. Y mae y mêl goreu yn newydd, yn dew ac yn ronynog, claerwyn, o arogl peraidd, ac o archwaethiad melys, bywiog. Y mae mêl y mynyddoedd yn rhagori ar fêl y dyffrynoedd; a mêl y gwanwyn yn rhagori ar fêl yr hâf.

Y mae colynau gan y gwenyn; ond nid ydynt yn eu harfer, yn gyffredin, heb eu cyffroi. Yn Guadaloupe y mae gwenyn llai o faintioli na'n gwenyn ni, heb golynau; ac y mae eu mêl yn wahanol: ei liw yn ddu, neu liw amber, nid yw byth yn caledu.

Mae byddinoedd yr Amoriaid, yr Assyriaid, a gelynion Dafydd, yn cael eu cyffelybu i wenyn, oblegid eu hamldra, eu cyflymdra, a'u niweidioldeb. Deut. 1. 44. Esa. 7. 14. Ps. 118. 12.

GWER—EN, (gwe-er) brasder, mebin; gwêr manllwyn, sef gwêr defaid. Exod. 29. 22. Lef. 3. 4. Yr oedd yn waharddedig i Israel fwyta dim gwêr, na dim gwaed; ond yr holl wêr oedd eiddo yr Arglwydd. Lef. 3. 16, 17. Edr. Brasder.

GWERSYLL—FA—U, (gwer-syll) gwersyllfa, gorsaf; arosle byddin. 1 Sam. 4. 7. Nid ellir dychymygu dim yn fwy rheolaidd na gwersyll yr Israeliaid yn yr anialwch. Yr oedd y babell yn y canol. O du y dwyrain yr oedd Moses ac Aaron, a'u teuluoedd, yn gwersyllu. O du y dehau yr oedd y Cobathiaid; yn y gorllewin yr oedd y Gersoniaid; ac yn y gogledd yr oedd y Merariaid. Fel hyn yr oedd y babell wedi ei hamgylchynu â'r Lefiaid, y rhai oeddynt yn gweini yn ngwasanaeth y babell. O flaen y babell, ac o du y dwyrain iddi, yr oedd yn gwersyllu

Digitized by Google

lwythau Judah, ac Issachar, a Zabulon; yn cynnwys 186,400 o wyr addas i ryfel. O du y dehau y gwersyllai Reuben, a Simeon, a Gad; yn cynnwys 151,400. O du y gorllewin y gwersyllai Ephraim, Manasseh, a Benjamin; yn cynnwys 108,100. O du y gogledd y gwersyllai Dan, ac Aser, a Naphtali; yn cynnwys 157,600. Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hefyd yn ffurfio eu gwersylloedd yn debyg i hyn. Yr oedd yr udgyrn arian yn rhoddi iddynt dri larwm pan gychwynent; un i'w rhybuddio hwynt i ymbarotoi; y llall i'w casglu at eu llummanau; a'r trydydd i'w cychwyn. Gwersyll Judah ydoedd yn cychwyn gyntaf; gwedi hyny tynid i lawr y babell, a'r Gersoniaid a'r Merariaid a gychwynent â'u beichiau. Ar yr ail larwm cychwynai Reuben; gwedi hyny y Cohathiaid, â dodrefn y babell ar eu hysgwyddau. Gwedi hyny cychwynai llwyth Ephraim, Ps. 80. 1, 2; a Dan yn olaf. Num. 1. 2. a 4. 10.

Tu allan i'r gwersyll byddai trigfa y gwahan-glwyfus a'r aflan—byddai hefyd y drwg-weithredwyr yn dyoddef, y rhai a gyfrifid yn aflan; felly Crist hefyd, fel y tynai ymaith bechodau, ac y sancteiddiai y cyfryw, a ddyoddefodd y tu allan i borth Jerusalem; ac y mae yn ddyledswydd arnom ninnau, fyned y tu allan i wersyll pob cymdeithas gnawdol, gan ddwyn ei waradwydd ef yn ewyllysgar, a dyoddef pob peth er ei fwyn. Cymh. Deut. 23. 10. Num. 19. 3. Exod. 29. 14. Heb. 12. 12, 13, 14.

'Gwersyll y saint, a'r ddinas anwyl,' yr un ydynt; sef eglwys Dduw yn ei hiawn drefn; yn barod i ymladd â thywysogaethau ac awdurdodau. Dat. 20. 9. Mae cyfeiriad y geiriau at y gwersyll yn yr anialwch, yr hwn oedd yn gwbl yn ol trefniad Duw, a than ei lywodraeth, ei arweiniad, a'i amddiffyniad. Ps. 87. 2. Dat. 21. 1, 10.

'Dyma wersyll Duw; ac a alwodd enw y lle hwnw, Mahanaim,' neu y gwersyllwyr. Gen. 32. 2. Deallwn wrth hyn fod yr angelion a ymddangosasant i Jacob yn lliosog, a bod yr olwg arnynt yn ddychrynadwy, ac yn alluog, i amddiffyn neu i ddystrywio. Tebygol eu bod fel byddin oddi amgylch iddo, i'w amddiffyn rhag Esau o'r blaen, a Laban ar ol. 'Angel yr Arglwydd a gastella (neu חנה a *wersylla*) oddi amgylch y rhai a'i hofnant ef.' Ps. 34. 7 a 103. 21. a 148. 2. Luc 2. 13. 2 Bren. 9. 17. Joel 2. 11.

GWERTH—U—WYR—FAWR, (gwêr) *Saes.* WORTH: pris; bri ar beth; pridwerth.—1. Y bri a roddir ar beth, neu yr iawn am dano. Exod. 20. 30. ——2. Dymunol, llesol, ac anwyl. Diar. 31. 10. Y mae rhai pethau a gwerth ynddynt i ryw ddybenion, a thros amser; felly y mae ffrwyth y ddaear. Iago 5. 7. Y mae pethau eraill yn werthfawr ynddynt eu hunain, ac a barhant felly byth; megys gwaed neu aberth Crist; trugaredd ac addewidion Duw. 1 Petr 1. 19. Ps. 36. 7. 1 Petr 3. 4. 2 Petr 1. 4. Y mae ffydd yn werthfawr, am mai trwyddi yr ydym yn cyfranogi o Grist gwerthfawr, ac yn derbyn sylwedd yr addewidion gwerthfawr, ac y mae ei ffrwythau yn dra gwerthfawr. Heb. 3. 14. 2 Petr 1. 1. 1 Petr 3. 4.

Y mae gwerthu, weithiau, yn arwyddo gwneuthur cyfrif bychan o un peth mewn cymhariaeth i beth arall, a pharodrwydd i ymadael yn gwbl â'r naill i gael y llall. Mat. 13. 46.

'Er gwerth y prynwyd chwi.' 1 Cor. 6. 20. Y mae y gair *Gr.* τιμη, *gwerth*, yn arwyddo y gwerth a roddid am gaeth-weision i'w rhyddhau hwynt. *Τιμη ανθρωπων, gwerth dynion*, hyny yw, caeth-weision. Xenophon, *de Vectigal*, iv., 18. Gwedi eu prynu er gwerth, yr oeddynt, o ran eu personau a'u holl wasanaeth, yn eiddo y gwr a'u prynodd. Felly mae yr apostol yn rhesymu yma: 'Gogoneddwch Dduw yn eich corph ac yn eich ysbryd, y rhai ydynt eiddo Duw.' Pa fodd y maent yn eiddo Duw? Ateb, Er gwerth y prynwyd chwi ganddo: a hwnw yn werth digymhar. Y mae Crist yn ei aberth yn werth am danynt, ac yn iawn drostynt. Gelwir ef τιμη, *gwerth*—λυτρον, *pridwerth*, pryniant, gwerth yn prynu—δουναι την ψυχην αυτου λυτρον αντι πολλων. Ei einioes yw y *pridwerth: rhoddodd ei einioes ei hun*, αντι, *yn lle* eu heinioes hwy. Cymaint ag a dâl ei berson a'i fywyd ei hun yw y gwerth a roddwyd am danynt i'w rhyddhau: ιλαστηριον, trugareddfa, iawn, cymmod, cysyliad, trwy ba un y'n cymmodir ni â Duw. Mat. 20. 28.

'Wedi fy ngwerthu dan bechod.' Rhuf. 7. 14. Y mae 'wedi fy ngwerthu' yma yn arwyddo bod o'i *anfodd* mewn caethiwed, ac yn gwneuthur yr hyn nad oedd *foddlawn* ganddo. Nid oedd efe yn foddlawn i un pechod, yn y gradd lleiaf; mor belled, gan hyny, ag yr oedd efe yn ei wneuthur, yr oedd yn gaeth, hyny yw, wedi ei werthu dan bechod. Gwerthodd Adda ei hun o'i wirfodd dan bechod; ac yn ganlynol yr ydym ni oll yn cael ein geni yn weision pechod: mor belled ag ydyw y rhyddhad heb fod yn gyflawn ac yn berffaith, y mae effeithiau y gwerthiad hwn yn parhau. Fod y gair 'gwerthu' yn arwyddo caethiwed, Gwel Deut. 32. 30. Barn. 2. 14. a 3. 8. a 4. 2. 1 Bren. 21. 20. Esa. 50. 1.

Pan y priodolir gwerthu i'r Arglwydd mewn perthynas i'w bobl, y mae yn arwyddo yr effaith o hono, sef caethiwed; yr un modd yma hefyd, y mae effaith yr hen werthiad heb ddarfod, a'r rhyddid a brynwyd gan Grist etto heb ei gyflawn fwynhau, yn ei holl effeithiau gwynfydedig.

'Pryn y gwir, ac na werth; felly doethineb, ac addysg, a deall.' Diar. 23. 23. Nid oes dim yn ormod i'w roddi am dano; ac nid oes dim yn ddigon i'w dderbyn am dano. Mae yn fwy ei werth na phob peth arall, ac a ateb i ragorach dyben i'r neb a'i meddianno. Diar. 4. 5, 7. a 2. 3, &c. Heb. 12. 16. Mat. 16. 26. Phil. 3. 7, 8. Act. 20. 23, 24. Dat. 12. 11.

Gwerthwyd Joseph gan ei frodyr yn gaethwas: yn hyn, fel mewn pethau eraill o'i fywyd, yr oedd efe yn gysgod o Grist, yr hwn a werthwyd gan un o'i genedl, a chanlynwr iddo, sef Judas. Fel yr ymostyngodd i bob iselder a gwaradwydd, ni chafodd fod heb y dystyrwch hwn hefyd arno; cymerodd arno, yn hyn hefyd, agwedd gwas, neu gaethwas; un wedi ei werthu i'r lle isaf, a'r gwasanaeth caletaf. Deg ar hugain arian ydoedd gwerth y caethwas gwaelaf cyffredin yn mhlith yr Iuddewon; a thyma ydoedd gwerth person anfeidrol y Messiah yn eu golwg.——'Pris y prisiedig, yr hwn a brynasant gan feibion Israel.'—'Gwerth y gwerthedic, yr hwn a brynesont gan plant 'r Israel.' W. S. a Dr. M. Neu, yn hytrach, gellir cyfieithu y geiriau fel hyn: 'Cymerais y deg ar hugain arian (gwerth y gwerthedig, yr hwn a werthasant) gan feibion Israel (a hwy a'u rhoisant am faes y crochenydd) megys y gosododd yr Arglwydd i mi.' Zech. 11. 13. Ps. 105. 17. Mat. 27. 9. Act. 7. 9. Gwel Knatchbull, Doddridge, Campbell.

GWERTHYD, (gwarth) echel, chwarf, chwarfan; *Heb.* כישור pin, neu ryw beth yn perthyn i'r cogel, nas gellir ei ddeall yn benderfynol heb ddeall gwneuthuriad yr hen beiriant at nyddu. Diar. 31. 19.

GWERYRIAD—U, (gwer-gyru) gwneuthur llais, neu swn, fel march, neu asyn.—'Yr oeddynt fel meirch porthiannus y boreu, gweryrent bob un ar wraig ei gymydog.' Jer. 5. 8.

GWESTFA, (gwêst) gwledd, cyfeddach, llettywriaeth.—'A'r lleoedd penaf yn y gwestvae.' Luc 20. 46. W. S.

GWEWYR, (gwew) gwayw, gofid, dolur; dolur llymdost, megys dolur gwraig wrth esgor. Esa. 21. 3. a 26. 17. a 66. 7. Jer. 50. 43.



Digitized by Google

GWEYDD—ION, (gwe) un yn medru y gelfyddyd o wau. Job 7. 6. Edr. GWAU, GWENNOL.—'Torais ymaith fy hoedl megys gwëydd; â nychdod (*oddiwrth yr eddi*, ymyl y ddalen) y'm tyr ymaith.' Esa. 38. 12. 'Torais ymaith fy hoedl megys y gwëydd, gan gulni efe a'm dryllia.' Dr. M.—'Torwyd ymaith fy hoedl megys gan y gwëydd; tyr fi oddiwrth y gwŷdd.' Gwel Lowth. Tebygol fod yr un gyffelybiaeth yn cael ei dwyn yn mlaen yn niwedd yr adnod ag oedd yn ei dechreu. Torwyd edau fy mywyd, fel y tyr gwëydd edau yn y gwŷdd, cyn gorphen gwau y dernyn. 'Torais,' sef perais i'r Arglwydd ei dori trwy fy mhechodau.

GWG, (wg) dig, llidiogrwydd, broch, soriant: dal gwg, bod yn anfoddog; cuchiog, trwyn-sur, ffyrnig ei olwg.—'Ond Herodias a ddaliodd ŵg iddo.' Marc 6. 19. Y mae y geiriau yn amlygu ymlyniad cryf y ddynes anllad hon wrth ei phechod, a'i chreulondeb gwaedlyd o'r achos.

GWIAL—EN—OD, (gw-ial) blagur, twf blwyddyn; gwialen-ffon; ffiangell. Edr. MOSES, AARON, BLAGURYN, HAIARN.—'Tair gwaith y'm curwyd â gwiail.' 1 Cor. 11. 25. Cospedigaeth Rufeinaidd ydoedd curo â gwiail—â ffiangell y curai yr Iuddewon. Cawn hanes yn Act. 16. 22. am un gurfa a gafodd Paul a Silas yn Philippi yn Macedonia.

'Gan yr Iuddewon bumwaith y derbyniais ddeugain gwialenod onid un.' 2 Cor. 11. 24. Deugain gwialenod oedd y rhifedi yn ol cyfraith Moses. Deut. 25. 3. Byddai y gwialenodau yn cael eu rhoddi ar y drygionus yn ol ei ddryganiaeth, â ffiangell deir-cainc; byddai pob ergyd â hon yn dair gwialenod. Yr hwn a fernid i gael ugain gwialenod, ni chai ond deunaw, sef chwe ergyd; a'r hwn a fernid i gael deugain, ni chai ond 39, sef tair ar ddeg o ergydion. Nid oedd iddynt chwanegu, ond gallent leihau. Fel drwg-weithredwr, yn aml, yr oedd yr apostol yn cael ei drin, ac yr oedd gwg a chreulonder Iuddewon a Chenedloedd yn cael eu dangos tu ag ato.

'Eraill a'i tarawsant ef â gwiail.' Mat. 26. 67.—'Eraill a'i cernodiasant ef.' Dr. M.—'Eraill y trawsant ef a ei gwiail.' W. S.—'Rhai a'i tarawsant ar ei ben, ac eraill a'i tarawsant ar ei gernau.' Dr. Campbell. Yn Pen. 5. 39. y mae yr un gair ῥαπιζω, yn cael ei gyfieithu *taro*. Y mae yn arwyddo, yn aml, taro â chledr y llaw ar y wyneb, heb fod y dwrn yn gauad; ac felly mae y cyfieithiad Saesonaeg, '*Others smote him with the palms of their hands.*' Arferir y gair yn yr ystyr hwn, medd Wetstein, Schleusner, a Kypke, gan Plutarch, Achilles, Tatius, Joseph., *Antiq.*, *lib.* viii., 15. 4. *Coll.* Y mae y gair κολαφιζω, a gyfieithir *cernodio*, yn arwyddo taro â'r dwrn yn gauad, a ῥαπιζω a gyfieithir *taro â gwiail*, yn arwyddo taro â dwrn agored. Dangoswyd pob anmharch a chreulondeb i'r Iesu, yr hwn er na haeddodd hyny, o ran ei Berson ei hun, a roddodd ei hun, fel Meichnïydd, dros y rhai a haeddasant y cwbl.

Gwialen, weithiau, a arwydda etifeddiaeth, am y byddent yn mesur etifeddiaethau â gwiail. Ps. 74. 2. —Weithiau, ceryddon, neu gospedigaethau, am y byddent yn eu defnyddio i geryddu neu gospi. Mic. 6. 9. a 7. 14. Diar. 29. 15. 1 Cor. 4. 21. Edr. TEYRNWIALEN, FFON.

GWIBER, (gwib) *Llad.* VIPERA; *Ffr.* VIPERE; *Saes.* VIPER; sarph, sarph ehedog, draig.—'O genedlaeth gwiberod:' sef hâd y rhai drygionus, neu blant y diafol, yr hen sarph. Mat. 3. 7. a 12. 34. a 23. 33. Luc 3. 7. Cymh. Gen. 3. 15. Ioan 8. 44. Act. 13. 8. Edr. ASP, DODWY.

GWIBIO—IAD—IOG, (gwib) crwydro, didrigias, ansefydlog, bwhwman, ar ddigrain. Edr. CRWYDRIAD.——'Sêr gwibiog.' Judas 13. *Gr.* αστερες πλανηται. Y sêr a elwir y planedau, oddiwrth πλανηται; sef Mercher, Gwener, Mawrth, Iau, Sadwrn, &c. Gwel Parkhurst. Galwai yr Iuddewon eu hathrawon yn sêr; a gelwir hwynt felly gan yr Ysbryd Glân. Dat. 1. 16, 20. a 2. 1. A chan fod y planedau uchod yn ymddangos yn afreolaidd yn eu hysgogiadau; weithiau yn ymddangos yn sefydlog, ac weithiau yn myned yn ol, mae yr apostol yn eu golygu yn arwyddlun addas o'r gau-athrawon, y rhai oeddynt yn ansefydlog yn eu hegwyddorion, ac yn afreolaidd yn eu bywydau; i'r rhai y cadwyd niwl tywyllwch yn dragywydd. Y mae yr holl gau-athrawon yn gyffredinol, a'r nôd hwn arnynt, sef eu bod hwy yn gwibio; y maent yn gwibio o un cyfeiliornad i gyfeiliornad arall, ond yn y cyfeiliornadau y maent yn aros. Yr un yw y gwirionedd; a'r rhai sydd yn derbyn y gwirionedd, sydd yn sêr sefydlog yn llaw Crist.

GWIBED—YN, (gwib) gwyddhedyn, ednogyn, cilionyn, clyryn. Dosparthir creaduriaid y byd yn dri math, sef creaduriaid rhesymol, direswm, a difywyd. —Y mae gwibed o'r ail fath; am hyny dywedodd Awstin fod gwibedyn yn odidocach creadur na'r haul, am fod bywyd ynddo. Gellir darlunio gwibed, eu bod hwy yn greaduriaid bychain, heb waed coch, esgyrn, na chnawd, na chroen, na safnau ganddynt, a llygaid heb orchudd, ac ysgyfaint yn agor yn eu hystlysau. Y mae ganddynt fath o orchudd caled drostynt ag sydd yn gwasanaethu yn lle cig, croen, ac esgyrn iddynt. Mae y darluniad hwn yn briodol iddynt i gyd. Y mae llygaid gwibed yn hynod yn eu gwneuthuriad. Math o rwydwaith ydyw pob llygad, ac y mae yn mhob un o honynt gasgliad o amryw filoedd o lygaid bychain, etto perffaith. Cyfrifwyd gan y Dr. Hook, Leewenhœck, a Mr. Puget, saith neu wyth mil o'r mân lygaid hyn, yn rhwydwaith llygad un gwibedyn. Y mae pob darn yn ddysglaer-loyw, yn grwn, neu yn grythog, i gasglu a gwrth-dori y goleuni; ac y mae i bob un o honynt ei gïeuyn briodol. Y mae y llygad gwedi ei amgylchu â'i ddarnau, neu fân lygaid, yn sefyll allan fel twyn crwn, fel y gallo efe ganfod o bob tu; hefyd, y mae yn galed, ac yn ddideimlad, am nad oes dim cloriau i'w guddio a'i ddiogelu ef. Gan mor fychain ydyw llawer o honynt, rhaid bod rhanau a phibellau eu cyrph yn dra rhyfeddol. Y mae iddynt fath o gyrn yn eu penau, a elwir *antennæ*; y mae dwy o honynt. Heblaw yr *antennæ*, y mae iddynt y *palpi*, neu y *teimlwyr*; y maent yn fyrach na'r *antennæ*, ac yn wastad wrth y safn—mae pedair, ac weithiau, chwech, o honynt. Y mae yr *antennæ* yn ddefnyddiol i lanhau y llygaid. Gan nad allant bellâu a nesâu eu llygaid fel creaduriaid eraill, i'r dyben i weled yn mhell ac yn agos, y mae y rhai hyn yn ateb y dyben i deimlo o'u blaen, lle na welant. Y mae Mr. Ray yn dywedyd nad oes dim llai nag ugain mil o fathau o honynt. Rhai o honynt, rhoddir achlysuron yn nghorph y gwaith hwn i sylwi yn fwy neillduol arnynt. Gwel *Encyclopædia*. Buffon's *Natural History, Abridged*. Dr. Paley's *Natural Theology*.

'Y rhai ydych yn hidlo gwibedyn, ac yn llyncu camel.' Mat. 23. 24. Sef yn hidlo y gwin i gael y gwibedyn allan, rhag iddynt lyncu dim oedd yn waharddedig iddynt dan y gyfraith. Diareb yw, yn cael ei dywedyd am y rhai hyny a fyddent yn ddiwyd ac yn ofalus am bethau bychain, tra byddai y pethau trymaf yn cael eu hesgeuluso.

'Chwibanu am y gwibedyn.' Edr. CHWIBANU.

GWIG—OEDD, (gw-ig) ebach, cilfach, cèlfan, lloches, ystryd dinas, tref.—'Dos allan ar ffrwst i'r heolydd ar gwigoedd y ddinas.' Luc 14. 21. W. S.

GWILIO, (gwil) gofalu, gochelyd.—'Gwilied yr Arglwydd rhyngof fi a thithau.' Gen. 31. 49.—'Edryched yr Arglwydd.' Dr. M. Edr. GWYL.

Digitized by Google

GWILLIAD, (gwill) crwydryn, gwib-ddyn, godechydd, dydachwr, seguryn.—'A'r gwilliad fydd trech nag ef.' Job 18. 9. Mae yr un gair צמים yn cael ei gyfieithu *y sychedig*, yn pen. 5. 5. Mae yn arwyddo adyn truan newynllyd, yn barod bob amser i ysglyfaethu meddiannau eraill. Diar. 23. 28.

GWIN, (gw-in) *Heb.* יין *Gr.* οινος; *Llad.* VINUM. Diod wedi ei gwneuthur o rawn y winwydden. Gellir gwneuthur gwin o bob math, agos, o lysiau, ffrwythau, hadau, gwreiddiau, &c., megys grawn o flodau ysgaw, grawn corinth (*currants*), morwydd, ceirios (*cherries*), afalau, ŷd-rawn, pys, ffa, maip, rhuddygl (*radishes*), ïe, hyd yn nod *gwellt-glas* ei hun. Ond o bob peth, sug grawn y winwydden sydd yn gwneuthur y gwin goreu. Gwesgir y sypiau grawn mewn gwinwryf i gael y nôdd allan, ac wedi hyny rhoddir ef i eplesu. Y mae amrywiaeth rhinwedd gwin yn tarddu oddiwrth ragoriaeth y grawn, a'r gwahanol ddull o'i wneuthur a'i gadw. Y mae rhai grawn yn fwy melys a godidog na'u gilydd. Mae yr un fath rawn mewn amrywiol sefyllfaoedd yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd. Yn mhlith bryniau Tokay, yn Hungari, mae un yn wynebu y dehau a'r haul ganol dydd, ac o herwydd melysder y grawn yn tyfu yno, a elwir *bryn y siwgr*. Hwn sydd yn rhoddi y gwin mwyaf peraidd a godidog yn Hungari, a theulu yr Ymerawdwr sydd yn ei gael i gyd. Hen win gwedi ei buro ar y gwaddod yw y goreu; y mae yn dra defnyddiol i adfywio a chryfhau natur; ac yn feddyginiaethol rhag amryw glefydau marwol, a'i gymeryd mewn dull addas. Diar. 31. 4, 5, 6. Yn yr anghymedroldeb o hono ef, fel pob peth arall, mae yn niweidiol i natur, ac yn bechadurus.

Am fod gwin, yn ei effeithiau, yn adfywio, yn cryfhau, ac yn lloni natur, y mae cyflwr o hawddfyd, neu lawenydd ysbrydol, yn cael ei alw, 'llawenydd trwy win.' Zech. 10. 7. Can. ii. Edr. CARIAD. Am fod gwin, yn y gormodedd o hono, yn meddwi, yn syfrdanu, ac yn gwneuthur dynion yn aflonydd ac yn afreolaidd, y mae pob peth a baro yr un effeithiau yn cael ei alw yn win, megys digofaint a barnedigaethau Duw, &c. Jer. 25. 15. Ps. 75. 8. Dat. 14. 10.

Yn Helbon, yn agos i Damascus, yr ydoedd gwin rhagorol, yr hwn a elwid *Chalibonium vinum*, ac a werthid yn y ffeiriau yn Tyrus. Ni byddai breninoedd Persia yn yfed un gwin arall. Ezec. 27. 18.

Yr oedd gwin Libanus hefyd yn nodedig, yn enwedig gwin Tripolis, Tyrus, a Beretus, lleoedd wrth droed Libanus.*—'Bydd ei goffadwriaeth fel gwin Libanus.' Hos. 14. 7. *The scent thereof*, ei arogl. *Saes.* Newcome. 'A bod yn glodfawr, fel gwin Libanus.' Horsley. *He should have as good a name as the wine of Libanus.* Coverdale. *μνημοσυνην αυτου, ei goffadwriaeth.* LXX. Priodol ystyr y gair זכר yw *coffadwriaeth*. Fel y mae coffadwriaeth a chlod gwin Libanus yn rhagori ar bob gwin arall, felly y mae yr Arglwydd yn addaw y byddai enw a choffadwriaeth, a chlod yr eglwys yn rhagori ar bawb eraill. Gwedi ei meddyginiaethu a'i ffrwythloni, bydd yn glodfawr. Adn. 4, 5, 6. 'Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig; ond enw y drygionus a bydra.' Diar. 10. 7.

Gan fod gwin Canaan yn frwysgawl, byddent arferol o'i gymysgu â dwfr i'w yfed yn gyffredin; weithiau hefyd byddent yn ei bêr-arogli â myrr, thus, calamus, a phêr-lysiau. Diar. 9. 2, 5. Can. 8. 2.

Yr oedd gwin yn ddiod-offrwm yn cael ei offrymu gyd â'r rhan fwyaf o'r bwyd-offrymau. Exod. 29. 40. Num. 15. 5, 7. a 28. 7. Lef. 23. 18. 2 Cron. 29. 35. Ond nid ydym yn darllen am ddiod-offrwm wedi rhoddi y gyfraith, ond gyd âg aberthau. Yn yr ystyr hwn dywedir fod y melys-win yn llawenhau Duw a dyn, sef yn yr aberthau i Dduw. Edr. DIOD, CWPAN.

Dywedir gan yr efengylwyr iddynt roddi i Grist dri math o ddiod.—'A phan ddaethant i le a elwid Golgotha, hwy a roisant iddo i'w yfed winegr yn gymysgedig â bustl; ac wedi iddo ei brofi, ni fynodd efe yfed.' Mat. 27. 33, 34.—'Gwin myrllyd; eithr efe nis cymerth.' Marc 15. 23.—'A dywedodd (ar y groes) Y mae syched arnaf. Yr oedd gan hyny lestr gwedi ei osod yn llawn o winegr: a hwy a lanwasant yspwng o winegr, ac a'i rhoddasant yn nghylch isop, ac a'i dodasant wrth ei enau. Yna pan gymerodd yr Iesu y gwinegr, efe a ddywedodd, GORPHENWYD.' Ioan 18. 28, 29, 30. Y mae yn amlwg oddiwrth yr hanes, fod yn arferedig rhoddi i ddrwg-weithredwyr wrth fyned i'w dienyddio ryw fath o gymysgedd o win a gwinegr, i'r dyben i'w gwneuthur yn ddideimlad. Y mae rhai yn meddwl fod y gwin a'r myrr, a'r gwinegr a'r bustl, yn ddwy ddiod wahanol. Y cyntaf wedi ei barotoi, hwyrach, gan rai o'r gwragedd duwiol a chyfoethog, i'w gysuro ar yr achos athrist hwn; a bod y gwinegr a'r bustl gwedi ei roddi iddo gan ei elynion, er ychwaneg o ddiystyrwch a chreulondeb. Dr. Edward's *Exer.*, *part* ii, *No.* 2. Dr. Doddridge *in loc.* Ond nid ydwyf yn gweled dim anghysondeb i farnu mai yr un ddiod oedd, ac mai ar yr un amser y cynnygiwyd hi i'r Iachawdwr. Yr ydoedd gwinegr yn cael ei wneuthur yn gyffredin o win, neu o sudd grawn y winwydden; am hyny gallai Marc yn briodol ei alw yn win. Y mae yn dra thebygol hefyd fod bustl a myrr yn gymysgedig â'r ddiod hon. Tebygol mai rhyw gyfeillion neu gyfeillesau caredig a gynnygiasant hwn iddo, i leihau ei deimladrwydd o'i boen; ond ni fynai hyny; 'canys yr oedd yn *rhaid* iddo *ddyoddef*.' Ni fynai Crist ddim i brysuro ei farwolaeth, nac i'w wneyd yn ddideimlad; gweithred o'i eiddo ei hun oedd 'dodi i lawr ei einioes;' nid yn unig yr oedd yn ewyllysio marw, ond *ei weithred ei hun* oedd marw. Luc 24. 46. Gwel Calmet, Macknight, Hammond. Y gwinegr a roddwyd iddo gan un o'r milwyr ar y groes oedd gwinegr y milwyr eu hunain, tebygol. Mae yn ddigon hysbys mai gwinegr a dwfr yn gymysgedig â'u gilydd (a elwid *posca*) oedd diod gyffredin y milwyr. Dywedir fod yno 'lestr wedi ei osod yn llawn o winegr.' Yr oedd, y mae yn amlwg, wedi ei barotoi i'r achlysur hwnw, naill ai i'r milwyr, neu i'r dienyddedig. Edr. GWINEGR.

'Ni ddodant win newydd mewn costrelau hen.' Edr. COSTREL, BRETHYN.

'Hi a ddiododd yr holl genedloedd â gwin llid ei godineb.' Dat. 14. 8. Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio at Jer. 51. 7., 'Phiol aur oedd Babilon yn llaw yr Arglwydd, yn meddwi pob gwlad; yr holl genedloedd a yfasant o'i gwin hi; am hyny y cenedloedd a ynfydasant.' Gwin llid (*οινος θυμοι, gwin yn poethi*) Babilon anghristaidd, sef Eglwys Rhufain, yw ei gauathrawiaethau sydd yn poethi dynion o blaid ei gaugrefydd a'i heilun-addoliaeth, ac yn ei llenwi â llid yn erbyn pawb a'i gwrthwynebant. Ei gwin sydd yn ennyn yr holl genedloedd i buteinio yn ysbrydol gyda hi, sef ei gau-athrawiaethau a'i chelwyddau, yn eu denu oddiwrth y gwir, a'r gwir addoliad, at gyfeiliornadau dinystriol ac eilun-addoliaeth. Mae zel pob gaugrefydd yn gynddeiriog, yn ffyrnig, ac yn greulon. Lef. 18. 21. a 20. 2, 3, 4. 2 Bren. 23. 10. Jer. 32. 35. Gwel Vitringa, Cowper, *in loc.*

'Gwin dirwyol.' Edr. DIRWYOL.—'Gwin trais,' yw gwin a gafwyd trwy drais a gorthrymder. Diar. 4. 17.

GWINAU, (gwin) cethin-liw. Y mae y prophwyd Zechariah (pen. 6. 1, 2, 3.) mewn gweledigaeth yn canfod pedwar o gerbydau yn dyfod allan oddi rhwng dau fynydd o bres. Y cerbydau a arwyddant gor-

* Le vin du mont Liban dont, le prophète Osee a fait déja l' éloge, est encore, excellent Niebuhr, *Voyage.* Gwel Horsley.

Digitized by Google

"chwyliaethau rhagluniaeth Duw tu ag at ei eglwys (cymh. 2 Bren. 6. 17. â Hab. 3. 8.) yn dyfod allan oddiwrth ei gynghorion rhagderfynedig ac anghyfnewidiol. 'Yn y cerbyd cyntaf yr oedd meirch cochion; yn yr ail, meirch duon; yn y trydydd, meirch gwynion; yn y pedwerydd, meirch brithion a gwineuon.' Y mae lliwiau y meirch yn cyfeirio at amrywiaeth ymddygiad yr ymerodraethau mawrion y byd tu ag at yr eglwys yn mhlith yr Iuddewon. Y Babiloniaid yn waedlyd, fel y meirch cochion; y Persiaid yn gystuddiedig ac yn orthrymedig, fel y meirch duon; hynawsedd Alexander tu ag atynt yn cael ei arwyddo wrth y meirch gwynion; y tiriondeb hwn a estynwyd iddynt gan y Ptolemiaid, olynwyr Alexander yn yr Aipht; ond nid heb frychau erlidigaethau a gorthrymderau, yr hyn a arwyddir wrth y meirch brithion. Olynwyr Alexander yn Syria a arwyddoceir wrth y meirch gwineuon; lliw yn agosâu i'r coch, neu liw cochddu, yn arwyddo eu herlidigaethau mawrion dan Antiochus Epiphanes a Demetrius Soter. Gwel Prideaux's *Connect., part* i, *b.* 7. *& part* ii, *b.* 2. Esgob Newton *on the Prophecies.* Guthrie's *General History, vol.* i. *Ancient Universal History, vol.* iii.

'A'r gwineuon a aethant allan, ac a geisiasant fyned i gynniwair trwy y ddaear; ac efe a ddywedodd, Ewch, cynniweiriwch trwy y ddaear; felly hwy a gynniweiriasant trwy y ddaear;' (Zech. 6. 7.) sef trwy wlad Judea, fel y gellir gweled yn eu hanes yn Prideaux, ac eraill. Geiriau sydd yn dangos manylrwydd rhagluniaeth Duw, a'i ofal mawr am ei eglwys. Nis gall neb fyned heb ganiatâd; ac ni roddir caniatâd i neb gynniwair trwy un man, heb olygu diogelwch a llesâd yr eglwys.

GWINEGR, (gwin-egr) *Ffr.* VINAIGRE. Gwneir gwinegr o win, cwrw, *cyder*, neu ryw ddiod arall. Yr oedd gan yr hynafiaid amryw fath o winegr a arferent yn ddiod gyffredin. Gwinegr oedd diod y milwyr Rhufeinaidd. Yr Ymerawdwr Prescennius Niger a roddodd orchymyn i'w filwyr nad yfent ddim ond gwinegr yn eu teithiau.* Cystenyn Fawr a ganiatâi i'w filwyr win a gwinegr bob yn ail dydd. Yr oedd y cynauafwyr yn ei yfed wrth eu gorchwyl er eu hadfywiad.†—'Gwlych dy damaid yn y gwinegr,' medd Boaz wrth Ruth. Pen. 2. 14. Nid oedd eu gwinegr hwy yr un fath a'r un a arferir genym ni, ond math o win gwan, a alwent *pescah*, neu *serah*. Gwneir arferiad mawr o hono hyd heddyw yn yr Yspaen a'r Ital yn amser y cynauaf.—Gwaherddid i'r Nazareaid 'yfed gwinegr gwin, na gwinegr diod gref,' neu *Shecar*, am ei fod yn peri meddwdod. Num. 6. 3. Luc 1. 15. Y mae yn amlwg hefyd fod math o winegr cryf anaddas i'w yfed; neu na byddai neb yn ei roddi ond i'r gwaelaf o ddynion. Fel arwydd o ddirmyg ac angharedigrwydd, y prophwydir am Grist, i'w elynion 'roddi iddo fustl yn ei fwyd, a'i ddiodi yn ei syched â gwinegr.' Edr. GWIN. Yr oedd y gwinegr hwn yn anhyfryd i'r dannedd, medd Solomon, a thebyg i hyny yw y diog i'r neb a'i gyro. Diar. 10. 26. Y mae gwinegr yn dda yn mhob afiechyd heintus ag y byddo yn tueddu at falldod a braenedigaeth.

GWINLLAN—WR—YDD, (gwin-llan) llan, neu lanerch cauedig i'r gwinwydd i'w diogelu rhag i anifeiliaid eu niweidio. Noah yw y cyntaf sydd â hanes am dano iddo blanu gwinllan. Gen. 9. 20. Nid ydyw yn annhebyg fod gwin yn ddiod gyffredin yn y cynfyd; yn y dyddiau o flaen y diluw, 'yr oeddynt yn bwyta ac yn yfed;' sef yn foethus ac yn anghymedrol. Mat. 24. 38.

Byddai yr hen Frytaniaid yn gwneuthur gwin o sudd neu rawn amrywiol goedydd; o herwydd hyn gelwir rhai manau, Gwinllan helyg, planigfa helyg. Yn Sir Fôn, Gwinllan faip sydd enwad cyffredin ar gae o faip. Yr oedd yn Palestina amryw winllanoedd rhagorol; rhai o'r gwinllanoedd goreu oedd Jazer, Sibnah, Engedi, neu Baal-Hamon. Esa. 16. 8, 9. Can. 1. 14. a 8. 11. Y mae awdwyr Paganaidd yn rhoddi canmoliaeth i win Gaza, Sarepta, Libanus, Saron, Ascelon, a Tyrus.*

Yr ydoedd gwaith y gwinllanydd yn waith trwm, ac yn cael ei gyfrif yn aml yn waith gwael a dirmygus. 2 Bren. 25. 12. Esa. 61. 5. Can. 1. 6. Byddai gwinllanoedd yn cael eu gosod weithiau i winllanwyr am ardreth fawr, sef mil o arian, neu siclau; a dau cant ychwaneg i'r rhai a gadwent ei ffrwyth hi. Esa. 7. 23. Can. 8. 12.

Nid oedd yn gyfreithlawn wrth gyfraith Moses, i neb a blanodd winllan fwyta ei ffrwyth hi cyn y bummed flwyddyn. 'Tair blynedd y bydd ei ffrwyth hi megys dienwaededig,' sef yn aflan: 'y bedwaredd flwyddyn bydd ei holl ffrwyth yn sanctaidd i foliannu yr Arglwydd âg ef,' neu yn sancteiddrwydd moliant i'r Arglwydd. Lef. 19. 23, 24. Nid oedd iddynt dòri y winllan na chasglu ei chnwd y seithfed flwyddyn; Sabboth gorphwysdra y tir oedd y flwyddyn hòno. Yr oedd y ffrwyth i'r tlawd, yr amddifad, a'r dyeithr. Yr oedd rhyddid i deithiwr fwyta grawnwin ei wala, ond nid i ddodi dim yn ei lestr i'w ddwyn gyd âg ef. Nid oedd iddynt i hau y winllan âg amryw hâd. Lef. 25. 3, 4. Deut. 22. 9. a 23. 24.

'Chwi a borasoch y winllan;' hyny yw, yspeiliasoch ddynion yn anghyfiawn o ffrwyth eu llafur; anrhaith y tlawd oedd yn eu tai. Esa. 3. 14.

'Gosodaf Samaria yn garnedd-faes dda i blanu gwinllan;' sef, mi a'i hollol ddystrywiaf, fel y byddo yn faes addas i'w aredig. Mic. 1. 6. Mae yr eglwys yn aml yn cael ei chyffelybu i winllan. Esa. 5. 1—7. Mat. 10. 1—16. a 21. 28, 45. Luc 13. 6, 7. Yr Arglwydd sydd yn ei phlanu—ei chadw—ac yn ei dyfrhau, ac y mae yn disgwyl cael ffrwyth ar y prenau oll ynddi. (Gwel yr amrywiol eiriau.) Y rhai sydd yn gweini yn y gair a'r athrawiaeth a elwir yn 'winllanwyr;' eu gwaith ydyw ei chadw rhag i ddim fod yn niweidiol iddi; ei dyfrhau; glanhau y cangenau; cloddio o amgylch y ffigysbrenau, a bwrw tail, i'r dyben i'w gwneyd yn fwy ffrwythlawn.

'Yn y dydd hwnw, cenwch iddi, Gwinllan y gwin coch.' Esa. 27. 2.—'Yn y dydd hwnw (y ffynna) gwinllan y gwin coch.' Dr. M.—'Yn y dydd hwnw cenwch i'm hanwyl winllan gân ymatebol.' Lowth. Y mae llawer o gopïau, a rhai argraffiadau, medd efe, yn darllen חמר yn lle המר Gwel hefyd Parkhurst.—'Yn y dydd hwnw cenwch iddi, gwinllan gwin eplesedig.' Vitringa.—Mae Vitringa yn barnu fod y gair yn gosod allan natur a rhagoroldeb y gwin, yn llawn gwaith wrth eplesu, pan y byddai ei liw ef gochaf; ac yn arwyddo yr eglwys yn llawn o wresogrwydd ysbryd, a zel dros Dduw, ac hefyd yn nghanol erlidigaethau a phrofedigaethau. Act. 18. 25. Rhuf. 12. 11. 1 Petr 1. 22.

Gwinllan a blanodd deheulaw Duw oedd y genedl Iuddewig; efe a'i dygodd o'r Aipht, ac a'i planodd yn Nghanaan, mewn bryn tra ffrwythlawn, sef cyflawn o freintiau. Gwnaeth holl waith gwinllanydd tu ag ati, —fel ag y mae yn gofyn, 'Beth oedd i'w wneuthur ychwaneg i'm gwinllan nag a wnaethum iddi?' Etto grawn gwylltion a ddygodd yn lle grawnwin. Esa. 5. 1—4. Ps. 80. 15.

'Ni thry ei wyneb at ffordd y gwinllanoedd.' Job

* Nominem in expeditione vinum bibere; sed aceto universos esse contentos. Spartian in Pescennio.

† Aceto Summa vis in refrigerendo. Pliny, *lib.* 23, *c.* 1.

* . . . . . . . . Dulcia Bacchi
Munera, quæ Sarecpta ferax, quæ Gaza crearat.
*Corrip. lib.* 3.

Digitized by Google

24. 18. Ni bydd byth o berchen gwinllanoedd, ac yn ganlynol ni chyfranoga o'i ffrwythau; ond bydd byw mewn tlodi yn anghenus. Neu, ni thry at alwedigaeth gyfreithlawn i fwyta ei fara trwy lafur a chyfiawnder.

'Gosodasant fi i gadw gwinllanoedd eraill; fy ngwinllan fy hun nis cedwais.' Can. 1. 6. 'Gosodasant;' sef meibion ei mam, brodyr gau, y rhai a aned yn ol y cnawd, ag sydd bob amser yn casâu, ac yn erlid y rhai a enir yn ol yr Ysbryd. Gal. 4. 23.—'I gadw gwinllanoedd eraill;' hwy a'i hudasant oddiwrth Dduw a'i addoliad pur, yn ol ei air; oddiwrth bethau ysbrydol, perthynol i'w chyflwr, at gau grefydd, neu at bethau oddi isod, er mawr niwed iddi ei hun.—'Fy ngwinllan fy hun nis cedwais;' yr oedd ganddi winllan ei hun; yr oedd llawn waith iddi yn nghylch hòno, ac yr oedd ffrwyth iddi o'i llafur yn ei chylch. Ond bu y gaufrodyr hyn o fawr niwed iddi; tra bu yn brysur yn nghylch pethau nad oeddynt yn perthyn iddi, hi a esgeulusodd yr hyn oedd yn perthyn yn fawr iddi; a hyn oedd un achos ei bod yn ddu.

GWINWYDD—EN, (gwin-wydd) y gwŷdd sydd yn dwyn y grawnwin. Y mae yn nghylch ugain math o honynt, ac i gyd yn llwyddo oreu mewn gwledydd cynhes, a daear sych, ac yn hawdd i'w niweidio gan oerfel a rhew. Y maent yn gofyn llawer iawn o lafur wrthynt i'w trin a'u hamaethu. Y mae eu ceinciau yn weiniaid, a rhaid eu hattegu wrth furiau, coed, neu bolion, &c. Rhaid eu glanhau yn fanwl, fel y dygont ffrwyth. Nid yw y gwŷdd dda i ddim ond yn danwydd os byddant yn ddiffrwyth. Yr oedd llawer o honynt yn ngwlad Canaan gynt; yn enwedig yn rhandir Judah. Gen. 49. 11. Edr. GWIN, GWINLLAN. Y maent yn bresennol yn aml yn yr Ital, Ffrainc, Hispaen, Portugal, ac y mae rhai yn Lloegr. Y mae un ragorol yn yr ardd freninol yn Hampton Court; byddant weithiau yn cynnull oddi arni rawn yn pwyso i gyd 1100 o bwysau. Y swp grawnwin a ddygodd yr yspiwyr o Escol, a ddygasant ar drosol rhwng dau, gan ei bwys. Num. 13. 23. Ceir galwyni o win oddiwrth un swp yn rhai parthau o'r byd: a rhai sypiau a bwysant bump ar hugain o bwysau, neu ragor. Y mae gwinwydd gwylltion, yn tyfu o honynt eu hunain ar fin ffyrdd, ac yn dwyn grawn gwylltion, surllyd, a chwerw. Esa. 5. 4.

'Gwinwydden Sodom,' yw y rhai sydd yn tyfu yn agos i'r Môr Marw, a'u grawn mor chwerw a bustl. Deut. 32. 32.

'Eistedd dan ei winwydden,' &c., a arwydda, diogelwch, llwyddiant, a digonolrwydd. Mic. 4. 4. Zech. 3. 10.

'Gwinwydden wag yw Israel: efe a ddwg ffrwyth iddo ei hun.' Hos. 10. 1.—'Gwinwydden yn rhoddi yw Israel: y mae ei ffrwyth yn gyfatebol i'w eidiogrwydd.' Dr. Horsley. Y gair בקק a arwydda *gwaghau*. Gwinwydden yn ymwaghau yw gwinwydden yn ymdywallt ei grym mewn llawer o ffrwyth: nid ffrwyth gweithredoedd da a feddylir, ond cynnydd mewn lliosogrwydd nifer, amldra cyfoeth, &c. 'Yn ol amlder ei ffrwyth a'i gyfoeth yr amlhaodd efe allorau;' sef y cynnyddodd mewn eilun-addoliaeth, a'i wrthgiliad oddiwrth Dduw. Neu, fel hyn y cyfieitha rhai y geiriau: 'Gwinwydden yn gwaghau, neu yn gwywo, yw Israel, yn bwrw ei ffrwyth;' neu, dwg ffrwyth *cyfatebol*, sef dim ffrwyth. Y mae hyn yn cyfateb i pen. 9. 11—17. Cymh. Nah. 2. 2, 3. Gwel Esgob Newcome, Parkhurst.

Wrth 'winwydden y ddaear,' y deallir pobloedd y ddaear, gelyniaethol i eglwys Crist yn y byd; yn enwedig y pendefigion a'r gwyr mawrion. Neu, yr eglwys anghristaidd, yr hon sydd winwydden Sodom, a'i grawnwin yn fustlaidd, a'i grawn-sypiau yn chwerwon; sef ei holl gyfeiliornadau, ei heilun-addoliaeth, a'i ffieidd-dra. Y mae yr amser yn nesâu iddi gael ei medi, a'i bwrw i gerwyn fawr digofaint Duw. Diar. 14. 18, 19.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn cyffelybu ei hun i winwydden; 'Myfi yw y wir winwydden, a'm Tad yw y llafurwr,' a'i ddysgyblion ydyw y cangenau. Ioan 15. 1, &c. Y mae Crist yn galw ei hun yma y 'wir winwydden;' yn benaf oblegid ei ffrwythlonrwydd. Pren gwan, gwael yr olwg arno yw y winwydden, ond y mae ei ffrwyth yn rhagorol, yn llawer, ac yn felus odiaeth; felly Crist, nid oedd ond fel gwreiddyn o dir sych, heb na phryd na thegwch iddo: ond y mae arno ffrwythau heb eu bath; y mae yn cyfiawnhau yr annuwiol—rhoddi heddwch—ac yn iachâu ei holl bobl. Esa. liii. Y 'wir winwydden,' sef y winwydden sylweddol, ragorol, a ffrwythlawn, yn llawn nôdd. Ioan 1. 9. a 6. 32. Heb. 8. 2. a 9. 24. Y mae cyfiawnder rhyfeddol ynddo fel Cyfryngwr, gan fod cangenau mor ddiffrwyth a phechaduriaid yn cael eu gwneuthur yn ffrwythlawn ynddo. Mae y gyffelybiaeth yn hynod o addas ac addysgiadol, yn gosod allan beth yw Crist fel Cyfryngwr, a'r angenrheidrwydd i enaid pechadur gael ei uno âg ef, a derbyn o'i gyflawnder; ac onidê, nas dichon byth ddwyn ffrwythau da, mwy na changen heb fod mewn undeb â'r pren. Y mae pawb sydd yn *wirioneddol* mewn undeb âg ef yn dwyn ffrwyth, a than driniaethau y Tad fel llafurwr, fel y dygont fwy o ffrwyth. Y maent mewn undeb agos iawn â Christ; yn debyg iawn iddo; yr un nôdd, sef yr un ysbryd, ynddynt hwy ag yntau, ac yn dwyn mewn mesur, yr un ffrwyth; ond efe yw y gwreiddyn; efe sydd yn cynnal ac yn cyfranu iddynt hwy yn wastadol. Undeb y cangenau â'r pren bob dydd, bob mynydyn, yw eu cynnaliaeth, a holl achos eu ffrwythlonrwydd; felly hwythau, nid oes dim i'w gael iddynt ond oddi wrtho, na bywyd mewn un ffordd arall. 'Hebof fi,' *χωρις εμου, yn wahanol oddi wrthyf fi, wrthych eich hun, ar wahan*—'nis gellwch chwi wneuthur dim;' sef dwyn dim ffrwyth. Nid ydyw yn dywedyd, medd Musculus dduwiol, heboch chwi nis gallaf fi wneuthur dim; gall y winwydden o honi ei hun ddwyn cangenau eraill, er i'r rhai diffrwyth gael eu tynu ymaith. Nid ni ellwch wneuthur ond *ychydig*, neu, nid ydych yn gwneuthur, ond *ni ellwch* wneuthur dim. Nid ni ellwch wneuthur ychwaith, ond *hebof fi* ni ellwch; ond gyda fi, mewn undeb â mi, chwi ellwch ddwyn ffrwyth lawer. Nid yw yn gweddu, medd yr un gwr, i ddysgyblion Crist, y gwir gangenau ynddo, ddywedyd nis gallwn wneuthur gweithredoedd da; ond o honof fy hun, heb Grist, nis gallaf; gyda Paul y maent yn gallu pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn eu nerthu. Phil. 4. 13. Pa fodd na ddichon cangenau Crist wneuthur dim, pan y mae y Tad, y llafurwr, yn gweithio ynddynt i ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef? Phil. 2. 13. Y mae yn gysur annhraethol i'r mab beidio byth anghofio pwy yw ei dad, a phwy yw yntau; i'r wraig beidio anghofio pwy yw ei gwr, a phwy yw hithau; i'r claf gofio pwy ydyw ei feddyg, a phwy ydyw yntau; i'r ysgolhaig gofio pwy ydyw ei athraw, a phwy yw yntau; ac i'r credadyn gofio pwy ydyw ef, a phwy yw Crist: y winwydden ffrwythlawn yw Crist, cangen ddiffrwyth ydyw yntau hebddo, ond yn dwyn ffrwyth lawer ynddo. Ni ddichon neb byth ddychymygu un ffordd i bechadur fod yn sanctaidd heb Grist; ond ynddo gwneir y mwyaf diffrwyth ynddo ei hun i ddwyn ffrwyth *lawer*. Yr oedd Adda yn ymddangos yn winwydden hardd, oruchel, ac yr oeddym ninnau oll ynddo; ond pechod a marwolaeth a gafwyd arno, ac nid ffrwyth i fywyd. Yr oedd yr Iuddewon yn ymffrostio o Abraham a Moses, ond nid y winwydden oeddynt, ond cangenau ffrwythlawn yn y winwydden; er na chawsent farwolaeth oddi wrthynt, etto ni chawsant fywyd ychwaith: ni wnaethant o honynt eu hunain un gangen ddiffrwyth yn ffrwythlawn. Yr un peth a ellir dywedyd am bawb eraill

Digitized by Google

hyd yn nod yn eglwys Dduw, heb sôn dim am yr holl ddoethion Paganaidd. Heblaw hyny, ni wna holl drefniadau a defodau allanol, pob manylrwydd crefyddol, yr egwyddorion mwyaf iachus, a'r eglwys fwyaf pur, byth un enaid yn ffrwythlawn, heb undeb gwirioneddol â Christ. Crist yw ein hunig obaith, ac iddo ef y mae yr holl glod yn perthyn yn mhob dim.

Y mae gwaith yr Arglwydd Iesu yn galw y Tad yn Llafurwr, yn dangos fod yr holl drefniad a'r gweithrediad mewn perthynas i Grist, fel y winwydden, a'i holl bobl ynddo, o'r Tad, tan olygiad y Tad, ac yn ei ofal. O Dduw mae planiad y winwydden, sef gosodiad Crist i fynu fel Cyfryngwr; ac o hono ef y mae impiad yr holl gangenau ynddo, a'u glanhad wedi hyny, fel y dygont fwy o ffrwyth. Mae y Tad yn ei holl drefn, a'i ofal, a'i oruchwyliaethau, yn cael ei ogoneddu yn ffrwythlondeb y cangenau. Esa. 26. 12. Jer. 10. 23. Hos. 14. 8. Phil. 1. 11. Act. 4. 12. Eph. 2. 12. Iago 1. 25. 2 Cor. 3. 5.

'Nid yfaf o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden, hyd y dydd hwnw pan yfwyf ef gyda chwi yn newydd yn nheyrnas fy Nhad.' Mat. 26. 29.—'Nid yfaf o gynnyrch y winwydden.' Dr. Campbell. Y mae yr Arglwydd Iesu yn rhagfynegi na fyddai iddo fwyta un pasc arall, na bwyta o'r swper sanctaidd gyda hwynt ar y ddaear. 'Mi a chwennychais yn fawr fwyta y pasc hwn gyda chwi, cyn dyoddef o honof. Ni fwytâf mwyach o hono,' sef o'r pasc, 'hyd oni chyflawner yn nheyrnas Dduw.' Luc 22. 15, 16. Er na fwytâi yma, etto y mae yn sicrhau y caent wledda gyd â'u gilydd, yn *newydd*, mewn amgylchiadau newyddion, mewn dull newydd a mwy rhagorol; nid ar y ddaear, ond yn nheyrnas Dduw. Chwennychodd Crist yn fawr fwyta y pasc *hwn* gyd â'i ddysgyblion; hwn oedd y pasc rhyfeddaf erioed, pan oedd y gwir oen i gael ei aberthu. Nid oedd gwerth yn y lleill ond fel yr oeddynt yn rhagddangos hwn. Yn y pasc hwn caent yr eglurhad mwyaf o'i gariad, a holl drefn yr iechydwriaeth, a dyben yr holl osodiadau Iuddewig; am hyny, 'gan chwennychu mi a chwennychais,' sef chwennychais yn *fawr*, ac yn *wirioneddol;* geiriau sydd yn dangos yn rhyfedd ansawdd calon Crist tu ag at ei bobl, a gwaith yr iechydwriaeth.

GWINWRYF, (gwin-wryf) gwin-wasg; gwryf i wasgu grawnwin.—'Ac a drychodd winwryf ynddi—ac a gloddiodd ynddi winwryf—ac a gloddiodd le i'r gwin-gafn.' Esa. 5. 2. Mat. 21. 33. Marc 12. 1. Yr oedd y gwinwryf, a'r gwin-gafn i dderbyn y gwin a wasgesid gan y gwinwryf, yn perthyn i'w gilydd; am hyny, y mae yr un geiriau yn cael eu priodoli i'r naill a'r llall. Cloddiodd ynddi winwryf, sydd yn arwyddo yr un peth a chloddiodd le i'r gwin-gafn, yr hwn oedd dan y gwinwryf yn y ddaear, fel y mae y gair *υποληνιον* yn arwyddocâu, sef *llestr dan y gwinwryf*. Y mae *ληνιον* yn cael ei gyfieithu *cerwyn*. Dat. 14. 10. Yr un ystyr sydd i'r gair Hebraeg יקב *gwin-gafn*. 'A drychodd (neu a gloddiodd) wingafn.' Esa. 5. 2. Mewn gwledydd poethion byddai yn angenrheidiol, neu o'r hyn lleiaf yn addas, er mwyn oerfel, eu bod yn y ddaear, neu mewn ogofeydd creigiau. 'Y mae y gwinwryfoedd yn Persia,' medd Syr John Chardin, 'yn cael eu gwneuthur mewn ceudwll yn y ddaear, a gwaith maen oddi amgylch iddo.' Yr ydoedd hyn yn addas rhag i ormod gwres beri iddo eplysu yn ormodol, a thrwy hyny iddo egru. Gwel Lowth a Vitringa.

Y mae sathru gwinwryf, yn allegawl, yn arwyddo gelynion eglwys Crist yn cael eu sathru gan farnedigaethau Duw. 'Sethrais y gwinwryf fy hunan,' (Esa. 63. 3.) a esbonir yn adn. 6., 'Sathraf y bobl yn fy nig, a meddwaf hwynt yn fy llidiogrwydd.' Gan nad oes neb yn cymeryd plaid ei bobl a'i achos, yn erbyn eu gelynion, y mae y Messiah mawr yn ymddangos, ac â'i fraich, sef ei allu ei hun, yn gweithredu gwaredigaeth ei waredigion, ac yn sathru ei elynion, fel yr hwn a sathrai mewn gwinwryf. Mae y geiriau yn odidog iawn, yn dangos mawredd, gallu, ac eiddigedd Crist, yn achos ei bobl gystuddiedig yn y byd, a dinystr sicr a thrwyadl ei holl elynion; a hyny yn unig am fod yr Iesu mawr yn blaid iddynt. Esa. 25. 10. Galar. 1. 15. Mal. 4. 3. Dat. 14. 19, 20. a 19. 13, 15.

GWINGO, (gwin) ymdrechu; ymryson; ymystumio, taflu; ymwthio.—'A'r union aeth yn fras, ac a wingodd.' Deut. 32. 15. Yr union yw cenedl Israel. Edr. JESURUN. Yn ei llwyddiant a'i llawnder, fel anifel anhawdd ei drin, aeth yn anufudd, ac yn ddiystyr o Dduw a'i osodiadau, ac yn eu sathru dan ei thraed. Neh. 9. 25, 26. 1 Sam. 2. 29. At hyn y mae geiriau Paul yn cyfeirio pan y mae yn dywedyd am rai yn 'mathru Mab Duw.' Heb. 10. 29.

'Caled yw i ti wingo yn erbyn y symbylau.' Act. 9. 5. Ymadrodd diarebol oddiwrth ychain afreolaidd, yn cael ei gymhwyso at ddynion yn niweidio eu hunain trwy eu cynddaredd egwan, aneffeithiol. Gwrthsefyll a gwrthwynebu un trech na thi, ni wna ond niweidio dy hun. Yr oedd Saul fel rhyw fwystfil afreolus ac ofnadwy; ond yr oedd yr Arglwydd Iesu yn gryfach ac yn drech nag ef, ac yn bwgwth ei ddarostwng a'i warhau; a goreu po gyntaf iddo yntau ymostwng, gan na wnai ond niweidio ei hun wrth wingo. Y mae y ddiareb yn arferedig yn gyffredin gan awdwyr Groegaidd. Gwel Poole *Synopsis*, a Parkhurst. Tebygol fod yr Arglwydd Iesu yn cyfeirio at eiriau Moses. Deut. 32. 15. Yr oedd yr Arglwydd wedi dechreu âg ef â'i symbylau, ac nid oedd iddo i ddysgwyl ond rhai mwy llym a chaletach, nes iddo wareiddio ac ymostwng, gan ei fod yn bwriadu ei gael yn was ufudd iddo.

GWIR—IONEDD, (gw-îr) digelwyddog; diau, didwyll, sicr; uniawn, cywir, cyfiawn, pur; cywiredd. *Heb.* אמן a אמנה *diysgog, dianwadal, sefydlog, gwastadol.*—1. Y mae gwir yn cael ei briodoli i beth sylweddol, rhagorol, didwyll, ffyddlawn, &c., felly y gelwir Duw, yr unig wir Dduw, yr unig un y mae Duwdod, a holl berffeithiau dwyfol yn hanfodol yn perthyn iddo. Felly Crist yw y gwir fara—y wir winwydden—y gwir oleuni: y mae efe yn rhagori ar bob peth a elwir felly, yn ei ddefnyddioldeb i'w bobl. Ioan 1. 9. a 6. 32. a 15. 1. a 17. 3.——2. Gwirionedd yn groes i gelwydd a chyfeiliornadau; yn yr ystyr hwn y mae y gyfraith, gair Duw, yr efengyl, yn wirionedd. Ps. 119. 151. Gal. 3. 1.——3. Gwirionedd sydd hefyd gyferbyn a chysgod, neu y cysgodau Iuddewig; felly gras a gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist.

Y mae Duw yn hanfod gwirioneddol, a sylweddol. Gwir Dduw, nid dychymyg yw; gan ei fod yn rhoddi bôd i eraill, rhaid mai Bôd sylweddol ydyw efe ei hun. Y mae y fath un yn wirioneddol ag y mae yn dywedyd ei fod; gwir yw pob peth a briodolir iddo, ganddo ei hun. Y mae ei fawredd, ei allu, ei ddaioni, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, &c., yn wirioneddol, ac nid yn ymddangos felly yn unig. Gwirionedd pur, perffaith, digymysg, ydyw; nid oes dim croes i wirionedd ynddo. 'Duw gwirionedd heb anwiredd yw.' Y mae ganddo amgyffred cywir, ac y mae yn gwybod pob peth yn hollol fel y maent. Nid ydyw yn dywedyd am ddim ond yn gwbl ac yn berffaith fel y mae. Y mae yn addaw yr hyn y mae yn ei fwriadu, ac y mae yn gwneuthur yr hyn y mae yn ei addaw. Ei air, gan hyny, ei ddadguddiedigaethau, ei weledigaethau, ei rag-ddywediadau, ei addewidion, a'i fygythion—gwirionedd ydynt oll. Y mae pob peth fel y mae yn dywedyd ei fod; yr hyn y mae yn addaw neu fwgwth, y mae yn bwriadu eu gwneuthur, ac *felly* y gwna. Y mae pob celwydd yn tarddu o un o ddau beth; naill ai o wendid neu o ddrygioni; ond y mae

Digitized by Google

pob un o'r ddau yn anfeidrol bell oddiwrth Dduw. Y mae un yn dywedyd anwiredd, naill ai o gamsyniad, neu yn wybodus ac yn wirfoddol: yn y cyntaf, gwendid ac anmherffeithrwydd ydyw yr achos; yn yr ail, drygioni. Y mae un yn peidio cyflawni ei addewid, naill ai am na *all*, yna mae yn wan; neu am na *fyn*, yna mae yn ddrwg. Ond am fod y ddau yn anfeidrol bell oddiwrth Dduw, y mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog. 1 Bren. 22. 23. Ezec. 14. 9. Heb. 6. 18.

Dafydd yn gosod allan fawredd difesur, ac ëangder y perffeithiau dwyfol, a ddywed, 'Dy drugaredd, Arglwydd, sydd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymylau.' Nis gellir eu hamgyffred mwy nag y gellir cyrhaedd y cymylau.* Ps. 36. 6. a 78. 1, &c. Edr. DADGUDDIAD, CREDU, FFYDD, TYSTIOLAETH. Gwel J. Zanchy, *De Natura Dei.*

Y mae yr Arglwydd Iesu yn galw ei hun, Αληθεια, Y GWIRIONEDD. Ni allasai neb o'r prophwydi na'r apostolion ddywedyd hyn am danynt eu hunain; er eu bod hwy yn dywedyd y gwir, nid 'y Gwirionedd' oedd un o honynt, nac oll yn nghyd. Ond 'Y GWIRIONEDD' yw Crist. Dichon dynion sanctaidd ddywedyd weithiau, trwy gamsyniad, neu wendid, yr hyn *nid yw wir:* ond nis dichon Y GWIRIONEDD: Crist yw hwnw, ac y mae pob peth croes i'r gwirionedd yn anfeidrol bell oddi wrtho. Y mae yn *wir* Dduw ac yn *wir* ddyn. Y gwir Fessïah addawedig; sylwedd yr holl gysgodau a'r prophwydoliaethau. Gwirionedd a ddysgodd fel prophwyd; gwirionedd yw ei aberth, fel offeiriad, sef gwir iawn; ac y mae yn llywodraethu mewn cyflawnder a ffyddlondeb. Gwir ffordd i fywyd yw, yn groes i bob gau ffordd o ddychymyg dynol. Gwirionedd yw yn ei holl swyddau, sef yn eu cyflawni i'r perffeithrwydd mwyaf. Gwirionedd yw yn ei holl ditlau—mae yn ateb iddynt yn gwbl gyflawn. Gwirionedd ydyw yn ei holl berthynasau. Gwir ben i'w eglwys—gwir gyfaill—gwir frawd—gwir briod, ac yn meddiannu yn gyflawn bob cymhwysderau addas i'r cyfryw berthynasau. Y mae pob gwirionedd yn yr Iesu, ac yn cael ei ddangos yn ogoneddus yn ei berson, ei swydd, a'i waith. 1 Ioan 5. 20. Eph. 4. 21. Ioan 1. 14, 17. a 3. 21. a 5. 33, 40. a 8. 32. a 10. 28. a 11. 25. a 17. 2.

Y mae gwir, a gwirionedd, yn arwyddo, 1. Geiriau cywir am beth neu berson, yn ateb i'r peth ydyw yn gwbl.† Ioan 10. 41. a 19. 35. a 21. 24. Act. 12. 9. Tit. 1. 13. 1 Petr 5. 12. 2 Petr 2. 22. 1 Ioan 2. 8. ——2. Bod un yn wirioneddol yr hyn y mae yn hòni ei fod. Ioan 7. 18. 2 Cor. 6. 8. Mat. 22. 16.—— 3. Geirwir, credadwy. Ioan 3. 33. Rhuf. 3. 4. a 15. 8. Eph. 5. 9.——4. Cadarn, sicr, yn rhwymo yn ol y gyfraith. Ioan 8. 14, 17.——5. Athrawiaeth yr efengyl, yr hon a elwir gyd âg enwogrwydd, 'y gwirionedd—gair y gwirionedd—ffordd y gwirionedd—gwirionedd yr efengyl—gair gwirionedd yr efengyl.' 2 Petr 2. 15. 2 Cor. 6. 7. Eph. 1. 13. Iago 1. 18. Gal. 2. 5, 14. Col. 1. 5. Tystiolaeth gywir, a dadguddiad eglur yw yr efengyl, o sylwedd y pethau cysgodol dan oruchwyliaeth Moses, a'r cyflawniad o brophwydoliaethau yr hen brophwydi.——6. Mae gwirionedd hefyd yn arwyddo duwioldeb diragrith, sanctciddrwydd diffuant, cywirdeb ac uniondeb ysbryd a meddwl un tu ag at Dduw, ac yn ei rodiad tu ag at ddynion, yn groes i bob twyll ac ymddangosiad rhagrithiol allanol. Ps. 51. 6. Ioan 3. 21. a 8. 44. Rhuf. 2. 8. 1 Cor. 5. 8. Eph. 4. 22. a 6. 14. Iago 5. 19. 1 Ioan 3. 8, 18.

* Constantia tua in dilectione & veracitas in promissis est, tanta, ut æstimare non possimus; quem admodum altitudinem cælorum æstimare non possimus. Coccejus *in loc.*

† Veritas est, per quam immutata, quæ sunt, quæ fuerunt, et quæ futura sunt, dicuntur. Cicero.

'Wele Israeliad yn wir,' sef un heb *dwyll*, diragrith, âg ysbryd uniawn oddi mewn iddo. Ioan 1. 47.

'Addoli mewn ysbryd a gwirionedd,' sydd yn arwyddo addoli Duw â'r ysbryd a'r meddwl, ac nid mewn agwedd gorphorol yn unig; a hyny mewn gwirionedd diffuant a diragrith, â chalon uniawn, gywir. Hefyd y mae yn arwyddo addoliad addas i oruchwyliaeth yr efengyl, heb y cysgodau, heb wyddorion y byd, a gorchymyn cnawdol, heb olwg ar ryw le neillduol, na rhyw ddefodau neillduol. Ioan 4. 23. Yr oedd y cyntaf yn addas ac yn ofynol bob amser; ond y diweddaf yn addas i oruchwyliaeth yr efengyl yn unig. Witsius, *De Orat.* Rhaid i Dduw gael addoliad cyfatebol iddo ei hun, i'r hyn yw ynddo ei hun; 'Ysbryd yw Duw,' sanctaidd, cyflawn, a da; âg anfeidrol fawredd, gallu, a gwybodaeth, yn perthyn iddo; rhaid iddo gael addoliad ysbrydol, sanctaidd, parchus, cyfatebol i'r hyn ydyw efe ynddo ei hun.

'Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant.' Ps. 85. 10. Trugaredd a drefnodd Waredwr—rhoddodd addewidion am dano, a chysgodau o hono; a phan ddaeth Crist Iesu, y Gwaredwr addawedig, cyfarfu gwirionedd yn nghyflawniad yr addewidion â thrugaredd, yr hon a'i rhoddodd. Trugaredd â chysgodau ac addewidion oedd gan yr eglwys cyn i'r gwirionedd, sef Crist, darddu o'r ddaear; ond, wedi hyny, y mae trugaredd a gwirionedd wedi ymgyfarfod yn Mherson, gwaith, ac aberth Crist. Y mae y cysgodau, yr addewidion, a'r prophwydoliaethau, yn wirionedd i gyd ynddo ef. Ps. 89. 14. Exod. 34. 6, 7. Mic. 7. 20. Luc 1. 54, 55, 56. Ioan 1. 17. Edr. FFYDDLAWN, GWREGYS.

GWIRFODD, (gwir-bodd) yn ewyllysgar; yn hollol foddlon; o ewyllys da.—'Offrwm gwirfodd;' sef o wir ewyllys da, a pharodrwydd meddwl, heb fod yn orchymynedig. Exod. 36. 3. Deut. 16. 10.

'Os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechod wedi ei adael mwyach.' Heb. 10. 26.—'Canys os yn ewyllysgar y pechwn.' W. S.—'Os o'r gwaith dioddef y pechwn.' Dr. M.—Y mae y gair εκουσιως yn arwyddo rhydd, diorfod, digymhell. Y pechod a feddylir yma yw hollol ymwrthod â Christionogrwydd, a phob proffes o hono, ac ymarferiadau perthynol iddo: a hyny gwedi derbyn gwybodaeth y gwirionedd, sef athrawiaeth yr efengyl. Nid trwy anwybodaeth, na thrwy ryw brofedigaeth disyfyd, na thrwy ofnau, a bygythion, yn peri rhagrith, ac argeliad dros yr amser presennol, a'r galon yn glynu wrth y gwirionedd; ond yn *wybodus*, yn wirfoddol, ac o gasineb at y gwirionedd, yn ei wrthod, ac yn ymadael â phob proffes o hono. 'Nid oes un aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach,' yn nhrefn Duw, nac iddo ef i'w gael. A chan ei fod yn gwrthod yr aberth a roddwyd, y mae yn rhaid iddo ymddangos yn y farn heb *un aberth* dros ei bechodau; a chan na fedd aberth, nid oes iddo ond rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa wrthwynebwyr y gwir aberth. Yr oedd y darluniad hwn yn addas iawn o ymddygiad y rhan amlaf o'r Iuddewon yn yr amser yr ysgrifenodd yr apostol yr epistol hwn. Y mae yn addas i bawb yn mhob oes; os byw ydynt heb aberth Crist, beth fydd ganddynt rhyngddynt ag angerdd tân digofaint Duw yn y diwedd?

GWISG—O—OEDD, (gwi-isg) dilledyn, trwsiad, archeniad, achre. Edr. DILLAD. Dwy wisg yn gyffredin oedd gan yr Hebreaid: un כתנת a gyfieithir *pais*, Exod. 28. 4, 39. Lef. 8. 13. Gen. 3. 21.—*siaced*, Gen. 37. 3, 23, 30, 31.—*gwisg*, Esa. 22. 21. Y wisg isaf oedd hon, nesaf at y croen. Byddai hon yn aml, ac y mae etto yn y gwledydd dwyreiniol, yn ddiwniad, wedi ei gwnu o'r cwr uchaf drwyddi oll,

Digitized by Google

megys yr oedd *pais Crist*. Ioan 19. 23. Y llall oedd מעיל a gyfieithir *mantell, cochl*. Ioan 13. 4. Exod. 28. 4. 1 Sam. 15. 28. Ezec. 26. 16. Yr arwisg oedd hon, sef y wisg uchaf, ar y llall. At hon y mae geiriau yr apostol yn cyfeirio, pan y mae yn galw gogoniant yn y nefoedd yn arwisg.—'Ein harwisgo.' 2 Cor. 5. 2, 4. Y ddwy wisg hyn oedd yn cynnwys yr hyn a elwir 'pâr o ddillad.' 2 Bren. 5. 22. Defnydd y bais y rhan amlaf oedd llïan; a defnydd y fantell oedd o wlan. Yr oedd y bais yn llaes at eu traed, ond pan fyddent yn ei thyn-fyru i gerdded yn fwy rhydd a chyfleus. Yr oedd yr ysgrifenyddion yn caru rhodio mewn dillad, sef peisiau llaesion, mwy nag arferol, er mwyn ychwaneg o ymddangosiad o sobrwydd a sancteiddrwydd. Luc 20. 46. Gair *Heb*. arall a ddefnyddir am *wisg*, מרו (*mado*), ac a arwydda cymhesuredd, gwisg cymhesuredd â'r corph. מרו בר *Llïein-wisg lâs a main*. Lef. 6. 10. Edr. PAIS, MANTELL, GOLEUNI, CWMWL, HAUL, SACHLIAN.

Nid oedd yr Hebreaid byth yn newid dull eu gwisgoedd; y lliw gwyn, neu borphor, oedd yn fwyaf cymeradwy yn eu plith.——Y wisg briodas oedd y wisg fyddent yn ei gwisgo ar y cyfryw achosion, gwedi ei pharotoi gan yr hwn ydoedd yn gwneuthur y wledd briodasol, ac yn anrhegu ei wahoddedigion â hi fel arwydd o'i ffafr, ac fel y byddent wedi eu gwisgo yn addas i'r cyfryw rwysg-fawredd. Fod gwyr mawrion yn y dwyrain yn dangos eu mawredd trwy y cyfryw anrhegion, sydd eglur oddiwrth anrhegion Joseph i'w frodyr, Gen. 45. 22. ac oddiwrth Barn. 12. 14. Diammeu, gan hyny, mai gwrthod y wisg a ddarfu y gwr hwnw oedd heb y wisg briodas; ac yr oedd hyny yn anesgusodol, ac yn anmharch, a dirmyg mawr ar y gwr a'i gwahoddodd. Gwisgoedd gwynion, tebygol, oedd yn arferedig yn y cyfryw wleddoedd. Y llïan main gwyn a glân yw cyfiawnder (*τα δικαωματα, y cyfiawnderau*) y saint. Dat. 19. 8. Nid rhaid i ni ddadleu pa un ai cyfiawnder cyfrifol ai cyfranogol a feddylir wrth y wisg briodas, gan na ellir gwahanu mo honynt, a bod angen anhebgor am gyfiawnder yn mhob ystyr o hono, i addasu i'r wledd nefol. Y mae cyfiawnder yn aml yn yr ysgrythyrau yn arwyddo y cwbl o wir grefydd. Cyfiawnder Crist yn gyfrifol sydd yn cyfiawnhau ger bron Duw, sef cyfiawnder Duw, dadguddiedig yn yr efengyl; cyfiawnder ydyw *holl* waith yr Ysbryd Glân yn yr enaid; peth cyfiawn ydyw edifarhau am bechod, credu yn Nghrist, caru Duw, ac ufuddhau iddo; ac anghyfiawnder mawr yw peidio a gweithredu felly. Ond sylfaen y cwbl ydyw cyfiawnder mawr y Cyfryngwr, yn gyfrifedig trwy ffydd i bechadur euog: hwnw ydyw y wisg oreu sydd i'r gweision i'w dwyn allan, ei dangos yn ei holl werth a'i gogoniant, i'w gwisgo am holl afradloniaid dychweledig edifeiriol. Rhaid cael hon er edifeirwch, cyfaddef, a dychwelyd adref; er y cwbl y maent yn rhy anaddas i fyned i'r tŷ i wledda heb y wisg oreu. Gwisg barod, gyfiawn, i roddi am y pechadur; ac yn hon y mae y wisg dufewnol o sancteiddrwydd yn cael ei gweithredu gan yr Ysbryd Glân. Nid oes dim llai na'r wisg oreu a foddlona galon y Tad i'w rhoddi i'r afradloniaid dychweledig; a'r gweision hyny sydd yn eu rhesymau cnawdol yn anufuddhau i'w Harglwydd, ac yn ei chuddio heb ei dwyn allan, a'i gwisgo am danynt, a gânt ateb am eu hanufudd-dod i'w Harglwydd, a'u creulondeb tu ag at afradloniaid truenus. Mat. xxii. Luc xv.

'Gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu, ac na wnewch rag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef.' Rhuf. 13. 14. Edr. DARBOD. Y cyffelyb ymadrodd a gawn yn Barn. 6. 34. 'Ysbryd yr Arglwydd a ddaeth ar Gideon.' Hebraeg, *a wisgodd am Gideon*. Y mae gwisg er diogelwch ac er harddwch; felly y mae Crist yn ddiogelwch ac yn harddwch i bechadur. Ei wisgo ydyw ei ddefnyddio i'r dyben y trefnwyd ef, sef yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth. Nid clywed sôn am dano; nid gwybod am dano; na gwneuthur proffes o hono, yn unig, a wna ein diogelu na'n harddu, ond ei wisgo; ymddangos ger bron Duw yn ei gyfiawnder, a cher bron dynion yn ei ddelw a'i Ysbryd. Y mae yr apostol yn annog y Rhufeiniaid i ofalu ac ymdrechu am hyn, yn benaf o bob peth, ac nid rhag-ddarbod dros y cnawd er mwyn ei chwantau. Golwg hardd ydyw gweled pechadur wedi ei wisgo â'r Arglwydd Iesu! Gal. 3. 27. Eph. 4. 22, 24. Col. 3. 10, 12. Dat. 16. 15. 1 Ioan 3. 3. Dat. 19. 8.

Y mae gwisgo yn aml yn arwyddo un peth a fyddo yn glynu wrth ddyn, ac y mae yn rhodio, ac yn ymddangos ynddo; ei agweddiad gyffredin; felly y mae yr Arglwydd 'yn gwisgo gogoniant a harddwch—yn gwisgo goleuni fel dilledyn;' sef yn ymddangos yn hardd, yn ddysglaer, ac yn ogoneddus yn ei holl weithredoedd, ei oruchwyliaethau, a'i farnedigaethau. Ps. 104. 1, 2.

Felly y dywedir fod y saint yn gwisgo iechydwriaeth, moliant, gostyngeiddrwydd, &c. Esa. 61. 3. ——Eraill yn gwisgo trawsder. Ps. 73. 6.

'Gan ddeisyfu cael ein harwisgo â'n tŷ sydd o'r nef.' 2 Cor. 5. 2. Y gair *Gr*. *επενδυτης*, sydd yn arwyddo *amwisg*, neu *arwisg*, Ioan 21. 7. Arwisgo yw gwisgo *hòno* am un, sef y wisg uchaf, yr hon oedd i fod am, ac ar, yr holl ddillad eraill. Y mae gogoniant yn cael ei gyffelybu i arwisg; y rhai sydd eisoes wedi eu cyfiawnhau, a'u sancteiddio, yn unig, a arwisgir â hi. Arwisgo â thŷ sydd yn ymddangos fel ymadrodd anmhriodol: geilw Macknight ef yn ymadrodd ffol; am hyny, cyfieitha efe y geiriau, *myned i aros yn wastadol yn ein tŷ nefol*: ond nid mwy anmhriodol ydyw na'r ymadrodd, *Trysori sail dda*, yn 1 Tim. 6. 19. Y gwirionedd yw, y mae y cyfryw amrywiaeth geiriau cyffelybiaethol, yn gyffredin, yn yr ysgrifenwyr mwyaf enwog yn mhlith y Groegiaid. Y mae tŷ a gwisg yn ateb i gyffelyb ddybenion; sef er harddwch, cludwch, a diogelwch. Gwel Merrick ar Ps. 58. 8, 9.

GWIW, (gwi) *Gwydd*. FIW; teilwng, addas, cymhwys, cymhesur.—Dyn gwiw iawn, sef dyn cymhwys iawn; ni wiw ceisio, sef ni lesâ ymgais; y mae gwaith gwiw arno, sef gwaith rhagorol. 2 Sam. 14. 19. Nid gwiw troi, &c. 1 Cron. 17. 27.

*Gwiw* aur i a'i dirper. *Diar.*

GWLAD, GWLEDYDD, (gw-lad) *Heb.* גלה *goleh*; *Ar.* BRO; *Gwydd.* TIR, RAN; ardal, bro, brodir, tuedd, goror.—1. Teyrnas neu dalaeth. Gen. 14. 7 ——2. Y meusydd, neu y rhan o'r wlad tu allan i'r dinasoedd. Esa. 1. 7.——3. Preswylwyr y wlad. Mat. 3. 5.

Mewn cyfeiriad at wlad Canaan y mae y nefoedd yn cael ei galw yn wlad—un nefol—gwlad well—a gwlad bell. Heb. 11. 14, 16. Mat. 21. 33. a 25. 14. Luc 19. 12. Y mae yn wlad well na'r byd hwn, yn ei hamgylchiadau a'i rhagorfreintiau; yn nedwyddwch a gwaith y trigolion; yn ei hanghyfnewidioldeb a'i pharhad. Yn anghymharol well yn mhob peth. Etifeddiaeth plant Duw ydyw, wedi ei pharotoi iddynt ganddo, er seiliad y byd; y mae hawl ganddynt iddi trwy eu hundeb â Christ; y mae yr Ysbryd Glân yn eu rhag-barotoi iddi; a than ei ddylanwadau y maent hwythau yn ei cheisio yn benaf, ac yn dangos yn eglur eu bod yn ei cheisio, yn eu hymarweddiad sanctaidd, nefolaidd. Rhuf. 8. 17.

GWLADEIDDIO, (gwlad) gwneuthur ar ddull y wlad; cywilyddio, gwrido, cochi.—'Cywilyddio, a gwladeiddio a wnaethant, a chuddio eu penau.' Jer. 14. 3. Job 6. 20.

Digitized by Google

GWLADWRIAETH, (gwlad) sefydliad gwladol, llywodraeth.—'Wedi eich dyeithrio oddiwrth wladwriaeth Israel.' Eph. 2. 12. Yr oedd yn fraint allanol fwyaf yn y byd, dros amryw oesoedd, fod yn perthyn i wladwriaeth Israel. Yr oedd eu cyfreithiau, yn eu hunionder a'u cyfiawnder, yn rhagori ar bob gwladwriaeth arall dan y nefoedd. Eiddynt hwy hefyd oedd y cyfammodau, y gwasanaeth, a'r addewidion. Ymddiriedwyd iddynt hwy am ymadroddion Duw. Rhuf. 3. 2. a 9. 4.——Trwy y pethau hyn yr oedd gwladwriaeth Israel wedi ei dyrchafu mewn breintiau yn mhell uwch pawb eraill; bod wedi dyeithrio oddiwrth y wladwriaeth hon, gan hyny, oedd radd mawr o iselder a thrueni.

GWLAN—OG, (gw-llan) *Gr.* ληνος, *Doricè*, λανος; *Llad.* LANA; *Gwydd.* OLAN; gwisg y ddafad. Byddent yn yr hen oesoedd yn tynu y gwlan oddiar y ddafad yn lle ei gneifio, a'r ddafad yn fyw; am hyny galwai y Rhufeiniaid gnu o wlan, *vellus*, tyniad. Yr oedd gwlan Damascus yn hynodol. Ezec. 27. 18. Yn mhlith yr hynafiaid, gwlan Attica, Megara, Laodicea, Apulia, Tarentum, Parma, ac Altino, oedd fwyaf ei werth. Haera Tavernier fod gwlan Asia yn rhagori llawer ar wlan Ewrop yn ei feindra. Y gwlan mwyaf ei fri yn bresennol yw gwlan Lloegr ac Yspaen. Mewn gwledydd heb fod yn rhy oer nac yn rhy boeth y mae y gwlan goreu a meinaf.

'Na ddod am danat ddilledyn cymysg o lin a gwlan.' Lef. 19. 19. Edr. AMRYW, DILLEDYN. ——'Byddant fel gwlan,' sef yn wyn. Pechodau wedi eu cwbl faddeu, a'r pechadur wedi ei lanhau oddi wrthynt, a feddylir. Esa. 1. 18. Edr. EIRA. ——'Gwlanog,' sef â gwlan arnynt. 2 Bren. 3. 4.

'Efe a ddisgyn fel gwlaw ar gnu gwlan.' Ps. 72. 6. Nid yw y gwlaw a'r cnu gwlan yn ymddangos yn briodol i'w gilydd. Arwydda y gair *Heb.* גז *tori, tori ymaith.* Cyfieithir ef *cneifio*, Gen. 38. 13. Deut. 15. 19. Fel enw cadarn, *cnaif*, Deut. 18. 4.—*cnu*, Barn. 6. 38. Job 31. 20. *New mown grass. Saes.* Pe buasent yn lladd gwair yn y gwledydd hyny, buasai y cyfieithiad hwn yn dra addas i ddisgyniad y gwlaw. Ond gan yr arwydda tori yn gyffredinol, geill arwyddo yn y fan hon glaswellt wedi ei dori â dannedd anifeiliaid; ac felly gellir cyfieithu y geiriau: 'Efe a ddisgyn fel gwlaw ar laswellt newydd ei dori.' Dywedir yma am Solomon yn gysgodol, ond am Grist yn benaf, y gwrth-gysgod, y byddai ei athrawiaeth a'i lywodraeth yn fendithiol ac yn gysurol iawn, yn peri i bob rhinwedd flaguro. Tebygol i'n cyfieithwyr dysgedig ni olygu y geiriau yn cyfeirio at gnu gwlan Gideon a'r gwlith arno. Barn. 6. 38.

GWLAW—IO—OGYDD, (gwl-aw) y dwfr a ddefnyna o gymylau yr awyr ar y ddaear. Mae y dwfr yn drymach na'r awyr; ac etto, pe na byddai i'r dwfr gael ei godi i fynu yn gymylau yn yr awyr, a defnynu oddi yno yn wlaw ar y ddaear, byddai i bob peth ar y ddaear wywo, trengu, a darfod; am hyny mae y Creawdwr mawr wedi trefnu i hyny fod. Mae y deddfau canlynol i'r dwfr:—1. Y peth fyddo drymach na chymaint ag ef o ddwfr a ddisgyn ac a sawdd yn y dwfr.—2. Y peth fyddo ysgafnach na chymaint ag ef o ddwfr a esgyn ac a nofia.—3. Y peth fyddo gyd-bwys â chymaint ag ef o ddwfr a saif mewn dwfr, ac a nofia lle y rhoddir ef. Yn ol y deddfau hyn y mae y dwfr yn esgyn i'r awyr, ac yn disgyn oddi yno yn wlaw. Mae y dwfr gan wres yn cael ei droi yn darth, ac yn bledrynau bychain ysgafnach na'r awyr, ac felly yn esgyn i fynu nes y delont yn gyd-bwys â'r awyr, canys y mae yr awyr yn ysgafnach i fynu yn uchel nag i waered yn isel; a rhai prydiau yn ysgafnach na'u gilydd. Dodwch arian byw a dwfr mewn llestr gwydr, â yr arian byw yn isaf a'r dwfr yn uchaf; yna bwriwch ddernyn o haiarn i mewn, sudda yn y dwfr, ac a saif ar yr arian byw, am ei fod yn drymach na'r dwfr, ond yn ysgafnach na'r arian byw. O herwydd achosion naturiol cyffelyb y nofia y cymylau yn yr awyr. Edr. DWFR. Mae pob ail achos yn dibynu yn hollol ar yr achos cyntaf; nid yw ail achosion ddim ond yr hyn y gwnelo y cyntaf hwynt. Duw yw yr achos cyntaf o bob peth; o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth. Y mae efe 'yn gwneuthur pethau mawrion ac anchwiliadwy; rhyfeddol heb rifedi.' Yn mhlith y 'pethau mawrion, anchwiliadwy, rhyfeddol heb rifedi,' un yw, 'rhoddi gwlaw ar y ddaear, a danfon dyfroedd ar wyneb y meusydd.' Job 5. 9, 10. Duw sydd yn rhoddi gwlaw ar y ddaear: a Duw *yn unig*. 'A oes neb yn mhlith oferedd y cenedloedd a wna iddi wlawio? neu a rydd y nefoedd gawodau.' Jer. 14. 22. Sef nid oes neb ond Duw a bâr iddi wlawio. Er mai bendith gyffredin yw, etto y mae llaw *neillduol* gan Dduw yn rhoddi y fendith gyffredin hon. Costrelau y nefoedd yw y cymylau, ac ni ddichon neb ond Duw lenwi y costrelau hyn, neu beri iddynt roddi un dafn o wlaw, nes rhoddo Duw y gorchymyn.

'Pan wnaeth efe ddeddf i'r gwlaw.' Job 28. 26. Mae y gwlaw yn dyfod o'r nefoedd trwy ddeddf Duw. Efe sydd yn trefnu yr amser pa bryd y mae i ddechreu gwlawio; Gen. 7. 1.—*dros* ba hyd y mae i barhau gwlawio; Gen. 7. 12.—*pa faint* i wlawio; 1 Bren. 18. 45.—a *pha le*, ac ar bwy. Amos 4. 7.—— Dywed Elias, 'Fel mai byw Arglwydd Dduw Israel, ni bydd na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i.' 1 Bren. 17. 1. Nid ei air ef oedd, ond gair Duw trwyddo; ni bydd gwlaw ond fel y mynegwyf, neu fel y mynego Duw trwyddof fi, fel ei brophwyd.

Mae y gwlaw yn un o dystion Duw, am ei *fôd*, ac am ei *ragluniaeth* dyner dros y byd, yn yr amseroedd a'r lleoedd mwyaf tywyll. Act. 14. 17. Mat. 5. 45. Jer. 5. 24. a 10. 13. Job 37. 6, 11, 12. Ps. 68. 9, 10. Yn yr Aipht Uchaf nid yw yn gwlawio ond yn bur anaml; ond y maent yn dyfrhau y ddaear trwy wneuthur ffosydd, neu rigolau â'u traed, i ddwyn dwfr o'r afon Nilus ar hyd y wlad. Deut. 11. 10. Yr oedd gwlad Canaan yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd, ddwywaith yn y flwyddyn, a elwir y cynnar a'r diweddar wlaw. Yr oedd y cynnar wlaw oddeutu mis Medi, a'r diweddar wlaw yn nechreu Mawrth, o flaen y cynauaf. Joel 2. 23. Zech. 10. 1. Deut. 11. 10, 11. Mewn rhai parthau o Ymerodraeth Persia nid yw yn gwlawio ond ychydig dros wyth mis yn olynol. Yn Syria a Barbari nid oes ond ychydig wlaw dros yr holl hâf. Yn agos i'r cyhydedd y mae yn gwlawio yn ddwys iawn yn yr hâf; pe amgen dihoenai y trigolion gan y gwres. Mewn rhai manau yn agos i'r moroedd, mynyddoedd, neu lynau mawrion, y mae y gwlaw yn dra helaeth.

Dyfnder y gwlaw y naill flwyddyn gyd â'r llall, pe bai yn aros ar y ddaear, sydd wahanol mewn gwahanol fanau. Yn Townley, yn Sir Lancaster, 42½ o fodfeddi; yn Upminster, yn Essex, 19¼; yn Zurich, yn ngwlad y Swiss, 32¼; yn Pisa, yn yr Ital, 43¼; yn Paris, yn Ffrainc, 19; ac yn Lisle, yn Fflanders, 24 o fodfeddi.

* Beth bynag sydd yn hyfryd, yn adeiladol, yn fagwriaethol, ac yn gweini cysur a dyddanwch i ddynion, a gyffelybir yn aml yn yr ysgrythyrau i wlaw; megys athrawiaeth, gosodiadau sanctaidd yr efengyl, a dylanwadau yr Ysbryd Glân trwyddynt. Deut. 32. 2. Job 29. 23. Esa. 5. 6. Ps. 68. 9. Diar. 16. 15. Mic. 5. 7. Edr. DWFR.

Barnedigaethau dinystriol a gyffelybir i gur-wlaw. Ezec. 13. 11. Beth bynag a ddisgyna o'r nefoedd yn helaeth, megys tân a brwmstan, manna, &c., a ddywedir ei fod yn cael ei wlawio o'r nefoedd. Gen. 19. 24. Ps. 78. 24, 27.

'A'r Arglwydd a rydd yn lle gwlaw dy ddaear,



Digitized by Google

lwch a lludw.' Deut 28. 24. Yr hanes canlynol yw yr eglurhad goreu o'r geiriau a welais mewn unrhyw awdwr: 'Weithiau yno (sef India) y mae y gwynt yn chwythu yn uchel yn y tymhorau sychlyd, poethion, yn dyrchafu yn uchel yn yr awyr gymylau tewion o lwch a thywod.—Mae y cawodydd sychion hyn yn niweidiol, ac yn dra blin i'r rhai y syrthiant arnynt; yn ddigon i'w taro â dallineb yn y fan; yn llenwi eu llygaid, eu ffroenau, a'u genau, â'r llwch, nes y byddont agos yn methu ag anadlu. Y mae y llwch yn chwilio pob man oddi fewn ac oddi allan yn y pebyll a'r tai; fel nad oes cymaint a thwll clo heb ei lenwi â'r llwch, os na bydd caead arno. Y mae yn cael ei yru gan erwindeb y gwyntoedd, fel mae y llwch yn treiddio i bob man ac i bob peth.' Gwel Syr T. Roe's *Embassy*.——'Y rhan fwyaf o'r nos neithiwr buom yn croesi rhyw anialwch gwag, erchyll, yn mha le, yma a thraw, yr oedd y ddaear wedi ei gorchuddio â thywod mân, a garier weithiau gan wyntoedd cryfion, nes gorchuddio a mygu teithwyr. Nid oes na meirch, na mulod, na chamelod, neu anifeiliaid eraill, er cryfed, ac er cyflymed y byddont, a ddichon wrthsefyll y cawodydd, ac ymachub; ond a drengant yn ddiymwared. Mae y tywod hyn, pan gynhyrfer ac y carier hwynt gan wyntoedd cryfion, yn tebygu fwy i gynhyrfiadau y môr, nag i dir, ac yn gwneuthur y ffordd yn ddychrynllyd, ac yn enbydus iawn i deithwyr.' Gwel Herbert. Hefyd, Tournefort, *p.* ii.

'Y cynnar-wlaw a'r diweddar-wlaw.' Joel 2. 23. —Nid oes i ni gasglu, fel y gwnaeth rhai, nad oes dim gwlaw dros yr holl auaf rhwng y gwlaw cynnar a'r diweddar. Yn wrthwyneb i hyny y mae; heblaw yr *ail* wlaw, yr hwn a ddaw ar ol y cyntaf, wedi yspaid o dywydd têg dros amryw ddyddiau, y mae y misoedd gauaf yn fwy neu lai gwlawog yn gyffredin, fel y gellir casglu oddiwrth amryw fanau o'r ysgrythyrau, yn gystal ag hanesion teithwyr a fuont yn y parthau hyny. Etto, er hyny, y cynnar a'r diweddar wlaw, neu, fel y gellir eu galw, *gwlaw Hydref a Gwanwyn*, a wahaniaethir yn hynod; o herwydd fod cnydiad helaeth y tir yn dibynu ar ddygwyddiad rheolaidd y rhai hyn:—y cyntaf yn angenrheidiol anhebgorol i amser hau; a'r diweddaf i lenwi y tywysenau ŷd cyn y cynauaf. I amser hau, meddaf; canys y mae Harmer yn gwrth-ddywedyd y rhai hyny sydd o'r farn nad yw y cynnar-wlaw yn dyfod nes ar ol hau, i beri i'r hâd wreiddio; canys yr Arabiaid yn Barbari, medd ef, ydynt yn aredig y tir ar ol y gwlaw cyntaf i hau gwenith; ac y mae haidd, &c., etto yn ddiweddarach; ac yn Aleppo nid ydynt yn dechreu aredig nes darfod y tymhor gwlawog. Gellir yn addas meddwl ei fod felly yn Judea, gan fod angen i'r ddaear wrth wlychiad blaenorol, ar ol hir sychder, cyn y dichon iddi fod yn addas i dderbyn yr hâd. Heblaw y byddai i'r palldod o'r gwlawogydd cylchol hyn effeithio ar y cnydau ŷd, effeithiai hefyd ar y glaswellt, ar y ffynonau a'r pydewau dwfr, i sychu y rhai hyny i fynu, fel y byddai, trwy hyny, berygl clemio trwy syched neu newyn. Gwel Harmer's *Observ. on the Weather in the Holy Land*. *Vol.* i., *c.* 1.

GWLEDD—A—OEDD, (gw-lledd) *Heb.* גורל gwestfa, cyfeddach. Edr. GWYL.—'Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd,' &c. Esa. 25. 6.

IEHOFAH, Duw y lluoedd, a wna,
I'r holl bobloedd, yn y mynydd hwn,
Wledd o ddanteithon, gwledd o hen win;
O ddanteithion breision, o hen win puredig.

*Lowth.*

Y mae y geiriau yn odidog ragorol, ac yn arwyddo llawnder mawr o'r pethau goreu, i gyd o drefniad, parotoad, ac arlwyad IEHOFAH, Duw y lluoedd; ac y mae i'r holl bobloedd, ac ar fryn Sïon, sef yn yr eglwys. Gwledd sanctaidd ac ysbrydol yw, gan mai ar fynydd Sïon y mae yr arlwy, lle yr oedd Duw yn mhlith ei bobl yn cael ei addoli. Gwledd a arwydda heddwch rhwng y pleidiau yn gwledda, a phob plaid wrth eu bodd yn cyd-lawenhau: hefyd llawnder o fendithion; a chyda hyny rhyddid ac iechyd i'w mwynhau. Effeithiau trefn Duw yn Nghrist er iechydwriaeth pechaduriaid yw y wledd hon. Y mae y drefn a'r parotoad mor gyflawn fel y parhâ y wledd byth. Yr oedd y bobloedd dan orchudd a gwarthrudd, yn llawn tristwch a wylofain, ac angeu yn buddugoliaethu arnynt; ond fel y gallont fwynhau y wledd, y mae y gorchudd yn cael ei ddifa, y gwarth yn cael ei dynu ymaith, y dagrau yn cael eu sychu, ac angeu yn cael ei lyncu mewn buddugoliaeth. Y mae yma addewid am symud ymaith pob peth gofidus, i'r dyben o gael cyflawn fwynhad o'r holl bethau gwych a drefnwyd iddynt; a chan fod angeu wedi ei lyncu, nid oes dim i'w ddysgwyl ond bywyd, ac anllygredigaeth, neu anfarwoldeb. Nid rhyfedd fod y bobloedd yn gwaeddi, 'Dyma ein Duw ni; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw; gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iechydwriaeth ef.' Y Duw yr hwn y pechodd y bobloedd yn ei erbyn yw awdwr y cwbl, o'i gariad a'i ras ei hun. Trwy ei ras mae y bobloedd yn cael eu dyrchafu o'r iselder a'r trueni mwyaf, i'r ëangder, y llawnder, y gorfoledd, a'r gogoniant mwyaf. Mewn amryw fanau yn yr ysgrythyrau cybwyllir am y wledd hon i'r holl bobloedd, megys Ps. 22. 26. a 23. 5. a 36. 8, 9. Esa. 65. 13. Zech. 14. 18. Mat. 8. 11. a 26. 29. Y mae yr Arglwydd Iesu yn y dammegion yn gosod allan yr un mater, ac mewn cyffelyb eiriau. Mat. 22. 1, &c. Luc 14. 16. a 15. 27. a 22. 29, 30. Dat. 19. 9.

'Gwledd wastadol yw calon lawen.' Calon lawen yw calon newydd, calon sanctaidd, calon â heddwch Duw ynddi, y pechod wedi ei faddeu, y gydwybod wedi ei phuro, a Duw y tangnefedd yn trigo ynddi. Diar. 15. 15.——'Cariad wleddoedd.' Edr. BRYCHAU, CARIAD.

GWLITH—O, (gwl-ith) arien. Tarth yn disgyn ar y ddaear, yn benaf pan byddo yr haul oddi tan y terfyn-gylch. Mae y gwlith yn gyntaf yn esgyn o'r ddaear gan wres yr haul; pan yr elo yn drymach na'r awyr, y mae yn disgyn yn ei ol. Gan ei fod yn esgyn cyn disgyn, y cyrph nesaf i'r ddaear sydd yn cael eu gwlychu gyntaf ganddo, a'r wyneb nesaf i'r ddaear. Nid oes dim gwahaniaeth rhwng gwlith a gwlaw, ond bod un yn disgyn yn ddefnynau mwy na'r llall. Edr. GWLAW, DWFR. Mewn gwledydd poethion, a lleoedd na bydd yn gwlawio ond ychydig, y mae gwlith y nos yn rhagorol o lesol. O herwydd hyny y mae rhoddi gwlith yn fendith fawr, a'i attal, yn y gwrthwyneb, yn felldith. Deut. 23. 13. 2 Sam. 1. 21.

'Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd o groth y wawr: y mae gwlith dy enedigaeth i ti.' Ps. 110. 3.—'Dy bobl (a offrymant) yn ewyllysgar, yn nydd dy nerth mewn harddwch sancteiddrwydd: o groth y wawr (y mae) gwlith dy enedigaeth i ti.' Dr. M. מרחם משחר לך טל ילדתך *Præ utero auroræ tibi ros prolis tuæ: hoc est, præ rore, qui ex utero auroræ prodit, ros tibi erit prolis tuæ.* Lowth, *Præl.* 10. *Rhagor croth y bore bydd gwlith dy enedigaeth*, neu *dy enedigion, i ti.* Y mae *ellipsis*, neu air wedi ei adael allan, i wneuthur ystyr y geiriau yn gyflawn; yr hyn sydd arferol iawn yn yr iaith Hebraeg. Y geiriau yn gyflawn ydynt fel hyn, '*Rhagor y gwlith sydd yn dyfod o groth y boreu, bydd gwlith dy enedigaeth i ti,*' sef *dy enedigion di.* Y mae y cyfryw goll-ymadrodd yn aml, megys Job 35. 2., 'Fy nghyflawnder i rhagor Duw.' צדקי מאל hyny yw, *fy nghyfiawnder i rhagor cyfiawnder Duw.* Cymh.

Digitized by Google

Job 35. 2. a 40. 8. Lef. 19. 32. Esa. 49. 24. Felly yn y lle hwn, 'rhagor croth y boreu,' a arwydda, rhagor gwlith croth y boreu. Nis gallaf ymfoddloni, medd Mr. Hervey, yn ein cyfieithiad ni, yn gwahanu *croth* y boreu oddiwrth *gwlith* dy enedigaeth. Y mae croth y boreu yn cael ei briodoli, gyd â'r addasrwydd mwyaf, i ddygiad y gwlith, ac yn cyfateb i'r geiriau yn llyfr Job 38. 28. 'Pwy a genedlodd ddefnynau y gwlith?' Genedigion o groth y boreu, mewn rhifedi yn aneirif, ac yn eu heffeithiau yn rhagorol ac yn hyfryd; mwy lliosog fydd genedigion Iesu trwy yr efengyl; yn ewyllysgaryddion i gyd; ac wedi eu prydferthu â harddwch sancteiddrwydd. Mae *genedigaeth* yma yn cael ei roddi yn lle *genedigion;* yr *abstract* yn lle y *concrete*, fel y dywed yr arbwyllebwyr (*logicians*) fel y mae *penwyni* yn cael ei roddi yn lle *penwynion*, (Lef. 19. 32.) *caethiwed* yn lle *caethion*. Ps. 68. 18. Diammeu fod croth y boreu i'w huno efo *gwlith dy enedigaeth*, ac nid efo *harddwch sancteiddrwydd*, fel yn ein cyfieithiad ni. Gwel Hervey's *Meditations*. Lowth's *Prælect.*

'Llanwyd fy mhen â gwlith.' Edr. DEFNYN. Y mae Husai yn cyffelybu byddin yn rhuthro ar y gelyn, i ddisgyniad y gwlith o'r nefoedd. 2 Sam. 17. 12.

'Byddaf fel y gwlith i Israel.' Hos. 14. 5. Yr hyn yw y gwlith i'r ddaear wedi ei golosgi a'i sychu i fynu gan boethder yr haul y dydd, hyny yw yr Arglwydd Iesu i eneidiau ei bobl, a llawer mwy. Fel y gwlith y mae yn dyfod atynt yn eu hangen, a'u sychder mawr, pan nad oedd cysur o un man arall; y mae yn dyfod atynt yn rhad, yn rasol, a chyd âg amldra o fendithion, fel y defnynau gwlith sydd yn aneirif; ac y mae ei ddyfodiad yn eu hadfywio, eu cysuro, a'u ffrwythloni yn rhyfedd iawn, fel y gwlith lysiau y ddaear, wedi iddynt wywo a dihoeni.—'Efe a flodeua,' pan ddisgyno yr Arglwydd fel gwlith arno, 'fel y lili, ac a leda ei wraidd megys Libanus.' 2 Sam. 23. 4. Job 29. 19. Ps. 72. 6. Diar. 19. 12. Esa. 18. 4. a 44. 3. Mic. 5. 7.

'Dy wlith sydd fel gwlith llysiau.' Esa. 26. 19. Y mae yn dra hysbys fod, yn y gwledydd dwyreiniol, lle nad yw yn gwlawio yn yr haf ond yn anaml, y gwlith lliosog y nos yn llesol iawn i bob math o lysiau a choed; y gwlith yw y moddion achosol mwyaf o'u tyfiant a'u ffrwythlonrwydd. Gwel Russel's *Nat. Hist. of Aleppo*. Shaw's *Travels*. Harmer's *Observations, vol.* i. Hasselquist's *Travels*.

Y mae ymweliadau grasol Duw â'i eglwys yn cael eu cyffelybu yma i wlith ar lysiau; fel y gwna y gwlith i'r llysiau marwaidd darddu o'r ddaear a blaguro, felly y gwna yr Arglwydd i'w eglwys adgyfodi, adfywio, a blaguro, trwy effeithioldeb ei air a'i Ysbryd arni. Peth *nefol* yw y *gwlith;* yn disgyn oddi uchod ar y ddaear yma isod, er ei llesâd; yn esmwyth yn ireiddio gwraidd y llysiau yn y ddaear, ac yn peri iddynt darddu a thyfu i fynu; y mae yn gorchuddio yr hyn y mae yn syrthio arno; yn dyfod gyd â'r goleuni; ac yn ddefnynau aneirif; tebyg i hyn yw defnyniad neu dywalltiad yr Ysbryd Glân ar yr eglwys. Ioan 6. 63. Rhuf. 8. 11. Ezec. 37. 12, 13. Ps. 104. 30.

Un peth a fyddo yn gysurus ac yn adfywiol a gyffelybir i wlith, megys ffafr brenin, a chariad brawdol. Diar. 19. 12. Ps. 133. 3.

'Fel gwlith Hermon.' Ps. 133. 3. 'Deallasom trwy brofiad,' medd Maundrell, 'beth oedd y Psalmydd yn ei feddwl wrth wlith Hermon; yr oedd ein pebyll mor wlyb ganddo a phe buasai wedi gwlawio trwy y nos.' Gan fod y wlad yn boeth, mae gwlith lliosog Hermon yn hyfryd ac yn llesol iawn. Arddangosiad tra addas o fendith Duw ar ei bobl yn eu hundeb a'u cymdeithas ysbrydol â'u gilydd. 'Fel gwlith Hermon, ac fel gwlith yn disgyn ar fynydd Sïon.'—'Fel gwlith Hermon, yr hwn sydd yn discyn ar fynydd Sïon.' Dr. M. Y mae *ellipsis*, neu gollymadrodd, yn y geiriau, medd Lowth, *Prælect. p.* 25. a'r gair כטל *megys gwlith*, o flaen y gair disgyn, wedi ei adael allan, yn ol priodoldeb yr iaith Hebraeg, ac yn addas wedi ei roddi i mewn gan ein cyfieithwyr ni, ond wedi ei adael allan gan y Dr. M. Yr oedd Hermon yn rhy bell oddiwrth Sïon, i wlith Hermon ddisgyn ar fynydd Sïon. Gwel Ainsworth.

GWLITH-WLAW, (gwlith-gwlaw) gwlaw mân yn disgyn yn dew ac yn araf.—'Fel gwlith-wlaw ar îrwellt, ac fel cawodydd ar las-wellt.' Deut. 32. 2. כשעירם עלי דשא *gwlâw mân tew ar îr-wellt;** gwlaw tyner nad yw yn niweidio dim, ac yn dew i wlychu y ddaear i'w ffrwythloni. Cyffelybiaeth hardd iawn a ddefnyddir i osod allan, 1. Ddwyfoldeb athrawiaeth yr efengyl; fel gwlith y mae yn dyfod o'r nefoedd. Y mae yn gwbl o Dduw, fel y gwlith; wedi ei pharotoi yn y nefoedd, ac yn disgyn oddi yno, trwy anfoniad Duw ar y ddaear, ar ddynion sychion, diffrwyth. ——2. Ei hyfrydwch, ei ddefnyddioldeb, a'i ffrwythlonrwydd. Y mae mor addas dysgwyl ffrwythau o'r ddaear heb wlaw, a dysgwyl ffrwythau sancteiddrwydd, a chysuron ysbrydol, a fyddo er gogoniant i Dduw a lles i ddynion, heb yr efengyl.——3. Ei haddasrwydd. Yn nhrefn Duw yn y greadigaeth, y mae yn ei ddoethineb mawr wedi addasu pethau yn rhyfedd i'w gilydd; y mae ar y naill beth eisieu help y llall er ei gynnaliaeth; fel y mae y ddaear yn gwaeddi ar y nefoedd am gawodydd ffrwythlawn i'w ffrwythloni: felly yn yr un modd y mae ar enaid pechadur angen am athrawiaeth rasion a ffrwythlon yr efengyl; y mae yn gwbl addas iddo; y mae yn sychedu ac yn gwaeddi am dani, os yw deimladwy o'i gyflwr, ac nid oes dim a'i digona ac a'i ffrwythlona ond hi.——4. Y mae y gwlith yn raddol yn treiddio i'r ddaear, ac yn myned at wreiddiau y gwellt a'r llysiau, ac fel yn dwyn magwraeth iddynt a ffrwythlonrwydd; yn y cyffelyb fodd y mae athrawiaeth y gair, dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân, yn effeithio yn raddol, ac yn treiddio trwy holl gynneddfau yr enaid, ac yn dwyn magwraeth i bob gras, er cynnydd a dyddanwch annhraethol iddo.

GWLYCH—U, (gwl-ych) *Heb.* לח lleithio, gwlybhau, gwlyddeiddio, mwydo. Dan. 4. 15. 1 Sam. 14. 27. Mat. 26. 23. Ioan 13. 26.

GWN, (gw-wn) *Gr.* γινωσκω. Edr. GWYBOD' GWYBODAETH.

GWN, GYNAU, (gw-wn) gwisg laes, ysgin, hûg, twyg. Mae y gair *Gr.* στολη, yr hwn yn y rhif lliosog a gyfleithir *gynau*, yn Dat. 6. 11. a 7. 9, 13, 14, yn cael ei gyfieithu *gwisgoedd*, a *dillad llaesion*. Marc 12. 38. a 16. 5. Luc 15. 22. a 20. 46. Edr. GOLCHI, DILLAD, GWISG.

GWNA—AETH—PWYD, (gwn) gweithredu, cwblhau, cyflawni, wedi gweithredu. Ps. 119. 35. a 126. 2.

GWNAWN. Gen. 1. 26. a 11. 3, 4. 2 Cron. 20. 12.

GWNEWCH, berf orchymynol, yn mynegi iaith uchel-radd, ac awdurdodol, wrth ddeiliaid. Ioan 13. 17. Col. 3. 23.

GWNEUTHUR—WYR.—'Gwneuthurwyr y gair' yw y rhai sydd yn defnyddio y gair, bob rhan o hono, i'r dybenion mae yr Arglwydd yn rhoddi y gair; sef credu yr athrawiaethau, ac adeiladu arnynt fel ar sylfeini cedyrn; derbyn yr addewidion, a'u holl fendith-

* 'Pluvia tennis densa super gramen;' ut guttæ tenues subtiles, dense cadentes, comparari possint cum pluvia dense & tenuiter cadente. Vitringa.

Digitized by Google

ion rhad, er ein cysur a'n cynnaliaeth: ufuddhau i'r gorchymynion yn ewyllysgar ac yn ddiragrith. Mae gwneuthur y gair yn groes i'w esgeuluso a'i ddiystyru, a byw yn groes iddo; hefyd yn groes i'w gamddefnyddio, a rhoddi y naill beth yn lle y llall, yn groes i drefn y gair: megys ymgais am gyfiawnhad ger bron Duw trwy weithredoedd y ddeddf, ac nid trwy ffydd yn Nghrist; nid gwneuthur y gair yw hyny, ond gwneuthur ein dychymygion ein hunain; y mae yn eglur yn y gair na chyfiawnheir neb trwy y ddeddf. Gal. 3. 10, 11.

Y mae yn ddyledswydd ar bawb sydd â'r gair ganddynt, wrando y gair; ond ei wrando heb ei wneuthur sydd anmharch mawr i'r Duw yr hwn a'i llefarodd, ac yn hollol anfuddiol i ninnau. Mae gwir gredu y gair a gweithredu yn cydfyned â'u gilydd; yr hwn sydd heb wneuthur y gair, sydd heb ei gredu etto yn ddilys. Nid oes neb wedi adeiladu ar Grist, fel sylfaen, trwy ffydd, ond y rhai sydd yn gwneuthur y gair; ac y mae pawb sydd yn wirioneddol yn wneuthurwyr y gair, wedi eu hadeiladu ar Grist, ac ni ellir eu siglo. Mat. 7. 24, 25. Luc 6. 47. Rhuf. 2. 13. Iago 1. 22, 23, 24. a 4. 11. Deut. 5. 32. a 6. 3. Edr. Gair, Sylfaen, Craig.

GWNELYD, (gwna) gwneuthur, gweithredydd. Yr amser ammodadwy, a'r amser dawodadwy yn unig a arfer y dull hwn.—'Fel y gwnelyd felly i mi.' 1 Cor. 9. 15.

A *wnelo* dyn Duw a'i barn. *Diar.*

GWNIO, (gwni) pwytho, cyssylltu ynghyd.—'A wnïasant ddail y ffigysbren.' Gen. 3. 7. Yn hytrach, a gydiasant, neu a gyd-blethasant, heb benderfynu pa fodd.—'A gyd-wnïasant (sef a gydiasant) y sylfaenau.' Ezra 4. 12.——'A wnïaist i fynu fy anwiredd.' Job 14. 17.—'Fy nghamwedd a selied mewn côd;' nid yn unig y mae wedi ei selio, ond y mae y gôd wedi ei gwnïo hefyd—sef wedi ei gadw i'w ddwyn yn fy erbyn. Yr oedd Job yma yn barnu yn rhy galed am yr Arglwydd yn ei driniaethau o hono. Os oedd yn ei geryddu am ei anwiredd, nid oedd yn ymddwyn tu ag ato fel barnwr, ond yn hytrach fel Tad, ac mewn cariad at ei enaid; a hyny a gafodd yntau ei adnabod yn y diwedd. Job 21. 19. Deut. 32. 34. Hos. 13. 12.

GWNIADYDDES—AU.—'Gwae y gwnïadyddesau clustogau tan holl benelinoedd fy mhobl.' Ezec. 13. 18. Y mae y prophwyd yn cymharu y gau-brophwydi yn prophwydo celwyddau i esmwythâu y drygionus, i wnïadyddesau yn gwneuthur clustogau tan benelinoedd, neu geseiliau. Y mae y geiriau yn cyfeirio at y dull o eistedd yn y gwledydd dwyreiniol, sef ar eu lled orwedd, ac i'w gwneuthur yn esmwyth yn y cyfryw agwedd, yr oedd clustogau tan y penelin, neu y gesail, yn angenrheidiol. Gwneuthur tan holl benelinoedd, ydyw eu gwneuthur yn addas i bob gradd, boneddig a gwreng; ac i bob oedran, ieuanc a hen. Yn y cyffelyb fodd yr oedd y gau-brophwydi yn prophwydo pethau esmwyth i bawb, i gadarnhau dwylaw yr annuwiol, fel na ddychwelai o'i ffordd ddrygionus; a hyny er dyrneidiau o haidd, a thameidiau o fara: ond yn tristâu calon y cyfiawn trwy gelwydd. Y gwirionedd yn unig sydd yn cysuro y cyfiawn; y mae celwydd yn ei dristâu. Gwae y byd o herwydd y cyfryw feddygon twyllodrus!

GWOBR. Edr. Gobr.

GWOBRWYWR—WYR, (gwobrwy-gwr) addalwr, pwythwr, budr-wobraeth, dobrwywr.—'Tân a ysa luestai gwobrwyr.' Job 15. 34. Y budr, y llygredig, y dobrwywr, y budr-wobrwywr. Gall arwyddo yr hwn sydd yn rhoddi, neu yr hwn sydd yn derbyn gwobr. Yr un ysbryd anghyfiawn sydd yn mhob un o'r ddau. 'Tân a ysa eu lluestai,' sef eu cyfoeth a'u holl feddiannau. Pechod echrysloen yw, ag sydd yn tynu barn ar ddynion yn drwm.

GWR—RYW—IAID—OL—DEB, GWYR, (gw-wr) *Heb.* גבר *Llad.* Vir. Y gwrryw. Gwr dewr, gwrolwych, pybyr; gwr priod, gwr gwraig; gwr wrth gerdd, cerddor; gwr pwys, priod-fab; y gwr drwg, y diafol; gwr y gyfraith, cyfreithiwr; gwr Duw, prophwyd Duw; gwr i Dduw, sef gwr i wasanaeth Duw. Felly y gelwir Moses, Samuel, Dafydd, &c. Deut. 33. 1. 1 Cron. 23. 14. 1 Sam. 2. 27. a 9. 6. 2 Cron. 8. 14. Dyled gwyr tu ag at eu gwragedd yw eu caru megys eu cyrph eu hunain, ac megys y carodd Crist yr eglwys; glynu wrth eu gwragedd, ac wrthynt hwy yn unig; rhoddi parch iddynt megys i'r llestr gwanaf, ac nid eu diystyru am eu bod felly; cyd-gyfanneddu â hwynt, a chyflawni yn ffyddlon eu hammodau priodasol. Eph. 5. 24, 28. Gen. 2. 24. 1 Petr 3. 7. Col. 3. 19. 1 Cor. 6. 9. Diar. 5. 18, 19. Mal. 2. 14, 15. Edr. Adda, Efa, Dyn, Priodas.——'Gwrryw-gydwyr,' Sodomiaid. 1 Cron. 6. 9. 1 Tim. 1. 10.

GWRACH—IAIDD, (gwr) yn perthyn, neu yn arferedig gan hen wrach, neu hen ddynes ddisynwyr ac annuwiol.—'Eithr gâd heibio halogedig a gwrachiaidd chwedlau.' 1 Tim. 4. 7. Chwedlau croes i eiriau y ffydd, athrawiaeth dda, ac ymarfer o dduwioldeb. Adn. 6. Chwedlau anwir, dychymygol, disylwedd, diles, a halogedig: y cyfryw yw yr holl chwedlau anghristaidd ynghylch addoliad saint ac angelion; gwyrthiau a chreiriau y saint, gwahardd priodi, ac ymattal oddiwrth fwydydd, &c. Dyma y pethau, a'u cyffelyb, sydd gan y diafol i lygru meddyliau dynion, a'u cadw oddiwrth y gwirionedd—pethau i'w gwrthod a'u ffieiddio ydynt.

GWRAGEDDOS, (gwraig) bychanig o'r gair gwraig, ac a arwydda diystyrwch; gwraig wan, ffol, (*silly woman*).—'Yn dwyn yn gaeth wrageddos llwythog o bechodau.' 2 Tim. 3. 6. Anhawdd cael geiriau addasach i osod allan ffolineb a phechadurusrwydd creaduriaid llygredig a thwylledig, nag a arferir yma gan yr apostol; y mae yma rith o grefydd, a llwyth o bechodau heb eu tynu ymaith, yn cael eu harwain gan amryw chwantau. Y maent yn cael eu twyllo gan gyfeiliornwyr âg athrawiaethau gau i foddhau eu calonau llygredig.

GWRAIDD—ION, GWREIDDYN, (rhaidd) *Gr.* *ριζη, risê*; *Llad.* Radix: bôn; dechreuad; gwaelod; cyff cenedl; paladr âch. Y mae gwraidd llysiau a choed yn ateb i'r un dyben iddynt hwy a'r cylla a'r coluddion i gyrph dynion ac anifeiliaid: y mae y naill yn cael eu magwraeth o'r gwraidd yr un fath a'r lleill o'r cylla. Mae y gwraidd yn tarddu o bwynt bychan yn yr hedyn, a elwir *radicle*. Peth rhyfedd fod y gwraidd bob amser yn myned i lawr i'r ddaear, a'r paladr yn tyfu i fynu; gan wrth hau y bydd y *radicle* yn uchaf yn aml, a'r *plumule*, fel y gelwir y pwynt o ba un y tardd y paladr, yn isaf. Llysiau yn tyfu yn ngwaelod y môr, sydd heb wraidd iddynt, a bernir eu bod yn derbyn magwraeth trwy dyllau bychain yn mhob rhan, oddiwrth y dwfr sydd yn eu hamgylchu. Un peth a fyddo yn cynnal, neu yn rhoddi tarddiant a thyfiant, a elwir yn wraidd yn yr ysgrythyrau; megys gwraidd mynyddoedd, sef eu sylfeini;—ariangarwch sydd wreiddyn pob drwg, am fod llawer o ddrygioni yn tarddu oddi wrtho, ac yn tyfu arno, fel gwreiddyn; dyn drwg, halogedig, cyfeiliornus, a elwir yn wreiddyn chwerwedd, yn dwyn gwenwyn a wermod; yn raddol ac yn ddirgelaidd, y mae yn gwenwyno ac yn llygru eraill â'i wenwyn pechadurus. Deut. 29. 18. Heb. 12. 15. Gelwir Crist yn 'wreiddyn *Jesse*,' a 'gwreiddyn Dafydd,' am mai efe oedd ei Greawdwr;

Digitized by Google

arno ef yr oedd yn byw, ac yn derbyn magwraeth ysbrydol oddi wrtho i'w enaid; ac efe oedd gynnaliaeth dragywyddol a gogoniant ei deulu. Yr oedd yn fab Dafydd, ac yn Arglwydd Dafydd, sef yn Dduw ac yn ddyn, o hâd Dafydd yn ol y cnawd. Esa. 11. 10. Dat. 5. 5. a 22. 16. Edr. BLAGURYN.

'Os sanctaidd y gwreiddyn, y mae y cangenau hefyd felly.' Rhuf. 11. 16. Gwreiddyn y genedl Iuddewig oedd y patrieirch Abraham, Isaac, a Jacob. Yr oedd y rhai hyny yn sanctaidd am eu bod yn bobl gyfammodol i Dduw; yr oedd y cangenau yn gystal a'r gwreiddyn yn nghyfammod Duw; am hyny rhaid cael o'u plant at wasanaeth yr Arglwydd, ac nid eu bwrw ymaith yn dragywydd.——'Wedi eich gwreiddio a'ch adeiladu ynddo ef.' Col. 2. 7. Gwreiddio yn Nghrist, yw bod mewn undeb âg ef, a derbyn eu holl gynnaliaeth a'u magwraeth oddi wrtho. Efe yw y gwreiddyn, a hwythau yw y cangenau; nid hwy sydd yn ei gynnal ef, ond efe sydd yn eu cynnal hwy, ac yn cyfranu iddynt o'i gyflawnder.——'Gwreiddyn y mater a gaed ynof.' Edr. MATER.

'Am nad oedd ganddynt wreiddyn, hwy a wywasant.' Mat. 13. 6. Am nad oedd y gair a glywsant wedi gwreiddio trwy ffydd ynddynt, gwywodd eu holl ymddangosiad crefyddol. Yr oedd y llygredigaethau yn aros, yn gwreiddio, ac yn tyfu; ond am nad oedd y gair gwedi gwreiddio trwy ffydd yn eu calonau, a thrwy hyny yn wreiddyn o fywyd cyfatebol iddo ei hun, diflanodd y gair, a'r llygredigaethau oedd yn aros yn unig.

GWRAIG, GWREICA, (gwr-aig) merch, benyw, bun, rhian, gwreig-nith; gwraig-bwys, priodas-ferch, gwraig-wriog, gwraig briod. Edr. ADDA, EFA, GODINEB, GWEDDW, PRIODAS.

> Ymogel ddwyn *gwraig* atat yn enw ei harpyffreu, sef ei gwaddol.
>
> *Cato Cymraeg.*

Dyledswydd gwraig yw ufuddhau a pharchu ei gwr; bod yn ffyddlon i'w hammodau priodasol; bod yn bwyllog; gofyn a derbyn addysg gan ei gwr; gwarchod gartref. Eph. 5. 22, 24, 33. Tit. 2. 5. 1 Petr 3. 1, 2, 3, &c. 1 Tim. 5. 14. Diar. 19. 14.

'Yn gwreica, yn gwra.' Luc 17. 27. Mat. 22. 30. Marc 12. 25. *εγαμουν και εξεγαμιζοντο, ni phriodant, ac ni roddant i briodas.* Gwreica yw cymeryd gwraig; a gwra yw cymeryd gwr. Nid oedd hyn yn bechadurus yn nhrigolion yr hen fyd, mwy nag yn bresennol; ond eu pechod, eu hynfydrwydd, a'u dinystr, oedd gofalu yn unig, neu yn benaf, am hyny; ac esgeuluso pethau mwy, sef eu diogelwch rhag barn Duw.

'Y rhai hyn yw y rhai ni halogwyd â gwragedd; canys gwyryfon ydynt.' Dat. 14. 4. Halogi â gwragedd a arwydda, ymgysylltu â gwragedd yn anghyfreithlon ac yn odinebus. Y mae yr Arglwydd, yn aml, yn yr ysgrythyrau, yn galw eilun-addoliaeth yn odineb, neu yn buteindra; dynion yn tori eu hammod â Duw, ac addoli, ac yn gwasanaethu eilunod. Jer. 3. 8. Ezec. 23. 2, 3. Hos. 1. 2. Hyny a feddylir yn y lle hwn; 'Gwyryfon ydynt;' y maent yn bur ac yn ddiwair fel gwyryfon; yn derbyn ac yn cadw athrawiaeth bur; addoliad pur, heb ddefodau dynol yn gymysgedig âg ef; cariad diragrith, a bywydau sanctaidd. Morwynion o ran cymdeithasu â'r byd a'r cnawd, er eu bod, ac am eu bod, yn briod â Christ. Eph. 5. 27. Can. 4. 7. Mae y rhan fwyaf o awdwyr ar y llyfr hwn yn priodoli y darluniad o'r pedair mil a'r saith ugain mil yn brophwydoliaethol i'r Waldensiaid; ond y mae yn addas i bawb yn mhob oes sydd yn gwir ofni Duw, ac yn ei addoli yn ol ei air. Gwel Vitringa.

'Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi;' ni chaniatawyd iddynt lefaru, &c. 'oblegid anweddaidd yw i wragedd lefaru yn yr eglwys.' 1 Cor. 14. 34, 35 Edr. ANWEDDAIDD.

'Yn yr adgyfodiad nid ydynt nac yn gwreica nac yn gwra; eithr y maent fel angelion Duw yn y nef.' Mat. 22. 30. Ni bydd amlhau hâd yno, o'r ddaear y mae y nefoedd yn cael ei phoblogi, ac nid yn y nefoedd ei hun. Mae y drefn yma a'r drefn yno yn hollol wahanol. Derfydd hefyd y perthynasau yma, o ran eu hundeb a'u gilydd, fel y cyfryw; ond bydd pawb yn Nghrist yn aelodau o'u gilydd, fel yn perthyn i'r un corph ysbrydol.

GWRANDAW—WYR, (gwr-andaw) *Gr. ακροαμαι*: andaw, dyglywed, clustfeinio, ystyried, deall, ufuddhau. Edr. CLUST, CLYWED. Mae Duw yn gwrando gweddi. Edr. GWEDDI. Gwrando a arwydda mwy na gwaith y glust yn clywed yn unig; y mae yn waith y glust, ac yn waith rheswm; yn waith natur, ac yn waith gras hefyd. Arwydda credu yr hyn a glywir; cydsynied â'r peth; ac ufuddhau iddo. Ioan 9. 27. Gen. 3. 17. Esa. 55. 3.

'Gwrandewch, a bydd byw eich enaid.' Esa. 55. 3. Nid pob math o glywed, neu wrando, sydd yn bywhau enaid; ond y cyfryw wrando ag sydd yn dwyn credíniaeth ac ufudd-dod i'r hyn a wrandewir, ac yn effeithio yn rasol ac yn sanctaidd ar yr holl enaid. Y mae dammeg yr hauwr yn dangos yn amlwg iawn y gwrando anfuddiol a phechadurus, a'r gwrando buddiol a sanctaidd. ∴ Y gwrando anfuddiol a gyffelybir i dri math o dir yn derbyn hâd, ac etto heb ddwyn dim ffrwyth; sef min y ffordd, creigle, a thir dreiniog; a'r gwrando buddiol a gyffelybir i dir da yn derbyn yr hâd. Yn y cyntaf, nid yw y gair yn aros dim, nac yn cael dim effaith; y maent yn gwrando ac heb ddeall; ac y mae y drwg, sef Satan, yn dyfod yn ebrwydd, ac yn cipio yr hyn a hauwyd yn ei galon ef. Yn yr ail dir, y mae y gair yn cael ychydig effaith arwynebol, a thros amser; ond y mae heb ddyfnder daear, heb wreiddyn, ac heb wlybwr: hwn 'dros amser y mae, ac yn amser profedigaeth yn cilio.' Yn groes i'r ddau hyn y mae gwrando buddiol: y maent yn deall y gair, y mae ynddynt ddyfnder daear, y mae yn gwreiddio, ac y mae yn cael gwlybwr oddiwrth ddylanwadau parhaol yr Ysbryd Glân. Y trydydd math o wrandawyr, yw y rhai y mae gofal y byd hwn, a thwyll cyfoeth, hudoliaeth golud, a chwantau am bethau eraill, yn ei dagu—'hwy a dagwyd gan ofalon, a golud, a meluswedd buchedd, ac y mae yn myned yn ddiffrwyth.' Y pedwerydd math yw y rhai sydd yn ei wrando, yn ei ddeall, yn ei gadw, ac yn dwyn ffrwyth. Nid gwrando heb ddeall, na thros amser, ydyw hwn; nid y drain, ond y gair; yr hâd da sydd yn tyfu ac yn dwyn ffrwyth. Mae y galon yma, a'r gair ynddi yn gwreiddio, yn tyfu, yn llywodraethu, ac yn ffrwytho. Mat. xiii. Marc iv. Luc viii. Y mae gwrando gair Duw yn ddyledswydd ar bawb; ac y mae yn fraint fawr fod Duw wedi ymostwng i lefaru wrthym; ond gwrando diofal, anystyriol, anghofus, heb ymgais am ei ddeall, ei ddefnyddio, a gwneuthur yn gyfatebol, sydd wrando anmharchus a phechadurus iawn; fel pe na byddai yr hyn a lefarodd y Duw mawr yn deilwng o'n sylw. Dylem wrando yn ddyfal, Diar. 8. 34. Iago 1. 24, 25.—yn astud, Luc 10. 39. a 21. 38. Act. 10. 33.—yn barchus, Ps. 89. 7.—mewn ffydd, Heb. 4. 2.—gyda gofal am ei ddal, rhag un amser ei ollwng i golli. Heb. 2. 1.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn cynghori, nid yn unig pa fodd y gwrandawom, ond hefyd pa beth. Marc 4. 24. Gair yr Arglwydd, sef *yr holl air*, ac yn ddigymysg, yn unig sydd i wrando arno a'i gredu. Mae efengyl arall—philosophi a gwag dwyll—heresiau dinystriol—ymadrodd yn ysu fel cancr, etto yn y byd; pethau i'w gochelyd ydynt fel gwenwyn marwol. Trwy glywed *gair Duw*, yn unig, y mae ffydd yn cael

Digitized by Google

ei chenedlu; a *didwyll* laeth y gair yn *unig* sydd yn peri cynnydd. Rhuf. 10. 17. 1 Petr 2. 2. Edr. GAIR, GWNEUTHUR.

GWRDD, (wrdd) cryf, cadarn; pybyr, awchys, tanbaid, poethlyd.—'Gwrdd deirw Basan a'n hamgylchasant.' Ps. 22. 12. Priodolir y gair *Heb.* אבירים i *deirw*, Ps. 68. 30.—i *feirch*, ac a gyfieithir *cryfion*, Barn. 5. 22. Jer. 47. 3.—*cedyrn*, Jer. 8. 16. i arwyddo cryfder y creaduriaid hyn. Arwydda hefyd, *adenydd aderyn*, o herwydd bod ei gryfder yn ei adenydd. Deut. 32. 11. Edr. BASAN, TEIRW.

GWREGYS—U, (gwrag) gwasg-rwym. Yr oedd yr Iuddewon, a'r Cenedloedd dwyreiniol, yn gwisgo dillad llaesion rhydd am danynt; am hyny yr oedd yn rheidiol iddynt wrth wregysau i'w hamdynhau, i'w haddasu at waith, neu i rodio. Ioan 14. 4. Act. 21. 11. 1 Bren. 18. 46.

'A rydd wregysau at y marsiandwr.' *Heb.* לכנעני *Canaaneaid.* Diar. 31. 24. Yr oedd math o wregysau costus iawn, wedi eu gwneuthur yn gywrain, ac o ddefnyddiau gwerthfawr, ac yn cael eu prynu a'u gwerthu gan farsiandwyr.

'Gwregysais di â llïan main.' Ezec. 16. 10. Mewn amser o alar byddent yn lle y gwregysau gwerthfawr hyn yn ymwregysu â sach-lïan. Esa. 3. 24. a 22. 12. —Elias a Ioan Fedyddiwr a ymwregysent â gwregys croen am eu llwynau. 2 Bren. 1. 8. Mat. 3. 4.— Gweision â'u llwynau wedi eu hamgylch-wregysu yw gweision parod at eu gwaith, ac nid yn gysglyd, yn segur, ac yn afreolaidd. Luc 12. 35, 36. a 17. 10.

Yn eu gwregysau y byddent yn dwyn eu harian. 'Na feddwch aur, nac arian, nac efydd i'ch pyrsau.' *Gr. εις τας ζωνας υμων, yn eich gwregysau.* W. S. 'Casglu cyflog i gôd dyllog.' *Heb. gwregys tyllog.* Hag. 1. 6. Felly hefyd y byddai y Rhufeiniaid gynt. Horace, *Epist.* ii., *lib.* 2., *l.* 30. Ac felly gwna yr Arabiaid yn Barbari hyd heddyw. Shaw's *Travels.*

Yr oedd gwregys yr offeiriad i fod am yr ephod, o'r un defnydd a'r un gwaith a'r ephod; 'o aur, sidan glas, a phorphor, ysgarlad hefyd, a llïan main cyfrodedd.' Exod. 28. 8. Yn cyfateb i hyn ymddangosodd yr Arglwydd Iesu mewn gweledigaeth i Ioan, 'Wedi ymwisgo â gwisg laes hyd ei draed, ac wedi ymwregysu ynghylch ei fronau â gwregys aur.' Dat. 1. 13. Y saith angel a'r saith bla diweddaf ganddynt, oeddynt wedi eu gwregysu â gwregysau aur. Dat. 15. 6. Fel y mae gwregys am y lwynau yn arwyddo parodrwydd, a chryfder, a chadernid, yn y rhai mewn swyddau, at eu gwaith; felly y mae Crist, ac felly y gweddai i holl weision Duw fod. Y mae Crist, a'i wregys am dano, yn nghanol y saith ganwyllbren aur, yn arwydd o'i ffyddlondeb a'i gyfiawnder yn ei swydd. Esa. 11. 5. Dan. 10. 5. Gyd â'r parodrwydd a'r ffyddlondeb mwyaf y mae yn gweinyddu ynddi, ac ni ddyosg ei wregys nes y byddo ei waith wedi ei gwblhau yn berffaith ac yn ogoneddus. Y mae ffyddlondeb a chyfiawnder fel gwregys aur yn harddu y gwisgoedd eraill, yn ei brydferthu yn ogoneddus yn ei holl weinyddiad tu ag at ei bobl, a thu ag at ei elynion hefyd, fel plaid ei bobl. 'Efe a wisgodd ardderchogrwydd, gwisgodd yr Arglwydd nerth, ac ymwregysodd.' Ps. 93. 1. a 45. 3, 4. a 72. 12. Esa. 59. 17. Hos. 2. 20. Heb. 2. 17. 1 Ioan 1. 9. Dat. 3. 14.

'Wedi amgylch-wregysu eich lwynau â gwirionedd.' Eph. 6. 14. At y gwregys milwraidd y mae y cyfeiriad yma. Byddai y gwregysau yn gyffredin yn harddwych a gwerthfawr, ac yn cael eu rhoddi weithiau fel gwobr i filwyr. 2 Sam. 18. 11. Rhoddodd Jonathan ei wregys i Dafydd. 1 Sam. 18. 4.

'Efe sydd yn dattod rhwym breninoedd, ac yn rhwymo gwregys am eu llwynau hwynt.' Job 12. 18. Y mae breninoedd yn ei law; y mae yn eu diarfogi, ac yn eu hiselhau, fel y gwelo yn dda: yn dattod eu rhwym milwraidd, ac yn eu gwisgo â gwregys caethwas. Y mae yn eu harfogi ac yn eu diarfogi, yn eu cryfhau ac yn eu gwanhau, wrth ei ewyllys, ac i gwblhau ei amcanion. Mae dau ben y corph yn cyfarfod yn y lwynau; cryfhau y lwynau yw cryfhau y corph i gyd. Os bydd y lwynau yn weiniaid nis dichon y cliniau na'r breichiau fod yn gryfion. Yr hyn yw y lwynau i'r corph, hyny ydyw y meddwl i'r enaid; os bydd y meddwl yn wan, bydd y dyn yn mhob peth yn wan hefyd; rhaid cryfhau y meddwl i gryfhau y dyn. Achos gwendid meddwl dyn yw euogrwydd cydwybod, a llygredigaethau y galon; yn yr efengyl, yr hon yw gwirionedd Duw, y mae meddyginiaeth oddiwrth y pethau hyn yn cael ei ddadguddio; tystiolaeth y gair am danynt yn grediniol yn y meddwl, yn unig a'i cryfha. Gwirionedd Duw, fel gwregys, yn wirioneddol yn y meddwl a'i cryfha yn effeithiol yn erbyn pob peth o'i du ei hun a fyddo yn ei wanhau. Gwirionedd Duw am yr iechydwriaeth yn wirioneddol yn y meddwl trwy ffydd, yw yr unig beth a ddichon gryfhau y meddwl. Duw sydd, fel hyn, yn eu gwregysu â nerth i ryfel; ac yn eu gwregysu â llawenydd am y fuddugoliaeth, yn rhoddi nerth i'r diffygiol, ac yn amlhau cryfder i'r dirym. Ps. 18. 23, 39. a 30. 11.

GWREICHION—EN—I, (gwraich) tenyn, tânen, marwydos, ulw.—'Yn eich amgylchu eich hunain â gwreichion.' Esa. 50. 11. Cynneu tân, ac amgylchynu eu hunain â gwreichion, a rhodio wrth lewyrch eu tân, a arwydda dilyn eu dychymygion, eu cyfiawnder, eu doethineb, a'u nerth eu hunain am ddiogelwch a chysur, yn lle byw trwy ffydd ac ymddiried yn yr Arglwydd; eu siomi a gânt, ac mewn gofid y gorweddant yn y diwedd. Neu ynte, cynneu tân a arwydda, cyffroi erlidigaethau, fel darfu yr Iuddewon yn erbyn Crist a'i apostolion. yr hyn a ddiweddodd yn eu dinystr eu hunain. Gwel Vitringa, Lowth.

GWRENG, (gwr-eng) dyn cyffredin; un o'r werin. —'Yn gystal gwreng a boneddig.' Ps. 49. 2. 'Yn gystal gweryn a boneddigion.' Dr. M. *Heb.* בני אדם *meibion Adda.* בני איש *meibion gwr.* Y mae pawb yn gyfrifedig i Dduw, ac y mae ef yn ddigon mawr i alw pawb, ac nid yw efe yn edrych heibio y gwaelaf. Y mae ein cyfieithwyr ni, a'r Saesonaeg hefyd, wedi gwahaniaethu rhwng ystyr y geiriau בני אדם *Beni Adam,* a בני איש *Beni Aish,* fel pe arwyddai y cyntaf *isafiaid,* a'r diweddaf *uwchafiaid.* Amlwg yw yr arwydda בני אדם *Beni Adam,* 'mab y dyn,' urddasrwydd a mawrhydi, yn Ps. 80. 17. Gelwir Daniel, yr hwn oedd o deulu offeiriadol, בני אדם *mab y dyn.* Dan. 8. 17.—'Ar yr orsedd yr oedd כמראה אדם *megys gweledіad dyn.*' Ezec. 1. 26.—Yr angel a lefarodd wrth Daniel oedd כמראה אדם *fel dull* (neu, *gweledіad*) *dyn.* Dan. 10. 18. Yn y lleoedd hyn nid yw y gair yn arwyddo un gradd o isder. Yn y rhif lliosog y geiriau בני אדם a arferir am ddynion yn gyffredinol yn anwahanredol, yn Ps. 57. 4. a 58. 1. ac yn arwyddo yn hytrach *uwchafiaid* nag *isafiaid.* Yn Ps. 146. 3. y mae hyn yn ymddangos yn fwy cadarn. בנריבים בבן אדם *Na hyderwch ar fab y dyn.* Pan y cydunir hwynt, אדם a איש ydynt o'r un ystyr yn Esa. 13. 12. Felly אדם a אנוש yn Ps. 144. 3. אנוש a בן אדם ydynt o'r un ystyr yn Job 25. 6. Ps. 8. 5. Esa. 51. 12. a 56. 2. איש a בן אדם ydynt felly yn Num. 23. 19. Job 35. 8. Jer. 49. 18. a 51. 43. Etto yr un ystyr sydd i איש a בני אדם yn Esa. 52. 14. Jer. 32. 19. Mic. 5. 7. Eglur yw, oddiwrth y cynlluniau hyn, nad ydyw y geiriau o angenrheidrwydd yn dynodi graddau yn mhlith dynion; ond yn arwyddo plant dynion yn gyffredinol, wrth ba enw bynag y gelwir hwynt. Nid oes dim yn ansawdd y geiriau Hebraeg i arwyddo yn neillduol y gwahaniaeth yn y cyfieithiadau a grybwyllwyd uchod. Gellir cyfieithu y geiriau, gan hyny, fel y canlyn: 'Clywch

Digitized by Google

hyn, *chwi feibion Adda*, a *chwi blant dynion*, cyfoethog a thlawd ynghyd.'

Yn darlunio eilun-addoliaeth cyffredin y wlad, dywed Esaiah, 'A'r gwreng sydd yn ymgrymu,' sef i'r eilun, 'a'r boneddig yn ymostwng.' Pen. 2. 9. Bydd y farn mor gyffredin a'r pechod. 'A'r gwreng a grymir tani, a'r galluog a ddarostyngir. Pen. 5. 15.

GWRES—OG—I, (ês) twymyn, angerdd, brydaniaeth; brydio, poethi. Edr. ANGERDD, DIGTER, LLOSGI, LLID, TAN.—'Yn wresog yn yr ysbryd.' Act. 18. 25. Rhuf. 12. 11. Ezec. 3. 14. *Heb.* חמת רוח. *angerdd fy ysbryd.* Dat. 3. 15, 16. *Gr.* ζεστος, *brwd.* Gwresog, brwd, fel y priodolir hwynt i ysbryd Cristion, a arwydda ysbryd effro, bywiog, egnïol, ac ymdrechgar yn ngwaith yr Arglwydd; yn ei wasanaethu o'r galon, ac â'r holl galon yn egnïol. Apolos 'yn wresog *(Gr. yn berwi)* yn yr ysbryd a lefarodd ac a athrawiaethodd yn ddiwyd y pethau a berthynent i'r Arglwydd.'—'Ac a ymddiddanawdd yn vrwd yn yr Yspryt, ac a ddyscawdd yddwynt yn ddiyscaelus bethae yr Arglwydd.' W. S. Yr oedd poethder ei ysbryd yn ennyn wrth olwg ar ddysgleirdeb, gogoniant, dwysder, a gwerthfawrogrwydd pethau yr Arglwydd, neu y pethau am yr Arglwydd; yr oedd hyn yn peri diwydrwydd i addysgu eraill ynddynt. Yr oedd ei wresogrwydd yn oleu ac yn ddiwyd. Y mae bod yn wresog yn yr ysbryd yn groes i farweidd-dra, cysgadrwydd, difaterwch, diofalwch, a diegniad, yn ngwaith Duw. Effaith gweithrediadau tanllyd yr Ysbryd Glân, yr hwn a gymharir i dân, ar yr enaid, yw y gwres sanctaidd hwn. Y peth mwyaf addas a rhesymol yn y byd ydyw; a hollol anaddas ac afresymol yw bod yn oerllyd yn nghylch pethau o gymmaint pwys a gogoniant. Ps. 39. 3. Luc 24. 32.

GWRHYD, (gwr-hyd) hŷd gwr; chwe troedfedd. Gwrhyd Aberystwyth, pum troedfedd chwe modfedd. *Gr.* οργυια, hŷd y ddwy fraich yn estynedig, a lled y ddwyfron. Schleusner.

GWRID—O—OG—COCH, (gwrid) cochi, dygochi, cywilyddio, yswilio, gwladeiddio; dyndod, gwroldeb. Gwridcoch, harddwych, glandeg.—'Ni fedrent wrido.' Jer. 6. 15. Yr oeddynt yn galed, yn hyf, ac yn ddigywilydd yn pechu.

'Sydd wyn a gwridog.' Can. 5. 10. Hardd, ieuanc, iachus; 'tecach na meibion dynion.' Ps. 45. 2. Perffeithrwydd tegwch yw, yn ei berson, yn ei swydd gyfryngol, yn ei waith, ac yn ei holl berthynasau. 'Y mae efe oll yn hawddgar.' Can. 5. 16. Y mae cyfeiriad yn y geiriau, tebygol, at 1 Sam. 16. 12. 'Efe,' sef Dafydd, 'oedd wridcoch a thêg yr olwg, a hardd o wedd.' Felly Crist, yr hwn yr oedd Dafydd yn ei gysgodi, gwreiddyn a hiliogaeth Dafydd. Nid harddwch cnawdol a briodolir i Grist, ond harddwch dwyfol; harddwch sancteiddrwydd; harddwch graslonrwydd a thiriondeb; harddwch ei ddoniau a'i ffyddlondeb yn ngweinyddiad ei swyddau; harddwch ei gyflawnder, a gwerth ei aberth—yn y pethau hyn y mae 'yn rhagori ar ddeng mil.'

'Can ys pwy bynac a wrido o'm pleit i,' &c. Marc 8. 38. W. S.

GWRIOGAETH, (gwriawg) gwarchogaeth, ymostyniad. 'Ar y rhai hyny y cyfododd Solomon dreth wriogaeth.' 1 Bren. 9. 51. Arwydda y gair *Heb.* מס a gyfieithir *gwriogaeth*, bob amser cyllid o wyr, wedi eu neillduo oddiwrth eraill i wneyd rhyw gaeth waith. Cyfieithir ef yn aml *treth.* Deut. 20. 11. Jos. 16. 10. Barn. 1. 30. 1 Bren. 5. 13, 14. 2 Cron. 8. 8. Esa. 31. 8.

GWRTEITHIO, (gwr-taeth) teilo, amaethu, diwyllio tir, llafurio, trin.—'Ti a'i gwrteithiaist wedi ei blino.' Ps. 68. 9. Y geiriau a gyfeiriant at ddaioni yr Arglwydd tu ag at ei bobl yn yr anialwch, yn gwlawio manna iddynt wrth eu hangen, ac fel hyn yn eu diangenu, eu cryfhau, a'u cysuro, yn nghanol eu holl lafur a'u blinder ar eu taith yn yr anialwch. Ond fel mae y Psalm yn llefaru yn brophwydoliaethol am esgyniad Crist i'r nef, diammeu fod y geiriau yn rhagfynegiad o dywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, a'r adfywiad rhyfedd wedi hyny ar yr eglwys. Yr oedd wedi ei blino, ac yn isel iawn cyn hyny: ond wedi dyhidlo y gwlaw graslawn, neu נדב *gwirfoddol*, *helaeth*, adfywiodd, cryfhaodd, a chynnyddodd yn ddirfawr. Mae gofal neillduol Duw am ei eglwys wedi cael ei amlygu yn mhob oes; ac y mae ganddo ddigon o fodd i'w chynnal a'i hymgeleddu pan byddo iselaf arni.

GWRTHBAN, (gwrth-ban) rycan, torset, teisban. Edr. CWRLID. 2 Bren. 8. 15. Barn. 4. 18.

GWRTH-DDYWEDYD, (gwrth-dywedyd) gwrthebru, dywedyd yn erbyn.—'Nid yn gwrth-ddywedyd.' Tit. 2. 9. Y-mae hyn yn anaddas i'r parch a'r ufudddod dyledus oddiwrth weinidogion i'w meistriaid.

GWRTHDRO—FEYDD, (gwrth-dro) gwrthgilio, encilio; troad yn ol, tynu yn ol. Jer. 2. 19. a 5. 6.

GWRTHEB, (gwrth-eb) croes-ateb, gwrthddadl. —'Ac ny allesant wrthep iddo am y pethau hynn.' Luc 14. 6. W. S.

GWRTHGLAWDD, amglawdd, amgloddiad, amgaer; amddiffynfa. Deut. 20. 19, 20. Esa. 29. 3.

GWRTHGYRCH, (gwrth-cyrch) cyrchiad gwrthwynebol, gelynol. 'Gwrthgyrch plaid,' plaid elynol. Ps. 3. 2. E. Prys.

GWRTHNYSIG—RWYDD, (gwrth-naws) cyndyn, anhydyn, afrywiog, ystyfnig, anhydrin, anhywedd, anystwyth, cildyn. 1 Sam. 20. 30. Diar. 14. 14. Jer. 3. 6, 22. Deut. 31. 27. Esa. 19. 14. Edr. ANHYDYN, CILDYN, CYNDYN.

GWRTHOD, (gwrth) llysu, rhoi heibio, bwrw ymaith. Yr ydys yn gwrthod peth o herwydd ei anfuddioldeb, ei anaddasrwydd; neu oblegid nad yw y meddwl yn ei gymeradwyo, ac yn synied yn dda am dano. Dichon y bai fod yn agwedd a syniad y meddwl, ac nid yn y gwrthddrych. Pan y byddo dynion yn gwrthod Duw, ei addoliad, a'i ddeddfau, yn y meddwl tywyll, annuwiol, y mae y bai. Y mae Duw yn hollol addas a buddiol, ac yn deilwng o bob derbyniad; ond y mae dynion o syniad cnawdol, tywyll, ac annuwiol, yn ei wrthod; a thrwy hyny yn gwrthod eu dedwyddwch eu hunain. Exod. 16. 28. 1 Sam. 10. 19. 2 Cron. 24. 20, 24. Jer. 2. 17. a 5. 19. Ezec. 5. 6.

'Gwrthodwyd Crist gan ddynion.' 1 Petr 2. 4. Yr oedd ei angen arnynt; yr oedd yn hollol addas iddynt; yr oedd tystiolaethau hollol ddigonol am dano, pwy oedd; nid oedd neb a allasai eu hachub ond efe; etto, er hyn i gyd, *gwrthodwyd* ef gan ddynion, sef gan yr Iuddewon yn nyddiau ei gnawdoliaeth, ac wedi ei esgyniad i'r nefoedd. Marc 8. 31. Luc 17. 25. Act. 13. 46. Y mae yn cael ei wrthod etto gan bawb sydd, er clywed am dano, heb wir gredu ynddo, ac ufuddhau iddo. Heb. 12. 25. Gwrthod Gwaredwr, Iachawdwr, y cariad, y tiriondeb, a'r dedwyddwch mwyaf! Dyma ynfydrwydd na fedd un iaith enw digon hyll ac atgas i roddi arno.

'Ni wrthododd Duw ei bobl, yr hwn a adnabu efe o'r blaen.' Rhuf. 11. 2. Mae y geiriau, 'ni wrthododd,' yn arwyddo fod ei feddwl yr un tu ag atynt, a bod ei holl orchwyliaethau mewn amser yn cyfateb i'w arfaeth mewn perthynas iddynt er tragywyddoldeb. 'Y rhai a ragwybu, a ragluniodd efe

Digitized by Google

hefyd i fod yn un ffurf a delw ei Fab.' Nid yw Duw wedi newid ei feddwl yn ei arfaeth, ond ei gwblhau y mae, trwy alw, cyfiawnhau, a gogoneddu, y rhai a ragwybu ac a ragluniodd efe. Rhuf. 8. 29. Er iddo eu cystuddio, a chuddio ei wyneb oddi wrthynt, etto nid yn dragywydd y gwrthyd yr Arglwydd hwynt; ond efe a dosturia yn ol amlder ei drugareddau. Galar. 3. 31.

GWRTHOL, (gwrth-ol) o'r tu ol, o'r tu cefn, yn wysg ei gefn, yn ei wrthgefn. Ps. 56. 9.

GWRTHRYFEL—A—GAR—WYR, (gwrth-rhyfel) gwrthlüydd, gwrthrin, afreolaeth; codi yn erbyn y llywodraeth a fyddom dani. Num. xvi. 2 Sam. xv. Gen. 14. 4.—Y mae dynion yn gwrthryfela yn erbyn yr Arglwydd trwy ddiystyru ei awdurdod, a gwneuthur yr hyn y mae yn ei warafun. Ps. 5. 10. a 107. 11. Dan. 9. 5. Deut. 32. 51. Esa. 63. 10.—Yr wyf yn gweled 'deddf arall yn fy aelodau, yn gwrthryfela yn erbyn deddf fy meddwl.' Rhuf. 7. 23. Edr. DEDDF, TAD, YMDDAROSTWNG.

GWRTHSEFYLL, (gwrth-saf) gorsafu, gwrthwynebu.—'Fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg; ac wedi gorphen pob peth, sefyll.' Eph. 6. 13. Yn y dydd drwg y mae y pethau, sef cynllwynion y diafol, bydol lywiawdwyr, drygau ysbrydol, i'w gwrthsefyll; ond gellir eu gwrthsefyll oll, ond cael yr holl arfogaeth am danom. Ynfydrwydd yw rhoddi heibio gwrthsefyll, nes gorphenir pob peth; sef hyd nes byddo y gelyn diweddaf wedi ei orchfygu. Wedi gorphen pob peth, nid gwrthsefyll fydd y pryd hwnw, ond sefyll yn fuddugoliaethus, yn orfoleddus, ac yn ogoneddus, heb un gelyn i'w wrthsefyll am byth. Y rhai sydd yn gwrthsefyll yn y dydd drwg, a gânt sefyll yn eu rhan yn nydd Crist. Yn y dydd drwg y mae gwrthwynebwyr lawer (*αντικειμενοι πολλοι*) am hyny rhaid (*αντιστηναι*) *gwrthsefyll*, neu golli y dydd dros byth. Nid oes amser i roddi arfau i lawr tra byddom yn mhlith gwrthwynebwyr lawer; ond (*αντικατεστητε*) *gwrthwynebu* a *gwrthsefyll* hyd at waed, sef hyd at golli bywyd. Os yw Duw (*υπερ*) trosom, pwy all fod (*καθ'*) yn ein herbyn? pa ddyn, pa gythraul, pa dywysogaethau ac awdurdodau a ddichon lwyddo yn ein herbyn? Rhuf. 8. 31.

GWRTHUN—I, (gwrth-un) dybryd, anffurfiol, anwymp; anaddfwynder, anhardddwch, hagrwch. Deut. 17. 1. 2 Sam. 14. 25. Dan. 1. 4.

GWRTHWYNEB—U—WR—WYR, (gwrthwyneb) yn erbyn; gwrthsefyll; chwyd-duedd; alariad; cyfogiad. Y mae dynion yn rhodio yn wrthwyneb i'r Arglwydd trwy ei wrthod ef a'i ordinhadau, ac anufudd-dod i'w air: y mae yntau yn rhodio yn ngwrthwyneb iddynt hwy yn ei farnedigaethau cospedigaethol am eu pechodau. Lef. 26. 24, 25.

'A'r rhai hyn (sef y cnawd a'r ysbryd) a wrthwynebant eu gilydd.' Gal. 5. 17.—'A'r ei hyn a gyverbyniant y gylydd.' W. S. Y gair *αντικειται*, a arwydda ymosod yn erbyn eu gilydd, fel y gwna dwy fyddin o elynion, neu ddwy wersyllfa yn agos gyferbyn â'u gilydd yn barod at ymladdfëydd beunyddiol. Mintert. Felly mae y cnawd a'r ysbryd, deddf yn yr aelodau, a deddf y meddwl, mewn credadyn: y rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd yn mhob peth, ac yn anghymmodol. Y maent yn wersylloedd gwrthwynebol, ac agos iawn; sef yn yr un meddwl, yn yr un galon, yn yr un ewyllys, deall, a serchiadau: y mae y naill yn gweithredu yn wrthwynebol i'r llall yn mhob dim, a chyd â'i holl gryfder. Dwy anian ydynt, croes yn eu tarddiad, eu hansawdd, eu natur, a'u heffeithiau: ond y mae y cnawd i'w groeshoelio, ei farweiddio, a'i ddyosg; a'r ysbryd i'w fywhau a'i adnewyddu o ddydd i ddydd. Mat. 26. 41. Rhuf. 7. 15, 18. a 8. 6, 7, 13. Can. 5. 2. Col. 1. 21. Edr. DEDDF.

'Oblegid y mae eich gwrthwynebwr diafol megys llew,' &c. 1 Petr 5. 8. Y mae y cnawd yn wrthwynebwr oddifewn yn y tŷ, ac y mae y diafol yn wrthwynebwr oddi allan i'r credadyn, yr hwn y gorchymynir iddo ei wrthwynebu (*αντιστητε*) yn gadarn yn y ffydd. Adn. 9. Iago 4. 7. Y gair *αντιδικος*, a gyfieithir yma *gwrthwynebwr*, a arwydda *gwrthwynebwr mewn llys*, *cyhuddwr*, neu *dyst yn erbyn un*. Gelwir y diafol, 'Cyhuddwr y brodyr.' Dat. 12. 10. Cymh. Job 1. 9. a 2. 5. Zech. 3. 1. Edr. CYHUDDO, SATAN. Y mae y gwrthwynebwr hwn yn cael ei gyffelybu i lew, o ran ei gryfder, ei greulonder, a'i ddiwydrwydd. Y mae yn ddibaid yn myned oddi amgylch yn greulon, ac yn ei holl nerth; rhaid ei wrthwynebu a'i orchfygu; nid oes byth heddychu âg ef heb gael ein llyncu ganddo. Nid oes orphwysfa iddo, na heddwch ganddo. *Ου διδωσιν αναπαυσιν, ουδε νικων, ουδε νικωμενος*. Plaut. *in Vita*. Marcel. Ond o'i wrthwynebu yn gadarn yn y ffydd, fe ffy. Trwy offerynau, yn gyffredinol, y mae y gwrthwynebwr hwn yn gweithredu. Y mae y byd a'r cnawd tano, ac yntau, fel penllüyddwr, yn eu llywodraethu, ac yn gweithredu ynddynt a thrwyddynt. Weithiau yn bwgwth, weithiau eraill yn hudo a maglu. Weithiau y maent yn llewod, bryddiau eraill yn seirph tano. Y mae pechaduriaid annuwiol yn addas offerynau i'w ddybenion, gan fod yr un anian ynddynt hwy ac yntau; ei *hâd* ydynt. Ond, medd yr Arglwydd Iesu wrth ei ddysgyblion, 'Myfi a roddaf i chwi enau a doethineb, yr hon nis gall eich holl wrthwynebwyr na dywedyd yn ei herbyn, na'i gwrthsefyll.' Luc 21. 15.

GWRTHWYNEB-WRAIG, (gwrthwyneb-wraig) gwraig wrthwynebol, elyniaethol, fel yr oedd Peninnah i Hannah. 1 Sam. 1. 6.

GWRYCH—OEDD, (rhych) cae, bid, gwiddi, perth: rhawnyn.—Codi gwrych, ymhyllu, gerwino. —'Alaethŵch, a gwibiwch gan y gwrychoedd.' Jer. 49. 3. 'O amgylch y muroedd.' Dr. M.—'O fewn y gwrychoedd.' Dr. Blayney. Wrth גדרות y mae i ni ddeall y gwrychoedd, neu yr amddiffynfäoedd oddi amgylch y pentrefydd, neu ddinasoedd bychain, er eu diffyniad rhag lladron, &c., y rhai na anrhydeddent â'r enw mur, neu furiau, addas i gadw gelynion allan, a ymosodai arnynt yn rheolaidd, yn ol trefn rhyfel. Gwahaniaetha y Psalmydd y rhai hyn oddiwrth amddiffynfäoedd dinasoedd: 'Drylliaist eu holl (גדרתיו) *gaerau* ef, gwnaethost ei (מבצריו) *amddiffynfäoedd* yn adwyau.' Ps. 89. 40. Trigolion y pentrefydd, 'merched Rabbath,' a wibient fel dynion yn wallgof gan ofn, o fewn y gwrychoedd hyn, heb feiddio dyfod allan, rhag ofn y gelyn yr hwn yr oeddynt yn ei ddysgwyl.

GWRYF—AU—OEDD, (rhyf) tynlefnyn, gwasgar. Gwryfau cwch, gwryf basged; gwryf caws, neu gwasg caws.—'Ni sathr sathrydd gwin yn y gwryfoedd.' Esa. 16. 10. Am Moab y llefara y prophwyd, ac y mae yn cwynfan iddi, ac yn galaru trosti am ei hanrheithiad trwm, fel yr oedd yr holl wlad a'i chynnyrch wedi eu dyfetha: ni byddai casglu grawnwin, na sathru gwin yn y gwryfoedd. Gwnawd y difrod hwn ar y wlad gan Salmanezer (yn ol barn Vitringa) pan y daeth i fynu yn erbyn Samaria. 2 Bren. 18. 9, 10. Vitringa *in loc.*

GWRYM, (rhym) nerth, cadernid; gwni, cysylltiad, cydiad; gwrym, ymyl dilledyn; godre. Exod. 39. 23.

GWTH—IO, (wth) *Gr.* *ωθεω*; cilgwth, ysgwd; hwrddio, dirio.—'Ac yr oeddynt ill dau mewn gwth o oedran.' Luc 1. 7. 'Mewn swrn da o oedran.' W. S. Exod. 11. 1. Num. 35. 20. Deut. 13. 5. Job 30. 12. Ps. 118. 13.

Digitized by Google

GWYBOD—AETH, GWYBEDYDD, (gwyb) deall, dirnad, adnabod; dealltwriaeth, adnabyddiaeth: un yn deall. Edr. DEALL, DOETH, ADNABOD. Y mae gwybod, a gwybodaeth, yn briodol i'r Arglwydd, yn hanfodol, ac yn anfeidrol, ac yn y modd mwyaf perffaith. Nis gall fod heb wybod mwy na bod heb allu, heb fywyd, heb sancteiddrwydd. Y mae gwybodaeth Duw yn gydradd â'i hanfod, ac â'r priodoliaethau eraill yn yr hanfod, sef yn anfeidrol, ac yn anfesuredig. Darlunir cantau yr olwynion yn ngweledigaeth Ezeciel (pen. 1. 18.) 'yn llawn llygaid oddi amgylch;' felly mae Duw yn llygaid i gyd, yn glustiau i gyd, ac yn ddeall i gyd. 'Duw gwybodaeth yw yr Arglwydd.' 1 Sam. 2. 3. Y mae Duw yn Hollwybodol; yn gwybod pob peth sydd mewn bod, a fydd, neu a allai fod, â gwybodaeth berffaith, fanwl, neillduol. Y mae yn adnabod ei *hun*, ei hanfod ei hun, *ynddo* ei hun, a *thrwyddo* ei hun, yn y modd mwyaf cyflawn a pherffaith. 1 Cor. 2. 10. Ps. 147. 5. Yr ydym ni yn adnabod Duw yn ei greaduriaid, trwy ei weithredoedd, neu ddadguddiad; ond mae Duw yn adnabod ei hun *ynddo* ei hun, a *thrwyddo* ei hun; a hyny yn berffaith, yn un weithred dragywyddol y deall dwyfol, heb ddim ychwanegiad ati. 'Nid llygaid o gnawd sydd iddo ef; ac nid fel y gwel dyn y gweli di.'* Job 10. 4. Mae y wybodaeth hon yn perthynu i'r Personau dwyfol yn gydradd, ac y mae y naill yn adnabod y llall â gwybodaeth berffaith gyflawn. 'Nid edwyn neb y Mab ond y Tad: ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab,' sef yn gyflawn ac yn hanfodol, ac nid trwy ddadguddiad, gweithrediadau, nac effeithiau. Mat. 11. 27.

Rhoddir amryw enwau ar wybodaeth Duw yn yr ysgrythyrau, yn ol amrywiol berthynasau y gwrthddrychau. Am bethau presennol, *gwybodaeth* neu *edrychiad* yw; am bethau aethant heibio, *coffadwriaeth* yw; am bethau i ddyfod, *rhagwybodaeth* yw; mewn perthynas i drefniad dull o weithredu, *doethineb* a *deall* yw. Rhaid i un fod yn wybodus cyn y gallo fod yn ddoeth; gwreiddyn doethineb yw gwybodaeth, a blodeuyn gwybodaeth yw doethineb. Am fod ei wybodaeth yn cyrhaedd at wrthddrychau yn gyffredinol, sef pob gwrthddrych, y mae yn hollwybodol. Y mae yn adnabod pob gwrthddrych, pob gwrthddrych yn gyflawn, ar un olwg, yn wahaniaethol heb gymysgedd. Nid ydyw amlder gwrthddrychau na phellder amser, na lle, yn gwneuthur dim gwahaniaeth. Y mae pob peth gyd âg ef yn bresennol, ar unwaith, bob amser, sydd gyda ni yn cael eu cyflawni mewn amser.† Dan. 2. 21, 22. 1 Cor. 3. 19, 20. Esa. 44. 7. Rhuf. 11. 33. Heb. 4. 13. Ps. 47. 4. a 56. 8. a 94. 9, 10, 11. a cxlvii. Mat. 10. 30.

1. Y mae yn adnabod yr holl greaduriaid, pob creadur yn neillduol, ac yn eu holl amrywiol naturiaethau, megys angelion, dynion, anifeiliaid, planigion, &c., yr un fath a phe na bai ond un creadur yn bod. 'Gwelodd Duw *bob peth* a wnaethai.' Gen. 1. 31. Mat. vi.——2. Y mae yn adnabod holl amgylchiadau a gweithredoedd ei greaduriaid, pa le, a pha fodd y maent; a pha beth, a pha fodd, ac i ba ddyben y maent yn gweithredu. Y mae calonau, arenau, meddyliau, geiriau, gweithredoedd, a dybenion holl blant dynion yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef. Heb. 4. 13. Ps. 50. 11. a 90. 8. a 94. 11. a 139. 4. a 119. 168. a 147. 4. Job 34. 21. Diar. 15. 11. 2 Bren. 6. 12. Rhuf. 8. 27. Dat. 2. 23.——3. Y mae ei wybodaeth o bob peth yn gyflawn, yn sicr, ac yn wirioneddol, heb bosiblrwydd o gamsynied.——4. Y mae yn gwybod pob peth o hono ei hun, ac nid y naill wrthddrych trwy wrthddrych arall, na thrwy ddywediad, na trwy ddadguddiad, na thrwy ymresymiad.——5. Er bod creaduriaid yn myned ac yn dyfod o ran eu dull o hanfodi, ond nid ydynt yn ei wybodaeth ef o honynt; y mae ei wybodaeth ef yn presennoli pob peth iddo ar unwaith; nid oes myned a dyfod, na chynnyddu na lleihau, yn ei wybodaeth, mwy nag yn ei hanfod. 'Y mae yn mynegi y diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed etto.' Esa. 46. 10. Mae yr holl brophwydoliaethau yn amlygu hyn.——6. Y mae holl amrywiaethau a chyfnewidiadau pethau cyfnewidiol, yn *anghyfnewidiol* adnabyddus iddo ef, ar unwaith dros byth. 'Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed.' Act. 15. 18. Yn myfyrio ar y pethau hyn gwaeddai Dafydd, 'Dyma wybodaeth rhy ryfedd i mi; uchel yw, ni fedraf oddi wrthi.' Ps. 139. 6. Uchel yw, ac addas yn unig i'r Duw mawr. Nis medrwn ei pharchu mewn modd addas am na fedrwn ei hamgyffred—rhy ryfedd i mi—y mae fy meddwl yn soddi gan fawredd rhyfeddol y gwrthddrych.

Yn mhlith dynion y mae gwybodaeth o amryw fath, megys, 1. Naturiol, sef gwybodaeth o Dduw a'i berffeithiau, a geir, neu a ellir gael, trwy ystyried y pethau a welir, crëedig, a'u naturiaethau. Rhuf. 1. 21, 28. Judas 10.——2. Gwybodaeth gelfyddydol, i addasu dynion at ryw waith neu gelfyddyd. Oddiwrth Dduw y mae pob gwybodaeth o'r fath hon yn dyfod. Exod. 35. 31.——3. Gwybodaeth goruwch-naturiol i ddehongli breuddwydion, &c. Dan. 5. 12.——4. Gwybodaeth hanesiol, a dysgeidiaeth ddynol, yn nghylch ieithoedd, hanesiaeth wladol, cenedlaethau a theyrnasoedd y byd, dull a threfn gosodiadau a llywodraethau y byd. Act. 7. 22.——5. Gwybodaeth o ddeddfau Duw, a llythyren y gair. Ezra 7. 12, 25. Rhuf. 2. 18.——6. Gwybodaeth ysbrydol, efengylaidd, a iachusol. 2 Cor. 2. 14. Rhuf. 15. 14. 1 Cor. 1. 5. 1 Ioan 2. 20. Edr. DADGUDDIO, ENW, GORCHUDD, DECHREUAD.

'Fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth.' Esa. 53. 11. Efe yw gwrthddrych y wybodaeth hon sydd yn cyfiawnhau. Cawn y cyffelyb eiriau yn Rhuf. 3. 26. 'Fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu;' hyny yw, y ffydd sydd â Iesu yn wrthddrych iddi. Y gwrthddrych, sef y gwas cyfiawn, ac nid y wybodaeth, yw defnydd y cyfiawnhad; ond yn y wybodaeth hòno, a ffydd ynddo, y mae y pechadur yn cael ei gyfiawnhau. Nid oes neb heb ei gywir adnabod â chrediniaeth ynddo, yn cael ei gyfiawnhau trwyddo. Y mae hon yn wybodaeth oruchel o Grist Iesu, o'i osodiad dwyfol, ei addasrwydd, ei gyfiawnder, a'i werthfawrogrwydd, ag sydd yn effeithio ymorphwysiad cyflawn arno, cariad goruchel ato, ymlyniad wrtho, ac ufudd-dod iddo. Vitringa *in loc.*

Tywyllwch a gau-grefydd sydd gan mwyaf wedi toi y ddaear hyd yma; a mawr yw tywyllwch hyd yn nod y rhai sydd â moddion gwybodaeth ganddynt; a llawer yn cael eu dyfetha o eisiau gwybodaeth, trwy eu hesgeulusdra a'u diystyrwch o wybodaeth; hefyd, o ran, *yma*, y gŵyr y goreu. Ond y mae addewidion gwerthfawr am gynnydd gwybodaeth yr Arglwydd ar y ddaear cyn diwedd amser. 'Y ddaear a fydd llawn o wybodaeth yr Arglwydd.' Esa. 11. 9. Hab. 2. 14. Prysured yr amser hyfryd!

GWYCH—ION—U, (gwy) *Heb.* גבה *Gwydd.* GLAN, GLUAIR; peffr, percus, tlws, dillyn, hoyw, pinc, trwsiadus; dewr, glew.—'Bellach frodyr, byddwch wych.'—'Ewch yn iach.' W. S. 2 Cor. 13. 11.——'Dillad gwychion,' sef dillad dysglaer, claerwyn-

* Cognoscit se perfecte, et summe perfecte, ita quod nihil perfectius possit cognoscere, vel cognosci. Cognoscit ergo se secundum suam essentiam, et secundum omnes suas conditiones, relationes, et circumstantias universas.—Non est rei quam Deus non cognoscit proprie et distincte; hoc enim cognitio perfectior est confusa. Bradwardin, *l.* i, *c.* 1, *sec.* 9.

† Simul et Semel uno actu et uno ictu.



Digitized by Google

ion. Iago 2. 2.——'Helaethwych,' helaethrwydd o'r goreuon. Luc 16. 19.

GWYCHR, (gwych) dewr, gwrol, hyf.—'Y mae ef yn y hannoc hwy y vynd rhaeddyn yn wychr.' Argument yr epistol cyntaf i Petr. W. S.

GWYDD, (gw-ydd) presennoldeb, cynwedd, cynnrychioldeb. Yn ngŵydd, ger bron.—'Allan o ŵydd yr Arglwydd,' sef oddi ger bron ei wyneb, neu ryw arwydd gweledig o'r presennoldeb dwyfol. Gen. 4. 16. Ps. 139. 7. Luc 13. 26.

GWYDD, (gw-ydd) coed; prysgoed; peiriant, neu ermig gwëydd; aderyn o'r enw. Gen. 21. 15. Mat. 21. 8. Marc 11. 8.

GWYDR—AU, (gwyd) *Llad.* Vitrum; *Gwydd.* Glaine. Edr. Drych. Corph caled, dysglaer, brau, celfydd-weithiedig o halen a thywod neu geryg, trwy wres tân: nid halen cyffredin, ond halen a geir o ludw rhyw lysiau, megys rhedyn, &c., ceryg fflint, neu gallestr, a arferir yn gyffredin. Mae y gwybedyddion naturiaeth o'r farn nad oes un corph na ellir ei wydroli; hyd yn nod aur a wydrolir gan belydr yr haul trwy losg-wydr: ac ni ellir trwy y gradd mwyaf o wres tân weithredu ar un corph yn mhellach na'i wydroli. Yr oedd y gelfyddyd o wneuthuriad gwydr yn adnabyddus yn foreu i'r hynafiaid. Sidon yn Syria, ydyw y lle cyntaf o hynodrwydd am wneuthur gwydr, ac am wydr-dai. Nid oes hanes am ffenestri gwydr cyn oddeutu diwedd y drydedd ganrif. Celfyddwyr gwydr a ddygwyd i'r ynys hon gyntaf oddeutu a.d. 674, gan yr Abad Benedict, i wydro eglwys a monach-dŷ Wearmouth; neu, gan Wilfrid, Esgob Caerwrangon (*Worcester*). Ni arferwyd ffenestri gwydr mewn tai yn gyffredin cyn a.d. 1180. Yn yr Ital yr arferwyd hwy gyntaf; oddi yno i Ffrainc; ac oddi yno i Loegr. Am lawer o flynyddoedd yr oedd Venice yn rhagori ar holl Ewrop yn ei gwydrau; ac yn hir nid oedd neb ond hwy â'r gelfyddyd ganddynt o wneuthur drychau. Eu gwydr-weithiau mawrion oeddynt yn Muran, neu Murano, pentref bach yn agos i'r ddinas hòno. Yn y flwyddyn 1557 y dechreuwyd gwneuthur gwydr yn Lloegr, yn Llundain. Y drychau cyntaf yn Lloegr a wnawd yn a.d. 1673, yn Lambeth. Yn bresennol y mae y Ffrancod a'r Saeson yn rhagori ar y Venetiaid yn y gelfyddyd hòno. Gwel *Encyclopædia.*

'O flaen yr orsedd-fainc yr ydoedd môr o wydr, yn debyg i grystal.' Dat. 4. 6. Y mae y darlleniad yn llawer o argraffiadau Groeg ὡς θαλασσα, neu *megys môr o wydr*, fel yn pen. 15. 2. Gwel Mintert a Vitringa. Beth bynag am y darlleniad, hyny yn ddiammeu ydyw ystyr y geiriau. Yr oedd o flaen yr orsedd-fainc balmant, neu wastad-lawr, yn debyg i fôr o wydr, gloyw-ddysglaer, ar ba un yr oedd gorsedd-fainc Duw a'r Oen, gorsedd-feinciau y pedwar henuriad ar hugain, a'r pedwar anifel, a thyrfa yr etholedigion, yn sefyll. Dat. 15. 2. Mae y geiriau yn cyfeirio, wrth bob tebygolrwydd, at ddau le yn yr Hen Destament. Ezeciel, yn darlunio gorseddfainc Duw, sydd â'r geiriau nodedig canlynol ganddo: 'Ac yr oedd ar benau y pethau byw ddull y ffurfafen, fel lliw grisial ofnadwy, wedi ei hestyn dros eu penau hwy oddi arnodd.' Pen. 1. 22. Y mae y pethau byw i'w gweled yn cynnal gwaelod, neu wastad-lawr yr orsedd, yr hwn ydoedd i edrych arno fel lliw grisial ofnadwy; yma megys môr o wydr tebyg i risial. Y mae y darluniadau hyn yn cyfateb i'r olwg a welodd Moses, a henuriaid Israel, ar orsedd-fainc Duw. Exod. 24. 10. 'A gwelsant Dduw Israel, a than ei draed megys gwaith o faen saphir, ac fel corph y nefoedd o ddysgleirdeb.' Y mae lliw awyr las, a môr o wydr, yn tebygu i'w gilydd; felly y saphir a'r grisial hefyd. Gan hyny, y mae cyfeiriad y geiriau yn dra amlwg. Ond beth maent yn ei arwyddocâu? Wrth yr orsedd y mae i ni ddeall y deyrnas, y llywodraeth; sef teyrnas Dduw wedi ei sylfaenu yn Nghrist y Cyfryngwr. Cynghor, ewyllys, ac arfaeth Duw yn Nghrist, yw gosail yr orsedd gyfryngol a'r deyrnas, yn mha un y mae yr holl briodoliaethau dwyfol yn cyd-ddysgleirio, ac i'w gweled fel mewn gwydr gloyw. 'Cyfiawnder a barn yw trigfa (neu *Heb.* מכון *sicrhad*) ei orsedd-fainc.' Ps. 80. 14. a 97. 2. Y mae gorseddfainc y gras wedi ei sylfaenu mewn cyfiawnder; cyfiawnder Crist yw ei sylfaen. Ni fynai Duw gyfrannu gras heb yr amlygrwydd mwyaf dysglaer ger bron dynion o'i gyfiawnder. Gwelir, gan hyny, ewyllys, cynghor, ac arfaeth Duw yn sefydlog, ac yn ddigyfnewid, fel môr wedi ei galedu yn wydr; a chyfiawnder, gwirionedd, a heddwch, wedi cyd-gyfarfod, ac yn cyd-ddysgleirio. Dyma fôr fel gwydr gloyw, i'w ddangos ger bron pawb, a thros byth. Gwydr gloyw yw y drefn fawr yn Nghrist, yn dangos yn y modd dysgleiriaf ogoniant y Duwdod yn nghadwedigaeth ei bobl; y mae efe yn eistedd ar ei orsedd arno, a hwythau i gyd yn sefyll arno, â thelynau Duw ganddynt. Dat. 15. 2. Hwy yw y rhai sydd yn cael y maes ar y bwystfil; a hwy yn unig ydyw y rhai sydd yn addoli ac yn moliannu Duw a'r Oen. Y mae arfaeth gadarn Duw, ac arfaeth ddysglaer Duw, yn dangos ei ogoniant, ac yn eu llenwi â syndod a gorfoledd. Mae yr arwydd-lun yn odidog, a'r darluniad yn ardderchog. Nid oedd yr eglwys dan yr Hen Destament yn ymddangos yn sefyll ar yr un llawr a'r orsedd: rhoddwyd iddynt ddadguddiad gweledigaethol ofnadwy o honi. Ond dan y Testament Newydd rhoddwyd goleuni mwy, a dygwyd yr eglwys i agosach cymdeithas, ac yn nes at yr orsedd. Yr un ydyw arfaeth a threfn Duw dan bob goruchwyliaeth, a'r un yw sylfaen yr eglwys; ond y mae ei goleuni yn fwy; a'i phrofiad, yn ganlynol, gwedi ychwanegu. Y mae cynghor ac arfaeth Duw yn fwy dysglaer yn ei golwg, a hithau yn sefyll ac yn ymgynnal arnynt yn fwy sefydlog, buddugoliaethus, a gorfoleddus.

'A'r ddinas oedd aur pur, yn debyg i wydr gloyw.' Dat. 21. 18. Y ddinas ydyw yr eglwys; yr adeiladau ynddi ydyw y credinwyr, wedi eu galw a'u sancteiddio; y rhai ydynt yn werthfawr, yn sylweddol, ac yn ddysglaer ragorol, fel aur a gwydr gloyw.

GWYDDOR—ION, (gwydd) cynreol; egwyddorion cyntaf gwybodaeth.—'Gwyddorion dechreuad ymadroddion Duw.' Heb. 5. 12. Y pethau cyntaf i'w dysgu a'u gwybod o'r athrawiaeth Gristionogol; neu, yn hytrach sefydliadau y gyfraith yn yr Hen Destament; ysgrifeniadau yr Hen Destament oeddynt ddechreuad ymadroddion Duw. Dyben yr holl osodiadau y rhoddir hanes am danynt yn yr ymadroddion hyn, oeddynt gysgodol. Y peth cyntaf oedd yr Iuddewon i'w ddysgu trwyddynt oedd Crist, ei berson, ei aberth, a'i swyddau: am dano ef yr ysgrifenodd Moses a'r prophwydi; a'r pethau am dano oedd yn cael eu darlunio a'u dangos.—Hyn ydoedd gwyddorion ymadroddion Duw a ymddiriedwyd i'r Iuddewon. Y gwyddorion hyn, sef dyben ac ystyr gosodiadau eu haddoliad oedd yr Hebreaid, ac y dywed yr apostol wrthynt, bod arnynt eisieu eu dysgu drachefn. Am eu bod heb wybod y pethau hyn, yr oeddynt yn glynu wrth yr hen grefydd Iuddewaidd, a'i gosodiadau—y rhai nid oeddynt, wedi i'r sylwedd mawr ddyfod, ond gwyddorion llesg a thlodion. Gal. 4. 3. Edr. Egwyddor.

'Gwyddorion y byd,' yw holl ddefodau crefyddol y byd, o ddychymyg dynion y byd, ac nid o Dduw; y rhai a eilw yr apostol, 'philosophi, gwag dwyll, a thraddodiadau dynion.' Col. 2. 8.

GWYDD-WALCH, (gwydd-gwalch) yr hebog gwyllt.—'A'r wydd-walch.' Lef. 11. 13. Deut.

Digitized by Google

14. 12. *Heb.* פרס *dryllio*. Arwydda y gair, tebygol, math o eryr, a alwai y Rhufeiniaid *Ossifraga*, sef *torwr yr asgwrn*, am ei fod, nid yn unig yn dyfetha y cnawd, ond yn dryllio yr esgyrn hefyd, ac yn ymborthi arnynt. Bochart, *vol.* iii, *p.* 186. Yr oedd yn aderyn aflan dan y gyfraith.

GWYFYN, (gwyf) meisgyn, pryf, pryfyn dillad. Math o bryf sydd yn ddiarwybod yn llygru ac yn difwyno yr hyn y trigant ynddo. Y mae rhai yn trigo mewn dillad, ac eraill mewn blodau, dail, &c. Y mae Linnæus yn cyfrif 460 o rywogaethau o honynt. Melldith, a barnedigaethau Duw ar ddynion, a gyffelybir i wyfyn; yn fuan ac yn ddiarwybod yr ysant ac y llygrant holl ardderchogrwydd dynion a'u meddiannau. Esa. 50. 9. a 51. 8. Mat. 6. 19. Hos. 5. 12.

'A adeiladodd ei dŷ fel gwyfyn.' Job 27. 18. Fel y mae y gwyfyn yn difa y dilledyn y mae yn trigo ynddo, felly y mae tai y rhai a'u hadeilado trwy drais, gorthrymder, ac anghyfiawnder. Y maent yn dwyn dystryw ar eu meddiannau eu hunain, trwy drawsfeddiannu eiddo eraill.

GWYL—EDD—EIDD-DRA, (gw-yl) gwladaidd, gorchwylus; mulder, lledneisrwydd. Dyma un agwedd hardd y mae yr Ysbryd Glân yn ei weithredu ar ysbryd gwir Gristion, sydd yn gweddu iddo yn ei holl ymddygiad yn mhlith dynion, yn ei wisgoedd, ei eiriau, &c., yn neillduol yn addoliad Duw. 'Gwylder a pharchedig ofn,' sydd yn gweddu yno, ac y mae y diffyg o hyny yn ffiaidd ac yn bechadurus iawn. 1 Tim. 2. 9. Heb. 12. 28.

GWYL—IAU, (gwêl) gwelediad, ymddangosiad; dyddiau gwylion. Gwyl arbenig, uchel-wyl, prifwyl. Am y gwyliau Iuddewig, edrych yr amrywiol enwau, PASC, PENTECOST, PEBYLL, NEWYDD-LEUAD, SABBOTHOL.

GWYL—IO—IADWRUS—IEDYDD, (gwêl) dwyn anhunedd, bod yn effro, bod yn dysgwyl, cadw gwylnos. Pan briodolir gwylio i'r Arglwydd, arwydda ei sylw manwl o ddynion a'u gweithredoedd; Job 10. 14. a 14. 16. a 33. 11. ei barodrwydd yn yr amser goreu i gysuro a llesâu ei bobl. Jer. 31. 28.——Priodolir gwylio i ddynion mewn swyddau, megys gwyliedyddion, bugeiliaid, a gweinidogion. Ezec. 33. 2, 6. Ezec. 21. 11. Luc 2. 8. a 12. 37.——Y mae gwir weinidogion Crist fel gwyliedyddion, neu fugeiliaid, yn gwylio dros eneidiau, fel rhai sydd raid iddynt roddi cyfrif. Heb. 13. 17. Arwydda eu mawr ofal, eu diwydrwydd, a'u ffyddlondeb llafurus. Y mae eneidiau dynion mewn peryglon o'r mwyaf oddiwrth bechod ynddynt eu hunain: oddiwrth y byd mewn amrywiol ffyrdd; ac oddiwrth Satan, ei gynllwynion, a'i ddichellion. Gwylied dros eneidiau yw y gwaith mwyaf llafurus a phwysfawr a ellir meddwl am dano, i'w cadw rhag cael eu niweidio gan y gelynion hyn, i'w coleddu, i'w hyfforddi, a'u magu yn mhob daioni. Gwyliedyddion deillion sydd felldith ofnadwy ar ddynion, ac yn arwydd trwm eu bod yn addfedu i ddinystr buan. Esa. 56. 10.

Annogaethau taerion ac aml a roddir i ni wylio gan yr Arglwydd, ac a arwydda ein deffroad oddiwrth anystyriaeth a diofalwch cnawdol; ein sylw manwl arnom ein hunain, ar y profedigaethau a ddichon ein hamgylchu, rhag i ni gael ein denu a'n llithio oddiwrth yr Arglwydd a'i lwybrau, gan bechod a Satan; a dysgwyliad hiraethlawn am ei ymweliadau grasol, a'i ail ddyfodiad. Mat. 24. 42. a 25. 13. Marc 13. 35. a 14. 38. Luc 12. 37. 1 Cor. 6. 13. Dat. 16. 15.

'Parhewch mewn gweddi, gan wylied ynddi gyda diolchgarwch.' Col. 4. 2. Gwylied mewn gweddi, a arwydda fod hyn, fel gwasanaeth i'r Arglwydd, yn gorphwys yn ddyfal ar ein hysbrydoedd; ein bod yn edrych am amser a chyfle addas i weddïo; ac yn gwylied rhag pob agwedd anaddas arnom mewn gweddi; megys ffurfioldeb, anwylder, hunan-gyfiawnder, anobaith anghrediniol, a'n bod hefyd yn dysgwyl am wrandawiad ein gweddïau.

'Wele wyliedydd a sanct yn disgyn o'r nefoedd.—O ordinhad y gwyliedyddion y mae y peth hyn, a'r dymuniad wrth ymadrodd y rhai sanctaidd.' Dan. 4. 13, 17. Y mae rhai yn barnu mai yr angelion a feddylir wrth y gwyliedyddion, a'r rhai sanctaidd, y rhai sydd yn gwylied dros achosion plant dynion yn y byd, yn enwedig yr eglwys; eraill a farnant mai y duwiolion sanctaidd a feddylir, yn ateb i weddïau pa rai y gwnawd yr ordinhad am y brenin; ond eraill a farnant mai Person Dwyfol a feddylir wrth y gwyliedydd, a'r (neu *sef y*) sanct, adn. 13., ac mai y Drindod Sanctaidd a feddylir wrth y gwyliedyddion, a'r rhai sanctaidd. Y mae dehongliad Daniel yn gadarnhad i'r golygiad hwn, gan ei fod yn dywedyd, 'Dyma ordinhad y Goruchaf.' Adn. 23, 24. Trwy ei drefniad byddai hyn yn cael ei wneuthur, fel y gwybyddai y rhai byw mai y Goruchaf a lywodraetha yn mreniniaethau dynion. Gwel Dr. Horsley's ***Sermon, The Watchers and the Holy Ones.***

GWYLIADWRIAETH, GWYLFA, (gwyl) swydd, neu waith, gwyliedydd; amser i un wylio; lle gwyliedydd. Ymddengys fod y nos unwaith wedi ei rhanu yn dair gwyliadwriaeth, pob un yn cynnwys pedair awr; sef y wyliadwriaeth gyntaf, y ganol, a'r wyliadwriaeth foreu. Exod. 14. 24. Barn. 7. 19. Wedi hyny y Groegiaid a'r Rhufeiniaid a'i rhanasant yn bedair gwyliadwriaeth, yn cynnwys tair awr bob un. Mat. 14. 25. Marc 6. 48. Luc 12. 38.—'A gadwant wyliadwriaeth yr Arglwydd.' Num. 9. 19. Edr. CWMWL.——Yr oedd y wyliadwriaeth gyntaf yn dechreu (οψε) yn yr hwyr, sef machludiad haul, ac yn diweddu am naw, sef o chwech hyd naw o'r gloch:—yr ail a ddiweddai (μεσονυκτιον) hanner nos, neu ddeuddeg o'r gloch y nos:—y drydedd a ddiweddai (αλεκτροφωνια) ganiad y ceiliog, sef tri o'r gloch y boreu:—y boreuddydd (πρωι) oedd y bedwaredd wyliadwriaeth, yn parhau hyd chwech. Marc 13. 35. Mat. 14. 25.

'A gwyliadwriaeth y glanhad.' Neh. 12. 14. Yr oeddynt yn cadw yr holl drefniadau a'r gorchymynion yn nghylch y glanhad, heb oddef i un dyn na dim aflan ddyfod i dŷ Dduw.

GWYLL—ION, (gw-yll) tywyllwch mwrllwch; ellyll; gwyddones. Yn ngwyll y nos, sef yn nhywyllwch yr hwyr.—'Yr wyll a orphwys yno,' &c. Esa. 34. 14. Rhyw adar y nos a feddylir wrth y gair *Heb.* לילית y dylluan rudd, neu aderyn y corph, &c.

GWYLLT—ION, (gwyllt) annof, anwar, anhywedd, anwarddof, anllywodraethus; cyflym; didriniaeth. Gwinwydd, olew-wydd, a grawn gwylltion, ydynt y cyfryw sydd yn tyfu heb fod tan ofal a thriniaeth llafurwr, ac yn ganlynol â'u ffrwyth yn llai peraidd a chryfion na'r lleill. 2 Bren. 4. 39. Esa. 5. 2. Amos 7. 14. Rhuf. 11. 17.—Mêl gwyllt yw y cyfryw a geir mewn meusydd, creigiau, a choedydd. Mat. 3. 4.—Dyn gwyllt, dyn anifeilaidd, dilywodraeth, yn llawn nwydau a thrawsder. Gen. 16. 12.

GWYLLTFILOD, (gwyllt-mil) milod, neu anifeiliaid annof, anwar. Marc 1. 13. Pechaduriaid yn eu cyflwr anufudd, anllywodraethus, a gyffelybir i'r gwylltfilod, a'u hymddygiad yn afresymol ac yn ansanctaidd. Tit. 1. 12. Act. 10. 12. a 11. 6.

GWYN—ION, (gwy) càn, canaid, cain, claerwyn, hynaws, dymunol, dedwydd. Un o liwiau cyrph naturiol. Nid ydyw y lliw gwyn yn gymaint yn un lliw ag ydyw yn gymysgiad, neu gydundeb, o bob lliw.

Digitized by Google

Y mae Syr Isaac Newton wedi profi ac arddangos yn eglur mai y cyrph hyny yn unig sydd yn ymddangos yn wynion, pa rai sydd yn adlewyrchu pob math o belydr lliwiedig, a bod goleuni yr haul yn wyn, am ei fod yn cynnwys pob lliw.—Hevelius a haera, fel peth diammheuol, fod yn y gwledydd gogleddol greaduriaid, megys ysgyfarnogod, llwynogod, arthod, &c., yn myned yn wynion yn y gauaf, ac yn yr haf yn dychwelyd i'w lliwiau priodol.——Y mae cyrph duon yn poethi yn gynt na rhai gwynion, am fod y duon yn cymeryd iddynt belydr o bob math o-liwiau, a'r gwynion yn eu hadlewyrchu i gyd. O'r achos hwn yr ennyn papur du yn gynt na'r gwyn gan losg-wydr; ac y sych dillledyn du yn yr haul yn gynt na'r gwyn.

Am fod y gwyn y lliw mwyaf dysglaer ac ysplenydd, yr arferir ef yn aml i osod allan beth bynag sydd yn bur, ac yn ddysglaer ogoneddus. Dywedir am yr Hen Ddihenydd, fod 'ei wisg cyn wyned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan pur,' i ddangos ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd perffaith, ei ddoethineb, a'i fawrhydi. Dan. 7. 9. Y mae Crist a'i wallt yn wyn, yn marchogaeth ar gwmwl, ac ar farch gwyn, yn eistedd ar orseddfainc wen fawr, yn arwyddocâu ei burdeb, ei ddoethineb, ei diriondeb, a chyfiawnder a sancteiddrwydd ei holl oruchwyliaethau a'i farnedigaethau. Can. 5. 10. Dat. 1. 14. a 14. 14. a 20. 11.

Mae y saint yn wynion, a'u gwisgoedd yn wynion, wedi eu glanhau oddiwrth euogrwydd ac aumhuredd pechod, wedi eu cyfiawnhau a'u sancteiddio, a'u rhoddiad yn addas i'r efengyl; a bydd eu cyflwr yn y nefoedd yn dra gogoneddus, gorfoleddus, ac ardderchog. Dat. 3. 4, 5. a 4. 4. a 7. 14. a 15. 16.

GWYN, GWYNFYD—AU, (gwy-yn) cynddaredd, cynddeiriogrwydd, gwylltineb angerddol; cynhwrf meddwl; chwant, gofid, artaith.—'Cynhenau, gwynfydau,' &c. Gal. 5. 20. Y mae yr un gair ζηλος, yn cael ei gyfieithu *cenfigen*, yn Rhuf. 13. 13. 1 Cor. 3. 3. 2 Cor. 12. 20. Iago 3. 14, 16. Y gair Groeg a arwydda *angerddol gynhwrf meddwl*, pa un bynag ai sanctaidd ai pechadurus fyddo y cynhwrf a'r poethder hwnw. Y mae yn aml yn cael ei gyfieithu, neu yn hytrach, yn cael ei adael heb ei gyfieithu, *zel*, Ioan 2. 17. 2 Cor. 7. 7, 11. a 9. 2. Un o ffrwythau yr Ysbryd yw y poethder hwn pan fyddo yn sanctaidd; ac un o ffrwythau y cnawd yw pan fyddo yn bechadurus ac yn anaddas.

'A baraf i chwi wynfydu.' Rhuf. 10. 19. *παραζηλωσω, gyraf eiddigedd arnoch*, neu *paraf i chwi eiddigeddu*, fel y cyfieithir y gair yn Rhuf. 11. 11, 14. 1 Cor. 10. 22. 'Gwynfydaf dros fy enw,' neu eiddigeddaf, neu byddaf yn llawn eiddigedd dros fy enw, fy mharch, a'm hanrhydedd dyladwy. Ezec. 39. 25.

GWYNFYD—EDIG—RWYDD, (gwyn-byd) byd y dedwyddwch; cyflwr dedwydd; gwynfydedig, bendithgael; dedwyddwch; llwyddiant. Deut. 33. 29. Ps. 41. 2. a 72. 17. Luc 1. 48. Dat. 20. 6. Edr. Bendigedig, Dedwydd.

Tair colofn *gwynfyd*: goddef o foddlonrwydd, gobaith y daw, a chred y bydd. *Barddas.*

Gwneir sylwadau ychwaneg ar y gair hwn dan amrywiol eiriau eraill, sydd yn darlunio ŷ dynion y mae gwynfydedigrwydd yn perthyn iddynt.

GWYNT—OEDD, (gwy) *Llad.* Ventus; *Gwydd.* Chwyth; chwa, awel, chwyth, anadl; arogl a garier yn yr awyr. Ffrwd o awyr ydyw y gwynt.* Edr. Awyr. Mae gwyntoedd yn ein gwlad ni, a gwledydd eraill, yn dra chyfnewidiol, ac yn chwythu o bob cŵr i'r nefoedd. Mae math o wyntoedd a elwir *trade-winds*, yn chwythu agos yn wastad yr un ffordd, sef o'r dwyrain i'r gorllewin; neu ynte yn chwythu dri neu chwe mis o'r un pwnc, a chyhyd o'r pwnc arall i'r nefoedd. Y mae y gwyntoedd hyn yn aml yn moroedd yr India, ac a elwir *Monsoons*. Rhwng troadau yr haul (*tropics*) y mae y gwynt yn chwythu yn wastad yr un ffordd, sef o'r dwyrain i'r gorllewin. Y mae y gwynt mewn gwledydd poethion yn chwythu o'r môr. Gwyntoedd oddiar y môr ydynt gynhesaf yn y gauaf, ac oeraf yn yr haf; a gwyntoedd oddiar y tir yn y gwrthwyneb. Gwyntoedd yn dyfod tros wledydd oerion, neu fynyddoedd wedi eu gorchuddio âg eira, ydynt, drwy hyny, yn oerach. Corwynt, neu drowynt, yw gwynt cryf, nerthol, yn cylchynu, neu yn cylchdroi. Y cyfryw sydd yn aml yn dyfod o anialwch Arabia; yn y môr deheuol, tua Siam, China, &c., yr hyn sydd yn gwneuthur mordwyo y moroedd hyny yn dra pheryglus. Edr. Corwynt, Dehau, Dwyrain, Gogledd, Gorllewin.

* Creadur cadarn, heb gig, heb asgwrn;
Heb wythien, heb waed, heb ben, heb draed;
Ac ef ni aned, ac ef ni weled:
Ef ar fôr, ef ar dir, ni wyl, ni welir;
Ac ef yn anghywir, ni ddaw pan ofynir;
Ef yn anamlwg, canys nis gwyl golwg;
Ef yn ddrwg, ef yn dda, ef hwnt ac yma.
*Taliesin i'r Gwynt.*

I ddangos hollol lywodraeth Duw ar y gwyntoedd, a'r defnydd a wna o honynt, dywedir ei fod yn gwneyd *pwys* i'r gwynt, ac yn marchogaeth ar adenydd y gwynt. Efe sydd yn peri iddo chwythu lle myno, yn y gradd y myno, hyd y myno, ac i'r dyben y myno. Er ei fod yn gweithio trwy ail a thrydydd achosion, etto efe yw yr achos cyntaf; ac ni buasai ail na thrydydd achos, ac nid effeithient mewn un gradd, oni bai y cyntaf yn gweithredu arnynt; ac mae efe yn gweithio yn aml yn groes iddynt, ac hebddynt. Job 28. 25. Ps. 18. 10. a 48. 7. a 78. 26. a 107. 23, 24, 25, 26, 29. a 148. 8. a 104. 3. Amos 4. 13. Jonah 1. 4. a 4. 8. Jer. 4. 11, 12. 1 Bren. 18. 45. Diar. 25. 23. Gen. 8. 1. Exod. 14. 21, 24.

Y mae yr Ysbryd Glân yn ei weithrediadau yn yr ail-enedigaeth, yn argyhoeddi, ac yn adfywio ei eglwys, yn cael ei gyffelybu i wynt. Ioan 3. 8. Can. 4. 16. Y mae y gwynt yn wybyddus wrth ei effeithiau, ei fod, a'i fod yn chwythu; etto nid oes un gallu genym ni i'w attal, na rheswm i wybod o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned; felly y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu i gyfnewid eneidiau ei bobl, yn rhydd, ac yn nerthol, pa bryd, ac ar bwy, y gwelo yn dda; y mae y cyfnewidiad yn eglur, er nas gellir amgyffred y modd y gweithredwyd ef. Edr. Anadl, Awel.

Rhuthriadau gelynion, profedigaethau, a gorthrymderau, yn curo ar un, yn ei faeddu, a'i ddwyn gyda hwynt, a gyffelybir i wynt cryf, nerthol. Mat. 7. 27. Esa. 27. 8. Hos. 4. 19. Jer. 23. 19. a 25. 32. a 30. 23. Edr. Garw.

'Gwynt sych yr uchel-leoedd yn y diffaethwch tua merch fy mhobl, nid i nithio, ac nid i buro; gwynt llawn o'r lleoedd hyny a ddaw ataf fi.' Jer. 4. 11, 12. Gwynt yw hwn, nid i nithio, sef i ddwyn yr ûs ymaith oddiwrth y gwenith, ond gwynt cryf i ddwyn y cwbl ymaith; nid oedd nemawr ond ûs ar y llawr dyrnu, am hyny y mae y gwynt i gario y cwbl gyd âg ef. Y mae teithwyr gwedi rhoddi hanesion dychrynllyd am adwythigrwydd gwynt y dehau yn chwythu dros leoedd anial Arabia. Y mae nid yn unig yn poethi yr awyr, ond hefyd yn ei lenwi â tharth gwenwynllyd mygedig. Yr ystormydd mwyaf oedd gwlad Judea yn ddarostyngedig iddynt a ddeuent o'r tueddau hyny. 'O'r dehau y daw corwynt—ac wele gwynt mawr a ddaeth oddiar yr anialwch.' Job 37. 9. a 1. 19. Felly Nebuchodonosor a'i fyddinoedd, er iddynt ddyfod o'r gogledd, a gyffelybir i gorwyntoedd deheuol, o ran eu llïosogrwydd, eu cyflymdra, a'u hanorchfygolrwydd, a'u heffeithiau niweidiol ar y wlad; gwynt nid i buro ond i ddystrywio. Nid hawdd goddef y gwynt sydd yn nithio ac yn puro, pa fodd y goddefir gwynt llawn

Digitized by Google

y lleoedd hyn sydd yn dystrywio yn gwbl! Jer. 51. 2. Esa. 41. 16. Mat. 3. 12. Luc 9. 17.

'A phan gododd haul, bu i Dduw ddarparu poethwynt y dwyrain; a'r haul a darawodd ar ben Jonah fel y llewygodd.' Jonah 4. 8. Rhydd teithwyr hanes dychrynllyd am fath o ddwyrein-wynt dinystriol, a eilw y Tyrciaid *Samiel*, sydd yn chwythu yn y parthau hyny o'r byd lle yr oedd Ninifeh yn sefyll. Y mae yn taro yn feirw y sawl a'i hanadlant, ac yn difa y rhanau tufewnol yn lludw; try y cnawd yn ddu fel glöyn, a syrth ymaith oddiar yr esgyrn. Dwg gyd âg ef dân yn ymddangos fel edef sidan. Y mae yn chwythu yn ddinystriol fel hyn o Lychlyn Cambaya i fynu i Mosul. Y gwynt hwn, hwyrach, a ddarparodd Duw y pryd hyny i chwythu yn ofidus, er nad yn ddinystriol, ar Jonah. Gwel Campbell's *Travels*.

Yr oedd yr Arglwydd yn dyrchafu Job i'r gwynt o brofedigaethau a gofidiau, ac yn gwneyd iddo farchogaeth arno, heb wybod i ba le y cariai ef, fel y gwna un ŷd i'w nithio, ei brofi, a'i buro. Job 30. 22.

Un peth gwag, disylwedd ac anfuddiol, a gyffelybir i wynt; megys dynion beilchion, ffol; gau brophwydi; eilunod; bywyd dyn. Ps. 78. 39. Diar. 25. 14. Jer. 5. 13. Esa. 41. 29.——Pob gau hyder ar fraich o gnawd yw 'ymborthi ar wynt, a dilyn gwynt y dwyrain.' Hos. 12. 1.

GWYNTYLL, (gwynt) awyren.—'Yr hwn y mae ei wyntyll yn ei law.' Mat. 3. 12. 'Yr hwn 'sydd aci vvogr yn ei law, ac a garth ei lawr.' W. S. πτυον nid gwyntyll i wneuthur gwynt ydyw ystyr y gair, ond llaw-raw i godi yr ŷd i'r gwynt, yn ateb yr un dyben a gogr gyda ni. Nid oedd y wyntyll yn arferedig yn ngwledydd y dwyrain yn yr hen oesoedd mwy nag yn y dyddiau hyn. Tri pheth, medd Scultetus, ellir feddwl wrth y wyntyll, 1. Athrawiaeth y gair, sydd yn gwahaniaethu rhwng duwiolion ac annuwiolion yn y farn a roddir yno ar gyflyrau pawb.——2. Profedigaethau, sydd yn dwyn rhagrithwyr ymaith o blith y gwir dduwiolion, fel ûs a chwâl y gwynt ymaith. Ps. 1. 4.—— 3. Y farn ddiweddaf, pan yr ysgarir hwynt oddiwrth eu gilydd dros byth. Mat. xiii. a xxv. Y wyntyll yn ei law a arwydda ei barodrwydd at ei waith, y sicrwydd iddo gael ei gyflawni, a'i ofal mawr am ei wenith, i'w gael yn bur, ac na chollir dim o hono. Yn ei law *Ef* y mae, ac nid yn llaw neb arall. Mae Satan yn ceisio nithio, ond am nithio y gwenith i ffwrdd y mae efe; ond caiff ef yr ûs ac nid dim o'r gwenith. Crist bïa y gwenith, ac a'i ceidw.

'Yr hwn a nithiwyd â gwyntyll ac â gogr.' Esa. 30. 24. 'A gwyntyll:' gan nad oes hanes fod y wyntyll yn offeryn arferedig yn y dwyrain i nithio yn yr hen oesoedd, nac yn bresennol, hwyrach, medd Parkhurst, y dylai y gair רוח gael ei gyfieithu *gwynt*—'â gwynt ac â gogr.' Edr. Ebran, Gogr.

GWYR—AWG, *Llad.* Curvus; *Ffr.* Courbe: cam, crwm, gwneuthur yn gam, camu, crymu, gogwyddo. Mae gwyrawg o ystyr croes i uniawn, uniondeb, cyfiawn; megys gwyro barn, sef gwneuthur cam farn, barn anghyfiawn, anuniawn. Yr oedd penaethiaid Israel yn ffieiddio barn, sef barn gyfiawn, ac yn gwyro pob uniondeb i anghyfiawnder. Exod. 23. 6. Mic. 3. 9. Deut. 16. 19. 1 Sam. 8. 9. Yr hyn ni wna Duw. Job 8. 3.——'Gwyro geiriau Duw—a gwyro uniawn ffyrdd yr Arglwydd,' yw eu cam-ddeall, eu cam-ddarlunio, a'u cam-ddefnyddio, a thrwy hyny wyro dynion oddi wrthynt. Jer. 23. 26. Act. 13. 10. Yr oedd Elymas yn cam-ddarlunio uniawn ffyrdd yr Arglwydd, i'r dyben i wyro y rhaglaw oddiwrth y ffydd; ac felly y gwna gweision y diafol yn mhob oes. —'Gwyrasant oll.' Rhuf. 3. 12. 'VVy aethont oll oddyar y ffordd.' W. S.

GWYR-DRAWS, (gŵyr-traws) lleddf, gwyrawg. —'Dynion yn llefaru pethau gwyr-draws.' Act. 20. 30. Yn llefaru pethau anghytun âg athrawiaeth yr efengyl; gwyro geiriau Duw i ystyr croes i athrawiaeth iachus; a thrwy hyny gwyr-droi y bobl; a gwyro eneidiau dynion oddiwrth y gwirionedd. Mae pethau gwyr-draws i'w golygu yn bethau croes i bethau gwir, cywir, uniawn; ac am eu bod hwy yn bethau croes i'r gwir, y maent yn denu dynion oddiwrth y gwir. 2 Petr 3. 16.

GWYR-DROI, (gwyr-troi) croes-droi, cam-droi, gwyro, troi ar ŵyr. Paul, yn dangos y fath un ydyw *heretic*, neu gyfeiliornwr, a ddywed mai un gwedi ei ŵyr-droi ydyw, sef oddiwrth wirionedd athrawiaeth iachus. Tit. 3. 11.—'Yddym chwelwyth.' W. S.— 'Gan wybod fethu y cyfryw.' Dr. M. Dywed Estias fod y gair ἐξεστραπται yn cael ei arferyd am adeiladau gwedi eu dymchwelyd o'r sylfaen.* Neu, fel y barna eraill, arwydda troi allan o'r ffordd. Un ydyw heb obaith am ei feddyginiaethu; am hyny y mae i'w ochelyd. Luc 23. 2. 2 Petr 3. 16.

GWYRDD—ION, (gwyr) *Gwydd.* Glas; gwyrddliw. Un o brif liwiau pelydr y goleuni. Gwyrdd yw lliw pob llysieuyn a phlanigion yn tyfu lle delo awyr a goleuni yn rhydd atynt; a lle na ddelo yr awyr atynt, gwyn a melyn ydyw eu lliwiau. Gwenith, neu ryw rawn arall, yn tyfu tan y ddaear, fyddai a'i liw yn wyn. Edr. Golbuni, Glas. Y lliw mwyaf esmwyth a hyfryd i'r llygad ydyw o bob lliw; am hyny y mae y ddaear a'i thyfiant wedi ei wisgo âg ef. Gen. 1. 30. a 9. 3. Exod. 10. 15.

'Gwyrddion.' Esth. 1. 6. *Heb.* כרפס *Carbasus, Vulg.*—Castell a'i cyfieitha *cotwm*, neu *ceden*.—Taylor, *callicæ*. Yr oedd y cyntaf yn addas i fawr wychder ac ardderchogrwydd y brenin Ahasferus. Barna Scheuchzer yn ei *Physica Sacra*, mai y maen ystinos (*asbestos*) a feddylir wrth y gair hwn, yn yr hwn y ceir defnydd edafedd nas gall y tân ddim ei ddifa. Os teflir llïan wedi ei wneuthur o hono yn y tân, fe losga heb ei ddifa, ac a ddaw allan yn fwy hardd. Galwent ef llïan byw (*vivim id vocant*) neu anfarwol. Dywedir fod ymlyniad anarferol yn rhanau y maen ystinos wrth eu gilydd, fel y mae yn peri llawer o lafur i'r mwnyddion ei ddadgysylltu ef. Er hyny, weithiau, ceir ef mor neillduol o feddal, ac mor gyffelyb i groen dafad wedi ei drin, fel y gelwir ef 'lledr y mynydd.' Brydiau eraill, gelwir ef oddiwrth ei ymddangosiad, a'i gyffelybrwydd i gig, 'cig y mynydd.' Y mae weithiau mor ysgafn fel y nofia ar wyneb y dwfr, ac mor gyffelyb i *gorc* fel y gelwir ef '*corc* y mynydd.' Gellir nyddu edafedd, a gwneuthur defnydd o hono na effeithia tân arno; y ffordd o lanhau y defnydd ydyw ei roddi ef yn y tân; pery yn y tân poethaf heb ei ddifa. Nid yw y tân yn cael un effaith arall arno ond ei gânu; nid ydyw yn ei ddifa nac yn ei galch-losgi. Dywed Pliny iddo ef ei hun weled napcynau o hono, y rhai, gwedi eu llychwino, a daflent i'r tân, yr hwn a'u hysgwriai yn well na phe golchent hwynt mewn dwfr. Byddent gynt yn amdoi cyrph breninoedd a phendefigion i'w llosgi ynddynt, i'r dyben i gadw eu llwch yn wahanol oddiwrth ludw y tanwydd. Dywedir fod y maen rhyfedd hwn i'w gael mewn amrywiol barthau o'r byd, ac hefyd yn Ynys Môn, lle y gelwir ef maen, neu y gareg sidan. Glanheir ef yn y tân yn well nag yn y dwfr goreu. Ceir ef yn y parthau anial poethlyd yn India, lle nad ydyw byth yn gwlawio, a lle y mae llawer o seirph; cynnydda trwy boethder, y mae yn anaml i'w gael, ac yn anhawdd i'w wau o herwydd byrdra yr edafedd. Y mae ei liw coch yn troi yn ddysglaer-wyn trwy dân.

* Metaphora ab ædificio funditus diruto, ut instanrationi non sit locus.

Digitized by Google

Pan y ceffir ef y mae yn gymaint ei werth a'r perlau mwyaf gwerthfawr. Y llian mwyaf gwerthfawr yw yn yr holl fyd.

GWYRNI, (gŵyr) gwyredd, traws-wyredd, gwyrogrwydd. Diar. 8. 8. Edr. GAIR.

GWYRTH, (gwyr) rhinwedd; pybyrwch; peth hollol newydd; rhyfeddod, aruthredd, enrhyfeddod. Y mae y gair *Heb.* נס a gyfieithir *gwyrth*, neu *gwyrthiau*, Exod. 7. 9. 1 Cron. 16. 12, 24. Esa. 29. 14. yn cael ei gyfieithu *rhyfeddod*, Exod. 7. 3. a 11. 9, 10.—*arwydd*, Esa. 20. 3. Ezec. 12. 6, 11. a 24. 24, 27. Zech. 3. 8. Y mae y gair *Gr.* *δυναμεις* a gyfieithir *gwyrthiau*, yn Mat. 7. 22. Marc 6. 5. a 9. 39. ac yn aml yn y Testament Newydd, yn arwyddo galluog, cadarn; rhyfeddodau a effeithir trwy alluoedd goruwch-naturiol a dwyfol. Effaith ydyw gwyrth, croes i drefn a gosodiad pethau, neu gwrthwyneb i bob deddf natur adnabyddus i ni. Y mae yn dra amlwg fod holl naturiaeth yn cael ei llywodraethu gan y Creawdwr mawr, trwy, neu yn ol, deddfau gosodedig, fel mae achosion ac effeithiau yn gweithredu yn ol deddfau gosodedig trwy holl naturiaeth. Y mae trefn a deddfau gosodiad i bob peth. Yr hyn oll a weithredir yn un â'i drefn, sydd *effeithiau naturiol*, neu effeithiau yn ol trefn natur; a Duw ydyw yr achos blaenorol o honynt, fel mai efe yw awdwr y drefn a'r gosodiad, ac hefyd sydd yn gweithredu arni a thrwyddi. Pob peth gwrthwyneb i'r sefydliad a'r drefn hon, a'r effeithiau a'r gweithrediadau ynddi, sydd wyrthiol. Nid rhyfeddodau anarferol yn unig ydyw gwyrthiau; oblegid gallant fod felly i ni, ac etto yn gwbl unol â threfn a sefydliad achosion ac effeithiau yn naturiaeth; ond effeithiau gwrthwyneb i'r drefn hôno. Os felly, y mae yn rhaid i'r Arglwydd fod yn awdwr o honynt; canys nid oes neb a ddichon attal neu weithredu yn groes i drefn naturiaeth, ond y Duw yr hwn a'u rhoddodd.

Gellir hefyd benderfynu, na weithreda awdwr trefn natur yn wrthwyneb i'r drefn ddoeth hôno, ond pan byddo dyben cyd-bwys i'w ateb trwy hyny, ac na buasai un ffordd arall mor addas i gyflawni y dyben pwysfawr hwnw. Ffrwyth anfeidrol ddoethineb y Creawdwr ydyw trefn naturiaeth i ateb y dybenion goreu; i ymadael â'r drefn, neu i'w hattal, rhaid i ddyben mwy gael ei gyflawni, er amlygiad gogoniant Duw, a daioni dynolryw. Os bydd dynion gwedi syrthio i'r fath dywyllwch o anwybodaeth, fel y maent heb allu canfod Duw yn y pethau a welir, hwyrach y bydd gweithrediad croes i drefn naturiaeth yn eu deffro hwynt i'w ganfod yn well. Yr oedd mynediad yr haul a'r lleuad yn eu cylchoedd yn amlygu mawr allu Duw gymaint a'u gwaith yn sefyll; ond yr oedd eu gwaith yn sefyll wrth air Josuah yn peri i ddynion ei ganfod yn fwy, a bod Josuah yn rhyfela rhyfeloedd yr Arglwydd, a than ei awdurdod. Yr oedd holl wyrthiau yr Aipht, trwy law Moses ac Aaron, yn wyrthiau amlwg, ac yn hollol groes i drefn naturiaeth, yn profi mai bys, neu allu Duw oedd yn eu gweithredu, a bod Moses ac Aaron yn genadau, neu yn weision, gwedi eu hawdurdodi ganddo i hyny. Pa gysylltiad, yn ol trefn naturiaeth, oedd rhwng gwaith Aaron yn taro y dyfroedd, a'r dyfroedd yn troi yn waed? yn taro llwch y ddaear, a'r llwch yn myned yn llau ar ddyn ac anifel? yr un fath y pläau eraill, y maent yn groes i sefydliad Duw yn naturiaeth. Yr oedd y gwyrthiau a wnaeth Moses yn gadarnhad diammheuol o'i anfoniad gan Dduw, a'i fod yn llefaru ac yn gweithredu dros Dduw; yr oedd mawredd y gwyrthiau, a natur y dadguddiad, yn dangos hyn yn dra eglur. Yr un modd yr oedd gwyrthiau yr Arglwydd Iesu yn amlygu ac yn sicrhau dwyfoldeb ei Berson, gan ei fod yn gweithredu yn ei *enw*, a thrwy ei allu ei hun; natur ei swydd a'i waith, gan eu bod oll yn weithredoedd o drugaredd, ac nid o farn.——Yr oedd y gwyrthiau, o ran eu rhifedi a'u mawredd, y fath fel nas gellid dymuno na meddwl am ddim yn rhagori arnynt. 'Pan ddelo Crist, a wna efe fwy o arwyddion na'r rhai hyn a wnaeth hwn?' Ioan 7. 31. Y mae yr Arglwydd Iesu yn cyfeirio yn aml at ei weithredoedd, fel y prawf mwyaf sicr o'i anfoniad. Ioan 5. 36. a 7. 37, 38. a 10. 37. a 15. 24. Pan anfonodd Ioan Fedyddiwr ei ddysgyblion i ofyn iddo, 'Ai tydi yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddysgwyl?' nid ydyw yn rhoddi dim arall yn sylfaen i'w grediniaeth am dano, ond ei weithredoedd rhyfedd, yn gwbl yn ateb i'r darluniad a roddwyd o'r Messïah gan y prophwyd. Mat. 11. 4, 5. Esa. 35. 4, 5, 6. Yr oedd y Messïah i fod (פלא) yn *rhyfeddol*, nid yn unig yn ei Berson, ond yn ei weithredoedd hefyd. Esa. 9. 6. Yr oedd ei weithredoedd mor lliosog, 'fel ped ysgrifenid hwy bob yn un ac un, ni chynnwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid.' Ioan 21. 25. Y mae yn gwneuthur ei wyrthiau ar wrthddrychau yn gyffredinol yn amlwg yn ngolwg pawb; ar y cythreuliaid, Mat. 8. 28—34. a 12. 22. a 17. 18. —ar y môr, Mat. 14. 26.—ar y gwynt, Mat. 8. 26.—ar y pysgod, Ioan 21. 6. Mat. 17. 27.—ar y bara, Mat. 14. 15—20.—ar y moch, Mat. 8. 28.—ar y ffigysbren, Mat. 21. 19.—ar y dwfr, yn ei droi yn win, Ioan 2. 1, &c.—ar bob afiechyd a chlefydau, Mat. 8. 16. ie, ar angeu ei hun.* Mat. 9. 24, 25. Luc 7. 14. Ioan 11. 43, 44.

Y mae holl naturiaeth tan ei arglwyddiaeth ac wrth ei orchymyn; ac y mae yn llefaru wrthi fel ei Chreawdwr a'i Harglwydd. Heblaw hyny, mae holl bläau, afiechyd, ac annhrefn naturiaeth, wrth ei awdurdod yn ufuddhau, sef pechod a'i holl effeithiau. Y mae yn ymddangos nid yn unig fel ei Hawdwr a'i Harglwydd, ond hefyd fel ei meddyg; yn iachâu clefydau, pob clefyd, yn bwrw allan gythreuliaid, adwythwyr naturiaeth, ac yn adferyd bywyd i'r meirw. Am yr amrywiol wyrthiau, Edr. DALL, BYDDAR, CLOFFION, DROPSI, PARLYS, &c.

Yr oedd gwyrthiau yr apostolion yn enw yr Arglwydd Iesu yn cadarnhau dwyfoldeb ei Berson, a'u hanfoniad hwythau ganddo i gyhoeddi ei efengyl, a sefydlu ei grefydd yn y byd. Dros ba hyd y parhaodd y doniau gwyrthiol yn yr eglwys, nid ydyw yn gwbl eglur; rhai a farnant iddynt ddarfod yn nyddiau yr apostolion; eraill ydynt o'r farn iddynt barhau yn hwy. Ymddengys yn o amlwg wrth hanesion Cristionogol, iddynt ddarfod yn amser St. Chrysostom. Bu cryn ddadl yn nghylch amser parhad y doniau gwyrthiol yn yr eglwys Gristionogol, rhwng y Dr. Middleton, Mr. Vate, a Mr. Toll, y rhai oeddynt yn barnu iddynt ddarfod gyd â'r dysgyblion, neu gyd â'r oes apostolaidd; a Dr. Stebbing, Dr. Chapman, Mr. Parker, Mr. Brook, ac eraill, y rhai oeddynt o'r farn iddynt barhau yn hwy. Gwel eu gwaith.

Am wyrthiau Eglwys Rhufain, nid ydynt deilwng coffhau am danynt, canys chwedlau disail yw y cwbl. Gwel Fleetwood, Limborch, *Theol. Christ.*, Claparede, Conybeare, Campbell, Lardner, Farmer, Adams, Leland, Huron ar yr Ysbryd, *Cyclopædia*.

Y mae gwyrthiau, arwyddion, a rhyfeddodau anghristaidd, yn cael eu galw yn nodedig gan yr apostol, 'rhyfeddodau gau.' 'Yr hwn y mae ei ddyfodiad yn ol gweithrediad Satan, gyda phob nerth ac arwyddion, a rhyfeddodau gau.'—'Aruthroedd gauoe.' W. S. 2 Thes. 2. 9. *Gr.* *τερασι ψευδους*, *lying wonders*, rhyfeddodau celwyddog neu rhyfeddodau gau. Nid gwir wyrthiau mo honynt, wedi eu gweithredu trwy allu dwyfol, i gadarnhau y gwirionedd i'n crediniaeth

* Ratione objecti, non fuerunt *signa particularia*, sive certæ rerum speciei adstricta sed *universalia* potestam ejus ac imperium in omnes creatura testantia in cælo, in terra, in aqua, in dæmonibus, in hominibus, in panibus, in arboribus, &c. Turretin, *vol.* ii, 319.

Digitized by Google

a'n parch. Ni wnaeth neb wyrthiau gwirioneddol ond cennadon Duw. Ioan 9. 16, 33. Am fod Crist yn cadarnhau ei anfoniad a'i wirionedd, trwy wir wyrthiau, y mae gan Anghrist, i sefydlu celwyddau a chyfeiliornadau, ryfeddodau gau, celwyddog. Ni roddodd Duw erioed ei allu dwyfol i weithredu i gadarnhau celwydd. *Celwydd* yw athrawiaeth Anghrist, a *gau* yw ei holl ryfeddodau. Dat. 13. 13. a 16. 14. a 19. 20. Gwel Vitringa ar Dat. 13. 13.

GWYRYF, (gwyr) pur, croyw, heb ei lygru; morwyn heb adnabod gwr; morwyn-ferch, gwyryf-ferch, geneth. Y gair *Heb.* עלמה am wyryf, a arwydda, *cuddiedig, celedig*, oddiwrth y cyflwr neillduedig, cauedig, yr oeddynt yn byw ynddo; neu oddiwrth ei bod heb ei dynoethi gan ddyn, fel ei gwr. Amlwg yw nad oeddynt yn cael eu cau i fynu, oddiwrth hanes Rebecca, Rahel, Miriam, &c. Arferir yr enw עלם *cuddiedig*, mewn cyferbyniad i'r gair גלה *dynoethi*. Deut. 22. 30. 'A'r gwyryfon y rhai a *gauasid* i mewn.' 2 Mac. 3. 19. Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *llancesau*. Exod. 2. 8. Ps. 68. 25. Can. 1. 3. a 6. 8. Yn y lle diweddaf y mae y llancesau, neu y gwyryfon, yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth y breninesau a'r gordderch-wragedd. Yr oedd y gwyryfon yn byw mewn ystafelloedd o'r neilldu oddiwrth wyr; a phan rodient allan yr oeddynt bob amser yn gorchuddio eu hunain. Hyn oedd yn peri yr anhawsdra i Amnon, mab Dafydd, weled Tamar ei chwaer. 2 Sam. 13. 2. Ganed Crist o wyryf bur, am hyny, gelwir Mair, mam yr Iesu, *y wyryf*, neu *y forwyn*, mewn ffordd o enwogrwydd. Esa. 7. 14. Edr. GENEDIGAETH, MAIR, IESU, MORWYN.

'Os yw neb yn tybied ei fod yn anweddaidd tu ag at ei wyryf,' sef ei ferch yr hon sydd wyryf, 'od â hi dros flodau ei hoedran; gwnaed a fyno *hi* (ο θελει ποιειτω) nid ydyw yn pechu, priodant. Ond yr hwn sydd yn sefyll yn sicr yn ei galon,' sef nad ydyw yn bechod i'w wyryf beidio priodi, 'ac yn afraid iddo;' neu *μη εχων αναγκην*, heb fod un angenrheidrwydd arno oddiwrth ei hewyllys, na'i thueddiad, na'i hamgylchiadau hi; 'a chanddo feddiant,' neu awdurdod ar, neu (περι) mewn perthynas i'w ewyllys ei hun yn yr achos hwn, 'ac a roddodd ei fryd ar hyny yn ei galon, ar gadw o hono ei wyryf,' heb briodi, yn un â'i thueddiad a'i hewyllys ei hun, 'da y mae yn gwneuthur,' neu y mae yn gwneuthur yn dda. 'Am hyny,' neu *felly ynte*, 'yr hwn,' *Dad*, 'sydd yn ei rhoddi,' *sef ei ferch*, 'yn briod, sydd yn gwneuthur yn dda,' *sef yr hyn sydd gyfreithlawn yn mhawb, ac yn mhob amgylchiad:* 'ond yr hwn nid yw yn ei rhoddi yn briod, sydd yn gwneuthur yn well,' o ran ei chysur hi yn yr amgylchiadau presennol. 1 Cor. 7. 36, 37. Hyn, tybygaf, yw ystyr y geiriau, yn mha rai y mae yr apostol yn rhoddi ateb i ymofyniad a anfonodd y Corinthiaid ato yn nghylch yr achos hwn. Yr oedd yr Iuddewon a'r Groegiaid yn barnu gwyryfdod yn ddianrhydeddus; yr oedd yr Esseniaid a rhai gwybeddyddion, yn ei gymeradwyo fel bywioliaeth mwy pur a sanctaidd; y mae yr apostol yn gosod yr achos o flaen y Corinthiaid, a'r eglwys yn mhob oes, yn ddoeth ac yn esmwyth o bob tu.

GWYSG, (gwys) tueddrwydd i waered, pendramwnwgl, penchwidr.—'Aent bob un yn wysg ei wyneb.' Ezec. 1. 9. Dr. M. Sef rhag ei wyneb. —'Hwy a aethant yn wysg eu cefnau.' Ioan 18. 6. 1 Sam. 4. 18.

GWYSTL, (gwyst) mach, ernes, adneu, prid. Gen. 38. 17, 20. Exod. 22. 26. Deut. 24. 6. Job 24. 3. Diar. 20. 16. Edr. ERNES.

GWYSTLORIAETH, (gwystlawr) rhoddi gwystl; gwystledigaeth, gwystleidiaeth, gwystleiriaeth, gwystliad.—'Na chymer ar wystloriaeth wisg y weddw.' Deut. 24. 17. Y mae trugarogrwydd a thiriondeb yn holl gyfreithiau yr Arglwydd. Nid oedd neb i fyned i dŷ ei gymydog i gymeryd gwystl; ond yr oedd i gael ei ddwyn allan ato; os tlawd oedd, nid oedd i gysgu â'r gwystl gyd âg ef, ond i'w roddi yn ei ol cyn machlud haul. Nid oedd neb i gymeryd meini melin un yn wystl; canys cymeryd bywyd dyn, neu gynnaliaeth ei fywyd, oedd hyny. Deut. xxiv. Pob peth, neu offeryn, a fyddo er cynnaliaeth neu er cysur, nid ydyw i'w gadw yn wystl am arian a fenthyca y tlawd.

GWYTHEN, (gwyth) gwythïen; mwn-glawdd. Gwythenau ydyw y llestri yn nghorph dyn ac anifel, sydd yn dychwelyd y gwaed yn ol i'r galon, wedi iddo gael ei ddwyn oddi yno trwy y rhedwelïon. Edr. GWAED.—'Diau fod gwythen i'r arian.' Job 28. 1. Mwn-gloddiau arian, yn rhedeg yn rhanau bychain trwy y ddaear, a gyffelybir o'r herwydd, i wythenau yn nghorph dyn. Y mae gwythen i'r arian, a mawr ydyw llafur a thrafferth dynion i'w gael; ond y mae doethineb yn werthfawrocach, ac yn fwy teilwng o'n hymofyniad.

GWYW—O—EDIG—ION, (gwy) edwi, crino, diflanu, ediflanu. Mae dynion yn gwywo fel gwyrddlysiau, pan gollont eu holl hoywder ac egni bywyd a llwyddiant, ac y syrthiant i nychder, tlodi, a chyfyngder. Ps. 90. 6. a 102. 4. Ezec. 17. 9, 10.— Neu pan gollont eu holl fywiogrwydd ysbrydol mewn crefydd, neu y syrthiant ymaith oddiwrth y broffes o honi. Mat. 13. 6. Judas 12.

'Ac wele, yr oedd dyn â'i law wedi gwywo.' Mat. 12. 10.—'A 'nycha, ydd oedd yno un a ei law wedi dysychu.' W. S. —'Wedi diffrwytho.' Dr. M. Llaw ddehau y dyn, medd Luc, oedd wedi diffrwytho; yr oedd hyny yn gwneyd achos y dyn yn fwy truenus. Parodd yr Arglwydd iddo sefyll i fynu yn y canol, yn amlwg i bawb ei weled, ac a barodd iddo estyn ei law. Ac efe a wnaeth felly; a'i law ef a wnaed yn iach *fel y llall*. Mat. xii. Marc iii. Luc vi. Yn y wyrth hon, fel yn holl wyrthiau eraill yr Iachawdwr mawr, y mae dwyfoldeb a mawrhydi ei berson, ei diriondeb a'i allu, yn ymddangos yn eglur. Yr hwn a iachâodd law wedi gwywo, a ddichon hefyd feddyginiaethu enaid nychlyd, llesg, a digysur; a hyny â'i *air*, yn ddioed.

'Gwywedigion,' sef rhai gwywedig, egwan; llesg. Ioan 5. 3. Y gair *Gr.* ξηρας, a arwydda, yn mhlith y meddygon Groegaidd, *ατροφια*, *difagwriaeth*, y corph heb dderbyn magwriaeth oddiwrth ymborth, ac o herwydd hyny yn llesg, a nychlyd, a diymadferth; nid annhebyg i'r parlys. Gwel Schleusner.

GYNT, (cynt) yn gyntaf, hyd yn hyn, yr amser a aeth heibio.—'Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt.' Mat. 5. 21.—'Ys clywsoch mal y dywedpwyd *wrth* yr ei gynt.' W. S. a Dr. M.; felly Coverdale. Y mae y rhan amlaf o lawer o'r cyfleithiadau yn yr amrywiol ieithoedd yn cytuno â W. S. a Dr. M., yn nghyfleithiad y geiriau hyn. Beza ydoedd y cyntaf a'u cyfleithodd yn wahanol, yr hwn y mae ein cyfieithwyr ni, yn aml, gwedi ei ddilyn. Ερρεθη τοις αρχαιοις, *wrth yr hynafiaid*, yn neillduol wrth eu tadau ar fynydd Sinai. Gwel Grotius, Whitby, Doddridge, Campbell, Poole, *Synop. in loc.* Yr oedd yr hyn a ddywedwyd wrth yr hynafiaid yn ei le; gorchymyn Duw ydoedd: ond esboniadau y Phariseaid mae yr Arglwydd Iesu yn beio arnynt, fel pe na buasai y gorchymyn ond yn gwahardd y weithred allanol yn unig, heb olygu agwedd y galon yn dufewnol; ond y mae yr Arglwydd Iesu yn dangos ysbrydolrwydd a gwir ystyr y gorchymyn.——'Oeddych gynt yn mhell —yn dywyllwch.' Eph. 2. 13. a 5. 8. Edr. PELL, TYWYLLWCH.

Digitized by Google

GYR—U—FA, (yr) *Heb.* גרש gwthio, ymlid; rhedegfa. Y mae gyru yn arwyddo gweithred awdurdodol, alluog, ar un i'w ymlid.—'Efe a yrodd allan y dyn.' Gen. 3. 24. 'Yr Arglwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden, i lafurio y ddaear, yr hon y cymerasid ef o honi.' Adn. 23. Nid yn yr ardd y crewyd y dyn; ond planwyd yr ardd, a *gosodwyd* y dyn ynddi wedi ei greu. O'r ddaear gyffredin y cymerwyd ef, ac yn yr ardd y *gosodwyd* ef; sef yn y lle goreu, mwyaf ffrwythlawn a hyfryd. Cafodd ddyrchafiad gwedi ei greu, ond ei bechod a'i difeddiannodd o'r cwbl. Y mae trugaredd a barn yn y weithred hon o eiddo yr Arglwydd tu ag atynt. Gyrwyd hwy allan o baradwys, dyna y *farn;* nid i uffern i ddyoddef, ond i'r ddaear i'w llafurio, dyna y *drugaredd.* Haeddasant eu gyru i uffern i farw byth; ond i'r ddaear y gyrwyd hwynt, lle y daeth iachawdwriaeth yr Arglwydd o hyd iddynt, i'w cyfnewid a'u haddasu i'r baradwys nefol, o'r hon nis gyrir byth.

Yn aml, yn yr ysgrythyrau, cyffelybir bywyd Cristion i *yrfa, Αγωνα, ymdrech,* sef ymdrech o bob math, yn cyfeirio at y chwareuyddiaethau yn mhlith y Groegiaid ar fynydd Olympus.

'Trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni.' Heb. 12. 1.—'Rredwn yn oddefus yr yrfa a osoded y ni.' W. S.—'Mewn amynedd.' Dr. M. Y mae cyfeiriad y gair yn arwyddo bod anhawsderau mawrion ar y ffordd; bod yr ymdrech mwyaf yn ofynol i'w gorchfygu; ac nad ydyw o ddim dyben i ddechreu heb barhau hyd y diwedd; heb hyn â y llafur i gyd yn ofer. Ond gan fod y cyfeiriad hwn gwedi helaethu arno dan y gair **ANGHYMERADWY**, nid rhaid chwanegu yma.

# H.

HA, *Heb.* האח wi, aha, da, da iawn. Cyfyng-air yn arwyddo gorfoledd a llawenydd (Job 39. 25.) neu gwawd a dirmyg. Ps. 35. 21. a 40. 15.

HAASTARI, *Heb.* אחשתרי [*rhedegwr*] mab Assur o'i wraig Naarah. 1 Cron. 4. 6.

HABAIAH, *Heb.* חביה [*cuddiedig yr Arglwydd*] un o'r offeiriaid na chafwyd eu henwau yn ysgrifenedig yn mhlith yr achau, gwedi eu dychweliad o Babilon, ac am hyny bwriwyd ef allan o'r offeiriadaeth. Neh. 7. 63.

HABACUC, *Heb.* חבקוק [*ymdrechwr*] *Gr.* *Αμβακουμ.* Nid oes hanes sicr am y prophwyd hwn. Nid ydyw ffug-chwedlau yr Iuddewon a'r Apocrypha am dano yn deilwng o'n sylw lleiaf. Y mae yn eglur iddo brophwydo cyn y caethiwed; hwyrach, yn nghylch diwedd teyrnasiad Josiah, a dechreu teyrnasiad Jehoiacim, yn cydoesi â Jeremiah. Y mae yn enwog yn mhlith y prydyddion Hebreaidd.* Y mae cysylltiad amrywiol ranau ei brophwydoliaeth, ei iaith, ei addurniadau, a'i ucheledd, yn hynod. Prophwydodd Nahum am ddinystr yr Assyriaid, y rhai a gaethiwodd y deg llwyth;—y mae Habacuc yn rhagfynegi barnedigaethau Duw ar y Caldeaid, y rhai a gyflawnasant gaethiwed y llwythau eraill. Cyfeirir ato yn aml yn y Testament Newydd fel ysgrifenydd dan ysbrydoliaeth Duw. Cymharer pen. 1. 5. âg Act. 13. 40, 41. a 2. 3, 4. Rhuf. 1. 17. Gal. 3. 11. Heb. 10. 37, 38. Golygir yn gyffredin, ei brophwydoliaethau am ddifrod y Caldeaid, a barnedigaethau Duw arnynt hwy; eu bod yn cynnwys ynddynt hefyd ragddangosiad o aflwyddiant llygrwyr a gorthrymwyr yr eglwys Gristionogol, a buddugoliaeth a goresgyniad cyffredinol gwir grefydd yn y diwedd dros yr holl ddaear. Y mae yn achwyn rhag anwiredd y wlad; yn dangos y dialedd erchyll a ddeuai trwy y Caldeaid oblegid hyny; yn rhoddi cysur ac annogaeth i bobl yr Arglwydd i ddysgwyl wrtho; ac yn rhag-fynegi barnedigaethau ofnadwy Duw ar eu gelynion. Pen. i. a ii. Y mae yn diweddu trwy ddadgan yn y dull a'r ymadrodd mwyaf goruchel, a'r prydyddiaeth mwyaf ardderchog, ryfeddodau Duw gynt er Israel, fel annogaeth iddynt hyderu arno a gorfoleddu ynddo, yn wyneb y trallodau a'r blinfyd ydoedd yn nesâu. Y mae ei dduwioldeb a'i ffydd yn yr Arglwydd yn nodedig iawn, yn ngwyneb y palldod o bob peth: palled pob peth, ond ni phalla Duw ein hiachawdwriaeth i'w bobl; ac y mae efe yn ddigon ei hunan, yn y diffyg o'r cwbl crëedig. Pan fyddo y ddaear a'r gwaith sydd ynddi gwedi eu llosgi, bydd Duw yn nefoedd gyflawn i'w bobl. Pen. 3. 17, 18.

* Poeticus etiam est Habacuci stylus; sed maxime in oda, quæ inter absolutissimas in eo genere merito numerari potest. Lowth.

HABOR, dinas ar làn yr afon Gozan yn Media. 2 Bren. 17. 6. a 18. 11. 1 Cron. 5. 26. Gwel Major Rennel's *Excursion, No.* 2.

HACCATAN, *Heb.* הקטן [*bychan*] tad Johanan. Ezra 8. 12.

HACHALIAH, *Heb.* חכליה [*yr hwn sydd yn dysgwyl am yr Arglwydd*] tad Nehemiah. Neh. 1. 1. a 10. 1.

HACHILAH, *Heb.* חכילה [*fy ngobaith sydd ynddi*] bryn gyferbyn âg anialwch Ziph, lle bu Dafydd yn ymguddio, a Saul yn gwersyllu pan gymerodd Dafydd ei waywffon a'i lestr dwfr. 1 Sam. 23. 19. a 26. 2, 11.

HACHMONI, *Heb.* חכמני [*doeth*] tad Jasobeam, un o gedyrn Dafydd, a phen y cadbeniaid. Cymh. 2 Sam. 23. 8. â 1 Cron. 11. 11.

HADAD, *Heb.* הדד [*cyfeillgarwch*] 1. Mab Bedad, yr hwn a olynodd Husam yn frenin ar Edom: tarawodd Midian yn maes Moab: enw ei ddinas oedd Afith. Gen. 36. 35.——2. Mab Baalhanan, brenin Edom, ei ddinas oedd Pai. Ar ol ei farwolaeth llywodraethwyd Edom gan dduciaid. 1 Cron. 1. 51.——3. Mab Ismael, hwn a elwir hefyd Hadar. 1 Cron. 1. 30. Gen. 25. 15.——4. Mab brenin Edom, yr hwn a ddygwyd i'r Aipht gan weision ei dad, ac ef yn fachgen, pan ddifrododd Joab wlad Edom. Rhoddodd brenin yr Aipht iddo bob peth angenrheidiol at ei gynnaliaeth. Cafodd ffafr yn ngolwg Pharaoh, ac a roddes chwaer ei wraig ei hun, Tahpenes, yn wraig iddo. Gwedi marwolaeth Dafydd a Joab, erfyniodd ar Pharaoh am gael dychwelyd i'w wlad ei hun. Bu yn wrthwynebwr i Solomon wedi ei ddychweliad; ond nid oes hanes am bethau yn neillduol a wnaeth. 1 Bren. 11. 14—22.

HAD—AU—U, (hy-ad) hedyn; hil; deincodyn.—1. Hâd yn yr ystyr mwyaf priodol, a arwydda y defnydd hyny a barotoir gan y Creawdwr mewn dynion, anifeiliaid, a llysiau, i ail gynnyrchu y rhyw. Y maent oll yn hadu hâd yn ol eu rhyw, a thrwy hyny yn cynnyrchu ac yn parhau; yr hyn sydd yn dangos yn amlwg law rhagluniaeth fanwl yn eu ffurfiad. Y mae hâd llysiau, yn enwedig rhai o honynt, yn hynod o gywrain wedi eu hagor ac edrych arnynt

Digitized by Google

trwy chwydd-wydr. Mae yr *holl lysieuyn* i'w weled yn ffurfiedig yn yr hedyn, fel y mae y llwdn yn mol ei fam.* Y mae ffrwythlondeb amryw lysiau yn dra rhyfedd. Gwenith India Tyrci a ddwg ar un paladr 2000 o hadau; y marcholen (*elecampane*) 3000; yr haul-flodeuyn 4000; pabi, neu lysiau y cwsg, 32,000; un pen iddo, 8000; *tobacco* 360,000; rhedyn y fagwyr (*spleenwort*) 1,000,000. Hâd yr *angelica* yw y pereiddiaf yn y byd. Gwel *Encyclopædia*, Durham, Ray, Grew.

2. Yn allegawl, hâd a arwydda hefyd yr hyn a genedlir; a hyny yn gasgliadol am lawer, megys 'hâd Abraham,' sef ei holl hiliogaeth, (Gen. 17. 7, 8.) neu yn unigol am un, megys Seth. Gen. 4. 25.—Yr Arglwydd Iesu. Gal. 3. 16. Gen. 3. 15. Edr. ABRAHAM.——Y gair, neu athrawiaeth yr efengyl, a gyffelybir i hâd, am ei fod yn cael ei hau gan bregethwyr yr efengyl; am ei fod yn cael ei dderbyn i'r galon trwy ffydd; yn gwreiddio yno, ac yn dwyn ffrwyth cyfatebol iddo ei hun. Luc 8. 5, 11. Edr. GWRANDO. Gelwir ef yn 'hâd anllygredig.' 1 Petr 1. 23. Y mae yn anllygredig ynddo ei hun, sef yn para yn ei harddwch, ei gyflawnder, a'i effeithioldeb yn ddigyfnewid; hefyd yn ei effeithiau y mae yn anllygredig, gan ei fod yn adgenedlu dynion i anllygredigaeth ac anfarwoldeb. Y mae yr hyn a genedlir trwy y gair yn hâd yn aros byth; ni lygra, ni bydd marw, ac ni ddiwreiddir byth mo hono. 1 Petr 3. 9. ——Yr hyn a eilw Esaiah yn 'weddill,' (pen. 1. 9.) a eilw Paul yn 'hâd,' (Rhuf. 9. 29.) Yn cyfeirio at ddull llafurwyr, er iddynt dreulio llawer o'u hŷd yn fara, etto a gadwant y goreu at hâd; felly, mae gan yr Arglwydd weddill, yr hwn a achubir, yr hwn a fydd yn hâd i'r Arglwydd ar y ddaear.

'Efe a wel ei hâd.' Esa. 53. 10. Yr hâd yma yw y lluoedd lliosog y rhai a gredant ynddo o holl genedloedd y ddaear, yn ol addewid Duw i Abraham. Gen. 22. 18. Ps. 89. 29, &c. Ni bydd ei aberthiad o hono ei hun yn ofer, ond bydd sicr o hâd bendigedig a lliosog yn ganlynol i hyny; y byddai yntau hefyd yn sicr, er ei holl ddyoddefiadau, o fyw i weled ei hâd; er iddo ei aberthu ei hun, etto bydd byw, a bydd ffrwythlawn iawn.

'Eu hâd a'i gwasanaetha ef,' sef Crist. Ps. 22. 30. זרע יעבדנו *hâd a'i gwasanaetha ef*, sef hiliogaeth y duwiolion y soniwyd am danynt yn yr adnod o'r blaen, gan fod addewid Duw yn cynnwys eu hâd gyda hwynt. Deut. 10. 15. a 30. 6, 19. Ps. 69. 36. a 102. 28. Esa. 43. 25. a 44. 3. Neu hâd Crist, sef y plant a roddodd Duw iddo. Esa. 53. 10. Heb. 2. 13.

HADADEZER, הדדעזר [*prydferthwch cynnorthwy*] mab Rehob, brenin Soba. Gorchfygodd Dafydd ef wrth yr afon Euphrates, ac a ddygodd oddi arno fil o gerbydau, saith cant o farchogion, ac ugain mil o wyr traed; torodd linynau gâr meirch pob cerbyd, ond can cerbyd a gadwodd. 2 Sam. 8. 3, 4.

HADAD-RIMMON, הדדרמון [*llef Rimmon*, neu, *deisyfiad ar Rimmon*, yr hwn oedd eilun-dduw y Syriaid] dinas yn nyffryn Megido, yn agos i ba un y lladdwyd y brenin duwiol Josiah, gan Pharaoh Necho, brenin yr Aipht, yr hwn a fu yn achos o wylofain a dychryn mawr yn y parthau hyny. 2 Cron. 35. 22, 24. Zech. 12. 11. Galwyd y ddinas wedi hyny Maximianopolis, o barch i'r ymerawdwr Maximian. Yr oedd yn sefyll ddwy filltir ar bymtheg o Cesarea, a deg o Jezreel.

* Vetus est Empedoclis, dogma, plantarum semina ovo esse, ab iisdem decidua. In est in eo (ovo vel semine) velut in cicatrice, non sola viventis carina, sed cum minimo trunco assurgentes partes, gemma scilicet, & insignis radicis casun. *Malpig.*, p. 81.——Most seeds have in them a seminal plant perfectly formed, as the young is in the womb of animals. *Ray*, p. 98.



HADAR, *Heb.* חדר [*gogoniant, harddwch*] mab ac olynwr Achor, brenin Edom, ac a deyrnasodd yn ninas Pai. Gen. 36. 39.

HADASAH, חדשה [*adnewyddiad*, neu, *y dydd cyntaf o'r mis*] dinas, a'r leiaf yn Judah, yn cynnwys yn unig 50 o dai. Jos. 15. 37.

HADASSAH. Edr. ESTHER.

HADID. Edr. HADAD. Dinas yn Benjamin, medd Calmet. Ezra 2. 33. Neh. 7. 37. a 11. 34.

HADLAI, חדלי [*fy ngorphwysfa*] tad Amasa. 2 Cron. 28. 12.

HADORAM, הדורם [*eu harddwch*] mab Joctan. Gen. 10. 27.

HADRACH, חדרך [*eich ystafell*] dinas yn agos i Damascus. Zech. 9. 1.

HAEDD—EDIGAETH—IANT—U, (haedd) cyrhaedd; dal gafael ar; rhyglyddu, gobrynu; rhyglyddiant, teilyngdod, gobryn, efrllid; yn deilwng.

*Haeddu* ar nyth y cacwn.
Mal *haeddu* uwyr â bach.
Ni lwydd llad ni *haedder*. *Diar. Cymreig.*

Y mae Duw yn talu eu haeddedigaeth i ddynion, pan y mae yn eu cospi yn gyfiawn am eu pechodau. Ps. 28. 4. Mae pechod yn mhawb yn gyfiawn yn haeddu cospedigaeth, ac ni chospa Duw cyfiawn neb uwchlaw yr hyn a haedda. Ni wnaeth Iesu Grist y cyfiawn ddim yn haeddu marwolaeth, ond dyoddefodd dros yr anghyfiawn. Luc 23. 15. Wrth gospi, haeddiant y pechadur yw rheol Duw; ond wrth drugarhau, ei drugarogrwydd ei hun yw ei reol. Dat. 16. 6. Heb. 10. 29. Ps. 51. 1.

HAEL—IONI, (hy-ael) rhoddgar, cedawl; hyged, calonrwydd, llaw-egor, syberlan, hyrodd.—Mae haelioni yn arwyddo yr hyn a roddir i'r tlawd, neu ysbryd rhwydd y rhoddwr yn cyfranu. 2 Cor. 8. 2. a 9. 11, 13. Yn ei haelioni, fel pob peth arall, mae yr Arglwydd yn rhagori yn anfeidrol ar ei holl greaduriaid; 'yr hwn sydd yn rhoi yn *haelionus i bawb*.' Iago 1. 5. Mae yn rhoi yn rhwydd o'i roddgarwch; nid llawer i rai, neu ychydig i rai, ond yn haelionus i bawb. Y mae rhoddi yn hyfrydwch ac yn llawenydd iddo, ac mae ei drysorau yn cyfateb i'w haelioni.

'A'th hael ysbryd cynnal fi.' Ps. 51. 12. רוח נדיבה *ysbryd rhwydd, ewyllysgar, haelionus.* Y mae yn cynnal o gariad, wrth ei fodd, yn hyfryd, ac yn llawen; hyn a brofodd Dafydd, ac am hyny y mae yn ymbil drachefn. Y mae y gair yn arwyddo un yn gweithredu yn rhwydd, o barodrwydd, tuedd, a haelioni y meddwl, yn ddigymhell, ac heb ei haeddu. Yr un gair yw ag a gyfieithir *ewyllysgar*, yn Ps. 110. 3. ac mewn amryw fanau eraill. Edr. EWYLLYSGAR, GWLITH, YSBRYD. Mae haelionusrwydd yn addas iawn i bechadur a gafodd ei achub yn rhad, ac sydd yn derbyn yn helaeth, y cwbl yn rhad bob mynyd o law Duw. Esa. 32. 8.

HAERLLUG—RWYDD, (haer-llug) taer, digywilydd, taeogrwydd, anrhesymolder, creulonder.——'Gan ei gyhuddo ef yn haerllug.' Luc 23. 10. 'Ac ei cyhuddesont yn daer-ddrud.' W. S. '*Vehemently accused him.*' *Saes.* '*Accused him eagerly.*' Campbell. Cyfieithir yr un gair ευτονως, *egnïol*, yn Act. 18. 28. Yr oeddynt yn cyhuddo Crist â'u holl egni, yn ddyfal, ac o greulonder a gelyniaeth eu meddyliau tu ag ato.

HAF, (ha) un o bedwar tymhor y flwyddyn; yn mha un y mae pob peth yn ymddangos yn fwyaf hyfryd a dymunol.—Amseroedd o lwyddiant, o freintiau, a dydd iechydwriaeth, fel y maent yn hyfryd ac yn ddefnyddiol, a elwir felly. Diar. 10. 5. Zech. 14. 8. Y gair *Heb.* קיץ a arwydda adfywio, neu ddadebru o gwsg a marweidd-dra.—Yn yr ysgrythyrau rhenir y

Digitized by Google

flwyddyn yn ddwy ran, haf a gauaf, yn unig; nid oes un gair yn yr iaith Hebraeg am wanwyn a hydref. Schleusner. Gen. 8. 22. Ps. 74. 17. Zech. 14. 8 —'Ffrwythydd haf,' yw ffrwythau yn addfed yr haf. 2 Sam. 16. 1. Jer. 40. 10.—בית קיץ *haf-dŷ*, sef gwlad-dŷ, maenol: tai oeddynt yn y wlad i fyned iddynt rhag poethder y dinasoedd mawrion. Edr. GAUAF.——Mae addewid Duw yn sicrhau na phalla y tymhorau hyn holl ddyddiau y ddaear. Y mae yr addewid am hyn yn cael ei galw yn *gyfammod nas gellir ei ddiddymu*; yr un mor gadarn yw y cyfammod mewn perthynas i Grist, a'i ras i bechaduriaid. Jer. 33. 20, 21.

HAFILAH, חוילה [*yr hwn sydd yn dolurio*] 1. Ail fab Cus, ac ŵyr Ham. Efe a'i hiliogaeth a boblasant, tebygol, y wlad a alwyd oddi wrtho ef wrth yr enw hwn, o du gogledd-orllewin i lynclyn Persia, yr hwn oedd derfyn dwyreiniol yr Ismaeliaid a'r Amaleciaid. Gen. 10. 7. a 25. 18. 1 Sam. 15. 7.——2. Mab Joctan, ac ŵyr Heber. Gen. 10. 29. Y mae dadl yn nghylch sefyllfa y wlad hon. Nid anhawdd genyf gredu mai oddi wrtho ef y cafodd yr Hafilah, oedd yn cael ei hamgylchu gan yr afon Pison, yr enw. Gen. 2. 11. Dywedir am Ophir a Hafilah, eu bod yn hynod am aur; dau frawd oeddynt, oddiwrth ba rai y cafodd y gwledydd hyn yr enwau. Barna Reland a Calmet mai Colchis oedd; ond y mae eraill a'u barnau yn wahanol. Edr. EDEN.

HAFOTH-JAIR. Edr. JAIR.

HAGAB. Lef. 11. 22. Edr. CEILIOG-RHEDYN.

HAGAR, הגר [*dyeithr*] Aiphtes, morwyn Sarah, gwraig Abraham, a mam Ismael. Sarah yn gweled ei hun yn hen ac yn anmhlantadwy, a roddodd ei morwyn Hagar i Abraham, fel y cai efe blant o honi hi, A.M. 2093, C.C. 1911. Pan welodd Hagar feichiogi o honi, yr oedd ei meistres yn wael yn ei golwg. Sarah a'i cystuddiodd, hithau a ffôdd rhagddi, yn bwriadu dychwelyd i'r Aipht. Angel yr Arglwydd, sef Angel y Cyfammod, a'i cafodd wrth ffynon ddwfr yn anialwch Sur; a barodd iddi ddychwelyd at ei meistres, ac ymostwng iddi. Dywedodd wrthi hefyd yr amlhai efe ei hâd, y cai hi fab, ac y byddai efe yn ddyn gwyllt, a'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau. Edr. ISMAEL. Effeithiodd y weledigaeth arni yn hynod, a galwodd y ffynon Beerlaharoi, sef 'ffynon yr hwn sydd yn byw ac yn fy ngweled.' Ymddygodd fab i Abraham, ac efe a alwodd ei enw ef Ismael. Gen. xvi. Yn mhen 16 neu 17 o flynyddoedd, Ismael a watwarodd Isaac mab Sarah; ar hyn Sarah a barodd i Abraham fwrw allan yr Aiphtes a'i mab. Wedi cael ei gyfarwyddo gan yr Arglwydd yn nghylch hyny, gollyngodd Hagar a'i bachgen ymaith. Hi yn bwriadu myned i'r Aipht, ei gwlad ei hun, a gollodd ei ffordd, ac a grwydrodd yn anialwch Beerseba. Darfu y dwfr yn y gostrel; bwriodd y bachgen dan un o'r gwŷdd, i gysgodi rhag y gwres; ac a eisteddodd ei hunan ar ei gyfer, megys ergyd bwa oddi wrtho; hi a eisteddodd felly, ac a wylodd. Yn y cyfyngder hwn, yr Arglwydd a lefarodd wrthi o'r nefoedd, ac a'i cysurodd, ac a ddangosodd iddi bydew dwfr. Gwedi iddi ddiodi y llanc, llanwodd ei chostrel o'r dwfr, ac a aeth rhagddi nes y trigiasant yn anialwch Paran. Ei fam a gymerodd iddo wraig o wlad yr Aipht. Dyma yr holl hanes sydd genym am dani: am holl ddychymygion y Rabbiniaid a'r Arabiaid yn ei chylch, nid ydynt yn werth eu hadrodd. Pa bryd, a pha le, y bu farw, nid oes hanes. Yr Hagariaid oeddynt o hiliogaeth Hagar. Y Reubeniaid a'r Gadiaid yn nyddiau Saul a orchfygasant yr Hagariaid, ac a drigasant yn eu pebyll hwynt trwy holl du dwyrain Gilead. 1 Cron. 5. 10. Yr Hagariaid a gynnorthwysant yr Ammoniaid a'r Moabiaid yn erbyn Jehosaphat, ac a ddyfethasant eu gilydd yn ddychrynllyd. 2 Cron. xx. Ps. 83. 6. Edr. ISMAEL.

HAGEN, (ha-cen) etto, er hyny, er y cwbl, anllai. —'Nyd mi hagen.' 1 Cor. 15. 10. Ioan 21. 4. W. S.

HAGGAI, אני [*gwyl*] 1. Haggai yw y cyntaf o'r tri phrophwyd a brophwydasant ar ol y dychweliad o gaethiwed Babilon. Tebygol, medd Calmet, iddo gael ei eni yn Babilon, ac iddo ddychwelyd oddi yno gyda Zorobabel, yn yr ail flwyddyn i Darius Hystaspis, sef yn nghylch 16 o flynyddoedd wedi i Cyrus roddi gorchymyn yn nghylch adeiladu y deml yn Jerusalem. Ezra i. Rhai, megys y Dr. Francis Roberts, a farnant mai Darius Nothus ydyw, ac nid Hystaspis, ond yn gamsyniol, tybygaf. Gwel Prideaux's *Connection, part* i. Scott *in loc*. Darius Nothus oedd yn teyrnasu oddeutu can mlynedd ar ol Darius Hystaspis. O fewn pedwar mis traddododd Haggai ei brophwydoliaethau a'i genadwriaethau oddiwrth yr Arglwydd i'r bobl; i gyd yn perthyn i adeiladaeth yr ail deml, ac yn cynnwys ceryddon, rhybuddion, ac annogaethau yn nghylch y gorchwyl mawr hwnw. Yn gysylltiedig â'r pethau hyn, cawn brophwydoliaethau am Grist a'i deyrnas, a llwyddiant cyffredinol yr efengyl yn y diwedd. Mae Paul yn cyfeirio at Haggai am gadarnhad fod y prophwydi yn rhagfynegi am un, a dim ond un, cyfnewidiad mawr cyffredinol yn agwedd allanol yr eglwys yn y byd. Cymh. pen. 2. 6, 7. â Heb. 12. 26, 27. Ysgrifenodd ei brophwydoliaethau mewn rhyddiaith, fel y ddau eraill a ysgrifenasant wedi y dychweliad. Nid oes dim hanes am ei farwolaeth. Gwel Prideaux's *Connect., part* i.——2. Haggai mab Gad. Gen. 46. 16.——3. Un o lwyth Gad, pen-teulu, a thad yr Haggiaid. Num. 26. 15.

HAGGIAH, חגיה [*gwledd*] mab Simca, o dylwyth Merari. 1 Cron. 6. 30.

HAGGITH, חגית [*llawenydd*] gwraig Dafydd, a mam Adoniah. 2 Sam. 3. 4.

HAIACH, (hai) cythrym, cythrymedd, y ran leiaf o amser; agos, oddieithr, ychydig.

> Ti a'i briwi hwynt yn dy farn
> A gwialen haiarn *haiach*. *E. Prys*, (Ps 2. 9.)

HAIARN, HEIYRN, (hai-arn) *Gr.* αρις, σιδεροι; mettel caled, defnyddiol, a digon adnabyddus. Buasai yn anhawdd ei gredu, oni buasai ei fod wedi ei gadarnhau trwy brofiadau aml, fod haiarn yn gwneuthur rhan o bob sylwedd a defnyddiau yn y byd. Mae yn fettel cyffredin i'w gael yn mhob math a'r ddaear a cheryg, yn mŵn metteloedd eraill, yn lludw llysiau, coedydd, ac anifeiliaid; mewn mêl, &c. Gwel *Encyclopædia*. Haiarn Sweden a Lloegr a gyfrifir yn oreu. Mae yn gofyn tân poethach i'w doddi nag un mettel arall. Gwneir llawer o arfau rhyfel o haiarn. Yr oedd ceryg Canaan yn haiarn, sef yn galed, ac yn cynnwys mŵn haiarn. Deut. 8. 9. Pan briodolir haiarn i iau, ffwrn, teyrn-wialen, arwydda ei bod yn erwin, yn flin, ac yn anhawdd i'w dyoddef. Jer. 28. 14. a 11. 4. Deut. 4. 20. a 28. 48. 1 Bren. 8. 51. Ps. 2. 9. Dat. 2. 27. a 12. 5. Edr. IAU, FFWRN, &c. Pan briodolir ef i gyrn, neu ddannedd, arwydda gallu dirfawr, i orchfygu a dystrywio. Mic. 4. 13. Dan. 7. 7. 'Y nefoedd yn haiarn, a'r ddaear yn bres,' a arwydda sychder a diffrwythder mawr. Lef. 26. 19. Edr. DUR, GOGLEDD, GEWYN, TUBAL-CAIN.

HAID, HEIDIAU—O, (hy-aid) torf, mintai, gyr, dëadell, gre. Barn. 14. 8. Edr. CYMYSG-BLA.— 'A heidiasant i dŷ y butain.' Jer. 5. 7. Tyrasant yn ddigywilydd, fel anifeiliaid, ar ol eu haflendid a'u heilun-addoliaeth.

HAIDD, HEIDDIAU, (hy-aidd) planigyn â'i rawn yn ddefnyddiol, a digon adnabyddus. Yn Pa-

Digitized by Google

lestina yr oeddynt yn hau yr haidd yn mis Hydref, ac yn ei fedi yn Mawrth. Yn yr Aipht mae cynauaf yr haidd yn ddiweddarach, yn dechreu oddeutu diwedd Ebrill; canys pan syrthiodd y cenllusg ar y wlad, ychydig cyn y pasc, dywed Moses fod 'yr haidd wedi hedeg, a'r llin wedi hadu, a'r gwenith a'r rhyg oeddynt yn yr egin.' Exod. 9. 31, 32. Sonir am yr haidd fel ymborth meirch Solomon. 1 Bren. 4. 28. Felly y sonia y prydydd Groegaidd Homer hefyd am dano. *Iliad* v., *lin.* 196. *Iliad* vi., *lin.* 506, *&c.* Yn y gwledydd dwyreiniol porthir meirch â haidd hyd heddyw. Gwel Hasselquist's *Travels.* Ond mae yn amlwg fod bara haidd yn arferedig yn mhlith yr Hebreaid. 2 Sam. 17. 28. 2 Bren. 4. 22. 2 Cron. 2. 15. Ymborth gwael yr oedd yn cael ei gyfrif, addas yn unig i dlodion a chaeth-weision: *hyn* oedd, tebygol, cynnaliaeth Crist a'i ddysgyblion; ac â phum torth haidd a dau bysgodyn y porthodd efe bum mil o bobl. Ioan 6. 9—14.

Haidd, weithiau, a arwydda peth gwael, diwerth.—Cyhuddir y gau-brophwydi, eu bod 'yn halogi Duw yn mysg y bobl, er dyrneidiau o haidd, ac am dameidiau o fara.' Ezec. 13. 19.

HAIG, HEIG—IAU—IO, (hy-aig) llïaws, haflug; llïosogi, haflygo.—Haig o bysgod, sef llïaws. Gen. 1. 20, 21. a 48. 16. Exod. 8. 3. Ps. 105. 30.

HAINT, (hain) clefyd, clwyf, anhwyl, llesgedd, dolur.—Haint y nodau, y pla chwaren; haint gwres, twymyn, poethgryd; haint y fam, y fam-wst; haint y ddueg, iselder ysbryd; haint y marchogion, y lledewigwst; haint y trythyllwch, barn Duw ar drosedd y seithfed gorchymyn; haint llyn, clefyd cyffredin; haint dygwydd, clefyd syrthio. Un o farnau Duw ar ddynion ydyw yr haint. Lef. 26. 25. Num. 14. 12. Deut. 28. 21. 2 Sam. 24. 13. 2 Cron. 7. 13. Ps. 78. 50. Jer. 14. 12.

HALAH, gwlad tu hwnt i'r afon Euphrates, i ba un y symudwyd y deg llwyth gan freninoedd Assyria, 2 Bren. 17. 6.

HALELUIAH. Edr. ALELUIA.

HALEN, (hâl) *Heb.* מלח *Gr.* αλς, αλας; *Llad.* SAL; *Ffr.* SEL; *Ar.* HOLEM; *Gwydd.* SALAN: heli. Un o'r pethau penaf o angenrheidiau bywyd dyn yw halen. Eccles. 39. 26. Ceir halen amrywiol ffyrdd. Y mae mwngloddiau halen hynod yn Hungari, Poland, a Catalonia. Yn Cardona mae mynydd halen, ei uchder yn bum cant o droedfeddi, ei gylch yn dair milltir, a'i ddyfnder islaw arwyneb y ddaear yn anadnabyddus. Y mae mwngloddiau halen Poland, sydd yn agos i bentref Waliska, oddeutu pymtheg milltir o Cracow, yn rhai rhyfedd iawn o ran eu dyfnder a'u maintioli. Y mae ynddynt fath o wladwriaeth dan y ddaear, â llywodraeth, cyfreithiau, teuluoedd, &c., yn perthynu iddi. Gwelir cannoedd o bobl fel gwedi eu claddu yn fyw ynddynt, a llawer yn cael eu geni heb syflyd oddi yno dros eu bywyd. Y mae uwch eu penau grom-nenau mawrion, uchel, yn cael eu cynnal gan golofnau mawrion wedi eu tori â chynion, ac yn ngoleu y canwyllau pŷg sydd yn goleuo yno, yn llewyrchu fel colofnau grisial ofnadwy, gyd â'r fath ddysgleirdeb, fel braidd y mae efe yn oddefol i'r llygaid. Peth sydd ryfedd hefyd yno, y mae ffrwd o ddwfr *croyw* yn rhedeg trwy ganol y mwnglawdd, digonol i achosion y trigolion. Y mae mwngloddiau halen Hungari mor hynod a'r rhai hyn, ac yn ddeunaw ugain gwrhyd dan y ddaear. Y maent ddwy filltir o ddinas Eperles yn Sarax, ar yr afon Tahrz. Y mae math a'r halen sych mwyaf hynod yn y byd i'w gael yn ynys Tsongming, yn yr India Ddwyreiniol. Y mae yr ynys yn dra ffrwythlawn, ond mewn rhai parthau iddi canfyddir manau o amryw erwau yn hollol ddiffrwyth: yn y manau hyny y bydd y trigolion yn cloddio yr halen allan. Y peth sydd yn hynodol iawn yw, bydd glaswellt un flwyddyn a halen flwyddyn arall ar yr un tir, ac felly yn y gwrthwyneb. Gwel *Cyclopædia.* Y mae mwngloddiau halen yn Sir Gaerlleon; cafwyd hwynt A.D. 1670, wrth dyllu am lo; hefyd y mae yno, a manau eraill o Loegr, ffynonau halen. Gwneir halen trwy fyg-darddu dyfroedd y ffynonau hyn, ac o heli y môr.

Y mae halen yn mhob corph cyfansawdd, megys mewn anifeiliaid, llysiau, mwn, &c. Y mae halen cymysgedig â dwfr y môr yn ei gadw rhag drewi a llygru, ac yn ei addasu yn well i lestri trymion nofio ynddo; ac y mae dygyforiad y dwfr yn cadw yr halen rhag myned i'r gwaelod. Edr. MOR. Dywed Galen fod halen yn cael ei wneuthur gynt o ddyfroedd llyn Asphaltites, neu y Môr Marw, ag oedd yn gryfach ac yn treulio bwydydd yn y cylla yn well nag un halen arall. Gwel *De Simpl. Medicam. Facult., l.* iv., *c.* 19.

Dywedir ddarfod i Dafydd ladd 18,000 o'r Syriaid; ac Abisai mab Serfiah a laddodd o'r Edomiaid 18,000: a Joab a laddodd 12,000 o'r Edomiaid 'yn nyffryn yr halen.' 2 Sam. 8. 13. 2 Cron. 35. 11. Ps. lx., titl. Amasiah a darawodd yn yr un dyffryn 10,000 o'r Edomiaid. 2 Bren. 14. 7. 2 Cron. 25. 11, 12. Yr ydoedd gan freninoedd Syria byllau halen o du y gorllewin i'r Môr Marw, ac ar dueddau gogleddol Edom, lle yr oedd, tebygol iawn, y dyffryn halen yn gorwedd. 1 Mac. 10. 29. a 11. 35. Y Dr. Halifax, yn ei hanes o Palmyra, a grybwyll am ddyffryn halen, oddeutu tair milltir o Palmyra, yr hwn sydd yn cyrhaedd hyd barthau dwyreiniol Idumea. Pa un a ydoedd y lladdfeydd uchod gan Dafydd, Abisai, a Joab, yr un ai peidio, sydd yn anhawdd ei benderfynu; rhai a farnant fod y Syriaid a'r Edomiaid mewn cynghrair â'u gilydd, a bod Abisai yn ymladd yn un pen i'r dyffryn, a Joab yn y pen arall; gan na ellir penderfynu hyny, nid gwiw amlhau geiriau.

Y prophwyd Eliseus a iachaodd y dyfroedd afiach yn Jericho, trwy ddodi halen mewn phiol newydd, a bwrw yr halen i ffynonell y dyfroedd. Nid oedd dim rhinwedd yn bod yn y moddion ynddynt eu hunain, ond hwyrach i'r gwrthwyneb; ond er hyny yr oeddynt o weithrediad effeithiol yr Arglwydd yn rhinweddol yn y wyrth hòno. 1 Bren. 2. 19—22. Cyffelyb i hyn y mae yr Arglwydd yn adnewyddu ei bobl yn ysbryd eu meddwl, ac yna y maent yn ffrwythlawn i bob gweithred dda.

Yn yr ysgrythyrau mae halen yn arwydd o athrawiaeth, ysbryd ac ymarweddiad pur ac efengylaidd, Col. 4. 8.—o barhad ac anllygrediganeth, 2 Cron. 13. 5. Num. 18. 19. Y mae rhai yn barnu fod 'cyfammod halen' yn cyfeirio at ryw ddull o gyfammodi neu dyngu gynt, ag sydd arferedig etto yn y gwledydd dwyreiniol, trwy roddi halen ar fara a'i fwyta, neu ryw arferiad cyffelyb o halen. Gwel *Supplement to* Calmet's *Dictionary, Frag.* 130. *Asiatic Researches, vol.* iv.—Hefyd, mae yn arwydd o ddiffrwythder. Barn. 9. 45 Seph. 2. 9. Ps. 107. 34. Jer. 17. 6.

'O herwydd ein bod ni yn cael ein cynnaliaeth o lŷs y brenin.' Ezra 4. 14. '*O herwydd ein halltu ni â halen y llŷs.*' *Heb.*—'Ac yn awr o herwydd ceisio o honom ddystrywio y deml.' Dr. M. Y mae rhai hen gyfieithiadau yn cytuno â Dr. M., ond yn anmhriodol a thraws-gymhelliol. Mae ein cyfieithiad ni yn rhoddi ystyr y geiriau, er nad ydyw yn gyfieithiad o honynt. Yn iaith y dwyreinwyr hyd heddyw, y mae rhoddi neu dderbyn halen, yn arwyddo yr un peth a rhoddi cynnaliaeth i neu dderbyn cynnaliaeth gan un. Y mae y duwiol a'r dysgedig Joseph Mede yn sylwi, yn ei amser ef, pan y byddai Ymerawdwr Rwssia am ddangos rhyw garedigrwydd neillduol i un, y byddai yn anfon bara a halen oddiar ei fwrdd iddo; a phan wahoddai un i'w fwrdd i fwyta, dywedai fel hyn, 'Chwi gewch fwyta eich bara a'ch halen gyda ni heddyw.' Ymerawdwr

Digitized by Google

diweddar Persia, yn edliw gweinidog anffyddlawn, a ddywedai, 'Y mae genyf y fath weision anniolchgar a bradwriaethol i fwyta fy halen.' Harmer's *Observ.*, *vol.* iv. Y mae yn ddywediad cyffredin, meddant, yn mhlith brodorion yr India Ddwyreiniol, 'Yr ydwyf fi yn bwyta halen y cyfryw un,' i arwyddo ei fod yn cael ei gynnal ganddo ef.' Hefyd, yr oedd halen gynt yn arwydd o gyfeillgarwch a chroesawrwydd; felly y mae bwyta halen yn rhwymo y bwytawr i ffyddlondeb cyfeillgar iddo.

'Offryma halen ar bob offrwm i ti'—'pob aberth a helltir â halen.' Lef. 2. 13. Marc 9. 49. Yr oedd offrymu halen ar y bwyd-offrwm a'r poeth-offrwm, yn arwyddo pereidd-dra aberth Crist, a pharhad tragywyddol ei effeithioldeb; ac hefyd, effeithiau gras yr efengyl ar eneidiau pechaduriaid, yn gwrth-weithredu eu holl lygredigaethau, yn eu gwneuthur fel aberthau byw, sanctaidd, a chymeradwy i'r Arglwydd. Edr. Aberth.

'Chwi yw halen y ddaear.' Mat. 5. 13. Mae y ddaear fel yn braenu ac yn drewi gan feiau ffiaidd ei thrigolion; yr oedd yr apostolion yn pregethu athrawiaeth yr efengyl, ac yn byw yn sanctaidd, fel halen i'w phereiddio. Heb eu halltu â'r halen, braena pechaduriaid i ddystryw tragywyddol. Edr. Diplas.

HALOG—I—EDIG—AETH, (hâl) llygru, llygredig, llygredigaeth, aflanhau, ansancteiddrwydd.—Y mae halogedigaeth yn groes i sancteiddrwydd; y mae dynion yn byw yn halogedig pan y byddont yn byw yn groes i sancteiddrwydd yn eu geiriau a'u hymarweddiad. Y mae pethau yn cael eu halogi, megys Duw, ei enw, ei sabbothau, ei addoliad, ei ddeddfau, a'i gyfammod, pan y byddont yn cael eu golygu a'u harferyd yn annhurchus, o egwyddor ac i ddybenion llygredig; heb ufuddhau i'w ddeddfau sanctaidd; ac heb gadw ei orchymynion a'i gyfammod. Lef. 18. 21. Ezec. 13. 19. a 22. 4. Ps. 89. 31, 34. Edr. Sancteiddrwydd, Llygredigaeth.

'Am hyny halogais dywysogion y cysegr.' Esa. 43. 28. a 47. 6. Hyny a wnaeth trwy eu rhoddi yn ddiofryd-beth i ddwylaw eu gelynion creulawn, ac i farnedigaeth ydoedd yn eu hiselhau i waradwydd a dirmyg. Edr. Gwrachiaidd, Gwrthwyneb, Gwybodaeth.

HALOHES, הלוחש [*swynwr*] tad Salum. Neh. 3. 12.—Un arall o'r enw. Neh. 10. 24.

HAM, (hy-am) achos, amgylchiad.—Nid am ei ham y daeth hyn iddo, sef nid heb achos y daeth hyn iddo; gwneuthur peth o ham i ham, yw gwneuthur peth ar antur; caiff beth am ei ham, sef am ffril, neu am wael-beth.

> Gwaith i'r rhai a wnel â mi *ham*,
> Ryw dwyll neu gam yn ddyhir.
> *E. Prys*, (Ps. 25. 3.)

HAM, חם [*gwineuddu*] mab ieuengaf Noah, yr hwn a wawdiodd waradwydd ei dad, ac a felldigwyd o'r achos, efe a'i hiliogaeth. Gen. 9. 22, &c. Efe oedd tad Cus, Misraim, Put, a Chanaan. (Gwel yr amrywiol enwau.) Ei hiliogaeth a boblogasant Affric, a pharth o Asia yn y gorllewin. Oddi wrtho ef y gelwid yr Aipht Chemia, gan Plutarch, a thir Ham yn Ps. 105. 23, 27. a 106. 22.—a phebyll Ham. Ps. 78. 51.—Yr oedd lle arall o du y dwyrain i'r Iorddonen a elwid Ham: 'A'r Zuziaid yn Ham.' Gen 14. 5.—Rhai o hiliogaeth Ham a breswyliasant gynt ar gyffiniau deheuol i randir llwyth Simeon. 1 Cron. 4. 40. Mae y rhan fwyaf yn barnu, mai wrth Jupiter Ammon, eilun-dduw yr oedd teml iddo yn Lybia, wrth wlad yr Aipht, y mae i ni ddeall Ham. Gwel Well's *Geography*. Calmet's *Dictionary*. Y mae ei hiliogaeth wedi bod, gan mwyaf, hyd yn hyn, yn fwyaf llygredig, anfoesgar, ac eilun-addolgar o neb o drigolion y ddaear, ac ychydig o honynt etto a fwynhaodd oleuni yr efengyl. Mae tywyllwch dirfawr yn gorchuddio, hyd heddyw, holl wlad Affric, lle preswylia hiliogaeth Ham.

HAMAN, המן [*cythrwfl*] mab Hammadetha o hiliogaeth Agag, Amaleciad. Y brenin Ahasferus a fawrhaodd Haman, ac a'i dyrchafodd ef: a gosododd ei orsedd-fainc goruwch yr holl dywysogion. Gorchymynwyd i holl weision y brenin i ymgrymu ac i ymostwng i Haman—tebygol eu bod yn gorchrain eu hunain yn gwbl ar lawr iddo, fel i ryw eilun-dduw: hyn a ommeddodd Mordecai, ac nis gallasai wneuthur, yn gydwybodol, yn un â'r ail orchymyn. 'Mynegasai iddynt mai Iuddew oedd efe,' (Esth. 3. 4.) fel yr achos paham nad ymgrymai efe i Haman: ei grefydd fel Iuddew oedd yr achos o'i anufudd-dod. Am y dystyrwch hwn, ceisiodd Haman ddial ar holl genedl yr Iuddewon; ond gwaredodd yr Arglwydd hwynt, a chrogwyd ef ar y crogbren a barotodd i Mordecai; lladdwyd ei ddeg mab hefyd. Gwel yr hanes rhyfedd yn llyfr Esther. Edr. Esther, Mordecai, Pwr.

HAMATH, חמת [*digofaint*] yr oedd mab i Canaan o'r enw hwn, tad yr Hamathiaid. Gen. 10. 18. 1 Cron. 1. 16. Oddi wrtho ef, tebygol, cafodd yr holl leoedd eu henwau, oedd ar yr enw hwn; megys Hamath, dinas Naphtali, yr un hwyrach, a Hamath-Dor. Jos. 13. 5. Hamath-Sobah. 2 Cron. 8. 3, 4. Hamath fwyaf (Amos 6. 2.) dinas yn Syria, yr un ag Epiphania, neu Emesa. Edr. Toi.

HAMDDEN, (ham-dan) seibiant, llonyddwch, esmwythdra, enyd, dyspeidiad.—'Nid oeddynt yn cymeryd hamdden i ddim arall.' Act. 17. 21.—'Nid oeddynt yn cymeryt enhyt y ddim.' W. S.

HAMMADETHA, המדתא tad Haman. Esth. 3. 1.

HAMMON, חמון [*digofaint*] 1. Dinas yn Asur. Jos. 19. 28.——2. Un arall yn Naphtali. 1 Cron. 6. 76.

HAMONAH, המונה [*lliaws*]. Nis gwyddom am un ddinas o'r enw hwn yn Palestina, medd Calmet; hwyrach fod y prophwyd am ddangos y byddai lladdfa tyrfa Gog mor fawr, fel y gellid galw eu claddfa, 'y lliaws.' Ezec. 39. 16. Edr. Gog.

HAMON-GOG, *Heb.* המון־גוג [*lliaws Gog*].—'Dyffryn Hamon-Gog,' sef dyffryn lliaws Gog; sef lle y cleddir lluoedd Gog. Mae tywyllwch yn aros ar y brophwydoliaeth nes ei chyflawni. Ezec. 39. 11, 15. Edr. Gog.

HAMOR, חמור [*asyn*] tad Sichem. Gen. xxxiv. Prynodd Jacob ran o'r maes ganddo, y pabellodd ynddo ar ei ddychweliad i wlad Canaan.

HAMUEL, חמואל [*digofaint Duw*] mab Misma. 1 Cron. 4. 26.

HAMUL, חמול [*duwiol*] mab Phares, pen teulu. Gen. 46. 21. Num. 26. 21.

HAMUTAL, חמיטל [*gwres y gwlith*] merch Jeremiah o Libnah, gwraig Josiah, a mam Joachaz, breninoedd Judah. 2 Bren. 23. 31.

HANAMEEL, חנמאל [*gras oddiwrth Dduw*] mab Salum, ewythr Jeremiah, gan yr hwn y cafodd orchymyn i brynu maes Anathoth. Jer. 32. 7.

HANAN, חנן [*trugarog*] mab Asel, o lwyth Benjamin. 1 Cron. 8. 38.

HANANI, חנני [*fy nhrugaredd*] 1. Tad y prophwyd Jehu, yr hwn a brophwydodd yn erbyn Baasa a'i dŷ. 1 Bren. 16. 7.——2. Gweledydd, yr hwn a brophwydodd wrth Asa brenin Judah yn ei erbyn. 2 Cron. 16. 7.——3. Lefiad a cherddor yn y deunawfed dosparth. 1 Cron. 25. 4, 25.

Digitized by Google

HANANIAH, חנניה [*trugaredd yr Arglwydd*]—1. Mab Zorobabel. 1 Cron. 3. 19.——2. Mab Azur, gau brophwyd o Gibeon, yr hwn a wrthwynebodd Jeremiah, am iddo brophwydo gau heddwch i'r bobl; ac a ragfynegodd ei farwolaeth o fewn y flwyddyn hòno. Jer. 28. 1, &c.

HANNATHON, [*rhodd trugaredd*] dinas o Zabulon. Jos. 19. 14.

HANES, enw dinas yn yr Aipht, a elwid Anusis gan y Groegiaid. Esa. 30. 4.

HANES, (hân-es) brud, brut, edrybod, coffadwriaeth. Gen. 29. 13. 2 Cron. 13. 22. Act. 23. 15. a 25. 14.

HANFOD—I, HANFFO, (an-bod) cael bôd; deillio oddiwrth; cael ei genedlu.—'Fel yr hyn a hanffo o honoch.' Lef. 19. 34. Sef, fel yr un a enir o honoch; 'câr ef fel ti dy hun,' yw y gyfraith freninol tu ag at bawb heb ddim gwahaniaeth, pa un ai dyeithr ai priodor fyddo. Hynod uniondeb a didueddrwydd y gyfraith sanctaidd!

HANIEL, mab Ephod, o lwyth Manasseh; efe oedd benaeth dros y llwyth hwnw yn rhanu tir Canaan. Num. 34. 23.

HANNAH, חנה [*trugarog*] gwraig Elcanah, Lefiad o Ramathaim Sophim, o fynydd Ephraim. Yr ydoedd iddo wraig arall heblaw Hannah, a'i henw Peninnah. Yr oedd Hannah yn wraig hynod am ei duwioldeb, a'i gwr a'i carai hi, ond yr oedd hi yn anmhlantadwy.—Y gwr a âi i fynu bob blwyddyn i aberthu i'r Arglwydd yn Siloh. Yr oedd yn rhoddi y diwrnod yr aberthai, o'i ran ef o'r aberth hedd, ran i bob un o'r teulu, ond rhoddai ran dauddyblyg i Hannah. Peninnah a'i cyffrôdd o'r achos, i'w chythruddo hi, am ei bod yn anmhlantadwy. Yn chwerwder ei hysbryd o achos y brotedigaeth hon, gweddiodd ar yr Arglwydd am fab, ac a wylodd. Eli a dybiodd ei bod hi yn feddw, ac a'i ceryddodd; ond gwedi iddo ddeall ei gamsyniad, efe a'i bendithiodd. Cafodd foddlonrwydd fod yr Arglwydd wedi gwrando ei gweddi; a hi a aeth i'w thaith, ac ni bu athrist mwy. Yn fuan gwedi ei dychweliad i Ramah y cofiodd yr Arglwydd hi, a hi a ymddygodd fab; wedi esgor arno, hi a alwodd ei enw Samuel, sef *yr hwn a archwyd gan yr Arglwydd*. Hannah a arosodd gartref nes diddyfnu y bachgen; gwedi hyn, dygodd ef i fynu i Siloh, ac a'i cyflwynodd i'r Arglwydd yn ol ei hadduned. Ar yr achos hwn, cyfansoddodd gân ragorol i'r Arglwydd, yn mawrhau yn ardderchog ei fawredd, ei ddoethineb, ei allu, ei sancteiddrwydd, a'i drugaredd. Bu iddi gwedi hyn dri o feibion eraill, a dwy o ferched, pan y bu feirw plant Peninnah, tebygol. Nid oes hanes ychwaneg am dani—ond y mae ei choffadwriaeth yn hynod ac yn beraidd yn llyfr Duw! 1 Sam. i, ii.

HANNER, (han-der) hannereg; megys, hanner nos; hanner dydd; hanner-wybr; hanner-werth.—'Hanner eu dyddiau,' sef byr amser. Ps. 55. 23. Jer. 17. 11.——'Hanner marw,' Luc 10. 30. yn 'lledvarw, amadvyw.' W. S.

HANOCH, (Edr. ENOCH). 1. Mab Midian, ac ŵyr Abraham o Ceturah. Gen. 25. 4.——2. Mab hynaf Reuben, pen-teulu. Gen. 46. 9.

HANUN, חנון [*trugarog*] 1. Mab Nahas brenin meibion Ammon. Mae y gwr hwn yn nodedig am y dirmyg a wnaeth i weision Dafydd, a anfonwyd i'w gysuro am ei dad. Yn ganlynol i hyn bu rhyfel rhyngddynt, a Dafydd a orchfygodd ei holl deyrnas, ac a ddystrywiodd Rabbah, y brif ddinas; cymerodd ei goron oddiam ei ben, yr hon oedd yn pwyso talent o aur, gyd â'r meini gwerthfawr, a hi a osodwyd ar ben Dafydd; ac efe a ddug ymaith o'r ddinas anrhaith fawr iawn. Am fod talent dros gan pwys, barna rhai, mai yn nghyd â'r meini gwerthfawr, ei bod o *werth* hyny a feddylir—mae can pwys yn rhy drwm i fod ar ben neb. Tebygol i Hanun gael ei ladd yn yr ymladdfeydd â Dafydd a'i fyddinoedd, a hwyrach i Sobi ei frawd ef, yr hwn a ddygodd ymborth i Dafydd yn Mahanaim, gael ei wneyd yn rhaglaw ar y deyrnas dan Dafydd. 2 Sam. x, xi. a 17. 27, 28, 29. 1 Cron. xix, xx.——2. Mab Seleph, yr hwn ar ol y dychweliad o Babilon, a gyweiriodd borth y glyn. Neh. 3. 13.

HAPHARIM, חפרים [*cloddwyr*] dinas yn Issachar. Jos. 19. 19.

HARA, הרא [*mynydd*] dinas yn Assyria; un o'r rhai i ba un y trosglwyddodd Tiglath-Pilneser brenin Assyria yr Israeliaid. 1 Cron. 5. 26.

HARAN, *Heb.* חרן [*mynydd*, neu *gwlad fynyddig*]. 1. Mab hynaf Terah, a brawd Abraham a Nachor, a thad Lot a'i ddwy chwaer, Milcah ac Iscah. Nachor ei frawd a briododd ei ferch Milcah; mae rhai yn barnu i Abraham briodi ei ferch arall, ac mai yr un yw Iscah a Sarai: ond y mae hyn yn ammheus. Bu farw Haran o flaen ei dad Terah, yr hyn oedd ddygwyddiad anarferol yn y dyddiau hyny, a'r cyntaf y cofféir am dano. Gen. 11. 28.——2. Haran, neu Charran. Trigle cyntaf Abraham wedi gadael Ur y Caldeaid, a'r lle bu farw Terah. Tebygol iddynt alw y lle wrth yr enw hwn, yn goffadwriaeth barchus am Haran. Gen. xi. Act. 7. 2. Yma y ffôdd Jacob rhag Esau ei frawd, ac y trigodd efe gyd â'i ewythr Laban. Gen. 27. 43. Yr oedd Haran yn Caldea, ac nid pell oddiwrth Ur. Llesgrwydd Terah, tebygol, ydoedd yr achos i Abraham drigo yno, ac iddo aros gyd â'i dad nes ei farw. Cafodd alwad oddi yno i fyned i Ganaan. Gen. 12. 1.——3. Mab Caleb o'i ordderch-wraig Ephah. 1 Cron. 2. 46.

HARBONAH, ystafellydd Ahasferus, yr hwn a gafodd orchymyn i grogi Haman. Esth. 1. 10. a 7. 9.

HARDD—WCH, (hâr) *Heb.* הדר gweddeiddrwydd, gweddusder, tegwch, gwychder, addwyn, prydferth.—Mae y gair *harddwch* yn cyfateb i'r geiriau GOGONIANT, PRYDFERTHWCH (y rhai edrych).

'A thegwch ei harddwch ef a osododd efe yn rhagoriaeth.' Ezec. 7. 20.—'Gogoniant hefyd ei harddwch ef yn rhagoriaeth y gosodase (Duw) ef.' Dr. M.—'Harddwch eu haddurniadau a droisant yn falchder.' Newcome. Tebygol mai y deml a feddylir, yr hon yr oedd Solomon gwedi ei harddu fel adeilad i'r gradd mwyaf, a Duw gwedi rhoddi rhagoroldeb iddi goruwch pob lle arall, â thegwch ei bresennoldeb. O bob harddwch, sancteiddrwydd yw yr harddwch mwyaf goruchel a godidog; harddwch dwyfol ydyw: am hyny y mae yn harddwch sylweddol, ardderchog, parhaus, a thragywyddol. Hwn ydyw harddwch Duw ei hun; a thyma harddwch ei holl bobl: arwisg ydyw gogoniant ar sancteiddrwydd. Exod. 15. 11. Ps. 110. 3. 2 Cor. 5. 4.

HARDD-FARCH, (hardd-march) march tlws, march trwsiadus.—'Ac a'u gwnaeth fel ei hardd-farch yn y rhyfel.' Zech. 10. 3. כסוס הודו *fel march ei ogoniant*. Gwisgodd ei bobl â nerth a gwroldeb dros y gwirionedd, a thros ei achos yn y byd, fel march golygus gwedi ei barotoi i ryfel. Can. 1. 9. Diar. 21. 31. Jer. 8. 6.

HARDD-WISG, HARWISG. Edr. GWISG.

HARETH, חרת [*cerfio*] coed yn Judah, lle ffôdd Dafydd rhag Saul. 1 Sam. 22. 5.

HARGOL.—'A'r hargol.' Lef. 11. 22. *Heb.* חרגל *Saes.* BEETLE. Math o locustiaid, medd Parkhurst ac Ainsworth. Ni wyddis ddim yn neillduol am danynt. Yr oeddynt yn fwytadwy dan y gyfraith.

Digitized by Google

HARHUR, חרחור [*llosgedig*] enw gwr. Ezra 2. 51.

HARIM, חרים [*gwedi diofrydu*] y trydydd teulu offeiriadol. Dychwelodd o Babilon o'r teulu hwn 1017. 1 Cron. 24. 8. Ezra 2. 39. a 10. 21.

HARIPH, חריף [*gauaf*] meibion Hariph 112 a ddychwelasant o Babilon. Neh. 7. 24.

HARNEPHER, חרנפר [*digofaint cynnyddol*] ail fab Sophah. 1 Cron. 7. 36.

HAROD, חרד [*rhyfeddol*] ffynon, neu le nid pell o Jezreel, wrth droed mynydd Gilboa. Barn. 7. 1.

HAROSETH, חרשת [*amaethwriaeth*] y ddinas lle y trigai Sisera, tywysog llu Jabin. Yr oedd yn sefyll wrth lyn Semechon. Barn. 4. 2.

HARSA. Pen teulu. Ezra 2. 52.

HARUM, הרם [*dyrchafedig*] mab Cos, a thad Aharhel. 1 Cron. 4. 8.

HARUS, חרוץ [*toredig*] tad Mesulemeth, gwraig Manasseh. 2 Bren. 21. 19.

HASABIAH, חשביה [*cyfrif yr Arglwydd*] 1. Mab Amasiah, Lefiad. 1 Cron. 6. 45.——2. Mab Jeduthun. Yr oedd ei hiliogaeth yn y deuddegfed cylch yn mhlith y Lefiaid yn y deml. 1 Cron. 25. 3, 19.——3. Tywysog hanner rhan Ceilah, ac a gynnorthwyodd i gyweirio muriau Jerusalem. Neh. 3. 17.

HASADIAH, חסדיה [*trugaredd yr Arglwydd*] mab Zorobabel. 1 Cron. 3. 20.

HASAR-GADAH, חצר־גדה [*trigfa yr afr*] dinas yn Judah. Jos. 15. 27.

HASARMAFETH. Trydydd mab Joctan. Gen. 10. 26.

HASARSUAL, חצר־שועל [*trigfa y llwynog*] dinas yn llwyth Simeon, neu Judah. Jos. 15. 28.

HASBADANAH, Lefiad, yr hwn oedd ar law aswy Ezra pan ddarllenodd y gyfraith. Neh. 8. 4.

HASEROTH, חצרת [*pentrefydd*] un o wersyllfaoedd meibion Israel. Num. 11. 35. a 12. 16.

HASESON-TAMAR, חצצון־תמר [*tywod cyfnewidiol*] yr un ag Engedi. Gen. 14. 7. 2 Cron. 20. 2.

HASMONAH. Gwersyllfa meibion Israel rhwng Mithcah a Moseroth. Num. 33. 30.

HASOR, חצר [*gwyrog*] 1. Dinas yn Judah. Jos. 15. 23.——2. Un arall o'r enw yn Naphtali. Jos. 19. 36. Yr hon, tebygol, ddarfu i Solomon ail-adeiladu, neu ei helaethu. 1 Bren. 9. 15.

HASUB. Mab Pahath-Moab, cynnorthwyodd i gyweirio muriau Jerusalem. Neh. 3. 11.

*HASUBAH, חשבה [*cyfrifiad*] mab Zorobabel. 1 Cron. 3. 20.

HASUM, חשם [*eu dystawrwydd*]. Tri neu bedwar ar hugain o'i hiliogaeth a ddychwelasant o Babilon. Ezra 2. 9. Neh. 7. 22.

HASSENAAH, הסנאה [*perth*]. Ei feibion wedi eu dychweliad o Babilon a adeiladasant borth y pysgod. Neh. 3. 3.

HATHACH, התך un o ystafellyddion y brenin Ahasferus. Esth. 4. 5.

HATLING, hanner ffyrling. Marc 12. 42. Edr. Ffyrling. Luc 12. 59. a 21. 2.

HATTUS, חטוש [*un yn ymadael â phechod*] mab Sechaniah. 1 Cron. 3. 22.

HAU—WR, (ha) heu, gwasgaru; taenu ar led; gwasgaru hadau; un yn hau hâd, neu yn taenu chwedlau. Y mae hau, yn gyffelybiaethol, yn arwyddo pregethu yr efengyl, yr hâd da. Fel na cheir ffrwyth i fedi heb hau, felly ofer yw dysgwyl am saint ar y ddaear heb bregethu yr efengyl i bechaduriaid, i'w gwneuthur hwy yn saint, y rhai ydynt wrth naturiaeth yn llygredig ac aflan. Mat. 13. 3. Marc 4. 3. Luc 8. 5. 2 Cor. 9. 10, 11. Edr. Had, Gwrando.

Y mae cyfraniadau elusengar yn cael eu galw yn hau hâd; y maent yn cael eu gwasgaru i'r angenus, ac yn eu hymgeleddu a'u cysuro; hefyd bydd medi i'r hauwr mewn bendithion yma, ac oddi yma. Er nad oes neb yn haeddu dim, etto bydd gwobr o ras i'r goruchwyliwr ffyddlawn. 2 Cor. 9. 7. Preg. 11. 1, 4, 6.

Y mae gweithrediad a rhodiad dynion yn gyffredinol, yn cael ei alw yn 'hau, hau i'r cnawd, neu hau i'r ysbryd,' fel y byddo bucheddiad dynion.—Hau i'r ysbryd, yw, tan ddylanwadau yr Ysbryd Glân, ac o egwyddor ysbrydol, ymroddi i wasanaethu yr Arglwydd, treulio ac ymdreulio i'w ogoniant, a rhoddi cwbl ddiwydrwydd i gynnyddu mewn sancteiddrwydd a duwioldeb. Gal. 6. 8. Weithiau y maent yn hau mewn dagrau, sef mewn tristwch a gorthrymder, yn gwasanaethu yr Arglwydd; ond hau ydyw er hyny; nid ydyw yr hâd wedi ei daflu i ffwrdd yn ofer, ond bydd medi yn sier o ganlyn mewn llawenydd a gorfoledd. Ps. 126. 5, 6.

'Heuwch mewn cyfiawnder.' Hos. 10. 12. Mae pob gweithred dda yn weithred gyfiawn; hau mewn, neu i gyfiawnder, ydyw gweithredu cyfiawnder yn rhydd ac yn llawen, heb feddwl mai gwaith ofer, diffrwyth ydyw. Y peth sydd dda, y mae yn gyfiawn, ac anghyfiawnder ydyw peidio ei wneuthur; y peth sydd gyfiawn y mae yn dda hefyd, sef yn dda i ni, yn llesol i eraill, ac yn gymeradwy gan Dduw.

'A ffrwyth cyfiawnder a heuir mewn heddwch, i'r rhai sydd yn gwneuthur heddwch.' Iago 3. 18. Ffrwyth cyfiawnder, sef gweithredoedd cyfiawnder yn tarddu o gyfiawnder trwy ffydd, ac o egwyddor gyfiawn yn yr enaid:—'A heuir mewn heddwch,' neu a weithredir mewn heddwch, sef yn heddwch Duw; mewn ysbryd heddychol, caredig, tu ag at bob dyn: y mae y doethineb sydd oddi uchod yn bur ac yn heddychol. Neu i heddwch, sef i bob llwyddiant a dedwyddwch:—'I'r rhai sydd yn gwneuthur heddwch,' sef 'yn dilyn heddwch â phawb, a sancteiddrwydd.'

Y mae 'hau i'r cnawd' yn gwbl groes i hyn yn ei natur a'i ffrwythau; ac a arwydda gweithredu yn gnawdol, o egwyddor a chymhelliadau pechadurus, i ddybenion pechadurus, ac i foddhau chwantau pechadurus, llygredig. Y mae gweithrediad pawb yn cael ei alw yn hau, am y bydd pawb yn medi yn gyfatebol yn y byd arall; y naill yn medi neu yn mwynhau *bywyd tragywyddol;* a'r lleill yn medi *llygredigaeth,* yn groes i anllygredigaeth ac anfarwoldeb, sef i fywyd tragywyddol. Gal. 6. 8. Job 4. 8. Diar. 6. 19. a 22. 8. Jer. 4. 3.

Gyda neillduol harddwch ymadrodd, cyffelyba yr apostol farwolaeth a chladdedigaeth y saint i hau, a hwnw mewn llygredigaeth—anmharch—a gwendid. Bydd medi etto ar ol yr hau hwn; ond nid y *corph a fydd* sydd yn cael ei hau; er y bydd i bob hedyn ei gorph ei hun, etto o ran ei ddull, ei wedd, a'i ansawdd, bydd yn rhagori ar yr hyn a hauwyd i radd diamgyffred—un yn llygredig, a'r llall yn anllygredig: un yn anianol, a'r llall yn ysbrydol. 1 Cor. 15. 42—45. Edr. Adgyfodiad.

HAUL, (ha-ul) *Heb.* חלל *dysgleirio, llewyrchu; Gr.* ηλιος, oddiwrth ελη, *dysgleirdeb; Llad.* Sol; huan, haulwen.

Goleu a *haul-dlws* gelnwedd. *E. Prys.*

Digitized by Google

Llusern mawr y ffurfafen, sydd a'i bresennoldeb yn ei gwneuthur yn ddydd, a'i absennoldeb yn ei gwneuthur yn nos. Y mae tri enw ar yr haul yn yr iaith *Heb.* חרס a arwydda *sychder*, am fod yr haul yn sychu: Buxtorf; neu, yn ol Parkhurst, *corph* cyfansawdd yr haul;—חמה *poethder*, neu tanbeidrwydd yr haul;—שמש *gwasanaethgarwch*, am fod yr haul yn wasanaethgar i'r ddaear, yn gweini goleuni iddi. Barna Parkhurst fod y gair diweddaf yn arwyddo *goleuni heulog*, ac nid corph yr haul. Yn ol yr awdwr hwn, mae y tri gair uchod yn arwyddo *corph* yr haul, neu y belen danllyd uwch ben; *gwres* yr haul; a *goleuni* yr haul. Ond y mae yn dra ammheus i mi, fod y geiriau yn cael eu harferyd bob amser gyda golwg ar ansawdd priodol y geiriau.

Yn ol golygiadau y gwybodyddion presennol ar seryddiaeth, y mae sefyllfa yr haul yn y canol, a'r ddaear a'r planedau eraill yn troi oddi amgylch iddo mewn amrywiol gylchoedd ac amserau, yn ol graddau eu pellder oddi wrtho. Yn gyntaf, Mercher; yn ail, Gwener; yna y Ddaear a'i lleuad; yna Mawrth; wedi hyny Iau a'i phedair lleuad; yna Sadwrn a'i phum lleuad, a'i chylch goleu; yn ddiweddaf y Georgium Sidus, a ganfyddwyd yn y flwyddyn 1781, gan Mr. Herschel trwy yspïen-ddrych yn mwyhau rhagor un o'r blaen i raddau mawrion: hwyrach y dichon fod ychwaneg yn anamlwg etto.* Fod yr haul yn sefydlog, mewn ystyr, a'r planedau hyn yn troi oddi amgylch iddo, sydd wedi ei arddangos tu hwnt i bob gwrthddadl. Y mae yr haul yn troi ar ei begwn, fel mae y ddaear yn troi i wneuthur dydd a nos. Edr. Dabar. Y mae yn troi ar ei begwn mewn cylch o saith niwrnod ar hugain, deuddeng awr, ac ugain mynyd. Mynediad brychau (*maculæ*) dros arwyneb yr haul, a ganfyddir mewn yspïen-ddrychau, sydd brawf amlwg o'r ysgogiad hwn o'r haul ar ei begwn. Y mae rhai o'r brychau hyn yn chwe gwaith yn fwy nag arwyneb yr holl ddaear. Pa beth ydynt nid hawdd penderfynu; ond maent yn amlwg i'w gweled. Am ddefnydd corph yr haul nid oes gan neb ddim i'w ddywedyd ond dychymygion. Ffynon gwres a goleuni yw i'n byd ni, ac y mae ei effeithiau yn hynod ar bob peth byw ynddo. Ei dryfesur sydd yn nghylch 888,000 o filltiroedd; ei faintioli arwynebol sydd yn 2,488,461,360,000 o filltiroedd ysgwar; ei faintioli cyfangorph sydd yn 369,121,768,400,000,000; ei bellder oddiwrth y ddaear, yw 95,173,127 o filltiroedd. Gwel Ferguson *in Cyclopædia.*

Y mae y goleuni yn dyfod o'r haul atom ni mewn wyth mynyd. Y mae bwleden cyflegr yn eerdded 480 o filltiroedd yn yr awr; ond byddai dros 22 o flynyddoedd yn dyfod o'r haul i'r ddaear. Pe byddai yr haul yn troi oddi amgylch y ddaear, byddai ei fynediad yn y cyhydedd yn 330,000 o filltiroedd mewn mynyd; a byddai mynediad Sadwrn, yn yr un amser, yn nghylch 3,724,000 o filltiroedd. Unrhyw beth yn syrthio o uchder mawr, ni syrthia yn syth i'r ddaear, yr hyn sydd yn brawf fod y ddaear yn symud. Pe bai edrychwr yn sefyll yn yr haul, ymddangosai y ddaear yn myned o'r gorllewin i'r dwyrain, yr un fath ag y mae yr haul yn ymddangos i'r edrychwr ar y ddaear yn myned o'r dwyrain i'r gorllewin. Yr haul yn codi ac yn gostwng, yw ei ymddangosiad neu ei ddiflaniad yn ein terfyn-gylch ni. Yr haul yn rhedeg, yw cyfnewidiad ei olygiad mewn perthynas i'r ddaear; ei waith yn sefyll, yw parhad yr un golygiad dros amser.

* Y mae seryddwyr diweddar wedi cael allan fod saith o blanedau bychain rhwng Mawrth a Iau; sef, Vesta, Ceres, Pallas, Juno, Astræa, Hebe, ac Iris. Ac yn y flwyddyn 1846, darganfyddwyd Neptune, yr hon sydd yn mhellach etto na'r Georgium Sidus. Adnabyddir y Georgium Sidus yn awr yn fwy cyffredin wrth yr enw Uranus, neu Herschel. Y mae gan Sadwrn saith lleuad; a thybir fod gan Uranus chwech. Nid oes mwy nag un o leuadau Neptune wedi eu darganfod etto.—E.

Yr amgylchiadau mwyaf nodedig o hynod a ddygwyddodd i'r goleuni mawr hwn sydd a hanes am danynt, oedd ei waith yn sefyll wrth weddi Josuah (Edr. Josuah); yn myned yn ol ddeg o raddau ar ddeial Ahaz, yn arwydd i Hezeciah (Edr. Deial); a'r diffyg goruwch-naturiol a fu arno pan y bu Crist farw. Yr oedd yn llawn lleuad yr amser hwn, sef y pasc, am hyny nis gallasai fod yn ddiffyg naturiol, gan y bydd y lleuad mewn sefyllfa cwbl groes i hyny pan y byddo diffyg naturiol ar yr haul. Jos. 10. 12, 13. 2 Bren. 20. 11. Mat. 27. 45.——Oddiwrth ei ddysgleirdeb ysplenydd, a'i ddefnyddioldeb rhagorol yn mhob ystyr i'r greadigaeth yma isod, yr oedd yr haul (â'i ddelwau cynnyrchedigol) yn cael ei addoli gan lawer o genedloedd fel eu Duw penaf: dan yr enw Baal gan y Phœniciaid; Chemosh gan y Moabiaid; Moloch gan yr Ammoniaid.—Y brenin Josiah a ddyfethodd y meirch a roddasai breninoedd Judah i'r haul wrth ddyfodfa tŷ yr Arglwydd, ac a losgodd gerbydau yr haul yn tân. 2 Bren. 23. 11. Wedi ei ddyddiau ef cawn yr Iuddewon â'u cefnau tu a'r deml, a'u hwynebau tu a'r dwyrain, yn ymgrymu i'r haul. Ezec. 8. 16.

Yn yr ysgrythyrau, y mae yr haul yn ddefnydd y cyffelybiaethau mwyaf ardderchog ynddynt. Bywyd a gogoniant ein byd ni ydyw: trwy dywallt ei belydr goleu gwresog am ben ein byd tywyll, diffrwyth, mae yn llôni, yn adfywio, ac yn ffrwythloni holl naturiaeth. Y mae pob creadur yn deimladol o'i rinwedd cysurol. Deut. 33. 14. Ps. 19. 5, 6. Job 25. 3. Mat. 5. 45.

Nid oes un gwrthddrych o fewn holl gylch naturiaeth, adnabyddus i ni, yn fwy addas i osod allan yr hyn ydyw yr Arglwydd i'w bobl. Yr hyn ydyw efe iddynt sydd yn eu goleuo, yn eu hadfywio, eu cysuro, a'u ffrwythloni.—'Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi, â meddyginaeth yn ei esgyll,' neu, שמש צדקה 'haul cyfiawnder a gyfyd, neu *goleuni cyfiawnder*, neu *gyfiawnhad*, a ymdaena, â meddyginiaeth yn ei ëangiad.' Nid tân yn llosgi, ond goleuni tirion, adfywiol, meddyginiaethol, yn egluro cyfiawnder. Crist yw y cyfiawnder, a Christ yw y goleuni sydd yn ei egluro, a thrwy bregethiad yr efengyl y mae yn ymdaenu, ac yn cael ei egluro i bechaduriaid tywyll. Mal. 4. 2. 2 Sam. 23. 4. Esa. 49. 6. a 60. 1. Ps. 84. 11. Luc 1. 78. a 2. 32. Edr. Goleuni.

Y mae yr eglwys 'wedi eu gwisgo â'r haul.' Dat. 12. 1. Yr Arglwydd Iesu yw ei gogoniant, ei harddwch, a'i goleuni i gyd; y mae ynddo ef yn ddiogel, yn ddysglaer, ac yn dra gogoneddus yn mhob peth. Y mae y fath gymundeb agos rhyngddynt âg ef, fel y maent megys wedi ei wisgo. Esa. 60. 1. Gal. 3. 27. 1 Cor. 1. 30. Can. 6. 10. Mat. 13. 46.

Yn iaith y prophwydi, yr *haul* ydyw breninoedd a swyddwyr penaf gwladwriaeth. Mat. 24. 29. Ezec. 32. 7. Dat. 6. 12. a 8. 12. Act. 2. 20. Edr Dadguddiad.

Dywedir am barhad unpeth ardderchog, a dysglaer ogoneddus, y 'pery tra byddo haul;' megys gorseddfainc a theyrnasiad y Messiah. Ps. 89. 36. a 72. 17. 'Ei orsedd-fainc fydd fel yr haul ger fy mron,' sef yn barhaus, yn ddysglaer ogoneddus.

Bod heb haul, ydyw bod mewn cyflwr hollol ddigysur; a bod â dim ond haul, ydyw bod mewn cyflwr hollol o ddedwyddwch, heb ddim yn wrthwyneb i hyn. Job 30. 28. Dat. 21. 23. Esa. 60. 20. Jer. 15. 9. Amos 8. 9.

HAURAN, חורן [*ceudwll*] ardal o du y gogledd-ddwyrain i wlad Canaan. Ezec. 47. 16.

HAWDD, (hy-awdd) rhwydd, hyrwydd, esmwyth. Ps. 46. 1. 1 Tim. 6. 18. Edr. Haws, Cyfranu, Cymhorth.

*Hawdd* cymmod lle bo cariad. *Diar.*

Digitized by Google

**HAWDDGAR—WCH**, (hawdd-câr) hygar, anwylaidd, tirion, prydferth; cariadusrwydd, anwylwch. —'Mae efe oll yn hawddgar.' Can. 5. 16. כל־מהדים *dymuniadau i gyd*. Mae pob rhagorolrwydd digrëedig a chrëedig yn ei berson; nid oes na diffyg na gormodedd ynddo: y mae y cwbl yn gymhesurol ac mewn cysondeb anfeidrol hardd. Mae y cwbl o Grist yn ddymunol—ei Berson, ei swyddau, ei bobl, ei ordinhadau, ie, ei groes, ei ddirmyg, &c. Y mae y fath hawddgarwch ynddo, fel ag y mae yn gwneuthur rhai anhawddgar yn hawddgar yn ngolwg y Tad. Eph. 1. 6. Y mae efe felly i bob un sydd yn ei wir adnabod. 1 Cor. 1. 23, 24. Phil. 3. 7, 8. Esa. 52. 14.

'Pa bethau bynag sydd hawddgar,' (Phil. 4. 8.) —'sydd garuaidd.' W. S.—'Yn garedigol, yn perthyn i gariad,' ymyl y ddal. προσφιλης, pob peth fyddo yn tueddu i wneuthur dyn yn dirion, yn hygar, ac yn anwylaidd i eraill. Schleusner.

**HAWL, HOLION**, (hy-awl) arddelw, arddelwad; cwyn, dadl, cynghaws, cyhudded, achos.

Ef dal adref yr *hawl* hon,
Yn ddyfn archollion gwaedlyd.
*E. Prys.*

Hawl, neu gynghaws, sef achos neu gŵyn. 2 Sam. 15. 4. Num. 27. 5. a 35. 27. Diar. 18. 17. Act. 19. 38.

**HAWS**, y gradd cymhariaethol o *hawdd*.

**HAZAEL**, חזאל [*yn gweled Duw*] brenin Syria ar ol Benhadad. Cafodd Elias orchymyn i'w eneinio yn frenin ar Syria. 1 Bren. 19. 15. Rhai blynyddoedd wedi hyny, daeth Eliseus i Damascus, Benhadad y brenin, yr hwn oedd glaf, a anfonodd Hazael âg anrhegion i ofyn a fyddai efe byw o'r clefyd hwnw. Y mae y prophwyd yn rhagfynegi y byddai efe yn frenin; ac yr anrheithiai efe Israel yn ofnadwy iawn. Tranoeth lladdodd ei feistr, ac a deyrnasodd yn ei le ef. 2 Bren. 8. 7—15. Teyrnasodd yn nghylch 50 o flynyddoedd, ac olynwyd ef gan Benhadad ei fab. Yn ol rhagddywediad y prophwyd, rhoddodd yr Arglwydd hwynt yn llaw Hazael am eu pechodau, a bu yn wialen ofnadwy iawn ar Israel a Judah ei holl ddyddiau. Gwel yr hanes yn 2 Bren. 10. 32, 33. a 12. 17, 18. a 13. 3, 7, 22. 2 Cron. 24. 23, 24, 25.

**HAZEZON-TAMAR**, [*saethau y palmwydd*] dinas yr Amoriaid. Gen. 14. 7. Yr un ag Engedi, meddant. Jos. 15. 62. 1 Sam. 24. 1. 2 Cron. 20. 2.

**HAZOR**, *Heb.* חצור [*cyntedd*]. Pa deyrnasoedd a feddylir wrth 'deyrnasoedd Hazor,' yn Jer. 49. 28. sydd ansicr. Yr oedd dinas o'r enw yn ngwlad Canaan. Jos. 11. 10. Edr. HASOR. Ond mae Hazor y cofféir am dani gan y prophwyd, yn eglur yn Arabia, yn agos i Cedar. Hazormafeth oedd un o feibion Joctan. Gen. 10. 26—30. Hiliogaeth Joctan a breswyliasant yn Arabia o flaen yr Ismaeliaid. Fel y deallir wrth Cedar, hiliogaeth Ismael yn gyffredinol, felly hefyd y dichon hiliogaeth Joctan yn gyffredinol, fod yn gynnwysedig dan yr enw Hazor. Gelwir yr Arabiaid yn 'bobl gymysg,' (Jer. 25. 24.) oddiwrth hyn, tebygol, y gelwir hwynt felly; sef am eu bod yn gynnwysedig o amrywiol waedoliaeth; rhai gwedi hanio o Ismael, ac eraill o Joctan; ac hefyd meibion Abraham o Ceturah, y rhai y dywedir iddynt breswylio yn Cedem, neu yn nhir y dwyrain. Gen. 25. 6. A hwyrach deuluoedd eraill hefyd. Yr holl rai hyny oeddynt gwedi ymranu yn dywysogaethau bychain, dan lywiawdwyr a elwid *Emirs*, ac eraill a alwent *Sheikhs*—yr hyn sydd yn dangos beth a feddylir wrth 'deyrnasoedd Hazor.'

**HEBER—EAID—AEG**, עבר [*myned drosodd*] mab Selah, a gorŵyr Noah. Yr oedd iddo ddau o feibion, Peleg a Joctan, hiliogaeth pa rai a boblogasant Mesopotamia, a'r parthau gorllewinol iddi, gyda rhan o Arabia Ffelix. Gen. 10. 24, 30. a 11. 14—26. 1 Cron. 1. 18, 42.

'Sem oedd dad holl feibion Heber.' Gen. 10. 21. אבי כל בני עבר *Efe oedd dad holl feibion pererindod*. Felly y cyfieitha rhai y geiriau: sef yr holl rai oedd yn cyfaddef eu hunain yn ddyeithriaid ac yn bererinion ar y ddaear, sef y gwir dduwiolion dros amryw oesoedd. Heb. 11. 8, 9, 10, 13—16. Gwel Parkhurst, Bate. Ond mwy tebygol mai enw priodol yw Heber yma, fel mewn lleoedd eraill, er fod y gair yn cael ei arferyd yn yr ystyr uchod yn Gen. 11. 6. Abraham a *dramwyodd* עבר neu a *bereriniodd* trwy y tir. Yr oedd Sem yn dad i amryw o feibion heblaw Heber; ond mae meibion Heber yn cael eu galw yn blant iddo mewn ffordd o enwogrwydd, am iddynt lynu trwy ffydd yn addewidion Duw, a chadw y wir grefydd. Parhaodd eglwys Dduw yn mhlith hiliogaeth Heber, o'r hwn yr hanodd Abraham yr Hebread. Gen. 14. 13. A'i hiliogaeth ef a alwyd yn Hebreaid. Gen. 39. 14, 17. Exod. 1. 15, 16. Num. 24. 24. Jer. 34. 9. Y mae rhai yn barnu iddo gael yr enw oddiwrth ei waith yn myned dros yr afon Euphrates, pan alwodd Duw ef o Ur y Caldeaid: ond oddiwrth Gen. 10. 21. ymddengys yn hytrach, iddo gael ei alw felly oddiwrth y patriarch Heber.

'Hebrewr o'r Hebreaid,' (Phil. 3. 5.) yw Hebrewr genedigol o ran ei dad a'i fam. Hebrewr, weithiau, a arwydda Iuddew yn siarad yr iaith Hebraeg, mewn cyferbyniad i'r Iuddewon yn siarad Groeg. Act. 6. 1.

Hebraeg yw iaith yr Hebreaid. Act. 21. 40. a 22. 2. a 26. 14.—Dysgwyd iaith i ddyn ar y cyntaf, tebygol, trwy ysbrydoliaeth Duw; y mae hyn yn dra amlwg oddiwrth yr hanes a rydd Moses am y dyn cyntaf, ei fod yn feddiannol yn ddigyfrwng ac yn ddiaros o iaith ac ymadrodd, fel y prawf ei waith yn rhoddi enwau ar yr holl greaduriaid a ddygwyd ato.* Y mae rhai yn gryf o'r farn mai yr Hebraeg oedd yr iaith hòno; beth arall a feddylir wrth y geiriau, 'A pha fodd bynag yr enwodd y dyn bob peth byw, hyny (*fu*) ei enw ef.' Gen. 2. 19. Y mae ansawdd Hebraeg yr enwau Adda, Efa, Cain, Abel, Seth, a Noah, yn gystal a'r enwau Peleg, Abraham, Sarah, Isaac, a Jacob, yn brawf diammheuol o hyny. Y mae yr hanesiaeth yn eglur arwain i'r fan hon. Yr iaith hynaf yw, ac y mae yn fam-iaith i'r holl ieithoedd eraill, ac y mae perthynas a thebygoliaeth agos i'w weled rhwng y rhan fwyaf o ieithoedd eraill a hi, megys y Galdaeg, yr Arabaeg, y Syriaeg, y Groeg, y Gymraeg, &c.† Yn yr iaith hon y gwelodd yr Arglwydd yn dda ddadguddio ei feddwl i blant dynion, gan mwyaf; yn yr iaith hon yr ysgrifenwyd holl lyfrau yr Hen Destament: nid oes dim llyfrau genym yn yr iaith hon heblaw y rhai hyn.—Y mae Hebraeg yr ysgrifenwyr Iuddewaidd a elwir y Talmudistiaid, wedi ei chymysgu a'i chyfnewid yn ddirfawr.—Mae y parch mwyaf yn ddyladwy iddi o un iaith yn y byd, nid yn unig o ran ei grym, ei chymhwysder, ei harddwch fel iaith, ond yn neillduol am y trysorau dwyfol sydd ynddi, ac am fod dynion sanctaidd Duw yn llefaru ynddi am bethau Duw, yn y geiriau a ddysgwyd iddynt gan yr Ysbryd Glân. 1 Cor. 2. 13. Er bod achos diolchgarwch neillduol am y cyfieithiadau rhagorol o'r ysgrythyrau sanctaidd sydd yn yr amrywiol ieithoedd, etto yr wyf fi yn hollol gyduno â Jesus mab Sirach yn y geiriau canlynol, 'Nid yw yr un pethau o'r un grym pan draether hwynt yn Hebraeg, a phan dröer hwynt i iaith arall.——Y gyfraith a'r prophwydi, a'r llyfrau eraill, sydd iddynt ragoriaeth nid bychan pan draether hwynt yn eu hiaith eu hun.' Y mae yn golled ac yn

* Gwl Leland's *Advantage and Necessity of the Christian Revelation.*

† Gwel Dr. Sharp's *Origin, &c., of Languages.*

Digitized by Google

drueni na bai dysgu yr iaith ddwyfol hon, yn mha un y mae y trysorau gwerthfawrocaf i'w cael, yn rhan o ddysg y Cristionogion oll i'w plant; ond anwybodaeth o honi yn y rhai hyny a ddygir i fynu i egluro yr Ysgrythyrau sanctaidd i eraill sydd yn anfaddeuol, os bydd cyfleusdra i'w dysgu; ac yn golled nas dichon dim eu gwneuthur i fynu.

Am y dadleuon sydd yn mhlith y dysgedigion am y llythyrenau Hebraeg, pa un a ydyw y llythyrenau presennol yn arferedig, yn Hebraeg, neu y Galdaeg a ddygodd yr Iuddewon o Babilon, ac mai y Samaritan yw yr hen lythyrenau:—a pha un a oedd yr Hebraeg yn iaith gyffredin yn mhlith yr Iuddewon ar ol eu dychweliad, neu y Galdaeg, neu gymysg o'r Galdaeg a'r Syriaeg—nid yw yn fuddiol i mi helaethu ar y dadleuon hyn, pe medrwn eu penderfynu; er bod fy meddwl, yn bresennol, yn gŵyro yn gryf, gyda Leland, Jenkins, Parkhurst, ac eraill, at yr ochr gadarnhaol, gyd âg addefiad nad ydoedd yn cael ei siarad yn eu plith yn ei phurdeb gynt. Gwel yr awdwyr uchod. Spearman *on the LXX.* Prideaux's *Connect. Cyclopædia.* Jenkins *on the Christian Religion, vol.* i.*

EPISTOL AT YR HEBREAID. Y farn gyffredinol yw, mai Paul oedd awdwr yr epistol hwn, er nad yw ei enw wrtho, fel wrth ei epistolau eraill. Iddo ei ysgrifenu hefyd yn yr iaith Roeg, ac nid yn yr Hebraeg, fel y barnodd rhai gynt, ydyw y farn fwyaf gyffredin yn awr yn mhlith y dysgedigion.† At yr Hebreaid yr ysgrifenwyd ef, i'w hannog a'u cysuro yn wyneb eu herlidigaethau a'u dyoddefiadau; i'w cynghori i lynu wrth eu proffes, ac i ddangos y perygl o dynu yn ol, a'r canlyniadau ofnadwy o wrthgiliad. Y mae yn gosod allan ogoniant ac ardderchogrwydd person Crist a'i swyddau, yn enwedig ei swydd offeiriadol; yn egluro holl ddefodau y grefydd Iuddewig, ac yn cadarnhau ac yn dangos yn ogoneddus eu bod oll yn gysgodau o Grist, yn ei berson, ei waith, a'i swyddau. Y mae yr apostol ynddo yn cysoni y ddau Destament, a'r ddwy oruchwyliaeth, ac yn dangos fod Crist gwedi ei gysgodi yn y naill, ac yn cael ei ddal allan yn y llall, fel yn cyfateb i'r cysgodau yn gyflawn, ac yn rhagori yn anfeidrol arnynt oll. Mae yr angelion yn anfeidrol îs nag ef o ran natur, fel y mae yn addas wrthddrych addoliad iddynt; y mae pawb o ran eu swyddau yn îs, ac ond fel cysgodau gwael o hono. Y mae yr apostol yn enwi y rhai mwyaf ardderchog a fu yn y byd erioed, megys Moses, Josuah, Aaron, Melchisedec—y maent oll gwedi bod yn ffyddlawn ac yn ddefnyddiol, fel gweision yn y tŷ dros yr amser hwnw; ond y maent yn diflanu fel y sêr, pan gyfodo llusern mawr y nefoedd, o flaen ardderchogrwydd person, a chyflawnder difesur, a pharhad diderfyn swyddau Crist. Y mae yn agoriad o ddwyfol awdurdod, a holl drefniadau a gosodiadau dwyfol yr Hen Destament. Y mae yn tynu y llenorchudd oddiar wyneb Moses, ac yn dangos ei holl ddirgeledigaethau yn wyneb Iesu Grist, gyda dysgleirdeb digwmwl.

Fel mae y defnydd a'r mater ynddo yn ardderchog ragorol, y mae yr iaith hefyd yn cyfateb, yn llawn mawredd, addurniad addas, grym ac egni dwyfol. Ni ddichon neb ei ddarllen gyda sylw, heb deimlo awdurdod fliniog yr iaith, a'i mawredd goruchel, addas i'r materion tra gogoneddus a drinir ynddo. Gellir dywedyd am hwn, fel y dywed Grotius am yr Epistol at yr Ephesiaid, 'Ei fod yn tra rhagori ar bob araethyddiaeth ddynol.'

Y mae y ddwy adn. 23, 24, o pen. xiii., yn nodi yn amlwg yr amser yr ysgrifenwyd ef, sef pan ydoedd ei garchariad ar ddybenu; neu, gwedi ei ryddhau, ac yntau yn fuan ar fedr gadael yr Ital. Y mae Petr yn crybwyll am dano fod ynddo rai pethau anhawdd eu deall, y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad yn eu gŵyrdroi, i'w dinystr eu hunain. 2 Petr 3. 16. Ysgrifenodd Dr. John Owen eglurhad dysgedig a defnyddiol ar yr epistol hwn. Hefyd, W. Gouge, a Lawson, yn Saesonaeg.—Ribera, Paræus, Gerhadrus, a Jena, yn Lladin.

HEBOG, (heb.) Yr un gair נץ a gyfleithir *hebog* yn Deut. 14. 15. ac a gyfleithir *gwalch* yn Lef. 11. 16. Job 39. 26. Edr. GWALCH.

HEBRON, הברון [*cymdeithas*] 1. Un o'r dinasoedd hynaf yn y byd, gwedi ei hadeiladu saith mlynedd o flaen Soan yn yr Aipht. Num. 13. 22. Gelwid hi *Arba*, a *Ciriath-Arba*, oddiwrth Arba, tad Anac, yr hwn a fu yn frenin yno. Jos. 14. 15. Yr ydoedd yn sefyll ar fryn yn nghylch 22 o filltiroedd tu a'r dehau o Jerusalem. Rhoddwyd hi yn etifeddiaeth i Caleb, yr hwn a yrodd feibion Anac allan o honi, ac a'i galwodd hi Hebron, yn ol enw un o'i feibion. Jos. 14. 13, 14. Barn. 1. 20. Yr oedd yn ddinas noddfa, ac yn breswylfod i'r offeiriaid. Yma y bu Sarah farw (Gen. 26. 2.) ac yma yr ymdeithiodd yr hen batrieirch, Abraham, Isaac, a Jacob. Gen. 35. 27. Yma yr eneiniwyd Dafydd yn frenin, ac a deyrnasodd yn Hebron ar dŷ Judah, saith mlynedd a chwe mis. 2 Sam. 2. 11. Ac yn Hebron y gosododd Absalom ei hun i fynu yn frenin. 2 Sam. 15. 10. Ac yno hefyd, hwyrach, y preswyliai Zacharias ac Elizabeth, ac y ganed Ioan Fedyddiwr. Luc 1. 39.——Bu tros oesoedd mewn bri mawr gan Iuddewon a Christionogion. Y mae yn wael ac yn ddystrywiedig yn bresennol.——2. Mab Cohath, pen-teulu. Exod. 6. 18.

HEBRONAH, un o wersyllfaoedd yr Israeliaid yn yr anialwch, rhwng Jotbathah ac Esion-Gaber. Num. 33. 34, 35.

HEBRWNG, (heb-rhwng) cyd-fyned, cyd-ymdeithio; arwain; anfon yn mlaen; dwyn. Hebrwng hawl, dwyn cwyn yn mlaen; hebrwng iawn, gwneyd iawn; hebrwng lledrad i wrtho, ymddiheuraw oddiwrth ledrad.—'Yr hebryngodd Duw fyfi,' sef yr anfonodd. Gen. 45. 5.——'Hebrynged ef y bwch;' hyny yw, dyged ef. Lef. 16. 22.——'Yr hebrwng yr Arglwydd yn mhlith ei freision ef gulni:' sef yr enfyn yr Arglwydd. Esa. 10. 16. Y mae hebrwng yn aml yn arwyddo *anfon.* Jer. 14. 3. a 23. 21. Hos. 5. 13. Zech. 4. 9, &c.

HEBRYNGFA, (hebrwn-fan) rhodianfa, amredegfa, lle i yru neu anfon iddo.—'Ond bydd yn hebryngfa gwartheg, ac yn sathrfa defaid.' Esa. 7. 25.—'Amredegfa yr ŷch.' Dr. Lowth.—למשלה שור lle i anfon yr ŷch allan.

HEDD—WCH—YCHU—OL—LAWN, (hy-edd) *Gr.* ησυχια, tanc, tangnef, tangnefedd, llonyddwch, esmwythdra.—1. Attaliad oddiwrth bob gweithred

---

* Y mae ieithyddiaeth gwedi cynnyddu i raddau helaeth yn ddiweddar; ac oddiar gymhariaeth o wahanol ieithoedd y byd, y rhai a ddosparthir i bedair cangen-ieithoedd gan rai, sef y Semitaidd, yr Indo-Ewropeaidd, y Chineaidd, a'r Americanaidd (gan eraill, ni olygir yr Americanaidd fel cangen-iaith annibynol) bernir *nad yr Hebraeg oedd iaith wreiddiol y byd;* ond fod hòno gwedi myned ar goll, a'r gwahanol gangen-ieithoedd gwedi deillio i raddau o honi, a bod yr Hebraeg yn *un o'r henaf yn y gangen Semitaidd*, sydd yn cynnwys y Galdaeg, yr Aramaeg, yr Hebraeg, y Syriaeg, yr Arabaeg, y Phenicaeg, a'r Ethiopiaeg. Amlwg ydyw hefyd nad yw y Groeg, y Gymraeg, &c., yn perthyn i'r gangen Semitaidd, ond yn hytrach i'r Indo-Ewropeaidd, ac mai eu mam-ieithoedd ydyw y Sanscrit, y Zend, &c. Bernir hefyd nad oedd iaith wreiddiol y byd yn cynnwys ond ychydig eiriau, yn ol eisieu yr oes foreuol; ac i drigolion y ddaear luosogi geiriau yn raddol, yn ol fel y byddai eu hangen a'u hamgylchiadau yn galw. Gwel Wahl's *General History of the Oriental Languages.* Pritchard's *Celtic Researches.* Boph's *Comparative Grammar of the Indo-European Languages.* W. Von Humbolt *on the Basque Language.* Adelung's *Mithridates.* Pott, &c.—C.

† Gwel Dr. Francis Roberts, Macknight, Leigh, Dr. Owen, Pool's *Synopsis.*



Digitized by Google

elyniaethol rhwng rhyw bersonau neu bobloedd â'u gilydd. Luc 14. 32. Act. 12. 20.——2. Gwneuthur pob peth fyddo yn tueddu i gadw a meithrin heddwch. 'Dilynwch heddwch â phawb:' sef pob peth sanctaidd a chyfreithlon mewn geiriau a gweithredoedd a fyddo yn tueddu at heddwch. Heb. 12. 14. 1 Petr 3. 11. Marc 9. 50. Rhuf. 12. 18.——3. Cymmod â Duw, a heddwch cydwybod yn ganlynol i hyny, trwy Grist a'i aberth. Rhuf. 5. 1. Ioan 14. 27. a 16. 33. Rhuf. 1. 7.——4. Trwy draws-enwad, y mae Crist yn cael ei alw ein 'heddwch,' neu ein 'tangnefedd' ni, a 'thywysog tangnefedd;' am ei fod yn awdwr heddwch, fel cyfryngwr rhwng Duw a dynion: 'cospedigaeth ein heddwch ni a roddwyd arno ef.' Esa. 53. 5. Ac efe a fydd yr heddwch yn wyneb pob gelyn. Mic. 5. 5. Ac efe a lefara heddwch trwy yr efengyl i'r cenedloedd. Zech. 9. 10. Effeithiodd heddwch hefyd rhwng Iuddewon a Chenedloedd, a rhwng dynion a'u gilydd fel aelodau o'r un corph ysbrydol, a chyd-gyfranogion o'r un breintiau. Eph. 2. 14, 15. Cymh. Col. 1. 20. Esa. 9. 6. 1 Cor. 1. 30. Edr. Cymmod, Tangnefedd, Tywysog.——5. Y mae Duw yn cael ei alw 'Duw (της ειρηνης) yr *heddwch.*' Phil. 4. 9, A 'Duw (της ειρηνης) y *tangnefedd.*' 1 Thes. 5. 23. 2 Thes. 3. 16. Y mae yn heddychol, yn awdwr heddwch, ac yn rhoddi heddwch a thangnefedd yn mhob ystyr. O hono ef, a thrwy ei drefn ef yn unig y gwnawd heddwch rhyngddo ef a neb o eppil Adda; ac efe sydd yn cyfranu heddwch i'r gydwybod, a rhwng personau â'u gilydd. 'Efe sydd yn trefnu heddwch i ni.' Iaith yr efengyl yw heddwch, heddwch i bell ac i agos; a gwaith cyfiawnder mawr yr efengyl fydd heddwch i'r neb a fyddo gyfranog o hono. Yr unig ffordd i heddwch â Duw yw ymaflyd yn ei nerth, sef Crist, fel y gwnelo un heddwch, ac efe a wna heddwch. Esa. 26. 12. a 27. 5. a 32. 17. a 57. 19.——6. Y mae cynghor a chyfammod Duw yn Nghrist yn cael ei alw cyfammod heddwch, cyfammod hedd. Esa. 54. 10. Ezec. 34. 25. a 37. 26. Trwy drefn y cyfammod hwn y gosodwyd Crist yn Gyfryngwr, ac y gwnawd heddwch, ac y mae Duw ynddo gwedi ymrwymo i fod mewn heddwch tragywyddol â phawb a gredant yn Mechnïydd y Cyfammod. Am fod Duw yn anghyfnewidiol yn ei hanfod, yn ei gynghor, a'i arfaeth, ni syfla y cyfammod hwn byth.——7. Y mae cyflwr o ddiogelwch a dedwyddwch, yn gyflawn o bob bendithion, yn cael ei alw yn heddwch; oblegid effaith heddwch â Duw ydyw yr holl bethau hyn, a phob heddwch, yn mhob ystyr, i ddyn. Ps. 4. 8. a 72. 3, 7. Jer. 33. 6. Ps. 119. 165. a 122. 6, 7. Diar. 3. 2, 17.

Y 'pethau a berthyn i heddwch,' ydyw yr efengyl, sydd yn cyhoeddi heddwch, crediniaeth ffyddiog, a holl ffrwythau gwir edifeirwch a sancteiddrwydd. Luc 19. 42. Fod y pethau hyn yn guddiedig o olwg, yw bod yn y cyflwr truenusaf yn y byd hwn. Edr. Cymmod, Tangnefedd.

HEDDYW, (hedd) heddy, y dydd presennol.—Heddyw, weithiau, a arwydda yr amser presennol; dydd gras; dydd iechydwriaeth. Ps. 95. 7. Heb. 3. 7, 13, 15. a 4. 7.

HEFIAD—IAID, חוי [*drwg*] hiliogaeth Hevæus, mab Canaan, medd Calmet. Gen. 10. 17. Un o'r cenedloedd y rhoddwyd eu gwlad i hâd Abraham. Exod. 3. 8. Gelwir trigolion Afim, Gibeon, a Sechem, Hefiaid. Jos. 11. 19. a 13. 3. Gen. 34. 2. Yr oedd rhai o honynt yn preswylio yn agos i fynydd Hermon. Jos. 11. 3. Gellir meddwl mai yr un bobl oeddynt a'r Afiaid; y rhai y darfu y Caphtoriaid eu dyfetha, a thrigo yn eu lle. Deut. 2. 23.

HEGAI, ystafellydd y breuin Ahasferus, a cheidwad y gwragedd. Esther 2. 8.

HEIBIO, (heb) *Heb.* עבר gerllaw, heblaw.—'Nef a daear a ânt heibio;' sef a ddarfyddant. Mat. 24. 35. Marc 13. 31.—'Nid â yr oes hon heibio;' sef ni dderfydd. Marc 13. 30.——'A roes heibio ei gochl-wisg;' sef a ddyosgodd ei gochl-wisg. Ioan 13. 4. Eph. 4. 22. 2 Petr 1. 14.

HEL—A—IWR—IAETH—FA, (hel) hely, erlyn, ymlid, ymgais, casglu; ymlid bwystfilod i'w lladd.—'Fe heliodd lawer o bethau;' hyny yw, fe heliodd neu a gasglodd gyfoeth. Jer. 17. 11.——Pa beth bynag sydd yn ymlid dyn i'w ddystrywio a elwir yn heliwr. 1 Sam. 24. 11. Ezec. 13. 18, 20. Mic. 7. 2. Jer. 16. 16.——'Drwg a hela y gwr traws i'w ddystryw.' Ps. 140. 11. Y mae barn Duw yn gospedigaeth am ei drawsder yn sicr o'i oddiweddyd, a'i ddystrywio yn y diwedd. Diar. 6. 26. Job 10. 16. Edr. Nimrod, Esau.

HELAETH—ACH—U, (hel) ëang, aml, llawn, diamdlawd, dibrin.—'Helaeth o drugaredd a gwirionedd.—Efe a arbed yn helaeth.' Ps. 86. 15. Esa. 55. 7. Mae yr un gair *Heb.* רב yn cael ei gyfieithu *aml, amlder, lliaws, lliosog, mawr, cadarn, digon, gormod.* Lef. 25. 16. Ps. 37. 11. Gen. 45. 28. Exod. 9. 28. Num. 16. 3, 7. Diar. 20. 6. Esa. 63. 1. Arwydda mawredd a helaethrwydd o nerth, cyfoeth, nifer, neu amldra; felly mae trugaredd Duw, yn aml, yn gyfoethog, yn gadarn, ac yn gwbl ddigonol er ymgeledd y pechadur truenusaf. Arbed gyda mawredd, yn aml, ac yn helaeth, a chyda cadernid cynnorthwyol.

'Oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach na chyfiawnder yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid.' Mat. 5. 20. Y gair περισσευση a arwydda rhagori yn ei natur, yn gystal ag yn ei helaethrwydd. Nid oedd cyfiawnder y Pharisead yn dda yn ei natur, nac yn ddigon helaeth yn yr ëangder o hono. 'Nid ydym, os bwytawn, yn helaethach; ac onis bwytawn, yn brinach;' hyny yw, yn well neu yn waeth. 1 Cor. 8. 8. Felly yma, 'oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach,' sef yn well, ac yn rhagorach yn ei natur, na'u cyfiawnder hwy, ac yn ganlynol, yn fwy ëang. Nid eir i mewn i deyrnas nefoedd, mae yn eglur oddiwrth y geiriau, heb gyflawnder; a rhaid i'r cyfiawnder a'n cymeradwya fod â rhagoroldeb goruchel, ac ëangder digonol ynddo. Edr. Cyfiawnder.

'Rhoddwch heibio bob budreddi, a helaethrwydd malais.' Iago 1. 21.—'A phob rryssedd malais.' W. S.—'Amldra malais.' Dr. M. Rhoddwch ymaith bob budreddi, a phob drygioni anaddas i Gristionogion. Cyffelybiaeth ydyw wedi ei chymeryd oddiwrth gangenau diffrwyth ar y winwydden, neu ryw goed eraill, y rhai y mae yn rhaid eu tynu ymaith, rhag iddynt fod yn niweidiol i ffrwythlonrwydd y pren. Schleusner.

'Cerwch eich gilydd o galon bur yn helaeth.' 1 Petr 1. 22.—'Yn rymus.' W. S a Dr. M.—εκτενως, *yn danbaid*; yn gryf, â'ch holl rym; yn ddyfal, heb ddiffygio. Arwydda fod eu cariad yn wirioneddol, yn wresog, yn egniol, ac yn ddiddarfod.

'Felly yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd,' &c. 2 Petr 1. 11.—'Yn y modd hwn digonawl ydd ymgleddir chwi, o fforddiat i dragwyddol teyrnas,' &c. W. S.—'Felly y trefnir i chwi fforddiad yn helaeth,' &c. Dr. M. Y gair πλουσιως, a arwydda *cyfoeth, helaethrwydd* o bethau; mynediad helaeth, gan hyny, ydyw mynediad cyfoethog, gwedi eu llenwi â helaethrwydd o'r pethau mae yr apostol wedi bod yn eu hannog i'w meddiannu gyda phob diwydrwydd. Adn. 5, 6, 7. 'Os yw y pethau hyn genych, ac yn aml hwynt—ni lithrwch chwi ddim byth;' ac, fel hyn, wedi eich cyfoethogi â hwynt, y trefnir i chwi fynediad i gwbl feddiant o'r deyrnas a'i holl ddedwyddwch:

Digitized by Google

mynediad fel llong wedi ei llwytho â'r pethau gwerthfawrocaf, dan lawn hwyliau, i'r porthladd, heb achos wynebu tymhestl byth mwy.

HELAETHWYCH, (helaeth-gwych) helaethrwydd yn cael ei ddefnyddio gyda gwychder, tlysni, ceinedd. —'Yr oedd yn cymeryd byd da yn helaethwych beunydd.' Luc 16. 19.—'Yn cymeryd ei vyt yn ddaenteithiol ac yn voethus peunydd.' W. S. a Dr. M. *ευφραινομενος λαμπρως*. Arwydda y geiriau, helaethrwydd danteithiol, digrifwch, llonder, a gorwychder, dull o fyw boddhaol i feddwl cnawdol.

HELAM, [*llu y farn*] dinas yn Syria. 2 Sam. 10. 16.

HELBAH, *Heb.* חלבה [*llaeth*] dinas yn llwyth Aser. Barn. 1. 31.

HELBON. Edr. GWIN.

HELBUL—ON—US, (hel-pul) cur, gofal, pryder, tristyd, trymder, cythrudd, blinder, a gofid meddwl; trallodus, trafferthus. Job 14. 1. Esa. 54. 11.

HELCATH, *Heb.* חלקת [*dosparth*] dinas o Aser a roddwyd i'r Gersoniaid. Jos. 21. 31.

HELCATH-HASSURIM, [*maes y cedyrn*] lle yn Gibeon. 2 Sam. 2. 16.

HELDAI, חלדי [*y byd*] 1. Netophathiad, o Othniel, tywysog ar y deuddegfed dosparthiad oedd i wasanaethu y brenin y deuddegfed mis. 1 Cron. 27. 15. ——2. Un o'r rhai y cafodd Zechariah y prophwyd orchymyn i gymeryd arian ac aur ganddo i wneuthur coronau, i osod ar ben Josuah, mab Josedec yr archoffeiriad. Zech. 6. 10, 11.

HELEB, mab Baanah y Netophathiad, ac un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 29.

HELEM, *Heb.* חלם [*drylliad*]. 1 Cron. 7. 35.

HELEPH, חלף [*llwybr*] dinas o Naphtali. Jos. 19. 33.

HELES, חלץ [*arfog*] un o gedyrn Dafydd, a elwir Heles y Paltiad. 2 Sam. 23. 26.

HELI, (hâl) gwlybwr hallt, helltni. Wrth y môr heli, yn Gen. 14. 3. Num. 34. 3, 12. Deut. 3. 17. Jos. 3. 16. a 12. 3. a 15. 5. a 18. 19. y meddylir y môr marw, neu lyn Sodom; gelwir ef hefyd môr y rhôs, môr y gwastadedd. Yr oedd halltrwydd y môr hwn o'r fath natur fel na allai na physgod na dim arall fyw ynddo. Trowyd gwastadedd hyfryd yn ddiffrwythdra hollol, am bechodau y trigolion. Trwy gyffelybiaeth weledigaethol o iachâu y dyfroedd afiach hyn, a'r dyfroedd sanctaidd yn dyfod allan o dŷ yr Arglwydd, y dangosir effeithiau iachusol a ffrwythlawn yr efengyl ar bechaduriaid diffrwyth. Ezec. 47. 1—12. Edr. AFON, DWFR, MOR.

HELM, *Sax. Teut.* HELM; *Ffr.* HEAUME; *Saes.* HELMET; pen-wisg dur, pen-ffestin, cap haiarn. Darn o arfogaeth filwraidd i amddiffyn y pen. Y mae ergyd ar y pen yn dra pheryglus, ac yn aml yn farwol; am hyny y mae angen am arfogaeth ddiffynol iddo. Yr oedd helmau yr hynafiaid yn gorchuddio yr holl ben a'r wyneb, ond yn unig y llygaid, fel yr arwydda y gair *περικεφαλια*, *pen-amwisg*.——Helm yr Arglwydd yw iechydwriaeth ei bobl; ymddengys eu hiechydwriaeth yn ddyrchafedig ac yn amlwg i bawb, a bydd yntau yn cael y gogoniant o honi yn gyflawn. Esa. 59. 17.——Iechydwriaeth dragywyddol, a'r gobaith o'i mwynhau, ydyw helm y saint, yr hon sydd yn eu hamddiffyn, ac yn eu gwneuthur yn wrol yn y rhyfel. Gobaith sicr o fuddugoliaeth sydd yn llenwi y milwr â'r calondid a'r gwroldeb mwyaf yn erbyn ei elynion marwol; y mae yn ei gadw rhag ofnau a digalondid, ac yn ei wneuthur yn gryf mewn rhyfel, i yru byddinoedd yr estroniaid i ffoi. Eph. 6. 17. 1 Thes. 5. 8.

HELON, חלן [*ffenestr*] tad Eliab o lwyth Zabulon. Num. 1. 9.

HELP—IO, (hel) *Sax.* HELPI; *Teut.* HULPPE: porth, cymhorth, cynnorthwy; cyfnerthu, cynnorthwyo. Luc 10. 49.—'Wedi i mi gael help gan Dduw.' Act. 26. 22.—'Er hyny mi gefais borth y gan Ddew.' W. S.—'A Duw i'm cymhorth.' Dr. M.—*Επικουριας ουν τυχων της παρα του Θεου*, *Yn cael y cymhorth sydd oddiwrth Dduw*. Geiriau milwraidd ydynt, ac yn arwyddo fod ei elynion yn gryfion, a'r frwydr yn boeth, ac y buasai wedi colli y dydd oni buasai y porth a'r cynnorthwy parhaus yr oedd yn ei gael oddiwrth Dduw, yn achos yr hwn yr oedd yn milwrio. Trwy y porth dwyfol hwn yr oedd yn aros, ac yn tystiolaethu yn hyf wrth bawb am Grist a'i iechydwriaeth.

HELYG—EN, (hal) *Sax.* PELIG: *Belg.* WILLIGHE: y mae coed helyg yn tyfu mewn lleoedd dyfrllyd; ac yn tyfu llawer mewn byr amser. Y mae rhisgl y coed hyn wedi ei sychu yn feddyginiaeth dda, meddant, rhag y cryd neu y *ddyrton*. Y mae amrywiol fath o honynt, megys helyg llwydion, helyg duon, helyg ffreinig, helyg y cŵn, mêr helyg. Tebygol eu bod yn tyfu yn lliosog ar lanau yr Euphrates, ar ba rai y crogodd yr Hebreaid caethion eu telynau, fel yn ddiddefnydd iddynt yn eu cyflwr galarus yno: o herwydd hyny y gelwir hi 'Afon yr helyg.' Esa. 15. 7. Ps. 137. 2. Yr oedd y Lefiaid duwiol wedi dwyn eu telynau yno gyda hwynt; mewn gobaith i'r amser etto ddyfod i chwareu yn sanctaidd ac yn orfoleddus arnynt, er mawl i'r Arglwydd. Nid oedd caniadau sanctaidd yn gweddu fel difyrwch i Baganiaid eilun-addolgar, ac nid oedd dim a'u difyrai hwythau mewn gwlad ddyeithr, yn mhell oddiwrth deml Dduw a'i addoliad.

Yr oedd yr Iuddewon yn defnyddio cangenau helyg i wneuthur pebyll â hwynt ar ŵyl y pebyll, fel arwydd o lawenydd ger bron yr Arglwydd. Lef. 23. 40.

'Hwy a dyfant megys helyg wrth ffrydiau dyfroedd.' Esa. 44. 4. Wedi eu planu, neu eu huno â Christ, a'u dyfrhau bob moment â dylanwadau sanctaidd yr Ysbryd Glân, bydd eu cynnydd yn ddirfawr ac yn fuan iawn. Ezec. 17. 5.

HELYNT, (hel-ynt) helyddiaeth, ymdaith, cerddediad; neges, gorchwyl, agos; agwedd, ansawdd, cyflwr bywyd un. Y mae yn ddrwg dy helynt, sef cyflwr anghysurus.—'Fy holl helynt a fynega Tychicus i chwi.' Col. 4. 7.—'A veneic y'wch veu oll gyflwr.' W. S. a Dr. M.

'Yn y rhai y rhodiasoch gynt yn ol helynt y byd hwn.' Eph. 2. 2. *κατα τον αιωνα του κοσμου τουτου*, *yn ol byd y byd hwn; yn ol oes y byd hwn;* neu, yn hytrach, *yn ol dull ac agwedd* (bechadurus) *y byd hwn*. 'Yn synied,' medd Theophylact, 'pethau y byd hwn, a'r pethau sydd dros amser, yn cam-arfer y byd hwn: nid yw y byd yn ddrwg, ond y camarferiad o hono sydd ddrwg.' Rhuf. 12. 2. Gal. 1. 4. Gwel Theophylact *in loc.* Suiceri Thesaurus. Mae yn ddiammheuol fod yr apostol yn golygu moesau a chrefydd lygredig y cenedloedd. Yn rhodio, sef yn byw yn ol y dull llygredig ac annuwiol hwn y cafodd gras Duw y saint yn Ephesus; yn gwbl lygredig, ac yn hollol annheilwng o sylwad Duw arnynt; ond mawredd ei gariad a chyfoeth ei drugaredd a orchfygodd o'u plaid, ac a'u gwaredodd yn effeithiol ac yn drwyadl. Gwedi eu hachub trwy ras, bydd eu rhodiad yn addas i'w galwedigaeth sanctaidd; a mwy nis gellir dywedyd am rodiad neb.

Digitized by Google

HEMAM, a HEMAN. הימן [*eu blinder*] 1. Heman, neu Hemam, mab Lotan, ac ŵyr Esau. Gen. 36. 22.——2. Gelwir Heman a'i frodyr Simri, Ethan, Chalcol, Dara neu Darda, meibion Zerah, mab Judah, a meibion Mahol; naill ai am fod un yn dad a'r llall yn daid iddynt, neu ynte am fod Zerah a Mahol yn wahanol enwau ar yr un gwr. Yr oeddynt yn enwog am eu doethineb. 1 Cron. 2. 6. 1 Bren. 4. 31.——3. Mab Joel, ac ŵyr i Semuel, cantor yn nyddiau Dafydd. Yr oedd iddo bedwar ar ddeg o feibion; eu teuluoedd oeddynt yn gwneuthur pedwar ar ddeg o ddosparthiadau cantorion y deml. 1 Cron. 6. 33. a 15. 17, 19. a 16. 42. a 25. 1, 4, 6. Y mae yn ansier pa un o'r ddau hyn, os yr un o honynt, oedd cyfansoddwr y Psalm lxxxviii.

HEMDAN, mab Dison, o hiliogaeth Seir yr Horiad. Gen. 36. 26. Gelwir ef Amram yn 1 Cron. 1. 41.

HEN, חן [*tosturi*] mab Sephaniah. Zech. 6. 14. Yr oedd Zechariah y prophwyd i roddi coron iddo, er coffadwriaeth, yn nheml yr Arglwydd. Yn gyntaf, yr oedd y coronau hyn i'w gosod ar ben Josuah fel cysgod o Grist: gwedi hyny yr oeddynt i Helem, Tobiah, Jedaiah, a Hen; a hwyrach a'u henwau arnynt yn goffadwriaeth yn nheml yr Arglwydd o'u gwaredigaeth o Babilon—o ddyfodiad Crist, ei osodiad yn ei swyddau, ei lwyddiant, a'i ddyrchafiad—ac o ddyfodiad pelledigion o blith y cenedloedd i adeiladu yn nheml yr Arglwydd, sef ei eglwys. Yr oedd coroniad Josuah, fel cysgod o Grist, yn arwydd o'i ddyfodiad, a'r coronau yn goffadwriaeth yn y deml, yn arwydd o'r addewid am dano, ac y cai ei chyflawni yn fuan.

HENAFGWR—WYR, (hynaf-gwr) y gwr penaf; y penaeth; henefydd, henadur. Llanciau a henafgwyr sydd yn arwyddo pob oedran. Exod. 10. 9. Ps. 148. 12. Jer. 31. 13. Mae yn ddyledus, ac yn gweddu i bawb o bob oedran addoli yr Arglwydd, diolch iddo, a gorfoleddu ynddo.

HEN—AINT—EIDDIO, (hy-en) oedranus, oedrog; henu, talmu ar henaint. Gen. 18. 11. Yn oedranus, ac yn barod i ddiflanu. Edr. DIFLANU.—Hen ddyn. Edr. DYN.—Hender y llythyren. Edr. LLYTHYREN.—Hen lwybrau. Edr. LLWYBR.——Geilw Solomon henaint, 'y dyddiau blin—a blynyddoedd y rhai nid oes dim dyddanwch ynddynt.' Preg 12. 1. Rhydd ddarluniad allegawl o henaint, a'i aml wendidau. Gwel dan yr amrywiol eiriau a ddefnyddir yno yn allegawl gan y gwr doeth.

HENDER, (hen) henafiaeth, heneidd-dra.—'Ac nid yn hender y llythyren.' Rhuf. 7. 6.—'Hendeb y llythyren.' W. S. Y mae newydd-deb yn ngwasanaeth Duw, a hender y llythyren, yn cael eu gosod gyferbyn a'u gilydd. Y mae y llythyren yn hen, sef goruchwyliaeth y ddeddf dan yr Hen Destament yn hen, mewn cymhariaeth i oruchwyliaeth newydd yr efengyl. Trwy gredu yr efengyl, ac undeb â Christ, y mae meddwl dyn yn cael ei adnewyddu i wasanaethu Duw, mewn dull newydd, yn wirioneddol, ac yn ddiragrith; heb hyn nid oes dim ond yr hen ddyn a'r llythyren yn addoliad Duw, a'r gwasanaeth yn ganlynol yn hen, yn ffurfiol, ac yn farwaidd.

HENFFYCH—WCH, HANBYCH, HANPYCH, gair o gyfarchiad caredig, neu yn ddangosiadol felly. —'Henffych well.' Mat. 28. 9.—'Dyw i'ch cadw.' W. S.—'Hyn ffych well, dydd da ywch,' ymyl y ddalen. Y gair â pha un y cyfarchodd Judas yr Arglwydd Iesu yn fradychus; ac y cyfarchodd y milwyr ef yn wawdus: (Mat. 26. 49. a 27. 29.) ond y gair yn mha un y cyfarchodd Crist ei ddysgyblion yn garedig ac yn orfoleddus, ar ol ei adgyfodiad ef. *Χαιρετε*, *byddwch lawen*, *gorfoleddwch*; yr oedd boreu hyfryd gwedi gwawrio, ar ol noswaith dywyll ddychrynllyd, a mawr achos llawenydd i'w eglwys ydyw hyd heddyw, a hyd byth hefyd!

HENO, (hen) y nos hon, y noswaith hon. Mat. 26. 31. Ruth 3. 13, &c.

HEN—UR—IAETH, (hen) henadur, henaduriaeth.—'Gyd âg arddodiad dwylaw yr henuriaeth.' 1 Tim. 4. 14.—'Gan osodiad dwylaw yr henafiaeth.' W. S. Yr henuriaeth yn Lystra y mae yn ei feddwl. Yn 2 Tim. 1. 6. nid ydyw yn crybwyll ond am dano ei hun yn rhoddi ei ddwylaw arno; a diammeu fod hyny yn ddigonol o ran gosodiad Timotheus yn ei swydd; etto y mae lle i farnu fod yr henuriaeth yn cyd-osod eu dwylaw arno gyd â'r apostol, fel arwydd o'u cydsyniad a'u gweddi drosto yn ei waith pwysig a llafurus. Yr oedd yn gyffredinol gyfraniad o ddoniau gwyrthiol trwy arddodiad dwylaw yr apostolion; ond nid oedd arddodiad dwylaw yr henuriaeth, tebygol, ond arwydd o'u cydsyniad a'u gweddi drosto. Edr. ARDDODIAD, LLAW.

HENURIAD—IAID, henu, henadur, henefydd, seneddwr, cynghorwr. Prif ystyr y gair yw, henafgwr, y penllwyd, yr oedranus. Job 15. 10. Ond gan fod y cyfryw yn cael eu dewis yn gyffredinol i farnu a llywodraethu, arwydda yn yr ysgrythyrau, is-swyddog yn y wladwriaeth, neu yr eglwys. Hyd yn nod yn yr Aipht, yr oedd gan yr Hebreaid eu henuriaid, y rhai oeddynt yn eu haddef fel eu blaenoriaid yn llywodraethu arnynt; i ba rai yr hysbysodd Moses ei anfoniad gan Dduw i'w gwaredu. Exod. 3. 16. Penau-teuluoedd oedd y rhai hyn, neu gwyr hynodol am eu galluoedd a'u synwyroldeb; ac y mae yn debygol mai 72 oeddynt o rifedi, chwech o bob llwyth. Aeth y rhai hyn gyda Moses ran o'r ffordd i ben mynydd Sinai, gwelsant yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol, a bwytasant ac a yfasant yno. Exod. 24. 9, 10, 11. Er iddo trwy gynghor doeth Jethro, ddewis tywysogion ar filoedd, ar gannoedd, ar ddegau a deugain, ac ar ddegau; etto, i esmwythâu ar Moses, parodd Duw iddo gasglu dengwr a thriugain o henuriaid Israel, a'r Arglwydd a dywalltodd ei Ysbryd arnynt i'w haddasu i'r swydd, ac i nodi dewisiad Duw o honynt iddi. Num. xi. Y rhai hyn, tebygol, oeddynt yr henuriaid a gadwasant y bobl gyd â'r Arglwydd â'i wasanaeth ar ol marwolaeth Josuah. Jos. 24. 31. Barn. 2. 7. a xxi. Heblaw y rhai hyn, yr oedd henuriaid yn llywodraethu yn mhob dinas. Deut. 19. 12. a 21. 3. a 22. 15, 18. a 25. 8. Ruth 4. 2. Ezra 10. 14.

Yn cyfeirio at yr henuriaid Iuddewig, gelwir llywodraethwyr yr eglwys Gristionogol yn henuriaid. Y mae yr un rhai yn cael eu galw yn henuriaid, yn esgobion, goruchwylwyr Duw. Tit. 1. 5, 7. Act. 20. 17, 18.—blaenoriaid, Heb. 13. 7, 17, 24. Yr oedd yr apostolion a'r henuriaid yn cyd-ymgynghori yn y cynghor yn Jerusalem. Act. 15. 4, 6. Y mae Petr ac Ioan yn galw eu hunain yn henuriaid. 1 Petr 5. 1. 2 Ioan 1. Yr oedd rhai o'r henuriaid hyn yn fwy nodedig am eu doniau i lywodraethu yn dda, tra yr oedd eraill a'u doniau yn eu haddasu yn fwy i boeni yn y gair a'r athrawiaeth. 1 Tim. 5. 17. Nid gwahanol swyddwyr oedd y rhai hyn; ond yr un swyddwyr yn yr eglwys, wedi eu cynnysgaethu â gwahanol ddoniau, fel y mae yn crybwyll yn 1 Cor. 12. 28. Rhuf. 12. 8. Gwel Vitringa *de Synagog. Vet.*, p. 474—495.

'Ac yn nghylch yr orsedd-fainc yr oedd pedair gorsedd-fainc ar hugain; ac ar y gorsedd-feinciau y gwelais bedwar henuriad ar hugain yn eistedd, wedi eu gwisgo mewn dillad gwynion; ac yr oedd ganddynt ar eu penau goronau aur.' Dat. 4. 4. Barna y dysgedig Vitringa fod cyfeiriad yn y rhifedi at ddosparthiadau yr offeiriaid a sefydlwyd gan Dafydd

Digitized by Google

yn ngwasanaeth y deml, y rhai oeddynt *bedwar dosparthiad ar hugain.* 1 Cron. xxv. Ac eu bod yn y weledigaeth hon yn arwyddo gweinidogion Crist dan y Testament Newydd, trwy ba rai y mae efe yn llywodraethu ac yn ymgeleddu ei bobl. Eu gwisgoedd gwynion, yn cyfeirio at wisgoedd yr offeiriaid, sydd yn arwyddo eu purdeb a'u sancteiddrwydd, wedi eu golchi, eu sancteiddio, a'u cyfiawnhau yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni; hefyd, am eu bod yn pregethu yr athrawiaeth hon i'r bobl, fel y caffont hwythau eu cyfiawnhau a'u sancteiddio. Y coronau aur ar eu penau, sydd yn arwyddo ardderchogrwydd sanctaidd eu swydd, a'r awdurdod â pha un y maent yn ei gweinyddu, trwy, nid braich o gnawd, ond nerth yr Ysbryd Glân. Y maent yn ngwyddfod Duw, ac yn addoli ac yn gweini ger ei fron. Hwy oeddynt nesaf at yr orsedd, ac yn sefyll ar y môr o wydr ar ba un yr oedd yr orsedd yn sefyll. Dat. 5. 7, 11, 13. a 14. 3. Edr. GWYDR.

HEOL—YDD, (he-ol) ffordd, llwybr, ystryd. Ffordd rhwng rhestrau tai mewn tref neu ddinas. Gen. 19. 2. Y tai oddeutu y ffordd hòno. Dan. 9. 25. Diar. 7. 12.

Y mae yn amlwg fod y gair רחוב a gyfleithir *heol* yn ein Biblau ni, yn arwyddo rhyw le agored, gwag, helaeth. Edr. 2 Cron. 32. 6. Ezra 10. 9. Neh. 8. 1, 3, 16. Esth. 4. 6. Ezec. 16. 24.

'A chau y pyrth yn yr heolydd.' Preg. 12. 4. Y pyrth ydyw y synwyrau yn nghorph dyn; trwy y rhai hyny y mae yn derbyn ac yn rhoddi. Yn henaint y mae y pyrth hyn, mewn gradd mawr, wedi eu cau, ac yn annefnyddiol iddo ei hun, ac eraill, i'r peth fyddent gynt; y mae y pyrth yno, ond wedi eu cau, ac nid oes ond ychydig o dramwyo trwyddynt. Hwyrach mai y genau yn fwyaf neillduol a feddylir wrth y pyrth: y genau yw porth yr ymborth, yr anadl, a llefaru.

'Codaf yn awr, ac âf o amgylch y ddinas, trwy yr heolydd a'r ystrydoedd, ceisiaf yr hwn a hoffa fy enaid.' Can. 3. 2. Y ddinas yw yr eglwys; yr heolydd a'r ystrydoedd yw yr ordinhadau cyhoeddus; y mae pawb, y drwg a'r da, yn tramwyo y rhai hyn; y mae Crist, doethineb Duw, ac anwylyd yr eglwys, yn adrodd ei leferydd yn yr heolydd; yno y cafodd miloedd wir adnabyddiaeth a meddiant o hono; y mae ei lef i'w chlywed yno yn athrawiaeth yr efengyl. Pa le yr â enaid wedi colli ei gymdeithas i'w geisio, ond lle mae i'w gael? Y mae llawer yn ei golli trwy eu hesmwythder, eu segurdod, a'u diofalwch; tra byddont yn ei geisio yn y gwely o esmwythder cnawdol, ceisio ofer fydd. 'Ceisiwch fi,' medd efe, 'a chwi a'm cewch, pan y'm ceisioch â'ch holl galon;' wedi deffroi i geisio yn ddiwyd ac yn ddifrifol yn y moddion sanctaidd a drefnodd efe, nid âer yn nebpell nes ei gael. Byw yn foddlon hebddo, yn dal rhith o grefydd heb gymdeithas neillduol âg ef, sydd arwydd sicr o ddyeithrwch hollol iddo; ei geisio yn gnawdol ac yn ddioglyd, sydd brawf mawr o wrthgiliad ysbryd; ond ei geisio yn ddiwyd, yn ddyfal, ac yn barhaus, sydd sicr o lwyddo. Can. 3. 4. Diar. 1. 20. Jer. 29. 12, 13, 14. Lef. 26. 39, 40. Ps. 32. 6. Luc 14. 21, 22, 23.

'A heol y ddinas oedd o aur pur, fel gwydr gloyw.' Dat. 21. 21. Yr oedd yr holl ddinas o aur, yn debyg i wydr gloyw. Adn. 18. Ymadrodd allegawl, yn dangos ei gwerthfawrogrwydd, ei phurdeb, a'i gogoniant. Yr oedd y butain wedi ei gwychu âg aur, a meini gwerthfawr, a pherlau, er ei bod yn llawn budreddi a phob ffieidd-dra; ond aur yw yr eglwys, ac fel gwydr yn ddysglaer, yn gweled Duw, ac yn hollol adnabyddus iddo. Y mae ei heolydd felly, sef ei chyfarfodydd cyhoeddus, rhodiad cyhoeddus ei haelodau, a'i holl ymdriniaethau yn sanctaidd ac yn bur.

'Ni phair glywed ei lef yn yr heol.' Esa. 42. 2. Dyma un nôd o'r gwir Fessiah, a roddir gan y prophwyd; 'Ni phair glywed ei lef yn yr heol,' fel gwr am ddangos ei hunan, am wneuthur plaid, a chodi cythrwfl; ond bydd ei ymddangosiad yn addfwyn ac yn ostyngedig; yn dysgu mewn addfwynder a llarieidd-dra; yn fwy am wneuthur llesâd i ddynion na chael clod a dyrchafiad ganddynt. Yr oedd ei addysg a'i athrawiaeth o'r un natur, yn dangnefeddus ac yn heddychol, yn traethu 'heddwch i'r cenedloedd'—heddwch i bell, a heddwch i agos. Zech. 9. 10. Eph. 2. 17. Mae yr efengylwr Matthew, pen. 12. 17. yn dangos fod Iesu o Nazareth yn cyfateb yn gyflawn yn ei holl ymddygiad i'r brophwydoliaeth hon am dano. Gwedi gwneuthur gwyrthiau, gorchymynodd iddynt na wnaent ef yn gyhoedd. Yr oedd yn ddyledswydd arnynt gredu mai y Messiah oedd, a dywedyd wrth eraill eu bod yn credu hyny; yr oedd yn ddyledswydd ar y rhai a iachawyd, dystiolaethu mai efe a'u hiachaodd hwynt: yr hyn a waherddir iddynt, yw ymffrost gwag, a bloedd gnawdol, ddynol, fel y gwna plant dynion, a'u canlynwyr, yn eu hymchwydd cnawdol; yr hyn ni wna ddim llesâd, ond ennyn cenfigen a dygasedd eraill. Y mae holl agweddiad Crist yn mhob peth yn ateb yn gwbl i'r darluniad prophwydoliaethol hwn o hono. Nid yw ei deyrnas o'r byd hwn, ac ni wna y cnawd a rhwysg bydol ddim cynnorthwy i'w gosod i fynu.

HEPIAN, (heb) hephun, hephuniad, hephuno.—'Yn caru hepian.' Esa. 56. 10. Arwydd o fugeiliaid cwbl ddiofal am y praidd, ac yn caru byw mewn moethau, segurdod, a diogi. Y cyfryw fugeiliaid ydynt felldith drom ar y wlad, ac yn aml, yn nodau rhag-flaenorol o ddinystr pobloedd. Neh. 3. 18. Diar. 6. 10.

HEPHER, חפר [*yr hwn sydd yn ceisio*] 1. Tad Salphaad, pen-teulu. Num. 26. 32. a 27. 1.——2. Dinas, brenin pa un a laddwyd gan Josuah. Jos. 12. 17. Yr un, hwyrach, medd Calmet, ag Ephraim, 2 Cron. 13. 19. neu ag Ophrah, lle y ganwyd Gedeon.

HEPHSIBAH, חפצי־בה [*fy ewyllys ynddi*] mam Manasseh, brenin Judah. 2 Bren. 21. 1.—'Ti a elwir Hephsibah.' Esa. 62. 4. Carodd Crist ei eglwys, ac ac a roddodd ei hun drosti; y mae ei holl hyfrydwch ynddi. Eph. 5. 25. Ps. 16. 3. Pan byddo yn dangos hyn trwy arwyddion amlwg yn ngwydd y byd, gelwir hi Hephsibah, sef, *fy ewyllys, fy hyfrydwch ynddi.* Y mae hi felly bob amser, sef ei haelodau bywiol; ond nid ydyw yn ymddangos i eraill ei bod felly, o herwydd ei gorthrymderau a'i herlidigaethau. Hwyrach fod y geiriau yn brophwydoliaeth am gyflwr llwyddiannus a gogoneddus yr eglwys yn y dyddiau diweddaf.

HERES, חרס [*yr haul*] y mynydd i ba un y gyrodd yr Amoriaid y Daniaid. Barn. 1. 34, 35.

HERESI—AU, *αιρεσις, electio, optio;* ab *αιρεω, dewis.* Gwel Schleusner. Y mae y gair Groeg, yn mhob man lle yr arferir ef, yn cael ei adael *heresi,* heb ei gyfieithu, (gwel Act. 5. 17. a 24. 14. 1 Cor. 11. 19. Gal. 5. 20. 2 Petr 3. 1.) oddieithr yn Act. 15. 5. a 24. 5. a 26. 5. a 28. 22. lle y cyfieithir ef *sect,* yn ol y *Vulg.* a'r *Saes.,* ond diammeu y dylasai yr un gair fod yn y cyfieithiad, fel y mae yn y Groeg, yn nghyhuddiad Tertulus, ac yn amddiffyniad Paul. Trwy newid y gair yn y cyfieithiad, y mae yr amddiffyniad yn ymddangos yn anmhriodol; canys nid *heresi* y galwodd Tertulus hi, yn ol y cyfieithiad hwn, ond *sect:* nid oes dim a ddichon fod yn fwy addas nag amddiffyniad Paul, yn y Groeg. Y gair hwn, yn mhlith y Groegiaid, a arwydda,

Digitized by Google

1. Rhyw ddull neu drefn y mae rhyw un yn ei ddewis iddo ei hun o fyw neu o grefydda; heb nodi drygioni neu ddaioni y peth ynddo ei hun.

2. Hefyd, y blaid neu y bobl fyddo yn dilyn y drefn hòno. Felly oddiwrth y Groegiaid y gelwir y pleidiau yn mhlith yr Hebreaid, *Heresi y Saduceaid*, *Heresi y Phariseaid*, &c. Act. 5. 17. a 26. 5.

3. Heresi yn mhlith y Cristionogion, oddiwrth bob un o'r ddau, a arwydda rhyw blaid o derfysgwyr anfoddol yn yr eglwys Gristionogol, yn ddilynwyr rhyw bleidiwr cnawdol, balch, anfoddol, sydd am wneuthur enw iddo ei hun. Un o weithredoedd y cnawd y geilw yr apostol hi. 1 Cor. 11. 19. Gal. 5. 20.

4. Rhyw ddaliad, neu ddaliadau, neu athrawiaethau cyfeiliornus, y mae y cyfryw gyfeiliornwyr yn eu dwyn ac yn eu dysgu i eraill, mewn ysbryd anfoddog, cyndyn, ac angharedigol. Geilw yr apostol hwynt 'heresiau dinystriol,' sef cyfeiliornadau croes i'r gwirionedd, sydd yn dinystrio eneidiau y dysgawdwyr a'u canlynwyr. Edr. DINYSTRIOL. Gwel Schleusner. Campbell's 9th *Prelim. Dissert.*, *p.* 424.

Ni bu dim heresiau yn y byd gwedi hyny, nad oeddynt wedi ymddangos a'u dwyn i mewn yn foreu i'r eglwysi apostolaidd, a chawsant eu gwrthbrofi trwy ysbrydoliaeth Duw gan yr apostolion eu hunain. Gwadwyd Duwdod a dyndod Crist yn foreu; a gwrthbrofodd Ioan, dan ysbrydoliaeth dwyfol, bob un o'r ddau gyfeiliornad; gwadwyd yr adgyfodiad gan Hymynëus a Philetus; a gwadwyd cyfiawnhad trwy ffydd gan eraill; cadarnhaodd Paul y gwirionedd, trwy ddwyfol ysbrydoliaeth, yn erbyn pob un o'r ddau: gwrthsafodd Iago, Judas, &c, benrhyddid y rhai oedd yn troi gras Duw i drythyllwch, &c. Tra byddo Satan heb ei gadwyno, nid oes lle i ddysgwyl na bydd ganddo rai yn dal yr un cyfeiliornadau yn y byd a'r eglwys:—canys nid oes un ffordd yn fwy effeithiol a melldigedig; ond y gwirionedd a saif, gan mai gwirionedd yw, ac y mae Duw y gwirionedd o'i blaid.

HERETIC, *Gr.* αιρετικος; blaenor plaid neu *sect* yn mhlith Cristionogion; un pleidgar, cyfeiliornus, yn mhlith Cristionogion: un yn peri anghydfod a rhwystrau yn erbyn athrawiaeth y gwirionedd. Rhuf. 16. 17.

'Gochel y dyn a fyddo heretic, wedi un ac ail rybudd,' &c. Tit. 3. 10, 11. Gwedi ei rybuddio yn syml, fwy nag unwaith, paid a threulio amser i ddadleu âg ef, eithr gochel ef,—gochel ef fel aelod eglwysig—gochel ef o ran cyfrinachu yn neillduol âg ef—gochel gael dy niweidio dy hun ganddo—a gochel fod dy ymddygiad tu ag ato yn tueddu i beri iddo ef, nac eraill, i edrych ar ei gyfeiliornad yn beth bychan, diniwed. 'Bydded i ti fel yr ethnic neu y publican,' sef fel y rhai hollol annuwiol a digrefydd. Rhuf. 16. 17. 1 Cor. 5. 11. Gal 1. 8, 9. a 5. 12. 2 Thes. 3. 14. 2 Ioan 10. Nid oes yr un gorchymyn i'w alltudio, ei losgi, ei garcharu, ei arteithio, ei yspeilio o'i dda; nid i athrofa yr apostolion, ond i *synagogau* Satan y mae y cyfryw driniad o hereticiaid yn perthynu. Ond ei ochelyd fel brawd Cristionogol, ac ymgadw oddiwrth gyfrinach neillduol âg ef, a'i fwrw o'r eglwys fel aelod, yw yr hyn sydd gan yr eglwys, a phob cymdeithas, hawl i'w wneuthur, yn ol rheol ein Hiachawdwr, (Mat. 18. 15, 17.) a thyma yr hyn oll a ddylid wneuthur yn y cyfryw achos. 'Na fydded i chwi gymdeithasu âg ef, megys (ινα, *fel*) y cywilyddio efe.' 2 Thes. 3. 14.

HERLOD—ES, (her-lawd) *Heb.* ילד glaslanc, llencyn, bachgenyn, rhocas.—'Herlodes, cyfod.'—'Y vachcennes, cyfod.' W. S. Luc 8. 54. Y mae tiriondeb, gallu, ac awdurdod Crist ar angeu yn amlwg iawn yn y wyrth hon. Dichon gynnorthwyo pan byddo pawb eraill yn methu; gwyr beth ydyw teimladau dynol, trwy brofiad, i'r graddau mwyaf, ac a fedr dosturio wrth rai mewn tristwch a phrofedigaeth. Gen. 42. 22.

Gostyngais i f'enaid mewn pryd,
Fel pan ddiddyfnyd *herlod*.
*E. Prys*, (Ps. 131. 2.)

HERMAS. Sonir am un o'r enw hwn gan yr apostol. Rhuf. 16. 14. Barn gyffredin yr hynafiaid yw, mai efe yw awdwr y gwaith a elwir 'THE SHEPHERD' (*Y Bugail*), yr hwn a goffheir gan Irænens, Clement o Alexandria, Origen, Tertulian, ac eraill: y mae etto ar gael.

HERMOGENES. Nid oes dim hanes gwirioneddol ychwaneg am y gwr hwn, nag a roddir gan yr apostol, iddo ef, gyd âg eraill, *droi oddi wrtho*, neu, *ei droi ef ymaith*, sef o fod yn apostol, fel y cyfieitha rhai y geiriau. 2 Tim. 1. 15. Macknight.

HERMON, חרמון [*dystryw*, neu *diofryd*] mynydd o du y gogledd-ddwyrain i wlad Canaan, ac o du y dehau i Libanus tu hwnt i'r Iorddonen. Y Sidoniaid a'i galwant yn Sirion, a'r Amoriaid Senir. Deut. 3. 9. Gelwid un pen iddo שין *Sïon*. Deut. 4. 48. Tebygol mae Hermon ydoedd enw y mynydd yn gyffredin, i'r hwn yr ydoedd amryw fryniau neu benau, y rhai a elwid Sirion, Sener, Shion, Hor. Num. 34. 7. Gwel Ainsworth, Calmet. Mynydd Hermon oedd y terfyn gogleddol i deyrnas Og, ac yn perthyn iddi; fel yr oedd Arnon y terfyn deheuol i deyrnas Sehon. Deut. 2. 8. a 4. 48. Yr ydoedd teml i Baal, tebygol, ar ben Hermon. Y mae yn hynod am y gwlith sydd yn syrthio arno y nos. Ps. 133. 3. Edr. GWLITH. Y mae yr eira yn aros arno drwy yr haf, a byddent yn ei ddwyn oddi yno i Tyrus i oeri y gwin i'w yfed *in Fresco*, fel y dywedent, sef yn oer.

'O dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid o fryn Misar.' Ps. 42. 6.—'A Hermon y mynydd bychan.' Dr. M. Y gair מצער *mitsar*, a arwydda *bychan*; ond nid Hermon ydoedd y mynydd bychan, canys mynydd mawr oedd Hermon; ond gallai fod mynydd Mitsar, neu *bychan*, yn agos i fynydd Hermon. Mae y gair (חרמנים) *Hermonim*, neu, *Hermoniaid*, yn y rhif llïosog, i arwyddo amryw fryniau ar ben Hermon, neu ynte drigolion Hermon, neu yr holl wlad oddi amgylch Hermon, neu yr ardal rhwng Hermon a Thabor. I'r wlad hon yr alltudiwyd Dafydd yn amser gwrthryfel Absalom, yn mhell oddiwrth fynydd Sïon ac addoliad Duw yno; 'Oni chofiaf di,' medd ef wrth yr Arglwydd, 'o dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid, o fryn Mitsar.' Nid oes nac amgylchiadau, na lle, a ddichon attal cymdeithas y duwiolion â Duw.

HEROD, Ηρωδης. Y mae tri o'r enw a sôn am danynt yn yr ysgrythyrau, sef Herod Fawr, Herod Antipas, a Herod Agrippa.

Herod Fawr oedd fab Antipater, Idumead, un o'r Arabiaid, a Cyprus. Ei frodyr oeddynt Phasael, Joseph, a Pheroras, a'i chwaer oedd Salome. Idumead oedd o ran cenedl, ac Iuddew o ran ei grefydd, fel yr oedd yr holl Idumeaid wedi i Hyrcanus eu darostwng, yr hwn a roddodd eu dewisiad iddynt, naill ai gadael eu gwlad, neu newid eu crefydd am y grefydd Iuddewig. Rhoddodd ei dad lywodraeth Galilea iddo pan oedd yn ieuanc: gwnawd ef wedi hyny gan Sextus Cæsar yn llywodraethwr Cœle Syria. Gwnawd ef yn detrarch gan Marc Anthony; a gwedi hyny gwnawd ef yn frenin Judea, gan senedd Rhufain, trwy ewyllys da Anthony. Rhy faith fyddai yma roddi ei holl hanes creulawn, gwaedlyd; ac annifyr hefyd, ond i'r rhai sydd eisoes yn gydnabyddus â ben hanesiaeth, ac i'r rhai hyny bydd yn anfuddiol. Ni

Digitized by Google

chaf ond yn unig goffâu yr ychydig bethau canlynol am dano, y rhai sydd yn un â fy amcan yn y gwaith hwn.*

Efe a ail-adeiladodd y deml, neu, yn hytrach, a'i hadgyweiriodd hi, fel mae yr un deml ydoedd, ond ei gwychu a'i hadduro ganddo. Tynodd hi i lawr, ac a'i hadeiladodd hi yn ddarnau, fel na rwystrwyd yr addoliad beunyddiol yr holl amser y bu wrthi.† Yr oedd yn anhawdd cael gan yr Iuddewon gydsynio â'i amcan ar y cyntaf, rhag iddo ddystrywio yr hen deml heb adeiladu un newydd yn ei lle: ond wedi iddo roddi boddlonrwydd am hyny iddynt, aeth yn mlaen â'i amcan. At waith Herod y mae yr Iuddewon yn cyfeirio wrth ddywedyd y buwyd chwe blynedd a deugain yn ei hadeiladu. Ioan 2. 20. Adeiladau Herod y mae y dysgyblion yn eu dangos i'r Arglwydd Iesu, gan ddywedyd, 'Athraw, edrych pa ryw feini a pha adeiladau sydd yma.' Marc 13. 1. Mat. 24. 1. Luc 21. 5. Hon ydyw y deml oedd yn sefyll yn amser Crist, ac y rhagfynegodd y prophwyd Haggai y byddai ei gogoniant yn fwy na'r tŷ cyntaf a wnaeth Solomon, am y deuai dymuniant yr holl genedloedd iddi, sef y Messïah. Hag. 2. 7. Nid gwahanol deml ydoedd, ond yr un deml, gyd âg ychwaneg o adeiladau ac addurniadau iddi; fel mae geiriau y prophwyd yn cael eu cyflawni yn fanwl. Nid oedd, ac nid ydyw, yr Iuddewon yn sôn un amser ond am ddwy deml yn meddiant eu tadau, sef teml Solomon a theml Zorobabel. Cysegrodd y deml wedi gorphen y gwaith gyda llawer o draul a rhwysg.

Pan ydoedd yn llesg ac yn wan, ac agos a diweddu ei oes ddychrynllyd, gwedi cael ei siomi gan y doethion, parodd ladd holl fechgyn‡ Bethlehem, ac yn ei holl gyffiniau, o ddwy flwydd oed, a than hyny. Bwriadu yr ydoedd ladd Crist trwy ladd holl fechgyn Bethlehem, ac yn yr holl gyffiniau; ond cafodd ei siomi. Yr oedd ei holl fywyd wedi bod yn fywyd o gigeidd-dra a chreulondeb; ac wedi lladd ei ewythr Joseph, yr hen frenin Hyrcanus, yr holl Sanhedrim yn Jerusalem, Mariamne ei wraig anwylaf, a'i meibion, &c. ychwanegodd at y cwbl y creulondeb ofnadwy hwn ar fechgyn diniwed Bethlehem. Rhai gwyr ieuainc yn clywed ei fod wedi marw, a dynasant i lawr yr eryr euraidd a osododd uwch ben un o byrth y deml o barch i'r Rhufeiniaid; am hyny parodd i ddeugain o honynt gael eu llosgi yn fyw. Mae ei weithredoedd o greulondeb, cyffelyb i'r rhai hyn, yn rhy anhyfryd i'w hadrodd.

Yr oedd barn Duw i'w gweled yn eglur yn y byd hwn yn y clefyd y bu farw o hono; a'i ymddygiad yn ei ddyddiau diweddaf â'r un creulondeb gwaedlyd yn ei nodi ag oedd yn holl ystod ei fywyd. Yr oedd ei syched yn anniwalladwy; ei goluddion yn llawn gwellau; ei goesau yn chwyddo; ei ranau dirgelaidd yn braenu ac yn pryfedu; ac yr oedd ysfa annyoddefol dros ei holl gorph. I attal yr Iuddewon rhag gorfoleddu yn ei farwolaeth, casglodd yn nghyd oreuon y deyrnas, a chauodd arnynt yn Jericho, lle yr ydoedd yn gorwedd yr amser hwnw; ymbiliodd gyda dagrau ar ei chwaer Salome, ac Alexas ei gwr, eu dienyddio oll pan y byddai efe farw—fel y byddai wylo yn lle gorfoledd ar yr achos. Hyn, yn ddiammeu, a addawsant, ond ni chyflawnasant y weithred ofnadwy. Ceisiodd ladd ei hun âg erfyn, ond attaliwyd ef gan Achiab ei gâr. Gorchymynodd ladd ei fab Antipater, bum niwrnod cyn ei farw. Bu fyw 70 o flynyddoedd, a theyrnasodd 37 o honynt. Bu iddo naw o wragedd, a phymtheg o blant; rhoddodd dri o honynt i farwolaeth. O'r lleill o'i feibion, nis coffâf o honynt ond y rhai hyny y sonir am danynt yn yr ysgrythyrau. O Malthace, un o'i wragedd, y cafodd Archelaus a Herod Antipas; o Cleopatra, gwraig arall iddo, cafodd Philip; ac o Mariamne, merch Simon yr arch-offeiriad, y cafodd Herod Philip. Aristobulus, yr hwn a laddodd Herod, a gafodd o Bernice ei wraig, Agrippa (yr hwn a laddodd Iago brawd Ioan, ac wedi hyny a darawyd gan Dduw yn Cesarea) a Herodias ei chwaer. Hi a briododd yn gyntaf Herod Philip ei hewythr, ac wedi hyny a ddiangodd oddi wrtho i briodi Herod Antipas ei frawd. O'i gwr cyntaf y ganwyd iddi ei merch Salome, yr hon a *ddawnsiodd* ymaith ben Ioan Fedyddiwr, am geryddu Herod Antipas am iddo euog-losgach efo gwraig ei frawd, ei mam. Teyrnas Herod ar ol ei farwolaeth ef a ranwyd rhwng ei dri mab, Archelaus, Herod Antipas, a Philip. Archelaus a gafodd Judea, Idumea, a Samaria; Herod Antipas, Galilea a Peræa; a Philip, Aorontis, Trachonitis, Paneas, a Batanæa.

* Y sawl a ewyllysiant wybod ychwaneg am dano, edrychant Josephus, *lib.* xiv. *cap.* 9; *lib.* xv. *cap.* 1 & 7; *lib.* xvi. *cap* 11; *lib.* xvii. *cap.* 2. Prideaux's *Connect. part.* ii. *b.* 6, 7, 8, 9.

† Gwel Lud. *Capelli Templi Hierosol. delineat, ex Villalpando, p.* 3800.

‡ 'Holl fechgyn,' παντας τους παιδας 'holl feibion.' W. S. Nid 'all the children,' *yr holl blant*, fel y mae yn Saesneg. Gwel Doddridge, Campbell.

HEROD ANTIPAS oedd detrarch Galilea, a Peræa, yn ol ewyllys ei dad, ac a gafodd ei gadarnhau yn y llywodraeth gan Augustus, ymerawdwr Rhufain. Hwn oedd yr Herod, fel y crybwyllwyd o'r blaen, a barodd dori pen Ioan Fedyddiwr, a'r Herod yr anfonodd Pilat Crist ato; yr hwn, yn nghyd â'i filwyr, a'i diystyrodd, ac a'i gwatwarodd, a'i gwisgodd â gwisg glaerwen, ac a'i danfonodd drachefn at Pilat. Luc 23. 8—11. Gwedi anfoddloni ymerawdwr Rhufain, alltudiwyd ef i Lyons yn Ffrainc, lle bu efe a Herodias farw yn ddigon truenus. Dywedir am ddiwedd y ddawnsawraig Salome, iddi syrthio trwy yr iâ, ac i'r iâ wahanu ei phen oddiwrth ei chorph. Mat. xiv. Marc vi. (Gwel Nicophorus, *Hist. l.* 1. *c.* 20.) Hwn yw yr Herod a eilw yr Iesu, 'y cadnaw hwnw.' Luc 13. 32. Edr. CADNAW.

HEROD AGRIPPA oedd fab i Aristobulus, ŵyr i Herod Fawr, a brawd Herodias. Hwn yw yr Herod, fel y crybwyllwyd o'r blaen, a laddodd Iago, a garcharodd Petr, ac a darawyd gan Dduw yn Cesarea. Efe ydoedd tad Agrippa, Bernice, Drusilla, a Mariamne. Act. xii, xxv, xxvi. Edr. AGRIPPA. Mae holl hanesion am y teulu hwn, yr Herodiaid, yn rhoddi golwg i ni ar ddynion creulonaf ac aflanaf fucheddau, y rhai oeddynt yn llywodraethu pan ymddangosodd y Messïah, yr Oen difeius a difrycheulyd, a phan y gosododd ei deyrnas i fynu yn y byd llygredig hwn. Tan deyrnasiad y cyfryw fleiddiaid, rhaid fod y wlad yn llygredig ac yn druenus iawn.

HERODIANIAID, plaid, neu sect, yn mhlith yr Iuddewon gwahanol oddiwrth y Phariseaid, y Saduceaid, a'r Esseniaid. Canlynwyr un o'r Herodiaid, (Herod Fawr, medd rhai, Herod Antipas, medd Campbell) mewn rhyw ddaliadau a eilw yr Arglwydd Iesu, 'surdoes Herod.' Marc 8. 15. a 12. 13. Beth ydoedd eu daliadau, nid yw eglur. Barna Prideaux, mai daliadau Herod a'i ganlynwyr oeddynt: 1. Fod yn gyfreithlawn ymostwng i lywodraeth y Rhufeiniaid, yn groes i feddyliau y Phariseaid, y rhai a farnent, oddiwrth Deut. 17. 15. nad oedd gyfreithlawn ymostwng iddynt, na thalu teyrnged iddynt. Am hyny, yr oedd rhai o'r ddwy blaid, anghytun â'u gilydd yn hyn, yn ceisio rhwydo yr Arglwydd Iesu, trwy ofyn iddo, 'Ai cyfreithlawn rhoddi teyrnged i Cesar, ai nid yw?' Pe buasai yn ateb yn gadarnhaol, yr ydoedd y Phariseaid yn barod i'w gyhuddo i'r bobl, ei fod yn erbyn eu rhyddid hwy. Os atebai yn nacaol, drachefn, yr oedd yr Herodianiaid yn barod i'w gyhuddo fel gelyn i Cesar. Ei ddoethineb a ddyrysodd ac a

Digitized by Google

drechodd gyfrwysdra y ddwy blaid.——2. Peth arall yr oeddynt yn ei ddal oedd, sef bod yn gyfreithlawn cyd-ffurfio â defodau crefyddol y Paganiaid yn eu hamgylchiadau presennol. Dyma egwyddorion Herod, y mae yn ddiogel, gan ei fod yn esgusodi ei hun am ddwyn i arferiad amryw ddefodau Paganaidd, yn groes i'r grefydd Iuddewig. Gwel Josephus, *Antiq.*, *lib.* xv. *cap.* 12. Prideaux, *p.* ii. *b.* 8. *Universal History, vol.* x.

HERODIAS. Edr. AGRIPPA, HEROD.

HERODION, câr Paul. Rhuf. 16. 11.

HERWR—IAETH, (herw-gwr) crwydrad, ffoadur, gwibiad, un ar ffo, un a ddiangodd; crwydri, gwib-rodiad.——Herwr môr, gwillmyr, môr-leidr; porthiant herwr, treth yn mhlith yr hen Gymry yn rhai manau, tu ag at gynnal crwydriaid, i'w hattal rhag anrheithio ac ysglyfaethu. 2 Sam. 14. 13, 14. Galar. 2. 14. Ezra 7. 36. Dr. M.

HESBON, חשבון [*meddwl*] prif ddinas breniniaeth Sehon, yn nghylch ugain milltir tu hwnt i'r Iorddonen. Wedi gorchfygu Sehon, rhoddwyd hi i'r Reubeniaid; a rhoddwyd hi, neu un arall o'r un enw, i'r Gadiaid, ac yr oedd yn un o ddinasoedd y Lefiaid. Num. 21. 26, 27. a 32. 27. Jos. 13. 17. a 21. 29. Ar ol marwolaeth Ahab, y Moabiaid a'i meddiannasant. Yr Assyriaid a'r Caldeaid a'i hanrheithiasant, fel lleoedd eraill, yn dost. Esa. 15. 4. Jer. 48. 45.

'Dy lygaid sydd fel pysgod-lynoedd yn Hesbon, wrth borth Bath-rabbim.' Can. 7. 4. Dywedir yn 2 Mac. 12. 16. fod y llyn gerllaw Caspis, sef Hesbon, yn ddau ystad o led. Porth Bath-rabbim oedd un o byrth y ddinas Hesbon; a elwid felly am ei fod yn arwain i Rabbah, dinas gyfagos; am hyny a enwir yn nghyd yn Jer. 49. 3. Gelwir Rabbah, dinas y dyfroedd, yn 2 Sam. 12. 27. Yn agos i'r porth hwn yr oedd y pysgod-lynoedd hyfryd, i ba rai y cyffelyba Solomon lygaid yr eglwys. Tebygol fod dyfroedd Hesbon yn hynod o loyw, a'r llynoedd yn hyfryd. Wrth lygaid yr eglwys, meddylir, naill ai gweinidogion y gair, neu ffydd a gwybodaeth yr eglwys yn yr ysgrythyrau. Y mae cywirdeb dysglaer, mwynaidd, yn ngwybodaeth gwir dduwiolion o ddyfnion bethau Duw. Mae eu llygaid heb drawst na brychau, yn debyg i lynoedd o ddyfroedd tryloyw; y maent yn canfod yn eglur yn nrych dadguddiad Duw yn ei air; ac y mae prydferthwch neillduol yn y goleuni eglur hwn yn yr enaid. Yn y gyffelybiaeth hon, dichon fod cyfeiriad at lifau, neu ddyfroedd y llygaid, un a elwir *aqua*, dwfr; y rhai sydd gauedig fel dwfr mewn llynau, ac yn mha rai mae y llygad yn ymddangos fel pe bai yn nofio; o'r achos hwn y geilw y Bardd y llygaid, '*natantia lumina*,' *y goleuadau nofiedig*.* Hwyrach fod y gyffelybiaeth hefyd yn arwyddo fod llygaid gwir dduwiolion yn ofni Duw, yn aml, yn ffynon o ddagrau am eu pechodau eu hunain, a phechodau rhai eraill hefyd. Jer. 9. 1. a 31. 9. Ps. 119. 136. Yr un gair *Heb.* עין arwydda *ffynon* a *llygad*, oblegid eu cyffelybrwydd i'w gilydd: y mae harddwch neillduol, gan hyny, yn y gyffelybiaeth, yn mhob golygiad o honi.

HESG—EN, (hy-esg) merydd, elest.—Môr-hesg, sef merydd; hesg melfedawg, llafrwyn. Exod. 2. 3. Job 8. 11. Jonah 2. 5.

HESMON. Dinas yn Judah. Jos. 15. 27.

HESPEN—AU, bach, gafael-fach.—'A'm bysedd gan fyrr yn dyferu ar hyd hespenau y clo.' Can. 5. 5.

* Gwel Virgil, *l.* 5. Felly Ovid, *Fast, l.* 6. *animique oculique natabant.*

Ymddengys fod yr hespen yn rhyw beth i agor y clo âg ef; ac oddiwrth ystyr y gair *Heb.* כפה gellir barnu ei fod yn fwäog. Wrth y drws, medd y Dr. Gill, y mae i ni ddeall calon credadyn; wrth y clo ar y drws, anghrediniaeth; ac wrth hespenaù y clo, y deallwn oerfelgarwch, diofalwch, segurdod, a diogi ysbrydol—y rhai ydynt yn cryfhau anghrediniaeth, ac yn cadarnhau y drws yn erbyn Crist. Y mae dyferiad y myrr oddiwrth fys Crist, sef dylanwadau yr Ysbryd Glân, yn symud yr holl bethau hyn yn effeithiol, i agor drws y galon i Grist; a llaw yr eglwys, sydd yn symud ymaith y pethau rhwystrus hyn, yw ffydd, tan ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Gwel Gill *in loc.*

HESP—ION, y rhyw fenywaidd o *hysp*: sych, diffrwyth. Y mae yn cael ei briodoli i afonydd, ffynonau, a bronau. Esa. 19. 5. Hos. 13. 15. Un o farnau yr Arglwydd ydyw 'croth yn erthylu, a bronau hespion.' Hos. 9. 14.

HESPIN, (hesp) hespwrn, dafad flwyddiad. Gen. 21. 28. Lef. 14. 10.

HESPWRN, (hesp) hespin, dafad ieuanc. Num. 7. 17, &c.

HESRAI, Carmeliad; un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 35. Gelwir ef *Hesro* yn 1 Cron 11. 37.

HESRON, 1. Trydydd mab Reuben, a phen-teulu. Gen. 46. 9. Num. 26. 6.——2. Mab Phares, ac ŵyr Judah. Gen. 46. 12. 1 Cron. 2. 5.

HETH, חת [*dychryn*] ail fab Canaan, a thad yr Hethiaid, y rhai oeddynt yn trigo o du y dehau i wlad Canaan; yn, neu yn agos i Hebron, neu Hephron. Yr oedd yr Hethiaid yn trigo yn Hebron yn nyddiau Abraham. Gen. 10. 15.

HETHLON, dinas yn terfynu gwlad yr addewid o du y gogledd. Ezec. 47. 15. a 48. 1.

HEZECIAH, חזקיה [*nerth yr Arglwydd*] mab Ahaz brenin Judah. Bu Ahaz ei dad farw yn yr 36 flwyddyn o'i oed; yr oedd Hezeciah yn 25 oed pan fu farw ei dad; gan hyny ganwyd Hezeciah pan ydoedd ei dad yn un ar ddeg oed. Peth anghyffredin; etto rhoddir i ni hanesion diammheuol fod dynion yn cenedlu plant mor ieuanc yn y gwledydd hyny.* Lleiheir yr hynodrwydd o'r peth ychydig wrth ystyried y gallai Ahaz fod yn niwedd y 36 o'i oed, a Hezeciah yn dechreu y 25 o'i oed yntau; yr oedd Ahaz felly yn dair ar ddeg oed pan aned Hezeciah. Daeth i'r orsedd A.M. 3278, cyn Crist 726. Gwnaeth yr hyn ydoedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd. Tynodd ymaith yr uchelfeydd, drylliodd y delwau, ac a dorodd y llwyni, ac a faluriodd y sarph bres a wnelsai Moses, gan i feibion Israel wneuthur eilun o honi, ac a'i galwodd hi yn נחשתן *Nehushtan*, sef darn o bres. Agorodd ddrysau tŷ yr Arglwydd, ac a'u cyweiriodd hwynt. Cynghorodd y Lefiaid a'r offeiriaid i ymsancteiddio, a glanhau tŷ Dduw. Aberthodd aberthau cyhoedd ar ei draul ei hun, dros holl Israel. Cyhoeddodd basc arbenig i Judah ac i Israel; a rhedegwyr a aethant â llythyrau trwy holl Israel a Judah i'w cynghori a'u hannog i roddi llaw i'r Arglwydd, a dyfod i addoli i'r cysegr a gysegrodd efe. Rhai a'i gwawdiasant ac a'i gwatwarasant; er hyny, llawer o wyr Aser, Manasseh, ac o Zabulon, a ymostyngasant, ac a ddaethant i Jerusalem. Cadwasant ŵyl am bedwar diwrnod ar ddeg. Y bobl a ddychwelasant o'r ŵyl yn llawn awyddfryd yn erbyn delw-addoliaeth, yn ol siampl y brenin, ac a ddrylliasant y delwau, ac a dorasant y llwyni, ac a ddinystriasant yr uchelfeydd a'r allorau

* Jerome a Scaliger a roddant hanesion am y cyfryw siamplau. Jerome *in Epist. ad Vitalem, tom.* 3. Scaliger *in Elenct. Orat. Chronol.*

Digitized by Google

nes eu llwyr ddifa. Trefnodd gylchoedd yr offeiriaid a'r Lefiaid, a pharotodd waith a chynnaliaeth iddynt. Y bobl gyda pharodrwydd calon a dalasant y degymau; yntau a osododd swyddogion i ddosparthu y degymau. Yn ymddiried ac yn ymgadarnhau yn yr Arglwydd, gwrthryfelodd yn erbyn brenin Assyria, ac nis gwasanaethodd ef. Yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg i Hezeciah, daeth Senacherib brenin Assyria i fynu yn erbyn holl ddinasoedd caerog Judah, ac a'u hennillodd hwynt. Hezeciah a geisiodd heddwch, trwy anfon teyrnged iddo i Lachis, sef tri chant o dalentau arian, a deg ar hugain o dalentau aur; oddeutu £351,000 o'n harian ni. Cyn gynted ag y cafodd yr arian, anfonodd Tartan, Rabsaris, a Rabsaceh, tri o'i swyddogion penaf, yr ail waith. Mae Rabsaceh yn difenwi Hezeciah, yn cablu yn ddychrynllyd, ac yn annog y bobl i droi at frenin Assyria, ac a anfonodd lythyrau i gablu Arglwydd Dduw Israel. Y mae Hezeciah yn ymgadarnhau, ac yn cysuro y bobl. Ar weddi Hezeciah a'r prophwyd Esaiah yn erbyn Senacherib, y mae yr Arglwydd yn anfon angel, yr hwn a laddodd bob cadarn nerthol, a phob blaenor a thywysog yn ngwersyll brenin Assyria, sef 185,000 o honynt. Y mae yn ymddangos yn debygol, medd Prideaux, i'r galanastra hwn gael ei wneuthur trwy ddwyn arnynt y gwynt poeth, cyffredin yn y parthau hyny, ac yn aml pan darawo ar luoedd y bobl, a ladd lawer o honynt mewn mynyd. Y mae y geiriau yn Esaiah yn cyfateb i hyn yn hynod—'Wele fi yn rhoddi arno ef wynt.' Pen. 37. 7. Y gwynt hwn a elwir yn Jer. 51. 1., 'Gwynt dinystriol.' Y teithwyr diweddar i'r gwledydd hyny a'i galwant *Simoon*. Gwel *Appendix to* Calmet's *Dictionary, Frag.* iv. Prideaux's *Connect.*, *p.* i, *b.* i. Nid oedd y wyrth ddim llai, er i'r angel weithredu y dinystr hwn trwy y gwynt poeth yn y gwledydd hyny: ond goreu po leiaf a ddychymygir am bethau heb eu penderfynu yn eglur yn y Gair Sanctaidd. Uniawn y dywedodd yr hen Ffagan dduwiol, 'Lle taw Duw, nid doeth yngan.'

Yn y flwyddyn hòno clefychodd Hezeciah hyd farw: ar ei weddi at yr Arglwydd mae yn cael estyn ei oes; ac y mae yr Arglwydd yn peri i'r haul fyned yn ol ddeg o raddau, yn argoel o'r addewid hòno iddo. Edr. Arwydd, Deial. Berodach-Baladan, brenin Babilon, a anfonodd i ymweled â Hezeciah, o herwydd y rhyfeddod hwnw, ac felly cafodd wybodaeth am ei drysorau. 'Ni thalodd Hezeciah drachefn yn ol yr hyn a roddasid iddo, ond ei galon a ddyrchafodd.' Yr Arglwydd a'i gadawodd ef, i'w brofi ef, i wybod y cwbl oedd yn ei galon, yn neges cenadau tywysogion Babilon. Y mae Esaiah yn rhagfynegi iddo y caethiwed i Babilon; ond y mae Hezeciah, ar ei ymostyngiad yn cael ei arbed dros ei ddyddiau ef. Hezeciah a ddywedodd, 'Da yw gair yr Arglwydd—Onid da, os bydd heddwch a gwirionedd yn fy nyddiau i?' Y brenin duwiol hwn a dreuliodd ddiwedd ei ddyddiau mewn heddwch, a gasglodd lawer o gyfoeth, ac a ddygodd ddyfroedd Gihon i Jerusalem. Bu fyw 54, a theyrnasodd 29 o flynyddoedd. 'A holl Judah a thrigolion Jerusalem a wnaethant anrhydedd iddo ef wrth ei farwolaeth.' 2 Bren. xviii, xix, a xx. 2 Cron. xxix—xxxii. Er cynnydd gwybodaeth a gwir grefydd, cynnaliodd lawer o ysgrifenwyr cywrain i gymharu yn nghyd ac ysgrifenu adysgrifeniadau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd: cofféir yn neillduol i wŷr Hezeciah gasglu Diarebion Solomon. Diar. 25. 1.

1. Yn y brenin duwiol hwn, rhoddir i ni gynllun o ymdrechiadau ffyddlon, egniol, i ddiwygio pobl lygredig, a'u llwyddiant. Hynod oedd ei awyddfryd a'i ffyddlondeb yn wyneb llygredigaeth cyffredin y wlad, ac esgeulusdra mawr gweision y cysegr: yr oedd yn tynu i lawr yn ddiarbed, ac yn codi i fynu yr holl adwyau yn achos ac addoliad Duw. Ac er ei wawdio a'i watwar, etto llwyddodd yr Arglwydd ef yn hynod.—'Efe a'i gwnaeth â'i *holl* galon, ac a ffynodd.' Gwelwn ynddo ddyn wedi cwbl ymroddi i'r Arglwydd â'i holl egni, ac â'i holl nerthoedd.

2. Gwelwn hefyd ynddo y ffyniant o anrhydeddu yr Arglwydd trwy ymddiried ynddo, a galw arno mewn cyfyngder. Nid ydoedd heb arferyd pob moddion er amddiffyniad rhag yr Assyriaid; adeiladodd yr holl fur drylliedig, &c. Gwnaeth lawer o bicellau a tharianau; gosododd dywysogion rhyfel ar y bobl; calonogodd y bobl, yn benaf, trwy droi eu hwynebau at yr Arglwydd; 'Gyd âg ef,' sef Senacherib, 'y mae braich o gnawd,' medd Hezeciah wrth y bobl, 'ond yr Arglwydd ein Duw sydd gyda ni, i'n cynnorthwyo, ac i ryfela ein rhyfeloedd.' Ni bu ei hyder yn ofer yn yr Arglwydd.—Yn ymddygiad yr Arglwydd tu ag ato yn ei glefyd, gwelwn mor wir yw geiriau Duw, 'Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi.' Gweddi ddyfal oedd ei feddyginiaeth, a hi a lwyddodd.

3. Yn achos cenadau brenin Babilon, gwelwn mor dwyllodrus yw calon y goreu o ddynion, ac mor sicr o lithro, hyd yn nod yn wyneb profedigaeth, heb fod o'r mwyaf, os gâd Duw hwynt. Yn yr achos hwn, gadawodd Duw ef, i wybod y cwbl ydoedd yn ei galon, a'i brofi. Gwyddai y Duw hollwybodol beth oedd yn ei galon; ond mynai ddangos hyny iddo yntau, er ei ddarostyngiad, ac er rhybydd i eraill yn mhob oes. Barn. 16. 20. Ps. 27. 9. a 51. 11, 12. a 119. 1, 2, 23, 24, 116, 117. Ioan 15. 5. Deut. 8. 16.

Enwir dau eraill o'r un enw yn yr Ysgrythyrau, sef Hezeciah, ail fab Neraiah, 1 Cron. 3. 23. a Hezeciah, yr hwn a ddychwelodd o Babilon, yn nghyd â thri ar ddeg a phedwar ugain o'i deulu. Neh. 7. 21.

HEZIR, *Heb.* חזיר [*mochyn*] pen-teulu offeiriadol. 1 Cron. 24. 15.

HIDAI, *Heb.* הדי [*canmol*] un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 30.

HIDECEL, חדקל [*cyflym*]. Cyfieithiad Groeg y LXX. yw Τιγρις (*Tigris*), yr hwn yw enw bwystfil cyflym-droed. Yn y Galdaeg Digalt; oddiwrth yr enw hwn gelwir hi yn Lladin Diglato. Y mae yn tarddu yn ngwlad Eden, ac yr oedd yn un o afonydd Paradwys (Gen. 2. 14.) ac mae yn rhedeg tu a'r dehau rhwng Assyria, neu Curdistan, o du y dwyrain iddi, a Mesopotamia o du y gorllewin iddi. Y mae Mesopotamia rhwng y Tigris a'r Euphrates. Dywed Pliny, wrth ei ffynonell tra byddo yn rhedeg yn araf, y gelwid hi *Diglito*; ond pan y delo hi i redeg yn fwy chwyrn, y gelwid hi *Tigris*, yr hyn yn iaith y Mediaid a arwydda *saeth:* ond yn hyn y mae yn anghytuno â Strabo, yr hwn a ddywed ei bod yn cael ei galw Tigris yn ei chychwyniad cyntaf. Dywed ef ei bod yn tarddu yn y wlad a alwent y pryd hyny Armenia Uchaf, yn nghanol gwastad-dir a alwent Elegosine; ei bod yn rhedeg trwy lyn Arethusa, a than fynydd Taurus. Y mae yn llifo dros ei cheulanau yn nechreu y gwanwyn, trwy doddiad yr eira ar fynyddoedd Armenia. Ond tebygol, medd y Dr. Wells, fod yr holl enwau arni yr un yn y gwreiddyn, sef *Hidecel*; oddiwrth *Hidecel*, daeth *Dikel*, *Diglat*, *Diglath*, *Degil*, *Degola*, *Diglis*, yr hwn a dreiglwyd gan y Groegiaid *Tigris*. Mae y cyffelyb dreigliadau o enwau, yn aml, i sylwi arnynt yn yr amrywiol ieithoedd. Y mae yn ymuno â'r Euphrates, a chwedi hyny yn ymranu drachefn yn ddwy afon, cyn yr elont i'r môr yn llynclyn Persia, neu Bazarah, yn ol ei henw presennol. Ar yr afon hon yr oedd yn sefyll y dinasoedd enwog, Ninifeh, Ctesiphon, a Seleucia. Ar adfail y ddiweddaf, y mae Bagdad yn awr yn sefyll. Wrth ymyl yr afon fawr Hidecel y cafodd Daniel un o'i weledigaethau. Dan. 10. 4.

HIDL—O, (hid) dystylliad, dyferiad; dystyllio megys o ogr; llifo yn helaeth.—Wylo yn hidl, hidl



Digitized by Google

i dwyllo plantos bwhwmanllyd, heb erioed eu sefydlu yn y gwirionedd. Mewn gau athrawon y mae dichellion y diafol i'w canfod fwyaf yn mhob oes; y maent yn gyfrwys ac yn haerllug; yn ddiofn Duw, ac yn ddibarch i ddynion. Edr. CYNLLWYN, CYFRWYS.

HOCYS, meddalai. Y mae amryw fath o honynt: hocys y gerddi; hocys y gors; hocys y morfa; môr hocys.—'Y rhai a dorant hocys mewn brysglwyni.' Job 30. 4.—'Y danadl.' Dr. M. Y gair מלוח a arwydda rhyw lysieuyn yn tyfu yn agos i ddyfroedd heilltion, neu ei hun yn hallt ei archwaeth. Y mae Bochart yn barnu mai Ἀλιμος y Groegiaid, a Halimus y Rhufeinwyr, a feddylir, yr hwn ydoedd yn tyfu yn anialwch Arabia. Dywed yr Arabiaid y byddent yn casglu blaenion y rhai hyn i'w bwyta.

HODAFIAH, הודויה [*yr Arglwydd yw fy moliant*] 1. Gwr o lwyth Manasseh, cadarn o nerth, enwog, a phen-teulu. 1 Cron. 5. 24.——2. Un arall o'r enw, Lefiad, a ddychwelodd o Babilon. Ezra 2. 40.

HOEDL, (hoed) *Heb.* חדל (*hedel*) bywyd; yspaid bywyd dyn. Gen. 44. 30. Job 2. 6. a 6. 11. a 7. 7. a 33. 18.

HOEL—ION, (hnw-el) *Gr.* ηλος; cethr, cethren. —'I roddi i ni hoel yn ei le sanctaidd ef;' Ezra 9. 8. sef i roddi i ni arosfa sicr, a pharhaus, sef lle ac enw o fewn ei fagwyrydd; enw tragywyddol, yr hwn ni thorir ymaith. Esa. 56. 4, 5. Dat. 3. 12.

'Yr hoel o hono,' sef o dŷ Judah. Zech. 10. 4. Wrth yr hoel y meddylir Iesu Grist yn benaf, yr hwn sydd yn cysylltu ac yn cadarnhau ei eglwys fel hoel mewn adeilad. Efe yw y sylfaen, y gongl-faen, a'r hoel yn yr adeilad gadarn hon.

'Mi a'i sicrhaf ef fel hoel mewn man sicr.' Esa. 22. 23—25. Eliacim, a Christ fel ei wrth-gysgod: y mae Crist wedi ei osod yn safadwy yn ei swydd gyfryngol; arno ef y mae yn crogi personau ei bobl, a phob peth perthynol i'w eglwys; efe sydd yn eu cynnal, yn eu trefnu, ac yn eu llywodraethu. Efe ydyw gogoniant y tŷ, ag sydd yn rhoddi gogoniant i bawb sydd yn perthyn iddo.

Mae y geiriau 'hoelio ysgrifen-law yr ordeiniadau wrth y groes,' (Col. 2. 14) yn arwyddo ei bod wedi ei dileu, trwy daliad llawn. Pan fyddai gweithred o bwys yn cael ei diddymu, byddent yn hoelio y llechau ar ba rai yr ysgrifenasid hi mewn rhyw le cyhoeddus, fel y gallai pawb eu gweled, a gwybod, trwy hyny, fod y gwr yn rhydd oddiwrth ofynion y weithred, yr hwn oedd yn rhwym ynddi. Ysgrifen-law yr ordeiniadau oedd y ddeddf seremoniol; yn yr holl aberthau yr oedd cyfaddefiad o fai—ac nis gallai yr aberthwr ei ddileu, trwy wneuthur iawn drosto—ond bod mechnïydd wedi ymrwymo dros y troseddwyr; tra yr oedd y mechnïydd hwnw heb gyflawni ei ammodau, yr ydoedd yr ysgrifen-law yn aros, ac ar y ffordd. (Edr. FFORDD.) Ond pan gyflawnodd y Mechnïydd yr ammodau, diddymwyd y weithred. Ar y groes y mae y tâl llawn i'w weled ar gyhoedd, a'r weithred wedi ei hollol ddiddymu—a hithau megys wedi ei hoelio. Gwel Calvin's *Institutes*, *lib.* ii., *cap.* 7, *sect.* 17. Witsius' *Œcon.*, *lib.* iv., *cap.* 13.

Yn yr hen amseroedd, ac yn ngwledydd y dwyrain, fel yr oedd eu dull o fyw, felly yr ydoedd eu tai yn llawer mwy cyffredin a diaddurn na chyda ni yn bresennol. Nid oedd ganddynt hwy gymaint amrywiaeth dodrefn, na'r cyfleusderau o bob math, ag y sydd yn lliosog gyda ni. Yr oedd yn gyfleus ac yn angenrheidiol, ac yr oedd yn rhan hanfodol yn adeiladaeth tŷ, i roddi yn y tu fewn yn yr amrywiol ystafelloedd, hoelion neu binau prenau, ar ba rai y crogent yr amrywiol lestri a ddefnyddient yn gyffredin, a phriodol i'r ystafell. Yr oeddynt yn gweithio y pegau hyn yn y muriau pan adeiladent y tai; yr ydoedd y muriau o'r cyfryw ddefnydd, fel na oddefent eu gyru i mewn wedi hyny; ac yr oeddynt wedi eu trefnu felly fel yr oeddynt yn cryfhau y muriau, trwy gydrwymo yr amrywiol ranau, yn gystal ag i wasanaethu cyfleusderau. 'Nid ydynt,' medd Syr John Chardin, 'yn gyru yr hoelion i'r muriau dwyreiniol â morthwyl: y mae y muriau yn rhy gelyd, gwedi eu gwneuthur o briddfeini; neu os clai byddant yn rhy faluriol; ond gosodant hwynt yn y gwaith priddfaen, wrth adeiladu. Hoelion mawrion ydynt, â phenau pedair ochrog, fel disiau wedi eu gwneuthur yn hardd, a'u penau wedi eu plygu fel creffyn haiarn. Gosodant hwynt yn gyffredin wrth y ffenestri a'r drysau, i grogi wrthynt gnead-leni, pan fynont.' Gwel Harmer's *Observ.*, *Obs.* i. Yr oeddynt yn eu gosod mewn lleoedd eraill hefyd, fel yr ymddengys oddiwrth Esa. 22. 23, &c. Ezec. 15. 3. Yr ydoedd yr hoelion hyn yn gyffredin yn ddefnyddiol ac yn angenrheidiol, ac o gryn ganlyniad, yn eu holl ystafelloedd; yn amlwg ac yn agored i sylw pawb. Os ydynt yn ymddangos i ni yn wael ac yn ddibwys, y maent felly o herwydd ein hanghydnabyddiaeth â'r peth ei hun; ac am nad oes genym air i'w fynegi, ond sydd yn dwyn gyd âg ef feddwl isel a gwael.

'Daeth gras oddiwrth yr Arglwydd ein Duw, i adael i ni weddill i ddianc, ac i roddi i ni hoel yn ei le sanctaidd ef.' Ezra 9. 8. Ymddengys priodolder ac ardderchogrwydd y gyffelybiaeth oddiwrth y defnydd a wna Zechariah o honi: 'y gongl a ddaeth allan o hono, yr hoel o hono, y bwa rhyfel o hono,' &c. Zech. 10. 4.

HOENYN—AU, (hoen) blewyn, rhawnyn; magl, telm, croglath, byddag, byddagl. Job 18. 10. Ps. 140. 5. a 141. 9.

HOETH, (hy-oeth) nodedig, noeth.—'Ac y gwna hi yn wag ac yn hoeth.' Dat. 17. 16. W. S.

HOFF—I, (hy-off) *Heb.* אהב anwyl, hawddgar, cariadusaidd; caru, serchu, anwylu.

Hanner y wledd *hoffedd* yw. *Diar.*

'A welsoch chwi yr hwn sydd hoff gan fy enaid?' Can. 3. 3. Sef ei hanwylyd, yr hwn oedd ei henaid, sef ei holl galon, ei holl gynneddfau, yn ei serchu uwchlaw pawb, fel nad oedd neb yn hoff ganddi mewn cymhariaeth iddo. Y mae ei dull yn gofyn fel hyn am dano i'r gwylwyr, yn dangos ei pharch iddynt hwy, yn barnu y gwyddent hwy am dano, a'i mawr serch iddo yntau: nid oedd un *hwn* yn y byd o werth ganddi mewn cymhariaeth iddo; a'i hunig neges gyd â'r gwylwyr oedd gofyn am dano: yr oedd yr holl negesau eraill wedi eu llyncu i fynu yn yr unig neges hwn o ymofyn am ei hanwylyd. Can. 1. 7. a 3. 1. Ps. 35. 27. a 69. 36.

'Am fod yn hoff ganddo drugaredd.' Mic. 7. 18. —'Canys ewyllysio trugaredd y mae efe.' Dr. M. Y mae Duw yn ewyllysio trugaredd gyda hoffder a hyfrydwch, o ddaioni ei natur, a'i gariad at ei ogoniant ei hun, ac at lesâd a daioni ei bobl. Y mae yn hoffi trugaredd fel y mae yn dra unol â'i natur ddwyfol; y mae efe yn hoffi y ffordd a drefnodd i ddangos trugaredd yn y Cyfryngwr; y mae yn hoffi amlygu gogoniant ei holl briodoliaethau yn y ffordd hòno; ac y mae yn hoffi llesâd a dedwyddwch tragywyddol miliynau o'i greaduriaid trwy drugarhau wrthynt. Ps. 103. 9. Esa. 57. 16. a 62. 2. a 65. 19. Jer. 3. 5. a 32. 40. Ezec. 33. 11. Seph. 3. 17. Eph. 2. 4, 5. Iago 2. 13.

HOGI, *Gr.* θηγω, llymu, blaenllymu, llifio, golymu. —'Haiarn a hoga haiarn; felly gwr a hoga wyneb ei gyfaill.' Diar. 27. 17. Yn y geiriau dangosir buddioldeb cymdeithas, yn enwedig os bydd yn sanctaidd ac yn dduwiol; y naill gyfaill yn cynghori,

Digitized by Google

yn cyfarwyddo, ac yn annog y llall yn yr hyn sy dda. Jos. 1. 18. 1 Sam. 23. 16. Job 4. 3, 4. Heb. 10. 24.

HOGLAH, חגלה [*ei gwledd*] merch Salphaad, o lwyth Manasseh. Num. 26. 33.

HOHAM, הוהם [*gwae iddo*] brenin Hebron; un o'r pum brenin a ryfelasant yn erbyn Gibeon, ac a grogwyd wrth orchymyn Josuah. Jos. x.

HOLI, (hawl) gofyn, ymofyn, ymorol, chwilio, olrhain.—'Hola fi.' Ps. 26. 2. Mae y Psalmydd yn arfer tri gair, sef *holi*, *profi*, a *chwilio*, yn ei erfyniad at Dduw mewn perthynas iddo ei hun, i benderfynu ei gyflwr, a chynnyddu ei sancteiddrwydd. Y maent yn dangos anymddiried yn ei ddeall a'i farn ei hun; ei hollol ddymuniad i gael ei achos yn dda; a hyder ar Dduw y gwnai ei ddidwyllo. Cawn Job hefyd yn yr un agwedd ysbryd gyd â'r Arglwydd. Job 31. 6. Ps. 139. 23, 24. Jer. 20. 12. Zech. 13. 9.

'Holed dyn ef ei hun—holwch eich hunain.' 1 Cor. 11. 28. 2 Cor. 13. 5. Wrth holi a phrofi ein hunain, gweddai ein bod yn cydnabod y perygl sydd i ni dwyllo ein hunain; holi ein hunain wrth iawn reol, sef gair y gwirionedd; yn ddiduedd; yn fwy am gael ein hachos yn dda, na meddyliau da am danom ein hunain; gyda gweddi am oleuni Ysbryd Duw i iawn ddeall y gair, ac i adnabod ein hunain, beth ydym yn ol tystiolaeth y gair am danom. Holi ein hunain am y pethau mwyaf pwysig, sef am wraidd ein cyflwr, A ydym wedi ein hadeiladu ar yr iawn sylfaen? 'A ydym yn y ffydd?'—Am agwedd ein hysbryd; 'A ydyw Crist ynom?'—Am ein rhodiad a'n dyben penaf yn yr hyn oll a wnelom; Ai gair Duw ydyw rheol ein bucheddiad? Ai cyrhaedd at sancteiddrwydd, a chymdeithas â Duw, a'i ogoniant yn y byd, yw ein prif ddybenion yn y cwbl? Ni ddichon i neb fod yn ofni Duw ac yn rhodio yn addas iddo, sydd heb holi eu hunain yn ddyfal beunydd yn y pethau hyn.

HOLON, חלון [*ffenestr*] dinas noddfa yn llwyth Judah. Jos. 21. 15.

HOLLALLUOG, (holl-gallu) a allo bob peth. Un o enwau priodol y gwir Dduw. Priodolir yr enw hwn i'r Arglwydd ddeg o weithiau yn y Testament Newydd. 2 Cor. 6. 18. Dat. 1. 8. a 4. 8. a 11. 17. a 16. 7, 14. a 19. 6, 15. a 21. 22. Y gair Groeg yn y lleoedd hyn yw *παντοκρατωρ*, *gallu i gyd*, neu *yn gallu pob peth*.* Arwydda awdurdod yn gystal a gallu. Yn yr Hen Destament ceir ef 47 o weithiau, a chyfleithiad ydyw yn mhob man o'r gair שדי (*shadai*) yr hwn sydd yn arwyddo *cyflawnder* a *haelioni* Duw. *Holl-ddigonol*, ac sydd yn cyfranu pob bendithion.† Edr. GALLU, IEHOFAH, DUW. Y waith gyntaf yr amlygodd ei hun dan yr enw ardderchog hwn oedd i Abraham. Gen. 17. 1. Edr. ABRAHAM.

Y mae Duw yn HOLLALLUOG ynddo ac o hono ei hun; dichon wneuthur yn hawdd, yn ddigynnorthwy, yr hyn a ewyllysio; ond nis dichon iddo ewyllysio ond yr hyn sydd yn addas iddo, ac yn gyson â'i briodoliaethau i'w wneuthur. 'Pob peth sy bosibl gyda Duw.' Marc 10. 27. Edr. ANHAWDD. Gan fod pob cyflawnder ynddo, yn ddiderfyn, yn hanfodol, y mae yn rhaid fod cyflawnder gallu ynddo, yn ddiderfyn, yn ddigyfnewid, ac yn anymddibynol. Fel y mae sancteiddrwydd yn harddwch, felly *gallu* ydyw *bywyd* yr holl briodoliaethau eraill yn Nuw, yn eu gweithrediadau.‡ Y mae ei Hollalluogrwydd, sef ei dragywyddol allu a'i Dduwdod, i'w gweled yn hynod o amlwg yn ei weithredoedd, effeithiau ei allu. Efe roddodd fôd i bob creadur: holl alluoedd creaduriaid, oddi wrtho ef y maent oll yn deillio. Efe wnaeth y nefoedd a'r ddaear, a'r hyn oll sydd ynddynt, o ddim, â'i air, gyd âg anfeidrol hawsdra. Ps. 146. 6. a 148. 5. Gen. 1. 3. Y mae yn fwy peth gwneuthur gwrthddrychau, na gweithredu ar wrthddrychau wedi rhoddi bôd iddynt: ond nid oedd creadigaeth ddim yn beth anhawdd i Hollalluogrwydd dwyfol. Hyn sydd amlygrwydd o Dduwdod; ac yn briodol yn unig i Dduw.—Y mae ei holl drefniad a'i driniaeth o'i greaduriaid wedi eu creu yn brawf parhaus o'i Hollalluogrwydd. Y mae yn eu troi, yn eu trin, ac yn cyfnewid eu natur fel y myno, i ateb ei ddybenion. Y mae yn trin y môr, a'i holl dònau cynddeiriog, gyda mwy o hawsdra nag y cornia mam ei phlentyn mewn rhwymyn: yr un peth iddo beri i'r haul a'r lleuad sefyll, a myned; i'r tân beidio llosgi, a llosgi: i'r dwfr beidio boddi, ag iddo foddi, &c. Nid ydyw holl nerth creaduriaid ond y nerth y maent yn ei dderbyn ganddo ef; a geill ei gymeryd neu ei roddi fel y gwelo yn dda: nid ydynt ond pethau diddym ger ei fron ef. Jos. 10. 13.—Dangosodd ragorol fawredd nerth ei gadernid, mewn modd neillduol, yn adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw. Eph. 1. 19, 20. Edr. ADGYFODIAD. Ac y mae yr un gallu yn cael ei ddangos yn barhaus yn bywhau pechaduriaid sydd feirw mewn camweddau a phechodau. Eph. 2. 1. 2 Cor. 10. 4.

Golwg grediniol ar Hollalluogrwydd Duw a bâr i ddynion ei barchu, ei ofni, a'i addoli; gweddio arno, ac ymddiried ynddo, yn mhob cyfyngder, ac yn wyneb pob gelyn, fel y tri llanc yn Babilon; a dysgwyl wrtho am gyflawniad o'i addewidion, er pob ymddangosiad i'r gwrthwyneb. Mat. 10. 28. Jer. 5. 22. 2 Bren. 17. 36. Eph. 3. 20. Rhuf. 4. 20, 21. Esa. 26. 4. a 46. 11. a 51. 12, 13. Ioan 10. 28, 29. Rhuf. 8. 38, 39. Nid oes dim am Dduw yn fwy amlwg na'i fod yn Hollalluog; ac etto nid oes dim yn cael ei gredu yn wirioneddol am dano yn llai na mawredd ei allu: hyd yn nod Moses mawr ei ras, a welir yn dyrysu mewn ammheuaeth am hyn (Num. xi.); ond bywyd, grym, a chysur yr eglwys ydyw mawredd gallu Duw o'i phlaid: ac y mae yn ddychryn ofnadwy i'w elynion. Job 10. 7. Ps. 50. 22. 2 Thes. 1. 9.

HOLLOL, (holl) *Heb.* כול yn gwbl, cyflwyr, cyfan, cyfangwbl.—'Wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr.' 2 Sam. 23. 5. Y mae gwedi ei iawn drefnu yn mhob peth; nid oes dim heb ei rag-olygu a'i rag-drefnu ynddo; ni bydd raid, ac nis gellir byth, ei gyfnewid er gwell; mae wedi ei drefnu yn hollol gyflawn ac yn gwbl berffaith: y mae yn hollol wrth fodd Duw i ymogoneddu ynddo byth; y mae yn hollol wrth fodd Crist, yr hwn a gyflawnodd ammodau y cyfammod hwn; y mae, ac a fydd byth, yn hollol wrth fodd yr eglwys, yr hon sydd i gyfranogi o'r bendithion ynddo. Pery hefyd yn *hollol* fel y mae yn ddigyfnewid, canys y mae yn *sicr*.

Y gair *yn hollol* a arwydda yr un peth yn y lleoedd canlynol ag *yn wir*, neu *yn sicr*, neu *mae yn eglur*.* 1 Cor. 5. 1. a 6. 7. a 9. 10.——'*Yn hollol* (παντως) y dywedwch y ddiareb hon wrthyf.' Luc 4. 23.—'Dilys y dywedwch wrthyf y ddiareb hon.' W. S.

HOLLT—AU—I, (ollt) agen, gagen, dellteniad; gwahanu, rhanu, delltu; y cyfrwng rhwng y bysedd. Lef. 11. 3. Deut. 14. 6. Can. 2. 14. Edr. CRAIG, LLOCHES.

HOMER, *Heb.* חמר *chomer* neu *homer*. Arwydda terfysgu, cymysgu, pentyru; pentwr; y mesur o'r

* Omnipotens, in cujus potentia sunt omnia, a cujus nutu omnes res creatæ pendent. Schleusner.

† Uberrimus, cujus bonitas permeat per universas creaturas, dans illis vitam, essentiam, et motum. Kircher.

‡ Gwel Charnock. Mae y gwr hwn wedi cyhoeddi traethawd helaeth a rhagorol ar ALLU DUW; yr hwn a gynghoraf i bawb sydd yn deall yr iaith Saesoneg ei brynu a'i ddarllen yn ddyfal.

* Ολως, adverbium confirmandi, potest per *imo*, *vero*, reddi. Schleusner.

Digitized by Google

maintioli mwyaf yn mysg yr Hebreaid; yn mha un y byddai llawer o bethau yn cael eu cymysgu yn nghyd. Yr oedd yn cyfateb i ddeg bath neu epha; ac yn nghylch deg a thriugain o alwyni, a phum peint Seisonig.—'A chasglasant hwynt yn bentyrau.' Exod. 8. 14. *Heb.* חמרים חמרם *homerasant homerau*, neu *homerau llawn*. Y mae gwall argraff o'r gair hwn mewn llawer o'r hen argraffiadau Cymreig o'r Bibl, ond yr eiddo y Dr. Morgan, yn y lleoedd canlynol: Lef. 27. 16. Num. 11. 32. Yn lle *omer* dylasai fod *homer*. חמר (*chomer*) ac עמר (*omer*) ydynt fesurau o wahanol faintioli. Nid yw עמר ond mesur yn nghylch chwe pheint, neu ddegfed ran o epha. Argreffir ef *gomer* yn lle *chomer* yn Esa. 5. 10. mewn rhai argraffiadau—yn dilyn gwallau yr argraffiad cyntaf o'r cyfieithiad presennol. Y maent wedi ei argraffu fel y dylai fod yn Ezec. 45. 11, 13, 14. Hos. 3. 2.

HOPHNI, חפני [*yr hwn sydd yn cysgodi*] mab Eli. 1 Sam. 1. 3. Edr. ELI.

HOPHRA, brenin yr Aipht yn amser Zedeciah. Jer. 44. 30. Edr. PHARAOH.

HOR, הר [*dyrchafiad*, neu *yr hwn sydd yn dyrchafu yn uchel*] enw dau fynydd: 1. Un o du dehau i wlad Canaan, ar gyffiniau Idumea, lle bu Aaron farw. Num. 20. 25. Edr. AARON.——2. Un arall o du y gogledd i Ganaan: yr un a Hermon, medd Ainsworth. Num. 34. 7, 8. Jos. 13. 11. Yr oedd ar Hermon amrywiol enwau. Deut. 3. 9. a 4. 48. Edr. HERMON. —Tebygol fod y wersyllfa Hor-hagidgad yn agos i'r mynydd cyntaf. Num. 33. 32, 33.

HOREB, חרב [*anial*] mynydd nodedig yn Arabia, darn o fynydd Sinai—Sinai yn gorwedd i'r dwyrain, a Horeb i'r gorllewin. Edr. SINAI.—Yr oedd yr Horiaid yn trigo yn agos i'r mynydd hwn. Yr oedd ganddynt dywysogion, ac yr oeddynt yn alluog cyn i Esau orchfygu eu gwlad. Darfu yr Horiaid a'r Edomiaid ymuno â'u gilydd, tebygol, a myned yn un bobl dan yr un llywodraeth. Anrheithiodd Cedorlaomer eu gwlad. Gen. xiv. a xxxvi. 1 Cron. i. Deut. 2. 1. a 33. 2. Barn. 5. 4.

HOREM, חרם [*diofryd*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 38.

HOR-HAGIDGAD, gwersyllfa yr Israeliaid wrth iddynt fyned o Bene-jaacan. Num. 33. 32, 33.

HORI, חרי [*tywysog*] mab Lotan, o genedl Seir yr Horiad. Gen. 36. 22.

HORMAH, חרמה [*difrod*] yr un a Sephath, a hwyrach Arad, hefyd. Num. 14. 45. a 21. 1, 2, 3. Yma y tarawyd yr Israeliaid ac a'u dyfethwyd gan yr Amaleciaid a'r Canaaneaid, yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfodiad o'r Aipht. Arad, brenin y lle hwn, a ryfelodd yn eu herbyn pan ddaethant yr ail waith i gyffiniau dehau gwlad yr addewid, ac a ddaliodd rai o honynt yn garcharorion. Israel a addunedodd, os rhoddai yr Arglwydd y bobl yn ei law, y difrodai efe hwynt a'u dinasoedd. Gwrandawodd yr Arglwydd ar Israel, ac efe a'u difrododd, ac a alwodd y lle Hormah, sef *difrod*. Tebygol mai gwedi eu dyfodiad i Ganaan, yn amser Josuah, y gwnawd hyn. Jos. 12. 14. Rhoddwyd hi i'r Simeoniaid. Barn. 1. 17. Jos. 19. 4. Rhoddodd Dafydd ran o anrhaith yr Amaleciaid i henuriaid Hormah. 1 Sam. 30. 30.

HORON, dinas yn Arabia, lle daeth Sanbalat o honi. Neh. 2. 10.

HORONAIM, [*cynddeiriogrwydd*] dinas yn ngwlad Moab. Esa. 15. 5.

HORTI—IO—WYR, (hawr) cablu, goganu, enllibio; athrodwr, absenwr.—'Trwyr rrain yr hortir ffordd y gwirionedd.' 2 Petr 2. 2. W. S.

HOSAH, [*diogelwch*] dinas yn rhandir Aser. Jos. 19. 29.

HOSAIAH, הושעיה [*yr Arglwydd yw fy Achubwr*] tad Jesaniah. Neh. 12. 32.

HOSAMAH, הושמע [*yr hwn a wrandawyd*] mab Jeconiah. 1 Cron. 3. 18.

HOSANNA, *Gr.* Ωσαννα; *Heb.* הושיעה־נא [*achub yn awr*, neu הושע־נא *achub attolwg*] gair a gymerwyd o Ps. 118. 25., ac a arferir yn aml gan yr Iuddewon yn eu gweddïau a'u bloeddiadau, yn enwedig ar ŵyl y pebyll; a'r cangenau a rwyment yn nghyd ar yr ŵyl hon a elwid weithiau *Hosanna*. Yr oedd gwaith y torfëydd yn gwaeddi Hosanna i Grist Mab Dafydd, yn arwyddo eu dymuniad o bob llwyddiant iddo, ac iddo, fel y Messïah, eu hachub hwy yn fuan, a dyrchafu eu cenedl i ogoniant ac anrhydedd. Mat. 21. 9, 10, 11.

HOSEA, הושע [*iachawdwr*] mab Beeri, a phrophwyd yr Arglwydd. Prophwydodd yn nyddiau Uzziah, Jotham, Ahaz, a Hezeciah, breninoedd Judah, ac yn nyddiau Jeroboam mab Joas (nid Nebat) brenin Israel. Prophwydodd wrth hyn dros lawer o flynyddoedd. Os dechreuodd brophwydo y blynyddoedd diweddaf i Jeroboam, ac os diweddodd yn nechreu teyrnasiad Hezeciah, cawn ei fod yn ei swydd yn agos i 70 o flynyddoedd, a rhaid iddo fyw i fod yn hen iawn. Nid oes dim crybwylliad am yr amser pan y cyhoeddodd yr un o'i brophwydoliaethau. Y mae yn dechreu ei swydd brophwydol mewn dull tra neillduol. Pan oedd ond ieuanc y mae yn cael gorchymyn i 'gymeryd gwraig o odineb, a phlant o odineb.' Yr oedd hyn i fod yn arwyddocäol o ymddygiad Duw tu ag at Israel eilun-addolgar, y rhai yr oedd efe gwedi eu dyweddïo iddo ei hun. Yn ganlynol, cymerodd Gomer, merch Diblaim. Llawer o ddadleuon sydd wedi bod, pa un ai yn weledigaethol, neu yn weithredol, yr oedd y prophwyd i wneuthur hyn. I'm tyb i, mwy addas yw deall yr hanes fel y mae y prophwyd gwedi ei roddi; yr oedd gorchymyn Duw yn ddigon i gyfreithloni yr hyn fuasai yn gwbl anghyfreithlon ac yn bechadurus yn y prophwyd, heb hyny. Er nas dichon Duw orchymyn un peth sydd *ynddo ei hun* yn anfoesol, etto dichon orchymyn yr hyn a fuasai yn anghyfreithlon i un dyn ei wneuthur, heb orchymyn eglur am dano; megys dystrywio yn hollol y Canaanëaid, y gwyr, y gwragedd, a'r plant—Abraham i aberthu ei fab, &c. Fel yr oedd nid yn unig yn gyfreithlon i'r prophwyd briodi felly, gwedi cael y gorchymyn gan Dduw, ond yn ddyledswydd arno ymostwng i hyny; a dwyn y groes yn amyneddgar, a ganlynai y cyfryw undeb anghysurus. Y mae y wraig o odineb yn arddangosiad o'r hyn oedd Israel yn yr Aipht, cyn eu dyweddïad i'r Arglwydd, trwy gyfammod Sinai; yr oeddynt gwedi ymlygru âg eilun-addoliaeth yr Aiphtiaid; etto ymgyfammododd Duw â hwynt. Dygasant blant iddo gwedi hyny, mae yn wir, yr hyn mae y gair Jesräel yn ei arwyddo, sef *hâd Duw*, felly y gwnaeth Gomer i'r prophwyd; ond buan y puteiniasant oddi wrtho. Y mae y Dr. Horsley* yn barnu na anwyd i'r prophwyd o Gomer ond Jezreel, neu Jezräel; ac mai plant godineb oedd Lo-ruhamah a Lo-ammi, yn arwyddo eilun-addoliaeth puteinllyd Israel, ac ymddygiad yr Arglwydd tu ag atynt: ni ddywedir (medd efe) ond am y cyntaf, 'hi a esgorodd iddo *ef* fab.' Y mae Lo-ruhamah yn arwydd-lun, medd yr awdwr uchod, o gyflwr adfeiliedig Israel dan deyrnasiad eu breninoedd llygredig. Y mae diddyfniad y ferch hon yn arwyddo caethgludiad y deg llwyth o'u gwlad eu hunain, heb ymgeledd naturiol nac ysbrydol. Lo-ammi ydynt yn bresennol er's rhagor i ddau cant ar bymtheg o flynyddoedd.

* See Preface to his translation of HOSEA.

Digitized by Google

Y mae yn cael gorchymyn drachefn i 'garu gwraig hoff gan ei chyfaill.' Pen. iii.—'Câr wraig yn hoffi ei drygioni;' Dr. Horsley: sef Gomer, yr hon a ollyngwyd ymaith am ei hanniweirdeb. Tebygol ei fod yn estyniad ac yn ddiweddiad o'r achos cyntaf rhyngddo ef a Gomer. Y mae ymddygiad caredig y prophwyd tu ag ati, wedi ei hanffyddlondeb cywilyddus, yn arddangosiad o hir-amynedd a thiriondeb mawr yr Arglwydd tu ag at Israel, er eu gwrthgiliad oddi wrtho at eilun-addoliaeth; a'i adferiad o honynt yn y dyddiau diweddaf at yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd (sef Crist, mab Dafydd) eu brenin.

Amcan cyffredinol y prophwyd ydyw argyhoeddi y bobl o'u dirfawr bechadurusrwydd; eu dychrynu â bygythion Duw, a'u tywys, trwy ddangosiad eglur o'i ddaioni, i edifeirwch. Prophwydodd am amryw ddygwyddiadau a gawsant yn fuan eu cyflawni: ond mae ei brophwydoliaethau am gyflwr Israel a Judah dros amryw oesoedd; galwad y cenedloedd; ac adferiad Israel etto at yr Arglwydd, yn hynod o nodedig, ac y maent yn cyd-gordio yn hollol â'r hyn a rag-ddywedwyd gan eraill o'r prophwydi.—Cofféir y llyfr hwn yn aml yn y Testament Newydd, megys yn Rhuf. 9. 25, 26. 1 Petr 2. 10. Mat. 9. 13. a 10. 8. Luc 23. 30. Dat. 6. 16. a 11. 1. Mat. 2. 15. a 13. 14. 1 Cor. 15. 54, 55.

Y mae iaith y prophwyd yn gynnwys, byr-eiriog, synwyr-lawn, ac yn ddigysylltiad; ac mewn rhai manau yn ardderchog, yn bêr-wresog, yn fywiog, ac yn addurnedig.* Y mae ei draws-rediadau o rybydd i annogaeth; o fygythiad i addewid; o ddychryn i obaith, ac i'r gwrthwyneb, yn aml, yn gyflym, ac yn annysgwyliadwy. Y mae ei gyffelybiaethau yn fyrion ac yn dyredig, ac heb grybwylliad—trwy hyn y mae ei ysgrifeniadau yn awchlym, yn danllyd, ac yn fywiog. Y mae cyfnewidiad personau yn aml ac yn annysgwyliadwy. Yn gyffredin, y mae yr Arglwydd yn llefaru wrth y prophwyd am bechodau ei bobl; yn cyhoeddi ei farnedigaethau yn eu herbyn wrtho; ac yn agoryd iddo ei fwriadau grasol i'w hadferyd yn y dyddiau diweddaf. Ond yn nghanol yr ymadrodd, y mae yr Arglwydd yn mhoethder ei eiddigedd yn troi oddiwrth y prophwyd yn union-gyrch at y bobl, yn cyfeirio ei ymadrodd atynt yn yr ail berson, am ba rai y bu yn llefaru yn y trydydd person o'r blaen (pen. 4. 4, 5.) ac weithiau, hefyd, yn yr iaith fwyaf caruaidd, a chyflawnaf o drugarogrwydd a thosturiaethau. Pen. 2. 18, 19. a 11. 7, 8. Weithiau drachefn, yn llefaru wrth y bobl, y mae yn troi oddi wrthynt at ei gyfaill y prophwyd gyda ffieiddiad megys o honynt a'u hynfydrwydd pechadurus. Pen. 8. 5, 6. Craffu yn fanwl ar y neillduolrwydd hwn yn iaith y prophwyd, a rydd lawer o oleuni i'w iawn ddeall wrth ei ddarllen.

Y mae Hosea yn darlunio, gyda mwy o fanylrwydd nag un o'r prophwydi eraill, ddygwyddiadau y ddwy deyrnas, Israel a Judah, yr amrywiol farnedigaethau uwch eu penau, a dull eu hadferiad diweddaf; ac y mae yn neillduol o danllyd yn ei annogaethau bywiog i'r deg llwyth. Nid ydyw yn cyffwrdd braidd â neb ond ei genedl ei hun. Nid yw yn crwydro fel Esaiah, Jeremiah, ac Ezeciel, i hanesion cyfochrol y cenedloedd oddi amgylch. Nid ydyw yn ymyraeth fel Daniel â threigliadau ymerodraethau mawrion y byd. Ei wlad ei hun sydd yn llenwi ei feddwl; ei rhagoriaethau, ei phechodau, ei barnedigaethau, a'i hadferiad. Y mae yn rhagfynegi, yn wir, mewn dull cyffredin, am impiad y cenedloedd i mewn yn eglwys Dduw; ond nid yw hyny fel mater neillduol yn ei olwg, i helaethu arno gyda manylrwydd. Y mae yn cyhoeddi, mewn ymadroddion mwyaf goruchel a gorfoleddus, buddugoliaeth yr Iachawdwr ar uffern a marwolaeth; etto nid llawer y mae yn myned i mewn i ddirgeledigaethau yr iechydwriaeth yn nghnawdoliaeth ac aberth y Messiah. Ei wlad a'i bobl ei hun sydd agosaf at ei galon; atynt hwy yr oedd ei genadwri. Eu pechodau hwy sydd yn cyffroi ei ddigofaint; eu dyoddefiadau sydd yn effeithio ar ei dosturi; a'u dyrchafiad etto i ddyfod, sydd wrthddrych mwyaf hyfryd i'w feddwl.

Heblaw yr ysgrifenwyr cyffredin ar yr holl Fibl, ysgrifenodd Rivetus, Zanchius, a Marcius, yn dda arno yn Lladin; a Dr. Pocock, Dr. Wells, Esgob Horsley, a Newcome, arno yn Saesonaeg. Y mae hen awdwyr hefyd yn Saesonaeg ar ranau o hono, megys Jeremiah Burroughs, Downham, Reynolds, Samuel Smith, Sibbs, Francis Lambert, &c.

* Commaticus est, et quasi per sententias loquens. Hierom. ——Stylus est acer, acutus, concisus, eminenti quadem Poeticæ compositionis nota signatus. Lowth.

**HOSEA**, mab Elah, y diweddaf a'r goreu o freninoedd Israel. 'Efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, etto nid fel breninoedd Israel y rhai a fuasai o'i flaen ef.' 2 Bren. 17. 1, 2. Yr oedd yn gadael y sawl a ewyllysiai i fyned i fynu i Jerusalem i addoli. Efe a frad-fwriadodd yn erbyn Pecah mab Remaliah, ei feistr, ac a'i lladdodd, ac a deyrnasodd yn ei le ef. Wedi iddo ymsefydlu ar yr orsedd, gwnaeth gynghrair â Sabacon, neu So, yr Ethiopiad, brenin yr Aipht, yr hwn a oresgynodd yr Aipht, a gymerodd Bocharis y brenin yn garcharor, a chyd â'r creulonder mwyaf echryslawn, a barodd ei losgi yn fyw. Dyben Hosea oedd cael cynnorthwy gan frenin yr Aipht i daflu ymaith iau drom yr Assyriaid, y rhai oeddynt wedi gorthrymu gwlad Israel yn dost dros hir amser. Pan glywodd Salmaneser, brenin Assyria, hyn, aeth i fynu trwy yr holl wlad, ac a gymerodd Samaria, yn y nawfed flwyddyn o deyrnasiad Hosea, gwedi gwarchae arni am dair blynedd; carcharodd Hosea dros ei holl ddyddiau;* a chaethgludodd bobl y wlad, ac a'u cyfleodd hwynt yn Halah, Habor, Gozan, a dinasoedd y Mediaid. 2 Bren. 15. 30. a xvii. Amos ii, ix.

**HOSEA**, mab Azaziah, tywysog ar feibion Ephraim yn amser Dafydd. 1 Cron. 27. 20.

**HOTHAM**, חותם [*sel*] mab Heber. 1 Cron. 7. 32.

**HOTHIR**, הותיר [*rhagorol*] mab Heman. Yr unfed teulu ar hugain o'r Lefiaid yn ngwasanaeth y deml. 1 Cron. 25. 4, 28.

**HOYW—DER**, (hoe) hoew, hoewdeb; heinif, bywiog, eidiog, gorhoenus; cyweirdabus, trefnus. 1 Sam. 15. 32. Dan. 4. 4, 36.—'Hon yw y ddinas hoyw.' Seph. 2. 14. העיר העליזה *y ddinas lawen, yn llawn digrifwch; y ddinas flodeuog, yn llawn o gyfoeth a moethau.* Darluniad o Ninifeh yn ei gwychder, a'i gogoniant mwyaf.

**HUAL—AU**, (hu-gâl) llyffethair, llyffethyr, gefyn.—'Mewn hualau yr ânt, ac yr ymgrymant i ti.' Esa. 45. 14. Dr. M.

**HUCCOC**, חקקה [*cerfiad*] un o'r dinasoedd noddfa. Jos. 19. 34. 1 Cron. 6. 75.

**HUD—AW**, (hu) llithiad, deniad, llygad-dyniad; twyllo, swyno, gwych-foddio, ennill serch. Gwaith gau-athrawon yw hudo y bobl; ac y mae dichellion y diafol yn ei offerynau hudoliaethus, mor gyfrwys a dengar, fel yr hudent, pe byddai bosibl, ie, yr etholedigion. Marc 13. 22. Ond mae gofal y Bugail da mor fawr am yr etholedigion, fel nad yw yn bosibl eu hudo. 'Ni chyfrgollant byth,' medd efe, 'ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.' Ioan 10. 28.

**HUDOL—ES—IAETH—ION**, (hûd) hudolion, hudoles, ydyw y rhai yn hudo; a hudoliaeth, ydyw eu

* Gwel Prideaux's *Connect., part i, book i.*

Digitized by Google

gwaith yn hudo. Yr oedd yn waharddedig i'r cyfryw gael byw, ond yr oeddynt i gael eu llabyddio; a'r neb a âi ar eu hol hwynt, y mae yr Arglwydd yn bwgwth eu tori ymaith o fysg ei bobl. Exod. 22. 18. Lef. 19. 26, 31. a 20. 6, 27. Deut. 18. 10. Mal. 3. 5.

'Ein cynghor ni nid oedd o hudoliaeth.' 1 Thes. 2. 3.—'Ein annoc ni nyd oedd wrth hoccet.' W. S. —'Ein annog ni nid ydoedd o hud.' Dr. M. Ni raid i weision Crist wrth ddichellion, twyll, a gweniaith, i ddenu a boddhau dynion; ond yn unig egluro a thystiolaethu y gwirionedd, a gadael rhwng Duw ag effeithioli y gwirionedd i gydwybodau dynion.

'Hudoliaeth golud.' Marc 4. 19.—'Somiant golud.' W. S.—'Twyll cyfoeth,' yn Mat. 13. 22.—'Ehudrwydd golud.' W. S. Yr un gair *Gr. απατη*, sydd yn y ddau fan, ac y mae yn arwyddo *dwyn o'r iawn ffordd*; felly cyfoeth, yn y cariad ato, sydd yn dwyn calonau dynion oddiwrth yr Arglwydd, a'i uniawn lwybrau. Y mae yr apostol yn sôn am chwantau twyllodrus; (yr un gair sydd yno) y mae chwantau bydol, a phob math a'r chwantau, yn twyllo dynion, yn eu hudo, ac yn eu denu oddiwrth yr Arglwydd. Nid yn y cyfoeth y mae y twyll; ond yn y dynion sydd yn ei gam-ddefnyddio: nid yw cyfoeth yn addaw dim, na Duw wrth ei roddi; ond ni sydd yn addaw i ni ein hunain, ddedwyddwch nad ydyw i'w gael mewn golud. Ein chwantau sydd yn ein hudo, a thrwy hyny yn ein twyllo. Yr ydym ni yn chwennych bod cyfoeth yn *wadal*, ac o herwydd hyny yn dysgwyl y bydd; ein cam-farn a'n chwant sydd yn ein twyllo, pan y caffom ef yn anwadal.

HUG—AN, (hy-ug) twyg, toryn, rhuchen, ysgin, cochl, pilys, gwisg-laes, tabar-laes, gorchudd.—'Efe a esyd hug ar ei wyneb;' sef gorchuddia ei wyneb. Job 24. 15.—'Efe a fwrw hug dros wynebau ei barnwyr hi.' Job 9. 24. Dywedir fod Duw yn gwneuthur yr hyn mae yn ei oddef i eraill ei wneuthur. Rhoddi hug ar wynebau barnwyr, yw eu dallu â gwobr i wyro barn: y maent fel dyn â gorchudd ar ei wyneb, yn methu gweled yr hyn sydd uniawn. Exod 23. 8. Neu, ynte, eu rhoddi i farwolaeth. Y mae gorchuddio neu rwymo wynebau, megys rhag-barotoad i farw; (Job 40. 13. Esther 7. 8. Marc 14. 6.) felly yma, rhoddi hug ar wynebau barnwyr, ydyw eu rhoddi i farwolaeth yn hytrach na goddef iddynt roddi barn uniawn. Jer. 14. 4. 2 Sam. 15. 30. a 19. 4.

HUL, חול [*dolur*] mab Aram. Gen. 10. 23. Efe a wladychodd yn Armenia, medd Josephus, lle ceir ôl ei enw yn y dinasoedd Chalana, Colimna, Colsa, &c.

HULDAH, חלדה [*y byd*, neu *darfodedig*] prophwydes, gwraig Salum, ceidwad y gwisgoedd i'r brenin Josiah. 2 Bren. 22. 14. Yr oedd yn trigo yn Jerusalem yn yr ysgoldy. Edr. YSGOLDY. Yr ydoedd yn wraig enwog am ei duwioldeb, ac yn brophwydes. Ymgynghorodd Josiah â hi yn nghylch llyfr y gyfraith, yr hwn a gafodd Hilciah yn y deml. Edr. JOSIAH.

HUL—IO, (hy-ul) gorchuddio, taenu ar hyd.—'Ac a huliodd ei bwrdd.' Diar. 9. 2. Y mae doethineb, sef Crist, doethineb Duw, yn hulio bwrdd i bechaduriaid, trwy farw drostynt, a pheri cyhoeddi ei aberth yn iawn digonol drostynt: y mae ei 'gnawd yn fwyd yn wir, a'i waed yn ddiod yn wir.' Gwledd ydyw gwedi ei pharotoi ar ei draul ei hun yn gwbl, i bechaduriaid gyfranogi o honi. Y bwrdd 'gwedi ei hulio,' sydd yn arwyddo fod pob peth yn barod, a chroesaw cyflawn i gyfranogi o'r danteithion. Mat. xxii. Luc xiv. Ioan vi.

HUMTAH, חמתא [*malwoden*]. Dinas yn Judah. Jos. 15. 54.

HUN, (hy-un) hunan; y dyn ei hun.—'Nid o'i achos ei hun.' Dan. 9. 26. Yr oedd achos paham y torwyd y Messiah ymaith; ond nid ynddo ei hun, ond yn eraill yr oedd: ei feichnïaeth dros eraill oedd yn haeddu yn gyfiawn eu tori ymaith, ydoedd yr achos paham y torwyd ef ymaith. Y mae yr Arglwydd Iesu yn aml yn tystiolaethu, 'na ddaeth o hono ei hun—nad oedd yn llefaru o hono ei hun.' Ioan 5. 19, 30. a 7. 28. a 12. 49. a 16. 13. Daeth a llefarodd yn ol trefn yr arfaeth a'r cynghor tragywyddol: yr oedd ei ddyfodiad o ran amser, dull, a gwaith, yn gwbl yn ol hwnw; a'i holl athrawiaeth oedd yn cyfateb yr un fath i hwnw. 'Y Tad yr hwn a'm hanfonodd (medd efe) a roddes orchymyn i mi beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn.' Edr. DIM.

HUN—O, (hu) cwsg, dargwsg, hep, hepian.—Mae hûn, neu gwsg, yn gymhesur, yn dra angenrheidiol, er maeth a chynnaliaeth natur; ond y mae cwsg anghymedrol yn afiachus, ac yn anmharu y corph; yn pylu y synwyrau; yn gwanhau y côf; yn oeri ac yn trymhau yr holl gorph. Y mae yn niweidiol iawn i'r gïeuynau, y rhai sydd yn peri grym, iechyd, a bywiogrwydd yr holl ddyn. Yn gyffredinol, oddeutu chwe awr o gwsg sydd ddigonol i ddyn mewn iechyd. Hynod yw y buddioldeb o'r cymedroldeb yn mhob peth a orchymynir yn yr ysgrythyrau; ac mae y gwrthwyneb mor niweidiol ag ydyw o bechadurus.

Hûn, a arwydda, hefyd, marwolaeth; pan y byddo yr enaid gwedi ei ysgar oddiwrth y corph, mae y corph yn gwbl ddideimlad, yn ddiddefnydd, ac yn ddiwaith: hûn ydyw hefyd, oblegid y bydd deffroad o honi yn y dydd mawr sydd i ddyfod. Mat. 27. 52. Ps. 76. 5. a 13. 3. Jer. 51. 39. Ioan 11. 13. Act. 7. 60. a 13. 36. 1 Cor. 11. 30. a 15. 51. Edr. DEFFROI, CWSG, CYSGU.

HUPPAH, חפה [*gwely*] offeiriad, teulu yr hwn oedd yn y 13eg o ddosparthiadau Dafydd. 1 Cron. 24. 13.

HUPHIM, neu HUPHAM, חופם [*eu gwely*]. 1. Mab Benjamin, a phen-teulu. Gen. 46. 21. Num. 26. 39.——2. Mab Machir. 1 Cron. 7. 15.

HUR, חור [*rhyddid*] 1. Mab Caleb, ac ŵyr Hesron, mab Pharez, mab Judah. Gwr Miriam ydoedd, medd Josephus, a thaid Bezaleel. Efe ac Aaron a gynnaliasant ddwylaw Moses, tra yr oedd Israel yn ymladd â'r Amaleciaid yn Rephidim, ac oeddynt yn llywodraethu y bobl tra yr ydoedd Moses ar fynydd Sinai. Y mae y pethau hyn yn dangos ei fod ef yn ŵr cymeradwy gan Moses. Exod. 17. 10. a 24. 14. 1 Cron. 2. 19, 20.——2. Un o freninoedd Midian, a laddwyd gan feibion Israel. Num. 31. 8.

HURAI, un o gedyrn Dafydd, o ddyffrynoedd, neu afonydd Gaas. 1 Cron. 11. 32. Gelwir ef Hidai yn 2 Sam. 23. 30.

HURAM, mab Ehud, o lwyth Benjamin. 1 Cron. 8. 5.

HURI, mab Jaroah o lwyth Gad, a thad Abihael. 1 Cron. 5. 14.

HURT—IO, (hur) synu, syfrdanu, dyddelwi, irdangu.—'Dy ddoethineb a'th wybodaeth a'th hurtiant.' Esa. 47. 10. Y mae y gair שובב yn arwyddo *troi yn ol, troi ymaith*, ac a gyfieithir *cilio yn ol*, Jer. 8. 5.—*dychwelyd*, Ezec. 39. 2.—*troi*, Ps. 85. 4. Dy ddoethineb a'th wybodaeth, yn y rhai yr ymddiriedaist, a'th droisant o'r iawn ffordd, ac a'th dwyllasant i'th hollol ddystryw.

HUSAI, חושי [*yn attal ei dafod*] Arciad, cyfaill ffyddlawn Dafydd. Cyfarfu â Dafydd ar ei ffoad rhag Absalom, gwedi rhwygo ei bais, ac â phridd ar ei ben. Cynghorodd Dafydd ef i ddychwelyd yn ei ol; ac efe a fu o ddefnydd mawr iddo yn ganlynol i hyny; canys cynghor Husai, trwy ewyllys Duw, a ddifwynodd gynghor Ahitophel; 'canys yr Arglwydd a ordeiniasai ddiddymu cynghor da Ahitophel.' 2 Sam. xv, xvi,

Digitized by Google

xvii. Tebygol mai ei fab ef oedd Baanah, yr hwn oedd rag-swyddwr Solomon yn Aser. 1 Bren. 4. 16.

HUSAM, Brenin Edom, a olynodd Jobab. Gen. 36. 34.

HUSIM, 1. Mab Dan. Gen. 46. 23.——2. Mam Ahitub ac Elpaal. 1 Cron, 8. 11.

HUSSAB, *Heb.* הצב *(hetseb).* Y gair a arwydda *sefyll, sefydlu;* am hyny a gyfieithir gan Newcome, yr *amddiffynfa,* ac yn cael ei briodoli i balas, neu amddiffynfa gadarn, brenin Ninefeh: ereill a briodolant y gair i'r frenines a'i llaw-forwynion, y rhai oeddynt yn trigo yn esmwyth ac yn ddiogel: ereill i'r ddinas ei hun, yr hon a farnwyd ei bod yn gadarn ac yn ddiysgog. Nah. 2. 7.

HUSTING--AU--WR, (hust-ing) si, sisial, ymsisial; yn mansion, sibrwd, dywedyd dan ddannedd; dywedyd yn isel ac yn gyfrinachol; athrodwr, enllibiwr, absenwr drwg.—'Ymofynwch â'r swynyddion a'r dewiniaid, y rhai sydd yn husting ac yn sibrwd.' Esa. 8. 19. Yr oedd gan y cyfryw dwyllwyr (gwragedd y rhan fwyaf) ddull o siarad a sibrwd fel pe na buasai eu llais yn ddynol, ond llais rhyw ysbryd anweledig: medrent beri i'r llais ymddangos fel pe na buasai yn cael ei swnio gan y genau, ond yn y bol; am hyny galwyd hwynt *εγγαστριμυθοι, ventriloqui, bol-lefarwyr;* neu fel pe buasai yn dyfod odditan y ddaear, neu o bell, neu o ryw le arall, ac nid oddi wrthynt hwy—a hyny i gyd i'r dyben i dwyllo. Esa. 29. 4.

'Yn hustingwyr, yn athrodwyr.' Rhuf. 1. 30. 2 Cor. 12. 20. Rhai yn sisial cabl-air i waradwyddo arall, yn groes i'r nawfed gorchymyn; y rhai ydynt yn llawer o felldith, ac achos ymrysonau, yn mhob cymdeithas lle byddont. Diar. 16. 28. a 18. 8.

HWCH, (hw-wch) mochyn, twrch, cunar, banwes. Yr oedd y llwdn hwch yn aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 7.—'A'r hwch wedi ei golchi i'w hymdreiglfa yn y dom.' 2 Petr 2. 22. Diareb wir, yn dangos fod cyfnewidiad allanol, heb gyfnewidiad anian yn dufewnol, trwy ail-enedigaeth, yn gadael dyn yn nglŷn wrth ei bechod, ac yn dychwelyd, fel pob creadur yn gweithredu yn ol tuedd ei anian, yn ol at ei bechod. Nid ymâd neb byth yn gwbl ac yn wirioneddol â phechod, nes y meddianno anian sanctaidd croes iddo. Edr. MOCH.

HWRDD, (hwr) maharen. Hyrddod, geifr, ac ŵyn, a arwyddant, yn yr ysgrythyrau, yr amrywiol raddau o ddynion mewn gwlad; sef mawrion a galluog, a thlodion a gweiniaid; rhai mwy a llai euog. Esa. 34. 6, 7. a 60. 7. Ezec. 34. 17. a 39. 18. Edr. DAFAD.

Cyffelybir ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid i hwrdd deugorn, yn cornio tu a'r gorllewin, tu a'r gogledd, a thu a'r dehau, fel na safai un bwystfil o'i flaen, ac nid oedd a achubai o'i law. Dan. 8. 3, &c. Cyffelybwyd yr un ymerodraeth o'r blaen yn pen. 7. 5. i arth wancus. Yr oedd hwrdd deugorn yn arwyddlun nodedig yn y gwledydd hyny. Y mae y gair *Heb.* איל (*Ayl*) yn tebygu i'r gair am *Elam* (עלם) *Gnelam,* neu *Persia.* Yr oedd yn arferol i freninoedd Persia wisgo coron aur yn debyg i ben hwrdd. Y mae llun penau hyrddod â chyrn, un yn uwch, a'r llall yn is, i'w gweled eto ar golofnau yn Persepolis.* Y ddau gorn a arwyddant, nid dau frenin, ond cyfundeb y ddwy deyrnas, y Mediaid a'r Persiaid, i wneyd un ymerodraeth. Y Mediaid oedd yr hynaf o'r ddwy genedl, ac a fu yn fwyaf enwog; ond y Persiaid a ddaethant yn fwyaf galluog ac enwog: felly, 'yr uchaf a gyfododd yn olaf.' Ond y bwch gafr o'r gorllewin, sef Alexander Fawr, a darawodd yr hwrdd yn ddychrynllyd, ac a'i dinystriodd. Dystrywiwyd yr ymerodraeth hòno yn gwbl trwy fuddugoliaethau Alexander, ac olynodd ymerodraeth y Groegiaid yn ei lle. Edr. GROEGIAID.

HWT—IO, (hwd) hysio allan; ffi, wb, ywbwb. Mic. 6. 16. Seph. 2. 15.

HWYL—IAU, (hwy) cynfasau llong.—Hwyliau blaen, neu y cynhwyliau; hwyl y llyw, y dant hwyl; yr hwyl fawr. Esa. 33. 23. Act. 27. 13. 14. Y prophwyd yn darlunio moethau a gwychder Tyrus, a ddywed, 'Llian main o'r Aipht o symudliw oedd yr hyn a ledit i fod yn hwyl i ti.' Ezec. 27. 7.

HWYLBREN, pren i ddal yr hwyliau mewn llong; yr hwn a wnai y Tyriaid o gedrwydd Libanus. Ezec. 27. 5. Mae diofalwch, anystyriaeth, a pherygl meddwon, yn cael eu cyffelybu i ddyn yn cysgu yn mhen hwylbren, a phob awel o wynt, a phob ysgogiad o'r llong yn peryglu ei fywyd. Diar. 23. 34.

HWYL—IO, (hwy) *Gr.* ελαυνω; helynt, trefn; cyflwr, agwedd; mynediad, teithio, môr-deithio.—Yr wyt mewn hwyl, sef mewn iawn drefn, yn barod;—y mae hi o'i hwyl, sef o iawn drefn synwyrau;—dwyn hwyl, ymosod ar.—'Hwylio ymadroddion:' sef iawn drefnu ymadroddion. Job 32. 14.——'Hwylio cerddediad' un, yw iawn drefnu cerddediad; sef ei nerthu, ei gyfarwyddo, ac attal yr hyn a'i rhwystrai i lwyddo yn ei daith; hyn a wna yr Arglwydd i'w bobl, y rhai mae yn eu cyfodi o'r pydew erchyll, ac yn gosod eu traed ar graig, sef Crist. Ps. 40. 2. Y mae yn eu cael yn nyfnder euogrwydd a llygredigaeth; yn eu cyfodi oddi yno; yn eu gosod ar graig, sef ar le safadwy i bechadur fel y cyfryw; a chwedi hyny, yn iawn drefnu eu holl gerddediad tu ag at Dduw, tu ag atynt eu hunain, a thu ag at bawb eraill. Y maent yn gwbl annigonol yn mhob peth hebddo ef; ond nis gâd efe mo honynt, nes eu dwyn i dir y bywyd tragywyddol.

HWYR—HAU, (hwy) araf, diweddar, hir ei aros; nawn, prydnawn, echwydd, uchder, cyfnos.—'Cysgodau yr hwyr,' a arwyddant amser o ddrygfyd a thrallod, pan fyddo dydd hawddfyd gwedi darfod; trugareddau yn lleihau, a thrallodau a gofidiau yn amlhau. Jer. 6. 4. Zech. 14. 7.

*Hwyraf* dial dial Duw;
Llwyraf dial dial Duw. *Diar.*

HWYRACH, (y gradd cymhariaethol o *hwyr*) ysgatfydd, fe allai, adfydd, agatfydd. Jos. 9. 7. 1 Sam. 9. 6. a 14. 6. 1 Cor. 16. 6.

HWYRFRYDIG, (hwyr-bryd) musgrell, llesg, anesgud; pwyllog, amyneddus. Priodolir hwyrfrydigrwydd i lid a digofaint i'r Arglwydd, yn aml, yn yr ysgrythyrau. Exod. 34. 6. Num. 14. 18. Neh. 9. 17. Ps. 145. 8. a 103. 8. a 86. 15. Joel 2. 13. Jonah 4. 2. Nah. 1. 3. Y mae yn cael yr annogaethau mwyaf gan ddynion i dywallt arnynt ei ddigofaint; ond *hir* yr oeda, yn gyffredinol. Nid ydyw yn oedi, am nad ydyw yn berffaith gasâu pechod; ond mae yn oedi, am nad ydyw yn ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch; ac hefyd, fel yr *ymddangosai* ei gyfiawnder yn eglur ac yn ogoneddus yn nystryw yr anwir ddynion. 2 Petr 3. 8, 9. Edr. AMYNEDD.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn beio ar ei ddysgyblion ac yn eu ceryddu yn llym, am eu bod yn 'hwyrfrydig o galon i gredu yr holl bethau a ddywedodd y prophwydi.' Luc 24. 23. Yr ydoedd yr holl bethau am ddyoddefaint Crist gwedi eu rhagfynegi gan y prophwydi; yn ganlynol, dylasent hwythau fod yn gwbl hysbys a chrediniol o honynt. Yn lle credu yr holl bethau a ddywedodd y prophwydi, yr oeddynt gwedi rhoddi lle i'w dychymygion eu hunain, fel yr Iuddewon eraill, am y Messïah. Mawr ydyw y pechod; a thra niweidiol yn ei effeithiau, o roddi lle i'n dy-

* Gwel Esgob Chandler's *Vindic. cap.* i. *sec.* 4.

Digitized by Google

chymygion cnawdol ein hunain, yn lle credu tystiolaeth Duw yn ei air.

HY—F—ACH, eofn, hyderus, naturiol, hyfaidd: tra-dewr, dewr-ddrud.—'Gan fod yn hyf yn yr Arglwydd.' Act. 14. 3.—'Ac a gympwyllesont yn hyderus yn yr Arglwydd.' W. S.—'Gan lefaru yn hyderus yn yr Arglwydd.' Dr. M. Y gair παρρησιαζομαι, medd Macknight, a arwydda llefaru yn *eglur*, yn ddiammheuol, yn ddibetrusder; llefaru yn gyhoeddus ger bron lluoedd; yn llefaru yn *hyf*, gan fod yn gyflawn sicr o wirionedd yr hyn a draethir, ac yn hyderus y cynnorthwyir ni ynddo. Agwedd gwbl addas ar ysbrydoedd y rhai sydd yn traethu y fath wirionedd sicr a gogoneddus a'r efengyl. 1 Thes. 2. 2. Eph. 6. 19. Act. 9. 27. a 13. 46. a 26. 26.

HYACINTHUS, *Gr.* υακινθος. Y mae tri pheth yn cael eu galw wrth yr enw hwn; sef *lliw, blodeuyn*, a *maen*.—1. Y blodeuyn sydd beraidd; gelwir ef hosanau y gôg, esgidiau y gôg, cenin y brain. Ei liw sydd gochlas; ac oddiwrth debygolrwydd lliw y maen i liw y blodeuyn, tebygol, y cafodd yr enw.——2. Y maen a eilw Pliny yn *hyacinth*, a fernir yr un a'r *amethyst* presennol. Yr unfed maen ar ddeg oedd yn sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 20. a 9. 17.

HYD, (hy-yd) hir, hirder.—'Amgyffred gyd â'r holl saint, beth yw y lled, a'r hŷd,' &c. Eph. 3. 18. Edr. CARIAD.

HYD, rhagddod, yn arwyddo, *at, mor bell ag*; megys *hyd y diwedd; hyd yma; hyd adref, &c.* Job 38. 11.

HYD, gorair, yn arwyddo ***nes tan***; megys ***hyd oni, hyd pan, hyd y***, *&c.* Gen. 27. 44. Gwel dan eiriau eraill.

HYDER—U—US, (hy) ymddiried, goglud, coel; gobeithio, ffyddio. Hyder a arwydda, 1. Y gwrthddrych yr hyderir arno. 2 Bren. 18. 19, 20. Esa. 36. 4. Diar. 3. 26. Job 4. 6. a 8. 14. a 18. 14. Jer. 48. 13, &c.——2. Ymddiried, neu hyderu mewn rhyw wrthddrych. Phil. 2. 24. 1 Ioan 3. 21.——3. Hyfdra, eofnder, rhyddid, a sicrwydd o dderbyniad ein personau, a gwrandawiad ein gweddïau, trwy Crist. Eph. 3. 12. 1 Ioan 2. 28. a 4. 17. 2 Cor. 5. 6. Heb. 4. 16. Nid oes un gwrthddrych addas o'n hyder ond yr Arglwydd; braich o gnawd yw pob peth arall; ac y mae y cyfryw a hyderant arnynt dan felldith. Jer. 17. 5. Yr hwn sydd â'r Arglwydd yn hyder iddo, a ddichon fod yn hyderus, yn eofn, ac yn orfoleddus, pe codai pawb arall yn ei erbyn. Ps. 27. 3.——4. Hyderus, weithiau, a arwydda yr un peth a rhyfygus, ac yn arwydd o anystyriaeth a chalongaledrwydd. Diar. 14. 16.

HYDD—OD, (hy-ydd) carw, eilon, rhydain, ewig. Yr ydoedd yr hyddod yn fwytadwy dan y gyfraith. 1 Bren. 4. 23.—'Y carw, a'r iwrch, a'r llwdn hydd.' Deut. 14. 5.—'Y carw, yr iwrch, a'r tarw gwyllt.' Dr. M. *Heb.* יחמור. Nid yw awdwyr yn cytuno pa un ai y tarw gwyllt (*buffalo*) neu fath o hyddod gwylltion a feddylir wrth y gair יחמור Yr oedd yn greadur digon adnabyddus wrth yr enw yn y gwledydd dwyreiniol, er ei fod yn anhysbys i ni yn y gwledydd hyn. Nid yw y gair i'w gael yn y Bibl, ond yn y ddau le uchod. Mae y Dr. M. yn cyfieithu y gair *iyrchod* yn llyfr y Breninoedd. Edr. CARW, IWRCH.

HYFAETH, (maeth) maethlawn; hawdd ei faethu. Ps. 17. 12. E. Prys.

HYFDER—DRA, (hyf) yr un ystyr a hŷ, hyder. Edr. DYFODFA.

HYFRYD—WCH, (bryd) *Gr.* ευφρων; meddwl rhydd; llawen, tirion, araul, hardd, blasus; dyddanwch, llawenydd, dedwyddwch; gorawen, hoen, gorhoen. 2 Cron. 32. 27. Job 39. 13. Preg. 2. 10. Y mae *hyfryd* a *hyfrydwch*, yn cael eu priodoli i bethau a fyddant yn boddhau unrhyw synwyr mewn dyn, megys hyfryd i'r llygaid yr olwg arnynt, Preg. 11. 7. —neu hyfryd sain neu lais i'r clustiau, Ezec. 33. 32. Esa. 24. 8.—moethus i'r archwaeth, 2 Petr 2. 13.—— Yn ysbrydol y mae yr Arglwydd—ei iechydwriaeth—ei addoliad—ei ddeddfau—a phob peth perthynol iddo, yn hyfryd, ac yn hyfrydwch i'r sawl sydd yn ei wir adnabod, ac yn synio pethau dwyfol o egwyddor sanctaidd yn y meddwl. Diar. 2. 10. a 3. 17. Hab. 3. 18. Ps. 36. 8. a 43. 4. a 96. 6. a 119. 24, 92, 174. Can. 7. 6. Esa. 58. 13. a 65. 14.



Nid *hyfrydwch* ond gyda Duw. *Diar.*

'Hyfryd gan ffol wneuthur drwg—ffolineb sydd hyfryd gan yr ynfyd.' Diar. 10. 23. a 15. 21. Y mae dynion yn ymhyfrydu yn yr hyn sydd yn un â'u hanian; y mae gwneuthur drwg yn un âg anian y ffol; felly, y mae sancteiddrwydd a duwioldeb yn un âg anian sanctaidd y duwiolion: os felly, ni bydd nefoedd sanctaidd y duwiolion ddim yn hyfryd i annuwiolion ansanctaidd. Edr. DYDDANWCH, LLAWENYDD, GORFOLEDD.

HYFFORDD—I—US, (ffordd) hylwybr, lle y gellir myned; llwyddiannus:—taith hyffordd, taith lwyddiannus; cyfarwyddo, dysgu.——'Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd.' Diar. 22. 6. Y mae ffordd gan Dduw wedi ei threfnu a'i dadguddio i bawb o bob oedran i rodio ynddi; y mae y ffordd hon yn anadnabyddus i bawb heb eu haddysgu am dani; dyled y naill yw hyfforddi y llall, yn enwedig rhïeni eu plant, hynafiaid ieuenctid, yn y ffordd hon. Ffordd allan o berygl, a ffordd i ddiogelwch a dedwyddwch tragywyddol ydyw; rhaid i bawb ei cherdded, neu fod yn golledig; ond nis dichon neb ei hadnabod heb hyfforddiant. Y mae ffordd Duw a ffordd dynion, fel y maent yn bechaduriaid, am bob peth yn gwbl groes i'w gilydd; ond rhaid dwyn pawb i ffordd Duw o'u ffyrdd gŵyrgam eu hunain, neu fod heb gymmod a chymdeithas â Duw; heb ei ddelw, ac heb sancteiddrwydd a dedwyddwch. Esgeuluso hyfforddi plentyn yn mhen y ffordd hon o eiddo Duw, sydd ddirmyg mawr ar Dduw, yn wyneb yr amlygiad mwyaf o'i gariad a'i ddaioni, ac yn greulonder dirfawr tu ag at y plentyn. Y mae plentyn i gael ei hyfforddi trwy addysg ac athrawiaeth; trwy geryddon; a thrwy siampl. Gen. 18. 19. Deut. 4. 9. a 6. 7. Ps. 78. 3—6. Eph. 6. 4. 2 Tim. 3. 15. Y mae y gair חנך *hyfforddia*, yn cael ei gyfieithu yn aml *cysegru, sancteiddio.* Ps. xxx. titl. 1 Bren. 8. 64. 2 Cron. 7. 5. Ezra 6. 17. Dan. 3. 2, 3. Arwydda cychwyniad, dechreuad, neillduad peth at ryw wasanaeth; felly yma, hyfforddi plentyn yw ei neillduad a'i gychwyniad yn ffordd yr Arglwydd. Yr oedd gan Abraham 'hyfforddus weision,' (yr un gair) sef gweision gwedi eu haddysgu a'u cychwyn yn ffyrdd yr Arglwydd. Gen. 14. 14. Nid oes neb a ddichon fod âg achos Duw, a gogoniant ei enw yn y byd, yn gorphwys ar eu meddyliau, ac etto yn esgeulus am hyfforddi yr ieuenctid yn llwybrau Duw.

HYGLOD, (hy-clod) canmoladwy; yn haeddu clod.

Fy Nuw a'm brenin *hyglod*.
*E. Prys*, (Ps. 5. 2.)

HYGOEL, (coel) credadwy; hawdd i'w gredu; coelgar.—'Na thwyllo neb chwi âg ymadrodd hygoel.' Col. 2. 4.—'Geiriae hygoeliadvvy.' W. S.—πιθανα-λογια, *geiriau hudol*, yn tueddu i ennill dynion, heb sail iddynt yn y gwirionedd; gau ymresymiadau a geiriau dengar i dwyllo, y fath ag arfera gau-athrawon yn mhob oes.

Digitized by Google

HYLWYDD, (llwydd) yn tueddu i lwyddo; ffynedig, ffodiawg, llwyddiannus.

A newydd gerdd i'm genau rhoes,
Clod iddo troes yn *hylwydd*.
*E. Prys*, (Ps. 40. 3)

HYLLDREM—U, (hyll-trem) trem ffyrnig, drychiad garw-guchiog: edrych yn arw, neu yn guchiog. —'Gorchymyn i'r bobl, rhag iddynt ruthro at yr Arglwydd i hylldremu.' Exod. 19. 21.—'Rhag iddynt ruthro at yr Arglwydd i weled.' Dr. M.——Manyldrem, manylgais, dibarch i Dduw, ydyw yr hyn y rhoddir gocheliad rhagddo yn y geiriau; yn gyffelyb fel yr attaliodd yr Arglwydd Moses wrth y berth. Exod. 3. 3, 4, 5. Dylem yn ostyngedig synied i sobrwydd, a rhodio wrth ffydd yn y gair dadguddiedig, ac nid wrth olwg ein llygaid, yn y bywyd presennol. Rhuf. 12. 3. 2 Cor. 5. 7. 1 Sam. 6. 19. Heb. 12. 28.

HYMENEUS, *Gr.* Υμεναιος, [*priodasol*] dinesydd o Ephesus, meddant. Cofféir am dano ef ac un Alexander gan Paul, iddo eu traddodi i Satan, 'fel y dysgent na chablent;' a'i fod ef a Philetus gwedi cyfeiliorni o ran y gwirionedd, gan ddywedyd, 'ddarfod yr adgyfodiad eisoes.' 1 Tim. 1. 20. 2 Tim. 2. 17, 18. Barnent nad oedd un adgyfodiad ond o bechod, trwy ras, i fuchedd sanctaidd. Y mae Irenæus yn priodoli yr un cyfeiliornad i'r Gnosticiaid. *Lib.* ii., *cap.* 27. Wedi hyny cymeradwyodd Marcion yr un cyfeiliornad, yr hwn a ddywedai, *Non carnis sed animæ resurrectionem esse credendum*; hyny yw, Nid adgyfodiad y cnawd ond enaid sydd i ni i'w gredu. Gwel Epiphanius, *Heres.* 42. Dyma y cwbl a wyddom am y cyfeiliornwr hwn.

HYMN—AU, *Gr.* Υμνος, oddiwrth y gair *Heb.* הודה *moliant*, Hiph. ידה *moliannu*; cân, neu psalm o fawl i Dduw.—'Ac wedi iddynt ganu hymn.' Mat. 26. 30.—'A' gwedy yddwynt canu psalm'—'ddywedyd gras ne emyn;' ymyl y ddalen. W. S.—'Wedi iddynt ganu mawl.' Dr. M.—'Ar ol yr hymn.' Dr. Campbell. Ar ol swper y pasc byddent arferol o ganu Psalm cxiii, a'r pedair canlynol; neu o'r cxiv. hyd yr cxviii, yr hon a alwent yr *hymn fawr*, neu yr *haleluia fawr*. Yr oeddynt yn rhanu y Psalmau yn ddwy ran; un rhan a ganent cyn y swper, a'r llall wedi y swper. Y mae y geiriau yn ymddangos fel pe buasai cwbl gydffurfiad â'r arferiad cyffredin yn yr achos hwnw gan Grist a'i ddysgyblion.

'Mewn psalmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol.' Eph. 5. 19. Col. 3. 16. Mae y tri gair hyn yn cael eu priodoli i amrywiol Psalmau; ac mae y tri yn nghyd yn cynnwys yr holl lyfr. Y mae y gair *ysbrydol* yn perthyn i bob un o honynt, am fod y defnydd yn *ysbrydol*, ac nid yn gnawdol; ac am eu bod gwedi eu cyfansoddi trwy *ysbrydoliaeth* Duw; ac am eu bod yn tueddu yn yr arferiad o honynt, trwy fendith Duw, i wneuthur dynion yn *ysbrydol*. Y mae y gair *Gr.* υμνος, yn cyfateb i'r gair *Heb.* תהלה yn titl Groeg y Psalmau canlynol, vi, liv, lx, lxvi, ac yn niwedd Ps. lxxi. Yn mha beth yr oedd y gwahaniaeth rhyngddynt yn gynnwysedig, os oedd gwahaniaeth, nid yw beirniaid dysgedig yn cytuno. Y mae y tri gair weithiau yn y LXX., yn y titl i'r un gân, megys Ps. lxxv. Y mae yn dra sicr fod yr apostol, wrth roddi y tri gair i lawr, wrth ba rai y nodir yr holl ganiadau yn llyfr y Psalmau, am benodi yn ddigon eglur pa ganiadau y mae yn ei feddwl, sef caniadau ysgrythyrol, y rhai a enwir felly; nid rhai a gyfansoddwyd genym ni, neu eraill; ond a gyfansoddwyd gan ddynion sanctaidd Duw, y rhai a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân. Y mae y caniadau eisoes wedi eu cyfansoddi, ac y mae yr apostol yn annog y Cristionogion i'r arferiad sanctaidd difrifol o honynt. Eilun-addoliaeth ydyw priodoli i Dduw mewn ffordd o addoliad, yr hyn nid ydyw yn perthyn iddo; ond felly y gwelir mewn llawer o ganiadau a elwir hymnau, a gyfansoddwyd, rai o honynt, gan ddynion tywyll, cyfeiliornus, ac a arferir yn addoliad y Duw mawr gan ddynion mor dywyll a hwythau. Adgas a ffiaidd yw pob peth yn addoliad Duw, nad ydyw, o ran mater a geiriau, yn dra agos, ac yn hollol gytun â iaith yr Ysgrythyr Lân: nid oes dim sothach cyfeiliornus yno, ond glân yw y cwbl.

HYN—AF—IAETH—AIF, (hen) hŷn a hynaf yw y graddau cymhariaethol ac uchaf o hen; hynafiaeth yw yr hen amser, yr oesoedd gynt. Esa. 23. 7. Gen. 25. 23. 1 Bren. 2. 2. Job 15. 10.—Pen hynaif, sef pen seneddwyr. 1 Cron. ix. cynnwysiad.

HYNAWS—EDD, (naws) addfwyn, cyweithas, hywedd, tirion, llarieidd-dra, gwaredd, rhywiogrwydd, hygaredd.——'Er addfwynder a hynawsedd Crist.' 2 Cor. 10. 1.——'Er gwarder a chymesurdap Christ.' W. S.——'Er addfwynder a chymmesurdeb Crist.' Dr. M. Ni bu addfwynder a hynawseidd-rwydd erioed yn eu harddwch a'u perffeithrwydd ar y ddaear, ond yn mherson Crist; ond ynddo ef y gwelwyd hwynt, fel pob gras arall, yn blaguro yn eu holl ogoniant. Fel ei ganlynwyr, dyma yr agwedd dirion, hyfryd, a weddai fod arnom yn mhob peth, a thu ag at bawb. Edr. Mwyneidd-dra.

HYNOD, (nôd) nodol, nodadwy; hysbys, cyhoedd; enwog. Ps. 76. 1. Dan. 8. 5. Mat. 27. 16. Act. 4. 16.

HYNT, (hwnt) ffordd, helynt, taith, hephynt, mympwy; dwyn hynt, myned i daith; ar hynt, yn ddioed; pa hynt? pa fodd y mae yn myned? Pa hyntiau drwg sydd yn dy ben? sef pa fympwy sydd yn dy ben?——'Yr wyf yn gweled y bydd yr hynt hon yn nghyd â sarhad a cholled fawr.' Act. 27. 10. του πλοιου, *y fordaith hon.*——'Nid oes yn fy mryd eich gweled yn awr ar fy hynt.' 1 Cor. 16. 7. εν παροδω, *ar fy nhaith, wrth fyned heibio.*

HYSBYS—U, (ysbys) eglur, amlwg, goleu, gwybodus, dilys.—Gwr hysbys, dewin. Edr. Ysbys.

HYTRACH, (hy-drach) o flaen, yn well. Mat. 6. 30. a 10. 6, 28. a 25. 9. Luc 10. 20. a 11. 28. a 12. 31. Heb. 12. 13.

HYSIO, (hys) annog, cymhell.—'Ac a'i hysiant* allan o'i le.' Job 27. 23.—'Ac a chwibana arno ef allan o'i le.' Dr. M. Cyfieithir y gair שרק *chwibanu*, yn 1 Bren. 9. 8. Galar. 2. 15. Ezec. 27. 36. Esa. 7. 18. a 5. 26. Zech. 10. 8.—*gwatwargerdd*, 2 Cron. 29. 8.—*brefiad*, Barn. 5. 16.——'Hysiant,' pwy? Pawb adnabyddus o hono. Pwy fydd yn cael ei hysio? Yr annuwiol. O ba le? Rhai a briodolant y lle i'r rhai a'i hysiant; pob un o'i le, o'i drigfan, o ddrws ei dŷ, a'i hysia. Os priodolir y gair *lle* i'r annuwiol fydd yn cael ei hysio, arwydda hysiant ef o'i swydd, a'i ddyrchafiad, a'i drigfan; ie, o'r byd. Y mae cwymp annuwiolion yn llawenydd i bawb. Gorchymynir i'r prophwydi a'r apostolion sanctaidd lawenychu oblegid cwymp Babilon. Dat. 18. 20. Ond rhaid i'r llawenydd hwn fod yn sanctaidd; onidê bydd yn bechadurus; sef llawenychu, nid yn anystyriol, ac yn greulawn, yn gorfoleddu yn eu trueni a'u poen; ond yn dduwiol, ac i ddybenion sanctaidd, yn nglŷn wrth ogoniant Duw, a llwyddiant ei achos yn y byd. Bydd gwarth, dirmyg, a thrueni yn niwedd annuwiolion.

HYSP—ION—U, (ysp) sych, gwedi sychu; diffrwyth, aflith. Edr. Sych.

* Felly goreu argraffu y gair hwn, ac nid hysiant fel yn yr argraffiadau 1690, 1717, 1727, 1746, 1752, 1769, 1799. Nid felly y dylai fod, ac nid felly yr oedd yn yr argraffiadau 1620, 1630, 1654, 1678.

Digitized by Google

# I, J.

IA, corph caled, llyfn, gloyw. Y gair *Heb.* קרח a gyfleithir *iâ*, Job 38. 29. ac sydd yn arwyddo *llyfnder*, a gyfleithir y rhan amlaf *rhew*. Gen. 31. 40. Job 6. 16. Jer. 36. 30.—'Yr hwn sydd yn bwrw ei iâ fel tameidiau.' Ps. 147. 17. Ai nid rhew neu genllysg a feddylir? Gwel Harmer's *Obs. vol.* i. Yr Arglwydd yw awdwr yr iâ; o'i groth ef y mae yn dyfod allan. Efe sydd yn peri i'r dyfroedd rewi â'i oerfel, ac efe sydd yn peri i'r dyfroedd i lifo gwedi hyny. Gweddai i ni ei gydnabod yn mhob peth, a didduwiaeth yw peidio. Edr. RHEW.

JAACOBAH, un o lwyth Simeon. 1 Cron. 4. 36.

JAANAI, mab Gad. 1 Cron. 5. 12.

JAAZANIAH, יאזניה [*yr hwn a wrendy yr Arglwydd*] 1. Mab Maachathiad. 2 Bren. 25. 23.——2. Mab Jeremiah, Rechabiad. Jer. 35. 3.——3. Mab Saphan, y penaf o'r Israeliaid eilun-addolgar a ddangoswyd i Ezeciel. Ezec. 8. 11.——4. Mab Azur, un o dywysogion y bobl. Ezec. 11. 1.

JAAZIAH, יעזיה [*nerth yr Arglwydd*] mab Merari. 1 Cron. 24. 26.

JABAL, יבל [*ymlithro*] mab Lamech ac Ada; 'Tad pob preswylydd pabell, a pherchen anifel.' Gen. 4. 20. Efe oedd y cyntaf a ddysgodd ddynion babellu a bugeilio, fel y gwna yr Arabiaid Bedowenaidd yn y dyddiau presennol.

JABBOC, יבק [*gwaghad*] afonig yn tarddu yn mynyddoedd Gilead, ac yn rhedeg i'r Iorddonen yn agos i Fôr Tiberias. Yn agos i'r afon hon yr ymdrechodd Jacob â'r angel, ac a'i gorchfygodd. Gen. 32. 22.

JABES, neu JABETS, יעבץ [*gofid* neu *tristwch*] 1 Cron. 4. 9, 10. Nid oes dim hanes am deulu na hynafiaid y gwr duwiol hwn. Ei fam a'i dygodd trwy ofid, am hyny y galwodd ei enw Jabets, sef *tristwch*. Yr oedd yn anrhydeddusach na'i frodyr, sef yn fwy enwog am wrolaeth, doethineb, a duwioldeb. Nid oes hanes am ei wrolwaith, ond cofféir ei weddi ragorol ar Dduw Israel, er ein hadeiladaeth a'n dilyniad. Gellir barnu wrth ei weddi ei fod yn rhyfelwr; hwyrach ei fod yn byw yn fuan wedi dyfodiad Israel i Ganaan. 'Parodd Duw iddo yr hyn a ofynodd;' ac mae hyn wedi ei goffâu er tystiolaeth mai gwrandawr gweddi yw yr Arglwydd, ac er annogaeth i ninnau alw arno yn ein cyfyngderau.

JABES, יבש [*sychder*] tad Salum, yr hwn a frad-fwriadodd yn erbyn Zedeciah brenin Israel, ac a deyrnasodd yn ei le ef. 2 Bren. 15. 10.

JABES-GILEAD, dinas yn sefyll yn rhandir Manasseh, wrth droed mynydd Gilead, chwe milltir o Pela, lle y cafodd yr Iuddewon Cristionogol noddfa, pan y dyfethwyd Judea a Jerusalem gan y Rhufeiniaid. Nid oedd yn nebpell o Gadara. Dyfethwyd ei holl drigolion yn greulawn, ond pedwar cant o wyryfon, gan feibion Israel, am na ddaethant i'w cynnorthwyo yn erbyn y Benjaminiaid. Barn. xxi. Cawsant eu cynnorthwyo yn barod ac yn brydlawn gan Saul, pan gynnygiodd Nahas yr Ammoniad ammodau gwaradwyddus iddynt. 1 Sam. xi.——Oddeutu deugain mlynedd ar ol hyny dangosodd gwyr Jabes-Gilead garedigrwydd i gyrph Saul a'i feibion, gwedi i'r Philistiaid eu lladd; cymerasant eu cyrph oddiar fur Beth-san, a'u llosgasant yn Jabes, ac a gladdasant eu hesgyrn dan bren yn Jabes, ac a ymprydiasant saith niwrnod. 1 Sam. xxxi. 1 Cron. 10. 11, 12.

JABIN, יבין [*gwr deallus*] 1. Brenin Hasor, yn y parthau gogleddol i wlad Canaan; a'r brenin cadarnaf yn y parthau hyny. Gorchfygodd Josuah ef a breninoedd Madon, Simron, ac Achsaph, wrth ddyfroedd Merom. Ennillodd Hasor, lladdodd ei brenin, a llosgodd y ddinas. Jos. xi.——2. Un arall o'r enw hwyrach, gorŵyr y llall, yr hwn a orthrymodd Israel yn dost ugain mlynedd. Gorchfygwyd Sisera, tywysog ei lu ef, gan Deborah a Barac, wrth droed mynydd Tabor. Barn. iv., v.

JABNEEL, יבנאל [*adeiladaeth Duw*] 1. Dinas yn nherfyn Naphtali. Jos. 19. 33.——2. Un arall yn Judah. Jos. 15. 11.

JABNEH, יבנה [*adeiladaeth*] dinas yn Dan, wrth y môr, ac nid pell o du y dehau i Joppa. Yr oedd yn meddiant y Philistiaid pan dorodd Uzziah i lawr ei mur, yn nghyd â Gath ac Asdod. 2 Cron. 26. 6. Bu yma athrofa enwog gan yr Iuddewon dros rai oesoedd wedi Crist.

JACAN, יעקן [*gorthrymder*] Bene-jacan, neu meibion Jacan.—1. Gwersyllfa Israel rhwng Gilgal a Moserah. Deut. 10. 6.——2. Un o feibion Gad. 1 Cron. 5. 13.——3. Un o feibion Eser. 1 Cron. 1. 42. Y mae yn cael ei alw Acan yn Gen. 36. 27.

JACIM, יקים [*ymgyfodwr*] penaeth deuddegfed teulu yr offeiriaid. 1 Cron. 24. 12.

JACOB, יעקב [*disodlwr*] mab Isaac a Rebeccah, a brawd Esau. Gan nad oes dim i ychwanegu at hanes y patriarch duwiol hwn, at yr hyn a roddir i ni gan Moses, gyda llawer o fanylrwydd, yn llyfr Genesis, afreidiol fyddai i mi ail adrodd y cwbl, gan fod pawb â'u Biblau yn eu dwylaw i'w ddarllen yno: yn enwedig, gan y bydd rhaid crybwyll am dano yn aml yn hanesion eraill, megys Isaac, Rebeccah, Esau, &c. Gwnaf ychydig sylwadau ar yr hyn a adroddir yno, a manau eraill o'r Bibl, am dano.

1. Gefeilliaid ydoedd Jacob ac Esau. Yr oedd Rebeccah yn anmhlantadwy; ond beichiogodd ar y gefeilliaid hyn yn ateb i weddi Isaac. Y plant a ymwthiasant â'u gilydd yn ei chroth, a hi a ymofynodd â'r Arglwydd am yr achos. Yn ateb, cafodd amlygiad o'r cynghor dwyfol mewn perthynas iddynt, a rhoddwyd iddi eu holl hanes, hwy a'u hiliogaeth, yn brophwydoliaethol, cyn eu geni. 'Dwy genedl sydd yn dy groth di, a dau fath ar bobl a wahenir o'th fru di; a'r naill bobl fydd cryfach na'r llall, a'r hynaf a wasanaetha yr ieuengaf.' Gen. 25. 23. Yr oeddynt yn ddynion o dymher a thuedd cwbl groes i'w gilydd, ac yr oedd eu hiliogaeth hwy yn dra anghyffelyb. Ymwthiasant yn eu personau eu hunain am y blaenoriaeth; ac felly y gwnaeth eu hâd, neu eu hiliogaethau, dros amryw oesoedd. Yn nyddiau Dafydd, ac wedi hyny, cafodd y brophwydoliaeth hon ei chwbl gyflawni, trwy ddarostyngiad yr Edomiaid, hiliogaeth Esau yr hynaf, gan yr Israeliaid, hiliogaeth Jacob yr ieuengaf. 1 Bren. 11. 16. 1 Cron. 18. 12. 2 Sam. 8. 14. 2 Bren. 14. 7, 22. 2 Cron. 25. 11, 12. a 26. 2. Pwy oedd Awdwr bywyd, Trefnwr pob peth, yr hwn sydd yn penodi preswylfod pawb, i'r hwn y mae yn hysbys ei weithredoedd oll erioed (Act. 15. 18. a 17. 26.) a allasai ragweled a rhagfynegi y byddai y ddau fachgeh yn y groth yn dadau dwy genedl, a dim ond dwy genedl? ac y byddai y ddwy genedl yn ddau fath ar

Digitized by Google

bobl, yn gwahanu oddiwrth eu gilydd? Yr oedd i Jacob ddeuddeg o feibion; etto ymunasant ac ymgorphorasant i gyd yn un genedl. Pa oruwch-lywodraeth ragluniaethol a welir yma! Yr oedd rhagoriaeth braint yn perthyn i genedl Jacob: yr oedd 'yn rhywogaeth etholedig, ac yn genedl sanctaidd,' yn gyfatebol i'r hen brophwydoliaeth hon: a hyny yn gwbl o ben-arglwyddiaeth a daioni yr Arglwydd. Y mae Malachi yn coffâu hyn i ddangos eu rhwymedigaethau neillduol i'r Arglwydd. Pen. 1. 2, 3. Y mae Paul, yn mhellach, yn canfod ynddynt eglurhad o arfaeth Duw yn etholedigaeth rad ei bobl i fywyd tragywyddol: 'Canys *cyn geni* y plant etto,' medd efe, na gwneuthur o honynt dda na drwg, fel y byddai i'r arfaeth yn ol etholedigaeth Duw sefyll, nid o weithredoedd, eithr o'r hwn sydd yn galw, y dywedwyd wrthi (sef wrth Rebeccah) yr hynaf a wasanaetha yr ieuengaf.' Rhuf. 9. 10—13. 2 Tim. 1. 9. Edr. ARFAETH, ETHOLEDIGAETH.

Mewn doniau ysbrydol yr ydoedd yr ieuengaf yn tra rhagori ar yr hynaf, gan fod cyfammod Abraham, a'i holl addewidion, gwedi ei gadarnhau iddo ef a'i hâd. Duw Abraham, Isaac, a Jacob, oedd enw penodol yr Arglwydd dros oesoedd maith, ydyw etto, ac y bydd byth! Cadwyd gwir addoliad y gwir Dduw yn eu plith, pan oedd hiliogaeth Esau wedi syrthio ymaith i ffiaidd eilun-addoliaeth. O hono ef hefyd yr hanodd Crist yn ol y cnawd, Iachawdwr y byd, yn yr hwn y bendithiwyd, ac y bendithir, holl deuluoedd y ddaear. Cyfarwyddodd yr Arglwydd Isaac wrth fendithio Jacob i gyhoeddi y fendith yn gyfatebol gwbl i'r rhagddywediad cyntaf hwn am dano: 'Bydd di arglwydd ar dy frodyr, ac ymgrymed meibion dy fam i ti; melldigedig fyddo a'th felldithio, a bendigedig a'th fendithio.' Gen. 27. 28, 29.

2. Fel yr ymwthiasant yn y groth, felly hefyd ymddangosodd yn eu genedigaeth fel rhyw *ymdrech* am y gyntaf-anedigaeth. Ganed Jacob 'â'i law yn gafaelyd yn sawdl ei frawd;' o'r herwydd y galwyd ei enw ef Jacob, sef *sodlwr*, neu *disodlwr*; fel pe buasai am ei ragflaenu, neu ei ddisodli. Yr oedd y dull hwn o'i enedigaeth yn ddyeithr, yn rhyfedd, ac hefyd yn arwyddocaol o'i ymdrech wedi hyn yn ei fywyd am yr enedigaeth-fraint, ac am y fendith. Edr. EDOM, ESAU, EDIFEIRWCH, GENEDIGAETH-FRAINT.

Hynod yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd! Gallasai yn hawdd beri fod Jacob y cyntaf-anedig yn lle Esau, ac felly buasai yr enedigaeth-fraint a'r fendith yn perthyn iddo. Ond y mae yn trefnu pob peth yn y modd goreu i brofi ei bobl er eu llesâd, ac er amlygu ei ben-arglwyddiaeth, ei ras, ei ddaioni, ei ddoethineb, a'i gyfiawnder. Gallasai yr Arglwydd attal yr holl freintiau hyn oddiwrth Esau, o'i ben-arglwyddiaeth yn unig: ond ni chymerodd mo honynt oddi wrtho, cyn iddo ef, trwy ei fywyd annuwiol a halogedig, eu pechu hwynt oddi wrtho. Diammeu ei fod yn ganmoladwy yn Jacob werthfawrogi y breintiau hyny ag ydoedd yn ddiystyr gan Esau, a chynnwys dymuniadau hiraethlawn am gael eu mwynhau, gan fod sail iddo ddysgwyl am danynt yn ngeiriau Duw wrth ei fam, Rebeccah; ond yr oedd y ffordd yn ddichellgar, ac yn dwyllodrus, trwy gelwyddau a dichellion, yn lle aros amser Duw, i'w mwynhau, yn dra phechadurus, ac yn anamddiffynadwy. Yr oeddynt wedi eu bwriadu iddo yn nghynghor Duw; ond dylasai aros amser Duw, yn ei ffyrdd uniawn a chywir ef, i gael cyflawniad o'i ddymuniadau. Nid ydyw cariad yn ceisio yr eiddo ei hun, ond yn edrych ar yr eiddo eraill hefyd. 1 Cor. 13. 5. Phil. 2. 4. Nid ydyw dybenion, na dymuniadau da, nac un addewid yn y Bibl, yn cyflawnhau y peth sydd anghyflawn, ac yn anghytun â'r rheol ddwyfol o uniondeb perffaith, mewn geiriau a gweithredoedd, yn mhob dim. Ond tra byddom ni yn ffieiddio dichellion a chelwyddau Jacob a'i fam, nis gallwn lai na sylwi a rhyfeddu y doethineb dwyfol yn goruwch-lywodraethu yn sanctaidd, ac yn defnyddio llygredigaethau dynion i gyflawni amcanion doeth ei lywodraeth ar y byd, heb gyfranogi, mewn un gradd, o'u pechodau hwy. Y maent hwy yn gweithredu yn rhydd, ac yn atebol i Dduw am eu holl weithredoedd; etto, ar yr un pryd, tuedda a goruwch-lywodraetha efe galonau, a'r holl ddygwyddiadau i gyd, i gyflawni 'holl foddlonrwydd ei ddaioni.' 2 Thes. 1. 11.

3. Gwedi holl helyntion Jacob gartref yn nhŷ ei dad, a'i dwyll tu ag at ei frawd, yn gerydd am ei fai, bu gorfod arno ef ffoi am ei einioes rhag digofaint ei frawd Esau. Y mae Rebeccah ac Isaac yn ei gyfarwyddo i fyned i Mesopotamia i dŷ Bethuel ei daid; ac, wedi blinc ar ferched Canaan, y rhai a briodasai Esau, y mae ei dad yn ei gyfarwyddo ef i gymeryd gwraig o ferched Laban ei ewythr. 'A Duw Hollalluog a'th fendithio, (medd efe wrtho) ac a'th ffrwythlono, ac a'th liosogo, fel y byddech yn gynnulleidfa (neu yn *lliaws*) pobloedd: ac a roddo i ti fendith Abraham, i ti ac i'th hâd gyda thi, i etifeddu o honot dir dy ymdaith, yr hwn a roddodd Duw i Abraham.' Gen. 28. 3, 4, 5. Yn y geiriau hyn, y mae Isaac yn cadarnhau y fendith iddo a gafodd o'r blaen trwy dwyll; ac y mae gyda mwy o amlygrwydd a phenodrwydd, yn crybwyll am fendith Duw i Abraham a'i hâd, sef y prynedigaeth trwy Grist. Gwelwn yma ymadawiad difrifol a duwiol rhwng tad a'i blentyn. Ar ol hyn ymadawodd Jacob â thŷ ei dad, ac â'i fam garuaidd; wynebodd tua Haran, ar daith faith o bedwar cant o filltiroedd, trwy ddiffeithwch anial, yn unig ac yn ddigysur. Am helyntion y daith hon, nid oes genym ond ychydig hanes. Yn crwydro, ac yn ddyrysedig gan y nos, gorfu iddo orwedd ar y ddaear oer yn lle gwely, a chareg dan ei ben yn lle gobenydd. Noswaith nodedig oedd hon, a'r amser mwyaf hynod, tebygol, o'i holl fywyd: yr oedd y lle megys yn gysegredig trwy y pethau hynod a ddygwyddodd iddo yno, a galwyd ef wrth yr enw nodedig, BETHEL, sef *tŷ Dduw*. Tra yr ydoedd yn cysgu cafodd weledigaeth hynod; gwelodd ysgol 'yn sefyll ar y ddnear, a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd.' Gwelodd yn eglur gymundeb a chymdeithas yn cael eu dwyn yn mlaen rhwng nefoedd a daear, trwy fod 'angelion Duw yn dringo ac yn disgyn ar hyd-ddi.' Arni gwelodd yr Arglwydd yn sefyll, yn cyfarwyddo ac yn llywodraethu y cwbl, ac yn rhoddi rhyw arwydd dysglaer o'i fawredd gogoneddus. Tra yr oedd yn syll-dremu ar y weledigaeth ryfedd, llefarodd yr Arglwydd wrtho, yn cadarnhau bendith ei dad iddo ef: 'Myfi yw Arglwydd Dduw Abraham dy dad, a Duw Isaac; y tir yr wyt ti yn gorwedd arno, i ti y rhoddaf ef, ac i'th hâd. A'th hâd di fydd fel llwch y ddaear—a holl deuluoedd y ddaear a fendithir ynot ti, ac yn dy *hâd* di,' sef Crist, y Messïah addawedig. Ychwanegodd, gan ddywedyd, 'Wele fi gyda thi; ac mi a'th gadwaf pa le bynag yr elych, ac a'th ddygaf drachefn i'r wlad hon; o herwydd ni'th adawaf, hyd oni wnelwyf yr hyn a leferais wrthyt.' Pan ddeffrôdd Jacob, cydnabyddodd gyd â'r parch mwyaf, y Presennoldeb Dwyfol. Cododd yn foreu, ac a gymerth y gareg oedd dan ei ben, ac a'i gosododd yn golofn, ac a dywalltodd olew ar ei phen. Ymrwymodd ei hun mewn adduned, y byddai yr Arglwydd yn Dduw iddo, ac y byddai iddo, yn y fan hòno, addoli yr Arglwydd ar ei ddychweliad yn ol i Ganaan, ac y byddai iddo ddegymu i'r Arglwydd o'r hyn oll a roddai yr Arglwydd iddo.

Tro hynod oedd hwn yn mywyd Jacob. Dywedir am dano o'r blaen ei fod yn *ŵr dysyml* (איש תם *gwr perffaith*, Dr. M.) fel y dywedir am Noah, ei fod ef yn *ŵr cyfiawn a* (תמים yr un gair) *pherffaith*. Gen. 6. 9. Yn golygu, tebygol, duwioldeb Jacob yn benaf; hefyd, ei dymher addfwyn, garuaidd; a'i ddull sobr a gwladaidd o fyw, fel bugail defaid. Ond nid oes

Digitized by Google

hanes am i'r Arglwydd ymddangos iddo cyn hyn, nac am un weithred neillduol o'i ymroddiad i'r Arglwydd. Beth bynag oedd Jacob o'r blaen o ran ei grefydd, y mae yn eglur i'w ganfod ynddo gyfnewidiad hynod o hyn allan. Nid oes dim o'r dichellion oeddynt yn ei anurddo ef o'r blaen i'w gweled ynddo rhagllaw; ond gonestrwydd, uniondeb, dyoddefgarwch, ac ymroddiad o hono ei hun a'i achos i'r Arglwydd, dan holl dwyll, surni, a chreulondeb Laban; yn ffyddlon i'w addunedau, ac yn rhodio yn ddiymmod yn nghyfammod Duw.

Y mae yr Arglwydd yn cadarnhau cyfammod Abraham iddo, ac yn ei gyhoeddi yn etifedd o'r holl addewidion cynnwysedig ynddo. Yn ngweledigaeth yr ysgol, y mae yn rhoddi iddo ef, ac i'r eglwys yn gyffredin wedi hyny, ddadguddiad ychwanegol i ddim a gafwyd cyn hyn o drefn fawr yr iechydwriaeth, ac o berson Crist a'i swyddau. Fod yr ysgol yn cysgodi Crist sydd amlwg oddiwrth ei eiriau ei hun wrth Nathanael, yn cyfeirio yn amlwg at y weledigaeth hon: 'Ar ol hyn y gwelwch y nef yn agored, ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn.' Ioan 1. 51. Yr oedd, 1. Yn cysgodi Crist yn ei Berson, yr hwn o ran ei ddynoliaeth oedd ar y ddaear yn cyfeillachu â dynion; tra ar yr un pryd, o ran ei Dduwdod, yr oedd yn y nefoedd, ie, yn llenwi y nefoedd a'r ddaear. Ioan 3. 13, 31. a 16. 28. a 17. 5. ——2. Yr oedd yn ei gysgodi hefyd o ran ei swydd, fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, yn cyrhaedd at y ddwy blaid. Heb. 8. 1. a 9. 24. 1 Tim. 2. 5. Ac yn cymmodi â Duw y pethau ar y ddaear ac yn y nefoedd; a'r unig ffordd i bechaduriaid at y Tad. Col. 1. 20. Ioan 14. 6.——3. Y mae yr Arglwydd yn sefyll arni, sef ar ei phen uchaf, yn edrych ar y drefn fawr gyd âg anfeidrol foddlonrwydd a heddychlonrwydd; yn llywodraethu, yn trefnu, ac yn hwylio pob peth er daioni i etifeddion iechydwriaeth, a'r angelion yn gwasanaethu rhwng nefoedd a daear er eu mwyn—ac yn gwasanaethu yn neillduol i Jacob ei hun ar ei daith brofedigaethus bresennol. Mat. 3. 17. Heb. 1. 14. Gen. 32. 1, 2, 24—31. Yn edrych ar y drefn ryfedd ddwyfol hon, y mae yr Arglwydd yn dywedyd, 'Myfi yw Duw Abraham,' &c., ac, 'Wele fi gyda thi,' &c. Mae mewn cymmod trwyadl â'i bobl; yn cymdeithasu â hwynt; yn eu cadw ac yn cyflawni holl foddlonrwydd ei ewyllys tu ag atynt.

Yr oedd gwaith Jacob yn gosod ac yn eneinio y golofn yn arwydd goffadwriaethol a chrefyddol. Pa bryd, a phwy a ddechreuodd yr arferiad hwn, nid yw hysbys, dyma yr hanes cyntaf a roddir i ni am dano. Gwedi hyn cawn hanes am waith Jacob yn gosod colofn yn y fan lle yr ymddyddanasai yr Arglwydd âg ef, ac yn tywallt diod-offrwm ac olew arni. Gen. 35. 14. Tyfodd y ddefod hon, fel amryw eraill, i eilun-addoliaeth; am hyn, gwaherddir i Israel godi delw gerfiedig, na cholofn. Lef. 26. 1. Hos. 10. 1. A gorchymynir iddynt dori colofnau eilun-addoliaeth y cenedloedd. Deut. 7. 5. a 12. 3.——Yr oedd eneiniad y golofn yn cysgodi eneiniad Crist a'i bobl â'r Ysbryd Glân, a gelwir pob un o honynt yn *feini bywiol.* Ps. 45. 8. 1 Ioan 2. 20, 27. 1 Petr 2. 4, 5. Edr. ENEINIO. Galwodd y fan *Tŷ Dduw,* sef lle y gwelodd yr Arglwydd yn dda i roddi amlygiad hynod a chyfeillgar o hono ei hun, a'r lle y darfu i Jacob ac yntau ymgyfammodi â'u gilydd. Tŷ Dduw yw pob lle y byddo yr Arglwydd yn rhoddi ei bresenoldeb i'w bobl, pa un ai yn oruwch-naturiol trwy weledigaethau, neu yn gyffredinol trwy osodiadau sanctaidd yn ei eglwys. Er ei fod yn llenwi pob man, ac yn anghynnwysadwy, etto yno y mae i ni i'w gael, lle yr amlygo ei hun; ac yno y mae i ni ddysgwyl am dano, lle y mae gwedi addaw bod. Mat. 18. 20. Yr oedd Jacob yr amser hwn yn nghylch dwy flynedd ar bymtheg a thriugain o oedran.

4. Yr oedd cyflwr Jacob pan ddaeth i Haran yn isel ac yn dlawd. Yr oedd yn gyfoethog mewn *addewidion,* ond heb ddim mewn meddiant. Cyfeirir at yr amgylchiad hwn ddwy waith yn yr ysgrythyrau. Pan y dygai Israeliad ei gawell o flaen-ffrwyth ei dir i'r Arglwydd, yr oedd hyn yn rhan o'i gyffaddefiad: 'Syriad ar ddarfod am dano oedd fy nhad.' Deut. 26. 5. A phan yn nyddiau Hosea yr oeddynt wedi ymchwyddo ac yn uchelfrydig, y mae y prophwyd yn adgoffa iddynt, 'Ffôdd Jacob i wlad Syria, a gwasanaethodd Israel am wraig, ac am wraig y cadwodd ddefaid.' Hos. 12. 12. Yn lle bod ganddo gynnysgaeth i roddi iddi fel Isaac ei dad i Rebeccah, bu gorfod iddo wasanaethu am dani a chadw defaid. Ond ni chaf sylwi yma ar amgylchiadau a helyntion Jacob yn nhŷ Laban, am ei wragedd, ei blant, y rhai a ddeuant i'n sylwad dan eiriau eraill. Gwedi gwasanaeth caled gyda Laban dros un mlynedd ar hugain, ymddangosodd angel yr Arglwydd iddo mewn breuddwyd, gan ddywedyd, 'Myfi yw Duw Bethel, lle yr eneiniaist y golofn, ac yr addunedaist adduned i mi: cyfod bellach, dos allan o'r wlad hon, dychwel i wlad dy genedl dy hun.' Gen. 31. 13. Pwy oedd yr angel hwn y mae y geiriau yn dadgan yn eglur, mai האל בית־אל *y Duw tŷ Dduw,* neu *y Duw Bethel*; y Duw a ymddangosodd i ti, ac a fu yn ymgyfammodi â thi yno; lle yr addewais i y byddwn gyda thi, i'th gysuro a'th gadw, a'th ddwyn yn ol drachefn i'th wlad dy hun; a lle yr eneiniaist y golofn, yn arwydd goffadwriaethol gysegredig, ac yr addunedaist adduned. Y mae yr Arglwydd yn yr ymddangosiad hwn yn amlygu ei fod ef yr un; a'i fod yn ffyddlon i'w gyfammod, ac yn bwriadu cyflawni ei holl addewidion iddo yno: meddyliwn hefyd ei fod yn cymeradwyo ffyddlondeb Jacob i'w addunedau yntau. Yr oedd dyddanwch annhraethol i Jacob yn ffyddlondeb a thiriondeb yr Arglwydd tu ag ato yn wyneb gwg Laban. Pan oedd Esau yn bwriadu ei ladd, yr ymddangosodd yr Arglwydd iddo yn Bethel; ac yma etto yn ei gyfyngder, y mae yr un Duw grasol, a hollalluog, yn cofio am dano. Ps. 46. 1. Y mae yr Arglwydd yn galw ei hun *Duw Bethel,* fel pe buasai yn foddlon ac yn hyfryd ganddo gofio y cyfammod a'r gymdeithas rhyngddo ef â Jacob yno; ac y mynai i Jacob hefyd eu hadgofio er ei gysur presennol. Pwy sydd gyffelyb i'n Duw ni!

5. Ar orchymyn Duw y mae Jacob yn cychwyn i ddychwelyd i'w wlad ei hun. Y mae Laban yn ddigofus yn canlyn ar ei ol: y mae Duw yn llefaru wrth Laban, 'Cadw arnat rhag yngan wrth Jacob na da na drwg;' neu מטוב עד־רע *oddiwrth dda at ddrwg.* Y maent yn ymgyfammodi yn Galeed, ac yn ymadael yn heddychol. Edr. GALEED, JEGAR-SAHADUTHA. Ar ei daith angelion Duw a gyfarfu â Jacob mewn rhyw ddull dysglaer, gogoneddus; pan welodd hwynt, dywedodd, 'Dyma wersyll Duw; ac a alwodd enw y lle hwnw Mahanaim,' *dau wersyll.* Gelwir yr angelion *llu nefol,* neu *στρατια ουρανου, byddin nefol,* Luc 2. 13.—*meirch a cherbydau tanllyd,* 2 Bren. 6. 17. Y maent yn rhyfela o blaid y duwiolion yn erbyn eu gelynion. Dan. 10. 20. Ps. 34. 7. Heb. 1. 14. Ymddangosodd yr angelion, tebygol, i Jacob yn ddau lu, un o bob ochr; neu un yn ol i'w amddiffyn rhag Laban, ac un o'i flaen i'w amddiffyn rhag Esau, a Jacob a'i deulu yn y canol rhyngddynt. Wele yma ofal Duw am ei bobl wael, ddirmygedig, a'r anrhydedd mawr sydd iddynt oddi wrtho ef!

6. Gwedi hyn y mae profedigaeth arall yn ei gyfarfod, a'i dychrynodd yn ddirfawr. Anfonodd genadau at Esau i wlad Edom, i hysbysu iddo am ei ddychweliad o Padan-Aram, ac i erfyn ei ffafr. Y cenadau a ddychwelasant, a hysbysasant iddo fod ei frawd Esau yn dyfod i'w gyfarfod, a phedwar cant o wyr gyd

Digitized by Google

âg ef. 'Ar hyn Jacob a ofnodd yn fawr, a chyfyng oedd arno;' nid yn unig o'i ran ei hun, ond hefyd o ran ei wragedd, a'i blant, 'a chwbl a feddai. Gwedi eu rhanu a'u dosparthu yn y modd goreu i gyfarfod â'i frawd, ac anfon anrhegion i'w frawd, ymneillduodd ar ei ben ei hun i weddïo ar yr Arglwydd am ei amddiffynfa iddo. Y mae yn addef ei annheilyngdod, yn dadleu, ac yn erfyn am ei nawdd, oddiwrth ei gyfammod, ei addewidion, a'i ddaioni eisoes tu ag ato. Hynod o nodedig yw y dygwyddiad canlynol yn hanes rhyfedd y patriarch duwiol hwn: 'Yna yr ymdrechodd gwr âg ef nes codi y wawr.' *Ymdrechodd*, אבק *gwrth-darawodd*, *ymafaelodd*, *ymdrechodd*, fel pe buasai am ei rwystro yn ol i Ganaan. Gair na arferir ond yn y man hwn. Goddefodd i Jacob ymdrech âg yntau; ïe, ei orchfygu hefyd. 'Cafodd nerth ar yr angel, a gorchfygodd; wylodd, ac ymbiliodd âg ef.' Hos. 12. 4. Ymdrechodd, wylodd, ymbiliodd—a dywedodd, 'Ni'th ollyngaf oni'm bendithi.' Dyma agwedd enaid yn cael nerth gyda Duw: agwedd foddhaol iawn gan yr Arglwydd, a sicr o lwyddo. Mat. 15. 22—28. Luc 18. 1—8. 'Pan welodd na byddai drech nag ef (geiriau sydd yn dangos tiriondeb Duw yn hytrach na grym Jacob) cyffyrddodd â chyswllt ei forddwyd ef; fel y llaesodd cyswllt morddwyd Jacob,' ac y ciliodd yr asgwrn yn y cyswllt o'i le priodol; yr oedd efe yn ganlynol 'yn gloff o'i glun.'*——Pwy ydoedd y gwr hwn sydd yma yn cael ei alw איש *gwr*, yn Hos. 12. 4. מלאך *angel*, sydd eglur oddiwrth adn. 30. 'A Jacob a alwodd enw y fan (פני־אל) *wyneb Duw;* oblegid gwelais Dduw wyneb yn wyneb, a diangodd fy einioes.' *Duw* oedd, gan hyny, sef Arglwydd Dduw y lluoedd. Hos. 12. 5. *Gwr* oedd o ran yr agwedd a gymerodd arno—angel oedd o ran ei swydd—a Duw oedd o ran ei hanfod—yr angel yr hwn a waredodd Jacob oddiwrth bob drwg. Gen. 48. 16. Y Duw yr hwn a ymgyfammododd âg ef yn Bethel. Edr. Angel. Y mae yr hanes hwn yn neillduol o addysgiadol; yn gosod allan natur cymundeb y duwiolion â Duw; ymostyngiad, tiriondeb, a ffyddlondeb yr Arglwydd, fel gwrandawr gweddi; grym a thaerineb gostyngedig ysbryd gweddi yn y duwiolion; a'u hymwared sicr, gwedi llwyddo gyda Duw, oddiwrth eu hofnau, a'u peryglon; gwedi goddef ei *hun* i gael megys ei orchfygu ganddynt, ni attal efe ddim daioni oddi wrthynt. Ps. 84. 11. Rhuf. 8. 37.——Y mae yr angel yn cloffi Jacob er ei ddarostyngiad, i beri iddo gydnabod mai nid ei nerth ef, ond y nerth a *gafodd* gan yr Arglwydd a barodd iddo y fuddugoliaeth. Er ei gloffi, y mae Jacob yn para yn ei ymdrech, ac yn dywedyd, 'Ni'th ollyngaf oni'm bendithi.' Yr oedd addewid Duw am y fendith ganddo, gwedi ei rhoddi iddo gan Dduw ei hun yn Bethel; nid rhyfedd gan hyny ei fod mor hyf ac mor nerthol; yr oedd y tir uchaf ganddo, sef gair y Duw, yr hwn nis gall wadu ei hun, a bod yn gelwyddog:† 'Pan wyf wan,' yn gloff, yn brofedig, ac yn cael fy nghernodio, 'yna yr wyf gadarn,' ac nid cyn, na heb hyny. 2 Cor. 12. 1—10.——Cafodd Jacob dri pheth yn yr ymdrech hwn, sef *cloffni—bendith—ac enw newydd.* 'Mwyach ni elwir dy enw di Jacob, ond Israel,' sef *tywysog y Duw cadarn*, 'oblegid cefaist nerth gyda Duw fel tywysog, a chyda dynion, ac a orchfygaist.'—'Oblegid ymdrechaist gyda Duw fel tywysog, felly (yr ymdrechi) gyda dynion, a thi a orchfygi.' Dr. M.—'Oblegid fel tywysog yr ymdrechaist gyda Duw, am hyny y gorchfygi ddynion hefyd.' Gwel Vitringa, *Dissert. Prima, De luctu Jacobi.* Y mae yr enw Jacob, y *disodlwr*, yr hwn a gafodd y fendith trwy ddisodli ei frawd yn ddichellgar, yn cael ei newid i Israel, *tywysog Duw*, yr hwn a ymdrechodd â Duw am y fendith ac a'i cafodd, er ei gysur a'i anrhydedd parhaus. Yn y groth y daliodd efe sawdl ei frawd, ac yn ei nerth y cafodd efe allu gyda Duw—*ymddygodd yn dywysogaidd gyda Duw.* Cafodd ei hiliogaeth eu galw wrth yr enw newydd, ac nid wrth yr hen enw *disodlwr*: ac yr oedd cenedl Israel yn cysgodi y rhai yn mhob oes a gwlad, ydynt yn ymdrechu ac yn gorchfygu gyda Duw trwy ffydd a gweddi.*

7. Gwedi cael nerth gyda Duw, a gorchfygu, y mae Jacob yn cyfarfod âg Esau yn heddychol, yn llawn caredigrwydd a thiriondeb. 'Pan fyddo ffyrdd gwr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd, efe a bair i'w elynion fod yn heddychol âg ef.' Diar. 16. 7. Mae goruwchlywodraeth alluog y Duw mawr i'w gweled yn hynod yn y tro: 'fel afonydd o ddwfr y mae calonau pawb yn llaw yr Arglwydd: efe a'u try hwynt lle y myno.' Diar. 21. 1. Edr. Esau. Gwedi hyn aeth Jacob yn mlaen i Succoth, ac a ddaeth yn llwyddiannus i ddinas Sichem. Efe a ddaeth, er ei holl beryglon mawrion, yn heddychol, yn ddiangol, ac yn ddiogel, efe yn nghyd â'r hyn oll a feddai, i wlad Canaan: ac nid rhyfedd, gan fod Duw Bethel yn geidwad iddo, yn ol ei addewid. Gosododd yno allor, ac a'i henwodd El-Elohe-Israel, sef *Duw, Duw Israel.* Edr. El. Cyfarfu yno â phrofedigaethau newyddion a chwerwon oddiwrth ei blant. Edr. Dinah, Hemor, Lefi, Sichem, Simeon, &c. Gorchymynodd Duw i Jacob fyned i Bethel; ac er i'w feibion ladd y Sichemiaid o achos eu chwaer Dinah, etto *ofn Duw* oedd ar y dinasoedd oedd o'u hamgylch hwynt, fel nad erlidiasant ar eu hol. Y mae Jacob yn glanhau ei dŷ, yn adeiladu allor, ac yn ei galw El-Bethel, sef *Duw Bethel*, ac y mae yn cydnabod daioni a ffyddlondeb Duw tu ag ato. Nid annhebyg fod argyhoeddiad i Jacob yn ngorchymyn Duw iddo i fyned i Bethel. Hwyrach i Jacob fod yn rhy esgeulus yn cyflawni ei adduned yr hon a wnaethai i Dduw yno. Yr oedd efe wedi addunedu yn Bethel y tro cyntaf, os cadwai Duw ef, a'i ddwyn drachefn mewn heddwch i dŷ ei dad, y byddai y gareg a osodai i fynu yn dŷ i Dduw. Yr oedd Duw gwedi cyflawni yr holl bethau hyn; ond nid oedd Jacob etto gwedi bod yn Bethel, er ei fod yn ngwlad Canaan er ys saith mlynedd. A pheth oedd waeth, er bod Ihehofah yn Dduw iddo, nid oedd ei dŷ ef yn gwbl lân oddiwrth eilunod! Bu y delwau a ddygodd Rahel yn fagl i'r teulu. Er nas gwyddai am danynt pan y goddiweddodd Laban ef; etto gwybu am danynt gwedi hyny: ac etto nis bwriodd hwynt ymaith o'i deulu nes iddo gael ei gynhyrfu gan Dduw i fwrw ymaith y duwiau dyeithr.——Yr oedd yn achos teilwng o ystyriaeth dwysaf Jacob, a ydoedd ei esgeulusdra yn hyn ddim gwedi achosi yr holl ddrygau galarus a ddygwyddodd i'w deulu yn Sichem? Yr oedd

* Y mae yr adnod 32 wedi cael ei cham-argraffu yn yr holl argraffiadau o'r Bibl Cymreig, oddigerth tri, sef 1727, 1769, 1814, ac argraffiad y Dr. Morgan. Y mae y gair *Jacob* yn niwedd yr adnod wedi ei adael allan. 'Oblegid cyffwrdd â chyswllt y forddwyd ar y gewyn a giliodd;' yn lle, 'Oblegid cyffwrdd â chyswllt morddwyd *Jacob* ar y gewyn a giliodd.' Y mae rhai gwedi ychwanegu gwall arall, gan roddi *a'r* yn lle *ar;* בגיד *ar* neu *yn* y gewyn yw y gair.

† Intuens promissionem, et certo Statuens Deum, secundum verbum suum affuturum in tanto periclo, et servaturum. Atque hac fide vicit Deum: etsi enim Christus tentaret Jacob hac lucta, tamen præter vel contra verbum suum, quo Jacob nixus est, nihil potuit facere. Luther.

* Y mae rhai yn barnu fod yr ymdrech hwn, nid yn unig yn addysgiadol i ni, ond hefyd yn gysgodol o ymdrech a dyoddefiadau Crist, a'i fuddugoliaeth ryfedd ar y groes. Mae un awdwr yn neillduol wedi ysgrifenu yn helaeth i'r dyben i brofi hyny, a bod pob golygiad ar y mater heb ei ystyried felly yn mhell oddiwrth ateb hynodrwydd neillduol y dygwyddiad. Ond y mae anghysondeb yn ymddangos i mi, i holl iaith yr ysgrythyrau, i olygu yr angel fel yn arwyddo y Duwdod yn mherson y Tad yn ymdrechu â Jacob, fel yn cysgodi Crist fel mechnïydd yn dyoddef dros ei bobl; y mae yn fwy addas golygu yr angel yn arwyddo Crist, yr 'Angel yr hwn a waredodd Jacob oddiwrth bob drwg.' Gwel *Dissert. Sacræ,* gan Vitringa; y Mab, *Dissert. Prima.*

Digitized by Google

goddefiad y duwiau dyeithr yn ei dŷ gwedi llygru ei deulu mewn gradd go fawr; ac wrth oedi myned i Bethel, gwedi cadw ei deulu yn rhy agos i brofedigaethau a fuant yn alarus ac yn waedlyd yn eu canlyniadau. Gwelwn effeithiau *esgeulusdra* ysbrydol, a chellwair â themtasiynau.

Gwedi myned i Bethel, y mae Duw yn ymddangos iddo, ac yn ei fendithio; yn adnewyddu ei gyfammod âg ef, yn ail-adrodd ac yn helaethu ei addewidion grasol iddo; ac yn cadarnhau cyfnewidiad ei enw. Jacob yntau a gyfododd faen yn y fan lle yr ymddyddanasai Duw âg ef, ac a dywalltodd ddiod offrwm ac olew arni. Yr ydoedd yr ail golofn hon a osododd Jacob yn Bethel, yn dystiolaeth o ffyddlondeb a daioni Duw tu ag ato, yn arwydd o'i ddiolchgarwch yntau, a'i ymlyniad diysgog wrth yr Arglwydd. Yr oedd Jacob ddeng mlynedd ar hugain o'r blaen wedi addaw degymu o'r hyn oll a feddai i Dduw yn Bethel; y mae Duw yn dirion yn rhoddi gorchymyn iddo fyned yno; ac yn hytrach yn coffâu ei addewidion ei hun, nag addunedau Jacob. Yr oedd Jacob yn fwy anghofus na Duw o'u cyfarfod hyfryd o'r blaen yno. Y mae yr ail gyfarfod, a'r ail gymmodi yn yr un lle, yn ymddangos yn hyfryd ac yn ogoneddus, ac yn profi fod cyfammod a chyfeillach dragywyddol rhwng Duw a'i bobl; bod angen yr un Duw ar Jacob yn niwedd ag oedd yn nechreu ei ddyddiau. Hyfryd oedd gan Jacob, diammeu, glywed Duw Bethel yn dywedyd, 'Myfi yw Duw Hollalluog.' אל־שדי *Duw cyflawn* o bob peth; holl ddigonol yn mhob ystyr. Yn ei gyflawnder hwn, mae yn dywedyd wrtho, *cynnydda, amlha, &c.* Y mae cynnydd ac amlhad yn myned gyd â'i air effeithiol. Fel y profodd Jacob Dduw tu ag ato yn Dduw Hollalluog hyd yma, felly y mae efe yn addaw bod etto. Y mae profedigaethau newyddion ac annysgwyliadwy i gyfarfod â Jacob etto yn fuan; ond y mae Duw Hollalluog yn gwbl ddigonol i'w gynnal danynt, a'i ddwyn allan o honynt. Amlygu ei fawredd ei hun y mae Duw i'w bobl, i'r dyben i'w cysuro yn mhob amgylchiad: tu yma i hyny y mae pob peth yn rhy fach i'w cynnal a'u dyddanu.

8. Gwedi y cyfarfod hyfryd hwn â Duw yn Bethel, adnewyddwyd nerth Jacob i gyfarfod âg ychwaneg o orthrymderau. Yn holl hanes y gwr hwn, y mae yn nodedig i sylwi arno, fod amlygiadau neillduol o'r Arglwydd iddo, yn rhagflaenu ei brofedigaethau, ac yn ei ragbarotoi i'w cyfarfod; ac os ydyw ei fywyd yn amlach o brofedigaethau, y mae hefyd yn amlach o ddadguddiedigaethau, nag un o'r lleill o'i flaen. Y mae holl bererindod Jacob yn rhoddi golygfa chwanegol ar ddull eglwys Dduw yn y byd, ac amlygiad chwanegol o fawredd, ffyddlondeb, a thiriondeb Duw tu ag at ei bobl gystuddiedig, mewn byd profedigaethus. Duw Jacob yw Duw yr holl eglwys, a phob aelod o honi byth!

Gwedi adnewyddu y cyfammod yn Bethel, mae Deborah a Rahel yn marw, a Reuben yn gorwedd gyda Bilha. Edr. dan yr enwau hyn. A Jacob a ddaeth at Isaac ei dad i Mamre, i Gaer-Arba, sef Hebron. Isaac a fu farw, ac Esau a Jacob a'u claddasant ef. Edr. Isaac. Nid oes i ni farnu oddiwrth ddystawrwydd yr hanesiaeth am hyn, na bu Jacob yn ymweled â'i dad cyn hyn. Tebygol iddo ymweled âg ef yn aml; ond fel yr oedd yr hen ŵr yn nesâu at ei ddiwedd, daeth ac a drigodd gyd âg ef, neu yn agos ato. Nid oedd Deborah yn perthyn i deulu Jacob; canys mammaeth Rebeccah ydoedd hi: ond hi a fu farw yn nhy Jacob—gan hyny mae yn amlwg ei fod cyn hyn wedi bod yn ymweled â'i dad. Ei fam wedi marw, a Deborah yn hen ac yn fethedig, mwy addas i gael nag i roddi ymgeledd i'w dad yn ei henaint, cymerodd hi ato i'w deulu at ei chydwladyddesau ieuainc, i'w hymgeleddu yn dirion ac yn garedig. Hyd yn hyn ni ddywedir dim am dani wedi ei dyfod o Padan-Aram gyd â'i meistres; ond oddiwrth y crybwylliad parchus am dani yma, tebygol ei bod yn wir barchus yn ei lle a'i sefyllfa. Edr. Deborah.

9. Mae y brofedigaeth drymaf etto yn ol a gyfarfu â Jacob yn ei holl fywyd. Y mae y tònau yn aml, yn arwach, ac yn fwy peryglus, yn agos i'r làn, nac ar ganol y cefn-fôr; felly mae profedigaethau saint Duw, yn fynych, yn amlhau ac yn trymhau, tua diwedd eu gyrfa, fel y caffont amlygiad adnewyddol o ffyddlondeb Duw tu ag atynt, ac i'w haddfedu hwythau i ymadael â'r byd helbulus hwn. Israel oedd hoffach ganddo Joseph na'i holl feibion. Cenfigenodd ei frodyr wrth Joseph o'r achos, a hwy a'i casasant, a'i gwerthasant i'r Ismaeliaid, &c. Edr. Joseph. Yn nghylch ugain mlynedd bu Jacob yn galaru am Joseph, yn meddwl ei larpio gan ryw fwystfil drwg, wedi ei siomi trwy y siaced waedlyd a ddygodd ei feibion creulawn ato. Yr oedd hoffder anghymesur Jacob o Joseph, gwedi troi yn alar anghymedrol gwedi ei golli—dyma yw effaith gwastadol caru y creaduriaid yn ormodol. Cyfododd newyn trwm iawn trwy yr holl wledydd. O werthiad Joseph hyd ddechreuad y newyn, y mae yr hanesiaeth sanctaidd yn ddystaw am Jacob, oddigerth claddedigaeth ei dad. Yr oedd y newyn mor drwm, mor barhaus, ac mor helaeth dros yr holl wledydd, fel yr oedd yn bwgwth hollol ddinystrio y trigolion. Er hoffed ydoedd Jacob gan Dduw, teimlodd bwys y wïalen hon ar y gwledydd, am bechodau y trigolion eilun-addolgar, mor drymed, fel y bu drachefn a thrachefn yn agos mewn eisieu o fara beunyddiol; ac nid oedd iddo fawr gysur yn ei blant gwrthnysig, yn yr amgylchiadau cyfyng hyn. Er na phalla addewidion Duw i'w bobl, etto geill eu gadael i'r cyfryw gyfyngderau ag a ddengys yn amlwg fod eu hymwared yn unig oddi wrtho. Trwy drefniad tirion rhagluniaeth ddoeth y nefoedd, yr oedd llawnder o ŷd yn yr Aipht, a Joseph oedd yn llywydd ar yr holl wlad. Yr oedd yr holl wledydd yn cyrchu yno am ŷd at Joseph. Y mae Jacob yntau yn anfon ei ddeg mab yno i brynu ŷd. Y mae Joseph yn eu carcharu yn lle yspïwyr; ond yn eu rhyddhau dan ammod iddynt ddwyn Benjamin eu brawd; y mae yn cadw Simeon yn wystl. Pan ddychwelasant â'u hŷd, cawsant eu harian yn eu sachau: hyn a barodd iddynt hwy a'u tad ofni yn fawr. Gwedi adrodd eu helyntion i Jacob, y mae efe yn gwrthod anfon Benjamin. Y mae ei feibion yn gommedd myned i'r Aipht heb Benjamin, ac y mae Jacob o'r diwedd yn gorfod ei ollwng. Yr ail waith y mae Joseph yn hysbysu ei hun i'w frodyr. Anfonodd Joseph gerbydau i gyrchu ei dad i'r Aipht ato. Pan draethasant fod Joseph yn fyw, a phan welodd y cerbydau, bywiogodd ei ysbryd, a dywedodd, 'Digon yw; y mae Joseph fy mab etto yn fyw: âf fel y gwelwyf ef cyn fy marw.' Cychwynodd, 'a daeth i Beerseba, ac a aberthodd ebyrth i Dduw ei dad Isaac.' Llefarodd Duw wrtho mewn gweledigaethau nos, annogodd ef i fyned i'r Aipht, gan addaw y byddai gyd âg ef, ac y dygai ef i fynu drachefn, sef yn ei hiliogaeth, a'i gorph yntau ei hun i'w gladdu yn Nghanaan; ac y byddai i Joseph osod ei law ar ei lygaid ef, sef y byddai gyd âg ef i wneuthur y caredigrwydd diweddaf iddo wrth farw. Yr ydoedd y weledigaeth hon yn gefnogrwydd hynod i Jacob yn ei henaint, i wynebu ar y fath daith.

'Holl eneidiau tŷ Jacob, y rhai a ddaethant i'r Aipht, oeddynt ddeng enaid a thriugain,' yn cynnwys Jacob, a Joseph, a'i ddau fab, yn y rhifedi. Gen. 46. 27. Exod. 1. 5. Deut. 10. 22. '*Pymtheg* enaid a thriugain,' medd Stephan. Act. 7. 14. Y mae amryw ffyrdd gan y dysgedigion i gysoni y ddau hanes hyn â'u gilydd. Yn y cyfieithiad Groeg, y mae yr enwau canlynol wedi eu cymeryd o 1 Cron. 7. 14, 20. a'u rhoddi i mewn yn adn. 20. 'A meibion Manasseh

Digitized by Google

y rhai a ymddug Syria ei ordderch-wraig oedd Machir tad Gilead. A meibion Ephraim ei frawd oeddynt Suthelah, a Tahath; a mab Suthelah, Edem.' Mae y pump hyn yn gwneyd pump a thriugain. Mae Stephan yn canlyn y cyfieithiad hwn. Y mae Beza yn barnu mai gwall ysgrifenu πεντε, *pump*, yn lle παντες neu πάντης, *oll, oll oeddynt ddeg enaid a thriugain.* Eraill a farnant nad ydyw Stephan yn cyfeirio at y rhifedi yn Gen. 46. 26. ond yn cyfrif yn wahanol, fel hyn: un ar ddeg o feibion Jacob, a Dinah eu chwaer, a deg a deugain o'u hiliogaeth, ac un ar ddeg o wragedd y patrieirch, i gyd yn bymtheg a thriugain. Gwel Ainsworth, Poole's *Synops.*, Doddridge, Fuller.

Bu cyfarfod hynod o serchogaidd rhwng yr hen ŵr Jacob a'i hoff fab Joseph. Dygodd Joseph ei dad at Pharaoh, a Jacob a fendithiodd Pharaoh. Joseph a gyfleodd ei dad a'i frodyr yn nhir Rameses, cŵr goreu o'r wlad, fel y gorchymynasai Pharaoh. Bu Jacob fyw yn gysurus gwedi hyn gyd â'i fab Joseph, yn yr Aipht, ddwy flynedd ar bymtheg. Gen. 47. 28.—— 'Dyddiau Israel a nesasant i farw.' Galwodd am ei fab Joseph, ac a'i tyngodd ef y claddai efe ef gyd â'i dadau yn ngwlad Canaan: yr oedd hyn yn dangos ei grediniaeth yn addewidion Duw, y byddai iddo roddi y wlad hòno i'w hiliogaeth, ac y dychwelent yno drachefn. 'Wele fi yn marw; a bydd Duw gyda chwi, ac efe a'ch dychwel chwi i dir eich tadau.' Y mae yn diweddu ei daith drafferthus yn hynod o ddifrifol, pwysig, a pharchus. Bendithiodd Joseph, a gweddiodd dros ei feibion gyda duwiolder neillduol, a difrifwch. Yr oedd ymgasgliad ei ddeuddeg mab ato ar ei wely angeu, wrth ei orchymyn, yn ddifrif-ddwys ac yn dra phwysig, tra yr oedd tan ddylanwadau yr Ysbryd Glân, yn cyhoeddi ei fendith dadol iddynt, ac yn rhagfynegi yr hyn a ddygwyddai iddynt yn y dyddiau diweddaf. Gen. xlix. Caf achlysuron i draethu am danynt oll etto; ac am hyny afreidiol fyddai ychwanegu yma. Yn nghanol ei gyfarchiad i'w feibion, y mae yn troi ei wyneb at yr Arglwydd, gyda chysur annhraethol, a llawn hyder ffydd, ac yn dywedyd, 'Am dy iachawdwriaeth di y dysgwyliais, Arglwydd!' Yn yr olwg hyfryd hon ar iachawdwriaeth yr Arglwydd, bu farw, yn y seithfed flwyddyn a deugain a chant o'i oed. Ar ol pêr-arogli ei gorph, ac iddynt ei arlwyo ef yn yr Aipht ddeng niwrnod a thriugain, Joseph a'i frodyr, a henuriaid gwlad yr Aipht, a ddygasant ei gorph ef i wlad Canaan, i gael ei gladdu. Aeth gyd âg ef gerbydau a gwyr meirch hefyd; ac yr oeddynt yn llu mawr iawn. Pan ddaethant i lawrdyrnu Atad, gwnaeth Joseph alar dros ei dad saith niwrnod; a galarasant alar mawr a thrwm iawn, a galwyd enw y lle o'r herwydd, ABEL-MISRAIM, sef *galar yr Aiphtiaid.* Claddasant ef yn ogof maes Machpelah, yn ol ei ddymuniad. Wele yma hen bererin duwiol yn diweddu ei yrfa yn anrhydeddus! Mae holl fawredd yr Aipht, yn nghyd â galar serchog dwys ei hoff fab Joseph, a'i frodyr hefyd, yn canlyn ei gorph marw i'r pridd! Y mae ei holl hanes yn rhyfeddol, a'i ddiwedd yn ddigwmwl, ac yn ddysglaer ogoneddus! 'Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi,' medd yr Arglwydd.

JACOB, mab Matthan, a thad Joseph, gwr Mair. Mat. 1. 15, 16.

IACH—AU—US, (ia-ach) *Heb.* יָה *Gr.* ιαομαι; diglwyf, diafiechyd, diasgen; meddyginiaethu, ymgeleddu, gwaredu.

Nid *iach* ond a fo marw. *Diar.*

Y mae iechyd ac afiechyd yn cael llefaru am danynt fel yn perthynu i'r corph neu yr enaid, neu amgylchiadau dynion. Afiechyd enaid ydyw pechod, yn yr euogrwydd a'r halogrwydd o hono; ac iachâu enaid, yw tynu pechod ymaith, trwy ei faddeu; rhoddi edifeirwch am dano; a gwaredigaeth oddi wrtho. Dat. 22. 2. Ps. 6. 2. a 41. 4. a 60. 2. a 103. 3. a 147. 3. Jer. 17. 14. Esa. 63. 1. Luc 4. 18. Heb. 7. 25. Y mae pechod ynddo ei hun, ac yn ei holl effeithiau a'i ganlyniadau, yn afiechyd yn y natur ddynol, ac y mae yr Iachawdwr a'i iachawdwriaeth yn feddyg ac yn feddyginiaeth, fel y mae yn ei dynu ymaith, ac yn gwaredu ei bobl yn gyflawn oddi wrtho.

Y mae y corph yn ddarostyngedig i afiechyd o amrywiol fath, i gyd yn effeithiau pechod yn ein natur. Rhodd rasol werthfawr Duw ydyw iechyd; ac effeithiau pechod, a cheryddon Duw am dano ydyw pob afiechyd. Deut. 32. 39. 1 Sam. 2. 6. Job 5. 18. Hos. 6. 1. Hynod o addas ydoedd yr olwg a gafodd y canwriad, trwy ffydd, ar allu ac awdurdod Crist, ar glefydau, 'Dywed y gair, a'm gwas a iacheir.' Mat. 8. 8. Ps. 107. 20.

Y mae amgylchiadau personau neillduol, neu wledydd, neu eglwysi, yn cael eu hiachâu, pan fyddo barnedigaethau Duw yn cael eu symud, a hwythau yn cael eu sefydlu dan lywodraeth uniawn, eu cyfreithiau yn uniawn, a'u swyddwyr yn gyflawn, ac yn dduwiol, ac 'yn ofn i weithredoedd drwg.' Rhuf. 13. 3. Jer. 14. 19. a 30. 17. a 51. 8, 9. a 8. 22. 2 Cron. 7. 14.

Y mae gau-brophwydi, a gau-athrawon, yn iachâu dynion yn esmwyth ac yn dwyllodrus, trwy roddi esmwythder i ddynion yn eu pechodau, a chyhoeddi heddwch pryd nad oes heddwch. Jer. 6. 14. a 8. 11.

I ddangos ei allu dwyfol, dyben ei swydd, a natur ei waith, iachaodd yr Arglwydd Iesu, pan oedd yma yn ei ddarostyngiad yn y byd, bob clefyd, a phob afiechyd yn mhlith y bobl: mae efe yn feddyg cyflawn, anfethedig i gorph ac enaid. Edr. MEDDYG, a'r amrywiol glefydau.

IACHAWR—DWR, (*iach-awd-gwr*) meddyg, ceidwad, achubwr, gwaredwr. Y mae yr enw Iachawdwr a roddir i'r Arglwydd Iesu, yn aml, yn yr ysgrythyrau, yn cyfateb mewn ystyr i'r enwau CEIDWAD, GWAREDWR; ac mae yr un geiriau yn yr ieithoedd gwreiddiol yn cael eu cyfieithu wrth bob un o honynt. Σωτηρ yw y gair Groeg a gyfieithir *Iachawdwr* a *Gwaredwr* yn y Testament Newydd. Luc 1. 47. a 2. 11. Ioan 4. 42. 1 Ioan 4. 14. 1 Petr 1. 1, 11. a 2. 20. a 3. 2, 18. Judas 25. Act. 13. 23, &c. 1 Tim. 4. 10. Y mae y gair yn arwyddo *gwaredwr, achubwr, ceidwad;* un o'i ddiriondeb a'i raslonrwydd yn gwaredu eraill o gyfyngderau, ac yn eu gosod mewn cyflwr o ddiogelwch a dedwyddwch. Y mae tri pheth yn gynnwysedig yn y gair: 1. Gwaredu un anabl i achub ei hun, oddiwrth ddrwg, gofidiau, a blinderau.——2. Rhoddi un mewn meddiant o gyflawnder o fendithion a chysuron.——3. Diogelu un yn y cyflwr hwnw.

Yn yr holl ystyriaethau hyn, priodolir yr enw gyd âg addasrwydd neillduol i'r Arglwydd Iesu, yr hwn sydd wedi ei ddyrchafu yn nhrefn fawr y nefoedd, ac â deheulaw Duw, yn Dywysog ac yn Iachawdwr. Act. 5. 31.—1. Y mae ynddo bob addasrwydd o ran mawredd ei berson, a chyflawnder ei swyddau, i fod yn Iachawdwr. Y mae pob peth angenrheidiol i'w addasu i fod yn Iachawdwr yn ei berson; sef gallu, doethineb, tosturi, a ffyddlondeb dwyfol, anfeidrol, a thragywyddol. Esa. 9. 6, 7. a 63. 1. Judas 25.—— 2. Mae yn Iachawdwr o osodiad dwyfol, ac yn mhob swydd angenrheidiol i'w addasu i fod yn Iachawdwr cyflawn, perffaith, a digonol. Nid mewn un swydd y mae wedi ei osod, ond yn mhob swydd sydd angenrheidiol i ni; ac y mae yn ei swydd yn achub; achub yw ei waith arbenig, ei hoff waith, a'r gwaith mwyaf neillduol, perthynol iddo yn ei swyddau. Iachawdwr o drefniad ac o osodiad dwyfol, ac oblegid hyny, y mae ganddo, nid yn unig allu, ond *awdurdod* hefyd, i

Digitized by Google

wneuthur yr hyn mae yn ei wneuthur; a saif ei waith achubol byth, yn mhob amgylchiad, ac yn mhob byd. Mat. 9. 6.——3. Gan ei fod o osodiad dwyfol yn Iachawdwr, y mae hawl gan bechaduriaid i fyned ato, ac ato ef yn unig, a galw arno ef yn mhob cyfyngder, o bob rhyw natur; ie, y mae yn bechod dirfawr iddynt beidio, ac yn ddirmyg ar Dduw yn ei holl drefn ddoeth a grasol, iddynt esgeuluso myned ato, neu fyned at neb arall. Act. 4. 12. Heb. 2. 3.

'Ni byddaf iachâwr,' &c. Esa. 3. 7.—'Ni byddaf lywodraethwr.' Dr. M. Y rheswm a rydd un paham na byddai yn dywysog i iachâu clwyfau, neu annrhefn y llywodraeth, am na feddai fwyd na dillad. Dylai pob tywysog, neu lywodraethwr, fod yn iachâwr pob anghyfiawnder ac annhrefn, ac adferyd a sefydlu cyfiawnder, moesau da, a gwir grefydd, yn mhlith y trigolion a'r deiliaid. Peth arferol yn yr holl ddwyrain, medd Syr John Chardin, yw i grynhoi yn nghyd lawer o ddodrefn a dillad; am nad ydyw eu dull a'u defodau byth yn cyfnewid. Rhaid i dywysogion a'r mawrion gael llawer iawn o'r cyfryw bethau yn barod er anrhegion ar achlysuron. Y mae gan freninoedd Persia, medd yr un gwr, lawer o ddillad-gelloedd ëang, yn mha rai y mae llawer o gannoedd o wisgoedd yn barod, er anrhegion. Harmer's *Obs.* ii. 11. & 28. Y mae arlwy mawr i'r bwrdd yr un mor angenrheidiol. Felly yr oedd yn amser Solomon. 1 Bren. 4. 22, 23. a Nehemiah, Neh. 5. 17, 18. Y mae hyn yn eglurhau ystyr yr esgus a wnaed gan yr hwn y dymunwyd arno gymeryd y llywodraeth; haerai na feddai fodd i gynnal mawr rwysg y sefyllfa, â'r cyfryw haelioni a chroesawgarwch ag oedd yr arferiad yn ei ofyn gan ddynion o sefyllfa a gradd uchel. Harmer's *Obs. vol.* i. 340., ii. 88.

IACHAWDWRIAETH, [*iachawd-gwr*] IECHYDWRIAETH, [*iechyd-gwr*] achubiaeth, gwaredigaeth, prynedigaeth, amddiffyniad; ymgeledd, nodded, cadwraeth, cadwedigaeth, gollyngdod, rhyddhad. —1. Y mae Crist Iesu ei hun yn cael ei alw yn aml, nid yn unig yn Iachawdwr, ond hefyd iechydwriaeth, yn yr ysgrythyrau, am ei fod yn awdwr iechydwriaeth yn mhob ystyr, i'r rhai a ufuddhant iddo; ac am fod iechydwriaeth yn gyflawn ynddo, yn ei holl amrywiol gangenau, a'i bendithion; efe ei hun ydyw. Ioan 4. 22. Ps. 27. 1. a 68. 19, 20. a 118. 14, 15. Luc 2. 30. a 3. 6. Esa. 12. 2.——2. Y mae iechydwriaeth hefyd yn arwyddocâu y gwaith a wnaeth Crist dros ei bobl, y waredigaeth, a'r bendithion sydd i'w cael trwyddo. Heb. 2. 10. a 5. 9. Luc 1. 77. a 19. 9. Act. 4. 12. a 13. 26. a 16. 17, &c. Edr. IACHAWDWR, IECHYD.——3. Dedwyddwch tragywyddol. Rhuf. 13. 11. 1 Thes. 5. 8, 9. 2 Thes. 2. 13. Heb. 9. 28. 1 Petr 1. 5, 9, 10. 2 Petr 3. 15. Dat. 12. 10.——4. Athrawiaeth yr efengyl, sydd yn dadguddio ac yn cyhoeddi iechydwriaeth Crist. Heb. 2. 3. a 6. 9. Rhuf. 11. 11. Judas 3.——5. Gwaredigaeth oddiwrth unrhyw gyfyngder, gelynion, neu beryglon. Exod. 14. 13. Act. 27. 31, 34. Heb. 11. 7. Phil. 1. 19.——6. Y clod a'r mawl a roddir i Dduw fel awdwr iachawdwriaeth. Dat. 19. 1.

Y mae dull *neillduedig*, yn lle *cyd-gasgledig* (*abstract for the concrete*) yn dra arferedig yn yr ysgrythyrau; dull ag sydd yn gosod yr ystyr allan yn y modd cadarnaf ac effeithiolaf; megys *gair iechydwriaeth*, yn lle y gair sydd yn dadguddio gwaredigaeth; *gorfoledd iechydwriaeth*, yn lle gorfoledd yn nglŷn wrth waredigaeth oddiwrth beryglon mawrion; *craig iechydwriaeth*, yn lle craig sydd yn rhoddi noddfa a chysgod; *corn iechydwriaeth*, yn lle gallu ac awdurdod yn gweithredu gwaredigaeth a diogelwch; felly, *tŵr iechydwriaeth*, *tarian iechydwriaeth*, *&c.* Nid oes un dull o ymadroddi yn fwy cyffredin na hwn yn iaith yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

3 T

'Iachawdwriaeth gyffredinol,' (Judas 3.) am fod ei hangen ar bawb—ei bod i'w phregethu i bob creadur—a phob aelod o'r eglwys yn gyffredinol yn ei hetifeddu yn ei holl gyflawnder diderfyn. Nid oes un iechydwriaeth ond hon i neb, ac y mae hon yn *gyffredinol* i bawb a gredant, ac yn anfeidrol ddigonol iddynt oll dros byth.——'Iachawdwriaeth ei wynebpryd.' Ps. 42. 5.——'Iachawdwriaeth fy wyneb.' Adn. 11. Ps. 43. 5. 'Iachawdwriaeth ei wyneb,' oblegid mai ei wyneb grasol, neu amlygiad o'i raslonrwydd, a'i drugaredd yn Nghrist, sydd yn ein hachub ac yn ein gwaredu. 'Wyneb Duw yn myned gyd â'i bobl,' ydyw eu *hiechydwriaeth*, neu *iechydwriaeth* eu hwyneb hwy. Exod. 33. 14, 15. Y mae ei wyneb grasol ef yn ein hachub ni rhag cywilydd a gwaradwydd.* Edr. dan amrywiol enwau eraill, megys EFENGYL, GOBAITH, HELM, TARIAN, &c.

JACHIN, *Heb.* יכין [*cadernid*] 1. Pen yr unfed teulu ar hugain o'r offeiriaid yn amser Dafydd. 1 Cron. 24. 17.——2. Un o'r colofnau wrth borth teml Solomon. 1 Bren. 7. 21. Edr. COLOFN.——3. Pummed mab Simeon, yr hwn a aeth i waered i'r Aipht gyd â'i dad; ac yr oedd yn ben-teulu. Gen. 46. 10. Exod. 6. 15. Num. 26. 12.——4. Offeiriad yn amser Nehemiah. Neh. 11. 10.

JADA, *Heb.* ידע [*gwybodus*] mab Onan. 1 Cron. 2. 28, 32.

JADAU, *Heb.* ידו [*fy llaw*] mab Nebo. Ezra 10. 43.

JAEL, *Heb.* יעל [*yn esgyn*] gwraig Heber y Cenead, yr hon a laddodd Sisera. Barn. 4. 21. a 5. 24—28.

JAFAN, *Heb.* יון *Gr.* Ιωυαν [*twyllwr*] meddal, tyner, medd Simon. Pedwerydd mab Japhet, a thad Elisa, Tarsis, Cittim, a Dodanim. Oddi wrtho ef y galwyd y Groegiaid Iouiaid. Edr. GROEGIAID.

JAGAR-SAHADUTHA, יגר־שהדותא geiriau Syriaeg yn arwyddo yr un peth a Galeed yn Hebraeg, sef 'carnedd y dystiolaeth.' Tebygol mai ychydig amrywiaeth oedd yn yr iaith gyffredin ddealladwy i bob un o honynt. Y mae rhai yn barnu mai gair Hebraeg ydyw hwn hefyd, ac yn arwyddo, *tyst terfynau gosodedig*, oddiwrth שהד *tyst*, דות *gosod*, a חא *terfyn*. Gwel Parkhurst, Bates. Y mae rhai yn canfod yn y garnedd hon ddechreuad, neu ddangosiad, o hen arferiad o gromlechau, i'r un dyben a'r cromlechau yn ein gwlad ni, ac yn Persia, ac yn golygu y geiriau yn ddarluniad amlwg o honynt. 'A Jacob a gymerodd gareg, ac a'i gosododd hi yn golofn.' מצבה *uchelfa, dyrchafiad*, sef y gareg ganol, yr uchaf a fedrai gael yn agos. 'A Jacob a ddywedodd wrth ei frodyr,' sef y dynion oedd gyd âg ef, 'Casglwch geryg; a hwy a gymerasant geryg, ac a wnaethant (גל) *gylch o geryg*,' hyny yw, cylch o geryg â chyfwlch rhyngddynt, 'ac a fwytasant yno,' ar, neu *wrth* y cylch. A Laban a'i galwodd Jagar-Sahadutha, sef *cylch y dystiolaeth*; a Jacob a'i galwodd Gal-ed, *cylch y tyst*. A Laban a ddywedodd, *y cylch hwn* (הגל הזה) (y gair a arferodd Jacob, nid dwy iaith gan hyny oeddynt hwy yn siarad) '*tystied* (עד *od*) rhyngof fi a thi.' Gen. 32. 52. Y mae y tebygolrwydd yn ddigon i beri i ni feddwl fod perthynas agos rhwng y garnedd hon â'n cromlechau ni, o ran y dull a'r dyben o honynt. Yr ydys yn barnu yn gyffredin ddarfod codi y cromlechau i ddybenion cysegredig, ac o herwydd rhyw gynghorion a gynnaliwyd, a chyfammod a wnawd yn y fan hòno;† gellir

* Facis Dei Sola nos Salvare potest. In ea enim est plenitudo omnis boni & Satietas gaudiorum. Facis enim Dei Salvat faciem nostram, ab omni rubore, pudore, confusione & ad Scientiam, Sensum, fructum, suavitatem. Coccejus in loc.

† עמוד *ammod*, *colofn*, hwyrach mai oddiwrth hwn y daeth y gair Cymraeg *ammod*.

Digitized by Google

edrych arnynt hefyd fel tystion o'r hyn a wnawd yno. Gan fod aberthau yn cael eu lladd wrth wneuthur cyfammodau, dywedir i Jacob aberthu yno, yr hyn a arwyddoceir wrth y geiriau, 'A hwy a fwytasant yno ar y garnedd:' hyny ydyw, offrymwyd aberth ar y gareg ganol, a bwytasant hwythau yn y cylch wrth ymgyfammodi. 'Jacob a aberthodd aberth yn y mynydd, ac a alwodd ar ei frodyr i fwyta bara.' Adn. 54. Hwyrach fod Gilgal (*gal-gal*) yn arwyddo *dau gylch*.

Rhydd Chardin hanes iddo weled yn Persia gylch o geryg yn gofyn wyth dyn i symud un o honynt; yn dra thebyg i gromlechau y Derwyddon gyda ni. Gwel *Appendix to Calmet's Dict., frag.* 166. *Mona Antiqua Restaurata, by* H. Rowlands, *p.* 50.

IAGO, *Gr.* Ιακωβος; *Llad.* JACOBUS; *Saes.* JAMES. Y mae dau o'r enw, sef Iago brawd Ioan, a Iago brawd yr Arglwydd, fel y gelwir ef.—1. Iago *major*, neu y mwyaf, neu yr hynaf, i'w wahaniaethu oddiwrth Iago *minor*, yr ieuengaf, oedd frawd i Ioan yr Efengylwr, a mab Zebedeus a Salome. Wrth eu galwedigaeth, pysgodwyr oeddynt ill dau, o Bethsaida yn Galilea; ac yn gyfeillion i Andreas a Simon Petr. Ar alwad yr Iesu, gadawsant bob peth, ac a'i canlynasant ef. Hwyrach fod meibion Zebedeus, a Jonas, yn ddysgyblion i Ioan Fedyddiwr, a chawsant eu galw gan yr Iesu i fod yn ddysgyblion iddo ef yr un amser. Ioan 1. 35, 36, 37. Mat. 4. 21. Yr ydoedd y ddau yn apostolion, ac yn dystion o weddnewidiad Crist, ac o'i ymdrech yn yr ardd. Mat. 10. 2. a 17. 1. a 26. 37. Yr oedd y ddau yn cydofyn cenad i alw am dân o'r nef i ddyfetha y Samariaid, am iddynt wrthod derbyn Crist ar ei daith i Jerusalem. Luc 9. 51, &c. Oblegid yr anrhydedd neillduol a ddangosodd yr Arglwydd Iesu iddynt, y gofynodd eu mam iddynt gael bod ei ben-swyddwyr yn ei deyrnas. Yn ei ateb iddi, y mae yr Iesu yn dysgu gostyngeiddrwydd i'w ddysgyblion; y mae yn mynegi iddynt y dyoddefent erddo, ond mai eiddo y Tad oedd gosod swyddwyr yn ei deyrnas. Mat. 20. 20—24. Marc 10. 35—45. Gwedi adgyfodiad Crist, tebygol iddynt ddychwelyd dros ryw yspaid o amser at eu galwedigaeth fel pysgodwyr. Ioan 21. 2, 3, &c.—— Oddeutu y flwyddyn A.D. 44, lladdwyd Iago gan Herod â'r cleddyf. Act. 12. 1, 2. Edr. HEROD. Iago oedd y cyntaf o'r apostolion a ddyoddefodd. Yn ol rhag-ddywediad Crist, cafodd ei fedyddio â bedydd merthyrdod. Mat. 2. 23.

2. Iago *minor*, neu 'Iago Fychan,' ydoedd fab Alpheus, neu Cleopas,* a chwaer Mair Forwyn, sef, chwaer Joseph ei gwr, y mae yn debygol. Galwyd ef Iago Fychan, am ei fod yn fychan o gorpholaeth, fel Zaccheus; neu ynte, am ei fod yn ieuengach na Iago brawd Ioan. Mat. 10. 3. Marc 15. 40. Ioan 19. 25. Galwyd ef yn frawd yr Arglwydd, am fod cyfneseifiaid yn cael eu galw yn frodyr, yn mysg yr Iuddewon. Gal. 1. 19. Josephus' *Antiq., lib.* 20. *cap.* 8. O herwydd sancteiddrwydd hynod ei fywyd, gelwir ef gan haneswyr Eglwysig, IAGO Y CYFIAWN.* Ymddangosodd yr Arglwydd iddo ei hun ar ol ei adgyfodiad. 1 Cor. 15. 7. Yn nghylch tair blynedd gwedi tröedigaeth Paul, yr oedd efe yn Jerusalem, yn un o'r rhai a dybid eu bod yn golofnau yr eglwys. Gal. 1. 19. a 2. 9. Oddeutu pedair blynedd ar ddeg wedi hyny yr oedd yn bresennol yn y cynghor apostolaidd a ymgyfarfu yn Jerusalem, i derfynu y ddadl a gyfododd yn mhlith y Cristionogion Iuddewaidd yn nghylch yr enwaediad. Ei gynghor doeth yn nghylch hyny a foddhaodd bawb yn bresennol, ac anfonwyd eu meddyliau trwy lythyrau at yr eglwysi, yn gyfatebol i'r hyn a ddywedodd. Act. xv.

Y mae pob hanes am dano yn cyduno ei fod ef yn blaenori ar yr eglwys Gristionogol yn Jerusalem; yr eglwys Gristionogol gyntaf yn y byd; oddiwrth ba un yr aeth yr efengyl allan at bawb eraill, dros yr holl fyd. Diammeu fod ei arosiad yno trwy gydsyniad yr apostolion eraill. O herwydd ei dduwioldeb hynod, ei ddoethineb, a'i arafwch, gellir barnu ei fod yn hynod o addas i'r sefyllfa oruchel, a'r gwaith tra phwysig perthynol iddi. Dywedir i ni ei fod mewn parch mawr gan yr Iuddewon anghrediniol, o herwydd gweddeidd-dra ei ymddygiad yn mhob peth, a'i dduwioldeb diffuant.— Am ei farwolaeth nid ydwyf yn cael dim hanes boddlonol, ond iddo golli ei fywyd trwy ryw derfysg a chythrwfl yn Jerusalem, oddeutu y flwyddyn A.D. 63. Nid ydyw hanes Calmet, Brown, ac awdwyr eraill, yn ymddangos yn gredadwy; yn unig, tebygol mai Annas, mab Annas yr arch-offeiriad, a'i blaid, a'i rhoddasant ef i farwolaeth. Mae yr Iuddewon yn golygu marwolaeth greulawn y gwr enwog hwn fel yr achos o ddinystr eu cenedl.

Yr Iago hwn oedd awdwr yr epistol dan yr enw, fel yr ymddengys i mi yn fwyaf tebygol. Y mae yn ysgrifenu at y deuddeg llwyth ar wasgar. Ei ddyben ynddo ydyw argyhoeddi Cristionogion mewn enw o'u hegwyddorion a'u bucheddau penrhydd ac annuwiol; nad ydyw proffes o ffydd yn athrawiaethau mawrion yr efengyl, ond ffydd farw, ddiles, oni bydd gweithredoedd cyfatebol yn tarddu oddi wrthi. Ar y golygiad cyntaf, dichon un feddwl, ac felly y meddyliodd llawer, ei fod yn gwrthwynebu athrawiaeth Paul, am gyfiawnhad trwy ffydd yn unig; ond camsyniad erchyll ydyw, fel y gwel pob un a ystyrio yn fanwl, ac a farno yn ddiduedd. Nid am gyfiawnhad pechadur ger bron Duw y mae Iago yn ysgrifenu; ond am natur ac effeithiau y ffydd hòno sydd yn cyfiawnhau; nid ffydd farw, na ffydd heb weithredoedd ydyw, ond ffydd yn gweithredu yn fywiog, yn nerthol, ac yn rhyfeddol, megys yr oedd ffydd Abraham, Rahab, &c. Nid ydyw Iago yn gwrthwynebu cyfiawnhad trwy ffydd, ond profi y mae nad y ffydd ddiffrwyth hon yw y ffydd sydd yn cyfiawnhau, ond ffydd cwbl wahanol, ac nad ydyw y ffydd hon ddim gwell na ffydd cythreuliaid; a'i bod yn hollol anfuddiol, fel corph marw heb yr ysbryd, neu fel geiriau têg i borthi y newynog, heb roddi bwyd iddo. Y mae Paul wedi coffâu am Abraham, mai trwy ffydd y cyfiawnhawyd ef; ac nid ydyw Iago yn gwrthwynebu hyny; ond y mae yn dangos nad y cyfryw ffydd farw a hon heb weithredoedd, oedd ffydd Abraham, mewn cysondeb cyflawn âg athrawiaeth Paul. Pynciau Iago, y mae yn eglur, ydyw y rhai hyn:—1. Fod gwir ffydd yn dangos ei hun trwy weithredoedd.—— 2. A bod y ffydd hòno, sydd heb weithredoedd, yn farw; gan hyny, mae y dyn na fedd amgenach ffydd na hon, yn farw, ac yn golledig. Nid am yr un cyfiawnhad, nac am yr un ffydd, y mae y ddau apostol yn traethu; gan hyny, y maent yn gwbl gytan â'u gilydd, heb un gradd o wrthsyniad, na gwrthddywediad. Wrth offrymu ei anwyl fab Isaac, dangosodd Abraham, trwy ei weithredoedd, ei ffydd, trwy yr

* Mair, gwraig Cleopas, neu Clopas. Ioan 19. 25. *Gr.* *Μαρια η του Κλωπα.* Nid ydyw y geiriau Groeg yn penderfynu pa un ai gwraig, mam, neu ferch Cleopas oedd Mair; ond y mae y beirniaid yn gyffredinol yn barnu mai ei wraig ydoedd, ac mai hi ydoedd mam Iago, Joses, Simon, a Judas, y rhai a elwir brodyr yr Iesu. Mat. 13. 55. Marc 6. 3. Barna Grotius mai Clopas oedd ei thad, ac mai Alpheus oedd ei gwr. Y mae eraill yn barnu mai nid dau berson oeddynt, na dau enw ar yr un dyn, ond yr un enw, gwedi ei swnio yn wahanol. Ei enw yn yr Hebraeg yw תלפאי הלפי neu חילפי yr un yw אלפא a הלפא medd awdwyr Iuddewig; a gellir swnio y Groeg naill ai *Cleopas* neu *Alpheus.* Anwybodaeth o hyn a barodd gymaint o ddychymygion, sef fod gan ŵr y Mair hwn ddau enw; neu ei bod hi yn briod ddwy waith; sef âg Alpheus a Cleopas; neu mai Alpheus oedd ei gwr a Cleopas ei thad. Gwel Pool's *Synop.* Dr. Gill, Hammond, Macknight's *Preface to the Epistle of St. James.*

* Eusebius, *Hist., lib.* ii., *cap.* 1.

Digitized by Google

hon y cyfiawnhawyd ef fel pechadur ger bron Duw, lawer o flynyddoedd o'r blaen. Gen. xv. a xxii.——Ysgrifenwyd yr epistol hwn yn nghylch A.D. 60, neu 62. Gwel Macknight's *Preface*. Dr. Owen *on Justification*.

JAGUR, יגור [*dyeithr*] dinas yn Judah. Jos. 15. 21.

IAH, יה [*yr hanfod, yr hwn sydd*] un o'r enwau dwyfol ar yr Arglwydd, ac yn arwyddo bôd, hanfod, yr hwn sydd, cwbl fôd; bôd digymysg a diranau; bôd yn hanfodi o hono ei hun, ac yn hollol anddibynol ar neb arall; yn meddiannu pob perffeithrwydd gyda gweddeidd-dra, harddwch, a gogoniant. Weithiau y mae yn cael ei adael heb ei gyfieithu, megys Ps. 68. 4. Brydiau eraill, cyfieithir ef *Arglwydd*. Exod. 15. 2. Ps. 89. 6. a 94. 7. a 115. 17, 18. a 118. 17. Weithiau *Duw*, pan y byddo yn gysylltiedig â'r gair IEHOFAH, megys Esa. 12. 2. 'Canys yr Arglwydd Dduw,' יה יהוה IAH, IEHOFAH, 'yw fy nerth a'm cân.' Pen. 26. 4. 'O herwydd yn yr Arglwydd Dduw,' ביה יהוה yn IAH, IEHOFAH, 'y mae cadernid tragywyddol,' neu yn IAH, IEHOFAH, y mae craig yr oesoedd. Gan ei fod yn cael ei arferyd gyd â'r gair IEHOFAH, y mae yn amlwg mai nid dyfyriad o'r gair hwnw ydyw, fel y barna rhai.

Y mae neillduolrwydd hynod yn ymuniad y ddau enw hyn gyd â'u gilydd, yn y manau yma, ac yn arwyddo y Bôd mwyaf hardd, prydferth, a gogoneddus; yn yr hwn y mae pob perffeithrwydd yn cyd-gyfarfod, ac yn cyd-gordio, gyda harddwch dwyfol, ac yn y graddau mwyaf.* Y mae yr Arglwydd Iesu yn priodoli iddo ei hun yr enw hwn, a'r hyn oll sydd gynnwysedig ac yn arwyddocaol ynddo. 'Cyn bod Abraham,' *εγω ειμι*, nid yr *oeddwn*, ond '*yr wyf fi*;' yn eglur yn crybwyll ei hanfod dwyfol, a thragywyddol. Deallodd yr Iuddewon ei eiriau yn yr ystyr hwn, canys codasant geryg i'w taflu ato i'w labyddio fel cablwr. Ioan 8. 58. Cymh. Col. 1. 16, 17. *αυτος εστι*, nid yr *oedd*, ond y *mae* efe cyn pob peth.

JAHAS, a JAHAZ, יהצה [*mynediad yr Arglwydd*] dinas tu hwnt i'r Iorddonen, lle gorchfygodd Moses Sehon, ac a roddwyd i lwyth Reuben. Deut. 2. 32. Jos. 13. 18. a 21. 36. Esa. 15. 4.

JAHASAH, *Heb.* יהצה enw dinas yn ngwlad Moab, yr un a Jahaz, tebygol, medd Calmet. 1 Cron. 6. 78. Jer. 48. 21.

JAHAZIAH, mab Ticfah. Ezra 10. 15.

JAHATH, יחת [*dryllio*] 1. Mab Libni o deulu Gersom. 1 Cron. 6. 20.——2. Un arall, Lefiad, o deulu Merari, ac a osodwyd gan Josiah yn un o olygwyr y gweithwyr, yn adgyweirio y deml. 2 Cron. 34. 12.

JAHAZIEL, un o'r cedyrn a ddaethant at Dafydd yn Siclag. 1 Cron. 12. 4.

JAHLEEL, יחלאל [*dysgwyliwr wrth Dduw*] trydydd mab Zabulon, a phen-teulu. Gen. 46. 14. Num. 26. 26.

* Yr wyf gan hyny yn barnu yn hollol gyda Coccejus, fod yr enw יה yn deillio o אהיה ac yn arwyddo Duw Israel, IEHOFAH, fel y mae wedi dadguddio ei hun i'r eglwys, gyd â'i holl ddaioni, enw, perffeithrwydd, ardderchowgrwydd, a gogoniant, fel y BOD mwyaf hardd, ardderchog, a gogoneddus, yn yr hwn y mae pob perffeithrwydd yn y graddau uchaf yn cyd-gyfarfod, ac yn cael eu cysylltu yn nghyd fel mewn canolbwynt; am ba achos y mae efe yn wrthddrych addas o barch, addoliad, mawl, a diolchgarwch yr holl angelion a'r saint; a dyma yr enw a arferir bob amser mewn diolchiadau. Mae y gair yn arwyddo rhagoroldeb a gogoniant Duw, megys yn Jer. 10. 7. 'Pwy ni'th ofna di, Brenin y cenedloedd? canys i ti y gweddai.' Pwy yw y IAH, neu y IEHOFAH hwn, ond Mab Duw, y Ceidwad, y Gwaredwr, y Duw Cadarn, Amddiffynwr yr eglwys, moliant yr hwn a genir yma, ac at yr hwn mae y gair *Jeshua*, yr hwn a lefarir yma dair gwaith, yn amlwg yn cyfeirio. Gwel Vitringa ar Esa. 12. 2.

JAIR, יאיר [*goleu*] 1. Mab Segub, mab Hezron, o lwyth Judah. Trwy ei nain, merch Machir, Manassehad, etifeddodd etifeddiaeth o du y dwyrain i'r Iorddonen, a gorchfygodd holl wlad Argob, hyd gyffiniau Gesur a Maachath. 2 Cron. 2. 21, 22, 23. Num. 32. 40, 41.——2. Un o farnwyr Israel, yr hwn a olynodd Tolah. Barnodd Israel ddwy flynedd ar hugain. Gileadiad ydoedd, ac, tebygol, un o hiliogaeth Jair, mab Segub. Yr oedd iddo ddeg mab ar hugain, yn marchogaeth ar ddeg ar hugain o ebolion asynod; ac yr oedd ganddynt dan eu llywodraeth ddeg ar hugain o ddinasoedd, a alwyd Hafoth-Jair, neu ddinasoedd Jair. Barn. 10. 3, 4, 5.——3. Jair, neu Jairus, un o benaethiaid y synagog yn Capernaum, merch yr hwn a gyfododd Iesu o farw yn fyw. Gweithredodd yr Iesu y wyrth hon â'i air, gan ddywedyd wrthi, 'Talitha, cwmi,' sef *yr eneth, cyfod*. Ar hyn cyfododd yr eneth yn holl-iach, ac a rodiodd; a'r Iesu a barodd roddi peth iddi i'w fwyta. Mat. 9. 18—26. Marc 5. 35—43. Luc 8. 41—56.

IAITH, IEITHOEDD, (aith) tafodiaith, ymadrodd; swrn o eiriau mae unrhyw ddynion wedi cytuno arnynt i hysbysu eu meddyliau y naill i'r llall.

Tri anhebgor iaith; purdeb, amledd, ac hyweddiant.
*Barddas.*

Mae yn rhesymol i ni farnu, i'r Creawdwr gyfranu i ddyn, nid yn unig beiriannau ymadrodd, neu alluoedd i ymadroddi, ond hefyd iaith ac ymadrodd; fel yr oedd ein rhïeni cyntaf yn gallu amlygu yn ddioed eu meddyliau i'w gilydd, ac i'r Arglwydd eu Creawdwr, mewn iaith ac ymadroddion addas, dealladwy. Y mae yr holl hanes am danynt, a roddir gan Moses, yn rhoddi yn amlwg le i ni feddwl hyn, er nad oes un gair yn hysbysu hyny yn neillduol. Yr oedd dyn, fel creadur cymdeithasol, wedi ei addasu â phob cymhwysder i hyny, fel pob peth arall perthynol iddo. Hysbysir yn amlwg nad oedd ond un iaith yn y byd, hyd y cymysgiad yn Babel. Edr. BABEL. Cyn y dylif yr oedd y ddaear yn llawn iawn o drigolion; a'r holl ddaear ydoedd o un iaith (שפה *wefus*) ac o un ymadrodd (דברים *eiriau*). Pa iaith ydoedd hôno, mae llawer o amrywiaeth barn: ond y mae cystal hawl, os nad gwell, gan yr Hebraeg i'r flaenoriaeth, ag un, yn ol barn llawer. Edr. HEBRAEG. Mam-iaith yw yr Hebraeg yn ddiammheuol; ei merched hi ydyw yr Arabaeg, Caldaeg, Syriaeg, a'r Ethiopaeg—hen ieithoedd y gwledydd dwyreiniol: yr un iaith oeddynt yn y dechreuad, a'u tarddiad; ac nid anhawdd eu dilyn hyd eu ffynonell Hebreaidd. Y mae yr holl hen ieithoedd, fel y sylwa rhai hyddysg ynddynt, â pherthynas rhyngddynt â'u gilydd, ac â'r Hebraeg; megys yr ieithoedd uchod, a ieithoedd y Gomeriaid, neu y Cymry, yr Huniaid, y Groegiaid, &c. Nis dichon un Cymro, mewn gradd bychan yn gydnabyddus â'r ddwy iaith, lai na chanfod perthynas agos rhwng y Gymraeg â'r Hebraeg; mor agos berthynas, fel y gellir dangos cannoedd o eiriau o'r un ystyr, a'r un sain, agos, yn y ddwy iaith; a llawer o'u rheolau grammadegol yr un yn gwbl. Gellir barnu am y Gymraeg, nad yw o ran ei tharddiad, ond un gradd oddiwrth iaith wreiddiol y byd; a'i bod yn hynach, yn burach, ac yn fwy digymysg nag un iaith yn y parthau gorllewinol hyn o'r byd.——Yn mharthau gorllewinol Asia, a gogleddol Affric, math o Arabaeg yw yr iaith gyffredin. Yn Ewrop, rhyw gymysgedd o'r Lladinaeg a'r Teutonaeg yw yr holl ieithoedd i gyd. Y Ffrancaeg a'r Saesonaeg ydyw yr ieithoedd mwyaf eu cymeradwyaeth a'u diwylliaeth. Y mae yr iaith Gymraeg yn odidog, yn bur, yn gyflawn hynod o amrywiaeth geiriau ac ymadroddion; yn bêrsain, ac yn addurnedig; yn neillduol o addas i ymadroddi am bethau ysbrydol yn fawreddig, yn ddealladwy, ac yn effeithiol. Y mae yn syml, heb fod yn isel; yn

Digitized by Google

hŷf, heb fod yn ddigywilydd; yn addurnwych, heb gymhendod: yn gydseiniol, heb fod yn orwag; yn ardderchog, heb chwyddiaeth; tyner, heb fod yn fursenaidd; yn gryf, heb erwinder. Defnyddioldeb pob iaith yw trosglwyddo meddyliau y naill i'r llall; hòno gan hyny yw yr iaith oreu, sydd yn cyflwyno meddyliau dynion i'w gilydd yn fwyaf cywir, goleu, ac effeithiol, yn gyfaddas i achos y traethwr a'r gwrandawr; a hwnw yw yr ieithydd goreu, sydd yn medru ymadroddi neu ysgrifenu felly. I wneuthur iaith yn eglur, dylai pob gair fod yn bur, yn perthynu i'r dafodiaith y llefarir ynddi; yn addas ac yn arferedig, yn yr ystyr yr arferir ef, gan yr awdwyr mwyaf difrifedig a hyddysg yn yr iaith hòno; yn bendant, yn mynegi y meddwl yn benodol, heb ddim dyeithr a gormodol, yn ychwanegiadol ato. Dylai fod yn mhob darn ymadrodd, eglurdeb, nerth, a chynghanedd y geiriau, gwedi eu gosod yn y drefn fwyaf cryf, eglur, ac effeithiol, a hyfryd i'r glust, a mwyaf addas i'r mater y traethir am dano. Yn yr ysgrifeniadau sanctaidd, mae pob ardderchogrwydd, cywreinrwydd, ac addasrwydd ymadrodd, mewn modd digyffelyb mewn un cyfansoddiad arall. Edr. Groeg, Hebraeg, ac enwau y dynion sanctaidd a ysgrifenasant yr ysgrythyrau.

'Lle y clywais iaith ni ddeallwn.' Ps. 81. 5. Os yr Arglwydd sydd yn llefaru, fel y barna rhai, yna ystyr y geiriau yw, 'Clywais gyfaddefiad ac addoliad crefyddol, nad oeddwn yn ei gymeradwyo, ond yn ei ffieiddio.' Edr. Anghyfiaith.

'Yn llefaru iaith Canaan.' Esa. 19. 18. Sef yn proffesu crefydd Canaan, y wir grefydd. Edr. Aipht, Babel, Dystryw.

JALAM, *Heb.* יעלם [*cuddiedig*] mab Esau o Aholibamah. Gen. 36. 5.

JAMIN, ימין [*y llaw ddehau*] ail fab Simeon, a phen-teulu. Gen. 46. 10. Num. 26. 12.

JANNA, mab Joseph, a thad Melchi. Luc 3. 24.

JANNES, a JAMBRES, pen swynwyr Pharaoh brenin yr Aipht. 2 Tim. 3. 8. Exod. 7. 11—22. Nid ydyw Moses wedi rhoddi eu henwau i lawr, ond cafodd yr apostol hwynt trwy draddodiad gwirioneddol, ac a'u cofnododd fel enwau digon adnabyddus, ac fel siamplau amlwg o'r gau-athrawon oedd yn gwrthwynebu y gwirionedd yn ei ddyddiau ef, ac ydynt etto yn parhau, o oes i oes: 'dynion o feddwl llygredig, yn anghymeradwy o ran y ffydd; yn sefyll yn erbyn y gwirionedd.' 'Cenadau Satan ydynt.' 2 Cor. 12. 7. Edr. Buxtorf's *Rabbinical Lexicon.*

JANOHAH, ינוחה [*yr hwn sydd yn gorphwys*] dinas yn Ephraim. Jos. 16. 16.

JANUM, ינום [*yr hwn sydd yn cysgu*] dinas yn Judah. Jos. 15. 53.

JAPHETH, יפת [*helaethu*] mab *hynaf* Noah. Gen. 10. 21. a 5. 20. Er mai Sem a enwir yn flaenaf, yn gyffredinol, etto y mae yn amlwg oddiwrth yr ysgrythyrau hyn, mai yr *ail* fab oedd Sem, ac mai Japheth oedd yr *hynaf.* Gelwir ef, יפת הגדול *Japheth y mwyaf,* sef yr *hynaf:* yr un gair a arferir i nodi hynafiaeth Esau ar Jacob. Gen. 27. 1—15. Dywed Moses nad oedd Sem ond mab can mlwydd, ddwy flynedd wedi y dylif; nis ganwyd ef gan hyny cyn 502 o oed Noah; ond cenedlodd Noah blant pan oedd yn fab pum can mlwydd. Gen. 5. 32. a 11. 10. Ac yn y chwe chanfed flwyddyn o oed Noah y dechreuodd y dylif. Gen. 7. 11. Gan mai Ham oedd yr ieuengaf, y mae yn rhaid mai Japheth oedd yr hynaf.—I hiliogaeth Japheth y rhoddwyd ynysoedd, neu wledydd, y cenedloedd. Gen. 10. 5. Y mae yn amlwg, oddiwrth amryw fanau o'r ysgrythyrau, fod y gair a gyfieithir *ynysoedd,* yn arwyddo, yn mhlith yr Hebreaid, nid yn unig ynysoedd, yn yr ystyr mwyaf priodol o'r gair, ond hefyd *gwledydd tramor*—gwledydd nad oeddynt yn myned iddynt ond ar hyd y môr. Esa. 11. 10, 11. Wrth 'ynysoedd y cenedloedd,' gan hyny, y mae yn amlwg y meddylir, Asia Leiaf, a holl wledydd Ewrop; gwledydd tramor i'r Aipht a Judea.

'Duw a helaetha ar Japheth.' Gen. 9. 27. Yn ganlynol i brophwydoliaeth ei dad Noah am dano, yr oedd yn fwy helaeth na'i frodyr, mewn hiliogaeth, a thiriogaeth hefyd. Yr oedd gan Japheth *saith* o blant; ond nid oedd gan Sem ond *pump,* a Ham *bedwar.* Hiliogaeth Sem mab Japheth a boblogasant wledydd ëang iawn; sef holl Ewrop, Asia Leiaf, Media, parth o Armenia, Iberia, ac Albania; holl wledydd ëang y gogledd, yn y rhai y preswyliai y Scythiaid gynt, ac y cyfannedda y Tartariaid yn bresennol; ac nid annhebyg i'r America gael ei phoblogi gan rai o'i hiliogaeth gogleddol, yn croesi cyfyng-fôr Anian. Edr. enwau meibion Japheth.

'Efe a breswylia yn mhebyll Sem; a Chanaan fydd was iddo ef.' Efe, sef Duw, a breswylia yn mhebyll Sem. Cyflawnwyd hyn mewn modd nodedig trwy fod Duw yn adnabyddus i'r Hebreaid, yn cael ei addoli ganddynt, ac yn preswylio yn y babell, a chwedi hyny yn y deml yn eu plith; yr oedd megys yn cartrefu gyda hwynt. Ond yn fwy nodedig fyth pan y trigodd, neu εσκηνωσεν, y *pabellodd,* yn eu plith, y Gair, yr hwn oedd gyda Duw, a Duw oedd. Ioan 1. 14.—Gellir deall y rhagenw, *Efe,* hefyd, fel yn cyfeirio at Japheth, sef y byddai i'w hiliogaeth *ef* breswylio yn mhebyll Sem, sef yn y gwledydd a'r trigfanau y preswyliai ei hiliogaeth ynddynt. Y mae hyn hefyd gwedi ei gyflawni yn hynod. Y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, hiliogaethau Japheth, a oresgynasant wlad Judea, a'r gwledydd eraill yn Asia, yn perthyn i hiliogaeth Sem. Y mae yr Isellmyn, y Saeson, ac eraill o'r Ewropeaid, hiliogaeth Japheth, gwedi meddiannu yr ynysoedd, a pharthau deheuol Asia—mewn ystyr ysbrydol, hefyd, mae hiliogaeth Japheth yn mwynhau breintiau Sem; trwy eu derbyniad o'r wir grefydd, y maent yn wir Israeliaid, trwy enwaediad y galon, ac yn gyd-etifeddion, yn gyd-gorph, ac yn gyd-gyfranogion o addewid Duw yn Nghrist â'r Iuddewon. Eph. 3. 6. Y mae y gair a gyfieithir *helaethu,* yn arwyddo *darbwyllo, denu;* a dichon osod allan effaith yr efengyl yn ennill cenedloedd o hiliogaeth Japheth at Grist. Act. 17. 4. a 18. 4. a 19. 10. a 28. 23, 24.

Y mae pawb sydd mewn un gradd yn gydnabyddus â hanesiaeth y byd a'i breswylwyr, yn gwybod yn dra hysbys fod hiliogaeth Canaan yn eu gwledydd, yn gaeth-weision i'r naill neu y llall o hiliogaethau Japheth, trwy yr holl oesoedd. Gwelwn brophwydoliaeth Noah am ei fab hwn, yn mhob ystyr, wedi ei chyflawni yn hynod o fanwl, ac yn parhau i gael ei chyflawni hyd heddyw. Edr. Esgob Newton, *Dissert.* i., *on the Prophecies.* Am ei farwolaeth, y mae yr hanesiaeth sanctaidd yn ddystaw.

JAPHIA, יפיע [*gwyddfa, lle yn weledig o bell*] 1. Dinas yn Zabulon. Jos. 19. 12.——2. Brenin Lachis. Jos. 10. 3.——3. Mab Dafydd. 2 Sam. 5. 15.

JAPHLET, יפלת [*gwaredwr*] mab Heber. 1 Cron. 7. 32.

JAPHLETI, dinas ar derfynau Benjamin, ac Ephraim. Jos. 16. 3.

IAR, y fenyw o'r adar. Iâr fynydd; iâr ffiegan; iâr ddëor; iâr wydd; iâr goed, y *pheasant* fenyw; iâr fynydd, grug-iâr, iâr y mynydd. Y mae yr iâr yn nodedig yn mysg y creaduriaid direswm, am ei thynerwch a'i gofal am ei chywion; rhydd ei hunan drostynt, i'w diogelu rhag y tywydd, neu unrhyw berygl; nid ydyw ei bywyd ei hun ond peth diystyr ganddi i'w diogelu hwy: dywedir iddi yn aml farw wrth y gorchwyl tirion, wedi ei gorchfygu gan oerfel

Digitized by Google

y tywydd. Cyffelyba yr Arglwydd Iesu ei hun iddi yn hyn; y mae yn galw ac yn gwahodd pechaduriaid ato' ac yn eu diogelu, eu porthi, a'u cysuro yn effeithiol· Mat. 23. 37. Luc 13. 34. Edr. SOFL.

Nid afradlawn ond y *iar*. *Diar.*
Ni chwyn y *iar* fod y gwalch yn glaf. *Diar.*

JARAH, יערה [*dynoethwr*] mab Ahaz o deulu Saul. 1 Cron. 9. 42.

JAREB, ירב [*ymryson*].—'Efe a ddygir i Assyria yn anrheg i frenin Jareb.' Hos. 5. 13. a 10. 6. 'I'r brenin sydd yn ymyraeth â phob ymryson.' Esgob Horsley. Naill ai enw rhyw frenin Assyria, neu enw rhyw ddinas yr oedd yn frenin arni. Horsley a farna nad enw priodol ydyw, ond bod y gair yn ddarluniad o ryw frenin galluog. yr hwn a gymerai arno derfynu dadleuon rhwng Is-freninoedd, ar yr ammodau ag y gwelai efe yn dda. Y cyfryw ydoedd brenin Assyria yn yr amser y cyfeiria y prophwyd ato. Edr. 2 Bren. 15. 19. a 16. 5—8.

JARED, neu JERED, ירד [*disgyn*] mab Mahalaleel, a thad Enoch. Bu fyw naw cant a dwy a thrigain o flynyddoedd. Gen. 5. 18, 19.

JARHA, ירחע [*y lleuad*] Aiphtiad, gwas Sesan. Rhoddodd Sesan ei ferch iddo yn wraig, a hi a ymddug iddo Attai. 1 Cron. 2. 34, 35.

JARIB, יריב [*yr hwn sydd yn lliosogi*] mab Simeon. 1 Cron. 4. 24.

JARMUTH, ירמות [*uchelfaoedd*] 1. Un o'r dinasoedd noddfa yn llwyth Issachar, a roddwyd i feibion Gerson. Jos. 21. 29.——2. Dinas yn Judah. Jos. 10. 3. a 12. 11. a 15. 35. Neh. 11. 29.

JASEN, ישן [*hen*] tad rhai o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 32. Gelwir ef Hazem y Gizoniad yn 1 Cron. 11. 34.

JASER, ישר [*uniawn*] Llyfr Jaser. 2 Sam. 1. 18· 'Llyfr yr uniawn.' yn Jos. 10. 13. 'Llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd.' Num. 21. 14. Tebygol mai casgliad coffadwriaethol oedd o'r pethau mwyaf hynod perthynol i genedl Israel a'u rhyfeloedd. Nid oes dim ychwaneg o wybodaeth am dano.

JASEEL, un o feibion Naphtali, a phen-teulu. Gen. 46. 24. Num. 26. 48.

JASINCT, *Heb.* סחרת *Saes. black marble.* Esth. 1. 6. Mae y gair yn arwyddo, medd Bates, marmor yn llawn o wythïenau a llinellau o amryw liwiau crwydraidd ac afreolaidd, yn rhedeg yn ol ac yn mlaen. Prif ystyr y gair yw amrywiedig. 'Marmor amrywiedig.'

JASOBEAM, ישבעם [*y bobl yn eistedd*] 1. Un o gedyrn Dafydd; mab Hachmoni, pen y cadbeniaid, yr hwn a ddyrchafodd ei waewffon yn erbyn tri chant, y rhai a laddwyd ar unwaith ganddo ef. 1 Cron. 11. 11. Gelwir ef Adino yr Esniad, a dywedir iddo ladd wyth gant, yn 2 Sam. 23. 8. Hwyrach i dri chant farw yn y fan, a'r lleill wedi hyny. Gwel Scott. Neu hwyrach iddo ladd y tri chant a'r wyth gant mewn dwy ymladdfa wahanol.——2. Corhiad, un o'r cedyrn a ddaethant at Dafydd yn Siclag. 1 Cron. 12. 6.

JASON, llettywr Paul yn Thessalonica. Act. 17. 7. Rhuf. 16. 21. Dywedir ei fod yn esgob yn Tarsus yn Cilicia. Geilw Paul, Jason a Sosipater, 'ei geraint,' tebygol, am eu bod yn Iuddewon. Gwel Macknight.

JASPIS, *Heb.* ישפה *Gr.* Ιασπις; *Llad.* JASPIS; *Saes.* JASPER. Maen gwerthfawr. Mae saith math o Jaspis, ac o amrywiol liwiau, sef gwyrdd, nefliw, glas, porphor, gwyn, yn tebygu i'r grisial, &c. Ceir meini Jaspis yn yr India ddwyreiniol, Persia, Syria, Armenia, Bohemia, Affrica, yr Aipht, America, &c. Y mae math o Jaspis llwyd-ddu i'w gael yn Lloegr, sef yn *Yorkshire* a *Sussex.* Gwel *Cyclopædia.* Jaspis oedd y trydydd maen yn y bedwaredd rês yn nwyfroneg yr arch-offeiriad. Exod. 28. 20.——Sail gyntaf y Jerusalem newydd oedd faen Jaspis. Dat. 21. 19.—— Yr oedd yr olwg ar yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd, yn ngweledigaeth Ioan, yn debyg i faen Jaspis a Sardin. Dat. 4. 3.

Mae meini gwerthfawr yn cael eu defnyddio yn gyffelybiaethol gan yr Ysbryd Glân, i ddangos amrywiol ragoriaethau yr Arglwydd, ei fawrhydi gogoneddus, ei ddysgleirdeb dwyfol, a'i werthfawrogrwydd yn ngolwg y rhai sydd yn ei adnabod, ynddo ei hun, ac yn ei holl oruchwyliaethau. Y mae yr olwg arno yn mhob peth fel Jaspis; yn ei lywodraeth, yn ei eiriolaeth, ac fel sylfaen ei eglwys. Dywedir mai y Jaspis o liw y porphor yw y goreu;* am hyny, tebygol, mai hwn a ddefnyddir gan yr Ysbryd Glân yn y manau uchod i arwyddo gogoniant sancteiddrwydd tanllyd yr Arglwydd.

JASUB, ישוב [*yr hwn sydd yn aros*] mab Issachar, a phen-teulu. Num. 26. 24.

JASUBI-LEHEM, ישבי־לחם [*preswylwyr Lehem,* neu *Bethlehem*]. 1 Cron. 4. 22.

JATTIR, יתיר [*rhagoroldeb*] dinas yn Dan a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Cohath. Jos. 15. 48. a 21. 14.

JATHNIEL, יתניאל [*rhodd Duw*] mab Meselemiah, ac un o borthorion y deml. 1 Cron. 26. 2.

IAU, enw eilun-dduw, a elwir JOVE, neu JUPITER, oddiwrth ba un mae y *dydd Iau* yn cael ei enw. Edr. JUPITER.——Yr au, neu yr afu, mewn dyn ac anifel. ——Iau, sef ieuach.——Iau, gwêdd, atgor; megys iau o ychain. Luc 14. 19. Gwarog, cwplws; yr offeryn sydd yn arferedig i gwplysu yr ychain â'u gilydd yn y wêdd. Yr oedd pedwar math ar ieuau yn arferedig yn mhlith y Cymry hyd mor ddiweddar ag yn nghylch 1600, sef y *beriau*; y *meiau*, sef iau â phedwar ŷch yn ochrog; y *cyseiliau,* sef iau â chwech o ychain yn ochrog; a *hiriau,* sef iau âg wyth o ychain yn ochrog.

Dewis ai yr *iau* ai y fwyall. *Diar.*

Iau, yn allegawl, a arwydda, 1. Llywodraeth gyfiawn yr Arglwydd Iesu; ei athrawiaethau, a'i osodiadau sanctaidd yn ei eglwys. Mat. 11. 29, 30. Mae ei iau ef yn esmwyth, χρηστος, sef yn gysurus, yn hyfryd, yn gynnorthwyol, ac yn hardd. Mae y geiriau, 'dysgwch genyf,' yn arwyddo mai yr athrawiaeth mae yr Arglwydd yn ei dysgu a feddylir wrth yr iau. Y dyben o'i thraddodi ydyw, i ddynion gael eu llywodraethu, a'u trefnu, yn mhob peth ganddi. Nid yw yr athrawiaeth o ddim lleSâd i ni, os nad ydyw yn iau ar ein heneidiau, ac yn llywodraethu ar ein holl fucheddau. Edr. BAICH. Y mae yn *esmwyth,* os cymherir hi â *iau,* sef llywodraeth pechod; neu â chaethiwed yr hen gyfammod toredig; ac â iau y defodau Iuddewig, a elwir 'iau caethiwed,' iau drom i'w dwyn. Gal. 5. 1. Act. 15. 10.

2. Iau, yn aml, a arwydda caethiwed; mae yr hwn sydd dani, wrth ewyllys un arall, yn gorfod llafurio yn galed, mewn cyflwr isel, dirmygedig. Gen. 27. 40. Lef. 26. 13. Esa. 9. 4. a 10. 27.——Gelwir hi 'iau haiarn,' i arwyddo ei bod yn galed, yn dolurio, ac yn anesmwyth. 1 Bren. 8. 51. Deut. 28. 48.

3. Unrhyw beth a fyddo yn peri blinder a gofid, a elwir yn iau, megys cystuddiau a gorthrymderau, &c. Galar. 1. 14. a 3. 27. Gwasanaethyddiaeth isel, gaethiwus. 1 Tim. 6. 1. Edr. GWAS.

4. Gelwir priodas yn iau, am fod dau gwedi ymuno i gyd-dynu, i gyd-fywioliaethu, i gyd-wasanaethu yr Arglwydd, ac i fod yn gynnorthwyol i'w gilydd. 2 Cor. 6. 14. Edr. ANGHYMARUS.

* *Jaspis* autem varii est coloris, et quidem viridis a Plinio laudatur ut optima, *lib.* 37, *cap.* 9. Alia tamen ab eodem coloris *purpurei* et psellus exeite και αριστη μεν η πορφυρουσα *Optima quidem purpurea est.* Vitringa *in Appocal. cap.* 4. 3.

Digitized by Google

IAWN, (awn) uniawn, cyflawn, cywir, cyfreithlawn, pridwerth, dyhuddiant, dyhuddiad. Mae yn arwyddo, 1. Gwobr: 'yn cymeryd iawn,' sef gwobr, 'er mwyn gwyro barn.' Amos 5. 12.——2. Gwerth am einioes. Exod. 21. 30. Num. 35. 31. Diar. 13. 8. 'Pan rifech feibion Israel dan eu rhifedi; (*Heb. y rhai sydd i'w rhifo*) yna rhoddant bob un iawn am ei einioes i'r Arglwydd, pan rifer hwynt: fel na byddo pla yn eu plith.—Ni rydd y cyfoethog fwy, ac ni rydd y tlawd lai, na hanner sicl.' Exod. 30. 12, 15. Nid oedd neb nad oeddynt yn rhifadwy, i dalu yr iawn; megys plant, a hynafgwyr anaddas i ryfel. Num. 1. 42. Ac felly ymddengys fod gwragedd y Lefiaid, wrth gymharu Exod. 38. 26. â Num. 1. 46, 47. Yr oedd hanner sicl yn nghylch pymtheg ceiniog o werth. Dyma y dreth a ofynwyd gan yr Arglwydd. Mat. 17. 24. Yr oedd y dreth hon yn dangos fod yr un gwerth yn eneidiau pawb, fod eneidiau pawb gwedi eu colli, ac eisieu iawn drostynt; a bod Crist yr un fath, yn iawn dros bawb a gredant ynddo, ac mai efe yn unig sydd yn achub rhag y pla o ddigofaint dyledus i ni, yn gyflawn am ein pechodau; yr hwn a'n prynodd, nid âg arian neu aur, ond â'i werthfawr waed. Num. 31. 50. a 35. 31. Job 33. 24. a 36. 18. 2 Cron. 24. 6. Ps. 49. 7. Mat. 20. 28. Marc 10. 45. 1 Tim. 2. 6. 1 Petr 1. 18, 19. Gal. 1. 4. Tit. 2. 14.——3. Dyhuddiant, neu gymmod am fai; rhoddi y peth sydd gyflawn am drosedd, neu dros bechod, i gymmodi yr hwn y troseddwyd yn ei erbyn. Yn yr ystyr hwn y gelwir yr Arglwydd Iesu yn iawn. 1 Ioan 2. 2. a 4. 10.

'Yr hwn a osododd Duw yn iawn.' Rhuf. 3. 25. 'Efe yw yr iawn dros ein pechodau ni.' 'Efe yw'r cyssiliat tros ein pechodau.' W. S. *Gr.* ιλασμος, *y cymmod*, neu *aberth y cymmod*. Anfonodd Duw ei Fab i fod yn ιλασμος, neu yn aberth y cymmod dros ein pechodau ni. 1 Ioan 2. 2. a 4. 10. 'Yr hwn a osododd Duw yn iawn.'—*ον προεθετο ο θεος ιλαστηριον, yr hwn a osododd Duw yn drugareddfa.* Y gair Groeg yma ydyw y gair a arferir gan y LXX. yn eu cyfieithiad o'r Hen Destament am y drugareddfa. —*Ιλαστηριον επιθεμα, gorchudd cymmodol.* Exod. 25. 17. LXX. Ar y drugareddfa, sef caead yr arch, yr oedd y gwaed yn cael ei daenellu gan yr arch-offeiriad, ar ddydd mawr y cymmod. Ond gall y gair, trwy draws-enwad tra chyffredin yn yr ysgrythyrau, arwyddo y pech-aberth, aberth y cymmod, ac felly yn addas cael ei gyfieithu yn *iawn*. Edr. ARCH, TRUGAREDDFA. Y mae y ddau air yn cael eu priodoli i'r Arglwydd Iesu, i ddangos mai efe yw yr aberth, ac efe yw y drugareddfa; ar ba un y mae y cymmod yn cael ei wneuthur; y mae Duw yn gymmodol, yn maddeu pechodau, yn gwrando gweddïau, yn llefaru ac yn rhoddi cyfarwyddiadau i'w bobl. Fel iawn, neu bech-aberth, y mae ei Berson ef gwedi ei roddi yn lle eu personau hwy; eu pechodau hwy yn gyfrifedig arno ef; a 'chospedigaeth eu heddwch hwy yn cael ei roddi arno ef.' Esa. 53. 5. Ac am fod ei Berson â bri, gwerth, a mawrhydi anfeidrol ynddo, mae efe yn iawn gwirioneddol, a gwerth ynddo ac yn ei ddyoddefiadau, cyd-bwys â'r bai, neu â beiau y rhai y dyoddefodd drostynt. Pe buasai yn llai ei werth na'r holl bersonau a brynodd, a'r pechodau a roddwyd arno trwy gyfrifiad, ni buasai yn iawn; ond gan fod y Duw Hollwybodol, cyfiawn, a chywir, yn ei alw yn iawn, y mae yn gwbl addas i ni ei olygu felly; ei barchu, a chredu ynddo felly; ac yn anaddas ac yn bechod dirfawr peidio ei olygu felly; neu roddi dim ato, na dim yn ei le fel iawn. Nid ydyw yr Ysbryd Glân yn galw dim arall yn iawn dros ein pechodau; ac y mae yn deyrn-frad yn erbyn holl drefn, cyfraith, a holl briodoliaethau Duw i geisio gosod dim yn athrawiaethol yn ei le, neu gyd âg ef.

1. Y mae efe yn iawn o osodiad a threfniad dwyfol. Y gair *Gr.* προεθετο a gyfieithir yma *a osododd*, sydd yn cael ei gyfieithu *arfaethu*. Rhuf. 1. 13. Eph. 1. 9. Y mae yn arwyddo *rhag-arfaethu*, *rhag-osod*, *rhag-fwriadu; gosod allan yn gyhoedd*, *gosod ger bron*. Ystyr mwyaf priodol y gair ydyw, *gosod ger bron*, ond trwy draws-symudiad, arwydda, *arfaethu*, *trefnu*, *gosod*. Y gosodiad hwn o eiddo Duw sydd yn gwneuthur Crist yn iawn dros ein pechodau. Ni buasai y cwbl ag yw ac a wnaeth Crist ddim i ni na throsom ni, oni buasai y gosodiad dwyfol i'r dyben hyny. 'Anfonodd Duw ei Fab,' o'i fawr gariad, yn ganlynol i'r gosodiad hwn, 'i fod yn iawn.' Dyma un dyben mawr, ie, y penaf, o'i anfoniad, ei gnawdoliaeth, ei ddarostyngiad dan y ddeddf, a'i ddyoddefiadau yn ganlynol i hyny, sef i fod yn iawn. Gal. 4. 3, 4, 5. Yr oedd yn gweddu i Dduw gael iawn: nid oedd dim yn y nef nac ar y ddaear yn addas ac yn ddigonol, heb iddo anfon ei Fab; nid arbedodd ei briod Fab; ond a berffeithiodd Dywysog ein hiechydwriaeth trwy ddyoddefiadau. Heb. 2. 10.

2. Unig *iawn* yw: nid oes dim arall felly mewn un gradd, ac ni bydd dim byth. Pa beth bynag rhinweddol sydd gan ddyn, y mae yn ddyled arno i Dduw; ac yn ras oddi wrtho; am hyny ni ddichon fod yn iawn. Ond dyma beth unigol ar ei ben ei hun, sydd yn oruchel, yn ddyrchafedig, ac â hywerth anfeidrol ynddo, trwy osodiad dwyfol drosom ni, sef Iesu yn ei aberthu ei hun. Gwrthddrych *unigol* ydyw hwn yn ei natur ac yn ei werth, ac y mae meddwl y Duwdod yn gwbl foddol ar ran ei bobl; ac y mae yr holl briodoliaethau dwyfol yn gyd-ddyrchafedig ynddo. Nid oes dim yn y nef na'r ddaear i'w gyffelybu a'i gymharu, pa faint llai i'w gystadlu âg ef. A phe byddai yn bosibl fod rhyw beth i'w gystadlu, etto *hwn* a osododd Duw yn iawn, ac nid dim arall. Yn ganlynol, ni bydd y Duwdod yn heddychol â neb byth, ond *yn hwn*; hyny fyddai ymadael â'i drefn, a gweithredu yn groes i'w osodiad ei hun, yr hyn sydd yn anmharch i feddwl am y Duw perffaith ddoeth, yr hwn mae ei feddwl yr un, a phwy a'i try?

3. Y mae yn iawn perffaith deilwng a digonol. Ni buasai yn deilwng i'w alw yn iawn, oni buasai ei fod felly. Aneirif yw rhifedi y pechaduriaid a achubir, a dirifedi yw pechodau gwaeddfawr pob un o honynt; etto mae Iesu Grist y Cyfiawn yn iawn *cyflawn* drostynt oll. Os oedd yn addas i Dduw ofyn *dim* drostynt, yr oedd yn addas iddo ofyn *cyflawn iawn*: hyny a ofynodd—a hyny a gafodd yn Mherson, gwaith, a dyoddefiadau yr Iesu. Heb olygu hyny, nid yw aberth Crist yn ymddangos ond peth afreidiol. Pe buasai llai nag *iawn* yn ofynol, buasai yr aberthau Iuddewig yn ateb y dyben; ond gan fod *iawn* yn ofynol, anfonodd Duw ei Fab 'i fod yn iawn.' Dywed Iesu ei hun iddo ddyfod 'i roddi ei einioes yn *bridwerth dros lawer*.' *Pridwerth*—λυτρον αντι πολλων, *gwerth*, *rhyddhad dros lawer*. *Pridwerth* ydyw cyd-werth, neu werth cyfartal. Mat. 20. 28.

4. Os rhoddwyd iawn, y mae Duw yn gyfiawn yn ei holl waith yn achub; mae yn cymmodi, yn maddeu, yn sancteiddio, ac yn glanhau, yn gwbl gyfiawn, ac yn ogoneddus. Y mae efe yn 'dangos ei *gyfiawnder* trwy faddeuant pechodau:' (Rhuf. 3. 25.) yn dangos uniondeb perffaith, hanfodol, a thragywyddol ei natur; yn nghyd â'i gyfiawnder diwyrni yn ei holl oruchwyliaethau grasol.*

5. Gan fod iawn gwedi ei roddi, y mae holl drefn iechydwriaeth yn Nghrist gwedi ei selio, ei sefydlu, a'i chadarnhau yn ddigyfnewid dros byth. Nis gellir byth ei diddymu, canys y mae hi yn gyfiawn; y mae cyfiawnder mawr y Duwdod ynddi yn ddysglaer, ac o blaid y cyflawniad o honi. Y mae yn gyfiawn iddo achub, ac y mae yn anghyfiawn iddo beidio. Medd y

* Nullum unquam editum Divinæ justicæ & justicii exemplum illustrius. Gwel Vitringa, *Com. in Isa.* 1. 27.

Digitized by Google

Gwaredwr, 'Gollwng ef—myfi a gefais iawn.' Job 33. 24. Yr oedd yn gweddu i'w fawrhydi ofyn iawn; ac y mae yn gweddu cymaint iddo achub gwedi cael iawn; y mae yr iawn yn gwneuthur cyfiawnder yn hollol o blaid achubiaeth y pechadur sydd yn credu; sef yn gorphwys ar, ac yn derbyn yr iawn hwn trwy ffydd. Y mae cadernid anfeidrol yn yr iechydwriaeth trwy yr iawn, a diogelwch tragywyddol ac anffaeledig i'r rhai sydd yn credu ynddo. Oni bai fod trefn fawr yr iechydwriaeth yn *gyfiawn*, ni buasai yn gweddu i'r Duw cyfiawn, ac ni buasai yn deilwng o'n parch, ein derbyniad, a'n hymorphwysiad arni; ond trwy iawn, y mae Duw yn ymddangos yn Dduw cyfiawn ac Achubydd: 'a Sïon a waredir â barn, a'r rhai a ddychwelant ynddi â chyfiawnder.' Esa. 1. 27. Edr. PRYNEDIGAETH.

**JAZER**, יעזר [*cymhorth*] dinas tu hwnt i'r Iorddonen, wrth droed mynyddoed Gilead, yn gyfagos i afon Jazer, yr hon sydd yn rhedeg i'r Iorddonen. Num. 32. 35. Jos. 21. 39. Esa. 16. 8.

**JAZERAH**, יהזרה [*yn perthyn i'r mochyn*] mab Mesulam, a thad Adiel. 1 Cron. 9. 12.

**JAZIZ**, יזיז [*dysgleirdeb*] Hagariad, pen bugeilydd Dafydd. 1 Cron. 27. 31.

**JAZRAHIAH**, יזרחיה [*mae yr Arglwydd yn cyfodi*] blaenor y cantorion yn y deml. Neh. 12. 42.

**IBHAR**, יבחר [*etholedigaeth*, neu *etholedig*] mab Dafydd. 2 Sam. 5. 15.

**IBLEAM**, יבלעם [*casineb y bobl*] dinas yn Issachar. Jos. 17. 11. Barn. 1. 27. 2 Bren. 9. 27. 1 Cron. 6. 70.

**IBSAN**, אבצן [*tad y darian*] priodor o Bethlehem, yr hwn a farnodd Israel ar ol Jephthah, saith mlynedd. Yr oedd iddo 30 o feibion a 30 o ferched. Claddwyd ef yn Bethlehem. Barn. 12. 9, 10.

**ICCES**, עקש [*llygredig*] Tecoiad, a thad Ira, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 26.

**ICONIUM**, [*yn dyfod*] prif ddinas Lycaonia, yn Asia Leiaf. Gelwir hi yn bresennol *Gogni*. Paul a Barnabas a bregethasant yr efengyl yno; a lliaws mawr o'r Iuddewon a'r Groegwyr a gredodd; a sefydlwyd yno eglwys drwy hyny; yr hon a barhaodd dros 800 mlynedd. Yma, meddant, y clywodd Tryphena a Thryphosa Paul yn pregethu (Rhuf. 16. 12); ac yma hefyd y cafodd y wyryf enwog a merthyr, Thecla, ei dychwelyd i'r ffydd. Gorfod ar yr apostolion ffoi i Lystra a Derbe, gan yr erlidigaeth a gyfodwyd yno. Mae yn bresennol yn meddiant y Twrc, a'r Cristionogion yn isel arnynt, fel yn holl wledydd y bwystfil hwn. Act. 13. 51. a 14. 1—5. a 16. 2.

**ICHABOD**, אי־כבוד [*pa le mae y gogoniant?*] mab Phinees, ac ŵyr Eli yr arch-offeiriad. Ei fam a esgorodd arno pan glywodd y newydd athrist, ddal arch Duw gan y Philistiaid. 1 Sam. 4. 21. Edr. ELI.

**IDALAH**, ידאלה [*llaw y llw*] dinas yn Zabulon. Jos. 19. 15.

**IDLAPH**, ידלף [*dyhidlwr*] mab Nachor. Gen. 22. 22.

**IDO**, ידו [*fy llaw*, a עדי *fy nhyst*] 1. Mab Joah. 1 Cron. 6. 21.——2. Tad Ahinadab, tywysog yn Mahanaim. 1 Bren. 4. 14.——3. Tad Barachiah, a thaid Zechariah, y prophwyd. Zech. 1. 1.——4. Yr oedd prophwyd o'r enw, yr hwn a ysgrifenodd hanes Abiah brenin Judah. 2 Cron. 13. 22. Nid oes dim chwaneg o hysbysrwydd am dano.——5. Penaeth y Nethiniaid. Ezra 8. 17.——6. Mab Zechariah, swyddog a osododd Dafydd ar hanner llwyth Manasseh. 1 Cron. 27. 21.

**IDUMEA**, a **DUMA**. Edr. EDOM, ESAU. Galwyd y wlad wrth yr enw *Edom*, neu yn ol y Groeg, *Idumea*, oddiwrth Edom neu Esau, yr hwn a'i hiliogaeth a gyfaneddodd yn y wlad hon, neu Seir, fel y gelwyd hi, lle y preswyliai yr Horiaid gynt. Yn yr ystyr mwyaf ëang, yr oedd yn cyrhaedd o'r Môr Coch i Lynclyn Elam. Yr oedd y wlad hon yn dra mynyddig, yn cynnwys mynyddoedd Seir a Hor. Ond yn fwy neillduol wrth Edom, yn yr ysgrythyrau, y deallir y wlad rhwng y Môr Marw a'r Môr Coch, a alwyd Arabia Petræa, neu Arabia Garegog, prif ddinas pa un oedd Petræa. Yn amser caethiwed yr Iuddewon yn Babilon, gyrwyd yr Edomiaid o'r wlad hon gan y Nabatæaniaid, a chymerasant feddiant o'r rhan hòno o wlad Judea a berthynai gynt i holl lwyth Simeon, a hanner etifeddiaeth llwyth Judah. Hon ydyw yr Idumea, a'i phreswylwyr yw yr Idumeaid y sonir am danynt ar ol y caethiwed. Gwedi dyfodiad yr Edomiaid i'r wlad hon, Hebron, yr hon o'r blaen oedd brif ddinas llwyth Judah, a ddaeth yn brif ddinas Idumea. Y wlad hon a elwir Idumea yn Marc 3. 8. Geilw rhai Edom yn yr ystyr gyntaf, Edom ddwyreiniol, prif ddinas yr hon oedd Bozra, yn sefyll tu ag Edrei; yr oedd rhan arall o honi yn cael ei galw Edom ddeheuol. Edr. Prideaux's *Connection, p.* 1. *b.* i., *p.* 2. *b.* iii.

Yn mendith Isaac i Esau, dywed, 'Wele, yn mrasder y ddaear y bydd dy breswylfod, ac yn mysg gwlith y nefoedd oddi uchod. Wrth dy gleddyf hefyd y byddi fyw, a'th frawd a wasanaethi: ond bydd amser pan feistrolech di, ac y torech ei iau oddiam dy wddf.' Gen. 27. 39, 40. Wrth y geiriau hyn gellir barnu fod mynyddoedd Seir yn ffrwythlawn gynt, beth bynag ydynt yn bresennol. Num. 20. 17. Oblegid pechodau y trigolion, gosododd yr Arglwydd lawer gwlad fras, fel hithau, yn ddiffaethwch, a'u hetifeddiaethau i ddreigiau yr anialwch. Mal. 1. 3. Ps. 107. 34. Yr oedd gan yr Edomiaid frenin yn mhell cyn yr Iuddewon; ac yr oedd ganddynt dduciaid, neu dywysogion, yn llywodraethu arnynt. Gen. 36. 31. Pan yr oedd Israel yn ymdaith yn yr anialwch, yr oedd ganddynt frenin, yr hwn a'i bobl a nacâodd genad iddynt fyned trwy eu gwlad. Num. 20. 14, 21. Ond tebygol iddynt edifarhau gwedi hyny, ac iddynt roddi ymborth iddynt am arian, er na chawsant fyned trwy eu gwlad. Deut. 2. 28, 29. Nid oes genym hanes am danynt dros bedwar cant o flynyddoedd gwedi hyn. Dafydd a'u darostyngodd, yn ol prophwydoliaeth Isaac, y byddai i Esau wasanaethu ei frawd. Yr oeddynt yn dra anesmwyth dan yr iau; Hadad eu tywysog a ddygwyd i'r Aipht; dychwelodd yn niwedd teyrnasiad Solomon, ac a osododd ei hun yn frenin o du y dehau ddwyrain i wlad Edom; ond yr oedd Edom ddeheuol yn ddarostyngedig i freninoedd Judah hyd deyrnasiad Jehoram mab Jehosaphat, 'pan y gosodasant frenin arnynt eu hunain.' 2 Sam. 8. 14. 1 Bren. 11. 14—25. a 22. 47. 2 Bren. iii. Amos 2. 1. 2 Cron. 20. 10, 21. a 21. 8. Amos 1. 6—9. Hyd yn hyn yr oedd Edom yn nwylaw breninoedd Judah er dyddiau Dafydd, ac yn cael ei llywodraethu gan raglawiaid danynt. Am bechod Jehoram cospodd yr Arglwydd ef trwy dynu ei amddiffynfa oddi wrtho, ac Esau, yn ol prophwydoliaeth Isaac am dano, a dorodd yr iau oddiam ei wddf, wedi ei wasanaethu dros amryw o genedlaethau. Gen. 27. 40. Ni buont wedi hyn yn ddarostyngedig i freninoedd Judah. 1 Bren. 22. 47. Jehoram a'u gorchfygodd â lladdfa fawr. Amaziah a ruthrodd i'w gwlad, a gymerodd Sela, a darawodd 10,000 o honynt, ac a gaethgludodd 10,000 yn fyw; a hwy a'u dygasant i ben y graig yr adeiladwyd eu dinas arni, ac a'u taflasant hwy o ben y graig, yn greulawn, fel y drylliwyd hwynt oll. 2 Cron. 25. 11, 12. 2 Bren. 14. 7. Dygodd eu duwiau hwynt ac a'u haddolodd; am ba

Digitized by Google

achos y digiodd yr Arglwydd wrtho. Yr Assyriaid a ddifrodasant eu gwlad yn ofnadwy, dan Senacherib, neu ei fab Esarhadon. Esa. 21. 11, 12. a 34. 6.

Pan oedd Nebuchodonosor yn gwarchae ar Jerusalem, yr Edomiaid a'i hannogasant i'w dynoethi hyd at y sylfaen. Ps. 137. 7. Pum mlynedd ar ol hyny, y Caldeaid a ddifrodasant eu gwlad, ac a'i gwnaethant yn anialwch. Mor drwm y syrthiodd dialedd Duw arnynt, am eu creulonder tu ag at yr Iuddewon! Yn nghylch A.M. 3840, Judas Maccabeus a roddodd i'r cleddyf 40,000 o honynt. Yn nghylch A.M. 3873 Ioan Hyrcanus a'u darostyngodd yn hollol, ac a'u cymhellodd i gorphori â'r genedl Iuddewig, a chymeryd eu henwaedu. Cawn hanes am danynt cyn cymeryd Jerusalem dan Titus Vespasian, i lu o honynt encilio oddiwrth yr Iuddewon âg ysglyfaeth fawr. Nid oes hanes mwyach am danynt. Jer. 9. 25, 26. a 25. 9—21. a 27. 3. a 49. 7, 12. Galar. 4. 21, 22. Ezec. 25. 12—14. a 32. 29. a xxxv. a 36. 2—35. Joel 3. 19. Esa. 11. 14. *Univ. Hist., vol.* ii. a x.

Am fod yr Edomiaid yn elynion creulawn a pharhaus i'r Iuddewon, gelwir gelynion yr eglwys, yn mhob oes, wrth yr enw Edom a Bozra. Esa. 63. 1. Ni bu, ac ni bydd, yr eglwys mewn un oes heb ei Hedomiaid; ond y mae un cadarn buddugoliaethus o'i phlaid; a'u dystrywia hwynt yn llwyr yn y diwedd, fel y gwnaeth â'r hen Edomiaid gynt.

IDDO, (idd) arferir ef fel berf yn y modd archadwy: ewch ato, ewch yn ei gylch; ewch.—'Iddo yn awr.' Iago 4. 13. a 5. 1. 'Felly yr awron.' W. S. ymyl y ddalen, *αγε νυν*; *Saes. Go to now*; cyfryng-dafl, neu gyfryng-air yw, yn galw am osteg neu sylw.

IE, (i-e) yn wir, yn ddiau, echre, neud. Rhagferf gadarnhaol.—'Bydded eich ymadrodd chwi, Ie, Ie, nagê, nagê; oblegid beth bynag sy dros ben hyn o'r drwg y mae.' Mat. 5. 37. Y mae rhai yn golygu y geiriau yn yr un ystyr â Iago 5. 12. 'Bydded eich ie chwi yn ie, a'ch nagê yn nagê,' a bod Iago yn cyfeirio at eiriau ein Hiachawdwr. Yr oedd yn ddull diarebol yn mhlith yr Iuddewon o ddynodi dyn geirwir ffyddlawn trwy ddywedyd am dano, 'Mae ei ie yn ie, a'i nagê yn nagê,' hyny ydyw, gellwch ymddiried i'w air, fel y mae yn dywedyd felly y mae, ac fel y mae yn addaw felly y gwna. Y mae yr Arglwydd Iesu yn annog i ddangos y cyfryw barch i wirionedd yn ein hymadroddion cyffredin ac y byddai ein ie a'n nagê yn llawn ddigon i roddi boddlonrwydd i bawb. Y mae pob peth dros ben hyn yn cyfranogi o natur llw, ac yn dangos cydnabyddiaeth o ryw ddrwg cuddiedig, palldod mewn gwirionedd yn gystal a duwioldeb; 'O'r drwg, (neu *o'r un drwg*) y mae;' sef o'r diafol yn hudo, ac o ddrwg ein calonau yn cymeryd ein hudo ganddo. Hynod mor gyfiawn ac mor addas ydyw y rheolau sanctaidd a roddwyd i ni am ein holl ymarweddiad! Edr. ADDEWID, AMEN.

JEARIM, יערים [*coedwig*] mynydd Jearim, neu y mynydd coediog, ar ba un yr oedd Baalah, neu Ciriath-jearim wedi ei hadeiladu. Jos. 15. 10. Yr oedd y mynydd hwn yn nherfyn llwyth Judah.

JEBUS, יבוס [*mathrwr*] mab Canaan, a thad y Jebusiaid, y rhai oeddynt yn preswylio yn Jebus, neu Jerusalem, a'r mynyddoedd oddi amgylch. Yr oedd y Jebusiaid yn genedl ryfelgar, ac a gadwasant feddiant o Jerusalem nes eu gorchfygu gan Dafydd a'i filwyr. Jos. 15. 63. a 18. 28. Barn. 19. 11. 2 Sam. 5. 6.

JECAMIAH, *Heb.* יקמיה [*adgyfodiad*] 1. Mab Jeconiah. 1 Cron. 3. 18.——2. Mab Salum, o deulu Caleb. 1 Cron. 2. 41.

JECOLIAH, *Heb.* יכליה [*cyflawniad yr Arglwydd*] gwraig Amaziah a mam Azariah, breninoedd Judah. 2 Bren. 15. 2.

JECHONIAH, יכניה [*darpariad yr Arglwydd*] mab Joacim. 1 Cron. 3. 16.

JEDAIAH, ידעיה [*gwybodaeth yr Arglwydd*] 1. Tywysog yr ail ddosparth o'r offeiriaid. 1 Cron. 24. 7.——2. Mab Harumaph. Neh. 3. 10.——3. Offeiriad a ddychwelodd o'r caethiwed, a 973 gyd âg ef. Ezra 2. 36.

JEDEIAH, Meronathiad, golygwr asynod Dafydd. 1 Cron. 27. 30.

JEDIAEL, ידיעאל [*gwybodaeth Duw*] mab Zimri o lwyth Manasseh; un o gedyrn Dafydd yn Siclag. 1 Cron. 11. 45. a 12. 20.

JEDIDAH, ידידה [*hawddgar*] merch Adaiah o Boscath, a mam Josiah brenin Judah. 2 Bren. 22. 1.

JEDUTHUN. Edr. ETAN.

JEEZER, איעזר [*ynys y cymhorth*] mab Gilead, a phen-teulu. Num. 26. 30.

JEHALELEEL, יהללאל [*moliannydd Duw*] mab Caleb, a thad Ziph. 1 Cron. 4. 16.

JEHAZIEL, יחזיאל [*yr hwn sydd yn gweled Duw*] mab Hebron o deulu Cohath. 1 Cron. 23. 19.

JEHDEIAH, יחדיה [*un Arglwydd*] Lefiad, mab Subael. 1 Cron. 24. 20.

JEHESECEL, tywysog yr ugeinfed dosparth o'r offeiriaid. 1 Cron. 24. 16.

JEHIAH, יחיה [*byw yw yr Arglwydd*] porthor i'r arch. 1 Cron. 15. 24.

JEHIEL, יעיאל [*Duw a'i cymerodd*] 1. Tad Gibeon, a gwr Maacha; Lefiad. 1 Cron. 9. 35.——2. Jehiel, neu Jeiel o lwyth Reuben. 1 Cron. 5. 7.

IEHOFAH, יהוה oddiwrth yr enw hwn y cafodd y cenedloedd enwau eu gau-dduwiau, Jao, Jou, Jove, Juve, Jovis pater, neu Jupiter: bôd, hanfod. Y mae y gair Hebraeg yn arwyddo, sylwedd yn hanfodi trwy rinwedd, gallu, a gweithrediad angenrheidiol a boddol, ynddo ac o hono ei hun; yn cynnal ei hanfod o hono ei hun, yn ei drefn a'i holl berffeithiau.* Nid ydyw y gair *Gr.* *Κυριος*, na'r gair *Llad.* DOMINUS, na'r gair Cymraeg *Arglwydd*, yn gyfieithiadau addas o'r gair *Heb.* יהוה IEHOFAH, o herwydd eu bod oll yn arwyddo perthynas, yr hyn nid yw y gair IEHOFAH, megys fy Arglwydd, ein Harglwydd, &c., arwyddant fod rhyw un, neu rai, i arglwyddiaethu arnynt; ond nid oes yr un rhagenw byth yn gyssylltiedig â'r gair IEHOFAH, fel y mae gyd â'r enwau Elohim, Adonai; megys Elohai, Elohenu, &c. Arwydda y gair יהוה BOD syml, yn hanfodi o hono ei hun, ac yn dibynu arno ei hun, ac yn ddiberthynas â dim, neu â neb arall. Yn y cyfieithiad *Ffr. Geneva*, arferir y gair *l' Eternal*, y Tragywyddol, fel mae yn Baruch 4. 22. 'O herwydd y mae genyf obaith yn y Tragywyddol o'ch iechydwriaeth chwi.' Y mae hwn yn air diberthynas, fel y gair IEHOFAH, ac yn hytrach yn gosod ei ystyr allan yn well na'r gair *Arglwydd*; canys ni ellir dywedyd yn briodol, *fy Nhragywyddol*, *eich Tragywyddol*. I arwyddo perthynas, ychwanegir enw dwyfol arall at yr enw IEHOFAH, megys יהוה אלהינו *IEHOFAH ein Duw ni*. Mic. 4. 5. יהוה אלהי *IEHOFAH fy Nuw*. Deut. 4. 5, &c. יהוה אדנינו *IEHOFAH ein Harglwydd ni*. Neh. 10. 29, &c. Y

* Mae yn arwyddo, yn gyntaf, yr hwn oedd, sydd, ac a fydd, o hono ei hun: neu y BOD mwyaf perffaith, pur, a thragywyddol, yn hanfodi o hono ei hun, a thrwyddo ei hun: yn ail, yr hwn sydd yn Greawdwr, Awdwr, a Chyunaliwr pob peth a fu, sydd, neu a fydd: yn olaf, yr hwn sydd yn berffaith eirwir, ac yn gyson yn ei addewidion; yr hwn sydd yn sicr o roddi cyflawniad a bôd sylweddol i'w addewidion. Nid oes un o'r tri pheth hyn yn perthyn i neb ond i Dduw yn unig. Zanch. *De Nat. Dei. lib.* 1. *c.* 13.

Digitized by Google

gair IEHOFAH sydd yn mynegi hanfod syml, godidog, perffaith Dduw, a'r enwau eraill a fynegant beth yw y BOD perffaith hwn tu ag at ei greaduriaid ac i'w bobl. Rhoddir ystyr y gair hwn yn gyflawn yn y geiriau yn Dat. 1. 4—8. a 4. 8. a 11. 17. Exod. 3. 14. *απο του ο ων και ο ην και ο ερχομενος*,* 'Yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar, neu i ddyfod'—neu, fel y cyfieithir yr un geiriau yn pen. 11. 17, 'Yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn wyt yn dyfod.' Geiriau sydd yn gosod allan hanfod anamgyffredadwy, ac annhraethadwy; yr hwn sydd yr un digyfnewid, mewn mawrhydi gogoneddus, nad ydyw amser yn perthyn iddo, na dim terfynau iddo o ran amser na hanfod. Hefyd, mae yr enw IEHOFAH nid yn unig yn arwyddo BOD perffaith, digymysg, ac anddibynol, ond hefyd ei fod yn ffynon, ac yn achos effeithiol o bob bodau eraill; creawdydd a chynnaliwr pob peth. 'Myfi yw yr Arglwydd,' neu IEHOFAH, medd ef, 'sydd yn gwneuthur pob peth, yn estyn y nefoedd fy hunan, yn lledu y ddaear o honof fy hun.' Esa. 44. 24. 'O hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae, *τα παντα, pob peth.*' Rhuf. 11. 36. Hefyd, yn y trydydd lle, y mae yn arwyddo ei waith yn rhoddi bôd i'w eiriau, a'i addewidion; a thrwy hyny yn rhoddi bôd i eglwys sanctaidd ogoneddus iddo ei hun, o holl ddiddymrwydd, ffieidd-dra, a dinystr y cwymp. Exod. 6. 3. Esa. 43. 10. Priodolir yr enw IEHOFAH yn unigol i'r BOD dwyfol, ac y mae yn gwbl anmhriodol i un creadur. 'Efe yn unig sydd IEHOFAH.' Ps. 33. 18. Y mae angelion a swyddogion yn cael eu galw אלהים *duwiau*, Ps. viii. a lxxxii. ond, *ακοινωνετον ονομα, enw anghyfranog* ydyw hwn. Doeth. 14. 21. Y mae yn cynnwys pob amser ynddo, sef y fu, y sydd, a'r dyfodol; a'r enw mwyaf ardderchog ydyw o'r holl enwau trwy ba rai y rhyngodd bodd i'r Arglwydd ddadguddio ei hun yn ei air.

Y mae yr enw anghyfranog hwn yn cael ei briodoli yn aml yn yr ysgrythyrau i'r Arglwydd Iesu, ac yn brawf diammheuol o'i Dduwdod. Cymharer yr ysgrythyrau canlynol yn Hebraeg. Esa. 6. 1—5. â Ioan 12. 41.—Esa. 45. 24, 25. Jer. 23. 5, 6. â Act. 13. 39. 1 Cor. 1. 30, 31. a 6. 11.—Esa. 40. 3. â Mat. 3. 1, 3. Marc 1. 3. Luc 3. 3, 4. Ioan 1. 23. —Mal. 3. 1. â Marc 1. 2, 3.—Esa. 44. 6. â Dat. 1. 17, 18.—Joel 2. 32. a 3. 16. â Rhuf. 10. 13. Oddiwrth yr ysgrythyrau hyn, gwelir yn gwbl eglur fod *Iesu* yn *Iehofah*, sef yn fôd hunan-hanfodol, a hunan-ddibynol, goruwch pawb yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd.——Y mae yn cael ei briodoli hefyd i'r Ysbryd Glân, fel y mae yn eglur wrth gymh. Esa. 6. 8, 9. â Act. 28. 25. a llawer o fanau eraill. Yn ein cyfieithiad Cymreig ni o'r Bibl, y mae weithiau gwedi ei adael heb ei gyfieithu; ond y rhan amlaf cyfieithir ef *Arglwydd*, ac argreffir y gair mewn prif lythyrenau i'w wahaniaethu oddiwrth y gair *Arglwydd* pan mae yn cael ei roddi am y gair *Adonai*. Cyfieithir ef hefyd yn aml *Duw*, pan y byddo yn gysylltiedig â'r gair ארני megys ארני יהוה *Adonai IEHOFAH, yr Arglwydd IEHOFAH*. Y mae geiriau fel hyn yn aml yn y prophwydi: 'fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw;' sef Adonai IEHOFAH, yr Arglwydd IEHOFAH. Ezec. 33. 25, 27. a 34. 8, &c. Yn aml rhydd Esaiah y gair צבאות *tsabaoth, y lluoedd*, at y ddau eraill; ארני יהוה צבאות *Adonai IEHOFAH tsabaoth, yr Arglwydd Dduw y lluoedd*, neu yn fwy addas, *yr Arglwydd, IEHOFAH y lluoedd*. Esa. 3. 15. *et al freq*. Edr. ARGLWYDD. Y mae yr Iuddewon wrth ddarllen yr ysgrythyrau er's amryw oesoedd, yn edrych arno yn rhy sanctaidd i'w swnio; ond pan gyfarfyddant âg ef, swniant *Adonai*, neu *Elohim*, yn ei le, ond *Adonai* y rhan amlaf.

'Mi a ymddangosais i Abraham, i Isaac, ac i Jacob, dan *enw*, באל־שרי *wrth Dduw Hollalluog*; ond erbyn fy enw IEHOFAH, ni bum adnabyddus iddynt.' Exod. 6. 3. Y mae yr Arglwydd yn cymeryd enwau arno, ac yn eu hysbysu i ni, nid o'i ran ei hun, ond o'n rhan ni, fel trwy yr enwau y caffom adnabyddiaeth o hono, a pha fath un ydyw; fel trwy hyny y delom i'w garu, ei addoli, credu ynddo, ufuddhau iddo, &c. Ac y mae yn dadguddio ei hun trwy amrywiol enwau, o herwydd ein gwendid ni i amgyffred am dano; nid fel pe bai ynddo amrywiaeth, neu wahanol bethau, canys BOD diranau, a digymysg yw; ond i roddi i ni wahanol olygiadau arno, yn ol gwendid ein dealltwriaethau meidrol a therfynedig, i amgyffred am FOD anfeidrol a diderfyn. Er, wedi y cwbl, nas dichon meidroldeb gynnwys anfeidroldeb, etto trwy yr enwau y mae yr Arglwydd bendigedig wedi amlygu ei hun i ni ynddynt, gallwn, trwy ddylanwadau yr Ysbryd Glân arnom, gyrhaedd gradd digonol o wybodaeth o hono, angenrheidiol i ni er ein hiechydwriaeth.

1. Mae rhai enwau yn gosod allan ei fôd a'i hanfod; nid yn gosod allan ei hanfod yn gyflawn i ni, hyny sydd dra phell tu hwnt i bosiblrwydd; ond ei fod yn hanfodi, a hyny yn y dull mwyaf cyflawn a pherffaith; megys yr enw *Iah*, *Iehofah*.

2. Mae enwau eraill yn gosod allan y gwahanol bersonau yn yr hanfod, eu hundeb hanfodol, a'u perthynas â'u gilydd; megys y gair *Heb.* אלהים *Alehim*, a gyfieithir *Duw; υποστασις, person;* a'r enwau *Tad*, *Mab*, ac *Ysbryd Glân*.

3. Eraill sydd yn gosod allan pa fath yw yr hanfod diamgyffred hwn, a elwir yn gyffredin, ei *briodoliaethau;* nid peth achlysurol i'r hanfod ydynt, a gwahanol oddi wrtho, canys felly byddai *rhanau* yn Nuw, ond yr hanfod ydynt; hanfod Hollalluog, holl-bresennol, sanctaidd, cyfiawn, da, &c., ydyw. Gallu yw yr hanfod, sancteiddrwydd ydyw yr hanfod, &c. Llefarir am dano yn aml yn yr ysgrythyrau, yn y dull neillduedig (*abstract*) hyn, yn gystal a dull cysylltiedig (*concrete*) megys, Duw cariad yw; goleuni yw; daioni yw: nid yn unig y mae yn caru, yn oleu, yn dda.

4. Mae enwau eraill yn gosod allan yr hyn nad yw, megys *anfarwol*, *anweledig*, *&c.*

5. Y mae enwau eraill yn gosod allan ei berthynas â'i greaduriaid, a'i weithrediad tu ag atynt fel eu creawdwr, cynnaliwr, a'u llywodraethwr: a'i berthynas â'i bobl, a'i weithrediad tu ag atynt fel Duw yr iechydwriaeth, megys *iachawdwr*, *gwaredwr*, *prophwyd*, *offeiriad*, *&c.*

6. Y mae rhai o'r enwau dwyfol yn gyfranogol i'w greaduriaid, fel y mae rhyw beth o'u creawdwr i'w weled ynddynt; ond nid oes un enw yn perthyn iddynt yn yr un dull y mae yn cael ei briodoli iddo ef. Mae pob creadur â hanfod ganddo, ond nid ydyw yn addas galw un creadur yn *Iehofah;* sef yn hanfod pur, ynddo ac o hono ei hun, ac yn rhoddi bôd a hanfod i bob peth arall; sef hanfod a ffynon yr holl hanfodau eraill, yn yr ystyr a soniwyd. Y mae pob creadur yn cyfranogi ac yn dibynu yn gwbl ar ei Greawdwr am bob peth; ac y mae pob peth ynddo yn feidrol ac wrth fesur; ond yn yr Arglwydd nid oes dim cyfranogiad, dibyniad, na mesurau.

7. Y mae y doethineb dwyfol wedi gweled bod yn dda amlygu ei hun yn raddol i'w eglwys, lawer gwaith, ac mewn llawer modd, o bryd i bryd. Edr. DADGUDDIAD, EGLWYS. Felly mae yn mynegi yma ei fod yn rhoddi i Moses ychwanegol ddadguddiad o hono, i'r hyn a roddodd i'r patrieirch, i Abraham, Isaac, a Jacob.

* Y mae yn amlwg i bob un hysbys yn yr iaith Roeg, nad ydyw y geiriau hyn yn ol rheolau grammadegol yr iaith; i fod felly, buasent *του ουτος ος ην, του ερχομενου*. Y mae y BOD dwyfol yn annarluniadwy mewn un iaith. Gellir barnu fod y geiriau Groeg wedi eu rhoi fel y maent, i osod allan trwy arall-air, gyflawn ystyr אהיה *ydwyf*, yn Exod. 3. 14. Gwel Beza, Vitringa *in loc.*



Digitized by Google

8. Y mae yr amlygiadau ychwanegol i'w gweled yn cael eu rhoddi yn gyffredinol, yn wyneb rhyw amgylchiad ar yr eglwys yn gyffredinol, neu rhyw un aelod yn neillduol o honi ag oedd yn gofyn hyny. Wrth wneyd y cyfammod â'r patrieirch yr oedd yn ofynol ei fod yn אל־שדי *Dduw Hollalluog*, *Hollgyfoethog*, fel mae y geiriau yn arwyddo, yn abl cyflawni yr hyn oedd wedi ei addaw iddynt; yr oedd eu ffydd yn gorphwys ar gyflawnder a ffyddlondeb yr Addâwr; ond wrth ei enw IEHOFAH, ni bu adnabyddus iddynt. Nid yw y geiriau yn dywedyd nad ydoedd yr enw IEHOFAH yn adnabyddus iddynt; ond nid oedd *Efe* erbyn yr enw hwnw yn adnabyddus iddynt, sef yn gweithredu yn gyfatebol i'r enw hwn, yn rhoddi bôd a sylweddiad i'w addewidion iddynt hwy. Yr oeddynt wedi ei adnabod yn Dduw Hollalluog wrth gyhoeddi ei addewidion, yn eu cynnal i ddysgwyl yn ddiysgog wrthynt, ac yn eu hamddiffyn hwynt rhag eu holl elynion; ond yn awr mae yn addaw i Moses, nid y byddai iddo adnabod yr enw IEHOFAH, yr hwn oedd yn hysbys i bawb o honynt, ond y byddai iddo gael ei adnabod *Ef erbyn* yr enw hwn, yn gwirioneddu yr hyn a addawodd iddynt hwy, yn ngwaredigaeth ei bobl o'r Aipht, a'u dygiad i Ganaan. Os golygir y waredigaeth ryfedd hon fel yn gysgod, fel y mae yn ddilys ei bod, o'r waredigaeth ryfeddach trwy Grist, gellir dysgu hyn o addysg fuddiol, mai trwy Grist, a gwaredigaeth yr eglwys ganddo, y bydd yr amlygiad mwyaf o'r Hanfod dwyfol, a roddir byth. Hefyd, mae y waredigaeth yn anfethadwy, gan fod IEHOFAH yn cyflawni yr hyn a addawodd y *Duw Hollalluog*. Y mae rhai yn dewis darllen y geiriau mewn ffordd o ofyniad, fel hyn, 'Oni bum i adnabyddus iddynt erbyn fy enw IEHOFAH?' Fel pe buasai yr Arglwydd yn coffâu hyn fel annogaeth i ffydd Moses i ymddiried ynddo, yn wyneb yr anhawsderau presennol ar ffordd Moses: ond mae fy meddwl i yn esmwyth yn y golygiadau uchod. Edr. Zanch. *De Natura Dei*, c. 13., *sec*. 4. Ainsworth, *in loc*.

'Ac Abraham a alwodd y lle hwnw, יהוה־יראה *Iehofah-jire*,' *yr Arglwydd a edrych*, neu yn ddyoddefol, *yr Arglwydd a welir*. 'Yn y mynydd y gwelir yr Arglwydd.' Dr. M. 'Fel y dywedir heddyw,' hyny yw, yn yr oesoedd a ddelai, 'yn y mynydd hwn IEHOFAH a welir:' yn y fan hon yr ydym yn dysgwyl ei ymddangosiad. Yn y mynydd hwn yr adeiladwyd y deml, lle y dewisodd Duw roddi ei enw ynddo, a dyma y fan yr aberthodd Crist ei hun, yr hwn yr oedd Isaac yn ei gysgodi. Gen. 22. 14.

JEHOIADA, יוידע [*gwybodaeth yr Arglwydd*]. 1. Tad Benaiah, tywysog y Cerethiaid a'r Pelethiaid. 2 Sam. 8. 18. a 20. 23.——2. Offeiriad call, duwiol, yr hwn a olynodd Azariah yn yr offeiriadaeth, ac a olynwyd gan ei fab Zachariah. Achubodd fywyd Joas mab Joram rhag creulonder Athalia, a llywodraethodd Joas yn dda tra bu byw; ond ad-dalodd Joas ei garedigrwydd yn ffiaidd iawn, trwy ladd ei fab, Zechariah. 2 Bren. xi, a xii. 2 Cron. xxiii, a xxiv. Edr. ATHALIA, JOAS, ZECHARIAH.

JEHOIARIB, tywysog y dosparth cyntaf o'r offeiriaid. 1 Cron. 24. 7.

JEHORAM neu JORAM, יהורם [*dyrchafiad yr Arglwydd*] 1. Mab Jehosaphat brenin Judah, a daw Ahab brenin Israel. Bu Athalia yn annogaeth iddo i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd fel y gwnai tŷ Ahab. Gwnaeth ei dad ef yn gyd-lywodraethwr âg ef yn ei deyrnas, cyn ei farwolaeth. Wyth mlynedd y teyrnasodd efe yn Jerusalem; lladdodd ei holl frodyr, y rhai oeddynt dywysogion ar ddinasoedd caerog. Tystiolaetha yr Arglwydd am danynt yn llythyr Elias, 'eu bod yn well nag ef;' gellir gobeithio gan hyny eu bod hwy yn dduwiolion gwirioneddol, ac hwyrach iddynt ddyoddef fel merthyron yn achos eu crefydd. 2 Cron. 21. 13. Gwrthryfelodd yr Edomiaid yn ei erbyn ef; ac er iddo eu taro hwynt â lladdfa fawr, er hyny nis darostyngodd hwynt mwyach dan lywodraeth Judah. Libnah, dinas yr offeiriaid, a wrthryfelodd hefyd odditan ei law ef. Am yr ysgrifen a ddaeth ato oddiwrth y prophwyd Elias, Edr. ELIAS. Gwedi hyny, y Philistiaid a'r Arabiaid a ddaethant i fynu i Judah, ac a'i drylliasant hi, ac a gaethgludasant yr holl gyfoeth a gafwyd yn nhŷ y brenin, yn nghyd â'i feibion hefyd, a'i wragedd, fel na adawyd mab iddo ond Jehoahaz yr ieuengaf. Gwedi hyn oll, yr Arglwydd a'i tarawodd ef yn ei ymysgaroedd â chlefyd anaele, yr hwn a barhaodd dros yspaid dwy flynedd, a'i ymysgaroedd ef a aethant allan gan ei glefyd; felly yn ddychrynllyd ac yn druenus y bu efe farw o glefydau drwg. Y bobl ni wnaethant iddo gynneu megys cynneu ei dadau. Tarawodd yr Arglwydd y dyn hwn â dyrnod trwm, ei bobl hefyd, ei wragedd, a'i blant, a'i holl olud, am ei anwiredd, 'aeth ei goluddion allan gan ei glefyd o ddydd i ddydd.' 'Diau fod Duw a farna ar y ddaear.' Ps. 58. 11. 2 Cron. 21. 12—20. 2 Bren. 1. 17. a 3. 1, &c., a 8. 16—20.——2. Mab Ahab brenin Israel. Gwnaeth ddrygioni yn ngolwg yr Arglwydd, ond nid fel ei dad a'i fam: canys bwriodd ymaith ddelw Baal; ond ni chiliodd oddiwrth bechodau Jeroboam. Lladdwyd ef gan Jehu yn maes Naboth y Jezreeliad, yn ol geiriau yr Arglwydd trwy Elias, wrth Ahab ei dad. 1 Bren. 21. 29. 2 Bren. iii, iv, v, vi, viii, ix, x. 2 Cron. xxii. Edr. ELISEUS, JEHOSAPHAT, JEHU.

JEHOSAPHAT, יהושפט [*yr Arglwydd sydd yn barnu*] 1. Mab Ahilud, cofiadur Dafydd a Solomon. 2 Sam. 8. 16. 1 Bren. 4. 3.——2. Mab Paruah, a swyddog ar lwyth Issachar yn amser Solomon. 1 Bren. 4. 17.——3. Mab Asa brenin Judah, ac Azubah merch Silhi. Jehosaphat oedd 25 oed pan ddaeth i'r orsedd ar ol ei dad, A.M. 3090, a theyrnasodd 35 o flynyddoedd. I gadarnhau y deyrnas yn erbyn Israel, rhoddodd fyddinoedd yn ninasoedd caerog Judah, ac yn ninasoedd Ephraim, y rhai a ennillodd ei dad, a rhaglawiaid yn ngwlad Judah. Yr Arglwydd a fu gyd âg ef, oblegid iddo rodio yn ffyrdd Dafydd ei dad, ac a sicrhaodd y freniniaeth yn ei law ef; ac fel y cynnyddodd mewn cyfoeth, 'y *dyrchafodd*,' neu רבה *yr ymgryfhaodd*, *ymgalonodd*, ac yr *hyfhaodd* 'yn ffyrdd yr Arglwydd;' (1 Bren. 17. 6.) *dyrchafodd* uwchlaw ofnau a digalondid; ac wynebodd yr anhawsderau oedd ar y ffordd gyda gwroldeb a pharodrwydd meddwl. Y mae achos yr Arglwydd yn deilwng i ni ymhyfhau o'i blaid, a'i ddwyn yn mlaen yn wrol. Yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, anfonodd bump o dywysogion, naw o Lefiaid, a dau o'r offeiriaid, trwy ddinasoedd Judah, i ddysgu y bobl yn nghyfraith yr Arglwydd. Amgylchasant holl ddinasoedd Judah â llyfr cyfraith yr Arglwydd gyda hwynt, a dysgasant y bobl. Yr oedd hon yn ffordd hynod o addas tu ag at ddiwygio y wlad yn effeithiol. Tra yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid yn esgeuluso addysgu y bobl, yr oedd holl ddiwygiadau eu breninoedd yn hytrach trwy awdurdod cymhelliadol, na thrwy argyhoeddiadau o bechadurusrwydd eilunaddoliaeth, ac o ragoriaeth y gwir Dduw a'i addoliad; am hyny yr oedd y bobl yn eu tywyllwch yn fuan yn llithro yn ol i'r un pechodau. Gwnaeth Asa yn dda trwy annog y bobl i gyfammodi yn gyhoeddus â Duw; ond gwnaeth Jehosaphat yn *well* trwy ychwanegu addysgu y bobl fel hyn yn nghyfraith yr Arglwydd yn gyhoeddus. Yr oedd y tywysogion gwedi eu rhoddi at y gwaith hwn gyd â'r offeiriaid a'r Lefiaid, yn dra addas i'r dyben i'w hannog, eu hamddiffyn, a'u hanrhydeddu yn eu gwaith pwysfawr a pharchus; ac hefyd i annog y bobl i wrando a derbyn addysg ganddynt. Yr oedd y tywysogion yn gweini, hwyrach, fel swyddogion gwladol, yn gwneuthur barn a chyfiawnder; ac

Digitized by Google

wrth wneuthur hyny, yn annog y bobl oddiwrth y brenin, fel y ffordd i'w foddhau, i dderbyn addysgiadau yr offeiriaid yn nghyfraith yr Arglwydd. Diammeu eu bod oll yn wyr detholedig, ac yn enwog am eu gwybodaeth o gyfraith yr Arglwydd, eu huniondeb bucheddol, a'u duwioldeb diffuant. Yr oedd yr *addysgwyr teithiol* hyn yn gadernid i'r offeiriaid a'r Lefiaid *sefydlog* yn yr amrywiol ddinasoedd; ac yn annogaeth iddynt ddilyn yn ddyfal yn eu gorchwyl tra phwysfawr ac angenrheidiol. Y mae *addysgwyr teithiol* fel hyn, yn ddynion o wir dduwioldeb, a chymhwysderau addas i'r gwaith—yn hunan-ymwadol, yn ostyngedig, yn addfwyn; yn 'ceisio nid yr eiddynt eu hunain, ond yr eiddo Crist Iesu;' yn llwyr ymroddi i'r gwaith, ac yn ffyddlon yn mhob rhan o hono—gwedi bod, yn mhob oes, o ddefnydd neillduol i achos crefydd a duwioldeb yn y byd, fel y tystia holl hanesiaeth eglwysig. Trwy y moddion hyn y dygwyd yn mlaen bob diwygiad, ac adfywiad cyffredin ar grefydd yn y byd. *Addysgwyr teithiol*, yn gyffredinol, sydd wedi parotoi y ffordd, a rhagflaenu gweinidogaeth *sefydlog*; a gwedi sefydliad eglwysi, a gweinidogaeth reolaidd sefydlog, buddiol iawn yw bod yr holl eglwysi yn cyfranogi o ddoniau holl genadon yr Arglwydd o fewn cyrhaedd iddynt: yn y dull hwn byddai gweinidogion yn annogaethol ac yn gynnorthwyol i'w gilydd, a'r eglwysi yn fwyaf tebyg o gael ymgeledd: ond fel y sylwyd eisioes, rhaid i'r cyfryw addysgwyr teithiol fod yn ddynion o wybodaeth a synwyr yn mhethau Duw; yn hyddysg ac yn gadarn yn yr ysgrythyrau; yn ysbrydol, yn ostyngedig, yn addfwyn, ac yn hunan-ymwadol; a'u bucheddiad yn ddiargyhoedd yn ngolwg pawb. Fel y dichon y cyfryw fod o fendith gyffredinol annhraethol; felly yn y gwrthwyneb, y mae bod yr anwybodus, y ffol, y balch, a segurwyr diog, er mwyn eu parch, neu fudr elw, yn anysgrythyrol, yn cymeryd arnynt yn rhyfygus y cyfryw orchwylfa, yn ffiaidd, ac yn niweidiol iawn. Ein cysur yw, 'nad ânt rhagddynt yn mhell; canys eu hynfydrwydd fydd amlwg i bawb.' Y mae rhagrithwyr, medd Crist, yn dra llafurus, yn amgylchu tir a môr, i wneuthur proselytiaid, ac yn eu gwneuthur yn feibion uffern, yn ddau mwy na hwynt eu hunain. Mat. 23. 15. Y maent yn llafurus, ac yn llwyddo, ond nid i ddwyn dynion at Grist, ond at eu plaid, ac at eu *Shibbolethau* eu hunain. Eu gwaith yn hyn a losgir, a hwythau a gânt golled.

Rhoddodd yr Arglwydd arwyddion amlwg o'i foddlonrwydd i waith Jehosaphat: 'arswyd yr Arglwydd oedd ar holl deyrnasoedd y gwledydd o amgylch Judah, fel nad ymladdasant hwy yn erbyn Jehosaphat:' y Philistiaid a'r Arabiaid a ddygasant iddo anrhegion mewn arian a dëadelloedd: adeiladodd gestyll a dinasoedd trysorau; yr oedd ganddo o filwyr yn ei wasanaethu, heblaw y rhai oedd yn y dinasoedd caerog, 1,160,000. Yr oedd yn rhifedi hynod o filwyr cartrefol (*militia*) yn rhagori ar ddim fu gan neb o'i flaen, er nad oedd ganddo uwch y drydedd ran o'r wlad oedd dan lywodraeth Dafydd. Tebygol i lawer ddyfod trosodd ato o deyrnas Israel, bod bendith neillduol yn amlhau y bobl, ac heb ryfeloedd i'w dyfetha dros lawer o flynyddoedd.

Jehosaphat a ymgyfathrachodd âg Ahab, brenin Israel. Jehoram ei fab a briododd Athalia merch Ahab. Hwyrach ei fod yn golygu, trwy hyn, sefydlu heddwch parhaus rhwng y ddwy wlad; ond yr oedd y gyfathrach hon yn bechadurus ynddi ei hun, ac o ganlyniadau peryglus a niweidiol iddo ef a'i fab; trwy hyn yr aeth i waered i Samaria, ac yr aeth i gynnorthwyo Ahab i Ramoth Gilead, i ryfel yn erbyn y Syriaid. Yr oedd yn fwy beius ynddo, gwedi iddo glywed geiriau Michea yn yr achos. Trwy ddichell fradychus, bu agos iddo a cholli ei fywyd. Yr oedd Ahab, tebygol, yn dymuned iddo syrthio trwy law y Syriaid, gan ddysgwyl, trwy hyny, y byddai teyrnas Judah dan ei drefniad, yn llaw ei ddaw. Gwaeddodd ar yr Arglwydd yn ei gyfyngder, a'r Arglwydd a'i cynnorthwyodd, er nad oedd yn hyn yn llwybr ei ddyledswydd; a Duw a yrodd ymaith y rhai oedd yn ymosod arno, trwy ddylanwad dirgel, etto effeithiol ar eu meddyliau. Ar ei ddychweliad i Jerusalem, Jehu, mab Hanani y gweledydd, a'i ceryddodd am gynnorthwyo yr annuwiol, a charu y rhai oedd yn casâu yr Arglwydd. Bu y rhybydd hwn yn fendithiol iddo; aeth trwy yr holl wlad, ac a ymwrolodd i osod y drefn oreu ynddi mewn perthynas i bethau gwladol a chrefyddol, ac a ddygodd y bobl eilwaith at Dduw eu tadau. Y mae ei araeth wrth y barnwyr yn dangos ysbryd rhagorol ynddo.

Ar ol hyn, bu cynghrair cryf iawn yn erbyn Jehosaphat rhwng y Moabiaid, yr Ammoniaid, yr Edomiaid, &c. Jehosaphat a ofnodd, ac a ymroddodd i geisio yr Arglwydd; cyhoeddodd ympryd, a gweddiodd ar yr Arglwydd yn yr achos. Gwrandawyd ei weddi. Y prophwyd Jahaziel a sicrhaodd ymwared iddo, heb iddynt hwy ymladd dim, wrth riw Sis tu ag anialwch Jeruel. Jehosaphat a annogodd y bobl, ac a osododd gantorion i foliannu yr Arglwydd. Yn yr amser y dechreuasant hwy y gân a'r moliant, rhoddodd yr Arglwydd gynllwynwyr yn erbyn meibion Ammon, Moab, a'r Edomiaid, a hwy a laddasant bawb eu gilydd. Pan ddaeth Judah i Mispah, edrychasant ar y dyrfa, ac wele hwynt yn gelaneddau meirwon ar y ddaear, heb un yn ddiangol. Buant dridiau yn ysglyfaethu yr yspail; a'r pedwerydd dydd ymgynnullasant i ddyffryn Baraca, neu ddyffryn y fendith, lle y bendithiasant yr Arglwydd am ei ymwared iddynt.

Gwedi hyn, Jehosaphat a ymgyfeillachodd â'r brenin drygionus Ahaziah, brenin Israel, ac ymunodd âg ef i wneuthur llongau i fyned i Tarsis. Eliezer, mab Dodafah, a brophwydodd yn ei erbyn; ac, yn ol ei brophwydoliaeth, yr Arglwydd a ddrylliodd y llongau yn Ezion-Gaber. Tebygol i Ahaziah geisio eilwaith gan Jehosaphat ymuno âg ef yn achos y llongau, ond ni fynai Jehosaphat, wedi ei rybuddio gan y prophwyd o'r blaen. 1 Bren. 22. 48, 49.

Cyn pen llawer o amser wedi hyn, aeth Jehosaphat, a'i raglaw brenin Edom, gyda Jehoram ddrygionus, ail fab Ahab, i ryfel yn erbyn y Moabiaid: trengasent oll gan syched, oni buasai i'r prophwyd Eliseus roddi dwfr yn wyrthiol iddynt. Edr. ELISEUS. Ei gyfathrach âg Ahab fu yr achos o'i holl aflwyddiant, yr hyn a dynodd hollol ddinystr agos ar ei deulu, a'r deyrnas hefyd, yn fuan ar ol ei farwolaeth. Y mae yr Ysbryd Glân, yn ei hanes, yn gosod allan y perygl o'r cyffelyb gyfathrach yn mhawb, hyd ddiwedd amser. Ni fyn yr Arglwydd i neb o'i bobl gynnorthwyo yr annuwiol, a dangos caredigrwydd cyfathrach at y rhai sydd yn ei gasâu ef. Gwneuthur daioni i bawb sy ddyledswydd; ond nid dangos boddlonrwydd i annuwioldeb, ond i'r gwrthwyneb, dangos arwyddion o'n hanfoddlonrwydd: nid gwneuthur daioni iddynt fyddai hyny; ond gwneuthur llawer o niwed iddynt hwy yn gystal a ni ein hunain. 'Na *iauer* chwi yn anghymharus gyd â'r rhai digred,' yw cyfraith y Bibl. Gwnaeth y brenin Jehosaphat, medd yr hanes, yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd; etto ni thynwyd yr uchelfeydd ymaith; canys ni pharotoisai y bobl eu calon etto at Dduw eu tadau. Claddwyd ef yn ninas Dafydd ei dad. 1 Bren. xxii. 2 Bren. iii. 2 Cron. xviii, xx. Ps. lxxxiii.

'Dyffryn Jehosaphat:' (Joel 3. 2, 12.) sef, tebygol, dyffryn y fendith, lle barnodd yr Arglwydd mor hynod elynion Jehosaphat. Yr oedd y farn hòno yn gysgodol o farn yr Arglwydd ar yr holl genedloedd, gelynion ei eglwys yn y dyddiau diweddaf, yr hon y prophwyda Joel am dani. 'Casglaf yr holl genedloedd, a dygaf hwynt i waered i ddyffryn Jehosaphat; a

Digitized by Google

dadleuaf â hwynt yno dros fy mhobl;' yn gyffelyb i'r dull y gwnaeth â'r Moabiaid, yr Ammoniaid, yr Edomiaid, &c., gelynion Judah a Jehosaphat, o'r blaen yn nyffryn y fendith. Ystyr Jehosaphat yw, *yr Arglwydd sydd yn barnu*. Y mae rhai yn barnu mai at ddyffryn Jehosaphat yn sefyll rhwng Jerusalem a mynydd yr Olew-wydd, trwy yr hwn y mae afon Cedron yn rhedeg, y cyfeiria y prophwyd: ond mwy tebygol fod y cyfeiriad yn ngeiriau y prophwyd at yr hanes hynod uchod.

JEHU, יהוא [*ei hunan*] 1. Mab Hanani: prophwydodd yn erbyn Baasa, ac a geryddodd Jehosaphat am gyfathrachu âg Ahab. 1 Bren. 16. 1—7. 2 Cron. 19. 1, 2.——2. Mab Jehosaphat mab Nimsi, tywysog llu Joram brenin Israel. Yn ganlynol i orchymyn Duw i Elias, Eliseus, yn nghylch un mlynedd ar ddeg, medd rhai, wedi ei esgyniad, a anfonodd un o feibion y prophwydi i'w eneinio yn frenin ar Israel. Efe oedd offeryn dialedd Duw ar dŷ Ahab; 'eneiniwyd ef i dori ymaith dŷ Ahab;' ac am y gwasanaeth hwn y mae yr Arglwydd yn addaw y byddai i feibion y bedwaredd genedlaeth iddo eistedd ar orsedd-faine Israel. Ond am iddo wneuthur hyn mewn digder, a chreulondeb, ac ymchwydd, y mae yr Arglwydd yn bwgwth dial gwaed tŷ Ahab ar ei hâd. Ni thrôdd efe oddiwrth bechodau Jeroboam, ond a addolodd y lloi yn Dan a Bethel; oblegid hyny, a'i bechodau eraill, y gadawodd yr Arglwydd i Hazael, brenin Syria, anrheithio ei wlad yn dost. Wyth mlynedd ar hugain y teyrnasodd. Yr oedd yn offeryn addas i'r gwaith a roddwyd iddo; yr oedd yn ŵr call, egnïol, parod, a chyflym; ond yn hunanol, yn greulon, yn llidiog, ac yn ddialgar; yn hannerog ac yn rhagrithiol yn ei grefydd: 'Ni *wyliodd* am rodio yn nghyfraith yr Arglwydd â'i holl galon.' 2 Bren. ix, x. Hos. 1. 4.——3. Mab Obed, a thad Azariah. 1 Cron. 2. 38.

JEHUCHAL, יהוכל [*pob peth o'r Arglwydd*] mab Selamiah, yr hwn a anfonodd Zedeciah, brenin Judah, at Jeremiah y prophwyd, i ofyn iddo weddïo drostynt, pan yr oedd Nebuchodonosor, brenin Babilon, yn gwarchae ar Jerusalem. Jer. 37. 3.

JEHUD, יהד [*moliannydd*] dinas yn llwyth Dan. Jos. 19. 45.

JEMIMAH, ימימה [*prydferth fel y dydd*] merch gyntaf Job, wedi ei adferiad. Job 42. 14.

JEMINI, ימיני [*fy llaw ddehau*]. Rhoddir y gair hwn yn gyffredin yn lle Benjamin: felly gelwir Gera tad Ehud, mab Jemini, sef Benjaminiad. Barn. 3. 15. Gelwir Saul yn fab Jemini, sef o lwyth Benjamin. 1 Sam. 9. 1. Gwlad Jemini ydyw etifeddiaeth Benjamin. Gwr o Jemini, sef o lwyth Benjamin. 2 Sam. 20. 1. 1 Sam. 9. 4. Edr. BENJAMIN.

JEMUEL, neu NEMUEL, mab Simeon. 1 Cron. 4. 24. Gen. 46. 10.

JEPHTHAH, יפתח [*yr hwn sydd yn agor*] mab Gilead o buteinwraig, yr hwn a olynodd Jair yn farnwr ar Israel. Barn. 11. 1. Meibion Gilead o'i wraig a'i bwriasant o dŷ ei dad, a ffôdd rhag ei frodyr, ac a drigodd yn ngwlad Tob, ac aeth yn ben ar dorf o oferwyr, neu yspeilwyr. Pan orthrymwyd yr Hebreaid, o du y dwyrain i'r Iorddonen, gan yr Ammoniaid, hwy a attolygasant ar Jephthah fod yn dywysog arnynt, a'u harwain i ymladd â meibion Ammon. Y mae yntau yn dannod iddynt eu hangharedigrwydd a'u hanghyfiawnder tu ag ato. Gwedi i henuriaid Gilead addaw y byddai iddo ef fod yn ben arnynt, y mae yn myned gyda hwynt i Mispah, ac a adroddodd yr holl eiriau, neu y cytundeb rhyngddynt, ger bron yr Arglwydd. Ymddyddanodd â brenin meibion Ammon am heddwch, ond yn ofer. Daeth Ysbryd yr Arglwydd arno, ac o Mispah Gilead yr aeth trosodd at feibion Ammon. Addunodd adduned i'r Arglwydd, os byddai iddo roddi yr Ammoniaid yn ei law, y byddai yr *hwn*, neu yr *hyn*, a ddelai allan o ddrws ei dŷ yn eiddo yr Arglwydd, ac yr offrymai ef yn boeth-offrwm iddo. Rhoddodd yr Arglwydd yr Ammoniaid yn ei law, gorchfygodd a darostyngodd hwynt. Pan ddaeth i Mispah i'w dŷ ei hun, wele ei unig ferch a ddaeth allan i'w gyfarfod, â thympanau, ac â dawnsiau. Pan welodd hi, rhwygodd ei ddillad, a dywedodd, 'Ah! ah! fy merch, gan ddarostwng y darostyngaist fi; ti hefyd ydwyt un o'r rhai sydd yn fy molestu.' Pan hysbyswyd y peth iddi, cydsyniodd i'w thad gyflawni ei adduned arni, ond iddi gael galaru ddau fis ar y mynyddoedd, am ei morwyndod, hi a'i chyfeillesau. Dychwelodd yn mhen y ddau fis, a'i thad a wnaeth â hi yr adduned a addunedasai efe. Am iddo fyned i ymladd â'r Ammoniaid heb alw arnynt hwy, y mae yr Ephraimiaid yn cwerylu âg ef; y mae yntau yn ymladd â hwynt, a'r Gileadiaid yn lladd yr Ephraimiaid wrth rydau yr Iorddonen, ac yn eu hadnabod wrth y gair Shibboleth. Cwympodd o'r Ephraimiaid fel hyn 42,000. Gwedi barnu Israel chwe blynedd, bu farw Jephthah, a chladdwyd ef yn un o ddinasoedd Gilead.

Llawer o ddadleu ac amrywiaeth barn sydd wedi bod, ac yn bod, am adduned Jephthah. Y mae barn ein cyfieithwyr ni yn amlwg, sef iddo addunedu yr hwn a ddeuai allan o'i dŷ i'w gyfarfod yn boeth-offrwm, ac iddo gyflawni yr adduned felly.* Y mae eraill yn barnu yn gryf y gellir cyfieithu y geiriau heb ddim cam â hwynt, ond mewn cyflawn gysondeb â'r iaith, a phriodol ystyr y geiriau Hebraeg, iddo ei haddunedu i barhau yn wyryf, yr hyn oedd yn orchwyl o hunan-ymwadiad mawr iddo ef a hithau, gan mai ei unig blentyn ydoedd. Cyfieithant y geiriau fel hyn, 'Yna yr *hyn* a ddelo allan o ddrysau fy nhŷ i'm cyfarfod—a fydd eiddo yr Arglwydd, offrymaf iddo ef boeth-offrwm.' Yr oedd llawer o bethau yn cael eu cysegru i'r Arglwydd, ac yn eiddo iddo yn ganlynol i hyny, heb gael eu hoffrymu yn boeth-offrwm, ac yn gwbl anaddas i hyny. Felly yr oedd yn hollol groes i gyfraith Duw iddo offrymu ei ferch yn boeth-offrwm. Gan fod y gair yn dywedyd i Ysbryd yr Arglwydd ddyfod arno, ac mai yn ganlynol i hyny y gwnaeth yr adduned, nis dichon i ni gynnwys y meddwl, i Ysbryd yr Arglwydd ei gynhyrfu i addunedu peth oedd ffiaidd gan yr Arglwydd, a chwbl groes i'w gyfraith. Heblaw hyn, y mae yn dra eglur fod merch Jephthah yn fyw gwedi iddo wneuthur â hi yr adduned a addunasai efe. 'A hi nid adnabuasai (neu nid adnabu) ŵr:' hyny yw, bu fyw yn forwyn bur holl ddyddiau ei bywyd. 'A bu hyn yn ddefod yn Israel, fyned o ferched Israel bob blwyddyn i alaru am ferch Jephthah y Gileadiad, bedwar diwrnod yn y flwyddyn.' Gellir cyfieithu y geiriau, 'I alaru am ferch Jephthah,' 'I anrhegu merch Jephthah â rhoddion, bedwar diwrnod yn y flwyddyn:' yr un gair yw ag a gyfieithir (מתנות) *rhoddion*, yn Ps. 68. 18. Y mae y golygiad hwn ar y geiriau yn fwy cyson â'r goffadwriaeth barchus a roddir gan yr apostol am Jephthah. Heb. 11. 32. Oddiwrth hyn gellir casglu, medd Mr. Perkins, nad yw eu barn hwy yn gywir, y rhai sydd yn tybied ddarfod iddo offrymu ei ferch yn boeth-offrwm. Gan y rhoddir canmoliaeth iddo am ei ffydd, rhaid

* Dywed Plutarch i Agesilaus gael gorchymyn mewn breuddwyd i aberthu ei ferch, ond iddo nacâu: ac i Pelopidas gael gorchymyn mewn gweledigaeth i aberthu gwyryf, ac iddo edrych arno yn orchymyn creulon ac anghyfreithlon. *Plut. in vit. Pelop.*——Y mae hanes paganaidd am Agamemnon iddo aberthu ei ferch Iphigenia. Y mae rhai yn golygu hwn yn hanes ffugiol y Groegiaid am yr un peth; ac iddynt roddi yr enw Iphigenia yn lle Jephtigenia. Rhyfelwyr nodedig oedd Agamemnon yn rhyfeloedd Caerdroia, y rhai a ddygwyddasant yn amser y Barnwyr.

Digitized by Google

bod ganddo wybodaeth o Dduw a'i ewyllys; ac os felly, gwyddai na byddai y cyfryw offrwm yn dderbyniol ac yn gymeradwy gan yr Arglwydd, ag ydoedd yn gwbl wrthwyneb, nid yn unig i ddeddf natur, ond hefyd i'w orchymynion moesol, gwedi eu rhoddi yn amlwg trwy Moses i genedl Israel. Mae ymddygiad ei ferch yn yr achos hwn, yn dangos ufudd-dod parchus i'w thad, a'i chydnabyddiaeth ddiolchgar o ddaioni yr Arglwydd yn rhoddi gwaredigaeth i Israel trwy ei thad, oddi tan law orthrymus yr Ammoniaid. 'Gwna i mi (meddai) yn ol yr hyn a aeth allan o'th enau; gan i'r Arglwydd wneuthur dros ot ti ddialedd ar dy elynion.' Yr oedd ei ffydd yntau yn ymddangos yn fawr yn yr Arglwydd cyn myned i'r maes; yr oedd yn cydnabod bod ei holl lwyddiant yn dibynu arno yn unig; yr oedd y fudd-ugoliaeth yn cyfateb i'w ffydd, yn hynod ac yn gyflawn: y mae ei ymddygiad ef a'i ferch, yn nghyflawniad ei adduned, yn ymddangos ddim llai anrhydeddus a ffyddlawn i'r Arglwydd. 'Myfi a agorais fy ngenau wrth yr Arglwydd (meddai) ac ni allaf gilio'—canys nid oedd yr hyn a ddiofrydai un o ddyn, neu o anifel, ddim i gael ei ryddhau, 'sancteiddiolaf ydoedd i'r Arglwydd.' Lef. 27. 27, 28. Barn. 11. 29—40.——Gwel Dr. Owen, a W. Perkins, ar Heb. 11. 32. Romaine *on* Jephthah's *Vow*. Pool's *Synop.*, am farnau yr amrywiol awdwyr ar y mater. John Edwards' *Enquiries into Difficult Texts, p.* 81. Lowth *on Isa.* 42. 16. Dr. Randolph's *Sermon on* Jephthah's *Vow*. *Ancient Univ. Hist., vol.* iv.

JEPHUNNEH, יפנה [*yr hwn sydd yn canfod*] tad Caleb o lwyth Judah. Num. 13. 6.

JERAH, ירח [*y lleuad*, neu *y mis*] pedwerydd mab Joctan. Gen. 10. 26.

JERAMEEL, ירחמאל [*trugaredd Duw*] 1. Mab Cis. 1 Cron. 24. 29.——2. Mab Hesron, o lwyth Judah, tad y Jerameeliaid. 1 Cron. 2. 9, 25, 26, 27. 1 Sam. 27. 10. a 30. 29.——3. Mab Hammelech, yr hwn a orchymynodd y brenin Jehoiacim i ddala Baruch a Jeremiah. Jer. 39. 26.

JEREMIAH, ירמיהו neu ירמיה [*dyrchafiad yr Arglwydd*] 1. Mab Hilciah, offeiriad, tebygol, medd Brown, o deulu Ithamar, priodor o Anathoth, o fewn tir Benjamin. Yr oedd Anathoth yn sefyll dair milltir o du y gogledd i Jerusalem. Barna rhai mai Hilciah yr arch-offeiriad ydoedd ei dad, yr hwn a gafodd lyfr y gyfraith yn nheyrnasiad Josiah; ond heb un sail ond eu bod o'r un enw. Galwyd ef yn ieuanc i'r swydd brophwydol; ie, dywed yr Arglwydd wrtho, 'Cyn i mi dy lunio yn y groth mi a'th adnabum; a chyn dy ddyfod o'r groth y *sancteiddiais* di; mi a'th roddais yn brophwyd i'r cenedloedd.' Jer. 1. 1—5. Sancteiddiwyd ef yn y groth cyn ei eni, a rhagluniaethwyd ef i ras, ac i'r swydd cyn ei lunio yn y groth, sef er tragywyddoldeb. Ceisiodd ymesgusodi wrth yr Arglwydd o'r achos hyny; 'Ni fedraf ymadrodd,' meddai, 'canys bachgen ydwyf fi.' Pen. 1. 6. Symudodd yr Arglwydd ei ofnau a'i ammheuon trwy addaw bod gyd âg ef a'i waredu. Yr oedd yr Arglwydd wedi ymddangos iddo ar ddull dynol; estynodd ei law, a chyffyrddodd â'i enau, fel arwydd y rhoddai iddo enau a doethineb, yr hyn nis gallai ei holl wrthwynebwyr na dywedyd yn ei erbyn, na'i wrthsefyll. Luc 21. 15. Yn ganlynol i hyn, ymroddodd i'r swydd gyda diwydrwydd a ffyddlondeb mawr, yn wyneb yr anhawsderau a'r peryglon mwyaf, dros yspaid hir o amser, o leiaf dwy flynedd a deugain; sef dros deyrnasiad y pump diweddaf o freninoedd Judah, yn dechreu cyfrif yn y drydedd ar ddeg o deyrnasiad Josiah. Cyfodwyd ef yn gynnorthwyol i'r brenin duwiol, ac yr oedd lle i ddysgwyl diwygiad mawr oddiwrth ymdrechiadau ffyddlawn y cyfryw frenin a'r cyfryw brophwyd, y ddau yn ieuainc, ac yn debyg o barhau yn hir i fod yn ddefnyddiol i'r genedl. Ond trwy ychwanegu eu heuogrwydd yn y mwynhad o'r cyfryw fanteision, prysurodd y bobl eu dinystr buan. Cafodd lawer iawn o wrthwynebiad ac anmharch oddiwrth bob graddau; ond tebygol nas erlidiwyd ef yn gyhoeddus tra bu Josiah byw; ond wedi hyny cyfnewidiodd ei amgylchiadau yn ddirfawr er gwaeth. Yr ydoedd iddo elynion creulawn yn ei le genedigol, yn mhlith offeiriaid Anathoth, a'i geraint. Yr oeddynt yn ceisio ei einioes, ond gwaredodd yr Arglwydd ef o'u dwylaw. Pen. xi, xii.

Rhoddir i ni hanes cyflawn am ei ffyddlondeb yn ei weinidogaeth, ei ddyoddefiadau, yn nghyd a'i garchariad o'r achos, yn effeithiol ac yn fanwl yn ei lyfr; fel nad rheidiol i mi ail-adrodd yma yr hyn a ellir ei weled yno. Yr oedd dros ei holl fywyd yn ŵr o dduwioldeb diffuant, a bucheddiad sanctaidd; yn caru ei wlad a'i genedl yn fawr, fel y tystia ei alarnadau dwys o herwydd eu dinystr a'u hanrheithiad ofnadwy. Er ymddygiad creulawn ac anmharchus ei gyd-wladwyr tu ag ato, etto dewisodd yn hytrach aros a dyoddef pob caledi gyda hwynt, na chymeryd diogelwch ac esmwythder iddo ei hun, trwy ffafr taer-gynnygiedig brenin Babilon. O'r diwedd, wedi dinystr Jerusalem, canlynodd weddill yr Iuddewon i'r Aipht, lle yr aethant yn groes i'w gynghor, gwedi lladd Gedaliah. Bu yno yn eu hargyhoeddi o'u heilun-addoliaeth a'u pechodau eraill, ac yn rhagfynegu y canlyniadau anocheladwy o honynt; nes o'r diwedd iddo ef fod yn annyoddefol iddynt, a'r Iuddewon yn Tahapenes a'i llabyddiasant i farwolaeth. Goddiweddodd dialedd Duw hwynt yn fuan gwedi hyn, gan gael eu dystrywio gan luoedd brenin Babilon, yr hwn a oresgynodd yr Aipht, yn ol rhag-ddywediad y prophwyd. Ps. 44. 27, 28. a xlvi. ——Am ddull ei farwolaeth, nid oes dim sicrwydd; ond yr hanes uchod a rydd Tertullian, Epiphanius, Doroteus, Jerome, a Zenoras; ac yn barnu fod y gair ἐλι-θασθησαν, *a labyddiwyd*, yn cyfeirio at hyny. Heb. 11. 37. Dywed eraill mai Pharaoh-Hophra a'i lladdodd, am iddo brophwydo yn ei erbyn. Ond traddodiadau dychymygol ydyw y cwbl. Oddiwrth ysbryd gwrthnysig a chreulawn yr Iuddewon, nid annhebyg iddynt chwanegu hyn at eu pechodau gwaeddfawr eraill. Gwel Prideaux, *Connect. part* i., *b.* ii. Blayney.——Y mae yr hanes a roddir am dano yn 2 Mac. 2. 4—9. a 15. 13. yn dangos yn eglur mor lleied o goel sydd deilwng i hanesiaeth y llyfr hwnw.

Cyflawnwyd amryw o'i brophwydoliaethau tra y bu efe byw, ac yn fuan gwedi iddo farw: megys yr holl brophwydoliaethau hyny oedd yn rhagfynegi dinystr ac anrheithiad Jerusalem, Judah, a'r gwledydd oddi amgylch, gan y Caldeaid, a dychweliad yr Iuddewon o Babilon yn mhen deg a thriugain o flynyddoedd. Ond y mae eraill yn perthyn i oesoedd pellach; ac y mae rhai heb eu cyflawni hyd heddyw. Pan yr ydoedd Babilon yn ei llwyddiant a'i huchder mwyaf, rhagfynegodd, nid yn unig y byddai i'r Mediaid a'r Persiaid ei gorchfygu hi, ond 'soddir Babilon,' medd efe, 'ac ni chyfyd mwy.' Pen. 51. 64. Yr hyn a gyflawnwyd yn nodedig o amlwg i bawb hyd heddyw. Gwel pen. li, lxiii, lxiv. Rhagfynegodd hefyd ddiddymiad y gyfraith seremoniol; ymuniad Israel a Judah yn yr un ffydd; a dychweliad yr holl genedloedd. Gwel pen. 3. 7, 18. a 31. 31, &c. Gwasgariad yr Iuddewon, a'u parhad yn bobl neillduedig a gwahanol oddiwrth bawb eraill, yr hyn sydd i'w weled yn amlwg hyd heddyw. Gwel pen. 30. 11. a 46. 28. Prophwydodd am alwad y Cenedloedd. Gwel pen. 4. 2. Cwymp a dystryw eilun-addoliaeth. Gwel pen. 10. 11. Ac am Berson a theyrnas yr Arglwydd Iesu, dygiad i mewn yr oruchwyliaeth newydd, a llwyddiant mawr ar wir grefydd, yn nghyd â rhag-ddywediadau eglur am droedigaeth yr Iuddewon, a'u hadferiad i'w gwlad eu hunain. Gwel pen. xxiii. a xxxiii.

Cyfeirir at ei brophwydoliaethau ef yn aml yn y

Digitized by Google

Testament Newydd, fel y gellir gweled wrth gymharu Jer. 31. 15. â Mat. 2. 17, 18. a 6. 16. Jer. 6. 16. a Mat. 11. 29. Jer. 9. 23, 24. â 1 Cor. 1. 29, 30, 31. Jer. 31. 31—34. â Heb. 8. 8—12. a 10. 15, 16, 17. Yn y lleoedd diweddaf, dywedir gan yr apostol, fod yr Arglwydd gwedi llefaru, a'r Ysbryd Glân yn tystiolaethu, trwy y prophwyd hwn, y geiriau a goffëir o hono—tystiolaeth amlwg yr apostol o blaid dwyfoldeb ei ysgrifeniadau. Yr ydys yn barnu fod llawer o'i lyfr gwedi ei ysgrifenu mewn prydyddiaeth. Os nad ydyw ei iaith mor ardderchog ag Esaiah,* etto y mae yn ysgrifenu yn wresog ac yn gynhyrfiol; yn hynod o fywiog, llym, a threiddgar, wrth argyhoeddi y bobl o'u gwrthryfelgarwch, ac yn cyhoeddi barnedigaethau Duw yn eu herbyn. Ychwanegwyd y bennod ddiweddaf o'i lyfr ar ol ei farwolaeth gan arall; gan Ezra, tebygol; yr hwn hefyd, meddylir, a osododd ei brophwydoliaethau yn eu trefn bresennol. Y mae rhai dysgedigion gwedi llafurio i'w gosod mewn trefn gyfatebol i'r amseroedd y traddodwyd hwynt, yn wahanol oddiwrth eu trefn bresennol; ond cystal, hwyrach, eu gadael yn y drefn y maent; yn enwedig os bernir eu gosod felly gan Ezra, dyn dan ysbrydoliaeth Duw.

Yr ydoedd yn ŵr o deimladau tyner a serchogaidd; galarodd yn ddwys ac yn chwerw iawn ar farwolaeth y brenin duwiol Josiah, ac ar anrheithiad a dinystr Jerusalem. Ei alarnad ar yr achos cyntaf sydd yn ngholl; canys rhaid i ni farnu, er bod eraill† o wahanol feddwl, mai dinystr Jerusalem, yw testun y Galarnad. Tebygol yw, mai yn mhen peth amser gwedi dinystr y ddinas, ac anrheithiad y wlad, y darluniodd efe, mewn geiriau cyffröus, yr olwg anial oedd arnynt, gyda thristwch a galar dirfawr. Ni chyfansoddwyd galarnad mor hynod mewn unrhyw iaith. Y mae golygiadau y cystudd ac amgylchiadau y cyfyngder, gwedi eu lliwio gyd â'r fath gydundeb hardd, fel yr ydym yn canfod yn y cwbl y darluniad mwyaf athrist a chyffröus o anrheithiad, diffeithdra, a thrueni. Y mae y prophwyd yn ailadrodd ei achwyniadau mewn iaith mwyaf cwynfanus, ac yn gosod allan ei dristwch mawr gyd â'r fath rym ymadrodd ag sydd yn cyfateb i fawredd y gofid, a'r dystryw ger bron, a'r canlyniadau o hono mewn ystyr grefyddol. Y mae yn adgoffa i'w gydwladwyr echryslonrwydd y pechodau a barodd i'r Arglwydd 'ffieiddio ei gysegr;' ac yn cydnabod 'mai trugareddau yr Arglwydd oedd na ddarfu am danynt.' Adn. 22. Wedi hyny yn y wawd-iaith mwyaf cyffröus a'digllon, mae yn bwgwth Edom â dystryw, am iddo lawenychu yn adfyd a thrueni Judah; yn agor drws o gysur o flaen Sïon; ac yn diweddu mewn gweddi ar Dduw, am iddo ystyried gwaradwydd ei bobl, ac iddo adnewyddu eu dyddiau megys cynt.‡

Dyben cyfansoddiad yr alar-gân ryfedd hon, ydoedd cyfeirio meddyliau yr Iuddewon at Dduw, fel Awdwr eu holl flinderau: at eu dirfawr bechodau, fel yr achos haeddiannol o honynt; eu galw i weithredu ymostyngiad, edifeirwch, ffydd, a gweddi; eu cyfarwyddo i'r ffordd i gael cynnaliaeth effeithiol danynt, a lleshâd trwyddynt; ac i'w llenwi â chasineb at y pechodau hyny oedd yr holl achos o'r cyfryw drallodau, ac i ddysgwyl am waredigaeth oddi wrthynt, trwy drugaredd yr Arglwydd a'i ddaioni.

Y mae pob pennod yn cynnwys dau ar hugain o bennillion; a phob pennill yn y ddwy bennod gyntaf yn dechreu âg un o'r llythyrenau yn yr egwyddor Hebraeg, fel y mae rhai o'r Psalmau. Y mae y drydedd bennod yn cynnwys tair o wersi byrion i bob pennill; pob un o honynt yn dechreu â llythyrenau Hebraeg, fel o'r blaen. Y mae y bedwaredd bennod yn gyson â'r ddwy gyntaf. Y mae y bummed yn cynnwys yr un rhifedi o wersi, ond heb eu trefnu yn ol y llythyrenau Hebraeg.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar, gan y Dr. Blayney, gyfieithiad newydd o lyfr Jeremiah, a'r Galarnad, yn nghyd â sylwadau achlysurol ar yr iaith, yn ol dull gwaith yr Esgob Lowth ar Esaiah.

2. Jeremiah o ddinas Libna, tad Hamutal, gwraig Josiah, brenin Judah. 2 Bren. 24. 18.——3. Gwr cadarn o nerth, o lwyth Manasseh. 1 Cron. 5. 24. ——4. Yr oedd rhai o gedyrn Dafydd o'r enw hwn. 1 Cron. 12. 4—13.

JERICHO, ירהכו [*ei arogl*] dinas enwog yn llwyth Benjamin, yn nghylch wyth milltir oddiwrth yr Iorddonen, o du y dwyrain iddi; a phedair ar bymtheg o filltiroedd i'r dwyrain o Jerusalem. Geilw Moses hi, dinas y palmwydd, am fod llawer o'r coed hyny yn gyfagos iddi. Deut. 34. 3. Dywed Josephus, *Antiq.*, *lib.* iv., *cap.* 5., fod, heblaw y palmwydd, lawer o goed *balsam* yno hefyd. Yr oedd dyffryn Jericho yn dra ffrwythlawn, ac yn is tir na Jerusalem. Luc 10. 30. Hon oedd y ddinas gyntaf a gymerodd Josuah mewn modd gwyrthiol. Jos. vi. Gwedi iddo ddinystrio Jericho, melldigodd y neb a'i hadeiladai; 'yn ei gyntafanedig y seilia efe hi, ac yn ei fab ieuengaf y gesyd efe ei phyrth hi.' Yr hyn a gyflawnwyd ar ol 520 o flynyddoedd, pan adeiladodd Hiel y Betheliad hi. 1 Bren. 16. 34. Edr. HIEL.

Adeiladwyd dinas arall yn agos ati o'r un enw, neu a elwid 'dinas y palmwydd,' yn nghylch amser Ehud, o ba un, y mae yn debyg, yr aeth y Ceniaid i fynu. Barn. 1. 16. a 3. 13. 2 Sam. 10. 4, 5. Y mae yn amlwg fod dinas o'r enw hwn, yn agos i'r un fan, cyn amser Hiel. Yr oedd yma athrofa enwog i feibion y prophwydi, er mwyn pa rai yr iachâodd Eliseus y dyfroedd. Dywedir fod 'ei dyfroedd yn ddrwg, a'r tir yn ddiffaeth,' neu yn Hebraeg, *yn erthylu*. Priodol ystyr y galr שכלת ydyw *erthylu*. Felly y cyfieithir ef yn Gen. 31. 38. Exod. 23. 26. *Diepppiledd* yn Esa. 47. 9. Rhoddir hanesion cyffelyb am leoedd eraill, a'r effeithiau hyn yn perthyn iddynt, megys Porto Bello, (gwel Don Ulloa's *Voyage*); a Senaar, prif ddinas Nubia yn Affrica. Bruce's *Travels*. Bydd y gwragedd, medd Don Ulloa, mewn amgylchiadau i allu gwneuthur hyny, gwedi tri neu bedwar mis o'u beichiogiad, yn arferol o fyned, i ochelyd erthyliad, i Panama i esgor. Ond tebygol i hyny ddygwydd yn Jericho, yn ganlynol i waith Josuah yn ei felldithio. Dywed teithwyr diweddar o'r wlad hòno, fod ei dyfroedd presennol yn hynod o iachus, ac mai ffynon y prophwyd Eliseus, fel ei gelwir hyd heddyw, sydd yn rhoddi dyfroedd i ddyfrhau y gerddi yno. Y mae y ffynon wedi ei murio, a'i phalmantu; ac yn y pyllau hwn y mae y pysgod mor ddofion, fel y nofiant at y geulan, pan welont un yn eistedd yno; y mae pobl y wlad gwedi eu harferyd i'r cyfeillgarwch hwn, trwy roddi iddynt yn aml ran o'u hymborth. Gwaherddir yn gaeth i deithwyr dyeithr eu dal, na'u dychrynu. Y mae pren mawr-frigog yn cysgodi y ffynon, ac yn cadw, trwy hyny, y dyfroedd yn oerion, ac yn hyfryd

* Er nad oedd Jeremiah yn ddiffygiol mewn prydferthwch nac mewn ardderchawgrwydd, etto nid oedd yn ogyfuwch ag Esaiah yn y naill na'r llall. Ond o holl lyfr Jeremiah mi feddyliwn mai prin y mae yr hanner yn farddonol. Y rhan olaf, yn cynnwys chwech pennod, sydd oll yn farddonol; ac yn y rhan hon y mae amryw ymadroddion yn y rhai y mae y prophwyd hwn yn dyfod yn dra agos i Esaiah mewn ardderchawgrwydd. Lowth, *Præl.* 21.

† Josephus, Jerome, Junius, Usher, Dr. Thomas Goodwin. —Primo enim attenti carmen perlegens, nihil inveni, quod non cæso Jos. canere Jeremias verissime potuisset. Michaelis

‡ Fel un yn galaru ar ol marwolaeth ei fam, y mae yn tywallt allan yr hyn sydd yn dyfod gyntaf i'w feddwl yn y cyfryw brofedigaeth, a pha beth bynag sydd yn ymddangos yn fwyaf truenus. Gyd â'r materion hyn y mae yn aros, gan eu dangos mewn goleu newydd, trwy eiriau a chyffelybiaethau newyddion; yr hyn sydd yn gwneuthur lliosogiad o bethau cyffelyb, yn hytrach na chysylltiad o bethau gwahanol. Nid wyf yn tybied fod cân arall yn bod, yn yr hon y canfyddir y fath amrywiaeth o ddelweddau, mor hapus ac mor brydferth. Gwel Lowth, *Præl*. 22.

Digitized by Google

yn yr hâf. Mae ei sefyllfa rhwng y mynyddoedd, yn peri fod poethder yr hâf yn fawr yno. Yr oeddynt yn medi y gwenith yn Jericho, cyn casglu y blaen-ffrwyth yn Jerusalem. Mae dyffryn Jericho yn ffrwythlawn, ond ychydig y mae y trigolion yn amaethu ar ddim, ond y gerddi. Sonir am 'blanigyn rhos Jericho.' Eccles. 24. 14. Rhydd D'Arvieux, teithiwr a fu yno, A.D. 1659, hanes fod yno lawer o'r coed a eilw yr Arabiaid *Zacoum*, y rhai sydd yn dwyn ffrwyth fel eiryn; y rhai gwedi eu pwnio, a roddant olew tra meddyginiaethol i archollion, a chlefydau y gewynau o bob math.* Y mae ffrwd fechan yn rhedeg o ffynon y prophwyd trwy y dyffryn i'r Iorddonen. Yn amser ein Hiachawdwr yr oedd yn ddinas flodeuog, a llawer o'r offeiriaid yn preswylio yno, yn barod i fyned i fynu i Jerusalem i gynnorthwyo yn ngwasanaeth y deml. Yr oedd 12,000 o honynt yno, medd y Rabbiniaid. Adeiladodd Herod Fawr yma balas gwych, ac yma y bu farw; ac ynddi yr oedd un o lysoedd y llywodraeth. Iachâodd yr Arglwydd Iesu amryw ddeillion yn agos iddi; ac yma y llettyodd gyda Zaccheus y pen publican. Nid ydyw ond pentref er pan ddinystriwyd hi gan y Rhufeiniaid, yn cynnwys yn nghylch 50 o dai tlodion.

JERIMOTH, ירימות [*uchelfaoedd*] yr oedd amryw o'r enw hwn na roddir i ni ddim hanes am danynt ond yn unig eu henwau. 1 Cron. 7. 7. a 8. 14. a 23. 23. a 24. 30.

JEROBOAM, *Heb.* ירבעם [*gwrthwynebwr y bobl*] 1. Mab Nebat a Serfah, o Sereda yn Ephraim. Yr oedd Jeroboam yn ŵr grymus nerthol.† Canfu Solomon ei fod yn llanc yn medru gwneuthur gwaith, ac a'i gwnaeth yn oruchwyliwr ar holl faich tŷ Joseph; sef i gasglu trethi oddiar lwythau Ephraim a Manasseh, neu i olygu y deyrned o wŷr fyddai yn cael eu hanfon oddi yno i gynnorthwyo y gwaith yn Jerusalem. Y prophwyd Ahiah y Siloniad a gyfarfu âg ef yn myned allan o Jerusalem: rhwygodd ei wisg newydd oedd am dano, sef am y prophwyd, a rhoddodd ddeg darn i Jeroboam, yn arwydd y byddai i'r Arglwydd ei wneuthur yn frenin ar ddeg o lwythau Israel. Yr oedd hyn yn gerydd ar dŷ Dafydd, oblegid eilunaddoliaeth Solomon ei fab. Yr oedd y wlad hefyd gwedi ei llygru yn fawr, a chwedi ei gogwyddo gyda Solomon, a thrwy ei siampl, i'r un pechod. 1 Bren. 11. 33. Heb ddysgwyl am farwolaeth Solomon, tebygol iddo ef barotoi meddyliau y bobl i wrthryfel; am hyny ceisiodd Solomon ei ladd ef: ar hyny ffôdd Jeroboam at Sisac brenin yr Aipht. Sisac, tebygol, oedd olynwr Pharoah, merch yr hwn a briododd Solomon; ond hwyrach o wahanol deulu, a gwahanol hawl. Yr unig frenin ar yr Aipht yw a elwir wrth ei briodol enw; ac yr un yw, bernir, a Sesostris yr hanesion Paganaidd. Gwedi marwolaeth Solomon, yr Israeliaid a ymgasglasant i Sichem i goroni Rehoboam ei fab yn frenin; trwy Jeroboam y maent yn ceisio rhyddhad, ac ysgafnhad oddiwrth iau drom ei dad. Rehoboam a wrthododd gynghor yr hynafgwyr yn yr achos, a thrwy gynghor y gwyr ieuainc, a'u hatebodd hwynt yn arw. Ar hyn, gwrthryfelodd y deg llwyth, lladdasant Adoram, yr hwn oedd ar y dreth, a gyrasant Rehoboam i ffoi i Jerusalem, a gosodasant Jeroboam yn frenin. Yn lle ymgadarnhau yn y freniniaeth, trwy rodio yn ffyrdd yr Arglwydd, yn ol geiriau y prophwyd wrtho, dechreuodd ymgadarnhau â threfydd, a delw-addoliaeth. Cyfrwysdra a challineb dynol a'i harweiniodd; ac yn gyfrwys i rwystro y bobl i fyned i Jerusalem i addoli, yn ol gorchymyn yr Arglwydd, rhag trwy hyny i galon y bobl ddychwelyd yn ol at Rehoboam, gwnaeth ddau lo; gosododd un yn Bethel, yn y parth deheuol, a'r llall yn Dan, yn y parth gogleddol i'w deyrnas. Gwnaeth dŷ uchelfeydd, a gwnaeth offeiriaid o'r rhai gwaelaf o'r bobl: gwnaeth uchel ŵyl ar y pymthegfed dydd o'r wythfed mis, 'y mis a ddychymygasai efe yn ei galon ei hun,' fel yr uchel ŵyl yn Judah, sef gwyl y pebyll ar y seithfed mis; ac a offrymodd yn lle yr offeiriaid ar yr allor y dydd hwnw: a'r peth hyn a aeth yn *bechod*. Dywedodd wrth y bobl, 'Gormod i chwi fyned i fynu i Jerusalem: wele dy dduwiau di, O Israel, y rhai a'th ddug di i fynu o wlad yr Aipht.'

Gwrandawodd y bobl yn gyffredinol arno, a thrwy hyn gwnaeth i Israel bechu yn ddirfawr, a chilio oddiar ol yr Arglwydd. Yr oeddynt o'r blaen, yn niwedd teyrnasiad Solomon, gwedi ymlygru yn fawr, a chwedi dirywio yn dost oddiwrth dduwioldeb eu tadau, yn niwedd teyrnasiad Dafydd, a dechreu teyrnasiad Solomon. Ond ar yr achlysur hwn, ymadawsant yn gyhoeddus ac yn gyffredinol âg addoliad, a thrwy hyny â Duw ei hun. Nid gau Dduw yr oeddynt yn ei addoli; omd y gwir Dduw, y mae yn ddiammeu, mewn dull na threfnodd Duw, ond a ddychymygodd Jeroboam iddynt. O hyn allan, nes eu dystrywio, y mae eu dirywiad yn raddol yn cynnyddu; cyfododd yr Arglwydd brophwydi yn eu plith o bryd i bryd, i dystiolaethu yn erbyn eu pechodau, a'u rhybuddio o'r canlyniadau adfydus iddynt yn y diwedd; er bod llawer o ddynion yn ofni Duw yn eu plith, yn holl amser yr enciliad pechadurus hwn, etto nid adferwyd mo honynt gwedi hyny; ni bu un brenin duwiol yn llywodraethu arnynt, fel ar Judah, a ymdrechodd eu diwygio, a'u hadferyd at yr Arglwydd.

Daeth gwr o Judah, ac a lefodd yn erbyn yr allor yn Bethel, ac a brophwydodd y byddai i wr gael ei eni o dŷ Dafydd, a'i enw Josiah, yr hwn a halogai yr allor, trwy losgi arni esgyrn yr offeiriaid: ac yn arwydd o hyny, 'Wele,' meddai ef, 'yr allor a rwygir, a'r lludw arni a dywelltir;' ac felly y bu. Ar hyn Jeroboam a estynodd ei law, ac a orchymynodd ei ddal; diffrwythodd ei law fel nas gallai ei thynu ato. Ar ddymuniad y brenin, iachawyd ei fraich trwy weddi y prophwyd. Gwrthododd y prophwyd groesaw y brenin, yn ol gorchymyn yr Arglwydd, na fwytâi, ac nac yfai yno, yn arwydd o'i ffieiddiad o'r lle, oblegid y gwaith pechadurus oedd yn cael ei wneuthur yno. Er hyny ni ddychwelodd Jeroboam o'i ffordd ddrygionus: ond aeth y peth hwn yn bechod i dŷ Jeroboam, i'w ddiwreiddio ac i'w ddileu oddiar wyneb y ddaear. Yr oedd iddo ryfeloedd gwastadol, agos, â thŷ Dafydd, sef â Rehoboam ac Abiam. Lladdwyd iddo 500,000 o wyr mewn un frwydr. Abiah dduwiol, mab Jeroboam a glafychodd; y mae yn gyru ei wraig yn ddyeithr âg anrhegion at y prophwyd Ahiah yn Siloh; ar rybydd Duw y mae y prophwyd yn ei hadnabod, ac yn cyhoeddi barn Duw yn ddychrynllyd yn ei erbyn; ac yn dywedyd mai Abiah yn unig o dŷ Jeroboam a ddoi i'r bedd, o herwydd cael peth daioni ynddo tu ag at Arglwydd Dduw Israel. Edr. ABIAH. Bu farw Jeroboam wedi teyrnasu 22 o flynyddoedd, a Nadab ei fab a deyrnasodd yn ei le ef.

Y mae holl hanes Jeroboam yn neillduol o addysgiadol. Yn un peth, gwelwn y perygl mawr o ddilyn ein synwyr cnawdol ein hunain, yn groes i orchymyn Duw, i ddyrchafu ein hunain, mewn parch a mawredd bydol: y mae yn sicr o ddiweddu yn ein hafiwyddiant a'u dinystr.—Gwelwn hefyd mor rhyfedd ydyw rhagluniaethau Duw fod yn gadael i gau grefydd gael ei sefydlu a llwyddo yn y byd, er twyllo a dystrywio llawer trwy hyny. Ond yn gyffredinol, y mae gau grefydd a gau egwyddorion yn ymledaenu ac yn llwyddo yn gyntaf yn mhlith y sawl a gam-ddefnyddiasant ac a wrthodasant y gwirionedd; y rhai a attaliasant y gwirionedd mewn anghyfiawnder, ac a droisant ras Duw yn drythyllwch. Ar ol eu llwyddiant

* Gwel hefyd Volney, a Shaw's *Travels*.

† *Jeroboamus* vir sagax, inquietus, & dominandi avidus ingentisque spei plenus. Witsius.

Digitized by Google

a'u breintiau mawrion yn nyddiau Dafydd a Solomon, mae y bobl hyn yn ymadael â Duw, a gau grefydd yn llwyddo yn eu plith.

Gwelwn hefyd, fod dyledswydd ar wyr Duw o bob gradd, ddwyn tystiolaeth gyhoeddus yn erbyn y rhai sydd yn dilyn pechodau cyhoeddus ac yn gwneuthur i eraill bechu, fel y gwnaeth gwr Duw yma yn erbyn Jeroboam a'i allor. Rhyfygus iawn ydoedd ymddygiad Jeroboam tu ag ato; ac er i'r Arglwydd ddangos arwydd amlwg o'i anfoddlonrwydd, ac mai cenad dros Dduw ydoedd yn cael ei anmharchu ganddo ef, etto gwelwn diriondeb y gwr hwn yn gweddïo drosto, a'r Arglwydd yn ateb ei weddi yn achos y cyfryw bechadur cyhoeddus a rhyfygus—fel hyn talwyd iddo dda am ddrwg.

Yn ddiweddaf, canfyddwn, er i gau grefydd lwyddo dros amser, etto amser terfynedig ydyw; ac un o dŷ Dafydd, yr hwn yr ydoedd Josiah yn gysgod o hono, yn yr amser priodol, a ddystrywia bob gau grefydd, a phob cyfeilliornad oddiar wyneb y ddaear; a bydd ei farn ef yn amlwg ar gau athrawon, y rhai, er mwyn budr elw, oeddynt yn offerynau y cyfryw ffieidd-dra. yn groes i wirionedd Duw. Y mae pob peth yn derfynedig gan Dduw, ac a gyflawnir yn ddiau yn eu hamser: bydd y gwirionedd yn fuddugoliaethus, ac yn ogoneddus yn y diwedd.

2. Bu brenin arall o'r enw hwn ar Israel, sef Jeroboam mab Joas, o hiliogaeth Jehu. Dechreuodd deyrnasu A.M. 3179, ac a deyrnasodd un mlynedd a deugain. Gwnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, ac ni chiliodd oddiar ffordd Jeroboam mab Nebat, yn ei gau grefydd. Er hyny, trwyddo ef y dyrchafodd yr Arglwydd y deyrnas i'w gwychder mwyaf, trwy 'ddwyn adref ei therfynau,' oddiar y Syriaid ac eraill, yn ol gair yr Arglwydd trwy Jonah y prophwyd. Darostyngodd yr holl wlad o du y dwyrain i'r Iorddonen, o fynydd Libanus i'r Môr Marw, y rhai yr oedd cenedloedd cymydogaethol gwedi eu dwyn oddi arnynt. Ymddengys oddiwrth ysgrifeniadau Hosea ac Amos, y rhai oeddynt yn cyd-oesi â Jeroboam, fod gwlad Israel yn llygredig ac yn anfoesol iawn; yn llawn o falchder, anghyfiawnder, gorthrymder, glodd-est, ac eilun-addoliaeth. Nid yn hir y bu wedi ei farwolaeth cyn i'r Arglwydd dori ymaith ei deulu yn llwyr, yn ol prophwydoliaeth Amos. Gwel pen. 7. 11. 2 Bren. xiv, xv. Hos. 1. 4.

JERUBBAAL, JERUBBESETH. Edr. GEDEON. 2 Sam. 11. 21. Barn. 6. 22.

JERUEL, ירואל [*ofn Duw*] anialwch o du y gorllewin i'r Môr Marw, o du y dehau i Judah, yn agos i Sis, lle y dystrywiodd yr Arglwydd elynion Jehosaphat. 2 Cron. 20. 16.

JERUSA, ירושה [*meddiannydd yr etifeddiaeth*] merch Zadoc, a mam Jotham mab Uzziah, brenin Judah. 2 Bren. 15. 33.

JERUSALEM, ירושלם [*gweledigaeth heddwch*] rhoddir tri enw ar y ddinas hon yn yr ysgrythyrau; sef Jebus, Salem, a Jerusalem. Jos. 15. 8. a 18. 28. 1 Cron. 11. 4. Ps. 76. 2. Galwyd hi Jebus oddiwrth mab Canaan, ac ŵyr Ham o'r enw hwn. Gen. 10. 16. Tebygol mai hi a feddylir wrth y Salem yr oedd Melchisedec yn frenin arni, ac yn arwyddo, medd yr apostol, 'Brenin heddwch;' (Heb. 7. 2.) ac yn hyn, fel yn y cwbl perthynol iddo, yr oedd y gwr enwog hwnw yn cysgodi yr Arglwydd Iesu, yn mha ddinas yr ymddangosodd EFE, yr hwn yw Tywysog tangnefedd, ac y gosododd i fynu ei deyrnas heddwch yn y byd. Pa bryd, neu ar ba achlysur, y cafodd hi yr enw Jerusalem, sydd ansicr. Enw cyfansoddol ydyw o ddau air Hebraeg, y mae yn amlwg, sef ירא *gweled*, a שלם *heddwch*. Jerusalem ydoedd y ddinas fwyaf enwog yn ngwlad Canaan, a'r fwyaf enwog, ar amryw gyfrifon, a fu yn y byd erioed. Yr oedd yn sefyll 42 o filltiroedd o du y dwyrain i Fôr y Canoldir, a 25 o filltiroedd o du y gorllewin i afon yr Iorddonen. Yr oedd gwedi ei hadeiladu ar fynyddoedd, â mynyddoedd yn ei hamgylchu. Yn nyddiau Josuah yr oedd yn un o freniniaethau cryfaf gwlad Canaan; yr oedd Adonizedec, brenin Jerusalem, yn un o'r pum brenin a gynghreiriasant â'u gilydd yn erbyn Josuah, a orchfygwyd ganddo ef, a ddiystyrwyd, ac a grogwyd ar brenau. Yr oedd rhan o honi yn llwyth Judah, a rhan arall yn llwyth Benjamin. Jos. 15. 63. a 18. 28. Gwedi marwolaeth Josuah, dywedir i feibion Judah ymladd yn erbyn Jerusalem, ei hennill, a'i llosgi â thân. Barn. 1. 8. Ond tebygol na oresgynasant fynydd Sïon, a dywedir (adn. 21.) fod y Jebusiaid yn trigo gyd â'r Benjaminiaid yn Jerusalem. Y Jebusiaid wedi hyn a'i hadeiladasant, ac a'i cadarnhasant yn y fath fodd fel yr oeddynt yn hôni y gallai y cloffion a'r deillion ei hamddiffyn yn erbyn Dafydd. 2 Sam. 5. 8. Hwyrach iddynt roddi y deillion a'r cloffion i'w hamddiffyn, er dirmyg ar Dafydd a'i filwyr; a bod y rhai hyny yn cablu Dafydd. Gellir cyfieithu y geiriau, *Am iddynt ddywedyd, sef y dall a'r cloff, ni ddaw efe i mewn.* Eraill a farnant mai wrth y dall a'r cloff y meddylir eilunod y Jebusiaid, yn y rhai yr ymddiriedent; y rhai a alwai gweision Dafydd mewn gwawd, 'y dall a'r cloff.' Joab a aeth i fynu yn gyntaf, ac ennillwyd yr amddiffynfa; a Joab a fu flaenor y llu yn ganlynol i hyny. Trigodd Dafydd yn y tŵr, sef Sïon; am hyny galwasant dŵr Sïon, 'dinas Dafydd.' Adeiladodd ddinas newydd o du y gogledd orllewin i'r llall; ac yr oedd dyffryn yn rhedeg o'r gorllewin rhwng y ddau fryn, sef Sïon o du y dehau, ac Acra o du y gogledd; a gyferbyn a'r pen gogledd-ddwyrain i fynydd Sïon, ar fynydd Moriah, yr oedd y deml wedi ei hadeiladu. Yn amser Dafydd a Solomon ychwanegwyd llawer ati. Nid oedd Jebus a gymerodd Dafydd oddiar y Jebusiaid yn ëang iawn. Yr ydoedd yn sefyll ar fynydd o du y dehau i'r deml. Gyferbyn â hi yr oedd mynydd Sïon, lle yr adeiladodd Dafydd ddinas newydd, yr hon a elwid dinas Dafydd, yn mha un yr oedd y tŷ breninol. Rhwng y ddau fynydd hyn yr oedd dyffryn Milo, yr hwn ydoedd yn gwahanu Jebus oddiwrth ddinas Dafydd; a llanwyd hwn i fynu gan Dafydd a Solomon i uno y ddwy ddinas â'u gilydd. 1 Bren. 9. 15. a 11. 27. Gwedi hyny helaethodd Manasseh hi. 2 Cron. 33. 14. Y Maccabeaid a'i hëangasant tu a'r gogledd, trwy gymeryd i mewn drydydd mynydd fel rhan o Jerusalem. Dywed Josephus i Agrippa ychwanegu y pedwerydd mynydd ati, a elwid Bezatha. Yr oedd y ddinas newydd hon yn sefyll o du y gogledd i'r deml, gyd âg afon Cedron. Gan hyny ni bu Jerusalem erioed yn fwy ei maint na phan y cymerwyd hi gan y Rhufeiniaid. Gwel Tacitus, *History, lib.* v.

Y mae yn addas sylwi, oddiwrth y pethau hyn, ar y gwahaniaeth mawr sy rhwng Sïon a Jerusalem; Sïon oedd sefyllfa y tŷ breninol, ac eisteddfod gweiniad y swydd freninol; ond Jerusalem oedd sefyllfa y deml, ac eisteddfod gweiniad y swydd offeiriadol; er eu bod yn gytunol, etto y maent yn wahanedig; a dylem sylwi yn fanwl ar hyny.

Coffêir am amrywiol o byrth iddi:—I'r dehau;—
1. *Haaspoth*, Porth y dom. Neh. 3. 13, 14.——
2. *Haain*, neu *en*, Porth y ffynon. Neh. 3. 15.——
3. *Hammajim*, Porth y dwfr. Neh. 3. 6—26.——
4. *Hasousim*, Porth y meirch. Neh. 3. 28. 2 Cron. 23. 15. Jer. 31. 40.——5. *Hamiphead*, Porth y carchar.——I'r gogledd; 1. *Haggai*, neu *ge*, Porth y glyn. 2 Cron. 26. 9.——2. *Ephraim*, Porth Ephraim. Neh. 12. 39.——3. *Haeshan*, yr hen borth, neu borth y gongl. Jer. 31. 38.——4. *Haddajim*, Porth y pysgod. Neh. 12. 39.——5. *Hazan*, Porth y defaid. Neh. 12. 39. Felly yr oeddynt yn ol eu sefyllfaoedd

Digitized by Google

a'u hamrywiaeth enwau. Ni bu ei muriau erioed yn fwy o fesur na phedair milltir a hanner. Dywed Josephus fod y gwrthglawdd a gododd Titus Vespasian yn ei herbyn yn 39 o ystadau, sef yn nghylch pedair milltir a hanner. Ar ei muriau yr oedd tŵrau (2 Cron. 26. 9. Ps. 48. 12.) sef tŵr Meah, o du y dwyrain; tŵr Hananeel, o du y gogledd; tŵr y ffyrnau, o du y gorllewin; a thŵr Ophel, o'r tu dehau. Neh. iii. Nid oedd helaethrwydd o ddwfr ynddi; a'r dwfr oedd ynddi ydoedd â gradd o halltrwydd yn perthyn iddo. Yn gyfagos iddi yr ydoedd y ffynonau Gihon, Siloam, ac afon Cedron; a dyfroedd Etan, y rhai a ddygodd Pilat trwy ddyfr-ffosydd i'r ddinas. Hezeciah a argaëodd yr aber uchaf i ddyfroedd Gihon, ac a'u dug hwynt yn uniawn oddi tanodd i ddinas Dafydd. 1 Cron. 32. 30. Am fod arwyddion y Presennoldeb dwyfol yn preswylio ynddi, a'i bod yn ddinas sanctaidd, o herwydd addoliad Duw ynddi, yr oedd yn perthyn yn gyffredinol i'r deuddeg llwyth; ac yr oeddynt yn myned i fynu iddi dair gwaith yn y flwyddyn, ar y gwyliau arbenig. Yn nheyrnasiad Rehoboam, cymerwyd ac anrheithiwyd hi gan Sisac, brenin yr Aipht. 1 Bren. 14. 25, 26. 2 Cron. 12. 2—9. Yn nheyrnasiad Amasiah, cymerwyd ac anrheithiwyd hi gan Joas brenin Israel. 2 Bren. xiv. 2 Cron. xxv. Diammeu i'r Assyriaid ei chymeryd yn amser Manasseh. 2 Cron. 33. 11. Aeth Pharaoh Necho i mewn iddi pan wnaeth Jehoiacim yn frenin, er nad ydym yn darllen iddo ei hanrheithio. Difrododd Nebuchodonosor hi fwy nag unwaith, ac wedi gwarchae arni dros ddwy flynedd, llosgodd hi â thân yn yr unfed flwyddyn ar ddeg i Zedeciah. 2 Bren. xxiv, xxv. 2 Cron. xxxvi. Jer. lii. Yn nghylch 136 o flynyddoedd ar ol ei dystrywio, ail-adeiladwyd hi gan Nehemiah, Eliasib, ac eraill. Neh. ii, iii. Ar ol talm o amser cymerwyd hi gan Ptolomy, brenin yr Aipht, a dygodd luoedd lawer o'r Iuddewon oddi yno i'r Aipht, yn nghylch 100,000 o honynt.* Difrodwyd hi yn ofnadwy gan y gelyn creulon hwnw i bob daioni, Antiochus Epiphanes. Lladdodd yn nghylch 40,000, a gwerthodd gynnifer a hyny o'r trigolion i fod yn gaeth-weision. Dwy flynedd wedi hyny, anrheithiwyd hi yn ddychrynllyd gan Apollonius, yr hwn a laddodd lawer iawn o'r trigolion.† Judas Maccabæus a'i hadgymerodd yn mhen tair blynedd a hanner. Pompey, y blaenor Rhufeinaidd, a'i cymerodd hi yn nghylch triugain mlynedd cyn dyfodiad Crist. Gwedi hyny cymerwyd hi gan Socius, a Herod.‡ A.D. 70, dystrywiwyd hi yn hollol gan Titus Vespasian. Pan gymerwyd hi gan Titus yr ydoedd ei hadeiladau a'i hamddiffynfëydd yn gadarn iawn. Tacitus, *Hist. lib.* 5. Edr. IUDDEWON. Yn nghylch 50 neu 60 o flynyddoedd gwedi hyny, adeiladwyd dinas newydd ar fynydd Calfaria, ac ynddi yr oedd eglwys Gristionogol dros oesoedd; ond nid oedd yn oddefol i'r Iuddewon ddyfod yn agos ati. Julian, yr ymerawdwr gwrthgiliedig, yn nghylch A.D. 360, i brofi prophwydoliaethau ein Harglwydd mewn perthynas iddi yn gelwyddau, a gychwynodd ail-adeiladu y ddinas a'r deml; ond daear-grynfâau tanllyd a'i llesteiriasant.§ Yn nghylch A.D. 614, y Persiaid a gymerasant Jerusalem, ac i foddhau yr Iuddewon, dystrywiwyd 90,000 o'r trigolion Cristionogol. Adgymerwyd hi yn fuan gan yr ymerawdwr Heraclius. Yn A.D. 637, cymerwyd hi gan y Saraceniaid o Arabia. Yn A.D. 1079, goresgynodd y Tyrciaid hi. Yn A.D. 1099, Godfrey o Boulogne a'i hennillodd oddi arnynt, yn nghyd â milwyr y groes (*Crusades*) o Ewrop. Yn A.D. 1187, Saladin, llywodraethwr yr Aipht, a'i cymerodd oddiar y Cristionogion. Yn A.D. 1517, y Tyrciaid a'i cymerasant oddiar yr Aiphtiaid; ac yn eu meddiant hwy y mae hyd heddyw. Mae yn bresennol yn nghylch tair milltir o gwmpas, yn dlawd, ac ond ychydig o drigolion ynddi. Yn y lle yr ydoedd y cysegr sancteiddiolaf yn sefyll, y mae teml Fahometanaidd gwedi ei hadeiladu. Ni oddefir i un Cristion fyned i'r cylchoedd hyny dan boen marwolaeth. Gyda llawer o goel-grefydd y mae y Pabyddion, y Groegiaid, a'r Armeniaid Cristionogol, yn ymweled âg eglwys bedd ein Harglwydd; sef yr eglwys sydd yn sefyll ar y lle y claddwyd yr Iesu.* Gwel Sandys, Maundrell, a Dr. Shaw's *Travels*; hefyd, Le Bruyn, Witsius *Hist. Hierosol.*; Rollin, a Prideaux.

Yr hyn yn benaf yr oedd rhagoroldeb Jerusalem yn gynnwysedig ynddo rhagor un ddinas arall a fu ar y ddaear erioed, ydoedd, ei bod yn 'ddinas y brenin mawr.—Duw yn ei phalasau a adwaenwyd yn amddiffynfa.' Ps. xlviii, lxxxvii. Jer. 31. 6. Esa. 33. 21. Yr unig fan oedd, tros oesoedd, lle yr oedd Duw i'w addoli; lle yr ydoedd ei dŷ, a'i offeiriaid yn gweini. 'Dewisodd yr Arglwydd Sïon; ac a'i chwennychodd yn drigfa iddo ei hun.' Ps. 132. 13, 14. Yma yr aberthwyd y gwir aberth; pan ddyoddefodd Iesu o'r tu allan i'w phyrth hi. Heb. 13. 12, 13. Ac oddiar fynydd yr Olew-wydd, yn agos iddi, yr esgynodd i'r gogoniant; gwedi gorphen ei waith ar y ddaear. Yma hefyd y disgynodd yr Ysbryd Glân, ac y sefydlwyd yr eglwys Gristionogol gyntaf ar y ddaear.——O ran adeiladau, cyfoeth, a gwychder, yr oedd yn nyddiau Dafydd, a'i fab Solomon, yn rhagori ar un ddinas arall: ond rhagorodd arni ei hun, pan ddisgynodd yr Ysbryd Glân o'r nefoedd i adeiladu tŷ ysbrydol i fod yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd. Nid oedd Jerusalem, yn ei gwychder mwyaf, ond cysgod o eglwys Dduw dan y Testament Newydd.† Y mae llawer o bethau yn cael eu llefaru am y cysgod, ag sydd yn briodol yn unig i'r gwrth-gysgod, yn yr holl ëangder o honynt. Gwel Esa. 54. 11. Jer. 3. 17. Eglwys y Testament Newydd yw y ddinas sanctaidd, dinas y Duw byw, Jerusalem nefol, y Jerusalem newydd, yn dyfod oddiwrth Dduw i waered o'r nef, wedi ei pharotoi fel priodasferch gwedi ei thrwsio i'w gwr. Ni ddichon geiriau osod allan ogoniant, mawredd, gwychder, a harddwch, yn fwy ardderchog. Nid yr eglwys yn y nefoedd a welodd Ioan, ond 'y Jerusalem newydd, yn dyfod oddiwrth Dduw i waered o'r nef.' 'Y Jerusalem

---

* Prideaux's *Con.*, *part* i., *b.* 8. † *Ibid*, *part* ii., *b.* 3.
‡ *Ibid*, *part* ii., *b.* 7.

§ Bu daeargryn mawr yn y nos, yr hwn a chwalodd y ceryg o hen sylfaeni y deml, ynghyd â'r adeiladau cyfagos. Socrat. *Hist.* iii. 20. Chrysostom, *Orat.* iii. *Contra Jud.* Witsius.

* Yn y flwyddyn A.D. 1832, daeth Jerusalem yn ddarostyngedig i Mehemet Ali, *Pasha* yr Aipht: ond yn A.D. 1841, amddifadwyd Mehemet Ali o'i holl feddiannau yn Syria, a syrthiodd Jerusalem drachefn o dan lywodraeth y Tyrciaid; ac felly y mae yn bresennol, A.D. 1873.——Adeiladwyd addoldy Protestanaidd yn Jerusalem yn ddiweddar, o faintioli i gynnwys 500 o bersonau; ac appwyntiwyd arni Esgob, mewn cysylltiad âg Eglwys Loegr.——Tybir fod Jerusalem yn awr yn cynnwys tua 15,000 o drigolion, o ba rai nid oes ond oddeutu 3000 i 4000 yn Iuddewon; dyeithriaid gan mwyaf wedi ymfudo yno o wledydd pellenig i farw yn mysg beddau eu tadau. Yr iaith a siaredir yn gyffredin yw yr Arabaeg.

Cyfeirir y darllenydd yn neillduol at y gwaith manwl a dyddorol hwnw, Robinson's *Biblical Researches in Palestine*, yn nghyd â'r chwanegiadau arno a ymddangosodd yn y Cylchgrawn Americanaidd, *The Biblical Repository and Bibliotheca Sacra*. Gwel hefyd, *The American Missionary Herald*; and the *Jewish Expositor*; hefyd, Herschel's *Visit to my Fatherland*. Hefyd, *Narrative of a Mission of Inquiry to the Jews from the Church of Scotland*, 1842.—C.

† Yr oedd harddwch a chyfoeth y ddinas a'r deml, a phreswyliad Duw ynddynt, yn gysgodau o bethau mwy. Yr oeddynt yn arwyddo sefyllfa eglwys y Testament Newydd, harddwch a chyfoeth dwyfol yr hon a gynnwysir yn y trysorau hyny, o'r rhai nid oedd holl oludoedd gor-freninol Dafydd a Solomon ond cysgodau tywyll. Y mae hi yn llawenhau am fod Duw yn preswylio ynddi, nid yn gysgodol, ond yn wirioneddol a sylweddol, trwy Grist a'r Ysbryd Glân, gyda chyfranogiad o ras a gogoniant annhraethadwy. Witsius, *Hist. Hierosol. Ex.* X. § 29.



Digitized by Google

uchod yw, yr hon sydd rydd, yr hon yw ein mam ni oll.' Y mae *uchod* cyn dyfod i waered; y mae yn yr arfaeth *uchod* er tragywyddoldeb, yn ei holl drefn, ei gwychder, a'i gogoniant; ac mor ddilys a'i bod hi *uchod*, y bydd iddi ddyfod i waered, ac y gwelir hi yma yn ei gogoniant. Yr wyf yn attolygu ar y neb a ddarlleno hwn, i edrych yn y fan ar y darluniad a roddir yn Dat. xxi., Heb. xii., a Gal. iv. o briodasferch gwraig yr Oen. Ni ddarluniwyd erioed mewn geiriau, yn unrhyw iaith, un gwrthddrych a oddef ei gymharu, yn y radd leiaf, â'r ddinas fawr, y Jerusalem sanctaidd, a ddangosodd yr angel i Ioan. 'Gogoniant Duw a'i goleuodd hi, a'i goleuni hi ydyw yr Oen!'

Y mae meddyliau gwahanol iawn am y Jerusalem a ddesgrifir gan Ioan yn Dat. xxi. Rhai a farnant mai dangosiad ardderchog o'r eglwys yn y nefoedd yw; am fod golygiad ar ddiwedd y byd, a dydd y farn, wedi ei roddi yn pen. xx. Gwel Esgob Newton, Doddridge, &c. Ond mae awdwyr dysgedig, megys Vitringa, ac eraill, o'r farn mai darluniad ydyw o ogoniant yr eglwys ar y ddaear yn y dyddiau diweddaf, o herwydd y rhesymau canlynol:—

1. Y mae cysylltiad eglur a diammheuol rhwng pen. xxi. a pen. 19. 6, 7. Gwedi dystryw teyrnas y bwystfil, y mae teyrnas Dduw i gymeryd lle, ac i'w gosod i fynu yn ogoneddus ar y ddaear, yn ol cysonlais yr holl brophwydi. Yr amser hwn ar ei deyrnas ef ydyw amser priodas yr Oen: ond priodas-ferch yr Oen ydyw y Jerusalem newydd, gwedi parotoi ei hun. 'Tyred,' medd yr angel wrth Ioan, 'mi a ddangosaf i ti y briodas-ferch, gwraig yr Oen.' Dat. 21. 9. Yr oedd yr un angel, tebygol, gwedi dangos iddo Babilon Fawr, mam puteiniaid, a ffieidd-dra y ddaear; yn awr y mae am ddangos iddo wrthddrych hollol wahanol a gwrthwyneb. Y Jerusalem nefol hon a gyferbynir i Babilon: ymddangosiadol, twyllodrus, ac ansanctaidd ydyw gogoniant y naill; ond gogoniant y llall sydd sanctaidd, gwirioneddol, a goruchel. Putain yw y naill, ond gwraig yr Oen ydyw y llall; y mae ei chariad at Grist yn bur, yn serchog, yn fywiog, ac yn ddigymysg.

2. Mae y darluniad o honi yn cyfateb ac yn tebygu i'r prophwydoliaethau hyny yn yr Hen Destament, y rhai nid oes neb yn ammeu nad ydynt yn ddarluniad o'r eglwys dan y Testament Newydd ar y ddaear; megys Esa. xxv, xxxv, lii, lx, lxi. Ezec. xlvii, xlviii. Rhesymol ac addas, gan hyny, yw i ni roddi yr un esboniad ar y naill a'r llall.

3. Nid yw amryw o bethau a briodolir i'r Jerusalem hon ddim yn cyfateb i'r eglwys yn y gogoniant, wedi diweddu pob peth yn y dydd olaf; megys, 1. Ei bod 'yn dyfod oddiwrth Dduw i waered o'r nef.' Dat. 21. 2. Beth sydd i ni ddeall wrth hyn, ond dangosiad o'r eglwys yn ei chyflwr nefolaidd yma ar y ddaear? Y mae eglwys yr etholedigion wedi eu perffeithio, yn niwedd y byd, yn esgyn o'r ddaear i'r nef. Ni bu, ac ni bydd, y ddaear yn anneddfa gogoniant, a dedwyddwch tragywyddol.——2. O'r un natur ydyw y geiriau yn adn. 24. 'Cenedloedd y rhai cadwedig a rodiant yn ei goleuni hi: ac y mae breninoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant a'u hanrhydedd iddi hi.' Ac yn adn. 26. 'A dygant ogoniant ac anrhydedd y cenedloedd iddi hi.' A pen. 22. 2. 'Yn nghanol ei heol hi—yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth—a dail y pren oedd i iachâu y cenedloedd.' Yn y gogoniant tragywyddol ni bydd dim gwahaniaeth cenedloedd—neb yn priodoli yr enw breninoedd yn fwy na'u gilydd—ac ni bydd eisiau iachâd ar y cenedloedd mwyach.

4. Gan fod y llyfr hwn yn brophwydoliaethol, y mae y prophwydoliaethau ynddo yn darlunio cyflwr yr eglwys ar y ddaear. Dyben y brophwydoliaeth yw dangos i wasanaethwyr Duw 'y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder.' Y mae yn wir y bydd cyflwr yr eglwys y dyddiau diweddaf yma ar y ddaear yn tebygu yn hynod i'w chyflwr yn y nefoedd. 'Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, O ddinas Duw.' Ps. 87. 3. Gyd âg enwogrwydd neillduol y gelwir hi y dyddiau hyny yn *deyrnas nefoedd*. Bydd y nef, gynt yn nghauad, yn awr yn agored; bydd y cymundeb rhwng y ddaear a'r nefoedd mor agos, fel y bydd y ddaear 'yn dŷ Dduw, ac yn borth y nefoedd.' Gen. 28. 17. Y nefoedd, a'r pethau sydd uchod, fydd yn benaf yn mryd trigolion y ddaear, fel y byddant megys yn y nefoedd, a chwedi eu gosod yn y nefolion leoedd gyda Christ, yn eistedd ar orsedd-feinciau, ac yn cyfranogi o'i ogoniant. Dat. 1. 6. Eph. 2. 6. Er mai ar y ddaear y byddant, etto bydd llawer o'r nefoedd ynddynt, o ran gradd eu sancteiddrwydd a'u dyddanwch; a byddant hwythau a'u hymarweddiad yn y nefoedd; ac ni bydd yr olwg ddaearol, fydol, gnawdol, ar yr eglwys mwyach ar y ddaear, a welir yn bresennol yn ormodol o lawer.

Mewn perthynas i'r eglwys hon, 1. Gelwir hi yn 'ddinas,' i arwyddo ei chyflwr sefydlog, ei threfn, ei diogelwch, ei gwychder, ei llwyddiant, a'i chyfoeth. Dinas fawr, mewn cyferbyniad i Babilon fawr; ei bod yn perthyn i'r Duw mawr, ac y preswylia ynddi; ac hefyd i arwyddo ëangder ei therfynau, a lliosogrwydd ei thrigolion.

2. Yr oedd 'iddi fur mawr ac uchel.' Dat. 21. 12. Y mae mur yn gwahanu ac yn diogelu, trwy amgylchynu dinasoedd. Yn yr ystyr cyntaf: Y mur ydyw yr athrawiaeth, dysgyblaeth, a llywodraeth yr eglwys, sydd yn gwahaniaethu y wir oddiwrth bob gau eglwys, ac yn cadw allan o honi gyfeiliornwyr a chyfeiliornadau.—Yn yr ail ystyr: Y mae iechydwriaeth yn fur ac yn rhagfur, a gallu dwyfol yn gadarn yn amddiffyn yr eglwys.

3. Yr ydoedd iddi ddeuddeg porth—yr oedd angel wrth bob porth—ac enwau deuddeg llwyth plant Israel wedi eu ysgrifenu arnynt; tri phorth yn edrych ac yn agored tua phob pwnc. Mae cyfeiriad y darluniad yn eglur at Ezec. 48. 31, &c. Defnydd pyrth dinasoedd yw rhoddi dyfodfa iddynt, a gollwng y rhai sydd oddiwng o hyny i mewn, a chauad eraill allan, y rhai nad ydyw breintiau dinasyddion yn perthyn iddynt. Yno hefyd yr ydoedd eisteddfod y cynghor, y barnwyr, a swyddogion y ddinas. Crist, mewn modd arbenig, yw drws y defaid, trwy ba un yr ânt i mewn i'r gorlan (Ioan 10. 7, 9.) ac athrawiaeth yr efengyl am dano yn dderbyniedig trwy ffydd, a bucheddiad cyfatebol iddi, sydd yn rhoddi dyfodiad i mewn; a gwrthodiad o honi, ac ymarweddiad afreolaidd, sydd yn cau allan. 'Efe sydd yn agoryd, ac nid yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid yw neb yn agoryd.' Dat. 3. 7. Ps. 100. 4. a 118. 19, 20. Esa. 26. 2. a 60. 11. Y mae angel wrth bob porth, yn ei swydd weinidogaethol, yn gweini er mwyn y rhai a gânt etifeddu iechydwriaeth. Yr oedd enwau deuddeg llwyth plant Israel yn ysgrifenedig arnynt. Gosodir allan yn y llyfr hwn eglwys y Testament Newydd, dan yr enw deuddeg llwyth Israel, pen. 7. 5, 6, &c., dan ba un y mae pob gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd gwedi darfod. Nid Israel o ran y cnawd, ond y wir eglwys, yn gynnwysedig o Iuddewon a Chenedloedd.—Yr ydoedd tri phorth yn edrych tua phob pwnc. Yr oedd hyn yn dangos y byddai cyrchiad y Cenedloedd iddi o bob cwr o'r ddaear, y byddai derbyniad rhwydd iddynt, ac na byddai dim rhwystr iddynt trwy reolau dysgyblaethol, dynol, ac anysgrythyrol. Y mae cyfeiriad y geiriau yn amlwg at Esa. 66. 11. a Ezec. 48. 31. Os golygir y deuddeg angel yn arwyddo gwir athrawon y gair, fel porthorion, byddant yno yn barod i dderbyn yr holl ddyfodiaid yn groesawgar, ac i roddi pob annogaeth iddynt. Yr oedd y deuddeg ŷch dan y môr tawdd yn edrych bob ffordd, yn arwyddo yr un peth.

Digitized by Google

'Ac yr oedd mur y ddinas â deuddeg sylfaen iddo; ac ynddynt enwau deuddeg apostol yr Oen.' Adn. 14. Nid yw y sylfaen mewn gwirionedd ond un. 'Sylfaen arall nis gall neb ei gosod, heblaw yr un a osodwyd, yr hon yw Iesu Grist.' 1 Cor. 3. 11. Eph. 2. 20. Esa. 28. 16. Ond gelwir hi yn ddeuddeg sylfaen, am mai y deuddeg apostol a'i gosodasant yn athrawiaethol: y mae yn ddeuddeg yn athrawiaethol, sef sail yr apostolion a'r prophwydi, er mai un ydyw mewn gwirionedd. Ni rydd Duw un athrawiaeth newydd i'w eglwys byth, ac ni bydd crybwylliad yn nydd y Jerusalem newydd am un athrawiaeth arall, ond athrawiaeth bur y deuddeg apostol.

'A'r hwn oedd yn ymddyddan â mi, oedd â chorsen aur ganddo, i fesuro y ddinas, a'i phyrth, a'i mur.' Adn. 15. Cymh. Ezec. 40. 3, 4, 5. Yr oedd y gorsen, fel hòno o eiddo Ezeciel, yn chwe chufydd o hŷd. Gair Duw, diammeu, yw y gorsen aur, wrth ba un mae yr eglwys, a phob peth perthynol iddi, i gael eu trefnu yn fanwl. Yr oedd y babell a theml Solomon i gael eu gwneuthur wrth bortreiadau a roddwyd i Moses a Dafydd; felly gair Duw yw portreiad y wir eglwys; pob peth nad yw yn cyfateb i hwnw, nid yw yn perthyn i'r Jerusalem newydd.

Yr oedd y ddinas yn bedair onglog, ei hŷd, a'i lled, a'i huchder, yn ogymaint; sef yn ddeuddeg mil o ystadau. Felly yr oedd teml Ezeciel. Pen. 48. 16, 17. Felly hefyd yr oedd y cysegr sancteiddiolaf yn ugain cufydd bob ffordd. Dengys hyn y bydd yn ëang, yn drefnus, yn sefydlog, ac yn anghyfnewidiol; yn cynnwys yr holl genedloedd, ac yn deyrnas ddisigl. Heb. 12. 27, 28. Ps. 87. 5. Eph. 3. 8. Nid oes i ni feddwl, tebygol, y byddai uchder y ddinas yn ddeuddeg mil o ystadau; byddai hyny yn ddull anhardd ac afluniaidd arni; ond y byddai holl adeiladau y ddinas yn *ogyfuwch*; sef y byddai yr holl eglwysi, a'u holl aelodau, yn gydradd mewn breintiau.

'Mesurodd ei mur hi yn gant a phedwar cufydd a deugain;' sef o uchder. Dat. 21. 17. Nifer cyfriniol yw yn y llyfr hwn, pen. 7. 4, 5, 6. a 14. 1. lliosogydd pa un yw deuddeg. Y mae mesur uchder y mur, yn arwyddo y byddai yr holl reolau a chyfreithiau ag oedd yn gwahaniaethu y ddinas oddiwrth holl gymdeithasau a llywodraethau eraill, yn cyfateb ac yn cyduno âg athrawiaeth y deuddeg apostol. Yn ol yr athrawiaeth hon y bydd yr holl adeilad yn cael ei gwneuthur a'i llywodraethu. Bydd ymddangosiad yr holl fur yn bur ac yn ogoneddus, yn debyg i faen jaspis; ac yn debyg yr olwg arni i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, ac yn trefnu ac yn llywodraethu y cwbl. Am y maen hwn, a'r meini sydd yn addurno y sylfaen, edrych dan yr amrywiol enwau.

'A'r deuddeg porth, deuddeg perl oeddynt;' yn cyfateb i Jerusalem brophwydoliaethol Esaiah; pen. 54. 11, 12. yn arwyddo y byddai y dyfodiad dysgyblaethol iddi yn bur, yn ardderchog, ac yn ogoneddus.

'A'r ddinas oedd aur pur, yn debyg i wydr gloyw;' sef aelodau yr eglwys yn y dyddiau hyn fyddant yn rhagorol, yn bur, yn werthfawr, ac yn ogoneddus. Esa. 60. 17.

'A'r deuddeg porth, deuddeg perl ydynt; a phob un o'r pyrth oedd o un perl:' sef athrawiaeth y deuddeg apostol.

'A theml ni welais ynddi.' Edr. Teml.

'A'i phyrth hi ni cheuir ddim y dydd: canys ni bydd nos yno.' Cyfeiria y geiriau at Esa. 60. 11. a Zech. 14. 7. Bydd y fath gyrchfa iddi o bob parth o'r byd, fel y bydd ei phyrth yn agored yn wastad. 'Ni bydd nos yno,' a arwydda na bydd tywyllwch cyfeiliornadau, na gau-athrawiaethau, yn yr eglwys yr amser hwnw; 'ac nid â i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra, na chelwydd;—a hwy a ddygant ogoniant ac anrhydedd y cenedloedd iddi hi.' Pa bethau bynag oedd yn wych, yn ddefnyddiol, ac yn ganmoladwy, yn mhlith cenedloedd y ddaear, fydd yn yr eglwys y dyddiau hyny: megys dysgeidiaeth, deall, areithyddiaeth, mawrhydi llywodraethwyr, a doniau ac ysbryd addas i lywodraethu yn ddoeth ac yn gyfiawn: bydd pob peth gwych a defnyddiol, heb ddim yn groes i hyny: bydd mawrhydi sanctaidd ynddi yn gyfiawn ac yn ardderchog.

Am yr afon, a phren y bywyd, edrych dan y geiriau hyny.

JESAIAH, ישעיה [*iechydwriaeth yr Arglwydd*] 1. Mab Hananiah. 1 Cron. 3. 21.——2. Mab Jeduthun. 1 Cron. 25. 3.

JESANAH, ישנה [*yr hwn sydd yn cysgu*] dinas yn Ephraim. 2 Cron. 13. 19.

JESARELAH, ישראלה [*Duw yn gorfod*] y seithfed teulu o'r Lefiaid. 1 Cron. 25. 14.

JESEBEAB, ישבאב [*trigfan y tad*] penaeth y pedwerydd teulu ar ddeg o'r offeiriaid. 1 Cron. 24. 13.

JESER, ישר [*uniawn*] mab Caleb o'i wraig Azubah. 1 Cron. 2. 18.

JESISAI, ישישי [*hen*] mab Jahdo, a thad Michael. 1 Cron. 5. 14.

IESU, *Heb.* יהושע *Gr.* Ιησους, [*achubwr, gwaredwr*] mae y gair *Heb.* יהושע yn gyfansoddol o יה *Iah*, neu יהוה *Iehofah*, a הושע *achub*, *achubwr*, ac yn arwyddo *Iehofah yr Achubwr.* Rhoddwyd yr enw hwn yn gyntaf gan Moses i'w weinidog Josuah, yr hwn o'r blaen a elwid הושע Osea. Num. 13. 16. Dywedir gan yr angel, trwy orchymyn Duw, diammeu, am yr Arglwydd Iesu, 'A thi a elwi ei enw ef Ιησους,' *Iehofah y Gwaredwr.** Gwel Esa. 25. 9. a 45. 17—25. Jer. 23. 6. 'Oblegid efe,' Αυτος (הוא) 'a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau.' Cymh. Luc 2. 11. Act. 13. 23. Luc 9. 56. a 19. 10. Ioan 3. 17. a 12. 47. 1 Tim. 1. 15.

Trwy ei waith yn cael ei alw Ιησους, *Iehofah y Gwaredwr*, cyflawnwyd y brophwydoliaeth sydd yn rhagddywedyd y gelwid ef *Immanuel*, yr hyn o'i gyfieithu yw *Duw gyda ni.* Edr. Immanuel, Enwaediad.

Gelwir ef *Crist*, am mai eneiniog y Tad ydyw. Edr. Crist. Gelwir ef *Iesu*, am mai *gwaredwr* pechaduriaid ydyw. Mat. 1. 21. *Iesu* yw ei enw, a *Christ* yw ei gyfenw. Iesu Grist, gan hyny, yw y gwaredwr o osodiad dwyfol, a ragfynegwyd am dano gan Moses a'r holl brophwydi; y rhoddir hanes am dano gan yr efengylwyr, ac a bregethwyd gan yr apostolion i'r holl fyd. Am ei enedigaeth, ei swyddau, amrywiol amgylchiadau ei fywyd, ei farwolaeth, ei adgyfodiad, &c., Edr. dan y geiriau hyn.

Y mae tystiolaethau yr ysgrythyrau yn amlwg am dano; ei fod yn Dduw—ei fod yn ddyn—etto nid dau, ond un person yw. A'r person hwnw, trwy osodiad dwyfol, yn waredwr unigol, cyflawn, tragywyddol, ac yn wrthddrych addoliad i angelion a dynion. Y mae

* Nid yw enw ein Hiachawdwr yn deilliaw o'r *Gr.* ιασω, amser dyfodol y perwyddiad ιαω, ond o'r *Heb.* יהושע——Ystyr yr enw hwn yw, '*Iehofah ein hiachawdwriaeth.*' Felly yn Psalm xx. gelwir ef 'Duw ein hiachawdwriaeth.' Gelwir ef 'Iachawdwriaeth Duw,' yn Luc 2. 30. Gwel Mintert.——Diammeu fod y rhai hyny yn cyfeiliorni sydd yn deilliaw yr enw Ιησους oddiwrth ιαω, yr hwn yn yr amser dyfodol sydd yn gwneyd ιασω, o'r hwn mae Ιασους, a thrwy newid llythyren Ιησους. Fel pe dywedid, *yr hwn a iachâ.* Witsius, *Exer. in Symb.* 9., *sec.* 3.——Yn gywir iawn y sylwodd Theophylact ar Mat. pen. i. του Ιησους ονουμα ουκ ελληνικον εστιν, αλλα εβραικον. Nid Groeg yw yr enw Iesu, ond Hebraeg; yr hwn o'i gyfieithu a arwydda *Iachawdwr.* Y mae yn Iachawdwr, oblegid ei fod yn gwared ei bobl. Gwel Suicer dan y gair Ιησους.

Digitized by Google

yn Dduw o sylwedd y Tad, wedi ei genedlu cyn yr oesoedd; ac yn ddyn o sylwedd ei fam, wedi ei eni yn y byd: gogyfuwch â'r Tad oblegid ei Dduwdod; a llai na'r Tad oblegid ei ddyndod. Heb fod yn Dduw, nis gallasai ein gwaredu; heb fod yn ddyn, nis gallasai ddyoddef a marw drosom. Edr. **Aberth.** Ymddengys ei fod yn Dduw oddiwrth yr ystyriaethau canlynol: 1. Dywed ei hun, ei fod o'r un hanfod a'r Tad. Ioan 10. 30, 33. a 14. 11. a 5. 18. a 17. 21, 22. Phil. 2. 6.——2. Priodolir enwau iddo na pherthyn i neb ond Duw yn unig; megys, 'Iehofah—y Duw cadarn—Tad tragywyddoldeb—un sydd uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd—y gwir Dduw, a'r bywyd tragywyddol.' Esa. 9. 6. 1 Ioan 5. 20. Rhuf. 9. 5.——3. Mae priodoliaethau Duwdod yn cael eu rhoddi iddo; sef ei fod yn dragywyddol, yn hollbresennol, yn hollwybodol, yn hollalluog, ac yn anghyfnewidiol, &c. Mic. 5. 2. Mat. 18. 20. Dat. 1. 8. Heb. 13. 8, &c.——4. Mae y cyfryw weithredoedd yn cael eu priodoli iddo na ddichon neb eu gwneuthur ond Duw yn unig; sef ei fod gwedi creu, ac yn cynnal, pob peth; yn rhoddi gallu i ddynion i wneuthur gwyrthiau rhyfeddol, heblaw a wnaeth efe ei hun; yn maddeu pechodau; yn anfon yr Ysbryd Glân; yn cyfodi y meirw; yn rhoddi bywyd tragywyddol; ac yn barnu pawb yn y dydd olaf: dyma weithredoedd na ddichon neb ond Duw yn unig eu cwblhau. Ioan 1. 3. Heb. 1. 3. Act. 14. 3. Luc 5. 21. Ioan 16. 7. a 5. 21—29.——5. Mae yr addoliad dyledus i Dduw yn unig yn cael ei roddi iddo. Ioan 5. 23. Heb. 1. 6. Dat. 5. 13. Act. 7. 59.——6. Mae y geiriau yn llefaru am yr Iehofah anfeidrol yn yr Hen Destament, yn cael eu priodoli i'r Arglwydd Iesu yn y Testament Newydd. Cymh. Esa. 45. 23. â Rhuf. 14. 10, 11. Esa. 40. 3. â Mat. 3. 1, 2, 3. Zech. 12. 10. â Ioan 19. 34—37. Esa. vi. â Ioan 12. 39. Esa. 8. 13, 14. â 1 Petr 2. 8.——7. Os nad ydyw Iesu yn Dduw, y mae llawer o eiriau yn yr ysgrythyrau yn ymddangos yn afresymol ac yn ddiystyr; megys y lleoedd canlynol, Rhuf. 1. 3. 1 Tim. 3. 16. Ioan 14. 9. a 17. 5. Phil. 2. 6. 1 Tim. 1. 2. Ps. 110. 1—4. Act. 22. 10. a 9. 17.

Y mae Iesu, y Gwaredwr mawr hwn, nid yn unig yn Dduw, ond yn wir ddyn hefyd. Nid person dynol a gymerodd, ond natur ddynol, i undeb personol â'i Berson Dwyfol. Y mae ynddo ddwy natur, ond un Person—a hwnw yn Berson *Dwyfol.* Mae yn ddyn, ond nid yn *berson* dynol; ond yn Berson Dwyfol, a'r natur ddynol mewn undeb â'r Person hwnw.—1. Cymerodd y Person Dwyfol hwn ein holl natur, ac nid rhan o honi; yr oedd ganddo wir gorph dynol, ac yr oedd y corph hwnw mewn undeb âg enaid sylweddol, ysbrydol, ac anfarwol; a'r ddau yn gwneuthur dynoliaeth gyflawn, mewn undeb â Pherson Dwyfol.——2. Yr oedd holl gynneddfau a theimladau i gorph ac enaid dynol yn perthyn iddo. Yr oedd yn tristâu, ac yn llawenhau; yn bwyta, yn yfed, yn cerdded, yn gweithio, yn teithio, yn diffygio, yn cysgu, yn dyoddef, yn gwaedu, ac yn marw, &c. Esa. 7. 14. Luc 24. 39. Heb. 2. 14. Luc 1. 42. Phil. 2. 7, 8. Ioan 1. 14—47. Esa. liii. Mat. 8. 24.——3. Er iddo gymeryd natur ddynol, ni chymerodd lygredd natur ddynol. Edr. **Genedigaeth.** Anfonodd Duw ei Fab yn wir gnawd; ond *yn nghyffelybiaeth* cnawd pechadurus. Rhuf. 8. 3.——4. Er ei fod yn Dduw, ac yn ddyn, er hyny, nid ydyw efe ddau, ond un Crist. *Un*, nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn gnawd, na thrwy ddwyfoli y dyndod; ond trwy gymeryd y dyndod at Dduw. Y mae sylwedd y ddwy natur yn hollol ddigymysg, er bod undeb personol; a hwnw yn undeb mwyaf goruchel, yn nesaf at undeb y Personau yn yr un Hanfod Dwyfol. Er ei fod o ran ei ddynoliaeth yn ddyn bach, yn cynnyddu mewn doethineb a chorpholaeth, yn dlawd, yn flinedig, &c., etto yr oedd, ar yr un pryd, yn Hollalluog—yn Hollwybodol—yn Dduw unig ddoeth, —Meddiannydd nefoedd a daear—ac heb flino na diffygio, &c.

Trigodd y Person rhyfedd hwn yn ein plith ni yma yn y byd, ac a fu ddeng mlynedd ar hugain yn ddarostyngedig i'w rieni, mewn amgylchiadau isel, ac yn adnabyddus i ond ychydig yn y byd. Y geiriau yn Luc 3. 23. *Και αυτος ην ο Ιησους ωσει ετων τριακοντα αρχομενος*, 'A'r Iesu ei hun oedd yn nghylch dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain oed,' a gyfieitha rhai, 'Yn awr y bu Iesu ei hun yn nghylch deng mlynedd ar hugain yn ddarostyngedig (sef i'w rieni. Gwel pen. 5. 21.) ac efe (fel y tybiwyd) yn fab Joseph.' Gwel Campbell *in loc.* Parkhurst dan y gair *Αρχομενος*. Ganed ef yn Bethlehem, mewn *stabl:* yn Nazareth, yn Galilea, y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, cyn dechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Nid oes ond ychydig neu ddim hanes gwedi ei roddi am yr holl yspaid hwn o'i fywyd. Ni chafodd ddim dysg na dygiad i fynu, ond yr hyn, tebygol, a allodd ei rieni roddi iddo yn ol y gyfraith. Deut. 4. 9, 10. a 6. 7. Ioan 7. 15. Dywedir ei fod yn y deml yn mhlith y doctoriaid pan yn ddeuddeng mlwydd oed. Edr. **Doctoriaid.** Yr oedd yn deall, fel yr oedd yn ddyn, yr amser hwnw, ddyben mawr ei ddyfodiad i'r byd. 'Oni wyddech,' medd efe wrth ei rieni oedd yn ymofyn am dano, 'fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthynant i'm Tad?' Fel y cynnyddodd mewn oedran, yr oedd yn hynod mewn doethineb, a chorpholaeth; yn cynnyddu yn y naill fel yr oedd yn cynnyddu yn y llall. Yr oedd ei holl agwedd, a'i holl ymddygiad yn y dyddiau boreuol hyn, yn dra addas, synwyrol, ac ennillgar: y mae hyny yn arwyddocaol yn y geiriau iddo 'gynnyddu mewn ffafr gyda Duw a dynion.'—'A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhaodd yn yr Ysbryd, yn gyflawn o ddoethineb; a gras Duw oedd arno ef.' Luc 2. 40. Ni thyfodd erioed ar y ddaear blanigyn mor hardd, ac mor hyfryd! Y mae rhai yn barnu fod y geiriau *χαρις Θεου ην επ' αυτω, a gras Duw oedd arno ef*, yn arwyddo y gradd uchaf o harddwch a phrydferthwch. Gellir barnu fod ei wedd, ei wynebpryd, ei agwedd, ei gorpholaeth, a phob ystum arno, yn hardd, yn weddaidd, ac yn hawddgar, gan ei fod yn hollol rydd oddiwrth bob pechod, holl chwantau a chynhyrfiadau llygredig, sydd yn anffurfio ac yn anharddu dynion.

Arosodd yn ddarostyngedig i'w rieni, a bu fyw gyda hwynt mewn sefyllfa isel a dinodded, hyd nes y dechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus, yn nghylch deng mlwydd ar hugain oed; yr oed y byddai yr offeiriaid a'r Lefiaid yn dechreu gweini yn ngwasanaeth y cysegr. Num. 4. 3—35, &c. a 8. 25. Pan y cyrhaeddodd nerth addas i hyny, gweithiodd gyd â'i ddadmaeth Joseph, wrth ei alwedigaeth fel saer; fel yr oedd yn adnabyddus wrth ei gelfyddyd: 'Onid hwn yw y *saer*, mab Mair,' meddent am dano. Marc 6. 3. Yn rhoddi yn hyn siampl hynod o ufudd-dod i'w rieni, a diwydrwydd ffyddlawn. Yr oedd pawb o'r Iuddewon gynt yn dwyn eu holl blant i fynu i ryw gelfyddyd, neu alwedigaeth. Yr holl amser hwn yr oedd mawrhydi a rhagoriaethau ei Berson dwyfol, dan lèn, gan mwyaf: mewn gosgedd dynion, ac agwedd gwas, yr oedd ffurf Duw yn guddiedig. Ond y mae i sylwi arno, 1. Ei fod yr holl amser hwn yn cynnrychioli ei bobl: yr oedd yn ben-cyfammodwr, ac yn gynnrychiolwr yn mhob man, ac yn mhob peth, yn ei holl fywyd, er pan y lluniwyd ef yn y groth gyntaf. Fel yr oedd yn gynnrychiolwr, yr oedd dros ac yn lle ei bobl. Er eu mwyn hwy yr aeth yn dlawd, ac i'r amgylchiadau isaf. ——2. Yr oedd yn ufuddhau ac yn gweithredu cyfiawnder i'w bobl, yn ei holl fywyd. Ufudd-dod cyflawn oedd ei holl fywyd, yn mhob rhan o'i oes, ac yn mhob sefyllfa, ac amgylchiad. 'Bu ufudd hyd

Digitized by Google

angeu.' Ufuddhaodd yn yr holl ddyn; yn ei gorph, a phob aelod; yn ei enaid, a'i holl alluoedd. Ac fel ag yr oedd yn gynnrychiolwr yn ei holl fywyd, yr oedd ei holl ufudd-dod yn gweithredu cyfiawnder dros ei bobl. Nid oedd achos ei fod yn gyhoeddus i wneuthur hyny; a chan mai hyn ydoedd ei orchwyl penaf yn y byd, treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yn anhynodedd. Pregethodd eraill, wedi eu hawdurdodi a'u cymhwyso ganddo, yr efengyl yn effeithiol ac yn awdurdodol; ond ni weithredodd neb gyfiawnder dros ei bobl ond efe.

Yr oedd yn angenrheidiol iddo wneuthur ei hun yn amlwg, 1. I weithredu gwyrthiau i amlygu pwy oedd, ac i gadarnhau mai efe oedd y gwir Fessiah.——2. I bregethu ac addysgu eraill, fel y Prophwyd mawr addawedig.——3. I ddyoddef a marw. Fel aberth dros ei bobl, yr oedd yn angenrheidiol iddo ddyoddef a marw; nid marw yn unig, ond dyoddef; ac nid dyoddef yn unig, ond marw hefyd, trwy roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer. Ac fel yr oedd yn angenrheidiol fod pob amgylchiad o greulondeb, dirmyg, a gwaradwydd yn nglŷn wrth ei ddyoddefaint a'i farwolaeth, yr oedd yn rhaid iddo ddyoddef a marw yn gyhoeddus, tu allan i byrth Jerusalem. Heb. 13. 11, 13. Ond am nad oedd yn ofynol am hir amser i hyn, ni bu yr Iesu yn gweini yn gyhoeddus, yn ol y farn fwyaf gyffredin, ddim llawer dros dair blynedd. Mae y tair blynedd hyn o'i fywyd cyhoeddus, yn dangos pa fath ydoedd ei holl fywyd cyn hyny—rhyfeddodau ydyw i gyd! Er ei fod yn byw mewn tlodi, heb le i roddi ei ben i lawr; yn gystuddiol, heb ddyddanydd; yn erlidiedig, heb amddiffynwr; etto, yr oedd yn myned oddi amgylch gan wneuthur daioni i eraill: yn mhob amgylchiad yr un gwrthddrych oedd ganddo yn ddyfal yn ei olwg, yn ddiflino ac yn ddiddiffygio; sef gogoniant Duw a llesâd dynion. Gwelwn allu; ond gallu yw i ddiogelu, ac nid i beri dychryn; gallu gwedi ei dyneru â thiriondeb, yn boddhau ac yn cysuro, tra byddo yn gweithio parchedig ofn. Tŷrwyd pob pethau tirion i gyd yn hyfryd ynddo: pob mawredd ac ardderchogrwydd dwyfol; pob doniau a rhadau dynol; pob peth sanctaidd a grasol, ydynt oll yn cyd-gyfarfod ynddo ef. Gwelwn ef yn cyfeillachu â phrophwydi, deddfwyr, ac angelion; yn dangos ei hun yn hollwybodol, yn treiddio i mewn, ac yn chwilio holl ddyfnderoedd calonau dynion; yn hollalluog, yn awdurdodi ar holl naturiaeth; ac yn hòni hawl i agoriadau uffern a marwolaeth; ac yn rhagfynegi ei ddyfodiad y dydd olaf, fel barnwr, gyda mawredd ac ardderchogrwydd dwyfol; etto, ar yr un pryd, gwelir ef yn cofleidio plant bychain; yn addfwyn, yn dirion, ac yn ostyngedig, heb ddyrchafu ei lef yn yr heolydd, na dryllio y gorsen ysig, na diffodd y llin yn mygu; yn galw ei ddysgyblion nid yn weision ond yn gyfeillion, ac yn frodyr; yn fwyn, yn gyfeillgar, yn garedig, ac yn serchogaidd; yn iachâu doluriau y cleifion; yn tosturio wrth y profedigaethus; ac yn dychwelyd y cyfeiliornus. Yn cyd-ddyoddef â gwendidau a *dylni* ei ddysgyblion; yn fwyn, yn ateb ei elynion yn bwyllog ac yn arafaidd, ac yn gorchfygu eu cyfrwysdra trwy ragor-ddoethineb: 'Pan ddifenwyd, ni ddifenwodd; pan ddyoddefodd, ni fygythiodd.' Y mae efe oll yn hawddgar! Fel athraw, mae yn anghymarol; mae yn anhyspyddadwy mewn cyffelybiaeth; yn defnyddio i fuddioldeb y dygwyddiadau mwyaf cyffredin bywyd; yn corphori y doethineb dyfnaf yn y dammegion mwyaf eglur; yn traddodi y gwirioneddau dyfnaf gyd âg ardderchogrwydd esmwyth, hawdd, ac agos atom; yn argyhoeddi rhagrithwyr gyda mawredd, llymdra, a digllonedd sanctaidd. Wrth ddarllen hanes yr efengylwyr am dano, gwelwn ef â llygad y meddwl megys yr oedd yma yn y byd, fel pe buasem gwedi ei weled yn y cnawd, a chyfeillachu âg ef. Mae y drych sydd yn ei ddangos yn ddwyfol, yn gystal a'r gwrthddrych a ddadguddir ynddo. Gwyn eu byd y rhai a welsant ei ogoniant ef yn y drych!*

Y mae amryw farnau wedi bod, ac etto yn bod, am hŷd yr amser y bu yr Iesu yn gweinidogaethu yn gyhoeddus wedi ei fedyddio gan Ioan yn yr Iorddonen, pan ydoedd yn nghylch deg ar hugain oed. Y ffordd gyffredin o gyfrif yr yspaid rhyfedd hwn o amser, yw edrych pa sawl gŵyl y pasc y rhydd yr efengylwyr hanes am danynt y bu yr Iesu yn Jerusalem ynddynt. Nid oes un o'r efengylwyr, heblaw Ioan, yn coffâu ond am yr un y dyoddefodd ynddi. Ond mae yn amlwg, dybygaf, fod Ioan yn coffâu am dair gŵyl pasc, heblaw yr hon y dyoddefodd ynddi: y gyntaf, Ioan 2. 13. —yr ail, pen. 5. 1. Luc 6. 1.—y drydedd, pen. 6. 4. —y bedwaredd, pen. 13. 1. A'r farn fwyaf gyffredin yw, mai ar y pedwerydd pasc y rhoddwyd ef i farwolaeth. Mae rhai yn barnu mai i ŵyl y pasc yr oedd yn myned yn y daith y cawn hanes am dani yn Mat. 19. 1. Os felly rhoddir hanes am bum pasc y bu ynddynt; ond eraill, megys Syr Isaac Newton, a farnant mai i ŵyl y pebyll yr oedd yn myned yn y daith hòno, ac nad oes ond pedwar pasc wedi eu coffâu gan yr efengylwyr. Diammeu ei fod yn Jerusalem ar yr holl wyliau arbenig, sef tair gwaith yn y flwyddyn, yn ol y gorchymyn i'r holl wrrywiaid. Num. 9. 13. Deut. 16. 16. Ond nid oes hanes ei fod oddi eithr mewn pedwar pasc, un ŵyl y pebyll, ac un gysegr-ŵyl. Ioan 7. 1. a 10. 22. Heb allel penderfynu yn gwbl i eithaf manylrwydd, gellir barnu yn gyffredin, i'r Arglwydd Iesu ddyoddef pan oedd o dair ar ddeg ar hugain a hanner i bymtheg ar hugain oed. Gan hyny rhoddodd ei hun trosom yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd, pan oedd yn ei gyflawn synwyr, ei gyflawn rym, a'i gyflawn faintioli; felly yr oedd yn wrth-gysgod oen y pasc, yr hwn oedd i fod yn 'llwdn blwydd, perffaith-gwbl.' Exod. 12. 5. Gwel ychwaneg dan amrywiol enwau eraill. Edrych Lightfoot, Chemnitius, Calmet, Doddridge, Machnight, a holl gysonwyr yr efengylwyr.—'Nid oes, hael Iesu, ni bu, ni bydd dy gystedlydd.'

**JESUA**, ישוע [*iachawdwr*] dinas yn Judah. Neh. 11. 26.

**JESUI**, ישוי [*yr hwn sydd uniawn*] trydydd mab Aser, a phen-teulu. Num. 26. 44.

**JESURUN**, ישרון [*uniawn*, neu *uniondeb*] Gelwir cenedl Israel wrth yr enw hwn bedair gwaith yn yr ysgrythyrau. 'Yr uniawn a aeth yn fras, ac a wingodd.' *Heb.* '*Jesurun* a aeth yn fras,' &c. Deut. 32. 15.——'Ac efe oedd frenin yn Israel.' *Heb.* 'yn *Jesurun*.'——'Nid oes megys Duw Israel.' *Heb.* 'Duw *Jesurun*.' Deut. 33. 5, 26.——'Nac ofna, fy ngwas Jacob; a thi, Jesurun, yr hwn a ddewisais.' Esa. 44. 2. Unwaith y cyfieithir ef *uniawn*; dwywaith *Israel*: yn Esaiah gadawyd ef heb ei gyfieithu, megys y gwelir yma. Rhoddwyd yr enw hwn ar Israel, medd Vitringa, 1. O ran eu gosodiad a'u sefydliad cyntaf fel gwlad a chenedl; yr unig genedl oeddynt â gwybodaeth *uniawn* o Dduw ganddynt, a *gwir* grefydd yn eu plith.——2. Oblegid yr hâd o wir Israeliaid a gadwyd yn eu plith. Yr ydoedd yn mysg y bobl hyn ישרים *rai uniawn*, yn meddwl yn uniawn am Dduw, yn gywir ac yn ffyddlawn tu ag ato, yn gwneuthur cyffes gywir o'i enw, sylfaen a hâd yr eglwys yn yr amser hwnw. Gwel Vitringa *in loc.* Edr. GWINGO.

* Gwel Dr. White's *Ser.* 5. Esgob Newcome's *Observations on our Lord's Conduct*. Dr. Owen *on the Person and on the Glory of Christ*. Hurrion's *Christ Crucified*. Gwel hefyd, *Dissertations on the Principles and Arrangements of a Harmony of the Gospels, by the* Rev. Edward Gresswell, 1830. Dr. Robinson's *Harmony of the Four Gospels, in Greek*. Dr. Lant Carpenter's *Harmony*.—C.

Digitized by Google

mae yr un enw yn addas iddynt. O herwydd hyn, y mae Ioan yn galw y gau athrawon yn eglwys Thyatira, wrth yr enw Jezebel; y rhai oeddynt, fel hithau, yn dysgu ac yn twyllo y Cristionogion i odinebu, ac i fwyta pethau gwedi eu haberthu i eilunod. Y mae barn Duw ar gau athrawon yn cael ei chyhoeddi yn ddychrynllyd yn ei herbyn. 'Wele fi yn ei bwrw hi ar wely, a'r rhai sydd yn godinebu gyda hi, i gystudd mawr, onid edifarhânt am eu gweithredoedd.' Dat. 2. 20—23.

**JEZER**, neu **JESER**, יצר [*cystuddiol*] mab Naphtali, a phen-teulu. Gen. 46. 24. Num. 26. 49.

**JEZRAHIAH**, יזרחיה [*cyfodiad dysglaer yr Arglwydd*] blaenor y cantorion yn perthyn i'r ail deml. Neh. 12. 42.

**JEZREEL**, יזרעאל [*hâd Duw*, neu *braich Duw*] 1. Dinas yn Judah. Jos. 15. 56.——2. Mab Etam, o Judah. 1 Cron. 4. 3.——3. Mab y prophwyd Hosea. Pen. 1. 4.——4. Dinas yn llwyth Issachar, yn agos i ba un yr ydoedd dyffryn Jezreel, neu a elwir yn awr Esdraelon, yn nghylch deng milltir o hŷd. Yr oedd gan Ahab balas yn Jezreel, lle y dystrywiwyd Jezebel, &c. 2 Bren. 9. 30—33. Yr oedd hwn yn un o'r dyffrynoedd mwyaf hyfryd yn ngwlad Canaan,* fel y gellir barnu oddiwrth hoffder breninoedd Israel am y lle, y rhai oeddynt oll yn cyfanneddu yn y naill neu y llall o'r dinasoedd lliosog ynddo.

'A'r fyrder y dialaf waed Jezreel ar dŷ Jehu.' Hos. 1. 4. Y mae Jerome, Luther, a'r Esgob Horsley, yn barnu fod y gair Jezreel yn y lle hwn i'w ddeall mewn ystyr cyfriniol, ac yn arwyddo *hâd Duw*, a gysgodwyd yn mab y prophwyd; sef yr *hâd sanctaidd*, gwir weision ac addolwyr Duw. Yr oedd yr holl freninoedd o deulu Jehu yn eilun-addolwyr, ac yn ganlynol yn erlidwyr gwaedlyd. Y mae gau grefyddwyr bob amser yn erlidwyr y wir grefydd. 'Gwaed Jezreel,' gan hyny, y mae Duw yn bwgwth ei ddial ar dŷ Jehu, yw gwaed yr hâd sanctaidd, ei weision, yr hwn a dywalltodd ei deulu erlidigaethus ef. Am dywallt gwaed teulu Ahab yn Jezreel, yn lle beio arno, y mae yn cael *canmoliaeth*, yn y geiriau nodedig hyn, o enau yr Arglwydd ei hun: 'O herwydd i ti wneuthur yn dda, gan wneuthur yr hyn oedd uniawn yn fy ngolwg i, yn ol yr hyn a'r a oedd yn fy nghalon i y gwnaethost i dŷ Ahab, meibion y bedwaredd genedlaeth i ti a eisteddant ar orsedd-fainc Israel. 2 Bren. 10. 30. Nid oes y crybwylliad lleiaf yn yr hanes iddo wneuthur yn feius yn hyn. Y mae yn wir fod agwedd ei ysbryd yn anaddas yn y cwbl a'r a wnaeth; etto 'gwnaeth yn dda,' medd yr Arglwydd am dano yn hyn, 'yn ol yr hyn *oll* a'r a oedd yn fy nghalon.' Ond creulonder ei deulu yn ol llaw, a'u heilun-addoliaeth, a fygythir yma.

'A'r dydd hwn y toraf fwa Israel yn nglŷn Jezreel.' Tebygol i'r Assyriaid gael rhyw orfodaeth ar Israel yn y glŷn hwn, er nad oes hanes am dani yn yr ysgrythyrau. Neu, hwyrach, mai yn y glŷn hwn y lladdwyd Zechariah, y diweddaf o deulu Jehu ar orseddfainc Israel. 2 Bren. 15. 10. Gwel Zanchy, Rivetus, Pocock, Horsley, Newcome, Scott.

**IFAH**, עוה [*anwiredd*] yr un ydoedd ag Afa, tebygol. 2 Bren. 18. 34. a 19. 13. Talaeth yn Arabia, tebygol, lle y trigai yr Afiaid. Deut. 2. 23.

**IFORI**, שן [*dant*] dant yr elephant, am ei fod y dant mwyaf hynod o holl ddannedd creaduriaid. Sylwedd caled, gwyn, a oddef ei gaboli yn hardd. Y mae rhai o'r dannedd hyn i'w cael yn anferth o faint: rhai yn pwyso o 100 i 125 pwys. Dywedir cael un yn Sumatra, yn yr India Ddwyreiniol, yn pwyso 330 pwys. Dywedir am ifori Ceylon ac Achem, na thry yn felyn wrth ei ddefnyddio. Yn Rwssia, a pharthau eraill o Ewrop, ceir ifori yn aml dan y ddaear: yn Petersburg y mae dant o hono yn pwyso 180 pwys. Y mae i'w gael mewn gwledydd na wyddys fod y creadur hwn erioed yn trigo ynddynt, yr hyn sydd gryn ryfeddod i naturiaethwyr. Yr oedd ifori yn helaeth gynt yn ngwlad Canaan. Gwnaeth Solomon orsedd-fainc fawr o ifori, ac a'i gwisgodd hi âg aur o'r goreu. 1 Bren. 10. 18. Yr oedd llongau Tarsis yn dwyn iddo aur, ac arian, ac ifori, neu elephantiaid.

Yr oedd gan Ahab dŷ ifori; yn cael ei alw felly, tebygol, am ei fod gwedi ei addurno âg ifori. Yr oedd y dull hwn o frith-addurno ystafelloedd âg ifori yn arferedig yn foreu yn mhlith y Groegiaid. Gwel Homer, *Odyss. b.* iv., *l.* 72, 73.

Yr oedd y Rhufeinwyr hefyd yn arfer yr un addurniadau. Horace, *Carm.*, *lib.* ii., *ode* 18., *l.* 1. Ovid, *Metam.*, *lib.* ii., *l.* 3. Lady M. W. Montague's *Letters*, *let.* xxxix. 2 Bren. 22. 39. Amos 3. 15. Byddai y Tyriaid yn gwneuthur meinciau eu llongau gwedi eu haddurno âg ifori. Ezec. 27. 6. Yr oedd llestri o ifori mewn cymeradwyaeth mawr. Dat. 18. 12. Gwel Kypke, *Obs. Sacr.*, *vol.* ii.

Yn gyffelybiaethol, y mae ifori yn arwyddo unrhyw beth hardd, pur, a pharhaus. Edr. Bol, Gwddf, Gwely.

**IGAL**, יגאל [*yr hwn a brynwyd*] mab Joseph o lwyth Issachar; a anfonwyd i yspio gwlad Canaan dros y llwyth hwnw. Num. 13. 7.

**IGDALIAH**, יגדליהו [*mawredd yr Arglwydd*] gwr Duw, a thad Hanau, yr hwn oedd geidwad y gwin yn perthyn i'r deml, i ystafell yr hwn y dygodd Jeremiah y Rechabiaid. Jer. 35. 4.

**JIBSAM**, mab Tola, mab Issachar. 1 Cron. 7. 2. Num. 26. 23.

**IJE-ABARIM**, עיי־העברים [*carneddau Abarim*, neu *yr Hebreaid*, neu *y teithwyr*] gwersyllodd meibion Israel yno, gwedi myned o Oboth. Num. 33. 44. Yr oedd o du y dwyrain i wlad Mòab; yn yr un wlad yr oedd mynyddoedd Abarim. Edr. Abarim.

**IIM**, עיים [*pentwr*] dinas yn Judah. Jos. 15. 29.

**JIMNAH**, ימנע [*rhwystr*] cyntaf-anedig Aser, a phenaeth teulu. Gen. 46. 17. Num. 26. 44.

**ILAI**, עילי [*yr hwn sydd yn dyrchafu*] Aholiad, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 29.

**ILYRICUM**, Ιλλυρικον [*llawenydd*] gwlad ëang yn Ewrop, rhwng Panonia a'r môr *Adriatic*, i'r gogledd o Macedonia, ac a elwir yn bresennol *Sclavonia*.—'O Jerusalem, ac o amgylch hyd Ilyricum, y llenwais efengyl Crist,' medd Paul; yr oedd hyny yn cynnwys Asia Leiaf, a llawer o Ewrop. Rhuf. 15. 19.—Bu yno eglwys Gristionogol dros lawer o gannoedd o flynyddoedd; ac y mae rhai yno hyd heddyw â'r enw Cristionogion arnynt.

**IMLA**, ימלה [*llawnder*] tad Micheah. 2 Cron. 18. 8.

**IMMANUEL**, *Heb.* עמנו־אל *Gr.* Εμμανουηλ, Emmanuel, [*Duw gyda ni*] עם *gyda* נו *ni* אל *Duw*. Arwydda Duw yn ein natur, ac drom ni, sef er ein hiechydwriaeth a'n dedwyddwch. Mab y forwyn yn cael ei alw Immanuel, a gyflawnwyd yn ngwaith Crist yn cael ei alw Iesu, sef *Duw yr Iachawdwr*, enw o'r un arwyddocad ag Immanuel. Edr. Iesu. Esa. 7. 14. a 8. 8. Mat. 1. 23. Arwydda yr enw hwn, Duw yn ein natur—trosom ni—yn ein cymmodi ni â Duw, ac felly yn Dduw yr Iachawdwr i ni. Mae

* Gelwir y dyffryn yn Israel oddiwrth enw ŷ ddinas, ac oddiwrth ffrwythlondeb y lle, yr hwn nid oedd yn mhell oddiwrth Samaria, dinas freninol yr Israeliaid, yr hon oedd wedi ei haddurno â gerddi breninol a phalas ardderchog. Rivetus.

Digitized by Google

yn gosod allan fawredd ei Berson, a natur ei swydd a'i waith.* Y mae prophwydoliaeth Esaiah yn nodedig neillduol am Berson a dull genedigaeth y Messiah, y byddai yn Dduw yn ein natur ni—y byddai iddo gael ei eni o forwyn, yr hyn nis amlygwyd o'r blaen am dano, er ei alw yn fore yn 'hâd y wraig.' Gen. 3. 15. Nid oedd hyn yn ol trefn natur, etto yr oedd yn angenrheidiol anhebgorol. Edr. Geni, Iesu. O forwyn yr oedd y gwir Fessïah i gael ei eni; o forwyn y ganed Iesu; am hyny Efe yw y gwir Fessïah. Ni ddygwyddodd ddim cynt na chwedi hyn yn gyffelyb iddo, ac ni ddygwydd byth chwaith. Duw yn ein natur ni ydyw; a'r natur hòno gwedi ei chymeryd o sylwedd morwyn; a Mair oedd hòno. Gan ei fod yn ein natur, y mae gyda ni, yn un o honom, ac o'n plaid o ran ei swydd. At y brophwydoliaeth nodedig hon, tebygol, y cyfeiria Michah, pen. 5. 3., 'Am hyny y rhydd efe hwynt i fynu, hyd yr amser y darffo i'r hon a esgoro esgor.' Hwyrach ni bydd yn anfuddiol rhoddi yma gyfieithiad yr Esgob Lowth o eiriau y brophwydoliaeth yn Esaiah :—

Gwrandewch yn awr, O tŷ Ddafydd,
Ai bychan genych flino dynion,
Fel y blinech fy Nuw hefyd?
Am hyny Iehofah ei Hun a ddyry i chwi arwydd,
Wele, y forwyn yn beichiogi, ac yn esgor Mab:
A hi a eilw ei enw ef Immanuel.
Ymenyn a mêl a fwyty efe,
Pan† y medro ymwrthod â'r drwg ac ethol y da:
Canys cyn y medro y bachgen hwn
Ymwrthod â'r drwg ac ethol y da,
Y wlad a fydd yn anrheithiedig
Gan ddau frenin, pa un i'th gythryblir.

Arwydda y geiriau y byddai iddo gael magwriaeth â'r un ymborth a phlant eraill yn y wlad hòno, nes y cynnyddai ei gynneddfau i wahaniaethu rhwng drwg a da, ac mewn llai amser nag a fyddai angenrheidiol i hyny, gwedi geni Mab y Forwyn (sef o fewn dwy neu dair blynedd) byddai i elynion dychrynllyd Judah gael eu dystrywio. Hwyrach fod y geiriau 'gwrthod y drwg ac ethol y da,' yn arwyddo, nid yn unig cynnydd a pherffeithrwydd cynneddfau y bachgen hwn, ond hefyd perffaith sancteiddrwydd ei natur. Y mae plant eraill yn gyffredinol, ond eu gadael iddynt eu hunain, yn ethol y drwg ac yn gwrthod y da; ond Immanuel, y bachgen sanctaidd hwnw (a hwnw yn unig) fel y cynnyddodd ei gynneddfau rhesymol i weithredu, a weithredasant yn sanctaidd, i wrthod y drwg, ac ethol y da. Ps. 51. 5. Amos 5. 14. Luc 1. 35. a 2. 40, 52. Phil. 1. 10. Rhuf. 12. 9. Yr arwydd hwn a roddwyd i ffydd, ac ni byddai yn annogaeth i neb ond credinwyr; ond yr oedd yn rhoddi sicrwydd iddynt hwy, na lwyddai offerynau gelyniaethol i ddinystrio teulu Dafydd, gan fod y fath fendith yn gynnwysedig ynddo.

Y mae yr enw ardderchog hwn yn gosod allan Berson a swydd Crist, ac yn dangos anfeidrol gyflawnder a sicrwydd yn ei iechydwriaeth, gan fod Duw gyda ni, sef yn ein natur, ac o'n plaid yn mhob peth a wnelo yn ei swyddau. Yr eglurhad goreu a geir byth o arwyddocad yr enw hwn, a roddir gan y prophwyd ei hun, yn pen. 9. 6. lle y darlunia ef mewn ymadroddion tra gogoneddus ac ardderchog, o ran ei Berson rhyfedd, 'Duw yn y cnawd;' ac hefyd o ran ei swyddau, yn gweithredu ynddynt oll ar ein rhan. 'Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni,' a'r 'Duw cadarn,' yw y Bachgen hwnw; am hyny y mae yn Dduw gyda ni, sef yn ein natur, ac yn gweithredu yn rhyfedd ar ein rhan fel Llywodraethwr a Chynghorwr, sef fel Brenin a Phrophwyd i ni. Ac am ei fod fel Offeiriad gwedi gwneuthur iawn dros bechod, ar sail ei iawn, y mae yn 'Dywysog tangnefedd!'

* Y mae yr enw Immanuel yn arwyddo dwyfoldeb yr Iachawdwr a'i swydd oruchel, yn gwneuthur cymmod â Duw. Glass. *Philol. Sacr. lib.* 1. *tract* iii. *s.* 6. *p.* 133.

† 'Hyd oni fedro.' Dr. M. 'Fel y medro,' ein cyfieithiad presennol. '*That he may.*' *Saes.* Nid ydyw y cyfieithiadau hyn yn rhoddi un ystyr cyson, amlwg, o'r geiriau. Pa gysylltiad sydd rhwng bwyta ymenyn a mêl, ac ymwrthod â'r drwg ac ethol y da? ond cyfieithiad Lowth a arwydda y byddai amlder o'r pethau hyn erbyn y byddai mewn oed i ymborthi arnynt. Rhoddir yr ystyr hwnw yn aml i'r llythyren *Heb.* ל megys yn Exod. 14. 27. Ruth 2. 14.

IMPIO, (imp) gosod i mewn, planu i mewn, rhoddi impyn neu bywullyn pren arall i dyfu yno. Rhoddir yr impyn mewn holltiad a wneir yn y pren; y mae yr impyn yn ffrwytho yn ol ei natur ei hun, sef natur y pren y cymerwyd ef o hono, ac nid yn ol natur y pren yr impir ef ynddo. Wrth impio, gwellhau y pren yr ydys yn amcanu ato, ac nid gwellhau yr impyn. Yn dra addas gelwir yr efengyl, 'yr impiedig air;' yn cael ei blanu mewn calon gwedi ei dryllio gan argyhoeddiadau yr Ysbryd Glân, ac yn dwyn ffrwyth i Dduw, cyfatebol i'w natur sanctaidd ei hun. Ni wellheir byth mo ffrwyth y galon heb iddi gael yr impiad goruwchnaturiol hwn. Y rhai sydd trwy addfwynder yn gwir dderbyn y gair trwy ffydd, y mae y gair yn impiedig ynddynt: y mae yn y gair yr hyn sydd addas ac angenrheidiol er cadwedigaeth (*iachad*, W. S.) pechaduriaid, a thrwy yr impiad hwn y mae yr enaid yn cyfranogi o rinwedd cyflawn y gair, ac y mae yn cael ei *iachâu* i ddwyn ffrwyth addas i'r gair. Iago 1. 21. 1 Petr 1. 23. 2 Petr 1. 4. Deut. 6. 8. a 11. 18. Ps. 119. 11. Y mae dwy weithred yn cael crybwyll am danynt yn yr impiad hwn; un o eiddo Duw, a'r llall o eiddo y pechadur. '*Dodaf*,' medd Duw, 'fy nghyfreithiau yn eu meddwl.' Yn ganlynol i'r dodiad hwn o eiddo Duw, y mae y pechadur yn '*derbyn* yr impiedig aur.' Y mae y dodiad hwn o eiddo Duw yn arwyddo fod y deall yn cael ei oleuo ynddo, a'r meddwl a'r ewyllys yn cael eu cyfnewid i'w gymeradwyo a'i gofleidio fel gair Duw, ac yn hollol addas i'w gyflwr fel pechadur. Nid oedd y gair ddim yn naturiol yn y dyn: nid dychymyg dynol yw yr efengyl (Edr. Dynol) ond y mae yn hollol o Dduw; a'i himpio y mae yn ei gael yn y dyn. Os ydyw y wir efengyl yn cael ei himpio mewn enaid, y mae yn aros yno, ac yn ymuno â'r enaid yn holl rinweddau ei natur ei hun; ac y mae cadwedigaeth a'r impiad hwn yn gysylltiedig anwahanol â'u gilydd.

'A'th impio yn erbyn naturiaeth (*yn erbyn anian*, W. S.) mewn gwir olew-wydden.' Rhuf. 11. 24. Y mae yn erbyn naturiaeth gymeryd impyn o bren drwg a'i impio mewn pren da; y mae yn erbyn naturiaeth fod y pren yn newid natur a ffrwyth yr impyn; yr un fath yr oedd galwad y Cenedloedd, y rhai oeddynt yn estroniaid oddiwrth ammodau yr addewid, i gyfranogi o holl fraster, sef cyflawnder y bendithion addawedig i'r Iuddewon. 'Pa faint mwy y caiff y rhai hyn sydd wrth naturiaeth, eu himpio i mewn yn eu holewwydden eu hun?' Yr oedd galwad y Cenedloedd cyn iddo gymeryd lle, yn fwy rhyfedd ac annysgwyliadwy na galwad yr Iuddewon yn y dyddiau diweddaf. Os impiwyd y Cenedloedd i mewn yn erbyn naturiaeth, gellir casglu yn dra sicr yr impir yr Iuddewon yn eu holew-wydden eu hun.

INC, *Belg.* Inck; *Saes.* Ink; *Heb.* דיו *du, deio:* gwlybwr du a ddefnyddir i ysgrifenu âg ef. Jer. 36. 18. 2 Ioan 12. 3 Ioan 13.—'Wedi ei ysgrifenu nid âg inc, ond âg Ysbryd y Duw byw.' 2 Cor. 3. 3.—'Ac a yscrivenwyt, nid a duy, amyn ac Ysbryt y Duw byw.' W. S. Edr. Ysgrifenu.

INDIA, הדו *hodu* [*hardd*, neu *moliant*] Bernir fod yr enw hwn yn arwyddo India, neu yr afon Indus; a hwyrach y dylasai y gair Hebraeg gael ei swnio, yn ol barn rhai, *Hidu*, yr *n* wedi ei gadael allan. India ydoedd terfyn ymerodraeth y Persiaid tu a'r dwyrain, megys yr oedd Ethiopia yn Affric, tebygol, ei therfyn tu a'r gorllewin. Esther 1. 1. India yw y wlad o du y dwyrain i'r afon Indus, lle yr ydoedd yr Hindwiaid

Digitized by Google

yn eu dechreuad yn preswylio; a elwir yn bresennol yr India Ddwyreiniol, i'w gwahaniaethu oddiwrth yr India Orllewinol. Y mae tiriogaethau ëang iawn yn y wlad hon yn bresennol yn meddiant Llywodraeth Lloegr—yn fwy ëang nag un llywodraeth yn y byd, ond China, ac yn cynnwys 130,000,000 o drigolion. Wedi ysgrifenu dan y gair Asia, chwanegwyd llawer at ei thiriogaeth, trwy y rhyfel diweddar yno. Amser a ddengys beth ydyw dybenion doeth rhagluniaeth roddi tiriogaeth mor ëang, a thrigolion mor lliosog, dan lywodraeth mor bell oddi wrthynt. Braint fawr fyddai i'r Saeson roddi iddynt y trysor gwerthfawrocaf, sef yr efengyl, yn lle y trysorau a gludir oddi yno yn flynyddol, i'r trigolion truain sydd wedi soddi mewn tywyllwch ac eilun-addoliaeth ffiaidd. Mae yr ymgeisiadau a wneir yn bresennol gan amryw Gymdeithasau Cenadol i'r perwyl hwn. yn neillduol o ganmoladwy, ac nid heb radd o lwyddiant.

ING, (in) *Heb.* ענה *Gr.* *αγωνια*; *Llad.* AGONIA; *Ffr.* AGONICE; *Saes.* AGONY: cyfyng, cyfyngder, cyni, caledfyd, cyfyng-gynghor.—'Yn mhob peth yr ydym yn gystuddiol, ond nid mewn ing; yr ydym mewn cyfyng-gynghor, ond nid yn ddiobaith; yn cael ein herlid, ond heb ein llwyr-adael; yn cael ein bwrw i lawr, eithr heb ein dyfetha.' 2 Cor. 4. 8, 9.—'Ydd ys in gorthrymu (ein *cystuddir*, Dr. M.) o bob parth, er hyny nyd ym mewn cyfyngder: ydd ym mewn cyfing gyngor (*mae yn gaeth arnom*, Dr. M.) er hyny nyd ym yn ddigyngor. Ydd ys yn ein ymlid (*gwedi ein herlid*, Dr. M.) ond ny'n gedir heb nawdd: (*ond heb ein gwrthod*, Dr. M.) ydd ym wedy ein tavlu y lawr, eithr ny'n collir, (*heb ein dyfetha*,' Dr. M.) W. S.

Y mae golwg ar y gwahanol gyfleithiadau yn ein hiaith ni, yn tueddu i roddi golwg mwy cyflawn ar y geiriau yn y Groeg. Ni ddichon ing wahanu oddiwrth gariad Crist; canys y mae yr Arglwydd yn cynnal ei bobl ynddo, ac yn eu gwared o hono. Rhuf. 8. 35. Ps. 32. 7. a 91. 15. a 106. 44. a 118. 5. Edr. CYSTUDD, GORTHRYMDER.

INSEL, *Llad.* SIGILLUM; *Sax.* SIGEL; sêl, nôd.—'Yn insel cyfiawnder y ffydd.' Rhuf. 4. 11. Geilw yr apostol yr enwaediad yn insel (neu sêl, fel y cyfieithir y gair mewn manau eraill) cyfiawnder y ffydd i Abraham. Edr. ENWAEDIAD. Yr oedd yr addewid gwedi ei rhoddi i Abraham, ac yntau gwedi credu yr addewid; yr oedd y cyfammod gwedi ei wneuthur âg ef, cyn enwaedu arno. Nid oedd yr enwaediad yn chwanegu dim at yr hyn oedd o'r blaen ganddo; ond yr oedd yn arwydd o'r peth a addawyd iddo, ac yn insel y cyfammod i'w gadarnhau iddo, yn yr hwn yr ydoedd cyfiawnder yn fendith fwyaf arbenig cynnwysedig ynddo, a'r gwrthddrych mwyaf hynod yn ngafael ffydd Abraham.

JOAB, יואב [*tadogaeth*, neu *yr Arglwydd sy dad*] mab Serfiah, chwaer Dafydd, a brawd Abisai ac Asahel. Yr oedd yn un o'r milwyr dewraf a feddai Dafydd; ond yr oedd yn ŵr tra-awdurdodaidd, creulawn, a dialgar. Yn hynod o nodedig am ei ddoniau milwraidd, ac wedi bod yn neillduol o ddefnyddiol yn mrwydrau Dafydd, ac yn ffyddlawn iddo ef a'i lywodraeth; ond ei ymddygiad dichellgar a gwaedlyd, yn lladd Amasa ac Abner, a ddygodd arno ddialedd Solomon, fel gweinidog Duw, yn y diwedd. 'Na âd i'w benllwydni ef ddisgyn i'r bedd mewn heddwch,' medd Dafydd wrth ei fab Solomon. Parodd Solomon i Benaiah ei ladd wrth gyrn yr allor, lle y ffôdd am nodded, o herwydd iddo ymuno gyd âg Adoniah i'w osod ef yn frenin yn erbyn Solomon; 'o herwydd efe a ruthrodd (medd y brenin) ar ddau ŵr cyfiawnach a gwell nag ef ei hun, ac a'u lladdodd hwynt â'r cleddyf.' Am ei wroldeb yn esgyn yn gyntaf i ennill tŵr y Jebusiaid, gwnaeth Dafydd ef yn flaenor ac yn dywysog y llu: yr oedd yn eiddigeddus o'i flaenoriaeth dros ei holl fywyd. Yn achos rhifo y bobl, ymresymodd â Dafydd yn erbyn hyny; ond ffiaidd y cydsyniodd â dymuniad creulawn Dafydd yn achos Uriah, i'w roddi i farwolaeth. Claddwyd ef yn ei dŷ ei hun yn yr anialwch. 2 Sam. ii, iii, v, viii, ix, x, xi, xiv, xviii, xix, xxiv. 2 Bren. i, ii. Pe buasai gras a sancteiddrwydd ynddo, yn cyfateb i'w ddoniau naturiol, buasai ei goffadwriaeth yn enwog ac yn anrhydeddus; y diffyg o hyn sydd yn anurddo y cwbl ynddo ef, a phawb o'i gyffelyb.

JOACIM, JEHOIACIM, a JOACHIM, יויקים [*adgyfodiad yr Arglwydd*, neu *a sefydlwyd gan yr Arglwydd*] mab Josiah: olynydd ei frawd Joachaz yn frenin, trwy osodiad Pharaoh-Necho, brenin yr Aipht; yr hwn a drodd ei enw o Eliacim yn Joacim, neu Joachim. Dechreuodd deyrnasu pan oedd yn bum mlwydd ar hugain oed, a theyrnasodd am un mlynedd ar ddeg. Rhoddodd y brenin arno dreth o £39,693 15*s*., yr hyn a gododd efe oddiar ei ddeiliaid. 2 Bren. 23. 34, &c. Gwnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd. Gorthrymodd ei ddeiliaid i adeiladu palas hardd iddo ei hun. Erlidiodd y prophwydi, a rhoddodd Uriah mab Semaiah i farwolaeth, am brophwydo yn erbyn y wlad. Jer. 26. 20—23. Edr. URIAH. Llosgodd y llyfr a ysgrifenodd Baruch o enau Jeremiah, pan ddarllenwyd rhan o hono iddo, ac a orchymynodd ddala Jeremiah a Baruch; 'ond yr Arglwydd a'u cuddiodd hwynt.' Jer. x, a xxxvi. Nebuchodonosor, gwedi gorchfygu Pharaoh brenin yr Aipht, yn Carchemis, a oresgynodd holl wlad Canaan, a rhan o Phenicia. Gwedi teyrnasu dair blynedd, efe a wrthryfelodd yn erbyn brenin Babilon. Brenin Babilon a'i cymerodd, ac a'i rhoddodd i farwolaeth. Ni alarwyd am dano, ond claddwyd ef â chladdedigaeth asyn, gwedi ei lusgo a'i daflu tu hwnt i byrth Jerusalem. Jer. xxii, xxxvi. 2 Bren. xxiv. 2 Cron. xxxvi. Hanes galarus ydyw hwn am un o feibion y brenin duwiol Josiah!

JOACHAZ, יואחז [*yr hwn sydd yn gweled*] mab Josiah brenin Judah, yr hwn a urddwyd gan bobl y wlad yn frenin, wedi lladd ei dad yn Megido. Tri mis y teyrnasodd, ac a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd. Pharaoh-Necho a'i cyrchodd i Riblah, a'i rhwymodd, ac a'i dygodd yn gaeth i'r Aipht, lle y bu farw. 1 Cron. 3. 15. 2 Bren. 23. 30. 2 Cron. 36. 1—4. Jer. 22. 11.

JOACHIN, a JEHOIACHIN, יהויכין [*nerth yr Arglwydd*] mab Joacim brenin Judah, a Nehusta merch Elnathan. Gelwir ef hefyd Jeconiah a Coniah. Jer. 22. 24, 28. Dywedir yn 2 Bren. 24. 8. ei fod ef yn ddeunaw mlwydd oed pan aeth yn frenin; ond yn 2 Cron. 36. 9. dywedir mai wyth mlwydd oedd; tebygol iddo gyd-deyrnasu â'i dad ddeng mlynedd, o pan oedd yn wyth mlwydd hyd yn ddeunaw; ac mai deunaw oedd pan ddechreuodd deyrnasu ei hun. Efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, a thri mis a deng niwrnod y teyrnasodd. Nebuchodonosor a ddaeth, ac a warchaeodd yn erbyn Jerusalem; a Joachin, yn nghyd â'i fam Nehusta, a'i weision, a'i dywysogion, a'i ystafellyddion, a ymroddasant, ac a ymostyngasant iddo, i gyd yn ddeunaw mil; dug Nebuchodonosor hwynt, yn nghyd â thrysorau a llestri y deml, i Babilon. Gwedi 37 o flynyddoedd o gaethiwed, Efil-Merodach a'i rhyddhaodd o'r carchardŷ, ac a osododd ei gadair ef goruwch cadeiriau y breninoedd oedd gyd âg ef yn Babilon, a bwytaodd ar ei fwrdd ef holl ddyddiau ei einioes gwedi hyny. Jer. 52. 31—34. 2 Bren. 25. 27—30.——Parodd yr Arglwydd i Jeremiah ysgrifenu y gwr hwn yn ddiblant. Edr. EFIL-MERODACH, DIBLANT.

JOAH, יואח [*y freniniaeth*] 1. Mab Zimmah, o deulu Gersom. 1 Cron. 6. 21.——2. Mab Joahaz,



Digitized by Google

cofiadur Josiah. 2 Cron. 34. 8.——3. Mab Asaph, cofiadur Hezeciah. Esa. 36. 3.

IOAN, *Heb.* יוחנן *Gr.* Ιωαννης [*y gras*, neu *rodd Duw*]. 1. Ioan Fedyddiwr, mab Zacharias ac Elizabeth. Luc i. Yr angel Gabriel a ragfynegodd ei enedigaeth, a llwyddiant ei weinidogaeth. Bu llawenydd mawr am ei enedigaeth, a llanwyd ef â'r Ysbryd Glân o groth ei fam. Nazarëad oedd trwy ei holl fywyd, ac nid yfodd win na diod gadarn; a mawr oedd yn ngolwg yr Arglwydd, a bendithiol iawn fu ei weinidogaeth yn mhlith yr Iuddewon. Wedi byw yn nhŷ ei dad flynyddoedd ei ieuenctid, ymneillduodd i'r anialwch; bu fyw yno ar locustiaid a mêl gwyllt, ac ymroddodd i fyfyrdodau a gweddïau. Y mae yn amlwg i'r Arglwydd Iesu a Ioan dreulio blynyddoedd eu bywyd yn mhell oddiwrth eu gilydd. Yr oedd un yn preswylio yn Nazareth, dinas yn Galilea, a'r llall mewn dinas yn mynydd-dir Judah. Yn y gwyliau arbenig yn Jerusalem, gellir meddwl eu bod yn cyfarfod a'u gilydd dair gwaith yn y flwyddyn.

Yn nghylch A.D. 28, dechreuodd bregethu yn gyhoeddus a bedyddio: rhybuddiodd y bobl i edifarhau am eu pechodau, a thystiolaethodd am Iesu o Nazareth, mai efe oedd y Messïah addawedig. Rhagfynegwyd am dano dan yr enw Elias, fel rhagflaenor Crist, a chenad gwedi ei anfon o'i flaen. Esa. xl. Mal. iv. Galwyd ef Elias, am iddo ddyfod o flaen Crist, 'yn ysbryd a nerth Elias:' (Luc 1. 17.) am fod y cyffelyb ysbryd ynddo, gelwir ef wrth yr un enw. Dyben penaf ei swydd a'i weinidogaeth ydoedd darparu i'r Arglwydd bobl barod, a thystiolaethu am y Messïah, a'i nodi ef allan wedi dyfod. Y mae ei dystiolaeth yn barchus ac yn ddiammheuol am dano, yn addas i fawrhydi Person Crist, a'i swydd oruchel; ac yn addas i Ioan, fel un dan ddylanwadau anffaeledig yr Ysbryd Glân yn ei dystiolaeth. Fel yr oedd chwe mis yn hŷn na Christ, gellir barnu iddo ddechreu gweinidogaethu chwe mis o'i flaen; sef pan oedd yn nghylch 30 oed. Gorchymynodd Herod dori ei ben ef yn ngharchar Macherus, i foddhau Herodias greulawn, halogedig, yn nghylch blwyddyn cyn i Grist ddyoddef. Edr. HEROD, HERODIAS. Tra yr oedd yn y carchar, yr oedd ei ddysgyblion yn ffyddlawn iddo, ac anfonodd rai o honynt i ymofyn â'r Iesu, 'Ai efe oedd y Messïah?' Dyben y genadwri hon, yn ddiammeu, oedd i gadarnhau ffydd y dysgyblion ynddo, ac nid i gadarnhau ei feddwl ei hun am dano. Mae ateb yr Arglwydd Iesu i'w genadwri, yn hollol addas i roddi boddlonrwydd iddynt. 'Ewch, a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch: y mae y deillion yn gweled eilwaith,' &c., nodau eglur y Messïah pan ddoi yn ol rhag-ddywediadau y prophwydi am dano. Ar hyn, rhydd yr Arglwydd dystiolaeth anrhydeddus iawn i Ioan am ei ddiysgogrwydd: fel credadyn, ac yn ei weinidogaeth, nid 'corsen oedd, yn ysgwyd gan wynt;' ond un o'r dynion mwyaf a ymddangosodd erioed yn y byd, o ran ei sancteiddrwydd, a hefyd hynodrwydd ei swydd. Cafodd yr anrhydedd o fod yn genad wedi ei anfon o flaen wyneb yr Arglwydd, i barotoi y ffordd o'i flaen. Mat. xi. Ond er ei fod yn rhagori ar yr holl brophwydi o'i flaen yn ei swydd, ei gyfraniadau o'r Ysbryd Glân, a'i wybodaeth o ddirgeledigaethau yr efengyl, etto, mewn rhyw ystyr, bydd y lleiaf yn nheyrnas nefoedd, nid yn unig yn y gogoniant, ond yma ar y ddaear, yn rhagori ar Ioan, o ran cyfraniadau mwy helaeth o'r Ysbryd Glân, a golygiadau mwy eglur ar amryw wirioneddau mawrion yn perthynu i'r efengyl, nag a roddwyd i Ioan. Er fod parch mawr gan bawb yn gyffredinol i Ioan, fel cenad enwog a gwr Duw, etto, y Phariseaid a'i cablasant ef o herwydd ei ddirwest, gan ddywedyd, 'Fod cythraul ganddo.'

Gelwir ef Ioan Fedyddiwr, neu yn hytrach, *ο βαπτιστης*, *y Bedyddiwr*, nid fel cyfenw iddo, ond oddiwrth ei swydd a'i waith yn bedyddio. Gelwir ef yn Marc 6. 14. *Ιωαννης ο βαπτιζων*, *Ioan y Bedyddiwr*, neu *yr hwn sydd yn bedyddio.* Yr oedd golchiadau, neu fedyddiadau, yn mhlith yr Iuddewon, yn arferiad cyffredin, a digon adnabyddus. Ceir hanes am olchiad fel defod grefyddol, mor foreu ag amser Jacob. 'Ymlanhewch, a newidiwch eich dillad,' medd efe wrth ei deulu, cyn cychwyn i Bethel. Gen. 35. 2. Yn cyfammodi â Duw wrth Sinai, gorchymynwyd i'r bobl sancteiddio eu hunain, a *golchi* eu dillad. Exod. 19. 10. Yr oeddynt yn golchi yr offeiriaid wrth eu cysegru. Lef. 8. 6. Dywed yr Iuddewon, nad oedd un o'r Cenedloedd yn broselyt i'r grefydd Iuddewig, heb enwaedu arno, a'i fedyddio. Ond er fod yr Iuddewon yn gynnefin â golchiadau crefyddol, yn arwyddocaol o fudreddi moesol, a glanhad ysbrydol, etto diammeu fod bedydd Ioan yn hollol wahanol oddiwrth yr holl olchiadau Iuddewig, a'i fod o'r nefoedd, wedi ei orchymyn iddo ef fel prophwyd Duw, fel yn rhag-barotoi y bobl i deyrnas y Messïah, yr hon oedd ar ddyfod; a goruchwyliaeth sanctaidd yr efengyl. 'Daeth gair Duw,' medd Luc, 'at Ioan mab Zacharias, yn y diffaethwch.' Gwel pen. 3. 2. Dywed am dano ei hun, 'ei fod wedi cael ei *anfon* i fedyddio â dwfr.' Ioan 1. 33. Gan hyny, y mae yn amlwg ei fod yn bedyddio trwy orchymyn a chyfarwyddyd dwyfol. 'Bedydd edifeirwch' ydoedd, yn cael ei weini, tebygol, yn enw Messïah i ddyfod.* Yr oedd yn arwyddocau glanhad y galon yn dufewnol, a'r bywyd yn allanol; yr hwn nis dichon neb ei gael byth heb edifeirwch, a ffydd yn aberth Crist, er maddeuant pechodau.

Y mae bedydd Ioan, a bedydd yr apostolion, cyn adgyfodiad ac esgyniad Crist, yn ymddangos yn amrywio mewn llawer o amgylchiadau oddiwrth y bedydd a sefydlodd Crist i fod yn ei eglwys gwedi hyny, hyd ddiwedd amser. Yr oedd y dyben a'r sylwedd yr un, ond yn unig eu bod yn gwahaniaethu mewn amgylchiadau. Yr oedd y bedydd a osododd Crist i gael ei weini yn enw y Drindod—mewn crediniaeth o fod y Messïah gwedi dyfod—gwedi aberthu ei hun dros bechodau, a gorphen gwaith y prynedigaeth—mai ei waed ef wedi ei dywallt oedd y ffynon i lanhau oddiwrth bob pechod, yr hwn y mae y dwfr yn y bedydd yn ei arwyddo.† Hefyd y mae yn ordinhad sefydlog, i barhau yn wastad yn mhlith yr holl genedloedd; ac nid oes dim derbyniad rheolaidd i'r eglwys hebddi; ond nid ydoedd bedydd Ioan a'i ddysgyblion ond sefydliad amserol, dros y dyddiau a'r gweinidogaethau rhagbarotawl y pryd hyny yn eu plith. 'Ioan yn ddiau a fedyddiodd â bedydd edifeirwch,' medd yr apostol, 'gan ddywedyd wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef, sef yn Nghrist Iesu.' Act. 19. 4, 5. Dyma ddarluniad cyflawn o fedydd Ioan. Ond gan nad oeddynt gwedi eu bedyddio yn y grediniaeth o fod Crist gwedi dyfod, bedyddiodd Paul y dysgyblion hyn yn Ephesus drachefn, 'yn enw yr Arglwydd Iesu.' Gwn fod rhai yn ammeu hyn; ond felly y mae yn ymddangos i mi. Gwel Turretin, *Inst. Theol.*

Yr ydoedd gweinidogaeth a bedydd Ioan yn unigol yn eu dyben a'u natur, o ran amryw amgylchiadau: seren foreu ydoedd o flaen cyfodiad Haul Cyfiawnder. Yr oedd y genedl Iuddewig yn ei ddyddiau ef yn dra llygredig, ac yn llawn cyfeiliornadau, a gwag-bleidiau crefyddol: yr oedd yntau yn ysbryd gwrol, tanllyd, Elias, yn ganwyll yn llosgi ac yn goleuo; yn dangos

---

* Lightfoot ar Mat. iii.

† Yr wyf yn meddwl mai bedydd cyntaf y Testament Newydd oedd hwnw a weinyddid i ddysgyblion Crist, trwy orchymyn eu Hathraw, er cyffesiad o'r Messïah wedi dyfod. Ioan 3. 22. Ond cyfyngid ef gan mwyaf y pryd hyny i'r Iuddewon. Ond gwnaed ef yn sacrament yr eglwys yn gyffredinol, wedi i'r Testament Newydd gael ei selio â gwaed Crist, a'i gadarnhau trwy ei adgyfodiad ef. Mat. 28. 19. Witsius *De Œcon. Fæd.*, *lib.* iv., *cap.* 16.

Digitized by Google

yn eglur eu pechodau a'u cyfeiliornadau dinystriol; yn cyhoeddi barnedigaethau Duw o'r herwydd yn eu herbyn yn llym, ac yn gyffrous, megys ar ddyfod arnynt fel cenedl; ac yn dangos Crist iddynt yn mawredd ei Berson, a natur ei waith, gyda goleu a sicrwydd diammheuol; ac yn cadarnhau fod bywyd tragywyddol yn dibynu yn hollol ar grediniaeth yn Mab Duw, a bod digofaint yn aros ar y sawl na chredent. Ioan 3. 36.

Yr oedd dull ei farwolaeth yn brawf eglur o'i ffyddlondeb yn argyhoeddi pechod yn ddidderbyn wyneb. Hawdd fuasai i'r Arglwydd Iesu ei achub o'r carchar, ac o ddwylaw Herodias; ond gan fod dyben ei weinidogaeth enwog wedi ei ateb yn rhagorol, a bod y gwaith i gael ei ddwyn yn mlaen mewn dull, a thrwy offerynau gwahanol yn y byd, goddefodd i'w elynion gyflawni mesur eu hanwiredd, trwy ei farwolaethu; cafodd yntau yr anrhydedd o roddi ei fywyd dros y gwirionedd, a thrwy farwolaeth waedlyd, gael helaeth fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas.

Yr ydoedd yn genad wedi rhag-brophwydo am dano lawer o gannoedd o flynyddoedd cyn ei ddyfodiad; yr oedd yn ei enedigaeth yn wyrthiol—ei fam yn hen ac yn anmhlantadwy; a'r angel Gabriel wedi rhybuddio ei dad am ei enedigaeth, ei waith, a'i swydd; yr oedd yn sanctaidd o'r groth, ac yr oedd ei holl fywyd yn cyfateb i'r dechreuad hwn yn nodedig o sanctaidd, ac yn farweiddiadol; cafodd ei alw gan Dduw i weinidogaeth unigol, neillduol, a phwysfawr; anfonwyd ef fel rhag-flaenor y Messïah; cyflawnodd ei swydd yn ffyddlawn, yn llwyddiannus iawn, ac yn boblogaidd; bedyddiodd y Messïah yn afon yr Iorddonen; clywodd dystiolaeth y Tad am dano, a gwelodd yr Ysbryd Glân yn disgyn arno; rhoddodd barch iddo, a thystiolaeth eglur am dano, a chafodd yr anrhydedd o roddi ei fywyd dros y gwirionedd. Wrth ystyried y pethau hyn, hawdd canfod yn mhlith y rhai a aned o wragedd, nad oes brophwyd mwy na Ioan Fedyddiwr. Mat. iii, xi. Luc i, iii, vii. Ioan i, iii, v.

2. IOAN yr Efengylwr, ydoedd briodor o Bethsaida, mab Zebedeus a Salome, a brawd Iago. Edr. IAGO. Yr ydoedd yn un o'r tri dysgybl a anrhydeddodd Crist fwyaf, trwy fod gyd âg ef yn ei wedd-newidiad, yn yr ardd, &c. Yr oedd yr Iesu yn hoff neillduol o'r dysgybl hwn, am hyny y gelwir ef, 'yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu;' a dywedir ei fod yn pwyso ar fynwes yr Iesu wrth fwyta y pasc. Ioan 13. 23. Y mae y geiriau 'pwyso ar fynwes yr Iesu,' yn cyfeirio at eu dull wrth y bwrdd yn bwyta. Eistedd ydoedd dull yr Iuddewon gynt yn yr hen amseroedd, y mae yn amlwg oddiwrth Gen. 43. 33. a 37. 25. Exod. 32. 6. Oddiwrth y Groegiaid, wedi buddugoliaethau Alexander a'r Macedoniaid ar y gwledydd dwyreiniol, y cawsant yr arferiad o fwyta ar welyau yn eu lledorwedd, yn pwyso ar y penelin aswy, ac yn porthi eu hunain â'r llaw ddehau; yn y dull hwn yr oedd pen y naill pan syrthiai yn pwyso megys ar fynwes y llall. Judith 12. 15. Tobit 2. 1. Yr oedd yn arwyddo rhagor o ffafr i Ioan ei fod yn bwyta yn nesaf ato, ac megys â'i ben ar ei fynwes. Y rhai mwyaf anwyl fyddent felly; megys gwragedd ar fynwesau eu gwyr priod,* cyfaill ar fynwes ei gyfaill, &c.—'Yr oedd yr Iesu yn ei garu.' Ioan 19. 26. Yr oedd Ioan, tebygol, o dymher hynaws, hawddgar, caruaidd, a chyfeillgar, ac oblegid hyny yr oedd yr Iesu yn dangos mwy o hoffedd tu ag ato ef; ac a orchymynodd ei fam i'w ofal a'i ymgeledd pan ydoedd yn ei boenau ar y groes. Y mae y geiriau yn dangos fod Crist o ran ei ddynoliaeth yn llawn tiriondeb, hawddgarwch, a chyfeillgarwch; yn hoffi cyfaill, ac yn barchus o hono. Yr oedd perffeithiau y ddynoliaeth ynddo, yn gyflawn o bob peth tirion, dymunol, a sanctaidd, yn gystal a phob doniau goruchel a rhagorol: yr oedd yn gyfaill heb ei fath mewn ffyddlondeb, a thiriondeb; a chafodd yn Ioan, yn yr ystyr hwn, wrthddrych a hoffodd.

Yn ol dymuniad yr Iesu ar y groes, cymerodd ei fam i'w gartref, a diammeu iddi gael pob ymgeledd dirion ganddo. Ymddangosodd yr Iesu iddo yn aml wedi ei adgyfodiad. Ioan a adnabu yr Iesu gyntaf wrth fôr Galilea. Gwedi ciniaw, Petr a ofynodd iddo, 'Beth a wna hwn? Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Os mynaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hyny i ti?' Yn cam-ddeall y geiriau hyn, barnodd llawer o'r brodyr na byddai i Ioan farw; ond cam-farn oedd. Ioan 21. 21, 22.

Rhoddir hanes gan Luc am ei lafur gyda Petr wedi dydd y pentecost, yn pregethu, ac yn cyd-ddyoddef erlidigaethau, ac yn gwneuthur gwyrthiau yn Jerusalem a Samaria. Act. iii, iv, v, viii. Yn nghylch A.D. 51, yr oedd yn parhau yn golofn enwog o'r eglwys yn Jerusalem. Gal. 2. 7. Dywedir iddo ef wedi hyny bregethu yr efengyl i'r Parthiaid a'r Indiaid dwyreiniol: ond y mae mwy o sicrwydd am ei lafur yn yr efengyl yn Asia Leiaf. Tan erlidigaeth Domitian, yn nghylch A.D. 95, dywedir ei fwrw i bair o olew berwedig, ac iddo ddyfod allan heb niwed, yn heini, ac yn fywiog, ac i'w alltudio wedi hyny i ynys Patmos, i'w newynu i farwolaeth; ond iddo gael ei adalw yn ol gan yr ymerawdwr Nerva. Edr. DADGUDDIAD. Dychwelodd i Ephesus, a phregethodd yr efengyl yn y cylchoedd hyny hyd ei farwolaeth, yn nghylch 90 neu 100 oed. Adroddir llawer o ystoriau am dano gan hen haneswyr, hwyrach heb y seiliau goreu iddynt. Pan welodd Cerinthus, meddant, yn y baddon yn Ephesus, lle yr aethai Ioan i ymolchi, efe a neidiodd allan o hono, gan ddywedyd, 'Ffown allan o hono rhag i'r adeilad syrthio arnom, canys y mae Cerinthus ynddo, gelyn y gwirionedd.' Dywedir hefyd iddo ommedd siarad â Marcion, heretic arall: ac iddo redeg yn ei hen ddyddiau ar ol gwrthgiliwr ieuanc, yr hwn a aethai yn flaenor ar fyddin o yspeilwyr, a'i adferyd i'r ffydd, trwy ei gynghorion a'i annogaethau. Llawer o ddywediadau traddodiadol disail sydd am ddull ei farwolaeth, nad ydynt werth eu hadrodd; ond y mae cydsyniad cyffredin iddo farw o farwolaeth naturiol.

Yn ei hen ddyddiau ysgrifenodd dri epistol; un at yr Iuddewon Cristionogol yn gyffredinol; un arall at arglwyddes etholedig; a'r trydydd at un Gaius. Ynddynt rhydd lawer o annogaethau i gariad brawdol, bucheddiad sanctaidd, ac i fod yn ochelgar rhag gauathrawon—yn enwedig y cyfryw ag oedd yn cyfeiliorni yn nghylch person yr Arglwydd Iesu, yn gwadu ei DDUWDOD, neu ei briodol ddynoliaeth ef. Ymddangosodd y cyfryw gyfeiliornwyr yn foreu, a chawsant eu gwrthsefyll, a'u daliadau anwireddus eu gwrthbrofi gan yr apostolion eu hunain dan ysbrydoliaeth Duw.

Tra yr ydoedd yn ei alltudiad yn ynys Patmos, cafodd yr apostol y gweledigaethau rhyfedd yn Llyfr y Dadguddiad. (Edr. dan y gair hwnw.) Yn niwedd ei oes y cyfansoddodd yr efengyl dan ei enw, ar ol yr efengylwyr eraill; ac yn dra gwahanol oddi wrthynt, er nad yn wrthwynebol iddynt. Rhydd hanes am lawer o bethau a adawyd allan gan y lleill, yn enwedig am lawer o bregethau, ac ymddyddanion rhagorol, a phethau a ddygwyddodd i'r Arglwydd Iesu ar y gwyliau arbenig yn Jerusalem—y rhai na chrybwyllir am danynt gan y tri eraill. Bernir iddo ysgrifenu yr efengyl gyd â'r un dyben a'i epistolau, sef i wrthbrofi cyfeiliornadau Cerinthus, Ebion, Marcion, ac eraill, yn nghylch person Crist. Tystiolaetha ei hun am ei amcan yn ysgrifenu; 'Y pethau hyn a ysgrifenwyd, fel y credoch mai yr Iesu yw Crist (ὁ Χριστος, *y Crist*) Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef.' Pen. 20. 31. Y mae ei ehed-

* Et gremio jacuit nova nupta mariti. Juven.

Digitized by Google

iadau yn oruchel, ac yn fawreddig; yn golygu person Crist yn Dduw, a chyda Duw yn yr hanfod tragywyddol. Dengys ef i ni yn holl fawredd ei hanfod dwyfol, yn berson gwahanol gyd â'r Tad, ac yn un hanfod â'r Tad. Edr. GAIR. Dengys ef wedi hyny yn Greawdwr pob peth cyn iddo ddyfod yn y natur ddynol yn Bryniawdwr. Ni ddichon geiriau osod allan ardderchawgrwydd mwy nag a roddir i ni gan Moses yn hanes y greadigaeth, a chan Ioan yn ei ddarluniad o fawrhydi person Crist yn y geiriau cyntaf o'i Efengyl. Nid geiriau sydd ganddynt yn unig, ond gwrthddrych anfeidrol sydd yn fwy na llenwi eu geiriau yn cael ei ddangos, ac yn peri parch, syndod, a gorfoledd. Gwedi gosod o'n blaen fawrhydi dwyfol a thragywyddol person y *Gair*, mewn dull ardderchog, diaddurn, efe a ychwanega, 'Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni.' Ni ddichon neb, ond yr hollol anystyriol, ddarllen y geiriau heb syndod aruthrol, a gorfoledd annhraethadwy! Y geiriau *mwyaf* rhyfeddol, mewn llyfr sydd yn llawn rhyfeddodau i gyd! Gwelwn ychydig o'i ogoniant ef ynddynt, yr hwn sydd yn ogoniant i gyd!——Oblegid ei ehediadau goruchel, yn nechreu ei Efengyl, byddai yr hen dadau yn arferol o'i gymharu i'r eryr, yr aderyn cryfaf ei aden, ac uchaf ei ehediad, o'r holl adar. ——Y mae ei ddull a'i iaith yn ysgrifenu yn gwahaniaethu llawer oddiwrth yr ysgrifenwyr sanctaidd ereill. Yn y Dadguddiad, y mae ei ddull a'i iaith yn oruchel, yn allegol, ac yn addurnedig—tu hwnt i bob ysgrifen arall yn y byd. Yn yr Efengyl, heb ddim llen geiriau addurnedig, y mae person Crist i'w weled mewn gorchudd teneu, mwyaf addas i'w ddangos yn holl fawredd ei berson, a dyfnder ei ddarostyngiad; yn llawn addfwynder, gostyngeiddrwydd, a doethineb dwyfol, yn athrawiaethu am y dirgeledigaethau mwyaf, mewn dull serchog, eglur, a diaddurn. *Oen* ydyw trwy yr holl hanes rhyfedd; etto *Oen Duw* ydyw. Nid ydym yn cael ein gadael i golli golwg ar ei fawredd yn ei iselder, na chael ein gorchfygu gan ormod gogoniant y pelydr dwyfol. Pwy ddichon ddarllen ei ymddyddan diweddaf â'i ddysgyblion, y noswaith y bradychwyd ef, (gwel pen. xiv, xv, xvi.) ei weddi drostynt, a'i holl eglwys hyd ddiwedd amser, at y Tad, yn pen. xvii, heb brofi teimladau nas gall geiriau byth eu hadrodd! Y mae hanes ei gymeriad gan y milwyr, ei ymddangosiad o flaen Pilat, a'i ymddyddan â'r rhaglaw, yn dangos mawrhydi ac addfwynder wedi cyd-gyfarfod mewn rhyw fodd rhyfedd a digyffelyb. Ar y croesbren yn cofio ei fam, ac yn ei rhoddi i ofal i'r hwn a garai fwyaf—gwedi ei adgyfodiad yn ei holl ymddangosiadau a'i ymddyddanion â'i ddysgyblion—*Oen Duw* yw yn mhob peth, ac yn mhob man. Yn ngeiriau Chrysostom, 'Y mae y pysgodwr hwn yn dwyn i ni y fath athrawiaethau dyfnion, fel y mae yn eglur iddo eu derbyn o drysorau yr Ysbryd Glân, fel pe buasai newydd ddisgyn o'r nef ei hun; ie, y mae yn gredadwy na ŵyr pawb sydd yn y nefoedd mo'r holl bethau hyn.' Ioan Chrysostom, *Homil.* i, *in* Ioan Evan.

Dywedir eu bod yn ei ddwyn ef i'r eglwys yn ei henaint, pan ydoedd yn analluog i gerdded yno; ac heb allel areithio yn hir, o herwydd ei wendid, dywedai yn unig wrthynt, 'Fy mhlant anwyl, cerwch eich gilydd.'

3. IOAN a gyfenwyd Marc: mab Mair, a nai Barnabas, mab ei chwaer. Act. 12. 12. Col. 4. 10. Yn ei achos ef yr ymrafaeliodd Paul a Barnabas; Paul yn gwrthod ei gymeryd ef gyda hwynt yr ail waith, am iddo dynu oddi wrthynt yn Pamphylia yn y daith o'r blaen, ac nid aethai gyda hwynt i'r gwaith. Barnabas a gymerodd Marc gyd âg ef, ac a fordwyodd i Cyprus. Y mae Paul yn coffâu am dano wedi hyny gyda chymeradwyaeth, ac yn dywedyd am dano, 'Buddiol yw efe i mi i'r weinidogaeth.' 2 Tim. 4. 11. Col. 4. 10. Philem. 24. Pa bryd, a pha fodd y bu farw, nid oes coffadwriaeth.

JOANNA, gwraig Cusa, goruchwyliwr Herod. Yr oedd yn un o'r gwragedd a iachesid gan yr Arglwydd Iesu oddiwrth ysbrydion drwg, a gwendid; y rhai a ddilynasant yr Iesu, ac a weiniasant iddo. Luc 8. 2, 3. Marc 15. 41. Ni wyddis ychwaneg am dani.

JOAS, יואש [*a lygrwyd gan wyfyn*] 1. Tad Gedeon. Barn. 6. 11.——2. Mab y brenin Ahab. 1 Bren. 22. 26.——3. Un o hiliogaeth Selah mab Judah. 1 Cron. 4. 22.——4. Mab Ahaziah, brenin Judah. Achubwyd Joas gan ei fodryb, Joseba gwraig Jehoiada yr arch-offeiriad, pan laddodd Athaliah yr hâd breninol, a chuddiwyd ef am chwe mlynedd yn ystafell y gwelyau, yn y deml. A Jehoiada, trwy gynnorthwy y tywysogion, yn y seithfed flwyddyn, a'i gwnaeth ef yn frenin. Teyrnasodd yn dduwiol tra bu byw Jehoiada: parodd gyweirio y deml, yr hyn a aeth rhagddo yn araf trwy anffyddlondeb yr offeiriaid; ond er hyny a lwyddodd trwy ddiwydrwydd a ffyddlondeb Jehoiada. Edr. JEHOIADA. Trodd ymaith Hazael, brenin Syria, oddiwrth Jerusalem âg anrheg o'r trysorau cysegredig. Gwedi marwolaeth Jehoiada, trodd Joas at ddelw-addoliaeth, ac a laddodd Zechariah, mab Jehoiada, am iddo ei rybuddio ef a'r bobl, oblegid eu gwrthgiliad oddiwrth Dduw. Yn mhen dwy flynedd daeth llu y Syriaid yn ei erbyn ef, a dyfethasant yr holl dywysogion, ac anrheithiasant Jerusalem. 'Llu y Syriaid a ddaethai âg ychydig wyr, a'r Arglwydd a roddodd yn eu llaw hwynt lu mawr iawn, am iddynt wrthod Arglwydd Dduw eu tadau.' Ar ol hyn, Zabad a Jozabad, ei weision, a'i lladdasant ef yn yr unfed flwyddyn a deugain o'i deyrnasiad. 2 Bren. xi, xii. 2 Cron. xxiii, xxiv.——5. Mab Joachaz, brenin Israel. Dilynodd ffyrdd pechadurus Jeroboam mab Nebat. Teyrnasodd un ar bymtheg o flynyddoedd; dwy gyd â'i dad, a phedair ar ddeg ei hun. Pan oedd Eliseus yn glaf o'r clefyd y bu efe farw o hono, daeth Joas ato ef, ac a wylodd ar ei wyneb ef, ac a ddywedodd, 'Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion!' Prophwydodd Eliseus y gorchfygai Joas y Syriaid *dair* gwaith. Amaziah, brenin Judah, a'i hannogodd i ryfel âg ef yn groes i'w ewyllys, ac a gafodd ei orchfygu a'i anrheithio gan Joas. Bu farw A.M. 3179; C.C. 825. 2 Bren. xiii, xiv. 2 Cron. xxv.

JOB, איוב [*y wylwr*] 1. Trydydd mab Issachar. Gelwir ef hefyd Jazub. Gen. 46. 13. 1 Cron. 7. 1. ——2. Priodor enwog gwlad Uz. Pwy oedd, a phwy oedd ei wraig, a pha amser y buant byw, sydd gwedi peri llawer o ddadleuon, a gwahanol farnau yn mhlith y dysgedigion: mae rhai o'r farn mai un o hiliogaeth Nachor oedd, o'i fab hynaf Huz, fel yr oedd Elihu o'i ail fab Buz (Gen. 22. 21.) neu ynte o Uz mab Aram ac wyr Sem. Gen. 10. 23. Yr oedd llawer o'r hen dadau yn barnu mai yr un ydyw Job a Jobab (*Heb.* יובב) mab Serah o hiliogaeth Esau. Gen. 36. 33.— Gelwir gwlad Edom, Uz. Galar. 4. 21. A gelwir breninoedd Edom, breninoedd gwlad Uz. Jer. 25. 20. Cafodd y wlad hon yr enw Uz, oddiwrth Uz mab Disan, ac ŵyr Seir. Gen. 36. 20—28. 1 Cron. 1. 38—41. Bernir fod gwlad Uz yn dalaeth o wlad Edom; ac y mae amgylchiadau Jobab a Job yn ei lwyddiant yn cyfateb yn o agos i'w gilydd. Ond ni ellir rhoddi barn ddilys am hyn.

Y mae yr amser y bu fyw hefyd mor ansicr; nid annhebyg ei fod yn byw yn ei lwyddiant blodeuog yn yr yspaid o amser rhwng marwolaeth Joseph ac ymddangosiad Moses yn llys Pharaoh fel gwaredydd Israel. Nis gellir priodoli geiriau yr Arglwydd am dano, 'Nad oes gyffelyb iddo ar y ddaear,' mor addas i un amser arall.

Digitized by Google

Fod y cyfryw ddyn a Job, ac mai nid hanes dychymygol yw y cwbl, fel y barnodd rhai, sydd eglur oddiwrth y sylw o hono a wneir yn y Gair sanctaidd. Ezeciel a enwa Job, Noah, Daniel, fel tri gwyr hynod am eu duwioldeb. Gwel pen. 14. 14—20. Y mae Iago hefyd yn dangos y buddioldeb o amynedd, oddiwrth siampl Job (pen. 5. 11.) fel y coffäodd am Abraham a Rahab, i egluro yr athrawiaeth am ffydd a gweithredoedd. Pen. 2. 21—25.

Pwy oedd awdwr llyfr Job sydd hefyd yn ddadleuol; ond y mae y rhan fwyaf yn barnu y gelwir llyfr Job, nid am mai efe oedd yr awdwr o hono, ond am ei fod wedi ei ysgrifenu am dano. Er y barna yr Esgob Lowth mai Job ei hun oedd ysgrifenydd y llyfr, neu un o'i gyfoedion yn y wlad hòno. Rhai a farnant Elihu, eraill Solomon, eraill Ezra, fel awdwr o hono; ond eraill, gyda mwy o debygolrwydd, a farnant mai Moses a'i hysgrifenodd pan oedd yn ngwlad Midian yn bugeilio praidd Jethro, a'r hanes am Job yn newydd, ac yn dra hysbys yn y gwledydd hyny yn gyffredinol. Ond mae barn yr Esgob Lowth yn hollol anghytun â'r farn hon; am fod dull y brydyddiaeth yn llyfr Job yn dra gwahanol oddiwrth ddull Moses yn prydyddu yn ei ganiadau eraill.* Michaelis a farna y gallai hyny fod, er eu bod wedi eu hysgrifenu gan yr un awdwr, o herwydd ei wahanol oed pan ysgrifenodd y naill a'r llall, a'r gwahanol achlysuron o'u cyfansoddiad. Dilys ei ysgrifenu yn foreu; ïe, barna rhai ef y llyfr hynaf yn y byd.† Y mae yn dra thebygol ei gyfansoddi cyn gwaredigaeth Israel o'r Aipht, gan nad oes ynddo ddim cyfeiriadau at wyrthiau Duw tu ag at Israel, na defodau deddfol Moses. Amlwg yw fod gweddill hen grefydd y patriarchiaid yn aros yn ngwlad Uz yn amser Job, ac nad oedd eilun-addoliaeth wedi cyrhaedd i'w holl amrywiaeth ffiaidd y daeth iddi wedi hyny, gan na choffeir ynddo ond am addoli yr haul a'r lleuad. Y mae hir hoedl Job, o leiaf am ddau cant, yn brawf eglur nad oedd einioes dyn gwedi ei byrhau i'r gradd y mae yn bresennol. Ysgrifenwyd y ddwy bennod gyntaf, a diwedd y bennod ddiweddaf, mewn rhyddiaith, yn rhoddi hanes am lwyddiant a duwioldeb Job, gwaith Satan yn cyhuddo Job, ac yn annog yr Arglwydd yn ei erbyn—ei adfyd yn ganlynol i hyny—ei adferiad, wedi ei brofi yn hir ac yn drwm, o'i holl flinfyd, a'i lwyddiant a'i ddyrchafiad yn ei ddiwedd. Gelwir afiechyd Job, *cornwydydd blin*, שחין רע Yr un gair שחין a arferir yn y lleoedd canlynol: Exod. 9. 9. Deut. 28. 27—35. 2 Bren. 20. 7. Y mae amryw yn barnu mai math o wahan-glwyf oedd, a elwir *elephantiasis*; clefyd ffiaidd, dolurus, ac anfeddyginiaethol, yn ol barn yr hynafiaid: yr unig feddyginiaeth iddo i'w ddysgwyl na'i ddymuno oedd marwolaeth. Byddai y cleifion o hono, weithiau, yn llawn cynddaredd a gwallgofrwydd. Dywed Job, 'ei fod yn tyllu ei esgyrn; a'm giau,' medd efe, 'nid ydynt yn gorphwys.'‡ Gwel pen. 30. 17. Y mae yr holl lyfr, heblaw y pennodau hyn, yn farddonawl, mewn ffordd o gyd-siarad, a dadleuaeth rhwng Job a'i gyfeillion, yn nghylch rhagluniaethau Duw tu ag at ddynion. Y pwnc mewn dadl rhyngddynt oedd, Pa un a oedd cystuddiau trymion, a gorthrymderau, yn profi dyn yn rhagrithiwr, yr hwn oedd yn ymddangos yn dduwiol? Yn y ddadl y mae llawer o'r pynciau mwyaf hanfodol i wir grefydd yn cael eu trin a'u hegluro yn odidog iawn. Gosodir allan, yn aml, fawredd, purdeb, uniondeb, awdurdod, a llywodraeth Duw, mewn iaith ardderchog; y mae cwymp, pechod, a thrueni dyn yn fynych yn cael traethu am danynt; y mae yr athrawiaeth fawr am gymmod ac adferiad dyn trwy Gyfryngwr, yn cael ei thraddodi yn oleu ac yn ogoneddus. Gwel pen. xix, xxxiii.

Y mae holl gorph gwirioneddau dwyfol yn cael eu gosod allan mewn iaith addurnedig, droellog, a goruchel—am hyny mewn ymadrodd lled dywyll, weithiau. Gwedi hir ddadl rhwng Job a'i dri chyfaill, y mae Elihu, gwr ieuengach na hwy, yn ymddangos, yn beio arnynt oll, ac yn ymgais i derfynu y ddadl; ond yn methu. Yna y mae y Duw mawr yn llefaru o'r corwynt, mewn dull ardderchog ac ofnadwy, addas i'w fawrhydi anfeidrol. Y mae pawb yn tewi—Job yn dychrynu, yn plygu, ac yn myned yn llwch ac yn lludw.

Y mae yn addas sylwi, nad ydyw yr Arglwydd yn iselhau ei hun yn ei araeth odidog, wrth ymostwng i lefaru am yr achos mewn dadl, ond y mae yn gosod allan ei fawredd ei hun, a bychanrwydd Job; a bod y cyfryw ymofyniad a dadl ag oedd rhwng Job a'i gyfeillion yn hollol anaddas iddynt, am nas gallasai neb o honynt amgyffred mawredd, a dyfnderoedd doethineb, a dybenion Duw yn ei weithredoedd, ac yn ei lywodraeth arnynt. Y mae yn mynegi i Job nad oedd ganddo un llaw yn ngwneuthuriad y creaduriaid, a'u holl drefniadau, ac yn dangos ei anwybodaeth o'u naturiaeth, a'i analluedd i'w trin a'u llywodraethu. Os oedd felly yn anwybodus mewn perthynas i'r pethau lleiaf o weithredoedd Duw, pa faint mwy anaddas oedd i farnu am ddybenion a dirgeledigaethau rhagluniaeth Duw tu ag at ei bobl? Gwaith Duw yn y byd tragywyddol, yn ngwlad y goleuni, fydd amlygu ei fawr amryw ddoethineb yn ei holl drefniadau dwyfol. 'Ai dysgeidiaeth yw ymryson â'r Hollalluog? a argyhoeddo Dduw, atebed i hyny,' medd yr Arglwydd wrth Job. Y mae Job yn ateb; 'Wele, *gwael* ydwyf; pa beth a atebaf i ti? mi a osodaf fy llaw ar fy ngenau. Lleferais yr hyn ni ddeallais; pethau rhy ryfedd i mi, y rhai nis gwyddwn. Am hyny, y mae yn ffiaidd genyf fi fy hun; ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llwch a lludw.' Y mae yr addysg i ni oddiwrth hyn yn bwysfawr: Nid ymresymu am ffyrdd Duw a'n dwg ni byth i foddlonrwydd, ond cydnabyddiaeth o'i fawredd ef, a'n gwaeledd ein hunain; mor fawr yw ein hanwybodaeth ni, ac mor fychan ein hamgyffred; mor anchwiliadwy yw ei farnau ef! a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!—Pwy yw dyn i ddadleu yn erbyn Duw?

Er i Job amddiffyn ei hun gyda gormod hònìad o'i burdeb, &c., etto mae yr Arglwydd yn beio ar Eliphaz y Temaniad, a'i ddau gyfaill: 'Fy nigofaint,' medd efe, 'a gynneuodd yn dy erbyn di, ac yn erbyn dy ddau gyfaill, am na ddywedasoch am danaf fi yn uniawn fel fy ngwasanaethwr Job.' Gwedi dwyn Job i gwympo yn edifeiriol i'r llwch, 'yr Arglwydd a ddychwelodd gaethiwed Job,' pan weddïodd dros ei gyfeillion, yn ol gorchymyn Duw iddo; 'a'r Arglwydd a chwanegodd yr hyn oll a fuasai gan Job yn ddau ddyblyg.' Yr oedd iddo ddeg o blant yn ei lwyddiant, sef saith o feibion, a thair o ferched; y rhai i gyd a laddwyd tra yr oeddynt yn gwledda yn nhŷ eu brawd hynaf. Cafodd, ar ol ei adferiad o'i gystudd, yr un nifer o feibion a merched, a'i ferched yn rhagori mewn glendid ar holl ferched y wlad hòno. Os ydoedd y rhai a laddwyd, gyda Duw, nid oeddynt wedi eu colli; am hyny rhoddi yr un nifer drachefn iddo, oedd eu dyblu.—Dyblwyd y cwbl arall iddo mewn nifer, sef pedair mil ar ddeg yn lle saith o ddefaid; chwe mil yn lle tair o gamelod; mil yn lle pum can iau o ychain; a mil yn lle pum cant o asynod.

---

* Y mae arddull y gân yn gwahaniaethu nid ychydig oddiwrth nodwedd prydyddol Moses; oblegid y mae yn fwy byr a chynnwysfawr, ac yn fwy manwl yn nghyfansoddiad barddonol yr ymadroddion. *Prælect.*

† Y mae y mater, yr iaith, yr holl ddull, ac yn olaf y tywyllwch sydd yn perthyn iddo, yn profi mai y llyfr hwn yw yr hynaf o'r holl ysgrifeniadau sanctaidd. *Ibid.*

‡ Yr *Elephantiasis* oedd glefyd tra ffiaidd a phoenus, ac yn ol barn yr hynafiaid, yn anfeddyginiaethol; ac yn peri i'r cleifion flino ar eu heinioes, a dymuno angeu. Michaelis *in* Lowth. Edr. CORNWYD

Digitized by Google

Y mae yr addysgiadau oddiwrth hanes Job yn amrywiol ac yn bwysfawr.—1. Gwelwn fod ein holl gysuron yn gwbl yn dibynu ar yr Arglwydd a'i amddiffynfa drosom ni a'n heiddo.——2. Er fod Satan yn elyn galluog a thra chreulawn, yn ddiorphwys, ac yn ddiflino mewn drygioni, etto ei fod wedi ei derfynu gan yr Arglwydd, ac nas gall wneuthur y peth lleiaf, ond fel y goddefir iddo.——3. Sancteiddrwydd yw y peth y mae yr Arglwydd yn ei hoffi mewn dynion o flaen pob peth arall; ei ganmoliaeth i Job oedd, nid ei fod yn ddoeth, yn gyfoethog, &c., ond ei fod 'yn ŵr perffaith ac uniawn, yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni.'——4. Fod pob peth yma yn y byd yn gyfnewidiol, ac yn ansicr, hyd yn nod i gredadyn, ond ei undeb â'r Cyfryngwr, heddwch a gofal Duw am dano, a'i gynnaliaeth iddo yn ol ei ddyddiau. Er i Job golli golwg ar ei siriol wynebpryd, etto ni chollodd Duw mo'i afael ynddo—ïe, pan oedd yn llaw Satan; cynnaliodd ef yn anrhydeddus yn y frwydr pan oedd boethaf, a phâwb a phob peth yn ymddangos yn ei erbyn.——5. Mor ddwfn yw barnedigaethau Duw, a'i ddybenion doeth yn ei holl ragluniaethau; ac mor ddiball yw ei dosturi tu ag at ei bobl—ni phalla ei dosturi tu ag at y rhai a'i parchant, ac a obethiant ynddo, er iddo eu profi â blinderau trymion. 'Clywsoch am amynedd Job, a gwelsoch ddiwedd yr Arglwydd; oblegid tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog.'——6. Fod y goreu a'r doethaf o blant dynion yn anaddas farnwyr ar ffyrdd yr Arglwydd: mwy gweddus iddynt ymostwng, tewi, addoli, a dysgwyl wrtho.——7. Hawdd yw i'r Arglwydd wneuthur y tywyllwch yn oleuni o flaen ei bobl, a phethau ceimion yn uniawn; a pheri i bob peth gydweithio er daioni iddynt.——8. Hawdd yw i ddynion wrth ddadleu yn nghylch pethau sanctaidd, fyned i ysbryd ansanctaidd, cam-farnu eu gilydd, a dywedyd pethau yn anmharchus am yr Arglwydd.——9. Gellir golygu Job, nid yn unig yn siampl i'r duwiolion, y rhai sydd yn myned trwy lawer o orthrymderau i deyrnas Dduw, ond hefyd yn gysgod nodedig o'r Arglwydd Iesu, yr hwn ag efe yn gyfoethog, a aeth yn dlawd er ein mwyn ni; yr hwn nid yn unig a ddyoddefodd lawer, ond a roddodd ei einioes yn bridwerth dros lawer; a ddyrchafodd i'r gogoniant, ac a eiriolodd dros y troseddwyr.

Ar lyfr Job, gwel Schultens, Mercerus, Peters, Scott, a Caryl. Y mae gwaith Caryl yn faith, ond yn dra rhagorol yn mhob ystyr. Gwel hefyd Dr. Lightfoot's *Works, vol.* i. Lowth, *De Sacra Poesi Heb. Prælect.* 22. Sherlock's *Discourses on Prophecy, Dissert.* ii. Dr. Warburton's *Divine Legation of Moses.* Dr. J. Mason Goode, F.R.S. Gwel hefyd, *The Book of the Patriarch Job, translated, &c., by* Dr. Samuel Lee. *Bibliotheca Sacra, Nos.* xxii, xxiii, xxv.

JOBAB, 1. Mab Zera, o hiliogaeth Esau. Gen. 36. 33. 1 Cron. 1. 44.——2. Mab Joctan, brawd Heber. Gen. 10. 29. 1 Cron. 1. 23.——3. Brenin Madon. Jos. 11. 1.——4. Mab Gera o lwyth Benjamin. 1 Cron. 8. 9.——5. Mab Elpaal, o'r un llwyth. 1 Cron. 8. 18.

JOCDEAM, יקדעם [*darostyngiad y bobl*] dinas yn Judah. Jos. 15. 56.

JOCMEAM, יקמעם [*adgyfodiad y bobl*] dinas yn rhandir Ephraim, yn perthyn i'r Lefiaid o deulu Cohath. 1 Cron. 6. 68.

JOCNEAM, יקנעם [*meddiant y bobl*] 1. Dinas yn Judah. 1 Bren. 4. 12.——2. Dinas yn llwyth Zabulon, yn perthyn i'r Lefiaid o deulu Merari, yn agos i fynydd Carmel. Jos. 12. 22. a 19. 11. a 21. 34.

JOCSAN, *Heb.* יקשן [*anhawsdra*] mab Abraham o Ceturah. Gen. 25. 2. Anfonodd Abraham ef a'i frodyr oddiwrth Isaac ei etifedd, i dir y dwyrain. Poblogasant India, China, &c., tebygol.

JOCTAN, *Heb.* יקטן *Gr.* Ιεκταν [*bychan*] mab Heber, a brawd Peleg. Yr oedd iddo dri ar ddeg o feibion, y rhai a breswyliasant o Mesa, (hwyrach, yr un a Musa, neu Mecca, o du y dwyrain i'r Môr Coch), i Sephar, mynydd dehau-ddwyrain i Arabia Ffelix. Gen. 10. 25, 30. 1 Cron. 1. 19—23. Joctan oedd Tad yr Arabiaid yn ol barn rhai. Yn nghylch milltir o Mecca, yr oedd, os nad ydyw yn bresennol, lle a elwid Baisathyectan, neu preswylfod Joctan.

JOCTEEL, יקתאל [*cynnulleidfa Duw*] dinas yn Judah. Jos. 15. 38.

JOCHEBED, יוכבד [*anrhydeddus*] merch Lefi, a gwraig Amram, a mam Moses, Aaron, a Miriam. Yr oedd Jochebed yn fodryb i Amram, chwaer Cohath. Exod. 2. 1. a 6. 20.

IOD, *Heb.* יוד *Gr.* ιωτα; *Saes.* JOT. Y llythyren leiaf yn egwyddor pob un o'r ddwy iaith; tebygol cymeryd y gair Cymraeg o'r ieithoedd hyn. Iod, a arwydda y peth lleiaf, y rhan leiaf o ysgrifen. Mat. 5. 18. Edr. TIPYN.

JOEL, יואל [*yr hwn sydd yn ewyllysio*] 1. Mab cyntaf-anedig Samuel. 1 Sam. 8. 1, 2. Edr. SAMUEL.——2. Y mae amryw eraill o'r enw. 1 Cron. 15. 11. a 4. 35. a 7. 3. a 11. 38. a 23. 8. a 26. 22. a 27. 20. Neh. 11. 9.——3. Mab Pethuel, prophwyd yr Arglwydd. Nid oes dim ond dychymygion i chwanegu am dano. Yr amser y prophwydodd sydd ansicr. Prophwydodd yn unig i Judah, heb sôn am y deg llwyth; am hyny y bernir iddo brophwydo gwedi amser eu caethgludiad. Y mae yn rhagfynegi am farnedigaethau dychrynllyd ar y wlad trwy sychder, a locustiaid, y rhai a olygir yn arwyddocâol o fyddinoedd y Caldeaid, ac eraill, a oresgynasant y wlad. Oddiwrth yr ystyriaeth o hyn, y mae yn annog i edifeirwch, ac ympryd a gweddi, gan addaw bendith a llwyddiant yn ganlynol i hyny. Y brophwydoliaeth fwyaf hynod ynddo, yw hòno a gofféir gan Petr ar ddydd y Pentecost. Gwel pen. 2. 28—32. Act. 2. 16, 21. Rhuf. 10. 13—16. Am effeithiau yr efengyl—tywalltiad yr Ysbryd Glân ar Iuddewon a Chenedloedd—y canlyniadau ofnadwy o'u gwrthwynebu; yr hyn a gyflawnir hyd heddyw, ac sydd brawf diammheuol o'i fod yn llefaru trwy ysbrydoliaeth Duw. Y mae yn diweddu gyd âg addewidion cysurol i'r Iuddewon yn y dyddiau diweddaf. Y mae yr holl feirniaid yn cyduno am ei ddull yn ysgrifenu, fod ei iaith yn hardd, yn eglur, yn fywiog, yn oruchel hynod, yn wresog, yn dreiddiol, ac yn oleu.*

JOELAH, יועאלה [*dyrchafedig*] mab Jeroham o Gedor; a ddaeth at Dafydd i Siclag. 1 Cron. 12. 7.

JOEZER, יועזר [*cynnorthwywr*] Corhiad a ddaeth at Dafydd i Siclag. 1 Cron. 12. 6.

JOGBEAH, יגבהה [*dyrchafiad*] dinas yn rhandir Gad. Num. 32. 35. Barn. 8. 11.

JOHA, יוחא [*bywus*] Tiziad, mam Zimri; un o filwyr enwog Dafydd. 1 Cron. 11. 45.

JOHANAN, יוחנן [*trugarog*] 1. Mab Josiah, yr hwn, tebygol, a fu farw yn ieuanc. 1 Cron. 3. 15.——2. Mab Elioenai. 1 Cron. 3. 24.——3. Mab Azariah, arch-offeiriad. 1 Cron. 6. 9, 10.——4. Mab Careah, yr hwn a hysbysodd i Gedaliah fwriad gwaedlyd Ismael yn ei erbyn, ac a gynnygiodd ei ladd ef; ond ni chredodd Gedaliah hyny, ac a gafodd ei ladd yn ganlynol. Gwedi lladd Gedaliah, Johanan, gyda

* Imprimis est elegans, clarus, fusus, fluensque; valde etiam sublimis, acer, fervidus.——Nec minus clara est rerum connectio, quam dictionis color. Lowth, *Prælect* 21.

Digitized by Google

holl dywysogion y llu, a gymerasant weddill y bobl, ac a ethant, ac a eisteddasant yn Cimham, yn agos i Bethlehem, i fyned i'r Aipht. Y mae efe a'r tywysogion yn rhagrithiol yn erfyn ar Jeremiah i ymofyn â Duw; y mae yntau yn dangos y caent hwy ddiogelwch yn Judea, ond dinystr yn yr Aipht. Johanan a anghoeliodd brophwydoliaeth Jeremiah, ac a'i dug ef ac eraill, i'r Aipht, yn groes i air y prophwyd—lle y dinystriwyd hwynt yn nghylch pedair mlynedd ar ddeg gwedi hyny gan y Caldeaid, y rhai a oresgynasant yr Aipht. Jer. xl—xliv. 2 Bren. 25. 23. Edr. Jeremiah.

JONA, Ιωνα [*colomen*] tad Petr ac Andreas: dyfyriad yw Jona o Joana, medd Calmet. Bar-Jona, yw mab Jona. Mat. 16. 17. Ioan 21. 15.

JONADAB, *Heb.* יונדב [*gweithiwr egniol*] 1. Nai Dafydd, mab Simeah. Dyn cyfrwys a dichellgar. 2 Sam. 13. 3.——2. Mab Rechab. 2 Bren. 10. 15, 16. Edr. Rechab.

JONAH, *Heb.* יונה [*colomen*] mab Amittai, o Gath-Hepher, dinas yn llwyth Zabulon, yn Galilea, a elwir Gittah-Hepher. Jos. 19. 13. Ei henw presennol yw el-Meshhod. Prophwydodd y dygai yr Arglwydd yn ol i Israel yr holl ddinasoedd a gymerodd y Syriaid oddi arnynt yn nheyrnasiad Ahab, Jehoram, Jehu, a Jehoahaz. 2 Bren. 14. 25. Yr oedd yn byw yn nheyrnasiad yr ail Jeroboam, cyn pen hir ar ol Eliseus. Yr ydys yn barnu yn gyffredin mai efe a ysgrifenodd ei hanes ei hun yn y llyfr dan ei enw: os felly, rhydd hanes manwl, ffyddlawn, am ei wendidau pechadurus ei hun, a neillduol amynedd a thrugarogrwydd yr Arglwydd. Gellir golygu hyn fel un prawf cryf o ddwyfoldeb yr ysgrythyrau, a bod eu cyfansoddwyr yn eu hysgrifenu dan ddylanwadau dwyfol; sef am nad ydynt yn ymgais i leihau eu beiau eu hunain, ond yn eu hadrodd gyda phob amgylchiad ag oedd yn eu dangos yn wrthun ac yn ffiaidd. Nid eu gofal yw dangos eu hunain gyda gwychder ac enwogrwydd, ond cyfiawnhau Duw yn ei holl weithredoedd a'i oruchwyliaethau rhagluniaethol tu ag at y byd a thu ag at yr eglwys, duwiolion ac annuwiolion, pa olwg bynag fyddai arnynt hwy eu hunain yn y drychiad. Y mae hanes y gwr hwn yn nodedig o hynod ac unigol, pa un bynag a ystyriwn orchymyn Duw, a'r gwaith a roddodd iddo; ynte ei ymddygiad ef tu ag at yr Arglwydd yn wyneb hyny. Danfonodd Duw Jonah i Ninifeh, prif ddinas ymerodraeth Assyria, a'r fwyaf a fu erioed yn y byd, i lefain yn ei herbyn o herwydd ei drygioni. Jonah a gyfododd i ffoi i Tarsis yn lle myned i Ninifeh. Edr. Tarsis, Ninifeh. Yr Arglwydd a gyfododd wynt mawr yn y môr, a bu tymhestl fawr yn y môr, fel y tybygid y drylliai y llong. Taflwyd Jonah i'r môr gan y morwyr, ar ei archiad ei hun; yr Arglwydd a ddarparodd bysgodyn mawr i lyncu Jonah. Gwaeddodd ar yr Arglwydd o fol y pysgodyn; dywedodd yr Arglwydd wrth y pysgodyn, a bwriodd Jonah i dir sych. Danfonodd Duw Jonah yr ail waith i Ninifeh; aeth a phregethodd yn Ninifeh; ac ar eu hedifeirwch, arbedwyd y Ninifeaid. Dangosodd Jonah ei anfoddlonrwydd i hyny, mewn modd cywilyddus a digofus iawn; y mae Duw yntau yn ei geryddu yn dirion dan rith y pren cicaion. Gwel y Llyfr.

Dysgwn oddiwrth yr hanes rhyfedd a nodedig hwn, 1. Y dichon gwendidau mawrion oddiweddyd y dynion goreu. Yr oedd ymddygiad Jonah yn wrthnysig, yn gyndyn, ac yn bechadurus iawn; etto, yn nghanol y cwbl, ymddengys ei ffydd a'i ras yn hynod o nodedig. Gweddïodd mewn amgylchiadau na bu neb arall yn eu bath: gweddïodd mewn ffydd, a gwrandawodd yr Arglwydd ef.

2. Fod llywodraeth Duw ar bob peth yn gyflawn ac yn hollol: gwelwn yma y gwynt, y môr, y pysgodyn, &c., yn gwbl at ei orchymyn, ac yn ufuddhau iddo.

3. Nad oes dim anhawsdra i Dduw gadw bywyd ei bobl yn y dull, y modd, a'r man y myno: cadwodd Jonah yn fyw 'yn mol uffern,' sef yn ngwlad angeu. Llawer a ddirmygwyd ac a wawdiwyd ar yr hanes rhyfedd hwn, gan ddynion heb wybod gallu Duw, ac heb ysbryd i'w barchu. Eu cywilydd hwy yw hyny; a bydd dial arnynt o'r achos, heb wir edifeirwch. A fydd dim yn anhawdd i Dduw? Nid oes neb ond ynfydion gwallgofus a feddwl hyny. Gall a fyno, y pryd a'r ffordd a fyno.

4. Gwelwn mor fawr yw amynedd, trugarogrwydd, a thiriondeb Duw! Yn lle taro Jonah yn farw am ei anufudd-dod, a'i ffoad ar encil oddi wrtho, cymerodd foddion effeithiol i'w attal, ei ddarostwng, a'i ddwyn yn ol at ei orchwyl. Rhaid i Jonah, ac nid neb arall, fyned i Ninifeh; ac nid ydyw yn llai addas, os nid yn fwy, i fyned yno gwedi bod yn y dymhestl fawr, nag ydoedd o'r blaen.

5. Y tâl gweddïo ar yr Arglwydd yn ein gwrthgiliadau, ein hanufudd-dod, a'n pechadurusrwydd, yn y cyfyngderau mwyaf. Mae gweddi yn enw Mab Duw, yr hwn yr oedd y deml yn ei gysgodi, yn sicr o lwyddo gyda Duw yn mhob man, ac amgylchiad, y tu yma i uffern. 'Pan lewygodd fy enaid ynof,' medd Jonah, 'cofiais yr Arglwydd; a'm gweddi a ddaeth i mewn atat i'th deml sanctaidd.'

6. Gwagedd yn ddiau yw pob dyn fyddo ar y goreu: wele, Jonah yn anfoddog ac yn anynad drachefn, wedi ei holl waredigaethau mawrion, ac ymweliadau grasol Duw âg ef. Am i Dduw arbed y ddinas fawr hòno, ar ymostyngiad edifeiriol yr holl drigolion, y mae Jonah yn ymddigio hyd angeu. Y mae yr Arglwydd yn ei drin ef yn dirion, fel mammaeth ei phlentyn anynad. Yr oedd meddyliau mawrion gan Jonah am Ddüw; 'Gwyddwn dy fod di yn Dduw graslawn a thrugarog, hwyrfrydig i ddig, aml o drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg.' Ar hyn, er mor ryfedd, cymerodd y diafol fantais i weithredu arno i anufuddhau dwyn cenadwri fygythiol at y Ninifeaid.

7. Y mae arbediad Duw o'r Ninifeaid, ar eu hymostyngiad, yn addysgiadol, ac yn ein cyfeirio i'r unig lwybr effeithiol i attal barnedigaethau oddi wrthym, yn bersonol, yn deuluol, ac yn wladol. Hawdd gan yr Arglwydd drugarhau ac arbed: nid yw yn taro neb ar lawr.

Trwy roddi diwrnod am flwyddyn, yn ol iaith y prophwydi, cyflawnwyd geiriau Jonah yn fanwl; oblegid yn mhen deugain mlynedd Ninifeh a ddinystriwyd yn hollol.

Yr oedd Jonah yn gysgod hynod o'r Arglwydd Iesu, yn ol tystiolaeth Crist ei hun: 'Canys fel y bu Jonas dridiau a thair nos yn mol y morfil, felly y bydd Mab y dyn dridiau a thair nos yn nghalon y ddaear.' Mat. 12. 40. Luc 11. 30. Jonah 1. 17. a 2. 10. Nodwyd yn y geiriau hyn yr amser neillduol y byddai yr Arglwydd yn y bedd, ei adgyfodiad gwyrthiol, a phregethiad yr efengyl yn ganlynol i hyny, ganddo ef trwy ei apostolion, i'r cenedloedd. Yr oedd gwaredigaeth Jonah yn rhyfedd ac yn wyrthiol, ond 'wele un mwy na Jonas yma.' Ni wnaed, ac ni wneir byth, un wyrth fwy nag adgyfodiad Crist trwy ei allu ei hun oddiwrth y meirw. Edr. Adgyfodiad.

Yr oedd Jonah yn arwydd i'r Ninifeaid. Pa arwydd fwy allasent feddwl am dani, na'i fod wedi ei orddiwes, ei gadw, a'i waredu mor rhyfedd gan Dduw i bregethu edifeirwch iddynt? Yr oedd hon yn arwydd dra sicr mai Duw oedd wedi ei anfon, ac mai geiriau Duw oedd yn eu llefaru: felly mae adgyfodiad Crist i ninnau yn arwydd sicraf sydd bosibl i fod byth mai Crist yw y Messïah addawedig—o ddwyfoldeb ei Berson—digonolrwydd ei aberth—cyflawnder ei fuddugoliaeth ar bob gelyn—o anghyfnewidioldeb y cyfammod gras—heddychlonedd Duw—sicr adgyfodiad ei holl bobl—a'u gogoneddiad tragywyddol.

Digitized by Google

Arwydd yr holl arwyddion ydyw hon; heb hon, buasai yr holl arwyddion eraill yn annigonol, ac yn ofer; y benaf o'r cwbl yw, ac sydd hefyd yn ddiweddglo ar y cwbl. Gan fod y Person a'r arwydd yn fwy hynod nag oedd Jonah i'r Ninifeaid, felly bydd y rhai na chredant ynddo yn fwy anesgusodol na'r Ninifeaid.

Peidiodd y môr a'i gyffro wedi bwrw Jonah iddo; wedi ei fwrw ar dir sych, aeth i bregethu i Ninifeh, fel un oddiwrth y meirw: dengys hyn yn hynod effeithiau marwolaeth ac adgyfodiad Crist. Cafodd Crist y môr yn dymhestlog iawn, ond aeth iddo felly o'i wirfodd i'w gael yn dawel i'w bobl; a daeth â'r newyddion mwyaf hyfryd o heddwch a maddeuant pechodau ganddo o wlad angeu.

Ysgrifenodd Abbot a John King, dau esgob o'r un enw, ar y llyfr hwn. Hefyd Hutchinson, ac Esgob Newcome.

JONATH ELEM RECHOCIM, יונת אלם רחוקים [*y golomen fud mewn gwlad bell*, neu *colomen y mudaniaeth*] titl Ps. lvi. Yr oedd Dafydd yn ddiniwed fel y golomen, yn nghanol erlidigaethau Saul; yr oedd yn fud ac yn amyneddgar dan orthrymderau. Yr ydoedd fel y golomen ofnus, wedi ei yru yn mhell o'i gartref, ac oddiwrth ordinhadau Duw; ac fel y golomen yn mhlith yr adar ysglyfgar, yr oedd yntau yn mhlith y Philistiaid, y rhai oeddynt gwedi eu hannog i ymddial arno gan berthynasau Goliath; ond goddefodd y cwbl yn ddystaw ac yn amyneddgar. Yn hyn oll yr oedd yn gysgod nodedig o'r Iesu, yr hwn yn ddiniwed a ddyoddefodd yn fud, heb agor ei enau.

'Yr ydwyf,' medd Mr. Fenwick, 'yn cyduno â'r rhai a gyfleithant יונת אלם (*Jonath Elem*) *oppressionem manipuli*, hyny yw, *gorthrymiad y dyrnaid*, ac yr ydwyf yn deall wrth y dyrnaid, y praidd bychan o wir gredinwyr, yn wasgaredig ac yn orthrymedig yn mhlith y cenedloedd, (רחוקים) *y rhai oeddynt yn mhell*, yn iaith yr apostol; yr hyn a gyduna â chyfieithiad y LXX. "y bobl oedd yn mhell (*απο των αγιον*) *oddiwrth bethau sanctaidd*." Canys, tebygol, mai y praidd bychan hwn o wir gredinwyr yn mhlith y cenedloedd, y rhai sydd yma dan yr arwydd o Dafydd yn gweddïo am waredigaeth oddiwrth y Philistiaid, yn ol y rhan ddiweddaf o'r titl, sydd yn gweddïo am amddiffyniad a gwaredigaeth oddiwrth eu gorthrymwyr.' Gwel Fenwick's *Thoughts on the Hebrew Titles of the Psalms.*

JONATHAN, יהונתן [*rhodd yr Arglwydd*] 1. Mab Gerson; ond nid tebyg ei fod yn ŵyr i Moses, fel y barna rhai. Bu yn eilun-offeiriad i Micah yn mynydd Ephraim am ddeg sicl o arian, par o ddillad, a'i luniaeth bob blwyddyn. Bu gwedi hyny yn eilun-offeiriad i'r Daniaid yn Lais. Barn. xvii, xviii. Y mae yr holl bethau hyn yn amlygu fod gwir grefydd yn isel yn mhlith plant Israel y dyddiau hyny: 'pob un yn gwneuthur yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun,' ac yn ddiystyr o'r Arglwydd a'i gyfreithiau sanctaidd.—'Jonathan mab Gerson mab Manasseh.' Barn. 18. 30. Y mae rhai adysgrifiadau yn darllen משה *Moses*, yn lle מנשה *Manasseh.* Mae y gair yn y Bibl Hebraeg yn nodedig â'r llythyren נ yn uwch na'r lleill yn yr enw, fel hyn מנשה Paham y rhoddwyd hi felly nis gellir ond dychymygu; rhai a farnant mai yr Iuddewon a roisant y llythyren i mewn fel hyn o barch i'w deddfwr Moses, yn barnu yn ddianrhydedd iddo, fod ei ŵyr yn eilun-addolwr: ond ei fod yn deilwng ei alw yn fab Manasseh, o ran ei eilun-addoliaeth: ond nis gellir profi iddynt lygru yr ysgrifen trwy roddi y llythyren. Tebygol nad Manasseh mab Hezeciah a feddylir; ond rhyw Manasseh arall, yr hwn oedd ganddo fab a'i enw Gerson, yr hwn oedd dad i Jonathan eilun-addolgar. Gwel Glass. *Phil. Sacr., lib.* i, *tract.* i, *sec.* 17.——2. Mab Abiathar yr offeiriad. 1 Bren. 1. 42, 43.——3. Mab Sageth yr Harariad; un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 34. 2 Sam. 23. 32, 33.——4. Mab Simea, brawd Dafydd, yr hwn a laddodd un o feibion y cawr yn Gath. 1 Cron. 20. 7.——5. Jonathan, neu Jehonathan, mab Uzziah, trysorwr Dafydd. 1 Cron. 27. 25. ——6. Mab Asahel. Ezra 10. 15. Ysgrifenydd a cheidwad carchardŷ dan deyrnasiad Zedeciah. Ymddygodd yn greulawn tu ag at y prophwyd Jeremiah, am hyny y mae efe yn ymbil ar y brenin beidio ei anfon i dŷ Jonathan rhag ei farw yno. Jer. 37. 14, 15, 20.——7. Mab y brenin Saul, a chyfaill mynwesol Dafydd. Y mae yr holl hanes am dano yn ei ddangos yn ŵr o ysbryd twysogaidd, gwrol, arwraidd, godidog, a serchog iawn, a ffyddlawn fel cyfaill. Lladdwyd ef gyd â'i dad gan y Philistiaid ar fynydd Gilboa. Cyfansoddodd Dafydd alarnad ar yr achos—un o'r rhai mwyaf galarus a chyffrous. Dangosodd Dafydd garedigrwydd i'w fab Mephiboseth. 1 Sam. xix, xx. 2 Sam. i, ix. Edr. SAUL, DAFYDD.——8. Mab Cereah, un o dywysogion y lluoedd pan gymerwyd Jerusalem. Jer. 40. 8.

JOPPA, neu JAPHO, יפו [*harddwch*] porthladd hardd ar Fôr y Canoldir, o du y gorllewin i wlad Canaan, yn nghylch 34 o filltiroedd gogledd-orllewin o Jerusalem, ac yn sefyll mewn dyffryn hyfryd. Dywedir ei hadeiladu gan Japheth, ac mai oddi wrtho ef y cafodd yr enw Japho, wedi hyny Joppa, ac yn awr Jaffa. I Joppa yr oeddynt yn dwyn coed i adeiladu y deml yn amser Solomon yn gludeiriau; ac oddi yno yr oeddynt yn cael eu dwyn i Jerusalem. Yma y cyfododd Petr Dorcas, ac y daeth cenadau Cornelius am dano. Dinystriwyd hi gan y Rhufeiniaid. Cawn hanes am esgobion Joppa yn y bummed a'r chweched ganrif. Gelwir hi yn bresennol Jaffa. Jos. 19. 46. 2 Cron. 2. 16. Act. ix, x.

Yn agos i Jaffa y parodd Buonaparte saethu 4,600 o'r Tyrciaid bedwar diwrnod gwedi eu cymeryd yn garcharion. Yma hefyd y gwenwynodd yn greulawn lawer o'i filwyr cleifion neu archolledig, rhy sâl i'w symud.——Gellir barnu ei bod gynt yn fwy cyfleus porthladd nag ydyw yn bresennol. Y mae yn sefyll ar uchelfa, o ba un y gellir canfod dinas Jerusalem.

IOR—AU, (or) *yr Arglwydd, y Tragywyddol*; y BOD heb ddechreu ac heb ddiwedd, yr Hen Ddihenydd.

Duw IOR y duwiau eraill,
Dofydd a Llywydd y lleill.

Y mae y gair IOR, fel un o enwau yr Arglwydd, yn ein cyfieithiad ni o'r Bibl, yn gyfieithiad o'r gair ארני yn y lleoedd canlynol; Jos. 3. 13. a 7. 7. Barn. 16. 28. Ps. 8. 1. a 45. 11. Esa. 61. 11. Jer. 22. 18. Ezec. 44. 15. Amos 3. 8. Ond cyfieithiad o'r gair יה (*Iah*) ydyw yn y ddau le canlynol: Ps. 89. 9. Esa. 38. 11. Edr. IAH.

Ystyr y gair ארני (*Adonai*) yw *Arglwydd, llywodraethwr, cyfarwyddwr.* Priodolir yr enw hwn i ddynion yn gystal ag i Dduw yn aml, ac a gyfieithir *arglwydd, meistr*; megys Gen. 39. 20. a 42. 30, 33. a 45. 8, 9. 1 Bren. 1. 17, 31. a 20. 4, 9. Ond nid yw yr enwau יה יהוה *Iah, Iehofah*, yn cael eu priodoli i neb ond y gwir Dduw; ac yn eu hystyr gwreiddiol y maent yn gwbl anaddas i'w priodoli i un creadur. Edr. y geiriau.

'Ni chaf weled yr Arglwydd IOR yn nhir y rhai byw.' Esa. 38. 11. לא אראה יה יה בארצה היים *Ni chaf weled* IAH; IAH *yn nhir y bywiolion.* Yr oedd wedi profi llawer o hyfrydwch wrth edrych ar brydferthwch a gogoniant yr Arglwydd yn ei addoliad yn y deml; ac yr oedd yn gobeithio ynddo ei hun i gael mwynhau y fraint fawr hòno dros flynyddoedd etto i

ddyfod; yn ei glefyd barnodd fod y fraint hòno wedi darfod, yn gystal a'i ddefnyddioldeb dros Dduw yn y byd, yr hyn oedd yn peri galar nid bychan iddo. Ps. 6. 4, 5. a 27. 13. a 116. 8, 9. Preg. 9. 4, 5, 6.

'Arch Arglwydd IOR yr holl fyd.' Jos. 3. 13. ארון יהוה כל־הארץ *Arch* IEHOFAH, IOR *yr holl ddaear*, sef llywodraethwr a chynnaliwr yr holl ddaear. Tybygaf y buasai yn fwy addas gadael yr enwau priodol yn unig i'r gwir Dduw, megys IEHOFAH a IAH, heb eu cyfieithu, gan nas gellir gosod allan eu hystyr addas trwy un gair mewn iaith arall.

IORDDONEN, ירדן [*afon barnedigaeth*, neu yn hytrach, *disgynedig*]. Y mae yn tarddu o fynydd Libanus, 12 milltir i'r gogledd o Cesarea-Philippi; 12 milltir i'r dehau oddi yno y mae yn derbyn afonig arall o lyn Phiola. Yn nghylch 15 milltir pellach i'r dehau, y mae dyfroedd Merom, neu lyn Samechon, yr hwn sydd bedair milltir o led, a saith a hanner o hŷd. Cyn dyfod i'r llyn hwn, gelwir hi yr Iorddonen fechan, a chwedi rhedeg o hono, yr Iorddonen fawr. Lightfoot. Wyth milltir ar hugain yn mhellach, y mae yn myned i Lyn Gennesareth, neu Môr Tiberias, neu Môr Galilea, yr hwn sydd 13 o filltiroedd o hŷd, a 5 o led. Oddi yno rhed i'r dehau trwy ddyffryn hir, y rhan fwyaf yn anialwch, nes yr elo i'r Môr Marw. Y mae y dyffryn garw hwn yn nghylch 20 milltir o hŷd, a 10 o led oddeutu yr Iorddonen, medd Josephus, yn sych iawn yn yr haf, a'r awyr yn aflachus. Nid yw yn bresennol, medd y teithwyr Shaw, Thomson, a Maundrell, yn llifo dros ei cheulenydd, fel cynt: tebygol, gan hyny, os yw hyny yn wir, fod gwely yr afon wedi dyfnhau, gan fod toddiad yr eira ar fynyddoedd Libanus a Hermon yn ei gorlenwi yn gylchynol etto yr un fath. Ond dywed Volney, teithiwr diweddarach, ei bod yn llifo drosodd. *Trav., vol.* i. Ei rhediad i gyd sydd yn nghylch 160 o filltiroedd, yn chwyrn ac yn gryf. Ei lled yn agos i'r Môr Marw sydd o bump i ddeg ar hugain o latheni, a'i dyfnder yn fawr. Ar ei cheulenydd, o bob tu, y mae llawer o goedydd, fel nas gellir ei gweled mewn rhai manau ganddynt. Yn y prysglwyni hyn, llewod, a chreaduriaid gwylltion eraill, a lochesant. Gyrid hwynt oddi yno gan orlenwad yr afon, a byddent yn dra pheryglus yr amserodd hyny i'r trigolion cymydogaethol. Jer. 49. 19. Zech. 11. 3. Y mae ei dyfroedd yn afloyw, o herwydd y clai sydd yn ei gwaelod, ond yn iachus, meddant. Y mae yn llawn o bysgod, am nad oes neb yn pysgota ar hyd-ddi; eu hunig berygl ydyw cael eu cario i'r Môr Marw, yr hyn fyddai yn farwolaeth gythrymol iddynt.

Mynediadau tros yr Iorddonen oeddynt, 1. Pont Jacob, rhwng y llynoedd Samechon a Gennesareth, yn agos i'r fan, meddant, lle cyfarfu Jacob âg Esau, a lle yr ymdrechodd yr angel âg ef.——2. Pont yn Chammoth, ar rediad yr afon o Lyn Gennesareth.——3. Yn Bethabara, gyferbyn a Jericho, yr oedd ceubalfa, neu drosglwyddfa, yn hytrach na phont. 2 Sam. 19. 18. ——4. Yr oedd un arall, tebygol, yn Bethsan, neu Scythopolis. Ei henw gan yr Arabiaid yw *El-Shariah*. Gwahanwyd ei dyfroedd dair gwaith yn wyrthiol, sef gan Josuah, Elias, ac Eliseus, ac ynddi y bedyddiwyd yr Arglwydd Iesu. Jos. iii. 2 Bren. ii. Mat. iii. Sychwyd ei dyfroedd dros lawer o filltiroedd, deuddeg, medd Lightfoot, pan aeth Josuah ac Israel trwyddi i wlad Canaan.

'Iesu a ddaeth i derfynau Judea, tu hwnt i'r Iorddonen.' Mat. 19. 1. 'Ac a aeth i dueddau Judea, *trwy* y tu hwnt i'r Iorddonen.' Marc 10. 1. Nid oes dim o wlad Judea yn sefyll tu hwnt i'r Iorddonen, ond yr oedd Iuddewon lawer yn amser ein Hiachawdwr yn preswylio yn nghyffiniau dwyreiniol yr Iorddonen, a hwyrach i'r Arglwydd Iesu fyned trwy eu gwlad i bregethu iddynt. Gellir cyfieithu y geiriau περαν του Ιορδανου,* *ar yr Iorddonen*, sef ar gyffiniau yr Iorddonen. Campbell.

Ond ymddengys oddiwrth Ioan 10. 40. mai Bethabara, lle buasai Ioan ar y cyntaf yn bedyddio, oedd y lle yr aeth yr Iesu iddo, yr hwn oedd yn ddiddadl tu hwnt i'r Iorddonen, gyferbyn a Jericho. Yr oedd hwn yn agos i gyffiniau Judea, a hwyrach i'r Iesu groesi yr Iorddonen oddi yno i wlad Judea amryw weithiau. Ystyr mwyaf cyffredin y rhagddod περαν, yw *tu hwnt, tu draw*. Doddridge, Macknight.

'Gwastadedd yr Iorddonen,' yr hwn a ddewisodd Lot i breswylio ynddo, oedd y gwastad-tir trwy yr hwn yr oedd yr Iorddonen yn rhedeg, a orchuddir yn bresennol gan *Lacus Asphaltites*, y Môr Marw, neu y Môr Heli, fel y gelwir ef. Gen. 14. 3. Y mae y gwastadedd hwn yn cyrhaedd tu hwnt i Jericho tu a'r gogledd, i Succoth, yn agos i du dehau i Fôr Galilea, neu Cinnereth. Tebygol ei fod yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gwastad-tir o'r naill fôr i'r llall, trwy ba un y rhed yr Iorddonen. Y mae yn eglur fod amryw ddyffrynoedd yn y gwastadedd hwn, megys dyffryn Jericho, dyffryn Sidim. Deut. 34. 3. Gen. 14. 3. Wells.

JORIM, Ιωρειμ, [*dyrchafydd yr Arglwydd*] tad Eleazer, a mab Matthat. Luc 3. 29.

JOSBECASAH, ישבקשה [*gofynwr*] mab Heman, ac un o'r cantorion. 1 Cron. 25. 4.

JOSEPH, יוסף [*chwanegiad*] mab Jacob o Rahel. Pharaoh a alwodd enw Joseph, *Saphnath-Paaneah*, *chwiliwr dirgeledigaethau;* neu, medd Jerome, *Achubwr y byd;* neu, medd Bate, *trysor o gysur ardderchog*. Ganwyd Joseph yn Mesopotamia, A.M. 2259. Afreidiol rhoddi hanes y gwr hynod hwn yma; y mae eisoes wedi ei adrodd gan Moses, mewn dull ac ymadrodd mwyaf hardd, gwych, ac effeithiol. Ei anurddo fyddai ymgais ei fynegi, ond yn y dull a'r iaith y darllenwn ef yn llyfr cyntaf Moses. Ychydig sylwadau ar yr hanes rhyfedd, a allant fod yn fuddiol i'r darllenydd. Sylwn gan hyny,

1. Y dichon gorthrymderau maith a thrymion gyfarfod â dynion, yn nhrefn Duw, heb un achos *neillduol* yndynt hwy yn galw am danynt, ac heb fod yn arwyddion neillduol o anfoddlonrwydd Duw tu ag atynt. Heb un achos *neillduol*, meddaf, *rhagor* eraill; onidê, y mae achos digonol yn mhawb, fel y maent yn bechaduriaid, i Dduw sanctaidd a chyfiawn eu tro yn drwm; ie, i ddinystr tragywyddol. Y mae profedigaethau Joseph yn dechreu yn foreu, yn nghenfigen a chasineb ei frodyr, ac a barhausant yn hir; ddim llai na thair blynedd ar ddeg. Yr oedd dau achos o gasineb ei frodyr tu ag ato; sef, am fod yn hoffach gan ei dad Joseph na'i holl frodyr; hefyd am y dygai Joseph eu drygair at eu tad. 'Mab ei henaint,' oedd i'w dad; sef, tebygol, ei gyfaill, a'i gydymaith, oedd yn ei henaint; yr oedd yn fwy ystyriol a pharchus o'i dad; yr oedd yn fwy hoffus gan ei dad, oblegid ei ragorsobrwydd, a'i dduwioldeb, ar ei frodyr. Tebygol i'r hen ŵr ddangos y tueddgarwch hwn at Joseph yn ormodol, trwy wneuthur siaced fraith iddo, &c. Ei frodyr a'i casasant o'r herwydd, ac ni fedrent ymddyddan âg ef yn heddychol. Nid oes un bai yn cael ei roddi yn erbyn Joseph; ond y mae ei holl ymddygiad yn ei ieuenctid yn brydferth, yn addas, ac yn dduwiol hefyd. Ond dengys yr hanes yn amlwg fod dybenion Duw, yn y cwbl, yn ddoeth ac yn dda; a bod angenrheidrwydd am y pethau chwerwon hyn i addasu Joseph i'r hyn sydd yn canlyn.

*περαν vertendun *cis*, vel *secus*, vel *secundum*, Jordanem, i. e. secus ripam Jordanis. Beza. περαν autem interdum significat, *juxta*, *circa*, ad imitationem Hebraici. עבר quod sic egitur. Deut. 1. 1. & 4. 46. Isa. 0. 1.



Digitized by Google

2. Gwelwn fod Duw yn ffyddlon anfethedig i'w bobl, ac yn gwbl abl i'w cynnal a'u dyddanu dan y gorthrymderau mwyaf. Trwn iawn oedd i Joseph dyner orfod gadael tŷ ei dad tirion—cael ei gasâu, ac agos ei ladd, gan ei frodyr—ei werthu ganddynt i estroniaid annhrugarog—cael ei gyhuddo o fai gwedi hyny, ag oedd gwedi ei wrthsefyll a'i ffieiddio—gwedi hyny ei garcharu yn anghyfiawn; 'Cystuddiasant ei draed ef mewn gefyn; ei enaid a aeth mewn heiyrn' —a'i anghofio gwedi hyny gan un a ddylasai gofio am dano: ond yn, a thrwy y cwbl, 'yr Arglwydd oedd gyda Joseph, ac a ddangosodd iddo ef drugaredd;' חסד *tiriondeb, caredigrwydd, a graslonrwydd.* Yr oedd hyn yn anfeidrol fwy na phe buasai pawb yn dirion wrtho heb hyn: a hwyrach mai y blynyddoedd blinion hyn o brofedigaethau oedd yr yspaid mwyaf dyddanus o'i holl fywyd. Duw yn ei ras a'i drugaredd, yn rhoddi ei gynnaliaeth, a'i bresennoldeb, sydd yn unig ac yn gwbl ddigonol i ni yn mhob sefyllfa ac amgylchiad.

3. Am fod yr Arglwydd gyd âg ef yn ei gynnaliaeth rasol, a'i gyfarwyddyd, gwelwn ei rodiad yn addas i Dduw, ac i ddyn yn ofni Duw, yn mhob sefyllfa, a phob profedigaeth. Canfyddwn ef yn yr holl amrywiol sefyllfaoedd ac amgylchiadau y gosododd Duw ef ynddynt, y plentyn ufudd, parchus; y brawd caruaidd, maddeugar; y gwas ffyddlon; y gwerydd diwair; y swyddog doeth, uniawn, hawddgar, a da: yn fyr, yn mhob man y mae Duw gwedi ei gynnysgaethu â phob gras, ac â phob dawn angenrheidiol i fyw yn dduwiol, i harddu ei swydd, ac i gyflawni yn addas y dyledswyddau perthynol i'w sefyllfa. Heb ddysg, y mae yn ben ar holl ddoethion yr Aipht; heb fagwraeth llys breninol, y mae yn llenwi yr orsedd gyda mawrhydi, yn llywio y deyrn-wïalen ger bron yr holl deyrnasoedd, gyda doethineb a gweddeidd-dra parchus. 'Rhwymodd dywysogion Pharaoh wrth ei ewyllys, a dysgodd ddoethineb i'w henuriaid ef.' Ps. 105. 20. 'Dysgwyd ef i ymostwng, ac ymhelaethu; i fod yn llawn, ac yn newynog; i fod mewn helaethrwydd, ac i fod mewn prinder.' Y mae gras yn ymddangos ynddo yn *fuddugoliaethus* yn mhob man, y mae yn gorchfygu yn y frwydr gyda byd, cnawd, a diafol; 'Y saethyddion a fuant chwerw wrtho ef, ac a'i saethasant, ac a'i casasant: er hyny arhôdd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwylaw ef a gryfhasant, trwy ddwylaw grymus Dduw Jacob.' Gorchfygodd chwantau ieuenctid, trwy ddiweirdeb diball, yn ngwyneb y deniadau mwyaf hudol; gorchfygodd elyniaeth a chasineb ei frodyr, trwy gariad diragrith, a gwneuthur lles iddynt yn eu caledi: 'Nac ofnwch,' medd efe, 'myfi a'ch cynnaliaf chwi, a'ch rhai bach;'—gorchfygodd holl rodres a gorwagedd mawredd sefyllfa, trwy ofni Duw, a grym duwioldeb: y mae yn gweled llaw Duw yn ei holl ddyrchafiad. Gen. 45. 7, 8. a 50. 20. Y mae cyfarchiad ei dad tlawd, pan oedd yn holl fawredd ei swydd oruchel, a'i astudrwydd hynod o hono ar ei farwolaeth, a'r claddedigaeth parchus a roddodd iddo, yn ei ddangos yn well nag y dichon geiriau fynegi, ar unwaith, yn fawreddog, yn hawddgar, ac yn dduwiol; siampl hynod o ufudd-dod i'r pummed gorchymyn, na ragorwyd arno ond gan yr hwn yr oedd yn gysgod gwael o hono.

4. Gwelwn neillduol ofal Duw am ei eglwys. Cyn dyfod y saith blwyddyn newyn, anfonodd Duw Joseph i'r Aipht, trwy ragluniaethau rhyfedd, i barotoi, ac i borthi Jacob a'i deulu yn amser y newyn, ac i gadw yr hâd sanctaidd yn fyw, a fuasai, heb hyny, mewn perygl o drengu. 'Anfonodd ŵr *o'u blaen hwynt,*' medd yr Ysbryd Glan. Ps. 105. 17. 'I achub einioes yr hebryngodd Duw fyfi *o'ch blaen* chwi,' medd Joseph wrth ei frodyr. Gen. 45. 5. a 50. 20, 21.

Heblaw cadw yr hâd sanctaidd fel hyn yn fyw, diammeu fod dyrchafiad Joseph i'r fath sefyllfa gyhoèddus, a rhoddi iddo y fath awdurdod helaeth' anwrthwynebol, a chyrchu pobloedd yr holl wledydd ato yn amser y newyn, wedi bod yn foddion bendithiol i daenu gwybodaeth o'r gwir Dduw yn helaeth trwy yr holl wledydd, y rhai oeddynt dan rwymau mawr iddo, fel offeryn yn llaw Duw i'w cadw yn fyw. Yr oedd y rhagluniaeth ynddi ei hun yn rhyfedd, ac yn amlwg yn dangos Duw fel pen-llywodraethwr a chynnaliwr pob peth; hefyd yr oedd cydnabyddiaeth Joseph o Dduw, a'i barch iddo yn ei sefyllfa argyflwg ac amlwg, yn tueddu yn neillduol i droi wynebau trigolion yr holl wledydd at y gwir Dduw, i'w barchu a'i addoli, heblaw yr Aiphtiaid yr oedd yn ben-llywydd arnynt. Aeth y sôn am dano fel am ddoethineb Solomon, ar led yn helaeth, gyd â'r rhai a ddöent yno i brynu ŷd; a gellir meddwl i lawer o honynt gael, gyd â'u hŷd, wybodaeth o'r gwir Dduw yn eu taith—yr hwn oedd yn anfeidrol ragorach trysor.

Bu hyn hefyd yn foddion i ddwyn Jacob, yr hen batriarch duwiol, i'r Aipht, i fyw yno 17 o flynyddoedd diweddaf ei oes: nis gallasai hyn lai na bod o fendith i Pharaoh, ac i'r holl Aiphtiaid. Trwy ddyrchafiad Joseph, yr oedd ei dad Jacob hefyd yn ŵr cyhoedd, ac yn nôd i sylw pawb; a gellir meddwl fod achlysuron aml iddo ef a'i deulu roddi hanes helaeth am wir grefydd, ac i athrawiaethu am y gwir Dduw, a'r hâd bendithiol oedd i ddyfod. Dywedir gan Artapamus yn Euseb. *Præpar. Evan., lib.* ix., *cap.* 23., mai Joseph a ddysgodd yr Aiphtiaid i rannu y tir, oedd o'r blaen yn gyffredin; ac a ddygodd fesurau yn arferedig yn eu plith. Nid oes le i ammeu na bu o fawr ddefnydd yn eu plith yn mhob ystyr; ond yn benaf, gobeithiwn yn sicr, ei fod yn llafurus, yn fendithiol, ac yn llwyddiannus i daenu gwybodaeth o Dduw yn eu plith, a thrwy hyny o leshâd tragywyddol iddynt. Fel hyn, yn yr amrywiol oesoedd, y mae yr Arglwydd, trwy foddion annysgwyliadwy, wedi cadw gwybodaeth o hono ei hun rhag llwyr ddiffoddi yn mysg cenedloedd y ddaear.

5. Y mae bywyd Joseph yn ddangosiad hynod o ragluniaeth Duw yn adolygu, yn trefnu, ac yn llywodraethu yn effeithiol holl achosion ei greaduriaid. Gwelwn yn ei hanes ef lawer yn gweithredu; ïe, yn gweithredu o egwyddor ddrwg, ac yn dra phechadurus, i gyflawni eu hamcanion drwg eu hunain; etto, yn y cwbl, a thrwy yr holl offerynau gweirwon hyn, y mae doeth amcanion Duw yn llwyddo, a'i ddybenion grasol yn cael eu cyflawni. Y mae cysylltiad rhyfedd rhwng y naill ddygwyddiad a'r llall; y mae pob torch yn y gadwyn fawr yn angenrheidiol, a'r cwbl yn gysylltiedig â'u gilydd. Nid oes dim yn fychan, yn ofer, neu yn ddamweiniol; ond y cwbl, ïe, y pethau lleiaf, yn angenrheidiol, a than drefniad dwyfol; i gyd yn cyd-weithio yn addas, i gyflawni cynghor a dybenion Pen-llywodraethwr mawr y byd. Y pethau oeddynt i'r graddau mwyaf yn bechadurus yn yr offerynau oedd yn gweithio, yn cyflawni amcanion Duw, yn esmwyth ac yn angenrheidiol. Yr oedd y carchar blaenorol yn addasu Joseph i'r orsedd olynol; yr oedd dyfnder ei ddarostyngiad yn ei rag-barotôi yn rhagorol i uchder dyrchafiad; ei ddyoddefiadau yn ei addasu i fwynhau ei hawddfyd; y gadwyn yn ei ddysgu i lywio y deyrn-wïalen; a chasineb a chamgyhuddiadau yn ei ddysgu i iawn farnu, ac i dosturio wrth rai mewn cyfyngder a chaledi. Drych hynod yw yr hanes rhyfedd am dano, i ddangos Duw yn ei ragluniaeth: nid oes neb ond y dall na wel amcan, dyben, trefn, daioni, a gallu effeithiol i gyflawni y cwbl. Er casâu, gwerthu, prynu, cam-gyhuddo, a charcharu Joseph hir flynyddoedd, etto i'r orsedd y mŷn Duw ef; ac y mae pob cam o'r llwybr gofidus hwn yn gam sydd yn arwain i'r dyrchafiad amcanedig, mewn amser cyfaddas. Mae y canlyniadau mwyaf eu pwys yn tarddu oddiwrth bethau bychain yn

Digitized by Google

ngolwg dynion; a llaw Duw yn neillduol i'w gweled yn trefnu ac yn goruwch-lywodraethu y pethau lleiaf. Nid oedd siaced fraith Joseph, a'i anfoniad gan ei dad i edrych helynt ei frodyr, ond pethau bychain, disylw; etto oddiwrth y pethau hyn y tarddodd yr holl helyntion canlynol, nid yn unig i Joseph, ond i'r holl genedl Iuddewig dros oesoedd. Nid oedd dyfodiad y marchnadwyr o Midian heibio, ar yr amser yr oedd Joseph yn y pydew, yn ymddangos ond peth damweiniol iawn; etto yr ydoedd hon yn un dorch yn y gadwyn ragluniaethol, cwbl angenrheidiol i ddwyn yr amcan mawr i ben, ac yn dangos yn amlwg law Duw yn llywodraethu dyfodiad y rhai hyny. Felly yr un modd yr ydoedd ei werthiad i Putiphar, ac nid i neb arall; ei fwrw i garchar ar gam; carchariad gweision Pharaoh yr un amser; eu breuddwydion a'u dehongliad; dyrchafiad y pen-trulliad; breuddwydion Pharaoh; a'r pen-trulliad yn cofio Joseph, gwedi ei anghofio ddwy flynedd—y mae y cwbl yn olynol yn dangos llaw Duw: pe buasai un o'r pethau hyn yn eisieu, buasai un dorch yn y gadwyn fawr yn eisieu, wrth ba un yr ydoedd yn nglŷn y pethau mwyaf eu canlyniadau i eglwys Dduw, ac i'r byd hefyd, dros oesoedd. Y mae breuddwydion Joseph yn dangos bwriad Duw yn foreu yn nghylch ei ddyrchafiad. Fel hyn y gwelwn yr hanes am draethiad rhagorol o ragluniaeth; traethiad yw, hyfryd, a hawdd ei ddeall gan bob dyn.

6. Y mae yr apostol yn sylwi ar ffydd Joseph wrth farw; 'Trwy ffydd Joseph wrth farw, a goffâodd am ymadawiad plant Israel, ac a roddodd orchymyn am ei esgyrn.' Heb. 11. 22. Bu farw yn fab deng mlwydd a chant; 54 wedi claddu ei dad. Treuliodd o'r oes hir hon bedwar ugain mlynedd yn llys Pharaoh mewn llwyddiant, defnyddioldeb, a pharch mawr. Deg ar hugain oed oedd pan ddyrchafwyd ef yn llys Pharaoh. Rhoddodd Pharaoh iddo yn wraig Asnath merch Potipherah. Bu iddo ddau fab o honi. Edr. EPHRAIM, MANASSEH. Nid annhebyg, ond yn bur gredadwy, iddo lwyddo, trwy fendith Duw, medd y Dr. Owen, i ddychwelyd ei wraig, yr hon oedd o deulu pendefigaidd, oddiwrth eilun-addoliaeth i wybodaeth o Dduw, a ffydd ynddo. Bu farw fel y bu fyw, trwy ffydd yn yr addewid: yr addewid oedd y cwbl ganddo wrth farw. 'Duw gan ymweled a ymwêl â chwi, ac a'ch dwg chwi i fynu o'r wlad hon, i'r wlad a dyngodd efe i Abraham, i Isaac, ac i Jacob.' Mae hen gyfammod Abraham ganddo yn ei olwg wrth farw, yn ei holl gyflawnder a'i rym anghyfnewidiol: rhagwelodd eu cystudd, ond trwy ffydd yn yr addewid, coffâodd am eu hymadawiad oddi yno, trwy rym a ffyddlondeb yr hwn a addawodd. 'Gorchymynodd am ei esgyrn; tyngodd feibion Israel, gan ddywedyd, Duw gan eich gofwyo a'ch gofwya chwi; dygwch chwithau fy esgyrn i fynu gyda chwi.' Yr oedd, wrth hyn, yn ymwrthod â phob perthynas â'r Aiphtiaid; ac yn taflu heibio bob dysgwyliad na dymuniad am fawredd bydol i'w blant yn yr Aipht, ond yn dewis rhan gyda phobl Dduw yn eu hadfyd. Yr oedd yn gadael ei blant yn ngofal a chadwraeth addewid Duw; ac yn dewis y mawredd iddynt a ddoi oddi yno. Yr oedd am i'w esgyrn hefyd gael rhan yn yr addewid; ac yr oedd yn credu yr adgyfodai Duw hwynt o lwch y bedd, mor sicr ag y dygai blant yr Israel o'r Aipht i wlad Canaan. Mae ei ffydd yn ymddangos yn hynod yn hyn: yr addewid oedd y cwbl ganddo; ac mae yn ymddangos iddo wrth farw, yn addewid gyflawn, sicr, a dianwadal. Yn y modd ffyddlog hwn y gorphenodd ei yrfa anrhydeddus, yn ogoneddus ac yn goronog.

Y mae un peth o bwys etto yn ol i'w ystyred mewn perthynas i'r gwr enwog hwn. Y mae ei hanes yn hyfryd, yn rhyfeddol, ac yn addysgiadol, a'i olygu yn gyffredin fel hanes dyn duwiol, mewn amrywiol amgylchiadau, a rhagluniaethau Duw tu ag ato; ond heblaw hyn, cyduna y rhan fwyaf o'r awdwyr mwyaf call, dysgedig, a duwiol, i'w olygu trwy ei holl fywyd fel cysgod o berson anfeidrol mwy ardderchog, hâd Abraham, y Messïah, yr hwn oedd i gael ei gyfodi at waith, ac i ogoniant, yn tra rhagori ar yr hwn y buom yn sôn am dano. 'Y mae yn amlwg, medd yr enwog a'r dysgedig Rollin, 'mai dyben Duw yn cysylltu yn nghyd gynnifer o amgylchiadau hynod yn mywyd Joseph, ydoedd darlunio yn hyny y llinellau blaenorol yn mywyd ei Fab. Nid ydym yn deall hanes Joseph ond hannerog, os golygwn ef ond yn arwynebol yn unig, heb edrych i mewn i'r dirgelwch cuddiedig ynddo, yn yr hyn y mae y rhan fwyaf sylweddol o hono yn gynnwysedig, fel mai Iesu Grist yw diwedd y ddeddf a'r holl ysgrythyrau.'

Yn y tri pheth canlynol, yn gyffredinol, gallwn olygu cyfatebolrwydd rhwng y ddau; sef eu dyoddefiadau—eu dyrchafiad—a'r llesâd yn deillio i eraill oddiwrth hyny.

1. Eu dyoddefiadau: casâwyd y ddau gan eu brodyr, Ioan 1. 11.—gwerthwyd y ddau—euog-farnwyd y ddau ar gam, heb eiriolwr i amddiffyn eu hachos—triniwyd y ddau fel caeth-weision a drwg-weithredwyr—ymddygodd y ddau yn addfwyn ac amyneddgar yn eu holl ddirmyg a'u dyoddefiadau; ond yn unig fod y gwrth-gysgod yn rhagori yn anfeidrol ar y cysgod yn mhob peth.

2. Eu dyrchafiad: dyrchafwyd y ddau i anrhydedd—i deyrnas—ymgrymodd ei dad a'i frodyr i Joseph; a llefwyd Abrec o'i flaen: ond gwelwn un mwy na Joseph! Gwelwn 'Iesu, yr hwn a wnaed ychydig (neu dros ychydig) yn is na'r angelion, o herwydd dyoddef marwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd!—rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear—ac yn ei enw ef y plyg pob glin, o'r nefolion a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau.' Heb. 2. 9. Mat. 28. 18. Phil. 2. 10.

3. Y llesâd yn deillio i eraill oddiwrth eu dyrchafiad: dyrchafwyd y ddau erbyn caledi—y mae gan y ddau lawnder, pan y mae prinder yn mhob man arall; cyflawnder gweinidogaethol sydd ganddynt i'w gyfranu i eraill o ran eu swydd—y mae eu cyflawnder yn ddigonol yn wyneb yr holl brinder—y mae y ddau yn derbyn pawb, heb wrthod neb a ddelo—yn derbyn, yn maddeu, yn coleddu, ac yn cynnal brodyr o lofruddion, fel brodyr Joseph; y mae pob credadyn yn byw yn hollol ar Grist, ac yn cael bywioliaeth dda a pharhaus ynddo. Eu hangen a'u gyrodd ato gyntaf; trwy gymdeithasu âg ef, daethant i adnabod mai eu brawd ydoedd, a'i fod gwedi ei ddyrchafu yn benaf i'r dyben i'w cadw hwy yn fwy: felly mae y pechadur yn dyfod at Grist, yn ei angen, rhag marw o newyn; ac wrth gymdeithasu âg ef yn ei angen, yn aml y daw i adnabod y dyben goruchel yn ngosodiad Crist i fynu, a'i berthynas âg ef; yn y cwbl, wele un mwy na Joseph yma!——Heblaw yr ysgrifenwyr cyffredin ar y Bibl, ac ar y cysgodau, Gwel Vitringa, *Obs. Sacr., lib.* iv., *cap.* xxi.

JOSEPH MAB JACOB, ŵyr Matthan, a gwr Mair. Gelwir ef hefyd Mab Eli, neu Heli, oblegid ei fod yn fab mabwysiadol i Heli, pan briododd Mair ei ferch. Yr ydoedd yn beth cyffredin i dad fabwysiadu gwr ei ferch, os na fyddai ganddo fab, i holl hawl a breintiau mab naturiol; a hyny drwy weithred gyhoeddus. Felly yr oedd Joseph yn fab Eli. Cymerodd Luc yr âch-lin, diammeu, o lyfr coffadwriaeth yr achau yn Bethlehem. Gwel *Appendix to* Calmet, *Frag. End.* Nid oes dim hanes credadwy am dano, ond a roddir i ni gan yr efengylwyr. Yr oedd yn gyflawn, sef yn neillduol o enwog felly, o ran y gradd o sancteiddrwydd ynddo, a gweddeidd-dra duwiol ei fywyd. Ymddangosodd angel yr Arglwydd iddo mewn breuddwyd dair gwaith; yn gyntaf, i'w hyfforddi mewn perthynas

Digitized by Google

i genedliad rhyfedd dynoliaeth Crist yn nghroth y Forwyn Fair, yr hon oedd wedi ei dyweddïo i Joseph; yn ail, i'w gyfarwyddo ef i ffoi i'r Aipht rhag llid Herod; ac yn drydydd, yn yr Aipht, i hysbysu iddo am farwolaeth Herod, a'i rybuddio i ddychwelyd oddi yno. Saer oedd wrth ei alwedigaeth, a bu, diammeu, yn gynnorthwyol i Mair i fagu y mab bychan. Tebygol ei fod gwedi marw cyn i'r Iesu ddechreu ar ei weinidogaeth, am na chlywir dim am dano yn y briodas yn Cana, nac yn un lle arall; a Christ wrth farw a orchymynodd Mair i ofal Ioan. Mat. i, ii. Luc iii. Edr. Iesu.

JOSEPH o Arimathea, seneddwr Iuddewig, a dysgybl anghyhoedd i Grist. Cafodd ef a Nicodemus y fraint o gladdu corph yr Iesu yn medd newydd Joseph. Ioan 19. 38, &c. Mat. 27. 57, &c. Nid oes ychwaneg o hanes am dano, heblaw y dychymygion a adroddir, sydd annheilwng i'w hadrodd.

Sonir am amryw o'r enw Joseph yn yr ysgrythyrau, heb ddim neillduol am danynt. Num. 13. 7. 1 Cron. 25. 2. Ezra 10. 42. Neh. 12. 14. Act. 1. 23.

JOSES, brawd Iago Leiaf, mab Cleophas; yr un tebygol, a Barnabas. Mat. 13. 55. a 27 56. Marc 15. 40.

JOSIAH, יאשיהו [*yr Arglwydd yn llosgi*] mab Amon brenin Judah, o Jedidah ei wraig. Dechreuodd deyrnasu pan oedd yn wyth mlwydd oed. Ymddangosodd ynddo arwyddion o wir dduwioldeb yn foreu; ac a rodiodd heb wyro yn ffordd yr Arglwydd ei holl ddyddiau. Yn yr wythfed flwyddyn o'i deyrnasiad, ac efe etto yn fachgen, dechreuodd geisio yr Arglwydd; ac yn y ddeuddegfed flwyddyn dechreuodd lanhau Judah a Jerusalem oddiwrth eu heilunaddoliaeth ffiaidd. Y mae yn peri adgyweirio y deml; gwedi i Hilciah gael llyfr y gyfraith yno, ac ymofyn â'r Arglwydd trwy Huldah y brophwydes, y mae yn peri darllen llyfr y gyfraith yn ngŵydd yr holl bobl, ac yn adnewyddu cyfammod â Duw. Gwedi hyny y mae yn cadw pasc godidog. Yn ol prophwydoliaeth gwr Duw am dano, dinystriodd yr allor a wnaeth Jeroboam yn Bethel, ac a aberthodd arni offeiriaid yr uchelfëydd, ac a losgodd esgyrn dynion arni. 1 Bren. 13. 2. 2 Bren. 23. 15, 16. Y mae yn amlwg, oddiwrth 2 Cron. 34. 6. fod ganddo awdurdod ar wlad y deg llwyth, y rhai oeddynt yr amser hwn mewn caethiwed, a'r wlad yn ddarostyngedig i freninoedd Assyria. Trwy eu caniatâd hwy, tebygol, y cafodd yr awdurdod hwn, neu, ynte, cariodd ei zel yn erbyn eilun-addoliaeth dros ben pob rheolau callineb, a bod llaw Duw gyd âg ef, yn gweithredu braw ar bawb oddi amgylch iddo. Y mae ei holl ymddygiad yn rhagorol, yn dangos mawr zel dros Dduw a'i achos: ac yn gweithredu yn wrol ac yn ffyddlon yn erbyn eilun-addoliaeth. 'Trodd at yr Arglwydd â'i holl galon, â'i holl enaid, ac â'i holl *egni*.' Pe buasai y bobl yn cyd-fyned âg ef yn y diwygiad, gallesid dysgwyl yr effeithiau mwyaf bendithiol; ond y mae yn eglur mai nid felly y gwnaethant, oddiwrth iaith y prophwydi oedd yn byw yn ei ddyddiau. Gwel Jer. 6. 28—30. Ezec. 24. 13. Seph. i, iii. Nid oedd ei holl ymdrechiadau ond yn profi fod y bobl gwedi eu rhoddi i fynu i raddau ynfyd o eilun-addoliaeth, a phob drygioni. Gwedi teyrnasu un mlynedd ar ddeg ar hugain, lladdwyd ef yn Megido, wrth ymladd â Pharaoh Necho brenin yr Aipht. Gwedi cymeryd fel hyn y brenin da allan o'r byd yn nghanol ei ymdrechiadau duwiol, nid yn unig y bobl oedd yn byw y pryd hyny a gwynodd ei farwolaeth ef, eithr yn yr amser ar ol hyny, cadwyd galar cyhoedd am dano. Jeremiah a alarnadodd am Josiah; a'r holl gantorion a'r cantoresau yn eu galarnadau a sonient am Josiah; a hwy a'i gwnaethant yn ddefod yn Israel. Tybia rhai mai ar yr achlysur hwn y cyfansoddodd Jeremiah lyfr y Galarnad, ond y mae hyny yn annhebyg. Edr. Jeremiah.

Y mae llawer wedi beio ar ei waith yn dal at, ac yn mynu ymladd â brenin yr Aipht, ac yntau yn chwenychu heddwch. Dywedir yn 1 Esdras 1. 28., 'Ni throai Josiah ei gerbyd yn ol oddi wrtho ef, eithr efe a ymdaclodd i ymladd âg ef, heb ystyried geiriau Jeremiah y prophwyd o enau yr Arglwydd.' Ond nid yw yr ysgrythyrau mewn un man yn beio arno. Yr oedd Josiah mewn meddiant o'r holl wlad, ac nid o Judah yn unig, a thebygol ei fod yn dal y parthau gogleddol o wlad Canaan oddiwrth frenin Babilon, a'i fod nid yn unig mewn cyngrair âg ef, ond yn rhwym i amddiffyn cyffiniau y wlad yn erbyn rhuthrau y gelynion. Yr oedd breninoedd Judah, diammeu, mewn rhyw raddau yn ddibynol ar freninoedd Assyria a Babilon er dyddiau Manasseh. Er i frenin yr Aipht haeru nad yn ei erbyn ef y daethai allan, ond yn erbyn brenin Babilon; etto yr oedd yn nghanol y wlad pan anfonodd y genadwri hon, ac yn addef ei fwriad i ymosod ar ei gyngrheirwr, brenin Babilon. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn, gellir cyfiawnhau Josiah yn erbyn y cyhuddiad, ei fod yn ymyraeth yn y rhyfel hwn heb achos, ac yn anghyfiawn, ac yn ymrwymo ynddo yn anystyriol. Hwyrach iddo gael ei adael i fyrbwylldra gormodol; ac y dylasai arafu yn fwy i ymgynghori â'r Arglwydd, ac â'i brophwydi: barn Duw ar wladwriaeth bechadurus, diedifeiriol, oedd ei adael i hyny, a thrwy hyny i gael ei farwolaethu mor annysgwyliadwy a disymwth. Gwir i genadau Pharaoh sicrhau i Josiah fod Duw gwedi erchi iddo frysio; ac am iddo beidio â Duw yr hwn ydoedd gyd âg ef. A dywedir hefyd 'na wrandawodd ar eiriau Necho o enau Duw.' Ond ni roddodd Necho un prawf digonol ei fod yn brophwyd Duw; nac i un o brophwydi Duw lefaru wrtho: arferodd Senacherib y cyffelyb ymadroddion o'i flaen ef, yn nyddiau Hezeciah. Nid yw y geiriau כי אלהים *o enau Elohim*, mewn un man yn cael eu harferyd yn y Bibl Hebraeg am ddadguddiad oddiwrth y gwir Dduw; ond bob amser מפי יהוה *o enau* Iehofah, *from the mouth of Jehovah*. Deut. 8. 3. Jos. 9. 14. Esa. 1. 20. a 40. 5. Jer. 23. 15. Ar ei ol ni chyfododd ei fath; ond yr oedd digofaint oddiwrth yr Arglwydd mawr yn erbyn y wlad, a dinystriwyd hi yn fuan wedi hyn.

JOSUAH, יהושע [*yr Arglwydd ein hiechydwriaeth*] gelwir ef Ιησους, *Jesus*, yn Heb. 4. 8. Act. 7. 45. Mab Nun, o lwyth Ephraim. Ei enw cyntaf oedd Osea. 'A Moses a enwodd הושע *Osea* fab Nun, יהושע *Josuah*.' Num. 13. 8, 16. Y cyntaf a arwydda, *iechydwriaeth*; a'r diweddaf a arwydda, *yr Arglwydd ein hiechydwriaeth*, medd amryw o feirniaid dysgedig. Yr ydoedd gwaith Moses yn cyfnewid ei enw yr amser hwn, pan yr anfonodd yr yspïwyr, wedi ei wneuthur i'r dyben i'w annog ef a'i gymdeithion i ymddiried yn yr Arglwydd, ac i ddysgwyl diogelwch a gwaredigaeth oddi wrtho; ac yn grybwylliad hefyd y byddai Josuah yn gysgod o *Iehofah y Gwaredwr*, yr hwn a arweiniai ei bobl i'r orphwysfa nefol.

Gelwir ef yn aml, 'gweinidog Moses;' (Exod. 24. 13.) am ei fod yn gweini iddo, ac yn gydymaith gwastadol, ac yn gyfaill neillduol iddo, trwy yr holl ddeugain mlynedd eu pererindod yn yr anialwch: a diammeu iddo fedi llawer o lesâd oddiwrth addysgiadau, gweddïau, a siamplau prophwyd mor enwog. Y crybwylliad cyntaf a roddir am dano, sydd fel blaenor y fyddin yn ymladd â'r Amaleciaid. Gwedi hyny, gwelir ef yn cael yr anrhydedd o esgyn i'r mynydd gyda Moses, lle y treuliodd ddeugain niwrnod mewn neillduad defosiynol, er, hwyrach, nad yn y cwmwl gyda Moses. Yn hyn y gwelwn ef yn nodedig am wroldeb a duwioldeb; dau beth nid bob amser yn cydfyned yn yr un person. Exod. 24. 13. a 32. 17. a

Digitized by Google

33. 11. Efe oedd yr yspïwr, gwedi hyn, a anfonwyd dros lwyth Ephraim i yspïo y wlad. Dangosodd ef a Chaleb eu ffydd a'u hysbryd rhagorol, yn gwrthsefyll ac yn gwrthwynebu y tuchanwyr gwrthryfelgar ar yr achos. Num. 14. 6—9.

Pan gafodd Moses ei rybuddio am ei farwolaeth, taer ymbiliodd ar yr Arglwydd, am iddo ef osod un ar y gynnulleidfa, i fyned i mewn ac allan o'u blaen hwynt, 'Fel na byddo cynnulleidfa yr Arglwydd fel defaid ni byddo bugail arnynt.' Trwy gyfarwyddyd dwyfol, gosodwyd Josuah yn y swydd oruchel, a thra phwysfawr. Gosododd Moses ef yn y swydd yn gyhoeddus, ger bron yr holl gynnulleidfa, ac Eleazer yr offeiriad, gyda llawer o edmygedd a difrifwch, fel y byddai i'r bobl ei barchu ac ufuddhau iddo, ac i'w gefnogi yntau i fod yn wrol ac yn ffyddlon yn ei waith. 'Ymgryfha, ac ymnertha:' medd Moses yn ei rybydd diweddaf iddo, 'canys ti a arweini feibion Israel i'r tir a addawodd yr Arglwydd iddynt trwy lw.' Medd yr Arglwydd wrtho, 'Ni saif neb o'th flaen di holl ddyddiau dy einioes: megys y bum gyda Moses, y byddaf gyda thithau: ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf.' Deut. 31. 23. Jos. 1. 5.

Y gwaith a roddwyd iddo ydoedd fawr, a thra anhawdd ei gwblhau. Hawdd canfod llawer achosion o anghalondid iddo, yn gystal yn y bobl gydyn wrthryfelgar yr oedd i flaenori arnynt, ac yn ngrym ac amledd y gelynion yr oedd i ymladd â hwynt, ac yn ei waeledd a'i annheilyngdod ei hun i lenwi lle gwr mor fawr a Moses, prophwyd enwog Duw. Ond yr oedd digonolrwydd iddo, yn ngwyneb y cwbl, yn addewid gyflawn Duw. 'Oni orchymynais i ti?' medd Duw, 'Ymgryfha, ac ymwrola; nac arswyda, ac nac ofna: canys yr Arglwydd dy Dduw fydd gyda thi, i ba le bynag yr elych.' Jos. 1. 9.

Gwedi ei osod fel hyn yn ei swydd, a'i barotoi i'r gorchwylion gorchestol o'i flaen, y mae Josuah yn arwain y bobl i wlad yr addewid. Y mae holl naturiaeth yn ufuddhau iddo, ac yn ei wasanaethu—dyfroedd yr Iorddonen, a hi gwedi llenwi dros ei glànau, a droisant yn eu hol lawer o filltiroedd—y mae yr haul a'r lleuad yn sefyll ar ei air, nes i'r genedl ddial ar ei gelynion—muriau uchel Jericho yn syrthio, heb daro ergyd arnynt—y mae yn goresgyn y dinasoedd cadarnaf yn y wlad—yn gorchfygu ac yn dystrywio y tywysogion mewn cynghrair yn ei erbyn; fel mewn byr amser, yr oedd un ar ddeg ar hugain o freninoedd wedi eu gorchfygu a'u lladd ganddo. Wedi eu gorchfygu, rhanodd y wlad wrth goelbren yn etifeddiaethau i'r amrywiol lwythau; a gosododd addoliad Duw i fynu yn eu plith yn Siloh. Trwy gofio y bendithion o'r blaen, trwy fygythion, a thrwy addewidion, y mae yn taer annog y bobl i lynu wrth yr Arglwydd. Cyn ei farw, y mae yn cynnull y gynnulleidfa i Sichem; yn rhoddi hanes byr o fendithion Duw iddynt er amser Terah; yn adnewyddu cyfammod rhyngddynt hwy â Duw, ac yn gosod maen yn dyst o'r cyfammod. Bu farw yn ddeng mlwydd a chant oed, a chladdasant ef yn Timnath-serah, yr hon sydd yn mynydd Ephraim. Bernir yn gyffredin i Josuah farw yn mhen dwy ar bymtheg o flynyddoedd ar ol Moses; saith o ba rai a dreuliodd yn ymladd ac yn darostwng y Canaaneaid, a deg yn y meddiant heddychol o'r wlad: y mae rhai dysgedigion yn barnu iddo fyw yn hwy, wedi ei fuddugoliaethau, sef yn agos i ugain mlynedd. Nid ydym yn darllen fod ganddo wraig, nac am ei blant.

Y mae yr holl hanes rhyfedd am dano, a'r gwyrthiau a wnaeth Duw trwyddo, i'w cael yn y llyfr sydd dan ei enw. Trwyddo i gyd, 1. Y mae ffydd gref, a duwioldeb gwresog Josuah, a'i ymlyniad diwyrni wrth Dduw i'w canfod yn eglur iawn. Dilynodd yr Arglwydd â'i holl galon, a chwblhaodd ei waith yn drwyadl ac yn ffyddlon. Y mae gras Duw mor hynod i'w weled ynddo ag yn neb o saint yr Hen Destament. Trwy ffydd yr amgylchynodd gaerau Jericho, ac y syrthiasant—y gorèsgynodd deyrnasoedd—y gwnaethpwyd ef a'i gyfeillion yn gryfion mewn rhyfel—ac y gyrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio. Heb. xi. Y mae ei eiddigedd duwiol dros y bobl yn niwedd ei ddyddiau, rhag iddynt gilio oddiwrth yr Arglwydd, yn brawf neillduol o agwedd sanctaidd ei ysbryd, a'i feddyliau parchus am yr Arglwydd, a'u rhwymedigaethau hwythau iddo.

2. Yn yr hanes rhyfedd, gwelwn hefyd mor anorchfygol ydyw gallu Duw Hollalluog, ac mor sicr yw dialedd o oddiweddyd pechaduriaid. Y mae dinystr yr holl genedloedd hyn yn gyflawn o du yr Arglwydd, yr hwn a ddigiasant â'u pechodau ffiaidd; a phan ddaeth amser eu gofwy, nid oedd eu holl ymdrechiadau i amddiffyn ac achub eu hunain ddim ond eu harwain yn fwy buan i safn dinystr. Llawer a gablwyd ar Josuah fel gwr gwaedlyd, creulawn, yn ei ddinystriad o'r Canaaneaid; ond rhoddwyd prawf digon amlwg o'r nefoedd, mai rhaglaw Duw ydoedd efe, ac mai wrth orchymyn meddiannydd a barnydd yr holl ddaear yr oedd yn gweithredu yn y cwbl. Geill Duw ddewis y ffordd y gwelo yn dda i gospi pechaduriaid, gan nad ydyw yn cospi neb yn anaddas, nac yn anghyfiawn: dyma y ffordd a ddewisodd i gospi a dyfetha y cenedloedd hyn pan gyflawnasant eu hanwiredd. Yr oedd y modd hwn yn rhoddi amlygiad neillduol o fawredd Duw, ac yn dystiolaeth ger bron nefoedd a daear mor ffiaidd ganddo eu hanwireddau, ac yn ffordd neillduol i beri i'w bobl ffieiddio eilunaddoliaeth, a'r pechodau eraill, am ba rai yr oeddynt yn cael eu dystrywio yn ddiarbed. Jenkin's *Reason of Christian Religion*, *vol.* ii.

3. Y mae yr hanes yn gofyn sylw arbenig, am ei fod yn hanes o ffyddlondeb diball yr Arglwydd yn cyflawni ei addewidion. 'Ni phallodd dim o'r holl bethau da a lefarasai yr Arglwydd wrth dŷ Israel; daeth y cwbl i ben.' Jos 21. 45. Yn llyfrau Moses rhoddir i ni hanes am wneuthuriad y cyfammod, yr addewid rhwng Duw a'i bobl; yn y llyfr hwn cawn brawf diammheuol, mai fel y llefarasai, felly y gwnaeth yr Arglwydd; 'Ni phallodd dim.' Yr un ydyw Duw etto, a'r un yw ei air: gwelir yn eglur yn y dydd y dadguddir pob dirgelion, na phallodd dim o'r hyn oll a addawsai Duw i'w bobl.

Yn y golygiad hwn, gwelwn, 4. Fod yr ysgrythyrau yn cynnwys ynddynt eu hunain brawf digon eglur a sicr o'u dwyfoldeb. Dyma hanes sanctaidd am gyflawniad o bethau a rag-fynegwyd am danynt cyn eu dygwyddiad; mae yr addewid a'r cyflawniad yn cydgordio yn hollol: 'ni phallodd dim.' A allasai neb, heblaw y Duw holl-wybodol, wneuthur hyn? Pwy, yn ngwyneb hyn, ond ynfydion gwallgofus, a ddichon gynnwys yr ammheuaeth lleiaf am ddwyfoldeb yr ysgrythyrau sanctaidd?

Rhaid i ni edrych etto yn mhellach am y person hwn, a'i olygu fel yr oedd yn gysgod diammheuol o Gadben ein hiechydwriaeth. Y mae y cyfatebolrwydd rhyngddynt i'w weled, 1. Yn eu henwau, yr un ydyw y ddau, *Josuah* yn Hebraeg yw *Iesu* yn Groeg; a'r un arwyddocâd iddynt, fel y sylwyd o'r blaen; yn unig y mae yr Iesu yn ateb i'r enw mewn dull mwy rhagorol a chyflawn. Gwaredwr amserol a thymhorol oedd Josuah, ond mae yr Iesu yn Waredwr ysbrydol, cyflawn a thragywyddol.

2. Dygodd Josuah y bobl i Ganaan ar ol marwolaeth Moses; ac aeth i mewn iddi o'u blaen, ac a ranodd y wlad rhyngddynt; felly cyflawnodd Crist yr hyn ni allai y ddeddf, ac a aeth i mewn fel rhag-flaenor i'r nefoedd. Rhuf. 8. 3. Ioan 14. 2. Heb. 6. 20.

3. Y mae rhyw gyfatebolrwydd yn y gwyrthiau a wnawd gan y ddau: rhanodd Josuah ddyfroedd yr Iorddonen; bedyddiwyd Crist yn yr Iorddonen, ac ar

Digitized by Google

hyny agorwyd y nefoedd; y gwyntoedd a'r moroedd a ufuddhasant iddo. Bwriodd Josuah i lawr gaerau Jericho, trwy ffydd; y mae yr Iesu, trwy yr efengyl, yn bwrw cestyll i'r llawr. Josuah vi. Heb. 11. 30. 2 Cor. 10. 4, 5. Safodd yr haul wrth orchymyn Josuah, pan oedd yn dial ar y gelynion; tywyllodd yr haul pan oedd Crist yn buddugoliaethu ar y tywysogaethau a'r awdurdodau. Jos. x. Mat. 27. 45.

4. Gorchfygodd Josuah yr holl elynion (agos) yn Canaan, ac a roddodd orphwysfa i blant Israel, wedi eu hir grwydro yn yr anialwch: cyflawnwr addewidion Duw oedd; cyflawni oedd ei waith; yr Iesu ydyw Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni; yn yr hwn y mae yr holl addewidion yn 'ie, ac ynddo ef yn amen' —ac a ddwg ei bobl oll i orphwysfa nefol—i etifeddiaeth anllygredig, dihalogedig, a diddiflanedig. Jos. 21. 45. a 23. 14. Heb. 4. 9, 10, 11. Ar y pethau hyn gall y darllenydd ymhelaethu.

Y farn gyffredin yw, mai Josuah ei hun yw awdwr y llyfr sydd dan ei enw. Ysgrifenwyd ef gan un a aeth trwy yr Iorddonen. Cyfieithir y gair, 'nes eu myned hwy drwodd;' עברנו 'nes ein myned ni drwodd —until *we* passed over.' *Saes.* Barnodd ein cyfieithwyr ni y *Keri* ar ymyl y ddalen yn y Bibl Hebraeg, yn fwy addas i'w gyfieithu na'r *Chetib* yn y testun. Y cyfieithwyr Saesonig a farnasant i'r gwrthwyneb; ac fel hyny y mae y ddau gyfieithiad yn amrywio. * Ysgrifenwyd ef hefyd a Rahab y butein-wraig a Chaleb etto yn fyw, y mae yn eglur oddiwrth Jos. 6. 25. a 14. 14. Ysgrifenwyd hefyd ran o hono, o'r hyn lleiaf, gan Josuah, ac a'i cysylltodd â chyfraith Moses, y mae yn eglur oddiwrth pen. 24. 26. Yr oedd y llyfr hwn o'r canlyniad mwyaf i'r holl genedl, gan y nodir terfynau etifeddiaethau yr amrywiol lwythau ynddo ef. Dosparthwyd y wlad yn amser Josuah bob yn ddinas, yn saith ran, mewn llyfr, yr hwn a ddygwyd at Josuah. Gwel. pen. 18. 8, 9. Gellir meddwl na buasai ddim yn rhoddi enwau y lleoedd i lawr, heb roddi hanes goresgyniad gwyrthiol y wlad. Ychwanegwyd hanes marwolaeth Josuah, a rhai pethau eraill, gan Phinehas, Samuel, neu Ezra, neu ryw un dan yr un ysbrydoliaeth a Josuah.

JOSUAH, neu JESUAH, mab Josedec, arch-offeiriad yr Iuddewon pan ddychwelasant o Babilon. Bu gynnorthwyol i Zorobabel yn adeiladu y deml. Dan rith Josuah dangosir gwaeledd pechadurus yr eglwys, a Satan yn ei chyhuddo o'r achos, ac adferiad yr eglwys, ar ol ei dychweliad o Babilon. Yr oedd fel pentewyn wedi ei achub o'r tân; pa ryfeddod ei bod yn wael ac yn fudr? Y rhyfeddod fwyaf oedd ei bod heb ei llosgi yn gwbl. Yr Arglwydd, yr hwn a ddewisodd Jerusalem, dan y gyffelybiaeth o newid dillad budron Josuah, a rhoddi meitr têg ar ei ben, a ddangosodd y byddai iddo buro a harddu ei eglwys lesg, ac y byddai iddo ddwyn allan ei was, y BLAGURYN, trwy yr hwn y symudid ymaith anwiredd y tir mewn un diwrnod. Ezra 4. 3. Zechariah iii. Haggai 1. 1, 2.

JOTBATHAH, *Heb.* יטבתה [*ei ddaioni*] gwersyllfa Israel. Num. 33. 33.

JOTHAM, יותם [*perffeithrwydd yr Arglwydd*] 1. Mab ieuengaf Gedeon, yr hwn a ddiangodd pan laddwyd 70 o'i frodyr, gan Abimelech, ei fastarddfrawd. Gwedi ceryddu gwyr Sichem trwy ddammeg, am iddynt osod Abimelech yn frenin, ffodd i Beer, lle y trigodd efe rhag ofn Abimelech. Barn. ix.——2. Mab ac olynwr Uzziah brenin Judah. Gwedi taro ei dad gan Dduw am ryfygu, yn malchder ei galon i arogl-darthu, llywodraethodd fel rhaglaw, yn lle ei dad; ac wedi ei farw, yn bump ar hugain oed, teyrnasodd ei hun. Gwnaeth yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd, fel y rhan oreu o fywyd ei dad, ond y bobl oedd yn ymlygru yn yr uchelfeydd. Adeiladodd y porth uchaf i dŷ yr Arglwydd: ac ar fur y twr yr adeiladodd lawer. Tua diwedd ei deyrnasiad, anrheithiwyd y wlad gan y Syriaid dan Resin, a'r Israeliaid dan Pecah. Ymddengys, oddiwrth Esa. 1. 2, 3, 4. fod y wlad yn dra llygredig yn nechreu teyrnasiad Ahaz ei fab a'i olynwr. 2 Bren. 15. 30—38. 2 Cron. xxvii. Gwedi teyrnasu un ar bymtheg o flynyddoedd ar ol marwolaeth ei dad, bu farw.

* Y mae yn nghylch mil o eirau yn y Bibl Hebraeg fel hyn, âg un gair yn y testun, a eilw yr Hebreaid *Chetib;* a gair arall ar ymyl y ddalen, a alwant *Keri;* fel pe buasent yn ammheuol pa un o'r ddau oedd yr iawn air yn lle hwnw. Dywed y Dr. Kennicott, yn ei *Dissertatio Generalis,* nad oedd wedi cael ond pedwar ar ddeg yn y testun o rai ad-ysgrifeniadau.

IR—ION—DER—AIDD, llawn nôdd, gwyrdd-las, tirf, newydd, gwyrdd, croyw. Edr. GWYRDD, GLAS. —Olew îr. Edr. OLEW.—Priodolir îr, iraidd, ireiddra, i unrhyw beth hyfryd, tirfiol, cyflawn, blodeuog, croyw: yn allegawl, arwydda, cyflawnder o gyfoeth, llwyddiant, gras, a dyddanwch. Ps. 23. 5. a 32. 4. Jer. 17. 8. Deut. 34. 7. Job 21. 24. Ps. 92. 14. Edr. FFYNIDWYDDEN, FFWYTH.

'Deg cosyn îr.' 1 Sam. 17. 18. חריצי החלב *talpynau ceuledig llaeth,* talpiau ceulfraen; *Vulg. decem formellas casei,* deg basgedau o gaws. Yn Barbari, hyd heddyw, byddant yn rhoddi y ceulfraen mewn basgedau bychain, gwneuthuredig o frwyn, a phethau eraill, ac yn eu rhwymo i fynu, ac yn eu gwasgu. Dr Shaw's *Travels.* Bochart.

IRA, עירא [*dinas*] 1. Mab Jair. 2 Sam. 20. 26. ——2. Mab Icces, y Tecoiad, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 28.

IRAD, עירד [*asyn gwyllt*] mab Enoch, ac ŵyr Cain. Gen. 4. 28.

IRAI, (îr) ierthi, garton, swmbwl. Barn. 3. 31 Edr. SAMGAR.

IRAM, עירם [*eu dinas*] Duc Edom o deulu Esau. Gen. 36. 43.

IRIAH, יראיה [*ofn yr Arglwydd*] y pen-swyddog, yr hwn a ddaliodd Jeremiah pan oedd yn myned i wlad Benjamin, ac a'i dygodd ef at y tywysogion. Jer. 37. 13.

IRO, (îr) eneinio, eillio, ireiddio. Edr. ENAINT, OLEW. Lef. 7. 12. Ps. 23. 5. Ioan 9. 6.

IRON, יראון [*ofn*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 38.

IRPEEL, ירפאל [*iechyd Duw*] dinas yn Benjamin. Jos. 18. 27.

IR-SEMES, עיר־שמש [*dinas yr haul*] dinas yn Dan. Jos. 19. 41.

IS—AF, gwelach, iselaf. Arferir îs am y gradd cymbarol o un peth; fel isaf am y gradd uchafedigol: hefyd fel gorair yn aml; megys, yn îs: hefyd, fel darddodiad; megys, îs na'r croen; yn îs na'r pared; îs na'r angelion; îs na thi. Lef. 13. 4. a 14. 37. Ps. 8. 5. Dan. 2. 39.

ISAAC, יצחק *Gr.* Ισαακ [*chwerthin*] mab Abraham a Sarah. Cafwyd eisoes, a cheir etto, achlysuron i grybwyll am unryw bethau perthynol i Isaac. Edr. ABRAHAM, JACOB, ESAU, SARAH, ISMAEL, REBECCAH, ELIEZER, ABIMELECH, GERAR, &c. Er bod Sarah yn 90 oed, etto rhoddodd sugn iddo ei hun. Gwatwarwyd ef gan Ismael pan oedd ond ieuanc; yr hyn a elwir gan Paul yn *erlidigaeth;* ac yn brawf o'r elyniaeth barhaus rhwng y ddau hâd. Gal. 4. 29. Gen. 21. 29. Yr oedd Isaac wedi tyfu i fynu yn ddyn, o bump i bymtheg ar hugain oed (nid yw awdwyr o'r un farn am hyny) pan gafodd ei dad orchymyn i'w offrymu yn boeth-offrwm. Er bod Isaac ar y cyntaf

Digitized by Google

yn anhysbys o'r gorchymyn dwyfol mewn perthynas iddo ei hun, mai efe oedd i fod yn offrwm i'w offrymu, ac iddo fyned yn ufudd fel cyfaill a chydymaith i'w dad; etto gwedi i'w dad roddi iddo ychwaneg o hysbysrwydd am y gorchymyn rhyfedd, nid oes hanes iddo mewn un gradd wrthwynebu ei dad, nac ymresymu âg ef am ei fywyd: y mae yn addas barnu, gan hyny, iddo ymostwng yn ewyllysgar i'r gorchymyn, ac iddo ymroddi i ewyllys y Duw mawr, yr hwn a biodd ei fywyd, ac a allasai ei ofyn a'i gymeryd ef y pryd a'r ffordd y mynai. Er mai ffydd y tad a goffëir yn y weithred ryfedd hon o ufudd-dod, etto yr oedd ffydd Isaac hefyd yn gweithredu yn anrhydeddus yn ei ymostyngiad boddlawn i'r gorchymyn, ac mewn crediniaeth o gwblhad yr addewid mewn perthynas iddo, er iddo gael ei offrymu yn boeth-offrwm.

Yr ydoedd hyn yn gyffelybiaeth nodedig o roddiad Crist, ei draddodiad, a'i ddrylliad; a rhoddiad rhydd Crist o hono ei hun, o'i wirfodd, i fod yn offrwm ac yn aberth i Dduw dros ei bobl; ac hefyd o'i adgyfodiad oddiwrth y meirw. Diammeu mai un dyben mawr, os nid y penaf, o'r gorchwyl rhyfedd hwn, ydoedd dangos hyn. Yr ydoedd yn ddangosiad amlwg fod rhagorach offrwm nag anifeiliaid yn angenrheidiol i dynu ymaith bechodau: ac y byddai i'r Arglwydd, mewn amser cyfaddas, roddi ei unig-anedig Fab, ac y byddai i'r Mab offrymu ei hun yn ddifai i Dduw, o'i gariad rhad at ei bobl. Dywed yr apostol i Abraham gael ei fab o feirw, 'mewn cyffelybiaeth.' Heb. 11. 19. ιν παρα-βολη, *mewn*, neu *er** *cyffelybiaeth*, gysgodol o adgyfodiad Crist. Dyma ydyw arwyddocâd y gair yn Heb. 9. 9, cymh. pen. 8. 9, lle mae y gair yn cael ei briodoli i'r cysegr, a'i holl wasanaeth, fel cyffelybiaethau cysgodol o bethau gwell i ddyfod. Yr oedd hwn yn gysgod tra addas yn yr holl amgylchiadau o hono. Isaac ydoedd unig-anedig Abraham, yr hwn a gawsai yr addewidion; trysordŷ yr addewidion ydoedd. pe buasai efe yn pallu, buasai yr holl addewidion yn myned yn ofer. Yr unig-anedig fab hwn a offrymodd Abraham wrth orchymyn Duw. Isaac ei hun a ddygodd goed y poethoffrwm, ar ba rai yr oedd i gael ei offrymu, ac a foddlonodd i gael ei offrymu. Yr oedd tri diwrnod rhwng rhoddi y gorchymyn, ac attal y cyflawniad o hono; a gellir golygu Isaac megys yn farw dros y tri diwrnod hyn. Ac yn ddiweddaf, ei waredigaeth pan ydoedd ar gael ei offrymu, yr hyn a ellir, medd yr apostol, ei olygu yn cyfateb i adgyfodiad.

Yn yr holl bethau neillduol hyn, yr oedd y gorchwyl hwn yn arwyddlun addas, ac yn gyffelybiaeth gysgodol o aberthiad ac adgyfodiad Crist. Tebygol, hefyd, mai yn yr un lle y dangoswyd y cysgod, ac yr aberthwyd Crist, y gwrth-gysgod. 2 Cron. 3. 1. Edr. **Moriah.** Gellir barnu, er nad ydyw hyny ar lawr, i Dduw wrth gadarnhau yr addewidion i Abraham trwy lŵ, hysbysu iddo ef y byddai ei hâd, yn yr hwn y byddai i'r holl genedloedd gael eu bendithio, gael ei aberthu dros eu pechodau; ac mai ei ddyben yn gorchymyn iddo aberthu ei fab, oedd i rag-ddangos ac i rag-bortreiadu hyn, fel y gwelai yr holl eglwys natur y prynedigaeth yn fwy amlwg nag yn yr holl aberthau eraill oedd i barhau hyd hyny. Yn y pethau hyn, gwedi eu hegluro gan Dduw iddo, gwelodd Abraham 'ddydd Crist,' sef y pethau a wnai yn ei ddydd; yn neillduol ei waith yn marw fel aberth dros bechod. Ioan 8. 56. Esgob Warburton, Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* ii., *c.* 10.

Gwedi y pethau hyn, gwelwn Isaac yn ei gyflawn oed a'i rym, yn wr neillduaidd a digyffro; yn treulio llawer o'i amser mewn myfyrdodau a gweddïau. 'Yn min yr hwyr aeth allan i fyfyrio (neu לשוח *weddïo*, neu i fyfyrio a gweddïo: arwydda y gair bob un o'r ddau) yn y maes.' Yr oedd hwn yn arferiad cyffredin ganddo, tebygol; arferiad nas gall un duwiol ei hebgor, heb golledu ei enaid. Edr. **Myfyr.**

Pan ydoedd yn ddeugain mlwydd oed, canfyddwn ynddo arwyddion tirion o'i serchogrwydd, ei barch, a'i ufudd-dod i'w rieni. Dangosodd ystyriaeth neillduol, a thiriondeb tu ag at ei fam yn ei henaint, a galarodd yn faith ac yn ddwys iawn am dani wedi ei marw. Y geiriau, 'Ac Isaac a ymgysurodd ar ol ei fam,' (Gen. 24. 67.) a ddengys yn eglur hir alar am dani; ac nad oedd dim a'i cysurai, nes y cafodd wraig dirion, yn lle mam, yn Rebeccah. I'w dad y gadwodd, tebygol, y dewisiad o ymgeledd gymhwys iddo, ac ymfoddlonodd i'w benderfyniad duwiol, i beidio ceisio un o'r Canaaneaid eilun-addolgar iddo, ond un o blith ei genedl ei hun, y rhai oeddynt yr amser hwnw yn meddiannu gwybodaeth o'r gwir Dduw. Ni bu achos edifeirwch iddo o'i barch a'i ufudd-dod i'w dad yn hyn; oblegid cafodd yn Rebeccah wraig a hoffodd. Edr. **Rebeccah, Eliezer.**

Gwedi hyn cawn ef ac Ismael yn claddu Abraham eu tad. Y mae yn llawen eu gweled gyd â'u gilydd, er yr hen ymryson, yn talu eu ddyled olaf hon o barch i'w hen dad ffyddlawn.

Gwedi marw Abraham, Duw a fendithiodd Isaac. Gwrandawodd Duw ei weddi ef mewn perthynas i'w wraig, yr hon oedd anmhlantadwy, a hi a feichiogodd, gwedi bod yn nghylch ugain mlynedd heb blentyn. Ganwyd iddi efeilliaid, dau o feibion, Esau a Jacob. Edr. eu henwau. Cafodd hwynt yn ateb i weddi, yr oedd hyn yn eu gwneuthur yn fendithion dyblyg; ac yn brawf iddo o sylw Duw arno, a'i ffafr iddo.

'Isaac oedd hoff ganddo Esau, am ei fod yn bwyta o'i helwriaeth ef.' Gen. 25. 28. Yr oedd y tueddgarwch hwn at Esau yn anaddas; ac yr oedd yr achos o hono yn ddistadl ac yn annheilwng; a bu y canlyniadau yn athrist a gofidus; o hyn, a thueddgarwch Rebeccah hithau at Jacob, y tarddodd, mewn mesur mawr, yr ymryson rhwng y ddau frawd, yn ol llaw. Bydded eu siampl hwy yn rhybydd i eraill. Cafodd y ddau eu profedigaethau yn neillduol yn eu dau fab: yr oedd gwragedd Esau, merched Heth, yn 'peri chwerwder ysbryd i Isaac a Rebeccah.' Gorfod ar Jacob, hoff fab Rebeccah, ffoi ar grwydr rhag digofaint ei frawd, gwedi iddo, yn dwyllodrus feddiannu y fendith, ac nis gwelodd Rebeccah ef mwy.

Heblaw y profedigaethau hyn yn ei deulu, nid oedd hebddynt yn ei amgylchiadau allanol hefyd. O herwydd newyn yn y tir, aeth trwy gyfarwyddyd Duw i Gerar: yno cafodd ei demtio, fel ei dad Abraham, i wadu ei wraig, a dywedyd mai ei chwaer ydoedd: am hyn cafodd ei geryddu gan Abimelech, brenin Paganaidd. Gen. 26. 1—11. Yr oedd y cerydd hwn oddi wrth y fath un yn ddarostyngiad mawr i Isaac. Cenfigenodd y Philistiaid wrtho o herwydd helaethrwydd ei gyfoeth, ac ymrysonasant âg ef yn nghylch y pydewau dwfr. Adn. 20. Ymddygodd Isaac yn hyn oll yn dirion ac yn addfwyn; a gwnaeth ef ac Abimelech gynghrair â'u gilydd. Yn y cyfamser, er ei gwymp pechadurus yn gwadu ei wraig, ymddangosodd yr Arglwydd ddwywaith iddo; sef cyn iddo fyned i Gerar, ac wedi iddo ddychwelyd i Beerseba: cadarnhaodd gyfammod ac addewidion Abraham iddo, yn nghylch amlhau ei hâd, rhoddi yr hâd bendigedig iddo, a gwlad Canaan yn etifeddiaeth iddo ef a'i hâd. Addawodd iddo ef yn bersonol, bod gyd âg ef, ei fendithio, a'i lïosogi. Ar hyn, 'Isaac a adeiladodd allor, ac a alwodd ar enw yr Arglwydd.' Gen. xxvi.

Gwedi hyn nid oes nemawr hanes am Isaac, ond am ei waith yn bendithio ei feibion — a hwythau ddeugain mlynedd ar ol hyny yn ei gladdu. Er iddo ddangos ei wendid yn ei dueddgarwch at Esau, etto dywed yr apostol, 'mai "trwy ffydd y bendithiodd Isaac Jacob ac Esau am bethau a fyddent.' Heb. 11. 20. Yr oedd Isaac yn feius wrth fendithio

* Y mae y darddodiad εν yn arwyddo, yn aml, y dyben er pa un y gwneir rhyw beth. Gwel Macknight.

Digitized by Google

ei feibion mewn dau beth.—1. Ei hoffder angbymedrol o Esau.—2. Na buasai yn fwy ymofyngar am ddeall meddwl Duw yn y dadguddiad dwyfol i Rebeccah, mewn perthynas i'r meibion. Diammeu y gwyddai am y dadguddiad; ond gellir barnu, medd y Dr. Owen, nad oedd wedi deall meddwl Duw am hyny; ac onidê, na buasai y gwr duwiol yn gweithredu yn groes i benderfyniad Duw yn yr achos. Yr oedd ei anwybodaeth yn tarddu yn ei esgeulusdra i ymofyn â Duw mewn gweddi. Ei gamsyniad ef fu yr achlysur o gamymddygiad Rebeccah a Jacob yn y mater hwn. Ond er yr holl wendidau yn y pleidiau, a'r offerynau oedd yn gweithredu, y mae awdurdod oruchel, doethineb, a ffyddlondeb Duw yn dysgleirio, yn ei waith yn dwyn ei amcanion i ben, trwy ffolineb a gwendidau dynion. Ac er ei wendid, etto, 'trwy ffydd yn yr addewid, y bendithiodd efe ei feibion.' Yr oedd yr addewid yn sylfaen i'w ffydd mewn perthynas i'w hâd: a bod y fendith hon i gael ei throsglwyddo trwyddo ef, fel gweinidog Duw, a hysbyswyd iddo trwy ddadguddiad. Yr oedd dadguddiad Duw i Rebeccah yn sylfaen ei ffydd hi a Jacob, mai Jacob yn neillduol oedd i gael y fendith: fel hyn gwelwn ffydd y tri, er eu gwendidau pechadurus, ar iawn sylfaen, ac âg iawn wrthddrych, sef bendith Duw yn eu golwg. Er y dyryswch a'r anhawsderau yn nglŷn wrth yr hanes, fel hyn gellir gweled fod ffydd y pleidiau yn yr addewid yn gweithredu yn nghanol eu gwendidau; a bwriad Duw fel hyn yn cael ei gyflawni yn gywir ac yn gwbl.

Yr oedd yn ddall dros saith mlynedd a deugain, yn niwedd ei oes. Yr oedd hyn yn brofedigaeth ofidus, fod dros gyhyd o amser yn ddibynol ar eraill, a'r rhai hyny, yn aml, nid y rhai mwyaf tyner a ffyddlon am ei amgeledd a'i gysur: etto hyn oedd ewyllys yr Arglwydd mewn perthynas i'r gwr duwiol hwn—i fod yn gysur i eraill, hwyrach, mewn oesoedd i ddyfod, a allai fod yn y cyffelyb amgylchiad.

I ddiweddu.—1. O'r tri patriarch, Isaac fu byw hwyaf. Bu Abraham byw 175 o flynyddoedd. Gen. 25. 7.—Jacob 147.—Gen. 47. 28.—Ond Isaac a fu byw 180: bu farw yn Hebron, lle bu Abraham, Sarah, a Rebeccah farw. Gen. 35. 28.

2. Ni bu iddo ond un wraig; a gellir barnu iddynt fyw gyd â'u gilydd yn siamplau hynod o serchawgrwydd addas a ffyddlondeb yn yr ystad anrhydeddus hono. Gen. 26. 8.

3. Gellir barnu ei fod yn gyfoethocach na'i dad, na'i fab. Gen. 26. 13—15.

4. Bu fyw yn llai ei brofedigaethau na hwynt-hwy; ac heb achos symud mor aml o le i le. Nid ydyw holl deithiau Isaac ddim dros 148 o filltiroedd. Gwel Bunting.

5. Nid ydym yn darllen i'r Arglwydd ymddangos mor aml chwaith iddo ag i'r ddau eraill.

6. Er na choffëir ei enw mor aml a'r ddau eraill, etto coffëir ef gyda dim llai parch na'r lleill; ac ni roddwyd anrhydedd mwy i neb nag i'r tri gwyr enwog hyn, sef bod Duw yn galw ei hun yn Dduw Abraham, Isaac, a Jacob. Gwel Vitringa, *lib*. ii. *cap*. 9.

ISBAC, ישבק [*diffygiol*] mab Abraham o Ceturah. Gen. 25. 2.

ISBAH, ישבה [*llonyddwch*] mab Ezra, a thad Estemoa. 1 Cron. 4. 17.

ISBIBENOB, ישבי־בנוב [*Isbi mab Ob*] un o feibion y cawr, a laddwyd gan Abisai, ac efe yn meddwl lladd Dafydd. 2 Sam. 21. 16.

ISBOSETH, איש־בשת [*cywilyddiwr*] mab ac olynwr Saul brenin Israel. Gosododd Abner ef yn frenin ar ol marwolaeth ei dad, yn Mahanaim: wedi teyrnasu ddwy flynedd, lladdwyd ef gan dywysogion y llu, sef Baanah a Rechab, meibion Rimmon. 2 Sam. ii, iv.

ISCAH, יסכה [*eneiniad, gorchuddiad*] merch Haran, brawd Abraham. Barna rhai mai yr un oedd a Sarah. Gen. 11. 29.

ISEL, (is) gwael, tlawd, digalon, gostyngedig; dystaw: isel sŵn, isel dy leferydd, sef dystaw. Preg. 12. 4. Esa. 29. 4.—'Brawd o radd isel.' Iago 1. 9. *ο αδελφος, ο ταπεινος, y brawd, yr isel*, sef isel o ran sefyllfa a moddion bydol, a osodir mewn cyferbyniad i'r cyfoethog, yr hwn sydd helaeth ei feddiannau, uchel ei sefyllfa, neu ei swydd. Llawenyched yr isel yn ei oruchafiaeth, ei fod yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd o deyrnas dragywyddol, anllygredig: llawenyched y cyfoethog yn ei ddarostyngiad, sef ei fod yn cael ei iselu, ei anmharchu, a'i dlodi, mewn achos mor dda ag achos yr efengyl.

Priodolir y gair hwn hefyd i'r agwedd dlawd, gystuddiol, sydd ar ysbrydoedd y duwiolion, ac a arwydda yr un peth a 'thlawd yn yr ysbryd.' Esa. 57. 15. Ezec. 21. 26. Mat. 5. 3.

ISEL—DER, ISLAW, ISEL-RADD, (is) hyfylldod, gostyngiad, gwaeledd, distadledd, diystyrwch, dirmyg, tlawd, is na.

Y mae iselder yn arwyddo, weithiau, y groth, lle y ffurfir dyn yn wael ac yn fychan iawn; yno y cyfreiniwyd dynoliaeth Crist, pan y gwnaethpwyd ei gorph yn ddirgel, a'i ddefnydd yn anelwig, yn holl fychanrwydd ei natur ddynol, yn ei dechreuad. 'Ni ddiystyrodd fru y wyryf.' Er nad oedd yn ffrwyth y lwynau, yr oedd y ffrwyth y bru. Ps. 139. 15.

Arwydda iselder, hefyd, y bedd, lle y try Duw ddyn i ddinystyr; sef parthau isaf, neu iselderau y ddaear. Ps. 63. 9. Ezec. 26. 20. O iselder i iselder y mae taith dyn; oddi yno y dyrchafwyd Crist, ac y dyrchafa yntau ei holl bobl, yn ogoneddus.

Arwydda isel-radd sefyllfa isel yn y byd, mewn cyferbyniad âg uchel-radd; neu gyflwr gwael, cystuddiol, yn ysbrydol neu yn allanol. Diar. 22. 29. Ps. 136. 33. Luc. 1. 52.—'Eithr yn gyd-ostyngedig â'r rhai isel-radd.' Rhuf. 12. 16. *τοις ταπεινοις συναπαγομονοι*.—'Ymgydestwng â'r ei isel.' W. S. Arwydda y gair Groeg, medd Beza, gadael y ffordd yr oedd yn bwriadu rhodio ynddi, i gyd-fyned âg eraill, a myned yn araf gyd â'r llesg a'r gwan, er y gallem fyned yn gyflym. Cyd-ymagweddu, a chymeryd bywioliaeth gyd â'r rhai isel-radd, megys yr oedd y rhan fwyaf o'r Cristionogion yn nyddiau yr apostol; ac fel y mae hyd heddyw, y rhai sydd yn wirioneddol felly. Rhoddi y meddwl ar uchel bethau sydd agwedd wrthwyneb i fod yn gyd-ostyngedig â'r rhai isel-radd; ac i hyny y mae tueddiad meddwl llygredig pawb: ond 'uchel-drem dyn a iselir, ac uchder dynion a ostyngir.' Esa. 2. 11.

Y mae isod ac uchod, yn arwyddo dau fyd, sef byd daearol a byd nefol; dwy deyrnas, a dau fath ar ddynion yn perthyn i'r ddwy deyrnas hon. Ioan 8. 23.

Islaw, yn fwyaf cyffredinol, a briodolir i sefyllfa rhyw fan, o ran ei berthynas â rhyw fan arall. Gen. 35. 8. Exod. 24. 4. Iago 2. 3.

ISGELL, (isg) cawl, berwad, trwyth—'Ac isgell ffiaidd bethau yn eu llestri.' Esa. 65. 4—'Ac isgell ffiaidd gig yn eu llestri.' Dr M. a Lowth. Cyfeiria y geiriau at ddefodau halogedig eilun-addolwyr yn eu haddoliadau, â pha rai yr oedd yr Iuddewon wedi eu halogi eu hunain yn ffiaidd.

ISMAEL, ישמעאל [*Duw a wrendy*] mab Abraham o Hagar. Pan oedd yn ddeunaw mlwydd oed, gwatwarodd Isaac, pan oedd yn fab pedair neu bump oed; ar hyn, wrth ddeisyfiad Sarah, a thrwy gyfarwyddyd Duw, bwriodd Abraham Hagar a'i mab allan o'i dŷ.

Digitized by Google

Edr. Hagar. Trigodd yn anialwch Paran, a'i fam a gymerodd Aiphtes yn wraig iddo. Er mai mab y forwyn gaeth oedd Ismael, ac nid mab yr addewid, etto, cafodd ei dad Abraham, a'i fam Hagar, er eu cysuro, brophwydoliaethau hynod mewn perthynas iddo, oddiwrth yr Arglwydd. Yn Gen. xvi., pan oedd Hagar yn ffoi rhag wyneb ei meistres, dywedodd angel yr Arglwydd wrthi am dano, 'Gan amlhau yr amlhâf dy hâd di, fel na rifer ef o lïosogrwydd—Wele di yn feichiog, a thi a esgori ar fab, ac a elwi ei enw ef Ismael. Efe a fydd ddyn gwyllt, â'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau; ac efe a drig ger bron ei holl frodyr.' Wrth Abraham dywedodd yr Arglwydd am dano, 'Wele, mi a'i bendithiais ef, a mi a'i ffrwythlonaf ef, ac a'i lïosogaf yn aml iawn: deuddeg tywysog a genedla efe, a mi a'i gwnaf yn genedlaeth fawr.' Gen. 17. 20. Cwblhawyd y prophwydoliaethau hyn yn hynod ynddo ef a'i hiliogaeth. Mewn ychydig o flynyddau yr oedd ei deulu gwedi llïosogi mor aml, fel y darllenwn yn Gen. xxxvii. am Ismaeliaid yn masnachu i'r Aipht. Llïosogodd ei hâd gwedi hyny yn fawr yn yr Hagariaid, a alwyd felly, tebygol, oddiwrth Hagar: yn y Nabathæiaid, oddiwrth ei fab Nebaioth: yn yr Itureaid oddiwrth ei fab Jetur, neu Itur: ac yn yr Arabiaid, yn neillduol y Saraceniaid, y rhai a oresgynasant y rhan fwyaf o barthau y byd; ac y mae yr Arabiaid yn para yn bobl llïosog hyd heddyw.

'Deuddeg tywysog a genedla efe.' Yr oedd hyn yn beth neillduol, ac a gyflawnwyd yn fanwl; ac y mae Moses wedi rhoddi eu henwau oll i lawr. Gen. 25. 16. Dywed Eusebius eu bod yn cael eu llywodraethu gan ddeuddeg o freninoedd yn eu ddyddiau ef. *Evang. Prepar. b.* 9. *c.* 19.

'Mi a'i gwnaf yn genedlaeth fawr.' Cynnyddodd ei hiliogaeth mor fuan ag y gallasent yn ol trefn naturiaeth; buont yn genedlaeth fawr dros oesoedd, ac felly y maent hyd heddyw. Gellid eu galw yn genedlaeth fawr mewn gwirionedd, pan wnaeth y Saraceniaid eu buddugoliaethau helaeth a buan, a thrwy hyny a sefydlasant un o'r ymerodraethau mwyaf helaeth a fu yn y byd erioed.

'Efe a fydd ddyn gwyllt.' Y mae cyfeiriad y gair, medd Bochart, at asyn gwyllt; bydd mor wyllt ag asyn gwyllt, yr hwn a ddarlunir yn llyfr Job yn hynod. Gwel pen. 39. 5. Yn dangos y byddai efe a'i hiliogaeth yn preswylio yr anialwch fel yr asyn, yn anwar ac yn aflywodraethus, yn anhawdd i'w dofi a'u llareiddio i gymdeithas sefydlog.

Dywedir am dano, 'Efe a drigodd yn yr anialwch, ac a aeth yn berchen bwa.' Gen. 21. 20. Y mae hyn yn wir hyd heddyw am ei hiliogaeth: preswyliant yn yr anialwch, y rhan fwyaf o honynt, heb na hau, na medi, yn ol hanesion boreuol a diweddar am danynt.* Coffëir am yr Itureaid fel saethyddion enwog gan amryw hen awdwyr.† Coffëir yn Esa. 21. 17. am 'saethyddion gwŷr cedyrn meibion Cedar.' Yn ddiweddar y dysgodd yr Arabiaid arfer arfau tân; ac y mae y rhan fwyaf o honynt heb eu defnyddio hyd heddyw.

'A'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau.' Y mae ei hiliogaeth, hyd heddyw, wedi byw fel yspeilwyr ar fôr ac ar dir; ac mewn rhyfel parhaus â'r rhan arall o'r byd. Y mae llaw pawb yn eu herbyn hwythau, a llawer ymgais gwedi bod i'w dyfetha oddiar y ddaear; ac nis gellir teithio yn y dyddiau hyn, fel yn y dyddiau gynt, ond yn dyrfaoedd yn cydymdaith (*caravans*) ac yn arfog i amddiffyn eu gilydd rhag yr yspeilwyr hyn, sydd yn crwydro yn dyrfaoedd i ysglyfaethu.

* Gwel Amianus Marcellinus, *b.* xiv. *c.* 4. Harris's *Voyages vol.*. ii. *b.* 2.

† Gwel Virgil's *Georgics*, *b.* ii. *l.* 448. Lucan viii. 80.



'Ac efe a drig ger bron ei holl frodyr.' Efe a drig, neu efe a babella, canys y mae llawer o'r Arabiaid yn trigo mewn pebyll; am hyny gelwir hwynt *Scenites*. Yr oeddynt yn preswylio mewn pebyll yn amser Esaiah a Jeremiah. Gwel Esa. 13. 20. Jer. 3. 2. Y mae yn beth hynod ei fod yn trigo ger bron ei holl frodyr, a'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau; ond er mor ryfedd, gwirionedd ydyw am Ismael ei hun, a'i hiliogaeth hefyd. Am Ismael, dywedir, 'Dyma flynyddoedd einioes Ismael, can mlynedd a dwy ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd,—Yn ngŵydd ei holl frodyr y bu efe farw.' Gen. 25. 17, 18. Trigodd ei hiliogaeth hefyd yn ngŵydd ei holl frodyr, meibion Ceturah, Lot, Isaac, a Jacob, ac Esau. Maent etto yn bobl wahanedig, ac yn trigo yn ngwlad eu hynafiaid, er yr elyniaeth barhaus rhyngddynt hwy a'r lleill o drigolion y ddaear. 'Preswyliasant,' medd Moses, 'o Hafilah hyd Sur, yr hon sydd o flaen yr Aipht, y ffordd yr âi di i Assyria;' etto ni buant yn ddarostyngedig i'r Aiphtiaid, nac i'r Assyriaid, er eu cryfder. Ni orchfygwyd mo honynt gan Cyrus chwaith, ac ni buant yn ddarostyngedig i'r Persiaid. Diystyr oedd ganddynt gyfarch Alexander Fawr fel buddugoliaethwr, na gwneuthur un sylw o hono; tra yr ydoedd eu holl gymydogion o'u hamgylch yn ymostwng iddo, ac yn ei gyfarch—yr hyn a lidiodd Alexander yn fawr. Ni ddarostyngwyd erioed mo honynt yn drwyadl gan y Rhufeiniaid. Aflwyddodd pob ymosodiad yn eu herbyn, er llïosoced y byddinoedd, a gwroled eu blaenoriaid. Pompey, Ellius Gallus, Trajan, Septimus Severus, a fwriadasant, ac a ymosodasant i ddarostwng yr Arabiaid, ond aflwyddasant oll. Rhoddir hanes credadwy gan Dion,* am yr Ymerawdwr Trajan, iddo anrheithio parthau o'u gwlad, ac iddo warchae ar Petra, eu prif ddinas; ond dychrynwyd a churwyd ei fyddinoedd yn eu hol gan fellt, taranau, cenllusg, heidiau o wibed, a rhyfeddodau yn yr awyr; trwy y pethau rhyfedd hyn, anarferol iawn yn y wlad hòno, gorfu arnynt adael heibio eu cais, a Trajan a aeth yn ol o'u gwlad.

Gwedi cyfodi y gau-brophwyd Mahomet† yn eu plith, goresgynasant fwy o wledydd, a darostyngasant fwy o bobl, mewn ychydig flynyddoedd, nag a ddarfu y Rhufeiniaid mewn llawer canrif. Gwedi hyny, yr oeddynt nid yn unig yn anddibynol ar eraill, fel yn yr holl oesoedd, ond yr oeddynt yn arglwyddiaethu ar barthau mwyaf y ddaear. Felly y parhausant dros dri chant o flynyddoedd.‡ Gwedi dystrywio eu hymerodraeth, a'u gyru yn eu hol o fewn cyffiniau eu gwlad eu hunain, etto yr oeddynt yn parhau yn anddibynol, ac yn amddiffyn eu rhyddid yn erbyn y Tyrciaid, y Tartariaid, a'r Mamaluciaid. Pwy bynag fyddai gorfodwr Asia, yr oeddynt hwy heb eu gorfod, a'u gorchfygu. Rhydd y Dr. Shaw, a Pocock,§ teithwyr diweddar a fu yn eu gwlad, yr un cyffelyb hanes am danynt y dyddiau hyn. Yr un bobl ydynt

* *History*, *b.* lxviii. Gwel hefyd *b.* lxxv. am hanes yr Ymerawdwr Severus.

† Yn y flwyddyn A. D. 626, pan gyfododd y gau-brophwyd creulon a dinystriol hwn, dywedir fod tywyllwch anarferol ar yr haul, o fis Mehefin hyd Hydref. Trwy arfau rhyfel y taenodd ei gyfeiliornadau; a rhyfedd y llwyddodd dros lawer iawn o'r gwledydd dwyreiniol, ac y mae yn para yno hyd heddyw. Llygriad, drwg-foesau, a chyfeiliornadau y Cristionogion yn y parthau hyny a'u haddfedodd i'r farn drom hon. O herwydd yr un achos, ac yn nghylch yr un amser, y cyfododd Anghrist, a'i gyfeiliornadau dychrynllyd, yn y gwledydd gorllewinol o'r byd. Y ddau a ânt i ddystryw gyd â'u gilydd—a phrysured Duw y dydd! Gwel Dat. xx.

‡ Y Saraceniaid a ddechreuasant eu buddugoliaethau, A.D. 622, ac i deyrnasu yn Damascus, A.D. 637. Rhanwyd a dystrywiwyd eu hymerodraeth, A.D. 936. Gwel Blair's *Chronological Tables*, *Table* 33, 39. Sir Isaac Newton *on the Apocalypse*, *chap.* iii.

§ Gwel Shaw's *Travels*. Pocock, *vol.* i. *b.* iii. *chap.* ii.

Digitized by Google

yn bresennol ag oeddynt ddwy fil o flynyddoedd cyn hyn, ond yn unig eu crefydd, yr hon yw y Fahometanaidd yn awr. Y mae tystiolaeth Hanway hefyd yn cydgordio â hwynt.* Y mae yn rhyfedd hynod fod yr un pobl yn parhau yr un yn eu moesau a'u harferion dros oesoedd; ac etto yn fwy rhyfedd eu bod heb eu dystrywio, neu eu darostwng, a hwythau â'u llaw yn erbyn pawb; heb eu darostwng, er ymgeisiadau lawer gan rai o'r gorfodwyr mwyaf buddugoliaethus a fu yn y byd; er i rai o honynt agos a llwyddo, etto heb lwyddo y mae pawb hyd heddyw. Er i'r bobloedd oll oddi amgylch iddynt gael eu gorchfygu, ac er i'r Ymerodraethau olynol, yn eu parthau hwy o'r byd, fyned i ddystryw, etto y maent hwy yn para yr un o'r dechreuad, ac yn debyg o bara hyd ddiwedd amser.

Hwy ydyw yr unig bobl, heblaw yr Iuddewon, sydd gwedi parhau yn bobl wahanedig oddiwrth bawb eraill er eu dechreuad; ac mewn amryw bethau y maent yn tebygu i'w gilydd. Hiliogaeth Abraham yw yr Arabiaid, fel yr Iuddewon. Y mae arfer yr enwaediad yn eu plith, fel yn mhlith yr Iuddewon: a phob un o'r ddwy genedl yn hòni iddynt dderbyn yr arferiad oddiwrth Abraham.—Yr oedd gan yr Arabiaid, fel yr Iuddewon, ddeuddeg patriarch, neu dywysogion llwythau, y rhai oeddynt eu tywysogion a'u llywodraethwyr.—Y mae yr Arabiaid, fel yr Iuddewon yn priodi yn eu plith eu hunain.—Y mae yr Arabiaid, fel yr Iuddewon, yn neillduol, ac yn wahanol oddiwrth genedloedd eraill mewn amryw ddefodau ac arferiadau, ac yn arwyddion gweledig ac amlwg i bawb, trwy yr holl oesoedd, yn tystiolaethu am fanylrwydd y prophwydoliaethau, a dwyfoldeb yr ysgrythyrau. Y mae y prophwydoliaethau mewn perthynas iddynt yn cael eu gwirioneddu, yn y cyflawniad o honynt, o flaen llygaid yr holl fyd, ac yn profi yn ddiammheuol mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu yn mreniniaethau dynion, a bod ei wirionedd, fel ei drugaredd, yn parhau yn dragywydd. Yn nyddiau yr apostolion, dechreuwyd planu Cristionogrwydd yn rhai parthau o Arabia; ond wedi i grefydd Mahomet gael ei thaenu yn eu plith, ni welwyd ond ychydig o arwyddion o Gristionogrwydd. Yn y dyddiau diweddaf, y mae y prophwydoliaethau yn sicrhau eu dychweliad gyd â'r cenedloedd eraill i ffydd Crist. Gwel Ps. 72. 9, 10—15. Esa. 45. 14, a 60. 6. a 62. 11. Gwel *Ancient Universal History, vol.* xviii, xx. *Modern ditto, vol.* i, ii, iii, xix, xx. Fleury *and* Mosheim's *Church Histories. Bishop* Newton's *Dissertations on the Phrophecies. Dissert.* ii.

ISMAEL, mab Nethaniah, o'r teulu breninol, yr hwn a laddodd Gedaliah trwy fradwriaeth. Jer. xli. Edr. GEDALIAH, JOHANAN.

ISMAIAH, ישמעיה [*yr hwn sydd yn gwrandaw yr Arglwydd*] mab Obadiah penaeth llwyth Zabulon. 1 Cron. 27. 19.

ISMAIAH, Gibeoniad, ac un o wyr grymus Dafydd. 1 Cron. 12. 4.

ISMACHIAH, יסמכיה [*un a unwyd â'r Arglwydd*] Lefiad, tebygol, a swyddog yn amser Hezeciah. 2 Cron. 31. 13.

ISRAEL, ישראל [*gorchfygwr Duw*, neu *tywysog Duw*]. Edr. JACOB. Arwydda yr enw hwn, weithiau Jacob ei hun; weithiau ei hiliogaeth; weithiau teyrnas Israel, y deg llwyth, mewn cyferbyniad i deyrnas Judah; ac weithiau eglwys Dduw, wedi ei galw ganddo oddiwrth y byd.

ISRAELIAID, hiliogaeth Israel, a alwyd yn gyntaf Hebreaid, oddiwrth Abraham, a Heber; (Edr. HEBER, HEBREAID) gwedi hyny galwyd hwynt Israeliaid, oddiwrth Israel; ac yn ddiweddaf galwyd hwynt Iuddewon, oddiwrth Judah; yr enw hwn oedd fwyaf arferedig am danynt ar ol eu dychweliad o Babilon, am mai llwyth Judah ydoedd liosocaf. Am eu hanes boreuol, nid rhaid ei roddi yma, gan ei fod yn gyflawn genym yn y rhan historïawl o'r Hen Destament. Am eu hanes presennol, Edr. IUDDEWON. Gwel MOSES, TAITH, CANAAN, AIPHT, ANIALWCH.

ISSACHAR, יששכר [*gwobr*] pummed mab Jacob o Leah. Gen. 30. 18. Yr oedd i Issachar bedwar o feibion; sef Tola, a Phuah, a Job, a Simron. Nid oes genym hanes am ddim dygwyddiadau neillduol bywyd Issachar. Rhifedi ei hiliogaeth ef pan ddaethant o'r Aipht oedd 54,400, dan dywysogaeth Nethaneel mab Suar. Eu hyspiwr i edrych ansawdd gwlad Canaan oedd Igal mab Joseph, yr hwn oedd yn un o'r deg a roddasant anghlod am y tir a chwiliasent. Paltiel, mab Asan, oedd eu penaeth yn rhanu y tir. Yr oeddynt yn gwersyllu o flaen y babell yn ngwersyll Judah. Cynnyddasant yn yr anialwch i 64,300. Gen. 46. 13. Num. 1. 8, 29. a 10. 14, 15. a 13. 7. a 26. 23, 24, 25. a 34. 26. Eu hedifeddiaeth yn ngwlad Canaan, oedd mewn rhan fras o'r wlad, rhwng y Zabuloniaid o du y gogledd iddynt, a'r Manassiaid o du y dehau iddynt. Yr oedd yr Issachariaid yn bobl lafurus a chyfoethog; cynnwys prophwydoliaeth, Jacob, mewn ychydig eiriau, eu holl hanes: 'Issachar sydd asyn asgyrnog, yn gorwedd rhwng dau bwn. Ac a wel lonyddwch, mai da yw, a'r tir mai hyfryd: efe a ogwydda ei ysgwydd i ddwyn, ac a fydd yn gaeth dan deyrnged.' Gen. 49. 14, 15. Darlunir iddynt bobl foddlawn, amyneddgar, llafurus, heb roddi eu meddwl ar uchel bethau. Rhagfynegodd Moses y byddent yn awyddus i addoliad Duw yn Jerusalem, ac yn annog eraill i fyned i fynu. 'Galwant bobloedd i'r mynydd: yna yr aberthant ebyrth cyfiawnder.' Deut. 33. 19. Nid llawer a ddarllenir am danynt, am eu bod fel hyn yn bobl esmwyth, llonydd, yn caru eu pebyll. Tola y barnwr, a Baasa, brenin Israel, ydyw y gwyr mwyaf enwog o'r llwyth hwn y rhoddir hanes am danynt. Edr. TOLA, BAASA. 1 Cron. 12. 32. a 27. 18. a 7. 1—6.

ISSI, אישי [*fy ngwr*]. 'A'r dydd hwnw, medd yr Arglwydd, y'm gelwi ISSI, ac ni'm gelwi mwyach Baali.' Hos. 2. 16. 'A bydd yn y dydd hwnw, medd IEHOFAH, y'm gelwi *fy ngwr*. ac ni'm gelwi mwyach *fy Arglwydd*.' Esgob Horsley. 'Fy ngwr,' sydd enwad yn arwyddo cariad, a 'fy Arglwydd,' a arwydda darostyngiad ac ofn. 'Ni roddes Duw i ni ysbryd ofn; ond ysbryd nerth, a chariad, a phwyll.' 2 Tim. 1. 7. Arwydda y ddau air, איש *Ish*, a בעל *Baal*, *gwr*; ac weithiau yn unig fel *gwr* Ond o'u golygu yn fanwl, arwydda y diweddaf, *gwr gerwin*, a'r cyntaf, *gwr tirion, hynaws*.*

ISTOB, ישטוב [*dyn da*] yr oedd gwlad Tob ar derfynau gogleddol mynyddoedd Gilead, tu a mynydd Libanus. 2 Sam. 10. 6. Barn. 11. 3, 5.

ISUAH, *Heb.* ישוה [*gwaredwr*] ail fab Aser. Gen. 46. 17.

ITAL, *Gr.* Ιταλια; *Llad.* ITALIA.—(Galwyd y wlad yn Italia oddiwrth un Italus, a fu yn frenin arni Act. 27. 1. Heb. 13. 24. Gelwid hi wrth amryw.ol

* Gwel Hanway's *Travels, vol.* iv. *chap* 29.

* Mae y gair Baal yn arwyddo yr hwn sydd yn meddu unrhyw beth; ac am hyny y mae yn dynodi *gwr*, yr hwn a elwir Baal-Issi yn Exod 21. 8. Ond arferir y gair yn yr ysgrythyrau dan y pen hwn mewn dau ystyr: naill ai yn syml am wr heb un golwg pa fath ydyw, megys yn Gen. 20. 3. Joel 1. 8. neu yn fwy arbenig am *wr caled*, yr hwn sydd yn ymddwyn at ei wraig fel arglwydd, ac felly yn cael ei wahaniaethu oddiwrth wr tirion a hynaws; megys Hos. 2. 16. Jer. 31. 32. Gwel Vitringa ar Esa. 54 5. Horsley ar HOSEA.

Digitized by Google

enwau, megys Janicula, oddiwrth un Janus; Saturnia, oddiwrth un Saturnus; Ausonia, oddiwrth un Ausonius; Oenotria, am fod gwin da i'w gael yno; Hesperia, oddiwrth un Hesperus, brawd Atlantus. Gwel Mintert's *Lexicon*. Yn Esa. 66. 19. cyfleithir y gair תובל ar ol St. Jerome, *Italia:* 'Italia a Groeg:' Tubal a Javan, heb eu cyfieithu, *Saes.* Lowth. Edr. TUBAL.)—Gwlad yn Ewrop; ei phrif ddinas ydyw Rhufain. Cyfanneddwyd hi ar y cyntaf gan yr Umbri, sef y Gomeriaid, neu y Cymry, tebygol; wedi hyny meddiannwyd hi gan amrywiol lwythau, sef yr Etruscaniaid, y Samnitiaid, y Campaniaid, &c., a rhai parthau o honi gan y Groegiaid; ond o'r diwedd llyncodd y Rhufeiniaid y cwbl i fynu. Ei llun sydd yn debyg i bwtasen. O du y dwyrain iddi y mae y Môr Adriatic; ac o du y dehau a'r gorllewin iddi y mae Môr y Canoldir; ac o du y gogledd mae mynyddoedd yr Alpau, y rhai ydynt yn ei gwahanu oddiwrth Ffrainc a gwlad Swiss. Ei hŷd sydd 600, a'i lled 400 o filltiroedd. Y mae mynyddoedd Apenin yn ei rhanu ar ei hŷd, agos yn y canol; y gwledydd o du dehau y mynyddoedd hyn ydynt yn gynhes iawn; ond o du y gogledd mae yr awyr yn dymherus ac yn gymedrol. Yn gyffredinol, y mae yr awyr yn sych ac yn bur. Y mae ei daear yn dra ffrwythlon; ceir ynddi win, olew, a ffrwythau o bob math, o'r goreu eu rhyw. Caws Italia, yn enwedig yr hwn a enwir Parmesan, a'i sidan, ydynt ei marchnadaeth fwyaf â gwledydd tramor. Ynddi y mae y mynydd tanllyd Vesuvius. Ei hafonydd ydynt y Po, Var, Adige, Trebia, Arno, Tiber, yr hon sydd yn rhedeg trwy Rufain. Y Rubicon, enwog mewn hen hanesiaeth, yw y terfyn dehau rhwng Italia a'r hen Cisalpine Gaul. Y mae mŵn-gloddiau aml yn ei mynyddoedd, o ba rai y cloddir amrywiol feini gwerthfawr; haiarn ac efydd: y mae yn nodedig am ei meini mynor hardd. Y mae ei thrigolion yn ddiffygiol iawn yn ei hamaethu. Trwy goel-grefydd y Pab, a'i orthrymder, mae y trigolion yn segurllyd, yn ddiog, ac yn llygredig iawn. Y mae llawer o diriogaeth hyfryd y wlad, o eisieu diwyllyddiaeth, wedi myned yn gorsydd ac anialwch. Campagna de Roma, yn cynnwys gynt 1,000,000 o drigolion, sydd yn rhoddi yn bresennol ond cynnaliaeth dlawd i 500.

Y mae wedi ei rhanu i amrywiol o lywodraethau bychain; ac y mae y Pab ei hun yn dywysog daearol, yn gystal ag yn flaenor ysbrydol, ac yn honi ei fod fel olynwr yr apostol Petr, yn ben yr eglwys yn ysbrydol: ond collodd lawer o'r awdurdod fu ganddo gynt yn mhob un o'r ddau; ac y mae ei wendid a'i lesgrwydd presennol, yn arwyddion amlwg fod ei ddiwedd yn nesâu, yn ol y prophwydoliaethau am dano. Edr. ANGHRIST.

ITHAI, יתיא [*yr arwydd*] cyfenwid ef Gethiad. Mab Ribai o Gibeah. 1 Cron. 11. 31.

ITHAMAR, איתמר [*ynys y palmwydd*] pedwerydd mab Aaron. Yr oedd Eli yn un o'i deulu, ac yn arch-offeiriad; ac ni bu neb o deulu Ithamar yn y swydd hòno, ond teulu Eli. Ar ba achlysur y daeth y swydd i'r teulu hwnw, nid yw hysbys. Yr oedd wyth dosparth o'r offeiriaid o'i deulu. 1 Cron. 24. 1—4.

ITHIEL, איתיאל [*Duw gyda mi*] 1. Mab Jesaiah, a thad Maaseiah, o lwyth Benjamin. Neh. 11. 7.—2. Cyfaill, neu ddysgawdwr Agur, tebygol. Ni wyddis ddim am y tri, sef Agur, Ithiel, ac Ucal, ond a ddywedir am danynt yn Diar. xxx. Ymadroddion Agur wrthynt a elwir yn *brophwydoliaeth*, i ddangos fod ei addysgiadau yn ddwyfol, a'u bod wedi eu traddodi i'r eglwys, a'u derbyn ganddi fel y cyfryw yn gyffredinol, er's llawer o ddyddiau. Edr. AGUR, UCAL.

ITHLAH, יתלה [*crogedig*] dinas yn Dan. Jos. 19. 42.

ITHMAH, יתמה [*perffeithrwydd*] un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 46.

ITHNAN, dinas yn Judah. Jos. 15. 23.

ITHREAM, יתרעם [*rhagoriaeth y bobl*] mab Dafydd o Eglah. 1 Cron. 3. 3.

ITTA-CASIN, יתה־קצין [*amser y tywysog*] dinas yn Zabulon. Jos. 19. 13.

ITURIA, יטור [*cadw*] *Gr.* Ιτουραια; oddiwrth Jetur, mab Ismael, medd Jerome; a thebygol ei phoblogi gan ei hiliogaeth. Gen. 25. 15. 1 Cron. 5. 19. Gwlad yw o du y dehau-ddwyrain i Syria, ac o du y dwyrain i Basan. Yr oedd Phylip, mab Herod Fawr, yn detrarch Ituria, yn amser ein Hiachawdwr. Luc. 3. 1.

JUBAL, יובל [*rhedegwr*] mab Lamech o Ada, a thad pob teimlydd telyn ac organ; sef a ddysgodd gerddoriaeth gyntaf. Gen. 4. 21. Yr oedd rhai o hiliogaeth Cain yn gywrain mewn celfyddydau defnyddiol a hyfryd, ond nid ydym yn cael hanes am dduwioldeb neb o honynt.

JUBILI, יובל [*chwythad udgorn*] mai hwn yw ystyr priodol y gair Hebraeg, ac nid corn hwrdd, fel yr esbonir ef yn gyffredin, sydd gwbl eglur oddiwrth Exod. 19. 13. cymh. 16. Cyfleithir y gair *dwyn*, yn Job 10. 19. a 21. 32. Yr enw cadarn a gyfleithir *ffrwd*, neu *afon*. Esa. 44. 4. Jer. 17. 8. Am fod y ffrwd yn dwyn gyda hi yr hyn a daflir iddi. Arwydda hefyd, hir sŵn udgorn. Exod. 19. 13. Gelwir yr ŵyl hon Jubili, am ei bod yn cael ei chyhoeddi trwy udganiad udgorn. Gorchymynwyd i Israel gyfrif saith Sabboth o flynyddoedd, sef saith mlynedd seithwaith. 'Sancteiddiwch y ddegfed flwyddyn a deugain, a chyhoeddwch ryddid yn y wlad i'w holl drigolion: Jubili fydd i chwi; a dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth; ie, dychwelwch bob un at ei deulu. Na heuwch, ac na fedwch ei chnwd a dyfo o hono ei hun; ac na chynnullwch ei gwinwydden ni thaclwyd.' Lef. 25. 10, 11. Y nawfed flwyddyn a deugain oedd saith mlynedd seithwaith; yn niwedd hòno, yr hon oedd flwyddyn Sabbothol, yr oedd y Jubili i ddechreu. Y mae rhai yn dadleu yn erbyn hyn, oblegid yr afresymoldeb, a'r anghyfleusdra, fod y tir yn gorphwys ddwy flynedd olynol. Ond geiriau y Bibl sydd yn eglur derfynu y ddadl: 'Sancteiddiwch *y ddegfed flwyddyn a deugain—Jubili* fydd i chwi. Mi a archaf fy mendith arnoch y chweched flwyddyn; a hi a ddwg ei ffrwyth dros dair blynedd: a'r wythfed flwyddyn yr heuwch.' Gwel adn. 21, 22. Y mae yn wir na fuasai un deddfwr heb fod dan gyfarwyddyd dwyfol yn gwneuthur y cyfryw gyfraith: ac nid ydym yn darllen am y cyfryw gan neb ond Moses; ond y mae yn un prawf, yn mhlith eraill, fod Moses yn y cwbl yn gweithredu dan ddylanwadau, ac wrth orchymyn, dwyfol. Yr oedd udgorn y Jubili i gael ei ganu ar y degfed dydd o'r seithfed mis, sef yn nghylch cyhydedd Hydref.—1. Yr oedd yr holl gaeth-weision i fyned yn rhydd y flwyddyn orfoleddus hon: hyd yn nod yr hwn y tyllwyd ei glust ef â mynawyd y seithfed flwyddyn; yna yr oedd *byth* ei wasanaeth ef wedi diweddu. Exod. 21. 2, 6. 'Yna aed oddi wrthyt ti, efe a'i blant gyd âg ef, a dychweled at ei dylwyth, ac aed drachefn i etifeddiaeth ei dadau.' Lef. 25. 41.——2. Yr oedd etifeddiaeth pob un i gael ei ddychwelyd iddo; wrth flynyddoedd y Jubili yr oeddynt i werthu eu tiroedd, a'r pris yn gyfatebol i bellder neu agosrwydd amser y gwerthiad, i flwyddyn y Jubili; canys o fewn y flwyddyn Jubili yr oedd pob un i ddychwelyd i'w etifeddiaeth. Lef. 25. 13.——3. Yr oedd y flwyddyn i gael ei chyhoeddi trwy udgann âg udgyrn. Edr. UDGORN. Dyma y tri pheth neillduol perthynol i'r Jubili; yr oedd gorphwysiad y tir bob saith

Digitized by Google

mlynedd, yn gystal ag ar y Jubili; ac yr oedd pob echwyn i gael ei ryddhau bob saith mlynedd. Deut. 15. 1, 2. Yr oedd yr udgorn i gael ei ganu ar ddydd y cymmod trwy yr holl wlad. Adn. 9. Tebygol fod, wedi adeiladu y deml, gant ac ugain o udgyru arian yn udganu uwch ben yr aberth, ar ddydd mawr y cymmod, i gyhoeddi y Jubili.

Yr oedd yr aberth yn cysgodi Crist yn ei aberthu ei hun drosom. Dywed rhai mai ar flwyddyn y Jubili yr offrymodd Crist ei hun. Udganiad yr udgorn a arwydda pregethiad yr efengyl, neu y cyhoeddiad o aberth Crist, a rhyddid i bechaduriaid o'u caethiwed mawr yn ganlynol i hyny. Fel yr oedd nid yn unig ryddid i'r caethion ar flwyddyn y Jubili, ond hefyd yr hyn oll a fforffedwyd, ac a gollwyd, yn cael ei ddwyn yn ol; felly trwy Grist y mae rhyddhad i bersonau pechaduriaid yn cael ei gyhoeddi yn yr efengyl, ac hefyd adferiad i'r holl freintiau a gollwyd trwy bechod, a llawer mwy. Mae cyfeiriad amlwg at ddefodau yr ŵyl hon yn Esa. 61. 1, 2. a 63. 4. Ioan 1. 33—36. 2 Cron. 6. 2. Heb. 2. 14, 15. Rhuf. 6. 22. Dywed rhai awdwyr na chadwasant un Jubili wedi eu dychweliad o Babilon.

JUDAH. Yr oedd dinas a elwid Judah yn llwyth Naphtali. Jos. 19. 34.

JUDAH. יהודה [*moliant*] pedwerydd mab Jacob o Leah. Cyfeillachodd â Hirah, gwr o Adulam; yn ganlynol i'r gyfeillach hon priododd yn ieuanc iawn, fel y mae yn amlwg wrth gymharu yr ysgrythyrau canlynol, Gen. 30. 25. a 31. 4. a 37. 2, 25. a 41. 46, 53, 54. a 45. 6, 11. a 46. 8, 12. Enw tad ei wraig (ac nid y wraig ei hun, fel y dywed Calmet a Brown) oedd Sua, Canaanead. Bu iddo dri o feibion o honi, Er, Onan, a Selah. Cymerodd wraig i Er, a'i henw Tamar, un o'r Canaaneaid. Er i feibion Jacob wrthsefyll priodas Dinah â Hemor, heb ei enwaedu, tebygol iddynt hwy oll briodi merched rhai dienwaededig. 'Er oedd ddrygionus yn ngolwg yr Arglwydd, a'r Arglwydd a'i lladdodd ef.' Priodwyd Onan â Tamar, a'r Arglwydd a'i lladdodd yntau am ei ddrygioni. Yn lle rhoddi ei drydydd mab Selah iddi, rhoddodd hi ymaith â gwag addewidion; ac wedi marw ei wraig, y mae Judah wrth fyned i Timnath, yn cael ei hudo i losgach gyda Tamar, yr hon, dan rith putein-wraig, a'i siomodd ef. Yn ganlynol i hyn hi a ddygodd iddo efeilliaid; sef Pharez a Zarah. Gen. xxxviii. Dangosodd fwy o diriondeb tu ag at Joseph na'r lleill, a chynghorodd yn hytrach na'i ladd, ei werthu i'r Ismaeliaid. Gen. 37. 26, 27.

'Y mae araeth Judah wrth Joseph,' medd Geddes, 'yn fy marn i, y darn mwyaf syml ac effeithiol o areithyddiaeth a ddaeth erioed o enau dyn. Yr wyf yn ei ryfeddu ac yn ei hoffi er's deugain mlynedd; ac yr wyf yn ei hoffi yn fwy bob amser y darllenwyf ef. Ni raid ond cymharu ei ardderchogrwydd â'r araeth a rydd Josephus (*Antiq.*, *lib.* ii. *cap.* 6, § 8.) yn ngenau Judah, yn ei lle, i ganfod ei harddwch; wrth eu cymharu, canfyddir cymaint o wahaniaeth rhyngddynt ag sydd rhwng aur pur a ffug eurwe.'

Yn ei fendith, Jacob a'i gosododd yn ben ar ei frodyr, 'Meibion dy dad a ymgrymant i ti.' Rhag-fynegodd y byddai y Messïah ddyfod o hono, ac y preswyliai gwlad yn llawn o winwydd. Gen. xlix. Edr. SILOH, DEDDFWR.

Amlhaodd llwyth Judah trwy ei dri mab, Pharez, Zarah, a Selah, yn ddirfawr. Pan ddaethant o'r Aipht, rhifedi ei filwyr, dan Naason eu tywysog, oedd 74,600, cynnyddasant yn yr anialwch i 76,500. Caleb, mab Jephunneh, oedd eu hyspïwr. Judah, Issachar, a Zabulon, oedd yn gwersyllu flaenaf yn yr anialwch, ac yn cychwyn gyntaf yn eu holl deithiau. Num. 2. 3. a xiii, xxvi, xxxiv. Yr oedd eu rhandir o du y dehau i'r llwythau eraill o du y gorllewin i'r Iorddonen. Yr oedd eu hetifeddiaeth yn helaethach nag un o'r lleill. Gwyr o'r llwyth hwn oedd Othniel, Dafydd, &c. Gwel yr amrywiol enwau.

'Gwlad Judea' Ni alwyd y wlad ar yr enw hwn hyd ar ol y dychweliad o Babilon. Weithiau gelwir, tebygol, holl wlad Canaan wrth yr enw hwn. Mat. 24. 16. Gal. 1. 22. Yn fwy addas, rhenir y wlad i Perea, tu hwnt i'r Iorddonen: Galilea, Samaria, a Judea, o du y gorllewin i'r Iorddonen. Yr oedd Judea felly yn cynnwys etifeddiaethau Judah, Benjamin, Dan, a Simeon. Yr oedd yn gynnwysedig o dair rhan, sef y dyffryn-dir yn y gorllewin, y mynydd-dir o du y dehau i Jerusalem, a'r dehau ar ddeuddau gogledd gwlad Edom. Mat. 3. 5. Act. 2. 9. Zech. 7. 7.

JUDAS, yr un a Thadeus, Lebeus, mab Cleopas, a brawd Iago Leiaf, apostol, a châr yr Arglwydd Iesu. Edr. IAGO. Mat. 10. 3. Marc 13. 3. Act. 1. 13. Luc 6. 16. Mat. 13. 55. Efe ofynodd y cwestiwn i'r Arglwydd Iesu ar y swper diweddaf. Ioan 14. 22. Nid ydym yn darllen ychwaneg am dano yn yr ysgrythyrau; dywedir iddo bregethu yr efengyl yn Judea, Galilea, Idumea, Arabia, Syria, Mesopotamia, Pontus, yr Aipht, ac yn ddiweddaf yn Persia, lle rhoddodd y *Magi* ef i farwolaeth am ei dystiolaeth ffyddlon yn erbyn eu hofer-goelion: ond nid oes dim sicrwydd am y pethau hyn. Dywed Jerome, yn ei esboniad ar Mat. 10. 35. i'r apostol Thadeus, yr hwn a elwir gan Luc, Judas brawd Iago, gael ei anfon i Edessa at Agbarus, brenin Osroene. Tystia Eusebius yr un peth, Euseb. *Hist.* i. 1. c. 13. Nid oes dim hanes am ei alwad i fod yn ddysgybl, ond yn unig ei neillduad i fod yn apostol: hwyrach ei fod yn nechreuad ei grefydd yn un o ddisgyblion Ioan Fedyddiwr, fel rhai eraill o'r apostolion.

Y farn gyfredinol yw, mai efe yw awdwr yr epistol byr sydd dan ei enw; geilw ei hun brawd Iago. Bernir hefyd iddo ei ysgrifenu yn niwedd ei oes, ar ol i amryw eraill o'r apostolion ysgrifenu eu hepistolau; ac mai at eu *hysgrifeniadau* yn fwyaf neillduol y cyfeiria adn. 17. Y mae yr epistol wedi ei gyfarwyddo at y Cristionogion yn gyffredinol, i'w hannog i ddal, a phroffesu ffydd Crist yn wrol, ac yn ddianwadal, yn erbyn hudoliaeth y gau-athrawon llygredig oedd wedi ymlusgo i mewn i'w plith, annuwiolion yn troi gras Duw yn drythyllwch; ac yn gwadu yr unig Arglwydd Dduw, a'r Arglwydd Iesu Grist. Oddiwrth farnedigaethau Duw ar eraill, eu cyffelyb, megys yr angelion, y rhai ni chadwasant eu dechreuad, trigolion Sodom a Gomorah, Cain, Balaam, Core, y mae yn sicrhau fod dialedd ofnadwy wedi ei darparu i'w hathrawiaeth a'u cynneddfau melldigedig hwynt. Mae yn gwbl i'r un ystyr, ac yn rhai manau yn yr un geiriau, ag ail epistol Petr. Yn mhob un o'r ddau, dangosir y niwed o gau-athrawiaethau, a dinystr sicr ac ofnadwy gau-athrawon. Gellir canfod ynddynt, fod y diafol yn hau ei efrau yn foreu, yn nyddiau yr apostolion. Un yw y gwirionedd yn mhob oes: y mae diafol yn llidiog yn benaf o bob peth wrth y gwirionedd, am mai y gwirionedd yn unig sydd yn niweidio ei deyrnas trwy waredu rhai o'i ddeiliaid o'i feddiant. Y mae ei lid yn ymddangos yn ei wrthwynebiad creulon i'r rhai sydd yn proffesu y gwirionedd, ac yn ei ymgais parhaus i lygru y gwirionedd, trwy gymysgu âg ef ei gyfeiliornadau llygredig a dinystriol: a throi yr athrawiaethau goreu i'r dybenion gwaethaf. Ond er y cwbl, dichon Duw gadw ei bobl sydd yn ddibynol arno, yn ddigwymp, a'u gosod ger bron ei ogoniant ef yn ddifeius mewn gorfoledd.

JUDAS ISCARIOT, paham y rhoddwyd y cyfenw Iscariot iddo sydd ddadleuol. Dywed Jerome, mai un o Ephraim oedd, priodor dinas Iscariot yn y llwyth hwnw; eraill a ddywedant mai un o lwyth

Digitized by Google

Issachar ydoedd, ac mai oddiwrth Issachar y daeth y gair *Issacariothes;* ond eraill a farnant, yn fwy tebygol i wir, hwyrach, mai ystyr y gair *Ish-Carioth*, yn Hebraeg, yw priodor o Carioth, dinas yn llwyth Judah. Y mae dychymygion eraill yn nghylch ystyr y gair, ond mae hyn yn ddigon i'w coffâu yma. Nis gwyddir dim yn ychwaneg am dano na'r hanes a roddir i ni gan yr efengylwyr. Gwelwn yno ei fod yn ddysgybl, ac yn apostol Iesu Grist; ei fod yn dwyn y gôd, bod ganddo y pwrs, a'i fod yn dwyn yr hyn a fwrid ynddo; a'i fod yn gybydd, ac yn lleidr; ac iddo, o awyddfryd i arian, fradychu yr Arglwydd Iesu i flaenoriaid yr Iuddewon am ddeg ar hugain, sef deg sicl ar hugain, o arian, sef yn nghylch £3 8s. 5c. neu £4 10s. os bernir gyda Prideaux y sicl yn werth tri swllt.

Pan welodd Judas gondemnio yr Iesu, bu edifar ganddo, ac wedi taflu yr arian yn y deml yn eu hol, gan bwys a grym euogrwydd, efe a aeth ac a ymgrogodd; 'ac wedi ymgrogi, a dorodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan.' Mat. 27. 3, 4. 5. Act. 1. 18. *Wedi ymgrogi, πρηνης γενομενος, falling headlong; Saes.* Priodol ystyr y gair Groeg ydyw *syrthio ar wyneb*, ac nid *ymgrogi*, na *bwrw ei hun bendramwnwgl.* Parkhurst, Schleusner, Doddrige, &c. Dywed Matthew iddo *ymgrogi;* dywed Luc yn yr Actau, *iddo syrthio ar ei wyneb, tori yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ymdywallt allan.* Tebygol i'r hyn yr ymgrogodd wrtho dori, ac iddo yn ganlynol syrthio ar ei wyneb, tori yn ei ganol, a'i ymysgarodd, yn y modd mwyaf truenus, gael eu tywallt ar y ddaear. Yr oedd yr achos a dull ei farwolaeth yn hysbys i holl breswylwyr Jerusalem, fel mae yr enw Aceldama, a roddwyd ar y maes a bwrcaswyd â'r arian, yn tystiolaethu.

Nid ydyw ei hanes ond byr, ond y mae yn hanes arswydus, ac yn llawn addysg a rhybydd i bawb a'i darlleno.

Gwelwn, 1. Fod yn rhaid i'r Arglwydd ddyoddef yn mhob ystyr, ac oddiwrth bawb: yr hwn oedd yn bwyta bara gyd âg ef, a gododd ei sawdl yn ei erbyn. Dywedir hefyd ei fod, fel Ahitophel i Dafydd, yr hwn oedd yn gysgod o Judas, 'yn *anwyl* ganddo.' *Heb.* איש שלומי *gwr fy heddwch*, hyny yw, yr oedd yn proffesu ei fod yn heddychol â Christ, ac yn ffyddlawn drosto. 'Yr hwn yr ymddiriedais iddo,' fel y gwnaeth Dafydd i Ahitophel. Ymddiriedodd Crist ei hun i'r apostolion, ac ni wnaeth wahaniaeth mewn dim rhwng Judas a'r lleill. Ymddiriedodd iddo y swydd apostolaiddd, y swydd fwyaf ardderchog a phwysfawr y bu neb erioed ynddi; ymddiriedodd iddo ei gyfeillach neillduol, fel y lleill; yr oedd yn gydymaith iddo, yn bwyta y pasc gyd âg ef, ac yn gwrando ei ymddyddanion yn neillduol o bryd i bryd; ymddiriedwyd iddo yr arian elusen fyddai ganddynt i gyfranu. Nid ydyw y geiriau yn arwyddo na wyddai yr Arglwydd beth oedd Judas; canys efe a wyddai o'r *dechreuad*, pwy oedd y rhai nid oedd yn credu, a phwy oedd yr hwn a'i bradychai ef; nac yn arwyddo ychwaith fod Judas yn ddyn duwiol. Ond mae y geiriau yn dangos y lle, a'r breintiau mawrion a gafodd Judas, a'r fath oedd ymddygiad Crist tu ag ato. Ps. 41. 9. Ioan 6. 64. a 13. 2—11. Yr oedd gwerthu Crist fel caethwas, a'i werthu am lai gwerth nag a fyddent yn ei roddi ar y caeth-weision gwaelaf, a'i werthu hefyd gan gyfaill proffesedig, i'r hwn y dangosodd Crist lawer o diriondeb, yn rhan fawr o'r dirmyg a'r anfri a roddwyd ar Grist, ac yr oedd yn rhaid iddo yntau ddyoddef i ddwyn ei bobl o ddirmyg y cwymp i uchder gogoniant ac anrhydedd.

2. Y dichon dynion gael lle mawr yn yr eglwys, a gwneuthur proffes deg o grefydd, ac etto heb fod wedi eu cyfnewid yn wirioneddol, a'u rhyddhau oddi wrth bechod. Nid ydym yn darllen am ddim gwahaniaeth rhwng Judas a'r lleill o'r apostolion; nac i'r apostolion ammeu dim am dano yn y mesur lleiaf; mor bell oddiwrth hyny, fel y gwrandawsant arno, ac y canlynasant ei siampl, fel dyn call, elusengar, yn beio ar Mair am eneinio Crist yn nhŷ Simon y gwahan-glwyfus. Mat. 26. 6—13. Ioan 12. 4—6. Marc 14. 3—9. A choffeir mwy am wendidau y lleill na Judas; megys am uchelfryd a zel anghymedrol Iago ac Ioan. Gellir barnu fod ei holl ymddygiad yn gall ac yn brydferth; mor belled, fel pan ddywedodd yr Arglwydd Iesu y bradychai un o honynt ef, yr ammheuaeth oedd, nid ai Judas *yw*, ond ai *fi yw.* Etto, trwy y cwbl, *diafol, cybydd*, a *lleidr* oedd Judas, dan yr holl broffes deg hon o grefydd. Ioan 6. 70.

3. Nid oes dim ond mawr allu Duw a ddichon gyfnewid calon pechadur. Cafodd Judas y breintiau mwyaf; cafodd gyfeillachu â Duw yn y cnawd, gweled y gwyrthiau mwyaf rhyfedd, a gwrando yr athrawiaethau mwyaf gogoneddus yn cael eu traddodi, gan un na lefarodd dyn erioed fel efe; cafodd ei rybuddio, a'i argyhoeddi o'i ddrwg; etto parhaodd yr un dyn trwy y cwbl —heb weled dim mwy gogoniant na gwerth yn Nghrist nag mewn ychydig o arian. Nid oes dim ond rhagorol fawredd nerth Duw a ddichon gyfnewid calon lygredig pechadur.

4. Fod un llygredd yn llywodraethu ar ddyn, yn brawf fod y dyn hwnw dan lywodraeth pechod, yn was iddo, ac yn meddiant y diafol, ac yn agored, yn wyneb pob profedigaeth, i ufuddhau i bechod, yn ddiattalfa. Yr oedd Judas yn amlwg yn ei holl fywyd dan lywodraeth cybydd-dod, neu gariad at y byd. Yr oedd heb ei wir oleuo erioed trwy y cwbl, i adnabod Crist, ac i gredu ynddo yn gadwedigol; ac yr oedd llywodraeth ysbryd y byd arno, yn brawf o hyny. Yr oedd 'duw y byd hwn yn dallu ei feddwl anghrediniol, fel na thywynai iddo, ac na lewyrchai yn ei galon oleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist.' Gwelodd bethau rhyfedd yn cael eu gweithredu gan Grist, ond yr oedd yn amddifad o 'ardderchogrwydd gwybodaeth Crist Iesu yr Arglwydd:' ni welodd erioed y gwerth a welodd Mair ynddo; onidê, ni buasai yn grwgnach am werth yr enaint a dywalltodd ar ei ben ef. Yr ydoedd blwch enaint Mair o werth tri chant o *ddenarii*, sef yn nghylch deg punt.

5. Gwelwn ddiwedd dychrynllyd pawb a fyddo yn anffyddlon i Grist a'i achos yn y byd. Mae Crist wedi cael, ac yn cael, ei fradychu yn aml yn ei achos mawr yn y byd, gan lawer, heb y cyfle a gafodd Judas i'w werthu ef ei hun. Y fath yw ymddygiad pawb tu ag at *achos* Crist, fuasai eu hymddygiad tu ag *Grist* ei hun, pe buasent yn cyd-oesi âg ef. Bydd diwedd yr holl fradychwyr yn gyffelyb o ran pwys y gosp, os nid o ran rhai amgylchiadau neillduol perthynol i ddiwedd Judas. Y mae ei ddiwedd dychrynllyd yn ddangosiad i bawb, o farn Duw ar ddyn, yr hwn o gariad at y byd, yn groes i'w gydwybod, a fradychodd ei Arglwydd, ei gyfaill, a Iachawdwr mawr y byd.

6. Gwelwn hefyd fod rhag-wybodaeth sicr Duw o bethau i ddyfod, ac ewyllys rydd yr offerynau sydd yn eu cyflawni, yn cyd-sefyll yn gwbl a'u gilydd. Yr oedd Duw wedi rhagweled er tragywyddoldeb, yn sicr, ac wedi rhag-ddywedyd mewn amser, ganoedd o flynyddoedd cyn i'r weithred gael ei chyflawni, y bradychai Judas yr Arglwydd Iesu; etto yr oedd Judas yn gweithredu yn hollol rydd, yn ol ei dueddiad llygredig ei hun, yn ei werthu a'i fradychu o gariad at y byd. Yr oedd pob peth yn rhag-derfynedig, ac am hyny, yn rhagwybodus i Dduw, am berson a gwaith echryslawn Judas; ond yr ydoedd Judas yn gweithredu mor rydd yn ol ei duedd lygredig, yr un fath a phe buasai Duw heb ragweled hyny.

7. Gwelwn yn nhystiolaeth Judas am yr Arglwydd, a'i gyfaddefiad iddo fradychu gwaed gwirion, brawf cryf o blaid yr Arglwydd Iesu, a gwirionedd yr hanes

Digitized by Google

am dano. Cafodd bob cyfleusdra i adnabod Crist, ei fuchedd, a'i athrawiaeth; yr oedd yn ddyn call, treiddgar, ac o gynneddfau cryfion; yr oedd iddo y deuiadau mwyaf i ddadguddio beth bynag a wyddai yn ei erbyn; ond yn lle dywedyd na dadguddio dim oedd yn annbirion am dano, rhoddodd dystiolaeth rydd, gyhoeddus, a diammheuol, o'i blaid. Dywedodd wrth yr archoffeiriaid a'r henuriaid, 'Pechais, gan fradychu gwaed gwirion!' Mat. 27. 4.

**JUDAS Y GALILEAD**, neu **Y GAULONIAD**, priodor dinas Gamala, yn nhir Gaulan; yr hwn a wrthwynebodd Cyrenius yn codi y dreth Rufeinaidd yn Judea. Tynodd bobl lawer ar ei ol; yr oedd yn hòni fod yr Iuddewon yn bobl ryddion, ac na ddylasent ymostwng i neb ond Duw. Dewisai ei ganlynwyr ddyoddef pob arteithiau yn hytrach nag ymostwng i un awdurdod ar y ddaear. Gwel Josephus, *Antiq.*, *lib.* xviii. Act 5. 37.

**JUDAS**, llettywr Paul yn Damascus. Act. 9. 11. Nis gwyddom chwaneg am dano.

**IUDDEW—ON.** Wrth yr enw hwn y galwyd yr Hebreaid yn gyffredinol ar ol eu dychweliad o Babilon; oblegid fod y rhan fwyaf o honynt o lwyth Judah. Rhoddir yn yr ysgrythyrau hanes cyflawn am danynt hyd y caethiwed i Babilon. Am hanes eu dychweliad, ac ail-adeiladu y deml, Edr. CYRUS, EZRA, NEHEMIAH, ZOROBABEL, TEML, JERUSALEM.

Trigodd yr Iuddewon yn ngwlad Canaan dros chwe chant o flynyddoedd gwedi eu dychweliad o Babilon; amlhasant yn ddirfawr, gwasgarasant ar hyd yr holl wledydd oddi amgylch. Dyoddefasant lawer o erlidigaethau creulawn yn yr yspaid hwn o amser, yn benaf oddiwrth freninoedd yr Aipht, a Syria. Am y ddwy freniniaeth hyn y prophwyda Daniel yn hynod fanwl. 'Yna y cryfha brenin y dehau, ac un o'i dywysogion:' sef Ptolemy, brenin yr Aipht, un o dywysogion Alexander Fawr. Y mae yr Aipht yn sefyll yn y tu dehau i wlad Judea. 'Ac efe,' sef brenin Syria, yn y gogledd i wlad Judea, 'a gryfha uwch ei law ef, ac a lywodraetha: llywodraeth fawr fydd ei lywodraeth ef.' Yr oedd Ptolemy brenin y dehau yn gryf, gwedi ennill Cyprus, Phœnicia, Caria, a llawer o ynysoedd, dinasoedd, a gwledydd, dan ei lywodraeth, gyda yr Aipht. Ond, er hyny, yr oedd Seleucus Nicator, brenin Syria, yn gryfach; canys unodd Macedonia a Thrace, â breniniaeth Syria, a thrwy hyny yr ydoedd ganddo dair rhan o bedair o lywodraethau Alexander. Dan. 11. 5. Yn y rhan ganlynol o'r bennod hon rhoddir i ni hanes brophwydoliaethol hynod o fanwl o'r ddwy freniniaeth hyn, eu rhyfeloedd â'u gilydd, a'u brwydrau gwaedlyd, â pha un y mae hanes yr Iuddewon yn gysylltiedig, a ddyoddefasant lawer oddiwrth y ddwy blaid. —Yn nghylch A. M. 3684, Ptolemy Lagus, brenin yr Aipht, a anrheithiodd eu gwlad, ac a gymerodd yn nghylch 100,000 o honynt yn gaethion i'r Aipht: ymddygodd yn dirion tu ag atynt gwedi eu dwyn yno, a llawer o'r genedl a'i canlynodd yno o'r achos. Oddeutu yr un amser, Seleucus Nicator, brenin Syria, a adeiladodd 36 o ddinasoedd yn Asia, ac a gyfleodd ynddynt gynnifer o Iuddewon ag a fedrai gael, ac a roddodd yr un breintiau iddynt ag oeddynt yn eu mwynhau yn yr Aipht. Yn nghylch A. M. 3720, Ptolemy Philadelphus, brenin yr Aipht, ar ei gost ei hun, a ryddhaodd yr holl Iuddewon caethion yn ei deyrnas; ac efe, neu ei fab, a hwyliodd gyfieithiad o'r Bibl yn yr iaith Roeg. Yn nghylch A. M. 3787, Ptolemy Philopator, brenin yr Aipht, gwedi gorchfygu lluoedd Antiochus, brenin Syria, a ddaeth i Jerusalem, ac a offrymodd yno lawer o aberthau diolch am y fuddugoliaeth; ond pan attaliwyd ef rhag myned i'r sancteiddiolaf gan yr archoffeiriad, llidiodd yn ddirfawr, a bwriadodd ddystrywio yr holl genedl. Casglodd yn nghyd 40,000, neu 60,000 o'r cyfryw na chydymffurfient â'r grefydd Baganaidd, i'w dyfetha gan fwystfilod. Ond nacâodd y bwystfilod eu dyfetha hwynt; eithr llarpiasant y sawl a'u bwriasant iddynt. Ptolemy a ryddhaodd yr Iuddewon, ac a adferodd eu breintiau iddynt. Yn fuan gwedi hyny ymostyngodd yr Iuddewon yn Nghanaan i Antiochus, brenhin Syria, yr hwn a oresgynodd eu gwlad. I'w gwobrwyo am eu gwrthgiliad oddiwrth Ptolemy, adgyweiriodd y deml, ac a gyfranodd yn helaeth tu ag at gynnal yr addoliad yno; ond Seopas, llywydd Ptolemy, yn fuan a ddarostyngodd holl wlad Judea, ac a osododd warchawdlu yn Jerusalem. Llygredigaethau y bobl a'u blaenoriaid a dynodd farnedigaethau trymion arnynt. Antiochus Epiphanes, brenin Syria, pan glywodd ddarfod iddynt orfoleddu wrth y chwedl anwir am ei farwolaeth, ar ei hynt filwraidd i'r Aipht, a greulonodd yn fawr yn eu herbyn, a gymerodd Jerusalem, a laddodd 40,000 o'r Iuddewon, ac a werthodd gynnifer a hyny yn ychwaneg i'r cenedloedd cymydogaethol. Cyfododd erlidigaeth greulawn yn erbyn pawb oedd yn glynu yn ffyddlawn wrth y grefydd Iuddewig. Edr. JERUSALEM. Cyfododd amddiffynfa gyferbyn a'r deml, a byddai ei filwyr o honi yn lladd yr addolwyr a anturient fyned i'r deml. Cysegrodd y deml i'r eilun-dduw *Jupiter Olympus*, ac hefyd gosododd ei ddelw ar allor y poeth-offrwm. Fel hyn, 'dygodd ymaith yr offrwm gwastadol, ac y rhoddwyd y cysegr a'r llu yn sathrfa.' Dan. 8. 11—14. Dyoddefodd Eleazar, a gwraig weddw yn nghyd â'i saith mab, ferthyrdod yn wrol. Matthias a'i feibion, Judas, Jonathan, a Simon, y rhai a elwid y Maccabëaid, a ymladdasant yn ddewr dros eu crefydd a'u rhyddid. Judas a orchfygodd Nicanor a lluoedd y brenin, ac a laddodd âg ychydig o filoedd o filwyr dano, oddeutu 30,000 o honynt; a ad-feddiannod y deml, a adferodd addoliad Duw ynddi, ac a ddystrywiodd yr holl eilunod a'u halloran trwy y wlad. Gwedi ei ladd ef, A. M. 3843, ei frodyr, Jonathan a Simon, olynol, a weiniasant fel arch-offeiriaid, llywyddion, a blaenoriaid, gyda llawer o wroldeb a challineb. Ioan Hircanus, mab Simon, a'i holynodd ef yn y llywodraeth. Gwnaeth heddwch yn gyntaf â'r Syriaid, ac yn fuan a daflodd ymaith eu hiau, ac a osododd i fynu lywodraeth anddibynol iddo ei hun. Darostyngodd yr Edomiaid a'r Samariaid, a gwnaeth iddynt wrthod eu crefydd eu hunain, a phroffesu y grefydd Iuddewig. Yn A.M. 3873, Alexander Jannæus a'i holynodd yntau yn y llywodraeth, ac a ddarostyngodd wledydd Moab, Ammon, Gilead, Arabia, a llosgodd Gaza, ac a wnaeth i'r Philistiaid gymeryd eu henwaedu, a phroffesu y grefydd Iuddewig. Gwdi ei farwolaeth ef bu cenedl yr Iuddewon agos a'i dystrywio trwy ymrysonau a therfysgiadau yn eu plith eu hunain, a'r pleidiau crefyddol yn eu plith; sef y Phariseaid a'r Saduceaid. Yn A. M. 3939, Aristobulus ei fab a alwodd am gymhorth y Rhufeiniaid i wrthwynebu ei frawd Hyrcanus, yr hwn a osododd y Phariseaid ar yr orsedd. Pompey, y llywydd Rhufeinig, yn fuan a oresgynodd yr holl wlad, ac a gymerodd Jerusalem. Crassus, yn ei hynt filwraidd i Parthia, a yspeiliodd y deml o wyth mil ar hugain o dalentau, yn arian, yn llestri, ac yn bob peth. Bu Judea, wedi hyn, yn nhylch deugain mlynedd yn ddarostynedig i ddifrodau, lladdfeydd. a chreulondeb o bob math; dros bedair blynedd ar hugain gorthrymwyd hwynt yn greulawn galed gan y Rhufeineiaid. O'r diwedd, Herod I., trwy lawer o orchest, a thrwy gymhoth Antony y Rhufeinwr, a ddaeth i'r orsedd. Edr. HEROD, TEML. Gyda marwolaeth Herod, ymadawodd y deyrn-wïalen o Judah yn llwyr: dioraeddwyd ei fab Archelaus, a llywodraethwyd y wlad gan raglawiaid Rhufeinig o hyny allan. Mewn llai na deugain mlynedd gwedi marwolaeth Crist, eu gwaith yn gwrthod ac yn lladd y Messïah, yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân, yn dirmygu yr efengyl, ac yn erlid y Cristionogion yn greulawn, o'r diwedd a dynodd farn gyfiawn arnynt, yn

Digitized by Google

hollol ddinystr Jerusalem, a'u gwasgariad hwythau yn mhlith holl genedloedd y ddaear. Gwedi esgyniad Crist, cynnyddodd eu llwgr a'u trueni yn raddol. Cyfododd amryw gau-brophwydi yn eu plith; megys, Judas, a Theudas; Simon Magus, Dositëus y Samariad, ac ereill; y rhai oeddynt yn hòni eu bod yn brophwydi y Messiah; yr oedd y gau-Fessïaid mor aml dan lywodraeth Ffelix, ynghylch A. D. 60, fel yr oedd rhyw un bob dydd yn cael ei gymeryd i fynu am hyny. Yn nghylch A.D. 70, lladdwyd 20,000 o'r Iuddewon gan y Syriaid yn Cesarea. Yn Alexandria, lladdwyd 50,000 o honynt. Trwy ymrysonau yn eu plith, yr oedd lladdfeydd o honynt yn rhyw le neu gilydd yn wastad yn y blynyddoedd hyn. Y mae desgrifiad yr apostol o honynt yn cyduno â'r hanesion am danynt yn gywir; 'Y rhai a laddasant yr Arglwydd Iesu, a'u prophwydi eu hunain, ac a'n herlidiasant ninnau ymaith; ac ydynt heb ryngu bodd Duw, ac yn erbyn pob dyn.' 1 Thes. 2. 15.

Rhydd yr Arglwydd Iesu brophwydoliaeth hynod o fanwl am ddinystr Jerusalem yn Mat. xxiv, Marc xiii, a Luc xxi. Llefarwyd y brophwydoliaeth ddeugain mlynedd, ac ysgrifenwyd hi gan Matthew yn nghylch deg ar hugain o flynyddoedd, cyn y cyflawniad o honi. Hanes Josephus, hanesydd Iuddewig, yw yr eglurhad goreu o'r brophwydoliaeth sydd bosibl i fod. Yr oedd ef ei hun yn edrychwr ar y cwbl, ac a roddodd hanes ffyddlon o'r holl ddygwyddiadau fel y gwelodd hwynt ei hun. Y mae Tacitus,* hanesydd Rhufeinig, yn cadarnhau hanes Josephus am lawer o arwyddion a rhyfeddodau a ymddangosasant yn yr awyr yn flaenorol i gymeriad y ddinas gan luoedd y Rhufeiniaid. Ymddangosodd seren ar lun cleddyf, ac arosodd uwch ben y ddinas flwyddyn gyfan. Pan yr oedd y bobl wedi ymgynnull i gadw gwyl y bara croyw, ar y nawfed awr o'r nos, dysgleiriodd goleuni mawr oddi amgylch y deml a'r allor, fel yr oedd mor oleu a'r dydd; a pharhaodd felly am hanner awr. Buwch a ddygodd *oen*, wrth ei harwain gan yr offeiriad i'w haberthu. Gwelwyd porth y dwyrain i'r deml yn agor o hono ei hun, yr hwn oedd gorph cyfansawdd o bres, ac yn drwm iawn. Cyn machludo yr haul, gwelwyd uwch ben yr holl wlad, gerbydau a byddinoedd yn ymladd â'u gilydd yn y cymylau. Ar ŵyl y Pentecost, clywodd yr offeiriaid yn y deml sŵn a llef yn gwaeddi, 'Awn oddi yma!' Pedair blynedd cyn i'r rhyfel dori allan, un Jesus, gwladwr, ar y gwyliau arbenig, a redai i fynu ac i waered ar hyd heolydd Jerusalem, yn gwaeddi, 'Llef oddiwrth y pedwar gwynt—Gwae Jerusalem! gwae i'r ddinas, ac i'r bobl, ac i'r deml!'—ac yn ddiweddaf, gwaeddodd, 'Gwae i mi fy hun!' ar hyn, tarawyd ef yn farw â chareg o ffon-dafl. Er i'r swyddogion ymdrechu ei ddystewi trwy ffiangellau, &c., etto ni pheidiai a gwaeddi mewn llais galarus, 'Gwae, gwae, Jerusalem!' Parhaodd i lefain felly dros saith mlynedd a phum mis: yn enwedig ar y gwyliau blynyddol. Er ei lafur mawr wrth waeddi, nid oedd yn blino nac yn crygu.†

Gwarchaeodd Titus Vespasian ar y ddinas ynghylch A. D. 67. Daeth i'r wlad yn y rhan ogledd-ddwyrain iddi:‡ ac aeth i fynu drwyddi, ac a gymerodd yr holl ddinasoedd Gadara, Jotaba, Gamala, Gischola, Chorazin, Bethsaida, Capernaum, &c., ac weithiau byddai y milwyr yn lladd yr holl drigolion, agos. Yn mhob man yr oedd yr Iuddewon yn ei wrthsefyll, a'r Rhufeiniaid a'u lladdasant yn lluoedd. Yn Jotaba, lladdwyd 40,000 o honynt, a chymerwyd 12,000, ac ni ddiangodd yr un. Gwarchaeodd ar Jerusalem ar amser gŵyl y pasc: ac yr ydys yn barnu fod yno 3,000,000 o honynt wedi casglu yn nghyd ar yr ŵyl. Yr oedd y blaenor Rhufeinaidd Titus yn cael ei gyfrif yn ŵr pell oddiwrth fod yn greulawn ac yn waedlyd; yr oedd yn fawr ei fryd am eu harbed hwy, y ddinas, ac yn enwedig y deml: ond nid oedd hyny yn un âg amcanion y nefoedd. Er iddo eu hannog yn dirion i ymostwng ar y telerau mwyaf esmwyth, ond gwedi ynfydu, diystyrasant ei holl gynnygiadau. Yr oedd yr haint, y newyn, a'r anghydfodau mwyaf dychrynllyd yn eu dyfetha oddi fewn i'r ddinas. Dywed Josephus fod mamau yn dwyn bwyd o enau eu plant bychain; a bod y tai yn llawn o wragedd a phlant wedi trengu gan newyn. Rhydd hanes echryslonaf am un Maria, merch Eleazer, gwraig ardderchog o ran ei theulu a'i chyfoeth, gwedi ei hyspeilio o'i holl feddiannau a'i hymborth gan y milwyr, yn ei hangen a'i gorphwyllder, lladdodd ei phlentyn sugno, berwodd ef, ac ymborthodd ar hanner o hono; a rhoddodd yr hanner arall i gadw hyd amser arall. Y milwyr yn arogli bwyd, a ddaethant, ac a fygythiasant ei lladd yn y fan oni ddangosai beth oedd ganddi. Hithau a atebodd, iddi gadw rhan dda iddynt hwy, ac a ddangosodd ei mab. Gwedi eu dal gan fraw, edrychasant arno gyda syndod aruthr. Hithau a ddywedodd, 'Fy mab fy hun ydyw! bwytewch, canys bwyteais i o hono! na fyddwch yn fwy tyner na gwraig, nac yn fwy tosturiol na mam. Os ydyw fy aberth yn ffiaidd genych, gadewch y gweddill i mi!' Aethant ymaith yn ddychrynllyd, a gadawsant yr ymborth i'r fam. Cyflawnwyd geiriau Moses yn hynod ynddi hi ac eraill hefyd. Deut. 28. 56, 57. Y Rhufeiniaid, gwedi eu creuloni wrth eu cyndynrwydd ynfyd, oeddynt yn lladd pob Iuddew a gaent. Gwedi gwarchae arni am chwe mis, llosgwyd y ddinas a'r deml, a lladdwyd dynion yn aneirif. Heblaw 257,660 a ddyfethwyd mewn manau eraill, trengodd o honynt yn ninas Jerusalem, 1,100,000 trwy y cleddyf, y newyn, a'r haint. Croeshoeliwyd hwynt oddi amgylch y muriau, nes darfod y coed i wneuthur croesau. Cymerwyd yn nghylch 97,000 yn garcharorion. Trengodd ynghylch 11,000 gan newyn; gwerthwyd pawb dan 17 oed am ychydig werth. Rhoddwyd rhai o honynt i ymladd âg anifeiliaid, ac a'u dyfethwyd; gwerthwyd eraill yn gaethion. Gwedi cymeryd Jerusalem, gorchymynodd Titus iddynt gloddio i fynu sylfeini y ddinas a'r deml, fel yn wirioneddol 'na adawyd careg ar gareg ar na ddattodwyd.'* Mat. 24. 2. Gwedi hyn yr oedd lluoedd aneirif o'r Iuddewon yn wasgaredig trwy holl diriogaethau breniniaeth Rhufain. Gwrthryfelasant amryw weithiau; ond eu dinystr hwy fyddai y diwedd bob amser. Yn amser yr ymerawdwr Adrian lladwyd yn nhylch 600,000 â'r cleddyf. Yn nhylch A. D. 130, un Barsecaba a gymerodd arno mai efe oedd y Messïah, ac a gyfododd fyddin Iuddewaidd o 200,000, y rhai oeddynt yn lladd yr holl Gristionogion a'r Paganiaid a ddoi ar eu ffordd; ond gorchfygwyd ef gan luoedd Adrian, a lladdwyd yn nghylch 60,000 o'r Iuddewon. Adeiladodd Adrian deml ar fynydd Calfaria, ac a osododd lun mochyn mewn marmor uwch ben y porth oedd yn arwain i Bethlehem. Ni chai un Iuddew fyned i'r ddinas, nac edrych arni o bell dan berygl marwolaeth.

Ond heb olrhain yn mhellach, yn fanwl, eu hanes anhyfryd, y mae yr Iuddewon, er's agos i ddeunaw cant o flynyddoedd, yn bobl wahanol, ddiystyrllyd, erlidignethus, ac yn aml yn gaeth; yn wasgaredig yn mhlith agos holl genedloedd y ddaear. Felly y rhag-

* Tacitus *Hist. b. v.* Josephus *Hist. of the Jewish Wars, pass.m.*

† Josephus *Hist. of the Jewish Wars, b. vi. c. 5.*

‡ Y mae yn nodedig, medd Esgob Pierce, i'r Rhufeiniaid ddyfod i'r wlad yn y rhan ddwyreiniol iddi, ac iddynt fyned yn fuddugoliaethus tu a'r gorllewin; fel pe buasai nid yn unig eangder y difrodiad, ond fod hyd yn nod llwybr milwraidd y fyddin yn cael ei ddangos yn y gyffelybiaeth o'r 'fellten yn dyfod o'r dwyrain, ac yn tywynu hyd y gorllewin.' Y mae eu holl daith filwraidd yn gyflawniad hynod o Deut. 28. 49, &c.

* Josephus *Jewish Wars, b. vii. c. 1.*

Digitized by Google

wrth fod amryw leoedd yn cael eu galw wrth ei enw; fel Bryn yr Iwrch; Ffynon yr Iwrch, &c. Cyfleithir dau air Hebraeg yn *iwrch* a *iyrchod*, sef יעלת yr hwn a gyfleithir *geifr, geifr gwylltion*. Ps. 104. 18. Job 39. 1. Edr. Hydd. צבה *iwrch. iyrchod*. 2 Sam. 2. 18. 1 Cron. 12. 8. Diar. 5. 19. a 6. 5. Can 2. 7. a 3. 5. a 4. 5. a 7. 3. a 8. 14. Yr *antelope*, math o greadur rhwng hydd a gafr, meddant, a feddylir wrth y gair hwn. Priodolir iddo hynodrwydd neillduol am ei gyflymdra. Dywed y Dr. Russel am ddwy rywogaeth o'r *antelopes*, oddi amgylch Aleppo, yn Syria, eu bod hwy mor fuan-droed, fel nas dichon y milgwn mwyaf cyflym eu dal. *Natural History of Aleppo*. Edr. Dwyfron.

IZAR, IZAHR, neu ISHAR, IZEHAR, ISAHAR, יצהר [*olew*] mab Cohath. 1 Cron. 6. 2, 22. Exod. 6. 18. Num. 3. 19. Yr un yw y gair Hebraeg yn y manau hyn oll, er ei fod wedi ei ysgrifenu yn wahanol yn ein Biblau ni. Gelwid ef hefyd Aminadab. Cymh. 1 Cron. 6. 2. âg adn. 22.

# L.

LAADAH, לעדה [*er trefn*] mab Selah, a thad Maresah. 1 Cron. 4. 21.

LAADAN, לעדן [*er hyfrydwch*] mab Gersom. Yr oedd iddo amryw feibion. 1 Cron. 7. 26. a 26. 21.

LABAN, לבן [*gwyn*] 1. Mab Bethuel, ac ŵyr Nachor, brawd Rebeccah, a thad Leah a Rahel. Gen. 24. 29. Edr. Bethuel, Jacob, Leah, Rahel. Laban, yn ei holl ymddygiad tu ag at Jacob, a ddangosodd ei hun yn dwyllodrus, ac yn orthrymwr anghyfiawn. Mae yn amlwg yn ei holl hanes fod crefydd yn isel yn ei deulu: nid oes hanes am neb o'i deulu ond ei ddwy ferch. Tebygol i holl geraint Abraham wedi hyn ymlygru, a chymysgu â'r cenedloedd eilun-addolgar cymydogaethol.——2. Enw lle yn yr anialwch, tu hwnt i'r Iorddonen. Deut. 1. 1.

LACUM, לקום [*cyfodi*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 33.

LACHIS, לכיש [*anoresgynadwy*] dinas yn Judah. Jos. 10. 3. a 12. 11. a 15. 39. 2 Bren. 18. 17. Neh. 11. 30. Jer. 34. 7. Adeiladwyd hi gan Rehoboam. 2 Cron. 11. 9.

LAIS, ליש [*llewes*] talaeth yn Aser, a feddiannwyd gan lwyth Dan; a elwid Dan, neu Lesem Dan. Jos. 19. 47. Barn. 18. 7, 29. Yr un yw â Cesarea Philippi. Wells. Hefyd, rhyw le rhwng Galim ac Anathoth. Esa. 10. 30.

LAMAN. לחמן [*eu bara*] dinas yn llwyth Judah. Jos. 15. 40.

LAMECH, למך [*cadarn*, neu *tlawd*] 1. Mab Methusael o hiliogaeth Cain, a thad Jabal, Jubal, Tubal-Cain a'i chwaer Naamah. Y cyntaf ydoedd a briododd fwy nag un wraig, sydd a hanes am dano. Gen. 4. 18—24. Edr. Archoll, Adah, Jubal, Sila, Tubal-Cain.——2. Mab Methuselah, a thad Noah. Bu fyw 777 o flynyddoedd, ac a fu farw bum mlynedd cyn y dylif. Gen. 5. 25—31. 1 Cron. 1. 3. Luc 3. 36. Edr. Noah.

LAMP—AU, *Heb.* לפיד *Gr.* λαμπας; *Saes.* Lamp; *Llad.* Lampus: oddi yma deillia *Llad.* Limpidus, *Saes.* Limpid, Limpidness. Llusern, llygorn, erllen, tân-lestr, cwyren. 'Dau lygorn nef,' haul a lleuad. Goleuadau wedi eu gwneuthur âg olew mewn llestr. Priodolir eu gwneuthuriad cyntaf i'r Aiphtiaid, gan Polydor Virgil; darlunia Herodotus wledd-lampau flynyddol yn cael ei chynnal yn yr Aipht. Goleuo eglwysi a lleoedd cysegredig â lampau sydd arferiad hen iawn. Y mae teml Fahometanaidd yn Fez, prif ddinas Morocco, yn mha un y mae 900 o lampau yn llosgi bob nos. Yn Twrci, lampau a ddefnyddir yn eu holl oleuadau.

'Yna tebyg fydd teyrnas nefodd i ddeg o forwynion, y rhai a gymerasant eu lampau, ac a aethant allan i gyfarfod â'r priod-fab.' Mat. 25. 1.—'Yno y cyffelypir teyrnas nefoedd i ddec gwyryf, yr ei a gymeresont ei llugyrn, ac aethant i gyfarvot a'r gvvr-priawd. A' phemp o hanynt oedd yn bruddion, a' phemp yn ynvydion.' W. S.—'Eu llusernau.' Dr. M. Yr oedd yn ddefod yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid i ddwyn y ddau ddyn ieuainc newydd briodi adref â lampau a ffaglau.* Ac y mae yn arferiad hyd heddyw yn mhlith yr Indiaid dwyreiniol.† Edr. Canwyllbren, Llusern, Morwynion.



LANTERN—AU, *Llad.* Laterna; *Ffr.* Lanterne; *Saes.* Lantern; *Celt.* Latern. Llusern, goleu-ddal. Gwnaent lanternau o wydr, papur, corn, &c. Gynt gwnaent hwynt o groen tarw gwyllt, a alwent *Urus*; yr hwn, gwedi ei dori yn haenau teneuon, oedd yn dryloyw iawn, medd Pliny. Dygwyd lanternau corn gyntaf i Loegr gan y brenin Alffred, yn nghylch a. d. 887. Dywedir fod lantern Judas yn nghadw yn bresennol yn nhrysordy St. Denis, fel darn cywrain o hynafiaeth.

'A ddaeth yno (sef Judas) â lanternau, a lampau, ac arfau.' Ioan 18. 3.—'A chanddynt dân-lestri, a thewynion,' &c. W.S.—'A lanternau, a ffaglau,' &c. Dr. M. Φανων και λαμπαδων. *Gr.* Tebygol yr arwydda y gair Groeg cyntaf fath ar *lantern* arferedig yn y wlad hòno yn y dyddiau hyny: a'r gair diweddaf a arwydda *ffaglau*, neu lampau mawrion, goleu, i ddiogelu yr Iesu yn fwy effeithiol: cymaint ydoedd bradwriaeth Judas, ac awyddfryd gelyniaethol ei ganlynwyr, yn y gorchwyl pechadurus hwn! Edr. Φανος, yn Parkhurst.

LAODICEA, Λαοδικεια, [*pobl gyfiawn*] yr oedd amryw ddinasoedd o'r enw hwn, ond ni sonir yn y ysgrythyrau ond am un Laodicea, sef prif ddinas Phrygia, ar yr afon Lycus, yn agos i Colosse. Ei henw cyntaf oedd Diospolis, neu dinas Jupiter; gwedi hyny galwyd hi Rhoas. Ond Antiochus, mab Stratonice, a'i hail-adeiladodd, ac a'i galwodd yn ol enw ei wraig Laodicea. Gelwir hi yn bresennol gan y Tyrciaid Iski-Hissar, ac nid yw ond peutref gwael. Planwyd eglwys Gristionogol yno yn foreu; ond ni bu Paul ei hun yno yn pregethu. Cyfeiria yr Arglwydd Iesu un o'i saith epistol at eglwys Laodicea; yn mha un y mae yn ei hargyhoeddi yn llym am ei chlaiarwch, ei meddyliau balch, chwyddedig, trwy ei hanwybodaeth am dani ei hun; ac yn ei chyngori i ddiwygio, ac yn ei chyfarwyddo pa fodd. Dat. 3. 15—21. Edr. Claiar.——Parodd Paul ddarllen ei lythyr at y Colosiaid yn eglwys Laodicea; a darllen o honynt hwythau yr un o Laodicea. Col. 4. 15, 16. Barna amryw feirniaid i Paul beri i'r Ephesiaid, trwy Tychicus, yr hwn a gariodd y llythyr iddynt, anfon ad-ysgrifen o hono i eglwys y Laodiceaid. Y mae hyn yn fwy tebygol na bod un o lythyrau Paul wedi myned ar goll. Gwel Macknight.

* Homer. *Iliad* 18. *l.* 491 Kennet's *Roman Antiquities*, P. ii. B. 4. C. 9.

† *Agreement of Customs between East Indians and Jews*. Art. xvii.

Digitized by Google

Nid oes un enw o eglwys yno yn bresennol, ac nid yw y ddinas, fel y dywedwyd, ond tlawd ac anial.

LAPIDOTH, לפידות [*llusernau*] enw gwr Deborah. Barn. 4. 4. Barna rhai mai nid enw ei gwr ydyw; ond mai darluniad o Deborah :—'Gwraig Lapidoth ;' sef gwraig o wychder ac ymddangosiad ardderchog.

LARWM, *Saes.* ALARM; *Ffr.* ALARME :—Canu larwm, canu cyrn cychwyn; llais udgorn rhyfel; llais corn rhybydd. Num. 10. 5. 6. Edr. UGDORN.

LAZARUS, Λαζαρος, [*cynnorthwy Duw*] yr un enw, tebygol, âg Eleazar; neu, yn hytrach, oddiwrth y gair *Heb.* לאעזר *digymhorth*, (Gwel Ludovicus Capellus) brawd Martha a Mair. Yr oeddynt yn byw gyd â'u gilydd yn Bethania, o fewn dwy filltir i Jerusalem, tu hwnt i fynydd yr Olew-wydd. Byddai yr Iesu weithiau yn llettya gyda hwynt. Nodir am y gwr hwn ei fod yn *hoff* gan yr Iesu—iddo farw—ac i'r Iesu wylo uwch ben ei fedd ef—ac iddo â'i air ei adgyfodi yn ngŵydd llawer o'r Iuddewon. Ioan 11. 1—46. Y mae yr holl hanes gwedi ei adrodd gan Ioan mewn dull hardd ac ennillgar iawn, ac yn rhoddi i ni olygiad ar yr Arglwydd ag sydd yn profi tu hwnt i bob dadl mai Crist Duw ydoedd—yn dangos dwyfoldeb ei Berson, yn gallel rhoddi bywyd i'r marw â'i air; ac, ar yr un pryd, y mae yn ei ddangos, o ran ei ddynoliaeth, yn feddianol ar bob addfwynder, gostyngeiddrwydd, tiriondeb, serchawgrwydd, a chyfeillgarwch. Y mae ei holl ymddygiad cyn dyfod, a chwedi dyfod, yn ei ddangos yn holl fawredd ei Dduwdod, yn Hollwybodol ac yn Hollalluog; a chwedi dyfod, yn ei holl ymddyddan â'r ddwy chwaer ar yr achos galarus hwn, a'i ddynesiad at y bedd, ymddengys y teimladrwydd, y tiriondeb, a'r serchawgrwydd mwyaf. Pan 'welodd Mair yn wylo, a'r Iuddewon, y rhai a ddaethai gyda hi yn wylo, Efe a riddfanodd yn yr ysbryd, ac a gynhyrfwyd;' neu εταραξεν εαυτον, *a ymgynhyrfodd.* Y mae mawrhydi dwyfol, a holl wendidau (os ydyw yn addas eu galw felly) tirion, sanctaidd, y natur ddynol, yn cyd-sefyll, ac yn cyd-ddysgleirio, yn ogoneddus ac yn anwyl—ar unwaith yn llenwi y meddwl â pharch ac anwyldeb sanctaidd. Er hoffed ganddo y teulu hawddgar, etto yr oedd ei hoffedd dan lywodraeth y doethineb a'r gweddeidd-dra mwyaf. Dewisodd amlygu gogoniant Duw trwyddynt, yn hytrach nag attal profedigaeth oddi wrthynt; a fu dros ychydig amser yn chwerw ac yn wylofus. Hyn oedd yr achos paham yr arosodd yn y lle yr oedd, tu hwnt i'r Iorddonen, dros ddau ddiwrnod, wedi iddo glywed fod Lazarus yn glaf. Pe buasai yn ymgynghori â'u teimladau hwy, buasai yn ei iachâu yn ebrwydd; ond gwnaeth beth oedd anfeidrol well iddynt hwy, a miloedd eraill, sef dangos ei ogoniant ei hun.

1. Gwnawd y wyrth hon mewn teulu anrhydeddus iawn, ac un digon anrhydeddus i lawer o'r Iuddewon.——2. Gwnawd hi mewn lle yn agos i Jerusalem, ac yr oedd llawer o'r Iuddewon yn bresennol, yn gweled y cwbl.——3. Yr oedd y wyrth yn hynod yn yr holl amgylchiadau o honi. Yr oedd Lazarus yn y bedd (nid gwedi marw) er's pedwar diwrnod: 'y mae efe weithian yn drewi,' medd Martha, τεταρταιος γαρ εστι, *hwn yw y pedwerydd dydd.* Y mae yn amlwg oddiwrth Ioan 11. 17. mai nid pedwar diwrnod er pan fu farw a feddylir, ond er pan roddwyd ef yn y bedd: yr oedd, gan hyny, yn rhaid ei fod gwedi marw er's chwech neu saith diwrnod. Cyfododd Crist ferch Jairus yn mhen ychydig oriau wedi iddi farw: cyfododd fab y wraig weddw o Nain, a hwy yn ei ddwyn ef i'w gladdu: ond cyfododd Lazarus, ac yntau wedi bod yn y bedd *er's pedwar diwrnod:* yr oedd holl allu angeu gwedi gweithredu arno; gwelodd lygredigaeth, fel y gellid dywedyd, 'y mae efe weithian yn drewi.' Ond gorchfygodd holl allu yr adgyfodiad, holl allu angeu.——4 Cyfododd ef hefyd â'i air, y modd mwyaf addas i Dduw weithredu, gan mai y modd ydyw sydd yn dangos fwyaf o hono. Llefarodd wrth y marw gyd â'r un mawredd ag y dywedodd, 'Bydded goleuni.' Gen. 1. 3. Daeth allan o wlad llygredigaeth, ac oddi tan holl rym ac awdurdod angeu, nid yn raddol, fel y plentyn a gyfododd Elias (2 Bren. 4. 34, 35.) ond ar unwaith, heb gymhorth neb, yn fywiog, ac yn ei lawn rym, a'i gyflawn iechyd, heb ôl nac arogl llygredigaeth y bedd arno. Diammeu genyf na bu efe yn ei holl fywyd yn fwy iachus, heinif, a bywiog, nag yr oedd pan ddaeth allan o'r ogof.——5. Daeth allan yn yr un dull ag yr oedd ynddo yn gorwedd, yn rhwym ei draed a'i ddwylaw mewn amdo, δεδεμενος κειριαις (*â rhwymyne*, W. S.) sef y cyfryw ffunenau a arferent i rwymo aelodau y marw â hwynt, i gadw yr aelodau mewn cyflëad addas, ac i gadw y pêr-aroglau wrthynt. 'A'i wyneb oedd gwedi ei rwymo â napcyn.' Ioan 11. 14. Yr oedd y dull hwn y rhwymwyd ef, ac y byddai yr Iuddewon yn arferol o rwymo eu meirw, yn sicr o'i fygu mewn byr amser, pe buasai wedi ei gladdu yn fyw. 'Gollyngwch ef yn rhydd, a gadewch iddo fyned ymaith.' Adn. 44. Arwydda y geiriau hyn ei fod yn ddigon abl i fyned. Gallasai yr Arglwydd yn hawdd ddryllio ei rwymynau; ond gadawodd i'r edrychwyr wneuthur hyny, er mwyn cadarnhad i'w ffydd, ac y caent hwy yr eglurdeb mwyaf o'i farwolaeth a'i adgyfodiad. Yr oedd ei rwymynau a'u harogl yn profi i'w golygon a'u harogliad ei fod gwedi bod yn ngwlad llygredigaeth. O'r tu arall, yr olwg siriol, wridog, oedd ar ei wyneb, wedi iddynt dynu ymaith y napcyn; ei rymusder bywiog, a'i gerddediad gwisgi, oeddynt brofiad diammheuol iddynt o'i fod yn ei berffaith iechyd; ac, yn ganlynol, o wirionedd y wyrth hon arno ef. ——6. Cafodd y weithred ryfedd hon effeithiau gwahanol iawn ar yr edrychwyr. Rhai a gredasant ynddo —'eithr rhai o honynt a aethant at y Phariseaid, ac a ddywedasant iddynt y pethau a wnaethai yr Iesu.' i'r dyben i'w cynhyrfu yn ei erbyn. Cawsant eu dyben; 'O'r dydd hwnw allan y cyd-ymgynghorasant fel y lladdent ef.' Ioan 11. 45, 46, 53.

Chwe diwrnod cyn y pasc y dyoddefodd Crist, llettyodd yn Bethania, a gwnaethant iddo swper.* Martha oedd yn gwasanaethu; a Lazarus oedd un o'r rhai a eisteddent gyd âg ef: Mair a eneiniodd ei draed ef âg enaint, ac a'u sychodd â gwallt ei phen. Judas Iscariot, dan rith gofal am y tlodion, a'i beiodd am y gwastraff, o gybydd-dod ei galon; ond yr Iesu a'i hamddiffynodd, ac a ddywedodd, bod ganddynt y tlodion bob amser; 'eithr myfi,' medd efe, 'nid oes genych bob amser.' Gwedi hyn nid oes genym hanes mwyach am Lazarus. Ioan xi, xii. Llawer o ddywediadau disail sydd am dano, ac am ei farwolaeth; ond nid ydynt werth eu hadrodd.

LAZARUS, enw y cardotyn yn nammeg ein Hiachawdwr. Luc. 16. 19, &c. Barnodd rhai mai hanes yw, ac nid dammeg; megys Irenæus, Ambrose, Gregory, Tertulian, &c. Yn gyffredinol, bernir yn bresennol, mai dammeg, ac nid hanes yw. Y mae barn Lomeirus yn ymddangos yn afresymol iawn, sef ei bod yn ddarluniad cyfriniol o'r eglwys Iuddewig ac eglwys y Cenedloedd. Tebycach mai darluniad ydyw o ddull pethau yn mhlith yr Iuddewon yn amser ein Hiachawdwr, i ddangos y perygl mawr i ddynion fyw iddynt eu hunain, mewn moethau ac esmwythder, yn ddisylw buddiol ar air Duw, heb edifeirwch, ffydd, a chariad efengylaidd. Yr oedd Moses a'r prophwydi gan yr Iuddewon; ond nid oeddynt hwy yn gwrando

* Y mae llawer o amrywiaeth barn wedi bod, ac yn bod, mewn perthynas i'r swper hwn: pa un ai yr un yw a hwnw yn Mat. 26. 6—13. Dywed y Dr Doddridge, nad oes dim yn hanes yr efengylwyr wedi peri mwy petrusdod i'w feddwl na hwn. Edr. SIMON Y GWAHAN-GLWYFUS.

Digitized by Google

arnynt, ond yn byw mewn moethau ac esmwythder cnawdol. Nid yw y darluniad o'r goludog yn ei osod allan fel un o'r dynion gwaethaf yn y byd, yn lwth, yn feddw, yn orthrymwr anghyfiawn, yn gwario mewn anghymedroldeb yr hyn a feddiannodd trwy dwyll a rheibusrwydd; ni roddir dim o'r pethau hyn yn ei erbyn. Ond er na wnaeth lawer o ddrwg, ni wnaeth ddim daioni; nid oedd *dim* ffrwythau da arno. Yn ddiystyr o amgylchiadau eraill, yr ydoedd yn byw iddo ei hunan, ac yn rhodio yn ol y cnawd; yn porthi ei flys â balchder bywyd. Y mae yr addysg yn hynod bywsig, sef na ddianc y cyfryw gospedigaeth dragywyddol mewn byd arall. Mae y cyferbyniad yn hynod yn y darluniad rhwng ei lawnder, ei foethau, a'i barch yn y byd hwn; a'i dlodi, a'i boen, a'i ddirmyg, yn y byd i bara byth. Yn y darluniad o'r cardotyn, y mae yr un cyferbyniad hynod i'w weled; ond yn gwbl i'r gwrthwyneb. Mae pob amgylchiad yma, perthynol i hwnw, yn resynol: mae yn dlawd, yn afiach, a phawb yn ddiystyr o hono. Yn y byd nesaf y mae y cwbl i'r gwrthwyneb; mae yn gyfoethog, yn llawn, yn llawen, ac yn anrhydeddus; a'r amgylchiadau gorfoleddus hyn i barhau byth. Yr oedd Crist, yn nechreu y bennod, gwedi ceryddu rhagrith y Phariseaid cybyddlyd; 'a'r Phariseaid, y rhai oedd ariangar, a'u gwatwarasant ef.' Yr oedd y ddammeg hon yn diweddu ei ymadrodd wrthynt, yn neillduol o addas i'w hargyhoeddi o'u bywyd anysgrythyrol, a'u mawr berygl o herwydd hyny. Yr oedd ganddynt Moses a'r prophwydi, ond nid oeddynt yn gwrando arnynt; ac 'ni chredent chwaith pe codai un (sef yr Iesu ei hun) oddiwrth y meirw.'

LEAH, לאה [*lluddedig*] merch hynaf Laban, a gwraig Jacob. Dygodd ei thad hi yn lle Rahel ei chwaer i wely Jacob y nos briodasol. Pan achwynodd Jacob ar dwyll Laban, atebodd Laban, 'Ni wneir felly yn ein gwlad ni, gan roddi yr ieuengaf o flaen yr hynaf.' Yr oedd priodi dwy chwaer yn ddefod arferedig yn mysg y cenedloedd dwyreiniol, yn y dyddiau gynt; onidê, ni buasai raid peri i Israel beibio cydffurfio â hi: 'Na chymer wraig yn nghyd â'i chwaer, i'w chystuddio.' *Lef.* 18. 18. cymh. Barn. 15. 2. Pan welodd yr Arglwydd fod Jacob yn caru Rahel yn fwy na Leah, 'yna efe a agorodd ei chroth hi.' Dengys y geiriau mor hynod o fanwl a thirion ydyw sylw yr Arglwydd ar ei bobl yn eu holl amgylchiadau; a'i fod yn trefnu eu croesau a'u gwaredigaethau mewn cyferbyniad i'w gilydd, yn rhyfedd. Yr oedd llygaid Leah ar yr Arglwydd yn ei chystudd; a chydnabyddodd yn ddiolchgar ei sylw o honi, yn rhoddi plant iddi. Bu iddi chwech o feibion ac un ferch; sef Reuben, Simeon, Lefi, Judah, Issachar, Zabulon, a Dinah. Pa bryd y bu farw nid yw hysbys; claddwyd hi yn yr ogof yn maes Machpelah, gyda Sarah, Abraham, Isaac, a Rebeccah. Gen. xxix, xlix.

'A llygaid Leah oedd weiniaid.' Gen. 29. 17. רכות *tirion, caruaidd.** Cyfieithir yr un gair *tyner*, Ps. 55. 21. Gen. 18. 7. a 33. 13. Deut. 28. 54, 56.—fel berf, *meddalhau*, yn 2 Bren. 22. 19. 2 Cron. 34. 27. Deut. 20. 3. Job. 23. 16.—*gwan*, neu *feddal*, 2 Cron. 13. 7. Barna rhai y cynnwys y gair ganmoliaeth i lygaid Leah, yr hon oedd ganddi lygaid tyner, caruaidd, hardd. Ond yr oedd Rahel יפת תאר yn hardd yn ei hagwedd, ei pherson, ei hystum, a'i rhodiad; a יפת מראה *glandeg*, a hardd ei hwynebpryd, a'i hedrychiad; sef pob peth hanfodol i harddwch personol. Am hyny Jacob a'i carodd hi.

LEANNOTH, לענות [*cystuddiol*, neu *darostyngedig*] titl y Psalm lxxxviii, y gân fwyaf galarus yn holl lyfr y Psalmau. Eraill a farnant ystyr y gair *atebol*, ac mai nôd o gerddoriaeth oedd, i arwyddo fod y Psalm i'w chanu yn atebedigol, mewn ffordd o ymbyncio. Exod. 15. 21. 1 Sam. 21. 11. Yr oedd y dull hwn o ganu yn arferol yn mhlith yr Hebreaid ac hefyd yn mysg y Groegiaid, fel mae yn amlwg oddiwrth Homer, *Il.* i. *lin.* 604.

Μουσαων θ' αι αειδον, ΑΜΕΙΒΟΜΕΝΑΙ οπι καλη.

Apollo tun'd the lyre: the Muses round
With voice *alternate* aid the silver sound. *Pope.*

LEBANON. Edr. LIBANUS.

LEBAOTH, לבאות [*arwydd y galon*] dinas yn Judah. Jos. 15. 32.

LEBBEUS. Edr. JUDAS.

LECAH, לכה [*rhodiwr*] mab Er, ac ŵyr Judah. 1 Cron. 4. 21.

LEFAIN—LLYD—IO, *Ffr.* LEVAIN, o'r *Llad.* LEVARE, *codi:* surdoes, chŵydd-does. Clap o does wedi ei halltu, a'i gadw i suro, ac â hwn byddent yn lefeinio neu yn suro toes, neu flawd. 'Bara lefeinllyd,' ydyw bara wedi ei wneuthur o does â lefain ynddo i'w lefeinio; a 'bara croyw,' yw bara heb lefain i'w suro. Edr. SURDOES.

'Offrymed fara lefeinllyd yn ei offrwm, gyd â'i hedd aberth o ddiolch.' Lef. 7. 13. Y mae lefain yn waharddedig yn gyffredinol yn yr aberthau. Lef. 2. 11. Ond gyda hedd aberth diolch y mae yn orchymynedig, ond nid oedd i'w losgi ar yr allor, i arwyddo, hwyrach, y dylem ymlawenhau mewn dychryn; neu i arwyddo y byddai gwasanaeth a diolch ei bobl, er eu gwendidau, yn dderbyniol gan yr Arglwydd. Ar ŵyl y Pentecost, yr oeddynt yn offrymu dwy dorth lefeinllyd, yn flaenffrwyth i'r Arglwydd, Lef. 23. 17. i ddangos, hwyrach, effeithiau cynnyddol yr efengyl, trwy ddylanwadau yr Ysbryd Glân, dan y Testament Newydd. Edr. PASC, SURDOES, CROYW.

LEFI, לוי [*glynedig*] trydydd mab Jacob o Leah. Lefi a Simeon a laddasant y Sichemiaid; ac am hyny, cyhoeddodd eu tad ar ei farwolaeth, y byddent wedi eu 'rhanu yn Jacob, a'u gwasgaru yn Israel.' Yn ganlynol i'r brophwydoliaeth hon, yn lle derbyn rhan o'r wlad yn etifeddiaeth, gwasgarwyd y llwyth hwn trwy yr holl lwythau eraill; ond am eiddigedd tanllyd ei hiliogaeth dros Dduw yn erbyn y llo aur, trowyd y ddedfryd yn fendith, trwy eu cysegriad i Dduw, ac i'r swydd offeiriadol; yn ganlynol, gwasgarwyd hwynt yn ddefnyddiol ac yn anrhydeddus yn Israel. Exod. 32. 26—29. Deut. 33. 9, 10. Er iddo fendithio ei holl feibion, etto, wrth farw, mae yn tystiolaethu yn danllyd ac yn gryf yn erbyn eu twyll-ddichellion, a'u creulondeb gwaedlyd: 'Offer creulondeb sydd yn eu hanneddau.'—'Offer trais oedd eu hanneddau.' Dr. M.— 'Offer creulondeb yw eu hammodau twyllodrus,' medd Grotius ac eraill, a hwyrach yn fwy addas. Gwnaethant ammod twyllodrus â'r Sichemiaid, i'r dyben i ddial yn greulon ac yn waedlyd arnynt. Y mae Jacob yn ymlanhau gyd âg eiddigedd duwiol oddiwrth eu creulondeb: 'Na ddeued fy enaid i'w cyfrinach hwynt.— Melldigedig fyddo eu dig, canys tost oedd.' Gen. 34. 25—33. a 48. 5—7.

Yr oedd i Lefi dri o feibion, sef Gerson, Cohath, a Merari; a merch a'i henw Jochebed. Gen. 46. 11. Nun. 26. 59. Edr. yr enwau hyn.

Bu farw Lefi yn 137 oed. Llwyth Lefi oedd y lleiaf ei rifedi o'r holl lwythau yn dyfod o'r Aipht; nid oeddynt ond yn nghylch 22,273 o feibion misuriaid ac uchod. Dewiswyd teulu Aaron i'r offeiriadaeth; yr oedd y rhan arall o'r llwyth i weini dan y teulu hwn, yn ngweinidogaeth y cysegr.

Yr oedd y Lefiaid i fyned i'w swydd yn 30 oed, ac i weini ynddi hyd oni byddent yn 50 oed; rhifedi y rhai oeddynt addas oedd 8560. Num. iii. Am gy-

* Llygaid Leah yn unig oedd yn hardd; ond holl g.rph Rahel. Gwel Pool, *Synop.* ar y lle.

Digitized by Google

segriad y Lefiaid i'w swydd, gwel Num. iii. Nid oedd iddynt wisgoedd sanctaidd. Er nad oedd y llwyth hwn ond y ddeugeinfed ran o'r bobl, etto rhoddwyd iddynt wyth a deugain o ddinasoedd â'u pentrefi; ac yr oedd iddynt yn nghylch y bummed ran o gyllid yr Hebreaid. Exod. 6. 16—26. a 32. 16, 29. Num. iii, iv, viii, x, xviii. Nid oedd y degymau a'u dyledion eraill yn cael eu talu ond yn bur ddrwg pan oedd crefydd yn isel yn mhlith plant Israel. Jos. xx, xxi. Barn. i. Neh. xiii. Bu Eli a Samuel o'r llwyth hwn yn farnwyr. Dychwelodd nifer go lïosog o honynt o Babilon, rhai gyda Zorobabel, a rhai gyd âg Ezra. Ezra 2. 40, 41, 42. a 8. 18, 19. Neh. 8. 7. a 9. 4, 5. Edr. SIMEON, DEGWM, MOSES, AARON.

LEFIATHAN, לויתן [*pysgodyn yn rhwym*] rhydd y Creawdwr ei hun ddesgrifiad manwl a helaeth o'r creadur hwn, yn Job xli. Y mae dadl fawr yn mhlith naturiaethwyr, pa greadur a feddylir wrth y lefiathan. Amryw ydynt o'r farn mai y *crocodile* a feddylir—math o sarph ddyfrog, o faintioli hynod fel anifel. Y mae o amrywiol faintioli, o bump ar hugain hyd yn hanner cant o droedfeddi o hŷd, ac yn nghylch praffder corph dyn. Y mae llawer o honynt yn yr afon Nilus yn yr Aipht; ac y maent yn niweidiol iawn i'r trigolion; yn dyfetha, ar brydiau, bob creadur a ddelo yn agos at yr afon, ychain, gwartheg, camelod, meirch, asynod, cŵn, gwragedd, plant,* &c. Preswylydd afonydd ydyw y crocodile, ond yn y môr y mae y lefiathan yn chwareu. Ps. 104. 24, 25, 26. Gan hyny, dimmeu genyf, mai un o'r morfeirch mawrion a feddylir. Y mae llawer o rywogaethau o honynt yn y moroedd; ac fel y mae y behemoth yn arwyddo y penaf o'r anifeiliaid, felly y lefiathan a arwydda y penaf o'r morfeirch hyn. Gen. 1. 21. Mae Duw yn cyfeiro Job at y creadur hwn, a'i fawr rym, fel y canfyddai fawredd ei Greawdwr ynddo: os na fedrai Job amgyffred y creaduriaid, eu darostwng a'u llywodraethu, pa faint llai y dichon amgyffred yr hwn a'u gwnaeth, sydd yn eu cynnal, ac yn eu llywodraethu oll?

Gelwir breninoedd yr Aipht, Assyria, a gormeswyr creulawn eraill, wrth enw yr anghenfil hwn, a elwir draig, sarph, i ddangos mor ofnadwy a dinystriol oeddynt. Ps. 74. 13, 14. Esa. 27. 1. a 51. 9. Ezec. 29. 3.

'A'r rhai a felldithiant y dydd, ac sydd barod i gyffroi eu galar, a'i melldithio hi.' Job 3. 8. *A'r rhai a felldithiant y dydd* (y ganed ef, adn. 1.) *y rhai sydd barod i gyffroi y lefiathan,* gan eu bod yn sicr o gael eu dystrywio yn fuan, ac yn ddychrynllyd, gan y creadur ofnadwy hwnw. Y mae hwn yn rhoddi ystyr goleu ar eiriau yn ymddangos yn dywyll ac yn annealladwy.

LEFITICUS, trydydd llyfr Moses. Gelwir ef yn Hebraeg, fel y llyfrau eraill, oddiwrth y gair cyntaf, ויקרא *vayicra,* hyny yw, *A galwodd:* ond ar ol y cyfieithiad Groeg yr ydym ni yn ei alw ef ΛΕΥΙΤΙΚΟΝ, LEFITICUS; am ei fod yn cynnwys hanes am gysegriad Aaron, a'i feibion, o lwyth Lefi, i fod yn offeiriaid i'r Arglwydd; llawer o gyfarwyddiadau yn nghylch neillduad y rhan arall o'r llwyth hwnw at wasanaeth y babell; a pha fodd yr oeddynt hwy i gyflawni eu gweinidogaeth. Yn y gwasanaeth hwn, a'r holl ddefodau seremonïol, yr oedd yr efengyl yn cael ei phregethu i'r Israeliaid. 'Y mae agos bob sill yn y llyfr hwn (medd Jerome) yn anadlu sacrament nefol: cyffelybiaethau pa un sydd yn ein harwain at Iesu Grist, yr unig arch-offeiriad y Testament Newydd.' Nid oes ynddo nemawr hanesion am ddygwyddiadau, ond am farwolaeth Nadab ac Abihu, meibion Aaron, am iddynt arogl-darthu â thân dyeithr: ond coffëir ynddo am yr holl ddefodau seremonïol, a draddodwyd i Moses gan yr Arglwydd oddiar y drugareddfa dros yspaid un mis; sef o ddechreu yr ail flwyddyn wedi ymadawiad Israel o'r Aipht, hyd ddechreu yr ail fis o'r un flwyddyn. Cymh. Exod. 40. 17. â Num. 1. 1.

Y mae y cyfeiriadau aml ato yn y rhanau eraill o'r Bibl, ac yn y Testament Newydd, yn brawf, yn gystal o ddwyfoldeb y llyfr, ac hefyd mai Moses oedd yr awdwr o hono. Er mewn rhyw ystyriaeth, y mae yn addas galw y defodau Iuddewig, yn 'gyfraith gorchymyn cnawdol,' ac yn 'egwyddorion llesg a thlodion,' (Heb. 7. 16. Gal. 4. 9.) etto, os edrychwn yn y Testament Newydd yn fanwl, gwelwn fod y defodau hyn, gwael a diystyrllyd i lawer, nid yn unig yn gysgodau o ddaionus bethau i ddyfod, ond hefyd yn brophwydoliaethau, cyflawniad o ba rai yn yr efengyl, sydd brawf eu bod o osodiad dwyfol. Tu ag at ddeall iaith yr ysgrythyrau, nid oes dim yn fwy cynnorthwyol nag iawn ddeall a gwybodaeth o ddefodau y gwasanaeth Iuddewig, at ba rai y mae cyfeiriadau aml yn yr holl ysgrifeniadau sanctaidd. Eglurhad wedi ei roddi gan yr Ysbryd Glân o'r llyfr hwn, ydyw agos yr holl Epistol at yr Hebreaid; yn dangos fod yr holl wasanaeth Iuddewig yn cyfeirio at Grist a'i swyddau, ac yn terfynu ynddo. Mae Paul yn egluro Moses, ac y mae Moses yn gynnorthwyol iawn i ddeall iaith Paul; ac fel hyn y mae yr ysgrythyrau yn cynnwys corph cyflawn goleu o wybodaeth ddwyfol; a'r naill ran yn adlewyrchu ar y llall, i wneuthur y gwirion yn ddoeth i iachawdwriaeth.

LEHABIM, להבים [*fflam-ffagl*] trydydd mab Misraim, ac ŵyr Cam. Gen. 10. 13. Yr un, tebygol, yw Lehabim a Lubim, oddiwrth ba un y daeth Lybia, neu Lehabya, yr hwn oedd briodol ar y cyntaf yn unig i wlad Cyrenaica, a briodolwyd, mewn amser, i holl gyfandir Affric.

LEHI. Edr. EN-HACCORE.

LEMUEL, למואל [*Duw gyda hwynt,* neu *cyflwynedig i Dduw*]. Rhai a farnant i Bathseba alw Solomon wrth yr enw hwn, oblegid ei dduwioldeb boreuol; eraill a farnant mai enw rhyw dywysog cymydogaethol ydoedd, mam yr hwn oedd wraig dduwiol, a hwyrach yn un o Israel. Y mae yr iaith arferedig yn y bennod hon (Diar. xxxi.) cymysgedig â llawer o eiriau Caldaeg, yn brawf cryf mai gwedi dyddiau Solomon y cyfansoddwyd hi; ac a chwanegwyd at y Diarebion gan wyr Hezeciah, neu gan Ezra, ar ol y caethiwed. Lemuel a gadwodd addysgiadau ei fam dduwiol, ac a'u cyhoeddodd er adeiladaeth i eraill; a chan eu bod wedi eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw, rhoddwyd hwynt yn y lle y maent yn bresennol.

LEUMMIM, trydydd mab Dedan, ac ŵyr Abraham a Ceturah. Gen. 25. 3.

LIBANUS, לבנין [*mynydd gwyn*] mynydd nodedig o du y dehau i Syria, ac o du y gogledd i wlad Canaan. Galwyd ef, tebygol, wrth yr enw hwn, oddiwrth yr eira sydd yn aros yn wastad ar rai rhanau o hono. Mae yn ei lun yn debyg i bedol, medd Calmet, yn agor tu a'r gogledd. Y mae yn cynnwys, yn yr ystyr helaethaf, ddau o fynyddoedd, sef Libanus yn y gorllewin, ac Anti-Libanus yn y dwyrain. Rhwng y ddau fynydd hyn y mae dyffryn hir, a elwir Cœlo-Syria, a glyn hyfryd Libanus. Jos. 11. 17. Bernir fod y mynydd hwn yn uwch na'r Pyraneaid, rhwng Ffrainc ac Hispaen; ac na mynyddoedd yr Alpau, rhwng Ffrainc ac Ital. Ei gylch sydd dri chant o filltiroedd. Y gwinwydd yn y gwaelod, a'r cedrwydd ar ei ben, y rhai oeddynt gynt yn lïosog iawn, oedd yn gwneuthur yr olwg arno yn hardd, a'i arogl yn beraidd. Y mae yn gyfansoddol o bedwar mynydd, y naill yn uwch na'r llall. Y cyntaf sydd ddaear fras, yn llawn ffrwythau, ŷd, &c.—yr ail sydd ddiffrwyth, yn llawn drain,

* Norden's *Travels.* Hasselquist's *Voyages.* Lucas *Voyage to Syria.* Bochart's *Comment. on* Job xli.

Digitized by Google

creigiau, meini callestr, &c.—y trydydd, er ei fod yn uwch na'r ail, sydd yn wanwyn gwastadol; y mae y coed yn wyrddion, ac yn llawn ffrwythau bob amser: mor hyfryd ydyw, fel y geilw rhai hwn yn baradwys ddaearol. Y mae y pedwerydd mor uchel, fel y mae eira arno trwy y flwyddyn; ac yn ddibreswylydd o herwydd yr oerfel. Y mae llewod, llewpardiaid, a bwystfilod eraill yn aml arno. Hos. 14. 5, 6, 7. Can. 4. 8—11. a 5. 15. Mae dyfroedd o ffynonau Libanus yn rhedeg i'r Iorddonen, ac i'r Eleuterus, Abana, a Pharpar, sydd yn rhedeg i'r dehau; ac i'r afonydd Rossian, Cadichæ, ac Abvali, sydd yn rhedeg i'r gorllewin, neu y gogledd. Maent yn ddyfroedd tra hyfryd. Jer. 18. 14. O'r mynydd hwn y cafodd Solomon goed i adeiladu y deml; y byddai y Tyriaid a'r Sidoniaid yn cael coed i adeiladu eu llongau; ac y cafodd y Caldeaid a'r Assyriaid goed i warchae ar ddinasoedd Canaan, Phœnicia, a Syria. Esa. 33. 9.

'Ond nid digon Libanus i gynneu tân, ac nid digon ei fwystfilod chwaith yn boeth-offrwm,' i dynu ymaith bechod. Esa. 40. 16. Yn bresennol y mynachod, a elwir Maronitiaid, a breswyliant, yn wael eu cyflwr, oddeutu godre Libanus. Arabiaid gwylltion, hefyd, sydd yn heidiau yn mhob man yno. Dywedir fod yn y parthau gorllewinol iddo yn preswylio, bobl a elwir *Drusiaid*, gweddill yr hen Ewropiaid, a aethant yno yr 11eg, y 12fed, a'r 13eg ganrif, yn rhyfeloedd y groes (*crusades*), a gynnaliwyd gan y Cristionogion dros oesoedd gynt, i geisio ennill gwlad Judea oddiar y Tyrciaid. Maent yn proffesu Cristionogrwydd, ac yn dangos gwrthwynebrwydd mawr i'r grefydd Iuddewig, a'r Fahometanaidd; ond y maent yn dra llygredig yn eu moesau, os coeliwn haneswyr.

Y mae Libanus yn wrthddrych ardderchog yn aml mewn cyffelybiaethau ysgrythyrol. (Lowth, *De Sacra Poesi, Prœl.* 6.) Arwyddocâ, weithiau, holl bobl Israel, neu yr eglwys; Jerusalem; y deml, am ei bod wedi ei hadeiladu â choed Libanus; brenin Assyria, a'i fyddin, oblegid eu nifer, a'u grym; neu unrhyw beth balch ac uchel. Esa. 33. 9. a 35. 2. a 37. 24. Jer. 22. 6—23. Zech. 11. 1. Esa. 10. 34. a 2. 13. Ezec. xxxi.

'Dy drwyn fel tŵr Libanus, yn edrych tua Damascus.' Can. 7. 4. Y tŵr hwn a adeiladwyd, tebygol, yn nghoedwig Libanus, ar gyffiniau y ddwy wlad, ac yn edrych tua Damascus, yr hon oedd yn sefyll mewn dyffryn: yr oedd y tŵr hwn mor uchel, medd Adrichomius, fel y gellid gweled o'i ben yr holl dai yn Damascus. Cyffelybir trwyn yr eglwys i'r tŵr hwn, i arwyddo ei hymddangosiad hardd, godidog, a'i hyder gwrol, ei chalondid, ei dewrder o blaid Crist a'i achos yn y byd. Edrych ar elynion cryfion yn eu hwyneb, heb eu hofni: 'Y rhai cyfiawn sydd hyf megys llew.' Diar. 28. 1.

'Tyred gyda mi o Libanus.' Can. 4. 8. Mae Libanus yma yn arwyddo amgylchiadau digysur, yn llawn perygl, yn agos i lochesau llewod a llewpardiaid; oddi yno y gwareda Crist ei bobl. Edr. DOLDIR, DYRNAID, GWIN, GWRAIDD.

LIBERTINIAID. *Gr.* Λιβερτινος; *Llad.* LIBERTINUS; [*rhyddwyr*] enw a ffurfiwyd o'r gair *Llad.* LIBERTINI, yn arwyddo plant gwyr rhyddion; neu rai a fuont unwaith yn gaeth-weision, ac a gawsant eu rhyddid. Naill ai Iuddewon a gaethiwyd gan Pompey, Socius, &c., tywysogion y byddinoedd Rhufeinaidd, ac a gawsant eu rhyddid, ac a ddychwelasant i Jerusalem, pan yrodd Tiberius yr Iuddewon o'r Ital; neu, ynte, rhai o'r cenedloedd oeddynt yn gaeth-weision i'r Hebreaid, ac a gawsant eu rhyddid, ac a ddaethant yn broselytiaid i'r grefydd Iuddewig; neu, ynte, Iuddewon oedd yn preswylio rhyw dalaeth, neu ddinas, yn Lybia, a elwid Libertina. Y rhai hyn, yn nghyd â'r Cyreniaid a'r Alexandriaid, a ddygasant eu haberthau, ac a ddaethant i addoli yn Jerusalem, ac a ymddadleuasant â Stephan; ond ni allent wrthwynebu y doethineb a'r ysbryd trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru. Act. 6. 9, 10. Gwel Vitringa, *de Synag*, *lib.* vii. *c.* 14. Doddridge, Parkhurst, Mintert, Schleusner.—Barna Lightfoot mai plant Iuddewon breiniol, fel Paul, dan lywodraeth y Rhufeiniaid, oeddynt. Act. 22. 28.

LIBNAH, לבנה [*gwyn*] dinas yn llwyth Judah, a roddwyd i'r offeiriaid, ac yr oedd yn ddinas noddfa. Jos. 15. 42. 1 Cron, 6. 54, 57. Yn agos i Libnah bu un o wersyllfaoedd yr Israeliaid. Num. 33. 20.

LILI, *Gr.* λειριον; *Llad.* LILLIUM; *Ffr.* LIS; *Heb.* שושן *chwech*, o herwydd bod i'r blodeuyn hwn *chwech* o ddail; neu, ynte, yn hytrach, medd Parkhurst, oddiwrth ei *wynder siriol, bywiol.* Sylwa yr Iachawdwr yn neillduol ar wisg hardd y lili: 'Ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn. Am hyny os dillada Duw felly lysieuyn y maes,' &c. Mat. 6. 28, 29, 30. 'Os dillada Duw felly:' o Θεος ουτως αμφιεννυσιν, *os Duw a amgylch wisga, ac a addurna felly.* Mae pilionen oddi amgylch llysiau a blodau ar unwaith yn eu hadduruo, ac yn eu hamddiffyn rhag cael eu niweidio gan y tywydd, fel y croen sydd am gorph dyn.

Y mae y lili yn flodeuyn hardd, pêr-arogl, a meddyginiaethol. Y mae llawer math o honynt, ac o amrywiol liwiau, sef gwyn, coch, melyn, &c. Linnæus a gyfrif naw; Miller, tair ar ddeg; Tournefort, ddeugain o rywogaethau o lili. Mae gwraidd y lili gwyn yn neillduol o dda yn sugaethan (*poultice*) i feddalhau ac addfedu chwydd: yn bobedig, ac wedi eu pwnio yn gymysgedig âg olew, y maent yn feddyginiaeth ragorol i losg. Nid oes i flodeuyn lili y dyffrynoedd ond un ddalen, a hòno ar lun cloch. Yr oeddynt mor gyffredin yn ngwlad Judea, fel yr oeddynt yn tyfu yn y meusydd, ac yr oeddynt yn poethi y ffwrn â hwynt, a'r cyffelyb bethau, gwedi iddynt wywo. Mat. 6. 28, 30. Mewn rhai gwledydd maent yn tyfu i bedair troedfedd o uchder.

'Lili y dyffrynoedd.' Can. 2. 1. Crist sydd yn gosod allan, fel y mae yn addas iddo ef, ei ragoriaethau ei hun: fel y mae yn rhagori ar bob peth, felly y mae yn rhagori ar y rhosyn a'r lili, y penaf o'r blodau. Y mae yn hardd, yn ogoneddus, ac yn bêr ei arogl, i'r rhai sydd yn ei adnabod; lili yw, a lili y dyffrynoedd hefyd; gwedi darostwng ei hun i'r amgylchiadau iselaf er ein mwyn ni—lili oedd yn y dyffrynoedd: er ei iselder, cadwodd ei hurder, ei harddwch, a'i arogledd pêr; ie, nid ymddangosodd erioed yn harddach, nac yn fwy gogoneddus, nag yn ei iselder. Lili oedd yn y groth, yn y preseb, yn Nazareth dlawd, yn Gethsemane, ar y groes, ac yn y bedd; ni chollodd mo'i harddwch a'i bêr-arogl. Er ei ddyrchafiad goruwch yr holl nefoedd, mae i'w gael yn y dyffrynoedd etto gyd â'i bobl wael, yn eu hamgylchiadau profedigaethus yn y byd. Esa 57. 15.——'Lili yn mysg drain' ydyw yr eglwys yma yn y byd: lili ydyw, yn tebygu i Grist o ran ei harddwch, ei ffrwythau godidog, a'i harogl pêr: yn ngolwg Crist y mae yn rhagori cymaint ar bawb eraill ag ydyw y lili yn rhagori ar y drain: yn mysg y drain y trig, ac mae yn cael aml ddolur oddi wrthynt. Ond er mai drain ydyw yr annuwiolion, a hithau yn preswylio yn eu mysg, etto, lili ydyw hi; hardd, diniwed, a llesol; lili ydyw hi tu ag atynt hwy, ac yn eu mysg, er mai drain ydynt hwy tu ag ati hi. Esa. 55. 13. Phil. 2. 15, 16. 1 Petr 2. 12. Edr. GWEFUS, BRU, BLODAU.

LINDYS, (llin-tys) pryf y dail, pryf cadachawg, pryf y cawl, pryf y bresych, pryf y gwinwryf, pryf melfedawg. Ffurfir y lindys o wyau pileion, neu eilierau; ac a gyfnewidir yn eu tymhor yn löynau byw.

Digitized by Google

Y mae y pileion yn dodi eu hwyau yn y lleoedd mwyaf diogel, ac yn y pethau yr ymbortha y lindys arno; megys dail coed, bresych, &c. Mae y lindys yn neillduol eu hymborthiad, yn ol eu natur a'u rhyw, ac mae y pilai yn ddoeth, yn dewis pethau i ddodi eu hwyau arno, neu ynddo, ag fydd yn ymborth priodol i'r lindys. Y mae doethineb y creaduriaid hyn i'w weled yn rhyfedd. Edr. Pryf. Mae y lindys wedi bod, ac yn bod, yn un o bläau Duw ar bechaduriaid: yn y llïosogrwydd o honynt, y maent yn difa cnwd y ddaear. Ps. 78. 46. a 105. 34. Joel 1. 4. a 2. 25. Amos 4. 9. Amledd o filwyr gelyniaethol yn difa ac yn difrodi, a gyffelybir i'r lindys sydd yn aneirif. Jer. 51. 14. Esa. 33. 4.

LINUS, *Λινος*, [*rhwydau*] yr oedd y gŵr hwn yn Rhufain pan yr ydoedd Paul yn garcharor yno yr ail waith. Dywedir ei fod yn esgob Rhufain, a'r cyntaf ar ol Petr: ond cwbl ansicr ydyw a fu Petr erioed yn esgob yno, ac mor ansicr ydyw y dywediad traddodiadol am Linus. 2 Tim. 4. 21. Gwel Macknight's *Preface to* 1 *Timothy*.

LO-AMMI, לא־עמי [*nid fy mhobl*] mab Hosea. Hos. 1. 9. Jer. 15. 1. Enw sydd yn dangos hollol wrthodiad Israel fel cenedl gan Dduw, oblegid eu gwrthgiliad oddi wrtho; gadawodd iddynt fel cenedl yn eu gwrthodiad o'i addoliad, ac heb eu hamddiffyn fel cynt yn eu gwlad; ond gadael iddynt gael eu gwasgaru yn mhlith y cenedloedd. Er iddo eu gadael yn eu gwrthgiliad, fel cenedl, etto achubodd nifer mor llïosog a thywod y môr, o bersonau neillduol o honynt. Edr. Hosea.

LOCUST, *Llad.* Locusta; *Heb.* ארבה oddiwrth eu llïosogrwydd; *Gr.* *ακρις*, am eu bod yn glynu wrth benau coed a llysiau, i'w difa. Ednogion mwyaf dinystriol i ffrwythau y ddaear. Y mae amryw fath o honynt, rhai yn fwy a rhai yn llai na'u gilydd. Dywed Pliny am locustiaid yn India yn llathen o hŷd.* Y maent yn llïosogi yn hynod, ac yn myned allan yn heidiau. Dros bum mis yn yr haf, maent yn llïosog iawn yn Asia ac Affric; ond mewn gwledydd oerion, dystrywir eu hwyau gan oerfel y gauaf. Weithiau ehedant yn gwmwl uwch ben gwlad, yn tywyllu llewyrch yr haul, ac yn dychrynu y trigolion yn ddirfawr, rhag disgyn o honynt ar eu meusydd. Lle y disgynont, difäant yn fuan bob peth gwyrddlas. Yr oeddynt yn un o bläau yr Aipht, y rhai a gariwyd â gwynt cryf i'r Môr Coch. Exod. 10. 14—19.

Yr oeddynt yn lân dan y gyfraith; ac mae hyn yn brawf digon eglur eu bod yn fwytadwy; a'u bod yn ymborth cyffredin yn ngwlad Judea. Hyd heddyw ymborthir arnynt gan lawer o genedloedd yn Asia ac Affric.† Rhyfedda yr Arabiaid gymaint ein bod ni yn bwyta llymeirch (*oysters*), crancod, ceimychiad, &c., ac y rhyfeddwn ni eu bod hwy yn bwyta locustiaid. Edr. Ioan Fedyddiwr.

Cyffelybir byddinoedd yr Assyriaid a'r Babiloniaid i'r locustiaid, o herwydd eu llïosogrwydd, a'r effeithiau dinystriol gyda hwynt ar wledydd Israel a Judah. Esa 33. 4, 5. Joel ii. Nah. 3. 15, 16, 17.

Dan udganiad y pummed angel, agorwyd y pydew heb waelod, a daeth mŵg allan, a dywyllodd yr haul a'r awyr; ac o'r mŵg daeth allan locustiaid ar y ddaear, y rhai a boenasant drigolion y ddaear yn ddirfawr: angel y pydew diwaelod oedd yn frenin arnynt. Dat. 9. 1—11. Mae cyfeiriad amlwg yn y geiriau at Joel. ii. Amrywiaeth, nid bychan, sydd yn marn y beirniaid dysgedig am y locustiaid hyn: y mae pawb yn eu hystyried yn gyfrinol, ac nid yn golygu y locustiad naturiol fel y cyfryw. Ond pwy a arwyddocëir trwyddynt, ydyw yr ymofyniad sydd yn anhawdd ei benderfynu. Rhai a farnant mai angel y pwll diwaelod, eu brenin, ydyw Anghrist, ac mai mynachod, yr offeiriaid cnawdol, a chyfeiliornwyr eglwys Rhufain, a feddylir wrth y locustiaid. Mede, Syr Isaac Newton, Daubuz, Esgob Newton, &c., a farnant mai Mahomet a feddylir wrth y 'seren a syrthiodd o'r nefoedd,' 'angel y pwll diwaelod,' a 'brenin y locustiaid;' ac mai wrth y locustiaid y meddylir y Saraceniaid, y rhai a oresgynasant lawer o wledydd, ac a ddygasant ddinystr ofnadwy gyda hwynt i bob man y daethant. Y mae llawer o briodoldeb yn ymddangos yn y golygiad hwn, a hanes y Saraceniaid, a'r brophwydoliaeth, yn cyfateb i'w gilydd yn rhyfedd. Ond pa fodd i briodoli iddynt adn. 4. sydd yn ymddangos i Vitringa yn anhawsdra mawr: 'A dywedwyd wrthynt na wnaent ddim niwed i laswellt y ddaear, nac i ddim gwyrddlas, nac i un pren; ond yn unig i'r dynion oedd heb sêl Duw yn ei talcenau.' Mae y gŵr dysgedig hwn yn gweled mwy cysondeb rhwng hanes y Gothiaid, dan eu blaenor Alaric, â'r darluniad yn y brophwydoliaeth; a'i bod yn fwy priodol iddynt hwy, nac i'r Saraceniaid. Am fwy o foddlonrwydd rhaid i mi gyfeirio y darllenydd at yr awdwyr uchod: rhy anhawdd genyf benderfynu am fater mae awdwyr mor nodedig am eu dysg, a'u dealltwriaeth, yn methu cydweled.

* Pliny, *Nat. Hist. lib.* xi. *cap.* 29.

† Bochart, *Vol.* iii. Shaw's *Travels*. Russel's *Nat. Hist. of Aleppo*. Hasselquist's *Travels*. Niebuhr's *Description of Arabia*. Harmer's *Obs. vol.* iv. *Cyclopædia*.

LOD, לוד [*cenedliad*] meibion Elpaal a adeiladasant ddinas o'r enw hwn. 1 Cron. 8. 12.

LO-DEBAR, לודבר [*heb borfa*, neu *y gair iddo ef*] trigle Mephiboseth gwedi marw ei dad Jonathan. Lle tu hwnt i'r Iorddonen yn mynydd Gilead. 2 Sam. 9. 4, 5. a 17. 27.

LOG, y gwlyb fesur Iuddewig lleiaf; yr oedd yn llai na pheint. Lef. 14. 12, 15, 25.

LOIS, *Λωις* [*gwell*] mam Eunice, a nain Timotheus; gwraig enwog am ei ffydd ddiffuant. 2 Tim. 1. 5. Edr. Timotheus.

LO-RUHAMAH, לא־רחמה [*ni chafodd drugaredd*] merch Hosea. Hos. 1. 6. Edr. Hosea.

LOT, לוט [*cuddiedig*] mab Haran, a nai Abraham. Rhoddir i ni hanes, 1. Iddo ddyfod gyd â'i ewythr o Ur y Caldeaid i Haran, ac o Haran i wlad Canaan. ——2. O herwydd y gynhen rhwng eu bugeiliaid, ymadawsant â'u gilydd. Rhoddodd Abraham ei ddewisiad i Lot o'r parth o'r wlad a ewyllysiai drigo ynddo: 'A Lot a ddewisodd wastadedd yr Iorddonen, ac a drigodd yn ninasoedd y gwastadedd, ac a luestodd hyd Sodom.'——3. Pan orchfygwyd brenin Sodom gan y breninoedd a ddaethant i'w erbyn ef, cymerwyd Lot yn garcharor, wedi trigo yn Sodom yn nghylch wyth mlynedd; pan glywodd Abraham am hyny, arfogodd ei weision, ymlidiodd ar ol y rhai a'u caeth-gludasent, ac a'u hachubodd.——4. Yn nghylch un mlynedd ar bymtheg gwedi hyny, cafodd waredigaeth hynod pan ddinystriwyd Sodom oblegid pechodau y trigolion. ——5. Wedi ffoi i'r mynydd, syrthiodd i losgach ffiaidd gyd â'i ddwy ferch, trwy feddwdod, a beichiogodd y ddwy ferch o'u tad; esgorodd yr hynaf ar Moab, tad y Moabiaid; ac esgorodd yr ieuengaf ar Ben-Ammi, tad yr Ammoniaid. Gen. xii—xiv, xix.

Am dduwioldeb Lot mae genym dystiolaeth sicr yr apostol Petr. 2 Petr 2. 7. Geilw yr apostol ef 'Lot gyfiawn.' Yr oedd yn hysbys, diammeu, o ymddangosiad Duw i Abraham, ac o ddadguddiedigaethau Duw i Abraham mewn perthynas i'r hâd addawedig. Cafodd y fraint o gymdeithasu flynyddoedd âg Abraham, a chydaddoli âg ef; ac y mae Abraham yn ymddangos yn dirion ac yn hoff o hono.

Gwedi myned yn drigiannydd yn Sodom, cafodd ei gadw yn hynod yn nghanol y ddinas lygredig hòno

Digitized by Google

yn bur ac yn ddilwgr: 'Yr oedd mewn gofid trwy anniwair ymarweddiad yr anniweiriaid—yr oedd yn poeni ei enaid cyfiawn o ddydd i ddydd, trwy eu hanghyfreithlon weithredoedd hwynt.' Yr oedd yr agwedd hon ar ei ysbryd yn brawf o'i neillduol dduwioldeb a'i sancteiddrwydd. Nid oes dim ond sancteiddrwydd yn wirioneddol yn ffieiddio pechod, ac yn gofidio o'i blegid yn mhawb. Gwaredigaeth ryfedd a gafodd rhag ei ddystrywio yn ninystr yr anniweiriaid; ond gwaredigaeth fwy ydoedd cael ei gadw heb ei lygru trwy eu llwgr hwynt. Y mae lle i ofni iddo gael ei dueddu i wneuthur dewisiad o drigo yn eu plith o gau ddybenion, ac idd edrych gormod ar hyfrydwch y fan, heb ystyried yn addas lwgr y trigolion; 'Lot a gyfododd ei olwg, ac a welodd holl wastadedd yr Iorddonen, mai dyfradwy ydoedd oll.' Hwyrach i'r cnawd yn hyn chwennych yn erbyn yr ysbryd, a'i ddwyn yn ormodol gyd âg ef: etto, er hyny, ni adawodd yr Arglwydd mo hono i'w lygru ganddynt, ond cadwodd oruchwyliaethau byw ar ei ysbryd. Os y cyfryw hudoliaeth fydol a'i denodd i luestu hyd Sodom, y mae ei gerydd yn amlwg i'w weled, er rhybydd i bawb ar ei ol. Bu gorfod arno ddianc am ei einioes oddi yno, a gadael y cwbl a feddai ar ei ol, heb obaith byth eu hail feddiannu. Nid oedd hyn ond cerydd bychan mewn cydmariaeth i Dduw ei adael i'w chwantau, i'w lygru a'i ddinystrio gyda hwynt. Y mae yr hanes sanctaidd yn ei adael dan gwmwl du, sydd yn dangos beth yw dyn ar y goreu. Y peth goreu a wnawn yw cymeryd rhybydd, a wylo uwch ei ben!

'Cofiwch wraig Lot.' Luc 17. 32. Pwy ydoedd y wraig hon nid yw hysbys. Y Doctoriaid Iuddewig, y rhai na fynent fod dim yn anhysbys iddynt, a ddywedant mai un o'r Sodomiaid ydoedd, ac mai ei henw oedd עדית *Adith*, sef *tyst*; am ei bod yn dystiolaeth trwy yr holl oesoedd o wendid dynol, a thoster dwyfol yn cospi pechod. Dywedant fod i Lot bedair o ferched; dwy wedi priodi, a dwy heb briodi. Y rhai cyntaf, ynghyd â'u gwŷr, a ymdroisant yn Sodom ac a ddinystriwyd; y lleill a ffoisant gyd â'u tad: ond ni sonir yn y Bibl ond am ddwy ferch. Gen. 19. 15.

Parodd yr angel i Lot a'i deulu ffoi am eu henioes: wedi ymaflyd yn ei law ef, ac yn llaw ei wraig, ac yn llaw ei ddwy ferch, dywedodd, 'Nac edrych ar dy ol, ac na saf yn yr holl wastadedd'—hithau, yn groes i'r gorchymyn tirion hwn, 'a edrychodd drach ei chefn o'i du ol ef, a hi a aeth yn golofn halen.' Yn lle ffoi gyd â'r brys mwyaf, a rhyfeddu ffafr Duw tu ag atynt yn dyfod i'w gwaredu, y mae yn amlwg ei bod yn anfoddlon i adael y lle. Yr oedd yn gohirio, ac yn oedi ar ol Lot; a hwyrach iddi droi i ddychwelyd yn ei hol. Yr oedd gyda hi hen gyfeillion a pherthynasau, a llawer o feddiannau yn Sodom; nid hawdd oedd gadael y cwbl ar unwaith, yn enwedig os oedd yn anghredu yr angel. Anghrediniaeth—anufudddod—anniolchgarwch am ei gwaredigaeth ryfedd—ac ysbryd y byd, ydynt bechodau tra amlwg yn ei hymddygiad. Yn ddioed, tarawyd hi â barn Duw, 'a hi a aeth yn golofn halen,' caled, fel craig, na effeithia y gwres na'r gwlaw ddim arni mwy na rhyw faen arall, yn ddangosiad amlwg o anfoddlonrwydd Duw yn erbyn pechod. Dywed Josephus iddo ef ei gweled; ac yr oedd ef yn byw ar ol amser ein Haichawdwr. Dywed Irenæus a Tertulian ei bod yn sefyll yn nghylch A. D. 200. Eraill, yn ddiweddarach, a ddywedant iddynt ei gweled, os gellir coelio eu tystiolaethau anghytun.

LOTAN, mab Seir. Gen. 36. 20.

LUC, Λουκος [*goleu*, o'r *Llad.* Lux, *goleuni*] am yr efengylwr hwn, nid wyf yn cael nemawr, neu ddim hanes a ellir ar sail ddigonol ei gredu, ond a ellir gasglu o'i hanesion ei hun, ac epistolau Paul. Dywedir mai priodor o Antioch ydoedd efe, ac mai meddyg ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac iddo gael ei alw i'r ffydd trwy weinidogaeth Paul. Os yr un yw a Lucius, un o'r rhai a eilw Paul ei geraint (Rhuf. 16. 21.), yna Iuddew oedd o genedl; ac mae y rhan fwyaf yn barnu mai yr un oedd a 'Luc y physygwr anwyl.' Col. 4. 14. Yr oedd yn gydymaith ffyddlon i'r apostol Paul yn amryw o'i deithiau. Actau xvi. Col. 4. 14. Philem. 23. Diammeu ei fod yn gydymaith iddo y ddwy flynedd y bu yn garcharor yn Jerusalem a Cesarea, ac hefyd yn ei daith beryglus i Rufain, ac iddo aros gyd ag ef nes ei ryddhau. Yr oedd gyd âg ef hefyd yn ffyddlon, pan yr oedd eraill wedi ei adael, yr ail waith y bu yn garcharor yn Rhufain. 2 Tim. 4. 11. Nid oes dim dadl wedi bod gan neb yn un oes, nad efe yw yr awdwr a ysgrifenodd yr Efengyl sydd dan ei enw, a Gweithredoedd yr Apostolion. Edr. ACTAU.

Mae yn eglur, oddiwrth ei ragymadrodd i'r Efengyl, nad oedd yn golygu ei hun yn apostol, ac nad oedd yn dyst o'r hyn y mae yn rhoddi hanes am danynt: ond iddo dderbyn yr hanes gan yr apostolion, ac eraill, 'y rhai oeddynt o'r dechreuad yn gweled, ac yn weinidogion y gair'—er bod rhai o'r hynafiaid wedi haeru ei fod yn un o'r deg dysgybl a thriugain, yn groes i'w dystiolaeth ei hun.

Am yr amser pa bryd, ac yn mha le y cyhoeddodd ei Efengyl, nid oes dim hysbysrwydd digonol. Er bod llawer o ddull ymadroddi Hebreaidd ganddo, fel yr efengylwyr eraill, etto bernir fod ei iaith yn Roeg mwy pur na'r lleill, a chyfansoddiad ei hanes yn fwy celfyddgar. Y mae yr Ysbryd Glân wedi amrywio doniau ei weision yn rhyfedd, i ateb dybenion mawrion; ond am fod yn gwbl rydd oddiwrth y dull Hebreaidd o ymadroddi, nid yw hyny yn ymddangos i mi yn bosibl, oddiwrth natur y pethau y mae yr efengylwyr yn ysgrifenu am danynt. Y mae iaith pob un yn gyfryw ag oedd yr Ysbryd Glân yn gweled yn fwyaf addas.

Coffêir gan Luc am amrywiol o bethau nad ydynt yn yr Efengylau eraill—megys am amgylchiadau genedigaeth Ioan Fedyddiwr, a llawer o bethau perthynol i enedigaeth Crist; sef yr achlysur o fod Joseph y pryd hwnw yn Bethlehem; gweledigaeth y bugeiliaid; tystiolaeth Simeon ac Anna am dano; Crist yn ymresymu â'r Doctoriaid yn y deml; ei oedran pan ddechreuodd weinidogaethu yn gyhoeddus, a'r amser, yn ol blwyddyn teyrnasiad yr ymerawdwr Rhufeinaidd. Rhydd hefyd hanes am lawer o wyrthiau, nad ydynt wedi eu coffâu gan y lleill; megys tröedigaeth Zaccheus y publican; iachâd y wraig oedd wedi ei rhwymo gan Satan ddeunaw mlynedd; a'r gŵr â'r dyferlif arno; glanhau y deg gwahan-gleifion; ei wrthodiad gan y Samariaid, a'r cerydd a gafodd y dysgyblion ganddo, am chwennych dial ar yr achos; a'i ymddyddan naws aidd gyd â'r ddau ddysgybl wrth fyned tu ag Emmaus. Y mae amryw o ddammegion Crist yn cael eu hadrodd ganddo, nad ydynt yn y lleill; megys am y Samaritan—Lazarus a'r gŵr goludog—y ddau ddyledwr i'r un echwynwr—y weddw daer—y Pharisead a'r Publican—y mab afradlon—y ffigysbren ddiffrwyth, &c. Am y rhan ddiweddaf o'i fywyd a'i farwolaeth, nid oes dim hanes.

LUCIFFER, *Llad.* LUCIFER. Yn seryddiaethol, arwydda y seren foreu; y blaned *Venus* pan y byddo yn weledig yn y boreu cyn codiad yr haul: y fwyaf llewyrchus o'r holl blanedau.

'Pa fodd y syrthiaist o'r nefoedd, Luciffer, mab y wawr-ddydd?' Esa. 14. 12. Arwydda y gair *Heb.* הילל *pelydru yn oleu, dysgleirio.* הילל בן סהר *dysgleirdeb mab y wawr*, a arwyddant yr un peth a'r 'seren foreu eglur,' Dat. 22. 16. a briodolir i fater arall. Nebuchodonosor, brenin Babilon, y dysgleiriaf

Digitized by Google

o freninoedd y ddaear, a feddylir wrth y geiriau yn Esaiah, yn ol meddwl cyffredinol y beirniaid. Er gwyched a dysgleiried oedd mewn cyfoeth a mawredd daearol, syrthiodd o'i nefoedd trwy farn Duw arno. Cyffelybir yn aml yn y prophwydi, bendefigion, gwŷr mawrion, breninoedd, &c., i sêr, haul, lleuad:—a'u darostyngiad a ddarlunir wrth sêr yn syrthio, yn peidio rhoddi eu llewyrch, &c. Esa. 13. 10. Dat. 6. 13. a 8. 10. a 9. 1. Oddiwrth gau olygiad ar y geiriau hyn, geiriau Satan Luciffer.

LUCIUS, Λουκιος [*goleuni*, o'r *Lladin*, Lux]—1. Lucius o Cyrene, prophwyd, neu athraw yn yr eglwys yn Antiochia. Act. 13. 1.——2. Un o'r rhai a eilw Paul ei geraint, am eu bod yn Iuddewon, tebygol. Rhuf. 16. 21. Mae rhai yn barnu mai yr un yw a'r efengylwr Luc, a bod Paul yn ei alw Lucius, yn ol y dull Rhufeinaidd, fel y geilw Silas *Silfanus*. Gwel Macknight.

LUD, לוּד [*cenedliad*] pedwerydd mab Sem. Gen. 10. 22. Cyfanneddodd ei hiliogaeth, yn ol y farn gyffredin, Lydia, yn Asia Leiaf.

LUDIM, hiliogaeth LUD, mab Misraim, ac ŵyr Cam. Gen. 10. 13. Preswyliasant yn Lydia yn Affric. Cofféir am y Ludiaid a'r Ethiopiaid gyd â'u gilydd. Jer. 46. 9. Esa. 66. 19. Ezec. 27. 10. a 30. 5.

LUHITH, enw dinas neu le yn ngwlad Moab—'Mewn wylofain y dringant hyd allt (neu riw) Luhith.' Esa. 15. 5. Jer 48. 5.

LUZ, לוּז [*neillduad*] 1. Dinas a alwyd gan Jacob, Bethel.——2. Dinas yr Hethiaid. Gen. 28. 19. Barn. 1. 23, 26.

LYBIA, gwlad ëang o du y gorllewin i'r Aipht. Edr. LEHABIM. Yr oedd Iuddewon o Lybia yn Jerusalem ar y Pentecost, yn mhlith y rhai a argyhoeddwyd dan bregeth Petr; ac a ddygasant Gristionogrwydd gyda hwynt i'r wlad hòno, lle y blagurodd dros rai oesoedd. Dros 2000 o flynyddoedd y mae y wlad hon wedi bod yn ddarostyngedig i'r Groegiaid, y Rhufeiniaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid, olynol, ac wedi ei gorthrymu yn dost. Dros 1200 o flynyddoedd a aethant heibio, nid oes dim hanes am Gristionogrwydd yno.

LYCAONIA, *Gr.* Λυκαονια, talaeth yn Asia Leiaf. Dinasoedd yn y wlad hon oedd Lystra, Derbe, ac Iconium. Planwyd eglwysi Cristionogol ynddi yn foreu gan Paul a Barnabas; ond dinystriwyd gweddill Cristionogrwydd yno, pan oresgynodd y Saraceniaid y wlad. Iaith y Lycaoniaid oedd tafodiaith Groeg, cymysgedig â Syriaeg, yn ol Paul Ernest Jablouski, Grotius, Calmet, &c. Act. 14. 6—11.

LYCIA, Λυκια, talaeth yn Asia Leiaf, yn cynnwys tair ar ddeg ar hugain o ddinasoedd; y penaf o ba rai oeddynt Telmessus, Patara, Myra, Olympus, a Phaselis. Actau 27. 5.

LYDA, Λυδδη, yr un a Lod, a adeiladwyd gan Samed mab Elpaal; ac yr oedd yn sefyll 14 o filltiroedd gogledd-ddwyrain o Joppa, a 32 i'r gorllewin o Jerusalem. Yr oedd yn perthyn i'r Ephraimiaid; ond wedi y caethiwed y Benjaminiaid a drigasant ynddi. Yma yr iachaodd Petr Eneas o'r parlys. Edr. ENEAS. 1 Cron. 8. 12. Neh. 11. 35. Act. 9. 35. Bu ynddi eglwys Gristionogol, nes i'r Saraceniaid gwïalen Duw ar y gwledydd dwyreiniol, ddystrywio y cwbl. Bu ynddi athrofa enwog gan yr Iuddewon, yn yr hon y dygwyd i fynu lawer o ddoctoriaid enwog yn eu plith. Yn mhlith eraill, yno y bu Akib, Gamaliel, Jaspho, Trypho, &c. yn enwog.

LYDIA, *Gr.* Λυδια, gwraig enedigol o Thyatira, ond oedd yn gwerthu y lliw porphor, neu sidan wedi ei liwio yn borphor, yn Philippi, yn Macedonia: 'yr hon oedd yn addoli Duw:' sef yn broselyt i'r grefydd Iuddewig: ac fel Cornelius, yn addoli Duw yn ol y grefydd hòno; ond heb adnabod Iesu o Nazareth, fel y gwir Fessïah. Wrth wrando ar Paul, agorodd Duw ei chalon i ddal ar y pethau a lefarid ganddo; a chafodd hi a'i theulu eu bedyddio ganddo. Ar ei dymuniad, Paul a lettyodd yn ei thŷ. Act. 16. 14, 15, 40. Edr. LUD.

LYGUR, *Gr.* λιγυριο; *Llad.* LIGURIOS; *Saes.* LIGURE. Maen gwerthfawr, a'r cyntaf yn y drydedd res yn nwyfroneg yr arch-offeiriad. Theophrastus a Pliny a ddesgrifiant y lygur, fel maen tebyg i'r carbuncl, yn ddysglaer, ac yn gwreichioni yn goch danllyd. Dywed Calmet, a Chambers ar ei ol, fod enw *Duw* (*the name of God*, tebygol, yn lle *Gad*) wedi ei naddu arno: dywed Brown fod enw Gad arno: ond yn ol Maimonides, y *Jerusalem Targum*, a'r *Chaldee Paraphrast*, enw Dan oedd arno, Exod. 28. 19. a 39. 12.

LYSANIAS. Λυσανιας, tetrarch Abilene, pan ddechreuodd Ioan Fedyddiwr ei weinidogaeth gyhoeddus. Luc 3. 1.

LYSARD, *Saes.* LIZARD, CHAMELION; madfall, budrychwil, budr-chwilen, ethrychwil, creadur tebyg i'r genau goeg.—'A'r lysard.' Lef 11. 30. *Heb.* כח *cryf*, *egni*. Y mae y rhyw hyn o greaduriaid yn bur adnabyddus yn ngwledydd y dwyrain, ac a elwir gan yr Arabiaid *Alwarlo*; y maent yn nodedig am eu hegni grymus i ddinystrio seirph, a *dhabs* (rhyw arall). Gwel Bochart, *vol.* ii. Dr. Shaw's *Travels*. Yr oeddynt yn aflan dan y gyfraith.

LYSTRA, Λυστρα [*dattod*] 'dinas yn Lycaonia, lle genedigol Timotheus.' Bu Paul a Barnabas yma yn pregethu, a chynnygiwyd addoliad iddynt gan y Paganiaid tywyll. Act. 14. 6—18. a 16. 1.

# LL

LLABYDDIO, (llab) baeddu â meini. Yr oedd llabyddio yn gospedigaeth gyffredin yn mhlith yr Iuddewon; ac ar bob achos, meddant, na byddai y gospedigaeth yn cael ei henwi. Lef. 20. 2. a 24. 16. Jos. 7. 25. Mat. 21. 35. a 23. 37. Ioan 8. 5. a 10. 32. a 11. 8. Act. 7. 58.

LLADIN, *Latina lingua.* Yr iaith Lladin oedd iaith yr hen Rufeiniaid, a arferid gyntaf yn Latium, o ba le y cafodd yr enw Lladin, ac wedi hyny yn Rhufain. Nid gwreiddiol mo honi, ond cymysgedd o iaith y Groegiaid, yr Etrusci, a'r Osci, hen drigolion Italia. Mae yn iaith helaeth, gref, nerthol; yn dra addas i dymher a chynneddfau yr hen Rufeiniaid. Nid ydyw yn bresennol yn arferedig, ond gan y dysgedigion, a chan Eglwys Rhufain yn ei gwasanaeth. Cymysgedd llygredig o honi yw y rhan fwyaf o ieithoedd Ewrop.

LLADMERYDD—IAETH, (llad-merydd) dehonglwr, dyddiwr, cyfryngwr, cyflafareddwr. Edr. ANGEL.—'Ac y arall ladmerieth tavodeu.' 1 Cor. 10. 12 'A ydyw pawp yn *medry* latimeru?' Adn. 30. 'Na does vn proffedoliaeth yn yr scrythyr ac iddi ladmeriaeth neilltuol.' 2 Petr 1. 20. W. S.

LLADRAD—RON—TA, [*llad-rhad*, Q.D. *donum*

Digitized by Google

henuriaid, a barnwyr y ddinas nesaf at y marw, i ymddiheuro oddiwrth lofruddiaeth, heb wybod pwy a'i gwnaeth, trwy gymeryd anner ni weithiwyd â hi, a'i dwyn i ddyffryn garw, a'i thorfynyglu yno, a golchi eu dwylaw uwch ben yr anner, a dywedyd, 'Ni thywalltodd ein dwylaw ni y gwaed hwn, ac nis gweledodd ein llygaid. Trugarha wrth dy bobl Israel, y rhai a waredaist, O Arglwydd, ac na ddyro waed gwirion yn erbyn dy bobl Israel; a maddeuir y gwaed iddynt hwy.' Deut. 21. 1—8. Yr oedd y ddefod hon yn dangos echryslonrwydd y pechod yn ngolwg Duw, a'r modd y dylem ei ffieiddio, a dychrynu rhag dialedd Duw o'i blegid.

**LLAES—U**, (lly-aes) hir, llac; hir hyd y fferau a'r sodlau; rhydd; ymollwng, methu, diffrwytho, pallu, lliprynu. Llaesu dwylaw, yw ymollwng, gwanhau, digaloni. Llaesu bâr, yw toliaw bâr, neu dadddigio.—'Llaesodd y dydd.' Barn. 19. 9. רפת היום *ymollyngodd y dydd*, i roddi lle i'r hwyr. Ησθενησεν εις την εσπεραν, *gwanhaodd y dydd i'r hwyr*. LXX. Remisit. Mont. *a roddodd le i'r hwyr*.

'Gwedi ymwisgo â gwisg laes hyd ei draed.' Dat. 1. 13. *Gr.* ποδηρης. Yr un gair ag a arferir gan y LXX. am fantell yr ephod, yn Exod. 28. 4. Josephus, *lib.* iii. *cap.* 7. *s.* 4. Arwisg ydoedd, yn cyrhaedd hyd at y traed. Desgrifiad *cyfriniol* yw o'r Arglwydd, tebyg i'r hwn a geir yn Ezec. 1. 27. a Dan. 7. 9, 10. a 10. 5.

'Ac ni ollyngant eu gwallt yn llaes.' Ezec. 44 20. Nid oes iddynt eillio eu penau, na gollwng eu gwallt yn llaes, ond talgrynu eu penau. Tebygol fod y geiriau yn cyfeirio at ryw ddefodau coel-grefyddol, arferedig gan y cenedloedd yn eu haddoliadau eilun-addolgar. Yr oedd yr offeiriaid, yn mhob peth, i ymddangos yn syml, ac yn weddaidd, ac nid yn ferchedaidd, yn fasw, nac yn goel-grefyddol. Deut. 14. 1. Lef. 21. 5. Num. 6. 6.

**LLAETH**, (lly-aeth) *Heb.* חלב, *Gr.* γαλα; *Llad.* Lac: blith. Er gwahaniaethu, arferir llaeth llefrith—llaeth enwyn, neu enwyn—llaeth crych—llaeth cadw—llaeth sur—llaeth brith—llaeth mysg—llaeth tòr.

*Llaeth* ac ŷd, goreuon byd. *Diar.*

Sudd, neu nôdd gwyn yw llaeth, a drefnir gan y Creawdwr mawr yn mronau gwragedd, ac yn mhiwod anifeiliaid, er rhoddi magwriaeth i'w rhai bychain. Yn ol barn y naturiaethwyr diweddaraf, ffurfir y llaeth, nid o'r gwaed, ond o'r caul pur (*chyle*) yr hwn a ddygir trwy redwelïau i'r bronau, ac a hidlir trwy y cilchwyrnau hyny, heb oddef nemawr o gyfnewidiad. Mae y llaeth yn cynnwys tri pheth gwahanol, sef yr ymenyn, y caws, a'r maidd. Y rhan ymenynaidd o hono yw yr hufen, a'r sudd olewaidd, yn nofio ar y wyneb; y rhan gawsaidd sydd frasach, ac sydd yn ceulo i'w wneyd yn gaws; y rhan arall sydd ddwfr-nawsaidd, ac sydd yn gwasanaethu fel cludiedydd i'r ddau eraill.—Ceir llaeth yn mronau gwraig wedi yn nghylch pedwar mis o feichiogiad.

Y mae holl drefniad y llaeth yn y creaduriaid yn dra rhyfedd. Yn gyntaf, y mae rhinwedd magwriaethol y gwlybwr yn beth rhyfedd: yn annhebyg yn hyn i bob nôdd arall yn y corph; ac yn annynwaredol etto gan neb; ni fedrodd neb, trwy unrhyw ddyfais o gogyniaeth, neu fferylliaeth, wneuthur llaeth o laswellt. Yn ail, cawn y llestr i'w dderbyn a'i gadw; ac yn drydydd, y rhydweli i'w arloesi; ac yn bedwerydd, cyfeiriad y llaeth i'r llestr, yn yr amser neillduol y mae tebygolrwydd y bydd angen am dano. Y mae y peth diweddaf yn neillduol i sylwi arno, gan fod y fam yn gofyn mwy cynnaliaeth, fel y mae ei beichiogrwydd yn cynnyddu; annhebyg iawn, yn ol pob rheswm, y buasai gormodedd ynddi i lenwi y llestr llaeth. Rhyfeddod parhaus yw yr holl drefn, ac yn dangos bwriad blaenorol, a gweithrediad dwyfol, yn y cwbl. Yn yr amser mwyaf annhebyg o ran y fam, y mae helaethrwydd yn cael ei barotoi i fagwriaeth y plentyn.

Y mae y llaeth yn cyfranogi o natur yr hyn y mae y fam yn ymborthi arno, o ran ei liw, ei archwaeth, a'i effeithiau. Mae effeithiau carthedigol a brwysgol rhai pethau yn cael eu rhoddi gyd â'r llaeth o'r fam i'r plentyn: am hyny y mae yn ddyledus ar bob mammaeth fod yn ofalus, ac yn ddichlynaidd, o ran iechyd y plentyn, am gyfranogi o fwyd a diod a fyddo yn iachus ac yn faethlon. Llaeth wedi llygru yn y cylla sydd yn peri agos bob anhwyl ar blant. Meddyginiaeth ragorol rhagddo, medd Celsus a Dobel, yw rhoddi iddynt ychydig ddwfr a halen, i beri iddynt gyfogi.

Byw yn gymedrol, ac ar fwydydd cyffredin, iachus, a pheidio eistedd gormod, na rhoddi lle i nwydau cynhyrfus, pechadurus, yw y ffordd oreu i gael llaeth iachus. Dylid ymgadw oddiwrth bob peth anhawdd i'r cylla ei dreulio; megys cig hallt, pob peth sur, a gwyntog; canys er, hwyrach, na effeithiant lawer ar y fam, y maent yn sicr o fagu afiechyd yn y plentyn. Dyfroedd poethion, gwin, &c., sydd niweidiol, ac yn peri llawer o afiechyd; megys dirdyniad yn y corph (*convulsions*) ac amryw glefydau eraill.

Y mae llaeth yn lluniaeth maethlon wedi ei barotoi eisoes yn fagwriaeth i'r corph, heb barotoad trwy weithrediadau llestri tufewnol y corph. Rhaid i bob ymborth gael ei droi yn gaul, cyn y byddo yn faeth i'r corph: ond mae llaeth felly yn barod.

Y mae llaeth rhai rhywiau creaduriaid yn fwy maethlon na'u gilydd; ac felly hefyd mae llaeth rhai o'r un rhyw yn rhagori ar eu gilydd. Cyfrifir llaeth yr asen a'r afr yn feddyginiaethol mewn darfodedigaeth: ond nid yr un fath y cytuna llaeth â phob cylla; y mae nôdd sur mewn rhai, yn ei geulo yn y cylla, ac yn ei wneuthur yn afiach; ond gellir rhagflaenu hyn trwy gymysgu â'r llaeth lwch cregynaidd, megys llwch cregyn llymarchiaid (*oyster shells*) yr hwn sydd lwch â rhinwedd mawr ynddo rhag surni yn y cylla. Dywed y Dr. Cheyne, mai llaeth a bwyd a wneir o amryw hadau, a dwfr yn ddiod, yw yr ymborth goreu o bob peth i ragflaenu afiechyd, ac i feddyginiaethu o hono.

Rhydd Aristotle hanes am rai gwŷr â llaeth ganddynt yn eu bronau: dywed Cardan iddo weled un a digon o laeth ganddo i sugno plentyn. Rhoddir hanes yn y *Philosophical Transactions* am lwdn dafad a ddaeth i laeth trwy sugniad oen, a chafodd yr oen fagwriaeth ganddo hyd amser ddiddyfnu.

Sylwa naturiaethwyr yn neillduol ar ddoethineb a gofal mawr y Creawdwr yn nghyflead y llestri llaethog, yn yr amrywiol greaduriaid, fel y byddent yn fwyaf addas i'r ieuainc i'w sugno; ac hefyd eu nifer, yn cyfateb i rifedi mwy neu lai a eppiliai y creadur ar unwaith. Mae i wraig ddau lestr, wedi eu cyfleu yn y fan mwyaf addas ar y corph, o ran y fam a'r plentyn; a'u rhifedi yn fwy nag un, rhag byddai gefeilliaid, neu gallai rhyw afiechyd fod ar un. Anifeiliaid sydd yn rhoddi sugn yn eu sefyll, sydd â'r llestr llaeth rhwng eu cluniau ôl, yn gyfleus i'r fam, ac hefyd i'r llwdn, gan y dichon sefyll ar ei draed newydd ei fwrw; megys y fuwch, yr asen, y gaseg, &c. Y rhai sydd yn rhoddi sugn yn eu gorwedd, mae ganddynt y llestri llaethog ar hyd eu eu bolian; megys y cwningod, llewesau, arthesau, &c. Y mae didenau yr elephantes yn agos i'w mynwes, gan fod yn rhaid i'r fam sugno ei hun, ac â'i duryn yn gweini y llaeth i'w llwdn. *Phil. Trans. No.* 336. Pliny, *lib.* ii. *cap.* 40. Blas. *Anat Anim. part.* i. c. 6.

'Na ferwa fyn yn llaeth ei fam.' Exod. 23. 19. a 34. 26. Deut. 14. 21. Diar. 12. 10. Jer. 10. 2. Tebyg fod hyn yn arferiad llygredig, coel-grefyddol, yn mhlith y cenedloedd; hefyd, trwy y gwaharddiad

Digitized by Google

hwn, y mae yr Arglwydd yn ein dysgu i beidio arfer creulonder tu ag at greaduriaid, neu wneuthur dim a fyddo yn ymddangos felly: trwy gynnefino âg arferiadau creulon, annaturiol, y mae meddwl dyn yn caledu, ac yn colli pob teimlad tirion, tyner, a thosturiol. Mae y gorchymyn yn dangos hefyd ofal Duw am ei greaduriaid; ïe, y rhai mwyaf gwael a digymhorth, ac yn rhoddi i ni olygiad neillduol o dyner a grasol ar yr Arglwydd. Ni buasai neb yn meddwl am y fath orchymyn, ond efe ei hun.

'Gwlad yn llifeirio o laeth a mêl,' yw gwlad yn yr hon y mae amledd o honynt, ac o bethau gwych a gwerthfawr. Jos. 5. 6. Cyffelybir bendithion yr efengyl i laeth, am eu bod yn iachus, yn faethlon, ac yn llawn o ddyddanwch, a chysuron ysbrydol. Esa. 55. 1. Felly hefyd y cyffelybir gwirioneddau dygymysg y gair i laeth, yn enwedig y gwirioneddau mwyaf eglur a hawdd eu deall; am eu bod fel llaeth, yn iachus, yn gynnaliaethol, ac yn gwbl addas i blant bychain yn Nghrist, i beri iddynt gynnyddu mewn gwybodaeth, grym ysbrydol, a sancteiddrwydd. 1 Petr 2. 2. Heb. 5. 12. 1 Cor. 3. 2.

'Mêl a llaeth dan dafod yr eglwys,' sydd yn arwyddo ei hymadroddion hyfryd, melus, ac adeiladol. Y mae yn ymborthi ar wirioneddau yr efengyl, trwy ffydd yn ei chalon; mae yn myfyrio arnynt fel un yn troi melus-fwyd yn ei enau: ac mae yn barod, ar bob achlysuron i ymadroddi am danynt, er cysur ac adeiladaeth i eraill. Can. 4. 11. Edr. DIDWYLL, GAIR.

LLAFAR, (llaf-ar) llefarog, sôniarus, siaradus, soniawr, dywetgar, rhuadus.

Nac addef rin i *lafar*. *Llywarch Hen.*

Mae y gair רנן (*ranan*), a gyfieithir y rhan amlaf yn y Psalmau, *canu yn llafar*, yn arwyddo, llefain yn uchel, a bloeddio o lawenydd; ysgwyd yn fuan, a bloeddio o lawenydd.* Cyfieithir ef weithiau, *gorfoleddu, bod yn hyfryd o lawenydd*, Ps. lxiii. a 71. 23. Esa. 35. 2. *Croch lefain*, Esa. 12. 6. *bloeddio*, Esa. 16. 10.

LLAFN, (llaf) *Heb.* להב llefnyn, talp, tafell:—llafn o fettel; llafn cleddyf; 'llafn aur;' *Heb.* לשון זהב *tafod aur.* Jos. 7. 21.—'Gloyw lafn,' sef cleddyf gloyw. Job 20. 25. Barn. 3. 22.

LLAFRWYN, (lla-brwyn) cors-frwyn. Exod. 2. 3. Math o gyrs oedd y rhai hyn, a elwir *papyrus*, sydd yn tyfu ar geulanau yr afon Nilus, ac mewn lleoedd corsawg. Yr oedd y cyrs hyn o'r defnyddioldeb mwyaf i'r gwledydd lle yr oeddynt yn tyfu. Yr oedd y buwyn, tu fewn i'r gorsen, yn gwasanaethu yn ymborth iddynt; ac â'r rhan arall gwnaent longau, y rhai a grybwyllir am danynt yn Esa. 18. 2. dan yr enw llestri brwyn.† Mae y cyrs hyn yn tyfu yn bur uchel, a'r paladr yn dri ochrog, a siobyn ar ei ben, fel gwallt. Y cyrs hyn a feddylir yn Job 8. 11. Esa. 35. 7.

LLAFUR—IO—WAITH—WR, (lla-mur) *Llad.* LABOR; *Saes.* LABOUR: três, cysteg; gwaith, gorchwyl; trafferth, helbul, trallod, poen; gwewyr-esgor.

Tair meddyginiaeth Meddygon Myddfai, 'dwfr, mêl, a llafur.'
Ni *lafuria*, ni weddia,
Nid teilwng iddo ei fara. *Diar.*

Y mae llafur yn arwyddo, 1. Gofalu, ymboeni a thrafferthu. Preg 1. 13. a 2. 10—24. Esa. 55. 2. ——2. Ffrwyth llafur. Ps. 105. 44. a 128. 2. Ioan 4. 38.——3. Poen, gofid, tristwch mawr. Esa. 49. 4. 53. 11.——4. Pob trueni, pechodau, gorthrymderau, erlidigaethau. Dat. 14. 13.——5. Ymdrechiadau diwyd, difrifol, a helaeth. 1 Cor. 15. 58. Esa. 65. 23.

'Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, ond am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol.' Ioan 6. 27. 'Na thraveiliwch am a bwyt a gollir, eithyr am y bwyt a bara i fywyd tragywythawl.' W.S. 'Am y bwyd a bery trwy (εις) fywyd tragywyddol.' Campbell. Na lafuriwch yn *unig*; ac hefyd, na lafuriwch yn *benaf*; am hyd yn nod y *bwyd* a dderfydd; er mor angenrheidiol yw, etto y mae pethau tragywyddol yn fwy angenrheidiol. Mat. 6. 33. Nid yw yr Arglwydd Iesu yn gwahardd llafurio, yn ffyddlon ac yn ddiwyd, yn yr alwedigaeth y gosododd Duw bob un; byddai hyn yn groes i ranau eraill o'r gair; ond na lafuriwch yn *unig*, neu yn *benaf*, am y pethau sydd yn darfod; ïe, hyd yn nod y pethau mwyaf angenrheidiol, megys bwyd, yr hwn ni ellir byw hebddo. Y bwyd a bery *i*, neu a bery *trwy* fywyd tragywyddol, yw holl gyflawnder yr iechydwriaeth yn Nghrist, sydd yn ymgeledd gyflawn i enaid pechadur. Bwyd, bara yw efe yn gyflawn; y mae yn angenrheidiol, yn addas, yn gynnaliaethol, yn ddigonol, fel bwyd, neu fara. Edr. BARA. Nid oes neb a'i meddianna heb lafurio am dano; yr hyn a arwydda deimlad o angen am dano, a'r angenrheidrwydd anhebgorol o hono; crediniaeth nad oes dim arall a achub ein bywyd ond efe; ymgais difrifol yn ffordd Duw am ei feddiannu; a pharodrwydd i ymwrthod â phob peth mewn cymhariaeth iddo. Os na bydd yn beth *penaf* yn ein golwg, nid ydym byth yn debygol o'i feddiannu.

'A'm Tad yw y llafurwr.' 'Llafur-waith Duw ydych chwi.' Ioan 15. 1. 1 Cor. 3. 9. 'Llafur-waith,' γεωργιον, *maes*, neu *faes wedi ei ddiwyllio.* Gwel Diar. 24. 30. a 31. 16. LXX. Y mae dynion yn eu cyflwr wrth naturiaeth yn debyg i goed, neu dir diffrwyth, diffaeth; maent yn ymddifad o hâd ffrwythau da, a phethau yn tyfu ynddynt, ac yn glynu wrthynt, sydd yn eu diffrwytho: yn y cyflwr diffaeth hwn maent yn sicr o bara, a bod yn golledig, o'u rhan eu hunain: nid oes neb ond Duw a ddichon eu hamaethu, eu harloesi, eu glanhau, a'u gwneuthur yn ffrwythlon. 'Llafur-waith Duw,' yw ei eglwys: ni buasai yn eglwys, oni buasai iddo ef ei gwneuthur felly trwy yr efengyl. Y mae yn ei chau, yn ei neillduo oddiwrth y byd, yn hau hâd da ynddi, yn difa y chwyn, ac yn ei glanhau; yn ei hamddiffyn, yn ymhyfrydu ynddi, ac yn ei llwyddiant. Fel 'llafurwr,' y mae yn rasol, yn alluog, yn amyneddgar, yn ofalus, ac yn peri i bob peth gyd-weithio er ei daioni a'i llwyddiant yn y diwedd. Gan mai Duw yw y llafurwr, ni ddichon na lwydda ei lafur-waith, er a allo gelynion wneuthur i'w dyfetha: bydd ei ffrwythau yn hardd, yn beraidd, ac o dragywyddol barhad—hyfrydwch Duw fydd hi byth. Y mae y gyffelybiaeth yn cael helaethu arni yn hardd ac yn odidog gan y prophwyd Esaiah. Pen. 28. 23—29. Y mae yr holl driniaethau o amrywiol fath ar yr eglwys, 'oddiwrth Arglwydd y lluoedd, yr hwn sydd ryfedd yn ei gynghor, ac ardderchog yn ei waith,' mewn perthynas iddi. Gwel Lowth.

'Llafur eich cariad—llafurus gariad.' 1 Thes. 1. 3. Heb. 6. 10. Peth llafurus yw cariad, lle y mae yn wirioneddol; y mae yn llafurus am fwynhau gwrthddrych y serch, am ei foddhau a'i anrhydeddu. Nid oes neb yn caru ond y gwrthddrychau sydd yn ymddangos iddynt yn hawddgar, yn ddymunol, ac yn werthfawr. Y mae cariad Crist a'r efengyl 'yn peri na hyddom na segur na diffrwyth yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.' Y mae llafur cariad yn llafur mwy goruchel a rhagorol na llafur am gyflog. Mae cariad yn llafurio yn ewyllysgar, yn hyfryd, yn ddiflino, yn ddiderfynau, ac yn ddiammodau. Nid oes un terfyn i'r llafur, ond y gradd y byddo un yn caru,

* Exclamavit ex latitia, et plerumque ovationis et acclamationis, gratulandi causa. Kircher.

† Mae Pliny yn coffâu am 'Naves papyraceas armamentaque Nili,' *lib.* vi., *cap.* 16.—Dywed yn *lib.* xiii., *cap.* 11. 'Ex ipso quidem papyro navigia texunt.'—Lucan a ddywed, *lib.* iv. *lin.* 136., 'Conseritur bibula Memphitis cymba papyro.'

Digitized by Google

ac yn gallu. Am fod cariad Crist mor fawr, a'i allu yn anfeidrol, yn cyd-raddu a'i gariad, y llafuriodd mor ewyllysgar, mor ddiflino, a diderfynau, yn achos ei eglwys, gwrthddrych ei gariad. Am fod ei gariad yn parhau, y mae yntau yn parhau yn ei lafur a'i ofal am dani. Lle byddo y llafur yn fychan dros Dduw, y mae y cariad yn fychan tu ag ato; y mae y llafur yn cyfateb i'r cariad a'r gallu. 'Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth,' medd Crist am Mair; yr hyn oedd ddangosiad eglur fod ei chariad yn fawr; pe buasai yn gallu mwy, hi a wnaethai fwy; nid oedd dim diffyg yn ei chariad.

**LLAI,** (lly-ai) *Gr.* ελασσων, bychan, ychydig; arferir ef y rhan amlaf yn gydmariaethol, yn lle *lleiach;* sef mewn gradd llai.

A wyr *leiaf* a wed fwyaf. *Diar.*

'Yn llai na dim.' Esa. 40. 17. Nid oes dim yn natur yn llai na dim; etto dichon dynion fod o ran eu cyflyrau yn ysbrydol, yn llai na dim ger bron Duw; nid yn unig heb ddim o'u plaid, ond â llawer o bethau yn eu herbyn. Felly yr oedd yr holl genedloedd ger bron Duw; er eu holl ddoethineb, a'u rhinweddau, yr oeddynt heb un cyfiawnder i'w cyfiawnhau ger ei fron; ïe, yn llai na dim, sef yn llawn o bob anghyfiawnder.

'Llai na'r lleiaf o'r holl saint.' Eph. 3. 8. Dull anghyffredin o ymadroddi, a arferir gan yr apostol i fynegi ei feddyliau isel a gwael am dano ei hun. 'Myfi yw y lleiaf o'r apostolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw.' 1 Cor. 15. 9 Y mae gwir oleuni Duw yn y meddwl yn peri i ni adnabod pethau yn gywir yn ol y gair; ac yna y mae Duw yn ymddangos yn anfeidrol fawr a gogoneddus, a ninnau yn ymddangos yn ddiddim ger ei fron, ac yn waelach na phawb eraill, am fod yn addas i ni ffieiddio ein hunain, a'n pechodau ein hunain, yn fwy na'r eiddo eraill. 1 Tim. 1. 13, 15.

**LLAID,** (llai) plwca, budreddi, pridd, tom, clai Esa. 57. 20. Edr. DYGYFOR.

**LLAIF, LLEIFION,** (lla-if) gwellaif, ellyn.— 'Pan ddysclaerio gwaewffon nau laif.' Job 39. 23. a 41. 26. Dr. M. Arwydda y gair *Heb.* בירון *picell* a deflid â llaw. Gwahaniaethir ef oddiwrth y waywffon a'r darian. Gwel 1 Sam. 17. 6, 7. Cyfieithir ef y rhan amlaf, *gwaywffon.* Jos. 8. 18. Jer. 6. 23. a 50. 42. Yn anaddas y cyfieithir ef *llurig* yn Job 41. 26. canys arf i ymddiffyn ydyw hwnw, ond arfau i niweidio y sonir yno am danynt.

**LLAIN,** (lla-in) llinell, gowni, darn. Mat. 9. 16. Luc 5. 36. Edr. BRETHYN, DILLEDYN.

**LLAIS,** (lly-ais) llef, lleferydd, sŵn, sain.

Digrif gan bob aderyn ei *lais.* *Diar.*

Llais yw y sŵn a wneir gan unrhyw aderyn yn y goslef a'r genau. Mae dau fath o lais; sef llafaredig, ac anllafaredig. Llais llafaredig, yw cyfundeb sain i wneyd llythyrenau, sillau, a geiriau. Yr anllafaredig, yw sŵn aneglur a wneir gan anifeiliaid direswm, megys cyfarth cŵn, rhuad llewod, caniad adar, &c.

Y mae ffurfiad llais dynol, ynghyd â'r holl beirianau angenrheidiol i hyny, hefyd yr holl amrywiaeth lleisiau, cerddoriaeth, &c., yn mhlith y rhyfeddodau perthynol i waith y Creawdwr mawr. Y mae wynebau, lleisiau, ac ysgrifen-law pawb yn dra gwahanol i'w gilydd: nid oes, ni bu, ac ni bydd, un dau yn gwbl yr un fath a'u gilydd. Y mae dynion i'w hadnabod wrth y wynebpryd yn y goleuni, ac wrth eu lleisau yn y tywyllwch, ac wrth eu hysgrifen-law yn eu habsennoldeb, ac ar ol eu marwolaeth. Peiriannau llais yw y *trachea,* neu y corn-chwyth; trwy ba un y mae y gwynt yn myned yn ol ac yn mlaen i, ac o'r ysgyfain; y *larynx,* math o lestr byr, crwngeuol, wrth ben y *trachea;* a'r *glottis,* math o le agored rhwng dau gyhyr, hanner crwn, wedi eu hestyn yn wastad, oddifewn y *larynx.* Mae y cyhyrau bychain hyn yn addas i ymuno â'u gilydd, ond y maent yn gyffredinol yn gadael lle agored mwy neu lai rhyngddynt. Trwy ddynesiad, neu bellhad y cyhyrau hyn, yn fwy neu yn llai, y mae achosiad holl amrywiaeth lleisiau, a phob gwahanol sain. Er nad ydyw yr agoriad a elwir y *glottis,* ddim yn ei dryfesur dros y ddegfed ran o fodfedd, etto rhaid ei ranu yn 9632 o ranau i beri holl amrywiaeth sain cerddoriaeth. Nis gellir amrywio y sain mewn un gradd, heb radd cyfatebol o gyfnewidiad yn y *glottis,* trwy bellhad neu neshad y cyhyrau rhag-ddywededig. Nid oes dim i'w gydmaru â'r cyfryw gywreinrwydd, ond manylrwydd rhyfedd y glust, yn abl gwahaniaethu yr holl amrywiaeth seiniau hyn. Y mae taflod y genau, a'r trwyn hefyd, yn gynnorthwyol tu ag at iawn sain y llais, fel y gellir barnu pan fyddo y ffroenau yn gauedig. Heblaw ffurfiad rhyfedd cyhyrau bychain y *glottis,* diammeu fod y *trachea* a'r *larynx* wedi eu haddasu yn gwbl i gyd-weithredu â chyhyrau y *glottis* i achosi holl amrywiol leisiau. Dywed Bonnet, fod i'r adar ddarpariad yn y pen isaf i'r *trachea,* neu y cornchwyth, tu ag at gyweiriad a chynghaneddiad eu sain nodau. Bol-lafarwr (*ventriloquist*) gan hyny, yw pob aderyn cynghaneddawl. Gwel *Cyclopædia,* Dr. Paley's *Natural Theology.*

Llais Duw yw un peth trwy ba un yr hysbysa Duw ei hun, ei feddwl, a'i ewyllys, i ddynion. Gen. 3. 8. Exod. 15. 26.

Llais Crist yw yr efengyl, a dylanwadau ei Ysbryd ar ddynion trwy yr efengyl, sydd yn hysbysu iddynt ei drefn, ei ras, a'i drugaredd, yn eu hachubiaeth. Can. 2. 8—21. Ioan 10. 4. Y mae llais Crist wrth ei bobl, yn gwbl wahanol oddiwrth bob llais arall, ac y mae ei bobl yn adnabod ei lais yn eglur, yn neillduol, ac yn sicr. Nid oes un athrawiaeth yn debyg i'r efengyl, yr hon yw llais Crist; llais dyeithriaid i Grist yw pob athrawiaeth arall; ond nid yw defaid Crist yn gwrando arni.

Wrth y lleisiau yn y Dadguddiad, oedd yn dyfod allan o'r orsedd-faine, y mae i ni ddeall, 1. Rhyw ddygwyddiadau rhagluniaethol ag oeddynt yn deffro ac yn dychrynu y byd. Yr oeddynt yn dyfod o'r *orsedd-faine;* am hyny yn gwbl o drefniad, a than olygiad yr Arglwydd, i ateb dybenion y goruchel.——2. Neu ynte, pregethiad cyffredinol yr efengyl yn y byd, trwy yr hyn yr oedd meddwl Duw yn cael ei hysbysu i ddynion. Arferir y gair lleisiau, yn y rhif liosog, i arwyddo y byddai amrywiol offerynau yn cael eu defnyddio gan Dduw i hyny, i gyd yn cyhoeddi yr un athrawiaeth.——3. Neu ynte gorfoledd, a mawl hyfryd, uchel, yr eglwys, am yr efengyl, ei gwaredigaethau, a dystryw ei gelynion. Dat. 4. 5. a 8. 5—13. a 10. 3. Edr. LLEF.

'Hyfryd-lais.' Edr. ADWAEN.

**LLAM—U,** (lly-am) *Gr.* αλλομαι; *Llad.* SALTARE, SALIRE: naid, darwain; neidio, crych-neidio, llemain. Coffëir am lamu yn aml yn yr ysgrythyrau fel agweddiad corphorol, yn arwyddo y llawenydd a'r gorfoledd mwyaf. Can. 2. 8. Esa. 35. 6. Luc 1. 44. a 6. 23.

'Fy nghalon sydd yn llamu.' Ps. 30. 10. 'Fy nghalon sydd yn cynhyrfu.' Dr. M. סחרחר *yn myned oddi amgylch.*—LXX. εταραχθη.—*Vulg.* conturbatum est, *a gynhyrfwyd, a gythryblwyd.*—*Ffr.* est agite ca et la, *a gynhyrfwyd ffordd hyn a ffordd acw.* Y mae yn arwyddo cyffröad, dyheuad, ac ysgogiadau ansefydlog y galon, gan lesgrwydd, braw, a dychryn.

**LLANC—ES,** (lly-anc) dyn neu ddynes ieuanc; gwerydd. Edr. GWYRYF, IEUANC, TYMPAN.

Digitized by Google

**LLANERCH,** (llan-erch) argae, lle noeth amgauawl mewn dinas neu goed; goleu-fwlch. Enw amryw leoedd yn Nghymru. Y gair גרן *garan*, a gyfieithir *llanerch* yn 1 Bren. 22. 10. 2 Cor. 18. 9. a gyfieithir y rhan amlaf *llawr-dyrnu*. Barn. 6. 37. 2 Sam. 24. 18—25. *at. al.* Tebygol fod llawr-dyrnu wrth ddrws porth Samaria, yn mha un yr eisteddodd y ddau frenin ar eu gorsedd-feinciau i wrando ar y prophwydi.

**LLANW, LLENWI,** (llan) llawnder, llawnaeth, cyflawnder, cyflenwi, cwblhau; llanw y môr.

Po mwyaf y *llanw* mwyaf fydd y trai. *Diar.*

Y mae y ddiareb hon wedi ei chymeryd oddiwrth lanw y môr, yr hwn sydd yn treio fwyaf pan fyddo y llanw fwyaf. Y mae llanw, neu lenwi, yn arwyddo yn aml, gradd mawr o ryw beth; megys trawsedd, gwarth, Ysbryd Duw, moliant a llawenydd, gwybodaeth, &c. Gen. 6. 13. Ps. 81. 6. Act. 2. 2, 4. Eph. 5. 18. Ps. 71. 8. Heb. 2. 14. Edr. y geiriau hyny, a'r gair Cyflawni.

'Hyd pan o Jerusalem, ac o amgylch hyd Ilyricum, y llenwais efengyl Crist.' Rhuf. 15. 19. 'Y gorllenwais o Euangel Christ.' W. S. 'Y cyflawn bregethais, neu y cyhoeddais efengyl Crist.' Macknight. 'Y dygais efengyl Crist.' Vitringa, *Obs. Sacr. lib.* i. *cap.* 5. § 3. Mae rhai yn priodoli y llenwi hwn i gyflawnder yr athrawiaeth, nad adawodd un ran o'r gwirionedd heb ei mynegi. Eraill a briodolant y llenwi i amlder y lleoedd yn y wlad hòno y pregethodd yr apostol ynddynt—llanwodd yr holl wlad o'r efengyl, yn ol cyfieithiad W. S. Eraill etto a briodolant y gair i lïosogrwydd y dynion a ddygwyd i'r ffydd trwy ei bregethiad: *llanwodd* yr efengyl, hyny yw daliodd lïaws. Cyffelybir yr efengyl i rwyd, a llenwi y rhwyd yw dal llawer o bysgod. 2 Tim. 4. 17.

**LLARIAIDD, LLARIEIDD-DRA,** (llar) gwâr, gwareddawg, hynaws, mwyn, addfwyn, llednais, arafaidd, hawdd ei drin, digyffro; hynawsedd, addfwynder, tirionder. Agweddiad meddwl gostyngedig, a phlygedig i ewyllys Duw, ac nid hawdd ganddo gythruddo. Moses oedd y llareiddiaf o'r holl ddynion ar wyneb y ddaear yn ei amser ef; ond yr oedd yr Iesu yn tra rhagori arno yn hyny, iel yn mhob peth ar bawb; ac mae ei holl bobl yn tebygu iddo yn hyn, fel yn mhob peth arall. Num. 12. 3. Zech. 9. 9. Zeph. 2. 3. Esa. 11. 4. a 29. 19. a 61. 1. Edr. Addfwynder.

**LLARPIO,** (llarp) dryllio, difynio, darnio, cigyddio, rhwygo yn ddrylliau. Gen. 37. 33. Ps. 7. 2. a 44. 28. Jer. 15. 3. Hos. 13. 8.

**LLASWYR,** (llas-gwyr) arferir llaswyr yn lle psallwyr, medd y Dr. Davies. Offeryn cerdd tebyg i delyn, ond ei fod yn bereiddiach. Dr. T. Williams.

I ti gân foreu a chân hwyr
Y canant *laswyr* ffyddlon.
*E. Prys,* (Ps. 65. 8.)

**LLATHLUD,** (llath-glud) *Gr.* λαθρως; hudiad, deniad, traws-ddygiad, ymguddio.

I ba le y ffoaf rhag dy ŵydd,
Trwy gael ffordd rydd i *lathlud*.
*E. Prys,* (Ps. 139. 7.)

**LLAU,** (lly-au) pryfed mân â chwech o draed iddynt, sydd yn glynu ac yn ymlusgo ar hyd y rhan fwyaf o anifeiliaid. Cyfrif Linnæus dros ddeugain o rywogaethau o honynt yn glynu wrth wahanol greaduriaid, ar waed pa rai y maent yn byw. Y diffyg o lanweithdra, neu ryw afiechyd, y rhan amlaf, sydd yn peri fod dynion yn cael eu blino ganddynt. Trwy droi y llwch yn llau, rhoddodd Duw bla blin iawn ar ddyn ac anifel trwy holl wlad yr Aipht. Exod. 8. 16. Cryn ddadl sydd pa greaduriaid a feddylir wrth y gair כנים *cinnim*. Y LXX a gyfieithant Σνιπες, *gwibed bychain*. Gelwir hwy yn wibed yn llyfr Doethineb, pen. 19. 10. Yr hen dadau, Origen a Jerome, a ddarllenant gwibed. Y mae math o wibed a elwir *mosquitoes*, yn yr India Ddwyreiniol, a gwledydd poethion eraill, yn peri llawer o flinder i'r trigolion. Ond y mae y dysgedig Bochart, ac eraill, yn profi yn gryf mai llau a feddylir wrth y gair. Beth bynag am hyny, y mae yn eglur nad oeddynt ond lluoedd o greaduriaid bychain a gweiniaid i orchfygu Pharaoh, y dewiniaid, a holl wlad yr Aipht. Nid oedd neb yn gallu dianc rhagddynt, na chael gwared o honynt; a gorfu arnynt waeddi, 'Bys Duw yw hyn.' Yr oedd yn ddirmyg ac yn ddarostyngiad mawr ar Pharaoh i gael ei orchfygu gan bethau mor wael. 'Cryf yw yr hwn sydd yn gwneuthur ei air ef.' Joel 2. 11.

**LLAW,** (lly-aw) llawf, lloflen, adaf, neddair. Y rhif deuawl, dwylaw, a arferir y rhan amlaf, yn lle y rhif llïosog. Llaw egor, haelionus; llaw gauad, cybydd-dod; llaw uchaf, llaw drechaf, buddugoliaethus: dan law, yn ddirgelaidd. 'Talaf it' os daw byth ar fy llaw,' bygythiad dial: talu yn mlaen llaw,' yw talu cyn y byddo yn ddyledus, neu cyn derbyn y peth y telir am dano.

Y mae ffurfiad y llaw yn dra chywrain, ac yn addas ragorol i bob defnydd, ac at bob gorchwyl angenrheidiol i ni wrthi. Y mae yn gynnwysedig o lawer o fân esgyrn, cyhyrau, gewynau, a giau, wedi eu huno a'u rhwymo ynghyd, yn y fath fodd ag i roddi iddi lawer o rym, ac ar yr un pryd lawer o ystwythder a hyblygrwydd, i'w galluogi i afaelyd mewn pethau i'w tynu atom, neu eu gwthio oddi wrthym. Dywedai Anaxagoras, meddaut, fod dyn yn ddyledog i'w law am ei ragoriaeth mewn doethineb a gwybodaeth ar greaduriaid eraill: ond dywedai Galen i'r gwrthwyneb, iddo, gael llaw, am ei fod yn rhagori mewn dealltwriaeth arnynt. Peiriant rheswm a deall yw llaw. *De Usa Part. lib.* iii. *cap.* 3.

Y mae y llaw yn gynnwysedig o dair rhan; sef y *carpus*, yr arddwrn; y *metacarpus*, sef corph y llaw; a'r *digiti*, y bysedd. Y mae holl esgyrn yr arddwrn a'r llaw, wedi eu rhwymo yn gyfleus ac yn gryf, â chyhyrau a gewynau wrth eu gilydd, ac etto, yn ystwyth i oddef pob ysgogiad angenrheidiol. Y mae cyhyr yn perthynu i bob ysgogiad; ac am fod yr ysgogiadau yn llïosog, rhaid fod y cyhyrau yn gyfatebol felly; ac etto, er mor llïosog, nid ydynt yn rhwystr y naill i'r llall, nac yn gwneuthur y llaw yn drom, ac yn amrosgo, a thrwy hyny yn gorph anysgogedig. Y mae cyflead y fraich a'r llaw yn y corph yn neillduol o addas i bob gorchwyl perthynol iddi; ni ddichon neb ddychymygu am un man arall o'r corph mor gyfleus i'w gosod ynddo. Geilw Solomon hwynt 'Ceidwaid y tŷ,' y rhai mewn henaint sydd ddarostyngedig, trwy wendid, i grynu; ac yn mha le yn fwy addas at hyny y gellid eu gosod?

Sylwa Galen yn neillduol ar ddoethineb y Creawdwr, yn wahanol hŷd bysedd y llaw, y rhai ydynt, trwy hyny, yn wastad, wrth ddyrneidio gwlybwr, neu grafangu un peth crwn; a thrwy hyny yn gafaelyd yn gryfach. Gwel Galen, *De Usa Partium.* Aristotle, *De Partibus Animalium.* Cicero, *De Nat. Deor. lib.* ii. *cap.* 6. *Nature Displayed, vol.* v.

Arferir y gair llaw, a dwylaw, yn aml yn gyffelybiaethol yn yr ysgrythyrau. Oddiwrth hyn arferir hi,

1. I arwyddo gallu, awdurdod, gweithrediad, meddiant, llywodraeth, cynnorthwy, cadwraeth, &c. Exod. 5. 21. Diar. 18. 21. Barn. 1. 35. Lef. 5. 7. a 27. 8. Exod. 9. 35. a 35. 29. Gen. 9. 2. Exod. 3. 8. 2 Sam. 9. 8. 2 Sam. 14. 19. 1 Bren. 10. 29. Esther 2. 3. Oddiwrth hyn gwelwn y priodoldeb o estyn, neu ddyrchafu dwylaw mewn gweddi, yn arwyddo ein cydnabyddiaeth o allu, awdurdod, a thrugaredd yn

Digitized by Google

Nuw, a'n taer erfyniad am ei gymhorth. Ps. 44. 21, 22. a 68. 31. a 28. 2. A hefyd yr hen ddefod o dderchafu llaw wrth dyngu. Gen. 14. 22. cymh. Dan. 12. 7. Wrth hyn yr oedd dyn yn cydnabod gallu ac awdurdod yn Nuw, ac yn erfyn arno gospi anudonrwydd; yn ngwaith yr Arglwydd yn gwneuthur hyny, y mae yn cydnabod ei anfeidrol allu ei hun, ei uniondeb a'i sancteiddrwydd. Exod. 6. 8. Num. 14. 30. cymh. Deut. 32. 40.——Y mae derchafu llaw, weithiau, yn arwyddo gorchymyn, gwahodd, neu rhoddi arwydd o ewyllys un. Esa. 49. 22. Yn y golygiad hwn, y mae i ni ddeall, medd Vitringa, y geiriau yn Ezec. 20. 5. ac nid tyngu. *Lifted up mine hands. Saes.* Y mae y cyfieithiad Saesonaeg yn fwy addas, am ei fod air yn air, yn fwy agored, ac yn gadael yr ystyr i'r darllenydd i'w benderfynu.

Mae y llaw yn arwyddo gweinidogaeth, neu weithred weinidogaethol. Act 7. 27. cymh. Act. 14. 3. Gal. 3. 19. Mat. 3. 19. Luc 4. 11. Oddiwrth hyn gwelwn y priodoldeb o osod dwylaw, 1. Wrth iachâu y cleifion, yn arwyddo cyfraniad nerth a gallu iddynt. Marc 6. 5. a 7. 32. a 8. 23, 24, 25. a 16. 18. Act. 28. 8.——2. Yn cyfranu nerth a doniau yr Ysbryd Glân. Act. 8. 17. a 19. 6. 2 Tim. 1. 6. Cymh. Heb. 6. 2.——3. Wrth fendithio yn awdurdodol. Mat. 19. 15. Marc 10. 16. cymh. Gen. 48. 14, 15. ——Yn neillduo ac yn gosod mewn swyddau sanctaidd. Act. 6. 6. a 13. 3. 1 Tim. 4. 14. a 5. 22. Cymh. Num. 27. 18—23. Deut. 34. 9.——Y mae rhoddi llaw, yn arwyddo ymostyngiad, a chydnabyddiaeth fod ei awdurdod ef yn ddarostyngedig i un arall. 1 Cron. 29. 24. Cymh. Ezec. 17. 18. 2 Bren. 10. 35. 2 Cron. 30. 8. Cymh. Jer. 50. 15. Galar. 5. 6.—Weithiau mae yn arwyddo hefyd addaw, addunedu. Ezra 10. 19.

'Er maint fyddo cymhorth y drygionus, ni bydd dieuog.' Diar. 11. 21. a 16. 5. *Saes. Though hand join in hand. Heb.* יד ליד *llaw yn llaw*, hyny yw, trwy roddi fy llaw yn eich llaw yr wyf yn addaw. Ein cyfieithwyr ni a olygent eu bod yn arwyddo *cynghrair;* ond gwell fuasai y cyfieithiad air yn air, a gadael i'r darllenydd farnu yr ystyr.

2. Am fod y dwylaw bob ochr i'r corph, oddiwrth hyn y mae llaw, gerllaw, yn arwyddo ymyl, ochr, cwr, terfyn, cyffin. Exod. 2. 5. 1 Sam. 4. 13—18. Ezec. 40. 1. 'Bydded lle it'. Deut. 23. 12. *Heb.* יד יהיה לך *bydded llaw it'*, hyny yw, ymyl, ochr, neu rhyw gŵr neillduol.—Gelwir gwlad ëang, *gwlad o freichiau helaeth*, sef ëang ei therfynau oddiwrth eu gilydd. Gen. 34. 21. Barn. 18. 20. *Heb.*

3. Y mae llaw hefyd yn arwyddo buddugoliaeth, neu golofn coffadwriaethol am oruchafiaeth; am, tebygol, fod llun llaw, arwydd awdurdod, yn cael ei osod ar ei ben. Felly dywedir am Saul, iddo osod *iddo le;* מציב לו יד *codi iddo ei hun* (nid i'r Arglwydd) *law.* 1 Sam. 15. 12. Tarawodd Dafydd Hadarezer, 'pan oedd yn myned i ennill ei derfynau wrth afon Euphrates.' 2 Sam. 8. 3. 'Pan oedd yn myned i sicrhau ei lywodraeth.' 1 Cron. 18. 2. להציב יד *i gyfodi ei law,* neu *ei arwydd buddugoliaethol.*——Felly colofn Absalom a elwir yn *golofn,* yn lle *Heb.* יד *llaw* Absalom. 2 Sam. 28. 18. Dengys hyn yn amlwg fod llun llaw yn arwydd o awdurdod, yn cael ei gosod ar golofnau coffadwriaethol gynt. Yn yr India Ddwyreiniol hyd heddyw, y mae llun llaw yn arwydd o allu ac awdurdod; a byddent yn ei darlunio yn aml ar eu banerau.

4. Y mae estyn llaw yn arwyddo, 1. Bwriad mwyaf y meddwl, ac egnïad y corph i wneuthur peth. Dywedir fod 'llaw Duw yn estynedig,' pan fyddo yn cyflawn fwriadu gweithredu mewn ffordd o farn neu drugaredd. Exod. 6. 6. a 14. 8. Esa. 5. 25. a 9. 12—21. a 10. 4. Jer. 51. 25. Ezec. 14. 13. a 16. 27.——2. Hyder am lwyddiant, a bod yn fuddugoliaethus. ——3. Balchder rhyfygus, a gwrthryfel yn erbyn Duw. Num. 15. 20. Edr. Rhyfel.——4. Gwallgofrwydd ynfydion direswm, yn estyn, yn ysgwyd llaw, yn coeg-ddwrdio beth a wnant. Ofnadwy yw y gwallgofrwydd pan fyddo y llaw yn estynedig yn erbyn Duw a'i bobl. Job 15. 25. Act. 12. 1. Zech. 2. 8.

5. Mewn ymostyngiad i'n gwendid ni, priodolir llaw i Dduw yn aml i arwyddo ei allu yn gweithredu. Gen. 49. 24. Exod. 9. 3. a 13. 3, 16. Job 10. 8. a 12. 9, &c. Yn neillduol, arwydda gweithrediad dwyfol, neu gynhyrfiad ar y meddwl. 2 Bren. 3. 15. Ezec. 1. 3.—'Pa beth bynag a ragluniodd dy law a'th gynghor di eu gwneuthur:' Act. 4. 28, hyny yw, dy gynghor a'th ewyllys effeithiol. Y mae llaw a chynghor yn addas iawn yma yn cael eu cysylltu â'u gilydd. Nid yw llaw Duw byth heb ei gynghor, na'i gynghor byth heb ei law i'w gwblhau; mae effeithioldeb difeth yn ei holl gynghor a'i ewyllys.—'A llaw yr Arglwydd oedd gyd âg ef.' Luc 1. 66. Sef yr Arglwydd a roddodd ei gynnorthwy galluog.—'O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd.' Luc 23. 46. Sef i ti, i'th ofal, ac i'th gadwraeth.—'Ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.' Ioan 10. 28. Ni ddwg neb hwynt byth o'm gofal a'm cadwraeth, i'w difeddiannu o ddedwyddwch tragywyddol arfaethedig iddynt.—'Y mae llaw yr Arglwydd arnat ti.' Act. 13. 11. Sef y mae cospedigaeth drom a chyfiawn Duw arnat ti.

Y mae y sylwadau blaenorol yn ddigonol i gyfarwyddo y darllenydd am iawn ddeall yr ystyr mae y gair llaw yn cael ei arferyd, heb chwanegu siamplau yma.

'Lled-llaw,' yw mesur ynghylch pedair modfedd. Edr. Dyrnfedd, Aswy, Dehau, Deheulaw, Ysgrifen-law.

**LLAWDR, LLODRAU,** (llawd) brychan, clôs, hosan-glôs. Yr oedd llodrau llian yr offeiriaid, yn arwydd o wylder, gostyngeiddrwydd, diweirdeb, a sancteiddrwydd. Yr oedd o'r un defnydd i'r archoffeiriad ac i'r offeiriaid cyffredin. Exod. 28. 42. Lef. 6. 10. Ezec. 44. 18.

**LLAW-FORWYN—ION,** (llaw-morwyn) gwasanaethyddes, gweinydd-wraig, gweinyddes. Mae y gair *Heb.* שפחה a gyfieithir y rhan amlaf, *llaw-forwyn*, yn arwyddo un mewn cyflwr isel a chaeth. Gelwir gwragedd yn gyffredinol felly, mewn ffordd o ostyngeiddrwydd. Ruth 3. 9. Ps. 116. 16.

**LLAWEN—YDD—HAU,** (lla-gwen) *Gr.* ιλαρος *Llad.* Lætus, Hilarius: gorawenus, hoenus, llon, digrif, dyddan, difyr.

Tri llawenydd Beirdd ynys Prydain: llwydd gwybodaeth; gwellhad moes; a gorfod heddwch ar ddifrawd ac anrhaith.—*Barddas*

Edr. Gorfoledd, Dyddanwch, Hyfrydwch.

'Llawen-floeddiwch i Dduw yr holl ddaear.' *Ps.* 66. 1.—'Ymlawenhewch yn Nuw yr holl fyd.' Dr. M. Mae y gair רע yn arwyddo unrhyw adsain uchel â llais, neu âg udgorn. Jos. 6. 5—20. Yn gyffredinol, arwydda llawen-floedd. Ps. 81. 2. a 47. 1. Y mae y gair yma, fel yn llawer o fanau eraill, yn arwyddo y *llawenydd* mwyaf yn yr Arglwydd, a diolchgarwch iddo, yn cael ei ddatgan yn y modd mwyaf cyhoeddus. Mae yn ddyled ar bawb wneuthur hyny, a diammeu y daw y dyddiau, yn ol yr addewid sicr, pan addolo yr holl ddaear ef, ac y canant iddo ef. Adn. 4.

'Cyfarfyddi â'r hwn sydd lawen, ac a wna gyfiawnder.' Esa. 64. 5.—'Cynnorthwyaist y llawen, a'r hwn a wnaeth gyfiawnder.' Dr. M.—'Cyfarfyddi mewn llawenydd â'r rhai a wnant gyfiawnder.' Gwel Lowth, Jerome, a Grotius.—'Os damweini â'r llawen, ac yn gwneuthur cyfiawnder, yn dy ffyrdd yn dy gofio. Wele, ti a ddigiaist (wedi i ni bechu yn dy erbyn) yn eu herbyn hir amser; ac etto, yr ydym ni yn gadwedig.' Vitringa. Y mae yr amrywiol gyf-

Digitized by Google

ieithiadau yn dangos fod anhawsdra nid bychan yn y geiriau. Y mae y geiriau yn dangos fod y duwiolion sydd yn llawenychu yn ffyrdd Duw, ac yn gwneuthur cyfiawnder, yn anaml: nid oedd ond peth annysgwyliadwy cyfarfod âg un yn llawenychu yn yr Arglwydd, ac yn ei ffyrdd. Darluniad cyffredin yn yr ysgrythyrau o wir dduwiolion, eu bod yn llawenhau yn yr Arglwydd, ac yn ei ffyrdd. Phil. 4. 4. Ps. 32. 11. a 119. 14, 162. Y mae mawredd yn perthyn i'w llawenydd, rhagor llawenydd neb arall; geilw yr apostol ef yn 'llawenydd annhraethadwy a gogoneddus.' 1 Petr 1. 6, 7, 8. Y mae achos eu llawenydd yn sanctaidd, ac yn ogoneddus; y mae gwrthddrych eu llawenydd, sef yr Arglwydd, yn anfeidrol ogoneddus; y mae sylfaen eu llawenydd, sef Crist, a'i aberth, yn gadarn ac yn ddigryn; am hyny bydd yn llawenydd tragywyddol. Llawenydd eu Harglwydd ydyw; sef llawenydd yn y mwynhad o hono, ac yn tarddu oddi wrtho; llawenydd o'r un natur, a chyffelyb i'w lawenydd yntau. Mat. 25. 21, 22, 23.

'Rhaid oedd llawenychu a gorfoleddu,' meddai y tad, yn achos dychweliad y mab afradlon. 'Efe a lawenycha o'th blegid gan lawenydd,' meddai y prophwyd, am yr Arglwydd wrth achub ei eglwys. Luc 15. 32. Zeph. 3. 17. Nid oes teimladau newyddion yn y Duwdod; ni ellir ychwanegu at, na lleihau ei ddedwyddwch. Yr oedd Crist yn llawenychu yn nghyfanneddle y ddaear, cyn bod daear, a'i hyfrydwch gyda meibion dynion, cyn bod yr un o honynt. Diar. 8. 31. Yr oedd, ac y mae yn ddigyfnewid yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu yn ei fwriadau, a'i arfaeth ei hun, mewn perthynas iddynt: ond dywedir ei fod yn llawenychu yn y cyflawniad o honi, pan fydd yn rhoddi arwyddion amlwg i'w bobl o'r llawenydd sydd ynddo, a phan fyddo yn peri llawenydd a gorfoledd iddynt hwy. Y mae Duw yn hyfrydwch annhraethol, ac yn llawenydd tragywyddol, iddo ei hun, yn ei holl feddyliau a'i fwriadau: ac yn y cyflawniad o honynt, rhydd aml olygiad o hyny i'w bobl, er eu mawr lawenydd hwy. 'Llawenydd yr Arglwydd yw eich nerth.' Neh. 8. 10. Y mae yn dangos ei foddlonrwydd yn edifeirwch a dychweliad pechadur ato; ac y mae hyny yn peri llawenydd yn y nef, yn ngŵydd angelion Duw, ar yr achos hyfryd. Nid peth newydd oedd hyn i Dduw; ond peth a ragwelodd, ac a arfaethodd ei gwblhau er tragywyddoldeb: ac y mae pob peth a arfaethodd yn hyfrydwch ac yn llawenydd tragywyddol iddo. Ond peth newydd oedd i'r angelion, ac yn achos o orfoledd newydd iddynt, a chynnydd yn eu parch i Dduw, a'u llawenydd ynddo. Yr oedd holl gyfryngdod a gwaith Crist, a iechydwriaeth yr eglwys ynddo a thrwyddo, yn bresennol yn meddwl Duw er tragywyddoldeb, ac yn hyfrydwch a llawenydd penaf o'i holl ffyrdd: ond bu, a bydd hefyd, lawer gwledd a gorfoledd adnewyddol yn y nef, ar gyflawniad yr amrywiol ranau o hono. Bu rhyw fyd newydd yn y nef pan osodwyd Crist, ar ei esgyniad yn y natur ddynol, i eistedd ar ddeheulaw y Tad; a thyr y llawenydd allan etto yn rhyfedd, o oes i oes, hyd nes y dygir yr eglwys yn orfoleddus adref gyd â'i phriod, gwedi y farn gyffredinol. Nid peth newydd yn Nuw, ond peth newydd yn ei eglwys fydd. Nid oes dim newydd yn Nuw; ond bydd yn rhoddi amlygiadau newyddion, mwy helaeth o hono ei hun i'w bobl dros byth: mae digon ynddo i ennyn a phorthi eu llawenydd yn ddiddiwedd. 'Llawenychaf yn fy mhobl,' medd Duw: 'Gan lawenychu y llawenychaf yn yr Arglwydd, fy enaid a arfoledda yn fy Nuw,' medd yr eglwys. Esa. 61. 10. a 65. 19.

'Byddwch lawen yn wastadol.' 1 Thes. 5. 16. Y mae llawenydd a galar duwiol yn cyd-fyned ac yn cyd-sefyll â'u gilydd, yn addas ac yn ogoneddus, yn nghalon y credadyn: y mae iddo achos galar gwastadol ynddo ei hun; ac y mae iddo achos llawenydd gwastadol yn yr Arglwydd. Derfydd achos y galar, ond ni dderfydd byth achos y llawenydd. Am hyny, 'goddiweddant lawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar a ffŷ ymaith.' Esa. 35. 10.——Gelwir llawenydd y duwiolion, 'llawenydd ffydd—llawenydd yn yr Ysbryd Glân.' Phil. 1. 25. Rhuf. 14. 17. a 15. 13. 1 Thes. 1. 6.——'Ffrwyth yr Ysbryd yw llawenydd.' Gal. 5. 22. Llawenydd ffydd yw; am mai llawenydd trwy gredu ydyw yn y byd hwn. Trwy gredu y gair, sef athrawiaethau ac addewidion y gair, y maent yn cael llawenydd; dyma lle y mae yr Ysbryd Glân yn eu harwain, i dynu dwfr cysur gyda llawenydd. Esa. 12. 3. Yr Ysbryd Glân sydd yn gweini llawenydd iddynt trwy gredu. Y mae llawer â'r gair ganddynt, yn hollol amddifad o lawenydd ffydd, sydd trwy gredu y gair: llawenhau yn gnawdol, yn iach, yn rhyfygus, ac yn ansanctaidd, yw llawenhau heb yr Ysbryd Glân; ond mae y llawenydd yn yr Ysbryd yn llawenydd ar iawn sail, sylweddol, sanctaidd, addas, a thra gogoneddus: nid oes dim yn fwy sanctaidd, hardd, prydferth, a gweddus; y mae yn gwbl addas i waredigion yr Arglwydd. Llawenydd cyflawn ydyw; y maent yn gyflawn o bob llawenydd. Nid oes dim mwy i ddywedyd am dano. Llawenydd yn ei holl amrywiaeth yw, pob llawenydd; ac mae hefyd gyflawnder o hono yn mhob ystyr. Dyma ran ryfedd i rai a haeddasant bob tristwch, ac ing, a gwae! Edr. YCHWANEGU.

**LLAWER**, (lla-gwer) aml, lliosog; mawr; aml o rif; a mawr o faintioli. Llawer iawn, llawer byd.—1. Rhifedi mawr. Barn. 9. 40.——2. Holl blant dynion, pob dyn, y rhai a bechasant, ac a fuant feirw yn yr Adda cyntaf. Rhuf. 5. 15—19.——3. Yr holl etholedigion a brynwyd gan Grist. Mat. 26. 28.——4. Yr holl golledigion annuwiol. Mat 7. 13.——5. Hir amser; llawer o ddyddiau; sef dyddiau terfynedig gan Dduw, er mewn gradd mawr yn anhysbys i ni; yr amser hir y byddai yr Iuddewon heb lywodraeth wladol, ac heb wir grefydd, ac addoliad Duw yn eu plith: hwyrach yn nhylch 1800, neu 1900 o flynyddoedd. Hos. 3. 3, 4.——6. Swm mawr. 2 Cor. 8. 15.

**LLAWETH—AU**, (llaw) llonaid llaw, dyrnaid, dylwf, cudyn. Llaweth o wallt, llaweth o lin.—'Llawethau ei gnawd.' Job 41. 23.—'Rhwng dy lawethau,' sef rhwng dy gudynau. Can. 4. 1, 3.—'Dadguddia dy lawethau.' Esa. 47. 2. Byddai gwallt pendefigesau yn y gwledydd dwyreiniol yn hongian yn gudynau, gwedi eu harddu â gemau a llwch euraidd, a'u gorchuddio â rhyw orchudd teneu: at y ddefod hon y mae y geiriau yn cyfeirio, yn dadgan barnedigaethau Duw ar Babilon, a'i hyspeiliad o'i holl wychder a'i moethau.

**LLAWN—DER**, (lly-awn) cyforiawg, helaeth, aml, cyfar: diwagder, cyflawnder. Edr. CYFLAWN.—'Llawn wobr;' sef rhan gyflawn o ogoniant y mae Duw wedi ei barotoi a'i addaw. 2 Ioan 8. Etifeddiaeth gyflawn ydyw, ni bydd dim yn eisieu ynddi a eill y gwaredigion ei fwynhau.

'Gwae chwi y rhai llawn.' Luc 6. 25. Llawn yn eu meddwl eu hunain, am danynt eu hunain: rhai heb gydnabod eu hangen o Grist, ei gyfiawnder, a'i ras. Nôd o rai dan felldith y cwymp, heb erioed eu symud o'u cyflwr pechadurus, a'u tywyllwch ysbrydol.—'Gwr llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân;' sef mesur helaeth o ras a doniau ysbrydol. Act. 6. 5.—'Llinyn llawn.' Edr. LLINYN.

**LLAWR, LLORIAU**, (lly-awr) *Sax.* FLORE; *Belg.* FLOOR: sylfaen, gwaelod, gwadn, daear.—'Nef a daear.' Dat. 14. 7.—'Nef a llawr.' W. S.—Ar lawr, i lawr; i'r llawr hyd lawr; gwr llawr, sef gwr isel, anenwog. Ps. 7. 5. Jer. 14. 2. Ezec. 19. 12, &c.

Digitized by Google

LLAWRUDD—IAETH—IOG, (llaw-rudd) llaw goch, llaw waedlyd, llofrudd, llofruddiwr, lleiddiad. Dewis 'gwr llofruddiog o flaen y sanct a'r cyfiawn,' oedd ddirmyg mawr ar Grist, ac yn brawf o dywyllwch calon dyn, ac o elyniaeth yn erbyn Duw. Act. 3. 14. Edr. LLADD, NODDFA.

LLAWRYF, *Llad.* LAURUS; *Ffr.* LAURIER: pren gwastad-wyrdd, sydd frigog, a'i gangenau yn taenu yn llydain, a'i ddail yn hardd. Mae y grawn yn feddyginaethol yn y coluddwst, attaliad dwfr, misglwyf, &c., ond mae y dail-wlyb yn wenwynllyd; ac y mae rhai wedi meirw wrth yfed y dwfr distylliedig o honynt. Gwel *Phil. Trans.*, *No.* 418, 420.

'Gwelasi yr annuwiol yn gadarn ac yn frigog, fel y lawryf gwyrdd.' Ps. 37. 35. Nid yw y gair אזרח o angenrheidrwydd yn arwyddo y *lawryf* mwy na rhyw bren arall; ond pren yn tyfu yn naturiol o hono ei hun, heb ei blanu o'r naill le i'r llall, yr hwn, yn gyffredin sydd fwyaf cryf a brigog. Hwyrach ei fod yn enw ar bren anadnabyddus i ni, ond yn ddigon hysbys yn y gwledydd dwyreiniol; a bod priodoldeb yn y gyffelybiaeth o'r annuwiol iddo yn ymddangos yn eglur ac yn hynod iddynt. Hwyrach ei fod yn bren golygus a hardd: ond yn gwywo ac yn diflanu yn fuan, ac yn cyfateb yn gwbl i ddarluniad Dafydd o'r annuwiol yn adn. 36. Breuddwyd Nebuchodonosor, a deongliad Daniel o hono (pen. iv.) sydd eglurhad cyflwan o'r geiriau.

LLE, man, mangre; sefyllfa, swydd. Yn dy le, sef drosot ti; yn ei le, sef am dano; yn y lle, sef yn y fan, yn fuan yn ddioed. Lle a arwydda, yn yr ysgrythyrau, man, cyflwr, swydd, galwedigaeth, man o'r ysgrythyr. Gen. 40. 3—13. Preg. 10. 4. Act. 8. 32.

'Rhoddwch le i ddigofaint.' Rhuf. 12. 19. Sef i ddigofaint Duw, fel y dengys diwedd yr adnod. 'Na ddielwch:' nid yw hyny yn perthynu i chwi, ac nid ydych yn addas i'r gwaith: yn hytrach, 'rhoddwch le i ddigofaint,' sef i Dduw gospi, yr hwn a bia dial, a'r hwn a ddichon ddial yn gyflawn ac yn addas.

'Na roddwch le i ddiafol.' Eph. 4. 27. Na roddwch hamdden, trwy fyw mewn digofaint, i'r diafol i'ch annog yn yr w̃yn bechadurus hòno, i weithredu yn bechadurus: neu, na roddwch achlysur iddo, trwy ei offerynau, i'ch gwrthwynebwyr i gablu crefydd o'ch achos.

'Af a dychwelaf i'm lle, hyd oni chydnabyddont eu bai, a cheisio fy wyneb.' Hos 5. 15. Lle Duw ydyw y nefoedd. Mat. 6. 9. Nid am fod y nef, nac un lle, yn cynnwys Duw; nid oes dim perthynas rhwng Duw ag un lle, o ran ei hanfod; yr oedd ef cyn bod un lle crëedig; ond yn y nefoedd y mae yn amlygu fwyaf o hono ei hun i'w bobl. Ei drigfan ef oedd y deml yn Jerusalem; nid am fod yr hanfod dwyfol yn preswylio ynddi; yn yr ystyr hwn 'nid yw yn trigo mewn temlau o waith llaw;' ond yr oedd y deml yn cysgodi Crist a'i gyfryngdod, yn yr hwn y mae yn cael ei addoli, ac y mae yn cymmodi y byd âg ef ei hun. Mae Duw yn dychwelyd i'w le pan y mae yn peidio dyfod yn ddangosiadol yn ei oruchwyliaethau grasol tu ag at ei bobl, ond gadael iddynt yn eu trueni a'u pechodau. Nid byth y gwna efe hyny â'i bobl, ond hyd nes cydnabyddont eu bai, a cheisio ei wyneb. Gellir, gyda rhai, olygu y drugareddfa yn lle Duw yn mhlith ei bobl; yr hwn oedd megys yn ei adael pan oedd yn eu cospi am eu pechodau; wedi gwneuthur hyn, y mae yn dychwelyd i'w le, ac yno i ddysgwyl, hyd oni chydnabyddont eu bai, a cheisio ei heddwch a'i amddiffynfa. Exod. 25. 21, 22. 1 Bren. 8. 13, 20, 21, 29. Mic. 1. 3.

'Fe wna i mi rodio ar fy uchel-leoedd.' Hab. 3. 19. 2 Sam. 22. 34. Ps. 18. 34. Lleoedd uchel gwlad Canaan, sef mynyddoedd Sïon, Moriah, lle yr adeiladwyd y deml, a'r lle yr oedd y duwiolion yn addoli, ac yn cymdeithasu â Duw: geill lleoedd uchel hefyd, arwyddo cyflwr buddugoliaethus, llwyddiannus a chysurus, uwchlaw gelynion a phrofedigaethau. Y rhai sydd yn ymddiried yn yr Arglwydd, a breswyliant yr uchelderau, cestyll y creigiau fydd eu hamddiffynfa; a chyda Crist yn yr uchelderau bydd eu trigfa byth. Esa. 33. 16. Col. 3. 1, 2, 3.

LLECH, (lly-ech) *Heb.* לוח *loch:* Diar. 3. 3. maen, llech-faen, ceryg tô, peithyn; coddfa; dyn diog, swrth, musgrell, parod i lechu; llech lafar, llech lefair, careg lefair, sef careg ateb.—'Dwy lech y dystiolaeth, wedi eu hysgrifenu â bys Duw.' Exod. 31. 18. a 34. 4. Deut. 4. 13. a 5. 22. a 9. 15. Y llechau hyn oedd waith Duw, a'r ysgrifen arnynt oedd ysgrifen Duw. Exod. 32. 15. Torwyd y llechau hyn gan Moses. Parwyd i Moses naddu dwy o lechau fel y rhai cyntaf; ac ysgrifenwyd arnynt gan Dduw fel o'r blaen. Exod. 34. 1, 2, 3. Deut. 10. 1, 4. Yn cyfateb i hyn y mae Duw yn tynu y galon gareg o gnawd ei bobl, ac yn rhoddi iddynt galon o gig. Ar y galon dyner hon, y mae Crist, trwy ei Ysbryd, yn ysgrifenu y gyfraith, sef holl gorph gwirioneddau dwyfol. Ezec. 11. 19, 2 Cor. 3. 3. Ar lechau y galon y mae Crist yn ysgrifenu: nid yn unig yn rhoddi dadguddiad allanol, ond yn eu dodi, ac yn eu hargraphu hwynt ar y meddwl, nes ydyw y meddwl a hwythau yn un, y naill yn cyfateb i'r llall yn gyflawn. Er i Moses naddu y llechau, yr oedd yn rhaid i Dduw *ysgrifenu* arnynt: dengys hyn fod y parch mwyaf gan Dduw i'w gyfraith, ac nad oes dim ond Ysbryd Duw a ddwg dyn i ufuddhau iddi. Edr. ARCH, CYFRAITH, YSGRIFENU, DEDDF, TRUGAREDDFA.

LLECHWEDD, (llech-gwedd) ochr, ystlys bryn, canwyr ogwyddedig; ochr yr wyneb o'r ên i fynu, cern, grudd. Rhydd y gair hwn enw i lawer o leoedd yn Nghymru.—'Oeddwn iddynt megys y rhai a godant yr iau ar eu llechweddau hwynt.' Hos. 11. 4. Dr. M—'Tarawant farnwr Israel â gwialen ar ei lechwedd.' Dr. M.

LLED, gorair, mewn rhan, o ran, hanner, o fewn ychydig, agos. Arferir ef yn aml fel rhagddod mewn geiriau cyfansoddol, megys llednais, ceinwych, destl, pwyllog, gorchwyledd.

LLED—U, (lly-ed) llydander, ëangder, helaethder. Y mae i bob corph cyfansawdd dri mesur, sef hŷd, lled, a dyfnder.—Lledu, neu estyn dwylaw at yr Arglwydd, oedd ystum cyffredin wrth weddïo, ac yn arwydd o'u dymuniad i dderbyn gan Dduw yr hyn oeddynt yn ei ofyn. Exod. 9. 29—33. 2 Cron. 6. 13. Ezra 9. 5. Ps. 143. 6. Job 11. 13.

LLEDBEIO, (lledbai) gogwyddo, gogwyddo i lawr, ar osgo, yn wyrgam. 'Canys yr ychain a ledbeiasant.' 1 Cron. 13. 9. Dr. M.

LLEDNAIS—RWYDD, (nais) tlws, ceinwych, destl; tymherus, pwyllog, gorchwyledd. Y mae y gair ענו a gyfieithir *llednais, lledneisrwydd,* (Ps. 45. 4. a 76. 9. a 149. 4.) yn arwyddo gostyngeiddrwydd, llarieidd-dra; rhai wedi eu hiselhau, a'u llarieiddio gan gystudd a gorthrymder; agwedd addas ar feddwl pechadur ydyw. Edr. ADDFWYNDER, GOSTYNGEIDDRWYDD, LLARIAIDD.

LLEDRITH, (lled-rhith) gwag-ellun, drychiolaeth, gwag-ysbryd, anysbryd, ellyll; gwag-ymddangosiad. Hûd a lledrith.—'Oddiwrth brophwydi Jerusalem yr aeth lledrith allan i'r holl dir.' Jer. 23. 15. *Saes profaneness,* halogedigaeth: Dr. Blayney, *perverseness,* gwrthnysigrwydd. Cyfieithir yr un gair חנף *rhagrithiwr,* yn Job 8. 13. Esa. 9. 17. Cyfieithir y gair yn ferf, *halogi.* Num. 35. 33. Ps. 106. 38. Jer. 3. 1—9. A hyny ydyw ystyr gwreiddiol

Digitized by Google

y gair, medd Parkhurst. Y gau-brophwydi fuont foddion neillduol i'r Iuddewon barhau yn eu hymadawiad â Duw a'u halogedigaeth, trwy, yn dwyllodrus ac yn gelwyddog, addaw heddwch iddynt, pan nad oedd heddwch: 'Gweledigaeth eu calon eu hunain a lefarent, ac nid o enau yr Arglwydd.' Dywedent wrth ddirmygwyr Duw, 'Bydd i chwi heddwch—ni ddaw arnoch niwed.' Jer. 23. 16, 17. Nid oes un felldith fwy i ddynion na gau-athrawon.

LLEF—AIN—ARU—ERYDD, (lly-ef) llais, sŵn, sôn, cri; tafodiaith, dywediad, ymadrodd, adroddiad, gair. Arwydda bob math o drwst neu sŵn. 2 Bren. 7. 6. 1 Cor. 14. 16. Y taranau, קלת אלהים *llefau Duw*. Exod. 9. 28, 29. a 20. 18. Ps. 29. 3, &c.—Gweddi. 1 Bren. 8. 28. Job 27. 9. Ps. 18. 6, &c.—Gorfoledd a mawl. Ps. 26. 7. a 47. 1. Esa. 66. 6.—Pregethu yr efengyl; llef nerthol yw; llef Mab Duw yn cyfodi y meirw. Ps. 68. 33. Ioan 5. 25. Esa. 51. 1. Yr athrawiaeth am dano yw ei lef: pe byddai yma yn y byd, o ran ei ddynoliaeth, fel y bu, ni phregethai ddim arall. Y mae y desgrifiad o lef Duw y gogoniant yn y taranau, Ps. xxix. yn addas iawn, i ddangos effeithiau yr efengyl ar bechaduriaid. Y mae ei lef ynddi mewn grym, ac mewn prydferthwch, yn dryllio dynion pen-uchel, cryfion fel cedrwydd, ac yn peri i deyrnas Satan, yn holl anialwch y cenedloedd, grynu; yn dynoethi calonau dynion, ac yn peri iddynt esgor ar wir edifeirwch, a newydd-deb buchedd.

Gelwir y ddeddf, 'Llef geiriau.' Heb. 12. 19. Y geiriau a lefarwyd gan Dduw ar Sinai, sef y Deng Air. Exod. 19. 19. a 20. 19. Deut. 4. 12. a 5. 22, 23. Llefarwyd y deng air yn uchel, mewn iaith a ddeallai yr holl bobl; y gwŷr, y gwragedd, a'r plant, yn sefyll wrth odre y mynydd; yr hyn ni allent ei oddef, ac a waeddasant am Moses yn gyfryngwr, i lefaru wrthynt. Yr oedd y cwbl wedi ei drefnu i ddangos y parch mwyaf i'r gyfraith sanctaidd, ac na ddichon pechadur euog oddef llef ei geiriau, heb gyfryngwr.

'Llef y priod-fab, a llef y briod-ferch.' Jer. 33. 11. Nid eu llef hwy yn ddynodawl, tebygol, a feddylir; ond llef drystfawr a gorfoleddus eu cyfeillion, yn gyfatebol i ddefodau priodasol gwledydd y dwyrain hyd heddyw. Gwel Harmer's *Obs vol.* iii.

'Tyner ymaith oddi wrthych bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain.' Eph. 4. 21. κραυγη, a arwydda *llefain* o dristwch. Dat. 21. 4.—*bloedd*, Mat. 25. 6. Dat. 14. 18; ond yn y fan hon, arwydda *llefain* o ddigofaint a chwerwedd, ac mewn ffordd o rwgnach. *Saes. Clamour.* Tyner ymaith oddiwrth Gristionogion bob cyfryw lefain.

Llefaru sydd ddawn ragorol Duw i ddynion, i gyfranu ac hysbysu eu meddyliau i'w gilydd. Y mae galluoedd yr ymadrodd, a'r clyw, mewn dyn, yn rhyfeddol iawn: ond fel y mae dyn yn greadur cymdeithasgar, y maent yn angenrheidiol i ddynion er cysur a llesâd i'w gilydd. Edr. CLUST, IAITH, TAFOD.—I lefaru yn eglur, ac yn ddealladwy, y mae yn ofynol, 1. Fod ein meddyliau, am yr hyn yr ydym yn llefaru, yn ddeallus i ni ein hunain, ac yn wahaniaethol. Ni ddichon un dyn lefaru yn oleu, ac yn ddeallus i eraill, am yr hyn y mae yn dywyll ac yn gymysglyd ei hun yn ei feddwl am dano.——2. Rhaid iddo arferyd geiriau yn yr iaith y mae yn llefaru, perthynol a phriodol i'r hyn y llefarir am dano, trwy gydsyniad rhai deallus yn yr iaith.——3. Rhaid iddo arferyd yr un geiriau, yn yr un ystyr, yn mhob rhan o'r ymadrodd.——4. Rhaid iddo lefaru ei feddyliau yn gryno, yn esmwyth, a chyda chymaint brys ag a oddef yr achos: onidê, anghofir un darn o'r ymadrodd, cyn clywed y darn arall.——5. I roddi gwybodaeth o ryw beth i eraill, rhaid i'n meddyliau am dano fod yn addas i'w gynneddfau. Yr hwn sydd yn arferyd geiriau heb feddwl ac ystyr, sydd yn llefaru yn un'g sŵn gwag geiriau: yr hwn sy ganddo feddyliau amrywiedig, heb eiriau parod ac addas, sydd yn ymrwystro yn ei ymadrodd: yr hwn sydd yn arferyd geiriau yn amrywiol, ac yn gyfnewidiol yn eu hystyr, nis gellir eu deall gyda sicrwydd: yr hwn sydd yn defnyddio geiriau i osod meddwl allan, anarferedig yn gyffredinol, sydd heb briodoldeb addas yn ei iaith, ac yn llefaru ffregodiaith: a'r hwn sydd heb feddyliau addas a phriodol am yr hyn y mae yn llefaru, sydd heb ddefnyddio gwir wybodaeth.



Y mae *lleferydd* yn arwyddo, weithiau, y dafodiaith y llefaro dyn ynddi. 'Mae dy leferydd yn dy gyhuddo.' Mat. 26. 73. 'Can ys bot dy lediaith yn dy gyhoeddy.' W. S. 'Galilead wyt, a'th lleferydd sydd debyg.' Marc 14. 70. Yr oedd cymaint gwahaniaeth yn nhafodiaeth y ddwy dalaeth, Judea a Galilea, fel yr oedd y trigolion yn wahaniaethol wrth eu lleferydd. Yr un iaith oedd yn y ddwy wlad, ond y dull o'i llefaru oedd yn wahanol; hwyrach o ran tôn y llais, neu y dull o swnio rhai geiriau, fel yr oedd rhwng Shibboleth a Sibboleth. Adnabyddir, gan rai cydnabyddus â'r wlad, trigolion pob parth o Gymru yr un modd, yn wahaniaethol oddiwrth eu gilydd; 'y mae eu lleferydd yn eu cyhuddo'

Wrth *leferydd*, brydiau eraill, y meddylir yr hyn y llefarir am dano. 'Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef;' sef os ystyriwch, y credwch, ac yr ufuddhewch i'r hyn y mae yn ei lefaru wrthych. Y mae yn llafaru am beth o fawr bwys, a pherthynol i chwi: y diystyrwch mwyaf arno ef, a'r niwed mwyaf i chwithau, yw peidio gwrando arno. Ps. 95. 7. Heb. 3. 7—15. a 4. 7. Ioan 8. 43. a 18. 37.

'Nid oes iaith nac ymadrodd, lle ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt. Eu llinyn a aeth trwy yr holl ddaear, a'u geiriau hyd eithafoedd byd.' Ps. 19. 3, 4. 'I bob tir yr aeth eu sain hwynt.' Dr. M. Y mae y nefoedd yn athraw hynod i'r holl fyd, yn dadgan gogoniant Duw. Y maent yn addysgu yn helaeth, yn barhaus o ddydd i ddydd; ac y maent yn dadgan yn eglur i bawb; nid oes iaith nac ymadrodd heb glywed a deall eu lleferydd. Aeth ei sain i'r holl ddaear.* Yn cyfateb i hyn, y dywed yr apostol am yr efengyl, 'Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu sŵn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd.' Rhuf. 10. 18.

Nid yw Crist, na'r Ysbryd Glân, yn 'llefaru o honynt eu hunain.' Ioan 14. 10. a 16. 13. Y maent yn llefaru yn eu swyddau, yn ol yr arfaeth dragywyddol, ac yn ol yr awdurdodwyd hwynt i hyny. Y mae pob peth y maent yn ei wneuthur yn awdurdodol, ac yn drefnus, yn cyfateb yn gwbl i'w gosodiad yn eu swyddau. Nid ydyw hyn yn arwyddo is radd; ond cynghor, gosodiad, ac arfaethiad rhwng cydraddolion. Nid oedd dim gwell gan Grist a'r Ysbryd Glân i'w lefaru, nag oedd yn yr arfaeth dragwyddol; yr oeddynt yn cyd-gynghori, ac yn cyd-arfaethu; ac fel mae y cynghor a'r arfaeth yn gyflawn ac yn berffaith, hi a saif byth; a'i dadguddio a'i chyhoeddi oedd, ac yw, eu gwaith hwy yn eu swyddau. Y mae mawrhydi y person yn llefaru, yn ychwanegu at ein rhwymedigaethau i wrando arno, ac at y pechod trwy ei ddiystyru, a pheidio gwrando arno. 'Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith, a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab.' Nid oedd un mwy i lefaru trwyddo, ac ynddo, nac un yn fwy cymhwys i fynegi i ni holl gynghor Duw. Y mae y genadwri o'r pwys a'r canlyniad mwyaf; y mae y person yn ei dwyn, ac yn ei chyhoeddi, o'r mawrhydi a'r ardderchogrwydd mwyaf. 'Pa fodd (gan hyny) y diangwn ni, os esgeuluswn iechydwriaeth gymaint, yr hon, wedi dechreu ei thraethu trwy y Arglwydd, a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef?' Heb. 1. 1. a 2. 3.

* Vitringa *Obs. Sacr. lib.* iii. *cap.* 24.

Digitized by Google

'O helaethrwydd y galon y llefara y genau.' Mat. 12. 24. Fel y cyfateb y ffrwyth i natur y pren, felly ffrwyth y galon yw ymadroddion y genau: os y galon fydd halogedig, gwag, ac anystyriol, felly bydd ymadroddion y genau: ond os sanctaidd ac ysbrydol, bydd ein hymadrodd yn dda, i adeiladu yn fuddiol, fel y paro ras i'r gwrandawyr. Edr. ARAETH, IAITH, GAIR, TAFOD.

LLEIAF, y gradd mwyaf o llai; y gwaelaf, iselaf, y lleiaf o rifedi; y lleiaf o faintioli; y lleiaf o gyfrifiad; o'r lleiaf, o'r hyn lleiaf.—'Ni ryglyddais y lleiaf o'th drugareddau di.' Gen. 32. 10. קטנתי *lleiaf* wyf na'th holl, &c.; llai mewn gwerth a rhyglyddon, na'r drugaredd leiaf: wrth gymharu y lleiaf o'th holl drugareddau â mi, yr ydwyf yn llai na hòno, ni ryglyddais hòno. Iaith dyn yw â golwg addas arno ei hun fel pechadur: yr olwg a weddai fod gan bob pechadur arno ei hun. Barn. 6. 15. 1 Sam. 9. 21. 1 Cor. 15. 9.

'Pwy bynag gan hyny a dòro un o'r gorchymynion lleiaf hyn, ac a ddysgo i ddynion felly, lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas nefoedd.' Mat. 5. 19. Nid oes un gorchymyn o'r gyfraith sanctaidd yn fach; y mae mawredd awdurdod Duw yn mhob un o honynt; y mae pob un yn addas i Dduw, sef yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda; ond yr oedd y dysgawdwyr Iuddewig yn barnu rhai yn llai na'u gilydd, ac yn rhoddi eu traddodiadau eu hunain yn lle y gorchymyn. Nôd gau-athrawon yn mhob oes yw bychanu rhai gorchymynion, a rhai gwirioneddau, i gael lle i'w hathrawiaethau gŵyrgam eu hunain. Y maent yn eu tòri yn eu bucheddau eu hunain; ac yn dysgu i ddynion felly, yn eu bucheddau a'u hathrawiaethau. Lleiaf y gelwir y cyfryw yn nheyrnas nefoedd; er eu doniau a'u dysgeidiaeth, ac er y gallant fod yn fawr yn y byd, ac yn nghyfrif eu plaid eu hunain; yn nheyrnas nefoedd nid ydynt ond y lleiaf, sef yn ddiddim, ac yn anaddas i fod ynddi yma yn y byd hwn, ac a gauir allan o honi yn sier mewn byd arall. Nid oes, o'r hyn lleiaf ni ddylai fod, dim ond gorchymynion Duw yn fawr o gymeriad yno; ac nid oes neb yn deilwng o hono, ond sydd yn eu parchu oll, fel gorchymynion Duw, ac am eu dysgu i ddynion, fel trwy wybodaeth o honynt, ac ufudd-dod iddynt, y rhyngont fodd Duw, ac y caffont iechydwriaeth i'w heneidiau.

Ni all un dyn wneuthur y peth lleiaf heb yr Arglwydd, trwy ei holl fywyd, tu ag at ei gynnaliaeth a'i gysur yn y byd. Duw yn unig yw trefnwr, cynnaliwr, ac ymgeleddwr pawb: ac anmharch mawr i Dduw yw peidio cydnabod hyny. Luc 12. 26.

'Y neb sydd ffyddlon yn y lleiaf,' neu yn ychydig, 'sydd ffyddlon hefyd mewn llawer;' ac i'r gwrthwyneb. Luc 16. 10. Os ffyddlondeb yw egwyddor y dyn, ei dueddiad, a'i reol sydd yn ei lywodraethu yn mhob peth; nid ydyw amgylchiadau yn gwneuthur dim gwahaniaeth yn ei ymddygiad, pa un ai ychydig ai llawer fydd dan ei ofal. Os gwr cywir ffyddlon ydyw, y mae yn ffyddlon yn mhob peth; mewn eiddo arall, a'i eiddo ei hun; mewn pethau tymhorol, a phethau ysbrydol; mewn cyfoeth anwadal twyllodrus, ac mewn pethau sylweddol, ac o dragywyddol barhad. Yn y gwrthwyneb, yr anffyddlon a wna anffyddlondeb yn mhob peth. Y mae dammeg ein Harglwydd yn hardd, a'r cymhwysiad o honi yn neillduol o addas ac addysgiadol. Gwel Campbell, Macknight.

LLEIBIAW—IODD, (llaib) *Heb.* לחך *leched*; Saes. LICK; llyfu; llepian. 1 Bren. 18. 38. Edr. ELIAS.

LLEIDR, (llâd) *Heb.* לאט *lat*; *Gr.* ληιστης; *Llad.* LATRO, FUR; yspeiliwr, herwr.

Lleidr cyfaddef, lleidr hynod cyhoedd: lleidr crogadwy, lleidr pen ffordd: lleidr gwerth, yw un darostyngedig i'w werthu; lleidr camlyrus, yw un a ellir ei ryddhau trwy iawn; lleidr dirwyus, yw un a ellir ei ryddhau trwy ddirwy; carn lleidr, yw un cynnorthwyol i leidr, neu sydd yn derbyn eiddo lladrad. *Cyfreithiau Cymreig.*

'Dyfod fel lleidr, yw dyfod yn ddystaw, heb arwydd, na sŵn, yn annysgwyliadwy. 1 Thes. 5. 2. Dat. 3. 3.

'Lle ni ddaw lleidr yn agos,' yw y nefoedd. Luc 12. 33. Y mae yno ddiogelwch difeth, a chyflwr cyflawn, digyfnewid: ni chollir trysorau yno, ac ni yspeilia neb y trigolion. Y mae lleidr o ryw fath neu gilydd yn agos i bawb yma; mae eu trysorau a'u cysuron o'r herwydd yn ansicr. Edr. LLADRAD.

LLEIDIOG, (llaid) cleilyd, tomlyd.—'Ei lleoedd lleidiog a'i chorsydd ni iachêir; i halen y rhoddir hwynt.' Ezec. 47. 11. Yn arwyddo, os na iachâ yr efengyl ddrwg fucheddau dynion, a'u ffrwythloni, nid oes dim arall a'i gwna. Edr. AFON.

LLEIDDIAD—IAID, Edr. LLADD.—'Pob un a'r sydd yn casâu ei frawd, lleiddiad dyn yw:' hyny yw, yn ngolwg y gyfraith, ac yn nghyfrif Duw. 1 Ioan 3. 15. Mae y gorchymyn yn gwarafun casineb, yn gymaint a lladd; lladd yn y meddwl a'r galon, yw casâu.——'Lleiddiad dyn oedd efe (y diafol) o'r dechreuad;' (Ioan 8. 44) efe yn y dechreuad fu yn offerynol i ddyn golli ei fywyd o sancteiddrwydd, a phob dedwyddwch; y mae yn parhau yr un ysbryd, ac yn yr un amcan a bwriad, hyd heddyw.

LLEIGUS, (llâg) dihoeniad, ymollyngiad: musgrell, araf.—'Yn lleigys,' yn y man, yn ebrwydd. Marc 1. 30. W. S.

LLEIHAU, (llai) gwneuthur yn llai, prinhau, toli, treio. Lef. 26. 22. Ps. 107. 33. Diar. 13. 11. Jer. 29. 6. Ioan 3. 30.

LLEISIO, (llais) sain, sŵn; caniadau yr adar. Ps. 101. 12.—Rhuad y llew. Amos 3. 4.—Sain udgorn. Jos. 6. 4.

LLEITHDER, (llaith) gwlybrwydd. Can. 7. 2. Edr. BOGAIL.

LLEITHIG, (llâth) mainc, gorseddfa, glwth: lleithig troed, ystôl droed, lle troed. Esa. 66. 1.

LLEMAIN, (llam) darlamu, dylamu, neidio, crych-neidio.—'Ac a ganfu y brenin Dafydd yn neidio ac yn llemain o flaen yr Arglwydd.' 2 Sam. 6. 16. Edr. DAFYDD.

LLEN—I, (lly-en) cudd, gorchudd, gortho, caeadlen; cylch-leni, cortynau: llen yr ymysgar, sef y weren fol. Yr oedd amryw leni yn perthyn i'r cysegr; 1. Llen y cynteddfa: sef y gaeadlen oedd ar borth y cynteddfa. Yr oedd y cynteddfa wedi ei gau â lleni, ac â cholofnau. Yr oedd y lleni oddi amgylch y cynteddfa, a chaeadlen ar borth y cynteddfa. Exod. 27. 9—16.——2. Llen, neu leni y babell; canys yr oedd deg o honynt i'w cydio wrth eu gilydd, a'u rhoddi yn dô, ac yn orchudd ar y babell; yr oeddynt agos yn ei gorchuddio hi i gyd. Yr oedd y lleni hyn wedi eu gwneuthur o'r llîan meinaf, a'r lliwiau gwychaf; yn waith cywreiniaf, a llun cerubiaid arnynt. Yr oedd pob llen ynghylch pymtheg llath o hŷd, ac ychydig mwy na dwy o led. Yr oedd lled y lleni yn ddeugain cufydd; ond nid oedd y babell ond ychydig dros ddeg ar hugain. Ar y lleni hyn yr oedd llen dô, neu leni o flew geifr. Yr oedd un ar ddeg o honynt, a lled pob un yn ddeg cufydd ar hugain, ond lled y lleill oedd wyth cufydd ar hugain; yr oeddynt o'r un lled a'r lleill, ond bod un yn fwy o honynt. Heblaw y lleni o flew geifr, yr oedd tô i'r babell-len, o grwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion, a thô o grwyn daear-foch yn uchaf. Gwel adn. 14. Yr oedd y lleni hyn yn gyflawn yn gorchuddio y lleill oedd yn fwy cywrain a chostus. At hyn y cyfeiria y prophwyd Esaiah, pen. 4. 5. 'Ar yr holl ogoniant y bydd amddiffyn.' Mae Crist a'i eglwys yn dra gogoneddus, a than amddiffynfa ddigonol, er bod tywydd garw yn

Digitized by Google

euro arnynt, a'u hymddangosiad allanol yn wael ac yn ddirmygedig. Y mae yr eglwys oll yn ogoneddus o'i mewn, ac yno mae preswylfod ei Harglwydd a'i Duw. Ps. 45. 13. Exod. xxvi, xl.——3. Yr oedd hefyd gaeadlen ar ddrws y babell, yr hon a elwid llen gyntaf y babell. Exod. 36. 37.——4. Heblaw hyn yr oedd gwahanlen, o'r un defnydd a llen y babell, yr hon oedd yn gwahanu rhwng y cysegr sanctaidd a'r sancteiddiolaf; 'A'r wahanlen a wahan i chwi rhwng y cysegr sanctaidd a'r sancteiddiolaf.' Exod. 26. 31, 32, 23. Hyn oedd dyben neillduol y llen hon; sef attal dynion rhag myned i'r sancteiddiolaf, nac edrych ar y drugareddfa; 'gorchuddia yr arch â'r wahanlen.' Exod. 40. 3. 'Yr Ysbryd Glân yn hysbysu hyn,' medd yr apostol, 'nad oedd y ffordd i'r sancteiddiolaf yn agored etto, tra fyddai y tabernacl cyntaf yn sefyll:' Heb. 9. 8, hyny yw, nid oedd holl aberthau deddf Moses yn abl agoryd y ffordd i'r nefoedd, yr oedd y sancteiddiolaf yn ei gysgodi, ond byddai iddi gael ei hagor, trwy waith Crist yn myned i mewn trwy ei waed ei hun. Yr oedd y llen hon yn arwyddo cnawd neu ddynoliaeth Crist, yn mha un yr oedd holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol, trwy ba un yr aeth Crist ei hun i mewn, sef trwy ddyoddef yn y cnawd, gan gael i ni dragywyddol ryddhad, neu ryddid i fyned yn hyderus at orsedd-fainc y gras. Heb. 4. 16. a 9. 12—24. I gadarnhau hyn, pan ddyoddefodd Crist, 'Wele llen y deml a rwygwyd yn ddau, oddi fynu hyd i waered.' Mat. 27. 51. Yr oedd hon yn wyrth ryfedd; a chan mai ar awr yr arogl-darthiad y bu Crist farw, a'i bod hefyd yn uchel-wyl, tebygol fod Caiaphas yr archoffeiriad ei hun, yn llosgi yr arogl-darth ar yr allor aur, pan rwygwyd y llen, ac yr agorwyd y sancteiddiolaf i gyflawn olwg. Gan fod y llen yn dew, oddiwrth y gwaith cywrain oedd arni, rhyfedd na buasai hyn yn effeithio arno, ac yn ei argyhoeddi. Yr oedd holl gywreinrwydd y llen hon, yn arwyddo holl addurniadau sanctaidd dynoliaeth Crist, a'r eglwys ynddo, a thrwyddo. Fel hyn, trwy y llen ogoneddus hon, y cysegrwyd ffordd newydd a bywiol i ni, 'i gael nesâu at Dduw â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd.' Heb. 10. 20.

**LLENG**, (lly-eng) *Llad.* LEGIO: byddin o filwyr Rhufeinaidd. Ar y cyntaf, nid oedd lleng o filwyr ond ychydig o rifedi; ond pan oedd yr ymerodraeth hòno yn ei gogoniant, yr oedd yn cynnwys 6200 o wŷr traed, a 730 o wŷr meirch. Yn yr ysgrythyr y mae yn arwyddo rhifedi mawr. Mat. 26. 53. Marc 5. 9—15. Luc 8. 30.

**LLEN-LLIAN**, (llen-llïan) llen, cynfas.—'Ac efe a welai y nef yn agored, a rhyw lestr yn disgyn arno, fel llen-llïan fawr,' &c. Act. 10. 11. Gellir golygu y llen-llïan fawr hon yn ngweledigaeth Petr, yn arwyddo yr eglwys Gristionogol dan yr oruchwyliaeth newydd o'r cyfammod gras, dechreuad pa un sydd yn y nefoedd, er bod ei sefyllfa yma ar y ddaear. Ei bod wedi rhwymo ei phedair congl, a ddichon arwyddo diogelwch yr eglwys trwy gyfammod, addewid, a llŵ Duw, ac ymrwymiadau ei ddoethineb, ei allu, ei ffyddlondeb, a'i gariad o'i phlaid. Y pob rhyw o greaduriaid, oeddent yn arwyddo pechaduriaid o bob math, ac o bob cenedl, yn cael eu casglu i'r eglwys trwy bregethiad yr efengyl, a thrwy ffydd o weithrediad Duw. Esa. 11. 6—9. Y llef i beri i Petr ladd a bwyta, sydd yn eglur gyfarwyddo Petr i gyfeillachu â phechaduriaid edifeiriol, o blith y cenedloedd, a pheidio a gwneyd dim gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r dysgyblion Iuddewaidd, am fod Duw wedi eu glanhau; ac y byddai iddo bregethu i'r Cenedloedd yn gystal ag i'r Iuddewon, am fod Duw yn bwriadu eu glanhau hwythau. Esa. 65. 25. Ioan 7. 37. 1 Cor. 6. 9, 10, 11. Er bod amrywiaeth hynod rhwng y creaduriaid hyn oedd yn y llen-llïan, etto yr oeddynt yn cytuno yn y llen-llïan, ac yn cael eu dyrchafu i'r nefoedd ynddi; felly y mae pechaduriaid o amrywiol fath o'r blaen, wedi eu dychwelyd a'u dwyn i'r eglwys, yn gytun ynddi, o'r un feddwl ac o'r un farn am bethau hanfodol i grefydd: y mae yr un dduwiol anian ynddynt, yr un ffydd, yr un gobaith, a'r un cariad; yr un cymhelliadau sanctaidd, a'r un dyben yn eu golwg o fyw i'r hwn a fu farw drostynt, yn y byd. Na anobeithion am neb, ac nac esgeuluswn y moddion i'w dychwelyd at yr Arglwydd: y mae pob rhyw bedwar carnolion y ddaear, a gwylltfilod, ac ymlusgiaid, ac ehediaid y nef, yn y llen-llïan, ac wedi eu glanhau. 'Pedwar carnolion y ddaear;' megys ychain, defaid, camelod: 'gwylltfilod;' megys llewod, llewpardiaid, eirth: 'ymlusgiaid;' megys seirph, nadrodd, &c. 'ehediaid;' sef adar o bob math; megys yr eryr, yr hebog, y brain, y gwalch, &c. yn arwyddo pob math o bechaduriaid. Rhai creulawn, fel llewod, &c., rhai daearol, fel yr ymlusgiaid; rhai beilchion, ansefydlog, &c., fel yr adar. Amrywiaeth rhyfedd! etto i gyd yn gadwedig trwy yr un gras.

**LLEPIO**, (lleb) *Gr.* λαπτω (*laptô*) lleibio, llyfu, llepian. Baru. 7. 5, 6, 7.

**LLES—AD—AU**, (lly-es) cêd, budd, elw; ymwared a wneir i un.

> *Lles* dihirwch yn ddiflanawl,
> *Lles* cywirdeb yn dragywyddawl. *Diar.*

'Eithr yn hytrach gwasanaethant hwynt, am eu bod yn credu, ac yn anwyl, yn gyfranogion o'r llesâd.' 1 Tim. 6. 2. 'Yn gyfrannoc o'r twrn da.' W. S. Y mae amryw yn cyfieithu y geiriau yr un fath a W. S. 'Eithr yn hytrach gwasanaethant hwynt, am fod y rhai sydd yn derbyn y llesâd (o'u gwasanaeth) yn ffyddlon ac yn anwyl,' hyny yw, *y twrn da.* Eraill a briodolant y gair at lesâd yr efengyl; y bendithion sydd i'w cael trwy yr efengyl. Y mae cyfieithiad W. S. yn ymddangos yn naturiol iawn, ac yn bur agos i'r Groeg. Gwel Elsner, Schleusner, Parkhurst, Macknight.

'Eithr eglurhad yr Ysbryd a roddir i bob un er llesâd.' 1 Cor. 12. 7. Sef y doniau sydd o'r Ysbryd Glân, yn egluro ei bresennoldeb; er llesâd i'r eglwys mae y cwbl. Nid er llesâd neu elw i'r dyn ei hunan; nid er gwag ogoniant; nid er ymrysonau ac ymraniadau; ond er adeiladaeth a llesâd.

Y mae Duw yn ceryddu ei blant er eu llesâd, fel y byddont gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef. Heb. 12. 10.

'Y cnawd nid yw yn llesâu dim.' Ioan 6. 63. Nid yw ymborthi ar ei gnawd, mewn ystyr llythrenol, yn llesâu dim; ond mae yn anferth, ac yn ffiaidd meddwl am dano. 'Y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych (am fwyta fy nghnawd, ac yfed fy ngwaed) ysbryd ydynt, a bywyd ydynt;' hyny yw, y maent i'w deall yn ysbrydol, am ymborthi arnaf trwy ffydd, ac yna y maent yn foddion o gael bywyd tragywyddol.

'Os enwaedir chwi, ni lesâ Crist ddim i chwi.' Gal. 5. 2. Nid oedd enwaediad yr Iuddewon yn rhwystr iddynt gael hawl yn Nghrist: nid hyn oedd meddwl yr apostol; ond os enwaedai y Cenedloedd fel ammod iechydwriaeth, yr oeddynt yn myned at gyfammod Sinai, ac at yr hen ddefodau Iuddewig, y rhai a ddilëwyd yn Nghrist; yn yr achos hwn, ni lesâi Crist ddim: rhaid cymeryd Crist yn yr efengyl yn Iachawdwr cyflawn, neu fod yn gyflawn hebddo: ni lesâ ddim, os na chymerir ef yn unig ac yn hollol Iachawdwr.* Rhuf. 10. 3. Act. 4. 10, 11, 12.

'Pob peth sydd gyfreithlon i mi, ond nid yw pob peth yn llesâu. 1 Cor. 6. 12. Pob peth, sef pob

* Justitia operum & justitia ex fide non simul constant. Vatablus.

Digitized by Google

*bwydydd;* nid yw pob peth yn gyfreithlon, yn yr ystyr helaethaf: ond y mae pob bwydydd yn gyfreithlon o ran un gwaharddiad i fwyta y naill na'r llall. Er hyny nid yw pob bwydydd yn llesâu er iechyd; a dichon bod rhai o honynt yn rhy gostus, ac yn afradlonrwydd i gyfranogi o honynt. Heblaw hyny, nid yw bwyta pob math o fwydydd yn llesâd i eraill, ond hwyrach yn dramgwydd ac yn neweidiol iddynt; am hyny ni'm dygir i dan awdurdod gan ddim.

LLESG—AU—EDD, (lly-esg) eiddil, gwan, egwan, dinerth, dirym, methedig, palledig, nychlyd; claf, clwyfus; curio, gwanhau, nychu, ymollwng, llaesu, diogi; gwendid, anghyfnerth, eiddilwch, anghadernid. Mae llesgrwydd yn arwyddo, 1. Afiechyd neu wendid corph; gwendid naturiol dyn, neu anifel. 2 Cron. 28. 15. Ps. 105. 37. Jer. 14. 18. Ezec. 34. 21. Dan. 8. 27. 1 Cor. 11. 30.——2. Llwgr, gwendid, ac afiechyd ysbrydol yr enaid. Ps. 6. 2. a 79. 8. Esa. 1. 5. a 35. 2. Ezec. 34. 4. Y mae yr Arglwydd, trwy ymgeledd yr efengyl, 'yn iachâu holl lesgedd' ei bobl. Ps. 103. 3. Sef yn eu gwaredu oddiwrth eu holl ofnau, yn meddyginiaethu eu holl afiechyd ysbrydol. Y mae pob llygredd yn llesgâu enaid, yr hyn a'i gwaredo oddiwrth bechod, sydd yn iachâu ei lesgedd.——3. Y mae barnedigaethau Duw am bechodau dynion yn llesgâu holl naturiaeth. Esa. 24. 4—7. a 33. 9. Jer. 14. 2 a 49. 24.

LLESMAR—EIRIO, (lles-mar) llewygu, gloesiaw, gloesgu. Ps. 61. 2. Esa. 10. 18. Jer. 15. 9.

LLESTAR—EIRIO, (llest) rhwystr, atta', lluddias, goluddio. Act. 24. 23.

LLESTR—I, (llest) dysgl; dodrefnyn, llestriyn. dof.—Yr oedd holl lestri y babell a'r deml yn sanctaidd, wedi eu cysegru trwy eneiniad. Exod. 40. 10. Yn arwyddo fod sancteiddrwydd yn angenrhaid i bawb, ac i bob peth perthynol i addoliad sanctaidd y Duw mawr. Esa. 52. 11.

Gelwir cyrph dynion yn llestri, am mai cywrain waith Duw ydynt, i fod yn breswylfod i'r enaid. Esa. 66. 20. 1 Thes. 4. 4.——Gelwir y gwragedd 'llestri gwanaf,' am eu bod yn gyffredinol o ran eu cyrph, eu deall, a'u cynneddfau, yn wanach na'r gwŷr; ond nid ydynt i'w anmharchu am hyny, ond eu parchu yn fwy, a dangos mwy o diriondeb a thynerwch tu ag atynt fel y cyfryw. 1 Petr 3. 7.——Gelwir dynion yn llestri trugaredd, a llestri digofaint, am eu bod oll i gynnwys effeithiau trugaredd neu ddigofaint Duw dros byth. Rhuf. 9. 22, 23.——'Llestr heb hoffder ynddo,' yw llestr heb fawr gyfrif o hono, yn cael ei roddi at y gwasanaeth gwaelaf, neu ei dori fel peth rhy ffiaidd i'w oddef yn y tŷ. Jer. 22. 28. a 48. 38. Hos 8. 8.——Cyffelybir dynion i lestri pridd, am eu bod yn hawdd eu dryllio, a phan ddryllir hwynt, ni ellir eu hadgyweirio. Ps. 2. 9. a 31. 12.——Gelwir gweinidogion yr efengyl yn llestri pridd, yn etholedig gan Dduw, i gynnwys, ac i ddwyn yr efengyl i eraill; yn wael ac yn llesg ynddynt eu hunain; ac yn aml, yn ddirmygedig yn ngolwg dynion. Act. 9. 15. 2 Cor. 4. 7. Edr. GALLU, GWADDOD, LLEN-LLIAN, PETR.

LLETTY—A—GAR—WCH, (llet-ty) ostri, yspytty; llettya, rhoddi lletty, croesawi; croesawgar, croesawus, ymgeleddgar. Yr oedd y llettyau yn y gwledydd dwyreiniol, ac y maent etto, yn wahanol iawn i'r rhai cyffredin yn ein plith ni. Yr oedd y llettyau wedi eu parotoi i ddyeithriaid fyned iddynt, a hefyd lle i'w hanifeiliaid. Nid oedd dim lle yn un o ystafelloedd y lletty yn Bethlehem i Joseph a Mair; a thebygol nad oedd un o'r cyfryw leoedd yn y dref fechan Bethlehem, er bod llawer o honynt, diammeu, yn Jerusalem, i'r holl ddyeithriaid a ddeuai yno ar y gwyliau blynyddol: am nad oedd lle yn y lletty, aeth Joseph a Mair i lettya yn nhŷ yr anifeiliaid; yno yr esgorodd Mair ar y dyn bach Iesu, ac yn un o breseblau yr anifeiliaid y dododd ef i orwedd. Lletty gwael i dywysog y bywyd! Dangosir yno ogof i deithwyr hyd heddyw, lle y dywedir y ganed ef, a'r preseb yn yr ogof lle y dodwyd ef: ond hwyrach mai dychymyg disail yw yr holl hanes am i'r Iesu gael ei eni yn yr ogof. Gwel Campbell ar Luc 2. 7.

Mewn goruwch ystafell yn un o'r llettyau yn Jerusalem, y bwytaodd yr Iesu y pasc gyd â'i ddysgyblion. Marc 14. 14. Gelwir yr ystafell, y lletty. Luc 22. 12. Yr oedd, yn ddiammeu, amryw ystafelloedd yn mhob lletty; ac un yn neillduol i bob teulu, neu gyfeillion, a fyddai yn cyd-fwyta.

'Yn dilyn llettygarwch.' Rhuf. 12. 13. 'Yn dilyn rhoi lletuy.' W. S. Dr. M. Y mae Mr. Blackwell yn barnu fod y gair διωκοντες, *dilyn*, yn arwyddo, nid yn unig parhau i fod yn llettygar, ond hefyd, nid yn unig y dylem dderbyn y neb a ddeuai a'om, ond myned ar ol y rhai a aethant heibio i'n tai, a'u cymhell hwynt i mewn. Nid oedd dim gwestfaoedd, neu dafarndai, yn y gwledydd dwyreiniol; byddai teithwyr, o'r achos hyn, yn llettya gyda rhyw berthynasau, cydnabyddineth, neu ryw drugarogion a'u derbyniai i'w tai. Gallwn feddwl fod llettyaeth yn angenrheidiol neillduol i rai yn teithio yn achos yr efengyl. Nid oedd derbyniad iddynt ond gan eu brodyr, gan gymaint gelyniaeth y byd yn eu herbyn: a diammeu, byddent yn cael eu gyru yn aml o'r naill wlad i'r llall gan erlidigaethau, yn ddiddym, ac yn ddigon drwg eu cyflwr. Yr oedd llyttyaeth i'r cyfryw yn yr amgylchiadau hyn o'r llesâd a'r cysur mwyaf. 'Bum ddyeithr.' medd Crist, 'a dygasoch fi gyda chwi.' Mat. 30. 35. Yn ei ddysgyblion gweiniaid erlidigaethus, bu fel hyn yn grwydredig, angenus, a dinodded; dwyn ei bobl yw ei ddwyn ef gyd âg un. Mor ryfedd mae y Duw tirion yn cofio am bob amgylchiad o gyfyngder y dichon ei bobl fod ynddynt, ac yn annog i garedigrwydd a chymwynasgarwch.—Yn hyn, fel yn mhob rhinwedd dda arall, y mae yn ofynol mewn esgob fod yn blaenori: nid yw yn addas i'r swydd heb hyny, mwy na'r meddw, neu yr ymladdgar. 1 Tim. 3. 2. Heb. 13. 2. 1 Petr 4. 9. Gwel Macknight ar Rhuf. 12. 8, 13.

'O na byddai i mi yn yr anialwch letty fforddolion.' Jer. 9. 2. Y geiriau hyn a lefarwyd, nid gan y prophwyd, ond gan yr Arglwydd, fel mae yn eglur oddiwrth ddiwedd adn. 3. 'Ac nid adnabuont fi, medd yr Arglwydd.' Y mae yn dymuned y cyfryw sefyllfa na welai ddrwg foesau, a gweithredoedd pechadurus ei bobl. 'Lletty fforddolion' oedd rhyw ogof, neu fwth, a wnaed gan ryw deithiwr, er cysgod, dros ychydig amser, mewn anialwch gwag, digysur. Sefyllfa unig a digysur, ond gwell na byw yn barhaus yn nghymdeithas dynion o fucheddau halogedig. Y geiriau a ddengys, yn dra effeithiol, mor ffiaidd gan yr Arglwydd eu pechodau.

LLETHU, (lleth) gwasgu, pwyso i lawr, gorthrymu, gwarsengu, gormesu, pwyso yn drwm. Lef. 22. 24 —'Wele fi wedi fy llethu danoch, fel y llethir y fên lawn o ysgubau,' neu *llethaf*, neu gwasgaf eich lle chwi, fel y gwasga mèn lawn o ysgubau. Esgob Newcome. Amos 2. 13. Y mae y cyfleithiad hwn yn unol âg ystyr adn. 14. Y mae yn bwgwth y byddai iddo eu llwyr ddinystrio, fel nad allai neb ddianc.

LLEUAD, *Heb.* לבנה *Gr.* σεληνη; *Llad.* LUNA; y LLOER; seren ogordd: gwib-seren, neu ail-blaned, sydd a'i chylch bob amser oddeutu y ddaear. Fel y mae y planedau eraill yn troi oddeutu yr haul, felly y mae y lloer oddeutu y ddaear; a chyd â'r ddaear oddi

Digitized by Google

amgylch yr haul. Ei thryfesur yw 2180 o filltiroedd; ei harwyneb yw 14,898,750 o filltiroedd ysgwâr; ei phellder oddiwrth y ddaear sydd 237,554 o filltiroedd. Y mae yn myned trwy ei chylch-droad mewn 27 o ddyddiau, 7 awr, a 43 mynyd; ond am fod yr haul yn y cyfamser yn myned rhagddo yn nghylch y diffygion (*ecliptic circle*) yr amser o un cyssylltiad i'r llall, yw 29 o ddyddiau, 12 awr, a 44 mynyd. Y mae i'r lleuad dri o ysgogiadau, sef ar ei phegwn ei hun, oddi amgylch y ddaear bob mis, ac oddeutu yr haul gyd â'r ddaear. Y mae ei hysgogiad ar ei phegwn yn gymhwys yn yr un hŷd amser â'i chylch oddi amgylch y ddaear; ac o'r achos hyn y mae yr un wyneb tu ag at y ddaear bob amser, ac y mae ei dydd a'i nos ynghyd, yr un hŷd a'n mis ni a fesurir gan ei throad o amgylch y ddaear. Y mae yn myned ynghylch 2280 o filltiroedd mewn awr.

Nid oes braidd ddim cyfnewidiadau yn nhymhorau y lleuad; am fod ei phegwn yn union syth i gylch y diffygion. Nid yw y lleuad ond corph tywyll ynddi ei hun, ond y mae yn adlewyrchu goleuni yr haul i ni; a hwyrach fod y ddaear yn adlewyrchu cymaint, os nid llawer mwy, o oleuni i'r lleuad. Pan byddo yn newid, y mae hi rhwng y ddaear a'r haul; a phan fyddo yn uniongyrch rhwng y ddaear a'r haul, y mae diffyg ar yr haul i ni; pan byddo yn llawn lleuad, y mae y ddaear rhyngddi hi a'r haul; a phan fyddo y ddaear yn uniongyrch ar linyn uniawn rhyngddi a'r haul, y mae diffyg ar y lleuad i ni. Y mae hyn yn dangos yn amlwg na allasai, yn ol trefn naturiaeth, fod un diffyg naturiol ar yr haul pan y bu Crist farw, gan mai ar y llawn lleuad yr oedd gŵyl y pasc, pan yr oedd y ddaear rhwng y lleuad a'r haul, ac nid y lleuad, fel yn y newydd-loer, rhwng y ddaear a'r haul. Pe buasai un diffyg naturiol, ar y lleuad y buasai, ac nid ar yr haul. Nid oes ddiffyg a ddichon fod ar y lleuad, ond pan byddo yn llawn, am nad yw y ddaear rhyngddi a'r haul un amser arall; a'r achos paham na byddai diffyg arni bob llawn lloer, yw gwyredd llwybr y lloer oddiwrth lwybr yr haul. Am nad yw y lleuad yn symud mewn cylch cwbl grwn, ond hir grwn, y mae ei phellder oddiwrth y ddaear yn cyfnewid yn wastadol, yn pellâu neu yn nesâu o hyd. Oblegid gwahanol sefyllfa y lleuad yn amrywiol fanau o'i chylch, ac oblegid trwy hyny gwahanol effeithiau yr haul ar y ddaear, y mae ei mynediad yn fwy cyflym weithiau na'u gilydd.

Gwedi newid y lloer, y mae y rhan oleu o honi yn wynebu tu a'r gorllewin, ac yn cynnyddu fwyfwy, nes y byddo yn llawn lluned, yn y pellder o 180 o raddau oddiwrth yr haul; wedi hyny yn cil y lleuad, y mae y wyneb oleu tu a'r dwyrain, ac yn lleihau yn raddol nes y delo yn ol at yr haul drachefn: y mae hyn yn dangos yn eglur mai corph tywyll ydyw, ac nad oes yn oleu o honi ond hyny y tywyno pelydr yr haul arni.

Y brychau a welir ar wyneb y lleuad, trwy fod rhai manau arni yn ymddangos yn fwy tywyll na'u gilydd, a fernir fod yn fynyddoedd uchel, ac yn ddyffrynoedd dyfnion; y manau dysglaer yw y mynyddoedd, a'r tywyll yw y pantleoedd dyfnion ynddi. Riccolius a fesurodd un o'r mynyddoedd, a elwir St. Catherine, ac a'i cafodd yn naw milltir o uchder.

Y mae yn amlwg, trwy amryw brofiadau, nad oes yr un môr yn y lloer; ac nad oes corph o awyr o amgylch iddi fel o amgylch ein daear ni. Y mae y lloer hydref (*harvest room*) pan fyddo yn llawn lluned, yn cyfodi yn gynt ar ol machlud haul, nag un mis arall yn y flwyddyn, yr hyn sydd yn dra chyfleus yn yr amser prysur hwnw, trwy roddi goleuni yn yr hwyr, ac megys trwy hyny yn estyn y dydd. Rhydd seryddwyr resymau digonol am hyn, anhawdd eu hegluro yma. Y mae y lleuad yn effeithio yn hynod ar drai a llanw y môr. Edr. Mor.

Ar y pedwerydd ddydd y gwnaeth Duw y lleuad, ynghyd â'r holl gyrph nefol. Crewyd hi i roddi goleuni, ac i lywodraethu y nos. Gen. 1. 14.

Nid gwresog ond yr haul, nid oer ond y *lleuad*. *Diar.*

Nid ydyw goleuni y lleuad yn rhoddi dim gwres i ni i'w wybod. Dywed y Dr. Hook fod goleuni y lleuad yn wanach na goleuni yr haul 104,368 o weithiau. Byddai yn angenrheidiol gan hyny wrth 104,368 o leuadau llawn lluned i roddi goleuni a gwres yn cyfateb i'r haul ganol dydd.

Y lleuad oedd yn nodi gynt yr holl wyliau Iuddewig. Yr hen genedloedd a addolent y lleuad dan yr amrywiol enwau, Brenines y nefoedd; Jer. 44. 15—19. Job. 31. 26, 27. Deut. 4. 19. a 17. 3. Hefyd, Venus, Urania, Succoth-Benath, Astaroth, Diana, Hecate, &c.

'Yn dêg fel y lleuad.' Can. 6. 10. Y mae yr eglwys yn derbyn ei goleuni a'i holl degwch oddiwrth Grist, fel y lleuad oddiwrth yr haul; ac yn ei oleuni ef y mae yn llewyrchu yn nghanol nos dywyll y byd: cynnydda yn raddol, nes y byddo yn bur ac yn ddysglaer fel yr haul. Esa. 30. 26. a 60. 20.

'A'r lleuad dan ei thraed.' Dat. 12. 1. Fel yr oedd y lleuad yn llywodraethu yr holl wyliau Iuddewig, iawn y gelwir hwynt, a phob peth arall ansefydlog a chyfnewidiol mewn crefydd, wrth yr enw lleuad: mae eglwys y Testament Newydd, 'yr hon sy deyrnas ddisigl,' â'r rhai hyn i gyd dan ei thraed, heb fod yn ddarostyngedig iddynt, nac yn cael ei llywodraethu ganddynt.

LLEUFER—U, (lleu-mer) goleuni, dysglaerder; goleuo, dysgleirio.—'Ar y ffordd y gwelais leuver o'r nefoedd.' Act. 26. 13.—'Ym plith yr ei ydd ych yn dysclaerio megys lleuverau yn y byt.' Phil. 2. 15. —'Gosodes di yn leuver i'r cenetloedd.' Act. 13. 47. W. S.

LLEW—A—ES—OD, (lly-ew) *Gr.* λεων; *Llad.* Leo: yn Hebraeg mae saith o enwau arno, yn arwyddo ei oedran, ieuanc, neu hen. Creadur ysglyfaethus a elwir felly.—Llewa; dystrywio, dyfetha, llyncu; bwyta.—Y llew gwyn gwyllt, a'r llew gwyn dôf, sef y llewyn, neu y llygwyn; llysiau tra meddyginiaethol, ag yr ymborthir arnynt mewn rhai gwledydd.—Llewa bara, sef, bwyta bara.

*Llewa*'n bara trwy wylo yn dost,
A wnaethost ti i'r eiddod.
*E. Prys*, (Ps. 80. 5.)

Y llew ydyw y creadur mwyaf cryf, ffyrnig, a chreulon o'r holl greaduriaid pedwar troediog. Nid ydyw yn cysgu ond ychydig; mae ei lygaid yn danllyd, a'i ruad yn ddychrynadwy. Gwel Bochart, *lib.* iii. *cap.* 2. Y mae mor gryfed fel y dichon gario eidion bychan ymaith gyd âg ef. Nid oes gan y llewes ddim mwng, fel sydd gan y llew. Yn ei gyflawn dyfiant, y mae ynghylch tair troedfedd o uchder, a phump o hŷd. Er ei fod yn dra ffyrnig, etto rhoddir llawer o hanesion am ei foneddigeiddrwydd, a'i ddiolchgarwch i rai a wnaethant gymwynas iddo. Dyfetha ddyn yn ei newyn; ond mwy, meddant, o angenrheidrwydd nag o ddewisiad. Y maent yn holl wlad Affric, parthau poethion Asia, mynydd Libanus, coedydd yr Iorddonen, &c.

Arferir y llew yn aml yn gyffelybiaethol yn yr ysgrythyrau, i arwyddo, 1. Duw ei hun yn ei farnedigaethau ofnadwy a dinystriol. Hos. 5. 14. Amos. 1. 2. a 3. 8.——2. Iesu Grist, yr hwn a elwir 'Llew o lwyth Judah.' Yr oedd llwyth Judah wedi bod yn hynod am ddynion glewion, llewaidd, megys Dafyd, &c. ond nid oeddynt oll ond cysgod gwael o hwn, yn eu nerth, eu gwrolder, a'u buddugoliaethau. Dat. 5. 5. ——3. Llwyth Judah, breninoedd Judah, a thywysogion Judah, y rhai oeddynt wyr gwrol, a dychrynllyd i'w gelynion.——4. Y diafol, yr hwn sydd fel

Digitized by Google

'llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyncu.' 1 Petr 5. 8.——5. Gormeswyr a gorthrymwyr creulon; megys breninoedd Assyria, Caldea, Persia, Rhufain, &c. Nah. 2. 12. Jer. 47. 15. Esa. 21. 8. Ezec. xix. 2 Tim. 4. 17.——6. Gelynion, a drygau o bob math. Ps. 91. 13.——7. Rhwystrau ac anhawsderau ffuantus, i attal un rhag myned rhagddo yn ei ddyledswydd. Diar. 22. 13.

Y llew oedd yn arwyddlun prophwydoliaethol o frenin Babilon, yn ngweledigaeth Daniel: yr 'oedd fel llew, ac iddo adenydd eryr.' Yr oedd breninoedd Babilon, yn enwedig Nebuchodonosor, yn gryfion, yn wrol, ac yn gyflym, yn goresgyn teyrnasoedd eraill; ond tynwyd adenydd y llew, gwedi marw y brenin mawr hwnw; sef darfu eu gwaith yn goresgyn teyrnasoedd eraill: ac yn lle bod yn llewod, aethant yn wan ac yn ofnus fel dyn. Dan. 7. 4.

'A'r anifel cyntaf oedd debyg i lew.' Dat. 4. 7. Ezec. 1. 10. Edr. ANIFEL, DAFYDD, SAMSON.

LLEWPARD, *Llad.* PARDUS, LEOPARDUS. Y mae y creadur hwn yn cael ei hynodi yn yr ysgrythyrau, 1. Am frychni ei groen, yr hwn sydd yn hardd, ac o amrywiol liwiau. Jer. 13. 23.——2. Ei greulonder a'i ddichell: am hyny y cyffelyba yr Arglwydd ei hun iddo, yn cyfarfod â phobl foethus, annuwiol, yn ei farnedigaethau. Hos. 13. 7. Jer. 5. 6. Esa. 11. 6.——3. Ei fuandra. Hab. 1. 8.——Cyfeirir, tebygol, at yr holl gynneddfau hyn yn y bwystfil a welodd Ioan yn cyfodi o'r môr. Dat. 13. 2. Y mae y darluniad o hono yn greulon, ac yn ofnadwy iawn; yn debyg i lewpard, a thraed arth, a safn llew ganddo. Desgrifiad o'r bwystfil anghristaidd, yn ei ddichellion, ei greulondeb gwaedlyd, a'i ffieidd-dra. Dywedir fod y llewpard mor elynol i ddyn fel y neidia yn awchus ar ei lun wedi ei dynu ar bapur.

Breniniaeth y Groegiaid a gyffelybir i lewpard, a phedair aden ar ei gefn, ac â phedwar pen iddo, yn arwyddo creulondeb Alexander, cyflymdra ei fuddugoliaethau, a rhaniad ei lywodraeth, ar ol ei farwolaeth, yn bedair rhan, rhwng pedwar o dywysogion ei lu. Dan. 7. 6.

'Tyred gyda mi .... o fynyddoedd y llewpardiaid.' Can. 4. 8. Mynyddoedd lle y triga y llewpardiaid; neu ddynion o'r un cynneddfau creulon a hwynt.* O blith y cyfryw y mae Crist yn dirion ac yn rasol yn gwahodd ei eglwys i ddyfod gyd âg ef.

LLEWYG—U, (llew) llesmar, llesmeirio, gloesio; llewyg y blaidd, *Saes.* LUPINS; llewyg yr iâr, y bele, *Saes.* HENBANE. Mae dynion yn llewygu o ddiffyg cynnaliaeth addas i natur; hefyd, mewn helaethrwydd o fwyd a diod, gan ofn, neu gan archollion. Ps. 107. 5. Galar. 2. 11, 12, 19. Jonah 2. 7. Mat. 15. 32. Luc 1. 26. Can. 5. 6. Yr oedd y llewyg a syrthiodd ar Petr yn oruwch-naturiol. Act. 10. 10.

LLEWYRCH—U, (llewyr) dysglaer, dysgleirdeb, ad-dywyniad, golygus.—Llewyrch wyneb, sef wyneb siriol, heddychol, tirion. Llewyrch wyneb yr Arglwydd sydd yn peri iechydwriaeth i'w bobl, a phob cysuron. Ps. 44. 3. a 89. 15. a 4. 6. a 31. 16.

Y mae gwedd wyneb un yn mynegi agwedd ei feddwl:—wyneb llewyrchus sydd yn arwyddo heddwch, tangnefedd, a charedigrwydd: wyneb du, dilewyrch, sydd yn arwyddo digofaint, gorbrudd-der, a thrymder meddwl. Anaddas yw arferyd y gair *gwedd* yn lle *llewyrch*, megys y gwneir yn aml; canys mae gwedd *ddilewyrch* yn gystal a gwedd *lewyrchus*. 'Llewyrch wyneb Duw,' medd Ainsworth, 'ydyw ei ffafr, ei heddwch, a'i ras; a'r bendithion o wybodaeth ysbrydol, cysur, a llawenydd yn deillio o hyny. Yn Nghrist y mae hyn i'w gael: Efe yw *llewyrch wyneb Duw* i ni.' Luc 2. 32. Exod. 33. 14.——'Angel ei wyneb, neu ei gynnrychioldeb.' Esa. 63. 9. Gwel Diar. 16. 15. Job 29. 3.

'Fel na thywynai iddynt lewyrch efengyl gogoniant Crist, yr hwn yw delw Duw.' 2 Cor. 4. 4. Llewyrch yr efengyl yw y dadguddiad, neu y dangosiad gogoneddus hwnw a wneir yn yr efengyl, trwy Grist, ac ynddo, o holl briodoliaethau gogoneddus y Duwdod: ychydig o'r rhai sydd â'r efengyl ganddynt a welant y llewyrch gogoneddus hwn; ond mae y llewyrch hwn yn tywynu i'r rhai sydd yn gwir gredu. Y mae Crist yn ei berson a'i swyddau yn eu golwg yn ardderchog a gogoneddus: ac y mae holl drefn yr iechydwriaeth ynddo, yn dra gogoneddus, ac ardderchog—yn addas i Dduw, ac i'w cyflyrau hwythau.

Mae Duw yn llewyrchu, pan y mae yn dangos ei ragoriaethau gogoneddus, ac yn cyfranu ei fendithion yn helaeth. Ps. 50. 2. a 118. 27. a 119. 135.

Mae yr efengyl, neu wirioneddau, yn llewyrchu, pan y maent yn cael eu cyhoeddi yn gyflawn ac yn ddysglaer, a'r Ysbryd Glân trwyddynt yn llewyrchu ar eneidiau dynion. Esa. 9. 2. Petr 1. 19.

Mae dynion yn llewyrchu, pan y maent yn ymddangos yn eglur, yn iach yn y ffydd, yn sanctaidd yn eu hymarweddiad, ac yn helaeth mewn parch ac anrhydedd. Mat. 5. 15, 16. Job. 11. 17. Dan. 12. 3.

Mae goleuni hawddfyd yn llewyrchu ar un, pan y byddo yn mwynhau llawer o hono. Job 22. 18. a 29. 3.

LLIAN, LLIEINIAU, (lli) gwisg-ddeunydd; llian-wê; defnydd wedi ei wneuthur o gywrach, neu lîn.—Llian cri, sef heb ei gànu; llian main; llian bras, &c. Mae tri gair Hebraeg a gyfieithir llian; sef בד a arwydd, yn fwyaf neillduol, y defnydd a wneir o lîn; שש y defnydd o wneir o gotwm; בוץ y defnydd o sidan, medd rhai, o gotwm, medd eraill. Wrth gymharu yn yr iaith Hebraeg, Exod. 25. 4. a 26. 1—8. â 2 Cron. 2. 14. Exod. 26. 31. â 2 Cron. 3. 14. y gelwir בוץ *bots* שש *shesh*; ac wrth gymharu Exod. 28. 42. â Exod. 29. 28. mae yn amlwg y gelwir בד *bod* שש *shesh*; fel yr ymddengys שש *shesh* yn enw perthynasol i bob un o'r ddau eraill. Weithiau cyfieithia y Dr. Morgan שש *sidan gwyn*; a בוץ *llian main*; a בד *llian*. Exod. 26. 31. a 28. 42. a 29. 28. Yn yr Aipht yr oedd y *shesh* yn tyfu: 'Llian main (שש) o'r Aipht.' Ezec. 27. 7. Gwnaent wisgoedd breninol o hono. 'Gwisgodd ef mewn gwisgoedd sidan.' *Heb. shesh.* Gen. 41. 42. Rhai a farnant mai math o gotwm sidanaidd oedd y *shesh*, yr hwn y dywed Pliny oedd yn tyfu yn yr Aipht, ar fath o brysgen a elwid *Hylinon*. *Lib.* xix. *cap.* 1. Math o lian sidanaidd yw y בוץ *bots*, gwyn, pur, a dysglaer; ac y mae yn cael ei enw oddiwrth ei liw. Arwyddlun addas o gyflawnder a sancteiddrwydd Crist, ac o'i bobl ynddo, ac o hono.——Yr oedd yr Aipht yn enwog am lian gwych. Dygai Solomon edafedd lîn o'r Aipht, a thebygol fod ganddo weithfeydd yn Judah i'w wau. Diar. 19. 8—14. 1 Bren. 10. 28——Yr oedd gwisgoedd yr offeiriaid, a lleni y cysegr, wedi eu gwneuthur o lian main cyfrodedd.——Cyflawnder y saint, a elwir 'llian main gwyn a glân;' i ddangos ei burdeb a'i sancteiddrwydd; a'i ddysgleirdeb ceinwych. Dat. 19. 8—14. Ezec. 16. 10.

LLIAS—U, (lli-as) deillio oddiwrth, tori ymaith, ysgaru, bod yn ysgaredig.'—'Ar ymddifad a liasant.' Ps. 94. 6. Dr. M.

LLID—IO—IOG—RWYDD, (lly-id). Edr. DIGOFAINT. Y mae yn cael ei roddi yn aml yn yr ysgrythyrau am gospedigaeth neu farnedigaeth. 2 Cron. 12. 7. a 30. 8. a 34. 25. Ps. 79. 6. a 85. 3. Esa. 26. 20. Mat. 3. 7. Rhuf. 13. 5, &c.

* Dywed Andrichomius fod mynydd neillduol o'r enw hwn, dwy filltir i'r gogledd o Tripolis, tair o du y dehau i Arcas, ac un o Libanus; a'i fod yn grwn ac yn uchel.

Digitized by Google

LLIF—IAU, (lly-if) rhignen law, llif-ddur. Erfyn i ddarnio coed, neu feini, âg ef. Esa. 10. 15.

LLIF—O—EIRIANT, (lli) dylif, diluw, gorlif, rhyferthwy; gorlenwi, yn llifo. Y mae llifeirio yn arwyddo llawnder mawr, neu amldra o unrhyw beth; megys llaeth a mêl. Exod. 3. 8, &c. Edr. DWFR, LLAETH.—'Yn mheryglon llif-ddyfroedd;' sef wrth groesi afonydd yn ei deithiau. 2 Cor. 11. 26.

LLIN, (lly-in) *Gr.* λινον; *Llad.* LINUM.—Mae llin o ddefnydd mawr yn mhob gwlad, ac yn mhob oes; ac mor gyffredin yn adnabyddus i bawb, fel y mae hanes, neu ddarluniad o hono, yn hollol afreidiol yma. Y mae hadau llîn, a'r olew a dynir o'r hadau, o ddefnydd mawr, ac yn dra meddyginiaethol. Rhoddir yr hadau yn aml mewn sugaethau (*poultice*) i esmwythâu, meddalâu, ac addfedu unrhyw chwydd, cornwyd, neu bendduyn. Y mae rhinwedd neillduol yn yr olew-lîn i esmwythau a iachâu yr eisglwyf (*pleurisy*). Dywed Lewis, yn *Mat. Medic.* na chafodd ddim yn fwy effeithiol i rwyddhâu anadliad, ac i annog poeri, ac felly i esmwythâu yn y clefyd hwnw. ——Y mae llîn hefyd yn arwyddo pabwyryn lamp, a wneir o edau lin.—'Llîn yn mygu,' a arwydda ffydd wan, ac agos a diffoddi. I ddangos tiriondeb, hynawsedd, a graslonrwydd yr Arglwydd, dywed y Tad am dano, 'Ni ddiffydd lîn yn mygu,' sef y lamp sydd agos a diffodd. Cynnal y gras lleiaf a gwanaf, ac a'i gwna yn fuddugoliaethus. Esa. 42. 3, 4.

LLIN, llinell; rhyw fesur.—'Llin ar lin,' sef llinell ar linell. Dysgeidiaeth ddyfal, barhaus, o fesur ychydig ac ychydig. Esa. 28. 10.

LLINYN, (llin) rhwymyn, carai, tant; rhyw fesur; llinyn mesur.—'Ac efe a fesurodd â dau linyn i ladd, a llinyn llawn i gadw yn fyw.' 2 Sam. 8. 2.—'Ac efe a fesurodd â dau linyn, llinyn i ladd, a llinyn llawn i gadw yn fyw.' Dr. Chandler's *Review of the Hist. of David.* Rhanodd Dafydd wlad Moab yn amryw ranau, fel y gallai farnu pa ddinasoedd fyddai yn fwyaf addas i ddinystrio, ac i lwyr ddystrywio y trigolion. Mae y llinyn llawn yn arwyddo darn ëang o'r wlad, mwy helaeth na'r rhan a orchymynwyd i'w rhoddi i farwolaeth.

'Mi a estynaf linyn mesur Samaria ar Jerusalem.' 2 Bren. 21. 13. Hyny yw, mi a'i dinystriaf yn o gyffelyb: fel y mae Jerusalem yn tebygu i Samaria yn ei phechodau, felly y bydd hefyd yn ei barnedigaethau.—Barn wrth linyn yw barn yn fesuredig, yn cyfateb yn gwbl i'r bai. Ni chaiff neb eu mesur i'w lladd heb haeddu hyny; bydd y llinyn yn llaw perffaith gyfiawnder. Esa. 28. 17.——Addaw estyn llinyn ar le yw addaw ei adeiladu, mesur y tir i adeiladu tai arno. Jer. 31. 39. Zech. 1. 16. a 2. 1.——Estyn 'llinyn annhrefn, a meini gwagedd,' ar le, yw ei ddifrodi yn gwbl. Esa. 34. 11, 17.

Y mae llinyn yn arwyddo, yn aml, y tir a fesurid â llinyn. 'Y llinynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd:' hyny yw, fy rhan a'm hetifeddiaeth. Ps. 16. 6. a 78. 55. Amos 7. 17. Mic. 2. 5. Crist sydd yn llefaru yn y geiriau; ei ran a'i etifeddiaeth ef yw ei bobl, ei eglwys; y mae ei ran yn hyfryd ganddo; y mae ei bobl, a'r gogoniant a ddarparwyd iddo ef a hwythau, yn gwbl wrth ei fodd: bydd yn hyfryd byth, wedi ei holl ddyoddefaint i bwrcasu ei etifeddiaeth.

'Cyn tòri y llinyn arian.' Preg. 12. 6. Madruddyn y cefn yw y llinyn arian, ynghyd â'r giau (*nerves*) perthynol iddo. Gelwir ef yn llinyn arian oblegid ei wyneb dysglaer. Y mae tòri hwn yn farwolaeth sicr ar unwaith. Cyn tòri y llinyn arian, gan hyny, a arwydda cyn marw; tra byddo un byw y mae iddo ymotyn am adnabyddiaeth o'i Greawdwr, cymmod a chymdeithas âg ef.

LLINDAGU, (llin-tâg) mygu, tagu, gwasgu cêg. Mat. 18. 28.

LLITHIO, (llith) hudo, denu.—'Canys yna y temtir pob un, pan y tyner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun.' Iago 1. 14. Y mae neillduol harddwch yn y geiriau, medd y Dr. Doddridge, yn cyfeirio at y dull o dynu pysgod o'r dwfr â bach yn guddiedig o dan abwyd. Y mae y gwrthddrych yn gweithredu ar chwant y pechadur, fel yr abwyd ar y pysgodyn, ac felly y mae yn cael ei lithio a'i hudo nes ei ddal yn y diwedd. 2 Petr 2. 18.

LLITHRO—IG—FA, (llithr) syrthio; anwastad: lle anhawdd sefyll arno.

Annoeth *llithrig* ei dafod. *Diar.*

Mae y gair *llithro* yn cael ei arferyd yn aml, yn yr ysgrythyrau, i arwyddo tramgwyddo, syrthio yn ystod rhodiad bywyd dyn. Fel y mae ystod bywyd dyn yn cael ei alw rhodio, felly y mae pechu yn ein rhodiad yn cael ei alw llithro. Yr ydym yn rhodio ar lithrigfa; mae ein gliniau yn weiniaid, a'r maglau yn aml; gan hyny y mae yn dra angenrheidiol i'r Arglwydd gynnal ein cerddediad, fel na lithro ein traed. Ps. 17. 5. a 26. 1. a 37. 31. a 38. 16. a 66. 9. a 73. 2. a 94. 18. a 121. 3. 'Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro: od oes neb heb lithro ar air, gwr perffaith yw hwnw.' Iago 3. 2. Mae y gair llithro yn y fan hon yn hynod o addas;' nid troseddwyr gwirfoddol ydynt, yn cyfeiliorni o'r ffordd o ddewisiad, ac yn gyndyn; ond yn chwennych rhodio yr iawn ffordd, yr ydym yn llithro ynddi mewn llawer o bethau, ac yn aml. Y mae yn arwyddo tramgwyddo a llithro o wendid, ac nid pechu o ddewisiad, yn rhyfygus, ac yn gyndyn. Llithro ar air, sydd yn golygu yn amlaf gau-athrawiaethau, a goganu gau-athrawiaethwyr; hefyd, yn cynnwys enllib, athrod, hysting, a phob peth mewn geiriau yn erbyn caru ein cymydog fel ni ein hunain. 'Od oes neb heb lithro ar air, gwr perffaith yw hwnw;' os gall ffrwyno y tafod, geill ffrwyno yr holl gorph hefyd; sef llywodraethu ei hun yn ei holl weithredoedd; mae y cyfryw yn berffaith, sef yn gyflawn yn ei rodiad.

'Tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth;' neu un amser. 2 Petr 1. 10. Sef, tra fyddoch yn rhoddi cwbl ddiwydrwydd i chwanegu at eich ffydd rinwedd, &c., a thrwy hyny yn 'gwneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr.' Tra byddo hyn y pwnc penaf a blaenaf yn eich golwg, a'ch holl ymgais yn ddyfal am hyn, Duw yn ffyddlon i'w addewid, a'ch cynnal yn eich rhodiad, fel na lithroch un amser. Y mae segurdod, a diofalwch ysbryd a bywyd, yn rhagflaenu cwymp yn gyffredinol.

'Diau osod o honot hwynt mewn llithrigfa.' Ps. 73. 18. Yn eu cyflwr goreu, a mwyaf gwych, maent ar lithrigfa, heb ddim yn effeithiol i'w cynnal rhag myned i ddinystr: 'Dyn mewn anrhydedd nid erys, tebyg yw i anifeiliaid a ddyfethir.' Pwy ond yr ynfydion a genfigenai wrth y gwr mwyaf gwych a golygus yn y cyfryw amgylchiad? gwr mewn llithrigfa fydd yn fuan yn y gwaelod.

LLIW—IANT—IO, (lli) eiliw, cyfliw; wyneb peth; ffurf, dull, neu modd; gwaradwydd, gwaradwyddo.—'Y ddwyn y wrthyf vy lliwiant ymplith dynion.' Luc 1. 25. W. S. ——'Er i ti liwio dy wyneb â lliwiau.' Jer. 4. 30. *Heb. Er i ti dòri dy lygaid â lliw.* Ezec. 23. 40. Mae y geiriau hyn yn cyfeirio at ddefod, sydd arferedig hyd heddyw gan y merched yn ngwledydd y dwyrain, o liwio eu llygaid â rhyw fŵn du, er harddwch. Yr oedd y lliw hwn, a alwent *stibium*, yn mwyhau y llygaid, trwy dynu y caeadau, neu o'r hyn lleiaf, yn peri iddynt ddangos

Digitized by Google

yn fwy.* Edr. Coch. Cwpan, Du, Gwelwlas, Gwin, Gwyn, March.

LLO—I, buchan, bustach; yr ieuanc o'r buchod. Edr. Buwch. Tarw, Ych.—Gwnaeth yr Hebreaid y llo aur wrth Sinai, tebygol, yn gyffelybrwydd i'r eilun Apis, sef ŷch byw, a addolai yr Aiphtiaid. Yr oedd yr Aiphtiaid yn addoli ei lun, neu lun dyn â phen ŷch ganddo. Annogasant Aaron i wneuthur ei gyffelyb o aur, a chadwasant ŵyl iddo dranoeth. Llosgodd Mōses yr eilun aur hwn, a'i malurlodd yn llwch, ac a'i taenodd ar wyneb y dwfr, ac a'i rhoddodd i'w yfed i feibion Israel. Exod. xxxii. Jeroboam a wnaeth eilunod o'r un cyffelybrwydd yn Dan a Bethel; y rhai a addolodd y deg llwyth dros 260 o flynyddoedd. 1 Bren. 12. 27, 28. Hos. 10. 5. a 13. 12. 2 Bren. xvii. Edr. Jeroboam. Josiah. Y mae Maneeau, ac eraill, yn barnu mai cyffelybrwydd y cerubiaid oedd llo Aaron, a lloi Jeroboam wedi hyny; un wyneb i ba rai oedd wyneb ŷch, ac yr oedd gwadn eu traed fel gwadn troed llo. Ezec. 1. 7. Y mae yn hawdd dychymygu, ond nid mor hawdd cael sicrwydd am lawer o bethau heb eu cwbl egluro i ni yn y gair. Pe buasai ychwaneg o wybodaeth am danynt yn angenrheidiol ni a'i cawsem. Gwel *Supplement to* Calmet, *Frag.* 108, & 152.

'Samaria, dy lo a'th fwriodd heibio.' Hos. 8. 5, 6. Wrth Samaria yma y meddylir y deg llwyth, prif ddinas pa rai oedd Samaria, y rhai oeddynt yn addoli y llo, neu loi Jeroboam yn eilun-dduw iddynt. Neu ynte yr oedd y llo wedi ei ddwyn o Dan i Samaria, rhag i'r Assyriaid fyned ag ef ymaith; canys y cyfryw dduw ydoedd na allasai amddiffyn ei hun.

'A thalwn it' loi ein gwefusau.' Hos. 14. 2. Edr. Gwefus. Fel yr oedd lloi pasgedig yn ymborth blasus, hyfryd, iachus: am hyny gelwir danteithion yr efengyl wrth yr enw hwn; y mae ynddi gyflawnder o'r bendithion mwyaf rhagorol a hyfryd. Diar. ix. Luc 15. 23—27. Trwy ymborthi ar y bendithion hyn, a chyfranogi yn helaeth o honynt, y cynnydda y duwiolion fel lloi pasgedig, neu fel lloi yn y côr yn cael eu pesgi. Pan gyfodo Haul Cyfiawnder, cynnyddant yn fuan, fel lloi yn cael eu pesgi, mewn gwybodaeth, sancteiddrwydd, cysuron, a phob ffrwythau da. Mal. 4. 2.

LLOCHES—AU, (llawch) udda, llechfa; ogof, ffau; lle i ymguddio, amddiffynfa.—Yr Arglwydd yw unig loches ei bobl. Ps. 32. 7. a 119. 114. Esa. 32. 2. Y mae yr Arglwydd Iesu, trwy ei gyfryngdod, ei aberth, ei allu, a'i ragluniaethau, yn ymguddfa ddiogel, gadarn, a thragywyddol iddynt. Y mae y gair hwn, fel amrywiol eiriau eraill, yn arwyddo amgylchiadau gofidus, tywydd tymhestlog, a gwendid o'u tu hwy, gyferbyn a'r cyfryw dywydd; ond bod yr Arglwydd yr hyn oll sydd angen arnynt er eu cysur a'u diogelwch yn y cyfryw amgylchiadau. Edr. Cysgod, Diddos.

'Lloches y grisiau.' Can. 2. 14. 'Lloches y clogwyni,' yn ol Harmer a Parkhurst. Gwedi cyffelybu yr eglwys i golomen, yr oedd yn naturiol i gyffelybu ei thrigfa bresennol i holltau creigydd, a llochesau clogwyni, lleoedd y nytha colomenod ynddynt yn y gwledydd dwyreiniol. 'Byddwch megys colomen, yr hon a nytha yn yr ystlysau ar fin y twll.' Jer. 48. 28. Mae yr eglwys, fel y golomen, yn ofnus, ac iddi lawer o elynion; mae yn caru neillduo o dwrf y byd, ac ymdynu i le dirgel er diogelwch, ac i riddfan ar ei phen ei hun. Ond ni ddichon iddi fod lle na ŵyr efe am dani, ac na bydd ei chymdeithas yn ddymunol ac yn hyfryd ganddo: 'Gad i mi weled dy wyneb, gad i mi glywed dy lais: canys dy lais sydd beraidd, a'th olwg yn hardd.' Wrth holltau y graig, a lloches y clogwyni, y ddeall Junius, 1. Arfaeth Duw o etholedigaeth, yr hon sydd gadarn ac anghyfnewidiol. Yn hon y mae yr eglwys yn arfaethol er tragywyddoldeb, ac y bydd i dragywyddoldeb. Y mae hon yn guddiedig, ac adnabyddus yn unig i Dduw, cyn ei galw trwy ras; ac oblegid ei bod yn ei hamrywiol aelodau yn hon, y cânt eu galw, eu cyfiawnhau, a'u gogoneddu. Rhuf. 8. 30.——2. Eraill a farnant mai Crist a feddylir, yn yr hwn mae yr eglwys yn ymguddio rhag llid Duw, a gelyniaeth ei herlidwyr. Mae ei bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. Col. 3. 3. Mat. 16. 18. Exod. 32. 22. Ps. 32. 7. a 61. 5. a 91. 1.

LLOCHWYD, (llawch-gwyd) gwasgawd-le, cudded, ymguddfa ddirgel.

A all Duw gael in' yma fwyd.
Mewn cyfryw *lochwyd*? d'wedent.
*E. Prys*, (Ps. 78. 19.)

LLODRAU. Edr. Llawdr.

LLOER—AWG—IG, (lly-oer) y lleuad, llun; ar ddull y lloer, dan ddylanwadau y lloer.—Llawn lloer, llawn lluned, sef llawn lleuad:—tair lloer, tri mis:—lloer ganaid, sef lloer ddysglaer. Edr. Lleuad.

'A'r lloerawg wisgoedd.' Esa. 3. 18.—*Round tires like the moon. Saes.—The Crescents*, (Dr. L.) sef hanner lleuad. *Heb.* שהרנים math o addurniadau hanner crwn, tebyg i hanner lleuad. Addurn cyffredin iawn oedd hwn, hyd yn nod i'r camelod. Barn. 8. 21.

'A'r rhai lloerig.' Mat 4. 24. a 17. 16. Y rhai oeddynt ddarostyngedig i'r haint dygwydd (*fits*), y rhai ydynt mewn rhyw fodd rhyfedd yn fwy darostyngedig iddo ar newydd loer, a llawn lluned. Y lleuad, medd Galen, a lywodraetha gylch y clefyd hwn. Yr oedd yr hynafiaid yn priodoli llawer o effeithiau oddiwrth y cyrph nefol, ar gyrph dynion; ond y mae naturiaethwyr diweddar yn gwadu hyny; gan nad yw y lloer yn effeithio dim ar yr hin-ddangosydd (*barometer*) mae yn amlwg nad ydyw hi yn effeithio ar gorph yr awyr; gan hyny nid yw yn effeithio ar gorph dyn. Ond sicr yw, fod y clefyd hwnw yn waeth ar rai amserau o'r lloer na'u gilydd, beth bynag ddichon fod yr achos o hyny.*

Y bachgen y dywedir ei fod yn lloerig yn Mat. 17. 15. dywedir yn Marc 9. 17—25. fod 'ysbryd mud a byddar' ganddo. Yn Luc 9. 39. dywedir fod 'ysbryd yn ei gymeryd ef.' Oddiwrth hyn gellir casglu fod afiechyd naturiol ar y plentyn; hefyd gweithrediadau goruwch-naturiol oddiwrth yr ysbryd aflan arno. Yr oedd y diafol yn cymeryd achlysur oddiwrth ei afiechyd i weithredu arno; neu yr oedd y diafol, yn ei weithrediadau cythreulig, yn achos o'i holl afiechyd. Cafodd yn yr Iesu feddyg effeithiol a thosturiol iawn.

LLOES—I—YGU, (lloes) bwrw allan; ochenaid, griddfan; ing, gwasfa.—'Wy loysygant ar y ffordd.' Marc 8. 3. W. S.

LLOFRUDD—IAETH, (llawf-rhudd) llaw goch, law waedlyd; lleiddiad.—'Na ddyoddefed neb fel llofrudd, neu leidr,' &c. 1 Petr 4. 15. Sef cospedigaeth am y cyfryw bechodau. Gwreiddyn llofruddiaeth yw y diffyg o garu ein cymydog fel ni ein hunain; ac y mae pob gradd o balldod yn y cariad hwnw, yn llofruddiaeth yn nghyfrif Duw. Mae y galon yn llawn llofruddiaeth. Marc 7. 21. Rhuf. 1. 29. Gal. 5. 21. Edr. Lladd, Noddfa.

LLOFFA—ION, (lloff) casglu gweddill, casglu ywysenau; yr hyn a gesglir.—Gorchymynodd yr

* Pliny, *Nat. Hist.* 33. 6. Russel's *Nat. Hist. of Aleppo.* Lowth's *Note on* Esa. 3. 16.

* Gwel Dr. Mead *on the influence of the Sun and Moon*—Galen, *De Diebus Criticis.*

Digitized by Google

Arglwydd i Israel, 'Na feda yn llwyr gonglau dy faes, ac na chynnull loffion dy gynauaf. Na loffa dy winllan, ac na chynnull rawn gweddill dy winllan.' Lef. 19. 9, 10. 'Na chynnull y grawn unig dy winllan, ac na chynnull y grawn a dorwyd ymaith dy winllan.' Ainsworth. Y grawn unig, yw y grawn heb fod yn sypiau. Y grawn a dorwyd, yw y rhai a syrthient oddiwrth y swp wrth eu cynnull.—'Pan ysgydwech dy olew-wydden, na loffa ar dy ol.' 'Pan ysgydwech dy olew-wydden, na cherdd dros y cangenau ar dy ol.' Ainsworth. 'Os anghofi ysgub yn y maes, na ddychwel i'w chymeryd,' medd Duw; ond 'bydded i'r dyeithr, i'r amddifad, ac i'r weddw.' Deut. 24. 19, 20. Lef. 23. 22. Mae yr holl gyfreithiau hyn yn dangos mawr dosturi yr Arglwydd at y tlawd a'r angenus, a'i fod yn ewyllysio i ninnau fod yn drugarogion, ac yn dosturiol. Gwerthfawr a buddiol iawn yw gweled y fath un yw Duw yn wirioneddol, yn nrych y gair, yn mhob peth.

Gweddill trigolion wedi eu gadael mewn gwlad heb eu dyfetha, a elwir yn lloffion. Esa. 17. 6. Jer. 49. 9. Obad. 5. 'Lloffa a throi y llaw yn ol i'r basgedau,' a arwydda lladd a chaethiwo y rhai a ddiangasant y galanastra cyffredin. Jer. 6. 9. Barn. 20. 45.

**LLOFFT,** *Saes.* Loft; *Dan.* Loffter: llawr ystyllod, hurtyr, goruwch-ystafell, taflod. 2 Bren. 1. 2. Jer. 22. 14. Act. 9. 37. a 20. 8. Edr. Dellt.

**LLOG—I,** (lly-og) cyflog, tâl, gwobrwy, ardreth, cyllid, ocraeth. Exod. 22. 15. Lef. 25. 36. Mat. 25. 27. Edr. Cyflog, Ocraeth.

**LLOGAIL,** (llog-ail) llogail y bargod, y trawst sydd yn derbyn y ceibr. 1 Bren. 6. 15. a 7. 9.

**LLOM,** y rhyw fenywaidd o Llwm.

**LLONG—AU,** (llwng) ysgraff, llestr y môr.

> Corfynwr, bardd Ceri Hir Llyngwyn, a wnaeth long hwyl â llyw gyntaf i genedl y Cymry. *Triodd.*

Arch Noah oedd y llestr cyntaf a ffurfiwyd i nofio ar ddwfr, ac oedd y dechreuad o'r gelfyddyd hòno, morwriaeth. Llwythau Zabulon a Dan, a ddechreuasant yn foreu, tebygol, â'r gelfyddyd hon, gan fod eu hetifeddiaeth ar gyffiniau y moroedd. Yr oedd rhandir Zabulon yn cyrhaedd yn agos, os nid yn gwbl, o fôr Galilea i fôr y Canoldir. Gen. 49. 13. Barn. 5. 17. Edr. Jehosaphat, Solomon, Sidon, Tyrus. Rhoddir hanes am rai llongau yn yr hen oesoedd, yn hynod o fawr eu maintioli. Yr oedd llong Ptolemy Philopater, meddant, yn 280 o gufyddau (hyny yw, 420 troedfedd) o hŷd, 38 o led, a 48 o uchder: yr oedd yn cynnwys 4000 o rwyfwyr, 400 o forwyr, a 3000 o filwyr. Dywedir i'r un gwr wneyd llong ar yr afon Nilus, yn 312 troedfedd o hŷd, 45 o led, â mast iddi yn 120 troedfedd o uchder. Ond nid oedd y rhai hyn i'w cydmaru i long Hiero, brenin Syracuse yn Sicily, a wnaed iddo dan olygiad Archimedes. Yr oedd ynddi holl amrywiaeth ystafelloedd tŷ breninol; gerddi, pysgod-lynoedd, baddon, melinau, meirch-dai, &c. Yr oedd wedi ei hamgylchynu âg amgaer haiarn, âg wyth o dyrau, a muriau, a rhagfuriau; yr oedd peiriannau rhyfel ynddi; yn enwedig un a daflai faen 300 pwys hanner milltir o ffordd.—— Nid oes un deyrnas ar y ddaear i'w chydmaru, yn yr oes bresennol, â theyrnas Loegr, am rifedi ei llongau, o bob math, gwroldeb ei llyngeswyr a'i morwyr, a'u gwybodaeth o forwriaeth: tebygol ei bod yn gryfach ar y môr, ac yn fwy ëang ei masnach ar y dyfroedd, na holl deyrnasoedd y byd. Dysgwyliwn yn obeithiawn y caiff y fraint o droseglwyddo yr efengyl gyd â'r eiddo masnachol, i barthau pellaf y byd. Peth rhyfedd i feddwl am dano, etto gwirionedd yw, fod holl foroedd gylch y byd dan ei llywodraeth; diammeu fod hyn yn nhrefniad rhagluniaeth i ateb y dybenion pwysfawrocaf. Llanwed Duw ei blaenoriaid a zêl i daenu yr Efengyl dros y byd.

'A wnaethant long-ddrylliad am y ffydd.' 1 Tim. 1 19.—'A wnaythont long-gyfergoll am y ffydd.' W. S. Trwy wrthod cydwybod dda y gwnaethant long-ddrylliad am y ffydd: wedi ymroddi i fywyd penrydd, gwrthodasant wir athrawiaeth y ffydd. Ni ddichon bywyd anmhur, ac athrawiaeth bur yr efengyl, gyd-forio; ond tuedda y bywyd penrydd i ryw gyfeiliornadau dinystriol, a dryllir y wir athrawiaeth yn erbyn y creigiau hyn, a chollir yr holl elw oedd i'w ddysgwyl oddiwrth y fordaith gyd â'r athrawiaeth.

'Tebyg yw hi i long marsiandwr; hi a ddwg ei hymborth o bell.' Diar. 31. 14. Yn dangos rhinweddau gwraig dda, arfer Solomon y gyffelybiaeth hon gyda llawer o harddwch a phriodoldeb. *Tebyg i longau. Heb.* Y mae yn fwy buddiol ac ennillgar na llynges yn cyrchu eiddo o wledydd pellenig. Y mae hi yn cyrchu ei hymborth o bell, yn hytrach trwy werthu na thrwy brynu. Y mae gwaith ei dwylaw ewyllysgar yn cael ei werthu i wledydd pellenig, a thrwy hyny bydd yn cael ymborth a chyfoeth i'w theulu. Darluniad rhagorol yw o fenyw yn ofni yr Arglwydd: ni chydsaif gwir ofn Duw â syrthni, diogi, a diofalwch.

**LLONG-LYWIAWDWR—WYR,** (llong-llywio) llywydd llong.—'Dy ddoethion di, Tyrus, o'th fewn, oedd dy long-lywiawdwyr.' Ezec. 27. 8. 'Dy lywo iraethwyr.' Dr. M. *Heb.* חבלך *dy raffwyr,* morwyr arferol a thrin y rhaffau. Cyfieithir ef *mëistriaid llongau,* yn adn. 27. Prif ystyr y gair yw *rhaff* a *rhaffwyr,* rhai yn trin y rhaffau.

**LLONAID,** (llawn) yr hyn a gynnwys unrhyw beth, neu lestr. Edr. Llawn.

**LLON—I** (llon) llawen, digrif; l'awenhau, digrifhau: difyru. Rhuf. 15. 32. 2 Tim. 1. 16. Philem. 7—20.

> Fy ngelynion sy'n *lloni*
> A châs wedd o'm hachaws i.
> *W. Middleton.*

**LLONYDD—WCH,** (llawn) heddychol, digynhwrf, gwaredog, digyffro, tawel, didonau; esmwythdra, gorphwysdra, arafwch. Gwedi colli heddwch a chariad Duw, a llywodraeth yr Ysbryd, y mae dyn yn aflonydd, yn derfysglyd, ac yn gyffrous; 'Mae fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd.' Edr. Dygyfor.

'Ysbryd addfwyn a llonydd, sydd ger bron Duw yn werthfawr.' 1 Petr 3. 4. Y mae ησυχιος πνευματος, *ysbryd llonydd,* yn arwyddo ysbryd yn ymgadw rhag peri cyffröad mewn un arall, trwy ymarweddiad anaddas, neu eiriau chwerwon; fel y mae ysbryd addfwyn yn arwyddo dyoddef yn amyneddgar heriant a chwerwder eraill. Dyma addurniadau sanctaidd ac anllygredig na heneiddiant byth, â pha rai y mae yr Ysbryd Glân yn harddu gwir dduwiolion.

'A rhoddi o honoch eich bryd ar fod yn llonydd.' 1 Thes. 4. 11. φιλοτιμεισθαι ησυχαζειν. Y mae y geiriau yn arwyddo *ymorchestu gyd â'r gofal mwyaf* ar fod yn llonydd, a pheidio ymyraeth â phethau anmherthynol i ni, dan un math o rith buddioldeb cyffredin, fel pe bai neb ond nyni a fedrai iawn drefnu pethau. Tra annhebyg yw, y medr neb drefnu yn addas bethau perthynol i swyddau na osododd rhagluniaeth hwy ynddynt. Y mae llonyddwch sanctaidd yn tarddu oddiwrth ymddiried yn yr Arglwydd, ymostyngiad i'w drefn, a chydnabyddiaeth o'n gwaeledd a'n hanwybodaeth, a gofal neillduol am gyflawni yr hyn sydd yn sicr ac yn amlwg, yn ofynol iddi wrthym yn ein hamrywiol sefyllfaoedd.



Digitized by Google

'A gaiff lonyddwch oddiwrth ofn drwg.' Diar. 1. 33. I waredu un rhag ofn drwg, rhaid iddo gael digon rhyngddo a phob drwg, o ba natur bynag y dichon fod; heb hyn rhaid i ofn drwg beri aflonyddwch: nid oes neb felly ond yr Arglwydd yn unig. Nid oes neb yn ddigonol amddiffynfa yn ngwyneb pob peth ond yr Arglwydd; am hyny y sawl sydd yn ei adnabod, ac yn credu ynddo, yn unig a gânt eu gwared oddiwrth ddrwg, *a'r ofn o hono.*

'Dy lygaid a welant Jerusalem, y breswylfa lonydd.' Esa. 33. 20. Geiriau sydd yn arwyddo y byddai yr eglwys yn ddiogel oddiwrth elynion allanol, yn dangnefeddus ynddi ei hun, yn ei holl aelodau, ac yn meddiannu pob cyflawnder bendithion. Mae y gair *Heb.* נוה yn arwyddo *anneddle ddiogel*, megys corlan defaid, lle y maent yn ddiogel rhag bleiddiaid a bwystfilod rheibus a'u dyfethai; ac a gyfieithir *corlan*, 2 Sam. 7. 8. 1 Cron. 17. 7. Cymh. Jer. 6. 3.—*trigfa camelod*, Ezec. 25. 5.—*preswylfa*, Ps. 90. 1.

'Efe a lonydda yn ei gariad.' Zeph. 3. 17. Efe a ymfoddlona yn ei eglwys, gwrthddrych ei gariad; bydd hyfryd ganddo amlygu o'r newydd ei gariad iddi; llawenycha ac ymfoddlona yn yr hyn oll a wnaeth o gariad drosti, a thu ag ati. Edr. LLAWENHAU.

LLOSG—FA—I, (llos) golosged, deifiad, goddaith; goddeithio, golosgi, deifio. Llosg eira, malaith, malerth, benddiged, cosi.—'Ysbryd llosgfa.' Esa. 4. 4. Sef yr Ysbryd Glân, yr hwn a gyffelybir yn aml i dân; mae fel tân yn bur, ac yn effeithiol yn ei weithrediadau ar bechaduriaid, yn eu puro. Mae yn goleuo y meddwl, ac y mae ei oleuni yn oleuni tanllyd yn ei effeithiau. Mae yn puro yr eglwys oddiwrth gyfeiliornadau, llygredigaethau, a drwg fucheddau. Ioan 16. 10, 11. Act. ii.

Mae llosgi, weithiau, yn arwyddo cariad tanllyd, a chyd-ddyoddefiad âg un arall. Luc 24. 32. 2 Cor. 11. 29.—Gweithrediadau cynhyrfus ac anesmwyth y meddwl. Ps. 39. 3. Jer. 20. 9.—Bod dan lywodraeth chwantau cnawdol, y rhai sydd yn gweithredu yn danllyd. 1 Cor. 7. 9.—Gorynau llosgedig. Esa. 3. 24. Lef. 13. 24, 25—28. Deut. 28. 22. 1 Bren. 8. 37.

Os puteiniai merch un offeiriad, yr oedd i gael ei llosgi yn tân, am halogi ei thad. Lef. 21. 9. Edr. ABERTH, CYFRAITH, OFFRWM, SINAI, TAN.

LLOSGWRN, (llos-cwrn) cynffon, cloren, conell rhonell. Exod. 4. 4.

LLU—AWS—OEDD, byddin; mintai, tyrfa; llu o adar, sef haid o adar; y llu du, sef enw a roddid ar ryw grwydriaid gogleddol, y rhai yn y cyn-oesoedd a ormesent lanau moroedd ynys Prydain.

Gwell Duw yn gâr na *llu* y ddaear. *Diar.*

Gelwir yr holl fydoedd wybrenol uwch ein penau, 'llu y nefoedd,' oblegid eu hamldra, a'u bod yn gwbl dan drefniad a llywodraeth yr Arglwydd. Gen. 2. 1. 2 Bren. 21. 3. 2 Cron. 33. 3.

Gelwir yr angelion, o herwydd yr un achos, 'llu y nefoedd—llu nefol.' Neh. 9. 6. Luc 2. 13. 1 Bren. 22. 19. 2 Cron. 18. 18.

Gelwir yr offeiriaid a'r Lefiaid 'llu yr Arglwydd,' y rhai oeddynt yn gwylied yn ei dŷ, ac yn amddiffyn ei wasanaeth a'i addoliad. 1 Cron. 9. 19.

Gelwir yr Arglwydd yn aml יהוה צבאות *IEHOFAH tsabaoth*,* neu *IEHOFAH y lluoedd*; yn arwyddo mai efe yw Creawdwr yr holl luoedd creaduriaid sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear, a'u bod yn gwbl dan ei lywodraeth, ac wrth ei orchymyn, i'w trefnu a'u defnyddio oll i gyflawni ei ewyllys. Er lliosoced ydynt, y mae efe yn Arglwydd arnynt oll. Y mae efe mor fawr, ac mor ddigonol ynddo ei hun, fel nad oes arno ef eisieu llu neu luoedd; ond mae ar yr holl luoedd ei eisieu ef; ac mae efe yn eu cynnal, eu trefnu, a'u llywodraethu oll, yn hawdd ac yn ogoneddus, i gyflawni ei ddybenion ei hun. Mae yr enw hwn yn neillduol yn dangos ei Hollalluogrwydd a'i fawredd anfeidrol. 'A oes gyfrif o'i luoedd ef?' Y mae pob creadur, o'r pryfyn lleiaf hyd yr angel mwyaf, o rifedi ei luoedd; er na fedrwn ni eu cyfrif, y maent oll yn gyfrifedig gan y Duw mawr, ac yn gwbl dan ei lywodraeth. A chanddo y fath allu ynddo ei hun, a'r fath luoedd nifeiriol dan ei lywodraeth, ac mewn perffaith ufudd-dod iddo, nid gwiw meddwl llwyddo yn ei erbyn, ac nid rhaid i neb ofni, os yw y Duw hwn a'i luoedd drosto. Ps. 34. 7. a 91. 11, 12. a 148. 8. Job 38. 35. Gen. 32. 2. Rhuf. 8. 31. 2 Bren. 6. 16, 17. Plaid ddigonol yw Arglwydd y lluoedd gyda ni. Ps. 24. 10. a 46. 7. a 48. 8. Esa. 6. 3. a 9. 7.

* Nid *sabboth* fel y mae yn y rhan fwyaf o'n Biblau ni, yn Rhuf. 9. 29. Mae yn ddau air yn wahanol yn yr *Heb.* a'r *Gr.* שבת ζαββατον, *sabbath.* צבאות σαβαοθ *sabaoth*, *lluoedd.* Edr. SABAOTH.

LLUCHED—EN, (lluch) mellt, goleuni, pelydriad.—'Mi a welais Satan megis lluchet, yn cwympo y lawr o'r nef.' Luc 10. 19. W. S.

LLUDW, (llud) ulw; gweddill un peth llosgedig. Lef. 6. 10.—Geilw Abraham ei hun ger bron yr Arglwydd, 'llwch a lludw.' Gen. 18. 27. Yn arwyddo ei feddyliau gwael, isel, diddym am dano ei hun.—Gorchuddio â lludw—eistedd yn y lludw—ymdroi ac ymdrybaeddu mewn lludw—a bwyta lludw, sydd yn arwyddo tlodi, iselder, cystudd, galar, gwaradwydd, &c. Galar. 3. 16. 1 Bren. 20. 38, 41. Esther 4. 3. Job 2. 8. Ps. 102. 9. Ezec. 27. 30. Jonah 3. 6.—Lludw anner. Edr. ANNER.—Dinasoedd Sodom yn lludw. Edr. SODOM.

LLUDDED—IG, (lludd) blinder, blinedd, dygnedd; blinderog.—'Mewn llafur a lludded.' 2 Cor. 11. 7. Εν κοπω και μοχθω. Mae lludded yn fwy na llafur, am hyny rhoddir ef ar ol llafur; ac y mae llafur yn achos o ludded. 1 Thes. 2. 9. 2 Thes. 3. 8.

Y budd a ladd y *lludded.* *Diar.*

LLUDDIO—IAS, (lludd) llestair, rhwystro, attal, rhagawd.—'Wele efe a ysglyfaetha, pwy a'i lluddia?' *Heb. a'i try yn ol;* hyny yw, mae yn gryfach na phawb, ac a gyflawna ei holl amcanion, pa un ai mewn ffordd o drugaredd, neu o farn. Job 9. 12.

'O herwydd lluddio iddynt gan farwolaeth barhau.' Heb. 7. 23. Yr oedd achos yr eglwys yn gofyn fod yr offeiriadaeth yn barhaus; ond dan oruchwyliaeth Moses, yr oedd yn rhaid wrth lawer o offeiriaid, 'o herwydd lluddias iddynt gan farwolaeth barhau;' ond mae yr Iesu y fath arch-offeiriad fel na ddichon marwolaeth ei luddio, am hyny y mae yn offeiriad yn dragywydd; mae y person a'r swydd yn cyd-oesi, ac i barhau byth.

LLUEDD—U, (llu) rhyfel; rhyfela; arwain lu i ryfel.—'Felly y bydd tyrfa yr holl genedloedd a lueddant yn erbyn mynydd Sion.' Esa. 29. 8. Cyffelybir Senacherib brenin Assyria a'i fyddinoedd i 'newynog a freuddwydio, ac wele efe yn bwyta; a phan ddeffrô, gwag fydd ei enaid: ac i sychedig a freuddwydio, ac wele ef yn yfed; a phan ddeffrô, wele ef yn ddiffygiol, a'i enaid yn chwennych diod.' Felly bydd eu siomedigaeth hwythau, yn addaw iddynt eu hunain ysglyfaeth fawr, trwy anrheithio Sion. Y mae y gyffelybiaeth yn geinwych, ac yn hardd i'r gradd uchaf. Y mae yn dangos awyddfryd gelynion yr eglwys i'w hanrheithio, eu hafiwyddiant cyflawn, a'u siomedigaeth ddirfawr o'r achos. Er sychedu a bwriadu dyfetha Sion, fel llewa bwyd; etto breuddwyd disail fydd y cwbl yn y diwedd: Sion a lwydda ac a flagura byth, er gwaethaf ei holl elynion. 'Duw sydd yn ei chanol; nid ysgog hi.'

Digitized by Google

**LLUEST—U—AI,** (llu-est) gwersyllfa; bwth, hafotty, pabell, tŷ achlysurol; megys lluestai bugeiliaid, gwylwyr gwinllanoedd; anneddle, trigfa. Gen. 13. 18. Job 5. 24. Esa. 1. 8. a 38. 12. Jer. 49. 29. Heb. 11. 9.

**LLUMMAN,** (llum-pan) amlygyn, penwn, arwydd, arwydd rhyfel, baner. Cyfieithir y gair *Heb.* דגל weithiau *baner*, ac weithiau *llumman*. Num. 1. 52. a 2. 2, &c. Edr. BANER.

**LLUN—IO—IWR,** (lly-un) delw, cyffelybrwydd, ffurf, dull, gosgedd, drych; creawdwr, ffurfiwr, dulliwr.

Mae ar lwfr ofn ei *lun*. *Diar.*

Y mae llunio, yn arwyddo, yn aml, yn yr ysgrythyrau, yr un peth a chreu. Esa. 26. 16. a 45. 7, 18. Jer. 1. 5.—Gelwir yr Arglwydd, 'Lluniwr pob peth,' sef Creawdwr pob peth. Jer. 19. 6. Diar. 26. 10. Mae creu, yn fwyaf neillduol, yn arwyddo rhoddi bod i beth; a llunio, yn arwyddo gweithio y peth hwnw, yn y dull a'r weld oedd i fod arno, yn ol meddwl y Creawdwr, i ateb ei ddyben. Lluniodd Duw y ddaear, y byd, aelodau corph dyn, a phob rhan o bob creadur, yn y dull mwyaf addas i ateb dyben eu gwneuthuriad, gyd â'r doethineb a'r manylrwydd mwyaf. Ps. 90. 2. a 139. 16. Edr. EILUN, PERSON, DELW.

**LLUNIAETH—U,** (llun) ffurfiad, dulliad, cynffurfiad; rhagluniaeth, trefniad; arfaethu, bwriadu, cynllunio; *Heb.* לחם *cynnaliaeth, ymborth, porthiant.*—'Yn wir y mae Mab y dyn yn myned, megys y mae wedi ei luniaethu.' Luc 22. 22. *κατα το ωρισμενον, megis y darparwyt.* W. S. *Megis y mae yn derfynedig.* Dr. M. Y mae yr Arglwydd Iesu yn cydnabod yn y geiriau, arfaethiad a threfniad mewn perthynas iddo; a phob peth perthynol iddo; mae yn ymostwng i'r drefn, ac yn ei pharchu i'r gradd eithaf. Nid heb ei luniaethu y bradychodd Judas ef: cwblhaodd ef, Pilat, Herod, y cenedloedd, a phobl Israel, y pethau a ragluniodd llaw Duw a'i gynghor mewn perthynas i Grist; rhoddwyd Crist i ddyoddef trwy derfynedig gynghor a rhag-wybodaeth Duw. Act. 2. 23. a 4. 28. Edr. ARFAETH, ETHOLEDIGAETH, RHAGLUNIAETH, CYFAMMOD.

**LLUNIAIDD,** (llun) hardd, trefnus, gweddeiddglws. 1 Sam. 16. 18.

**LLURYG,** (llur) *Gr.* λωρικιον; *Llad.* LORICA; toryn dur, pais ddur, crys dur, cad-bais, curas. Y gair *Gr.* θωραξ, a gyfieithir *lluryg, llurygau*, yn Dat. 9. 9, 17. a gyfieithir y rhan amlaf *dwyfroneg*. Eph. 6. 14. 1 Thes. 5. 8. Darn o arfogaeth filwraidd er amddiffyniad y corph: yr oedd wedi ei wneuthur o amryw ddarnau o ddur a haiarn, yn gysylltiedig â'u gilydd. 1 Bren. 22. 34.

'Lluryg emog.' 1 Sam. 17. 5. Cyfieithir yr un gair *cèn*, yn Lef. 11. 9. ac y mae yn arwyddo darnau metelaidd y lluryg yn tebygu i gèn pysgod, yn gysylltiedig â'u gilydd.

'Efe a wisgodd gyfiawnder fel lluryg.' Esa. 59. 17. Cyfiawnder oedd ei harddwisg, ei amddiffynfa, a'i ddiogelwch; ac nid oes amddiffynfa gyffelyb iddo. Edr. CYFIAWNDER, DWYFRONEG, LOCUSTIAID.

**LLUSERN,** *Llad.* LANTERNA; *Saes.* LANTERN: lamp; peth yn dal goleu.—'Y chwiliaf Jerusalem â llusernau.' Zeph. 1. 12. Sef yn ddyfal, ac yn drwyadl, fel na ddiango un rhagrithiwr cuddiedig. Edr. CANWYLLBREN. Job 18. 6.

**LLUSGO,** (llusg) *Gr.* ελκω; tynu, arwain, tywyso. Act. 8. 3. a 14. 19. Diar. 24. 11.

Un pechod a *lusg* gant ar ei ol. *Diar.*

**LLW—ON,** *Heb.* אלה twng, rhaith, llawgair.—Gweithred ddifrifol yw llw, yn yr hon yr ydym yn galw Duw yn dyst o wirionedd yr hyn yr ydym yn ei ddywedyd, neu yn ei addaw; ac yr ydym yn ei alw i ddial arnom mewn amser, ac i dragywyddoldeb, os ydym yn tyngu celwydd, neu y peth ni wyddom am dano; neu oni chyflawnom yr hyn yr ydym yn ei addaw.—1. Ni ddylid tyngu wrth enw neb, neu wrth ddim, ond yn enw y gwir Dduw; gan fod llw yn weithred o addoliad, yn yr hon yr ydym yn cydnabod holl-wybodaeth, awdurdod, a gallu Duw. Jos. 23. 7. Iago 5. 12. Deut. 6. 13. Mat. 5. 34, 35, 36. Jer. 5. 7.——2. Ni ddylid tyngu, ond mewn achos o bwys.——3. Yn y cyfryw achos, dylem gymeryd llw yn barchus, yn ofn Duw, ac nid yn rhyfygus, ac yn anystyriol. Preg. 9. 2. Lef. 5. 4. Mat. 14. 7. Gen. 24. 3—9.——4. Tyngu yn anwir, yn dwyllodrus, ac heb fwriad difrifol o gyflawni yr hyn yr ydym yn ei addaw, sydd yn bechadurus iawn. Lef. 6. 5. a 19. 12. Jer. 42. 5. Edr. ANUDON.——5. Dylem dyngu mewn gwirionedd, mewn barn—sef yn wybodus ac yn ddeallus—ac mewn cyfiawnder. Jer. 4. 2. Esa. 65. 16. 2 Cor. 11. 31.

Y geiriau yn cynnwys dull o lw, yw y rhai canlynol:—'Fel mai byw yr Arglwydd.'—'Duw yn dyst.' neu, 'Tyst i mi yw Duw.'—'Duw sydd dyst i mi.'—'Duw a'i gŵyr.'—'Y gwirionedd yr wyf yn ei ddywedyd yn Nghrist.'—'Fel mae gwirionedd Crist ynof.'—'Yn wir, yn wir, meddaf i chwi.' Gwel Barn. 8. 19. Rhuf. 1. 9. a 9. 1. 2 Cor. 11. 10, 11, 31. Phil. 1. 8. 1 Tim. 2. 7.——Weithiau, byddai yn arferedig yn mhlith y patrieirch, roddi llaw dan forddwyd yr hwn y gwnaed llw iddo, fel arwydd, medd Ainsworth, o'i grediniaeth yn yr addewid o'r Messiah o'i lwynau. Gen. 24. 2, 3. a 47. 29. a 46. 26. Ond dyrchafu llaw i'r nefoedd oedd y dull mwyaf cyffredin o dyngu. Gen. 14. 22. Dan. 12. 7. Dat. 10. 5. Edr. TYNGU.

Sylwa yr apostol am yr Arglwydd iddo gael ei osod yn y swydd offeiriadol trwy lw. Heb. 7. 20. 28. Oddiwrth hyn mae yn casglu, fod offeiriadaeth Crist yn berffaith ac yn dragywyddol. Ni byddai yr Arglwydd byth yn cyfryngu trwy lw, ond i ddangos sicrwydd ac anghyfnewidioldeb y peth y tyngwyd iddo; megys y tyngodd i Abraham, y byddai i holl genedloedd y ddaear gael eu bendithio yn ei hâd. Gen. 22. 16, 17, 18. Ac i Moses, na chai yr Israeliaid fyned i Ganaan. Deut. 1. 34, 35. Ac na chai yntau fyned i mewn. Deut. 4. 21. Ac wrth Dafydd, y byddai i'w hâd gael eu sicrhau yn dragywydd. Ps. 89. 4. Gan na wnawd Crist yn arch-offeiriad heb lw, mae yn dangos penderfyniad digyfnewid Duw, i beidio dilëu na chyfnewid offeiriadaeth Crist, na'r oruchwyliaeth rasol, ddibynol ar hyny. Y mae gosodiad Crist yn y swydd trwy lw, yn arwyddo ei osodiad yn yr arfaeth dragywyddol yn y swydd; hefyd, yr amlygiad o hyny oddiwrth Dduw, yn ngeiriau y Psalmydd, y rhai sydd wedi eu llefaru mewn dull o lw. Mae y llw yn dangos mawredd person yr Iesu, yr hwn a ymostyngodd i gymeryd y swydd arno: mae y llw yn rhoddi parch iddo cyfatebol i anrhydeddusrwydd ei berson. Hefyd, y mae yn rhoddi y sicrwydd a'r boddlonrwydd mwyaf i'w holl bobl am ddigonolrwydd ac anghyfnewidioldeb ei swydd.

**LLWCH,** (lly-wch), ffylor; hefyd llyn; Llwch Tawe, Llwch Sawdde, Llwch Cyhirych, Amlwch, llynoedd a elwir felly. Llanllwch, Tal y Llychau, enwau lleoedd gerllaw llynoedd.—'Llwch a lludw.' Edr. LLUDW. Y mae llwch yn arwyddo y bedd. Gen. 3. 19. Job 7. 21. Preg. 12. 7.——Cyflwr isel, dirmygedig, a thruenus. 1 Sam. 2. 8. Ps. 22. 29.——Dynion meirw. Ps. 30. 9.——Un peth lliosog, o rifedi mawr, a gyffelybir i lwch; megys plant Israel,—y sofliei**r**. Gen. 13. 16. Num. 23. 10. Ps. 78. 27.——Dodi llwch ar y pen—eistedd yn y llwch—

Digitized by Google

ymdreiglo mewn llwch—rhoddi y genau yn y llwch, ydynt arwyddion o dristwch, a gofid mawr. Jos. 7. 6. Job 42. 6. Esa. 47. 1. Mic. 1. 10. Galar. 3. 29. ——Yr oedd yr Iuddewon yn taflu llwch i'r awyr yn erbyn Paul, yn arwydd o'u creulondeb tu ag ato, ac y dymunasent ei wneuthur yn llwch.

'Ymysgwyd o'r llwch,' sydd yn arwyddo ymgyfodi o gyflwr isel, galarus, a chystuddiedig. Esa. 52. 2.

'Ysgydwch y llwch oddiwrth eich traed.' Mat. 10. 14. Luc 9 5. Yr oedd yr Iuddewon yn barnu fod hyd yn nod llwch gwledydd y cenedloedd yn eu haflanhau; am hyny, pan ddychwelent i'w gwlad eu hunain, byddent arferol, ar ei chyffiniau, o sychu eu traed, rhag aflanhau eu hetifeddiaeth sanctaidd. Os oedd ein Harglwydd yn y geiriau hyn yn cyfeirio at y ddefod hòno, y maent yn arwyddo fod y dysgyblion i edrych ar y sawl a wrthodai eu derbyn a'u gwrando fel Paganiaid annuwiol: yr oedd y llwch yn dystiolaeth iddynt, nad oeddynt mwyach yn eu golwg fel pobl Dduw, ond fel yr ethnig eilun-addolgar. Marc 6. 11. Act. 13. 51. Gwel Flamin's *Christog. vol.* ii. Doddridge, Macknight.

'Llyfant lwch dy draed.' Esa. 49. 23. Geiriau sydd yn arwyddo yr ymddangosiad a'r parch mwyaf. Yn y gwledydd dwyreiniol, y mae arwyddion allanol o barch ac ymostyngiad, yn cael eu dangos mewn graddau mawr ac anarferol yn y parthau hyn o'r byd. Ymgrymodd brodyr Joseph iddo i lawr ar eu hwynebau. Gen. 42. 6. Ni oddefai breninoedd Persia neb i'w gwyddfod heb y cyfryw agweddiad o ymostyniad, a dirfawr barch. Gwel Lowth.

'Uchder llwch y byd.' Diar. 8. 26. *Heb. pen llwch y byd.* Dyn, tebygol, a feddylir; llwch ydyw o ran ei gorph; ond pen llwch y byd ydyw, y mae yn rhagori ar bob llwch arall, yn ei wneuthuriad, a dyben ei greadigaeth; a rhoddwyd i'r llychyn hwn lywodraeth ar yr holl lwch arall.

LLWDN, LLYDNOD, (llwd) lledfegin ieuanc pob rhywogaeth: fel caseg a'i llwdn; llwdn hydd; llwdn gafr; llwdn gŵydd; llwdn hwch; llwdn dafad.

Mal y bo y dyn y bydd ei *lwdn.* *Diar.*

'Am fuwch neu ddafad, na leddwch hi a'i llwdn yn yr un dydd.' Lef. 22. 28. Exod. 23. 19. a 34. 26. Deut. 14. 21. a 22. 6, 7. Y mae yr Arglwydd tirion yn rhoddi gocheliad rhag pob peth fyddai yn ymddangos yn tueddu at greulondeb tu ag at y creaduriaid. Hwyrach fod y gwaharddiad hwn yn cyfeirio at ryw ddefod goel-grefyddol ym mhlith y cenedloedd. —'Dau lwdn iwrch,' &c. Can. 4. 5. Edr. Bron.

LLWFR—HAU, (llwf) llwfr, digalon, gwan-galon, llesg, annewr, an-filwraidd, musgrell, mewydus; digaloni, llesgâu, ofni. Nid oes dim yn ddigonol i gadw dyn rhag llwfrhau yn mhob tywydd, ond prawf o heddwch Duw, ei bresennoldeb, a'i gynnorthwyon gyd âg ef. Esa. 41. 10. Deut. 31. 8. 1 Sam. 17. 32.

LLWNC, LLYNCU, (lly-wnc) llwng; cêg cegen, corn y gwddf, cornpori, traflyncu, cegu. Mae llyncu, yn allegawl, yn arwyddo hollol ddyfetha a difrodi, fel na byddo dim gweddill ar ol. Job 20. 18. Ezec. 26. 3. Felly llyncu angeu.

'Llyncu yr hyn sydd farwol gan fywyd,' sydd yn arwyddo eu hollol ddinystr a'u diléad yn gwbl. Esa. 25. 3. 1 Cor. 15. 54. 2 Cor. 5. 4. Dan y gyffelybiaeth hon o lyncu, y mae yr iaith Hebraeg, Groeg, a'r Gymraeg, yn gosod allan ddystryw cyflawn, disymwth, fel na byddo dim o'r peth yn weddilledig; ac y mae yn gyffelybiaeth aml yn yr ysgrythyrau. Ps. 56. 1. Diar. 1. 12. Jer. 51. 34. Hos. 8. 8. Amos. 8. 4, &c.

LLWM, (lly-wm) moeth; moel; unig; tlawd; tlawd o ddillad; angenus, amdlawd. Lef. 13. 55. Mic. 1. 8.

LLWY—AU, (llwy) dodrefnyn i ymborthi âg ef: yspodol. Yr oedd llwyau, neu כפת *cwpanau*, yn perthyn i'r bwrdd bara gosod, i roddi y thus ynddynt, tebygol. Exod. 25. 29. Lef. 24. 7. Num. 7. 14, 86.

Rhaid cael *llwy* hir i fwyta gyd â'r diawl. *Diar.*

LLWYBR—AU, (llwyb) ffordd; llwybr caer gwdion, llwybr y mab afradlon, sef y llwybr sydd ar noswaith eglur i'w ganfod yn gylch-res llwyd-oleu yn y ffurfafen. Y sêr aneirif ynddo, mewn pellder dirfawr, sydd yn peri iddo ymddangos i ni fel cylch dysglaer.

'Llwybrau tragywyddol sydd iddo.' Hab. 3. 6. Meddiannodd Duw gopa mynydd tragywyddol Sinai; arweiniodd ei bobl dros fynyddoedd tragywyddol Arabia Petræa. Gwel Newcome. Yn hytrach, y llwybrau y mae yn ei gerdded yn ei holl oruchwyliaethau mewn amser, ydynt oll yn dragywyddol o ran arfaethiad a threfniad. Llwybrau tragywyddol ydynt o ran rhag-osodiad ac arfaethiad, ac y maent yn sicr o gael eu cyflawni yn gwbl mewn amser priodol. Y mae ei lwybr yn trugarhau o dragywyddoldeb, o ran arfaethiad a threfniad, ac hyd dragywyddoldeb, o ran y parhad o honi. Y mae ei iechydwriaeth yn dragywyddol. Ps. 103. 17. Esa. 51. 6, 7, 8. Ps 90. 2 Mat. 24. 35. Luc 1. 51. Heb. 13. 8.——Gelwir hwynt 'hen lwybrau.' Jer. 6. 16. Nid yn unig y maent o drefniad tragywyddol, ond hysbysodd Duw hwynt i'w bobl yn foreu, ac y mae ei bobl yn rhodio ynddynt yn mhob oes o'r dechreuad. Esa. 8. 20. Jer. 18. 15. Mal. 4. 4. Luc 16. 29. Edr. Ffordd.

LLWYDREW, barug, arien, gorwydr. Gwlith wedi rhewi yn yr awyr, ac yn disgyn ar y ddaear, yw y llwydrew. Edr. Rhew. Y Duw mawr yn ei weithrediad galluog, sydd yn cenedlu y llwydrew; am hyny gweddai ei fod yn cael ei foliannu yn hyn, fel yn ei holl weithredoedd. Job 38. 29. Ps. 147. 16, 17.

LLWYDD—IANNUS—IANT, (llw-ydd) ffyniant, tyciant, rhwydd-deb; dedwyddwch, gwynfyd; ffynadwy, hylwydd, tyciannus; ffynu.—Mae llwydd, yn yr ysgrythyrau, yn cael ei briodoli i gorph, enaid, gwaith, ac amgylchiadau dynion. Felly mae yn arwyddo, 1. Amledd o gyfoeth a phethau daionus y bywyd hwn. Ps. 73. 3.——2. Heddwch, cyfoeth, llonyddwch, &c. Ps. 30. 6. —— 3. Rhwydd-deb, ffawd, ffyniant mewn taith, masnach, gorchwyl, &c. 1 Cor. 16. 2. Ps. 1. 3. Gen. 24. 12—42.—— 4. Iechyd corph.——5. Ffyniant enaid, trwy gynnydd mewn gwybodaeth o bethau Duw, ffydd yn y gwirionedd, cymdeithas â Duw, a thebygolrwydd mewn ysbryd a bywyd iddo. 3 Ioan 2. Duw yn unig sydd yn peri llwyddiant yn mhob ystyr.

Ni fyno Duw ni *lwydd.* *Diar.*

Dichon fod dynion yn llwyddo yn mhob un o'r ystyriaethau cyntaf, heb lwyddo yn eu heneidiau; ond llwyddiant ysbrydol yr enaid, yn unig, sydd yn brawf fod cyflwr dyn yn dda rhyngddo a Duw. Nid yw gwaith Duw yn peri llwyddiant i ddynion annuwiol, un prawf ei fod yn edrych yn fach ar eu pechodau; mae ganddo ddybenion doeth, dyfnion, ac anhysbys i ni yn ei olwg, i'w cyflawni yn ei ragluniaethau: i gyflawni y rhai hyny, dyrchafa yr annuwiolion yn aml â llwyddiant; ond yn gyffredinol, mae arwyddion o'i anfoddlonrwydd yn ddigon amlwg i'w gweled arnynt, yn nghanol eu rhwysg a'u llwyddiant mwyaf; a phan gyflawno ei amcanion doeth ynddynt, a thrwyddynt, teifl hwynt i'w lle eu hunain.

LLWYFEN, (llwyf) pren defnyddiol yw y llwyfen. Y mae ei goed yn dda; ac y mae ei risgl a'i ddail, a'i nôdd, yn feddyginiaethol. Dywed Tournefort fod pedwar math o honynt; Linnæus tri; a Miller chwech. Am ei fod yn bren brigog, cysgodfawr, byddent arferol o addoli eilunod danynt. Hos. 4. 13. Edr. Derwen.

Digitized by Google

**LLWYN—AU—I**, (llw-yn) coedwig, coedfa, tywyll-goed, glaswydd, tewgoed; gwig, gwigfa; aren, y tenewyn.—'Abraham a blanodd goed yn Beerseba, ac a alwodd ar enw yr Arglwydd.' Gen. 21. 33. Y mae y gair *Heb.* אשל a gyfieithir *coed* yma, yn cael ei gyfieithu *pren*, 1 Sam. 31. 13. Yr hwn a elwir אלה *derwen** yn 1 Cron. 10. 12. Tebygol i Abraham blanu y coed, y llwyn, neu y dderwen yma, er mwyn cysgod a dirgelwch. Cawn hanes o'r blaen fod ganddo bren, העץ (neu *brenau*, un am lawer) wrth ei babell, yn gysgod iddo yn ngwres y dydd. Gen. 18. 8. Oddiwrth waith Abraham yn planu coed, llwyn, neu dderwen, yn gyfleusdra iddo i addoli, gellir barnu fod hyn, yn ganlynol, yn arferiad cyffredin yn nyddiau y patrieirch; ac oddiwrth yr arferiad, daeth y dderwen i fod yn bren cysegredig yn mhlith y cenedloedd eilunaddolgar. 'Cywilyddiant o achos y derw a chwenychasoch,' medd Esaiah wrth yr Israeliaid eilunaddolgar. Gwel pen. 1. 29. Yn ngwlad Groeg, yr oedd delw i'r eilun-dduw Jupiter yn nerw Dodana. Yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yr oedd 'Sacra Jovi Quercus,' *y dderwen gysegredig i Jupiter*, yn ddiareb. Yn Ffrainc, ac yn Brydain, yn yr hen oesoedd, yr oedd y dderwen a'i huchel-wydd,† a'r parch crefyddol mwyaf yn cael ei ddangos iddi dan gyfarwyddyd y Derwyddon. Medd Pliny, 'Nid ydyw y Derwyddon yn edrych ar ddim yn fwy cysegredig na'r uchel-wydd, a'r pren ar ba un y mae yn tyfu.'‡ Yr oeddynt yn golygu yr uchel-wydd gwedi ei anfon o'r nefoedd, ac yn arwydd fod Duw ei hun gwedi dewis y pren ar ba un y mae yn tyfu.§ Geilw yr Ellmyn yr uchel-wydd, meddant, *gytul*, neu *gwytheyl*: hyny yw, meddyginiaeth dda, neu (*omnia sanantem*) meddyginiaeth pob peth; a phriodolant iddo lawer o rinweddau rhyfedd ac anghyffredin Nid oedd ond yn anaml i'w gael; ond pan gaent ef, yr oedd yr offeiriad gwedi ei wisgo mewn arwisg wen, i esgyn i'r pren, a thori yr uchel-wydd â chryman aur, yr hwn a dderbynient mewn llen-llian wen. Wedi hyny, aberthent eu hoffrymau, gan weddio ar Dduw fendithio ei rodd ei hun, i'r rhai hyny a'i derbyniasai. A ydyw yn bosibl, medd un awdwr dysgedig, i un Cristion beidio meddwl, wrth ddarllen yr hanes hwn, am 'ddymuniad yr holl genedloedd:' sef y gwr a'i enw Blaguryn, yr hwn nad oedd dad iddo ar y ddaear, ond daeth i lawr o'r nefoedd, ac a roddwyd i iachâu ein doluriau, ac wedi ei dori ymaith, yn ol y rhag-derfynedig gynghor, a amdöwyd mewn llian main, ac a ddodwyd mewn bedd er ein mwyn ni!

Oblegid eilun-addoliaeth y cenedloedd yn y llwyni, gorchymynodd Duw i Israel, na phlanent lwyn o neb rhyw goed gerllaw ei allor, ac iddynt dori i lawr a llosgi llwyni y Canaaneaid â thân. Deut. 12. 3. a 16. 21. Yn eu gwrthgiliadau aml i eilun-addoliaeth, addolai yr Israeliaid eu heilunod mewn llwyni. Barn. 3. 7. a 6. 25. 1 Bren. xiv, xv, &c. Weithiau dichon llwyni arwyddo yr eilunod a addolent yn y llwyni. 1 Bren. 18. 19.

'Gwedi amgylch wregysu eich lwynau.' Edr. Gwregys.

**LLWYNAWG, a LLWYNOG**, (llwyn) cadnaw; creadur digon adnabyddus, ac yn nodedig yn neillduol am ei gyfrwysdra. Adroddir llawer o siamplau am ei gyfrwysdra, sydd afreidiol eu coffâu yma. *Heb.* שועל *shual*, *tyllwr*, oddiwrth ei waith yn tyllu yn y ddaear. Mae yn ddadl yn mysg y dysgedigion, pa un ai y llwynog ai y *Jackal* a feddylir wrth y gair hwn. Mae y *Jackal* o faintioli y llwynog, yn dywyllach ei liw; ac yn tebygu i'r llwynog, ac i'r blaidd; etto nid cymysg-ryw mo honynt. Nid yw y blaidd, na'r llwynog, ddim i'w cael yn aml yn Syria, medd Volney; ond mae llawer iawn o ryw ganol rhyngddynt, a elwir *Shacal*, yn myned yn heidiau o gannoedd gyd â'u gilydd; y maent yn lladronaidd iawn, yn dyfetha pob peth a ddelont o hyd iddynt, yn difa y gerddi, yn difwyno y gwinllanoedd, &c. Y *Shual*, tebygol, oedd y llwynogod â pha rai y llosgodd Samson ydau y Philistiaid, y gwinllanoedd, a'r olew-wydd. Barn. 15. 4, 5, &c. Gan eu bod mor aml yn y wlad, nid oedd yn anhawdd i Samson ddal, neu beri dal, tri chant o honynt. Yr oedd cylymu y cynffonau wrth eu gilydd, yn eu hattal rhag rhedeg i'w tyllau; ac yr oedd rhoi y ffaglau, neu y pentewynion rhwng eu cynffonau, yn fodd effeithiol i losgi yr ydau yn y meusydd, gan fod y creaduriaid yn ddychrynedig gan y ffaglau, yn rhedeg yma a thraw, yn mysg yr ysgafnau ŷd. Y bardd Ovid (*Fast. lib.* iv. *lin.* 681.) a rydd hanes am ddefod flynyddol yn Rhufain ynghylch mis Ebrill, o droi llwynogod i'r gylch-chwareufa (*circus*) â ffaglau wrth eu cynffonau.

Missæ junctis ardentia tædis
Terga ferunt vulpes.

Barna Bochart i'r ddefod hon gael ei chymeryd oddiwrth y weithred uchod o eiddo Samson.

Y mae y *Jackal* yn ymborthi ar gyrph dynion, cloddiant i gladdfeydd am danynt, canlynant y *caravans* yn fyddinoedd, yn dysgwyl am eu hysglyfaeth. O herwydd hyny, cloddia trigolion y gwledydd lle y maent yn aml, y beddau yn ddyfnion yn y ddaear (yr hyn sydd yn egluro yr ymadrodd, 'Parthau isaf y ddaear.') Y mae hyn yn rhoddi goleu ar Ps. 63. 10. 'Y maent yn bwyta gwreiddiau, ffrwythau, ac yn dyfod i'r gerddi bob nos,' medd y Dr. Shaw, ('y rhai hyn gan hyny yw y creaduriaid a feddylir yn Can. 2. 16.')

'Ped elai llwynog i fynu, efe a fwriai i lawr eu mur ceryg hwynt.' Neh. 4. 3. Nid yw mur eu dinas hwynt ddim yn addas i amgylchu ein gerddi, i'w hamddiffyn; pe dringai y *Jackal* arnynt, taflai hwynt i lawr. Yr oedd y wawd-iaith o'r fath fwyaf chwerw a dirmygus.

'Y mae ffauau gan y llwynogod:' y mae gan y creaduriaid diriaid ysglyfaethus, dyllau i ymguddio ynddynt; a chan ehediaid ysglyfaethus y nefoedd nythod; ond gan Fab y Dyn, yr hwn sydd yn addfwyn, yn myned oddi amgylch gan wneuthur daioni, nid oes le i roddi ei ben i lawr. Mat. 8. 20.

'Dy brophwydi, Israel, ydynt fel llwynogod yn yr anialwch.' Ezec. 13. 4. Yn addas iawn y cyffelybir gau-athrawon, yn mhob oes, i fleiddiaid, llwynogod, &c. y maent fel hwy yn gyfrwys, yn rhagrithiol, ac yn niweidiol iawn. Y llwynogod ydynt, sydd 'yn difwyno y gwinllanoedd,' ac yn difa yr egin mwyaf ymddangosiadol, yn aml. Gwaith gwinllanwyr Crist yw eu dal, eu dangos hwy a'u gau athrawiaethau yn eu lliw eu hunain, a'r perygl dirfawr o honynt. Can. 2. 15. Edr. Cadnaw, Egin, Gwinllan. *Appendix to Calmet's Dictionary, Frag.* 209. Brook's *Nat. Hist.*

**LLWYR**, (llw-yr) yn gwbl, oll; yn drwyadl, yn berffaith.—'Ac ni'th lwyr adawaf chwaith.' Heb. 13. 5. Ουδ' ου μη σε εγκαταλειπω, *ni'th adawaf mewn un modd, ar un achos: ni'th adawaf yn gwbl, yn llwyr*, hyny yw, byddaf gyda thi, glynaf wrthyt yn well na brawd, neu un câr, na pherthynas; byddaf gyda thi yn fy nghynnorthwyon, fy nghyfarwyddiadau,

* Mae rhai yn barnu, mai oddiwrth y gair *Heb.* אלון *alun*, *derwen*, neu *llwyn derw*, y daeth y gair *llwyn*; ac oddiwrth *llwyn*, y ffurfiwyd *llan*, yn arwyddo lle cauedig; felly daeth *per-llan*, *gwin-llan*, *ŷd-lan*, *cor-lan*, a *glyn*, a *glân*; sef dyffryn cauedig.—'Abraham a dramwyodd trwy y tir hyd le Sichem, hyd wastadedd Mamre. עד אלון מורה *hyd dderw Mamre.*

† Gelwir ef hefyd, uchelfar, uchelfa, uchelfal, uchelawg, uchelawr, pren awyr, gwisgonllys.

‡ Tam per se reborum eligant lucos; neque ulla sacra sine ea fronde conficiunt. *Nat. Hist. Lib.* xvii. *cap.* 44.

§ Ad viscum Druidæ Druidæ cantare solebant.

Digitized by Google

a'm cysuron, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn. Y mae amledd y goreiriau nacaol yn yr iaith Roeg, yn hardd ac yn synwyrlawn. Jos. 1. 5. 1 Cron. 28. 20. Esa. 41. 10, 17.

LLWYTH—O—OG, (llwy) pwn, baich, beichlwyth; tylwyth, cenedl, preswylwyr rhyw ardal, neu dalaeth. Llwythau Israel. Edr. ISRAEL, JACOB, JUDAH, JOSEPH, &c.

'Holl lwythau y ddaear,' neu wlad, sef yr holl drigolion annuwiol. Mat. 24. 30. Dat. 1. 7.—'Yn flinderog ac yn llwythog.' Edr. BLINDER.

'Ocheneidio yn llwythog.' Edr. OCHENAID.

'At y deuddeg llwyth sydd ar wasgar.' Iago 1. 1. Oddiwrth yr ystyriaethau canlynol, ymddengys fod y deuddeg llwyth mewn bod pan ysgrifenodd Iago ei Epistol.—1. Er i Cyrus ganiatau i'r holl Iuddewon yn ei arglwyddiaethau i ddychwelyd i'w gwlad eu hunain, etto ni ddychwelodd llawer o honynt. Yr oedd hyn yn ateb dyben Duw yn goddef iddynt gael eu dwyn yn gaeth i Assyria a Babilon. Canys ei fwriad oedd ei wneuthur ei hun yn adnabyddus yn mhlith y Cenedloedd, trwy y wybodaeth a ddygai yr Iuddewon gyda hwynt, ac a gyfranent yn eu gwasgariad, am ei fawredd a'i berffeithderau dwyfol. Hwn oedd yr achos paham y penderfynodd Duw na byddai i'r *deg llwyth* byth ddychwelyd i'w gwlad eu hunain. Hos. 1. 7. a 8. 8. a 9. 3, 15, 17.——2. Mai ychydig, mewn cymhariaeth, ddychwelodd yn ganlynol i gyhoeddiad Cyrus, ond parhausant i fyw yn mhlith y Cenedloedd, a ymddengys oddiwrth hyn, yn amser Ahasferus, un o olynwyr Cyrus, yr hwn oedd yn teyrnasu o India i Ethiopia, ar gant a saith ar hugain o daleithiau. Yr oedd yr Iuddewon yn wasgaredig yn mhlith y bobloedd trwy holl daleithiau y freniniaeth, ac yr oedd eu cyfreithiau yn amrafaelio oddiwrth gyfreithiau yr holl bobl, ac nid oeddynt yn gwneuthur cyfreithiau y brenin. Esther 3. 8. Wrth lynu wrth eu defodau eu hunain, yr oeddynt yn cadw eu hunain yn wahanedig oddiwrth yr holl genedloedd yn mhlith y rhai yr oeddynt yn byw.——3. Ar ddydd y Pentecost, y cyntaf wedi esgyniad Crist, (Act. 2. 5, 9.) 'yr oedd yn preswylio yn Jerusalem, gwŷr bucheddol o bob cenedl dan y nef: Parthiaid, Mediaid, ac Elamitiaid,' &c. mor lïosog oedd yr Iuddewon, ac mor helaeth yn wasgaredig yn holl wledydd y byd.——4. Pan yr oedd Paul yn teithio trwy Asia ac Ewrop, cafodd yr Iuddewon mor llïosog, fel yn holl brif ddinasoedd y cenedloedd yr oedd ganddynt synagogau, yn mha rai yr ymgynnullent i addoli Duw, a thyrfaoedd o broselytiaid oeddynt wedi ymuno â hwynt, i'r rhai y pregethodd ef yr efengyl.——5. Yr un apostol, yn ei araeth o flaen brenin Agrippa, a dystiolaethodd fod y deuddeg llwyth yr amser hwnw mewn bod, a'u bod yn gwasanaethu Duw nos a dydd, mewn gobaith o'r addewid a wnawd i'w tadau. Act. 26. 7.——6. Dywed Josephus (*Antiq. lib* xiv. *cap.* 12.) nad oedd un dalaeth yn abl cynnwys yr Iuddewon, ond eu bod yn trigo yn y rhan fwyaf o'r dinasoedd mwyaf blodeuog Asia ac Ewrop, yn yr ynysoedd a'r cyfandir, ddim llawer llai eu rhifedi na'r trigolion Paganaidd.

Oddiwrth yr holl bethau hyn, ymddengys fod yr Iuddewon gwasgaredig yn fwy lluosog nag Iuddewon Judea. Gwel y Dr. Whitby *in loc.* Dr. Lardner's *Credibility of the Gospel History, part.* i. *b.* 1. *c.* 3. ——Y mae teithiwyr diweddar yn y gwledydd dwyreiniol, yn enwedig y Dr. Buchanan, wedi rhoddi hanesion am sefydliadau llïosog o'r Iuddewon yn ymerodraeth Brahma, ac amrywiol barthau eraill o'r gwledydd hyny.

LLYCHWINO, (llychw) gwneuthur yn llychlyd, gorchuddio â llwch; halogi, difwyno, diwyno, anurddo, brycheuo. Esa. 63. 3.

LLYDAN—AIN, (lly-tan) ëang, helaeth, ehelaeth. —'Llydan yw y ffordd sydd yn arwain i ddystryw.' Mat. 7. 13. Ffordd natur, ffordd gau-grefydd o bob math, ffordd dyn ei hun, mewn cyferbyniad i ffyrdd Duw. Act. 14. 16. Y mae yn llydan, oblegid ei bod yn cynnwys amrywiaeth o lwybrau, sef pechodau, cyfeiliornadau, &c., oblegid nad ydyw dynion ynddi o fewn terfynau gair Duw: am fod dynion yn ei cherdded yn hawdd, yn naturiol, yn ddiymdrech, yn ddirwystr oddiwrth eu calonau eu hunain, na'r byd, na'r diafol. Ond os ydyw fel hyn yn llydan, mae mor sicr yn arwain i ddystryw. Phil. 3. 18. Edr. PORTH.

LLYDNU, (llwdn) bwrw llwdn. Job 39. 1.

LLYFAS—U, (mas) ëofn, ëwn, hyf; anturio, hyfâu, ymgais.—'Ac yn llyfasu yn ddiofnusach draethu'r gair.' Phil. 1. 14.——'Ac Esaias 'sy yn llyfasu, ac yn dywedyt.' Rhuf. 10. 20. W. S.

LLYFU, (llyf) *Heb.* לחך *Gr.* λαπτω & λειχω, llyfu â'r tafod; lleibio.—'Llyfant lwch dy draed.' Edr. LLWCH.—'Ond y cwn a ddaethant, ac a lyfasant ei gornwydydd ef.' Luc 16. 21. 'Eithyr a' dawot o'r 'cwn a' llyfu y gornwydydd ef.' W.S. 'Ië, y cwn a ddaethant,' &c. Dr. Campbell, Doddridge. Mae y geiriau nid yn lleihau, ond yn ychwanegu at y darluniad o gyflwr gresynol y tlawd hwn; αλλα και, Ie, y cwn a ddaethant, &c. Yr oedd ei gyflwr mor ddiymgeledd a gresynol, fel yr oedd ei gornwydydd yn agored: 'Ni wasgwyd hwynt, ac ni rwymwyd, ac ni thynerwyd âg olew.' Esa. 1. 6.

LLYFN—HAU—U, (llyf) gwastad, caboledig; caboli, gwastadhau, gorlyfnu, ôg-lyfnu. Edr. OG, CABOLI.

Ni bydd neb *llyfn* heb ei *anaf*. *Diar.*

LLYFR—AU, (llyf) *Heb.* ספר *seper*; *Gr.* βιβλος, *biblos*; *Llad.* LIBER.

Goreu cof, cof *llyfr*. *Diar.*

Yr oedd amrywiol ddefnyddiau yn cael eu harferyd yn yr hen oesoedd, i wneuthur llyfrau â hwynt, cyn cael allan y ddyfais o wneuthur papur. Dalenau o blwm, efydd, rhisgl coed, priddfeini, llechau o geryg, byrddau, neu daflenau o goed, oedd y pethau a ddefnyddiwyd i argraffu y cyfryw bethau a ewyllysient gadw coffadwriaeth am danynt. Edr. PAPUR. Byddent yn aml yn gorchuddio y taflenau â chwyr, fel y byddai yn hawsach argraffu arnynt, a dilëu yr hyn a argreffid. Yn lle taflenau o goed, defnyddiwyd dail y balmwydden, rhisgl teg coed, megys yr onen, y masarn, y pigwydd, y llwyfen, &c. Oddiwrth hyn y galwyd y llyfr, *liber*, yr hwn a arwydda rhisg tufewnol coed. Am y byddent yn *rholio* y rhai hyn er cyfleusdra, galwent hwynt yn *Llad.* VOLUMEN; *Saes.* VOLUME; yr enw a roddid wedi hyny i rolau o bapur, neu femrwn.—Byddent hefyd yn ysgrifenu ar lian. Dywed Pliny (*lib.* xiii. *c.* 11.) fod y Parthiaid yn ysgrifenu ar eu llian yn ei amser ef. Coffâ Livy hefyd, am lyfrau wedi eu gwneuthur o lian (*lintei libri*) ar ba rai yr oedd wedi eu hysgrifenu enwau y swyddogion, a hanes y wladwriaeth, ac yn nghadw yn nheml y dduwies Moneta.

Mae llyfr yn arwyddo, weithiau, cof-restr achau, dygwyddiadau, neu gyfreithiau. Gen. 5. 1. Yn mhlith y Persiaid, yr oedd yn ddefod wastadol bob dydd, ysgrifenu i lawr mewn llyfr yr hyn a ddygwyddai y diwrnod hwnw; pa wasanaeth oedd neb wedi ei wneuthur i'r brenin, a pha wobr oedd wedi cael ei rhoddi i'r neb a'i gwasanaethodd, &c. Pan eisteddai y brenin i farnu, agorid y llyfrau iddo, fel y cai weled hanes ei holl weision, ac y gallai eu barnu oll yn gyfatebol i'r hyn oedd wedi ei ysgrifenu yn y llyfr. Esth. 6. 1. At y ddefod hon, tebygol, mae y geiriau, 'agoryd y llyfrau,' yn cyfeirio.

Digitized by Google

Llyfr ryfeloedd yr Arglwydd. Edr. Jaser.

Llyfr seliedig, a arwyddia prophwydoliaethau wedi eu hysgrifenu ar rol, ac wedi ei rolio i fynu a'i selio, yn ol y dull gynt o wneuthur. Yr oedd y prophwydoliaethau hyn yn seliedig, yn arwyddo eu bod yn ddirgelaidd, ac yn anadnabyddus; am amseroedd pell, ac am ddygwyddiadau anhysbys yn bresennol; ac nad oedd gwybodaeth o honynt i'w gael, nes dattod y seliau yn nghyflawniad o'r prophwydoliaethau. Yr Arglwydd Iesu sydd yn dattod seliau, sef yn eu hamlygu ac yn eu cyflawni oll. Esa. 29. 11. Dat. v.

Wrth 'lyfr yr Arglwydd,' y meddylir yr ysgrythyrau, (Esa. 34. 16.) neu ei osodiad a'i gynghor yn rhag-drefnu ac yn rhag-derfynu pob peth. Ps. 139. 16. Dat. v.—Ei ofal rhagluniaethol am fywydau naturiol dynion. Exod. 32. 32. Ps. 69. 28.—Ei Hollwybodaeth a'i goffadwriaeth o bob peth. Ps. 56. 8. Mal. 3. 16.

Gelwir arfaeth Duw o etholedigaeth, 'llyfr y bywyd,' am fod ei bobl wedi eu hethol i fywyd tragywyddol; a phob peth yn perthyn i hyny wedi eu rhag-osod a'u trefnu. Phil. 4. 5. A gelwir ef 'llyfr bywyd yr Oen,' am fod ei enw ef yn gyntaf yn y llyfr, a'u henwau hwythau yn canlyn; etholwyd hwy ynddo, a rhoddwyd hwynt iddo. Dat. 13. 8. Edr. Etholedigaeth.——'Y rhai nid yw eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen yr hwn a laddwyd, er dechreuad y byd;' oddiwrth Dat. 17. 8. lle gadewir allan y geiriau 'yr Oen a laddwyd,' mae yn amlwg, medd Vitringa,* fod y geiriau, 'er dechreuad y byd,' yn perthyn i ysgrifenu yr enwau, ac nid i laddfa yr Oen: am hyny dylai y gwahan-nod gael ei osod ar ol *lladdwyd*, ac nid ar ol *Oen*. 'Llyfr bywyd yr Oen yr hwn a laddwyd;' rhoddwyd hwynt i'r Oen, a'r Oen a'u prynodd hwynt; ni buasai un llyfr y bywyd, oni buasai i'r Oen gael ei ladd: ac ni chafodd, ac ni chaiff neb fywyd byth ond trwy farwolaeth yr Oen, a ffydd ynddo. Dat. 10. 15.

Mae agoryd y llyfrau yn y farn, yn arwyddo amlygiad cyflawn o holl arfaethau a gwirioneddau Duw, ac y bydd y farn yn cael ei rhoddi yn gwbl gyfatebol iddynt, ac i weithredoedd pob un yn eu hwyneb. Dan. 7. 10. Dat. 20. 12. Edr. Barn.

'Wele blyg llyfr yn ehedeg . . . . a'i hŷd yn ugain cufydd,' (sef deg llath). Zech. 5 1, 2. Mae y geiriau yn cyfeirio at yr hen ddull o ysgrifenu ar rolau o amryw grwyn, wedi eu huno â'u gilydd. Er bod rhai o honynt o faintioli go fawr, ni bu un gymaint a'r mesur a roddir i lawr yma. Wrth y llyfr yn ehedeg, dangosir melldith Duw ar bechaduriaid: y mae lladrata a thyngu yn cael eu rhoddi am bob math o bechodau. Y mae maintioli y llyfr yr dangos amldra y pechodau, a'r melldithion cyfatebol iddynt; y mae yn ehedeg ac yn myned trwy yr holl wlad, ac ni ddichon neb euog ddianc rhagddi.

'Yn rhol y llyfr (yn *nechreu* y llyfr, Paul) yr ysgrifenwyd am danaf.' Ps. 40. 7. Heb. 10. 7. Mae arfaeth Duw mewn perthynas i waith Crist, a'i ddyfodiad i'r byd i'w gwblhau, wedi ei ysgrifenu yn yr ysgrythyrau sanctaidd; yn gyfatebol i hyny y daeth, ac y gweithredodd Crist. Yn nechreu y llyfr, sef yn yr addewid gyntaf, medd y Dr. Owen, ac oddiyno hyd ddiwedd y llyfr yr ysgrifenwyd am dano, er hyfforddiad a dyddanwch yr eglwys. Y mae yr arfaeth, yr ysgrifen, a'r gwaith, yn cyfateb i'w gilydd, yn gwbl. Edr. Gorphenwyd.

'Ac yr oedd ganddo yn ei law lyfr bychan wedi ei agoryd.' Dat. 10. 2. Llyfr arfaeth Duw mewn perthynas i'r eglwys; yr hwn y cafodd Ioan orchymyn i'w fwyta; sef ei ystyried, ei ddeall, a'i ddadguddio. Wrth ei fwyta yr oedd yn felus i'w enau; ond wedi ei fwyta yr oedd yn chwerw yn ei fol. Yr oedd derbyniad o'r dadguddiad dwyfol, yn peri hyfrydwch iddo; ond yr oedd myfyrio ar flinderau a phrofedigaethau yr eglwys yn cael eu rhag-ddangos a'u rhag-fynegi, yn peri chwerwder a gofid i'w feddwl. Edr. Angel, Cwmwl, Enfys. Gwel Mede, Daubuz, Vitringa, Newton.

Yn China, y mae enwau y rhai a brofwyd am feiau yn cael eu hysgrifenu mewn dau lyfr; un a elwir llyfr y bywyd, a'r llall, llyfr marwolaeth. Y rhai a ryddhawyd a ysgrifenir yn y cyntaf, a'r euog a ysgrifenir yn y diweddaf. Y rhai hyn a roddir o flaen yr ymerawdwr gan ei weision, yr hwn sydd ganddo hawl i ddilëu yr enw o'r naill, a'i roddi yn y llall.

LLYFFANT—AINT, (llwfr) llamwr, darneidiwr; rhyw o greaduriaid yn darneidio yn eu symudiad; ac yn byw mewn dwfr ac ar dir. Llyffant melyn, llyffant du. Defnyddiodd yr Arglwydd y llyffaint yn un o bläau yr Aipht. Exod. 8. 1—8.——'Ac mi a welais dri ysbryd aflan, tebyg i lyffaint, yn dyfod allan o safn y ddraig,' &c. Dat. 16. 13, 14. Dynion a feddylir, dan weithrediadau ac arweiniad yr ysbryd aflan; ac yn ganlynol, rhaid eu bod yn aflan eu hunain. Wrth *dri*, meddylir *llawer*, nifer terfynedig am nifer annherfynedig. Yn dyfod allan o safn y ddraig, y bwystfil, a'r gau brophwyd; i arwyddo y byddent o'r un ysbryd â hwynt, ac yn wasanaethgar iddynt. Y farn gyffredinol yw, mai y gau athrawon Pabaidd a feddylir; yn enwedig y monachod, y Jesuitiaid, &c. y rhai oeddynt fel llyffaint yn ymlusgo i dai breninoedd â'u cynghorion, fel dyfroedd budron, yn eu hannog i erlid a dyfetha canlynwyr yr Oen yn mhob oes. Llwyddodd y llyffaint cythreulig hyn i gasglu yr holl fyd i ryfel, i gael eu dyfetha gan y Duw Hollalluog.

LLYFFETHAIR—EIRIAU, (llyffeth) egwyd march; attal-bren, neu cloff-bren a roddir ar yr egwyd; hual, cloffrwym.—'Efe a wnaeth fy llyffethair i yn drom.' Galar. 3. 7. נחשתי *fy nghloffrwym*, *press*. Yr oedd y prophwyd mewn carchar wedi cau o amgylch iddo; ei gystuddiau yn fawrion, a'i elynion wedi cau arno fel nas gallai ddyfod allan oddi yno. Gesyd y geiriau allan, naill ai ei gyflwr ei hun, neu ei genedl yn ei amser. Mae ei iaith yn ffugyrol iawn, ac yn arwyddo caethiwed, cyfyngder, a chaledi; heb ddim ffordd o ymwared yn ymddangos.——'O herwydd ei rwymo ef yn fynych â llyffetheiriau.' Marc 5. 4. Luc 8. 29. πεδαις, *cloffrwym*, neu gadwyn am y traed.

LLYGAD—AID, (llwg) golwg, trem, drem. O holl ranau corph dyn nid oes un yn fwy rhyfedd na'r llygad. Y mae byd o ryfeddodau ynddo.* Y mae trefn, doethineb, a gallu Duw yn ymddangos yn ei wneuthuriad i ateb ei ddyben. Y mae ei wneuthuriad oddi allan yn dra rhyfedd, ond oddi mewn y mae y rhyfeddodau yn rhagori. Y mae iddo len neu gaead, i'w gadw rhag niwed; a hwn yn cau ac yn agor, gyd â'r fath gyflymdra, fel nad ydyw yn un rhwystr i'r golwg; sef yr amrant. Y mae wedi ei amgylchu âg amryw esgyrn celyd, er ei amddiffyn. Y mae yr aelau uwch ben y llygad, yn cadw y chwys rhag disgyn iddo. Rhag i'r llygaid sychu gormod, y mae cilchwyrn fel ffynonau y naill du, i'w ddyfrhau a'i ireiddio: a rhag iddo fod yn tywallt dagrau yn wastadol, mae pibellau yn dwyn y dwfr o'r llygad i'r ffroenau. Fel y byddo iddo gael ei ireiddio a'i lanhau yn was-

* Gwel Vitringa *in loc.* Estius, Grotius, Doddridge, &c. Coccejus *in loc.*

* Yn mysg y rhanau mwyaf arbenig o'r corph, y rhai sydd yn dangos doethineb ein Creawdwr, nid oes un yn fwy ardderchog na'r llygad. Mae y llygaid wedi eu cynnysgaeddu gan y Goruchaf âg anrhydedd a phrydferthwch neillduol, ac yn wastadol yn dangos argraff ei allu anfeidrol ef. Yn ddiau nid oes un rhan yn rhoddi prawf mor amlwg o ddwyfol ddoethineb a threfn. Gwel y Dr. Brigg's *Ophthalmography*, *cap.* i. *sec.* 1.

Digitized by Google

tad, y mae ysgogiadau yr amrantau yn aml; a rhag iddynt fod yn un gradd o attalfa i'r golwg, y mae eu hysgogiadau yn hynod gyflym.

Am y llygad ei hun y mae iddo saith o arwisgoedd, neu bileneu teneu; sef. 1. Yr *adnata*, neu *conjunctiva*, yn gorchuddio yr holl lygad, ond y golwg yn mlaen.——2. Y *tunica albuginea*, sydd dan y llall, ac wedi ei lunio o gewynau pedwar cyhyr y llygad wedi eu lledaenu. Nid yw hon fel y llall, yn gorchuddio ond rhan o'r llygad.——3. Dan y ddwy hyn y mae y *sclerotica*, y sydd yn gorchuddio yr holl lygad: mae hon yn dywyll i gyd, ond y rhan o honi sydd yn gorchuddio y golwg, ac sydd yn dryloyw fel corn. Mae rhai yn edrych ar hon yn bilen wahanol, ac yn bedwaredd, ac yn ei galw y *cornea*.——5. Y *choraides*, a elwir *tunica ruyischana*. Y mae y tu blaen i hon, fel y llall, yn dryloyw, am hyny yn cael ei golygu yn wisg wahanol, a'r chweched, a elwir yr *uvea*. O ddybliad y rhan hon o'r bilen, y ffurfir yr *iris*, ag sydd o amryw liwiau mewn gwahanol bersonau, ac yn rhoddi yr enw o'r lliw hwn neu arall i'r llygad. Yn agos i'w chanol y mae twll, a elwir canwyll llygad.——7. Y *retina* sydd yn gorchuddio yn unig gwaelod y llygad, gyferbyn a'r golwg. Ar y bilen hon mae llun pob gwrthddrych a ganfyddir yn cael ei ffurfio, heb ba un nis gallem ganfod dim.

Y mae tri math o wlybwr (*humours*) yn perthyn i'r llygad: 1. Yr *aqueous*, sef y dyfrllyd; gwlybwr tryloyw yw, dan y *cornea*.——2. Y *crystaline*, yn cyfleu dan yr *aqueous*, tu ol i'r *uvea*, a chyferbyn a'r ganwyll.——3. Y *vitreous*, neu y *gwlybwr gwydrawg*, y sydd yn llenwi yr holl geu-le tu ol i belen y llygad, ac sydd yn peri fod y llygad yn gyfrgrwn; ar y tu ol i hwn y mae y *retina* gwedi ei thaenu.

Y mae i'r llygad, fel rhanau eraill o'r corph, redweliau, gwythenau, gïau, a chyhyrau, i holl ysgogiadau y llygad. Rhy faith fyddai i mi yma roddi hanes yr holl lestri hyn, ac anhawdd eu hamgyffred wedi eu darlunio, heb ddangosiad i'r golwg o honynt. Y mae yr ychydig bethau canlynol i sylwi arnynt yn neillduol, ac yn dangos mawredd doethineb y gwneuthurwr, oddiwrth gywreinrwydd y gwaith. Ni bu un Atheist (sef un yn gwadu y bod o Dduw) erioed, medd Strimius, ag oedd yn deall ffurfiad y llygad.—1. Mae holl beiriannau y golwg, trwy ryw drefniad rhyfeddol, yn ateb y dyben i grynhoi pelydr y goleuni yn llewyrchu ar unrhyw wrthddrych o bob rhan o hono, i ffurfio delw fechan o'r gwrthddrych hwn ar y bilen a elwir y *retina*: heb fod delw neu lun pob gwrthddrych fel hyn wedi ei ffurfio nis gallem ganfod gwrthddrychau. Y mae hyn yn rhyfedd iawn. Y mae golygiad ar bump neu chwech milltir ysgwar, yn llawn o wrthddrychau, yn cael ei ddwyn i mor lleied lle a hanner modfedd tryfesur—a phob gwrthddrych yn ymddangos yn wahanredol, yn ei briodol faintioli, ei sefyllfa, ei lun, a'i liw ei hun. A fydd dim yn anhawdd i Dduw? Yn llaw y Creawdwr nid yw bychan a mawr yn gwneuthur gwahaniaeth.

2. I gadw allan y pelydr pan y byddo gormod goleuni, ac i wneuthur gwrthddrychau yn weledig pan fyddo ond ychydig oleuni, mae y twll i'r goleuni fyned i mewn, a elwir y ganwyll, wedi ei wneuthur felly fel y geill ëangu neu leihau fel y byddo yr achos yn gofyn; ac etto yn cadw ei lun crwn mewn dyn bob amser. Y mae y llygad yn gyffelyb i ystafell dywyll, ag iddi un twll bach, a megys gwydr-ddrych (*spectacle*) arno, i ollwng goleuni i mewn. Os rhydd un bapur gwyn neu liain gyferbyn â'r gwydr, heb fod yn rhy bell nac yn rhy agos, caiff weled lliw a llun pob peth arno, a fyddo oddi allan gyferbyn a'r gwydr. Da fod yr haul yn tywynu ar y gwrthddrychau ac nid ar y gwydr. Y ganwyll yw y twll bach yn y llygad, ar ba un y mae peth tebyg i'r gwydr, i'r goleuni fyned trwyddo; ac fel na byddo rhy fach na gormod goleuni fyned i mewn, y mae hwn yn cyfyngu neu yn ëangu fel byddo yr achos. Heblaw y galluoedd i ëangu canwyll y llygad pan byddo y goleuni yn fychan, y mae gan rai creaduriaid belydriad yn y llygad, megys cathod, &c. i'w haddasu i ddal eu hysglyfaeth yn y nos. 'Adwaenwn ddyn,' medd y Dr. Willis, 'yr hwn wedi yfed yn drwm, a welai i ddarllen llythyr yn y tywyllwch, trwy belydriad yn y llygad.' Gwel Dr. Willis, *De Anim. Brut.*, *p.* i. *cap.* 15. Dywed Pliny am Tiberius Cesar, pan ddeffroid ef yn ddisymmwth yn y nos, y gwelai bob gwrthrych mor amlwg a phe buasai yn ddydd goleu. Gwel *Nat. Hist.*, *lib.* ii. *cap.* 27. 'Adwaenwn ddyn yn Swydd Bedford,' medd y Dr. Brigg, 'yr hwn a ddarllenai yn gywir yn y tywyllwch. Nid oedd dim gwahaniaeth i'w ganfod rhwng ei lygaid ef a llygaid eraill.' Gwel y Dr. Brigg's *Ophthals. cap.* 5. 12. Mae y galluoedd hyn yn y ganwyll i ëangu a lleihau yn ddigon hysbys i bawb trwy brofiad. Pan elo dyn allan yn y tywyll nos o ystafell oleu, ni wel agos i ddim ar y cyntaf, ond yn raddol mae y twll, neu y ganwyll, yn ëangu i gymeryd i mewn yr ychydig belydr sydd i'w gael; yn raddol hefyd mae y llygaid yn goddef dysgleirdeb goleuni trwy gyfyngu ffenestr y llygad.

3. Peth arall sydd hynod o nodedig yn y llygad, yw ei addasrwydd, trwy ryw gywreinwaith ynddo ei hun, i ganfod gwrthddrychau mewn amrywiol bellder oddi wrtho. Yn ol rheolau sefydlog perthynol i'r olwg-gelfyddyd (*optics*) byddai yn anmhosibl ffurfio llun dau wrthddrych, un yn mhell a'r llall yn agos, yn yr un fan, heb gyfnewidiad yn y peiriannau gwelediad, am fod mynediad y pelydr yn wahanol; mae pelydr y gwrthddrych agos yn gwasgaru oddiwrth eu gilydd, a'r pelydr oddiwrth y gwrthddrych pell yn myned rhagddynt yn gyfochrog. Mae gwelediad gwahanredol yn dibynu yn gwbl ar uniad yr holl belydr yn dyfod oddiwrth y gwrthddrych gweledig, yn gwbl ar yr un fan a'r *retina;* gan fod y pelydr yn ymuno yn wahanol yn ol pellder y gwrthddrych, ni allai gan hyny yr un llygad weled yn amlwg ddau wrthddrych mewn gwahanol bellder oddi wrtho, heb gyfnewidiad yn y llygad. Trwy fanwl chwilio a sylwi, cafwyd fod tri chyfnewidiad yn cael eu gweithredu yn y llygad yr un amser, wrth syllu ar wrthddrych yn agos ato. Y mae y *cornea*, neu y wisg allanol ar y golwg, yn cael ei wneuthur yn fwy crwn ac yn fwy allan; y mae y gwlybwr grisialaidd (*crystaline lens*) yn cael ei wasgu yn mlaen yn nes i'r *cornea;* ac hefyd mae dyfnder y llygad yn cael ei hwyhau. Mae y cyfnewidiadau hyn yn llywodraethu y pelydr oddiwrth yr amrywiol wrthddrychau, ac yn gwneuthur golygiad y gwrthddrych yn amlwg, pa fodd bynag y delo y pelydr i'r llygad. Mae yr holl beiriannau mewn modd rhyfedd yn cydweithredu, un yn rhoddi y pelydr i'r llall yn y modd mwyaf addas i lunio delw y gwrthddrych i'w ganfod. Mae twll y goleuni yn fwy neu yn llai, fel y byddo yr achos yn gofyn; mae y grisial yn grynach neu yn wastadach, yn mhellach neu yn agosach at y dafien (sef y *retina*) ar ba un mae delw y gwrthddrych i gael ei ffurfio. Ychydig o wahaniaeth yn llun y *cornea*, un yn fwy crwn, a'r llall yn fwy gwastad, sydd yn peri fod rhai yn gweled yn well â'r gwrthddrych yn agos neu yn mhell. Mae *cornea* crwn yn effeithio i ddwyn y pelydr i lewen (*focus*) yn gynt na'r gwastad.

4. Y mae gan y rhan fwyaf o greaduriaid ddau lygad, fel y gallont ganfod yn fwy helaeth, ac yn ddarpariad daionus rhag iddynt golli un o honynt. Ond peth hynod ydyw, er bod dau lygad, etto nid ydym yn canfod yn ddyblyg. Mae delw y gwrthddrych yn cael ei ffurfio yn mhob un o'r llygaid, etto nid ydym yn canfod dau, ond un gwrthddrych. Nodi yr achos

Digitized by Google

o hyn sydd anhawdd, ac wedi peri llawer o ymofyniad ac amryfal feddyliau yn mhlith naturiaethwyr manwl a dysgedig. Medd Syr Isaac Newton, pen naturiaethwr y byd, onid ydyw lluniau y gwrthddrychau gweledig gan y ddau lygad, yn ymuno lle y mae gieuau y gweled yn cyfarfod cyn myned i'r ymenydd? Newton's *Opt. q.* 15.

5. Peth arall sydd yn dra hynod: y mae pob peth yn cael ei lunio ar daflen y llygad (y *retina*) yn wrthdröedig, yn ol cyfreithiau yr olwg-gelfyddyd; y mae hyn wedi ei ddangos trwy lawer o brofiadau cwbl eglur: ac er hyny yr ydym yn canfod pob gwrthddrych yn ei sefyllfa a'i agweddiad priodol. Pa un ai gieuau y gweled (*optic nerves*) yr ymenydd, neu gynneddfau y meddwl, fel y barna Molyneux, yw yr achos o hyn, sydd anhawdd ei benderfynu, ond y mae yn gyfleusdra mawr ei fod felly.

Y mae llygaid y creaduriaid wedi eu haddasu yn rhyfedd, fel pob rhan arall o'u cyrph, i'w sefyllfa, eu hamgylchiadau, a'u dull o fyw:—i edrych yn mlaen, neu yn ol, neu oddi amgylch, neu yn mhell, neu yn agos, neu bob un o'r ddau, fel y byddo amgylchiadau y creaduriaid yn gofyn. Y mae angenrheidrwydd i'r adar ganfod yn mhell ac yn agos, fel y gallont godi y gronynau i ymborthi arnynt yn agos atynt, a phan y byddont yn ehedeg yn uchel yn yr awyr i ganfod yn mhell, er dal eu hysglyfaeth, ac er eu hamddiffynfa. Y mae gan eu llygaid beiriannau rhyfedd i'w haddasu i hyn, gyd â'r cyflymdra mwyaf. Y mae llygaid y pysgod yr un fath wedi eu haddasu i'r elfen ddwfr y maent yn byw ac yn canfod ynddi. Edr. GWIBEDYN. Gwel Derham's *Physico Theology*. Dr. Paley's *Natural Theology*. *Cyclopædia*.

Y mae Dr. Paley yn sylwi yn neillduol ar y *nictitating membrane* yn yr adar, a rhai anifeiliaid. Y mae yn ei hebrwyddo dros y llygad i'w lanhau, ei ireiddio, a'i amddiffyn, ac etto heb ei gyflawn dywyllu. Heb gyhyrau mae yn gweithredu yn wrthneidiol yn ei hol, wedi ei thynu dros y llygad gan edau fain yn gysylltiedig â chyhyr tu ol i'r llygad. Y mae pob addasrwydd yn y bilen hon a'i hysgogiadau i ateb ei dyben.

Y mae y llygaid yn ddarostyngedig i lawer math o afiechyd, heblaw damweiniau gofidus: yn gyffredinol, y mae cymedrolder, cadw y corph yn dymherus, bore godi, a gochelyd gwylied y nos, ac awyr y nos, yn tueddu yn fawr i gadw y llygaid, fel yr holl gorph, yn iachus ac yn gryfion. Gwn fod golchi y llygaid â dwfr ffynon yn llesol. Y mae rhinwedd neillduol hefyd mewn eli wedi ei wneuthur o risgl glas tu fewn pren ysgawen wedi ei ferwi mewn hufen, i iro y llygaid âg ef pan fyddo ennynfa a phoen ynddynt.

Y mae y llygaid nid yn unig yn ddefnyddiol i ganfod gwrthddrychau, ond dangosir yn y llygaid holl deimladau y meddwl, gweithrediadau y serchiadau, megys cariad, tosturi, digofaint; am hyny defnyddir hwynt yn aml iawn mewn iaith allegawl.

Priodolir llygaid i'r Arglwydd, i arwyddo ei hollwybodaeth, ei ddoethineb, a'i sylw manwl o bob peth. 'Yn mhob lle y mae llygaid yr Arglwydd, yn canfod y drygionus a'r daionus.' Diar. 15. 3. Ps. 11. 4. Edr. AMRANT.—Gosod ei olwg, neu ei lygaid, ar un, neu ryw beth, sydd yn dangos hoffder yr Arglwydd o hono, ei hyfrydwch ynddo, ac y cyfrana ei fendithion iddo. 1 Bren. 8. 29. Ps. 34. 15. Jer. 24. 6.—Y mae yn eu cyfarwyddo â'i lygaid; sef yn gofalu am ei bobl, yn eu hyfforddi, ac yn eu hamddiffyn. Ps. 32. 8.—Y mae ei waith yn cuddio ei lygaid oddiwrth ddynion, yn arwyddo ei fod yn eu ffieiddio hwy a'u gweithredoedd. Esa. 1. 15.

Y mae llygaid Crist yn golomenaidd, yn dangos ei sylw manwl, tirion, caredig, o'i bobl. Can. 5. 12.

Bod ganddo 'saith o lygaid,' sydd yn arwyddo perffeithrwydd ei wybodaeth. Dat. 5. 6. 'Saith o lygaid arno,' sydd yn arwyddo hyfrydwch y Tad a'r Ysbryd Glân, yr holl angelion, a'r saint ynddo. Zech. 3. 9.



Priodolir llygaid i ddyn hefyd yn allegawl, yn aml, ac yn arwyddocaol o gynneddfau y meddwl, dull, agwedd, a gweithrediadau yr enaid.—Agoryd llygaid dynion, sydd yn arwyddo goleuo eu meddwl i adnabod a chanfod pethau ysbrydol, nes byddo y serchiadau yn gweithredu yn addas tu ag atynt, a thu ag at Dduw ynddynt. Act. 26. 18. Can. 1. 15. a 4. 1, 9. a 7. 4. —Y mae llygaid y saint, sef eu hadnabyddiaeth, yn gywir, yn bur, yn sanctaidd, ac yn hyfryd; ond y mae llygaid annuwiolion, sef agwedd eu meddyliau, yn uchel, yn odinebus, yn gybyddlyd, yn genfigenllyd, yn angharedig, yn grwydredig, &c. Diar. 30. 13. a 23. 6. Mat. 20. 15. Esa. 5. 16. 2 Petr 2. 14.

Bod 'â llygaid heb weled,' yw bod â chynneddfau gan ddynion, ie. gwybodaeth naturiol o bethau dwyfol, heb wir wybodaeth ysbrydol, iachusol, yn ol y gair, o bethau Duw; sef heb eu canfod fel y mae y gair yn tystiolaethu am dynynt, yn eu holl ragoroldeb a'u gogoniant. Esa. 6. 10. Rhuf. 11. 8.

Fel y mae y llygaid yn dyner ac yn ddefnyddiol, a'r llaw a'r troed deheu yn ddefnyddiol, felly un peth, neu un mwyniant daearol, neu chwant, a fyddo yn rhwystr i ni yn ysbrydol, a gyffelybir iddynt. a rhaid eu tynu allan, a'u taflu ymaith. Mat. 3. 29, 30. a 18. 8, 9.

Cyffelybir pobl Dduw i ganwyll ei lygad, yn dyner, yn dirion, ac yn anwyl ganddo; ac efe a'u hamddiffyn yn ddiogel, o dynerwch a chyd-ddyoddefgarwch.

'Na pheidied canwyll dy lygad:' בת עינך *merch dy lygad:* y ganwyll, medd rhai; y *deigr*, medd y Dr. Blayney. Galar. 2. 18. Gelwir y ganwyll yn Hebraeg, *Merch ddu y llygad*. Ps. 17. 8. Gelwir ffynonau yn Hebraeg, *llygaid;* felly hefyd, lliw; 'A'i lliw,' *Heb. a'i lygad fel llygad Bdeliwm*. Num. 11. 17.

'Ffieidd-dra ei lygaid;' sef eilunod yr Aipht yr oeddent yn edrych atynt am gymhorth, ac yn eu haddoli. Ezec. 20. 7.

'Chwant y llygad;' sef yr hyn y mae dyn yn edrych arno, ac yn ei chwennychu: y byd, a'r pethau sydd yn y byd. 1 Ioan 2. 16. Edr. BRYCHAU, CHWANT, ELI, GOLWG, GWYDD, SYML, TRAWST.

LLYGAD-DYNU (llygad-tynu) hudo, tynu serch, llithio.—'Pwy a'ch llygad-dynodd chwi fel nad ufuddhaech i'r gwirionedd.' Gal. 3. 1.—'A'ch rheibiodd.' Dr. M. Arwydda βασκαινω, *hudo â'r llygad, lladd â'r llygad, lladd*, neu *ddystrywio âg edrychiad y llygad.* Arwydda yn y lle hwn, yr unig le yr enwir ef, twyllo trwy ddichellion, a'u harwain i gyfeiliornadau. Pwy a'ch twyllodd â gau-athrawiaeth? Pwy a'ch twyllodd trwy ymddangosiadau gau, yn ol dull hudolwyr? hyn yw ei ystyr yma. Gwaith hudolion oedd eu gwyro oddiwrth athrawiaeth fawr yr efengyl am gyflawnhad trwy ffydd, o flaen llygaid pa rai yr oedd Crist wedi cael ei ddarlunio mor eglur yn athrawiaethol, fel pe buasent wedi ei weled â'u llygaid ar y croes-bren. Y mae cyfrwysdra gau-athrawon yn fawr i hudo canlynwyr ar eu hol, a meddwl dyn yn anmharod i dderbyn a dal y gwirionedd. Gal. 4. 9. a 5. 7. Mat. 24. 24. Eph. 4. 14. 2 Petr 2. 18. Dat. 2. 20.

LLYGEIDIOG, (llygaid) a chanddo lygaid, yn llawn llygaid.—'Un-llygeidiog.' Mat. 18. 9. Marc 9. 47. *Gr.* *μονοφθαλμον, un llygad.* Pethau *ynom* ni sydd yn ein rhwystro; ond er mor hardd, anwyl, a buddiol yw y llygad, neu ryw beth arall cyffelyb iddo, a fyddo yn rhwystro yr enaid, gwell, mwy cysurus, a buddiol, ei dynu a'i daflu ymaith, na myned gyd âg ef i dân uffern.

LLYGOD—EN, (llyg) chwistlen; llygoden ffreinig; llygoden y dwfr; llygoden goch; llygoden y derw,

Digitized by Google

lleian, neu benlöyn; creadur bychan, a digon adnabyddus.

Dadleu mawr mynych, ac engi ar *lygoden*. *Diar.*

Yr oedd yn greadur aflan dan gyfraith Moses. Lef. 11. 29. Yr oedd yr hen Rufeiniaid, a chenedloedd eraill, yn ymborthi arnynt. Esa. 66. 17. Yr oedd llygod yn difwyno tir y Philistiaid pan oedd arch Duw yn eu gwlad. 1 Sam. 6. 5.

LLYGRU—EDIG—AETH, (llwgr) halogi, diwyno, difwyno; halogedig; halogedigaeth; gôr, pydrni, pydredd, budreddi.—Y mae llygru, llygredig, llygredigaeth, yn eiriau tra ëang eu hystyr, ac yn cael eu priodoli i bob peth agos fyddo yn anurddo dyn, neu yn gwaethygu un creadur arall o ran y cyflwr y creodd Duw ef ynddo: sef yr holl anurddiad a'r trueni a ddaethant ar y greadigaeth oll trwy bechod dyn, yn gystal a'r pechod ei hun, a thrueni y dyn a bechodd. Felly y mae llygru yn arwyddo, 1. Difa, difrodi. Mat. 6. 19.——2. Gwaethygu; halogi, diwyno. 1 Cor. 15. 33. Exod. 32. 7. 1 Cor. 3. 17. 2 Cor. 4. 16. Heb. 12. 15.——3. Anufuddhau. Mal. 2. 8.——4. Hudo; peri, rhagrithio. 2 Cor. 11. 3. Dan. 11. 17, 32.

Priodolir y gair llygredig i bob peth ansanctaidd a halogedig, megys ymadroddion, moesau, neu bersonau. Eph. 4. 29. Dan. 2. 9. 1 Tim. 6. 5. 2 Tim. 3. 8.

Y mae llygredigaeth yn arwyddo, 1. Pydredd, braeniad, a ffieidd-dra corph marw. Ps. 16. 10. 1 Cor. 15. 50.——2. Anaf, yn anaddasu anifel i fod yn aberth. Lef. 22. 25.——3. Anharddwch, megys anharddwch corph marw. Dan. 10. 8.——4. Tueddiadau, chwantau, ac arferiadau halogedig, y rhai trwy fyw ynddynt sydd yn anurddo, yn diwyno, ac yn dinystrio dynion. 2 Petr 2. 12, 19.——5. Yr holl anharddwch, y doluriau, a'r dyoddefiadau a ddaethant ar y greadigaeth yma isod, a'r creaduriaid direswm, trwy bechod dyn, ac oddiwrth y rhai y rhyddheir hwynt yn nydd adferiad pob peth. Rhuf. 8. 21.——6. Dinystr tragywyddol. Gal. 6. 8.——'Mynydd llygredigaeth.' Edr. OLEW-WYDD, PECHOD, TRACHWANT.

LLYM—ACH—ION, (lly-ym) awchus, craff, tost, caled, creulon.—'Llymach nag un cleddyf dau-finiog.' Heb. 4. 12. Edr. CLEDDYF, CYLLELL, SAETH.

LLYMA, (lly-ym) wele yma, edrych yma. Mat. 24. 23.

LLYMUN, (llym) craffus; noeth-lymun, llwm, amnoeth; yn noeth, fel y mae dyn yn dyfod i'r byd. Yn allegawl, arwydda cyflwr isel, tlawd, digysur. 'Rhag i mi eich dyosg yn noeth-lymun;' sef eich anrheithio a'ch dinystrio â'm barnedigaeth. Hos. 2. 3. Amos 2. 16.

LLYN—AU, (llv) gwlyb, gwlybwr, lleithder, sudd, nodd; merllyn, llynwyn, pwll. Llyn afalau, sef sudd afalau; llyn y llygad, sef dwfr y llygad; llyn y bustl, a llyn y cymalau, sef y nôdd hyny yn nghorph dyn ac anifel.

Goreu un *llyn* gwin, goreu un diawd dwfr. *Diar.*

Am y llynau y coffëir am danynt yn yr ysgrythyrau, edrych dan yr amrywiol enwau.

'Llyn tân yn llosgi â brwmstan.' Dat. 19. 20. Bwrw y bwystfil a'r gau-brophwyd i'r llyn ofnadwy hwn, a arwydda, 1. Eu hesgymundod allan o'r eglwys, gyda dirmyg, gwaradwydd, a chydwybod euog.——2. Barnedigaethau Duw, yn dymhorol ac yn farwol, gyd âg arwyddion neillduol a dychrynadwy o anfoddlonrwydd Duw. 2 Thes. 1. 7.——3. Eu dinystr a'u dyoddefiadau tragywyddol yn uffern. Mat. 8. 12. Luc 16. 24. Dat. 21. 8.

'A'r llynoedd a sychaf.' Esa. 42. 15. Yr adnod a gynnwys brophwydoliaeth am wyrthiau mawrion Duw trwy yr efengyl yn mhlith y cenedloedd, yn gweithredu cyfnewidiadau rhyfedd arnynt, yn cael eu gosod allan mewn ymadroddion cyffelybiaethol, oddiwrth bethau natur: 'A'r llynoedd a sychaf;' sef eu holl gau egwyddorion, a'u hathrawiaethau cyfeiliornus, ac eilun-addolgar, a ddiddymaf yn hollol, trwy rym a dysgleirdeb y gwirionedd. Yn ganlynol, 'A'u holl wellt a wywaf;' pan na byddo dim gwlybwr i'w hireiddio a'u cynnal. Y mae sychu y llynoedd, yn arwyddo diddymu pob peth oedd yn fagwriaeth ac yn gynnaliaeth i gau grefydd.

LLYNEDD, (llyn) y flwyddyn aeth heibio, yr amser blaenorol, yr amser a aeth heibio. 2 Cor. 9. 2.

LLYS—OEDD, (lly-ys) *Saes.* LEST: palas, neuadd-dŷ, dadleu-dŷ, senedd-dŷ, cynghor-dŷ; lle barn, lle brawd. Llys y brenin; llys breyr, llys freyrol; llys cwmwd; llys penadur; llys beunyddiol; llys digynnull; llys ail goffa; gwr llys.

Tair uchel *lys* sydd yn Nghymru; nid amgen, *llys* Aberffraw, *llys* Dinefwr, a *llys* Mathrafal. *Cyfreithiau Cymreig.*

Arwydda, 1. Teml Dduw yn Jerusalem. 1 Cron. 29. 1—19. Ps. 78. 69.——2. Eglwys Dduw. Ps. 45. 15.——3. Tŷ yr arch-offeiriad. Mat. 26. 58.——4. Brenin-dŷ. Esa. 39. 7. Edr. CYNTEDD, PALAS.

LLYSIAU, (llws) glaswellt, gwelltglas. Edr. GLASWELLT. Gwaith y trydydd dydd oedd creu y llysiau a'r prenau. Cyn creu yr anifeiliaid, creodd Duw y llysiau yn ymborth iddynt. Creodd y ddaear yn gyntaf, yna gwisgodd hi â harddwisg, a pharodd iddi ddwyn egin, a llysiau yn hadu hâd wrth eu rhywogaeth. Y mae llawer o rywogaethau o honynt, ac i gyd yn ddefnyddiol ac yn hardd; yn fagwriaethol, ac yn feddyginiaethol; a phob rhywogaeth a'i hâd ynddi perthynol iddi. Y mae difyniad (*anatomy*) llysiau yn gywrain iawn. Y mae gan y llysiau fywyd, ond heb deimlad; y mae gan yr anifeiliaid fywyd teimladwy, ond direswm; y mae gan ddyn fywyd teimladwy, a rhesymol. Y mae i bob llysieuyn lestri addas i'r awyr-gylch droi ynddo, ac i'r nôdd magwriaethol redeg. Y mae y gwraidd a'r paladr yn tynu nôdd o'r ddaear, a'r dail yn yfed dwfr o'r awyr, trwy lestri bychain wedi eu taenu a'u hamwisgo, er eu hamddiffyniad a'u harddwch, â'r gwisgoedd mwyaf cywrain eu gwneuthuriad a'u lliwiau. Y mae eu llestri hadau yn rhyfeddol iawn—yn cynnwys mewn lle bychan, braidd yn weledig yn rhai, filiynau o genedlaethau i ddyfod yn y gronynau bychain cynnwysedig ynddynt. Eu hamrywiaeth, eu harddwch, a'u defnyddioldeb, ydynt deilwng o'n sylw neillduol. Y mae yn anhawdd cael dau o'r un rhyw yn cyfateb yn gwbl i'w gilydd; ac y mae y rhywogaethau yn amrywiol ddiderfyn, o ran ein gwybodaeth ni o honynt: mae llawer yn anweledig i ni ond trwy ddrychau. Y mae rhai yn byw, ond dros ychydig oriau, yn hadu ac yn darfod. Y mae rhai yn tyfu yn y dyfroedd, a than y dyfroedd. Y mae yr un rhywogaethau i'w cael, weithiau, yn y gwledydd oeraf a phoethaf; ac yn hynod yn cyfateb yn gynnaliaeth addas i'r creaduriaid sydd yn preswylio yr amrywiol barthau o'r byd. Yn gyffredinol, y mae y blodeuyn yn blaenu yr hedyn, a phan byddo yr hedyn yn addfed, y mae y blodeuyn yn gwywo, ac yn syrthio. Nid oes dim blodau i rai, ond y mae yr hâd ar y dail; y mae hâd eraill mewn grawn, codenau, cnau, ceryg, &c. Y farn gyffredinol yn mhlith naturiaethwyr yw, fod i bob rhywogaeth ddwy genedl, sef yr wrrywaidd a'r fenywaidd, ac onidê, na ffrwythlonent hwy ddim. Y mae i bob llysieuyn ei briodol hedyn ynddo ei hun. Ni ddwg un hedyn ond ei gorph priodol ei hun. Yn gyffredinol, y mae pob rhan o'r llysiau yn ddefnyddiol, y gwraidd, y paladr, y dail, y blodau, a'r hadau: sef er cynnaliaeth, ac er

Digitized by Google

meddyginiaeth. Y mae nôdd rhai o honynt mor gryf, fel y mae ychydig o hono yn farwol; ond diammeu eu bod oll yn rhinweddol ond deall eu natur, a'u harferyd yn gymhesur, yn gyfatebol i natur a grym y nôdd ynddynt.

Y mae amryw lysiau yn y dydd yn troi eu blodau at yr haul; mae y rhan fwyaf o'r blodau yn ymagor pan byddo yr awyr yn oleu-deg, ac yn hinonaidd: ond o flaen gwlaw, ac yn y nos, yn ymgau. Y mae blodau amryw yn hongian i lawr yn y nos, fel pe byddai y llysiau yn cysgu, rhag i wlybwr yr awyr eu niweidio. Y mae rhai yn ymgau o flaen tymhestl-oedd, ac yn ymagor wedi hyny, pan fyddo yn hinon-aidd. Y mae rhai wrth gyffwrdd â hwynt yn ymgau, fel pe byddai teimlad ynddynt. Y mae rhai yn addas ymborth i ddynion, ac eraill i anifeiliaid.

Cyffelybir dynion i lysiau, i osod allan eu hawddfyd blodeuog, a'u diflaniad buan. 2 Bren. 19. 26. Ps. 37. 2. a 90. 5. a 102. 4. Esa. 66. 14.

**LLYSIEUOG**, (llysiau) llawn llysiau, llysieuaidd, llysieulyd.—'Parwn i ti yfed gwin llysieuog o sugn fy mhomgranadau.' Can. 8. 2. 'O win arogl-ber.' Dr. M. '*Spiced wine.*' *Saes.* *Heb.* מ״ין הרקח gwin wedi ei gymysgu â phêr-lysiau, neu wedi ei bêr-arogli. Yr oedd yn arferiad cyffredin gan yr henafiaid i gymysgu pêr-lysiau am ben eu gwin; weithiau myrr a chalamus; weithiau mêl a phupyr, &c. y cyfryw, diammeu, a gyfrifent y gwin goreu; am hyny y mae yr eglwys am groesawi Crist âg ef; sef gweithrediadau sanctaidd yr amrywiol radau yn yr enaid: megys ffydd, cariad, &c.

**LLYSU**, (llws) laru, gwrthod, gwrthneu, anghymeradwyo.—'Hwn yw y maen a lyswyd genych chwi yr adeiladwyr, yr hwn a wnaed yn ben i'r gongl.' Act. 4. 11. Mat. 21. 42. Ps. 118. 22. 'A vwrwyt beibio.' W. S. *Gr.* *ο εξουθενηθεις a ddystrywiwyd, a ddirmygwyd, a gyfrifwyd yn ddim;* gwrthod gyda diystyrwch a dirmyg. Schleusner. Yr offeiriaid, yr henuriaid, a'r ysgrifenyddion, hoff oedd gan y rhai hyn eu galw yn adeiladwyr; ond gwnaethant waith truenus ac aflwyddiannus iawn trwy wrthod maen Israel yn sylfaen, ac adeiladu eu hunain ac eraill yn ei le ar draddodiadau yr henafiaid, a'u cyfiawnder eu hunain. Edr. CRAIG, MAEN.

**LLYTHYR—AU**, (llyth-yr) *Llad.* LITERA: *Saes.* LETTER: egwyddor, ysgrifen; llythyr anfon; llythyr anerch; llythyr cymyn, sef ewyllys y marw yn ysgrifenedig; llythyr ysgar, sef gweithred ysgariaeth rhwng gwr a gwraig yn ysgrifenedig; llythyr ymrwym, sef gweithred yn ysgrifenedig yn rhwymo pleidiau. Deut. 24. 1. Mat. 5. 31. Marc 10. 4. *Heb.* אגרת *llythyr, epistol;* hwyrach, medd Bate, oddiwrth ei fod wedi ei blygu, neu ei rolio i fynu. Yr Arabiaid presennol a roliant, neu a amdröant eu llythyrau, ac yna gwastadânt i lêd modfedd, a gludiant ei ben yn lle ei selio. Niebuhr, *Description de l' Arabie.* Y Persiaid, medd Hanway, a wnant eu llythyrau yn rhol chwe modfedd o hŷd, a rhoddant ddarn o bapur oddi amgylch iddo wedi ei sicrhau â glud, ac a'i seliant âg argraff o inc, tebyg i inc ein hargraffyddion ni, ond nid mor dew. Gwel Hanway's *Travels.*

Tri gweinyddion gwybodaeth, cân, arwydd, a *llythyr.*
*Triodd.*

**LLYTHYREN—AU**, (llythyr) egwyddor, nodau ysgrifen; argraff sain arferedig wrth ysgrifenu. Pwy ddychymygodd lythyrenau gyntaf sydd anhysbys; ond er bod hyn mewn dadl mawr, y mae pawb yn cytuno mai celfyddyd ryfedd iawn ydyw. Trwyddi yr ydys yn corphori meddwl, yn lliwio ymadrodd, ac yn llefaru wrth y llygaid. Gellir cysylltu y llythyrenau mewn cynnifer o filoedd o ffyrdd i ateb y dybenion mwyaf defnyddiol, fel y barna rhai i'r ddysgeidiaeth hon ddyfod oddiwrth Dduw yn union-gyrch, ac mai y ddwy llech a ysgrifenwyd gyntaf o bob peth. Ond y mae yn dra thebygol fod ysgrifenu yn arferedig yn mhlith yr Hebreaid cyn hyny. Edr. YSGRIFENU.

Dull yr hen Aiphtiaid o ysgrifenu, trwy gerfio arwydd-luniau, yw y dull hynaf yn y byd. Dull y Chineaid o ysgrifenu trwy roddi nodau arwyddol am bob gair, sydd arferiad hen, ond tra anghyfleus gan fod ganddynt 80,000 o lythyrenau i'w dysgu, yr hyn sydd ddigon o waith i ddyn am hir oes. Y dull o ysgrifenu trwy gysylltu llythyrenau i wneuthur geiriau, a chysylltu geiriau i wneuthur ymadrodd, sydd gyfleus, a chywrain, ac hollol addas i osod allan unrhyw fater, yn gyflawn ac yn ddeallus. O Dduw y tarddodd y ddawn, diammeu, pa un ai yn union-gyrchol, neu beidio. Cadmus, meddant, ynghylch amser Dafydd, a ddygodd wybodaeth o lythyrenau gyntaf i Ewrop, trwy ddwyn 16 o nodau arwyddol y Pheniciaid i wlad Groeg. O'r rhai hyny y ffurfiwyd y llythyrenau Groeg, Rhufeinaidd, Coptic, Gothic, a'r Sclafonic, olynol. O'r llythyrenau Hebraeg, tebygol, y ffurfiwyd llythyrenau y rhan fwyaf o ieithoedd y gwledydd dwyreiniol; megys iaith Phenicia, Syria, Samaria, Ethiopia, ac Arabia, er gyda llawer o gyfnewidiadau. Yn ol yr argraff bresennol, 27 o lythyrenau sydd yn yr iaith Gymraeg; ond dywed W. O. Pughe fod 43 o hen nodau arwyddol gynt yn Nghoelbren y Beirdd: sef 16 o brif lythyrenau, hyny yw, 12 o gydseiniaid, a phedair o lafariaid. Y mae y llythyrenau hyn yn mynegi gynnifer o brif sain. Heblaw y prif lythyrenau hyn, yr oedd ganddynt 27 o ail lythyrenau, wedi eu ffurfio yn dra naturiol o'r prif lythyrenau. Y 43 hyn o lythyrenau a nodent bob sain yn yr iaith, a phob llythyren a'i phriodol sain iddi yn ddigyfnewid. Gwel Gramadeg Dr. W. O. Pughe.

Pan arferwyd y llythyrenau Rhufeinaidd yn lle y Cymreig, bu gorfod arferyd dwy neu dair llythyren yn nghyd i fynegi un sain; ond gan fod yr arferiad mor gyffredin, dros amryw oesoedd, ac yn dra hysbys, er mor wrthun a gorlanwog, nid gwiw ymgais eu cyfnewid.

'Enwaediad y galon sydd yn yr Ysbryd, ac nid yn y llythyren.' Rhuf. 2. 29. Yr oedd yr enwaediad allanol, yn ol llythyren y gyfraith, yn arwyddocâol o enwaediad ysbrydol y galon. Yr oedd y naill yn orchymynedig gan Dduw, a'r gorchymyn hwnw yn ysgrifenedig gan yr Iuddewon, am hyny gelwir ef, yn y llythyren; ond Duw sydd yn gweithredu y llall trwy ei Ysbryd; gwaith Duw ydyw, am hyny y mae yn gymeradwy gan Dduw.

'Nid i'r llythyren, ond i'r Ysbryd; canys y mae y llythyren yn lladd, ond yr Ysbryd sydd yn bywhau.' 2 Cor. 3. 6. Am y ddwy oruchwyliaeth y mae yr apostol yma yn ysgrifenu. Er bod bywyd tragywyddol i'w gael dan yr hen oruchwyliaeth, cyn dyfodiad sylwedd mawr yr hen ddefodau, i bawb ag oedd yn deall y dyben a'r ysbrydolrwydd o honynt, a bod yr Ysbryd Glân wedi ei dywallt yn aml mewn gradd llai dan yr oruchwyliaeth hòno; etto, gwedi dyfodiad Crist, yr oedd glynu wrth y defodau hyny, a chyfammod Sinai, yn lladd: llythyren yn unig oedd, heb yr Ysbryd; yr oedd yr Ysbryd yn unig yn cael ei gyfranu trwy weinidogaeth yr efengyl, sef gweinidogaeth y Testament, neu y cyfammod newydd. Yr oedd gweinidogaeth yr hen gyfammod gynt yn ogoneddus, ac yr oedd bywyd i'w gael dan yr oruchwyliaeth hòno, am fod yr Ysbryd yn cael ei gyfranu y *pryd hwnw* dani; ond y mae y gogoniant hwnw wedi ei ddileu. Bu yr hyn a ddilewyd yn ogoneddus, ond yr ydym ni dan oruchwyliaeth sydd i *aros;* gweinidogaeth cyfiawnder, gweinidogaeth yr Ysbryd yw, ac y mae yn tra rhagori mewn gogoniant. Y mae y gorchymynion mewn llythyrenau ar geryg etto mewn grym, ond *lladd* y pechadur euog y maent; y mae yr holl ddefodau ag oedd yn dangos

Digitized by Google

gwaredigaeth yn wyneb y gyfraith oedd y lladd. yn hollol ddiles; gan hyny yn ngweinidogaeth yr efengyl yn unig, y mae yr Ysbryd, a bywyd trwyddo, i'w gael; gweinidogaeth cyfiawnder yw i bechadur euog; am hyny, y mae yn ogoneddus, ac yn iachusol. Yr ydym ni, gan hyny, medd yr apostol, yn gwasanaethu Duw 'mewn newydd-deb ysbryd, ac nid yn hender y llythyren.' Rhuf. 7. 6. Yr oedd y llythyren yn rhwymo gynt, sef cyfammod Sinai; ond yn awr y mae wedi heneiddio, colli ei rym, ac wedi diflanu yn hollol; yr ydym ninnau wedi marw iddo.

LLYWIO, (lly-yw) llyw llong; hylwybraw; both bynag fyddo yn cyfarwyddo, ac yn llywodraethu. Act. 27. 29. Iago 3. 4.

LLYWEN—YDD (lly-gwen) gorllewin: 'A' myned haul i lywenydd,' sef i'r haul fachludo. Marc 1. 32. W. S.

LLYWETH—AU, (llyw). Edr. LLAWETH.

LLYWIAWDWR—WYR, (llywiawd-gwr) llywodraethwr, cyfarwyddwr, llywydd, rheolwr.

Nid *llywiawdyr* namyn Duw. *Diar.*

'A'u llywiawdwr a ddaw allan o'u mysg eu hun.' Jer. 30. 21. Ni bu neb yn llywodraethu ar yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o Babilon, yn cyfateb yn gyflawn i'r hyn a ddarlunir yn y geiriau prophwydoliaethol hyn; ond yn yr Arglwydd Iesu cyflawnwyd hwynt yn eu helaethrwydd mwyaf. O ran ei ddynoliaeth, daeth allan o'u mysg; o ran ei swydd, y mae yn llywodraethu ar ei eglwys. Fel offeiriad nesâodd at Dduw dros ei bobl â iawn yn ei law, ac i eiriol drostynt. Llwyr roddodd ei galon i hyny, ac a lwyddodd. Nesâodd at Dduw yn holl ogoniant ei berffeithiau dwyfol, â iawn; cafodd dderbyniad addas i fawrhydi ei berson, a chyfiawnder ei waith. 'Mi a baraf iddo nesâu, ac efe a ddaw ataf:' yr oedd y person a'i waith, yn ol trefn, ac wrth fodd y Tad. Un yn ei natur yw llywiawdwr yr eglwys; am hyny llywia mewn tosturi a ffyddlondeb. Jer. 23. 5, 6. a 33. 15. Deut. 18. 18. a 33. 5. Ps. 89. 29. a 110. 1—4. Esa. 9. 6, 7. Ezec. 34. 23, 24.

'Yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn.' Eph. 6. 12. 'Yn erbyn llywodron bydol, tywysogion y tywyllwch y byd hwn.' W. S. 'Yn erbyn bydol gedyrn tywyllwch y byd hwn.' Dr. M. *κοσμοκρατωρ*, gair cyfansoddol o ddau air, sef, *κοσμος byd*, *κρατος*, *gallu*, *awdurdod*, *llywodraeth*. Rhai a farnant mai y cythreuliaid a feddylir wrth y bydol-lywiawdwyr. Gelwir Satan *ο αρχων του κοσμου τουτου*, *y tywysog y byd hwn*. Y mae ganddo ef, a'i fyddin gythreulig dano, lywodraeth ar blant dynion trwy dywyllwch ysbrydol, ac anwybodaeth. Gelwir teyrnas Satan, 'Gallu y tywyllwch,' *ἐξουσια του σκοτους*. Luc 22. 53. Col. 1. 13. Yn ganlynol, i droi dynion o feddiant (*της ἐξουσιας*, *gallu*, *awdurdod*) Satan at Dduw, rhaid agor eu llygaid, a'u troi o'r tywyllwch i'r goleuni. Act. 26 18. Eraill a farnant mai wrth y 'bydol-lywiawdwyr,' y meddylir tywysogion bydol Paganaidd, y rhai oeddynt yn y tywyllwch, yn llywodraethu yn y tywyllwch, yn cynnal teyrnas y tywyllwch i fynu yn y byd, ac yn erlid y goleuni, a phlant y goleuni. Yn erbyn y cyfryw yr oedd ymdrech caled y duwiolion yn yr amser gynt, ac y maent hyd heddyw. Ond mwy tebygol yw, mai y cythreuliaid a feddylir; hwy yw y llywiawdwyr, ac mae y byd hwn, a thywysogion y byd hwn, cymaint o drigolion y byd hwn ag sydd yn y tywyllwch, a dim ond hwy, dan eu llywodraeth. Nid yw eu llywodraeth yn cyrhaedd dim pellach na'r byd hwn; ac nid ar hwnw i gyd, ond yn unig cynnifer ag sydd o'i drigolion yn y tywyllwch, sef mewn anwybodaeth a phechod.

LLYWODRAETH—U—WR, (llywawdr) gwladwriaeth, rheolaeth, ardwy; arglwyddiaeth, tywysogaeth; rheoli, arglwyddiaethu; arglwydd, tywysog, blaenor. Arwydda llywodraeth dri pheth: 1. Awdurdod gyfreithlawn; llywodraethu heb awdurdod gyfreithlon, yw traws-feddiant, a chamrwysg.—2. Gallu; heb hyn, nid oes gan un ond enw o lywodraethwr heb lywodraethu yn wirioneddol.—3. Trwy awdurdod a gallu, iawn drefnu a defnyddio pob peth i ateb dybenion llywodraeth. Ffynon pob awdurdod, gallu, a llywodraeth yw Duw. Fel Creawdwr, y mae ganddo feddiant yn mhob peth, awdurdod ar bob peth, a gallu i lywodraethu ar bob peth i ateb yn y modd goreu ei ddybenion mawrion ei hun. Y mae ei lywodraeth mor ëang a'i greadigaeth; mor fanwl a phob creadur, a phob peth perthynol i bob creadur; mor barhaus a pharhad y greadigaeth; yn oruchel, ac yn ben-arglwyddiaethol; yn ol ei ewyllys ei hun, ac heb neb yn abl i'w gwrthsefyll; yn anfeidrol ddoeth, er, yn aml, i ni yn ddirgelaidd; yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda, yn mhob peth, i ateb y dybenion goreu, trwy y moddion mwyaf addas; yn dra gogoneddus iddo ei hun, a llesol i'w greaduriaid, ac er iechydwriaeth dragywyddol ei eglwys. Ps. 93. 1, 2. a 97. 1, 2. a 99. 1. a 103. 19. 1 Cron. 29. 11, 12. 2 Cron. 20. 6. Dan. 4. 33, 34, 35. a 5. 20, 21. Llywodraetha efe, nid yn unig yr holl greaduriaid ar dir a môr, yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau mawrion a bychain—ond hefyd holl ysgogiadau yr holl greaduriaid. Act. 17. 28. a 27. 23, 24, 34.——Holl weithredoedd a'r dygwyddiadau yn y byd. Ps. 18. 39—43. a 44 8.——Nid yn unig y gweithredoedd a'r dygwyddiadau, ond holl amgylchiadau y pethau hyn, o ran amser, lle, a'r moddion. Hynod y trefnodd lawer o amgylchiadau, i beri fod y brophwydoliaeth am enedigaeth Crist gael ei chyflawni. Yr oedd yn rhaid i Augustus roddi gorchymyn allan i drethu yr holl fyd, yn yr amser yr oedd Mair yn barod i esgor. Luc ii. Mat. 2. 5. Y mae hyn yn un amlygiad o fanylrwydd llywodraeth Duw yn mhob peth. Gwel 1 Sam. 25. 32, 33, 34. Ezec. 21. 20, 21, &c. Gwelwn ddangosiad hynod o hyn yn hanes Joseph. Edr. JOSEPH. Llywodraetha ar bethau naturiol; megys y taranau, y mellt, y gwynt, y gwlaw, &c. Job 37. 2, 3. Jer. 10. 30. Ps. 148. 8. a civ, cvii.——Felly hefyd ar ddynion, pan fyddont yn gweithredu yn fwyaf rhydd ac ewyllysgar, hyd yn nod eu gweithredoedd mwyaf pechadurus; er ei fod yn hyny yn hollol rydd oddiwrth gyfranogi mewn un weithred, mor belled ag y mae yn bechadurus. Act. 2. 23. a 4. 27, 28.

Heb helaethu ychwaneg, y mae yn llywodraethu pob peth—i'r manylrwydd mwyaf—ar un waith—yn hawdd—yn anwrthwynebol—yn berffaith, heb ballu mewn dim—i ateb y dybenion goreu. Y mae ei holl bobl yn cydnabod ei lywodraeth, yn ei charu, ac yn chwennychu iddo eu llywodraethu hwynt yn neillduol, yn eu holl feddyliau, eu serchiadau, eu geiriau, eu gweithredoedd, a'u holl amgylchiadau. Ein dedwyddwch yw fod y llywodraeth yn ei law; y mae ganddo hawl iddi yn gwbl: ni rydd mo honi byth i neb arall, boddlon neu anfoddlon fyddom ni: ac ni ddichon iddi fod mewn un llaw well. Fel nad oes neb yn meddiannu hawl, felly hefyd, nid oes neb yn meddiannu cymhwysder i lywodraethu pob peth, ond efe ei hun. Nid oes un angel yn y nefoedd, na'r holl angelion ynghyd, yn meddiannu cymhwysderau i lywodraethu y byd am un fynyd; pe byddai bosibl i'r llywodraeth fod o'i law ef am yr yspaid lleiaf o amser, âi y cwbl yn yr yspaid hwnw i'r annhrefn mwyaf. Gweddai i bawb ei barchu, ei addoli, a'i ogoneddu yn ei lywodraeth, trwy ymostwng iddi yn hollol, yn mhob peth; ymddiried iddo, a diolch iddo yn mhob dim.

Uch nef, is nef, nid *gweledig* namyn ef. *Taliesin.*

Digitized by Google

'Yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod.' 1 Tim. 3. 4. Heblaw maethu eu plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, y mae yn ofynol i rieni, a phob pen teulu, fod ganddynt lywodraeth ar eu teulu. Nid llywodraethu heb addysgu, nac addysgu, ychwaith, heb lywodraethu; ond eu haddysgu i'r dyben i'w llywodraethu. Y mae yr apostol yn golygu pob un na fedr lywodraethu ei dŷ ei hun, yn gwbl anaddas i gymeryd gofal dros eglwys Dduw. Y mae y Duw doeth a thirion wedi trosglwyddo awdurdod i rieni ar eu teuluoedd, wedi rhoddi cyfarwyddiadau pa fodd y mae iddynt eu llywodraethu; ac yn cymeradwyo eu hymdrechiadau trwy eu cynnorthwyo a'u bendithio yn eu gwaith. Dros Dduw y mae iddynt lywodraethu yn ofn Duw, er gogoniant Duw; gyda chariad tadol, yn ddoeth, yn ddiwyd, ac yn ffyddlon, yn ol rheolau gair Duw. Rhuf. 12. 8. Gwel y Pedwerydd Gorchymyn.

Trwy osodiad a threfniad Duw, llywodraethwr pob peth, y mae llywodraethau gwladol yn y byd, er iawn drefniad pethau gwladol, er gweinyddiad cyfiawnder a barn, amddiffyniad y gorthrymedig, ac er dial llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg. Nid oes dim yn fwy amlwg na bod llywodraeth wladol o drefniad Duw: ordinhad Duw yw yr awdurdod, medd yr apostol Rhuf. 13. 2. Y fendith dymhorol fwyaf yw llywodraeth gyfiawn ar ddynion: heb lywodraeth nis dichon fod i ni gysur o ddim sydd genym, nac o'n heinioes chwaith. Er cymaint llwgr dyn, a'r drygioni sydd yn llywodraethu y ddaear, etto, trwy oruwch awdurdod a daioni Duw, y mae yn mhob llywodraeth, ie, y waethaf, gymaint daioni, fel y mae yn well bod dani, na bod hebddi: ond lle byddo y cyfreithiau yn uniawn, a'r llywodraethwyr a'r barnwyr yn gyfiawn, yn ofni Duw, ac yn casâu annuwioldeb a chamwedd, mae y fendith yn fawr iawn, a Duw i'w gydnabod yn ddiolchgar am dani. Esa. 49. 23. 1 Petr 2. 13, 14. Rhuf. 13. 1—7. Edr. Ordinhad.

'A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef—ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd.' Esa. 9. 6, 7. Crist yr Arglwydd y mae y prophwyd yn ysgrifenu am dano yn y geiriau;—'Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni;' sef er ein buddioldeb, ein llesâd, a'n hiechydwriaeth dragywyddol. Mae y llywodraeth hon yn perthyn i Grist trwy osodiad dwyfol; 'Yr hwn a wnaeth efe (y Tad) yn etifedd (neu yn llywodraethwr) pob peth.' Heb. 1. 2.—'Rhoddwyd iddo ef bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear.'—Gosododd y Tad ef i 'eistedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y nefolion leoedd, goruwch pob tywysogaeth, &c., ac a'i rhoddes ef yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys.' Eph. 1. 20—23. Nid arwydda y gosodiad hwn, nad oedd gan y Mab, yn gydradd â'r Tad, feddiant a llywodraeth rhagluniaethol ar bob peth; y mae hyny yn hanfodol i Dduwdod, ac i'r Mab fel person yn yr hanfod dwyfol. Ond llywodraeth oruchwyliaethol yw hon, a roddwyd iddo trwy drefniad dwyfol, fel cyfryngwr a phen yr eglwys, ac yn golygu yn neillduol iechydwriaeth yr eglwys: y mae fel Duw-ddyn yn Offeiriad ar ei frenin-fainc i achub ac i wared; wedi ei ddyrchafu â deheulaw Duw yn Dywysog ac yn Iachawdwr. Y mae y llywodraeth yn *hollol* ac yn *unig* ar ei ysgwydd ef; sef yn ef feddiant:* y mae ganddo bob awdurdod, yn gystal a phob gallu; darostyngwyd pob peth dan ei draed ef; mae holl angelion y nefoedd yn ysbrydion gwasanaethgar iddo; a holl gythreuliaid uffern, a'u gweision ar y ddaear, yn gaethion dano; y mae holl lywodraethau y byd dan ei awdurdod—rhoddwyd y cenedloedd yn etifeddiaeth iddo, a therfynau y ddaear i'w feddiant; y mae ganddo bob dawn a phob gras i'w cyfranu i'r neb y myno. Efe sydd yn gosod holl drefn ei eglwys; yn cyfodi ac yn donio ei holl swyddwyr o oes i oes; yn llywodraethu ei holl aelodau, ac yn eu porthi trwy athrawiaethau iachus, ordinhadau pur, a dysgyblaeth fanwl; yn ei hymddiffyn, ei hymgeleddu, ac yn ei gogoneddu yn y diwedd yn ei holl aelodau. Y mae ei lywodraeth yn hollol addas i gyflwr yr eglwys, yn ei holl aelodau, ac i'w holl amgylchiadau yn y byd hwn, fel yn ei rhag-barotoi i'r deyrnas dragywyddol mewn byd arall. Dyma yr oruchwyliaeth sydd fel dyben penaf holl oruchwyliaethau eraill y Duwdod, ac yn goron ac yn ogoniant yr holl arfaethau a'r trefniadau dwyfol. Edr. Teyrnas.

'Llywodraetha di yn nghanol dy elynion.' Ps. 110. 2. Geiriau y Tad wrth y Mab ydynt. Y mae iddo ym mhob oes elynion lliosog a pharhaus, etto y mae efe yn llywodraethu yn ddiogel, ac yn ddiysgog, er eu gwaethaf. Nid yw yr holl gynghori, y myfyrio, a'r terfysgu sydd gan y bobloedd, a breninoedd y ddaear, yn ei erbyn, ond peth ofer: 'Yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd: yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt.' Ps. 2. 4. Y mae cadernid a pharhad llywodraeth Crist yn tarddu oddiwrth, 1. Arfaethiad a gosodiad Duw. Ps. 2. 7. Act. 10. 43. Heb. 3. 2.——2. Rhoddiad y Tad i Grist. Ps. 2. 8. Ioan 10. 29. a 17. 6.——3. Llw Duw yn yr achos. Ps. 89. 35, 36.——4. Rhinwedd aberth Crist. Esa. 53. 11, 12.——5. Gallu ac awdurdod Crist i gadw yr hyn a roddwyd ato. Ioan 10. 27, 28.——6 Ei gariad, ei ofal, a'i ffyddlondeb i'w addewid. Mat. 28. 20. Yn nghanol ei elynion y mae yn llywodraethu yn bresennol; ond eistedd a llywodraetha nes y byddo ei elynion oll yn droed-fainc i'w draed. Amen!

LLYWYDD—ION, (llyw) gor-eisteddwr, rheolwr, llywodraethwr, cyfarwyddwr. Gen. 42. 6. Act. 7. 35. a 27. 11. Iago 3. 4. Ezec. 27. 29. Diar. 28. 15.—'Yno y mae Benjamin fychan a'u llywydd.' Ps. 68. 27. Amryw ddysgedigion a olygant y geiriau yn brophwydoliaeth am yr Apostol Paul, yr hwn oedd o lwyth Benjamin; yn *fychan*, o herwydd ei alw pan oedd yn ieuanc i'r apostoliaeth, ac yn ddiweddarach na'r apostolion eraill; etto, yn *llywydd*, neu yn athraw mawr, yr Eglwys Gristionogol. Act. 7. 58. 1 Cor. 15. 9. Diammeu fod y Psalm yn briodol i amser yr efengyl, ac yn cynnwys prophwydoliaeth hynod am ddyrchafiad Crist yn fuddugoliaethus, ac yn orfoleddus, i'r nefoedd; a llwyddiant yr efengyl yn mhlith amryw genedloedd, yn ganlynol i hyny, trwy dywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân ar yr apostolion. 'Yn y cynnulleidfaoedd' (Ps. 68. 26.) yr oedd yn dywysogion, yn athrawon, ac yn flaenoriaid, apostolion o lwyth Judah, Benjamin, Zabulon, a Naphtali, y llwythau a enwir yma. Gwel Altingius *Observ.* Vitringa *Observ. Sacr.*, *lib.* iii. *cap.* 3.

* *Ar ei ysgwydd*:—y mae y gair yn cyfeirio at ddull breninoedd yn gwisgo ar eu hysgwyddau wisgoedd breninol, neu ryw arwydd arall o'u swydd oruchel. Bod y llywodraeth ar ei ysgwydd, gan hyny a arwydda ei fod yn gweinyddu yn ei swydd gyda mawrhydi ac awdurdod addas iddi. Jonah 3. 6.

Digitized by Google

# M.

MAACHAH, מעכה [*gwasgu*] 1. Mab Nachor o'i orddercb-wraig Reumah. Gen. 22. 24. Rhai a farnant mai efe oedd tad y Macethiaid, a breswylient yn Arabia Ffelix. Eraill a farnant mai efe oedd tad y Maachathiaid, y rhai a drigent mewn talaeth fechan yn Syria, o du y dwyrain i ffynonau yr Iorddonen. Yr oedd Abel, neu Abela, yn y wlad hon, am hyny gelwir hi Abel-Bethmaachah. 1 Bren. 15. 20. Arbedodd yr Israeliaid y Gesuriaid a'r Maachathiaid, hwyrach, o herwydd eu perthynas â hwynt. Deut. 3. 14. Jos. 13. 13. Cynnorthwyasant yr Ammoniaid yn erbyn Dafydd, a diammeu darostyngwyd hwy ganddo yn ganlynol i hyny. 2 Sam. 10. 6, 8.——2. Merch Talmai, brenin Gesur, gwraig Dafydd, a mam Absalom. 2 Sam. 3. 3.——3. Gordderch-wraig Caleb, a mam Seber a Thirhanah. 1 Cron. 2. 48.——4. Gwraig Machir, a mam Peres a Seres. 1 Cron. 7. 16.——5. Merch Machir. 1 Cron. 7. 15.——6. Tad Achis, brenin Gath. 1 Bren. 2. 39.——7. Merch Abisalom, a mam Abiam, mab Rehoboam, brenin Judah. 1 Bren. 15. 2. Gelwir hi yn 2 Cron. 13. 2. Michaiah, merch Uriel, o Gibeah. I eglurhau hyn, sylwir fod yr arfer yn y llysoedd dwyreiniol i roddi yr enw, 'Mam y brenin,' fel enw o anrhydedd i un nad ydyw yn fam naturiol iddo. Tebygol mai ei nain oedd Maachah, a bod yr enw anrhydeddus wedi ei roddi iddi cyn ei ddyfod i'r orsedd. Mae y ddefod hon yn arferedig yn ngwledydd y dwyrain hyd heddyw. Gwel *Appendix to* Calmet's *Dictionary, Frag.* 16.

MAACHATHIAD, מעכתי [*ysig*] tad Jaazaniah. 2 Bren. 25. 23. Jer. 40. 8.

MAADAI, מעדי [*fy addurn*] mab Bani. Ezra 10. 34.

MAAI, מעי [*ymysgaroedd*] offeiriad a chantor. Neh. 12. 36.

MAARATH, מערת [*ogof*] dinas yn Judah. Jos. 15. 59.

MAASIAH, מעשיה [*gwaith yr Arglwydd*] 1. Mab Adiel, Lefiad. 1 Cron. 15. 18.——2. Mab Adaiah. 2 Cron. 23. 1.——3. Mab Ahaz, brenin Israel, a laddwyd gan Zichri. 2 Cron. 28. 7.——4. Tywysog y pedwerydd teulu ar hugain o'r offeiriaid. 1 Cron. 24. 18.——5. Tad y gau brophwyd Sedeciah. Jer. 29. 21.——6. Tad Sephaniah. Jer. 37. 3.

MAB, MEIBION, (ma-ab) *Heb.* בן (*ben*); plentyn gwrryw, dyn bychan; gwrryw, fel mab a merch, sef gwrryw a benyw; mabsant, sef dyn sanctaidd; mab aillt, sef dyeithr ddyn, caethwas; mab uchelwr, sef gwr boneddig. Mae y gair *mab* hefyd, fel y gair בן (*ben*) yn Hebraeg, yn cael ei arferyd am lwdn, neu gyw unrhyw anifel.

Moch dysg nawf *mab* hwyad.* *Diar.*

Arferir y geiriau *mab, meibion,* mewn amrywiol ystyriaethau yn yr ysgrthyrau; megys yn 1. Am blentyn naturiol ei rieni.——2. Am ŵyr; felly y gelwir Laban yn fab Nachor, yr hwn oedd fab Bethuel, ac ŵyr Nachor. Gen. 29. 5. a 24. 29. Gelwir Mephiboseth yn fab Saul, yr hwn oedd fab Jonathan, ac ŵyr Saul. 2 Sam. 19. 24.——3. Eppil, neu hiliogaeth; megys, meibion Israel, gelwir hwynt gannoedd o flynyddoedd wedi marw eu tad Israel.——4. Mab yn nghyfraith. Ruth 4. 17.——5. Meibion trwy fabwysiad; felly yr oedd Ephraim a Manasseh yn feibion i Jacob. Gen. xlviii.——6. Mab o genedl; meibion y dwyrain, hyny yw, priodorion y wlad hòno. 1 Bren. 4. 3. Job 1. 3, &c.——7. Mab, fel yn perthyn i'r rhyw ddynol; megys, meibion Adda, meibion dynion, &c., dynion ieuainc. Diar. 7. 24.——8. Dysgybl, neu un dan ofal ac addysg arall, fel yr oedd Samuel i Eli. 1 Sam. 3. 6.—Meibion y prophwydi, &c. 1 Bren. 20. 35. *et al.* 1 Tim. 1. 2. Tit. 1. 4. Philem. 10. 1 Cor. 4. 14. 1 Petr 5. 13.——9. Meibion trwy gyffelyb dueddiad a syniad; megys, meibion Belial. Barn. 19. 22. 1 Sam. 2. 12.——10. Milwyr, a elwir meibion y fyddin. 2 Cron. 25. 13.——11. Meibion yr hudoles, sef rhai yn astudio, neu yn gwneuthur hudoliaeth. Esa. 57. 3——12. Yn nodi oed, gelwir un, mab blwydd; yn llwdn blwydd, בן שנה *mab blwydd.* Exod. 12. 5.—a dyniawed, Mic. 6. 6. *Heb. lloi, meibion blwydd.*——13. Gwrryw un anifel: 'Lladded hefyd yr eidion.' Lef. 1. 5. Gen. 18. 7. *Heb.* בן הבקר *mab yr anifel.*——14. Ceinciau yr olew-wydden yn llawn olew, a elwir 'dau fab yr olew.' Zech. 4. 14.—'Corn mab yr olew,' sef bryn yn dwyn yr olew-wyddiad, a thrwy y rhai hyny yn rhoddi olew. Esa. 5. 1. *Heb.*——15. 'Meibion y farwydos,' sef gwreichion. Job 5. 7. *Heb.*—'Meibion y bwa—meibion y cawell,' sef saethau. Galar. 3. 13. *Heb.*—'Mab y llawr-drynu,' sef yr ŷd ar y llawr wedi ei ddyrnu. Esa. 21. 10. *Heb.*—'Mab curo,' sef un yn haeddu ei guro. Deut. 25. 2.—'Mab marwolaeth,' sef un yn haeddu marw. 2 Sam. 12. 5.—'Mab y golledigaeth,' sef un yn haeddu colledigaeth. Ioan 17. 12.——16. Yr angelion. Job 1. 6. a 38. 7. Dan. 3. 25.——17. Gwir dduwiolion. 1 Ioan 3. 1, 2. Phil. 2. 15. Rhuf. 8. 14. Edr. PLANT, ADGENEDLU.——18. Rhai yn proffesu addoliad Duw. Gen. 6. 2.——19. *Meibion dynion* (בני אדם) yn iaith Moses, ydynt yn arwyddo, dynion annuwiol, halogedig. 'Meibion dynion,' mewn cyferbyniad i 'feibion Duw,' sef gwir addolwyr Duw. Gen. 11. 5.

Gelwir Crist Iesu, 'y Mab—Mab Duw—Mab y Duw byw—ei unig-anedig Fab—ei anwyl Fab—ei briod Fab—ei Fab ei hun,' &c. Ioan 3. 16—36. a 5. 19, 20, 21. a 11. 27. Rhuf. 1. 4. Mat. 3. 17. Rhuf. 8. 3, 32. Gelwir ef felly o ran dwyfoldeb ei berson. O ran y ddynoliaeth a gymerodd o sylwedd y forwyn, gelwir ef yn 'Fab dyn—Mab y dyn—hâd y wraig—hâd Abraham—Mab Dafydd—blaguryn o gyff Jesse,' &c. Gen. 3. 15. Gal. 3. 16. Mat. 1. 1. Esa. 11. 1. Jer. 23. 5, 6. Zech. 6. 12. Am ddynoliaeth Crist, Edr. GENEDIGAETH.

Y mae pawb uniawn-gred, yn mhob oes, wedi golygu yr enw *Mab Duw,* yn briodol i Grist yn unig, fel Person Dwyfol; y mae yr Ariaid a'r Sociniaid, sydd yn gwadu ei Dduwdod, yn ganlynol yn gwadu priodol ystyr yr enw hwn.* Ymddangosodd sect o philosophyddion Cristionogol yn y ganrif ddiweddaf, a elwir *Hutchinsoniaid,* canlynwyr un Hutchinson, yn dal athrawiaeth y Drindod yn gadarn, ac etto yn gwadu Mabolaeth Crist mor gadarn.† Wrth geisio egluro ac amgyffred yr hun sydd heb ei egluro i'n hamgyffred ni yn yr ysgrythyrau, aethant, i'm tyb i, yn ofer yn ei rhesymau. Y mae pob cyfeiliornad ynghylch yr hanfod, a'r Personau Dwyfol yn yr hanfod, o'r pwys mwyaf; ac i ochelyd hyny, dylem gadw at ymadroddion yr ysgrythyrau, a'u deall yn eu priodol ystyr mor agos ag y byddo bosibl. Wrth wadu

* Buan y dysg cyw hwyad nofio.

* Dr. Owen ar Heb. 1. 5.

† Hefyd Dr. Ridgley, a H. Roel, Isellmyn.

Digitized by Google

tragywyddol Fabolaeth Crist, rhaid, yn ganlynol wadu naill a'i undod yr hanfod dwyfol, neu wahaniaeth y personau, hyny yw, bod yn Sociniaid, neu yn Ariaid, neu yn Sabeliaid, neu ddal tri o Dduwiau. Canlyniadau dychrynllyd; ond nid ydwyf yn dywedyd fod y rhai sydd o'r meddwl uchod yn dal y canlyniadau hyn, ond fod y canlyniadau hyn yn tarddu yn angenrheidiol oddiwrth eu pwnc hwy. Y mae yn ymddangos i mi yn gwbl eglur, fod yr enw *Mab Duw* yn cael ei briodoli i Grist fel *Person tragywyddol* yn yr hanfod dwyfol; a'i fod yn Fab Duw trwy *genedliad*. Nid oes un gair am y Duwdod yn yr ysgrythyrau, yn ymddangos i mi yn fwy eglur a sicr, na'r ddau bwnc hyn am berson Crist—sef, ei fod fel Person Dwyfol yn *Fab* Duw, a'i fod felly trwy *genedliad*.

1. Am y cenedliad rhyfedd hwn yn yr hanfod dwyfol, y mae yn gabledd i ni feddwl ei amgyffred, mwy nag amgyffred dim arall perthynol i hanfod diamgyffredadwy. Os oes tystiolaeth eglur am dano yn y Gair Sanctaidd, y mae hyny yn llawn ddigon; credu tystiolaeth eglur Duw am dano ei hun, yw ein gwaith ni, ac nid ymresymu pa fodd y dichon y pethau hyn fod. Mae y Duw mawr yn ei amgyffred ei hun, ac wedi ymostwng yn rasol i ddywedyd am dano ei hun wrthym ni. Ein dyledswydd a'n braint ninnau yw credu ei dystiolaeth oruchel ef.*

2. Mae y cenedliad hwn yn oruchel ac yn ddwyfol, a phob anmherffeithrwydd perthynol i genedliad mewn naturiaeth greadigol yn anfeidrol bell oddi wrtho. Edr. CENEDLU.

3. Cenedliad tufewnol, arosol yn yr hanfod, yw; nid peth *allan* o'r hanfod, ond *yn* yr hanfod yw; nid peth a *fu*, ond y sydd yn *arosol* dragywyddol yw, ag sydd yn gwahaniaethu y personau yn yr hanfod. Mae yr holl hanfod yn gydradd yn mherson y Tad a'r Mab, ac etto fel personau gwahanol yn yr hanfod, mae y Tad yn cenedlu, a'r Mab yn genedledig: '*Myfi* heddyw a'th *genedlais*.'

1. Nid ydyw y geiriau *cenedliad* a *chenedlu* yn arwyddo gweithred yr ewyllys ddwyfol, *ad extra*, y tu allan; ond yn hytrach yn nodi gweithrediad angenrheidiol, *ad intra*, yn dufewnol. Fel mae y BOD DWYFOL yn hanfodi yn anddibynol ar ewyllys; felly hefyd mae y personau yn yr hanfod.

2. Mae y Personau yn *cyd-hanfodi*. Pan ddywedir fod Crist yn unig-anedig Fab Duw, mae y meddwl, heb ystyried natur y peth, mewn perygl o gael ei dwyllo i olygu *blaenafiaeth* yn y Tad, ac *olafiaeth* yn y Mab. Er bod anfeidrol anghyfartalwch rhwng y BOD DWYFOL a chreadur dynol, etto ni ddichon i ni feddwl am dad heb fab hefyd; mae y ddau yn gyd-berthynol ac yn gyfoedol: geill y tad fod yn ddyn, ond nid yn dad heb fab. Gan fod y Personau yn yr hanfod dwyfol yn ogyd-dragywyddol, a'r hanfod mewn dull angenrheidiol o fod, nid oes dim blaenafiaeth nac olafiaeth yn y Personau.

Er bod dyn yn berson cyn bod yn dad, ond nid felly yn y Duwdod; bod yn Dad ac yn Fab sydd yn gwahaniaethu y Personau yn yr hanfod. Os gwadir fod yr enwau hyn yn berthynol i'r Personau Dwyfol yn yr hanfod, ond yn enwau o swyddau, yna nid oes Personau yn wahanredig yn yr hanfod—canys pa beth sydd yn eu gwahaniaethu? Nid gwaith oddi allan, canys y mae hyny yn berthynol i ewyllys pob un o'r Personau. Nid priodoliaethau, canys mae y priodoliaethau oll yn perthynu yn gydradd i bob un y honynt. Nid oes ond enwau gwahanredol heb un meddwl gwahanredol yn perthynu iddynt. A pha addasrwydd ac anmhrioldeb iaith, yw arferyd yr enwau Tad, Mab, ac Ysbryd Glân, am swyddau? Enwau sydd yn arwyddo perthynasau yn unig, yn mhlith dynion, ac nid swyddau.

'Cyn bod dyfnder y'm cenedlwyd.' Diar. 8. 22, &c. Ps. 2. 7, &c. Mae y cenedliad a'r eneiniad yn cael eu gwahaniaethu yn gwbl eglur yn ngeiriau Solomon; a phob un o'r ddau yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth *greu*. Cyn bod creadigaeth yr oedd cenedliad, ac eneiniad o'r person cenedledig i swydd, yn dwyn perthynas â meibion-dynion. Mae yn eglur fod y geiriau yn llefaru am wahanol bersonau, y naill yn cenedlu, a'r llall yn genedledig, yn gydradd, yn dragywyddol, ac yn hyfrydwch annhraethol i'w gilydd, cyn bod creadigaeth. Mae y cenedliad yn perthynu i hanfod y personau, a'r eneiniad yn perthynu ac yn mynegi arfaethiad y personau, a gosodiad y cenedledig i swydd. Nid yr eneiniad yw y cenedliad; ond yr hwn a genedlwyd a eneiniwyd: buasai yn genedledig pe buasai heb ei eneinio; y mae un yn hanfodol i'r Duwdod, a'r llall heb fod. Mae y geiriau yn Ps. 2. 7. yn cael eu priodoli i Grist dair gwaith yn y Testament Newydd; sef yn Act. 13. 33. Heb. 1. 5. a 5. 5. Beth mae y Tad yn ei ddywedyd yma am dano? Ti yw fy Mab. Pa fodd y mae yn Fab? Myfi a'th genedlais. Pa bryd? Heddyw: sef heddyw Duw, cyn bod heddyw dyn—hyny yw, yn nhragywyddoldeb. Y mae hwn yn enw mwy rhagorol* nag a etifeddodd un angel, nag un creadur erioed, medd yr apostol. Heb. 1. 5. Y Mab hwn a alwodd y Tad i fod yn offeiriad; a osododd yn y swydd gyfryngol, a gyfododd oddiwrth y meirw, ac a eglurodd yn Fab Duw, trwy ei adgyfodiad yn ol. Act. 13. 33. Heb. 5. 5. Rhuf. 1. 4.

Gelwir ef unig-anedig Fab Duw.† Ioan 1. 14, 18. a 3. 16, 18. 1 Ioan 4. 9. Ni ddichon geiriau wneuthur yn fwy eglur i mi, na bod yr enw unig-anedig Fab yn cael ei briodoli iddo fel Person Dwyfol. Y mae meibion eraill wedi eu cenedlu a'u geni o Dduw. Ioan 1. 12, 13. Ond unig-anedig Fab Duw yw Crist. Gwel adn. 14. Unig-anedig Fab Duw yw, yn y dull y mae yn Fab, ac nid yw ei holl bobl ond meibion ynddo, trwyddo, ac er ei fwyn.

Y mae yn Fab, 1. O gyd-hanfod â'r Tad. Nid y mae yn debyg iddo, neu o debyg hanfod, ond 'Myfi a'r Tad un ydym:' nid un person, canys y mae yma ddau, sef myfi a'r Tad: ond un hanfod, εν εσμεν, un ydym o ran hanfod. Ioan 10. 30.

2. Y mae yn Fab cydradd â'r Tad; 'Ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw.' Yr oedd yr Iuddewon yn deall ei fod wrth alw ei hun yn Fab Duw, neu Duw yn Dad iddo, yn gwneuthur ei hun yn gystal (ισον, *yn gydradd*) â Duw. Ioan 5. 18. Y mae ισα Θεω, *yn ogyfuwch â Duw*, yn Phil. 2. 6. yn arwyddo, bod yn ogyfuwch â Duw o ran hanfod; bod yn 'ffurf Duw,' sef yn wir Dduw: nid oedd yr Iuddewon yn meddwl fod yr enw yn berthynol i un creadur; ond nad oedd neb yn deilwng o'r enw goruchel, ond un yn cydraddu â Duw. Yr oedd eu barn yn gywir, ond eu bod heb adnabod y person yr hwn oedd yn trigo yn eu plith, ac yn hòni yr enw fel yn berthynol iddo.

---

* Anaddas yw ymofyn pa fodd y mae y Gair o Dduw, neu pa fodd y mae yn ddysgleirdeb Duw, neu pa fodd y mae Duw yn cenedlu, a pha beth yw dull y cenedliad. Ynfydrwydd fyddai y cyfryw ymchwiliad, gan na fyddai yn ddim amgen na cheisio esbonio yr hyn sydd yn anamgyffredadwy, ac yn briodol i'r natur ddwyfol. Athanasius *contra* Arian.

* Pan y mae yr apostol yn dywedyd διαφορωτερον, y mae yn arwyddo, nid yn unig pellder graddau, ond pellder rhyw: fel y mae yn dangos yr hyn sydd yn hollol wahaniaethol oddiwrth bob peth arall, pan y cymhwysir ef at Grist. Witsius, *Exert.* 12. *in Symb.*

† Mae y cenedliad hwn yn hanfodol a thragywyddol, ac yn cynnwys fod Crist yn mhob ystyr yn un â Duw y Tad. Dangosir hyn yn amlwg gan Ioan, yr hwn, ar ol dweyd fod y credinwyr wedi eu geni o Dduw, sydd â'r un anadliad, a bron yn yr un frawddeg, yn tystiolaethu fod Crist yn *unig-anedig* Fab Duw. Ioan 1. 13, 14. 1 Ioan 4. 7, 9. Gan hyny nid oes lle i ammeu ei fod ef yn hanfodol wahanol oddi wrthynt hwy. Witsius, *ubi supra.*

Digitized by Google

3. Mae yn Fab tragywyddol; mae y Tad a'r Mab yn ogyd-dragywyddol. Mae y Tad yn dragywyddol Dad, a'r Mab yn dragywyddol Fab. 'Ni bu pan nad oedd yn Fab.' Yn yr ystyriaethau hyn mae yn unig-anedig.

Gelwir ef *τον εαυτου υιον, ei Fab ei hun—του ιδιου υιου, ei briod Fab*. Rhuf. 8. 3, 32. Y mae mewn modd neillduol a goruchel yn Fab iddo, ac yn cyfranogi o'i holl hanfod, gohanfodol, gogyfuwch, a gogyhyd tragywyddol. Felly ei Fab priodol ei hun ydyw, a'i unig-anedig Fab ydyw. 'Dysgleirdeb ei ogoniant—gwir lun ei berson—a delw y Duw anweledig.' Heb. 1. 3.

Barna rhai ei fod yn cael ei alw yn Fab Duw, ei unig-anedig Fab, o herwydd cenedliad gwyrthiol ei ddynoliaeth yn nghroth y Forwyn Fair. Os fellly,
1. Buasai yr enw Tad yn fwy priodol i'r Ysbryd Glân nag i'r person cyntaf.

2. Nid yw Crist byth yn priodoli ei fabolaeth i hyny, er ei fod yn llefaru yn neillduol am hyny; ond mae yn profi ei fod yn Fab, am ei fod yn gwneuthur yr un gweithredoedd a'r Tad—am ei fod yn bywhau y rhai a fyno, fel y Tad—bod ganddo fywyd ynddo ei hun, fel y Tad—ei fod ef yn y Tad, a'r Tad ynddo yntau. Ioan 5. 19, 20, 21—26. a 10. 30—38.

3. Os yw yn Fab Duw yn unig o herwydd ei gnawdoliaeth, yna nid oedd y Tad yn Dad cyn y deunaw cant o flynyddoedd a aethant heibio, am nad oedd y Mab cyn hyny. Felly eglur yw, 'yr hwn nid yw yn aros yn nysgeidiaeth Crist, nid yw Duw ganddo ef. Yr hwn sydd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, hwnw y mae y Tad a'r Mab ganddo.' 2 Ioan 9.

4. Os felly, nid oedd un Duw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, dan yr Hen Destament; yr hyn oedd gyfeiliornad y Marcionitiaid, yr hwn a wrthwynebodd yr hen dadau yn wrol, yn profi mai Tad ein Harglwydd Crist, a wnaeth y byd, a roddodd y gyfraith, a lefarodd trwy y prophwydi, &c. Yr oedd Duw yn Dad Iesu Grist cyn seiliad y byd, canys mor foreu a hyny y bendithiodd ei bobl, ac yr etholodd hwynt yn Nghrist. Eph. 1. 3, 4.

5. Yr un yw gogoniant y Gair a gogoniant yr unig-anedig; ond mae y Gair yn arwyddo Person Dwyfol, am hyny felly y mae y llall hefyd. Ioan 1. 14.

6. Mae yr ordinhad o fedydd yn cael ei gweini yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Addef pawb fod yr enwau Tad ac Ysbryd Glân yn arwyddo Personau Dwyfol, pa reswm a ellir roddi, paham nad ydyw yr enw Mab yn arwyddo hyny hefyd? Mat. 28. 19.

7. Os yw Crist yn Fab Duw o herwydd ei ddynoliaeth yn unig, mae anmhriodoldeb neillduol yn y geiriau dynodol 'yn ol y cnawd,' a arferir wrth lefaru am dano; canys ni ddywedir am un dyn, ei fod yn fab i'r cyfryw un yn ol y cnawd, ond yn unig ei fod yn fab iddo; ond arferir y geiriau yn addas iawn i wahaniaethu Crist, Mab Duw o ran ei Dduwdod, oddiwrth ei fod yn Fab Dafydd, ac o'r tadau, o herwydd ei ddynoliaeth. Rhuf. 1. 4. a 9. 5.

8. Y mae ei gnawdoliaeth a'i anfoniad, yn cael eu gwahaniaethu yn gwbl yn yr un darnau o ymadrodd oddiwrth Fabolaeth; megys yn Rhuf. 8. 3. 'Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus.' Yr oedd yn briod Fab Duw cyn ei anfon, a chyn ei gnawdoli; a'r Mab oedd yr hwn a anfonwyd, ac a ymgnawdolodd.

'Duw a ddanfonodd ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf.' Gal. 4. 4. Eglur yw ei fod yn Fab *cyn* ei wneuthur o wraig, a than y ddeddf. Felly hefyd yr ymddengys oddiwrth Rhuf. 1. 4. ei fod yn Fab Duw cyn ei wneuthur o hâd Dafydd o ran y cnawd, 'ac a eglurwyd (nid a wnawd) yn Fab Duw mewn gallu, yn ol ysbryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw.'—'Am hyny y peth sanctaidd a aner o honot ti a elwir yn Fab Duw.' Luc 1. 36. Gwahanieithir yn amlwg ei genedliad a'i anfoniad yn Ioan 7. 29. 'O hono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd.' Yr oedd o'r Tad cyn ei anfon trwy genedliad tragywyddol: a'r hwn oedd felly o'r Tad, a anfonwyd. Nid trwy genedliad gwyrthiol y mae yn Fab Duw; ond y mae ei genedliad gwyrthiol yn un prawf mai efe oedd y gwir Fessîah, yn ol y prophwydoliaethau am dano; Mab Duw oedd y Messîah addawedig, am hyny gelwir y peth sanctaidd a aner o honot ti, yn Fab Duw.——Nid yw yr angel yn dywedyd y byddai y peth sanctaidd yn Fab Duw, ond y byddai iddo gael ei *alw* felly: nid yw yr angel yn rhoddi y *rheswm* paham y cai ei alw, ond y byddai iddo gael ei alw yn Fab Duw; canys yr oedd felly cyn ei gnawdoliaeth; ac nid yw yr angel yn rhagfynegi y byddai iddo gael ei alw felly o herwydd ei genedliad gwyrthiol; canys yna buasai raid iddo alw ei hun, neu i ryw un arall ei alw felly o'r achos hwnw, yr hyn nis gwnawd; neu buasai geiriau yr angel yn anwiredd, yr hyn nis gellir ei ganiatau. Nid yw y gair 'am hyny' i'w olygu yn *achosol* ond yn *ganlyniadol*: ni rydd yr angel y rheswm paham y mae yn Fab Duw, ond paham y byddai iddo gael ei addef a'i dderbyn fel y cyfryw gan ei ddysgyblion a'i ganlynwyr; penderfynent oddiwrth ei enedigaeth o forwyn mai efe fyddai y Messîah, yr Immanuel, y Bachgen a aned, a'r Mab a roddwyd, &c. a brophwydwyd am dano yn Esa. 7. 14. a 9. 6. Luc 1. 35. Mat. 1. 21, 22, 23.

Ereill a ddywedant ei fod yn cael ei alw felly, o herwydd anwyldeb a chariad goruchel y Tad ato. Col. 1. 13. Mat. 3. 17. Ond pwy na ddeall nad cariad y Tad ato yw sail ei fabolaeth, ond ei fabolaeth yw sail ei gariad ato. Nid Mab ydyw am ei fod yn anwyl, ond mae yn anwyl am ei fod yn Fab, a holl berffeithiau dwyfol yn hanfodol ynddo.

Nid ydyw yn Fab ychwaith o herwydd ei debygolrwydd i'r Tad, fel y dywed rhai, ond mae yn tebygu i'r Tad, yn ddelw Duw, ac yn wir lun ei berson, am ei fod yn *Fab priodol*. Er fod llawer o bethau ynddo yn ei *amlygu* yn Fab Duw, ond nid oes ond un achos *paham* y mae yn cael ei alw yn Fab Duw, sef ei genedliad tragywyddol.*

Drachefn, haera ereill ei fod yn cael ei alw yn Fab Duw o herwydd ei adgyfodiad oddiwrth y meirw: ond nis dichon hyny fod yn wir, o herwydd, 1. Gelwir ef yn aml wrth yr enw goruchel hwn cyn hyny; gan y Tad yn ei fedydd, a'i wedd-newidiad, ac addefwyd ef felly gan ddynion ac angelion, drwg a da.——2. Pe felly, buasai yn cenedlu ei hun, ac yn awdwr o'i fabolaeth ei hun, yr hyn sydd afresymol; canys cyfododd ei hun oddiwrth y meirw, fel y rhagfynegodd y gwnai. Ioan 2. 19. a 10. 18.——3. Os felly, ni byddai ei fabolaeth ond ffugyrol a thraws-symudol, ac nid yn wirioneddol; ond gelwir ef yn aml yn Fab Duw, ei Fab ei hun, ei briod Fab. Ioan 5. 18. Rhuf. 8. 3, 32.——4. Yn yr ystyr hwn nis dichon fod yn *unig-anedig* Fab: canys yr holl feirwon a gyfodir yn y dydd diweddaf, yr anghyfiawnion yn gystal a'r cyfiawnion; ond er cyfodi yr anghyfiawnion o feirw, ni elwir hwynt byth o herwydd hyny yn feibion i Dduw. Nid oedd adgyfodiad Crist ond yn profi ac yn amlygu ei fod yn Fab Duw, ac nid yn ei wneuthur felly.

Ereill a haerant y gelwir ef yn Fab Duw o herwydd ei swydd; am iddo gael ei sancteiddio neu ei neillduo i'r swydd gyfryngol, a'i anfon i'r byd. Ioan 10. 36. Gwir yw fod ei sancteiddiad a'i anfoniad i'r byd yn

* Y mae yr enw Mab yn cael ei roddi i Grist yn yr ysgrythyrau, yn unig oblegid ei fod wedi dyfod oddiwrth y Tad yn hanfodol er tragywyddoldeb; ac nid oblegid un achos arall. Er fod llawer o resymau trwy y rhai y gellir profi ei fod yn Fab, nid oes ond un achos paham y mae yn Fab. Coccejus.

Digitized by Google

yn profi mai Mab Duw oedd, gan nad oedd neb arall wedi prophwydo am dano, ac wedi addaw i gael ei anfon, ond yr hwn oedd yn Fab Duw; ond nis gellir profi mai o herwydd hyny y mae yn cael ei alw yn Fab Duw, canys yr oedd felly cyn ei anfon, fel y dangoswyd o'r blaen. Pe byddai felly, 1. Yna nid yw yn Fab Duw ond mewn ystyr anmhriodol, ac nid yn wirioneddol ac yn briodol, fel y gelwir ef yn aml.

2. Llefara y Tad wrtho ac am dano fel ei Fab, cyn ei osodiad yn ei swyddau, ac fel sail o'i osodiad ynddynt. Yn ei osodiad yn ei swydd freninol, llefara y Tad wrtho dan yr enw hwn: 'Wrth y Mab y mae yn dywedyd, Dy orsedd-faine di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd.' Heb. 1. 8. Ac am ei gysegriad i'r swydd offeiriadol, darllenwn, 'Canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion â gwendid ynddynt yn arch-offeiriaid; eithr gair y llw, yr hwn a fu wedi y gyfraith (sef y cynghor a'r cyfammod tragywyddol a amlygwyd yn eglurach wrth y gyfraith, Ps. 110. 4.) sydd yn gwneuthur y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.' Heb. 7. 28. Hyny yw, nid a'i gwnaeth yn Fab, ond a wnaeth y Mab yn offeiriad; yr oedd, gan hyny, yn Fab cyn ei fod yn cael ei ystyried fel yn offeiriad. Nid blaenoriaeth o ran amser, ond o ran trefn, yr ydwyf yn ei feddwl; canys yr oedd pob un o'r ddau er tragywyddoldeb, ac nid oes blaenoriaeth amser yn nhragywyddoldeb. Rhaid ei olygu yn berson yn hanfodi dan ryw enw, cyn y gellir ei olygu gwedi ei osod mewn swydd, nid o ran amser, ond o ran trefn; fel hyn, rhaid golygu Duw yn hanfodi cyn ei fod yn gweithredu; megys yn ethol; nid o ran amser, canys y mae gweithredoedd tragywyddol Duw yn cyd-oesi âg ef ei hun, ond o ran blaenoriaeth trefn, fel y mae yn rhaid golygu rhai pethau yn blaenori eu gilydd gan ein meddyliau meidrol ni.

3. Gwahaniaethir ef fel Mab yn aml oddiwrth yr ystyriaeth o'i fod yn un swydd, fel y sylwyd o'r blaen; edrych hefyd 1 Ioan 4. 14, 15. a 5. 5.

4. Gwas Duw yw Crist o ran ei swydd; ac y mae yn ymddangos yn neillduol felly yn nghyflawniad o rai pethau perthynol i'w swydd; megys yn ei ufudddod a'i ddyoddefaint. Esa. 42. 2. a 49. 3. a 53. 11. Phil. 2. 7, 8. Ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng gwas a mab; ac mae yr Arglwydd yn sylwi ar y gwahaniaeth (Ioan 8. 35.) a gwahanieithir Crist fel Mab oddiwrth Moses fel gwas yn nhŷ Dduw. Heb. 3. 5, 6. Ond os yw Crist yn fab trwy swydd, neu fel Cyfryngwr, ni byddai ond gwas fel Moses, ond o uwch-radd, a swydd mwy goruchel; ni elwir neb byth yn fab am ei fod yn was; geill mab fod yn was, ond nis gelwir ef yn fab am ei fod yn was; gan hyny, y mae hyn yn lleihau gogoniant Crist, fel *unig-anedig* y Tad, ac yn ei fychanu i nodweddiad gwas.

5. Llefarir am fabolaeth Crist, weithiau, fel yn ychwanegu ardderchogrwydd neillduol i'w swydd fel Cyfryngwr; 'Gan fod i ni arch-offeiriad mawr,' medd yr apostol, 'yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes.' Heb. 4. 14. Ei fod yn Fab Duw yn y swydd sydd yn rhoddi mawredd ac ardderchogrwydd i'r swydd, ac i'r gwaith a wnaeth ac y mae yn ei wneuthur yn y swydd, ac i'n cysur ninnau o herwydd hyny. Weithiau, sylwir arno fel rhyfeddod fawr ei fod ef, yr hwn oedd yn Fab Duw, wedi cyflawni rhai pethau perthynol i'w swydd fel Cyfryngwr, megys ufuddhau a dyoddef marwolaeth. 'Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd.' Heb. 5. 8. Ni buasai un rhyfeddod iddo ef fel yn y swydd wneuthur hyny; ond y rhyfeddod yw, i un oedd yn Fab Duw, yn ffurf Duw, ac yn ogyfuwch â Duw, gymeryd arno agwedd gwas, a bod yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes.

6. Gosodir mabolaeth Crist allan fel peth yn dangos, yn neillduol, mawredd cariad Duw i blant dynion, iddo roddi y fath un iddynt a throstynt. Ioan 3. 16. 1 Ioan 4. 9. Nid ymddengys ei gariad mor fawr, dysglaer, a gogoneddus, os golygir ef yn Fab Duw mewn un ystyr is na'i briod Fab, ac nid yn Fab o herwydd swydd na dim arall.

7. Nid oes dim cyfatebolrwydd mewn un ystyr yn yr enw Mab i osodiad mewn swydd. Yr enw hwn a arwydda dynsawd a pherthynas, heb un golygiad ynddo perthynol i swydd. Geill un fod yn fab heb fod mewn swydd; a geill un osod arall mewn swydd heb fod yn dad iddo, a'r gosodedig heb fod yn fab i'r gosodwr. Nid oes dim yn ansawdd y gair, yn ol ei ystyr gyffredin, yn cynnwys un meddwl am swydd, ac nid oes dim cyfatebolrwydd rhwng y naill a'r llall. Mae y dychymyg Socinaidd, gŵyr-gam, cyfeiliornus hwn, yn hollol anghytun â iaith y Bibl am Grist, yn tywyllu ac yn dyrysu meddyliau dynion am y drefn ddwyfol yn ngosodiad y Mab yn ei swydd, ac yn priodoli ystyriaeth i eiriau ammherthynol â'u harferiad cyffredin yn y Bibl. Gwel Vitringa a Roel.

Pwysfawrogrwydd iawn feddyliau am Grist, a gwrthwynebiad y gelyn iddo yn benaf o bob gwirionedd, yn mhob oes, yw fy niffyniad am helaethu cymaint; *llawer ychwaneg* a ellid roddi, ond gadawaf ar hyn yn bresennol. Edr. Crist, Duw, Iesu, Meibion, Tri, Adgenedliad, Mabwysiad.

**MABAN,** (mab) bachgenyn. Heb. 5. 13.

**MABWYSIAD,** (mab-gwys) cymeryd un i fod yn fab, nad oedd felly yn ol deddf natur; maboliaethu. *Gr.* *υιοθεσια*, *gosod yn fab*, neu roddi hawl mab yn mhlith plant i un, yr hwn nad oedd fab wrth naturiaeth. Gweithred yw mabwysiad, trwy yr hon y mae un yn cymeryd estron i'w deulu fel rhan o hono; yn ei gydnabod yn fab, ac yn bwriadu iddo feddiannu ei etifeddiaeth: gwneuthur un yn fab ac yn etifedd nad oedd felly trwy enedigaeth. Trwy fabwysiad yr oedd Moses yn fab merch Pharaoh, (Exod. 2. 10.) ac y cymerodd Mordecai Esther yn ferch iddo. Esther 2. 7—14. Yr oedd hon yn arferiad yn mhlith y Rhufeiniaid a'r Groegiaid.*

Yn mhlith yr Atheniaid a'r Lacedemoniaid yr oedd enw y mabwysiedig i gael ei roddi yn llwyth y mabwysiadwr, ac yr oedd yn mwynhau holl ragorfreintiau, ac yn rhwym i gyflawni holl ddyledswyddau plentyn naturiol, ac yr oedd pob perthynas a'i deulu ei hun yn darfod; ac yr oedd yn colli pob hawl i etifeddiaeth oddiwrth ei deulu ei hun. Os byddai y mabwysiedig farw yn ddiblant, yr oedd yr etifeddiaeth yn aros yn nheulu y mabwysiadwr.——Yn mhlith y Rhufeiniaid yr oedd ffurf (*formula*) neillduol yn cael ei harferyd ar yr achos, ac yr oedd y tad naturiol i ymddangos o flaen y Pretor, neu ger bron cymanfa gyhoeddus o'r bobl, ac i dystio ei fod yn ymwrthod â phob hawl ac awdurdod yn ei fab, a'i fod yn cydsynio iddo gael ei drosglwyddo i deulu y mabwysiadwr. Yr oedd y mabwysiedig yn newid ei holl enwau, ac yn cymeryd enw a chyfenw y mabwysiadwr. Byddai y Rhufeiniaid yn mabwysiadu hefyd trwy lythyr cymyn; sef yn gosod un yn etifedd trwy lythyr cymyn, ar yr ammod iddo gymeryd enw, &c. y marw. Yn mysg y Tyrciaid, mae y mabwysiedig yn cael ei dynu trwy grys y mabwysiadwr. Oddi wrth yr arferiad hwn, gelwir mabwysiadu yn mhlith y bobl hyn, *tynu trwy fy nghrys*. Gan nad oes dim cyfarwyddiadau yn nghylch hyn yn nghyfraith Moses, tebygol nad oedd yn arferedig yn mhlith yr Iuddewon.

'Eiddo y rhai yw y mabwysiad.' Rhuf. 9. 4. Cymerodd yr Arglwydd holl genedl Israel i fod fel plant a theulu iddo, i fod yn bobl briodol, ac yn eglwys weledig iddo yn y byd.

* Archbishop Potter's *Greek Antiquities, book* iv. *cap.* 15. Kennet's *Rom. Antiq. part.* ii. *book* 5. *cap.* 12.



Digitized by Google

'Fy mab i, (medd yr Arglwydd) sef fy nghyntafanedig, yw Israel.' Exod. 4. 22. Fel ei blant bu yn eu plith, bendithiodd hwynt â bendithion mawrion, amddiffynodd ac ymgeleddodd hwynt mewn modd arbenig, dros bymtheg cant o flynyddoedd. Yn mhob man arall yn y Testament Newydd arferir y gair mewn ystyr ysbrydol, am ragorfraint oruchel, yn perthyn i wir gredinwyr yn Nghrist. Rhagluniaethodd Duw hwynt cyn seiliad y byd i fabwysiad, trwy Grist Iesu, iddo ei hun, 'yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei ras ef.' Eph. 1. 5.—Prynwyd hwy oedd dan y ddeddf, gan Iesu, fel y derbynient y mabwysiad. Gal. 4. 5. Ac y maent yn derbyn 'Ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn y maent yn llefain, Abba, Dad.' Rhuf. 8. 15. Ac y maent yn y byd hwn, 'yn ocheneidio ynddynt eu hunain, gan ddysgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth (neu waredigaeth) eu cyrph' yn yr adgyfodiad. Rhuf. 8. 23.

Nid at y dull o fabwysiadu yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid y mae y geiriau yn cyfeirio; ond at y dull y mae Duw, yn yr Hen Destament, yn llefaru am ei bobl; fel y mae yn eglur wrth gymh. Rhuf. 9. 4. â Exod. 4. 22, 23. Deut. 14. 1. Jer. 31. 9. Hos. 11. 1. 2 Cor. 6. 18.—Mabwysiad sydd ragorfraint efengylaidd arbenig, a ffafr oddiwrth Dduw, trwy yr hon y mae gwir gredinwyr yn Nghrist yn cael yr addurniant oruchel o'u cyfrif yn mhlith meibion Duw, ac yn cyfranogi o'r holl anrhydedd a'r breintiau perthynol i'r fath ddyrchafiad urddasol. Crist *yn unig* sydd yn briod Fab Duw; yn cyfranogi o'r un hanfod, a'r un rhinweddau a'r Tad, yn gydradd. —Yr oedd Adda, ac mae yr angelion yn feibion Duw trwy greadigaeth; ond mae y credinwyr yn Nghrist yn blant trwy fabwysiad.

Y mae y mabwysiad yn rhagorfraint mwy goruchel nag oedd yn perthyn i'r cyfammod gweithredoedd, nac i un creadur trwy ei greadigaeth: 1. Rhagorfraint yw, sydd yn tarddu o ras a phen-arglwyddiaeth Duw; yn ol boddlonrwydd ei ewyllys y rhagluniaethodd i fabwysiad. Yr oedd ewyllys y Personau Dwyfol yn foddlon, ac yn ymhyfrydu yn y rhagluniad i hyny. Yn ol (κατα) boddlonrwydd (ευδοκια) ei ewyllys y rhagluniodd.——2. Trwy Iesu Grist y mae y fraint oruchel yn dyfod i'r neb a'i meddianno. Trwy ei gnawdoliaeth—trwy y prynedigaeth a wnaeth yn y cnawd (Gal. 4. 4.)—trwy eu hundeb âg ef, a'u cyfranogiad o'i Ysbryd. 'Cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu (εξουσια, *awdurdod y fraint*) i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef.' Ioan 1. 12. Y mae efe yn Fab naturiol a phriodol, ac y maent hwythau, ynddo a thrwyddo, yn feibion mabwysiadol. Y mae ei Dad ef, mewn ystyr is, yn Dad iddynt hwy; ac y maent yn gyd-etifeddion â Christ, ac yn etifeddion i Dduw trwy hyny. Ioan 20. 17. Rhuf. 8. 17. Mae undeb natur rhyngddynt a Christ; o herwydd hyny, pan gredant ynddo, y maent yn frodyr iddo; ac o herwydd hyn, maent yn cael eu cyfrif yn mhlith meibion Duw. Oni bai fod y Maboliaeth yn perthyn i Grist fel Person Dwyfol, a'i fod hefyd yn gyfranog o'r un pethau (sef o gig a gwaed) a'r plant, ni ddaethai y mabwysiad byth iddynt hwy. Y mae y gadwyn fawr yn ogoneddus, a'i modrwyau yn gysylltiedig yn hardd â'u gilydd, a thrwyddi y mae y credadyn gwael yn cael ei ddyrchafu i'r anrhydedd mwyaf urddasol y dichon un creadur byth gyrhaedd iddo.——3. Y dyben yw, 'Er mawl gogoniant ei ras.' Y mae gras yn Nuw yn ogoneddus anfeidrol; y mae y rhagluniad hwn i fabwysiad yn rhoddi y fath amlygiad o ogoniant gras Duw, fel y molir Duw am dano byth. Y mae pob amlygiad o Dduw a'i ras yn ychwanegu at ddedwyddwch ei bobl. Y mae pob peth yn nhrefn iechydwriaeth wedi ei arfaethu yn y modd mwyaf addas i amlygu rhinweddau Duw, fel trwy hyny y caffem anabyddiaeth ëang o hono, ac yn yr adnabyddiaeth ëang hon y carem, ac y molem ef byth, gyd â'r hyfrydwch mwyaf.

Y mae y fath bentwr o anchwiliadwy olud o fendithion a rhagorfreintiau yn dyfod i bechadur trwy gredu yn Nghrist, fel yr oedd yn angenrheidiol arferyd amrywiaeth geiriau i'w gosod allan. Felly yn yr achos hwn; mae y plant yn cael eu geni o Dduw, eu huno â Christ trwy ffydd, hefyd eu mabwysiadu. Y drefn yw, y maent yn cael eu galw, eu cyfiawnhau, a'u mabwysiadu: nid eu mabwysiadu a'u galw, a'u mabwysiadu a'u cyfiawnhau; ond eu galw, eu cyfiawnhau, a'u mabwysiadu. Y mae pob un o'r breintiau hyn yn y rhagluniad tragywyddol, a phob peth arall; ond dyma yw eu cysylltiad a'u trefn yn dyfod i ni. Felly y mae y mabwysiad yn neillduol yn golygu, meddiant o'r holl freintiau goruchel y rhaglunìwyd hwynt iddynt; dyfodfa i'r tŷ—bod yn nifer ac yn mhlith y plant—mwynhau cyflawn ryddid fel y cyfryw—hyder tu ag at Dduw fel Tad, yn mhob amgylchiad—meddiant o'r etifeddiaeth—ac addasiad mewn corph ac ysbryd i'w mwynhau, ac i'r fath ddyrchafiad diamgyffredadwy. Yn y golygiad hwn, y mae y mabwysiad yn cael ei osod allan fel rhagorfraint perthynol, yn fwyaf neillduol, i oruchwyliaeth yr eglwys dan yr efengyl. Yr oedd adgenedlu a mabwysiadu dan yr hen oruchwyliaeth; ond yr oedd yr etifedd megys yn fachgen, dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, a dim rhagor rhyngddo a gwas. Ysbryd caethiwed, sef ysbryd caethwas, oedd yn fwyaf cyffredin yn yr etifedd dan yr oruchwyliaeth hòno. Ond wedi prynu yr eglwys odditan y ddeddf, gan ei phriod a'i mechniydd, derbyniodd yr etifedd y mabwysiad: sef rhyddid, nesâd at Dduw yn hyderus, ysbryd, nid caethwas, ond y mabwysiad, yn llefain, Abba, Dad. Tebygaf fod y mabwysiad, ac ysbryd y mabwysiad, yn yr ystyr hwn, yn golygu tri pheth: —1. Rhyddid a hyder tu ag at Dduw fel Tad yn mhob amgylchiad—yn pwyso yn hyderus arno—ymhyfrydu ynddo, ac ufuddhau iddo.——2. Gobaith gorfoleddus am yr etifeddiaeth.——3. Hefyd, sicr obaith am gwbl addasrwydd i fwynhau yr etifeddiaeth mewn corph ac enaid; yr hyn a elwir prynedigaeth, neu waredigaeth y corph, ac a fwynheir yn gyflawn yn yr adgyfodiad.

'Ysbryd mabwysiad,' yw ysbryd addas i gyflwr y mabwysiedig yn y tŷ y mabwysiadwyd ef iddo, mewn cyferbyniad yn neillduol i gyflwr ac ysbryd caethwas. Rhuf. 8. 15. Y mae yr Ysbryd Glân, fel ysbryd mabwysiad, yn gweithredu hyny yn y mabwysiedig, ag sydd yn addas iddynt i feddwl ac i weithredu yn eu cyflwr goruchel: heb hyn ni allent fwynhau gorfoledd eu sefyllfa newydd, nac ymddwyn yn addas iddi. Y maent mewn gradd, trwy yr ysbryd hwn, yn amgyffred mawredd gogoneddus eu braint, o ba le y tarddodd; a'r rhwymedigaethau sydd arnynt i ymddwyn yn gyfatebol iddi. Y mae yr ysbryd hwn yn unigol i'r rhai mabwysiedig, fel y fraint ei hun, ac yn tra rhagori ar ysbryd y plant creadigol, fel y mae gogoniant gras Duw wedi ymddangos yn fwy helaeth tu ag atynt hwy na'r lleill. Y mae ynddo gydnabyddiaeth o annheilyngdod i'r gradd mwyaf—mawrhau gras Duw trwy Grist a roddodd iddynt yn rhad y fath fraint oruchel—rhyddid a hyder tu ag at Dduw—a llawenydd annhraethadwy yn yr olwg ar eu sefyllfa newydd yn nheulu Duw.

MACAS, enw lle. 1 Bren. 4. 9.

MACEDAH, dinas yn Judah. Jos. 10. 10. a 12. 16. a 15. 41.

MACEDONIA, y mae tarddiad yr enw yn ansicr; bernir fod gwlad Macedonia yn gynnwysedig yn y gair Cittim yn yr Hen Destament. Cittim oedd fab

Jafan (Gen. 10. 4) hiliogaeth yr hwn, tebygol, a boblogodd y wlad hon. Gelwid hi gynt Mathia, oddiwrth un o'i breninoedd. Y mae yn wlad ëang, ffrwythlon, yn sefyll o du y gogledd-ddwyrain i wlad Groeg. Mae y mynyddoedd Scodrus a Hæmus o du y gogledd iddi; Môr Agea, a rhan o Thrace, o du y dwyrain—Thessalia o du y dehau—Epirus, ac Albania, o du y gorllewin a dehau-orllewin. Yr oedd yn unbenaeth freninol dros 400 o flynyddoedd, pan ddarfu y brenin Philip ychwanegu ati Thessalia, Epirus, ac Albania. Alexander ei fab, a elwir Alexander Fawr, a ddarostyngodd holl wlad Groeg, ymerodraeth Persia, a rhan o India. Gwedi ei farwolaeth, rhanwyd ei ymerodraeth yn ddarnau. Gwedi parhau yn deyrnas annibynol, dros 646 o flynyddoedd, goresgynwyd hi gan y Rhufeiniaid, A.M. 3856. Pan ranwyd yr ymerodraeth Rufeinaidd, syrthiodd Macedonia i ran ymerawdwr y dwyrain. Gwedi bod yn meddiant y Rhufeiniaid dros 1600 o flynyddoedd, darostyngwyd hi gan y Tyrciaid, yn meddiant pa rai y mae yn bresennol. Ei phrif ddinasoedd gynt oeddynt Thessalonica, Amphipolis, Philippi, Berea, Pella, &c. Ei phrif dinas yn bresennol a elwir Salonicki. Cyfarwyddwyd Paul, trwy weledigaeth, i bregethu yr efengyl yn y wlad hon; yr hyn a wnaeth yn ddioed, a chyda llawer o lwyddiant; canys llawer a gredasant, ac a ddychwelasant at yr Arglwydd. Y mae Paul yn canmol parodrwydd eglwysi Macedonia i gyfranu i angenion y saint tlodion yn Jerusalem. Act. 16. 9—40. a 17. 1—14. 2 Cor. 8. 1—5. a 11. 8, 9. Er holl orthrymder y Tyrciaid, y mae gweddill Cristionogrwydd, mewn rhyw ddull, yn parhau yn mhlith y trigolion truain.

MACELOTH, gwersyllfa yr Israeliaid. Num. 33. 25.

MACHBENA, מכבנא [*malurio yr adeiladaeth*] mab Sefa, a thad Gibea. 1 Cron. 2. 49.

MACHIR, מכיר [*gwybedydd*]. 1. Mab Manasseh, ac wyr Joseph, penaeth teulu y Machiriaid. Num. 5. 14. 1 Cron. 2. 21. a 7. 16. Barn. 5. 14.——2. Mab Ammiel, o Lo-debar. 2 Sam. 9. 5.

MACHLUD—IAD—O, (mach-lud) achludd, ymachludd, mynediad haul yn ei addef, mynediad haul dan ei gaerau; gorllewin.—'O godiad haul hyd ei fachludiad,' yw yr holl ddaear gyfanneddol. Ps. 50. 1. a 113. 3.

'Yr haul a edwyn ei fachludiad.' Ps. 104. 19. Y mae yr haul yn myned wrth orchymyn ei Greawdwr yn ddiwyrni, ac yn rhedeg ei yrfa fel y mae yn ei amser nodedig yn codi ac yn machludo. Y mae ei holl ysgogiadau, dyddiol a blynyddol, yn rheolaidd, heb ballu yn y mesur lleiaf, o ran amser, yn ei fynediad. Edr. HAUL.

'Wele fi yn gwaredu fy mhobl o dir y dwyrain, ac o dir machludiad haul.' Zech. 8. 7. Y mae y geiriau yn golygu adferiad cyffredinol y genedl Iuddewig o'i holl wasgariadau. Y mae tir machludiad haul yn golygu, yn neillduol, eu gwasgariad presennol yn y gwledydd gorllewinol. Yn eu cyflawn ystyr, rhaid fod y geiriau yn cyfeirio naill ai at yr eglwys Gristionogol, neu adferiad dawodadwy yr Iuddewon. Mal. 1. 11. Rhuf. 11. 25, 26, 27.

'Haul yn machludo ganol dydd,' a arwydda, yn allegawl, cyfnewidiad o'r amgylchiadau mwyaf esmwyth, llwyddiannus, a gorfoleddus, i gyfiwr gwrthwyneb o orthrymder a galar. Amos 8. 9.

'Ni fachluda dy haul mwyach,' a arwydda hir lwyddiant, a llawenydd tragywyddol yr eglwys. Esa. 60. 20.

MACHPELAH, מכפלה [*dyblyg*] y mae rhai yn barnu mai enw y gwastadedd yn mha un yr oedd maes Ephron a'r ogof, oedd Machpelah. Gen. 24. 9—17. Eraill a farnant oddiwrth ystyr y gair *dyblyg*, neu ddau-ddwbl, bod yn yr ogof ddwy ystafell, un tu fewn i'r llall, wedi eu naddu yn y graig, i roddi eraill o'r teulu. Yr oedd yn agos i Hebron, lle claddwyd Sarah, Abraham, ac amryw o'i deulu. Gen. xxiii. a 25. 9. a 49. 30, 31. a 50. 13.

MACHTES, המכתש [*ceuol* neu *morter*] y ddinas isaf, medd Newcombe; dyffryn yn Jerusalem, yn gwahanu y ddinas uchaf a'r isaf, sef Acra a Sion, oddiwrth eu gilydd, yr hwn oedd yn ystryd, tebygol, a'r marchnadwyr yn trigo ynddi. Cafodd y marchnadyddion, preswylwyr Machtes, achos udo pan oresgynodd y Caldeaid Jerusalem. Zeph. 1. 11.

MADAI, מדי [*mesur*] trydydd mab Japheth. Gen. 10. 2. Cyfrifwyd yn gyffredin y Mediaid yn hiliogaeth Madai. Gwel Ainsworth, Brown, Scott, Bedford's *Chronology, &c.* Ond y mae Mede, Calmet, a Wells, yn gryf yn erbyn y farn hon; oblegid nad oedd gwlad Media, meddant, yn gynnwysedig yn ynysoedd y cenedloedd, y rhai a ranwyd i feibion Japheth; ac o herwydd fod sefyllfa Madai yn Media, yn rhy bell oddiwrth ei frodyr, ond nid pellach na Scythia, Tartary, &c. Nid oes dim ond cyffelybrwydd yr enwau yn rhoddi achlysur i'r dychymyg hwn. Barna Mr. Mede mai Madai oedd tad y Macedoniaid; y wlad hon a elwid hefyd Æmathia, naill ai oddiwrth yr *Heb.* אי מדי *ynys Madai;* neu o'r *Gr.* *Αια Μαδαι, tir Madai.* Rhoddir hanes am bobl o'r enw Mædi yn agos i'r wlad hon; a brenin yn Macedonia a'i enw Madus. Daeth yr enw Macedonia, medd Mede, oddiwrth Madai a Cittim. Ond nid yw rhesymau Mr. Mede yn ddigonol i brofi nad hiliogaeth Madai a boblogodd wlad Media, yn ol yr hen dyb gyffredinol am hyny. Mae y geiriau, 'ynysoedd y cenedloedd,' i'w golygu mewn ystyr tra helaeth; a dichon eu bod yn cyfeirio at Jafan a'i feibion, ac nid yn cynnwys Gomer a'i feibion. Gwel *Ancient. Univ. Hist. vol.* i.

MADMANNAH, מדמנה [*mesur y nifer*] 1. Mab Saaph. 1 Cron. 2. 49.——2. Dinas yn Judah, yr un â Beerseba, neu yn agos iddi. Jos. 15. 31.——3. Dinas yn Benjamin. Esa. 10. 31.——4. Dinas yn ngwlad Moab. Jer. 48. 2.

MADON, מדון [*dadl*] dinas yn ngwlad Canaan, y mae ei sefyllfa yn anhysbys. Jos. 11. 1. a 12. 19. Edr. JOBAB.

MADRONDOD, (madron) syndod, synedigaeth, y bendro, pen-feddwdod, syfrdanrwydd, y benddar. —'Diodaist ni â gwin madrondod.' Ps. 60. 3. Y gair רעל a gyfieithir yma *madrondod*, a gyfieithir *erchyll*, yn Esa. 15. 17, 22.—*cwpg*, yn Zech. 12. 2.—cyffroad, crynfa, pen-feddwdod, y cyfryw ag a effeithir gan ddiod gadarn ar ddyn. Yr ystyr yma yw, eu bod fel yn feddw gan orthrymderau erchyll.

MADWS, (mad) llawn amser, cyflawnder amser, llawn bryd; madws yw, mae yn amser, mae yn bryd. —'Canys madws yw trugarhau wrthi.' Ps. 102. 13. Dr. M.

Mae'n *fadws* wrthi drugarhau. *E. Prys*, (Ps. 102. 13.)
*Madws* it' Arglwydd roddi barn. *E. Prys*, (Ps. 119. 126.)

MADDEU—ANT—GAR, (madda) cyreifiaw, gollwng, rhyddhau; rhoddi i fynu, gadael, gwrthod; rhyddhad, gollyngdod, trugaredd, cyreifiant. Enaidfaddeu, un ar roddi i fynu yr ysbryd; trosedd marwol, trosedd bywyd.—'Yno y llefawdd yr Iesu drachefyn a llef vchel, ac ef a faddeuawdd yr ysbryt.' Mat. 27. 50. W. S.—'Ac yn y man y maddeuosont ei rhwytae, ac y dylynesont ef.' Marc. 1. 18. W. S.

Mae y gair *maddeu* yn agos ei ystyr i'r gair *Heb.*

Digitized by Google

סלח sydd yn arwyddo, *gollwng, rhyddhau, llacâu:* rhyddhau un oddiwrth gosp haeddiannol am drosedd. Arferir dau air yn y Groeg am faddeuant, sef *παρεσις, myned heibio, peidio sylwi ar.* Barna Coccejus, Witsius, Mintert, &c. fod y gair hwn yn fwy priodol i faddeuant pechodau dan yr Hen Destament, cyn dyfodiad Crist i wneuthur iawn am bechod. Yr oedd yr ysgrifen-law mewn bod, 'yr hon oedd i'n herbyn ni,' yn wrthwyneb i ni, ac ar y ffordd; ond o herwydd ymrwymiad Crist yn Fechnïydd, yr oedd Duw yn *myned heibio*, ac heb sylwi arni, i gospi o herwydd y pechodau, y rhai oeddynt fel hyn mewn coffadwriaeth. Hwn yw y gair a arferir yn Rhuf. 3. 25. Y gair arall, *αφεσις*, a arwydda, meddant, y cyfryw faddeuant ag sydd yn gweddu i'r Testament Newydd, wedi i'r ysgrifen-law gael ei dileu, a'r Mechnïydd dalu yr iawn mawr a addawodd. Maddeu heb goffa pechod byth, a'r weithred wedi cael ei diddymu yn hollol dros byth, ac wedi ei chymeryd oddi ar y ffordd. Nid yw hyn yn arwyddo fod dim gwahaniaeth o ran cyflyrau y duwiolion dan y ddau Destament: ond yn dangos gwahanol ddull Duw yn goruchwyliaethu tu ag atynt yn ei drefn fawr ei hun. Cymh. Rhuf. 3. 23. a Heb. 10. 18. lle yr arferir y ddau air.*

Arwydda maddeuant fod trosedd: arwydda trosedd fod cyfraith wedi ei throseddu: y mae cyfraith yn arwyddo fod deddfwr, neu roddwr cyfraith. 'Un gosodwr cyfraith sydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli.' Iago 4. 12. Nid oes neb ond hwn, gan hyny, a ddichon faddeu. Y mae yn gyfiawn i Dduw gael ufudd-dod oddiwrth ei greaduriaid i bob peth y mae yn ei orchymyn: y mae hawl gyfiawn gan Dduw i holl wasanaeth dyn; ac wedi iddo gyd-ffurfio â'r gyfraith yn gyfiawn, nid ydyw ddim gwell na gwas anfuddiol; yr oedd yr holl wasanaeth yn ddyledus oddi wrtho. Ond os palla yn yr ufudd-dod cyfiawn, perffaith, y mae y gyfraith yn ei ofyn, y mae yn myned yn ddyledwr; ac am na ddichon iddo byth wneuthur iawn am ei drosedd, y mae yn ddarostyngedig i gospedigaeth gyfiawn am ei fai. Ni ddichon un troseddwr byth ddadwneyd yr hyn a wnaeth; ac nis dichon un creadur wneuthur iawn am drosedd, oblegid fod gan Dduw hawl gyfiawn i'w holl wasanaeth bob mynyd; ac nid yw talu dyled presennol ddim yn iawn am drosedd yn ol. Nid oes, gan hyny, ddim ymwared i droseddwr, ond trwy faddeuant; rhaid iddo gael maddeuant, neu ddyoddef y gosp ddyledus yn gyfiawn am ei drosedd.

Y mae Duw yn dadguddio ei hun yn ei air fel DUW YN MADDEU, neu DUW Y MADDEUANT. Un o'i enwau yw MADDEUGARWCH: 'Ti, O Arglwydd, ydwyt dda a maddeugar.' Ps. 86. 5.

1. Y mae Duw yn ymogoneddu ynddo ei hun fel Duw yn maddeu. Esa. 43. 25. Pan y mae yn myned ynghylch y gwaith hwn o faddeu, mae yn dangos ei hun gyd âg anfeidrol fawrhydi a gogoniant; ac yn cyhoeddi ei ENW MAWR, fel yr IEHOFAH, sydd yn maddeu anwiredd, a phechod, a chamwedd, ac yn cadw trugaredd i filoedd. Exod. 34. 6, 7.

2. Y mae yr eglwys yn ymogoneddu ac yn ymorfoleddu ynddo, ac yn edrych arno gyda syndod fel Duw yn maddeu; gan ddywedyd, 'Pa Dduw fel tydi yn maddeu anwiredd,' &c. Mic. 7. 18. Yr ystyriaeth o hyn a gyfododd Dafydd i fynu o'r dyfnder; 'Ond y mae gyda thi faddeuant.' Y mae gwedi pallu yn mhob man arall; nid oes dim i'm cyfodi o'r dyfnder ynof fy hunan; ond y mae gyda thi faddeuant—hyny a'm cyfoda. Ps. 130. 4.

3. Yr oedd meddyliau ëang gan Grist am drugaredd faddeuol Duw, pan y gwaeddodd ar y groes, 'O Dad, maddeu iddynt!' Yr oedd yn golygu ei Dad fel un a allai faddeu yn helaeth, ac yn rhyfedd iawn —ie, maddeu i'r rhai oedd yn hoelio ei Fab ar groesbren! Luc 23. 34.

4. Y mae yr efengyl yn ddadguddiad ac yn gyhoeddiad o faddeuant yn enw Iesu Grist. Hyn yw yr efengyl, sef 'Pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd.' Luc 24. 27. Y mae awdurdod gan Fab y dyn ar y ddaear i faddeu pechodau. Y mae yn ei swydd yn maddeu—mae wedi ei awdurdodi a'i swyddo i hyny. Gan fod awdurdod ganddo i faddeu, (1.) Y mae awdurdod yn ei waith yn maddeu. Y mae yn weithred oruchel yn ol trefn Duwdod, ac a saif byth. Y mae yn maddeu yn ei swydd, ac yn holl fawredd ei berson, ac awdurdod ei swydd: y mae yn gweinyddu y maddeuant yn ol trefn ei osodiad yn y swydd, mewn modd addas i fawredd gogoneddus Duw a'i lywodraeth. Nid yw bosibl iddo ef, yr hwn a wnaeth iawn am bechod, faddeu pechod, heb ddangos Duw a'i gyfraith yn dra gogoneddus; pechod yn dra phechadurus; a'r pechadur yn dra annheilwng a ffiaidd.—(2.) Os oes ganddo awdurdod i faddeu pechodau ar y ddaear, yr holl ddaear, yn ei holl gyrau, yna mae rhyddid cyflawn i bechaduriaid fyned ato. Gan fod maddeu yn perthyn i'w swydd, y mae hawl gan yr euog i fyned ato yn y swydd hôno; erddynt hwy, a hwy yn unig, y gosodwyd ef yn y swydd; am hyny, hwy, a hwy yn unig, sydd â hawl i fyned ato. Cyhoeddi y newydd rhyfedd hwn i'r holl genedloedd, yw pregethu yr efengyl o newyddion da o lawenydd mawr, i bob pechadur teimladwy.

5. Y mae maddeuant yn cael ei ddadguddio a'i gyhoeddi yn yr efengyl fel yn cyfateb i holl ëangder pechadurusrwydd dyn. Mae pechodau dynion yn lliosog iawn: pechodau gwreiddiol, a phechodau gweithredol; pechodau y galon, y meddwl, y geiriau, a'r gweithredoedd; pechodau o ommeddiad, esgeulusiad, a gweithrediad; pechodau yn erbyn pob gorchymyn o ran ein dyledswydd tu ag at Dduw a'n cymydog, a thu ag atom ein hunain. Yn y golygiadau hyn, 'Pwy a ddeall ei gamweddau?' Ps. 19. 12. a 40. 12. Ond mor ëang a hyny yw y maddeuant y mae Duw yn ei gyhoeddi yn yr efengyl. Col. 1. 14. a 2. 13. Act. 10. 43. a 18. 38. a 26. 18. Luc 7. 47. Ps. 103. 3. Hos. 14. 2. Y mae y drugareddfa mor ëang a'r arch, lle yr oedd y gyfraith yn nghadw, ac yn ei gorchuddio yn gyflawn. Exod. 25. 10, 17.

6. Yn a thrwy Grist y mae Duw yn maddeu. Eph. 1. 7. a 4. 32. 'Trwy ei waed ef,' sef ei aberth a'r iawn a wnaeth, y mae i ni faddeuant pechodau. Y mae yr amrywiol ymadroddion cyffelybiaethol, a arferir yn yr ysgrythyrau am faddeuant, yn arwyddo hyn; megys *tynu ymaith*, Job 7. 21. Ioan 1. 29.—*cuddio*, Ps. 32. 1, 2.—*dileu*, Esa. 43. 25. a 44. 22.—*taflu i ddyfnderoedd y môr*, Mic. 7. 19.—*peidio cyfrif*, Ps. 32. 2. Rhuf. 4. 6, 7, 8. Geirau sydd oll yn cyfeirio at yr iawn.

Fel hyn mae Duw yn *gyfiawn* yn maddeu. 1 Ioan 1. 9. 'Yn dangos ei gyfiawnder trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddyoddefgarwch Duw. Fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu.' Rhuf. 3. 25, 26. Nid oedd cyfiawnder wedi ei ddangos yn nghadwedigaeth pechaduriaid yn ei holl ëangder a'i gyflawnder, cyn i Grist wneuthur iawn ar y groes. Yr oedd ei drugaredd, ei ddaioni, a'i ddyoddefgarwch, wedi eu dangos yn fawr tuag at yr hen dduwiolion; ond yr oedd ei gyfiawnder wedi ei ddangos, gan mwyaf, yn ei farnedigaethau; megys y nôd ar Cain, y dylif, llosgiad Sodom, &c., ond yr oedd yn angenrheidiol dangos ei gyfiawnder yn iachawdwriaeth ei bobl hefyd. Sylwn,

1. Fod Duw yn hanfodol gyfiawn. Cyfiawnder a arwydda uniondeb a chywirdeb hanfodol ei natur, yn

* Gwel Coccejus *in Rom.* 3. 25. Witsius *in Symbol.* Mintert dan y gair *παρεσις.* Vitringa *Obs. Sacr., lib.* iv. *cap.* 3. &c. 2.

Digitized by Google

ei dueddu i ymddwyn yn mhob peth tu ag ato ei hun, a'i greaduriaid hefyd, yn uniawn, yn gywir, ac yn addas, megys y mae yr amgylchiadau yn gofyn. Yr uniondeb hwn yn benaf yw perffeithrwydd y Duwdod, harddwch pob priodoledd, a'i holl weithredoedd. ——2. Y mae yn addas i'r Duw mawr *ddangos* y cyfiawnder hwn, sef ei fod yn gyfiawn o hanfod, ac yn mhob peth. Heb ddangos hyn nid ydyw yn dangos ei hun yn addas, fel y mae ynddo ei hun; ond nis dichon Duw *gam-ddangos* ei hun: canys y mae uniondeb a chywirdeb ynddo. Y mae hyn, (1.) Er anrhydedd iddo ei hun, i ddangos ei hun fel y mae yn gyfiawn, ac yn uniawn, heb ddim gwyrni na phall. —(2.) Y mae er llesâd i'w greaduriaid, canys hyn yw y bywyd tragywyddol, *gwir* adnabod Duw, a'r hwn a anfonodd efe Iesu Grist. Nis dichon fod un gweithrediad cywir o eiddo y meddwl tu ag at Dduw mewn ffydd, cariad, ac edifeirwch, heb *gywirdeb* yn ein gwybodaeth o hono. Nid oes neb a edifarhâ am bechod heb wybodaeth o gariad Duw ynddo ei hun, ac yn ei ofynion, ac yn ei fygythion: heb weled fod Duw yn gyfiawn, ni welwn byth ei bod ni yn anghyfiawn; ac ni chanfyddwn anghyfiawnder pechod, ond yn ol y gradd yr adnabyddom gyfiawnder Duw. Os oedd yn gweddu i Dduw *ddangos* ei gyfiawnder, *yn ol* y dangosiad hwnw, mae yn gweddu i ninnau lafurio am wybodaeth o hono.——3. Yn ngosodiad Crist yn iawn y mae y dangosiad mwyaf cyflawn a dysglaer o gyfiawnder Duw a roddir byth: (1.) Y mae gwaith Duw yn gofyn iawn yn dangos ei gyfiawnder. Y mae pob cymundeb rhwng Duw a phechadur yn gwbl trwy iawn.—(2.) Y mae gosodiad y *fath* berson a Christ Iesu yn iawn, yn dangos ei gyfiawnder i'r gradd mwyaf. Pe buasai dim llai na *pherffaith* iawn yn ateb dybenion ac anrhydedd Duw, ni buasai Crist byth yn cael ei osod yn iawn.—(3.) Y mae y driniaeth a gafodd yn dangos cyfiawnder Duw yn ofnadwy ac yn ogoneddus. *Arbedwyd* dim o hono mewn un ystyr: ond rhoddwyd pechodau arno, a rhoddwyd cospedigaeth yn gyfatebol. Rhuf. 8. 32. Zech. 13. 7. Esa. 53. 6.—(4.) Y mae gwaith Duw yn peidio achub neb ond a gredo yn, ac a gymeradwyo yr iawn hwn, yn dangos ei gyfiawnder. Nid ydyw Duw yn cyfiawnhau neb ond sydd o ffydd Iesu; ac yn ganlynol nid ydyw yn *achub* neb. Fel hyn y mae Duw wedi dangos ei gyfiawnder trwy faddeuant pechodau. Edr. IAWN, ABERTH, CYFIAWNHAU.

7. Pan y mae Duw yn maddeu, y mae yn maddeu am byth. Bendith ddialw yn ol; ond fel holl fendithion tragywyddol, y mae yn parhau byth. 'Eu pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach,' medd Duw. Heb. 8. 12.

8. Pan y mae Duw yn maddeu, y mae yn cyfranu pob bendith ysbrydol hefyd. Y mae rhyddid yn cael ei weini trwy Grist i gyfiawn fwynhad o'r holl fendithion trysoredig ynddo. Y mae yn eu derbyn yn ddaionus—yn caru yn rhad—yn ymgeleddu ac yn iachâu yr holl lesgedd—yn cynnal, yn amddiffyn, ac yn dyddanu. Ps. 103. 3. Hos. 14 1—4. Pan bechodd Israel wrth Horeb, y peth cyntaf y mae Moses yn ei ofyn yw maddeuant; a hyny gyda rhyw areithyddiaeth neillduol; 'Ac yn awr, os maddeui eu pechod.' Exod. 32. 32. Beth wedi hyny? y mae Moses yn ddystaw: mae gosteg sanctaidd, etto llawn o feddwl—ie rhy lawn i'w adrodd. Y cyffelyb eiriau a gawn yn Luc 13. 9. 'Os dwg ef ffrwyth'—beth wedi hyny? ychwanega ein cyfieithwyr ni, *da;* felly yma, 'Os maddeui,' *da;* ni attali un fendith wedi maddeu; awn yn mlaen, byddwn byw, a byddi di gyda ni, &c. Prif fendith yw maddeuant, y gyntaf y mae Duw yn ei rhoddi; ond y mae yr holl fendithion eraill yn nglyn wrthi, ac yn ei chanlyn. Ezec. 36. 25. Jer. 31. 18, 19.

Fel y mae ffydd, edifeirwch, ysbryd a chalon newydd, ysbryd diddichell, darostwng yr anwireddau, &c. yn nglyn wrth faddeuant, (Act. 10. 43. Luc 7. 47. Jer. 31. 18, 19. Mic. 7. 18, 19.) felly hefyd mae yn adn. 9. ysbryd maddeugar. Mat. 6. 12—15. Luc 11. 4. Y mae yr Arglwydd Iesu yn cadarnhau fod y diffyg o ysbryd maddeugar yn brawf fod pechodau y dyn hwnw heb eu maddeu. Mat. 18. 35. Nid yr achos haeddiannol o faddeuant i ni yw, ond ffrwyth maddeuant, a dangosiad o'r personau y maddeuwyd iddynt. Y mae maddeuant yn brif fendith sydd yn teyrnasu yn nhŷ Dduw yn y byd hwn; mae y plant ynddo yn llawn gwendidau; y mae y Tad yn hoffi maddeu, ac y mae yr holl blant yn feddiannol o ysbryd maddeu i'w gilydd.

1. Y mae Duw yn gorchymyn hyn. Eph. 4. 32. Col. 3. 13.——2. Oni faddeuwn ni, ni faddeu yntau. 'Os chwi ni faddeuwch, eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd ni faddeu chwaith eich camweddau chwithau.' Marc 11. 26.——3. Ni ellir cyflawni un ddyledswydd ysbrydol, ac nis dichon fod dyn yn ei le mewn dim o ran agwedd ei feddwl heb yr ysbryd hwn. 'Pan safoch i weddïo, maddeuwch, o bydd genych ddim yn erbyn neb.' Marc 11. 25. Yr hyn a ddywedir yma am weddi sydd briodol hefyd i bob dyledswydd arall. Rhaid gweddio am ysbryd i faddeu yn gyntaf.——4. Heb yr ysbryd hwn byddwn yn gwbl annhebyg i Grist, ac yn dangos yn amlwg ein bod heb ei ysbryd ef. 1 Petr 1. 22. Edr. JOSEPH, STEPHAN.——5. Hon yw y ffordd Gristionogol o orchfygu gelynion. Rhuf. 11. 20, 21.

Rhaid i ni faddeu fel y mae Duw yn maddeu, o'r galon ac yn wirioneddol, Mat. 18. 35.—yn gyflawn, Jer. 50. 20. Ps. 103. 3.—yn aml, Mat. 18. 22. Nid oes dim yn fwy croes i'r ysbryd uchel, dialgar, sydd ynom ni fel pechaduriaid, na chyfaddef ein pechodau yn ostyngedig ger bron Duw, a maddeu i eraill eu camweddau; ond prif ragoriaeth gwir Gristion fel y cyfryw ydynt.

'Ni chaiff faddeuant yn dragywydd.' Edr. YSBRYD GLAN, CYFIAWN, DUW, EDIFEIRWCH, IAWN, TRUGAREDD.

MAE, (ma) ydyw; y mae ef, y mae hi; gofyniad, am ba le mae? megys, 'Mae Abel dy frawd?'—'Mae yr hwn a'u dygodd hwynt i fynu o'r môr, gyda bugail ei braidd?' Gen. 4. 9. Esa. 63. 11.

MAEDD—U, (my-aedd) curo, ffustio, ffonodio, pwyso.—'Ar hyd y dydd y'm maeddwyd.' Ps. 73. 14. Cyfieithir y gair נגו (*nago*) a arferir yma, *taro*, Gen, 12. 17. 2 Bren. 15. 5.—*dialeddu*, yn Ps. 73. 5.—yn enw cadarn, *pla*, neu *taro â phla*, Lef. xiii.—'Ar hyd y dydd,' כל היום *bob dydd*, neu *yr holl ddydd*. Y mae angen cerydd aml, parhaus ar y goreu o ddynion yn y byd hwn. Ei attal oddi wrthynt fyddai attal yr hyn a fyddai er daioni a llesâd iddynt. 'Cariad tad, nid cariad mam,' medd Muis, 'sydd gan Dduw at ei bobl:' y mae yn caru yn wirioneddol, ac yn ffyddlon, ond yn *ddoeth;* y mae yn dyner, ond y mae yn gryf, hefyd, i'w trin yn y modd goreu er eu llesâd, er iddynt hwy wingo, crio, a gwaeddi yn erchyll; myn hwynt yn iach, ac yn lân.

'Yn baeddu yn mhob synagog.' Act. 22. 19. Marc 12. 5. a 13. 9. Y mae yr un gair (δερω, *dero*) yn cael ei gyfieithu *taro*, Luc 22. 63.—*curo*, Luc 12. 47, 48. a 20. 10, 11. Act. 5. 40. a 16. 37. Arwydda y gair Groeg *blingo*, ac yn y lleoedd hyn, *blingo*, trwy eu curo â gwïail, a'u fflangellu.

MAEN, llïos. MAIN, MEINI, (ma-en) *Heb.* אבן (*aben*). Oddiwrth maen y mae MINE, *Saes.;* careg, llech, craig, clogwyn, llechfaen. Maen clais, neu maen mynor; maen melin, maen breuan; maen ehed, sef ehedfaen; maen gwn, sef bwleden; maen glain, glain, neu maen magl, sef maen y neidr; maen

Digitized by Google

tostedd, mellten; maen cawod, maen gwlaw, y grisial; maen chwyfain, sef maen ysgwyd, neu sigl; maen gwerthfawr, sef gem, perl, &c.—'Tros y fagwyr feinyn,' sef y fagwyr geryg. Ps. 18. 29. E. Prys. Tŷ meinyn, tŷ maen, tŷ ceryg.

Y mae meini yn amrywio mewn perthynas i'r lle a dull eu ffurfiad. Y meini mwyaf cyffredin a ffurfir dan y ddaear, trwy fod gronynau y ddaear yn ymnesu at eu gilydd, yn ymuno, ac yn ffurfio corph cyfansawdd caled: eraill a ffurfir yn nghyrph dynion, ac anifeiliaid: eraill a ffurfir gan y môr, fel y barna rhai, megys y *pumice*, &c. eraill trwy ryw natur garegog, mewn ambell ddwfr, yn caregu y defnyddiau ynddo. Y meini a ranir gan yr Esgob Wilkins, yn feini cyffredin, canol-bris, a gwerthfawr. Y meini cyffredin ydynt ddigon adnabyddus, ac a wahanieithir wrth eu sylwedd, eu maintioli, a'u defnyddioldeb; megys, ceryg nâdd, ceryg fflint, adamant; ceryg calch, ceryg tô. Y canol-bris yw, yr alabaster, marmor, grisial, ehedfaen, &c. Y gwerthfawr, yw y gemau, &c. Mae naturiaethwyr diweddarach wedi ffurfio gwahanol gyson-drefniadau mewn perthynas iddynt, rhy faith i'w holrhain yma, ac anfuddiol i'r cyffredin i'w cofiâu.

Y mae harddwch lliwiau meini gwerthfawr wedi bod yn achos o ryfeddod hyfryd i bawb. Gelwir rhai yn geryg, neu yn feini tanllyd, oddiwrth eu dysgleirdeb llewyrchus. Ezec. 28. 14. Y lluniau o goedydd, afonydd, &c. ar fynor Florentine, sydd nodedig o hardd, ac yn gwbl o naturiaeth. Y mae celfyddyd yn llafurus, ac yn llwyddiannus iawn, yn dynwared natur, yn lliwio meini, a darlunio amryw luniau arnynt; a llawer o dwyll sydd yn marchnadfa y meini gwerthfawr. Priodolai yr hynafiaid lawer o rinweddau meddyginiaethol i amryw feini gwerthfawr. Yr oedd ganddynt ddychymygion rhyfedd am eu dull yn effeithio; sef trwy alluoedd priodol cyd-oddefol, ac nid trwy rinweddau meddygol yn dylifo allan o honynt. Ond y mae y dychymygion tywyll hyn wedi cael, er's talm, eu gwawdio allan o'r byd dysgedig: er hyny, y mae yn ddadl hyd heddyw, a oes neu nid oes rhinwedd meddygol yn perthynu i rai o honynt.

Y mae yr ehedfaen, neu y maen tynu, âg amryw briodoliaethau perthynol iddo. Math o fŵn haiarn ydyw, o amryw liwiau, cyfatebol i'r gwledydd y dygir ef o honynt; megys, gwyn, glâs, coch, du, ond yn fwyaf cyffredin lliw haiarnaidd. Y goreu, meddant, a ddygir o China a Bengal, ac ydynt o liw haiarnaidd. Meini Arabia ydynt yn gochlyd; y rhai a geir yn Macedonia ydynt yn ddüog; ar rhai a geffir yn Lloegr, Hungary, a Germany, ydynt o liw haiarn heb ei weithio. Maent i'w cael o bob maintioli.

Cynneddfau priodol i'r maen hwn yw, ei fod yn tynu haiarn, yn cyfeirio at bynciau y byd, ac mewn amgylchiadau gwahanol, yn cyfeirio at nôd islaw y terfyn-gylch (*horizon*) yn union-gyrch dan y pwnc, ac yn cyfranu yr un priodoliaethau i haiarn. Nid oes neb o'r naturiaethwyr etto wedi rhoddi ond dychymygion am achos priodoliaethau rhyfedd yr ehedfaen. Y maent yn sôn am ryw lif *(effluvia)* anweledig yn rhedeg o'r naill bwnc i'r ddaear i'r llall, mewn rhyw gylchdro ag y maent yn ddychymygu a ddichon fod yn achos o honynt: ond dychymygion ydynt heb ddim prawf. Ys ydys wedi cael amryw brofiadau eglur fod cyfundeb a pherthynas mewn amryw effeithiau rhwng yr ehedfaen ac *electricity*, ac y gellir rhoddi i nodwydd, trwy *electricity*, yr un priodoliaethau ag a rydd cyffyrddiad y maen tynu iddi. Y mae yn dra eglur, trwy brofiadau, fod cyffelybrwydd natur, os nid yr un natur, rhwng goleuni tanllyd y mellt, a llif goleu tanllyd *electricity*, a chynneddfau anweledig yr ehedfaen.

Yr oeddd yr hynafiaid yn gydnabyddus o alluoedd tynu yr ehedfaen: coffêir am danynt gan Plato ac Euripides. Dywed rhai mai bugail, o'r enw MAGNES, â'i ffon fugeila, ar fynydd Ida, a'u hadnabu gyntaf. Yr oeddynt hefyd yn gyfarwydd â'i rhinwedd cyfranol i'r haiarn, i beri iddo weithredu yr un fath a hithau; ond am y galluoedd cyfeiriol i'r pynciau, adnabyddwyd y rhai hyn yn llawer diweddarach: trwy bwy, na pha bryd, yr adnabyddwyd hwy gyntaf, nid yw hysbys. Yr hanes cyntaf a gawn sydd yn y flwyddyn 1200, pan ddarfu i Marco Polo, Venetiad, wneyd y cwmpawd gyntaf. Nid efe a'i dychymygodd, ond a'i cafodd oddiwrth y Chineaid, y rhai a'i cawsant, tebygir, gan rai cyn hyny, oddiwrth yr Ewropiaid. Dywed y Dr. Gilbert, mai pobl Amalpi, yn nheyrnas Naples, wedi eu dysgu gan un Jol. Goia, a arferasant y cwmpawd gyntaf, yn nghylch A. D. 1300. Pa fodd bynag y cafwyd yr adnabyddiaeth o hono gyntaf, y mae yn wybodaeth o'r defnyddioldeb mwyaf i fordwyaeth, a phob peth cysylltiedig â'r gelfyddyd hòno. Etyb ddybenion mawrion, cyn diwedd amser, diammeu, trwy fod yn gynnorthwyol i daenu yr efengyl dros y byd; ac o'r achos hwn y mae y wybodaeth o hono o'r pwys mwyaf. Gwel Derham's *Phys. Theol.*

Byddai meini yn aml yn cael eu gosod i fynu gynt yn goffadwriaeth, sef yn goffadwriaeth am ryw orchestwaith, neu ar feddau rhyw bersonau nodedig; oddiwrth y ddefod hon y darllenwn am faen Zohelith, maen Ezel, &c. 1 Bren. 1. 9. 1 Sam. 20. 19. Edr. GALEED, JEGAR-SAHADUTHA.

Gelwir yr Arglwydd Iesu yn aml wrth yr enw maen, i ddangos ei gadernid a'i barhad. Edr. CAREG.

'Wele fi yn sylfaenu maen yn Sion,' &c. Edr. 28. 16. Maen sylfaen yw, o osodiad Duw; efe sydd yn cynnal holl adeiladaeth fawr yr eglwys, a phob aelod o honi. Duw a'i gosododd, sef a'i hetholodd, a'i heneiniodd, ac a'i gosododd yn y swydd gyfryngol; a'i hamlygodd yn yr efengyl i'r eglwys yn athrawiaethol; ac nid oes un eglwys, neu Sion, hebddo.

'Congl-faen' yw ag sydd yn cylymu yr holl eglwys yn ei holl aelodau â'u gilydd, yn Iuddewon a Chenedloedd, trwy yr holl oesoedd: byddant yn un byth â'u gilydd, am eu bod yn un ynddo ef. Mat. 21. 42. Eph. 2. 15, 20.

'Maen gwerthfawr' ydyw, yn anfeidrol mewn rhagoriaethau, a gogoniant, a defnyddioldeb.——'Maen profedig,' yw, wedi ei brofi gan ei Dad, gan ei bobl, gan gythreuliaid, gan annuwiolion, a chan ddyoddefiadau, ac ni chafwyd bai, palldod, na ffoledd ynddo. ——'Maen etholedig' yw. Edr. ETHOLEDIGAETH. ——Y mae yn 'faen bywiol:' y bywyd ydyw; y mae ganddo bob bywyd ynddo, ac o hono ei hun; ac y mae yn rhoddi bywyd tragywyddol i'w bobl. Dat. 21. 11. 1 Petr 2. 4.

Y mae y saint yn 'feini bywiol,' wedi eu hadeiladu arno, eu bywhau trwy ei Ysbryd, ac yn fywiog yn ei wasanaeth; fel meini y maent yn werthfawr, yn gadarn, yn barhaol, ac yn ddefnyddiol. 1 Petr 2. 5.

I rai y mae Crist 'yn faen tramgwydd, ac yn graig rhwystr, sef i'r rhai sydd yn tramgwyddo wrth y gair, gan fod yn anufudd.' Nid ydyw efe felly ynddo ei hun; nid ynddo ef y mae yr achos eu bod yn tramgwyddo ac yn rhwystro, ond ynddynt hwy. Iechydwriaeth gyflawn sydd ynddo ef, ac y mae miloedd yn ei chael ynddo; ond er ei gyflawnder o bob rhagoriaethau a defnyddioldeb, nid ydyw yn gymeradwy gan eu meddyliau cnawdol hwy. Tramgwyddo i ddystryw tragywyddol, yw tramgwyddo wrth y maen hwn. 1 Petr 2. 8.

'Meini gwerthfawr' seiliau y Jerusalem newydd, a arwydda yr Arglwydd Iesu, sylfaen ei eglwys, megys y pregethwyd ef gan y deuddeg apostol, yn holl amrywiaeth annherfynol ei ragoriaethau. Dat. 21. 19, 20. Edr. CAREG, EILUN.

MAES, MEUSYDD, (ma-es) lle agored; gwastadtir, maenawl, rhandir; câd ar faes, sef ymladdfa;

Digitized by Google

colli y maes, sef cael eu gorchfygu.—'A'r rhai oedd yn cael y maes ar y bwystfil,' *τους νικωντας, y rhai a orchfygasant.* Dat. 15. 2.—'A'r sawl a gawsant y llaw'n ycha ar yr enifel.' W. S.—Hefyd, fel rhagddod, allan, y tu allan, allanol: maes ei gôf, allan o'i synwyr; awn i faes, sef awn allan; maes o law, allan o law.—'Ef a aeth yn y man y maes—a gwedi y vynet ef y maes.' Ioan 13. 30, 31. W. S. Yn y Deheudir arferir ef fwyaf yn yr ystyr hwn, yn cyfateb i'r gair allan yn Ngwynedd.

'A'r maes yw y byd.' Mat. 13. 38. Y mae ei derfynau yn helaeth, ac iddo y mae Duw yn anfon ei weithwyr, ac y mae yn hau hâd da ynddo. Edr. Ephrau.

'Awn i'r maes.' Can. 7. 11. Awn lle caffom lonyddwch, a chyfeillach neillduol â'n gilydd. Gen. 24. 63. Neu, hwyrach, fod yr eglwys yn golygu y byd cenedlig, yr hwn oedd fel maes agored anniwylliedig, yn llawn drain, mieri, a bwystfilod, ac yn mynegi ei dymuniad am daeniad gwybodaeth o'r Arglwydd Iesu yn eu plith. Nid oedd am fyned i un lle hebddo; nac i'r tŷ, nac i'r maes; ond y mae pob lle yn hyfryd ac yn llawn lle y byddo, hyd yn nod y meusydd a'r pentrefydd.

Y 'trysor wedi ei guddio mewn maes,' yw yr Arglwydd Iesu a'i anchwiliadwy olud, yn guddiedig yn yr ysgrythyrau, oddiwrth y rhan fwyaf o ddynion. Nid oes neb a werthfawroga yr ysgrythyrau, nes canfyddont y trysor mawr hwn ynddynt; ond pan gaffo un ef, y mae y maes yn fwy ei werth na dim arall, o herwydd y trysor sydd ynddo. Mat. 13. 44.

'Yn cydio maes wrth faes.—Meusydd a chwennychant hefyd, ac a ddygant trwy drais; a thelau, ac a'u dygant: gorthrymant hefyd ŵr a'i dŷ, dyn a'i etifeddiaeth.' Esa. 5. 8. Mic. 2. 2. a 3. 2, 3. Dan lywodraeth eu chwantau bydol, y maent yn chwennychu meddiannau eraill, yn eu mynu trwy drais, ac felly yn gorthrymu gwr a'i dŷ. Y mae y chwant yn bechod ynddo ei hun yn ngolwg Duw, ond y mae i'w ddysgyblu pan dôro yn drais, ac yn orthrymder. Y mae y geiriau yn darlunio chwantau bydol yn gweithredu yn gryfion, ac yn ddiderfyn. Y mae cydio maes wrth faes yn bechod, pan fyddo yn tarddu oddiwrth chwant, a phan fyddo yn drais, ac yn orthrymder. Yr oedd yr Arglwydd, yn rhag-olygu hyn, wedi terfynu y chwant, y trais, a'r gorthrymder hyn yn mhlith ei bobl, trwy drefnu gollyngdod i'r cwbl ar fiwyddyn y Jubili, ac etifeddiaeth pob un yn dychwelyd yn ol iddo. Edr. Jubili, Ephrata.

MAESSYNG, (maes-sang) sathru, dyfathru.—'A missing yr Euangel dan draet.' Gwel Argvment yr Epistol at yr Ephesieit. W. S.

MAETH—U, (my-aeth) lluniaeth, ymborth, cynnaliaeth; tad-maeth, mam-faeth, un yn magu plentyn arall.—'Maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.' Eph. 6. 4. Athrawiaeth yr Arglwydd yw yr ymborth â pha un y mae rhieni i faethu eu plant. Athrawiaeth yr Arglwydd; sef yr athrawiaeth a ddysgodd yr Arglwydd, ac sydd yn ei ddadguddio i ni. Yn yr athrawiaeth y mae yr Arglwydd Iesu wedi amlygu ei hun; a thrwy ddysgu yr athrawiaeth i'w plant, y mae i rieni ddysgu iddynt adnabod yr Arglwydd, yr hyn yw gwir ymborth yr enaid.

Arwydda maethu, y dylent fod wrth y gwaith yn foreu, yn ddoeth, yn ddyfal, yn amyneddgar, yn dirion, ac yn barhaus—fel mam yn porthi ac yn magu ei phlentyn; rhoddi ymborth iddynt yn ddoeth, cyfatebol i'w hoed a'u galluoedd i amgyffred gwirioneddau, fel rhoddi llaeth i blant, ac nid bwyd cryf; peidio a'u bwydo ychwaith â llaeth o hyd, ond eu harwain yn y blaen i gynnefindra â gair cyfiawnder, sef â holl drefn fawr iechydwriaeth trwy Grist. Dyledswydd benaf rhieni tu ag at eu plant yw hon. Edr. Rhieni, Tad.

MAGBIS, un a ddychwelodd o Babilon gyda Zorobabel, a 156 o'i hiliogaeth gyd âg ef. Ezra 2. 30.

MAGDALA, Μαγδαλα, [*tŵr*, neu *mawredd*] dinas agos i Tiberias; galwai yr Iuddewon hi, weithiau, Magdala o Gadara. Edr. Mair.

MAGDIEL, מגדיאל [*newydd da oddiwrth Dduw*] un o dduciaid Idumea, ac enw dinas hefyd, tebygol. Gen. 36. 43. 1 Cron. 1. 54.

MAGDDU, (mag-du) ffynon düedd, tywyllwch mwyaf, eisteddfod tywyllwch; enw a roddir ar uffern. —'Yn y fagddu yr ydym yn rhodio.' Esa. 59. 9. Cyfieithir yr un gair אפל *tywyllwch dudew.* Exod. 10. 22. Y mae yn eglur oddiwrth Job 10. 22, fod y gair Hebraeg yn arwyddo y gradd mwyaf o dywyllwch: 'Tir tywyllwch fel y fagddu.' Tir nad oes dim ond tywyllwch, ond y mae hwnw yno i'r gradd mwyaf. Tywyllwch yw holl gynnyrch gwlad angeu; tywyllwch yw holl addurniadau tŷ marwolaeth; tywyllwch yw ei gadwynau sydd yn rhwymo ei garcharorion annedwydd.

MAGL—AU—U, (mâg) *Heb.* מחל *machal; Gr.* παγις; *Llad.* Laqueus: tenyn, hoenyn, croglath, annel, byddag, byddagl; man, brych, brycheuyn, man du; darn o dir; tidaw, rhwydo, byddaglu. Dyfais i ddal adar, anifelliaid gwylltion, &c. Esa. 51. 20. Amos 3. 5. Diar. 7. 23. Yn allegawl, arwydda, beth bynag fyddo yn tueddu i ddyrysu a rhwydo dyn i'w niwed; neu yn ei dueddu i wyro oddiwrth yr Arglwydd a'i addoliad; megys y Canaaneaid gweddilledig yn y tir—offeiriaid eilun-addolgar, Jos. 23. 13. Ps. 106. 36. Exod. 23. 33. Hos. 5. 1. —genau y ffol, a gau-athrawon, Diar. 18. 7.—tôri adduned, Diar. 20. 25.—ofn dyn, Diar. 29. 25.—tafod gwenieithus puteinwraig. Preg. 27. 26.

'Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau,' &c. Ps. 11. 6.

Fal gwlaw y daw draw drwy air—y *maglau*
Tân myglyd a chesair;
Brwmstan i'w cwpan, anair
Arnynt, a'r corwynt y cair.
*W. Middleton,* (Ps. 11. 6.)

Y mae amryw yn cyfieithu y gair *Heb.* פחים yn lle *maglau, marwor tanllyd.* Y mae yr Esgob Lowth yn ei egluro wrth *bellenau* o dân, neu *felli.* Ps. 18. 13, 14. Mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *marwor,* Diar. 26. 21.—*glo,* Esa. 44. 12. Mae y cyfieithiad hwn yn ymddangos yn fwy cyson â'r ymadrodd sydd yn canlyn. Y mae cyfeiriad y geiriau yn eglur at ddinystr Sodom a Gomorrah â than o'r nefoedd.

'Dynion gwatwarus a faglant ddinas;' פוח y gair yma, a *losgant,* (ymyl y ddalen). Mai llosgi yw ystyr y gair yn y fan yma sydd eglur oddiwrth ddiwedd yr adnod: 'ond y doethion a droant ymaith ddigofaint.' Diar. 29. 8. Ps. 105. 32. Exod. 9. 23, 24. Job 18. 15. a 20. 23.

'Yn fagl ac yn rhwyd i breswylwyr Jerusalem.' Esa. 8. 14. Nid oedd y Messiah, am yr hwn y llefara y geiriau, felly ynddo ei hun, nac yn mwriad Duw yn ei osodiad yn ei swydd; ond bu yn achlysur i'r Iuddewon gael eu maglu a'u rhwydo i'w dinystr, gan eu cynghorion a'u llygredigaethau eu hunain; yn enwedig preswylwyr Jerusalem, y rhai oeddynt fwyaf o bawb yn ei erbyn. Efe oedd yr *achlysur,* ond eu cynghorion a'u llygredigaethau eu hunain oedd yr *achos:* daliwyd, drylliwyd, tramgwyddasant, a syrthiasant, trwy eu cynghorion a'u gelyniaeth yn erbyn Mab Duw.

'Maglau angeu.' Ps. 18. 5. Hyny yw, maglau marwol, angeuol; dichellion gelynion i'r dyben i ddal ac i ddyfetha. Ps. 38. 12. a 119. 110. Y mae y

Digitized by Google

duwiolion yn myned heibio iddynt, yn aml, tra byddo yr annuwiolion yn cyd-gwympo yn eu rhwydau eu hun. Ps. 141. 9, 10. Y mae Duw yn cyfarwyddo heibio y maglau, neu yn eu tòri, a hwythau yn dianc o honynt.

'Neu â magl neu bysen ar ei lygad.' Lef. 21. 20 דק *doc*; *còr*, arwydda y gair un peth bychan; *tipyn*, Exod. 16. 4.—*mân-lwch*, Esa. 40. 15. Cyfieitha rhai efe *còr*, sef un bychan o gorpholaeth; eraill, *brycheuyn magl*, fel yn ein dau gyfieithiad ni; ond mwy tebygol mai *còr* a feddylir.

MAGOG, מגוג [*tô, gorchudd*] ail fab Japheth. Gen. 10. 2. Tybir mai efe oedd tad y Scythiaid, y Tartariaid, &c. Dat. 20. 8. Ezec. 38. 2. Edr. Gog. Gelwid y cenedloedd hyn gynt Mogli; a thaleithiau yn Tartary a alwent Lug, Mongug, Cangigu, a Gigui; Engui, Corgangui, Caigui, &c. Gwel Calmet. Mae yn eglur, oddiwrth amryw dystiolaethau, mai Tartary, yn yr ystyr helaethaf o'r gair, a feddylir wrth Magog. Edr. Gog.

MAGOR-MISSABIB, מגור מסביב [*dychryn oddiamgylch*] yr enw a roddodd Jeremiah y prophwyd ar Pasur, yr hwn a'i tarawodd am iddo brophwydo yn erbyn Jerusalem. 'Ni alwodd yr Arglwydd dy enw di Pasur, ond Magor-missabib'—byddi yn 'ddychryn i ti dy hun, ac i'r rhai oll a'th garant.' Jer. 20. 3, 4, &c.

MAGU, (mâg) maethu, meithrin; dwyn i fynu; dysgu, magu plant, magu dannedd.—'Wedi dy fagu yn ngeiriau y ffydd.' 1 Tim. 4. 6. 'Geiriau y ffydd,' sef athrawiaeth yr efengyl, yw y lluniaeth a'r ymborth â pha un y cafodd Timotheus ei fagu. Gwirioneddau dwyfol ydynt gysurol a chynnaliaethol i'r rhai sydd yn eu gwir gredu: nid oes gysur a chynnaliaeth mwy sylweddol a pharhaus.

MAGWYR, (mâg-gwyr) *Heb.* גדר *gadar*; *Llad.* Maceria: mur ceryg, mur sych; murddyn; tŷ, yn iaith Gwent (sef Swydd Fynwy); hefyd, maes caeedig.—'O fewn fy magwyrydd,' sef o fewn fy nhŷ, neu fy nghynteddau wedi eu hamgylchu â muriau: hyny yw, yn yr eglwys. Esa. 56. 5.—'Ti a elwi dy fagwyrydd yn iechydwriaeth.' Es. 60. 18. Edrych ar iechydwriaeth fel ei unig amddiffynfa, a hòno yn amddiffynfa ddigonol rhag pob gelyn. Gwel pen. 26. 1.

MAHALAH, mab Hammolecheth, chwaer Gilead. 1 Cron. 7. 18.

MAHALALEEL, מהללאל [*molwr Duw*] mab Cenan, a thad Jered. Gen. 5. 15, 16, &c. Bu fyw 895 o flynyddoedd.

MAHALATH, מחלת [*cân hyfryd*] 1. Merch Ismael, a gwraig Esau. Gen. 28. 9.——2. Gwraig Rehoboam, brenin Judah. 1 Cron. 11. 18.——3. Titl Ps. liii. a lxxxviii. 'I'r pencerdd ar y Mahalath:' enw pibell neu ryw offeryn cerdd â thyllau ynddo, medd Parkhurst, am fod y gair *Heb.* חל yn arwyddo *twll* neu *agoriad*. Cyfieithir y gair yn ein Biblau ni, y rhan amlaf, *dawns*, *dawnsiau*. Exod. 15. 20. a 32. 19. Jer. 31. 4, 13. Barn. 11. 34. Ps. 149. 3. a 150. 4. Barn. 21. 21. *Pibell, pibellu*, yw priodol ystyr y gair; ond hwyrach ei fod yn cynnwys *dawns*, am y byddant yn dawnsio yn aml wrth bibellu, neu gyd â'r bibell.

MAHALI, מחלי [*cantorion*] mab hynaf Merari, a phenaeth teulu. Exod. 6. 19. Num. 3. 33.

MAHANAIM, מחנים [*dau lu*, neu *y ddau faes*] dinas y Lefiaid o deulu Merari, yn llwyth Gad, ar afon Jabboc. Jos. 21. 38. a 13. 26, 30. 1 Cron. 6. 80. Jacob a roddodd yr enw hwn i'r lle, oddiwrth y weledigaeth o angelion a gafodd yma. Gen. 32. 2. Edr. Jacob. Yma y ffòdd Dafydd rhag Absalom, yr hwn a laddwyd gerllaw yma. 2 Sam. 2. 8—29. a 17. 24. a 19. 32.

MAHANEH-DAN, מחנה־דן [*trigfa Duw*] lle yn Judah, yn agos i Ciriath-jearim, a breswyliwyd gan y Daniaid. Barn. 18. 12.

MAHARI, מהרי [*yr hwn sydd yn prysuro*] Netophathiad o'r Sarhiaid. 2 Sam. 23. 28. 1 Cron. 27. 13.

MAHAZIOTH, מחזיאות [*gwledydd arwydd*] mab Hemam. 1 Cron. 25. 4.

MAHER-SHALAL-HAS-BAZ, [*prysuro i'r yspail*] un o feibion y prophwyd Esaiah. Gwel pen. 8. 1. Enw arallegawl, neu ddammegawl, oedd hwn, a barodd yr Arglwydd i'r prophwyd roddi arno, i arwyddo y byddai i'r Assyriaid brysuro yn fuan i gyflawni y barnedigaethau rhag-ddywededig ar Israel: 'Cyn y medro y bachgen alw fy nhad, neu fy mam, golud Damascus, ac yspail Samaria, a ddygir ymaith o flaen brenin Assyria.' Adn. 4. Pa un a oedd enw arall heblaw yr enw arwyddocâol hwn ar y bachgen, sydd anhysbys. Ysgrifenwyd y brophwydoliaeth ar rôl fawr, a galwyd am dystion ffyddlon i dystiolaethu, a rhoddwyd yr enw hwn ar y bachgen. yn arwydd o wirionedd y brophwydoliaeth, a sicrwydd o'r cyflawniad prysur o honi.

MAHLAH, מחלה [*dawn*] merch Salphaad. Num. 26. 33. a 27. 1. Jos. 17. 3. 1 Cron. 7. 18. Edr. Salphaad.

MAHLON, mab Elimelech a Naomi. Ruth 1. 2.

MAHOL, מחול [*cerdd*] tad Heman, Chalcol, a Darda. 1 Bren. 4. 31.

MAIL, MEILIAU, (my-ail) llestr ceuol, megys phiol, cibyn, cawg, carfan, godard.—'Yr holl fân lestri; o'r llestri meiliau hyd yr holl offer cerdd.' Esa. 22. 24.—*Vessels of flagons. Saes.*—*Heb.* אגן—Cyfieithir yr un gair *gorflwch*, Can. 7. 2.—yn y rhif lliosog, אגנות *cawgiau*, yn Exod. 24. 6.——'Hyd yr holl offer cerdd.'—'Hyd yr holl lestri gwaelach.' Dr. Lowth. Barna efe yr arwydda y gair נבלים *llestri gwael*, megis o bridd, yn frau, ac o ychydig werth, i ddefnydd cyffredin, mewn cyferbyniad i'r אגנות *cawgiau* aur ac arian a arferid yn y babell. Edr. Hoel. Cyfieithir yr un gair *ystenau pridd*, Galar. 4. 2.—*costrelau*, Jer. 48. 12. Gwel Vitringa, Lowth.

MAIN, (my-ain) cul, eiddil, tenau, achul, meindwf, addfain, llegach, gwael.—Edaf fain; llian main; pren main; dyn main; diod fain, sef gwan; dwfr yn rhedeg yn fain, sef yn ffrwd fechan; ymguddio yn fain, sef yn llechu yn ddirgel iawn.

Gnawd buan o *fain*. *Diar.*

Llian main. Exod. 25. 4. a 26. 1, 31, 36. a 27. 9, 16, 18. a 36. 37. a 38. 9, 18.

MAINC, (my-ainc) *Heb.* בנק (*banc*) ystôl, lletdring, eisteddle, gorsedd, lleithig, gorfainc. 1 Sam. 1. 9. Diar. 9. 14.

MAINT, (main) mawredd, maintiolaeth, amledd.

Ni wyl ynfydrwydd ei *faint*. *Diar.*

Priodolir maint i fawredd peth, i amledd, neu anrhydedd.—'Edrychwch faint oedd hwn.' Heb. 7. 4. Sef pa mor anrhydeddus oedd, ac uchel ei swydd.

MAINTIOLI, (maint) maintiolaeth.—'A phwy o honoch gan ofalu, a ddichon chwanegu un cufydd at ei faintioli.' Mat. 6. 27. Luc 12. 25.—'Un cufydd at ei oed, neu ei eidiogrwydd.' Dr. Doddridge.—'A estyn ei fywyd un awr.' Dr. Campbell. Mae y gair

Digitized by Google

ηλικια, yn arwyddo maintioli, a hefyd oed, neu amser bywyd dyn. Ioan 9. 21, 22, 23. Mae yr ystyr diweddaf yn ymddangos yn fwy naturiol a chyson âg amgylchiad y gair yn y fan hon. Ychydig y mae neb, onid plantos neu ynfydion, yn ofalu am eu maintioli corphorol; ond am gynnaliaeth bywyd, ac estyniad eu dyddiau, mae y rhan fwyaf o ddynion yn rhoddi eu holl ofal.—Priodoli y gair cufydd at einioes, neu oes dyn, sydd draws-symudiad cyffredin iawn yn yr ysgrythyrau; megys, 'Gwnaethost fy nyddiau yn (nid *fel*) ddyrnfedd.' Ps. 39. 5. Arferir y geiriau *πηχυιον επι χρονον*, am gufydd o amser, gan Mimnermus, hen brydydd.—Mae cyfeiriad yn y geiriau, medd Wetstein, at yrfa; mae y rhedegfa yn llawer o gannoedd o gufyddau o hŷd, o'r hon nid yw un cufydd ond cam. Duw sydd yn rhoddi bywyd, ac yn cynnal bywyd heb ein gofal ni, cyhyd ag y gwelo ef yn addas. Gwanychu ein grym, ac nid estyn ein dyddiau a wna ein gofalon anghymedrol.

MAIR, *Heb.* מרים *Miriam*, [*chwerw* neu *dyrchafedig*] *Gr.* Μαρια & Μαριαμ (*Maria & Mariam*).

1. **Mair** Forwyn, mam yr Arglwydd Iesu, yr hon a elwir weithiau Μαριαμ (*Mariam*). Mat. 1. 16, 18, 20. a 2. 11. a 13. 55. Luc 1. 27, &c. Act. 1. 14, &c. Merch Eli oedd, diammeu: gelwir Joseph yn fab Eli, sef yn fab mabwysiadol i Eli; a thrwy ei briodas â Mair ei ferch. Edr. MABWYSIAD. Jacob oedd tad naturiol Joseph, ac nid Eli; canys dywedir i Jacob *genedlu* (nid mabwysiadu) Joseph; ond am Eli, dywedir yn unig mai mab Eli oedd. Rhydd Luc âch naturiol Crist, yn profi mai hâd y wraig oedd, trwy ddangos ei genedliad o Mair ei fam hyd Adda: y mae Matthew yn rhoddi ei âch freninol o Solomon, a thrwy hyny yn dangos ei hawl i orseddfa Dafydd ei dad, ac i deyrnasu ar Israel. Y mae Mair o hiliogaeth Dafydd o'i fab Nathan, a Joseph o'i hiliogaeth o Solomon; nid Nathan biodd yr hawl i'r orsedd, ond Solomon, er bod y ddau o'r un tad a'r un fam: unwyd y ddwy gainc yn mhriodas Joseph a Mair, fel yr oedd hawl achau Nathan a Solomon i'r orsedd yn cydgyfarfod yn yr Iesu; a phan fu efe farw heb hiliogaeth, bu farw yr hawl gyd âg ef, fel nad oedd yn bosibl i'r swydd freninol wedi hyny barhau yn y llinach union-gyrchol a phriodol Dafydd—felly yr oedd y deyrnwialen wedi ymadael o Judah yn marwolaeth yr Iesu. Yr oedd y deyrnwialen yn llaw Herod a'r Rhufeiniaid, ac wedi marwolaeth yr Iesu, nid oedd neb â hawl gyfreithlon i'w gofyn yn ol. Rhydd Matthew linach etifeddion gorseddfa Dafydd, a'r rhai a ddylasent fod yn freninoedd ar Judah trwy dref-tadogaeth; hyny yw, yn cymeryd y mab hynaf yr holl ffordd, ac etifedd y goron; fel o'r diwedd buasai brenin Jacob, brenin Joseph, brenin Iesu. Fel hyn ymddengys neillduol briodoldeb yn mod y ddwy linach wedi eu rhoddi. Mair oedd ei fam naturiol, ac yn wirioneddol; yr oedd yn rhaid cael ei llinach hi, i ddangos ei fod yn wirioneddol o hâd Dafydd, yn ol y cnawd, yn hâd Abraham, ac yn wirioneddol o hâd y wraig: yr oedd y cig a'r gwaed a bechodd yn Eden wedi rhedeg yn llinach Mair, nes y daeth i undeb â Pherson Mab Duw, yn nynoliaeth Iesu, yr hwn yn cyfranogi o'r pethau a bechodd, a wnaeth iawn *â'r un* pethau am bechod. Yr oedd yr Iesu hefyd yn fab *cyfrifedig* Joseph; yn llinach Joseph yr oedd yr hawl flaenaf i'r goron, gan ei fod o achau Solomon; ac yn llinach Mair yn ail, fel un o hil Nathan, brawd Solomon, hŷn nag ef: cyfarfu y ddau yn yr Iesu. Pe buasai dim ond llinach Mair ar lawr, er y buasai hyn yn ddigonol i brofi ei ddynoliaeth yn ol yr addewid, buasai lle i ddadleu ei hawl union-gyrchol a blaenaf i'r orsedd; ond trwy roddi y ddwy gof-restr o'r achau, y mae yr achos yn benderfynol tu hwnt i bob dadl.

Am Mair, y mae yn ymddangos yn yr hanesiaeth sanctaidd yn enwog am ei ffydd a'i duwioldeb. Y mae gweddeidd-dra ei hymddygiad, pan gyfarchodd yr angel Gabriel hi, yn hynod o nodedig, ac yn rhagori ar bob peth cyffelyb a roddir hanes am dano, hyd yn nod yn y Bibl ei hun. Mae mawredd Duw, a'i gwaeledd ei hun, yn ei golwg, yn ymddangos yn hardd ac yn addas. Cafodd ffafr, diammeu, tu hwnt i holl ferched gwragedd; y mae yn cydnabod hyny yn ei chân ragorol; ac ar yr un pryd yn cyfaddef ei gwaeledd mawr i gyfranogi o'r fath fraint: 'Edrychodd (meddai) ar waeledd ei wasanaethyddes—yr hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd—wele, o hyn allan yr holl genedlaethau a'm geilw yn wynfydedig!' Yr oedd yn trigo yn Nazareth; gwedi ei chyfarchiad gan yr angel, aeth at Elizabeth ei chares, yr hon oedd yn preswylio yn Hebron, yn nghylch 90 o filltiroedd i'r dehau o Nazareth. Gorchymyn ymerawdwr Rhufain a barodd iddi hi a Joseph fyned i Bethlehem, yr amser yr oedd i esgor. Edr. IESU, GENI, BETHLEHEM. Bu fyw yn Nazareth, hi a'i mab, nes dechreu o hono ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Gwedi hyny cawn hanes am dani gyd âg ef mewn priodas yn Cana; yr oedd wrth y groes pan groeshoeliwyd Crist, yr hwn a'i gorchymynodd i ofal Ioan, y dysgybl anwyl, gyd â'r hwn y treuliodd weddill ei dyddiau. Ioan ii. a 19. 25, 26, 27. Diammeu iddi weled yr Iesu wedi ei adgyfodiad. Gwedi ei esgyniad yr oedd gyd â'r dysgyblion oedd yn parhau mewn gweddi ac ymbil yn Jerusalem. Gwedi hyn nid oes mwyach hanes am dani, ond yn ystoriau celwyddog yr Iuddewon a'r Pabyddion. Y mae y Pabyddion yn ei haddoli, yn gweddïo arni, ac yn eu hysbryd eilun-addolgar yn dangos mwy parch iddi nag i'w Mab.

2. Mair, chwaer Mair mam yr Iesu, gwraig Cleophas, a mam Iago, Judas, Joses, Simeon, a Salome, eu chwaer: gelwir ei meibion hi yn frodyr yr Arglwydd Iesu. Ioan 19. 25. Mat. 13. 55. a 27. 56. Marc 15. 40. a 6. 3. Luc 25. 10. Credodd yn fore yn yr Iachawdwr, gwrandawodd ei bregethau, ac yr oedd yn gweini iddo at ei gynnaliaeth. Yr oedd yn bresennol pan groeshoeliwyd Crist, ac wrth ei gladdedigaeth, ac a barotôdd, gyd â'r lleill, bêr-aroglau ac enaint i eneinio ei gorph. Luc 23. 56. Edr. IAGO.

3. Mair, chwaer Martha a Lazarus. Merch enwog am ei duwioldeb, a hoff gan yr Iesu. Luc 10. 39, 42. Ioan xi. Edr. LAZARUS, MARTHA.

4. Mair, ó dref Magdala yn Galilea, tu hwnt i'r Iorddonen, neu un arall ar fôr Tiberias, a elwir yn gyffredin Mair Magdalen. Bwriodd yr Iesu saith gythraul allan o honi. Mat. 27. 56, 61. a 28. 1. Marc 15. 40, 47. a 16. 1. Dychymygir mai hi oedd y wraig oedd bechadures, yr hon a olchodd draed yr Iesu â'i dagrau, ac a'u sychodd â gwallt ei phen, yn nhŷ Simon y Phariseaid. Luc 7. 37, &c. Ond nid yw hyny yn ymddangos i mi yn debygol, oddiwrth y desgrifiad a roddir o Mair Magdalen yn Luc 8. 2. Nid yn ninas Magdala yr oedd yr Arglwydd Iesu yn nhŷ Simon, ond, tebygol, yn Capernaum (neu Nain, Calmet) lle yr oedd yr Arglwydd Iesu yn aros yn gyffredin, ac a elwir yn aml mewn ffordd gyffredin *y ddinas*; gwraig yn y ddinas hòno oedd y bechadures, ac nid yn Magdala: ac nid yn Bethania chwaith, lle trigai Mair chwaer Martha; canys y mae Grotius, Lightfoot, ac eraill, wedi meddwl mai Mair o Bethania oedd hi; ond mae hyny yn hollol ddisail, ac yn anghyfateb i bob hanes arall a gawn am Mair chwaer Martha. Gwel Lightfoot, Doddridge, Macknight. Yr oedd hi gyd âg ef yn ei daith ddiweddaf o Galilea i Jerusalem, ac yn edrychreg athrist o'i groeshoeliad, ac yr oedd yn cyd-barotoi y pêr-aroglau gyd â'r gwragedd eraill. Ioan 19. 25. Luc 23. 55, 56. Iddi hi yr ymddangosodd yr Arglwydd Iesu gyntaf wedi ei adgyfodiad. Mat. 28. 9, 10. Ioan 20. 1.—18.—



Digitized by Google

Y mae Mair Magdalen, η Μαγδαληνη, *y Fagdalen*, yn ymddangos o uchafiaeth, ac yn oludog, ac a enwir o flaen Susanna gwraig Cusa, gwr mor fawr a goruchwyliwr Herod. Luc 8. 2. Y mae yn ymddangos yn mhob man fel y flaenaf, a'r enwôcaf o'r gwragedd oedd yn canlyn yr Arglwydd Iesu. Beth bynag am ei hamgylchiadau yn y byd, mae yn ymddangos yn llawn o anwyldeb a serchogrwydd duwiol at yr Arglwydd Iesu; yn llawn o dristwch wedi ei farwolaeth, ac o lawenydd cyfatebol wedi ei adgyfodiad. Mae yr hanes am dani yn Ioan xx. yn dirion ac yn hardd, yn dangos agwedd ei meddwl yn gynhyrfus, yn athrist, yn llawn cariad ac anwyldeb; y mae ei holl enaid yn ymddangos yn nglŷn wrth un gwrthddrych, ac mae ei meddwl yn gynhyrfus sanctaidd gan dristwch neu lawenydd, yn ol amgylchiadau y gwrthddrych. Pan oedd yn farw, mae yn athrist, ac yn foreu yn ymofyn am dano: pan yr ymddangosodd iddi yn fyw, mae y teimladau hyfryd o'r ochr arall yn gorlenwi ei hysbryd sanctaidd â gorfoledd. Dywedir iddi dreulio y rhan olaf o'i bywyd gyd â'r apostol Ioan, ac iddi ddyoddef merthyrdod yn Ephesus: ond nid oes sicrwydd am hyny.

5. Mair, mam Ioan, yr hwn oedd a'i gyfenw Marc. Act. 12. 12.

6. Un arall o'r enw a goffëir gyda chanmoliaeth gan Paul. Rhuf. 16. 6. 'Cymerodd lawer o boen erom ni.'—'A lafuriodd yn fawr erom ni,' ymyl y ddal.—'A dravaelodd yn vawr erom ni.' W. S.—'*Who bestowed much pain on us*' *Saes.*—Arnom ni, εις ημας, *yn ein plith*, neu *gyda ni*. Gwel Macknight. Tebygol ei bod yn llafurus yn taenu yr efengyl, yr un fath a Tryphena a Thryphosa, y rhai a gymerasant boen, neu a fuant lafurus (τας κοπιωσας) yn Rhufain. Llafurus a gweithgar yn achos yr efengyl, yn benaf, tebygol, yn mhlith y rhyw fenywaidd, ac yn neillduol, nid yn gyhoeddus.

MAL, (ma-al) cysyllt: tebyg; fel; mal pe bai; mal hyn.

MALACHI, מלאכי [*fy nghenad* neu *fy angel*] yr un gair ag a arferir am ragflaenor Crist, ac yn agos yr un gair a arferir am Grist ei hun. Gwel pen. 3. 1. Nid oes dim hysbysrwydd pwy ydoedd; hwyrach iddo gael ei alw wrth yr enw hwn, oddiwrth y prophwydoliaethau hyn, a'i swydd fel prophwyd; a thebygol bod iddo enw arall. Yr oedd yr hen Iuddewon yn barnu nad enw priodol oedd Malachi, ond enw o swydd, ac yr oeddynt hwy yn barnu mai Ezra oedd. Ond, medd Vitringa, nid ydyw Ezra mewn un man yn cael ei alw yn brophwyd. Vitringa a farna mai Haggai y prophwyd ydoedd, oddiwrth y geiriau yn Hag. 1. 13. yn y rhai y mae yn galw ei hun, 'Cenad yr Arglwydd.' מלאך יהוה *malac Iehofah.* A llefarodd trwy genadwri yr Arglwydd, במלאכות יהוה *bemalacot Iehofah.* Y mae yr י (*iod*) yn niwedd y gair Malachi yn sefyll am Iehofah. Y mae un llythyren, yn aml, yn yr enwau Hebraeg, yn sefyll am air, megys ה yn y gair אברהם Abraham a Sarah; a'r י (*iod*) yn y gair יהושע Josuah, yn ychwanegol at y gair הושע *Hashuah*, ac yn arwyddo Iehofah. Vitringa, *Obs. Sacr. lib.* iv. *cap.* 7.

Mae yn ymddangos fel y diweddaf o'r prophwydi o ran amser; a'i fod yn cyd-oesi â Nehemiah, neu yn byw wedi ei amser ef. Dyben ei brophwydoliaeth yw argyhoeddi a diwygio llawer o annhrefn, a phechodau echryslon yn mhlith yr Iuddewon, yn enwedig yr offeiriaid: cyhoeddi dyfodiad y Messiah yn agos; effeithiau ei ddyfodiad ar amrywiol fath o ddynion; ac i ddysgu y bobl pa fodd i ddysgwyl am dano, ac ymbarotoi gyferbyn a hyny.

Y mae hefyd yn cynnwys prophwydoliaethau am alwad y cenedloedd, a thaeniad helaeth yr efengyl yn y byd. Ansicr a gyfodwyd prophwyd wedi Malachi yn mhlith yr Iuddewon, cyn dyfodiad Crist, y penprophwyd mawr; sef dros 400 mlynedd. Gan iddo brophwydo yn neillduol am Ioan Fedyddiwr, a dyfodiad buan Crist, cyfeirir ato yn aml yn y Testament Newydd. Cymh. pen. 3. 1. â Mat. 11. 10. Marc 1. 2. Luc 7. 27. a 4. 5, 6. Mat. 17. 10, 11, 12. Marc 9. 11, 12. Luc 1. 16, 17.

MALAIS, MALEISUS, *Llad.* Malitia; *Saes.* Malice; cenfigen, llid, dygen. Casineb at berson un, yn tueddu i dalu drwg am dda. Y gair *Gr.* κακια, a gyfieithir *malais*, a gyfieithir y rhan amlaf *drygioni;* megys Mat. 6. 34. Act. 8. 22. Rhuf. 1. 29. 1 Cor. 14. 20. Eph. 4. 31. Col. 3. 8. Tit. 3. 3. 1 Petr 2. 1. Arwydda ddrwg yn gyffredinol, yn neillduol casineb, anghariadoldeb, &c. Ystyr anarferol yw gorthrymderau, profedigaethau, &c. yn Mat. 6. 34 Hwyrach mai anniweirdeb neu anlladrwydd a feddylir yn Rhuf. 1. 9. Iago 1. 21.

MALCHAM, mab Ehud, o'i wraig Hodes. 1 Cron. 8. 9.

MALCHIAH, מלכיה [*yr Arglwydd yw fy mrenin*] y mae amryw o'r enw hwn. Gwel 1 Cron. 6. 40. a 9. 12. a 24. 9. Ezra 10. 25. Neh. 3. 11—14. Jer. 21. 1. a 38. 6.

MALCHIEL, מלכיאל [*y brenin, fy Nuw*] mab Beriah, mab Asur; penaeth teulu y Malchieliaid yn nyddiau Moses. Num. 26. 45.

MALCHIRAM, מלכירם mab Jechoniah. 1 Cron. 3. 18.

MALCHISUA, מלכישוע [*fy mrenin yw fy iachawdwr*] trydydd mab Saul, ac a laddwyd yn ymladdfa ar Gilboa. 1 Sam. 31. 2.

MALCHUS, Μαλχος [*brenin*] gwas yr archoffeiriad, yr hwn a torodd Petr ei glust. Ioan 18. 10. Efe, tebygol, oedd y blaenaf a'r mwyaf prysur yn dal yr Iesu. Hwyrach i Judas, wedi ei fradychu, ymguddio yn y dyrfa, ac onidê, tebygol, na buasai Petr, yn ei anmhwyllder poethlyd, ddim yn ei arbed ef mwy na Malchus. Er bod y weithred yn ymddangos yn wrol, etto, mewn gwirionedd, gweithred annoeth iawn ydoedd, ac a allasai fod o ganlyniadau niweidiol i Grist a'i ddysgyblion: ond yr oedd pawb, hyd yn nod ysbrydoedd ei elynion, dan awdurdod Crist. Tebygol na thorwyd y glust ymaith, gan i Grist ei iachâu trwy gyffwrdd âg ef. Luc 22. 51.

MALOTHI, מלותי [*cyflawnder*] mab Heman. 1 Cron. 25. 4—29.

MALU, (mal) *Heb.* מל *mal; Gr.* μυλλω; *Llad.* Molo: malurio, dryllio, gwneuthur yn fân. Edr. Melin.

MALURIO, (malur) cymrywio, briwio, curo yn fân, maeddu yn fân.—'Y rhai a falurir yn gynt na gwyfyn.' Job 4. 19. לפני *ger bron*, neu *yn ngwydd gwyfyn;* neu o'i flaen o ran amser, fel y mae ystyr y gair לפני yn Gen. 27. 7. a 29. 26. a 36. 31. Geiriau yn dangos breuder dyn rhagor un creadur arall.

MALUR—ION, (mal-wr) rhanau toredig; pethau wedi eu tori yn fân.—'A'r wraig a gymerth ac a ledodd glawr ar wyneb y pydew, ac a daenodd arno falurion ŷd.' 2 Sam. 17. 19. Arwydda y gair *Heb.* רפות rhyw fân bethau wedi eu pwnio, hwyrach, wedi eu rhoddi yno i sychu. Byddai yr arfer ganddynt i wlychu yr haidd, a'i roddi i sychu yn yr haul, ac wedi hyny ei bwnio mewn morter â phestl pren i gael y cibau i ffordd, yna rhoddent ef i'w gadw i'w ddefnyddio pan y byddai ei eisieu. Mae y cyffelyb barotoadau ar yr ŷd yn mhlith y bobl ddwyreiniol hyd

Digitized by Google

heddyw, dan yr enwau *burgle* a *sawilk*. Yr oedd y cyfryw arferiad yn adnabyddus hefyd i'r hen Roegwyr a'r Rhufeinwyr. Pliny's *Nat. Hist.*, *lib.* xviii., *cap.* 7. *ad. fin.* Russel's *Natural History of Aleppo.* Harmer's *Obs.*, *vol.* i.

MALWOD—EN, (malw) malwen: malwen ddu, malwen wen. Creadur digon adnabyddus, bras, a hawdd ei doddi i farwolaeth gan wres yr haul neu ychydig halen. Y mae yn niweidiol i'r ŷd a'r llysiau gerddi. Mae llygaid y malwod yn gywrain iawn yn eu cyrn, i'w hanfon allan er canfyddiad, ac i'w tynu i mewn er diogelwch wrth eu hewyllys. Y mae rhai o honynt yn trigo mewn cregyn a ffurfir o wlybwr eu cyrph eu hunain. Yr oedd y Rhufeiniaid ac eraill, yn ymborthi arnynt; ond yr oeddynt yn waharddedig i'r Iuddewon. Lef. 11. 30.——'Aed ymaith fel malwoden dawdd.' Ps. 58. 8. Sef yn fuan, yn hawdd, ac o honynt eu hunain.

MALLDER—DOD, (mall) llygriad, llygredigaeth, pydrni, pydredd, braenysigrwydd; anlladedd, anlladrwydd; diflasrwydd. Afiechyd mewn ŷd oddi wrth ormod gwlybwr, ag sydd yn ei ddyfetha. Deut. 28. 22. 1 Bren. 8. 37. 2 Cron. 6. 28. Amos 4. 9.

MAM, (ma-am) *Heb.* אם (am) *Llad.* MATER; *Saes.* DAME; rhian; benyw yr hon y cenedlir ynddi, ac a esgor ar yr hyn a genhedlwyd.—'Y fam eglwys;' sef yr hon a sefydlodd eglwysi eraill, ac sydd â gofal am danynt. Mam iaith; sef iaith heb ddeilio o ieithoedd eraill, ond y mae ieithoedd eraill yn ddeilliedig o honi. Mam gu; sef nain; mam wen, sef mam yn nghyfraith; y fam eni, sef syrthiad y groth; gwaith y fam, sef llewyg y fam; y fam, sef y groth.

Cynhen sydd yn *fam* i fwy o gythreuliaid noc un arall o wragedd y diawl. *Diar.*

Yn yr ysgrythyrau, mam a arwydda, 1. Yr hon a ddygodd blentyn. Exod. 2. 8.——2. Y fenyw o'r anifeiliaid a fwriodd lwdn. Exod. 23. 19.

Arwydda hefyd yr enw hwn, 1. Y wir eglwys yn yr hon y cenedlir ac y meithrinir pob gwir gredadyn. Gal. 4. 26.——2. Credinwyr eu hunain, y rhai ydynt yn agosach ac yn anwylach i Grist na'r trasau agosaf. Mat. 12. 49, 50.——3. Un sydd yn caru arall yn anwyl, fel mam ei phlentyn. Rhuf. 16. 13.——4. Gwraig wrol, ddewr. Barn. 5. 7.——5. Hynafwraig, oedranus, at yr hon y dylem ymddwyn yn dirion ac yn garedig, fel plant tu ag at eu mam. 1 Tim. 5. 2.——6. Unrhyw wraig, neu fenyw, goruwch i ni, naill ai ein mam naturiol, mam wen, neu fam o ran oedran, neu o ran ei llywodraeth arnom, neu ei haddysg i ni. Exod. 20. 12.——7. Breniniaeth Judah, neu ddinas Jerusalem, neu deulu Dafydd. Ezec. 19. 2—10.——8. Prif ddinas gwlad neu genedl. 2. Sam. 20. 19. Edr. EFA.

'Unig ei mam yw hi, dewisol yw hi gan yr hon a'i hesgorodd.' Can. 6. 9. Ei mam yw y Jerusalem uchod, yr hon yw ein mam ni oll; mae gan ei mam feibion, sef rhai mewn enw felly, heb fod yn wirioneddol, ac yn cyfranogi o'r dduwiol anian. Can. 1. 6. Bastarddiaid ydynt, ac nid meibion; ond unig yw hi yn eu plith; mae yn rhagori arnynt oll; mae yn tebygu mewn modd unigol i'w mam; mae yn anwyl fel unig ei mam; ni charodd mam erioed ei hunig ferch yn fwy nag y mae Crist yn caru yr eglwys.

'Mam-lleiddiaid.' 1 Tim. 1. 9. μητραλωαις *mamdarawyddion.* Mae y gair αλοαω yn arwyddo *dyrnu*, ac yn draws-symudol, *taro;* taro yn drwm ac yn greulawn. Mae taro tad neu fam yn farwolaeth yn ol cyfraith Duw. Cymh. Exod. 21. 15.

MAMMAETH—OD, (mam-maeth) maeth-wraig, mâg-wraig, magai. Gen 24. 59. 1 Thes. 2. 7. Esa. 49. 23.

Afiaithus pob *mammaeth.* *Diar.*

MAMMON, *Gr.* μαμωνας, *cyfoeth, golud.* Barna Castel. fod tarddiad y gair oddiwrth אמן (*amen*) *ymddiried;* am fod dynion yn dueddol i ymddiried mewn golud. Sylwa Awstin, fod y gair yn iaith Carthage yn cyfateb i'w ystyr Heberaidd, ac yn arwyddo *elw*. Dynsoddir cyfoeth yn hardd gan ein Hiachawdwr, a gosodir ef allan fel meistr sydd yn cyd-ymgais â Duw am y llywodraeth yn ein calonau. Ni ddichon neb wasanaethu y ddau; 'O châr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.' 1 Ioan 2. 15. Mat. 6. 24.

'Gwnewch i chwi gyfeillion o'r mammon anghyfiawn; fel, pan fo eisieu arnoch, y'ch derbyniont i'r tragywyddol bebyll.' Luc 16. 9. Gelwir golud yma yn anghyfiawn, sef twyllodrus, mewn cyferbyniad i beth sydd yn wirioneddol, ac yn sylweddol. Gwel adn. 11. Y mae y gair *Gr.* αδικια yn arwyddo, nid yn unig anghyfiawn, ond hefyd anffyddlawn, mewn cyferbyniad i wirionedd. Cymh. Rhuf. 1. 18. a 2. 8. â Deut. 19. 19. Mic. 6. 12. yn Hebraeg. 'Gwnewch gyfeillion a'r mammon anghyfiawn,' medd rhai:* y mae y cyfieithiad hwn yn cyfateb i ymddygiad y goruchwyliwr anghyfiawn, yr hwn yn gall a wnaeth iddo gyfeillion a'i derbyniai i'w tai, pan y bwrid ef allan o'i oruchwyliaeth. Bydd pob peth yn elyn, neu yn gyfaill i ni, yn nydd y farn, yn ol y defnydd a wnaethom o honynt yn y byd hwn. Bydd rhwd arian rhai yn dystiolaeth yn eu herbyn, ac a fwyty eu cnawd fel tân. Iago 5. 3. Bydd tiriondeb a haelioni y lleill yn dirion yn tystiolaethu o'u plaid. Mat. xxv.

'Fel pan fo eisieu arnoch, y'ch derbyniont,' &c. Y mae y geiriau i'w deall yn annynweddiadol, sef fel y *caffoch eich derbyn:* yr un fath a'r geiriau yn Mat. 19. 5. *Ac efe a ddywedodd*, hyny yw, *dywedwyd*, nid gan Dduw, ond gan Adda, neu yr ysgrifenydd. Gen. 2. 24. Felly yn Luc 6. 38. *a roddant*, yn lle a *roddir*—Luc 12. 20. a *ofynant*, yn lle a *ofynir*—Luc 23. 31. *os gwnant hyn*, yn lle *os gwneir hyn.* Felly yma, *y'ch derbyniont*, yn lle *y caffoch eich derbyn.* Nid *anghyfiawnder* y goruchwyliwr y mae Crist yn ei ganmol, ond ei gallineb a'i rag-ddarbodiad; yn hyn y mae yn ei osod yn gynllun i bawb, fel y defnyddiom bob peth fel y byddo mwyaf cysurus i ni mewn amser i ddyfod. Y mae iawn-ddefnyddiad, neu gam-ddefnyddiad, o drugareddau y bywyd hwn, neu ein meddiannau bydol, yn myned yn mhell tu ag at brofi natur ein cyflwr rhyngom â Duw, a'r anian sydd yn llywodraethu arnom. Y mae pob peth yn elyn neu yn gyfaill i ni, yn ol y defnydd a wnelom o hono.

MAMOG—IAID, (mam) yr hon sydd yn feichiog; yr hon sydd yn fam â rhai ieuainc ganddi; y groth. —'Ac a goledda y mamogiaid.' Esa. 40. 11. 'Mammogiaid;' cyfieithir y gair עלות *blithion*, yn Gen. 33. 13. 1 Sam. 6. 7, 10.—*cyfebron*, yn Ps. 78. 71. Oddiwrth 1 Sam 6. 10. mae yn eglur fod y gair yn arwyddo *blithion;* ond hwyrach ei fod yn arwyddo *cyfebron* hefyd.—'Goledda;' '*Gently lead*,' *Saes. a dywys yn araf.* 'Yr hwn a dosturia wrthynt a'u tywys.'

'Arweiniaist yn dy drugaredd y bobl y rhai a waredaist.' Exod. 15. 13. Esa. 49. 10. Y mae yr un gair נהל yn cael ei gyfieithu, *cynnal â bara*, Gen. 47. 17. Mae y gyffelybiaeth yn hardd, medd Lowth, yn gosod allan, gyd â'r priodoldeb mwyaf, ofal tyner y bugail am ei braidd; sef yr Arglwydd Iesu, am ei bobl weiniaid, lwythog, a phrofedigaethus; y mae fel Jacob a'i deulu, yn eu harwain yn araf ac yn dirion, yn eu cynnal, ac yn eu porthi ar eu taith, ac yn eu hamddiffyn rhag eu gelynion. Syr John Chardin, yn rhoddi hanes y rhai sydd yn bresennol yn byw yn ngwledydd y dwyrain yn null y patrieirch, a ddywed,

* Gwel Doddridge, Campbell.

Digitized by Google

'Mae y deadellau, o herwydd eu rhifedi, yn pori i lawr leoedd eu gwersyllfaoedd mor fuan, fel y mae gorfod arnynt eu symud yn rhy aml; yr hyn sy niweidiol iawn i'w deadellau, o herwydd y rhai ieuainc, y rhai sydd yn rhy weiniaid i'w dilyn.' Gwel Harmer's *Obs.*, *vol.* i.

MAMRE, ממרא [*gwrthryfelgar*] Amoriad, brawd Escol, ac Aner, y rhai a gynnorthwyasant Abraham yn erbyn Cedorlaomer. Cafodd y gwastadedd yn agos i Hebron ei enw oddi wrtho. Gen. 13. 18. a 14. 13.

MAN, (my-an) *Heb.* מקום *mecum;* mewn, lle, mangre; cyfamser, enyd; nôd; yn y man, sef allan o law, heb oedi; y fan dywyllaf, sef yr amser tywyllaf; y fan a'r fan, sef y cyfryw le; man geni, a man cynhenid, sef nôd o'r groth ar ddyn. Exod. 20. 42. Esa. 22. 23. Mat. 28. 6. Heb. 11. 8.

MAN, (ma-an) main, eiddil, gwael, bychan, bach. Gen. 31. 8. Exod. 16. 14. a 30. 36. Esa. 40. 15.

MANAEN, prophwyd ac athraw Cristionogol yn yr eglwys yn Antiochia. Gan ei fod yn cael ei alw yn frawd-maeth Herod Antipas, y tetrarch, yr hwn a dorodd ben Ioan Fedyddiwr, tebygol ei fod o sefyllfa oruchel, ac yn ŵr llys. Act. 13. 1. Ni wybyddis dim ychwaneg am dano: dywed rhai ei fod yn un o'r deg a thriugain, a'i fod yn fab i fammaeth Herod, ac felly eu bod yn cael eu cyd-fagu.

MANASSEH, מנשה [*anghof*] 1. Un o feibion Pahath-Moab. Ezra 10. 30.

2. Mab hynaf Joseph, ac ŵyr Jacob. Gen. 41. 50, 51. Yn ol prophwydoliaeth Jacob am dano, nid oedd ei hiliogaeth mor lliosog ag Ephraim ei frawd. Gen. xlviii. 1 Cron. 7. 14. Nid yw yn ymddangos fod ganddo ond dau fab, Machir ac Asriel. Num. 26. 29—32. Pan ddaethant allan o'r Aipht, rhifedigion eu milwyr oeddynt 32,200. Gamaliel mab Pedasur oedd eu tywysog. Num. i, ii. Cynnyddasant yn yr anialwch i 52,700. Yn ngwersyll Ephraim yr oeddynt yn eu teithiau yn yr anialwch. Eu hyspîwr oedd Gadi mab Susi. Num. xiii. Un hanner llwyth Manasseh a gawsant eu hetifeddiaeth o du y dwyrain, a dwyrain-ogledd i fôr Tiberias; a'r hanner arall o du y gorllewin i'r Iorddonen, i'r gogledd i lwyth Ephraim. Num. 32. 33—42. Jos. 13. 29, 30, 31. a xvi, xvii. Yr oedd pedwar o'r Barnwyr o'r llwyth hwn; sef Gedeon, Abimelech, Jair, a Jephthah; yr oedd Barzilai, ac Elias y prophwyd, o'r llwyth hwn. Er iddynt wrthgilio gyd â'r naw llwyth eraill, etto bu gradd o ddiwygiadau yn eu plith yn amser Asa, Hezeciah, a Josiah. 2 Cron. 15. 9. a xxx, xxxi. A dychwelodd rhai o honynt o Babilon gyd â'r Iuddewon, ac a breswyliasant yn Jerusalem. 1 Cron 9. 3.

3 Mab Hezeciah, brenin Judah, o'i wraig Hephsibah. Daeth i'r orsedd ar ol ei dad, pan oedd yn ddeuddeg mlwydd oed, a theyrnasodd 55 o flynydd oedd. Yr oedd yn ddrwg anarferol, a gwnaeth i Judah a thrigolion Jerusalem gyfeiliorni, a gwneuthur yn waeth na'r cenedloedd a ddyfethasai yr Arglwydd o flaen meibion Israel. Pleidiodd bob math ar eilunaddoliaeth i'r gradd mwyaf o ynfydrwydd a halogedigaeth, a thywalltodd lawer o waed gwirion y rhai a lefarasant wrtho oddiwrth yr Arglwydd, 'hyd oni lanwodd efe Jerusalem,' פהלפה *o ymyl i ymyl.* Yn nghylch y ddwyfed flwyddyn ar hugain o'i deyrnasiad, Esarhadon, brenin Assyria a Babilon, a'i luoedd, a oresgynasant y wlad, ac a ddaliasant Manasseh mewn dyrysni, ac a'i rhwymasant ef â dwy gadwyn, ac a'i dygasant ef i Babilon. 'A phan oedd gyfyng arno ef, efe a weddïodd ger bron yr Arglwydd ei Dduw, ac a ymostyngodd yn ddirfawr o faen Duw ei dadau—ac efe a fu foddlawn iddo, ac a wrandawodd ei ddymuniad ef, ac a'i dug ef drachefn i Jerusalem i'w freniniaeth. Yna y gwybu Manasseh mai yr Arglwydd oedd Dduw.' Wedi ei ddychweliad, diddymodd yr eilun-addoliaeth a osodasai i fynu o'r blaen, ac adferodd addoliad yr Arglwydd; cadarnhaodd a chwanegodd Jerusalem, ac a osododd dywysogion y llu yn holl ddinasoedd caerog Judah. Wedi teyrnasu 55 o flynyddoedd, ac yn 67 o'i oed, bu farw yn Jerusalem, a chladdasant ef yn ngardd ei dŷ ei hun, sef gardd Uzza. 2 Bren. xxi. 2 Cron. xxxiii.

Er iddo gael gwir edifeirwch, a maddeu ei bechodau, o ran y gospedigeth dragywyddol am danynt, etto cospwyd y genedl o herwydd ei bechodau. Yr oeddynt yn gyffredinol gwedi ymlygu gyd âg ef, ac heb gael edifeirwch am eu pechodau, a dychweliad trwyadl cyffredinol oddi wrthynt. Tebygol, er ei edifeirwch, na chai mo'r anrhydedd o gael ei gladdu gyda breninoedd teulu Dafydd, o herwydd ei eilunaddolaeth, a'i bechodau dirfawr eraill.

Yn hanes rhyfedd y gwr hwn, gwelwn gynllun, 1. O droion rhyfedd rhagluniaethau Duw ar y byd; wedi holl ymdrechiadau Hezeciah i ddywigio y wlad, dyma ei fab yn cyfodi ar ei ol, ac yn dadwneyd y cwbl. 'Un pechadur a ddinystra lawer o ddaioni.' Preg. 9. 19. Collodd ei dad duwiol yn ieuanc, a syrthiodd, tebygol, i ddwylaw dynion llygredig, hollol amddifad o ysbryd ei dad. Y mae yn eglur oddiwrth y canlyniadau, nad oedd diwygiad Hezeciah, o ran llawer o drigolion y wlad, yn enwedig y blaenoriaid, ond hannerog, rhagrithiol, ac anewyllysgar. Yr oedd y pendefigion, y rhai oeddynt gynghoriaid i'r bachgen Manasseh, yn gogwyddo at eilun-addoliaeth; trwy weniaith a mwyneidd-dra, cawsant ganddo gyflawni eu holl ewyllys, a hwyrach, ragori ar eu dymuniadau. Mat. 23. 15. Yn fuan wedi marw Hezeciah, darfu y diwygiad, a chynnyddodd y dirywiad, nes dwyn Manasseh i Babilon. Yr oedd Hezeciah yn fab i dad annuwiol, ac yn dad i fab mwy annuwiol. Er hyny, cafodd Hezeciah y fraint arbenig o ddwyn tystiolaeth mewn amseroedd llygredig yn erbyn drygioni yr oes, a bod yn offeryn o fendith dragywyddol, diammeu, i lawer.

2. Y mae yn gynllun, hefyd, o raslonrwydd a gallu gras Duw; yn ei gyfyngder darostyngwyd ef am ei bechodau, a dychwelwyd ef at yr Arglwydd. Er ei holl bechodau, cafodd drugaredd; ac er y gradd mawr y llygrwyd ef gan bechod, etto, cafodd ei gyfnewid. Nid ei gyfyngder a'i cyfnewidiodd, ond Duw yn ei gyfyngder a ymwelodd âg ef, ac a amlygodd ei hun iddo. Dywedir am Ahaz taid Mannasseh, 'A'r amser oedd gyfyng arno ef, efe a chwanegodd drosedd u yn erbyn yr Arglwydd.' 2 Cron. 28. 22. Felly y gwnaethai Manasseh, oni buasai i'r Arglwydd dynu y galon gareg o'i gnawd, a rhoddi calon ac ysbryd newydd iddo. Dangosodd Duw 'ragorol olud ei ras,' yn ei achubiaeth; a rhoddodd brawf nodedig, 'na fydd dim yn anmhosibl gyda Duw.'

3. Mae natur gwir edifeirwch i'w weled ynddo yn dra amlwg. Mae yn ymostwng yn ddirfawr o flaen Duw—yn gweddïo ger bron Duw—yn adnabod mai yr Arglwydd oedd Dduw—yn dychwelyd ato—yn dadwneyd ei holl weithredoedd annuwiol o'r blaen—yn codi addoliad Duw i fynu: 'Cyweirodd allor yr Arglwydd, ac a aberthodd arni hi ebyrth hedd a moliant; a dywedodd hefyd wrth Judah am wasanaethu Arglwydd Dduw Israel.' Nid gwaith hannerog ac amserol yw gwaith cadwedigol Ysbryd Duw ar eneidiau dynion, ond gwaith cyflawn, trwyadl, ac i bara byth. Dywedir drachefn a thrachefn iddo weddïo ar yr Arglwydd, ac i'r Arglwydd wrando ei ddymuniad; tebygol fod ymostyngiad, taerineb, a dyfal barhad neillduol yn ei weddi, cyfatebol i erchylldra ei fai. Mae ynddo ymostyngiad—ymadawiad

Digitized by Google

oedd y manna â pha un y porthodd yr Arglwydd yr Israeliaid yn yr anialwch yn hollol wyrthiol; ac y mae yn amlwg oddiwrth yr hanes ei fod yn gwbl anadnabyddus iddynt hwy cyn a chwedi hyny. Yr oedd yn disgyn yn rheolaidd o'r nefoedd, o ran mesur, lle, ac amser. Yr oedd dau cymaint y chweched dydd—dim y seithfed—ac yn peidio wedi darfod eu teithiau—yn magu pryfed ac yn drewi os cadwent ef noswaith, yn groes i orchymyn yr Arglwydd; ond yn para yn ei flas dros y Sabboth, yn ol y gorchymyn. Ymddengys oddiwrth hyn ei fod yn gwbl wyrthiol, ac nid yn ol trefn gyffredin naturiaeth; ac wedi ei fwriadu, nid yn unig i fod yn gynnaliaeth i'r bobl yn yr anialwch, ond hefyd i fod yn gysgod neillduol o Grist, fel yr oedd agos bob peth perthynol i'r daith ryfedd hòno yn yr anialwch. Edr. TAITH. O herwydd hyn y geilw yr apostol ef βρωμα πνευματικον, *bwyd ysbrydol*, sef bwyd yn arwyddo peth ysbrydol. 1 Cor. 10. 3. Dywed Crist yn helaeth mai efe yw y *gwir fara*, gwrth-gysgod y manna, y mae y Tad yn ei roddi o'r nef. Ioan 6. 32.

Am y manna:—1. Ei lun oedd *grwn:* 'tipynau crynion.' Exod. 16. 14. רק מחספס *tipynau mân fel wedi eu pwnio mewn morter*, medd Parkhurst;* oddiwrth y darn diweddaf o'r adnod, yn dywedyd ei fod cyn *faned* a'r llwydrew ar y ddaear, ymddengys mai bychander y tipynau, ac nid eu crynder, a feddylir wrth y geiriau. Cyffelybir ef yn ei lun a'i faintioli i hâd coriander a'r llwydrew. Yn ei fychanrwydd, yr oedd yn cysgodi Crist yn ei iselder a'i ddarostyngiad, o ran ei natur ddynol, a'i amgylchiadau yn y byd. Ps. xxii, xl. Esa. liii.

2. Yr oedd o ran ei liw yn *wyn*. Nid fel hâd coriander, yn wyn; canys nid gwyn yw lliw yr hâd hwnw;† ond fel coriander yn ei lun a'i faint:‡ ac yr oedd ei liw fel lliw bdelium. Perl gwerthfawr, dysgleirwyn *(translucidum)* oedd y bdelium, medd Bochart, Witsius, &c. Yn hyn yn cysgodi purdeb a pherffeithrwydd Crist.

3. Yn ei flas yr oedd fel afrllad o fêl, ac fel olew ir. Exod. 16. 31. Num. 11. 8. Fel mêl cyn ei guro, neu ei falu, neu ei ferwi a'i barotoi, ac fel olew ir wedi ei wneuthur yn deisenau.§ 'Fel afrllad o fêl,' *fel dil mêl. Syr.* Y mae gair o'r un gwreiddyn yn cael ei gyfieithu *dil, diliau*. Ps. 19. 10. Diar. 16. 24. Y mae y geiriau yn arwyddo yn eglur fod ei flas yn dra hyfryd; ac yn hyn yn cysgodi y melusder a'r hyfrydwch anghydmarol sydd yn yr Arglwydd Iesu i bawb sydd yn ei adnabod, ac yn ei brofi. Ps. 34. 8. 1 Petr 2. 3.

4. Yr oedd yn disgyn ar gaenen o wlith, ac yn cael ei orchuddio gan gaenen o wlith. 'A phan ddisgynai y gwlith y nos ar y gwersyll, disgynai y manna arno ef.—A phan gododd y gaenen wlith, wele ar hyd wyneb yr anialwch dipynau crynion.' Num. 11. 9. Exod. 16. 14. Yn cyfeirio at hyn, tebygol, y gelwir Crist y 'manna cuddiedig.' Dat. 2. 17. Cyffelybir athrawiaeth yr efengyl i wlith. Deut. 32. 2. Ac yn athrawiaethau yr efengyl y mae Crist i'w gael, o ran adnabyddiaeth a meddiant o hono. Rhuf. 1. 16, 17. a 10. 8—14. Gal. 6. 1, 2. Yn mhrophwydoliaethau yr Hen Destament, ac yn athrawiaethau y Newydd am dano, y mae Crist i'w gael: a gwaith yr Ysbryd Glân yw cymeryd o eiddo yr Iesu, a'u mynegi i'w bobl. Y mae pob cysur a ffrwythlonrwydd i'w cael gyd âg ef.

5. Bara o'r nefoedd yn yr anialwch tlawd oedd, parod, hollol rad i rwgnachwyr, pan nad oedd dim i'w gael ond marw hebddo: felly Crist, bara o drefniad Duw o'r nefoedd ydyw, yn y byd drwg hwn—heb ei haeddu—yn gwbl addas i bechadur—yn rhoddi bywyd i'r neb a'i bwytao—ac nid oes bywyd gan neb hebddo—bara yn wyneb marw yn y cyflwr ydyw. Ioan 6. 53. a 4. 10. Rhaid darfod â bwyd yr Aipht i gael manna: ac yna y mae yn werthfawr.

6. Yr oedd yn ymborth addas i bawb, o bob oedran, ac yn mhob cyflwr; yr oedd digonolrwydd o hono; a pharhaodd tra parhaodd eu bywyd a'u teithiau yn yr anialwch: felly Crist, y mae yn addas i bechadur yn mhob amgylchiad, yn glaf ac yn iach—i fabanod ac i dadau—y mae pob cyflawnder ynddo—ac y mae yn aros yn dragywydd. Y mae mor hawdd i'r tlawd, y llesg, a'r gwan, i'w gael, a'r cyfoethog, a'r cryfion. O'r dechreu hyd y diwedd, efe yn unig yw cynnaliaeth ei bobl. Heb. 7. 24, 25. a 13. 5—8.

7. Y pererinion yn yr anialwch, yn teithio tua Chanaan, sydd i'w gael; nid yn yr Aipht yr oedd ymborthi arno, ac nid yn Nghanaan ychwaith: felly Crist—nid yn aros gyd â'r byd, ac yn rhodio yn ol helynt y byd hwn, y mae cael cysuron yr efengyl. Esa. 32. 16, 17. 2 Cor. 6. 17, 18. a 7. 1. Ac ni bydd neb yn ymborthi arno yn y nefoedd trwy ffydd, fel yma, er bydd yno dragywyddol fwynhad o hono.

8. Yr oedd yn disgyn bob boreu. Yr oedd hyn yn dysgu iddynt hwy, ac i ninnau hefyd, 1. Bod angen am dano yn feunyddiol: felly y mae am Grist; ni ddichon neb fyw bywyd ysbrydol un dydd hebddo. Nid unwaith yn yr wythnos—y mis—neu y flwyddyn; neu yn wyneb rhyw gyfyngder mawr, y mae ei eisieu; ond bob dydd yr un fath a'u gilydd: byw heb Grist ddiwrnod yw byw heb Dduw; hyny yw, yn annuwiol, ac yn bechadurus.——2. Yr oedd yn brawf beunyddiol o ofal Duw am danynt. Yr oedd fel Tad tirion, yn cofio ac yn gofalu am danynt bob boreu. At hyn y mae y geiriau yn Galar. 2. 22, 23. yn cyfeirio: 'Trugareddau yr Arglwydd yw na ddarfu am danom ni: o herwydd ni phalla ei dosturiaethau ef. *Bob boreu* y deuant o newydd; *mawr* yw dy *ffyddlondeb*.'——3. Yr oedd yn eu dysgu hwy a ninnau i fyw trwy ffydd ar Dduw yn unig, a'i ofal am danom; i fod yn foddlon i'r hyn sydd genym; i ddiwydrwydd beunyddiol, ac i ymostyngiad i holl drefniadau Duw tu ag atom. Ni chaent ond digon am y diwrnod, fel y credent yn yr Arglwydd, ac y dysgwylient wrtho yn feunyddiol. Mat. 6. 25—31.

9. Er ei fod mor galed fel yr oeddynt, er amrywiaeth ymborth, yn ei falu mewn melinau, a'i guro mewn morter, a'i ferwi mewn peiriau; etto pan wresogai yr haul fe a doddai. Yr oedd hyn yn eu dysgu hwy a ninnau i ddiwydrwydd; yn enwedig ynghylch meddiannu Crist, ac ymborthi arno. Os oedent nes gwresogai yr haul, nid oedd dim i'w gael y diwrnod hwnw. Diar. 10. 4, 5. a 6. 6, 7, 8. Ioan 12. 35. Gal. 6. 10. Yr oedd eu gwaith yn eu falu ac yn ei guro, yn cysgodi dyoddefiadau dirfawr yr Arglwydd Iesu. Ioan. 6. 48—51. Heb. 2. 9, 10. 1 Petr 3. 18.

10. Yr oedd yn cael ei roddi yn gymhesur, ac yn addas i'r angen am dano: digon bob dydd i bob un; dau cymaint ar y dydd o flaen y Sabboth, fel y byddai digon dros y Sabboth, heb gasglu dim, yn ol gorchymyn Duw. Yr oedd pob un yn casglu yr hyn a allai; ac yn ganlynol, yr oedd rhai yn casglu llai, a rhai fwy na'u gilydd. Yr hyn oedd wedi ei gasglu gan bawb

* The modern translations and lexicons, in conformity to the Rabbins, interpret it *round, spherical*, but not so the ancient versions.——But the Vulgate appears to have given the true meaning, by translating it *quasi pilo tusum*, as if pounded by a pestle. Parkhurst.

† Y mae had coriander yn ddu. Witsius.

‡ Y mae yr attaliadau wedi eu rhoddi yn anaddas yn rhai argraffiadau o'r Bibl Cyrmaeg (sef 1752 a 1799, &c.) yn arwyddo fod y manna yn wyn fel had coriander, trwy roddi hanner dryll-ymadrodd ar ol *yn wyn*, yn lle rhag-wahan-nod; sef *yn wyn*; yn lle *yn wyn*. Y mae yr un cyfeiliornad yn y Bibl Saesonaeg; ond nid felly yr oedd yn yr argraffiadau cyntaf yn Gymraeg.

§ Mewn gwahanol ystyriaethau, gallesid ei gymharu i fêl ac i olew; gan nad oedd ei archwaeth yn mhob ystyr yn debyg i olew, nac yn mhob ystyr yn debyg i fêl, ond yn cyfranogi o'r ddau. Witsius.

Digitized by Google

yn yr un babell yn byw, oedd yn cael ei roddi yn un crug at eu gilydd; ac wedi hyny byddai y pen-teulu yn ei fesur; omer i bob un: 'a phan fesurasant wrth yr omer, nid oedd gweddill i'r hwn a gasglasai lawr, ac nid oedd eisiau ar hwn a gasglasai ychydig. Yr oedd lloned omer i bob un: ond os byddai lloned omer yn ormod i ryw un, nid oeddynt i'w gadw; neu os gweddillai, neu y cadwai un ef, yn groes i orchymyn Duw, o anghrediniaeth, magai bryfed, ac a ddrewai. Felly y mae Crist, yn gyflawn, ac yn gymhesur i bob un; ac i ymborthi arno o newydd bob dydd, fel pe byddai yn dyfod o newydd i ni bob boreu. Gal 3. 28, 29. 2 Petr 1. 1. 2 Cor. 12. 9. Can. 5. 1. Y mae yr apostol hefyd oddiwrth hyn yn annog y cyfoethogion i gyfranu o'u helaethrwydd at angenion y tlodion; 'Fel y byddai cymhwysdra.' 2 Cor. 8. 14. 'Val y bo cymedroldep.' W. S. Nid oes dim cymhwysder yn ngwaith un brawd mewn helaethrwydd, yn gadael brawd arall mewn eisieu.

Yr oedd digon hefyd dros y seithfed dydd heb gasglu dim. 'Ar y chweched dydd y casglant ddau cymaint o fara; dau omer o bob un.' Yr oedd mwy o hono ar y chweched dydd, am hyny yr oeddynt yn gallu casglu mwy. Yr oedd Duw yn hyn yn eu dysgu i barchu ei orchymyn, ac na byddai neb mewn un gradd ar ei golled o ufuddhau iddo. Ni bu tori gorchymyn o ennill i neb erioed, ond i'r gwrthwyneb.

Felly hefyd y rhai fuant yn llafurio am Grist yma yn y byd, a'i cânt ef yn fara a bery i fywyd tragywyddol: cânt dreulio Sabboth tragywyddol gyd âg ef, heb angen casglu chwaneg. Ei geisio yn foreu ac yn ddiwyd yw ein dyledswydd a'n braint ni yn bresennol. Esa. 55. 6. Ps. 63. 1. Wedi ei gael, para yn ddigonolrwydd byth. Ioan 14. 2, 3. Ps. 17. 15. Ioan 17. 24.

11. Rhoddwyd llonaid omer o hono mewn crochan, i'w osod ger bron yr Arglwydd yn nghadw. Dywed awdwr yr epistol at yr Hebreaid, mai crochan *aur* oedd, er nad yw hyn yn cael ei enwi gan Moses. Yr oedd pob peth perthynol i'r arch yn aur, neu wedi eu *goreuro*. Dywed hefyd fod y crochan aur *yn yr arch*. Heb. 9. 4. Ond dywed Moses, mai 'ger bron y dystiolaeth yr oedd.' Dywedir hefyd, 'Nad oedd dim *yn* yr arch ond y ddwy lech faen a osodasai Moses yno yn Horeb.' 1 Bren. 8. 9. 2 Cron. 5. 10. Nid oedd dim *yn* yr arch, *dan y drugareddfa*, mae yn eglur, ond y llechau; ond yr ydym yn darllen fod 'Llyfr y gyfraith wedi ei osod ar *ystlys* arch cyfammod yr Arglwydd.' Deut. 31. 26. Felly, yn ddiammeu, yr oedd y crochan aur, a gwïalen Aaron, ar ystlys yr arch, neu ger bron y dystiolaeth, ac yn agos ati. Gŵyr pawb cynnefin â'r ieithoedd hyny, fod y rhagddod ב yn *Heb.* ac *εν* yn *Gr.* yn arwyddo, nid yn unig *yn*, ond *wrth*, yn *agos* at, yn *nglyn wrth*; felly y cyfieithir hwynt yn y lleoedd canlynol, 'Fy esgyrn a lynodd (בבשרי) *wrth* fy nghroen.' Job 19. 20.—בחית '*ynghyd* â bwystfilod.' Hos. 4. 3.—*εν φρωνησει δικαιων* '*i*, neu *trwy* ddoethineb y cyfiawn.' Luc 1. 17.—'Prynu *yn* y deml,' *εν τω ιερω*, sef *wrth*, neu *agos* at y deml. Mat. 21. 12. —בירחו *wrth* Jericho. Jos. 5. 13.—בנחל כרית *wrth* afon Cerith. 1 Bren. 17. 3.—*ar* ddeheulaw Duw, *εν δεξια του Θεου*. Col. 3. 1. Oddiwrth y lleoedd hyn, ac amryw eraill a ellir gael, y mae meddwl yr apostol, yn hollol amlwg, yn gytun â geiriau Moses; nid *yn* yr arch, *dan* y drugareddfa, yr oedd y crochan a'r manna, ond yn ei hystlys, neu *wrthi*, y tu allan iddi. Rhoddwyd y manna yn y crochan aur i'w gadw i'w cenedlaethau, fel y gwelent y bara â pha un y porthodd yr Arglwydd eu hynafiaid yn yr anialwch. Yr oedd hefyd yn gysgod o ymddangosiad, ac arosfa Crist yn y nefoedd, y gwir gysegr, mewn gogoniant ac anllygrediaeth, dros ei bobl. Y manna a ddisgynodd o'r nefoedd, a gafwyd yn yr anialwch, yn ymborth i rai ar ddarfod am danynt, a roddwyd yn y cysegr i'w gadw yn bur ac yn anrhydeddus: felly Crist; daeth o'r nefoedd i anialwch y byd hwn, i fod yn ymborth, ac yn awdwr iachawdwriaeth i'w bobl; wedi gorphen ei waith ar y ddaear, esgynodd goruwch yr holl nefoedd, i ymddangos ger bron Duw. Barna rhai mai yn cyfeirio at hyn y gelwir Crist 'y manna cuddiedig.'*

12. Er melused, iachused, ac er gwerthfawroced, oedd y manna, blinwyd arno. 'Y mae ein heneidiau ni yn gwywo heb ddim ond y manna yn ein golwg.' Num. 11. 6. *Heb. ar y manna y mae ein llygaid.* Y bobl gymysg oedd yn eu mysg, a flysiasant yn ddirfawr, ac a waeddasant am y pysgod, y cucumerau, y pompionau, a'r cenin, a'r winwyn, a'r garlleg, a gaent yn yr Aipht: felly Crist; dirmygir a gwrthodir ef gan ddynion o syniad cnawdol, ac ysbryd deddfol. 1 Cor. 1. 23. a 2. 14. Gal. 3. 3—10. a 4. 9. Fel yr oedd diystyru y manna yn ddirmyg hynod ar Dduw yn ei raslonrwydd, ei ddiriondeb, a'i ofal tadol am danynt; felly pa ddirmyg mwy a ellir roddi ar Dduw, na thrwy ddirmygu a mathru ei Fab? Heb. 10. 29.

**MANOAH**, מנוח [*gorphwysfa*] gwr o lwyth Dan, o ddinas Sorah, a thad Samson. Barn. xiii. Edr. SAMSON.

**MANTELL**, (mant) ffaling, cochl, arwisg.

Goreu un tudded *mantell*. *Diar.*

Gwisgodd Herod yr Arglwydd Iesu, er gwawd a dirmyg, â gwisg glaerwen, ac a'i danfonodd yn hòno at Pilat: Pilat a'r milwyr a'i gwisgasant i'r un dyben (*χλαμυδα κοκκινην*) 'â mantell o ysgarlad'—'huc coch,' neu 'mantell purpur.' Mat. 27. 28, 31. W. S. *πορφυραν, â phorphor*, medd Marc, pen. 15. 17, 20. —*ιματιον πορφυρουν, gwisg o borphor*, medd Ioan, pen. 19. 2. Dyosgodd y milwyr wisg glaerwen Herod oddiam dano; ac y mae Doddridge o'r farn iddynt wisgo y wisg borphor am dano yn isaf, a'r fantell yn uchaf ar hyny; gau fod y geiriau am y wisg a'i lliw yn wahanol gan yr efengylwyr, tebygol iddynt roddi dwy, un yn isaf o borphor, a mantell goch ar hòno. Yr oedd yr agwedd arno mor wael, fel yr oedd ei honiad ei fod yn frenin yn ymddangos iddynt yr ynfydrwydd mwyaf, ac yn deilwng o ddim sylw, ond yn haeddu pob gogan a gwawd.

Gelwir cyflawnder mawr y Cyfryngwr, a holl effeithiau y prynedigaeth, wrth yr enwau gwisg, mantell. Esa. 61. 10. Y mae yn nhrefn fawr yr iechydwriaeth, wisgoedd, a mantell cyflawnder, i ddiogelu ac addurno pechadur euog a halogedig â hwynt; ac y maent yn achos o lawenydd a gorfoledd mawr yn Nuw, i bawb sydd yn eu meddiannu. Edr. CYFIAWNDER, GWISG, PAIS.

**MANWL—YLACH—YLAF**, (man) gofalus iawn, diwyd, astud, cywrain, dichlyn.—'Ac a agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach.' Act. 18. 26. 'Ac a esponiesont iddaw ffordd Ddew yn berffeithiach,' ymyl y ddalen, 'bebyrach.' W. S. Y mae Duw wedi dadguddio yn yr ysgrythyrau ffordd yr iechydwriaeth yn gyflawn, a chyda manylrwydd mawr; heb adnabyddiaeth fanwl o honi, ni ddichon neb ei cherdded yn addas, a mwynhau ei chysuron; pa faint llai addas, heb fanylrwydd yn ei adnabyddiaeth o honi, y dichon un hyfforddi eraill ynddi; 'Manwl-chwiliodd y prophwydi' am adnabyddiaeth o honi; ac y mae yr angelion tirion yn chwennych edrych ar y pethau rhyfedd sydd ynddi. 1 Petr 1. 10, 12.

**MAOCH**, מעוך [*gwasgedig*] tad Achis brenin Gath. 1 Sam. 27. 2.

**MAON**, מעון [*trigfa*] dinas yn mharthau deheuol Judah, lle preswyliai Nabal; a bu Dafydd yn ymguddio yn hir yn anialwch Maon. Hwyrach mai

* Gwel Witsius, Vitringa *in Apoc.* 2. 17. *et* Coccejus *in loc.*

Digitized by Google

oddiwrth Maon tad Bethzur y cafodd yr enw. Jos. 15. 55. 1 Sam. 23. 24, 25. a 25. 2. 1 Cron. 2. 45. —Y Maoniaid oeddynt Arabiaid, y rhai gynt, hwyrach, a breswylient yn agos i Maon. Barn. 10. 12. Yr un, tebygol, a'r Mehuniaid. 2 Cron. 26. 7.

MARAH, מרה [*chwerwder*]. Wedi myned trwy y Môr Coch, daeth yr Israeliaid, ar ol taith tri diwrnod yn anialwch Sur, i Marah; ac ni allent yfed y dyfroedd yno, am eu bod yn chwerwon; o herwydd hyny galwyd y lle Marah. Y bobl a duchanasant o'r achos, Moses a waeddodd ar yr Arglwydd, a'r Arglwydd a ddangosodd iddo bren; ac efe a'i bwriodd i'r dyfroedd, a'r dyfroedd a bereiddiasant. Exod. 15. 22—25. Nid oedd dim rhinwedd yn y pren hwn, ond yr oedd yn cysgodi Crist, yr hwn a ddyoddefodd ar groesbren i'n llwyr brynu oddiwrth felldith y ddeddf, ac sydd yn pereiddio y pethau chwerwaf i'w bobl. Gal. 3. 13. 1 Petr 2. 21, 24. 2 Cron. 1. 5, 7. Rhuf. 5. 3. a 6. 3, 4.

MARALAH, מרעלה [*chwerwder, dyrchafiad*] dinas yn Zabulon. Jos. 19. 11.

MARAN-ATHA, Μαραν-αθα, gair Syriaeg, yn arwyddo, *Y mae yr Arglwydd yn dyfod;* oddiwrth *Maran*, Arglwydd; *atha*, dyfod. Ond barna rhai mai geiriau Hebraeg ydynt, sef מחרם אתה *Maharam-atha, melldigedig wyt ti.* Rhydd y Groegiaid yn aml yr ɴ yn lle yr ᴍ yn niwedd geiriau Hebraeg, am fod y diweddiad ᴍ yn anhyfryd yn yr iaith Roeg.*

'Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded Anathema, Maran-atha.' 1 Cor. 16. 22. Geiriau, meddant, arferedig gan yr Iuddewon wrth gyhoeddi yr ysgymmundod mwyaf; neu wrth gyhoeddi melldith, wedi iddynt golli yr awdurdod i fwrw neb i farwolaeth, ar y sawl a droseddai gyfraith Moses. Gwel Doddridge a Macknight. Y mae yr apostol yn cyhoeddi y felldith fwyaf ar y sawl nad oeddynt yn caru yr Arglwydd Iesu Grist; sef yn ei dderbyn, yn ei gofleidio, a'i ddefnyddio fel Crist Duw, i holl ddybenion ei osodiad yn ei swydd. Caru Crist, yw ei garu o ran ei fawredd a'i brydferthwch, ac o ran holl drefniadau y Tad mewn perthynas iddo yn ei waith a'i swyddau.

MARC, Μαρκος [*dysglaer, boneddig*]. Y mae rhai yn barnu mai yr un yw Marc yr efengylwr a Marc a gyfenwid Ioan, nai Barnabas, mab ei chwaer Mair. Brown, a Dr. F. Roberts. Act. 12. 12. a 15. 37. Col. 4. 10. Ond eraill, megys Campbell, Calmet, Dr. Doddridge, &c. a farnant eu bod yn bersonau gwahanol. Tystiolaeth Papias, a goffëir gan Eusebius, yw yr hanes hynaf a mwyaf ei bwys am Marc yr efengylwr, ag sydd i'w gael. Dywed ef mai cydymaith Petr oedd, ac iddo ysgrifenu yr hanes megys y cafodd ef gan Petr. Dywed Irenæus iddo ysgrifenu ei efengyl yn fuan ar ol marwolaeth Petr a Paul: 'wedi eu hymadawiad, ysgrifenodd Marc, cydymaith Petr, y pethau a bregethasid gan Petr.' Y traddodiad cyffredinol yn yr eglwys oedd i Marc gael yr hanes a ysgrifenodd gan Petr, a galwai rhai hi gynt, 'Yr efengyl yn ol Petr;' nid am iddo ef ei hysgrifenu, ond am iddo roddi i Marc ei defnyddiau. Geilw Petr ef 'Marc fy mab.' 1 Petr 5. 13. Yr enw cyffredin gan y gweinidog ar y rhai a ddychwelwyd i'r ffydd drwyddo. Am Marc, nai Barnabas, cawn hanes am damo ei fod yn cydymdaith â Paul a Barnabas, ac iddynt ymrafaelio yn ei gylch; ond cymmodwyd Paul âg ef yn fuan wedi hyny, ac mae yn ei alw yn gyd-weithiwr, ac yn dywedyd ei fod yn fuddiol iddo yn y weinidogaeth, ac yn annog eglwys Colosse i'w dderbyn; (Col. 4. 10. 2 Tim. 4. 11. Philem. 24.) ond nid oes un gair am y Marc hwn ei fod yn gydymaith Petr, nac yn gynnorthwyol iddo mewn un ystyr. Nid oes dim cyfatebolrwydd rhyngddynt yn ymddangos, ond yn unig yn yr enw; ac nid oes neb o'r hynafiaid yn cyfenwi Marc yr efengylwyr wrth yr enw Ioan.—Y farn gyffredin yw, iddo ysgrifenu ei efengyl yn yr iaith Roeg, er fod pob tebygolrwydd mai Iuddew o genedl a dygiad i fynu oedd, oddiwrth y dull Hebreaidd o ysgrifenu a ganfyddir yn aml yn ei iaith: etto, gellir barnu, oddiwrth ei ddull o ymadroddi, a'r geiriau Lladinaidd sydd ynddo, ei fod yn gweinidogaethu allan o wlad Judea, ac iddo ysgrifenu ei hanes, yn benaf, er hyfforddiad a lles preswylwyr gwledydd eraill. Heblaw y geiriau Lladin a arferir gan yr efengylwyr eraill, megys λεγιων (*legion*) *lleng*, a δηναριων (*denarius*) *ceiniog*—arfer rhai geiriau Lladin priodol iddo ei hun; megys κεντυριον (*centurion*) nid yr un gair Groeg a arferir gan yr efengylwyr eraill; (gwel pen. 15. 39, 44, 45.) a σπεκουλατωρ (*speculator*) *dienyddwr, un o'r gosgordd.* Gwel pen. 6. 27. Edr. Dienyddwr. Gwyddai pawb yn Judea mai afon oedd yr Iorddonen; ond gan ei fod yn ysgrifenu er mwyn rhai allan o'r wlad hòno, y mae yn rhoddi y gair afon (ποταμος) gyd â'r gair Iorddonen. Gwel pen. 1. 5. Yr oedd y gair 'mammon,' a arferir gan Matthew a Luc, yn ddigon dealladwy yn Judea, a Syria hefyd, hwyrach; ond gan na ddeallai, tebygol, yr Iuddewon yn Rhufain ystyr y gair, arfer Marc y gair χρηματα *golud*, yn ei le, yr hwn oedd ddigon dealladwy yn mhob man. Gwel pen. 7. 11. Arfer hefyd yn amlach nag ysgrifenwyr eraill y Testament Newydd, y goreiriau ευθος & ευθεως, *yn ebrwydd, yn y fan.* Gwel pen. 1. 31, 32, &c.

Y mae Awstin yn golygu yr Efengylwr hwn fel talfyrwr o Matthew. Mae yn wir ei fod, weithiau, yn arferyd geiriau ac ymadroddion Matthew, ond etto, nad ydyw i'w olygu fel talfyrwr sydd eglur, am ei fod wedi gadael allan amryw o bethau y crybwyllir am danynt gan Matthew; megys llinach yr Arglwydd Iesu, ei enedigaeth, hanes y doethion o'r dwyrain, creulonder Herod, ffoad Joseph a'i deulu i'r Aipht: hanes, hefyd, am amryw o bethau na chrybwyllir am danynt gan Matthew; megys y dyn â'r ysbryd aflan ganddo (pen. 1. 23, 24); y byddar yn Decapolis, (pen. 7. 32); a'r dall yn Bethsaida, (pen. 8. 22.) Mor belled yw oddiwrth dalfyru Matthew, fel y mae, weithiau, yn fwy manwl ac amgylchiadol yn ei hanes na Matthew; a'i iaith hefyd yn fwy helaeth ac amleiriog na Matthew. Fel mai ei ddyben oedd rhoddi hanes byr o weinidogaeth gyhoeddus yr Arglwydd, y mae yn dechreu yn addas gyda gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr. Er mai yr un testun sydd gan y pedwar Efengylwr, etto y mae yn eu hamrywiol hanesion amrywiaeth hyfryd, hollol gydsyniol, heb ddim gwrthddywediad, y naill yn egluro ac yn cadarnhau y llall, ac yn cyflawni diffygiadau eu gilydd, yn y modd mwyaf esmwyth, hardd, a defnyddiol. Gyda eu gilydd y maent yn cynnwys un drych dysglaer, cywir, yn mha un y dangosir yr Arglwydd yn eglur ac yn gyflawn, yn ei berson, ei swyddau, ei waith, ei ddyoddefiadau, a'i fuddugoliaethau. Y pethau hyn a ysgrifenwyd yn y dull hwn, fel y credom mai yr Iesu yw y Crist, Mab Duw, a chan gredu, y caffom fywyd yn ei enw ef. Ioan 20. 31.

MARCH, (my-arch) *Heb.* סוס *sus* [*bywiogrwydd hoenusrwydd*] carnwyd, ceffyl, amws. March càd, càd-farch, march mai, sef march rhyfel; march malen, march tynu, march tom, march cynnud, march cynfas.—March sydd un o'r anifeiliaid ardderchocaf; y mae yn hardd, hyweddfalch, trythyll, llamsachus, ffroenfoll, cyflym-droed, cryf, dewr, gwareddawg; yn addas ac yn ddefnyddiol i gario, i dynu, neu i ryfel. Rhoddir darluniad hardd, ac mewn geiriau addas, tra

* Gwel Pfeiffer, *Exot. N. T. p.* 61. *Seq.* Mintert, Parkhurst.

Digitized by Google

ardderchog, o gâd-farch, yn Job 39. 19—25. 'A ddysgaist ti iddo weryru?' *Hast thou clothed his neck with thunder? Saes.* 'A wisgaist ti ei wddf ef â tharan.'* Agosach cyfieithiad i'r Hebraeg, diammeu, ydyw y Saesonaeg. Amryw o gyfieithiadau ydynt yr un fath a'r Cymraeg, yn golygu y gair רעמה *taran*, yn arwyddo gweryriad march. Ond nid oes dim tebygolrwydd rhwng sŵn y naill a'r llall: heblaw hyny, nid oes yn ymddangos ddim priodolder yn y gair הלביש *gwisgo*, â gweryriad march; ond tra addas yw gwisgo i'w briodoli i fwng march wedi ei wisgo yn dew, ac yn ymgyfodi yn ddychrynllyd, ac yn effeithio fel taran ar yr edrychwyr. Caryl a olyga yr ystyr yn ol ein cyfieithiad ni; ond Bochart a ddyry resymau cedyrn i'r gwrthwyneb. Bochart, *vol.* ii.

Gwaharddodd Duw i'r Iuddewon amlhau meirch; rhag iddynt ymddiried mewn dim ond yn yr Arglwydd yn unig, fel yr ymddengys oddiwrth Deut. 17. 16. a 20. 1. Ps. 20. 8. Diar. 21. 31.

Gorchymynodd yr Arglwydd i Josuah dori llinynau gârau meirch y Canaaneaid, a llosgi eu cerbydau â thân, rhag iddynt ymddiried ac ymogoneddu ynddynt. Jos. 11. 6. Gwnaeth Dafydd yr un fath â meirch Hadadezer brenin Syria. 2 Sam. 8. 4, 5.

Solomon ydoedd y cyntaf o freninoedd Israel a amlhaodd feirch. Yr oedd ganddo 40,000 o bresebau meirch, a 12,000 o wyr meirch; neu yn hytrach, yr oedd ganddo 4000 o bresebau meirch, a 40,000 o feirch. Cymh. 1 Bren. 4. 26. â 2 Cron. 9. 25.

'Cerbyd a ddeuai i fynu o'r Aipht am chwe chan sicl o arian, a march am gant a deg a deugain.' 1 Bren. 10. 29. Wrth gerbyd mae i ni ddeall, tebygol, cerbyd â phedwar march ynddo, yr hyn a wna 600 sicl. Yr oedd pob march, gan hyny, am yn nghylch £19, a cherbyd yn nghylch £75. Scott. Yn ol cyfrif Prideaux, o £3 bob sicl, yr oedd pob un o bris £22 10s.

'Ac efe a ddyfethodd y meirch a roddasai breninoedd Judah i'r haul—ac a losgodd gerbydau yr haul yn tân.' 2 Bren. 23. 11. Yr oedd addolwyr yr haul yn darlunio y goleuad mawr hwnw ar lun dyn yn eistedd mewn cerbyd, yn cael ei dynu gan feirch gwylltion cyflym; am hyny yr oeddynt yn cysegru meirch a cherbydau iddo.† Yr oedd breninoedd Judah gwedi ymlygru â'r un ynfydrwydd. Josiah dduwiol a ddyfethodd y meirch, neu yr eilun-feirch hyn, ac a losgodd yr eilun-gerbydau â thân.

Gosodir allan, dan yr arwydd-lun o feirch a cherbydau, yr amrywiol offerynau sydd gan Dduw er cyflawni ei amcanion rhagluniaethol yn y byd, yn dangos ei fawredd, ei allu, a'i ardderchogrwydd. Zech. 10. 5. a 12. 4. Jer. 51. 21. Y mae amrywiaeth lliwiau y meirch yn y darluniadau prophwydoliaethol hyn, yn dangos natur y rhagluniaethau; sef y *gwynion* yn arwyddo buddugoliaeth, hyfrydwch, llwyddiant, a heddwch, yn neillduol taeniad cyflym buddugoliaethus yr efengyl ar led y byd:—*cochion*, yn arwyddo rhyfeloedd ac erlidigaethau:—*duon*, barnedigaethau dychrynllyd:—*gwelw-las*, newyn, heintiau, &c. Dat. 6. 2—8. a 19. 11, 14. Zech. 1. 8. a 6. 2, 3. Edr. Sel, a'r amrywiol liwiau.

'I'r meirch yn ngherbydau Pharaoh y'th gyffelybais, fy anwylyd.' Can. 1. 9. Meirch dewisol, hardd, breninol, yn tynu y brenin yn ei gerbyd—meirch cryfion, dewr, cyflym—meirch dan ofal a thriniaeth addas—meirch yn y tresi, dan iau a llywodraeth, ac yn barod i ryfel. Yr oedd priodoldeb a harddwch y gyffelybiaeth yn fwy dealladwy yn y gwledydd dwyreiniol, nag ydyw i ni yn y gwledydd hyn. Y mae yr Arabiaid hyd heddyw yn neillduol hoff o'u meirch, ac yn eu hanwesu fel eu plant. Gwnaeth Julius Cesar lun ei farch o farmor, ac a'i gosododd yn y deml. Gwisgodd Nero ei farch fel seneddwr. Mynai Caligula wneuthur ei farch yn brifswyddog (*consul*) yn Rhufain; gwahoddodd ei farch i swper, ac a'i gwasanaethodd ei hun. Y mae meirch yr Aipht mor hynodol am eu gorwychedd a'u harddwch, fel yr anfonir hwynt yn anrhegion i ymerawdwr y Tyrciaid. Y mae meirch yn mhlith yr Arabiaid, a elwir y *Kochlani*, y cedwir eu tadogaeth mor ofalus a neb o'r boneddigion, yn ol hyd feirch Solomon. Rhagoriaethau penaf y meirch hyn yw eu cyflymdra, eu grym, a'u dewrder. Niebuhr's *Travels, vol.* ii.—Am 'y meirch yn ngherbydau Pharaoh,' gallwn feddwl eu bod yn dra dewisol, a bod dewrder, harddwch, gweddeidd-dra, ac ufudd-dod, yn enwog ynddynt. Oblegid y cynneddfau hyn, nid anaddas cyffelybu yr eglwys iddynt, yn enwedig gan fod y meirch yn greaduriaid â'r hoffder mwyaf ynddynt yn y gwledydd hyny. Y mae yr eglwys yn ei holl aelodau yn hardd, yn ddewr, yn rhyfelgar, ac yn gyflym yn ngwaith ei Harglwydd, ac yn erbyn gelynion ysbrydol. Nid ydyw yn fwy anaddas i gyffelybu yr eglwys i feirch, nag ydyw cyffelybu Crist i 'lew;' maent yn cyfateb i'r creaduriaid hyn mewn rhyw bethau godidog perthynol iddynt.

MARCHOG—AETH, (march) gwr march, marchwr; marchwriaeth; marchogâu.—Y mae marchogaeth, weithiau, yn arwyddo anrhydedd, rhyddid gorfoleddus, a buddugoliaeth. Esa. 58. 14. Pan briodolir marchogaeth, mewn iaith allegawl, i Dduw, neu i Grist, arwydda ymddangosiad cyflym, mawreddig, ac ardderchog, i amddiffyn a gwared ei bobl, ac i ddinystrio ei elynion. Deut. 33. 26. Ps. 18. 10. a 45. 4. a 68. 4. Esa. 19. 1. Nid oes hanes i'r Iesu farchogaeth ond unwaith, a hyny oedd ar *asyn*. Zech. 9. 9. Mat. 21. 5. Ioan 12. 15. Yr oedd y dull hwn o farchogaeth i Jerusalem yn amlygiad o'i addfwynder, ei ymostyngiad dirfawr, a'i hollol gydffurfiad â'r gyfraith, gan fod meirch yn waharddedig i'r Iuddewon.

MARCHNAD—AETH—YDD—FA—TA, (marchyn) מכר (*macar*) *gwerthu;* מחיר *cyfnewid; Llad.* Mercatum; *Saes.* Market: lle marchnad, ffair; pryniad; marsiandiaeth; anaelier, marsiandwr, un a bryno ac a wertho; prynu a gwerthu.—Marchnadwyr Midian, a pharthau eraill o Arabia, yw y rhai cyntaf mewn hanesyddiaeth. Gen. 37. 28. Yr oedd marchnadyddion Jerusalem a Ninife yn lliosog. Ezec. 17. 4. Nah. 3. 16. Edr. Perl, Prynu.

Dywedir fod y Phariseaid 'yn caru eu cyfarch yn y marchnadoedd.' Mat. 23. 7. Marc. 12. 38. Luc 11. 43. A bod Paul yn 'ymresymu beunydd yn y farchnad yn Athen â'r rhai a gyfarfyddent âg ef.' Act. 17. 17. Rhaid i ni ddeall fod y marchnadoedd yn y dinasoedd yn yr hen oesoedd yn dra gwahanol oddiwrth y peth ydynt yn y dinasoedd yn bresennol. Y mae yn amlwg oddiwrth waith Paul a Silas yn cael eu llusgo i'r farchnadfa at y llywodraethwyr a'r swyddogion, fod y swyddogion a'r llywodraethwyr yn eistedd yno i roddi barn. Act. 16. 19. Y mae y gair αγορα, yn arwyddo, lle y byddai y bobl yn ymgynnull, naill ai i farchnata, neu yn ol y dull Rhufeiniaidd, i'r llysoedd barn a gynnelid yno. 'Y mae cyfraith i'w chael,' (Act. 19. 38.) αγοραιοι αγονται, sef, ημεραι,

* Celtyddgar a phriodol ydyw y llinellau canlynol, yn cyfeirio at y geiriau yn Job, yn ol y cyfieithiad Saesonaeg:—

Y march—
A'i wddf anwar fal taran,
A'i ffroenau dig fal ffwrn dân. *Gro. Owen.*

† Dywed Strabo, fod y Massagetiaid yn golygu yr haul fel yr unig dduw, a'u bod yn offrymu meirch iddo. *Lib.* ii. Maent yn offrymu, medd Herodotus, y creaduriaid cyflymaf i'r duw cyflymaf!—O ynfydrwydd plant dynion! Rhoddir hanes i'r un pwrpas am yr Ethiopiaid, yr Armeniaid, a'r Persiaid.

Placat equo Persii radiis Hyperiona cinctum
Ne detur celeri victima tarda Deo. Ovid, *Fast. lib.* i.

Gwel Ovid's *Metam. lib.* ii. *fab.* i. Virgil *Æned.* xii. *lib.* 114, 115.



Digitized by Google

*dyddiau;* mae dyddiau barn yn cael eu cynnal; neu, yn ein hiaith ni, mae y llysoedd yn eistedd. Yr un gair, o ran y tarddiad o hono, a arferir yma a'r gair am *farchnad.* Gwel Grotius.

Y *fforum,* neu y farchnadfa, oedd y lle y cynnelid y farchnad gyffredin y naill ochr iddo, ac am ran o'r diwrnod; yn yr ochr arall i'r lle hwn yr oedd y temlau, y chwareudai, llysoedd barn, ac adeiladau cyffredin eraill. Yma byddai y doethion a'r dysgedigion yn cyfarfod ac yn dysgu eu hegwyddorion, yn cyhoeddi ac yn eglurhau y cyfreithiau; ac am fod yr holl adeiladau hyn yn y *fforum,* byddai y werin gyffredin yno, rhai yn marchnata, eraill yn crefydda, eraill yn difyru eu hunain â chwareuyddiaethau, ac eraill yn myned i'r llysoedd barn, neu i athrofa rhyw wybyddydd; neu byddai yr un rhai yn myned at yr holl bethau hyn yn amrywiol ranau o'r diwrnod. Byddai yr adeiladau yn aml yn agored; nid oedd yn angenrheidiol yn y gwledydd hyny ond wrth gysgod rhag y gwres, a'r gwlaw. O herwydd yr achos hwn, yr oedd y Phariseaid yn caru eu cyfarch yn y marchnadoedd; nid gan y werin yn gyffredin, ond gan y mawrion, y swyddwyr, y barnwyr, &c., y rhai oeddynt yn ymgyfarfod yn y *fforum;* fel hyn yr oeddynt yn dangos eu mawredd o flaen y bobl gyffredin, ac yn cynnal eu hawdurdod arnynt, &c.

MARESAH, מראשה [*o'r pen,* neu *o'r dechreuad*] 1. Mab Laadah. 1 Cron. 4. 21.——2. Dinas yn Judah. 2 Cron. 14. 9. Mic. 1. 15.

MARMOR, (marm) *Gr.* *μαρμαρος*; *Llad.* Marmor; mynor. Caled-faen, a ellir ei gaboli a'i lathreiddio yn hardd. Cloddir ef yn dalpiau mawrion mewn cloddfeydd meini, a defnyddir hwynt mewn adeiladau hardd, colofnau addurnol, &c. Y mae y marmor o amryw liwiau, du, gwyn, &c., ond nid oes yn dryloyw, wedi ei gaboli yn llechau teneuon, ond y gwyn. Y mae amrywiaeth aneirif o honynt, ac yn cael eu henwau, yn gyffredinol, oddiwrth y manau lle y cloddir hwynt. Byddent yn ysgrifenu gynt ar daflenau marmor. Hwyrach mai ar y cyfryw daflenau yr ysgrifenwyd y ddeddf ar Sinai. Mae llechau marmor yn Rhydychain, a elwir ***Arundelian Marbles,*** am mai Iarll Arundel a'u dygodd o'r dwyrain, âg amseryddiaeth dinas Athen o'r dyddiau boreuaf arnynt. Yr ydoedd cyntedd gardd palas Ahasferus, brenin Persia, wedi ei amgylchu â cholofnau marmor, i gylymu lleni wrth fodrwyau arian wrthynt; a'r palmant oedd o faen grisial, a marmor, ac alabaster, a jasinct. Esther 1. 6. Y mae rhai yn barnu mai meini marmor oedd yr holl feini yn nheml Solomon. 1 Cron. 29. 2.——'Colofnau marmor' ydynt arwyddlun o harddwch, cadernid, diysgogrwydd, a pharhad. Can. 5. 15.

MAROTH, dinas yn Judah. Jos. 15. 59. Mic. 1. 12.

MARSENA, מרסנא [*chwerwder*] un o saith dywysogion Media a Phersia, dan Ahasferus. Esther 1. 14.

MARSIANDIAETH—WR, *Llad.* Mercatura; *Saes.* Merchandize; maelwriaeth, marchnadyddiaeth, masnach.—'Marsiandwr yw efe.' Hos. 12. 7. כנען *Canaan yw efe.* 'Canaan y marsiandwr.' Horsley. Nid Jacob yr ymdrechwr, Israel y gorchfygwr, yw ef mwyach; ond Canaan y masnachwr, y cybydd, y twyllwr: nid mab yr addewid yw, ond mab y felldith. Mae cyffelybrwydd ei foesau i'r Canaaneaid, yn deilwng yn haeddu iddo yr enw.

MARTHA, *Μαρθα* [*chwerwi*] chwaer Lazarus, a Mair, yn nhŷ pa rai y byddai yr Arglwydd Iesu yn arferol o lettya yn aml, pan ddelai i fynu i'r gwyliau arbenig yn Jerusalem. Yr oeddynt yn byw yn Bethania. Edr. Bethania. Casglir mai Martha oedd yr hynaf, am ei bod yn cael ei henwi o flaen Mair yn gyffredinol. Yr oedd gofal y teulu yn benaf, tebygol, ar Martha; yn ei gormod gofal byddai yn drafferthus weithiau, ac am hyny ceryddir hi yn dirion unwaith gan yr Arglwydd. Luc 10. 38—42. Yr oedd Martha yn drafferthus yn nghylch llawer o wasanaeth, a Mair yn eistedd wrth draed yr Iesu, yn gwrando ar ei ymadrodd. Yr ydoedd Martha yn gwneuthur yn dda wrth weinyddu i'r Arglwydd Iesu a'i gyfeillion, er iddi bechu yn nghynwrf a thrafferth ei meddwl, wrth wasanaethu; ond yr ydoedd Mair yn gwneuthur yn *well* wrth wrando ar ei ymadrodd. Yr oedd holl ofalon Martha yn afreidiol, mewn cymhariaeth i'r rhan dda, oedd yn benaf yn ngolwg Mair, ac am yr hon yr oedd ei henaid am wrando. Y mae y darluniad o wahanol ysbryd yn y ddwy chwaer ar yr achlysur presennol, gan Luc, yn nodedig o hardd ac addysgiadol. Yr oedd Mair wedi yfed yn ddyfnach o Ysbryd Crist na Martha, am hyny ni fynai golli un oedfa i wrando arno, er esgeuluso pethau llai eu gwerth a'u pwysau. Wrth ei chymeradwyo hi, y mae Crist yn cymeradwyo y cyffelyb ysbryd yn mhawb o'i ganlynwyr. Nid oes dim ychwaneg o hanes am y teulu hwn nag a roddir i ni yn yr ysgrythyrau.

MARW—OL—AETH—AU—EIDDIAD—IO—DRA, (mar) *Heb.* מת (*mot*) *marw;* מרר (*marar*) *chwerw;* *Gr.* *μορος*, *dystryw;* *Llad.* Mors, marwolaeth; Mori, marw, angeu.—Y mae marwolaeth i'w ddeall mewn cyferbyniad i fywyd; a darfodiad o fywyd lle yr oedd unwaith: neu bethau na bu bywyd erioed ynddynt, megys eilunod. Esa. 8. 19. Yn fwyaf neillduol mae i ni ddeall wrth farwolaeth, ysgariad y corph a'r enaid oddiwrth eu gilydd. Mat. 10. 21. a 16. 28. Luc 2. 26. *et al freq.* Yr achos haeddiannol o honi yw pechod; ac fel y mae pawb yn bechaduriaid, y mae pawb yn ddarostyngedig i farwolaeth; ond y mae amser ac amgylchiadau pob un yn ansicr, ac yn gwbl yn llaw yr Arglwydd.

Heblaw yr ystyr priodol, y mae marwolaeth, trwy drawsenwad, yn arwyddo yn 1. Cystuddiau mawrion yn peryglu bywyd. 2 Cor. 1. 8, 10. a 11. 23.——2. Marwolaeth ysbrydol. Yn yr ystyr hwn y mae pawb o blant dynion yn feirwon nes y clywont lef Mab Duw. Ioan 5. 24. 1 Ioan 3. 14. Eph. 2. 1. Col. 2. 13.——3. Marwolaeth dragywyddol. Rhuf. 6. 21, 23. Iago 5. 20. 1 Ioan 5. 16, 17. Yr hon, mewn cyferbyniad i farwolaeth naturiol, a elwir 'yr ail farwolaeth,' (Dat. 2. 11. a 20. 6.) ag sydd yn arwyddo cospedigaeth dragywyddol. Dat. 21. 8. Mat. 25. 46. Gwel Vitringa ar Dat. 2. 11.

Ffydd farw——gweithredoedd meirwon——marw i'r ddeddf——corph y farwolaeth, &c. Edrych Ffydd, Gwaith, Deddf, Corph.

Gan mai cyflog pechod ydyw marwolaeth, Crist, i achub pechaduriaid, a fu farw drostynt. Yr oedd pob dyoddefiadau tu yma i farw drostynt, yn rhy fach i'w hachub: am hyny dododd ei einioes i lawr o hono, sef o'i wir fodd, ei hun. Ioan 10. 18. Edr. Aberth, Iawn, Prynu. Dywedir i Grist farw dros ei *gyfeillion,* Ioan 15. 13.—dros ei *ddefaid,* Ioan 10. 11.—dros yr *eglwys,* Eph. 5. 25. Act. 20. 28.——drosom *ni,* Eph. 5. 2. Esa. liii.—dros yr ***annuwiol,*** Rhuf. 5. 6. Heb. 9. 28.—dros *elynion,* Rhuf. 5. 10.—dros *lawer,* Mat. 20. 28.—dros *bawb,* 2 Cor. 5. 15. 1 Tim. 2. 6.——dros *bob dyn,* Heb. 2. 9.——dros yr ***holl fyd,*** 1 Ioan 2. 2.——dros yr *anghyfiawn,* 1 Petr 3. 18. Barnaf fod y geiriau hyn oll yn cyfateb mewn ystyr i'w gilydd: y defaid, yr eglwys, ei gyfeillion, ydyw y llawer, pob dyn, yr holl fyd, a phawb; yr anghyfiawn, yr annuwiol, a'r gelynion; a phawb, yr holl fyd, a phob dyn, yw y defaid, yr eglwys. Ymddengys i mi yn gabledd dychrynllyd, i feddwl iddo farw dros

Digitized by Google

*bob dyn o holl hiliogaeth* Adda; yna os felly, bu farw dros rai oedd yn uffern eisoes, pan y bu farw; a hyny i ateb dim dyben mewn perthynas i'w gwaredigaeth; y mae Duw yn cospi pechod ddwy waith, sef yn y pechadur ac yn ei feichnïydd. Ni ddichon neb gynnwys y meddwl gwyrgam hwn, heb wadu fod marwolaeth Crist, mewn ystyr priodol, yn *iawn* dros neb: canys pwy a ddichon feddwl ei fod yn *iawn priodol* dros y colledigion, a miloedd o honynt yn uffern dros byth pan y bu farw? Y rhai a garodd â chariad tragywyddol, ac a roddwyd iddo gan y Tad, yw y rhai y bu farw drostynt; ac efe a dŷn bawb o'r rhai hyny ato ei hun. Ioan 12. 32. Ac ni *chyll ddim* o hono. Ioan 6. 39. Ond rhydd iddynt fywyd tragywyddol. Ioan 17. 2. Rhaid meddwl iddo farw dros *holl* bechodau rhai; neu iddo farw dros *rai* pechodau pawb; neu na bu farw i fod yn iawn dros neb. Y gwir ydyw, iddo garu a phrynu rhai oddiwrth *bob* anwiredd, 'i'w puro iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.' Titus 2. 14. Y mae aberth ac eiriolaeth Crist, y ddau yn berthynol iddo fel Offeiriad, yn cyfateb i'w gilydd; ond nid yw yn eiriol dros bawb, ond y rhai a roddodd y Tad iddo. Ioan 17. 9. 1 Ioan 2. 1, 2. Rhuf. 8. 34. Barnu iddo farw dros holl hiliogaeth Adda, yr un peth ydyw, i'm tyb i, a barnu na wnaeth *briodol iawn* dros yr un o honynt; ac os felly, er iddo farw, ni bydd neb yn gadwedig, ond bydd pawb feirw yn eu pechodau, gan nad oes un aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach. Heb. 10. 26. Fel y mae gwirioneddau dwyfol yn nglŷn yn anwahan oddiwrth eu gilydd; felly hefyd y mae cyfeiliornadau; y mae y naill yn canlyn y llall o angenrheidrwydd, a phob un yn niweidiol iawn, os nid yn ddinystriol.

'Marw i bechod,' ydyw bod yn rhydd oddiwrth felldith pechod, a'i lywodraeth. Y mae pechod yn y saint, ond y maent wedi marw iddo; sef gwedi darfod â phechod am byth o ran eu tuedd bywiol ato, a'u bwriad o fyw iddo. Y maent gwedi marw i bechod, ac hefyd i'r ddeddf, o ran cael bywyd trwyddi, er nad o ran eu hyfrydwch ynddi, a'u hymgais difrifol am ufuddhau iddi. Rhuf. 6. 7. a 7. 4. Col. 3. 3. Y mae y diadgenedledig yn *feirw mewn pechod*, ond y mae y saint yn *feirw i bechod*; y mae yr hyfrydwch ynddo wedi darfod; yn lle ymhyfrydu ynddo, y maent yn griddfan dano, ac yn llefain yn ngeiriau dwys Paul, 'Ys truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared i oddiwrth gorph y farwolaeth hon?'

'Marwhewch gan hyny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear.——Os ydych yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Ysbryd, byw fyddwch.' Col. 3. 5. Rhuf. 8. 13. Wrth y corph, deallwn corph pechod; aelodau y corph hwn yw yr holl chwantau, y nwydau, a gweithrediadau llygredig y meddwl; y maent fel corph yn un â'u gilydd, yn cyd-fywiolaethu, ac o'r un natur, yn llygredig, ac yn elyniaethol i Dduw: ar y ddaear, sef y byd, a'r pethau sydd yn y byd, y maent yn byw ac yn ymborthi; y maent yn ffieiddio pethau y nefoedd, y pethau sydd uchod. Col. 3. 2. Y mae holl aelodau y corph hwn yn fyw yn y rhai a gydgyfodwyd gyda Christ; trwy gyflawni y chwantau hyn y mae dynion yn eu bywhau a'u cryfhau—yr hyn ydyw byw dan eu llywodraeth, a'u gwasanaethu: eu marwhau *oll* yw dyledswydd a braint pawb; ac felly y gwna pob credadyn, trwy nerth a chynnorthwyon yr Ysbryd Glân. Phil. 2. 13. 2 Tim. 1. 6, 7. Eu marwhau, 1. Trwy beidio eu cyflawni, ac felly eu porthi a'u cryfhau.——2. Trwy fyw trwy ffydd Mab Duw, fel y cynnyddom mewn gras gwrthwyneb iddynt. ——3. Trwy ddyfal weddi am yr Ysbryd Glân, i orachwyliaethu yn sanctaidd arnom. Dyma un gainc o sancteiddhad, neu waith sanctaidd yr Ysbryd Glân ar eneidiau y gwaredigion, sef marweiddio pob peth ynddynt sydd o'r diafol, ac yn llygredig: y mae yn marwhau y pethau llygredig, ac yn bywhau y pethau sanctaidd, croes iddynt. Edr. SANCTEIDDHAD.

'A bwytasant ebyrth y meirw,' sef ebyrth eilunod meirwon, neu a aberthir o barch i'r meirw; y cyfryw ag a aberthwyd wedi hyny gan wŷr Caerdroia, a'r Groegiaid.* Psalm 106. 28. a 115. 4—8. Jer. 10. 8, 9, 10. 1 Cor. 10. 19, 20.

'Pethau meirw a lunir odditan y dyfroedd.' Job 26. 5. Y mae y gair רפאים yn arwyddo *cyrph meirw*, wedi eu malurio yn llwch. Gen. 3. 19. Preg. 12. 7. Mae y rhai hyn yn agored i lygaid, ac yn noeth ger bron yr Arglwydd. Barna Caryl mai pethau difywyd, megys meini gwerthfawr tan y dyfroedd, a feddyltr. Y mae yr un gair, ond a'i darddiad o wreiddyn arall, yn arwyddo *cawri*, neu *angenfilod*. 1 Sam. 17. 11, 24. Ac, hwyrach, yn arwyddo yn y fan hon y môr-feirch mawrion sydd yn y dyfroedd.

'Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw.' Phil. 1. 21.—'Can ys Christ ys ydd i mi pop vn ymbywyt, ac yn angeu yn enilliat.' W. S.—'Canys byw i mi (yw) Crist, ac elw yw marw.' Dr M. *Εμοι γαρ το ζην, Χριστος, και το αποθανειν, κερδος, i mi i fyw, Crist, ond marw, elw.* Crist yw y gwrthddrych sydd genyf i fyw arno, iddo, ac erddo; ond bydd marw yn elw: bod gyda Christ fydd y canlyniad o farw i mi, am hyny bydd yn elw mawr. Wrth farw mae y credadyn yn cael gwared oddiwrth bob peth gofidus iddo, a mwy cyflawn fwynhad o bob peth oedd gysur iddo. Ni chyll ddim ag oedd yn gysur sylweddol iddo, ond cyll bob peth ag oedd yn anghysur iddo. Y mae bod yn Nghrist yn gyflwr diogel yma, ac y mae gwaith Crist yn dda ac yn anrhydeddus; ond y mae bod gyda Christ mewn gwlad well, yn elw mawr o ran dedwyddwch—'llawer iawn gwell ydyw!' Mae marwolaeth yn gymwynaswr hynod i gredadyn, o herwydd y gobaith gwynfydedig tu draw i angeu.

'Os yw Crist ynoch, y mae y corph yn farw, o herwydd pechod; eithr yr Ysbryd yn fywyd, o herwydd cyfiawnder.' Rhuf. 8. 10. Pechod ydyw yr achos o farwolaeth, a thrwy farwolaeth y ceir gwaredigaeth dragywyddol oddi wrtho, gan y rhai sydd yn Nghrist. Nid ydyw marwolaeth iddynt yn gospedigaeth, ond meddyginiaeth; pan y tynwyd y bai tynwyd y gosp hefyd ymaith.† Gellir gorfoleddu gan hyny mewn gorthrymderau, a gwaeddi buddugoliaeth yn wyneb angeu.—'Mae yr Ysbryd yn fywyd o herwydd cyfiawnder,' sef cyfiawnder mawr y Cyfryngwr. Rhuf. 5. 2, 3. 1 Cor. 15. 57.

'Arogl marwolaeth i farwolaeth.' 2 Cor. 2. 16. Sef marwolaeth yn parhau ac yn cynnyddu; marwolaeth corph ac enaid; marwolaeth dymhorol a thragywyddol. Felly y mae yr efengyl i bawb nad ydyw yn fywyd iddynt. Edr. AROGL.

'Gan gylch-arwain yn y corph bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu.' 2 Cor. 4. 10. Y mae Crist megys yn cael ei farwolaethu drachefn a thrachefn ynom ni; yr ydym yn dyoddef y cyffelyb ddyoddefiadau yn mhob man er ei fwyn ef; ond yn nghanol y dyoddefiadau, mae grym ei fywyd oddiwrth y meirw, ac yn awr yn eiriol drosom, yn cael ei egluro ynom; o herwydd ei fod ef yn fyw, yr ydym ninnau yn fyw yn nghanol marwolaethau. Edrych ADGYFODIAD.

MARWOR——YN, (marw) rhysodyn, marwydos, eirias.—Cyffelybir hiliogaeth un i farworyn; y maent yn gysur iddo, ac mae yntau yn byw, yn gweithredu, ac yn dysgleirio ynddynt. 2 Sam. 14. 7.——'Wrth wneuthur hyn, ti a bentyri farwor tanllyd ar ei ben ef.' Rhuf. 12. 20. Cymerodd yr apostol y gyffelyb-

---

* Homer, *Odyss. lib.* 29, &c. Virgil, *Æned. lin.* 66. Potter's *Antiq. Book* iv. *chap.* 8. Cymh. Deut. 26. 13, 14. a Selden *de Diis Syr. Syntag.* i. *cap.* 5. *p.* 90.

† Gwel Coccejus *in loc.*

Digitized by Google

iaeth oddiwrth y dull o doddi mŵn, trwy roddi marwor tanllyd arno. Mae talu da am ddrwg, tiriondeb am annhirioneb, yn tueddu i effeithio yn rasol ar ein gelynion, i'w meddalhau, gorchfygu eu gelyniaeth, ac i ennyn cariad ynddynt tu ag atom. Rhodio yn ol y cnawd, yw talu drwg am ddrwg; ond rhodio yn ol yr Ysbryd, yw gorchfygu drygioni eraill, trwy wneuthur daioni iddynt; fel hyn yr ymddengys ein bod yn blant i'n Tad yr hwn sydd yn y nefoedd; 'Canys daionus yw efe i'r rhai anniolchgar a drwg.' Mat. 5. 45. Luc 6. 34, 35 ——'Ac yn ei law farworyn,' &c. Esa. 6. 6, 7. Edr. GWEFUS.

MAS, *Heb.* מש [*cymerwr ymaith*] pedwerydd mab Aram, ac ŵyr Sem. Gen. 10. 23. Gelwir ef Mesech yn 1 Cron. 1. 17. Bernir iddo ef a'i hiliogaeth gyfanneddu yn agos i fynydd Masius, yn Mesopotamia. O'r mynydd, rhed afon yn Mesopotamia, a elwir gan Xenophon, Mosea. Gelwir trigolion cyffiniau mynydd gan Stephanus, Masius, Masieni, neu Masiani.

MASAL, משל [*diareb*, neu *llywodraethwr*] dinas yn Aser, yn agos i fynydd Carmel, a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Gerson. 1 Cron. 6. 74.

MASCHIL, משכיל [*athrawiaeth*] titl amryw o'r Psalmau, sef y xxxii, xlii, xlv, lii, liii, liv, lv, lxxiv, lxxviii, lxxxviii, lxxxix, cxlii. Rhai a farnant fod y titl Maschil yn arwyddo athrawiaeth y gân sydd yn canlyn: eraill, mai enw rhyw offeryn cerdd ydoedd; neu y gerddoriaeth yr oedd i'w chanu ynddi.

MASGNACH, a MASNACH, (masgyn) *Lladin*, MERCATURA, MERCARI: gwalth, gorchwyl, neges. —'Un i'w faes, ac arall i'w fasnach.' Mat. 22. 5. Sef at eu negesau bydol, yn ddiystyr o'r brenin a'i wledd. Nid oedd y gymdeithas, na'r danteithion, yn eu golwg yn cyfateb i'w helw oddiwrth y negesau hyny.

'Yn gwneuthur masnach o air Duw.' 2 Cor. 2. 17. Neu, *καπηλευοντες*, yn *llygru gair* Duw er mwyn elw. Mae y gair yn cael ei gymeryd oddiwrth arferiad rhai yn gwerthu gwin, ac yn ei gymysgu â dwfr, neu ryw beth llai ei werth na'r gwin, er mwyn elw. Felly yr oedd y gau athrawon yn cymysgu cyfeiliornadau â'r gwirionedd, i'w wneuthur yn fwy derbyniol gan eu dysgyblion. Yn lle y cyfryw ddichellion pechadurus dinystriol, yr oedd yr apostol yn pregethu *o burdeb*, o ran athrawiaeth ac egwyddor; megys o Dduw, sef trwy ddylanwadau ei Ysbryd; 'Yn ngŵydd Duw yr ydym yn llefaru,' yn, neu am Grist. Crist oedd y gwrthddrych yr oedd yn llefaru am dano; yr oedd yn llefaru am dano heb gymysgu dim â'r gwirionedd i foddhau neb; yr oedd yn llefaru am dano o anfoniad Duw, a thrwy gynnorthwyon dwyfol, ac yn ngŵydd Duw. Y mae y geiriau yn dangos rhyw agwedd ryfedd o syml ar feddwl yr apostol, mewn perthynas i burdeb ei athrawiaeth am Grist, gan fod gau athrawiaethau am dano o'r niwed mwyaf.

MASRECAH, משרקה [*chwibanwr*] dinas yn Edom. Gen. 36. 36.

MASSA, משא [*llwyth*] seithfed mab Ismael. Gen. 25. 14. Edr. MERIBAH, REPHIDIM.

MASWEDD——WR——WYR, (masw) meddalwch, tynerwch, esmwythder, mwythusder, mursendawd, gwagsawrwydd, meddfaeth, gwreigaidd; gwr gwagsaw, mursenaidd.—'Na masweddwyr.' 1 Cor. 6. 9. 'Na'r ei drythyll:' ymyl y ddal: 'rhwdfus, mwysus.' W. S.—'Na drythyllwyr.' Dr M. *Μαλακοι* sydd yn arwyddo dynion yn byw *yn esmwyth, yn foethus*, ac *yn dyner*; hefyd y mae yn arwyddo *brynt-was, llanc at drin brynti*. Yr oedd y trueiniaid ffiaidd hyn yn ymddangos yn ferchedaidd yn eu gwisgoedd a'u hymddygiad. Gwel Schleusner, Parkhurst.

MATER—ION, (mâd) defnydd, deunydd; peth, achos, neges.—'Gwreiddyn y mater a gaed ynof.' Job 19. 28. 'Gwreiddyn y gair a gaed ynof.' Dr Morgan. *Heb.* שרש דאר *gwreiddyn y gair*. Yn yr ysgrythyrau y mae דבר *gair*, yn arwyddo, yn aml, *achos, peth, mater*: felly yma, cyfleithir ef yn addas, 'Gwreiddyn y mater.' Y mater yw crefydd Job; yn nghylch gwirionedd y mater hwn y mae y ddadl rhyngddo ef a'i gyfeillion. Wrth ddywedyd fod gwreiddyn y mater ynddo, mae Job yn arwyddo dau beth; sef. 1. Gwirionedd ei grefydd: yr oedd ei holl grefydd allanol yn tyfu ar wreiddyn sanctaidd tufewnol. Yr oedd gwreiddyn i'w eiriau parchus am Dduw, a'i addoliad iddo; nid oedd ei eiriau ond effaith meddyliau parchus am Dduw. Yr oedd ei holl weithredoedd sanctaidd yn tyfu ar wreiddyn sanctaidd yn ei galon. Y mae gair Crist, yr hâd da, yn gwreiddio yn nghalonau y rhai sydd yn gwir gredu, ac yn dwyn ffrwyth, yn ganlynol.——2. Arwydda hefyd, parhad ei grefydd: er yr holl dymhestloedd a'r gauaf oer du oedd ar ei amgylchiadau, a'r dyn oddi allan, yn bresennol, er hyny blagura etto, gan fod 'gwreiddyn y mater' ynddo. Peth wedi gwreiddio, a arwydda ei fod yn gryf ac yn gadarn, a bod bywyd a nôdd iddo; ac yn ganlynol, cynnydd a pharhad. Undeb Job trwy ffydd â'r Prynwr yw gwreiddyn y mater; yr oedd Crist ynddo, yr hwn yw gwreiddyn pob daioni yn mhawb. Efe oedd gwreiddyn Job, a gwreiddyn Dafydd; ac efe ydyw gwreiddyn pob un sydd yn credu ynddo.

MATRED, מטרד [*gwïalen*] merch Mezahab, gwraig Hadar. Gen. 36. 39.

MATRI, מטרי [*gwlaw*] penaeth teulu Cis tad Saul. 1 Sam. 10. 21.

MATTAN, neu MATTHAN, מתן [*rhodd*] 1. Offeiriad Baal, yr hwn a laddwyd trwy orchymyn yr archoffeiriad Jehoiada. 2 Bren. 11. 18.——2. Mab Eleazar, a thad Jacob, tad Joseph, gwr Mair. Mat. 1. 15, 16.

MATTANAH, מתנה [*rhodd*] un o wersyllfaoedd Israel yn yr anialwch. Num. 21. 19.

MATTANIAH, מתניה [*rhodd Duw*] 1. Penaeth nawfed teulu y Lefiaid. 1 Cron. 25. 16.——2. Mab Heman. 1 Cron. 25. 4.

MATTATHA, מתתה [*ei rodd*] tab Mainan. Luc 3. 31.

MATTITHIAH, מתתיה [*rhodd yr Arglwydd*] pen pedwerydd teulu ar ddeg y Lefiaid. 1 Cron. 25. 21.

MATH, (my-ath) rhyw, sud, syth; cyffelyb.—Heb fy math, sef heb fy ail, heb un cyffelyb. Esa. 46. 9. —Y cyfryw un ni bu ei fath, sef ei gyffelyb. Marc 13. 19. Dat. 16. 18.

MATHRU—WR, (mathr) mysengu, sathru dan draed; sathrwr, dirmygwr.—Gorthrymu, anrheithio, dinystrio. Luc 21. 24. Dat. 11. 2. Esa. 16. 4. a 63. 3. Jer. 50. 11.—'Yr hwn a fathrodd Fab Duw.' Heb. 10. 29. 'A sathrer dan draed.' W. S. Y mae y gair *καταπατεω*, yn arwyddo y *dirmyg*, y *casineb*, a'r *ffieiddiad mwyaf*; sathru dan draed o wir ddirmyg, a chasineb, fel pe byddem am ei ddiddymu gyd â'r ffieiddiad mwyaf. Esa. 63. 3. Dan. 8. 10. Y mae y rhai sydd o'u gwirfodd yn pechu ac yn gwrthgilio oddiwrth broffes yr efengyl, wedi derbyn gwybodaeth y gwirionedd, yn rhoddi y dirmyg mwyaf o bawb i berson a swyddau Crist. Y mae pob meddwl distadl a dirmygus am yr efengyl, yn ddirmyg ar Fab Duw yn ei berson a'i swyddau, yr hwn yw awdwr a gwrthddrych yr efengyl. Nid oes dim gelynion creulonach yn erbyn Crist a'i achos yn y byd, na gwrthgilwyr gwirfoddol; a bydd eu barn a'u cospedigaeth yn gyfatebol i'w pechod. Edr. YSBRYD GLAN.

Digitized by Google

**MATTHIAS**, dysgybl Crist; hwyrach un o'r deg a thriugain. Nid oes dim hanes gwirioneddol am dano, ond a roddir i ni gan Luc yn yr Actau. Dewiswyd ef gan y dysgblion trwy goelbren, i fod yn apostol yn lle Judas, a chyfrifwyd ef gyd â'r un apostol ar ddeg. Bernir iddo weinidogaethu yn y gwledydd dwyreiniol; ond am hyny, a dull ei farwolaeth, nid oes dim hanes neillduol. Act. 1. 23, 26.

**MATTHEW**, Ματθαιος, [*rhodd*] Galilead oedd o enedigaeth, mab Alpheus, Iuddew o ran ei grefydd, a phublican o ran ei swydd. Gelwir ef Lefi gan yr efengylwyr eraill, ei enw Hebraeg; ond geilw ei hun bob amser Matthew, yr hwn oedd ei enw, hwyrach, fel publican, neu dreth-gasglydd. Ei drigfa gyffredin oedd dinas Capernaum, ac yr oedd ei dollfa allan o'r dref, wrth fôr Tiberias. Yn y dollfa yr oedd pan alwodd yr Iesu ef. Yn y fan ufuddhaodd, heb oedi amser i derfynu ei neges fel treth-gasglydd. Y mae galwad Matthew, a'i ufudd-dod parod i'r alwad, a'i hollol ymwrthodiad â phob peth i fod yn ganlynwr i Grist, yn siampl neillduol i eglurhau natur galwedigaeth sanctaidd Duw ar ei bobl: gyd â'r alwad y mae yr hyn y gelwir hwynt ato yn cael ei weithredu yn eu meddwl. 'Canlyn fi,' medd Crist wrth Matthew yn nghanol ei drafferth fydol; 'ac efe a gyfododd, ac a'i canlynodd ef.' Mat. ix. Mae y gair wrth Matthew mor effeithiol a'r gair a lefarodd Crist wrth y claf o'r parlys, 'Cyfod a rhodia.' Y mae yr alwad yn peri yn awdurdodol, ac yn effeithio yn anorchfygol. Y mae ymadroddion fel hyn yn yr ysgrifeniadau yn briodol yn unig i'r Ysgrythyrau Sanctaidd, ac yn addas i fawrhydi y Duwdod, am yr hwn y maent yn traethu. Ychydig amser wedi ei alwad, cawn yr Iesu a'i ddysgyblion yn bwyta yn ei dŷ, gyda phublicanod, tebygol, o gydnabyddiaeth Matthew: hwyrach ei fod yn dysgwyl y caent fendith trwy ymddyddanion yr Arglwydd. Am hyny mae y Phariseaid yn beio arno; y mae yntau yn amddiffyn ei hun, trwy ddywedyd, mai i alw pechaduriaid i edifeirwch oedd un dyben ei ddyfodiad i'r byd. Yn fuan gwedi ei alw i fod yn ddysgybl, galwodd Crist ef hefyd i'r swydd ardderchog o fod yn apostol. Er fod rhai o'r hen dadau, a Grotius, wedi barnu fod Matthew a Lefi yn ddau berson gwahanol, tebygol mai dychymyg disail ydyw y farn hon. Dyoddefodd ferthyrdod yn Persia, medd rhai; bu farw yn Abyssinia, lle yr aeth i bregethu yr efengyl, medd eraill; ond am hyn nid oes gwybodaeth sicr.

Bernir yn gyffredin iddo ysgrifenu ei hanes yn nghylch wyth mlynedd wedi esgyniad yr Arglwydd, cyn i un rhan arall o'r Testament Newydd gael ei ysgrifenu. Llawer o ddadleuon sydd wedi bod, ac yn parhau, pa un ai yn Hebraeg ai yn Groeg yr ysgrifenodd yr efengyl. Mae Whitby o'r farn mai yn Groeg yr ysgrifenodd hi, ac y mae Campbell yn gryf yn y gwrthwyneb. Sicr yw fod tystiolaethau yr hen dadau mwyaf boreuol yn gytun mai yn yr iaith Hebraeg, sef yn Syrio-Caldaeg, a elwid Hebraeg y dyddiau hyny, yr ysgrifenodd. Ond y mae amryw awdwyr o'r un farn a Whitby, o blaid y Groeg, megys Brown, Scott. Gwel Calmet's *Dictionary*, Whitby *and* Campbell's *Preface*. Y mae pawb o'r farn fod y copi Groeg o awdurdod dwyfol, ac iddo gael ei ysgrifenu yn foreu yn nyddiau yr apostolion. Yn nghylch A. D. 184, cafwyd adysgrifen o hono yn yr India Ddwyreiniol, a ddygwyd yno gan Bartholomew, fel y bernir. Yn y flwyddyn 488, cafwyd yn Cyprus adysgrifen o hono, ar fyrddau o goed celyd, a fernir yn dra hen.

Y mae cyfeiriadau amlach ynddo at ysgrythyrau yr Hen Destament, nag yn yr efengylwyr eraill; a rhydd hanes mwy cyflawn a manwl o bregethau a dammegion yr Arglwydd Iesu na'r lleill: ac yn ol barn llawer, yn adrodd yr hanes yn fwy manwl, yn ol trefn amser yr amrywiol ddygwyddiadau yn ngweinidogaeth Crist, nag un o'r lleill. Gan ei fod yn ysgrifenu i'r Iuddewon Cristionogaidd, yn benaf, yr oedd yn addas iddo brofi fod âch Crist o hâd Dafydd ac Abraham; yr hyn a wnaeth yn nechreu yr efengyl, wrth roddi lliu-âch Joseph, tad cyfrifedig Crist. Y mae ei hawl yn ymddangos trwy hyny i orseddfa ei dad Dafydd, a phob gwrthddadl o achos hyny, yn erbyn bod Crist, y gwir Fessiah, yn cael ei symud o feddyliau yr Iuddewon. Edr. Mair, Joseph. Y mae ei hanes yn rhoddi rhai amgylchiadau am enedigaeth Crist, nad ydynt yn y lleill; ac y mae cyflawnder a manylrwydd yn ei hanes am wyrthiau, dyoddefiadau Crist a'i adgyfodiad; i gyd yn ei brofi y Messiah addawedig. Y mae ei iaith yn ddiaddurn, ond yn gyflawn, yn syml, ac yn addas iawn ar bob achos; a pha ryfeddod, gan ei fod yn ysgrifenu mewn geiriau a ddysgwyd iddo gan yr Ysbryd Glân.*

**MAU**, (mi-au) my, my hun, my hunan, mi fy hun; einwyf, einof; eiddo fi.—'Y llawenydd hwn mau fi a gyflawnwyd,' sef o'r eiddo fi. Ioan 3. 29. Rhoddir y nôd banawg Y o'i flaen, y rhan amlaf, mewn cyfansoddiad; megys y mau, y fau; y tad mau, y fam fau.

**MAWL, MOLI—ANNU—IANT**, (my-awl) *Heb.* הלל *(hilel)* clod, clodforedd, canmoliaeth; clodfori, canmol.——Gweddus yw mawl i'r Arglwydd. Ps. 33. 1. Edr. Gweddus.

Nid cerddawr celfydd
Ni molwy Ddofydd.
Nid cywir ceiniad
Ni molwy y Tad. *Taliesin.*

Y mae mawl, neu foli yr Arglwydd, yn arwyddo cydnabyddiaeth orfoleddus o'i ragoriaethau a'i rinweddau, a'n rhwymedigaethau anfeidrol iddo; ac yn cynnwys gwybodaeth wirioneddol o hono, cymmod âg ef, cariad tu ag ato, hyfrydwch a gorfoledd ynddo. Nis dichon neb lai na'i foli ag sydd yn ei wir adnabod. Y mae moli Duw yn gyhoeddus yn rhan ardderchog o addoliad dwyfol: gan hyny dylem ofalu fod ein mawl yn cael ei fynegi mewn geiriau a fyddont yn gweddu i'r Duwdod a'i rinweddau anfeidrol; a'n hysbryd yn dyrchafu at Dduw gyd â'r geiriau; a'n llais ac ystum ein cyrph yn cyfateb i hyny. Y mae pawb dan y rhwymedigaethau mwyaf i foli Duw; ond yn Sion, sef ei eglwys, yn unig y mae yn cael ei foliannu. 'Mawl a'th erys di yn Sion.' Ps. 65. 1. Gwaith a dedwyddwch Sion fydd ei foli byth. Mae holl drefn iechydwriaeth yn amlygu gras Duw yn dra gogoneddus, a bydd moli byth am dano. Eph. 1. 6. 1 Petr 1. 7.——Duw ydyw moliant ei bobl; sef gwrthddrych eu mawl; ac y mae efe yn trigo yn moliant Israel. Ps. 22. 3. a 109. 1.

**MAWR—EDD—ION—HAU—YGU—EDIG**, (my-awr) *Gr.* μεγας; *Llad.* Magnus: braisg, praff, helaeth, ëang, amryfiau, abrwysgl; diamdlawd, boneddig, anrhydeddus, uchel rwysg, uchel radd; parchu, anrhydeddu, gwerthfawrogi.

Bach hedyn pob *mawredd*. *Diar.*

'Wele, mawr yw Duw.' Job 36. 26. Y gair *Heb.* שגא a arwydda *llïosog, llïosogi*; arwydd mawr o faintioli, ac aml o rifedi. Y mae yn Nuw bob peth yn fawr i anfeidredd: ni ellir na chyfrif na mesur ei rinweddau. Er mai un ydyw, perffaith, digymysg, diranau; etto y mae yn yr un hwn bob peth, yn aneirif, ac yn anfesuredig. Beth bynag sydd yn Nuw, Duw yw;† am hyny beth bynag sydd yn Nuw, y mae yn fawr. Gallu Duw yw y gallu; am hyny y mae ei

* Gwel Davidson's *Introduction to the New Testament.* Kitto's *Cyclopædia of Biblical Literature.* Olshausen's *Commentary on the Gospels, &c.*—C.

† Mae ysgrifenwyr unlongred yn dysgu fod y priodoliaethau yr un a hanfod Duw yn *sylweddol*, ond yn cael eu gwahaniaethu oddi wrtho yn *effeithiol*. Turret.

Digitized by Google

alla yn *fawr:* doethineb Duw, yw Duw doeth; am hyny y mae ei ddoethineb yn *fawr:* trugaredd Duw, yw Duw trugarog; am hyny y mae ei drugaredd yn *fawr:** ac felly pob priodoledd arall.

Y mae *amlder* mawredd ynddo: 'Molwch ef yn ol amlder ei fawredd.' Ps. 150. 2. ברב גדלו *yn llïosogrwydd ei fawredd.* Y mae pethau mawrion ynddo yn llïosog ddirifedi. Oni bai eu bod ynddo, ni allent ddyfod allan o hono mewn gweithrediadau a chyfraniadau mor aneirif. Y mae ei weithredoedd yn fawrion. Ps. 92. 5. Ond y mae pob mawredd sydd yn ymddangos yn ei weithredoedd, ynddo ef yn hanfod tragywyddol. Nid ei weithredoedd sydd yn ei *wneyd* yn fawr, ond yn ei *ddangos* yn fawr y maent. Nid oes un gorchwyl yn dangos mawredd Duw yn fwy, ac yn fwy llïosog, na threfn fawr yr iechydwriaeth yn Nghrist; y mae pob mawredd yn Nuw yn dysgleirio yno yn gydradd, i ni edrych arnynt. Yn y drefn ryfedd hon y mae amrywiaeth ei fawredd yn weledig i ni. Ar hon y mae, nid yn unig y gwaredigion, ond yr angelion, yn chwennych edrych, i ganfod mawr amryw rinweddau y Duwdod.

'Ei fawredd sydd anchwiliadwy.' Ps. 145. 3. Y mae ynddo fawredd ar fawredd: mawredd tu hwnt i'r mawredd yr ydym yn ei ganfod yn bresennol: ac er ei fod i'w chwilio, etto y mae yn anchwiliadwy; bydd mawredd byth ynddo heb ei chwilio gan neb o'i greaduriaid. Nid, bydd rhyw beth bach heb ei chwilio; nid oes dim bach ynddo; ond bydd mawredd heb ei chwilio byth: ei feddwl mawr ef yn unig a ddichon amgyffred ei fawredd.

Y mae 'rhagorol fawredd' ynddo. Eph. 1. 19. Mawredd, υπερβαλλω, yn rhagori ar bob mawredd yn eraill; mawredd yn rhagori mewn gogoniant, ac yn ei effeithiau a'i weithrediadau.

Y mae yn rhagori, 1. Am nad ydyw yn ddechreuol; y mae mawredd pawb eraill yn ddechreuol; ac os felly, dichon fod diwedd iddo; ond y mae mawredd Duw yn annechreuol ac yn ddiddiwedd.

2. Y mae yn rhagori am nad ydyw yn ddeilliedig ac yn ddibynol, ond yn hollol ynddo ac o hono ei hun: ond y mae mawredd pawb eraill yn ddeilliedig ac yn ddibynol.

3. Y mae yn rhagori am nad oes na chynnydd na lleihad iddo: nis dichon iddo fod yn fwy, ac ni bydd ddim yn llai byth.

4. Mae yn rhagori am mai efe sydd yn rhoddi pob mawredd gwirioneddol i bawb eraill. Er nad ydyw yn derbyn mawredd gan neb mewn un gradd, etto y mae yn cyfranu mawredd cymhariaethol i lawer: y mae yn gwneuthur mawredd *i'w* ac *er* ei bobl. Luc 1. 49. Y mae mawredd enwedigol a nodedig yn ei holl drefniadau a'i oruchwyliaethau tu ag atynt. Y mae canlyniadau gogoneddus a thragywyddol iddynt.

5. Y mae yn rhagori mewn gweithrediadau: nis dichon neb wrthladd ei nerth ef, ond dichon Duw wrthladd nerth pawb a fyddo yn ei erbyn. 'Yr holl genedloedd ydynt megys diddim ger ei fron; yn *llai* na dim, ac na gwagedd y cyfrifwyd hwynt ganddo.' Esa. 40. 15, 16, 17. Nid gwiw sôn am beth llai na dim yn erbyn Duw mawr.

6. Y mae yn rhagori hefyd yn hyn, sef yn nghyffredinolrwydd ei fawredd. Mae rhai yn fawr mewn un peth, ond yn fychan mewn pethau eraill; ond y mae Duw yn fawr yn *mhob* peth, sef mewn daioni, gallu, doethineb, llywodraeth, barn, &c. Edr. DAIONI, DOETHINEB, DUW, GALLU, LLYWODRAETH. Os yw Duw fel hyn yn fawr, y mae yn haeddu ffydd fawr ynddo, cariad mawr tu ag ato, ofn, parch, ufudddod, addoliad, a mawl mawr iddo.

* Μεγας εν τουτοις Θεος, ουδε γηρασκει. Mae Duw yn fawr yn eu plith, ac nid yw byth yn heneiddio. Soph. *Oed. Tyran.* 892.

Mawrhau Duw, ydyw cydnabod fod mawredd yn perthyn iddo; ymagweddu yn ein syniadau am dano, a'n holl ymddygiad tu ag ato, *fel* un mawr; sef ei ogoneddu megys Duw. Rhuf. 1. 21. Luc 1. 46.

Y mae Duw yn mawrhau ei hun, ei enw, ei drugaredd, pan y byddo, trwy ryw weithredoedd, neu oruchwyliaethau, yn amlygu ei fawredd, ac yn peri trwy hyny feddyliau mawr am dano yn ei bobl. Gen. 19. 19. Num. 14. 17.

'Ti a fawrheaist dy air uwchlaw dy enw oll.' Ps. 138. 2.—'Oblegid ti a fawrheaist dy enw (a'th) air uwchlaw pob dim.' Dr M. 'Mawrheaist uwchlaw dy holl enw dy air.' *Heb.* Y mae Duw wedi amlygu mwy o hono ei hun yn ei air nag mewn un ffordd arall. Ps. 56. 4, 10. Esa. 42. 21. Mat. 5. 18. a 24. 35. Ioan 10. 35. Y mae Coccejus yn barnu fod y geiriau yn cyfeirio at gyflawnder y dadguddiad a roddodd Crist, Gair Duw, o enw Duw, rhagor gafodd yr hen dadau cyn hyny. Y mae yr ystyr yn eglur, medd y gwr dysgedig hwnw; ein tadau a glywsant dy enw di, ac a obeithiasant ynot; ond yr hyn a lefarodd Mab Duw, yr hwn sydd yn llefaru geiriau Duw, (Ioan 3. 34.) sydd yn rhagori ar dy holl enw a hysbyswyd i ni o'r blaen.

'Efe a fawrha y gyfraith, ac a'i gwna yn anrhydeddus.' Esa. 42. 21.—'Yr Arglwydd sydd foddlawn er mwyn ei gyflawnder i fawrhau, ac i anrhydeddu y gyfraith.' Dr M. Heb goffâu yr amrywiol esboniadau a roddir gan awdwyr o'r geiriau hyn, eu priodol ystyr, i'm tyb i, yw—'Yr Arglwydd sydd foddlon er mwyn ei (y Messïah) gyflawnder; efe (sef y Messïah) a fawrha y gyfraith, ac a'i gwna (sef i ymddangos) yn anrhydeddus.'—'Dygodd gyflawnder tragywyddol;' a gwneir y credinwyr 'yn gyflawnder Duw ynddo ef.' Trwy ufuddhau i'w gorchymynion, a dyoddef ei melldithion, cadarnhaodd hi, a dangosodd hi yn ei chyflawn ogoniant. Edr. CYFIAWNDER, CYFRAITH, DEDDF.

Y mae Duw yn mawrhau dynion, pan fyddo yn eu hanrhydeddu, eu cyfoethogi, ac yn eu gwneuthur yn alluog, ac yn awdurdodol. Jos. 3. 7. a 4. 14. 1 Cron. 29. 25. 2 Cron. 32. 23. Neu, hyd yn nod wrth eu *ceryddu,* pan wrth hyny, y dengys fod ei sylw yn fawr arnynt. Job 7. 17.

'Yn mawrygu wynebau dynion er mwyn budd.' Judas 16.—'Yn rryveddu personae dynion, o bleit caffaeliat.' W. S.—'Yn mawrygu (dynion) er mwyn budd.' Dr M. Yn yr Hebraeg a'r Groeg, y gair *wyneb* (προσωπον) a arferir yma, a arwydda, nid yn unig y wyneb, fel y rhan hyny o'r corph, ond hefyd yr ymddangosiad allanol, ac a gyfieithir *bryd,* Iago 1. 11.—y *golwg,* 2 Cor. 5. 12.—*wynebpryd,* Luc 12. 56. Mat. 16. 3. Felly hefyd yr arwydda berson dynol. 2 Cor. 1. 11. εκ πολλων προσωπων, *o herwydd llawer o bersonau;* sef trwy weddïau llawer o bersonau. Dyma un o nodau y gau-athrawon, eu bod yn mawrhau personau y cyfoethogion er mwyn elw, ac nid o wir gariad atynt yn ceisio lles eu heneidiau. Nid oes neb yn fwy gwenieithus, nac yn fwy tra-arglwyddiaethus, yn ol yr achlysuron a'u buddiolioldeb eu hunain, na'r cyfryw weision melldigedig i'r diafol.

MAWRHYDI, (mawr) mawredd, ardderchogrwydd, rhwysg, mawrwychedd. Dan. 4. 30. Act. 19. 27.

MAWRHYDRI, (mawrhydr) hyder mawr; pethau mawrion.—'A'r tafod a ddywedo fawrhydri;' sef pethau mawrion. Ps. 12. 3. Dan. 7. 20. 'Am iddo wneuthur mawrhydri;' sef pethau mawrion. Joel 2. 20. Yr un gair *Heb.* גרל *mawr,* sydd yn mhob un o'r manau hyn: ni arwydda natur y peth, pa un ai da ai drwg ydyw, ond ei *fawredd.*

MAZZAROTH; wrth Mazzaroth, meddylia y rhan

Digitized by Google

fwyaf o'r dysgedigion, yr arwydd-gylch, neu gylch y deuddeg arwydd, yn y ffurfafen. Y mae cylch yn y ffurfafen yn cynnwys y cyfryw sêr ag sydd yn llwybr yr haul a'r lleuad, a elwir yr arwydd-gylch, ac a ddarlunir trwy arwyddion creaduriaid yn tebygu i'r sêr, yn ol meddwl yr edrychwyr. Y mae y goleuadau mawrion yn myned trwy y cylch hwn yn flynyddol; ac y maent mewn amrywiol ranau o'r cylch; a hyny a feddylir wrth y geiriau, 'A ddygi di allan Mazzaroth yn eu hamser?'* Job 38. 32. Neu, 'A ddygi di y goleuadau i'r arwyddion hyny yn eu hamser?' Y mae tymhorau y flwyddyn yn ymddibynu ar hyny, sef ar fod y goleuadau yn eu hamser priodol yn yr arwyddion hyn: ond nid gwaith un dyn, nac un creadur, ydyw gwneuthur hyny, ond gwaith y Creawdwr yn unig. Y mae rhai yn barnu mai yr un peth a feddylir wrth Mazzaroth, ag ystafelloedd y dehau, sef sêr y dehau. Job 9. 9. Gwel Caryl. Ond mae Parkhurst yn barnu mai rhyw wynt afiachus, a elwir *Samiel*, a feddylir wrth y gair hwn. Edr. Gwynt, a עיש yn Parkhurst.

MEBUNNAI, מבני [*fy mab*] Husathiad, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 27.

MEBYD, (mab) mabandod, mabanoed, maboed, mabolaeth.—'Canys gwagedd yw mebyd ac ieuenctid.' Preg. 11. 10. Yn ieuanc mae y galon yn dueddol i ddrygioni; nid ydyw llawenydd ac hyfrydwch ieuenctid ond pethau disylwedd; ac y mae yr ieuainc yn ddarostyngedig i glefydau, gofidiau, a marwolaeth; ac wedi marw, y mae barn iddynt hwy fel eraill a fyddo hŷn. Y doethineb penaf ydyw cofio y Creawdwr mawr, ei garu, ei ofni, a'i wasanaethu yn nyddiau ieuenctid. Preg. 12. 1, 13.

MECHERATH, mangre Hepher, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 36.

MECHNIO—YDD, (mach) mach; ymrwymo dros arall. Y mae y gair *Heb.* ערבה a gyfieithir *meichiau, mechnïo*, yn Job 17. 3. Gen. 43. 9. a 44. 32. Ps. 119. 132. yn arwyddo *cymysgu*, neu ymuno âg arall, neu ymrwymo gyda, neu dros arall. Y gair *Gr.* εγγυος, a arwydda *nesâwr*, neu un a ddylai *nesâu* at y barnwr, neu yr echwynwr, dros yr hwn y mechnïodd. Un yn ymrwymo dros arall ydyw mechnïydd, am wasanaeth, am ddyled, neu am ddiogelwch. Gen. 43. 9. a 44. 32. Philem. 18, 19. Byddai meichiau yn taro eu dwylaw yn llaw yr echwynwr, fel arwydd o'u hymrwymiad iddo am y ddyled, neu y gwasanaeth i'w gyflawni. Gwaherddir i un fechnïo, yn enwedig dros ddyeithriaid, am ei fod yn tueddu i niweidio ei hun a'i deulu; a bod llawer yn diofalhau trwy hyny i dalu eu dyledion cyfreithlawn. Diar. 6. 1, 2. a 11. 15. a 20. 16. a 22. 26. a 27. 13.

'Ar Destament (neu ar Gyfammod) gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fechnïydd.' Heb. 7. 22. a 8. 6. Gwnaethpwyd—Iesu—yn Fechnïydd. Sylwn, 1. Y mae Iesu yn Fechnïydd o osodiad Duw. Trwy gynghor, cyfammod, a gosodiad, y mae yr Iesu yr hyn ydyw *i ni*. Y mae holl effeithioldeb ei waith drosom ni, yn gorphwys ar ei osodiad yn ei swyddau gan Dduw. Rhuf. 3. 25.——2. Y mae yr Iesu, nid yn unig gwedi ei osod yn Gyfryngwr ac yn Eiriolwr yn y cyfammod gras, ond hefyd yn Fechnïydd. Nid oedd na Chyfryngwr, Eiriolwr, na Mechnïydd yn y cyfammod gweithredoedd; ond yn y cyfammod gras, y mae yr Iesu yn bob un o honynt. Y mae ei fod yn Fechnïydd, yn fwy na'i fod yn Gyfryngwr ac yn Eiriolwr; canys y mae efe yn atebol dros y rhai y mae yn Fechnïydd iddynt. Y mae gwahaniaeth rhwng Mechnïaeth Crist a mechnïaeth yn mhlith dynion: yn mhlith dynion, y mae y dyledwr a'r mechnïydd yn rhwym, y mechnïydd i dalu os na all y dyledwr: ond yma, Crist ei hun sydd yn rhwym am y cwbl. Ysgrifen-rwym (*bond*) yw y cyfammod hwn, heb enw neb wrthi, ond enw Crist ei hun: am hyny gelwir ef yn 'gyfammod y bobl.' Esa. 42. 6. a 49. 8.* 'Gosodwyd ein cymhorth ni ar un cadarn.' Ps. 89. 19. Gwnaethpwyd *Ef* (ac *Ef* yn unig) yn bechod (neu yn bech-aberth) drosom ni—ac y 'mae Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd (etholedig) âg ef ei hun, heb *gyfrif iddynt* hwy eu pechodau.' 2 Cor. 5. 19—21.——Ymrwymodd o'i wir fodd yn ei Berson ei hun i gyflawni pob cyfiawnder, a dyoddef pob melldith, fel Mechnïydd dros ei bobl; yr ydoedd cyfiawnder digonol ynddo i ateb i'w ymrwymiadau, ac y mae efe a'i bobl yn gwbl rydd dros byth.

* Gwel y Dr Mason Good on Job in loc.—O.

MECHONAH, מכנה [*distadl*] dinas yn llwyth Judah. Neh. 11. 28.

MEDAD, מידד [*mesurwr*]. Edr. Eldad.

MEDAN, מדן [*barnwr*, neu *ymdrechwr*] mab Abraham o Ceturah. Gen. 25. 2. Gelwir ei hiliogaeth ef a'i frawd Midian, מדינים *Midianiaid*, neu Medianiaid. Tebygol, medd Calmet, eu bod yn trigo o du y dwyrain i'r Môr Marw, ac yn bobl wahanol i'r Midianiaid, oedd yn preswylio o du y dwyrain i'r Môr Coch. Edr. Midian.

MEDEBA, מידבא [*dwfr blinder*] dinas tu hwnt i'r Iorddonen, yn llwyth Reuben. Jos. 13. 16.

MEDI—ELWR—WYR, (med-el-gwr) pladurwr, cryman-wr, cynauaf-wr. Arwydda medi, 1. Tori yr ŷd yn y cynauaf. Iago 5. 4.——2. Derbyn o ffrwyth ein gweithredoedd, pa un bynag ai da ai drwg fyddont. Hos. 10. 12. Gal. 6. 7, 8. Gelwir yr angelion yn fedelwyr, am y byddant yn offerynol yn llaw yr Arglwydd i gasglu ei bobl ato y dydd diweddaf. Mat. 13. 39. Edr. Cynauaf.

MEDIAID, trigolion gwlad Media. Cafodd y wlad ei henw oddiwrth Madai, trydydd mab Japheth, yn ol barn llawer. Edr. Madai. Gelwir y wlad yn bresennol Aiderbeithzan: y mae yn wlad dra mynyddig, yn sefyll i'r dehau-orllewin i For Caspia, o du y dwyrain i Armenia, y du y gogledd i Persia, a'r gorllewin i Parthia a Hyrcania. Y prif ddinasoedd yn yr hen oesoedd oeddynt Ecbatana, Rages, &c. Y mae hanes y Mediaid, fel y rhan fwyaf o'r hen genedloedd yn eu dyddiau boreuol, wedi eu gorchuddio â thywyllwch; ac ychydig neu ddim a wyddir am danynt, nac am eu moesau a'u buchedd. Yr oedd eu cyfreithiau a'u crefydd yn tebygoli i'r eiddo y Persiaid. Unbenaeth oedd eu llywodraeth ar y cyntaf; pan byddai cyfraith gwedi ei chadarnhau unwaith, ni byddai hòno byth i gael ei newid; yr hyn nad oedd brawf o'u synwyroldeb a'u doethineb mawr. Dan. 6. 8. Yr oeddynt yn dangos parch mawr i'w breninoedd, gan eu galw, 'y brenin mawr,' neu 'brenin y breninoedd.' Nid oedd yn oddefol i neb boeri na chwerthin yn eu gwyddfod. Yr oeddynt yn nodedig am eu medrusrwydd i drin meirch a'r bwa; yn yr hyn yr oeddynt yn rhagori ar yr holl genedloedd eraill.

Darostyngwyd y Mediaid gan Pul, neu Tiglath-Pileser, yr hwn a sefydlodd ymerodraeth Assyria; ac i Media y dygodd Salmaneser ei gaethion o Syria ac Israel. 2 Bren. 18. 11. Yr oedd y Mediaid, o ddinas neu dalaeth Cir, yn filwyr yn myddin Senacherib, pan ddaeth yn erbyn Judea. Esa. 22. 6. Wedi dinystrio byddin

* Y mae gair yn yr adnod hon wedi ei adael allan yn holl argraffiadau o'r Bibl yn ein cyfieithiad awdurdedig ni (oddieithr yr eiddo y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, a rhai diweddar eraill); ond y mae wedi ei roddi i mewn yn nghyfieithiad y Dr. Morgan: 'A mi a'th gadwaf yn gyfammod y bobl.' Dylasai fod, 'A mi a'th gadwaf, *ac a'th roddaf* yn gyfammod y bobl.' Gwel Esa. 42 6.

Digitized by Google

Senacherib wrth Jerusalem, y Mediaid a ymryddhasant oddiwrth iau yr Assyriaid. Ynghylch A. M. 3298, Dejoces, neu Arphaxad, fel y gelwir ef yn Judith, a gafodd ei ddewis yn frenin arnynt. Gwedi adeiladu Ecbatana, neu Achmetha (Ezra 6. 2.) rhyfelodd yn erbyn yr Assyriaid; ond Saosduchinus, neu Nebuchodonosor, fel y gelwir ef yn Judith 1. 1. mab Esarhadon,* a'i gorchfygodd yn y maes mawr yn ardaloedd Ragau. Judith 1. 5, 13, 14. Ei fab Phraortes a'i holynodd, A. M. 3348. Y mae Rollin yn barnu mai hwn oedd yr Arphaxad a orchfygwyd gan Nebuchodonosor, ac nid ei dad Dejoces. Dywed Brown mai Esarhadon, ac nid ei fab Nebuchodonosor, a ennillodd y fuddugoliaeth yn ngwastadedd Ragau. Ond y mae rhesymau Prideaux yn ymddangos i mi yn gryfion yn eu herbyn. Gwel *Universal History, vol.* v. Darostyngodd Phraortes y cenedloedd oddi amgylch yn ngogledd Asia, ac a gyrch-ruthrodd i wlad Assyria; ond lladdwyd ef wrth warchae ar Ninifeh. Cyaxeres ei fab a'i holynodd yntau, A. M. 3370. Goresgynodd Persia; ac i ddial gwaed ei dad, a dystryw Ecbatana, cyrchruthrodd i wlad Assyria, ac a warchaeodd ar Ninifeh. Tra yr oedd yno, y Tartariaid, neu y Scythiaid, a oresgynasant Media, ac a'i meddiannasant 28 o flynyddoedd; ond o'r diwedd gyrodd hwynt o'i wlad. Astyages ei fab a'i holynodd yntau, yr hwn a elwir Ahasferus yn Dan. 9. 1. a Tobit 14. 15. Ei ferch Amyitis a briododd Nebuchodonosor mab Nabopollasar, brenin Babilon; a'i ferch Mandana, a briododd Cambyses, brenin Persia, yr hon oedd fam i Cyrus enwog. Edr. PERSIA. Ymunasant yn erbyn Ninifeh, ac a'i dystrywiasant yn hollol. Edr. NINIFEH. Wedi marw Astyages, ei fab Cyaxeres a'i holynodd: gelwir ef Darius y Mediad, gan Daniel, pen. 5. 21. Cyrus a Darius a gymerasant Babilon; ac wedi marwolaeth Darius, Cyrus a deyrnasodd yn ei le, ac ynddo ef yr ymunodd breniniaethau y Mediaid a'r Persiaid. Yr oedd ef yn frenin ar Media, Persia, a Babilon. Gwel Prideaux. *Universal History, vol.* v.

MEDRU, (medr) cyfarwydd, medrus, gwybodus, cywrain; deallus i weithredu; yn gallu.—'Yn medru cymynu;' sef yn medru saerniaeth. 1 Bren. 5. 6.—'Yn medru canu telyn;' sef yn medru cerddoriaeth. 1 Sam. 16. 16.——'Yn medru oddiwrth y môr,' sef yn medru morwriaeth. 1 Bren. 9. 27.——'Yn medru ymadrodd;' sef yn areithiwr hyawdl. Jer. 1. 6. Yr Arglwydd sydd yn rhoddi cyfarwyddyd a deall i ddynion. Exod. 36. 1.

'Uchel yw hi, ni fedraf oddi wrthi.' Psalm 139. 6. לא־אוכל לה *nis gallaf â hi*; ni allaf gyrhaedd i feddwl iawn am wrthddrych mor rhyfedd a Duw, heb gael fy nerthu a'm dysgu gan yr Ysbryd Glân; ni allaf gyrhaedd ond i raddau bychain; ni allaf ei ryfeddu ddigon. Y mae holl-bresennoldeb a holl-wybodaeth Duw, yn wirioneddau am Dduw na ddichon neb lai na'u credu, ag sydd yn credu yn y bôd o Dduw; etto pan edrychom ar y pethau hyn, rhy ryfedd yw i ni; nis gallwn eu hamgyffred: y mae meidrol ac anfeidrol yn anghymesur.

MEDD, (me-edd) meddaf, meddi, medd efe; eb y fi, eb di, eb efe.—'Pwy meddwch chwi?' sef pwy ddywedwch chwi? Mat. 16. 15.

MEDDAL—HAU, (medd-al) *Gr.* μαλασσω; *Llad.* MOLLIS: masw, ystwyth, tyner, esmwyth, rhywiogaidd; ystwytho, llarieiddio. Meddal galon, sef ofnus. Deut. 20. 8. Esa. 7. 4—'Oblegid i'th galon feddalhau,' sef ymostwng mewn gwir edifeirwch ger bron Duw. 2 Bren. 22. 19. 2 Cron. 34. 27. Calon galed, yw calon anystyriol a diedifeiriol; felly calon feddal yw y galon newydd o gig, y mae yr Arglwydd yn ei rhoddi i'w bobl: y mae yn ystyriol, yn edifeiriol, yn ostyngedig, ac yn ufudd.——'Canys Duw a feddalhaodd fy nghalon.' Job 23. 16. Sef gwnaeth fi yn isel ac yn wan; braidd yn gallel ymgynnal dan fy ngorthrymder mawr. Yr oedd ei galon fel cwyr yn toddi yn nghanol ei berfedd gan flinder, fel y dywed y Psalmydd. Psalm 22. 14.

* Prideaux, *p.* 1. *b.* 1. *An. Manass.* 31.

MEDD—IANT—IANNU—YDD, (medd) perchenogi, etifeddu, mwynhau; gallu; perchenogaeth, etifeddiaeth; un âg awdurdod ar; perchenog.—'O feddiant,' sef o afael, oddi tan awdurdod. Ps. 22. 20. a 49. 15.——'O feddiant Satan,' sef oddi tan ei lywodraeth, a'i awdurdod. Actau 26. 18. Col. 1. 13.——'Nid oes i'r wraig feddiant ar ei chorph ei hun, ond i'r gwr.' 1 Cor. 7. 4. *ουκ εξουσιαζει, nid oes iddi awdurdod.*——'Yn meddiannu pob peth,' sef angenrheidiol; ac â hawl ganddynt i bob peth trwy Grist; pob peth i'w haddasu i'r nefoedd, ac i'w dwyn yno yn ddiogel. 2 Cor. 6. 10.

'Meddiannydd nefoedd a daear.' Gen. 14. 19. Y mae hawl yr Arglwydd i bob peth: 1. Yn gyfiawn; efe a greodd ac sydd yn cynnal nefoedd a daear; o hono ef, trwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth. Nid oes neb yn rhoddi hawl iddo, ond y mae ganddo yn gyfiawn.——2. Yn hollol; y mae yn meddiannu y cwbl yn gyflawn; ac yn deilwng o wasanaeth pob creadur yn ddifeth, yn gyflawn, ac yn wastad. Nid yw yn colli ei hawl ei hun ynddynt, er rhoddi y creaduriaid i ni; efe yw ein meddiannydd ni a hwythau; ac yr ydym ni yn atebol iddo ef am bob peth.——3. Yn benarglwyddiaethol; y mae ganddo hollol lywodraeth ar bob peth, a hawl ganddo i'w trefnu oll, a'u defnyddio fel y myno. Y mae ei awdurdod yn oruchel ac yn ben-arglwyddiaethol; ac nid ydyw yn atebol i neb am ddim. Mat. 11. 25.

Canys Duw a *fedd* a fynwy. *Cynddelw.*

'Na meddiant Duw.' Mat. 22. 29. W. S. Sef na gallu Duw.—'Na meddiannau.' Rhuf. 8. 38. *ουτε δυναμεις, na galluoedd.—Saes. powers.* Mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *galluoedd*, yn 1 Petr 3. 22.—*gallu*, Eph. 1. 21.—*nerth*, 1 Cor. 15. 24. Angelion drwg, tebygol, mae yr apostol yn ei feddwl; neu alluoedd y ddaear dan lywodraeth galluoedd y tywyllwch, yn rhyfela yn erbyn Crist a'i achos, a'i bobl yn y byd. Y mae Crist goruwch iddynt oll, ac ni ddichon iddynt wahanu y credadyn gwanaf oddiwrth gariad Duw yr hwn sydd yn Nghrist.

Gwell bach a *feddwyf* na mawr a welwyf. *Diar.*

MEDDW—I—DOD, (mêdd) *Gr.* μεθυω; brwysgo; brwysgedd; meddwaint.

Nid ffolineb ond *meddwdod. Diar.*

Anghymedroldeb mewn yfed diod gadarn yw meddwdod, ag sydd waharddedig gan Dduw, am hyny sydd bechod. 'Na feddwer chwi gan win, yn yr hyn y mae gormodedd; eithr llanwer chwi â'r Ysbryd.' Eph. 5. 18. Yn y *gormodedd* y mae y pechod yn gynnwysedig. Y mae effeithiau y gormodedd yn ffiaidd, ac yn bechadurus; ond y mae y gormodedd o hono yn bechod, er lleied fyddo yr effeithiau i'w canfod. Y mae rhai 'yn gryfion i yfed gwin, ac yn nerthol i gymysgu diod gadarn;' ac nid ydyw yr effeithiau i'w gweled gymaint arnynt hwy ag ar eraill; etto meddwon ydynt hwy, o ran y gormodedd y maent yn gyfranog o hono.

1. Y mae meddwdod, gan ei fod yn niweidio dyn yn ei berson, ac yn ei feddiannau, yn droseddu o'r chweched a'r wythfed gorchymyn. Y mae rhai yn niweidio eu hiechyd yn fawr trwy yfed, medd un awdwr, nad ydynt ond yn bur anaml yn meddwi i golli eu synwyrau. Yr arferiad cyffredin o gyfeddach, a diota beunyddiol, sydd niweidiol i'r iechyd, ac yn bechod dirfawr yn erbyn yr Arglwydd. Pan fyddo

Digitized by Google

y llestri yn cael eu cadw yn llawn ac yn estynedig yn wastadol, nid ydynt yn cyflawni eu gwaith yn rheolaidd, ac y mae treuliad yr ymborth, a maethiad y gwaed, yn cael eu rhwystro. Yn lle magwraeth iachus, y mae y corph yn cael ei lenwi âg afiechyd; y gymalwst, y graianwst, coesau llinorog, &c., neu y ddüeg, iselder ysbryd, y gwynt-glwyf, ydynt effeithiau dychrynllyd o'r cyfryw afiechyd. Camsyniad mawr ydyw meddwl fod diod gadarn yn cryfhau dynion, ac yn eu haddasu at waith trwm; yn hollol i'r gwrthwyneb, y mae yn gwanhau, ac yn llesgâu natur yn fawr. Y mae pob peth sydd yn poethi y gwaed yn ormodol, yn gyfatebol yn gwanhau y nerth. Y mae dynion na phrofasant erioed ddiod gadarn yn gallu myned yn esmwyth drwy fwy o lafur nag eraill, ac yn gyffredinol yn byw yn hŵy, ac yn fwy cysurus ac iachus. Cymedrolder ydyw rheol Duw i ni o fyw, o ran ymborth a diod: rheol Duw ydyw y rheol oreu, ac nid dilyn ein blys ein hunain, ac arferiadau llygredig eraill: ac mae bendith Duw ar ei drefn, yr hyn ni ellir, ac ni ddylem ddysgwyl ar ein hannhrefn bechadurus ein hunain. Y mae bwyta ac yfed er cryfder ac er meddwdod, yn groes i'w gilydd; yfed er meddwdod sydd er gwendid, ac nid er cryfder, yn ol barn yr Ysbryd Glân. Preg. 10. 17.

2. Y mae yn trymhau ac yn caledu y galon, ac yn ei dyeithrio oddiwrth Dduw, trwy gryfhau llygrediggaethau, tywyllu y deall, a llenwi y gydwybod âg euogrwydd: byw mewn meddwdod, sydd sicr yn fywyd didduw: nis gall y ddau gydfyned na chydsefyll. Luc 21. 24. Hos. 4. 11.

3. Y mae yn ennyn llygredigaethau, ac yn arwain i bob math ar gyfeiliornadau; ni chynnwys, ac ni oddef dynion llygredig mo athrawiaethau sanctaidd yr efengyl yn hir. Mae yr efengyl yn hollol groes i bechod, ac yn puro y galon. Dan. 5. 1, 2. Esa. 28. 7.

4. Y mae yn hollol groes i effeithiau yr efengyl ar galonau pechaduriaid. Tit. 2. 11, 12. 'Eithr llanwer chwi â'r Ysbryd:' y mae gormodedd o win a'r Ysbryd Glân yn hollol groes ac anghytun â'u gilydd. Ni ddichon neb fod gwedi eu llenwi â'r ddau. Y mae cymedroldeb yn un ffordd i ni gael yr Ysbryd Glân, yn ei ras a'i gysuron.

5. Y mae gwaëau Duw uwch ben y meddwon, ac y mae gair Duw yn eu nodi yn eglur fel rhai na chânt etifeddu teyrnas Dduw. Esa. 5. 22. 1 Cor. 6. 10. Y mae yn bosibl i feddwon gael eu gwneuthur yn sobr, a'u dysgu gan ras Duw i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol; ond heb sobrwydd sanctaidd, gwirioneddol, a greddfol, nid yw bosibl iddynt etifeddu teyrnas Dduw. 1 Cor. 6. 10. Y mae meddwdod yn drosedd o'r holl gyfraith, yr hon sydd yn gofyn cariad tu ag at Dduw, tu ag at ein cymydog, a thu ag atom ein hunain. Y cyntaf, trwy gam-ddefnyddio ei drugareddau. Yr ail, trwy amddifadu y rhai hyny o'n cymhorth, ag oedd mewn angen o hono, a thrwy roddi siampl ddrwg: a'r diweddaf, trwy amddifadu ein hunain o reswm a gweddeidd-dra naturiol. Hefyd, Gad yw, *y mae llu yn dyfod*—y mae yn arwain i bechodau eraill lawer.

Y mae meddwdod yn niweidiol i iechyd y corph; yn cam-ddefnyddio trugareddau Duw; yn gam ac yn anghyfiawnder mawr â'n perthynasau a'n teuluoedd; yn borthiant i bob llygredd; yn cam-ddefnyddio amser gwerthfawr; yn llenwi y gydwybod âg euogrwydd; ac o'r diwedd yn tynu barn dragywyddol ar gyrph ac eneidiau dynion.

Y mae yn iselhau dyn yn fawr, trwy ei wneuthur yn gaethwas i flys llygredig a ffiaidd. Yn y gwrthwyneb, y mae cymedroldeb a sobrwydd yn hardd ac yn gysurus. Y mae yn gweddu, ac yn ddyled ar rieni, nid yn unig roddi siampl o sobrwydd cydwybodol diball o flaen eu plant, ond eu dwyn i fynu i athrylith, ac arferiad gwastadol o gymedroldeb yn mhob peth, o'u mebyd; a dangos iddynt, yn aml, fod pob anghymedroldeb yn ffiaidd, yn anhardd, ac yn bechadurus iawn. Byddai y Lacedemoniaid (cenedl o Roegiaid Paganaidd) yn meddwi eu caethweision, weithiau, i ddangos i'w plant y ffieidd-dra o hono. Yr Indiaid a gyfrifant feddwdod yn fath o wallgofrwydd, a'r un gair *ramjam*, sydd am bob un o'r ddau.

Y mae meddwdod yn gospadwy wrth gyfreithiau Lloegr. Y ddirwy yw pum swllt, neu y cyffion. Am ail drosedd, gellir rhwymo yr euog i ymddygiad addas yn ganlynol. Y mae pob tafarnwr yn euog o feddwdod yn ddarostyngedig i gael cymeryd ei drwydded (*licence*) oddi wrtho am dair blynedd. Y mae pob swyddog ar longau y brenin, yn euog o feddwdod, yn ddarostyngedig i'r gospedigaeth a farno y llys milwraidd (*court-martial*) yn addas i roddi arno. Gwel *Stat.* iv. *Jac. cap.* v. 21 *Jac.* 1. *cap.* vii. 22 *Geo.* iii. *cap.* xxxiii.

MEDDWL—IO—FRYD, (meddwl) yr enaid, yn nghyd â'i alluoedd penaf, sef y deall, yr ewyllys, y bryd, y côf. Rhuf. 12. 2. 1 Cor. 1. 10. Eph. 4. 17, 18—23. 1 Tim. 6. 5. 2 Tim. 3. 8. Edr. ENAID. Wrth y meddwl, yn gyffredinol, y deallir y synwyr a'r deall sydd yn amgyffred peth, sydd yn ymresymu yn ei gylch, yn synio ac yn barnu am dano.——'Dyma y meddwl sydd â doethineb ganddo.' Dat. 17. 9. Dyma y synwyr a'r deall; y mae amgyffred a deall hyn yn gofyn synwyr cryf, goleu ysbrydol, yn iawn farnu pethau Duw, fel y gosodir hwynt allan yn iaith allegawl yr ysgrythyrau.——Arwydda hefyd, 1. Yr ewyllys a'r serch: am hyny darllenir am 'barodrwydd meddwl,' sef yn rhwydd, ac yn ewyllysgar, o serch a chariad at y gwaith. 1 Petr 5. 2. Act. 17. 11.——2. Y côf, yr hwn sydd yn cadw y pethau a fu yn y meddwl, ac yn adfyfyrio arnynt. Ps. 31. 12. Esa. 46. 8.——3. Yr anian dduwiol, sydd yn gweithredu *yn*, ac yn llywodraethu *ar* feddwl, neu alluoedd enaid credadyn. Rhuf. 7. 23, 24, 25. Edr. DEDDF, DYN, HYFRYD.——4. Meddylfryd, neu weithrediad y meddwl; arosiad ac ymlyniad y meddwl a'r serch ar ryw beth, neu wrthddrych. Esa. 26. 3.——5. Barn, a phenderfyniad y meddwl. Rhuf. 14. 5. Cymh. 1 Cor. 1. 10. Y mae dull ac agwedd meddwl dyn yn dufewnol, yn nodi yn neillduol ei gyflwr; meddwl llygredig sydd gan ddyn dan y cwymp heb ei adnewyddu; y mae 'holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus;' y mae yr anian ynddo yn llygredig, yn gweithredu yn llygredig, yn synied ac yn caru pethau llygredig; ar bethau llygredig y mae yn myfyrio, ac ynddynt hwy y mae yn ymhyfrydu, a llygredigaeth sydd yn llywodraethu arno. 1 Tim. 6. 5. Tit. 1. 15. Gen. 6. 5. Edr. CALON, DAU-DDYBLYG, ANGHYMEDRADWY.

Llawer o weddill o *feddwl* chwannog. *Diar.*

Yn y cyfnewidiad mawr cadwedigol mae yr Ysbryd Glân yn ei effeithio ar y rhai a achubir, y mae yn gweithredu yn neillduol ar y meddwl, i'w adnewyddu yn drwyadl ac yn effeithiol i'r hen ddelw sanctaidd a gollwyd gynt trwy bechod; mae yn gweithredu purdeb yn y meddwl, ac yn dodi y cyfreithiau sanctaidd, sef y gwirioneddau dwyfol, ynddo, fel y maent yn ymborth ac yn gynnaliaeth iddo, ac yn llywodraethu arno. Mae y meddwl newydd hwn, yn feddwl puraidd, wedi ei gaethiwo i ufudd-dod Crist. Eph. 4. 18—23. 2 Petr 3. 1.

'Efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir,' medd Ioan. 1 Ioan 5. 20. Nid rhoddi galluoedd newyddion y mae, ond rhoddi ysbrydoldeb, purdeb, a sancteiddrwydd yn y meddwl, yn lle y llygredigaeth oedd yno; adnewyddu y ddelw hòno yn y meddwl, sydd yn gynnwysedig mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd: y mae yn



Digitized by Google

adnabod Duw, ac yn synio pethau Duw. Eph. 1. 18. Edr. SYNIO.

Y mae Duw ynddo ei hun, ac yn ei holl arfaethau a'i oruchwyliaethau, yn haeddu i ni ei garu â'n *holl feddwl;* sef ei garu yn ddeallus, yn oleu, â'n holl feddwl arno, yn ei ryfeddu, ac yn ymhyfrydu ynddo. Nid oes yr un gwrthddrych addas i feddwl dyn ond Duw; ond y mae efe yn ddigon i'w lenwi â hyfrydwch tragywyddol. Mat. 22. 37. Luc 10. 27. Y mae yn wrthddrych addas i roddi ein meddylfryd arno; ac i feddwl am ei enw, sef am ei air, ei achos, a'i addoliad yn y byd. Esa. 26. 3. Mal. 3. 16.

'Bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu:' sef graddau o'r un meddwl gostyngedig; yr un cariad at eneidiau; yr un boddlonrwydd i lafurio a dyoddef yn eu hachos; yr un casineb at bechod, a diystyrwch o fwyniant daearol, ag oedd ynddo ef yn y graddau mwyaf. Phil. 2. 5.

'Meddwl yr Arglwydd' ydyw ei arfaeth a'i drefniadau; yn enwedig mewn perthynas i iechydwriaeth ei eglwys trwy Grist; y maent yn uchel, yn ddyfnion, ac yn anelrheinadwy; etto yn uniawn, yn sanctaidd, ac yn ogoneddus. Meddyliau sefydlog ydynt; nid ydynt yn cyfnewid mwy na Duw ei hun. 'Cynghor yr Arglwydd a saif yn dragywydd: meddyliau ei galon o genedlaeth i genedlaeth.' Ps. 33. 11. Buasent byth yn hollol anhysbys i bawb, heb i Dduw eu dadguddio; wedi i Dduw eu dadguddio, eu rhyfeddu mae y dynion mwyaf ysbrydol, yn hytrach na'u hamgyffred yn eu holl ddyfnderoedd, eu hëangder, eu dybenion, a'u heffeithiau; ond nid ydyw dynion cnawdol yn eu gwybod, ac nis dichon iddynt gyfarwyddo dyn ysbrydol mewn perthynas iddynt. 1 Cor. 2. 16. Rhuf. 11. 34. Esa. 55. 8, 9. Ps. 92. 5. a 139. 17. a 40. 5. Edr. ARFAETH, EGLWYS, ETHOLEDIGAETH.

MEDDYG (medd) *Llad.* MEDICUS: physygwr.

Nid *meddyg* ond amser. *Diar.*

Un yn deall afiechyd y corph, ac yn medru parotôi a gweini cyfferi i'w iachâu.—Yr oedd y meddygon gynt, yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, nid yn unig yn cyfarwyddo y clâf, ond hefyd yn parotôi ac yn gweini y cyfferi iddo.—Y mae yr Arglwydd Iesu yn feddyg enaid. Y mae ei enw *Iesu,* yn arwyddo iachâu a gwaredu. Edr. GWAREDWR, IACHAWDWR, IESU. Yn nyddiau ei gnawd yma yn y byd, yr oedd yn iachâu yr holl gleifion a ddygent ato; 'yn iachâu pob clefyd a phob afiechyd yn mhlith y bobl.' Mat. 9. 35. Pechod yw afiechyd dynion; gwaredu oddiwrth bechod ydyw iachâu pechaduriaid.

Goreu *meddyg, meddyg* enaid. *Diar.*

Crist yw yr unig feddyg, gan nad oes neb a ddichon waredu pechadur oddiwrth ei bechod, ond efe. Edr. IACHAU. Gosodwyd ef yn ei swydd, a daeth i'r byd, nid i farnu a damnio y byd, ond yn feddyg, i iachâu pechaduriaid. Y mae yn feddyg, 1. Goruchel ac anrhydeddus. 2. Awdurdodol, gwedi ei osod yn ei swydd. 3. Rhad, i rai heb haeddu hyny. 4. Tirion, grasol, a gostyngedig, na fiina ac na ddiffygia. 5. Anfethedig a chywrain; ni ffaelodd ac ni phallodd feddyginiaethu neb. 6. Tragywyddol, o oes i oes wrth ei waith, a phob un yn iachâu o dan ei driniaeth; ac y mae yn eu hiachâu yn berffaith gwbl am byth. Mat. 9. 12. Marc 2. 17. Luc 5. 31. Wrth dynu ymaith yr achos, sef pechod, symud yr holl effeithiau hefyd; sef yr holl ofidiau a'r anghysuron, ac a'u perffeithia â iechyd, cysuron, a harddwch cyflawn a thragywyddol.

MEDDYGINIAETH—U, (meddyg) *Llad.* MEDICINA: cyfferi, ymwared, iachâd; iachâu.—Meddyginiaeth, yn iaith yr ysgrythyrau, yw beth bynag a fyddo yn tueddu i ragflaenu afiechyd, neu i iachâu afiechyd corph neu enaid. Y mae ofn yr Arglwydd, a chalon lawen, yn heddwch Duw, yn feddyginiaethol i gorph a meddwl dyn. Diar. 3. 8. a 17. 22. Fel y mae tristwch y byd yn farwolaeth, ac yn lladd dynion, felly y mae llawenychu a gorfoleddu yn Nuw, yn fywyd ac yn feddyginiaethol iddynt. Rhuf. 5. 11. Hab. 3. 18. Edr DAIL, IACHAU, PREN.

MEFL—AU, (maf) toriad allan ffiaidd, hagredd, gwrthuni, ffieidd-dra; gwarth, cywilydd.—'Brychau a meflau ydynt.' 2 Petr 2. 13.—'Brychay yntynt, a thrisclynay.' W. S.—'Brychau ydynt a tharysclynau.' Dr M.—μωμος *manau,* achos o warth a chywilydd. Corph hardd yw yr eglwys, ond yr oedd y gau athrawon penrhydd, y mae yr apostol yn sôn am danynt, yn frychau, yn warth, ac yn anharddwch ar y corph sanctaidd hwn. Yr oeddynt yn gwledda gyd â'r eglwys yn ei hordinhadau sanctaidd; ac, etto, yn byw mewn moethau—yn llawn godineb—heb fedru peidio â phechod, ac ymddigrifo yn eu twyll eu hunain.

MEGIDO, *Heb.* מגדו [*mynegwr*] dinas yn Manasseh. Gwel Barn. 1. 27. a 5. 19. 1 Bren. 9. 15. 2 Bren. 9. 27. 2 Cron. 35. 22. Edr. JOSIAH.

MEGIN, (mâg) peiriant digon adnabyddus i chwythu tân âg ef. Dywedir mai Anacharsis, Scythiad, ydoedd y cyntaf a ddyfeisiodd feginau. Strabo, *lib.* vii. Y mae amrywiol fath o honynt; megys y meginau cyffredin mewn tai, meginau gofaint, arliwyr, purwyr, toddwyr mettel, neu fettelyddion, meginau yr *organ.* Arferir y rhai a elwir *Hessian bellows,* i yru awyr i'r mwnglawdd i'r mwnwyr i anadlu. Gwel Dr. Lewis, *Comp. Phys. Techn.*

'Llosgodd y fegin.' Jer. 6. 29. Y prophwydi a feddylir, y rhai oedd Duw yn eu defnyddio i baro a choethi pobl Israel, oeddynt wedi ymdreulio yn eu gwaith, yn ddifudd iawn i'r bobl, a rhai o honynt wedi eu marwolaethu, fel pe teflid megin y purwr arian i'r tân a'i llosgi. Yr oedd pob offerynau, a phob ymdrech i'w diwygio, yn aflwyddiannus ac ofer. Zech. 13. 9. Mat. 3. 2, 3. 1 Petr 1. 7. a 4. 12.

MEHETABEEL, מהיטבאל [*mor dda yw Duw!*] mab Delaiah. Neh. 6. 10.

MEHIR, *Heb.* מחיר [*gwerthfawr*] mab Chelub, o Judah. 1 Cron. 4. 11.

MEHUIAEL, מחויאל [*cyhoeddwr Duw*] mab Irad, a thad Methusael, o hil Cain. Gen. 4. 18.

MEHUNIAID, 2 Cron. 29. 7. Pwy oeddynt sydd ansicr. Gan y cydunir hwynt â'r Arabiaid, tebygol eu bod yn trigo yn rhyw dalaeth yn Arabia.

MEIDROLDEB, (meidr) mesur, maintioli; terfynoldeb. Y gair מדה a gyfleithir *meidroldeb,* yn 1 Cron. 23. 29. a gyfleithir *llathen,* Lef. 19. 35.

MEIARCON, מיהרקן [*dyfroedd Jarcon*] dinas yn Dan. Jos. 19. 46.

MEISTR—ES—I—IAID—OLI, (maist) *Lladin,* MAGISTER; *Ffr.* MAISTRE, neu MAITRE; *Belg.* MEESTER; *Saes.* MASTER: arglwydd, pen, penaeth, llywydd; athraw, entraw, dysgawdwr. Edr. y geiriau hyn. Y mae *meistr,* yn ein cyfieithiad ni o'r ysgrythyrau, yn arwyddo, 1. Gweinidogion ac athrawon, sydd yn dysgu ac yn egluro gair Duw i'r gynnulleidfa; gelwir hwynt meistriaid, neu athrawon y gynnulleidfa. Preg. 12. 11.—2. Y mae yn gyfarchiad, yn arwydd o barch ac anrhydedd. Act. 16. 30. Luc 5. 5. a 8. 45. a 17. 13.——3. Un sydd ben-teulu, ac yn llywodraethu ar weinidogion. Eph. 6. 9. Col. 3. 22.

Dyled meistriaid at eu teuluoedd, ydyw, 1. Edrych yn ofalus fod gwasanaeth Duw yn cael ei gynnal yn eu teuluoedd. Jos. 24. 15. Act. 10. 2.——2. Dewis gweinidogion duwiol hyd ag y mae ynddynt. Gen.

Digitized by Google

39. 4, 5. a 30. 27.——3. Peidio cynnwys rhai dryg-ionus yn eu teuluoedd. Ps. 101. 7.——4. Edrych fod eu teulu yn sancteiddio y Sabboth. Exod. 20. 10 —— 5. Darparu i'w teuluoedd gynnaliaeth addas. 1 Tim. 5. 8.——6. Ymddwyn yn gyflawn tu ag atynt, a thalu eu cyflogau iddynt. Col. 4. 1.——7. Ymddwyn yn dirion tu ag atynt, gan roddi bwgwth heibio; a'u hannog i lynu wrth yr Arglwydd a'i wasanaeth. Eph. 6. 9. Gen. 18. 19.——Cadw llywodraeth bechadurus ar deulu ydyw ymddwyn yn wrthwyneb i'r rheolau sanctaidd hyn, ac nid rhyfedd os bydd yn aflwyddiannus ac yn bechadurus.

'Na fyddwch feistriaid lawer.' Iago 3. 1. *Gr.* Μη πολλοι διδασκαλοι, *na fydded llawer o ddysgawdwyr*, neu *na fydded llawer o honoch chwi yn ddysgawdwyr*. Yr oedd rhyw awyddfryd anghymedrol yn yr Iuddewon Cristionogol, at ba rai yr ysgrifenodd Iago ei epistol, i fod yn ddysgawdwyr ac yn athrawon. Y mae Paul hefyd yn sylwi eu bod hwy 'yn ewyllysio bod (νομοδιδασκαλοι) yn athrawon o'r ddeddf.' 1 Tim. 1. 7. Yr athrawon rhyfygus hyn o'r ddeddf, yn yr eglwys Gristionogol, oeddynt y llygrwyr mwyaf o bawb o'r efengyl; ac yn awdwyr pleidiau ac ymraniadau, er mwyn parch ac elw; ac yn haerllug ac yn daeog yn camfarnu eraill, er mwyn dyrchafu eu hunain. 1 Tim. 6 3, 4, 5. 2 Petr ii. 'Na fyddwch, gan hyny,' medd yr apostol, 'yn feistriaid,' neu yn *athrawon*, 'lawer; gan wybod y derbyniwn ni farnedigaeth fwy.' Nid oes neb yn fwy niweidiol i achos gwir grefydd, na neb yn fwy eu heuogrwydd a'u barn, nac awdwyr pleidiau ac ymraniadau yn yr eglwys.

'Geiriau y doethion sydd megys symbylau, ac fel hoelion wedi eu sicrhau gan feistriaid y gynnulleidfa.' Preg. 12. 11. Yn hytrach fel hyn, 'Geiriau y doethion sydd megys symbylau ac fel hoelion, meistriaid y gynnulleidfa.' Nid y doethion, ond yr hoelion wedi eu sicrhau yw meistriaid y gynnulleidfa: adeiriad anhardd yw galw y doethion y meistriaid—sef, fel pe buasent, geiriau y doethion, gwedi eu sicrhau gan y doethion. Ond cyfieithiad arall a rydd ddullni, ac ystyr pwysfawr i'r geiriau. Geiriau y doethion, gwedi eu sicrhau yn ddwfn yn y meddwl, ydynt yn llywodraethu ac yn caethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist. 'Y mae gan eiriau y doethion rinwedd effeithiol, i rwymo yr eglwys i fod o'r un feddwl, a'r un farn, fel hoelion yn sicrhau a rhwymo pethau wrth eu gilydd:' felly y rhydd Coccejus ystyr yr adnod. Meistriaid, neu lywodraethwyr y gynnulleidfa ydynt. Hefyd, maent fel symbylau yn llaw un bugail; nid yn unig llywodraethant a rhwymant ddynion i fod yn un â'u gilydd, ond cynhyrfant ac annogant hwy, fel symbylau yn llaw bugail i annog yr anifeiliaid. Vitringa, *De Syn. Vet. lib.* i., *p.* 2. *c.* 8. Coccejus *in loc.*

MEITR, *Gr.* μιτρα; *Llad.* Mitra; *Saes. & Ffr.* Mitre; penguwch, penwisg, coron. Penwisg addurnol ar benau breninoedd ac arch-offeiriaid. Ezec. 21. 26. Yr ydoedd yr arch-offeiriad yn gwisgo am ei ben מצנפת (*mitsnepheth*) *meitr;* yr offeiriaid a wisgent גבעת (*gabooth*) *capiau:* llian ydoedd defnydd pob un o'r ddau, ac yr oeddynt, medd yr Iuddewon o'r un faintioli; y gwahaniaeth rhyngddynt ydoedd yn y dull o rwymo y llian am y pen; yr oedd y capiau yn uwch, ac yn grynach na'r meitr. Ar y meitr ar ben Aaron yr oedd y goron gysegredig i gael ei gosod, sef y ddalen aur, â 'Sancteiddrwydd i'r Arglwydd' gwedi ei naddu arni. Exod. 28. 36—40. a 29. 6—9. Yr oedd y penwisgoedd hyn yn arwyddo eu hawdurdod yn gweini eu swydd. Maent yn goronog, wedi eu hawdurdodi i'w swydd. Zech. 3. 5. Yr oeddynt yn hyn, fel yn mhob peth arall, yn cysgodi Crist, yn holl awdurdod a mawrhydi gogoneddus y swydd offeiriadol. Y mae yn goronog yn ei swydd, ac yn offeiriad ar ei frenin-fainc. Zech. 6. 13.

MEITYN, a MEIDYN, (maid) yspaid bychan, yspaid o amser. Er ys meityn, er yspaid o amser.—'Ac wedi iddo alw y canwriad ato (sef Pilat) efe a ofynodd iddo a oedd efe wedi marw er ys meityn.' Marc 15. 44. —'A oedd ne-mawr er pan vesei ef varw.' W. S.—'A oedd efe wedi marw eusys.' Dr M. *Gr.* ει παλαι απεθανε, *marw er ys meityn*, neu *er ys ychydig amser*. Er bod yr Iesu mewn arteithiau a phoenau dirfawr ar y groes, yr oedd Pilat yn rhyfeddu ei fod wedi marw mor fuan. Ei ofal manwl i wybod am sicrwydd ei farwolaeth oedd yn cau allan bob gwrthddadl a allasai yr Iuddewon godi am wirionedd ei adgyfodiad, gan fod ei gorph wedi ei roddi i'w gyfeillion i'w gladdu. Nid ydym yn cael fod neb o'r blaenoriaid yn ammeu gwirionedd ei farwolaeth.

MEITHRIN, (maeth-trin) magu, maethu, fel mammaeth ei phlentyn. Cymh. 1 Thes. 2. 7. â Eph. 5. 29. —'Meithrin eich calonau a wnaethoch,' sef pesgi eu hunain trwy fyw yn foethus ac yn drythyll. Iago 5. 5. Y mae y galon yn trymhau at bethau ysbrydol, trwy lythineb a meddwdod. Esa. 6. 10. Ps. 119. 70. Luc 21. 34. Edr. Magu.

MEL, (me-el) *Heb.* מלח (*malo*) *Gr.* μελι; *Llad.* Mel. Mêl yw y sudd melus a gesglir gan y gwenyn o flodau amryw lysiau. Nid yr un peth yw defnydd y dil a'r mêl. Casglir y mêl o'r rhan hyny o'r blodeuyn, medd Linnæus, a elwir *nectaria*, sef y rhanau hyny yn ngwaelod y blodeuyn sydd yn neillduo y sudd melus a geir ynddo. Rhai a farnant mai o flawd y blodau y gwneir y dil, ond mae hyny yn ammheus gan Mr Polhill, ac eraill. Bernid gynt, y mêl a gasglwyd oddiar y lili a'r rhosyn yn well na dim arall. Yn bresennol, bernir mêl Narbonne yn Ffrainc yn rhagori ar bob mêl arall, o herwydd yr amldra o *rosemary* sydd yno. Y mae y mêl yn dra iachus a meddyginiaethol, ac yn oddefol i bawb, ond ei ferwi. Cynghora Syr John Pringle i gymeryd dros bwys o hono bob wythnos rhag y graianwst. Y mae yn wrthfraeniol, yn buredigaethol, ac yn dda yn y dyfrglwyf. Arferir ef mewn llawer o gyfferi meddyginiaethol. Gwneir diod hyfryd o hono, a elwir metheglin, mum, &c.

Yr oedd amldra o fêl yn ngwlad Canaan, am hyny dywedir ei bod yn llifeirio o laeth a mêl; yr oedd yno i'w gael mewn creigiau, sef mewn nythod gwenyn wedi eu gwneuthur mewn holltau creigiau. Deut. 32. 13. 1 Sam. 14. 26. Ymenyn a mêl ydoedd ymborth cyffredin. Esa. 7. 15. Yr oedd Ioan Fedyddiwr yn byw ar locustiaid a mêl gwyllt. Mat. 3. 4.

Gwaherddid i'r Hebreaid arferyd mêl gyd â'u haberthau, i'w hattal rhag cydffurfiad â'r cenedloedd yn eu haddoliadau, y rhai a arferent fêl gyd â'u haberthau; ac hefyd i'w dysgu i farweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Ysbryd; ac nid rhodio mewn mwyniant cnawdol, na rhoddi addoliad cnawdol i Dduw. Lef. 2. 11.

'Meibion Israel a ddygasant yn aml, flaen-ffrwyth yr ŷd, y gwin, a'r olew, a'r mêl,' &c. 2 Cron. 31. 5. Nid oedd mêl gwenyn i'w offrymu fel blaen-ffrwyth, nac yn ddegwm; am hyny rhaid deall yma y mêl llysieuog a ddyfera neu a wesgir o ddail y palmwydd.

Beth bynag sydd felus, hyfryd, a meddyginiaethol, a gyffelybir i fêl; megys gair Duw, Ps. 119. 103. a 19. 10.—gweddïau, diolchgarwch, ac ymddyddanion buddiol y saint, Can. 4. 11.—gwirioneddau yr efengyl, a doniau sanctaidd yr Ysbryd Glân, Can. 5. 1.—doethineb a gwybodaeth, Diar. 24. 13.

MELCHI, Μελχι [*fy mrenin*] 1. Mab Janna, a thad Lefi. Luc 3. 24.——2. Mab Adi, a thad Neri. Luc 3. 28.

MELCHISEDEC, מלכי־צדק [*brenin cyfiawnder*]. Nid ydyw yr hanes a roddir gan Moses am y gwr enwog hwn ond byr; cyfeirir ato gan Dafydd, mewn

Digitized by Google

prophwydoliaeth hynod am freniniaeth ac offeiriadaeth yr Arglwydd Iesu; ac eglurir y cwbl yn helaeth gan yr apostol, mewn traethawd arno fel cysgod o'r Arglwydd Iesu. Gen. xiv. Ps. 110. 4. Heb. vii. Pan ddychwelodd Abraham o ladd y breninoedd, Melchisedec, brenin Salem, offeiriad y Duw Goruchaf, a gyfarfu âg ef, ac a'i bendithiodd; a chyfranodd Abraham ddegwm iddo o bob peth—trwy hyny yn cydnabod ei fawrhydi a'i swydd.

Llawer o ddychymygion sydd wedi bod ac yn bod yn nghylch y gwr enwog ac anrhydeddus hwn. Yr Iuddewon ac eraill a haerant mai Sem oedd, hynafiad Abraham; ond yr oedd achau Sem yn ddigon adnabyddus, am hyny nid oedd heb dad, &c. Heb. 7. 3. Heblaw hyny, hanodd Lefi o Sem, yn gystal ag o Abraham, yr hyn sydd yn wrthwyneb i resymiad yr apostol ar y mater. Gwel Esgob Patrick ar Gen. 14. 18. Eraill ydynt o'r farn mai Mab Duw oedd. Pe felly, ni buasai yr apostol yn dywedyd, 'Ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw;' a bod Crist yn 'offeiriad yn ol urdd Melchisedec;' (Heb. 7. 3, 11.) neu rhaid ei olygu yn gysgod o hono ei hun. Heblaw hyny, gelwir ef 'brenin Salem,' (tebygol, yr hon a alwyd gwedi hyny Jerusalem, Ps. 76. 2 Edr. JERUSALEM) ac ni ellir meddwl fod Crist yn teyrnasu yr amser hwnw yn un lle fel brenin daearol. Y mae yn dra eglur, gan hyny, mai dyn ydoedd: ond nid oedd yr Arglwydd yn gweled yn addas roddi dim o'i hanes yn ychwaneg i ni: o ba un o feibion Noah yr hanodd, na phwy oedd ei rieni, cuddiwyd hyn o'n golwg yn fwriadol, i'w ddangos yn gysgod addas o Grist: a chan fod Duw wedi cuddio hyny, peth ofer, ïe, pechadurus, yw ymorol a dychymygu yn nghylch hyny. Gellir casglu oddiwrth ei hanes, ei fod yn hynafgwr; yn barchus am ei sancteiddrwydd a'i dduwioldeb; yn llywodraethu ei ddeiliaid yn gyfiawn ac yn heddychol; ei fod yn cynnal addoliad yn eu plith; ac er ei fod yn frenin, ei fod yn gweinyddu fel offeiriad y Duw Goruchaf. Dangosodd Abraham barch mawr iddo o ran ei oedran, ei sefyllfa anrhydeddus, ei dduwioldeb, a'i swyddau; derbyniodd ei fendith ganddo fel offeiriad Duw, a thalodd iddo ddegwm o bob peth, tebygol, trwy grybwylliad dwyfol. Nid oes i ni feddwl mai dyma yr unig dro y gwelsant ac yr ymddyddanasant â'u gilydd: bu Sem fyw agos cyhyd ag Abraham, a thebygol iddynt aml gyfarfod, er nad oes genym ni hanes am hyny. Y mae Dr Owen yn barnu yn anaddas meddwl ei fod yn un o hiliogaeth Canaan, yr hwn oedd dan ysgymmundod ei dad fel gweinidog Duw, o herwydd ei ddrygioni; ac yn gogwyddo meddwl mai un o hiliogaeth Japheth ydoedd, yn hytrach na Sem, yr hwn oedd hynafiad y cenedloedd hyny, yn mhlith pa rai y mae yr eglwys wedi bod yn fwyaf blodeuog ar y ddaear

Y mae yn gysgod o Grist. 1. Fel brenin cyfiawnder, a brenin heddwch. Crist a 'ddygodd gyfiawnder tragywyddol,' ac a wnaeth heddwch rhwng Duw a phechaduriaid. Yn ei deyrnas ef yn unig y ceir cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. Rhuf. 14. 17.

2. Offeiriad y Duw Goruchaf oedd: felly Crist sydd Offeiriad, ac efe yn unig sydd yn briodol felly. Efe a offrymodd yr aberth hwnw ag oedd yr holl aberthau gynt yn ei gysgodi.

3. Megys y bendithiodd Melchisedec Abraham, felly yn a thrwy Grist, y mae ei holl bobl yn cael eu gwaredu oddiwrth felldith, a'u bendithio â phob bendith ysbrydol. Eph. 1. 3.

4. Y mae yn derbyn parch ac addoliad gan ei holl bobl, fel y derbyniodd Melchisedec ddegwm gan Abraham: y maent yn ei gydnabod fel yr unig achos o'u holl fuddugoliaethau ar eu gelynion ysbrydol.

5. Mae Crist, fel Melchisedec, heb achau, fel Aaron o ran ei swydd; nid oes hanes am neb o flaen Melchisedec nac ar ei ol yn ei swydd; y mae heb dad, ac heb fam, ac heb achau. Ni alwyd mo hono i'r swydd gan neb dynol oedd fwy, fel y gosodwyd Aaron gan Moses yn ei swydd: ond galwyd ef yn ddigyfrwng mewn dull goruchel gan Dduw ei hun. Felly yr oedd Crist heb dad o ran ei natur ddynol, ac heb fam fel Person Dwyfol, ac heb achau o ran ei offeiriadaeth. Galwyd ef trwy *lŵ* gan Dduw i'r swydd, yn y modd mwyaf goruchel ac ardderchog, addas i'r Personau Dwyfol, ond yn anamgyffredadwy i ni.

6. Nid oedd iddo, yn ei Berson Dwyfol, fel archoffeiriad ei eglwys, yn gyffelyb i'r hanes a roddir am Melchisedec, 'na dechreu dyddiau na diwedd einioes.' Er i'r Person hwnw, yr hwn oedd yn Fab Duw, farw, etto marw a wnaeth o ran ei natur ddynol, ac nid yn ei holl Berson; am hyny bu farw yn ei swydd offeiriadol, a chyflawnodd y weithred fwyaf ardderchog o'i swydd wrth farw. Lluddiwyd yr offeiriaid gynt gan farwolaeth i barhau yn eu swydd (Heb. 6. 23.) ond ni luddiwyd Crist i barhau yn ei swydd, er iddo farw: yr oedd yn Arch-offeiriad yn farw ar y croesbren, a than gareg yn y bedd. O ran ei Berson, gan hyny, ac o ran ei swydd, 'nid oedd iddo na dechreu dyddiau na diwedd einioes:' y mae ganddo offeiriadaeth dragywyddol; 'am hyny efe a ddichon yn gwbl iachâu.' Adn. 25. Y mae yr apostol yn dangos fod yr offeiriadaeth yn mherson Melchisedec, cyn gosod Aaron a'i feibion yn yr offeiriadaeth: fod y person hwnw yn rhagori ar Aaron, ac i Abraham, a Lefi yn lwynau Abraham, dalu degwm iddo, a chael ei fendithio ganddo, fel offeiriad y Duw Goruchaf: fod offeiriad arall yn ol prophwydoliaeth Dafydd, i gael ei osod i fynu yn ol urdd Melchisedec, ac nid yn ol urdd Aaron; y byddai hwnw yn rhagori ar Melchisedec, fel mae pob gwrth-gysgod yn rhagori ar y cysgod: mai yr Iesu oedd hwnw, a'i fod yn ateb yn hynod mewn amryw o bethau fel gwrthlun Melchisedec: ac am fod yr Iesu yn yr offeiriadaeth yn dragywydd, fod swydd Aaron, a'r holl osodiadau Iuddewig, i ddarfod yn dragywydd—llyncodd yr Iesu yr holl gysgodau o hono yn sylweddol ynddo ei hun. Gan fod mawredd ac ardderchogrwydd yn y cysgodau o Grist yn yr eglwys, y mae yn rhaid fod mawredd anfeidrol yn y gwrthlun mawr o'r cwbl, sef Crist ei hun. Edr. AARON, OFFEIRIAD.

MELEA, mab Mainan, a thad Eliacim. Luc 3. 31.

MELECH, מלך [*brenin*] mab Michah. 1 Cron. 8. 35.

MELICHU, מליכו [*llywodraeth*] un a ddychwelodd o Babilon. Neh. 12. 14.

MELIN—AU, (mâl) breuan. Peiriant i falu ŷd a feddylir wrth felin, yn fwyaf priodol; ond mewn ystyr mwy cyffredin, meddylir pob peiriant sydd â'i weithrediad yn cael ei effeithio trwy gylchdröad. Mae amryw fath o felinau; megys melin ddwfr; melin wynt; melin law; melin a weithir â cheffylau, asynod, &c. Yr ydoedd gynt yn Nghymru fath o felinau tra chywrain, y rhai a droiai yn chwai, wedi y gosodid i gerdded, trwy alluoedd ynddynt eu hunain. Yr oedd un gan W. Salisbury i'w gweled yn 1574. Rhydd Dr Davies hanes am ddarn o un yn y geiriau canlynol: 'Mewn tŷ a elwir Bryn Castell, yn Edeirnion, y caed yn y ddaear, yn ddiweddar, baladr melin o haiarn wythochrog, cyn braffed a morddwyd gwr; a phen clwm ar y naill ben iddo; megys lle y buasai yr olwyn; a'r pen arall wedi ei ysu gan rwd. Yno y caed maen melin o gylch llathen o eithaf bwygilydd. Ac, meddant hwy, yr oedd y bedwaredd ran o olwyn y felin hono o haiarn, a'r rhelyw o goed; ac yr oedd maen tynu yn rhyw fan ynddi, neu glicied wisgi, neu bob un o'r ddau; y rhai a barai iddi droi o honi ei hun, pan y gosodid.'

Un o dri madgyrfinydd ynys Prydain; Coel ab Cyllin ab Caradawg ab Bran, a wnaeth melin rhod ac olwyn gyntaf i genedyl y Cymry. *Trioedd.*

Digitized by Google

Yn ol Pausanias, Myla mab Meleges, brenin Sparta, a ddychymygodd felinau, a meini melin, gyntaf. Y mae yn ammhëus a oedd y Rhufeiniaid yn gydnabyddus â melinau dwfr. Melinau gwynt ydynt ddiweddarach. Y cynllun cyntaf o honynt a ddygwyd o Asia i Ewrop, yn amser rhyfeloedd y groes (*crusades*) neu y rhyfeloedd sanctaidd, fel eu galwent. Yn y cynfyd, nid oedd ganddynt ond melin law i falu yr ŷd. Y merched a'r caethion oeddynt, yn gyffredinol, yn melino; megys Samson yn Gaza, yr Iuddewon yn Babilon, a'r Caldeaid dan y Persiaid. Mat. 24. 41. Barn. 16. 21. Galar. 5. 13. Esa. 47. 2. Y peth cyntaf yn y boreu a wnai y merched ydoedd malu ŷd, i borthi y teulu am y diwrnod: caeth-ferch, yn gyffredin, fyddai ar ol y felin, os byddai un yn y teulu. Exod. 11. 5.

'Dwy a fydd yn malu mewn (neu wrth) melin;' hwyrach yn malu yn yr un ystafell—'un a gymerir, a'r llall a adewir.' Mat. 24. 41. Neu, hwyrach, y byddai y *ddwy* yn malu wrth yr un felin. Dywed y Dr Shaw, 'Y rhan fwyaf o deuluoedd a falant eu hŷd gartref yn eu tai; y mae ganddynt ddau faen i'r dyben hyny, yr uchaf o honynt a droir ar y llall â throed o haiarn neu bren, ar yr ymyl. Os bydd y maen uchaf yn fawr ac yn drwm, ac achos prysuro y malu, gelwir ail berson i gynnorthwyo; ac fel y mae yn arferedig i ferched yn unig fod wrth y gorchwyl hwn, yn gosod eu hunain i eistedd gyferbyn â'u gilydd, a'r meini rhyngddynt, gellir canfod priodolder yr ymadrodd yn Exod. 11. 5. a deall, hefyd, addasrwydd y geiriau yn Mat. 24. 41. Gwel Shaw's *Travels*. Gwelwn hefyd briodolrwydd y gwaharddiad i gymeryd un o feini y felin ar wystl; canys y mae yn cymeryd bywyd y dyn yn wystl—ei *fywyd*, sef ei fywioliaeth a'i gynnaliaeth: heb y ddau faen, ni allai y wraig falu yr ŷd at gynnaliaeth y teulu am y diwrnod.

'Trwst maen melin ni chlywir ynot mwyach.' Dat. 18. 22. Hyny yw, ni bydd dim cynnaliaeth yn cael ei barotoi i'r trigolion.

Darn o faen melin-law a daflodd y wraig ar ben Abimelech. Y mae priodolder yn yr hanes, gan mai merched a gwragedd fyddai yn trin y melinau hyn. Barn. 9. 53. Darn o faen, פלח רכב *y marchogwr*, neu ddarn y marchogwr, sef y maen uchaf oedd yn marchogaeth yr isaf, ac oedd yn hawdd ei ryddhau oddi wrtho. Y cyfryw faen, yn nghylch dwy droedfedd o led, wedi ei daflu o le uchel, oedd lawn ddigon i hollti pen gwr.

'Maled fy ngwraig innau i ŵr arall.' Job 31. 10. Bydded fy ngwraig mewn cyflwr mor isel, y byddo raid iddi ei hunan falu; a hyny nid iddi ei hun, nac i minnau, ond i *ŵr arall*, fel caeth-ferch. Yr oedd Samson, yr arwr mawr, wedi ei ddarostwng i'r gradd isaf gan y Philistiaid, pan roisant ef i falu yn y carchardŷ, sef i wasanaethu gwehilion y bobl, y carcharorion yn y carchardŷ.

Yn rhagfynegi darostyngiad dirfawr Babilon falch, foethus, gorchymyn Esaiah iddi gymeryd 'meini melin, a malu blawd.' Gwel pen. 47. 2. Hyny yw, ymostwng mewn caethiwed at y gwasanaeth gwaelaf.

Oddiwrth y geiriau yn Job 41. 24., gellir casglu fod yn ofynol i'r maen *isaf* fod yn galetach na'r *uchaf*. 'Caled yw ei galon fel careg; a chaled fel darn o'r maen *isaf* i felin,' neu פלח תחתית *fel y darn isaf*.

Heblaw y meini fel hyn yn felinau, mae ganddynt yn bresennol, yn y gwledydd dwyreiniol, ddull arall o falu, sef â rhol-bren ar faen ceuol; ond fel hyn y mae yr ŷd yn cael ei ysigo yn hytrach na'i falu. Dywed Niebuhr fod ganddynt y fath beiriant ar fwrdd y llong yr oedd ef yn morio ynddi; a thystia fod y *coffee* yn rhagorach ei flas wedi ei ysigo fel hyn nag wedi ei falu.

Yr oedd yn waharddedig i gymeryd un o'r meini melin yn wystl, rhag newynu y teulu trwy hyny. Deut. 24. 6. Nid oes dim ond uniondeb a thiriondeb yn nghyfreithiau Duw.

Darfod 'trwst maen melin,' a arwydda, gwneuthur y lle yn ddiffaethwch. Jer. 25. 10. Dat. 18. 22.

'Malu wynebau y tlodion,' sydd yn arwyddo eu cystuddio a'u gorthrymu yn greulon. Esa. 3. 15.

Y cilddannedd yw ein melinyddion ni; ac y mae yn isel sŵn y malu genym, pan goller y rhai hyny trwy henaint. Preg. 12. 3, 4. Palla pob peth i ddyn, ond Duw ei hun i'r neb a'i meddo.

Crist a fâl ei holl ddirmygwyr yn chwilfriw â'i farnedigaethau, fel y gwnaeth yr Iuddewon â'u dinas Jerusalem. Mat. 21. 44.

'I sŵn y meini melinau, ac i lewyrch y canwyllau, ballu ganddynt.' Jer. 25. 10. *Heb.* אור נר *goleuni lamp*. Yn ngwledydd y dwyrain, amser malu yr ŷd yw y boreu, gyd â'r wawr; pan elo un allan y boreu, clyw yn mhob man sŵn melinau; a'r sŵn hwn sydd yn aml yn deffroi pobl o'u cwsg. Y maent yn pobi bob dydd; ac y maent yn gyffredin yn malu yr ŷd fel y byddo arnynt ei eisieu. Y mae cyferbyniad yn y geiriau rhwng sŵn melinau a llewyrch y canwyllau, neu, yn hytrach, y lampau. Yr oedd goleuo y lampau yn dechreu yn yr hwyr; ni bydd dim sŵn y boreu, na dim llewyrch yn yr hwyr; nid oes dim ond trymder, prudd-der, ac anghysur—y mae yr holl dir yn ddiffeithwch. Yn y dwyrain, lle ni chlywir sŵn y meini melinau yn y boreu, na dim goleuni i'w weled yn yr hwyr, y mae yn wlad anial ac anghyfanneddol. Gwel Harmer's *Observations*, *cap.* 4. *Obs.* iv. *cap.* 3. *Obs.* xviii.

MELITA, MALTA, ynys fechan yn Môr y Canoldir, yn nghylch 18 milltir o hŷd, 12 o led, a 60 o gylch. Y mae yn dwyn ffrwythau rhagorol, pompiwn, cotwm, &c. Ar yr ynys hon y taflwyd Paul a'i gyfeillion, pan y torodd y llong arnynt. Act. xxvii, xxviii. Gwel yr hanes yno. Edr. hefyd, PAUL, PUBLIUS. Y mae yn cynnwys yn bresennol yn nghylch 60,000 o drigolion. Bu yn yr amrywiol oesoedd yn meddiant y Carthageniaid, y Rhufeiniaid, y Saraceniaid, y Tyrciaid, a'r Hispaeniaid. Charles V., ymerawdwr Germani, a'i rhoddodd i farchogion Malta, yn nghylch 1530, wedi i'r Tyrciaid eu gyru oddi yno saith mlynedd o'r blaen yn greulon. Y mae yn awr yn meddiant y Saeson.

MELSAR, מלצר [*goruchwyliwr*] swyddog a osodasai pen ystafellydd brenin Babilon ar Daniel a'i gyfeillion. Dan. 1. 11—16.

MELUS—DER—WEDD, neu MELYS, (mêl) chwêg, peraidd, hyfryd.—Melus yw pob peth peraidd i'r archwaeth, neu hyfryd i'r glust, neu ddyddanus i'r meddwl; megys gwin, mêl; geiriau Duw a myfyrdodau arnynt, a chyfrinach sanctaidd, y rhai ydynt felus a hyfryd i feddwl ysbrydol. Barn. 9. 13. Act. 2. 13. Ps. 55. 14. a 104. 34. a 119. 103. a 141. 6.

'Meluswedd buchedd.' Luc 8. 14. 'Bodd buchedd.' W. S. Y mae yr un gair ηδονη, yn cael ei gyfieithu *melus-chwant*, Iago 4. 1.—*hyfrydwch*, 2 Petr 2. 13. Arwydda y mwyniant a'r hyfrydwch y mae meddwl cnawdol yn ei gael yn y byd, a'r pethau sydd yn y byd, yn yr amledd a'r arferiad pechadurus o honynt—nid pell oddiwrth yr un ystyr a'r *mwyniant* pechod, a ddiystyrodd Moses, ac a ddewisodd yn hytrach ddyoddef adfyd gyda phobl Dduw. Y mae gan y cnawd ei fwyniant, ond pechadurus a thros amser yw; ond y mae gan feddwl pur fwyniant, melusder, a hyfrydwch, sydd oruchel, sanctaidd, a sylweddol. Nid oes neb ond dynion yn cael mwyniant mewn pechod. Y mae gwrandawyr y gair, yn aml, yn ymrwystro gan ofalon golud, a meluswedd buchedd, neu fyw yn foethus, yn barchus, ac yn esmwyth,

Digitized by Google

yn y byd; ac y mae y gair yn cael ei dagu, a hwythau heb gael dim ffrwyth iachusol oddi wrtho, na dwyn dim ffrwyth addas i Dduw. Y mae '*amryw feluswedd*,' gan ddynion cnawdol, (Tit. 3. 3.) sef meluswedd mewn amryw bethau, ac mewn amryw ffyrdd; am danynt y maent yn argeisio, ac ynddynt maent yn rhodio. Mae yr agwedd hon yn groes i 'groeshoelio y cnawd, yn nghyd â'i wyniau a'i chwantau,' a 'marweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Ysbryd,' ac 'ymhyfrydu yn nghyfraith Duw yn ol y dyn oddi mewn.' Gal. 5. 24. Rhuf. 8. 13. a 7. 22.

MELYN, (mêl) *Gr.* μηλινος; saffrym-liw, mêl-liw.—*Melynfaen*, brwmstan; *melyngan*, lliw yr hufen.—Blewyn melyn oedd arwydd o'r gwahanglwyf. Lef. 13. 30. Yr oedd blewyn du yn tyfu yn y ddufrech, yn arwydd o iechyd. Gwel adn. 37. Y mae y melyn yn arwyddo gwendid, a'r du yn arwyddo cryfder a iechyd y corph.

MELLDITH—IO—WYR—IGO—EDIG, (malldith) rheg, rhegu; rhegwyr; ymgeiniad, ymgeinio. —Melldith, yw y drwg a ddymunir, neu a gyhoeddir yn erbyn un. Y mae Duw yn melldithio, pan y mae yn euog-farnu un am ei bechod yn gyfiawn, ac yn rhoddi cospedigaeth addas arno, yn arwydd o'i lid a'i ddigofaint. Gen. 12. 3.

'Melldith y ddeddf,' yw y gospedigaeth gyfiawn y mae y ddeddf yn ei chyhoeddi yn erbyn ei throseddwyr. Deut. xxviii. Deddf Duw ydyw, ac y mae awdurdod Duw yn cael ei ddianrhydeddu yn mhob trosedd o honi; y mae troseddau pob dyn yn aneirif, ac y mae y felldith yn cyfateb i'r troseddiadau; am hyny rhaid bod y felldith yn drom.

Gwaith dynion sanctaidd, dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân, yn melldithio eraill, a arwydda eu bod fel gweinidogion Duw yn hyny, yn cyhoeddi melldith arnynt, a thrwy hyny, yn rhagfynegi yr hyn a gyflawna Duw arnynt yn yr amser priodol. Gen. 9. 25. Jos. 6. 26.

Melldithia dynion eu gilydd yn bechadurus, pan byddont o ddrwg ewyllys, llid, a digofaint, yn ymgeinio â'u gilydd, ac yn dymuned aflwydd i'w gilydd, yr hyn sydd drosedd trwm yn erbyn cyfraith cariad. Barn. 9. 27. 1 Sam. 14. 24.

'Na felldiga y byddar, ac na ddod dramgwydd o flaen y dall.' Lef. 19. 14. Yn ol ysbryd y gorchymyn hwn, gwaherddir absènu yr absennol; sarhau ac anmharchu yr addfwyn a'r llariaidd; twyllo yr anwybodus, neu roddi cynghor drwg iddynt; neu wawdio gwendidau eraill. Yn mhob peth y mae Duw yn dangos ei diriondeb a'i uniondeb tu ag atom. Deut. 27. 18. Rhuf. 12. 14. a 14. 13. 1 Cor. 8. 8—13. a 10. 12. 1 Petr 1. 17.

'Yr hwn a felldithio dad neu fam, lladder ef yn farw.' Mat. 15. 4. κακολογων, a *ddifrio*; geiriau eraill a arferir yn y Testament Newydd i arwyddo *melldithio*. Felly hefyd, yn Neh. 13. 25., 'Ac y melldithiais hwynt,' a ellid ei gyfieithu yn fwy addas, קלל ac y *difenwais*, neu y *difriais* hwynt. Campbell.

'O herwydd melldith Duw sydd i'r hwn a grogir.' Deut. 21. 23. 'Crist a'n llwyr-brynodd oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith drosom: canys y mae yn ysgrifenedig, Melldigedig yw pob un sydd yn nghrog ar bren.' Gal. 3. 13. Crogi ar bren, yn iaith yr Hebreaid, a arwydda cyffelyb gospedigaeth a chroeshoelio yn iaith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid: ond nid cospedigaeth Iuddewaidd oedd croeshoelio.* Amlwg yw, fod yr Iuddewon yn marwolaethu y drwg-weithredwr yn gyntaf, ac yn ei grogi wedi hyny. 2 Sam. 4. 12. Jos. 10. 26. a hwyrach, hefyd, Num. 25. 4. Jos. 8. 29. Yr oedd dwy gospedigaeth ar feiau echryslon, sef wedi eu llabyddio, eu llosgi, neu eu crogi. Jos. 7. 25. Yr oedd hyn i ddangos yn fwy amlwg i bawb eu ffieiddiad o'r bai. Gwedi hyn, yn mhlith y Rhufeiniaid, yr oedd yr arfer crogi, neu hoelio wrth bren, y drwg-weithredwr yn fyw; a dyma ddull marwolaeth Crist, yr hwn a ddug ein pechodau yn ei gorph ar y pren. 1 Petr 2. 24. Luc 23. 33—39. Nid ei fod yn nghrog ar bren oedd yr achos ei fod dan felldith, ond y bai am ba un y crogwyd ef oedd yr achos, a'i grogi oedd yn arwydd o hyny. Jerome.

Nid oedd y gelain i drigo wrth y pren dros nos, ond o fewn y dydd hwnw yr ydoedd i gael ei gladdu, ac onidê, *halogai* y tir. Yr oedd ei gladdu yn *puro* y tir. Nid oedd y gospedigaeth hon, meddant, yn cael ei rhoddi ar neb ond ar Iuddew, a hyny am gabledd, eilun-addoliaeth, neu feiau o'r fath. Tu hwnt i bob dadl, oddiwrth eiriau yr apostol, fod hyn oll yn gysgod o groeshoeliad Crist. Ni ellir meddwl fod pob un a grogwyd dan felldith, ac yn golledig; na bod eladdu ei gorph yn y ddaear, yn wirioneddol, yn puro y tir: ond yr oeddynt yn arwyddocâol, ac yn gysgodol, yn rhag-ddangos y byddai Crist dan felldith, o herwydd beiau ei bobl, ac y byddai ei gladdedigaeth, gan iddo wneyd iawn wrth farw dros eu pechodau, yn eu puro a'u glanhau. Y dydd y crogwyd Crist y claddwyd ef hefyd. 'Symudodd ymaith anwiredd y tir mewn *un* diwrnod.' Zech. 3. 9. Claddwyd ef cyn machlud haul, a chladdwyd holl bechodau ei bobl gyd âg ef—am hyny y maent yn bur! 'Crist a'n llwyrbrynodd oddiwrth felldith y ddeddf;' dygodd ein pechodau, a'r felldith ddyladwy, yn ei gorph ar y pren: claddwyd ef cyn machlud haul, ac y mae y tir yn bur! 'O herwydd melldith Duw sydd i'r hwn a grogir;' am hyny, y mae yn gyfiawn ac yn ofnadwy! Ond yr oedd y cyfryw werth yn nyoddefiadau Crist, o herwydd ardderchogrwydd ei Berson, fel y llwyrbrynodd ei bobl oddiwrth felldith y ddeddf, am hyny y maent hwy yn rhydd. Yr achos paham yr oedd melldith Duw yn fwy nodedig ar y gospedigaeth hon, rhagor un gospedigaeth arall, oedd, tebygol, am mai trwy fwyta o ffrwyth pren y cyflawnwyd y pechod cyntaf, trwy yr hwn y daeth melldith Duw ar ddynolryw, yr hon na ellid ei thynu ymaith heb grogi ar bren. Yr oedd hyn yn arwydd parhaus o felldith Duw o herwydd y pechod hwnw yn nghylch y pren gwaharddedig, hyd oni ddeuai y Messïah i wared oddiwrth y felldith trwy roddi ei hun i'w groeshoelio ar bren. Edr. Aberth, Iawn. Gwel Witsius, *Ubi. Supra.* Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* ii. *cap.* 12.

MELLT—EN, (mell) lluched, tân mellt. Yr ydys wedi profi yn ddiddadl, trwy amryw brofiadau diammheuol, mai yr un yw tân mellt a'r peth a elwir *electrical fluid*, neu *fire*, sef y tân a dynir trwy beiriant defnyddiol i hyny, o'r ddaear at gorph dyn, yr hwn sydd fel y mellt, yn gyflym, yn dreiddgar, ac yn nerthol. Trwy godi barcutan papur, â gwialen fain o haiarn wedi ei blaenllymu ynddo, at y cwmwl fyddo yn melltenu, gellir tynu y tân wybrenol hwn ar hyd edef o haiarn o'r cwmwl, a llenwi phiol y peiriant âg ef, yr un fath ag y tynir y tân o'r ddaear, trwy y gelfyddyd berthynol iddo. Edr. Taran. Y mae y mellt yn llosgi, ac yn toddi metteloedd, yn rhwygo ac yn dryllio rhyw gyrph, yn taro dynion â dallineb, ac yn eu taro yn feirwon: y maent yn difeddiannu yr ehedfaen o'i rinwedd, ac yn gwrthdroi pynciau y nodwydd: y mae yr un effeithiau hefyd i *electricity*. Y modd goreu i ochelyd niwed oddiwrth y mellt, ydyw eistedd ar gadair yn nghanol ystafell, neu yn nghanol diod-gell, neu seler dan y ddaear: yn y meusydd, o fewn ychydig latheni i goeden, ond nid dani: y mae yn fwy diogel fod gwisgoedd dyn yn wlyb nac yn sych.

'Pan wnaeth efe ddeddf i'r gwlaw, a ffordd i fellt y taranau.' Job 28. 26. Ps. 135. 7. Fel y mae Duw

* Witsius *Exercit.* 16. *in Symbol, sec.* 33.

Digitized by Google

yn awdwr dechreuol holl naturiaeth a'i gwrthddrychau aneirif, felly hefyd mae holl naturiaeth, a'i holl wrthddrychau, yn eu holl ysgogiadau, eu symudiadau, a'u gweithrediadau, yn hollol dan ei lywodraeth ef, ac yn derbyn eu holl effeithioldeb oddi wrtho. Y mae y pethau mwyaf bywiog, cynhyrfus, cyflym, ac afreolaidd i'n golwg ni, yn gwbl dan ei lywodraeth a'i drefniad ef. Efe sydd yn effeithio sŵn dychrynllyd y taranau, a elwir o herwydd hyny (קול) 'llais Duw;' mae yn gwneuthur ffordd y mellt, sef yn eu llywodraethu, ac yn eu cyfarwyddo. Y maent yn ddigon tanllyd i losgi, ond ni losgant heb ei orchymyn ef; y maent yn ddigon nerthol i ladd, ond ni laddant ond a fyno efe; gwnant ei orchymyn, a dim ond hyny. Peiriannau ydynt â pha rai yr ymladd yn ofnadwy â'i elynion pan fyno; y maent yn barod wrth ei alwad, ac efe a fedr eu trin a'u defnyddio hwynt yn ddychrynllyd. Ps. 18. 14. a 77. 18. Job 37. 3. a 38. 35. Jer. 10. 13. a 51. 16.

'A'i wyneb fel gweledíad mellten.' Dan. 10. 6. Y mae efe, sef Crist, yn odidog, yn ddysglaer, ac yn hawddgar i'w bobl, ond ofnadwy a brawychus yw yr olwg arno i'w elynion.——Y mae barnau Duw fel mellt, yn ddisymwth, yn gyflym, yn anwrthwynebol, ac yn ddychrynllyd. Dat. 8. 5. a 16. 18. a 11. 19. ——Y mae Satan yn syrthio fel mellten, pan byddo ei allu, a'i awdurdod, yn cael eu dystrywio yn brysur ac yn arswydus. Luc 10. 18.

MEMPHIS, מוף [*wrth y genau*, hefyd נף *crwybr*] dinas enwog yn yr Aipht, yn nghylch pymtheg milltir yn uwch na rhaniad yr afon Nilus, neu lle mae y Delta yn dechreu. O du y dehau-orllewin iddi yr oedd y peiramidiau rhyfedd yn sefyll. Adeiladwyd hi yn gynnar gan Menes, neu Mitsraim, ac a barhaodd yn drigfa breninoedd yr Aipht hyd wedi amser Alexander Fawr; ond wedi ei amser ef, preswyliai y Ptolemiaid yn gyffredin yn Alexandria. Yma y cadwent yr eilun-dduw, neu y tarw Apis, mewn teml arddderchog. Rhagfynegir gan y prophwydi yr adfyd a'r trueni a ddyoddefai ei thrigolion oddiwrth y Caldeaid a'r Persiaid. Esa. 19. 13. Jer. 44. 1. a 46. 14—19. Hos. 9. 6. Ezec. 30. 13—16. Edr. AIPHT. Y Saraceniaid, yn nghylch A. D. 640, a'i dinystriasant yn gwbl, ac a adeiladasant ddinas arall, o du y dwyrain i'r afon, yn ei lle, a elwir yn awr Grand Cairo, neu Al-kahira. Anhawdd penderfynu yn bresennol y lle y safai Memphis arno: fel hyn y mae dull y byd hwn yn myned heibio.

MEMRWN, *Gr.* *μεμβρανα*; *Llad.* MEMBRANA: mae y gair Lladin yn arwyddo y groenen uchaf i bob peth; y rhisglyn nesaf i'r pren. Croen i ysgrifenu arno, neu gwedi ysgrifenu arno; ysgrifen. Gwneir y memrwn o grwyn defaid, neu eifr; yn Pergamos, meddant, y gwnaed ef gyntaf, ac oddiwrth enw y ddinas hon yn *Lladin*, PERGAMA, y cafodd yr enw; yn *Ffr.* PARCHEMIN; ac yn *Saes.* PARCHMENT.— 'A'r llyfrau, yn enwedig y memrwn.' 2 Tim. 4. 13. Pa lyfrau oeddynt nid gwiw dychymygu: beth bynag oeddynt, yr oedd yr apostol yn rhoddi bri arnynt, ac yn eu gweled yn angenrheidiol iddo. Ei gôf-lyfr, medd rhai; ei epistolau at yr eglwysi yn ei ysgrifenlaw ei hun, medd eraill; ad-ysgrifen o'r Hen Destament, medd eraill.

MEMUCHAN, ממוכן [*yn tlodi*] un o saith dywysog Media a Persia, cynghorwyr y brenin Ahasferus. Esther 1. 14.

MEN, (my-en) certwyn, cerbyd, carfen. Menddyrnu. Edr. DYRNU. Olwyn-fen. Edr. OLWYN.

MENAHEM, מנחם [*dyddanydd*] mab Gadi, a'r unfed brenin ar bymtheg ar Israel. Lladdodd Salum, yr hwn a laddodd Zachariah y diweddaf o genedl Jehu. Gwnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd. Tarawodd y ddinas Tiphsah, a'r rhai oll oedd ynddi, a rhwygodd yr holl wragedd beichiogion, am nad agorasai hi iddo. Pul brenin Assyria a ddaeth yn erbyn y wlad; a Menahem a roddodd i Pul fil o dalentau arian; sef £342,187 10s. am ei borth i sicrhau ei freniniaeth yn ei law. Cododd Menahem hanner cant o siclau o'r arian oddiar yr holl rai cedyrn allu. Gwedi teyrnasu ddeng mlynedd, bu farw Menahem, a Phecahiah ei fab a deyrnasodd ddwy flynedd ar ei ol, ac yntau a laddwyd gan Pecah mab Remaliah. Rhodiodd y tad a'r mab yn ffyrdd Jeroboam mab Nebat, a thynasant farnau buan arnynt trwy hyny. 2 Bren. 15. 14—22.

MENAN, neu MAINAN, *Μαιναν* [*gwobr*] mab Mattathah, a thad Melea. Luc 3. 31.

MENE, מונה gair Caldaeg, yn arwyddo *rhifo*.— 'Duw a rifodd dy freniniaeth, ac a'i gorphenodd.' Dan. 5. 25, 26. Edr. BELSASSAR, TECEL.

MENYBR, *Llad.* MANUBRIUM; carn, troed-arf, said, gafael-arf. Deut. 19. 5.

MEONATHAI, *Heb.* מעונתי [*fy mhreswylfa*] mab Othniel, a thad Ophrah, o lwyth Judah. 1 Cronicl 4. 14.

MEPHAATH, מפעת [*mawr-egni*] dinas yn llwyth Reuben. Jos. 13. 18. a 21. 37. Jer. 48. 21.

MEPHIBOSETH, מפיבשת [*gwarth fy ngenau*] 1. Mab y brenin Saul o'i ordderch Rispah, yr hwn oedd un o'r saith o feibion Saul a draddodwyd gan Dafydd i'r Gibeoniaid, i'w crogi. 2 Sam. 21. 8, 9.—— 2. Mab Jonathan, ac ŵyr Saul. Pum mlwydd oed oedd, pan ddaeth y gair ladd Saul a Jonathan. Ei fammaeth, wrth ffoi âg ef, a syrthiodd, fel y cloffodd y y plentyn, ac felly parhaodd dros ei holl fywyd. 2 Sam. 4. 4. Dangosodd Dafydd lawer o garedigrwydd iddo er mwyn Jonathan ei dad. Dygwyd ef i fynu, yn ei ieuenctid, gyda Machir, yn Lo-Debar, y tu hwnt i'r Iorddonen. Rhoddodd Dafydd yn ol iddo holl etifeddiaeth ei daid Saul, a chafodd fwyta ar fwrdd y brenin, fel un o'i feibion. 2 Sam. ix. Wrth ei hanes, gellir meddwl ei fod yn ddyn gostyngedig, tirion, cyfeilligar, a duwiol. Yr oedd i Mephiboseth fab a'i enw Michah, i'r hwn yr oedd hiliogaeth lïosog. Gelwid ef hefyd, Meribbaal. 1 Cron. 8. 34, 40. a 9. 40—44. Pa bryd y bu farw sydd anhysbys. Edr. DAFYDD, JONATHAN, SIBA.

MER—ION, (me-er) *Heb.* בריא *baria*, a gyfieithir *tew, bras*. Gen. 41. 2—5. Dan. 1. 15. Sylwedd bras, meddal, a maethol, yn esgyrn ceuol dynion ac anifeiliaid. Nid y mêr sydd yn rhoddi magwraeth i'r esgyrn, fel y barnai rhai gynt, canys mae amryw esgyrn heb fêr ynddynt. Ond er nad ydyw yn maethu yr esgyrn, etto mae yn ddefnyddiol iawn i'w hireiddio, a'u meddalhau, eu gwneuthur yn fwy ystwyth, ac yn llai brau. Pan sycho y mêr yn esgyrn hen bobl, mae yr esgyrn yn fwy brau, a darostyngedig i dori.

Cyffelybir i fêr, 1. Y cyflawnder o fendithion ysbrydol yn Nghrist, y rhai ydynt yn faethlawn, yn hyfryd, ac yn gryfhaol i eneidiau y duwiolion sydd yn byw trwy ffydd arno. Psalm 63. 5. Esa. 25. 6.—— 2. Ofn yr Arglwydd, yr hwn sydd i'r enaid y peth yw mêr i'r esgyrn. Diar. 3. 8.——3. Bwriadau, meddyliau, a dymuniadau dirgelaidd y galon, y rhai sydd guddiedig ac anhysbys i ddynion, ond yn noeth ac yn agored i Dduw. Heb. 4. 12.

MERAB, מרב [*yr hwn sydd yn ymladd*] merch hynaf y brenin Saul. 1 Sam. 14. 49. Addawodd Saul hi i Dafydd yn wraig, ond yr amser y dylesid ei rhoddi iddo, rhoddodd Saul hi i Adriel y Meholathiad. Yr oedd i Merab o hono ef bump o feibion, y rhai a dra-

Digitized by Google

ddodwyd i'r Gibeoniaid i'w crogi: canys wrth 'bum mab Michal, merch Saul,' diammeu, mae i ni ddeall, pum mab *chwaer* Michal; canys ni phriododd Michal Adriel, ond Phaltiel, ac nid oes hanes fod i Michal bump o feibion. Hwyrach i Michal fabwysiadu meibion ei chwaer. 1 Sam. 14. 49. a 18. 17, 18, 19. 2 Sam. 21. 8.

MERAIAH, מריה [*chwerwder*] mab Seraiah, offeiriad. Dychwelodd i Jerusalem o Babilon. Neh. 12. 12.

MERAIOTH, מריות [*chwerwder*] 1. Mab Ahitub yr arch-offeiriad. 1 Cron. 9. 11. Ezra 7. 3.——2. Mab Zechariah, a thad Amariah. 1 Cron. 6. 6, 7.

MERARI, מררי [*chwerw*] trydydd mab Lefi, a thad Mahali a Musi. Exod. 6. 19. Pan ddaethant o'r Aipht, y gwrrywiaid o'i dylwyth oeddynt 6200; a'r rhai addas i wasanaeth, rhwng 30 a 50 o oedran, oeddynt 3200. Yn nghadwraeth meibion Merari yr oedd ystyllod y tabernacl, a'i drosolion, a'i golofnau, a'i forteisiau, a'i holl offer, yr hoelion, a'r rhaffau. Num. 3. 33—37. a 4. 29—45. Jos. 21. 34—40. Bu rhai o'i hiliogaeth yn borthorion yn y deml. 1 Cron. 26. 19. a 6. 63, 77—81.

MERATHAIM, מרתים [*chwerwderau*] talaeth yn ngwlad Caldea, o bob tu i'r afon Tigris; a thebygol fod Pecod, Coa, a Soa, yn lleoedd cyfagos iddi. Ezec. 23. 23.—'Dos i fynu yn erbyn gwlad Merathaim, ie, yn ei herbyn hi, ac yn erbyn trigolion Pecod: anrheithia hi, a difroda ar eu hol hwynt, medd yr Arglwydd, a gwna yn ol yr hyn oll a orchymynais i ti.' Jer. 50. 21.—'Dos i fynu yn erbyn gwlad y gwrthryfelwyr, ie, yn ei herbyn hi, ac ymwêl â hi a'i thrigolion.' Dr Morgan.

> Yn erbyn gwlad y chwerwderau, dos i fynu
> Arni hi, ac ar ei thrigolion, ymwêl, O gleddyf,
> A llwyr ddinystria eu trigolion, medd IEHOFAH.
> *Blayney.*

Ystyr y gair מרה yw *chwerwder*; mae yma yn y rhif lliosog; ystyr y gair פקד ydyw *gofwyo, ymweled*. Y mae yr hen gyfieithwyr, gan mwyaf, yn cyfieithu y geiriau yr un fath a'r Dr M. neu y Dr B. Bu Babilon yn wlad o chwerwder tost i'r Iuddewon, a daeth amser ei gofwy hithau. Ond mae yn eglur fod Pecod yn enw talaeth, neu ddinas, yn perthyn i Babilon; a thebygol fod Marathaim felly hefyd.

MERCURIUS, *Gr.* Ερμης [*masnachwr, areithiwr*, neu *ddehonglwr*] un o gau-dduwiau y cenedloedd, mab Jupiter a Maia, cenadwr y duwiau eraill; a llywyddwr dysgeidiaeth, areithyddiaeth, a masnachaeth. Pobl Lystra a alwasant Paul Mercurius, ac a fynasent ei addoli ef a Barnabas, yr hwn a alwasant Jupiter. Actau 14. 11, 12.

MERCH—ED, (my-erch). Arwydda merch,—1. Plentyn benyw, neu o hiliogaeth un. Gen. 34. 1. Mat. 9. 18. a 10. 35, 37. Luc 1. 5.——2. Chwaer; gelwir Dinah felly gan ei brodyr, am fod ei thad yn bresennol. Gen. 34. 17.——3. Merch yn nghyfraith. Ruth 3. 18.——4. Enw o serchogrwydd ar fenyw, yn enwedig os bydd yn ieuanc. Mat. 9. 22. Luc 23. 28. Ps. 45. 10, &c.——5. Arwydda hefyd, dinas a'i thrigolion; a phrif ddinas a'i phentrefydd. Mat. 21. 5. Ioan 12. 15. Ps. 45. 13. a 137. 8.—'Merch fy mhobl,' 'merch Judah,' 'merch Sion,' a 'merch Jerusalem,' a arwyddocânt, yn aml, yr Iuddewon. Esa. 1. 8. a 22. 4. Ps. 9. 14. 2 Bren. 19. 21. Jer. 6. 14, 26. a 9. 1. Galar. 1. 15. a 2. 15, &c.——Gelwir y saint wrth yr enw hwn, o herwydd eu perthynas â Christ, eu serchogrwydd, eu harddwch, a'u hanwyldeb. Ps. 45. 10, 13.——Yn Can. 1. 5, &c., wrth 'ferched Jerusalem, a Sion,' y meddylir, yn debygol, proffeswyr *ieuainc*, neu broffeswyr mewn *enw* yn unig, heb wir undeb â Christ.

'Weled o feibion Duw ferched dynion.' Gen. 6. 2. Sef merched o hiliogaeth Cain, oedd allan o'r eglwys. 'Merched dynion,' yn unig, oeddynt heb eu geni o Dduw, trwy hâd anllygredig ei air. 1 Petr 1. 23. Gen. 4. 14. 1 Ioan 3. 9, 10. Felly 'rhodio yn ddynol,' neu 'yn ol dyn,' a arwydda, rhodio fel dynion diadgenedledig, yn llygredig ac yn annuwiol. 1 Cor. 3. 3. Edrych ar y rhai hyn, ac ymuno â hwynt, sydd yn gyffredin yn achos o ddirywiad mawr yn yr eglwys. Barn. 3. 6. Neh. 10. 30. a 13. 25.

MEREMOTH, מרמות [*chwerwder*] 1. Mab Bani. Ezra 10. 36.——2. Offeiriad a ddychwelodd gyd â'r gaethglud i Jerusalem. Neh. 3. 4. Ezra 8. 33.

MERES, מרס [*dyfredig*] un o ddoethion llys Ahasferus. Esther 1. 14.

MERIBAH, מריבה [*cynhen, ymryson*]. Exod. 17. 7. Num. 20. 13. Edr. CRAIG, REPHIDIM.

MERRIBAAL, מריב־בעל [*gwrthwynebwr Baal*] mab Jonathan, a thad Michah. 1 Cronicl 8. 34. a 9. 40. 2 Sam. 4. 4. a 9. 12. Petrusai yr Iuddewon i enwi Baal; felly yn lle Mephibaal, neu Meribbaal, galwent ef Mephiboseth.

MERODACH, neu BERODACH BALADAN, yr un a MARDO KEMPADUS, mab Baladan, brenin Babilon. Esa. 39. 1. Edr. HEZECIAH. Yr oedd yn frenin enwog, am hyny gwnawd delw iddo, ac addolwyd ef yn Babilon. Pan gymerodd Cyrus y ddinas, drylliodd y ddelw hon, yn ol prophwydoliaeth Jeremiah. Gwel pen. 50. 2. Edr. BALADAN.

MEROM, מרום [*dyfroedd*] dyfroedd Merom, medd rhai, yw llyn Semachon, neu lyn uchaf yr Iorddonen: eraill, megys Calmet, Brown, &c. a farnant mai dyfroedd cyfagos i Tabor, ar afon Cison, oeddynt. Wrth ddyfroedd Merom bu ymladdfa fawr rhwng Josuah a breninoedd Canaan, ac y dinystriodd efe hwynt yn llwyr. Jos. 11. 5.

MEROZ, מרוז [*dirgel*] dinas yn agos i'r fan y bu yr ymladdfa rhwng Barac a Jabin. Trwy orchymyn angel yr Arglwydd, melldithiodd Deborah ei thrigolion, 'am na ddaethant yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.' Barn. 5. 23. Nid oes ar yr Arglwydd eisieu cynnorthwy neb yn erbyn ei elynion; y mae ei fraich ei hun yn ddigon grymus i ennill iddo y fuddugoliaeth ar y cadarnaf o honynt. A phwy gymhorth a ddichon creaduriaid dinerth roddi i'w fawrhydi? Er hyny braint a dyledswydd pawb yw egnïo â'u holl allu a'u doniau o'i blaid ef a'i achos mawr yn y byd, yn erbyn byddinoedd teyrnas y tywyllwch. Y mae Satan yn defnyddio dynion i gynnal ei achos ef yn y byd, felly mae Duw hefyd yn defnyddio y gwaelaf o ddynion, yn aml, i ddinystrio ei achos, a chodi achos gwir dduwioldeb yn ddyrchafedig. Gwna ddefnydd o *bryf* i ddyrnu y mynyddoedd, ac i falu y bryniau fel mwlwg. Esa. 41. 14, 15. Ni ddywedir i Meroz ryfela o *blaid* y Canaaneaid, ac yn *erbyn* Barac, a thrwy hyny dynu y felldith arni; ond '*ni ddaeth yn gynnorthwy*.' Nis dichon neb fod yn anmhleidiol yn y rhyfel: y sawl nad ydynt gyd â'r Arglwydd â'u holl egni, sydd yn ei erbyn. Agwedd salw fydd yn y farn ar yr anmhleidwyr bradychus, sydd yn awr heb weled gwerth yn achos yr Arglwydd i roddi dim cynnorthwy iddo. Llwydda yr achos mawr yn sicr, ond y mae gwaeau Duw yn erbyn pob Meroz. Jer. 48. 10. Mat. 25. 41. 1 Cor. 16. 22.

MERTHYR—ON, (marth) *Gr.* μαρτυρ; *Llad.* MARTYR. Ystyr y gair *Gr.* μαρτυρ, o ba un mae y gair yn yr ieithoedd eraill yn tarddu, yw *tyst*. Yr un gair a gyfieithir *merthyr* yn y lleoedd canlynol: Act.

Digitized by Google

22. 20. Dat. 2. 13. a 17. 6. a gyfleithir *tyst* yn Mat. 18. 16. a 26. 65. Marc 14. 63. Luc 24. 48. Actau 1. 8, 22. a 2. 32. a 3. 15. a 5. 32. a 6. 13. 2 Cor. 13. 1. 1 Thes. 2. 20. 1 Tim. 6. 13, *et al.* Hwn ydyw ystyr priodol y gair, ac yn yr ystyr hwn yr arferir ef yn gyffredin yn y Testament Newydd. Y geiriau, *οι μαρτυρες του Ιησου*, *tystion yr Iesu*, ar y cyntaf yn yr eglwys, a briodolwyd yn unig i'r apostolion. Wedi hyny priodolwyd hwynt i bawb a ddygasant dystiolaeth gyhoeddus, yn enwedig os wedi eu gwysio o flaen swyddogion, o blaid Cristionogrwydd, ac a ddyoddefasant alltudiaeth, eu hyspeilio, neu farwolaeth o'r herwydd. Ond yn ddiweddaf, priodolwyd y gair wedi hyny i bawb a ddyoddefent farwolaeth yn achos eu proffes o grefydd Crist, a dyna yr ystyr yr arferir ef yn mhob iaith yn bresennol—er mwyn dynodi y gwahaniaeth, arferir y gair *confessor*, conffeswr, neu addefwr, i bawb a ddyoddefasant yn achos crefydd, heb golli eu bywydau. Tystion Iesu, yn colli eu bywydau o herwydd eu tystiolaeth, ydyw merthyron Iesu, yn yr ystyr gyffredin yn awr o'r gair. Stephan a elwir y merthyr cyntaf. Edrych Tyst. Gwel Mosheim, *Sæc. Prim. sect.* 16.

MERWIN——O, (mer) *marw-wyn*, medd Dr D. ewinrew; dideimladrwydd oddiwrth oerfel; marwaidd—'Fe ferwina ei ddwy glust ef.' 1 Sam. 3. 11. Y gair תצלינה a arwydda, y sain, neu y teimlad sydd yn aros yn y glust ar ol i ryw sŵn mawr ei daro, megys sŵn taranau trymion, neu ŷnau mawrion; y mae rhyw beth tebyg i syndod ar ei ol, a'r glust yn tincian. Yr un gair a arferir yn Jer. 19. 3. Arwydda yn y ddau fan, syndod a braw yn effeithio ar y meddwl, oddiwrth olwg ar farnedigaethau dychrynllyd Duw ar bechaduriaid.

'Eu clustiau yn merwino.' 2 Tim. 4. 3. 'Aei clustiei a chosi;' ymyl y ddalen, *llosci*. W. S. Priodol ystyr y gair *κνηθω*, yw *cosi, gogleisio: κνηθομενοι την ακοην*, clustiau yn cael eu gogleisio â sain hyfryd yr areithiwr, yn hytrach nag athrawiaeth iachus yr efengyl. Doniau yr areithiwr, ac nid iachusrwydd ei athrawiaeth, yn eu boddhau. Y maent yn caru yr athrawiaeth 'yn ol eu chwantau,' ac nid yn eu dysgu yn effeithiol i ymwadu â'u chwantau. Titus 2. 12. Clustiau dienwaededig ydyw y rhai hyn, a gwrando gwaeth nag ofer, sef pechadurus, i ddyben pechadurus, a phechadurus ydyw yr effeithiau o hono. Edr. Clust.

MERYW—EN, (mer-yw) eithinfydd; *Heb.* רתם (*retem*). Barna Campbell, Kircher, Gierus, Parkhurst, &c., mai banadl Hispaen a feddylir wrth y gair Hebraeg. Er nad yw yn gysgodfawr, etto y cysgod goreu oedd i'w gael i'r hen brophwyd yn yr anialwch. 1 Bren. 19. 5. Y gair Hebraeg sydd yn Job 30. 4. a Ps. 120. 4. Er nad yw y gwraidd yn ymborth cyffredin, etto rhoddir hanesion am ddynion mewn cyfyngderau, heb ymborth arall i'w gael, yn ymborthi ar risgl, brigau, dail, a gwreiddiau coed, a phlanigion. Herod., *lib.* 8. *cap.* 115. Hanway's *Revol. in Persia, vol.* iii. Yn Lapland, ac yn Sweden, y mae y bobl dlodion yn gorfod byw yn aml ar y cyfryw ymborth. Gwraidd meryw, neu y *retem*, yn fwyd, gan hyny, a arwydda y tlodi mwyaf. Dywed Gierus, fod gwraidd y *retem*, y *venista*, neu banadl Hispaen, yn gwreichioni, yn llosgi, ac yn crinellu, yn fwy angerddol na dim coed eraill.

'Llymion saethau cawr, yn nghyd â marwor meryw,' (Psalm 120. 4.) a arwyddant y barnedigaethau mwyaf treiddgar, llymdost, a thanllyd, cospedigaeth Duw ar dafod twyllodrus.

Am y coed meryw, os y rhai hyny a feddylir wrth y gair *retem*, yn ol ein cyfieithiad ni, ac amryw eraill, rhoddir hanes neillduol am eu rhinweddau meddyginiaethol. Mae y planigion hyn yn gyffredin mewn llawer o rosydd Ewrop. Dygir eu grawn i'r deyrnas hon, gan mwyaf o'r Ital, a gwlad yr Ellmyn. Y maent yn dra rhinweddol a llesol mewn diffyg anadl, y cryd melyn, y colyddwst, y gareg yn yr arenau a'r chwysigen, ac i lanhau y cylla. Defnyddir coed y pren hwn hefyd, gyd âg effeithioldeb mawr, i gryfhau y cylla, chwalu gwynt, i buro yr ysgyfaint, i annog y misglwyf, ac i rwyddhau y coluddion o bob rhwystrau: a dywedir ei fod yn dda i chwysu, rhag cur yn y pen, a chlefyd y fam. Parotoir ef lawer ffordd i'w gymeryd, sef yn *tincture, elixir, extract*, a *spirit*. Dywed y fferyllwyr y parha gan mlynedd heb fraenu, ac y ceidw marwor meryw, wedi ei orchuddio â lludw yr unrhyw, dân am flwyddyn. Gwel Harmer, *vol.* i. *obs.* 9.

MESA, *Heb.* משע [*baich*] 1. Mab Ehud, yr hwn a laddodd Eglon; o'i wraig Hodes. 1 Cron. 8. 9.——2. Brenin Moab. Yr oedd ganddo ddefaid lawer, ac a dalai i frenin Israel gan mil o ŵyn, a chan mil o hyrddod gwlanog. Gwedi marw Ahab, efe a wrthryfelodd yn erbyn brenin Israel: ar hyn Jehoram brenin Israel, a Jehosaphat brenin Judah, a brenin Edom, a ryfelasant yn ei erbyn. Ar y ffordd buont mewn cyfyngder mawr am ddwfr: trwy Eliseus y prophwyd y maent yn cael dwfr, ac addewid o fuddugoliaeth. Tarawsant y Moabiaid, a difrodasant yr holl wlad. Mesa a gauodd arno yn Nghir-hareseth, ei brif ddinas. Pan welodd fod y rhyfelwyr yn drech nag ef, cymerodd 700 o filwyr i ruthro ar frenin Edom, ond ni lwyddodd yn yr ymgyrch. Ar hyn, offrymodd ei fab cyntaf-anedig, yr hwn oedd i deyrnasu yn ei le, ar y mur, er boddhau ei eilun-dduw. Y breninoedd yn gweled y creulondeb hwn, a aethant ymaith, a'u hysglyfaeth gyda hwynt. Yn nghynnwysiad y bennod yn y Biblau Cymreig, dywedir iddo aberthu 'mab brenin Edom;' ond oddiwrth yr hanes, y mae yn dra eglur mai ei fab ei hun—ei gyntafanedig—'yr hwn oedd i deyrnasu yn ei le ef,' a offrymodd, ac nid mab brenin Edom. Yr oedd hon yn weithred erchyll, ac yn brawf o natur waedlyd eilunaddoliaeth: lleiddiad dyn yw Satan o'r dechreuad, ac y mae yn hoffi creulonder. Yn Mibl Dr Morgan cynnwysiad y bennod sydd fel hyn, 'Joram yn gorchfygu y Moabiaid, ac yn aberthu ei fab,' sef mab brenin Moab. Ai y Mesa hwn oedd brenin Moab ai peidio, yr hwn a oresgynodd wlad Edom, ac a gymerodd y brenin, ac a losgodd ei esgyrn yn galch, sydd ansicr. 2 Bren. iii. Amos 2. 1. Fel hyn y mae dynion yn fflangell yn llaw yr Arglwydd, y naill i gospi y llall. ——3. Mab cyntaf-anedig Caleb, mab Hesron. 1 Cron. 2. 42.——4. Terfyn preswylfa hiliogaeth Joctan. Gen. 10. 30. Edr. Joctan.

MESACH, *Heb.* Misael, Dan. 1. 7.——1. Un o'r llanciau, cyfeillion Daniel, a fwriwyd i'r ffwrn dân, gan Nebuchodonosor, am eu hymlyniad wrth y gwir Dduw, a'i addoliad ef yn unig. Dan. iii.——2. Chweched mab Japheth. Gen. 10. 2. Bernir mai ef oedd tad y Mosciaid, a'r Muscofiaid, y rhai a breswyliant y gwledydd gogleddol Ewrop ac Asia. Yr oedd Mesech yn marchnata â'r Tyriaid mewn dynion a llestri pres. Ezec. 27. 13. Gellir barnu eu bod yn genedl liosog, gref, a rhyfelgar; ac mae yn eglur i luoedd o honynt gael eu lladd â'r cleddyf. Ezeciel 32. 26. Hiliogaeth Mesech a gynnorthwyant y Tyrciaid yn erbyn yr Iuddewon ar ol eu hadferiad yn nechreu y mil blynyddoedd, ond a ddystrywir yn yr ymgais yn hollol. Ezec. 38. 2, 3. a 39. 1.

'Gwae fi, fy mod yn preswylio yn Mesech, yn cyfanneddu yn mhebyll Cedar.' Psalm 120. 5. Wrth Mesech y deallir y Muscofiaid, ac wrth Cedar y deallir yr Arabiaid; ond nid tebygol i Dafydd drigo yn Mesech na Cedar; ond yr oedd ymddygiad Saul, Doeg, a'r Ziphiaid, wedi bod mor fradwraidd a drygionus


Digitized by Google

tu ag ato, fel yr oedd, fel pe buasai yn byw yn mhlith yr Arabiaid gwylltion, a'r Muscofiaid barbaraidd, y rhai oedd yn byw wrth ryfel a chreulonder. Rhai a gyfieithant y gair Mesech, nid fel enw priod ar un genedl, ond yn dreiriol, 'Gwae fi, fy mod preswylio *cyhyd* yn mhebyll Cedar.' Jer. 9. 2, 3, 6. a 15. 10. Mic. 7. 1, 2. 2 Petr 2. 7, 8. Dat. 2. 13.

MESELEMIAH, משלמיה [*heddwch Iah*] 1. Tad Zechariah, Lefiad, a phorthor yn y deml. 1 Cron. 9. 21.——2. Mab Core, a thad amryw o feibion oedd-ynt yn borthorion yn y deml. 1 Cron. 26. 2—9.

MESILEMITH, משלמית [*heddychlonrwydd*]—1. Mab Immer, a thad Mesulam. 1 Cron. 9. 12.——2. Mesilemoth, tad Berechiah. 2 Cron. 28. 12.——3. Tad Ahaziah. Neh. 11. 13.

MESOBAIAD, trigiannydd Mesoba. 1 Cronic[l] 11. 47.

MESOPOTAMIA. Edr. ABAM. Y wlad helaeth rhwng y ddwy afon, y Tigris a'r Euphrates, a elwir wrth yr enw hwn. Gwlad dra enwog yw yn hen han-esion y cynfyd. Ynddi yr oedd Shinar, neu Sinar, a Babilon, ac Eden hefyd, medd rhai. Edr. BABILON, EDEN. Ynddi y ganwyd Abraham, Nachor, Sarah, Rebeccah, Leah, Rahel, a holl feibion Jacob, ond Benjamin. Actau 7. 2. Gen. 11. 31. a xxix, xxx. Neh. 9. 7. Brenin y wlad hon oedd Cusan-risathaim, yr hwn a orthrymodd feibion Israel wyth mlynedd. Barn. iii. Edr. BALAAM, OTHNIEL. Syriaid Me-sopotamia a ymladdasant â Dafydd; a chyfansoddodd y Psalm 60 ar achlysur y fuddugoliaeth a roddodd yr Arglwydd iddo arnynt hwy, a Syriaid Zobah. Gwel titl. Darostyngwyd hi gan yr Assyriaid, y Caldeaid, y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, y Parthiaid, y Saraceniaid, y Tartariaid, a'r Tyrciaid. Tywalltwyd ynddi, hwyrach, fwy o waed dynion nag yn un wlad arall yn y byd. Yr oedd llawer o Iuddewon y wlad hon yn Jerusalem, yn gwrando Petr ar ddydd y Pen-tecost, ac a gredasant yn Nghrist. Y mae Cristion-ogrwydd hyd yn hyn, meddant, heb ei ddiwreiddio yn llwyr o honi. Act. 2. 9. Cafwyd sicrwydd diam-mheuol yn ddiweddar, fod yn y wlad hon yn nghylch cant o eglwysi Cristionogol yn parhau er yr hen oes-oedd boreuol Cristionogrwydd, wedi cynnal addoliad ac egwyddorion Cristionogrwydd yn bur, trwy yr holl oesoedd tywyll, pan yr ydoedd Pabyddiaeth yn gor-chuddio holl Ewrop â chaddug o anwybodaeth, a choel-grefydd o'r fath ffieiddiaf.

MESSIAH, משיח [*eneiniog*]. Dan. 9. 25, 26. Ioan 1. 41. a 4. 25. Edr. CRIST, ENEINIO.

MESULAM, משלם [*heddychol*] y mae amryw o'r enw hwn. 1 Cron. 9. 7, 12. a 5. 13. 2 Cron. 34. 12. Neh. 3. 4, 6.

MESULEMETH, merch Harus o Jotbah, gwraig Manasseh, a mam Amon, breninoedd Judah. 2 Bren. 21. 19.

MESUR—O, (mes-ur) משורה [*mesura*]; *Lladin*, MENSURA; *Ffr.* MESURE; *Saes.* MEASURE: medr, meid, meidraeth, mydr, rheol; cainc, cywair. Mesur sydd yn dangos hŷd, lled, a maintioli unrhyw beth. —Mesur a arwydda hŷd terfynedig, maintioli, neu radd unrhyw beth, megys *bywyd dyn*, Psalm 39. 4.—*pechod*, Jer. 51. 13.—*gras*, Eph. 4. 13.——'Wrth fesur,' a arwydda yn gymedrol, yn gynnil. Esa. 27. 8. Ezec. 4. 11—15.—'Heb fesur,' a arwydda yn helaeth iawn. Esa. 5. 14. Ioan 3. 34.——'Wrth fesur dyn, hyny yw, eiddo yr angel.' Dat. 21. 17. Y mesur cyffredin yn mhlith dynion oedd mesur yr angel: y cufydd oedd gan yr angel, oedd yr un a chufydd dyn, dim hŵy, dim llai, sef yn nghylch troedfedd a hanner. ——Mesur yr apostolion, oedd ëangder eu swydd a'u hawdurdod. 2 Cor. 10. 13, 14, 15. Yr oedd yn cyrhaedd i'r holl fyd; ond yr oedd cyfarwyddyd dwyfol i bob un o honynt i lafurio mewn rhai parthau yn fwy na'u gilydd, a thebygol na byddent yn myned i lafur eu gilydd, oddigerth trwy ryw alwad neillduol neu gydsyniad. Κανων, *mesur*, yma, a arwydda, trwy ffugyr, y peth mesuredig.——'Cyflawnwch chwithau hefyd fesur eich tadau,' trwy chwanegu at eu pechodau, a thynu barnedigaethau buan arnynt. Mat. 23. 32.

Y mae mesuro yn arwyddo, 1. Golygu maintioli neu gynnwysiad pethau. Num. 35. 5. Ruth 3. 15. ——2. Meddiannu, i'r dyben i adeiladu. Zech. 2. 2. 'Mesuraf ddyffryn Succoth:' hyny yw, meddiannaf, rhanaf, a llywodraethaf yno. Psalm 60. 6.——3. Ad-dalu a gwobrwyo. Esa. 65. 7.——4. Gwybodaeth ac awdurdod gyflawn, hawsder i drin peth; felly y mae Duw yn 'mesur y dyfroedd yn ei ddwrn, a phridd y ddaear mewn mesur:' y maent yn adnabyddus iddo, yn gwbl dan ei awdurdod, ac yn hawdd iddo wneuth-ur a fyno â hwynt. Esa. 40. 12.

Gwaith Ioan yn weledigaethol yn mesur teml Dduw, a'r allor, a'r rhai sydd yn addoli ynddi, a ar-wydda, gofal Duw yn neillduol am ei addoliad a'i addolwyr, yn amser tywyll Anghrist, pan y byddai llawer yn cael eu rhoddi i amryfusedd cadarn i gredu celwydd. Dat. 11. 1. Gair Duw yw y mesur; wrth hwn maent yn barnu pob peth, ac yn ol hwn yn trefnu y cwbl sydd yn perthyn i deml Dduw, ei addoliad, a'i addolwyr. Cododd Duw weision ffyddlon yn nghanol y llygriad mwyaf ar y cyntedd oddi allan i'r eglwys, i fesur ei addoliad wrth yr iawn fesur, a'i gadw yn bur, ac yn ol y rheolau sanctaidd: y mae hanes yr eglwys trwy yr amrywiol oesoedd yn gwirio hyn. Mesurir i ddau ddyben: sef i adeiladu wrtho (Ezec. 40. 5. a Zech. 2. 2.) ac wedi gorphen yr adeiladaeth, i'r dyben i edrych ac i brofi a ydyw yr adeiladaeth yn ateb i'r mesur cyntaf, wrth ba un yr oedd yr adeiladaeth i gael ei chodi. 2 Cor. 10. 12. Yn yr ystyr diweddaf, tebygol, y mae i ni ei ddeall yn y fan hon. Y mae yr adeiladaeth yn sefyll wedi ei hadeil-adu; ond y mae wedi ei halogi, ac eisieu ei phuro a'i diwygio y sydd. Mae y cyntedd o'r tu allan i'r deml i gael ei fwrw allan; sef yr addolwyr yno i gael eu hesgymuno, ac nid eu hadeiladu na'u diwygio.

Yr oedd y gau athrawon yn golygu eu hunain, nid yr apostolion, yn brawf fesur iddynt eu hunain; ac felly nid oeddynt yn gweled neb yn rhagori arnynt hwy. Trwy yr ynfydrwydd hwn yr oeddynt yn para heb ddeall ac iawn adnabyddiaeth o honynt eu hunain. 2 Cor. 10. 12. Y mae cam-fesur, neu reol o farnu am bob peth, yn rhwym o arwain i gyfeiliornad. Nid oes un mesur cwbl uniawn a pherffaith, ond gair Duw a siampl Crist, yr hwn a gerddodd y rheol heb wyro yn y gradd lleiaf.

'A pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau.' Mat. 7. 2. Nid ydyw y geiriau hyn i'w deall fel pe bai yr Arglwydd yn gwahardd i ni iawn farnu am bethau ac am ddynion; na ddylai swyddogion roddi dedfryd ar ddrwg-weithredwyr; neu na ddylai swydd-wyr eglwysig iawn ddysgyblu drwg fucheddwyr yn eu plith; neu na ddylem feddiannu deall a iawn farn am ddynion yn ol eu bucheddiad: nagê, ond yn y gwrth-wyneb, rhydd gyfarwyddyd i ni pa fodd i iawn farnu am ddynion yn adn. 15—20. o'r bennod hon. Y pechod a waherddir, yw, bod yn brysur, yn anghar-edig, ac yn ddideimlad yn barnu; yn golygu pob peth yn yr olwg waethaf; yn dadguddio beiau a chy-hoeddi gwendidau eraill, heb achos cyfiawn yn galw; ac yn barnu pawb a fyddo yn gwahaniaethu oddi wrthym ni. Yn gyffredinol, adfesurir i ninnau â'r un mesur; 'barn ddidrugaredd fydd i'r hwn ni wnaeth drugaredd.' Iago 2. 13. Dat. 18. 6. 2 Thes. 1. 6, 7. 2 Cor. 9. 6. Barn. 1. 7. Ps. 18. 25, 26. Jer. 51. 24.

Digitized by Google

'Ac a'i cuddiodd mewn tri mesur o flawd.' Luc 13. 21. 'Ac a'i cuddiei mewn tri chibened o vlawd.' W. S. σατα τρια, *tri phecaid*, yn Mat. 13. 33. yr un gair a gyfleithir *pecaid*, *mesur*, a *chibin*. Tebygol mai yr un yw σατον *saton*, שאה *seah*, a שאת *sat*, mesur sych Hebreaidd, yn cynnwys yn nghylch dau alwyn a hanner Saesonig.

METH—U—IANT—US, (my-eth) ffaelu, adfeilio, pallu, nychu; nychdod, adfeiliad, anmhariad. Barn. 20. 16. Diar. 29. 18.

Ig ar blentyn cryfiant, ar benddyn *methiant*. *Diar.*

METHUSAEL, *Heb.* מתושאל [*erchi marwolaeth*] sad Lamech. Gen. 4. 18.

METHUSELAH, מתושלח [*anfonodd ei angeu*, neu *ar ei farwolaeth anfon dwfr*] mab Enoch, a thad Lamech. Gen. 5. 21, 22. Ei oed pan fu farw oedd 969. Efe oedd y dyn a fu fyw hwyaf o neb ar y ddaear, sydd a hanes am dano; ond bu yntau farw.

MEWN, arddawd, (me-wn) tu fewn, yn.—'O fewn dy byrth.' Exod. 20. 10.——'O fewn saith niwrnod.' Barn. 14. 12.——Gorair. 'Oddifewn ac oddi allan.' Gen. 6. 14.

MEZAHAB, mam Matred. Gen. 36. 39.

MIAMIN, מימן [*y llaw ddehau*] mab Paros, offeiriad. Ezra 10. 25.

MIBHAR, מבחר [*dewisedig*] mab Haggeri, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 38.

MIBSAM, מבשם [*yr hwn sydd yn cywilyddio*] 1. Mab Ismael. Gen. 25. 13.——2. Mab Salum. 1 Cron. 4. 25.

MIBSAR, מבצר [*yr hwn a amddiffynir*] un o dduciaid Edom. Gen. 36. 42.

MICAH, mab gwraig weddw gyfoethog o fynydd Ephraim, y cawn hanes am dani a'i delw-addoliaeth, a'r canlyniadau o hyny, yn Barn. xvii, xviii. Efe a'i fam a osodasant eilun-addoliaeth i fynu gyntaf yn Israel.

MICHAH, מיכא [*tlawd*] yr oedd amryw o'r enw hwn. 1 Cron. 5. 5. a 8. 34, 35. a 9. 15. a 23. 20. 2 Sam. 9. 12.

MICHAH, y Morasthiad, prophwyd Duw. Morasthi, neu Moraseth (pen. 1. 14, 15.) oedd y lle y ganwyd ef. Y mae Jerome yn barnu nad yr un lle oedd Morasthi a Moraseth, er fod y ddau yn Judah. Prophwydodd yn nyddiau Jotham, Ahaz, a Hezeciah, breninoedd Judah; ac yr oedd yn cyd-oesi âg Esaiah a Hosea. Y mae yn cyfeirio ei genadwri at Israel a Judah: ac y mae ei lyfr, fel ysgrifeniadau y prophwydi eraill, yn cynnwys argyhoeddiadau llymion o bechod, dadganiad dychrynllyd o ddigofaint a barnedigaethau o'u herwydd, ac addewidion gwerthfawr o Grist, ac o sefydliad a llwyddiant ei deyrnas yn y byd. Yr oedd Jeremiah yn ei gydnabod fel prophwyd, ac yr oedd ei brophwydoliaeth yn ddigon hysbys yn ei amser. Jer. 26. 18. Cadarnheir ei awdurdod fel prophwyd Duw, a'i lyfr fel rhan o'r Ysgrythyr Lân, trwy gyfeiriad ato ddwy waith yn y Testament Newydd. Cymh. pen. 5. 2. â Mat. 2. 6. Ioan 7. 42.—cymh. pen. 7. 6. â Mat. 10. 35, 36. Rhai o'i brophwydoliaethau a gyflawnwyd eisoes yn ddiammheuol. Pen. 3.8—12. a 4. 2, 3, 4. a 5. 2—6. Y lleill a gyflawnir yn eu hamser priodol.

Y mae ei iaith a'i ddull o ysgrifenu, yn hardd, yn enwog, yn ddyrchafedig, ac i radd mawr yn farddonol; weithiau yn anhawdd ei ddeall trwy ei gynnwysder a'i drosiad o'r naill fater i'r llall.* Gallwn edrych gyda hoffder, ar harddwch, a thlysni ei ddull yn pen. 2. 12, 13. a 4. 1, 2, 3. ac yn neillduol y ddwy linell gyntaf o adn. 4.—Ei fywiogrwydd yn pen. 1. 5. a 2. 7—10. a 4. 9.—Grymusder ymadroddion, pen. 1. 6, 7, 8. a 2. 3. a 3. 2—12. a 7. 1, 2, 4.—Pêr-wresogrwydd, pen. 1. 16. a 2. 4.—Ei ardderchogrwydd dyrchafedig, pen. 1. 2, 3, 4. a 3. 6—12. a 4. 12. a 5. 8. a 6. 1—16. a 7. 16, 17. Esgob Newcome. Hawdd canfod yn ei ymadroddion ardderchog a bywiog, ddyn dan ddylanwadau dwyfol yn ei ddyrchafu uwchlaw dynoliaeth yn ei ysgrifeniadau. Heblaw yr ysgrifenwyr cyffredin ar yr holl Fibl, ysgrifenodd arno, Marcius yn Lladin, Pocock, Hutchinson, ac Anthony Gibbs, yn Saesonaeg.

MICHAIAH, mab Gemariah, yr hwn a fynegodd i'r tywysogion holl brophwydoliaethau Jeremiah a glywsai efe Baruch yn eu darllen yn y deml. Jer. 36. 11—20.

MICLOTH, מקלות [*gwïail*] y mae dau o'r enw. 1 Cron. 8. 32. a 9. 37, 38. a 27. 4.

MICHAEL, מיכאל [*pwy fel Duw?* neu, *yr hwn sydd debyg i Dduw*] Y mae amryw o'r enw hwn yn yr ysgrythyrau, heb fod achos neillduol i ymhelaethu arnynt. Numeri 13. 13. 1 Cron. 5. 13, 14. a 7. 3. a 12. 20.

MICHAEL YR ARCH-ANGEL. Y mae Michael yn cael sôn am dano bum waith yn yr ysgrythyrau: sef Dan. 10. 13—21. a 12. 1. Judas 9. Dat. 12. 7. Gelwir ef 'Un o'r tywysogion penaf,' neu y blaenaf; 'eich tywysog chwi,' sef yr Iuddewon; 'y tywysog mawr—Arch-angel—Michael a'i angelion.'——'Llef yr Arch-angel,' diammeu, yw llef Michael, yr hwn a elwir yn Arch-angel, ac nid oes ond un Arch-angel yn cael sôn am dano; y mae y gair bob amser yn y rhif unigol. Y mae yn amlwg nad yw yr enw yn cael ei briodoli ond i un, bod hwnw yn un mawr, y penaf, y blaenaf, tywysog, blaenor ar angelion, ei fod o blaid byddin neu eglwys Dduw yn y byd, ac yn erbyn Satan. Mae amryw farnau yn nghylch y person hwn, pwy ydoedd; rhai yn barnu mai angel crëedig a feddylir wrtho, ond y penaf o honynt; eraill a farnant, bod i ni ddeall wrtho, angel crëedig, weithiau, a'r Arglwydd Iesu, brydiau eraill; eraill, mai yr un person sydd i'w ddeall yn mhob man, ac mai un *fel Duw*, sef Mab Duw, yw hwnw. Gwedi dwys ystyried y mater, yr ydwyf yn cyfaddef fod fy meddwl yn ymfoddloni yn gwbl yn y farn ddiweddaf: 1. Ei enw a arwydda ei fod yn Dduw, heb neb yn gyffelyb iddo. Exod. 15. 11. כמוכה *pwy sydd debyg i ti?* Ps. 89. 7, 8, 9.——2. Y mae yn amlwg fod yr angelion dan ei awdurdod a'i lywodraeth; (Dat. 12. 7.) felly mae Crist wedi ei ddyrchafu goruwch pob tywysogaeth, &c. y mae pob peth wedi eu darostwng iddo. ——3. Blaenor lluoedd Duw yma yn y byd yn erbyn Satan yw; (Dat. 12. 7.) a phwy yw hwnw ond Hâd y wraig, Tywysog ein hiechydwriaeth?——4. Pwy sydd yn sefyll dros feibion pobl Dduw ond Crist? Dan. 12. 1. Efe yw yr hwn a ymddangosodd i Josuah ar feusydd Jericho, â'i gleddyf noeth yn ei law, ac a alwodd ei hun yn 'Dywysog llu yr Arglwydd.' Jos. 5. 14.——5. Dywedir mai IEHOFAH a gladdodd Moses, am hyny efe yw yr Arch-angel (sef Crist) yr oedd Satan yn dadleu âg ef yn nghylch ei gorph wrth ei gladdu. 'Moses gwas yr Arglwydd a fu farw yno, yn nhir Moab, yn ol gair yr Arglwydd.' על פי יהוה *wrth enau IEHOFAH.* 'Ac efe a'i claddodd ef mewn glyn.' Yr un gan hyny yw Michael a IEHOFAH, sef IEHOFAH yn mherson y Mab. Tebygol i Satan yn y ddadl a fu yno yn nghylch corph Moses, chwydu allan lawer o gabledd yn erbyn IEHOFAH: hwyrach y mynai beidio iddo gael ei gladdu o anmharch iddo, neu o ran ei ddefnyddio i eilun-addoliaeth; beth bynag oedd yr achos o'r ddadl, mynodd Duw ei gladdu o

* Lowth, *Præl.* 21. *De Sacra Poesi Hebr.*

Digitized by Google

barch i'w was enwog, ac i attal y bobl na Satan wneuthur cam-ddefnydd o hono. Dywedir fod Michael, *τω διαβολω διακρινομενος, yn dadleu â'r diafol.* Judas 9. 'Pan ymrysonawdd ef yn erbyn diavol.' W. S. Ac, *διελεγετο περι του Μωσεως σωματος.* 'Yn ymresymu yn nghylch corph Moses.' 'Ac ymddadleu am corph Moysen.' W. S. Y mae yn amlwg fod y diafol yn ceisio y corph, neu wneuthur rhyw beth iddo, neu âg ef, ac yr oedd Michael, neu IEHOFAH, yr hwn a'i claddodd, yn anfoddlon iddo: dadleuodd ac ymresymodd âg ef. Yr oedd y diafol yn haerllug am gael ei ewyllys mewn perthynas i gorph Moses, yntau, gyd âg anfeidrol addfwynder, ni feiddiodd, *ουκ ετολμησε, ni chymerodd arno,* gyhoeddi barn yn ei erbyn am ei gabledd, neu ei farnu a beio arno â chabledd, eithr a ddywedodd, 'Cerydded yr Arglwydd dydi;' yn hyn yn dangos ei hun yn annhebyg iawn i'r diafol, ac yn rhoddi siampl o addfwynder a llarieidd-dra i'w holl ganlynwyr hyd ddiwedd amser. Y mae cymaint tebygolrwydd a chysondeb rhwng y geiriau hyn a'r hanes a roddir i ni am Satan yn gwrthwynebu Josuah yr arch-offeiriad, yn Zech. 3. 2., fel y barna rhai dysgedigion, sef Vitringa, ac eraill, fod y geiriau yn Judas yn cyfeirio at yr hanes yno: os felly, y mae yn amlwg mai IEHOFAH a elwir yn angel yno: 'A'r Arglwydd, *(Heb.* IEHOFAH) a ddywedodd wrth Satan, Cerydded yr Arglwydd *(Heb.* IEHOFAH) dydi Satan.' Gan fod Michael yn Judas yn arferyd yr un geiriau a'r angel IEHOFAH yn Zechariah, gellir barnu mai yr un personau oeddynt: o'r hyn lleiaf, nid ydyw yn fwy anaddas barnu oddiwrth y geiriau, nad Mab Duw oedd Michael, na nad Mab Duw oedd yr angel IEHOFAH. Nid ydyw y geiriau yn arwyddo *isder hanfod,* ond undeb cynghor a barn. Ni all y Mab wneuthur na dywedyd dim o hono ei hun, oblegid undeb hanfod. Yr hyn y mae yn ei glywed ac yn ei weled, y mae yn ei ddywedyd ac yn ei wneuthur. Gall creadur wneuthur a dywedyd yr hyn na chlywodd ac na weledd gan Dduw; ond nis gall y Mab, oblegid undeb hanfod: yr un yw barn, cynghor, ac ewyllys y Personau Dwyfol yn mhob peth. I'r gofyniad, Pa le y cafodd Judas yr hanes hwn am y ddadl rhwng Michael a'r diafol? y mae yn ddigon o atebiad i ddywedyd fod Judas yn ysgrifenu dan ddylanwadau dwyfol yr Ysbryd Glân. Edr. ARCH-ANGEL. Gwel Witsius *Miscell. Sacr., Exer.* iv. *De Michael.* Vitringa ar Dat. 12. 7. Coccejus ar Judas 9. a Dat. 12. 7. *Univer. Hist., vol.* iii. *p.* 335., *Note* §.

MICHAL, מיכל [*pwy sy berffaith*] merch y brenin Saul, a gwraig Dafydd. Saul a addawodd ei ferch hynaf, Merab, yn wraig i Dafydd, ond twyllodd ef, ac a'i rhoddodd hi i Adriel y Meholathiad. Clywodd Saul fod Michal ei ferch yn serchu Dafydd, addawodd hi yn wraig iddo am gant o flaen-grwyn y Philistiaid yn gynnysgaeth. Rhoddodd Dafydd iddo ddau cant, a chafodd Michal yn wraig. Trwy ddyfais achubodd fywyd Dafydd, pan anfonodd Saul genadau i'w ladd. Gwedi hyn, pan ydoedd Dafydd yn ei alltudiaeth, rhoddodd Saul Michal i Phalti, mab Lais o Alim. Isboseth ei brawd, ar ddymuniad Dafydd, a'i gyrodd yn ol iddo. Cospwyd hi âg anmhlantadrwydd, am ei gwaith yn dirmygu Dafydd, pan oedd yn dawnsio o flaen yr arch. Nid canmoladwy ydyw yr hanes am dani. 1 Sam. xviii, xix. a 25. 44. 2 Sam. 3. 13—18. a 6. 16, 23. a 21. 8, 9. Edr. MERAB.

MICHMAS, מכמס [*cuddiedig*] dinas yn Benjamin, oddeutu naw milltir gogledd-ddwyrain tua Ramah o Jerusalem, ac yn nghylch pedair o Bethel. 1 Sam. 13. 5, 23. a 14. 5—31. Esa. 10. 28. Neh. 11. 31.

MICHMETHATH, dinas yn hanner llwyth Manasseh, tu yma i'r Iorddonen. Jos. 16. 6. a 17. 7.

MICHRI, מכרי [*gwerth*] tad Uzzi. 1 Cron. 9. 8.

MICHTAM, מכתם [*euraidd*] כתם *cetem,* a arwydda *aur coeth dysglaer.* Ps. 45. 12. Fel titl i amryw Psalmau, arwydda, tebygol, *cân odidog;* sef bod y gân gwedi ei chyfansoddi ar destun gwerthfawr a gogoneddus; hyny yw, Crist Iesu. Titl ydyw i'r Psalmau xvi, lvi, lvii, lviii, lix, a lx. Diddadl mai Psalm brophwydoliaethol am Grist yw Ps. xvi., lle yr arferir y gair gyntaf.

MIDIAN, מרין [*barn*] pedwerydd mab Abraham o Ceturah, a thad y Midianiaid, y rhai oeddynt yn preswylio yn ngwlad Midian. Gen. 25. 2. Y mae yn amlwg fod dau le gwahanol a elwir gwlad Midian yn yr ysgrythyrau. Un o du y dwyrain i'r Môr Coch, lle y preswyliai Jethro: y llall oedd o du y dwyrain i'r Môr Marw, neu Môr Sodom, yn agos i'r Moabiaid. Yr oedd pum llwyth o'r Midianiaid, hiliogaeth pum mab Ceturah, sef Ephah, Epher, Hanoch, Abidah, ac Eldaah. Cawn hanes bore am danynt fel marchnadwyr, yn marchnata â'r Aipht mewn llysiau, balm, a myrr, a chaeth-ddynion hefyd, fel yr ymddengys wrth eu gwaith yn prynu a gwerthu Joseph. Yr oeddynt hwy a'r Ismaeliaid yn preswylio yn agos i'w gilydd, ac yn ymgymysgu llawer â'u gilydd, o herwydd hyny gelwir hwynt weithiau wrth yr un enw. Gen. 37. 28—36. a 39. 1. Barn. 8. 22, 23, 24. Bu rhyfel rhyngddynt a'r Edomiaid, a Hadad mab Bedad a'u tarawodd hwynt, ac a'u gorchfygodd. Gen. 36. 35. Dychrynwyd hwynt yn fawr gan ryfeddodau Duw o blaid ei bobl yn yr Aipht, ac yn yr anialwch: a hwyrach i'r Midianiaid, gerllaw y Môr Coch, ymadael â'u sefyllfa, a myned at eu brodyr ar gyffiniau Moab. Hab. 3. 7. Gelwir pum brenin Midian yn dduciaid Sihon, am hyny gellir barnu i Sihon ddarostwng eu gwlad. Jos. 13. 21. Yr oedd rhai o henuriaid Midian yn ymuno â henuriaid Moab i gyrchu Balaam i regu Israel; a thrwy gynghor Balaam yr oedd rhai o'r Midianiaid gyd â'r Moabesau yn Abelsittim, yn denu Israel i odineb a delw-addoliaeth. Dygodd hyn bla i wersyll Israel, a bu farw 24,000 o honynt. Edr. PHINEES. I ddial am hyn ar y Midianiaid, gorchymynodd yr Arglwydd i Moses anfon 12,000 o wyr i ryfela yn eu herbyn, ac i ladd pob gwrryw, yn blant ac yn ddynion, a phob benyw, ond y gwyryfon. Lladdasant eu breninoedd a Balaam: yspeiliasant eu holl anifeiliaid, a llosgasant eu holl ddinasoedd a'u tyrau. Yr ysglyfaeth oedd fawr; sef 32,000 o wyryfon; o ddefaid, 675,000; o eidionau, 72,000; o asynod, 61,000; y rhai a ranwyd rhwng y milwyr a'r lleill o'r bobl, un rhan i'r milwyr, a'r rhan arall i'r gynnulleidfa: yr oedd un o bob pum cant o ran y milwyr, ac un o bob deg a deugain o ran y bobl, i'w rhoddi yn deyrnged i'r Arglwydd. Num. xxii, xxv, xxxi. Jos. xiii. Y mae ymddangosiad o greulondeb yn eu gwaith yn lladd yn ddiarbed y gwragedd a'r plant yn y rhyfel: ond wrth orchymyn Duw y gwnaethant hyn; a hon oedd y ffordd a gymerodd Duw i ddial arnynt am eu pechodau. Gellir barnu, wrth ymddygiad ffiaidd a digywilydd eu merched, fod y wlad yn llygredig iawn; a chan fod y benywiaid yn euog yn y camwedd, yr oedd yn gyfiawn iddynt ddyoddef am y camwedd. Yr oedd yn drugaredd i'r gwyryfon gael eu harbed, ac yn drugaredd fwy iddynt gael eu dwyn i fynu yn mhlith yr Israeliaid, ac mewn gwybodaeth o'r gwir Dduw a'i addoliad. Er nad oedd y plant gwrrywaidd ddim yn fwy euog na'r benywaidd, etto yr oedd gan yr Arglwydd hawl yn eu bywydau hwy, a phawb eraill, a gellid barnu y buasent yn fwy llidiog, ac am ddial gwaed eu rhieni yn ol llaw. Gan i'r Arglwydd orchymyn hyn, 'Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn?' Gen. 18. 25. Y mae siampl y Midianiaid yn rhybydd i rieni na thynont farn Duw fel hyn yn ddychrynllyd, trwy eu

Digitized by Google

pechodau, ar eu plant. Oesoedd ar ol hyn, y Midianiaid a ddiangasant y galanastra mawr hwn, a gynnyddasant yn ddirfawr, ac a orthrymasant yr Hebreaid yn dost ac yn greulawn am saith mlynedd: o'r diwedd gorchfygwyd hwynt yn wyrthiol gan Gedeon a'i dri chan ŵr; lladdwyd eu breninoedd, Oreb, Zeeb, Zebah, a Salmunna, ac yn nghylch 135,000 o'r bobl. Barn. vi, vii, viii. Esa. 9. 4. a 10. 26. Ps. 83. 9—12. Y gweddill o honynt wedi hyn, tebygol, a ymgorphorasant â'r Moabiaid, a'r Arabiaid.—Rhai o'u hiliogaeth, neu breswylwyr yr un wlad, yn y dyddiau diweddaf, a gânt, neu a gawsant, eu galw trwy yr efengyl, i fynegi moliant yr Arglwydd. Esa. 60. 6.

MIERI—EN, (mi-ar) *Heb.* שמיר *(shamir)* [*dyrysni*] manwydd pigog, diddefnydd, yn gyffredin, ond yn danwydd, ac i wneyd gwrychoedd â hwynt. Edr. DRAIN.

MIGDAL-EDAR, מגדל־עדר [*tŵr y praidd*] barna rhai fod y lle hwn yn agos i Bethlehem (Gen. 35. 21.) yr un a'r lle y cadwai y bugeiliaid y praidd pan yr ymddangosodd yr angelion i gyhoeddi iddynt enedigaeth yr Arglwydd Iesu. Eraill a farnant ei fod yn agos i Jerusalem, ac a elwir מגדל־עדר *tŵr y praidd,* yn Mic. 4. 8.

MIGDAL-EL, מגדל־אל [*tŵr Duw*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 38.

MIGDAL-GAD, מגדל־גד [*tŵr Gad*] dinas yn Judah. Jos. 15. 37.

MIGDOL, מגדל [*tŵr*] lle yn agos i'r pwnc gogleddol i'r Môr Coch, ac nid yn mhell oddiwrth Sin. Tŵr, neu ddinas a thŵr ynddi, rhwng pa un a'r môr y gwersyllodd Israel, wrth ddyfod o'r Aipht. Exod. 14. 2. Jer. 44. 1.

MIGRON, מגרון [*dibyn,* neu *ofn*] pentref yn agos Gibeah. 1 Sam. 14. 2.

MIL, (mi-il) *Gr.* χιλιας; *Llad.* MILLE: deg cant. Y mae mil, a deng mil, yn aml, yn arwyddo rhifedi mawr, annherfynedig. Dat. 5. 11. Preg. 6. 6. a 7. 28. Esa. 30. 17. a 60. 22. 1 Cor. 4. 15.——Rhwymir Satan, a theyrnasa Crist gyd â'i saint ar y ddaear dros fil o flynyddoedd. Dat. xx. Llawer o wahanol feddyliau sydd wedi bod, ac yn bod, ynghylch rhwymiad Satan, a theyrnasiad Crist a'i saint dros fil o flynyddoedd. Rhai a ddychymygasant yn foreu y byddai i Grist ddyfod i'r ddaear, adgyfodi y merthyron, a theyrnasu gyda hwynt yn Jerusalem, mewn pob mawredd, llwyddiant, a gogoniant daearol, dros yr yspaid hwnw o amser; ond y mae y meddwl yn ymddangos yn gwbl anghytun âg amrywiol o ysgrythyrau eraill amlwg, a holl rediad y gair yn gyffredinol. Nid yw teyrnas Crist o'r byd hwn; yn ei natur y mae yn ysbrydol, ac yn gynnwysedig mewn cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. Ni ellir barnu yn addas fod cynnydd a llwyddiant arni, heb fod y pethau hyn yn cynnyddu ac yn llwyddo yn y byd. Yn y pethau hyn y mae ei natur hanfodol yn gynnwysedig. Y mae pob meddwl croes i hyn am deyrnas Crist a'i llwyddiant, yn gwbl anghytun â'i natur, ac yn perthyn i natur teyrnasoedd y ddaear, yn llygredig, ac yn fwystfilaidd. Gellir casglu y pethau canlynol oddiwrth yr holl ysgrythyrau, yn gystal ag oddi wrth Dat. xx.

1. Y bydd eglwys Crist wedi bod dros oesoedd maith dan orthrymder tost, ac erlidigaethau creulawn, yn fuddugoliaethus ac yn flodeuog iawn ar y ddaear cyn diwedd amser. Mae y prophwydoliaethau mor eglur ac mor lliosog am hyn, fel y byddai yn rhy faith yma eu coffâu. Gwel Esa. 2. 2. Mic. 4. 1. Dan. 2. 44. a 7. 27. Ps. 2. 8. a 22. 27, 31. a 72. 8—19. a 110. 2. a 82. 8. a 89. 25. Esa. 9. 7. a 11. 9, 10. a 43. 5, 6. a 49. 6—12. a liv, lv, lvi, &c.

2. Bydd galwad cyffredinol o'r Iuddewon a'r Cenedloedd, dros wyneb yr holl ddaear, i'r eglwys, ac at grefydd Crist. Esa. 59. 20. a 11. 12, 15, 16. Rhuf. 11. 10—26. Amos 9. 11.

3. Mai nid proffes allanol yn unig o grefydd Crist fydd yn gyffredinol yn y byd, yn mhlith Iuddewon a Chenedloedd, ond bydd gwir waith cadwedigol yr Ysbryd Glân yn gyffredinol ar eneidiau dynion, a grym duwioldeb yn blaguro yn ogoneddus yn yr eglwys. Bydd doniau yr eglwys a'i sancteiddrwydd yn cyfateb i'w gilydd, ac yn helaeth ac yn ogoneddus iawn. Bydd gwybodaeth ysbrydol yn helaeth; cariad ac undeb ysbryd yn aml ac yn ogoneddus; a zel tros Dduw a'i wirioneddau, y cyffelyb ag oedd yn y merthyron gynt. Esa. xi. a 54. 13. Jer. 31. 23—34. Yn yr ystyr hwn, tybygaf, yn dra sicr, y mae i ni ddeall Dat. 20. 4. 'Ac mi a welais eneidiau y rhai a dorwyd eu penau am dystiolaeth Iesu, ac am air Duw, a'r rhai ni addolasent y bwystfil na'i ddelw ef, ac ni dderbyniasent ei nôd ef ar eu talcenau, nac ar eu dwylaw: a hwy a fuant fyw ac a deyrnasasant gyda Christ fil o flynyddoedd.' Y mae yn gwbl anghyson âg ysgrythyrau eraill, amlwg am yr adgyfodiad, i ddeall y geiriau yma yn llythyrenol; ond y mae yr adgyfodiad i'w ddeall yn ffugyrol ac yn ysbrydol, fel mewn amryw fanau eraill o'r Bibl. Gwel Dat. 11. 11. Esa. 26. 19. Ezec. 37. 1, 2, &c. Hos. 6. 2. Dan. 12. 1, 2. Cyfodir dynion yn yr eglwys yn meddiannu yr un ysbryd a'r merthyron, yn credu yr un athrawiaethau, yn ymdrechu yn yr un achos mawr, ag y rhoddasant hwy eu bywydau drosto. Cyfodir yr *achos* hefyd i fynu yn ogoneddus y buont feirw drosto; a thynir ymaith yn llwyr bob gwarth a gwaradwydd oddiar eu henwau dros byth. Ymddengys eu hymdrechiadau a'u dyoddefiadau dros achos Crist yn y byd yn anrhydeddus; a bydd eu dymuniadau wedi eu cyflawni tu hwnt i bob peth a ddarfu iddynt eu dymuno na'u meddwl, er eu mawr lawenydd a'u gorfoledd yn y nefoedd. Y mae yr apostolion sanctaidd a'r prophwydi, a holl ddynion sanctaidd Duw, yn llawenhau oblegid hyn: y mae megys yn ychwanegiad at eu gorfoledd yn nghanol y nef. Dat. 18. 20. Byddant fyw a theyrnasant gyda Christ yn eu holynwyr doniol, duwiol, a ffyddlon; yn nyrchafiad eu hachos, ac yn y dyledus barch a roddir i'w henwau. Bydd yr eglwys yn gyffredinol, fel yn yr amser goreu fu arni, sef yn nyddiau yr apostolion a'r hen ferthyron, a'i hathrawon yn gyffelyb iddynt, wedi eu llenwi â'r Ysbryd Glân: nid cael ei sathru, ond *teyrnasu,* fydd cyflwr yr eglwys yn y dyddiau hafaidd hyn. Bydd ysbryd gwir dduwioldeb mor ddyrchafedig a chyffredin, fel y bydd, fel pe buasai hen ferthyron y cyn-oesoedd wedi adgyfodi o'u beddau, a chwedi ymddangos unwaith etto ar chwareu-fwrdd y byd. Hyn, tebygol, yw ystyr y geiriau hyny yn Dat. 20. 4. Dywedir fod y merthyron wedi 'adgyfodi, a theyrnasu gyda Christ fil o flynyddoedd,' yn yr un ystyr ag y gelwir Ioan Fedyddiwr Elias, sef am ei fod yn tebygoli i'r prophwyd enwog hwnw. Lawman *in loc.*

4. Y mae yn amlwg hefyd y bydd y llwyddiant hwn yn mhlith pob graddau a sefyllfaoedd o ddynion: 'Pob llywodraeth a ufuddhant iddo.' *Pob llywodraeth,* sef y llywodraethwyr a'r deiliaid. Dan. 7. 27. Bydd y llywodraethau, a'r holl swyddwyr, gwladol ac eglwysig, yn parhau. Bydd breninoedd, pendefigion, tywysogion, a blaenoriaid o bob math, yr amser hwnw: ond bydd y breninoedd yn dadmaethod i'r eglwys, yn crymu i achos Crist, ac yn caru y gwasanaeth gwaelaf yn perthyn iddo. Bydd y tywysogion yn wyr nerthol mewn gras a doniau, yn eirwir, yn ofni Duw, ac yn casâu cybydd-dod: 'bydd ei swyddogion yn heddychol, a'i threthwyr yn gyfiawn.' Esa. 49. 23. a 60. 17. Exod. 18. 21. Bydd swyddog drwg mor anghyffredin yr amser hwnw ag un da yn

Digitized by Google

awr. Er bod teyrnas Crist yn ysbrydol, geill swyddwyr gwladol fod yn ddeiliaid addas o deyrnas Crist, a gwasanaethu yr Arglwydd yn eu hamrywiol sefyllfaoedd: ac felly y gwnant yn y dyddiau gogoneddus hyn. Saint y Goruchaf fydd yn llywodraethwyr, neu bydd y llywodraethwyr penaf yn seintiau enwog: 'Y freniniaeth a'r llywodraeth, a mawredd y freniniaeth,' sef y breniniaethau penaf, a'r breninoedd ardderchocaf, 'dan yr holl nefoedd, a roddir i bobl saint y Goruchaf, yr hwn y mae ei freniniaeth yn freniniaeth dragywyddol, a phob llywodraeth a'i gwasanaethant ef, ac a ufuddhant iddo.' Y mae cyfeiriad amlwg yn Dat. xx., at y geiriau hyn yn Daniel, fel y gellir gweled wrth gymharu Dan. 7. 9—27. â Dat. 20. 4.

5. Y mae yn amlwg hefyd y bydd llonyddwch i'r eglwys oddiwrth gyfeiliornadau ac erlidigaethau. Hyn a arwyddoceir wrth rwymo Satan, ei fwrw i'r pydew heb waelod, a selio arno, fel na thwyllai y cenedloedd mwyach. 'Rhwymir Satan,' &c. Mwynha eglwys Crist, yn heddychol, burdeb crefydd, heb ddim cythrwfl, gan elynion dynolryw, yn gweithredu yn mhlant anufudd-dod. Daubuz *in loc.* Y mae hyn fel yn arwyddocau y bydd i bawb gael eu dychwelyd—ond os bydd rhai yn parhau yn annychweledig, bydd eu rhifedi mor fychan, tra byddo Satan yn rhwym, ac mor weiniaid, mewn cymhariaeth i'r gwir Gristionogion, fel na feiddiant ac na ddichon iddynt aflonyddu heddwch teyrnas Crist. Lawman. Rhoddir attalfa arno rhag taenu ei dwyll yn mhlith cenedloedd y ddaear, sef gau-athrawiaethau, gau-grefyddau, eilunaddoliaeth, a chasineb i wir grefydd Crist.* Cariad at gau-grefydd yw yr achos o'r casineb mwyaf at wir grefydd: ni chasâodd neb eglwys Crist erioed ag oedd yn caru crefydd yr eglwys. Yn yr amser hyfryd hwn rhoddir attalfa ar Satan i dwyllo dynion â gau-grefydd, a pheri iddynt erlid y wir grefydd. Derfydd pob erlidigaeth gyhoeddus. Ni chyfyd un gau-grefydd newydd i wrthwynebu Cristionogrwydd. Ni bydd nac eilun-addoliaeth, na choel-grefydd, i'r diafol gynhyrfu meddyliau dynion o'u plaid, ac i erlid eglwys Crist. Os bydd rhai o'r cenedloedd yn mhedair congl y ddaear, yn dal heu gyfeiliornadau eu hynafiaid, attelir Satan rhag eu cynhyrfu i ymgynghori yn nghyd pa fodd i amddiffyn a thaenu yr egwyddorion gau hyny, a thrwy hyny i gythryblu heddwch a dedwyddwch yr eglwys.

6. Y mae yn amlwg i mi fod yr amser hwn o hawddfyd ar yr eglwys, heb ddechreu etto. Y mae rhai, megys Usher, ac eraill, yn dechreu yr amser hwn yn fuan gwedi esgyniad Crist, neu ddinystr Jerusalem. Y mae Grotius yn ei ddechreu yn amser Cystenyn Fawr; eraill yn amser y diwygiad trwy Luther. Ond y mae yn gwbl eglur fod y pethau a sonir yn Dat. xx. i ganlyn yr hyn a brophwydir yn y pennodau o'r blaen am ddinystr y bwystfil. Dechreu yr yspaid hwn ar ol sathru y ddinas sanctaidd ddeufis a deugain—ar ol i'r tystion dystiolaethu 1260 o ddyddiau, gwedi ymwisgo â sachlian, Dat. 11. 2, 3., ac wedi i'r wraig fod yn yr anialwch oddiwrth wyneb y sarph, dros amser, amseroedd, a hanner amser. Dat. 12. 14. Amser, amseroedd, a hanner amser, sydd yr un faint a dau fis a deugain, a hyny yr un faint a 1260 o ddyddiau, diwrnod am flwyddyn. Y mae Ioan yn gosod allan ddystryw y bwystfil mewn tri golygiad, a thri yspaid o amser.

(1.) Bwriwyd ef, a'i angelion gyd âg ef, o'r nefoedd i'r ddaear. Pen. 12. 9. Yr oedd Satan yn ei nefoedd pan yr oedd ei grefydd yn ddyrchafedig yn ymerodraeth fawr Rhufain; hyny yw, pan yr oedd ymerawdwyr uchaf a chadarnaf yn amddiffynwyr crefydd Satan. Bwriwyd ef o'r nefoedd i'r ddaear gwedi yr ymdrech mwyaf o'i blaid, yn nghylch amser Cystenyn Fawr. Ar hyn disgynodd Satan i'r ddaear, a chanddo lid mawr yn erbyn yr eglwys a gwir grefydd. Adn. 12. Cafodd yma ar y ddaear fwystfilod ofnadwy, y rhai a lanwodd â gelyniaeth o'r fath greulonaf yn erbyn yr eglwys, a thrwy holl amser Pabyddiaeth y mae Satan gwedi bod ar y ddaear yn gwneuthur y mawr ddrygau yn erbyn yr Oen a'i ganlynwyr. Yn holl amser y bwystfil yr ydoedd Satan, trwy swyn-gyfaredd y butain Rufeinaidd, sef gau grefydd y Pab, 'yn twyllo yr holl genedloedd.' Pen. 18. 23. Yn cyfeirio at hyn, dywedir yma, y caiff Satan ei rwymo, fel na thwyllai y cenedloedd mwyach.

(2.) Yr ail olygiad ar ddystryw achos Satan a roddir yma, yn ei rwymiad dros fil o flynyddoedd: y mae yn cael ei rwymo, ei fwrw i'r pydew heb waelod, cau arno, a selio arno, fel na thwyllai y cenedloedd mwyach, yr hyn a wnaeth dan deyrnasiad y bwystfil. Y mae yn amlwg y bydd arno, ac yn ganlynol, ar ei achos yn y byd, ddarostyngiad mawr, a chaethiwed effeithiol, ac attalfa rhag gwneuthur y drygau a fyddai o'r blaen yn eu gwneuthur.

(3.) Gwedi cyflawni yr amser hyfryd a dedwydd hwn, gollyngir Satan allan o'i garchar, ac yn y fan y mae yn ymosod drachefn at yr un gorchwyl o dwyllo y cenedloedd fyddo yn mhob congl y ddaear, i'w casglu hwy yn nghyd i ryfel o blaid rhyw gau grefydd a gau athrawiaethau, ac yn erbyn gwersyll y saint. Y mae tân yn dyfod o'r nef yn ysu ei fyddinoedd lliosog, ac y mae yntau, y bwystfil, a'r gau brophwyd, yn cael eu bwrw i lyn o dân a brwmstan, lle y poenir hwy ddydd a nos, yn oes oesoedd.

Y mae yr olwg a welir ar y byd yn dangos yn ddigon eglur, bod Satan etto heb gael ei rwymo, a bod ei gau athrawiaethau ar led y byd; bod eilun-addoliaeth yn ben-uchel, ac ysbryd casineb ac erlidigaethus yn erbyn y gwirionedd a saint Duw, yn llenwi y rhan fwyaf o drigolion y byd; ac y mae y bwystfil a'r butain fawr sydd yn ei farchogaeth, etto heb eu dystrywio. Ond y mae rhwymiad Satan yn y pydew heb waelod mor ddilys o gymeryd lle yn ei amser priodol, a'i gwymp o'r nefoedd i'r ddaear; a'r llyn o dân a brwmstan fydd ei drigfa byth.

7. Y mae yn dra eglur y bydd i'r llwyddiant mawr hwn ar yr eglwys barhau fil o flynyddoedd; (Dat. 20. 4—7.) er nad ydym i ddeall yma wrth y geiriau, 'mil o flynyddoedd,' tragywyddoldeb, etto y mae yn amlwg fod i ni ddeall amser maith, dim llai na mil o flynyddoedd. Tebygol y dechreu yr amser hwn yn raddol; symudir y naill rwystr ar ol y llall yn raddol, a bydd ymdrechiadau yr eglwys yn cynnyddu yn raddol i daenu yr efengyl trwy y byd; ond y mae lle i farnu y parhâ yr eglwys yn ei chyflawn ogoniant fil o flynyddoedd; bydd Satan yn garcharor dros yr yspaid hwnw. Gan y bydd llawer o'r barnedigaethau hyny sydd ar y ddaear gwedi peidio yr amser hwnw, megys rhyfeloedd, heintiau, &c., pethau sydd yn dystrywio dynion wrth y miloedd: bydd pob anghymedrolder, a drwg fucheddau, sydd yn byrhau oes dynion, hefyd gwedi peidio; am hyny gellir meddwl y bydd y ddaear yn llawn iawn o drigolion. Bydd y rhan fwyaf o honynt olynol, dros yr amser hwn, yn wir dduwiolion; am hyny gellir barnu y dichon fod yn gadwedig o blant dynion, yn yr yspaid maith hwn o amser, fil, os nid miloedd, am bob un a fu byw erioed ar y ddaear, yn yr holl oesoedd cyn hyny: wrth hyny y dichon fod miloedd yn gadwedig am bob un a fydd yn golledig. Y mae Mr Bellamy, trwy gyfrifiad cywrain, yn dangos, er caniatau fod pawb yn golledig cyn y mil blynyddoedd, yr hyn nis gellir, etto gallai 17,000 am bob un yn golledig dros y 6000 blynyddoedd cyn hyny, fod yn gadwedig yn yr yspaid hwnw. Fel hyn mae yn dangos, y geill y rhan fwyaf o ddynolryw fod yn gadwedig, os gwel yr Arglwydd yn dda. Y mae y

* Yn yr amser hwn ni fydd un erlidigaeth gyhoeddus ar yr eglwys. Ni chyfyd un gau grefydd newydd yn groes i'r grefydd Gristionogol. Ni fydd dim eilun-addoliaeth na choel-grefydd i gynhyrfu y bobl i erlid yr eglwys. Vitringa.

Digitized by Google

golygiad hwn yn ogoneddus ac yn gysurus iawn, ac nid yn annhebygol i fod yn wir i'm tyb i.

*Sylw.* Yn yr yspaid hwn dilëir holl gyfeilliornadau dinystriol oddiar y ddaear; diddymir Anghrist, Mahometaniaeth, a Phaganiaeth dros yr holl fyd. Gorchfygir anghrediniaeth yr Iuddewon, sydd yn awr wedi parhau dros 1800 o flynyddoedd. Yn lle yr holl ffiaidd bethau hyn, bydd teyrnas y gareg yn llenwi y byd. Bydd gwybodaeth gwedi cynnyddu yn yr eglwys yn ddirfawr: sancteiddrwydd a duwioldeb yn gyffredinol yn blaguro yn rymus; bydd duwioldeb yn mhob man yn uchaf; bydd cariad a heddwch yn amlhau; bydd iawn drefn yn yr eglwys yn mhob peth; ac oblegid hyn, bydd yr eglwys yn y byd yn hardd, yn llwyddiannus, yn orfoleddus, ac yn ogoneddus. Zech. 12. 8. a 14. 6—21. Esa. 11. 6—10. a 24. 23. a 25. 7. a 60. 21. a 66. 11. Jer. 31. 34. a 33. 9. Ps. 45. 12. a 46. 9. Gwel Jonathan Edwards, *Hist. of Redemption.* Bellamy *on the Millen.* Hopkins *on the Millen.* Whitby *on the Millen.* Newton's *Dissert.* 25 *on Prophecies.* Vitringa ar y Dadguddiad. Lardner's *Cred. vol.* iv, v, vi, & ix.*

MILCAH, מלכה [*brenines*] merch Aram, gwraig Nachor, a mam Bethuel. Gen. 22. 20. a 24. 15.

MILCOM, מלכם [*eu brenin*] eilun-dduw a ffieidddra yr Ammoniaid. 1 Bren. 11. 5, 33. 2 Bren. 23. 13. Edr. MOLOCH.

MILET, *Llad.* MILLIUM: Diammeu, medd Parkhurst, fod דחן a gyfieithir *milet*, yn arwyddo yr un grawn a elwir yn awr yn y dwyrain *Durra*, yr hwn, yn ol hanes Niebuhr, sydd fath o filet, o'r hwn y gwneir bara bras gwael, ar yr hwn mae pobl gyffredin Arabia yn byw. Arferir y *Durra* hefyd yn Palestina a Syria, gyda llaeth cameles, olew, neu fenyn. Mwy dewisol gan y teithiwr uchod fara haidd nag ef. Mae yn bur gnydfawr. Ezec. 4. 9.

MILETUS—UM, Μιλητον [*coch*] 1. Dinas enwog yn Ionia, yn nghylch deugain milltir o Ephesus, lle yr anfonodd Paul, ar ei daith o Corinth i Jerusalem, am henuriaid Ephesus i'w gyfarfod. Act. 20. 17.——2. Dinas yn Crete, lle gadawodd Paul Trophimus yn glaf. 2 Tim. 4. 20. Crybwylla Homer am y ddinas hon. *Iliad* 2. *l.* 649. Pliny, *Nat. Hist. lib.* 4. § 12. ——Hwyrach y dylai un gael ei ysgrifenu MILETUS, a'r llall MILETUM.

MILGI, (mil-ci) hyddgi, ci hela. Y mae y geiriau זרזיר מתנים yn arwyddo *cul*, neu *gwasgedig ei lwynau*, ac a olygir gan feirniaid yn ddarluniad addas o filgi: er y barna rhai mai march rhyfel a feddylir wrth y geiriau, fel yn ateb yn well y desgrifiad o rodio yn weddus. Diar. 30. 31.

MILO, מלוא [*cyflawnder*, neu *llanw i fynu*] 1. Tref, neu le nodedig yn agos i Sichem. Barn. 9. 6, 20.——2. Lle yn Jerusalem. Dywedir ei fod yn ninas Dafydd. 2 Cron. 32. 5. Rhai a farnant mai y pant-le oedd, rhwng Jebus neu Jerusalem, a dinas Dafydd, yr hon oedd ar fynydd Sion: ac i Dafydd a Solomon beri ei lenwi i fynu, yn ol ystyr y gair, a gwneuthur lle yno i'r bobl ymgyfarfod. Y mae yn amlwg fod yno lawer o adeiladau costus; a hwyrach, twr er amddiffynfa, a thŷ merch Pharaoh. 2 Sam. 5. 9. 1 Bren. 9. 15, 24. 1 Cron. 11. 8. Joas a laddwyd yn nhŷ Milo, wrth ddyfod i waered i Sila, neu y palmant oedd yn arwain i'r palas. 2 Bren. 12. 20. Lightfoot.

MILWR--WYR--AIDD--IAETH--IO, (mil-gwr) *Llad.* MILES; *Gwydd.* MILIDH: mil, mal; lluyddwr, rhyfelwr, gwr o ryfel, rhyswr, ymwanwr. Edr RHYFEL, TYWYSOG.

Gorchestion *milwyr* drygu am y goreu. *Diar.*

Nid oedd dim milwyr yn sefydlog yn Israel cyn amser Saul. Pan byddai gelynion yn goresgyn y wlad, yr oedd yr holl wrrywiaid yn barod i fyned i'r maes i'w gwrthwynebu. Er eu bod yn medru trin arfau, etto nid milwriaeth oedd eu galwedigaeth; ond o angenrhaid yr oeddynt yn cymeryd arfau i fynu i amddiffyn eu hunain, a'u gwlad. Nid oedd yn oddefol i'r milwyr Rhufeinaidd i ymrwystro gyda negeseuau cyffredinol yn y wladwriaeth; megys amaethyddiaeth, masnachaeth, llaw-gelfyddau, neu un neges a allai eu rhwystro yn y filwriaeth, fel y byddent yn barod wrth alwad y tywysogion milwraidd. Y mae gwasanaeth y Lefiaid yn y babell yn cael ei alw yn 'filwrio milwriaeth.' Num. 4. 3—24. a 8. 24. Yn ddeng mlwydd ar hugain hyd yn ddeg a deugain, yr oeddynt i ymroddi i'r gwaith yn gyflawn, â'u holl egni a'u grym, yn gwbl wrth reolau ac ewyllys yr hwn a'u galwodd i'r swydd anrhydeddus. Gwasanaeth y babell oedd eu *hunig* neges yn y byd. At hyn mae yr apostol yn cyfeirio, wrth annog Timotheus i ymddwyn fel milwr da i Iesu Grist. 2 Tim. 2. 3, 4. Rhaid i bob milwr fod yn barod bob amser at ei waith, wrth ewyllys a galwad ei dywysog; y mae wedi ymroddi ac ymrwymo i hyny wrth fyned i'r filwriaeth. Rhaid iddo hefyd gyfrif ar gystudd a pheryglon o amrywiol fath. Felly hefyd y mae yn gweddu fod pob Cristion, yn enwedig gweinidogion y gair. Y mae holl deyrnas Satan yn eu herbyn, ac yn llawn o'r elyniaeth greulonaf yn erbyn yr achos sydd ganddynt. Profedigaethau, hudoliaethau, cyfeilliornadau, a dyoddefiadau, sydd raid iddynt gyfrif eu cyfarfod tra byddont yn y byd. Rhaid dyoddef ymdrech, gwyliadwriaeth, a pheryglon parhaus. Ond os yw yn filwr da i Iesu Grist, mae yn sicr o fuddugoliaeth, gan ei fod ef yn fuddugoliaethus, ac yn rhoddi buddugoliaeth i'w holl filwyr. Nid ar ei draul ei hun mae neb o'i filwyr yn rhyfela. 2 Tim. 1. 8. a 4. 2. 1 Cor. 9. 7. 2 Cor. 10. 3, 4. 1 Tim. 1. 18. a 6. 12. 2 Cor. 6. 4, 5. Iago 5. 10.

'Dysgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth, hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad.' Job 14. 14. Geilw Job dyddiau ei fywyd, 'dyddiau ei filwriaeth.' Cyfieithir yr un gair צבא *amser terfynedig*, Gwel pen. 7. 1.—*milwriaeth*, yn Esa. 40. 2. Y mae i ryfeloedd dymhorau ac amseroedd terfynedig; am hyny gellir galw bywyd dyn yn filwriaeth, ac yn amser gosodedig a therfynedig. Nid rhyfela fydd hi byth ar y duwiolion; parha y rhyfel tra y parhao eu bywyd; ond mae hyny yn derfynedig; derfydd eu hamser a'u rhyfel ar unwaith.

Tebyga eu bywyd i filwriaeth, 1. Am y dylent fod yn hollol dan lywodraeth ac wrth orchymyn un arall, bob amser ac yn mhob peth. Mat. 8. 9.——2. Oblegid eu llafur a'u lludded parhaus.——3. Am fod angenrheidrwydd wrth wyliadwriaeth fanwl ddydd a nos: gwylio, rhyfela, a gweithio, yw bywyd milwr; felly yr un modd y credadyn. Marc 13. 37.——4. Am y dylent gadw eu lleoedd priodol, sef eu sefyllfaoedd a'u perthynasau y gosododd Duw hwy ynddynt. Rhaid i filwr gadw ei le a'i sefyllfa, er colli ei fywyd yn y fan. ——5. Am fod eu bywyd yn llawn peryglon fel milwyr: yr oedd Paul mewn marwolaethau yn fynych. 2 Cor. 11. 23.——6. Y cyffelyb derfyniad sydd iddynt, sef marwolaeth, caethiwed, buddugoliaeth, rhyddid a gogoniant. Rhuf. viii. Edrych ARFAU, RHYFEL, SATAN, TYWYSOG.

MILWRIAD—IAID, (mil-gwr) blaenor, neu gadben ar fil o ryfelwyr.—'Ac a osododd arnynt filwriaid a chanwriaid.' 2 Sam. 18. 1. שרי אלפים *tywysogion ar filoedd. Captains of thousands. Saes.*

* Gwel yn ychwanegol at yr awdwyr uchod, Elliott *on the Apocalypse.* Keith *on the Signs of the Times.* Conder *on the Harmony of Prophecy.* Cumming's *Lectures on the Apocalypse.*—C.

Digitized by Google

**MIL—YN**, (my-il) anifel; milyn, anifel bychan.

Gwae'r *mil* ni wyl ei berchen. *Diar.*
Goreu un *mil* march. *Diar.*

'Wele fi yn barnu rhwng milyn a milyn, rhwng yr hyrddod a'r bychod.' Ezec. 34. 17. Y gair שה a gyfieithir *milyn* a arwydda y lleiaf o'r praidd, ac yn gyffredinol, yr ieuengaf a'r gwanaf. Y mae yr Arglwydd yn cyffelybu ei dlodion duwiol i'r rhai hyn, sef i'r gwanaf a'r llesgaf o'r praidd; a'r annuwiolion cyfoethog i'r hyrddod a'r bychod, y rhai oeddynt yn gorthrymu y gweiniaid. Fel bugail tirion, gofalus, mae yn addaw barnu rhyngddynt, sef amddiffyn ei weiniaid gorthrymedig, ac ymweled â'r cyfoethogion didrugredd â'i farnedigaethau. Ezec. 34. 20. 22. a 20. 37, 38. Zech. 10. 2. Mat. 25. 32, 33.

**MILLTIR**, (mill-tir) *Gr.* μιλιον; *Llad.* MILLIARE; *Saes.* MILE; *Gwydd.* MILE FEARRAIN.*—Wrth gyfrif mesurau, nid oedd gan yr Hebreaid gynt na throedfedd, nac ystâd, na milltir; ond yr oeddynt yn mesur wrth gufyddau, corsenau, a llinynau. Ezec. xl, xlviii. Yr oedd y Groegiaid yn mesur wrth *Stadia*, neu ystâd; y Rhufeiniaid a fesurent wrth filltiroedd, a phob un o honynt yn cyfateb i wyth ystâd, sef yn cynnwys 5000 o droedfeddi. Y mae milltiroedd yn gwahaniaethu yn hynod yn eu hŷd yn yr amrywiol wledydd. Milltir Saesonig sydd 1760 o latheni, neu 5280 o droedfeddi. Casimir a wnaeth gymhariaeth gywrain rhwng hŷd milltiroedd amrywiol wledydd, yn cyfrif wrth y droedfedd Rufeinig, neu droedfedd Rhinland, a arferir yn y gwledydd gogleddol, ac sydd ychydig, sef pedair rhan degfed o droedfedd.

| | *Troedfedd.* |
|---|---|
| Milltir yr Ital .... ...... .... | 50,000 |
| —— Lloegr .... ...... .... | 5,454 |
| —— Alban .... ...... .... | 6,000 |
| —— Sweden .... ...... .... | 30,000 |
| —— Muscovy .... ...... .... | 3,750 |
| —— Lithuania .... ...... .... | 18.500 |
| —— Poland .... ...... .... | 19,850 |
| —— Germany, y leiaf ...... .... | 20,000 |
| —— —— y ganol ...... .... | 22,500 |
| —— —— yr hwyaf .... .... | 25,000 |
| —— Ffrainc .... ...... .... | 15,750 |
| —— Yspaen .... ...... .... | 21,270 |
| —— Burgundy .... ...... .... | 18,000 |
| —— Fflanders .... ...... .... | 20,000 |
| —— Holand .... ...... .... | 24,000 |
| —— Persia .... ...... .... | 18,750 |
| —— Aipht .... ...... .... | 25,000 |

'A phwy bynag a'th gymhello un filltir, dos gyd âg ef ddwy.' Mat. 5. 41. Edr. CYMHELL.

**MIN—ION**, (my-in) *Llad.* ACUMEN; ymyl, glàn, awch, ochr; gwefus, genau.—Min nos, cyfnos, gwyll y nos, cyflychwyr; min y ffordd, ochr y ffordd; yn min, yn agos, gerllaw; min gamu, gwawdio, camu min.—'Min yr afon.' Gen. 41. 17. 2 Bren. 2. 13. Jos. 12. 2. Ezec. 47. 7. Dan. 12. 5.——'Min yr hwyr.' Deut. 23. 11. Gen. 24. 63.

**MINIO**, (min) gwneyd min; awchu; gwneyd ôl, neu argraph; effeithio.—'Y rhai ni finiasai y tân ar eu cyrph.' Dan. 3. 27. *Upon whose bodies the fire had no power. Saes.* לא שלט *dim awdurdod, dim llywodraeth*, neu *allu arnynt*. Attaliwyd gallu llosgedd y tân rhag effeithio arnynt. Y mae pob creadur a phob elfen dan lywodraeth Duw, i wneyd neu beidio gwneyd yr hyn a fyno.

**MINNI**, מני [*yn tueddu, parod*] talaeth yn Armenia medd Calmet, yr un a Minias. Hwyrach i Armenia gael yr enw oddiwrth Aram a Minni, hyny yw, Syria Minni. Mae Jeremiah yn galw teyrnasoedd Ararat, Minni, ac Aschenaz, yn erbyn Babilon. Jer. 51. 27. Ararat a Minni sydd yn arwyddo, medd Bochart, Armenia Leiaf a'r Fwyaf; a'r diweddaf ydyw rhan o Phrygia yn agos i'r Helespont. Yr oedd yr Armeniaid a'r Phrygiaid yn myddin Cyrus yn cymeryd Babilon. Xenophon, *Cyropæd. lib.* iii, & vii.

**MINNITH**, מנית [*parod*] dinas tu hwnt i'r Iorddonen, yr hon oedd yn meddiant yr Ammoniaid pan ryfelodd Jephthah â hwynt. Barn. 11. 33. Dywed Ezeciel fod Judah ac Israel yn dwyn gwenith Minnith i farchnadoedd Tyrus. Gwel pen. 27. 17.

**MINTAI**, (mwnt) tyrfa, llu, byddin-dorf, torf, gyr. 2 Bren. 5. 15. Ps. 68. 11. a 119. 61. Marc 6. 40. Luc 2. 44.

**MINTYS**, (mint) *Gr.* ηδυοσμον [*peraidd*] llysieuyn o arogl peraidd. Y mae dwfr ac olew mint yn feddyginiaethol i'r pen a'r cylla, ac yn dda rhag gwyntogrwydd tufewnol. Nid oedd yn orchymynedig wrth y gyfraith i ddegymu y mintys, &c., ond y Phariseaid i ddangos eu manylrwydd, a ddegyment y llysiau nad oeddynt orchymynedig, tra yr oeddynt yn gadael heibio y pethau trymaf o'r gyfraith. Mat. 23. 23.

**MIRIAM**, מרים [*dyrchafedig*] *Gr.* Μαριαμ; *Llad.* MARIA; *Saes.* MARY; *Cym.* MAIR: enw mam yr Iesu: merch Amram a Jochebed, a chwaer Moses ac Aaron; yr oedd yn nghylch saith mlwydd hŷn nag Aaron, a deg yn hŷn na Moses. Hi, wrth ddymuniad merch Pharaoh, a alwodd ei fam i fagu Moses. Dywed Josephus ei bod yn briod â Hur. Tarawyd hi â gwahanglwyf am iddi ddywedyd yn erbyn Moses, o genfigen, ac iachawyd hi trwy ei weddi: bu farw, a chladdwyd hi yn Cades. Exod. ii. Num. xii. a 20. 1.

Tebygol ei bod yn wraig enwog am ei challineb, ei doniau a'i duwioldeb, a bod Ysbryd yr Arglwydd yn cael ei gyfranu yn helaeth ac yn wyrthiol iddi ar amserau; am hyny gelwir hi 'Miriam y brophwydes.' Y mae yn ymddangos yn hardd odidog, yn blaenori ar wragedd duwiol Israel yn eu cân wrth y Môr Coch; yr oedd wedi ei llenwi âg Ysbryd yr Arglwydd, â gorfoledd, ac â diolchgarwch; 'Cenwch,' meddai, 'i'r Arglwydd, canys gwnaeth yn ardderchog,' &c. Exod. 15. 21, 22. Cyfrifir hi gyda Moses ac Aaron, fel un o'r tri a anfonodd Duw o flaen Israel, pan y dygodd hwynt o'r Aipht. Mic. 6. 4. Dywed am dani ei hun ac Aaron, 'Oni lefarodd yr Arglwydd trwom ninnau hefyd?' A gelwir hi yn brophwydes: am hyny gellir casglu i'r Arglwydd weithiau lefaru trwyddi; hwyrach, wrth wragedd Israel, er nad oes coffa am hyny. Am ei bod wedi byw gyd âg Aaron yn gyffredin, gelwir hi yn chwaer iddo ef, yn hytrach na Moses. Tybir ei bod pan fu farw, yn nghylch 130 oed. Bu farw yn nghylch pedwar mis o flaen Aaron, ac un-ar-ddeg o flaen Moses; felly y bu y tri hyn, y godidocaf o blant dynion, farw yn yr un flwyddyn.

**MIS—OEDD**, (my-is) *Gr.* μεις; *Llad.* MENSIS; *Gwydd.* MI; *Saes.* MONTH. Nid oedd gan yr hen Hebreaid yr un enw priodol i'w misoedd, ond galwent hwy, y mis cyntaf, ail, &c. Yn amser Moses darllenwn am חדש אביב *mis Abib*. Exod. 13. 4. a 23. 15. a 34. 18. Deut. 16. 1. Edr. ABIB. Yn mhob man arall, mae Moses yn nodi y misoedd fel y maent yn olynu eu gilydd. Cawn yr un drefn yn Josuah, Barnwyr, a Samuel. Yn amser Solomon, darllenwn am y mis *Zif*, sef yr ail mis, a *Bul*, sef yr wythfed mis. 1 Bren. 6. 1, 37, 38. Edr. BUL, ZIF. Yr oedd eu blwyddyn gysegredig yn dechreu yn Mawrth, oblegid mai yn y mis hwnw y daethant allan o'r *Aipht*; trefn ac enwau eu misoedd o'r flwyddyn gysegredig, oeddynt, 1. אביב *Abib*, neu ניסן *Nisan*, Mawrth.—2. זו *Zo*, *Zif*, neu איר *Iair*, Ebrill.—3. סיון *Sifan*, Mai.—

* The Geographical, or Italian mile, contains a thousand Geometrical paces, *mille passus*, whence the word mile is derived. —*Cyclopædia.*——Y filltir Rufeinig a gynnwysai *mille passum*, mil o gamrau, pob un yn cyfateb i bump troedfedd Saesonaeg; oddiwrth hyn daeth y gair *mile*, *milltir*. Parkhurst.

Digitized by Google

4. תמוז *Thamuz*, Mehefin.—5. אב *Ab*, Gorphenaf.—6. אלול *Elul*, Awst.—7. תשרי *Tizri*, Medi.—8. מרחשון *Marshefan*, Hydref.—9. כסלו *Casleu*, Tachwedd.—10. טבת *Thebet*, Rhagfyr.—11. שבט *Sebat*, Ionawr.—12. אדר *Adar*, Chwefror.

Yn eu blwyddyn wladol mae y misoedd gwedi eu trefnu fel y canlyn:—1. *Tizri*, Medi.—2. *Marshefan*, Hydref.—3. *Casleu*, Tachwedd.—4. *Thebet*, Rhagfyr.—5. *Sebat*, Ionawr.—6. *Adar*, Chwefror.—7. *Nisan*, Mawrth.—8. *Iair*, Ebrill.—9. *Sefan*, Mai.—10. *Thamuz*, Mehefin.—11. *Ab*, Gorphenaf.—12. *Elul*, Awst.——Er i'r flwyddyn gysegredig gael ei sefydlu ar ol yr ymadawiad o'r Aipht, etto, yr ydoedd y flwyddyn wladol yn cael ei chyfrif, a'r misoedd hefyd yn cael eu cyfrif, yn ol pob un o'r ddwy. Gwedi y caethiwed yn Babilon, gan nad oeddynt hwy ond ychydig o bobl mewn cymhariaeth i'r teyrnasoedd mawrion a arglwyddiaethasant arnynt, tebygol iddynt gyd-ffurfio â hwynt yn enwau eu misoedd, a rhaniad yr amserau a'r tymhorau; megys, yn gyntaf, y Caldeaid, gwedi hyny, y Persiaid, ac ar eu hol hwy y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. Gwel Ecclesiast. 43. 6. Joseph. *Antiq. lib.* iii., *cap.* 4. Philo, *Vit.* Moses, *lib.* iii. Edr. Blwyddyn. Gwedi llawer o annhrefn, yr ydoedd y Groegiaid yn cyfrif y flwyddyn wrth ddeuddeg mis, 30 o ddyddiau i bob mis; ond wedi hyny, tebygol, eu bod yn cyfrif wrth ddeuddeg lleuad, neu 354 o ddyddiau. Yr oeddynt yn gyffredin yn dechreu cyfrif eu blwyddyn yn Mehefin; ond yr oedd y Macedoniaid yn dechreu cyfrif tua chanol Medi. Ar y cyntaf nid ydoedd ond deg mis yn y flwyddyn Rufeinig, neu 304 o ddyddiau. Numa a'i hestynodd i ddeuddeng mis, neu 355 o ddyddiau; a phob ail flwyddyn chwanegent 22 neu 23 o ddyddiau bob yn ail. Julius Cesar, yr ymerawdwr cyntaf, a'i sefydlodd yn 365 o ddyddiau, a chwe awr; y rhai mewn pedair blynedd a wnant un diwrnod, yr hwn yn y bedwaredd flwyddyn a roddir at Chwefror, a gelwir y flwyddyn hôno *blwyddyn naid*, o'r herwydd. Felly y cyfrifir amser gyda ni yn bresennol; ond gan ei bod yn cynnwys yn nghylch 11 o fynydau yn ormod, yr hyn, mewn 130 o flynyddoedd sydd yn ennill un diwrnod, yr oedd ein cyfrif ni o'r achos wedi ennill 11 o ddyddiau cyn i hyn gael ei ddiwygio, trwy ddwyn y cyfrif newydd *(new style)* i'n plith, fel yr oedd yn amrywiol o wledydd tramor, trwy y Pab Gregory, er's dau cant o flynyddoedd.

**MISAL**, משאל [*yr hwn sydd yn gofyn*] dinas yn Aser. Jos. 19. 26.

**MISAR.** Edr. Hermon.

**MISGAB**, המשגב [*yr amddiffynfa uchel*]. Nid oes hanes yn un man arall am ddinas o'r enw yn ngwlad Moab; am hyny barna rhai y dylasai y gair gael ei gyfieithu, ac nid ei roddi i lawr fel enw priodol dinas neu le; a'i fod i'w briodoli fel desgrifiad o Ciriathaim. Jer. 48. 1.

**MISGLWYFUS**, clwyf misol. Lef. 12. 2. a 15. 24.—'Cadach misglwyf;' hyny yw, y peth ffieiddiaf, a eilw y prophwyd 'bratiau budron.' Esa. 30. 22. a 64. 6. Fel y cyfryw yr edrych dyn wedi ei oleuo i adnabod ei hun, arno ei hun, ei fywyd pechadurus, a'i gyfiawnderau, neu y pethau a farnai efe felly yn ei anwybodaeth. Phil. 3. 7, 8, 9.

**MISAM**, *Heb.* משעם [*eu hachubwr*] mab Elpaal. 1 Cron. 8. 12.

**MISMA**, משמע [*yr hwn sydd yn gwrando*] pummed mab Ismael. Gen. 25. 14.

**MISPAH**, a **MISPEH**, מצפה [*gŵyl-dwr*] 1. Dinas yn Judah, yn nghylch naw milltir o Jerusalem. Jos. 15. 38. Yr oedd hefyd rhyw le yn agos i Jerusalem, neu yn y ddinas, a alwyd wrth yr enw hwn. Neh. 3. 19. Jer. 40. 10. Barna rhai mai enw ydoedd ar ran o'r ddinas. *Univers. Hist. vol.* iv.——2. Dinas yn Benjamin. Jos. 18. 26. Gwel 1 Sam. 7. 5, 6, 7. a 10. 17. 2 Cron. 16. 6. Neh. 3. 7.——3. Lle, neu ddinas, yn mynydd Gilead, lle cyfarfu Laban â Jacob, a lle preswyliai Jephthah. Gen. 31. 49. Barn. 11. 11, 29, 34.——4. Gwlad Mispah, wrth droed mynydd Hermon, lle preswyliai yr Hefiaid. Jos. 11. 3, 8. Y mae yn ansicr ai yr un ydoedd hon a Mispeh Moab, lle y preswyliodd Dafydd dros yspaid o amser. 1 Sam. 22. 3. Ps. 42. 6.

**MISRAIAID**, משרעי [*un yn cyffwrdd â chyfaill*]. 1 Cron. 2. 53.

**MISREPHOTH-MAIM**, משרפות־מים [*dyfroedd poethion*, neu *baddon poethion*, neu *peiriau poethion*]. Jos. 11. 8. a 13. 6. Tebygol fod yno faddon poethion a roddodd yr enw hwn i'r lle.

**MITYLENE**, prif ddinas Lesbos, heibio pa un y tramwyodd Paul yn ei daith o Corinth i Jerusalem. Act. 20. 14.

**MITHCAH**, מתקה [*melusder*] gwersyllfa yr Israeliaid yn yr anialwch, rhwng Terah a Hasmonah. Num. 33. 28, 29.

**MITHREDATH**, 1. Trysorydd Cyrus, yr hwn a roddodd lestri tŷ yr Arglwydd wrth orchymyn ei feistr, i Sesbassar, penaeth Judah. Ezra 1. 8.——2. Un arall a roddodd ei law wrth lythyr at Artaxerxes, brenin Persia, yn erbyn yr Iuddewon. Ezra 4. 7.

**MIZRAIM**, מצרים [*gorthrymderau*] ail fab Cam. Gen. 10. 6, 13. Hwyrach mai Mizir oedd enw y tad, ac mai Mizraim oedd enw ei hiliogaeth, gan ei fod yn air yn y rhif lliosog yn Hebraeg. Y mae yn amlwg y meddylir wrth Mizraim gwlad yr Aipht; a brydiau eraill, trigolion y wlad hôno; a gelwir mab Cam hefyd Mizraim. Geilw yr Arabiaid hyd heddyw yr Aipht, Mezer; a Cairo, dinas Mezer. Preswyliodd hiliogaeth Mizraim yr Aipht, a thrwy hyny y cafodd y wlad yr enw. Edr. Aipht.

**MIZZAH**, מזה [*taenelliad*] pedwerydd mab Reuel mab Esau. Gen. 36. 13.

**MNASON**, hen ddysgybl i Iesu Grist o Cyprus, yr hwn a breswyliai yn Jerusalem, gyd â'r hwn y lletyodd Paul a'i gyfeillion. Act. 21. 16. Hwyrach iddo weled Crist yn y cnawd, a'i fod, fel y barna rhai, yn un o'r deg a thriugain.

**MOAB**, מואב [*hâd y tâd*] mab Lot o'i ferch hynaf. Gen. 19. 37. Ganwyd ef yn nghylch yr un amser ag Isaac, A. M. 2108. Efe oedd dad y Moabiaid. Preswyliodd ef a'i hiliogaeth o du y dwyrain i'r Môr Marw, oddeutu yr afon Arnon, a'r Ammoniaid o du y gogledd, a'r Midianiaid i'r dehau iddynt. Yr Emiaid o'r blaen a breswyliasant yn y wlad hon, ond y Moabiaid a'u gorchfygasant, ac a gyfanneddasant yn eu gwlad, ac a'i galwasant wrth eu henw, gwlad Moab. Gwyrasant at eilun-addoliaeth yn foreu; ac a addolent Chemos, Baal-Peor, &c. Num. 21. 29. a 25. 1, 2, 3. Cymerodd Sehon, brenin yr Amoriaid yr holl wlad o du y gogledd i afon Arnon oddi arnynt. Barn. 11. 13. I ddial ar y Moabiaid a'r Ammoniaid am i Balac, brenin Moab, gyflogi Balaam i regu Israel, ac am iddynt hwy ddenu Israel, trwy gynghor Balaam i eilun-addoliaeth ac aflendid, gwaharddwyd y ddegfed genedlaeth o honynt i ddyfod i gynnulleidfa yr Arglwydd. Deut. 22. 3—6. Edr. Balaam, Balac, Dafydd, Elimelech, Ehwd, Eglon, Jehoram, Joab, Jehosaphat, Solomon, Naomi, Ruth.

Er i'r Moabiaid gael eu harbed gan Moses wrth orchymyn Duw (Deut. 2. 9.) etto yr oedd gelyniaeth barhaus rhwng y Moabiaid a'r Israeliaid. Prophwyda Esaiah, pen. xv. ac Amos, pen. 1. 13, &c. am ddinystr



Digitized by Google

a difrod ofnadwy i'r Moabiaid, yr hyn a gyflawnwyd trwy freninoedd Assyria a Babilon, ac Uzziah a Jotham, breninoedd Judah. 2 Cron. 26. 7, 8. a 27. 5. Nebuchodonosor, bedair neu bum mlynedd wedi cymeryd Jerusalem, a oresgynodd eu gwlad, ac a'i gwnaeth hi agos yn ddiffaethwch, ac a gariodd ymaith lawer o honynt yn gaethion. 2 Bren. 24. 2. Jer. 48. 9—26. a 25. 21. Ezec. xxv. Seph. 2. 8. Ni buont byth wedi hyn yn genedl gref, ac y mae eu henw wedi ei golli yn mysg cenedloedd y ddaear, er's oesoedd; ond yn unig eu bod yn byw, o ran eu henw, yn ngelynion yr eglwys, sydd dan lywodraeth yr un ysbryd a hwythau, o oes i oes. Ond 'Moab a sethrir tan law yr Arglwydd, fel sathru gwellt mewn tomen.' Esa. 25. 10. a 11. 14. Dan. 11. 41. Yr Arabiaid gwylltion a gyfanneddant y wlad hòno yn bresennol.

MOCH—YN, llwdn hwch, banw, twrch; hefyd buan, cyflym.—Moch-nant, nant buan-red

*Moch* barn pob ehud. *Diar.*

*Moch* dysg nawf mab hwyad. *Diar.*

Y mochyn sydd greadur rhy adnabyddus i fod desgrifiad o hono yn angenrheidiol. Y mae yn yr hâf yn caru ymdreiglo yn y dom, o herwydd rhyw fân bryfed sydd yn ei ysu. Y mae yn ddiog ac yn gysglyd. Nis dichon moch ddyoddef oerfel, ac y maent yn bur anesmwyth mewn gwynt uchel. Yn America y maent yn ddefnyddiol iawn, trwy ddifa y nadrodd rugl-gynffonog (*rattle-snakes*) y rhai yr ymborthant arnynt yn ddiberygl. Yn ynys Minorca y maent yn cyd-ieuo asyn a mochyn i aredig. Y mae moch gwâr i'w cael yn mhob rhan o'r byd, ond yn Kamtskatka, a gwledydd oerion y gogledd, lle y mae yr oerfel yn annyoddefol iddynt. Y mae moch anwar a gwylltion hefyd i'w cael yn y rhan fwyaf o barthau Ewrop, ond yr Ynysoedd Brytanaidd, a'r gwledydd gogleddol; yn Asia, Affric, a'r America Ddeheuol. Y maent yn dra ffrwythlawn, ac yn ddefnyddiol mewn amrywiol ffyrdd. Am fod eu cig yn cymeryd halen yn well nag un cig arall, y maent yn dra defnyddiol, gwedi eu halltu, i fôr-deithiau hirfaith. Y maent yn oreu i'w lladd i ir-gig (*pork*) yn nghylch naw mis oed: ac yn hallt-gig (*bacon*) yn nghylch blwydd a hanner oed. Maent yn ymborth addas ac iachus, ond yn benaf i ddynion a fyddo yn gweithio llawer. Eu tail ydyw y gwrtaith goreu sydd.

Yr oeddynt yn aflan tan gyfraith Moses: ac yr oedd yr Iuddewon yn ffieiddo moch, fel na wnaent gymaint a'u henwi. Yn hytrach na bwyta eu cig, dyoddefodd llawer o'r Iuddewon farwolaeth dan Antiochus Epiphanes; ond yn amser ein Hiachawdwr yr oedd llawer o honynt yn Galilea, a thros ddwy fil o honynt a feddiannwyd gan gythreuliaid, ac a foddwyd yn y môr. Mat. 8. 30—34. Lef. 11. 7. Adrian, yr ymerawdwr Rhufeinig, er diystyrwch ar y grefydd Iuddewig, a barodd roddi llun mochyn uwch porth y deml a adeiladodd ar fynydd Calfaria, yn nghylch triugain mlynedd wedi dinystr Jerusalem.

Y Scythiaid, yr Arabiaid, a'r Aiphtiaid, a'u ffieiddient yn ddirfawr.

Yn yr ysgrythyrau, yn gyffelybiaethol, arwyddant bechaduriaid yn ymhyfrydu, yn ymdroi, ac yn cysgu yn eu pechod, o wir gariad ato, yn diystyru Crist, y perl gwerthfawr, yn erlid saint Duw, o wir gasineb at sancteiddrwydd. Mat. 7. 6. 2 Petr 2. 22.

MODRWY—AU, (mod-rhwy) bodrwy, byson. Y mae modrwyau yn ddefnyddiol, naill ai i grogi peth â hwynt, neu yn addurniadau. Yr oedd modrwyau yn arferedig yn foreu. Judah, Pharaoh, y Midianiaid, a meibion Israel, a wisgent fodrwyau, ac weithiau, gwedi eu naddu yn gywrain. Gen. 38. 18. a 41. 42. Num. 31. 50. Exod. 28. 11. Gwisgent fodrwyau, nid yn unig ar eu bysedd a'u dwylaw, ond hefyd yn eu trwynau. Esa. 3. 21. Tebygol, oddiwrth Gen. 35. 4. eu bod yn rhoddi argraff-lun eu duwiau ar eu modrwyau, a'u bod yn eu gwisgo fel swyn, neu i ryw ddybenion coel-grefyddol. Gwel hefyd, Deut. 7. 25. a 12. 2, 3. Exod. 32. 3, 4. Barn. 8. 24—27. Hos. 2. 13. Y mae Awstin yn ysgrifenu yn llym yn erbyn y cyfryw arferiad coel-grefyddol yn mhlith ei gyd-wladwyr yn Affrica, y rhai oeddynt yn eu gwisgo (medd efe) nid i foddhau dynion, ond cythreuliaid. Aust. *Epist. ad Possidium*, 73.

Byddai breninoedd, a'r swyddogion penaf yn y wladwriaeth, yn selio eu llythyrau a'u hysgrifeniadau â'u modrwyau; neu y sêl fyddai ar eu modrwyau; am hyny y mae modrwy yn arwydd o awdurdod. Fel hyn, pan osododd Pharaoh Joseph yn ben-swyddog ar wlad yr Aipht, tynodd ei fodrwy oddiar ei law, ac a'i rhoddes ar law Joseph. Gen. 41. 42. 1 Bren. 21. 8. Esther 3. 10. Dan. 6. 17.

Bod yn fodrwy ar ddeheulaw Duw, yw bod yn gyfeillgar ac yn anwyl ganddo. Jer. 22. 24. Hag. 2. 23.

'Ei ddwylaw sydd fel modrwyau aur, wedi eu llenwi â beryl.' Can. 5. 14. Edr. BERYL.

Rhoddi modrwy ar law y mab afradlon, a arwydda ei fod yn cael cyflawn dderbyniad yn ol i ffafr ei dad, ac i holl anrhydedd a rhyddid y tŷ a'r teulu; a bod ei ymddangosiad i fod yn addas i'w amgylchiadau, a mawredd ei deulu. Edr. SEL, TLWS.

MODRYB, (mod-rhyb) chwaer tad neu fam; gwraig briod tad. Lef. 18. 14. Y mae hefyd yn arferedig fel enw o barch ac anwyldeb. Bychanigion o hono ydynt boba, boda, bodo.

Ail-fam *modryb* dda. *Diar*

MODD, (my-odd) *Llad.* MODUS, MOS: dull, sud, sut, ffunud, llun, ffordd; eiddo; digon o foddion, sef eiddo neu gyfoeth mawr. Yn y modd hwn, sef yn y dull hwn. Gen. 39. 19. 'Yn y modd y dylesym,' sef yn y ffordd y dylesym. 1 Cron. 15. 13.

'Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith, a llawer modd, gynt wrth y tadau,' &c. Heb. 1. 1. *Gr.* *πολυμερως και πολυτροπως, llawer rhan, a llawer modd*, neu *ddull*. Dadguddiodd ei feddwl yn raddol, ac nid i gyd ar unwaith, i'r tadau: ond yn ei Fab y mae holl gynghor Duw yn cael ei fynegi. Y mae y 'llawer modd,' yn cyfeirio, naill ai at y dull a'r modd y llefarodd Duw wrth y prophwydi; megys trwy freuddwydion, neu weledigaethau angelion, dylanwadau goruwchnaturiol, &c.; neu ynte, at y llawer modd a dull y llefarodd y prophwydi y dadguddiedigaethau a gawsant, wrth y tadau: y diweddaf yn benaf a feddylir, ond yn ganlynol i'r cyntaf. Llefarodd y prophwydi trwy gysgodau, ffugyrau, gweithredoedd rhag-ddangosiadol, ymadroddion diarebol, tywyll, yn gystal ag mewn ymadroddion eglur a goleu. Mewn cyferbyniad i hyn, llefarodd Crist a'i apostolion heb un llèn neu orchudd ymadrodd, yn eglur, yn gwbl oleu, ac yn benodol: traddodasant holl gynghor Duw, a hyny yn y modd mwyaf eglur, âg wyneb agored, heb un gorchudd, fel Moses, ar eu hwynebau. Fel y mae y dadguddiad yn fwy cyflawn, eglur, a gogoneddus, felly y mae y perygl yn cynnyddu o esgeuluso iechydwriaeth sydd yn ymddangos mor fawr yn y dadguddiad hwn o honi. Gwel pen. 2. 3.

MOEL—DER—YN, (maw-el) bryn uchel, gwastad, heb greigiau na choed arno; iadlwm, gwalltgoll, diflew; cyrn-goll, heb gyrn: mesur moel, neu heb fol, mesur â phen arno, neu heb ben arno. Y mae amryw fynyddoedd a elwir wrth yr enw moel; megys Moel Elian, Moel Llwydiarth, Moel y Golomen, &c.

Y mae moelni yn arwyddo galar a chystudd mawr. Esa. 3. 24. a 15. 2. a 22. 12. Jer. 47. 5. a 48. 37. Ezec. 7. 18. a 27. 31. Amos 8. 20. Mic. 1. 16. Gwaherddir i'r offeiriaid, ac i holl Israel, wneuthur moelni

Digitized by Google

ar eu penau, yn ol arfer y cenedloedd, am y marw, ac offeiriaid yr eilunod. Lef. 19. 28. a 21. 5. Deut. 14. 1. Baruch 6. 31, 32.——'Moelyn, moelyn.' 2 Bren. 2. 23. Edr. ELISEUS, GWALLT.

MOES, *verbum anomalum*, Dr D. berf afreolaidd, yn arwyddo dyro, dangos, &c. Ps. 29. 1. a 60. 11.

MOES—AU—OL, (my-oes) arfer, dull, gwedd, gwybod da, hynaws ymadrodd, ac ymarweddiad, ymarweddiad da. Dyn da ei foes, sef dyn o ymarweddiad da.*

*Moes* mab yn ol ei macer. *Diar.*

'Y mae ymddyddanion drwg yn llygru moesau da.' 1 Cor. 15. 33. Cyfeillach ddrwg, ymadroddion llygredig a chyfeillornus, a feddylir. Yr oedd rhai yn Corinth yn ymadroddi yn hyf yn erbyn anfarwoldeb yr enaid, ac yn dadleu yn nghylch yr adgyfodiad, am y dull, y modd, neu y posiblrwydd o hono; yr oedd yn dra pheryglus i ddynion gweiniaid, duwiol, o foesau da (ηθη χρηστα, *moesau llesol, hardd, daionus)* gael eu llygru gan y cyfryw ymresymwyr â'u hymresymiadau; am hyny yr oeddynt i'w gochelyd yn ofalus.

*Am allu ac anallu moesol a naturiol.*—Y mae yn dra angenrheidiol i ddeall y gwahaniaeth rhwng pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt. Y mae y pethau hyn yn gwahaniaethu yn dra phell oddiwrth eu gilydd, ac y mae canlyniadau niweidiol iawn o fod heb ddeall y gwahaniaeth. Wrth anallu naturiol, deallir anallu yn natur y creadur yn ei greadigaeth; anallu i gyflawni dybenion a gwaith na threfnodd Duw ef i'w cyflawni; megys anallu dyn i ehedeg, yr hwn ni fedd adenydd; neu anallu anifel i siarad, yr hwn ni fedd ddawn ymadrodd; anallu hurtyn i gyfrif y sêr; neu anallu post i blygu; neu anallu creadur direswm i ymresymu, credu, caru Duw, &c.; ni chrewyd mo hono i'r dybenion hyny; mae yr anallu hwn yn gwbl ddibechod. Nid yw yn ddim mwy pechod i anifel ei fod heb garu Duw, nag yw mewn careg ei bod heb deimlad, na medru cerdded, neu ehedeg: ni chyfranodd Duw erioed mo'r gallu i'r naill mwy na'r llall, ac ni chrewyd mo honynt i'r dybenion hyny.

Anallu moesol, yw yr anallu i foesau da, sydd mewn angelion a dynion syrthiedig. Er ei fod mewn dynion wrth naturiaeth fel y maent yn dyfod i'r byd yn bechaduriaid llygredig, etto nid ydyw ynddynt o natur, neu o blaniad Duw ynddynt yn eu naturiaeth greadigol. Nid yn nghynneddfau eu naturiaeth y mae eu hanallu, ond yn *llwgr* y cynneddfau. Y mae dyn llygredig yn caru y byd, yn caru melus-chwant, ac yn caru ei bechod; ond y mae yn analluog i garu Duw, oblegid ei elyniaeth yn ei erbyn. Y mae Duw yn deilwng o'i garu; ac y mae yntau tan y rhwymedigaethau mwyaf iddo; ond nid ydyw dyn llygredig yn synied felly am dano. Nid anallu anifel sydd ynddo i garu Duw, yr hwn sydd anallu naturiol, ond anallu y cythraul, sef ei elyniaeth tu ag ato; ac am hyny, y mae yn hollol anesgusodol.

Drachefn, nid oes un anallu naturiol mewn dyn i gredu; canys y mae yn credu dynion, yn credu celwydd, yn credu i'w ddychymygion gwag ei hun: ond y mae anallu moesol ynddo i gredu *Duw,* oblegid ei feddyliau distadl am Dduw. Pe buasai bosibl i Dduw gamsynio, neu iddo ddywedyd celwydd, buasai rhyw esgus iddo am ei anghrediniaeth; ond y mae pob un o'r ddau yn anfeidrol bell oddiwrth Dduw; am hyny y mae pob dyn yn anesgusodol, ac yn hollol euog yn ei anghrediniaeth. Nid oes un anallu naturiol iddo ufuddhau i Dduw; y mae awdurdod Duw yn oruchel; y mae ei holl orchymynion yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda; nid oes dim yn holl gyfraith Duw yn groes neu uwchlaw gallu naturiol dyn i ufuddhau iddynt; ei gyndynrwydd yn unig yw ei anallu, sef am y mŷn fod yn Arglwydd arno ei hun, ac y mŷn ufuddhau i bechod o gariad ato. Pe buasai Duw yn gorchymyn i ddyn redeg can milltir bob Sabboth, neu gario can pwys am ddwy filltir neu dair, buasai anallu naturiol yn y rhan fwyaf i ufuddhau iddo; ond nid oes dim anallu naturiol yn neb i orphwys a sancteiddio y Sabboth, ond anallu moesol yn unig, sef ei gariad at y byd, gwagedd a hyfrydwch cnawdol. Gallasai fod anallu naturiol yn y naill ddyn i ladd y llall, neu ladrata oddiar y llall; ond nid oedd dim ond anallu moesol yn rhwystro i ddynion garu eu gilydd, a bod yn onest. Anallu lleidr i fod yn onest, yw ei anonestrwydd; anallu llofrudd i garu ei gymydog, yw ei elyniaeth tu ag ato; anallu meddwyn i fod yn sobr yw ei flys anghymedrol. Ni *fedrai* brodyr Joseph ymddyddan yn heddychol â Joseph—paham na fedrent? am eu bod yn ei gasâu; yr hyn oedd anallu moesol.—Yn y tri gorchymyn cyntaf, y mae Duw yn peri i ni ei gymeryd ef yn unig Dduw i ni—ei addoli, a gweddio arno, ei barchu, a pheidio mewn un modd ei anmharchu. Pa anallu naturiol sydd yn neb rhyw ddyn i ufuddhau i'r gorchymynion cyfiawn ac esmwyth hyn? A ydyw Duw ddim yn anfeidrol deilwng o'n cariad, ein parch, a'n haddoliad?* A oes neb, na dim, i'w cymharu iddo? Gallwn barchu rhyw beth—ymostwng i ddynion—eu credu—ac erfyn arnynt yn ein hangen: ond paham na allwn garu Duw—ei barchu—ei addoli—a gweddio arno? Nid oes un rheswm paham, ond ein meddyliau anaddas am dano, ein hanghrediniaeth, a'n gelyniaeth yn ei erbyn.

I fod yn fyr, 1. Duw yw awdwr anallu naturiol; ond nid ydyw, mewn un gradd, yn awdwr anallu moesol.——2. Y mae dyn yn hollol ddieuog o ran ei anallu naturiol; ond y mae yn gwbl euog a phechadurus yn ei anallu moesol: ac y mae ei bechadurusrwydd yn cynnyddu yn ol gradd ei anallu: yn ol gradd anallu dyn i garu Duw, a'i gredu, a gweddio arno, ac yntau yn peri iddo weddio arno, ac yn addaw gwrando arno, yw gradd ei bechadurusrwydd.——3. Y mae yn anghyfiawn i Dduw ofyn dim gan ddyn, na fedd allu naturiol i'w gwblhau; ond y mae yn hollol gyfiawn, a buasai yn anghyfiawn iddo beidio, gofyn dyn am beth na fedd allu moesol i'w gwblhau. Y mae yn gyfiawn i Dduw gael ei garu a'i addoli, a byddai yn anghyfiawn i Dduw beidio gofyn hyn gan ddyn, er na fedd allu moesol i'w gyflawni. Os nad ydyw yn gyfiawn i Dduw ofyn gan ddyn yr hyn na fedd allu moesol i'w gyflawni, nid oes y fath beth a phechod yn bod; y mae Duw yn colli ei lywodraeth, y gyfraith yn cael ei hollol ddiddymu, a'r efengyl, yn ganlynol,

---

* A glywaisti a gant Idloes,
Gwr gwar hygar ei einioes;
*Goreu cynneddf cadw moes?*
*Engl. y Clywed.*

* Gellir sylwi hefyd, er ychwaneg o eglurdeb ar y mater, fod *anallu moesol, da, a sanctaidd,* a *drwg ac ansanctaidd.*

*Anallu sanctaidd a da.*

Mae yn *anmhosibl* i Dduw fod yn gelwyddog. Heb. 6. 18. Tit. 1. 2.

Ydwyt lanach dy lygaid nag y *gelli* edrych ar ddrwg, ac *ni elli* edrych ar anwiredd. Hab. 1. 13.

Duw *nis gellir* ei demtio â drygau. Iago 1. 13.

*Nis gall* efe wadu ei hun. 2 Tim. 2. 13.

Pa fodd y *gallaf* wneuthur y mawr-ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw? Gen. 39. 9.

Canys ni *allwn* ni ddim yn erbyn y gwirionedd. 2 Cor. 13. 8.

Myfi a agorais fy ngenau wrth yr Arglwydd, ac *ni allaf* gilio. Barn. 11. 35.

Ni *all* efe bechu, am ei eni ef o Dduw. 1 Ioan 3. 9.

*Anallu ansanctaidd a drwg.*

Wele, eu clust sydd ddienwaededig, ac *ni allant* wrando. Jer. 6. 10.

Pa fodd *y gellwch* chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eich gilydd? Ioan 5. 44.

*Ni ddichon* neb ddyfod ataf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef. Ioan 6. 44.

*Ni ddichon* y byd eich casâu chwi. Ioan 7. 7.

*Ni ellwch* wrando fy ymadrodd i. Ioan 8. 43.

Pa wedd y gellwch lefaru pethau da, a chwi yn ddrwg? Mat. 12. 34.

Y rhai sydd yn y cnawd, *ni allant* ryngu bodd Duw. Rhuf. 8. 8.

Digitized by Google

a'r iechydwriaeth fawr y mae yn ei chyhoeddi, yn gwbl afreidiol.——4. Byddai yn gwbl anghyfiawn i Dduw gospi dyn am ei anallu naturiol, neu am beidio gwneuthur yr hyn ni fedd allu naturiol i'w gwblhau; ond y mae yn berffaith gyfiawn i Dduw gospi dyn am ei anallu moesol, a byddai yn anghyfiawn iddo beidio. Onid ydyw yn gyfiawn i Dduw gospi dyn am ei anallu moesol, yna y mae holl boenau uffern yn anghyfiawn, a holl drefn iechydwriaeth yn drefn anghyfiawn—canys y mae yr anghyfiawnder mwyaf yn nyoddefiadau Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio dros bechaduriaid, i'w hachub oddiwrth yr hyn oedd gyfiawn iddynt ddyoddef. Pell yw hyny oddiwrth y Duw cyfiawn!——5. Y mae Duw yn rhwym, o gyfiawnder, i roddi gallu naturiol i gyflawni yr hyn y mae yn ei orchymyn, ond nid yw mewn un gradd yn rhwym i roddi gallu moesol i neb; ac os rhydd i neb, bydd yn weithred hollol rasol, heb ei haeddu mewn un gradd, na Duw yn ddyledwr i'w rhoddi. Am hyny, o ras y mae pob gradd o allu moesol; gellir yn addas ei alw yn allu *grasol*, o ras y mae yn tarddu, ac y mae yn gwneyd dynion yn rasol ac yn dduwiol. Er ei fod yn foesol yn ei natur, etto y mae yn tarddu yn gwbl o ras Duw, ac yn tueddu dynion yn rasol ac yn sanctaidd.

MOETH—AU—US, (my-oeth) *Saes.* SMOOTH: mwyth, esmwyth, meddal, masw, tyner, destlus; danteithiol, meddfaethol, mursenaidd; rhysethgar; wtresgar, gwleddgar.

Tri moethineb Cristion: darpar Duw; a ellir gan a fo cyfiawn i bawb; ac a allo cariad at bawb eu harfer. *Barddas.*

Y mae yr un gair *Heb.* ענג a gyfleithir *moethus*, yn Deut. 28. 54, 56. yn cael ei gyfleithu *ymddigrifo*, yn Esa. 57. 4.—*ymhyfrydu*, Ps. 37. 11.—*ymhoffi*, Job 22. 26.—Fel enw cadarn, *hyfrydwch*, Diar. 19. 10. Can. 7. 6.—*difyrwch*, Preg. 2. 8.

'Ac a dderbyniant gyflog anghyfiawnder, a hwy yn cyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch.' 2 Petr 2. 13. 'Mal y rrai sy yn cyfri yn lle eiddunet byw mewn gwnfyd tros amser.' W. S. 'Fel y rhai sydd yn cyfrif yn lle gwynfyd gael byw mewn moethe tros amser.' Dr M. '*As they that count it pleasure to riot in the day time.*' *Saes.* Y geiriau την εν ημερα, a arwyddant, weithiau, *yn y dydd*, yn ol y cyfieithiad Saesonaeg; weithiau, *tros amser*, yn ol cyfieithiad W. S. a Dr M.; weithiau, hefyd, *beunyddiol*, (yn lle καθε ημεραν) yn ol ein cyfieithiad awdurdodedig ni. 'Yr ydys yn ein lladd ni ar hyd y dydd,' *ολην την ημεραν, yn feunyddiol*, Rhuf. 8. 36. yn cyfateb i כל היום a gyfieithir *beunydd*, yn Ps. 44. 32. Y mae hwn yn un o nodau gau-athrawon; yr oeddynt yn caru byw yn foethus, yn pesgi y cnawd yn feunyddiol, neu yn ddigywilydd *yn y dydd*. Balchder, cybydd-dod, ac anghymedrolder, ydynt nodau cyffredin gan yr apostol: rhy gyffredin ydynt i'w canfod ar rai a elwir yn athrawon, ac oblegid hyny a fernir wrth y gair yn *gau-athrawon*.

MOLD—IAU—O, (môl) *Ffr.* MOULE; *Saes.* MOULD: cynllun, drychiaden; moldio toes, sef tylino toes.—'Ac efe a'u cymerodd o'u dwylaw, ac a'i lluniodd â chŷn.' Exod. 32. 4. 'A'i lluniodd mewn mold.' Dr M. Yn ol y cyfieithiad Saesonaeg, toddodd Aaron yr aur yn gyntaf, ac a'i rhoddodd mewn mold ar lun llo, ac wedi hyny a'i cerfiodd â chŷn. '*And fashioned it with a graven tool, after he had made it a molten calf.*' Y gair חרט a gyfleithir *mold*, a *chŷn*, sydd yn cael ei gyfleithu *pin*, yn Esa. 8. 1. a arwydda erfyn i ysgrifenu neu gerfio âg ef. Rivetus *in loc.*

'Ac a'i lluniodd mewn mold.' Exod. 32. 4. Dr M. Wedi ysgrifenu y sylwadau dan y gair hwn, dygwyddodd i mi weled cyfieithiad Bochart o'r geiriau, yr hwn, y mae yn ddilys genyf, sydd yn addas ac yn gywir: 'Ac efe a gymerodd (yr aur) o'u dwylaw hwynt, ac a'i rhoddodd mewn côd, ac a wnaeth o hono lo aur.' Y ddau air *Heb.* חרט a יצר sydd yn y lle hwn yn cael eu cyfieithu, *ac a'i lluniodd â chŷn*, a gyfieithir yn 2 Bren. 5. 23. *ac a rwymodd mewn dwy gôd.* Yn cyfateb i gyfieithiad Bochart o'r geiriau, y darlunir gwneuthuriad y delwau gan eilun-addolwyr yn Esa. 46. 6. Gwel Bochart, *Hierozon. lib.* ii. *cap.* 34.

MOLED—AU, (mo-lled) pen-llîan, pen-guwch, pen-wisg; rhyw ddilledyn a wisgai gwragedd gynt i orchuddio y pen a'r ysgwyddau. Esa. 3. 19.—'Napcynau neu foledau.' Act. 19. 12. 'Gwrsie nai napcynae.' W. S. 'Gadachau a chwrsiau.' Dr M. Y gair *Gr.* σιμικινθια, a gyfieithir yn y cyfieithiad awdurdodedig *moledau*, a arwydda *arffedog*, oddiwrth y gair *Llad.* SEMICINETIUM, *hanner cylch*, sef hanner cylch y corph, am fod y dilledyn hwn yn cylchu hanner y corph. Nid yw y gair yn arwyddo un math o ben-wisg. Barna rhai ei fod yn arwyddo *gwregys*, am ei fod yn rhwymo arwisg yn ei hanner, am hanner y corph. Gan fod gwyrthiau yn cael eu gwneuthur trwy bethau mor ddistadl, a dwyn at y cleifion oddiwrth gorph Paul napcynau, neu foledau, yr oedd yn dangos yn amlwg allu dwyfol, ac yn brawf fod Paul yn was i'r Arglwydd, a bod Duw gyd âg ef. Gwel Mintert, Schleusner, Parkhurst. Edr. NAPCYN.—'A'r moledau.' Esa. 3. 19. '*Mufflers,*' *Saes.*, sef gorchudd i'r safn a'r trwyn.—'*Thin veils,*' Dr L., sef gorchuddion teneu.—*Heb.* הרעלות *claer-foglyn*, dalenau teneu o aur neu arian, â pha rai yr addurnai y merched eu hunain; a alwyd felly oblegid eu hysgwydiadau hygryn. Gwel Parkhurst.

MOLEST—U, *Lladin* MOLESTUS; *Saes.* MOLEST: drygu, aflonyddu, gofidio, sarhau, blino, trallodi.—'Ti hefyd wyt un o'r rhai sydd yn fy molestu.' '*Thou art one of them that troubles me.*' *Saes.* Barn. 11. 35. Edr. JEPHTHAH.—'Paam ydd ych yn molesty y wreic?' Mat. 26. 10. W. S.—'A'r ei a volestit gan ysbrytion budron' Luc 6. 18. W. S.—'O hyn allan na volested neb fi;' sef na flined fi. Gal. 6. 17. W. S.

MOLIANT—U. Edr. MAWL.

MOLOCH, (mol-och) cyffro, cythrwfl, mawr-dwrf, mawr-drwst: gwr egnïol foloch; moloch-ddragon.

MOLOCH, MOLECH, MILCOM, MOLCHAM: מלך (*melech*) *brenin*; מלכם (*melcom*) *eu brenin.* Enw un o eilun-dduwiau yr Ammoniaid. Gwaherddir i Israel roddi o'u hâd, sef eu plant 'i fyned trwy dân i Moloch.' Lef. 18. 21. Deut. 18. 10. 2 Bren. 11. 3. Dywedir i Ahaz *losgi* ei blant yn tân. 2 Cron. 28. 3. Dywedir i Manasseh yru ei feibion *trwy* y tân yn nyffryn mab Hinnom. 2 Cron. 33. 6. Ac i Israel wneuthur yr un peth. Jer. 33. 35. Edr. HINNOM. Y gospedigaeth am y puteindra ysprydol hwn oedd marwolaeth. Lef. 20. 5. Y dull o'r weithred ddychrynllyd hon, sydd ansicr: ond tybyga rhai fod dwy ffordd o'i chyflawni; sef trwy eu llosgi i farwolaeth, a thrwy eu tynu rhwng dau dân i'w cysegru i'r eilun. Y mae y gair yn dadgan yn eglur eu bod yn eu *llosgi*; 'I *losgi* eu meibion a'u merched yn tân, yr hyn ni orchymynais, ac ni feddyliodd fy nghalon.' Jer. 7. 31. Y mae yn eglur fod Israel, yn ol siamplau y Canaaneaid, yn aberthu eu meibion a'u merched i gythreuliaid. Ps. 106. 37, 38. Tebygol mai yr un oedd Moloch a Baal. Cymh. 2 Bren. 23. 10. Jer. 19. 5. â Jer. 7. 31. a 32. 35. Un a arwydda *brenin*, a'r llall *arglwydd*; ac mai yr haul a feddylir wrth bob un o'r ddau, yr hwn yw brenin ac arglwydd llu y nefoedd; sef y penaf o honynt, a chanol-bwynt y planedau. Yr haul yw *brenin*, a'r lleuad yw *brenines* y nefoedd.

Dywed y Rabbion, fod yr eilun hwn wedi ei wneyd o efydd, neu bres, yn eistedd ar orsedd o'r un mettel, a choron freninol ar ei ben, a phen llo ganddo, ac a'i

Digitized by Google

freichiau yn estynedig, fel megys i gofleidio un. Yr oedd yn geuol tu fewn, a phan fyddent ar fedr aberthu eu plant iddo, byddent yn ei boethi â thân tu fewn, a phan fyddai yn chwil-boeth, rhoddent yr aberth truenus yn ei freichiau, yr hwn a ddifâwyd yn fuan gan angerdd y tân; a gwnaent sŵn â thabyrddau, &c., rhag clywed cri y trueiniaid a fyddai fel hyn yn cael eu haberthu i gythreuliaid. Dywed eraill fod saith o ddosparthiadau tu fewn i'r eilun, i gynnifer a hyny o aberthau; sef un i beilliaid, arall i ddurturod, arall i oen, arall i hwrdd, arall i llo, ac arall i blentyn. Fe fyddai y rhai hyn yn cael eu llosgi yn nghyd trwy boethi yr eilun oddifewn. Nid oes dim gwybodaeth sicr i'w chael am lun yr eilun, tybygaf, na dull yr addoliad; ond eu bod yn llosgi eu plant yn aberthau iddo, sydd yn ddigon eglur oddiwrth yr ysgrythyrau uchod. Fod y ddefod echryslon hon yn gyffredin yn mysg y cenedloedd Paganaidd, y mae tystiolaethau lliosog a diammheuol. Gwel Rollin's *Ancient History*. Tertullian's *Apology*. *Universal History*. Sonnerat's *Travels*.

Tebygol i'r Israeliaid osod i fynu Moloch yn yr anialwch, er na rydd Moses hanes neillduol o hyny: 'Dygasoch baball eich Moloch.' Amos 5. 26. Act. 7. 43. Edr. REMPHAN. Gwel Vitringa, *Obs. Sacr. lib.* ii. *cap.* 1. Gwnaeth Solomon deml i Moloch ar fynydd yr Olew-wydd. 1 Bren. 11. 7. Edrych SOLOMON, TOPHET.

MOLLT, MYLLT, (moll) mollwyn, myharen, llwdn dafad.

MOMENT, *Llad.* MOMENTUM; *Saes.* MOMENT: mynyd, mynydyn, cythrym, tarawiad amrant; yspaid anrhanadwy o amser. Job 7. 18. a 21. 13. a 34. 20. Esa. 27. 3. 1 Cor. 15. 51.

MONWENT—OEDD, (mon-gwent) bedd, claddfa, beddrod, corphlan.—'Ac ei dodes ef mewn monwent.' Marc 15. 46. W. S.

MONWES. Edr. MYNWES.

MOR—AU, (my-or) dyban, mywionyn.—MOR, *gorair*, pa, pa gyn, cyn, mal:—mor fawr; mor dda. —'Mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw! mor fawr yw eu swm hwynt!' Ps. 139. 17.

MOR—IO—WYR, (mo-or) *Gwydd.* MUIR; *Llad.* MARE: llyr, y weilgi, yr eigion; cefnfôr, cyfyngfôr, dyfnfôr, Môr Heli, Môr Hallt, Môr Tawch (*German Ocean*) Môr Udd (*British Sea*) Môr Werydd (*Atlantic Ocean*) Môr Tawel (*Pacific Ocean*) Môr yr India (*Indian Ocean*) Môr Catai (*Chinese Sea*) Môr y Dwyrain (*Eastern Ocean*). Bernir fod o'n byd ni yn foroedd 160,000,000 o filltiroedd ysgwâr. Y mae amrywiol farnau am yr achos neu yr achosion o halltrwydd a dygyforiad y môr. Am y cyntaf, gellid meddwl fod sorod ac ysgarthion anifeiliaid a llysiau; sylweddau *phosphoric* ac *ammoniacal*; creigiau a gwythïenau o halen yn y môroedd, yn achosion naturiol o halltrwydd eu dyfroedd; a dichon fod achosion naturiol heblaw gwyntoedd, &c., o'u dygyforiad, anadnabyddus i ni; ond achos yr holl ail achosion yw yr achos cyntaf, sef y Creawdwr mawr ei hun.

Gan fod cynnifer o afonydd mawrion yn y byd, a'r rhai hyn oll er's oesoedd yn rhedeg i'r môr, rhaid fod dyfnderoedd mawrion yn y môr i'w derbyn, fel na fyddai iddynt orlenwi; i'r dyben hyny y mae y môroedd gwedi eu cyfleu yn drefnus i'w derbyn, dros wyneb yr holl ddaear. Fel na byddo i'r moroedd hyn lygru, a myned yn llynoedd drewllyd, y mae dyfroedd y moroedd yn llawn halen; yr hyn hefyd sydd yn eu gwneuthur yn drymach i gario llongau mawrion, ac mewn mesur mawr, yn eu cadw rhag rhewi. Ac er bod achosion naturiol o halltrwydd y dyfroedd, fel y crybwyllwyd, nid oes un rheswm paham y mae cymaint o halen yn y môr rhagor dyfroedd eraill, gan fod gwythïenau mawrion o halen yn y ddaear mewn amrywiol wledydd.

Y mae y môroedd yn ddefnyddiol i'r byd: y maent yn amgylchu y ddaear er mwyn ei dyfrhau. Edrych GWLAW. Y maent hefyd yn foddion tra chyfleus o gymdeithas a masnachaeth rhwng trigolion y byd, fel y gallai llawndra rhai gwledydd gyflawni diffygion gwledydd eraill. Y mae gwedi bod, a bydd etto yn fwy yn y dyddiau diweddaf, yn foddion tra hwylus i daenu yr efengyl dros wyneb yr holl ddaear.* Y mae Duw ei hun yn nodi y tywod yn derfyn i'r môr, fel prawf eglur i bawb o'i fawredd anfeidrol. Jer. 5. 21, 22. Y mae y tywod yn beth a wneir gan y môr yn fân, fel y chwythir hwynt ymaith gan wyntoedd a dyfroedd; etto trwy osodiad Duw, y mae yn derfyn, fel muriau cedyrn, i'r môr, trwy ddeddf neu osodiad tragywyddol: 'Er i'r tònau ymgyrchu, etto ni thycia iddynt; ac er iddynt derfysgu, etto ni ddeuant dros hwnw.' Am breswylwyr y moroedd, Edr. PYSG.

Llanw a thrai y môr, sydd un o ryfeddodau naturiaeth, ac etto yn dra buddiol. Y mae trwy hyn yn danfon llongau yn mhell i dir, ac wedi hyny, yn ei amser yn dyfod i'w cyrchu drachefn. Y mae dyfroedd y môr yn rhedeg o'r dehau i'r gogledd dros chwe awr; yn y ffrydiad hwn y mae y môr yn chwyddo yn raddol, ac yn rhedeg i'r aberoedd, ac yn llenwi yr afonydd. Wedi ffrydio fel hyn dros chwe awr, mae yn llonydd am yn nghylch pymtheg mynyd: wedi hyny mae yn dechreu treio, trwy redeg yn ei ol o'r gogledd i'r dehau dros chwe awr drachefn, ac felly y mae ei ddyfroedd yn cilio yn eu hol o'r afonydd. Wedi gorphwys yn nghylch pymtheg mynyd drachefn, y mae yn dechreu dylifo fel o'r blaen: ac felly yn gylchynol. Fel hyn y mae y môr yn llenwi ac yn treio, dros chwe awr ddwy waith bob dydd; ond nid yn yr un oriau: y mae yn llenwi yn ddiweddarach wyth mynyd a deugain bob dydd. Deuddeg awr ac wyth mynyd a deugain yw dydd y lleuad; hyny yw, y mae y lleuad yn myned dros gylch y ddaear 48 o fynydau yn ddiweddarach bob dydd. Y mae cyfatebiad arall rhwng llanw a thrai y môr a'r lleuad; er fod y llanw a'r trai yn gyson, etto nid ydynt yn cyd-raddu; ond y mae y llanw fwyaf pan fyddo y lleuad mewn cyfuniad neu gyferbyniad â'r haul; ac yn lleiaf pan na byddo felly, ond yn bedwar ochriad iddo. Yn ddiweddaf, y llanw sydd uchaf a fyddo yn y newydd loer, ac yn llawn lluned, yn gyhydedd dydd a nos. Y mae y llanw yr un fath dros holl Ewrop, ond ei fod yn llai ac yn ddiweddarach yn y parthau gogleddol.

Y mae yn dra eglur fod y lleuad yn effeithio ar ddyfroedd y moroedd, a bod y llanw a'r trai, mewn rhan fawr, dan ei llywodraeth; ond nid yn gwbl felly, gan fod yr haul hefyd yn effeithio mewn gradd arno; a phan byddo sugn y ddau yn cyd-weithredu, y mae y llanw fwyaf, a phan na byddont, y mae leiaf. Y mae sugn yr haul yn llai oblegid ei bellder oddiwrth y ddaear. Dywed y Dr Horseley, fod effaith y lleuad i eiddo yr haul, megys 50,469 i 1. Newton's *Obs.* Gwel Horseley, *vol.* iii. Maclaurin's *Dissertation de Causa Physica Fluxus & Refluxus.* Moris, *Apud. Phil.* Nat. *Princ. Math.* Y mae y gorlanw uchaf yn nghyhydedd dydd a nos, sef yn Mawrth a Medi; a'r marw-ddwfr (*neap tide*) isaf yn ngorsafiad yr haul haf a gauaf, sef hir-ddydd haf a byr-ddydd gauaf, yn Mehefin a Rhagfyr: am hyny y mae y gwahaniaeth rhwng y gorlif a'r marw-ddwfr (*spring and neap tide*) yn llai o lawer yn ngorsafiad yr haul nag yn nghyhydedd dydd a nos. Am fod y ddaear yn nes i'r haul y gauaf na'r haf, mae y gorlanw yn uwch yn y gauaf nag yn yr haf.

* O foroedd ac o fynydd,
Ac o eigion afonydd.
Y daw Duw a da i ddedwydd. *Taliesin.*

Digitized by Google

Yr Iuddewon, yr Arabiaid, ac eraill, a roddent yr enw *môr* ar holl gasgliadau mawrion o ddyfroedd; megys llynoedd ac afonydd mawrion. Llyn Genesaret, sydd yn nghylch tair ar ddeg o filltiroedd o hŷd, a phump o led, a elwir Môr Tiberias, Môr Galilea, Llyn Gennesaret, Cinneroth. Ffurfir ef gan afon yr Iorddonen sydd yn rhedeg iddo ac o hono. Y mae Môr Tiberias yn hynod am bereidd-dra, oerder, a rhagoroldeb ei ddyfroedd, llïosogrwydd ac amrywiaeth y pysgod rhagorol sydd ynddo. Yn y môr hwn yr oedd Petr, Andreas, Iago, ac Ioan, yn pysgota. Mat. 4. 18. Ioan 6. 1.

Môr Jazer sydd lyn bychan yn agos i ddinas fechan o'r enw, ac yn agos i ben afon Arnon. Jer. 48. 32.

Llyn Asphar, neu Asphaltites, sydd, medd Josephus, ddeuddeg a thriugain o filltiroedd o hŷd, a phedair ar bymtheg o led; ond teithwyr diweddar a'i gwnant ond pedair ar hugain o hŷd, a chwech neu saith o led.* Y mae ar y pen deheuol i'r Iorddonen. Y mae yr Iorddonen, Arnon, a Chedron, heblaw aberoedd eraill, yn rhedeg iddo, heb un mynediad gweledig allan o hono. Gelwir y llyn hwn Môr Sodom, am ei fod yn gorchuddio y gwastadedd lle yr oedd Sodom, Gomorrah, &c., yn sefyll arno cyn i Dduw eu dystrywio; neu yr oedd y dinasoedd hyny, yn ol barn Reland, yn sefyll yn gyfagos i'r Môr Marw. Gelwir ef Môr Heli, am fod y dyfroedd yn heilltion i radd anarferol; ïe, yn chwerwon hefyd, medd Galen, *lib.* iv. *De Simpl. Medic.* Facult., *cap.* 19. Y mae y dyfroedd yn llawn o ronynau halen, a hefyd math o byglöyn gludiog, a elwir *bitumen.* Gelwir ef Môr Marw, er nad ydyw yr enw hwn yn yr ysgrythyrau, am nas dichon pysgod fyw ynddo, ac os trwy ddamwain y dygir pysgod gan ddyfroedd yr afonydd sydd yn rhedeg iddo, byddant feirw yn fuan, a nofiant ar y wyneb. Y mae iachâu y dyfroedd hyn gan yr afon a welodd Ezeciel yn weledigaethol, yn gosod allan effeithiau iachusol pregethiad yr efengyl ar bechaduriaid. Edr. AFON. Dywed awdwr llyfr Doethineb, (pen. 10. 7.) fod y tir oddi amgylch iddo, yn 'ddiffeithdir myglyd, a'r palmwydd yn ffrwytho heb addfedu byth.' Tebygol fod y tarth sydd yn codi o'r dyfroedd hyn, yn effeithio ar y planwydd mewn rhai manau. Y mae y *bitumen* i'w gael yn dalpiau mawrion yn nofio ar wyneb y dyfroedd, ac a yrir i'r lan mewn ystormydd; yr Arabiaid a'i casglant, ac a'i defnyddiant at bob peth y defnyddir pyg iddo. Defnyddiai yr Aiphtiaid a chenedloedd eraill ef mewn cyffeiriau, ac i bêr-arogli cyrph meirwon. Y mae math o faen du llosgadwy yn cael ei daflu i fynu o'r dyfroedd hyn, a elwir maen Moses gan rai, yr hwn a lysg yn dân a'i ddal mewn canwyll, ac a rydd fwg anmheraidd iawn: ond cyfnewid ei liw yn wyn, ac er lleihau ei bwysau wrth ei losgi, etto nid ydyw ei faintioli yn lleihau. Barna y Dr Pococke, mai haen o'r maen hwn dan y dyfroedd, yw rhan o'r tanwydd sydd yn porthi y tân dan y ddaear, ac sydd yn peri i'r *bitumen* ferwi allan o honi. *Univer. Hist.*, *vol.* ii. Y mae yr hanesion a rydd teithwyr diweddar, megys y Dr Pococke ac eraill, yn amrywio yn fawr oddiwrth hanesion Pliny ac eraill o'r hynafiaid. Nid yw yn wir yn bresennol na sodda dim yn y dyfroedd, ac nas dichon i adar ehedeg drosto, heb eu mygu gan darth y dyfroedd. Bu yr awdwr uchod ac eraill yn ymsoddi ac yn nofio ynddynt; a gwelsant adar yn ehedeg dros y llyn. Hwyrach er yr hen oesoedd fod gradd o'r halen, yr alwm, a'r mygfaen, cymysgedig â'r dyfroedd, wedi lleihau, a'u bod yn bresennol yn fwy croyw ac yn bereiddiach nag yn y dyddiau gynt. Nis gwn am un rheswm arall i'w roddi am anghytundeb yr hanesion.

Y mae yr un anghytundeb hefyd yn eu hanesion am afalau Sodom, a'r dyfroedd yn newid eu lliw dair gwaith yn y dydd; sef yn ddu yn y boreu, yn wyrdd hanner dydd, ac yn felyn yn yr hwyr; nid oes un arwydd o'r cyfryw gyfnewidiadau i'w canfod yn bresennol. Josephus, *Bell. Jud. lib.* v. *c.* 5. Tacitus, *Hist. l.* 5. 18. O du y dwyrain a'r gorllewin iddi, mae mynyddoedd mawrion, a chreigiau serth dychrynllyd; o du y gogledd a'r dehau y mae gwastadedd.

'O'r tu hwnt i'r môr o Syria,' (2 Cron. 20. 2.) sef tu hwnt i'r môr hwn. Nid Syria Damascus a feddylir, ond gwledydd Moab ac Ammon, a elwir Syria mewn ystyr helaeth. Menochius.—Gelwir ef Môr y Dwyrain, mewn cyferbyniad i Fôr y Canoldir, yr hwn oedd yn y gorllewin. Joel 2. 20. Ezec. 47. 8. Zech. 14. 8.—Môr y Rhos, oblegid y rhosydd oddi amgylch iddo. 2 Bren. 14. 25. Deut. 3. 17.

Môr y Canoldir, y môr sydd rhwng Asia, Affrica, ac Ewrop, ac oedd terfyn gorllewinol gwlad Canaan. Y mae yn nghylch 3000 o filltiroedd o hŷd. Yn y môr hwn y cychwynodd Jonah, ac y bu Paul yn morio ar ei daith i Rufain. Gelwir hwn y Môr Mawr, oblegid ei fod felly mewn cymhariaeth i lynoedd Genesaret, Ashpaltites, &c. Ezec. 47. 9, 10.——Môr eithaf, Môr y Dwyrain: *Hinder Sea; Hinder and former Sea, Saes.* sef y Mor Marw a'r Canoldir; Môr y Philistiaid. Deut. 11. 24. Joel 2. 20. Zech. 14. 8. Yr oedd gwlad y Philistiaid ar lân y môr hwn, am hyny gelwir ef môr y Philistiaid.

Gelwir hefyd afonydd mawrion yn Fôr, megys y Tigris, Euphrates, Nilus, &c. Esa. 21. 1. a 18. 2. Ezec. 32. 2. 'Mi a ddyhybyddaf ei môr hi,' sef yr afon Euphrates, yr hon sydd yn rhedeg trwy Babilon. Jer. 51. 36. Edr. BABILON.

Y Môr Coch sydd gainc o fôr mawr India, yn myned i mewn 1200 o filltiroedd rhwng Asia ac Affrica, ac Arabia ar ei gyffin yn Asia, ac Ethiopia a'r Aipht yn Affrica. Geilw yr Hebreaid ef ים סוף (*yam suph*) *y môr chwynog,* oblegid, meddant, y llïosogrwydd o chwyn neu frwyn sydd tyfu ar ei lanau: ond y mae Mr Bruce yn gwadu fod brwyn yn tyfu ar lanau y môr hwn, o ben bwy gilydd iddo, canys gwelodd ef i gyd. *Travels, vol.* i.—*Gr.* Ερυθρα Θαλασσα; *Llad.* MARE RUBRUM; *Saes.* RED SEA, *Môr Coch.* Nid ydyw lliw y môr hwn, medd Niebuhr (*Descrip. de Arabie*) ddim yn fwy coch na moroedd eraill. Dywed Artimidorus a Strabo, fod yr olwg arno yn hytrach yn *wyrdd* neu *las,* oddiwrth y môr-chwyn, a'r mwswgl yn tyfu yn ynddo; tebyg i 'faes yn dwyn gwellt-glas yn y ffrwd chwyrn.' Doeth. Sol. 19. 7. Cafodd yr enw *coch* oddiwrth Edom neu Esau, hiliogaeth pa un a gyfanneddasant y glanau gogleddol iddo: am hyny galwyd ef y môr ים אדום *Môr Edom.* Y Groegiaid, yn derbyn yr enw hwn oddiwrth y Phœniciaid, yn anaddas a'i galwasant Ερυθρα Θαλασσα, y *Môr Coch,* yn cam ddeall אדום *coch* yn enw priodol y môr, ac nid yn berthynol i'r wlad ar ei gyffiniau. Dywed Mela a Pliny, medd Fuller, i'r môr hwn gael ei enw oddiwrth frenin a elwid Erythras, yr hwn oedd Esau, neu rai o'i hiliogaeth. Rhoddwyd yr enw hwn iddo, medd Curtius, oddiwrth ryw frenin Erythras, ac nid oddiwrth liw y dwfr.* Bod gwlad Edom yn cyrhaedd hyd y Môr Coch, sydd eglur oddiwrth 1 Bren. 9. 26. 2 Cron. 8. 17. Yr oedd Ezion-Gaber ac Eloth ar fin y môr, ac yn ngwlad Edom. Holltodd Duw ddyfroedd y môr hwn yn wyrthiol i Israel fyned trwodd, a boddodd Pharaoh a'i lu ynddo. Edr. MOSES.

Y mae yn gwbl eglur nad y Môr Coch, rhwng Asia

* Ymddengys, oddiar fesuriad diweddarach, fod llyn Asphaltites tua deugain milltir o hŷd, a naw neu ddeg milltir o led. Gwel Robinson's *Biblical Researches.*—C.

* Curtius, *lib.* viii. *cap.* 20. Gwel Parkhurst, *Heb. and Gr. Lex.* Prideaux, *Connection, vol.* i. *Universal History, vol.* xviii. Shaw's *Travels.* Well's *Sacred Geography, vol.* ii. Fuller's *Miscel. Sacr. lib.* iv. *cap.* 20.

Digitized by Google

ac Affrica, a feddylir yn Num. 21. 14. Deut. 1. 1. Nid yw y gair môr yn Hebraeg yn y diweddaf, ond yn unig סוף *suph;* am hyny, tebygol mai lle o'r enw hwn oedd efe yn ngwlad Moab. והב בסופה *faheb besaphe,* yn Num. *Vaheb, mewn corwynt.* Ainsworth *in loc.* Tebygol mai enw lle yn ngwlad Moab; gan fod Moses yn sicr yn rhosydd Moab yn llefaru wrth holl Israel, wrth yr Iorddonen.

'Ac efe a esyd babell ei lys rhwng y moroedd,' sef yn ngwlad Judea, rhwng y Môr Marw a Môr y Canoldir. Dan. 11. 45. Am gyflawniad y brophwydoliaeth, y mae yn anhawdd penderfynu etto; ac y mae esponwyr diweddar o'r farn, nad Antiochus Epiphanes, fel y meddyliodd rhai gynt, a feddylir wrth yr hwn a osododd ei lys yno, ond rhyw elyn creulon i'r eglwys yn y dyddiau diweddaf.

Y Môr Tawdd, neu y Môr Pres. Yn y babell a wnaeth Moses nid oedd ond un noe o bres i'r offeiriaid i ymolchi, ac i olchi yr offrymau hefyd. Ond yn y deml yr oedd llestr mawr, a elwir Môr Tawdd (*cerwyn dawdd,* Dr M.) a deg noe o bres iddynt ymolchi. Yr oedd hyn yn angenrheidiol, gan fod nifer yr offeiriaid, y Lefiaid, a'r aberthau, wedi lliosogi yn ddirfawr yn ngwasanaeth y deml. Yr oedd llun deuddeg o ychain dan y môr; tri yn edrych bob ffordd; yn cysgodi, medd rhai, y deuddeg apostol, neu weinidogion yr efengyl, yn gryfion ac yn llafurus i ddwyn yr efengyl i bob pwnc o'r byd; yr hon sydd yn dadguddio ffynon i bechod ac aflendid. Yr oedd y llestr hwn yn ddirfawr o faintioli, o waith cywrain, ac yn cynnwys tair mil o fathau, sef yn nghylch 450 o fyddiau (*hogsheads*) yn cynnwys 63 galwyn bob un; er na roddid ynddo yn gyffredinol ond yn nghylch dwy fil o fathau. Dywedir ei fod yn cynnwys dwy fil o fathau, 1 Bren. 7. 23, &c ond yn 2 Cron. 4. 5. dywedir ei fod yn cynnwys tair mil o fathau. I gysoni hyn, barna rhai mai y môr a'i holl berthynasau oedd yn cynnwys tair mil, sef y llestr crwn mawr (*bason*) yn ngwaelod y môr—y golofn geuol ar ba un yr oedd yn sefyll—a'r ychain ceuol. Yr oedd dwselau (*cocks*) tebygol, yn ngwaelod y golofn, ac yn nhraed yr ychain, i ollwng y dwfr yn ol yr achos am dano: heb y cyfleusderau hyn, anhawdd dirnad pa fodd y caent y dwfr o'r môr, pan ystyrir fod y môr ei hun yn nghylch tair llath o uchder, a'r ychain, ysgatfydd, yn ddwy llath ychwaneg; y cwbl yn bum llath. Bernir fod y llestr crwn mawr (*bason*) yn y gwaelod lle yr oedd yr ychain yn sefyll, yn 20 cufydd o dryfesur. Gwel Eupolemus. Pe byddai yn llawn, cynnwysai fil o fathau, neu yn nghylch wyth mil o alwyni. Dyben y môr oedd i'r offeiriaid a'r Lefiaid i ymolchi ynddo; yr oedd yn ofynol fod y llestr hwn, o ran cyfleusdra, yn helaeth o gwmpas, ac etto yn lled fas,, fel y gallai llawer ymolchi ynddo ar unwaith. Edr. ABERTH, GOLCHI, NOE.

'Baich anialwch y môr.' Esa. 21. 1. Wrth 'anialwch y môr,' deallir Babilon. Yr oedd y wlad oddi amgylch Babilon, yn enwedig rhyngddi a'r môr, yn wastadedd ëang, corsog, yn fynych yn cael ei gorlifo gan yr afonydd mawrion, Tigris a'r Euphrates. Yr oedd yn drigiannol yn unig trwy ei sychu â dyfr-ffosydd mawrion. Pan drodd Cyrus, wrth gymeryd Babilon, ddyfroedd yr Euphrates o'i dyfrle, goddefwyd iddynt orlifo dros yr holl wlad oddi amgylch; ni chymerwyd y drafferth byth i feddyginiaethu hyn; o herwydd hyny y mae yr holl wlad yn ddiffeithwch corsog ac anghyfannedd hyd heddyw. Gwel Lowth, Vitringa. Edr. DWFR.

'Am droi atat liosogrwydd y môr;' sef preswylwyr ynysoedd y môr, yn Asia, Ewrop, a pharthau eraill y byd, yn cael eu dychwelyd at yr Arglwydd trwy yr efengyl, ac yn cysegru eu cyfoeth, eu golud, a'u marchnadaeth iddo. Esa. 60. 5. Diammeu hefyd y daw y rhai a ddisgynant 'mewn llongau i'r môr, gan wneuthur eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion,' sef yr holl bethau sydd yn y môr, yn gyffredinol, i adnabod yr Arglwydd, ac i foli Duw ar Oen. Dat. 5. 13.

MORDECAI מרדכי [*drylliad chwerw*] mab Jair, mab Simei, mab Cis, o lwyth Benjamin. Dygwyd ef o Jerusalem gyd â'r gaethglud a gaethgludasid gyda Jeconiah brenin Judah i Babilon. Neu yn hytrach yr oedd ef ac Esther o hiliogaeth y rhai a gaethgludasid y pryd hwnw. Mae amseryddiaeth breninoedd Babilon yn gofyn i ni farnu felly. Ni allasai Esther fod yn llances ieuanc yn amser Ahasferus, os dygwyd hi yno yn *bersonol* gyda Jeconiah: yn hytrach, dygwyd Mordecai a hithau yno yn eu hynafiaid, gyda Jeconiah. Ymddengys oddiwrth ei hanes yn llyfr Esther, ei fod yn ŵr enwog am ei ffyddlondeb, ei sefyllfa yn y wladwriaeth, ei gallineb, ei dduwioldeb, a'i ffydd yn yr Arglwydd. Edr. ESTHER, HAMAN.

MORDWY—ON, (mor-twy) mordaith; terfysg y môr, ymchwydd y môr. '(Pe) cynhyrfe y mynyddoedd gan ei fordwy ef.' Dr M. Ps. 46. 3.

MORDDWYD—YDD, (mordd-gwyd) bon clun. Asgwrn y forddwyd yw y mwyaf a'r cryfaf yn yr holl gorph, ac y mae ei gymaliad yn cyfateb i'w faintioli a'i gryfder. Y pen uchaf iddo sydd yn myned i mewn i geudwll yn yr asgwrn, a elwir *Ischium,* addas i'w dderbyn, a chydir y ddau â rhwymau cryfion. Y pen isaf a gymalir â'r *Tibia,* sef asgwrn y goes yn y glin. Y mae cryn gamiad yn yr asgwrn hwn; y crwm yn mlaen, a'r ceuol yn ol. Y mae y camiad hwn yn dra defnyddiol at gynnaliaeth y corph, yn attegiad rhag iddo bwyso gormod yn mlaen. Mewn toriad o'r asgwrn hwn, dylai y meddygon ochelyd ymgais ei osod yn uniawn, yr hyn sydd yn erbyn natur; os bydd yn uniawn, bydd heb ei osod yn addas. Gan fod cymalau yr asgwrn hwn wedi eu cydio â rhwymau cryfion, nid yn aml y dadgymalir hwynt, neu y rhoddir hwynt o'u lle. Cymerwyd dadgymaliad cymal y glun, yn aml, yn lle toriad yn ngwddf yr asgwrn, yr hyn sydd gamsyniad niweidiol tu ag at iawn driniaeth o hono.

Rhoddi llaw dan forddwyd un, oedd un ddefod gynt o dyngu gan y patrieirch, yn arwydd, medd Ainsworth, o'u crediniaeth yn yr hâd addawedig, a ddeuai o'u llwynau, neu *forddwyd. Heb.* Gen. 46. 26.——'Taro y forddwyd,' oedd arwydd o dristwch mawr. Ezec. 21. 12.

'Ac y mae ganddo ar ei wisg, ac ar ei forddwyd, enw wedi ei ysgrifenu,' &c. Dat. 19. 16. Yr oedd yn arferiad yn y gwledydd dwyreiniol i roddi enwau gwyr ar eu gwisgoedd. Y wisg yma oedd wisg freninol; ac ar y rhan hyny o honi ag oedd yn gorchuddio y forddwyd, a'r lle yr oedd y cleddyf yn hongian wrth y glun yr oedd yr enw wedi ei ysgrifenu: Y mae yr enw yma yn ardderchog, ac y mae ef yn ateb iddo; sef BRENIN BRENINOEDD, ac ARGLWYDD ARGLWYDDI:—y maent oll yn ddarostyngedig iddo, ac y mae efe yn ben ac yn Arglwydd arnynt oll, ac yn eu trefnu fel y myno. Geill gyd âg anfeidrol mwy priodoldeb na brenin Babilon, ddywedyd, 'Onid yw fy nhywysogion i gyd yn freninoedd?' neu yn hytrach *Onid fy nhywysogion i yw yr holl freninoedd?* Esa. 10. 8. Yr oedd yr enw ar freninoedd Persia, ac eraill, yn ffolineb ac yn wag ynfydrwydd; ond y mae yn gwbl addas a gweddus ar yr Arglwydd Iesu. Y geiriau a arwyddant, y bydd amlygiad eglur cyhoeddus ei fod ef felly, cyn diwedd amser: bydd ei enw yn ei arwisg, yn amlwg i bawb i'w weled.

'Gosod, attolwg, dy law dan fy morddwyd,' &c. Gen. 24. 2. Y mae amrywiol feddyliau yn nghylch dechreuad ac ystyr y ddefod hon o dyngu gan y patrieirch. Heblaw yr ystyr a roddais dan y gair hwn o'r blaen, sef eu bod yn addef trwy hyny eu crediniaeth yn yr hâd addawedig a ddeuai allan o'u llwynau, neu *morddwyd,* yn ol yr Hebraeg, y mae y sylwad canlynol yn y ddau Dargwm, y Caldea a'r Jerusalem.

Digitized by Google

Gan ei fod yn ymddangos i mi heb fod yn gwbl ddisail, os nid yn gywir hollol, ac yn wirionedd diammheuol, rhoddaf ef yma: ‘Er yr amser y gwnaeth Duw gyfammod âg Abraham, ac y gorchymynodd yr enwaediad fel *arwydd* ac *insel* o hono, y patrieirch a dyngent wrth y cyfammod, ac i gadarnhau y llŵ, rhoddent eu llaw ar insel y cyfammod; hyn a elwir yn wylaidd yn yr ysgrythyrau, *rhoddi llaw dan forddwyd.*—‘*Dod dy law yn awr ar doriad fy enwaediad,*’ meddent. Gwel *Targwm Jerusalem.*

MORESETH-GATH, dinas yn ngwlad y Philistiaid. Mic. 1. 14.

MOR-FARCH—FEIRCH, (môr-march) morfil.—‘A Duw a greodd y mor-feirch mawrion.’ Gen. 1. 21. Y mae yr un gair *Heb.* תנינם yn cael ei gyfieithu *dreigiau*, Deut. 32. 33. Galar. 4. 3. Ps. 74. 13. a 148. 7. Esa. 27. 1. a 51. 9.—*morfil*, Job 7. 12.—*sarph*, Exod. 4. 3. a 7. 9, 10, 12. Gwreiddyn y gair a arwydda *llais galarus*, *wylofus*, ac yn cael ei briodoli i seirph, dreigiau, morfilod, oblegid y sŵn cwynfanus, truan-leisiol a wnant. Y geiriau yn Genesis a arwyddant bob math o angenfilod y moroedd, morfilod, y lefiathan, crocodile afon yr Aipht, yr hwn sydd o'r rhyw sarphaidd. Gwaith Duw ydyw y rhai hyn, ac ydynt yn dangos ei fawredd, ac amrywiaeth ei ddoethineb. Edr. DRAIG, SARPH.

MORFIL, (mor-mil) Edr. JONAH, MOR-FARCH.

MORGRUG—YN, (mor-crug) *Llad.* MYRMEX; *Gwydd.* MOIRB: môr, mywionyn, grugionyn. Y mae pump rhyw o'r morgrug yn y wlad hon. 1. Y twmpath forgrug.—2. Morgrug muchudd (*jet ants*).—3. Morgrug cochion.—4. Morgrug melyn.—5. A'r duon. Gwahanieithir hwynt wrth eu lliwiau a'u maintioli; y twmpath forgrug ydyw y mwyaf. Nid ydyw yr amrywiol rywiau byth yn cymdeithasu â'u gilydd; ymgais o'r fath fyddai yn farwolaeth yn y fan. Pe byddai i un o'r morgrug cochion fyned i dwmpath y rhai duon, byddai yn rhyfel yn y fan, ac ni pheidient â'r ymladdfa nes lladd y gormeswr; ac wedi ei ladd, taflent ei gelain allan dros ymyl y twmpath. Pe rhoddid un o'r duon yn nhwmpath y rhai cochion, ffoai am ei fywyd yn ddiattreg. Y mae yn y twmpath wahanol ystafelloedd, a mynediad addas o'r naill i'r llall. Y maent yn dra gofalus i gadw eu hystafelloedd yn lân ac yn sych. Dywed Pliny, fod morgrug ei wlad ef yn claddu eu meirw; ond ni chafwyd hysbysrwydd o hyny am ein morgrug ni. Y mae i bob trefedigaeth forgrugen fawr, a elwir, er gwahaniaethu, y *frenines*; gweithwyr ydyw y lleill i gyd. Heblaw y rhai hyn, y mae morgrug âg adenydd iddynt yn perthyn i bob trefedigaeth. Y frenines ydyw eu mam hwynt oll, ac fe'i gwahanieithir oddiwrth y lleill wrth ei lliw, ei maintioli, a'r parch cyffredin a ddangosir iddi. Gwedi iddi ddodwy ei hwyau, gâd hwynt i ofal y gweithwyr llafurus. Y mae yn dodwy tri math o wyau, sef y gwrryw, y fanyw, a'r ganolryw: y ddau gyntaf yn y gwanwyn, a'r llall yn Gorphenaf ac Awst. Y mae tair brenines weithiau i'w canfod yn mhlith y trefedigion melynion; ac yn mhlith y cochion, anaml y mae llai na dwy. Y maent yn dra gofalus am yr ieuainc; yn ddiwyd ac yn llafurus nos a dydd, yn casglu eu lluniaeth yr haf erbyn y gauaf; o herwydd hyny y mae Solomon yn anfon y diogyn atynt i ddysgu diwydrwydd a darbodiad. Diar. 6. 6. a 30. 25.

Dywedir eu bod yn tòri ymaith ddau ben y grawn wrth eu dodi yn eu trysordai, rhag iddynt dyfu, a'u bod yn eu sychu yn yr haul; hyn yw ystyr eu henw *Heb.* נמלה *tociwr.* Parkhurst.

MOR-GYMMLAWDD, (mor-cymmlawdd) ystormwedd, gormad y môr, ymchwydd y môr.—‘Gwedy cyvodi morgymladd ddirvawr arnam.’ W. S. Act. 27. 18. ‘Garw-fôr tymhestlog Dr M.

MORIAH, מוריה [*chwerwder yr Arglwydd**] bryn o du y gogledd-ddwyrain o Jerusalem, ac a olygir, weithiau, fel rhan o fynydd Sion. Ar ben hwn y bwriadodd Abraham aberthu ei fab; yma yr oedd llawrdyrnu Arafna; ac ar ben Moriah yr adeiladwyd y deml. 2 Cron. 3. 1. Yr oedd yr holl le oddi amgylch Jerusalem yn cael ei alw gynt gwlad Moriah. Gen. 22. 2. Yr oedd gwastadedd Moreh yn lle hollol wahanol, ac yn sefyll rhwng mynyddoedd Gerizim ac Ebal, lle yr oedd dinas Sichem yn sefyll. Gen. 12. 6. Deut. 11. 29, 30. Bryn Moreh oedd, hwyrach, un o benau mynydd Gilboa. Barn. 7. 1.

MORTER—AU, *Llad.* MORTARIUM; *Ffr.* MORTIER; *Saes.* MORTAR: llestr ceuol i bwyo peth ynddo. Edr. MANNA.—‘Pwyo y ffol mewn morter, yw ei gospi yn drwm am ei ffolineb. Diar. 27. 22.

MORTAIS, (mor-tais) *Saes.* MORTISE: rhwyll, ceudwll i'r tyno fyned iddo. *Heb.* ארן *y llywodraethwr*; yr un sydd yn llywodraethu gosodiad yr esdyll. Exod. 26. 19. a 36. 22, 24. a manau eraill yn aml. Edr. ASDELL.

MORTHWYL. Edr. MWRTHWYL.

MOR-WENNOL—IAID, (môr-gwennol) aderyn aflan dan y gyfraith; Lef. 11. 13. עזניה Yr eryr du, medd Bochart, a elwir felly oddiwrth ei gryfder mewn cymhariaeth i'w faintioli: ond Bates a farna mai y barcutan cwynfanus a feddylir. Dywedir fod y fath aderyn cwynfanus yn Sussex, a ellir ei glywed pan fyddo yn uchel yn yr awyr. Pa aderyn bynag a feddylir medd Parkhurst, cafodd ei enw oddiwrth עז *cryf*, a ניה *cwynfanus.*

MORWYN—ION—IG, (mor-gwyn) *Llad.* VIRGO: merch, llances, herlodes, gwasanaethyddes, gwasanaeth-ferch: llaw-forwyn, morwyn ystafell. Edr. GWYRYF, GWASANAETH-FERCH, IESU, LLAWFORWYN, MAIR, MERCH.

‘Yna tebyg fydd teyrnas nefoedd i ddeg o forwynion,’ &c. Mat. 25. 1. Llefara yr Arglwydd Iesu y ddammeg hon i ddangos yr angenrheidrwydd o wyliadwriaeth ddyfal, barhaus. Amgylchiadau y ddammeg a gymerir oddiwrth ddefodau priodasol yn mhlith yr Iuddewon. Yr oedd y priod-fab yn arferol o fyned yn yr hwyr i gyrchu y briodas-ferch i'w dŷ ei hun, o dŷ ei thad, wrth oleu lampau: morwynion a ddygai y lampau hyn, a dim llai na deg o honynt, meddant: pan ddoent i'w dŷ, yr oedd gwledd yn barod iddynt hwy a'u cyfeillion. Crist ydyw priod-fab yr eglwys: proffeswyr yr efengyl yw cyfeillesau y briodas-ferch, sydd yn dysgwyl am ei ddyfodiad: amser eu bywyd yn y byd yw amser eu dysgwyliad am dano. Pan ddelo, ni bydd pawb yn barod, a hyny yn gwbl o'u hesgeulusdra eu hunain. Fel yr oedd dwyn lampau heb olew yn y llestri i'w cadw yn oleu, yn ffolineb; ffolach ydyw i neb ymfoddloni ar broffes allanol, heb waith tufewnol yr Ysbryd Glân ar eu heneidiau. Yr oeddynt yn nghymdeithas y rhai call—â lampau ganddynt—yn myned i gyfarfod â'r priod-fab—ac etto heb olew yn eu llestri: hepiasant a hunasant, ac ni welsant eu camsyniad nes daeth y priod-fab. Y mae yn eglur, oddiwrth y ddammeg hon, fod rhagor sylweddol rhwng y credadyn gwanaf a'r gau-broffeswr mwyaf ymddangosiadol: yr oedd gan y morwynion call olew, er iddynt hepian a huno; ond ni feddai y rhai ffol ddim, ac yr oedd eu lampau yn diffoddi. Esa. 48. 1. Ezec. 33. 31. 2 Tim. 3. 5. Heb. 12. 15. Dat. 3. 1—16. Ps. 45. 7. Zech. 4. 2, 3. Ioan 1.

* Neu yn hytrach, arwydda ראה *raugh*, *gweled*, neu *arwyddfa*, lle amlwg, gweledig. Tardda Fuller y gair oddiwrth ddau air Hebraeg, מראה *moraugh*, gweledigaeth, a יה *Iah*, Duw; a thrwy dalfyriad, *Moriah*, am weled Duw arno. Fuller's *Miscel. Sacr. lib.* ii. *cap.* 14.

Digitized by Google

15, 16. a 3. 34. Rhuf. 8. 9. 2 Cor. 1. 22. Gal. 5. 22, 23. 1 Ioan. 2. 20—27. Judas 19.

MORWYNDOD, (morwyn) gwyryfdod, diweirdeb, lleianaeth, oedran geneth. Lef. 21. 13. Deut. 22. 14—21. Ezec. 23. 8.

MOSA, מוצא [*bara croyw*] y mae dau o'r enw. 1 Cron. 2. 46. a 8. 36, 37.

MOSEROTH, neu MOSERAH, מסרה [*dysgeidiaeth*] hwyrach, medd Calmet, yr un a Haseroth, neu Haserah. Gwersyllfa meibion Israel yn yr anialwch, yn agos i Cades, a mynydd Hor. Num. 33. 30, 31. Deut. 10. 6.

MOSES, משה [*un a dynwyd allan o'r dyfroedd*] brawd Aaron a Miriam, a iau na'r ddau. Ganwyd ef A. M. 2433. Rhoddwyd yr enw Moses arno ar yr achlysur o'i dynu allan o'r dwfr gan ferch Pharaoh. Yr oedd ei rieni o berchen ffydd; ac er bod gorchymyn brenin yr Aipht i ladd holl blant gwrrywaidd yr Hebreaid, pan welsant ei fod yn fachgen tlws, hwy a'i cuddiasant ef dri mis, heb ofni llid y brenin. Heb. 11. 23. A phan na allai ei fam ei guddio yn hwy, cymerodd gawell o lafrwyn, ac a osododd y bachgen ynddo, ac a'i rhoddodd yn mysg yr hesg ar fin yr afon. Pan ddaeth merch Pharaoh i'r afon i ymolchi, hi a'i canfu, ac a anfonodd ei morwyn i'w gyrchu. Tosturiodd wrtho, ac a benderfynodd, yn gwybod mai un o blant yr Hebreaid oedd, ei ddwyn i fynu yn fab iddi ei hun. Yr oedd Miriam yn nghylch deg neu ddeuddeg oed, yn sefyll gerllaw yn ei wylied; gofynodd i ferch Pharaoh genad i alw mammaeth o'r Hebrëesau; hi a gafodd, ac a alwodd Jochebed ei fam ei hun. Pan aeth y bachgen yn fawr, hi a'i dug ef at ferch Pharaoh, ac efe a fu iddi yn fab. Yn lle olrhain holl hanes Moses, yr hwn a roddir i ni yn gyflawn yn yr ysgrythyrau, rhoddaf ychydig sylwadau mewn perthynas iddo yn ol yr hanes a roddir i ni am dano.

1. Yr oedd yn *hardd* o ran ei berson a'i agwedd gorphorol. 'Efe oedd dlws i Dduw,' neu *αστειος τω Θεω*, *tlws gan Dduw*, neu *dlws iawn*. Exod. 2. 2. Act. 7. 20. Heb. 11. 23. Yr oedd Duw wedi rhoddi arno harddwch neillduol ac anghyffredin. Dywed Josephus am ei harddwch pan oedd yn dair oed, pan ddygid ef oddi amgylch, rhedai dynion oddiwrth eu goruchwylion i edrych arno. Dywed hefyd, y galwai merch Pharaoh ef *παιδα ηορφην Θειον*, *plentyn o agwedd ddwyfol*.* Sylwir yn neillduol fod golwg ar y wedd anghyffredin oedd ar y plentyn, yn foddion i genedlu ffydd yn ei rieni mewn perthynas iddo; sef ei fod wedi ei fwriadu gan Dduw i ryw waith arbenig yn y byd, ac am hyny y cuddiasent ef. Effeithiodd yr un achos, hefyd, ar ferch Pharaoh i'w gymeryd ati, a'i ddwyn i fynu yn fab iddi ei hun. Rhodd Duw ydyw harddwch a phrydferthwch gwedd dynion, ac fel ei holl ddoniau eraill, sydd yn cael ei roddi i ddybenion sanctaidd, er fod y cnawd a Satan yn ei ddefnyddio i ddybenion gwrthwyneb a halogedig. Y mae manylrwydd rhagluniaeth Duw i'w ganfod yn neillduol yn achubiaeth bywyd Moses, a dull ei ddygiad i fynu. Peth rhyfedd i'w rieni feddwl am ei roddi mewn cawell o lafrwyn, ei roddi wrth yr afon, yr oedd y meddwl hwn o'r eiddynt oddiwrth yr Arglwydd. Rhyfedd i ferch Pharaoh, ac nid rhyw un arall, ddyfod allan yr amser hwnw—iddi fyned at y fan lle yr oedd y dyn bach—iddi dosturio wrtho—bwriadu ei ddwyn i fynu yn fab iddi ei hun, ac yntau yn un o'r Hebreaid—a'i fam ei hun gael ei fagu: mae y fath gyd-gyfarfodiad yma o ddygwyddiadau damweiniol, megys ag sydd yn eglur ddangos llaw Duw yn y cwbl. Wele yma dywysoges yr Aipht yn llaw Duw, yn groes i ewyllys a gorchymyn ei thad, yn cymeryd plentyn un o'r rhai tlotaf a diystyraf yn yr holl wlad, ag oedd wrth orchymyn y brenin wedi ei farnu i farwolaeth, iddi ei fagu a'i ddwyn i fynu yn blentyn iddi ei hun!—Ni buasai neb ond hi yn anturio anufuddhau gorchymyn y brenin: ond cafodd hi y fraint o ddwyn i fynu waredwr Israel, yn offerynol, a dinystriwr holl nerth y gorthrymwr. Ni bydd byth eisiau moddion ar y Duw mawr i gyflawni ei amcanion dyfnion a gogoneddus. Exod. ii.

2. 'Pan aeth y bachgen yn fawr, ei fam a'i dyg ef i ferch Pharaoh, ac efe a aeth iddi yn fab.' Gwedi hyny cafodd ddygiad tywysogaidd i fynu yn llys Pharaoh; ac yr 'oedd yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aipht.' Act. 7. 22. Yr Aipht, yr amser hwnw, oedd eisteddfod dysgeidiaeth y byd; a diammeu ei fod dan hyfforddiadau yr athrawon mwyaf enwog yn y wlad hòno, i'w addasu i lenwi ei le yn ei sefyllfa oruchel, fel brenin, mewn amser ar yr holl wlad; ond yr oedd Duw trwy y pethau hyn i gyd yn ei ragbarotôi i sefyllfa a gorchwyl mwy anrhydeddus, a llawer mwy defnyddiol i'r eglwys, ac i'r byd hyd ddiwedd amser. Diammeu i'w rieni ei addysgu yn yr iaith Hebraeg, ac yn y grefydd Iuddewig, a holl amgylchiadau eu caethiwed, tra yr oedd gyda hwynt yn ei ieuenctid. Pa effaith a gafodd eu haddysgiadau arno, nis gwyddom. Yr oedd ei sefyllfa yn llys Pharaoh yn dra anfanteisiol i grefydd a duwioldeb. Ond 'pan oedd yn llawn deugain mlwydd oed, daeth i'w galon ymweled â'i frodyr, plant yr Israel.' Gwrthododd yr anrhydedd yn nglŷn wrth fod yn fab merch Pharaoh, dewisodd Crist a'i ddirmyg, o flaen holl anrhydedd a holl drysorau yr Aipht: cymerodd o'i wirfodd ei ran gyda phobl Dduw, yn eu dirmyg a'u hadfyd, lle gallasai fod yn esmwyth, yn gyfoethog, ac yn anrhydeddus. Ffydd yn addewidion Duw a'i dygodd yn fuddugoliaethus at Dduw a'i achos, yn groes i bob ystyriaeth bydol, cnawdol, a rhesymau dynol. Nid hwyrach iddo gael rhyw grybwylliad oddiwrth Dduw ei fod gwedi ei arfaethu i fod yn waredwr i Israel. Dywed Stephan, iddo 'dybied fod ei frodyr yn deall, fod Duw yn rhoddi iechydwriaeth iddynt trwy ei law.' Ond nid oedd gwedi ei awdurdodi yn gyflawn i'r gwaith mawr hwn yn bresennol, fel y deallodd yn well yn ol llaw. Yr amser hwn, pan welodd un o'i frodyr yn cael cam gan un o'r Aiphtiaid, dialodd y cam trwy ladd yr Aiphtiad, ac a'i cuddiodd yn y tywod. Beth oedd amgylchiadau yr achos hwn, i gyfiawnhau y weithred hon o drawsder, ni hysbysir i ni: tebygol fod achos digonol yn galw am dani. Hwyrach fod ei fywyd ei hun mewn perygl, yn gystal a'r Israeliad: neu ei fod yn gweithredu yn danllyd, dan awdurdod a dylanwad dwyfol. Tebygol i hyn gadarnhau ei obaith ryw ddydd o fod yn waredwr i Israel o'u caethiwed caled, a dial ar yr Aiphtiaid am eu creulonder. Dranoeth canfu ddau Hebrëwr yn ymryson: trewynodd rhyngddynt, ymresymodd â'r hwn oedd yn gwneuthur cam â'i frawd. Yntau a'i hatebodd yn sarug, ac a ddannododd iddo ladd yr Aiphtiwr. Ar hyn Moses a ofnodd, gan fod y peth yn hysbys. Nid heb achos yr ofnodd; canys pan glybu Pharaoh, ceisiodd ladd Moses. Pan ddangosodd Moses ei fod yn cydnabod ei frodyr, ac yn bleidiwr iddynt yn erbyn yr Aiphtiaid, cododd erlidigaeth

* O'i enedigaeth yr oedd hawddgarwch mawr yn perthyn iddo, nid trwy weithrediad natur, ond trwy ddawn Duw, yr hwn a gynhyrfodd y wraig Aiphtaidd hono, sef merch Pharaoh, i'w hoffi, ei gymeryd, a'i fagu. Rhagluniaeth neillduol Duw yn ddiau oedd yma, yn cadw ac yn parotoi Moses i waredu pobl Israel; ac i'r achos hwn y priodolir prydferthwch allanol ei wedd. Heb. 11. 23. I ffydd rhieni Moses y cyfrifir, yn mhlith pethau eraill, iddynt ei weled yn 'fachgen tlws,' ac o ganlyniad ei guddio. Gan hyny, i Dduw, yn gweithredu yn oruwch-naturiol, ac yn cynnyrchu y ffydd hono, y dylid priodoli hawddgarwch gwedd Moses. Glassius, *lib.* iii, *tract.* 1. Can. 7. 3.

Y mae yr hanesydd Paganaidd, Justin, yn sylwi ar brydferthwch gwedd corphorol Moses. *Lib.* xxxvi. *cap.* 2.



Digitized by Google

yn fuan yn ei erbyn: ond credu â'r galon, a chyffesu â'r genau, yw gwir grefydd yn mhob oes, beth bynag fyddo y canlyniad. Llywodraethodd Duw yr holl ddygwyddiadau hyn, er bod rhai o honynt, sef creulondeb Pharaoh, yn eithaf pechadurus, i ateb ei ddybenion mawrion ei hun.

3. Ar hyn ffodd Moses i wlad Midian. Bu yno ddeugain mlynedd, yn bugeilio defaid Jethro, offeiriad Midian, yr hwn a roddodd Sephorah ei ferch yn wraig iddo, a ganwyd iddo o honi ddau o feibion, sef Gersom ac Eliezer. Edr. **Eliezer, Gersom, Jethro, Midian, Sephorah.** Yr oedd ei amgylchiadau a'i sefyllfa yn ngwlad Midian yn gyfnewidiad mawr iddo, rhagor oedd ei sefyllfa yn llŷs Pharaoh. Ymddangosodd rhagluniaeth Duw yn dirion o'i blaid mewn gwlad estronol, ac a'i rhoddodd ef mewn cyfathrach â'r teulu mwyaf yn y wlad hòno. Yr ydoedd ei alwedigaeth fel bugail yn iselhad iddo, ond yr ydoedd yn rhoddi iddo lawer o hamdden, rhagor llys Pharaoh, i fyfyrdod a gweddïau. Diddyfnodd Duw ef oddiwrth y byd, a'i fwyniant, ei olud, ei barch, &c. Yr oedd ei ddygiad dysgedig a thywysogaidd i fynu yn llŷs Pharaoh yn angenrheidiol i'w addasu i'r gwaith mawr ydoedd gan Dduw ar ei fedr; ond diammeu fod ei bererindod yn ngwlad Midian mor angenrheidiol. Plygodd Duw feddwl Moses at ei amgylchiadau; 'a bu *foddlawn* i drigo gyd â'r gwr;' ac ymostyngodd yn ewyllysgar i'r alwedigaeth lafurus o fugail. Yn Midian, yn yr alwedigaeth lafurus o fugail, yr addaswyd ef i'r gyfeillach agos â Duw a gafodd yn ol llaw, ac i'r holl bwyll a'r llarieidd-dra a ddangosodd efe yn ei holl ymdriniaeth â phobl Israel.

4. Yn ngwlad Midian ymddangosodd yr Arglwydd mewn modd neillduol iddo, mewn fflam dân o ganol perth ar fynydd Horeb; yr oedd y berth yn llosgi yn dân, ac etto heb ei difa. Edr. **Angel, Horeb, Esgid, Iehofah, Perth, Tan.** Y mae yn cael ei anfon gan yr Arglwydd â chenadwri at Pharaoh mewn perthynas i ollyngdod Israel o'u caethiwed yn ei wlad. Deugain mlynedd yn ol, safodd Moses i fynu yn wrol, fel dialydd Israel, hwyrach, gyda gradd o ryfyg, ac hunan-ymddibyniad, er gyd â'r dyben cywiraf; ond yn Midian dysgodd fwy o adnabyddiaeth o Dduw, ac o hono ei hun; am hyny, tan gyflawn argyhoeddiad o'i annheilyngdod a'i annigonolrwydd, y mae efe yn tynu yn ol, ac yn gwrthddadleu yn erbyn y swydd, a'i anfoniad gan Dduw. Yn y gwrthddadliad hwn, y mae gostyngeiddrwydd gwirioneddol Moses yn ymddangos yn eglur, ond nid heb radd o anghrediniaeth ac anymddiried pechadurus yn yr Arglwydd yn gymysgedig âg ef. Fel hyn mae ein zel ni yn aml yn gymysgedig â rhuthredd a balchder, a'n haddfwynder âg ofnogrwydd, llyfrder, a diegnioldeb. Y mae yr Arglwydd yn dirion yn ymostwng at wendid ei was, ac yn symud y naill wrthddadl ar ol y llall gyd âg amynedd mawr, gan ddywedyd, 'Dïau y byddaf gyda thi.' Edr. **Aaron, Safndrwm.**

5. Er ei ddigalondid, y mae Moses yn gorfod plygu a myned at Pharaoh. Ni chafodd ond achos cynnydd i'w ddigalondid oddiwrth ei frodyr, a phob gwrthwynebiad oddiwrth Pharaoh. Darllenwch yr hanes rhyfedd fel y mae gwedi ei roddi i lawr yn Exodus, pen. v. Aeth y ddau frawd tlawd, sef Moses ac Aaron, dros Dduw, â chenadwri anhyfryd ac annerbyniol iawn, at Pharaoh, yr ymerawdwr mwyaf yn y byd y dyddiau hyny. Heb fyned i fanylrwydd yma yn nghylch gwyrthiau yr Aipht, gan y deuant i mewn dan eiriau eraill, nis gallaf lai na sefyll ac edrych ar yr ymrysonfa fawr hon rhwng gwendid a chryfder, o ran yr offerynau: rhwng caethion Duw, a gormeswr cadarn y diafol. Yr oedd yr ymrysonfa, nid rhwng y pleidiau hyny yn unig, ond rhwng y ddwy deyrnas gadarnaf a helaethaf mewn bod; sef teyrnas y tywyllwch ac eglwys Dduw. Y mae yr ymrysonfa hon gwedi bod, ac yn bod, yn mhob oes er y cwymp yn Eden; ac ar mai yr eglwys sydd yn fuddugoliaethus yn ddifeth, er cymaint yw llid, gelyniaeth, a grym y diafol, fel na rydd yr ymryson i fynu, nes ei garcharu yn uffern dros byth yn y dydd diweddaf. Y mae Moses yn yr holl ymdrech a'r ymrysonfa yn ymddangos gyda mawredd a gweddeidd-dra addas i was Duw y nefoedd. Yn ddiysgog, fel y gweddai iddo, yn ei fater, yn ddigyffro yn ei ddull, yn llariaidd ac yn dirion yn ei holl ymddygiad, yn gweddïo dros ei wrthwynebwr yn ei gyfyngder a'i galedfyd: y mae yn galw ar yr arch-deyrn, yn nghanol ei rwysg a'i fawredd, yn enw Duw y nefoedd i ymostwng iddo, ac ar ei waith yn pallu, ar ysgydwad ei wïalen y mae y pläau mwyaf dychrynllyd a dinystriol yn dyfod yn y fan. Y mae yr holl greaduriaid yma isod wrth ei awdurdod, i fyned a dyfod wrth ei air, neu darawiad ei wïalen; y mae y nefoedd yn agored, ac yn caniatau yn y fan yr hyn a ofynai; ac felly yr oedd Duw yn gwirio ei air o fod yn 'ddiau gyd âg ef.' Y mae Pharaoh yntau, yn y gwrthwyneb, yn dangos pechadur gwedi caledu yn yr ymladdfa â'r Arglwydd, er cael profion rhyfedd o'i ddwyfoldeb, ei allu, ei ddaioni, a'i drugarogrwydd. Ymgaledodd yn erbyn Duw i hollol ddystryw ei deyrnas, ac i'w gwbl ddinystr ei hun a'i holl luoedd yn y diwedd. Y mae gwaith Moses, gwr Duw, yn gweddïo dros Pharaoh wrthryfelgar a'i bobl, pan ydoedd y pläau arnynt, a Duw yn gwrando arno drachefn a thrachefn, yn rhoddi y dystiolaeth fwyaf eglur o effeithioldeb gweddi, parodrwydd Duw i wrando gweddi, hyd yn nod dros ei elynion. Yn y siampl hon, fel yr holl rai eraill yn yr ysgrythyrau, y mae Duw yn ymddangos yr hyn ydyw yn wirioneddol, sef yn alluog, yn hwyrfrydig i ddig, parod i drugarhau, ond yn sicr o ddarostwng ei holl elynion ryw ffordd neu gilydd. Y mae Duw yn ymddangos yn yr holl hanes yn anfeidrol bell oddiwrth fod yn awdwr pechod; a bod pechod a dinystr dyn, pob dyn, yn gwbl o hono ei hun. Peth rhyfedd na fuasai Pharaoh yn cael rhyw ffordd i'w ryddhau ei hun oddiwrth y ddau frawd, trwy eu lladd, eu carcharu, neu ryw ffordd arall; ond ni feiddiai ddim cyffwrdd â hwynt; yr oeddynt yn ddiogel yn nghadwraeth Duw. Y mae bugail Midian, a Duw gyd âg ef, yn trechu holl alluoedd y genedl ryfelgar a'i brenin chwyddedig, yn nghanol ei holl fawredd a'i anrhydedd; y mae Moses yn ymddangos yn y cwbl yr un gwr llariaidd gostyngedig, heb briodoli dim yn y mesur lleiaf iddo ei hun. Ni chlybuwyd am neb etto gwedi ei anrhydeddu gymaint gan Dduw a Moses, 'Yn mhob rhyw arwyddion a rhyfeddodau, y rhai yr anfonodd yr Arglwydd ef i'w gwneuthur yn nhir yr Aipht, ar Pharaoh, ac ar ei holl weision, ac ar ei holl dir ef.' Deut. 34. 11.

Yr oedd gwyrthiau Moses yn yr Aipht yn amlwg ac yn deimladwy i'r holl wlad i gyd, heb ddim twyll, na dichellion dirgelaidd, yn y cyflawniad o honynt: yr ydoedd y cyfryw fawredd ynddynt, yn mhell uwchlaw trefn naturiaeth, a gweithrediadau achosion naturiol, fel y bu gorfod ar y swynwyr ddywedyd, 'Bys (neu allu) Duw yw hyn.' Exod. 8. 19. Yr oeddynt yn brawf diammheuol i'r Israeliaid a'r Aiphtiaid fod Moses o anfoniad Duw, ac o ddwyfoldeb ei holl osodiadau a'i drefniadau yn yr eglwys. Yr oedd hyn yn dra angenrheidiol, sef bod dwyfol anfoniad Moses yn gwbl eglur tu hwnt i bob dadl, gan ei fod ef yn offerynol yn llaw Duw i ddwyn i mewn i'r eglwys oruchwyliaeth newydd, a defodau aneirif, rhagor dim a fu yn yr eglwys o'r blaen. I gadarnhau hyn yn y modd amlycaf, yr oedd holl weinidogaeth Moses dros ddeugain mlynedd yn llawn gwyrthiau, a'r rhai hyny yn amlwg i'r holl gynnulleidfa, ac i'r holl fyd.

6. Gwedi dinystrio, agos, holl wlad yr Aipht â phläau ofnadwy, Pharaoh o hyd yn ymgaledu, gwedi cadw y pasc yn ol gorchymyn Duw, y mae Moses yn

Digitized by Google

ei fwgwth â'r ymweliad diweddaf: yn ganlynol, tarawodd Duw bob cyntaf-anedig, gobaith a chysur pob teulu yn yr holl deyrnas. Y dychryn, y cyfyngder, a'r trallod a barwyd trwy hyn, nis dichon i mi ei ddarlunio: 'Yr oedd gwaeddi mawr yn yr Aipht: oblegid nid oedd dŷ a'r nad ydoedd un marw ynddo.' Barna Usher i'r holl bläau hyn gael eu dwyn ar yr Aipht yn yspaid un mis o amser; er bod eraill wedi barnu yr amser yn ddeg, a rhai yn ddeuddeg mis. Tebygol fod barn Usher yn agos i'r gwir, os golygir y rhesymau a rydd am hyny. Usher's *Annals*. *Sub.* A. M. 2513. Y brenin balch a ddyddelwyd, er nas darostyngwyd ef. Gyd â'r prysurdeb mwyaf liw nos, yn methu aros iddi fyned yn ddydd, y brenin a'i weision a fuont daerion arnynt, gan eu gyru ar ffrwst o'r wlad, i fyned a gwasanaethu yr Arglwydd, yn ol eu dymuniad. Cymerodd yr Israeliaid eu holl feddiannau, y toes, cyn ei lefeinio, yn eu dillad, ar eu hysgwyddau, ac aethant allan o dŷ eu caethiwed. Benthyciasant gan yr Aiphtiaid dlysau arian a thlysau aur, a gwisgoedd. 'Rhoddodd yr Arglwydd i'r bobl hawddgarwch yn ngolwg yr Aiphtiaid, fel yr echwynasant iddynt.' Edr. Benthyg. 'Nos yw hon i'w chadw i'r Arglwydd, ar yr hon y dygwyd hwynt allan o wlad yr Aipht: nos yr Arglwydd yw hon, i holl feibion Israel i'w chadw trwy eu hoesoedd.' Exod. 12. 42. Yr oedd hwn yn ddygwyddiad rhyfedd iawn! Nid oes dim cyffelyb iddo yn holl hanesion y byd! Chwe chan mil o wyr, heblaw gwragedd a phlant, a phobl gymysg (hwyrach Aiphtiaid) i gyd yn nghylch 3,000,000, yn cael eu harwain allan o ganol cenedl, nid trwy nerth, ac nid trwy lu, ond trwy allu ac amddiffyniad Duw yn unig! Y mae y weithred ryfedd hon yn cael cyfeirio ati yn aml yn yr ysgrythyrau, fel prawf o allu a daioni Duw tu ag at ei bobl, ac yn llenwi caniadau y duwiolion yn barhaus â mawl iddo.

Fel yr oedd pläau yr Aipht yn arddangosiadol, ac yn gysgodol o farnau Duw ar holl elynion ei bobl yn mhob oes, ar deyrnas y bwystfil ac Anghrist, ac ar holl deyrnas y tywyllwch yma ar y ddaear; felly hefyd yr oedd gwaredigaeth Israel yn arddangosiadol o waredigaethau yr eglwys yn mhob oes; o'r prynedigaeth, yr achos haeddiannol o bob gwaredigaeth; o waredìad pechaduriaid o feddiant y tywyllwch, trwy bregethiad yr efengyl, a diangfa dragywyddol ei bobl o law pob gelyn. Fel arweinydd a phen-tywysog mawr y bobl, yr oedd Moses yn gysgod arbenig o Grist, Tywysog mawr ein hiechydwriaeth.

7. 'Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aipht, heb ofni llid y brenin: canys efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig.' Heb. 11. 27. Y mae y geiriau yn cyfeirio, nid at ymadawiad cyntaf Moses i wlad Midian, canys ffôdd yno rhag ofn llid y brenin, ond at ei ymadawiad diweddaf o ŵydd Pharaoh. Pharaoh a ddywedodd wrtho, 'Dos oddi wrthyf, gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy: oblegid y dydd y gwelych fy wyneb y byddi farw.' Atebodd Moses, 'heb ofni llid y brenin,' yr hwn oedd yn bwgwth ei fywyd, 'Uniawn y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy.' Dywedodd hefyd, 'A'th holl weision hyn a ddeuant i waered ataf fi, ac a ymgrymant i mi. Felly efe a aeth allan oddiwrth Pharaoh mewn digllonedd llidiog.' Exod. 10. 28, 29. a 11. 8. Yr oedd yma ddangosiad o ffydd ac egni ysbrydol yn y graddau mwyaf. Yr oedd yn sefyll o flaen gormes-deyrn creulon, wedi ei arfogi â holl allu yr Aipht, yn ei fwgwth â marwolaeth ddiattreg, os na pheidiai â'r gwaith a'r ddyledswydd y galwodd Duw ef i gyflawni: ond yr oedd mor bell oddiwrth ofni llid y brenin, a'i ddychrynu oddiwrth ei waith, fel y cyhoeddodd ddinystr y brenin, yn llawn eiddigedd duwiol, o herwydd ei wrthryfel yn erbyn Duw, a thros awdurdod a gogoniant Duw, yr hwn a ddiystyrodd Pharaoh. O'r blaen, ofnodd lid y brenin, ac a ffôdd, oblegid iddo ymyraeth â'r gwaith, heb fod ganddo sicrwydd digonol o'i alwad iddo y pryd hwnw, yn sylfaen i'w ffydd i weithredu arni: ni wna ffydd ddim heb air Duw i'w gwarantu; ac ni saif gwroldeb naturiol mewn amser o brofiad caled: ond yn awr, yn sicr o'i alwad gan Dduw, y mae gan ffydd waranred, ac y mae yntau yn hyf fel llew, trwy allu ffydd yn gweithredu ar addewid a gorchymyn Duw. 'Efe a ymwrolodd,' εκαρτερησε, 'cyfryw ydoedd y emynedd ef.' W. S. *Ymgryfhaodd, ymnerthodd, ymwrolodd*, 'fel un yn gweled yr anweledig,' sef Duw. Yr oedd iddo lawer o anhawsderau yn ei waith mawr, oddiwrth anghrediniaeth y bobl, llid y brenin, &c. Ond trwy ffydd, fe ymwrolodd i lynu wrtho nes llwyddo yn gyflawn. Y mae y gair yn dra addas yn gosod allan yr anhawsderau mawr o'i flaen, ac agwedd meddwl Moses yn y gwaith yr amser hwn: dyrchafodd Duw ef uwchlaw pob ofn trwy ffydd ynddo ef ei hun. Er ei fod yn anweledig i lygad y cnawd, etto yr oedd yn weledig i lygad ffydd, yn ei fawredd gogoneddus.

8. Am amser y waredigaeth fawr hon, dywedir mai yn mhen 430 o flynyddoedd y dygwyd hwynt allan. Exod. 12. 41. Cyfrifir yr amser, yn gyffredinol, y bu Israel yn yr Aipht, yn nghylch 215 o flynyddoedd. Rhaid dechreu cyfrif yr amser uchod o'r pryd y galwyd Abraham, neu y rhoddwyd yr addewid iddo. Mewn perthynas i'r 400 mlynedd y sonir am danynt yn Gen. 15. 13., ac yn Act. 7. 6., gan eu bod yn diweddu yr un amser a'r 430 mlynedd, rhaid eu bod yn dechreu 30 mlynedd ar ol y cyfrif uchod. Bernir mai o'r amser y diddyfnwyd Isaac y dylid eu cyfrif, pan oedd yn bump oed. Bedford's *Chronology*. Erlidiodd Ismael Isaac y pryd hwnw, pan wnaeth Abraham wledd fawr; yr oedd hyn yn ddechreuad o'r cystudd yr oedd hâd Abraham i'w ddyoddef, dros 400 mlynedd, oddiwrth yr amrywiol genedloedd; oddiwrth Esau, Laban, ond yn benaf oddiwrth yr Aiphtiaid. Nodir hyn gan Moses, fel un prawf o ffyddlondeb manwl Duw yn cyflawni ei air i'w bobl.

9. Y mae yn amlwg, oddiwrth deithiau meibion Jacob, nad oedd y daith o'r Aipht i Ganaan ond gwaith ychydig ddyddiau. Ond yr Arglwydd oedd eu harweinydd, a Moses yn unig yn was iddo yn y gorchwyl. 'Ni arweiniodd yr Arglwydd hwynt y ffordd agosaf, trwy wlad y Philistiaid; ond Duw a'u harweiniodd hwynt, i ddybenion doeth, trwy anialwch y Môr Coch.' Yn yr ysbryd y daethant allan, yr oeddynt yn gwbl anaddas i ryfeloedd â'r Philistiaid, a'r Canaaneaid, fel y dangosasant yn ol llaw. Rhaid marweiddio a lladd hen ysbryd yr Aipht ynddynt; ac i'r dyben hwn buont yn brofedig, a than amrywiaeth dysgyblaeth gan Dduw, dros ddeugain mlynedd yn yr anialwch. O herwydd ei drugaredd y gwaredodd hwynt, y dystrywiodd eu gelynion, ac y tywysodd hwynt i'r anialwch a thrwyddo. Ps. 136. 10—16. Yr oedd dysgyblaeth yr anialwch i'w haddasu i Ganaan, mor angenrheidiol a'u gwaredigaeth o'r Aipht i'w dwyn yno. Yn eu mynediad allan, dywedir eu bod yn arfogion, ac heb un llesg yn eu llwythau. Exod. 13. 18. Ps. 105. 37. Yr oedd hyn yn beth tra rhyfedd, heb ddim yn cyfateb iddo yn holl hanesiaeth y byd: ond yr oedd yn dra angenrheidiol yn eu hamgylchiadau presennol, yn llwythog ddigon, heb rai llesg i ofalu am danynt, a chwanegu at eu beichiau. Yr oedd hyn hefyd yn gwneuthur y fuddugoliaeth ar Pharaoh yn fwy cyflawn; gan nad oedd raid gadael un o'r genedl ar ol. Fel hyn, yn dirion ac yn ddoeth, y mae Duw yn addasu y naill amgylchiad i'r llall, fel y byddo achosion ei bobl yn galw.

10. Yn lle myned â hwynt dros gyfyng-dir Suez, sydd rhwng Asia ac Affrica, arweiniodd yr Arglwydd hwynt mewn cwmwl niwl y dydd, a cholofn dân y nos, yn fwy i'r dehau at lan y Môr Coch. Edr. Cwmwl.

Digitized by Google

Ymlidiodd Pharaoh a'i holl luoedd ar eu hol hwynt, a goddiweddodd hwynt wrth y môr, mewn amgylchiad, yn ol ei feddwl, i gael buddugoliaeth gyflawn arnynt. O bob tu iddynt, bernir fod mynyddoedd uchel, y môr o'u blaen, a Pharaoh ar eu hol, a'i holl fyddinoedd yn medru trin arfau. Ffoi nis gallasent; gwrthwynebu y fath lu fuasai yn wallgofrwydd ynddynt; gan hyny nid oedd i'w ddysgwyl ond dinystr buan a chyflawn. Y bobl yn y cyfyngder a duchanasant yn erbyn Moses; gwaeddodd Moses ar yr Arglwydd; parodd yr Arglwydd iddo estyn ei wialen ar y môr; holltodd Duw y dyfroedd: meibion Israel a aethant trwy y môr ar dir sych; ymlidiodd Pharaoh ar eu hol i ganol y môr; ymchwelodd y dyfroedd arnynt; a boddwyd Pharaoh a'i holl luoedd, ac ni adawyd cymaint ag *un* o honynt. Yn y weithred ryfedd hon, y mae mawredd, gallu, tiriondeb, a chyflawnder Duw yn dysgleirio yn ogoneddus; a Moses gwas yr Arglwydd yn ymddangos yn y cwbl yn ardderchog mewn ffydd, gwroldeb, amynedd, a llarieidd-dra. 'Trwy ffydd yr aethant trwy y Môr Coch, megys ar hyd dir sych: yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.' Heb. 11. 29. Edr. Bedyddio, Ceulo, Cwmwl. Yr oedd yn rhaid i'r dyfroedd wahanu lawer o filltiroedd, i'r fath dyrfa liosog fyned trwodd; yr oedd y môr, yn y fan yr aethant trwyddo, o ddeuddeg i ugain milltir o led; yr oedd gwaelod y môr gwedi ei sadio, yn gwbl addas iddynt fyned trwyddo o ddechreu-nos erbyn y wyliadwriaeth foreu; yr oedd Pharaoh a'i holl luoedd yn nghanol y môr, erbyn bod Israel yr ochr draw: fel hyn, trwy allu Duw, y diangodd holl Israel, ac y boddwyd yr holl Aiphtiaid. Y mae ffydd ac ufudd-dod Moses yn y cyfyngder hwn i'w canfod yn dra amlwg. Nid oedd dim ganddo ef, ac eraill o'r gynulleidfa o berchen ffydd, ond gair ac addewid Duw am eu bywyd, mwy na'r Aiphtiaid. Y mae gair yr Arglwydd yn ddigon o sail i ffydd yn mhob cyfyngder. Ni ddichon fod un sail gadarnach; ac ni waradwyddir neb a ymddiriedo ynddo. Mewn ffydd yr estynodd ei wialen ar y môr wrth orchymyn Duw, yr aeth i'r môr, y cerddodd bob cam ynddo, ac y daeth ef a'i luoedd yn iach ddiangol o hono. Fel hyn y rhoddodd anrhydedd i Dduw mewn modd arbenig, trwy gredu iddo, a chafodd yntau a'i frodyr ddiangfa o safn marwolaeth. Yr un yw ffydd etto yn ei natur a'i heffeithiau; gair Duw ydyw ei sail; ymddiried, ufudd-dod, a diangfa, yw yr effeithiau. Wrth y môr canasant gerdd odidog o fawl i Dduw am y waredigaeth. At y gân hon, yn ddiddadl, y mae y geiriau yn Dat. 15. 3. yn cyfeirio, 'A chanu y maent gân Moses, gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen.' Dywed Lightfoot, fod yr Iuddewon, yn ngwasanaeth y deml, bob Sabboth, yn canu rhan o gân Moses, yn Deut. xxxii., 'Gwrandewch nefoedd,' &c., gyd â'r aberth boreuol; ac yn yr hwyr, eu bod yn canu y gân yn Exod. xv.* Os felly, nid annhebyg fod y geiriau yn y Dadguddiad yn cyfeirio at y ddefod hon. Cân Moses, a chân yr Oen, yr un yw; yr Oen, a'r waredigaeth trwyddo, yw sylwedd cân Moses; ac mae wedi ei chyfansoddi er adeiladaeth yr holl gredinwyr yn Nghrist, yn eu buddugoliaeth ar eu gelynion. Cân Moses, wedi ei hadfywio a'i hail-gyfansoddi, a gawn yn Ps. 146. 1, 2, &c., ac Esa. 12. 1, 2, &c. Yr un yw y Gwaredwr yn mhob oes, am hyny y mae y gân yr un. Y mae y gân yn y Dadguddiad yn cael ei chanu tu a'r hwyr, neu ran brydnawnol y byd, fel yr oedd yr Iuddewon yn ei chanu yn brydnawnol yn y deml, wedi i'r eglwys gael buddugoliaeth ar ei gelynion diweddaf; sef y ddraig, y bwystfil, a'r gau-brophwyd. Gwel Vitringa *in loc.* Am hanes Moses a'r Israeliaid o'r Môr Coch i Sinai, Edr. Amalec, Craig, Hur, Josuah, Manna, Marah, Rephidim.

* *Prospect of the Temple Service. Chap.* vii. *sect.* 11. Yr oeddynt yn rhanu y gân yn Deut. xxxii. yn chwech o ranau, ac yn canu un rhan yn y boreu bob chwech Sabboth, nes fel hyn ei gorphen; ac wedi hyn yn ei dechreu drachefn.

11. Gwersyllasant wrth Sinai dros flwyddyn. Y deuddegfed gwersylliad oedd wrth Sinai, yn nghylch pump a deugain o ddyddiau ar ol eu dyfodiad o'r Aipht. Bu yr Arglwydd un diwrnod yn llefaru wrth Moses; bu y bobl dri diwrnod yn ymbarotoi, ac ar y degfed dydd a deugain wedi bwyta y pasc y rhoddwyd y gyfraith. Felly yn mhen deg diwrnod wedi pasc diweddaf Crist, y tywalltwyd yr Ysbryd Glân ar yr apostolion yn Jerusalem, ar fynydd Sïon, i bregethu yr efengyl i'r holl genedloedd. Y mae holl oruchwyliaeth Sinai yn rhyfedd, ac yn nodedig ardderchog. Ymddangosodd yr Arglwydd mewn dull newydd, anarferol, ac ofnadwy iawn. Rhoddodd ddadguddiad mwy gogoneddus o holl drefn yr iechydwriaeth trwy Gyfryngwr, nag a roddwyd er yr addewid gyntaf yn Eden hyd yn hyn. Cyfnewidiwyd holl drefn addoliad Duw, a sefydlwyd defodau a gwasanaeth oeddynt i barhau yn yr eglwys hyd ddyfodiad y Messïah.

Galwyd Moses i'r mynydd, a chafodd genadwri oddi wrth yr Arglwydd at yr Israeliaid, i ddywedyd wrthynt y byddai efe yn Dduw iddynt hwy, ac y byddent hwythau yn drysor priodol iddo o flaen yr holl bobloedd; ac yn gofyn oddi wrthynt hwythau ufudd-dod parod, gwirioneddol, a chyflawn. Addunedodd y bobl yn gyfatebol. Dygodd Moses eu hateb i'r Arglwydd yn y mynydd. Exod. 19. 3—8. Fel na ddirmygid gorchymynion y fath ddeddfwr, y mae pob amgylchiad yn nghylch rhoddiad y gyfraith gwedi ei drefnu yn y modd mwyaf addas i argraphu yn ddwfn ar eu meddyliau, y parch mwyaf i fawrhydi, purdeb, cyflawnder, ac uchelder Duw eu Deddfwr a'u Llywiawdwr. —Rhoddodd Duw hefyd, yn y modd mwyaf amlwg a nodedig, anrhydedd ar Moses fel ei weinidog, fel na fyddai iddynt hwy mwyach ammeu ei awdurdod gan Dduw, nac anufuddhau i'w orchymynion.——Arafwn, ac edrychwn ar yr olwg ryfedd hon Wele! Duw mawr y nefoedd, mewn modd ardderchog, addas iddo ei hun, yn ymostwng i ymgyfammodi â chreaduriaid pechadurus yma ar y llawr. Gwedi tri diwrnod o lanhad, i rag-barotoi y bobl, y mae Duw yn dyfynu y bobl, ac yn eu galw ger ei fron ar yr amser gosodedig. Yr ydoedd taranau, a mellt, a chwmwl tew ar y mynydd, a llais yr udgorn ydoedd gryf iawn; fel y dychrynodd yr holl bobl oedd yn y gwersyll. A Moses a ddyg y bobl allan o'r gwersyll i gyfarfod â Duw; a hwy a safasant yn ngodreu y mynydd. Yr oedd y mynydd i gyd yn mygu fel ffwrn, ac yn crynu yn ddirfawr. 'Pan ydoedd llais yr udgorn yn hir, Moses a lefarodd; a Duw a atebodd mewn llais.' Pa beth a lefarodd Moses? Yn ddiddadl yr hyn a ddadguddiodd yr Ysbryd Glân i'r apostol, 'Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu.' Heb. 12. 21. Tra yr oedd y bobl yn mhell, wrth odreu y mynydd, ac yn waharddedig iddynt nesâu, na hyll-dremu, na chyffwrdd â'r mynydd, rhag eu lladd, cafodd Moses ei alw i ben y mynydd, megys i gyfrinach agos â Duw. 'Llefarodd Duw wrtho wyneb yn wyneb—mewn gweledigaeth, ac nid mewn dammegion—ond cafodd edrych ar *wedd* yr Arglwydd.' Num. 12. 8. Edr. Gwedd. Llefarodd Duw y gyfraith oddiar ben y mynydd, o ganol y tân, y mwg, y tywyllwch, a'r taranau, i ddangos purdeb tanllyd y gyfraith, ac awdurdod Duw ynddi, ac nas dichon i bechadur euog sefyll yn ei hwyneb heb gyfryngwr. Edr. Cyfraith. Ysgrifenodd Duw y gyfraith ar lechau. Edr. Llech, Ysgrifenu. Moses a ddaeth i waered ac a fynegodd holl eiriau yr Arglwydd, a'i farnedigaethau. Gwedi i'r bobl addaw ufudd-dod, adeiladodd Moses allor islaw y mynydd, â deuddeg colofn, yn ol deuddeg llwyth Israel. Anfonoddd lanciau meibion Israel, a hwy a offrymasant boeth-offrymau, ac aberthasant fustych yn ebyrth hedd i'r Arglwydd. Cymerodd Moses lyfr y gyfraith, rhoddodd ef ar yr allor, a

Digitized by Google

thaenellodd hanner y gwaed ar y llyfr ac ar yr allor, a'r hanner arall ar y bobl. Gwedi cadarnhau y cyfammod fel hyn â gwaed yr aberth, yna yr aeth Moses i fynu, ac Aaron, Nadab, ac Abihu, a deg a thriugain o henuriaid Israel. 'Gwelsant Dduw Israel,' sef rhyw arwydd o'r presennoldeb dwyfol, 'a than ei draed megys gwaith o faen saphir, ac fel corph y nefoedd o ddysgleirdeb. Ac ni roddes Duw ei law ar bendefigion meibion Israel; ond gwelsant Dduw, a bwytasant ac yfasant.' Fel hyn aeth yn wledd ryfedd trwy waed yr aberth ar ben Sinai danllyd. Exod. xxiv. Heb. 9. 18—22. Trwy alwad Duw aeth Moses i fynu i'r mynydd, i ganol y cwmwl, a bu yno ddeugain niwrnod a deugain nos. Yn absennoldeb Moses, y mae y bobl yn peri i Aaron wneuthur y llo aur. Edr. AARON, LLECH. Dangosodd Moses ei ysbryd rhagorol yn eiriol tros y bobl, er ennyn o ddigofaint tanllyd Duw yn eu herbyn i'w dyfetha. Y mae Duw yn gwrando ei weddi dros y bobl, yn eu harbed, yn addaw myned gyda hwynt, yn dangos ei ogoniant, ac yn cyhoeddi ei enw i Moses. Pan ddaeth Moses i waered o'r mynydd â dwy lech y dystiolaeth yn ei law, yr oedd croen ei wyneb yn dysgleirio, fel yr ofnodd y bobl nesâu ato: o herwydd hyn rhoddodd len-gudd ar ei wyneb pan lefarai wrth y bobl; ond pan ddelai ger bron yr Arglwydd, i lefaru wrtho EF, yn y babell, tynai ymaith y llen-gudd nes ei ddyfod allan. Yr oedd hyn yn arwyddocâol o ogoniant yr oruchwyliaeth, ond bod y gogoniant, gan mwyaf, yn guddiedig dan len y cysgodau. Edr. CEFN, DILEU, EIRIOL, LLYFR, ENW, GOGONIANT, LLEN.

Y mae yn deilwng i ni olygu ychydig ystyriaethau oddiwrth yr oruchwyliaeth ryfedd hon, er ychwaneg o oleuni arni. Sylwn,

(1.) Fod yr holl bobl hyn â hawl ganddynt yn nghyfammod yr addewid a wnawd âg Abraham, a'r bendithion cynnwysedig ynddo. Am hyny dywed yr Arglwydd yn y rhagymadrodd i'r Deg Gorchymyn, 'Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw,' &c.

(2.) Nad oedd cyfammod Sinai yn diddymu cyfammod yr addewid a wnawd âg Abraham: cadarnhawyd yr ammod hwnw o'r blaen gan Dduw yn Nghrist, ac nid oedd y ddeddf yn dirymu hwn, nac yn gwneuthur yr addewid yn ofer. Gal. 3. 17. Yr oedd cyfammod yr addewid yn gwbl yn ei rym, yn wyneb holl ddychrynfeydd Sinai. Eisiau ystyried hyn, er ei fod wedi ei fynegi yn amlwg gan yr apostol, sydd wedi arwain dynion i lawer o gyfeiliornadau ynghylch y cyfammod hwn, fel pe buasai hwn yn gyfammod gweithredoedd, neu yn gymysgedig.

(3.) Nad cyfammod gweithredoedd oedd cyfammod Sinai. Yr oedd y bobl eisoes dan gyfammod yr addewid a efengylwyd i Abraham, ac nid oedd y cyfammod hwn yn dirymu hwnw, ond yn ychwanegu ato. Dyma oedd y cam-ddefnydd a wnaeth y gau-athrawon o oruchwyliaeth Sinai. Yn golygu y cyfammod hwn yn gyfammod gweithredoedd, barnasant fod cyfiawnhad i bechadur i gael trwy y cyfammod gweithredoedd; fel hyn yn cam-ddeall goruchwyliaethau Duw, cyfeiliornasant yn ddychrynllyd, a syrthiasant ymaith oddiwrth ras. Eraill, o'r un farn gyfeiliornus am gyfammod Sinai, a gyfeiliornasant yr ochr arall; yn barnu fod cyfammod Sinai yn gyfammod gweithredoedd, a bod hwnw wedi ei ddiddymu yn hollol, barnant fod y gyfraith foesol a roddwyd yno wedi ei diddymu mor hollol, ac fel hyn yn taflu y diystyrwch mwyaf ar ddeddf sanctaidd Duw. Camfarn am y cyfammod a arweiniodd i'r cyfeiliornadau niweidiol hyn.

(4.) Fod cyfammod Sinai yn oruchwyliaeth arbenig neillduol, yn eglurhau trefn yr iechydwriaeth trwy Gyfryngwr, yn fwy helaeth, ac yn fwy gogoneddus, nag un cyfammod arall, na goruchwyliaeth tu ag at yr eglwys, hyd ddyfodiad Crist yn y cnawd. Y mae Duw yn gosod allan yn y cyfammod hwn berffeithrwydd ac anghyfnewidioldeb y gyfraith; amldra pechod, a mawredd euogrwydd dyn; yr angenrheidrwydd anhebgorol am gyfryngwr rhwng Duw a dynion, sef Crist, yr hwn oedd Moses yn ei gysgodi; natur offeiriadaeth Crist; rhinwedd ei aberth, ac effeithioldeb ei waed i lanhau yr aflan. Yr oedd Moses yn cysgodi Crist, yn neillduol fel cyfryngwr, fel prophwyd, ac fel blaenor yr eglwys. Deut. 18. 15—18. Act. 3. 22. 1 Tim. 2. 5. Yr oedd Aaron yn ei gysgodi fel offeiriad; a'r holl aberthau yn cyfeirio at aberth Crist dros ei bobl. Edr. AARON, ABERTH, ALLOR, ARCH, PABELL. Yn neillduol yr oedd natur cyfryngdod Crist yn cael ei ddangos yn ngwneuthuriad y cyfammod. Nid oes dim yn dangos y pwnc mawr hwn mor oleu yn holl oruchwyliaethau Duw tu ag at ei eglwys. Gwelwn yma Dduw yn ymddangos yn holl fawredd ei burdeb a'i awdurdod; y gyfraith yn ei holl uniondeb, ei hawdurdod, a'i phurdeb tanllyd yn erbyn ei throseddwyr; y pechaduriaid euog yn ngodre y mynydd yn ofni am eu bywydau; Moses yn cael ei alw rhwng y ddwy blaid, yn myned i ben y mynydd tanllyd at Dduw, ac yn derbyn y gyfraith o'i law; yn myned at y bobl, yno yn codi allor, yn lladd aberth, ac yn taenellu y gwaed ar y llyfr ac ar y bobl. Heb. 9. 19. Fel hyn, wedi hyny, yn myned, efe a henuriaid Israel, i'r mynydd at Dduw, ac yn *gwledda yno*. Mae yr arddangosiad yn gyflawn ac yn oleu; ac yn llawer o help i amgyffred natur cyfryngdod Crist i bawb hyd ddiwedd amser. Yma gwelwn Dduw a'i gyfraith yn ddyrchafedig, y cyfryngwr rhyngddynt yn addas ac yn ffyddlon; a'r pechadur mewn hedd yn ddiangol! Crist yw sylwedd y cwbl: am dano ef yr ysgrifenodd Moses.

(5.) Wrth ystyried natur y cyfammod, nis gallaf lai na sylwi ar y cysondeb rhyfedd sydd rhwng corph yr ysgrythyrau â'u gilydd. Mae yr un drefn fawr am gadwedigaeth dyn yn cael ei dadguddio gyda chynnydd dysgleirdeb, mewn amrywiol ffyrdd, y naill beth yn taflu goleuni ar y llall, i gyd yn gysylltiedig mewn cyfundeb a chydgordiad hardd â'u gilydd; nes yn y diwedd mae y drefn fawr yn mherson Crist, yn dysgleirio yn oleu, heb un cwmwl na gorchudd cysgodol. Dewisodd Duw ei hamlygu yn y modd mwyaf addas i ni ei deall a'i hamgyffred, etto, heb iselhau ei hun mewn un gradd.

(6.) Heblaw ei bod yn oruchwyliaeth ogoneddus, yn amlygu trefn iechydwriaeth i'r eglwys, y mae yn amlwg ac yn ddiogel, fod cyfammod Sinai yn gyfammod *gwladwriaethol* â holl genedl Israel, a bod eu hufudd-dod i'r holl gyfreithiau a gyhoeddwyd yno yn ammod o hono fel y cyfryw. Nid ydyw allorau, aberthau, taenellu gwaed, &c., yn perthyn dim i'r cyfammod gweithredoedd; ac ni wneir y cyfammod gras â chenedloedd cyflawn, neu gyrph casgledig o amrywiol fath o ddynion, ond â Christ fel cynnrychiolwr ei etholedigion, ac â hwythau yn bersonol ynddo; am hyny yr oedd cyfammod Sinai yn wladwriaethol mewn perthynas i fendithion allanol, perthynol i'r genedl hon, yn gystal ag yn gysgodol o ddaionus bethau i ddyfod. Fel ag yr oedd yn wladwriaethol ac yn gysgodol, yr oedd yn ymarferol yn unig i'r genedl hôno; ond y mae, er hyny, yn addysgiadol i bawb hyd ddiwedd amser. Fel yr oedd yn gyfammod gwladwriaethol a chysgodol, aeth yn hen, ac yn oedranus, ac a ddiflanodd; cafodd Crist weinidogaeth fwy rhagorol—mae yn gyfryngwr cyfammod gwell—yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell na'r addewidion gwladwriaethol i Israel fel cenedl. O herwydd hyn, gelwir yr oruchwyliaeth, gan yr apostol, yn *hen* gyfammod, mewn cyferbyniad i'r oruchwyliaeth efengylaidd, yr hon a eilw yn gyfammod *newydd*. Fel yr ydoedd yn gyfammod gwladwriaethol, Israel ni thrigasant ynddo, a Duw a'u hesgeulusodd hwythau;

Digitized by Google

ond ni wnawd felly â'r rhai o honynt ag oedd yn wir gredinwyr yn y cyfammod gras. Nid oedd yn yr oruchwyliaeth hòno y perffeithrwydd ysbrydol ag yr oedd Duw yn bwriadu dwyn ei eglwys iddo yma yn y byd; am hyny dywedir, 'Nad oedd ddifeius,' a'i bod i roddi lle i ail oruchwyliaeth mwy perffaith ac ysbrydol, wedi dyfodiad y sylwedd mawr, Crist Iesu. Yr oedd yn gwbl ddifeius i'r dyben y trefnwyd hi; ond yr oedd yn anmherffaith, ac yn llawer is mewn ysbrydolrwydd, goleuni, dysgleirdeb, rhyddid, a hyfdra, na'r oruchwyliaeth efengylaidd. Goruchwyliaeth yr eglwys oedd yn ei babandod, cyn ei dyfod i'w chyflawn oed; ond yn awr, wedi dyfodiad Crist, a'r prynedigaeth trwyddo, y mae yn ei chyflawn oed, wedi derbyn y mabwysiad, ac ysbryd y Mab yn llefain, Abba Dad. Gal. 4. 1—6. Heb. viii. a ix. Y mae yr ail gyfammod yn berffaith, ac ni roddir i'r eglwys mwy un oruchwyliaeth arall yn ei lle.

12. Sylwir yn neillduol ar larieidd-dra a ffyddlondeb Moses. 'A'r gwr Moses ydoedd larieiddiaf o'r holl ddynion oedd ar wyneb y ddaear.' Num. 12. 3. Llarieidd-dra sydd groes i falchder, digllonrwydd, a dial. Er yr anrhydedd mawr a roddwyd ar Moses, rhagor neb arall o feibion dynion, etto yr oedd yn ostyngedig, yn addfwyn, yn dirion, ac yn amyneddgar, yn goddef gwrthddywediadau a thuchan y bobl; ar bob achos, gwelir ef mewn amynedd yn meddiannu ei enaid, yn dosturiol, yn ymarhous, ac yn faddeugar. Ond er ei larieidd-dra hynod yn trin pobl wrthryfelgar, etto, unwaith y pallodd, hyd yn nod yn y peth yr oedd fwyaf enwog am dano, sef ei larieidd-dra. Yn anialwch Sin, cam-ymddygodd ef ac Aaron wrth ddyfroedd Meribah; ac am eu bai yno, cauodd yr Arglwydd hwynt allan o wlad yr addewid, yr hyn ydoedd brofedigaeth fawr i Moses cyn ei farw. Am eu bai, ni wyddom ychwaneg nag y mae yr Arglwydd yn ei ddangos yn y geiriau canlynol: 'Am na *chredasoch* i mi, i'm *sancteiddio* yn ngwydd meibion Israel; am hyny ni ddygwch y dyrfa hon i'r tir a roddais iddynt.' Yr oedd *anghrediniaeth* yn un bai ynddynt: yn ei anghrediniaeth '*cythruddwyd* ei ysbryd ef, fel y *camddywedodd* â'i wefusau.' Ps. 106. 33. Fe anghredodd—a gythruddwyd—ac a gam-ddywedodd—ac ni *sancteiddiodd*, neu anrhydeddodd, yr Arglwydd ger bron y gynnulleidfa. Y geiriau a ddywedodd oeddynt, 'Gwrandewch yn awr, chwi wrthryfelwyr; Ai o'r graig hon y *tynwn* (nid tyn yr Arglwydd) i chwi ddwfr?' Yn lle *dywedyd* wrth y graig, fel y parwyd iddo, '*tarawodd* y graig *ddwy waith* â'i wialen.' Ond er pechod y ddau frawd duwiol, etto, 'daeth dwfr *lawer* allan, a'r gynnulleidfa a yfodd:' fel hyn ymddengys tiriondeb a daioni Duw yn wyneb pechadurusrwydd dynion.

'Moses yn wir a fu ffyddlon yn ei holl dŷ, megys gwas.' Heb. 3. 5. Num. 12. 7. Yr oedd Moses yn was yn yr *holl* dŷ, nid ar ryw ran o hono, neu ar ryw un gorchwyl yn y tŷ, ond *yn yr holl* dŷ: yr oedd hwn yn anrhydedd mwy nag a gafodd neb arall. Ac er ymddiried cymaint gofal iddo, bu *ffyddlon* yn y cwbl, yn yr holl wasanaeth; gwnaeth megys y gorchymynodd Duw iddo yn yr *holl* dŷ, heb ball, heb ddiofalwch, ac heb ychwanegu dim o'i ddychymygion ei hun. Er hyny, gwas oedd yn y tŷ, a dim ond hyny; ond y mae Crist yn Fab, ac yn Arglwydd *ar* ei dŷ ei hun.

13. Ond i dynu at ddiwedd hanes y gwr enwog hwn. Taer ymbiliodd ar yr Arglwydd am gael myned i mewn i Ganaan; atebodd yr Arglwydd ef yn dirion, a dywedodd, 'Digon yw hyny i ti, na chwanega lefaru mwy am y peth hwn.' Parodd yr Arglwydd iddo fyned i ben Nebo, i edrych arni â'i lygaid; 'oblegid ni chai,' medd Duw, 'fyned dros yr Iorddonen hon.' Deut. 3. 26, 27. Y mae golwg anrhydeddus ac ardderchog arno yn diweddu ei ddyddiau, yn addas i'r holl fawredd a ddangosodd Duw iddo yn ei holl fywyd. Yn rhosydd Moab, cyfansoddodd gân odidog o fawl i Dduw am ei holl ryfeddodau iddynt yn eu taith hirfaith*—bendithiodd y deuddeg llwyth—gosododd allan fawredd Duw—godidogrwydd Israel fel ei bobl—annogodd hwynt i ufudd-dod, a mynegodd iddynt y canlyniadau dychrynllyd a ddygwyddai iddynt am eu hanufudd-dod—cyfarwyddodd Josuah yn ei swydd ar ei ol; annogodd ef i ymwroli a bod yn ffyddlon. Gwedi hyny esgynodd Moses o rosydd Moab i ben Pisgah, lle y dangosodd yr Arglwydd iddo holl wlad yr addewid, a thebygol cryfhau ei lygaid yn wyrthiol i gymeryd golwg helaeth arni. Bu farw yno, a chladdodd Duw ef mewn glyn yn nhir Moab. Edr. MICHAEL. Yr oedd yn 120 mlwydd oed pan fu farw; bu fyw 40 mlynedd yn llŷs Pharaoh; 40 mlynedd yn ngwlad Midian; a 40 mlynedd yn yr eglwys yn yr anialwch. 'Ni thywyllasai ei lygaid ef, ac ni chiliasai ei ireidd-dra ef.' Meibion Israel a wylasant am Moses ddeg ar hugain o ddyddiau. Geiriau diweddaf Moses oeddynt, 'Nid oes megys Duw Israel! Gwynfydedig wyt, O Israel; pwy sydd megys ti, O bobl gadwedig gan yr Arglwydd!'

Ni bu un gwr mwy na Moses yn yr holl hen oesoedd. Gwnaeth Duw y defnydd mwyaf o hono yn ei dŷ, sef ei eglwys, ac yr oedd yn gysgod nodedig o Grist, fel y sylwyd o'r blaen. Dywed mab Sirach, 'Yr oedd yn hoff gan Dduw a dynion, yr hwn y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig. Efe a'i gwnaeth yn debyg i'r saint gogoneddus, ac a'i mawrygodd ef, gan beri i'w elynion ei ofni ef.' Eccles. 45. 1, 2, 3. Dywedir i Moses farw, 'yn ol gair yr Arglwydd.' Deut. 34. 5. *Heb.* על־פי יהוה *ar*, neu, *wrth enau Iehofah.* Oddiwrth hyn, dywed yr Iuddewon i Dduw gymeryd ei enaid ef ymaith â chusan.

Moses yw yr ysgrifenydd hynaf yn y byd. Y pum llyfr dan ei enw, yn ddiddadl, a ysgrifenwyd ganddo. Y mae titl Ps. xc. yn ei rhoddi hi iddo fel y cyfansoddwr o honi. Rhai a farnant hefyd mai efe ydyw awdwr llyfr Job. Edr. JOB. Fel ysgrifenydd y mae ei enw yn glodfawr yn mhlith y Paganiaid.† Edr. GWEDD-NEWIDIAD, ac enwau yr amrywiol lyfrau.

MUD—AN, [my-ud) *Heb.* דום *dom*, trwy draws gyfleu y llythyrenau *mod; Llad.* MUTUS; *Saes.* MUTE; *Gwydd.* AFLAFAR: MAON: diymadrodd, aflafar, tawedog.—1. Mudaniaeth naturiol o ddiffyg peiriannau ymadrodd, neu o herwydd eu cyfluniad anaddas. 'Duw sydd yn ordeinio mudan.' Exod. 4. 11. 1 Cor. 12. 2. Y mae y byddar, meddant, yn fud yn naturiol, am nad all ddysgu geiriau i ymadroddi â hwynt.——2. Cwn mudion, yw yr athrawon hyny, y rhai o ddiffyg gwybodaeth, gras, a doniau, nas gallant ddysgu eraill, er cymeryd y swydd arnynt er mwyn budr elw. Esa. 56. 10.——3. Mudaniaeth, weithiau, a arwydda ymostyngiad dystaw dan

* E ddiweddodd yn ddyddan
Ei fywyd i gyd ar gân.
*Cywydd y Drindod.*

† *Ταυτη και ο των Ιουδαιων θεσμοθετης, ουχ ο τυχων ανηρ, επειδη την του Θειου δυναμιν κατα την αξιαν εχωρησε, καξεφηνεν. Ευθυς εν τη εισβολη γραψας των νομων, Ειπεν ο Θεος, φησι τι; γενεσθω φως, και εγενετο. Γενεσθω γη, και εγενετο.* Long. *De Sublim. sec.* ix. Wedi ei Gymreigio fel hyn: 'Felly hefyd, y deddfwr Iuddewig, gwr anghyffredin, wedi cynnwys meddwl addas am allu Duw, sydd yn ei osod allan yn odidog yn nechreu ei gyfraith. A Duw a ddywedodd—Pa beth? Bydded goleuni, a bu goleuni—Bydded y ddaear, a bu y ddaear.' Gwel sylw Lowth ar yr un geiriau. *De Sacr. Poesi Heb. Præl.* xvi, *Dixit Deus, Esto Lux, et fuit Lux.* Nihil majus mens, humana potest concipere. Quantum addideris verbis, tantum de sublimitate detraxeris. Dywedodd Duw, 'Bydded goleuni, a bu goleuni.' Nis dichon meddwl dynol gynnwys dim yn fwy ardderchog—yn ol yr ychwanegwch at y geiriau, yn gyfatebol y lleihewch eu hucheledd ardderchog.

Digitized by Google

ragluniaethau ceryddol Duw: 'Aethum yn fud, ac nid agorais fy ngenau.' Ps. 39. 9.——4. Effaith syndod llewygol. Dan. 10. 15.——5. Y cyfryw o herwydd ofn, anwybodaeth, &c., na allent agor eu genau i amddiffyn eu hachos eu hunain. Diar. 31. 8.

Byddai y cythraul yn meddiannu rhai, ac yn eu gwneuthur yn fud ac yn fyddar. Marc 9. 17—25. Y mae y cythraul yn cael ei alw yn 'ysbryd mud a byddar,' oblegid ei effeithiau ar y dyn yn ei wneuthur felly. Mae hyn yn dangos fod gan y diafol allu mawr i weithredu, pan oddefir iddo, ar synwyrau dynion. Bwriodd yr Iesu yr ysbryd aflan, creulon, allan â'i air, yn ol y prophwydoliaethau am dano. Esa. 35. 6.

*Mud* arynaig (ofn) y llafar. *Taliesin.*

MUD—O—OL, symudiad, trosglwydd, dygiad; trosglwyddo, neillduo.—'Midolwch i mi Barnabas ac Saul;' sef neillduwch, gwahanredwch. Actau 13. 2. W. S. Ps. 80. 8. Edr. GWINWYDDEN.

MUL—ES—OD, (my-ul) *Llad.* MULUS; *Gwydd.* MUILLE: creadur cymysg-ryw, o'r march âg asen, neu gaseg âg asyn. Nid ydyw y mulod, nac un creadur arall cymysg-ryw, yn hilio, rhag llenwi y byd âg angenfilod. Arist. *De Animal., lib.* xv. Y mae cymysgu rhywiau y creaduriaid, yn waharddedig yn nghyfraith Moses. 'Na âd i'th anifeiliaid gydio o amryw rywogaeth.' Lef. 19. 19.

'Hwn yw Anah a gafodd y mulod yn yr anialwch, wrth borthi asynod Sibeon ei dad.' Gen. 36. 24. Y mae y lle hwn yn dra anhawdd i'w ddeall, medd Scott, gan nad ydyw y gair ימם a gyfleithir *mulod*, ddim yn cael ei arferyd mewn un man arall am *fulod*, ond y gair פרד *pared*. O'm rhan fy hun, y mae rhesymau Bochart, yn ei *Hieroz., p.* 242, &c., wedi fy moddloni i yn gyflawn, na ddylasai gael ei gyfieithu *mulod* yn y fan yma, ond ei fod yn arwyddo yr האמים *heiemim*, yr *Emiaid*, cenedl aml, gref, a rhyfelgar, yn y dyddiau hyny. Deut. 2. 10. Gen. 14. 5. Arwydda yr enw, *y rhai ofnadwy*. Hwn yw yr Anah a gafodd yr *Emiaid*, sef a *ruthrodd* arnynt i'w lladd a'u dyfetha. Dull aml o ymadroddi yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo rhuthro ar elyn yn ddiarwybod iddo. Gwel Barnwyr 1. 5. 1 Samuel 31. 3. 2 Cron. 22. 8. Psalm 21. 8. Nid oes dim hanes am fulod yn yr ysgrythyrau, cyn amser Dafydd, yr hwn oedd, yn nghyd â'i feibion, yn marchogaeth ar fulod. 2 Sam. 13. 29. a 18. 9. Marchogodd Solomon ar fules Dafydd i'w goroni. 1 Bren. 1. 33. a 10. 25. Yr oedd gan Ahab amldra o honynt. 1 Bren. 18. 5. Yr oedd gan yr Iuddewon, yn eu dychweliad o Babilon, 245 o honynt, i ddwyn eu dodrefn. Ezra 2. 66. Arferai y Persiaid hwynt i'r rhedegwyr i farchogaeth arnynt. Esther 8. 10. Yr oedd trigolion Togarmah yn eu gwerthu yn ffeiriau Tyrus. Ezec. 27. 14. Arferir hwynt hyd heddyw mewn llawer o wledydd creigiog, megys yn nghylch mynyddoedd yr Alpau, y Pyrenëau, rhwng Ffrainc a'r Ital, a rhwng Ffrainc a'r Hispaen. Mae rhai o honynt yn fawrion, yn gryfach, yn galetach, ac yn hŵy eu parhad, na cheffylau, ac a wnant eu gwaith yn ddau-ddyblyg. Y maent yn gyndyn, ac yn anhawdd eu plygu a'u trin: am hyny y cyffelybir pechaduriaid cildynus iddynt. Ps. 32. 9.

MULFRAN—OD, (mul-bran) môr-fran.

Nid glwth ond *mulfran.* *Diar.*

—'A'r fulfran.' Lef. 11. 17. שלך *syrthio.* Cafodd yr enw Hebraeg oddiwrth arfer neillduol yn perthynu iddo; sef pan ganfyddo y pysgod yn y dwfr, ar ba un y mae yn byw, eheda yn dra uchel, gwasg ei adenydd wrth ei ystlysau, ac a saetha i lawr arno fel saeth, i ddyfnder cufydd yn y dwfr. Deut. 14. 17.

MUR—IAU, (mu-ur) *Llad.* MURUS; *Gwydd.* MUR: gwâl, pared, magwyr, amddiffynfa, caer. Y mae muriau yn ddefnyddiol er neillduo, ac er amddiffyniad. Cyffelyb'r yr Arglwydd a'i iechydwriaeth i 'fur,' a 'mur o dân.' Zech. 2. 5. Esa. 26. 1. Ezec. xl. Edr. CWMWL. Muriau cenedl, neu eglwys, yw ei llywodraeth, ei chryfder, a'i diogelwch. Ps. 51. 18. Esa. 5. 5. Dat. 21. 12, &c. Edr. MAGWYR, CAER.

'Ac a ddattododd ganol-fur y gwahaniaeth rhyngom ni.' Eph. 2. 14. 'Ac a ddatododd y gayad y rhanbaret.' W. S. 'Ac a ddatododd y canol-gae terfyn.' Dr M. Yr oedd mur a elwid *chel*, yn gwahanu cyntedd yr Iuddewon oddiwrth gyntedd y cenedloedd; at y mur hwn y mae y geiriau yn cyfeirio; ac a arwyddant, 'Deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau;' sef yr holl addoliad Iuddewaidd ag oedd yn gwahaniaethu yr Iuddewon oddiwrth holl genedloedd y ddaear. Dirymodd Crist yr holl bethau hyn ag oeddynt yn achos gelyniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd, pan yn ei gorph ei hun y cyflawnodd yr holl gysgodau, y dileodd hwynt, ac y gosododd i fynu ddull arall o addoliad yn ei eglwys, i Iuddewon a Chenedloedd i gyd-ymuno ynddo.

'Cloddia i *mi* o flaen eu llygaid hwynt trwy y mur.' Ezec. 12. 5. 'Cloddia i ti.' Dr M. *Heb.* לך *i ti.* Y mae y gwall hwn yn yr holl argraffiadau. 'Ac yn yr hwyr y cloddiais trwy y mur â'm llaw.' Adn. 7. *Heb.* לי *i mi*, y cloddiais *i mi*.

MURMUR, *Llad.* MURMUR; *Ffr.* MURMURER; *Saes.* MURMUR: grwgnach, tuchan; trwst, ffrwd; godrystio, sibrwd.—'A murmur mawr oedd am dano.' Ioan 7. 12. 'Yr oedd sibrwd mawr am dano, a neb yn llefaru yn eglur.' Dr Campbell, adn. 13. Ond mae y gair *Gr.* γογγυζω, yn arwyddo y rhan amlaf, *sibrwd*, neu *godrystio*, o anfoddlonrwydd, ac a gyfieithir yn aml, *grwgnach*, Ioan 6. 41. Mat. 20. 11. 1 Cor. 10. 10. Act. 6. 1. Phil. 2. 14. 1 Petr 4. 9. —*murmur*, Luc 5. 30. Ioan 6. 43. *Grwgnach* yw y cyfleithiad goreu o'r gair, a'r mwyaf Cymreigaidd. Edr. GRWGNACH, TUCHAN.

MURSENDOD, (murs) cymhendod, gwag ymddangosiad, hoedendod, ogoilyd, pertrwydd, trythyllwch.—'Ond hon syn byw, mewn mursendod, marw ydyw cyd bo yn byw.' 1 Tim. 5. 6. W. S.

MUSGRELL—NI, (musgr) llyfrder, syrthni, diogi; hwyrder.—'Fel na byddoch fusgrell.' Heb. 6. 12. Na fyddwch ddiog ac araf, ond yn egniol a bywiog yn eich gweithredoedd: yn ymegnïo gyd â'r gwirionedd hyd farwolaeth. Eccles. 4. 28, 29. Cyfleithir yr un gair νωθρος, *hwyr-drwm*, Heb. 5. 11. Y mae yr apostol yn achwyn eu bod yn 'hwyr-drwm eu clustiau,' ac yn eu rhybuddio rhag eu bod felly; sef yn hwyr-drwm ac yn fusgrell i weithredu. Mae bywyd y credadyn yn gofyn y bywiogrwydd a'r diwydrwydd mwyaf; ac ni lwydda neb yn wirioneddol heb hyny. Proffes ddiog, farwaidd, sydd sicr o fod yn broffes ddilewyrch, ddiffrwyth, a digysur.

MUSI, מושי [*cyffyrddwr*] mab Merari. 1 Cron. 6. 19. Neh. 3. 33.

MUTH-LABBEN, מות־לבן[ *marwolaeth Labben*] titl Ps. ix. Cyfleithir y gair yn amrywiol gan wahanol awdwyr, ac y mae ei ystyr yn aros yn annilys ac ammheus. מות *muth*, a arwydda *marwolaeth*: a dychymyga rhai yr arwydda לבן *labben, Goliath*; fel pe byddai o'r un ystyr a לבין *rhwng*. Gelwir ef איש הלבים *gwr rhyngddynt*; sef gwr rhwng y ddwy fyddin, byddin y Philistiaid a byddin Israel. 1 Sam. 17. 4. Ond os hyn yw ei ystyr, pa raid oedd ei osod allan mor dywyll? Hefyd, crybwyllir yn y Psalm am Sïon, fel yr oedd addoliad cyhoeddus yr Arglwydd ynddi; yr hyn nid oedd nes yn mhell wedi marwolaeth Goliath. Adn. 11, 14. Eraill a gyfleithant y geiriau, *marwolaeth ei fab*, fel pe buasai marwolaeth Absalom

Digitized by Google

yn achlysur o gyfansoddi y Psalm. Er y geill hyn ateb i'amser ei chyfansoddiad yn well na'r llall, etto nid yw hyn yn foddlonol. Cyfansoddwyd y Psalm gan y prophwyd Dafydd yn dynsodi yr eglwys, yn canu yn orfoleddus am ei buddugoliaeth ar ei gelynion, ac yn benaf Anghrist. Tebygol iddo gael ei arwain i foli Duw, fel cysgod o Grist, am ei ymdrechiadau a'i fuddugoliaethau; am fuddugoliaethau yr eglwys ar bob erlidiwr Paganaidd ac Anghristaidd hefyd, gorthrymderau a gwaredigaethau pob credadyn.* Ond wedi pob dychymyg, hwyrach mai sain-nod yn perthyn i'r gerddoriaeth sanctaidd yw ystyr y gair.

MWG, MYGU, (mw-wg) *Llad.* FUMUS; mwg yw defnydd gwlybyrog a fyg-darthir yn darth trwy wres; neu y gronynau teimladwy a ddyrchefir o gyrph trwy wres, neu o ffrwd awyr esgynol. Gwahaniaetha y gronynau oddiwrth eu gilydd yn ol priodoledd yr amrywiol gyrph yr esgynant oddi wrthynt. Esgyna mwg mewn ffumer trwy weithrediad yr awyr sydd yn ei ddwyn; y mae yr awyr yn cael ei deneuo gan y tân oddi tanodd, a thrwy hyny yn ei ysgafnhau, ac yn ganlynol y mae yn esgyn ac yn dwyn y mwg gyd âg ef. Mwg oddiwrth goed olewaidd, ffynidwydd, ffawydd, &c. a wna y peth a elwir *lamp-black.*

'A'r tŷ a lanwyd gan fwg.' Esa. 6. 4. 'A llanwyd y deml o fwg oddiwrth ogoniant Duw, ac oddiwrth ei nerth ef.' Dat. 15. 18. Y mae cyfeiriad y geiriau yn amlwg at 1 Bren. 8. 10, 11. Yr oedd tân, mwg, cwmwl, &c. yn arwyddion cyffredin dan yr hen oruchwyliaeth, o'r Presennoldeb Dwyfol. Exodus 19. 18. Gen. 19. 28. Y tŷ, neu y deml, yw eglwys Dduw; ei bod yn llawn o fwg, a arwydda ddadguddiad gogoneddus ynddi o fawrhydi gogoneddus yr Arglwydd. Nid yw yr arwydd-lun hwn byth yn cael ei arferyd yn yr ysgrythyrau, medd Launæus, ond i arwyddo presennoldeb gogoneddus y Mawrhydi Dwyfol, mewn modd neillduol yn yr eglwys. Hwyrach fod y mwg yn nodi, er fod y dadguddiad yn ddysglaer a gogoneddus, etto fod gradd o dywyllwch yn aros yn yr amlygiadau mwyaf gogoneddus o ran ein hamgyffred ni o hono ef, a'i ffyrdd, a'i oruchwyliaethau. Mae Duw yn bresennol, ac yn ogoneddus; etto, mewn cymhariaeth, y mae mewn mwg a thywyllwch i ni. Esa. 4. 5. Gwel Vitringa. Edr. CWMWL, TAN, TYWYLLWCH.

Mwg o ffroenau Duw, a thân o'i enau, a arwyddant, a llefaru mewn dull dynol, ei ddigofaint, a'i farnedigaethau tanllyd a myglyd. Ps. 18. 8. Esa. 14. 31.—Gweddïau a gwasanaeth y saint, a gyffelybir i fwg yr arogl-darth yn y deml. Can. 3. 6. Dat. 8. 4. Edr. AROGL-DARTH.——Y mae crefydd ragrithiol fel mwg drewedig yn ffroenau Duw. Esa. 65. 5.——Yn cyfeirio at ddinystr Sodom, dywedir fod mwg poenau annuwiolion oddiwrth farnedigaethau Duw arnynt, yn dringo byth, ac yn esgyn yn oes oesoedd. Esa. 34. 10. Dat. 18. 9, 10.——I ddangos mor ddisymwth ac mor drwyadl y dinystrir yr annuwiolion, dywedir y chwelir hwynt, y darfyddant, ac y diflanant fel mwg. Psalm 37. 20. a 68. 2. a 102. 3. Esaiah 51. 6.——'Tarth mwg,' sef mwg tew. Act. 2. 19.——'Llin yn mygu.' Edr. CORSEN, LLIN.

MWLWG, (mwl) ysgubion, sorod, sothach, addail, ysdifeirion.——'Gosodi hefyd y bryniau fel mwlwg.' Esa. 41. 15. Y gair מץ *metz,* a gyfieithir yma *mwlwg,* a arwydda ûs, gwehilion ŷd a ysgarir oddi wrtho trwy ddyrnu a nithio; ac a gyfieithir *ûs,* Ps. 1. 4.—*peiswyn,* Esa. 17. 13. Am y byddent yn dyrnu ac yn nithio, yn aml, ar leoedd uchel, megys bryniau a mynyddoedd, (cymh. 2 Cron. 3. 1. â 1 Cron. 21. 20.) oddiwrth hyny y daeth *peiswyn,* neu yn hytrach, *ûs mynydd.* Y bryniau yw rhyw alluoedd neu rwystrau gwrthwynebol i'r eglwys; wedi ei hadnewyddu gan yr Ysbryd Glân, trwy arfau ysbrydol, gwna yr eglwys y rhai hyny fel mwlwg, neu lwch y lloriau dyrnu ar y mynyddoedd, yn cael eu dwyn ymaith gan wyntoedd.

* Coccejus *in loc.*

MWNWS, (mŵn) darnau bychain; bath; sorod; llwch: cyfoeth.—'Can ys chwant-mwnws yw gwreiddin pob drwg.' 1 Tim. 6. 10. W. S.

MWRTHWYL, (mwrth-wyl) *Heb.* הלמות *halmuth,* gordd, gorddwyn. Esa. 44. 12. Exod. 20. 25. Ps. 74. 6. Edr. GORDD.

MWSTARDD, (mws-tardd) *Saes.* MUSTARD; *Gwydd.* MUSTARD; *Ffr.* MOUSTARDE: cethw.—Llysieuyn digon adnabyddus. Cyfrif Linnæus ddeuddeg math o honynt. Coffëir yn y Talmud am bren mwstardd mor fawr fel y gallai dyn eistedd yn esmwyth dano; ac un arall, cangen o ba un a orchuddiai babell. Trim. *in loc.* a Lightfoot's *Hor. Heb.*——Y mae hâd mwstardd yn dra meddyginiaethol. Heb boethi llawer, y maent yn llym, yn cynhyrfu, yn cymhell, ac yn gyru yn mlaen yr holl amrywiol noddau y corph. Cymerir hwynt weithiau yn gyfain, llonaid llwy ar unwaith, rhag y parlys, dyfr-glwyf, a drwg ansawdd corph. Mwstardd am ben llaeth a'i tòr yn faidd, ac a gynnwys ei holl rinwedd. Rhoddir ef yn allanol yn blastr wrth aelod gwywedig, neu wrth wadnau y traed i gynhyrfu y gwaed. Y mae yn dra rhinweddol, medd Dr Monro, yn nghlefydon y giau (*nervous disorders*) llonaid llwy neu ddwy o hono yn llwch, yn gymysgedig âg ychydig ddwfr cynhes, a'i gymeryd â'r cylla yn wag, a wna gyfogydd da.

Yr oedd mwstardd (neu y σιναπι, *sinapi*) gwlad Canaan yn tyfu yn fwy na'n mwstardd ni. Pa lysieuyn bynag a feddylir wrth y *sinapi,* dywedir fod rhywogaethau o hono ef yn tyfu i faintioli prenau. Dywed ein Harglwydd fod ei hâd y lleiaf o'r holl hadau, sef adnabyddus yn gyffredin yn y wlad hòno, ond ei fod yn tyfu yn fwyaf un o'r llysiau, ac yn myned yn bren, fel y mae yr adar yn nythu yn ei gangau. Cyffelyb i hyn ydyw yr eglwys yn y byd, a gras yn nghalon credadyn; yn fychan iawn yn eu dechreuad, ond yn cynnyddu yn ddirfawr er pob gwrthwynebiad. Mat. 13. 31. Marc 4. 31. Luc 13. 19. a 17. 6. 'Yr oedd 'megys gronyn o hâd mwstardd,' (ὡς κοκκον σιναπεως) yn ddiareb am beth bychan iawn. Mat. 17. 20.

MWYAF. Edr. MAWR. Mat. 11. 11.

Tri lle y bydd y mwyaf o Dduw: lle mwyaf bo a'i cais; y mwyaf a'i câr; a lleiaf o'r hunan. *Barddas.*

MWYACH, (mwy) rhagor, drachefn; o hyn allan.—'Mwyach ni elwir dy enw di Jacob.' Gen. 32. 28.—'Ni'm gwelwch i mwyach.' Ioan 16. 10, *et al.*

MWYD—O, (mwy) *Llad.* MADEO: bod yn wlyb, bod yn llaith; gwlybhau, gwlychu. Psalm 65. 10. Ezec. 32. 6.

MWYN—HAU—IANT, (mwy) meddiant, llesâd, hyfrydwch; meddiannu.——Er mwyn, sef am hyny, i'r dyben hyny. 'Er eu mwyn hwy,' sef er eu llesâd. Ioan 17. 19. 'Er fy mwyn i,' sef o'm hachos i. Mat. 5. 11.

'Mwyniant pechod,' sef hyfrydwch cnawdol pechadurus. Heb. 11. 25. Y mwyniant yw yr abwyd sy gan y diafol i ddal pechaduriaid yn ei lwybrau a'i waith; ond mwyniant amserol, a gofid tragywyddol sydd iddo ef. Arwydd o bechadurusrwydd mawr y meddwl yw ei fod yn cael mwyniant mewn pechod, ac nid oes neb ond pechaduriaid o ddynion ar y ddaear yn euog o hono. Mae pechod yn uffern yn llawn ac yn ei rym, ond nid oes neb yno yn cael mwyniant ynddo. Ffieiddir ef yn y nefoedd, a gofidir o'i herwydd byth yn uffern; yma ar y ddaear yn unig mae pechaduriaid yn cael mwyniant ynddo.

Digitized by Google

**MWYN—DER—EIDD-DRA**, (mwy) llariaidd, tirion, hynaws, rhadlon, caruaidd, cyweithasol; hynawsedd, llarieidd-dra.

Gair *mwyn* a wna y ddadyl yn gadarn. *Diar.*

Cant *mwyn* mab y tŷ. *Diar.*

'Eich mwynder sydd yn ymado fel cwmwl y bore, ac fel gwlith boreol.' Hos. 6. 4. חסדכם *eich duwioldeb*, Horsley. Y gair, medd Horsley, a arwydda, rhagorol diriondeb Duw at ddyn; neu dduwioldeb dyn yn gorlenwi tu ag at Dduw; neu diriondeb helaethlawn y naill tu ag at y llall, yn ol amgylchiad y gair. Cyfleithir ef *trugaredd* yn aml; ond, medd yr un gwr dysgedig, y mae yn anghyfartal yn y cymhwysiad o hono i Dduw neu i ddyn. Oddiwrth Dduw tu ag at ddyn, arwydda, 'lliosogrwydd daioni, a rhagorol olud gras;' oddiwrth ddyn tu ag at ddyn, arwydda, 'rhagorol garedigrwydd, a chymwynasgarwch; oddiwrth ddyn tu ag at Dduw, arwydda, 'duwioldeb yn gorlenwi y galon, ac yn tòri allan yn fywiog mewn ymarferiadau crefyddol.' Yn y fan hon, arwydda yr iasau crefyddol fydd ar ddynion rhagrithiol ac anfucheddol, ac sydd yn diflanu yn fuan fel cwmwl y bore. Edr. CWMWL, GWLITH.

'Yn drugarogion, yn fwynaidd.' 1 Petr 3. 8. 'Yn gwrtais.' W. S. Y gair *Gr.* φιλοφρονες, a arwydda ymgais yn garedig am wneuthur beth bynag fyddo yn foddhaol ac yn gymeradwy gan eraill. Lightfoot's *Crit. Sacr.* Cyfleithir gair o'r un gwreiddyn, *caredig*, yn Act. 28. 7.——'Mwyneidd-dra nid bychan.' Act. 28. 2. φιλανθρωπια, *dyngarwch*. 'Hawddgarwch nid bychan.' W. S.

'Mwyneidd-dra doethineb.' Iago 3. 13. 'Rrowiogrwydd doythineb.' W. S. εν πραυτητι σοφιας, *yn addfwynder doethineb*. Mae y geiriau hardd hyn yn rhoddi ar ddeall i ni, fod gwir ddoethineb yn wastad yn addfwyn ac yn fwynaidd. *Mwyneidd-dra doethineb*, ydynt gyffelyb ymadrodd i *brydferthwch sancteiddrwydd*, ac yn gosod allan ragoroldeb a gwerthfawrogrwydd y cynneddfau hyn.

**MWYS—AIDD**, (mwy) amwys, deu-ddeall; gair mwys, gair amwys, gair dau ddeall; geir-dro, geirchwareu; hefyd cywraint, celfyddgar, tlws, ceinwych, arain, arebawl.—'Ym mysc y rhagrithwyr (yr oedd) gwattwarwyr mwysgair yn esgyrnygu eu dannedd arnaf.' Dr M. Ps. 35. 16.

A'm llais cerdd *fwys* a ganaf. *E. Prys*, (Ps. 40. 2.)

Torent hwy eiriau *mwysaidd*. *E. Prys*, (Ps. 35. 16.)

**MWYTH—AU**, (mwy) esmwyth, tyner, llyfn, chwyddedig; cryd. Y cryd a'r mwyth, cryd dyspeidiol; y mwyth brith, brith y gwanwyn, y cryd coch.—'Ni phrofodd osod gwadn ei throed ar y ddaear, gan fwythau a thynerwch.' Deut. 28. 56. Gwel hanes dinystr Jerusalem yn Josephus, *b.* v. *chap.* 10. *sec.* 3.; *b.* vi. *chap.* 3. *sec.* 324.

**MYFI**, (my-mi) rhagenw; mi fy hun. Y mae yr Arglwydd, yn aml, yn arferyd y rhagenw hwn wrth lefaru am dano ei hun; i osod allan ei fawredd, a sicrwydd cyflawniad yr hyn y mae yn llefaru am dano. Gen. 9. 9. Esa. 43. 11—25.

**MYFYR—DOD**, (myfyr) bwriad yn y meddwl, ystyriaeth; mewn dwys-feddwl, pryder, astudrwydd. Myfyr Elian, sef llyfr-gell Elian, yn Môn; Glyn y Myfyr, dyffryn yn swydd Dinbych.

Tair cynneddf cyflawn fyfyrdod: a ddichon fod; a ddylai fod; ac y sydd hardd ei fod. *Barddas.*

Gweithred y meddwl yw myfyrdod, yn chwilio i mewn i bethau, neu yn eu hystyried yn ddwys. Rhaid i'r meddwl aros ar, a glynu wrth bethau o bwys, i'r dyben i'w hiawn ddeall, ac fel y byddont yn effeithio yn addas ar y meddwl, ac yn gadael eu hargraff arno; ac i'r dyben o weithredu yn gyfatebol iddynt. Y mae myfyrio ar bethau Duw yn ddyledswydd rwymedig a llesol iawn. Y mae yn cynnwys gweithred y côf, yn eu cadw yn y meddwl; gweithred y deall, yn eu hiawn ddeall a'u hamgyffred; gweithred yr ewyllys, yn eu cymeradwyo; a gweithred y serch, yn eu cofleidio. Trwy fyfyrio arnynt y mae gwirioneddau dwyfol yn gadael eu hargraff priodol ar y meddwl; yr enaid yn canfod eu prydferthwch, ac yn profi eu melusder, a'u rhinwedd. Y mae myfyrdod ar bethau ysbrydol yn tebygu i waith y cylla yn treulio ei ymborth, ac yn ei addasu i fod yn fagwraeth, ac yn gynnaliaeth i'r meddwl. Ni wna bwyta ddim llesâd, heb dreuliad y cylla hefyd: felly gwrando a darllen, heb aml a dwys fyfyriad, ydynt yn debyg o fod yn ddiffrwyth ac yn aflesol i'r enaid. Gwrando segurllyd, dibarch, a diffydd yw, am hyny gwrando heb wneuthur yw, ac felly yn ddiffrwyth. Y mae holl bethau Duw yn deilwng o'n myfyrdod dwys, parchus, a pharhaus; ac heb fyfyrio arnynt, nid ydym ar y goreu ond anwybodus ynddynt, ac yn ddibrofiad o'u rhinwedd.

1. I'r dyben fod ein myfyrdod yn ddyfal ac yn llesol i ni, da fyddai yn ddefodol ddewis yr amser a'r cyfle mwyaf addas i hyny, megys tawelwch y boreu, Ps. 5. 1, 2, 3.—Difrifwch yr hwyr, Gen. 24. 63.—Y Sabboth, Ps. 118. 24.—Wrth arferyd âg ordinhadau sanctaidd, 1 Cor. 11. 28.

2. Y mae yn ofynol hefyd fod yr hyn y myfyriom arno yn wirionedd; ac i ni edrych ar y gwirionedd hwnw yn nrych y gair—yn ei holl gangenau; ac edrych ar ogoniant Duw ynddo. Y mae pob gwirionedd yn ddrych cywir, yn dangos Duw yn ei fawredd, ei briodoliaethau, ei drefniadau, a'i holl weithredoedd, yn hardd, ac yn dra gogoneddus. Heb ganfod Duw ynddynt, nid ydyw y gwirioneddau yn ateb dybenion iachusol i ni. Y mae gogoniant y Personau Dwyfol yn dysgleirio gyd âg uniondeb a harddwch gogoneddus yn y gair, a thrwy fod heb ganfod y gwrthddrych ynddo, nid yw y drych yn ateb ei iawn ddyben i ni.

3. Gweddai i ni hefyd fyfyrio ar y gwirionedd, nes byddo ein deall yn canfod, a'n holl enaid yn esgyn at, ac yn glynu wrth, y gwrthddrychau dwyfol, yn eu cofleidio, yn eu gwerthfawrogi, ac yn profi eu rhinwedd. Rhaid gochelyd diogi, segurdod, ac oferedd meddwl; ac onidê, â yr amser i gyd yn ofer.

4. Gochelyd er dim ddeddfoldeb, yn myned at y gorchwyl yn ein grym ein hunain, neu feddwl yn well am danom ein hunain, os cawsom oedfa gysurus; neu ddigaloni, os buom yn aflwyddiannus. Gweddus yw myned at y ddyledswydd hon, fel pob un arall, gyda hollol ymddibyniad ar gynnorthwyon dwyfol, a'n dysgwyliad yn unig wrth Dduw; gyda gweddi daer am ei gynnorthwyon; yn cydnabod ein hannheilyngdod i'r Duw mawr am sylwi arnom mewn un gradd; a chyda diolchgarwch am bob gradd o gynnorthwyon. Ps. 5. 1.

5. Dylai hefyd fod yn waith dyfal, defodol, a beunyddiol, os bydd bosibl. Dyfal ddarllen, dyfal fyfyrdod, a dyfal weddïo, sydd yn hanfodol i fywyd Cristion, yn flagurog ac yn llwyddiannus; ac nis dichon neb lwyddo hebddynt, mwy na byw yn naturiol heb awyr ac heb fwyd. 'Ymarfer, attolwg, âg ef,' medd y gair, 'a bydd heddychlon: o hyn y daw i ti ddaioni.' Job 22. 21. Y mae y gair סכן a gyfleithir *ymarfer* dy hun, yn arwyddo bod yn *dra hysbys* o beth, Ps. 139. 3.—*cynnefin* wneuthur peth. 'Gan arfer a arferais i,' medd yr asen wrth Balaam, 'wneuthur i ti fel hyn?' Num. 22. 30. Yr un gair sydd yno ac yma. Ymarfer, gan hyny, yw myned at yr un peth yn aml: ymarfer â Duw, yw mynych fyfyrio, a galw arno: trwy hyny daw heddychlonrwydd i'r meddwl, ac y bydd daioni i ni, sef llesâd ysbrydol i'n heneidiau. Gorchymynir i Josuah, 'Fyfyrio yn y gyfraith ddydd a nos,' sef yn wastad, pen. 1. 8. Dyma arferiad yr holl wir dduwiolion. Ps. 1. 2. a 39. 3. a 63. 6. a 77. 12. a 119. 15, 23, 48, 148. a 143. 5. Esa. 33. 18



Digitized by Google

MYHAREN—ERYN, (myhar) y gwrryw o'r defaid, hwrdd.—'A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o fyheryn?' &c. Mic. 6. 7. Barna yr Esgob Butler, (*Ser*. vii.) â'r hwn y cytuna Lowth,* a Mr Peters, (*Ser*. iv.) fod y geiriau yn cynnwys math o ymddyddan rhwng Balac a Balaam. Balac yn gofyn yn adn. 6.

*Balac.* A pha beth y deuaf ger bron IEHOFAH,
Ac yr ymgrymaf ger bron yr uchel Dduw?
A ddeuaf ger ei fron â phoeth-offrymau;
A lloi o flwydd oed?

*Balaam.* A foddlonir IEHOFAH â miloedd o fyheryn,
A myrddiwn o ffrydiau olew?

*Balac.* A roddaf fy nghyntaf-anedig dros fy anwiredd;
Ffrwyth fy nghorph dros bechod fy enaid?

*Balaam.* Dangosaf i ti, ddyn, beth sydd dda:
A pha beth a gais IEHOFAH genyt
Ond gwneuthur barn, hoffi trugaredd,
Ac ymostwng i rodio gyda dy Dduw?

Ond nid yw y dychymyg hwn yn ymddangos i mi yn gyson â'r hanes am yr hyn a ddygwyddodd rhyngddynt: canys nid yw Balaam yn ymddangos o'r dechreu i'r diwedd, fel yn cymeradwyo dim i Balac ond offrymau lliosog a chostus; a phan fethodd y rhai hyny, cynghorodd ef yn felldigedig i'w llithio i eilunaddoliaeth a godineb; a dychymygu iddo roddi ar achlysur arall, nad oes hanes am dano, gynghor y fath ag sydd yn adn. 8., sydd gwbl groes i agwedd ysbryd, egwyddor, a dybenion, y ddwy blaid. Yn hytrach, cynnwys y geiriau ymofynion yr Iuddewon, neu eraill, wedi eu dychrynu wrth glywed am gŵyn ac ymryson yr Arglwydd â hwynt. Yn ddychrynedig gan ei ddigofaint, y maent yn anhysbys o'r ffordd i gael eu cymeradwyo gyd âg ef. Y gofynion a ddengys ysbryd tywyll, dychrynedig, ac anmhlygedig; hollol anwybodus o Dduw, a ffordd y cymmod—yn ei olygu yn fwy fel duwiau creulon y cenedloedd tywyll, na'r gwir Dduw, y Duw goruchel, y Duw trugarog a graslawn! 'Dangosodd i ti beth sydd dda,' os ydwyt yn wirioneddol yn ymofyn am ei gymmod. Dangosodd i ti yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac nid yn unig yn yr adnod hon, fel y dywed rhai; os wyt am ddyfod ger ei fron gyda derbyniad, rhaid dyfod yn ei ffordd ei hun. Y peth sydd dda (מה טוב) yw holl drefn y cymmod yn Nghrist; a'r peth y mae Duw yn ei ofyn, yw ymostwng i'r drefn hon o gymeradwyaeth, a rhodio gyda Duw, yn ei heddwch, ac yn ei lwybrau sanctaidd o gyfiawnder a thrugaredd. Nis gallaf feddwl, gyda rhai, fod y prophwyd, âg un darn o ymadrodd, yn y geiriau hyn, yn diddymu y gyfraith seremoniol, ac yn rhoddi heibio yr angenrheidrwydd o ffydd yn Nghrist, a'r iawn a rag-fynegwyd am dano, ac i sefydlu ffordd newydd o gyfiawnhad, gwrthwyneb i'r holl ysgrythyrau. Pa fodd y dichon pechadur ddyfod at Dduw, yr hwn sydd yn anghymeradwyo ac yn esgeuluso ffordd y cymmod yn Nghrist? Nis dichon i hyny fod.

MYN—OD, (my) myn geifr, ieuanc y geifr. Yr oeddynt yn arferedig yn aml yn yr aberthau, ac yn cysgodi yr Arglwydd Iesu yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, yn groeshoeliedig ac yn gwneuthur iawn dros bechod. Num. vii, xv, xxviii, xxix. Yr oeddynt yn anfon mynod yn anrhegion, a'u cig yn cael ei gyfrif yn ddanteith-fwyd; ond nid oeddynt i'w ferwi yn llaeth ei fam, am fod hyny yn ymddangosiad o greulonder, ac hefyd, hwyrach, yn gyd-ffurfiad â rhyw arferiad coel-grefyddol yn mhlith y Paganiaid eilun-addolgar. Gen. 38. 17. Exod. 23. 19. a 34. 26. Barn. 15. 1, 2. 1 Sam. 16. 20.——Cyffelybir y saint i fynod. Can. 1. 8. Y maent yn dirion, yn ddiniwed, yn hardd, ac yn hawddgar fel mynod. Edr. GAFR, PRAIDD.

* Mae y mater, y geiriad, ac hyd yn nod dull a nodwedd y cyfansoddiad, yn cytuno yn hynod â'r ymadroddion eraill o eiddo Balaam. *Præl. Heb.* xviii.

'Ni roddaist fyn erioed,' &c. Luc 15. 29. Ni roddaist un arwydd erioed o'th diriondeb a'th ffafr: iaith ysbryd tywyll, hunanol, yn edrych yn fawr ar ei wasanaeth a'i rinweddau ei hunan, ac yn ddibris iawn o diriondeb a daioni Duw. Darlunir yn y mab hynaf ysbryd Phariseaidd yn neillduol o gywir: mae pechodau ei frawd, nid ei bechodau ei hun, yn cael eu coffâu gyda chwerwder, a thiriondeb tu ag ato yn ymddangos yn anaddas; ac y mae ei rinweddau ei hun yn cael eu coffâu gyd âg ymffrost ffol, chwyddedig; mi haeddais, yw ei iaith, ond ni roddaist yn gyfatebol.

MYN—U, (my-yn) ewyllys, dymuniad, meddwl, ewyllysio, dymuno.

Tri cyfraid pob gwaith; modd, medr, a myn. *Diar.*

MYN, gorair: wrth ewyllys un, wrth, ar; megys myn Duw, myn einioes Pharaoh, myn fy ffydd; dull o dyngu cableddus, rhyfygus, a phechadurus. Gen. 42. 15. Myn y nos, sef wrth y nos, neu yn yr hwyr.

'Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef.' Esa. 53. 10. Yr oedd hyn wedi ei drefnu a'i arfaethu yn y cyngbor tragywyddol rhwng y Personau Dwyfol. Yr oedd yn rhaid cospi pechod, o ran natur a chyfiawnder Duw; a'i gospi yn y natur a bechodd; ond nid oedd angenrheidrwydd, o ran natur pethau, ei gospi yn y personau a bechasant, nac o ran amser, yn y fynyd y pechasant; yr oedd hyny yn gorphwys ar ewyllys Duw. Buasai yn gyfiawn cospi y personau, a'u cospi hefyd yn y fynyd y pechasant; ond nid oedd un angenrheidrwydd, o ran natur pethau, wneuthur hyny. Yn lle cospi eu personau eu hunain, a thrwy hyny eu hollol ddinystrio am byth, dewisodd Duw gospi y *natur* a bechodd, mewn undeb â'i Fab, dros, ac yn lle, personau ei bobl; mynodd ddryllio hwnw. Buasai eu dryllio hwy yn dangos ei gyfiawnder yn ogoneddus, ond ei ddryllio ef drostynt, sydd yn dangos dyfnderoedd diwaelod o ras, trugaredd, doethineb, a daioni yn Nuw. O'i ewyllys pen-arglwyddiaethol, o'i ras anhaeddiannol, mynodd ei ddryllio ef yn ddibechod, dros filoedd dirifedi o bechaduriaid!

'Ni fynwch chwi ddyfod ataf fi, fel y caffoch fywyd.' Ioan 5. 40. Y mae holl drefn iechydwriaeth trwy Grist yn gwbl groes i ddoethineb, ewyllys, a syniad y cnawd. Dyfod at Grist, a arwydda teimlad o'n hangen o hono; ein cymeradwyaeth o hono, yn ol tystiolaeth y gair am dano; ymwrthodiad â phob peth arall, a dewisiad o hono ef yn unig, fel Iachawdwr, Arglwydd, a Phen-rhaith, ond y mae hyn yn hollol groes i syniadau ein natur lygredig. Ni fynwn, er cael bywyd trwy hyny; ni fynwn, er bod yn golledig byth o beidio; ni fyn neb, nes y gwnelo tyniad effeithiol y Tad ar eu meddyliau hwynt yn ewyllysgar. Fel hyn, ymddengys iechydwriaeth dyn, yn mhob cangen o honi, yn hollol o ras. Ewyllysio yn wirioneddol i ddyfod at Grist, yw dyfod ato: yr ewyllys ydyw y dyn. Pawb nad ydynt yn dyfod, heb ewyllysio y maent. Y mae mynu a dyfod, ac heb fynu ac heb ddyfod, yn gysylltiedig â'u gilydd. Nid oes un rhwystr ar ffordd pechadur at Grist, ond yn ewyllys y pechadur. Geill Duw symud hwnw.

'Felly, gan hyny, y neb y myno y mae efe yn trugarhau wrtho, a'r neb y myno y mae efe yn ei galedu.' Rhuf. 9. 18. 'Can hyny wrth yr hwn yr wyllysia, y trugarha ef, a'r hwn a wyllysia, ef ei caleda.' W. S. Mae yn trugarhau wrth rai heb haeddu trugaredd, yn hollol rad, o'i ddaioni a'i ewyllys pen-arglwyddiaethol ei hun: y mae yn trugarhau wrth y neb y myno, ac y myn ddangos ei drugaredd tu ag atynt, ac nid am un rheswm nac achos arall. Gallasai adael pawb i ymgaledu yn eu pechodau, heb wneuthur dim cam â hwynt, i'w dinystrio fel y gwnaeth â Pharaoh; ond y neb y myno y mae yn ei adael felly. Nid ydyw Duw yn eu caledu, trwy weithredu caledrwydd pechadurus

Digitized by Google

ynddynt,* nis dichon i ddim pechadurus byth ddyfod oddiwrth Dduw perffaith a sanctaidd: y maent yn caledu ynddynt ac o honynt eu hunain, tan holl ragluniaethau a goruchwyliaethau Duw tu ag atynt, fel y gwnaeth Pharaoh, y siampl y mae yr apostol yn ei choffâu. Caledai pawb yr un fath, oni bai fod Duw yn trugarhau wrth rai; sef y neb y myno. Ni feddalhai neb, oni bai fod Duw yn trugarhau wrth y neb y myno.

MYNAWYD, (mynaw) bynawyd crydd, offeryn sydd gan grydd i dyllu âg ef. Exod. 21. 6. Deut. 15. 17. Job 41. 2.

MYNED—IAD, (myn-ed) cerdded, cychwyn, ymadael, symud o'r naill fan i'r llall.—'Yr hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb.' Mic. 5. 2. Y mae duwinyddion yn crybwyll am dri mynediad i Grist: 1. Un trwy dragywyddol genedliad, fel y mae yn Fab Duw. Yn yr ystyr hwn mae ei fynediad allan er dyddiau tragywyddoldeb, ac yn parhau yn dragywyddol heb gyfnewid. Edr. MAB.——2. Mynediad arall, yn ei fynediad allan yn yr addewid yn y dechreuad. Mae efe yn marchogaeth ac yn myned allan gyd â'r addewid am dano yn foreu o'r dechreuad, er y cwymp yn Eden. ——3. Y trydydd oedd ar ei enedigaeth yn Bethlehem, yna y llywiawdwr a ddaeth allan o'u mysg eu hun. Jer. 30. 21. Y gair *myned*, yn aml, a arwydda genedigaeth. Gen. 17. 6. 2 Bren. 20. 18. Esa. 11. 1. Gwel Marcius *in loc.* Witsius *in Symbol. Exercit.* 12. *sect.* 9.

MYNWES, (mwnw) cesail.

Gwae a fo a'i feñ yn ei *fynwes*. *Diar.*

1. Y parth blaen o'r corph, gyferbyn a'r galon. Exod. 4. 6.——2. Y breichiau. Ps. 129. 7.——Bod yn mynwes un, a arwydda, gorwedd gyd âg un; dirgelwch; anwyldeb. Gen. 16. 5. 2 Sam. 12. 8. 1 Bren. 1. 2. Bod Crist yn mynwes y Tad, a arwydda undeb hanfod, cyd-raddoldeb Person, anwyldeb anfeidrol, a pherffaith wybodaeth o holl ddirgelion ac arfaeth y Tad. Ioan 1. 18. Nid yr hwn *oedd* yn mynwes y Tad, yw y geiriau, ond yr hwn *sydd*; er ei gnawdoliaeth, yr oedd efe yn parhau yr un gyd â'r Tad, o ran undeb, cyd-raddoldeb, ac anwyldeb. Y mae Crist yn dwyn ei ŵyn yn ei fynwes, sef yn eu hamddiffyn ac yn eu hymgeleddu yn dyner ac anwyl iawn. Esa. 40. 11.

'A'i ddwyn gan yr angelion i fynwes Abraham.' Luc 16. 22. Gosodir llawenydd y nefoedd allan yma fel gwledd; mae Abraham, tad y ffyddloniaid, megys ar ben y bwrdd: bod yn mynwes Abraham, gan hyny, a arwydda, bod mewn lle uchel ac anrhydeddus yn y nefoedd. Byddent gynt yn eistedd wrth eu byrddau, yn y gwledydd dwyreiniol, yn eu lled-orwedd, a'u penau agos yn mynwesau eu gilydd; bod yn mynwes Abraham, a arwydda, eistedd yn nesaf at Abraham; gan fod y cardotyn yn tebygu, o ran gradd ei ffydd, i Abraham, yr oedd ei le ef yn y nefoedd yn agos ato. Mat. 8. 11. Ioan 13. 23. a 21. 20. Edr. ABRAHAM, LAZARUS.

MYNYCH, (mwn) hygyrch, aml, cyffredin, arferedig; yn fynych, sef aml waith. Ps. 78. 38. Diar. 29. 1. Heb. 6. 7. a 9. 25. 26.

Bach a *mynych* fwyta, bach ac *anfynych* ddiota. *Diar.*

MYNYD, (mŵn) *Llad.* MINUTUS; *Ffr.* MINUTE: rhan, neu ronyn bychan; y driugeinfed ran o awr. Mae yn arwyddo, yn aml, byr amser. Job 20. 5. Diar. 12. 19. Luc 4. 5.

MYNYDD, (mwn) *Llad.* MONS; *Gwydd.* KNOK, KARN, KARRAIG; bre, bryn, moel, crug-fryn, trum. Er fod yn amlwg fod mynyddoedd cyn y diluw, oddiwrth Gen. 7. 20. etto gellir barnu i'r diluw mawr wneuthur llawer o gyfnewidiadau yn eu dull a'u nifer. Ffurfiwyd rhai, tebygol, trwy ddaear-grynfâu, gwyntoedd yn tyru llwch, tywod, &c. at eu gilydd.* Mae mynyddoedd yn dra defnyddiol mewn amrywiol ystyriaethau: o honynt y cloddir mŵn, ac y tardda ffynonau, &c. Y maent yn gysgodol rhag gwyntoedd oerion y gogledd a'r dwyrain. Y mae ein preswylfod ar y ddaear, o herwydd y mynyddoedd, yn fwy iachusol trwy beri gwahaniaeth yn nhymher yr awyr, yn addas i deimlad ac iechyd pob dyn: wrth newid ei drigfa ond ychydig, geill pob un gael awyr i anadlu, a fyddo yn fwyaf cymhwys, cysurus, ac iachusol iddo. Tyf glaswellt ar y mynyddoedd, na cheir mewn un man arall, er cynnaliaeth i amryw rywogaethau o anifeiliaid, preswylwyr y mynyddoedd yn unig; megys yr *Ibex*, neu y *Steinbuck*, *Rubicapro*, neu *Chamois*, *&c.* Y mae mynyddoedd a bryniau yn ychwanegu llawer at harddwch golygiad y ddaear, trwy amrywiaeth, ac yn dangos mawredd a chadernid y Creawdwr dwyfol. Sylwa naturiaethwyr fod y mynyddoedd wedi eu trefnu a'u gosod yn rheolaidd, fel amrywiol fodrwyau mewn cadwyn fawr, yn cylchynu y ddaear, o'r gogledd i'r dehau, ac o'r dehau i'r gogledd drachefn; a'r un fath o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o'r gorllewin i'r dwyrain drachefn. Sicr yw, fod llaw a threfn y Creawdwr mawr i'w canfod yn nodedig yn ngosodiad y mynyddoedd i ateb y dybenion neillduol o honynt, wrth eu hystyried yn fanwl, yn fwy nag a feddyliodd neb heb fanylrwydd sylwad. Nid dygwyddiadau damweiniol, ond trefniadau doeth, yw y cwbl a welir yma isod; ac y mae doethineb a daioni Duw i'w canfod a'u parchu ynddynt. Y mae llawer o fynyddoedd i'w canfod yn yr amrywiol barthau o'r byd, yn danllyd; megys Ætna, a Vesuvius, yn Ewrop, &c. Y mae yn y ddaear ogofeydd mawrion, a thân yn ennyn ynddynt yn fynych, ac yn peri daeargrynfâu; ac oni bai ffroenau y mynyddoedd tanllyd hyn, i'r tân ddyfod allan, byddai y daear-grynfâu yn amlach ac yn fwy dychrynllyd. Tybia rhai fod cymundeb rhwng y mynyddoedd tanllyd hyn a'u gilydd, trwy y ddaear.

Soddodd rhai mynyddoedd yn y ddaear. Er yr hen amseroedd, mynyddoedd Cymbotus a Sypelus, a phenrhyn mawr Phlegium, fel hyn a ddiflanasant. Yn ddiweddar, Picus, mynydd tra uchel yn un o ynysoedd Molucca, a lyncwyd mewn mynyd, ac y mae llyn yn aros yn awr lle yr oedd yn sefyll. A. D. 1556, soddodd mynydd mewn talaeth yn China, ac y mae llyn mawr lle yr oedd. Mewn daear-gryn ofnadwy yn Chili, y parth deheuol o America, A. D. 1646, soddodd amryw fynyddoedd cyfain o'r Andes, un ar ol y llall. Y mae Vesuvius a Strangylus wedi colli mwy na hanner eu huchder gynt.

Yr oedd gwlad Canaan yn dra mynyddig. O du y dwyrain a'r gorllewin i'r Iorddonen, yr oedd mynyddoedd mawrion yn rhedeg o'r gogledd i'r dehau. O du y gogledd yr oedd Libanus ac Amana. O du y dwyrain i'r Iorddonen, yn rhedeg i'r dehau, yr oedd Hermon, Misar, Gilead, Abarim, Nebo, Pisgah. O du y dehau iddi, yn Arabia, yr oedd Sinai, Horeb, Paran, Hor, Seir, Halac; yn Jerusalem, yr oedd mynydd yr Olew-wydd, Calfaria, Sion, Moriah, a Caseb. Heb enwi ychwaneg yma, edrych y mynyddoedd dan yr amrywiol enwau.

Mynyddoedd a bryniau, a arwyddant, 1. Trigolion

* Nid ydyw Duw yn caledu trwy gyfranu caledwch, ond trwy beidio cyfranu teimlad trugarog, o'r hyn sid ydynt ychwaith yn deilwng. Anselm *in loc.*

* O barth i ffurfiad mynyddoedd, &c., cyfeirir y darllenydd at waith Lyell, *Principles of Geology*; a'r eiddo Buckland, Pye Smith, Humboldt, &c. Ceir hanes a darluniad o fynyddoedd y byd yn Bell's *Geography*, Milner's *Geography*, Malte Brun, Humboldt. &c.—C.

Digitized by Google

gwledydd mynyddig. Ezec. 6. 2, 3.——2. Y deml, yr hon a adeiladwyd ar fynydd. Esa. 30. 29. Jer. 17. 3—12.——3. Eglwys Dduw, yr hon sydd fel mynydd, yn gadarn, yn olygus, ac yn ddefnyddiol yn y byd. Yr oedd mynydd Sion yn gysgod neillduol o honi. Ps. 2. 6. Esa. 2. 2. Cynnydda yn fynydd mawr i lenwi yr holl ddaear, pan gaffo yr holl genedloedd eu cyrchu at Grist. Dan. 2. 35—44.——4. Ordinhadau yr efengyl yn gyflawn o fendithion ysbrydol, yn dyrchafu, yn lloni, ac yn meddyginiaethu eneidiau pechaduriaid. Joel 3. 18.——5. Dynion yn uchel mewn gallu ac awdurdod: megys swyddwyr gwladol, yr apostolion, a gweinidogion yr efengyl. Ps. 72. 3. Esa. 44. 23. a 55. 12.——6. Gwrthwynebwyr yr efengyl, a rhwystrau ar ffordd ei llwyddiant yn y byd yn allanol, ac yn nghalonau dynion yn dufewnol: '*Pob* mynydd a bryn a ostyngir,' sydd air digon cadarn yn eu gwyneb oll. Esa. 40. 4. a 41. 15. a 49. 11. Edr. DANNEDDOG, MEN.——7. Lleoedd yr oedd eilunod yn cael eu haddoli ynddynt, y rhai oeddynt yn aml ar fynyddoedd, bryniau, &c. Ezec. 18. 6—11.——8. Yr eilun-dduwiau eu hunain, a addolent ar y mynyddoedd, neu unrhyw ymddiried heblaw y gwir Dduw ei hun. 'Ofer yw ymddiried am help o'r bryniau, ac o liaws y mynyddoedd.' Jer. 3. 23.——9. Y nefoedd, preswylfod Duw. Ps. 121. 1.

Fel y mynyddoedd o amgylch Jerusalem, y mae Duw yn ddiogelwch, yn amddiffynfa, ac yn gysur cryf i'w bobl. Ps. 125. 2.——Gelwir Samaria yn fynydd, am fod y ddinas wedi ei hadeiladu ar fynydd. Amos 4. 1. a 6. 1.——Gelwir Babilon yn fynydd—mynydd dinystriol—mynydd llosg, oblegid ei hadeiladau uchel, a'i gallu mawr; am ei bod yn ddinystriol i'r cenedloedd oddi amgylch; ac oblegid yn y diwedd ei llosgi hi â thân, a bod yr olwg arni yn ddinystriedig, fel mynydd wedi ei losgi. Jer. 51. 25. Nid ydyw mynyddoedd dinystriol ond megys diddym, os bydd Duw yn eu herbyn.

Wrth y mynydd mawr yn llosgi gan dân, yn cael ei fwrw i'r môr, ar ol udganiad yr ail udgorn, deall y rhan fwyaf dinystr Rhufain gan y Gothiaid, &c. y rhai oeddynt fel mynydd mawr, yn gryfion; ac fel mynydd yn llosgi gan dân, yn greulon ac yn ddychrynllyd. Dat. 8. 8. Gwel Vitringa *in loc.*

'Af i fynydd y myrr, ac i fryn y thus.' Can. 4. 6. Y mynydd lle yr oedd yr arogl-darth wedi ei wneuthur o thus, &c. yn cael ei losgi, a'r olew sanctaidd, wedi ei wneuthur o fyrr, &c. yn cael ei arferyd, sef Moriah, ar ba un yr oedd y deml wedi ei hadeiladu. Exod. 30. 23—34. 1 Cron. 9. 29, 30. 2 Cron. 3. 1. Yno yr oedd Duw i'w gael, ac yno yr oedd yr eglwys yn myned i ymofyn am dano, hyd oni chiliai y cysgodau Iuddewig, ac hyd oni wawriai dydd dysglaer yr efengyl, ac y cyfodai Haul Cyfiawnder, â meddyginiaeth yn ei esgyll. Mal. 4. 2.

Yn aml, gelwir mynyddoedd yn fynyddoedd tragywyddol, neu oesol, am eu bod o'r dechreuad, ac yn para o oes i oes heb syflyd na chyfnewid. Gen. 49. 26. Deut. 33. 15.

'A mi a eisteddaf yn mynydd y gynnulleidfa.' Esa. 14. 13. 'Mynydd y presennoldeb dwyfol.' Lowth. בהר־מועד Ymddengys yn amlwg oddiwrth Exodus, 25. 22. a 29. 42, 43, lle y mae Duw yn gosod man i gyfarfod â Moses; ac yn addaw ei gyfarfod o flaen, neu ar y drugareddfa, i lefaru wrtho; ac i gyfarfod plant Israel wrth ddrws y babell, fod y babell, ac wedi hyny y deml, a mynydd Sion, (neu Moriah, a gyfrifid yn rhan o Sion) ar ba un y safai y deml, a elwid y babell, a mynydd y gymanfa, neu y cyfarfod; nad oedd yn cael ei alw felly oddiwrth gynnulliad y bobl yno i gyflawni eu defodau crefyddol (fel yr arwydda y cyfieithiad Saesonaeg, *tabernacle of the congregation*, pabell y gynnulleidfa) ond am fod Duw wedi gosod hwnw fel man y cyfarfyddai ef ei hun â Moses, i gymdeithasu âg ef, ac i gyfarfod â'r bobl; ac a elwir yn addas yn y cyfleithiad Cymraeg, 'pabell y cyfarfod.' Gan hyny, הר מועד *mynydd y cyfarfod*, מועדי אל *cyfarfodydd Duw*, (Ps. 74. 8.) a אהל מועד *pabell y cyfarfod*, a arwyddant y lle gosodedig gan Dduw, y byddai iddo ymddangos iddynt. Yr oedd brenin Babilon yn ei falchder a'i ymchwydd ffaidd, yn ymffrostio y dringai i'r nefoedd—oddiar sêr Duw y dyrchafai ei orseddfa—y byddai iddo eistedd yn mynydd y gynnulleidfa, neu y cyfarfod, i dderbyn addoliad gan ei ddeiliaid yno; ond yn fuan taflwyd ef i lawr i ddyfnder uffern. Gwel Vitringa a Lowth *in loc.*

MYRA, dinas yn Lycia, o'r hon yr hwyliodd Paul mewn llong o Alexandria i'r Ital. Act. 27. 5.

MYRDD—IWN—YNAU, (myr) *Gr.* μυριας; deng mil. Mil-can-myrdd, anfeidrol; nifer annherfynedig; lliaws dirifedi.—'Myrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd,' sef nifer dirifedi. Dat. 5. 11. ——'Myrddiwn o angelion.' *Gr.* μυριασιν αγγελων. 'Milfyrdd o angelion.' W. S. '*Innumerable company of angels.*' *Saes.* Tyrfa ddirifedi o angelion. Heb. 12. 22.

MYRR, *Heb.* מור (chwerw.) Exod. 30. 23. Sudd a ddefnyna o bren o'r enw, sydd i'w gael, yn aml, yn Arabia, yr Aipht, ac Abyssinia. Y mae, weithiau, yn defnynu yn rhydd o hono ei hun, a hwnw yw y goreu, ac a elwir *stacte;* ond yn gyffredinol rhed trwy wneyd toriad yn y pren âg offeryn miniog. Gwneir hyny ddwywaith yn y flwyddyn. I'r archwaeth y mae yn chwerw ac yn anhyfryd; i'r arogl y mae yn beraidd. Mae yn rhinweddol i buro, ac i gadw rhag braenu; am hyny arferid ef gynt i bêr-arogli cyrph meirw, ac i bêr-arogli gwisgoedd, gwelyau, &c. Ioan 19. 39. Ps. 45. 8. Diar. 7. 17. Esth. 2. 12. Edr. ALOES, CASIA. Yr oedd yn un o ddefnyddiau yr olew a'r arogl-darth cysegredig. Exod. 30. 23. Edr. AROGL-DARTH.

'Fy anwylyd sydd i mi yn bwysi myrr.' Can. 1. 13. '*A bundle of myrrh.*' *Saes.* Byddent yn rhoddi y sudd hwn, ac eraill, mewn cydau bychain, ac yn eu dwyn yn eu mynwesau, o herwydd eu harogl peraidd ac iachus. Y gair *Heb.* צרר *tsered*, a gyfleithir yma *bwysi*, *Saes. bundle*, a gyfleithir *côd*, Gen. 42. 35. Job 14. 17. Priodol ystyr y gair yw *rhwymo*, neu yr hyn a *rwymir*. Gwel Deut. 14. 25. Exod. 12. 34. Jos. 9. 4. Hos. 13. 12. Felly y geill arwyddo sudd myrr mewn côd, ac nid y brigau, neu y cangenau, wedi eu rhwymo yn bwysi, yr hyn oedd y pêr-aroglau mwyaf gwerthfawr i'r arogl; hyny, a llawer mwy, yw Crist i'r eneidiau sydd yn ei adnabod, ac yn credu ynddo. Y mae ef yn werthfawr, yn adfywiol, ac yn llesol iawn, i fyfyrio arno, ac ymhyfrydu ynddo, dros nos dywyll o brofedigaethau yma yn y byd. Can. 4. 6, 14. a 5. 1. Gen. 43. 11. Ps. 45. 8.

MYRTWYDD, *Gr.* μυρτος; *Llad.* MYRTUS; *Ffr.* MYRTE; *Saes.* MYRTLE: pren hardd pêrarogl, yn wastad yn wyrdd, ac yn tyfu y rhan amlaf, mewn dyffrynoedd isel, dyfrllyd. Y mae deuddeg math o honynt, medd Tournefort. Cyffelybir y saint i'r myrtwydd, oblegid eu harddwch ysbrydol, eu harogl hyfryd, a'u parhad mewn gwyrdd-lesni a bywiogrwydd ysbrydol. Esa. 41. 19. a 55. 13.

'Ac wele ŵr yn marchogaeth ar farch coch, ac yr oedd efe yn sefyll rhwng y myrtwydd y rhai oedd yn y pant.' Zech. 1. 8. Y gwr ar y march coch, yn y weledigaeth, yw Crist; y myrtwydd yn y pant, a arwyddant yr Iuddewon yn eu cyflwr isel, dirmygiedig, a chystuddiol, yn Babilon; neu ei bobl yn mhob oes, yn eu hiselderau a'u cyfyngderau. Y mae Crist yn sefyll yn eu mysg ar ei farch, ac yn arfog, yn barod i'w amddiffyn rhag eu holl elynion. Esa. 57. 15. Dat. 2. 1.

Digitized by Google

**MYSANGU**, (sangu) sathru, mathru, damsangu, maessyng.—'A Caerusalem a vysengir dan draed.' Luc 21. 24. W. S.

MYSG, (my-ys) *Gr.* μεταξυ; *Llad.* MIXTIM; yn mhlith, yn nghanol, rhwng. Gwel dan eiriau eraill.

MYSIA, Μουσια, [*ffiaidd, euog*] talaeth yn Asia Leiaf, lle y bu Paul yn pregethu. Act. 16. 7, 8. Pliny a'i geilw yn *Æolis*; weithiau gelwir hi Abretta, ac Abrettino, ac yn ddiweddar Bursia. Yr oedd trigolion Mysia yn anfoesol ac yn ddirmygedig iawn; oddiwrth hyn y daeth y ddiareb, *Ultimus Mysorum*, hyny yw, 'Y diweddaf o'r Mysiaid,' am ddyn gwael a dirmygedig. Gwel Cicero, *Orat.* 24., *pro L. Flacco.* Yr oedd yr apostol yn pregethu yr efengyl i bawb; nid oedd neb yn rhy wael i'w derbyn, nac yn rhy ddrwg iddi i'w meddyginiaethu.

MYSWRN—YRNAU, unrhyw offeryn bychan miniog: gorchudd wyneb, medd y Dr Davies.—'A'r mysyrnau.' Esa. 3. 22. *Heb.* מטפחות *cloaks*, Dr L. Cyfleithir yr un gair *mantell*, yn Ruth 3. 15. math o wisg rydd, las, a wisgid gan y merched. Oddiwrth yr hanes yn Ruth, gellid casglu ei bod yn o fawr: barna y Dr Shaw, mai yr *hyke* a wisgir gan yr Arabiaid a feddylir. Gwel Parkurst dan y geiriau מפה a שלם

MYW—ION, (my) morgrug, grugiaid, morion, myr, myrion.—'Diau y'th lenwir o ddynion megys mywion asgellog o nifer.' Dr M. Jer. 51. 14, 27. 'Lindys blewog.' Dr B.

# N.

NA, cysyllt-air, a arferir o flaen geiriau yn dechreu â chydseiniaid; megys 'Heb na dechreu na diwedd.' —Na'm; na'th; na'i; na'n; na'ch; ydynt dalfyriadau o na ym, na yth, na ei, na ein, na eich. Hefyd fel gorair, a arferir o flaen perwyddiadau, yn y modd archadwy; megys Na ladd; ac yn ateb gofynion; megys Na bu, na ddo. Rhoddir ef yn lle no yn aml; megys llai na (no) dim; llai na'r (no y) lleiaf.

Gwell ceiniog *na* (no) brawd. *Diar.*

NAAM, נעם [*hardd*] mab Caleb. 1 Cron. 4. 15.

NAAMAH, נעמה [*hyfryd*] 1. Merch Lamech a Silah, a chwaer Tubal-Cain. Gen. 4. 22.——2. Ammonees, mam Rehoboam. 1 Bren. 14. 21.——3. Dinas yn Judah, neu Idumea. Jos. 15. 41.——4. Dinas Sophar, un o gyfeillion Job. Job 2. 11.

NAAMAN, נעמן [*hardd*] 1. Mab Benjamin. Gen. 46. 21.——2. Mab Bela, ac ŵyr Benjamin. Num. 26. 40. 1 Cron. 8. 4.——3. Tywysog llu Benhadad, brenin Syria. Yr oedd yn ŵr mawr ac anrhydeddus yn ngolwg y brenin, yn ŵr cadarn nerthol, ac yn llwyddiannus yn ymladd dros ei wlad. Y peth mwyaf nodedig am dano yw ei iachâd o'r gwahan-glwyf gan Eliseus y prophwyd yn yr Iorddonen. Llances fechan a gaethgludodd y Tyriaid o wlad Israel, yr hon oedd forwyn yn nhŷ Naaman, a roddodd hanes am y prophwyd yn Samaria i'w meistres. 'O na byddai fy arglwydd o flaen y prophwyd yn Samaria,' meddai hi: 'canys efe a'i hiachâi ef o'i wahan-glwyf.' Tebygol ei bod yn cael tiriondeb yn nhŷ Naaman, a'i bod, o'r herwydd, yn wirioneddol yn dymuned cysur a iachâd ei meistr. Gwel yr hanes yn 2 Bren. v. Edr. ELISEUS, GEHAZI. Er bod yn anhawdd ganddo ar y cyntaf blygu i orchymyn y prophwyd, a myned i'r Iorddonen, ac ymolchi; etto, wedi cael ei iachâu, effeithiodd y wyrth yn fawr ar ei feddwl, dywedodd, 'Wele, yn awr y gwn nad oes Duw trwy yr holl ddaear, ond yn Israel.' O'r blaen yr oedd Abana a Pharpar, afonydd Damascus, yn well na holl ddyfroedd Israel; a hwyrach eu bod: ond yr oedd Duw yn Israel, yr hyn nad oedd yn Damascus. Hyn a welodd ac a gredodd Naaman. Canfu nad y dyfroedd, ond mai Duw Israel a'i hiachaodd. Y mae yn addef ei fwriad, na offrymai mwyach i dduwiau eraill, ond i'r Arglwydd yn unig: er hyny, y mae yn gofyn ei esgusodi am fyned i dŷ yr eilun-dduw Rimmon, gyd â'i arglwydd i addoli, ac iddo yntau ymgrymu yn nhŷ Rimmon. Ateb y prophwyd yw, 'Dos mewn heddwch.' Yr oedd Naaman yn canfod hyny yn bechod; a diammeu y dylasai beidio myned i dŷ yr eilun er dim, beth bynag fuasai y canlyniad o hyny; er colli ei le, ei swydd, ei barch gyd â'r brenin; ïe, er dyoddef merthyrdod, ni ddylasai fyned, a gwneyd yr hyn oedd hollol groes i orchymyn, ac i'r anrhydedd a'r addoliad dyledus i'r gwir Dduw yn unig. Ni ellir meddwl fod geiriau y prophwyd yn ei gyflawnhau yn hyny; ond, tebygol, ei fod yn dysgwyl, neu yn gwybod, fel prophwyd Duw, y byddai i'r argyhoeddiadau oedd yn bresennol ar ei feddwl barhau ac effeithio yn addas ac yn gyfatebol yn ei holl ymddygiad. Yr oedd megys yn ei orchymyn i'r Arglwydd ac i'w ofal; heb ammeu na byddai iddo ei waredu, a'i wneuthur yn ddefnyddiol yn ngwlad Syria. Yr oedd ei iachâd yn brawf hynod i'r holl deyrnas, mai Duw Israel oedd y gwir Dduw: ac er nad oes genym hanes neillduol, etto, gellir barnu yn obeithiol i lawer yno gael eu dwyn i wybodaeth o'r Arglwydd, trwy y wyrth ryfedd ar y pendefig hwn. Mor fendithiol yw gair o enau y tlotaf am Dduw, weithiau! I wneuthur yr hanes yn fwy cyson ac esmwyth, mae rhai yn cyfleithu y geiriau, fel y gellir yn ddigon addas, fel hyn: 'Yn y peth hwn yr Arglwydd a faddeuo i'th was; pan aeth fy arglwydd i dŷ Rimmon i addoli yno, a phwyso o hono ar fy llaw i, ac ymgrymais innau yn nhŷ Rimmon, pan ymgrymais yn nhŷ Rimmon, maddeued yr Arglwydd i'th was y peth hwn.' Yn ol y cyfleithiad hwn, llefara Naaman am yr hyn oedd wedi bod, ac nid am ei ymddygiad yn ol llaw. Y mae y cyfleithiad yn fwy unol â'i eiriau, 'Ni offryma dy was mwyach boeth-offrwm nac aberth i dduwiau eraill, ond i'r Arglwydd;' ac yn fwy addas i agwedd ei feddwl, dan ddwys argyhoeddiad, mai yr Arglwydd oedd y gwir Dduw, ac o oferedd a phechadurusrwydd eilunaddoliaeth. Wrth ofyn llwyth cwpl o fulod o ddaear, tebygol ei fod yn barnu daear gwlad Canaan yn sanctaidd, a'i fod yn bwriadu adeiladu allor i'r Arglwydd yn ngwlad Syria â'r ddaear hon, i addoli Duw yno. Nid oes genym hanes ychwaneg am Naaman: hwyrach iddo farw yn fuan ar ol hyn, neu roddi i fynu ei swydd; ac i Hazael ddyfod yn dywysog y llu yn ei le ef. Luc 4. 27.

NAARAI, נערי [*fy mhlant bychain*] un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 37.

NAARAN, נערן [*plentyn bychan*] dinas yn Ephraim. 1 Cron. 7. 28.

NAARATH, נערת [*ieuenctid*] dinas yn Ephraim. Jos. 16. 7.

NABAL, נבל [*ynfyd*] gwr cyfoethog, taeog, drelaidd, caled, a drwg ei weithredoedd, o lwyth Judah, ac o deulu Caleb; yr hwn a breswyliai, tebygol, yn agos i Mäon, dinas yn y dehau i Judah. Dafydd, wedi ei gyffroi gan ei daeogrwydd wrth ei weision, a fu ar fedr ei ladd: ond trwy ddoethineb ei wraig Abigail, dyhuddwyd Dafydd. Yr oedd Nabal yn feddw pan ddaeth llanciau Dafydd ato. Gwedi iddo sobri,

Digitized by Google

ac i Abigail fynegi yr holl hanes iddo, ei galon a fu farw o'i fewn, ac efe a aeth fel careg. Yn mhen deng niwrnod, tarawodd yr Arglwydd ef, ac efe a fu farw. Bu farw yn nghanol ei gyfoeth a'i bechod; galwodd Duw ef i roddi cyfrif am ei oruchwyliaeth yn ddisymwth, ac yn anmharod iawn. 1 Samuel xxv. Luc 16. 2.

NABL, נבל offeryn cerdd â thannau iddo. Gan fod y gair Hebraeg yn arwyddo costrel, neu lestr pridd, ac yn cael ei gyfieithu felly yn 1 Sam. 1. 24. Esa. 30. 14. Jer. 13. 12. a 48. 12. Galar. 4. 2, barna rhai fod y nabl yn tebygu i ryw lestr, neu gostrel crothog, arferedig gynt yn y gwledydd dwyreiniol. Dechreuwyd arfer y nabl oddeutu amser Dafydd; nid oes dim sôn am dano cyn ei amser ef, er bod crybwylliad am dano yn aml yn y Psalmau, a chan ysgrifenwyr wedi hyny. Gellir cyfieithu y geiriau yn Psalm 33. 2. a 144. 9. yn lle 'A'r nabl ac â'r degtant;' *a'r nabl degtant;* nid ydyw *ac â'r* yn y Bibl Hebraeg. Os felly cyfieithir y geiriau, yn ol y LXX. a'r *Vulg.* offeryn degtant oedd y nabl.

NABOTH, נבות [*prophwydoliaethau*] Israeliad o ddinas Jezreel. Yr oedd ganddo winllan hyfryd yn agos i balas Ahab brenin Israel. Ahab a chwennychodd y winllan yn ardd lysiau, a gofynodd hi ganddo, naill ai am arian, neu trwy gyfnewid am un arall. Tebygol fod Naboth yn ŵr cydwybodol, ac yn gwasanaethu yr Arglwydd. Yr oedd yn waharddedig i'r Israeliaid werthu y tir yn llwyr: 'A'r tir ni chai ei werthu yn llwyr; canys eiddo fi yw y tir.' Lef. 25. 23. 'Na threigla etifeddiaeth meibion Israel o lwyth i lwyth.' Num. 36. 7. 'Na chymered y tywysog etifeddiaeth y bobl, i'w gorthrymu hwynt allan o'u perchenogaeth.' Ezec 46. 16. Gan hyny, yr oedd nacâd Naboth o'i winllan i Ahab, yn waharddedig gan Dduw, ac yn fater o gydwybod ynddo yntau. Y mae ateb Naboth yn dangos ei fod yn edrych arno fel peth annuwiol a hollol bechadurus iddo ei wneuthur; 'Na ato yr Arglwydd!' חלילה לי מיהוה *byddai yn annuwiol i mi oddiwrth IEHOFAH*; hyny yw, cyfrifai IEHOFAH hyny i mi yn beth pechadurus annuwiol. Arferir yr un gair yn Gen. 18. 25. a 44. 7—17. 1 Sam. 24. 7.

Effeithiodd y nacâd hwn o winllan Naboth mor fawr ar falchder, cybydd-dod, a holl lygredigaethau Ahab, fel yr aeth i orwedd ar ei wely, ac ni fwytâi fwyd gan dristwch a gofid meddwl. Naboth, trwy lythyrau Jezebel, yn enw Ahab, at yr henuriaid a phenaethiaid y ddinas, a gafodd farn i farw am gabledd. Yr oedd y gorchymyn yn greulon, ac yn eithaf anghyfiawn, ac yr oedd ufudd-dod y penaethiaid mor greulon a chywilyddus! Cafodd Naboth ei labyddio (a'i feibion hefyd, tebygol) â meini, fel y bu farw! Ond y mae Duw cyflawn yn fyw i ddial ei waed ar Ahab a'i deulu. Digofaint Duw a'i dilynodd i ddinystr trwyadl, am y cybydd-dod, y balchder, y rhagrith, yr anudonrwydd, a'r llofruddiaeth hwn! 1 Bren. xxi. 2 Bren. 9. 10. Edr. AHAB, ELIAS, JEZÉBEL.

NACHON, נכון [*darparedig*] enw gwr neu le yn agos neu yn Jerusalem, ac i dŷ Obed-Edom, yr hwn oedd yn y ddinas.—'Llawr dyrnu Nachon.' Cyfieitha rhai y geiriau, 'llawr dyrnu darparedig.' Yn 1 Cron. 13. 9, darllenir, llawr dyrnu Chidon. Tebygol fod dau enw ar yr un gwr. Wrth lawr dyrnu Nachon y tarawodd Duw Uzza, am ymaflyd â'r arch. 2 Sam. 6. 6.

NAD, (na-ad) gwaedd, bloedd, llef, inglef, dolef, crochlef, cri, garm, gawr, dias.

Ystyr fy *nâd* i'th grybwyll.
*E. Prys*, (Ps. 17. 1.)

NAD, gorair nacâol a arferir o flaen geiriau yn dechreu â llafaryddion, fel *na* o flaen geiriau yn dechreu â chydseiniaid. Edr. NA.

NADAB, נדב [*rhodd ewyllysgar*] 1. Mab Aaron, a brawd Abihu. Exod. 6. 23. Lef. 10. 1, 2, &c. Edr. AARON.——2. Mab Jeroboam brenin Israel, a deyrnasodd ddwy flynedd ar ei ol. Rhodiodd yn ffordd ei dad, ac a wnaeth ddrygioni yn ngolwg yr Arglwydd, a Baasah mab Ahiah a'i lladdodd ef, pan yr oedd yn gwarchae ar Gibbethon y Philistiaid. 1 Bren. 15. 25, &c.——3. Mab Sammai, a thad Seled ac Appaim. 1 Cron. 2. 30.

NADD—IAD—U, (ny-add) ysglodioni â bwyell; cymynu, cymyniau; trychu; cloddio.—'Edrychwch ar y graig y'ch naddwyd!' sef y cloddiwyd chwi o honi. Esa. 51. 1. Marc 15. 46. Luc 23. 53. Edr. SEL, TEML.

NAF, NEIFION, (ny-af) ffurfiwr, gwneuthurwr, creawdwr, Arglwydd.

Yn foreu gwrando â fy *Naf*.
*E. Prys*, (Ps. 5. 3.)
Crist sy *Naf* i bob yspryd.

NAGE, (nag-e) gorair nacâol, arferedig yn ateb i ofyniad; nid hwna, nid felly, na. Edr. IE. Mat. 5. 37.

NAHALAL, נהלל [*clodfawr*] dinas yn Zabulon. Jos. 19. 15. a 21. 35. Barn. 1. 30.

NAHALIEL, נחליאל [*etifeddiaeth Duw*] gwersyllfa yr Israeliaid yn yr anialwch, rhwng Mattanah a Hamoth. Num. 21. 19.

NAHARI, נחרי [*fy ffroenau*] Beerothiad cadarn, yr hwn a ddygai arfau Joab. 2 Sam. 23. 37.

NAHAS, נחש [*sarph*] 1. Yr oedd dau frenin yr Ammoniaid o'r enw; sef, tebygol, tad a mab. Un o honynt a orchfygwyd gan Saul, pan yr oedd yn gwarchae ar Jabes-Gilead. 1 Sam. xi. Edrych JABES-GILEAD.——Y llall oedd gyfaill, ac a ddangosodd garedigrwydd i Dafydd. 2 Sam. 10. 2. Tebygol mai mab y Nahas hwn oedd Sobi, o Rabbath meibion Ammon. 2 Sam. 17. 27.——2. Tad Abigail a Serfiah, a'r un a Jesse, tad Dafydd. 2 Sam. 17. 25. 1 Cron. 2. 13—16.

NAHASON, mab Aminadab, a brawd Elisebah gwraig Aaron. Efe oedd tywysog llwyth Judah yn eu hymadawiad o'r Aipht. Exod. 6. 23. Numeri 7. 12. 17. Edr. JUDAH.

NAHATH, נחת [*gorphwysfa*] mab Reuel, ac ŵyr Esa. Gen. 36. 13.

NAHBI, mab Mophai, yr hwn oedd yr yspïwr dros lwyth Naphtali, a anfonwyd i edrych ansawdd gwlad Canaan. Num. 13. 14.

NAHUM, נחום [*dyddanydd*] prophwyd o ddinas Elcos, neu Elcosia, yn Galilea. Nid oes dim hanes am dano o ran ei fywyd a'i farwolaeth. Bernir iddo brophwydo yn nghylch yr amser y daeth Senacherib yn erbyn Judah, wedi dystrywio No-Ammon yn yr Aipht ganddo, cyn dyfod yn erbyn Jerusalem. Prideaux *Con. p.* i. *b.* 1. *year* 713. *chap.* 38. Y mae ei brophwydoliaeth yn perthyn yn gwbl i ddinystr Ninifeh, ac ymerodraeth Assyria. Am gyflawniad o'r brophwydoliaeth, Edr. NINIFEH. Y mae y beirniaid mwyaf dysgedig yn golygu y brophwydoliaeth yn fardd-gan fwyaf ardderchog ac addurnedig mewn un iaith yn y byd. Y mae yn brophwydoliaeth ac yn gerdd gyflawn, hynodol, a pherffaith. Mae y rhagymadrodd yn oruchel ac yn ardderchog; ac y mae ei ddarluniad o ddinystr Ninifeh, yn helaeth, yn addurniadol, ac yn egniol danllyd.* Dyben y brophwydol-

* Ond o'r holl brophwydi lleiaf nid oes yr un gyfartal i Nahum mewn addurniad, tanbeidrwydd, a bywiogrwydd. Ac heblaw hyny, mae ei brophwydoliaeth ef yn gân gyflawn a pherffaith;

Digitized by Google

iaeth oedd, tebygol, i gysuro yr Iuddewon duwiol yn nghanol eu gorthrymderau gan ymerawdwyr Assyria trwy ragfynegi hollol ddinystr eu gorthrymwyr. Gwel ar y llyfr hwn, Jo. Marckii *Commentarii in Duodecim prophetas Minores*. Bishop Newcome's *Translation*. Hutchinson *on the Minor Prophets*.

NAID, NEIDIO, (naid) llamu, crychlamu. Ystum yn mynegi gorfoledd. Jer. 48. 27. *Heb.* Esa. 35. 6. Act. 3. 8. Crist yn dyfod yn neidio ar y mynyddoedd, a arwydda ei fod yn dyfod at ei bobl gyda phob llawenydd, hyfrydwch, a phrysurdeb, a thros ben pob rhwystrau. Can. 2. 8. Zech. 4. 7. Neu fod ei ddyfodiad yn amlwg ac yn eglur yn ngolwg ffydd. Nah. 1. 15. Neu geill y mynyddoedd arwyddo teyrnasoedd y byd wedi eu darostwng gan Grist, ac iddo, trwy yr efengyl. Dat. 11. 15. Esa. 40. 5. a 41. 15. a 42. 15. Hab. 3. 6.

'Ymwelaf hefyd â phawb a neidiant ar y rhiniog y dydd hwnw.' Seph. 1. 9. 'Dros y rhinioc.' Dr M. Sef yr hwn a ruthra yn llawen i dŷ ei gymydog, i ysglyfaethu, ac i lanw tai eu meistriaid â thrais ac â thwyll. 1 Sam. 5. 5. a 2. 15, 16. 2 Bren. 5. 20, 27. Neh. 5. 15.

NAILL, (ny-aill) un o ddau; naill neu y llall.—'Naill ai efe a gasâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a ymlŷn wrth y naill, ac a esgeulusa y llall.' Mat. 6. 24.

NAIN, (ny-ain) hen-fam, mam-gu. 2 Tim. 1. 5. Edr. Lois.

NAIN, *Gr.* *ναιν* [*hardd*] dinas, meddant, yn agos i Endor, yn nghylch dwy filldir o Tabor, ac yn nghylch deuddeg milltir o Capernaum; ond Maundrell sydd o'r meddwl ei bod yn agos i droed mynydd Hermon. Yr un, tybyga Lightfoot, ag En-gannim. Jos. 19. 21. a 21. 29. Wrth borth y ddinas hon, a'r Iesu yn myned i mewn iddi, y cyfarfu âg un marw yn cael ei ddwyn allan, yr hwn ydoedd unig fab ei fam, a hòno yn *weddw*. Pan welodd yr Iesu hi, cymerodd drugaredd arni, ac a ddywedodd wrthi, 'Nac wyla.' Cyffyrddodd â'r elor, ac â'i air cyfododd y llanc o farw i fyw, ac a'i rhoddes i'w fam. Luc 7. 11—15. Y mae yr efengylwr yn adrodd yr hanes am y wyrth hon gyda neillduol barddwch ymadrodd; ac mae yr Iesu yn ymddangos gyda mawredd a graslonrwydd *priodol* yn unig iddo ei hun. Unig fab gwraig weddw ydoedd y gwr ieuanc, a thebygol mai efe ydoedd unig gynnalydd a chysur ei fam yn ei henaint a'i methiantrwydd: y mae pob amgylchiad yn tueddu i wneuthur ei chystudd yn drwm. Trugarhaodd yr Iesu wrthi, a rhoddodd ei mab iddi yn fyw ac yn holl-iach. Yr oedd llawer o'r dysgyblion a thyrfa fawr gyd â'r Iesu; ac yr oedd bagad o bobl y ddinas gyda hi yn dwyn y corph i'w gladdu: fel hyn yr oedd y wyrth yn dra chyhoeddus, a phob anmhosiblrwydd o dwyll yn ymddangos yn eglur i bawb. Yr un yw yr Iesu hwn etto: y mae yr un mawredd, a'r un trugarogrwydd ynddo, ac a fedr, er ei ddyrchafiad, gyd-ddyoddef â'n gwendid ni. Heb. 4. 15.

NAIOTH, נירת [*harddwch*] dinas yn agos i Ramah, lle preswyliai Samuel a meibion y prophwydi. 1 Sam. 19. 19, 23. Edr. Ramah.

NAM, (na) bai, pechod, palldod, byrdra, diffyg, gwall, coll; oddi eithr, ond, odid, amyn; dinam, sicr, dieithr.

Oni cheidw Duw rhag *nam*,
Fe dripia 'r ferch lle tripia 'r fam. *Diar.*

Namyn, namwyn, amyn, oddieithr, ond.—'Oni âd efe yr amyn un cant?' &c. Mat. 18. 13.

---

y dechreuad yn ardderchog a mawreddus; a'r parotoadau at ddinystr Ninifeh, a'r desgrifiad o'i chwymp, a ddarlunir â'r lliwiau mwyaf ysplenydd. Lowth, *Præl.* 21.

NANT, NENTYDD, (nan) ceunant, cornant, aber, afonig, aberig, ffrwd.—'Wrth y nentydd.' Ezec. 6. 3. Mae yr Arglwydd yn llefaru yn yr adnod wrth bethau difywyd; megys y mynyddoedd, y dyffrynoedd, a'r nentydd, lle y bu Israel yn pechu, er argyhoeddiad i Israel wrthnysig, y rhai na wrandawent ar yr Arglwydd, ac ni ufuddhaent iddo.

NAOMI, נעמי (*prydferth, tirion*) gwraig Elimelech; ymdeithiasant yn ngwlad Moab o herwydd y newyn yn Judea. Hanes eu treigliad yno, a'r dygwyddiadau canlynol, a dychweliad Naomi oddi yno wedi marw Elimelech a'i dau fab, yn nghyd â'i dwy ferch yn nghyfraith, a adroddir yn gyflawn ac yn hardd yn llyfr Ruth. Y mae yn ymddangos yn wraig synwyrol a duwiol; ac wedi cyfarfod â llawer o bethau anhyfryd yn yspaid ei bywyd; ond y mae hwyr ei bywyd yn dirion ac yn ddigwmwl. Tebygol mai anghrediniaeth y ddau a barodd iddynt fyned i wlad Moab, a chwerwder a fu y canlyniad o ddilyn y cyfryw arweinydd: ond y mae rhagluniaeth ddirgelaidd yn gweithredu yn a thrwy y cwbl, ac y mae amcanion yr Arglwydd tu ag at ei eglwys yn gyffredinol, a phersonau neillduol, yn cael eu cyflawni yn hawdd ac yn ogoneddus. Trwy grwydriad anghrediniol y ddau hyn i wlad Moab, cyrchwyd Ruth oddi yno, a dygwyd hi i wybodaeth o'r gwir Dduw, ac i gael yr anrhydedd o fod yn un o hynafiaid y Messïah. Edr. Boaz, Elimelech, Mahlon, Chilion, Ruth.

NAPCYN—AU, *Saes.* Napkin; cadach, moled. Y gair *Gr.* *σουδαριον*, a gyfleithir *napcyn*, *napcynau*, sydd o'r gair *Llad.* Sudarim, ac yn arwyddo *chwys-lïan*. Luc 19. 20. Ioan 11. 44. a 20. 7. Actau 19. 12.

NAPHIS, נפיס [*enaid*] mab Ismael. Gen. 25. 15. 1 Cron. 1. 31.

NAPHTALI, נפתלי [*fy ymdrech*] chweched mab Jacob o Bilha, llaw-forwyn Rahel. Gen. 30. 7, 8. Ei feibion oeddynt Jahseel, Guni, Jazer, a Silem. Nid oes ond ychydig hanes am fywyd Naphtali. Wrth fendithio Naphtali, Jacob a ddywedodd 'Naphtali sydd ewig wedi ei gollwng, yn rhoddi geiriau têg.' Gen. 49. 21. Annhebyg i'r ŷch a'r asyn: yn hoffi rhyddid ac esmwythder; yn garedig, yn wenieithus, ac yn druthgar; yn fywiog ac yn hedog; ac yn fwy tueddol i lawenychu mewn llwyddiant, nag i ymdrechu am dano; yn tebygu i ymbiliwr yn hytrach nag i filwr. Yr oedd Baruch a llawer o'i filwyr o'r llwyth hwn; y rhai, er iddynt ymladd yn lew yn y diwedd, oeddynt fel ewig, yn ofnus ar y cyntaf. Heblaw y rhai hyn, nid ydwyf yn adgofio am ddim rhyfelwyr o'r llwyth hwn. Rhifedigion y milwyr o'r llwyth hwn pan ddaeth allan o'r Aipht oeddynt 53,400, a'u cadben oedd Ahira mab Enan. Num. 2. 29, 30. Lleihasant yn yr anialwch i 45,400. Dan, Aser, a Naphtali, oeddynt yn gwersyllu tu a'r gogledd yn yr anialwch, a hwynt-hwy oeddynt yn cychwyn ddiweddaf yn eu teithiau. Yspïwr y llwyth hwn oedd Nahbi mab Fophsi. Num. 13. 14. Moses yn bendithio y llwythau, a ddywedodd am y llwyth hwn, 'O Naphtali, llawn o hawddgarwch, a chyflawn o fendith yr Arglwydd; meddianna di y gorllewin a'r dehau.' Deut. 33. 23. Yr oedd etifeddiaeth y llwyth hwn i'r dehau i lwyth Dan, er ei bod y parth gogleddol i wlad Canaan, ac yn agos i fôr Tiberias, fel y dichon y gair a gyfleithir *gorllewin* arwyddo. Yr oedd i'r dehau i Libanus, ac o du y gorllewin i foroedd Meroma, Tiberias, ac yn wlad fras iawn. Hiram, y gôf pres, yn adeiladu y deml yn nyddiau Solomon, oedd o'r llwyth hwn. Dygwyd y rhan fwyaf o honynt yn gaethion gan Tiglath-Pileser. 2 Bren. 15. 29. Yn Esa. 9. 1. prophwydir y byddai iddynt weled goleuni yr efengyl trwy weinidogaeth Crist a'i apostolion. Mat. 3. 13, 14, 15. Gwelsant

Digitized by Google

oleuni mawr, trwy fod Crist ei hun yn eu plith, ac yn gweinidogaethu yn fwy aml yno nag yn un parth arall o'r wlad.

NAPHTUHIM, נפתחים [*agoriadau*] pedwerydd mab Mizraim. Gen. 10. 13. Preswyliodd yn yr Aipht a'r parth hwnw o Ethiopia rhwng Siene a Meroe, o ba un Napata, neu Napatea, oedd y brif ddinas.

NARCISSUS, *Gr.* Ναρκισσος [*syndod*] 'Anerchwch y rhai sydd o dylwyth Narcissus. Rhuf. 16. 11. Pwy oedd y gwr hwn sydd ansicr; ac nid yw amlwg ei fod yn Gristion, ond yn unig fod ei dylwyth neu ei deulu felly, neu *rai* o honynt. Yr oedd i'r Ymerawdwr Claudius anwyl-ddyn o'r enw hwn; a hwyrach i'r efengyl ddyfod i deulu hwn fel teulu Cesar, a mynu rhai o gaethion pechod yno yn rhydd i Grist, ac i undeb âg ef.

NARD—US, *Heb.* נרד *Groeg* ναρδος. Llysieuyn pêr-arogl yn India, yw y nard, a'i wreiddyn yn fychan, ei baladr yn hir ac yn fain, ac amryw dywysenau (*spikes*) iddo yn wastad ar lawr, am hyny gelwir ef *spikenard;* y mae ei archwaeth yn chwerw, ond ei arogl sydd yn hyfryd-bêr;* arferir ef yn feddyginiaethol ac i'w arogli.

'Daeth gwraig a chanddi flwch o enaint o nard gwlyb gwerthfawr.' Marc 14. 3. Ioan 12. 3. 'A chenthi vlwch o oleo spincnard gwerth-vawr.' W. S. a Dr M.—'*Having an alabaster box of ointment of spikenard very precious.*' *Saes.* ναρδος πιστικος. Llawer o ddadleu sydd wedi bod, ac yn bod, ynghylch ystyr y gair πιστικος, a gyfleithir *gwlyb* yn ein cyfieithiad ni. Pur, digymysg, medd Theophilact, Jerome, Suicer, a Parkhurst, oddiwrth y gair πιστις, *ffyddlawn, cywir.* Schleusner, ac eraill, a farnant ei fod yn arwyddo *gwlyb, yfadwy,* oddiwrth y gair πιω; neu *gwasgedig,* oddiwrth πιεζω. Leigh's *Crit. Sacr.* Beth bynag, y mae yn amlwg ei fod yn *wlyb,* a diammeu ei fod yn *ddigymysg,* ac yn fath oreu oedd i'w gael; am hyny yn *werthfawr,* yn ol y cyfieithiad Saesonaeg. Edr. Blwch, Simon.

'Fy nardus! a rydd ei arogl.' Can. 1. 12. a 4. 14. Wrth y nardus, meddylir gras yr Ysbryd yn yr eglwys, yn gweithredu yn fywiog ac yn beraidd, pan yw Crist, brenin a phriod Sion, yn cymdeithasu ac yn gwledda gyda hi. Nid yw Crist byth gyd â'i eglwys, nac un aelod o honi, heb dywalltiad neillduol o'r Ysbryd Glân yn amlygu Crist, ac yn adfywio pob peth sanctaidd yn yr holl enaid, ac y mae y cyfryw ymweliadau dwyfol yn peri y fath effeithiau sanctaidd, fel y mae geiriau a rhodiad y cyfryw yn arogli yn beraidd ac yn hyfryd i bawb yn caru sancteiddrwydd oddi amgylch iddynt. Yn pen. 4. 14. mae y nardus yn arwyddo y llysieuyn ei hun, ond yma yn pen. 1. 12. y mae yn arwyddo yr olew peraidd a wesgir o hono. Hwyrach mai Crist a feddylir wrth y naill, a'r Ysbryd Glân, sef Ysbryd Crist, wrth y llall. Sanctius *in loc.*

NAS, (na-ys) yr un ystyr a na; ond pan arferir ef, y mae yn cadw gwreiddyn y gair sydd yn canlyn heb gyfnewid y cydseiniaid sydd yn ei ddechreu; megys nas delo mo'ni, yn lle na ddelo mo'ni.—'Beth a wyddost ti, a'r nas gwyddom ni,' yn lle a'r na wyddom ni. Job 15. 9.—'Yr hwn, er nas gwelsoch,' yn lle er na welsoch. 1 Petr 1. 8.

Nid tylawd ond *nas* cymer. *Diar.*

NATUR—IAETH—OL, *Llad.* Natura; *Saes.* Nature; nawd, notur, naws, anian; naturiaeth, rhyw, math, bath; hanfod peth, a'i briodoliaethau; cyflëad unrhyw gorph neillduol: y byd, y bydysawd. 1. Sylwedd, neu ranau sylweddol, a phriodoliaethau. Heb. 2. 16. Gal. 4. 8.——2. Trefn pethau a bodau, yn ol gosodiad Duw yn y byd hwn; neu helynt, neu r dfa pethau yn ol y gosodiad hwn; syniadau naturiaeth. Rhuf. 1. 26, 27. 1 Cor. 11. 14.——3. Genedigaeth, neu achau naturiol. Gal. 2. 15. Rhuf. 2. 27.——4. Rheswm a chydwybod naturiol mewn dyn. Rhuf. 2. 14, 15. Y mae y cynneddfau, neu y galluoedd hyn, yn hanfodol i enaid dyn; neu y mae yn perthyn i'r enaid anfarwol mewn dyn weithredu felly. Nid oes rhanau mewn enaid, fel yn y corph, ond y mae yn briodol i enaid ddeall, serchu, ewyllysio, synio, a barnu ei weithredoedd ei hun: rhaid difodi enaid cyn y collo yr addasrwydd sydd ynddo i'r cyfryw weithrediadau; er y dichon fod attalfa, annhrefn, a rhwystr, yn y galluoedd hyn yn eu gweithrediadau, trwy afiechyd corphorol, &c. Tra byddo enaid gan ddyn, rhaid bod cydwybod gan ddyn yn cyd-dystiolaethu, a'i feddyliau yn ei gyhuddo, neu yn esgusodi; canys y mae yn perthyn i hanfod enaid weithredu felly. Gan fod dyn wedi cael ei wneuthur dan y ddeddf yn ei greadigaeth, fel rheol ac fel cyfammod, y mae perthynas yn parhau rhwng dyn a'r ddeddf hòno, ac y mae y ddeddf mewn ystyr wedi ei hysgrifenu ar ei galon, a'i gydwybod yn ei gyhuddo am ei thòri, a'i anghydffurfiad â hi; ond gan fod ei ddeall yn dywyll, a gŵyrni pechadurus yn ei feddwl, a'i gydwybod yn dueddol, yn farwaidd, ac yn ddideimlad, y mae yn cyhuddo ac yn esgusodi ei hun yn dywyll, yn dueddol, ac yn anaddas iawn: ond y mae prawf digonol ynddo ei fod yn bechadur euog. Edr. Deddf. Barna rhai fod yr apostol yn meddwl wrth 'y cenedloedd' yn y fau hon, y cenedloedd dychweledig, crediniol; ond nid yw yr esboniad hwn yn ymddangos i mi yn gyson â'r mater y mae yr apostol yn ei gylch, sef profi fod Iuddewon a Chenedloedd yn euog ger bron Duw, a bod Duw yn barnu y naill a'r llall yn gyfiawn heb dderbyn wyneb. Gwel Parkhurst dan y gair φυσις. Naturiol, yw peth sydd yn un â deddf a threfn natur, neu yn ol tueddiad naturiaeth. Rhuf. 1. 27.

'Fy mab naturiol yn y ffydd.' 1 Tim. 1. 2. Tit. 1. 4. 'Fy mab anwyl.' Dr M. 'Vy anianol vap.' W. S. Geilw yr apostol Timotheus a Titus yn feibion yn yr un ystyr ag y geilw Onesimus felly, yr hwn a genedlodd yn ei rwymau. Philemon 10. Meddai wrth y Corinthiaid, 'Myfi a'ch cenedlais chwi yn Nghrist Iesu, trwy yr efengyl.' 1 Cor. 4. 15. Wrth *naturiol,* y meddylir *cywir, ffyddlon,* ac yn tebygu iddo mewn tueddfryd, ffydd, cariad, ffyddlondeb, a zel, i daenu yr efengyl: nid bastarddiaid oeddynt, nid rhagrithiol, nid hannerog, ac anffyddlon, yn gofalu am yr eiddynt eu hunain, ac nid am eiddo Crist. Dywed Paul am Timotheus, 'Nid oes genyf neb o gyffelyb feddwl!' Phil. 2. 20.

'Ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint megys eraill.' Ephesiaid 2. 3. 'Wrth anian.' W. S. Wrth 'naturiaeth,' y mae yr apostol yn eglur yn meddwl, y cyflwr yr oeddynt ynddo cyn eu cadw trwy ras. Arwydda, nid yn unig eu cyflwr trwy enedigaeth naturiol, ond y mae yn cynnwys y cyflwr yr oeddynt ynddo eu holl ddyddiau wedi hyny, hyd nes y bywhawyd, ac yr achubwyd hwynt trwy ras; yr oeddynt wrth naturiaeth yn gwneuthur ewyllysiau y cnawd, a'r meddyliau, a thrwy hyny yn parhau yn blant digofaint, nes eu hachub gan Dduw.—1. Yr oedd eu natur wedi ei halogi gan bob math o chwantau cnawd ac ysbryd.——2. Yr oeddynt wedi eu halogi felly, nid trwy arddullio eraill â defod yn unig, ond trwy enedigaeth.——3. Yr holl amser yr oeddynt yn cyflawni ewyllysiau y cnawd, a'r meddyliau, yr oeddynt yn blant digofaint. Yr oedd dyn wrth naturiaeth yn sanctaidd yn ei greadigaeth, ond pan gollodd ddelw Duw, y mae wrth naturiaeth yn bechadurus: y mae yn gweithredu yn bechadurus, mor naturiol ag yr oedd yn gweithredu yn sanctaidd o'r blaen. Y mae natur

* Three Dissertations may be found in the *Asiatic Researches, vol.* ii. and *vol.* iv. on the true Spikenard.

Digitized by Google

oblegid fod y naturiaeth ddynol, er cwymp Adda, yn mhawb yr un fath yn bechadurus. Y mae pob dyn yn byw, yn rhodio, ac yn gweithredu, yn ol ei naturiaeth, ac am fod ei naturiaeth yn bechadurus, y mae yntau wrth naturiaeth yn gweithredu yn bechadurus; ac am hyny, y mae wrth naturiaeth yn blentyn digofaint: gan hyny, os achubir un byth o blant dynion, rhaid ei achub trwy ras yn unig, heb ei ryglyddu, ac heb roddi dim help iddo yn ei weithrediadau. Beth bynag yw un dyn, heblaw bod yn blentyn digofaint, o ras yn unig ac yn gwbl y mae.

NATHAN, נתן [*rhodd*] 1. Mab Dafydd o Bathsua merch Ammiel, a thad Mattatha. 2 Sam. 5. 14. 1 Cron. 3. 5. Luc 3. 31.——2. Prophwyd enwog yr Arglwydd, a chyfaill cyfrinachol Dafydd. 2 Sam. xii. 1 Bren. 4. 5. 1 Cron. 29. 29. 2 Cron. 9. 29. Edr. DAFYDD.——Y mae amryw eraill o'r enw. Gwel 2 Sam. 23. 36. 1 Cron. 11. 38. 1 Bren. 4. 5. Ezra 8. 16.

NATHANIEL, נתנאל [*rhodd Duw*] cofféir am amryw o'r enw hwn yn yr ysgrythyrau; megys tywysog llwyth Issachar. Num. 1. 8. a 7. 18, 19.—— Pedwerydd mab Jesse, a brawd Dafydd. 1 Cron. 2. 14. ——Mab Obed-Edom. 1 Cron. 15. 24. a 26. 4. Gwel hefyd 2 Cron. 17. 7. 1 Cron. 24. 6. 2 Cron. 35. 9. Ezra 10. 22. Edr. BARTHOLOMEUS.

NATHAN-MELECH, נתן־מלך [*rhodd y brenin*] ystafellydd Manasseh, brenin Judah. 2 Bren. 23. 11.

NAW—FED, (ny-aw) *Gr.* εννεα; *Llad.* NOVEM; *Saes.* NINE: un llai na deg.

> Tri caled byd; maen cellt, dur *naw* gwynias, a chalon mab y crinwas. *Barddas.*

Y '*nawfed awr*,' oedd amser yr aberth prydnawnol yn y deml, a'r awr y bu Crist farw ar y groes. Croeshoeliasant ef ar y drydedd awr, sef yn nghylch naw o'r gloch, amser yr aberth boreuol; daeth y tywyllwch goruwch-naturiol ar yr holl ddaear ar y chweched awr, sef yn nghylch hanner dydd, ac a barhaodd hyd y nawfed awr, sef oddeutu tri o'r gloch prydnawn, pan y gwaeddodd Crist, 'Gorphenwyd!' ac y rhoddodd i fynu yr ysbryd: fel hyn yr ymddengys fod Crist ar y groes am chwe awr, o amser yr aberth boreuol, hyd amser yr aberth prydnawnol. Mat. 27. 46. Marc 15. 25—44. Dywed Ioan, pen. 19. 14. '*Yn nghylch y chwechedd awr*' oedd pan draddododd Pilat ef. Barna rhai mai yn nghylch chwech o'r gloch y boreu a feddylir, yn ol dull y Rhufeiniaid o gyfrif; y chweched awr, yn ol dull yr Iuddewon o gyfrif, oedd deuddeg o'r gloch, pan ddechreuodd y tywyllwch mawr. Eraill a farnant fod cam-ysgrifen, trwy gamsynied llythyren y nôd 3, am ς nôd 6, wrth adysgrifenu gan ryw ysgrifenydd. Ond barna Campbell y gellir cymmodi y ddau hanes yn oddefol â'u gilydd, trwy olygu pob un o'r ddau yn llefaru gyda gradd o ëangder, fel y mae yn eglur fod Ioan. 'Y drydedd awr oedd hi,' gellir barnu, wrth y geiriau, fod y drydedd awr wedi myned heibio; '*Yn nghylch* y chweched awr,' geill y geiriau arwyddo nad oedd y chweched awr, etto, gwedi dyfod. Gwel Campbell, Macknight, Scott. Eraill a farnant fod dwy ffordd gan yr Iuddewon o ranu y diwrnod; sef yn ddeuddeg o oriau, yn dechreu eu cyfrif gyda chodiad yr haul; neu yn bedair rhan, y rhai a alwent y drydedd, y chweched, y nawfed, a'r ddeuddegfed awr; gelwir y rhai hyn hefyd yn oriau; a'r rhai hyn oedd yr oriau cyffredin o fyned i'r deml, neu y synagogau. Gwel *Univer. Hist. vol.* x.

NAWDD, (naw) noddfa, amddiffynfa; diogelwch, nodded, amgeledd; rhagorfaint.

> O'th *nawdd* y daw y doniau hyn,
> I'm canlyn byth yn hylwydd.
> *E. Prys.* (Ps. 23. 6.)

> Goreu *nawdd* dinlweidrwydd. *Diar.*



NAZAREAD—AID, נזר [*neillduo*, neu *ymneillduo*] Nazarëad oedd un wedi ymneillduo oddiwrth yr arferiad o rai pethau, ac wedi ymgysegru i'r Arglwydd. Rhoddir hanes cyflawn yn nghylch hyn yn Num. vi.— 1. Yr oedd i ymgadw oddiwrth win, diod gadarn, a phob peth a wnaed o rawnwin. Gwel adn. 3, 4.— 2. Yr oedd i adael i gydynau ei wallt dyfu. Adn. 5. —3. Yr oedd i ymadw rhag ymhalogi wrth y marw. Adn. 6, 7.—4. Yr oedd i'w ryddhau oddiwrth ei adduned, pan gyflawnid dyddiau ei Nazarëaeth, trwy ddwyn offrwm at ddrws pabell y cyfarfod. Adn. 13.

Yr oedd rhai yn Nazarëaid trwy neillduad Duw; megys Samson ac Ioan Fedyddiwr; ac eraill trwy osodiad, neu adduned dynion, megys Samuel. 1 Sam. 1. 11. A rhai dros eu holl fywyd, fel y tri hyn; ac eraill dros amser, yn ol y cyfreithiau yn y bennod uchod. Y mae y geiriau 'ymneillduo i'r Arglwydd,' yn dangos fod dyben a defnyddioldeb y cyfryw addunedau yn grefyddol, er cynnydd ffydd a sancteiddrwydd, ac er cydnabyddiaeth ddiolchgar i'r Arglwydd, gwedi derbyn bendithion oddi wrtho. 1 Sam. 1. 11—28. Am hyny, sylwir arno fel ffafr neillduol oddiwrth Dduw i'w bobl, pan gyfodai y cyfryw yn eu plith, fel y dywed efe, 'Cyfodais o'ch meibion chwi rai yn brophwydi, ac o'ch gwyr ieuainc rai yn Nazarëaid.' Amos 2. 11. Yr oeddynt yn cael eu golygu yn fendith gyffredinol, trwy eu gweddïau, eu siamplau, a'u haddysgiadau; ac yn arwydd cyhoeddus o ras Duw, pan y tywalltai y cyfryw ysbryd ar neb.

Er nad oedd yr Arglwydd Iesu yn Nazarëad, yn ol y gorchymyn cnawdol hwn, (fel y dywed yr apostol am ei offeiriadaeth, Heb. 7. 16.) etto yr oedd yn sylwedd y cysgod hwn, ac yn rhagori ar yr holl Nazarëaid yn ei sancteiddrwydd difesur a digymysg, a'i ymneillduad gan Dduw, a chanddo ei hun, dros ei holl fywyd, yn gwbl i waith Duw, ac yn fendith neillduol i'r byd, ac yn siampl i'w bobl i ddilyn ei ôl. Yr oedd yn neillduedig ac yn ddihalog oddiwrth weithredoedd meirwon, neu bechadurus, a phob awdurdod ganddo yn y nefoedd ac ar y ddaear, yr hyn yr oedd gwallt llaes yn arwydd o hono. Cymh. 1 Cor. 11. 4, 7. yn Groeg.

'Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedasid trwy y prophwydi, y gelwid ef yn Nazarëad.' Mat. 2. 23. Nid ydyw yr efengylwr yn coffâu un brophwydoliaeth neillduol am y geiriau hyn (fel pen. 1. 22.) ond yn unig yr hyn a ddywedwyd gan y prophwydi yn gyffredinol. Priodolir yr un gair *Heb.* נזר *nazar* i Joseph; נזר אחיו *yr hwn a neillduwyd oddiwrth ei frodyr*. Gen. 49. 26. Deut. 33. 16. Neillduwyd pob un o'r ddau oddiwrth eu brodyr, pan werthwyd un, a phan ffôdd y llall i'r Aipht; a gorfu ar Grist, rhag ofn Archelaus, breswylio yn Nazareth yn Galilea, wedi ei neillduo oddiwrth ei lwyth ei hun, Judah, enw yr hon a roddwyd yn brophwydoliaethol gyda golwg ar hyn, i arwyddo ei ffoad a'i neillduad.

Gelwir Samson hefyd, yr hwn oedd yn gysgod o Grist, yn 'Nazarëad o'r groth.' Barn. 13. 5. Edr. JOSEPH, SAMSON. Rhai a farnant yr enw hwn yn cyfeirio at y gair *Heb.* נצר *blaguryn*, ac yn meddwl fod yr enw yn cyfeirio at y prophwydoliaethau am Grist dan yr enw hwnw. Esa. 11. 1. a 60. 21. Jer. 23. 5. Zech. 6. 12.

Rhoddwyd yr enw hwn mewn ffordd o ddirmyg ar Grist a'i ganlynwyr, gan Iuddewon a Chenedloedd. Rhoddwyd yr enw hwn, yn aml, ar Grist, mewn ffordd o ddiystyrwch; am eu bod yn barnu iddo ddyfod o'r ddinas hon: ac yr oedd ei waith yn myned ac yn preswylio yno, yn un achlysur o'i ddirmygu a'i ddiystyru gan yr Iuddewon. Ioan 1. 46. a 7. 42. a 18. 5. Act. 6. 14. a 24. 5. Mat. 26. 71. Ps. 69. 9, 10. Cyfarwyddodd yr angel ef i'r ddinas wael ddirmygedig hon, fel trwy hyny y cai enw o ddiystyrwch a dirmyg ei roddi arno, yn ol crybwylliad aml y prophwydi.

Digitized by Google

Gwel Whitby. Wrth yr ysgrifen ar ei groes, cyhoeddodd Pilat ef, mewn ffordd o ddirmyg, diammeu, wrth yr enw hwn, 'Iesu o Nazareth, Brenin yr Iuddewon.' Ioan 19. 19. Ond etto, gan nad oedd yr enw hwn arno bob amser yn cario diystyrwch ynddo, (Gwel Marc 1. 24. a 16. 6. Luc 4. 34. a 24. 19. Ioan 18. 5. Act. 2. 22. a 3. 6. a 4. 10. a 22. 8.) mwy tebygol fod yr enw yn arwyddo, mai efe oedd gwrth-gysgod mawr yr holl Nazarëaid gynt. Fel hyn y rhagfynegwyd, mewn effaith, nid gan un, ond gan y prophwydi yn gyffredinol, nid yn unig y byddai i Grist gael ei ddirmygu a'i ddiystyru, ond y byddai efe, er hyny, yn *wir Nazarëad*, gwrth-gysgod mawr y lleill, ac yn rhagori yn ddifesur arnynt oll. Tra yr oedd yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid yn ei ddiystyru a'i wawdio dan yr enw hwn, yr oedd rhagluniaeth yn cyfeirio ato fel y gwir Nazarëad, oddiwrth yr achlysur o'i fod yn trigo yn Nazareth, neu ddinas y Nazareaid.

Drachefn, mae rhai yn golygu ansawdd y gair oddiwrth ystyr y gair *Heb.* נצר *cadw, ceidwad.* 'Myfi a bechais, beth a wnaf i ti (נצר האדם) *O Geidwad dyn?*' Job 7. 20. 'A'r hwn sydd (נצר נפשך הוא ידע) *yn cadw dy enaid, oni ŵyr efe?*' Diar. 24. 12. Gwel hefyd Ps. 31. 24. Esa. 27. 3. Y lleoedd hyn yn y prophwydi, yn mha rai y gelwir yr Arglwydd נצר *nasar*, oedd gan Matthew yn ei olwg, wrth alw Crist, ο Ναζαρηνος, *y Nazarëad*, neu *y Ceidwad.* נצר חסד 'yn cadw trugaredd,' neu *ceidwad*, neu *ystordŷ trugaredd.* Galwyd y Messïah felly gan y prophwydi yn y lleoedd uchod, a chafodd yr Iesu yr enw oddiwrth ei drigfan, Nazareth.

Yr Iuddewon a'r Mahometaniaid a alwant y Cristionogion hyd heddyw, Y Nazareaid.——Yr oedd plaid o gyfeiliornwyr yn y prif oesoedd, a alwent yn fwy priodol wrth yr enw hwn, y rhai a gymysgent Gristionogrwydd â'r defodau Iuddewig.

NAZARETH, נצרת [*blodeuog*] dinas yn llwyth Zabulon, o du y gorllewin i fynydd Tabor, yn Galilea, ac yn nghylch deng milltir a thriugain o Jerusalem. Yr oedd y ddinas yn sefyll ar fryn, ac yr oedd dibyn y naill ochr iddi. Yn y ddinas hon yr oedd y Forwyn Fair yn trigo, ac y cenedlwyd dynoliaeth Crist. Yma y magwyd ef, y preswyliodd, ac y gweithiodd, mewn ymostyngiad i'w rïeni, dros ddeng mlynedd ar hugain o'i fywyd. Pan ddechreuodd weinidogaethu yn gyhoeddus, pregethodd weithiau yno, yn y synagog. Luc 4. 16. Ond oblegid diystyrwch ei gyd-ddinasyddion o'i genadwri, a gwaeledd ei ymddangosiad, eu diffyg o ffydd ynddo, a'u hymgais yn foreu i'w ladd, trwy ei fwrw ef bendramwnwgl dros ael y bryn yr oedd eu dinas wedi ei hadeiladu arno, gadawodd Nazareth, a thrigodd yn Capernaum. Mat. 4. 13. a 13. 54—58. Yr oedd yn lle nid anenwog dros ddeuddeg cant o flynyddoedd wedi Crist, ond y mae yn bresennol yn bentref bychan, yn cynnwys ychydig o drigolion o Babyddion a Mahometaniaid. Nid gwiw adrodd hanes ffugiol y Pabyddion am symudiad tŷ Mair gan angelion oddi yno i Dalmatia, oddi yno i Recanati, ac oddi yno i Loretto, lle yr adeiladwyd eglwys iddi, a elwir Loretto hyd heddyw.

NEAH, *Heb.* נעה [*dinas*] dinas yn Zabulon. Jos. 19. 13.

NEAPOLIS, Νεαπολις, [*dinas newydd*] dinas yn Macedonia, a elwir yn bresennol Napoli. Act. 16. 11.

NEARIAH, נעריה [*un ieuanc*] pummed mab Sechaniah. 1 Cron. 3. 22. a 4. 42. Un o'r rhai a darawsai weddill yr Amaleciaid yn mynydd Seir.

NEB, (ny-eb) *Llad.* Nemo; neb un, nebawd, neb dyn; rhyw un, pwy bynag. Y neb a elo, pwy bynag elo.—'Fel y gwypech nad oes neb fel yr Arglwydd ein Duw ni.' Exod. 8. 10. Esa. 47. 8.

NEBAIOTH, נביות [*prophwydoliaethau*] mab cyntaf-anedig Ismael. Gen. 25. 13. Edr. Ismael.—'Hyrddod Nebaioth a'th wasanaethant,' &c. Esa. 60. 7. 'Yr hyrddod a ânt o honynt eu hunain ar yr allor,' medd Vitringa; sef pendefigion gwlad Nebaioth, neu Arabia; cânt eu dychwelyd at yr Arglwydd, ac offrymant eu hunain yn ewyllysgar i waith yr Arglwydd.

NEBALAT, נבלט [*yr hwn sydd yn ffrwythloni*] dinas yn llwyth Benjamin. Neh. 11. 34.

NEBAT, נבט [*yr hwn a genfydd*] gwr o lwyth Ephraim, tad Jeroboam, y brenin cyntaf ar y deg llwyth. 1 Bren. 11. 26.

NEBO, [*yr hwn sydd yn prophwydo*] 1. Mynydd tu hwnt i'r Iorddonen, lle bu Moses farw. Deut. 32. 49.——2. Dinas yn llwyth Reuben. Num. 32. 38. Un arall yn llwyth Judah. Ezra 2. 29. a 10. 43. Neh. 7. 33.——3. Nebo, neu Anambo, eilun-dduw y Babiloniaid. Esa. 46. 1. Yr un a Bel, medd Calmet; cyfieitha y LXX. y gair *Dagon.* Y mae Nebo yn rhan gyfansoddol o amryw enwau Caldeaidd; megys Nabonasar, Nabopolasar, Nebuchodonosor, Nebuzaradan, Samgar-Nebo, &c. Jer. 39. 3, 13. Oddiwrth hyn ymddengys ei fod yn eilun mewn cymeradwyaeth mawr.

NEBPELL, (pell) heb fod yn mhell, encyd o ffordd.—'Ac efe weithian heb fod yn nebpell oddiwrth y tŷ.' Luc 7. 6.—'Ac ef yn awr eb vot yn y-pell y wrth y tuy.' W. S.

NEBUCHODONOSOR, נבוכדנאצר *Nebucadnatsar*, [*griddfanau barn*]. Yr oedd hwn yn enw cyffredin ar freninoedd Babilon, fel Pharaoh ar freninoedd yr Aipht; ond yma ni soniaf ond am y Nebuchodonosor mab Nebuchodonosor, neu Nabopolasar, yr hwn sydd mor hynod o nodedig yn yr hanesiaeth sanctaidd; ac am fod llawer o hanes hwn yn cael ei roddi o angenrheidrwydd dan eiriau eraill, nid oes achos helaethu drachefn arnynt yma. Edr. Babilon, Belsassar, Daniel, Sadrach, &c. Daeth i'r orsedd yn ieuanc. Gwedi i Pharaoh-Necho, brenin yr Aipht, gymeryd Charchemis, ar yr afon Euphrates, y Phenieiaid a'r Syriaid, wedi eu darostwng ychydig o'r blaen, a wrthryfelasant yn erbyn brenin Babilon. Nabopolasar a anfonodd ei fab â llu mawr i'w ddarostwng drachefn. Y mae yr Iuddewon yn cyfrif ei deyrnasiad yn dechreu y flwyddyn hon, cyn i'w dad farw ddwy flynedd, yr hon oedd y bedwaredd flwyddyn i Jehoiachim, brenin Judah. Ond nid ydyw y Babiloniaid yn cyfrif ei deyrnasiad yn dechreu tan ar ol marwolaeth ei dad; fel y mae dwy flynedd rhwng y ddau gyfrif: y mae yn angenrheidiol sylwi ar hyn, gan y sonir am y ddau gyfrif yn yr ysgrythyrau. Yn niwedd y drydedd flwyddyn i Jehoiachim y cychwynodd i'r daith hon; a'r bedwaredd flwyddyn i *Jehoiachim* oedd y gyntaf i Nebuchodonosor. Dan. 1. 1. Ennillodd fuddugoliaeth gyflawn ar yr Aiphtiaid wrth Charchemis, adgymerodd y lle, a tharawodd y gwarchawdlu â min y cleddyf. Wedi hyny, â llu o 180,000 o wyr traed, a 120,000 o wyr meirch, anrheithiodd Phenicia a gwlad Canaan, cymerodd Jerusalem, a rhwymodd Jehoiachim â chadwynau, ac a'i dygodd yn gaeth i Babilon; ond gwedi hyny adferodd ef i'r deyrnas, fel caeth-ddeiliad i frenin Babilon. Dygodd i Babilon, Daniel, Hananiah, Misael, ac Azariah, ac eraill o dywysogion Judah. 2 Bren. xxiv. a Dan. i. (Gwel yr amrywiol enwau.) Yn nghylch A. M. 3399, bu farw ei dad, a theyrnasodd yntau ei hun ar ei ol. Yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad y cafodd y breuddwyd rhyfedd a ddehonglodd Daniel, pen. ii. Edr. Babilon, Media, Persia, Groeg, Rhufain. Cyaxeres, brenin Media, a roddodd ei ferch Amyitis

Digitized by Google

yn wraig i Nebuchodonosor; wedi hyny ymunasant eu byddinoedd yn erbyn Ninifeh, a dinystriasant hi yn hollol. Gwedi hyny aeth a'i fyddinoedd yn erbyn Jehoiachim brenin Judah, yr hwn a ymostyngodd iddo. Edrych **Joachin, Jerusalem.** Gwedi hyn gwrthryfelodd Zedeciah yn erbyn brenin Babilon, ond a orchfygwyd, ac anrheithiwyd yn llwyr y ddinas a'r wlad. Edr. **Zedeciah, Riblah, Jeremiah.** Yn nghylch yr amser hwn, hwyrach, sef yn nghylch yr ugeinfed flwyddyn o'i deyrnasiad, â'r aur a gasglodd yn y rhyfeloedd, y gwnaeth y ddelw fawr yn ngwastadedd Dura. Edr. **Delw, Ffwrn.** Yn nghylch yr eilfed ar hugain o'i deyrnasiad, yr aeth yn erbyn Tyrus, ac wedi gwarchae arni dair ar ddeg o flynyddoedd, a'i cymerodd, ac a'i dinystriodd. Edrych **Tyrus.** Yn nghylch pymtheg ar hugain o'i deyrnasiad, y gorphenodd adeiladau rhyfedd Babilon fawr. Edr. **Babilon.** Gwelodd freuddwyd rhyfedd mewn perthynas iddo ei hun, yr hwn a ddehonglodd Daniel, ac a'i cynghorodd i dòri ymaith ei bechodau trwy gyfiawnder, a thrwy ddangos trugaredd i drueiniaid caethion dano, i edrych a fyddai estyniad ar ei heddwch: ond yn anystyriol o gynghor Daniel, parhaodd mor ynfyd a balch ag o'r blaen. Yn mhen deuddeg mis, ac efe yn rhodio yn mreninllys Babilon, ac yn llefaru geiriau chwyddedig, a'r geiriau yn ei enau, syrthiodd llef o'r nef, yn dywedyd, 'Wrthyt ti, frenin Nebuchodonosor, y dywedir, Aeth dy freniniaeth oddi wrthyt. A thi a yrir oddiwrth ddynion, a'th drigfa fydd gyda bwystfilod y maes; â gwellt y'th borthant fel eidionau; a chyfnewidir saith amser arnat; hyd oni wypech mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu yn mreniniaeth dynion, ac yn ei rhoddi i'r neb y myno.' Yn yr awr hòno y tarawyd ef â barn Duw; gyrwyd ef oddiwrth ddynion, ac y porodd wellt fel eidionau, &c. Yn niwedd y saith mlynedd adferodd Duw ef i'w synwyr a'i wybodaeth; ymostyngodd yn ddirfawr, a gogoneddodd Dduw y nefoedd. Gwedi ei adferiad, y mae yn llefaru yn oruchel ac yn ardderchog iawn am yr Arglwydd. Dan. iv. Yn nghylch blwyddyn wedi hyny bu farw, yn y drydedd flwyddyn a deugain, neu y bedwaredd a deugain, o'i deyrnasiad. Megasthenes, a gofféir gan Eusebius, *Propar., lib.* 9. *c.* 41, a ddywed iddo cyn ei farwolaeth brophwydo am ddinystr Babilon, ar nen ei balas, yn y geiriau canlynol: 'O Babilon! yr wyf yn cyhoeddi dy ddrygfyd, yr hyn nis dichon ein tad Belus, na'r frenines Belti, ei luddias. Mul o Persia a ddaw ryw ddydd i'r wlad hon, a gynnorthwyir gan Fediad, ac a'ch dug chwi i gaethiwed.' Y mul hwn o Persia oedd Cyrus; yr oedd ei fam yn Fediad, a'i dad yn Bersiad. Cynnorthwywyd ef gan Cyaxares, neu Darius y Mediad.

Yn yr hanes ysgrythyrol am yr ymerawdwr mawr hwn, rhoddir i ni, 1. Siampl hynod o ddull llywodraeth Duw ar blant dynion, ac ar deyrnasoedd y ddaear. Pan fyddo pechodau dynion a theyrnasoedd yn eu haddfedu i farn, y mae yn codi offerynau, ac yn eu defnyddio i'w cospi: ac er bod yr offerynau yn gweithredu yn bechadurus, yn greulawn, ac o ddybenion pechadurus, etto y mae Duw yn berffaith sanctaidd a chyfiawn wrth eu defnyddio: llygredigaeth sydd yn gweithredu ynddynt hwy, ac yn llywodraethu arnynt; etto y mae holl lwybrau Duw yn farn, cyfiawnder, ac uniondeb. Gwelwn yr anghenfil hwn yn ei holl rwysg, ei fawredd, a'i ynfydrwydd, yn cael ei lywodraethu yn ddirgelaidd ac yn hawdd gan y Duw mawr, i gyflawni ei amcanion doeth ei hun.

2. Gwelwn ynddo siampl hynod o'r graddau diderfyn o ynfydrwydd pechadurus y dichon dyn fyned iddynt, ond iddo gael ei adael yn ddiattalfa i ddilyn ei lwybr ei hun. Gwelwn ynddo bryfyn gwael yn ymchwyddo yn ei lwyddiant yn nghanol pryfed fel efe ei hun, ac yn ymddyrchafu yn erbyn Duw y nefoedd, i'r hwn yn unig y perthyn mawredd. Canfyddwn ynddo ddangosiad neillduol o'r hyn ydyw Satan, ond mewn graddau mwy cyfatebol i ragoroldeb a galluoedd ei natur rhagor dyn. Er mai Duw a'i llwyddodd yn mhob peth, etto priodola efe bob peth iddo ei hun, fel pe na buasai un Duw yn bod.

3. Gwelwn, hefyd, mai cwbl wagedd yw pob dyn pan fo ar y goreu. Y mae yn hollol ddibynol ar Dduw am bob peth, a geill Duw ei ddifeddiannu o'i synwyrau, ac o bob peth arall, mewn mynyd; ie, ei iselhau yn is na'r anifel.

4. Gan nad oes le i ammeu ei fod wedi, nid yn unig ei adferyd i'w synwyrau naturiol, ond hefyd ei wir ddychwelyd at yr Arglwydd trwy ffydd a gwir edifeirwch; y mae yn siampl hynod hefyd o allu, helaethrwydd, a rhadlonrwydd gras a thrugaredd achubol Duw. Trwy gynlluniau y cyfryw a hwn, y mae Duw yn dangos, o oes i oes, 'ragorol olud ei ras, trwy ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu.' Rhyfedd fath agwedd hardd, dirion, brydferth, y mae gras Duw yn ei weithredu ar ddynion! y mae yn ei ddwyn i'w iawn bwyll, yn ei dirioni, yn ei ddyrchafu, ac yn ei ardderchogi yn hynod. Y mae iaith y brenin hwn am dano ei hun yn addas; yn ei fychanu ac yn ei waradwyddo ei hun ger bron yr holl fyd: ac am Dduw, y mae yn llawn o fawredd, parch, ac addoliad, yn gweddu i'r gwrthddrych anfeidrol.—Am ychwaneg o hanes y gwr hwn, gwel Prideaux, Rollin, a'r *Universal History.*

NEBUSASBAN, נברשובן [*ffrwythau yn gwasgaru*] un o benaethiaid y brenin Nebuchodonosor, y rhai a anfonodd efe i gymeryd Jeremiah allan o'r carchardy, ac a'i rhoddasant i Gedaliah i'w ddwyn adref. Jer. 39. 13.

NEBUZARADAN, *Heb.* נברזובן [*ffrwythau barn*] distain Nebuchodonosor, a phenaeth y milwyr yn cymeryd ac yn dystrywio Jerusalem. Dangosodd ar yr achos lawer o garedigrwydd i'r prophwyd Jeremiah. 2 Bren. xxv. Jer. xxxix, xl.

NECEB, נקב [*yn tyllu*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 33.

NECHO. Edr. **Pharaoh.**

NEDABIAH, נדביה [*rhodd yr Arglwydd*] mab Jechoniah. 1 Cron. 3. 18.

NEF—OEDD, (ny-ef) *Gwydd.* **An neaf**; y ffurfafen, yr wybr, yr awyr; uchelder, goruchafion, goruch-leoedd. Y mae y gair *nef*, a *nefoedd*, yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo, 1. Y corph o awyr sydd yn amgylchu y ddaear, lle yr eheda yr adar, y chwyth y gwynt, y mae cymylau yn cael eu cario, a'r gwlaw yn dyfod. Mat. 6. 26. a 16. 1, 2, 3. Marc 1. 10. a 4. 4. Luc 4. 25. a 8. 5. a 9. 58. a 13. 19. Act. 10. 12. ——2. Y ffurfafen, lle y gosodwyd y ser, y planedau, yr haul, a'r lleuad, a'r holl gyrph nefol. Mat. 5. 18. Ps. 19. 1. Dat. 12. 4. Deut. 1. 10. a 10. 22. Esa. 13. 10. a 14. 13. Gelwir y cyrph nefol, yn iaith y Testament Newydd, 'Nerthoedd y nefoedd.' Marc 13. 25. Yn Hebraeg, '*Llu* y nefoedd.' Jer. 8. 2. a 19. 13. a 33. 22. Act. 7. 42.——3. Y drydedd nefoedd, lle gorseddfa Duw, a thrigfa hyfryd saint ac angelion byth, a elwir, 'nef y nefoedd,—teyrnas nefoedd,—y drydedd nef.' 2 Cor. 12. 2.——4. Trwy draws-enwad, gelwir Duw ei hun, 'y nefoedd;' efe yw Creawdydd a Meddiannydd nefoedd a daear; yn y nefoedd y mae ei orseddfa, ac yno yn benaf y mae yn amlygu ei fawredd a'i ogoniant. 'Bedydd Ioan, o ba le yr oedd? ai o'r nef (sef o Dduw) ai o ddynion?' Mat. 21. 25. 'Pechais yn erbyn y nef (sef Duw) ac o'th flaen dithau.' Luc 15. 18, 21. Gwel Ioan 3. 27—31. a 6. 41. 1 Petr 1. 12. Mat. 16. 19. 1 Cor. 15. 47. Y mae 'teyrnas nefoedd,' a 'theyrnas Duw,' yn eiriau newidiadwy, ac yn arwyddo yr un peth, yn

Digitized by Google

aml. Mat. 11. 11. a 16. 10. a 10. 1. Cymh. Luc. 13. 29. Mat. 19. 23, 24. Act. 14. 22. 2 Thes. 1. 5. Ps. 73. 9. Dan. 4. 25. a 5. 21.——5. Trwy draws-enwad hefyd y mae yn arwyddocâu trigolion y nefoedd, saint ac angelion, 'Wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd,' sef na holl drigolion y nefoedd. Heb. 7. 26. Cymh. Heb. 1. 4, &c. a 8. 1. Eph. 4. 10. Ps. 8. 1. a 108. 5. 'A'r nefoedd nid ydynt lân yn ei olwg ef,' sef preswylwyr y nefoedd. Job 15. 15. 'Llawenycha o'i phlegid hi y nef,' sef trigolion y nef. Dat. 18. 20.——6. Weithiau arferir y gair nefoedd (*hyperbolically*) i arwyddo mawredd, neu uchder mawr peth; megys 'hyd y nefoedd.' Gen. 11. 4. Deut. 4. 11. a 9. 1. Esa. 14. 12. Mat. 11. 23. Dat. 18. 5. 'Syrthio o'r nefoedd,' trwy draws-symudiad, a arwydda, syrthio o uchder mawr. Luc 10. 18.——7. 'Nefoedd yn agored,' a arwydda cymmod a chymundeb rhydd â Duw, a dangosiad neillduol o fawredd Duw mewn modd anarferol, a thrwy wyrthiau mawrion. Ioan 1. 51. 'Yr angelion yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y dyn,' a arwydda, medd Luther, 'nid yn unig eu gweinidogaeth, ond hefyd eu syndod a'u gorfoledd wrth edrych ar Dduw yn y cnawd, yr hwn wrth esgyn a disgyn nis dichon iddynt ei amgyffred. Os edrychant i fynu, gwelant anfeidrol fawredd y Person Dwyfol yn uwch na hwynt; os edrychant i lawr, gwelant y mawredd Dwyfol yn is na phob creadur.' Luther ar Gen. xxviii. Dywedir fod Duw yn *preswylio* yn y nefoedd, (Ps. 2. 4. 1 Cron. 8. 39, 43, &c. Deut. 26. 15.) i arwyddo ei fod yn amlygu ei ogoniant a'i fawredd mewn graddau mawr, ac yn ddiball, i'r holl drigolion yno.

Gelwir y nef yn 'wlad well—etifeddiaeth—teyrnas—gorsedd-fainc Duw—teml—tŷ—tŷ nid o waith llaw—gorphwysfa—gwledd—gogoniant—a thragywyddol bwys gogoniant,' &c. Gwel dan yr amrywiol enwau.

Y nefoedd yw y lle a barotôdd Duw er seiliad y byd i fod yn breswylfod tragywyddol i'r angelion etholedig, ac i'r holl waredigion mewn dedwyddwch, ac yn mhresennoldeb Duw. Perffeithrwydd y pethau sydd yn ddedwyddwch i'r saint yma, ac fydd eu dedwyddwch byth yno; a hyny yn gynnwysedig yn benaf,—1. Yn yr adnabyddiaeth gyflawn a gânt o Dduw, a'r hwn a anfonodd efe Iesu Grist; cyflawn, meddaf, o'u rhan hwy, ac nid o ran y gwrthddrychau; byddant 'wedi eu cyflawni â holl gyflawnder Duw:' wedi eu cyflawni â *Duw*—â *chyflawnder* Duw—â *holl* gyflawnder Duw: pa fath eiriau ydyw y rhai hyn! Geill efe eu llenwi hwy, er nas gallant hwy byth ei gynnwys ef; etto, er hyny, cânt wybodaeth dra ëang, a *chynnyddol*, diammeu, o'r Bod mawr—mawredd Person Crist—a gogoniant y Personau Dwyfol, a'r holl briodoliaethau, yn benaf, yn nhrefn fawr yr iechydwriaeth. Bydd yno ymestyniad hyfryd gan yr holl saint i wybod ac amgyffred cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth. Eph. 3. 18, 19.——2. Yn eu cyflawn waredigaeth oddiwrth bob pechod, a'u cyflawn debygolrwydd i Grist, yn eu cyrph a'u heneidiau. 1 Ioan 3. 2.——3. Yn yr heddwch a'r gorfoledd fyddant yn eu gorlanw yn dragywyddol. Mat. 25. 23. Ps. 17. 15. a 37. 37.——4. Yn y cyflawn feddiant a'r mwynhad o Dduw yn Nghrist, fel eu rhan a'u hetifeddiaeth byth. Ps. 73. 25. a 119. 57. Galar. 3. 24.——5. Bydd eu gwaith yn addoli ac yn moliannu Duw a'r Oen yn hyfrydwch tragywyddol iddynt. Dat. 22. 3, 4, 5.——6. Bydd eu cymdeithas â'u gilydd hefyd yn ychwanegu at eu dedwyddwch. Luc 16. 22. Heb. 12. 22, 23.

'Canys wele fi yn creu nefoedd newydd, a daear newydd; a'r rhai cyntaf ni chofir, ac ni feddylir am danynt.' Esa. 65. 17. a 66. 22. 2 Petr 3. 13. Dat. xxi. Y mae y geiriau yn rhagfynegi adnewyddiad yr eglwys, ac adferiad pob peth i gyflwr o berffeithrwydd, a sancteiddrwydd, a dedwyddwch; yr hyn a berffeithir yn gyflawn ar ol diweddu y byd presennol hwn. Y mae yn hollol eglur i mi, nad ydyw geiriau Petr i'w priodoli yn unig i gyfnewidiad yr oruchwyliaeth, a dinystriad yr holl osodiadau Iuddewig, a dymchweliad eu llywodraeth, fel y barnodd llawer o wyr dysgedig. Gwel Calvin, Piscator, Lightfoot, Owen, Hammond, Cave, Vorstius. Y mae yn eglur mai y byd, yr hwn a orchuddiwyd â dwfr, ac a ddyfethwyd, yr hwn trwy air Duw sydd yn sefyll er's talm, yw y nefoedd a ânt heibio gyda thwrf, a'r defnyddiau, y rhai gan wir wres a doddant, a'r ddaear, yr hon, yn nghyd â'r gwaith a fyddo ynddi, a losgir; y ddaear a ddyfethwyd gan ddwfr, yw yr un ag a losgir gan dân; ond nid y sefydliad Iuddewig ydyw hwnw. Diammeu fod geiriau Esaiah yn cynnwys adferiad dynion at Grist, a'u hadnewyddiad mewn sancteiddrwydd trwy yr efengyl, cyn diwedd amser: ond ni pherffeithir mo'r adnewyddiad hwn yn gyflawn nes y byddo i ryw gyfnewidiadau mawrion a pharhaus gymeryd lle ar holl ddull ac ansawdd y greadigaeth yma isod; ac i nefoedd newydd, a daear newydd, gael eu creu, yn ol addewid Duw. Tebygol na lwyr ddiddymir y defnyddiau mwy nag yn y diluw; ni buasai raid wrth dân i wneuthur hyny; ond gweithredir rhyw gyfnewidiad mawr ar ansawdd a dull y defnyddiau, a bydd cyflawnder, a chyflawnder yn unig, yn cartrefu ynddi. Cymaint a hyn sydd yn amlwg yn y gair; ond gwell ffrwyno dychymygion disail am bethau nas gellir gwybod ychwaneg am danynt nag a ddadguddiwyd. Gwel Vitringa *Obs. Sacr., lib.* iv, *cap.* 6.

Yn iaith y prophwydi, cyffelybir gwladwriaeth i'r nefoedd weledig; yr haul, a'r lleuad, a'r sêr, ydynt y breninoedd, gwyr mawrion, pendefigion, cynghorau, &c. Syrthia y rhai hyn o'r nefoedd, neu ânt yn ddu, neu yn goch fel gwaed, pan ddymchwelir y llywodraeth, ac y dinystrir hi. Esa. 14. 12. Mat. 24. 29. Dat. 6. 13. a 8. 12. Edr. DADGUDDIAD.

NEFOL—ION, o'r nefoedd, neu yn perthyn i'r nefoedd.—'Bara nefol,' sef bara o'r nef. Ps. 105. 40.——'Eich Tad nefol,' sef yr hwn sydd yn y nef, goruwch pawb, yn ardderchog, ac yn Ben-Arglwydd ar bob peth. Mat. 6. 26.——'Pethau nefol,' sef pethau o'r nef, neu yn y nef, neu yn perthyn i'r nef. 'Pethau daearol,' ydyw pethau yn perthyn i'r ddaear, neu a wneir yma ar y ddaear; megys ail-eni dynion, &c., felly 'pethau nefol,' ydyw pethau yn perthyn i'r nef, a welir yn y nef, neu a fwynheir yno. Ioan 3. 12. Heb. 8. 5. a 9. 23.——'Cyrph nefol,' ydyw yr haul, lleuad, ser, &c., hefyd, cyrph ysbrydol ydynt addas i drigo yn y nef. 1 Cor. 15. 40.

'Nefolion leoedd.' Ephesiaid 1. 3, 20. a 3. 10. a 6. 12. Cyfleithir yr un gair ἐπουρανιος, *nefolion bethau*, Ioan 3. 12.—*nefolion*, Phil. 2. 10.—*nefol*, Mat. 18. 35. 2 Tim. 4. 28. Heb. 3. 1. a 6. 4. a 8. 5. a 9. 23. a 11. 16. a 12. 22. Amlwg yw ei fod yn arwyddo nefolion leoedd, yn Eph. 1. 20. a 2. 6. a 3. 10. Gellir ei gyfieithu *nefolion leoedd*, neu *bethau*, yn Eph. 1. 3. ond yn pen. 6. 12, tybygaf, mai *nefolion bethau* ydyw y cyfieithiad mwyaf addas: 'yn erbyn drygau ysbrydol yn (ἐν, neu *yn nghylch*) *nefolion bethau*.' Amgylchiadau yr ymadrodd sydd i benderfynu arwyddocâd y gair, pa un a ydyw i'w briodoli i *bethau* neu *leoedd*. Yn nghylch nefolion bethau y mae ymdrech mawr y Cristion, yn erbyn tywysogaethau ac awdurdodau, &c., ac nid nefolion leoedd; canys ni ddichon iddynt hwy byth ddyfod yno wedi syrthio unwaith oddi yno. Gwel Chrysostom, Gouge, Gurnal, a'r Dr Goodwin, ar Eph. 1. 3.

NEGES—AU, (neg-es) cenadwri, cychwedl, mynag; tres, llafur, trybestawd.

Cenad hwyr drwg ei *neges*. *Diar*.

'Heb negesau rhyngddynt â neb;' sef heb orchwyl, heb farchnadaeth. Barn. 18. 7.——'Yn neges cen-

Digitized by Google

adau brenin Babilon;' sef yn nghenadwri cenadau, &c. 2 Cron. 32. 31.——'Nid yw neb a'r sydd yn milwrio, yn ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn.' 2 Tim. 2. 4. Nid oedd yn oddefol i'r milwyr Rhufeinaidd i ddilyn un alwedigaeth; megys masnachaeth, amaethyddiaeth, llaw-gelfyddyd, &c. i'w rhwystro yn eu milwriaeth: y mae yr apostol yn cymhwyso y gyfraith Rufeinaidd yn nghylch y milwyr at weinidogion yr efengyl, ac yn gwarafun iddynt ddilyn y cyfryw negesau bydol ag a fyddant yn rhwystr iddynt i ymroddi yn hollol i'w gwaith tra phwysfawr. Y mae gwaith y weinidogaeth o'r canlyniad mwyaf, ac yn gofyn y llafur a'r ymdrech mwyaf ymroddgar, dyfal, a gorchestol. Edr. YMRWYSTRO.

**NEGINOTH,** נגינות Mae y gair Hebraeg fel berf, yn arwyddo chwareu â'r bysedd ar offeryn cerdd. 1 Sam. 15. 16, 17, 18, &c. Fel enw cadarn, cerddor ar y cyfryw offerynau; neu yn y rhyw fenywaidd, yr offeryn ei hun y chwareuir arno. Esa. 28. 20. Cymh. titl Ps. iv. vi. liv. Hefyd, cerdd, neu gân.* Job 30. 9. Galar. 5. 14.

**NEHELAMIAD,** נחלמי [*breuddwydiwr*] Nehelam oedd drigfa Semaiah, gau-brophwyd. Jer. 29. 24.

**NEHEMIAH,** נחמיה [*dyddanwch*] mab Hachaliah; o ba lwyth yr oedd nid yw hysbys; ond y farn gyffredin yw, ei fod o lwyth Judah. Tebygol fod ei dad mewn lle anrhydeddus yn mreninllys Susan, a thrwy hyny cafodd Nehemiah y swydd o fod yn drulliad i'r brenin. Yr oedd hwn yn lle anrhydeddus, o elw ac o ymddiried mawr; ac yr oedd yn lle a llawer o ymgais am dano, am fod y swydd yn rhoddi achlysur iddynt fod gyd â'r brenin yn aml, ac yn yr amser mwyaf difyr a boddol arno, pan y byddai hawsaf ganddo ganiatâu gofynion neb iddo. Yr oedd Nehemiah yn drulliad i'r un Artaxerxes ag a roddodd genad i Ezra fyned i fynu i Jerusalem, sef Ahasferus, gwr Esther. Neh. 2. 6. Edr. EZRA, ESTHER. Yr oedd hon yn sefyllfa neillduol o gyfleus iddo, i gael ffafr gyd â'r brenin, i gyflawni ei amcanion mewn perthynas i'w genedl ei hun a'i wlad. Fel hyn y mae rhagluniaeth ddirgelaidd yn trefnu ac yn llywodraethu pob peth i gyflawni trefniadau Duw mewn perthynas i'w eglwys. Pan glywodd gan ei frawd Hanani am y blinder mawr a'r gwaradwydd, a'r cyflwr diymgeledd yr oedd yr Iuddewon ynddo yn Jerusalem, eisteddodd, wylodd, ac a alarodd ddyddiau lawer; ac ymprydiodd, a gweddiodd. Yn ei weddi ragorol, y mae yn cyfaddef eu pechodau, yn cyfiawnhau Duw yn ei farnedigaethau o'r herwydd, ac yn ymbil yn daer am ei nodded a'i drugaredd. Ymddangosodd ei dristwch yn ei wynebpryd yn fuan; canfu y brenin hyny, ac ymofynodd am yr achos. Pan ddeallodd y brenin yr achos, ar ei ddymuniad, anfonodd y brenin ef â llythyrau i Jerusalem, a thywysogion y llu, a marchogion gyd âg ef; ac yr oedd gorchymyn yn y llythyrau iddo gael gan Asaph, ceidwad coedwig y brenin, goed at y gwaith yr oedd ar fedr ei gwblhau. Aeth at Dduw yn gyntaf, ac yna at y brenin; gan gydnabod yn hyn fod calonau breninoedd yn llaw yr Arglwydd, yr hyn oedd brawf eglur o'i dduwioldeb diffuant.

Wedi i Nehemiah gael caniatâd y brenin, daeth ar frys i Jerusalem, a'r llythyrau gyd âg ef. Pan glybu Sanbalat yr Horoniad, a Thobiah y gwas, yr Ammoniad, ddyfod dyn i geisio daioni i feibion Israel, bu ddrwg iawn ganddynt. Wedi dyfod, y mae yn golygu yn gyfrinachol adfail y caerau, ac yn annog yr Iuddewon i adeiladu Jerusalem, er gwaethaf eu gelynion. Er eu holl ddirmyg, y mae yn gweithio, ac yn myned rhagddo, ef a'r bobl. Pan wybu ddigllonedd a chyfrinach y gelynion, y mae yn gosod gwyliadwriaeth, yn arfogi y gweithwyr, ac yn eu dysgu i ryfela a gweithio. Pan gwynodd yr Iuddewon wrtho rhag eu dyledion, eu prid, a'u caethiwed, y mae yn argyhoeddi yr arolygwyr yn llym, ac yn gorchymyn iddynt roddi yr ocraeth yn eu hol, yn maddeu ei gynnaliaeth ei hun i'r bobl, ac yn cadw tŷ. Gwedi hyny y mae Sanbalat a'i gyfeillion yn ceisio dychrynu Nehemiah, trwy chwedlau a brudiau gau. Deallodd ef eu dichellion, ac aeth rhagddo â'r gwaith nes gorphen mur Jerusalem. Yn cael fod cyfrinach anaddas rhwng pendefigion Judah â'r gelynion, gosododd filwyr o drigolion Jerusalem, pob un yn ei wyliadwriaeth, a phob un ar gyfer ei dŷ. Gosododd addoliad Duw mewn iawn drefn; darfu i Ezra ac eraill ddarllen y gyfraith yn gyhoeddus yn yr heol, o bulpud o goed; yr holl bobl a wylasant pan glywsant eiriau y gyfraith; ar hyn y mae Nehemiah, Ezra, a'r Lefiaid yn cysuro y bobl. Y mae y bobl yn dangos parodrwydd hynod i wrando ac i ddysgu, ac yn cadw gŵyl y pebyll: wedi hyny ymgynnullasant mewn ympryd a sach-lian, â phridd arnynt, ac y maent yn ymostwng yn edifeiriol ger bron Duw, yn cyfaddef eu pechodau, a daioni Duw tu ag atynt; ac mewn modd mwyaf syml a difrifol yn ymgyfammodi â Duw.

Rhoddodd ofal y ddinas yn neillduol i Hanani ei frawd, a Hananias tywysog y palas, 'yr hwn oedd ŵr ffyddlawn, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer.' Y mae rhai yn barnu iddo ar ol hyn ddychwelyd i'r breninllys yn Susan, dros ychydig amser. Gwedi aros ychydig amser, rhai a farnant mai pum mlynedd, dychwelodd drachefn i Judea. Pan ddychwelodd, cafodd lawer o achos gofid yn ymddygiad llygredig yr Iuddewon. Yn groes i'w cyfammod â Duw, yr oeddynt gwedi priodi gwragedd dyeithr, yn halogi y Sabboth trwy sangu gwinwryfau, &c., a phrynu pysgod, a phob peth arall gwerthadwy gan y Tyriaid, a dwyn beichiau ar y dydd sanctaidd hwn. Yr holl bethau hyn a ymroddodd Nehemiah i'w diwygio.

Gwedi llywodraethu ar yr Iuddewon yn nghylch 36 o flynyddoedd, bu farw, A.M. 3595. Efe, hwyrach, a ysgrifenodd y llyfr sydd ar ei enw, ac yn rhoddi yr hanes am dano. O ddyfodiad Ezra i fynu o Babilon hyd farwolaeth Nehemiah, yr oedd 49 o flynyddoedd, yn cyfateb, hwyrach, i'r saith wythnos yn Daniel, y byddai y mur gael ei adeiladu mewn amseroedd blinion. Dan. 9. 25. Nid yr un oedd y Nehemiah a ddychwelodd gyda Zorobabel a'r gwr enwog hwn, ond yr oedd y gwr hwn lawer diweddarach na hwnw. Ezra 2. 2. Neh. 7. 7. Ni ddichon neb ddarllen hanes y gwr hwn heb weled ynddo arwyddion amlwg o dduwioldeb diffuant; ffydd ddiysgog yn yr Arglwydd; zel drosto ef a'i achos, a'i bobl; egni gwrol a bywiog yn ei waith, yn wyneb llawer o rwystrau a gelynion o bob math; ac anhunanolrwydd hynod yn y cwbl. Y mae yn gynllun neillduol i'w ddilyn gan bawb mewn swyddau pwysig, a gwaith gorchestol yn yr eglwys, neu yn y wladwriaeth. Ei saeth-weddiau a'i erfyniau aml at Dduw wrth ysgrifenu ei hanes, ydynt yn briodol neillduol i'r ysgrifenydd duwiol hwn, ag sydd yn gadael effeithiau tra dymunol ar feddwl y darllenydd. Gwelir ynddo addasrwydd hynod i'r gwaith oedd gan Dduw iddo wneuthur yn ei oes dros ei achos mawr yn y byd; a llwyddodd yn ogoneddus yn ei law, a than ei lywodraeth. Yr oedd Ezra ac yntau yn ddau offeryn gwerthfawr yn y dyddiau blinion hyny; ac arogla eu henwau yn beraidd tra byddo eglwys gan Dduw yn y byd. Edr. EZRA.——Ar lyfr Nehemiah, gwel Esgob Pilkington, ac Arthur Jackson.

Gellir casglu oddiwrth hanesion y gwr hwn, ac Ezra ac Esther, &c., fod gwir grefydd wedi ennill lle go fawr yn mreninllys Susan, a diammeu oddi yno i'r ddinas, ac hwyrach i raddau mwy nag sydd hanes am hyny, ar led yn ymerodraeth fawr y Persiaid.

* Ceir *Neginoth* hefyd yn nhitl Ps. lv, lxi, lxvii, a lxxvi. Cyfieithir yr un gair *gwawd*, Ps. 69. 12.—*cân*, Galar. 3. 14.—*offer tannau*, Hab. 3. 19.—C.

Digitized by Google

NEHILOTH, הנחילות 'I'r pencerdd ar Nehiloth.' Titl Ps. v. Y Nehiloth a arwydda, medd rhai, offer chwyth, neu offer cerdd, i chwythu trwyddynt, fel yr arwydda Neginoth offer tannau; canys pibell yw חליל Esa. 5. 12. Gellir cyfieithu titl y Psalm, 'I'r pencerdd yn arolygu y chwibanogl, yr udgyrn,' &c.—'I'r hwn sydd yn rhoddi y fuddugoliaeth: Duw yr etifeddiaeth;' sef i Grist, yr hwn a roddodd wlad Canaan yn etifeddiaeth ddaearol i'r Iuddewon, ac a ddwg ei holl weision ffyddlon i'w deyrnas nefol. Gwel Fenwick. Golyga ef fod i ni ddeall אל nid fel rhagddod, ond fel enw cadarn, yn arwyddo Duw.

NEHUSTA, נחשתא [*sarph*] merch Elnathan, a mam Joachin. 2 Bren. 24. 8.

NEHUSTAN, נחשתן [*o efydd*, neu *darn o efydd*] yr enw o ddiystyrwch a roddodd Hezeciah ar y sarph bres a wnaeth Moses, pan ddarfu i feibion Israel arogldarthu iddi. 2 Bren. 18. 4.

NEIDR—EDD, NADROEDD, (nad) *Gwyddel.* NATAIR; sarph.—'Y maent fel y neidr fyddar yr hon a gau ei chlustiau.' Ps. 58. 4. פתן *pithon*. Math o aspiaid nas gellid eu llareiddio na'u dofi mewn un modd; tebyg iddynt hwy ydyw pechaduriaid, na ddofir mo honynt gan lais peraidd yr efengyl; ond yn cau eu clustiau yn erbyn yr hyfryd sain, ac yn ymgaledu yn eu gwrthryfel yn erbyn Duw. Edr. SARPH.

'Y maent fel y neidr fyddar yr hon a gau ei chlustiau; yr hon ni wrandy ar lais y rhinwyr, er cyfarwydded fyddo y swynwr.' Ps. 58. 4, 5. Am effeithiau cerddoriaeth ar y nadroedd, y mae amrywiol hanesion credadwy.* Medd Syr Hugh Blunt, yn ei fordaith i'r Lefant, 'Llawer o bethau cywrain yn nghylch creaduriaid byw a welais yn Grand Cairo: ond y mwyaf cywrain oedd nyth o nadroedd pedwar troedfog yn ddwy droedfedd o hŷd, yn ddu ac yn hyll, yn nghadw gan Ffrancwr, y rhai pan ddoi i'w teimlo, nis goddefent ef, ond ymguddient mewn twll: yna cymerai offeryn cerdd, ac a chwareuai arno: yn clywed y gerddoriaeth, doent allan ac ymlusgent ar ei draed, a dringent i fynu ar hyd-ddo, nes y rhoddai heibio chwareu, yna rhedent i ffordd.'

Wrth y 'neidr fyddar,' deallir rhywogaeth oedd felly yn naturiol (coffëir am amryw felly gan Avicenna, yn Bochart) neu un fyddar trwy ddygwyddiad. Yn mhob un o'r ddau ystyr gallant gael eu galw, yn iaith brydyddawl, yn fyddar.

NEILLDU—AETH—OL, (naill-tu) un ochr, un o ddwy ochr. O'r neilldu, o un ochr, heibio; ar neilldu, ar ddydol, ar ŵyr. Yr oedd aml ymddyddan rhwng yr Arglwydd Iesu a'i ddysgyblion, *κατ' ἰδιαν*, *o'r neilldu*, ar ddydol oddiwrth eraill, eu hunain. Mat. 14. 13, 23. a 17. 1, 10. Marc 4. 34. Luc 9. 10. a 10. 23. Yr oedd y cyfryw gyfarfodydd hefyd yn mhlith yr apostolion. Gal. 2. 2. Y mae y cyfryw neillduaeth yn dra angenrheidiol a buddiol yn eglwys Dduw yn mhob oes, ac nis gellir hebgor hyny, oni bydd yr eglwys weledig mewn dirywiad mawr. Bod eglwysi Crist o'r dechreuad, ac weithiau eu blaenoriaid, yn cadw cyfarfodydd neillduol, heblaw eu cynnulliadau cyhoeddus i bregethu yr efengyl i bawb, sydd dra amlwg oddiwrth lyfr yr Actau, y llythyrau at y saith eglwys yn Asia, a manau eraill yn epistolau Paul. Gwel Act. 1. 13, 14, 15. a 2. 1, 4, 23, 31. a 6. 2, 6. a 11. 1, 4, 22. a 12. 12. a 13. 1, 2. a 14. 22, 23, 27. a 15. 1—6, 22, 24, 32, 40, 41. a 16. 40. a 18. 22. a 19. 9. a 20. 1, 7, 18, 19, &c. 1 Cor. 5. 4. a 11. 17, 18. a 14, 19, 23, 26. Col. 4. 16. Heb. 10. 25. 3 Ioan 9, 10. Judas 12. Mae hefyd yr holl epistolau at eglwysi Rhufain, Corinth, ac Ephesus, yn profi hyn.

Mae gwaith Duw yn neillduo dynion, yn arwyddo eu hetholedigaeth a'u galwedigaeth ynddo: 'Neillduodd y duwiol iddo ei hun.' Ps. 4. 3. Gal. 1. 15.—Ei osodiad o rai mewn swydd. Act. 13. 2. Rhuf. 1. 1.

'Tir neillduaeth.' Lef. 16. 22. ארץ גזרה *tir tori ymaith*, lle y torid ymaith eu hanwireddau yn llwyr trwy iawn. Gwel Bates, *Critic. Heb.*

NEITHIOR, (naith) priodas, gwledd briodasol a gedwir ar ryw ddiwrnod gosodedig wedi y briodas, pan y dug y gwestion anrhegion i'r gwr a'r wraig ieuanc. Y gair *γαμος*, a gyfieithir *neithior*, yn Luc 12. 36. a 14. 8. Dat. 19. 9. a gyfieithir *priodas*, yn Mat. 22. 2, 3, 4, 8, 10, 11, 12. Ioan 2. 1, 2. ond yn arwyddo *gwledd* briodasol, y mae yn eglur. Edr. GWLEDD, PRIODAS.

NEITHWYR, (neith-hwyr) y prydnawn, neu y nos a aeth heibio; prydnawn ddoe. Gen. 31. 29, 42. 1 Sam. 15. 16. 2 Bren. 9. 26.

NEMUEL, נמואל [*cwsg Duw*] 1. Mab Eliab o lwyth Reuben, brawd Dathan ac Abiram. Num. 26. 9. ——2. Mab Simeon, pen-teulu. Num. 26. 12.

NEN—OEDD, (ny-en) cronglwyd, cromglwyd, pen tŷ, trum tŷ, diddos, ymogawr; mwd, nen-fwd, nen-orchudd; y nef.—'Adeiladwn i ni ddinas, a thŵr, a'i nen (ראשו *ei ben)* hyd y nefoedd:' sef yn dra uchel. Gen. 11. 4.——'Pan adeiladech dŷ newydd, yna y gwnai ganllawiau o amgylch i'th nen.' Deut. 22. 8. Yr oedd nenau eu tai, ac felly y maent etto, yn ngwledydd y dwyrain, yn wastad ac yn annghrwn, ac wedi eu haddasu at amrywiol achosion, fel y gwelir yn Jos. 2. 6. Barn. 16. 27. 2 Bren. 23. 12. Jer. 19. 13. Seph. 1. 5. Yn Galilea, Judea, ac Aleppo, y maent yn aml yn cysgu ar nen eu tai; ac felly byddent gynt. 1 Sam. 9. 25, 26. 'Ac yn nghylch codiad y wawr, galwodd Samuel ar Saul i (ar) ben y tŷ, (גג *nen*) gan ddywedyd, Cyfod, fel y'th hebryngwyf ymaith; a Saul a gyfododd:' hyny yw, oddiar y gwely ar nen y tŷ, lle y llettyodd yr holl nos. Cymh. LXX. âg adn. 25. Harmer's *Obs. vol.* i.

NEPHEG, נפג [*gwan, llesg*] mab Dafydd. 2 Sam. 5. 15. 1 Cron. 3. 7. a 14. 6.

NEPHTOAH, נפתוח [*agoriad*] ffynon Nephtoah, yn Benjamin. Jos. 15. 9.

NER, נר [*dysgleirdeb*] tad Abner. 1 Sam. 14. 50, 51. Edr. ABNER.

NEREAS, Νηρεας, [*dysgleirdeb*] nid oes wybodaeth fwy am dano, na bod Paul yn ei anerch *ef a'i chwaer*; yr hyn sydd brawf o'i barch iddynt; a'i bod yn anrhydeddus yn yr eglwys. Rhuf. 16. 15.

NERGAL, נרגל [*gwyliedydd*] eilun-dduw y Cuthiaid. 2 Bren. 17. 30.

NERGAL-SARESER, tywysog llu Nebuchodonosor. Jer. 39. 3.

NERIAH, נריה [*goleuni yr Arglwydd*] 1. Tad Baruch. Jer. 32. 12.——2. Mab Melchi, a thad Salathiel. Luc 3. 27.

NERTH—OL—OEDD—U, (nêr) gallu; grym, cryfder, cadernid, gyrdd-der, egni; cynnorthwy, cymhorth.—1. Galluogrwydd ysbrydol. Psalm 20. 6. Dat. 3. 8.——2. Yr achos o bob gallu; felly y mae Duw a Christ yn nerth i'w saint. Exod. 15. 2. Neh. 8. 10. Ps. 99. 4. a 27. 1. a 31. 4. a 37. 39. a 46. 1. a 73. 26. Phil. 4. 13.——3. Ieuenctid, pan byddo dyn yn llawn grym. Job 21. 23. Diar. 31. 3.——4. Effaith gallu Duw yn yr amrywiol ffyrdd, a thrwy yr amrywiol foddion y mae yn gweithredu, ac yn cael ei

* Vipereo generi et graviter spirantibus hydris
Spargere qui somnos *cantuque* manuque solebat.
Virgil, *Æneid*, vii. v. 753.

Digitized by Google

amlygu; megys yr efengyl, yr hon ydyw nerth Duw. 1 Cor. 1. 18. a 2. 5. 'Nerthol weithrediadau yr Ysbryd Glân,' ei ddoniau, ei wyrthiau, &c. Luc 1. 35. a 24. 49. Act. 6. 8. Rhuf. 15. 13, 19. Heb. 6. 5, &c.——Moliant plant bychain, yn moliannu â'u holl nerth, ac yn dangos mawr nerth Duw yn gweithredu arnynt. Ps. 8. 2. Nerthol ydyw peth sydd yn meddiannu nerth: Ps. 24. 8. Job 9. 4. Diar. 13. 11. neu sydd yn dangos mawr nerth y gweithredir yn nerthol trwyddo; megys gair Duw. 2 Cor. 10. 4. Heb. 4. 11.——Y mae yr Arglwydd yn nerthu ei bobl trwy eu hannog, eu cysuro, eu cryfhau, a'u galluogi yn wyneb pob anhawsderau, gelynion, a rhwystrau. Ps. 27. 14. a 41. 3. a 80. 21. Phil. 9. 13. 1 Tim. 1. 12. 2 Tim. 4. 17.

NES—AF—AU, (ny-es) agos, agosach, agosâu;

*Nes* na choel. *Diar.*

hefyd, fel gorair, hyd, hyd pan, hyd oni; dëu; cyd ag, tra.

Ni chei glod *nes* marw. *Diar.*

Y mae nesâu at Dduw yn arwyddo pob rhan o addoliad, ac yn enwedig gweddi. Hyn sydd dda ynddo ei hun; gwaith cyfiawn, addas ydyw; y mae yn iawn i Dduw gael ei addoli. Y mae yn dda i ninnau; ïe, ein daioni penaf yw. Ni sydd yn cael yr holl elw o hyny. Nid ydyw efe ddim gwell o'n plegid ni na'n haddoliad; ond yr ydym ni ar ein gwell yn annhraethol o wir nesâu ato ef. Ps. 73. 8. Heb. 10. 22. Y mae y weithred ynddi ei hun, heblaw y weithred a geir yn ganlynol i hyny, o fod dyn â'i holl enaid yn nesâu at Dduw, a fu mor bell oddi wrtho, yn rasol ac yn sanctaidd. Nis dichon i hyny fod heb anian sanctaidd a gweithrediad sanctaidd o eiddo yr Ysbryd Glân yn ei nerthu a'i gyfarwyddo i hyny. Nid peth ffurfiol, allanol, a rhagrithiol ydyw; er bod hyny. Esa. 29. 13. Mat. 15. 8. Nagê, ond nesâd gwirioneddol, bywiog, a gwybodus, yn ol trefn Duw yn Nghrist i bechadur gael nesâu â chalon gywir mewn llawn hyder ffydd. Edr. Agos, Gweddi.

Y mae Duw yn nesâu ei gyfiawnder pan fyddo yn peri iddo gael ei bregethu yn oleu, yn gyflawn, ac yn ddysglaer, gan genadon o'i anfoniad a'i ddoniad; pan fyddo yr Ysbryd Glân yn argyhoeddi o gyfiawnder, ac yn ei amlygu i feddwl y pechadur yn ei holl addasrwydd a'i gyfiawnder; ac yn nerthu yr enaid i gredu ynddo er iechydwriaeth dragywyddol. Esa. 46. 13. Y mae cyfiawnder yn y fan hon, medd Vitringa, yn arwyddo yr iechydwriaeth yn ei holl ëangder, ei hamgylchoedd, ei hachosion, a'i heffeithiau gogoneddus: cyfiawnder ydyw yr holl drefn i gyd, a chyfiawnder y Messiah ydyw canol-bwynt y cwbl, y pegwn ar ba un y mae y cwbl yn troi, a'r drych sydd yn amlygu holl briodoliaethau y Duwdod yn eu dysgleirdeb mwyaf.

NESIB, נציב [*colofn*] enw dinas. Jos. 15. 43.

NETOPHATHIA, dinas ac ardal, medd Calmet, rhwng Bethlehem ac Anathoth. 1 Cron. 9. 16. Jer. 40. 8. Ezra 2. 22. Neh. 7. 26. Hwyrach i'r lle gael yr enw oddiwrth Netophat mab Salma. 1 Cron. 2. 54.

NETHANIAH, נתניה [*rhodd yr Arglwydd*] 1. Tad Ismael, yr hwn a laddodd Gedaliah yn Mispah. 2 Bren. 25. 23.——2. Lefiad, mab Asaph. 1 Cron. 25. 2, 12.

NETHINIAID, נתינים [*rhodd*]. Y Gibeoniaid a roddwyd gan Josuah at wasanaeth y Lefiaid; tebygol i Dafydd a Solomon roddi gweddillion y Canaaneaid, hwyrach, ac eraill, at yr un gwasanaeth. Y rhai hyny oedd y Nethiniaid; neu, hwyrach, yn fwy neillduol y meddylir wrth y Nethiniaid, y rhai a roisant eu hunain, trwy adduned ewyllysgar, neu addunedwyd gan eu rhieni i'r Arglwydd, a gwasanaeth ei dŷ. Lef. 27. 5—8. Dygwyd llawer o honynt i gaethiwed gyd â'r Iuddewon, ac ymddangosodd yn amryw o honynt barodrwydd neillduol, â phlant gweision Solomon, i ddychwelyd gyd âg Ezra a Zorobabel. Ezra 5. 28. a 7. 7. a 8. 17, 20. Neh. 3. 26. 1 Cron. 9. 2. Jos. 9. 23, 27. Edr. Gibeoniaid.

NEUADD, (neu-add) plâs, palas, llŷs.

*Neuadd* pob diddos. *Diar.*

'Pan fyddo un cryf arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn sydd ganddo mewn heddwch.' Luc 11. 21. Y mae yr un gair *ουλη* yn cael ei gyfieithu *llŷs*, Mat. 26. 3, 69. Marc 14. 66. a 15. 16 Ioan 18. 15.—*cyntedd*, Dat. 11. 2. Y mae yn arwyddo llys agored gwedi ei amgylchu âg adeiladau: neu dŷ ëang, neu balas; neu yn hytrach, cyntedd palas. 'Y cryf arfog,' yw Satan; y 'neuadd,' yw calonau plant dynion; 'un cryfach nag ef,' yw yr Arglwydd Iesu, yr hwn a ymddangosodd i ddattod gweithredoedd y diafol; gorchfygodd Crist ef, yspeiliodd ef o'i holl arfogaeth, ac a'i bwriodd allan o galonau lliaweroedd, er eu cysur tragywyddol. Dangosodd yn ddigon eglur i bawb mai un *cryfach* ydyw, a'i fwriad yn hollol i'w ddiorseddu a diddymu ei holl waith.

NEWID—IO, (new) aralliad, cyfnewid, arallu; rhad, diwerth; distadl.

Tri pheth nis gall namyn Duw; dyoddef bythoedd y ceugant; cynghyd â phob cyflwr heb newidiaw; a rhoi gwell a newydd ar bob peth heb ei roi ar goll. *Barddas.*

Y mae newid yn arwyddo, 1. Arallu peth yn well neu yn waeth. Ps. 102. 26. Heb. 1. 12. Yn yr ystyr hwn ni newidir ac ni newidia Duw byth; ac am fod Crist yn Dduw, y mae yn ddigyfnewid; ac os ydyw yn ddigyfnewid ynddo ac o hono ei hun, y mae yn Dduw; canys nid oes neb ond Duw felly. Y mae pob creadur yn ddarostyngedig i gyfnewid yn ol ewyllys Duw yr hwn a'i gwnaeth, ac sydd hefyd yn ei gynnal yr hyn ydyw bob mynyd. Y mae dyn gwedi myned ynddo ei hun yn ansefydlog yn yr hyn sydd dda, trwy ei gwymp; y mae yn agored i gael gweithredu arno gan bob peth sydd tu allan iddo; felly oblegid ei newidiolrwydd, y mae dyn yn gwbl wagedd pan fyddo ar y goreu, ac yn gwbl anaddas i hyderu arno mewn dim. Ps. 139. 5. a 146. 3, 4. Y mae holl amgylchiadau dynion yn y byd hwn yn newidiol, ac yn hollol odditan eu hawdurdod hwy i'w trefnu a'u llywodraethu, tan lywodraeth Duw, pen llywydd nefoedd a daear. Nid oes dim gan hyny na newidia, ond Duw yn unig, a'r pethau a wêl efe yn dda eu sefydlu yn ddigyfnewid. 'Myfi yr Arglwydd ni'm newidir; am hyny ni ddyfethwyd chwi, meibion Jacob.' Mal. 3. 6. Y mae Duw yn ddigyfnewid o ran ei hanfod: am hyny y mae felly o ran ei briodoliaethau—ei feddwl—ei gynghor—ei ewyllys—ei air—ei gyfammod. Esa. 46. 10. Num. 23. 19. 1 Sam. 15. 29. Ps. 89. 34. Iago 1. 17, &c. Ni all fod yn well, ac ni fydd byth yn waeth. Am fod Duw fel hyn heb newid, yr ydoedd y genedl Iuddewig heb ei dyfetha. Galar. 3. 22. Yr oeddynt yn haeddu eu dyfetha; yr oedd eu gelynion am eu dyfetha, a hwythau heb allu i achub eu hunain: ond yr oedd y Duw digyfnewid gwedi addaw angel y cyfammod, yr hwn pan ddöi, 'a eisteddai fel purwr a glanhawr arian,' yr hwn 'a burai feibion Lefi, ac a'u coethai hwynt, fel yr offryment i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder.' Mal. 3. 3. Anghyfnewidioldeb ei fwriad i achub ac i buro, ydyw yr unig achos na ddyfethwyd hwynt.——2. Y mae newid yn arwyddo, rhoddi un peth am beth arall: 'Na rodded un arall am dano, ac na newidied ef, y da am y drwg, neu y drwg am y da.' Lef. 27. 10. Beth bynag oedd gwedi ei addunedu i'r Arglwydd, yr oedd yn ddigyfnewid, yn sanctaidd, ac yn gysegredig.——3. Diddymu; 'Selia yr ysgrifen, fel na newidier,' hyny yw, fel na ddilëir, na ddiddymir hi. Dan. 6. 8.

Digitized by Google

'Ac a feddwl newidio amseroedd a chyfreithiau;' sef amseroedd a chyfreithiau fel mae Duw wedi eu sefydlu. Dan. 7. 25. Darluniad addas o eglwys anghristaidd Rhufain, sydd gwedi newid pob peth o eiddo Duw, i osod dychymygion dynion i fynu yn eu lle: y mae yn gwneuthur dyddiau yn sanctaidd neu yn ansanctaidd fel y gwelo yn dda; yn cyfreithloni anlladrwydd, yn gwahardd priodi, &c.

'A newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant,' &c. 2 Cor. 3. 18. Y mae credu, sef gwir adnabyddiaeth trwy ffydd, o Grist, yn ol athrawiaeth yr efengyl am dano, yn newid pechadur i'w ddelw, a dyma y moddion o'r cyfnewidiad mawr hwn trwy yr Ysbryd Glân. Gan Ysbryd yr Arglwydd mae y cyfnewidiad yn cael ei weithredu, a thrwy y moddion hyn y mae yn ei effeithio; sef yn goleuo yn gyntaf i adnabod Crist, ac yn, a thrwy y wybodaeth hon, mae y pechadur yn cael ei newid. Edr. SANCTEIDDIO.

NEWYDD—DEB—ION, (new) *Heb.* ני *no*; *Gr.* *νιος*; *Llad.* NOVUS; *Ffr.* NEUF; *Gwydd.* NEUADH; *Saes.* NEW: ir; dyeithr; anghynefin.

Na ro goel i *newyddion* oni bont yn hen. *Diar.*

Peth newydd ei wneuthur neu ei ddefnyddio. Jos. 9. 13. 1 Bren. 11. 29.——Peth rhyfedd, aruthrol, ac anarferol. Num. 16. 30.——Peth gwahanol a rhagorach na'r hyn oedd o'r blaen; megys creadur, dyn, ysbryd a chalon newydd; Jerusalem, ffordd, toes, ysbryd a chân newydd. Edr. DA, EFENGYL.

'Oblegid yr Arglwydd a greodd beth newydd ar y ddaear: Benyw a amgylcha ŵr.' Jer. 31. 22.—'Benyw a orchfyga ŵr.' Blayney. 'Nis gallaf,' medd efe, 'mewn un modd, gytuno â'r esbonwyr hyny sydd yn priodoli y geiriau i genedliad gwyrthiol Iesu Grist yn nghroth y Forwyn.' Minnau a ofynaf iddo yntau, Pa beth *newydd* oedd hyny, i fenyw orchfygu gwr? Ond i fenyw, nid gwraig, ond morwyn, i ymddwyn Mab gwrryw (Dat. 12. 5.) yr ydoedd hyn yn beth newydd, na chlywyd am dano, ac na wnawd erioed o'r blaen. Arwydda y gair נבר *gwr cadarn, arwr, gwaredwr, rhyfelwr, cryf, cadarn.* Cymh. Gen. 3. 15. Esa. 7. 14. a 9. 6. Mic. 5. 2. Coccejus. Creu peth newydd a wnaeth y Duw mawr yn y wyrth hon, i gyflawni ei addewidion a'i amcanion dyfnion mewn perthynas i iechydwriaeth ei bobl. Peth newydd oedd, a pheth rhyfedd fydd byth!

'Newydd loerau,' neu leuadau newyddion. Esa. 1. 13, 14. a 66. 23. 2 Cron. 2. 4. a 8. 13. 2 Bren. 4. 23. Col. 2. 16. Y mae Parkhurst yn barnu oddi wrth Num. 28. 14. y dylai y gair חרש a gyfieithir *newydd-loer*, a חרשים *newydd-loerau*, neu *leuadau newyddion*, gael ei gyfieithu *mis*, neu *y dydd cyntaf o'r mis*, fel y cyfieithir ef yn 2 Sam. 20. 5.—'Udgenwch udgorn yn y lloer newydd, yn yr amser nodedig,' eich gwyliau. Ps. 81. 3. Yr hyn a eglurir yn Num. 10. 10. 'Ar ddechreu eich misoedd, y cenwch ar yr udgyrn uwch ben eich offrymau poeth, ac uwch ben eich aberthau hedd.' Nid misoedd oeddynt yn cael eu cyfrif, gan hyny, wrth droiadau y lleuad, ond misoedd sefydlog, wedi eu trefnu a'u sefydlu yn y cyfryw fodd, fel yr oedd deuddeg o honynt yn cyfateb i'r flwyddyn, fel misoedd ein *Calendar* ni. Yr un modd gellir cyfieithu y gair *Gr.* *νουμηνια* yn Col. 2. 16. *mis newydd.* Gwel Parkhurst *Heb.* & *Gr. Lexicon.*

'Pethau newydd a hen.' Mat. 13. 52. Yr hen bethau oedd yr hen ddadguddiedigaethau a roddwyd i'r prophwydi; a'r pethau newydd oedd y dadguddiedigaethau newyddion, oedd i gael eu rhoddi i'r apostolion. Y mae yn ofynol i bob ysgrifenydd, neu athraw, fod wedi ei ddysgu yn dda yn y pethau a berthynant i deyrnas Dduw, fel y gallo yntau addysgu eraill; yn debyg i ddyn o berchen tŷ, yr hwn sydd yn gofalu fod ei drysor yn llawn, fel y gallo ddwyn allan oddi yno gyflawnder o ymborth iachus i'w deulu. Rhaid fod ganddynt drysor o wybodaeth eu hunain, cyn y gallant ddwyn allan oddi yno gyflawnder o ymborth iachus i eraill. Y mae yr hen bethau a'r newydd, gyd â'u gilydd, yn ymddangos yn fwy rhyfedd, ac yn fwy dealladwy. Geill hen bethau fod yn newydd yn barhaus i ni, o herwydd ein golygiadau newydd arnynt, a'r defnydd newydd beunyddiol yr ydym yn ei wneuthur o honynt. Can. 7. 13. Esa. 48. 6. 1 Ioan 2. 7, 8. Ioan 13. 34. Edr. YSGRIFENYDD.

'Newydd-deb ysbryd—newydd-deb buchedd.' Rhuf. 6. 4. a 7. 6. Y mae pob peth mewn dyn gwedi ei anmharu a'i lygru trwy bechod; y mae yr Ysbryd Glân, trwy yr efengyl, yn ei adnewyddu yn drwyadl; sef ei ysbryd a'i fuchedd, yn dufewnol ac yn allanol. Y mae yn gwasanaethu Duw mewn newydd-deb ysbryd; sef mewn ysbryd gwedi ei adnewyddu, ei ryddhau, a'i lôni trwy yr efengyl; ac y mae yn rhodio yn gyfatebol mewn newydd-deb buchedd; sef mewn buchedd rhydd, dyddanus, a sanctaidd, cyfatebol i efengyl gras Duw.

NEWYDDIAN—OD, (newydd) ieuanc; un newydd gymeryd at beth.—'Nid yn newyddian yn y ffydd.' 1 Tim. 3. 6.—'Nid ysgolhaig-ieuanc.' W. S. a Dr M. *Gr.* *νεοφυτον*, *un newydd ei blanu*, neu *ei impio*; un newydd ei dderbyn at Gristionogrwydd oddiwrth y grefydd Iuddewig neu Baganiaeth. Yr oedd y cyfryw yn anaddas i gael eu gosod yn esgobion, gan nas gellir barnu fod ganddynt wybodaeth gyflawn o egwyddorion y grefydd Gristionogol, ac am hyny yn anaddas i ddysgu eraill. Hefyd, gan eu bod heb eu profi yn ddigonol o ran eu ffyddlondeb a'u gostyngeiddrwydd, nas gallesid ymddiried iddynt nad ymchwyddent o herwydd eu dyrchafiad, a syrthio dan yr un farnedigaeth a'r diafol.

NEWYN—OG—LLYD—U, (ne-gwyn) *Gwydd.* NUNA: chwant bwyd, gwanc, awydd; gwall bwyd: newyndod.

Gloddest awr a *newyn* blwyddyn. *Diar.*

Duw sydd yn galw am newyn ar y tir. Ps. 105. 16. Un o'i farnedigaethau ef ar ddynion am eu pechodau yw newyn. Er bod ail-achosion, etto, y mae yr holl ail-achosion, a'u holl effeithiau, yn ei law, a than ei lywodraeth ef. Weithiau, gormod sychder, neu ormod gwlybwr, ydynt achosion o hono; brydiau eraill, rhyw bryf, neu fyddinoedd gelynion yn difa ffrwyth y ddaear. 1 Bren. xvii. Jer. xiv. Joel i, a ii. Deut. xxviii. Gen. xiv. 2 Bren. vi.

Bu newyn yn ngwlad Canaan yn nyddiau Abraham, Isaac, a Boaz. Gen. 12. 10. a 26. 1. Ruth 1. 1.—Dros dair blynedd yn nyddiau Dafydd. 2 Sam. xxi.—Dros dair neu bedair blynedd yn nyddiau Ahab. 1 Bren. xvii, a xviii.—Dros saith mlynedd yn nyddiau Jehoram a'i feibion. 2 Bren. 8. 1.—Un arall yn nyddiau Joel. Pen. i, a ii.——Un arall yn nyddiau Jeremiah. Pen. xiv.——Bu newyn hefyd yn nyddiau Haggai a Nehemiah. Hag. 1. 7—11. Neh. 5. 3.—Bu newyn yn yr Aipht dros saith mlynedd yn nyddiau Joseph. Gen. 41. 27. Y mae Crist yn rhagfynegi y byddai newyn mawr yn Jerusalem, pan warchaewyd arni gan y Rhufeiniaid. Mat. 24. 7. Act. 11. 27—30. Edr. JERUSALEM, IUDDEWON.

Gelwir prinder o foddion gras ac ordinhadau yr efengyl, yn newyn; a'r newyn trymaf o bob newyn ydyw y newyn ysbrydol hwn, er bod llawer yn ddideimlad o hono. Amos 8. 11. Cyflawnwyd hyn yn ddychrynllyd ar yr Israeliaid, y rhai a addolasant eilunod Samaria, a'r llo aur yn Dan. Adn. 14. Diystyrasant brophwydi ac addoliad Duw yn eu gwlad eu hunain; ac ni chaent mo honynt yn ngwledydd eu caethiwed. Gwrthodasant wrando ar Grist, y *gwir Fessïah*, ac yn ofer y maent gwedi hyny yn dysgwyl am un arall i ddyfod.

Digitized by Google

**NIBHAZ**, נבחז [*ffrwythlonrwydd*, neu, *y cyfarthwr gwledydd*] eilun-dduw yr Afiaid. 2 Bren. 17. 31. Hwyrach yr un ag Anubis, eilun-dduw yr Aiphtiaid; neu Nebo, eilun-dduw y Babiloniaid: ni waeth pwy oedd.

**NIBSAN**, ניבשן [*daear fras*, neu *yr hwn sydd yn llefaru*] dinas yn Judah. Jos. 15. 62.

**NICANOR**, Νικανωρ [*buddugoliaethus*] un o'r saith a ddewiswyd i arolygu elusen y Cristionogion tlodion yn Jerusalem. Act. 6. 5. Nid oes ychwaneg o hanes credadwy am dano.

**NICODEMUS**, Νικοδημος [*gwaed gwirion*] Pharisead, ac un o benaethiaid yr Iuddewon, athraw, ac aelod o'r cynghor mawr yn Jerusalem. Ioan iii. Ar y cyntaf daeth at yr Iesu, yn y tŷ lle yr oedd yr Iesu yn llettya, yn neu yn agos i Jerusalem, liw nos, rhag cywilydd, neu rhag ofn yr Iuddewon. Yn ei ymddyddyn â'r Arglwydd Iesu, y mae efe yn ymddangos yn llwyr anwybodus o nâtur teyrnas Crist, ac o brophwydoliaethau yr Hen Destament, ac athrawiaethau y prophwydi am dani, ac am waith Ysbryd Duw ar eneidiau dynion. Ioan. 4. 5. Os barnwn am yr athrawon Iuddewig y dyddiau hyny, oddiwrth yr hyn a welwn yn y pendefig hwn, y mae yn ymddangos fod anwybodaeth mawr yn eu plith, a bod crefydd yn isel iawn o ran yr ysbrydolrwydd o honi. Yr oedd y Phariseaid yn rhagori yn eu manylrwydd yn nghylch defodau allanol, ac yn eu hamlhau yn ddirfawr trwy ychwanegu traddodiadau dynol at orchymynion Duw, ac weithiau yn eu lle; ond am ansawdd gwir grefydd yr oeddynt yn gwbl dywyll, ac yn dangos y gelyniaeth mwyaf yn ei herbyn. Gellir canfod ynddynt hwy, yr hyn sydd wedi ei wirio yn mhob oes wedi hyny, mai rhith grefyddwyr ydyw y gelynion penaf i wir dduwioldeb, ac i athrawiaeth yr efengyl. Cafodd Nicodemus achos i ryfeddu byth rad ras Duw a ymwelodd âg ef, ac a'i gwaredodd ef o'u canol. Yr oedd gwyrthiau yr Arglwydd Iesu yn Jerusalem gwedi deffroi sylw y Phariseaid a'r pendefigion yno; ac er eu bod yn rhagfarnllyd, etto nid oeddynt mor greulawn yn ei erbyn ag gwedi hyn. Yr oedd rhai o honynt yn barnu mai dysgawdwr ydoedd wedi dyfod oddiwrth Dduw, gan dybied, yn uniawn, nas gallasai neb wneyd y gwyrthiau yr oedd efe yn amlwg yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd âg ef. Yr oedd Nicodemus, yn mhlith eraill o'r farn hon am dano; ac o herwydd hyny yn chwennych ymddyddan âg ef. Y mae ymddygiad yr Iesu tu ag ato, a'r ymddyddan rhyngddynt hwy, yn hynod o addysgiadol a phwysig. Y mae ei ddull yn dirion ac yn ennillgar, a chyd â'r doethineb mwyaf yn cymeryd y ffordd debycaf i'w oleuo ef yn y pethau tra phwysfawr yr ydoedd yn dywyll yn eu cylch. Nid ydyw yn union-gyrchol yn dywedyd ei fod yn dywyll; ond yn esmwyth, yn naturiol, ac yn raddol, yn ei arwain i ganfod ei hun, ac i gyfaddef ei fod felly. Nid siarad yn ofer a wnaeth, fel gwr boneddigaidd, yn nghylch y pethau mwyaf hysbys iddo; ond yn nghylch y pethau pwysig yr oedd yn anwybodus o honynt, ac angenrheidiol iddo eu gwybod; sef yn nghylch *ail-enedigaeth, a ffydd yn Mab Duw*, y gwir Fessïah. Edr. Adenedigaeth, Ffydd.

Rhyw amser wedi hyn, amddiffynodd Nicodemus yr Iesu pan oedd yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid am ei ddal ef, a'r swyddogion, wedi eu gorchfygu gan ei ymadrodd, yn methu gwneuthur hyny, ond a atebasant, 'Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.' Am hyn cafodd sèn ganddynt; ond er hyny cafodd ei amddiffyniad ei effaith arnynt y pryd hwnw. Ioan 7. 50. Gwedi hyn, rhoddir hanes am dano ei fod gyda Joseph o Arimathea yn claddu yr Iesu; ac i bêr-arogli y corph sanctaidd, dug Nicodemus 'fyrr ac aloes yn nghymysg, tua chan pwys.' Fel hyn, gwelwn yn hyfryd, fod y gorsen ysig gwedi cryfhau yn hynod, a bod zel y llin yn mygu yn dechreu llewyrchu yn ogoneddus. Ioan 19. 30. Y mae traddodiad iddo gael ei fedyddio; ond pa bryd, a chan bwy, nid yw hysbys. Gwedi ei fedyddio, bwriwyd ef allan o'i swydd, fel aelod o'u cynghor, neu fel seneddwr, ac hefyd o'r synagog. Gamaliel, ei gâr agos, meddant, a'i cymerodd i'w dŷ yn y wlad, lle y bu fyw weddill ei ddyddiau, a phan y bu farw, claddwyd ef yn agos i Stephan. Y mae efengyl ffugiol, a elwir Gweithredoedd Pilat, a briodolir i Nicodemus; ond y mae yn eglur yn ffugiol, ac yn annheilwng o ychwaneg sylw.

**NICOPOLIS**, Νικοπολις, [*dinas y fuddugoliaeth*] Yr ydoedd dinas o'r enw yn Epirus; ac un arall yn Thracia, yn agos i Macedonia ar yr afon Nessus; ac un arall yn Pontus. Yn mha un o'r rhai hyn y dywed Paul wrth Titus ei fod ar fedr gauafu, sydd ansicr. Tit. 3. 12.

**NICHOLAS—AIAID**, Νικολαος, [*buddugoliaeth y bobl*] proselyt o Antiochia i'r grefydd Iuddewig, ac a gofleidiodd y ffydd Gristionogol yn foreu. Act. 6. 5. Yr oedd yn un o'r saith dyn sanctaidd, llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb, a osodwyd ar y gorchwyl o arolygu elusen y tlodion yn Jerusalem, a elwir yn anmhriodol, y saith diacon. Edr. Diacon. Nid oes dim sail digonol i farnu mai efe oedd tad plaid gyfeiliornus y Nicolaiaid, gweithredoedd pa rai y dywed Crist ei fod yn eu casâu. Dat. 2. 6—15. Tadogwyd y blaid hòno, ond yn annheilwng, ar y gwr sanctaidd hwn, gan lawer o'r hen dadau, gan na wyddent am un Nicholas arall i roddi yr enw iddi. Yn yr Actau y mae coffadwriaeth y gwr hwn yn barchus ac yn enwog am ei dduwioldeb. Barna rhai, fod yr enw Nicolaiaid i'w ddeall yn gyfriniol am y gau-athrawon, ac yn arwyddo *gormeswyr y bobl*, a'i fod o'r un ystyr a'r gair *Heb.* בלעם *Balaam*, sef *arglwydd y bobl*. Tystia Crist fod eu hathrawiaeth a'u bucheddiad yr un â'r eiddo Balaam, yr hwn a fwriodd rwystr ger bron meibion Israel, i fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod, ac i odinebu. Dat. 2. 15. Num. 25. 1, 2. Rhydd Petr, yn ei ail epistol, a Judas, olygiad cyflawn ar athrawiaeth gyfeiliornus a bucheddiad ffiaidd y gau-athrawon boreuol hyn. Collasant yr enw Nicolaiaid yn fuan, ac yr oeddynt yn yr oesoedd cyntaf yn adnabyddus wrth yr enw Gnosticiaid (*Gnostics*) ac amryw enwau eraill. Nid oes ond un athrawiaeth wirioneddol, ond y mae gau-athrawiaethau lawer; ac yn myned dan amrywiol enwau, er eu bod oll yn tarddu o'r un ffynon, yn yr amrywiol oesoedd. Eu hegwyddorion oeddynt ffiaidd, a'u bucheddau, meddant, yn gyfatebol. Barnent, gan fod Duw yn ddiduedd yn dda i bawb, fod i bawb hawl i bob peth yr un fath, heb olwg ar gyfraith Duw, na rhwymau sanctaidd priodas. Antinomiaid o'r fath ffieiddiaf oeddynt, yn athrawiaethol ac yn fucheddol, yn gwadu fod cyfraith sanctaidd Duw yn rheol bywyd. Yn Ephesus yr oeddynt yn eu golygu hwynt gyda chasineb addas i'w cyfeiliornadau atgas: ond yn Pergamus a Thyatira, rhoddwyd gormod o dderbyniad iddynt.

**NIFER—I**, (nif) rhif, rhifedi, llïaws, mintai o bethau; cyfrif. Gen. 34. 30. Hos. 1. 10. Rhuf. 9. 27.

**NIGER**, Νιγερ [*du*] a gyfenwyd Simon, prophwyd ac athraw yn Antiochia; un o'r rhai a roddasant gyd

* Y mae yr hyn sydd wedi ei ddyfeisio am y dyn sanctaidd ac enwog hwn yn afresymol a disail. Tybiodd yr hynafiaid, wrth ddarllen am gyfeiliornad y Nicolaiaid yn llyfr y Datguddiad, ac heb ystyried ystyr cyfriniol yr enw hwn, mai rhyw Nicholas oedd awdwr y sect hon. Ac am nad allent gael neb o'r enw mewn hen ysgrifeniadau, heblaw y diacon hwn yn Jerusalem, tadogwyd y blaid gyfeiliornus hon arno ef, ac felly a wnaethant anghyfiawnder mawr â chymeriad un a godir yn uchel yn yr Actau. Vitringa *in Apoc. cap.* 2. 6.



Digitized by Google

âg ympryd a gweddi, ddwylaw ar Paul a Barnabas. Act. 13. 1. Barna rhai mai Simon o Cyrene ydoedd, ond heb ddim sail ond yr enw.

NILUS, שיחור [*du, afloyw*] gadawyd y gair heb ei gyfieithu yn Jos. 13. 3. 1 Cron. 13. 5. Esa. 23. 3. Cafodd yr afon hon yr enw Sihor oddiwrth liw du y dwfr, gwedi ei gymysgu â'r llaid y mae yn ei ddwyn gyda hi o Ethiopia pan y bydd yn gorlifo.* O herwydd yr un achos y galwyd hi gan y Groegiaid *Melus*, a chan y Lladinwyr *Melo*. Gelwid hi *Siris* gan yr Ethiopiaid; hwyrach yr un a Sihor.—'Hâd Sihor;' (Esa. 23. 3.) sef yr ŷd a dyfai ar lan yr afon Nilus, yr hwn a werthid i'r gwledydd cymydogaethol. Yn Jer. 2. 18. cyfieithir ef *Nilus*. Tebygol fod y gair Nilus yn tarddu oddiwrth נחל *(nahal) afon, afonig*. Y mae hen hanes mai oddiwrth ryw frenin a'i enw Nilus y cafodd yr afon yr enw hwn, yr hon a alwyd o'r blaen *Ægyptus*. Gwel *Ancient Univers. Hist., vol.* ii. Afon enwog yn yr Aipht ydyw y Nilus. Y mae ei tharddiad yn Ethiopia Uchaf, neu Abyssinia. Dywed rhai ei bod yn tarddu o ddwy ffynon; ond dywed Thevenot nad oes ond un ffynon yn rhoddi derbyniad iddi wrth droed mynydd uchel, yn nhalaeth Goyam, yn Abyssinia. Gwedi rhedeg amryw ugeiniau o filltiroedd, y mae yn myned i'r llyn Zoise, neu Dambea. Gwedi ymlwybro, dolenu, a llawer o ymdroadau, yn ngwlad ei tharddiad, y mae yn rhedeg i'r Aipht. Yn nghylch Senar y mae yn rhanu yn ddwy gainc, un o ba rai a rêd i'r gorllewin trwy Affric, ac a elwir Niger, Nigir, neu Senega; a'r llall a rêd i'r gogledd trwy yr Aipht, ac a elwir Nilus, sef Nahal, neu yr afon Niel.† Gelwir hi Sihor (*du*) oddiwrth liw du y llaid y mae yn ei ddwyn gyda hi, ac afon yr Aipht, yn aml, am nad oes un afon arall yn y wlad hòno yn deilwng o'r enw. Y mae saith rheieidr nodedig arni. Yn un o honynt y mae y dwfr yn disgyn o graig dau can troedfedd o uchder, ac yn rhedeg mor chwyrn, fel y gwna fwa, yn gadael ffordd lydan wrth droed y graig i deithwyr fyned ar hyd-ddi heb gael eu gwlychu, a chyd âg uwch sŵn na tharan, i'w glywed i bellder naw neu ddeg milltir. Er ei bod yn rhedeg dros bymtheg cant o filltiroedd, ac yn derbyn llawer o afonydd iddi, yn enwedig cyn ei dyfod i'r Aipht, nid ydyw ei ffrwd gymaint ag y gellid dysgwyl. Yn nghylch triugain neu bedwar ugain o filltiroedd cyn iddi fyned i Fôr y Canoldir, mae yn rhanu yn ddwy ffrwd, ac yn ffurfio y Delta rhyngddynt; a'r ddwy ffrwd hyn a ranant drachefn i ffrydiau eraill. Yn yr hen oesoedd yr oedd iddi saith ffrwd. Esa. 11. 15. Pa nifer sydd iddi yn bresennol, nid ydys yn cytuno: rhai a gyfrifasant naw, eraill un ar ddeg; ac eraill bedair ar ddeg; ond tebygol nad oes ond pedair o ddim hynodrwydd, sef y Pelusiac i'r dwyrain, y Canopia i'r gorllewin, a'r Pathmetic yn y canol. Yn niwedd Mehefin, ac yn misoedd Gorphenaf ac Awst, y mae y gwlawogydd mawrion yn mynyddoedd Abyssinia yn chwyddo yr afon yn flynyddol, nes ydyw yn gorlifo dros ei cheulanau. Yn mis Awst y mae ugain milltir o bob tu iddi gwedi eu gorchuddio â'i llifeiriaint, fel nad oes dim i'w gweled ond tai, pentrefydd, a choedydd. Yr oedd yr hynafiaid yn anwybodus o'r achos o ddylifiad yr afon. Ptolemy Philadelphus, tywysog ymofyngar iawn, a anfonodd wyr i'w chwilio allan. Y mae yr Indus a'r Ganges yn gorlifo oddiwrth yr un achos, yr un amser o'r flwyddyn. Nid yw teithwyr diweddar yn cytuno am uchder codiad y dwfr. Dilys yw, am fod y ddaear yn uwch trwy y llaid a ddygir yno bob blwyddyn, hwyrach droedfedd bob can mlynedd, bod yn rhaid i'w dyfroedd gyfodi yn uwch i orchuddio, a thrwy hyny ffrwythloni y wlad, nag yn yr hen amseroedd. Barna rhai, mai yr uchder goreu ar les y wlad yw 29 troedfedd, eraill a farnant mai 36 neu 40 troedfedd yw y goreu; a hwyrach mai y farn ddiweddaf sydd gywiraf. Mae ganddynt beiriant a elwir *Nilometer*, i fesur uchder y dyfroedd, fel y byddant yn cyfodi bob dydd, a bydd hyny yn cael ei gyhoeddi yn ninas Cairo yn feunyddiol. Os bydd cyfodiad y dwfr yn rhy fychan, nid yw y wlad yn cael ei gwrteithio yn ddigonol â llaid: os bydd yn ormod, y mae yn dylifo y wlad, ac yn sychu yn rhy ddiweddar i hau y tir ar ei ol. Gwedi sychu y dyfroedd yn Hydref a Thachwedd, y maent yn hau eu hâd yn y llaid, yr hwn wedi ei sathru gan foch, neu ei orchuddio ryw ffordd arall ddidrafferth, rhydd gnydau toreithiog. Nid oes gan yr Aiphtiaid achos, fel preswylwyr gwledydd eraill, i aredig, na llyfnu, na gwrteithio y tir; y mae ffrwythlonrwydd y wlad yn dibynu yn gwbl ar orlifiant yr afon. Gwedi treio yr afon, nid oes chwaneg iddynt wneuthur na chymysgu ychydig dywod a llaid, gwedi iddynt hau yr hâd, heb ddim trafferth ychwaneg.

Yn yr Aipht Uchaf, lle nad ydynt hwy yn cael ond ychydig neu ddim gwlaw trwy y flwyddyn, y maent yn cadw y dyfroedd mewn pydewau a dyfr-ffosydd, fel y gallont ddyfrhau eu meusydd wrth eu hewyllys. Defnyddiant ddau can mil o ychain i dynu dwfr o bydewau dyfnion i ddyfrhau eu meusydd. I ddiogelu y wlad rhag dylifiant gormodol, cloddiasant y llyn mawr Mœris; ac o hwnw y dyfrhant y wlad, yn ol y byddo achosion yn gofyn. Y mae y wlad yn wastad, a ffurfiant eu gerddi yn welyau pedair-onglog, gwedi eu cylchynu â dyfr-ffosydd, o'r rhai y dyfrhant y gwelyau, fel y byddo achos yn gofyn: trwy y moddion hyn y mae ganddynt y gerddi ffrwythlonaf yn y byd. Y mae yr un tir yn dwyn, yn aml, dri neu bedwar math o ffrwyth olynol, bob blwyddyn. Yn gyntaf, hauant y golaeth (*lettuce*) a chucumerau, gwedi hyny, ŷd, ac ar ol y cynauaf, pompiwn, &c. Y mae dyfroedd yr afon yn effeithio, nid yn unig ar ffrwythlonrwydd y tir, ond hefyd ar y gwragedd, ac ar yr anifeiliaid, trwy yfed y dwfr newydd, ac ymdrochi ynddo. Y mae y gwartheg yn dwyn dau o loi yn gyffredin, a'r defaid yn llydnu ddwy waith yn y flwyddyn, a dau oen y tro cyntaf, ac un yr ail; a gwelir gafr a phedwar o fynod yn ei chanlyn, y rhai a ddygodd mewn chwe mis. Y mae y porfäoedd yn rhagorol iawn, yn tyfu i uchder yr anifeiliaid, ar ba un yr ymborthant y gauaf: yn yr hâf porthant â gwair, gan fod y ddaear wedi ei llosgi i fynu gan yr haul, neu ei gorlifo â dwfr yr afon. Mewn dau dymhor o'r flwyddyn, y mae yr olwg ar wlad yr Aipht yn dra hyfryd. Yn misoedd Gorphenaf ac Awst, gwelir y wlad fel môr helaeth, a phentrefi dirifedi yn codi o hono, yn nghyd a thyrau a chyrnau, fel yr ynysoedd yn Môr Ægea, yn nghyd â sarnau yn arwain o'r naill i'r llall, yn gymysgedig â choedydd, penau pa rai yn unig fydd i'w gweled. Terfynir y gwastadedd ëang dyfrog hwn â mynyddoedd gwedi eu gorchuddio â choedydd hyfryd. Ar y llaw arall, yn misoedd Ionawr a Chwefror, y mae yr holl

* Et viridem *Ægyptum* nigra fœcundat arena.
Virgil, *Georg.* iv. 291.

† Hyd yn ddiweddar yr oedd tarddiad y Niger a'r Nilus yn ddirgelwch cuddiedig. Tybid fod y Niger yn gainc o'r Nilus, fel uchod; ond mae tarddiad y Niger yn awr yn hysbys; ceir ei bod yn afon hollol wahanol i'r afon Nilus, yn tarddu o'r mynyddoedd Kong, rhwng Soudon a Guinea, yn ngorllewin Affric, yn rhedeg tu a'r dwyrain, ac yn ymarllwys i gyfyng-fôr Guinea. Y dyblaeth bresennol ydyw ei bod yn tarddu o fynyddoedd y Lleuad. Gwel Kitto's *Cyclopædia of Biblical Literature, &c.*—Mae y Nilus yn ymranu i dair prif gangen: sef, 1. *Bahr el Abiad*, o'r tu gorllewinol, yr hon yw y fwyaf o'r tair; 2. *Bahr el Azrek*, yn y canol; 3. *Taeazzè*, neu *Abara*, o'r tu dwyreiniol. Ymuna y ddwy gyntaf â'u gilydd yn Senaar, a'r olaf a'u cyferfydd yn neheudir Nubia, ac yna rhedant yn un ffrwd gref am tua 1500 o filltiroedd hyd Fôr y Canoldir. Cyrhaedda yr Aipht gyntaf yn Assousan, lle mae yn 3000 troedfedd o led.—C.

Yn mis Mehefin, 1863, Cadbeiniaid Speke a Grant, dau foneddwr o Loegr, a ddychwelasant yn ol, wedi darganfod tarddiad y Nilus. Cawsant ei bod yn tarddu o'r llyn Nyanza, ar y cyhydedd, (4 gradd i'r dehau, 1 i'r gogledd) a dilynasant hi i lawr i'r Aipht. Gwel Attodiad, dan y gair NILUS.—CYH.

Digitized by Google

wlad fel gweirglawdd dlws, wedi ei harddu â phob math o flodau. Gellir gweled y dëadellau defaid a'r gyroedd gwartheg gwedi eu gwasgaru dros y gwastadedd, yn nghyd âg amaethwyr, garddwyr, a bugeiliaid, yn ddirifedi. Bydd corph yr awyr wedi ei bereiddio âg arogl hyfryd blodau y coedydd ffrwythlawn, nes ydyw ar yr un pryd yn hyfryd ac yn iachusol. Y mae holl naturiaeth yn fyw yno, pan y byddo yn farw yn mhob man arall. Y mae trefn ddoeth rhagluniaeth i'w gweled yn amlwg yn anfon y gwlawogydd yn Ethiopia mor rheolaidd, yn flynyddol, i ddiwallu yr Aipht, lle y gwlawia mor anaml; a thrwy hyny yn gwneuthur daear sychlyd, dywodlyd, y ffrwythlonaf yn y byd. Sylwa Moses yn neillduol am wahanol achosion ffrwythlonrwydd gwlad Canaan a'r Aipht. Y cynnar a'r diweddar wlaw oedd yn peri ffrwythlonrwydd Canaan. Deut. 11. 10, 11.

Yr oedd yr hen Aiphtiaid yn addoli yr afon, ac yn ei galw Jupiter Nilus. Dywed Volney eu bod hyd heddyw yn rhoddi parch crefyddol iddi, gan ei galw yn gysegredig, yn sanctaidd, yn wynfydedig. O herwydd hyn, hwyrach, y mae yr Arglwydd yn bwgwth taro ei saith ffrwd hi, a lladd ei holl bysgod. Esa. 11. 15. Ezec. 29. 3, 4. Terfynau gwlad yr addewid ydynt o'r Euphrates i'r afon Nilus, 'O ddyfodfa Hamath hyd afon yr Aipht.' 2 Cron. 7. 8. Esa. 27. 12. Jos. 13. 3. a 15. 4. 1 Cron. 13. 5.

Y *crocodile* sydd breswylydd dychrynllyd yr afon Nilus. Ymae y creadur creulon hwn weithiau yn cynnyddu i 36 o droedfeddi o hŷd; ond nid yw ei gwmpas yn cyfateb i'r hŷd hwn, yn mesur ond yn nghylch pedair troedfedd, mwy neu lai, o gylch. Y mae ei draed blaen yn tebygu oddi mewn ac oddi allan i freichiau dyn; y mae i'r dwylaw, os gellir eu galw felly, bump o fysedd. Y coesau ol, a blaen, ydynt fyrion; ac y mae pob rhan o'r creadur arswydus hwn yn dangos y cyfnerthrwydd mwyaf. Canfyddir ef dros oriau, ie, rai dyddiau, yn gorwedd yn estynedig ac yn ddigyffro yn yr haul; ond ar agosâd un creadur byw ato, neidia mewn mynyd arno, ac a'i llusga i'r dyfnder yn ddiattreg. Ar lifeiriant mawr ânt i fythod y trigolion, yn dwyn dinystr angeuol gyda hwynt, lle bynag yr elont. Ei arf dinystriol, yn benaf, yw ei gynffon; âg un ergyd pa un y tery ac y dymchwel gwch, ac a ysglyfaetha yr hyn oll fyddo ynddo. Llecha yn aml yn mysg helyg yr afon; a'r creadur cyntaf a ddelo at yr afon, y ci, y tarw, y dywalgi *(tiger)* neu ddyn, efe a neidia arno gyda chyflymder annysgwyliadwy oddiwrth y fath anghenfil, ac a'i llusga yn y modd ebrwyddaf i waelod yr afon. Fe red yn gyflym ar dir, a chanfyddir ef yn ymlid ei ysglyfaeth hanner milltir, weithiau, oddiwrth yr afon. Y mae y dywalgwn *(tigers)* yn greaduriaid tra sychedig, ac am hyny trigant yn aml yn agos i afonydd; a dywedir y bydd ymladdfeydd dychrynllyd rhwng y *crocodile* a hwythau, weithiau; ond trwy eu llusgo dan y dyfroedd a'u boddi, y *crocodile* sydd y rhan amlaf yn fuddugoliaethus. Y mae pob creadur yn ei arswydo, ac yn dychrynu rhagddo; ac nid oes un creadur ond dyn yn gallu ei orchfygu. Dywedir yr anturia *Negro* i'r ymladdfa âg ef, heb ddim arfau ond croen eidion am ei fraich aswy, a chyllell yn ei law ddehau. Dywedir fod medr gan y *Siamese* i gymeryd y creadur dychrynllyd hwn yn fyw, ei ddofi, a'i drin fel march, trwy ei ffrwyno, a marchogaeth arno, er difyrwch eu gwyr mawrion. Mae y creadur hwn i'w gael yn afonydd mawrion Asia, Affrica, ac America. Dywedir hefyd y cedwir hwynt yn mhysgod-lynoedd rhai breninoedd yn Affrica. Y mae wyau y *crocodile* yn ymborth hyfryd iawn gan y *Negroes*, ond ei gnawd sydd wydn, ac anhawdd ei dreulio yn y cylla; eithr pan byddo yn ieuanc, dywedir fod yr Arabiaid yn ei hoffi.

Yr *hippopotamus*, neu yr afon-farch, sydd greadur anferth o faintioli, ac i'w gael yn yr Aipht Uchaf, yn rheieidr y Nilus. Yn wrthwyneb i'r *crocodile*, y mae yn ofnus ac yn ysgoilyd, oddieithr cynhyrfu ei gynddaredd trwy ei daro a'i archolli; yna y mae yn beryglus i'r morwyr yn y cychod ar yr afon.

NIMRAH, נמרה [*llewpard*] dinas o du y dwyrain i'r Môr Marw, a elwir felly oddiwrth chwerwder y dwfr, neu oddiwrth yr amledd o lewpardiaid yno; yr un yw a Nemra, Bethnimra, a Nimrim. Num. 32. 3. Esa. 15. 6. Jer. 48. 34.

NIMRIM, enw lle neu ddinas yn Moab.—'Dyfroed Nimrim.' Esa. 15. 6. Hwyrach roddi yr enw hwn ar ddinas yno o herwydd amlder dyfroedd.

NIMROD, נמרד [*gwrthryfelwr*] mab Cus, yr hwn oedd heliwr cadarn ger bron yr Arglwydd; sef yn gadarn, yn gyhoeddus, a'r Arglwydd yn sylwi arno; ac yntau heb ofn Duw o flaen ei lygaid. Gen. 10. 9, 10, 11. Y mae hela, yn aml, yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo erlid a gorthrymu dynion. Jer. 16. 16. Galar. 3. 52. a 4. 18. Diar. 1. 17, 18. Hwyrach iddo, yn gyntaf, ddangos ei wroldeb yn hela bwystfilod niweidiol, ac i eraill ymuno âg ef oblegid ei enwogrwydd, ac iddo fyned rhagddo i orthrymu ac yspeilio ei gymydogion, a'u darostwng hwy tano; ac wedi hyny hôni llywodraethu arnynt, ac felly sefydlu breniniaeth iddo ei hun. Dechreuad ei freniniaeth oedd Babel, ac wedi hyny goresgynodd Erech, Accad, a Chalneh. 'O'r wlad hôno yr aeth Assur allan, ac a adeiladodd Ninifeh;' neu, fel y gellir cyfieithu y geiriau, ***Aeth allan o'r wlad hôno i Assur***, neu ***ac i wlad Assur, a adeiladodd Ninifeh.*** Gwel Ainsworth, Bochart, Scott, Rollin, Esgob Newton, Newcome, ar Nah. 1. 11. Lowth ar Esa. 23. 13. Am hiliogaeth Cam y mae y geiriau yn llefaru, ac nid am hiliogaeth Sem, i'r hwn yr oedd mab a'i enw Aser. Tebygol fod llaw fawr gan Nimrod yn adeiladu Babilon a Ninifeh, dwy ddinas tra hynod gwedi hyny. Yr un oedd a Belus (neu Baal, *arglwydd)*, yr hwn a addolwyd gwedi hyn dan yr enw hwnw, medd rhai, er bod eraill o farn wahanol. Cafodd Ninifeh ei henw oddiwrth Ninus mab Nimrod. Gelwir Assyria, 'Gwlad Nimrod.' Mic. 5. 6. Rhoddodd Ninifeh, tebygol, i'w fab Ninus, ac a'i galwodd Ninifeh, oddiwrth נין *mab*, נוה *trigfa*. Y mae gwlad Nimrod yn Michah i'w golygu mewn ystyr cyfriniol, yn ol meddwl rhai, am elynion ac erlidwyr yr eglwys, rhai yn byw dan lywodraeth yr un ysbryd a Senacherib a'r Assyriaid.

NIMSI, נמשי [*gwaredol*] tad Jehu brenin Israel. 1 Bren. 19. 16.

NINIFEH, (Edr. NIMROD) prif ddinas Assyria. Yr oedd yn sefyll ar yr afon Tigris; ond pa un ai ar du y dwyrain, neu ynte y gorllewin iddi, nid yw haneswyr yn cytuno. O du y dwyrain, medd rhai, gyferbyn a'r ddinas Mosul yn awr. Yr oedd yn un o'r dinasoedd mwyaf fu erioed yn y byd. Yn llyfr Jonah dywedir ei bod yn ddinas fawr iawn, עיר־גדלה לאלהים ***dinas fawr i Elohim***, geiriau yn arwyddo ***mawr iawn***, yn ol priodoldeb yr iaith Hebraeg. Yn ol hanes Diodorus Siculus, yr oedd yn ugain milltir o hŷd, deuddeg o led, ac yn driugain milltir o gylch; ac, medd Strabo, yr oedd yn llawer mwy na Babilon. Yr oedd yn daith tri diwrnod i Jonah, ac iddo gerdded ugain milltir yn y dydd. Yr oedd ei mur yn 200 troedfedd o uchder, ac mor llydan ag i roddi lle i dri cherbyd yn ochrog ar ei ben. Ar y mur yr oedd 1500 o dyrau, pob un yn 200 troedfedd yn uwch na'r mur. Dywed yr Arglwydd fod yn Ninifeh fwy na deuddeg myrdd, sef 120,000 o ddynion, y rhai ni wyddent ragor rhwng eu llaw ddehau a'u llaw aswy, ac anifeiliaid lawer. Cyfrifir yn gyffredinol fod y plant yn bummed ran o drigolion lle; os felly, yr oedd yn Ninifeh 6,000,000 o

Digitized by Google

drigolion; ac nid ydyw y nifer hwn yn ymddangos yn anghredadwy, os ystyrir ëangder y ddinas.

Assyria oedd yn sefyll o'r tu dwrain i afon Tigris, neu Hidecel, (Gen. 2. 14.*) yr hon oedd yn gwahanu rhyngddi ac ARAM-NAHARAIM, neu MESOPOTAMIA. Yn rhaniad y ddaear rhwng meibion Noah, ar amser genedigaeth Peleg, (Gen. 10. 25.) dygwyddodd y wlad hon i Assur mab Sem, ac a alwyd ar ei enw ef. Nimrod mab Cus, ac ŵyr Cam, oedd y cyntaf a ddechreuodd ymgadarnhau ar y ddaear, trwy dòri dros y terfynau a osodwyd i feibion Noah; y mae ei enw, NIMROD, yn arwyddocâu *gwrthryfelwr, cynllwynwr*, neu *dreisiwr* cadarn yn erbyn yr Arglwydd; canys hyny y mae 'Heliwr cadarn ger bron yr Arglwydd,' yn arwyddocâu. Dechreuad ei freniniaeth oedd Babel, neu Babilon, yn ngwlad Sinar, o ba wlad yr aeth efe allan i Assyria, ac a'i traws-feddiannodd, ac a adeiladodd yno Ninifeh, a dinasoedd eraill, ac a drigodd yn Ninifeh, fel y gellir casglu oddiwrth arwyddocâd yr enw, yr hyn yw trigfa Nin, neu Ninus, yr hwn oedd enw cenedlig Nimrod, neu, tebycach, enw ei fab. Dyma y sefydliad cyntaf o ymerodraeth fawr Assyria, oddeutu y flwyddyn o oed y byd 2009, wedi y diluw 353, ac un flwyddyn wedi geni Abraham. Ni bu fawr o gynnydd ar yr ymerodraeth hon dros lawer o oesoedd ar ol buddugoliaethau Nimrod, neu Ninus; gan fod rhes o freninoedd anymladdgar, merchedaidd, yn y cyffredin, yn dilyn olynol hyd Sardanapulus, yr hwn, fel y bernir, oedd tad Pul, yr hwn a ddaeth i wlad Israel yn amser Menahem, i'w gynnorthwyo; am ba wasanaeth y derbyniodd efe fil o dalentau arian. Yr ydys yn barnu mai Pul oedd y brenin ag oedd ar Ninifeh, ac a edifarhaodd wrth bregeth Jonah. Ond barna Esgob Newton, mai rhyw frenin oedd cyn yr un a gofféir am dano yn yr ysgrythyrau; canys Jonah oedd y prophwyd hynaf o'r holl brophwydi. Gwel *Dissert.* ix., *on the Prophecies.*

Yn y flwyddyn o oed y byd 3262, a 747 cyn geni Crist, y cymerwyd Ninifeh gan Belesis, neu Baladan, rhaglaw Babilon, ac Arbaces, neu Tiglath-Pilneser, rhaglaw Media, y rhai a fuasent weision o'r blaen i Sardanapulus. Yr oedd hyn yn ddymchweliad, neu yn gwymp, ond nid yn ddinystr hollol, i Ninifeh, ac yn hyn y cyflawnwyd prophwydoliaeth Jonah, yn mhen deugain mlynedd wedi ei chyhoeddi. Tebygol iawn fod rhyw berygl mawr, rhyw fradwriaeth ddirgel, neu ryfel agored, yn addfed i dòri allan yn mhen y deugain niwrnod, yr hyn a ddarfu i'r Arglwydd ei attal ar waith y Ninifëaid yn ymostwng ger ei fron. Yr ydys yn gyffredin yn cyfrif 1300 o flynyddoedd o sylfaeniad ymerodraeth Assyria hyd y dymchweliad hwn yn amser Sardanapulus; ond wrth dynu 2009, sef oed y byd pan sylfaenwyd Ninifeh, o 3262, oed y byd pan gymerwyd Ninifeh gan Belesis ac Arbaces, y gweddill a fydd 1253, ond rhy anhawdd cael manylrwydd mewn pethau mor dywyll. Ar ol hyn bu ymerodraeth Assyria yn rhanedig dros 67 o flynyddoedd, gan fod Baladan a'i hiliogaeth yn teyrnasu yn Babilon, ar Caldea ac Arabia, a Tiglath-Pilneser a'i hiliogaeth yntau yn Ninifeh, hyd y flwyddyn o flaen Crist 680, yr hon oedd y 19 i Manasseh brenin Judah, pan fu Mesessimordacus, brenin Babilon, farw yn ddieppil, yr hyn a fu yn achos o annrhefn mawr dros wyth mlynedd, ac a roes achlysur i Esarhadon mab Senacherib, yr hwn oedd yn teyrnasu yn Ninifeh, i gymeryd Babilon, ac felly teyrnasodd ar yr holl ymerodraeth dros dair blynedd ar ddeg, hyd ddiwedd ei oes: a bu ei fab Saosduchinos, a Chiniladanus, yn teyrnasu ar y cwbl wedi hyny 41 mlynedd, hyd y flwyddyn cyn geni Crist 626; yn mha flwyddyn y gwrthryfelodd Nabopolassar, tywysog milwriaeth Chiniladanus, yn ei erbyn, ac a gymerodd Babilon. Tair blynedd ar ddeg gwedi hyn, Nabopolassar, gwedi gwneuthur cynghrair â'r Mediaid (trwy gymeryd Amyitis, merch Cyaxeres brenin Media, yn wraig i'w fab Nebuchodonosor), a ymosododd gyda hwynt ar Ninifeh, ac wedi ei chymeryd, a'i llwyr ddinystriodd. Ac yn hyn y cyflawnwyd prophwydoliaethau Nahum, a Sephaniah 2. 13, 14, 15. Y dinystr hwn ar Ninifeh a ddygwyddodd yn y flwyddyn o oed y byd 3397, o flaen Crist 612, a'r 29 o deyrnasiad Josiah. Am y dinystr cyflawn hwn y mae Ezeciel yn sôn pen. xxxi., ac yn bwgwth yr Aipht â'r cyffelyb.

Bu ymerodraeth Assyria (yr hon a elwir bellach yn ymerodraeth y Babiloniaid, am fod y breninllys yn Babilon) gyda llawer o wledydd ëang a ennillwyd ati, yn meddiant teulu Nebuchodonosor oddeutu 78 o flynyddoedd, hyd y flwyddyn gyntaf i Darius y Mediad. Parhaodd ymerodraeth Assyria o'i sylfaeniad cyntaf yn amser Nimrod, hyd oni chymerwyd Babilon gan Cyrus, oddeutu 1464 o flynyddoedd.

Rhoddais yma olygiadau Usher a Prideaux ar yr hanes tywyll ac ansicr hwn, fel y tebycaf i'r gwirionedd; ond rhaid i mi gyfaddef fod brudwyr enwog eraill yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth yr hanes hwn. Ond gan na ddichon neb ddyfod i gyflawn sicrwydd, trwy dywyllwch hynafiaeth am y pethau hyn, ni chaf ychwanegu ar y mater, Gwel Diodorus Siculus, *b.* 11. Esgob Newton, *Dissert.* ix.

Y mae prophwydoliaethau Nahum a Sephaniah am hollol ddinystr Ninifeh, gwedi eu cyflawni mor hynod, fel na ddichon teithwyr diweddar i'r parthau hyny o'r byd gael allan i foddlonrwydd yn mha le yr ydoedd hi yn sefyll.* Y mae prophwydoliaeth Nahum o'i dinystr yn fanwl neillduol, ac y mae hanes Diodorus Siculus am hyny, yn gwirioneddu ei chyflawniad, yn gyfatebol mor fanwl. Dywed Nahum y byddai i'r Assyriaid gael eu dystrywio pan fyddent yn feddwon—ac y byddai i byrth y dwfr ymagoryd, a'r palas ymddattod. Gwel pen. 1. 10. a 2. 6. Felly, yn gyfatebol, y mae yr hanes i Arbaces, brenin Media, glywed eu bod yn gloddesta, ac yn gorfoleddu am eu buddugoliaethau, syrthio arnynt yn ddiarwybod, a hwythau yn gwbl anmharod i'w wrthsefyll, cymerodd eu gwersyll, a gyrodd y lleill i'r ddinas. Dywed hefyd, i'r afon chwyddo, yn y drydedd flwyddyn o'r gwarchae, trwy wlawogydd dyfal a pharhaus, a gorlifo rhan o'r ddinas, a dinystrio llawer, sef dwy filltir a hanner o'r mur. Yr oedd hen brophwydoliaeth yn eu plith, na byddai i'r ddinas gael ei chymeryd hyd nes doi yr afon yn elyn iddi; ar hyn barnodd y brenin fod y brophwydoliaeth wedi ei chyflawni: yn ganlynol, cauodd ei hun, ei ordderchadon, a'i swyddwyr, yn ei balas, ac a losgodd ei hun, ei balas, a'r cwbl ynghyd. Tystia yr hanesydd uchod, fod yr ysglyfaeth o aur ac arian yn fawr, yn ol rhag-ddywediad Nahum, pen. 2. 9. Heb ymhelaethu, y mae yr hanes yn cyfateb i'r brophwydoliaeth mor hynod, fel nad yw yn gadael lle i ammeu yn y mesur lleiaf, nad prophwydi Duw oedd Nahum a Sephaniah, a bod eu prophwydoliaethau yn brawf eglur o'i anfoddlonrwydd a'i ddigofaint yn erbyn gorthrymwyr creulon, ac erlidwyr ei achos a'i bobl yn y byd, fel y bu yr Assyriaid. Yr oedd Ninifeh, fel dinasoedd mawrion eraill, yn fawr ei chyfoeth, ac yn

* Fel hyn y gellir cyfieithu Gen. 2. 14.: 'Ac enw y drydedd afon yw Hidecel, hono sydd yn myned o *flaen* Assyria,' hyny yw, o'r tu yma.

* Y mae ymchwiliadau dyddorol Mr Layard am olion Ninifeh, yn tynu sylw mawr y dyddiau presennol (1856—7) at y 'ddinas fawr hono.' Ymddengys i foddlonrwydd ei fod wedi dyfod o hyd i'w sefyllfa; ac mae y darganfyddiadau a wnaethpwyd eisoes wedi rhoddi eglurdeb ar amryw bethau a arosent yn dywyll o barth iddi. Cyfeirir y darllenydd at waith y Dr Layard, *Nineveh and its Remains*; hefyd, *Notes from Nineveh, &c.*, gan y Parch. J. P. Fletcher; *Nineveh and Persepolis*, gan W. S. Vaux, M. A.; *Nineveh: its Rise and Ruin, &c.*; gan y Parch. John Blackburn; ynghyd a'r *Traethodydd*, am Ebrill a Gorphenaf, 1850.—C.

Digitized by Google

ganlynol, yn fawr ei moethau, ei heilun-addoliaeth, ei balchder, a'i ffiaidd aflendid; ac ychwanegodd at y cwbl, elyniaeth, creulondeb, ac erlidgarwch yn erbyn deiliaid gwirion Duw yn y byd: nododd Duw hi, am hyny, fel siampl o'i ddigofaint a'i fâr yn erbyn y cyfryw bechodau echryslon, ac yn brawf eglur mai cywilydd a dinystr pobloedd ydyw eu pechod. Edr. NAHUM, SEPHANIAH.

NIS, (ni-ys) gorair nacäol, ac o'r un arwyddocâd a *ni*, ac a arferir o flaen geiriau yn dechreu â chydseiniaid, heb eu cyfnewid; megys, nis gwyddost, am ni wyddost; nis gweli, am ni weli, arferedig yn aml. 'Corsen ysig nis tŷr.' Mat. 12. 20.

NISAN, ניסן [*ffoedigaeth*] mis Hebreaidd, yr un ag Abib; sef y mis cyntaf o'r flwyddyn gysegredig, a'r seithfed o'r flwyddyn wladol, yn cyfateb i'r lleuad Fawrth. Edr. ABIB. Cafodd yr enw Nisan wedi y dychweliad o Babilon. Nehem. 2. 1. Esther 3. 7. Gelwir ef yn aml, y mis cyntaf, Exodus 12. 2, 18. Lef. 23. 5, &c.

NISROCH, *Heb.* נסרך [*eryr mawr*] eilun-dduw yr Assyriaid, yr un, medd Vitringa, â Belus. 2 Bren. 19. 37.

NITR, *Heb.* נתר *Groeg* νιτρον; *Llad.* NITRUM; *Saes.* NITRE: halen y graig (*salt petre*) yr oedd y נתר *natrum*, neu *nitr*, y rhoddir hanes am dano yn yr ysgrythyrau, yn dra gwahanol oddiwrth halen y graig gyda ni. Todda yn hawdd mewn ychydig ddwfr, a defnyddir y tawdd-chwaliad hwn yn aml i olchi; a gwneir sebon o hono trwy ei gymysgu âg olew. Ceir amledd o hono yn amryw barthau o Asia, a bydd y trigolion yn ei grynhoi oddiar wyneb y ddaear, ac a'i galwant sebon y ddaear. Eplesa wrth roddi gwinegr arno, yr hyn ni wna y *salt petre*. Y mae o natur lanhaol, ac a'i harferir mewn baddon a golchiadau. Diar. 25. 20. Jer. 2. 22. 'Trwy wneuthur profiadau ar *natron* yr Aipht,' medd y Dr Shaw, 'cawsom ei fod yn *alkali* (sef halen-lysiau) ac y parai eplesiad cryf o hono wrth ei gymysgu â sur-bethau, cwbl wahanol yn ei natur i'n *nitr*, neu ein *salt petre* ni, yr hwn a gymysga yn hawdd â gwinegr, gan ei fod ei hun yn sur-beth.' Hyn a eglura addasrwydd y geiriau yn Diar. 25. 20, lle y cyffelybir yn hardd canu caniadau i galon drist, i winegr ar nitr, dau beth hollol wrthwynebol i'w gilydd. Yr oedd mwn-gloddiau o hono o du y dehau i Memphis yn yr Aipht. Gwel Shaw's *Travels*.

NITHIO—WYR, (nith) *Heb.* זרה gwyntio, gwyntyllio; troelli, dëoli. Esa. 30. 24.—Nithio, yn alleg-awl, a arwydda gwasgaru â barnedigaethau; felly y bygythia Duw anfon 'Nithwyr i nithio Babilon,' (Jer. 51. 2.) sef byddinoedd y Mediaid a'r Persiaid.—— 'Brenin doeth a wasgar (*Heb. a nithia*) yr annuwiol, ac a dry yr olwyn arnynt.' Diar. 20. 26. Buasai harddwch yr ymadrodd cyffelybiaethol hwn yn cael ei gadw yn well wrth gyfleithu y gair yn ol ei briodol ystyr, *nithio*. Fel y gwasgara y gwynt wrth nithio yr ûs oddiwrth y gwenith, ac fel yr olwyn wrth ddyrnu yn ysgar yr ŷd oddiwrth y gwellt, felly y gwna brenin doeth wahaniaethu ac ysgaru yr annuwiol oddiwrth y cyfiawn. 2 Sam. 4. 9—12. a 12. 30. Ps. 101. 7, 8. Esa. 28. 27, 28.

NIWED—EIDIO—IOL, (niw) argywedd, asgen, drwg, colled; colledu, briwio, archolli.

Na chwar hyd *niwed*, na chellwair hyd liwed. *Diar.*

'Nid ofnaf niwed.' Psalm 23. 4. Yn yr amgylchiadau mwyaf cyfyng a dychrynllyd, megys glyn cysgod angeu, nid ofnaf niwed, medd Dafydd, am fod yr Arglwydd yn fugail iddo, ac yn abl ei ddiogelu, ac i drefnu pob peth er llesâd iddo; gwna bethau anhyfryd yn llesol, ac i gydweithio er daioni. Ffydd yn yr Arglwydd yn unig a wared dyn rhag ofn niwed. Ps. 34. 4. Rhuf. 8. 28. Heb. 12. 10.

Y mae pethau niweidiol i ddyn o ran ei gorph, ei enaid, neu ei amgylchiadau: nis oes dim yn niweidiol i enaid dyn ond pechod a'i effeithiau, yn absennoldeb Duw oddi wrtho: ac nid oes dim a wna lesâd iddo yn wirioneddol heb dynu ymaith ei bechod, a'i adferyd i gymdeithas â Duw; a chan mai yr efengyl yn unig sydd yn dangos y ffordd i gyrhaeddyd hyny, nid oes dim yn fwy llesol i ddyn na'r efengyl, o ran ei gorph, ei enaid, a'i amgylchiadau. Effeithiau pechod sydd yn niweidiol i ddyn o ran ei gorph a'i amgylchiadau; beth bynag, gan hyny, a dyno ymaith yr achos, a symud yr effeithiau hefyd yn y diwedd; trwy ffydd yn yr efengyl yn unig y cyrhaeddir hyn: 'I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd y diafol.—Efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau.' Dedwydd, gan hyny, yw y neb a gredo ynddo.

NIWL—OEDD—IOG—EN, (ni-gwl) tarth, mygdarth, nifwl, nydd, caddug, ysmwcan. Jer. 51. 16. Edr. DWFR, GWLAW, GWLITH.—'Syrthiodd arno niwlen a thywyllwch.' Act. 13. 11. Αχλυς, *niwlen*, ydyw math o aflechyd yn y llygaid, yn peri i ddyn weled megys trwy niwl. Tarawyd Elymas y swynwr yn wyrthiol gan Paul â'r aflechyd hwn.

NO, neu NO-AMMON, dinas fawr boblog yn yr Aipht. Ezec. 30. 14, 15. Jer. 46. 25. Nah. 3. 8. Calmet a Bochart a farnant mai Diospolis, yn y Delta, oedd No; Vitringa sydd o'r meddwl mai Noph, neu Memphis, oedd; eraill a farnant mai Alexandria oedd —ond nid oedd Alexandria wedi ei hadeiladu yn amser Jeremiah. Ammon (hwyrach oddiwrth Ham) oedd yr enw wrth ba un y galwai yr Aiphtiaid yr eilun-dduw Jupiter; i'r hwn yr oedd teml enwog yn Thebes yn yr Aipht; o herwydd hyny galwyd y ddinas hôno Diospolis, dinas Jupiter. Os No ydyw Thebes, neu Diospolis, yna Ammon-No yw duw y lle; sef Jupiter o Thebes. Gan hyny נא אמון yn Nah. 3. 8. a ddylasai gael ei gyfleithu *No-Ammon*, ac nid *No dylwythog*. Y mae y geiriau yn wahanol yn Ezec. 30. 15, a gyfieithir yn addas, 'Lliaws No,' את המון נא Y mae tebygolrwydd yn y geiriau, ond nid yr un ydynt, fel y mae ein cyfleithwyr ni, ac eraill, wedi barnu. 'Myfi a ymwelaf â lliaws No,' neu yn hytrach, *Ammon No*, sef duw No, 'ac â Pharaoh.' Jer. 46. 25. 'Mi a ymwelaf â gweryn Alexandria.' Dr M. Y mae Duw yn bwgwth ymweled â'i duw ac â'i brenin. Senacherib, neu ei fab, a gymerasant Thebes, ac a'i hollol ddinystriasant. Ail-adeiladwyd hi, a Chambyses, y Persiad, a'i dinystriodd drachefn, a chafodd ysglyfaeth lawer ynddi. Dinystriwyd hi yn ddiweddaf gan Cornelius Gallus, tywysog Rhufeinig.

NOADIAH, נועדיה [*harddwch yr Arglwydd*] gau brophwydes, yr hon yr rhoddodd gelynion Nehemiah hi ar waith i'w ddychrynu, ond yn ofer. Neh. 6. 14.

NOAH, neu NOE, נח *Gr.* Νωε, [*dyddanwch*, neu *gorphwysfa*] mab Lamech o hiliogaeth Seth. Ar ei enedigaeth, mae yn debygol i'w dad Lamech gael, trwy ddadguddiad dwyfol, hysbysiad o'i enwogrwydd a'i dduwioldeb; ac a roddodd iddo enw yn arwyddo y byddai yn fendith ac yn gysur i drigolion y byd llafurus, a phoenus; gyda golwg neillduol y byddai yn gysgod enwog o'r Messiah, dyddanwch yr Israel, a gorphwysfa ddiddos ei bobl, a phregethwr ffyddlon o hono i fyd llygredig a cholledig. Pan oedd dynolryw gwedi ymlygru yn gyffredinol, ac achos duwioldeb wedi dirywio yn fawr, 'cafodd Noah ffafr yn ngolwg yr Arglwydd.' Cafodd ei sancteiddio gan yr Arglwydd; ei gadw a'i nerthu ganddo i gerdded llwybrau cyfiawnder yn nghanol cenedlaeth ac oes lygredig anarferol; a hyny yn hollol o ras a thrugaredd Duw. Rhybuddiodd Duw ef am y diluw a ddygai efe ar y

Digitized by Google

ddaear; a chyda pharchedig ofn, darparodd arch, yn ol gorchymyn Duw iddo, i achub ei dŷ. Edr. DYLIF, ARCH. 'Trwy ffydd Noë, wedi ei rybuddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid etto, gyda pharchedig ofn, a ddarparodd arch,' &c. Gwelwn yn siampl Noah wir natur ffydd, sef credu tystiolaeth Duw am bethau ni welir, ac ni welwyd erioed. Ni bu erioed y fath beth a diluw cyffredinol; nid oedd un arwydd gweledig o hono y byddai yn ol hyny; ond yr oedd pob golygiad ac ymddangosiad yn gwbl groes i'r fath beth i fod; etto, ar dystiolaeth Duw am bethau nis gwelsid etto, gweithiodd ei ffydd ufudd-dod i orchymyn Duw, mewn perthynas i foddion o'i achubiaeth. Yr oedd ei ffydd yn credu tystiolaeth Duw am danynt, yn sicrwydd o bethau nad oedd yn eu gweled. Heb. 11. 1, 7. Nid oes dim sicrwydd mwy i fod am ddim na thystiolaeth Duw. Y mae yn fwy sicr a diammheuol na thystiolaeth ein synwyrau corphorol; canys dichon y rhai hyny ein twyllo—dichon ein clustiau a'n llygaid ein twyllo, &c., ond y mae yn anmhosibl i Dduw gamsynied ei hun, na'n twyllo ninnau. Y mae gwir ffydd yn parchu tystiolaeth Duw uwchlaw pob peth arall, a thrwy hyny yn rhoddi gogoniant i Dduw. Tystiolaeth Duw am ei Fab, am nefoedd, am uffern, yr adgyfodiad, &c., ydyw ein sicrwydd cadarn am danynt. Er fod y dystiolaeth yn sicr ynddi ei hun, etto nid oes sicrwydd yn ein meddwl ni am ddim, ond fel, ac yn ol y gradd, y byddom yn credu y dystiolaeth sicr hon: ac, fel yn Noah, bydd ein gweithredoedd yn cyfateb i'n ffydd.

Gelwir Noah, *pregethwr cyfiawnder:* 'Onid arbedodd efe yr hen fyd, eithr Noë, pregethwr cyfiawnder, a gadwodd efe ar ei wythfed.' 2 Petr 2. 5.— 'Wythfed pregethwr cyfiawnder o Adda,' medd Pierson, a Brown ar ei ol. Ond pa brawf sydd ganddynt fod wyth, *a dim ond wyth*, pregethwr cyfiawnder o Adda hyd Noah? Yn hytrach, yr oedd efe yn wythfed efo ei deulu a achubwyd; sef ei dri mab a'u gwragedd, ei wraig, ac yntau. Gan nad oes un gwirionedd, nac un ddyledswydd, nad ydynt yn gyfiawn; nac un cyfeiliornad, nac un pechod, nad ydynt yn anghyfiawn; am hyny, pregethu cyfiawnder ydyw pregethu y naill, ac yn erbyn y llall. Pregethu y gyfraith a phregethu yr efengyl; pregethu yr addewidion a phregethu y bygythion, yw pregethu cyfiawnder. Diammeu ei fod yn dra hysbys o'r addewid fawr yn Eden am Waredwr, Hâd y wraig; yr oedd yn credu am dano ac ynddo, ac yn ei bregethu i eraill; trwy hyny y condemniodd efe y byd am ei wrthod, ac 'a wnaethpwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd.' Heb. 11. 7. Y fendith fwyaf yn yr addewid oedd cyfiawnder mawr y Messïah; ar hwn yn benaf y mae llygaid ffydd yn syllu yn yr addewid; a thrwy ffydd mae y pechadur yn ei etifeddu. Credodd Noah yn y cyfiawnder hwn ei hun, a phregethodd ef i drigolion yr hen fyd am chwech ugain o flynyddoedd, tra y bu yn darparu yr arch. Efe a gondemniodd y byd, 1. Trwy gyflawnhau Duw yn y farn fygythiedig arnynt.—2. Trwy ei ymddygiad a'i fucheddiad, yn credu ac yn ufuddhau i Dduw, tra yr oeddynt hwy yn pallu. —3. Yr oedd yr hen fyd trwy hyn yn anesgusodol. —4. Condemniodd y byd hefyd, trwy gymeradwyo y farn pan ddaeth, er mor ofnadwy. 1 Cor. 6. 2. Fel hyn y bu Crist, trwy ei was Noah, yn pregethu i'r ysbrydion sydd yn awr yn ngharchar, o herwydd eu hanufudd-dod i'r genadwri. 1 Petr 3. 19, 20. Bu yn pregethu, trwy yr Ysbryd Glân arno, tra yr oedd hir amynedd Duw yn aros, tra y darperid yr arch. Gallasai Duw drefnu fod yr arch yn barod mewn ychydig amser, 'ond hir-ymarhous yw efe, heb ewyllysio fod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i wybodaeth o'r gwirionedd.'

Wedi dyfod allan o'r arch, Noah a adeiladodd allor, ac a offrymodd boeth-offrymau ar yr allor; a'r Arglwydd a aroglodd arogl esmwyth, ac a addawodd na fyddai iddo chwanegu i felldithio y ddaear o achos dyn, er ei fod yn ddrwg o'i ieuenctid. Yr oedd y poethoffrymau yn cysgodi Crist a'i aberth, er mwyn yr hwn y mae pechaduriaid yn cael eu hachub, ac sydd o arogl peraidd i Dduw. Edr. ABERTH, AROGL. Gwnaeth Duw hefyd gyfammod âg ef, ac a roddodd ei fwa yn y cwmwl yn arwydd o hono. Edr. BWA, CYFAMMOD, CWMWL, ENFYS.

Mewn amser, Noah a ddechreuodd fod yn llafurwr, ac efe a blanodd winllan, ac a yfodd o'r gwin, ac a feddwodd, ac a ymnoethodd yn nghanol ei babell yn ei feddwdod. Dyma yr hanes cyntaf a gawn ni am blanu gwinllan—am yfed gwin—ac am feddwi, yn yr ysgrythyrau. Yr ydoedd planu gwinllan, a chyfranogi o ffrwyth ei lafur, yn gyfreithlawn i Noah; ond meddwi oedd yn bechadurus ynddo ef, ac yn mhawb eraill. Hwyrach ei fod ef yn anhysbys o gryfder y gwin; a hwyrach iddo effeithio arno yn fwy o herwydd ei oedran. Beth bynag, gellir penderfynu yn sicr, oddiwrth ystod ei fywyd yn gyffredinol, mai ei orddiwes a gafodd y waith hon, ac nad hwn ydoedd nôd cyffredinol ei fucheddiad. Pechod yw pechod, er ei fod mewn dyn da; ac nid ydyw yn ddim llai pechadurus ynddo ef, eithr yn hytrach yn fwy. Pa rybydd ydyw hwn i ni fod ar ein gwyliadwriaeth yn wastadol! Nid ydyw oedran, profiad, enw, &c., yn ddiogelwch i neb yn awr o brofedigaeth. Wele yma un gwedi rhodio gyda Duw gannoedd o flynyddoedd; ac wedi gwrthsefyll profedigaethau a deniadau y byd: etto yn syrthio wrth, ac ar ei ben ei hun: fel llong gwedi morio cylch y byd, ac etto yn cael niwed wrth fyned i'r porthladd. Yr ydoedd yn bechadurus i Noah feddwi; ond yr ydoedd yn fwy felly yn Ham, yn lle ei guddio, ei fynegi gyda digrifwch, gwawd, a dirmyg i'w frodyr. Y ffyliaid yn unig a ymhyfrydant mewn camwedd yn neb; pa faint mwy yw i blentyn ddynoethi ei rieni, a gwawdio ei bechod? Pan ddeffrôdd Noah o'i win, gwybu beth a wnaethai ei fab ieuengaf iddo. Er iddo felldithio Canaan, mab Ham, nid oes i ni feddwl iddo gyhoeddi y felldith mewn digter ac anfoddlonrwydd: yn hytrach, mewn yspryd prophwydoliaeth, rhagfynegodd helynt ei feibion a'u hiliogaeth hyd ddiwedd amser. Y mae ei brophwydoliaeth am danynt yn cael ei chyflawni trwy yr holl oesoedd, ac a fydd hyd ddiwedd y byd. Edr. SEM, HAM, JAPHETH.

Yr oedd Noah, yn ddiammeu, fel yr holl waredwyr enwog a gododd Duw o oes i oes gynt i'w eglwys, yn gysgod nodedig o'r Arglwydd Iesu, gwir Waredwr ei bobl o bob trueni tymhorol ac ysbrydol. Mae holl oruchwyliaeth ryfedd Duw tu ag at Noah, a'r hen fyd, yn amlygiad mwy cyflawn nag a roddwyd cyn hyny o oruchwyliaeth rasol Duw yn nhrefn fawr yr iechydwriaeth yn Nghrist tu ag at yr eglwys; ac yn ddangosiad o ddinystr sicr y rhai nad ufuddhant i'r efengyl. Fel Noah, y mae ei enw yn orphwysfa—mae yn berffaith gyfiawn—yn bregethwr cyfiawnder—yn awdwr iechydwriaeth i'w blant, a roddwyd iddo gan y Tad—yn ben ar fyd newydd o waredigion—wedi offrymu aberth o'r pereiddiaf, er mwyn yr hwn y mae miloedd yn cael eu hachub, a haeddasant eu dinystrio, ac y mae y cyfammod wedi ei gadarnhau yn ddiysgog byth. Mat. 11. 29. Esa. 32. 2. Eph. 5. 2. Yr oedd yma ddangosiad o'r waredigaeth fawr trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw, yr hyn y mae bedydd yn ei enw yn ei arwyddocâu. 1 Petr 3. 21. Cyffelybiaeth gyfatebol (*αντι τυπον, gwrthgysgod*) i waredigaeth Noah, yw yr iechydwriaeth fawr trwy Grist, yr hwn a soddodd i'r dyfnderoedd, ac a foriodd trwyddynt yn ddiangol, a'i bobl, ei blant, a'i deulu, yn iach ac yn ddiangol oll gyd âg ef. Y mae ail gyfammod Duw âg ef, trwy ei aberth gwerthfawr, yn sicrhau na ddaw diluw byth i'w cyfarfod a'u

Digitized by Google

dystrywio. Dangosodd a phregethodd Crist ei hun, fel awdwr iechydwriaeth, yn a thrwy Noah, i'r byd, y pryd hwnw, ac i'r byd sydd etto yn parhau. Yr achos cynhyrfiol o'r naill fel y llall, o'r cysgod a'r gwrthgysgod, oedd ffafr a graslonrwydd Duw yn unig: âg *un*, nid â llawer, yr oedd yn cyfammodi yn nghylch hyny—trefn Duw yn unig oedd moddion y waredigaeth—yr oedd pawb i ymostwng ac i ymddiried yn y drefn hòno yn gwbl am eu gwaredigaeth—ac yn eu hymostyngiad a'u hymddiried iddo y buont cadwedig rhag y diluw. Cyffelybiaeth cyfatebol yw y naill i'r llall yn y pethau hyn oll.

Bu Noah fyw gwedi y diluw 350 o flynyddoedd: a holl ddyddiau Noah oedd naw can mlynedd a deng mlynedd a deugain. Mae amryw ddysgedigion wedi sylwi, fod Noah yn myned dan amrywiol enwau yn mhlith y Paganiaid; megys Sadwrn, Deucalion, Ogyges, y duw Cœlus, neu Ouranus, Janus, Promotheus, Protheus, Vertumnus, Bacchus, Osiris, Vadimon, Hisutrus, a Fohu. Gwel Bochart, *Geograph. Sacr.. lib.* i., *cap.* i. M. Huet, *de Concord. Rat. et Fidei. lib.* ii. Grotius, *de Verit. Relig. Christ. lib.* i. Fabricius, *Apocryph. V. T.* 247, &c.

NOB, נב [*uchelfa*] dinas y Lefiaid yn Benjamin, i'r hon y symudwyd y babell (ond nid yr arch, yr hon oedd yn Ciriath-jearim) ar ryw achlysur, yn nyddiau Saul. Yma y cafodd Dafydd fara a chleddyf Goliath gan Abimelech; yr hwn, yn nghyd â'r offeiriaid yno, a laddwyd gan Doeg yr Edomiad, wrth orchymyn Saul, o'r herwydd. 1 Sam. xxi., xxii.

NOBAH, נבח [*cyfarthwr*] enw gwr, a dinas a alwyd ar ei enw. Num. 32. 42. Barn. 8. 11.

NOD, נוד [*crwydriad*] enw gwlad o du y dwyrain i Eden, a alwyd felly oddiwrth grwydriad Cain yno, gwedi lladd ei frawd. Gen. 4. 16. Pa wlad oedd, nis gellir penderfynu.

NOD—AU—I—EDIG, (no-od) gwahanredawl, arwydd, amlygin, màn; y pennod y saethter ato; yr ergyd y cyrch un ato; pen ar yrfa rhedeg; gwr nôd, sef gwr enwog; haint y nodau, sef y pla. 1 Cron. 21. 12. Esa. 9. 15. Mat. 24. 7.—'Nôd (neu gwahannod) dwfr yw gwlybaniaeth.' Fel gorair, mae yn arwyddo, yn ddiau, hefyd, ie, sef.

Câr bawb nôd (ie) dy elyn. *Diar.*

'Hyd yn nod,' a gam-ysgrifenir yn aml, hyd yn oed; ond yn dra anaddas; megys 'Hyd yn oed meini tywyllwch a chysgod angeu.' Job 28. 3. 'Hyd yn oed y wisg,' &c. Judas 23.

'Na roddwch brint nôd arnoch.' Lef. 19. 28. Y mae y geiriau yn cyfeirio at y ddefod o nodi eu cyrph yn eu galarnadau dros y meirw, neu y cyfryw nodau coel-grefyddol a roddai eilun-addolwyr ar eu cyrph.* Mae y rhan fwyaf o'r merched yn Arabia hyd heddyw, â'r nodau (*stigmata*) hyn ar eu breichiau a'u bochau; a dywed Lucian, fod yr holl Assyriaid â nodau, rhai ar eu gyddfau, ac eraill ar eu dwylaw. Yr oedd y nodau hyn yn cael eu gwneuthur â haiarn poeth, neu â nodwydd, â pha un y gwnaent amryw fân dyllau, y rhai a lanwent gwedi hyny â llwch mân, du, glas, &c., yr hwn a arosai yno yn annileadwy. Byddai yr hen Frytaniaid eilun-addolgar yn nodi eu cyrph â nodau mewn amrywiol ddulliau, ac yn eu lliwio â glaslys, (gweddlys, galarlys, melsugn) neu ludw gwmmon. Gwel *Introduct. to* Camden's *Brit. by* Gibson.——Ni chaniateir i'r duwiolion nodi eu cyrph ond â nodau yr Arglwydd Iesu; sef creithiau ar ei gorph yw meddwl yr apostol, o achos ei ddyoddefiadau dros grefydd Crist. Gal. 6. 17. Y mae eu cyrph yn eiddo yr Arglwydd, gwedi eu prynu ganddo, ac yn demlau i'r Ysbryd Glân. 1 Cor. 6. 15—19. At y ddefod hon y mae cyfeiriad y geiriau yn Dat. 13. 16, 17. a 14. 11. a 15. 2. a 16. 2. Gal. 6. 17.

* Vitringa *in Apoc. cap.* 13, 16, 17.

'Nôd y bwystfil,' ydyw proffes o ffydd lygredig Eglwys Rhufain, yr hwn y mae ei haelodau yn ei ddwyn yn gyhoeddus 'yn eu talcenau,' megys yn eu proffes gyhoeddus o honi; ac 'ar eu dwylaw,' megys yn eu hymarferiad â'u holl gyflawniadau coel-grefyddol a llygredig. Dat. 13. 16, 17.

'Yr ydwyf yn cyrchu at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu.' Phil. 3. 14. Cyfieitha rhai y geiriau, 'Yn cyrchu (κατα) *wrth y nôd* at y gamp galwedigaeth Duw oddi uchod trwy Iesu Grist.' Nid yw y gair *Gr.* σκοπον, byth yn arwyddo *nôd-gyrch*, medd Pierce, ond y nodau ag oeddynt yn dangos y cyfrwng yr oeddynt i redeg ar hyd-ddo. Yr oedd yn rhaid i'r rhedegwr edrych yn aml ar y nôd, fel y byddai ei redegiad o fewn y terfynau gosodedig. Priodol iawn, gan hyny, yw yr ymadrodd, *κατα σκοπον διωκω, yr ydwyf yn cyrchu wrth y nôd.* Yr alwedigaeth oddi uchod trwy Iesu Grist a'i gwnaeth ef rhedegwr; yr hyn a eilw yr apostol, 'ymaflyd ynddo gan Grist Iesu.' Adn. 12. Y gamp-dlws yr oedd yn rhedeg am dano, oedd perffeithrwydd a bywyd tragywyddol. Yr oedd yn werth ymestyn ato â'i holl egni. Y mae y geiriau yn dangos difrifwch, diwydrwydd, a dianwadalwch, yn y modd hynotaf y dichon geiriau eu gosod allan. Edr. CYFREITHLAWN, GALWEDIGAETH, YMDRECH.

Sylwa y Deon Spencer, eu bod, yn mhlith y Cenedloedd, yn nodi caethwas ar ei dalcen, a milwr yn ei law. Ond barna y nodai yr Iuddewon gaethwas yn ei law. Caethwas a nodent âg enw ei feistr; milwr, âg enw ei dywysog; a'r eilun-addolwr, âg enw neu arwydd ei dduw. Yr oedd y nôd yn ddarluniad o'r dyn, ac i bwy yr oedd yn perthyn. Yr oedd nôd yr eilun yn cael ei wneuthur ar amrywiol ranau o'r corph. At hyn y cyfeiria Ioan, Dat. 3. 12. a 13. 16. a 14. 1. Yr oedd yn arferedig yn mhlith y prif Gristionogion, yn yr oesoedd cyntaf, i nodi eu hunain ar yr arddwrn, neu y fraich, âg enw Crist, neu arwydd y groes. Gwel Spencer, *De Leg. Heb., lib.* ii., *cap.* 14. Lowth ar Esa. 44. 3. Horsley ar Hos. 8. 12.

'A'r Arglwydd a osododd nôd ar Cain, rhag i neb a'i caffai ei ladd ef.' Gen. 4. 15. Mae y rhan fwyaf o gyfieithwyr diweddar gwedi cael eu cam-arwain gan y *Vulgate* yn nghyfieithiad y geiriau hyn. Nid yw y gair *Heb.* אות un amser yn arwyddo *nôd*; arwydda *arwydd, argoel*, neu *ddygwyddiad rhyfedd.* Er yr arwydda y gair שום *gosod*, etto arferir ef yn aml yn yr un ystyr a נתן *rhoddi*; a hyny ydyw ei ystyr yn mhob man lle y mae yn gysylltiedig â'r gair אות *arwydd.* Gwel Exod. 10. 2. Ps. 74. 4. a 78. 43. a 105. 27. Esa. 66. 12. Arwydda y gair, gan hyny, i'r Arglwydd roddi arwydd i Cain na byddai iddo gael ei ladd gan y neb a'i caffai, yn ol ei ofnau, yn cael eu cynhyrfu gan ei gydwybod euog.

Nodi, sef edrych, ystyried, gwahannodi, penodi. 1 Bren. 20. 42. Neh. 2. 6. Job 13. 27. Act. 28. 23.

Nodedig, sef hynod, penodol, terfynedig; megys 'haidd nodedig,' 'amser nodedig.' Gen. 18. 14. Esa. 28. 25.

NODAB, נדב [*addunedwr*] gwlad ar gyffiniau Iturea ac Idumea. 1 Cron. 5. 19.

NODDED, (nawdd) diogelwch, amddiffyniad. Ps. 94. 22. a 142. 4.

NODDFA, (nawdd-ma) lle o ddiogelwch, amddiffynfa; nawdd-dir, nawdd-le.

A *noddo* Duw rhy noddir. *Diar.*

I nodi yr echryslonrwydd o dywallt gwaed, ac er nodded i'r hwn a laddai ei gymydog yn amryfus, neillduodd yr Arglwydd chwech o ddinasoedd noddfa yn

Digitized by Google

ngwlad Israel; tair o du y dwyrain i'r Iorddonen, sef Beser, Golan, a Ramoth-Gilead; a thair o du y gorllewin, sef Cades-Naphtali, Sichem, a Hebron—i gyd yn perthyn i'r offeiriaid a'r Lefiaid. Yr oeddynt i feibion Israel, i'r dyeithr, ac i'r ymdeithydd yn eu mysg. Pan helaethai yr Arglwydd eu terfynau, yr oeddynt i ychwanegu tair o ddinasoedd eraill; ond nid oes hanes iddynt wneuthur hyny. Yr oeddynt i draianu y tir, sef ei ranu yn dair rhan, a pharotoi ffordd rydd i'r dinasoedd hyn. Yr ysgrifenwyr Iuddewig a ddywedant fod y ffordd i fod yn wyth troedfedd a deugain o led, pob rhwystr i gael ei godi oddi arnynt, eu gwneuthur yn gwbl wastad, a phynt i gael eu gwneyd dros ffrydiau dwfr, ac ar groes-ffyrdd yr oedd mynegbyst i gael eu gosod i fynu, a 'Noddfa!' 'Noddfa!' yn ysgrifenedig arnynt, yn cyfeirio at y ddinas noddfa; fel y gallai y llofrudd wybod yn ddiattreg y ffordd i droi. Yr oeddynt yn adolygu ac yn cyweirio y ffyrdd hyn unwaith bob blwyddyn ar y pymthegfed dydd o fis Adar. Gwel Maimonides' *Treatise on Murder*, *cap.* viii., *sec.* 5, 6. Yr oedd y dinasoedd hyn bob amser wedi eu trysori âg amldra o gynnaliaeth angenrheidiol, ond nid oedd dim arfau rhyfel ynddynt, rhag gwneuthur cam-ddefnydd o honynt gan gyfathrachwyr y lladdedig.

Yr oedd y llofruddiog annedwydd i adael ei deulu, ei alwedigaeth, ei negesau mwyaf pwysig, a'i gysuron mwyaf anwyl; ac nid oedd iddo ymdroi, diofalhau, na rhoddi i fynu i flinder a digalondid o herwydd ei wendid a'r anhawsderau, na gorphwys le yn y byd, ond o fewn caerau y ddinas noddfa; yr oedd hon yn ei ddiogelu, nid trwy ei chadernid ei hun, ond trwy drefniad a gosodiad Duw. Pan safai y llofrudd wrth ddrws porth y ddinas, a mynegi ei achosion i'r henuriaid, yr oedd yn rhwym iddynt ei dderbyn i mewn atynt. Yr oedd henuriaid y ddinas noddfa i chwilio i mewn i natur y cyhuddiad yn ei erbyn, a gwrando tystion ar yr achos; ac os barnent ef yn ddieuog, yr oedd i gael llettya yno nes i'w achos gael ei farnu gan henuriaid ei ddinas ei hun; ac os barnent hwythau ef yn ddieuog, yr oedd i ddychwelyd i'r ddinas noddfa hyd farwolaeth yr arch-offeiriad; ac yna yr oedd i ddychwelyd i'w ddinas ei hun, yr hon y ffoisai efe o honi. Num. xxxv. Deut. 4. 41, 43. a xix, xx, xxi. Jos. xx, xxi.

Y mae y cyfieithwyr Saesonaeg, yn nghyd âg amryw eraill, yn barnu fod cyfeiriad at y dinasoedd noddfa yn Heb. 6. 18. 'Y rhai a ffoisom (*fled for refuge*) i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen.' 'Rrain ydym yn daredec y ddala yn dynn y gobaith rag-osodedic.' W. S. Y gair sydd gan yr apostol yma (καταφευγω) yw y gair a arferir gan y LXX. am ffoad y llofrudd i'r ddinas noddfa, er nad yw o angenrheidrwydd yn arwyddo hyny yn unig, ond yn arwyddo ffoad oddiwrth rhyw berygl yn gyffredinol, fel yn Act. 14. 6. Ond gan fod yr apostol yn ysgrifenu at yr Hebreaid, nid annhebyg ei fod yn cyfeirio at beth oedd mor nodedig adnabyddus iddynt, ac yn gwbl addas i'r mater yn cael ei drin ganddo. Oddiwrth Exod. 21. 13, 14. gellir casglu fod yr allor hefyd yn noddfa, ac yn lle o ddiogelwch.

Nid ydoedd yr holl bethau hyn ond yn dangos beth yw yr Arglwydd Iesu i'w bobl, yr hwn, yn aml, sydd yn cael ei alw yn *Nodded* a *Noddfa:* 'Dy noddfa yw Duw tragywyddol.' Deut. 33. 27. Mae yr enw hwn yn neillduol yn cael ei briodoli i'r Arglwydd Iesu. Esa. 8. 14. a 25. 4.—'Noddfa yn nydd cyfyngder,' Ps. 59. 16.—'rhag y gelyn,' Ps. 61. 3.—'rhag y dymhestl.' Esa. 25. 4. Gwel Ps. 9. 9. a 62. 7, 8. a 71. 7. a 91. 9. a 94. 22. 2 Sam. 22. 3. Y mae yn noddfa o drefniad Duw—gadarn—gyflawn o bob bendithion—ddirwystr i fyned iddi i bawb o bob cŵr i'r byd—ac nid yw gyfreithlawn lladd neb a fyddo ynddi, ond mae ei fywyd ganddo yn ol trefn Duw. Yr oedd ei fywyd ganddo yn gyfreithlawn, am hyny yn ddiogel. Nis gallasai yr henuriaid, na neb arall, ei droi allan, ac nid oedd iddo yntau ychwaith fyned allan hyd farwolaeth yr arch-offeiriad; ond yna yr oedd yn ddiangol yn mhob man; ac yr oedd rhyddid iddo fyned adref i'w ddinas ei hun. Y mae cysgod wrth gysgod yn nglŷn wrth eu gilydd, i ddangos beth yw Crist yn ei swydd gyfryngol. Y mae diogelwch, ac hefyd rhyddid tragywyddol ynddo. Bu farw drostynt; am hyny y mae hawl a rhyddid iddynt i'w hen gartrefle, a barotowyd iddynt er seiliad y byd. Nid oedd dim arfau lladd yn y noddfa, er y gallai gelynion chwennych hyny; ond y mae yno ymborth digonol at gynnaliaeth. Nid oedd neb yn dwyn dim gyd âg ef i'r noddfa; ond yr ydoedd yn cael pob peth yno yn barod ac yn gyflawn. Gwirionedd cyflawn yr holl gysgodau, a llawer mwy, yw Crist i'w bobl. 'Ato ef y rhed y cyflawn, ac y mae yn ddiogel.' Diar. 18. 10.

NOE—AU, (no) ceulawr, mail; dysgl, bwydiar, llestr i bobi, neu i olchi; noe bobi, noe dylino.—Un noe oedd yn y babell, ond yr oedd deg yn y deml, heblaw y môr tawdd. Gwnawd y noe yn y babell o ddrychau pres y gwragedd. Ei dyben ydoedd i ddal dwfr i'r offeiriaid i olchi eu traed a'u dwylaw âg ef, yn ngwasanaeth y babell. Yr oedd dwselau (*cocks*) iddi, meddant, i ollwng y dwfr i gawgiau, wrth raid. Yr oedd yn sefyll rhwng yr allor bres a drws y babell. Yr oedd yr holl lestri a'r dodrefn sanctaidd i gael eu gorchuddio yn y teithiau yn yr anialwch, ond y noe; ond nid oes sôn am orchuddio hon. Yr oedd angen golchi yn ddyfal ac yn barhaus arnynt; felly y mae etto ar holl bererinion Sion. Exod. 38. 8.

Yr oedd deg noe yn nheml Solomon yn sefyll, pump o du y dehau, a phump o du y gogledd i borth y deml. Dywed Calmet fod pob un yn gynnwysedig o ddau lestr, un yn bedair-ongl uwchlaw cawg neu olch-lestr. Yr oedd ar y llestr uchaf addurniadau o luniau penau ychain, llewod, a cherubiaid. Yr oedd y llestr isaf, neu y golch-lestr, yn sefyll ar gerub, yn cael ei gynnal ar ystôl bres, neu wadn colofnog, a hwnw yn cael ei gynnal a'i gario ar olwynion pres o'r naill fan i'r llall. Yr oedd pob ystôl oedd yn cynnal y llestri hyn, yn bedwar cufydd ei hŷd a'i lled, ac yn dri chufydd ei huchder, yn bedair ochrog, ac nid yn grynion. Yr gwaith yr ystolion yn hynod gywrain, er nad mor hawdd ei amgyffred, er rhoddi darluniad manwl o hono, mewn un cyfieithiad mor ddealladwy ag oedd i'r Iuddewon yn eu hiaith eu hunain. Yr oedd pedair olwyn dani, yn gyfudd a hanner eu huchder. Yr oedd pob noe yn bedwar cyfudd, yn cynnwys deg bath bob un. Y noeau hyn oeddynt i olchi darnau yr offrymau. 'Trochent ynddynt ddefnydd y poeth-offrwm, ond y môr ydoedd i'r offeiriaid i ymolchi ynddo.' 1 Bren. 7. 27—39. 2 Cron. 4. 6. Yr ydoedd y noeau hyn, a golchi y poeth-offrwm ynddynt, yn arddangos perffeithrwydd, sancteiddrwydd, a chyflawnder Crist, yr hwn a offrymodd ei hun yn ddifai i Dduw. Edr. Mor, Aberth.

NOETH—DER—NI, (ny-oeth) *Gr.* νηδος; *Llad.* Nudus: diarchen, dynoeth, annoeth, hynoeth, heb ddillad; diarchenu, dihatru, dyosg, dadguddio, llymhau.—1. Bod heb wisg i orchuddio y corph. Gen. 2. 25. a 3. 7. a 6. 21.——2. Heb ond ychydig ddillad am un. 1 Sam. 19. 24. Ioan 21. 7.——3. Bod yn hollol amlwg ac adnabyddus; felly y mae uffern, a phob peth yn noeth ger bron Duw; y mae efe yn berffaith wybodus o honynt. Job 26. 6. Heb. 4. 13. ——4. Amddifadrwydd o bethau y byd hwn; felly y cyfaddef Job, mai yn noeth, sef heb ddim, y daeth i'r byd. Job 1. 21.——5. Amddifadrwydd o sancteiddrwydd a chyflawnder, amddiffynfa a harddwch enaid. Dat. 3. 17. a 16. 15.——6. Amddifadrwydd trwy bechodau o ffafr ac amddiffynfa yr Arglwydd, yn warthus ac

Digitized by Google

yn agored i elynion ein hysglyfaethu a'n dyfetha. Exod. 32. 25. 2 Cron. 28. 19.

Noethni gwlad yw ei phechadurusrwydd a'i drygioni, ei chywilydd a'i pherygl yn ganlynol i hyny. Ezec. 16. 36, 37. A gwaith y prophwyd yn myned yn noeth oedd arwydd o hyny. Esa. 20. 3. Mic. 1. 8. Nid oedd noethder dyn cyn ei gwymp yn anhardd, yn wrthun, nac yn bechadurus. Nid oedd dim o'r ddaear i'w roddi am ddyn i chwanegu at ei harddwch allanol yn ei greadigaeth: efe ei hun oedd yr harddwch a'r prydferthwch mwyaf yn y byd. Nid oedd un rhan o'i gorph ag eisieu gorchudd arno: ond pan gollodd ddelw Duw, a'i harddwch, trwy bechod, daeth angen am wisg i orchuddio y rhanau hyny o'r corph, a alwyd wedi hyny, noethni. Gen. 3. 7—11. a 9. 22. Edr. Gwisg.

Dilladu y noeth, yn enwedig plant Duw, sydd weithred o drugaredd orchymynedig, a chymeradwy gan yr Arglwydd. Esa. 58. 7. Mat. 25. 36. Iago 2. 15. 1 Cor. 4. 11.

'A dim cig noeth byw yn y chwydd.' Lef. 13. 10. ומחית בשר חי *anghroenedd*, neu *bywiogrwydd cnawd byw* yn y chwydd. '*And there be quick raw flesh in the rising.*' *Saes. A bod cig noeth byw yn y chwydd.* Oddiwrth adn. 14, 24. y mae yn amlwg, tybygaf, fod y geiriau yn gadarnhaol, ac nid yn nacaol, fel yn ein cyfieithiad awdurdedig ni, a'r eiddo Dr M., y rhai a olygant y bywiogrwydd cnawd byw yn arwydd o iechyd, fel yn Jos. 5. 8. 2 Bren. 20. 7. *Heb.* am hyny rhoddasant y gair *dim* yn Italaidd.

'Wrth noethder pob un.' 1 Bren. 7. 36. מער איש 'Wrth ystlys eu gilydd.' Dr M. Pagninus. '*According to the proportion of every one.*' *Saes. Yn ol egnïad pob un*; sef yn agwedd pob un a fyddo yn ymegnïo. Y tarw megys mewn cynddaredd; y llew ar ruthr-naid *(rampant)*; y palmwydd yn eu llawn flodau, neu *â blodau agored*, fel yn 1 Bren. 6. 29. Gwel Bates' *Inquiry into the Similitudes.*

NOFIO—IADWY—IEDYDD, (nawf) *Gr.* *νεω νηχω*; *Llad.* Nato: ymgynnal ar wyneb y dwfr; morio, llongwrio.

> Ni *nofia* doeth mewn afon,
> Yn erbyn ffrwd y dòn. *Diar.*

'Mwydaf hefyd â'th waed y tir yr ydwyt yn nofio ynddo.' Ezec. 32. 6. 'Mwydaf hefyd dy dir llaeth â'th waed hyd y mynyddoedd.' Dr M.

> Mwydaf hefyd dy dir â'th gôr,*
> Dy waed fydd hyd y mynyddoedd. *Newcome.*

Yn ol ein cyfieithiad ni, y mae yr Arglwydd yn cyffelybu y brenin i anghenfil (megys y *crocodile)* yn nofio mewn dyfroedd dyfnion, mewn llawnder a hawddfyd; ond byddai ei gwymp mor ofnadwy nes iddo lenwi yr holl wlad â'i waed hyd y mynyddoedd. Y mae y gyffelybiaeth yn oruchel, yn dangos ar yr un pryd fawredd y brenin hwnw, a'i gwymp cyflawn a dychrynllyd.

'Ac efe a estyn ei ddwylaw yn eu canol hwynt, fel yr estyn nofiedydd ei ddwylaw i nofio.' Esa. 25. 11. 'Efe,' sef yr Arglwydd, tybygaf, yn cyfateb i'r geiriau yn adn. 10. 'Llaw yr Arglwydd a orphwys yn y mynydd hwn, a Moab (sef gelynion ei eglwys) a sethrir tano,' &c. 'Ac *efe*,' sef yr Arglwydd, 'a estyn ei ddwylaw yn eu canol hwynt,' sef Moab (gelynion ei eglwys) 'fel yr estyn nofiedydd ei ddwylaw i nofio;' sef yn hawdd, yn esmwyth, yn gwneuthur ei ffordd trwy y dwfr, ac yn ymgadw ar ei wyneb gyd â'r hawsdra mwyaf. Heb ddim trafferth, heb ddim anhawsdra, fel y nofiedydd yn nofio, y dinystria Duw ei elynion. 'Estyn ei ddwylaw yn eu canol hwynt,' sef trwy yr holl dir, i bob ochr, yn cyrhaedd i'r holl derfynau. 'Efe a ostwng eu balchder hwynt, yn nghyd âg yspail eu dwylaw.' Hwyrach, medd Scott, fod yn y geiriau gyfeiriad at Grist wedi ei ddyrchafu ar y groes, â'i ddwylaw yn estynedig, ac yn hoeliedig wrthi: yr oedd ei ddwylaw yn estynedig yn nghanol ei elynion, ac yno yr yspeiliodd efe dywysogaethau ac awdurdodau, ac y gorchfygodd holl alluoedd y tywyllwch. Col. 2. 14, 15. Esa. 5. 25. a 14. 26. Gwel Calvin, Musculus, Vitringa, Scott *in loc.*

* צפה *fluor, sanies*, a צוף *fluere.* Houbigant.—Inundatione tua, Munsterus. Cruore, Tirinus

NOGAH, נגה [*ysplenydd*] mab Dafydd. 1 Cron. 3. 7. a 14. 6.

NOHAH, נוחה [*yr hwn sydd yn gorphwys*] pedwerydd mab ar hugain Benjamin. 1 Cron. 8. 2.

NOPH, NOPHAH, נופח [*anadlu*] 1. Dinas y Moabiaid, wedi hyny yr Amoriaid, ac yn ddiweddaf yr Israeliaid. Yr oedd yn agos i Medebah, a hwyrach mai yr un oedd a Nebo, neu Nabo. Num. 21. 30. Neh. 7. 33. Ezra 2. 29. Esa. 15. 2. a 46. 1.—— 2. Dinas yn yr Aipht, yr un a Memphis enwog. Esa. 19. 13. Hos. 9. 6. Ezec. 30. 13.

NOS—WAITH, (ny-os) *Gr.* *νυξ*; *Llad.* Nox: y rhan hyny o amser y byddo yr haul islaw y terfyngylch. Tan y cylch cyhydedd y mae y nos yr un hŷd a'r dydd. Tan y pynciau *(poles)* pery y nos hanner blwyddyn. Yr oedd y Gauliaid a'r Ellmyn yn cyfrif amser wrth *nosau*, ac nid wrth *ddyddiau*. Felly hefyd y gwnai y Saeson, a'r hen Gymry; oddiwrth hyn y tarddodd y geiriau *wythnos, pythefnos, tair wythnos.*

> *Nos* yw mam y cysulwau. *Diar.*
> Gwaith y *nos* y dydd a'i dengys. *Diar.*

Yr hen Hebreaid a ddechreuent eu diwrnod yn yr hwyr, ac a'i diweddent yn yr hwyr canlynol. Gen. 1. 5. Rhanent y nos yn ddeuddeg awr, a'r dydd yn ddeuddeg awr; ac felly ni byddai oriau y nos a'r dydd yn gyhyd, ond pan byddai yr haul yn nghylch y cyhydedd. Yn y gauaf, oriau y nos fyddai hwyaf, ac yn yr hâf fyraf, ac felly oriau y dydd yn y gwrthwyneb.

Mae nos yn yr ysgrythyrau, yn arwyddo, 1. Amser o adfyd ac anghysur. Esa. 21. 12. Can. 5. 2.—— 2. Marwolaeth. Ioan 9. 4.——3. Holl amser ein bywyd, (Can. 1. 13. Rhuf. 13. 12.) am fod llawer o dywyllwch, peryglon, a thramgwyddiadau yn ein hamgylchynu yn ein hanwybodaeth yma yn y byd.

Ni bydd nos yn y Jerusalem newydd, sef yn yr eglwys, yn ei chyflwr gogoneddus yma ar y ddaear, cyn diwedd amser. Bydd goleuni mor ddysglaer, ac athrawiaeth fawr yr efengyl yn ymddangos mor ogoneddus, yn enwedig yr athrawiaeth fawr sylfaenol o gyfiawnhad trwy ffydd, fel na ddichon i gyfeiliornadau niweidiol gyfodi eu penau, a chael derbyniad. Dat. 21. 25. Zech. 14. 7. Dyfetha yr Arglwydd yr holl athrawiaethau gau âg ysbryd ei enau, ac a'u dilëa â dysgleirdeb ei ddyfodiad, a'i ymddangosiad yn y gwirionedd. 2 Thes. 2. 8. Ac os bydd cyflwr yr eglwys mor ddysglaer ogoneddus ar y ddaear, pa faint mwy y y bydd felly yn y nefoedd!

NUMERI, enw pedwerydd llyfr Moses. Galwyd ef wrth yr enw hwn oddiwrth yr enw a roddodd y LXX. yn Groeg arno, sef *Αριθμοι*; *Llad.* Numeri; *Saes.* Numbers. Y mae y gair yn arwyddo *rhifedi*, am fod rhan fawr o'r llyfr, yn enwedig yn y dechreu, yn cynnwys rhifedi meibion Israel, a'u teithiau o'r Aipht i Ganaan. Geilw yr Hebreaid ef וידבר *(vayedaber) ac efe a lefarodd*, y gair cyntaf ynddo. Rhai o'r Iuddewon a'i galwant במדבר *(bemidebar) yn yr anialwch*, am ei fod yn cynnwys hanes teithiau yr Israeliaid yn yr anialwch. Y mae yn cynnwys hanes Israel o ddechreu yr ail fis o'r ail flwyddyn wedi eu hymadawiad o'r Aipht, hyd ddechreu yr unfed mis ar ddeg o'r ddeugeinfed flwyddyn, sef dros ddeunaw ar hugain o flynyddoedd, a naw neu ddeg o fisoedd,



Digitized by Google

fel y gellir gweled wrth gymharu Num. 1. 1. a 36. 13. â Deut. 1. 3.

Y mae tystiolaeth yr Arglwydd Iesu a'i apostolion, yn nghyd â thystiolaeth gyson hynafiaeth, yn sicrhau i ni mai Moses a'i hysgrifenodd, a'i fod yn rhan o'r Ysgrythyr Lân, fel y geilw yr apostol yr ysgrifeniadau sanctaidd. Y mae cyfeiriadau aml yn yr holl ysgrythyrau at bethau cynnwysedig ynddo, ac yn brawf o'i ddwyfoldeb. Gwelwn ynddo ddangosiad, 1. O ragorol fendith Duw ar Israel, yn peri eu lliosogrwydd hynod.—2. Gofal manwl rhagluniaeth Duw am danynt, yn eu holl deithiau a'u peryglon yn yr anialwch.—3. Toster Duw yn gyfiawn ac yn sanctaidd yn eu cospi am eu pechodau, o herwydd pa rai y cwympodd miloedd o honynt yn yr anialwch.—4. Ei allu a'i ffyddlondeb diball, yn cyflawni ei addewidion iddynt, ac yn dwyn y fath genedl liosog i etifeddu Canaan, yn ol ei air. Edr. GENESIS, MOSES.

NUN, נון [*mab*] mab Elisama, tad Josuah, o lwyth Ephraim. Edr. JOSUAH.

NWYF—IANT, (nwy) bywiogrwydd, egniolrwydd, anlladedd, aflendid.—'A'r godinep, a' nwyfiant, a wnaethant.' 2 Cor. 12. 21.—'Sef gweithredoedd y cnawd 'sy amlwc, yr ei ynt,—aflendit, nwyfiant.' Gal. 5. 19.—'Yr ei nyd enllybir o nwyfiant neu vot yn anuvydd.' Tit. 1. 6. W. S.

NYCHA, (ny-ycha) ebychiad; wele!—'A' nycha ef yn ych racvlaeny i Galilea.—A' nycha 'r Iesu yn cyhwrdd ac wynt.—Nycha y daeth yr ei o'r wiliadwriaeth i'r ddinas.—A' nycha, ydd wyf vi gyd a chwychwi yn 'oystat yd ddiwedd y byt.' Mat. 28. 7, 9, 11, 20. W. S.

NYCHDOD—LYD, (ny-ych) methiant, llesgedd, clefyd; traul y corph gan glefyd, gwywder y corph, llisiant cnawd, darfodedigaeth, dihoeniad.

Gwell marw na hir *nychdod*. *Diar.*

'O angeu nychlyd y byddant feirw.' Jer. 16. 4. Cyfleithir yr un gair החלאים *llesgedd*, Ps. 103. 3. Jer. 14. 2.—*cefydau drwg*, 2 Cron. 21. 19.

NYDWYDD, (nydw) bêr, pin; nydwydd ddur i wnïo â hi. Edr. CAMEL, EDAU.

NYDDU, (nydd) tynu edau, cyfrodeddu, amnyddu, troi. Exod. 35. 25, 26. Mat. 6. 28. Luc 12. 27. Edr. LILI.

NYMPHAS, Νυμφας, Cristion enwog yn Colosse, a'i holl deulu yn credu, fel yr oedd y teulu yn eglwys; neu yr oedd cyfarfodydd crefyddol yn ei dŷ. Col. 4. 15.

NYTH—OD—U, (ny-yth) *Llad.* NIDUS; *Gwydd.* NEAD: lletty yr aderyn i ddodwy, gori, a magu ei rai bychain: nythu, llettya, eistedd ar wyau. Y mae cywreinrwydd rhai adar i wneuthur eu nythod yn hynodol iawn; y mae eu synwyroldeb a'u celfyddgarwch yn eu gwaith tu hwnt i synwyr dyn i'w dynwared. Nid oes dim perygl, cyfleusdra, nac ymgeledd iddynt hwy na'u cywion, heb eu rhag-olygu ganddynt, a pharotoi yn addas gyferbyn â hwynt. Yn dirion ryfedd y mae y Duw mawr yn gofalu am nyth yr aderyn, a'r aderyn yn ei nyth; y mae pob math o greulondeb i'r rhai hyny yn ei anfoddloni. Deut. 22. 6.——Y mae nyth, heblaw cartrefle yr adar yn arwyddo, 1. Yr wyau, neu y cywion yn y nyth. Esa. 10. 14. Deut. 32. 11.——2. Trigfa ddiogel, yn ol tebygolrwydd, ac anysgogadwy. Jer. 49. 16. Obad. 4. Hab. 2. 9.——'Nythu yn y cedrwydd,' a arwydda, trigo mewn tai o goed cedrwydd. Jer. 22. 23.

# O.

O, sydd weithiau yn rhagddodiad; o'm, o'th, o'i, o'n, o'ch, o'u, o'r; yn lle o am, o yth, o ei, o ein, o eich, o eu, o yr.——Cysylltiad, a ddodir o flaen cydseiniad yn nechreu gair; megys, 'O cherwch fi, cedwch fy nghorchymynion.'——Rhagenw, megys, 'O ddywedodd i mi; difai oedd o.'——Cyfrwng-air; megys, 'O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw!'

OBADIAH, עבדיה [*gwas yr Arglwydd*] 1. Gwr duwiol yn ofni yr Arglwydd yn fawr, yr hwn oedd ben-teulu i'r brenin Ahab. Pan ddystrywiodd Jezebel brophwydi yr Arglwydd, efe a guddiodd gant o honynt bob yn ddeg a deugain mewn ogof, ac a'u porthodd â bara a dwfr. 1 Bren. xviii.——2. Prophwyd Duw. Pwy ydoedd, nid oes dim hysbysrwydd gwedi ei roddi i ni, ond yn unig gelwir ei lyfr byr, GWELEDIGAETH OBADIAH. Tebygol ei fod yn cyd-oesi â Jeremiah; ac iddo brophwydo yn nghylch yr amser y dinystriwyd Jerusalem gan Nebuchodon'sor, a chyn dystrywio gwlad Edom ganddo. Adn. 11, 12. Prophwydodd yn unig yn erbyn yr Edomiaid. Y mae yn diweddu ei brophwydoliaeth trwy draethu pethau daionus am Israel Duw, fel yr holl brophwydi eraill. Mae agos yr un geiriau am Edom ynddo ef a Jeremiah. Cymh. Obad. 1—9. â Jer. 49. 7—22. Dywed Jerome am dano, mai prophwyd bach oedd o ran rhifedi adnodau, ond nid mewn ystyr a synwyr.——3. Cofféir am amryw eraill o'r enw hwn yn yr ysgrythyrau. Gwel 1 Cron. 3. 21. a 7. 3. a 8. 38. a 9. 16. Neh. 10. 5.

OBAL, עבל [*henaint*] wythfed mab Joctan. Bernir i'w hiliogaeth drigo mewn rhyw ran o Arabia. Gen. 10. 28.

OBED, עבד [*gwas*] mab Boaz o Ruth, tad Jesse, a thaid Dafydd. Ruth 4. 17.—Yr oeud eraill o'r enw. 1 Cron. 2. 37. a 26. 7. a 11. 47. 2 Cron. 23. 1.

OBED-EDOM, עבד־ערם [*gwas Edom*, neu *gwas dyn*] mab Jeduthun, (nid y pen-cerddor) a thad Shemaiah, Josabad, &c. Gelwir ef Obed-Edom y Gethiad, am mai priodor oedd o Gath-Rimmon; neu am ei fod wedi ymdeithio dros enyd yn Gath y Philistiaid. Gwedi taro Uzzah am gyffwrdd â'r arch yn llawrdyrnu Chidon, pan oedd Dafydd yn ei dwyn hi i fynu o Ciriath-jearim, ofnodd Dafydd, ac a'i cludodd i dŷ Obed-Edom, lle yr arosodd dri mis. 'A'r Arglwydd a fendithiodd dŷ Obed-Edom, a'r hyn oll a feddai,' fel y cynnyddodd ei deulu mewn rhifedi, cyfoeth, a phob llwyddiant. Yr oedd gwedi hyny o'i deulu yn borthorion wyth a thriugain. Ni cholledodd Duw na'i achos neb erioed. Y mae bendith Duw gyd â'r efengyl, a bendith Duw yn unig sydd yn cyfoethogi. Gen. 30. 13. a 39. 5—22. Diar. 3. 9, 10. Mal. 3. 10.

OBIL, איביל [*yr hwn sydd yn wylo*] Ismaeliad, yr hwn oedd ar gamelod Dafydd. 1 Cron. 27. 30.

OBOTH, אבות [*lle costrelau crwyn*, sef *lle y llenwid*, neu *y gwneid hwynt*] gwersyllfa yr Israeliaid rhwng Paran ac Ije-abarim. Num. 21. 10.

OBRY, (o-bry) tan, tanodd, goris, is, islaw, odditan; isel, hyn sydd isaf, isaf.—'I ochel uffern

Digitized by Google

obry.' Diar. 15. 24. I ochel y ffordd sydd yn arwain yno, a thrwy hyny i ochel y lle hwnw o boenau. Mae ffordd y bywyd, yr hon sydd uchel i'r synwyrol, yn cael ei gosod mewn cyferbyniad i uffern obry, a'r ffordd sydd yn arwain yno.

OCRAN, עכרן [*cythryblwr*] tad Pagiel o lwyth Aser. Num. 1. 13.

OCR—AETH—WR, (oc-yr) mael, elw, ennill, llôg, arlôg; llogwr arian, usuriwr.*—Nid oes dim yn natur pethau yn gwarafun cael llôg am arian, mwy nag ardreth am dŷ neu faes. Os bydd un yn masnachu âg arian arall, nid afresymol fyddai i hwnw gael rhan o'r ennill. Ond rhaid i'r llôg fod yn gymedrol; yn enwedig os bydd yr echwynwr yn dlawd. Y rheol gyfiawn yw, a hawdd ei deall, pa anhawsderau bynag sydd yn ein meddwl i gydffurfio â hi.—'Pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy.' Mat. 7. 12. Gan nad oedd ond ychydig o fasnachu yn mhlith yr Iuddewon, nid oeddynt hwy yn echwyna ond mewn angen a thlodi; am hyny, y mae yn waharddedig iddynt hwy gymeryd ocraeth ond gan estroniaid, nid gan eu brodyr. Deut. 23. 20. 'Os echwyni arian i'm pobl sydd dlawd yn dy ymyl, na fydd fel ocrwr iddynt; na ddod usuriaeth arnynt.' Exod. 22. 25. Wrth 'er ei fod yn ddyeithr ddyn neu yn alltud,' yn Lef. 25. 35. y meddylir, er fod brawd felly yn crwydro yn eu mysg fel dyeithr ddyn, neu alltud heb etifeddiaeth, yr oedd yn ddyledus arnynt ymddwyn tu ag ato fel brawd; ie, ymddwyn tu ag at estron yn y cyfryw amgylchiadau cyfyng, yn drugarog ac yn haelionus. Exod. 22. 25—27.——Yr oedd y pendefigion yn amser Nehemiah yn annhrefnus ac yn greulon, yn cymeryd ocraeth gan eu brodyr tlodion, ac yn cymeryd eu meusydd, eu gwinllanoedd, a'u tai, yn wystl. Am hyn y dwrdiodd Nehemiah hwynt, a hwy a'u rhoddasant yn eu hol heb gymeryd dim ganddynt. Neh. 5. 7—10.

OCH, *Heb.* אח *ach;* cyfrwng-air, yn arwyddo syndod, neu alar.—'Och! pechodd y bobl.'—'Och fi, fy meistr!'—'Och o'r diwrnod!' Exod. 32. 31. 2 Bren. 6. 5. Ezec. 30. 2.

OCHAIN—ENAID—EIDIO, (och) *Heb.* אנח (*anach*) *Gr.* αχος, (*achos*) griddfan, alaethu, cwynfan, galaru, drygnadu, ebychu, ochi. Y mae y saint yn ocheneidio âg ocheneidiau annrhaethadwy, yn llwythog, yn griddfan dan faich eu pechodau a'u gorthrymderau, ac yn hiraethlon am waredigaeth gyflawn oddi wrthynt. Rhuf. 8. 26. 2 Cor. 5. 2, 4. Edr. ANNHRAETHADWY, DYOSG, LLWYTHOG.

'Ni a wyddom fod pob creadur yn cyd-ocheneidio, ac yn cyd-ofidio hyd y pryd hwn.' Rhuf. 8. 22. I ddangos mawredd y gogoniant a ddadguddir i ni yn yr adgyfodiad, y mae yr apostol yn ei osod allan fel gwrthddrych o bwys i'r holl greadigaeth yn gyffredinol, a phob creadur yn dysgwyl yn awyddus am ddadguddiad meibion Duw, yn ocheneidio am ein rhyddhad fel arwydd o'i ryddhad yntau hefyd o gaethiwed llygredigaeth. Fel pan gyfodo talaeth mewn gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth a'r wehelyth lywydd, y mae y rhan fwyaf, os nid holl adgyfnerthoedd y wlad, yn cael eu defnyddio yn gynnorthwyol i'r gwrthryfelwyr; felly, yn y cyffelyb fodd, pan wrthryfelodd dyn yn erbyn Duw, ei briodol lywydd, yr holl greaduriaid, bywiolion ac anfywiolion, y rhai yn ol deddf natur oeddynt yn wasanaethgar i ddedwyddwch dyn, a dynwyd, mewn ystyriaeth, i'r cynghrair bradychus. Y mae y creadur fel hyn 'yn ddarostyngedig i oferedd, nid o'i fodd,' yn wir, (canys y mae pob creadur yn ei sefyllfa briodol am wasanaethu ac anrhydeddu ei Greawdwr, a phan y mae yn gwneuthur i'r gwrthwyneb, y mae yn groes i'w natur) 'eithr oblegid yr hwn a'i darostyngodd.' Y Goruchaf, gwedi sefydlu deddfau naturiaeth, ni farnodd yn addas eu cyfnewid, o herwydd eu cam-ddefnyddio; ond a oddefodd i'r creaduriaid fod yn wasanaethgar i gynnal y gwrthryfel, hyd nes yn ei amser ei hun y byddai iddo eu rhyddhau trwy foddion eraill. Etto, i ddangos eu tueddiad naturiol, ac mor groes i'w natur yw eu darostyngiad presennol, maent yn aml, megys i ddial achos eu Creawdwr, yn ymgyfodi yn erbyn eu cam-ddefnyddwyr. Mae yr haul yn taro y dydd, a'r lleuad y nos; y mae y dwfr yn eu boddi, y tân yn eu llosgi, yr awyr yn eu llenwi âg afiechyd marwol, a'r ddaear yn crynu yn ddychrynllyd danynt, &c. Mae natur, trwy ffugyr ymadrodd, yn cael ei dynsodi, ac yn cael ei darlunio megys yn gofidio mewn gwewyr esgor, yn awyddus i gael gwared o'i llwyth trwm.

OCHR—OG, (och-yr) ystlys, ymyl, tu, plaid, glâr, erchwyn, ystlysol, cyfar-ochrol. 1 Bren. 7. 31. Ezec. 1. 17. a 41. 21. Edr. POST, OLWYN.

OD—I, *Llad.* NIX: eira, eiry.—'Megys ôd yr haf,' &c. Diar. 26. 1.

OD—IAETH, nodedig, rhagorol; megys, 'glân odiaeth,' Gen. 12. 14.—'têg odiaeth,' Gen. 24. 16.—'melus odiaeth,' Can. 5. 16.—'cyfiawn odiaeth,' Job 34. 17.—'a ogoneddwyd yn odiaeth,' Ezec. 27. 25.—'yn ddirfawr odiaeth,' Exod. 1. 7. Hefyd, cyfrwngair a arferir o flaen llafaryddion; megys, 'Od oes neb yn Nghrist,' &c. 2 Cor. 5. 17.

ODED, עודד [*cynnal*] 1. Tad y prophwyd Azariah. 2 Cron. 15. 1.——2. Prophwyd yr Arglwydd. Gwel 2 Cron. 28. 9.

ODID, (od) ysgatfydd, agatfydd, tebygol; anghyffredin, anaml.—'Ond odid a bechasant.' Job 1. 5.—'Ond odid yr Arglwydd a fydd gyda mi.' Jos. 14. 12.

*Odid* addewid a ddel. *Diar.*

ODL, neu AWDL—AU, (aw-dyl) *Gr.* ᾠδη; cân.—'Odlau ysbrydol.' Eph. 5. 9. Edr. PSALM, HYMN.

ODYN—AU, (od) cyl; odyn galch, cylyn calch; odyn frâg; odyn faes. 2 Sam. 12. 31. Jer. 43. 9. Nah. 3. 14.

ODDI, (odd) rhagddod, yn arwyddo o; megys oddi yno, oddi acw, oddi ar, oddi allan, oddi wrth, oddi eithr, oddi dref, oddi uchod, oddi isod, &c. yn aml.

OED—I, (o-ed) yspaid o amser; amser gosodedig; oes; gohirio amser; rhoddi heibio amser: yn oed un dydd, yn yspaid un dydd; oed dydd, diwrnod gosodedig; oedfa, amser, neu le gosodedig i gyfarfod; gwerthu ar oed, sef gwerthu ar goel; dyn mewn oed,

* Yr ydwyf yn cwbl farnu nad yw codi llôg gweddol a chyfreithlon ddim yn dyfod dan yr enwad o *ocraeth*, yn ei ystyr waethaf, nac yn waharddedig yn mhob amgylchiad. Megys, pan logir arian i farchnata ac elwa â hwynt, onid yw mor gyfiawn a chymhwys i'r naill gael ennill oddiwrth ei arian ag yw i'r llall gael tâl am ei amser a'i lafur? A'r un peth a ellid ei ddywedyd am amryw amgylchiadau eraill. Ond codi llôg anghymedrol sydd bechadurus, yr un fath ag adrethu tir yn rhy ddrud i'r deiliad fedru talu am dano.—Y mae yn wir fod yn waharddedig i'r Israeliaid gymeryd ocraeth na llôg gan eu brodyr (Deut. 23. 19. a manau eraill), ond y mae yn debygol, naill ai bod hon yn ddeddf wladol i Israel, i barhau yn unig hyd y byddai gwahaniad rhwng Iuddewon a Chenedloedd, neu, ynte, ei rhoddi yn ddeddf iddynt, am ei bod yn gwbl anarferol gan yr Israeliaid geisio benthyg arian i elwa arnynt, ond yn unig at eu cynnal mewn cyfyngder a thlodi. Gwel Exod. 22. 25, 26. Lef. 25. 35, 36, 37. Neh. 5. 1—13. Pe buasai derbyn llôg ynddo ei hun yn bechadurus, dan yr efengyl, y mae yn debygol na buasai ein Harglwydd ddim yn houi y fath hawl yn ei ddammegion. Mat. 25. 27. Luc 19. 23

Digitized by Google

neu tan oed, sef dyn yn ei lawn faintioli, neu heb fod felly; oedion, segurwyr; dioed, heb oedi, heb ohirio.

'Nid yw yr Arglwydd yn oedi ei addewid, fel y mae rhai yn cyfrif oed.' 2 Petr 3. 9. Nid yw yn oedi cyflawni yr hyn a addawodd yn ei amser priodol ei hun, er bod rhai yn cyfrif hyny yn oedi; y mae ganddo amser gosodedig i gyflawni ei holl addewidion, ac nid oeda tu hwnt i hwnw un mynyd.

**OEDRAN—US**, (oed-rhan) amser bywyd; parhad bywyd; cyflawn oed; oedranus, henaidd, mewn gwth o oedran. Gen. 18. 11. a 24. 1. Luc 2. 36. Heb. 8. 13.

**OEN, WYN**, (o-en) yr ieuanc o'r defaid, ac weithiau o'r geifr hefyd. Edr. DAFAD, OFFRWM, PASC. Mae y gair *Heb.* שה a gyfieithir *oen* (Exod. 12. 3, 5. Num. 15. 11.) yn arwyddo yr ieuanc o'r defaid, neu y gafrod.

Gelwir Crist, yn aml, wrth yr enw 'Oen—Oen Duw—Oen difeius a difrycheulyd;' &c. yn arwyddo ei fwynder, ei ddiniweidrwydd, a'i osodiad gan Dduw i fod yn aberth ac yn iawn dros bechodau ei bobl. Esa. 53. 7. Ioan 1. 29. 1 Petr 1. 19. Dat. 5. 6. *et al. freq.* Efe oedd gwrth-gysgod yr holl ŵyn a aberthwyd gynt. Oen Duw, sef Oen o osodiad ac o roddiad Duw; Oen hollol dderbyniol a chymeradwy gan Dduw; Oen â mawredd dwyfol yn ei berson, ac yn ateb yn gyflawn holl ddybenion dyfnion Duw mewn perthynas i iechydwriaeth pechaduriaid. Nid oedd aberthu yr holl ŵyn gynt ddim ond *coffâu* anwiredd; ond tynodd hwn ymaith bechodau y byd; sef pawb a fyddant gadwedig yn mhob oes, o ddechreu y byd hyd ei ddiwedd. At hwn y mae Ioan Fedyddiwr yn cyfeirio ei ddysgyblion: nid oedd yn pregethu edifeirwch yn unig, ond yn cyfeirio at aberth anfeidrol ei werth; heb yr aberth hwn ni buasai lle i edifeirwch. Y mae yn amlwg wrth hyn fod yn rhaid wrth aberth dros yr edifeiriol tu ag at ei achubiaeth. Nid ydyw edifeirwch yn iawn am drosedd; ond rhaid cael iawn, a Christ yn unig ydyw hwnw. Edr. IAWN.

**OER—DER—FEL—I**, (o-er) merwin, anghynhes, anwydog, rhewllyd; oerni, rhyndod, fferdod, anwyd, fferu, rhynu. Yr achos o'r oerni naturiol yw absennoldeb gwres; y mae yn niweidiol i bob math a'r lysiau, a'r amddiffynfa oreu rhag ei effeithiau sydd o drefniad rhagluniaeth, sef yr eira.

Oerfelgarwch ysbrydol a ymddengys, 1. Mewn difaterwch am Grist a phethau dwyfol.——2. Meddyliau mawrion am ddyn ei hun.——3. Dideimladrwydd o angen ysbrydol yr enaid.——4. Diofalwch am gymdeithas â Duw, am ei achos a'i bobl yn y byd, ac am eneidiau pechaduriaid. Mat. 24. 12. Edr. CLAUAR, DWFR.

**OERNAD**, (oer-nad) oergri, galarnad, cwynfan, griddfan. Amos 8. 10.

**OES—OL—OEDD**, (o-es) amser, yspaid o amser, cenedlaeth, amser bywyd dyn. Er cyn yr oesoedd, sef er tragywyddoldeb; oes oesoedd, sef byth bythoedd; oesol, henaidd, oedranus.——'Y bryniau oesol a grymasant;' sef y bryniau tragywyddol. Hab. 3. 6.

Y mae i'r gair *oes* amrywiaeth ystyr yn ein cyfleithiad ni o'r Bibl; megys, 1. Cenedlaeth o ddynion yn cyd-oesi, ac yn tebygoli yn eu moesau. 'Noah oedd ŵr cyflawn a pherffaith yn ei oes.' Gen. 6. 9. בדרתין *yn ei genedlaethau*, sef cyn a chwedi y diluw, cymh. Gen. 7. 1. lle yr arwydda 'yr oes hon,' בדור הזה *y genedlaeth hon*, yn y rhif unigol, y genedlaeth cyn y diluw. Er mor llygredig oedd yr oes, neu y genedlaeth hòno, yr oedd Noah yn ŵr perffaith yn eu plith, ac yn rhodio gyda Duw.—'Yn y bedwaredd oes.' Gen. 15. 16. דור רביעי *y bedwaredd genedlaeth* o ddynion yn cyd-oesi. Cyflawnwyd yr addewid hon pan ddarfu Eleazar, mab Aaron, mab Amram, mab Cohath, yr hwn a ddaeth allan o'r Aipht, ranu gwlad Canaan i Israel. Jos. 14. 1. Yr oedd Cohath yn un o'r rhai a aethant i'r Aipht gyda Jacob. Gen. 46. 11, 26. 1 Cron. 6. 1, 2.—'A chyfododd oes arall,' (דור אחר) sef cenedlaeth arall. Barnwyr 2. 10.—'Fel y gwybyddai yr oes a ddel, sef y plant a enid.' Ps. 78. 4, 6. a 48. 13.

2. Yspaid bywyd dyn yn y byd. 'Gofynodd oes genyt, a rhoddaist iddo; ie, hir oes, byth ac yn dragywydd.' Ps. 21. 4. חיים שאל *gofynodd fywydau*, (neu *fywyd*, y rhif llïosog am yr unigol) rhoddaist iddo hir oes (ארך ימים *hir ddyddiau*) *byth ac yn dragywydd* (עולם ועד *oes, a byth*) prophwydoliaeth hynod am Grist, er ei chyflawni mewn gradd is yn Dafydd. Gofynodd fywyd gan y Tad, sef bywyd wedi iddo farw dros bechaduriaid: gofynodd fywyd fel dangosiad o'i foddlonrwydd i'w aberth: ac i weinyddu yn ei swyddau dros, ac er iechydwraeth ei eglwys. Wrth ofyn ei fywyd ei hun, gofynodd fywydau miloedd eraill, sef ei holl waredigion. Cafodd ei wrando, a rhoddwyd iddo hir ddyddiau, ac oes ar ol oes i gasglu ei bobl yn nghyd; a rhoddwyd bywyd iddo ef a hwythau i bara byth ac yn dragywydd. Dat. 1. 18. Ps. 72. 17. a 89. 29—37. a 91. 16.

'A phwy a draetha ei oes ef?' Esa. 53. 8. Pwy a draetha דור *ei genedlaeth ef?* Y mae yn arwyddo, yn fwyaf priodol, yr yspaid o amser y bydd dynion yn cyd-oesi yn ol deddf naturiaeth yn gyffredinol; oddiwrth hyny, arwydda, mewn ystyr mwy helaeth, bywyd un yn yr yspaid hwnw. Felly yma, pwy a ddichon draethu ei oes; sef ei fywyd yma yn y byd, yn nghyd â'r holl effeithiau rhyfeddol a thragywyddol o'i oes. Pwy a ddichon draethu ei oes, neu ei fywyd o ogoniant, a'r canlyniadau o'i fod yn byw byth, er iddo farw? Geiriau yn mynegi syndod a gorfoledd annhraethadwy yr eglwys, wrth edrych ar y gwrthddrych anfeidrol a gogoneddus. Iddo oesi yma yn y byd yn ddyn yn mhlith dynion, sydd ryfeddod; dull yr oesodd mewn tlodi yn nghanol temtasiynau a gelynion, etto yn berffaith sanctaidd, sydd ryfeddod arall; yr anrhydedd mawr a gafodd y gyfraith, llywodraeth, a holl briodoliaethau Duw ganddo yn ei oes, sydd ryfeddod etto; cafodd fwy o anrhydedd ganddo ef yn *unig*, nag o ddianrhydedd gan holl blant dynion! Y dattodiad a wnaeth yn ei oes o holl weithredoedd y diafol—y fuddugoliaeth a ennillodd, a'r bendithion a brynodd i'w bobl, pwy a'u traetha? iddo farw ac oesi wedi hyny, sydd ryfeddod ar ryfeddod; y dybenion dyfnion, a'r holl ganlyniadau a'r effeithiau o hyny, sydd ryfeddodau gogoneddus a gorfoleddus i gyd; pwy a'u traetha, er cael tragywyddoldeb i hyny? Rhuf. 6. 10. Dat. 1. 18.

Barna y dysgedigion enwog, Lowth a Kennicott, fod yn y geiriau gyfeiriad at ddefod yn mhlith yr Iuddewon, o fod cyhoeddiad yn cael ei gyhoeddi o flaen y carcharor cyn iddo ddyoddef, gan y cyhoeddwr cyffredin yn y geiriau canlynol: 'Pwy bynag a ŵyr ddim am ei ddiniweidrwydd, deued, a dysged (neu dystiolaethed) am dano.'* Surenhus. Y mae yn amlwg oddiwrth hanes marwolaeth yr Iesu, na chadwyd y ddefod hon mewn perthynas iddo. Gwel Lowth *in loc.* Y golygiadau cyntaf ydynt yn ymddangos i mi yn fwy ysgrythyrol, ac addas i'r achos ardderchog mewn llaw gan y prophwyd.

2. Y mae oesoedd, weithiau, yn arwyddo holl oruchwyliaeth yr Hen Destament; neu yr holl amser

* Pan fyddai yr euog dan ddedfryd marwolaeth, yn cael ei arwain o'r frawdle i ddyoddef, byddai y cyhoeddwr cyffredin, הכרוז κηρυξ yn myned o'i flaen, ac yn dywedyd y geiriau hyn; 'Y mae yn myned i ddyoddef y cyfryw farwolaeth, oblegid ei fod yn euog o'r cyfryw drosedd, yn y cyfryw le, ar y cyfryw amser; a thystion o'r peth yw y rhai hyn. Pwy bynag a ŵyr ddim am ei ddiniweidrwydd, deued, a thystiolaethed am dano.' Maimonides.

Digitized by Google

o'r dechreu, cyn dyfodiad Crist yn y cnawd. 1 Cor. 10. 11. Eph. 3. 5. Col. 1. 26.

4. Holl amser parhad goruchwyliaeth Moses. Exod. 12. 42. a 27. 2. Mat. 24. 3.

5. Holl oruchwyliaeth y Testament Newydd, a elwir yr 'oesoedd a ddeuai,' Eph. 2. 7.—'y byd a ddaw,' Heb. 6. 5.—'diwedd y byd,' Heb. 9. 26.—Cymh. Act. 2. 33—36. Mat. 28. 20.

6. 'Oes oesoedd,' sydd yn arwyddo parhad tragywyddo, heb ddiwedd. Ps. 102. 24. Mat. 6. 13. Gal. 1. 5. Phil. 4. 10. Heb. 13. 21. 1 Tim. 1. 17. 2 Tim. 4. 18. Dat. 1. 6, 18, &c.

**OFER—EDD—WYR,** (of-er) gwag, gorwag, anelaw, dielw, seithug; dibwys, disylwedd; gwagedd, seithugrwydd.—'Halogedig ofer-sain.' Edr. Halogedig.——'Oferwyr gwammal.' Edr. Gwammal.

'Y myfyria y bobloedd beth ofer.' Ps. 2. 1. Yr oeddynt yn myfyrio, ond yn myfyrio peth ofer. Yr oedd meddyliau yr Iuddewon am y Messiah yn gwbl gamsyniol; am hyny yn beth *ofer*. Pe buasai yn cyfateb i'w meddyliau cnawdol a daearol hwy am dano, buasai yntau yn beth ofer, sef o ddim buddioldeb sylweddol. Yr oedd eu holl gynhwrf a'u myfyrdodau yn erbyn yr Iesu o Nazareth, y gwir Fessiah, yn gwbl ofer; sef yn aflwyddiannus ac yn ddinystriol. Er i'r penaethiaid gynghori yn nghyd yn ei erbyn, ni wnaethant ddim ond yr hyn a luniodd llaw a chynghor Duw i'w wneuthur. Act. 4. 27, 28. Ni lwydda un offeryn yn erbyn llaw a chynghor Duw, ei achos a'i bobl yn y byd.——Oferedd a phethau diles yw eilunod y cenedloedd, a phob peth a ymddiriedir ynddo heblaw Duw. Ni ddichon iddynt waredu mewn cyfyngder, ac y mae melldith Duw ar y neb a ymddiriedo ynddynt. Deut. 32. 21. Esa. 44. 9. Jer. 8. 19. a 10. 8—15. a 16. 19. Jonah 2. 8.

'Yn rhodio yn oferedd eu meddwl.' Eph. 4. 17. 'Yn-gwagedd ei meddwl.' W. S. Yr oeddynt yn y tywyllwch yn camfarnu am bob peth; yn ymofyn am ddedwyddwch mewn pethau disylwedd, ac yn barnu hyny yn wir, yr hyn mewn gwirionedd ydoedd yn gelwydd. Oferedd ydoedd holl feddyliau y cenedloedd am Dduw; ac oferedd ydoedd eu holl wasanaeth coelgrefyddol; sef annerbyniol gyda Duw, a diles iddynt hwy eu hunain. Rhuf. 1. 21, 22. Preg. 1. 2. Wedi colli Duw a'i ddelw, nid oes dim ond oferedd diles yn meddwl dyn; ac y mae meddwl, llygredig, tywyll, yn anghymeradwyo sylwedd, ac yn myfyrio ar beth ofer. Oferedd ydyw peth disylwedd, peth siomedig, peth darfodedig, ansefydlog, cyfnewidiol; felly yr oedd yr holl bethau ydoedd ganddynt hwy yn eu meddwl. Ps. 94. 7—11.

**OFN—ADWY—OG—I—US,** (of-yn) *Gwyddel.* Ofan: arynaig, arswyd, pryder, dychryn; arswydus, dychrynadwy, yn haeddu parch ac anrhydedd; arswydo, dychrynu; pryderus.

Cais Dduw yn gâr, ac na *ofna* fâr. *Diar.*

Y mae galluoedd yn enaid dyn i ofni, i garu, casâu, ymhyfrydu, a ffieiddio, yn ol y byddo natur y gwrthddrych yn ymddangos, a'i berthynas â ni. Y mae y meddwl fel hyn yn gweithredu yn addas tu ag at bob gwrthddrych, yn ol fel y byddo yn ymddangos i ni. Y mae yr un gwrthddrych, weithiau, yn gofyn gwahanol syniadau am dano, a gwahanol weithrediadau tu ag ato, mewn gwahanol ystyriaethau; megys ei ofni, oblegid y niwed a ddichon fod i ni; ei gasâu, oblegid ei ffieiddra a'i atgasrwydd; felly y mae pechod a diafol. Yr un modd ei ofni, ei garu, &c., sef ofni ei ŵg a'i anfoddlonrwydd, oblegid ei allu a'i fawredd; ei garu, oblegid ei hawddgarwch, ei ddymunoldeb, a'i ddaioni; felly y mae Duw. Ni ddichon fod neb yn adnabod Duw yn gywir heb ei ofni a'i garu; y mae yn wrthddrych i'w ofni, o herwydd ei fawredd; ac i'w garu, o herwydd ei hawddgarwch a'i berffeithrwydd. Y mae gwir gariad at Dduw, yn gymysgedig âg ofn parchus; ac y mae gwir ofn a pharch yn gymysgedig â chariad diffuant: canys gwrthddrych i'w ofni a'i garu ydyw Duw. Ofni Duw heb ei garu, a'i garu heb ei ofni, sydd yn tarddu oddiwrth ddychymygion gau am Dduw, heb wir adnabyddiaeth trwy ffydd o hono, yn ol tystiolaeth y gair am dano, yr hyn sydd yn drosedd o'r ail orchymyn.

'Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd:' nid oes dim gwir ddoethineb mewn dyn heb ofni Duw; ond ffolineb, rhyfyg, ac ynfydrwydd. Job 28. 28. Deut. 4. 6. Ps. 111. 10. Diar. 1. 7. a 9. 10. Preg. 12. 13. Iago 3. 13—17.

Bod 'heb ofn Duw o flaen ei lygaid,' sydd ddarluniad o ddyn gwedi ymddyeithrio oddiwrth fuchedd Duw, i raddau pell iawn. Ps. 36. 1. Jer. 2. 19. Gen. 20. 11. Lle nad oes ofn Duw, rhaid bod yno anwybodaeth mawr o Dduw; dim ofni pechu yn ei erbyn; ac, yn ganlynol, dim ymgais am ei ffafr a'i ras; ac anystyriaeth am y canlyniadau ofnadwy a thragywyddol o gyflwr o bechod, &c. A pha le y mae y doethineb o hyn oll? Dim. Gan fod Duw o herwydd ei fawredd a'i alluoedd, yn wrthddrych teilwng i'w ofni a'i barchu, y mae yn bechod cyfatebol i fawredd y gwrthddrych i beidio ei ofni a'i barchu. Fel y mae yn wrthddrych addoliad, y mae yn wrthddrych ofn a pharch; ac nid oes dim gwir addoliad yn cael ei roddi iddo heb hyny. Y mae gwir addoliad Duw yn ddangosiad o ofn, parch, anwyldeb, hyder, a diolchgarwch gwirioneddol iddo: a lle nad ydyw y pethau hyn yn bod yn wirioneddol, yn agwedd ysbryd y dyn, ni ddichon hwnw wir addoli Duw.

Y mae ofn yr Arglwydd yn arwyddo, 1. Holl addoliad Duw: 'Dysgaf i chwi ofn yr Arglwydd:' Ps. 34. 11. sef Dysgaf i chwi pa fodd i wir addoli Duw yn dderbyniol ac yn gymeradwy. Yr hyn a elwir *ofni* yn Esa. 29. 13. a elwir *anrhydeddu*, yn Mat. 15. 9. ——2. Gair Duw: 'Ofn yr Arglwydd sydd lân;' sef ei gyfraith; rhoddwyd hi mewn dull ofnadwy: y mae hi yn wrthddrych i'w pharchu ac ofni ei throseddu; y mae yn gweithredu ofn, ac yn rheol i ni ddangos ein parch tu ag at Dduw. Exod. 20. 18, 19, &c. Deut. 5. 24—29. Ps. 19. 9.——3. Y gwrthddrych a ofnir, sef Duw: 'Arswyd Isaac:' Gen. 31. 42. sef y Duw yr hwn yr ydoedd Isaac yn ei ofni ac yn ei arswydo. 'Pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni;' sef y drygfyd a'r gospedigaeth yr oeddynt yn eu hofni. Diar. 1. 26. Cymh. Deut. 4. 34. a 26. 8. Ps. 76. 12. Esa. 8. 13.——4. Y gweithrediad parchus sydd yn ysbryd pob dyn duwiol tu ag at Dduw, a elwir y gras o ofn; oblegid mai Duw sydd yn rasol yn ei roddi, a'r Ysbryd Glân sydd yn ei rasol weithredu yn y galon, ac y mae yn gwneuthur pawb yn rasol ag sydd yn ei feddiannu. 'Mi a osodaf fy ofn yn eu calonau, fel na chiliont oddi wrthyf.' Jer. 32. 40. Nid ydyw yr ofn hwn ddim yn neb, beth bynag o ddychryn a eill eu meddiannu, wrth naturiaeth. Duw sydd yn ei osod yno; ac y mae yn ei osod yn mhawb sydd yn ei gyfammod grasol i'w hachub. Dyma y modd y mae Duw yn eu cadw hwynt rhag cilio oddi wrtho: nid oes dim ond pechod yn myned a dyn oddiwrth Dduw; ond y mae yn yr ofn hwn ofni pechu, a thueddiad, neu ymegniad cryf i ufuddhau i holl orchymynion Duw. Gen. 22. 12. Preg. 12. 13. Neh. 5. 15. Diar. 8. 13. a 16. 6. Gelwir yr ofn hwn, yn aml, gan dduwinyddion, 'ofn mabaidd;' ofn parchus, anwylaidd, y fath ag sydd gan blentyn at ei dad, mewn cyferbyniad i ofn caethwas, yn ofni y fflangell, megys Ffelix. Act. 24. 25. Y mae yr ofn hwn yn dra gwahanol oddiwrth yr ofn a'r dychryn sydd yn meddiannu pechaduriaid wrth olygu perygl; dichon hwnw fod yn naturiol, neu yn ddeddfol, heb ddim sancteiddrwydd, na pharch, na chariad tu ag at Dduw ynddo; ond ofn sanctaidd,

Digitized by Google

duwiol, ydyw hwn, yn llawn parch a chariad, yn ol y gradd o hono. Y mae ofn annuwiolion a deddfwyr cnawdol yn tebygu i ofn y diafol, yr hwn sydd yn ofni ac yn crynu, ond heb garu Duw. Nid ofn tebyg i ofn Crist yn yr ardd ydyw: 'A chael ei wrando yn yr hyn a ofnodd.' Heb. 5. 7. Ofn naturiol, neu berthynol i natur yn myned i ddyoddef, ydoedd hwnw, er ei fod yn ddibechod. Nid yw ofni, ynddo ei hun, ddim yn bechod, ond effaith pechod; er bod ein hofnau ni y rhan amlaf yn gymysgedig â phechod; nid ydyw bod yn glâf, yn athrist, &c. ddim yn bechodau ynddynt eu hunain, ond effeithiau pechodau. Er nad ydyw pechadur ddim yn ofni, hwyrach, heb bechu; ond ofnodd Crist âg ofn naturiol heb bechu. Marc 14. 33, 34. Dichon fod y saint yn ddarostyngedig i'r ofn hwn, ac yn pechu yn hyny, er bod Crist yn ofni yn ddibechod; megys y bu Jacob, Gen. 32. 7.—Moses, Exod. 2. 14. —Samuel, 1 Sam 16. 2. Ond yr ofn, gras yr Ysbryd Glân, yr ydwyf yn sôn am dano, sydd wahanol: peth goruwch natur yw, cwbl sanctaidd, na weddai bod yr enaid hebddo byth. Nid ofni cosp, na dyoddef ydyw, ond gwir ofni Duw o herwydd yr hyn ydyw ynddo ei hun, o ran ei fawredd, ei burdeb, ei gyfiawnder, ei uniondeb, a'i sancteiddrwydd: ofni yn anwyl, ofni yn barchus, ofni yn hyfryd, ydyw yr ofn duwiol sydd yn mynwes y rhai a gymmodwyd â Duw, ac sydd i gynnyddu ynddynt, ac i barhau byth. Nid ysbryd caethiwed yw, yn peri ofn; nid ofn naturiol, yn ofni y drwg o ddyoddef; ond ysbryd y mabwysiad yw, yn llefain, 'Abba, Dad,' ac yn ei barchu, ac yn ei addoli. Mae yn yr ofn hwn barch i Dduw yn wyneb ei fawredd: 1. Yn ei air. Esa. 66. 2. Ps. 4. 4. 2 Cor. 7. 1. ——2. Yn ei weithredoedd a'i farnedigaethau. Jer. 5. 22, 24. Dat. 15. 4.——3. Yn wyneb ei raslonrwydd yn nhrefn iechydwriaeth. Ps. 130. 3, 4.——4. Ac y mae yr ofn hwn yn effeithio ar bob peth ag a ddywedo, neu a wnelo, neu a feddylio. Y mae yn ymroddi i ofal Duw yn mhob peth. Ps. 119. 138. 'Yn *rhodio* (sef yn *bucheddu*) yn ofn yr Arglwydd.' Act. 9. 31. Preg. 12. 13. Yr oedd Hanani 'yn wr ffyddlawn, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer.' Neh. 7. 2. Yr oedd ofn Duw yn effeithio ar ei holl rodiad, ac yn ei wneuthur yn ffyddlawn yn mhob peth, sef yn ei holl ymdriniaethau, ei eiriau, a'i weithredoedd.

1. Gan mai gras y cyfammod yw, y mae gan hyny, yn cyfranogi o natur y cyfammod; sef yn sanctaidd, yn rasol, yn sicr, ac yn ddiddarfod, fel y cyfammod ei hun, o'r hwn y mae yn deillio. Heb. 12. 28. Ps. 130. 3.——2. Y mae yn harddwch mawr ar ddyn, ac yn gynnwysedig yn y ddelw hòno a adnewyddir gan yr Ysbryd Glân ar eneidiau ei bobl.——3. Y mae yn gysylltiedig â phob gras arall, a holl ragorfreintiau y cyfammod: neu y mae agweddiad parchus ar yr enaid a gyfnewidiwyd gan yr Ysbryd Glân, yn ei holl weithrediadau grasol tu ag at Dduw; y mae yn caru Duw yn barchus, ac yn ei addoli ac yn ufuddhau iddo yn barchus, &c., fel y gellir yn addas alw gweithrediadau *pob* gras wrth yr enw hwn, am ei fod *ynddynt* oll. ——4. Y mae yn gwahaniaethu yn hynodol wir waith iachusol Ysbryd Duw ar enaid dyn, oddiwrth bob peth arall, ac yn gwahaniaethu y credadyn yn ei agweddiad oddiwrth bawb eraill yn y byd; y mae yn *ofni* Duw. Job 1. 1. Gen. 22. 12. a 48. 18. Ps. 15. 4. a 22. 23. a 25. 14, &c.

Ofn dyn, a arwydda, 1. Y parch dyledus i ddynion, yn ol eu sefyllfaoedd a'u perthynas â ni; megys i feistriaid a swyddwyr gwladol. 1 Petr 2. 18. Rhuf. 13. 7. ——2. Eiddigedd sanctaidd, a mawr ofal rhag eu dinystrio hwy gan bechod. 1 Cor. 2. 3. 2 Cor. 11. 3. Col. 2. 1.——3. Dychryn a braw rhag y niwed a ddichon iddynt ei wneuthur i ni. Esa. 8. 12. Diar. 29. 25. Y mae yr ofn hwn yn tarddu o anghrediniaeth, hunan-ymgais, hunan-ofal, doethineb dynol; y mae yn bechadurus ynddo ei hun, ac yn achlysur o lawer o bechodau eraill sydd yn maglu ac yn rhwystro dynion yn eu rhodiad sanctaidd i ryngu bodd Duw. Am y niwed o hono, gwel yr ysgrythyrau canlynol: Gen. 12. 11—13. a 20. 2—11. a 26. 7. Exod. 32. 22—24. 1 Sam. 15. 24. a 27. 1—11. 1 Bren. 19. 3. Esa. 57. 11. Mat. 10. 28. a 15. 12. a 26. 69—74. Ioan 3. 2. a 9. 22. a 12. 42, 43. a 19. 12, 13. Gal. 2. 11—13. 2 Tim. 4. 16, 17.

Y mae yr ofnog a'r digred yn cael eu cysylltu gyd â'u gilydd, a chyd â'r llofruddion, y puteinwyr, a'r eilun-addolwyr, a bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi o dân a brwmstan. Dat. 21. 8.

Y mae 'perffaith gariad,' sef cariad gwirioneddol, cyflawn yn ei holl gangenau, at Dduw, a Christ, a'i bobl, 'yn bwrw allan ofn' dyn, a phob ofn pechadurus arall; yn ol y gradd y byddo ein cariad, y bydd ein hyder a'n gorfoledd. Act. 5. 41. Nid oes ofn mewn cariad; y mae i ofn boenedigaeth, ond i gariad hyfdra a gorfoledd. Perffaith gariad, ydyw cariad yn tarddu oddiar iawn olygiadau ar gariad Duw tu ag atom ni (gwel adn. 16.) ag sydd yn gyflawn yn ei holl amrywiol weithrediadau; yn ol y gradd cynnyddol o hono, y mae yn bwrw allan yr ofn sydd iddo boenedigaeth, yn tarddu oddiar anghrediniaeth, a diffyg o iawn olwg ar gariad Duw yn Nghrist. Gwel Draethawd gan yr enwog Augustus Herman Franke, ar ofn dyn, a elwir *Nicodemus*.

Y mae ofnadwy yn arwyddo, nid yn unig pethau i'w harswydo, a dychrynu rhagddynt, ond hefyd pethau rhyfedd, pethau mawrion, pethau i Dduw gael ei addoli a'i barchu ynddynt; megys ei enw, a'i farnedigaethau ofnadwy. Exod. 15. 11. Ps. 65. 5. a 66. 3. a 99. 3. a 111. 9, &c. Deut. 7. 21. a 28. 58. Luc 21. 11. Heb. 10. 31.

OFFEIRIAD—AETH—U, (offer) aberthwr, gwr urddol, gwr eglwysig; un yn gweini mewn pethau sanctaidd. Y mae y gair כהן* a gyfieithir *offeiriad*, yn arwyddo, 1. Gweinidog, un gweini yn achos un arall; tywysog, neu y swyddwr penaf mewn llysoedd breninoedd, y pen-llywydd, 'y penaf wrth law y brenin.' 2 Sam. 8. 18. a 20. 26. 1 Bren. 4. 5. 1 Cron. 18. 17. Job 12. 19.——2. Offeiriad, neu un yn offeiriadu i'r gwir Dduw. Gen. 14. 18. Exod. 29. 30. a 31. 10. *et al. freq.* Neu i gau dduwiau. 2 Bren. 10. 11, 19. a 11. 18. 2 Cron. 13. 9. Amos 7. 10. Seph. 1. 4.——3. Yr offeiriadaeth, neu y swydd offeiriadol. Exod. 29. 9, *et al.* Yr offeiriad cyntaf y cawn hanes am dano, yw Melchisedec. Cyn cysegru Aaron, y mae yn eglur oddiwrth Cain, Abel, Noah, Abraham, Isaac, Jacob, a Job yn aberthu, fod y tadau, y cyntaf-anedigion, y tywysogion, a phob un drosto ei hun, yn offeiriadu. Edr. AARON, MELCHISEDEC. Pan wrth Sinai y cadarnhaodd Duw y cyfammod âg Israel, llanciau meibion Israel, hwyrach, cyntaf-anedig y tywysogion, a offeiriadasant. Exod. 24. 5, 6. Gelwir yr holl genedl yn freniniaeth o offeiriaid, am ei bod gwedi ei chysegru i Dduw, ac wedi ymroddi i'w wasanaeth. Exod. 19. 6. Wrth gysegru Aaron a'r babell, Moses oedd yn offeiriadu. Exod. xl. Lef. viii. Gwedi hyny, yn gyffredinol, yr oedd yr offeiriadaeth yn perthynu i deulu Aaron, a cheryddwyd Corah, Uzzah, ac Azariah, yn drwm am ymyraeth â'u gwaith hwy: ond rhai personau hynod, ar ryw achosion arbenig, a offrymasant aberthau gwedi hyn; megys Gedeon, Samuel, ac Elias. Barn. vi. 1 Sam. vii, ix, xvi. 1 Bren. xviii. Nid oedd neb o deulu Aaron âg anaf arno i offeiriadu, neu un math o afiechyd, neu afiendid. Lef. 21. 17—24. Nid oedd iddynt yfed gwin na diod gadarn, pan aent i babell y cyfarfod. Lef. 10. 9. Nid oedd iddynt ymhalogi â'r

* Oddiwrth y gair hwn mae y gair *Gr.* κονεω, διακονεω, διακονος, *diacon*, gweinidog.

Digitized by Google

marw, ond eu cyfnesaf, sef tad, mam, mab, merch, brawd, chwaer o forwyn; ac am y rhai hyn nid oeddynt i eillio eu penau, &c. Nid oeddynt i briodi putein-wraig, un halogedig, neu wedi ysgar oddiwrth ei gwr, ond gwyryf, neu weddw offeiriad arall; os byddai i ferch un offeiriad buteinio, yr oedd i gael ei llosgi. Lef. xxi. Eu gwisgoedd oeddynt o llan, sef cap, pais, ephod, gwregys, llawdr. Edr. EPHOD, GWREGYS, LLAWDR, PAIS. Am ddefodau eu cysegriad, gwel Exod. xxix, xl. Lefiticus viii. Gwedi eu cysegru, eu gwaith oedd golygu holl wasanaeth y tabernacl, neu y deml, lladd yr ebyrth, taenellu y gwaed, newid y bara gosod, trwsio y lampau, arogl-darthu, chwythu yn yr udgyrn arian, tynu i lawr a chodi i fynu y babell, bendithio y bobl, a'u haddysgu, barnu y gwahan-glwyfus, glanhau yr aflan, &c. Lef. 24. 5—9. Num. 2. 3. a 4. 5—9. a 6. 23—26. a xvi, xvii, xviii. Deut. 17. 8—13. Yr oeddynt i gael eu cynnaliaeth trwy gyfranogi o'r allor; sef o ran o'r aberthau, offrymau, degymau, &c. Deut. 18. 1—5, 15, 16. Num. 18. 13. Lef. 19. 23, 24. Ond gan ddarfod ymhelaethu ar y pethau hyn dan eu priodol eiriau, nid rhaid ychwanegu yma. Rhanodd Dafydd hwynt yn bedwar ar hugain o ddosparthiadau; sef un ar bymtheg o deulu Eleazar, ac wyth o deulu Ithamar: y rhai hyn a wasanaethent yn eu cylch yn y deml. 1 Cron. xxiv. Dywedir y byddai weithiau 12,000 o'r offeiriaid yn trigo yn Jerusalem. Gwel 2 Cron. xxiv, xxix, xxx. Neh. 7. 39—42. Ezra 10. 18—22. Yr oedd y swydd offeiriadol, a'r offeiriaid yn eu gwisgoedd, eu cysegriad, a'u gwaith, yn cysgodi yn neillduol yr Arglwydd Iesu, yr hwn a gymerwyd o blith dynion, ac a osodwyd dros ddynion yn y pethau sydd tu ag at Dduw, i offrwm rhodd ac aberth, sef ei hunan, dros bechodau. Heb. 5. 1—8. Edr. AARON, ARCH-OFFEIRIAD, CYNTAF-ANEDIG, EIRIOLWR, ELEAZAR, ITHAMAR, MELCHISEDEC.

'Dyddiau lawer y bu Israel heb y gwir Dduw, a heb offeiriad yn ddysgawdwr, a heb gyfraith.' 2 Cron. 15. 3. Cyfeiria y prophwyd Azariah yn y geiriau hyn, mae yn debygol, at amseroedd y Barnwyr. Eleazar, mab Aaron, a olynodd ei dad yn yr arch-offeiriadaeth; rhoddir hanes am ei farwolaeth yn Josuah 24. 33. Phinees, ei fab yntau, ar ol marwolaeth ei dad, a ddaeth i'r swydd: coffêir ei fod yn sefyll ger bron arch yr Arglwydd yn yr amser y gwnaeth y Gibeaid y cam echryslon â gordderch y Lefiaid, ac y bu yr ymladdfeydd creulon rhwng Israel a Benjamin o'r herwydd. Barn. 20. 28. Pa hyd y bu Phinees byw, nid oes hanes: os barnwn iddo fyw o driugain i gan mlynedd ar ol Josuah, dyna ydyw yr eithaf a ellir meddwl. Nid oes grybwylliad am un yn y swydd ar ei ol ef cyn Eli, yr hwn oedd o deulu Ithamar, sef dros yspaid rhai cannoedd o flynyddoedd. Coffêir am Abisua mab Phinees, a Bucci ei fab yntau, ac Uzzi, Zerahiah, Meraioth, Amariah, ac Ahitub, o'r un llinell; ond nid oes hanes eu bod yn y swydd arch-offeiriadol, na sôn am un offeiriad yn yr yspaid maith hwn o amser. Nid annhebyg i feibion neu ŵyrion Phinees naill ai gadael ai halogi y swydd, ac o herwydd hyny i Dduw godi i fynu Eli o deulu Ithamar. Diammeu fod achos neillduol am drosglwyddo y swydd hon o'r naill deulu i'r llall. Gwir fod Josephus, a Selden ar ei ol, yn rhoddi Abisua, Bucci, ac Uzzi, yn y swydd; ond nid ydyw hyny yn cael ei roddi ar lawr yn y Bibl; yn unig rhoddir y côf-restr o enwau yn y llin-âch o Phinees hyd Sadoc. Y mae lle i ammeu yn fawr am yr yspaid hwn o amser, naill ai bod wedi esgeuluso neu halogi y swydd; a bod Israel ddyddiau lawer heb offeiriad yn ddysgawdwr; a bod gair yr Arglwydd yn יקר *yn brin*, ac אין חזון נפרץ *nid oedd weledigaeth eglur*. 1 Sam. 3. 1. Nid ydyw Petr yn enwi un prophwyd rhwng Moses a Samuel. Ar ryw achlysuron neillduol, pan ydoedd yn gyfyng iawn ar Israel, ymddangosodd yr angel IEHOFAH (Barnwyr 6. 8.) ac anfonwyd rhyw brophwyd neillduol ar ryw achos i argyhoeddi y bobl (1 Sam. 2. 27.) ond nid ydym yn darllen am un prophwyd enwog (oddigerth Deborah y brophwydes) yn dysgu y bobl yn ddyfal trwy yr holl yspaid hwn o amser: nid oedd un offeiriad yn ddysgawdwr. Rhoddodd yr Arglwydd hwynt yn llaw anrheithwyr, y rhai a'u hanrheithiasant; ac a'u gwerthasant i law eu gelynion oddi amgylch. I ba le bynag yr aethant, llaw yr Arglwydd oedd er drwg yn eu herbyn. Yn yr amseroedd hyny nid oedd heddwch i'r hwn oedd yn myned allan, nac i'r hwn oedd yn dyfod i mewn; ond blinder lawer oedd ar holl breswylwyr y gwledydd. 2 Cron. 15. 5. Barn. 5. 6, 7. Ond, er hyny, er fod y weledigaeth yn anaml, a gair yr Arglwydd yn brin, a bod y bobl yn gyffredin wedi eu gorchuddio âg anwybodaeth, a soddi mewn eilun-addoliaeth a drwg foesau, nid wyf yn deall fod un amser, er mor enbyd, nad oedd gan yr Arglwydd bobl neillduol yn ei wir ofni a'i barchu. 1 Bren. 19. 18. Rhuf. 11. 2, 3, 4.

Rhagora offeiriadaeth Crist ar yr offeiriadaeth Lefiaidd mewn saith o bethau, 1. Y mae yn rhagori ar offeiriadaeth Aaron, am ei bod yn ol urdd Melchisedec.—2. Yr oedd rhagoriaeth cysegriad; sef trwy lw.—3. Rhagorach pabell i weini ynddi; sef y nefoedd.—4. Rhagorach aberth; sef Crist ei hun.—5. Rhagorach cyfammod i'w gadarnhau â'i waed.—6. Anfeidrol ragorach person i weini yn y swydd; sef y Duw-ddyn, Crist Iesu—un â holl berffeithiau y Duwdod ynddo, ac hefyd yn medru cyd-oddef â'n gwendidau ni, gwedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau, ac etto heb bechod.—7. Ei pharhad; y mae yn dragywyddol yn mherson Mab Duw; yn anghysylltiedig â defodau a chyfnewidiadau amserol, ac olyniadau. Gwnaed Crist yn offeiriad yn ol nerth bywyd annherfynol. Heb. vii—x.

Gelwir yr holl dduwiolion, o dan yr efengyl, yn 'offeiriaid i'r Arglwydd;' yn 'freninoedd ac yn offeiriaid;—breninol offeiriadaeth;—offeiriadaeth sanctaidd,' &c. Esa. 61. 6. Dat. 1. 6. a 20. 6. 1 Petr 2. 5, 9. Pa enwau ydynt yn mynegi yr anrhydedd, y sancteiddrwydd, a'r rhagorfraint fawr sydd iddynt; eu purdeb, eu hagosrwydd at Dduw, a'u hollol ymroddiad i'w gwaith. Y maent trwy daenelliad gwaed Crist, golchiad yr adenedigaeth, a thywalltiad yr Ysbryd Glân arnynt, gwedi eu cysegru mewn modd neillduol ac arbenig iddo, ac i'w waith sanctaidd am byth. Y maent yn cael dyfod yn agos gyfeillgar i'w wyddfod, a chymdeithasu âg ef yn rhydd, yn dirion, ac yn barhaus. Priodolir iddynt yn yr ysgrythyrau bob enw sydd yn arwyddo parch, anrhydedd, ac anwyldeb; a thrwy rinwedd offeiriadaeth Crist, daeth y cwbl iddynt. Y mae iddynt hwy gymdeithas a chydgyfranogiad âg ef yn ei offeiriadaeth, ac yn ei aberth. Efe yw yr aberth sydd ganddynt ger bron Duw drostynt; y maent yn ei olygu, ac yn ei gyflwyno yn barhaus, ac yn cael derbyniad a chymeradwyaeth tragywyddol trwyddo. Y mae eu holl wasanaeth, eu haddoliad, a'u mawl, yn arogli yn beraidd ac yn gymeradwy ynddo. Y maent wedi eu gwisgo â chyfiawnder ac iechydwriaeth: am hyny dan ganu hwy a ganant. Ps. 132. 9, 16. Dat. 8. 3.

**OFFER—YN**, (off-er) peiriant, ceryn, ermyg, trecyn, arf.

> *Offeryn* gwastadol yn llaw pob dyn yw ei ddeall, er hyny nid oes neb a ŵyr ei arfer yn iawn. *Diar.*

Arfau rhyfel, a elwir offer creulondeb, offer dinystr. Gen. 49. 5. Jer. 5. 26.—Offer ychain, yw cêr tynu, tresi, gweddeifau. 2 Sam. 24. 22.—Offer dyrnu, sef peiriannau i ddyrnu â hwynt, yn amrywio mewn gwahanol wledydd ac amseroedd. Amos 1. 3.—Offer cerdd, offer soniarus, sef pob math a'r offer i ganu â

hwynt. 2 Cron. 30. 21. Preg. 2. 8.—Offer bugail. Zech. 11. 15.—Offer camel. Gen. 31. 34.

OFFRWM—YMAU—U, (offr) cyflwyn, aberth; cyflwyno, addaw, rhoddi yn ewyllysgar, aberthu. Gair o arwyddocâd cyffredinol, ac ëang ydyw, ac yn arwyddo rhodd, offrwm, offrwm gwirfodd, aberth. Edr. Aberth. קרבן *corban*, oedd enw cyffredin am bob peth a offrymid i'r Arglwydd; megys אשא y poeth-offrwm; תרומה yr offrwm dyrchafael; הניפה yr offrwm cwhwfan. Yr oedd chwe math o boeth-offrymau, neu aberthau tanllyd; fel y rhifer hwynt yn Lef. 7. 37.—1. עולה poeth-offrwm.—2. מנחה bwyd-offrwm.—3. חטאת aberth, neu offrwm dros bechod.—4. אשם aberth, neu offrwm dros gamwedd.—5. לואים cysegriadau.—6. זבח שלמים aberth hedd.

Y mae y gair a gyfleithir bwyd-offrwm, o ystyr cyffredinol, ac yn arwyddocau, heblaw bwyd a diod-offrymau, hefyd, aberthau gwaedlyd. Cymh. 1 Sam. 2. 17. a 26. 19. 1 Bren. 18. 29. Mal. 1. 13, 14. Defnydd yr holl offrymau oedd, yn 1. Anifeiliaid.—2. Adar.—3. Ffrwythau y ddaear. Yr oeddynt oll, naill ai, 1. Yn gymmodol, i wneuthur cymmod dros bechod.——2. Neu, yn ddeisyfiadol, neu erfyniol, i gaffael bendith gan Dduw.—3. Neu yn ddiolch, fel arwydd o'u cydnabyddiaeth o ddaioni Duw tu ag atynt. Yr oedd yr offrymau, fel yr aberthau, yn cysgodi Crist, yn arwydd o erfyniad am fendithion trwyddo, neu o ddiolchgarwch am danynt. Edr. Aberth, Abraham, Arogl, Bwyd, Cwhwfan, Difai, Dyrchafael, Gwirionedd, Gwybodaeth, Hedd, Isaac, Pasc, Sarph Bres.

OG, עוג [*gwatwarwr*] brenin Basan, un o'r cawri. Edr. Gwely. Wedi clywed gorchfygu Sehon brenin yr Amoriaid gan Moses, daeth Og a'i holl bobl allan yn erbyn Israel hyd Edrai. Tarawsant ef a'i holl bobl, fel na adawyd un yn ngweddill; a pherchenogasant ei dir. Yr Ammoniaid wedi hyny a ddygasant ei wely haiarn ef ac a'i cyfleasant yn Rabbah, fel rhyw gywreinwaith. Num. xxi. Deut. 3. 1—14. a 31. 4. Ps. 135. 11, 12. Jos. 13. 10—31. 1 Bren. 4. 19.

OG—AU—ED, *Llad.* Occa; ôg i lyfnu tir âg ef.

Tra rheto yr ôg rheted y freuan. *Diar.*

Y mae yn ammhëus a oedd yr ôg yn arferedig yn yr hen amseroedd, mwy nag yn bresennol (canys nid ydyw yn awr) yn Palestina. Yr oedd ganddynt ryw fodd i lyfnu, beth bynag oedd. Arwydda y gair חרש fel berf, *aredig*, neu y gwaith a wneir â'r חרש *yr aradr;* ac שדד a arwydda y gwaith a wneir âg ôg gyda ni, sef dryllio y cwysau, neu lyfnu. Job 39. 10. Esa. 28. 24. Hos. 10. 11.—Y gair חרץ a gyfleithir ôg yn 2 Sam. 12. 31. Esa. 28. 27. a gyfleithir *mèn ddyrnu*, yn Esa. 41. 15.—*offer dyrnu*, Amos 1. 3. Edr. Dyrnu, Men.—Y mae ôg yn arwyddo hefyd, ieuanc, ieuengaidd, bywiog.

A'm gyrwys yn nghrog
A fyddwn yn ôg. *Taliesin.*

OGOF—AU—EYDD, (og-of) ceudwll mewn daear, lloches anifeiliaid, bwystfilod, &c. gogof, ffau. Ogofâu dan y ddaear oedd trigfanau dynion ar y cyntaf, cyn iddynt ddysgu gwneuthur tai ar y ddaear, yndynt hwy hefyd y byddent yn claddu eu meirw. Byddai y Paganiaid yn addoli eu heilunod, yn aml, mewn ogofäu: felly yr addolai y Persiaid Mithros eu duw, mewn ogof a gysegrwyd iddo gan Zoroaster. Y cyfryw oedd ogofäu Delphi; ogof y Sybil yn Cumæ yn Campania. Rhydd Strabo hanes am ogof yn Arabia a gynnwysai 4000 o ddynion. Vansleb a ddywed fod ogof yn yr Aipht a gynnwysai 1000 o wyr meirch wedi eu trefnu. Yr oedd ogofäu yn aml yn ngwlad Canaan. Mewn ogof yn Machpelah y claddwyd Abraham, Sarah, Jacob, a Leah. Gwel Genesis 50. 13. Jos. 10. 16. Barn. 6. 2. 1 Samuel 13. 6. 1 Bren. 18. 4. a 19. 9. a 17. 3. Ioan 11. 38. Heb. 11. 38.

OHAD, אהד [*moliannu*] trydydd mab Simeon. Gen. 46. 10.

OHEL, *Heb.* אהל [*pabell*] mab Zorobabel, ac ŵyr Pedaiah. 1 Cron. 3. 20.

OL—ION, arwydd, arwydd gwadn troed; ôl troed, arlwybr.—'Gan adael i ni siampl, fel y canlynech ei ôl ef.' 1 Petr 2. 21. 'Gan adael y ni angraifft val y gellychi ganlyn eu olion ef.' W. S. Cyfleithir yr un gair ἰχνος, *llwybrau*, yn Rhuf. 4. 12. 2 Cor. 12. 18. Gadawodd Crist, pan aeth i'r nefoedd, ei siampl ar ol; y dull y rhodiodd, y dyoddefodd, ac y gwnaeth ddaioni yma yn y byd i bawb, i'w elynion, &c. Y mae ei ôl i'w weled yn ei hanes rhyfedd am dano yn nghanol tlodi, profedigaethau, a dyoddefiadau, pa ddull oedd ar ei ysbryd, pa fodd yr ymddygodd ac y siaradodd. Edr. Siampl.

OL—AF, y peth oedd, a aeth heibio, y diweddaf: y tu ol, sef y tu cefn; myned ar ol, sef ymlid peth; yr amser yn ol, sef yr amser i ddyfod.—Myned ar ol yr Arglwydd Iesu, ydyw bod yn ganlynwyr cywir, a dysgyblion ffyddlon iddo. Mat. 16. 24.——'Yn debyg i fod yn ol,' sef yn golledig. Heb. 4. 1.——'O thyn neb yn ol,' sef gwrthgilio oddiwrth eu proffes o Grist. Heb. 10. 38.——'Rhodio yn ol yr Ysbryd,' neu 'yn ol y cnawd,' sef yn gyfatebol, yn ol cyfarwyddiadau, tueddiadau, a dylanwadau yr Ysbryd, neu y cnawd. Rhuf. 8. 1—4, 13.——'Y rhai blaenaf fyddant yn olaf.' Mat. 19. 30. Edr. Galw:

OLEU—FYNAG. Edr. Goleu-fynag.

OLEW—AIDD, (ol-ew) *Groeg,* ελαιον; *Lladin,* Oleum; *Saes.* Oil: ûl, enaint. Tynir olew yn bresennol allan o frasder pysgod, hâd llin, ac amrywiol bethau eraill: ond olew yr olew-wydd ydoedd fwyaf arferedig gynt. Mae pur olew yr olew-wydden yn bêr ei arogl a'i flas, ac yn feddyginiaethol i archollion, ac yn ystwythdra i'r cymalau. Yr oedd amldra o hono yn y wlad yr oedd Job yn byw: 'Pan dywalltai y graig,' sef yr olew-wydd ar y graig, 'i mi afonydd o olew.' Job 29. 6. Yr oedd helaethrwydd o hono hefyd yn ngwlad Canaan, yn enwedig yn etifeddiaeth Aser: 'Efe a wlych ei droed mewn olew,' medd Moses am dano. Deut. 32. 13. a 33. 24. Yr olew hwn a ddefnyddient yn gyffredin, ac yn y bwyd-offrymau, ac yn y lampau yn y cysegr. Heblaw hwn yr oedd yr olew eneiniad sanctaidd; yr oedd hwn yn wneuthuredig o olew, cinnamon peraidd, calamus peraidd, cassia, a myrr; yr oedd dau cymaint o'r cassia a'r myrr ag oedd o'r cinnamon a'r calamus. Arferent hwn i gysegru yr offeiriaid, ac i eneinio y babell a'r dodrefn. Nid oeddynt i wneuthur ei fath, na'i arferyd yntau yn gyffredin, dan berygl marwolaeth. Exod. 30. 23—33. Edr. Eneinio, Enaint.

'Cured y cyfiawn fi yn garedig, a cherydded fi: na thored eu holew penaf hwynt fy mhen.' Ps. 141. 5. —'Cerydded y cyfiawn fi; a thrugaredd fydd; a cherydded fi, ac olew i'm pen fydd: na thored neb fy mhen: canys etto bydd fy ngweddi yn eu drygau hwynt.' Gwel Coccejus. Wrth Dduw y mae yn llefaru y geiriau o'r blaen; ac yn y geiriau hyn y mae yn priodoli i Dduw cyfiawn yr hyn a wna anuwiolion iddo fel ceryddon oddi wrtho; ffrwyth pa rai ydyw llawenydd ysbrydol, trwy fod yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi gan Dduw i'r neb a geryddo. Y mae yn erfyn na fyddai iddo adael i neb dòri ei ben, sef darostwng ei ben a'i wanychu, fel na byddai ei ymddiried yn yr Arglwydd. 'Olew llawenydd,' ydyw ceryddon Duw i'w bobl, 'yn dwyn heddychol ffrwyth cyfiawnder;' ac ni âd eu temtio uwchlaw yr hyn a allont ei ddwyn.

Digitized by Google

'Ag olew îr y'm heneinir.' Ps. 92. 10. Olew yn adfywio ac yn llòni. Ystyr y gair רענן a gyfleithir yma *îr*, yw *blodeuog*, *cynnyddol*, *prifiannus*; cyfieithir ef yn aml, *glas*, *gwyrddlas*, *gwyrdd*. Deut. 12. 2. Job 15. 32. Ps. 37. 35. Ond nid ydyw yn arwyddo lliw, ond eidiogrwydd, prifiogrwydd; ac a briodolir i goed yn llawn nôdd ac ireidd-dra. Felly yma; *olew îr*, yw olew yn adfywio ac yn llòni un, ac a arwydda yr Ysbryd Glân ar Grist, ac oddi wrtho ef ar ei holl bobl; yn eu hadfywio, ac yn eu gwneuthur yn dirfion, yn îraidd, ac yn flodeuog.

'Olew yn eu llestri gyd â'u lampau.' Mat. 25. 4. Edr. MORWYNION.——'Gan ei eneinio ef âg olew.' Iago 5. 14. Edr. ENEINIO.

OLEW-WYDD—EN, (olew-gwydd) *Gr.* ἐλαια; *Llad.* OLEA, OLIVA: coed o'r enw, sydd yn llawn o nôdd bras, ac yn rhoddi amldra o olew. Tournefort a ddywed fod deuddeg math o honynt; ond ni sonir yn yr ysgrythyrau ond am y gwylltion a'r diwylledig. Mae y rhai gwylltion yn llai na'r lleill. Yn mis Mehefin y blodeua flodau gwynion; wedi y blodau y daw y ffrwyth, yr olifiad, sydd â chareg ynddo yn cynnwys yr hâd. Yr oedd yr olew-wydd yn aml yn ngwlad Canaan; ac yr oedd pawb, agos, breninoedd a deiliaid, â'u holew-wydd-lanoedd ganddynt. Deut. 6. 11. a 8. 8. a 28. 40. 1 Cron. 27. 28. 1 Sam. 8. 14. Neh. 5. 11.—Cyffelybir plant i 'blanigion olew-wydd' o amgylch bord eu tad, oblegid eu harddwch a'u ffrwythlonrwydd. Ps. 128. 3.——'Olew-wydden werdd,' Ps. 52. 8. yn hytrach ffrwythlawn. Nid gwyrdd yw lliw yr olew-wydd. Harmer, *chap.* ix., *obs.* x.——'A thydi yn olew-wydden wyllt,' &c. Rhuf. 11. 17. Edr. IMPIO.

Dygodd y golomen, a anfonodd Noah allan o'r arch, ddeilen olew-wydden yn ei gylfin, gwedi ei thynu, yn arwydd fod y dyfroedd wedi treio. Gen. 8. 11. Tebygol mai oddiwrth hyny y mae cangau olew-wydd, er hyny, yn arwydd-lun o heddwch. Neh. 8. 15. Y golomen sydd arwydd-lun o'r Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn dwyn heddwch trwy yr efengyl i bechaduriaid. Mat. 3. 16. Ioan 1. 32. Esa. 60. 8. Rhuf 10. 15.

MYNYDD YR OLEW-WYDD, a alwyd felly oddiwrth yr amldra o'r coed hyn oedd yn tyfu ynddo. Geilw yr Iuddewon ef, weithiau, הר המשחה *mynydd yr olew*. Heblaw yr olew-wydd, yr oedd yno amldra o'r palmwydd, y pinwydd, y myrtwydd, a choedydd ffrwythlawn eraill lawer. Galwyd amrywiol barthau o'r mynydd wrth wahanol enwau, sef, 1. Geth Semani, lle olew-wasgoedd.—2. Bethania, lle *dates*, math o ffrwythau peraidd.—3. Bethphage, lle ffigys irion. Yr oedd yn sefyll yn agos i filltir o du y dwyrain i Jerusalem gwedi ei wahanu oddiwrth y ddinas gan ddyffryn Jehosaphat, ac afon Cedron yn rhedeg trwyddo. Zech. 14. 4. Yr oedd iddo dri phen; y pen gogleddol oedd yr uchaf; yr oedd megys yn crogi uwch ben y ddinas, ac a alwyd, meddant, Galilea. Paham y galwyd ef Galilea sydd mewn dadl; rhai a haerant, am fod y Galileaid yn llettya yno, pan ddeuent ar y gwyliau arbenig i Jerusalem, mewn lle gwedi ei barotoi ar yr achlysur hwnw. Yr oedd yn dra uchel, a gellid gweled oddi arno holl heolydd Jerusalem, y Môr Marw, &c. Y pen deheuol, a alwyd mynydd llygredigaeth, oddiwrth demlau yr eilunod a adeiladodd Solomon yno, oedd yr isaf. 1 Bren. 11. 7. 2 Bren. 23. 13. Oddiar y canol, meddant, yr esgynodd Crist i'r nefoedd. Luc 24. 50, 51. Act. 1. 9—12. Edr. ESGYN.

Dywed Josephus i'r mynydd hwn hollti gan ddaeargryn yn nyddiau y brenin Uzziah, ac i un hanner iddo dreiglo yn nghylch hanner milltir i'r gorllewin, ar y brif-ffordd, a gerddi y brenin. Zech. 14. 5. 'A mynydd yr Olew-wydd a hyllt ar draws ei hanner tu a'r dwyrain a thu a'r gorllewin, a bydd dyffryn mawr iawn: a hanner y mynydd a symud tu a'r gogledd, a'i hanner tu a'r dehau.' Zech. 14. 4. Safodd traed yr Arglwydd Iesu ar fynydd yr Olew-wydd pan esgynodd i'r nefoedd; yn ganlynol i hyny awdurdododd ei ddysgyblion i bregethu yr efengyl yn amrywiol barthau y ddaear. Symudodd yr Arglwydd yr holl osodiad Iuddewig ag oedd yn attal y cenedloedd gael dyfodfa rydd i'r eglwys. Hwyrach mai hyn a arwyddoceir wrth hollti mynydd yr Olew-wydd; yn nghyd â symud pob rhwystrau o oes i oes, y rhai ydynt fel mynyddoedd ar ffordd taeniad yr efengyl ar led yr holl ddaear. O Jerusalem yr aeth yr efengyl allan, er gwaethaf y rhwystrau mwyaf; a gwnawd ffordd rydd i'r cenedloedd ddyfod i mewn i'r eglwys i gyfranogi o'i breintiau. Gwel Marcius *in loc*. Y mae llawer o ffug-ddywediadau yn nghylch y mynydd hwn, ac ôl troed Crist arno; ond nid gwiw eu hail-adrodd.

OLIFIAD, *Saes.* OLIVES: grawn olew-wydd. Iago 3. 12.

OLWYN—ION, (olw) troell, cant, rhidell, rhod. Y mae olwyn mên yn gynnwysedig o'r both, y camegau, yr edenydd, a'r echel. 1 Bren. 7. 33.—'Ac a dry yr olwyn arnynt.' Diar. 20. 26. Megys y troir olwyn y fên ar yr ŷd wrth ei ddyrnu, yr hon sydd yn curo yr ŷd allan, ac yn dryllio y gwellt; felly, yn gyffelyb, bydd cospedigaeth yr annuwiolion. Ps. 83. 13. Gwel Lowth ar Esa. 28. 27. Edr. NITHIO. Barna rhai fod cyfeiriad y geiriau at fath o gospedigaeth ddychrynllyd âg olwyn ar ddrwg-weithredwyr, yn mhlith y Syriaid, &c. Yr oedd hyn yn arferedig yn ddiweddar yn Ffrainc, Germani, &c:

Yr 'olwyn wrth y pydew,' yw y rhedweli fawr wrth y galon, sydd yn rhoddi ei ysgogiad i holl waed y corph. Tôri hon sydd farwolaeth yn y fan. Preg. 12. 6.

Yn ngweledigaeth Ezeciel (pen i. a x.) darlunir olwynion ofnadwy yn nglŷn wrth y pethau byw, neu y cerubiaid, yn cynnal y ffurfafen yr oedd gorseddfainc Duw arni, ar yr hon yr oedd cyffelybrwydd megys gweledisad dyn. Y mae Vitringa, Pragus, a Pintus, yn barnu fod cyfeiriad yn y darluniad o gosail gorseddfa Ezeciel, sef o'r cerubiaid a'r olwynion, i wneuthuriad cywrain yr ystolion a'r olwynion oedd yn cynnal y deg noe wrth borth teml Solomon. Yr oedd ar y rhai hyny lun llewod, ychain, a cherubiaid. Yr oedd cantau olwynion Ezeciel yn uchel, yn ofnadwy, ac yn llawn llygaid; eu gwedd a'u gwaith oedd fel pe byddai olwyn yn nghanol olwyn, sef fel dwy olwyn ar draws eu gilydd, ac addasrwydd ynddynt fel hyn i fyned heb droi i bedwar pwnc y byd. Yr oedd undeb neillduol rhyngddynt a'r cerubiaid; yr un ysbryd ynddynt, a'r un ysgogiadau iddynt. Yr oeddynt yn cynnal gosail yr orsedd-fainc, ac yn ei dwyn gyda hwynt lle bynag yr aent. Gan fod y weledigaeth yn ddangosiad o weinyddiad ardderchog teyrnas Crist yma yn y byd, yn gyntaf yn mhlith yr Iuddewon, ac yn eu plith hwy yn gysgodol o weinyddiad mwy gogoneddus goruchwyliaeth yr efengyl, tebygol fod y cerubiaid a'r olwynion yn arwyddocâu y gweinidogion o amrywiol enwau, cyffredin ac anghyffredin, sydd gan Dduw yn ngweinyddiad ei deyrnas rasol yn mhlith dynion, ac yn ei holl ragluniaethau tu ag at ei eglwys. Yr un orsedd-fainc a gorsedd-fainc Ezeciel oedd gorsedd-fainc Esaiah (pen. vi.) a'r orsedd-fainc a welodd Ioan. Dat. iv, v. Yn nghylch gorsedd-fainc Ioan yr oedd pedwar anifel (neu ζωα, *pethau byw*) yn sefyll ar yr un gosail a'r orsedd, sef ar y môr o wydr; ac yr oeddynt yn llawn llygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol, ac yr oedd adenydd iddynt. Y mae y rhai hyn yn cyfateb i gerubiaid Ezeciel. Hefyd, gyd â'r pedwar anifel yr oedd pedwar henuriad ar hugain yn cyd-addoli, ac yn bwrw eu coronau i lawr ger bron



Digitized by Google

yr orsedd-fainc, ac yn cyd-foliannu gyd â'r pedwar anifel. Y mae yr henuriaid yn cyfateb i'r olwynion yn ngweledigaeth Ezeciel, a phob un o'r ddau yn gosod allan yn weledigaethol, ac yn hynodol o ardderchog a gogoneddus, yr offerynau sydd gan yr Arglwydd yn ngweinyddiad ei deyrnas yma yn y byd, yn enwedig gweinidogion yr efengyl. Y maent, fel yr olwynion, yn llawn llygaid, sef gwybodaeth addas am natur teyrnas Crist; â'u hwynebau ar bedwar pwnc y ddaear, gan fod yr holl ddaear wedi ei rhoddi yn etifeddiaeth i Grist. Nid oes dim llai na bod yr holl fyd, sef holl deyrnasoedd y ddaear, yn eiddo Crist, a foddlona wir weinidogion Crist. Y maent gwedi eu hanfon yn awdurdodol i'r holl fyd, ac y mae eu hwynebau oll tu ag yno yn gyfatebol. Edr. CERUBIAID, GORSEDD-FAINC, GWYDR, MOR.

OLYMPAS, Ολυμπας, [*o fynydd Olympus*] y mae Paul yn ei anerch fel dysgybl ffyddlawn i Grist. Rhuf. 16. 15. Nid oes dim ychwaneg o hanes am dano.

OMAR, אומר [*yr hwn sydd yn llefaru*] trydydd mab Eliphaz, ac ŵyr Esau. Gen. 36. 11.

OMEGA, Edr. ALPHA.

OMER, עמר degfed ran ephah; mesur yn nghylch chwe pheint. Exod. 16. 36.

OMRI, עמרי [*fy ngeiriau*] tywysog llu Elah, brenin Israel. Pan oedd yn gwarchae ar Gibbethon, clywodd i Zimri ladd y brenin a'i holl dŷ, ei holl geraint, a'i gyfeillion, a gosod ei hun i fynu yn frenin yn Tirsah: efe, a holl Israel gyd âg ef, a aethant ac a warchaeasant ar Tirsah. Pan welodd Zimri fod y ddinas gwedi ei hennill, aeth i balas y brenin, ac a'i llosgodd am ei ben â thân. Gwedi hyny, Omri a deyrnasodd, gwedi gorchfygu Tibni a'i blaid. Pwrcasodd fynydd Samaria oddiar Semer, ac a adeiladodd ddinas yno, yr hon a alwodd Samaria, oddiwrth Semer; ac a'i gwnaeth hi yn brif ddinas ei deyrnas. Rhagorodd ar yr holl freninoedd a fu o'i flaen ef mewn drygioni; a bu farw yn Samaria, A. M. 3086. 1 Bren. 16. 15—29.

'Cadw yr ydych ddeddfau Omri, a holl weithredoedd Ahab.' Mic. 6. 16. Gwnaeth ef a'i fab Ahab ddeddfau i sefydlu eilun-addoliaeth yn Israel; y rhai a gadwodd, nid yn unig Israel, ond hefyd rhai o Judah, yn mhell gwedi eu marwolaeth, yn nyddiau Michah, yn lle rhodio yn neddfau sanctaidd yr Arglwydd, a glynu wrth ei addoliad.

Yr oedd dau eraill o'r enw, sef meibion Becher a Michael o lwyth Issachar. 1 Cron. 7. 8. a 27. 18.

ONADDYNT, (o-yn-addu) o honynt.—'Gwraig y bwy 'n o naddynt vydd hi?' sef gwraig i ba un o honynt. Marc 12. 23. W. S.

ONAN, אונן [*gofid*] mab Judah. Gen. 38. 6, 7. Edr. JUDAH.

ON—EN, YN, onwydd, pren on. Y mae yn bren yn tyfu yn fuan, ac o ddefnydd cyffredinol. Esa. 44. 14, 15.

ONESIMUS, Ονησιμος, [*defnyddiol*]. Edr. PHILEMON.

ONESIPHORUS, Ονησιφορος, [*yn dwyn elw*] Cristion enwog, yr hwn a ddangosodd lawer o garedigrwydd i Paul: 'Efe a'm llonodd i yn fynych,' medd efe, 'ac nid oedd gywilydd ganddo fy nghadwyn i.' 2 Tim. 1. 16, 17, 18. Gwedi bod yn wasanaethgar iddo o'r blaen yn Ephesus, pan ddaeth o Asia i Rufain, ceisiodd yr apostol yn ddiwyd iawn hyd nes cafodd ef, ac a ddangosodd yr un caredigrwydd iddo yn y carchar.

ONSET, neu GONEST—RHWYDD, (gawn) *Llad.* HONESTUS; *Saes.* HONEST; *Gwydd.* KNEASTA: da, dinam, rhinweddol, cywir, gwirioneddol, canmoladwy, gweddus, cyfrifol.—'Darperwch bethau onest yn ngolwg pob dyn.' Rhuf. 12. 17. 'Perwch betheu syberw yn-golwc pop dyn.' W. S. Καλα, *pethau daionus, buddiol, rhinweddol, hawddgar, a hardd:* προνοουμενοι, *yn rhag-feddwl*, rhag-feddyliwch, ac ystyriwch yn mlaen llaw, pa fodd i wneuthur eich gweithredoedd yn gymhwys ac yn hardd, ie, yn ngolwg dynion. 2 Cor. 8. 21. Heb. 13. 18. 1 Petr 2. 12.——'Pa bethau bynag sydd onest.' Phil. 4. 8. 'Sy syberw,' W. S. οσα σεμνα, pa bethau bynag sydd *weddus, parchus*, ac *anrhydeddus*.——'I'r diaconiaid fod yn onest,' (σεμνους) sef yn barchus ac yn anrhydeddus. 1 Tim. 3. 8—11. Tit. 2. 2. Nid oes dim yn gweddu i'r efengyl ond pethau sydd rinweddol, parchus, a hawddgar: y mae duwioldeb gwirioneddol ac onestrwydd (σεμνοτητι) yn gysylltiedig â'u gilydd. 1 Tim. 2. 2.——'Yn nghyd â phob onestrwydd.' 1 Tim. 3. 4. *μετα πασης σεμνοτητος, gyda phob difrifwch, sobrwydd, a gweddeidd-dra.*

ONIX, ονυξ, [*ewin*] *Llad.* a *Saes.* ONYX: maen gwerthfawr, a'r unfed ar ddeg yn nwyfroneg yr archoffeiriad, âg enw Joseph arno. Exod. 28. 9, 10, &c. Dau faen onix, âg enwau holl feibion Israel gwedi eu naddu arnynt, oedd ar ysgwyddau yr ephod a wisgai Aaron, i ddwyn enwau meibion Israel yn goffadwriaeth ger bron yr Arglwydd. Gelwir y maen hwn yn werthfawr. Job 28. 16. Yr oedd gwlad Hafilah yn enwog am y maen hwn. Gen. 2. 12.

Mae pum math honynt yn bresennol; ond y glasgoleu, â llinellau llydain oddi amgylch iddo, oedd maen onix yr hynafiaid. Mae y meini onix hyn i'w cael, yn gyffredin, yn yr India Ddwyreiniol, Germani, yr Ital, ac Hispaen Newydd.

ONO, dinas yn llwyth Benjamin, a adeiladwyd, neu, o'r hyn lleiaf, a ail-adeiladwyd gan deulu Elpaal. 1 Cron. 8. 12. Yr oedd hi bum milltir o Lod, neu Loda.

ONYCHA, *Gr.* Ονυχα; *Vulg.* ONYCHA; *Heb.* שחל yn Exod. 30. 34. Enwir yr onycha yn un o'r llysiau peraidd, o ba rai yr oedd yr arogl-darth i gael ei wneyd. Crogen arogl-bêr, meddant, yw yr onycha, yn debyg i grogen y *purpura*, o ba un y cai y Tyriaid y lliw porphor, ac y mae i'w gael, medd Dioscorides (*lib.* ii., *cap.* 7, 10.) yn llynoedd y nard yn India; y mae yn rhoddi arogl peraidd, am fod y pysgod yn ymborthi ar y nard. Y goreu a ddygir o'r Môr Coch, yn wyn, ac yn fras. Yr onycha a ddygir o Babilon sydd o liw du. Llosgir y ddau yn arogl-darth peraidd. Nid yw y gair Hebraeg i'w gael ond yn y lle uchod. Eccles. 24. 15.

OPHEL, עפל [*tŵr*] mae y gair, weithiau, gwedi ei gyfieithu; megys yn 2 Cron. 27. 3. Mic. 4. 8. Neh. 11. 21. 'Ar fur y tŵr,' *Heb. ar fur Ophel.* 'Yn y tŵr,' *Heb. yn Ophel.* Yn 2 Cron. 33. 14. a Neh. 3. 26. gadawyd ef heb ei gyfieithu. Mur neu dŵr oedd yn Jerusalem, ac yno, tebygol, yn agos i'r deml; hwyrach, yn nghylch y gongl ddehau ddwyrain i fynydd Sion. Ar esgyniad graddol, medd rhai, yn agos i fynydd Moriah.

OPHIR, אופיר [*lludw*] mab Joctan, a gwlad o'r un enw, tebygol, oddi wrtho. Gen. 10. 25, 30. Y mae amrywiaeth hynod yn meddyliau awdwyr am sefyllfa y wlad hon; nid oes un parth o'r byd nad yw rhyw un gwedi barnu mai yno yr oedd Ophir; yr India Ddwyreiniol, a Gorllewinol; Affrica, ac America; ynysoedd Ceylon, ac Hispaniola, Peru, Carthage, &c. Y mae yr holl amrywiaeth feddyliau hyn yn profi bod yn anhawdd penderfynu yn ddilys ei sefyllfa.

Digitized by Google

Gwyddom ei bod yn foreu yn enwog am amldra o aur. Job 22. 24. a 28. 16. Cyrchodd Solomon lawer oddi yno i adeiladu y deml, a choed algummim, a meini gwerthfawr. 1 Bren. 9. 28. a 10. 11. a 22. 48. 2 Cron. 8. 18. a 9. 10. Gan i Ophir a Hafilah a'u hiliogaeth breswylio yn y dwyrain, rhwng Mesa a mynydd Sephar, addas barnu fod sefyllfa y wlad yn y parthau hyny, ac nid yn mhell oddiwrth y moroedd dwyreiniol. Hwyrach fod gwlad Ophir yn rhyw le yn agos i'r afon Indus, a bod y fordaith o'r Môr Coch i'r afon hòno, i ryw borthladd arni, megys y gwnant yn bresennol, weithiau. Cymaint a hyn sydd amlwg am y wlad yn yr ysgrythyrau: ychwaneg, yn awr yn niwedd yr oesoedd, nis gellir cael hysbysrwydd sicr, ond dychymygion. Edr. EZION-GABER, JEHOSAPHAT, SOLOMON.

**OPHNI**, dinas yn rhandir Benjamin. Jos. 18. 24.

**OPHRAH**, עפרה [*llwch*] 1. Dinas yn rhandir Benjamin. Jos. 18. 23.——2. Un arall yn rhandir Manasseh. Barn. 6. 11.——3. Mab Meonathai. 1 Cron. 4. 14.

**ORDEINIO—HAD—AU**, *Llad.* ORDINO, ORDINATIO; *Ffr.* ORDONNANCE, ORDONNER; *Saes.* ORDAIN, ORDINANCE: gorchymyn, trefnu, gosod, appwyntio, penodi, urddo; trefniad, gosodiad; cyfraith, gosodedigaeth, deddf.——'Pwy a ordeiniodd fudan?' sef pwy a (שום) *wnaeth* fudan? Exod. 4. 11.——'Efe a ordeiniais i fod yn flaenor ar Israel,' sef a osodais. 1 Bren. 1. 35.

'Y lloer a'r sêr; y rhai a ordeiniaist.' Ps. 8. 3. Y rhai (כוננתה) a *drefnaist*, a *osodaist*, a *sefydlaist*. Y mae y gair yn arwyddocâu holl sefydliad ac iawn drefniad hardd a gogoneddus llu y nefoedd; yn ol yr hwn y maent yn ysgogi yn eu holl gylchoedd yn rheolaidd, yn ddirwystr, ac yn ddiwyrni, er eu creadigaeth hyd heddyw. Nid yn unig efe a'u gwnaeth, ond iawn drefnodd Duw hwynt yn rheolaidd ac yn hardd, ac a'u gosododd yn sefydlog yn eu cylchoedd. Yn hyn mae mawredd, doethineb, gallu, a daioni yr Arglwydd i'w weled yn amlwg, gan y neb a ystyrio.

'Gwrandewch y wialen, a phwy a'i hordeiniodd.' Mic. 6. 9. Y mae gwialen yn arwyddocâu, yn aml, barnedigaethau; Duw sydd yn eu trefnu i ddybenion doeth a da; mae llais gan Dduw tu ag atom ynddynt, a'n dyledswydd ydyw gwrando ac ystyried gallu, cyfiawnder, gwirionedd, a daioni Duw ynddynt, a'i lais yn neillduol tu ag atom. 2 Sam. 21. 1. Job 5. 8, 9, 10—17. a 10. 2. Esa. 9. 13. a 10. 5, 6. Jer. 14. 18, 22. Galar. 3. 39—42. Joel 2. 11—18. Hag. 1. 5, 6, 7. Dat. 3. 19.

Y mae ordeinio, yn aml, yn ein cyfieithiad ni o'r Bibl, yn arwyddo *dethol*, a *gosod* rhai mewn swydd, ac i gyflawni y gwaith perthynol iddynt. Luc 10. 1. Marc 3. 14. Act. 14. 23. a 17. 31. Heb. 3. 2. Rhuf. 13. 1.——I gyfranogi o ras a breintiau mawrion; megys i ddwyn ffrwyth sancteiddrwydd, Ioan 15. 16. —i deyrnas nefoedd, a bywyd tragywyddol. Luc 22. 29. Act. 13. 48.—gorchymyn, trefnu, a gosod pethau. Act. 16. 4. 1 Cor. 7. 17. a 9. 14. a 16. 1. Titus 1. 5.

'A chynnifer ag oedd wedi eu hordeinio i fywyd tragywyddol, a gredasant.' Act. 13. 48. *Gr.* Οσοι ησαν τεταγμενοι εις ζωην αιωνιον. 'A' chyniver ac a ordinesit ir bywyd tragyvythawl, a gredesant.' W. S. 'Ac fe a gredodd pob cyfryw un ac a ordeiniesid i fywyd tragywyddol.' Dr M. Yr un fath yr Arabaeg, y Syriaeg, a'r *Vulgate*. Llawer a ysgrifenwyd gan feirniaid dysgedig i geisio profi fod y geiriau hyn yn gosod allan agwedd meddyliau dynion, ac nid arfaethiad a threfniad Duw; ac yn eu cyfieithu, 'Cynnifer ag oedd yn *tueddu* i fywyd tragywyddol.' Wedi edrych yn fanwl bob man yr arferir y gair, ac ystyried pethau yn ddwys ac yn ddiduedd, yr ydwyf yn gorfod barnu fod y cyfieithiadau uchod yn gywir. '*Tueddu* i fywyd tragywyddol,' sydd ymadrodd anarferol, os nid anmhriodol ac anghywir. Gellir dywedyd fod dyn yn tueddu i weithredu yn dda neu yn ddrwg, ond nid yn tueddu i wobr neu gospedigaeth, megys i nefoedd neu uffern. Priodol ystyr y gair yw, *gosod, cyfleu, trefnu, ordeinio;* gosod mewn rhyw drefn: gair milwraidd ydyw, ac yn arwyddo milwyr wedi eu gosod trwy orchymyn y tywysog mewn trefn, pob un yn ei le ei hun.* Effaith arfaeth Duw ydyw credu i fywyd tragywyddol.

Y mae ordinhad yn arwyddo gosodiad, sefydliad: 'Yn ol ordinhad Dafydd,' sef yn ol sefydliad a threfniad Dafydd. Ezra 3. 10.——'Yn gwrthwynebu ordinhad Duw,' sef trefniad a gosodiad Duw. Rhuf. 13. 2. Edr. AWDURDOD.——'Ymddarostyngwch oblegid hyn i bob dynol ordinhad, o herwydd yr Arglwydd.' 1 Petr 2. 14. πασῃ ανθρωπινῃ κτισει, *a phob dynol greadigaeth;* sef dynol drefniad, neu osodiad. Y mae yr apostol yn galw swyddogaeth wladol yn greadigaeth ddynol, nid am nad ydyw o Dduw, ond am fod y swyddwyr gwedi eu cymeryd o blith dynion, wedi eu gosod gan ddynion, ac er llesâd dynion. 'Pob dynol,' &c., yn dangos y dylent barchu swydd, ac nid edrych ar y dynion o fyddo yn ei gweinyddu, pa un ai Iuddew neu Genedl-ddyn, Cristion neu Bagan, drwg neu dda, fyddo; y mae yr apostol yn galw y swyddogaeth yn 'ddynol ordinhad,' i wrthwynebu y gam farn oedd gan rai, na ddylent ufuddhau i swyddwyr, ond oedd o osodiad Duw; megys y breninoedd Iuddewig. Nero waedlyd oedd yr amser hwn yn ymerawdwr yn Rhufain.

**OREB**, ערב [*cigfran*] un o dywysogion Midian, yr hwn, yn nghyd â Zeeb, un arall, a ddaliwyd gan yr Ephraimiaid, a lladdasant Oreb wrth y graig Oreb. Barn. 7. 25.

**ORGAN** *Heb.* עגב [*ymuno*] *Gr.* οργανον, *yr offeryn,* sef offeryn yn rhagori ar bob un arall, offeryn cerdd. Gan fod y gair Hebraeg am organ yn arwyddo *uno, ymuno yn nghyd,* bernir fod yr offeryn hwn yn gynnwysedig o amryw bibellau o wahanol faintioli, wedi eu huno â'u gilydd. Yr oedd yr organ a'r delyn yn rhai o'r offerynau cerdd cyntaf sydd â hanes am danynt, ond yn dra gwahanol yn eu gwneuthuriad oddiwrth y rhai arferedig yn bresennol. Gen. 4. 21. Ps. 150. 4. Job 21. 12. a 30. 31. Y mae Jerome yn crybwyll am organ â deuddeg o feginau iddi, yr hon a ellid ei chlywed filltir o ffordd, ac un arall yn Jerusalem, a ellid ei chlywed ar fynydd yr Olew-wydd. Yr organ gyntaf a welwyd yn Ffrainc, a anfonwyd gan yr Ymerawdwr Constantin Copronymus y chweched, o dref Cystenyn, i Pepin, brenin Ffrainc, A. D. 757. Yn nghylch y ddegfed ganrif y dygwyd yr arferiad o'r offeryn hwn gyntaf i leoedd o addoliad yn yr Ital, yr Almaen, a Lloegr; yr ydoedd hwn yn amser o dywyllwch cyffredinol dros holl Ewrop, a'r bwystfil yn teyrnasu yn ei gyflawn rym a'i awdurdod. Ond y mae Thomas Aquinus yn dywedyd yn benderfynol yn ei amser ef, hyny yw, yn nghylch A. D. 1250, nad oedd offerynau cerdd yn arferedig yn yr eglwysi, rhag iddynt ymddangos yn Iuddewaidd yn eu haddoliad. Hwyrach y gallent fod yn arferedig yn rhai manau, ond nid yn gyffredinol, cyn hyny. Cyfrifir yr organ y penaf o'r offerynau cerdd.

**ORION**, οριων, o'r gair *Groeg* ορειν, *dyfrhau,* neu *gwlawio.* Cyd-sêr yn y ffurfafen, yn agos i arwydd y tarw, yn cynnwys yn nghylch pedwar ugain o sêr; ac y mae yn ymddangos oddeutu canol mis Tachwedd. Rhai a farnant nad sêr neu seren a feddylir wrth y gair

* Destino Act. 13. 48. Schleusner's *Lexicon.* Mintert.

Digitized by Google

*Heb.* כסיל a gyfieithir *Orion*, yn Job 9. 9. a 38. 31. Amos 5. 9. ond yr *oerfel*, neu yr awyr wedi rhewi gan oerfel. Cyfieithwyd y gair yn *Orion* oddiwrth gyfieithiad y LXX., fel y geiriau eraill yn yr un adnod. 'A ddattodi di rwymau Orion?' neu rwymau yr oerfel. ——' Yr hwn a wnaeth y saith seren ac Orion;' neu yn hytrach, meddant, *yr hwn sydd yn gwneuthur* (כימה) *y gwres*, a'r (כסיל) *oerfel*, 'ac a dry gysgod angeu yn foreu-ddydd; ac a dywylla y dydd yn nos.' Amos 5. 8. Gwel Parkhurst. Cyfieithir yr un gair yn y rhif lliosog (כסילים) *planedau.**

**ORNAN.** Edr. ARAFNA.

**ORPAH,** ערפה [*y gwddf*, neu *yr ewig*] Moabees, gwraig Chilion, mab Elimelech a Naomi. Wedi marw ei gwr, bu fyw gyda Naomi ei chwegr: aeth gyda Naomi ddarn o'r ffordd ar ei dychweliad i Bethlehem o wlad Moab; ond ar gais ei chwegr trodd yn ol i'w gwlad ei hun; ond Ruth, gwaudd arall, a'i canlynodd i Bethlehem. Ruth i. Edr. CHILION, ELIMELECH, NAOMI.

**OSEM,** עצם [*cadarn*, neu *ymprydiwr*] 1. Mab Jesse, a brawd Dafydd. 1 Cron. 2. 15.——2. Mab Jerammeel. 1 Cron. 2. 25.

**OTHNI,** עתני [*fy amser*] mab Semaiah, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 26. 7.

**OTHNIEL,** עתניאל [*amser Duw*, neu *llew Duw*] mab Cenaz. Gelwir ef yn *frawd* Caleb; ond mab Jephunneh oedd Caleb, ac yr oedd Caleb lawer hŷn nag Othniel, ac ni buasai yn gyfreithlon iddo briodi Achsa merch Caleb, pe buasai yn frawd iddo; am hyny rhaid i ni farnu mai brodyr oedd Cenaz a Jephunneh, ac mai cefndyr oedd Caleb ac Othniel, y rhai a elwir yn *frodyr* yn aml yn yr ysgrythyrau. Num. 32. 12. Jos. 14. 6. a 15. 17. Barn. 1. 13. Trwy ennill Ciriath-Sepher oddiar y Canaaneaid, cafodd Achsa, merch Caleb, yn wraig iddo. Jos. 15. 16, 17. Efe oedd y barnwr cyntaf fu ar Israel, a gwaredodd hwynt oddiwrth orthrymder Cusan-risathaim. Barn. 3. 9, &c. Gwedi hyn cafodd y wlad lonyddwch ddeugain mlynedd; sef deugain mlynedd gwedi i Othniel gael ei gyfodi yn farnwr arnynt, tebygol; er bod rhai yn dechreu cyfrif y deugain mlynedd o farwolaeth Josuah; eraill o amser eu sefydliad yn y wlad; ond y farn gyntaf sydd fwyaf tebygol i fod yn gywir.

**OZNI,** אזני [*fy nghlust*] mab Gad, a thad yr Ozniaid. Num. 26. 16.

# P.

**PA,** rhagenw; pa le, pa beth, pa un, pa bynag, pa ddyn.—'O ba le y daethost ti, Gehazi?' 2 Bren. 5. 25.——Gorair; pa faint? pa sut sydd? pa hyd? pa rag? pa am?

**PAARAI,** פערי [*agoriad*] Arbiad, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 35. Gelwir ef Naarai mab Ezbai, yn 1 Cron. 11. 37.

**PABELL—U, PEBYLL,** (pȃb-ell) lluest, lluesty, bwth, annedd fudadwy. Jabal mab Lamech, Cainead, 'oedd dad pob preswylydd pabell, a pherchen anifel;' hyny yw, efe a'u dysgodd gyntaf i wneuthur pebyll mudadwy, i'w symud yn hawdd wrth fudo eu hanifeiliaid. Gen. 4. 20. Yn y cyfryw anneddau y preswyliai y patrieirch, Noah, Abraham, &c. Yr ydoedd pebyll priodol i'r amrywiol rywiau; felly y darllenir i Isaac ddwyn Rebeccah i babell Sarah. Gen. 24. 67. Aeth Laban i babell Jacob, Leah, Rahel, &c. Gen. 31. 33. Y mae yr Arabiaid, y Tartariaid, ac eraill, hyd heddyw, yn trigo yn y cyfryw bebyll. Yr oeddynt yn wneuthuredig o bawl cynnaliol yn y canol, llèni, neu gortynau o ryw fath, a rhaffau wedi eu sicrhau â hoelion yn y ddaear. I'w helaethu i gynnwys mwy nag a fwriadwyd ar y cyntaf, yr oedd yn rhaid estyn y cortynau, a chwanegu at y cryfder oedd yn ei chynnal. Yn gyfatebol, y mae Sïon yn cael ei hannog, ar gynnyddiad rhifedi ei theulu: 'Helaetha le dy babell, ac estynant gortynau dy breswylfëydd: estyn dy raffau, a sicrhâ dy hoelion.' Esa. 54. 2. Ag un o'r hoelion hyn (o haiarn, tebygol) y lladdodd Jael Sisera. Barn. 4. 11. Yr oedd, ac y mae etto, eu dull a'u defnydd yn amrywiol: rhai o wneuthuriad cyffredin, digost, a didrafferth, dros fyr amser, tebyg i'r סכות (*sucoth*) y bythod a wnaeth Jacob i'r anifeiliaid. Gen. 33. 17. Job 27. 18. Tebyg i hwn oedd y caban סכה (*suce*) a wnaeth Jonah wrth Ninifeh. Jonah 4. 5. Hwn oedd luesty סכה (*suce*) gwinllanwr. Esa. 1. 8. Y diddos mwyaf cyffredin oedd hwn, y caban salaf a allesid ei wneuthur yn gysgod rhag gwres yr haul, ac yn amddiffynfa yn unig. Mae gair arall, שכן (*shecin*) yn arwyddo *preswylfod*, *trigfan*; ac yn arwyddocâu, hwyrach, arosfa mwy parhaus. Ps. 78. 60. *Heb.* אהל *ahel*; *Gr.* αυλη; *Llad.* AULA; *Saes.* HALL: pabell, yn yr ystyr mwyaf gwych o'r gair, a ellid ei helaethu, ei gwychu, ei harddu, a'i gwneuthur yn gyfleus yn breswylfod sefydlog a chysurus. Rhoddir hanes am un o freninoedd Persia, iddo wneuthur pabell a gostiodd iddo £150,000. Galwent hi 'y tŷ aur,' oblegid nad oedd dim ond aur yn echdywynu, ac yn gorddysgleirio yn mhob rhan o honi.

Gwnaent eu pebyll, hefyd, o amrywiol liwiau. Y mae pebyll yr Arabiaid yn dduon, felly yr oedd pebyll Cedar gynt, i ba rai y cyffelyba yr eglwys ei hun, gyda golwg ar ei gwaeledd, ei chystudd, a'i llygredigaeth. Can. 1. 5.

Rhai pebyll a wnaent yn grynion: i'r cyfryw y cyffelyba y prophwyd y nefoedd. Esa. 40. 22. 'Efe a daena y nefoedd fel llèn, ac a'i lleda fel pabell i drigo ynddi.' Defnyddia y Psalmydd yr un gyffelybiaeth yn Ps. 104. 2. 'Yn taenu y nefoedd fel llèn;' hyny yw, llèn pabell; ac os yn gron, y mae y cyfeiriad yn nodedig o addas.

Y mae pabell, neu bebyll, yn arwyddo hefyd, 1. Tŷ, neu drigfan. 2 Cron. 25. 22. Job 11. 14. Zech. 12. 7. Ps. 84. 10.——2. Rhai yn preswylio mewn pebyll. Ps. 83. 6.——3. Addoliad Duw, a'i bresennoldeb ynddo, yn mhlith ei bobl yma yn y byd. Dat. 21. 3. Yn cyfeirio at y babell a wnawd gan Moses wrth fynydd Sinai.

PABELL Y DYSTIOLAETH, PABELL Y CYFARFOD. Crybwyllir am dair pabell: 1. Y babell a symudodd Moses y tu allan i'r gwersyll, yn arwydd o anfoddlonrwydd Duw am bechod Israel yn gwneuthur y llo aur. Exod. 33. 7. Tebygol mai pabell Moses ei hun oedd, neu a ddarparodd Moses i weinyddu barn ynddi, ac yn yr hon yr atebai y bobl pan ymofynent âg ef. Yn hon, tebygol, y cyfarfyddent i addoli, cyn gwneuthur y babell y rhoddwyd portreiad o honi ar y mynydd, ac y byddai y cwmwl, arwydd y presennoldeb dwyfol, yn aros arni. Galwodd Moses hi, 'pabell y cyfarfod,' sef y lle y cyfarfyddai yr Arglwydd â'r bobl, yr enw a roddwyd i'r babell a gyfodwyd gwedi hyny.—' Pabell y cyfarfod.' Exod. 29. 42. אהל מועד Rhoddwyd yr enw hwn arni yn benaf, os nid yn unig,

* Credwyf fod כסילים yn y lle hwn yn arwyddo *planedau.* Y rheswm ydyw, fod כסיל yn dynodi *ffol*, *ysgafn*, *byrbwyll.* Vitringa *in loc.*

Digitized by Google

o herwydd, fel y dywed yr Arglwydd wrth Moses, איעד כשר *lle y cyfarfyddaf â chwi, i lefaru wrthyt yno.*—'Ac yn y lle hwnw y cyfarfyddaf â meibion Israel; ac efe a sancteiddir trwy fy ngogoniant.' Yn hyn yr oedd yn gysgod nodedig o'r Arglwydd Iesu, lle cyfarfod Duw â'i bobl. Symudwyd y babell hon gan Moses y tu allan i'r gwersyll, yr hon a ddylasai fod yn nghanol y gwersyll (Num. 2. 17.) yr hyn ydoedd arwydd trwm o anfoddlonrwydd Duw; at hyn y cyfeiria y duwiolion yn aml, yn eu gweddïau, gan waeddi, 'Nac ymbellha oddi wrthyf.' Psalm 10. 1. a 35. 22. a 38. 22.

2. Y babell a wnaeth Dafydd i arch Duw pan ddygodd hi o dŷ Obed-Edom i Sion. 2 Sam. 6. 17. 1 Cron. 16. 1.

3. Y babell ag y rhoddwyd portreiad o honi gan Dduw i Moses yn mynydd Sinai, ac a gyfodwyd yn y dydd cyntaf o'r mis cyntaf o'r ail flwyddyn, gwedi eu dyfodiad o'r Aipht, wrth fynydd Sinai. Exod. 40. 2, 17. Rhoddodd Moses hanes gwneuthuriad y babell hon yn fanwl, ac yn gyflawn iawn: nid oes na bwrdd, na phin, na dim yn perthyn iddi, heb ei nodi yn fanwl. Gan ei bod hi a'i holl ddodrefn i gysgodi gwrthddrychau anfeidrol mwy gogoneddus na'r greadigaeth yma isod, sef o Grist, ei gyfryngdod, ei gyfiawnder, a'i ras, rhoddir hanes hŵy o lawer am dani, nag am wneuthuriad y greadigaeth. Dangoswyd cynllun, neu bortreiad o honi i Moses ar fynydd Sinai; a gorchymynwyd iddo wneuthur pob peth yn ol eu portreiad. Tebygol iawn i'r Arglwydd egluro i Moses y pethau nefol yr oedd y babell i'w cysgodi, ac hefyd, rhoddi iddo ddangosiad, neu gynllun o'r cysgodau y rhai oeddynt i arwyddo y pethau hyn, a dangos iddo y cyfatebolrwydd rhwng y naill a'r llall. Yr oedd dull y babell hon yn y modd canlynol: Yn gyntaf, yr oedd cyntedd o gan cufydd, neu driugain o latheni o hŷd, a deg a deugain o gufyddau o led, sef yn nghylch deg ar hugain o latheni. Yr oedd y cynteddfa yn gauedig â llèni oddi amgylch, hyd yn bum cufydd, neu naw troedfedd o uchder. I gynnal y llèni yr oedd 56 o golofnau. Yr oedd holl golofnau y cynteddfa a amgylch gwedi eu cylchu âg arian, a'u penau yn arian, a'u morteisiau yn bres. Yr oedd y colofnau o bres, neu o goed Sittim wedi eu gwisgo â phres. Yr oedd y colofnau hyn yn cysgodi cadernid sefydlog yr eglwys, a'i chyfiawnder. Jer. 1. 18. Psalm 12. 7. Gal. 2. 9. Dat. 3. 12. Yr oedd llèni y cynteddfa wedi eu gwneuthur o lïan main cyfrodedd, ac yn cael eu crogi wrth y colofnau â bachau.

Y gair ווים a gyfleithir *hooks* yn Saesonaeg, a gyfieithir *penau* yn y cyfieithiad Cymraeg: 'A'u penau o aur.' Exod. 26. 32. '*Their hooks shall be of gold.*' *Saes.*——'Y gwnaeth efe benau y colofnau.' Exod. 38. 28. '*He made hooks for the pillars.*' *Saes.* Y mae y cyfieithwyr Cymreig yn ei gyfieithu yn mhob man *penau*, a'r cyfieithwyr Saesonaeg *hooks* yn mhob man. Y LXX a arferent dri gair i'w gyfieithu: sef *κεφαλις*, *pen*, Exod. 26. 32, 37. a 27. 17. a 36. 36. a 38. 29. *κρικος*, *bach*, Exod. 27. 10, 11. a 38. 10, 11, 12. *αγκυλη*, *dolen*, Exod. 38. 19. Dywed Parkhurst ei fod yn arwyddo y bachau oedd yn cydio y llèni wrth y colofnau. קרס ydyw y gair a gyfleithir *bachau*, *dolenau*, yn y Biblau Cymreig. Gwel Exod. 26. 6, 11, 33. a 35. 10. a 36. 11.

Yr unig ddyfodfa i'r cynteddfa oedd o du y dwyrain, trwy gauadlen-ddrws o waith edau a nodwydd o sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lliain main cyfrodedd; yn ugain cufydd o hŷd, a'i huchder a'i lled yn bum cufydd, yn cael ei chynnal â phedair colofn. Yr oedd y cyntedd hwn yn agored oddi arnodd, ac ynddo y safai allor y poeth-offrwm, a'r noe bres: ac yma y byddai y bobl yn dwyn eu hoffrymau. Edrych CYNTEDD.

O du y gorllewin i'r cyntedd y safai y babell. Hŷd y babell oedd ddeg cufydd ar hugain, neu yn nghylch deunaw llath ac wyth modfedd, a chwe llath a thair modfedd ei lled a'i huchder. Yr oedd wedi ei gwneyd o wyth a deugain o ystyllod yn eu sefyll o ddeg cufydd eu hŷd, a chufydd a hanner eu lled. Yr oedd yr ystyllod yn sefyll ar 96 o forteisiau arian, sef dwy dan bob ystyllen. Yr oedd ugain ystyllen o du y dehau, ugain o du y gogledd, a chwech o du y gorllewin, a dwy yn y conglau. Yr oedd pum bàr o goed Sittim bob ystlys ar draws yr ystyllod, oll yn gynnaliedig â modrwyau, a'r bàr canol yn cyrhaedd o gŵr i gŵr; yr oedd yr ystyllod a'r bàrau wedi eu gwisgo âg aur. Yr ydoedd gorchudd y babell yn bedwar plyg; y nesaf i mewn oedd o ddeg llèn o lïan main cyfrodedd, porphor ac ysgarlad. Edr. LLEN. Yn y babell yr oedd dwy ystafell, sef y sanctaidd a'r sancteiddiolaf, gwedi eu gwahanu oddiwrth eu gilydd â gwahan-lèn. Edr. LLEN. Y gyntaf ydoedd ugain cufydd o hŷd, ac iddi yr âi yr offeiriaid yn unig. Yn y pen nesaf i mewn i hon yr oedd yn sefyll y canwyllbren, allor yr arogl-darth, a'r bwrdd bara gosod. Edr. ALLOR, BWRDD, CANWYLLBREN. Tu mewn i hon yr oedd y cysegr sancteiddiolaf, yn ddeg cufydd ysgwâr, â llèn rhyngddynt. Yma yr oedd yr arch a'r llechau, y crochan aur a'r manna, a gwïalen Aaron. Edr. y geiriau hyn. Nid âi neb i'r cysegr hwn ond yr arch-offeiriad yn unig unwaith yn y flwyddyn. Edr. CYSEGR. Gwedi cyfodi y babell yn yr anialwch, cysegrwyd hi âg aberthau mewn modd difrifol iawn. Gwel Exod. xxv, xxvi, xxvii, xxxvi, xxxviii, a xl. Num. vii.——Yr oedd yn sefyll yn nghanol y gwersyll; yr offeiriaid yn unig a'i tynai i lawr yn eu symudfaoedd; ond dygai y Lefiaid ei defnyddiau a'i pherthynasau ar eu hysgwyddau, ac â mèni. Gwedi ei dwyn o amgylch o fan i fan am chwech a deugain o flynyddoedd, sefydlwyd hi yn Siloh; ac ar ryw achlysur cyn marwolaeth Josuah, dygwyd hi i Sichem. Jos. xviii, xxiv, a xxvi. Wedi marwolaeth Eli, sefydlwyd hi dros enyd yn Nob; ac oddi yno dygwyd hi i Gibeon. Yno y cawn yr hanes diweddaf am y babell a wnaeth Moses, a'r allor bres. 2 Cronicl 1. 3, 5. Cyrchwyd yr arch, a'r dodrefn perthynol iddi, i Jerusalem, a gosodwyd hwynt yn nheml Solomon. 1 Sam. xxi. 1 Cron. 1. 13. a 5. 4, 5.

Yr oedd y babell, yn ddiddadl, yn cysgodi Crist Iesu mewn modd arbenig, o ran ei berson a'i swydd; ac yr oedd wedi ei threfnu yn neillduol yn arwydd ac yn ddangosiad o hono.—1. Fel y babell, yr oedd dynoliaeth Crist o drefniad a darpariad y Tad, yn y modd mwyaf neillduol ac arbenig o ddim arall. Efe a'i harfaethodd, a'i darparodd, a'i cymhwysodd, ac a'i haddurnodd, yn y modd mwyaf ardderchog a gogoneddus.——2. Yr ydoedd golygiad allanol y babell yn wael ac yn ddirmygedig; ond nid oedd ei haddurniadau tufewnol ddim yn llai ardderchog a gogoneddus er hyny; felly Crist hefyd oedd y *diystyraf* o'r gwyr, ac etto yn ddwyfol hardd.——3. Mewn modd mwy sylweddol ac ardderchog nag yn y babell, yr oedd 'holl gyflawnder' y Duwdod yn preswylio ynddo yn gorphorol. Col. 2. 9. Edr. CORPHOROL, CYFLAWNDER.——4. Fel y mae yn Dduw ac yn ddyn, o ran ei berson, felly hefyd o ran ei swydd, y mae yn lle cymmod a chyfarfod rhwng Duw a dynion. Fel yn y babell, felly yn Nghrist, y mae yn cyfarfod â'i bobl, yn amlygu ei hun iddynt, yn cymeradwyo eu gwasanaeth, yn gwrando eu gweddïau, yn trugarhau wrthynt, ac yn eu cyfarwyddo, &c. Pabell y dystiolaeth ydyw; y dystiolaeth fwyaf nodedig a roddodd, neu a rydd Duw byth, ydyw, o'i gariad a'i ddaioni tu ag at ddyn; y mae holl dystiolaethau Duw yn gyflawn, ac yn ogoneddus ynddo, a'r holl addewidion ynddo ef yn ïe, ac ynddo ef yn amen. Dat. 15. 5. a 21. 3.

Mae y fath berthynas agos rhwng Crist a'i eglwys,

Digitized by Google

fel y mae yr un pethau, yn aml, mewn amrywiol ystyriaethau, yn cysgodi pob un o'r ddau: felly gellir golygu y babell mewn ystyr is, yn cysgodi yr eglwys; yr hon a elwir yn d⸗ŷ Dduw, teml Dduw, tŷ ysbrydol. 1 Tim. 3. 15. 1 Petr 2. 5. 1 Cor. 3. 16. 2 Cor. 6. 16. Hon yw pabell Dafydd, y mae Duw yn addaw ei chodi, wedi iddi syrthio. Amos 9. 11. Act. 15. 16. ——Yr oedd, hefyd, yn gysgod o'r nefoedd, lle y mae Crist yn gweini ei swydd offeiriadol dros ei eglwys. Heb. 8. 2. a 9. 11.

Cyffelybir corph dyn i babell, o herwydd ei freuolder a'i ddarfodiad buan. 2 Cor. 5. 1—4. 1 Petr 1. 13, 14. Pabell ydyw, nid adeilad sefydlog, wedi ei threfnu a'i gwneuthur i barhau yn hir; ond mae gan y saint dŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd.

Gwyl y Pebyll, חג הסכות *gwledd y pebyll*; *Gr.* σκηνοπηγια, *gosod pabell i fynu.* 'A gŵyl yr Iuddewon,' sef σκηνοπηγια, *gŵyl y pebyll,* 'oedd yn agos.' Ioan 7. 2. Yr oedd hon yn un o'r tair gŵyl arbenig flynyddol yr Iuddewon, pan oedd yr holl wrrywiaid i ymddangos ger bron yr Arglwydd yn Jerusalem. Yr oedd yn dechreu ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis, pedwar diwrnod ar ol dydd mawr y cymmod, ac yr oedd i barhau wyth niwrnod. Y dydd diweddaf a elwid 'dydd mawr yr ŵyl.' Ar y dydd hwn y dywedir i'r Iesu sefyll i fynu, a llefain, gan ddywedyd, 'Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed.' Ioan 17. 37. Yn cyfeirio, meddant, at ddefod arferedig yn eu plith ar y dydd hwnw, er nad oedd yn orchymynedig, o dynu dwfr a'i dywallt ger bron yr Arglwydd. Ar y dydd cyntaf yr oeddynt i gymeryd ffrwyth pren prydferth, cangenau palmwydd, a brig pren cacadfrig, a helyg afon, i ymlawenhau ger bron yr Arglwydd, saith niwrnod. Yr oeddynt i drigo mewn bythod saith niwrnod, yn goffadwriaeth o'r modd y trigasant mewn bythod yn yr anialwch. Yr oedd yn ddangosiad blynyddol yn eu plith o iselder eu dechreuad, a mawr ddaioni yr Arglwydd tu ag atynt. A hwyrach, yn gysgodol o babelliad Crist yn ein natur; ac hefyd yn ddangosiad mai dyeithriaid a phererinion yw y duwiolion yn y byd hwn, ac mai yn y nefoedd y mae eu cartref tragywyddol. Lef. 23. 39—43. Num. 29. 12—40. Edr. Palmwydd. Yr oedd y bythod i gael eu gwneuthur o gangenau y coed hyn; ac yr oeddynt yn eu cario hefyd yn sypynau yn eu dwylaw, yn orfoleddus, bob dydd. Yr oeddynt yn gwneuthur y bythod yn Jerusalem ar nenau eu tai, yn eu cynteddoedd, ac yn nghynteddoedd tŷ Dduw, ac yn yr heolydd. Neh. 8. 16. Bob saith mlynedd, ar yr ŵyl hon, yr oedd y gyfraith i gael ei darllen i'r bobl, (Deut. 31. 10—13. Neh. 8. 18.) fel y dysgent ofni yr Arglwydd, a gwneuthur holl eiriau y gyfraith.

'Canys er dyddiau Josuah mab Nun hyd y dydd hwnw ni wnaethai meibion Israel felly.' Neh. 8. 17. Nid oes i ni feddwl wrth y geiriau na chadwyd gŵyl y pebyll yr holl yspaid hwnw o amser, sef dros 1000 o flynyddoedd. Cawn hanes i Solomon ei chadw. 2 Cron. 7. 8, 9, 10. Cadwyd hi hefyd yn amser Ezra. Pen. 3. 4. Ond ni chadwyd hi yn yr un ysbryd, yr un manylrwydd, a'r un llawenydd. Yr oedd yr ŵyl hon yn cysgodi llawenydd ysbrydol yr eglwys dan y Testament Newydd. Zech. 14. 16. Gwel Lightfoot's *Works, vol.* i.

PADAN-ARAM. Edr. Aram.

PADELL, PEDYLL, (pad-ell) *Llad.* Patella: dysgl fechan, cawg. Padell bridd, padell efydd, padell doddion, padell ffrio. 1 Cron. 23. 29. Edr. Ffrio. Yr oedd pedyll lawer yn perthyn i wasanaeth y babell, y bwyd offrymau, &c. Exod. 27. 3. Lef. 2. 7. Num. 4. 14. 2 Bren. 25. 15, &c.

PADON, פדון [*prynedigaeth*] penaeth y Nethiniaid. Ezra 2. 44. Neh. 7. 47.

PAEN, (pa-en) *Gr.* παων; *Llad.* Pavo. Un o'r adar mwyaf hardd ei bluf yn holl naturiaeth.

Nid têg onid paen. *Diar.*

ond y mae yn falch, ei lais yn anhyfryd, ei draed yn wrthun, a'i ysgogiad yn araf. Dywedir fod pen y sarph, llusg-odre angel, a llais y cythraul ganddo. Y mae amryw fath o honynt, ac y maent yn aml yn yr India Ddwyreiniol. Ei adenydd hyfryd, neu yn hytrach ei gynffon, yw ei hynodrwydd mwyaf.—'A roddaist ti adenydd hyfryd i'r paenod?' Job 39. 13. 1 Bren. 10. 22. 2 Cron. 9. 21. Am nad yw adenydd y paen yn hyfryd, ond ei gynffon, barna Bochart mai yr estrys sydd i'w ddeall yn y geiriau. Myn Duw ei gydnabod yn mhob peth, hyd yn nod yn mhluf yr adar. Ei waith cywrain ef ydynt, ac y mae yn addas iddo gael ei gydnabod a'i barchu ynddynt.

PAGIEL, פגעיאל [*rhagflaeniad Duw*] mab Ocran, tywysog meibion Aser. Num. 7. 72.

PAHATH-MOAB, פחת־מואב [*tywysog Moab*] lle yn ngwlad Moab, medd Calmet; neu yn hytrach enw gwr enwog oedd. Esa. 8. 4.

PAID, PEIDIO, (py-aid) *Gr.* παυω: gorphwys, ymattal, oedi, gohirio; gorphen, dybenu, darfod.—'Paid, gâd im' lonydd, fel yr ymgysurwyf ychydig.' Job 10. 20. Ni ddichon neb ymgysuro oni phaid Duw a'i flino, a'i gystuddio. Mae y duwiolion am farw mewn tawelwch, ac arwyddion o foddlonrwydd Duw arnynt, a bod yn gryfion yn Nuw, ac yn ei dangnefedd; yr hyn ni ddichon iddynt wneuthur, oni thyn Duw ei law gystuddiol oddi arnynt. Ps. 39. 13.

'Paid a gwrando ar addysg a bâr i ti gyfeiliorni oddiwrth eiriau gwybodaeth.' Diar. 19. 27. Os yw gwybodaeth o'r gwirionedd o bwys, y mae athrawiaethau gau o'r niwed mwyaf; ac ni ddylai neb sydd yn caru y gwirionedd a'i lwyddiant, gynnwys gauathrawon, na rhoddi yr annogaeth leiaf i'w cyfeiliornadau hwynt. 'Edrychwch pa beth—a pha fodd y gwrandawoch.' Marc 4. 24. Luc 8. 18. Wrth wrando ar addysg gyfeiliornus, yr ydym yn peryglu diweirdeb pur ein heneidiau ein hunain tu ag at y gwirionedd, ac yn cynnwys yn ormodol, y cyfeiliornad, er niwed i eraill. Y mae ymadrodd rhai 'yn ysu fel cancr,' ac yn dyfetha holl iechyd a grym ysbrydol yr enaid; a phwy a gellwair â'r fath bla ofnadwy, ond ynfydion? 2 Tim. 2. 17. 1 Bren. 22. 22. Mat. 7. 15. a 16. 6. Ioan 10. 5. 1 Cor. 11. 13—18. Eph. 4. 14. 1 Tim. 4. 6. a 6. 3, 4, 5. 2 Petr 2. 1, 2. 1 Ioan 4. 1. 2 Ioan 10. Dat. 2. 2.

Y mae rhai mor llygredig, a chwedi ymroddi i'w chwantau o gariad at ei fwyniant, fel nad ydynt yn medru peidio â phechod. Nid oes dim anallu nac anfedrusrwydd ynddynt, ond eu cariad ato. Maent fel y diafol, yn pechu o honynt eu hunain, yn wirfoddol. 2 Petr 2. 14.

PAILL—ION—O, PEILLIAD, a PHEILLIED, (pall) *Gr.* παιπαλη; *Llad.* Pollen: càn, blawd càn, càn gwenith, mângant. Edr. Offrwm.

PAIR, PEIRIAU, (pâr) crochan, callawr, efydden. Yn allegawl, pair a arwydda, cystuddiau, trallodion, a phrofedigaethau mawrion; yn y rhai y mae Duw yn dewis, yn cynnal, ac yn ymgeleddu ei bobl, ac yn peri i bethau anhyfryd fod yn fuddiol. Y mae yr iechydwriaeth yn gweithredu yn a thrwy bob peth tu ag at y rhai sydd yn caru Duw, ac yn peri fod pob peth yn cyd-weithredu er daioni iddynt. Esa. 48. 10. Deut. 4. 20. Rhuf. 8. 28.

PAIS, PEISIAU, (py-ais) *Heb.* כתן *Gr.* χιτων; *Saes.* Coat; *Ffr.* Cotte; *Ital.* Cotta: twyg, hug, crys, toryn, ysgin, rhuchen; gwisg, rhisg.

Pawb a drais yn mhais ei dad. *Diar.*

Digitized by Google

Mae y gair Hebraeg a gyfleithir *pais* yn Exod. 28. 39. a 29. 5. Lef. 16. 4. Mat. 5. 40. *et al.* yn arwyddocâu y wisg isaf, ar yr hon yr oedd y מעיל *fantell.* Edr. GWISG.

**PALADR, PELYDR,** (palad) llost, bonllost; cyff, boncyff; bonyn llysieuyn; paladr haul; paladr melin; paladr gwaew; paladr angor; paladr englyn; paladr canwyllbren. Exod. 25. 31. Num. 8. 4. 1 Sam. 17. 7. Edr. CANWYLLBREN, GWAYWFFON.

**PALAL,** פלל [*yn meddwl*] mab Uzai. Neh. 3. 25.

**PALAS, PLAS—AU,** (pla-as) *Llad.* PALATIUM; *Saes.* PALACE: llys, llys brenin, priflys; neuadd-dŷ; adeilad hardd, gostus. 2 Cron. 36. 19. Esa. 13. 22. a 25. 2. a 32. 14. a 34. 15. Gelwir yr eglwys felly o herwydd ei threfn, ei gwychder, a'i hardderchogrwydd, a phresennoldeb Duw ynddi. Psalm 45. 8. a 48. 3, 13. a 122. 7. Edr. IFORI.

'Os caer yw hi, ni a adeiladwn arni balas arian.' Can. 8. 9. neu, gan ei bod yn gaer, neu yn fur wedi ei sylfaenu yn gadarn, ac yn sefyll yn ddiysgog;. 'adeiladwn arni balas arian,' neu wedi ei harddu âg arian, yn y modd mwyaf gwych, yn addas breswylfod i'w Phriod, ei Brawd hynaf, ei Duw, a'i Thad. Dyma yr ymddygiad sydd yn gweddu i chwaer fechan, neu eglwys ieuanc, neu rai ieuainc yn y ffydd; sef eu cysuro, eu hannog, eu hadeiladu, a'u haddurno. 'Adeiladwn,' sef y Drindod; anfonodd y Tad Ysbryd Crist i gyfodi eglwys yn mhlith y Cenedloedd, yr hon a gynnyddodd yn gadarn ac yn hardd, yn fur ac yn balas, yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd. Eglwys y cenedloedd, tebygol, y mae i ni feddwl yn benaf wrth y chwaer fechan hon; bechan yn ei dechreuad; ond a gynnyddodd yn ddirfawr trwy ofal Crist am dani, a'i ymgeledd iddi. Esa. 58. 12. a 60. 17. a 61. 4. Zech. 6. 12—15. Eph. 2. 20, 22. 1 Cor. 3. 10, 11, 12. Mat. 16. 18.

**PALESTINA.** Edr. PHILISTIA.

**PALF—AU,** (pâl) *Llad.* PALMA: cledr llaw, pawen; megys palf y gath, palf y llew, palf yr arth. Lef. 11. 27. 1 Sam. 17. 37.

**PALFAIS—EISIAU,** (palf) ysgwydd, tu cefn i'r ysgwydd: ysgwyddog, yspawd. Palfais mollt, sef ysbawd mollt (*shoulder of mutton*). Num. 6. 19, 20. Lef. 7. 32.

**PALFALU.** Edr. YMBALFALU.

**PALMANT—U,** (palm) *Llad.* PAVIMENTUM: llawr, llech-lawr, llawr-ceryg.—'Yn y lle a elwir y Palmant.' Ioan 19. 13. Edr. GABBATHA.——'Ei ganol a balmantwyd â chariad i ferched Jerusalem.' Can. 3. 10. Ei ganol (sef y cerbyd, neu y cludai) a daenwyd â chariad gan ferched Jerusalem; sef â gwaith edau a nodwydd a wnawd gan ferched Jerusalem, yn arwydd o'u cariad ato. Yr oedd y merched Iuddewig yn dra nodedig am y cyfryw gywreinwaith. Barn. 5. 30. Diar. 31. 22, 24. Neu, hwyrach, fod ar yr hulyn arwydd-wersi yn mynegi cariad Solomon at ei briod. Y mae arwyddion o gariad yn nghanol pob peth o eiddo Crist tu ag at ei eglwys; sef ei gyfammod, ei oruchwyliaethau, a'i ragluniaethau; ac yn neillduol goruchwyliaeth a phregethlad yr efengyl; hwn yw y cerbyd y mae Crist yn marchogaeth ynddo, ac yn dwyn ei bobl gyd âg ef: y maent yn ei gynnal, ac yn cael eu cynnal ynddo. Gwel Coccejus, Harmer, T. Williams *in loc.*

'Palmentwch, palmentwch, parotowch y ffordd.' Esa. 62. 10. a 57. 14. *Cast up, cast up the highway. Saes.* Priodol ystyr y gair סל (*sel*) yw *dyrchafu, cyfodi* i fynu, fel tŷrau o ŷd, neu brif ffordd;* ac felly y cyfleithir ef gan y rhan fwyaf yn Jer. 50. 26. ac nid *dyrnu*, fel yn ein cyfieithiad ni.* Cyfleithir ef *sarnu*, yn Job 30. 12. a *dyrchafu*, yn Diar. 4. 8.—Wrth 'gyfodi y ffordd,' mae i ni ddeall, cyfodi i fynu y wir athrawiaeth a rheolau sanctaidd dysgyblaeth eglwysig, ag oedd gwedi cael eu hesgeuluso; y rhai hyn sydd yn dangos y ffordd y mae i ni gerdded, o ran ein cred a'n rhodiad. Y mae Duw yn galw ar ei weision i ddyrchafu a chyfodi y rhai hyn i fynu, fel y byddo cyfarwyddyd addas i'w bobl i rodio wrtho yn mhob peth. Ni bu un diwygiad erioed yn yr eglwys, heb ddyrchafu y ffordd, o ran yr athrawiaeth a'r ddysgyblaeth; a lle y maent yn cael eu hesgeuluso, y mae dirywiad yn rhwym o ganlyn.

* Vitringa *in loc.*

**PALMWYDD—EN,** (palm-gwydd) coed balm; y pren gwrth-bwys. Y mae y coed hyn yn tyfu yn dra uchel, ac yn syth; yr hyn y mae y gair *Heb.* תמר yn ei arwyddo. Y mae ei ddail yn wyrdd-leision trwy y flwyddyn. Y maent yn tyfu oreu yn mhoethder gwres yr haul. Tyfant weithiau i gan troedfedd o uchder, a rhai yn uwch, medd Xenophon, *Cyropæd.*, *lib.* vii. Y mae yn ddywediad cyffredin am y palmwydd, ond heb ddim gwir ynddo, yr ymsytha y cangenau yn fwy, pa fwyaf fyddo y pwysau yn crogi wrthynt;† oblegid hyny, a elwir 'y pren gwrth-bwys.' Priodolir hyny i gangenau y palmwydd, y sydd wir am fyrddau, neu drawstiau, a swmerau, a wneir o honynt hwy, a choedydd eraill hefyd. Suiceri *Thess. in* φοινιξ. Nid oes, meddant, ond ychydig ffrwyth i'w gael ar y palmwydd, hyd nes y byddont yn ddeng mlwydd ar hugain oed; gwedi hyny cynnyddant mewn ffrwythlonrwydd gyd â'u hoed, ac a ddygant bob un dri neu bedwar cant o bwysau o ffrwythau, a elwir *dates*, bob blwyddyn. Y mae y ffrwyth yn beraidd, ac yn hyfryd-felus. Ceir gwin hefyd o'r balmwydden. yr hwn, hwyrach, a elwir yn yr ysgrythyrau שכר (*shichar*) sef *diod gadarn.* Y mae hefyd yn rhoddi math o fêl.

Mae y palmwydd i'w cael mewn amrywiol wledydd poethion yn mharthau gogleddol Affrica, a deheuol Asia. Yr oeddynt yn aml ar lanau yr Iorddonen, ond y mwyaf rhagorol oedd oddi amgylch Jericho ac Engedi, yr hon a elwir o'r achos, Haseson-Tamar, sef *toriad y palmwydd.*

Yr oedd y palmwydd yn cael eu dwy o flaen buddugoliaethwyr yn eu cyhoedd orfoleddau, fel arwyddluniau buddugoliaeth. Tarddodd y ddefod hon, mae yn debygol, oddiwrth y meddwl am briodolrwydd neillduol y palmwydd i wrth-weithredu pob pwysau a roddir arnynt. Yn cyfeirio at y defodau hyn, dywedir fod gan y saint 'balmwydd yn eu dwylaw,' yn arwyddion o'u buddugoliaethau ar bechod, y byd, Satan, a holl erlidigaethau Anghrist. Dat. 7. 9. Neu, hwyrach, fod cyfeiriad yn y geiriau at ŵyl y pebyll yn mhlith yr Iuddewon (Zech. 41. 16.) pan fyddent yn eu haddoliadau yn y deml, ac yn y synagogau, yn cario yn eu dwylaw, yn arwydd o orfoledd, sypynau o gangenau helyg, palmwydd, a myrtwydd, gwedi eu rhwymo yn nghyd. Ar yr achos hwn byddent yn canu yr *Haleluia fawr*, sef o ddechreu Ps. cxiii, hyd ddiwedd Ps. cxviii. Yr oedd y gair *Hosanna,* (achub attolwg) ar y sypynau hyn. Vitringa *in Apoc.* 7. 9, 10. Felly y gwnaethant o flaen yr Arglwydd Iesu, ar ei fynediad i Jerusalem; 'Cymerasant gangau o'r palmwydd, ac a aethant allan i gyfarfod âg ef, ac a lefasant, *Hosanna!*' Ioan 12. 13.

Ar holl barwydydd y deml yr ydoedd lluniau cerubiaid, palmwydd, a blodau agored gwedi eu cerfio; (1 Bren, 6. 29, 32, 35. Ezec. 41. 18, 19, 25, 26.) yn

* Pool's *Synopsis.*

† Nititur in pondus palma et consurgit in altum;
Quo magis et premitur, hoc magis tollit onus.

Digitized by Google

arwydd o iechydwriaeth fuddugoliaethus trwy Grist yn y cnawd i'r holl eglwys.

'Y cyfiawn a flodeua fel palmwydden.' Ps. 92. 12. 'Y cyfiawn,' Crist yn benaf, Esa. 52. 14. a 53. 11.—ac hefyd yr holl dduwiolion ynddo a thrwyddo. 'A flodeua,' nid fel llysieuyn, adn. 7. yr hwn a ddichon gwres yr haul ei wywo yn fuan; ond 'fel palmwydden,' yr hon ni wywa y gwres, ond sydd mor lawn o nôdd fel y pery ei gwyrddlesni trwy gydol y flwyddyn. Can. 7. 7, 8.

Delwau y cenedloedd oeddynt fel palmwydden, yn syth, ond ni lefarant, ac ni symudant. Jer. 10. 5. Edr. Elim.

PALTI, פלטי [*gwaredigaeth*] 1. Mab Raphu, un o'r deuddeg yspïwyr dros lwyth Benjamin. Num. 13. 9.——2. Enw dinas, tebygol. 2 Sam. 23. 26. 1 Cron. 11. 27.

PALTIEL, פלטיאל [*gwaredigaeth Duw*] mab Asan o lwyth Issachar. Num. 34. 26.

PALL—U, (py-all) diffyg gallu; diegni; anmherffaith, digyflawn; esgeuluso, nacâu; diffygio, darfod.

Yr holl wirionedd ar *ball* aeth. *E. Prys.*

'Iĕ, gwirionedd sydd yn pallu.' Esa. 59. 15.—Fel mae Duw yn Fod perffaith, cyflawn, digyfnewid, nid oes palldod yn perthyn iddo: 'Ni phalla ei dosturiaethau ef.' Galar. 3. 22.—'Ei flynyddoedd ni phallant.' Heb. 1. 12. Nid oes na dechreu na diwedd iddynt; na chynnydd na lleihad iddynt.

'Haws i nef a daear fyned heibio, nag i un tipyn o'r gyfraith ballu.' Luc 16. 17. 'Nac y bydd i vn titul o'r Ddeddyf gwympo.' W. S. Ballu, sef cael ei diddymu, neu fod heb ei chyflawni. Cyflawnwyd yr holl ddefodau seremoniol yn mherson a gwaith Crist, a chyflawnwyd y ddeddf foesol yn ei ufudd-dod i farwolaeth, a sefydlwyd ei hawdurdod yn annilëadwy am byth. Geill y nef a'r ddaear fyned heibio, ond nis gall y gyfraith ballu, yn ol natur pethau: tra bydd o cyfiawnder yn gyfiawnder, rhaid i ddeddf gyfiawn fod yn ei grym: oni ellir gwneuthur cyfiawnder yn anghyfiawnder, neu yr un peth â'u gilydd, nis gall y ddeddf ballu. Rhuf. 3. 31. 1 Petr 1. 25.

'Gan edrych yn ddyfal na bo neb yn pallu oddiwrth ras Duw.' Heb. 12. 15. 'Rrag deffygio o neb oddiwrth gras Dyw.' W. S. Μη τις ηστερων απο της χαριτος του Θεου, *bod yn ol*, neu *bod yn fyr o ras* neu *ffafr Duw*. Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *eisieu*, Mat. 19. 20. Luc 22. 35.—*bod yn ol*, Rhuf 3. 23. Heb. 4. 1. 2 Cor. 11. 5. a 12. 11.—*yn ddiffygiol*, Marc 10. 21. Pallu oddiwrth ras Duw, gan hyny, ydyw, bod yn ol o hono, bod hebddo, bod yn ddiffygiol o hono. Y mae gras Duw wedi cael ei ddadguddio yn yr efengyl; sef ei ewyllys da yn Nghrist tu ag at bechaduriaid, i'w cyfiawnhau a'u sancteiddio; ond geill dynion fwynhau breintiau yr efengyl, a bod yn ol o ras Duw mewn gwirionedd, trwy segurdod, difalwch, a'u cariad at bechod. Edrychwch, gan hyny, yn ddyfal, medd yr apostol, na bo neb yn pallu oddiwrth ras Duw.

PALL—AU, (pa-all) cacadlen, amwisg, mantell, gorchudd; pabell; gorsedd.—'Yn y pall hwnw y mae y brenin.' Mewn pallau, sef mewn pebyll.——'Yna yr halogwch ball dy gerf-ddelw ariau.' Esa. 30. 22. Sef y cyfrifwch fel peth mwyaf aflan (דוה *misglwyf*) y gorchudd arian dy gerf-ddelw. Felly yr oedd gorchymyn Moses, Deut. 7. 25. 'Llosg ddelwau cerfiedig eu duwiau hwynt yn tân: na chwennych na'r arian na'r aur a fyddo arnynt i'w cymeryd i ti; rhag dy faglu âg ef: oblegid ffieidd-dra i'r Arglwydd dy Dduw ydyw.'

PAMPHYLIA, Παμφιλια [*oll yn ddymunol*] talaeth yn Asia Leiaf. Mae Cilicia o du y dwyrain iddi, Lydia i'r gorllewin, Môr y Canoldir i'r dehau, a Pisidia i'r gogledd iddi. Gelwir hi yn bresennol Carimania. Attalia a Pherga oedd ei phrif ddinasoedd. Yr oedd Iuddewon oddi yno yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost, yn gwrando pregeth Petr; y rhai, hwyrach, yn gyntaf a ddygasant yr efengyl yno. Pregethodd Paul a Barnabas yn Perga. Act. 13. 13. a 14. 24. a 27. 5. Y mae rhyw fath o Gristionogion yno etto, ond tebygol, yn bur ddilewyrch. Y mae y wlad yn awr yn meddiant y Twrc.

PANNAG, *Heb.* פנג Nid ydyw y gair yn yr holl Fibl, ond yn Ezec. 27. 17. am hyny y mae yn dra anhawdd penderfynu beth oedd: tebygol mai rhyw bêrlysiau, neu wydd-lud hyfryd. Byddai yr hynafiaid yn gwneuthur bara o'r hyn a alwent *Panic*. *Panis sit e panico rarius*. Pliny, *lib*. xviii., *cap*. 7. Dywed Cesar am y Massilaniaid, *Panico vetere omnes alebantur*. *B*. ii., *cap*. 22.

PANNWL—YLU, (pant) tolc, gostyngiad, iseliad, ceule, ceudwll; iselhau.

Weithiau y codai 'r deifr yn fryn:
Weithiau fel glyn *pannylent*,
Lle trefnaist iddynt *bannwl* cau,
Ac weithiau y gorphwysent,
*E. Prys*, (Ps. 104. 8.)

PANT, PENTYDD, (pan) glyn, dyffryn bychan, cwm, allmor, panlle.—'Pob pant a gyfodir.' Esa. 40. 4. Luc 5. 5. Mewn ystyr foesol, y mae pob peth gwedi myned o'u priodol leoedd; rhai pethau yn rhy isel a dirmygedig, a phethau eraill mewn bri a dyrchafiad anaddas iddynt: trwy weinidogaeth yr efengyl, dwg Duw bethau i'w priodol leoedd a chyfrifiad; gwastadeir y cwbl, fel y byddo ffordd rydd i'r Arglwydd ddyfod. Yr oedd y tlodion, y publicanod, a'r pechaduriaid yn cael pregethu yr efengyl iddynt, a'u cyfodi â chysuron dwyfol; a'r Phariseaid, y rhai oeddynt fel bryniau yn ddyrchafedig, yn eu tyb eu hunain, yn cael eu darostwng gan athrawiaeth lem, fanwl, Ioan Fedyddiwr, a'r Iachawdwr. Edr. Ffordd.——'Y rhai oedd yn y pant.' Edr. Myrtwydd.

PANWR, (panu-gwr) panydd, golchydd. 2 Bren. 18. 17. Esa. 7. 32, 36. Marc 9. 3.

PAPUR—AU, (pâb) *Llad.* Papyrus, sef brwynen fawr yn yr Aipht, a dŷf mewn corsydd ar lân yr afon Nilus, o'r hon y gwneid papur i ysgrifenu arno.—'Y papur-frwyn wrth yr afon a wywa.' Esa. 19. 7. Yr Aiphtiaid a ranent y goreen yn bilenau tenau, yr hyn a wnaent yn hawdd; gwedi hyny rhoddent hwynt ar fwrdd, a gwlychent hwynt â dwfr gludiog yr afon, ac wedi eu gwasgu yn nghyd, sychent hwynt yn yr haul. A hwn y gwnaeth Ptolomy Philadelphus ei lyfr-gell odidog. Pan ballodd Ptolomy, brenin yr Aipht, y papur hwn i Attalus, brenin Pergamos, i ysgrifenu ei lyfrau arno, dychymygodd, neu diwygiodd yn fawr, y memrwn i ysgrifenu arno, yr hwn a fu mewn arferiad dros dri chant ar ddeg o flynyddoedd. Dros chwe chant o flynyddoedd yr ydys wedi arfer papur gwedi ei wneyd o garpiau llïan.

PAPHUS, Παφος [*yn berwi*] yr oedd dwy ddinas o'r enw yn ynys Cyprus, yn nghylch 70 o filltiroedd oddiwrth eu gilydd, o du gorllewin i'r ynys. Bu Paul a Barnabas yma yn pregethu, a chafodd Sergius Paulus y rhaglaw, gwr call, ei alw i'r ffydd trwyddynt; ac Elymas y swynwr, am eu gwrthwynebu, a gafodd ei daro â dallineb. Act. 13. 6, &c. Parhaodd Cristionogrwydd yno o hyny hyd yn hyn, mewn rhyw lun. Y mae esgob Groegaidd yno yn awr.

PAR, (py-ar) dau, cymhar, cwpl. Luc 2. 24. Edr. Turtur.

PAR, effeithio, effeithiad, yn effeithio; gorchymyn. Gen. 24. 12. Esa. 43. 23.

Digitized by Google

**PAR—A—HAU—US**, yn aros; yn ddidor; yn ddibaid; yn wastadol, yn sefyll at, yn dal at; yn ddyfal, yn ddianwadal; estynedig; yn ymlynu.

A fyno *barhau* yn hir yn ieuanc, aed yn ebrwydd yn hen. *Diar.*

'Tithau, Arglwydd, a barhei yn dragywydd.' Ps. 102. 12, 26. Edr. Tragywyddol.——'Golud parhaus.' Edr. Golud.——'Ynddynt hwy y mae para.' Edr. Llawen.

'Os ydych yn parhau yn y ffydd.'—'Eithr y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig.' Col. 1. 23. Mat. 24. 13. Ni bydd neb cadwedig, ond yr hwn a barhao hyd y diwedd; oblegid nid oes neb ond hwy erioed gwedi gwir gredu, ac wedi eu gwir gyfnewid. Y mae rhai yn tynu yn ol i golledigaeth; sef tynu yn ol oddiwrth y peth oedd *ganddynt hwy*, nid oddiwrth wir ras, a gwir gredu; tynu yn ol oddiwrth *broffes* o grefydd Grist, yr hyn oedd brawf nad oeddynt erioed wedi cyfranogi o Grist yn eu holl broffes. ——'Nid ydym ni o'r rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth; namyn o ffydd, i gadwedigaeth yr enaid.' Heb. 10. 39. Nid ydym ni o nifer, o lwybr, o ddull, ac o debygolrwydd, υποστολης, o'r *enciliad, tyniad yn ol:* ond αλλα πιστεως, *o ffydd*, sef o nifer y rhai sydd yn credu, y rhai ydynt oll yn gadwedig. Y mae rhai yn encilio, ac yn tynu yn ol, ond rhai heb wir gredu ydyw y rhai hyny.

1. Y mae llawer yn tynu yn ol i golledigaeth, yn syrthio ymaith oddiwrth ddoniau gwyrthiol, teimladau bywiog, gwybodaeth dra helaeth, rhodiad manwl, a phroffes olygus, dros amser, mwy neu lai. Mat. xiii. Heb. vi. Ond nid yw yr holl bethau hyn, oddiwrth ba rai y dichon iddynt syrthio, yn nglyn wrth iechydwriaeth; buasent yn golledig er eu meddiannu, a *pharhau* i'w meddiannu hyd y diwedd. Y mae y pethau sydd yn nglyn wrth iechydwriaeth yn bethau *gwell;* sef yn rhagorach yn eu tarddiad, yn eu natur, yn eu heffeithiau, ac yn eu parhad. Y mae eu gwaith yn syrthio ymaith oddiwrth y pethau cyffredin hyn, yn ddangosiad amlwg na feddent ddim gwell, a mwy sylweddol a pharhaus.

2. Dichon gwir dduwiolion anmharu yn fawr, a syrthio i bechodau gwaradwyddus, megys y gwnaeth Dafydd, Solomon, Petr, &c., ie, o'u rhan eu hunain, buasent gwedi syrthio ymaith yn hollol, ac yn dragywyddol: gwedi syrthio, nid ydynt yn abl ymadferyd, nac yn haeddu ymwared mewn un gradd. Ond etto,

3. Y mae yn o amlwg wrth yr ysgrythyrau, ac wrth ystyried natur trefn iechydwriaeth, na syrthiodd neb erioed a dderbyniodd wir ras, a gyfiawnhawyd trwy ffydd, a unwyd â Christ, ac a wir sancteiddiwyd, felly ymaith, fel y collasant y cwbl a gawsant, ac a fuant golledig byth wedi hyny; sef hollol gollasant y dduwiol anian a dderbyniasant, ac a fwriwyd allan o heddwch a ffafr Duw dros byth.* Y mae y meddwl hwn yn ymddangos yn dra chyfeiliornus, ac yn groes i bob meddwl addas am drefn yr iechydwriaeth.

(1.) Y mae yn groes i arfaeth Duw yn yr etholedigaeth. Edr. Arfaeth, Cyfammod, Cynghor, Etholedigaeth. 'Twyllent, pe byddai bosibl, ie, yr etholedigion.' Mat. 24. 24. Y mae y geiriau ει δυνατον, *pe byddai bosibl*, yn arwyddo y byddai grym y twyll yn fawr, a llawer yn cael eu gorchfygu, a'u dwyn ymaith ganddo; ond er hyny na byddai yn *bosibl* twyllo rhai, sef yr *etholedigion;* a hyny nid o'u rhan eu hunain, eu gwybodaeth, eu doethineb, a'u grym eu hunain, ond o ran cadernid anghyfnewidiol arfaeth Duw yn ethol. Ps. 33. 11. 1 Thes. 5. 9. Esa. 46. 10. Rhuf. 9. 11. 2 Tim. 2. 18, 19.

* Y mae gwir ffydd bob amser yn meddu dwy briodoledd hanfodol ac anwahanol; heb y rhai nis gall gael ei galw yn ffydd wirioneddol a chyfiawnhaol. Un yw bywyd; y llall yw parhad. H. Zancheus.

(2.) Y mae y dychymyg hwn yn groes i anghyfnewidioldeb *cariad* Duw tu ag atynt. Rhuf. 9. 13. Jer. 31. 3. Edr. Cariad. Y mae cariad Duw wedi gwneuthur peth rhy fawr drostynt i'w colli. Ioan 3. 16. Rhuf. 8. 32. Peth erchyll ydyw meddwl y dichon fod gwrthddrychau cariad dwyfol byth yn golledig. Ioan 13. 1. Rhuf. 8. 35. Naill ai ni charodd Duw mo honynt erioed, neu fe ballodd ei gariad o ran y parhad o hono, neu methodd Duw achub y gwrthddrychau a garodd, neu fe'u hachubir: y mae y tri cyntaf yn rhy gableddus am Dduw, ac mor gwbl groes i'r gair, i'w coledd yn y meddwl am fynyd; am hyny, y mae tynu y gwrthddrychau, yn cyfateb yn gwbl o ran y gwrthddrychau, i'r cariad tragywyddol, a'r dyben gan Dduw yn ei olwg yn eu caru.

(3.) Dywed Duw ei hun am y cyfammod gras, cyfammod hedd, mai cyfammod cadarn, disigl, ydyw; ac ar y cyfammod hwn y mae eu hiechydwriaeth hwy yn sefyll. 'Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant: eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt.' Esa. 54. 10. Y mae yr un peth yn cael ei osod o'n blaen yn helaeth ac yn eglur yn Jer. 32. 40. 'Mi a wnaf â hwynt gyfammod tragywyddol, *na throaf* oddi wrthynt, heb wneuthur lles iddynt; ac *mi a osodaf* fy ofn yn eu calonau, fel *na chiliont* oddi wrthyf.' Wele yma gyfammod hedd rhwng Duw a phechaduriaid, na syfla byth; y mae Duw yn ymrwymo, na chilia ei drugaredd oddi wrthynt, na thry ef oddi wrthynt, ac na chânt hwythau gilio oddi wrtho yntau; gan y byddai iddo ef osod ei ofn yn eu calonau. Dyma barhad, nid mewn rhyfyg ac ansancteiddrwydd, ond yn *ofn* Duw, wedi ei addaw gan Dduw, a'i sicrhau.

(4.) I'w cadw, y maent wedi eu rhoddi oll gan y Tad i Grist fel Cyfryngwr, ac i fod yn hâd ac yn etifeddiaeth iddo dros byth. Ymddiriedodd y Tad hwynt i'r Mab, ac ni bydd y Mab yn anffyddlon i'r ymddiried mawr; ond a'u ceidw hwy oll yn ol ei ymrwymiad i'r Tad, ac a rydd iddynt fywyd tragywyddol. Ioan 6. 39, 40. a 17. 2—24.

(5.) Y mae Crist wedi eu caru, a rhoddi ei hun drostynt, 'yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd.'—Gwedi 'eu prynu oddiwrth bob anwiredd, ac i'w puro iddo ei hun yn bobl briodol.' Eph. 5. 2. Tit. 2. 14. Y mae yn beth cableddus meddwl y bydd y rhai hyny y gwnaeth Crist *iawn* dros eu pechodau, yn *golledig* er hyny. A gyfnewidiodd ei gariad tu ag atynt, rhagor pan y bu farw drostynt? neu a ballodd ei *allu*, neu ei ffyddlondeb i gwblhau ei amcan tu ag atynt? Mae yn gwbl anaddas cynnwys y fath feddwl annheilwng am dano; am hyny, diammeu, yn ol ei addewid, 'Y bydd iddo roddi iddynt fywyd tragywyddol, ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'i law ef.' Ioan 10. 28. 'O lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir.' Esa. 49. 4. a 53. 11. Maent yn cael eu galw λαος εις περιποιησιν *pobl*, ac y mae yn hòni hawl iddynt fel *ei eiddo ei hun yn neillduol*, 1 Petr 2. 9.—λαος περιουσιος, *pobl briodol*. Y mae y ddau air Groeg yn ateb i'r gair *Heb.* סגלה yr hwn sydd yn arwyddo peth wedi ei ennill trwy fawr lafur i fod yn eiddo neillduol i ddyn ei hun. Exod. 19. 5. 1 Cron. 29. 3. Preg. 2. 8. Mal. 3. 17. lle y mae y gair yn cael ei arferyd, ac yn cael ei gyfieithu, *eiddo fy hun—trysor penaf—priodoledd.*

(6.) Y mae Crist yn ei swydd offeiriadol yn byw bob amser i eiriol drostynt, yn frenin goruchel ar ei orsedd i lywodraethu pob peth er daioni iddynt, a'i allu anfeidrol yn anorchfygol o'u plaid; ac a gollir hwynt er hyny? Ioan 11. 42. a 17. 11—20. Luc 22. 32. 1 Petr 1. 5. Edr. Eiriolwr, Gallu.

(7.) Y mae undeb anwahanol rhyngddynt â Christ. Y maent wedi eu hadeiladu ar graig, nis dichon pyrth



Digitized by Google

uffern eu gorchfygu. Rhuf. viii. *ult*. Mat. 16. 18. 1 Petr 2. 5. Mat. 7. 25. 2 Cor. 10. 4. Ps. 18. 32. Esa. 44. 2. a 26. 4.

(8.) Y mae yr Ysbryd Glân yn preswylio ynddynt, i'w haddasu i ogoniant, ac ynddynt yn ffynon o ddwfr bywiol yn tarddu i fywyd tragywyddol. Ioan 14. 16, 17. Ffynon yn *aros* ac yn *tarddu* ydyw, Ioan 4. 14.—eneiniad yn *aros*, 1 Ioan 2. 27.—hâd yn *aros*. 1 Ioan 3. 9.

(9.) Y mae Crist yn byw ynddynt, a'u bywyd hwythau wedi ei *guddio* gyda Christ yn Nuw. Gal. 2. 20. Col. 3. 3. 2 Tim. 1. 12.

(10.) Y mae yr athrawiaeth wrthwyneb yn ymddangos yn hollol groes i holl drefn yr iechydwriaeth; yn gwrth-ddywedyd tystiolaethau amlwg y gair, ac addewidion Duw i'w bobl (Jer. 32. 33—40. Ioan 4. 14. a 6. 39. a 10. 28. a 11. 26.) yn ddianrhydedd mawr i Dduw, ac yn anghysur mawr i'r gwir dduwiolion, pe byddai wir: ond y mae yn anmhosibl ei bod yn wir, heb fod dyn yn achubwr iddo ei hun, ac yn gallel codi a syrthio pan fyno.

Y mae yr athrawiaeth hon o barhad y saint, yn gwbl groes i ansancteiddrwydd, segurdod, diofalwch, syrthni, esgeulusiad o foddion, &c., canys parhad mewn sancteiddrwydd, diwydrwydd, dyfalwch, gwyliadwriaeth, arferiad difrifol o bob moddion, ac ymdrechiadau ffyddlon, a feddylir. Y mae parhad yn golygu, nid yn unig mwynhad parhaus o'r breintiau, ond hefyd, parhad mewn agweddiad a rhodiad sanctaidd, arferiad difrifol o bob dyledswyddau, &c. Parhad ydyw yn erbyn byd, cnawd, a diafol, ac o blaid pob peth sydd o Dduw. Dichon dynion cnawdol gam-ddefnyddio hwn, fel pob gwirionedd arall; a chredu mewn parhad mewn gras, heb erioed feddiannu gras i barhau ynddo. Ond ynfydrwydd yw gwadu gwirionedd, am fod pechaduriaid annuwiol yn ei gam-ddefnyddio; pa wirionedd sydd nad yw rhai o honynt yn ei gam-ddefnyddio? Edr. Ernes, Sail, Sel.

PARABL—U, (parab) gair, ymadrodd, araeth; llefaru, araethu, ymadroddi. Job 27. 1.

PARADWYS, *Heb.* פרדס *Gr.* παραδεισος. Cyfieithir y gair *Heb. coedwig*, Neh. 2. 8.—*perllan, perllanau*, Preg. 2. 5. Can. 4. 13. Fod y gair *Heb.* פרדס *paradwys*, o ystyr mwy helaeth na'r gair גן *gardd*, sydd eglur oddiwrth Neh. 2. 8. Mae y gair Groeg yn y tri lle yr arferir ef yn y Testament Newydd wedi cael ei adael heb ei gyfieithu. Gwel Luc 23. 43. 2 Cor. 12. 4. Dat. 2. 7. Mae y LXX. yn cyfieithu גן *gardd*, pan briodolir ef i *ardd Eden*, yn wastadol *παραδεισος, paradwys*: ac y mae y geiriau yn Dat. 2. 7. yn cyfeirio yn neillduol at yr ardd hôno dan yr enw paradwys.

Yn allegawl, arwydda paradwys, y nefoedd, lle mae y rhai sydd yn gorchfygu, yn bwyta o ffrwyth pren y bywyd, sef yn byw ar gyflawnder Crist yn ddibrin byth. Arwydda fod y nefoedd yn lle cyflawn, hyfryd, ac i barhau byth. Nid oes yno un pren gwaharddedig, na marwolaeth, fel y baradwys ddaearol; ond ffrwythau pren y bywyd yw yr holl fwynhad yno; gan hyny y mae yn fywyd yno heb ddim marwolaeth, ac felly i barhau yn ddiddiwedd. Edr. Eden, Gorchfygu, Pren y Bywyd.

PARAN, פארן [*harddwch*] 1. Anialwch diffaeth yn Arabia Petræa, o du i dehau i Ganaan, ac o du y gogledd-ddwyreiniol i lynclyn Elam. Gen. 14. 6. a 21. 21. Deut. 1. 1. a 33. 2. Hab. 3. 3. 1 Bren. 11. 18. Yr oedd mynydd Sinai yn yr anialwch hwn. Barna y Dr Shaw, ei fod o Cades-Barnea i Sinai yn 110 milltir o hŷd.——2. Oddiwrth Deut. 1. 1. a 1 Bren. 11. 18. gellir casglu fod dinas o'r enw, o du y dwyrain i'r Iorddonen.——3. Mynydd o'r enw. Deut. 33. 2. Hab. 3. 3.

PARBAR, פרבר [*tu allan*] enw un o byrth Jerusalem, o du y gorllewin, oedd yn arwain i'r deml. —'A Pharbar tu a'r gorllewin, pedwar ar y ffordd, a dau yn Pharbar.' 1 Cron. 26. 18. 'I'r gell tua y gorllewin (y rhoddwyd) pedwar ar y ffordd (a) dau ar y gell.' Dr M. Yr oedd pedwar o borthorion, Lefiaid, y tu allan i'r porth hwn, a dau yn y porth ei hun. Tebygol mai trwy y porth hwn yr oedd y bobl gyffredin, yn dyrfaoedd lliosog, yn dyfod i'r deml, am hyny, yr oedd angen am ychwanegu nifer y porthorion.

PARCH—EDIG—U, (py-arch) bri, anrhydedd, ardduniant; cymeradwyo, mawrhau, ermygu.

Mwy *parch* hynaws no hynod. *Diar.*

Edr. Anrhydeddu, Gwr, Gwraig, Ofn.—'Yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd.' Rhuf. 12. 10. *Gr.* τη τιμη αλληλους προηγουμενοι—'I roddy parch, aed pawp o vlaen y gylydd.' W. S.—'Gan flaenori eu gilydd yn rhoddi parch.' Dr M.—'Mewn parch (neu bob peth parchus ac anrhydeddus) ewch o flaen eich gilydd, neu blaenorwch eich gilydd.' Macknight. Nid ydyw y frawdoliaeth ysbrydol yn dystrywio graddau yn mhlith dynion, na'r dyledswyddau perthynol i bob un yn ol ei radd a'i urddas. 1 Tim. 6. 2. Rhuf. 13. 7. Yn rhoddi parch, gweddai ein bod yn blaenori ein gilydd; ac yn fwy parod i roddi na derbyn parch; ac yn tosturio wrth y rhai a fyddo mewn anwybodaeth ac amryfusedd. Heb. 5. 2. Phil. 2. 3.

'Trwy barch ac anmharch;' sef trwy ymddygiad addas pan dderbyniom barch neu anmharch; tebyg i ymddygiad yr apostol yn Lystra pan oeddynt am ei addoli, ac wedi hyny yn ei labyddio. 2 Cor. 6. 8. Act. 14. 16. 2 Tim. 3. 11.

'Parch dau-ddyblyg.' 1 Tim. 5. 17.—'Dauddyblig vrddas hayddant.' W. S. Y gair *Gr.* τιμης, a arwydda y parch a ddangosir i un, trwy roddi iddo y cyfryw bethau a fyddont yn angenrheidiol i'w gynnaliaeth gysurus. 'Y rhai a'n parchasant ni â llawer o urddas;' rhoddasant i ni bob peth angenrheidiol tu ag at ein cynnaliaeth bresennol: 'a phan oeddym yn ymadael, llwythasant ni â phethau angenrheidiol.' Act. 28. 10. Yn Mat. 15. 5. arwydda *anrhydeddu* y gynnaliaeth a roddir i rieni tlodion; 'ac ni anrhydeddo ei dad neu ei fam.' Arwydda hefyd y gynnaliaeth a rydd yr eglwys i'r gweddwon: 1 Tim. 5. 3. 'Anrhydedda y gwragedd gweddwon, y rhai sydd wirweddwon.' Y parch dau-ddyblyg a haeddai yr henuriaid sydd yn llywodraethu yn dda, ydyw cynnaliaeth helaeth; (adn. 18.) canys arfer yr Hebreaid y gair *dwbl* i arwyddo helaethrwydd o un peth. Gweddïodd Eliseus wrth ymadael âg Elias, am ddau parth ei ysbryd: sef mesur helaeth. 2 Bren. 2. 9. Gwel hefyd Dat. 18. 6. Y dynion mwyaf enwog yn mhlith y dysgyblion a roddent yn y swydd o lywodraethu, a chan fod gwaith eu swydd yn goddef iddynt ond ychydig amser i feddwl a gofalu am eu hachosion eu hunain, yr oedd yn addas ac yn gyfiawn iddynt gael cynnaliaeth helaeth oddiwrth yr eglwys, yn ol eu hamgylchiadau, i wasanaeth pa un yr oeddynt yn rhoddi y rhan fwyaf o'u hamser a'u llafur.

PARDDU, (par-du) du y pair; huddygl.—'Wynebau yn casglu parddu,' sydd yn arwyddo y gradd mwyaf o ddychryn ac ing; fel rhai yn trengu mewn llewyg, neu â'u gwaed gwedi sefyll gan boen neu orthrymder tufewnol neu allanol. Joel 2. 6. Nah. 2. 10. Ps. 119. 83. Esa. 13. 8. Jer. 8. 21. a 30. 6.

PARED—AU, (par-ed) hefyd PARWYD—YDD, (par-gwyd) *Llad.* Paries: gwahan-fur, canol-fur.

A wddosti——
Py beris *parwyd*
Rhwn dyn ac annwyd? *Taliesin.*

Digitized by Google

'Wele efe yn sefyll y tu ol i'n pared.' Can. 2. 9. Y mae y geiriau yn arwyddo fod Crist, anwylyd yr eglwys, yn agos, megys y tu ol i'r pared, yn chwennychu dyfod i mewn; y mae yn agos, ond etto heb gyflawn gymundeb a mwynhad o hono. Gwelodd ef ar y cyntaf megys ar y mynyddoedd a'r bryniau, ond yn awr y mae megys o'r tu ol i'r pared, sef pared gwyrddlas yr ardd, tebygol, yn dangos ei hun, i ennyn ei serchiadau yn fwy gwresog tu ag ato. Nid ar unwaith mae Crist yn amlygu ei hun i'w bobl, nac y maent hwythau yn addas i'w dderbyn; ond yn raddol fel byddo eu calonau yn ëangu i'w dderbyn, ac yn ennyn i fyned ar ei ol.

'Pared wedi ei wyn-galchu—fel beddau wedi eu gwynu;' ydynt ymadroddion am ragrithiwr. Act. 23. 3. Mat. 23. 27.

**PARFAIM**, פרוים [*ffrwythlon*] enw gwlad yn agos i Ophir, tebygol, oedd yn hynod am yr aur ynddi. 2 Cron. 3. 6. Yr un a Hafilah, neu yn agos ati, oddeutu tarddiad yr afon Indus, o du y dwyrain i Kedem, lle y crybwylla Ptolomy am fynyddoedd Parfatoi.

**PARLYS**, *Gr.* παραλυτικος; *Llad.* PARALYSIS; *Saes.* PALSY, PARALYTIC: haint y giau *(nerves)*, afiechyd yn mha un y mae y corph, neu ryw ranau o hono, yn colli eu hysgogiad, ac weithiau eu teimlad hefyd. Yr achosion o hono ydynt amrywiol, megys meddwdod, arferyd gormod o *dea*, *coffee*, &c., awyr oerllyd, wlybyrog; un peth a fyddo yn effeithio ar y giau, neu yr ymenydd; neu beth bynag a fyddo yn effeithio i laesu y cyhyrau, neu i wanhau yr holl gorph; ac yn neillduol anghymedroldeb yn mhob ystyr. Yr ieuainc llawn o waed yn yr afiechyd hwn, angenrheidiol ydyw eu gwaedu, eu carthu, eu pothellu, &c., a'r cyffelyb foddion, i lanhau ac ysgafnhau y corph. Ond y mae hen bobl yn gofyn triniaeth cwbl groes i hyn; sef pob peth a fyddo yn tueddu i gryfhau, gwresogi, a bywiocâu y corph. Mae cyfog, yn aml, yn llesol; mwstardd yn mhob ffordd, oddifewn ac oddi allan, sydd fuddiol; megys hadau mwstardd, maidd mwstardd, meddalai mwstardd: marchogaeth, a rhodio allan yn aml, awyr sych, iachus, sydd hefyd yn dra angenrheidiol yn y clefyd hwn: ond o bob peth allanol *electricity* yw y mwyaf effeithiol. Dywed y Dr Cheyne, fod byw ar laeth yn unig, yn feddyginiaeth tra effeithiol, a mwy felly na dim arall, ac a lwydda pan fyddo pob moddion eraill yn methu. Iachâodd yr Arglwydd Iesu, Meddyg pob afiechyd, amryw o'r clefyd hwn â'i air yn unig. Mat. 4. 24. a 8. 6, 7. a 9. 2. Felly yr iachâodd yr apostolion yn ei enw. Act. 8. 7. a 9. 33. Yr un yw yr Iesu etto, i iachâu afiechyd corph ac enaid.

**PARMENAS**, *Gr.* Παρμενας, [*yr hwn sydd yn aros*] un o'r saith a ddewiswyd i olygu elusen y tlodion. Nid oes hanes ychwaneg am dano. Act. 6. 5, 6.

**PARNACH**, פרנך [*ffrwythau peraidd*] tad Elisaphan, o lwyth Zabulon. Num. 34. 25.

**PAROD—RWYDD—TOAD—TOI**, (par) *Llad.* PARATUS: cywair, wedi ei ddarparu, wedi ei arlwyo: darpar arlwy, darmerth, cyweirdab.—Y mae parotôi yn arwyddo darparu, rhoddi, iawn drefnu, sefydlu, symud ymaith rwystrau, &c. Diar. 6. 8. a 8. 27. Ps. 9. 7. a 74. 16. a 103. 19. Esa. 40. 3. a 62. 10.

Y mae Duw yn 'barod i faddeu.' Neh. 9. 17. Y mae felly, 1. O ran ei drefn: y mae pob peth wedi ei drefnu felly ganddo, fel y mae yn addas ac yn anrhydeddus iddo faddeu.——2. Y mae yn barod o ran amledd y maddeuant ynddo. אלוה סליחות *Duw y maddeuadau*, neu *maddeuant*, yw ei enw.——3. Y mae yn barod o ran ei raslonrwydd, a'i hoffder i drugarhau. Mic. 7. 18.

'Pob peth sydd barod,' sydd yn arwyddo cyflawniad o holl drefn Duw yn Nghrist i achub pechaduriaid; y cyflawnder diderfyn sydd ynddo; a'r ffordd rwydd a gogoneddus o gyfraniad y bendithion ynddo i bechaduriaid. Mat. 22. 4. Luc 14. 17. Ps. 86. 5. Y mae y cwbl a feddiannant byth o barotoad Duw; ac y mae ei barotoad ef iddynt yn helaeth, yn addas, ac yn dragywyddol. Mat. 25. 34. Heb. 11. 16. Ioan 14. 2. 1 Cor. 2. 9. Edr. DARPARU, DINAS, TEYRNAS.

'Yn barod i bob gweithred dda.' Tit. 3. 1. Yn barod o ran agwedd a thueddiad y meddwl; yn awyddus i'r weithred am ei bod yn dda: ac mae yr un rheswm paham y byddem yn awyddus i *bob* gweithred dda, ag i un, neu rai. I feddwl sanctaidd mae bod y weithred yn dda, yn ei chymeradwyo yn ddigonol.

'Yn barod i farnu,' &c., sef yn agos, wrth y drws; a phob peth ganddo yn barod i fyned i'r orsedd, heb oedi dim. 1 Petr 4. 5.——'Yn barod i farw,' sef yn agos a marw. Dat. 3. 2.

'Byddwch barod bob amser i ateb i bob un,' &c. 1 Petr 3. 15. Sef a chenych resymau digonol, eglur, cadarn, i roddi i'r neb a ofyno am y gobaith sydd genych; etto gyd âg addfwynder ac ofn; ac nid yn hyf, yn rhyfygus, ac yn anystyriol.

'Parotoad y galon mewn dyn, ac ymadrodd y tafod, oddiwrth yr Arglwydd y mae.' Diar. 16. 1. Y mae calon dyn, fel pechadur llygredig, yn anmharod at bob peth sanctaidd; y mae yn ddiduedd, yn anewyllysgar, ac yn anfedrus. Y mae yn anmharod i weithredu tu ag at Dduw yn addas, i dderbyn ganddo, ac i weithredu dim drosto. Y mae yn anmharod i garu Duw, i gredu ynddo, ac i ufuddhau iddo; o herwydd y gelyniaeth, yr anghrediniaeth, y cyndynrwydd, sydd ynddi. Ond nid oes dim yn gymeradwy gan Dduw, os na fydd o'r galon. Gan ei bod yn gwbl lygredig, nis dichon cyfnewidiad ynddi darddu o honi ei hun: ond dichon Duw ei chyfnewid, a thrwy hyny ei pharotôi a'i haddasu i bob gweithred dda. O'r Arglwydd yn unig y mae hyny, heb i ddyn ei haeddu, ac heb ei gynnorthwy; y mae o Dduw, yn effeithiol, yn wyneb yr holl annhrefn a'r llygredd croes i hyny sydd mewn dyn. Y mae wedi addaw rhoddi calon ac ysbryd newydd i rai aflanaf a ffieiddiaf. Fel y mae parotoad Duw i'w bobl yn helaeth, ac yn ogoneddus, felly hefyd, addasa hwynt yn gyflawn i'w mwynhau. Y mae parotoad y galon, neu yr enaid, yn gynnwysedig mewn dau beth, sef glanhad ac adnewyddiad; ei glanhau o'r drwg sydd ynddi eisoes, a'i llenwi â daioni; dyosg yr hen ddyn, a gwisgo y newydd; ac y mae y cwbl o Dduw. Y mae gras Duw mor ogoneddus yn gweithredu ynom, ag yw yn ein cyfiawnhau heb weithredoedd y ddeddf. Ezec. 36. 26, 27. Ps. 10. 17. a 119. 36. Jer. 10. 23. a 32. 39, 40. Phil. 2. 13.——O'r Arglwydd hefyd y mae ymadrodd y genau; sef dawn i ymadroddi, doethineb, a graslonrwydd ymadrodd. Exod. 4. 11, 12, 15. Mat. 10. 19, 20. Luc 12. 11, 12. a 21. 14, 15.

'Bydd barotach i wrando nag i roi aberth ffyliaid.' Preg. 5. 1. Y mae y naill yn arwydd o ostyngeiddrwydd a pharch, a'r llall yn arwydd o hunan, a hyfdra ffol a phechadurus. Act. 10. 33. a 17. 11. Iago 1. 9. 1 Petr 2. 1, 2.

**PAROS**, פרעש [*ffrwyth y pryf*] dwy fil a deuddeg ac wyth ugain o'i feibion a ddychwelasant o Babilon. Ezra 2. 3. a 8. 3. a 10. 25.

**PARSANDATHA**, פרשנדתא [*dadguddiad o'i flinder*] mab hynaf Haman, yr hwn a roddwyd i farwolaeth gan yr Iuddewon. Esth. 9. 7.

**PARTIAETH**, *Llad.* PARS; *Ffr.* PARTIE; *Saes.* PARTY: plaid, pleidgar, pleidiog, pleidgarwch.—'Heb wneuthur dim o gyd-bartïaeth.' 1 Tim. 5. 21.

Digitized by Google

*κατα προσκλισιν*, *yn gogwyddo i un ochr*, neu *blaid*. Y mae hyn yn ffaidd yn mhawb, ond yn ffieiddiach mewn swyddogion eglwysig na neb arall. Y mae cyfeiriad yr apostol at y gyfraith yn Exod. 23. 2. 'Nac ateb mewn ymrafael, gan bwyso yn ol llaweroedd, i *ŵyro barn*.' Dylai pob barnwr gymeryd pwyll, ac nid rhoddi barn ehud, yr hon a eilw yr apostol yma *rhagfarn*; hefyd yn ddibleidiog, ond yn dal clorianau cywir, fel yr ymddangoso yr achos yn gywir fel y byddo. Wrth ddull syml Paul yn cynghori Timotheus i wylied yn ei erbyn, ymddengys ei fod yn golygu y drwg a'r perygl mwyaf yn y cyfryw ymddygiad yn yr eglwys; y mae yn anghyfiawnder ynddo ei hun, ac yn cenedlu cynhenau, pleidiau, ac ymraniadau yn yr eglwys.

PARTH—AU—U, (par) *Heb.* בתר (*bether*) *Llad.* Pars: rhan, darn, dryll, parthedd, parthred; ardal, bro, tuedd, goror, gwlad. Mat. 15. 22. Marc 1. 45. Act. 19. 1. Eph. 4. 9.—'O bob parth,' sef o bob tu. Luc 19. 43.—Parthu, sef gwahanu, rhanu, hollti. Exod. 14. 21. Ps. 74. 13. a 78. 13. Esa. 51. 15. Actau 13. 19.

PARTHIA—IAID, gwlad yn Asia, rhan o Persia, rhwng yr Indus a'r Arius i'r dwyrain, a Tigris a Media i'r gorllewin. Yn ol Pliny,* Ptolomy,† a Solinus,‡ yr oedd Media o du y gorllewin i Parthia, Hyrcania o du y gogledd, Aria, neu Ariana, i'r dwyrain, ac anialwch Carmania i'r dehau iddi. Hecatompylos oedd ei phrif ddinas, a alwyd felly oddiwrth y can porth oedd arni; ac yr oedd yn sefyll ar yr un tir ag Ispahan yn awr, eisteddfod Sophies Persia. Parhaodd ymerodraeth Parthia 400 mlynedd, a bu llywodraeth y dwyrain yn ddadleuedig rhyngddynt hwy a'r Rhufeiniaid. Yr oeddynt yn nodedig am eu parch i'w breninoedd, ac am eu medrusrwydd yn ymladd ar feirch, yn ergydio eu saethau dros eu penau gyda chywirdeb a manylrwydd hynod, wrth gymeryd arnynt ffoi. Meddylir wrthynt yn Act. 2. 8. Iuddewon genedigol yn Parthia, y rhai a ddaethant i Jerusalem ar ŵyl y Pentecost, llawer o ba rai a drowyd i'r ffydd Gristionogol wedi hyn. Barna rhai mai atynt hwy yr ysgrifenodd Ioan ei epistol cyntaf; yr hwn a alwai rhai o'r hynafiaid, 'yr epistol at y Parthiaid.'

PARUAH, פרוח [*blodeuog*] tad Jehosaphat o lwyth Issachar. 1 Bren. 4. 17.

PARWYDEN—AU, (parwyd) y gair *Heb.* חזה a gyfieithir *parwyden* (*Saes.* Breast) sydd yn arwyddo y rhan hyny o'r anifel sydd wedi ei amddiffyn âg esgyrn yr asenau, er diogelwch y rhanau hyny sydd hanfodol i fywyd. Exod. 29. 26, 27. Lef. 7. 30, *et al.* Yr oedd gwaith yr offrymwr yn cwhwfanu y barwyden yn offrwm cwhwfan i'r Arglwydd, yn arwyddocâol o roddiad ei galon a'i serch iddo; ac wedi ei chwhwfanu, ei rhoddi i'r offeiriad, oedd yn arwyddo, na ddarfu neb, ond yr hwn yr oedd yr offeiriad yn ei gysgodi, roddi ei ewyllys a'i serch yn berffaith i Dduw yn wastadol. Gwel Jer. 4. 19.

PASC, *Heb.* פסח (*pesach*); *Cald.* פסחא (*pischa*); *Gr.* *πασχα* (*pascha*). Mae y gair Hebraeg yn arwyddo *llamu rhagddo*; oddiwrth y modd y darfu i'r Arglwydd gadw pobl Israel yn yr Aipht rhag y dinystrydd. Yr oedd Iehofah megys yn cyd-gerdded â'r dinystrydd; a phan ddeuent at y drysau yr oedd y gwaed arnynt, yr oedd yr Arglwydd yn llamu i'r drws, ac yn gorchuddio y tŷ, ac yr oedd y dinystrydd felly yn myned heibio: 'Ni âd,' medd Moses, 'i'r dinystrydd ddyfod i mewn i'ch tai chwi i ddinystrio.' Exod. 12. 23. Yr oedd yr Arglwydd wrth lamu i'r drws, yn rhoddi ei hun rhwng y dinystrydd a'r tŷ, a phawb ynddo. Edr. Adar.

Mae y gair *pasc* yn arwyddo weithiau, 1. Yr oen fyddai yn cael ei ladd yn goffadwriaeth o waredigaeth ryfedd Israel yn ac o'r Aipht: 'Lleddwch y pasc,' *sef* yr oen. Exod. 12. 21. 'A daeth dydd y bara croyw, ar yr hwn yr oedd yn rhaid lladd y pasc,' *sef* yr oen. Luc 22. 7.——2. Yr aberthau a offryment gyd â'r oen ar yr amser hwnw: 'Abertha dithau yn basc i'r Arglwydd dy Dduw, o ddefaid a gwartheg,' &c. Deut. 16. 2.——3. Yr ŵyl ei hun: 'A nesâodd gŵyl y bara croyw, yr hon a elwir y pasc.' Luc 22. 1. Yr oedd oen y pasc yn un o'r cysgodau mwyaf hynod o farwolaeth yr Arglwydd a'i effeithiau, o un dan yr Hen Destament. Geilw yr apostol yr Arglwydd Iesu wrth yr enw hwn; 'Crist ein pasc ni a aberthwyd drosom.' 1 Cor. 5. 7. Ond ystyriwn ychydig am ŵyl y pasc ei hun:

1. Trefnodd Duw y pasc i'w gadw gan yr Israeliaid y noswaith cyn eu dyfodiad o'r Aipht,—1. I fod yn goffadwriaeth trwy eu cenedlaethau, o'r modd yr aeth yr Arglwydd heibio i dai meibion Israel, pan darawodd efe yr Aipht, ac y lladdodd bob cyntafanedig iddynt. Exod. 12. 26, 27.——2. I fod yn gysgod o'r waredigaeth fawr trwy Grist, 'Oen Duw, yr hwn a dynodd ymaith bechodau y byd.' Ioan 1. 29.

2. Am yr amser o ladd yr oen, nodir y mis, y diwrnod, a'r awr y byddai iddo gael ei ladd; sef y mis cyntaf, sef Abib neu Nisan. Exod. 13. 4. Neh. 2. 1. Edr. Abib. Y seithfed oedd o'r flwyddyn wladol, a'r cyntaf o'r flwyddyn gysegredig. Edr. Blwyddyn, Nisan. Y dydd oedd y pedwerydd ar ddeg; yr oedd yr oen i gael ei ddal ar y degfed, a'i ladd ar y pedwerydd ar ddeg. Exod. 12. 2, 6. Yr awr, yn y cyfnos, בין הערבים *rhwng yr hwyrau*, neu *y ddau hwyr*; sef o ganol dydd, pan y mae yr hwyr yn dechreu, hyd fachlud haul, pan oedd y pymthegfed dydd yn dechreu. Yn yr hwyr y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, sef pan oedd y pymthegfed dydd yn dechreu, dros saith niwrnod, sef o'r pymthegfed hyd ddiwedd yr unfed ar hugain, yr oeddynt i fwyta bara croyw (Exod. 12. 18.) am hyny yr oedd y ddau hwyr yn diweddu cyn i'r pymthegfed dydd ddechreu, sef cyn machlud haul, y pedwerydd ar ddeg; onidê, buasai wyth niwrnod i fwyta bara croyw; ond nid oedd gŵyl y bara croyw i barhau ond saith niwrnod.

'A daeth dydd y bara croyw, ar yr hwn yr oedd yn rhaid lladd y pasc.' Luc 22. 7. Galwent y dydd y lleddid y pasc, un o ddyddiau gŵyl y bara croyw, a'r dydd cyntaf o honi, am ei fod yn barotoawl iddi; er nad oedd yr ŵyl yn dechreu ond gyda swper y pasc. Ymddengys hyn hefyd yn eglur yn Josephus, yr hwn a ddywed, y byddai gŵyl y bara croyw yn para wyth niwrnod; ond nid oes gorchymyn i'w chadw ond dros saith.

'Ac nid aethant hwy i mewn i'r dadleudŷ, rhag eu halogi; eithr fel y gallent fwyta y pasc.' Ioan 18. 28. Nid oen y pasc a feddylir, yr oedd hwnw gwedi ei fwyta y nos o'r blaen; ond y *chagigah*, neu y wledd ar y pymthegfed dydd. Heb sylwi ar hyn, y mae llawer wedi meddwl na fwytaodd Crist y pasc yr un dydd a'r Iuddewon, ac wedi ysgrifenu llawer yn nghylch hyn i'w gyfiawnhau. Ond nis gallasai hyny fod, gan fod yr oen yn aberth, ac i'w ladd yn nghyntedd y deml, a'r gwaed i gael ei daenellu gan yr offeiriad ar amser gosodedig. Y mae yn gwbl eglur iddo fwyta y pasc hwn ar y dydd a'r awr osodedig; 'pan ddaeth dydd y bara croyw, ar yr hwn yr oedd yn rhaid lladd y pasc, yr anfonodd efe Petr ac Ioan, gan ddywedyd, Ewch, a pharotowch y pasc—a phan ddaeth yr awr, efe a eisteddodd i lawr,' &c. Luc 22. 7, 14. Mat. 26. 17, 20. Marc 14 12—18. Y mae yn eglur y gelwid y wledd hon, y pasc, fel y sylwyd o'r blaen. Deut. 16. 2. 2 Cronicl 35. 7, 8, 9. Ië,

* *Nat. Hist.*, *lib.* vi., *cap.* 15, 25. † *Polyhistor*, *cap.* 69.
‡ *Geog.*, *lib.* vi., *cap.* 2.

Digitized by Google

galwent y saith diwrnod y pasc, a bwyta bara croyw y dyddiau hyny, a alwent bwyta y pasc. Gan hyny y mae yn amlwg mai y wledd hon ar y pymthegfed dydd a feddylir uchod.

3. Am y lle yr oedd yr oen i gael ei ladd:—cadwyd y pasc cyntaf yn yr Aipht. Exod. 12. 21. Gwedi hyny yn anialwch Sinai. Num. 9. 5. Yn yr Aipht, lladdodd pob un yr oen yn ei dŷ ei hun; ond wedi hyny ni allent aberthu y pasc o fewn eu pyrth, ond yn y lle a ddewisai yr Arglwydd i drigo o'i enw ef ynddo. Deut. 16. 5. A hyny oedd, nid yn unig yn Jerusalem, ond wedi adeiladu y deml, yn nghyntedd y deml. Yr oedd y pasc nid yn unig yn sacrament, ond hefyd yn aberth: ac yr oedd y gwaed i gael ei daenellu gan yr offeiriad, yr hyn nis gellid ei wneuthur ond yn y deml. Exod. 12. 27. a 23. 18. a 34. 25. 1 Cor. 5. 7. Num. 9. 7, 13. 2 Cron. 35. 11. Yr oedd taenelliad y gwaed o amgylch ar yr allor yn hanfodol i bob aberth. Lef. 1. 5.

4. Gallai yr aberthwr ladd yr oen, neu y Lefiaid yn ei le, os byddai yn aflan, ac yr oedd yr offeiriad i gymeryd y gwaed a'i daenellu oddi amgylch yr allor. 2 Cron. 30. 16. a 35. 11. Ezra 6. 20. Yr oedd hyn yn ganiataol i'r bobl gyffredin, nid yn unig i ladd y pasc, ond hefyd yr aberthau eraill; megys y poethoffrwm, Lef. 1. 3, 4, 5.—yr aberth hedd, Lef. 3. 2, 3. —yr aberth dros bechod, Lef. 4. 14, 15. Dywed yr Iuddewon, fod, nid yn unig y gwaed i gael ei daenellu gan yr offeiriad, ond hefyd y gwêr i gael ei losgi, yn arogl peraidd i'r Arglwydd, fel yn yr aberthau eraill. Lef. 17. 6.

5. Gallai pawb o genedl Israel fwyta y pasc nad oedd aflendid seremoniol yn ei attal; hefyd caethwas wedi ei brynu âg arian, neu ddyeithr-ddyn yn aros gyda hwynt, wedi yr enwaeder arnynt, a allent yn gyfreithlawn ei fwyta. Exod, 12. 44, 47, 48. Ond nid oedd neb halogedig i fwyta o hono. Num. 9. 6. Lef. 22. 3, &c. Ioan 18. 28. 2 Cron. 30. 17, &c. Yr oedd y cyfryw i gadw pasc yr un amser yr ail mis. Felly yr oedd hefyd yr hwn fyddai mewn ffordd bell, yn methu dyfod erbyn y dydd gosodedig, i'w wneuthur. Num. 9. 10, &c.

'A darpar-ŵyl y pasc oedd hi, ac yn nghylch y chweched awr.' Ioan 19. 14. Nid oes dim sôn yn yr ysgrythyrau am ddarpar-ŵyl y pasc; ac nid ydyw y gair *παρασκευη*, *parasceue*, a gyfieithir yma *darpar-wyl*, yn cael ei arferyd ond am y dydd o flaen y Sabboth. 'Am ei bod *(επει ην παρασκευη, am ei bod yn barasceue)* yn *ddarpar-wyl*,' sef y dydd cyn y Sabboth. Am hyny, darpar-ŵyl y pasc yn y fan hon, sydd yn arwyddo darpar-ŵyl Sabboth y pasc. Fel y soniwyd, galwent holl ŵyl y bara croyw, sef y saith diwrnod hyny, y pasc; y darpar-ŵyl y pasc, yn ol arferiad y gair, yw darpar-ŵyl yn y dyddiau hyny, sef y dydd o flaen Sabboth y pasc. 'A thranoeth, yr hwn sydd ar ol y darpar-wyl,' sef y Sabboth. Mat. 27. 62. 'A'r dydd hwnw,' sef y dydd y croeshoeliwyd yr Iesu, 'oedd ddarpar-ŵyl, a'r Sabboth oedd yn nesâu.' Luc 23. 54. Felly mae yn amlwg, mai wrth 'ddarpar-ŵyl y pasc,' y meddwl Ioan, darpar-ŵyl Sabboth y pasc.*

Wrth olygu y cysgod a'r gwrth-gysgod mewn cyferbyniad i'w gilydd, daw y defodau eraill mewn perthynas i'r pasc dan ein hystyriaeth. Y mae defodau y pasc yn cysgodi Crist, 1. O ran ei berson.—2. Ei ddyoddefiadau.—3. Ffrwyth ei ddyoddefiadau.—4. A'r modd i gyfranogi o honynt.

1. O ran ei berson, *Oen* oedd; felly gelwir Crist yn aml; Ioan 1. 29, 36. yn arwyddo ei addfwynder a'i ostyngeiddrwydd, Mat. 11. 29.—ei ddiniweidrwydd, 1 Petr 1. 19.—ei amynedd, Esa. 53. 7. Nid oedd heb allu i amddiffyn ei hun, canys llew o lwyth Judah oedd o ran ei rym, ond ymostyngodd o'i fodd i anmharch a dyoddefiadau. Y mae, fel oen, ei gnawd yn fwyd, ei waed yn ddiod, a'i wlan, sef ei gyfiawnder, yn wisg am ei bobl. Dat. 3. 18. Rhuf. 13. 14. Gal. 3. 27. Ioan 6. 55.—Oen o'r praidd; felly Crist sydd gyfranog o gig a gwaed, ac wedi ei gyfodi o blith ei frodyr. Deut. 18. 15. Heb. 2. 14, 17.—Oen perffaith-gwbl; felly mae Crist yn ddifai. 1 Petr 1. 19. Heb. 9. 14. —Oen gwrryw; felly Crist yw y gwr. Esa. 32. 2. —Llwdn blwydd; felly yr offrymodd Crist ei hun yn ei gyflawn oed a'i rym.—Yr oedd yr oen i fod yn rhwym am bedwar diwrnod; felly yn nghylch pedair blynedd, rhoddi diwrnod am flwyddyn, gwedi i Grist ymddangos yn gyhoeddus, y dyoddefodd; ac y mae i sylwi yn neillduol arno, i'r Iesu fyned i Jerusalem i'w groeshoelio, y diwrnod y gorchymynodd yr Arglwydd i'r oen gael ei gadw yn yr Aipht. Chwe diwrnod cyn y pasc y daeth i Bethania, a thranoeth yr aeth i fynu i Jerusalem. Ioan 12. 1, 12.

2. Yr ydoedd yn cysgodi dyoddefiadau Crist. Yr ydoedd yr oen i gael ei ladd gan holl dyrfa cynnulleidfa Israel; felly Crist, 'yr holl lliaws (*παμπληθει*) a lefasant ar unwaith, gan ddywedyd, Bwrw hwn ymaith.' Luc 23. 18.—Am ddull lladdiad y ddau, y mae yn cyfateb; yr oedd y gwaed i gael ei dywallt dros y bobl, nid ar y ddaear, ond mewn cawg, i ddangos ei werthfawrogrwydd. 1 Petr 1. 19. Dywed yr Iuddewon, fod yr ŵyn i gael eu crogi y naill du i'r allor, ar fachau wrth golofnau marmor, neu ar drawstiau, yn myned o'r naill golofn i'r llall, yno i gael eu blingo a'u hagor; ac os byddai y bachau ar y trawstiau rhwng y colofnau yn rhy anaml i ateb i lliosogrwydd yr ŵyn, byddent yn eu crogi ar drawstiau yn cael eu cynnal ar ysgwyddau dau ddyn. Barnai yr Iuddewon y crogi i fynu mor angenrheidiol, fel os na byddai cyfleusdra i wneyd hyny, dodai dau ddyn eu dwylaw ar ysgwyddau eu gilydd, i grogi yr oen wrth eu breichiau, nes blingo ymaith y croen. Yr oedd hyn yn arddangosiad neillduol o groeshoeliad a dynoethiad yr Arglwydd Iesu, trwy ei ddyosg o'i ddillad, fel y gellid 'cyfrif ei holl esgyrn.' Ps. 22. 17, 18.—Nid oedd un asgwrn i gael ei dori o hono; felly Crist hefyd, trwy ragluniaeth ryfedd Duw, ni thorwyd ei esgyrn. Exod. 12. 46. Num. 9. 11. Ioan 19. 31, &c. Yr oedd yr oen i gyd i gael ei rostio wrth dân; a dywedir yn ymddyddanion Justin â'r Iuddew Tryphon, fod dull o'i ledu a'i rwymo i'w rostio yn debyg i groes; yr oedd un pren pomgranad (nid haiarn) ar ei hyd trwyddo, a'r llall ar draws yr ysgwyddau a'r traed blaen, gwedi eu rhwymo wrtho; os felly, mae yn cysgodi yn hynod ddull dyoddefiadau yr Iesu. Justin. Yr oedd haiarn yn waharddedig, a phob pren a roddai nôdd wrth ei boethi wrth y tân; ac am fod y pren pomgranad yn ddinôdd wrth ei boethi, arferent hwnw. Gwel Mishna, *by* Surenhusius, *vol.* ii. Y mae rhostio yr oen yn arwyddo angerdd y digofaint dwyfol a ddyoddefodd Crist, pan offrymodd ei hun i Dduw dros ei bobl.—— Y mae y lle a'r amser yn cyfateb hefyd, sef yn Jerusalem, (Luc 13. 33.) ac ar awr yr aberth prydnawnol, y dydd cyntaf o'r wyl (tebygol) a'r dydd ar ol lladd y pasc; canys bwytaodd y pasc y nos o'r blaen gyd â'i ddysgyblion. Mat. 27. 46, 47.

3. Am y ffrwythau a'r effeithiau y maent yn lliosog ac yn dra gwerthfawr.—1. Yr ydoedd taenelliad y gwaed ar y ddau ystlys-bost, ac ar gapan y drws, yn ddiogelwch i Israel yn yr Aipht rhag y dinystrydd; felly mae taenelliad gwaed Crist i bawb a gredo ynddo. Esa. 52. 15. 1 Petr 1. 2. Heb. 12. 24.——(2.) Y noswaith y lladdwyd yr oen y cafodd Israel waredigaeth o'u caethiwed caled; felly, trwy waed, neu yr iawn a wnaeth Crist, y mae i bechadur ryddhad oddiwrth y diafol, y byd, a phechod. Ioan 8. 36. Heb. 2. 14, 15.——(3.) Y noswaith hôno y gwnaeth Duw

* Lightfoot, *Horæ. Heb. on* Mark 14. 12. *and* John 18. 28. Whitby, *Appendix to* Mark xiv. Archbishop Newcome's *Harmony and Notes.* Dr Cudworth *on the Sacraments.*

Digitized by Google

farn yn erbyn holl dduwiau yr Aipht. Exod. 12. 12. Num. 33. 4. Pa farn a wnaeth, nid yw yn hysbys; ond sicr yw i'r geiriau gael eu cyflawni. Dywed y Rabbi Jonathan, iddo eu hollol dinystrio, fel y dinystriwyd Dagon pan ddygwyd arch Duw Israel i'w dŷ.——(4.) Trwy gyfnewid dechreuad eu blynyddoedd, i'r gwanwyn yn lle yr hydref, ar yr achos hwn, yr oedd yr Arglwydd yn rhoddi arwydd rhag-ddangosiadol, y byddai iddo, yn ganlynol i farwolaeth Crist, gyfnewid agwedd lygredig y byd, dwyn oes newydd i mewn, a gwneuthur pob peth yn newydd.' Ps. 104. 30. Esa. 65. 17. Dat. 21. 5.

4. Yn nesaf, y mae i ni olygu y modd yr ydoedd yr Israeliaid i gyfranogi o'i effeithiau. Yr ydoedd dau beth yn ofynedig; sef (1.) Taenellu y gwaed ar y ddau ystlys-bost, ac ar gapan y drws.——(2.) Bwyta yr oen. Yr oedd esgeuluso un o'r ddau yn eu colledu o'r bendithion oedd yn nglyn wrth ufudd-dod i'r gorchymyn.—Yn gyntaf, Yr oedd taenelliad y gwaed yn arwyddo, 'glanhau ein calonau oddiwrth gydwybod ddrwg,' trwy gredu yn yr iawn a wnaeth Crist trwy ddyoddef drosom. Heb. 10. 22. Dat. 3. 20. Nid ar y trothwy dan draed y mae y gwaed gan y rhai hyny sydd yn ei adnabod, ac yn credu ynddo; ond yn ddyrchafedig, yn werthfawr, ac yn ogoneddus. Heb. 10. 29. Gal. 6. 14. 1 Petr 2. 7. Cwn a moch yw y rhai sydd yn sathru pethau sanctaidd dan eu traed. Mat. 7. 6.—Yn ail, A'r un ffydd y mae yn ymborthi ar yr oen. Y mae dyfod at Grist, a chredu ynddo, yn cael ei alw ganddo ei hun, 'Bwyta ei gnawd, ac yfed ei waed.' Ioan 6. 53. Yr oedd yn rhaid bwyta y cwbl, nid yn anmrwd, ond gwedi ei rostio wrth dân, gyda dail surion, a bara croyw, gwedi gwregysu eu llwynau, â'u hesgidiau am eu traed, a'u ffyn yn eu dwylaw, ar ffrwst. Rhaid cymeryd Crist yn gyflawn i ymborthi arno; sef myfyrio arno, ymhyfrydu ynddo, a'i ddefnyddio i'r dybenion y mae wedi ei roddi. Pan ddelom i'w ddefnyddio fel hyn, cymerwn yn hawdd y dail surion gyd âg ef, a bwriwn ymaith lefain rhagrith, gau athrawiaethau, a lefain malais a drygioni, a chychwynwn yn bererion tu a'r Ganaan nefol, o gaethiwed holl godwm Eden. Mat. 16. 12. 1 Cor. 5. 8. Luc 12. 1. 1 Petr 2. 11. Ps. 39. 13. Peth cyson, cyflawn yw gwir grefydd, yn ymhorthi ar yr *holl* oen; yn canu yn iach am byth i gaethiwed pechod a Satan; yn ffieiddio yr hen lefain drwg; yn dewis dirmyg Crist, a dyoddef adfyd gyda phobl Dduw, er sured y byddo hyny; ac yn cychwyn yn wrol ar y daith fwyaf ei rhwystrau a'i pheryglon a ddichon fod, a gwlad yr addewid yn nôd i gyrchu ati. Yr Oen a achubodd eu bywyd yw eu hymborth, ac a fydd byth yn wrthddrych eu hyfrydwch a'u cân. Edr. ANMRWD, BWYTA, ESGID, GWREGYS, LEFAIN, SURDOES. Gwel Bochart, *Hieroz.*, *lib.* ii., *cap.* 50. a thalfyriad o hono yn Witsius, *De Œcon. Fœd.*, *lib.* iv., *cap.* 9. Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* ii., *cap.* 10. *sec.* 11. *& cap.* 13. *sec.* 5—15. Ainsworth *on* Exod. xii. S. Mather *on the Types*. T. Taylor *on the Types*. M'Ewen *on the Types*. Y mae Bochart yn helaeth, yn feirniadol, ac yn efengylaidd; yn cynnwys y cwbl sydd yn y lleill, ac yn rhagorach.

'Trwy ffydd y gwnaeth efe y pasc, a gollyngiad y gwaed, rhag i'r hwn oedd yn dinystrio y rhai cyntafanedig gyffwrdd â hwynt.' Heb. 11. 28. 'Gollyngiad y gwaed,' ydyw yn y tri chyfieithiad Cymreig. '*Sprinkling of blood*,' *Saes.* sef taenelliad y gwaed. 'Arwlychiad (*dash*) y gwaed.' Macknight. Y gair *Gr.* προσχυσιν, a arferir yma, yw y cyfieithiad Groeg o'r gair *Heb.* זרק a gyfieithir *taenellu*, yn Exod. 24. 6. a 29. 16. Lef. 1. 5, 11. a 7. 2, 14. a 8. 9. 2 Bren. 16. 13. 2 Cron. 29. 22, *et al.* Gan hyny, tebygol, mai nid *gollyngiad* y gwaed a feddylir wrtho, ond *taenelliad* y gwaed a ollyngwyd, ar y ddau ystlys-bost, ac ar gapan y drws. A gellir meddwl, oddiwrth y geiriau a arferir yn Exod. 12. 7—12. iddynt ei daenellu, neu ei dywallt arnynt yn helaeth. Y gair *Gr.* εκχυσις, sydd yn arwyddo *gollyngiad*, fel y gwelir yn Heb. 9. 22. A chymeryd y ddau air yn yr un ystyr oedd yr achos o'u cam-gyfieithiad, tebygol. *Taenelliad* y gwaed oedd y peth o bwys, ac yn arwyddocäol; gan na buasai y tywalltiad, heb y taenelliad, ddim yn ateb dyben Duw fel moddion i achub y teulu. Trwy ffydd yr ufuddhaodd Moses i orchymyn Duw, ac yr ymddiriedodd i drefniad Duw yn hyn am eu diogelwch. Ni buasai dim ond ffydd yn ymddiried i'r fath amddiffynfa yn wyneb y fath berygl ofnadwy. Nid yn y moddion yr oedd y rhinwedd, ond yn nhrefniad Duw; ond gan fod Duw wedi gosod hyn yn foddion o ddiogelwch, yr oedd gosodiad a gorchymyn Duw yn ddigon i ffydd i bwyso arnynt, a gorphwys yn dawel am ddiogelwch yn wyneb y dinystrydd, ac yn nghanol y gwaeddi mawr trwy holl wlad yr Aipht. Trwy yr un ffydd y gwelodd trwy y cysgod y gwrthgysgod mawr, sef Crist croeshoeliedig; yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef. Rhuf. 3. 25. Trwy yr un ffydd y mae pawb a gredant yn yr iawn hwn yn cael eu diogelu dros byth.

PASDAMMIM, פסדמים [*lleihad gwaed*, neu *llanerch waedlyd*] enw lle neu ddinas yn rhandir Judah. 1 Cron. 11. 13. 1 Sam. 17. 1.

PASG—EDIG—ION, PESGI, (pa-asg) *Gr.* βοσκω; *Llad.* PASCO: lle i ymbawr, lle i borfâu, porfadir; wedi cymeryd ei faeth, wedi cymeryd cnawd; pori, bwyta, magu, maethu, porthi; bugeilio, cadw anifeiliaid. Bod yn mhasg, sef cael ei borthi mewn côr, yn lle pori allan.—'Ych pasgedig,' neu 'lo pasgedig,' yw ŷch neu lo wedi ei borthi i'r lladdfa. Diar. 15. 17. Mal. 4. 2.—'Gwledd o basgedigion breision;' sef gwledd o'r goreuon, gwledd ragorol. Esa. 25. 6. Edr. GWLEDD.

PASIO, *Lladin*, PASSUS; *Ffr.* PASSER; *Saes* PASS: myned heibio, myned ymaith, darfod.——'Y gwlaw a basiodd.' Can. 2. 11. *Heb.* חלף חלך לו yn *myned ymaith, a aeth heibio.* Gwlawogydd a arwyddant, yn aml yn yr ysgrythyrau, profedigaethau, erlidigaethau, a gorthrymderau. Mat. 7. 25. Pob aflwydd a ânt heibio i'r eglwys, a phob aelod o honi; yn y byd hwn, yn aml, pan byddo goruchwyliaethau Duw yn cyfnewid yn rasol tu ag ati, ac yn rhoddi heddwch ar ol erlidigaethau, esmwythder ar ol gorthrymderau, a llawenydd calon ar ol ofnau gofidus, Exod. 3. 4, 11. Esa. 13. 1, 2. a 40. 2. a 54. 6, 8. a 60. 1. Dat. 11. 14, 15. ac yn y byd sydd yn dyfod, darfyddant am byth. Y mae yn y geiriau, oll gyd â'u gilydd, ddarluniad hardd o'r gwanwyn yn y dwyrain; ac y mae yn angenrheidiol i sylwi, fod y gwlawogydd yn gylchynol yn ngwlad Judea, a'r gwledydd oddi amgylch; a phan fyddo gwlawogydd y gwanwyn wedi myned trosodd, yr hyn a fydd yn nghylch diwedd Ebrill, bydd parhad o hin hyfryd yn canlyn, heb y cyfnewidiadau hyny yr ydym ni yn ddarostyngedig iddynt. Os golygwn y fan hon, a'r amrywiol ymadroddion yn eu cysylltiad â'u gilydd, yn gyffelybiaethol, arwydda gwanwyn, goruchwyliaeth yr efengyl.

1. Y mae y gauaf yn rhagflaenu y gwanwyn; felly y rhagflaenodd amserau o anwybodaeth, diffrwythdra, a thymhestloedd, oruchwyliaeth ogoneddus a ffrwythlawn yr efengyl. Geilw Paul hwynt, 'amseroedd yr anwybodaeth.' Actau 17. 30.

2. Tymhor ffrwythlawn yw y gwanwyn; felly dan yr efengyl, y mae y cenedloedd, a'r eneidiau hyny, y rhai oeddynt o'r blaen yn ddiffrwyth, yn cael eu gwneyd yn ffrwythlawn yn ffrwythau cyfiawnder a sancteiddrwydd. Esa. 61. 11.

3. Tymhor cariad a llawenydd yw y gwanwyn; yr hyn a hysbysir wrth yr adar yn canu, a llais y durtur,

Digitized by Google

felly y mae yr efengyl yn oruchwyliaeth cariad a llawenydd. Eph. 2. 4. Luc 15. 7, 10, 32.

4. Yn y gwanwyn y mae adfywiad a math o adgyfodiad ar wyneb yr holl ddaear; yr oedd pob peth megys yn farw yn y gauaf oer; ond yn y gwanwyn tirion y mae pob peth yn adfywio; felly y mae yr efengyl yn cael pawb yn feirw mewn pechodau a chamweddau, ac yn eu bywhau yn nerthol, trwy ras, i fyw i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.

**PASUR,** פשחור [*helaethwr rhyddid*] 1. Mab Immer yr offeiriad, a phen-llywodraethwr yr Arglwydd. Jer. 20. 1. Gelwid ef hefyd Magor-missabib. Edr. JEREMIAH.——2. Un y dychwelodd 1247 o'i hiliogaeth o Babilon. Ezra 2. 38. Neh. 7. 41.

**PATARA,** Παταρα [*sathredig*] dinas gyfagos i'r môr, yn Lycia. Act. 21. 1.

**PATMOS,** Πατμος [*marwol*] ynys yn y Môr Egea, nid pell oddiwrth Melitus, (Malta, neu Molta) yn nghylch deugain milltir o du y gorllewin i Ephesus. Mae o gylch 25 i 30 o filltiroedd, ac yn o ddiffrwyth. Gelwir hi yn bresennol Patmo, Patmol, neu Palmosa. Yma yr alltudiwyd yr apostol Ioan, ac y cafodd ei weledigaethau rhyfedd. Dat. 1. 9. Edrych DADGUDDIAD, IOAN.

**PATRIARCH—IAID—EIRCH,** *Gr.* πατριαρχης; *Lladin,* PATRIARCHA; *Ffr.* PATRIARCHE; *Saes.* PATRIARCH: pen-teulu. Priodolir yr enw hwn yn benaf i'r hen dadau cyn Moses, megys Abraham, Isaac, &c. Felly gelwir Dafydd hefyd. Actau 2. 29. a 7. 8, 9. Heb. 7. 4.

Nid anfuddiol fyddai rhoddi yma yn fyr, pa fodd yr oedd rhai o'r patrieirch yn cyd-oesi â'u gilydd:—

| | | *Blynyddoedd,* |
|---|---|---|
| ADDA a gyd-oesoedd â | Lamech | 56 |
| | Methuselah | 243 |
| | Jared | 470 |
| | Mahalaleel | 535 |
| | Cainan | 605 |
| | Enos | 695 |
| NOAH a gyd-oesoedd â | Lamech | 595 |
| | Methuselah | 600 |
| | Jared | 366 |
| | Mahalaleel | 234 |
| | Cainan | 179 |
| | Enos | 84 |
| SEM a gyd-oesoedd â | Lamech (*cyn y diluw*) | 93 |
| | Methuselah | 98 |
| | Noah | 448 |
| | Abraham (*wedi y diluw*) | 150 |
| | Isaac | 50 |

Wrth y dafien hon canfyddir mor hawdd ydoedd trosglwyddo hanesion o Adda i Isaac, yspaid o 2158 o flynyddoedd.

**PATROBAS,** *Gr.* Πατροβας [*tadawl*] dysgybl yn Rhufain, a enwir gan Paul yn ei anerchiadau at y duwiolion yno. Rhuf. 16. 14.

**PATHROS,** *Heb.* פתרוס [*taeniad o wlith*] talaeth a dinas yn yr Aipht Uchaf, gwlad y Pathrusim, hiliogaeth Mizraim. Esa. 11. 11. Jer. 44. 15. Ezec. 29. 14. a 30. 14.

**PAU,** פעו [*yn llefain*] dinas yn Edom, preswylfod Hadar. Gen. 36. 39.

**PAUL,** *Gr.* Παυλος [*bychan*] yr ydoedd o lwyth Benjamin, a'i rieni, o bob tu, yn Hebreaid. Ganwyd ef yn Tarsus yn Cilicia, yn freiniawl o holl freintiau perthynol i ddinesydd rhydd Rhufeinaidd. Act. 9. 11. a 21. 39. a 29. 28. Saul ydoedd yr enw y gelwid ef wrtho, nes dychweliad Sergius Paulus i'r ffydd. Hwyrach mai Saul ydoedd ei enw Hebreaidd, a Paul ei enw Rhufeinaidd, yr hwn a arferodd yn mhlith y Cenedloedd. Neu, hwyrach, i Sergius ewyllysio ei anrhydeddu â'i gyfenw. Yn ol arfer yr Iuddewon o ddwyn eu plant i fedru rhyw gelfyddyd, dysgodd ei rieni ef yn y gelfyddyd o wneuthur pebyll. Act. 18. 3. Dywed Rabbi Judah, 'Beth a orchymynir i dad tu ag at ei fab? *Ateb.* Ei enwaedu, ei adbrynu, dysgu y gyfraith iddo, dysgu celfyddyd iddo, a cheisio gwraig iddo.' 'Yr un peth,' meddant, 'yw i rieni beidio dysgu celfyddyd i'w plant, a'u dysgu i fod yn lladron.' Addysgwyd ef yn foreu, mae yn debygol yn Tarsus, yn holl ddysgeidiaeth y Groegiaid, ac anfonodd ei rieni ef yn ieuanc i Jerusalem, lle y cafodd ei ddwyn i fynu wrth draed Gamaliel, a'i athrawiaethu yn ol cyfraith fanylaf y tadau. Yr oedd yn ieuanc o blaid y Phariseaid o ran ei grefydd, yn dwyn zel dros Dduw, ac yn ol y ddeddf yn ddiargyhoedd. Act. 22. 2. Phil. 3. 5.

Nid oes un prawf nac arwydd dangosiadol ei fod yn trigo yn Jerusalem yr amser yr oedd Crist yn gweinidogaethu yn y byd. Ond, tebygol, iddo ddychwelyd i Tarsus at ei alwedigaeth fel pebyllwr, gwedi gorphen astudio dan Gamaliel, ond byddai, hwyrach, yn ymweled â Jerusalem, yn achlysurol, ar brydiau. Nid ydyw yn cyfeirio at ddim yn ei holl ysgrifeniadau ag sydd yn arwyddo ei adnabyddiaeth bersonol o Grist; felly yr erlidiodd yr eglwys 'yn ddiarwybod,' heb adnabod Crist, 'mewn anghrediniaeth.' Ni ellir meddwl ei fod yn Jerusalem y pasc y croeshoeliwyd Crist, heb grybwylliad ei fod yn bresennol, ac yn weithgar gyda gelynion Crist.

Yr oedd yn rhagori ar ei gyfoedion mewn galluoedd meddwl, gwybodaeth, moesau, a zel dros y grefydd Iuddewig, a manylrwydd Phariseaidd ynddi. O ran ei gynneddfau, neu alluoedd naturiol ei ysbryd, yr oedd yn meddiannu eangder meddwl i raddau anghyffredin, grym a bywiogrwydd ysbryd i ddilyn un gorchwyl a gymerai yn llaw, yn egniol, yn ddyfal, yn galonog, ac yn feiddgar. Yr egniad a'r beiddgarwch meddwl hwn, dan lywodraeth anwybodaeth, zel dros draddodiadau Iuddewaidd, a gelyniaeth yn erbyn achos Crist a'i bobl, a'i prysurodd i raddau o greulondeb gwaedlyd a didrugaredd yn eu herbyn. Pan dywalltwyd gwaed y merthyr Stephan, yr oedd yn sefyll gerllaw, yn cydsynio i'w ladd, ac yn cadw dillad y rhai a'i lladdent. Actau 22. 20. Yr oedd yn baeddu, ac yn cospi yn mhob synagog y rhai a gredent; a chan ynfydu yn eu herbyn, erlidiodd hwynt allan o Jerusalem hyd ddinasoedd eraill. Yn chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn y dysgyblion, aeth at yr arch-offeiriad, ac a ddeisyfodd lythyrau i Damascus at y synagogau, fel os cai efe neb o'r ffordd hòno, na gwyr na gwragedd, y gallai eu dwyn yn rhwym i Jerusalem, i'r dyben i'w cospi. Act. 9. 1, 2. a 22. 4, 19. a 26. 11, 12. Y mae yn alarus gweled gwr wedi ei gynnysgaethu â'r fath alluoedd meddwl; gwr o ddoniau, dysgeidiaeth, moesau da, a zel grefyddol, yn gweithredu mor echryslon; ac yn fwy galarus meddwl mai ei grefydd a'i gwnaeth i ragori ar eraill mewn creulondeb a drygioni. Ond yr oedd ei grefydd yn ddaearol, yn gnawdol, ac yn gythreulig. Nis dichon un gelyn i ddyn fod yn gyfaill i Dduw. Yr oedd ganddo rith duwioldeb, ond â grym annuwioldeb yn ei holl greulonder gwaedlyd yn llywodraethu arno.

Ond cafodd drugaredd! Yr oedd moddion ei dröedigaeth yn hynodol ac yn oruwch-naturiol. Coffeir am dri pheth; sef goleuni dysglaer, gwelediad, a llef. —1. Ac efe yn ymdaith, A. D. 35, ac yn agos i Damascus, ar hanner dydd, yn ddisymwth, dysgleiriodd o'i amgylch oleuni, mwy na dysgleirdeb yr haul. Act. 9. 3. a 26. 13. Nid tân oedd, na chwmwl, na thywyllwch, na thymhestl; ond goleuni dysglaer, y fath ag a ymddangosodd i'r bugeiliaid yn meusydd Bethlehem, neu a ddysgleiriodd yn y gwedd-newidiad ar y mynydd sanctaidd; yn arwydd o'r presennoldeb dwyfol, yn ei drugaredd a'i raslonrwydd.

2. Yn y goleuni dysglaer hwn gwelodd yr Iesu. Felly y dywed Ananias wrtho, 'Iesu, yr hwn a ymddangosodd i ti ar y ffordd.' Act. 9. 17. Trachefn,

'Duw ein tadau ni â'th rag-ordeiniodd di i wybod ei ewyllys ef, ac i weled y Cyfiawn hwnw, ac i glywed lleferydd ei enau ef.' Pen. 22. 14. Medd yr Iesu ei hun, 'I hyn yr ymddangosais i ti.' Pen. 26. 16. Gwelodd yr Iesu â llygaid ei gorph, nid mewn arwydd-lun, nac yn weledigaethol, ond yn wirioneddol; sef y dyn Crist Iesu mewn gogoniant, megys y gwelodd Stephan ef. Pa fodd y gallai hyny fod? Digon o atebiad ydyw, y dichon yr Iesu wneuthur ei hun yn weledig y modd y myno. Barna D. Barrington nad ymddangosodd yr Iesu iddo y pryd hwnw ei hun, ond iddo weled y goleuni yn arwydd o'r presennoldeb dwyfol; ac nas gwelodd yr Iesu nes yr ail daith i Jerusalem, pan syrthiodd mewn llewyg tra yr oedd yn gweddïo, ac i'r Iesu ymddangos iddo, a siarad âg ef. Act. 22. 18. Ond tebygol iddo ei weled fwy nag unwaith. *Miscel. Sacr.*, *vol.* i. *Essay* 3.

3. Gwedi iddo syrthio ar y ddaear, clywodd lef o'r nef yn dywedyd wrtho yn Hebraeg, 'Saul, Saul, paham yr wyt ti yn fy erlid i? caled yw i ti wingo yn erbyn y symbylau.' Yn ddioed, gyda braw a syndod, gofynodd iddo, 'Pwy wyt ti, Arglwydd?' Yntau a atebodd, 'Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.' Myfi ydyw yr Iesu hwnw a wnaeth gynnifer o wyrthiau hynod, a wrthodwyd gan yr henuriaid a'r bobl, a euog-farnwyd i farwolaeth gan Pilat, ac yn ganlynol, a groeshoeliwyd. 'Mi a fum farw, ac wele byw ydwyf yn oes oesoedd,' yn teyrnasu yn y nefoedd, yn fuddugoliaethus ar fy holl elynion. Myfi yw yr Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid gyd â'r fath ffyrnigrwydd. Y mae y fath undeb rhyngof fi a'm pobl, fel y neb sydd yn cyffwrdd â hwy, sydd yn cyffwrdd â chanwyll fy llygaid i. Ni wna dy gynddeiriogrwydd ynfyd ac annheilwng, niwed i neb ond i ti dy hun: ond 'caled yw i ti wingo yn erbyn y symbylau.' Cafodd geiriau yr Iesu y fath effaith arno, fel dan grynu, ac â braw arno, y dywedodd, 'Pwy wyt ti, Arglwydd?—Beth a fyni di i mi ei wneuthur?' Wele yma enaid o'r creulonaf a'r cyndynaf wedi ei orchfygu, ei wareiddio, a'i blygu i ufudd-dod! Dyma y gras buddugoliaethus, yr hwn yn gyntaf a brofodd ei hun, ac wedi hyny a bregethodd i eraill hefyd. θριαμβευοντι ημας εν τω Χριστω, 2 Cor. 2. 14. *Yr hwn sydd yn ein dwyn ni yn fuddugoliaethus yn*, neu *gyda Christ*; fel y mae yn addas cyfieithu y geiriau. Y mae y geiriau yn cyfeirio at ddull tywysogion milwraidd buddugoliaethus yn dwyn rhai o'u perthynasau gyda hwynt yn eu gorymdaith orfoleddol. Crist, yr hwn a yspeiliodd dywysogaethau ac awdurdodau, ar y groes, gan θριαμβευσας αυτους εν αυτω, *gan ymorfoleddu arnynt arni hi*, a ddygodd hwn yn fuddugoliaethus gyd âg ef, gan yspeilio gwersyll Satan o'r ysglyfaeth hon, ac a'i gwnaeth yn was ffyddlonaf iddo ei hun. Pharisead, erlidiwr, llofrudd, yn cael ei wneuthur yn Gristion gwirioneddol, yn bregethwr ac yn apostol—wele yma fuddugoliaeth ryfedd!

Y mae tri pheth yn ymddangos yn neillduol o ddysglaer yn nhröedigaeth y gwr hwn, sef, 1. Ei etholiad gan Dduw.—2. Effeithioldeb ei alwad.—3. A rhadlonrwydd gras Duw yn ei alwad.——Yr oedd y cwbl yn hollol o Dduw, sef o'i ben-arglwyddiaeth yn dewis y llestr hwn i barch, heb un achos yn ei gynhyrfu ond yn Nuw ei hun. Y mae y galwad mor hollol rad a'i etholiad; canys yr oedd yr agwedd fwyaf annheilwng arno pan alwyd ef, ag oedd yn bosibl i fod ar greadur. Yr oedd ei holl lygredigaethau, yn eu grym a'u cynddaredd mwyaf, ar waith yn ei enaid yn erbyn Duw, pan alwyd ef. Yr oedd yn ddiachos yn erlid y gwr a'i galwodd, ac yn cyffwrdd âg ef yn y man mwyaf tyner, yn y mynydau yr ymwelodd trugaredd gadwedigol âg ef. Dangosodd Crist ynddo ef yn gyntaf bob hir oddef, er siampl i'r rhai a gredent rhagllaw ynddo i fywyd tragywyddol. 1 Tim. 1. 16. Fel hyn yr oedd Duw am ddangos yn yr oesoedd a ddeuai, ragorol olud ei ras. Yr oedd y gwaith hefyd, yn hollol o Dduw, heb ddim help gan ddyn, yn bwrw y cestyll gwrthwynebol ynddo i'r llawr. Yr oedd y gwaith arno yn gyflawn, ac yn gwbl o Dduw. Cafodd ef yn wrthwynebwr gelyniaethol; ond trwy allu dwyfol yn unig, heb ddim help gan ddyn, gwnawd ef yn y fan yn gyfaill, ac yn was ufudd. Yr un yw yr Iesu etto; a'r un yw ei ffyrdd, o ras a thrugaredd!

Parodd yr Arglwydd iddo gyfodi a myned i'r ddinas, a dywedodd wrtho beth oedd iddo ei wneuthur. Pan gyfododd, ac agoryd ei lygaid, ni welai neb: tywysasant ef erbyn ei law, a dygasant ef i Damascus. Bu yno dridiau heb weled, ac heb gymeryd dim lluniaeth. Cafodd Ananias ei gyfarwyddo gan Dduw ato; yr hwn a welodd mewn gweledigaeth yn dyfod i mewn ac yn dodi ei law arno, fel y gwelai eilwaith. Pan ddaeth Ananias, efe a gyfarchodd Saul yn garedig, ac a ddododd ei ddwylaw arno; a syrthiodd oddiar ei lygaid megys cèn, yn arwydd o'r gorchudd oedd ar ei feddwl o'r blaen. 2 Cor. 3. 14. Cafodd ei olwg yn y fan, bedyddiwyd ef, a llanwyd ef â'r Ysbryd Glân. Act. 9. 17—19. Phil. 3. 5—8. Gal. 1. 13—16. Ar yr un amser hefyd, cynnysgaethwyd ef â'r swydd ardderchog o fod yn apostol. Actau 9. 15. a 23. 15. a 26. 17.

Nid oedd yn un o'r deuddeg apostol, ond chwanegwyd ef atynt i fod yn apostol y Cenedloedd; ac nid oedd yn ol i'r apostolion penaf. 2 Cor. 11. 5. Canys, 1. Gosodwyd ef yn y swydd yn ddigyfrwng gan Grist ei hun; yr hyn oedd dodiad dwylaw Ananias yn ei arwyddo, ond nid yn ychwanegu at y galwad. Gal. 1. 1.——2. Gwelodd hefyd Grist ei hun; nid wedi ei adgyfodi, ond wedi ei ogoneddu; nid mewn arddangosiad blaenorol o hyny, fel y tri dysgybl ar y mynydd, Mat. 17. 12. o'r hyn y mae Ioan a Phetr yn gorfoleddu yn fawr, Ioan 1. 14. 2 Petr 1. 16. ond wedi ei gyflawni.——3. Addysgwyd ef, a derbyniodd athrawiaeth yr efengyl, nid gan ddynion, ond trwy ddadguddiad Crist. Gal. 1. 12.——4. Yr oedd yr Ysbryd Glân yn nerthol weithredu ynddo a thrwyddo. 2 Cor. 13. 3. 1 Thes. 2. 13. a 4. 8.——5. Gosodwyd ef yn athraw i holl genedloedd y byd. Actau 9. 5. 1 Tim. 2. 7.——9. Yr oedd eraill yn derbyn yr Ysbryd Glân yn helaeth drwyddo. Act. 19. 6. 1 Tim. 4. 14.——7. Yr oedd dawn gwneuthur gwyrthiau yn rhagorol ganddo. Actau 19. 11, 12. a 20. 9.——8. Tebygol hefyd, na bu pregethiad neb o'r apostolion yn fwy llwyddiannus yn nhröedigaeth pechaduriaid na gweinidogaeth Paul. Actau 26. 18. 1 Thes. 2. 5. Rhuf. 15. 17, 18.

Gwedi iddo gymeryd bwyd ac ymgryfhau, yn eorwydd yn y synagogau pregethodd Grist, mai efe oedd Mab Duw; gorchfygodd yr Iuddewon, a galwyd llawer trwyddo. O Damascus yr aeth i Arabia, lle y bu yn pregethu, tebygol, yn llwyddiannus, a dychwelodd drachefn i Damascus, A. D. 38. Yr Iuddewon a greulonasant yn ei erbyn, ac a gydymgynghorasant i'w ladd. Yr oedd Damascus yn bresennol yn meddiant Aretas brenin Arabia; y llywydd dano a wyliodd y ddinas i'w ddal; am hyny gollyngwyd ef trwy ffenestr mewn basged ar hyd y mur, ac felly diangodd o'u dwylaw hwynt. Gal. 1. 15—21. 2 Cor. 11. 32.——Y mae yn addas sylwi fod y Dr Lardner a'r Esgob Pearson yn barnu, mai ar ol ei daith i Arabia y dechreuodd efe bregethu: ond y mae yr hanes yn ymddangos i mi yn wahanol, a chyda Beausobre yr wyf yn gorfod barnu iddo bregethu cyn myned i'r daith hòno. Act. 9. 19, 20. Mae y 'talm o ddyddiau,' yn adn. 20. yn arwyddo, tybygaf, yr amser cyn y daith hòno; a 'llawer o ddyddiau,' yn adn. 23. yn arwyddo yr amser wedi y daith hòno.

Ar ol tair blynedd, A. D. 38, aeth i fynu i Jerusalem, i ymweled (ιστορησαι, *i sylwi arno yn fanwl*) â

Digitized by Google

Phetr; ac arosodd gyd âg ef, sef yn ei dŷ, tebygol, bymtheng niwrnod. Yr oedd y dysgyblion yn ei ofni yno, nes i Barnabas hysbysu iddynt hanes ei droedigaeth. Nis gwelodd neb o'r apostolion y tro hwnw ond Petr, ac Iago brawd yr Arglwydd. Fel yn Damascus, felly yn Jerusalem, yr oedd yn hyf yn yr Arglwydd, ac a ddadleuodd yn erbyn y Groegiaid, sef Iuddewon yn preswylio yn y gwledydd Groegaidd, ac yn siarad Groeg, nes y cynhyrfwyd hwythau i geisio ei ladd. Y brodyr a'i dygasant ef i Cesarea (Philippi) ac a'i hanfonasant i Tarsus yn Cilicia, ei ddinas ei hun. Y tro hwn y cafodd y weledigaeth y sonia am dani yn Act. 22. 17—21. yn yr hon y parodd yr Arglwydd iddo frysio o Jerusalem, am na dderbynient ei dystiolaeth, ac yr anfonai efe ef yn mhell at y Cenedloedd. Pan oedd yn gweddïo yn y deml, syrthiodd mewn llewyg, a gwelodd yr Iesu yn dywedyd hyn wrtho. Pa un ai y tro hwn ai peidio, y cyfeiria ato yn 2 Cor. 12. 2. sydd ansicr; y mae rhai yn barnu hyny. Bu Paul yn pregethu yn Cilicia dros bedair blynedd neu ychwaneg; pan anfonwyd Barnabas gan yr apostolion i Antiochia (a elwid Antiochia Epidaphne) wedi clywed am lwyddiant yr efengyl, aeth Barnabas i Tarsus i geisio Saul. Act. 11. 25. Gan fod Tarsus yn sefyll ar lân y môr, ac er mai Tarsus oedd ei gartrefle, etto, tebygol, iddo ymweled âg amryw fanau eraill trwy gydol y pedair blynedd y bu yno, i bregethu yr efengyl; a, hwyrach, iddo wneuthur amryw fôr-deithiau byrion i'r gwledydd cymydogaethol i'r dyben hyny; yn eu morio hwynt gellir meddwl y dygwyddodd rhai o'r anffodau a grybwyllir am danynt yn 2 Cor. 11. 25. 'Tair gwaith y torodd llong arnaf; noswaith a diwrnod y bum yn y dyfnfor.' Gwedi colli y llong, tebygol, y bu gorfod arno fyned i gwch agored, a bu noswaith a diwrnod yn y cyflwr peryglus hwnw. Gwel y Dr Paley.

Yn amser newyn mawr yn y wlad hôno, anfonodd y dysgbylion yn Antioch, bob un yn ol ei allu, gymhorth i'r brodyr oedd yn Jerusalem, trwy law Barnabas a Paul: wedi cyflawni y weinidogaeth hon, dychwelasant drachefn i Antioch. Edr. ANTIOCH, CRISTIONOGION.

Yr oedd eglwys Antiochia yn cynnyddu yn ddirfawr yn y dyddiau hyn, ac yr oedd yno amryw brophwydi ac athrawon, heblaw Barnabas a Saul. Pan oeddynt yn nghyd yn gweddio, parodd yr Ysbryd Glân iddynt anfon y ddau wyr hyn i barthau eraill i bregethu yr efengyl; yr hyn a wnaethant trwy ympryd a gweddi, ac arddodiad dwylaw. Act. 13. 1, 2, 3. Barna yr Esgob Pearson mai y pryd hwn y cafodd y weledigaeth o'r drydedd nef, i'w barotôi i'w waith a'i ddyoddefiadau canlynol. Yn ddioed cychwynasant i'w taith, a daethant i Seleucia, ac oddi yno a fordwyasant i Cyprus, a daethant i Salamis, yn pregethu yr efengyl yn mhob man yn synagogau yr Iuddewon. Yno y cafodd y rhaglaw Sergius Paulus ei alw i'r ffydd. Edr. ELYMAS, SERGIUS. O hyn allan mae Saul yn cael ei alw PAUL gan yr hanesydd Luc: y mae cyfnewidiad yr enw mor gyflawn, fel o hyn allan nas gelwir ef unwaith wrth yr enw SAUL, na chanddo ei hun na neb arall. Llawer o ddychymygion a ffurfiwyd am gyfnewidiad ei enw; ond, tebygol, nad oedd un achos neillduol, ond fod yr enw PAUL yn fwy cynnefin i'r Rhufeiniaid na SAUL. SAUL oedd ei enw fel Iuddew, a PAUL fel dinesydd Rhufeinaidd; ac yn mhlith y Cenedloedd yr arfer yr enw Paul yn unig. Gwel Lightfoot. O Cyprus aethant i Perga yn Pamphylia, lle yr ymadawodd Ioan, eu gweinidog, â hwynt, ac a ddychwelodd i Jerusalem. Oddi yno daethant i Antiochia yn Pisidia. Ar y Sabboth aethant i'r synagog, ac a eisteddasant yn mhlith y doctoriaid. Gwedi darllen y gyfraith a'r prophwydi, llywodraethwyr y synagog a ofynasant iddynt, os oedd ganddynt air o gynghor i'w draethu i'r bobl, am iddynt ei draethu. Ar hyn areithiodd Paul yn rhagorol yn y synagog yn nghylch Iesu, mai efe oedd y Messiah addawedig i'r Iuddewon. Pan aeth yr Iuddewon allan, y Cenedloedd a attolygasant gael pregethu yr un peth iddynt y Sabboth nesaf. Y diwrnod hwnw daeth yr holl ddinas, agos, yn nghyd i wrando gair Duw: yr Iuddewon a lanwyd o genfigen pan welsant y torfëydd; ond y Cenedloedd pan glywsant, a fu lawen ganddynt, ac a ogoneddasant air yr Arglwydd: Yr Iuddewon a annogasant y gwragedd crefyddol, a'r penaethiaid, ac a godasant erlid yn erbyn Paul a Barnabas, ac a'u bwriasant allan o'u terfynau. Hwythau a ysgydwasant y llwch oddiwrth eu traed yn eu herbyn hwynt, ac a ddaethant i Iconium, dinas yn Lycaonia. Pregethasant yno yn y synagog, a lliaws mawr o Iuddewon a Groegiaid a gredasant. Gwedi i'r Iuddewon anghrediniol gyffroi y Cenedloedd yn eu herbyn, aethant i Lystra a Derbe. (Edr. y geiriau.) Yma cafodd Paul ei labyddio; gwedi hyny dychwelodd ef a Barnabas i Iconium ac Antiochia, gan gadarnhau y dysgyblion, a'u hannog i aros yn y ffydd, ac ordeinio henuriaid yn mhob eglwys, (dyma y sôn cyntaf am ordeinio) trwy Pisidia, Pamphylia, gan bregethu y gair yn Perga, daethant i Attalia, ac a fordwyasant i Antioch yn Syria, o ba le y cychwynasent. Act. xiv. Gwedi cynnull yr eglwys yn nghyd, adroddasant faint o bethau a wnaethai Duw gyda hwynt, ac iddo agoryd i'r Cenedloedd ddrws y ffydd.

Cyfododd yn eglwysi Syria ymryson mawr yn nghylch yr enwaediad, ordeiniwyd Paul a Barnabas, ac eraill, i fyned i Jerusalem at yr apostolion yn nghylch y cwestiwn hwn.

Yn ol meddwl y rhan fwyaf, hon yw y daith i Jerusalem a grybwyllir am dani yn Gal. 2. 1. Ond mae y Dr Paley yn ammeu hyn, ac yn golygu llawer o wrthddadleuon cryfion yn erbyn barnu mai yr un daith yw. Yn Gal. 2. 2. dywed yr apostol iddo fyned i fynu 'yn ol dadguddiad.' Yn yr Actau, dywedir iddo gael ei anfon gan yr eglwys yn Antioch. Gwel pen. 15. 2. Ysgrifena Paul yn yr epistol, iddo, pan ddaeth i Jerusalem, 'fynegi iddynt yr efengyl, yr hon yr oedd yn ei phregethu yn mhlith y Cenedloedd, ac o'r neilldu i'r rhai cyfrifol,' sef rhyddid y Cristionogion yn mhlith y Cenedloedd oddiwrth yr iau Iuddewaidd. Pa fodd y gallasai wneuthur hyny 'o'r neilldu,' os cenadwri *gyhoeddus* oedd ganddo? Heblaw hyny, nid oes grybwylliad am y cynghor a'r perderfyniad y rhoddir hanes am danynt yn yr Actau, yr hyn oedd yr achos penodol o'i fynediad i Jerusalem; yr hyn nis gallai ei ochelyd, braidd, wrth roddi hanes am yr hyn a ddygwyddodd yn Jerusalem, os yr un daith ydyw. Ymddengys, medd y Dr Paley, yn fwy tebygol i Paul a Barnabas wneuthur taith i Jerusalem, na chrybwyllir am dani yn yr hanes yn yr Actau. Dywedir iddynt aros yn Antioch 'dros *hir o amser* gyd â'r dysgyblion.' Act. 14. 28. Ai annhebyg yw iddynt yn yr 'hir amser hwnw' fyned i fynu i Jerusalem, a dychwelyd drachefn i Antioch? Dr Paley's *Horæ Paulinæ*.

Tramwyasant trwy Phenice a Samaria, gan fynegi tröad y Cenedloedd; a pharasant lawenydd mawr i'r brodyr oll. Gwedi i'r apostolion ymgynghori yn nghyd, anfonasant eu meddyliau yn ol trwy lythyrau at yr eglwysi, gyda Paul a Barnabas, a gwyr etholedig eraill. Gwedi i'r brodyr ddarllen y llythyr yn Antioch, llawenychasant am y dyddanwch. Paul a Barnabas, yn nghylch A.D. 50, gwedi bwriadu myned i ymweled â'r brodyr, y maent yn ymrafaelio yn nghylch cymeryd Marc gyda hwynt, sef yr Ioan, yr hwn a ymadawodd â hwynt yn Pamphylia. Edr. MARC. Bu cymaint cynhwrf fel yr ymadawsant â'u gilydd: Barnabas a gymerodd Marc gyd âg ef, ac a fordwyodd i Cyprus; ond Paul a ddewisodd Silas, ac a dramwyodd trwy Syria a Cilicia, gan gadarnhau yr eglwysi. Act. xv. Edr. IAGO, PETR, SILAS.

4 x

Digitized by Google

Cyn ei gychwyniad y tro hwn y gwrthwynebodd efe Petr yn Antioch. Pa un ai cyn ai gwedi y cynghor yn Jerusalem sydd anhysbys. Daeth Petr i waered i ymweled â'r eglwys flodeuog yno; bwytaodd yn rhydd gyd â'r Cenedloedd cyn dyfod rhai oddiwrth Iago o Jerusalem; ond wedi iddynt ddyfod, ciliodd a neillduodd oddi wrthynt, gan ofni rhai o'r enwaediad; a'r Iuddewon a Barnabas a gyd-ragrithiasant. Pan welodd Paul nad oeddynt yn troedio yn ol gwirionedd yr efengyl, gwrthwynebodd hwynt, yn enwedig Petr, y cyntaf yn y bai, yn hŷf ac yn gadarn, am eu bod i'w beio. Gal. 2. 11, &c.

Rhai a farnant iddo fyned yr amser hwn o Cilicia i Crete, i bregethu yr efengyl yno. Gadawodd Titus yno i iawn drefnu y pethau oedd yn ol, fel yr ordeiniai henuriaid yn mhob dinas. Tit. 1. 2. Gwel Capellus.

Daeth ef a Silas i Derbe a Lystra. Yno y cyfarfu â Timotheus, yr hwn a fynai Paul iddo fyned gyd âg ef, ac a'i cymerodd ac a'i henwaedodd, o achos yr Iuddewon oedd yn y lleoedd hyny. Edr. TIMOTHEUS. Tramwyasant trwy Lycaonia, Phrygia, a Galatia. Yr amser hwn, tebygol, y pregethodd mor llwyddiannus yn Galatia, ac y planodd yr eglwysi blodeuog, at ba rai wedi hyny yr ysgrifenodd ei lythyr rhagorol. Ni oddefodd yr Ysbryd Glân iddynt bregethu yn Asia, sef rhyw barth o'r wlad hòno, a elwid felly yn neillduol, sef Lydia, yn cynnwys Ionia ac Ætolis, nac yn Bithynia. Parthau o Asia Leiaf oedd y ddau le hyn;* a phlanwyd eglwysi ynddynt gwedi hyny; ond ni fynai yr Ysbryd Glân iddynt hwy fyned yno yn bresennol; ond prysuro yn mhellach yn mlaen oddiwrth Jerusalem tua thir y Groegiaid. Gwedi myned i Mysia, daethant i Troas. Yma, tebygol, yr ymunodd Luc âg ef, gan ei fod yn rhoddi ei hun gyd âg ef yn yr hanes o hyn allan. Yma yr ymddangosodd iddo mewn gweledigaeth ŵr o Macedonia, ac a ddeisyfodd arno ddyfod i Macedonia, i'w cymhorth yno. Yn credu i Dduw ei alw yno i bregethu yr efengyl, cychwynodd yn ddioed o Troas, a mordwyodd i ynys Samothracia, ac oddi yno i Neapolis, ac oddi yno i Philippi yn Macedonia. Act. xvi. Edr. LYDIA, GWEDDI, PHILIPPI. Gwedi myned yn ddeheuol trwy Amphipolis, ac Apolonia, dinasoedd yn Macedonia, daethant i Thessalonica, y brif ddinas. Edr. JASON, THESSALONICA. Oddi yno aeth Paul a Silas i Berea. Oblegid y cyffroad a wnaeth yr Iuddewon a ddaethant o Thessalonica, gorfu ar Paul ffoi ar frys, a chyfarwyddwyd ef i Athen, ond Silas a Timotheus a arosasant yn Berea. Yn Athen cynhyrfwyd ef wrth weled eu heilun-addoliaeth, i ymresymu â hwynt, a phregethu iddynt y Duw byw, yr hwn nid adwaenent, ac wrth hyny mae bagad yn troi at Grist. Act. xvii. Edr. AREOPAGUS, ATHEN, BEREA, DAMARIS, DIONYSIUS. Gwedi clywed gan Timotheus a Silas am orthrymder mawr y dysgyblion yn Thessalonica, anfonodd y ddau yn ol atynt i'w cadarnhau a'u cysuro. Er nad oes grybwylliad yn yr hanes i Timotheus a Silas ddyfod at Paul yn Athen; ond oddiwrth y geiriau yn 1 Tim. 3. 1—7. gellir casglu yn ddilys iddynt ddyfod yno ato, ac iddo eu hanfon oddi yno yn ol drachefn i Thessalonica. 'Am hyny, gan na allem ymattal yn hŵy, ni a welsom yn dda ein *gadael ein hunain* yn Athen; ac a ddanfonasom Timotheus ein brawd, a gweinidog Duw, a'n cyd-weithiwr yn efengyl Crist, i'ch cadarnhau chwi, ac i'ch dyddanu yn nghylch eich ffydd.' Aeth Paul o Athen i Corinth, a daeth Silas a Timotheus ato drachefn yno. Dygasant newyddion daionus am y dysgyblion yn Thessalonica, er mawr gysur i Paul. 'Eithr yr awr hon, gwedi dyfod Timotheus atom oddi wrthych,' &c. 1 Thes. 2. 11, 17. a 3. 1—7. Yn Corinth cyfarfu âg Acwila a Phriscila, a bu yn cydweithio gyda hwynt wrth eu celfyddyd o wneuthur pebyll. Bob Sabboth yr ymresymodd yn y synagog, ac a gynghorodd yr Iuddewon a'r Groegiaid, ac a dystiolaethodd i'r Iuddewon mai yr Iesu oedd Crist, neu *y Crist*. Oddi yma yr ysgrifenodd ei epistol cyntaf at y Thessaloniaid, yr hwn yw y cyntaf a ysgrifenodd o'i holl epistolau. Ysgrifenodd yr ail atynt yn fuan ar ol y cyntaf. Y mae, gan hyny, yr adysgrifen yn niwedd y ddau epistol hyn yn gyfeiliornus, yn mha un y dywedir, mai o Athen yr ysgrifenwyd hwynt. Am ei lafur, ei lwyddiant, a'i ddyoddefiadau yn Corinth, Edr. CORINTH. Ymddengys yn debygol fod Paul yn o isel a chyfyng arno yr amser hwn yn Corinth; naill ai trwy wrthnysigrwydd creulon yr Iuddewon, neu trwy sylwi ar aflendid a drwg foesau trigolion y ddinas, neu trwy ymwybyddiaeth o'i annigonolrwydd a'i wendidau ei hun, (1 Cor. 2. 3.) neu yn hytrach, y cwbl efo eu gilydd, yn cyd-wasgu arno. I'w gysuro, ei gryfhau, a'i galonogi, yr Arglwydd a ymddangosodd iddo mewn gweledigaeth liw nos, ac a ddywedodd wrtho, 'Nac ofna, eithr llefara, ac na thaw; canys *yr wyf fi gyda thi*, ac ni osyd neb arnat i wneuthur niwed i ti; o herwydd y mae i mi bobl lawer yn y ddinas hon.' Yr oeddynt y pryd hwnw, er eu holl ffieidd-dra, (1 Cor. 6. 9, 10, 11.) yn bobl iddo mewn arfaeth, trwy etholedigaeth; ac yr oedd yr amser wedi dyfod i alw y rhai a ragluniodd efe. Rhuf. 8. 30. Yr oeddynt y pryd hwnw, er eu bod yn eu pechodau, yn eiddo iddo trwy roddiad, a thrwy bryniad; yr oedd yno *lawer* o'r cyfryw; ac yr oeddynt *oll* yn adnabyddus i Grist; wedi eu caru a'u prynu ganddo; ac o'u plegid hwy yr oedd yn rhaid i'r efengyl gael ei phregethu yn Corinth etto yn hŵy, er pob gwrthwynebiad. Yr oedd defaid yno, ac yr oedd yn rhaid eu cyrchu. Ioan 10. 16. O Corinth, y barna rhai, yr amser hwn, yr ysgrifenodd ei epistol rhagorol at y Galatiaid.

Gwedi aros yno ddyddiau lawer, sef yn nghylch deunaw mis, ymadawodd, ac Acwila a Phriscila gyd âg ef, ac a fordwyodd o Cenchrea i Syria. Dywedir iddo gneifio ei ben yn Cenchrea; canys yr oedd arno adduned. Beth oedd yr adduned, nis gellir ond dychymygu; y farn fwyaf gyffredinol yw, mai adduned y Nazarëad oedd. Rhai yn wir a farnant mai Acwila oedd â'r adduned arno, ac a gneifiodd ei ben, yr hwn yw yr enw nesaf o flaen y geiriau. Gadawodd Priscila ac Acwila yn Cenchrea, a daeth i Ephesus; gadawodd Ephesus, am ei fod am fyned i Jerusalem, ac a ddaeth i Cesarea, sef Cesarea Stratonis, yr hon oedd borthladd mwy diogel na Joppa, er bod Joppa yn nes i Jerusalem. Oddi yno aeth i fynu i Jerusalem y bedwaredd waith, yn nghylch A.D. 54, ac a gyfarchodd well i'r eglwys yno, ac a ddaeth i waered i Antiochia, lle y gorchymynwyd ef i'r Arglwydd ar y cyntaf. Ni bu ei arosfa ond byr y tro hwn yn Jerusalem ac Antiochia, tebygol; a pheth oedd ei ddyben yn myned i Jerusalem, sydd anamlwg yn hanes Luc. Y pwnc mwyaf yn ngolwg yr hanesydd sanctaidd, oedd hysbysu y dull y taenodd yr efengyl trwy ei weinidogaeth yn mhlith y Cenedloedd; y mae yn myned heibio, gan hyny, i bethau eraill yn fyr ac yn gryno, i ymhelaethu ar y pwnc mawr hwn. Rhaid mai dyma lwybr ei daith, ac onidê, nis gellir profi ei fod yn Jerusalem, yn ol yr hyn yr oedd yn ei gyflawn fwriadu.

Ymadawodd Paul âg Antioch y drydedd waith, a thramwyodd trwy Galatia a Phrygia, mewn trefn, gan bregethu yr efengyl, a chadarnhau y dysgyblion. Gwedi tramwyo trwy y parthau uchaf, daeth i Ephesus. Cafodd yno rai o ddysgyblion Ioan Fedyddiwr, (ac nid Apolos, tybygaf) a chwedi eu bedyddio i fedydd Ioan. Deuddeg o'r rhai hyn a addysgwyd yn fanylach gan Paul, ac a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd Iesu: nid gan Paul, yr hwn oedd yn bedyddio

* Y parth hwnw yn neillduol a elwir Asia, lle y mae dinas Ephesus. Jerome.

Digitized by Google

ond yn dra anaml, ond un o'r henuriaid, neu ryw un addas. Derbyniasant yr Ysbryd Glân trwy arddodiad dwylaw yr apostol, a phrophwydasant, a llefarasant â thafodau. Yn y goleu hwn y mae y geiriau yn ymddangos i mi, i'r deuddeg gael eu bedyddio, yn gystal ag arddodiad dwylaw yr apostol; er bod rhai o wahanol feddwl, ac yn barnu mai geiriau Ioan, ac nid yr hanesydd Luc, ydyw iddynt gael eu bedyddio. Gwel Vossius, Beza, Coccejus, Lightfoot, Whitby, Gill, Scott. Am lafur, dyoddefiadau, a llwyddiant yr apostol y waith hon yn Ephesus, Edr. ANIFEL, DEMETRIUS, TYRANNUS, EPHESUS, SCEFA. O Ephesus, yr amser hwn, ac nid o Philippi, fel yn yr ol-ysgrifen, yr ysgrifenodd yr epistol cyntaf at y Corinthiaid (pen. 1. 11.) wedi clywed gan deulu Chloë hanes am eu hafreolaeth yno; a hwyrach yn fwy cyflawn gan Stephanus, Ffortunatus, ac Achaicus. Barna rhai, hefyd, iddo ysgrifenu oddi yma yr epistolau at Titus, ac at eglwysi Galatia, ac nid o Nicopolis, a Rhufain, fel yn yr ol-ysgrifen yn ein Biblau ni.

Ymadawodd âg Ephesus, gwedi galw y dysgyblion ato a'u cofleidio, i fyned i Macedonia. Daeth i Troas: parodd gryn anesmwythder iddo am na chafodd Titus yn Troas, yr hwn oedd yn ei ddysgwyl o Corinth; ond daeth ato yn Macedonia, er ei fawr lawenydd, ac a ddygodd iddo newyddion da o Corinth. 2 Cor. 2. 13. a 7. 5—16. Oddi yno yr ysgrifenodd ei ail epistol at y Corinthiaid. Edr. CORINTH. O Macedonia daeth i Achaia; ymwelodd â'r ffyddloniaid yn Corinth, a derbyniodd elusenau yr eglwysi hyny i'w dwyn i'r brodyr tlodion oedd yn Jerusalem. Yr amser hwn yr ysgrifenodd ei epistol nodedig at y Rhufeiniaid, ac a'i hanfonodd gyda Phebe, gweinidoges yr eglwys yn Cenchrea, yn agos i Corinth. Gwedi aros am dri mis yn y parthau hyn, yr oedd ar fedr morio i Syria; ond o herwydd gwneuthur o'r Iuddewon gynllwyn iddo, ar fedr ei ladd, dychwelodd trwy Macedonia, a chyd-ymdeithiodd âg ef hyd yn Asia, Sopater o Berea; ac o'r Thessaloniaid, Aristarchus, a Secundus, a Gaius, a Timotheus; ac o'r Asiaid, Tychicus, a Trophimus. Act. 20. 4. Mordwyasant o Philippi, ac a ddaethant i Troas mewn pum niwrnod. Yno yr oedd y gwyr uchod yn dysgwyl am dano. Buont yno saith niwrnod. Edr. EUTYCHUS. Mordwyodd ei gyfeillion, ond aeth Paul ar ei draed i Assos; ac oddi yno aethant i Mitylene, ac oddi yno i Melitus. O Miletus yr anfonodd i Ephesus, ac alwodd ato henuriaid yr eglwys, ac a fynegodd iddynt beth a ddygwyddai iddo; gwedi gorchymyn praidd Duw iddynt, eu rhybuddio rhag gau athrawon, a gweddïo gyda hwynt, ymadawsant â'u gilydd gyda llawer o ddagrau. Wylo yn dost a wnaeth pawb; a syrthiasant ar wddf Paul, ac a'i cusanasant; gan ofidio yn benaf am y gair a ddywedasai efe, 'na chaent weled ei wyneb ef mwy.' Wele, mor hardd yw cariad ac anwyldeb Cristionogrwydd! Enaid gwir grefydd ydyw; heb ba un nid yw pob peth arall ond corph marw! Pwy a ddichon ddarllen yr hanes sanctaidd, heb brofi effeithiau dymunol ar ei feddwl, wrth weled ffrwythau hyfryd cariad brawdol!

O Miletus y mordwyasant i Coos, a thranoeth daethant i Rhodes, ac oddi yno i Patara; gan adael Cyprus ar y llaw aswy, tiriasant yn Tyrus, oddi yno daethant i Ptolemais, a Cesarea, a Jerusalem. Act. 21. 1—8, 15. Yn mhob un o'r lleoedd hyn bu cyfarchiad caredig rhyngddo ef a'r dysgyblion. Yn Cesarea, prophwydodd un Agabus am ei flinderau yn Jerusalem oddiwrth yr Iuddewon. Edr. AGABUS. Yntau, mewn ysbryd rhagorol, a dystiolaethodd ei barodrwydd, nid yn unig i oddef ei rwymo, ond i farw hefyd yn Jerusalem, er mwyn enw yr Arglwydd Iesu. Yr hyn oedd yn ei gymhell mor gryf i fyned i Jerusalem, er holl erfyniadau ei frodyr i'r gwrthwyneb, oedd yr achlysur a gai o bregethu yr efengyl i'r holl lïaws ar unwaith, a ddeuai yn nghyd o'r holl wledydd ar yr ŵyl fawr yno. Ei gariad at eneidiau dynion, a gogoniant Crist, oedd yn ei gymhell mor gryf, fel yr oedd peryglon mawrion yn diflanu fel diddim o'i olwg. Yr oedd arweiniad yr Ysbryd Glân arno yn y cwbl, a'i weithrediad mor nerthol, fel nad oedd dim anhawsderau yn ei ddigaloni a'i lwfrhau. Am y dygwyddiadau yn Jerusalem, creulondeb yr Iuddewon yn ei erbyn, ei garchariad, ei ymddangosiad o flaen Ffelix, Ffestus, ac Agrippa, a'i fordaith beryglus i Rufain—rhoddir hanes manwl yn yr Actau, o pen. xxi. hyd ddiwedd y llyfr, fel y mae yn afreidiol helaethu arnynt yma; yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o honynt wedi bod dan ein sylw dan eiriau eraill, priodol iddynt. Bu ddwy flynedd yn garcharor yn Rhufain, ond yr ydoedd yn byw yn ei dŷ ardrethol ei hun (ond er hyny mewn cadwyn, Eph. 6. 20.) ac yn cael rhyddid i dderbyn 'pawb a ddeuai i mewn ato, a phregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, yn ddiwahardd.' Act. 28. 30, 31. Y mae ei hanes gwedi y ddwy flynedd hyn yn gwbl ansicr. Wedi ei ryddhau o'i garchariad cyntaf, naturiol yw meddwl iddo bregethu yr efengyl yn yr Ital; ac yn A. D. 64, bernir iddo fyned, yn ol ei fwriad, i'r Hispaen, ac oddi yno i Crete, lle y gadawodd Titus i olygu yr eglwysi yno. Oddi yno, gyda Timotheus, mordwyodd i Jerusalem y bummed waith; ac wedi hyny, dychwelodd, hwyrach, trwy Antioch, yn Syria, i Asia Leiaf, ac ymwelodd â'r Ephesiaid, a'r Colossiaid, y rhai nis gwelodd o'r blaen. Oddi yno aeth i Macedonia, ac arosodd ychydig amser, gyd â'r Philippiaid anwyl, a gauafodd, A. D. 65, yn Neapolis, yn Epirus. O Macedonia, pan ar y daith hon, yr ysgrifenodd at Timotheus yr epistol cyntaf, yn ol barn Dr Paley. Yn A. D. 66, aeth i Achaia, a Corinth, a Troas, a Miletus; ac yn A. D. 67, aeth i Rufain, lle y carcharwyd ef gan Helisus Cesaranius, yr hwn oedd y pryd hyny yn llywodraethu dan Nero, tra yr oedd yr ymerawdwr yn ngwlad Groeg. Y farn fwyaf gyffredin yn mhlith y dysgedigion yw, ei fod ef ddwy waith yn garcharor dan Nero, a bod deng mlynedd rhyngddynt. Bu ei garchariad er llwyddiant i'r efengyl. Yr oedd ei rwymau yn Nghrist yn eglur yn yr holl lŷs, ac yn mhob lle arall; ac aeth llawer o'r brodyr yn fwy hyderus wrth ei rwymau, i draethu y gair yn ddiofn. Phil. 1. 12—14. Cafodd amryw o deulu yr ymerawdwr Nero eu dychwelyd i'r ffydd. Phil. 4. 22. O'r carchar yr ysgrifenodd ei epistolau at Philemon, y Colossiaid, yr Ephesiaid, yr Hebreaid, (pen. 13. 24.) a'r ail at Timotheus.

1. Yr oedd Timotheus yn garcharor gyd âg ef y waith gyntaf, ac a barhaodd yn garcharor wedi rhyddhau Paul. Heb. 13. 23. Ac y mae Paul yn uno Timotheus gyd âg ef mewn tri o'r epistolau a ysgrifenodd yn ei garchariad cyntaf. Philem. 1. Col. 1. 1. Phil. 1. 1. Ond yr oedd Timotheus yn absennol oddi wrtho yn ei ail garchariad. 2 Tim. 4. 21.

2. Yn ei garchariad cyntaf yr oedd yn ei dŷ ardrethol ei hun, a rhyddid i bawb ddyfod ato; ond yr ail waith yr oedd yn garcharor mor gaeth, fel braidd y daeth Onesiphorus o hyd iddo. 2 Tim. 1. 17.

3. Yn ei garchariad cyntaf mae yn ysgrifenu gyda sicrwydd am ei ryddhad yn fuan. Phil. 1. 25. a 2. 24. Philem. 22. Ond yr ail waith y mae yn ysgrifenu at Timotheus, (2 Tim. 4. 6—19.) mewn iaith gwbl wahanol; 'Amser fy ymddattodiad i a *nesáodd—mi a orphenais fy ngyrfa*.'

4. Pan ysgrifenodd yr epistol cyntaf at Timotheus, yr oedd Marc gyd âg ef yn Rhufain; ac yn ymuno yn cyfarch y Colossiaid (Col. 4. 10.) ond pan ysgrifenodd ei ail epistol, mae yn dymuned ar Timotheus ei ddwyn gyd âg ef, 'Canys buddiol yw efe i mi i'r weinidogaeth,' medd efe. Pen. 4. 11.

5. Yn 2 Tim. 4. 28. dywed, 'Erastus a arosodd yn Corinth.' Ond nis gallasai hyn fod am un daith o Corinth a wnaeth Paul cyn ei garchariad cyntaf yn

Digitized by Google

Rhufain; canys pan adawodd Paul Corinth ddiweddaf cyn ei garchariad, yr oedd Timotheus gyd âg ef. Nid oedd angen, gan hyny, hysbysu i Timotheus i Erastus aros ar ol yn Corinth, canys buasai hyny mor hysbys i Timotheus ag i Paul. Act. xx.

6. Yn yr un adnod, dywed iddo 'adael Trophimus yn Miletum yn glaf.' Pan adawodd Paul Miletum, ar ei ffordd i Jerusalem, ni adawyd Trophimus ar ol, ond cyd-ymdeithiodd âg ef i'r ddinas hòno. Act. 21. 29. Y mae y ddau beth diweddaf yn eglur yn cyfeirio at daith a wnawd gan Paul yn ganlynol i ddiwedd hanes Luc yn yr Actau am dano, ac ar ol rhyddhad Paul o'i garchariad cyntaf. Ysgrifenwyd, gan hyny, yr epistol sydd yn rhoddi hanes am y pethau hyn, gan ei fod wedi ei ysgrifenu pan ydoedd Paul yn garcharor yn Rhufain, wedi ei ddychweliad i Rufain, a'i garchariad yno yr ail waith.

7. Yr oedd Demas gyd âg ef pan yr ysgrifenodd yr epistolau y carchariad cyntaf; ond yn yr ail epistol at Timotheus, dywed, 'Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presennol, ac aeth i Thessalonica.' Pen. 4. 10. Col. 4. 14.

Nid yw yr hanes am ei farwolaeth ond dychymygol, gwedi ei orchuddio â thywyllwch; yn unig, tebygol, iddo ef gael ei ferthyru yn Rhufain, trwy ddibendod; canys nid oedd gyfreithlawn croeshoelio dinesydd Rhufeinaidd. Y lle y dibenwyd ef ydoedd, meddant, Aqua Salvia, tair milltir o Rufain. Claddwyd ef, meddant, yn Via Ostiensis, yn nghylch dwy filltir o'r ddinas, yn mha le yr adeiladodd Cystenyn Fawr adeilad harddwych yn lle addoliad, o barch iddo, a chant o golofnau marmor iddi. Yr ymerawdwr Theodosius a dynodd hon i lawr, fel yn rhy wael, ac a adeiladodd un fwy, a mwy costus a harddwych.

Y mae yr hanes rhyfedd hwn yn gosod o'n blaen un o'r dynion mwyaf nodedig ac enwog, ac un o'r offerynau mwyaf defnyddiol i blant dynion, yn llaw yr Arglwydd, a fu ar y ddaear erioed. Dywedir ei fod yn fychan o gorpholaeth; ond nid yw dywediadau yr hynafiaid am hyn yn haeddu fawr o'n sylw. Am alluoedd naturiol ei feddwl, yr oeddynt, yn ddiddadl, yn gyflawn ac ardderchog, ac yn ei nodi yn un o'r dynion mwyaf a godidocaf. Yr oedd ei ddysgeidiaeth hefyd yn helaeth. Fel ymresymwr ac areithiwr, ni ragorodd neb erioed arno, fel y tystia ei epistolau, a'i areithiau yn llyfr yr Actau. Y mae ei ddoniau ysbrydol a'i sancteiddrwydd, yn graddu cyfuwch yn yr eglwys, ag ydyw ei ddoniau naturiol yn mhlith dynion yn gyffredin. Y mae ei ostyngeiddrwydd o'r dyfnaf; hawdd ganddo fyned dan draed eraill fel y penaf o bechaduriaid, a llai na'r lleiaf o'r holl saint; y mae ei feddwl, gyd âg *ardderchogrwydd sanctaidd*, yn sathru ar holl fawredd, gwychder, meluswedd buchedd, moethau, ac esmwythdra cnawdol; a'i feddylfryd yn cofleidio, yn synied pethau dwyfol, ac yn ymglymu wrth bethau nefol, gyd â'r awyddfryd mwyaf; ei zel sydd y fath, fel y mae yn gwbl yn ennyn yn fflamiol dros ogoniant Duw, ac iechydwriaeth dynion; † ei gariad sydd mor rhyfedd ac anghydmarol, fel y mae yn foddlon, pe byddai bosibl, i fod yn anathema dros ei frodyr yn ol y cnawd. Edr. ANATHEMA. Ei ddiwydrwydd a'i wroldeb dianwadal ydynt yn ddiball ac yn anorchfygol; ei gallineb, ei ddeall, a'i ddoethineb ydynt mor fawr, fel y mae yn canfod ar yr un olwg yn mhob amgylchiad, pa bryd, pa le, a pha fodd i weithredu gyd â'r priodoldeb mwyaf; y mae ei gymedroldeb arno ei hun, a'i haelioni i eraill, yn cydraddu; ei burdeb, a'i ymgadwad rhag pob rhith drygioni, ydynt yn hynodol. Er ei fod yn rhydd oddiwrth *bawb*, gwnaeth ei hun yn was i *bawb*, fel yr ennillai fwy. Yr oedd y dyn mwyaf annibynol yn y byd, yn mhob ystyr; etto ymwnaeth yn bob peth i bawb, fel y gallai yn hollol gadw rhai. 1 Cor. 9. 19, &c. Yn ei holl fywyd, ac yn ei holl athrawiaeth, nid oedd yn barnu dim o werth ei wybod a'i draddodi, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio; er mwyn yr hwn yr oedd yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled; wedi ei groeshoelio i'r byd, a'r byd iddo yntau trwyddi, yr oedd yn ymffrostio yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist. Gellir gofyn, gyd âg addasrwydd, A fu y fath un yn mhlith y rhai oll a gyfranogasant o lwgr natur Adda? Yr oedd ei wroldeb gwedi ei gyd-dymheru â mwyneidd-dra anarferol, a'r cariad mwyaf tyner. Yr oedd ei feddwl bywiog yn gysylltiedig â'r farn fwyaf gywir, a'r galluoedd mwyaf ymresymgar. Tros yspaid llawer o flynyddoedd, y dyn hwn, yn ol tymher ei natur yn drahaus, yn waed-wyllt, ac yn greulawn, a fu byw yn llawn dynserch, ac yn gyfaill i ddynolryw; yn wastad yn talu da am ddrwg, yn llawn amynedd a mwyneidd-dra, ac yn ddiymmod yn ymestyn at bethau nefol ei hun, ac yn llafurio yn ddiorphwys i gael dynion i'r un agwedd ac i'r un llwybr ag ef ei hun.

* Mae geiriau Beza am dano yn deilwng o'u coffâu. 'Wrth ystyried holl ansawdd a nodwedd yr ymadroddion, pan y mae yn taranu dirgeledigaethau Duw, nid oes fawredd cyffelyb yn Plato ei hun; pan yn llanw y meddwl âg ofn, nid oes y fath nerth a hyawdledd yn Demosthenes; ac yn olaf, nid wyf yn cael dull mynylach o ddysgu yn Aristotle neu Galen.'

† Yr oedd zel apostolion Crist Iesu, yr efengylwyr, a'r cenadau apostolaidd, yn fawr ac anghredadwy yn nghanol miloedd o beryglon a rhwystrau; ac nid llai oedd y ffrwyth a'r llwyddiant: ac etto yn y cyfryw ddirfawr lafur a diwydrwydd, hyn yw clod Paul, yr hwn sydd yn ymffrostio yn yr Arglwydd, *ei fod ef wedi llafurio yn helaethach na hwynt oll.* 1 Cor. 15. 10. Felly y mae y gwr hwn yn gweithredu, fel pe buasai holl anialwch y byd cenedlig wedi ei roddi iddo trwy orchymyn dwyfol, i'w aredig, a'i hau, a'i ddarostwng i Grist Iesu. Vitringa *in Esa. cap. 32. ult.*

PAWB, (paw) oll, cwbl, pob un, cymaint un, i gyd oll.

Rhydd barn i *bawb*. *Diar.*

'Os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb.' 2 Cor. 5. 14. Yr oedd pawb yn feirw, dros ba rai y bu Crist farw; a meirw y buasent byth oni buasai iddo farw drostynt; ond bu farw drostynt ac yn eu lle; ac am iddo farw drostynt, bydd pawb o honynt fyw byth, a byw i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd er eu cyflawnhau.

PAWEN—AU, (paw) palf, crafanc, llaw.

Efe sy'n dysgu rhyfel ym'
Gan roi grym i'm *pawenau*.
*E. Prys*, (Ps. 18. 34.)

PAWR, PORION, (py-awr) porfa; pori. Exod. 22. 5. Esa. 11. 7. Edr. PORI.

PE—D—S, cysyllt-air, os: arferir y goreiriau hyn i flurfio moddau; megys yr ammodadwy a'r galluadwy. Arferir *pe* o flaen geiriau yn dechreu â chydseiniaid; megys, 'pe buasit ti yma,' Ioan 11. 21. a *phed* a arferir o flaen geiriau yn dechreu â llafariaid; megys, ped awn, petwn, petit, petai, petym, petych, petynt:—'Ped adwaenit ti ddawn Duw.' Ioan 4. 20. a 21. 25. Arferir *pes* yn yr un ystyr a *pe*, a *ped*, yn cadw llythyrenau y geiriau a fyddant yn canlyn heb eu cyfnewid.

PEC—AID, *Saes.* PECK: mesur yn cynnwys dau alwyn Saesonig. Mat. 13. 33. Edr. MESUR. Mae *peck* Saesonig a'r peg Cymreig yn ddau fesur o faintioli gwahanol iawn, un a gynnwys ddau alwyn, a'r llall, sef y peg, a gynnwys wyth *bwsiel*, sef 64 o alwyni. Y mesur Cymreig nesaf i'r σατον (*saton*) neu *seah*, Hebreaidd, yw y cibin, fel y cyfieitha W. S. Luc 13. 21. Y cib a gynnwys bedwar galwyn; gan hyny y mae yn fwy na'r *peck* Seisonig.

PECAH, פקח [*yr hwn sydd yn agor*] mab Remaliah, tywysog llu Pecahiah, brenin Israel; lladdodd ei feistr, ac a deyrnasodd yn ei le 22 o flynyddoedd; a lladdwyd yntau gan Hosea mab Elah. Gwnaeth yr

Digitized by Google

hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd. Dan ei deyrnasiad ef, Tiglath-Pilneser, brenin Assyria, a enillodd Ijon, Abel-bethmaachah, Janoah, Cedes, Hazor, Gilead, a Galilee, a holl wlad Naphtali, ac a gaethgludodd y trigolion i Assyria. 2 Bren. xv.

**PECAHIAH**, פקחיה [*yr Arglwydd sydd yn agor*] mab ac olynwr Menahem, brenin Israel. Gwnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, ac a laddwyd yn Samaria yn mhen dwy flynedd gan Pecah, ei dywysog. 2 Bren. 15. 22, 23.

**PECOD.** Edr. MERATHAIM.

**PECHOD—AU—ADUR**, (pech) *Heb.* חטא (*cheta*) a חטאת (*chatach*) *Llad.* PECCATUM; *Gwydd.* PEAKADH: bai, gwŷd, trosedd, caredd, camwedd; pechod gwreiddiol, y cynfai.—'Anghyfraith yw pechod,' sef *ανομια, anghydffurfiad*, dyn neu angel, â chyfraith Duw. 1 Ioan 3. 4. Fel y mae y gyfraith yn cyrhaedd at yr holl ddyn, a phob rhan o hono, felly y mae anghydffurfiad yn mhob rhan o hono, yn ei enaid a'i gorph, yn bechod, sef yn fai, neu yn drosedd, o herwydd pa un y mae efe yn euog ger bron Duw, ac y byddai yn gyfiawn i Dduw ei gospi. Pob peth mewn dyn nad yw yn gyfiawn yn cydffurfio â chyfraith Duw, ac yn ateb yn gwbl iddi, yn ei farn, ei ddymuniadau, ei feddwl, ei ewyllys, &c., neu yn ei eiriau a'i weithredoedd, sydd yn bechod. Gelwir ef wrth amrywiol enwau, yn cyfateb i natur y palldod, neu y gweithrediad pechadurus hwnw.

Y mae pob pechod yn fai yn erbyn Duw, oblegid y mae efe yn cael ei wrthwynebu a'i ddianrhydeddu ynddo, a'i awdurdod yn cael ei fychanu a'i wrthod. Y mae rhai pechodau, nid yn unig yn erbyn Duw, ond yn erbyn y dyn ei hun, ac yn erbyn dynion eraill; megys troseddiadau o orchymynion yr ail lech, yn cynnwys ein dyledswydd tu ag at eraill; ond y mae pob pechod yn erbyn ein cymydog, yn erbyn Duw hefyd; canys y mae Duw yn ei gyfraith yn cael ei ddianrhydeddu. Mae y gyfraith yn *uniawn*, am hyny *gwyrni* ydyw pechod; mae y gyfraith yn *gyfiawn* i gyd oll, am hyny y mae pechod, yn mhob gradd o hono, yn *anghyfiawnder*; y mae y gyfraith yn *sanctaidd*, am hyny y mae pob pechod yn *ansanctaidd*; y mae y gyfraith yn *dda*, yn *dda* ynddi ei hun, ac yn *dda* i ninnau, gan hyny y mae pechod yn *ddrwg* ynddo ei hun, ac yn *ddrwg* i ninnau.

Y mae yn dra hawdd canfod nad ydyw meddwl dyn ddim mewn cydffurfiad â chyfraith Duw, ond ei fod yn dra phell oddiwrth hyny. Nid oes ynddo ef yr hyn y mae y gyfraith yn ei ofyn; ac y mae ynddo yr hyn y mae y gyfraith yn ei wahardd. Os ystyrir ansawdd hanfod a phriodoliaethau Duw, mae mor hawdd gweled a bod yn sicr ddiogel, nad fel y mae dyn, y creodd Duw ef: nis gallasai y bai fod ynddo yn ei greadigaeth. Preg. 7. 29. Fel nad ydyw y gyfraith yn achos o anghyfraith mewn dyn, felly nis dichon Duw perffaith gyfiawn a sanctaidd fod yn achos o ansancteiddrwydd ac anghyfiawnder mewn dyn. Y peth, gan hyny, a ddaeth i mewn iddo wedi ei greu, o le arall, ac nid o Dduw, yw pechod.

Y mae hanes ei ddechreuad, a'i drosglwyddiad i'r natur ddynol, gwedi ei roddi yn dra eglur gan Dduw ei hun yn Gen. iii. Y dyn cyntaf a bechodd trwy anufuddhau gorchymyn Duw, a thrwy anufudd-dod yr un dyn hwnw y gwnawd ei *holl* hiliogaeth yn bechaduriaid euog. Rhuf. 5. 9. Y *cynfai* ydyw trosedd y dyn hwnw o orchymyn Duw, ffrwyth ac effaith hwnw yw y llwgr sydd yn wreiddiol yn mhob dyn wrth naturiaeth; ac oddiar y gwreiddyn llygredig hwn y mae holl bechodau gweithredol yn tarddu. Nid am eu bod yn *wreiddiol* ynddo, fel ei hiliogaeth, yn unig, y pechodd ac y llygrwyd pawb o'i hiliogaeth ynddo a thrwyddo; ond am eu bod yn gyfammodol ynddo, ac yntau yn eu cynddrychiolI oll fel y cyfryw. Yr oedd ei holl hiliogaeth yn Adda, nid yn unig yn ei lwynau fel ei hil, ond hefyd ynddo fel eu pen-cyfammodwr. Y mae hil pawb yn lwynau eu rhieni, yn ol trefn a deddf natur: eithr ni bu un tad, ond y tad cyntaf, yn bencyfammodwr i'w hiliogaeth, oddi eithr yn gysgodol. Ond yr oedd holl blant Adda yn gyfammodol ynddo ef, a'i weithred ef o ufudd-dod neu anufudd-dod, oedd yn weithred iddynt hwy, yn gymaint a phe buasent yn ei chyflawni yn eu personau eu hunain: 'Trwy anufudd-dod *un dyn* y gwnaed llawer yn bechaduriaid.' Ei weithred ef oedd gweithred pawb cyfrifedig ynddo; pechodd pawb o'i hiliogaeth ei bechod ef, *ynddo* ef: ac y mae pawb oedd yn y cyfammod gyd âg ef, trwy y weithred hòno o anufudd-dod, fel yntau, dan felldith y cyfammod toredig hwnw.

Cyd-gyfranogodd ei holl hiliogaeth o lwgr ei natur, am eu bod yn gyd-gyfranogion o'i anufudd-dod. Y weithred hòno yn groes i orchymyn Duw, a dorodd y cyfammod, a thrwy hyny a wnaeth adwy i lwgr a melldith ddyfod i mewn dros yr holl naturiaeth ddynol: 'Y farn a ddaeth o un camwedd i gondemniad:' *un* camwedd—camwedd *un* dyn—anufudd-dod *un* dyn: trwy hwnw y gwnawd llawer yn bechaduriaid—y daeth barn ar *bob* dyn i gondemniad—yr aeth marwolaeth ar *bob* dyn—trwy *un* camwedd y teyrnasodd marwolaeth, trwy *un*. Y mae yn dra amlwg oddiwrth eiriau yr apostol, Rhuf. v.:—

1. Fod un camwedd un dyn wedi gwneuthur llawer yn bechaduriaid.——2. Fod barn o gondemniad wedi dyfod ar bob dyn, trwy yr un camwedd yr un dyn hwnw.——3. Fod marwolaeth yn yr ystyr helaethaf o'r gair, trwy yr un camwedd hwnw, wedi teyrnasu ar bob dyn. Effaith a chanlyniad trosedd ac euogrwydd, ydyw marwolaeth. Nis dichon marwolaeth deyrnasu ond ar yr euog; ond y mae marwolaeth yn teyrnasu ar rai na phechasant yn weithredol yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda; gan hyny rhaid eu bod yn bechaduriaid yn Adda: aeth marwolaeth ar bob dyn, gan hyny, yn gymaint a phechu o bawb yn Adda, er na phechasant yn eu personau eu hunain; gan hyny y maent yn bechaduriaid yn Adda. Yr oedd yr holl natur ddynol ynddo, megys yn y telpyn ac yn y gwreiddyn. 'Dwy genedl sydd yn dy groth di,' medd Duw wrth Rebeccah, pan nad oedd yno ond dau wreiddyn y ddwy genedl: ond yr ydoedd y ddwy genedl yn y ddau wreiddyn hyny. Gen. 35. 23. Yr oedd delw Duw yn argraffedig ar Adda fel person cyffredin; yr oedd y ddelw, gan hyny, ar yr holl naturiaeth ddynol ynddo. Yr oedd y cyfiawnder gwreiddiol ynddo yn gyfiawnder yr holl natur, yr hon yr oedd efe yn ei berson yn ei gynnrychioli. Yr oedd yr holl naturiaeth ddynol gwedi cael ei dyrchafu i'r anrhydedd mawr o fod mewn cyfammod â Duw ynddo. Bendithiodd Duw yr holl naturiaeth ddynol ynddo; ac a roddodd i'r natur ynddo lywodraeth ar bob peth. Gen. 1. 28. Y mae yn gwbl eglur fod yr hyn a lefarodd Duw wrth Adda yn perthyn i'r holl naturiaeth, ac nid yn unig iddo ef yn bersonol ac yn unigol. Yr oedd holl dda Adda i fod yn gyfrifedig i'w hiliogaeth hefyd, os byddai iddo efe barhau mewn daioni ac ufudd-dod. Rhoddodd Duw iddo orchymyn tra hawdd ac esmwyth i'w gadw; a rhoddodd yntau yn yr amgylchiadau mwyaf manteisiol i ufuddhau iddo. Rhoddodd achos ei holl hiliogaeth yn llaw Adda, fel tad, i weithredu drostynt: yr oedd y tad hwnw y dyn mwyaf perffaith o neb a allai ddyfod o'i lwynau, ac mewn amgylchiadau cystal, neu well, nag a allai neb arall fod ynddynt: hefyd, yr oedd ei ddedwyddwch personol ei hun yn dibynu ar ei ufudd-dod, yn gystal a'r eiddo ei hiliogaeth, gan hyny, y mae daioni Duw i'w weled yn fawr yn y drefn addas hon.

Os gwrthddadleu neb (canys beth a wnaeth Duw erioed na wrthddadleuodd rhai yn ei erbyn?) yn erbyn

Digitized by Google

y drefn hon, nad oeddym ni wedi dewis Adda i fod yn gynddrychiolwr drosom, ac nad ydyw yn addas, gan hyny, i ni fod yn atebol am ei weithred ef: Atebaf, 1. Gallasai Duw wneuthur hyny o'i ben-arglwyddiaeth, heb ofyn ein cenad, ac heb wneuthur dim cam â ni: yn enwedig gan fod yr un a ddewisodd yn un perffaith ddibechod, a'i achos a'i ddedwyddwch ei hun yn un a'r eiddom ninnau.——2. Os oeddym ni, ei hiliogaeth, i gyfranogi o'r da addawedig iddo ef am ei ufudd-dod, nid oedd yn anghyfiawnder i ni gyfranogi o'r drwg a fygythiwyd arno am ei anufudd-dod.——3. Dylai fod yn ddigon i ateb pob gwrthddadl a allai gyfodi yn meddwl neb, mai Duw oedd yr hwn a ddewisodd drosom: Duw yr hwn sydd berffaith gyfiawnder, doethineb, a daioni. Gan mai y fath un a ddewisodd drosom, gwnawd, y mae yn ddiogel, y dewisiad goreu ar a allesid ei wneuthur, ac ystyried pob peth. Pa ynfydrwydd ydyw i neb feddwl y gallasai efe ddewis yn well drosto ei hun! Ein Creawdydd a'n Meddiannydd yw Efe; y mae ganddo yr hawl fwyaf cyflawn a goruchel ynom i weithredu trosom, mwy nag sydd gan un tad ar ei blentyn, heb ofyn ein cydsyniad ni; ac yr oedd yn anfeidrol well i Dduw ddewis a gweithredu trosom, na phe buasem ni yn dewis trosom ein hunain, oni allwn brofi ein bod cyn dda, a chyn ddoethed a Duw. Edr. Cyfammod.

Yn Adda, gan hyny, 1. Gwelwn y naturiaeth ddynol ar ddelw Duw, yn tebygu iddo o ran gwybodaeth, cyfiawnder, a sancteiddrwydd.——2. Y mae y Creawdydd yn edrych ar y naturiaeth hon gyda boddlonrwydd, ac yn ei bendithio yn Adda.——3. Y mae yn Adda yn cael ei dyrchafu i lywodraeth dra ëang, sef ar holl greaduriaid y byd hwn: 'Arglwyddiaethwch,' medd Duw, 'ar bysg y mor, ac ar ehediad yr awyr, ac ar *bob peth* byw a ymsymudo ar y ddaear.'——4. Gwelwn hefyd yr holl natur ddynol yn Adda mewn cyfammod â Duw. Yr ydoedd ammodau y cyfammod yn dra hawdd ac esmwyth i'w cyflawni. Yr oedd addewid o barhad y bywyd oedd ganddo o ddedwyddwch, cyfiawnder, a sancteiddrwydd, iddo ef a'i hiliogaeth, ar ei ufudd-dod; a bygythiad o farwolaeth arno ef a'i hiliogaeth ar ei anufudd-dod.——6. Gwelwn yr holl naturiaeth ddynol yn Adda yn anufuddhau, a thrwy hyny yn tori y cyfammod ac yn marw; sef yn colli yr holl freintiau oedd ganddo, ac yn myned dan gollfarn.——6. Collodd y naturiaeth ddelw Duw, ar ba un y crewyd hi, ac aeth yn anghyfiawn, yn dywyll, ac yn ansanctaidd. Effaith y *cynfai* oedd llygriad *gwreiddiol* yr *holl* naturiaeth.

Y mae dau beth i'w ystyried yn y llygriad gwreiddiol o'r holl naturiaeth ddynol, sef, 1. Y diffyg o sancteiddrwydd, neu ddelw Duw wedi ei cholli. Addurn a dedwyddwch penaf y natur ddynol ydoedd hon, gan ei bod yn ei thebygu i Dduw, sef yn ei haddasu i fwynhau Duw, a chymdeithasu âg ef. Colli hon, gan hyny, ydoedd colli ei gogoniant a'i harddwch, a cholli pob dedwyddwch. Tra byddo dyn hebddi, bydd byth yn anhardd ac yn annedwydd, sef yn ffiaidd ac yn druenus. Yn holl ystyr ëang y gair, efe a fu farw, ac a ymddyeithriodd oddiwrth fuchedd, neu fywyd Duw. Eph. 4. 18.——Hefyd, yn 2. Y mae pob llwgr a thueddiad pechadurus yn wreiddiol yn enaid dyn. Yr hyn y mae Dafydd yn ei ddywedyd am dano ei hun, sydd wir am yr holl naturiaeth: 'Mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.' Ps. 51. 5. Nis gellir rhoddi darluniad cywirach o honi, nag y sydd gwedi ei roddi gan yr Ysbryd Glân trwy yr apostol yn Rhuf. 3. 10—19. Eph. 2. 1—4. O'r llwgr neu y pechod gwreiddiol hwn, y naturiaeth ddynol dan y cwymp, y mae yr holl bechodau gweithredol yn tarddu. Y mae y llwgr hwn yn gweithredu yn holl weithrediadau y natur yn dufewnol ac yn allanol. Y mae galluoedd mewn enaid dynol i ddeall, rhesymu, ewyllysio, serchu, caru, a chasâu, i farnu, &c., dan y cwymp: y mae yr enaid, yn yr holl alluoedd hyn, yn gweithredu yn bechadurus; mae yn deall, yn meddwl, ac yn ymresymu yn bechadurus, sef yn dywyll, ac yn gyfeiliornus. Y mae yn y meddwl, λογισμοι και α τα υψωμα, *dychymygion a phethau uchel*, i gyd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw. Oddi yma y dylifa allan eilun-addoliaeth, cyfeiliornadau, cableddau, dychymygion ofer, llygredig, &c.——Y mae gallu yn enaid dyn i ewyllysio, ond dan y cwymp y mae yn ewyllysio dan lywodraeth y llwgr gwreiddiol hwn, felly hefyd mae y serch, &c. Edr. Cydwybod, Deall, Ewyllys.

Mae pechod hefyd, heblaw y cynfai, a llwgr gwreiddiol y naturiaeth ddynol, yn arwyddo, yn yr ysgrythyrau, 1. Pechod yn y cyflawniad o hono; helynt a bucheddiad pechadurus: 'Chwant, gwedi ymddwyn, a esgor ar bechod.' Iago 1. 15.——2. Euogrwydd a halogrwydd pechod. Ps. 51. 2. Heb. 10. 2.——3. Cospedigaeth am bechod. Gen. 4. 7. a 19. 15. Lef. 5. 1. 'Fel na byddoch gyd-gyfranogion o'i phechodau hi.' Dat. 18. 4. Sef, fel na byddoch gyd-gyfranogion o gospedigaeth ei phechodau hi, medd Vitringa, yn cyfeirio yn eglur at y geiriau yn Esa. 48. 20. a Jer. 50. 8. a 51. 6, 45. Y mae y gorchymyn yn peri iddynt ddyfod allan o'r lleoedd hyny, yn y rhai y mae coel-grefydd Babaidd yn teyrnasu, rhag iddynt gyd-gyfranogi o'i phläau.——4. Aberth dros bechod. Y gair a gyfieithir yn Lef. 1. 4. a 4. 25, 29. Exod. 29. 14. a 30. 10. 'aberth dros bechod,' yw y gair *Heb.* חטא a gyfieithir *pechod*, y rhan amlaf: yr oedd pechod yn gyfrifedig arno, am hyny yr oedd i ddyoddef. Felly y gelwir Crist ein haberth ni, a gwrth-gysgod yr aberthau dan y ddeddf. 2 Cor. 5. 21. Nis gallasai fod yn aberth, heb fod yn bechod; sef heb fod pechod yn gyfrifedig arno. Pe buasai wedi gwneuthur pechod, ni buasai yn addas i fod yn aberth; ac heb gyfrif pechod iddo, ni buasai yn aberth. '*A wnaeth Efe* yn bechod;' nid efe a wnaeth bechod; canys yn yr ystyr hwn, nid adnabu bechod; ond yr Arglwydd a'i gwnaeth ef yn bechod, trwy roddi arno ef ein hanwiredd ni i gyd. Y mae yr un gair, hefyd, fel berf, yn cael ei gyfieithu *glanhau*, sef glanhau trwy aberth. Exod. 29. 36. Rhai a farnant, mai aberth dros bechod a feddylir wrth y gair yn Gen. 4. 7. 'Pechod,' sef pech-aberth, 'a orwedd,' neu sydd yn gorwedd, 'wrth y drws.' 'Ac am bechod,' Rhuf. 8. 3. περι αμαρτιας, *aberth dros bechod*; y mae yr un geiriau yn cael eu cyfieithu *dros bechod*, yn Heb. 10. 6. y mae y gair θυσιαν, *aberth*, neu προσφορα, *offrwm*, fel yn adn. 18. i'w roddi i mewn. Y mae yr un geiriau yn y cyfieithiad Groeg yn Num. 8. 8. a Ps. 40. 6. yn arwyddo *aberth dros bechod*. Ac felly, hwyrach, y mae i ni ddeall y geiriau χωρις αμαρτιας, *heb bechod*, sef heb aberth dros bechod, nac achos am dano. Heb. 9. 28.——5. Pechod, hefyd, a arwydda, eilunod, neu y lloi a wnaeth Jeroboam yn Dan a Bethel, y rhai a fuant yn achlysur o bechod mawr i Israel. 'Y rhai a dyngant i bechod Samaria,' (Amos 8. 14.) sef eilunod Samaria, a fuant yn achlysur i drigolion Samaria i bechu. Hos. 8. 11. a 10. 8. Jer. 17. 3.——6 Y pechod neillduol o anwiredd: 'Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod? Ac od wyf fi yn dywedyd y *gwir*, paham nad ydych yn credu i mi?' Ioan 8. 46. 'Pwy 'n o hanoch a hona pechat arnaf?' W. S. 'Pwy o honoch a'm dyfarna i o gelwydd,' y mae yn amlwg ydyw ystyr y geiriau; gan fod pechod yn cael ei osod mewn cyferbyniad i ddywedyd y gwir, yn niwedd yr adnod. Dichon un gael ei ddyfarnu, heb gael ei argyhoeddi; a dichon un gael ei argyhoeddi, heb gael ei ddyfarnu. Y mae Crist yn beiddio ei elynion ei ddyfarnu ef o ddywedyd anwir mewn un gradd; ac os nas gallasent hòni y pechod o anwiredd arno, yr ydoedd eu gwaith yn ei anghredu yn anesgusodol.——7 Y pechod o anghrediniaeth. 'Efe a argyhoedda y byd

Digitized by Google

o bechod—o bechod, am nad ydynt yn credu ynof fi.' Ioan 16. 8, 9. Edr. ARGYHOEDDI, ANGHREDINIAETH.——Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Edr. YSBRYD GLAN.

Y mae pechu, a phechadur, yn arwyddo troseddu cyfraith Duw, neu un yn euog o hyny. Preg. 7. 20. Ond weithiau y maent yn arwyddo un yn byw mewn pechod, gyd âg ymroddiad iddo. Ioan 8. 34. 1 Ioan 3. 6, 9. a 5. 18. Neu un nodedig o bechadurus ac afreolaidd, drwg-weithredwr gwaradwyddus a gwarthus yn ngolwg dynion. Luc 7. 37, 39. a 6. 32, 33. Num. 16. 38. Gen. 18. 23. Esa. 53. 12.

PEDAHEL, פדהאל [*adbryniad Duw*] mab Ammihud, penaeth llwyth Naphtali. Num. 34. 38.

PEDAIAH, פדיה [*adbryniad yr Arglwydd*] yr oedd amryw o'r enw. Gwel 2 Bren. 23. 36. 1 Cron. 3. 18, 19. Neh. 3. 25. a 8. 4.

PEDASUR, פדהצור [*gwaredwr cadarn*] tad Gamaliel. Num. 1. 10.

PEDWAR——EDD, rhyw fenywaidd, PEDAIR, (ped-gwar) *Heb.* ארבע *Groeg* τετταρες; *Llad.* QUATUOR; *Gwydd.* KEATHRA.—Pedronglawg, sef pedrongl, pedrylun; llun cyflawn, perffaith. Exod. 27. 1. a 28. 16. Ezec. 40. 47. a 48. 20. Dat. 21. 16.——'Pedwar pedwariaid o filwyr.' Act. 12. 4. Pedwar o filwyr oedd gwyliadwriaeth Rufeinaidd. Naill ai yr oeddynt i gyfnewid â'u gilydd yn mhen rhyw nifer o oriau, pedwar ar yr un waith yn gwylied, dau wrth y drws, a dau wrth Petr, ac yntau wedi ei gadwyno wrthynt; neu ynte, yr oedd yr un ar bymtheg yn gwylied ar unwaith mewn amrywiol fanau, fel y byddai yn fwy diogel, gan wybod y byddai Petr yn arferol o wneuthur gwyrthiau.

PEIRIANT, PEIRIANNAU, (pâr) arf, offeryn, ermyg, trecyn; megys peiriannau cerbydau; peiriannau rhyfel; peiriannau ergydion. 1 Sam. 8. 12. Jer. 32. 24. a 33. 4. Ezec. 26. 9.

PEISWYN, (pais-gwyn) ûs, mân-ûs. Esa. 17. 13. a 29. 5. Seph. 2. 2.

PEL—I, (py-el) bwl, pelen, pellen, clobyn.—'Fel treiglo pêl i wlad ëang:' Esa. 22. 18. sef fel y treigla pêl wedi ei thaflu o ffon-dafl gan fraich gref; os bydd yn cael ei thaflu i wlad ëang, treigla yn mhell iawn, gan na fydd un attalfa ar y ffordd. Prophwydoliaeth am farn drom Duw ar Sebna falch, chwyddedig, ac annuwiol. Tebygol iddo gael ei gaethgludo i ymerodraeth Assyria, ac iddo yno dreiglo o le i le, ac o'r diwedd farw mewn cyflwr gwaradwyddus a thruenus. Pan fyddo Duw yn cael ei anfoddloni, geill yn hawdd yru dynion yn effeithiol o'r sefyllfaoedd uchaf, a'u prysuro o un gofid i'r llall, heb seibiant, nes gorphenont eu gyrfa yn druenus.

PELIAH, פליה [*dirgelwch yr Arglwydd*] un o benaethiaid y Lefiaid a ddychwelasant o Babilon. Neh. 8. 7.

PELALIAH, פלליה [*yr hwn sydd yn gweddïo ar yr Arglwydd*] un o'r offeiriaid. Neh. 11. 12.

PELATIAH, פלטיה [*yr Arglwydd yn gwared*] yr oedd dau o'r enw. 1 Cron. 4. 42. Ezec. 11. 1.

PELEG, פלג [*rhaniad*] mab Heber, a brawd Joctan. Rhoddwyd yr enw hwn arno, 'o herwydd yn ei ddyddiau ef y rhanwyd y ddaear.' Gen. 10. 25. Y mae rhaniad y ddaear, a gwasgariad y bobl yn Babel, yn ddau beth gwahanol, tybygaf, a'r diweddaf ar ol y cyntaf. Rhanwyd y ddaear trwy gyfarwyddyd dwyfol, gan Noah a'i feibion, pan anwyd Peleg, yn nghylch can mlynedd wedi y diluw. Hwyrach mai anfoddlonrwydd i ymadael â'u gilydd, a gwrthryfel yn erbyn y rhaniad hwn, oedd un achos a'u cynhyrfodd i adeiladu Babel, fel y gallent ymgadw gyd â'u gilydd. Deut. 32. 8. Luc 3. 35.

PELET, פלט [*a wared*] mab Asmafeth, ac un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 12. 3.

PELETH פלת [*cyflym*] tad On, o lwyth Reuben. Num. 16. 1.

PELETHIAID, פלתי [*rhedegwyr*, neu *rhai yn tynu bwa*]. Y Cerethiaid a'r Pelethiaid oeddynt filwyr enwog yn nyddiau Dafydd, ac a ffurfient ei osgordd-lu ef. 2 Sam. 8. 18. a 15. 18. a 20. 7. Am y gelwid y Philistiaid y Cerethiaid, barna rhai mai Philistiaid oedd y rhai yn myddin Dafydd. 1 Sam. 30. 14. Enwir y Cerethiaid oddiwrth eu gwlad yn Ezec. 25. 16. a Seph. 2. 5. a'r Pelethiaid wrth deulu o Judah, yn agos i Hebron, 1 Sam. 27. 10. a 1 Cron. 2. 33. ac y maent bob amser yn nghylch person y brenin. Gwel 2 Sam. 15. 18. a 20. 7. 1 Bren. 1. 38.

PELICAN, *Gr.* πελεκαν: math o adar, aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 8. Deut. 14. 17. Esa. 34. 11. Seph. 2. 14. Y mae yn hen ddywediad am y pelican, ei bod yn tynu gwaed o'i dwyfron i borthi ei chywion; ond y mae yn ddisail. Y gwirionedd ydyw, fod ganddi gwd go fawr dan ei gwddf, yn yr hwn y rhydd bysgod i borthi ei chywion, ac y mae yn gwasgu hwn wrth ei dwyfron i'w cael allan: hyn roddodd achlysur i'r dywediad cyffredin, fod yr aderyn hwn yn porthi ei chywion â'i gwaed. Aderyn yw o'r rhydd-ryw, yn nghylch dau cymaint a'r alarch, â chylfin hir crwn ganddo, a chwd go helaeth o dan ei wddf i ddodi ei ymborth ynddo, iddo ei hunan a'i gywion. Creadur anghyfeillgar, a thrigiannydd yr anialwch, ydyw efe. Gwel y Dr Shaw's *Travels*.——Yn ei adfyd a'i dristwch, cyffelyba Dafydd ei hun i belican yr anialwch, a dylluan a diffaethwch, yn caru bod yn unig, ac yn mhell oddiwrth bawb, i ymollwng i'w alar dwys, o herwydd ei gystudd o'i achos ei hun, ac eglwys Dduw. Psalm 102. 6.

PELONIAD. Peloni ydoedd ddinas yn Judah. 1 Cron. 11. 36.

PELL—HAU—ENIG, (py-ell) maith, meith-bell, hirfaith; dyeithr, estron, un o bell.

Drwg pechod o'i *bell* erlid. *Diar.*

Y mae yr Arglwydd yn mhell oddiwrth yr annuwiol; ac y mae yn ddigofus wrthynt. Y mae yn mhell oddiwrth eu harenau; sef oddiwrth eu meddwl a'u serch; nid yw eu meddylfryd a'u serch arno, nac yn ei geisio. Diar. 15. 29. Jer. 12. 2.——Y mae Duw yn ymddangos yn mhell oddiwrth ei bobl, pan y ceryddo hwynt, ac nad ydyw yn eu cysuro, ac yn rhoddi ymwared iddynt. Ps. 10. 1. a 22. 1.——Y mae yn pellhau camweddau trwy eu maddeu yn gyflawn ac am byth. Psalm 103. 12.——Rhoddodd Duw y deml yn mhell oddiwrth yr Iuddewon, trwy eu symud hwy yn mhell i Babilon. Ezec. 7. 20.

'A'r pellenigion a ddeuant, ac a adeiladant yn nheml yr Arglwydd.' Zech. 6. 15. Y pellenigion ydyw y Cenedloedd, y rhai a gaent eu galw trwy yr efengyl, ac a fyddent yn ddefnyddiol yn yr eglwys i'w hëangu, ei llwyddo, a'i chadarnhau. Esa. 56. 6, 7, 8. a 57. 9. a 60. 10. Actau 2. 39. 1 Cor. 3. 10—15. Eph. 2. 13—20. 1 Petr 2. 4, 5.

PELLEDIG—ION, (pell) pellenigion; rhai pell. —'Holl belledigion y gwledydd.' Esa. 8. 9. 'Pelledigion y gwledydd,' y rhai a gymhellai brenin Assyria i ymuno i oresgyn Judea; neu elynion yr eglwys yn mhob oes, lle bynag y trigent; y rhai hyn oll a elwir i wrando ac i ystyried mor ofer fyddai eu holl fwriadau gelyniaethol yn erbyn yr eglwys—'chwi a ddryllir—canys y mae (Immanuel) Duw gyda ni.'

Digitized by Google

PELLEN—AU, (pell) pelen.—'Yr arogl-bellenau.' *Saes.* Collars. Barn. 8. 26. Y gair *Heb.* נטיפות sydd yn arwyddo *defnynau*, neu *addurniadau* crynion, ar lun defnyn; y rhai, tebygol, a grogent er harddwch, wrth y cadwyni. Y gair *Heb.* שהרנים a gyfieithir *colerau*, sydd yn arwyddo, medd Parkhurst, rhyw fath o addurniadau lleuadog, sef yn tebygu i lun y lleuad. Hwyrach fod y Midianiaid, fel yr Arabiaid, yn addoli y lleuad, (Job 31. 26.) a bod yr addurniadau hyn yn goel-grefyddol ac yn eilun-addolgar.

PEN—AU, (py-en). Y mae y gair Cymraeg, *pen*, mor helaeth ei ystyr, medd y Dr Davies, a'r gair *Heb.* ראש (*rosh*) ac yn arwyddo dechreuad, y rhan uchaf o beth; copa, neu grib, crib uchaf; y rhagoraf; tywysog, blaenor: eithaf, eithafed, diwedd.

Mewn tri lle yn y pen y megir clefyd: yn y dôn, yn y greuan, ac yn y grefadur. *Meddygon Myddfai.*

Pen dyn yw eisteddfod y synwyrau penaf; megys y clyw, y gweled, yr arogliad, a'r archwaethiad. Fel pob rhan arall o gorph dyn dan y cwymp, y mae yn ddarostyngedig i afiechyd o amryw fath. Y mae cur yn y pen yn dyfod oddiwrth amrywiol achosion; am hyny nis gellir rhoddi un cyfarwyddyd meddyginiaethol addas i bob achos. Yn gyffredinol, y mae myned yn brydlon i gysgu, codi yn foreu, gochelyd syrthni a diogi, cymedrolder, peidio llwytho y cylla â bwydydd yn yr hwyr, a chadw y traed yn gynhes, a'r corph yn dymherus, yn iachus i'r pen, fel pob rhan arall o'r corph. Y mae drwg yn y cylla yn effeithio ar y pen, a'r holl gorph; glanhau y cylla, gan hyny, yw y feddyginiaeth oreu i'r rhanau o'r corph sydd yn dolurio: rhaid symud yr achos cyn y peidia yr effeithiau. Y mae agwedd a gweithrediadau y meddwl hefyd yn effeithio ar y pen yn aml, ac yn peri trymder a chur ynddo. Llid, digofaint, anghariadoldeb, tristwch y byd hwn, galar, hiraeth, rhagofalon, ydynt elynion mawrion i iechyd y corph, a phob rhan o hono. Yn y gwrthwyneb, y mae ymddiried yn yr Arglwydd, ymostyngiad cymmodol i'w drefniadau, tangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glân, yn feddyginiaeth ragorol i'r corph yn gystal ag i'r meddwl.

Rhydd y daear-ddarlunwyr diweddar hanes am drigolion talaeth Casoquas, yn agos i afon Amazons, yn America Ddeheuol, sydd â'u penau mor wastad a chledrau eu dwylaw; y maent yn gwasgu penau eu plant newydd eu geni i'r agwedd hôno, gan eu barnu yn harddach.

Arwyddocâ y pen, weithiau, yr holl ddyn. Diar. 10. 6. Ezec. 9. 10. Dan. 1. 10.——'Gorchuddio y pen,' a arwydda diogelwch, Ps. 140. 7.—galar dwys, 2 Sam. 15. 30.—gwylder ac ymddarostyngiad, 1 Cor. 11. 5, 6.——'Dyrchafu pen,' a arwydda llawenydd a gorfoledd, Luc 21. 28.—balchder, gwrthnysigrwydd, a gwrthryfel yn erbyn Duw, Ps. 83. 2.—Dyrchafu pen un arall, yw ei ddyrchafu i anrhydedd. Gen. 40. 13. Jer. 52. 31.——'Ysgwyd pen,' sydd arwydd o wawd, diystyrwch, dirmyg, a sarhad. Ps. 22. 7.——'Eneinio y pen.' Edr. Eneinio, Olew.——'Camweddau yn myned dros ein penau,' sydd yn arwyddo eu hamlder, a'u mawredd; a bod ein golygiad arnynt, a'n cystudd o'u plegid, yn agos a'n soddi. Ps. 38. 4.——'Hefyd ti a ddeui allan oddi wrtho, â'th ddwylaw ar dy ben.' Jer. 2. 37. 'Oddi wrtho;' sef oddiwrth yr Aipht, lle yr aethant am gymhorth.——'Llaw ar y pen,' a arwydda cystudd, galar, a chywilydd mawr. Gwel 2 Sam. 13. 19.

Beth bynag sydd fwyaf rhagorol, neu sydd âg awdurdod ganddo, ac yn effeithio ar, ac sydd yn gyfarwyddyd i eraill, a elwir y pen. Felly pen Crist yw Duw; gosododd ef yn ei swydd oruchel, a rhoddodd iddo ef allu ac awdurdod fel Cyfryngwr. 1 Cor. 11. 3.——Crist yw pen y gongl—pen corph yr eglwys; y mae efe yn mhob peth yn blaenori, yn llywodraethu yr eglwys, ac yn cyfranu iddi oleuni, bywyd, cynnaliaeth, a dyddanwch.—Y mae efe yn 'ben uwchlaw pob peth i'r eglwys,' sef yn trefnu ac yn llywodraethu pob peth yn y modd goreu er ei llesâd. Col. 1. 18. Eph. 1. 22. Edr. Carmel, Coron, Corph, Cyfattal, Gwraig, Lefiathan, Sarph.

PENADUR—ION, (penad) pendefig, penaeth, tywysog, pen-llywydd, pen-arglwydd, unben.—'Penaduriaid y gynnulleidfa,' sef y tywysogion. Num. 32. 3.——'Penadur,' neu lywydd, 'heb ddeall, sydd yn fawr ei drawsedd,' ac y mae yn fflangell dost ar y neb fyddo dano. Diar. 28. 16.——Cwbl anweddaidd, o'u rhan eu hunain, ac o ran yr effaith niweidiol ar eraill, i benaduriaid ddiod gadarn. Diar. 31. 4. Y mae diod gadarn yn ormodol, yn eu hanaddasu i gyflawni eu swyddau, trwy dywyllu eu deall, ennyn eu llygredigaethau, a gwyro eu calonau i wneyd trawsedd ac anghyfiawnder. Lef. 10. 9, 10. Esa. 28. 7, 8. Dan. 5. 2, 3, 4. Hos. 4. 11, 12. a 7. 3, 5. Hab. 2. 15. Marc 6. 21, 22.——'Gysegru pennadur y cadwadigaeth hwynt trwy 'ovydiau.' Heb. 2. 10. W. S.

PENAETH—AU—IAD—IAID, (pen) tywysog, pen-llywydd, penadur.—'Yr hwn (sef yr Arglwydd Iesu) yn ei amserau priod a ddengys y bendigedig a'r unig Benaeth, Brenin y breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi.' 1 Tim. 6. 15. Y mae Crist felly yn awr, ond yn ei amserau priod, yr amserau gosodedig ganddo, a *ddengys* felly. Efe yw yr unig Benaeth, oblegid ei fod yn oruchel, ac yn awdurdodi ar yr holl benaethiaid eraill; ac oddi wrtho ef y maent oll yn cael eu hawdurdod, ac yn eu meddiannu yn gwbl wrth ei ewyllys. I'w cymharu âg ef, nid yw holl benaethiaid y byd ond cwbl wagedd. Y mae ei allu a'i awdurdod yn cyfateb, ac y maent yn oruchel, yn ogoneddus, yn anddibynol, ac yn ddiderfyn.

PENAF, (pen) y blaenaf, y rhagorocaf, y mwyaf, yr uchaf. Zech. 4. 7. 2 Cor. 11. 5.—'Y penaf o bechaduriaid,' sef y blaenaf, y mwyaf euog, yr haeddedicaf o farn, a'r anhaeddedicaf o drugaredd. 1 Tim. 1. 15. Edr. Llai, Paul, Sanct.

PENBLETH, (pen-pleth) annhrefn-pen, ymbleth ymrwystr, ymfagliad, dyrysiad.—'Bellach y bydd eu penbleth hwynt.' Mic. 7. 4.——'Bellach y bydd eu drysni hwynt.' Dr M. Esa. 22. 5. Luc 21. 25.

PENCERDD—ION, (pen-cerdd) blaenor y gân; neu y mwyaf celfyddgar a gwybodus yn y gelfyddyd o ganu. 'I'r pencerdd.' Ps. iv, vi, vii, &c. *Heb.* למנצח (*lamenatseh*). Y mae amrywiol gyfieithiadau o'r gair Hebraeg. Εις το τελος, LXX. *I'r diwedd.*—*In finum. Vulg. Chaldee Paraphrast, Am y fuddugoliaeth,* neu *Y buddugoliaethwr.*—τω νικοποιω, *I'r buddugoliaethwr,* neu *roddwr y fuddugoliaeth.* Acquila, Victori, Jerome.—Nid oes grybwylliad yn hen gyfieithiadau am y pencerdd hwn, medd Mr Fenwick.* Mewn gwirionedd, medd Parkhurst, mae y gair מנצח fel נצח tebygol, yn un o enwau yr Arglwydd Iesu, y buddugoliaethwr cadarn ar ddyoddefiadau, ar elynion, ac ar angeu ei hun. נצח ישראל *Cadernid Israel,* neu, *Buddugoliaethwr Israel.* 1 Sam. 15. 28. Cyfatebol i hyn y gellir cyfieithu Hab. 3. 19. 'Iehofah yr Arglwydd yw fy nerth, a'm traed a wna efe fel traed ewigod; a rhoddwr buddugoliaeth a wna i mi rodio ar fy uchel-leoedd, a psalmau i'w canu ar offer tânau.' 'Nid ymofynaf,' medd Rivetus dduwiol, 'am un pencerdd ond hwnw sydd yn rhagori ar bawb eraill—yr hwn, trwy daro tanau ein calonau, a ddwg oddi yno gywir sain ffydd—i Ti, Ysbryd bendigaid! Atat Ti y cyfeiriaf fy ngeiriau!'†

* Gwel Fenwick's *Thoughts on the Hebrew Titles of the Psalms.*

† Præfat. ad Psalm. pœnitentiales.

Digitized by Google

**PENDEFIG—ION—AIDD—AETH**, (pen-tefig) pendeddig, penadur; boneddigaidd, tywysogaidd.—'Yr oedd rhyw bendefig yr hwn yr oedd ei fab yn glaf yn Capernaum.' Ioan 4. 46. *τις βασιλικος, un breninol*, gwr llys, swyddwr yn y llys; sef yn llys Herod, yr hwn oedd detrarch Galilea, ac a alwent yn gyffredin yn y wlad, yn *frenin*. Rhai a farnant mai Chusa, goruchwyliwr Herod, oedd y pendefig hwn. Luc 8. 3. Daeth hwn at yr Iesu i Cana, yn achos ei fab, a llwyddodd; ac yn ganlynol, daeth ef a'i deulu yn ddysgyblion i Grist.

'A rhoddasant orchymyn y brenin at bendefigion y brenin.' Ezra 8. 36. אחשדרפני gair Caldaeg, neu Persiaeg yw, medd Parkhurst, yn arwyddo mechdeyrn, neu raglawiaid, neu y llywodraethwyr penaf dan y brenin. Rhoddir yn Dan. 6. 1. hanes am osodiad cyntaf y rhaglawiaid hyn. Gwel hefyd *Cyropæd. lib.* viii. *p.* 401. *Edit.* Hutchinson. Gelwir hwynt gan y LXX. *Σατραπαι. Vulg.* SATRAPÆ.

Pendefigaeth yw yr uwch radd, y dyrchafedicaf.—'Gwedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth.' 1 Cor. 15. 24. *Gr. πασαν αρχην*, pob llywodraeth, pob rheolaeth, arglwyddiaeth, a goruchafiaeth; pa un ai drwg ai da fyddont, y maent i gael eu dileu. Pethau i'w dileu ydyw y cwbl; er y bydd teyrnas Crist yn parhau byth, etto cyfnewidir dull ei gweinyddiad yn fawr: ni weinyddir mo honi mwyach trwy ail-achosion, trwy weinidogaethau creaduriaid; ond bydd ei gweinyddiad yn union-gyrchol dan lywodraeth, a thrwy effeithiad y Drindod. Cyffelyb, gellir meddwl, ydoedd ei lywodraeth cyn creu y byd. Edr. TEYRNAS.

**PENDIFADDEU**, (pen-difaddeu) anhebgorol, yn enwedig.—'Yn bendifaddeu gan wybod dy fod di yn gydnabyddus â'r holl ddefodau a'r holion sydd yn mhlith yr Iuddewon.' Act. 26. 3. Yr oedd Agrippa, trwy ei ddygiad i fynu, yn gydnabyddus â holl ddefodau yr Iuddewon; ac yr ydoedd yn fwy manteisiol, o herwydd hyny, i Paul wneuthur ei amddiffyniad ger ei fron ef, na phe buasai o flaen un hollol anadnabyddus o'r pethau hyny.

**PENDRAMWNWGL**, (pen-tra-mwnwgl) yn wysg y pen, dibyndobyn, bendraphen. Luc 4. 29. Edr. AEL, NAZARETH.

**PENELIN—AU**, (pen-elin) pen yr elin, elin. Ezec. 13. 18. Edr. CLUSTOG, GWNIADYDDES.

**PENFOEL—EDD**, (pen-moel) iadlwm, gwalltgoll, diflew ar y pen. Lef. 13. 43.

**PENGLOG**, (pen-clog) asgwrn pen, breuan; pendew, cadafael, hurtyn, penbwl. Barn. 9. 53. 2 Bren. 9. 35. Mat. 27. 33. Edr. GOLGOTHA.

Deuparth cloq yn *mhenglog. Diar.*

**PENGUWCH**, (pen-cuwch) cwcwll, capan, penwisg.—'Y penguwch.' Esa. 3. 20. *Heb.* פאר *addurn*, addurn y pen: am fod addurniadau y pen yn y cyfrif mwyaf yn mhlith yr hynafiaid.

*Penguwch* melyn a wisgai merch newydd-weddawg.
*Hen Ddefodau.*

**PENLLWYD—NI**, (pen-llwyd) briglwyd, penwyn, brigwyn; blawr, blawrwyni, penllwydni, brigwynedd.—'Coron anrhydeddus ydyw penllwydni, os bydd mewn ffordd cyfiawnder.' Diar. 16. 31. Y mae hynafgwr duwiol yn anrhydeddus, yn cerdded llwybrau cyfiawnder hyd y diwedd; ond yn y gwrthwyneb, y mae hen bechadur yn ffiaidd ac yn ddirmygus. Diar. 20. 29. Lef. 19. 32. Job 32. 6, 7. Edr. HENAINT.

**PEN-SAER**, (pen-saer) pen-saer celfydd; dychymygwr gwaith; pen-adeiladydd.—'Yn ol y gras Duw a roddwyd i mi, megys pen-saer celfydd, myfi a osodais y sylfaen.' 1 Cor. 3. 10. *Gr. ωσ σοφος αρχιτεκτων.* 'Megis penadailwr celfydd.' W. S. '*As a wise master builder.*' *Saes.* Y mae y gair *Gr. σοφος*, yn arwyddo *doeth*, yn ol y cyfleithiad Saesonaeg; ond arwydda hefyd, *cywrain, celfyddgar*: 'Ac a'i llenwais ef âg ysbryd Duw, mewn doethineb, ac mewn deall, ac mewn gwybodaeth hefyd, ac yn mhob rhyw waith.' Exod. 31. 3. Y mae yr apostol yn cyffelybu yr eglwys yn Corinth i deml, sylfaen pa un yw Crist Iesu, yr hwn yr oedd yr apostol wedi ei bregethu yn mhlith y Corinthiaid fel y cyfryw, yn ol y gras a'r dawn a roddwyd iddo. Os ydoedd yr apostol yn saer doeth a chywrain wrth osod Iesu Grist yn sylfaen, rhaid i'r rhai nad ydynt yn ei osod felly yn athrawiaethol, fod yn annoeth ac yn anghywrain; hyny yw, yn ffol ac yn gyfeiliornus, ac yn annheilwng o'r enw pen-adeiladwyr, gan eu bod yn sylfaenu eu hadeiladaeth ar dywod.

**PENTECOST**, *Gr. Πεντεκοστος, deg a deugain*, a alwyd felly am fod yr ŵyl hon yn dechreu ar y degfed dydd a deugain ar ol y pasc, a chyfrif o'r dydd cyntaf o ŵyl y bara croyw, sef y dydd yr offrymid y pasc. Gwel Lef. 23. 15. cymh. adn. 11. â'r 7fed. Cyfleithir y gair yn Act. 20. 16. a 1 Cor. 16. 8., *y Sulgwyn.* 'Pentecost.' W. S. Ond anaddas, tybygaf, ydoedd rhoddi enw Cristionogol yn y cyfleithiad (anarferedig hefyd yn nyddiau yr apostolion, ac yn mhell gwedi hyny) ar wledd Iuddewig. Mae y cyfieithwyr Saesonig yn euog o'r un bai wrth ei gyfleithu y pasc, *Easter*, yn Act. 12. 4.

1. Gelwir hi gŵyl y cynauaf—gŵyl y blaen-ffrwyth. Exod. 23. 16. Blaen-ffrwyth y cynauaf gwenith, fel yr oedd y pasc yn flaen-ffrwyth cynauaf yr haidd. Exod. 34. 22.——Gŵyl yr wythnosau, (Deut. 16. 9.) am eu bod i gyfrif saith wythnos o'r pasc i offrymu y ddwy dorth gwhwfan i'r Arglwydd. Lef. 23. 17. Yr oedd eu cynauaf yn dechreu y pasc, pan yr oeddynt i offrymu ysgub blaen-ffrwyth yr haidd, i'w chwhwfanu i'r Arglwydd. Cyn offrymu yr ysgub gwhwfan, nid ydoedd gyfreithlawn iddynt hwy ddechreu eu cynauaf. Y pentecost oedd diwedd eu cynauaf, pan yr oeddynt i offrymu dwy dorth gwhwfan o beilliad i'r Arglwydd. Yn hyn yr oeddynt yn cael eu dysgu i gydnabod yr Arglwydd yn nghynnyrch y ddaear, ac am ddefodol wythnosau y cynauaf. Nid oedd iddynt offrymu ond un oen gyd â'r ysgub gwhwfan, ond i offrymu saith gyd â'r ddwy dorth. Fel yr oedd eu rhwymedigaethau yn cynnyddu, felly hefyd yr oedd eu cydnabyddiaeth i gynnyddu. Yr oedd gŵyl y pasc i barhau am saith niwrnod, ond nid oedd y pentecost i barhau ond dros un diwrnod. Geilw yr Iuddewon yr ŵyl hon עצרת (*otsereth*) yr hwn a arwydda *dydd gŵyl*, (Lef. 23. 36. a Deut. 16. 8.) am nad oedd yr ŵyl hon i barhau ond *un dydd*. Ond er mai y dydd cyntaf ydoedd dydd yr ŵyl, etto byddai yr Iuddewon yn ei chadw hi dros saith niwrnod, pan oedd yr holl wrrywiaid yn ymddangos ger bron yr Arglwydd yn Jerusalem. Edr. BLAEN-FFRWYTH.

2. Yr ydoedd yr ŵyl hon, hefyd, yn goffadwriaeth o'u gwaredigaeth o'r Aipht (Deut, 16. 12.) ac o roddiad y gyfraith ar Sinai, yr hon a roddwyd yn mhen deng niwrnod a deugain gwedi eu dyfodiad o'r Aipht. Exod. 19. 1, &c.

3. Ar yr un ŵyl y tywalltwyd yr Ysbryd Glân ar yr apostolion, i'w haddasu i bregethu yr efengyl, ac i gasglu cynauaf o eneidiau i'r Arglwydd, ac i ysgrifenu y gyfraith sanctaidd ar galonau pechaduriaid. Y mae Lightfoot yn barnu, mai nid ar ddydd y pentecost, sef y dydd y cwhwfanwyd y ddwy dorth, yr oedd y Sabboth Iuddewig y flwyddyn hôno, ond y dydd ar ol hwnw, sef y Sabboth efengylaidd, yn cyfateb i'r dydd cyntaf o'r wythnos, pan gyfododd Crist, y tywalltwyd yr Ysbryd Glân ar yr apostolion. 'Ac wedi

4 Y

Digitized by Google

dyfod dydd y pentecost.' Actau 2. 1. *Gr.* Εν τω *συμπληρουσθαι, wedi cyflawni*, neu *orphen dydd y Pentecost.* '*Et nel finere del giorno de la Pentecoste.*' *Ital.* Ond eraill a farnant fod y gair *συμπληρουσθαι*, yn arwyddo dim mwy na *πληρουσθαι*, sef *wedi dyfod.* Luc 8. 23. a 9. 51. Nis dichon, medd Dr Doddridge, y gair Groeg arwyddo fod y dydd wedi diweddu, ond ei fod wedi dyfod yn gyflawn. Gwel sylwad Dr Doddridge ar Act. 2. 1. Fel hyn y tywalltwyd yr Ysbryd Glân y dydd ar ol rhoddiad y gyfraith, ac ar ol y Sabboth Iuddewig, yr un dydd o'r wythnos ag y cyfododd Crist, yn dechreu y dull newydd o gyfrif amser, gyda dechreuad goruchwyliaeth newydd a gogoneddus.

PENTEWYN—ION, (pen-tewyn) tewyn o dân, bonffaglydd, terfysgwr.

> Gwae y cynhenus mewn gwlad!
> Pentewynion uffern ydynt. *Mor. Llwyd.*

'Onid pentewyn ydyw hwn wedi ei achub o'r tân?' Zech. 3. 2. Edr. JOSUAH.

PENTREF—YDD, (pen-tref) treflan, trefan, cordref; y rhagddinas, y rhagdref.—'Tyred, fy anwylyd, awn i'r maes, a llettywn yn y pentrefydd.' Can. 7. 11. Awn yn neillduol; awn i ymweled â'r saint gwaelaf, yn y cyflwr mwyaf isel; llettywn yno—yr ydoedd am gael llonyddwch a chymundeb parhaus, dirwystr, â'i hanwylyd; ac yn y cymundeb hwnw i fod yn ddefnyddiol i eraill. Mat. 9. 35. a 13. 38. a 28. 19. Marc 6. 6. Act. 15. 36. Diar. 24. 27.

PENTRULLIAD, (pen-trulliad) heilyn, gwallofiad, arolygwr y trulliaid. Gen. 40. 2.

PENTWR—TYRU, (pen-twr) crug, cludair, crug lwyth, carnedd, bera; tyru, sypio, mwyhau.—'Yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrant iddynt eu hunain athrawon, gan fod eu clustiau yn merwino.' 2 Tim. 4. 3. Y gair *pentyru*, yn y fan hon, a arwydda mai hwy eu hunain, ac nid Duw, sydd yn gwneuthur athrawon iddynt eu hunain; a'r rhai hyny yn ol eu chwantau, ac nid yn ol nodau Duw ar y cyfryw: nid un, neu ychydig, a'u boddha ychwaith, ond rhaid cael llawer i'w boddhau; canys nid adeiladaeth y maent yn ei geisio, ond boddhau eu clustiau merwinllyd. Edr. MARWOR, MERWINO.

PENUEL, a PENIEL, פנואל a פניאל [*wyneb Duw*] 1. Lle yn agos i afon neu rŷd Jabboc, yn mha un yr ymdrechodd angel â Jacob, ar ei ddychweliad o Mesopotamia. Gen. 32. 30. Edr. JACOB. Adeiladwyd dinas a thŵr yn y fan hon oesoedd wedi hyny. Barn. 8. 17. 1 Bren. 12. 25.——2. Yr oedd dau ŵr o'r enw hwn. 1 Cron. 4. 4. a 8. 25.

PENWYN—I, (pen-gwyn) penllwyd, briglwyd.—'Cyfod ger bron penwyni, a pharcha wyneb henuriad.' Lef. 19. 32. Yr oedd cyfodi ger bron arall yn arwydd o barch; mae yr henuriad penwyn yn haeddu parch o ran ei oedran; yn enwedig os ydoedd yn swyddwr, ac hefyd yn rhagori mewn doethineb, duwioldeb, a ffyddlondeb. Mae moesau da tu ag at ein gilydd yn orchymynedig gan Dduw; am hyny, mae yr esgeulusiad o honynt yn bechadurus. 1 Bren. 2. 19. Diar. 20. 29. Galar. 5. 12. Esa. 3. 5. 1 Tim. 5. 1.

'Ymdaenodd penwyni ar hyd-ddo,' sef Ephraim, 'ac nis gwybu efe.' Hos. 7. 9. Heneiddiodd ac adfeiliodd teyrnas Israel trwy ei heilun-addoliaeth, ei llygrediaethau, ymderfysgiadau, difrodiad ac anrheithiad gelynion; fel yr oeddynt yn prysuro yn fuan i ddystryw, a hwythau heb ystyried hyny yn addas.

PEOR, פעור [*twll*, neu *agoriad*] mynydd tu hwnt i'r Iorddonen, yn agos i Nebo a Pisgah, a darn o fynyddoedd Abarim; hwyrach mai amrywiol benau oeddynt o'r un cefn o fynyddoedd. Yma yr aberthai y Moabiaid i'r eilun Baal, a elwid Baal Peor; ac yr oedd ganddynt deml iddo a elwid Beth Peor, neu tŷ Peor; ac yn gyfagos iddo yr oedd y ddinas Beth Peor, a gymerwyd oddiar Sehon, ac a roddwyd i'r Reubeniaid. Num. 23. 28. a 25. 2, 3, 18. Deut. 3. 29. Jos. 13. a 22. 17. Ps. 106. 28. Edr. BAAL.

PERAIDD—IO, (pêr) melus, chwêg, di-chwerw, hyfryd, hyfryder. Un peth hyfryd i'r glust, neu yr arogliad, sy beraidd; megys llais peraidd, Can. 2. 14.—blodau a llysiau peraidd, Can. 5. 13. Exod. 30. 34. 30. 34. Edr. AROGL, LLAIS, LLYSIAU, MARAH.

PER-AROGL. Edr. AROGL.

PERCHEN—OG—AETH, (parch) meddwr, meddiannwr; meddiant, adneu. Gen. 4. 20. Mat. 19. 22. Edr. MEDDIANT, &c.

> Call mi biau, anghall bum *berchen.* *Diar.*

PERERIN—DOD—ION, (pe-er) *Llad.* PEREGRINATOR, PEREGRINUS; *Saes.* PILGRIM; alltud, dyeithr-ddyn, allwlad, arallwlad, pellenig, un o wlad arall, un pell ei drigias; ceimiad, teithiwr crefyddol. Y mae yr un gair *παρεπιδημοι*, yn cael ei gyfieithu *dyeithriaid*, 1 Petr 1. 1.—*pererinion*, 1 Petr 1. 11. Heb. 11. 13. Y duwiolion ydynt yn ddyeithriaid ac yn bererinion yn y byd hwn. Edr. DYEITHRIAID.

PEREZ—UZZAH, פרץ־עזה [*rhwygiad Uzzah*] lle yn agos i lawr-dyrnu Nachon. 2 Sam. 6. 8.

PEREZIAID, פרזי [*pentrefwyr*, neu *gwasgaredig*] hen drigolion Canaan, a alwyd felly oddiwrth eu dull gwasgaredig ac ansefydlog o fyw. Yr oeddynt yn wasgaredig yn mhlith llwythau eraill, tebygol. Gen. 13. 7. Jos. 17. 15. Barn. 3. 5. Rhoddodd Solomon hwynt dan dreth. 2 Cron. 8. 7. Yr oedd rhai o honynt yn aros wedi y caethiwed. Ezra 9. 1.

PERFEDD—ION, (pêr-bedd) y canol, canol-barth, y pwynt perfedd; y coluddion, yr ymysgaroedd.—Perfeddion y nos, sef canol nos, y bys perfedd, sef y bys canol; y tri perfeddaf, sef y tri nesaf i mewn; y rhan berfedd, sef y rhan ganol; perfedd-wlad, sef gwlad ganol, neu canoldirog, diarfor.

Y perfedd, neu y coluddion, ydyw y rhan hôno o'r corph sydd yn derbyn yr ymborth o'r cylla, ac ynddynt y mae y ffrwyth yn cael ei neillduo oddiwrth y bwyd trwy y llestri llaethawg, er maeth i'r holl gorph; y rhan arall, sef y soeg, sydd yn cael ei ddwyn allan trwy y coluddion, y rhai ydynt gwedi eu haddasu yn rhyfedd i'w wthio a'i wasgu yn mlaen trwyddynt. Y mae amryw ffynonau ynddynt i'w hireiddio, a'r rhai hyny yn amlach tu a'r diwedd, fel y mae y peth a ddygir trwyddynt yn ddiffrwythach ac yn sychach. Y mae y perfedd yn agos i chwech hŷd gwr, ac wedi eu cydio wrth y cefndedyn, i'w cadw yn eu lle, fel y byddo y ffordd drwyddynt yn rhwyddach. Pe byddent yn fyrach, âi yr ymborth trwyddynt cyn y sugnai y llestri llaethawg y ffrwyth a'r maeth atynt: y mae crychni hefyd ynddynt i'r un dyben. Y maent gwedi eu byrnio yn rhyfedd yn y corph, er eu hŷd, ac wedi eu gosod a'u rhwymyno yn addas ac yn gyfleus, heb un rhan o honynt wrth ewyllys y dyn ei hun, ond y cyluddyn uniawn yr eisteddfod, i fwrw y pridd allan. Y mae y maeth a dynir oddiwrth yr ymborth ynddynt trwy y llestri llaethawg, neu bibellau bychain, cyn faned a gwallt, fel llaeth yn y llestri hyn. Y mae y llestri hyn yn aml iawn, ac mor fychain fel nas canfyddir mo honynt ond pan fyddont gwedi eu llenwi â'r caul. Y maent yn fuan yn ymuno yn gangenau mwy, a'r rhai hyny yn diweddu mewn cilchwyrnau, o ba rai y mae y pibellau eraill yn dwyn y caul i dderbynfa neu gronfa. Y mae y gronfa hon yn gwd o faintioli i dderbyn dwy lonaid llwy fwyta; ac o'r llestr hwn y mae y caul yn cael ei ddwyn i fynu trwy bibell

Digitized by Google

gyd âg asgwrn y cefn (*spina dorsi*) hyd at y gwddf, yno cyferfydd â'r afon. Mae yn cael ei dywallt i wythïen fawr y tu aswy i'r gwddf, ag sydd yn ei ddwyn yn gymysgedig â'r gwaed yn fuan i'r galon. Yn y wythïen fawr (y *thoracic duct*, neu *chyliferus*) sydd yn dwyn y caul i fynu o'r gronfa i'r gwaed, mae amryw gaeadau neu ddrysau bychain, yn caead yn y bibell i'w rwystro yn ol, ac yntau yn myned ar i fynu. A phan elo i wythïen fawr y gwaed (*subclavian vein*) mae tafod yn agor i'w ollwng i mewn oddi yno i'r *cava*, ac oddi yno i'r galon, ac yn caead gyda ffrwd y gwaed a elo heibio i'r galon. Yn y coluddion y mae llinynau yn eu gwasgu, ac yn peri ysgogiadau (*peristaltic motion*) neillduol ac addas i wasgu yr ymborth yn y blaen yn arafaidd fel y gallo y main lestri llaethawg dirifedi i dderbyn y maeth oddi wrtho; ond yn y wythïen hon, nid oes dim felly, ond ambell i redweli yn ei chroesi, ac yn ei gwasgu wrth guro; am hyny y mae y caeadau hyn yn dra angenrheidiol fel y byddo gorfod ar y caul fyned yn mlaen; ïe, i fynu. Gwel Dr Paley's *Natural Theology*.

Y mae y perfedd, yn allegawl, yn arwyddo yr un peth a thosturi, tiriondeb, trugaredd, a'r cariad anwylaf: 'Fy mherfedd a ruant am dano ef,' sef y mae fy nhosturiaethau tyneraf yn ymgynhyrfu tu ag ato. Jer. 31. 20.

PERFFAITH—IO—RWYDD—YDD, (per-ffaith) cyfan, cyflawn, difai, digoll; cyfangwbl, cyflawnwedd; wedi ei orphen.—Y mae Duw yn berffaith, yn meddiannu pob rhinwedd a rhagoroldeb i raddau diderfyn. Mat. 5. 48.——'Perffaith yw ei weithred.' Deut. 32. 4. Sef yn gwbl sanctaidd, uniawn, a chyflawn; nid oes dim gwall na cholled yn ei weithred: mae wedi ei threfnu yn ddoeth i ateb dybenion addas i Dduw, ac wedi ei gorphen yn gyflawn.

Perffeithiwyd Crist pan orphenodd ei waith dros ei bobl yn ei ddarostyngiad yn y byd; a chwedi ei berffeithio trwy ddyoddefiadau, mae yn Awdwr iechydwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo. Mae perffeithrwydd yn ei Berson, a pherffeithrwydd cyflawn digoll yn ei waith, fel Mechnïydd dros ei bobl. Luc 13. 32. Heb. 2. 10. a 5. 9. Trwy un offrwm perffaith y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio. Y mae efe yn berffaith drostynt yr hyn y mae y gyfraith yn ei ofyn; ac y maent hwythau yn berffaith ynddo a thrwyddo. Nis byddant yn yr ystyr hwn byth yn fwy perffaith nag ydynt y mynyd y credont ynddo; canys mae efe yn berffaith ac yn gyflawn iddynt hwy, yr hyn ydyw ynddo ei hun. Heb. 10. 14.

Y mae y gair perffaith, a pherffeithrwydd, fel y priodolir hwynt i saint Duw yma yn y byd, yn amrywio yn eu harwyddocâd yn fawr, 1. Y mae pob credadyn yn berffaith fel y mae 'gwedi ei gyflawni yn Nghrist.' Col. 2. 10. Y mae ganddo berffaith gyflawnder, a Duw wedi heddychu âg ef yn berffaith ac yn gyflawn, fel 'nad oes lidiogrwydd ynddo.' Esa. 27. 4. Nis dichon cynnydd mewn graddau gymeryd lle yma; canys ni bydd ganddo byth fwy drosto i Dduw, ac nid rhaid iddo wrth ychwaneg: ni ddichon Duw ofyn ychwaneg, na meddwl anfeidrol feddwl am fwy i fod. Eph. 5. 27. 2 Cor. 5. 21.

2. Mae yn berffaith hefyd o ran gwirionedd diffuant a didwyll ei gariad at Dduw, ei ffydd yn Nghrist, ei edifeirwch am bechod, a'i ddymuniad hiraethlawn am gyflawn waredigaeth oddi wrtho. Yn yr ystyr hwn y mae perffeithrwydd i'w olygu mewn cyferbyniad i ragrith. Nid wedi ei oreuro y mae, ond aur yw. Yn yr ystyr hwn, dywedir am Job a Hezeciah, eu bod yn berffaith. Job 1. 1. Esa. 38. 3. Gwel Jos. 24. 14. 1 Bren. 9. 4. Ps. 7. 8. a 25. 11. a 26. 1. a 78. 72.

3. Mae yn berffaith hefyd o ran cyflawnder gwaith yr Ysbryd Glân ar ei enaid: y mae wedi ei sancteiddio yn gwbl oll, ei ysbryd oll, ei enaid a'i gorph. 1 Thes. 5. 23. Mae ganddo galon ac ysbryd newydd, mae yn greadur newydd, gwnaed pob peth yn newydd, mae ynddo ddyn newydd. Ezec. 36. 26. 2 Cor. 5. 17. Eph. 4. 23, 24.

4. Mae yn berffaith o ran y golygiad sydd ganddo ar holl gorph y gwirionedd, a'i gymeradwyaeth o bob peth yn Nuw, yn Nghrist, ac yn nhrefn iechydwriaeth, yn ngorchymynion Duw, mor belled ag y mae yn eu hadnabod: 'Uniawn y cyfrifais dy orchymynion am bob peth; a chaseais bob gau lwybr.' Ps. 119. 128. Nid yn hannerog, ac nid yn rhagrithiol, ond yn gyflawn, y mae ei holl enaid yn cymeradwyo pob peth yn Nuw, ac yn ei holl drefniadau, ei lwybrau, a'i ragluniaethau. Yr oedd Zacharias ac Elizabeth yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd. Luc 1. 6.

5. Mae yn amlwg y sonir hefyd am berffeithrwydd cymhariaethol: yn yr ystyr hwn sonia yr apostol am rai yn berffaith o ran gradd eu gwybodaeth, eu ffydd, a'u sancteiddrwydd, mewn cymhariaeth i fabanod yn Nghrist sydd raid iddynt wrth laeth, ac nid bwyd cryf. 1 Cor. 2. 6. a 3. 2. Heb. 5. 12, 13, 14. Mae graddau yn yr eglwys; sef plant, gwyr ieuainc, a thadau. 1 Ioan 2. 12, 13. Mae rhai yn weiniaid, a rhai yn gryfion; rhai yn ysbrydol, a'r lleill mewn ystyr, o ran gradd bychan eu hysbrydolrwydd, yn gnawdol; rhai âg ychydig ffydd, ac eraill a'u ffydd yn fawr ac yn ddiegwan. Mat. 6. 30. a 15. 28. Rhuf. 4. 19.

6. Y mae perffeithrwydd o ran graddau i'r saint ymestyn ato, pan y bydd yr holl ddyn yn berffaith ac yn gyflawn rydd oddiwrth bob pechod, na dichoniad i bechu byth, ac wedi cael ei orlenwi â gwybodaeth ac â sancteiddrwydd, a'r holl enaid, yn ei holl alluoedd, wedi cael ei adferyd yn gyflawn i ddelw Duw. Dyma y perffeithrwydd y mae y gyfraith yn ei ofyn, a Duw gwedi ei addaw i'w bobl. Yn yr ystyr hwn, dywed yr apostol, nad oedd gwedi ei gyrhaedd, neu eisoes gwedi ei berffeithio, 'eithr dilyn yr wyf,' medd efe, 'fel y gallwyf ymaflyd yn y peth hwn hefyd yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu.' Phil. 3. 11, 12. Y mae rhai yn gyfeiliornus yn barnu fod perffeithrwydd yn gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn, megys y Pabyddion ac eraill. Pelagius, neu Morgan, ydoedd y cyntaf y rhoddir hanes am dano yn yr hanesiaeth eglwysig, a gyhoeddodd y pwnc cyfeiliornus hwn. Geilw Jerome ef, *Prædicator Impeccantiæ, Pregethwr Perffeithrwydd.* Gwel *Epist. ad Ctesiph; et Tribus Libris Contra Pelagianos.* Dywed Awstin am dano ef a'i ganlynwyr, 'In eâ etiam progrediuntur Pelagiani ut dicant vitam justorum in hoc seculo nullum habere peccatum, et ex his in hac mortalitate Ecclesium Christi perfici, ut sit omnino sine ruga et sine macula, quasi non sit Ecclesia Christi, quæ in toto orbe clamat ad dominum, Dimittæ nobis debita nostra;' hyny yw, bod eglwys Crist yn y byd hwn yn ddibechod, heb arni frycheuyn na chrychni. August. *Hæres.* 88., *lib.* ii., *De peccatorum meritis et remissione.* Gwel *Ep.* 89. *et lib.* xiv. *De Civ. Dei. Cap.* ix., *et lib. de perfect. justitatiæ, Enchr. c.* 64. Adnewyddwyd yr un pwnc gan y Pabyddion, y Sociniaid, a'r Ail-Fedyddwyr, yn eu dechreuad. Yn mhlith y Pabyddion bu dadl fawr rhwng y Jesuitiaid a'r Janseniaid yn nghylch y pwnc hwn. Gwadu hwn oedd un o'r pum pwnc a roddwyd gan y Pab Innocent X. yn erbyn y Janseniaid i'w barnu hwy yn hereticiaid, a'u hesgymuno o'r herwydd. Hyn mae y wir eglwys yn mhob oes yn ei wadu, ac yn ei farnu yn gwbl groes i dystiolaethau y gair, i brofiadau y duwiolion erioed, ac i natur gwaith yr Ysbryd Glân ar eu heneidiau. Y mae yn anhawdd meddwl y dichon y dychymyg hwn gael lle yn meddwl neb sydd yn byw yn ngoleuni Duw, a than argyhoeddiadau yr Ysbryd Glân; ond ei fod yn tarddu yn gwbl oddiwrth anwybodaeth mawr o ëangder ac

Digitized by Google

ysbrydolrwydd y gyfraith, eu calonau eu hunain, ac o natur pechod. 'Y mae pob pechod yn drosedd o'r gyfraith,' medd un, 'ond nid yw pob trosedd o'r gyfraith yn bechod.' Yn ol y dywediad hwn, hawdd i un ddychymygu ei hun yn berffaith, gan mai efe sydd i farnu, ac nid y gyfraith, beth sydd bechod; ac ni farna neb yn ddrwg iawn am yr hyn mae yn ei garu yn anwyl. Amryfusedd cadarn ydyw hwn i gredu celwydd, sydd yn tueddu yn fawr i dwyllo eneidiau dynion. Ond y mae pob gwir gredadyn yn ymestyn at y perffeithrwydd hwn, fel peth o'r tu blaen iddo. Gwel Witsius, *De Æcon. Fæd.*, *lib.* iii. *cap.* 12., § 125. Caryl *on* Job 1. 1. Doddridge, *Sec.* 181.

'Nid ydynt yn dwyn ffrwyth i berffeithrwydd.' Luc 8. 14. Sef nid yw yn dwyn ffrwyth cyflawn, addfed. Y mae yn myned yn ddiffrwyth; nid yw y peth mae yn ei ddwyn yn deilwng i'w alw yn ffrwyth. Mat. 13. 22. Marc 4. 19.

'Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae.' Iago 1. 17. Rhodd berffaith, ydyw rhodd sydd yn gyflawn yn mhob ystyr, yn ateb i ddedwyddwch tragywyddol y neb sydd yn ei derbyn; mae yn berffaith o ran ei chyflawnder, ei godidogrwydd, a'i pharhad. Y mae y rhoddion perthynol i ddynoliaeth ac i'r bywyd hwn yn ddaionus, ac yn dyfod oddi uchod, ond y mae yr iechydwriaeth, yn ei holl amrywiol gangenau, yn rhodd gyflawn, odidog, berffaith a thragywyddol.*

'Oblegid ni pherffeithiodd y gyfraith ddim.' Heb. 7. 19. Trwy yr aberthau dan y gyfraith ni chafodd neb faddeuant a sancteiddrwydd; nid oedd perffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi; yr oedd anmherffeithrwydd yn yr offeiriaid, ac yn yr aberthau, ac yn ganlynol yn yr addolwyr: ond gwnaeth gair y llŵ y Mab yn offeiriad, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd—yr oedd yn ei Berson ac yn ei aberth yn berffaith, ac a berffeithiodd bob peth perthynol i'r sawl a gredant ynddo. Heb. 7. 11, 28.

'Gan edrych ar Iesu, Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni.' Heb. 12. 2. 'Pen twysog a gorphenwr yn ffydd ni.' W. S. Blaenor ein ffydd, yr hwn sydd yn rhagori ar bawb yn y ffydd; awdwr, effeithydd, a gorphenydd ffydd yn ei bobl: erddo ef y rhoddwyd hi, gweddiodd am dani iddynt, ac y mae yn ei pherffeithio ynddynt yn ei holl raddau a'i chynnydd. Phil. 1. 29. Ioan 17. 19, 20. Gal. 2. 20. Y mae rhai yn barnu fod cyfeiriad yn y geiriau at y chwarëyddiaethau: wedi annog yr Hebreaid i redeg yr yrfa a osodwyd o'u blaen, y mae yn cyffelybu yr Iesu i'r dedfrydwr, yr hwn oedd i farnu pwy oedd yr ennillwyr, ac i'w perffeithio hwy fel ymdrechwyr, trwy roddi y wobr iddynt. Gwel Schleusner, Macknight. Iesu yw tywysog a barnwr y rhai sydd yn rhedeg yn yr yrfa ysbrydol, ac a rydd fywyd tragywyddol i'r ymdrechwyr buddugoliaethus, ac arno ef yn unig y gweddai bod edrychiad yr holl ymdrechwyr.

'Gwr perffaith yw hwnw.' Iago 3. 2. Sef gwr cyflawn a manwl yn mhob peth, ac yn rhagori ar y cyffredinolrwydd: gellir barnu am un gwyliadwrus a chybwybodol yn ei eiriau, ei fod hefyd, yn gyfatebol i hyny yn ei holl weithredoedd.

'Fy nerth i a berffeithir mewn gwendid.' 2 Cor. 12. 9. Mewn gwendid, sef mewn profedigaethau a blinderau, ymddengys hollalluogrwydd Duw yn benaf yn cynnal ac yn cynnorthwyo y gweiniaid danynt, yn eu rhinweddu iddynt, ac yn eu dwyn allan o honynt fel aur wedi ei buro.

'A thrwy weithredoedd fod ffydd wedi ei pherffeithio.' Iago 2. 22. Sef yr ymddengys ei bod yn ffydd wirioneddol, fywiog, ac yn nerthol.

* Y mae yma yn llefaru am roddion ysbrydol, trwy y rhai y cymhwysir ni at bob rhinwedd a pherffeithrwydd. Menochius.

PERGA, Περγα [*daearol*] dinas diarfor yn Pamphylia, ar yr afon Caystrus, yn agos i ba un yr ydoedd teml i'r eilun-dduwies Diana yn sefyll, a elwid Pergæa. Yr ydoedd yn enwog fel lle genedigol y daearfesurydd Apolonius. Bu Paul a Barnabas fwy nag unwaith yma yn pregethu. Act. 13. 14. a 14. 25. Yr oedd eglwys Gristionogol yno hyd yr wythfed ganrif.

PERGAMUS, Περγαμος [*dyrchafiad*] dinas enwog yn Asia Leiaf, ar yr afon Caicus, deugain o filltiroedd i'r gogledd-orllewin o Thyatira, a phymtheng milltir a thriugain i'r gogledd o Smyrna. Yr oedd yn nodedig am deml ynddi i Esculapius, duw meddyginiaeth; ond yn fwy felly am lyfr-gell yn cynnwys dau can mil o lyfrau, casgledig gan y brenin Attalus. Dros gant a hanner o flynyddoedd yr oedd yn brif ddinas o deyrnas nid anenwog, yr hon a roddwyd i'r Rhufeinwyr gan y brenin diweddaf. Planwyd eglwys Gristionogol yn foreu yn Pergamus, er na roddir un crybwylliad am hyny gan Luc na Paul: ond a lygrwyd yn fuan gan gyfeiliornadau Balaam a'r Nicolaiaid, ac anfonodd Crist lythyr ati yn ei cheryddu yn llym o'r achos. Dat. 2. 12—17. Yr oedd gorsedd-fainc Satan yn Pergamus,* (Ps. 94. 20.) sef gau grefydd ac eilun-addoliaeth yn llywodraethu yn rymus ac yn greulawn, a bu erlidigaeth waedlyd ar y Cristionogion, a bu Antipas yn ferthyr ffyddlawn i'r Arglwydd yno. Dros saith neu wyth cant o flynyddoedd bu Cristionogrwydd yn flodeuog yno; ond yn bresennol y mae yn meddiant y Twrc, a'r ychydig Gristionogion sydd yno yn wael ac yn druenus eu helynt.

PERHON, (pe-rhon) bydded felly; er hyny; bydded y canlyniad felly.

> *Pe rhon* a gorfod ar y rhai'n,
> 'Rhyd glyn wylofain dramwy.
>
> *E. Prys*, (Ps. 84. 6.)

PERL—AU, *Ffr.* PERLE; *Span.* PERLA; *Gwydd.* PEARLA: cragen-faen. Cyfieithir yr un gair Groeg μαργαριτας, *gem*, yn Mat. 7. 6.—*perl*, yn pen. 13. 45, 46. Crist yw πολυτιμον μαργαριτην, 'y perl gwerthfawr,' (margaret gwerthfawr, W. S.) yr hwn sydd yn anfeidrol fwy ei werth ei hun na phob peth arall; yr hwn, pwy bynag a'i caffo a'i gwel felly, a gyfrif bob peth yn dom ac yn golled i'w ennill a'i feddiannu. Phil. 3. 8, 9. Esa. 33. 6. 1 Cor. 3. 21—23. Eph. 3. 8. Col. 2. 3. 1 Ioan 5. 11, 12. Dat. 21. 21. Mae pechadur yn ddilys o fod heb bob peth am byth, os bydd heb Grist; ac yn cael Crist, caiff bob peth ynddo. Nid oes dim rhwng dynion a'i gael, ond eu bod heb weled ei werth a'i ogoniant i'w ddewis. Y mae yn cael ei gyhoeddi a'i ddangos yn yr efengyl yn ei holl werthfawrogrwydd a'i ogoniant; mae i'w gael gan y neb a'i derbynio yn rhad, yn gyflawn, ac am byth: ynfydion ydyw pawb a ymfoddlonant ar fyw hebddo. Edr. GEM, MAEN.

PERLLAN, (pêr-llan) afalach; lle i gadw aeron; llwyn plan o goed ffrwyth.

> Tri thlws cenedyl: melin, cored, a *pherllan*.
>
> *Cyfreithiau Cymreig.*

'Dy blanigion sydd berllan o bomgranadau.' Can. 4. 13. 'Paradwys o bomgranadau.' *Groeg.* Edr. GARDD, PLANIGION.

PERSIA, פרס (*paras*) a פרסין (*parsin*). Yr enw cyntaf ar y wlad hon oedd ELAM, oddiwrth Elam mab Sem; hwyrach mai enw mab Elam ydoedd Paras, ac mai oddiwrth hwnw y cafodd y wlad yr enw PERSIA.†

* Gorsedd-fainc Satan yn ddiau ydyw eisteddle eilun-addoliaeth, coel-grefydd, ynfydrwydd, ac annuwioldeb. Yn y pethau hyn y mae Satan yn arfer ei ddichell a'i allu. Yn Ps. 94. 20. y mae ymadrodd cyffelyb, כסא הוות *gorsedd-fainc anwiredd*. Vitringa.

† Hyde Rel. Vet. Pers. *cap.* xxxv.

Digitized by Google

Beth bynag, Elam ydoedd enw cyntaf y wlad.* Gen. 10. 22. a 14. 1. Jer. 25. 25. A'r trigolion a elwir Elamitiaid. Act. 2. 9. Sef Iuddewon a feddylir yma yn trigo yn Elam. Ni roddir yr enw Persia iddi yn yr ysgrythyrau, hyd yn nghylch amser y caethiwed i Babilon. 2 Cron. 36. 20. Ezec. 27. 10. Dan. 8. 20. a 10. 13—20. a 11. 2. Esther 1. 13, 14, 18. Am sefyllfa Persia, y mae yn nghanol Asia, o du y dehau i Media, ac o du y dehau-ddwyrain i Assyria a Caldea. Dywed y teithiwr Syr J. Chardin, y cyfrifir yn bresennol 40,000,000 o drigolion yn perthyn i deyrnas Persia. Cedorlaomer ydoedd un o'r breninoedd cyntaf. Edr. ELAM. Goresgynwyd hi gan yr Assyriaid, a chan y Caldeaid wedi hyny. Jer. 25. 25. a 49. 35—39. Wedi y difrodiad a wnaeth y llywodraethau hyn arni, bu mewn gwedd druenus cyn i Cyrus ei chysylltu â Media, a darostwng ymerodraethau Assyria, yr Aipht, a Lybia. Edr. BABILON, CYRUS. Cyrus ydoedd sylfaenydd ymerodraeth y Persiaid.

Pan aned Cyrus, nid oedd y Persiaid ond pobl anaml, yn cynnwys deuddeg llwyth, yn preswylio mewn un dalaeth yn unig o'r diriogaeth ëang a alwyd gwedi hyny wrth yr enw Persia, ac i gyd ddim dros 120,000 o drigolion. Trwy ddoethineb a gwroldeb Cyrus, y meddiannodd y bobl hyn, gwedi hyny, ymerodraeth fawr y dwyrain. Dygiad y plant i fynu oedd yn cael edrych arno gan y Persiaid fel y ddyledswydd benaf, mwyaf ei phwys a'i chanlyniadau i'r llywodraeth. Nid ydoedd hyn yn cael ei adael i ofal y rhieni, rhag trwy ffolineb a gormod serch y rhieni, i'r plant gael cam hyfforddiad; ond yr ydoedd y llywodraeth yn cymeryd gofal o hyn yn fanwl. Yr oedd yr holl blant gwrrywaidd yn cael eu dwyn i fynu, yn gyffredin, yn yr un dull; yr oedd pob peth gwedi ei drefnu iddynt; sef eu bwyd, eu diod, eu gwaith, eu hamserau i bob peth, a'u cospedigaethau am feiau. Yr oeddynt yn ymdrechu i'w cynnefino trwy arferiad boreu, i fyw yn gymedrol ac yn sobr, ar yr ymborth mwyaf cyffredin; megys bara, dwfr, berw y dwfr; ac yn cadw rhag cyffeithiau, anghymedrolder, moethau, a segurdod. Yr oeddynt yn myned i ysgolion i ddysgu rhinwedd, uniondeb, cyfiawnder, &c., fel y gwnant mewn lleoedd eraill i ddysgu gwybodaeth y celfyddydau. Cafodd Cyrus ei hun ei ddwyn i fynu yn y dull hwn, a rhagorodd ar bawb o'i gyfoedion yn mhob peth rhinweddol. Yr oedd y Mediaid yn bobl wahanol iawn oddiwrth y Persiaid yn yr holl bethau hyn, yn ymollwng i foethau a phob anghymedroldeb.

Teyrnasodd Cyrus, gwedi iddo ddyfod fel tywysog a blaenor ar fyddinoedd Persia, i gynnorthwyo ei ewythr Cyaxeres, am ddeg ar hugain o flynyddoedd; gwedi goresgyn Babilon, naw mlynedd; a saith mlynedd wedi iddo ef ddyfod yn unben ar yr holl ymerodraeth, ar ol marwolaeth ei ewythr Cyaxeres yn Media, a'i dad Cambyses yn Persia. Y flwyddyn gyntaf o'r saith diweddaf ydyw y flwyddyn a feddylir yn Ezra 1. 1., pan derfynodd gaethiwed yr Iuddewon, ac y cyhoeddodd efe ryddid iddynt i ddychwelyd i'w gwlad eu hunain; treuliodd y saith mlynedd diweddaf o'i fywyd yn dra heddychol, a sefydlodd y fath drefniadau doeth ar y llywodraeth, fel y safodd trwy rym ei osodiadau, dros ddau cant o flynyddoedd gwedi ei farwolaeth, er holl ynfydrwydd ei olynwyr. Yr oedd yr ymerodraeth yn ëang iawn pan y bu farw; ei therfyn dwyreiniol oedd yr afon Indus; i'r gogledd yr oedd moroedd Caspia a'r Euxine yn ei therfynu; o du y gorllewin môr Egea; ac o'r tu dehau Ethiopia a môr Arabia. Yr oedd yn preswylio yn nghanol ei ymerodraeth; y saith mis oer o'r flwyddyn yr ydoedd yn aros yn Babilon, am ei bod yn gynhesach yno; tri mis yr arosai yn Susan, a dau yn Ecbatana. Gwel *Cyropæd. lib.* viii. Bu farw, A. M. 3475, C. C. 529, o'i oed 70. Mae hanesion ei farwolaeth yn amrywio yn fawr; ond y mae hanes Xenophon mor debyg, os nid yn debycach i wirionedd ag un; sef iddo farw ar ei wely, yn ei wlad ei hun, ac yn nghanol ei gyfeillion. Gwel *Cyropæd., lib.* viii. Y mae yr haneswyr oll yn cytuno iddo ef gael ei gladdu yn Pasargada yn Persia, lle y dywed Xenophon iddo farw; ac yr oedd ei feddfaen, neu ei feddgor, i'w gweled yn amser Alexander Fawr. Annhebyg y buasai yn cael ei gladdu yn Pasargada, pe buasai gwedi ei ladd ar hynt filwraidd yn Scythia, yn ol hanes Herodotus a Justin; ac annhebyg iawn y buasai gwr mor synwyrlawn a Cyrus, yn myned ar y fath hynt ynfyd yn ei hen ddyddiau; ac mor annhebyg y buasai achosion yr ymerodraeth yn myned rhagddynt gyd â'r fath ffyniant yn nwylaw y fath olynwr a Cambyses, pe buasai, yn ol yr hanes hwn, efe a dau can mil o'i filwyr gwedi eu lladd gan y Barbariaid yno. Am hanesion Diodorus Siculus, Ctesias, a John Malela o Antioch, y rhai ydynt yn amrywio oddiwrth eu gilydd, yn gystal ag oddiwrth eraill hefyd, nis câf eu coffâu. Gan fod hanes Xenophon am dano yn cyd-gordio yn rhyfedd â'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn mhob peth, y mae yn deilwng o'n cred yn hyn hefyd.

Cambyses, ei fab (yr hwn, tebygol, a elwir Ahasuerus yn Ezra 4. 6.) a gafodd yr orsedd, yn ol trefniad ei dad, ar ei ol, a theyrnasodd am saith mlynedd a phum mis. Teyrnasodd un ar ddeg o ymerawdwyr ar orsedd Persia, yn olynol, wedi marwolaeth Cambyses; y diweddaf, Darius Codomanus, a orchfygwyd gan Alexander Fawr, A. M. 3674. Ar hyn, wedi iddi barhau dau cant a chwech o flynyddoedd, diweddwyd ymerodraeth Persia, ac ymerodraeth Groeg a'i holynodd. Enwau ymerawdwyr Persia oeddynt Cyrus, Cambyses, Smerdis, Darius Hystaspes, Xerxes I., Artaxerxes Longimanus, Xerxes II., Sogdianus, Darius Nothus, Artaxerxes Mnemon, Artaxerxes Ochus, Arses, Darius Codomanus—i gyd, tri ar ddeg. Edr. dan amryw o'r enwau yn y gwaith hwn. Gellir olrhain dystrywiad yr ymerodraeth hon i'r un achosion ag sydd yn dystrywio pob llywodraeth; sef balchder, creulonder, gormod rhysedd, moethau, gloddest, segurdod, didduwiaeth, ac eilun-addoliaeth.

Yr ymerodraeth hon ydoedd y 'ddwyfron a'r breichiau arian,' yn y ddelw a welodd y brenin Nebuchodonosor yn ei freuddwyd, yr hwn a ddehongla Daniel: 'Ac ar dy ol di y cyfyd breniniaeth arall is na thi.' Dan. 2. 32, 39. Y pen aur oedd yr ymerodraeth Babilonaidd; y freniniaeth a gododd ar ol hòno, ac ydoedd is na hi, ydoedd ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid. Y ddwy fraich ydynt yn arwyddo y ddau frenin y rhai a ddinystriai freniniaeth Babilon. Y ddau frenin oeddynt freninoedd y Mediaid a'r Persiaid, galluoedd pa rai a ymunasant dan Cyrus, yr hwn ydoedd yn fab i frenin Persia, a daw brenin Media, yr hwn a gymerodd Babilon, a derfynodd yr ymerodraeth hòno, ac a osododd i fynu ymerodraeth y Persiaid ar ei hadfeiliau. Dywedir fod hon yn *is* na'r llall; sef ei bod yn *llai*; neu yn hytrach, yn *waeth* na'r llall:* *deterius te.* Castalio. Dywed Dr Prideaux, 'fod breninoedd Persia

* Dywed Mr Bell (gwel ei *System of Geography*) mai enw brodorol Persia yw *Iran*, ac nad ydym i olygu Persia wrth *Elam* yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ond y parth deheuol a mynyddig o wlad *Media*, yn cyfateb i *Elymais* yr ysgrifenwyr Groegaidd. Cadarnheir y golygiad yma trwy y ffaith mai *Airan* yw yr enw a geir am *Persia* ar gôf-adeiliau Persopolis yn yr iaith Pehlioi, neu yr hen Bersiaeg; ond tebygol mai ar ol amser Zoroaster y rhoddwyd yr enw hwn ar y wlad, gan mai ystyr yr enw yw *gwlad y credinwyr*, gan gyfeirio at grefydd y Magiaid a ffynai yno, sylfaenydd yr hon ydoedd Zoroaster. Ymddengys mai enw ar dalaeth o'r wlad ydoedd Persia ar y cyntaf, yr hwn a drosglwyddwyd wedi hyny i'r wlad yn gyffredinol. Ieithoedd y wlad ydyw y Zeud, Pehlioi, y Parsee, a'r Bersiaeg. Nis gellir darllen hanes bywyd y duwiol Henry Martyn, yr hwn a lafuriodd ar y rhan hon o'r maes cenadol, a hanes yr ymchwiliadau diweddar yn mhlith y Nestoriaid, heb deimlo dyddordeb nid bychan yn y wlad hon.—C.

* Prideaux, *Connect.*, *p.* i. *b.* 2. cyntaf o Neriglissar.

Digitized by Google

y rhyw waethaf o ddynion erioed a lywodraethasant ar deyrnas.' Cyffelybiad yr un ymerodraeth i *arth* yn ngweledigaeth Daniel (pen. 7. 5.) a arwydda yr un peth. Edr. ARTH.

Wedi bod dan lywodraeth y Groegiaid, y Parthiaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid, a bod yn ddarostyngedig i lawer o gyfnewidiadau, a'i thrigolion ddyoddef llawer o greulondeb ynddynt oll, yn yr amrywiol oesoedd, mae yn bresennol yn freniniaeth dra ëang, yn cael ei hamgylchu o bob tu gan ymerodraethau Rwssia, y Twrc, y Mogul, a Tartary.

Nid oes fawr o hanes am daeniad Cristionogrwydd yn Persia, er diammeu, iddi gyrhaedd hyd yno, a llwyddo, fel yn mharthau eraill o'r byd. Y mae un Zoroaster yn enwog yn ei hanes fel diwygiwr mawr yn nghrefydd y wlad. Barna rhai iddo gyfeillachu âg Ezeciel yn y caethiwed, ac iddo trwy hyny gael gwybodaeth o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, ac iddo ffurfio rhyw gymysgedd o grefydd wahanol i Baganiaeth gyffredin y Cenedloedd. Ar y cyntaf nid oedd ganddynt hwy na delwau, na themlau, nac allorau; ond yr oeddynt yn credu fod un Duw, ac yn addoli yr elfenau, yn enwedig yr elfen dân, a'r cyrph nefol, yn enwedig yr haul, fel yn ei gynnrychiolli. Yr oedd ganddynt lawer o barch i Abraham, ac yn hòni mai efe a'u dysgodd yn eu crefydd. Wrth bob hanes y mae lle i farnu yn ddilys eu bod yn fwy rhydd oddiwrth eilun-addoliaeth, ac yn tebygu i'r Iuddewon yn eu crefydd, yn fwy na'r holl Genedloedd eraill yn y dehau neu y dwyrain. Yr oeddynt yn gwrthwynebu yr arferiad o demlau, gan farnu mai peth ynfyd oedd meddwl fod teml, neu un tŷ, neu le, yn abl cynnwys Duw Hollbresennol, Hollalluog, a Hollwybodol. Ac er fod gradd o lygriad yn eu plith trwy eu cyfrinach â'r Cenedloedd eraill; megys yr Assyriaid a'r Caldeaid, etto parhaodd hyd heddyw, meddant, grediniaeth a pharch i'r hen egwyddorion oedd yn foreuol yn eu plith.

Y mae sefydliad cenadol yn bresennol gan y Gymdeithas Genadol yn Edinburgh, ar gyffiniau Persia, ag sydd wedi ei goroni â gradd o lwyddiant. Hyfryd yw gobeithio mai cwmwl bychan ydyw, a ymdaena dros yr holl wledydd tywyll, ac a dywallt gawodydd o fendithion tragywyddol ar y trigolion. Am hanes Persia, gwel yn benaf *Ancient Universal History*, *vol.* v, vi. Rollin's *Ancient History*. Prideaux's *Connect.*, *b.* i. Dr Thomas Hyde's *History of the Ancient Religion of the Persians.*

PERSON, *Llad.* PERSONA; *Saes.* PERSON: dyn, nawd, notur; ansawd, dynsawd; y rhagor ansawdd rhwng y naill ddyn a'r llall.—'Ac yn wir lun ei Berson ef.' Heb. 1. 3. *χαρακτης της υποστασεος*, a *gwir lun ei sylwedd*, neu *ei hanfod*; sef gwir lun y Tad ei hun. Priodol ystyr y gair *Gr.* *υποστασις* yw *sylfaen*; oddiwrth *υπα dan*, ac *ιστημι*, neu *ισταμαι*, *gosod*, neu *sefyll*; peth yn sefyll dan, ac yn cynnal peth arall yn ddiysgog. Yn draws-symudol arwydda, hyder sicr, gobaith dilys, dysgwyliad diysgog, yr hwn sydd yn dal ac yn cynnal meddwl dyn, fel mae sylfaen yn cynnal adeiladaeth. 2 Cor. 9. 4. a 11. 17. Heb. 3. 14. a 11. 1. Yn yr un golygiad y mae yn arwyddo hanfod sylweddol, anysgogadwy, yn dibynu yn gwbl arno ei hun, ac yn gynnaliaeth i eraill. Gwel Schleusner. Y mae y geiriau yn arwyddo yr un peth a'r ddau air, 'ffurf Duw—delw y Duw anweledig.' Phil. 2. 6. Col. 1. 15. Y mae y Mab o'r un hanfod a'r Tad, ac felly yn ffurf Duw; ac y mae yn ddangosiad cywir o'r Duwdod i ni, ac felly yn ddelw y Duw anweledig. Edr. DELW, FFURF. Nis gwn am un gair yn cyfateb yn fwy cyflawn i'r geiriau hyn yn yr ysgrythyrau, na'r geiriau תמנת יהיה *gwedd* IEHOFAH: 'ond caiff edrych (yn dywedyd am Moses) ar *wedd* IEHOFAH.' Num. 12. 8. Edr. GWEDD. Nid ydyw y gair *Gr.* *υποστασις*, yn arwyddo *person*; arferir ef yn aml yn nghyfieithiad y LXX., ond nid ydyw yn gyfieithiad o un gair Hebraeg sydd yn arwyddo *person*: ei ystyr yw sylwedd, hanfod, hanfod sylweddol; etto nid oes dim a ddichon fod yn fwy eglur na bod y geiriau yn gosod allan undeb hanfod, a gwahanol bersonau yn yr hanfod hwnw. Nis dichon fod un creadur yn wir lun (*χαρακτης*) yr hanfod dwyfol; heb fod yn hanfod dwyfol; ac ni buasai Crist yn ddelw y Duw anweledig i ni, heb fod ei hun yn ffurf Duw, yr hyn y mae y geiriau 'gwir lun ei berson ef,' yn ei arwyddo. Edr. TRINDOD. Gwel Campbell's *Dissert.* Mintert's *Lex. Gr.* Schleusner's *do.* Suiceri *Thesaur.* Dr Owen *on Heb.* 1. 3.

PERSWADIO, *Llad.* PERSUADEO; *Ffr.* PERSUADER; *Saes.* PERSUADE: darbwyllo, dybwyllo, annog, eiriol, cynghori.—'Ac a berswadiasant y bobl.' Mat. 27. 20. 'Ymlewydd awnaethant a'r bobl.' W. S. 'A hudasant y bobl.' Dr M. 'A annogasant y bobl.' Argraffiad 1746.——'Ni a'i perswadiwn ef.' Mat. 28. 14. 'Ni a ei dygwn ef i gredy.' W. S. a Dr M. ——'A hwy a berswadiasant y bobl.' Act. 14. 19. 'Yr ei wedi iddwynt gwbl eiriol y popul.' W. S. 'Wedi iddynt gynghori y dyrfa.' Dr M.——'A chan na ellid ei berswadio.' Act. 21. 14. 'A' phryt na ellit troi ei veddwl.' W. S. 'A phan nad oedd yn cydsynio â ni.' Dr M.——'Yr ydym yn perswadio dynion.' 2 Cor. 5. 11. 'Ydd ym yn peri y ddynion gredu.' W. S. a Dr M. Yr un gair *Gr.* *πειθω*, sydd yn y lleoedd hyn oll; ei briodol ystyr ydyw annog, cynghori; ac a gyfieithir felly yn Act. 13. 43. a 19. 8. a 28. 23.

PERTH—I, (py-erth) drain, mieri, dyrysni; llwyn o ddrain; prysgl.—'Ac angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo (sef i Moses) mewn fflam dân o ganol perth.' Exod. 3. 2. Y mae yr angel yn cael ei alw '*DUW* Abraham,' yn adn. 6. a '*IEHOFAH*' yn adn. 7. Y mae Stephan yn llefaru am ddau: 'Hwn a anfonodd Duw yn llywydd, ac yn waredwr, trwy law yr angel, yr hwn a ymddangosodd iddo yn y berth.' Act. 7. 35. Diammeu mai 'angel y cyfammod' ydoedd. Mal. 3. 1. Dilys yw, fod y weledigaeth hon, nid yn unig yn foddion i alw sylw Moses, ac yn gadarnhad iddo o'i anfoniad gan Dduw i wared Israel, ond hefyd yn arwyddocaol ac yn arddangosiadol. Rhai gynt a olygent y berth yn arwyddo cenedl Israel, a'r tân y gyfraith, yr hon sydd yn goleuo ac nid yn difa; eraill a olygent y berth yn arwyddo dynoliaeth Crist, yr hon sydd heb ei difa mewn undeb â Pherson y Mab; eraill drachefn a olygent y berth yn arwyddo Mair Forwyn, mam yr Iesu, a'r tân yn arwyddo yr Ysbryd Glân yn cenedlu dynoliaeth Crist o'i sylwedd, heb ei niweidio. Y mae y pethau hyn yn gywrain, ond nid perthynol iawn i'r achos. Tebygol fod cyfeiriad y prophwyd Esaiah, (pen. 43. 2.) at y weledigaeth hon: 'Pan rodiech trwy y tân, ni'th losgir; ac ni ennyn y fflam arnat.' Y mae y weledigaeth, gan hyny, yn hytrach yn gosod allan gyflwr isel, gwael, a dirmygedig Israel yn yr Aipht, yn cael eu cystuddio yn dost; etto yr oedd Duw yn ei ewyllys da yn eu canol, ac yn eu cadw hwynt yn rhyfedd heb eu difa. Deut. 33. 16. Gen. 15. 13, 17. Yn ol deddf natur, buasai y tân yn difa y berth yn fuan; felly y buasai Pharaoh greulawn, gadarn, yn difa Israel yn yr Aipht, ac y buasai gelynion yr eglwys, yn yr amrywiol oesoedd, yn yr un modd; ond y mae Preswylydd mawr y berth â'i ewyllys da tu ag ati, ac am hyny, er fod y 'tân yn ei llosgi, mae heb ei difa.' Deut. 4. 20. Ps. 60. 12. Dan. 3. 27. 1 Cor. 1. 8, 9, 10.

PERTHYN—AS—AU, (parth) priodol, yn eiddo un; peth â hawl gan un iddo, ac awdurdod arno; câr, carenydd.—'I mi y perthyn dial.' Deut. 32. 25. Edr. DIAL.——'A dywedyd y pethau a berthynant i

Digitized by Google

deyrnas Dduw.' Act. 1. 3. Sef eglurhau y pethau a berthynent i osodiad teyrnas Dduw i fynu yn y byd; dyma y pethau oedd o bwys yn ngolwg yr Iesu cyn ei esgyniad, ag oeddynt o ganlyniad mawr i'r dysgyblion fod yn hysbys o honynt. Nid ydyw y ddaear, a'r hyn oll sydd gynnwysedig ynddi, ond bychain yn ngolwg Crist Iesu, ond fel maent yn ateb rhyw ddyben gwasanaethgar i osodiad a llwyddiant ei deyrnas. Y deyrnas ydyw yr adeiladaeth fawr, defnyddiau esgynlawr (*scaffolds*) yw y lleill i gyd.

PERYGL—U, (peryg) *Llad.* PERICULUM; *Saes.* PERIL, pŷd, enbydrwydd. 1 Cron. 11. 19. 1 Cor. 15. 20. 2 Cor. 11. 26.

PESTL, (pest) *Llad.* PISTILLUM; *Saes.* PESTLE; pwyawdr, hyrddiedydd, gordd, gorddwyn. Diar. 27. 22. Edr. MORTER.

PETR, Πετρος [*careg*] priodor o Bethsaida, mab Jonas, a brawd Andreas. Ei gynenw oedd SIMON; ond galwodd yr Iesu ef CEPHAS, neu PETR, sef *careg*, neu *graig*, i ddynodi ei angen am gadernid sefydlog yn y ffydd. Ioan 1. 42, 43, 44. Mat. 16. 18. Yr ydoedd Andreas ei frawd yn un o ddysgyblion Ioan Fedyddiwr (a hwyrach Petr hefyd) ac a glywodd Ioan yn cyfeirio at yr Iesu, fel 'Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd;' mynegodd i Petr am yr Iesu, ac a'i dygodd ato. Pysgodwyr oeddynt hwy wrth eu galwedigaeth, ac yr oeddynt yn dilyn eu galwedigaeth o bysgota, nes i'r Iesu eu galw yn fwy neillduol i fod yn ganlynwyr iddo, ac addaw eu gwneuthur yn 'bysgodwyr dynion.' Mat. 4. 19. Marc 1. 17. Wedi hyny, pan ddewisodd yr Iesu y deuddeg apostol, yr oedd Andreas a Petr o'r nifer. Yn nghylch yr amser hwnw, gadawodd Petr Bethsaida, ac aeth, efe a'i wraig, i Capernaum, lle genedigol ei wraig, fel yr ydys yn barnu. Oddiwrth waith Andreas yn myned gyda hwynt yno, ac yn cyd-fywiolaethu â hwynt, yr ydys yn barnu fod eu tad gwedi marw. Yr oedd yr Iesu yn preswylio gyda hwynt, wedi iddo wneuthur ei drigfa yn Capernaum; gelwir eu tŷ weithiau, 'Tŷ Petr.' Mat. 8. 14. Weithiau, 'Tŷ Simon ac Andreas.' Marc 1. 29. Yn nghylch blwyddyn gwedi i Petr ddyfod yn ddysgybl i Grist, dangosodd yr Arglwydd ei allu dwyfol trwy ddwy wyrth perthynol yn neillduol iddo ef, sef iachâu ei chwegr o'r cryd, a'r helfa ryfeddol o bysgod. Effeithiodd y ddiweddaf yn hynod ar Petr. Syrthiodd wrth liniau yr Iesu, gan ddywedyd, 'Dos ymaith oddi wrthyf; canys dyn pechadurus ydwyf fi, O Arglwydd.' Braw mawr a ddaethai arno ef, a'i gymdeithion, o herwydd yr helfa bysgod a ddaliasent. 'Dywedodd yr Iesu wrtho, Nac ofna; o hyn allan y deli ddynion.' Gwedi iddo ef ac Andreas, ac Iago a Ioan, ddwyn eu cychod i dir, gadawsant bob peth, ac a ddilynasant yr Iesu. Luc 5. 8. Fel hyn, ymddengys fod Petr, pan y galwyd ef i fod yn apostol, yn briod, yn ben-teulu, a chanddo long (neu gwch, yn hytrach) a rhwydau, a'i fod yn cynnal ei hun a'i deulu trwy alwedigaeth onest. Y mae yr apostol Paul yn crybwyll ei fod yn dwyn oddi amgylch gyd âg ef ei wraig wrth fyned i bregethu, wedi esgyniad Crist. 1 Cor. 9. 5.

Wedi galw Petr i'r apostolaeth, mae yn ymddangos yn enwog yn mhlith yr apostolion:—1. O ran ei dymher naturiol: y mae yn ymddangos yn ddyn prysur, bywiog, cryf, yn dywedyd ei feddwl yn rhydd ac yn barod—hwyrach, yn llai arafaidd a mwynaidd nag Ioan: ac o herwydd hyny, canfyddir ef yn brysur yn ateb gofynion yr Arglwydd Iesu o flaen y lleill. Mat. 16. 16. Ioan 6. 68.——2. Y mae ei ffydd yn yr Iesu fel y gwir Fessïah, a'i zel drosto, yn amlwg ar bob achlysur, fel y gellir gweled wrth edrych Mat. 14. 28. Marc 14. 47. Luc 22. 50.——3. Yr ydoedd Petr yn un o'r tri oedd yn bresennol gyda Christ pan gyfododd ferch Jairus—yn ei wedd-newidiad—ac yn yr ardd. Edr. GWEDD.——4. Er hyny y mae cwymp Petr yn nodedig, yn gwadu ei Arglwydd dair gwaith yn llŷs yr arch-offeiriad. Ond y mae yr holl hanes yn dangos yn eglur, er nad oedd Petr yn ddieuog, ond iddo bechu yn ddirfawr; etto, mai o hunan-hyder, o wendid, ac anystyriaeth rhyfygus, y dygwyddodd hyn iddo, ac nid o rag-fwriad blaenorol, a chasineb at Grist, fel Judas yn ei fradychu.——5. Y mae ei edifeirwch a'i godiad mor amlwg a nodedig a'i bechod. Gwedi i'r Iesu edrych arno, y ceiliog i ganu, ac iddo gofio geiriau yr Iesu, 'efe a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dost.' Mat. 22. 62. Gwedi ei adgyfodiad, y mae tiriondeb a gofal yr Iesu yn fawr am dano. Gorchymynodd i'r gwragedd fynegi, yn neillduol i Petr, y newydd am ei adgyfodiad—ymddangosodd iddo ef yn gyntaf o'r apostolion, a chadarnhaodd ef yn ei swydd ar ymddangosiad arall iddo, trwy orchymyn iddo borthi a bugeilio ei ddefaid. Ioan 21. 15, 16, 17. Y mae yr holl hanes am ei gwymp—ei edifeirwch—a'i adferiad gan yr Iesu i'w le, fel cyfaill Crist, ac hefyd i'w swydd fel apostol, yn llawn o addysg fuddiol—yn rhybydd ac yn annogaeth—er siampl pa fodd i ymddwyn yn yr eglwys o ran dysgyblaeth eglwysig. Ei hunan-hyder a'i ryfyg yn myned i lŷs yr arch-offeiriad, a fuont yn achlysurol o'i gwymp; eiriolaeth Crist drosto, a'i edrychiad arno, fuant y moddion o'i gyfodiad. Tynerwch yr Iesu tu ag ato, sydd yn gwirio y dystiolaeth fawr am dano, 'Y gorsen ysig nis tŷr, a'r llin yn mygu nis diffydd.——6. Ar ol esgyniad Crist, Petr a gyfododd i fynu i ddywedyd ei feddwl am ddewis apostol yn lle Judas; â hyn y cydunodd y lleill, a'r coel-bren a syrthiodd ar Matthias, yr hwn a gyfrifwyd gyd â'r un ar ddeg o hyny allan.

Ar ddydd y pentecost, pan syrthiodd yr Ysbryd Glân ar yr apostolion, Petr a safodd i fynu, ac a areithiodd i'r bobl, i roddi hanes iddynt hwy am y wyrth ryfedd hòno, ac a bregethodd Iesu Grist gwedi ei groeshoelio iddynt, fel y dwys-bigwyd yn nghylch tair mil o'i wrandawyr, y rhai a gredasant, ac a fedyddiwyd. Act. ii. Edr. PENTECOST, YSBRYD. O hyn allan y mae nerthoedd yr Ysbryd Glân yn gweithredu yn dra rhyfedd trwy Petr a'r apostolion eraill. Yn eu zel a'u gwroldeb yn pregethu Crist; yn ateb o flaen y cynghor yn Jerusalem; y gwyrthiau rhyfedd a wnaethant; yn eu sancteiddrwydd, eu hymarweddiad, a'u hunan-ymwadiad, y maent yn ymddangos yn fwy na dynion; oud dynion oeddynt, gwedi eu gwisgo â nerth o'r uchelder. Yr oedd cysgod Petr yn iachâu y cleifion yn heolydd Jerusalem, pan ddelai heibio iddynt. Act. ii—v.

Gwedi i'r erlidigaeth wasgaru Cristionogion ar led o Jerusalem, aeth Phylip i waered i Samaria, ac a bregethodd yr efengyl, a wnaeth wyrthiau, ac a fedyddiodd lawer yno; ac yn mhlith eraill Simon y swynwr, hudol mawr yn mysg y bobl. Anfonwyd Petr ac Ioan yno i gadarnhau, ac i ychwanegu yr eglwys, gan roddi yr Ysbryd Glân trwy weddi ac arddodiad dwylaw. Y mae Simon yn ceisio prynu y cyffelyb awdurdod ganddynt hwy. Ar hyn y mae Petr yn ei geryddu ef yn dost am ei ragrith a'i gybydd-dod, ac yn ei annog i edifarhau. Dychwelasant i Jerusalem, gan bregethu yr efengyl ar eu taith yn llawer o bentrefi y Samariaid. Act. 8. 1—25. Pa hyd gwedi eu dychweliad yr arosasant yn Jerusalem, nid ydyw yn amlwg; ond clywn am Petr gwedi hyn yn ymweled â'r eglwysi mewn parthau eraill. Y gwyrthiau a wnaeth yn Lyda a Joppa a effeithiasant ar lawer i'w dychwelyd at yr Arglwydd—yn enwedig yn iachâu Aeneas, ac yn cyfodi Tabitha o farw i fyw. Act. 9. 32—43. Edr. AENEAS, DORCAS. Yn Joppa cafodd weledigaeth hynod i'w barotoi i fyned i bregethu yr efengyl i Cornelius, ac i dderbyn y Cenedloedd i mewn i'r eglwys, trwy fedydd, gwedi gweled yr Ysbryd Glân yn disgyn arnynt. Edr. CORNELIUS, LLEN-LLIAIN. Gwed'

Digitized by Google

achwyn arno am fyned i mewn at y Cenedloedd, y mae yn gwneuthur ei amddiffyn yn fwynaidd ac yn addas. Act. x, xi.

Yn nghylch A.D. 43, neu 44, Herod Agrippa a gododd erlidigaeth yn erbyn yr eglwys, a lladdodd Iago, ac a garcharodd Petr, ar fedr gwneuthur yr un dienyddiad o hono yntau; ond trwy weddïau yr eglwys, y mae angel yn ei waredu ef allan o'r carchar, ac yn taraw Herod â marwolaeth resynol, am ei falchder a'i ryfyg, yn cymeryd gogoniant iddo ei hun, nad ydoedd ddyledus. Act. xii. Yn nghylch yr amser hwn, dywedir iddo ef fyned i Rufain, ond yn ddisail, wrth bob tebygolrwydd. Yn A. D. 51., cawn ef yn Jerusalem, pan osodwyd o flaen yr apostolion yr ymryson mawr rhwng yr Iuddewon a'r Cenedloedd yn nghylch yr enwaediad; a Phetr oedd yr hwn a ddywedodd ei feddwl gyntaf ar yr achos. Act. 15. 1—29. Yn yr holl hanes am yr apostolion, y mae blaenoriaeth Petr i'w weled yn eu plith agos ar bob achos: nid blaenoriaeth o ran swydd, nac hunan-ymgais; ond blaenoriaeth o ran y defnydd a wna yr Ysbryd Glân o hono: blaenoriaeth sanctaidd, gweddus, a defnyddiol—esmwyth a buddiol i bawb, ac anrhydeddus i achos yr Arglwydd. Wedi hyn aeth Petr i waered i Antioch, lle y rhoddodd dramgwydd nid bychan am wrthod bwyta gyd â'r Cenedloedd crediniol, a gwrthwynebwyd ef gan Paul yn ngwydd pawb, am y rhagrith hwn. Gal. 2. 11—21. Ni roddir yn llyfr hanes gweithredoedd yr apostolion a ysgrifenwyd gan Luc, a elwir YR ACTAU, ddim hanes am dano gwedi y cynghor yn Jerusalem, i wastadhau yr ymryson yn nghylch yr enwaediad. Ond oddiwrth Gal. 2. 13—15. rhoddir ar ddeall i ni ei fod gyda Paul yn Antioch. Ymostyngodd i rybydd Paul yno yn fwyn ac yn addas; ac mae y dygwyddiad yn dangos y gwendidau yn nglŷn wrth y goreu o ddynion, a bod yn rhaid i bawb blygu i reol sanctaidd y gair. Yn mha leoedd y gweinidogaethodd wedi hyn, nid oes ond hanes tywyll ac ansicr. Y Pabyddion a haerant iddo lafurio hir amser yn Rhufain, ond hyn a wedir gan y Protestaniaid. Gan ei fod yn cael ei hynodi fel apostol yr enwaediad, mwy tebygol iddo lafurio yn Judea, Samaria, Syria, yn nghyd a Phontius, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia; at y dyeithriaid Iuddewaidd pa wledydd y mae yn cyfeirio ei epistol. Er bod rhai, megys Scaliger, Salmatius, a Fred. Spanheim yn haeru na fu erioed yn Rhufain, etto, y farn gyffredin yw, iddo fod yno ryw faint o amser cyn ei farwolaeth, ac iddo gael ei ferthyru gan Nero—cafodd ei groeshoelio â'i ben i lawr, meddant, wrth ei ddymuniad ei hun, yn gweled yn ormod anrhydedd ei groeshoelio â'i ben i fynu, yr un fath a'i Arglwydd. Ond tebycach mai eu creulondeb hwy, ac nid ei ddymuniad ef, a barodd hyn, os felly y bu. Gwel Lardner, *Cred.* Dywed Nicephorus, iddo dreulio dwy flynedd yn Rhufain. Yn ei ail epistol, crybwyll fod yr Arglwydd wedi dangos iddo fod amser ei farwolaeth yn agos. Rhydd Ambrose, yn un o'i bregethau, hanes neillduol am dano, sef i'r Arglwydd ymddangos iddo yn weledigaethol yn mhorth y ddinas, pan oedd yn ffoi ymaith liw nos ar ddymuniad ei frodyr er diogelu ei fywyd. Yntau a ofynodd iddo, Arglwydd, i ba le yr wyt ti yn myned? Crist a atebodd, Yr wyf yn dyfod yma i'm croeshoelio etto. Deallodd Petr wrth hyn fod Crist i gael ei groeshoelio etto yn ei was. Ar hyn dychwelodd ac a roddodd foddlonrwydd i feddyliau y brodyr yn yr achos. Yn fuan wedi hyny croeshoeliwyd ef. *Serm. Caontra. Aux.* i, ii. Merthyrwyd ei wraig ychydig o amser o'i flaen ef. Gwelodd hi yn cael ei harwain i farwolaeth, a llawenychodd yn y gras a roddwyd iddi. Cyfarchodd hi wrth ei henw, annogodd a chysurodd hi, gan ddywedyd, 'Cofia yr Arglwydd!' Bu fyw yn hir yn yr ystâd briodasol; a dywed Clement ei fod yn ddiwyd yn nygiad ei blant i fynu. Gwel Milner's *History.*

O'r dechreu dynodir Petr gan ei Arglwydd yn ei ymddiried iddo, a chan ei frodyr yr apostolion yn eu parch neillduol iddo. Mae hyn yn profi rhyw ragoroldeb neillduol ynddo; ei onestrwydd, ei hyfdra, ei wroldeb, cadernid ei ffydd, gwresogrwydd ei gariad a'i zel, yw y pethau mwyaf amlwg a hynodol i'w gweled ynddo. Yr oedd ei wendidau yn tarddu oddiwrth yr un ansawdd naturiol ei feddwl, a'i ragoriaethau fel dyn: yr oedd bywiogrwydd tanllyd ei feddwl yn ei wneuthur yn agored i ormod prysurdeb; a'i onestrwydd diffuant yn ei wneuthur yn agored o fod yn rhy hyderus. Fel y cynnyddodd mewn profiad a gwybodaeth ysbrydol, diwygiwyd ei feiau, a chynnyddodd ei rinweddau i raddau hyfryd a gogoneddus.

Y mae ei epistolau yn dangos meddwl cadarn, deall goleu, a bywiogrwydd zel a chariad, a gofal mawr am braidd Duw. Y mae ardderchogrwydd, bywiogrwydd, yn nghyd â rhyddid addas yn ymddangos yn ei ddull yn ysgrifenu ei epistolau. Yn ei ddarluniad o'r farn ddiweddaf, a chyd-losgiad y ddaear, braidd na feddyliech wrth ei ddarllen eich bod yn gweled y fflamau yn esgyn i entrych y nefoedd, yr elfenau yn toddi gan danbeidrwydd y gwres, yn clywed griddfanau byd ar dranc, a thrwst byd yn dymchwelyd i ddinystr cyflawn.

Oddiwrth ei waith yn anfon at y rhai y mae yn ysgrifenu, gyfarchiad yr eglwys yn Babilon, bernir mai o Babilon yr ysgrifenodd ei epistol cyntaf: ond pa le a feddylir wrth Babilon sydd ammheus iawn. Yr oedd Babilon yn yr Aipht, a Babilon yn Assyria; a gelwid Rhufain, yn allegawl, wrth yr enw Babilon; ac nid hawdd penderfynu pa un o'r rhai hyn mae yr apostol yn ei feddwl. Ysgrifenodd ei ail epistol, y mae yn amlwg, ychydig cyn ei ferthyrdod, pen. 1. 14. ac os yn Rhufain y dyoddefodd ferthyrdod, fel y cyduna yr hynafiaid, oddi yno, tebygol, yr ysgrifenodd yr epistol hwnw, a hwyrach y cyntaf hefyd.

Ar yr epistol cyntaf, ysgrifenodd yr Archesgob Leighton, David Dixon, George Alley Bishop, William Ames, John Rogers, Mr Nesbit. Ar yr ail epistol, Thomas Adams, William Ames, David Dixon, Archibald Simpson, John Hall, Gerchardus ar y ddau yn Lladin.*

PETRUS—O, (ped-rhus) ammhëus, annilys, anniën. Ps. 88. 15. Luc 9. 7. a 24. 4. Rhuf. 14. 23. Edr. AMMHEUS.

PETRUS, (ped-rhus) *Gr.* περδιξ; *Llad.* PERDIX; *Ffr.* PERDRIX; *Saes.* PARTRIDGE: math o adar danteithiol, digon adnabyddus. Y mae yr enw *Heb.* קרא *(core)* yn ddesgrifiad iawn o lais y petrus yn galw eu cywion. 1 Sam. 26. 20. Jer. 17. 11. Edr. DEOR. Yn mynyddau yr Alpau y mae petrus gwynion, â thrned blewog iddynt.

PETH—AU, (py-eth) rhywbeth, rhan, ychydig, darn. Y mae ganddo ddigon o bethau, sef llawer o gyfoeth; dyro beth i mi, sef ychydig, neu ran, i mi.—'Eithr y mae genyf beth yn dy erbyn,' sef bai arnat. Dat. 2. 4.—'Pethau yr Ysbryd—dyfnion bethau Duw—pethau sydd uchod—pethau ni welir,' sef yr iechydwriaeth a'r bendithion ysbrydol yn Nghrist. Rhuf. 8. 5. 1 Cor. 2. 10. 2 Cor. 4. 18. Col. 3. 1. Edr. dan eiriau eraill.

PETHAHIAH, פתחיה [*porth yr Arglwydd*] offeiriad. 1 Cron. 24. 16.

PETHOR, dinas yn Mesopotamia, trigfan Balaam. Num. 22. 5.

PETHUEL, פתואל [*genau Duw*] tad y prophwyd Joel. Joel 1. 1.

* Cyfeirir y darllenydd hefyd at Esboniad rhagorol y Dr Brown, o Scotland, ar Epistol cyntaf Petr, yr hwn a argraffwyd yn ddiweddar.—C.

Digitized by Google

PEULTHAI, פעלתי [*fy ngweithredoedd*] wythfed porthor y deml. 1 Cron. 26. 5.

PIAU, (pi) meddu, perchenogi, meddiannu.—Pwy biau hwn? Ti a'i piau.——'A dywedodd y wraig bioedd y mab byw wrth y brenin,' &c. 1 Bren. 3. 26.

PIB—AU, (py-ib) pibell, piben.—'Canasom bibau,' &c. Luc 7. 32. Edr. PIBELL.

PIBELL—AU, (pib). 1. Offeryn cerdd i chwythu drwyddo. 1 Sam. 10. 5. 1 Cor. 14. 7. Mat. 11. 17. ——2. Pibell i gario llif-nôdd drwyddi.——'Beth yw y ddau bincyn olew-wydden, y rhai trwy y ddwy bibell aur sydd yn tywallt allan o honynt eu hunain yr olew euraid? Ac efe a ddywedodd, Dyma y ddwy gainc olew-wydden sydd yn sefyll ger bron Arglwydd yr holl ddaear.' Zech. 4. 12, 14. Y mae y geiriau hyn yn eglurhad ar weledigaeth y canwyllbren aur a welodd y prophwyd; a'r ddwy olew-wydden, un o bob tu i'r canwyllbren, yn cyflwyno olew iddo i'w gadw yn oleu. Yr oedd y canwyllbren yn arwyddo yr eglwys, yr hon sydd yn derbyn, yn cynnal, ac yn rhoddi goleuni mewn byd tywyll. Yr ydoedd lampau y canwyllbren yn y babell yn cael olew gan yr offeiriaid yn y ffordd gyffredin; ond y mae hwn yma yn ei gael ef mewn ffordd anghyffredin. Yr ydoedd padell ar ben y canwyllbren, yn gronfa gyffredin; oddiwrth hon yr ydoedd saith o bibellau, yn dwyn yr olew i'r saith lusern. Yr oedd dwy olew-wydden, un o bob tu i'r badell, a'u ceinciau yn tywallt yr olew euraid o honynt eu hunain, trwy ddwy bibell i'r badell, fel yr âi oddi yno i'r llusernau. 'Dyma y ddwy gainc olew-wydden.' *Heb.* אלה שני בני־היצהר *dyma ddau fab yr olew.* '*The two annointed ones.*' *Saes.* Zorobabel a Josuah a feddylir wrth eibion yr olew yma, un gwedi ei eneinio yn arch-offeiriad, a'r llall yn llywodraethwr ar yr Iuddewon yn y dyddiau hyny. Ond nid oeddynt hwy ond cysgodau o'r hwn oedd i ddyfod, sef Crist, eneiniog Duw. Efe yw 'mab yr olew,' gwedi ei eneinio â'r Ysbryd Glân, i fod yn frenin ac yn offeiriad i'w eglwys: derbyniodd yr Ysbryd Glân heb fesur, ac y mae yn cyfranu yn rhwydd, yn ddyfal, ac yn ddirwystr, o'i gyflawnder anchwiliadwy ei hun, oleuni, gras, a sancteiddrwydd, er cynnaliaeth a dyddanwch ei eglwys yn ei holl aelodau a'i swyddwyr. Geill pob aelod o'r eglwys ddywedyd, 'O'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras.' Ioan 1. 15. Y pibellau ydynt yn arwyddo y moddion o gymundeb rhwng Crist a'i eglwys. Zech. 6. 13. Ps. 2. 6. a 110. 4. Esa. 60. 1—3. Dan. 9. 24, 25, 26. Hag. 1. 11, 12. Heb. 1. 8, 9.

PIBESETH, Bubastum, dinas enwog yn yr Aipht. Ezec. 30. 17.

PICELL—AU, (pig) gnfloch, tryfer, saeth.—'Tarian y ffydd, â'r hon y gellwch ddiffoddi holl bicellau tanllyd y fall.' Eph. 6. 16. Arferent gynt bentewynion ar ddull picellau neu saethau, y rhai a saethent i ganol y gelynion; y milwyr a'u derbynient ar eu tarianau, gwedi eu harwisgo â haiarn neu bres, i'w diffoddi. Cyffelyba yr apostol y temtasiynau a deifl y diafol yn fyrbwyll, yn gyflym, yn ddirgel, ac yn danllyd, i feddyliau dynion, i'r picellau hyny.—'Y fall,' sef un drwg; un drwg ydyw ef, ac ar ddrwg y mae yn wastad; teifl ei bicellau yn danllyd, i'r dyben iddynt effeithio yn danllyd ac yn niweidiol ar ein meddyliau; ac nid oes dim ond ffydd yn ngwirionedd Duw a'u diffodd, ac a attal y niwed o honynt; ond credu Duw a'u diffodda hwynt oll. Y mae pob peth sydd yn niweidiol i ni yn groes i'r gair; credu y gair, gan hyny, yn unig a attal eu niwed.

PICFFORCH—YRCH, (pig-fforch) fforch i godi peth â hi. 1 Sam. 13. 21.

PIG—AU—O—OG, (py-ig) blaen arf, pen gwaew, pen saeth; picell; gylfant, gylfin, duryn; yn llawn pigau.—'Ysbyddaden bigog.' Ezec. 28. 24. Felly y mae yr Ysbryd Glân yn galw gelynion atgas a gofidus yr eglwys; ond *ni bydd* mwy y cyfryw, medd yr Arglwydd, i dŷ Israel, sef i'w holl bobl: cânt fyw byth mewn cymdeithas, yn yr hon ni bydd byth ddim ond cariad.——'Fel hyn—y'm pigwyd yn fy arenau,' sef y gofidiodd fy nghalon, ac yr archollwyd fy meddwl. Ps. 73. 21.

PIHAHIROTH, פי־החירת [*genau*, neu *mynediad Hiroth*]. Barna Ainsworth mai mynyddoedd oedd *Hiroth*, a bod *pi* yn arwyddo y lle agored i fyned rhyngddynt. Arferir y gair *Hiroth*, heb y *pi* yn Num. 33. 8. Trwy y cyfyng-le hwn yr arweiniodd Duw ei bobl, fel y byddai achlysur yn ymddangos i'r Aiphtiaid i ymlid ar eu hol, ac i brofi eu ffydd; ond yma ymddangosodd eu hanghrediniaeth, yn nghychwyniad eu taith. Exod. 13. 11, 12. Deut. 8. 2. Ps. 106. 7. Mae y Dr Shaw yn cyfieithu y geiriau (Exod. 14. 2.) 'Gwersyllu o flaen Pihahiroth' *Gwersyllu o flaen genau y gul-ffordd.*

PILAT, neu PONTIUS PILAT, Rhufeinydd, tebygol, o genedl, ac olynwr Gratus yn llywodraeth Judea, A. D. 26, neu 27. Llywodraethodd y wlad hon dros ddeng mlynedd. Gwr cyndyn, gwaedwyllt, cybyddlyd, creulawn, ydoedd, yn rhoddi y diniwed i farwolaeth, yn aml, heb wrando na holi dim yn nghylch eu hachos.* Lladdodd y Galileaid, am ryw dramgwydd a gafodd, tra yr oeddynt yn aberthu yn nghyntedd y deml. Luc xiii. I foddhau yr Iuddewon, yn groes i dystiolaeth ei gydwybod, ac erfyniad ei wraig, barnodd yr Iesu i gael ei farwolaethu. Yn nghylch tair blynedd wedi hyny y diswyddwyd ef gan Vitellus, llywodraethwr Syria, o herwydd ei orthrymder a'i greulondeb; ac anfonwyd ef i Rufain, i ateb am ei ymddygiad fel llywodraethwr. Caligula, yr ymerawdwr, yn fuan gwedi hyny, a'i halltudiodd ef i Vienne, yn Gaul; a gyrodd tlodi a chaledi ef i ddybenu ei einioes, â'i ddwylaw ei hun, yno, meddant. Dywed Justin Martyr, Tertullian, Eusebius, ac amryw eraill, ei bod yn ddefod arferedig i'r llywodraethwyr Rhufeinaidd yn yr amrywiol daleithiau, i anfon yn ysgrifenedig, hanes eu holl weithredoedd barnedigaethol at yr Ymerawdwr i Rufain; a bod Pilat wedi ysgrifenu y cyfryw hanes am wyrthiau a marwolaeth ein Hiachawdwr, i Tiberius, yr ymerawdwr, ac iddo gael ei dueddu, trwy hyny, i'w addoli fel Duw, ond i'r senedd ei wrthsefyll ef yn hyny. Annhebyg yw y buasai y gwyr yma yn cyhoeddi hyn yn nghanol y Paganiaid gelyniaethol, pe na buasai yn wir; etto nid oes hanes am un a welodd yr ysgrifen hon. Edr. CRIST, IESU.

PILDAS, פלדש [*dystryw*] mab Nachor a Milcah. Gen. 22. 22.

PILEHA, פלחא [*darn*] un o'r offeiriaid pennaf a seliodd y cyfammod yn amser Nehemiah. Neh. 10. 24.

PIN, (py-in) *Llad.* PENNA—yn arwyddo bôn aden, asgell; graffol, pin ysgrifenu. Gwnaent hwy yn y gwledydd dwyreiniol o gyrs; arwydda hefyd, graffol haiarn, i dori neu i gerfio meini âg ef.—'Ysgrifena arni â phin dyn.' Esa. 8. 1. Sef yn y dull cyffredin o ysgrifenu yn mhlith y genedl, yn eglur, yn amlwg, ac yn hawdd i ddynion cyffredin ei ddarllen.

'A phin o haiarn ac â phlwm.' Job 19. 24. Sef â phin o haiarn ar blwm; neu bod y llythyrenau wedi eu tori ar graig â phin o haiarn, ac wedi hyny eu llenwi â phlwm, fel y byddai yr ysgrifen yn ddarllenadwy yn barhaus. Geiriau sydd yn dangos fod y mater yn ddwys ddifrifol ar feddwl Job, ac yn ymddangos o'r canlyniad mwyaf i bawb byth ei wybod.

* Philo, Legat. ad Caium. *Univer. Hist.*



Digitized by Google

Y mae pechodau dynion gwedi eu hysgrifenu â phin o haiarn ar lech eu calon, pan y maent yn eu côf yn barhaus, a'u serchiadau yn glynu wrthynt, a hwythau yn byw ynddynt. Jer. 17. 1.

Y mae tafod y duwiol fel pin ysgrifenydd buan, pan o helaethrwydd a gwresogrwydd eu calonau, y maent yn mynegi rhinweddau yr Arglwydd, yn weddaidd, yn ysbrydol, ac yn nefolaidd. Ps. 45. 1.

'Wele, yn ddiau ofer y gwnaeth hi; ofer yw pin yr ysgrifenyddion.' Jer. 8. 8.—'Y pinn yn ddiau a weithiodd ar ffalster, a'r ysgrifenydd (ysgrifenodd) gelwydd.' Dr M.—'Diau pin celwyddog yr ysgrifenyddion a wnaeth y rhai hyn yn ofer.' Dr Blayney. Ysgrifenu celwydd yr oedd yr ysgrifenyddion, wrth y gau esponiadau a roddent ar gyfraith yr Arglwydd; a thrwy hyny yn ei gwneyd yn ofer. Y mae gau esboniadau yn gwneud gair Duw yn ofer ac yn ddifudd. Nid meddwl Duw y mae yn ei fynegi; ond meddyliau tywyll, cyfeiliornus, dynion. Nis dichon gair Duw fod yn fuddiol heb ddeall meddwl Duw ynddo: y mae gau esboniad yn cuddio hwnw, ac yn dangos peth cwbl groes i hwnw; ac fel hyny y mae hwnw, o'n rhan ni, yn myned yn gwbl ofer.

PINACL, *Ital.* PINNACOLO; *Saes.* PINNACLE; *Ffr.* PINACLE.—'Ar binacl y deml.' Mat. 4. 5. Luc 4. 9. *Gr.* Πτερυγιον του ιερου, *aden y deml*. Porthfa y brenin, tebygol, a feddylir, yr hon a adeiladodd Herod; yr oedd yr adeiladaeth hon yn gyfochrog â wyneb dehau y deml, ac yn un o'r adeiladau mwyaf rhyfedd, medd Josephus, a adeiladwyd erioed dan haul. Yr oedd yn sefyll ar ymyl craig tra serth, ac o ben hwn yr oedd dyfnder aruthrol i lawr i'r gwaelod. O ben hwn yr oedd Satan am i'r Iesu fwrw ei hun i lawr; ond diffoddwyd y bicell â tharian y ffydd. Josephus, *Ant. lib.* xv., *cap.* xi., *sec.* 5.

PINCYN, (pinc) brigyn, ysgribyn, pig, pigyn; saeth, picell.—'E roddwyt i mi bingyn yn y cnawd.' 2 Cor. 12. 7. W. S.

PINON, פינן [*tywyllwch*] un o dduciaid Edom. Gen. 36. 41. 1 Cron. 1. 52.

PINWYDD, (pin-gwydd) coed digon adnabyddus, o'r un natur a'r ffynidwydd. Arferai yr Iuddewon gangenau o honynt i wneuthur eu bythod ar wyl y pebyll. Neh. 8. 15.—'Y ffawydd.' *Saes. pinwydd.* Esa. 41. 19. Edr. FFAWYDD.

PIOG—OD—EN, (pi) piod, pioden:—piogen y coed, piogen y môr. Y biogen sydd aderyn digon adnabyddus. Y mae ei liwiau yn hynod ac yn hardd; ei gylfin sydd wyn, gwyrdd, a phorphor; ei gynffon sydd dra hardd yn nysgleirdeb a gosodiad ei liwiau. Y mae yn gyfrwys, aflonydd, a sonfawr: y mae yn hawdd ei wareiddio, a gellir ei ddysgu i ddynwared llais dyn.—'A'r biogen.' Lef. 11. 18. Deut. 14. 17. *Heb.* רחם *Saes.* GIER-EAGLE; *Gr.* yr *alarch*. Y mae Bochart yn barnu mai rhyw fath o fwltur a feddylir wrth y gair. Y mae ei enw yn arwyddo cariad, serchogrwydd (ac a gyfieithir weithiau *ciconia*) o herwydd, tebygol, ei fawr serch i'w gywion. Yr oedd yn aflan dan y gyfraith.

PIRAM, פראם [*asyn gwyllt*] brenin Jarmuth, yr hwn a orchfygwyd, a laddwyd, ac a grogwyd gan Josuah. Jos. 10. 3, 25, 26.

PIRATHON, פרעתון [*ei doriad*] dinas yn rhandir Ephraim, lle y preswyliai, ac y claddwyd, y barnwr Abdon. Barn. 12. 15.

PISER, (pis) *Ffr.* PICHER; *Ital.* PISARO; *Saes.* PITCHER: ystên, cynog, diod-lestr.—'A chyn tòri y piser gerllaw y ffynon.' Preg. 12. 6. Wrth y ffynon y meddylir y galon; y piser gerllaw y ffynon ydyw y rhedweli fawr sydd yn dwyn y gwaed o'r galon dros yr holl gorph. Edr. GWAED. Tòrir hòno, a bydd yn gwbl annefnyddiol i gynnal bywyd. Rhyfedd ei bod yn parhau yn ddirwystr ac yn ddiflino i weithio yn ddyfal dros lawer o flynyddoedd. Pe byddai attalfa arni dros yr amser lleiaf, darfyddai y bywyd yn y fan. Nid ydyw yn myned wrth ewyllys y dyn ei hun, ond wrth ewyllys yr hwn a'i gwnaeth, a thra y gwelo efe yn dda.

PISGAH, פסגה [*bryn uchel*, neu *trum mynydd*] pen uchaf mynyddoedd Abarim, a rhan o fynydd Nebo; ac felly dywedir i Moses edrych gwlad Canaan, weithiau o ben Nebo, ac weithiau Pisgah. Deut. 3. 27. a 34. 1. Yr oedd ffynonau dyfroedd wrth droed Pisgah, a alwent Asdoth-Pisgah. Deut. 3. 17. Yr ydoedd y mynyddoedd hyn yn sefyll y tu hwnt i'r Iorddonen, gyferbyn a Jericho. Barna rhai mai i ben y mynydd uchel hwn y dygodd Satan yr Arglwydd Iesu yn ei brofedigaeth, i ddangos iddo holl wlad yr addewid, o'r afon Euphrates i afon yr Aipht.

PISIDIA, Πισιδια [*pŷg*] talaeth fynyddig yn Asia Leiaf, wrth ben gorllewinol i fynydd Taurus, ac o du y dehau-orllewin i Lycaonia, y gogledd i wastadedd Pamphylia, a'r dwyrain i Caria a Ionia. Yr ydoedd Antioch yn ddinas enwog yn y wlad hon. Yr ydoedd gynt yn wlad boblog, ond y mae yn bresennol yn resynol, dan orthrymder y Twrc. Pregethodd Paul a Barnabas yma dan lawer o erlidigaethau, a bu Cristionogrwydd yn flodeuog ynddi dros amryw oesoedd. Yr oedd ynddi ugain o esgobaethau am amryw gannoedd o flynyddoedd. Nid oes yn awr braidd weddill o Gristionogion yn aros. Act. 13. 14—49. a 14. 24. Dywed Livy bod y trigolion yn '*feroces ad bellandum*,' yn ffyrnig i ryfel. *Lib.* xxxviii., *c.* 13, 15. Cymhara Pliny hwynt i lewod. *Lib.* v., *c.* 27.

PISO, (pis) troethi, gwneuthur dwfr.—'Un a biso ar bared.' Cylch ymadrodd am wrryw; a buasai mor weddus, tybygaf, cyfieithu y geiriau, *pob gwrryw*, fel yn llawer o gyfieithiadau eraill. 1 Bren. 14. 10. a 16. 11. a 21. 21. 1 Sam. 25. 22.

PISON, פישון [*cynnyddu, ymledu*] un o afonydd Eden. Edr. EDEN.

PISTYLL—IO—ION, (pis-tyll) ffrwd, dwsel, rhaiadr; ffrydio, dylifo. Pistyll yr ysgyfaint, sef dwsel yr ysgyfaint; pistyll y breuant, pen uchaf y corn chwyth.—'Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth swn dy bistylloedd di.' Ps. 42. 7. Yr oedd gorthrymderau allanol, a thristwch tufewnol y Psalmydd mor fawr, fel y cyffelyba ei hun i long mewn tymhestl ar y môr, a'r tònau yn ymosod arni i'w gorchuddio a'i soddi, a rhyferthwyadau (*water-spouts*) oddi uchod yn gwneyd swn ofnadwy, ac yn cynhyrfu y moroedd i'w gorlwytho a'i llethu i soddiad yn yr eigion: felly y mae Dafydd, yn ei olwg ei hun, yn debyg o gael ei lyncu gan ei elynion, ei brofedigaethau, ei ddychrynfeydd, a'i ofnau. Ond yn nghanol y cwbl, y mae llais hyfryd ffydd i'w glywed, yn dywedyd, 'Etto yr Arglwydd a orchymyn ei drugaredd liw dydd, a'i gân fydd gyda mi liw nos.' Adn. 8. Geill efe dawelu y dymhestl fwyaf ofnadwy, ac achub ei bobl yn nghanol pob dyfnderau ac ofnau. Mat. 8. 26.——'A gwallt dy ben fel porphor-wisg brenin, wedi ei rhwymo yn mysg pistyllau dyfroedd.' Dr M. Can. 7. 5. Edr. RHODFEYDD.

PITHOM, פתם [*eu tamaid*] un o'r dinasoedd trysorau a adeiladwyd gan blant Israel i Pharaoh yn yr Aipht. Exod. 1. 11.

PLA—AU, (py-la) *Gr.* πληγη *(plêgê)*; *Llad.* PLAGA; *Saes.* PLAGUE: chwaren, cowyn, egwy, y cornwyd, yr haint llyn, pla y nodau, mallhaint; dygnflinder, gormes, gormail; archoll, briw. Galwai yr Hebreaid yn bläau, bob afiechyd gwedi ei anfon gan

Digitized by Google

Dduw, fel ceryddon a chospedigaethau am bechod; megys y cornwyd, y gwahan-glwyf, mallhaint, tymhestloedd, cenllysg dinystriol, newyn, marwolaethau disyfyd, &c. Ps. 39. 10. a 91. 8. Marc 3. 10. a 5. 29, 34. Act. 24. 5. Dat. 16. 21, &c.

'Pla y galon,' yw llygredigaeth y galon, a gofidiau y meddwl. 1 Bren. 8. 38.——Y 'saith bla diweddaf,' fydd er dinystr trwyadl i holl elynion anghristaidd yr eglwys—nifer terfynedig am nifer annherfynedig, tebygol. Dat. 21. 8. Edr. PHIOL.

'Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl.' Esa. 53. 8. Y gair *pla*, yn y fan hon, a arwydda, holl ddyoddefiadau Crist dros ei bobl; yr hyn oll a ddyoddefodd *am gamwedd* ei bobl, yn enwedig ei farwolaeth ar y groes. Yn ddibechod ei hun, dyoddefodd am gamweddau eraill; 'y cyfiawn dros yr anghyfiawn.'

'Ni a gawsom y gwr hwn yn bla.' Act. 24. 5. 'Yn ddyn adwythus.' W. S. Sef yn llygru ac yn aflonyddu eraill.

PLADUR—IAU—WR, (plad) cryman, erfyn haiarn i dori gwair âg ef; gwyddif.—'A'u gwaywffyn yn bladuriau.' Esa. 2. 4. Mic. 4. 3. Sef rhoddi heibio arfau rhyfel, am fod rhyfeloedd gwedi darfod, ac ysbryd rhyfela gwedi ei ddileu, gan gariad a heddwch; ond etto nid yn segur, eithr yn ddiwyd yn dilyn galwedigaethau heddychol a buddiol. 'Ni ddysgant ryfel mwyach'—canys 'gwna yr Arglwydd i ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaear; efe a ddryllia y bwa, ac a dyr y waywffon, efe a lysg y cerbydau â thân.' Ps. 46. 9. Prysured y dyddiau hyfryd! Edr. MIL.

PLAID, PLEIDAU, (pla-id) tu; ystlys; parth; parthredd, parthred; mur. Plaid wellt, sef gwahanfur gwellt; o blaid, o du, o achos.—'Gan eich annog i ymdrech yn mhlaid y ffydd, yr hon a roddwd unwaith i'r saint.' Judas 3. Y ffydd yw yr athrawiaeth sydd i'w chredu; ffydd a *roddwyd* gan Dduw, nid o ddychymygion dynion. Rhoddwyd hi *unwaith*, neu *gynt*, fel y cyfieithir yr un gair (ἁπαξ), adn. 5. a 1 Petr 3. 20. i'r saint, sef y prophwydi a'r apostolion sanctaidd; a thrwyddynt hwy i holl saint Duw hyd ddiwedd amser. Y mae gwrthwynebiad cyflawn gan holl lu uffern i'r athrawiaeth hon, trwy ei gwrthsefyll, neu ei llygru â chyfeiliornadau, neu roddi cyfeiliornadau yn ei lle; yr hyn a ateb ddyben y gelyn yn rhagorol. Nid oes dim ond y gwirionedd a wna niwed i'w deyrnas, na llesâd i eneidiau. Nid yw pob cyfeiliornad ond gwenwyn marwol i enaid. Y mae pawb sydd yn ei gwir adnabod, o'i phlaid â'u holl galon: eu bywyd hwy ydyw, a mwy gwerthfawr na'u bywyd naturiol fil o weithiau. Y mae yn ddyled arnynt, ac yn fraint iddynt, ymdrech o'i phlaid. Y mae yn ddigon cryf ei hunan, gan ei bod o Dduw; ond ein braint a'n dyledswydd ni ydyw ymdrech o'i phlaid; sef ymdrech, 1. Am wir adnabyddiaeth o honi ar gynnydd yn barhaus.——2. Am brofiad bywiog o'i rhinweddau ar ein heneidiau.——3. Am rodiad addas iddi, fel y byddo yn llewyrchu yn ein bywydau.——4. Ymegnio yn ddyfal am daenu gwybodaeth o honi yn mhlith pechaduriaid tywyll; 'Mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus; i edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirionedd.' 2 Tim. 2. 25.——5. Ymdrech mewn gweddi gyda Duw am ei llwyddiant. Rhuf. 15. 30.——6. Ymdrech o'i phlaid â'n holl ddoniau a'n meddiannau, ac yn mhob ffordd y dichon i ni fod yn gynnorthwyol i'w llwyddiant. Diar. 2. 9.——7. Ymdrech o'i phlaid yn egniol, ac heb ddiffygio, fel y peth mwyaf ei werth sydd yn y byd. Yr hwn nas gwelodd hi yn fwy ei gwerth na phob peth, y mae etto heb ei hadnabod yn wirioneddol. Pe cymerid athrawiaeth y ffydd o'r byd, ni byddai y byd, na mil o fydoedd, yn werth eu cael; canys uffern fyddai diwedd pob pechadur er y cwbl. Yn y wir athrawiaeth y mae yr iechydwriaeth i'w chael, ac nid mewn dim arall; colli hon ydyw colli yr iechydwriaeth, yn gyflawn, ar unwaith. Yn erbyn hon y mae holl ymgyrch pyrth uffern, holl erlidwyr a chyfeiliornwyr y byd yn mhob oes: ac nid rhyfedd, oblegid y mae hi, sef Duw trwyddi, yn cyhoeddi, ac wedi penderfynu barn, a hollol ddystryw, ar bob peth sydd yn perthyn i deyrnas pechod. Er y ceblir hi ei bod o blaid pechod; ond o blaid pechadur y mae, ac yn gwbl groes i bob pechod, ac a wared ei phobl oddi wrtho. O'i phlaid hi y cymerodd miloedd eu harteithio, a'u llosgi yn tân yn llawen, yn yr amrywiol oesoedd. Llwydded y neb a'i caro!

PLAN—U—YDD—WYR, (pla-an) *Llad.* PLANTATIO, PLANTARE; *Ffr.* PLANTER; *Saes.* PLANT: gosodiad; gosod planigion; planigion; gosodwyr planigion. Mae planu yn arwyddo yn yr ysgrythyr, 1. Gosod planigion. Gen. 21. 33.——2. Dwyn pobl o'r naill fan, a'u sefydlu mewn man arall, a'u chwanegu mewn rhifedi, cyfoeth, ac anrhydedd. Ps. 80. 8, 15.——3. Rhoddi cynnydd ar ddynion mewn rhifedi, heddwch, a llwyddiant. Jer. 18. 9. a 31. 28.——4. Rhagfynegi sefydliad a llwyddiant cenedl. Jer. 1. 10.——5. Pregethu yr efengyl lle nas pregethwyd hi o'r blaen, dychwelyd eneidiau at Dduw, a sefydlu eglwysi trwy hyny. 1 Cor. 3. 6.——6. Uno dynion â Christ, a'u sefydlu mewn cymdeithas barhaus âg ef, fel y byddont yn aelodau defnyddiol o'i eglwys. Ps. 92. 13. Edr. AFON, COED, DYFROEDD, PREN.

PLANC—IAU, (plan) *Belg.* PLANK, PLANKE; *Ffr.* PLANCHE: bwrdd, astell, astellen, tew-fwrdd. Bara planc; bara croyw, teneu, caled, gwedi ei bobi ar blanc haiarn, a arferir yn Sir Gaerfyrddin.—'Byrddiodd lawr y tŷ â phlanciau o ffynnidwydd.' 1 Bren. 6. 15.

PLANED—AU—YDD, (plan) *Gr.* πλανητης; *Llad.* PLANETTA; *Ffr.* PLANETTE; *Saes.* PLANET: sêr gwybiog. Mae saith o brif blanedau:* sef Mercher, Gwener, y Ddaear, Mawrth, Iau, Sadwrn, a'r Georgium Sidus, a ganfyddwyd yn ddiweddar gan y Dr Herschel, Astronomydd y Frenines, Mawrth 13, 1781, am ddau o'r gloch y boreu, mewn cysylltiad â'r seren sefydlog Regulus. Heblaw y prif blanedau, y mae deuddeg o blanedau o'r ail radd, y rhai a ysgogant oddi amgylch rhai o'r prif blanedau; sef y lleuad oddi amgylch y Ddaear; pedair lleuad yn perthyn i Iau; a phump i Sadwrn, heblaw cylch goleu oddi amgylch iddi; a dwy a ganfyddwyd etto yn perthyn i'r Georgium Sidus, er hyny y mae lle i feddwl yn gryf fod ychwaneg.† Y mae y prif blanedau yn ysgogi oddi amgylch yr haul mewn gwahanol bellder oddi wrtho, ac mewn gwahanol gylchoedd ac amserau: ac mae y planedau o'r ail radd yn ysgogi oddi amgylch eu prif blanedau, a chyda hwynt oddi amgylch yr haul.

* Hyd y flwyddyn 1846 nid oedd ond saith o'r prif blanedau yn wybyddus. Yn y flwyddyn hon, cafwyd allan y brif blaned Neptune, yr hon sydd yn gwneuthur yr wythfed. Tybir fod eraill yn ol heb eu canfod etto. Pellder y blaned newydd oddiwrth yr haul yw 2,890,000,000 o filltiroedd; ei thryfesur yw 26,800 o filltiroedd, ac felly y mae ei chyfan-gorph yn 38 maintioli y ddaear. Cymer 167 o flynyddau a 38 o ddyddiau i wneyd un cylchdro o amgylch yr haul.—C.

† Heblaw y prif planedau, y mae yn awr (1851) chwech eraill o faintioli llai yn perthyn i'r gyfundraeth heulog, sef Vesta, Iris, Astrea, Juno, Ceres, a Pallas, a thybir fod llawer eraill yn aros heb eu canfod. Y rhai uchod a geir yn cylchdroi rhwng Mawrth a Iau, a golygir mal darnau ydynt o ryw fyd mawr yn y parthau hyuy o'r ëangder gwedi myned yn chwilfriw.—Yn lle deuddeg, canfyddir erbyn hyn gymaint a deunaw o blanedau o'r ail radd, neu leuadau, sef un perthynol i'r Ddaear, pedwar i Iau, saith i Sadwrn, a chwech i Uranus, neu y Georgium Sidus.—C.

Digitized by Google

Y dangosiad canlynol a eglura ar un olwg amrywiol amserau ysgogiadau y planedau oddi amgylch yr haul, eu pellder oddi wrtho, a'u tryfesur:—

| Amserau eu cylch. | | | Eu pellder oddi-wrth yr haul. | Eu Tryfesur. | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Blyn.* | *Dydd* | *Milltiroedd Saes* | | *Milltir Saes.* |
| Mercher .... | 0 .. | 28 | 37,000,000 | .. | 3,107 |
| Gwener .... | 0 .. | 224 | 69,000,000 | .. | 7,524 |
| Y Ddaear .. | 1 neu | 365 | 95,000,000 | .. | 7,912 |
| Mawrth .... | 1 a | 322 | 145,000,000 | .. | 4,224 |
| Vesta ...... | 3 .. | 249 | 225,000,000 | .. | 1,891 |
| Iris ........ | 4 .. | 2 | 240,000,000 | .. | ansicr |
| Astrea...... | 4 .. | 49 | 244,000,000 | .. | ansicr |
| Juno ........ | 4 .. | 130 | 254,999,000 | .. | 1,540 |
| Ceres ...... | 4 .. | 221 | 263,000,000 | .. | 1,222 |
| Pallas ...... | 4 .. | 222 | 264,000,000 | .. | 1,634 |
| Iau ......... | 11 .. | 314 | 495,000,000 | .. | 89,108 |
| Sadwrn .... | 29 .. | 152 | 907,000,000 | .. | 78,714 |
| Uranus...... | 83 .. | 294 | 1,824,000,000 | .. | 35,618 |
| Neptune.... | 167 .. | 38 | 2,890,000,000 | .. | 26,800 |

Y mae eu hysgogiadau oddi amgylch yr haul o'r gorllewin i'r dwyrain. Hŷd eu blynyddoedd yw amser eu hysgogiadau oddi amgylch yr haul, fel y mae blwyddyn yn y Georgium Sidus yn hŷd 83 o'n blynydddoedd ni, a 294 o ddyddiau. Gellir profi yn ddilys ac i'r eglurdeb mwyaf, fod yr holl blanedau yn gyrph tywyll fel y ddaear; eu bod yn ysgogi oddi amgylch yr haul yn gyffelyb i'r ddaear; a'u bod oll yn derbyn eu goleuni o'r haul, yr un fath a'r ddaear a'r lleuad. Ni chanfyddir mo'r blaned Mercher â'r llygad, heb ddrych yn mwyhau. Gwener yw y ddysgleiriaf o'r holl blanedau, bob amser yn agos i'r haul, dim pellach un amser na 48 o raddau. Pan y mae yn myned o flaen yr haul, gelwir hi Phosphorus, a Luciffer, ac y mae i'w chanfod yn y boreu: pan y mae yn canlyn yr haul, gelwir hi Vesperus, ac i'w gweled yn y gorllewin, wedi machlud haul. Y mae yn Phosphorus ac yn Vesperus am 290 o ddyddiau, bob un yn ei dro. Y mae i'w chanfod yn gorniog fel y lleuad trwy y drychau; yr hyn sydd brawf eglur ei bod yn derbyn ei goleuni o'r haul, fel y lleuad. Galileo, yn y flwyddyn 1611, a ganfyddodd hyn gyntaf; ond yr oedd Copernicus wedi dychymygu ei bod felly o'r blaen. Os canfyddir planed yn nes i'r dwyrain na'r gorllewin wedi machlud haul, y mae yn ddilys nad Mercher na Gwener yw hòno, gan eu bod bob amser yn agos i'r haul. Gellir gwahaniaethu rhwng Mawrth, Iau, a Sadwrn, wrth eu lliw, a'u goleuni; y mae Mawrth yn gochach ei lliw nag un o'r lleill.——Dywedir fod Mercher yn myned yn ei throgylch 109,524 o filltiroedd bob awr.——Y mae Gwener yn myned yn ei throgylch 80,122 o filltiroedd bob awr; ac yn troi o gylch ar ei phegwn mewn 23 o oriau ac 20 mynyd.——Mae Mawrth yn myned yn ei throgylch 55,198 o filltiroedd bob awr, ac yn troi o gylch ar ei phegwn mewn 24 o oriau a 40 mynyd.——Mae Iau yn myned yn ei throgylch 29,889 o filltiroedd bob awr; ac yn troi ar ei phegwn mewn 9 o oriau a 56 mynyd. Y mae y dydd a'r nos o'r un hŷd ynddi, sef yn nghylch pum awr bob un. Oddiwrth ei phedair lleuad y mae iddi bedwar math o fisoedd; a rhifedi y misoedd sydd ddim llai na 4500 yn y flwyddyn. Wrth ystyried maintioli corph Iau, yn ddeng waith mwy na'r ddaear, rhaid ei bod yn troi ar ei phegwn gyda chyflymdra tra rhyfedd, i beri nad yw y dydd a'r nos ynddi ond 9 o oriau a 56 mynyd. Mae yn troi yn gyflymach nag un blaned arall, sef oddeutu 27,000 o filltiroedd bob awr, sef agos i 500 bob mynyd; ond nid yw y ddaear yn troi ond 1000 o filltiroedd bob awr. Ni red bwled *canon* ond 480 o filltiroedd mewn awr, sef yn nghylch pum milltir mewn mynyd. Y mae Iau yn ymddangos gymaint agos a Gwener, ond nid mor ddysglaer.——Y mae Sadwrn yn myned yn ei throgylch 22,067 o filltiroedd bob awr. Byddai bwleden yn myned 480 o filltiroedd yr awr, yn dyfod o'r haul i Mercher 8 mlynedd a 272 o ddyddiau: i Gwener, 16 o flynyddoedd, a 125 o ddyddiau: i'r Ddaear, 22 o flynyddoedd, a 226 o ddyddiau: i Mawrth, 34 o flynyddoedd, a 155 o ddyddiau: i Iau, 117 o flynyddoedd, a 202 o ddyddiau: ac i Sadwrn, 215 o flynyddoedd, a 192 o ddyddiau.——Y mae i bob un o'r planedau o'r ail radd dri o ysgogiadau; sef un ar ei phegwn ei hun; ac un arall oddeutu y brif blaned yn perthyn iddi; ac un gyd â'i phrif blaned ô gylch yr haul. Ei thro dyddiol yw ei thro ar ei phegwn, a'i thro blynyddol yw ei thro oddeutu y brif blaned. Fel y mae ein lleuad ni yn troi oddi amgylch y Ddaear mewn mis, felly y mae y gyntaf o leuadau Iau yn troi mewn llai na dau ddiwrnod, sef 1*d.* 18*a.* 28*m.* 35.41*s.* —Yr ail mewn 3*d.* 13*a.* 17*m.* 53. 43*s.* agos dri diwrnod a hanner.—Y drydedd mewn 7*d.* 3*a.* 59*m.* 35.33*s.* sef ychydig mwy nag wythnos.——A'r bedwaredd mewn 16*d.* 18*a.* 5*m.* 4.17*s.* sef ychydig llai na 17 o ddyddiau. Os oes trigolion ynddi, y mae ymddangosiad y lleuadau iddynt weithiau yn neillduol o hyfryd; weithiau y maent yn cysgodi, ac yn peri llawer o sirioldeb a harddwch. Wrth ystyried y fath ddarpariad, rhaid fod rhyw ddyben doeth a daionus i'w ateb drwyddo. Edr. LLEUAD. Nid ydwyf wedi adrodd yma ond pethau sydd ddilys eglur i'r gwybyddion. Am fod trigolion, a pha fath ydynt, yn y bydoedd mawrion hyn, fel y dychymyga llawer, nid gwiw dywedyd dim, am nas gellir ond dychymygu. Y mae hyny a wybyddis am y cyrph nefol yn brawf neillduol o ogoneddus o fawredd, gallu, doethineb, a daioni y Creawdwr mawr. Efe yw Arglwydd yr holl luoedd ardderchog hyn, ac wrth ei drefn, ei orchymyn, a'i lywodraeth, y mae eu holl ysgogiadau. Efe a'u gosododd, ac sydd yn eu cadw yn eu cylchoedd yn ddiwyro, ac yn peri eu holl ysgogiadau cyflym yn ddiball, yn eu priodol amserau. Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd! Ei holl weithredoedd a'i clodforant! Edr. SER.

Y mae y planedau, yn iaith y prophwydi, yn arwyddo gwyr mawrion a phendefigion mewn gwladwriaeth, fel y mae yr haul a'r lleuad yn arwyddo breninoedd ac ymerawdwyr: 'Yr haul yn tywyllu, y lleuad a'r planedau heb roddi llewyrch,' sydd yn arwyddo aflwyddiant a dadymchweliad y llywodraeth. Esa. 13. 10. Edr. DADGUDDIAD.

PLANEDYDD—ION, (planed) un yn sylwi ar y planedau.—'Na phlanedydd.' Deut. 18. 10, 14. ענן *cwmwl, cymylydd*; un yn edrych i fynu i'r cymylau, i sylwi ar ymddangosiadau y cyrph nefol, trwy hyny i ddarogan pethau i ddyfod: yr hyn nis gwyr neb ond Duw ei hun. Nid y cyrph nefol sydd yn llywodraethu Duw a'i ragluniaethau, ond efe sydd yn eu llywodraethu hwy i ateb ei ddybenion ei hun. Didduwiaeth ffiaidd ydyw hyn, ac a waherddir gan Dduw i'w bobl fel ffieiddd-dra ganddo. Cyfieithir yr un gair *brud, brudion*, Lef. 19. 26. 2 Bren. 21. 6. 2 Cron. 33. 6. —*swynwyr*, Esa. 2. 6.—*hudolion*, Esa. 57. 3. Jer. 27. 9.

PLANFA—EYDD—WYDD, (plan) planigfa, cymhlanfa.—'A'i holl afonydd yn cerdded o amgylch ei phlanfa.' Ezec. 31. 4. Cyfeiria y geiriau at ddyfrffosydd bychain a wnaent i ddyfrhau y gerddi yn y gwledydd dwyreiniol. Gwel Newcome.——'Y rhai hyn oedd grochenyddion yn cyfanneddu yn mysg planwydd a chaeau: gyd â'r brenin yr arosasant yno yn ei waith ef.' 1 Cron. 4. 23. Rhai a gyfieithant y geiriau tywyll hyn fel y canlyn:—'Y rhai hyn oedd grochenyddion yn cyfanneddu yn Geteim a Gadara gyd â'r brenin; arosasant yno o achos ei waith.' Eraill a'u cyfieithiant, 'Y rhai hyn oeddynt warcheidwaid yn cyfanneddu yn mhlanfeydd Gadara o herwydd y brenin: o herwydd ei freniñdodau yr arosasant yno.'

Digitized by Google

**PLANIGYN—ION**, (plan) blaguryn, ysgewyllyn, imp, impyn, ysbrigyn; planwydden, pren plan, llwyn planwydd.—'Cyfodaf iddynt hefyd blanigyn enwog.' Ezec. 34. 29. *Heb. planigyn i gael enw.* Propwydoliaeth hynod am Grist. Edr. BLAGURYN. Y mae *cyfodi* yn arwyddo gosodiad Crist yn ei swydd—ei gnawdoliaeth, pan yn ei ddarostyngiad y tyfodd fel gwreiddyn o dir sych—ei adgyfodiad, ei esgyniad, a'i ogoneddiad yn y nefoedd, pan roddwyd iddo enw goruwch pob enw; am hyny, teilwng y gelwir ef y 'planigyn enwog.' Esa. 4. 2. a 11. 1. a 53. 2. Jer. 23. 5. a 33. 15. Zech. 3. 8. a 6. 12.

'Pob planigyn yr hwn nis planodd fy Nhad nefol, a ddiwreiddir.' Mat. 15. 13. Y Phariseaid, y rhai a ymrwystrasant wrth ymadrodd yr Iesu, yn nghyd â'u holl draddodiadau, a'u gau-athrawiaethau, a eilw efe yn blanigion y rhai nis planodd y Tad nefol: nid Duw yw awdwr eu crefydd na'u hegwyddorion; am hyny ni thâl hi ddim, ac nid oes fodd iddi barhau: rhyw dramgwydd, rhyw brofedigaeth, neu farn, a'u cymer ymaith. Gan nad oes dim o Dduw ynddynt, na gwaith Duw arnynt, mae yn rhaid eu bod o'r diafol; am hyny y mae Duw yn eu herbyn, ac a'u dinystria yn hollol, yr hyn y mae eu *diwreiddio* yn ei arwyddo. Planigion Duw ydyw ei blant, y rhai a impiwyd yn Nghrist, y wir winwydden; a'r rhai y mae efe yn eu glanhau, fel y dygant yn barhaus fwy o ffrwyth. Nis diwreiddir hwynt, ac nis gwywant byth. Mat. 13. 40, 41. Psalm 92. 13. Esa. 60. 21. Ioan 15. 2. 1 Cor. 3. 12—15.

**PLANT—A—OS, PLENTYN**, (plan) hil, hiliogaeth, yr ieuainc. Arwydda y gair *plant*, 1. Rhai ieuainc mewn oedran. Gen. 25. 22. a 33. 13.——2. Cenedl, neu hiliogaeth. Exod. 1. 7.——3. Bychain mewn gwybodaeth. Esa. 10. 19.——4. Rhai ieuainc mewn gras. 1 Ioan 2. 12.——5. Rhai gostyngedig, athrylithgar, a hyddysg. Mat. 18. 3, 4.——6. Anwyl wrthddrych. Jer. 21. 20.——'Plant Duw.' Edr. ADGENEDLU, ETIFEDDIAETH, ETIFEDDION, MAB, MABWYSIAD. Y mae Duw yn y pummed gorchymyn yn golygu yn neillduol ddyledswydd plant i'w rhïeni, sef eu hanrhydeddu; yr hyn nis dichon iddynt wneuthur heb ufuddhau i'w holl eirchion cyfreithlon, eu parchu yn eu holl ymddygiad tu ag atynt, ymgynghori â hwynt, eu mawrhau, a gofalu am danynt yn eu henaint, gweddïo drostynt, a'u cynghori yn serchogaidd ac yn dirion yn erbyn pob drwg. Eph. 6. 2, 3. Col. 3. 20. Jer. 35. 18, 19. 1 Tim. 5. 1, 4. 2 Tim. 2. 25. Lef. 19. 3. Diar. 1. 8. a 10. 1. a 15. 5. a 23. 24. Gen. xxiv. Cariad ddylai eu llywodraethu yn eu holl ymddygiad tu ag atynt, ac onidê, nid ydynt yn cyflawni y gorchymyn yn nghyfrif Duw mewn un gradd: cyflawnder y ddeddf yw cariad. Anrhydeddodd Crist y gorchymyn hwn, fel pob gorchymyn arall, i'r gradd eithaf. Ni chafodd rhïeni erioed y fath anrhydedd ag a gafodd Mair gan yr Iesu.

Yr oedd tiriondeb Crist at y plant bychain a ddygwyd ato, yn eu cymeryd yn ei freichiau ac yn eu bendithio, yn arwydd neillduol o'i raslonrwydd iddynt, ac i'm tyb i, yn brawf y bydd llawer o honynt yn y nefoedd. Marc 10. 13, 14. Ps. 8. 2. Dat. 20. 12.

'Ni bydd yno blentyn o oed, na hynafgwr, yr hwn ni chyflawnodd ei ddyddiau.' Esa. 65. 20. Ni thorir neb ymaith yn ieuanc nac yn hen, trwy angeu disyfyd yn anamserol; fel y bernir yr hwn a fu byw hyd yn gan mlynedd, fel pe buasai marw yn ei ieuenctid: hir ddyddiau, ac iechyd corphorol, a llwyddiant, ydyw yr hyn a addewir. Amser a ddengys i ba radd y cyflawnir hyn yn llythyrenol yn nghanol gogoniant y dyddiau diweddaf. Deut. 4. 40. Job 5. 26. Psalm 34. 12. Edr. ANMHLANTADWY, BWHWMAN, ETIFEDDIAETH, RHIENI, TAD.

**PLASTR—ION**, (plast) *Gr.* εμπλαστρον; *Llad.* EMPLASTRUM; *Ffr.* EMPLASTRE; *Teut.* PELASTER; *Saes.* PLAISTER: paeled.—'Yn blastr ar y cornwyd.' Esa. 38. 21. Edr. HEZECIAH.

**PLEIADES**, *Gr.* πλειαδες. Cyfieithir y gair כימה *Pleiades* ar ol y LXX. Edr. ORION Wrth y Pleiades y deallir y saith seren sydd yn ngwddf arwydd y tarw. Y maent yn ymddangos oddeutu diwedd Mawrth.—'A rwymi di hyfrydwch Pleiades?' Job 38. 31. a 9. 9. A allai efe attal y sêr hyn rhag cyfodi yn eu hamserau? neu attal eu heffeithiau hyfryd ar y ddaear? Mae y llu nefol yn effeithio ar y ddaear, ac yn gwbl yn eu holl effeithiau dan lywodraeth Duw, a Duw yn unig. Gan fod y sêr hyn yn ymddangos yn y gwanwyn, a gwres adfywiol o'r nefoedd i'r ddaear yn cydfyned â hwynt, dichon fod y geiriau yn golygu yn benaf yr holl effeithiau hyfryd hyn. Nid oes un rheswm paham y cyfieithir y gair Hebraeg *Pleiades*, ond bod y LXX wedi ei gyfieithu felly. A elli di rwymo neu attal y gwres hyfryd? neu hyfrydwch y gwres adfywiol? Na elli; ond y mae dan lywodraeth Duw yn unig.

**PLETH—AU—U—EDIG—IAD**, (py-leth) *Gr.* πλεκω *Llad.* PLECTARE; plyg, eiliad, goblygu, eiliaw, rhwystro, dyrysu, brodiaw, cynghafu, cyfrestru, gwau i mewn. Exodus 28. 22, 24. Mat. 27. 29. 1 Tim. 2. 9. Edr. CADWYN, EDDI, GWALLT.

**PLICIO**, *Saes.* PLUCK; *Sax.* PLUCCIAN; *L. S.* PLUCKEN; *Teut.* PLUNCKEN; *Dan.* PLUCKER; tynu, dwys-dynu.—'Ac a bliciais eu gwallt hwynt.' Neh. 13. 25. Yr oedd, ac y mae hyd heddyw, tynu ymaith wallt, yn anfri, ac yn anmharch mwyaf yn mhlith cenedloeddd y gwledydd dwyreiniol.

**PLITH**, (py-lith) rhwng, yn mysg, yn; plith-traphlith, yn gymysgedig, yn ddidrefn. Exod. 17. 7. Num. 14. 42. Mat. 20. 26. 1 Thes. 1. 5.

**PLU, PLUF**, (py-lu) *Llad.* PLUMA; mân-blu, rhos-blu, gwisg gynhes a hardd yr adar. Edrych ADAR, ESTRYS.—Yn ychwanegol at yr hyn a roddwyd dan y gair ADAR, nid anfuddiol fyddai rhoddi ychydig sylwadau yma am y creaduriaid hyn o waith Durham. Fel mae y creaduriaid hyn yn byw mewn rhan yn yr awyr, ac mewn rhan yn y dyfroedd, rai o honynt, felly mae eu cyrph yn gyfatebol wedi eu haddasu i bob un o'r ddau. 1. Y mae eu cyrph, nid yn drymion ac yn amrosgo, ond yn ysgafn, ac yn gwbl addas i ehedeg a nofio.——2. Y mae y plu yn rhyfeddol o ran eu natur, eu gwychder, a'u gwëad, ac o ran eu hysgafnder a'u cynhesrwydd. Y mae gosodiad eu pluf wedi ei addasu yn y modd goreu o ran cynhesrwydd, i ehedeg a nofio. Y mae ganddynt gwd o olew yn môn y gynffon i'w hiro âg ef, fel y gorweddai y pluf yn fwy gwastad, ac y rhedai y dwfr yn fwy parod drosto; ac y mae medr rhyfedd ganddynt i iro a thrin eu pluf. Y mae gosodiad y pluf yn gywrain er hwyluso eu hysgogiadau trwy yr awyr a'r dwfr; y maent, gan mwyaf, yn gogwyddo yn ol, yn gorwedd ar eu gilydd yn wastad, a'r mwyaf a'r cryfaf nesaf allan er amddiffyniad, a'r mân-blu nesaf i mewn er ychwaneg cynhesrwydd i'r corph. Pe buasai gosodiad eu pluf yn groes i hyn, buasai yn anhawdd iddynt nac ehedeg na nofio.——3. Y mae cywreinrwydd mawr i'w ganfod yn ngwneuthuriad eu hadenydd, wedi eu haddasu yn rhyfedd i'r dybenion o honynt, a'r gwaith sydd iddynt, ac yn hardd eu lle, ac yn hawdd eu dwyn, pan na ddefnyddir hwynt i ehedeg. Dywed Borelli fod nerth y gewynau sydd yn rhoddi ysgogiadau yr adenydd yn 10,000 yn fwy na phwys yr aderyn. Er fod y pluf yn oblygaidd, etto y mae addasrwydd ynddynt i fod yn syth ac i adlamu.——4. Y mae eu cynffonau yn gwasanaethu

Digitized by Google

yn rhyfedd i ehedeg yn sefydlog, i esgyn a disgyn (eu defnydd penaf, medd Borelli) ac hefyd fel llyw llong yn gynnorthwyol iddynt droi yn yr awyr gyda hawsdra y ffordd y mynont.——5. Y mae eu coesau a'u traed wedi eu haddasu yn rhyfedd i'w hamrywiol achosion, sef i gerdded, i nofio, i ddringo, ac i ddal a dwyn eu hysglyfaeth; ac y mae eu medrusrwydd yn fawr i'w defnyddio at bob achos. Ni ddichon y rhwyfwr mwyaf medrus drin ei rwyfau gyda hanner medrusrwydd yr adar yn trin eu hadenydd wrth ehedeg, a'u traed wrth nofio. Y mae hŷd y coesau, gwneuthuriad y traed, a gosodiad eu hewinedd, yn gwbl addas i natur bywioliaeth yr aderyn.——6. Mae y pen yn fach, i ffordio trwy yr awyr yn hawsach. Y mae y big yn gwbl addas at gasglu eu hamrywiol ymborth. Y mae gieuynau (*nerves*) perthynol i'r big yn yr holl adar, i ddirnad a gwahaniaethu eu hymborth; ac y mae llawer ychwaneg yn y rhai hyny sydd yn hela eu hymborth mewn llaid dros olwg—a'r rhai hyny i gyd yn mlaen y big; megys y gyffylog, y giach, yr ŵydd, a'r hwyad, &c. Y mae eu llygaid a'u clustiau yn dra chymhwys i'w hachosion. Y mae ymenydd adar a physgod yn amrywio oddiwrth yr holl greaduriaid eraill, ond yn gwasanaethu iddynt hwy yn rhagorol.* Mae gwneuthuriad y tafod mewn rhai o honynt yn gywrain: yn nhyllwr y coed (*woodpecker*) y mae ei flaen yn llym ac yn gornaidd-galed, i dyllu trwodd i'r pren, ac y mae math o lŷd arno i dynu mân bryfed allan, ar ba rai y mae yn ymborthi.† Mae amryw gylläon hefyd mewn adar, yn addas i'w hamrywiol ymborth, un i drochi a'r llall i dreulio yr ymborth. O ran nad oes gan adar ddannedd i falu, y mae y gropa, neu y llasog, yn ateb y dyben hyny; a llyncant raian neu geryg bychain geirwon i falu, a phan lyfnhant bwriant hwy allan. Gellir clywed y cylla, neu y llasog, yn malu yn yr eryr, yr hebog, &c. pan fyddo y cylla yn wag, wrth roddi clust yn agos. Nid yw y barwyden a elwir *diaphragm* yn yr adar, ag sydd mewn creaduriaid eraill; yn lle hyny y mae ynddynt amryw ysigenau i gadw y coluddion ynghyd, ac i gadw awyr ynddynt i ysgafnhau yr aderyn pan fyno, tebyg i nofiedydd, neu ysigenau awyr (*air-bladders*) a physgodyn; ac y mae tyllau yn nail yr ysgyfaint i ollwng yr awyr i mewn. Edr. Adar, Wy. Durham's *Physico Theol.*, *b.* vii. *c.* 2. *Cyclopædia.*

PLWM, (plw) *Llad.* Plumbwm: mettel arw drom, ond defnyddiol. Y mae yn feddal, ond nid yn estynadwy iawn, nac yn wrthneidiol, nac yn soniarus. Y trymaf yw yn nesaf at yr aur, platina, ac arian byw; yn drymach un waith ar ddeg na chymaint a hyny o ddwfr. Am y defnyddioldeb o hono, y mae hyny yn ddigon adnabyddus. Y mae i'w gael mewn amrywiol wledydd, yn enwedig Lloegr. Y mae mŵn arian, copr, a metteloedd eraill, ond tin, a haiarn, a phlwm yn gymysgedig â hwynt. Yr oedd yn arferedig mor foreu a dyddiau Job. Pen. 19. 24. Yr oedd y Midianiaid, ychydig wedi hyny, yn meddiannu llawer o hono. Num. 31. 22. Cyrchai y Tyriaid lawer o hono o Tarsis. Ezec. 27. 12.—Cyffelyba Duw yr Iuddewon i blwm, ac nid arian; yn bethau diwerth a gwael, o herwydd eu pechodau, ac yn hawdd eu toddi gan farnedigaethau Duw. Ezec. 22. 18, 20. Edr. Epha.

PLWYF, (plwy) pobl, gwerin, cydwlad.—'Yno y dechreawdd ef ddywedyt wrth y plwyf y parabol hyn.' Luc 20. 9. W. S.

PLYG—ION—U, (ply) *Llad.* Plica: plethiad, dyblygiad; ystwytho, camu, crymu, gogwyddo; ufuddhau. Edr. Glin, Gwisg.——'Plyg-lyfr.' Edr. Llyfr.

* Willis, *Cereb. Anat.*, *c.* 5.——† Blasius, *Anat. Animal.*, *p.* ii. *c.* 18.

PLYMIO, (plwm) mesur dyfnder â llinyn â phlwm wrtho. Actau 27. 28.

POBI—YDD—ES—AU, (pôb) crasu bara; rhostio wrth dân. Pobi bara, sef crasu bara; pobi caws, rhostio caws. Ar y cyntaf y teuluyddes, neu wraig y tŷ, oedd y bobyddes, ac yn golygu parotoad lluniaeth i'r teulu; ond yn mhen hir amser, mewn trefydd mawrion poblogaidd, daeth pobi i fod yn alwedigaeth. 1 Sam. 8. 13. Y pobyddion yn Llundain yw y bedwaredd gymdeithas (*company*) ar bymtheg. Corphorwyd hwy yn y flwyddyn 1307. Mae dirwy arnynt os gwerthant y bara yn uwch na'r gwerth a roddo yr Uchel-faer arno.

'Yna deg o wragedd a bobant eu bara mewn un ffwrn.' Lef. 26. 26. Geiriau yn arwyddo prinder a newyn mawr.——'Heol y pobyddion.' Jer. 37. 21. Yr unig heol yn Jerusalem â'i henw ar lawr yn yr ysgrythyrau. Galwyd hi heol y pobyddion, am mai yno y trigai y pobyddion, ac y byddai y bara yn cael ei werthu.

POBL—OEDD, (pawb) *Llad.* Populus; *Ffr.* Peuple; *Gwydd.* Pupall; *Saes.* People: plwyf, ciwdawd, pobyl.—1. Tadau cenedloedd neillduol. Gen. 25. 23.——2. Deiliaid teyrnas, pa un bynag ai cyfoethog ai tlawd. 1 Samuel 15. 30.——3. Y werin gyffredin. Luc 23. 14.——4. Y Cenedloedd. Gen. 49. 10. Ps. 117. 1.——5. Iuddewon a Chenedloedd. Luc 2. 10.——Yr oedd cenedl yr Iuddewon yn bobl i Dduw, am eu bod wedi eu neillduo iddo oddiwrth yr holl genedloedd eraill, i fod mewn cyfammod âg ef, i'w addoli, i ufuddhau i'w gyfreithiau, ac i gael eu bendithio a'u hamddiffyn ganddo.

Y mae ei saint yn 'bobl neillduol' iddo yn mhob oes, wedi eu hethol, eu prynu, eu galw, eu cyfiawnhau, eu sancteiddio, ac i gael eu gogoneddu ganddo; ac y maent yn ei ddewis yn achubwr iddynt, ac yn Arglwydd arnynt, yn rhoddi eu hunain yn gwbl iddo, i'w wasanaethu, ei addoli, a'i ogoneddu byth. Esaiah 62. 18. a 63. 12. 1 Petr 2. 9. Dynion Duw ydynt, dan ei driniaethau a'i ymgeledd, yn cael eu rhagbarotoi i ogoniant. 2 Tim. 3. 16, 17. Edr. Dyn, Gwr, Sanct.

POEN—AU—EDIG—AETH—I—US—WYR, (py-oen) penyd, gwŷn, gwaew, dolur, gŵst, gofid, llafur, ing; cospi, gofidio, &c.—Y mae tystion ffyddlawn Duw yn poeni y rhai sydd ar y ddaear, trwy bregethu y gwirionedd y maent hwy yn ei gasâu, a bucheddu yn sanctaidd, yr hyn y maent hwy yn ei ffieiddio, ac yn achlysur o farnedigaethau Duw arnynt, o herwydd ei gwrthwynebiad iddynt. Dat. 11. 10. Edr. Tyst.

'Ac a'i rhoddodd ef i'r poenwyr.' Mat. 18. 34. Βασανιστης, medd y Dr Campbell, a arwydda *holwr*, yn enwedig un a roddir arno holi trwy arteithio. Oddiwrth hyn daeth i arwyddo ceidwad carchar; canys y cyfryw yn y dyddiau gynt fyddai yn gwneyd hyny. Nid yn unig yr oedd yn oddefol, ond yr oedd yn orchymynedig iddynt arfer pob math o greulondeb tu ag at y cyfryw drueiniaid a roddid i'w cadwraeth, i'r dyben o fynu tâl ganddynt, os cuddiasant ddim o'u heiddo; neu, os nad oedd ganddynt, i fynu tâl o'r hyn oedd ddyledus arnynt oddiwrth dosturi rhai o'u perthynasau. Yr oedd person y dyledwr, sylwch, yn gwbl wrth ewyllys yr echwynwr, iddo wneuthur a fynai âg ef. Y poenwyr, i'r rhai y rhoddir yr annuwiolion, ydynt ddigofaint dirfawr Duw ei hun, cyhuddiadau eu cydwybodau eu hunain, cythreuliaid a dynion didrugaredd. Edrych. Blinder, Gofid, Ing, Llafur, Ofn.

POER—EDD—I—YN, (py-oer) aliw, haliw; llysnafedd, glafoerion.

Ti a elli wybod fod chwant bwyd arnat, pan fo gormodd *haliw* yn dygwyddaw i'th enau. *I. L, Meddyg.*

Digitized by Google

'Ac na adewi fi yn llonydd tra y llyncwyf fy mhoeryn.' Job 7. 19. Diareb yn y dwyrain, fel tarawiad amrant, ac a arwydda yr yspaid lleiaf o seibiant, neu ymsafiad.

Y poer a neillduir oddiwrth y gwaed gan y cilchwyrn oddi amgylch y genau, ac a ddygir trwy ddyfr-ffosydd bychain i'r genau. Y mae gormodedd neu rhy fach o hono yn afiach; ond mewn mesur cymedrol y mae yn neillduol o ddefnyddiol i dreuliad yr ymborth yn y cylla, ac i attal ei fraeniad, ei eplesiad yn y cylla, a rhag iddo chwyddo gan wynt. Yn y gormodedd o hono, medd Boerhaave, y mae yn peri syched, sychder y genau, y bustl, neu geri du, darfodedigaeth; ac yn y gwrthwyneb, os na bydd dim o hono yn rhedeg i'r genau, neu lai nag arferol, y mae hyny yn niweidiol i faliad y bwyd yn y genau, ac i'w dreuliad yn y cylla, ac yn peri syched; y mae yr ymborth yn braenu, yn tori yn sur, yn eplesu yn gryf, ac yn llenwi y cylla â gwynt, a dwfr poeth: rhyddygl y meirch (*horse radish*) cethw, neu mwstardd, a llysiau llwy yr ardd, (*garden scurvy grass*) yw y pethau goreu a ellir eu harferyd yn yr achosion hyn. Rhyfedd ar ba bethau bychain mae iechyd dyn yn dibynu!

Byddai poeri y dyferllyd ar un glân yn ei aflanhau hyd yr hwyr. Lef. 15. 8. Poeri yn wyneb un oedd yn arwydd o'r diystyrwch a'r anmharch mwyaf. Aeth ein Hiachawdwr mawr trwy y gwaradwydd hwn er mwyn tynu ymaith ein gwaradwydd ni. Marc 10. 34. a 14. 65. Job 30. 10. Esa. 50. 6. Num. 12. 14. Hyd heddyw, y mae poeri, hyd yn nod tu ag at un, neu ar y ddaear yn agos ato, yn cael ei olygu yn ddirmyg mawr yn mhlith yr Arabiaid.

POET—AU, ποιητης [*gwneuthurwr*] gwneuthurwr, neu gyfansoddwr prydyddiaeth, neu ganiadau. Act. 17. 28.

POETH——I, (py-oeth) gwresog, brwd, gwynias, llosgedig, tanbaid.——'Dynion poethion,' sef dynion gwaedwyllt, atgas, gelyniaethol, am ladd a dyfetha eraill. Psalm 57. 4.

POETH-OFFRWM. Am gyfraith y poeth-offrwm, gwel Lef. i.——1. O anifel, sef o'r eidionau, neu o'r praidd, yr oedd yn rhai ei fod yn wrryw perffaith. Lef. 1. 2. a 22. 20—24. Mal. 1. 7, 8, 14. Yn arwyddo perffeithrwydd Crist ynddo ei hun, a'n perffeithrwydd ninnau ynddo. Heb. 9. 13, 14. Eph. 5. 27.——2. Rhaid i'r offrymwr o'i ewyllys ei hun ei ddwyn at ddrws pabell y cyfarfod (Lef. 1. 3.) yn arwyddo yr anfeidrol ewyllysgarwch â pha un yr offrymodd Crist ei hun, ac y gweddai ein bod ninnau yn offrymu ein hunain i Dduw.——3. Rhoddi ei ddwylaw ar ben y poeth-offrwm. Yr oedd Aaron i roddi ei ddwylaw ar ben yr offrwm, yn arwydd ei fod yn cyfaddef ac yn trosglwyddo ar ben yr aberth ei bechod ei hun, a holl anwiredd meibion Israel. Lef. 16. 21.——4. Rhaid i'r offeiriaid ei ladd, neu y Lefiaid; yr oedd y Lefiaid i gynnorthwyo yr offeiriaid yn lladd yr offrwm, ond yr offeiriaid yn unig oedd i daenellu y gwaed. Num. 8. 19. 2 Cron. 30. 17. a 35. 10, 11. Yn cysgodi marwolaeth Crist.——5. Tywallt a thaenellu y gwaed oddi amgylch yr allor.——6. Ei flingo a'i dôri yn ei ddarnau—nid yn ddarnau, fel yn rhai argraffiadau, ond yn *ei* ddarnau, sef yn ei ddarnau neu aelodau naturiol, megys y pen, yr ysgwyddog, y traed, &c.——7. Yr oedd i halltu y darnau â halen. Edr. HALEN.——8. Rhaid golchi y perfedd a'r traed â dwfr. Edr. GOLCHI, NOE.——9. Yr oedd yr offeiriaid i losgi y cwbl ar yr allor yn boeth-offrwm. Edr. LLOSGI, TAN.——10. Dwyn y lludw y tu allan i'r gwersyll i le glân. Edrych LLUDW. Rhag helaethu yn ddifudd, ni adgoffaf yma y pethau a roddwyd i lawr yn aml dan eiriau eraill. Edr. ABERTH, ADAR, GAFR, HALEN, OEN, OFFRWM, &c.

POLUX. Edr. CASTOR.

POMGRANAD—AU, *Heb.* רמון *ponum granatum;* neu *granada;* enw y wlad lle y tyfai llawer o honynt yn yr hen amseroedd. Yr oedd y pren pomgranad yn aml yn ngwlad Canaan. Num. 13. 23. Deut. 8. 8. 1 Sam. 14. 2. Mae y planigyn hwn yn tyfu yn naturiol yn yr Hispaen, Portugal, yr Ital, a Mauritania. Y mae llawer hefyd o honynt yn yr India Orllewinol, ond bernir ei adblanu yno o Ewrop. Mae y ffrwyth yn rhagori, sef yn fwy ac yn rhagorach ei archwaeth, yn India nag yn Ewrop. Y mae yr afal pomgranad yn dra hardd, a rhai yn fawrion iawn, ac yn gochaidd oddifewn ac oddi allan; ac y mae nid yn unig yn hardd i'r llygaid, yn hyfryd i'r archwaeth, ond hefyd yn iachus i'r cylla, ac yn ddefnyddiol mewn cyfferiau meddygol. Y mae ei sug yn debyg i win, a gwneir gwin o hono. Can. 8. 2. Yr oedd lle yn llwyth Dan a elwid Gath-rimmon, sef *gwin-wryf y pomgranadau*, neu y lle y gwnaent win y pomgranad. Jos. 21. 24. Dywed Syr John Chardin, eu bod hyd heddyw yn y dwyrain yn gwneuthur gwin o sug y pomgranad. Gwel Harmer's *Obs.*——Ar odre mantell ephod yr arch-offeiriad yr oedd pomgranadau a chlych o aur rhyngddynt. Exod. 28. 33, 34. Edr. MANTELL.——Ar y rhwydwaith oedd ar y ddwy golofn, yr oedd 200 o bomgranadau, yn ddwy res, sef 400 i gyd. 1 Bren. 7. 18, 20, 42. 2 Bren. 25. 17. Edr ARLOES, COLOFN, LLYWETH.

POMPIWN—YNAU, *Gr.* πεπον; *Llad.* PEPO *Ffr.* POMPON; *Ital.* PEPONE; *Saes.* POMPION: math o ffrwythau go fawr, yn oeri ac yn peri gwneuthur dwfr yn rhwydd ac yn aml. Coffâ Tournefort am saith math o honynt; ac er mai pompiynau yr Aipht yw y fath waethaf, blysiodd yr Israeliaid am danynt yn ddirfawr yn yr anialwch. Numeri 11. 5. Edr. CUCUMER.

PONTUS, ποντος [*y môr*] talaeth yn Asia Leiaf, â'r môr Euxine i'r gogledd iddi, Cappadocia i'r dehau, Galatia i'r dwyrain, ac Armenia i'r gogledd, lle genedigol Acwila. Act. 2. 9. a 18. 2. 1 Petr 1. 1.

POPLYS, *Llad.* POPULUS; *Saes.* POPLAR: poplysen, poplyswydden; pwmpleren, poplys duon, y gwynion, aethnen.—Linnæus a gyfrif bump, a Miller saith math o honynt. Y mwyaf addas o'r holl goed ydynt i gyfodi cysgod, neu guddfa, yn fuan; o herwydd y tyfant bedair troedfedd ar ddeg, weithiau, mewn un tymhor, ac mewn pedair neu bum mlynedd byddant yn goed mawrion. Mae y poplys duon yn hynod am fath o afalau, neu gnau, a geir ar y dail a'r cangenau, y rhai a effeithir gan fath o ednogyn a elwir *puceron*, er nodded i'w eppil. Mae y cnau hyn tu fewn yn geuol, ac o amryw luniau.——Yr oedd y poplyswydd, yn mhlith coed eraill, yn gwneuthur llwyni yr eilun-addolwyr Paganaidd. Hos. 4. 13.

PORATHA, mab Haman. Esther 9. 8.

PORFA—AU—EYDD, (pawr) *Gr.* βορα; *Llad.* PASTURA: porthiant, ymborth, cynnaliaeth anifeiliaid.—Pan gyffelybir yr eglwys, neu y saint, i ddadell, neu ddefaid, gelwir athrawiaeth yr efengyl, y bendithion, a'r breintiau, a'r cysuron, perthynol iddi, yn borfa, neu yn borfeydd gwelltog, maethlon. Psalm 23. 2. a 74. 1. Ezec. 34. 14. Ioan 10. 9. Edrych DAFAD.

PORI, (pawr) *Heb.* בער *Gr.* φερβω; *Llad.* DEPASCO: porfäau, pesgi, ymbawr.

Llwm tir ni *phoro* dafad *Diar.*

Am i ŵr yru anifel i bori maes un arall, yr oedd i dalu o'r hyn goreu yn ei faes ei hun. Exod. 22. 5. —'Ar y ffyrdd y porant.' Esa. 49. 9. 'Ar y ffyrdd, ac ar yr holl uchel-fanau, y bydd porfa iddynt,' sef

Digitized by Google

yn gyhoedd yn ngŵydd pawb, yn ddiofn, ac heb neb yn eu dychrynu; yn eu holl daith y bydd cynnaliaeth iddynt, wedi eu gwaredu o'u carcharau. Y mae y geiriau yn cynnwys addewid am lwyddiant yr efengyl yn mhlith y cenedloedd, yn yr uchel-fanau; sef yn y trefydd a'r dinasoedd mawrion, poblogaidd, Ephesus, Corinth, Rhufain, &c. Gwel Vitringa.

PORPHOR, *Groeg*, πορφυρα; *Llad.* PURPURA; *Ffr.* POURPRE; *Saes.* PURPLE: lliw tebyg i rosyn, neu waed newydd ei ollwng. Yr oedd y lliw porphor mewn bri mawr gan yr hynafiaid, yn enwedig Tyrus, yr hwn oedd yn cael ei liwio, neu ei drochi, fwy o weithiau na'r lleill, ac a wisgid yn unig agos gan freninoedd ac ymerawdwyr. Yr oedd yn cael ei lliwio â nôdd, neu waed posgodyn, a alwent πορφυρα (*porphyra*). *Heb.* ארגמן Exod. 25. 4. *et al freq.* Wedi tori y grogen sydd am dano, canfyddir gwythïen wen yn agos i'w ben, yr hon sydd yn cynnwys defnydd y lliw, yr hwn sydd yn wyn; gwedi rhoddi ychydig o hwn ar lian, ymddengys yn gyntaf yn wyrdd; wedi ei roddi yn yr haul, try yn wyrdd tywyll; mewn ychydig fynydau, try i las-wyrddni y môr, ac wedi hyny yn las gwbl; yn mhen awr drachefn, try yn borphor, neu yn goch tywyll. Gwedi ei olchi mewn dwfr berwedig â sebon, a'i sychu, try yn gochni dysglaer a hardd. Ei roddi yn yr haul sydd yn peri y cyfnewidiad yn y lliw i *goch*, heb hyny parhai yn *wyrdd*; ni wna gwres tân, na haiarn poeth, ddim effeithio i droi y lliw yn goch; nid oes dim ond pelydrau yr haul a effeithia hyny, sef gwres a goleuni yr haul. Y mae y lliw hwn yn glynu yn y fath fodd, fel na effeithia arno mewn un gradd ferwi y defnydd a liwid ganddo amryw weithiau mewn amryw fath o wlybwr. Yr oedd y pysgod hyn i'w cael yn aml ar làn y môr tu â'r gogledd ddwyrain i wlad Canaan, ac y mae eu cyffelyb, os nid yr un pysgod, i'w cael yn agos i ynysoedd Caribee, a pharthau eraill o America, ac hefyd ar làn y môr tu a'r gorllewin i Loegr, Gwlad yr Haf, a'r Deheudir. Ond nid yw y gelfyddyd o liwio mor gywrain â'r Tyriaid, yn adnabyddus yn bresennol. ——Y mae wyau rhyw fath ar bysgodyn yn cynnwys gwlybwr, neu fath ar lif-nodd gwyn, a gesglir yn Poictou, yn lliwio porphor: hefyd, rhoddir hanes sug rhyw bren yn yr Antille a'i lliwia. Y mae y sug yn goch, ac a liwia yr hyn y rhoddir ef arno i'r un lliw. *Cochineal* a ddefnyddir yn bresennol i wneuthur porphor, neu *crimson*.——Yr oedd defnydd wedi ei liwio yn borphor yn llèni y babell, a gwisgoedd yr arch-offeiriaid, Exod. 36. 8. a xxxviii, xxxix. ac mewn gwisgoedd gwyr mawrion yn ngwledydd y dwyrain. Diar. 31. 22. Luc 16. 19. Dan. 5. 7, 29. Esther 8. 15. Ezec. 27. 7, 16. Marc 15. 17.

'Pe cochent fel porphor,' (Esa. 1. 18.) sef yn waedlyd ac yn greulon, 'byddant fel gwlan.' Edr. EIRA, GWISG, GWLAN.

PORTREIAD—AU, *Ffr.* PORTRAIRE; *Saes.* PORTRAIT: llun, arlun, arfel, darlun; arfelyddiad, delwad. Edr. PABELL, TEML.—'I ba rai o flaen eu llygaid y portreiadwyd Iesu Grist, wedi ei groeshoelio yn eich plith.' Gal. 3. 1. 'I ba 'r ei y racyscythrwyt Iesu Christ o vlaen eich llygait.' W. S. 'I ba rai y gosodwyd Iesu Grist allan yn weledig, wedi ei groeshoelio drosoch.' Macknight. Arferwyd y gair προεγραφη i arwyddo pethau wedi eu hysgrifenu ar lechau, a'u crogi i fynu i weilediad pawb. Portreiadwyd Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn eu plith mor ffyddiog a bywiog yn athrawiaeth Paul, fel yr oedd megys wedi ei osod allan yn ddysglaer o fewn eu llygaid. Nid fe 'i croeshoeliwyd yn eu plith, ond fe 'i *portreiadwyd* ef yn eu plith, wedi ei groeshoelio.*

* Y mae yn arwyddo esboniad eglur a sylweddol o ddirgelwch Crist. Vorstius.

Dangosiad ffyddlon a chywir o Grist croeshoeliedig yw gwir athrawiaeth yr efengyl; sef dangosiad o fawredd ei berson, mawredd a dyben ei ddyoddefiadau: nid oes un athrawiaeth yn deilwng i'w galw yn efengyl, os na bydd hyn yn gynnwysedig ynddi. Drych yw, yn dangos gogoniant yr Arglwydd. 2 Cor. 3. 18. Nid yw yn ddigon i bregethu fod Crist wedi ei groeshoelio; gwna holl gau athrawon hyny; ond hefyd pregethu *dyben* a *ffrwyth* ei ddyoddefiadau: yma y mae y wir athrawiaeth yn gwahaniaethu oddiwrth y gau o bob rhyw. Y dyben; sef yn ein lle, drosom ni, ac er ein cyfiawnhad; ac os er ein cyfiawnhad, yn ganlynol, er ein hiechydwriaeth gyflawn yn mhob ystyr.

PORTREIO, *Saes.* POURTRAY: arlunio, arfelyddu, delweddu.—'Wedi eu portreio ar y pared o amgylch ogylch,' Ezec. 8. 10. sef llun holl eilunod ffiaidd tŷ Israel. Y rhai hyn oedd addurniadau eu hystafelloedd, y rhai yr oeddynt yn ymhyfrydu i edrych arnynt, ac yn eu haddoli. Y mae Duw yn sylwi beth sydd ar barwydydd ein hystafelloedd, ac yn gyffredinol, bydd yno luniau, nid o bethau ffiaidd genym, ond o bethau a hoffwn.

PORTH, (pôr) *Gr.* βοηθεια: help, cymhorth, cynnorthwy, ymwared. Edr. CYMHORTH.

PORTH, PYRTH, (pôr) *Heb.* פתח *petach*; *Llad.* PORTA, PORTUS: drws; taldrws, dyfodfa i ddinas; rhodfa ddiddos. Yr oedd pyrth y dinasoedd yn ddefnyddiol, 1. Fel lle agored o ddyfodfa i'r ddinas. ——2. Er amddiffynfa a chadernid iddi.——3. Er harddwch: darllenwn am 'borth prydferth y deml.' Act. 3. 10. Yn gyffredinol byddai pyrth dinasoedd yn cael eu hadeiladu yn gadarn ac yn hardd.—— 4. Porth y ddinas oedd lle barn, am mai yno y byddai cyrchfa fwyaf pobl y ddinas. Deut. 17. 5, 8. a 25. 7. Ruth 4. 1.

Mae porth weithiau yn arwyddo y weithred o farn yn y porth: 'Na orthryma y cystuddiol yn y porth.' Diar. 22. 22. Na orthryma, trwy roddi cam-farn arno yn y porth. Felly, 'agor genau yn y porth,' yw barnu ac ymadroddi yn hylaw ac yn addas yn y cyfarfodydd yn mhlith y bobl yn y porth. Diar. 24. 7. Yn yr ystyr hwn, hwyrach, y mae i ni ddeall geiriau Job, pen. 29. 7, 8. 'Pan awn allan i'r porth,' neu *trwy* y porth: sef pan awn allan i eistedd, fel swyddwr gwladol i farnu. Y mae y porth, yn y golygiad hwn, yn arwyddo y swydd a'r awdurdod wladol. Job 5. 4.——Nis gwaradwyddir plant y cyfiawn, 'pan ymddyddanant â'u gelynion yn y porth,' gan y bydd eu mater a'u hachos yn dda, pan yr edrychir i mewn iddo, ac y gwrandewir hwy gan farnwyr cyfiawn. Ps. 127. 5.——'Bernwch farn gwirionedd a thangnefedd yn eich pyrth.' Zech. 8. 16. Dylai eich pyrth fod yn noddfëydd i'r rhai gorthrymedig oll, lle y caffont farn gyflawn yn ol gwirionedd, ac fel hyny yn dangnefedd.——'Càs ganddynt a geryddo yn y porth.' Amos 5. 10. Gellir deall y geiriau, 1. Am gerydd neu argyhoeddiad ysbrydol gan brophwydi Duw, y rhai a geryddent yn athrawiaethol yn gyhoeddus yn y porth, lle byddai mwyaf o bobl. Dywedir, yn y golygiad hwn, 'fod doethineb yn llefain, gerllaw y porth, yn mhen y dref, yn ymyl y drysau.' ——Neu, 2. Argyhoeddi gan y barnwr, neu y swyddwr gwladol. Ei farn gyfiawn fyddai yn gerydd ar yr annuwiol, am hyny y casânt y barnwr. Diar. 1. 21. Esa. 29. 21. Dywedir yn Amos 5. 12. am farnwyr anghyfiawn, eu bod 'yn cymeryd iawn, (yn hytrach gwobr) ac yn troi heibio y tlawd yn y porth,' sef heb wneuthur cyfiawnder â hwynt. At hyn y mae y cyfryw ymadroddion a'r rhai hyn yn cyfeirio, 'Y mae y barnwr yn sefyll wrth y drws,' sef wrth y porth, ac yn barod i fyned i'r orsedd i farnu. Iago 5. 9.

Digitized by Google

Meddiannu porth gelynion, sydd yn arwyddo eu gorchfygu a llywodraethu arnynt. Gen. 22. 17.——'Pyrth angeu,' yw profedigaethau trymion, ing, a chyfyngder, yn nesâu dynion i angeu. Ps. 9. 13. a 107. 18. Esa. 38. 10.——'Cadarnhau barau y pyrth,' yw cynnorthwyo yn gryf ac yn effeithiol yn erbyn ymgyrch gelynion. Ps. 147. 13. a 107. 16.——'Pyrth uffern,' sef holl alluoedd, awdurdod, a chynghorion uffern. Mat. 16. 18. Edr. Uffern. Yn yr un ystyr y golygir y geiriau yn Diar. 31. 23. Galar. 5. 14. Yr oedd y farchnad hefyd yn cael ei chynnal yn y porth, lle y gwerthent ŷd, &c. 2 Bren. 7. 1, 20. Taylor's *Concordance.*

Yr oedd pyrth a drysau y babell a'r deml yn gosod Crist allan yn gysgodol, fel yr unig ffordd o ddyfodfa at y Tad, ac i'r eglwys i gyfranogiad o holl freintiau mawrion yr efengyl. Edr. Drws, Ffordd. Aeth Crist ei hun i mewn trwy byrth cyflawnder, ac agorodd y drysau tragywyddol i'w holl bobl. Ps. 24. 7, 8, 9. a 118. 19.

'Ewch i mewn trwy y porth cyfyng,' &c. Mat. 7. 13. Y porth cyfyng yw yr athrawiaeth oedd yr Arglwydd Iesu gwedi ei gosod o flaen ei wrandawyr yn ei bregeth, ac yn ganlynol, holl athrawiaeth y Bibl, am gyfiawnhad pechadur, ysbrydolrwydd y gyfraith, sancteiddrwydd gwirioneddol tufewnol, a phob sancteiddrwydd ymarweddiad a duwioldeb yn allanol. Y mae y porth yn gul, nid ynddo ei hun, ond o ran y pechadur: y mae y porth yn gwbl yr hyn a ddylai fod, yn uniawn, yn rasol, ac yn hardd; yn addas i Dduw, ac yn iachusol i'r pechadur. Mae y porth a'r ffordd o'r un lled; yr athrawiaeth yw unig reol cychwyniad a pharhad y pererinion; ac oni bai eu bod yn gul o ran y pechadur, nid arweinient byth i'r bywyd. Rhaid bod y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd yn gwbl groes i bob peth mewn dyn, sydd yn ei arwain i ddystryw; ac oblegid hyny, rhaid ei bod yn *gul iddo ef.* Ond os i'r bywyd y mae yn bwriadu myned, rhaid iddo fyned i mewn trwy y porth cul hwn, a cherdded y ffordd gul hon. Ni bydd ein crefydd o ddim llesâd yn y diwedd, os na byddwn, trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, yn ufuddhau o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i ni. Rhuf. 6. 17. Nid gwiw ceisio ëangu y porth; y mae yn ddigon ëang; ac yr un y bydd efe, er i ni ëangu ein meddyliau yn gyfeiliornus am dano. Rhaid hefyd fyned i mewn trwyddo i'r ffordd gul: rhaid cael ein holl enaid ni mewn ufudddod i'r gwirionedd yn mhob ystyr, ac am bob peth: dyna yw crefydd wirioneddol, ac nid ffugiol a rhagrithiol. Am gyfiawnhad, sancteiddhad, &c., 'ewch i mewn trwy y porth cyfyng,' sef ymofynwch yn ddifrifol am y bendithion yn nhrefn Duw, yn yr hon yn unig y maent i'w cael. *Cerddwch y ffordd*, sef aroswch yn y drefn hon i'w cyflawn fwynhau yn barhaus; allan o honi, nid oes dim ond dystryw i bechadur. Porth cyfyng a ffordd gul yw pob peth mewn crefydd i bechadur a wna lesâd iddo; os na bydd felly, ni bydd o ddim defnydd, ac nid ydyw oddiwrth Dduw: ac ni bydd iddo ddim cysur gwirioneddol a sylweddol heb fyned i mewn trwy y porth cyfyng; sef trwy ddrws y defaid i gael porfa. Mae pob *gau* athrawiaeth yn camddarlunio y porth a'r ffordd, i'r dyben i gysuro dynion mewn cyflwr nad oes dim cysur yn perthyn iddo. Heb fyned i mewn trwy y porth cyfyng yr oedd y gwr hwnw a adeiladodd ei dŷ ar y tywod; esmwythâodd ei hun heb graig yn sylfaen iddo; yr oedd yn wrandawr, heb fod yn wneuthurwr y gair; sef heb fyned i mewn trwy y porth cyfyng; a bu ei ddiwedd yn gyfatebol i'r ffordd lydan a gerddodd. Diar. 4. 26, 27. a 8. 20. a 9. 6. Esa. 55. 7, 8. a 30. 21. a 35. 8. a 57. 14. Jer. 6. 16. Marc 8. 34. Ioan 10. 9. a 14. 6. a 15. 18, 19, 20. a 16. 2, 33. Act. 14. 6, 22. 2 Cor. 6. 17. Gal. 5. 24.

'A dos allan i ddyffryn mab Hinnom, yr hwn sydd wrth ddrws porth y dwyrain.' Jer. 19. 2.—'Porth yr haul,' ymyl y ddalen.—'Porth Harsith.' Dr Blayney. חר סית *Heb.* Er yr arwydda y gair hwn *haul*, Barn. 8. 13., etto nid haul yn codi yn unig yw ei arwyddocâd; am hyny nid oes reswm digonol am ei gyfieithu, *y dwyrain.* Heblaw hyny, nid oedd dyffryn Hinnom o du y dwyrain, ond o du y dehau i Jerusalem. Jos. 8. 13. Gwel hefyd Sandys' *Travels.* Yr oedd mynydd yr Olew-wydd o du y dwyrain, a dyffryn Hinnom o'r tu dehau i'r ddinas. 'Porth y llosgfëydd,' (Parkhurst) o herwydd eu bod yn llosgi eu plant yno yn greulon i Moloch. Jer. 7. 31. 2 Bren. 23. 10. Blayney a ddewisodd adael y gair heb ei gyfieithu.

PORTH—I—IANT—IANNUS, (pôr) *Gr.* βοηθεια; cynnorthwyo, cymhorth; cynnal âg ymborth, bwyta, maethu; pesgi, bugeilia, cadw anifeiliaid.

A *bortho* gofid bid bwyllocaf. *Diar.*

Y mae porthi, heblaw rhoddi ymgeledd a chynnaliaeth angenrheidiol i'r corph, yn arwyddo, 1. Llywodraethu dynion yn dda, ac er eu cysur a'u lles, fel swyddwyr gwladol. 2 Sam. 5. 2. a 7. 7. Ps. 78. 71, 72. Y mae y swyddogion yn cael eu golygu fel bugeiliaid, a'u deiliaid fel praidd dan eu gofal, y rhai y mae iddynt eu llywodraethu a'u hamddiffyn gyda thynerwch, dyfalwch, a ffyddlondeb. Y mae swyddwyr anffyddlon yn dyfetha yn lle porthi.——2. Hyfforddi âg athrawiaeth iachus, â gwybodaeth, ac â deall. Cyffelybir eglwys Crist i braidd; y gweinidogion yw y bugeiliaid, ac y mae gorchymyn iddynt fugeilio y praidd, a'u porthi. Ioan 21. 15, 16, 17. 1 Petr 5. 2. 'Gwefusau y cyfiawn a bortha lawer;' o drysor da ei galon, dwg allan bethau da, er daioni i eraill. Diar. 10. 21. Nid oes dim yn borthiant i enaid, ond didwyll laeth y gair, sef athrawiaeth bur ddigymysg yr efengyl; athrawiaethu hon i ddynion yw yr unig ffordd i'w porthi. Y mae swyddwyr a gweinidogion drwg, anffyddlon, yn eu porthi eu hunain, yn lle porthi eu praidd. Ezec. 34. 2, 3. Edr. Brenin, Bugail.

'A fref ŷch uwch ben ei borthiant?' Job 6. 5. Y mae Job yn crybwyll nad oedd diddigrwydd ei gyfeillion heb brofedigaeth na gorthrymder, yn rhagori ar ymddygiad yr asyn gwyllt a'r ŷch pan uwch ben llawnder: ond ei fod mor oddefol iddo dywallt ei ofid mewn griddfanau ac ocheneidiau ag oedd i'r asyn ruo, ac i'r ŷch frefu, pan yr oeddynt heb borthiant.——'Oeddynt fel meirch porthiannus,' sef yn segur, yn fras, ac yn nwyfus. Jer. 5. 8.

PORTHLADD—OEDD, (porth-lladd) *Gr.* πορθμος; porth, porthfa, llongborth, angorfa, hafn, aber. Gen. 49. 13. Deut. 1. 7. Barn. 5. 17. Ps. 107. 30. Act. 27 2, 8, 12.

PORTHOR—ION, (porth) drysor. 2 Sam. 18. 26. 2 Bren. 7. 10. Neh. 7. 1. Edr. Drysor.

POSIBL, *Llad.* Possibilis; *Saes.* Possible: galluadwy, dichonadwy.—'Pob peth sydd bosibl gyda Duw.' Mat. 19. 26. a 26. 39. Marc 10. 27. Edr. Anmhosibl, Attal, Duw, Hollalluog.

POST, (py-ost) gorsaf, colofn, ystlys-bost drws. Barn. 16. 3. 1 Sam. 1. 9. Pedwar post y corph, sef pedwar aelod y corph.

Tri phost cad Ynys Prydain; Dunawd Fur mab Pabo post Prydain, Gwallawg mab Lleenawg, a Chynfelyn drwsgyl. *Triodd.*

Pan nad rhyfedd na thyf *post* aur trwy nen tŷ yr enwir. *Diar.*

POTEN, (pot) *Heb.* בטן *beten*; *vid. an hinc. Angl.* Pudding, medd y Dr D., bol, perfeddyn, coluddyn, amysgar; monochen, selsigen; y boten fawr, y boten wen, cod wen, sef y cylla. Barn. 3. 21.



Digitized by Google

POTEL—AU, (pot) *Ffr*. BOUTEILLE; *Saes*. BOTTLE: costrel, costrelig.—'Cynneliwch fi â photelau.' Can. 2. 5. 'Cryfhewch fi â gwin.' Dr M. Golygir y potelau trwy draws-enwad, am y peth cynnwysedig yn y potelau; nid potelau gweigion yr oedd yn galw am danynt. Beth a gynnwys gwir gysur i eglwys Crist, ond addewidion ac athrawiaeth iachusol yr efengyl? Yn y rhai hyny y mae cariad Crist i'w weled, a holl drysorau mawrion y cyfammod tragywyddol. Golygiad trwy ffydd ar ddyfnion bethau Duw amlygedig ynddynt a gynnal yn effeithiol yr enaid llesgaf.

Y mae amryw gyfleithiadau i'r gair *Heb*. אשישות a gyfleithir *potelau*, ond y mae ein cyfleithiad ni mor debygol o fod yn ei le ag un, am a wn i.——Dr M. *gwin*, ar ol Vatab. Munst. ond nid yw y gair Hebraeg byth yn arwyddo *gwin*.—Cranmer, *phiolau*.—Coverdale a Matthews, *grawnwin*.—Douay, *blodau*.—Parkhurst, *cyffeithiau*.—T. W. *adfaethiadau*.*

POWDR, *Llad*. PULVIS; *Teut*. POUDRE; *Saes*. POWDER: llwch, pylor.—'Gwedi ei phêr-arogli â myrrh, ac â thus, ac â phob powdr yr apothecari.' Can. 3. 6. 'Ac â phob pêr-lysiau yr apothecari.' Dr M. Cyfleithir yr un gair אבק *lludw*, Exod. 9. 8. ac y mae yn arwyddo mân-lwch. Y gair רכל *apothecari*, sydd yn cael ei gyfleithu yn rhif lliosog, *marchnadwyr*, 1 Bren. 10. 15.—*marchnadyddion*, Ezec. 17. 4. a 27. 14.—*athrodwr*, neu un yn dwyn oddi amgylch ac yn marchnata athrod, Lef. 19. 16. Diar. 11. 13. a 26. 22. Ezec. 22. 9. Jer. 6. 28. a 9. 4. Cymh. 1 Tim. 5. 13. Canlyn cyfleithiad y LXX. y mae ein cyfleithwyr ni yn y gair *apothecari*. Yr oedd rhai o'r offeiriaid yn gwneuthur enaint o'r aroglau peraidd, y rhai a feddylir wrth yr apothecari. 1 Cron. 9. 30. Doniau sanctaidd, grasol, yr Ysbryd Glân a feddylir wrth y powdr, â pha rai y mae Crist yn pêr-arogli yr eglwys, yn ei holl aelodau.

PRAFF—AIDD, (pra) ffyrf, braisg; mawr, helaeth; ffyrfder; braisgedd.—'Y sarph hir-braff.' Esa. 27. 1. *Heb*. נחש ברח *y sarph union*, mewn cyferbyniad i'r sarph dorchog. Parkhurst.—'Sarph anhyblyg.' Dr Lowth. Cyfleithir yr un geiriau yn Job 26. 13. *sarph dorchog*; ond, tybygaf, yn anaddas, gan ei bod yn y lle hwn yn cael ei gosod mewn cyferbyniad i'r נחש עקלתון *y sarph dorchog*. Wrth y *sarph anhyblyg*, y barna amryw y meddylir y *crocodile*, yr hwn, o herwydd bod asgwrn ei gefn yn anhawdd ei blygu, nis dichon yn hawdd droi ei huuan pan byddo yn ymlid ei ysglyfaeth. Yn allegawl, deallir wrth y creaduriaid gwenwynllyd, niweidiol hyn, ryw alluoedd creulon ac erlidigaethus; ond pa alluoedd, pa awdurdodau, medd y Dr Lowth, sydd anhawdd penderfynu. Gwel Lowth a Vitringa.

PRAIDD, neu PRAIT, (pra-idd) *Llad*. PRÆDA; *Saes*. PREY: ysglyf, ysglyfaeth;† dëadell, gre, cadw, gyr. 'Trais, trawsedd;' W. S. ymyl y ddalen. Mat. 26. 31.—dëadell o ddefaid neu eifr. Gen. 27. 9. Hab. 3. 17.—Gelwir yr eglwys, 'praidd bychan—praidd Duw.' Luc 12. 32. 1 Petr 5. 2, 3. Bychan o ran rhifedi, a feddylir yn fwyaf neillduol, mewn cymhariaeth i'r dorf liosog annuwiol; a bychan o ran iselder eu hamgylchiadau yma yn y byd hwn; ac yn ganlynol, bychan yn mri a chyfrif y byd. Mat. 7. 14. a 18. 12, 14. a 20. 16. Ioan 10. 26—30. Ond y mae cariad eu Tad yn fawr tu ag atynt, ac o'i foddlonrwydd a'i ewyllys da y rhydd iddynt y deyrnas: *y deyrnas*, sef y deyrnas ddisigl, enwog, dragywyddol, a barotowyd iddynt er seiliad y byd. Yr unig deyrnas yn deilwng o'r enw ac o'n sylw. O ewyllys da eu Tad mae y praidd yn cael pob peth; os felly, pwy a ddichon amgyffred eu dedwyddwch, os ei *fesur* yn rhoddi iddynt yw ei ewyllys da ei hun!——'Praidd Duw' ydyw, wedi eu hethol, eu prynu, eu galw, a'u cyfiawnhau gan Dduw. Praidd sydd yn anwyl ganddo, a'i ofal yn fawr am danynt. Y maent yn adnabod Duw, wedi ei ddewis yn Arglwydd ac yn rhan, ac wedi ymroddi iddo mewn cyfammod dros byth i'w wasanaethu a'i addoli. Enw ardderchog iawn ydyw hwn, 'praidd Duw,' fel y mae ardderchogrwydd yn nglŷn wrth bob peth sydd yn perthyn i Dduw a'i iechydwriaeth.* Y mae yr ystyriaeth hon yn galw ar y rhai sydd yn fugeiliaid dano i ddangos y tiriondeb, yr ewyllysgarwch, a'r ffyddlondeb mwyaf yn eu porthi a'u bugeilio; ac nid yn tra-arglwyddiaethu arnynt, nac yn budr-elwa oddi wrthynt, gan ryfeddu i'r fath fraint ddyfod erioed i'w rhan, a bugeilio a phorthi praidd Duw. Nôd bleiddiaid, a gau-athrawon, a gweision cyflog, yw bod heb arbed y praidd. Ioan x. Act. 20. 29. Edrych DEADELL.

PRANCIO, (pranc) ystrancio, crychlamu, carlamu, crychneidio. Nah. 3. 2.

PRAWF, PROFI—ON, (praw) *Gr*. πειρα: *Llad*. PROBATIO; *Saes*. PROOF: profiad, arwydd, tystiolaeth, arddangosiad; arddangos. Y mae profi yn arwyddo, 1. Holi, chwilied ac edrych yn fanwl i ddeall yn drwyadl bethau yn eu natur, eu hachos, a'u heffeithiau. 2 Cor. 13. 5. Ioan 6. 5. Ps. 26. 2.——2. Adnabod trwy brofiad, rinwedd, melusder, ac uniondeb peth. Rhuf. 12. 2. Preg. 7. 23.——3. Sicrhau a chadarnhau yn ddilys trwy dystion, a dangosiad. Act. 24. 13.——4. Goleuni yr Ysbryd Glân yn amlygu, trwy ryw achlysuron addas, beth sydd yn nghalonau yn guddiedig, ac yn llechu yn ddirgel. Deut. 8. 2. a 13. 3. Ps. 139. 23. Edr. CHWILIO, HOLI, PROFEDIGAETH.

PREGETH—U—WR, (preg) *Llad*. PRÆDICO; *Ital*. PREDICARE; *Ffr*. PREAHER; *Saes*. PREACH: araeth, traethawd; cyhoeddi. Yn yr arferiad presennol o'r geiriau pregeth, pregethu, pregethwr, y maent yn cael eu priodoli yn neillduol i araeth, areithu, neu areithiwr, neu addysgwr mewn pethau sanctaidd; ond fel y mae y geiriau hyn yn gyfleithiad o'r geiriau κηρυσσω a κηρυγμα, y mae yn arwyddo *cyhoeddi* a *cyhoeddiad* o ryw beth, heb egluro, nac athrawiaethu. Felly cyfleithir ef yn Dat. 5. 2. Ystyr priodol y geiriau Groeg uchod yw *cyhoeddi*, *cyhoeddiad* ar led i bawb i glywed, pa un fyddo yr hyn a gyhoeddir felly yn ddrwg neu yn dda. Felly gelwir cenadwri Jonah at y Ninifeaid, 'pregeth,' neu yn hytrach 'cyhoeddiad' Jonah. Mat. 12. 41.——'Pregethwch,' sef cyhoeddwch, 'ar benau y tai.' Mat. 10. 27. 'Pregethwch yr efengyl;' κηρυξατε το ευαγγελιον, *cyhoeddwch y newyddion da i'r holl fyd*. Marc 16. 15. 'A phregethu,' κηρυχθηναι, *cyhoeddi* 'edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd.' Luc 24. 47. Cyhoeddiad yw trwy awdurdod dwyfol i bawb, fod y bendithion hyn, yn cynnwys ynddynt bob peth arall hefyd, i gael eu cyfranu yn rhad trwy Grist i bechaduriaid.

Weithiau y mae y gair pregethu yn gyfleithiad o'r gair ευαγγελιζω, yna y mae yn arwyddo *cyhoeddi newyddion da*, fel y cyfleithir ef yn Luc 1. 19. a 2. 10. 1 Thes. 3. 6. Buasai yn addas, hwyrach, ei gyfleithu felly yn mhob man arall; megys yn Luc 3. 18. a 4. 43. a 9. 6. Act. 5. 42. a 8. 4, 12, 25. a 10. 36. Dat.

* Rhydd Kircher ystyr y gair אשיש yn gytunol â'n cyfleithiad ni, yn y geiriau canlynol: 'Llestr, yr hwn a gynnwysai gymaint ag a yfai pob un mewn diwrnod; hyny yw, mesur penodol o win.'

† Y mae holl gyfleithwyr y Bibl, wrth ddilyn W. Salisbury, yn cymeryd y gair am ddëadell o ddefaid. Yr hyn a roddodd achlysur i'r cam-gymeriad oedd, fod y defaid yn ysglyfaeth i'r bleiddiaid. Nid wyf wedi gweled y gair yn yr ystyr hwn, oddieithr unwaith mewn awdwr diweddar. G. H. Dr Davies.

* Every step of the way of salvation hath on it the print of infinite majesty, wisdom, and goodness. Leighton.

Digitized by Google

10. 7. a 14. 6. Eph. 2. 17. Heb. 4. 2, 6. Y mae y gair *Gr.* *καταγέλλω*, *traethu*, *mynegi*, *hysbysu*, yn cael ei gyfieithu *pregethu*, Phil. 1. 16. Act. 4. 2. a 13. 5, 38. yr hwn a gyfieithir *mynegi*, Act. 17. 23.—*dangos*, 1 Cor. 11. 26. Y mae y gair *Gr.* *διδασκω*, a gyfieithir *dysgu*, *athrawiaethu*, yn nes i ystyr y gair pregethu, yn ol yr arferiad presennol o hono. Y mae athrawiaethu a phregethu, neu gyhoeddi y newyddion da, yn cael eu gwahaniaethu yn Luc 20. 1. Y mae cyhoeddi y newyddion da, yn arwyddo, yn fwyaf priodol, cyhoeddi Crist ei hun fel y gwir Fessiah, a nesâd teyrnas Duw; ond y mae athrawiaethu yn briodol i bob math a'r addysg fuddiol. Dysgu a briodolir yn fwyaf i'r cyfryw ddysgeidiaeth ag sydd yn gynnwysedig yn y bregeth ar y mynydd: 'Yr oedd efe yn eu dysgu hwy fel un âg awdurdod ganddo.' Mat. 7. 29. Edr. Efengyl.

I bregethu yr efengyl, y mae yn ofynol, yn 1. Fod y dyn yn rasol, ac o fucheddiad sanctaidd; heb hyn y mae pawb yn gwbl anaddas i'r cyfryw swydd a gwaith sanctaidd, wrth 1 Tim. iii. 'Dynion sanctaidd Duw a gynhyrfwyd' gynt, ac a gynhyrfir etto, at waith Duw. 2 Petr 1. 21. Nid ydyw siampl Judas ddim yn brawf mai dyna ydyw rheol gyffredin Duw yn ei dŷ.

2. Rhaid ei fod o anfoniad Duw. 'Pa fodd y pregethant onis danfonir hwynt?' Rhuf. 10. 15. Ni ddichon neb bregethu yn addas heb ei ddanfon gan Dduw, mwy nag y dichon un gredu heb glywed am Grist. Yr anfoniad sydd yn awdurdodi y person i weinyddu yn y swydd, ac yn awdurdodi yr athrawiaeth a ddaw allan o'i enau. Pan y mae Duw yn anfon un yn genad drosto i bregethu yr efengyl, y mae yr achosion cymhelliadol i gymeryd y fath orchwyl pwysfawr yn llaw, yn ysbrydol, a'i ddybenion yn sanctaidd; nid budrelw, clod, dyrchafiad, nac esmwythder, a'u cymhellant, ond cariad at Grist, eneidiau dynion, a sancteiddrwydd. Gellir dysgwyl hefyd yn ddilys y bydd i'r eglwys gymeradwyo, yn ol cael prawf o hono, yr anfonedig gan Dduw; o ran y bydd yn cael porthiant ac ymgeledd buddiol drwyddo.

3. Yr hwn y mae Duw yn ei anfon, y mae hefyd yn ei addurno â doniau addas i'r gwaith sanctaidd, sef doniau ysbrydol a chynneddfau naturiol. Edr. Araeth, Esgob.

Pregethiad yr efengyl gan ddynion o'i anfoniad yw y moddion penaf a drefnodd Duw i achub eneidiau dynion, trwy daenu gwybodaeth o'r Iachawdwr yn mhlith pechaduriaid. Ni bu neb yn fendith fwy i ddynolryw na'r cyfryw bregethwyr; na neb o niwed mwy na phregethwyr heb anfoniad, yn rhyfygus yn cymeryd y gorchwyl sanctaidd arnynt, heb awdurdod, na chymhwysderau addas i'r gwaith.

Llyfr y Pregethwr, a alwyd felly oddiwrth y gair Groeg, yn nghyfieithiad y LXX. *εκκλησιαστης*, yn arwyddo *pregethwr*. Y mae yr enw *Heb.* קהלת yn arwyddo naill ai *cynnullwr y bobl*, neu a *areithia iddynt gwedi eu cynnull*. *Concianator: vel potius sapientia Conscionatrix*. Yr *areithiwr*, neu yn hytrach doethineb, yr areithreg, gan fod y gair Hebraeg yn y rhyw fenywaidd. Gwel Lowth. Yn cyfeirio, tebygol, at waith Solomon, yn cyd-gasglu yn nghyd y bobl, i gael areithio iddynt ar achosion o bwys. Yn ol cydsyniad cyffredin, bernir mai Solomon ydoedd awdwr y llyfr hwn; ac yn ol traddodiad Iuddewaidd, yr hwn sydd yn debyg i wir, cyfansoddodd ef gwedi ei ddwfn edifeirwch a'i adferiad o'i wrthgiliad. Y mae amrywiol bethau yn y llyfr yn gwbl anmhriodol i neb ond Solomon. Gwel pen. 1. 12, 16. a 2. 4—10. a 7. 25—28. a 12. 9. Y mae gwedi ei ysgrifenu mewn ffordd o draethawd ar wagedd pob peth at ddedwyddwch dyn, ond gwir grefydd; sef ofni Duw a chadw ei orchymynion; a gosodir allan ynddo yn dra eglur y gwirionedd dadguddiedig am y farn, a byd i ddyfod. Y mae yn dangos ynddo yn mha bethau nad yw gwir ddedwyddwch yn gynnwysedig, ac yn mha beth y mae. Y mae yn llefaru oddiar ei brofiad ei hun: gwedi hir daith ac anfuddiol yn ngwlad y gwagedd, y mae yn dychwelyd at Dduw, gwlad y sylwedd dwyfol, gyda boddlonrwydd a gorfoledd. Mwyniant o'r creaduriaid yn y gradd helaethaf, geilw yn wagedd—gwagedd o wagedd—gwagedd yw y cwbl: mwyniant o Dduw ydyw yr holl sylwedd i ddyn am ddedwyddwch; ac am hyny a weddai fod y nôd penaf yn ein holl ymgais i gyrchu ato. Mae rhai ymadroddion yn ymddangos yn o dywyll ar yr olwg gyntaf; ond wrth eu hystyried yn eu cysylltiad, ac yn nghyfeiriad yr holl lyfr, y maent yn eglur a sylweddol, fel pob rhan arall o air Duw. Y mae y dull a'r iaith yn unigol, a gwahanol i bob ysgrifen arall o'r Bibl; ac nid hawdd ydyw canfod bob amser gysylltiad yr ymadroddion, yr hyn sydd yn peri eu bod yn dywyll ac yn anhawdd eu hamgyffred heb ystyriaeth manwl; ond y mae dyben a chyfeiriad y llyfr yn amlwg, ac yn un drwyddo oll, sef gwagedd pob peth ond Duw.* Y mae amryw wedi ysgrifenu ar y llyfr hwn; megys Arthur Jackson, William Pemble, John Cotton, Edward Leigh, William Pitt, Dr M. Jermin, Mercer, Beza, Hall, &c.

PREN—IAU—AW, (pre) gwydden, coeden, cynwydd, rhyswydd; coedawg. Y mwyaf o'r planigion ydyw y pren, ac y maent yn dra defnyddiol a hardd hefyd, rai o honynt, o ran eu blodau a'u ffrwythau. Y mae rhai yn dwyn ffrwythau, eraill yn feddyginiaethol, ac eraill yn fuddiol i adeiladu, &c. Dywedir am bren yn y gwledydd gorllewinol (*bread fruit tree*) ei fod yn wasanaethgar i holl achosion dyn; megys i'w borthi, ei ddilladu, ei ddisychedu, ac i adeiladu. Y mae y coed, fel y llysiau, yn tyfu o hâd. Edr. Llysiau. Y mae Mr Ray, a llysieuwyr eraill, yn coffâu am rai prenau o faintioli hynod o fawr; megys pren yn yr Hispaen Newydd, yn un gwrhyd ar bymtheg o gylch; un arall yn Sicily, yn mesur o gylch 204 o droedfeddi. Gwel Brydone's *Letters*. Un arall y coffâ Herrara am dano, na allai un ar bymtheg o ddynion yn nwylaw eu gilydd ei gylchu. M. Louvilliers a rydd hanes am bren yn Peru, y bydd rhai canghenau iddo yn ffrwytho un hanner o'r flwyddyn, a'r lleill yr hanner arall. Yn China y mae pren yn dwyn gwêr, o ba un y gwna y genedl hòno ganwyllau. Gwel *Universal History*.

'Gwnaeth yr Arglwydd i bob pren dymunol i'r golwg, a daionus yn fwyd,' i dyfu yn ngardd Eden—'pren y bywyd yn nghanol yr ardd, a phren gwybodaeth da a drwg.' Gen. 2. 9. Yr ydoedd y ddau bren hyn yn nghanol yr ardd, yn ddigon hysbys i'r ddau ddyn cyntaf, ac yn eu golwg o hyd yn eu holl ymdriniaeth yn yr ardd. Yr oedd pob peth perthynol i Baradwys yn arwyddocâol, fel y deallwn oddiwrth gyfeiriadau yn yr ysgrythyrau atynt. Gelwir Crist, 'Pren y bywyd,' mewn cyfeiriad at y pwnc hwn; Dat. 2. 7. gelwir eglwys Dduw yn y byd hwn, ac yn y nefoedd, wrth yr enw Paradwys. Luc 23. 43. Y mae yn amlwg fod yn rhydd iddynt fwyta o bren y bywyd; canys ni waherddir iddynt ond *un* pren. Gen. 2. 17. Yr oedd pren y bywyd yn arwydd iddynt o'r bywyd a'r hyfrydwch oedd i'w gael yn Nuw, ac yn gysgod o Grist i ninnau; yr hwn yn unig yw Awdwr bywyd tragywyddol i rai wedi eu colli. Y mae ganddo fywyd ynddo ei hun; 'a'r hwn y mae y Mab ganddo, sydd ganddo y bywyd.' Edr. Ffrwyth.

Gwaharddwyd iddynt un pren a elwir 'pren gwybodaeth da a drwg.' Y farn gyffredin am yr enw hwn, yw, iddo gael ei alw felly oddiwrth y canlyniad; sef bod ein rhieni cyntaf, trwy fwyta o hono, yn gwybod

* Y mae arddull y gwaith hwn yn hynod.—Yr un ydyw ffurf yr holl waith, un ymresymiad syml am wagedd pethau dynol. Lowth.

Digitized by Google

yn brofiadol y daioni a gollasant, a'r drwg a ddaeth arnynt. Ond y mae lle i ammeu priodoldeb yr espon iad hwn. Ni oddef y geiriau דעת טוב ורע hyny yw, 'gwybod da a drwg,' y cyfryw ystyr. 'Gwybod da a drwg,' yn iaith yr ysgrythyrau, ydyw deall natur da a drwg, uniondeb ac anwiredd; a thrwy farnu yn fanwl am danynt, dewis y naill, a gwrthod y llall. Yn hyn y mae yn gynnwysedig grym rheswm hudol y sarph; 'y byddwch megys duwiau (כאלהים neu Duw, Gen. 1. 1.) yn gwybod da a drwg.' Gen. 3. 5. Ni ddichon Duw wybod trwy brofiad; ac annhebyg y buasai y sarph yn sicrhau iddynt wybodaeth brofiadol o ddrwg fel rheswm hudol i ufuddhau i'r hyn yr ydoedd yn ei geisio ganddynt. Gellir cyfieithu y geiriau, adn. 22. 'Wele y dyn (yr hwn) oedd megys un o honom ni, yn gwybod da a drwg!' Geiriau ydynt o alarnad uwch ben ei gyflwr gresynus wedi ei gwymp: yr oedd megys un o honom ni; ond O, mor annhebyg ydyw yn awr! Cyn ei gwymp, gwyddai dda a drwg fel y mae Duw yn ei wybod: nid trwy brofiad, ond trwy adnabyddiaeth eglur o'i natur; canys felly yn ddilys y mae Duw yn eu hadnabod. Boston's *Tractatus Stimologicus*.

Cyfatebol i hyn ydyw ystyr yr un geiriau yn Deut. 1. 39. 'Eich plant, y rhai y dywedasoch y byddent yn yspail, a'ch meibion chwi, y rhai ni wyddant heddyw *na da na drwg*, hwynt-hwy a ânt i mewn yno.' Y mae y plant bychain yn gwybod da a drwg yn brofiadol, ond nid oes ganddynt ddeall i amgyffred y gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall, i ddewis y naill a gwrthod y llall. Hyn yn eglur ydyw ystyr y geiriau, 'gwybod da a drwg.'

Nid ydyw yr ystyr arall yn un â gwirionedd y peth: ni wybu dyn trwy y cwymp i bechod a thrueni ddaioni trwy y cyfryw brofiad, gwybu ddaioni yn well o lawer cyn nac wedi y cwymp. Heblaw hyny, pa addasrwydd oedd i alw y pren, yr hwn oedd i fod yn brawf o'i ufudd-dod, wrth enw a fyddai yn brawf o'i anufudd-dod? Os dywedir nad oedd yn deall hyny, i ba ddyben, ynte, y rhoddwyd yr enw arno? Nid oedd ar Dduw eisieu yr enw: ac i ba ddefnydd y gallasai fod i'r dyn heb ei ddeall? Os dywedir i'r enw hwn gael ei roddi arno wedi y cwymp, y mae hyny drachefn yn ymddangos yn gwbl annefnyddiol: gwyddai yn brofiadol y da a gollodd, a'r drwg a ddaeth iddo, heb y pren i arwyddo hyny.

Gan hyny, rhaid ymofyn am ystyr i'r geiriau mwy boddlonol. 'Gwybod da a drwg,' sydd yn arwyddo, gallu yn yr enaid i farnu a gwahaniaethu; 'synwyr,' fel y dywed yr apostol, 'i ddosparthu drwg a da.' Heb. 5. 14. Yr oedd y pren yn arwyddocâol yn eu haddysgu beth oedd dda a pheth oedd ddrwg; sef mai ufuddhau yn barod i Dduw oedd dda, ac anufuddhau oedd ddrwg; am hyny yn dra addas y mae yn cael ei alw 'pren gwybodaeth da a drwg.' Yr ydoedd yn brawf o barhad y dyn yn ysbryd plentyn, heb un ewyllys o'r eiddo ei hun ganddo, ond ewyllys ei dad yn unig yn mhob peth—yr hyn ydyw cnewyllyn gwir grefydd bob amser.

Gwaharddwyd y pren hwn iddo, yn 1. I'w brofi o ran ei gariad a'i ufudd-dod i Dduw. Rhyw orchymyn pendant fel hwn oedd raid ei roddi iddo, i'w brofi, gan nad oedd iddo, yn ei amgylchiadau presennol, un achlysur i droseddu un o'r deg yn y gyfraith: nid oedd lladd, godinebu, lladrata, na dwyn cam dystiolaeth, yn bosibl iddo yn y cyflwr yr oedd ynddo. Yr oedd yn gwbl addas iddo roddi prawf eglur o'i ufudd-dod a'i gariad at ei Greawdwr. Profwyd Abraham, ïe, Crist ei hun.

2. Yr oedd y gwaharddiad hwn yn rhoddi llawer o addysgiadau tra buddiol iddo; sef 1. Mai Duw oedd Arglwydd goruchel pob peth.——2. Nad ydoedd y dyn yn anddibynol yn y llywodraeth a roddwyd iddo.——2. Nad ydoedd gwir ddedwyddwch i'w gael yn un lle ond yn Nuw yn unig.——4. Mai drwg ydoedd chwennych dim ond oedd yn Nuw, ac yn tueddu tu ag ato.——5. Mai ewyllys Duw ydyw unig reol dyn yn ei holl chwennychiadau ar ol pethau crëedig.——6. Y dylai yr ufudd-dod sydd i gyflawnhau dyn ger bron Duw fod o'r galon, a chyd âg ymegnïad yr holl enaid.——7. Nad oedd dyn etto gwedi cyrhaedd cyflawn ddedwyddwch.——8. Yn ymestyn at y cyflwr hwnw, rhaid iddo ef ddilyn y llwybr a roddodd Duw iddo, ac onidê, nas cyrhaedd byth mo'r dedwyddwch cyflawn addas i'w natur.

3. Y mae yn neillduol o arwyddocâol i'w holl hiliogaeth; fel yn dangos y mawr berygl o ufuddhau i chwant yn groes i orchymyn Duw. Y mae y ddau bren yn agos iawn i'w gilydd, un yn gyfreithlawn, ac yn bren y bywyd, a'r llall yn waharddedig, ac yn anghyfreithlawn: ufuddhau i bechod yn ei chwantau sydd o hyd yn farwolaeth.——Yr oedd pren y bywyd yn arwydd neu yn wystl i'r dyn o ffyddlondeb Duw i'w addewid o fywyd ar ei ufudd-dod, ac yr ydoedd y pren gwybodaeth da a drwg yn arwydd o'i ffyddlondeb i'r bygythiad am ei anufudd-dod. C. Vitringa, *Obs. Sacr., tom.* ii., *lib.* 4., *c.* 12.

Cyffelybir duwiolion ac annuwiolion i brenau; sef prenau ffrwythlawn a diffrwyth. Ps. 1. 3. Esa. 61. 3. Jer. 17. 7, 8. Ezec. 47. 7, 12. Dat. 9. 4. Edr. AFON, DWFR, FFRWYTH, GRUG, DIFLANEDIG.——Breninoedd a gwyr mawrion a gyffelybir i brenau, o herwydd eu cyfoeth, eu hanrhydedd, eu gallu, neu eu balchder; y maent yn amlwg uwchlaw eraill, ac yn foddion i'w hamddiffyn a'u cysgodi. Ezec. 31. 5, 9. Dan. 4. 10, 23. Dat. 8. 7.——'Prenau y coed,' yw creaduriaid o bob math; y rhai ydynt, mewn cymhariaeth i Grist, yn ddiffrwyth, yn wael, ac yn anolygus. Can. 2. 3.

PRES, (pre-es) *Llad.* Æs; *Saes.* BRASS: buan, prysur; gwellt, sofl, ebran; tanwydd: côr; out, twlc y moch; efydd. Pres ffwrn, tanwydd; pres y moch, cut y moch; pres y cwn, cyndy; pres cynauaf, prysur gynauaf; llais pres, uchel sain, main, llym.—Mettel gymysg yw pres, o gopr a *lapis calaminaris*, sydd yn melynu ac yn caledu y copr. Y mae pres yn ysgafnach, yn galetach, ac yn fwy soniarus na chopr. O herwydd harddwch ei liw, ei galedwch, a'i fod yn llai darostyngedig i wyrdd-rwd na chopr, arferir ef yn aml i wneuthur llestri o hono. Y mae pres yn yr ystyr mwyaf helaeth o'r gair, yn arwyddo efydd, a phob cymysgedd o hono â metteloedd eraill. Y gair *Heb.* נחש a gyfieithir *pres* yn yr ysgrythyrau, sydd yn arwyddoeâu *efydd*, neu *gopr:* ac a elwir felly, o herwydd tebygolrwydd ei liw i liw y sarph, yr hon a elwir wrth yr un enw. Num. 21. 9. נחש נחושת *sarph bres*; yr un gair sydd yma am bob un o'r ddau. Cyfieithir ef *brynti*, yn Ezec. 16. 36. yn cyfeirio at wyrdd-rwd yr efydd, tebygol; cymh. Ezec. 24. 11.—*llyffethair*, am fod llyffetheiriau yn cael eu gwneuthur o bres, Galar. 3. 7.—*gefynau*, Barn. 16. 21.—*cadwynau*, Jer. 39. 7. 2 Cron. 36. 6.——Yr oedd y pres, neu yr efydd, yn nodrefn y deml, yn cysgodi Crist yn ei iselder, ei burdeb, a'i gadernid. Exod. xxv, xxvii.

Gelwir Crist yn 'Wr â'i welediad fel gwelediad pres—a'i freichiau a'i draed fel lliw pres gloyw,' (Ezec. 40. 3. Dan. 10. 6. Dat. 1. 15. a 2. 18.) i arwyddo ei gadernid, ei ogoniant, a'i ardderchogrwydd tragywyddol.——Pan briodolir pres i gyrn, carnau, gefynau, cnawd, ewinedd, mynyddoedd, pyrth, breniniaeth, &c., arwydda nerth, cadernid, parhad y pethau hyn. Mic. 4. 13. Job 6. 12. Ps. 107. 16. Dan. 2. 39. a 4. 15. Zech. 6. 1.——Cyffelybir pechaduriaid i bres, haiarn, *tin*, plwm; a dywedir bod eu ta cen yn bres, yn arwyddo eu gwaeledd, eu caledwch, eu rhyfyg, a'u pechadurusrwydd. Ezec. 22. 18. Esa. 48. 4. Jer. 6. 28.

Digitized by Google

**PRESEB—AU**, (pres-eb) *Llad.* PRÆSEPE: rhastal, rhesel, cafn ebran, côr. Preseb, neu gafn ebran, sydd lestr wedi ei wneuthur i ddal ebran i'r anifeiliaid. 1 Bren. 4. 26. Job 39. 9. Diar. 14. 4. Esa. 1. 3. Gwnaent y llestr hwn gynt o faen, pren, neu ryw fettel. Yn un o'r rhai hyn y rhoddwyd Crist i orwedd gyntaf gwedi ei enedigaeth; yn nhŷ yr anifeiliaid y ganed ef, ac yn y cafn ebran y rhoddodd Mair ef i orwedd. Yno y gwelodd yr angelion ef, ac yr addolasant ef; ac yno y cafodd y bugeiliaid ef. Luc 2. 7, 12, 16. Edr. GENI, LLETTY.

**PRESENNOL—DEB**, (presen) *Llad.* PRÆSENS; *Saes.* PRESENT: cynnrychiol, yn ngŵydd, ger bron, yn awr, yr awr hon; cynnrychioldeb.—'Na phethau presennol.' Rhuf. 8. 38.—'Na chydrycholion.' W. S. Drygau, a gorthrymderau presennol, y mae yr apostol yn ei feddwl yn benaf; y mae Duw yn caru ei bobl yn eu canol hwynt oll, oddiwrth ei gariad ef y maent yn dyfod, ac y maent yn arwydd o'i gariad. Gan fod y gair yn gyffredinol, heb ei briodoli i unrhyw beth yn neillduol, gellir ystyried pob peth yn gynnwysedig ynddo, adfyd a hawddfyd; profedigaethau a llygredigaethau; cyfoeth a thlodi, &c. Nid ydyw amgylchiadau yn cyfnewid cariad Duw, nac effeithioldeb ei weithrediad tu ag at ei bobl.——'Eich sicrhau yn y gwirionedd presennol.' 2 Petr 1. 12.—'A' siccir yn y cyndrychol wirionedd.' W. S. Yr efengyl y mae yn ei feddwl, am yr hon yr ydoedd yn ysgrifenu; y gwirionedd *addawedig* gynt, ond gwedi ei amlygu yn bresennol trwy Grist; y gwirionedd yr oeddynt yn ei gyffesu, ac mewn meddiant sylweddol o hono trwy ffydd. Col. 1. 5, 6.——'Fel y'n gwaredai ni oddiwrth y byd drwg presennol.' Gal. 1. 5.—'Y cydrychiol vyd drwc yma.' W. S. Sef oddiwrth arferion preswylwyr llygredig presennol y byd hwn. 1 Ioan 2. 17. Y mae y byd yn aml yn arwyddo trigolion annuwiol y byd, sydd a'u rhan yn y bywyd a'r byd hwn, ac yn caru y byd, a'r pethau sydd yn y byd. 1 Cor. 6. 2. 1 Ioan 5. 19. Un dyben marwolaeth Crist ydoedd gwaredu ei bobl oddiwrth arferion, llygredigaethau, a dystryw y cyfryw ddynion; a'u 'dysgu i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol (εν τω νυν αιωνι) yn y byd sydd *yr awr hon.*

**PRESWYL—IO—FA—FOD—FERCH—WYR—YDD**, (pres-gwyl) trigfa, trefad; trigias, gorsaf; cyfanneddu, anneddu, cartrefu; cyfanneddwyr, trigiannydd. Arferir y gair hwn yn aml am drigfan, neu orphwysfa sefydlog, mewn cyferbyniad i babell ansefydlog. Felly y priodolir ef i'r deml—gwlad Canaan—dinas Jerusalem—calon y saint, &c. Ps. 33. 14. a 132. 5. 2 Cron 6. 2. a 30. 27. Ezra 7. 15. Yr oedd, ac y mae, yr Arglwydd yn mhlith ei bobl, yn gweithredu arnynt, ac yn rhoddi iddynt arwyddion neillduol o'i bresennoldeb a'i foddlonrwydd. Gelwir yr eglwys yn 'breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd.' Eph. 2. 22. Preswylia yn eu plith fel Duw yn ei deml i gael addoliad ganddynt; fel Tad yn mysg ei blant i'w hymgeleddu, eu hamddiffyn, eu llywodraethu, a'u dyddanu. ——Hefyd, mae yn arwyddo lle o ddiogelwch: 'Am i ti wneuthur yr Arglwydd fy noddfa, sef y Goruchaf yn breswylfa i ti.' Ps. 91. 9. a 107. 7. Diogelwch digonol a thragywyddol yw yr Arglwydd i'r sawl a ymddiriedant ynddo. Edr. GWLAD, NEFOEDD, TRAGYWYDDOLDEB, UCHELDER, &c.

**PRIDWERTH**, (prid-gwerth) cyfrdal, cydwerth, cyfwerth, argyfiol, cyfartal.—'Megys na ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer.' Mat. 20. 28. Marc 10. 45. 1 Tim. 2. 6.—'Yn bryniant.' W. S. Y mae y gair *pridwerth* yn gyfleithiad tra addas o'r gair *Gr.* *αντιλυτρον*, sydd yn arwyddo gwerth am gaethwas i'w ryddhau; yr ydoedd einioes Crist yn λυτρον, *gwerth, αντι, yn lle,* sef yn lle eu heinioes hwy a brynwyd, ac yr ydoedd yn gyfartal, yn gyfwerth—yr oedd ei einioes ef yn *gyfwerth* âg einioes pawb a brynwyd yn rhyfedd fel hyn. Nid peth heb fwriad a meddwl ydoedd; ond yn ol arfaeth a chynghor dwyfol daeth i'r byd i'r dyben hwn; sef daeth o'i fodd, yn foddlon, o gariad pur a thra mawr atynt. A chwedi dyfod, rhoddodd ei einioes yn rhwydd, o hono ei hun, a chanddo awdurdod arni. Edr. ABERTH, AWDURDOD, BYWYD, EINIOES, IAWN.

**PRIDD—O**, (pri-idd) *Heb.* עפר *Llad.* PULVIS: daear, priddgist; llwch, mân-lwch; gorchuddio â daear. Cywreinwaith Duw ydoedd gwneuthur dernyn mor hardd ac addas a chorph dyn o bridd y ddaear: pridd yn fyw—pridd yn gweled, yn clywed, yn teimlo, yn archwaethu, ac yn rhodio. Gwael ac isel yw o ran ei ddefnydd, ond y mae gwaith Duw arno yn dra hynod. Nid oes i ddyn un achos *balchio*, ond llawer o achos diolch. Am bechod, i'r pridd y dychwel etto. Gen. 2. 7. a 3. 19.—'A phridd ar ei ben.' 2 Sam. 1. 2. a 15. 32. Edr. LLWCH.

**PRIDDELL—AU—I**, (pridd) tywarchen, tywerchyn, priddyn, telpyn o bridd; peithynen; pridd lechen; darn o lestr pridd.—'Priddellau aur sydd iddi:' sef i'r ddaear. Job 28. 6. '*It hath dust of gold.*' *Saes.* Mae llwch aur yn gymysgedig â llwch y ddaear.——'Pydrodd yr hadau dan eu priddellau.' Joel 1. 17. Pydrodd yr hadau wedi eu bwrw i'r ddaear, trwy sychder mawr, ac eisiau gwlybwr: Duw sydd yn peri na byddai felly bob amser.——'Y mae priddellau y dyffryn,' sef y bedd, 'yn felus iddo.' Job 21. 23.

**PRIDDFAEN—EINI**, (pridd-maen) priddlech; meini adeiladu gwedi eu gwneuthur o bridd, a'u llosgi i'r dyben i'w caledu a'u haddasu i'r gwaith. Arferwyd priddfeini mewn adeiladau mor fore a thŵr Babel, ac â hwynt y gwnawd muriau Babilon. Barnai y Groegwyr a'r Rhufeinwyr adeiladau o briddfeini yn fwy parhaus na rhai o geryg, ac yn fwy addas i adeiladu tyrau a muriau yn amddiffynfëydd â hwynt. Ond hyn a ddibyna ar ragoroldeb y priddfeini. Dilys yw fod adeiladau o briddfeini yn sychach, ac am hyny yn iachach na rhai o feini cyffredin, am fod y diweddaf yn dueddol i laithu a chwysu. Gen. 11. 3. Exod. 5. 7, 19. Nid ydyw priddfeini dwyreiniol ddim ond clai wedi ei wlychu â dwfr, a'i gymysgu â gwellt, a'i sychu yn yr haul. Harmer's *Obs.* Nid yw eu muriau cyffredin ddim gwell na gwaliau pridd. Maundrell. Fod gwellt yn angenrheidiol yn ngwneuthuriad y cyfryw briddfeini i beri i'r clai ymlynu, sydd eglur oddiwrth Exod. v. Cyferbynir y priddfeini â'r ceryg nadd, gan fod y diweddaf yn rhagori llawer mewn harddwch a pharhad. Esa. 8. 9.

**PRIDDGIST**, (pridd-cist) clai, dyglist; pridd y crochenydd.—'Poyrodd ef ar y ddaear, ac y gwnaeth ef briddgyst o'r poer, ac a irawdd y priddgyst ar lygaid y dall.' W. S. Ioan 9. 6.——Cyffelyba yr apostol awdurdod oruchel Duw ar ddynion, i 'awdurdod y crochenydd ar y priddgist, i wneuthur o'r un telpyn pridd, un llestr i barch, ac arall i anmharch.' Rhuf. 9. 21. Esa. 64. 8. Jer. 18. 1—6. Y mae awdurdod Duw ar bob peth, yn fwy anddibynol nag y dichon un gyffelybiaeth odddiwrth greaduriaid yn addas ei osod allan. Nid y crochenydd a wnaeth y priddgist, ond gwneuthur y llestr a wnaeth efe o'r priddgist: ond Gwneuthurwr a Meddiannydd pob peth yw Duw; cynghor ei ewyllys ei hun yw ei reol, a'i ogoniant ei ddyben penaf yn mhob peth. Ond y mae yn amlwg oddi wrth Jer. xvii., fod golygiad Duw wrth gospi pechaduriaid, ar eu pechod: nid yn rhydd, o'i ben-arglwyddiaeth, y mae yn cospi pechadur; ond o'i natur gyfiawn sanctaidd; ond o'i ben-arglwyddiaeth y mae yn achub ac yn gwaredu neb. Edr. CLAI.

Digitized by Google

PRIDDLESTR, (pridd-llestr) llestr wedi ei wneyd o bridd. Job 41. 30. Ps. 22. 15. Diar. 26. 23. Jer. 19. 11. Edr. LLESTR.

PRIF-FFORDD—FFYRDD, (pri) *Llad.* PRIMUR: cyntaf, goreu, penaf, blaenaf, rhagoraf; arbenig, ardderchog: y dydd cyntaf o'r newydd-loer.

Tri *prif* anffawd abred: angen, anghof, ac angeu. *Diar.*

Prif-ddinas, sef mam-ddinas, pen-caer. Prif-ffordd, sef y ffordd fawr gyffredin, cefn-ffordd. Num. 20. 17. Barn. 20. 17. a 21. 19. Esa. 11. 16. Mat. 22. 9.—'Yna y bydd prif-ffordd, a ffordd; a ffordd sanctaidd y gelwir hi; yr halogedig nid â ar hyd-ddi; canys hi a fydd i'r rhai hyny: a rodio y ffordd, pe byddent ynfydion, ni chyfeiliornant.' Esa. 35. 8. 'Yna y bydd sarn, a ffordd, ffordd sanctaidd hefyd y gelwir hi; yr halogedig nis cynniwer hi, canys hyn (fydd) eiddynt hwy; a rodia'r ffordd pe (byddent) ynfydion, ni chyfeiliornant.' Dr M. Yr unig anhawsdra ar y ffordd i ddeall yr adnod, sydd yn y geiriau, 'hi a fydd i'r rhai hyny.' Pwy sydd i'w ddeall wrth y rhai hyny? Nid yr halogedig; canys y rhai hyny nid ânt ar hyd-ddi: nis dichon i'r halogedig fyned ar hyd ffordd sanctaidd, ac yntau yn parhau yn halogedig; y mae yn rhaid iddo adael ei halogedigaeth i deithio ar hyd ffordd sanctaidd. Ond 'hi a fydd i'r rhai hyny; sef y deillion yr agorwyd eu llygaid, y byddariaid yr agorwyd eu clustiau, y cloff sydd gwedi ei ei iachâu yn llamu fel hydd, a'r mudan sydd yn canu: adn. 6. sef yw hyny, gwaredigion yr Arglwydd sydd yn dychwelyd, ac yn dyfod i Sion.' Adn. 10. 'A rodio y ffordd, pe byddent ynfydion, ni chyfeiliornant.' Bydd y brif-ffordd hon mor eglur, fel y dichon 'ffol-bethau,' yn ddewisedig gan Dduw ei cherdded heb gyfeiliorni. 1 Cor. 1. 27. Y mae yr annichellgar a'r annoeth yn cael eu gwahodd i droi i mewn yma i'w cherdded. Diar. 9. 3, 4. Cyfeiria y geiriau yn brophwydoliaethol at eglurdeb daddguddiad ffordd cyfiawnder yn yr efengyl, a phurdeb aelodau y wir eglwys yn rhodio ynddi: bydd y ffordd yn eglur, a bucheddiad y fforddolion yn gyfatebol. Rhuf. 1. 17. 1 Cor. 1. 30. Mai hyn yw priodol ystyr y geiriau, sydd i mi yn gwbl eglur; ac y mae cyfieithiad yr Esgob Lowth ar ol Fererius a Ludovicus de Dieu, yn ymddangos yn bellenig, yn gymhelliadol, ac annaturiol: sef 'Efe ei hun (sef Duw) a fydd gyda hwynt, yn cerdded yn y ffordd, a'r ynfydion ni chyfeiliornant ynddi.' Pe felly, dylasai y rhagddod עם *gyda* fod i mewn; sef fel y canlyn: והוא עמם הולך דרך *ac efe (sef Duw) gyda hwynt a gerdd y ffordd.* Mae y geiriau yn gwbl eglur heb y ddyfais a'r chwanegiad yma. Cynnwys y geiriau brophwydoliaeth hynod am bregethiad yr efengyl yn oleu yn mhlith y Cenedloedd, fel ffordd fawr gwedi ei chodi i fynu mewn anialwch dyeithr. Edr. FFORDD.

PRIN—ACH—DER, (py-rhin) anaml, anghyffredin, anfynych; braidd, o braidd, odid; eisieu, diffyg, angen, dirangen.—'Hon o'i phrinder a fwriodd i mewn yr holl fywyd a oedd ganddi.' Luc 21. 4.—'O'i heisieu.' Marc 12. 44.—'O hei thlodi.' W. S.—Yn siampl y wraig weddw dlawd hon yn bwrw i mewn ei dwy hatling i'r drysorfa, y mae yr Arglwydd Iesu yn cymeryd achlysur i sylwi, fod Duw yn golygu amgylchiadau y rhoddwr, ac agwedd a dyben ei feddwl yn rhoddi, ac nid yn unig maintioli y rhodd. Y mae dwy hatling un yn fwy na thrysorau mawrion y llall. Y weddw dlawd hon a fwriodd yr *oll* a feddai, ei *holl* fywyd, sef yr hyn oll oedd ganddi at gynnal bywyd. Yr oedd ei chariad at addoliad Duw gymaint, fel y rhoddodd mewn ffydd yr hyn oll a feddai ato, gan ymddibynu ar yr Arglwydd am ei chynnaliaeth yn ol llaw. Edr. HAU, TRIPIO.

PRINT—IAU—IO, (py-rhint) argraffiad, cerfiad, nodiad; tòri lluniau, nodi.—'Na roddwch brint nôd arnoch.' Lef. 19. 28. Yr oedd yn arferiad yn mhlith y cenedloedd eilun-addolgar i dòri eu cnawd, a llanw y toriad â du ysgrifenu, *stibium*, neu ryw liw arall. Hyn a waherddir i bobl yr Arglwydd ar un achlysur, gan fod eu cyrph yn demlau yr Ysbryd Glân. Deut. 14. 1, 2, 3. Edr. TORI.

PRIOD—-I—-OL—EDD—-OR—-IAETH, (pri) neillduol, eiddo un ei hun; neillduedig; cydwedd, cywestach, gwr neu wraig briod. Edr. PRIODAS.—'Priod waed,' sef ei waed ei hun; efe oedd yr aberth a'r aberthwr; y prynwr a'r gwerth a dalodd. Act. 20. 28. Edr. ABERTH, GWAED, IAWN.——'Ei briod wobr,' sef y wobr gyfiawn addas iddo. 1 Cor. 3. 8. Edr. GWOBR.——'I'w dystioliaethu yn yr amseroedd priod.' 1 Tim. 2. 7. Yr amseroedd addas terfynedig gan Dduw. Yr amser priod i dystiolaethu am aberth Crist, ydoedd gwedi i Grist aberthu ei hun.——Gelwir y saint yn 'drysor priodol—priodoriaeth—y briodoledd—pobl briodol.' Exod. 19. 5. Deut. 26. 18. Ps. 135. 4. Mal. 3. 17. 1 Petr 2. 9. Tit. 2. 14. Geiriau a arwyddant eu bod yn bobl neillduedig, werthfawr, ac anwyl iawn; ei drysor penaf a gwerthfawrocaf. Edr. TRYSOR.——'Os ceffir gwr yn gorwedd gyda gwraig briodol â gwr, byddant feirw ill dau.' Deut. 22. 21. Yr oedd y gospedigaeth am odineb yr un ag am lofruddiaeth, ac yn fwy nag am ladrad, sef marwolaeth.

'Trysor priodol i mi—pobl briodol.' Exod. 19. 5. Deut. 26. 18. Tit. 2. 14. 1 Petr 2. 9. Sef trysor, neu bobl neillduol i'r Arglwydd. Λαος περιουσιος,* *pobl neillduol*, gwedi eu neillduo oddiwrth eraill gyda gofal mawr, ac yn dra chymeradwy. 'Trysor priodol,' סגלה *trysor neillduol, gwerthfawr, ac anwyl.* Y mae yn cael ei gyfieithu, *eiddo fy hun*, yn 1 Cron. 29. 3—*trysor penaf*, yn Preg. 2. 8. Geiriau a arwyddant fod ei bobl yn werthfawr gan Dduw—yn benaf o bob peth arall ganddo, ac ar dir neillduol yn eiddo iddo trwy etholiad, pryniad, a neillduad iddo trwy alwedigaeth effeithiol.——'Byddant eiddof fi, medd Arglwydd y lluoedd, y dydd y gwnelwyf briodoledd.' Mal. 3. 17. 'Yn y dydd a osodwyf, yn drysor neillduol.' Newcome. Yr un gair סללה a gyfieithir yma *priodoledd*, ag a gyfieithir *trysor priodol—trysor penaf.*—Y dydd a osodwyd yw y dydd a fydd yn llosgi megys ffwrn; yn y dydd hwnw byddant yn anwyl ac yn ddiogel fel trysor priodol; 'Yna y gwelir rhagor (hynod) rhwng y cyfiawn a'r drygionus, a rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw, a'r hwn nis gwasanaetho ef.' Mal. 3. 18. Neh. 13. 22. Ps. 103. 8—13. a 125. 4. Esa. 63. 3, 4.

Priodor, yw y meddiannydd, neu yr etifedd; hefyd, brodor, un genedigol. Gwahanieithir y priodor oddiwrth y dyeithr-ddyn nad ydoedd o genedl Israel yn aml. Exod. 12. 19, 49. Lef 16. 29. a 24. 16, 22. Jos. 8. 33.——'Oblegid yr Arglwydd a ddetholodd Jacob iddo ei hun, ac Israel yn briodoriaeth iddo.' Ps. 135. 4. סגלתו *trysor priodol* iddo. Trwy ei etholiad o honynt, y maent yn briodoriaeth iddo; felly hefyd trwy bryniad, 1 Petr 2. 9. a thrwy eu puro. Tit. 2. 14.

PRIODAS, (priawd) *Gwydd.* NUATHAR: neithiawr, dyweddi; cyd gwr a gwraig. Y mae ammod priodasol yn wahanol i ammodau eraill, yn hyn, am nas gellir ei diddymu hi trwy gydsyniad y pleidiau: y mae yn cyfranogi o natur adduned, ac yn rhwymo y pleidiau dros eu bywyd i gyflawni dyledswyddau y naill i'r llall, perthynol i'w hammodau priodasol. Ar eu dewisiad eu hunain yr ammodant; ond wedi

* Pobl briodol gwedi eu neillduo oddiwrth eraill, a'u casglu yn fanwl, ac yn dra chymeradwy. Schleusner.—A supernumerary people, a people wherein God had superlative propriety and interest above and besides his common interest to (in) all the nations of the world. Joseph Mede, *p.* 125. *fol.*

Digitized by Google

ammodi, y mae yn iau tra byddo y ddau byw: ond os bydd marw un o'r ddau, y mae yr ammod yn darfod, a'r llall yn gwbl rydd, fel pe buasai erioed heb fod. Nid oes, heblaw hyn, ddim ond y pechod yn erbyn yr ammod priodasol, sef godineb, yn diddymu y rhwymau; ond yn y cyfryw achos galarus, y mae y blaid ddieuog yn rhydd oddiwrth ei hammodau. Mat. 19. 9. Y mae cyfreithiau rhai gwledydd, yn neillduol Berne, yn ngwlad y Swiss, yn estyn y rhyddid hwn i ryw achosion eraill, megys hir, gwirfoddol, ac angharedig absennoldeb (yr hyn y mae Paul yn ei olygu yn achos digonol o ysgariad, 1 Cor. 7. 15.) neu fod un o'r pleidiau yn euog o drosedd marwol; neu wedi anmhwyllo, fel y mae yn peryglu bywyd i gydfyw âg ef; neu ryw afiechyd ffiaidd, megys y gwahan-glwyf, &c. Gwel Ruichat *Hist. de Reform de Suisse.*

Y mae priodas o osodiad a threfniad Duw, ac er cysur i ddyn, hyd yn nod yn ei ddiniweidrwydd, cyn iddo bechu: creodd Duw y wraig Efa i fod yn ymgeledd gymhwys i Adda cyn ei gwymp. Gen. ii. Y mae yn dra amlwg nad ydyw priodas yn ei natur wreiddiol, a'r dyben o honi yn ei threfniad, i fod ond rhwng dau berson, sef un mab ac un ferch. Gallasai Duw greu deg, neu lïosogrwydd o wragedd, pe buasai yn gweled hyny yn angenrheidiol, yn oreu, ac yn gymhwys: 'Eithr onid *un* a wnaeth efe? a'r ysbryd yn ngweddill ganddo: a phaham *un*? I geisio hâd duwiol.' Mal. 2. 15. Dyben priodas yw i'r pleidiau fod yn ymgeledd ac yn gynnaliaeth i'w gilydd, ac er cenedlu plant. Ai nid yn ol trefn Duw, a'r gosodiad cyntaf, y mae y dybenion hyn yn cael eu hateb oreu? Pa gysur a gafodd neb oddiwrth lïosogi gwragedd? Edrychwch hanes Abraham, Jacob, Elcanah, Dafydd, Solomon, &c., a gwelwch eglur brofion i'r gwrthwyneb. Ac am lïosogrwydd, bu i lawer un fwy o blant o un wraig nag oedd i Jacob o'i ddwy, a'i llawforwynion hefyd: ïe, cymaint ag oedd gan Dafydd o amryw wragedd, a deg o ordderchadon: os nid cymaint ag oedd gan Solomon o'i fil o wragedd a gordderchadon. Pe buasai y mil hyn yn briod â chynnifer a hyny o wyr, gallasai fod iddynt ddeng mil neu ddeuddeng mil o blant. Y mae lïosogi gwragedd gwedi bod yn arferiad â'r canlyniadau mwyaf niweidiol a phechadurus iddo. Nid ydyw siamplau duwiolion yn hyn ddim yn fwy i'w dilyn na'u siamplau mewn pethau eraill groes i drefn a gorchymyn Duw. Nid oes un sail ysgrythyrol i gymeryd gordderchadon, sef gwragedd o is radd na'r lleill, mwy na chymeryd amryw wragedd. Edrych Gordderch.

Y mae yn waharddedig yn nghyfraith Moses i gyfneseifiaid briodi yn nes na chefnderwydd. Lef. xviii, xx. Ac nid oedd i un etifeddes briodi i lwyth arall: yn unig gallai briodi un o'r Lefiaid, neu yr offeiriaid. Num. xxxvi. Ar y cyntaf, nid ydoedd priodas rhwng brodyr a chwiorydd yn anghyfreithlon; yr oedd hyny o angenrhaid yn nheulu Adda. Tybygaf fod Sarah yn nith i Abraham; a Jocebed yn fodryb i Amram. Ond o ran cariad, cysur, a gweddeidd-dra, y mae deddf Moses yn hyn yn ymddangos yn rheol dra addas. Cyfraith neillduol oedd yn rhwymo cyn dyddiau Moses, y brawd ieuengaf i briodi gweddw ei frawd hynaf, a fyddai farw yn ddiblant. Gen. 38. 9. Nid oedd i'r offeiriaid briodi ond morwynion, neu weddwon offeiriaid eraill. Ac nid oedd i'r arch-offeiriad briodi ond morwyn. Lef. 21. 7—14. Ezec. xxii, xliv. Anrhydeddus yw priodas yn mhawb; ac athrawiaethau cythreuliaid yw gwahardd priodas i neb. 1 Tim. 4. 3.

Y mae ieuo yn anghymarus gwedi bod yn dra niweidiol er llwyddiant gwir grefydd yn y byd. Felly y llygrwyd yr hen fyd; meibion Seth, y rhai oeddynt yn proffesu gwir grefydd, a gyd-ieuasant â merched hardd, hiliogaeth Cain wrthgiliedig; ac felly y llygrwyd pob cnawd: ac yn y diwedd dinystriodd Duw hwynt â'r diluw. Y mae Duw yn gwahardd yn bendant i'r Hebreaid briodi y Cenedloedd, yn enwedig y Canaaneaid. Exod. 23. 32. a 34. 12—16. Deut. 7. 2—5. Gwnaeth Ezra a Nehemiah i'r Iuddewon roddi ymaith eu gwragedd o estron genedloedd. Ezra ix, x. Neh. xiii.——Gwragedd estronol Solomon a fuont yn niweidiol iawn iddo ef a'r deyrnas; priodas Ahab â Jezebel, a Jehoram â merch Ahab, a ddygasant, nid yn unig ddystryw ar eu teuluoedd, ond agos ar yr holl deyrnas a'r genedl. 1 Bren. xvii. i'r xxii. 2 Bren. i. i'r xi.——Rhaid bod y person hwnw mewn agwedd annuwiol iawn o ran ei feddwl, ac yn gwbl ddifwriad o fyw i Dduw, a ddewisai yn wirfoddol gydymaith ei fynwes dros ei fywyd yn un annuwiol a gelyniaethol i Dduw a gwir grefydd.

Y mae oed priodi, a defodau priodasol, yn dra gwahanol yn yr amrywiol wledydd. Gan fod gweddwdod ac anmhlantadrwydd mewn anfri mawr yn mhlith yr Hebreaid, byddent yn priodi yn ieuainc; y meibion yn nghylch tair ar ddeg, a'r merched yn nghylch deuddeng mlwydd oed: yr oedd yn addas, gan hyny, fod i'r rhieni awdurdod cyflawn arnynt yn hyn. Byddent yn dyweddïo cyn priodi. Edr. Dyweddio. Ar y dydd priodas, byddai ammodau yn cael eu gwneuthur drachefn rhyngddynt. Byddent gynt yn eu coroni ar y dydd priodas; a'i fam, tebygol, oedd yn ei rhoddi ar ben y priod-fab.* Can. 3. 11. Parhâi y wledd dridiau, os gwraig weddw a fyddai y ferch, a saith, os morwyn. Gen. 29. 27. Barn. 14. 17, 18. Yn y cyfamser, byddai gwyr ieuainc a gwyryfon gyd â'r priod-fab a'r briodas-ferch, yn eu hamrywiol ystafelloedd; a byddai y gwyr ieuainc yn dyrysu eu gilydd â dychymygion. Can. 5. 1. Ps. 54. 9, 14, 15. Barn. xiv. Yr oedd cyfaill i'r priod-fab yn llywodraethu y wledd, i gadw pob peth yn drefnus ac mewn cymedroldeb. Ioan 2. 9. a 3. 29. Yn niwedd y wledd, dygid y ddau ddyn â lampau yn oleu i dŷ y priod-fab. Y priod-fab, yn myned o'i ystafell, a alwai y briodas-ferch a'i chyfeillesau, deg o rifedi, tebygol. Mat. 25. 1—10. Y mae y rhan fwyaf o'r defodau hyn yn arferedig yn mhlith yr Iuddewon hyd heddyw; yn unig wedi dystryw eu dinas a'u gwlad, nid ydynt yn gwisgo y coronau priodasol. Priodant wragedd gweddwon dydd Iau, a gwyryfon dydd Gwener. Y mae y ddau ar y dydd priodas yn ymdrwsio mor wych a hardd ag y medrant; gorchuddir y ddau â gorchudd du, ac y mae y mab yn rhoddi modrwy aur ar law y ferch i'w phriodi. Cyflawnir y defodau hyn allan ar lân afon, neu mewn gardd, neu gyntedd.

Am ddefodau priodasol yn mhlith Cristionogion, nid oes un reol neillduol; gan fod priodas, mewn rhan, o leiaf, yn ammod gwladol rhwng y ddau ddyn, gadawyd Cristionogion yn rhydd i arferion amrywiol wledydd; yn unig bod eu hymddygiad yn hyn, fel pob peth arall, yn ol rheol sanctaidd y gair. Byddent arferol yn y prif oesoedd, meddant, o gyhoeddi bendith ar y ddau ddyn ieuainc yn yr eglwys. Byddai yn arferiad hefyd, yn rhai eglwysi, i'r ddau ddyn ieuainc, ar y dydd priodas, gyfranogi o sacrament swper yr Arglwydd. Am ddyledswyddau y pleidiau, Edr. Gwr, Gwraig.

Nid oes gyffelybiaeth yn cael ei harferyd yn fwy aml yn yr ysgrythyrau nag ammod priodas, i osod allan y cyfammod, yr undeb, a'r gymdeithas sydd rhwng Crist a'i eglwys. Y mae yr undeb agosaf, a'r gymdeithas anwylaf, rhwng Crist a'i bobl; ac nis gall na bywyd nac angeu eu gwahanu. Yr oedd y

* Y cyfryw goron a alwai y Groegiaid στεφος γαμηλιον. Bion Idyll.—Coronant & nuptæ sponsos, ideo non nubimus Ethnicis, &c. Tertul. *De Corona Militis, c.* 13.—Magnisque coronis conjugium sit. Claudius.

Digitized by Google

briodas gyntaf yn neillduol gysgod o hyn. Edrych Adda. Gosodir y dirgelwch hwn allan yn ogoneddus neillduol yn Esa. 54. 5. Eph. v. Ps. xlv. a Llyfr y Caniadau. Priod yr eglwys yw ei Gwneuthurwr—Arglwydd y lluoedd—ei Gwaredydd—Sanct Israel—Duw yr holl ddaear. Efe yw yr hwn a'i carodd, ac a roddodd ei hun drosti, i'w sancteiddio, a'i glanhau, a'i gosod yn ogoneddus iddo ei hun, i ymhyfrydu ynddi byth. Saif ar ei ddeheulaw byth mewn harddwch sancteiddrwydd. Fel y mae y cyffelybiaeth hwn yn dangos braint, anrhydedd, a dedwyddwch yr eglwys; felly hefyd gesyd allan ei dyledswydd hithau i'w garu, ei anrhydeddu, ymostwng iddo, glynu wrtho, a dibynu yn gwbl arno. Fel y mae Crist yn eiddo iddi hi, felly y mae y wir eglwys yn gwbl yn eiddo Crist; yn rhoddi ei hun iddo yn gwbl, ei chalon a'i gwasanaeth, ei holl feddwl, a'i serch; heb olygu dim ond efe yn ddedwyddwch tragywyddol iddi, a neb ond efe i fod yn Arglwydd arni, ac i ofalu am dani. Cenedlu plant yn ysbrydol iddo yw ei llafur penaf, trwy gynnal yn y byd y wir athrawiaeth am dano, ac ymdrechiadau difrifol i daenu gwybodaeth o hono. Edrych Anmhlantadwy, Anwylyd, Eglwys, Sarah.

PRIOD-FAB, PRIOD-FERCH, (priod-mab-merch) mab neu ferch wedi eu dyweddïo, neu newydd briodi. Fel y gelwir Crist yn briod-fab, felly y gelwir yr eglwys yn briod-ferch, neu y briodas-ferch. Mat. 25. 1—10. Dat. 21. 9. a 22. 17. Edr. Anwylyd, Dyweddi, Eglwys, Priodas.

PRIS—IO, (pri-is) *Llad.* Pretium; *Saes.* Price: cyfrif, pridwerth, gwerth, llôg, cyflog, pwyth; cywerthyddio; gwneuthur cyfrif o; gwerth un peth a brynir neu a werthir. Lef. 5. 15. a 25. 16. a 27. 8. 2 Sam. 24. 24. 2 Cron. 1. 16. Edrych Gwerth, Prynu.

PRISCILA, *Gr.* Πρισκιλλα, [*hen*] gwraig Acwila. Anercha Paul y ddau yn barchus ac yn garedig iawn, am eu ffyddlondeb iddo ef ac achos Crist: 'I'r rhai,' medd efe, 'nid wyf fi yn unig yn diolch, ond hefyd holl eglwysydd y Cenedloedd.' Rhuf. 16. 4. Edr. Acwila.

PROCORUS, *Gr.* Προχορον, [*parod, prysur*] un o'r saith diacon, fel y gelwir bwynt yn gyffredin. Dywedir ei fod yn esgob yn Nicomedia. Ado a ddywed iddo ddyoddef merthyrdod yn Antioch. Ond nid oes sicrwydd am yr hanesion a roddir am dano, ond yr hyn a roddir gan Luc yn yr Actau. Pen. 6. 5.

PROFADWY—EDIG—AETH, (prawf) *Gr.* πειρασις; *Llad.* Probatio; holedig, chwiliadwy, cymeradwy; arddangosiad; gorthrymder; peth i brofi dynion; archwaethiad.—Profi ynad, sef holi ynad i'w swydd.

Nid erchis bwyd ond ei *brofi*. *Diar.*

'Maen profedig.' Edr. Maen. Y mae profedig yn arwyddo yr un peth a chymeradwy, yn aml; un wedi ei brofi, ac yn y profiad a gymeradwywyd.——'Profedig gan Dduw;' sef cymeradwy gan Dduw. Act. 2. 22. Rhuf. 16. 10. 2 Tim. 2. 15. Iago 1. 12.——Gelwir erlidigaethau, gofidiau, a gorthrymderau, yn (πειρασμος) *brofedigaeth, profedigaethau*, am eu bod yn profi dynion beth ydynt. Act. 20. 19. Gal. 4. 14. Heb. 11. 36. Iago 1. 2, 12. Dat. 3. 10. Y mae rhai yn 'amser profedigaeth yn cilio.' Luc 8. 13. Nid oes dim mwy taro arnynt hwy nag eraill: nid oedd yr hâd ar y creigle yn goddef haul dim poethach na'r hâd ar y tir da; ond nid oedd ganddo ddyfnder daear, na gwreiddyn, na gwlybwr; am hyny fe wywodd; ond y mae profiadau rhai yn eu profedigaethau yn peri gobaith. Rhuf. 5. 4.

'Fel yn nydd profedigaeth yn y diffeithwch.' Ps. 95. 8. Heb. 3. 8. κατα την ημεραν του πειρασμου. 'Ar ddull *dydd y tentasiwn* yn y diffaithwch.' W. S. Y dydd y profodd yr Israeliaid Dduw trwy eu cyffroad (*ymrysonfa*, Dr M.) yn yr anialwch: παρα πικρασμω, *cyffroad chwerw*: dydd y brofedigaeth ydoedd hwnw. Y mae y geiriau yn cyfeirio at eu hymddygiad yn Cades, wedi dychweliad yr yspïwyr. Profasant ef amryw weithiau o'r blaen: (Exod. 16. 4. a 17. 2, 9. a 32. 10. Num. 11. 3.) ond ni thyngodd yr Arglwydd hyd yn hyn, na chaent fyned i mewn i'w orphwysfa. Num. xiii, xiv. Deut. 9. 7. Gelwir hyn, gyd âg enwogrwydd, *y cyffroad chwerw, dydd y brofedigaeth.* Yn y profiad chwerw hwn—cyflawnodd Duw ei air yn berffaith, ond a'u dinystriodd hwynt oll, ond Caleb a Josuah.

'Nac arwain ni i brofedigaeth.' Mat. 6. 13. Mae y rhai hyny a gawsant faddeuant o'u pechodau tra yn y byd hwn, yn agored i brofedigaethau beunyddiol; ac nid oes neb ond eu Tad nefol a ddichon eu cadw hwynt rhagddynt. Y mae yr Arglwydd yn profi ei bobl, i wybod, neu i ddangos iddynt hwy, beth sydd yn eu calon; ac i buro a marweiddio eu pechodau. Y mae yn eu profi, 1. Trwy eu gadael hwynt iddynt eu hunain, fel y gwnaeth â Hezeciah. 2 Cron. 32. 31.——2. Trwy gau brophwydi a gau athrawon. Deut. 13. 1, 2, 3. 1 Cor. 11. 19. 1 Ioan 2. 19. a 4. 4.——3. Trwy eu harwain hwynt i anialwch o orthrymderau. Deut. 8. 2.——4. Trwy eu galw i waith anhawdd a chroes i holl deimladau natur. Gen. 22. 1, 2.——5. Trwy elynion ac erlidigaethau. Dat. 2. 20, 23.——6. Trwy adael i Satan eu profi, fel y gwnaeth â Job. Gwel pen. i, ii. Gorchfygodd y gelyn cyfrwys creulawn hwn yr Adda cyntaf, temtiodd yr ail Adda, aeth i mewn i Judas, nithiodd Petr, a chodymodd Dafydd: am hyny mae achos i ni grynu yn ein lle; ond dichon Duw, ac nid neb arall, ein cadw ni yn ddigwymp. Judas 24. Mae y geiriau 'Nac arwain,' &c., yn arwyddo, 1. Cydnabyddiaeth o'n perygl mawr bob awr.——2. Ein crediniaeth o allu Duw i'n cadw ni.——3. Fod pob peth, a phob gelyn, yn gwbl dan ei awdurdod.——4. Erfyniad iddo ein gosod yn yr amgylchiadau mwyaf manteisiol i sefyll a gorchfygu ein gelynion; felly y gweddïodd Agur. Diar. 30. 5—8.——5. Y byddai iddo ein cynnal ynddynt, gwneuthur llesâd i ni trwyddynt, a'n gwaredu o honynt. 2 Petr 2. 9. Dat. 3. 10. Job 23. 10.

'Anwylyd, na fydded ddyeithr genych am y profiad tanllyd sydd ynoch, yr hwn a wneir er profedigaeth i chwi.' 1 Petr 4. 12. *Gr.* τη εν υμιν πυρωσει προς πειρασμον υμιν γινομενη. 'Na fid chwith cenych y praw sy arnoch trwy dan.' W. S. a Dr M. 'Y *llosgiad* sydd yn eich plith, yr hwn sydd i chwi er *profedigaeth*.' Macknight. Yr erlidigaethau galarus a thanllyd yr oeddynt yn eu dyoddef, y mae yr apostol yn ei feddwl.* Y mae y gyffelybiaeth yn odidog. Y mae yn eu golygu â thân gwedi ei fwrw arnynt er profiad eu ffydd, fel y bwrir aur i'r tân i'w brofi a'i buro. Gwel pen. 1. 7. Dengys y geiriau fod eu profedigaeth yn boenus ac yn beryglus, ac etto, gallasai fod er llesâd mawr iddynt.

PROFFES—U, (pro-ffes) *Llad.* Professio: addefiad, cyhoedd gyfaddefiad; dilyn, arferu.

Crefyddwr, a dôro ei *broffes*, nid gair ei air.
*Cyfreithiau Cymreig.*

Y mae y gair *Gr.* ομολογια, a gyfieithir *proffes*, yn cael ei gyfieithu *cyffes*. Heb. 3. 1. a 10. 23. 2 Cor. 9. 13.—'Ger bron Crist Iesu, yr hwn dan Pontius Pilat a dystiodd broffes dda.' 1 Tim. 6. 13. 'Cyffes pybur.' W. S. '*Who before Pontus Pilate.*' *Saes. O flaen* Pontius Pilat. Y mae y gair επι yn arwyddo *o flaen*, ond arferir ef gyda mwy o dlysni i arwyddo

* Profedigaethau trymion, y rhai yn gyffredin a gyffelybir i dân. Ps. 17. 3. Esa. 48. 10. Estius.

Digitized by Google

*dan*, yn dynodi amser, fel yn ein cyfieithiad ni. 'Yr hwn a fu (επι) *dan* Claudius Cesar.' Act. 11. 28. Dan Pontius Pilat, a arwydda dan raglawiad Pontius Pilat. Dan ei raglawiad ef y tystiodd Crist yn gyhoeddus y broffes dda am dano ei hun, sef ei fod yn Fab Duw, y gwir Fessïah, a dyben ei ddyfodiad i'r byd. Tystiodd yr un peth hefyd o flaen Pilat. Marc 14. 61, 62. Ioan 18. 33—37. Proffes dda oedd, am ei bod yn broffes wir, ac hefyd yn cynnwys ynddi y daioni penaf i blant dynion. Yr un broffes a broffesodd Timotheus ger bron llawer o dystion, ac y mae Paul yn gorchymyn iddo ei gadw yn ddifeius ac yn ddiargyhoedd, hyd ddyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist; sef cadw yr holl athrawiaeth am Grist, ac a bregethodd Grist. yn gyflawn, yn bur, ac yn ddiwyrni. Gwel adn. 13, 14. Yr oedd Paul yn gweled hyn o'r pwys mwyaf; am hyny y gorchymyn i Timotheus, ac ynddo ef i bob gwenidog yr efengyl, yn nghylch hyn gyd â'r difrifoldeb mwyaf. Proffesodd Crist y gwir am dano ei hun, yn ëofn, yn eglur, ac yn gadarn, er dyoddef oblegid hyny, fel y gweddai i'w holl ganlynwyr.

'Glynwn yn ein proffes.' Heb. 4. 14. κρατωμεν της ομολογιας.' 'Daliwn ein afel ar eyn proffes.' W. S. a Dr M. '*Hold fast our profession.*' *Saes.* Priodol ystyr y gair *Gr.* κρατεω, yw, dal gafael â'n holl nerth, ac â'n holl egni, yn erbyn gwrthwynebiadau cryfion. 'Dal (κρατει) yr hyn sydd genyt, fel na ddygo neb dy goron di.' Dat. 3. 11. Pe bai neb yn ceisio dwyn coron un, daliai hi â'i holl rym a'i egni. Mae y gwrthwynebiad mwyaf i'r cwbl o grefydd Crist yn y byd, ac yn ein calonau ein hunain. Ein dyledswydd ni â'n braint yw gafael arni â'n holl galon; ei chredu a'i phroffesu yn gyhoedd hyd y diwedd. Mat. 24. 13. Y mae ystyriaethau digonol oddiwrth offeiriadaeth Crist i'w cael, i'n nerthu i hyny; 'Gan fod i ni Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, glynwn,' neu *daliwn afael*, 'yn ein proffes.' Edr. DUWIOLDEB, GWADU.

PROPHWYD—O—ES, (pro-pwyd) *Gr.* *προφητης (proffetes)*; *Llad.* PROPHETA; *Ffr.* PROPHETE; *Saes.* PROPHET. Priodol ystyr y gair Groeg, o ba un y mae y lleill yn deilliaw, yw rhag-ddywedyd pethau i ddyfod; a phrophwyd, gan hyny, yw un yn rhagfynegi pethau i ddyfod trwy ddadguddiad dwyfol; neu un yn derbyn dadguddiad dwyfol oddiwrth Dduw i'w fynègi i eraill. Gelwid y prophwydi, ראה *gweledydd*, 1 Sam. 9. 9.—נבא *prophwyd*. Mae נבא yn arwyddo, nid yn unig un yn rhagfynegi pethau i ddyfod, eithr hefyd un cyfeillgar â Duw; un y mae Duw yn llefaru yn gyfeillgar wrtho, yntau yn cael dyfod at Dduw mewn gweddi a diolchgarwch; ac un oddiwrth Dduw yn llefaru wrth eraill: felly y geilw Duw Abraham wrth Abimelech, 'Prophwyd (נבא) yw efe, ac efe a weddïa trosot.' Gen. 20. 7. Cyfaill Duw, neu un cyfeillgar â Duw, tebygol, yw ystyr y gair. Ioan 14. 21, 23. a 15. 15. Er fod y gair hwn yn arferedig mor foreu ag amser Abraham, ni chafodd ei briodoli yn neillduol i wybedydd, neu i ragfynegwr pethau i ddyfod, cyn amser Samuel. 1 Sam. 9. 9. '*Prophwyd* (נביא) heddyw, a elwid gynt yn (הראה) *weledydd.*' Yn 1 Cron. 29. 29. arferir tri gair yn agos i'r un ystyr: dywedir fod gweithredoedd Dafydd 'yn ysgrifenedig yn ngeiriau Samuel (חרואה) y *gweledydd*, ac yn ngeiriau Nathan (חנביא) y *prophwyd*, ac yn ngeiriau Gad (החוזה) y *gweledydd.*' Hwyrach fod achos neillduol paham y priodolir i'r tri wyr hyn y gwahanol eiriau, er fod yn anhawdd yn bresennol ei ganfod. Edr. GWELEDYDD.——Gelwid prophwyd hefyd, 'gwr Duw,' 1 Bren. 13. 1. 1 Tim. 6. 11.—'dyn Duw,' 2 Tim. 3. 17. 2 Petr 1. 21. Gwr wedi ymroddi yn hollol i Dduw, yn cael adguddiad oddi wrtho, a'r hwn nis gallai neb ei niweidio, heb anmharchu Duw yn fawr yn ei weinidog. Edr. SAMUEL.

Prophwyd, gan hyny, ydyw un yn derbyn, trwy ddadguddiad goruwch-naturiol, gwybodaeth o ddirgelion a fu, y sydd, neu a ddaw,* i'w mynegi i eraill, nis gallesid eu gwybod un ffordd arall.——Am bethau a fu, nis gallasai Moses roddi hanes cywir am greadigaeth y byd, ond trwy ddadguddiad dwyfol. Yr oedd Daniel yn gymaint prophwyd yn dywedyd beth oedd breuddwyd Nebuchodonosor wedi iddo ei golli, ac wrth ei ddehongli wedi hyny.——Am bethau presennol, yr oedd darluniad a dehongliad yr ysgrifen ar galchiad y pared yn profi Daniel yn brophwyd Duw. Dan. 5. 8, 17, 25. Felly gwybodaeth Eliseus hefyd am waith Gehazi yn myned ar ol Naaman y Syriad, ac yn derbyn gwobrau. 2 Bren. 5. 26.——Ond rhagfynegi pethau i ddyfod oedd yn neillduol yn perthyn i brophwyd Duw holl-wybodol. Y mae Duw ynddo ac o hono ei hun yn gwybod pob beth, sef y diwedd o'r dechreuad; ac i'r neb y myno y mae yn eu hamlygu. Esa. 41. 21, 22, 23. a 43. 12. Amos 3. 7.

Rhaid gwahaniaethu yma rhwng y dawn a'r swydd; rhoddid y dawn weithiau i bersonau neillduol, i fynegi dirgelion, ond am un tro neu ychwaneg; megys y Deg a Thriugain, y rhai, tra gorphwysai yr ysbryd arnynt, a brophwydent. Num. 11. 25. Nid oedd y rhai hyn wedi eu galw mewn modd goruwch-naturiol i'r swydd o fod yn brophwydi Duw. Gallai un fod yn y swydd, pan nad oedd y dawn ganddo; nid oedd y dawn gan neb yn ansoddol i'w ddefnyddio pan fynai; ond dadguddiad union-gyrchol oedd oddiwrth Dduw, pan welai EFE fod yn dda. Felly y dywed Eliseus am dano ei hun, 2 Bren. 4. 27. 'A'r Arglwydd a'i celodd oddi wrthyf fi, ac nis mynegodd i mi.' Ni wyddai Moses ac Aaron beth i wneuthur i'r dyn a dorodd y Sabboth, nes i Dduw hysbysu iddynt. Num. 15. 33, 34. Llefarodd Duw wrth y tadau lawer *modd* trwy y prophwydi. Heb. 1. 1. Edr. BREUDDWYD, GWELEDIGAETH, ac enwau yr amrywiol brophwydi.

Y mae prophwyd weithiau yn arwyddo yr un peth a dehonglydd; felly y gelwir Aaron yn brophwyd i Moses, sef yn ddehonglydd ei feddwl a'i orchymyn i Pharaoh. Exod. 7. 1.——Geilw Paul brydydd Paganaidd yn brophwyd, sef cyfansoddwr prydyddiaeth. Tit. 1. 12.——Am y byddai y prophwydi weithiau, pan y cynhyrfid hwy gan yr Ysbryd Glân, yn cael eu cyffroi i ystumiau corphorol anarferol, byddai y cyfryw gynhyrfiadau yn cael eu galw yn brophwydo, pa un a fyddent oddiwrth ysbryd da ai ysbryd drwg. Saul yn cael ei gynhyrfu gan ddrwg ysbryd, dywedir ei fod yn prophwydo yn nghanol y tŷ. 1 Sam. 18. 10. Yr oedd yn cael ei gyffroi a'i gynhyrfu yn anarferol, yn ol dull y prophwydi. Y mae prophwydo, weithiau, hefyd, yn arwyddo cyfansoddi, neu ganu psalmau, neu hymnau, o fawl i Dduw. 1 Sam. 10. 5, 6. 1 Cron. 25. 1. Y mae yn arwyddo, hefyd, yn iaith Paul, eglurhau yr ysgrythyrau, pregethu, a llefaru yn yr eglwys yn gyhoeddus. 1 Cor. 14. 1, 3, 4.

Yr oedd gau-brophwydi yn mhob oes, yn gystal yn mhlith yr Iuddewon ag yn mhlith y Cenedloedd Paganaidd, yn cymeryd arnynt bod yn brophwydi, (1 Bren. 18. 22.) neu wedi eu hanfon gan Satan yn weision iddo. Deut. 13. 1. Mat. 24. 11. Act. 20. 29. 1 Cor. 11. 19. 2 Petr 2. 1. Y rhai hyn a brophwydant ac a athrawiaethant gelwyddau i dwyllo eneidiau dynion, a gorchymynir i ymogelu rhagddynt. Wrth eu ffrwythau yr adnabyddir y gwir oddiwrth y gau. Ffrwythau gau-athrawon yn mhob oes yw bywydau halogedig, ac athrawiaethau yn denu dynion oddiwrth Dduw a'r gwirionedd. Deut. 13. 1, 2, &c. Jer xxviii, xxix.

* ——Novit namque omnia vates,
Quæ sint, quæ fuerunt, quæ mox ventura trahantur.



Digitized by Google

Y mae prophwydes yn arwyddo yn unig gwraig i brophwyd, (Esa. 8. 3.) neu un yn rhagfynegi pethau i ddyfod, a moliannu Duw; megys Miriam, Deborah, Hannah, Huldah, Elisabeth, Mair Forwyn, Anna, a merched Phylip.

'Ac y mae genym air sicrach y prophwydi; yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll.' 2 Petr 1. 19.—'Y ddym ni hefyd a gair cadarnaf y proffwydi cenym, yr hwn da i gweithiwch o ddarbod am dano.' W. S. a Dr M. Felly hefyd y mae cyfieithiad y Dutch a'r Ffrancaeg; *La parola des prophetes, plus ferme.*—'Ac y mae genym ni air y prophwydi yn fwy cadarn;' sef wedi ei gadarnhau yn fwy trwy y cyflawniad o hono. Gwel Macknight. Arwydda y gair *Gr. βεβαιοω, cadarnhau, sicrhau.* 1 Cor. 1. 6. 2 Cor. 1. 21. Col. 2. 7. Heb. 2. 3. a 6. 16. Wrth 'air y prophwydi,' y deallir yr holl athrawiaeth a draddodwyd gan Dduw i'r eglwys trwy y prophwydi; y mae hwnw *genym ni* yn eu hysgrifeniadau sanctaidd; y mae eu gair hwy wedi ei sicrhau a'i gadarnhau gan Grist ei hun, trwy ei eiriau a'i weithredoedd. Y mae gair y prophwydi yn cael ei gadarnhau fwy-fwy o hyd; nid ynddo ei hun, ond yn yr amlygrwydd o hono i'n ffydd ni. Nid oes dim sicrach yn bod, nac i fod byth, na'r gair; ei sicrwydd ef yw sail sicrwydd pawb sydd yn credu ynddo. Canwyll yw yn llewyrchu mewn lle tywyll, a chanwyll yw na ddiffydd byth, ond a lewyrcha fwy-fwy hyd oni wawrio y dydd, ac y diflana y tywyllwch yn llwyr. Mae y gair yn oleu ac yn sicr, am hyny da y gwnawn fod yn dal arno, canys trwy hyny y goleuir ac y sicrheir ninnau. Gwel Witsius, *Miscel. Sacr., lib.* i., *cap.* 11.

Crist Iesu yw Pen-prophwyd mawr ei eglwys; yn tebygu i Moses, ond yn tra rhagori ar Moses, a'r holl brophwydi eraill yn nghyd. Oni buasai ei fod ef, fel Cyfryngwr, gwedi ei osod er tragywyddoldeb yn y swydd hon, ni buasai y swydd yn bod yn neb arall yn yr eglwys mewn un oes; a pheth ofer fuasai ei gosod. Yr oedd yr holl brophwydi o'i flaen yn gysgodau o hono yn yr amrywiol oesoedd, ac yn derbyn eu daddguddiedigaethau a'u holl awdurdod oddi wrtho. Heb fod yn y swydd hon, yn gystal ag yn Offeiriad ac yn Frenin, ni buasai yn Iachawdwr addas i bechaduriaid. Y mae dyn, fel pechadur, 'wedi ymddyeithrio oddiwrth fuchedd Duw, trwy yr *anwybodaeth* sydd ynddo.' Y mae pethau Duw yn ddirgelwch iddo, ae yn guddiedig oddi wrtho. Nis dichon iddo gael ei achub, a'i ddwyn yn ol at Dduw, heb ei oleuo. Pa fodd y dichon y meddwl ddyfod at Dduw, heb ei adnabod? Ni châr, ni addola, ac nid ufuddha i Dduw byth, heb ei adnabod. Ond pwy a ddichon ei ddysgu?

I fod yn athraw addas i bechadur, rhaid bod gan un, 1. Berffaith wybodaeth o Dduw, ac o holl ddyfnion bethau Duw yn nhrefn iechydwriaeth pechaduriaid. A phwy sydd a'r wybodaeth hòno ganddo, ond Duw? 'Yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef.' Ioan 1. 18. a 3. 34. Y mae holl berffeithiau, trefn, a chynghor y Duwdod, yn gwbl adnabyddus iddo; mae y cwbl yn eu hachosion, dybenion, a'u heffeithiau, yn agored ac yn ddilèn iddo ef.

2. Rhaid ei fod hefyd yn medru hysbysu hyny i ddynion yn eu hiawn drefn, yn y modd mwyaf goleu, addas, ac effeithiol, er gogoniant Duw, a'u llesâd hwythau. Rhaid bod ynddo ddigon o gariad i gymeryd y fath orchwyl yn llaw, ag i ddysgu y pechaduriaid mwyaf tywyll, dwl, gwrthnysig, a gelyniaethol i'r gwirionedd. Rhaid bod ynddo ddoethineb a gallu i adnabod pob ffordd o ddyfodfa at feddwl dyn, ac i orchfygu a darostwng ynddo bob uchder a'r sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw. Nid oes dim llai na gallu creadawl a ddichon gwblhau hyn. 2 Cor. 4. 6. a 10. 4, 5. Hyn oll a wna Crist. Act. 26. 18.

3. Rhaid ei fod yn un sydd yn byw byth; yn Fôd tragywyddol—ac yn parhau yn ei swydd o oes i oes; ac onidê, bydd pobl rhyw oes heb eu dysgu, gan nad oes neb yn ddigonol i gyflawni ei le.

4. Rhaid ei fod yn bresennol yn mhob man, gyd â'r gwaelaf a'r tywyllaf, heb ddim yn ormod ganddo i'w wneyd i'r dyben i'w dysgu.

5. Rhaid ei fod yn addfwyn, yn ostyngedig, ac yn amyneddgar, i gyd-ddwyn â llawer o anystyriaeth, gwrthnysigrwydd, ynfydrwydd, anghof, ac anniolchgarwch, &c. Y cyfryw un ydyw yr Iesu. Mat. 11. 28, &c.

1. Y mae o osodiad dwyfol yn y swydd hon, fel pob swydd arall. Deut. 18. 15. Esa. 42. 6. a 61. 1, 2, 3. Luc 4. 18—21.——2. Addefodd y Tad Iesu Grist, trwy lais o'r nef yn y swydd, a gorchymynodd i bawb wrando arno ef. Mat. 17. 5.——3. Rhoddir amryw enwau arno sydd yn arwyddocâol o'r swydd hon; megys, 'Angel y Cyfammod,' Mal. 3. 1. sef y genad addawedig yn y cyfammod i roddi cyflawn amlygiad o'i holl drefn a'i freintiau.—'Apostol ein cyffes,' Heb. 3. 1. sef y genad yr ydym yn ei addef, yn gwrando arno, ac yn credu ynddo.—'Athraw,' yr hwn sydd wrth ei swydd yn dysgu, Mat. 23. 8, 10.—'Cynghorwr,' Esa. 9. 6. Dat. 3. 18. (Edr. CYNGHORWR.)—'Doethineb,' 1 Cor. 1. 30.—'Gair Duw,' Dat. 19. 13.—'Goleuni y byd,' Ioan 8. 12.—'Gwirionedd,' Ioan 14. 6.—'Haul Cyfiawnder,' Mal. 4. 2.—'Gweinidog i'r enwaediad,' Rhuf. 15. 8.—'Cenad o ladmerydd,' Job 33. 23.—'Seren fore eglur.' Dat. 22. 16.—'Tyst i'r bobl,' Esa. 55. 4.—'Tyst ffyddlon,' Dat. 3. 4. Edr. y geiriau hyn.

Fel Prophwyd, 1. Hysbysodd Crist holl ewyllys Duw yn gyflawn, yn gywir, a chyd â'r ffyddlondeb mwyaf. Nid oes dim yn angenrheidiol heb ei ddadguddio, na dim afreidiol wedi ei hysbysu. Ioan 1. 8. a 3. 16. a 6. 40. a 8. 26. a 15. 15. Mat. 11. 27. Gan ei fod yn Dduw holl-wybodol, perffaith ddoeth, a chywirdeb hanfodol ynddo, nid oedd bosibl iddo gamsynied, cam-farnu, a cham-ddangos un gwirionedd. Nid oes a ddichon fod yn fwy sicr a chywir na'r hyn a lefarodd. Mawredd anfeidrol ei Berson sydd yn rhoddi gogoniant a mawredd i'w holl swyddau, ac i'r hyn oll a wnelo yn y cyflawniad o honynt.

2. Trwy wyrthiau a rhag-ddywediadau, rhoddodd brawf digonol mai dysgawdwr oedd wedi dyfod oddiwrth Dduw. Ioan 16. 4. Luc 24. 19.

3. Y mae trwy ei Ysbryd yn tywys meddyliau ei bobl i bob gwirionedd. Y mae yn agoryd eu llygaid, ac yn rhoddi gwybodaeth gyflawn, gyson, a chywir, o bob gwirionedd; yn eu dysgu i adnabod ei natur, ei ddyben, a'i ddefnyddioldeb; i adnabod a pharchu Duw yn y gwirionedd, ac i iawn ddefnyddio pob gwirionedd, i brofi ei rinwedd, ac i fwynhau ei gysur. Y mae ei eiriau ynddynt yn ysbryd ac yn fywyd. Ioan 6. 63. 2 Cor. 3. 3. Yn y gair y mae pethau Duw wedi eu rhoddi yn gyntaf; y gwirionedd sydd yn y gair sydd yn cael ei ysgrifenu ar galonau ei bobl, ac yn ysbryd ac yn fywyd ynddynt; ac y mae yr argraff tufewnol hon yn ymddangos yn allanol yn eu bywydau.

4. Fel Prophwyd, y mae yn anfon ac yn donio eraill fel cenadon drosto, ac yn effeithioli eu gweinidogaeth yn mhob oes. Ysbryd Crist oedd yn y prophwydi dan oruchwyliaeth yr Hen Destament. 1 Petr 1. 10, 11. Efe a alwodd, a anfonodd, a ddoniodd, ac a lwyddodd yr apostolion. Mat. 10. 1—15. Luc 10. 1—16. Ioan 20. 21. Gwedi esgyn i'r uchelder, a derbyn rhoddion i ddynion, cyflawna yr eglwys â'r cyfryw swyddwyr ag a fyddo yn fuddiol iddi, hyd nes perffeithir corph Crist. Eph. 4. 8—13.

Y mae yn tra-rhagori ar bob prophwyd arall, 1. O ran ei Berson, fel Duw-ddyn. Cenadwr yw oddiwrth Dduw at ddynion, a Duw-ddyn yw o ran ei Berson;

Digitized by Google

gan hyny, y mae yn neillduol o addas fel Cenadwr rhwng y ddwy blaid. Mŷn barch i Dduw, tra byddo ar yr un pryd yn ymostwng yn dirion at ddynion. Y mae yn gwybod holl berffeithiau Duwdod, a holl wendidau dibechod dynoliaeth. Y mae y ddwy natur yn berffaith yn ei Berson, am hyny dichon lefaru am y naill wrth y llall yn y modd mwyaf teilwng ac addas i'r ddwy natur. Yr ydoedd dynoliaeth, ïe, pe buasai hi yn ddibechod yn rhy fach; ïe, yr ydoedd y creadur mwyaf ardderchog yn rhy isel; yr oedd y Duwdod yn rhy uchel, dysgliaer, a thanllyd; ond y ddwy natur yn un person sydd yn gwneuthur prophwyd addas i ddysgu tros Dduw i ddynion, ac i ddwyn dynion yn ol at Dduw, trwy syniadau addas am dano, a chariad diffuant tu ag ato.

2. Oddi wrtho ef yr oedd cenadwri yr holl brophwydi yn deilliaw; ei weision a'i genadau oeddynt yn llefaru *yn ei enw*, ond yr oedd efe fel Pen-prophwyd, gyd âg awdurdod dwyfol yn llefaru yn ei *enw ei hun*. Ioan 3. 3, 4, 5. a 6. 26, 32, 47, 55.

3. *Iddo* ef yr oedd yr holl brophwydi eraill yn dwyn tystiolaeth; yn llefaru, ac yn ysgrifenu am dano. Luc 24. 44. Ioan 1. 45. Act. 10. 43. Rhuf. 3. 21.

4. Yr ydoedd ei anfoniad, ei seliad, a'i gyfranogiad o'r Ysbryd Glân yn ddifesur, yn peri rhagoroldeb ar bawb eraill yn y swydd. Mat. 3. 16, 17. Ioan 3. 34. Y mae ei ddyfodiad, fel codiad yr haul, gyd â'r fath ardderchogrwydd, ac yn y cyfryw fodd goruchel, nes ydyw pawb eraill, fel y sêr yn y boreu, yn diflanu yn ei ŵydd.

5. Ni bu neb arall yn y swydd ond dros amser byr a therfynedig, megys gweision yn y tŷ dros ychydig amser; ond y mae efe yn Arglwydd ar ei dŷ ei hun, yn Athraw diddarfod yn mhob oes. Bu farw yn Brophwyd, a chyfododd yn ei swydd y trydydd dydd, ac y mae yn ei swydd heddyw yn y nefoedd: y mae yn Brophwyd, yn gystal ag yn Offeiriad, yn dragywydd. Ni bydd yr eglwys byth heb ei Phen-athraw.

6. Nid oedd y prophwydi eraill yn medru cynnwys ond rhan o'r genadwri fawr oedd gan Dduw i'w hanfon at ddynion; ond yr oedd yn ei weinidogaeth ef, fel yn ei Berson, *holl* drysorau doethineb a gwybodaeth. Col. 2. 3. Heb. 4. 13. 'Pob peth a'r a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi.' Ioan 15. 15. Y mae y perygl mwyaf o ychwanegu at, na thynu oddiwrth, yr hyn sydd wedi ei ddadguddio.

Oddiwrth fawredd Person y Prophwyd hwn, mae yr apostol yn dangos, 1. Mawredd yr iechydwriaeth, 'yr hon, gwedi *dechreu* ei thraethu *trwy yr Arglwydd*,' &c. Heb. 2. 3, 4. Nid yn unig y mae Awdwr iechydwriaeth yn uwch na'r angelion, ond hefyd y Prophwyd yr hwn a'i traethodd.——2. Oddiwrth fawredd Person y Prophwyd hwn, dengys hefyd y mawr berygl o beidio gwrando arno, a dal ar yr hyn a lefarodd: 'Os bu gadarn y gair a lefarwyd trwy angelion, ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod gyfiawn daledigaeth; pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iechydwriaeth gymaint, yr hon, wedi dechreu ei thraethu trwy yr *Arglwydd*,' &c. 'A bydd, pob enaid ni wrandawo ar y Prophwyd hwnw, a lwyr ddyfethir o blith y bobl.' Act. 3. 23.

PROPHWYDOLIAETH—AU, (prophwydol) armaeg, daroganiad; rhagddywediad, rhagfynegiad.—'Prophwydoliaeth,' medd Witsius, 'yw gwybodaeth a dadguddiad o ddirgeledigaethau, na wybu dyn trwy ei synwyroldeb ei hun, na thrwy adroddiad arall, ond trwy ddadguddiad dwyfol a goruwch-naturiol yn unig.'——Yn yr ysgrythyrau, nid yw yn arwyddo yn unig rhagddywedyd pethau i ddyfod, ond arwydda hefyd, yn aml, yr un peth a phregethu, ac yn dynodi gallu i eglurhau a chymhwyso i amgylchiadau presennol, athrawiaeth ddadguddiedig o'r blaen —'A'th fod dithau wedi gosod prophwydi i bregethu,' sef i draethu. Neh. 6. 7. Prophwydo a arwydda, yn 1 Cor. 14. 3. llefaru wrth ddynion er adeiladaeth, cynghor, a chysur.——Yr oedd athrofâu y prophwydi yn Israel i addysgu y gwyr ieuainc duwiol yn y gwirioneddau dwyfol, i'w haddasu hwynt i gynghori a chysuro y bobl: ac wrth 'feibion y prophwydi,' y deallir yr ysgolheigion yn yr athrofâau.

Y mae prophwydoliaeth, yn nghyd â gallu gwyrthiol, yn brawf cadarnaf o gymundeb â Duw, ac o anfoniad dwyfol. Am hyny mae holl gau-grefyddau y byd yn hòni y cyfryw alluoedd. Yr oedd gan y Paganiaid eilun-addolgar eu daroganwyr, eu dewinyddion, &c. Ac y mae gan y Mahometaniaid eu gau-brophwydi, a gau-brophwydoliaethau; ond y mae yn hawdd dangos mai twyll a chelwydd yw y cwbl. Y prophwydoliaethau Iuddewig a Christionogol sydd iddynt nodau amlwg o'u dwyfoldeb. Duw yw eu hawdwr.

'Nid oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddehongliad priod;' sef o ddychymygiad priod: nid dehongliad priod un dyn ei hun o ewyllys Duw yw prophwydoliaeth. Y mae y geiriau yn ddilys yn perthynu i roddiad prophwydoliaeth gan Dduw ar y cyntaf i ddynion, ac nid i'w dehongliad neu ei deall gwedi ei rhoddi. Mae y geiriau canlynol yn ddehongliad eglur o'r geiriau: 'Nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth.' Yr un peth a feddylir wrth 'ddehongliad priod,' a 'thrwy ewyllys dyn.' Pe buasai prophwydoliaeth 'trwy ewyllys dyn,' buasai o 'ddehongliad priod' y dyn hwnw o ewyllys Duw; ond nid felly y mae; 'eithr dynion* sanctaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.' 2 Petr 1. 20, 21. 'Megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân' y llefarasant o ran yr amser, y mater, y dull, a'r geiriau; yr Ysbryd Glân yw awdwr y cwbl. Edr. DEHONGLIAD.

Dywed yr angel wrth Ioan, mai 'tystiolaeth Iesu ydyw ysbryd y brophwydoliaeth.' Dat. 19. 10. Nid tystiolaeth gwedi ei rhoddi gan Iesu, ond tystiolalaeth am dano; tystiolaeth am Iesu oedd gan yr angel, gan Ioan, a chan ei frodyr; cyd-weision ydynt oll yn y gwaith mawr hwn. 'Iddo ef y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth.' Act. 10. 43. Cyfeiriad, tuedd-nôd, a dyben yr holl brophwydoliaethau yw tystiolaethu am Iesu, ei waith, a'i deyrnas. Efe yw tuedd-nôd a dyben holl ragluniaethau Duw yn nghylch y byd. Y mae sefydliad neu ddystrywiad unrhyw ymerodraeth neu deyrnas yn y byd, yn cyfeirio mewn rhyw fodd, naill ai yn union-gyrchol, neu yn gylchdröawl, at deyrnas Crist. Am yr iechydwriaeth trwyddo 'yr ymofynodd ac y manwl chwiliodd y prophwydi—gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny.' 1 Petr 1. 10, 11. 'Chwiliwch yr ysgrythyrau,' medd Crist wrth yr Iuddewon, 'canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol, a hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.' Ioan 5. 39. Yr oedd yr Iuddewon yn barnu fod yr ysgrifeniadau sanctaidd yn cyfeirio at y Messiah fel eu prif ddyben; neu ni buasent yn meddwl cael bywyd tragywyddol ynddynt. Esponiodd Iesu yn yr holl ysgrythyrau y pethau am dano ei hun. Luc 24. 27.

Wrth edrych i'r ysgrifeniadau sanctaidd, gwelwn, yn 1. Fod prophwydoliaeth o ëangder tra mawr; yn dechreu ar gwymp dyn, ac yn cyrhaedd hyd ddiwedd pob peth. Yr oedd gwedi ei thraddodi dros yr oesoedd cyntaf yn o dywyll, ac i ychydig ddynion, ac yr oedd yspaid hir o amser rhwng y naill brophwydoliaeth a'r llall; ond mewn amser daeth yn amlach ac yn oleuach; ac yn gyson yn cael ei dwyn yn mlaen yn mhlith

* Gwel y Dr J. Owen *on the Divine Original, &c. of the Scriptures.* Macknight *in loc.*

Digitized by Google

un âch o bobl, y rhai a neilltuwyd i'r dyben hwn yn benaf, yn mhlith dybenion eraill, i ymddiried iddynt am ymadroddion Duw: gyd âg ychydig dyspaid, parhaodd ysbryd prophwydoliaeth yn mhlith y bobl hyn hyd ddyfodiad Crist. Rhuf. 3. 2. Yr oedd Crist a'i apostolion yn cyfranogi yn enwog o'r un ysbryd; ac a adawsant ar eu hol brophwydoliaethau am bethau i ddyfod, yn cyrhaedd yn mhell, sef hyd ddiwedd amser; neu, fel y dywed Ioan, hyd 'pan orphener dirgelwch Duw.' Dat. 10. 7.

2. Heblaw ëangder y darluniad prophwydoliaethol, y mae mawrhydi y Person am yr hwn y prophwydir yn deilwng o'n hystyriaeth. Gosodir ef allan mewn geiriau ag sydd yn ein llenwi â meddyliau mawreddig ac ardderchog. Llefarir am dano weithiau fel 'HAD Y WRAIG,' &c., etto rhoddir ar ddeall i ni ei fod yn fwy na dynol, o ran ei wreiddyn a'i hanfod. Ië, gosodir ef allan fel yn rhagori ar ddynion ac angelion; yn dra dyrchafedig goruwch tywysogaethau ac awdurdodau; goruwch pob mawredd, pa un bynag ai yn y nef neu ar y ddaear; fel y Gair, a Doethineb Duw; fel tragywyddol Fab y Tad; fel Etifedd pob peth, trwy yr hwn y gwnaeth efe y bydoedd; fel dysgleirdeb gogoniant y Tad, a gwir lun ei Berson. Nid oes eiriau i osod allan ardderchawgrwydd mwy. Mor fawreddig yw yr Iesu, i'r hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth!

3. Y mae dyben dyfodiad y Messïah i'r byd gwedi ei ragfynegi trwy y cyfryw hir res o brophwydoliaethau, yn cyfateb i'r cwbl eraill a ddywedir am dano. Nid i waredu rhyw bobl orthrymedig oddiwrth gaethiwed a thrais tymhorol, neu i osod i fynu ryw ymerodraeth ddaearol, ardderchog a gogoneddus: nid oedd y cyfryw bethau yn deilwng i fod yn ngolygiad y Person Dwyfol hwn. Y maent yn rhy wael, bychain, a diddim. Pethau mwy, pethau sylweddol a thragywyddol oedd ganddo yn ei olwg. Daeth i ddileü pechod a marwolaeth, ac i waredu miliynau o ddynion oddiwrth ddinystr a thrueni tragywyddol, a'u dyrchafu i burdeb, sancteiddrwydd, a gogoniant tragywyddol.

Canfyddwn, gan hyny, ysbryd prophwydoliaeth yn rhedeg trwy holl oesoedd amser, yn dynodi un Person, o'r ardderchawgrwydd a'r mawrhydi mwyaf; ac yn dadgan y cyflawniad o un dyben, cynghor, a gorchwyl caredicaf a duwiolaf a ddichon y meddwl ei ddychymyg: dyma y darluniad ysgrythyrol o'r oruchwyliaeth brophwydoliaethol.

Y mae yn yr ysgrythyrau gyfan-gorph rheolaidd o brophwydoliaethau, gwedi eu traddodi gan amrywiol ddynion, ac mewn amrywiol oesoedd, yn nghylch un Person hynodol ac enwog, ei waith, ei oruchwyliaeth, a'i deyrnas, i gyd yn gyson â'u gilydd, ac yn taflu goleu y naill ar y llall, ac i gyd yn cyd-gyfarfod ac yn cael eu cyflawni yn hynodol, yn fanwl, ac yn neillduol yn y Person hwn, ac nid yn neb arall: mae yma olygiad ardderchog, ac yn tystio yn ddiammheuol, mai 'dynion sanctaidd Duw a'u llefarasant, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.' Y mae cysylltiad a chysondeb yr amrywiol brophwydoliaethau â'u gilydd yn dra rhyfedd. Er eu traddodi hwynt mewn amrywiol oesoedd, etto un corph ydynt, ac un dyben a gwrthddrych mawr sydd ganddynt i gyd yn eu golwg, a hwnw i'w gyflawni yn y dull a'r amser rhag-ddywededig. Canol-bwynt y cwbl yw Crist a'i deyrnas, ac ni chyffyrddir â phethau eraill, ond fel y maent yn berthynol ac yn gysylltiedig â hwn. Y mae y cynghor Dwyfol, yn ei lywodraeth a'i ragluniaethau ar y byd, yn cael ei ddangos yn eglur, gwedi cael eu trefnu oll, ac yn cael eu cyflawni mewn cysylltiad, ac er hwyliad a rhyddhad hwn.

Y mae y prophwydoliaethau, yn 1. Yn rhoddi prawf nodedig o'r BOD o Dduw.——2. O ëangder diderfyn ei wybodaeth.——3. O'i arfaeth, ei ragluniaeth, a'i lywodraeth fanwl ar bob peth.——4. O anghyfnewidioldeb ei gynghor, ei ofal dibaid am ei eglwys a'i achos yn y byd.——5. Yn galw yn uchel am ein parch a'n hymostyngiad iddo, a'n dibyniad arno yn mhob peth.——6. Y maent yn dangos yn eglur, mai prif ddyben Duw yn ei holl oruchwyliaethau tu ag at y byd yma isod, ydyw iechydwriaeth ei eglwys trwy Grist, ac amlygiad o ragorol olud ei ras trwy hyny.——Am yr iaith brophwydoliaethol, Edr. DADGUDDIAD, ac enwau yr amrywiol brophwydi.

Da sylwi yn fanwl ar y rheolau canlynol tu ag at iawn ddeall y prophwydoliaethau.

1. Yn dehongli y prophwydoliaethau, y mae o'r pwys mwyaf i iawn ddeall y mater y traetha y prophwyd am dano; sef pa un ai am dano ei hun, neu ynte am arall; pa un ai am ddygwyddiadau yn ei amser ei hun, neu amserau i ddyfod; a pha un ai yn llythyrenol neu yn gyfriniol y mae i ni i'w ddeall: megys y gofynodd yr eunuch i Phylip, 'Am bwy y mae y prophwyd yn dywedyd hyn? ai am dano ei hun, neu am ryw un arall?' Act. 8. 34.

2. Rhaid astudio iaith gyfriniol y prophwydi yn dda; yn enwedig rhaid deall yr enwau arwydd-luniol a roddir ar Grist, yr eglwys, Anghrist, cenedlaethau, byddinoedd, &c.

3. Rhaid ystyried a deall yr holl bethau a briodolir gan y prophwyd i'r testun y mae yn llefaru am dano. Os na bydd wedi ei enwi gan y prophwyd, rhaid edrych ar y pethau neillduol a briodolir iddo; megys y prophwydoliaethau canlynol am Grist: Ps. ii, xxii, xlv, lx. Esa. liii. Zech. 3. 8. Os bydd gwedi ei enwi, rhaid ystyried pa un ai yn briodol ai yn gyfriniol y mae i ni i'w ddeall; megys titl Ps. lxxii., 'I Solomon,' ai am Solomon, neu am y Messïah, y gwrth-gysgod, y mae y Psalmydd yn traethu?

4. Pan elwir testun y brophwydoliaeth wrth ei briodol enw, a'r holl bethau nodedig yn y brophwydoliaeth a briodolir iddo yn cytuno âg ef, ni ddylid, ar un cyfrif, ymadael oddiwrth yr ystyr llythyrenol. Y mae hon yn rheol sicr, ac o'r defnydd mwyaf.

5. Os na bydd y priodoliaethau prophwydoliaethol yn cytuno â'r testun a enwir, rhaid golygu rhyw wrthddrych a fyddo yn ateb iddo fel gwrth-gysgod, â'r hwn y cytunant; megys Elias, yn Mal. 4. 5.—Dafydd, yn Jer. 30. 20. Ezec. 34. 23, 24.—Solomon, yn Ps. lxxii.—Edom, Esa. 63. 1.

6. Rhaid golygu rhai prophwydoliaethau âg ystyr dau-ddyblyg iddynt, sef llythyrenol a chyfriniol; ac y mae yr ystyr cyfriniol yn gynnwysedig yn y llythyrenol, ac y mae rhai pethau nas gellir eu priodoli yn llythyrenol. Y mae llawer o bethau yn y prophwydoliaethau am Babilon, yr Aipht, Tyrus, ac Edom, nad ydynt, yn yr ystyr helaethaf o honynt, i'w deall ond yn gyfriniol, ond mewn ystyr is y maent yn briodol iddynt yn llythyrenol hefyd. Gwel Dat. 11. 1. a 14. 8. a 18. 17, 18, 19. Y mae yr ystyr dau-ddyblyg hwn yn eglur i'w briodoli i amryw o brophwydoliaethau; sef mewn ystyr is i'r cysgod, ac mewn ystyr uwch a mwy helaeth a godidog i'r gwrth-gysgod: megys y prophwydoliaethau am ddychweliad yr Iuddewon o Babilon, a'u llwyddiant gwedi hyny; y maent yn berthynol, yn holl gyflawnder ëang yr ymadroddion a arferir, i lwyddiant yr efengyl yn mhlith y Cenedloedd—i'r mil blynyddoedd—ïe, i gyflwr yr eglwys yn y nefoedd byth: goddefant gyflawniad ar ol cyflawniad, drachefn a thrachefn o honynt. Gwel Esa. 35. 10. a 52. 1—4. a lx. Jer. 3. 14, 15, 16. Ezec. 44. 9. hyd ddiwedd y llyfr. Ond fel nas dichon un brophwydoliaeth edrych yn ol, rhaid i'r prophwydoliaethau yn Dat. xxi. a xxii. fod yn perthyn i'r mil blynyddoedd, ac i'r nefoedd.

7. I iawn ddeall y prophwydoliaethau, angenrhaid yw bod yn hysbys o'r amser y traddododd y prophwyd ei brophwydoliaeth, rhag ei phriodoli i ddygwyddiadau blaenorol i hyny.

Digitized by Google

8. Y mae yn dra angenrheidiol hefyd gwahaniaethu traethodau prophwydoliaethol y prophwydi, yn mha le y diwedda un, ac y dechreu y llall; testun pob un o honynt, a'r amser y traddododd pob un o honynt.

9. Y mae gwybodaeth eglur o holl drefn yr iechydwriaeth, a natur teyrnas Crist, yn dra angenrheidiol, fel y byddo y dehongliad yn unol â chysondeb y ffydd. Hefyd, gwybodaeth hyddysg o'r holl ysgrythyrau yn gyffredinol, sydd anhebgor, fel y byddom yn adnabyddus o'r amrywiol ranau o'r ysgrifeniadau sanctaidd sydd yn traethu yn nghylch yr un pethau.

10. Y mae y crybwylliadau hyny a roddwyd i ni gan Grist a'i apostolion, y cyfeiriadau mewn geiriau, neu ddull o ymadroddi, a welir yn aml yn yr efengylwyr a'r apostolion, yn agoriad sicr a dwyfol o feddwl yr Ysbryd Glân yn yr ysgrifeniadau sanctaidd. Y rheol hon yn un a fu i mi er's blynyddoedd y fwyaf oleu, defnyddiol, a boddlongar, i ddeall gair yr Arglwydd yn gyffredinol, o ddim moddion a ellais erioed feddwl am dano.

11. Gwybodaeth gyflawn o hanesyddiaeth y byd, yr amrywiol oesoedd, y teyrnasoedd, a'r dygwyddiadau perthynol iddynt; ac hefyd, gwybodaeth o'r amrywiol wledydd a pharthau y ddaear—y mae hyn oll yn angenrheidiol i'r dyben o gymhwyso y prophwydoliaethau yn addas.

12. Yn ddiweddaf, sobrwydd, gwylder, a pharch dwyfol yn y meddwl i Dduw a'i air; cydnabyddiaeth o'n hanwybodaeth a'n gwaeledd ein hunain; yn nghyd â thaer weddi at Dduw am gyfarwyddyd, sydd ddymunol, ac yn dra angenrheidiol, i ddeall dyfnion bethau Duw. Heb hyn y mae ein hagwedd yn gwbl anaddas a phechadurus tu ag at Dduw, yn ei bethau sanctaidd, ac yn annhebyg o lwyddo i gael gwybodaeth gywir o honynt.—Gwel Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* vii. *cap.* 2. Witsius, *Miscel. Sacr.*, *lib.* i. *An Essay on the Prophecies relating to the Messïah, by* John Maclaurin. *Bishop* Hurd's *Sermon on the Prophecies*. *Bishop* Newton's *Dissertations on the Prophecies*. Sherlock *On the Use and Intent of Prophecy*. Sir Isaac Newton's *Obs. on Daniel and the Apocalypse*. Grey's *Key to the Old Testament*. Simson's *Key to the Prophecies*. Kett's *History the Interpreter of Prophecy*. Gwel hefyd gwaith Mede, Gill, Hallifax, Smith, Apthorp, Faber, &c.

PROSELYT—IAID, *Gr.* Προσελυτος [*un i ddyfod drosodd*] estron yn dyfod oddiwrth ei genedl ei hun at bobl eraill. Mae y LXX. yn priodoli y gair i estron, neu ddyeithr-ddyn, a ddeuai i drigo yn mhlith yr Iuddewon, ac a gyd-ffurfiai â'u crefydd hwy, megys Exod. 12. 48, 49. Lef. 17. 8, &c. Num. 9. 14. *et al.*

Yn y Testament Newydd, arwydda y gair *proselyt* un dychweledig oddiwrth Baganiaeth ac eilun-addoliaeth at y grefydd Iuddewig, pa le bynag y trigai. Mat. 23. 15. Act. 2. 10. a 6. 5. a 13. 43. Yr oedd dau fath o breselytiaid yn mhlith yr Iuddewon, sef 1. Proselytiaid y porth.——2. Proselytiaid cyflawnder, neu broselytiaid y cyfammod. Y cyntaf oeddynt rai wedi ymwrthod âg eilun-addoliaeth, ac oeddynt yn addoli Duw yn ol deddf natur, neu saith gorchymyn Noah, fel y galwent hwynt. Yr oeddynt yn barnu pawb yn rhwym i gyd-ffurfio â'r rhai hyn, er nad oeddynt yn rhwym i gyd-ffurfio â'u crefydd hwy, yr hon oedd yn briodol yn unig i'w cenedl hwy. Yr oeddynt yn goddef pawb o'r cyfryw i drigo gyda hwynt yn eu gwlad, ac a'u galwent, o herwydd hyny, *Gerim toshavim*, sef *Ymdeithiwr proselyt*; ac o herwydd yr un achos galwent hwy *Gere shaar*, sef *Proselyt y porth*, am eu bod yn cael eu goddef i breswylio o fewn eu pyrth. Yr achlysur o'r enw hwnw, tebygol, a gymerwyd oddiwrth y geiriau yn y pedwerydd gorchymyn, *Vegereca bishareca, y dyeithr-ddyn o fewn dy byrth*, neu *y proselyt o fewn dy byrth.* Ni oddefent i ddyeithriaid breswylio o fewn eu pyrth heb ymwrthod âg eilun-addoliaeth, a chadw saith gorchymyn Noah. Er eu cymeryd yn gaethion mewn rhyfel, rhoddent hwy i farwolaeth, neu a'u gwerthent, os nacäent hyn. Ond os cyd-ffurfient yn hyn, caent nid yn unig drigfa yn eu pyrth, ond hefyd addoli yn y deml; ond mewn cyntedd allanol, a alwent cyntedd y Cenedloedd, a chanolfur rhyngddo a'r cyntedd nesaf i mewn, yr hwn y cyfeiria yr apostol ato yn Eph. 2. 14. Y cyfryw broselytiaid y barnent Naaman, Cornelius, a'r Eunuch.

Proselytiaid cyflawnder, oedd y rhai a gydffurfient yn gwbl â holl ddefodau y grefydd Iuddewig. Yr oedd y proelytiaid hyn yn cael eu derbyn trwy fedydd, aberth, ac enwaedu arnynt; ac yr oeddynt yn cyfranogi o holl freintiau yr Iuddewon. Yr ydoedd zel yr Iuddewon wneuthur y cyfryw broselytiaid yn fawr yn amser ein Hiachawdwr. Yr oedd y proselytiaid hyn, yn aml, i ddangos eu zel dros y defodau Iuddewig, yn fwy gelynion i Grist a'i ganlynwyr na'r Iuddewon eu hunain. Act. 13. 50.

Saith gorchymyn Noah ydyw y rhai a ganlyn:—1. Yn nghylch ufudd-dod i swyddwyr gwladol.——2. Y mae addoliad gau-dduwiau yn hollol waharddedig.——3. Yn gwahardd cabledd, tyngu, anudoniaeth, &c.——4. Yn gwahardd pob ymlosgach ffiaidd.——5. Yn erbyn tywallt gwaed.——6. Yn erbyn lladrad, a phob math a'r hoced, twyll, &c.——7. Yn erbyn bwyta un darn o anifel, ac yntau etto yn fyw. Gwel Prideaux's *Connect. p.* ii., *b.* 5. Hammond *on* Mat. 23. 15. Act. 10. 2.

PRUDD—AIDD, (pru) pwyllog, call, ystyriol; trist, galarus, anhylon, cymylog, tywyll, dilewyrch. Mat. 16. 3.—'Un oedd wr prudd.' W. S. Act. 13. 7. Sef gwr call, pwyllog.

PRYD—IAU, (py-rhyd) amser, awr, amser nodedig; amser gosodedig; amser bwyta; ciniaw, neu swper: gwedd, drychiad; harddwch, glendid, tegwch, gweddusder, tlysni. Fel gorair, arwydda gan, yn gymaint ag:—pryd nad ellit; sef gan nad ellit.——Arwydda, yn aml, yr amser gosodedig gan Dduw i gyflawni ei oruchwyliaethau a'i amcanion, ac am hyny yr amser mwyaf cymhwys ac addas i hyny. Deut. 32. 35. Rhuf. 5. 6. Gal. 6. 9. 1 Thes. 5. 1.

'Nid oes na phryd na thegwch iddo: pan edrychom arno, ni bydd pryd fel y dymunem ef.' Esa. 53. 2.

Nid oes pryd na thegwch fel yr edrychem arno;
Nid oes pryd fel y dymunem ef.
Lowth, Vitringa, Symmachus.

Symmachus, medd yr Esgob Lowth, oedd yr unig un o'r hynafiaid a gyfieithiodd y geiriau hyn yn eu lle. Nid yw y geiriau hyn yn gosod allan ei agwedd gorphorol, ond dull ei ymddangosiad yn y byd fel y Messïah. Yn ngolwg yr Iuddewon, yn ol eu meddyliau cyfeiliornus hwy am y Messiah, nid oedd dim gwychder, na rhwysg, na mawredd, yn ei ymddangosiad—yn ei holl amgylchiadau yr oedd yn dlawd ac yn wael. Yn dlawd yn ei enedigaeth, yn y stabl yn Bethlehem; ei le trigiannol oedd y ddinas anenwog Nazareth yn Galilea; Iesu y Galilead y galwyd ef; Nazareniaid oedd ei ganlynwyr; saer oedd ei dadmaeth; ac ymroddodd yntau hefyd, tebygol, i'r gelfyddyd hon. Mat. 13. 55. Marc 6. 3. Pysgodwyr oedd ei ddysgyblion penaf, ac yr oedd yn cyfeillachu â phublicanod a phechaduriaid. Mat. 9. 10, 11. Heb fawredd cnawdol; heb gyfoeth, ond yn cael ei gynnal trwy haelioni eraill; yn addfwyn a gostyngedig o galon, heb geisio parch ac anrhydedd yn mhlith y doctoriaid a dysgedigion y deml; ac heb gydnabyddiaeth, nac enw, na pharch yn y llys. Iaith ei gydwladwyr ydoedd iaith pawb o'r Iuddewon cnawdol; 'Onid hwn yw mab y saer? onid Mair y gelwir ei fam ef? a Iago, a Joses, a Simon, a Judas ei frodyr ef?' Yr oeddynt hwy yn methu edrych arno

Digitized by Google

fel y Messïah, na'i serchu fel y cyfryw yn eu calonau. Yr oedd '*yn ffiaidd* gan y genedl—y *diystyraf* o'r gwyr.' Esa. 49. 7. a 53. 3. 'Pryf wyf, ac nid gwr,' medd efe, 'gwarthrudd dynion, a dirmyg y bobl.' Ps. 22. 6. Yn yr agwedd wael hon yr oedd yn ateb i'r holl brophwydoliaethau am dano; ond nid y prophwydoliaethau am dano, ond eu meddyliau mawdol eu hunain, oedd rheol eu barn am dano. Fel hyn, er ei fod yn gyfoethog, er ein mwyn ni a aeth yn dlawd. Dyma ras annhraethol!

**PRYDER—U**, (prw) trymfryd, gofal; rhag-ofalu, ystyried.

Gweddus ar wraig, y naill law yn casglu, a'r llall yn rhannu, a'i phen yn pryderu. *Diar.*

'Ac y pryderaf o herwydd fy mhechod.' Ps. 38. 18. Y gair *Heb.* דאג a arwydda *gofal, gofid*, ac *aflonyddwch meddwl:* peth sydd yn anesmwytho enaid, ac yn ei ofidio yw pechod.

**PRYDFERTH—U—WCH**, (pryd-perth) harddwch, glendid, tegwch, tlysni; gweddeidd-dra; harddu, gwychu.—'Tyred di fy mhrydferth.' Can. 2. 10. Y mae yr eglwys yn hardd ac yn brydferth yn nghyfiawnder Crist, a sancteiddrwydd ei Ysbryd Glân, a rhodiad gweddus. Y maent yn eiriau o anwyldeb mawr, yn ei hannog i ddyfod gyd â'r hwn a'i carai, ac oedd yn gofalu am ei lesâd.

'Prydferthwch yr Arglwydd,' ydyw y rhinweddau hanfodol sydd ynddo; ei weddeidd-dra hardd yn ei holl ffyrdd; ei diriondeb a'i raslonrwydd yn nhrefn iechydwriaeth; a'i ymddygiad caredig, maddeugar tu ag at ei bobl, yn nghanol eu holl lesgrwydd a'u gwendidau. Ps. 27. 4. a 90. 17.

Peth prydferth yw sancteiddrwydd, ac anharddwch yw pechod. Nid oes dim ond prydferthwch sancteiddrwydd yn gweddu yn addoliad Duw anfeidrol sanctaidd. Ps. 29. 2. Edr. Blaguryn, Gogoniant, Dymunol, Hawddgar.

'Yr hwn a ddodent beunydd wrth borth y deml, yr hwn a elwid Prydferth.' Act. 3. 2. Y porth hwn a chwanegwyd gan Herod at gyntedd y Cenedloedd; yr oedd yn ddeg cufydd ar hugain o uchder, a phymtheg o led, a chwedi ei wneuthur o bres Corinth (*Corinthian brass*) ac yn fwy ardderchog, yn ei wneuthuriad a'i wychder, na'r rhai oedd gwedi eu gorchuddio âg arian ac aur. Gwel Josephus, *Bell. Jud. lib.* v. *c.* 5. Yr ydoedd yn sefyll rhwng cyntedd y Cenedloedd a chyntedd Israel.

**PRYD HWN—HYNY**, (pryd-hwn) yr amser hwn, yr amser hyny. Mic. 3. 4. Act. 1. 6. Eph. 2. 12.

**PRYDNAWN**, (pryd-nawn) y prydnawn yw y rhan hyny o'r dydd, rhwng y boreu a'r hwyr; sef o ganol dydd hyd chwech o'r gloch yr hwyr. Yr oedd aberth prydnawnol bob dydd yn y deml, sef yn nghylch tri o'r gloch, בין הערבים *rhwng yr hwyrau*, a gyfieithir *cyfnos*, Exod. 29. 39. Cymh. 2 Bren. 16. 15. 1 Cron. 23. 30. Ps. 141. 2. Ezra 9. 4, 5. Dan. 9. 21. Yr un amser hefyd y lladdent y pasc. Exod. 12. 6. Ac ar yr un amser y bu Crist farw, gwrth-gysgod mawr yr holl aberthau. Mat. 27. 46—50. Marc 15. 34—37. Edr. Aberth, Hwyr, Pasc. Gwel Esgob Patrick ar Exod. 12. 6. Kidder's *Messïah. part* i.

Y mae y gair prydnawn, weithiau, yn arwyddo amser byr o drallod a gofid. 'Dros brydnawn yr erys wylofain, ac erbyn y boreu y bydd gorfoledd.' Ps. 30. 5. *Heb.* 'Yn yr hwyr y lletty a wylofain, ac yn y boreu bloedd orfoleddus.' Ps. 126. 5, 6. Esa. 38. 3, 5. Ioan 16. 20, 21.

**PRYF—ED**, (pry) abwydyn; unrhyw greadur bychan. Pryf ffyrnig, ydyw y neidr; pryf cyfrwys, yw y llwynog; pryf penfrith, neu y pryf llwyd; pryf sadachawg, pryf y gwinwydd, blewog amldroed; pryf y dail, pryf y cawl, pryf y bresych, sef y lindys; pryf clust, chwilen glust; pryf y ganwyll, pryf y goleuad, pryf y melinydd, pryf dillad; pryf copyn, adar cop; pryf yr ŷd, ŷdys.

Creaduriaid y byd a ddosperthir i dri math, bywiolion rhesymol, bywiolion afresymol, a'r creaduriaid difywyd. Mae y pryfed o'r ail fath; am hyny y dywedodd Awstin, fod pryf, neu wibedyn, yn fwy godidog creadur na'r haul. Y mae mawredd Daw i'w ganfod yn rhyfedd yn y pryfyn lleiaf. Y maent yn lliosog iawn, ac yn hynod o amrywiol yn eu llun, eu hysgogiadau, eu tueddiadau, eu hymborth, eu heppiliad, eu gwychder o ran eu lliwiau, a bychandra annirnadwy rhai o honynt: etto, mae pob un o honynt yn greadur perffaith yn ei ryw, a phob addasrwydd ynddo i ateb y dyben creadigol o hono. Y maent yn mhlith lluoedd Duw, wrth ei orchymyn, ac yn gryfion yn gwneuthur ei air ef. Buan yr ysasant frenin rhyfygus, annuwiol, nes y trengodd. Act. 12. 23.

Cyffelybir dyn i bryf, o ran ei waeledd, ei wendid, ei berygl, a'i ddarfodiad buan. Job 25. 6. Mic. 7. 17. ——Geilw Crist ei hun 'pryf, ac nid gwr,' i ddangos ei iselder a'i ddyoddefiadau. Ps. 22. 6.

Cyffelybir poenau uffern i bryf yn ysu byth ac heb farw. Marc 9. 44. Esa. 66. 24. Bydd yno gydwybod ofidus, a meddwl poenus, heb heddwch nac esmwythdra byth.——Gwlad yw y nefoedd, 'lle ni lygra pryf,' ond pery pob peth byth yn eu harddwch a'u gogoniant: y mae y cwbl perthynol iddi yn anllygredig. Luc 12. 33. 1 Petr 1. 4.

**PRYF Y RHWD**, *Heb.* ילק *llyfu, lleibio*; *Saes.* Canker-worm: math o bryfyn dillad, o ryw y locust, tebygol. Cymh. Ps. 105. 34. âg Exod. 10. 4. Cyfieithir y gair Hebraeg *lindys*, yn Ps. 105. 34. etto gwahaniaethir hwn oddiwrth y *locust*, yn Joel 1. 4. a 2. 25. Oddiwrth Jer. 51. 27. a Joel 3. 16. (yr un gair Hebraeg sydd yn y ddau fan) y mae yn dra eglur bod adenydd iddo.

**PRYN—EDIG—AETH—IAD—ON—U—WR**, (pry) *Groeg* πριαμαι; meddiannu peth trwy roddi gwerth addas am dano; achub, gwaredu, rhyddhau; pridwerth; ymwared, rhyddhad; rhai wedi eu prynu; un a roddodd y gwerth, gwaredwr. Y mae y gair Hebraeg פדה a gyfieithir *prynu, pryniad*, neu *prynedigaeth, rhyddhau, iawn*, Exod. 13. 13. a 21. 30. Ps. 49. 8. Lef. 19. 20.—*ymwared*, Esa. 50. 2. Ps. 111. 9. a 130. 7. yn arwyddo, gwaredu, a rhyddhau o gaethiwed, trwy roddi pridwerth yn iawn am un. Yr un ydyw ystyr y gair *Gr.* απολυτρωσις, sef gwaredu caethwas trwy roddi λυτρον, *pridwerth* neu *iawn* drosto; αντιλυτρον, *iawn*, neu *bridwerth*, dros un. Y mae y gair *Heb.* גאל (*goel*) yn arwyddo *cyfnesaf, cyfathrachwr, ceraint*, ac a gyfieithir yn aml, *prynwr*, Job 19. 25. Ps. 19. 14.—*gwaredydd*, Esa. 59. 20. —*gollyngdod*, Lef. 25. 24, 26, 29, 51, 52. lle mae yn arwyddo gwerth taledig er gollyngdod. Y mae gair Groeg arall am brynu yn gyffredinol, sef αγοραζω. Mat. 13. 44. a 14. 15. Arferir hwn hefyd am y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu. 1 Cor. 7. 23. Dat. 5. 9. Ond nid yw y gair απολυτρωσις byth yn cael ei arfer yn yr ystyr cyffredinol hwn, ond arwydda prynu caethwas trwy iawn, neu gwaredu o gyfyngderau. Luc 21. 28. Heb. 11. 35. Mae yn cyfateb yn neillduol yn ei ystyr i'r gair *Heb.* פדה Arferir y gair αγοραζω *prynu*, mewn cyferbyniad i werthu. Mat. 13. 44. a 21. 12. Dat. 13. 17. a 18. 11. Ond ni arferir y gair arall yn yr ystyr hwn.

Wrth gyfraith Moses yr oedd hawl gan y *goel*, neu y cyfnesaf, neu y cyfathrachwr, 1. I adbrynu etifeddiaeth brawd wedi tlodi, a gwerthu ei etifeddiaeth trwy hyny. Lef. 25. 25.——2. Yr oedd ganddo ef hawl i adbrynu a rhyddhau ei frawd cyn blwyddyn y Jubili, trwy roddi iawn am dano ef. Lef. xxv., xxvii.——

Digitized by Google

3. Efe ydoedd (גאל הדם) *dialydd gwaed* ei frawd, os lleddid ef. Num. 35. 12, 19, 21. Deut. 19. 6, 12. ——4. Os byddai un farw yn ddiblant, y *goel*, neu y cyfnesaf, oedd i briodi ei weddw ef, a chodi hâd iddo. Ruth 2. 20. a 3. 9, &c.

Rhoddir yr enw Prynwr (פדה a גאל) yn aml i'r Arglwydd. Deut. 32. 6. Job 19. 25. Ps. 19. 14.—Dywedir fod i ni brynedigaeth yn Nghrist Iesu, 'sef maddeuant pechodau.' Eph. 1. 7.—Ein bod 'yn cael ein cyfiawnhau trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu.' Rhuf. 3. 24. Y mae tri pheth yn gynnwysedig yn y prynedigaeth sydd yn Nghrist, 1. Etholiad a gosodiad ei Berson ef yn lle y personau oedd i gael eu prynu. Yr oedd hyn yn ol y drefn a'r arfaeth yn y cynghor tragywyddol.——2. Cyfrifiad o'u pechodau hwy iddo ef. 'Yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd.—Efe a ddug bechodau llaweroedd.' Esa. 53, 6, 12. 'Yr hwn nid adnabu bechod (yn ei Berson ei hun, trwy lwgr natur, meddwl, nac un weithred) a wnaeth efe (trwy gyfrifiad) yn bechod trosom ni.' 2 Cor. 5. 21.——3. Dyoddefodd yn ei Berson ei hun y gosp ddyledus am y pechodau a gyfrifwyd felly iddo. 'Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef.—Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef; efe a'i clwyfodd.' Esa. 53. 5, 10. 'Crist hefyd unwaith a ddyoddefodd dros bechodau; y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw.' 1 Petr 3. 18. Dyma y weithred o gyfiawnder mwyaf gogoneddus a wna Duw byth. Y mae gorsedd-fainc cyfiawnder, trwy y weithred hon, wedi cael ei sefydlu dros byth. Y mae Duw ynddi yn ymddangos yn Dduw cyfiawn, gyd â'r dysgleirdeb a'r mawrhydi mwyaf. Fel y mae pechod yn cael ei olygu yn yr ysgrythyrau fel dyled, fel gelyniaeth, ac fel bai; felly Crist a olygir yn y gorchwyl rhyfedd hwn fel mechnïydd, i dalu y ddyled drosom; fel cyfryngwr a thangnefeddwr, i gymmodi y ddwy blaid; ac fel offeiriad ac aberth i wneuthur iawn trwy ddyoddef y gosp yn ein lle.

Yr oedd dau beth hefyd yn ofynol yn y person; sef, 1. Y natur a bechodd i ddyoddef am y bai.——2. A chadernid i allel dyoddef yn gyfatebol i'r bai. Os oedd yn gyfiawn dyoddef dim, yr oedd mor gyfiawn dyoddef yn gyfatebol i'r drwg oedd yn y bai. Dywedyd i Dduw dderbyn yn rasol yr hyn a ddyoddefodd Crist drosom, fel rhyw beth gwerthfawr (*a valuable consideration**) ar ein rhan, sydd yn ei iselhau yn ddirfawr; nagê, ond cyflawn, perffaith, a digonol aberth, offrwm, ac iawn, trwy ddyoddef y gospedigaeth hòno a haeddodd y drwg-weithredwyr yr oedd yn eu prynu, ac yr oedd yn cyfateb mewn mawrhydi i fawredd y Barnwr oedd i gospi. Yr oedd Duw anfeidrol gwedi cael ei ddianrhydeddu, am hyny yr oedd drwg cyfatebol yn y bai; ac yn gofyn iawn cyfatebol, sef anfeidrol. Gan fod Crist yn Dduw ac yn ddyn, yr oedd yn gwbl addas yn yr holl ystyriaethau hyn. Yr oedd yn cyfranogi o'r natur a bechodd fel yr oedd yn ddyn. Heb. 2. 14.—Yr oedd yn rhoddi ei hun gyd âg anfeidrol ewyllysgarwch. Heb. 10. 9.—Yr oedd ganddo hollol feddiant ac awdurdod arno ei hun, i ddodi ei einioes i lawr, ac i'w chymeryd hi drachefn. Ioan 10. 18. Yr oedd y natur ddynol ynddo, yn ddihalog ac yn ddiddrwg. Heb. 9. 25, 26, 27. Ac yr oedd ynddo allu digonol i ddyoddef, nes rhoddi pridwerth ac iawn. Yn y golygiadau hyn, nid ydoedd yn anghyfiawn i Grist cyfiawn ddyoddef dros rai anghyfiawn. Ni wnawd cam â neb trwy hyny. Ni wnawd cam â Christ ei hun; canys ei ewyllys ei hun oedd hyny, ac yr oedd ganddo allu digonol i ddyoddef y gosp, ac adgyfodi wedi hyny. Buasai yn anghyfiawnder dirfawr i Grist i wneuthur anghyfiawnder âg ef ei hun. Ni wnawd cam â chyfiawnder Duw; canys ewyllys a gorchymyn Duw oedd hyny. Ni wnawd cam â'r gyfraith; canys ni chafodd, ac ni chaiff byth, y fath anrhydedd ag a gafodd gan y Prynwr mawr. Ni chafodd y greadigaeth ddim cam trwy fod y fath Berson rhagorol a Christ yn marw; canys cyfododd drachefn er ei llesâd. Ni chafodd neb gam chwaith trwy fod yr euog yn cael ei arbed; canys cyfnewidir ef, a gwneir ef yn ddefnyddiol i bawb dros byth. Dyma drefn y bydd yn syndod byth edrych arni, a bydd llesâd tragywyddol i filiynau dirifedi trwyddi.

Wrth olygu natur y prynedigaeth, y mae yn rhaid ystyried mai nid dyoddef a wnaeth Crist *er* ei bobl, *er eu mwyn*, ac *er eu llesâd*, ond dyoddef *drostynt*, ac *yn eu lle*. Llawer a ddaliant fath o brynedigaeth, os ydyw deilwng o'r enw, ond a'i gwadant yn haerllug yn yr ystyr priodol o hono. Goddefant ddywedyd i Grist farw *erddom* ni, neu *er ein llesâd*, a bod i ni lawer o fendithion trwyddo; ond iddo ddyoddef *drosom* ni, ac yn ein lle, y gospedigaeth a haeddasom, hyny nis cydnabyddant. Ond nis gwelaf un achos na rhesymoldeb iddo ddyoddef dim, os na ddyoddefodd yn gyfiawn dros ac yn lle ei bobl.

Heblaw hyny, 1. Y mae y geiriau a arferir yn yr achos hwn gan yr Ysbryd Glân yn profi hyn yn eglur; megys, λυτρον, *pridwerth*—απολυτρωσις, *pryniad*—τιμης, *gwerth*. 1 Cor. 6. 20. 'Nid â phethau llygredig, megys arian neu aur (ελυτρωθητε) y'ch *prynwyd*;—eithr â gwerthfawr waed Crist.' 1 Petr 1. 18, 19. Y Prynwr oedd Crist; y prynedigion oeddych *chwi*; a'r gwerth a dalodd oedd ei werthfawr waed.

3. Dywedir i Grist farw, nid yn unig *er* ein daioni, ond (υπερ) *drosom*, sef yn ein lle, a ni yn haeddu marw. Rhuf. 5. 6, 7. a 8. 32. 1 Petr 3. 18. Arferir gair arall, αντι, ag sydd yn neillduol yn arwyddo *am*, neu *yn lle*. Mat. 20. 28. 1 Tim. 2. 6. Llygad, αντι, *am*, neu *yn lle* llygad. Mat. 5. 38.

3. Dywedir 'iddo ei hun ddwyn ein pechodau ni yn ei gorph,' sef yn ei berson, 'ar y pren.' 1 Petr 2. 24. Yn Esa. liii. y mae hyn yn cael ei ddangos yn eglur. Yno gwelwn anwiredd a chospedigaeth *llawer* yn cael eu rhoddi ar *Un*, yr hwn a osododd ei enaid yn aberth dros bechod. Gwnawd ef yn felldith *drosom*, a thrwy hyny fel gwerth, 'a'n llwyr-brynodd oddiwrth felldith y ddeddf.' Gal. 3. 13. 'Traddodwyd ef *drosom* ni—*dros* ein pechodau ni.' Rhuf. 4. 25. a 8. 32. 'Rhoddodd ei hun *drosom*.' Eph. 5. 2. Tit. 2. 14. Yr oedd yr aberthau gynt yn cael eu traddodi *dros* ryw droseddwr, yr hwn a haeddodd ddyoddef marwolaeth, ond yr aberth a draddodwyd i farwolaeth *drosto*, a thrwy hyny y cafodd yntau ei achub; felly Crist. Esa. 53. 10. Eph. 5. 2. Ioan 1. 29. Edr. ABERTH, IAWN, GWAED.

4. Y mae ein heddwch â Duw yn cael ei briodoli yn unig ac yn hollol, i'w farwolaeth; gan hyny yr oedd, yn yr ystyr mwyaf priodol, yn bridwerth ac yn iawn. 2 Cor. 5. 18, 19. Col. 1. 20, 21, &c. Ni phriodolir yr heddwch i ddim arall yn Nghrist ond i'w farwolaeth: sef ei ufudd-dod hyd angeu. Nid i'w fywyd o eiriolaeth, ei lywodraeth, ei deyrnasiad, na'i addysg fel prophwyd, ond i'w farwolaeth yn unig. 'Canys os pan oeddym yn elynion y'n heddychwyd â Duw *trwy farwolaeth* ei Fab ef; mwy o lawer wedi ein heddychu, y'n hachubir trwy ei fywyd ef.' Rhuf. 5. 10. Nid i'w *fywyd* y priodolir yr heddychu, ond i'w *farwolaeth* yn unig.

5. Gan fod cyfiawnder yn hanfodol yn Nuw, nis gall Duw beidio a gweithredu yn gyfiawn, mwy na pheidio bod, neu iddo wadu ei hun; gan hyny, ar y caniatâd fod pechod yn bod, y mae Duw yn rhwym o angenrheidrwydd ei natur i'w gospi. Ond er ei fod yn angenrheidiol yn ol natur anghyfnewidiol y Duwdod, a'r gyfraith sanctaidd sydd yn mynegi hyny; ac er fod cyfiawnder yn gofyn iddo gael ei gospi yn y natur hòno a bechodd, ac nid mewn un arall; etto nid ydyw yn rhwym i'w gospi yn y *person* a bechodd, os

* Doddridge's *Sermon, Salvation by Grace.*

Digitized by Google

ceir un arall cwbl addas yn mhob ystyr yn foddlon i ddyoddef y gosp yn ei le; hwnw a gafwyd yn Nghrist. Heblaw hyny, er fod pechod yn ddrwg anfeidrol, ac yn ganlynol yn haeddu cospedigaeth anfeidrol; etto nid ydyw yn angenrheidiol ei bod o dragywyddol barhad, os gellir cael person addas i ddyoddef y gospedigaeth anfeidrol hon, mewn byr amser; hwnw a gafwyd yn yr Iesu, ac efe yn Dduw ac yn ddyn.

6. Pan ddywedir fod i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, ac mai gwerthfawr waed Crist yw gwerth y pryniad, ac iddo roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer, nid oes i ni feddwl mai ei farwolaeth ar y groes, neu ei ddyoddefiadau yn yr ardd, yn *unig* a roddes iawn; nagê, ond hyny a *orphenodd* yr iawn, ac ni buasai y cwbl ddim yn iawn heb hyny. Yr oedd dyoddefaint yn ei holl ufudd-dod, ac ufudd-dod yn ei holl ddyoddefaint. Un cyfanwaith yw y cwbl a wnaeth yn ei gyflwr o ddarostyngiad, ag sydd yn gwneuthur cyfiawnder mawr yr efengyl i fynu. Rhuf. 5. 19. Phil. 2. 8. Y gwaith a roddodd y Tad iddo i'w gwblhau, oedd y cwbl a wnaeth yma yn ein byd ni. Ioan 4. 34. Ni buasai ei farwolaeth heb ei ufudd-dod rhagflaenorol ddim yn iawn, na'i ufudd-dod heb ei farwolaeth. Ni ellir rhanu Crist.

7. Am ëangder a helaethrwydd y *prynedigaeth*, nis gellir ei olygu yn yr ystyr cyflawn, priodol hwn, heb ei olygu yn berthynol yn unig i'r rhai a fyddant gadwedig: ac felly mae y rhai sydd yn dal iddo brynu pawb, yn gwadu natur priodol prynedigaeth; ac felly, yn eu hystyr hwy, nis gellir byth brofi iddo farw dros neb: ac os felly, ni bydd neb yn gadwedig. Mae eu haberth hwy dros *bawb*, yn gwbl annigonol i achub *un*; nid aberth, nid iawn, nid prynedigaeth mo hono, ond enw gwag heb sylwedd. Ond nid felly ein Crist ni; ond prynodd brynedigion a etholwyd, ac a roddwyd iddo gan y Tad, i'r dyben i'w hachub, ac achubol a fyddant byth. Mae etholedigaeth, prynedigaeth, eiriolaeth, galwedigaeth, cyflawnhad, a gogoneddiad, i gyd yn tarddu oddiwrth yr un cariad tragywyddol, yn perthynu i'r un gwrthddrychau, ac yn cyfateb yn gyflawn i'w gilydd. Edr. Marw. Gwel hefyd Turretin's *Institutio Theol. Elenct. Tom.* 11. *Locus Decimus Quartus.*—John Brine *on the Christian Efficacy of the Death of Christ.*—Dr Owen *on the Death of Christ.*—Gill's *Cause of God and Truth.*

Am fod ein holl waredigaethau a'n breintiau yn dylifo i ni trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, dywedir fod Crist wedi ei wneuthur i ni yn brynedigaeth; sef yn waredwr cyflawn a digonol: a gelwir yr adgyfodiad, 'prynedigaeth ein corph;' sef cyflawn waredigaeth y corph o lygredigaeth, a holl effeithiau echryslon y cwymp. 1 Cor. 1. 30. Rhuf. 8. 23.—Ffrwythau y prynedigaeth yw maddeuant, cyflawnhad, sancteiddhad, a gogoneddiad; ïe, ein holl waredigaethau a'n cysuron, yn y byd hwn, a'r byd a ddaw. Gal. 1. 4. Eph. 5. 25, &c. Tit. 2. 14.

Gwelwn, 1. Fod pechadurusrwydd dyn yn fawr, gan nad oedd dim llai nag y fath aberth yn ddigonol drosto. ——2. Fod cariad Duw yn rhyfedd yn cael ei ganmol yn hyn. Rhuf. 5. 8.——3. Mai pechod rhyfygus yw meddwl na phwyso ar ddim arall fel iawn drosom.——4. Fod yn gwbl addas i'r pechadur gwaelaf ymffrostio yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, gyda gorfoledd buddugoliaethus. Gal. 6. 14.——6. Fod gogoniant Duw yn dysgleirio yn rhyfedd ac yn gyflawn yn wyneb Iesu Grist. 2 Cor. 4. 6.——6. Fod trefn iechydwriaeth yn sefydlog a digyfnewid byth: trefn gyflawn ydyw, ac nis gellir diddymu cyfiawnder heb wneuthur anghyfiawnder, yr hyn nis dichon y Duw cyfiawn ei wneuthur. 1 Ioan 1. 9.

'Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd bryniad y pwrcas, i fawl ei ogoniant ef.' Eph. 1. 14.—'Hyd brynedigeth y meddiant (gorescyn, ymyl y ddalen) a bwrcaswyt.' W. S.—'I orescyn rhydd-did.' Dr M.—'Hyd brynedigaeth (neu hyd waredigaeth) y bobl a brynwyd,' sef yn yr adgyfodiad. Macknight. Y mae yr Ysbryd i fod yn ernes yr etifeddiaeth, hyd nes y gwaredir yr holl bobl a brynwyd. Y mae y saint yn cael eu gaiw yn 1 Petr 2. 9. *λαος εις περιποιησιν*, *pobl briodol*, 'pobl syn yn briodyriaeth y Ddyw:' (W. S. a Dr M.) yr un gair a arferir yma a arferir hefyd yn Act. 20. 28. 'Eglwys Dduw, yr hon a *bwrcasodd* (neu a brynodd) efe â'i briod waed.' Nid anghyson, gan hyny, yw deall yr eglwys wrth y *pwrcas* yn y fan hon. Y mae y gair yn arwyddo prynu, meddiannu, neu wneuthur yn eiddo i un ei hun mewn ffordd neillduol.* Trwy drawsenwad, yr hyn a brynwyd, neu a feddiannwyd: ac yma y bobl a brynwyd. Y mae yr Ysbryd Glân yn ernes yr etifeddiaeth iddynt, hyd nes y gwaredir y rhai a brynwyd yn gyflawn o holl drueni y bywyd hwn. I'r rhai a brynwyd y mae yr etifeddiaeth; ac hyd nes y bydd iddynt ei chyflawn fwynhau, y mae yr Ysbryd Glân yn ernes o honi iddynt. Gelwir yr amser y meddianna y prynedigion eu hetifeddiaeth, 'dydd prynedigaeth.' Eph. 4. 30. Y mae dau fath o brynedigaeth, medd Musculus, sef *redemtio solutionis*, prynedigaeth trwy dalu; a *redemtio possessionis*, prynedigaeth trwy feddiannu.

PRYSGLWYN—I, (prysg-llwyn) llwyn mânwydd, prysgoed, glasgoed; coedwig.—Y prysglwyni a dorodd yr Arglwydd (Esa. 10. 34.) oeddynt fyddinoedd Senacherib yn gwarchae yn erbyn Jerusalem.

PRYSUR—O, (prws) dyfal, diwyd, astud, llafurus: —ar frys, yn fuan: ffrystio, ebrwyddo, ffullio, crysio. —Y mae prysurdeb, yn aml, yn arwyddo anystyriaeth, diffyg synwyr, ac anwybodaeth, ac y mae yn achlysur o lawer o bechod. Diar. 19. 2. a 21. 5. a 29. 20. Preg. 5. 2.——'Yn prysuro cyflawnder,' (Esa. 16. 5.) ydyw bod yn ddiwyd ac yn ddyfal, yn addysgu ac yn gwneuthur cyflawnder.——Y mae yr Arglwydd yn prysuro ei waith, pan y mae yn ddioed yn ei gyflawni yn yr amser gosodedig. Esa. 60. 22.

PSALM—AU, *Gr.* Ψαλμος; *Llad.* Psalmus; *Ffr.* Pseaume; *Saes.* Psalm: cân, cân sanctaidd. Y gair Groeg a arwydda, yn fwyaf neillduol, y cyfryw gân ag a chwareuent ar offer cerdd. Wrth Psalmau, deallir yn gyffredin, ספר תהלים (*Sepher Tehilim*) sef *Llyfr y Moliannau*; *Gr.* Βιβλος Ψαλμων, *sef Bibl*, neu *Llyfr y Psalmau.* Luc 20. 42. a 24. 44. Act. 1. 20. Gelwir y Psalmau, 2 Sam. 23. 1. זמרות ישראל sef *Psalmau Israel.* Caniadau wedi eu cyfansoddi er buddioldeb ysbrydol i Israel Duw, ac er mawl i Dduw Israel. Gelwir hwynt Llyfr y Psalmau, am fod 150 o Psalmau wedi eu casglu yn nghyd yn un llyfr neu rôl, fel na choller neb o honynt, ac fel y byddent yn fwy parod i'w defnyddio gan yr eglwys. Yr Hebrewyr a'u rhanant yn bum llyfr, pob llyfr yn diweddu gyda Psalmau xli, lxxii, lxxxix, cvi, cl. Y mae y pedwar cyntaf yn diweddu â'r gair Amen; a'r diweddaf â'r gair Alleluia. Rhai a wrthwynebant y rhaniad hwn, gan nad oes sôn yn yr ysgrythyrau ond am *un* llyfr y Psalmau. Yr oeddynt yn y drefn y maent ya bresennol yn foreu iawn. Paul yn pregethu yn Antiochia yn Pisidia, a ddywed, 'Megys ag yr ysgrifenwyd yn yr ail psalm,' &c. Act. 13. 33. Yr ail psalm yn ei ddyddiau ef yw yr ail psalm yn awr: gellir barnu, gan hyny, eu bod hwy y pryd hwnw yn y drefn bresennol. Hefyd, y maent yn yr un drefn yn yr holl hen gyfieithiadau; megys y Groeg, yr Arabaeg, y Syriaeg, a'r Lladin.—Am ditlau y Psalmau, sylwir arnynt dan y geiriau priodol. Edr. Hymn, Odl.

* Meddiannu, gwneuthur yn eiddo i un, ennill. Mintert.—Εις *απολυτρωσιν της περιποιησεως*, *h. e. των περιποιηθεντων*, hyd yr amser y prynodd Crist ei addolwyr, y (rhai a feddiannodd efe trwy ei farwolaeth, Act. 20. 28.) oddiwrth y corph. Schleusner.

Digitized by Google

Gelwir yr holl lyfr, yn aml, 'Psalmau Dafydd.' Efe, yn ddiddadl, a gyfansoddodd y rhan fwyaf o honynt, os nid y cwbl. Rhagddodir ei enw i ddeuddeg a thri-ugain o honynt. Y mae yn ammhëus pwy a gyfansoddodd y lleill. Gelwir Ps. xc., 'Gweddi Moses gwr Duw.' Ymddengys bod eraill gwedi eu hysgrifenu yn amser y caethiwed, neu wedi hyny. Rhai yn wir a farnant, mai Dafydd, trwy ysbryd prophwydoliaeth, a gyfansoddodd y rhai hyn oll. Yn mhlith yr hynafiaid, yr ydoedd yr hen dadau canlynol o'r meddwl hwn; sef Chrysostom, Ambrose, Awstin, Cassiodorus, Euthymius, a Philastrius. Yr oedd Athanasius, Eusebius, Hilarius, Jerome, &c., o'r farn wrthwyneb. Dywed Hilarius, 'Absurdum est Psalmos David dicere vel nominare, cum ibi Auctores eorum ipsis inscriptionum titulis commendantur.' *Præfat. in Psalmos, et Comment.* Ps. cxxxi. Mae yr un amrywiaeth yn mhlith yr ysgrifenwyr diweddarach. Beth bynag, y mae yn eglur eu cyfansoddi gan mwyaf gan Dafydd. Pwy a'u casglodd ac a'u gosododd yn y drefn bresennol sydd ansicr; hwyrach mai Ezra; gan nad oes dim sicrwydd, nid buddiol ychwanegu geiriau.

Dafydd ydoedd y cyntaf a gyfansoddodd ganiadau i addoliad Duw, ac a osododd y rhan hon o addoliad Duw i fynu yn rheolaidd; ac o herwydd hyny nid yn anaddas iddo gael ei alw (y mae yn ammhëus ai *efe* a alwodd ei hun felly) 'Peraidd ganiadydd Israel;' ac iddo yntau ddywedyd, 'Ysbryd yr Arglwydd a lefarodd ynof fi, a'i ymadrodd ef oedd ar fy nhafod.' 2 Sam. 23. 1, 2. Dywed Josephus, ei fod yn orchymynedig i'r Lefiaid gadw yn y deml yr holl gyfryw ganiadau a gyfansoddwyd, o bryd i bryd, er mawl i Dduw; ac y mae rhai beirniaid dysgedig yn barnu, i'r Psalmau gael eu dethol allan o rifedi llawer mwy, fel gwedi eu cyfansoddi trwy ddylanwadau yr Ysbryd Glân, ac yn ganlynol yn rhan o ddadguddiad dwyfol; ac i'r lleill gael eu gwrthod, fel yn annheilwng o'r anrhydedd hwn. Beth bynag am hyny, golygwyd yr holl lyfr, fel y mae gyda ni, yn mhob oes, heb ddim dadl, fel rhan o air Duw. Y mae yn nghylch hanner cant o'r Psalmau yn cael eu coffâu, neu â chyfeiriad atynt fel gair Duw. Dywed Crist, fod 'Dafydd yn yr Ysbryd,'—trwy yr Ysbryd Glân—'yn ei alw ef yn Arglwydd.' Mat. 22. 45. Marc 12. 37. Luc 20. 41—44. Yr apostol wrth goffâu rhan o Ps. xcv., a ddywed, 'Megys y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef,' &c. Heb. 3. 7. Yr eglwys Gristionogol, yn gynnulledig yn moliannu Duw, a ddywedodd, 'O Arglwydd—yr hwn trwy yr Ysbryd Glân, yn ngenau dy was Dafydd, a ddywedaist,' &c. Act. 4. 24, 25.

Am gynnwysiad y Psalmau, y maent yn ddyfyriad, neu grynodeb o'r hyn sydd yn gynnwysedig yn yr holl ysgrythyrau, ac y maent yn berthynol i bob cyflyrau ac achosion. Traethant am fawrion weithredoedd Duw, mewn iaith ac ymadrodd mwyaf addas, addurnedig, gorchestol, ac ardderchog, o ddim a ysgrifenwyd erioed mewn unrhyw iaith yn y byd. Traethant yn achlysurol am greadigaeth y byd, ac am oruchwyliaethau rhagluniaethol a grasol Duw; am weithredoedd y patrieirch; am ymadawiad Israel o'r Aipht, a'u taith trwy yr anialwch, a'u sefydliad yn ngwlad Canaan; eu cyfraith, eu hoffeiriadaeth, a'u defodau crefyddol; am orchestwaith ffyddiog eu cedyrn; eu pechodau a'u caethiwed; eu hedifeirwch a'u hadferiad; am ddyoddefiadau a buddugoliaethau Dafydd; am deyrnasiad heddychol Solomon:—yn neillduol ac yn benaf, am ddyfodiad y Messïah, a'r effeithiau a'r canlyniadau o hyny; am ei gnawdoliaeth, ei enedigaeth, ei fywyd, ei ddyoddefiadau, ei farwolaeth, ei adgyfodiad, ei esgyniad, ei deyrnas, a'i offeiriadaeth; tywalltiad yr Ysbryd Glân; galwad y Cenedloedd; gwrthodiad yr Iuddewon; sefydliad, cynnydd, a pharhad yr eglwys Gristionogol; diwedd y byd; y farn ddiweddaf; dinystr tragywyddol yr annuwiolion, a buddugoliaeth orfoleddus y cyfiawnion, yn nghyd â'u Brenin a'u Harglwydd. Dyma y pethau pwysig a osodir o'n blaen yn llyfr y Psalmau, er ein myfyrdod a'n hadeiladaeth; a hyny yn y dull mwyaf dengar, ardderchog, ac addurnol prydyddiaeth. Y mae y prophwydoliaethau sydd ynddo mor fanwl ac mor neillduol am Grist, ei Berson, a'i swyddau; ei ddarostyngiad, ei waith, a'i ddyoddefiadau; ei farwolaeth, ei adgyfodiad, ei esgyniad, a'i ogoniant yn y nefoedd; llwyddiant yr efengyl, a sefydliad ei deyrnas yma yn y byd, yn y naill a'r llall o'r Psalmau, fel y gellir cyfansoddi hanes lled gyflawn o honynt o lyfr y Psalmau yn unig, a hyny gyda manylrwydd anaml yn arferedig gan haneswyr. Y mae hyd yn nod y geiriau a arferodd Crist ar y groes, a geiriau gwawdlyd ei elynion, gwedi eu cymeryd o'r Psalmau 22. 1, 8. a 31. 5. cymh. Mat. 27. 43, 46. Marc 15. 34. Luc 23. 46. Y mae llawer o Psalmau cyfain yn brophwydoliaethau eglur am Grist. Y mae natur yr undeb rhwng Crist a'i bobl y fath, fel y mae y geiriau sydd yn yr holl gyflawnder o honynt yn briodol i Grist yn *unig*, etto mewn is radd yn briodol i'w bobl; iselhau y mater yn ddirfawr fyddai gadael Crist allan, a'u priodoli yn unig i'w bobl: Traethir am Dafydd yn aml fel cysgod; ond yn Nghrist, y gwrthgysgod mawr, y mae y geiriau yn cael eu cyflawni yn eu holl ëangder a'u hardderchawgrwydd. Y neb a ddarlleno y Psalmau, heb ganfod Crist ynddynt, a'u darllen â'r gorchudd Iuddewaidd ar ei feddwl; 'Hyd y dydd heddyw,' medd yr apostol, 'y mae yr un gorchudd, wrth ddarllen yn yr Hen Destament, yn aros heb ei ddadguddio—y mae y gorchudd ar eu calon hwynt.' 2 Cor. 3. 14, 15. Mewn rhyw ddull, er yn wahanol, y mae y Psalmau oll yn cyfeirio meddwl ysbrydol at Grist. Yr oedd Crist, yn ei gyflwr o ddarostyngiad, yn holl weithrediadau ei feddwl, yn tebygu yn hynod i'w bobl; neu, yn hytrach, hwy yn tebygu iddo ef: eu trallodion, eu gelynion, eu cysuron, a'u cynnaliaeth, oeddynt yr un: yn ol gradd eu tebygolrwydd iddo, y mae gweithrediadau eu meddyliau tu ag at Dduw, at gyfraith Duw, ei achos, a'i bobl; tu ag at bechod, annuwiolion, Satan a'i deyrnas, yn cyfateb i weithrediadau sanctaidd ei feddwl yntau: yn unig ei fod yn berffaith ddibechod yn y cwbl, a bod ei sancteiddrwydd, ei drallodion, a'i lawenydd, yn rhagori i raddau difesur. Yr oedd enaid Crist yn cyfateb yn berffaith i'r holl eiriau yn Ps. cxix., yn yr holl rym, ëangder, a chyflawnder o honynt, sydd yn gosod allan hyfrydwch y duwiolion yn nghyfraith a thystiolaethau Duw; mewn is radd, y mae pob duwiol yn gwybod ychydig am yr un gweithrediadau sanctaidd. Yr hyn oedd efe yma yn berffaith, fydd yr holl eglwys yn ei holl aelodau yn fuan, a thros byth. Bydd y fath gysondeb cyfatebol yn y nefoedd, fel pe na byddai ond un enaid yn gweithredu yn mhawb.

Cyfansoddiad barddonol ydyw y Psalmau i gyd; ac fel ag y mae llawer o amrywiaeth yn nghynnwysiad y Psalmau, felly hefyd y mae yn y brydyddiaeth.—1. Y mae rhai o honynt yn addysgiadol ac athrawiaethol; megys y i, v, vii, ix, x, xi, xii, xiv, xv, xvii, xxiv, xxv, xxxii, xxxiv, xxxvi, xxxviii, l, lii, liii, lviii, lxxii, lxxx, lxxxiv, xci, xcii, xciv, cxii, cxix, cxxi, cxxv, cxxvii, cxxviii, cxxxiii.——2. Y mae eraill yn annogaethol; megys y xxxiv, xxxvii, &c.——3. Eraill yn gysurol; a'r dyddanwch yn tarddu oddiwrth yr athrawiaethau sydd yn gynnwysedig ynddynt; megys y xxiii, xxxvii, xci, cxxi, cxxv, &c.——4. Eraill yn historiawl; megys y lxxviii, cv, cvi.——5. Eraill yn brophwydoliaethol; megys yr ii, xvi, xxii, xl, xlv, lxvii, lxxiii, lxxxvii, cx, cxviii.——6. Eraill yn edifeiriol, yn gosod allan weithrediadau enaid edifeiriol: y mae saith a enwir felly; sef y vi, xxii, xxxviii, li, cii, cxxx, cxliii.——7. Y mae eraill gan mwyaf yn erfyniol, neu archiol, yn cynnwys erfyniau a gweddïau drosom ein hunain,



Digitized by Google

a thros eraill hefyd, am fendithion, ac yn erbyn drygau; megys y iii, iv, v, vii, x, xii, xiii, xvii, xx, xxi, &c. ——8. Y mae eraill yn Psalmau o ddiolchgarwch; yn moli Duw am ei rinweddau, ac am ei fendithion i ni; megys yr viii, ix, xviii, xxix, xxx, xxxiv, xlviii, lxxv, lxxvi, lxxviii, &c.

Y mae y cyfansoddiad o ran yr iaith, yr ymadrodd, a'r addurniadau, yn cyfateb yn hynod i'r mater y traethir yn ei gylch. Y mae saith o honynt, o ran eu cyfansoddiad yn yr Hebraeg, yn egwyddorol; a elwir felly am fod pob llinell neu adnod yn dechreu â llythyren o'r egwyddor Hebraeg; sef y xxv, xxxiv, xxxvii, cxi, cxii, cxix, cxlv. Y Psalm xxxvii, sydd yn dechreu bob yn ail adnod â llythyren o'r egwyddor. Yn Ps. cxi, cxii, y mae pob llinell yn dechreu âg un o'r llythyrenau Hebraeg, fel y mae dwy yn mhob adnod. Ps. cxix, sydd yn cynnwys dau ar hugain o ddosparthiadau o wyth adnod, a phob adnod yn y dosparth yn dechreu â'r un llythyren; y mae llythyren yn perthyn i bob dosparth, a phob adnod o'r wyth yn dechreu â'r llythyren hòno.

Y mae llyfr y Psalmau gwedi bod yn mhob oes o'r defnydd mwyaf i bersonau neillduol, ac i eglwys Dduw yn gyffredinol. Nid oedd dim caniadau eraill, yn gyffredinol, yn arferedig yn addoliad Duw yn gyhoeddus yn yr eglwysi Cristionogol dros amryw oesoedd; er bod amrywiol bleidiau agos gwedi eu taflu allan yn hollol yn awr, a chwedi cymeryd hymnau o gyfansoddiad dynol yn eu lle.

Mae dau gyfieithiad o'r Psalmau yn yr iaith Gymraeg, fel sydd yn y Saesonaeg: un yn y Bibl, a'r llall yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Argraffwyd y cyfieithiad sydd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin yn Saesonaeg yn A. D. 1539, ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Y mae y cyfieithiad hwnw yn agosach i gyfieithiad Groeg y LXX. nag ydyw i'r Hebraeg, ac nid ydyw mewn un ystyr i'w gymharu â'r cyfieithiad sydd yn y Biblau. Yn yr argraffiadau A. D. 1752 a 1790, cyfnewidiwyd y cyfieithiad sydd yn y Biblau i ateb i hwnw, trwy roddi y geiriau gwahanol rhwng cromfachau. Er bod rhai llinellau yn anystwyth, a rhai geiriau yn annealladwy i'r cyffredin, yn yr oes bresennol, yn nghyfieithiad yr Archddiacon Prys o'r Psalmau ar fesur cerdd i'r iaith Gymraeg, etto, a'i olygu i gyd efo ei gilydd, rhaid i bawb deallus ei farnu yn rhagorol, ac yn rhoddi meddwl yr Ysbryd Glân allan mor gywir ag a wnawd, neu a ellid ei wneuthur, mewn un cyfieithiad. Yn A. D. 1603, argraffwyd yn Llundain gyfieithiad ceinwych o'r Psalmau ar y pedwar mesur ar hugain, wedi ei gyfansoddi gan y Cadben William Middleton, o deulu Gwaunynog, Sir Ddinbych. Rhoddir ar ddeall i ni, mewn côf-nôd yn ei ddiwedd, ddarfod i'r awdwr orphen y gwaith gorchestol hwn yn yr India Orllewinol, Ionawr 24, 1595. Argraffwyd ef ar ol ei farw gan Thomas Salisbury.

Y mae amryw awdwyr wedi ysgrifenu yn odidog ar lyfr y Psalmau; megys Muis, Gierus, Frankius, Molierius, Johannes Foord, Coccejus, Venema, yn Lladin. Yn Saesonaeg, Dixon, Ainsworth, Hammond, Arthur Jackson, Ed. Leigh, George Abbot, Esgob Horne.*

PSALTRING—AU, *Gr.* Ψαλτηριον; *Llad.* PSALTERIUM; *Ffr.* PSEAUTIER; *Saes.* PSALTERY. Cyfieithir y gair *Heb.* נבלים *psaltringau*, yn 1 Bren. 10. 12. Y gair *Heb.* מזמרות a gyfieithwyd *psaltringau*, yn 1 Bren. 7. 50. 2 Bren. 12. 13. 2 Cron. 4. 22. Jer. 52. 18. gan ei olygu yn arwyddo, tybygaf, rhyw offeryn cerdd; a gyfieithir yn Saesonaeg yn y lleoedd uchod, *snuffers*. Y mae y gair fel berf, yn arwyddo tòri, ysgythru coed. Lef. 25. 3, 4. Esa. 5. 4. Fel enw cadarn, arwydda, ac yn cael ei gyfieithu Psalm, neu gân wedi ei thrwsio a'i thaclu yn gymhen oddiwrth bob peth afreidiol. Oddiwrth yr ystyr diweddaf y cyfieithwyd ef yn ein dau gyfieithiad ni *psaltringau*, yn arwyddo offerynau cerdd. Cyfieithwyd ef yn *Targum Ion.* a chan Montanus, PSALTERIA.—INSTRUMENTA MUSICA, gan Juuius, Tremelius, a Buxtorf, a Vetablus. Gair arall a gyfieithir *psaltring*, yn Dan. 3. 5, 7, 10, 15., ac yn arwyddo offeryn cerdd. Edr. SALLTRING.

* Heblaw yr awdwyr a enwyd uchod, cyfeirir y darllenydd at y rhai a ganlyn: Mason Good, Esgob Horsley, Bush, Creswell, Rosenmuller, Hengstenberg, Calvin.—C.

PSALLWYR, LLASWYR, SALLWYR, offeryn cerdd tebyg i delyn, ond ei fod yn bereiddiach. Gwel Dr Davies.

> Cymerwch gathl y *sallwyr* lân,
> A moeswch dympan hefyd.
>
> *E. Prys*, (Ps. 81. 2. a 132. 16.)

PTOLEMAIS, porthladd yn ngwlad Judea, yn agos i fynydd Carmel, a alwyd felly oddiwrth Ptolemy brenin yr Aipht. Actau 21. 7. Accho ydoedd ei henw ar y cyntaf. Yr oedd yn ddinas helaeth, a'i sefyllfa yn gyfleus ar lân Môr y Canoldir.

PUAH, פואה [*hardd*] 1. Mab Issachar, a phen teulu. Gen. 46. 13. Num. 26. 23. 1 Cron. 7. 1. ——2. Un o'r bydwragedd yn yr Aipht. Exod. 1. 15, 16. Edr. SIPHRAH.

PUBLICAN, *Llad.* PUBLICANUS; *Ffr.* PUBLICAIN; *Saes.* PUBLICAN: treth-gasglydd yn mhlith y Rhufeiniaid. Yr oedd dau radd o honynt, sef uwch ac is radd. Y mae yn ddilys fod yr uwch radd trwy yr ymerodraeth Rufeinaidd, yn gyffredinol, gwedi eu cymeryd o blith y marchogion (*knights*). Y publicanod a sonir am danynt yn yr efengylwyr, oeddynt, gan mwyaf, yn Iuddewon. Luc 3. 12. Mat. 10. 3. a 18. 17. Am hyny, tebygol, eu bod o'r is radd bublicanod, ac ya cadw math o dollfäodd dan y marchogion, neu y pen-publicanod. Gelwir Zaccheus, er ei fod yn Iuddew, yn 'ben-publican.' Luc 19. 2, 9. Yr hyn sydd yn dynodi, hwyrach, ei fod yn ardrethu y trethi cyffredin, ac yn cadw treth-gasglwyr tano. Yr oedd y rhai oedd yn Iuddewon o genedl yn cael eu hanrhydeddu â'r gradd o fod yn farchogion Rhufeinaidd. Gwel Josephus, *de Bel.*, *lib.* ii., *cap.* 14. Yr oedd yn dra ffiaidd gan y genedl Iuddewig yr Iuddewon a gymerent y cyfryw swydd arnynt; nid yn unig am fod y cyfryw yn gyffredin yn anghyfiawn ac yn orthrymllyd, ond hefyd o herwydd eu casineb i'r llywodraeth Rufeinaidd yr oeddynt dani; ac yr oeddynt yn golygu yr Iuddewon hyny a gynnorthwyai i gasglu y trethi, yn elynion ac yn fradychwyr eu gwlad: yn gwerthu eu rhyddid, ac yn gynnorthwywyr i'r caethiwyr. Ni oddefent iddynt, meddant, i fyned i'r deml, nac i'r synagog, nac i ymuno yn y gweddïau cyffredin, nac i fod yn dystion mewn un achos, ac ni dderbynient eu rhoddion yn y deml, mwy na phe buasent yn werth gwaed. Gwel Lightfoot, *Hor. Heb. in* Mat. Dangosodd yr Arglwydd Iesu, o'i raslonrwydd, lawer o hynawsedd-dra a thiriondeb tu ag at y cyfryw, ac achubwyd llawer o honynt, tebygol, yn ei ddyddiau. Dywedodd wrth y Phariseaid yr âi publicanod a phuteiniaid i deyrnas nefoedd o'u blaen hwy. Mat. 21. 31. Luc 15. 1. a 18. 10—14. a 19. 1—10.

PUBLIUS, penaeth yn ynys Melita neu Malta. Derbyniodd Publius Paul a'i gyfeillion, ac a'u lletyodd dridiau yn garedig. Iachaodd Paul dad Publius, yr hwn oedd gláf o gryd a gwaedlif. Dywedir i Publius, ei dad, a thrigolion yr holl ynys, gael eu dychwelyd at y ffydd Gristionogol, ac i Publius gael ei wneuthur yn bregethwr ac yn esgob gan yr apostol; ei fod yn esgob yn Athen, a'i ferthyru yno: ond nid yr un Publius oedd hwnw. Act. 28. 7.

PUDENS, un o'r brodyr yn Rhufain, a goffëir gan Paul. 2 Tim. 4. 21. Nid oes dim ychwaneg o hanes am dano.

Digitized by Google

PUL, neu PHUL, brenin Assyria. Duw a annogodd Pul i ddyfod yn erbyn gwlad Israel, a Menahem a roddodd iddo fil o dalentau arian am ei gynnorthwyo a'i sefydlu ar yr orsedd, ac ymadael â'r wlad. 2 Bren. 15. 19. 'A Duw Israel a annogodd Pul brenin Assyria, ac ysbryd Tiglath-pilneser brenin Assyria, ac a'u caethgludodd hwynt,' &c. 1 Cron. 5. 26. Pwy ydoedd, nid yw haneswyr yn cytuno. Usher, Rollin, Calmet, a Prideaux, a farnant mai tad Sardanapulus oedd, ac iddo chwanegu Pul at Sardan; eraill a farnant mai yr un oedd a Baladan, neu Belesis, ac a'i cyfrifant y cyntaf a sefydlodd ymerodraeth Assyria. Nad oedd un ymerodraeth yn Assyria cyn amser Pul, sydd eglur oddiwrth yr ysgrythyrau, ac hanesion teyrnasoedd cymydogaethol. Efe yw y cyntaf o freninoedd Assyria a enwir yn yr ysgrythyrau wedi Nimrod; a gellir barnu, gyd âg addasrwydd, ei fod yn teyrnasu yn Ninifeh pan aeth Jonah yno i bregethu. Gwel *Universal History, vol.* iv.

PULPUD, *Llad.* PULPUTUM; areithfa, areithle, cadair ymadrodd. Neh. 8. 4.

PUMP, *Gr.* *πεστɜ (pente) Æolic, πεμπε (pempe)* *Llad.* QUINQUE; *Corn. & Arm.* PEMP. Dywed Mr Locke bod Indiaid yn America, a elwid Tououpinambos, heb enwau rhifyddiaeth uwchlaw pump, nifer eu bysedd; i wneuthur uwch na hyny allan, dangosant eu bysedd eu hunain a bysedd eraill yn bresennol.

PUNON, פנין [*maen gwerthfawr*] gwersyllfa yr Israeliaid yn yr anialwch. Yma, neu yn Salmonah, y gosododd Moses y sarph bres i fynu ar drostan, yn feddyginiaeth i'r tuchanwyr a frathwyd gan y seirph tanllyd. Num. 33. 42, 43.

PUNT, PUNNOEDD, (pun) enw a roddir ar ugain swllt o arian bathol.—'Ac a roddes iddo ddeg punt.' Luc 19. 13, 25. 'Dec darn o vath.' W. S. *δεκα μνας, deg mna.* Arfer y LXX. y gair hwn yn aml yn gyfieithiad o'r gair *Heb.* מנה *maneh*, o ba un y mae yn tarddu; ac oddiwrth y geiriau yn Ezec. 45. 12. ymddengys fod *maneh* yn cyfateb i driugain sicl. Edr. MANEH. 'Pum mil o bunnoedd.' Ezra 2. 69. Neh. 7. 71. *Heb.* מנים *menaim.*

PUR—O—AIDD—DEB—EDIG—AETH—ION, (py-ur) *Heb.* בר *bar*; *Llad.* PURUS; *Saes.* PURE; glân, coeth, dihalog, difrycheulyd, digymysg, disothach, dilwgr, dinam; diragrith, dihoced, diffuant, uniawn. Edr. CREFYDD, CYDWYBOD, DIHALOG, EBRAN, GAIR, GLAN, GWEFUS, MORWYN.—Un pur, yw un heb gamwedd. Job 33. 9.—Calon bur, yw calon newydd, uniawn, ddiragrith, a digariad at bechod; yn caru ac yn hiraethu am burdeb; yn caru Duw am ei fod yn bur; yn caru Crist am ei fod yn puro, yn nghyd â'i holl orchymynion, a'i oruchwyliaethau sancteiddiol. Ps. 24. 4. Mat. 5. 8. 1 Tim. 1. 5. 2 Tim. 2. 22.—'Fel y byddoch bur a didramgwydd.' Phil. 1. 10. *ειλικρινης, anniwynedig, dianaf, diragrith*; yn goddef edrych arno yn ngoleu yr haul.

'Pa bethau bynag sy bur.' Phil. 4. 8. *οσα αγνα, diwair, dihalog, sanctaidd.* Yn 1 Ioan 3. 3. priodolir y gair hwn i Grist ei hun, yr hwn oedd sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid. Heb. 7. 26. a 4. 15. 1 Petr 1. 19. a 2. 22. Cymh. Tit. 2. 5. Iago 3. 17. 2 Cor. 11. 2. 1 Tim. 5. 22. —'Meddwl puraidd.' 2 Petr 3. 1. Edr. MEDDWL.

'Gwedi puro eich eneidiau, gan ufuddhau i'r gwirionedd trwy yr Ysbryd.' 1 Petr 1. 22. Y mae eneidiau dynion wrth naturiaeth yn anmhur; mae peth gwaelach na hwynt-hwy yn glynu wrthynt, ac yn eu hanurddo, eu hanharddu, a'u llygru, sef pechod. Y mae yn angenrheidiol anhebgorol eu puro. Ni ddichon fod byth gymdeithas rhwng Duw pur ac enaid anmhur; ac heb gymdeithas â Duw, ni ddichon fod dim dedwyddwch i ddyn byth. Gwaith yr Ysbryd Glân yn unig yw puro eneidiau dynion. Nis dichon neb arall wneuthur hyny; ond ni fethodd ac ni phallodd efe erioed. Trwy y gwirionedd, sef yr efengyl, ac ufudd-dod i'r gwirionedd, y mae yn puro eneidiau ei bobl. Y mae yr efengyl yn bur; os felly, ni ddichon neb ufuddhau i'r efengyl bur hon, heb yn yr ufudd-dod hwn gael ei buro. Trwy weithredu yn enaid pechadur ufudd-dod i'r gwirionedd, sef tystiolaeth wir Duw am yr Iesu, &c., y mae yr Ysbryd Glân yn ail-eni dynion, a thrwy hyny yn eu puro. Gan fod y gwirionedd yn gwbl bur, ni ddichon neb fod yn groes i'r gwirionedd a bod yn bur; ac ni ddichon neb ufuddhau i'r gwirionedd heb fod yn bur.

'Wele, myfi a'th burais, ond nid fel arian; dewisais di mewn pair cystudd.' Esa. 48. 10. '*Not with silver.*' *Saes. Nid gyd âg arian.* בכסף *gyd âg arian.* Dywedir fod yn hawddach toddi aur nag arian, a bod yn rhaid, yn ganlynol, wrth boethach tân i doddi arian. 'Nid gyd âg arian' y purais chwi, medd Duw; ni chystuddiais chwi yn greulon ac yn ddidrugaredd; eithr dewisais, hoffais, tosturiais wrthych yn y pair. Y mae yn eu puro fel arian oddiwrth eu holl sothach, ond 'nid gyd âg arian,' eithr mewn tân arafach, a llai poeth; cafwyd y dyben trwy foddion mwy araf a thyner.

PUTAIN—EINDRA—IO—IAID, (pud) *Heb.* פרת *gwarthle*; *Gr.* *πορνη*; coegen, dyhirog, anlladferch, mwyglen, symlogen; anlladrwydd, budrogaidd. Edr. GODINEB, RAHAB.——'Nid oedd yma un butain.' Gen. 32. 22. לא היתה בזה קדשה hyny yw, *Nid oedd yma un gysegredig.* Cysegredig i bwy? Diammeu i ryw eilun-dduw: i Baal-peor, medd Jerome, neu Priapus, neu Venus. Yr oedd puteindra yn rhan o addoliad y duwiau ffiaidd hyn, a merched a meibion hefyd, i'r dyben hyny, yn cael eu cysegru iddynt.——'A gwyr Sodomiaidd oedd yn y wlad.' 1 Bren. 14. 24. *Heb.* קדש *cysegredig.*——'Gwyr Sodomiaidd.' *Heb.* קדשים *gwyr cysegredig.* 1 Bren. 15. 12.——'Lle yr oedd y gwragedd yn gwau cortynau i'r llwyn.' 2 Bren. 23. 7. *Heb.* אירגית בתים לאשרה *Gwau lleoedd cauedig i Venus,* sef *i buteindra.* O ffieidd-dra digywilydd plant dynion dan y cwymp!

'Y butain fawr sydd yn eistedd ar ddyfroedd lawer,' yw y wraig oedd yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad, yn llawn o enwau cabledd, â saith ben iddo, a deg corn, sef Rhufain Babaidd. Dat. 17. 1, 3. Y mae gwedi puteinio oddiwrth wir grefydd at goel-grefydd ac eilunaddoliaeth; ac wedi hudo llawer eraill gyda hi, sef breninoedd y ddaear a'u deiliaid. Llygrodd y ddaear â'i phuteindra, ac y mae ei barn yn agos, ac yn ofnadwy. Dat. xvii. a 19. 2.

PUTEOLI, PUZZOLO, (ffynonau) dinas yn Campania, wyth milltir o Naples, a chan milltir o du y dehau i Rufain. Yma yr aroesodd Paul, gyd â'r brodyr oedd yno, saith niwrnod. Act. 28. 13.

PUTIEL, פוטיאל [*Duw yw fy mraster*] tad gwraig Eleazar, mab Aaron, a thaid Phineas. Exod. 6. 25.

PWDR—YDRU, (pwd) *Llad.* PUTRIS; braen, braenllyd, llygredig, abar. Num. 5. 21. Job 41. 27. Jos. 38. 11.

PWL—YLU, (py-wl) pylni, difin, anfiniog, tynu ymaith y min.—'Os yr haiarn a byla, oni hoga efe y min, rhaid iddo roddi mwy o nerth: etto doethineb sydd ragorol i gyfarwyddo.' Preg. 10. 10. 'Os wedi i'r fwyall bylu, ni hogir ei min hi ond ymdrechu â hi, etto doethineb a uniawna y gwaith yn rhagorol.' Dr M. Tybygaf fod y cyfieithiad awduredig presennol yn fwy cywir na chyfieithiad y Dr M. Yr ystyr yw, tebygol, os bydd rhyw un am gyflawni rhyw orchwyl

Digitized by Google

pwysfawr, neu ddwyn i ben gyfnewidiadau daionus, rhaid iddo fyned rhagddo yn ochelgar, ceisio cynnorthwyon addas, a meddylfryd oeredd, a pharhad diymmod, heb ddysgwyl cyflawni dim trwy rym a thrawsder, yr hyn nid yw ddigon i hollti darn o bren; yn yr holl bethau hyn y mae doethineb yn ddefnyddiol i gyfarwyddo at foddion addas ac achlysuron, i ochelyd niwed, ac i ddyn lafurio ac ymboeni yn ofer. Preg. 10. 15. a 9. 15, 17.

PWLL—AU, (py-wll) ffos, clawdd, cladd, ffosle, pydew.—Pwll, yn aml, a arwydda, y bedd. Ps. 28. 1. a 30. 3. a 88. 4, 6. Esa. 38. 18.——'Pwll diwaelod,' y gelwir uffern. Dat. 11. 7. Cyfleithir yr un gair *αβυσσος (abyssos) dyfnder*, Rhuf. 10. 7. Luc 8. 31. —*pydew diwaelod*, Dat. 9. 1, 2, 11. a 17. 8. a 20. 1, 3. Rhyw le ofnadwy iawn ydyw; canys oddi yno y daeth holl gyfeiliornadau, celwyddau, halogedigaeth, a chreulondeb y gau-brophwyd, y ddraig, ac Anghrist; ac yno y poenir hwynt byth. Gan Iesu Grist y mae agoriadau y pwll, neu y pydew hwn. Dat. 20. 1. a 1. 18.

PWN, PYNAU, (pw) baich, llwyth, clud, bwrn. Gen. 49. 14. Exod. 23. 5.

PWNC, PYNCIAU, (py-wnc) *Llad.* PUNCTUS: nôd, arwydd, amlygu; y peth lleiaf, mymryn; tônnôd, sein-nôd; attaliad; y mater yn llaw ag y traethir yn ei gylch.—'Pwy bynag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwnc, y mae efe yn euog o'r cwbl.' Iago 2. 10. 'Ac a ballo (*εν ενι*) mewn *un*,' sef un gorchymyn. Adn. 11. Un rhoddwr cyfraith sydd; mae ei awdurdod yn gydradd yn mhob gorchymyn; a'r neb a droseddo *un*, sydd yn pechu yn erbyn yr awdurdod sydd yn mhob gorchymyn, ac a droseddai bob un hefyd yn yr un amgylchiadau a chyfleusdra. Gan nad awdurdod Duw yn y gorchymyn sydd yn ei attal rhag pechu, nid yw troseddu y naill orchymyn, neu y llall, ond yr un peth. Gal. 3. 10. Ps. 119. 6.

PWR, *Heb.* פור [*coelbren, cwtws*]. Gair Caldaeg, neu Bersiaeg—'Efe a barodd fwrw Pwr (hwnw yw y coelbren).' Esth. 3. 7.—'Efe a fwriasai Pwr.' Esth. 9. 24. Gwaith Haman yn bwrw Pwr o ddydd i ddydd, ac o fis i fis, oedd, yn ol coel-grefydd yr oes a'r wlad hòno, i gael gwybod y dydd mwyaf addas a llwyddiannus i gyflawni ei amcan a'i fwriad creulon i ddinystrio a dyfetha yr Iuddewon. Gwelodd yr Arglwydd yn dda fod y dydd y cafwyd yr arwydd arno yn llwyddiannus, un mis ar ddeg yn ol. Y cyfryw ydoedd coel-grefydd Haman, fel nad anturiodd ddim cyn i'r amser hwnw ddyfod; er nas gallasai lai na meddwl y gallasai llawer peth ddygwydd yn y cyfamser i attal ei gyflawniad; sef y gallasai y brenin newid ei feddwl, neu farw; ac y gallasai yr Iuddewon, ryw ffordd neu gilydd, gael diangfa, neu fodd i amddiffyn eu hunain. Cafwyd fel hyn amser i ddiddymu yr holl gydfrad; dangoswyd gwagedd y cyfryw ofergoelion a defodau celwyddog, a rhagluniaeth neillduol Duw ar bob peth, a'i ofal manwl am ei eglwys yn mhob amgylchiad.

Gosododd Esther a Mordecai ŵyl y Pwrim i'w chadw yn goffadwriaeth am y waredigaeth ryfedd hon ar y trydydd dydd ar ddeg o fis Adar, yn cyfateb i ran o fis Chwefror. Cedwir yr ŵyl hyd heddyw gan yr Iuddewon, gan ddarllen llyfr Esther trosodd fwy nag unwaith, gyda llawer o ddefodau cyfatebol i'r achos; ac yn diweddu y cwbl gyda llawer o loddest, anghymedroldeb, ac ynfydrwydd, yn anfuddiol ac yn annheilwng i'w hadrodd.

PWRCAS—U, *Llad.* PERQUISITUM; *Ffr.* PURCHASSER; *Saes.* PURCHASE: pryniad, peth wedi ei brynu; prynu. Eph. 1. 14. Act. 1. 18. a 20. 28. Edr. PRYNU.

PWRS—AU, *Gr.* *βυρσα*; *Ffr.* BOURSE; *Ital.* BOURSA; *Saes.* PURSE: alwar, anner, côd. Gelwir trysorau y nefoedd 'yn byrsau y rhai ni heneiddiant,' am na chollir, ac na ddiflanant byth. Luc 12. 33. ——'Pan y'ch anfonais heb na phwrs, na chôd, nac esgidiau,' &c. Luc 22. 35.—'Eb gwd, ac yscrepan, ac ysgidiae.' W. S.—'Na ddygwch (*βαλαντιον μη πηραν*) gôd, nac ysgrepan.' Luc 10. 4. Y mae dan air Groeg agos yr un ystyr; felly hefyd y golyga ein cyfieithwyr ni hwynt; yr oedd un, sef y *βαλαντιον*, *purs*, yn fwy priodol i ddwyn arian ynddo; a'r *πηραν*, y *gôd*, neu yr *ysgrepan*, fel sachell i ddwyn angenrheidiau eraill i'r daith.

PWY, rhagenw, (pw) beth? yr hwn, y sawl, y neb, y rhai, &c.

Parch a barcho *pwy* byna bo. *Diar.*

—'Pwy yw hon?' Can. 8. 5.—'Pwy yw hwn?' Esa. 63. 1.

PWYLL—O—OG, (pwy-yll) doethineb, callineb, synwyroldeb, ystyriol, synwyrol.

Gwell *pwyll* nog aur. *Diar.*
A fo da ei *bwyll* a fydd diboen. *Diar.*

'Dyfroedd dyfnion yw pwyll yn nghalon gwr.' Diar. 20. 5.——'Ni roddes Duw i ni ysbryd ofn; ond ysbryd nerth, a chariad, a phwyll.' 2 Tim. 1. 7. Dyma yr agwedd hyfryd y mae yr Ysbryd Glân yn ei weithredu ar eneidiau y saint. Y mae nerth yn groes i anwreidd-dra, annewredd, llyfrder; y mae cariad yn groes i greulondeb a diystyrwch o eraill; a phwyll yn arwydd o hunan-lywodraeth, ac ystyriaeth ddifrifol pa fodd i weithredu yn y modd mwyaf addas, o ran ein hunain, ac o ran yr efengyl, ac er llesâd eraill. Rhodd Duw yw yr ysbryd gwerthfawr hwn.——Yr ysbryd ofn yma sydd yn arwyddo ofni lle nad oes perygl, neu ofni y perygl yn anaddas; a thrwy hyny, arfer moddion anaddas er diogelwch. Mam a mammaeth holl goel-grefyddau y byd yw yr ofn hwn; ac hefyd holl anffyddlondeb dynion yn achos yr efengyl. Y mae ysbryd pwyll yn groes i wallgofrwydd crefyddol (*enthusiasm*) yn credu peth heb sail, neu yn dysgwyl am beth heb arfer moddion addas i hyny, neu lawenychu mewn rhith o beth yn lle sylwedd y peth.

PWYNTIO, (pwynt) tewychu, pesgi, brasâu. Deut. 32. 15.

PWYS—O—WR, (pwy-ys) llwyth, baich, pwn; cloriannu, tafoli; gwasgu yn drwm; ystyried; profi. —Y mae pwys, a phwysau, yn arwyddo profiedydd, neu brawf-bwys, i bwyso eiddo marchnadol. Gan nad oedd gan yr Iuddewon, nac amryw genedloedd eraill, ddim arian bathol am hir amser, yr oeddynt yn eu pwyso yn eu marchnadoedd. Y sicl, y maneh, a'r dalent, oeddynt yn ddechreuol enwau pwysau. 'Sicl y cysegr' a elwid felly, nid am fod dau fath o bwysau, ond am fod y prawf-bwys a'r prawf-fesur yn cael eu cadw yn y cysegr.

'Amryw bwys, mawr a bychan,' un i brynu, a'r llall i werthu wrtho, a waherddir yn nghyfraith Duw, yr hwn a gâr gyflawnder, ac a gasâ anghyflawnder yn mhawb. Deut. 25. 13. Diar. 20. 10.

Duw 'yn pwyso y mynyddoedd mewn pwysau,' a arwydda ei berffaith wybodaeth o honynt, a'i lywodraeth arnynt. Esa. 40. 12. Y mae Duw wedi ffurfio a chyfleu y mynyddoedd gyda manylrwydd doethineb; gwnaeth hwynt megys wrth fesur a phwysau; a rhoddodd hwynt yn y maintioli yr oedd efe yn ei weled yn oreu, yn y lleoedd y maent yn sefyll ynddynt. Y mae y geiriau yn hynod yn mynegi mawredd, gallu, a doethineb Duw.

'Yr Arglwydd a bwysa yr ysbrydion—onid yw pwyswr y calonau yn deall?' Diar. 16. 2. a 24. 12.

Digitized by Google

Y mae yn canfod, yn ystyried, ac yn sylwi yn fanwl, ac yn gwybod yn berffaith ac yn drwyadl, yn eu holl weithrediadau, eu cymhelliadau, a'u dybenion, fel y gallo farnu yn gyfiawn.

Y mae yr eglwys yn pwyso ar ei Hanwylyd, sef Crist, a thrwy hyny yn dyfod i fynu o anialwch blin y byd hwn; y mae hyny yn dangos ei chariad ato, ei hymlyniad wrtho, a'i hyder ffyddiog yn ei gariad, ei allu, a'i ffyddloadeb. Can. 8. 5. 2 Cron. 16. 7. Esa. 10. 20. a 48. 2. a 50. 10. Y mae rhai yn cyfieithu y gair מתרפקת na arferir ond yn y lle hwn, yn *cymdeithasu*, yn *ymuno*, yn *glynu*, yn *llawenychu* yn ei hanwylyd: y LXX. *ἐπιστηριζομένη*, yn *ymnerthu* ar ei hanwylyd:—'yn bwrw ei phwys.' Dr M. Beth bynag, yr oedd y rhai a ofynent y cwestiwn yn canfod anwyldeb a hyder yn ei hymddygiad at ei hanwylyd, ag oedd yn hardd ac yn weddaidd. Y mae על דודה *ar ei hanwlyd*, yn eiriau mwy addas i'r agwedd a osodir allan yn ein cyfieithiadau ni, o *bwyso*, nag un arall.

**PWYTH**, (pwy-yth) gwni, gwniad; gwobr, tâl, ad-daliad; talu y pwyth, sef ad-dalu; pwyth celwydd, yw gwobr celwydd.—'Dysgant yn gyntaf arfer duwioldeb gartref, a thalu y pwyth i'w rhieni.' 1 Tim. 5. 4.—'Dyscant yn gyntaf ddangos gwaredd tuagat dy hun, a' thalu 'r pwyth yw henafieid.' W. S.—'Dysgant yn gyntaf lywodraethu yn dduwiol eu tŷ eu hun, a thalu 'r pwyth i'w rhieni.' Dr M.—'Dysgant yn gyntaf ofalu yn dduwiol am eu teulu, ac wedi hyny talu y pwyth i'w rhieni.' Macknight. Tebygol fod y gair yn *gyntaf*, (*πρωτον*) yn arwyddo ein bod i ofalu a chynnal ein teulu o flaen ein rhieni. Mae ein gwragedd a'n plant yn ddibynol arnom am eu cynnaliaeth. Yn yr ail le, fod yn dyled arnom dalu y pwyth i'n rhieni, sef ad-dalu iddynt yn eu henaint, pan fyddo natur yn adfeilio, gwendidau a llesgrwydd yn amlhau, y caredigrwydd a'r tiriondeb a gawsom ganddynt pan oeddym ninnau yn ein babandod, yn weiniaid, yn llesg, ac yn anniddig. Y mae deddf natur yn galw yn uchel am hyn, fel peth eithaf cyfiawn: ac yn cyhoeddi y gwrthwyneb yn anghyfiawnder creulon.

Y mae Duw yn 'talu y pwyth i'w elynion, ei gaseion,' &c., sef yn talu i bob un yn gyfiawn yn ol ei weithred. Deut. 7. 10. a 32. 41. Esa. 66. 6. Jer. 51. 6. Galar. 3. 64.

**PYBYR**, (pyb) nerthol, cryf, cadarn, gwreiddwych, glew, dilwfr, eorth, drud, gwychr, dewrwych, dewrddrud, calon ddewr. Deut. 3. 18. 2 Sam. 10. 12.

**PYDEW—AU**, (pŷd) *Llad.* Puteus; *Saes.* Pit: siglen, mignen, pwll, ffynon, ffynonwys.—1. Ffynon o ddwfr. Exod. 2. 8. 2 Sam. 23. 16.——2. Ceule mawr yn y ddaear, naturiol, neu gwneuthuredig; yr hwn y mae yn hawdd syrthio iddo, yn anhawdd dyfod o hono, ac yn druenus i fod ynddo. I'r cyfryw le y taflwyd Joseph gan ei frodyr. Gen. 37. 24, 28, 29. Byddai cenedloedd Asia yn taflu eu carcharorion dros nos i bydewau; ac felly y gwna yr Affricaniaid â'u caeth-weision hyd heddyw. Esa. 24. 22. ——3. Pydew, neu bwll, y gelwir y bedd. Ps. 30. 3. ——4. Pydew diwaelod y gelwir uffern. Dat. 20. 1. Edr. Pwll.——5. Dyoddefiadau Iesu Grist a elwir 'pydew erchyll.' Ps. 40. 2.——6. Beth bynag fyddo yn maglu dynion, ac yn tueddu i'w gwneuthur yn druenus, ac oddiwrth ba un y mae yn anhawdd dianc, a elwir yn bydew: felly y gelwir putain â'i geiriau dengar. Diar. 22. 14. a 23. 27. Edr. Ffos, Ffynon, Pwll.

'Yna y rhoddent y gareg drachefn ar enau y pydew yn ei lle.' Gen. 29. 3. Yr oeddynt yn rhoddi y gareg ar enau y pydew, medd Syr John Chardin, rhag llanw y pydew â'r tywod, yr hwn yn y gwledydd hyny sydd aml, ac a ddygir gan yr awel leiaf o wynt. Oblegid hyny addas oedd peidio symud y gareg i ddyfrhau y praidd, nes dyfod y dëadellau oll at eu gilydd. Jacob, heb wybod neu sylwi ar y ddefod hon yn eu plith, pan welodd Rahel a'i phraidd, a dreiglodd ymaith y gareg, ac a agorodd y pydew. Gwel Harmer's *Obs.*

**PYG—AW**, (py-yg) ystor y pinwydd.—'A phyga hi oddifewn ac oddi allan â phyg.' Gen. 6. 14. Esa. 34. 9. Edr. Arch.

**PYMTHEG**, (pump-a-deg). Gen. 7. 20. Exod. 16. 1. Ioan 11. 18. Gal. 1. 18.

**PYNCIO**, (pwnc) nodi, nodi amser, ardraethu; chwareu; canu. Mwyned y pyncia yr adar!—'Gan ganu a phyncio yn eich calonau i'r Arglwydd.' Eph. 5. 19.—'Gan ganu a' psalmu,' &c. W. S.

**PYS—EN**, (py-ys) *Gr.* *πισον*; *Llad.* Pisum; *Saes.* Peas; *Gwydd.* Pis, Pisair, Pisradh.—Pys y garanod, gwyg bys; pys y llygod, pys y coed, y winwydden wen, paderau y gath; pys y fwyall, pedol y march. Y mae amryw fath o bys yn tyfu yn ein gerddi; y maent yn ymborth iachus, maethlawn, ond yn wyntog,—Cras-bys. 2 Sam. 17. 28. Yr oedd cras-ŷd a chras-bys yn ymborth cyffredin gynt, yn enwedig i filwyr, llafurwyr yn y maes, a theithwyr. Lef. 2. 14. Jos. 5. 11. Ruth 2. 14. 1 Sam. 28. 25. Arferir yr un ymborth y dyddiau hyn gan y bobl gyffredin yn yr Aipht, ac amryw wledydd dwyreiniol. Gwel Hasselquist's *Travels.* Dr Shaw's *Travels.*

'Neu â magl neu bysen ar ei lygad.' Lef. 21. 20. *Heb.* בלל *cymysgfa.* 'Brycheuyn gwyn, neu fagl, am ei fod yn gymysgedig â du y ganwyll.' Calasio. Yr oedd yn rhaid i'r offeiriaid fod â'u llygaid yn glaer, yn ddifrychau, fel y canfyddent yn oleu ac yn eglur. Gwaith peffaith a sanctaidd sydd yn gofyn gradd o berffeithrwydd cyffredinol yn y rhai fyddo yn gweini ynddo.

**PYSG—OD—YN—WYR—OTA—LYN**, (py-ysg) preswylwyr y dyfroedd: pysgod y môr, y môr-bysgod; pysgod afon; pysgod duon, sef y môr-loi. Y mae cannoedd o rywiau o greaduriaid yn y dyfroedd, a'r rhai hyn gwedi eu cyfaddasu i'w helfen a'u hachos. Cyfrif Linnæus yn nghylch 400 yn adnabyddus âg enwau wedi eu rhoddi arnynt. Y rhan fwyaf o'r rhai hyn a breswyliant y moroedd, ac a drengant mewn dyfroedd croyw; ond y mae rhai yn dyfod i ddyfroedd croyw i siliaw. Y mae rhai yn ymlusgo; eraill â thraed ganddynt; rhai yn ehedfan, ac i gyd yn nofio. Y mae rhai yn fychain, a rhai yn fawrion iawn. Mae rhai morfilod o faintioli dirfawr. Rhydd Pliny hanes am un honynt yn mesur 600 o latheni o hŷd, a 360 o led; ac a ddywed am esgyrn un a ddygwyd o Joppa i Rufain yn 40 troedfedd o hŷd. Esgyll y pysgodyn a'i gynffon, yw peiriannau ei holl ysgogiadau; wrth weithrediadau y rhai hyn mae yn myned yn mlaen neu yn ol, yn cylchdroi neu yn myned yn ochrog. Heblaw y rhai hyn, mae ganddo ysigen wynt, neu nofiedydd, sydd o ddefnydd mawr iddo; trwy lenwi neu wasgu hon gwna ei hun yn drymach neu yn ysgafnach, i esgyn i'r wyneb, neu i soddi i'r dyfnder. Trwy hon geill addasu ei hun i bob dyfnder dwfr. Pe dryllid yr ysigen hon, soddai y pysgodyn yn y fan yn y dwfr, ac nis gallai ymgodi, neu ymgynnal mewn un modd ar y dyfroedd. Nid ydyw hon gan y pysg sydd bob amser yn ymlusgo yn y gwaelod; megys tafod yr hŷdd, lledau, &c. Mae galluoedd yn yr ysigen i'r pysgodyn i'w wasgu, neu ei lledu, fel y myno. Y mae hiliad y pysgod yn rhyfedd. Gwedi y chwiliad mwyaf manwl, a'r prof-

Digitized by Google

ion mwyaf boddlongar, rhoddodd Mr Harmer y daflen ganlynol o hiliad rhai o honynt:—

| | |
|---|---|
| Y Carp | 203,109 |
| Y Cod | 3,686,760 |
| Y Llythien (*Flounder*) | 1,357,400 |
| Penwaig, neu Ysgadan | 36,960 |
| Ceimwch, neu y Llamidydd | 20,609 |
| Maran, neu y Macrell | 546,681 |
| Y Perch | 28,323 |
| Y Penhwyad (*Pike*) | 49,304 |
| Y Corgeimwch | 3,806 |
| Y Torgoch | 81,586 |
| Y Bardysen (*Shrimp*) | 6,807 |
| Y Brwyniad | 38,278 |
| Tafod yr Hydd | 100,362 |
| Y Wrachen (*Tench*) | 383,252 |

Yr achos o heigiad rhai pysgod yn lliaws dirifedi i rai manau, ar ryw dymhor o'r flwyddyn, yw, yr amldra y maent yn ei gael yn y manau hyny, ac ar yr amser hwnw, o'r hyn y maent yn ymborthi arno. Y mae ednogynau ar wyneb y dyfroedd, ar ba rai y mae y penwaig yn ymborthi, i'w canfod yn llïosog aneirif ar ryw amser o'r flwyddyn, mewn rhai parthau o'r môr; a'r rhai hyny sydd yn peri i'r penwaig heigio yno. Cyffelyb achos a ddyg yr un effaith mewn perthynas i bysgod eraill; megys y macrell, &c. Y maent yn gyffredin yn wancus, ac yn dyfetha eu gilydd yn ymborth; y mae y sil, neu y gronellau, yn ysglyfaeth iddynt oll. Pe byddai byw holl hiliad un pysgodyn, a hilio dros ddeng mlynedd, llanwent holl foroedd y byd.

Môr y Canoldir a Galilea oedd yn diwallu yr Iuddewon yn helaeth â physgod, ond nid oedd yr un yn lân dan y gyfraith heb asgell a chèn.

Cyffelybir dynion i bysgod, oblegid eu hamledd, eu hannhrefn, eu rheibusrwydd, a'u peryglon. Yn gyfatebol i hyn, geilw ein Harglwydd ei apostolion yn 'bysgodwyr dynion.' Yr efengyl yw y rhwyd, â pha un y delir dynion: nid oes un arall a'u deil byth; ond â hon y pysgotodd Petr yn llwyddiannus ar ddydd y Pentecost. Mat. 4. 19. Act. 2. 41. Mae pregethu yr efengyl, fel pysgota, yn gofyn llawer o ddiwydrwydd, amynedd, a pharhad. Fel y pysgodwyr, dal dynion ddylai fod yn nôd yn ngolwg pob pregethwr; ac fel nad âi un pysgodwr call i bysgota heb ei rwyd, felly peth ofer yw meddwl dal dynion heb wir athrawiaeth yr efengyl. Eu hennill at blaid a ellir â gau-athrawiaethau; ond ni ddaliodd, ac ni ddygodd neb erioed un enaid at Dduw, ond y gwirionedd.

Y pysgodwyr yn sefyll ar y Môr Marw, gwedi i ddyfroedd y cysegr ddyfod yno, o En-gedi hyd En-eglaim, sef o'r naill ben i'r llall; sydd yn arwyddo pregethiad yr efengyl yn mhlith y Cenedloedd; a llïosogrwydd y pysgod yn gofyn amldra o bysgodwyr. Ezec. 47. 10. Edr. AFON, EN-GEDI, EN-EGLAIM, MOR.

'A'r Arglwydd a ddarparasai bysgodyn mawr i lyncu Jonah.' Pen. 1. 17. דג גדול *dag gadol*. Nid yw y geiriau yn dynodi pwy pysgodyn ydoedd; ond pysgodyn mawr ydoedd; a rhaid ei fod felly cyn y gallai lyncu a chynnwys dyn yn ei fol. Y mae un yn dra adnabyddus yn Môr y Canoldir, a elwir Charachias a Lamia, sydd o faintioli y morfil, a'r fath geg a bol ëang ganddo, fel y geill lyncu y dyn mwyaf. Daliwyd un ar gyffiniau Portugal yn nechreu y ganrif ddiweddaf, y gallai dyn sefyll yn ei geg yn estynedig. Gwel *Universal History, vol.* x.

PYSGOD-LYNOEDD. Edr. HESBON, LLYGAD.

# PH.

PHALTI, פלטי [*gwaredigaeth*] mab Lais, a gwr Michal merch Saul. 1 Sam. 25. 44. 2 Sam. 3. 15. Edr. MICHAL.

PHALU, פלוא [*rhyfeddol*] mab Reuben, a thad Eliab. Gen. 49. 9. Num. 26. 5.

PHANUEL, פנואל [*wyneb Duw*] tad y weddw sanctaidd Anna. Luc 2. 36, 37, 38.

PHARAOH, פרעה [*haul, gwasgarwr*, neu *yspeiliwr*] enw cyffredin ar freninoedd yr Aipht. Dywed Josephus ei fod yn arwyddo *brenin* yn hen iaith yr Aipht. Coffëir am amryw o'r enw hwn yn yr ysgrythyrau:—1. Y Pharaoh a darawyd â phlâau am gymeryd Sarah gwraig Abraham i'w dŷ. Gen. xii.——2. Y Pharaoh oedd yn teyrnasu yn amser Joseph. Gen. xli. a xlvii.——3. Y Pharaoh a orthrymodd yr Israeliaid, merch yr hwn a fagodd y gwaredwr Moses. Exod. i. a ii.——4. Y Pharaoh a foddwyd yn y Môr Coch. Exod. v. a xiv. Y mae yn ddilys nad yr un oedd hwn a'r Pharaoh y ffôdd Moses i wlad Midian rhag cael ei ladd ganddo. Exod. 2. 23.——5. Y Pharaoh a goleddodd Hadad. Edr. HADAD. Annilys yw ai yr un oedd hwn a thad gwraig Solomon. 1 Bren. 3. 1. a 9. 16. a xi.——6. Pharaoh Necho, mab Psammiticus, yr hwn a laddodd y brenin duwiol Josiah yn Megido. 2 Bren. xxiii, xxiv. 2 Cron. xxxv. Jer. xlvi. Edr. JOSIAH.——7. Pharaoh Hophrah, ŵyr Pharaoh Necho. Yn erbyn hwn y prophwydodd Jeremiah, pen. 43. 9—13. a 44. 30.—ac Ezeciel, pen. xxix, xxx, xxxi, xxxii. Edr. AIPHT, CALEDU, CALON, MOSES.

PHARES, פרץ [*toriad*] mab Judah o Tamar, a thad Hezron a Hamul. Gen. xxxviii. Num. 26. 20, 21.—'Pa fodd y toraist allan?' Gen. 38. 29. Gwrthddadleuwyd yn erbyn hyn fel peth nas gallasai fod. Y Dr Geddes a ymofynodd â dau o physygwyr enwog ar yr achos, ac a gafodd gan y Dr Combe ateb eglur a boddlongar. Dywedodd fod dau ystum o'r plant, yn mha rai y gallai hyn gymeryd lle yn naturiol. Yr oedd y Dr Savage o'r un meddwl, ac a sicrhaodd iddo i'r Dr Cobbon, Allmanwr, yn byw yn Llundain, gyfarfod âg achos yn gwbl yr un fath.

PHARISEAID. Φαρισαιος, [*ymneillduwyr*, oddiwrth פרש *peres*, *neillduo*] un o'r pleidiau hynaf a mwyaf enwog yn mhlith yr Iuddewon gynt: y tair eraill oedd y Saduceaid, yr Herodianiaid, a'r Esseniaid. Am ei dechreuad, nid oes hanes penderfynol. Yr oeddynt yn blaid llïosog a galluog, ac weithiau yn ddychryn i'w breninoedd; yn enwedig i Hircanus a Jannæus. Yr oeddynt yn credu anfarwoldeb yr enaid, a'r adgyfodiad, neu yn hytrach traws-eneidiad, neu fod eneidau yn myned o'r naill gorph i'r llall. Yr oeddynt yn llawn zel boethlyd dros draddodiadau yr hynafiaid, ac yn eu cydraddu, os nid eu dyrchafu yn uwch, na'r ysgrifeniadau sanctaidd. Yr oedd ganddynt aneirif o honynt; megys golchiadau efynau, cwpanau, &c., hir ac aml weddïau; degymu yn fanwl, hyd yn nod y pethau lleiaf; ac yn fawr eu llafur am wneuthur proselytiaid i'w plaid; ond y pethau trymaf o'r gyfraith, barn, trugaredd, a ffydd, yr oeddynt yn brin iawn o honynt. Cyflawniadau allanol, heb sancteiddrwydd tufewnol, oedd eu crefydd. Yr oedd y rhan fwyaf o'r dysgedigion a phenaethiaid yr Iuddewon o'r blaid hon, ac felly y maent hyd heddyw. Yr oeddynt yn elynion cyfrwys a chreulon i Grist; a chyhoeddodd yntau waeau ofnadwy yn eu herbyn. Yr oedd yr ysgrifenyddion, y rhan amlaf, o'r blaid hon; am hyny enwir hwynt mor fynych yn nghyd.

Digitized by Google

Gwel Mat. 5. 20. a 9. 14, 39. a xv. a 16. 6. a xxiii. Luc 5. 30. a 6. 7. a 7. 30. a 11. 39. a 15. 2. a 16. 14. a 18. 11, 12. Ioan 1. 24. a 7. 32, 48. a 11. 47, 57. Gwel Prideaux's *Connection*, *p*. ii. *b*. 5.

PHARPAR, פרפר [*yn peri ffrwyth*] un o afonydd Damascus, neu yn hytrach cainc o'r afon Barrady, neu yn ol y gair *Gr. Chrysorhoas* (y ffrwd euraidd) sydd yn dyfrhau Damascus, a'r wlad oddi amgylch. Y mae afon Damascus yn tarddu yn mynyddoedd Libanus, ac yn agos i'r ddinas y mae yn ymranu yn dair o geinciau: mae un yn rhedeg trwy y ddinas, a'r ddwy eraill yn dyfrhau y gerddi oddi amgylch, ac yn ymuno wedi hyny o du y gogledd i'r ddinas. Nid oes dim coffadwriaeth o'r enw yn bresennol. 2 Bren. 5. 12. Gwel Maundrell's *Travels*.

PHEBE, Φοιβη, [*pur*] gweinidoges (διακονον, *diacones*) eglwys Cenchrea, porthladd yn nghylch naw milltir o Corinth. Rhuf. 16. 1, 2. Nid ydoedd yn gynnefin yn mhlith y Groegiaid (a llai felly yn Asia) i neb meibion i gyfeillachu yn rhydd â'r merched rhinweddol, ond eu perthynasau agosaf yn unig;* am hyny yr oedd yn angenrheidiol i'r rhai hyny o'r rhyw fenywaidd fyddai yn proffesu y grefydd Gristionogol, ag oedd mewn eisieu ychwaneg o addysg nag a gaent yn y gynnulleidfa gyhoeddus, i gael rhyw ferch ddeallus, dduwiol, i'w hyfforddi hwynt, o'r neilldu; ac hefyd i ymweled, annog, a chysuro y cleifion a'r profedigaethus, ac i ranu elusen yr eglwys i'r tlodion o honynt. Tebygol fod Phebe yn un o'r gweinidogesau hyn yn eglwys Cenchrea. Yn ol arferion gweddus y gwledydd hyny, yr oedd y cyfryw weinidogesau yn angenrheidiol anhebgorol.† Y rhai hyn a ddarlunia yr apostol yn 1 Tim. 3. 11. a 5. 3, 9. Y mae canmoliaeth yr apostol yn fawr i Phebe: 'Bu gymhorth i lawer,' eb efe, 'ac i minnau fy hun hefyd;' ac hwyrach fod yr apostol yn cartrefu yn ei thŷ tra yr oedd yn y parthau hyny. Bernir mai hi a ddygodd ei epistol at yr eglwys yn Rhufain.

PHENICE, Φοινικη [*coch*] porthladd yn ynys Crete, o du y gorllewin iddi. Act. 27. 12.

PHENICE, neu PHENICIA, sydd wlad yn agos i Syria a Galilea. Act. 11. 19. a 15. 3. a 21. 2.—Bene-anak, medd Bochart, meibion Anak. Yr oedd y cawri, meibion Anac, yn dra enwog yn Phenicia; a barna Bochart mai oddi wrthynt hwy y cafodd y wlad yr enw. Eraill a farnant mai oddiwrth y gair Groeg *Φοινιξ*, *palmwydden*, y cafodd yr enw. Dywed Justin (*lib*. xvii., *cap*. 3.) mai pobl ydoedd y Tyriaid a ddaethant o'u gwlad eu hunain, gerllaw y Môr Coch, dan dywysiad un Phœnix, o herwydd y daeargrynfäau aml a ddygwyddai ynddi. Sefydlasant ar y cyntaf wrth Fôr Tiberias, ac wedi hyny daethant yn mlaen, a thrigasant ar làn Môr y Canoldir, ac a adeilasant ddinas yno; ac oddiwrth y blaenor hwn y cafodd y wlad yr enw Phœnicia. Arfordir yw, yn cyrhaedd ar hŷd Môr y Canoldir o Orthosa (a elwir yn awr Tortosa) i Pelusium; neu o Sidon hyd gyffiniau yr Aipht.

* Cornelius Nepos, yn ei arddawd i'w hanesiaeth, yn ysgrifenu am arferion y Groegiaid, a ddywed, 'Mae llawer o bethau yn weddus yn ol ein harferion ni, y rhai a gyfrifir yn warthus ganddynt hwy. Oblegid pwy o'r Rhufeiniaid a gywilyddia ddwyn ei wraig i wledd? Neu pa fam nad ydyw yn cael y lle blaenaf yn y tŷ, ac yn derbyn pob parch? Ond y mae yn dra gwahanol gyd â'r Groegiaid. Oblegid gyda hwy ni ddygir un ferch i wledd, oddieithr yn mysg perthynasau; ac nid ydyw yn eistedd gartref, oddieithr mewn rhan guddiedig o'r ty, a elwir γυναικονιτις, *gynæconitis*, lle nid oes neb yn myned ond y perthynasau agosaf yn unig.

† Dywed Pliny, yn ei lythyr nodedig at yr Ymerawdwr Trajan, iddo arteithio rhai a elwid *ministriæ*, sef *gweinidogesau*, neu ddiaconesau, yn mhlith y Cristionogion, i'r dyben i'w cymhell i ddadguddio dirgeledigaethau eu crefydd iddo. 'Quo magis necessarium credidi, ex duabus ancillis, quæ MINISTRÆ dicebantur, quid esset veri, et per tormenta quærare.'

Yr un ydyw â'r hen Ganaan. Wedi goresgyn y wlad gan yr Israeliaid, nid oedd Phenicia ond cul tu a'r tir, ond yn rhedeg yn hir ac yn fain, ar hyd ochr y môr. Y prif ddinasoedd ynddi oeddynt Tripolis, Botrys, Berytus, Biblos, Tyrus, Sidon, Ecdippa, Ptolemais, a Dora. Yr oedd gan y Pheniciaid ddinasoedd yn Libanus. Weithiau y mae awdwyr Groegaidd yn cynnwys holl Judea yn y gair Phenicia. Gwladychodd hiliogaeth Canaan yn y wlad hon, a gelwid hwy dan amrywiol enwau, oddiwrth enwau tadau y llwythau hyny; megys Sidoniaid, Arfiaid, Arciaid, Semariaid, Siniaid, &c. Yr oeddynt gynt y bobl mwyaf enwog yn y byd am forwriaeth a masnachaeth. Yr ydoedd masnachaeth yr holl fyd, agos, yn eu dwylaw; ar lànau holl Fôr y Canoldir, o bob tu, yr oedd ganddynt drefedigion. Y mwyaf nodedig ydoedd y Carthageniaid, y rhai yn hir a ddadleuasant yr uchafiaeth â'r Rhufeiniaid. Ar y Môr Coch, a Llychlyn Persia, yr ydoedd ganddynt sefydliadau er marchnadyddiaeth. Yr oeddynt hefyd y cyntaf o'r holl genedloedd mewn enwogrwydd am ddysgeidiaeth.* Pheniciad oedd Sanchoniathon, yr hanesydd hynaf yn y byd, heblaw yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Yr oeddynt mor nodedig am eu heilun-addoliaeth, ag am eu masnachaeth a'u dysgeidiaeth; yn addoli yr eilun-dduwiau Baal, Astaroth, Hercules, Tammuz, Apolo, &c. Edr. PHILISTIA, SIDON, TYRUS.

PHIBESETH, פי־בסת [*genau diystyrwch*] dinas enwog yn yr Aipht Isaf, a elwir gan y LXX. Bubastus. Ezec. 30. 17.

PHICOL, פיכל [*genau pawb*] tywysog llu Abimelech, brenin Gerar. Gen. 21. 22.

PHILADELPHIA, Φιλαδελφια [*cariad brawd*, neu *brawdoliaeth*] dinas yn Mysia, neu Lydia, yn Asia Leiaf, wrth droed mynydd Timolus, a'r afon Cogamus. Cafodd yr enw oddiwrth Attalus Philadelphus, yr hwn a'i hadeiladodd. Pa bryd, a chan bwy y pregethwyd yr efengyl yno, nid oes hanes; ond yr oedd yno eglwys Gristionogol yn foreu, at yr hon y cafodd Ioan ei gyfarwyddo i ysgrifenu un o'i saith epistolau, i'w chysuro a'i chyfarwyddo. Y mae yn cynnwys canmoliaeth cyflawn iddi am ei phurdeb a'i ffyddlondeb. Dat. 3. 7—13. Gelwir hi yn awr gan y Tyrciaid, *Alah Shähr*, *sef y ddinas hardd*. Y ddiweddaf yn y parthau hyny a ymostyngodd iddynt, gwedi gwarchae arni am chwe blynedd. Bu Cristionogrwydd yn flodeuog ynddi dros amryw gannoedd o flynyddoedd; ac y mae ynddi yn bresennol, meddant, yn nghylch dwy fil o Gristionogion.

PHILEMON, Φιλημον [*serchog*] dinesydd cyfoethog o Colosse. Wrth ysgrifenu at eglwys y Colossiaid, dywed Paul am Onesimus, gwas Philemon, ei fod o honynt hwy. Col. 4. 9. Dymuna Paul yn adn. 17. ar y brodyr yno ddywedyd wrth Archippus (yr un ag a enwir yn Philem. 2.) am iddo 'edrych at y weinidogaeth a dderbyniodd yn yr Arglwydd.' Dychwelwyd ef i'r ffydd Gristionogol trwy weinidogaeth Paul; (Philem. 19.) ac yr ydoedd y Cristionogion yn cynnal eu cyfarfodydd yn ei dŷ. Yr oedd yn ŵr cyfoethog, ac yn llòni ymysgaroedd y saint â'i gyfraniadau hael a charedig. Adn. 7. Ysgrifenodd yr apostol lythyr ato ar yr achlysur y crybwyllir am dano yn yr epistol, yn nghylch ei was Onesimus; ond am nad oes dim gwybodaeth helaethach am yr un o'r ddau, nag a gynnwysir yn yr epistol, nid oes achos adrodd yr hanes yma. Y mae yr epistol wedi ei ysgrifenu mewn geiriau a dull tirion, serchog, a hawddgar; ac yn amlygu llawer o ysbryd rhagorol Paul fel dyn, fel Cristion, ac fel gweinidog i Grist, ac mae yn siampl i

* Phœnices primi, famæ si creditur, ausi
Mansuram rudibus vocem significare figuris.
Lucan, *lib*. iii., *v*. 22.

Digitized by Google

weinidogion yr efengyl hyd ddiwedd amser. Fel ysgrifen, golygir yr epistol yn orchestwaith, ac yn ben campus-waith o'i ryw, nad oes dim i'w gystadlu âg ef yn epistolau Pliny na Tully, y pen-ysgrifenwyr Rhufeinaidd. Scultetus.

Er nad ydyw yr apostol yn traethu ynddo yn neillduol yn nghylch un o brif bynciau Cristionogrwydd, etto, oddiwrth y cyfeiriadau ynddo at athrawiaeth sanctaidd yr efengyl, gellir dysgu amryw gyfarwyddiadau buddiol; megys, 1. Nad ydyw Cristionogrwydd yn gwneuthur un cyfnewidiad yn sefyllfaoedd allanol dynion. Yr oedd Onesimus dan rwymau i Philemon fel caethwas i'w wasanaethu yn ffyddlon tra byddai byw, oni wnai Philemon ei ryddhau, yr un fath a chyn ei droedigaeth.——2. Nas gellir attal gweision ar un achlysur oddiwrth eu meistriaid, heb eu cydsyniad.——3. Y dylem ymostwng at y rhai isel-radd, a gwneuthur pob cymmwynas iddynt ag a fedrom.——4. Y dylid unioni y cam gan yr hwn a'i gwnaeth, oddigerth i'r blaid a gafodd y cam ei faddeu.——5. Na ddylid anobeithio am neb, er dryced fyddont, ond ymgais yn ddifrifol am iechydwriaeth eu heneidiau. Hwyrach mai ei gyfyngder a'i dlodi a barodd i Onesimus fyned at Paul yn Rhufain, a hyn a roddodd achlysur addas i'r apostol lefaru wrtho am iechydwriaeth yr Arglwydd; yr hyn a fu, trwy fendith Duw, yn gysur tragywyddol iddo. Fel hyn, yn rhyfedd, y cyflawna Duw ei amcan daionus yn iechydwriaeth ei bobl. Am farwolaeth Philemon, a'i was Onesimus, nid oes hanes dilys i'w adrodd.——Ar yr epistol hwn, ysgrifenodd William Atterfol, Daniel Dike, a William Jones.*

PHILETUS, Φιλητος, [*caruaidd*]. Edr. HYMENEUS.

PHILIP, Φιλιππος, [*rhyfelgar*]. Edr. HEROD.

PHILIP YR APOSTOL. Priodor o Bethsaida, dinas Andreas a Phetr. Galwodd yr Iesu ef yn foreu i'w ganlyn; a Philip a gafodd Nathanael, ac a ddywedodd wrtho, 'Cawsom y Messïas,' &c. Ioan 1. 43, 44, 45. Yn nghylch blwyddyn gwedi hyny galwyd ef i fod yn apostol. Mat. 10. 3. Cawn ef dair gwaith yn ymddyddan â'r Arglwydd Iesu. Ioan 6. 5, 6, 7. a 12. 21, 22. a 14. 8. Dyma yr holl hanes syd dam dano. Dywedir iddo bregethu yn y parthau gogleddol i Asia, ac iddo gael ei ferthyru yn Hierapolis.

PHILIP YR EFENGYLWR. Un o'r seithwyr da eu gair, a llawn o'r Ysbryd Glân, a etholwyd i arolygu elusen yr eglwys. Act. vi. Yr oedd yn trigo, ef a'i ferched, yn Cesarea. Act. 21. 8, 9. Yn llawn o'r Ysbryd Glân, ar ol merthyrdod Stephan, aeth a phregethodd yr efengyl yn Samaria gyda llawer o lwyddiant. Gwedi ei gyfarwyddo gan angel, aeth i du dehau-orllewin Canaan, yn agos i Gaza, i gyfarfod â'r eunuch galluog dan Candace, brenines Ethiopia. Act. viii. Edr. EUNUCH. Gwedi bedyddio yr eunuch, cafwyd ef yn Azotus, ac a efengylodd yn mhob man hyd oni ddaeth i Cesarea. Yr oedd iddo bedair o ferched yn prophwydo, sef dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân, yn rhagfynegi pethau i ddyfod. Nid oes hanes ychwaneg am y gwr duwiol hwn.

PHILIPPI, dinas o Macedonia, a elwid gynt Dathos; ond gwedi ei haddurno gan Philip, tad Alexander Fawr, a alwyd wrth ei enw ef. Yr oedd yn sefyll o du y gogledd-orllewin i Neapolis, 70 o filltiroedd i'r gogledd-ddwyrain i Thessalonica, a 190 i'r gorllewin o dref Cystenyn. Yn agos i Philippi y gorchfygwyd Brutus a Cassius gan Anthony ac Octavianus; a chyd â'r gorchfygiad hwn, darfu rhyddid y Rhufeiniaid.

'Ac oddi yno i Philippi, yr hon sydd brif ddinas o barth o Macedonia, dinas rydd.' Act. 16. 12. Rhai a gyfieithiant y geiriau, 'Yr hon sydd ddinas o barth cyntaf Macedonia, dinas rydd.'—Κολωνια, 'ac thrigianwyr a hanoeddynt o Ruuain.' W. S. Yr ydoedd Macedonia wedi myned dan lawer o gyfnewidiadau, a chwedi cael ei rhanu i amrywiol barthau, a alwent wrth wahanol enwau. Paulus Emilius a'i rhànodd yn bedair talaeth: Philippi ydoedd ddinas yn y parth cyntaf o'r rhai hyn. Gelwir hi Κολωνια *Colonia* (*dinas rydd*). Yn y Colonia, medd Kennet (*Antiq. lib. iv., c.* 18.) yr ydoedd y rhan fwyaf o'r trigolion yn Rhufeinwyr, gwedi eu trosglwyddo yno o Rufain, gwedi i'r Rhufeiniaid oresgyn y lle; ac yr oedd yr holl awdurdod a'r llywodraeth yn llaw y rhai hyny, ac yr oeddynt yn llywodraethu yn ol y cyfreithiau Rhufeinaidd. Julius Cesar a roddodd y fraint hon gyntaf i Philippi, ac a gadarnhawyd gwedi hyny gan Augustus. Gwel *Fragments to* Calmet's *Dictionary*, 273.—*Geographical Index*, dan y gair MACEDONIA.—Well's *Geography, by* Taylor.

Pregethwyd yr efengyl yma gan Paul yn nghylch y flwyddyn A. D. 51, a chafodd Lydia ac amryw eraill eu galw i'r ffydd; a sefydlwyd eglwys enwog ynddi. Ymddygodd y Cristionogion yno yn garedig ac yn dra haelionus tu ag at yr apostol pan ydoedd efe yn Thessalonica, ac yn garcharor yn Rhufain. Phil. 4. 15, 18. Anfonodd Paul epistol tra serchog a rhagorol atynt o Rufain, gyda Epaphroditus, wedi ei adferyd o'i glefyd. Nid yw yr apostol yn beio ar yr eglwys hon yn yr holl epistol mewn dim; nac mewn athrawiaeth na rhodiad. Yr ydoedd gau athrawon heb gael lle yn eu plith hyd yn hyn; ac yr oeddynt hwy hefyd yn byw yn heddychol, heb derfysgu yn eu plith eu hunain, trwy ymrysonau ac ymraniadau: yn hyn yn rhagori yn fawr ar eglwysi Galatia a Corinth. Yn y cwbl y mae llawer o anwyldeb yn ymddangos o bob tu rhwng yr apostol a hwythau. Y mae yn eu hannog hwynt i rodio yn addas i'r efengyl, i ymestyn at y pethau o'r tu blaen, i ochelyd gau athrawon hudoliaethus, ac yn cydnabod yn ddiolchgar eu tiriondeb tu ag ato, yn eu cyfraniadau haelionus. Pen. 1. 27. a 2. 2, 25. a 3. 2, &c., a 4. 1, 10.—Ysgrifenodd ar yr epistol hwn, Henry Ayrey, Mr Ferguson, Nathaniel Tucker, Lancelot Ridley. Ar pen. iii., y Dr Sibbs.

PHILISTIA, neu PALESTINA, פלשתים. Yr oedd y LXX. yn barnu fod y gair Hebraeg yn arwyddo *dyeithriaid*, am hyny maent yn ei gyfieithu ef yn gyffredinol, Αλλοφυλων, *arall lwyth*, neu *dyeithriaid*.—Palestina, yn yr ystyr mwyaf ëang, a arwydda holl wlad Canaan; ond yn iaith y Bibl, Philistia a arwydda llain o dir wrth Fôr y Canoldir, o du y dehau-orllewin i wlad Canaan, yn nghylch deugain milltir o hŷd, ac yn nghylch pymtheg milltir o led. Y prif ddinasoedd oedd Gaza, Gerar, Ecron, Asdod, Gath, a Majuma. O Casluhim, mab Mizraim, mab Cam, yr hwn a boblogodd yr Aipht, a'r Caphtorim, yr hanodd y Philistiaid. Cymh. Gen. 10. 14. Deut. 2. 23. Jer. 47. 4. Amos 9. 7. A galwyd eu gwlad, hwyrach, 'ynys,' neu 'wlad Caphtor.' Jer. 47. 4. Dywed Dr Blayney, ar ol Bochart, nad ydyw y gair *Heb.* אי a gyfieithir *ynys*, neu איים a gyfieithir *ynysoedd*, yn arwyddo yr un peth ag a feddyliwn ni wrth y geiriau hyny, sef tir wedi ei amgylchu â moroedd; ond arwydda wlad bellenig, a'r cyfryw ag ydoedd yn gorwedd ar làn y moroedd. Felly, wrth ynysoedd Cittim, y barna Bochart y dylem ddeall yr Ital, a'r gwledydd agos ati, ar hyd glànau Môr y Canoldir. Dr Blayney *on* Jer. 2. 10. a 47. 4.

Anhysbys yw pa bryd y daethant o'r Aipht, ac y sefydlasant yn Nghanaan; ond dilys yw fod ganddynt deyrnas yn Gerar, dan lywodraeth breninoedd o'r enw Abimelech, yn amser Abraham ac Isaac. Y Caphtoriaid a ddyfethasant yr Afiaid, ac a drigasant yn eu

* Heblaw yr awdwyr a enwir uchod, cyfeirir y darllenydd at y rhai canlynol: Calvin, Dr Smalridge, 1724; Dr Marshall, 1731; a Neander.—G.

Digitized by Google

lle hwynt. Deut. 2. 23. Rhanwyd eu gwlad i'r Hebreaid; ond esgeulusasant gymeryd meddiant o honi, a buant yn fflangell drom a pharhaus iddynt. Jos. 13. 2, 3. a 15. 45, 46, 47. Barn. 3. 1, 2, 3. Yr oeddynt yn bobl wrol, ryfelgar, a rhai o honynt yn gawri o faintioli, ac o gryfder anghyffredin; ac yr oeddynt yn elynion anghymmodol i'r Hebreaid. Eu llywodraeth ar y cyntaf oedd unbenaeth, a'u breninoedd a gaent yr enw Abimelech yn gyffredin. Gwedi hyny buant dan lywodraeth pump o dywysogion. Jos. 13. 3. Barn. 3. 5. Gwedi hyn cawn hanes fod arnynt frenin drachefn wrth yr enw Achis; hwyrach ei fod yn cael ei alw wrth yr enw Abimelech hefyd. 1 Sam. 21. 10, 12. a 27. 2, 6. a 29. 2, 9. 1 Bren. 2. 40. Pa bryd, a pha fodd, y bu y cyfnewidiadau hyn yn eu llywodraeth, sydd anhysbys. Hwy oedd y cyntaf a ddychymygasant fwäau saethau yn arfau rhyfel, â pha rai yr arfogent eu rhyfelwyr glewaf, ac a'u galwent Cerethiaid—enw wrth ba un y gelwid hefyd yr holl genedl hon. 1 Sam. 30. 14. Ezec. 25. 16. Seph. 2. 5. Bochart, *Can. lib.* i., *cap.* 15. Yn eu rhyfeloedd â Dafydd a'i gedyrn, lladdwyd amryw o'u cawri; a thorwyd eu grym yn y fath fodd, fel na buont byth yn ol llaw mor enwog rhyfelwyr. Edr. Ahaz, Dafydd, Eli, Hezeciah, Jehoram, Jephthah, Samuel, Samson, Samgar, Uzziah.

Cyhoeddwyd barnedigaethau trymion yn eu herbyn, o herwydd eu creulondeb tu ag at Israel, gan y prophwydi Esaiah, pen. 14. 27—31. Jeremiah, pen. 25. 20, 27. a xlvii. Ezeciel, pen. 25. 15, 16, 17. Amos, pen. 1. 6, 7, 8. Obadiah, adn. 19. Sephaniah, pen. 2. 4—7. Zechariah, pen. 9. 5, 6. Goresgynwyd ac anrheithiwyd hwynt gan yr ymerodraethau mawrion olynol. Mae y wlad hòno, fel gwledydd eraill, yn y parthau hyny o'r byd, yn bresennol yn meddiant y Twrc. Edr. Abimelech, Achis, Phenicia, Sidon, Tyrus.

PHILOLOGUS, Φιλολογος, [*carwr y gwir*]. Mae Paul yn ei anerch yn garedig, ac nis gwyddom ychwaneg am dano. Rhuf. 16. 15.

PHILOSOPHI, Φιλοσοφια, [*cariad at ddysgeidiaeth*, neu *ddoethineb*]. Yn yr ysgrythyrau, deallir wrth *philosophi*, athrawiaeth neu ddaliadau y dysgedigion Paganaidd; yr hyn a eilw yr apostol 'gwag dwyll.' Col. 2. 8. Sef athrawiaeth wag, ddisail, buddiol i ddim ond i dwyllo eneidiau dynion yn eu mater tragywyddol rhyngddynt a Duw. Y mae gwybodaeth o drefn y greadigaeth, a naturiaethau pethau, yn fuddiol, mor belled ag y mae tragywyddol allu Duw a'i Dduwdod yn cael eu hysbysu trwyddynt; ac hefyd yn fuddiol, mewn amrywiol o ystyriaethau, tu ag at hwyluso negesau y bywyd hwn; ond nid oes dim hyfforddiad i gael ynddynt a thrwyddynt pa fodd y mae i bechadur gael ei gymmodi â Duw, a'i waredu oddiwrth ei bechod. Heblaw hyny, gwag dybiau disail oedd llawer o ddaliadau yr hen Baganiad doethaf; y rhai nad oedd un rheswm am danynt ond traddodiadau o'r naill i'r llall oddiwrth yr hwn a'u dychymygodd gyntaf. Mae yr apostol yn rhoddi gocheliad i'r Colossiaid rhag i neb eu *hanrheithio* trwy y cyfryw wag dwyll.

PHILOSOPHYDD—ION, Φιλοσοφος, [*cyfaill*, neu *carwr doethineb*]. Y Groegiaid a alwent y rhai oedd yn astudio doethineb *σοφοι*, *doethion*; ond Pythagoras ni fynai ei alw *σοφος*, *yn ddoeth*, ond *Φιλοσοφος*, *carwr doethineb*. Gwel Cicero, *Tuscul. Quæt. lib.* v., *cap.* 3. Dywed Diogenes Laertius, na oddefai Pythagoras i neb gael ei alw yn *wir ddoeth* ond Duw yn unig. Yr oedd amryw bleidiau yn mhlith y Philosophyddion Groegaidd: y mwyaf nodedig oedd yr Epicuriaid, y Stoiciaid, yr Academiaid, a'r Peripateticiaid. Nid ydyw y rhan fwyaf o'u daliadau ddim o werth eu coffâu. Act. 17. 18.

PHINEES, פינחס [*wyneb hŷ*] 1. Mab Eleazar, mab Aaron, a'r trydydd arch-offeiriad yr Iuddewon. Y mae ei enw yn anrhydeddus yn yr ysgrythyrau, o herwydd ei zel dros ogoniant Duw pan wanodd Zimri a Chozbi. Eiddigeddodd dros ei Dduw, a gwnaeth gymmod dros feibion Israel trwy y weithred hon; a rhoddodd Duw iddo am hyny ammod o offeiriadaeth dragywyddol, sef dros hir oesoedd. Num. 25. 7—13. Ps. 106. 30, 31. Anfonwyd ef gyd â'r 12,000 a aethant i ddial ar y Midianiaid. Num. xxxi. Anfonwyd Phinees gyda deg o dywysogion i ymresymu â'r ddau lwyth a hanner yn nghylch yr allor a adeiladasent. Jos. xxii. Gwel Barn. 20. 28. 1 Mac. 2. 26, 54. Dywed yr Iuddewon iddo fyw i fod yn hen: hwyrach iddo farw oddeutu A. M. 2590, ac a olynwyd yn yr offeiriadaeth gan Abisua, neu Abiezer, ei fab. Edr. Offeiriad. Phinees oedd fab hynaf Eleazar, mab hynaf Aaron; ond nid oedd y swydd arch-offeiriadol wedi ei rhwymo gan un gyfraith i'r mab hynaf; gallasai farw o flaen ei dad; neu gallasai ei blant farw, neu fod yn anaddas i'r swydd; gan hyny, nid oedd dim sicrwydd y byddai y swydd iddo ef a'i deulu yn neillduol, cyn yr addewid ar yr achlysur hwn a wnaeth yr Arglwydd iddo. Parhaodd yr arch-offeiriadaeth yn ei deulu hyd oddeutu dyddiau Eli, yr hwn oedd o deulu Ithamar; ac annilys yw yr achos o ddygiad y gangen hòno i mewn yr amser hwnw. Ond dychwelodd yn ol yn fuan i deulu Phinees, ac a barhaodd yn ei deulu, tebygol, tra y parhaodd yr oruchwyliaeth hòno.——2. Phinees mab Eli. Edr. Eli.

PHIOL, *Gr.* *φιαλη*; *Ffr.* Phiole; *Saes.* Vial: crwth, costrel, costrelau, cawg; llestr i ddal gwlybwr. Mae y gair Groeg yn arwyddo, medd Daubuz, llestr â gwddf llydan, ac â chauad arno.

'Cymer phiol win y digofaint yma o'm llaw, a dod hi i'w hyfed i'r holl genedloedd y rhai yr wyf yn dy anfon atynt.' Jer. 25. 15. Yr amgylchiadau hyny sydd yn cynnwys y da neu y drwg yn mywyd dyn, a osodir allan yn aml yn yr ysgrythyrau, fel cynnwysiad phiol, yr hwn y mae Duw, fel Arglwydd y wledd, yn ei gymysgu, ac yn ei roddi i'r amrywiol westwyr, fel y mae yn gweled yn gymhwys. Oddiwrth hyn, pan y mae ein Harglwydd yn gofyn i'w ddysgyblion Iago ac Ioan, 'A allent hwy yfed o'r cwpan (neu y phiol) yr oedd ef ar yfed o hono?' ei feddwl yw, A oedd ganddynt hwy wroldeb ac amynedd i oddef y cyffelyb ddyoddefiadau a gorthrymderau ag yr oedd ei Dad wedi eu rhoddi iddo ef: Mat. 20. 22. ac yn yr ystyr hwn y mae yn gweddïo, 'Fy Nhad, os yw bosibl, aed y cwpan hwn (neu y phiol hon) heibio oddi wrthyf.' Wrth yr arwydd hwn, gan hyny, 'a phiol win digofaint Duw,' y mae i ni ddeall y barnedigaethau a'r gorthrymderau ofnadwy yr oedd Duw yn ei ddigofaint yn bwriadu eu tywallt ar wrthddrychau ei anfoddlonrwydd. A golygir Jeremiah y prophwyd, yr hwn sydd yn eu cyhoeddi, fel y trulliad i ddwyn y phiol oddi amgylch i'r neb oedd i yfed o honi; effeithiau pa un oedd i ymddangos yn eu meddwdod; hyny yw, yn eu dychryn a'u syndod, eu hannhrefn, eu cywilydd, a'u hollol ddinystr. Y gyffelybiaeth hon o phiol digofaint Duw, a arferir yn aml yn yr ysgrythyrau, a drinir gyd â'r effeithioldeb a'r arddercha wgrwydd mwyaf yn Esa. 51. 17—23. Jerusalem a osodir allan fel yn honcian dan ei heffeithiau, yn amddifad o'r cynnorthwy a allasai ddysgwyl oddiwrth ei phlant. 'Nid oes arweinydd iddi o'r holl feibion a esgorodd.' Hwy, yn wael, yn syn, ac yn llewygu, ydynt yn gorwedd yn mhen pob heol, gwedi eu gorchfygu gan fawredd eu cyfyngder; fel tarw gwyllt mewn magl, yn ymdrechu yn ofer i'w dryllio, a rhyddhau ei hun o honi. Y mae ardderchawgrwydd yn y gradd mwyaf yn y geiriau. Gwel Plato, *De leg.* 1. Homer's *Iliad* 26, 257.

Y mae yn nodedig, mai wrth win cymysgedig, y



Digitized by Google

deallai y Groegwyr a'r Rhufeiniaid, bob amser, gwin wedi ei wanhau; ond yr Hebreaid, yn y gwrthwyneb, a ddeallent, gwin wedi ei gryfhau, a'i wneyd yn fwy brwysgol, trwy ychwanegu ato bethau cryfach, a mwy poethlyd yn eu natur; megys mêl, pêr-lysiau, myrr, &c. Hwn a elwir 'y gwin llysieuog,' yn Can. 8. 2. Felly y darlunir y meddwyn yn un ag oedd yn 'ymofyn am win cymysgedig:' Diar. 23. 30. a 'dynion nerthol i gymysgu diod gadarn.' Esa. 51. 22. Ac oddiwrth hyn y cymerodd y Psalmydd y gyffelybiaeth hardd a goruchel o 'phiol digofaint Duw,' a eilw Esaiah 'y cwpan erchyll:' Pen. 5. 22. (yn peri meddwdod a syfrdandod). 'Yn llaw IEHOFAH,' medd y Psalmydd, 'y mae phiol, ac mae y gwin yn goch (neu yn gymysglyd), yn llawn cymysg, ac efe a dywalltodd o hono; yn ddiau holl annuwiolion y tir a wasgant, ac a yfant ei waelodion.'

'Phiol iechydwriaeth.' Ps. 116. 13. Y mae cyfeiriad y geiriau at y ddiod-offrwm o win a offryment i'r Arglwydd, yn cysgodi tywalltiad gwaed Crist yn iawn dros bechod. Num. 15. 4, 7, 10. a 18. 7. Geilw Paul hi, *ποτηριον ευλογιας*, *phiol y fendith*, yn arwydd o fendith a diolchgarwch i Dduw. Felly ein Hiachawdwr, 'Gwedi iddo gymeryd y cwpan, a *rhoddi diolch.*' Luc 22. 17. Y cwpan, sef y *gwin ynddo*, yn arwyddo ei waed ei hun. Yr oedd yn diolch wrth feddwl am ei dywallt, ac ar yr olwg ar yr amser yn nesâu iddo wneuthur hyny; yr oedd yn diolch dros yr holl eglwys, ac yn llawenhau yn ei llawenydd hi, ac yn diolch am y drefn fawr i'w hachub. Nid phiol marwolaeth, melldith, a damnedigaeth, ond phiol iechydwriaeth; iechydwriaeth gyflawn, effeithiol, a rhinweddol, yw yr hyn sydd gynnwysedig ynddi. Y mae wedi ei pharotoi a'i llenwi: 'Fy phiol sy lawn,' medd Dafydd. Ps. 23. 5. a 16. 5. Ei chymeryd yw ein braint a'n dyledswydd ninnau, a galw ar enw yr Arglwydd, sef ei addoli a'i foliannu. Cymeryd y phiol, a arwydda, cymeryd y peth cynnwysedig yn y phiol, sef iechydwriaeth; a chymeryd yr iechydwriaeth a drefnodd Duw yn Nghrist, a thrwy ei aberth, ydyw y ffordd benaf i bechadur ogoneddu Duw; a'i gwrthod hi, y benaf o ffyrdd Duw, ydyw y dirmyg mwyaf a ddichon iddo wneuthur i holl briodoliaethau Duw, sef Duw yn gweithredu yn holl ddyfnderoedd ei ddoethineb, ei gariad, a'i ddaioni. Nid ydyw pob addoliad a gyflwynir i Dduw gan wrthodwyr iechydwriaeth, ond eithaf ffiaidd ac atgas. 'Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef.' Ioan 5. 23.

'Phiolau aur yn llawn o arogl-darth, y rhai ydyw gweddïau y saint.' Dat. 5. 8. Mae y gair *phiol* yma yn arwyddo yr un peth a'r gair *Heb.* המחתה *thuser*, yn yr hon y rhoddid y marwor tanllyd, ei llonaid, a'r arogl-darth peraidd mân, llonaid y llaw, ar y marwor tanllyd i arogl-darthu o flaen yr Arglwydd. Lef. 16. 12, 13. Yr oedd hwn yn cysgodi pereidd-dra eiriolaeth Crist dros ei bobl, a phereidd-dra gweddïau y saint ynddo a thrwyddo. Y mae pob un o'r saint yn offeiriad i Dduw trwy ei undeb â Christ, ac y mae y phiol, neu y thuser, aur yma ganddo, yn llawn o arogl-darth peraidd, sef gweddi at Dduw; a thelyn aur yn arwydd o'i lawenydd a'i ddiolchgarwch hyfryd am iechydwriaeth.—'Yr oedd gan bob un o honynt delynau a chrythau aur yn llawn o arogl-darth.' Dr M. Dat. 5. 8. Heb ddeall priodol ystyr y gair Cymraeg *crythau*, goganwyd y cyfieithwr dysgedig, gan farnu iddo gyfleithu o'r cyfleithiad Saesonaeg, ac iddo gamsynied *vials*, yn lle *viols*, a hwnw drachefn yn lle *violins*, *crythau*. Gwel Ames *Typog. Antiq.* Amddiffyniad y Dr Llywelyn a ddengys yr un anwybodaeth o ystyr y gair Cymraeg. *Hist. Account of British or Welsh Versions and Editions.* Priodol ystyr y gair *crwth*, lliosog *crythau*, yw blwch, neu gistan wedi ei cheuogi o delpyn o bren; a arferir yn gyffredinol i ddal halen; am hyny gelwir pob math o flychod halen, *crwth halen.* Galwyd offeryn cerdd wrth yr enw hwn, o herwydd ei debygolrwydd i'r crwth halen. Ymddengys, gan hyny, gyfleithiad y Dr Morgan yn addas, ac fwy Cymreigaidd na'r cyfleithiad presennol: ac anwybodaeth oedd yr unig achos iddo gael ei gamfarnu yn anwybodus.

'Phiolau digofaint.'—'Ac un o'r pedwar anifel a roddodd i'r saith angel saith phiol aur, yn llawn o ddigofaint Duw.' Dat. 15. 7. a 16. 1. Nid phiolau yn llawn gwin a feddylir, ond yn llawn tân. Pan fyddo gwin mewn phiol yn arwyddo digofaint Duw ar ddynion, dywedir eu bod yn ei *yfed.* Ps. 75. 8. Jer. 25. 15. Mae tân yn arwydd addas o ddigofaint, yr hwn wedi ei dywallt ar ddynion sydd yn eu llosgi a'u difa. Deut. 32. 22. Yn y phiolau hyn y mae cyfeiriad at y thuser aur y rhoddid y marwor tanllyd ynddi oddiar allor y poeth-offrwm, wrth losgi yr arogl-darth. Rhoddodd un o'r pedwar anifel y tân oddiar yr allor, ac a lanwodd y saith phiol âg ef, a rhoddodd y phiolau felly yn llawn o dân, yn arwyddo digofaint Duw, i'r saith angel i'w tywallt ar y ddaear. Gwel Ezec. 10. 7. lle y cawn y cyffelyb arwydd-lun, a hwyrach fod cyfeiriad at Ezeciel gan Ioan.

Yr anifel cerubaidd sydd yn rhoddi y phiolau i'r saith angel, a arwydda yr eglwys yn ei holl aelodau, yn rhoddi ei hachos i'r Arglwydd, a'r offerynau a welo efe yn addas i'w defnyddio er ei gwaredigaeth o ddwylaw ei gelynion creulon. Iaith yr eglwys yw, 'Gwnaethost fy marn a'm mater yn dda: eisteddaist ar orsedd-fainc, gan farnu yn gyfiawn.—Gwn y dadleu yr Arglwydd ddadl y truan, ac y barna efe y tlodion.' Ps. 9. 4. a 140. 12. 'Ti, O Arglwydd a welaist fy ngham: barn di fy marn i.' Galar. 3. 59. Yr hyn yw yn iaith Petr, 'Rhoddi ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn.' 1 Petr 2. 23. Yr un peth ydyw rhoddi y phiolau yn llaw y saith angel, a phe buasai yn eu rhoddi i law Duw, gweision yr hwn oeddynt. Mae y darluniad gweledigaethol hwn yn hynod o hardd a difrifol. Y mae yr olwg ar y 'saith angel yn dyfod allan o'r deml, oddiwrth yr Arglwydd, gwedi eu gwisgo â llïan pur dysglaer, a gwregysu eu dwyfronau â gwregysau aur,' yn geinwych a gogoneddus. Yr anifel drachefn yn cynnrychioli yr eglwys, yn rhoddi y phiolau iddynt, sydd yn dangos ysbryd addas yr eglwys, yn gadael ei barn a'i mater i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-fainc, gan farnu yn gyfiawn. 'Llenwi y deml o fŵg oddiwrth ogoniant Duw, ac oddiwrth ei nerth ef,' a arwydda fod, ac y bydd, Duw yn ymddangos yn dra gogoneddus yn ei holl farnedigaethau ar elynion ei eglwys, (Esa. 6. 1. 1 Bren. 8. 10, 11. Exod. 19. 18.) ac y bydd arwyddion neillduol o'r presennoldeb dwyfol yn yr eglwys yn amser tywalltiad y phiolau hyn ar ei gelynion. Gelwir y phiolau yn bläau; 'y saith bla diweddaf,' mewn cyfeiriad at bläau yr Aipht. Gelwir teyrnas y bwystfil Anghristaidd 'Sodom a'r Aipht,' oblegid ei halogedigaeth, a'i chreulondeb tu ag at eglwys Dduw; ac megys y dinystriodd Duw yr Aipht â phläau, felly y mae ganddo bläau ar fedr y bwystfil Anghristaidd, y rhai ydynt ofnadwy iawn, ac a ddystrywiant yn gwbl ei holl deyrnas a'i lywodraeth. Y saith bla *diweddaf* ydynt, o herwydd trwyddynt 'yr Arglwydd a *gyflawnodd* ei ddigter, ac a dywalltodd lidiawgrwydd ei soriant.' Galar. 4. 11.

Mae y nifer *saith* yn cyfeirio at y saith sêl a'r saith udgorn; ac yn amser adganiad yr udgyrn, y bydd i'r saith phiol gael eu tywallt. Fel y mae udganiad yr udgyrn yn arwyddo dinystr ymerodraeth Rhufain Baganaidd, felly y mae tywalltiad y phiolau yn arwyddo dystryw Anghrist trwy farnedigaethau Duw.

Sylw. 1. Fod yr holl phiolau yn cael eu tywyllt ar deyrnas y bwystfil Anghristaidd.——2. Wedi dechreu eu tywallt, fod Duw yn dilyn ei waith yn raddol nes

Digitized by Google

ei orphen; y mae phiol ar ol phiol yn canlyn nes gorphen.——3. Tywalltwyd y gyntaf pan ddechreuodd Anghrist waethygu arno, a thywalltir y ddiweddaf pan ddinystrir ef yn hollol: 'A daeth llef uchel allan o deml y nef, odiwrth yr orsedd-fainc, yn dywedyd, Darfu.' Dat. 16. 17.——4. Gan fod Anghrist gwedi syrthio i raddau mawrion o'r uchder y bu efe unwaith ynddo, y mae yn amlwg i mi fod y phiolau gwedi dechreu cael eu tywallt; a chan ei fod heb ei ddinystrio yn gwbl etto, y mae mor ddilys fod y seithfed phiol heb gael ei thywallt etto.——5. Tybygaf y gellir meddwl i'r phiolau ddechreu gael eu tywallt yn amser y Waldensiaid, pan ddechreuwyd gwrthwynebu Anghrist yn gyhoeddus ac yn wrol, gan y tystion ffyddlawn hyny. Er hyny hyd yn hyn, pa bethau bynag sydd yn peri gradd o ddarostyngiad i'r gallu a'r llywodraeth Anghristaidd, nid anaddas ei olygu yn perthyn i un o'r phiolau. Y mae yr amrywiaeth barnau yn nghylch tywalltiad y phiolau, a'u hamserau priodol, a'r dygwyddiadau i'w priodoli iddynt, yn dangos mai mater anhawdd ei benderfynu ydyw; etto, gellir canfod yn amlwg eu bod gwedi, ac yn cael eu tywallt er's rhai oesoedd a aethant heibio; ac mor sicr ag i'r gyntaf gael ei thywallt, y tywelltir yr olaf hefyd—hwyrach tu ag udganiad y seithfed udgorn; ac y mae yr amser yn nesâu yn brysur. Nid ydwyf heb wybod fod rhai dysgedigion yn barnu mai gwedi udganiad y seithfed udgorn y tywelltir yr holl phiolau, ond y sylwadau uchod ydynt yn ymddangos i mi yn fwy cyson, a thebycach i wirionedd.

Barna Mr Faber i'r phiol gyntaf gael ei thywallt yn A. D. 1792, ac mai 'y cornwyd drwg a blin ar y dynion â nôd y bwystfil arnynt,' yw Atheistiaeth Ffrainc, a gwledydd eraill Pabaidd.

Yr ail phiol a dywalltwyd wedi hyny ar y môr, ac a aeth yn ganlynol fel gwaed dyn marw, a arwydda yr holl laddfëydd a'r galanastra dychrynllyd a fu gwedi hyny yn Ffrainc. Dychryndod oedd yn teyrnasu, ac yr oedd bywyd pawb yn anniogel. Yr ydys yn barnu lladd 2,000,000 o ddynion yn Ffrainc wedi cyfnewidiad y llywodraeth yno.

Y drydedd a dywalltwyd ar yr afonydd a'r ffynonau dyfroedd, a arwydda ysgydwad a chylchdröad holl deyrnasoedd Ewrop gan fyddinoedd buddugoliaethus Ffrainc Atheistaidd. Yr oedd yr holl deyrnasoedd hyn wedi eu llyncu gan Atheistiaeth Ffrainc, ac felly y cyfranogasant o'i barnedigaethau. Mae y tair phiol hyn yn perthyn, yn ol barn y gwr dysgedig uchod, i adchwiliad llywodraeth Ffrainc, a'r canlyniadau dychrynllyd o hyny, ac yn arwyddo yr peth a 'chynhauaf a ddaear.' Dat. 14. 15, &c.

Y bedwaredd phiol ar yr haul, a gallu yn cael ei roddi iddo i boethi dynion â thân, a arwydda orthrymder creulawn llywodraeth filwraidd Ffrainc ar yr holl deyrnasoedd Pabaidd a ddarostyngodd. Haul y ffurfafen Babaidd yw Ffrainc, dan y llywodraeth hon y mae yr holl wledydd Pabaidd yn cael eu poethi â thân, sef yn dyoddef gorthrymder a chreulondeb tost.

Gwedi brwydr Austerlitz, tebygol, y tywalltwyd y bummed phiol ar orsedd-fainc y bwystfil, sef ymerodraeth Germani.

Y chweched phiol a arwydda ymchweliad a dystrywiad ymerodraeth y Twrc. Edr. EUPHRATES.

Y seithfed a arwydda yr un peth a chynhauaf gwinwydden y ddaear, a'r lladdfa yn Armagedon, sef yn Megido, yn ngwlad Canaan (2 Bren. 23. 29.) y lladdfa fawr a ddarlunir yn Dat. xix., ac yn gosod allan hollol ddinystr y bwystfil Anghristaidd, a'r gau-brophwyd, mewn modd rhyfedd a dychrynadwy, yn niwedd y mil a deucant a thriugain o ddyddiau. Faber's *Essay on the Prophecies, vol.* ii. Mae y gwr hwn yn barnu fod yr holl phiolau yn cael eu tywallt wedi udganiad y seithfed udgorn, yn A. D. 1792, Awst 12,—amser a ddengys a ydyw ei olygiad ar y pethau hyn yn gywir. O'm rhan fy hun, er i mi ddarllen ei waith gyda hyfrydwch ac adeiladaeth, etto nid gyda chyflawn foddlonrwydd yn ei holl olygiadau.

PHIOLAID, yw llonaid phiol.—'Phiolaid o ddwfr oer,' a arwydda y peth lleiaf:—'rhoddi phiolaid o ddwfr oer yn enw dysgybl,' ydyw dangos y caredigrwydd, a gwneuthur y gymwynas leiaf. Mat. 10. 42. *Dwfr* yw, ac nid *gwin*: dwfr *oer*, heb gymeryd trafferth i'w dwymno; peth yw a ddichon y tlotaf ei wneuthur i'w gilydd os bydd cariad.

PHLEGON, *Gr.* Φλεγων [*tanllyd*] yr oedd yn ŵr o gymeradwyaeth yn mhlith y Cristionogion, gan fod Paul yn ei anerch yn Rhuf. 16. 14. Nid oes dim ychwaneg o wybodaeth yn ei gylch.

PHRYGIA, Φρυγια [*diffrwyth*] gwlad yn Asia Leiaf, a Môr y Canoldir, a'r Helespont o du y gogledd-orllewin iddi, Galatia o du y dwyrain iddi, a Lydia i'r dehau. Rhanwyd hi yn ddau parth, sef Phrygia Leiaf i'r gorllewin; prif ddinasoedd pa un oedd Troas, Cyzicus, Lampsacus, Abydos, Antandros, &c., a Phrygia Fwyaf yn y dwyrain; prif ddinasoedd pa un oedd Hierapolis, Colosse, Gordium, a Lysias. Poblogwyd y wlad hon, tebygol, gan hiliogaeth Ascenas a Thogarmah, meibion Gomer. Y mae Caerdroia, dinas o'r wlad hon, yn nodedig yn hen hanesiaeth. Pregethwyd yma yn foreu, a bu Cristionogrwydd yn flodeuog ynddi dros amryw oesoedd; ac y mae heb lwyr ddarfod yno etto. Act. 16. 6. a 18. 23.

PHURAH, פרה [*ffrwythlon*] llanc Gedeon. Barn. 7. 10, 11.

PHUT, פוט [*gweddi*] trydydd mab Ham. Gen. 16. 6. Oddi wrtho ef y galwyd ei genedl a'i wlad wrth yr enw hwn. Ezec. 27. 10. Nah. 3. 9. Gelwir hefyd yr un wlad Lybia. Ezec. 38. 5. Dywed Josephus i Phut sefydlu yn Lybia yn Affrica, a bod afon o'r enw yn Mauritonia. Gwel *Antiq., lib.* i., *cap.* 6. Dywed Jerome hefyd y gelwid Lybia, Phutensis. Gwel *Tradit. Heb. in Genesin.* Yn Jer. 46. 9. cyfleithir y geiriau כוש ופוט *Cus* a *Phut*, enw dau fab Ham, yr Ethiopiaid a'r Lybiaid.

PHYGELUS, *Gr.* Φυγελλος [*ffoadur*]. Edr. HERMOGENES. 2 Tim. 1. 15.

PHYLACTERAU, *Gr.* φυλακτηριον [*diogelydd*] lleiniau, neu rolau bychain o femrwn, â geiriau o'r gyfraith yn ysgrifenedig arnynt, i'w gwisgo ar eu talcenau, yr arddyrnau, ac ar ymylau eu gwisgoedd, oddi wrth olygu y gorchymyn yn Deut. 6. 8. yn llythyrenol. Exod. 13. 9. Num. 15. 38, 39. Mat. 23. 5. Gwisgai yr Iuddewon y rhai hyn gyda llawer o goelgrefydd a hunan-gyfiawnder.—'Y maent yn gwneuthur yn llydan eu phylacterau.' Mat. 23. 5.—'Can ys llydany ei cadwadigion, a wnant, ac estyn emplynae ei gwiscoedd.' W. S.

PHYSYGWR, *Llad.* PHYSICUS; *Ffr.* PHYSICIEN; *Saes.* PHYSICIAN: meddyg. Jer. 8. 22. Luc 8. 43. Col. 4. 14. Edr. MEDDYG.

Digitized by Google

# R.

**RAAMAH**, רעמה [*mawredd*]. 1. Pedwerydd mab Cus, mab hynaf Cain, yr hwn a boblogodd wlad yn Arabia, hwyrach yn Arabia Ffelix, yn agos i Lynclyn Persia. Gen. 10. 7. Ezec. 27. 22.—2. Yr oedd un arall o'r enw, a ddychwelodd o Babilon gyda Zorobabel. Neh. 7. 7.

**RAAMSES**, רעמסס [*taran*] dinas yn yr Aipht, a adeiladwyd gan yr Hebreaid, pan oeddynt hwy yno yn gaethion. Exod. 1. 11.

**RAB, RABBAN, RABBI, RABBON**, רב [*mawr*] titl yn arwyddo meistr, ac yr ydoedd yn enw o anrhydedd yn mhlith yr Hebreaid, ac yn cael ei roddi i athrawon, penaeth dosparth, ac i dywysogion a swyddwyr llŷs y brenin. Yn myddin Senacherib cawn Rabsaceh, yn arwyddo *pen-trulliad;* a Rabsaris, yn arwyddo *pen yr eunuchiaid,* neu *yr ystafellyddion:* gelwir Nebuzaradan, רב־טבחים *rab-tebachim* (2 Bren. 25. 8, 20.) *dystain,* neu *benaeth y cigyddion,* neu *y ceginwyr,* neu *benaeth y milwyr,* fel y cyfieithir yr un geiriau yn Jer. 39. 10. *Rab-mag, penaeth y magi.* Jer. 39. 3. Geilw Daniel, (pen. 1. 3.) Aspenaz, רב־סריסים *rab-serisim, pen yr eunuchiaid,* neu yr *ystafellyddion.* Gwnaeth Nebuchodonosor Daniel yn רב־סגנין *rab-saganim, pen y swyddogion;* רב־חרטמין *rab-chartumin, penaeth y dewiniaid,* neu *y dehonglwyr.* Dan. 2. 48. a 5. 11. Yr oedd רב *swyddwr,* wrth bob bwrdd yn y wledd a wnaeth Ahasferus. Esther 1. 8. רב־החבל *rab-hachebel, meistr y llong.* Jonah 1. 6. Yn mhlith y Caldeaid yr arferwyd *rab* gyntaf, ac y mae yn eglur yn cyfateb i'r gair שר *tywysog,* yn mhlith yr Hebreaid. Yr hwn a eilw Daniel (pen. 1. 3.) *rab-harisim,* a elwir bedair gwaith שר־הסריסים *shar-haserisim.* Adn. 7, 8, 9, 18. Y mae *rab, meistr,* yn awr yn mhlith yr Iuddewon yn enw mwy anrhydeddus na *rabbi, fy meistr,* neu *fy athraw* (Ioan 1. 38.) a *rabbin,* a *rabbim,* yn y rhif lliosog, yn fwy anrhydeddus na phob un o'r ddau; ac i gyrhaedd y cyfryw enw anrhydeddus, rhaid esgyn trwy amryw raddau; sef bod yn gyntaf yn ddysgybl, wedi hyny yn gyfaill, ac yn ddiweddaf yn Rabbi, neu Ddoctor. Y mae yr Arglwydd Iesu yn difrio ac yn senu yn drwm y Rabbin yn ei ddyddiau ef, pa un ai ysgrifenyddion ai Phariseaid, am eu balchder a'u hymchwydd ffiaidd. Mat. xv, xxiii. Luc 11. 44. a 12. 1. Y mae Crist yn gwahardd ei ddysgyblion eu galw hwy *Rabbi;* 'canys un,' medd efe, 'yw καθηγητης, eich *Arweinydd,* neu eich *Athraw* chwi, sef Crist.' Mat. 23. 7, 8. Gelwir ef ei hun yn aml wrth yr enw hwn, ac nid ydyw yn dangos dim anfoddlonrwydd; canys yr oedd efe mewn gwirionedd yn Ddysgawdwr wedi dyfod oddiwrth Dduw; sef y Prophwyd mawr oedd ar ddyfod i'r byd. Ioan 3. 2. Deut. 18. 19. Gelwir ef ddwy waith Rabboni, sef gan Bartimeus, a Mair Magdalen. Marc 10. 51. Ioan 20. 16. Yr un yw a Rabban â'r attodiad o'r person cyntaf, yn arwyddo, fy Rabban, neu fy Athraw. Galwai dysgyblion Ioan Fedyddiwr eu hathraw, Rabbi. Ioan 3. 26. Er nad oedd Crist nac Ioan gwedi eu graddu yn athrofâau yr Iuddewon, ond rhoddwyd yr enwau parchedig hyn iddynt gan eu canlynwyr; yn nodi eu crediniaeth yn eu huchel wybodaeth, a'u hanfoniad oddiwrth Dduw. Y mae Nicodemus yn galw Crist, Rabbi, am ei fod yn credu ei fod yn Ddysgawdwr gwedi dyfod oddiwrth Dduw, er na chafodd gan ddynion y nôd o barch ag oeddynt hwy yn ei roddi i'w dysgedigion. Er amser Crist, rhoddodd Duw y Rabbin i fynu i'r ynfydrwydd a'r gwagedd mwyaf coeg a dioberi. Onkelos, Nathan Mordecai Abenezr, Maimonides, Joseph a David Kimchi, Solomon Jarchi, Jachiades, Sephorno, Ben-melech, yw y rhai mwyaf enwog yn eu plith, ac y mae eu hysgrifeniadau o fuddioldeb.

**RABBATH**, רבת [*mawr,* neu *lliaws*] 1. Rabbath meibion Ammon, prif ddinas yr Ammoniaid, tu hwnt Iorddonen. Deut. 3. 11. Yn gwarchae ar y ddinas hon yr ydoedd Joab pan laddwyd Urias ffyddlawn. 2 Sam. 11. 1. Gwedi ei meddiannu hi gan Dafydd y pryd hwn, bu ddarostyngedig i freninoedd Judah dros amryw flynyddoedd: ar ol hyny bu yn meddiant breninoedd Israel. Am greulondeb y trigolion tu ag at weddill yr Israeliaid, gwedi caethgludo y rhan fwyaf o honynt gan Tiglath-pilezer (Amos 1. 13, 14, 15. Jer. 49. 1.) y cyhoedda Jeremiah ac Ezeciel farnedigaethau trymion yn erbyn Rabbath, a'r rhan arall o wlad yr Ammoniaid; y rhai a gyflawnwyd yn fuan wedi dinystr Jerusalem gan Nebuchodonosor. Jer. 49. 2, 3. Ezec. 21. 20. a 25. 5, 6, 7.——2. Dinas yn Judah Jos. 15. 60.

**RABBITH**, dinas yn Issachar. Jos. 19. 20.

**RACA**, *Gr.* ρακα; *Heb.* רק (*rac*): dioberwr, oferddyn, dyn gwag, diles. Cyfieithir y gair *Heb.* רקים (*racim*) *oferwyr,* Barn. 9. 4. Diar. 12. 11. a 28. 19. —*ynfydion,* 2 Sam. 6. 20.—*ofer-ddynion,* 2 Cron. 13. 7.—'Pwy bynag a ddywedo wrth ei frawd, Raca, a fydd euog o gynghor: a phwy bynag a ddywedo, O ynfyd (μωρε, *more*) a fydd euog o dân uffern.' Mat. 5. 22. Buasai mor addas cyfieithu *raca,* a *more, ynfyd;* ond y mae *raca* heb ei gyfieithu, a μωρε, *more,* wedi ei gyfieithu yn ein tri chyfieithiad ni. Yr anhawsdra i gael gair yn ein hiaith ni i wahaniaethu yn fanwl ystyr y ddau air oedd yr achos, tebygol. Cyfieithia Campbell y geiriau fel hyn: 'Pwy bynag a alwo ei frawd, O ynfyd, a fydd yn ddarostyngedig i'r cynghor; a phwy bynag a'i galwo, yr adyn, a fydd yn ddarostyngedig i dân uffern.' Y gair מרה μορε, *more,* a gyfieithir *ynfyd,* ydyw y gair a arferodd Moses ac Aaron yn y rhif lliosog, yn mhoethder eu nwydau wrth y bobl, gan eu galw yn *wrthryfelwyr.* Num. 20. 10. Y mae yr Arglwydd yn dangos y pechadurusrwydd o arferyd geiriau trahaus o ddiystyrwch tu ag at ein brodyr; mae yn groes i garu ein brodyr fel ni ein hunain, ac yn drosedd o'r nawfed gorchymyn. Nid oes dim ond edifeirwch a maddeuant trwy waed Crist, a ddichon ein hachub rhag y gospedigaeth ddyledus am dano. Defnyddia Crist y geiriau arferedig yn ei ddyddiau ef, er dangos anmharch a diystyrwch.

**RACEM**, רקם [*gwag*] mab Seres. 1 Cron. 7. 16.

**RACCATH**, רקת [*glàn,* neu *gwag*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 35. Barna rhai ei bod yn sefyll ar làn yr Iorddonen, neu môr Tiberias, ac felly bod yr enw yn arwyddo glàn.

**RACHAL**, רכל [*masnach-le*] dinas yn nhir Judah. 1 Sam. 30. 29.

**RADAI**, רדי [*amddiffynwr*] pummed mab Jesse a brawd Dafydd. 1 Cron. 2. 14.

**RAHAB** רחב [*balch*] putein-wraig yn Jericho, yr hon trwy ffydd a dderbyniodd yr yspïwyr yn heddychol, ac a'u hanfonodd ymaith ffordd arall. Jos. 2. 1. Heb. 11. 31. Iago 2. 25. Rhai a haerant mai tafarnwraig ydoedd; ond eglur yw fod y gair *Heb.* זנה a'r gair *Gr.* πορνη, yn arwyddo putain. Gen. 34. 31. Lef. 21. 7. Esa. 1. 21. a 23. 16. Ezec. 16. 31. Nah. 3. 4. Nid yw y gair זנה yn un man yn arwyddo tafarn-wraig: am y gair πορνη, nid oes dadl yn ei gylch.

Digitized by Google

Putain oedd hi gwedi bod, ond nid putain oedd hi pan dderbyniodd yr yspïwyr: ‘oblegid trwy ffydd ni ddyfethwyd, pan dderbyniodd hi yr yspïwyr;’ ac os oedd yn feddiannol o wir ffydd pan dderbyniodd hi yr yspïwyr, nid putain oedd hi yr amser hwnw; canys y mae ffydd yn puro y galon. Gelwir personau a phethau yn aml, wrth yr enwau perthynol unwaith iddynt; megys Matthew y publican; sef yr hwn oedd unwaith yn bublican. Mat. 10. 3. Cymh. Mat. 11. 12. a 26. 6. Rhuf. 4. 5. Ioan 9. 17. Glass. *Phil. Sacr. lib.* iii. *tract.* 1. *can.* 3.

Am y wraig hon, ei ffydd, a'i gweithredoedd, rhoddir hanes cyflawn i ni yn Jos. ii, a vi. Yr oedd yn credu cyn derbyn yr yspïwyr, a ffrwythau ei ffydd ydoedd ei holl ymddygiad caredig tu ag at yr yspïwyr; gwnaeth gyffes neillduol ac anrhydeddus o'i ffydd, a'r moddion o'i dychweliad at Dduw. Jos. 2. 10. Yr oedd ei holl gyd-ddinasyddion gwedi clywed yr un hanes a hithau, am Dduw, ac am ei wyrthiau ar ran Israel, ond ni chredasant (*τοις απειθησασι*) ac anufuddhasant, ac am hyny dyfethwyd hwynt. Ni ddyfethwyd hi pan ddinystriwyd Jericho, yn ol adduned yr yspïwyr iddi; hi a drigodd yn mysg meibion Israel, ac oedd, tebygol, yn enwog am ffydd a gweithredoedd da; am hyny, Salmon, mab Nahson, a thad Boaz, a'i cymerodd yn wraig iddo, a hi a gafodd yr anrhydedd o fod yn llinâch Crist y Messïah.

Y mae rhadlonrwydd a phen-arglwyddiaethrwydd gras Duw, ac effeithiau ffydd, i'w canfod yn neillduol yn y wraig hon: 1. Wrth naturiaeth, un o'r cenedloedd ydoedd, ac un o'r Amoriaid, y rhyw waethaf, y rhai oeddynt wedi cael eu rhoddi i ddinystr.——2. Ei bucheddiad hefyd oedd yn dra halogedig, putein-wraig ydoedd—etto, trwy ras pen-arglwyddiaethol, a gallu dwyfol, cafodd ei hachub, ei chyfnewid, a'i sancteiddio. 1 Cor. 6. 9, 10, 11. Y mae ffrwythau ei ffydd i'w canfod yn hynod: derbyniodd yr yspïwyr yn heddychol; cymerodd lawer o boen i'w cuddio a'u diogelu hwynt, er nas gellir cyfiawnhau ei chelwydd yn yr achos; a pheryglodd ei bywyd ei hun trwy hyny; gwnaeth gyffaddefiad godidog o'i ffydd; ymneillduodd oddiwrth ei chenedl ei hun, ac a ymlynodd wrth yr Arglwydd—ffrwythau nodedig ei ffydd oedd y pethau hyn oll: yn ganlynol, ‘ni ddyfethwyd hi gyd â'r rhai ni chredent.’ Heb. 11. 31.

Gelwir yr Aipht yn aml wrth yr enw Rahab, yn arwyddo ymchwydd, balchder, a chreulondeb ei breninoedd a'i thrigolion. Ps. 87. 4. a 89. 10. Esa. 51. 9. Cyfieithir y gair רחב *balchder*, yn Job 26. 12. ‘Ac a dery (רחב *rahab*) *falchder* â'i ddoethineb.’ Wrth ba un y mae i ni ddeall tònau *chwyddedig* y môr, medd Caryl. ‘Efe a rana y môr (trwy ystorm) â'i nerth; ac a dery falchder,’ sef y tònau beilchion, â'i ddoethineb, nes y byddo yn dawel ac yn llonydd. Rhai a briodolant y geiriau i fynediad Israel trwy y Môr Coch; ac felly yn deall רחב yn enw priodol am yr Aipht; ond tebygol ysgrifenu llyfr Job cyn hyny; ac nid oes gyfeiriad at hyny yn un man arall o'r holl lyfr.——‘Canys yn ddiles ac yn ofer y cynnorthwya yr Aiphtiaid: am hyny y llefais arni, Eu nerth hwynt yw aros yn llonydd.’ Esa. 30. 7. ‘Am hyny gelwais hi (yr Aipht) רחב *Rahab;*’ hyny yw, *y balch a'r trahaus*, ‘ond הם שבת *ydynt anweithiolrwydd:*’ yn lle bod yn Rahab, *falch*, *ffyrnig*, *fleiddgar*, y mae yn llonydd, ac yn ddiegni; ac am hyny, peth cwbl ofer yw myned ati am gynnorthwy. Felly y cyfieithia ac yr esponia Vitringa a Lowth y geiriau.

RAHAM, רחם [*amysgaroedd*] tad Jorcoam, o dylwyth Caleb. 1 Cron. 2. 44.

RAHEL, רחל [*dafad*] merch ieuengaf Laban, chwaer Leah, a gwraig hoff Jacob, a mam Joseph a Benjamin. Bu farw wrth esgor ar Benjamin, yn y ffordd i Ephrath, sef Bethlehem; ac yno y claddodd Jacob hi, ac a osododd golofn ar ei bedd. Gen. 35. 20. Merch deg ei phryd, a glandeg yr olwg oedd Rahel, a Jacob a'i hoffodd yn fawr; ond nid yw yr hanes yn ei dangos yn hynod am fwyneidd-dra ei hysbryd, nac am enwogrwydd ei duwioldeb. Er ei gwendidau, tebygol ei bod yn gwir ofni Duw. Edr. BENJAMIN, JACOB, JOSEPH, LABAN, LEAH.

‘Llef a glybuwyd yn Ramah, cwynfan ac wylofain chwerw: Rahel yn wylo am ei meibion, ni fynai ei chysuro am ei meibion, o herwydd nad oeddynt.’ Jer. 31. 15. Mat. 2. 18. Dinas yn Benjamin ydoedd Ramah, yn agos i ba un y claddwyd Rahel: mewn dull ffugyrol o ymadroddi, hardd, a barddonol, gosodir hi allan yma fel yn cyfodi o'i bedd, i alaru yn chwerw iawn, o herwydd dinystr ei meibion, hiliogaeth Joseph a Benjamin; ni fynai ei chysuro, o herwydd nad oeddynt, gan eu bod hwy, gan mwyaf, gwedi eu lladd neu eu halltudio. Y mae yn amlwg oddiwrth y geiriau, ‘A hwy a ddychwelant o dir y gelyn,’ adn. 16. fod y geiriau yn perthynu yn flaenaf i gaethiwed yr Iuddewon yn Babilon; ond cawsant eu cyflawni wedi hyny yn ninystr creulawn a dychrynllyd plant Bethlehem, gan Herod. Yr oedd ei merched o lwyth Benjamin, yn nghyd â'i chwiorydd o lwyth Judah, yn wylo ar yr achlysur chwerw hwn, fel y clywyd eu wylofain hyd Ramah; a phe buasai eu mam yn gallu cyfodi o'i bedd, yr hon a hoffai blant mor fawr, buasai yn ymuno i wylo gyda hwynt. BENONI ydoedd ei mab ieuengaf iddi o hyd. Gen. 35. 18.

RAM, רם [*dyrchafedig*] 1. Mab Hesron a thad Amminadab, o lwyth Judah. 1 Cron. 2. 10.——2. Enw y genedl yr hanoedd Elihu o honi. Job 32. 2. Barna rhai fod Ram, yn y fan hon, yn sefyll yn lle Aram. Yr oedd Elihu o hiliogaeth Buz mab Nachor yr Arameäd, neu y Syriad. Gwel Calmet.

RAMAH, רמה [*uchel*]. Mae y gair hwn yn arwyddo *uchel*, neu *uchelfan*, oddiwrth hyn gelwir amryw leoedd yn Palestina, Ramah, Ramath, Ramatha, Ramoth, Ramathaim, Ramala, Ramathan. Jos. 19. 8, 21, 29, 36. Barn. 19. 13. 1 Sam. 30. 27. Ezra 2. 26. a 10. 29. Neh. 7. 30. a 11. 33.

RAMATH-MISPEH, dinas yn Gilead. Jos. 13. 26.

RAMATHAIM-SOPHIM, oedd ddinas yn Benjamin, yn nghylch chwe milltir i'r gogledd o Jerusalem. Jos. 18. 25. Nid pell oddiwrth Geba a Gibeah. Esa. 10. 29. Hos. 5. 8. Yn agos i'r ddinas hon y preswyliai Deborah. Barn. 4. 5. Yma y preswyliai Elcanah a'i fab Samuel. 1 Sam. 1. 1, 19. a 7. 17. a 8. 4. a 25. 1. Ac yn Naioth, neu *ddolydd* Ramah, yr oedd athrofa i feibion y prophwydi. 1 Sam. xix. Fel yr oedd yn sefyll mewn bwlch rhwng y ddwy deyrnas, Israel a Judah, Baasa brenin Israel a'i traws-feddiannodd, ac a ddechreuodd ei chadarnhau, fel na adawai i neb fyned allan na dyfod i mewn at Asa brenin Judah. 1 Bren. 15. 17, 21. Yma y dosparthodd Nebuzaradan y caethion a gymerodd efe yn Jerusalem, yr hyn a barodd wylofain mawr. Jer. 40. 1, 2, 3. a 31. 15. Edr. GILEAD.

RAMESES, רעמסס [*taran*] talaeth yn yr Aipht, yr un a Gosen. Gen. 47. 11. Cafodd yr enw hwn oddi wrth ddinas o'r enw, a adeiladwyd gan yr Israeliaid, medd Jerome, yn ddinas trysorau, sef i drysori ŷd ynddi. Barna rhai alw y ddinas felly ar ol enw rhyw frenin; ei enw ydoedd Rampsinitus, neu Remphis. Gwel Diodorus Siculus, *lib.* i. *c.* 2. Hwn, tybia rhai, a orthrymodd Israel, ac a wnaeth iddynt adeiladu y peiramidiau mawrion yno. Gwel Well's *Sacred Geography by* Taylor.

RAPHA, רפא [*seibiant*] 1. Pummed mab Benjamin. 1 Cron. 8. 2.——2. Mab Bineah, o Benjamin. 1 Cron. 8. 37.

Digitized by Google

**REAIAH,** ראיה [*gweledigaeth yr Arglwydd*] mab Sobal, a thad Jahath. 1 Cron. 4. 2.——Yr oedd dau arall o'r enw. 1 Cron. 5. 5. Neh. 7. 50.

**REBA,** רבע [*y pedwerydd*, neu *cynhyrfus*] brenin Midian. Num. 31. 8.

**REBECCAH,** רבקה [*tewder*, neu *deniadol*] merch Bethuel, chwaer Laban, gwraig Isaac, a mam Esau a Jacob. Eleazar, gwas Abraham, a gafodd ei anfon gan ei feistr i gyrchu gwraig i Isaac o Haran, ac efe a ddygodd iddo, trwy gyfarwyddyd dwyfol, Rebeccah. Gen. 24. 14—28. Edr. ABRAHAM, ESAU, ISAAC, JACOB. Nid oes dim hanes am Rebeccah gwedi iddi gyfarwyddo Jacob, trwŷ dwyll a chelwydd, i gael y fendith, ac i Jacob ymadael â thŷ ei dad. Pa bryd y bu farw, sydd anhysbys, ond y mae yn ddilys iddi farw o flaen Isaac, ac i'r ddau gael eu claddu gyd âg Abraham a Sarah, yn yr ogof yn maes Machpelah. Gen. 35. 29. a 49. 31. Yr oedd yn llances 'deg odiaeth yr olwg:' yn wraig dduwiol, gall, synwyrol—yn wraig addas i Isaac, mab yr addewid, ac i fyned i mewn i babell Sarah ei fam.

**RECEM,** רקם [*gwag*] 1. Tywysog Midian a laddwyd o achos ffieidd-dra Baal-peor gan feibion Israel. Num. 31. 8.——2. Mab Hebron. 1 Cron. 2. 43.——3. Dinas yn Benjamin. Jos. 18. 27.

**RECHAB,** רכב [*cerbyd*]. 2 Sam. 4. 2. Edr. ISBOSETH, BAANAH.

**RECHAB,** tad Jonadab a'r Rechabiaid. Tybyga rhai ei fod o hiliogaeth Hobab, brawd yn nghyfraith Moses, a'i fod yn un o'r tywysogion penaf y Ceneaid, ac iddo roddi enw i lwyth o honynt. Barn. 1. 16, 18. Tebygol fod y Rechabiaid wedi ymranu yn dri llwyth; sef y Tyrathiaid, y Simeathiaid, a'r Suchathiaid; eu bod yn broselytiaid i'r grefydd Iuddewig, a bod amryw o honynt yn ysgrifenyddion. 1 Cron. 2. 55. Jonadab mab Rechab, a chyfaill Jehu (2 Bren. 10. 15.) a roddodd orchymyn i'r Rechabiaid, nad yfent win, na adeiladent dai, na hauent hâd, ac na phlanent winllan; ond bod iddynt breswylio mewn pebyll. Yr hwn orchymyn a gadwasant yn fanwl. Y mae yr Arglwydd yn addaw trwy Jeremiah, o herwydd ufudd-dod y Rechabiaid i orchymyn eu tad, 'na phallai i Jonadab mab Rechab ŵr i sefyll ger ei fron ef yn dragywydd,' sef yn wir addolwyr Duw: yr hon addewid, diammeu, a gyflawnwyd, er nas gwyddom pa fodd; a hwyrach ei bod yn cael ei chyflawni hyd heddyw. Pan ddaeth Nebuchodonosor i fynu i'r wlad, ffoisant i Jerusalem rhag llu yr Assyriaid. Jer. xxxv.

Tebygol fod Jonadab gwedi gweled y canlyniadau alaethus o anghymedroldeb, ac ysbryd bydol, a chyda rhoddi gorchymyn, rhoddodd siampl i'w dylwyth o gymedrolder, yn ei fucheddiad ei hun: y mae yr Arglwydd yn cymeradwyo eu hufudd-dod a'u hunanymwadiad yn hyn; tebygol nad oeddynt yn ffurfiol, yn hunan-gyfiawn, nac yn enllibus; ond yn sanctaidd, ac ysbrydol, yn agwedd eu meddwl yn cyfateb i gymedrolder eu bucheddau. Gwel *Univer. Hist. vol.* iv. Witsius, *Miscel. Sacr. Exercit.* ix.

**RECHAH,** רכה [*tyner*, neu *ëang*] lle yn Judah. 1 Cron. 4. 12.

**REELEIAH,** רעליה [*syndod yr Arglwydd*] un a ddychwelodd i Jerusalem gyda Zorobabel. Ezra 2. 2.

**REGEM,** רגם [*porthor*] mab Jahdai. 1 Cron. 2. 47.

**REGEM-MELECH,** רגם־מלך [*porthor y brenin*] Sereser a Regem-melech a anfonwyd (neu a *anfonasant*, fel y cyfieitha rhai y geiriau) i ymofyn â'r prophwydi, yn nghylch yr ymprydiau yr oeddynt yn arferedig o'u cadw; sef yr ympryd blynyddol a gadwent yn y pedwerydd mis, yn goffadwriaeth am ddryllio muriau Jerusalem; un arall yn y pummed mis, yn goffadwriaeth am losgiad y deml; un arall yn y seithfed mis, ar y dydd y lladdwyd Gedaliah; un arall yn y degfed mis, am mai yn y mis hwnw y dechreuwyd gwarchae ar y ddinas. Yr ymofyniad oedd, a gadwent hwy rhagllaw yr ymprydiau fel arferol er ys 70 o flynyddoedd, am fod y ddinas a'r deml yn nghylch cael eu hadeiladu. Pwy ydoedd y ddau ŵr hyn, a pha un ai yr anfonwr neu yr anfonedig oeddynt, sydd ansicr; beth bynag am danynt hwy, y mae yr atebiad yn berthynol i'r holl genedl; yn mha un y mae yr Arglwydd, trwy y prophwydi, yn mynegi nad ydoedd eu hymprydiau a osodiad dwyfol; a'u bod hwythau, yn y cyflawniad o'r ymprydiau hyn, yn gnawdol, yn ffurfiol, ac yn hunan-gyfiawn, ac nid yn ymprydio i'r Arglwydd; sef yn gwir alaru am eu pechodau, ac yn cyflawnhau ac yn gogoneddu yr Arglwydd yn ei farnedigaethau am eu pechodau hwy a'u tadau. Yr oeddynt yn barotach, fel pob rhagrithiwr, i ymprydio nag i ymadael â'u pechodau, a gwneuthur cyfiawnder, barn, a thrugaredd. Zech. 7. 2—11.

**REHABIAH,** רחביהו [*yr Arglwydd fy ëangydd*] mab Eliezer, ac ŵyr Moses; yr ydoedd ef a'i frodyr yn Lefiaid, ac yn olygwyr trysorau y deml. 1 Cron. 23. 17. a 26. 25.

**REHOB,** רחב [*ëangder*] 1. Tad Hadadezer, brenin Zobah. 2 Sam. 8. 3.——2. Un a ddychwelodd o Babilon. Neh. 10. 11.——3. Dinas yn Aser, a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Gersom. 1 Cron. 6. 75. Jos. 19. 30. a 21. 31. Num. 13. 21. 2 Sam. 10. 6, 8.

**REHOBOAM,** רחבעם [*ëangydd y bobl*] mab Solomon o Naamah, Ammonees. 1 Bren. 14. 21. 1 Cron. 3. 10. Oddiwrth lyfr y Diarebion, gellir barnu i'w dad gymeryd llawer o boen i'w hyfforddi mewn doethineb; ond ni dderbyniodd yr addysgiadau buddiol a gafodd; ac nis dangosodd ei dad hwynt chwaith yn addas o'i flaen yn ei fywyd. Olynodd ei dad yn y llywodraeth, a daeth i'r orsedd, A. M. 3030, C. C. 974, pan yn nghylch 41 o'i oed; am hyny ganwyd ef y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad ei dad, pan oedd ei dad o 18 i 19 o'i oed. Teyrnasodd 17 o flynyddoedd yn Jerusalem. Daeth holl Israel, ar farwolaeth ei dad, i Sichem, i'w wneuthur ef yn frenin, a Jeroboam, yn awr gwedi dychwelyd o'r Aipht, yn flaenor arnynt. Deisyfasant iddo ysgafnhau peth o iau drom ei dad arnynt, gyd âg addewid y gwasanaethent ef ar yr ammodau hyny. Yr oedd yr achwyniad hwn, mewn gradd mawr, yn anghyfiawn. Ni orthrymodd Solomon erioed y bobl â chaethiwed caled, a threthi trymion, ac ni bu greulawn tu ag atynt; er, hwyrach, bod diwedd ei deyrnasiad yn fwy aflwyddiannus na'i dechreuad. Nid oedd neb yn achwyn ar eilun-addoliaeth ei dad, ac yn dymuned diwygiad ac adferiad cyflawn o addoliad Duw yn eu plith, i'w burdeb gynt: 'Yr uniawn a aeth yn fras, ac a wingodd.' Deut. 32. 15. Yn ei ynfydrwydd, efe a wrthododd gynghor yr hynafgwyr, a thrwy gynghor y gwyr ieuainc, atebodd hwynt yn arw. Ar hyn, gwrthryfelodd deg llwyth yn ei erbyn, a gosodasant Jeroboam yn frenin arnynt, a llabyddiasant Adoram, yr hwn oedd ar y dreth, â meini. Edr. JEROBOAM. Casglodd Rehoboam lu o 180,000 i ymladd yn erbyn Israel, ond Semaiah, gwr Duw, a warafunodd iddo; a'r bobl a wrandawsant ar air yr Arglwydd, ac aethant ymaith bob un i'w dŷ. Gwedi sicrhau ei deyrnas, a llywodraethu yn llwyddiannus dros dair blynedd, wedi hyny Judah a wnaeth ddrygioni yn erbyn yr Arglwydd, trwy ddilyn pob math ar eilun-addoliaeth.—Yn y bummed flwyddyn iddo, daeth Sisac brenin yr Aipht, â llu mawr iawn yn erbyn Jerusalem, ac a'i hanrheithiodd. Mae efe a'i dywysogion yn edifarhau ac yn ymostwng wrth bregeth Semaiah, a chawsant

Digitized by Google

ymwared rhag eu dinystrio, ond nid rhag eu hanrheithio. Dygodd Sisac ymaith yr holl drysorau; a'r tarianau aur a wnaethai Solomon. Yr oedd iddo ddeunaw o wragedd, a thriugain o ordderchadon, wyth ar hugain o feibion, a thriugain o ferched. Claddwyd ef yn ninas Dafydd, ac Abiah ei fab a deyrnasodd yn ei le ef. Yr oedd Solomon yn gwybod yn dda y diffyg synwyr oedd yn ei fab i gyflawni ei fwriadau, ac i lywodraethu yn ddoeth er llesâd i'r wladwriaeth a'i deulu; a diammeu fod hyn yn achos o alar trwm iddo. Preg. 2. 18, 19. 1 Bren. xii. a 14. 21—31. 2 Cron. x, xi, xii. Mab Sirach a ddywed am dano, 'Rehoboam ynfydrwydd y bobl, ac un disynwyr, yr hwn a yrodd y bobl ymaith â'i gynghor.' Eccles. 47. 23.

REHOBOTH, רחבות [*y lleoedd*] 1. Afon Idumea. Gen. 36. 37. 1 Cron. 1. 48.——2. Enw dinas. Gen. 10. 11.——3. Enw pydew a gloddiodd bugeiliaid Isaac, ac a arwydda *ëangder*. Gen. 26. 22.

REHUM, רחום [*trugarog*] yr oedd dau o'r enw. —1. Lefiad. Ezra 2. 2. Neh. 3. 17. a 12. 3.——2. Cofiadur brenin Babilon tu yma i'r afon Euphrates. Ezra 4. 8, 9, 17, 23. Edr. Bislam.

REI, *Heb.* רעי [*fy nghyfaill*] un o gedyrn Dafydd, a fu yn ffyddlon i Solomon yn erbyn Adoniah. 1 Bren. 1. 8.

REMALIAH, רמליה [*dyrchafiad yr Arglwydd*] tad Pecah brenin Israel. 2 Bren. 15. 25.

REMETH, רמת [*uchelder*] dinas yn rhandir Gad; dinas noddfa, ac un o ddinasoedd yr offeiriaid. Yr un a Ramoth. Jos. 19. 21.

REMPHAN, 'A chwi a gymerasoch babell Moloch, a seren eich duw Remphan, lluniau y rhai a wnaethoch i'w haddoli.' Act. 7. 43. Y mae geiriau Stephan yn un agos a chyfieithiad y LXX. o Amos 5. 26. 'Ond dygasoch babell eich Moloch, Chiwn eich delwau, seren eich duw, a wnaethoch iwch' eich hunain.'—'Ond dugasoch Siccwth eich brenhin, Chiwn hefyd eich delwau, (a) seren eich duwiau, yr hon a wnaethoch iwch eich hunain.' Dr M. Cyfieitha y Dr Newcome hwynt, trwy draws-gyfleu y geiriau Hebraeg fel y canlyn: 'Nagê, ond dygasoch babell Moloch, a seren eich Duw Chiwn: eich delwau a wnaethoch i chwi eich hunain.' Mae y cyfieithiad hwn yn ateb yn agos i'r Groeg, ond bod *Remphan* yn lle *Chiwn*. Am gyfnewidiad y gair hwn, yr unig reswm coeladwy a welais yw, iddynt ddarllen y gair ריון (*revan*) yn lle כיון (*chevan*) trwy fod llinell yn ngwaelod y llythyren כ wedi ei gadael allan, ac fel hyn y trowyd hi yn ר Y mae amryw siamplau i'w cael i'r LXX. gyfnewid y llythyrenau hyn, neu eu bod wedi eu cyfnewid trwy ddiofalwch yr adysgrifenydd yn y copi Hebraeg y cyfieithasant o hono; megys yn Nah. 1. 6. ראש (*rosh*) yn lle כאש (*cosh*) *fel tân*. Gwel Glassius *Phil. Sacr. lib.* iv. *tract*. 3. Vitringa *Obs. Sacr. lib.* ii. *cap*. 1. Am yr eilun-dduw Chiwn, neu Remphan, ychydig o foddlonrwydd sydd i'w gael, pwy, na pha fath un oedd; ac nid ydyw o ganlyniad i wybod. Profi y mae Amos a Stephan y tueddrwydd oedd yn yr Israeliaid yn mhob oes i eilun-addoliaeth, a gwrthryfelgarwch. Eilun-addolwyr oeddynt yn yr Aipht; dilynasant yr un arferiad halogedig wrth Sinai; ac hefyd wedi hyny yn yr anialwch; ac yn yr oesoedd wedi hyny trwy eu cenedlaethau; ac a dynasant farnedigaethau Duw arnynt er eu dinystr trwy hyny. Ezec. xx. Ps. 106. 37, 38.

REPHAEL, *Heb.* רפאל [*meddyginiaeth Duw*] mab Semaiah. 1 Cron. 26. 7.

REPHAH, רפח [*seibiant*] mab Beraiah, ac ŵyr Ephraim. 1 Cron. 7. 25.

REPHAIAH, רפיה [*meddyginiaeth yr Arglwydd*] yr oedd amryw o'r enw. 1 Cron. 4. 42. a 7. 2. a 9. 43. Neh. 3. 9.

REPHAIM, naill ai hiliogaeth Rephah, neu enw priodol ar y cawri gynt yn mhlith y Philistiaid, &c. Yr oedd cenedl o'r enw hwn yn amser Abraham. Gen. 14. 5. Yr oedd rhai o'i hiliogaeth yn Nghanaan yn amser Josuah (Jos. 12. 4. a 17. 15.) lle y cyfieithir y gair *cawri*. Gwel 1 Cron. 20. 4, 5, 6. yn Hebraeg. Sonir am ddyffryn Rephaim, neu, glyn neu ddyffryn y cawri, lle y preswyliai y Rephaim hyn, y rhai a gofféir gyd â'r Hefiaid, y Pereziaid, yr Amoriaid, &c. Josuah 15. 8. a 18. 16. 2 Sam. 5. 18, 22. 1 Cron. 11. 15. a 14. 9. Yr oedd y dyffryn hwn yn rhandir Judah neu Benjamin, nid pell oddiwrth Jerusalem, ac yr oedd yn dra ffrwythlon. Esa. 17. 5. Mae y ffordd o Jerusalem i Bethlehem, medd Maundrell, yn myned trwyddo.

REPHIDIM, רפידים [*gorphwysfâoedd*] gwersyllfa Israel yn yr anialwch, o du y gorllewin i'r Môr Coch, lle y tuchanasant o eisieu dwfr, ac y tarawodd Moses y graig, wrth orchymyn Duw, iddynt gael dwfr. Oddiwrth hyn galwyd y lle Massa, *profedigaeth*, a Meribah, *cynhen*. Yma yr ymladdodd Josuah hefyd âg Amalec, ac a'i gorchfygodd. Exod. xvii. Edr. Afon, Craig.

RESA, mab Zorobabel, a thad Joanna. Luc 3. 27.

RESEN, רסן [*ffrwyn*] dinas yn Assyria, rhwng Ninifeh a Chalah, a adeiladwyd gan Assur. Gen. 10. 12.

RESEPH, רשף [*saeth boeth*] 1. Mab Rephah. 1 Cron. 7. 25.——2. Dinas yn Syria. 2 Bren. 19. 12. Esa. 37. 12.

RESIA, רציא mab Ula. 1 Cron. 7. 39.

RESIN, רצין [*ewyllysiwr da, safadwy*] brenin diweddaf Syria, a hwyrach un o hiliogaeth Hazael. Tua diwedd ei deyrnasiad gwnaeth gynghrair â Pecah brenin Israel, i fyned i ryfel yn erbyn Ahaz brenin Judah. Eu bwriad oedd diorseddu Ahaz, a rhoddi mab Tabeal ar yr orsedd yn ei le. Gwarchaeasant ar Jerusalem, ond heb allel ei goresgyn, anrheithiasant y wlad, a dychwelasant yn eu hol. Gwedi hyn, aeth Resin a'i fyddinoedd ac a gymerodd Elath, ac a'i dug hi at Syria, ac a yrodd yr Iuddewon oddi yno; a'r Syriaid a breswyliasant yn Elath. Edr. Ahaz. Tiglath-pileser, brenin Assyria, trwy annogaeth Ahaz, a oresgynodd Syria, a laddodd Resin, ac a gaethgludodd ei ddeiliaid i Media. Gwedi hyn, bu Syria yn dalaeth o ymerodraeth Assyria; fel hyn y dinystriwyd yn hollol freniniaeth Syria, yn ol prophwydoliaethau y prophwydi: 'Wele Damascus wedi ei symud o fod yn ddinas—anfonaf dân i dŷ Hazael, ac efe a ddifa balasau Benhadad—pobl Syria a ant yn gaeth i Cir,' &c. Esa. 17. 1, 3. Amos 1. 4, 5. 2 Bren. xvi. 2 Cron. xxviii. Esa. vii, viii.

REU, רעו [*ei gyfaill*] mab Peleg, a thad Serug. Gen. 11. 18. 1 Cron. 1. 25.

REUBEN, ראובן [*gwelwch fab*] mab hynaf Jacob o Leah. Am ei losgach gyda Bilhah, gordderchwraig i dad, collodd ei enedigaeth-fraint; a rhagfynegodd ei dad wrth farw na ragorai efe ddim. Er i'r pechod hwn gael ei gyflawni er's deugain mlynedd; ac er ei fod, tebygol iawn, wedi cael gwir edifeirwch a maddeuant o hono; etto, am ei fod yn fai mwy ffiaidd yn ei natur, coffâwyd ef gan Jacob ar yr achlysur o fendithio ei feibion, a difreiniwyd y llwyth o'r herwydd; i ddangos, nid yn unig yr atgasrwydd oedd yn ngolwg Jacob, ond hefyd ffieiddiad yr Arglwydd o hono, ac i fod yn rhybydd i'r Israeliaid ac eraill hyd ddiwedd amser. Dangosodd Reuben fwy o diriondeb

Digitized by Google

a charedigrwydd tu ag at Joseph, nag un o'i frodyr eraill, ac a'i hachubodd o'u llaw pan yr oeddynt am ei ladd; ac yr oedd yn bwriadu ei ddwyn eilwaith at ei dad, pe buasai ei frodyr heb ei werthu. Gen. 29. 32. a 30. 14. a 35. 22. a 37. 29, 30. a 39. 32. a 42. 21, 22, 37. a 49. 3, 4. 1 Cron. 5. 1.

Ei feibion oeddynt Hanoch, Phalu, Hesron, a Carmi, y rhai oeddynt benau teuluoedd. Num. 26. 5, 6. Eu gwyr o ryfel pan ddaethant allan o'r Aipht oeddynt 46,500 o rifedi. Pan rifwyd hwynt yn rhosydd Moab, yr oeddynt yn ychydig llai o rifedi; sef 43,730. Cawsant eu hetifeddiaeth y tu hwnt i'r Iorddonen, yn ngwledydd Sehon ac Og. Dathan, Abiram, ac On, y rhai a wrthryfelasant gyda Corah, oeddynt o'r llwyth hwn. Yr oeddynt yn gwersyllu yn yr anialwch, yn yr ail ddosparth o flaen yr arch, ac Elisur mab Zedëur oedd eu tywysog. Eu hyspïwr oedd Sammua mab Zaccur. Yn ol prophwydoliaeth Jacob, ni ragorodd y llwyth hwn; ni chododd un gwr enwog yn eu plith trwy yr holl oesoedd; etto rhagfynega Moses na ddinystrer hwynt, ond y byddent yn aml o rifedi. Deut. 33. 6. 'Ac na bydded ei ddynion ychydig o rifedi.'—'A bydded ei ddynion ychydig o rifedi.' Dr M. ar ol y *Vulg.*—'Bydded ei ddynion o rifedi,' sef yn llawer, 'ac yn mhlith rhifedigion Israel.' *Heb.* Yr oedd eu sefyllfa yn eu gwneuthur yn ddarostyngedig i ruthrau llawer o elynion: yr oedd y Moabiaid i'r dehau iddynt, yr Ammoniaid i'r dwyrain, a'r Syriaid i'r gogledd. Num. 1. 5, 21. a 10. 18. a xvi. a 26. 5, 6. a xxxii. Jos. xxii. Deut. 33. 6. Buont yn ddarostyngedig i'r un dygwyddiadau a'r Gadiaid. Edr. GAD, MANASSEH.

REUEL, רעואל [*cyfaill Duw*] 1. Mab Esau o Basemath. Gen. 36. 4.——2. Yr un a Jethro, tebygol. Exod. 2. 18. a 3. 1. Gelwir ef Raguel yn Numeri 10. 29. Yr un llythyrenau Hebraeg sydd yn y ddau fan, רעואל (*Re-u-el*) a buasai gwell eu hargraffu yr un fath yn ein cyfieithiad ninnau.

REUMAH, *Heb.* ראומה [*uchel*] gordderch-wraig Nachor, mam Tebah, Gaham, Thahaz, a Maachah. Genesis 22. 24.

REZON, *Heb.* רזון [*bychan*] mab Eliada, yr hwn a wrthryfelodd yn erbyn Hadadezer ei arglwydd, brenin Syria, yn Soba, pan oedd Dafydd yn rhyfela âg ef. Cynnullodd wyr ato, ac a aeth yn dywysog ar fyddin; goresgynodd Damascus, a theyrnasodd yno. Pa un ai yn amser Dafydd ai yn amser Solomon y bu hyn, a pha bryd y dechreuodd wrthwynebu Solomon, nid yw gwbl sicr: tebygol na feddiannodd Damascus cyn diwedd amser Solomon; canys Dafydd a ennillodd Damascus yn gystal a rhan arall o Syria; a Solomon a deyrnasodd ar yr holl dalaeth a ddarostyngwyd gan Dafydd. Bu farw yn hen. O ryfel Dafydd â Hadadezer, yn nghylch y flwyddyn A. M. 2960, i ddiwedd teyrnasiad Solomon, A. M. 3029, yr oedd 69 o flynyddoedd; os oedd Rezon yn nghylch 25 neu 30 o oed pan oedd yn dywysog ar lu Hadadezer, rhaid iddo fyw yn nghylch 90 o flynyddoedd. 1 Bren. 11. 23, 24, 25. a 15. 18. Hwyrach mai Hezion a'i holynodd yn y llywodraeth ar Syria.

RIBAI, ריבי [*yr hwn sydd yn lliosogi*] tad Ittai o Gibeah Benjamin, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 29.

RIBLAH, רבלה [*mawredd iddo ef*] dinas o Syria, yn ngwlad Hamath. Yr ydoedd yn lle o'r hyfrydaf. Yma y difreiniodd ac y rhwymodd Pharaoh-Necho y brenin Joachaz; ac yma y lladdodd Nebuchodonosor feibion Sedeciah, a holl dywysogion Judah, ac a dynodd lygaid y brenin, ac a'i rhwymodd â chadwyni, ac a'i dygodd i Babilon. 2 Bren. 23. 33, 34. a 25. 6, 20, 21. Jer. 39. 5. a 52. 9.

RIMMON, רימון [*dyrchafedig*, neu *pomgranad*] 1. Dinas yn Zabulon, hwyrach, medd Calmet, yr un a Dimnah, neu Dimoa, neu Damna. Jos. 21. 35. Hon ydyw Rimmon-Methoar. Jos. 19. 13.——2. Craig y ciliodd meibion Benjamin iddi. Barn. 20. 45. a 21. 13. ——3. Dinas yn llwyth Judah a Simeon. Jos. 15. 32. a 19. 7. 1 Cron. 4. 32. Neh. 11. 29.——3. Dinas neu ddyffryn nid pell o Megido, medd Lyra, y tu dehau i Jerusalem. Zech. 14. 10.——5. Rimmon-Pares (*rhaniad y pomgranad*) gwersyllfa yr Israeliaid yn yr anialwch. Num. 33. 19. Unrhyw le uchel oedd addas ei alw wrth yr enw hwn.——6. Eilunddduw y Syriaid yn Damascus. 2 Bren. 5. 18. Edr. NAAMAN.——7. Rimmon y Beerothiad, tad Baanah a Rechab. 2 Sam. 4. 2.

RIPHATH, ריפת [*meddyginiaeth, llethwr*] ail fab Gomer, ac ŵyr Japheth. Gen. 10. 3. Gelwir ef דפת *Diphath*, yn Hebraeg, yn 1 Cron. 1. 6. Y ר a'r ד a gyfnewidir yn aml. Bernir i'w hiliogaeth boblogi Paphlagonia, neu Bithynia, yn Asia Leiaf. Dywed Josephus y gelwid gynt y Paphlagoniaid, y Riphathæaniaid, oddiwrth Riphath. Coffâ Bochart am afon yn neu yn agos i Paphlagonia, a'i henw Rhebas, Rhebæus, neu Rhebanus. Rhydd Stephanus hanes, nid yn unig am afon, ond hefyd am dalaeth o'r enw Rhebæi. Cyflea Pliny bobl o'r enw Riphæi yn agos yma. Gwel *Universal History, vol.* i.

RISPAH, רצפה [*marworyn byw*] merch Aiah, a gwraig Saul; dau o feibion pa un a grogwyd gan y Gibeoniaid. Hi a gymerodd sach-lïan, ac a'i hestynodd ar y graig; ac a fu yno am fisoedd, i gadw yr ehediaid a'r bwystfilod oddi wrthynt. 2 Sam. 21. 10. Gwedi marwolaeth Saul, Abner ei ewythr a'i cymerodd hi. 2 Sam. 3. 7, 11.

RISSAH, רסה [*dyfrllyd*] un o wersyllfaedd Israel yn yr anialwch. Num. 33. 22.

RITHMAH, רתמה [*banadl*] un o wersyllfaedd Israel yn yr anialwch. Num. 33. 18.

ROGEL, רגל [*troed*] ffynon yn agos i Jerusalem Jos. 15. 7. a 18. 16. 1 Bren. 1. 9.

ROGELIM, רגלים [*traed*] lle yn Gilead, tu hwnt i'r Iorddonen, lle y preswyliai Barzilai, cyfaill Dafydd. 2 Sam. 17. 27.

ROHGAH, רהגה [*meddw, gwaedd*] mab Samer o Aser. 1 Cron. 7. 34.

ROMAMTI-EZER, רוממתי־עזר [*dyrchafiad cymhorth*] mab Heman. 1 Cron. 25. 4.

ROS, ראש [*pen, penaeth*] seithfed mab Benjamin. Gen. 46. 21.

RUBI, y gair נפך a gyfieithir *carbuncl*, yn Exod. 28. 18. a 39. 11.—*rubi*, yn Ezec. 28. 13. Rubi yw cyfieithiad y Dr M. ynddynt oll. Y cyfieithiad *Saes.* ydyw *emerald.* Rhyw fath o faen gwerthfawr mae y gair yn ei arwyddo, sydd a'i gynneddfau yn anadnabyddus yn bresennol. Y maen a elwir rubi yn awr sydd o liw coch, yn gymysgedig â glâs, coch-lâs. Y mae yn faen tra gwerthfawr, ac mor galeted agos a'r diamond. Ei faintioli yn gyffredin ydyw cymaint a phen pin mawr, ond weithiau yn fwy.

RUFFUS, mab Simon y Cyreniad. Marc 15. 21. Barna rhai mai yr un yw hwn y coffâ Paul am dano. Rhuf. 16. 13.

RUTH, רות [*cyfeilles, digonol*] Moabees, a gwraig Chilion, mab Elimelech a Naomi. Wedi marw Chilion, dychwelodd gyda Naomi i Bethlehem. Priododd Boaz hi, cyfathrachwr Naomi. Edr. BOAZ, NAOMI. Ymddengys wrth yr hanes, ei bod hi yn ferch dirion a serchog, ac iddi gael gwybodaeth gwirioneddol o Dduw

Digitized by Google

Israel, ac iddi ddyfod i obeithio dan ei adenydd ef. Dyrchafodd Duw yr alltudes dlawd hon o Moab i fod yn un o hynafiaid y Messiah. Mat. 1. 5.

LLYFR RUTH sydd fel attodiad i Lyfr y Barnwyr, a rhag-draethawd i'r hanes canlynol. Tebygol mai Samuel a'i hysgrifenodd, wedi iddo eneinio Dafydd yn frenin. Anhawdd penderfynu amser y dygwyddiadau a grybwyllir ynddo; ond y mae yr hanes yn bwysfawr ac yn addysgiadol; ac yn dangos gofal manwl a thirion rhagluniaeth Duw am ei bobl, yn y pethau lleiaf perthynol iddynt. Y mae ei ofal am danynt, a'i lywodraeth ar bob peth perthynol iddynt, yn fanwl, yn rasol, yn ddoeth, yn effeithiol, ac yn gyd-glymedig. Cafodd y llyfr ei enw oddiwrth Ruth, hanes pa un a gynnwysir ynddo. Y mae yn dra angenrheidiol yn mhlith yr ysgrifeniadau sanctaidd; canys hebddo ni buasai mo lin-âch Crist yn eglur, i ddangos mai efe oedd y gwir Fessïah; y mae yn cynnwys yr achau o Pharez hyd Dafydd. Dengys hyn hefyd fod iechydwriaeth y Messïah yn perthyn i bechaduriaid y Cenedloedd yn gystal ag i'r Iuddewon; gan fod Ruth, Moabees weddw dlawd, yn mhlith ei achau.

Sylwa Calmet fod ynddo ddau ddull o ymadroddi arferedig yn unig ynddo ef ac yn llyfrau Samuel a'r Breninoedd, yr hyn, hwyrach, a brawf mai yr un a ysgrifenodd y ddau; sef, 'Fel hyn y gwnelo yr Arglwydd i mi, ac fel hyn y chwanego.' Ruth 1. 17. Cymh. 1 Sam. 3. 17. a 14. 44. a 20. 23. 2 Sam. 3. 9, 35. a 19. 13. 1 Bren. 2. 23. a 19. 2. a 20. 10. 2 Bren. 6. 31. Y llall yw, 'y dadguddiwn i dy glust,' yn lle 'dywedyd,' neu 'mynegi.' Ruth 4. 4. Cymh. 1 Sam. 20. 2. 2 Sam. 7. 27. yn Hebraeg.

# RH.

RHAD—AU, (rha-ad) *Llad.* GRATIA: llâd, cêd, dawn, bendith, ffafr.—Gorair, yn rhydd, yn hael, heb haeddiant. Rhad Duw yma! sef bendith Duw yma; nid oes rad ar a wnelo, sef nid oes llwyddiant ar a wnelo; rhad Duw ar bob rhadferthwch! sef bendith Duw ar bob rhoddiad daionus; rhad Duw ar bob llaw ddiflin! sef bendith Duw ar bob llaw ddiwyd; Mab rhad, sef a rad roddwyd, yr Achubwr.

Dedwydd, Dofydd ai rhydd *rhad. Diar.*

'Caraf hwynt yn rhad.' Hos. 14. 4. נדבה *yn rhad*, sef yn ewyllysgar, yn anhaeddiannol, yn wirfoddol, yn helaeth, ac yn haelionus; hyn a arwydda y gair Hebraeg (gwel yn *Heb.* Exod. 36. 3. Lef. 7. 16. Ps. 51. 12. a 110. 3. Esa. 32. 8.) caru yn rhad, a chyfranu yn haelionus o'r cariad hwnw sydd yn Nuw, at rai cwbl annheilwng.

'A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef.' Rhuf. 3. 24. *δωρεαν τῃ αυτου χαριτι.* 'Yn ddownus sef drwy y rat ef.' W. S. 'O rad rodd, trwy ei ras.' Macknight. Trwy weithrediad rhyfedd gras Duw, sef ei ddaioni a'i gariad anhaeddiannol, yn unig y daeth hyn. Duw feddyliodd gyntaf am hyn, a hyny o'i ras; efe o'i ras a drefnodd y ffordd ryfedd o gyfiawnhau pechadur; o ras yr etholodd y Mab, ac a'i gosododd yn y swydd gyfryngol, ac a'i hanfonodd i'r byd i weithredu cyfiawnder drostynt; gras hollol rad a weithredodd yn meddwl Crist yr holl waith a wnaeth; a gras sydd yn gweithredu ffydd er cyfiawnhad, &c. 1 Cor. 2. 12. Zech. 4. 7. Edr. GRAS.

RHAFF—AU, (rha-aff) cort, cebystr, hoenyn; rheffawg.—'A rhaffau am eu penau:' yn arwydd o'u cyfyngder, a'u herfyniadau difrifol am faddeuant. 1 Bren. 20. 31, 32.——'Torodd raffau y rhai annuwiol:' hyny yw, eu holl gynghorion a'u hymdrechiadau i dynu aradr eu hanwiredd. Ps. 129. 4. Esa. 5. 18. Exod. 35. 18.

RHAG, (rha-ag) *Gr. γαρ; literis transpositis*; Dr D. Rhagddod, yn arwyddo o flaen, blaen; oddiwrth; am; o herwydd; fel na. Rhagwyf, rhagddwyf, rhagof, rhagddof, sef o'm blaen; rhagot, rhagddot, sef o'th flaen, &c. Gen. 26. 13. 2 Bren. 3. 24. a 4. 24. Exod. 14. 15.

RHAGBAROTOI, (rhag-barawd) parotôi yn mlaen llaw.—'I beri gwybod golud ei ogoniant ar lestri trugaredd, y rhai a ragbarotôdd efe i ogoniant.' Rhuf. 9. 23. Y mae y rhagbarotoad hwn yn cynnwys holl weithrediadau grasol Duw tu ag at ei bobl; sef eu cyfiawnhau, eu hadgenedlu, adnewyddu, a sancteiddio eu calonau. Yn y rhagbarotoad hwn y mae Duw yn dangos anfeidrol gyfiawnder, a golud ei ras, a gogoniant ei holl briodoliaethau. Ei waith ef yw y cwbl o'r rhagbarotoad; ac mae yn gweithredu yn rasol ac yn ogoneddus yn y cwbl. Y mae yn ewyllysio peri gwybod y golud gogoneddus sydd ynddo; a hon yw y ffordd a gymerodd i hyny. Rhuf. 8. 28. Col. 1. 27. Eph. 1. 4, 7. 2 Tim. 1. 9. a 2. 21.

RHAGDERFYN—U—EDIG, (rhag-terfyn) rhagosod; rhagosodedig.—'Gan fod ei ddyddiau ef gwedi eu rhagderfynu.' Job 14. 5. a 30. 23. Mae y dyddiau a'r amseroedd gwedi eu rhagderfynu gan Dduw. Y mae amser i bob peth, ac felly y mae i bob person. Preg. 3. 1. Y mae hyn yn wir, nid yn unig am bersonau neillduol, ond hefyd am genedlaethau: ie, am holl genedlaethau y ddaear, a holl ddygwyddiadau y byd a'r eglwys. Act. 17. 26. Gen. 6. 3. a 15. 13. Jer. 25. 11, 12. Dan. 9. 2, 24. Heb. 7. 27. Ond nid rhagderfyniad Duw yw ein rheol ni i weithredu; rheol Duw ei hun yw; er y dylai yr ystyriaeth o hyn fod yn llesol i ninnau; sef i beri i ni gydnabod Duw yn mhob peth, i fod yn barod wrth ei alwad, ac i ymostwng i'w drefniadau.

RHAG-DDANGOS, (rhag-dangos) dangos yn mlaen llaw.—'Rhag-ddangosaf i chwi pwy a ofnwch.' Luc 12. 5. *υποδειξω*, dangosaf yn oleu, yn eglur, ac ar gyhoedd, trwy roddi rhesymau cedyrn ac amlwg paham y dylech ei ofni; sef y mae ganddo awdurdod i fwrw i uffern.

RHAG-DDARBOD, (rhag-darbod) darparu yn mlaen; gofalu, pwyllo.—'Na wnewch rag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef.' Rhuf. 13. 14. 'Ac na vit eich gofal tros y cnawt, er mwyn porthi tra chwantae.' W. S. *προνοια, rhag-feddwl, rhag-ofalu* i gyflawni rhyw ddyben neu orchwyl; rhag-feddwl pa fodd i gyflawni chwantau y cnawd; rhag-ofalu am y moddion i hyny. Dyma agwedd meddwl dynion llygredig, diadgenedledig; rhag-feddwl a rhag-ofalu am gyflawni chwantau llygredig eu natur. Gwisgo yr Arglwydd Iesu sydd yn beth cwbl groes i hyn. Edr. GWISG.

RHAG-DDYSG—U, (rhag·dysg) dysgu blaenorol, cyn-ddysgu, dysgu blaen llaw.—'Hithau gwedi ei rhag-ddysgu gan ei mam.' &c. Mat. 14. 8. *προβιβασθεισα, wedi ei rhag-annog.* Cyfieithir yr un gair *gyru*, yn Act. 19. 33. Dengys y gair yn hynod ysbryd dialgar, creulon, ei mam, yn annog ei merch i weithred mor greulon, ac mor groes i wyledd y rhyw fenywaidd.

RHAG-DDYWEDYD, (rhag-dywedyd) dywedyd am beth cyn iddo ddyfod. — Nid oes neb a ddichon rhag-ddywedyd dim ond Duw, a'r neb y dadguddio Duw iddo yr hyn sydd i ddyfod. Y mae pethau i


Digitized by Google

ddyfod yn anhysbys i bawb ond Duw. 'Wele, rhag-ddywedais i chwi bob peth.' Marc 13. 23. Sef pob peth mewn perthynas i'w peryglon oddiwrth gau-gristiau a gau-brophwydi, ac am y gorthrymderau oedd ar ddyfod ar y wlad. 'Ymogelwch, wele, rhag-ddywedais i chwi bob peth:' eich rhybuddio yr ydwyf yn garedig; am hyny gwyliwch ac ymogelwch, rhag y pethau gau a enfyn y diafol fel pe baent wir.

RHAG-EFENGYLU. 'A rag-efengylodd i Abraham.' Gal. 3. 8. Rhag-efengylodd Duw i Abraham cyn rhoddi y gyfraith; ïe, a chyn enwaedu Abraham. Yr un efengyl oedd gan Dduw i'w chyhoeddi yn mhob oes o'r byd: yr un efengyl oedd yn yr addewid i Abraham, 'Ynot ti y bendithir yr holl genedloedd,' ag yr oedd Crist yn ei roddi i'r apostolion, pan y parodd iddynt hwy 'bregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef yn mhlith yr holl genedloedd.' Luc 24. 47. Gen. 12. 3. a 18. 18. a 22. 18. a 26. 4. a 28. 14.

RHAGFARN—U, (rhag-barn) barn brysur, blaen-farnu; barnu yn fyrbwyll, ac yn adgas; barnu cyn gwrando tystion ar yr achos.—'Gadw o honot y pethau hyn heb ragfarn, heb wneuthur dim o gyd-bartiaeth.' 1 Tim. 5. 21. Edr. PARTIAETH.

RHAGFLAEN--OR—U, (rhag-blaen) rhag-redwr, rhag-redegwr; rhag-gymeryd; achub y blaen.—'I'r man yr aeth y rhag-flaenor drosom ni, sef Iesu.' Heb. 6. 20. Arwydda y gair *Gr.* *προδρομος*, *rhag-flaenor*, un yn myned o'r blaen, myned o flaen un i ddangos y ffordd; tywysog; un yn myned o flaen y faner i'w hamddiffyn; un a wnaeth beth gyntaf: hefyd blaen-ffrwyth; megys *προδρομος συκου*, *ffigysen gynnar*. LXX. Esa. 28. 4. Gwel Schleusner, Mintert. Y mae yr Iesu yn rhag-flaenor, 1. Fel arch-offeiriad, yr hyn nid oedd yr arch-offeiriaid Iuddewig. Aethant hwy i mewn eu hunain i'r cysegr sancteiddiolaf, ond nid agorasant y ffordd i neb arall ddyfod ar eu hol; ond aeth Iesu i mewn yn ei swydd offeiriadol, fel rhag-flaenor, i dywys ei eglwys i mewn ar ei ol.——2. Rhag-flaenor yw 'drosom ni;' sef dros bob credadyn, dros yr holl eglwys, bob amser, lle, ac oes. Y mae efe felly mewn tair ystyriaeth, (1.) Yn arddangos i'r holl nefoedd ei lwyddiant yn ei waith yma yn y byd; sef iddo gyflawn brynu ei bobl etholedig. Ps. 68. 18, 24, 25, 26. a 47. 5, 6, 7. Esa. 53. 12.——(2.) Mewn ffordd o rag-barotoad; sef rhag-barotôi y ffordd yn rhydd ac agored, i gael dyfodfa gyda hyder at orsedd-faine y gras. Heb. 9. 8. a 10. 19—22. Ac i gael mynediad helaeth i'r trigfanau nefol. Ioan 14. 2, 3.——(3.) I gymeryd meddiant dros ei bobl, ac yn eu henw, o'r etifeddiaeth dragywyddol, ag y maent hwy yn gyd-etifeddion â Christ o honi. Rhuf. 8. 17. 1 Petr 1. 4.——'Aeth y tu fewn i'r llèn;' yn dangos, 1. Fod ei waith y tu allan i'r llèn, yma ar y ddaear, gwedi ei orphen.——2. Cymeradwyaeth Duw o'r hyn oll a wnaeth yma ar y ddaear. Esa. 53. 11, 12. Phil. 2. 7—11.——3. Y mae efe o hyd tu fewn i'r llèn yn ei swydd offeiriadol, yn ymddangos ac yn eiriol dros ei bobl. I'r man yr aeth y rhag-flaenor, y daw ei holl bobl ar ei ol, yn ddilys. Mae wedi cymeryd meddiant fry o'r etifeddiaeth, ac yn alluog i amddiffyn yr etifeddion yma, a'u dwyn yn ddiogel i dŷ ei Dad. Credu ynddo, a dilyn ei ôl, a'n harwain ninnau yno.

RHAGFUR—IAU, (rhag-mur) gwrthglawdd, amddiffynfa, noddle.—Iechydwriaeth yr Arglwydd yw muriau a rhagfuriau ei bobl. Ps. 48. 13. Esa. 26. 1. Edr. MUR.

RHAGLAW—IAID, (rhag-llaw) rhaglywiawdwr; eil-hen, is-lywydd, rhag-swyddwr. Dan. 3. 2. Mat. 27. 11. Act. 13. 7. a 18. 12. a 19. 38.

RHAGLUN—IO—IAETH—U, (rhag-llun) rhag-drefnu, rhag-osod, rhag-arfaethu; rhag-derfyniad, rhag-arfaethiad, rhag-ddarbodaeth. Y gair *Gr.* *προοριζω*, a gyfleithir *rhaglunio*, *rhagluniaethu*, yn Act. 4. 28. Rhuf. 8. 29, 30. Eph. 1. 5. sydd yn arwyddo rhag-derfynu, rhag-ordeinio, rhag-arfaethu, rhag-osod. 1 Cor. 2. 7. Y mae amryw eiriau yn cael eu harferyd yn yr ysgrythyrau i osod allan arfaethiad neu ragluniad Duw; megys εκλογης, *etholedigaeth*; *προγνωσεως*, *rhag-wybodaeth*; *προθεσεως*, *arfaeth*; *ωρισμενη βουλη*, *terfynedig gynghor*; *ωριζω*, *ordeinio*; *προοριζω*, *rhaglunio*.

Y mae rhagluniad Duw yn arwyddo, yn yr ystyr mwyaf helaeth, 1. Arfaethiad a rhag-drefniad Duw mewn perthynas i'w holl greaduriaid, yn enwedig creaduriaid rhesymol: yr oedd yr holl greadigaeth mewn arfaeth a rhag-drefniad er tragywyddoldeb cyn rhoddi bôd iddi. Nid aeth Duw i weithredu heb arfaeth, neu heb drefn, yn ol yr hyn yr oedd i weithredu. Yr oedd holl ansawdd a dyben gwneuthuriad pob creadur wedi eu rhaglunio cyn ei greu; ac yn ol y rhagluniad y gwnawd ef. Y mae yn anfeidrol bell oddiwrth berffeithrwydd Duw, i feddwl iddo fyned i weithredu dim, heb wybod neu raglunio pa fodd y gweithredai. Yr oedd ansawdd, bôd, dull, amser, lle, a dyben, pob creadur yn arfaeth Duw er tragywyddoldeb. 'Yn ei lyfr yr ysgrifenwyd hwynt oll, y dydd y lluniwyd hwynt, pan nad oedd yr un o honynt.' Ps. 139. 16. Cyflawni yr hyn a arfaethodd, yn ol y rhagluniad, yr oedd Duw wrth greu, ac y mae wrth lywodraethu y byd, ac achub ei bobl; y mae 'yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun.' Eph. 1. 11. Yr oedd pob creadur, achosion, ac effeithiau, y dyben, a'r moddion o gyflawni y dyben, i gyd yn rhagluniad Duw; a chan mai efe sydd yn gweithredu pob peth, yn gystal ag yn rhaglunio, y mae y cyflawniad yn ddilys o ateb i'r rhagluniad; ac ni bydd dim mwy daioni a gogoniant yn y cyflawniad nag oedd yn y rhagluniad. Y mae tystiolaethau y gair yn eglur am hyn, ac y mae yr holl brophwydoliaethau yn arwyddo ac yn golygu hyn: rhag-ddangosiad i ni o ragluniad Duw mewn perthynas i lywodraeth y byd ydyw y prophwydoliaethau; ac os nad ydyw y rhagluniad a'r arfaethiad yn ddilys, nid oes dim sicrwydd yn y prophwydoliaethau. Rhoddir i ni arddangosiad o hyn yn neillduol yn nghyflead Israel yn ngwlad Canaan. Efe a ddewisodd y wlad hòno iddynt yn benodol, ac nid un arall, o holl wledydd y byd: Efe a'u dewisodd hwy, ac nid un genedl arall, i fyned i'w meddiannu: penderfynodd yr amser gosodedig iddynt fyned i mewn iddi: sefydlodd holl derfynau y wlad, a phob rhandir yn y wlad; ni chafodd neb ddewis lle ei breswylfod, ond terfynwyd hyny wrth goelbren, a Duw yn llywodraethu hwnw, etifeddiaeth i bob llwyth.—'A choelbren y parthodd efe dir y rhai hyny iddynt hwy.' Act. 13. 19. Yn cyfeirio at hyn y dywed yr apostol am bob cenedl o ddynion; 'Ac a benododd yr amseroedd rhag-osodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt.' Act. 17. 26. Nis dichon fod un meddwl mwy anaddas, tywyll, a chenedlig, am y Duw mawr, na barnu, naill ai nad yw yn llywodraethu y byd, neu ei fod yn llywodraethu yn ddall, heb gynghor a threfn rhag-osodedig. Y mae rhagluniaeth Duw yn ddirgeledig i ni, etto, yn ddoeth, yn fanwl, yn ddaionus, ac yn anfethedig. Y mae yn cyflawni y pethau mwyaf trwy foddion gwael, ac offerynau gweiniaid, yn aml; y mae yn galw ar ei bobl i gredu a phlygu iddo yn y tywyllwch, heb weled y dyben a diwedd pethau. Y mae ei ragluniaeth yn nghylch pechaduriaid a'u pechodau, yn sanctaidd; yn llywodraethu, hyd yn nod eu pechodau, i ateb a chyflawni ei ddybenion ei hun, heb gyd-gyfranu â'u pechodau hwy mewn un gradd, ond yn anfeidrol bell oddi wrtho; ïe, y mae ei ddaioni a'i

Digitized by Google

ddoethineb y fath, fel y dichon, ac y mae yn dwyn daioni allan o ddrygioni—ond y mae yr holl ddaioni yn perthyn yn gwbl iddo ef, a'r holl ddrygioni yn perthyn i'r creaduriaid drwg sydd yn ei gyflawni. Edr. hanes CRIST, JOSEPH, &c.

2. Y mae rhagluniad yn cael ei gymhwyso yn neillduol i drefn iechydwriaeth yr eglwys trwy Grist. 'Y rhai a rag-wybu, a ragluniodd efe hefyd i fod yn un ffurf â delw ei Fab.—Y rhai a ragluniodd efe, y rhai hyny hefyd a alwodd efe,' &c. Rhuf. 8. 29, 30. Yma gwelwn, 1. Rhyw bersonau neillduol yn wrthddrychau o ragluniad Duw.——2. Duw a'u ragluniodd.——3. Y rhai a ragluniodd efe, oeddynt y rhai a rag-wybu efe, ac nid neb arall. Edr. RHAGWYBOD.——4. Efe a'u rhagluniodd *am* iddo eu rhagwybod, ac nid am *ddim* arall.——5. Y dyben o'u rhagluniad oedd, i fod yn un ffurf â delw ei Fab—i fabwysiad. Eph. 1. 5.——6. I gyflawni y dyben gogoneddus hwn, y mae yn eu galw, eu cyfiawnhau, ac yn eu gogoneddu—geiriau sydd yn dangos yn eglur y cyflwr yr oeddynt oll ynddo o'r blaen; sef yn mhell oddiwrth Dduw—yn euog—yn ansanctaidd. Rhagluniad Duw yw un pen i'r gadwyn, a gogoniant ydyw y pen arall; a'r cwbl rhyngddynt ydynt dyrch, neu fodrwyau, yn y gadwyn euraidd, gadarn hon. Y mae y ddau ben yn ngafael Duw, sef y gosodiad a'r dyben; a'r cwbl rhyngddynt sydd yn gysylltiedig â'u gilydd, a than ei lywodraeth. Nis gwelaf iechydwriaeth i un pechadur byth, ond yn y drefn ddwyfol hon; ond yma canfyddir hi yn dra chadarn, cyflawn, a gogoneddus. Edr. ARFAETH, DELW, ETHOLEDIGAETH, GALW. Gwel Bradwardin *De Causa Dei.*—Turretin's *Institut. Theol., vol.* i. *Locus Quartus.*—Calvin's *Instit. Christ. Relig., lib.* iii., *cap.* 21. *sec.* 5.—Ursinus, *Corp. Doct. Orthodox.*—G. Amesius, *Medulla Theologica, lib. prim. cap.* 7.

RHAGLLAW, (llaw) mwyach, bellach, weithiau, o hyn allan.—'Fel rhagllaw na wasanaethom bechod.' Rhuf. 6. 6. *μηκετι, byth mwyach.* 2 Cor. 5. 15. Y mae y tro a'r cyfnewidiad a wneir ar gyflwr dyn yn ei gyfiawnhad a'i sancteiddhad, yn ei ryddhau am byth oddiwrth wasanaeth pechod; gan fod yr hen ddyn wedi ei groeshoelio gyda Christ, a chorph pechod wedi ei ddirymu.

RHAG-OFAL—U, (rhag-gofal) rhag-feddwl, rhagystyried, rhag-barotôi. Marc 13. 11.

RHAGOR—OL—I—IAETH, (rhag-gor) gwahaniaeth; trechu, a fo yn blaenori, ac yn haeddu blaenbarch; myned tu hwnt i; ardderchog, arbenig. Arferir y gair *rhagorol,* yn aml, wrth lefaru am beth yn y gradd *uchafedigol;* megys yn Exod. 15. 1. Ps. 16. 3. Preg. 10. 10. Can. 4. 14. Esa. 4. 2. Dan. 3. 32. 2 Cor. 3. 10. a 4. 17. Eph. 1. 19. a 2. 7. Iago 2. 7. Edr. ARDDERCHOG, GODIDOG.

'Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti ac arall?' 1 Cor. 4. 7.—1. Nid oedd dim rhagor o ran anian, cyflwr, na bucheddiad, wrth naturiaeth.——2. Y mae Duw yn gwneuthur rhagor rhwng ei bobl a gedwir i fywyd tragywyddol ac eraill, ac â hwynt eu hunain yn eu cyflwr wrth naturiaeth; sef rhagor cyflwr, anian, a bucheddiad.——3. Duw yn unig sydd yn gwneuthur hyny; a hyny yn gwbl o'i ras, heb neb yn haeddu hyny mewn un gradd. Eph. 2. 4, &c. Derbynwyr o'r cwbl yw dynion, a'r cyfranwr yw Duw; 'Pa beth sydd genyt a'r nas derbyniaist?' Ni weddai i ddynion, gan hyny, orfoleddu mewn dim ond yn Nuw.

'Yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynthwy,' hyny yw, yr angelion. Heb. 1. 4. Yr enw *mwy rhagorol* yw yr enw MAB DUW; a hyny trwy genedliad tragywyddol, a pharhaol. Cafodd efe yr enw hwn trwy gyfiawn hawl, fel etifeddiaeth yn perthyn iddo o ran natur. Pwy a ddichon gyd âg un gwyneb gwylaidd, wadu fod yr enw hwn yn perthyn iddo fel Person Dwyfol, wrth ystyried yr adnod hon? yn mhob ystyr arall nid ydyw yn enw mwy rhagorol nag a fedd yr angelion. Gan fod yr enw mwy rhagorol hwn yn perthyn iddo, y mae yn gymaint yn well na'r angelion ag yw y Creawdwr yn rhagori ar greadur.

'Gwyr rhagorol yn mhlith y brodyr.' Act. 15. 22. *ανδρας ηγουμενους,* 'Yr ei oedd wyr pennaf *(vlaenoriet,* ymyl y ddalen) ym-plith y broder.' W. S. Blaenoriaid a thywysogion yn yr eglwys; rhai oeddynt yn myned o flaen y bobl mewn athrawiaeth a dygybiaeth.

'Pa ragoriaeth sydd i'r Iuddew?' &c. Llawer yn mhob rhyw fodd: yn gyntaf, o herwydd darfod ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw.' Rhuf. 3. 1, 2. Yr oedd yr Iuddewon yn rhagori ar holl genedloedd eraill y ddaear mewn llawer o bethau; ond y peth *penaf* o'r cwbl, ddarfod ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw: yr oedd y fraint hon yn unig yn rhagori ar holl gyfoeth, mawredd, a gwychder yr holl genedloedd i gyd gyd â'u gilydd. Dyma y peth *penaf,* am fod cysylltiad rhyngddo â phethau byd arall; am ei fod yn ddadguddiad o Dduw gan Dduw ei hun; yn ddadguddiad o ffordd o gymmod â Duw, a gwaredigaeth oddiwrth bechod, a'i holl ganlyniadau erchyll. Yn y drych hwn canfyddir dirgelwch duwioldeb gyd âg eglurdeb a mawredd; a'r ffordd i fywyd ac anllygredigaeth. Yn y drych hwn y mae mawredd daear yn diflanu, o herwydd y gogoniant tra rhagorol a ddadguddir i ni yn ymadroddion Duw. Y mae un addewid yno yn cynnwys mwy na'r byd a'r cwbl sydd ynddo.

'Canys ein byr ysgafn gystudd ni, sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni.' 2 Cor. 4. 17.—'O bleit yscavnder ein gorthrymder rhwn ny phara ddim hayachen, a bair y ni dra ardderchawc a' thragyvythawl bwys o ogoniant.' W. S.—'Oblegit y mae ysgafnder ein cystudd, yr hwn ni pheru ond munyd, yn peri i ni yn rhagorol (gael) rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant.' Dr. M.—'*Worketh for us a far more exceeding and eternal weight of glory.*' *Saes.* Yn ol y cyfieithiadau hyn, nid y cystudd sydd yn odidog ragorol, ond y gogoniant sydd yn odidog ragorol, yn dragywyddol, ac yn bwysig. Nis gellir, medd Stephan, ddywedyd na dychymygu dim mwy. Gellir cyfieithu y geiriau, gan hyny, fel y canlyn: 'Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn gweithredu godidog ragorol (neu rhagorol ar ragorol) a thragywyddol bwys gogoniant.' Y mae cystudd yn gweithredu hyny, 'am mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas nefoedd;' ac y mae pethau anhyfryd yn fuddiol, fel y byddem gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef, a thrwy hyny yn cael ein haddasu i'r nefoedd. Y mae yn y geiriau, medd Beza, y cyferbyniaeth mwyaf hardd, ac nid annheilwng o Demosthenes ei hun. Y mae *byr* yn cael ei gyferbynu â *godidog ragorol,* a *thragywyddol; ysgafn* a gyferbynir â *phwys;* cystudd â *gogoniant; y pethau a welir* a gyferbynir â'r *pethau ni welir; a thros amser* â *thragywyddol.**

RHAGORFRAINT, (rhagor-braint) rhagoredig, rhagoredigaeth; uch-fraint, uchel-fraint.—'Tyngodd yr Arglwydd i ragorfraint Jacob.' Amos 8. 7.—גאון יעקב *rhagoroldeb,* neu *ardderchogrwydd Jacob;* sef iddo ei hun. Pen. 6. 8. 'Yr un tra rhagorol ac anghyfranadwy.' Newcome. Gwel Deut. 33. 25—29. Ps. 47. 4. a 68. 34. Luc 2. 32.

* Oblegid y mae byr ysgafnder ein cystudd ni yn gweithredu rhagorol ragorol dragywyddol bwys gogoniant i ni.—Beza.

Digitized by Google

RHAG-ORDEINIO, (rhag-ordeinio) rhag-osod, rhag-drefnu, rhag-arfaethu. Gair sydd yn cael ei briodoli i arfaeth dragywyddol Duw. Act. 22. 14. 1 Cor. 2. 7. 1 Petr 1. 20. Judas 4. Edr. ARFAETH, ORDEINIO, RHAGLUNIO.

RHAG-OSODEDIG, (rhag-gosawd) rhag-derfynedig, rhag-ordeiniedig.—'Ac a benodd yr amseroedd rhag-osodedig.' Act. 17. 26. Penodd ac a ragosododd pa hyd y parhai y byd; a'r holl amrywiol brydiau, oesoedd, a chenedlaethau y byddai y cyfryw ddynion byw; y byddai y cyfryw genedloedd neu deyrnasoedd mewn bod, megys ymerodraethau Babilon, Persia, Groeg, a Rhufain; tymhorau y flwyddyn; amser bywyd a marwolaeth pob dyn, Job 7. 1. a 14. 5.—amser y ddeddf a'r efengyl; amser genedigaeth a marwolaeth Crist; amser troedigaeth, profedigaethau, a chystuddiau pob credadyn; amser teyrnasiad a dystryw anghrist, a chystudd yr eglwys dano, Dat. 2. 10. a 11. 2—12. a 12. 6. a 13. 5.—amser dyfodiad Crist, a'r farn. Act. 17. 31. 1 Tim. 6. 15. Y mae yr holl amseroedd hyn yn rhag-osodedig gan Dduw. Deut. 32. 7, 8. Esa. 14. 31. Dan. 11. 27, 35. Hab. 2. 3.

RHAGRITH—IO—L—WR, (rhag-rhith) blaendrefniad, blaen-addasiad; lledrith, ffug; ffuantus, twyllodrus; ffuantwr, twyllwr; un yn ymrithio fel un arall, yn chwareu rhan arall; ansodi, dynsodi.—'Y rhai a gymerant arnynt eu bod yn gyfiawn.' Luc 20. 20. *υποκρινομενους εαυτους δικαιους ειναι, a ragrithient eu bod yn gyfiawn.* Dywed Raphelius yr arferir y gair *Gr. υποκριτες (ypocrites)* gan Homer a Herodotus, fel berf, i arwyddo dehongli breuddwydion; geill gan hyny arwyddo brudiwr, neu ddaroganwr, yn Mat. 16. 3. Luc 12. 56. Yn yr ysgrythyrau, priodolir ef i ddynion twyllodrus mewn crefydd, yn ymddangos i ddynion y peth nad ydynt yn wirioneddol ger bron Duw; yn rhagrithiol gyda chrefydd, ond yn wirioneddol gyda phechod; yn serchu yr enw o grefydd, ond yn casâu y sylwedd o honi. Cyhudda yr Arglwydd Iesu y Phariseaid yn aml o ragrith. Gwel Mat. xxiii.

Nodau rhagrithiwr, yn ol sylwadau Crist arnynt hwy, yw y rhai a ganlyn:—1. Athrawiaethu yn dda, ac heb weithredu yn gyfatebol. Mat. 23. 2, 3, 4. ——2. Gwneuthur gweithredoedd da er mwyn eu gweled gan ddynion. Adn. 5.——3. Caru y lleoedd uchaf, a'u cyfarch gan ddynion wrth enwau o barch. Adn. 6.——4. Cuddio eu trawsder a'u pechodau gwaeddfawr eraill, dan ymddangosiad a chyfiawniadau crefyddol, adn. 14.—Cyffelyba yr Arglwydd y cyfryw i feddau wedi eu gwynu. Adn. 27, 28.——5. Bod yn fanwl yn y pethau lleiaf, ac yn ysgafn yn nghylch y pethau trymaf o'r gyfraith. Adn. 23, 24. ——6. Proffesu llawer o barch i saint meirw, ac yn casâu ac yn erlid y rhai byw.——7. Yn fwy am burdeb allanol a defodol nag am burdeb tufewnol y galon. Adn. 5.——8. Nid yw rhagrithiwr yn gweddïo Duw bob amser, ond yn unig mewn cyfyngder. Job 27. 8, 9.——9. Yn canfod yn graff, ac yn barnu yn greulon, feiau eraill, ac heb sylwi ar feiau mwy ynddynt eu hunain. Mat. 7. 1—5.——10. Yn fwy eu zel am ddefodau allanol, a thraddodiadau dynol, nag am addoliad ysbrydol. Mat. 12. 1—7. a 15. 2—9. Geill y cyfryw ynfydion pechadurus dwyllo dynion a thwyllo eu hunain, ond nis gallant dwyllo Duw. 'Nid oes dim cuddiedig, a'r nas dadguddir; na dirgel, a'r nis gwybyddir.' Luc 12. 1, 2, 3. Dychryn, yn ddilys, a'u deil. Esa. 33. 14.

RHAG-RYBYDD—IO, (rhag-rybydd) cynddylu.—'Pwy a'ch rhag-rybyddiodd chwi i ffoi rhag y llid a fydd?' Mat. 3. 7. *τις υπεδειξεν υμιν, pwy a ddangosodd*, neu, *a ddysgodd i chwi?* Geiriau yn dangos eu bod hwy y rhai mwyaf annhebyg o gymeryd addysg gan neb, ac yn ammeu cywirdeb eu dyben yn dyfod ato. Yr oeddynt yn agored i'r digofaint, ac angen ffoi arnynt rhagddo; ond yr oedd yr agwedd gyffredinol arnynt yn anystyriol iawn o'u perygl.

RHAGTAL—AU, (tâl) peth sydd y tu blaen, talwyneb, talaith, tal-lian. Deut. 6. 8. a 11. 18. Edr. PHYLACTERAU. *Φυλακτηρια, phylacteria*, yw yr enw Groeg am danynt yn y Testament Newydd.——'Ac a fesurodd cyntedd y porth, a'i racdalodd, yn ddau gyfudd.' Dr M. Ezec. 40. 9, 10, 14, 21, 24, 26, 29, 31, &c.

RHAG-WELED—IAD, (rhag-gwel) gweled yn mlaen, rhag-ddarbodaeth.

Angen a *rag-welir* ni ddaw fyth ar ddoeth. *Diar.*

Nid oes neb yn rhag-wybod nac yn rhag-weled dim ond Duw.—'A'r ysgrythyr yn rhag-weled.' Gal. 3. 8. Sef Duw, awdwr yr ysgrythyr, yn rhag-weled: a Moses, ysgrifenydd yr ymadrodd, yn rhag-weled dan ddylanwad yr Ysbryd Glân. Yr Ysbryd Glân yn rhag-weled, yr hwn sydd yn chwilio dyfnion bethau Duw. 1 Cor. 2. 10.

RHAG-WYBOD—AETH, (rhag-gwybod) gwybod o'r blaen, rhag-ddeall: rhag-adnabod, adnabod o'r blaen, gwybod yn mlaen llaw. Actau 26. 5. 2 Petr 3. 17. Rhuf. 11. 2. Nid ydyw rhag-wybodaeth yn cael ei briodoli i'r Arglwydd o ran *trefn* ei wybodaeth, fel pe byddai yn gwybod un peth cyn gwybod peth arall; canys y mae efe yn gwybod pob peth yn berffaith ar unwaith, er tragywyddoldeb; yn gweled y diwedd o'r dechreuad; am hyny, rhag-wybodaeth ydyw yn Nuw; sef gwybod pethau cyn y byddont yn hanfodi.

'Y rhai a rag-wybu, a ragluniodd efe.—Etholedigion yn ol rhag-wybodaeth Duw Dad.—Ni wrthododd Duw ei bobl, y rhai a rag-wybu efe o'r blaen.' Rhuf. 8. 29. a 11. 2. 1 Petr 1. 2. Mae y geiriau, *rhag-wybu*, a *rhag-wybodaeth*, yn y manau hyn, yn arwyddo yr un peth a *rhag-serchu*, neu *rhag-garu*; gwybodaeth o honynt gyda chariad atynt, a chymeradwyaeth o honynt—hyn y mae y gair gwybod yn ei arwyddo yn aml. Gwel Gen. 18. 18. Amos 3. 2. Ps. 1. 6. a 101. 4. Jer. 9. 23. Ioan 10. 14. a 17. 24. 2 Tim. 2. 19. Nid rhag-wybod yr oedd y byddent yn un ffurf a delw ei Fab, ond eu rhag-wybod *hwy*, sef eu rhag-garu, a'u rhaglunio *fel y byddent*. Nid rhag-wybod y byddent sanctaidd ac yn ufudd, ond eu rhag-wybod a'u hethol *i fod* felly, neu trwy sancteiddiad yr Ysbryd, &c. Pan ddywedir eu bod yn etholedigion yn ol *rhag-wybodaeth* Duw Dad, yr un peth ydyw ag yn ol *cariad* Duw Dad. Yn Rhuf. 8. 29, 30. y mae rhag-wybod yn arwyddo yr un peth ag *ethol*. Nad yn yr ystyr gyffredin o wybod yn mlaen llaw yn unig, y mae i ni ddeall y geiriau, sydd eglur, 1. Oblegid *felly* y mae yn gwybod am y rhai a fyddant golledig.——2. Nid yw rhag-wybod noeth, unig, yn achosol o ddim; nid ydyw yn effeithio na bod, na threfn, ar ddim; ond y mae rhag-wybodaeth Duw o'i bobl yn weithgar yn eu hiechydwriaeth.——3. Nad rhag-wybod ffydd a chariad ynddynt a wnaeth sydd eglur; canys peth afresymol ydyw rhoddi un achosiad i ewyllys Duw allan o hono ei hun, medd Leighton dduwiol. Heblaw hyny, nis dichon iddo rag-wybod y pethau hyn yn neb, heb iddo ei hun eu rhoddi, oni ellir profi fod dyn ei hun yn eu hachosi, neu eu heffeithio. Ffrwyth ac effaith, ac nid achos etholedigaeth, yw ffydd ac ufudd-dod. Actau 13. 48. Os yw Duw yn rhag-weled ffydd, yna y mae yn naill ai, 1. Yn ei rag-weled fel ei rodd ei hun: os felly, effaith etholedigaeth yw.——2. Neu yn weithrediad naturiol o'n heiddo ein hunain; yna, ni ein hunain sydd yn

Digitized by Google

gwneuthur rhagor rhyngom ni ac eraill, yn groes i eiriau Paul yn 1 Cor. 4. 7. Nid oes canolbwynt i fod rhwng bod dyn yn achub ei hun, neu bod Duw yn awdwr iechydwriaeth iddo yn gwbl; os ydyw felly, y mae am iddo ddewis ei fod yn gadwedig yn ei foddlonrwydd.

Y mae gwybodaeth, neu rag-wybodaeth, Duw o ddynion, medd Mr Perkins, yn sefyll mewn dau beth; sef, 1. Eu hetholiad, o'i gariad neillduol atynt. 2 Tim. 1. 9.——2. Y cyflawniad o'u hetholiad, yn eu galwedigaeth, eu cyflawnhad, a'u sancteiddhad; trwy ba foddion y mae yn eu gwneuthur yn bobl briodol iddo ei hun. Titus 2. 14. Etholedigaeth Duw yw gwreiddyn ei holl ddoniau ynom ni. Yr ydym ni yn adnabod Duw, am ein bod ni yn adnabyddus *gan* Dduw. Gal. 4. 9. Eph. 1. 4. Ni ddichon i ni feddwl, ewyllysio, na gweithredu dim sy dda, heb i Dduw ein rhagflaenu â'i ras. Rhaid i Dduw ein cydnabod ni, cyn y cydnabyddwn ni ef. Ioan 10. 14. Yn gyntaf, yn ein tröedigaeth; efe sydd yn gyntaf yn ein hadnabod, ac yn ein rhagflaenu â'i ras, i roddi i ni galon newydd. Gwedi hyny, yn ail, y mae yn ein cydnabod i weithredu ynom gynhyrfiadau ac ysgogiadau sanctaidd yn barhaus. Ezec. 36. 26. Dywed rhai, os gwnawn a allom, y rhydd Duw ei ras i ni; ond nid yw hyn yn wir: canys os felly, yna ni a ragflaenem Dduw. Y mae gras yn Nuw yn gadael argraff gyfatebol yn nghalonau y rhai sydd yn eiddo Duw. Y mae rhag-wybodaeth yn Nuw, trwy yr hon y mae efe yn adnabod y rhai sydd eiddo iddo; ac y mae y wybodaeth hon yn cenedlu gwybodaeth ynom ni, trwy yr hon yr ydym yn adnabod Duw yn Dduw i ni. Y mae etholedigaeth yn Nuw yn gweithredu ynom ni etholiad, neu ddewisiad o hono ef yn Dduw i ni. Y cariad, â pha un y carodd Duw ni, sydd yn gweithredu cariad arall, â pha un yr ydym ni yn caru Duw. 1 Ioan 4. 19. Y mae efe yn ymaflyd yn gyntaf ynom ni, ac y mae y gafaeliad hwn yn gweithredu gafaeliad ffydd ynom ni i afaelyd ynddo ef. Phil. 3. 12. Y mae ei farwolaeth ef yn gweithredu ynom ni farwolaeth i bechod. Y mae Crist yn eiriol drosom ni yn y nefoedd, ac y mae ei eiriolaeth ef fry, yn cenedlu erfyniad ynom ni trwy yr Ysbryd, trwy yr hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad. Rhuf. 8. 26. Fel hyn y gallwn wybod ein bod yn perthyn i Dduw, sef trwy fod argraff ei ras ef ynom. Mae yr haul trwy ei oleuni yn llewyrchu arnom, ac yn yr un goleuni yr ydym ni yn gweled yr haul.

Y mae rhag-wybodaeth Duw, trwy yr hon y mae yn adnabod ei bobl, 1. Yn wybodaeth neillduol; y mae yn adnabod ei etholedigion wrth eu *henwau*. Exod. 33. 17.——2. Y mae yn barhaus ac yn anghyfnewidiol; y rhai y mae Duw yn eu hadnabod unwaith, nid yw byth yn eu hanghofio. Gwel Perkins ar Gal. 4. 9.

RHAI, (rha) mwy nag un, a llai na phawb.—'Hyn fu rai o honoch chwi.' 1 Cor. 6. 11.

RHAIADR, RHEIEIDR, (rhaiad) cwymp dwfr; lle serth mewn afon, lle mae y dwfr yn cwympo yn hytrach nag yn rhedeg.—'Wrth raiadr yr afonydd.' Num. 21. 15.

RHAID, (rha-id) cyfraid, dir, anhebgorol, angen, eisieu, rheidwy. Edr. dan eiriau eraill.

Tri amser celfyddyd: pan fo iawn; pan fo hardd; a phan fo *raid*. *Barddas.*

Nid *rhaid* dodi cloch am fwnwgl yr ysfyd. *Diar.*

RHAITH, RHEITHIAU, (rha-ith) llŵ, twng; uniawn, cywir; penderfyniad, dedfryd, rheithfarn; rheithwyr, cyfraith.—Rhaith gwlad, sef deddf, neu llais y wlad. 'Pen rhaith yw Duw.'——'Aethant mewn rhaith a llŵ ar rodio yn nghyfraith Duw.' Neh. 10. 29. באלה *dan felldith;* felly y cyfieithir y gair yn Diar. 29. 24.——'Ys darvu y ni ymgyf-reithiaw a Raith, na vwytaem ddim, nes y ni ladd Paul.' W. S. Actau 23. 14.

RHAN—U—WR, (rha) parth, darn, dryll; talm, twysg; parthu, parthwr.—Duw yw rhan ac etifeddiaeth ei bobl; a'i bobl yw ei ran yntau. Deut. 32. 9. Psalm 73. 26. a 119. 57. Jer. 10. 16. Y mae efe yn rhoddi ei hun i fod yn Dduw iddynt hwy, i ofalu am danynt, eu diwallu, a'u bendithio; ac y mae efe yn hòni hawl ynddynt hwythau, ac yn dangos boddlonrwydd neillduol ynddynt. Deut. 32. 9. Psalm 135. 4. 'Rhan dda' yw Duw. Luc 10. 42. Y mae pob daioni ynddo, ac nid oes ynddo ddim ond daioni. Rhan yw na dderfydd byth, ac na chollir byth: nis dygir hi byth oddiar y neb a'i meddianno. Y mae yn dangos digonolrwydd yr Arglwydd i'w bobl i gyflawni eu holl angenion, er eu dedwyddwch tragywyddol; a'u huchel-fraint rhagor pawb eraill, ac yn galw am ymddygiad cyfatebol o'u tu hwy; sef ymostyngiad parod i'w holl drefniadau tu ag atynt, marweidd-dra meddwl i bob peth arall, diolchgarwch a llawenydd annhraethol yn eu rhan odidog. Mae y rhai y mae Duw yn rhan iddynt yn ei ddewis ef felly.

Geill un wybod a ydyw ef yn dewis Duw yn rhan iddo, 1. Wrth y dymuniad hiraethlon sydd ynddo i gael boddlonrwydd ysgrythyrol ei fod ef yn heddwch Duw.——2. Wrth y gynnaliaeth y mae y cydnabyddiaeth o agosrwydd Duw ato yn ei roddi i'w feddwl. ——3. Wrth y gofal manwl sydd arno i rodio dan deimlad o'i bresennoldeb.——4. Wrth ei barodrwydd i ymatal oddiwrth bethau afreidiol, ag oeddynt trwy brofiad yn peri teimlad o absennoldeb yr Arglwydd. ——5. Wrth ymdrech meddwl i gael teimlad o bresennoldeb Duw yn ei alwedigaeth gyffredin.——6. Wrth yr hiraeth sydd yn y meddwl am gyfarfod â Duw yn ei ordinhadau.——7. Wrth yr annogaeth a'r cysur y mae y meddwl yn ei brofi oddiwrth y gobaith o'i weled ef wyneb yn wyneb, a bod yn wastad gyd âg ef. ——8. Wrth yr hyfrydwch y mae yn ei gael yn y rhai sydd yn debyg iddo.——9. Wrth ei ddewisiad, yn wyneb profedigaeth, o heddwch a ffafr Duw o flaen pob peth daearol.

Y mae ei bobl yn rhan i'r Arglwydd trwy, 1. Ei etholiad o honynt er tragywyddoldeb. 1 Petr 1. 2. ——2. Trwy bryniad. Actau 20. 28. Eph. v, *ult.* ——3. Trwy oresgyniad a gwarediad o feddiant y tywyllwch. Col. 1. 12, 13, 14.——4. Y mae yn gofalu am danynt, yn eu hamddiffyn, a'u hymgeleddu fel ei eiddo, a byddant yn briodoledd iddo byth. Malachi 3. 17.

'Edrychodd am dano ei hun yn y dechreuad; canys yno, yn rhan y cyfreithiwr, y gosodwyd ef: efe a ddaeth gyda phenaethiaid y bobl.' Deut. 33. 21. Edrychodd Gad am dano ei hun yn y dechreuad, pan ddewisodd ac y cafodd ei ran gyda Reuben a hanner llwyth Manasseh, yn gyntaf o flaen y lleill, o du y dwyrain i'r Iorddonen. Rhan y cyfreithiwr ydoedd, oblegid mai Moses y deddfwr a'i rhoddodd iddynt, ond Josuah ac Eleazer a roddasant eu rhanau a'u hetifeddiaethau i'r lleill. Er hyny, efe a ddaeth gyda phenaethiaid y bobl i ryfeloedd Canaan.

'Dyro i mi y rhan a ddygwydd o'r da.' Luc 15. 12. Edr. DYGWYDD.——Bydd y cyffelyb bechaduriaid a'r cyffelyb ran iddynt mewn cospedigaeth mewn byd arall. Job 20. 29. a 31. 2. Ps. 11. 6. Mat. 24. 51.

'Dyro ran i saith, ac hefyd i wyth,' (Preg. 11. 12.) sef bydd helaeth mewn cyfraniadau at angenrheidiau y tlodion: y mae ganddynt hawl i ran, a dyma y defnydd goreu a fedr un wneuthur â'i feddiannau. Mat. 25. 35, &c.

'Y maent yn rhanu fy nillad yn eu mysg; ac ar fy ngwisg yn bwrw coelbren.' Ps. 22. 18. Mat. 27. 35. Dynoethwyd Crist, a dyoddefodd y dirmyg mwyaf, y

Digitized by Google

RHENC, (rheng) rhest, rhestr, prill. 1 Bren. 7. 4.

RHEOL—AU—I, (rhe-ol) *Llad.* Regula; *Saes.* Rule; trefn, cyflun, gorchymyn, llywodraeth, rheolaeth; prawf i weithredu arno; mesur neu derfyn na ellir yn addas fyned drosto; llywodraethu. 2 Cor. 10. 13.—'Cynnifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnynt a thrugaredd, ac ar Israel Duw.' Gal. 6. 16. Israel Duw yw y rhai a rodiant yn ol y rheol hon, a phawb a rodiant yn ol y rheol hon, y maent yn Israel Duw; sef yn bobl mewn cyfammod â Duw, yn heddwch Duw, yn mwynhau ac yn gogoneddu Duw.

Sylw, I. Fod Duw wedi rhoddi i ddynion reol wrth ba un y maent i farnu am bob peth, ac i rodio yn mhob dim.

II. Dyledswydd a braint pawb yw rhodio yn ol y rheol hon.

III. Y canlyniad o rodio felly, yw bod tangnefedd a thrugaredd arnynt.

1. *Y rheol hon:* hwyrach y dichon yr apostol olygu wrth y rheol hon, yr athrawiaeth fawr o gyfiawnhad pechadur trwy ffydd yn Nghrist yn unig, y mae wedi ei hamddiffyn mor ragorol yn yr holl epistol hwn; dyma yr unig reol tangnefedd a heddwch â Duw, ac yn mha un y mae trugaredd Duw i'w chael. Creadur newydd yn Nghrist Iesu, ac yn ymffrostio yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist fel unig achos ein cyfiawnhad, ydyw yr unig ffordd i bechadur gael tangnefedd. ——Gelwir y gair, yr *holl* air, yn rheol. Deut. 17. 10. Os golygir y rheol yn yr ystyr hwn, nid yw yr athrawiaeth fawr o gyfiawnhad trwy ffydd yn cael ei chaead allan, ond yn gynnwysedig yn y rheol, ac yn rhan fawr o honi; ac heb hyn ni byddai yr holl reolau eraill o ddim llesâd sylweddol i bechadur. Gair Duw, gan hyny, ydyw yr unig reol o roddiad Duw i bawb yn mhob peth, ac yn mhob sefyllfa ac amgylchiad, ac nid *dim* arall.—1. Nid arferiadau dynion, drwg na da, ydyw ein rheol.——2. Nid ein proffiadau na'n teimladau ein hunain ydyw ein rheol mewn dim.——3. Nid rhagluniaethau Duw tu ag atom ydyw ein rheol, ond gair Duw dan bob rhagluniaeth.——4. Nid arfaeth a chynghor Duw ydyw ein rheol *ni*, rheol Duw *ei hun* ydyw hôno, 'yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun.' Eph. 1. 11. Y gair dadguddiedig, sef yr athrawiaethau, y gorchymynion, yr addewidion, &c., ydyw ein hunig reol ni yn mhob peth. Y mae hon yn rheol ddwyfol, awdurdodol, uniawn, fanwl, gyflawn; yn cyfateb i bob dyn, yn mhob amgylchiad, ac yn holl achosion perthynol i gorph ac enaid. Credu yr hyn y mae Duw yn ei lefaru, a gwneuthur yr hyn y mae yn ei beri, yw ein dyledswydd, ein diogelwch, a'n dedwyddwch penaf.

II. *Rhodio* yn ol y rheol hon, a arwydda ein hadnabyddiaeth o honi; ein cymeradwyaeth o honi, fel rheol gwbl addas ac uniawn; ein defnyddiad o bob gwirionedd dwyfol i'r dyben mae Duw wedi ei roddi; a'n parhad yn ysbryd, agwedd, a llwybr y gwirionedd; rhodio a arwydda agweddiad parhaus y meddwl, a bucheddiad allanol yn ol y gwirionedd.

III. Y *canlyniad* o hyn ydyw, tangnefedd a thrugaredd i'r cyfryw ag a rodio felly. Ffordd tangefedd ydyw y rheol, ac ynddi hi y dadguddir trugaredd Duw i bechaduriaid: am hyny y mae tangnefedd a thrugaredd yn sicr o fod ar y rhai a rodiant yn ol y rheol hon.

'Cerddwn wrth yr un rheol.' Phil. 3. 16. Κανων (*canon*) oedd y llinell wen yn y rhedegfa oedd yn nodi y llwybr yr oedd y rhedegwyr i redeg wrthi, ac felly, *αυτω στοιχειν κανονι*, a arwydda, *rhedeg wrth yr un llinell*, neu *reol, heb wyro oddi wrthi*, rhag colli y cwbl. Gair yr Arglwydd yw ein hunig reol ni o ran ein cred a'n bucheddiad, ac os byddwn am rodio wrth yr unig reol hon yn syml, byddwn yn debyg o synied yr un peth.

RHES, (rhe-es) rhenc, rhill. Exod. 28. 17. a 39. 10. 2 Cron. 23. 14.

RHESIN—YNAU, *Ffr.* Raisin; *Heb.* צמוקים *gwywedig*, neu *wedi sychu i fynu:* grawnwin wedi eu sychu yn yr haul. Y mae amryw fath o honynt; megys rhesin Damascus, am y dygir hwynt i ni o Damascus yn Syria; maent yn fawrion ac yn feddyginiaethol. Rhesin yr haul, a elwir felly am eu sychu yn yr haul. Gelwir hwynt hefyd *jar raisins*, am y cludir hwynt yma yn y cyfryw gostrelau. Bernir hwynt yn fagwriaethol ac yn feddyginiaethol, ac a'u harferir mewn amryw gyffyriau. 1 Sam. 25. 18. a 30. 12. 2 Sam. 16. 1.

RHESWM—YMAU—OL, (rhe-swm) *Gr.* ρησις, (*resis*) *Llad.* Ratio; *Ffr.* Raison; *Saes.* Reason: arwydda synwyr, neu allu yr enaid i ganfod ac i farnu am beth, i wahaniaethu da a drwg, gwirionedd a chelwydd. Cynneddf neu allu yr enaid i ganfod pethau, i'w cydmaru â'u gilydd, a thynu casgliadau oddiwrth eu perthynas â'u gilydd. Y mae rhai pethau yn un â rheswm dyn; megys bod un Duw. Y mae pethau eraill yn groes i reswm; megys bod *mwy* nag un Duw. Y mae pethau eraill uwchlaw rheswm; megys athrawiaeth y Drindod, adgyfodiad y meirw: pethau ydynt o ddwyfol ddadguddiad yn unig. Y mae holl drefn fawr yr iechydwriaeth uwchlaw rheswm: 'ni ddaeth,' ac ni ddaethent 'i galon dyn byth y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.' 1 Cor. 2. 9.

'Byddwch barod bob amser i ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch.' 1 Petr 3. 15. Sef hanes am sylfaen eu gobaith, ac am wrthddrych eu gobaith; sef yr hyn yr oeddynt yn gobeithio am dano. Annoga yr apostol hwynt i fod yn barod i ateb i bob un a ofynai iddynt am hyny, pa un ai yn neillduol ai yn gyhoeddus; gallai hyny fod yn fendithiol i eraill, a llareiddio meddyliau eraill tu ag atynt.

Geilw yr apostol ymroddiad y saint, eu cyrph a'u heneidiau, yn gwbl i'r Arglwydd, mewn sanctaidd ymarweddiad, ac er ei ogoniant, yn rhesymol wasanaeth; y mae yn gytun â phob rhesymoldeb; peth addas a chyfiawn ydyw; ac afresymol iawn ydyw ymddygiad croes i hyny. Rhuf. 12. 1. Gelwir ef yn rhesymol wasanaeth, mewn cyferbyniad, tebygol, i'r addoliad Iuddewig, yn gynnwysedig mewn aberthau anifeiliaid meirwon, y rhai oeddynt afresymol: aberthau afresymol oeddynt, a meirwon; ond aberthau byw a rhesymol ydym ni ein hunain, yn ymroddi yn gwbl i'r Arglwydd.

Ymresymu, a arwydda, ymddyddan, dadleu, siarad am beth. Esa. 1. 18. Mat. 16. 8. Marc 8. 16.

'Nid i ymrafaelion rhesymau.' Rhuf. 14. 1. 'Nyd i ymrysonion dadleuae.' W. S. 'Nid i ymrysonion dadleugar.' Dr M. Derbyniwch atoch y gwan yn y ffydd i fod yn aelod eglwysig, ac i gymdeithasu â chwi yn y fath fodd ag y gallo fyw gyda chwi heb ammheuaeth a dadleu yn nghylch pethau heb fod yn angenrheidiol i iechydwriaeth. Nid oes neb yn rhy wan, os bydd yn wirioneddol, i gael ei fagu; a gofal yr eglwys a ddylai fod, ei borthi â didwyll laeth y gair, yn amyneddgar ac yn dirion; a chadw yn mhell oddi wrtho bethau diles ac aflan.

RHEW—I, (rhe) iâ, iaen, durew, oerfel.—'A'i wynt y rhydd Duw rew.' Job 37. 10. Mae Duw yn llywodraethu ail-achosion; efe sydd yn peri i'r gwyntoedd oerion chwythu, y rhai a barant iddi rewi. Mae holl gyfnewidiadau naturiaeth yn dibynu ar ewyllys yr Arglwydd. Y mae yr holl greaduriaid, yn eu holl ysgogiadau a'u gweithrediadau, yn dibynu ar yr Arglwydd. Ps. 147. 17. Esa. 10. 15.

Digitized by Google

'Dystrywiodd eu gwinwydd â chenllysg, a'u sycomorwydd â rhew.' Ps. 78. 47. בחנמל *cesair*, Dr M. —*barug*, tebygol, medd Parkhurst.—LXX. παχνη, *llwydrew*, gair yw nad arferir ond yn y fan hon. Y seithfed pla yn yr Aipht, oedd cenllysg a thân, yr hwn a laddodd ddyn ac anifel, y llysiau, a holl goed y maes. Exod. 9. 24, 25. Edr. Iᴀ.

RHIDENS, ymyl-gylch, eddi, sitrach, amaerwy. Num. 15. 39. Edr. Eᴅᴅɪ, Pʜʏʟᴀᴄᴛᴇʀᴀᴜ, Yᴍʏʟ.

RHIAN—OD, (rhi) merch briodadwy; gwraig; arglwyddes.—'Nid ymwelaf â'ch merched am buteinio, na'ch rhianod am dori priodas.' Hosea 4. 14. 'Fy mherffaith rian agor i mi.' Can. 5. 2. Dr M.

RHIENI, (rhi-geni). 'Chwi a fradychir, ie, gan rieni,' &c. Luc 21. 16. Y mae gelyniaeth calon dyn yn erbyn yr efengyl, yn gryfach na holl serchiadau natur. Matthew 10. 21. Marc 13. 12. Edr. Mᴀᴍ, Pʟᴀɴᴛ, Tᴀᴅ.

*Rhieni* dyn yw ei dad, ei hendad, a'i orhendad.
*Cyfreithiau Cymreig.*

RHIF—O—ON—WR—EDI, (rhi-if) nifer, eirif, cyfrif.—1. Cyfrif, pa un ai ychydig ai llawer. Gen. 34. 30.——2. Cymdeithas, neu, cydgyfeillion. Luc 22. 3. Actau 1. 17.

'Pan gyfranodd y Goruchaf etifeddiaeth y cenedloedd, pan neillduodd efe feibion Adda, y gosododd efe derfynau y bobloedd yn ol rhifedi meibion Israel.' Deut. 32. 8. Wrth ranu y ddaear yn nyddiau Peleg, rhwng meibion Adda a Noah, yr oedd golwg neillduol gan yr Arglwydd ar sefydliad Israel yn Nghanaan; a goruwch-lywodraethodd y rhaniad fel y daeth i ran Canaan felldigedig y wlad oedd i'w rhoddi i feibion Israel, pan gynnyddent mewn rhifedi addas i'w meddiannu, ac y byddai eu hanwiredd hwythau yn gyflawn.—Yr oedd hefyd gyfatebolrwydd rhwng rhifedi y cenedloedd a rifir yn Gen. x. a rhifedi Israel yn myned i'r Aipht, sef deg a thriugain.—Felly yr oedd hefyd rhwng un ar ddeg meibion Canaan, a deuddeg meibion Israel, y rhai oedd i feddiannu eu gwlad. Gen. 46. 27. Deut. 10. 22. Gen. 10. 15. Exod. 1. 1—4. Gen. 48. 28. Act. 7. 8.

'Yr hwn sydd ganddo ddeall, bwried rifedi y bwystfil; canys rhifedi dyn ydyw; a'i rifedi ef yw Chwe chant a thriugain a chwech.' Dat. 13. 18. Y mae amryw ysgrifenwyr wedi sylwi fod coll (*ellipsis*) yn y geiriau, sef gair wedi ei adael allan; rhifedi y bwystfil, sydd yn arwyddo rhifedi *enw* y bwystfil. Yn cyfeirio at y lle hwn, dywedir yn pen. 15. 2. 'Ac mi a welais—y rhai oedd yn cael y maes ar y bwystfil, ac ar ei ddelw ef, ac ar ei nôd ef, ac ar rifedi ei enw ef.' Rhyw *enw cyfriniol* rhyw fwystfil a feddylir; yn mha un y mae y rhifedi i'w gael, yn ei lythyrenau, a'u golygu y ddyrifol. Gan fod y rhif yn gyfriniol, gellir ei alw yn 'enw y bwystfil,' neu 'rifedi enw y bwystfil.' 'Rhifedi dyn yw;' sef rhifedi arferedig gan ddyn; neu ddull o rifo yn arferedig gan ddynion: fel yr arwydda 'mesur dyn,' (pen. 21. 17.) sef y mesur derbyniol ac arferedig yn mhlith dynion. 'Bara dynion,' sef y bara a fwytânt. Ezec. 24. 17. 'Pin dyn,' sef pin arferedig gan ddyn. Esaiah 8. 8. Y rhifedi a roddir mewn tair llythyren Groeg, χξς, y rhai o'u rhoddi at eu gilydd a wnant 666. Yma y mae doethineb. Yr hwn sydd ganddo ddeall, bwried rifedi y bwystfil, neu rifedi enw y bwystfil. Y mae yr Ysbryd Glân yn rhoddi ar ddeall fod anhawsdra nid bychan i ddeall a bwrw y rhifedi hwn. Y ffordd a gymerodd llawer o ddysgedigion i'w ddeall, ydyw ymofyn am enw, a llythyrenau yr enw yn gwneuthur i fynu y rhifedi 666. Irenæus oedd y cyntaf a ddychymygodd y ffordd hon, ac a farnodd mai λατεινος, *the Latin man*, *y dyn Lladin*, ydoedd yr enw. λ 30, α 1, τ 300, ε 5, ι 10, ν 50, ο 70, ς 200, y cwbl yn gwneuthur i fynu 666; yn arwyddo y byddai holl gau addoliad y bwystfil yn yr iaith Lladin. Mae y gair Hebraeg *Romiith*, yn rhoddi yr un rhifedi. Eraill a gawsant y rhifedi yn *Ludovicus*, neu *Lewis*, brenin Ffrainc.* Forbes a eilw y meddwl hwn o eiddo Irenæus, yn degan plentynaidd ac Aiphtaidd, ac yn rhyfeddu i un dyn o synwyr allel edrych arno fel pwnc o ddoethineb anghyffredin. Gwel Forbes ar Dat. 13. 18. Y mae Forbes, a Mr Potter ar ei ol, wedi cymeryd ffordd arall o ddeall y rhifedi; sef golygu y rhifedi 666, rhifedi y bwystfil, mewn cyferbyniad i 144, rhifedi canlynwyr yr Oen ar fynydd Sion. Dat. 7. 4. a 14. 1. Gwreiddyn a lliosogydd 144 yw 12; a gwreiddyn 666 yw $25\frac{41}{51}$ Y mae 12 yn rhifedi neillduol yn eglwys Crist; megys 12 apostol, 12 sylfaen, a 12 porth y Jerusalem newydd. Felly hefyd y mae y rhifedi 25 yn nheyrnas y bwystfil. Rhifedi cyntaf y cardinaliaid, y plwyfydd, a'r eglwysi yn Rhufain oedd 25; yr oedd i Rufain 25 porth; y credo Pabaidd a gynnwys 25 o erthyglau; 25 o eisteddfaoedd oedd yn Nghynghor Trent; 25 o esgobion oedd yn gynnulledig yn y gyntaf o honynt; a 25 o arch-esgobion a roisant eu llaw wrth erthyglau y cynghor hwnw: agorir y porth *sanctaidd* eglwys St Petr bob 25 mlynedd; mae 25 o allorau yn yr eglwys hòno; mae yr allor fawr yn cynnwys 25 o droedfeddi o hŷd, lled, ac uchder; y mae 25 o nodau ar eu holl allorau, yn arwyddion o bum archoll Crist bum waith; y mae perthynasau y Pab mewn oedran am 25; eu Jubili sydd bob 25 o flynyddoedd; a'u dydd gwyl penaf sydd y 25 o'r mis. Y mae hyn oll yn dra chywrain; ond er ei fod yn canmol yn neillduol gywreinrwydd yr eglurhad hwn, nid ydyw Vitringa yn ei weled yn rhoddi rhifedi enw y bwystfil. O herwydd hyn, a rhesymau eraill hefyd, y mae efe yn gwrthod yr esponiad hwn. Gwedi ystyried llawer o enwau, yr un y mae efe yn penderfynu arno ydyw אדוניקם Aᴅᴏɴɪᴄᴀᴍ, *cyfodwr yn erbyn yr Arglwydd*, neu, *gwrthwynebwr yr Arglwydd*. Meibion Adonicam, y rhai a ddychwelasant o Babilon, oeddynt 666. Ezra 2. 13. Hwn ydyw yr unig enw, medd efe, yn yr Hen Destament, yn cynnwys y rhifedi hwn yn y llythyrenau Hebraeg. Mae ystyr yr enw yn hynod addas i un sydd yn gwrthwynebu, ac yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw. 2 Thes. 2. 4. Gwel Vitringa.——Barna Faber na ddylid y ofyn am yr enw yn ateb i'r rhif, ond yn yr iaith Roeg, yr iaith yr ysgrifenodd Ioan ynddi. Barna efe y dylai yr enw fod yn enw ymerodraeth, enw y gwr a'i sylfaenodd, ac enw deiliaid yr ymerodraeth i hyn oll y mae yr enw *Lateinos* yn cyfateb—y mae yn enw dyn, yr ymerodraeth, a'r bobl. *Latinus*, brenin *Latium*, ydoedd ei sylfaenydd cyntaf: oddiwrth *Romulus*, yr ail sylfaenydd, y cafodd hi yr enw Rhufain. Am hyny y gogwydda y gwr dysgedig hwn i farn Irenæus; gan mai rhifedi y bwystfil cyntaf a gododd o'r môr ydyw, ac nid oes un enw arall â'r rhif ynddo yn addas i'r bwystfil hwnw. Gwel *Essay on the Prophecies, vol.* ii. Yma y canfyddwch farnau amrywiol ddysgedigion ar y mater dadleuol hwn; ond rhaid i mi adael y darllenydd i farnu drosto ei hun, pa un sydd fwyaf addas.

RHIGOL—AU, (rhig-ôl) clawdd, ffosle, ffosig, goglawdd, rhych. Ezec. 17. 7.

* Gwel Vivian ar y Dadguddiad.——Yr oedd y ffordd hon yn gyffredin yn mhlith yr hynafiaid, yn enwedig yr Iuddewon diweddar a'r Aiphtiaid; megys Thoyth, enw un o eilun-dduwiau yr Aipht, yn gwneuthur y rhifedi 1218; enw Jupiter, fel *He Arche, dechreuad pethau*, wrth y rhifedi 737; ac enw yr haul, *Heys Da*, neu *Hyes, awdwr gwlaw*, wrth y rhifedi 666. Y mae St Barnabas yn ei epistol yn cael *Iesu croeshoeliedig* yn y rhifedi 318. Gwel Esgob Newton, a Cowper. Dr Henry More's *Mystery of Iniquity, part* ii., *b.* i. *cap.* 15. Peter Mullner's' *Vates*. Pyle's *Paraphrase*. Faber.

Digitized by Google

RHINC—IAN, (rhinc) gwasgu dannedd; esgyrnygu, grydian, grwgnach; llefain. Rhincian dannedd sydd yn arwydd o boenau dirfawr, a chynddeiriogrwydd. Mat. 8. 12. a 13. 42, 50. a 22. 13, &c.

RHINGYLL, (rhing) cyhoeddwr, gwysiwr, dyfynwr, ceisbwl.—'A' ringilliait y trawsont ef a ei gwiail.' W. S. Marc 14. 65.

RHINIOG, a HINIOG, eminiog, trothwy. Esa. 6. 4. Ezec. 9. 3. Seph. 1. 9.

RHINIWR—WYR, (rhin-gwr) hudol, swynwr.—'Simon riniwr.' W. S. Actau viii. cyn.——'Yr hon ni wrendy ar lais y rhinwyr, er cyfarwydded fyddo y swynwr.' Psalm 58. 5. Ei fod yn arferiad i swyno seirph rhag iddynt frathu yn niweidiol, sydd eglur oddiwrth Pregethwr 10. 11. Jer. 8. 17. Ond y mae rhyw fath o honynt a gauant eu clustiau rhag holl beroriaeth y rhiniwr; felly mae pechaduriaid yn cau eu clustiau rhag clywed gwirionedd peraidd ac iachusol, yr efengyl.

RHINWEDD—OL, (rhin-gwedd) rhin dda, cynneddf dda; dewraidd, gallu, pybyrwch; dirgelwch, sacrament; saith rhinwedd eglwys, sef saith sacrament Eglwys Rhufain.

Rhinwedd, a arwydda, 1. Gallu ac effeithioldeb. 'Fyned rhinwedd allan o hono.' Marc 5. 30.——'Vyned nerth o honaw allan.' W. S.

2. Gwroldeb, pybyrwch, egnïad.—'Chwanegwch at eich ffydd rinwedd;' sef gwroldeb ac egnïad dyfal, parhaus; yr hyn a feddwl yr apostol wrth y ddau air, 'Ymwrolwch, ymgryfhewch.' 1 Cor. 16. 13.—'Yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd;' 2 Petr 1. 3. sef i ogoniant a gwroldeb egniol. Cyfieitha rhai y geiriau, δια δοξης και αρετης, *trwy ei allu gogoneddus*; ac felly, tybygaf, y mae yn fwyaf addas eu cyfieithu. Fel y cyfodwyd Crist o feirw, δια της δοξης του πατρος, *trwy ogoniant y Tad*; felly y mae ei bobl yn cael eu galw yn effeithiol, δια δοξης και αρετης, *trwy ogoniant a rhinwedd*, neu *trwy ei allu gogoneddus*. Eph. 1. 18, 19. 1 Petr 2. 9. Dull o ymadroddi aml yn mhlith yr Hebreaid ydyw, pan fyddo dau enw cadarn gyd â'u gilydd, fod un o honynt i'w olygu fel enw gwan; trwy y ffugyr a elwir *Hendiadis*; megys Jer. 22. 3. 'Gwnewch farn a chyfiawnder;' sef gwnewch farn gyfiawn.—'Ac Abel a ddug o flaen-ffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt;' sef o flaen-ffrwyth ei ddefaid brasaf. Gen. 4. 4.—'Yna yr Arglwydd a wlawiodd ar Sodom a Gomorrah, frwmstan a thân;' sef brwmstan tanllyd. Gen. 19. 24.—'Yr hysbysasom i chwi nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist;' sef dyfodiad nerthol. 2 Petr 1. 16.—'Yn Dywysog ac yn Iachawdwr;' sef yn Dywysog iechydwriaeth. Act. 5. 31.—'Gwelwyd yn dda gan yr Ysbryd Glân, a chenym ninnau;' sef genym ni dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Actau 15. 28. Y mae llawer o'r cyffelyb siamplau yn yr ysgrythyrau. Gwel Glass *Phil. Sacræ., lib.* iii., *tract.* 1, *cap.* 6. Vitringa *Obs. Sacræ., lib.* i, *cap.* 7. *sec.* 6.

3. Perffeithrwydd a rhagoroldeb. 'Fel y mynegoch rinweddau yr hwn a'ch galwodd,' &c. 1 Petr 2. 9. Sef ei allu, ei ddaioni, a'i drugarogrwydd. Cyfeiria y geiriau at Esa. 43. 21. yn ol y cyfieithiad Groeg. O rinweddau Duw yn unig y tarddodd y cyfnewidiad a brofasant yn eu galwedigaeth, trwy yr efengyl, o dywyllwch i ryfeddol oleuni. Symudiad eu cyflwr, a'u holl freintiau canlynol i hyny, a ddeilliasant yn gwbl o rinweddau Duw, ac nid o honynt eu hunain. Eu dyled penaf hwythau yn mhob ffordd a fedrant, â'u tafodau, ac yn eu bywydau, ydyw mynegi ei rinweddau. Ymddygiad addas i'r alwedigaeth sanctaidd a fynega fwyaf ei rinweddau; fel y gwna iachâd corphorol fynegi rhinweddau y meddyg.

4. Daioni yn gyffredinol mewn geiriau ac ymarweddiad. Phil. 4. 8.—'Gwraig rinweddol;' sef gwraig gall, ddiwair, ffyddlon, dduwiol. Ruth 3. 11. Diar. 12. 4. a 31. 10.

RHITH, (rhi-ith) llun, dull, ffurf, gwedd, agwedd, cyffelybiaeth, tebygoliaeth.——'Ac yn rhith hir weddïo.' Mat. 23. 14. 'Ac wrth liw gweddiae hirion.' W. S. Hir weddiau a arferent fel abwyd, i'r dyben o dynu iddynt eu hunain feddiannau eraill, trwy weithredu ar eu haelioni yn eu cyfraniadau iddynt.——'Nac mewn rhith cybydd-dod.' 1 Thes. 2. 5. 'Nac echlusur i gupydd-dot.' W. S. Dr M. ymyl y ddalen, 'lliw i drachwant.' Cyfrith (sef o zel a duwioldeb) yn gorchuddio cybydd-dod.——Arferir rhith mewn cyferbyniad i wirionedd: 'rhith doethineb;' sef ymddangosiad o ddoethineb, ac heb fod yn wirioneddol felly. Col. 2. 23.——'A chanddynt rith duwioldeb, eithr gwedi gwadu ei grym hi.' 2 Tim. 3. 5. μορφωσιν ευσεβειας, *cyfrith, eilun, duwioldeb*; ymddangosiad a phroffes o dduwioldeb, yn gorchuddio y drygioni mwyaf.

RHIW—IAU, (rhi) osgo, gosgo, llechwedd, tyle. 1 Cron. 9. 11. a 26. 16.

RHODE, oedd enw y forwyn a glywodd Petr yn curo wrth ddrws Mair, gwedi ei waredu o'r carchar trwy weddiau yr eglwys. Actau 12. 13.

RHODFA—EYDD, (rhôd) cylchdro, cylchdaith, cylchlwybr. Ezeciel 42. 4.—'A gwallt dy ben fel porphor; y brenin sydd wedi ei rwymo yn y rhodfeydd.' Caniad. 7. 5. 'A gwallt dy ben fel porphorwisg brenin, wedi ei rwymo ym mysc pistyllau dyfroedd,' sef pistyllau y lliw-wyr. Dr M. a'r *Vulgate*. Y mae yr un gair *Heb.* רהט yn cael ei gyfieithu yn y rhif lliosog, *cwterydd*, Gen. 30. 38, 41.—*cafnau*, Exodus 2. 16. sef lle gwag i beth redeg trwyddo—*distiau*, Caniad. 1. 17.——Yn y gwledydd dwyreiniol, yr oedd y rhodfeydd yn rhedeg gyd âg ystlysau y tai mawrion, ac yr oeddynt yn fynediad cyffredin i'r ystafelloedd ynddynt. Wrth y rhodfeydd hyn, deall y rhan fwyaf, ordinhadau yr efengyl, lle y mae Crist wedi rhwymo ei hun i fod, trwy addewid, nas gall, ac na fyn, ei thôri. Mat. 18. 20. a 28. 20.

RHODIO, (rhawd) ymlwybro, cerdded, myned, teithio, ymdaith; ymbleseru. Rhodio, a arwydda, 1. Cerdded, neu ymlwybro o'r naill le i'r llall. Exod. 21. 19.——2. Yn draws-symudol, a arwydda, ymarweddiad a bucheddiad cyffredinol dynion; ac a arwydda, yn yr ystyr hwn, ystyriaeth, pwyll, hyfrydwch, parhad, a chynnydd.

'Rhodio yn Nghrist Iesu,' ydyw ymlynu wrtho, a'i ddefnyddio yn barhaus, yn ddoethineb, yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd; cynnyddu trwy hyny mewn sancteiddrwydd a thebygolrwydd iddo; ac ymgais yn egniol am ei ogoneddu, a thaenu gwybodaeth o hono ar led y byd. Col. 2. 6.—'Rhodio gyda Duw.' Edr. Enoch.

'Rhodio yn ol y cnawd,' ydyw byw a synied yn bechadurus, yn ol tueddiadau natur lygredig, gan wneuthur ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau, ac felly yn groes i Dduw. Rhuf. 8. 1. Eph. 2. 2. 1 Petr 4. 3. Judas 16.

'Rhodio yn, ac yn ol yr Ysbryd,' yw synio pethau yr Ysbryd, sef yr efengyl; byw dan ddylanwadau yr Ysbryd yn bywhau ac yn cryfhau anian ysbrydol, sanctaidd, yn yr enaid; byw yn ol trefn ysbrydol y gair, yn groes i'r cnawd, ei resymau, a'i dueddiadau. Bywyd a thangnefedd ydyw byw fel hyn yn y byd. Gal. 5. 21. Rhuf. 8. 1. Edr. Synio.

'Rhodio wrth ffydd,' ydyw byw mewn crediniaeth o'r hyn y mae gair Duw yn tystiolaethu am dano, ac ymagweddu yn gyfatebol i hyny. 2 Cor. 5. 7. Edr. Ffydd.



Digitized by Google

Rhodio ger bron, yn, ac ar ol yr Arglwydd, ydynt yn arwyddo cydnabyddiaeth o hono, ein parch iddo, ein hymorphwysiad arno, ac ymlyniad diddarfod wrtho. Gen. 15. 1. Zech. 10. 12.

Rhodio yn ei ofn, yn y gwirionedd, ac yn ei orchymynion, sydd yn arwyddo yr un peth a byw ac ymagweddu yn ofn Duw; byw yn, ac yn ol gwirionedd mawr yr efengyl, yn mhob ystyr; ac mewn ufudd-dod parhaus i orchymynion Duw. 2 Ioan 4. Deut. 5. 33. 2 Cron. 17. 4.

Rhodio yn ngoleuni yr Arglwydd, ac yn llewyrch ei wyneb, yw byw ac agweddu yn llwybrau goleu, sanctaidd, cysurus, gair Duw; yn heddwch Duw, a chysuron yr Ysbryd Glân. Ps. 89. 15. Esa. 2. 5. Act. 9. 31. 1 Ioan 1. 7.

Rhodio yn y tywyllwch, mewn celwydd, cyfrwysdra, yw byw mewn cyflwr diadgenedledig, mewn anwybodaeth, ac ansancteiddrwydd, yn groes i wirionedd Duw, ac mewn cyfrwysdra calon ddrygionus. 2 Cor. 4. 2. 1 Ioan 1. 6.

Rhodio trwy ddyfroedd a thân, ydyw myned trwy beryglon mawrion, a phrofedigaethau. Esa. 43. 1. Ps. 66. 12.

'Rhodio yn nghynghor yr annuwiolion,' (Ps. 1. 1.) ydyw gweithredu yn gyfatebol i'w cynghor hwynt, fel y gwnaeth Ahaziah. 2 Cron. 12. 3, 4, 5. Edr. dan eiriau eraill.

RHODRESGAR, (rhodres-câr) ymyrgar, hoywwych, coegaidd, coegfalch. Y gair *Gr.* *περιεργος*, a gyfleithir *rhodresgar*, a arwydda, bod yn fanwl yn ymyraeth â materion eraill, anmherthynol i ni. 2 Thes. 3. 11. 1 Tim. 5. 13.

RHODRESWAITH, (rhodres-gwaith) manylwaith, cyfaredd, swynyddiaeth.—'A llawer hefyd o'r rhai a fuasai yn gwneuthur rhodreswaith.' Actau 19. 19. 'Manolwaith goaml.' W. S. 'Y manwl gelfyddydau hyny.' Dr M. *Gr. περιεργα, cywreinwaith, cywreinwaith gwag ac annefnyddiol*. Yr ydoedd dinas Ephesus yn nodedig am swynyddiaeth. Crybwyllir gan Hesychius am yr *Εφεσια γραμματα, y llythyrenau Ephesiaidd*, math o swynion, a chyfareddion eraill, arferedig gan yr Ephesiaid. Biscoe's Boyle's *Lect. chap.* viii., *sec.* 1. Gan fod y cyfryw gelfyddydau â'r fath gymeriad iddynt, nid yw ryfedd fod y fath werth mawr ar y llyfrau ag oedd yn dysgu y cyfryw bethau gwag, er, mewn gwirionedd, na thalent ddim. 'Bwriasant eu gwerth hwy, ac a'u cawsant yn ddeng mil a deugain o ddarnau arian.' Os wrth y darnau arian y deallir y sicl Iuddewig, a barnu pob sicl yn werth 3s., yna yr oeddynt o werth £7500—os 2s. 6s., yna yr oeddynt o werth £6250—ond os yr *Attic drachma* a feddylir, yr hon a fernir o werth 9c. yna eu gwerth ydoedd £1875—pris dirfawr am bethau mor wag a diles. Er mor werthfawr oeddynt hwy, ni fynai y credinwyr yn Ephesus elw oddi wrthynt, ond llosgasant hwynt yn ngŵydd pawb, fel tystiolaeth gyhoeddus o'u hedifeirwch a'u ffieiddiad o'r cyfryw weithredoedd drygionus.

RHODD—I, (rho) dawn, rheg, anrheg, goseb, cêd; anrhegu. Edr. DAWN.—'Ac a brofasant y rhodd nefol.' Heb. 6. 4. Barna y Dr Owen mai yr Ysbryd Glân a feddylir wrth y 'rhodd nefol.' *Rhodd*, weithiau, a arwydda waith Duw yn rhoddi, 2 Cor. 9. 15.—felly hefyd, dawn Crist; Eph. 4. 7. ond yma y mae yn arwyddo y peth a *roddir*. Gelwir yr Ysbryd Glân, *dawn*, neu *rodd* Duw. Ioan 4. 10. Act. 8. 20. Dawn neu rodd yr Ysbryd Glân. Act. 2. 38. a 10. 45. a 11. 17. Yn mhob man arall, medd y gwr dysgedig uchod, mor belled ag y gall efe ddeall, arwydda y *rhoddiad*, ac nid yr hyn a *roddir*.

Gelwir ef yn *rhodd nefol*, am fod ei waith yn nefol, ac nid yn gnawdol ac yn ddaearol; ond yn benaf am ei anfon o'r nefoedd. Act. 2. 2, 33. 1 Petr 1. 12. Nid ydyw yn un gwrthddadl yn erbyn yr esboniad hwn, fod yr Ysbryd Glân yn cael ei enwi yn y geiriau nesaf, am y geill y naill fod yn eglurhad o'r llall. Heblaw hyny, geill y geiriau nesaf arwyddo ei weithrediadau nerthol; ond yn y geiriau hyn crybwyllir am dano fel rhodd addawedig ac arbenig Duw yn y Testament Newydd, yr hwn oedd i gyfnewid holl ddull addoliad yr eglwys, ac i sefydlu ffordd newydd, a defodau newyddion, yn addoliad Duw, gwedi dadguddiad cyflawn o feddwl Duw yn Nghrist. Efe oedd i ddiwygio y cwbl. Heb. 9. 10.

Y mae *profi* y rhodd nefol, yn arwyddo iddynt gael prawf o allu ac effeithioldeb yr Ysbryd Glân yn ngweinyddiad yr efengyl, ac addoliad Duw dan yr efengyl. Y mae y fath ddaioni a rhagoroldeb yn y rhodd nefol hon, fel y geill rhai ei brofi mewn gradd, er nas derbyniasant ef erioed yn fywiol ac yn iachusol.—1. Gallant brofi gair Duw yn ei wirionedd, ond nid yn ei allu.——2. Profi addoliad Duw yn ei drefn allanol, ond nid yn ei harddwch ysbrydol, tufewnol.——3. Profi doniau yr eglwys, ond nid ei gras.

'Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae.' Iago 1. 17. Rhoddiad daionus, yw pob peth y mae Duw yn ei roddi; Duw da sydd yn eu rhoddi; dyben da sydd ganddo yn eu rhoddi; sef er ei ei ogoniant ei hun, ac er ein llesâd ni. Ond heblaw rhoddion cyffredinol, y mae rhoddion perffaith ganddo; sef cyflawn, parhaus, a thragywyddol; yn ein perffeithio ni, sef yn ein gwneyd yn addas i fywyd tragywyddol. Geill y cyntaf fod yn perthyn i'r bywyd hwn, fel Gen. 45. 21. Job 1. 21. Phil. 4. 15. ond y lleill, sef y rhodd berffaith, sydd yn perthyn i achosion bywyd arall. Luc 11. 13. Rhuf. 5. 16. 1 Ioan 3. 17. Y naill yn golygu y gynnaliaeth ar y ffordd, a'r llall y darpariad gartref. Y mae gan Dduw roddion perffaith i'w bobl.

Y mae rhodd, neu roddion, weithiau, yn arwyddo gwobr a roddir er gwyro barn. Diar. 15. 27. a 17. 23. Esa. 1. 23.

'Pwy a roddodd i mi yn gyntaf? beth bynag sydd dan yr holl nefoedd, eiddof fi yw.' Job 41. 11.—'Pwy a roddodd i mi yn gyntaf? ac myfi a dalaf.' Dr M. Eglur yw, oddiwrth Rhuf. 11. 35. fod yma wall, trwy adael gair allan yn ein cyfieithiad ni, Nid oes un gair ynddo yn gyfieitniad o'r *Heb.* באשלם *ac mi a dalaf.* '*Who hath prevented me, that I should repay him.*' *Saes.* '*Or who hath given me any thyng before hand, that I may rewarde him agayn?*' Coverdale. Tebygol mai gwall yr argraffydd oedd, yn yr argraffiad cyntaf, ac wedi ei ddilyn yn yr holl argraffiadau eraill. Nid yw Duw yn ddyledwr i neb; ond y mae pawb yn ddyledwyr iddo ef.

RHOL, (rho-ol) rhestrfa; plyg-lyfr; côf-lyfr. Edr. LLYFR.

RHOS—YDD, (rho-os) cors-le, cors-waen. Y gair *Heb.* ערבה a gyfleithir *rhos*, yn Deut. 1. 7. 2 Sam. 23. 24. *et al.* a arwydda tir gwyllt, anniwylliedig; diffaethwch gwag, erchyll, yn llawn clogwyni, creigiau, a cheunentydd anhyffordd. Cyfleithir ef weithiau *diffaethwch*, Esa. 33. 9. a 35. 1. a 51. 3.—*tir diffaeth*, Jer. 2. 6.

Pan ffôdd y brenin Sedeciah, gwedi cymeryd Jerusalem, dywedir iddo fyned tu a'r (בערבה) *anialwch*, a daliwyd ef yn (בערבות) *rhosydd*, neu *ddiffeithfäoedd* Jericho. 2 Bren. 25. 5. Jer. 39. 4, 5. a 52. 8. Y mae Maundrell (*Journey, March* 29) yn rhoddi hanes yr anialwch hwn, ei fod 'yn dir diffaeth, sych, diffrwyth, yn cynnwys clogwyni creigiau cribog, wedi eu dryllio oddiwrth eu gilydd yn annhrefnus, fel pe buasai y ddaear gwedi dyoddef rhyw ddaear-gryn mawr, yn troi y tu fewn allan iddi.' Rhosydd Moab y geilw ein cyfleithwyr ni yr anialwch y gwersyllodd

Digitized by Google

meibion Israel ddiweddaf ynddo, o ba un yr aeth Moses i ben Nebo. Num. 33. 49. Deut. 1. 1. a 34. 1.

**RHOS—YN**, breilw, rhoswydd. Mae y pren a'i flodau hyfryd yn ddigon adnabyddus. Mae y rhos yn hyfryd i'r llygad, yn beraidd eu harogliad, ac yn feddyginiaethol rhag amryw glefydau. Oblegid ei harddwch a'i hyfrydwch, geilw Anacreon, prydydd Groegaidd, ef, *το ροδον των ερωτων*, *blodeuyn y cariadau.* Yr oedd yn ngwastadedd Jericho gynt bren rhosyn hynod o nodedig; yr oeddynt mor aml yno, fel yr oeddynt yn gorchuddio agos yr holl wastadedd. Priodolent lawer o rinweddau rhyfedd iddo; un peth sydd sicr, sef ei fod yn anllygredig; ac wedi ei roddi mewn dwfr am ychydig amser, blodeua un amser o'r flwyddyn; ac wedi ei gymeryd allan cauai i fynu drachefn. Cyfrif Tournefort 58 math o honynt, ac y mae rhos Saron yn mysg y rhai mwyaf hyfryd o honynt. Edr. J. M. Good's *Translation of Solomon's Song.*—Geilw Crist ei hun Rhosyn Saron, o herwydd ei harddwch, ei hyfrydwch, a'r rhinwedd meddyginiaethol sydd ynddo i iachâu enaid. Can. 2. 1. Er y barna rhai mai yr eglwys sydd yn llefaru y geiriau; ond ymddengys i mi yn fwy naturiol mai Crist sydd yn canmol ei hun, yr hyn sydd yn dra addas iddo ef wneuthur, na bod yr eglwys yn canmol ei hun, yr hyn nid ydyw mor gwbl addas.

Diffeithwch yn blodeuo fel rhosyn, a arwydda dychweliad y cenedloedd at Grist trwy bregethiad yr efengyl yn eu plith, a harddwch hyfryd y saint yn eglwysi y cenedloedd. Esa. 35. 1.

**RHOSTIO**, (rhost( *Ffr.* Rostir; *Saes.* Roast; pobi. O'r ddwy ffordd o drin a pharotôi bwyd i'r cylla, berwi sydd fwyaf addas i fwyd cryf, sef cig anifeiliaid yn eu llawn dyfiant, a rhostio sydd fwyaf addas i gig gwan ieuanc. Y mae cryfach tân yn ofynol i rostio nag i ferwi. Yr oedd oen y pasc i gael ei rostio wrth dân. Exod. 12. 8. Edr. Pasc.

**RHU—O—AD—WY**, (rhu) brefu, breferu; crochfloeddio; breferiad, oernad; sŵn dychrynllyd, megys y gwna y môr, neu lew digllon.——Dywedir fod yr Arglwydd oddi uchod yn rhuo, pan fyddo yn bwgwth pechaduriaid, ac yn amlygu ei ddigofaint yn ddychrynllyd yn eu herbyn. Jer. 25. 30. Joel 3. 16. Amos 1. 2.——Gelwir Satan yn llew rhuadwy, i ddangos ei greulonder, a natur ddychrynllyd ei demtasiynau. 1 Petr 5. 8.——Rhua dynion mewn digllonrwydd, gwallgofrwydd, neu alar a thristwch mawr. Jer. 50. 24. Job 3. 24. Ps. 38. 8.

**RHUDD-GOCH—ION**, (rhudd-coch) coch-dwfn, porphor.—'A rhudd-gochion.' Esth. 1. 6. a 8. 15. *Saes.* Blue. Cyfieithir y gair תכלת *glas* yn Exod. 25. 4. Num. 4. 6. ac felly yn y rhan fwyaf o ranau eraill, lle yr arferir y gair.—Y *nef-liw*, Bates, Parkhurst. Y LXX., Acquila, Symmachus, a Theodotian, a'i cyfieithant y rhan amlaf, *Hyacynthus.* Gwel Colossia *Concor.*

**RHUFAIN—EINIAID**, *Ρωμη*, *dinas Rhufain.* Cafodd yr enw, medd rhai, oddiwrth Romulus, ei hadeiladydd. Dywed eraill, ei sylfaenu yn mhell cyn ei amser ef, a bod yr enw o darddiad dwyreiniol. Gallai gael ei henw oddiwrth yr *Heb.* רום *(rom) uchel*, o herwydd y bryniau yr adeiladwyd hi arnynt. Cynfrodorion y wlad hon oeddynt yr *Umbri* a'r *Pelasgi.* Gwedi rhyfel Caerdroia, daeth Æneas a'i gymdeithion yno; ond yr oedd Rhufain wedi ei hadeiladu oesoedd cyn hyny. Gwel *Universal History, vol.* xvi. Gwedi amser Romulus, A. M. 3254, cynnyddodd yn raddol nes gorchuddio saith mynydd, neu fryniau, ac wedi hyny dim llai na thri ar ddeg. Y mae yr afon Tiber yn rhedeg trwyddi, ac yn ddefnyddiol iawn iddi. Ni bu ei muriau erioed dros 13 o filltiroedd o gylch: ond yr oedd y wlad oddi amgylch yn llawn o faesdrefydd. Rhy faith, ac anmherthynol i'r gwaith hwn, fyddai rhoddi yma hanes holl ddygwyddiadau y ddinas fawr hon, yr hon a fu yn hir yn ben dinas y byd, ac yn eisteddfod pen ymerawdwyr y byd. Yn amser Romulus, yr oedd yn cynnwys yn nghylch 3000 o drigolion; yn amser Augustus yr oedd yn cynnwys, meddant, 2,000,000 o drigolion, sef yn nghylch dau cymaint ag sydd yn Llundain: yn bresennol, braidd y mae y trigolion yn 80,000 o rifedi.* Nid oedd cynfrodorion Rhufain ond Barbariaid gwylltion, anwybodus, ac eilun-addolgar. Wedi darostwng gwlad Groeg y blagurodd dysgeidiaeth yn eu plith. Llywodraethwyd hwynt 220 o flynyddoedd, gan saith o freninoedd. Gwedi hyny, am 482 o flynyddoedd, llywodraethwyd hwynt mewn amrywiol ddull trwy gyfundod. Gwedi hyny buont dan lywodraeth ymerawdwyr dros 521 o flynyddoedd. Cynnyddasant mewn gallu ac helaethrwydd tiriogaeth yn raddol, nes y goresgynasant yr holl Ital; ac wedi hyny goresgynasant, trwy ryfeloedd, ysgelerder, a dyhirwch, yr holl wledydd o Brydain i'r Aipht, ac o Persia i'r Hispaen. Yr oedd yr ymerodraeth yn cyrhaedd o'r gogledd i'r dehau, yn nghylch 2660 o filltiroedd, ac oddi amgylch yr un faint o'r dwyrain i'r gorllewin. Julius Cesar, trwy lawer o dywallt gwaed, a ddaeth i'r orsedd yn unbenadur gyntaf. Costiodd hyny ei fywyd iddo yn fuan. Brutus ac eraill a gyd-fwriadasant yn ei erbyn, ac a'i lladdasant yn y senedd-dŷ; ond collasant hwythau eu bywydau yn eu hymdrech i adferyd y llywodraeth o gyfundod, a ddystrywiwyd gan Julius Cesar. Llywodraethodd Augustus ar ei ol, yn hir, yn dirion, ac yn llwyddiannus: ond ei olynwyr, gan mwyaf, oeddynt yn anghenfilod beilchion, creulon, llygredig. Dyoddefodd y Cristionogion erlidigaethau trymion danynt, hyd nes daeth Cystenyn Fawr i'r orsedd, A. D. 323. Yr hwn trwy lawer o dywallt gwaed a ddarostyngodd Baganiaeth ac eilun-addoliaeth, ac a osododd i fynu Gristionogrwydd yn eu lle, yn grefydd sefydledig trwy yr holl ymerodraeth. Symudodd Cystenyn Fawr eisteddfod ei lywodraeth o Rufain i Gaer Cystenyn. Ar ei farwolaeth, rhanwyd yr ymerodraeth rhwng ei dri mab, Cystenyn, Constantius, a Constans. Gwedi hyn, dyoddefodd yr ymerodraeth yn ofnadwy iawn, dros lawer o flynyddoedd, farnedigaethau trymion trwy ryfeloedd, terfysgiad, a chreulondeb digyffelyb y Gothiaid dan dywysiad Alaric, A. D. 395. Anrheithiasant yr Ital ddwywaith; goresgynasant Rhufain, ac a'i llosgasant â thân, A. D. 410. Gwedi hyny Attila, yr hwn a alwai ei hun yn *fflangell Duw*, tywysog yr Huniaid, a anrheithiodd lawer o'r gwledydd yn ofnadwy iawn; gan losgi, a lladd, a dyfetha pob peth, agos. Ar ei ol ef daeth Genseric a'r Vandaliaid o Affric, ac a anrheithiasant yr Ital a Rhufain yn dost, yn nghylch A. D. 455. Odoacer, brenin yr Heruli, a Barbariaid eraill, a symudodd eisteddfod y llywodraeth o Rufain i Ravenna, dinas arall yn yr Ital. Gwedi hyny, rhanwyd yr ymerodraeth orllewinol yn ddeg o freniniaethau annibynol. Edr. Anghrist, Udgorn. Parhaodd yr ymerodraeth ddwyreiniol hyd y bymthegfed ganrif, pan y goresgynwyd hi gan y Tyrciaid. Yn nghylch canol yr wythfed ganrif, gwnawd Pab Rhufain yn dywysog daearol. Yn y flwyddyn 755 cafodd yr *Exarchate* o Ravenna; A. D. 774, cafodd freniniaeth y Lombardiaid at Rufain.

Yn y ddelw fawr a welodd Nebuchodonosor yn ei

---

* Cyfeirir y darllenydd at ymchwiliadau manwl Niebuhr i hanes dechreuol Rhufain (Niebuhr's *History of Rome, vol.* i.) Ymddengys fod poblogaeth Llundain dros 2,000,000 yn ol y cyfrifiad diweddaf a wnawd yn y flwyddyn 1851. Yr oedd Rhufain cyn y flwyddyn 1818 yn cynnwys 150,000 o drigolion.—C.

Digitized by Google

freuddwyd, gosodir yr ymerodraeth hon allan wrth y 'coesau a'r traed, peth o honynt o haiarn, a pheth o honynt o bridd.' Yr ymerodraeth hon a olynodd ymerodraeth y Groegiaid. Yn nehongliad y breuddwyd, dywed Daniel, 'Bydd y bedwaredd freniniaeth yn gref fel haiarn: canys yr haiarn a ddryllia, ac a ddofa bob peth: ac fel haiarn, yr hwn a ddryllia bob peth, y maluria ac y dryllia hi. A lle y gwelaist y traed a'r bysedd, peth o honynt o bridd y crochenydd, a pheth o honynt o haiarn, breniniaeth ranedig fydd; a bydd ynddi beth o gryfder haiarn—bydd o ran yn gref, ac o ran yn frau.' Dan. ii. Yr oedd ymerodraeth Rhufain yn gryfach a helaethach nag un o'r tair eraill. Mae y darluniad yn hynod o addas i'r Rhufeiniaid. Maluriodd a threuliodd yr ymerodraeth hon yr holl wledydd. Dichon y coesau a'r traed, ar ba rai yr oedd y ddelw yn sefyll, arwyddo y ddau brif swyddogion *(two consuls)* trwy ba rai y bu yn hir yn cael ei llywodraethu; a'r ymerodraeth ddwyreiniol a'r orllewinol, i ba rai y rhanwyd y gwledydd dan ei llywodaeth yn y diwedd. Bysedd y traed, a arwydda y deg breniniaeth, sef deg corn Ioan yn y Dadguddiad (Dat. 17. 12.) i ba rai y rhanwyd yr ymerodraeth orllewinol. Cymysgedd yr haiarn a'r pridd yn y traed a'r bysedd, a arwydda y byddai o ran yn gref, ac o ran yn frau, ac a rag-fynega ymuniad y Rhufeiniaid â'r cenedloedd a'u goresgynasant; megys y Gothiaid, y Vandaliaid, a Barbariaid eraill, y rhai yn y diwedd a'u dinystriasant. Dan. 2. 40—43. Gosodir yr un ymerodraeth allan yn ngweledigaeth Daniel (pen. 7. 7.) dan yr arwydd-lun o 'fwystfil ofnadwy, ac erchyll, a chryf ragorol; ac iddo ddannedd mawrion o haiarn; yr oedd yn bwyta, ac yn dryllio, ac yn sathru y gweddill dan ei draed, ac iddo ddeg o gyrn.' Yr oedd yn fwy ofnadwy ac erchyll, yn helaethach ei lywodraeth, ac a barhaodd yn hŵy, na'r rhai oll a aethant o'i flaen; nid oedd un bwystfil mor erchyll ac ofnadwy, i fenthyca oddi wrtho enw addas i roddi iddo. Tebygol na fu un bobl ar y ddaear yn cyfateb i'r Rhufeiniaid mewn grym, pybyrwch, ac erchyllrwydd. Trwy ryfeloedd, goresgynasant yr holl wledydd, a gorchfygasant bob gwrthwynebrwydd, fel yr oedd pob teyrnas ar y ddaear yn ddibynol arnynt, mewn rhyw ddull neu gilydd. Dygasant gyfoeth yr holl wledydd a oresgynasant i addurno eu prif ddinas; a gorthrymasant bawb yn greulon nad ufuddhaent yn barod i'w hawdurdod. Yr oedd yn amrywio oddiwrth y bwystfilod oll a fu o'i flaen, o ran dull a gosodedigaeth y llywodraeth, a'i rheol o lywodraethu. Ond er i'r Rhufeiniaid ddarostwng y gwledydd dwyreiniol, yn perthyn yn olynol i'r Caldeaid, y Persiaid, a'r Groegiaid, etto rhaid edrych yn Ewrop am gorph, pen, a chyrn y bwystfil hwn.

I ddeall y prophwydoliaethau am y pedair ymerodraeth, rhaid i ni ystyried fod y pedwar anifel etto yn fyw, medd Syr Isaac Newton; er fod llywodraeth y tri cyntaf wedi ei chymeryd oddi wrthynt. Cenedloedd Assyria a Chaldea ydynt etto y bwystfil cyntaf. Y rhai o Media a Phersia ydyw yr ail, hyd heddyw. Cenedloedd Macedonia, Groeg, Thrace, Asia Leiaf, Syria, a'r Aipht, ydynt etto y trydydd. A chenedloedd Ewrop, tu yma i wlad Groeg, ydyw y pedwerydd. Gan fod corph y trydydd bwystfil yn derfynedig yn y gwledydd tu yma i'r Euphrates, a chorph y pedwerydd i'r gwledydd tu yma i wlad Groeg, rhaid edrych am bedwar pen y trydydd bwystfil yn y gwledydd tu yma i'r Euphrates, a chyrn y pedwerydd yn mhlith y cenedloedd tu yma i wlad Groeg. Am hyny, pan ranwyd ymerodraeth y Groegiaid i bedair o deyrnasoedd, nid ydym yn cynnwys yn y teyrnasoedd hyny un rhan o Caldea, Media, na Phersia, am eu bod yn perthyn i gyrph y ddau fwystfil cyntaf. Ac nid ydyw yr ymerodraeth Roegaidd, sefydledig yn nhref Cystenyn, yn perthyn i gyrn y pedwerydd bwystfil, am ei bod yn perthyn i gorph y trydydd. Rhaid, gan hyny, fod y cyrn yn sefydledig yn ngwledydd Ewrop, tu yma i wlad Groeg. Teyrnasoedd Ewrop, gan hyny, ydyw y deg corn, er eu bod weithiau, hwyrach, yn fwy, ac weithiau yn llai; adnabyddir hwynt, er hyny, fel deg corn y pedwerydd bwystfil.

Cyfrifir y deg corn ar y cyntaf fel y canlyn.—1. Breniniaeth yr Huniaid.——2. Yr Ostrogothiaid.——3. Y Visigothiaid.——4. Y Ffrancod.——5. Y Vandaliaid.——6. Y Suefiaid a'r Alaniaid.——7. Y Burgundiaid.——8. Breniniaeth yr Heruli, Rugii, Scyrri, a llwythau eraill cynnwysedig yn nheyrnas Odoacer, yn yr Ital.——9. Y Saxoniaid.——10. Y Lombardiaid.

Tra yr oedd Daniel yn ystyried y cyrn, 'wele cyfododd corn bychan arall yn eu mysg hwy, a thynwyd o'r gwraidd dri o'r cyrn cyntaf o'i flaen ef: ac wele lygaid fel llygaid dyn yn y corn hwnw, a genau yn traethu mawrhydri.' Dan. 7. 8. Wrth y corn hwn, deallir gallu Eglwys a Phab Rhufain, yr hwn, o ddechreuad bychan, a ymwthiodd yn mhlith y cyrn, ac o'r diwedd a feddiannodd dri o honynt, sef Ravenna, Lombardi, a Rhufain; a llywodraeth y Pab ar y rhai hyn a ddynodir trwy y goron dri-phlyg oedd yn addurno ei ben er hyny hyd yn ddiweddar. Neu, yn hytrach, yn ol barn Mr Faber, 1. Breniniaeth yr Heruli.——2. Breniniaeth yr Ostrogothiaid.——3. Breniniaeth y Lombardiaid. Gwel *Essay on the Prophecies.*—Y 'llygaid dyn,' sydd ganddo, a arwydda y synwyroldeb, y cyfrwysdra, y dichellion, ac ystrywiau y gallu hwn, i ganfod achlysuron, a chyfleusderau i eangu ei derfynau, a'i lywodraeth. Y 'genau yn traethu mawrhydri,' a arwydda yr uchel-frydig holion, yr enwau cableddus, a holl chwyddedig eiriau gorwagedd y corn hwn. Yr enw, *Ei sancteiddrwydd*—ei hôniad i anffaeledigrwydd—awdurdod i ddirymu cyfreithiau Duw—i faddeu pechodau—ac i werthu mynediad i'r nefoedd, ydynt siamplau o'r mawrhydri a lefara y genau hwn. Dan. 7. 25. a 11. 36. 1 Sam. 2. 3. Ps. 12. 3. 2 Thes. 2. 4. 2 Tim. 3. 2. Dat. 13. 1, 5, 6.

Planwyd eglwys Gristionogol yn Rhufain yn foreu, ac y mae wedi parhau mewn enw hyd heddyw. Yr oedd 'dyeithriaid o Rufeinwyr,' yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost; y rhai, tebygol, ar eu dychweliad, a ddygasant yr efengyl gyda hwynt i'r ddinas fawr hôno. Act. 2. 10. Hwyrach mai yr eglwys gyntaf oedd a blanwyd yn mysg y cenedloedd, a dilys yw iddi liosogi yn fuan. Gwel Rhuf. 1. 8. a 12. 6. a 15. 23. Nid annhebyg fod Acwila a Phriscila, y rhai a yrwyd o Rufain gan yr ymerawdwr Claudius, yn offerynau ymdrechgar a buddiol yn planu yr eglwys Gristionogol yn Rhufain. Anercha Paul hefyd Andronicus a Junia, ei geraint, fel rhai hynod yn mhlith yr apostolion, y rhai oeddynt yn Nghrist o'i flaen ef, a chyd-ddyoddefwyr âg ef yn achos yr efengyl. Cyfarcha yr apostol amryw eraill, enwog am eu ffydd, er, hwyrach, nad oeddynt oll yn preswylio yn Rhufain. Tad Ruffus, y crybwyllir am dano, pen. 16. 13. oedd yr hwn a gymhellwyd i ddwyn croes Crist. Marc 15. 21.

Bu 230 o Esgobion, neu Babau, yn Rhufain. Yn mhlith y 65 cyntaf, nid ydym yn cael un o honynt yn enwog am dduwioldeb, gwybodaeth, na dysgeidiaeth; er, diammeu, bod amryw o honynt yn ddynion sanctaidd. Ond yn mhlith y 165 diweddaf, ni chawn un yn rhoddi dim prawf boddlonol o ras Duw ynddo, ond pob un o honynt yn hôni hawl i fod yn ben ar eglwys Crist; a llawer o honynt yn gywilyddus o nodedig am falchder, creulondeb, celwydd, anudonrwydd, llofruddiaeth, puteindra, swyn-gyfaredd, a phob peth echryslon. Bu 35 o wrth-babau, i gyd o'r un agweddiad a'r rhai yr oeddynt yn eu gwrthsefyll.

Digitized by Google

Ysgrifenodd Paul epistol rhagorol at yr eglwys yn Rhufain. Mae yn gorph o dduwinyddiaeth o ddwyfol gyfansoddiad—yn helaeth, yn rheolaidd, yn oleu—yn traethu yn ardderchog ar holl brif bynciau Cristionogrwydd. Geilw rhai ef *Clavis Theologia*, hyny yw, Agoriad Duwinyddiaeth; a *Methodus Scripturæ*, hyny yw, Iawn drefn yr Ysgrythyr. Bernir yn-gyffredin iddo ei ysgrifenu o Corinth yr ail waith y bu yno, yn nghylch A. D. 57 neu 58. Gwel Pearson, Mill, Lardner, Michaelis. Mae cyfarchiadau Gaius, ei lettywr yn Corinth, ac Erastus, goruchwyliwr y ddinas, yn brawf mai o Corinth yr ysgrifenodd ef. Rhuf. 16. 23. 1 Cor. 1. 14. 2 Tim. 2. 14. Anfonwyd ef gyda Phebe, gweinidoges eglwys Cenchrea, yn agos i Corinth, yr hyn sydd brawf ychwanegol mai o Corinth yr ysgrifenwyd ef. Rhuf. 16. 1. Nid yw yr epistol hwn, gan hyny, yn cael ei roddi o flaen y lleill o'i epistolau, am ei ysgrifenu yn gyntaf; canys ysgrifenwyd yr epistolau at y Corinthiaid, y Thessaloniaid, yr epistol cyntaf at Timotheus, a'r epistol at Titus, o flaen hwn: ond rhoddwyd ef yn gyntaf, tebygol, naill ai o herwydd enwogrwydd y ddinas fawr Rhufain, lle y preswyliai yr eglwys yr ysgrifenodd yr epistol ati; neu, ynte, yn hytrach, o herwydd rhagoroldeb yr epistol ei hun, a'r pethau a drinir ynddo yn rheolaidd, ac yn eu cyson drefn; yr hwn oedd mewn cymaint bri gan Chrysostom, fel y parodd ei ddarllen iddo ddwy waith yn yr wythnos, yn barhaus. Nid yw trefn y prophwydoliaethau yn ol yr amser yr ysgrifenwyd hwynt; canys prophwydodd Hosea mor foreu, os nid yn foreuach, nac Esaiah, ac o flaen Jeremiah ac Ezeciel, er ei osod ar eu hol hwynt. Wrth gymharu yr ysgrythyrau canlynol â'u gilydd, gellir canfod yn eglur yr amser yr ysgrifenodd yr epistol hwn.—Rhuf. 15. 25, 26. Act, 20. 2, 3. a 24. 17, 19. 1 Cor. 16. 1—4. a 8. 1—4. Gwel *Horæ Paulinæ, by* Dr Paley. Michaelis' *Introduction to the New Testament.*

Y ddadl fawr rhwng yr Iuddewon a'r Cenedloedd yn nghylch defodau Moses, a'r diddymiad o honynt, oedd, tebygol, yr achlysur i Paul ysgrifenu yr epistol hwn. Bu y ddadl mor fawr yn Rhufain, fel y parodd gynhwrf yn y ddinas, yr hwn a barodd i'r Ymerawdwr Claudius alltudio y pleidiau o Rufain. Dywed Suetonius, hanesydd Rhufeinaidd, i'r cynhyrfiadau hyn gael eu cyffroi gan Grist (*Christo impulsore. Claud. c.* 25.) am iddo glywed, tebygol, mai Crist oedd achos y ddadl yn eu plith. Ar yr achlysur hwn, gorfu ar Acwila a Phriscila adael Rhufain: cyfarfu Paul â hwynt yn Corinth, ac a arosodd gyda hwynt, ac a weithiodd iddynt am gyflog. Tra yr arosodd yno, diammeu i'r gwr a'r wraig hyn roddi iddo hanes cyflawn o'r ddadl yn yr eglwys yno, yr hyn a barodd i'r apostol ysgrifenu y llythyr rhagorol ati.

Y mae yn dangos ynddo* beth yw cyflwr pawb, Iuddewon a Chenedloedd, fel pechaduriaid; ac mor anmhosibl ydyw i'r naill na'r llall gael eu cyfiawnhau ynddynt eu hunain, ger bron Duw; gan fod pawb wedi pechu, ac yn ol am ogoniant Duw:—trefn Duw o gyfiawnhau pechaduriaid, o'r Iuddewon a'r Cenedloedd, trwy ffydd yn nghyfiawnder Crist:—y ffrwythau a'r breintiau mawrion canlynol i gredu yn Nghrist:—yn nghyd â'r dyledswyddau gofynedig yn gyffredinol oddiwrth bawb sydd yn credu, tu ag at Dduw, dynion, swyddwyr gwladol, eu cyd-Gristionogion, &c. Pen. xii, xiii, xiv.

* Y mae cynnwysiad yr epistol yn dra ardderchog. Mae yn traethu am gyfiawnder a gras Duw. Coccejus.——Mae swm yr holl epistol yn gynnwysedig yn yr ymresymiad hwn: y mae yr Iuddewon a'r Cenedloedd yr un modd yn euog; yr un modd y cyfiawnheir hwynt yn rhad, heb weithredoedd, trwy ffydd yn Nghrist; yr un modd y rhwymir hwynt trwy ras Crist i sancteiddrwydd bywyd, gostyngeiddrwydd, a chariad. Gan hyny, i ddylai y naill geisio blaenori ar y llall, oddi eithr mewn cariad a gostyngeiddrwydd. Paræus.

Amlwg yw, mai prif bwnc blaenorol yr apostol yn yr epistol hwn, yw, pa un ai trwy ffydd, ai trwy weithredoedd y ddeddf mae Duw yn cyfiawnhau dyn? Y cyntaf y mae yn ei haeru ac yn ei gadarnhau; a'r diweddaf y mae yn ei wadu yn hollol: 'Yr ydym ni gan hyny yn cyfrif,' medd efe, 'mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, heb weithredoedd y ddeddf.—Am hyny trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnawd yn ei olwg ef.' Rhuf. 3. 20, 28. Nid oes ond un o'r ddwy ffyrdd hyn i ddyn gael ei gyfiawnhau, ac y mae o'r pwys mwyaf i ni wybod pa un yw yr iawn ffordd, sef ffordd Duw. Gan nad ydyw Duw fel barnwr yn barnu neb yn gyfiawn, heb fod ganddo gyfiawnder, ac ni fedd un cnawd mo'r cyfiawnder hwnw trwy weithredoedd y ddeddf; am hyny eglur yw, os cyfiawnheir ef byth, rhaid iddo gael ei gyfiawnhau ryw ffordd arall; ac nid oes un ffordd arall ond trwy ras, trwy ffydd, trwy iawn Crist, a ffydd yn ei waed; mae yr apostol yn profi hon yr un unig ffordd bosibl, ac yn ffordd addas i Dduw, a diogel i ninnau. Gwel Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* iv. *cap.* 10 & 11.

Fel cyfansoddiad, mae yn dra rhagorol o ran gwirionedd ac ucheledd ystyr, destlusrwydd, a grym ymadrodd, a'i drefn reolaidd; ond yn neillduol o ran pwysau annhraethadwy y materion cynnwysedig ynddo. Y mae yn ddigymhar yn mhlith holl gyfansoddiadau dynol, ac yn rhagori gymaint ar holl orchestion y Groegwyr a'r Rhufeinwyr dysgedig, ag ydyw dysgleirdeb yr haul yn rhagori ar lewyrchiad y sêr.

Y mae amryw wedi ysgrifenu yn dda ar yr holl epistol hwn, ac eraill ar ranau o hono; megys Andrew Willet, Thomas Wilson, Elnathan Parr, Peter Martyr, Anselm, Bucer, Paræus, Coccejus, Pererius, Toletus, Stephanus de Brais, Ludovicus de Dieu, Thomas Adams. Ar yr holl bennod gyntaf, Gabriel Powel. Ar y pennodau vii., viii., a'r ix., Edward Elton. Ar pen. vii., Dr Stafford. Ar pen. viii., Edward Phillips, Thomas Draxus, William Cooper, John Hedlam, T. Horton, D. D. Ar yr adnodau cyntaf o pen. viii., Walter Caradoc, a T. Jacomb, D. D. Ond i'm tyb i, mae esboniad addas ar yr epistol hwn, cyfatebol i ardderchogrwydd y pethau dyfnion y traetha yr apostol am danynt ynddo, yn beth i'w ddymuned yn fawr, ac heb ei gael hyd yn hyn—o'r hyn lleiaf, ni ddygwyddodd i mi weled yr un a'm cyfiawn foddlonodd.*

RHUTHR—O, (rhuth) cyrch, dygyrch, lluchynt, diebyd, hwrdd, hupynt: cymeryd gwib: syrthio ar, Gen. 43. 18.—ymosod ar, Barn. 9. 33.—rhuthr o amser, sef yspaid hir o amser.—'Gan ruthro i bethau nis gwelodd.' Col. 2. 18. 'Gan ymgodi ym-petheu ny's gwelawdd;' ymyl y ddalen, 'darestyngedigaeth a' diwyll.' W. S. εμβατευων, myned yn chwyddedig i ymyraeth â phethau; siarad gyda sicrwydd am bethau nas gwelsant, ac nas dadguddiwyd; coeg a hunandyb; ymyrgarwch, coeg-ffoledd, meddwl cnawdol, chwyddedig.

RHWBIO, (rhwb) rhathu, rhuglo, crafu.—'Gwedi eu rhwbio â'u dwylaw.' Luc 6. 1. 'A' ei rhuglo a' ei dwylo.' W. S.

RHWD, RHYDU, (rhw-wd) rhydni; casglu rhwd: —rhwd llif, y gwaelodion a âd llif ar ei ol;—rhwd tomydd, dyhysbyddiad tomydd. Gwlybwr yw y prif achos o rwd ar haiarn. Y mae pob mettel yn ddarostyngedig i rwd, hyd yn nod aur ei hun, os bydd yn agored i angerdd heli y môr; ond nid oes dim ond heli y môr a ryda yr aur. Nid llwgr y fettel ydyw y rhwd, ond y fettel ei hun mewn dull arall; gellir troi rhwd efydd yn efydd drachefn. Matthew 6. 19. Iago 5. 3.

* Ysgrifenwyr diweddar ar yr epistol at y Rhufeiniaid ydynt Moses Stuart, Tholuck, Olshausen, Hodge, Chalmers, Haldane, a Walford.—C.

Digitized by Google

RHWNG, (rhy-wng) arddodiad; rhyngof, rhyngwyf, rhyngthwyf; rhyngot, rhyngthot; rhyngo, rhyngtho; rhyngi, rhyngthi; rhyngom, rhyngthom; rhyngoch, rhyngthoch; rhyngynt, rhyngthynt.—'Un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion.' 1 Tim. 2. 5. Mae rhwng y ddwy blaid i'w cymmodi; y mae mor nesed i'r naill ac i'r llall, a gogoniant a lles y llall yn gydradd ar ei feddwl.

RHWYD—AU—O, (rhwy) balleg. Rhwyd gibliad; rhwyd dŷn; rhwyd eogiaid; rhwyd balleg, ballegrwyd; rhwyd ddwyffon; rhwyd aden; rhwyd adara. —Yn gyffelybiaethol, arwydda rhwyd, 1. Cyfrwysdra drwg. Ps. 9. 15. Diar. 12. 12.——2. Cyfyngderau dyrys. Job 18. 8.——3. Trallodion i brofi pobl Dduw. Job 19. 6.——4. Yr efengyl, yr hon fel rhwyd a deflir i fôr, i ddal ac i dynu pechaduriaid at Grist. Dygir llawer ato yn ymddangosiadol heb fod yn wirioneddol; ond didolir y da oddiwrth y drwg yn nydd y farn. Mat. 13. 47—50.

'Minnau a daenaf fy rhwyd arnat â chynnulleidfa pobloedd lawer; a hwy a'th godant yn fy rhwyd i.' Ezec. 32. 3. Yr oedd ganddynt yn yr Aipht lawer o ffyrdd o gymeryd neu ddal y crocodile. Y dull o ddal y crocodile yn Siam, yw taflu tair neu bedair o rwydau ar draws yr afon, mewn pellder addas oddiwrth eu gilydd, fel, os tyr trwy y gyntaf, y geill gael ei ddal yn un o'r lleill. Brooks, *Nat. Hist.*, *vol.* i. At ryw ddull fel hyn o ddal y crocodile y cyfeiria geiriau y prophwyd. Edr. Balleg-rwyd, Pysgodwyr.

RHWYDEN, (rhwyd) rhwyd fechan, y weren fol. —'A'r rhwyden hefyd a fydd oddiar yr afu.' Lef. 3. 4, 10, 15. Exod. 29. 13, 22. '*And the caul above the liver.*' *Saes.* יתרת על הכבד *y gormodedd*, neu *y cnwc sydd ar yr afu.* Mae y beirniaid dysgedig, Bate a Parkhurst, yn meddwl mai chwysigen y bustl a ddarlunir yn y geiriau. Oddiwrth ragoroldeb y bustl, ei ddefnyddioldeb i iechyd pob creadur, a'i effeithiau ar y nwydau digofus a chwantus, canfyddir y priodoldeb o fod Duw yn gorchymyn i chwysigen y bustl gael ei chymeryd ymaith, a'i llosgi ar ei allor. Priodol ystyr y gair *Heb.* יתר a gyfieithir *rhwyden*, yw rhagori, rhagorol, rhagoriaeth, buddioldeb, gweddill dros ben, peth yn ngweddill, &c., felly y mae; gormodfedd, neu y peth chwanegol at yr afu. Yn ol ein cyfieithiad ni, arwydda y llieingig, neu y croen bras sydd oddiar yr afu, ac yn ei dal hi i fynu.

RHWYDWAITH, (rhwyd-gwaith) rhwyd-wēad. Gwaith plethedig, tyllog. Felly yr oedd gwaith yr alch bres allor y poeth-offrwm. Exod. 27. 4. a 38. 4. Yr oedd rhwydwaith yn addurn ar golofnau y deml. 1 Bren. 7. 18. Jer. 52. 22, 23.—'Gwaradwyddir hwynt hefyd y rhai a weithiant feinllin, a'r rhai a weuant rwydwaith.' Esa. 19. 9. 'Weuant rwydau.' Dr M. Rhyw rwydau, rhwydwaith, neu elliad i ddal pysgod, tebygol, a feddylir wrth y geiriau. Yr oedd llawer o'r cyfryw weithiau yn yr Aipht, gwlad nodedig am lliaws o bysgod.——'Y rhwydwaith hefyd.' Esa. 3. 18. *Heb.* שביסים rhyw addurniadau hardd o rwydwaith, brodiaeth, neu gemwaith, a wisgai y merched dwyreiniol gynt. Nid yw y gair yn y Bibl, ond y fan hon.

RHWYDD—HAU, (rhwy) rhydd, dirwystr; hawdd, llwyddiannus, cleu-fryd.—'Rhwydd hynt.' Rhuf. 1. 10. 'Duw yn rhwydd,' sef Duw a'th lwyddo. 2 Ioan 10.—'Dyn-pych-well.' W. S.— 'Na chyferchwch ef.' Dr M. Nis gellir cyfarch cyfeiliornwr heb gyfranogi o'i bechod, trwy ddymuno llwyddiant y cyfeiliornad. *Χαιρειν, byddwch wych*, oedd y gair a arferai y Groegiaid yn eu cyfarchiad cyffredin i'w gilydd; wrth wahardd hyn, y mae yn gwahardd rhoddi i gyfeiliornwyr y moesgarwch a'r mwyneidd-dra cyffredin rhwng dynion a'u gilydd.

RHWYF—AU—O—WR, (rhwy) uchel gais, uchel drem; tywysog, llywodraethwr; rhwyf-lath, sef peirlant i yru llong neu gwch rhagddo; rhwyf-long, sef llong a yrir â rhwyf: llong dwy-rwyf, dwy-rwyfan, sef llong â dwy rwyf. Edr. Afon.—'Y rhai a'th rwyfasant a'th ddygasant i ddyfroedd lawer;' sef dy lywodraethwyr, trwy eu balchder a'u rhyfydrwydd, a'th ddygasant di i gyfyngderau mawrion, ac agos iawn i ddinystr. Ezec. 27. 26.

RHWYG—O—IAD, (rhwy) *Gr.* ρακος *(racos)* ρηγη *(rege)*; toriad, hollt, parthiad, ysgariad, gwahaniad.—'Y mae yn fy rhwygo â rhwygiad ar rwygiad.' Job 16. 14. Yr oedd Job fel mur, neu dŵr cadarn, fel yr arwydda y gyffelybiaeth; etto, yr oedd Duw gwedi gwneuthur rhwygiadau arno; sef yn ei feddiannau, ei nerth, ei iechyd, ei heddwch, ei gysur, &c. Yr oedd gwedi ei gystuddio lawer ffordd, drachefn a thrachefn. Nid yw un rheswm am fod wedi ei gystuddio, na chystuddia Duw ef etto; cystuddia Duw ei bobl nes caffo ffydd ac amynedd eu perffaith waith. Edr. Gwisg, Dillad.

RHWYM—O—EDIG—AETH—YN, (rhwy) *Heb.* רתם (*ratam*): cwlwm, achrwym, tid; cylymu, caethiwo: rhwymedig, caeth; dan rwymau, sef dan orfod; rhwymedigaeth, sef cyflwr rhwymedig, attaliad, cyfyngiad, dylid.—1. Cylymu yn nghyd. Genesis 37. 7. ——2. Gosod mewn cadwynau. Act. 12. 6.——3. Bod yn gaeth dan adduned. Numeri 30. 2, 9, 13.—— 4. Attal. Job 28. 11.——5. Cystuddiol, gofidus. Luc 13. 16.——6. Gosod beichiau trymion yn ddidrugaredd ar un. Mat. 23. 4.——7. Rhoddi, neu gadarnhau dysgyblaeth eglwysig, trwy ba un y mae dynion yn cael eu tòri allan o gymundeb âg eglwys weledig Crist. Mat. 16. 19. a 18. 18. Wrth ddysgyblu, nid oes dim yn rhwymo yn gyfreithlon, ac yn gadarn, ond gair Duw, wedi ei egluro a'i gymhwyso at gydwybod yr euog: pa beth bynag a rwymir â'r rhwymyn hwnw ar y ddaear, y mae yn rhwym hefyd yn y nef; canys yr un ydyw Duw a'i air yn mhob oes o'r byd.——8. Cysuro, amddiffyn, gwaredu, cryfhau, a meddyginiaethu. Job 5. 18. Psalm 147. 3. Esa. 30. 36. Ezec. 34. 16. Hos. 7. 15.——9. Cadw yn ofalus. Esa. 8. 16.——10. Parchu, ystyried, a defnyddio. Diar. 3. 3. a 6. 21. a 7. 3. Deut. 6. 8. ——11. Gorchfygu, attal, a chaethiwo. Mat. 12. 29. Dat. 20. 2.

'Y gwynt a'i rhwymodd hi yn ei hadenydd.' Hos. 4. 19. Cyffelybiaeth ragorol, medd Horsley, i osod allan gyflwr pobl gwedi eu dwyn o'u gwlad briodor, a'u halltudio i bedwar pwnc y byd; yn byw yn ansefydlog wrth ewyllys eu gelynion, fel peth rhwymedig wrth adenydd y gwynt, dan orfod myned gyd â'r gwynt pa le bynag yr elo, heb fynyd o seibiant na llonyddwch. Felly yr oedd Israel pan gaethiwyd hwynt gan yr Assyriaid. Jer. 4. 11, 12. a 51. 1. Zech. 5. 9, 10, 11.

'Pan ymrwymont dan eu dwy gwys.' Hos. 10. 10. Neu, fel y cyfieitha eraill, 'Pan rwymwyf hwynt am eu dau drosedd:' neu, yn ol eraill, 'Yn eu dwy drigfa.' Tebygol fod y geiriau yn gosod allan gyflwr caled, blin, Israel, fel anner yn tynu yn ol ac yn mlaen rhwng dwy gwys; a hyny am eu dau bechod, sef eu heilun-addoliaeth yn Dan a Bethel. Hwyrach mae geiriau diarebol ydynt. Gwel sylw y dysgedig Horsley ar yr adnod.

'Rhwymwyd anwiredd Ephraim; cuddiwyd ei bechod ef.' Hos. 13. 12. Sef, y mae heb ei faddeu, mewn coffadwriaeth gan Dduw, ac yn barod i'w ddwyn yn ei erbyn.

'Enaid fy arglwydd a fydd gwedi ei rwymo yn rhwymyn y bywyd gyd â'th Arglwydd.' 1 Samuel 25. 29. Sef, gwedi ei ddiogelu yn nghariad a gofal Duw am dano. Y mae ei bobl megys mewn rhwymyn

Digitized by Google

gan Ddaw i'w cadw i fywyd tragywyddol, ac nis dichon neb eu marwolaethu, na'u niweidio.

RHWYMEDI, (rhwym) rhwymedigaeth, attalfa; meddyginiaeth, iachâd.'—'Rhwymedi, yw yn erbyn godineb.' 1 Cor. vii. Cynnwysiad y bennod.

RHWYSG—AU, (rhy-wysg) llywodraeth, awdurdod; rhodres, rhwyf, camrhwysg.—'A gaffo ei rwysg ei hun.' Diar. 29. 15. משלח *a ollyngwyd*; fel anifel gwyllt i fyned lle y myno, heb lywodraeth nac attalfa. Esa. 5. 14. Actau 25. 23.

RHWYSTR—O, (rhy-gwyst) lluddias, attal, goludd; llestair, lluddio, goluddio: un peth a fyddo ar y ffordd yn peri tramgwydd, neu attalfa i un:—'Na ddod dramgwydd o flaen y dall;' sef dim ar ei ffordd a baro iddo syrthio. Lef. 19. 14.

Y mae yn arwyddo yn y Testament Newydd, un peth a baro, neu a fyddo yn tueddu i beri i un syrthio, neu i wyro, neu i fod yn esgeulus yn ffyrdd dyledswyddau; neu a fyddo yn attalfa i un ddyfod yn ddysgybl i Grist; neu yn ei ddigaloni yn ei broffes; neu i beri iddo wrthgilio oddi wrthi. Matthew 18. 7. Luc 17. 1. Rhuf. 9. 33. a 14. 13. 1 Cor. 1. 23. Gal. 5. 11. Nid yn Nghrist y mae yr achos fod un yn rhwystro *ynddo*, ond yn ei galon lygredig, anghrediniol, ei hun. 1 Ioan 2. 10. Nid Crist sydd yn ei wrthod ef, ond efe sydd yn gwrthod Crist. Y mae Crist oll yn hawddgar, ac yn hollol addas iddo, ond nid ydyw ei feddwl cnawdol ef yn ei ganfod felly. Yr oedd craig yr oesoedd yn graig rhwystr i'r Iuddewon; ac yr ydoedd y maen a sefydlodd Duw yn sylfaen, yn yn faen tramgwydd iddynt. Mat. 11. 6. a 13. 21, 57. Esa. 8. 14. Rhuf. 9. 33. 1 Petr 2. 8. Yr oedd y maen o osodiad Duw, ac yn gwbl addas; ond ni fynent hwy mo hono. Pe buasai yn amgen na'r hyn ydyw, buasai yn gwbl anaddas; ond maen tramgwydd a fydd i bawb tra byddont heb ganfod ei addasrwydd.

RHY, tros, tu hwnt, gormod; dros ben; yn dda; dirfawr. Arferir ef yn aml fel rhagddawd, yn chwanegu at bwys ac ystyr y gair.

Nid da *rhy* o ddim. *Diar.*

'Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi: uchel yw, ni fedraf oddi wrthi.' Psalm 139. 6. Rhy fawr i mi ei chynnwys; rhy ryfedd i fynegi yr holl ryfeddodau sydd ynddi. Y mae y rhai sydd yn gwir adnabod Duw, yn cydnabod mai ychydig a wyddant am dano, ac nas medrant ei gynnwys.

RHYBYDD—IO, (pydd) gwys, dyfyn, cynghor; ceryddu, cynghori, annog.

Tri pheth a ddyly pawb ei ddiolch: gwahawdd, *rhybydd*, ac anrheg. *Triodd.*

Rhybyddio, a arwydda, rhag-hysbysu un am berygl, neu annog i ochelyd pechod, neu gyflawni rhyw ddyledswydd, neu i barotoi diogelwch rhag perygl. Actau 10. 22. a 20. 31. Rhuf. 15. 14. Col. 3. 16. Heb. 8. 5. a 11. 6.

'Rhybyddiwch y rhai afreolus.' 1 Thes. 5. 14. —'Rhybyddiwch y rei anllywodraethus.' W. S. a Dr M. *Ατακτους* sydd air milwraidd, ac a arwydda y rhai a fyddo yn tôri y rhenciau, neu yn gadael eu sefyllfaoedd, fel nas dichon iddynt, o herwydd hyny, wneuthur eu dyledswydd fel milwyr, yn enwedig mewn ymladdfa. Arferir y gair yn addas i ddynodi y rhai sydd yn esgeuluso y gwaith perthynol i'w swyddau a'u sefyllfaoedd. Y mae yr adnod hon, medd Mr Blackwall, mor hynod am burdeb athrawiaeth, ac ëangder caredigrwydd, a thiriondeb, ag ydyw am ddillni a grym ymadroddion, a chywreinrwydd cyfansoddiad. Gwel *Sacr. Class., vol.* i. Yn 2 Thes. 3. 6, 7, 11. mae yr apostol yn gorchymyn tynu oddiwrth bob brawd, yr hwn, wedi ei rybyddio, a barhäo i rodio yn afreolus. Yn mhlith yr afreolus, y mae yn beio ar eu segurdod; 'heb weithio dim, ond bod yn rhodresgar.' Ymddygiad sydd groes i reolau ysgrythyrol, yn ffiaidd gan Dduw, ac yn dra niweidiol i ni ein hunain, ac eraill hefyd. Oddiwrth adn. 14. gellir barnu fod y cyfryw yn agored, nid yn unig i rybydd yr eglwys, ond, yn parhau heb ddiwygio, wedi y rhybydd, i ddysgyblaeth eglwysig.

RHYCH—AU, (rhy-ych) rhigol, ffosle, cladd, clawdd. Job 39. 10. Ps. 65. 10. Hos. 10. 4.

RHYCHWANT—U, (rhy-chwant) tra estyniad, mesur y llaw yn estyngedig, sef yn nghylch naw modfedd. I ddangos mawredd Duw, dywedir ei fod yn 'rhychwantu y nefoedd.' Esa. 40. 12. a 48. 13.——'Plant rhychwant o hŷd.' Galar. 2. 20.—'a drinir â dwylaw,' ymyl y ddal.—עללי טפחים *plant y cledrau*, Blayney, sef y plant a ddygid ac a chwareuant ar gledrau y dwylaw.*

RHYD—AU, (rhy-yd) rhydle, bais, lle bâs, lle y galler myned trwy afon ar draed. Gen. 32. 22. Barn. 3. 28. Esa. 10. 29. a 16. 2. Jer. 51. 32.

Moled pawb y *rhyd* mal y caffo. *Diar.*

RHYDD—HAD—HAU—ID, (rhy-ydd) llac, anattaliedig; rhwydd, hael; breiniolaeth.—1. Awdurdod i wneuthur neu beidio gwneuthur unrhyw beth. 1 Cor. 7. 39. a 8. 9. a 10. 29.——2. Gwaredigaeth o gyflwr caeth, neu garchar. Lef. 25. 10. Hebreaid 13. 23.——3. Gwaredigaeth oddiwrth gaethiwed pechod, llywodraeth ormesol Satan, melldith y ddeddf, a defodau caeth goruchwyliaeth Moses. Rhufeiniaid 6. 18. a 8. 2. Gal. 5. 1. Lle y mae Ysbryd yr Arglwydd, yno y mae rhyddid oddiwrth y pethau hyn, yn nghyd â dyfodfa rwydd, hyderus, at Dduw, fel Tad. 2 Cor. 3. 17. Y mae cyflwr dyn, fel y mae yn bechadur syrthiedig, yn cael ei olygu yn yr ysgrythyrau yn gaeth; y mae yn gaeth dan lywodraeth pechod, yn ufuddhau iddo yn ei chwantau: dan awdurdod ac yn meddiant Satan: dan lywodraeth deddf Duw fel priod, yn gorchymyn ac yn gwahardd dan boen marwolaeth dragywyddol, heb roddi grym i ufuddhau, na diangfa oddiwrth y gosp. O'r caethiwed ofnadwy hwn y mae Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu yn rhyddhau y gwaredigion. Tra byddo y ddeddf yn gwahardd, heb roddi grym yn erbyn llygredd y galon, ni wna pechod ond adfywio, ymgynhyrfu, cynddeiriogi, a thrwy hyny amlhau: ond mae Iesu Grist yn rhyddhawr cyflawn oddiwrth y caethiwed dirfawr hwn, trwy rinwedd yr iawn a wnaeth dros bechod, a'nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân ar y galon. Gwel Vitringa, *Obs. Sacr., lib.* vi, *cap.* 17, 18, 19.——4. Cyflwr o ogoniant yn y nefoedd, lle bydd gwaredigaeth gyflawn oddiwrth bob caethiwed a thrueni. Rhuf. 8. 21. Gelwir hwn, 'Rhyddid gogoniant plant Duw:' y mae rhyddid grasol, efengylaidd, a sanctaidd, i'w fwynhau yma yn y byd hwn, gan blant Duw; ac y mae rhyddid gogoniant, neu gogoneddus, iddynt yn y byd sydd i ddyfod.——Camddefnyddio rhyddid Cristionogol er tramgwydd i frawd gwan, neu yn gochl dros benrhyddid cnawdol, sydd bechod dirfawr. Rhuf. 14. 1. 1 Petr 2. 16. Elr. Cochl.

'Yn rhydd yn mysg y meirw, fel rhai wedi eu lladd, yn gorwedd mewn bedd.' Ps. 88. 5. Eglur a dilys ydyw, mai Crist sydd yn llefaru y geiriau wrth ei Dad ar y groes; etto *heb* farw, ond *yn* marw. Nid rhydd oddiwrth ofalon a gofidiau y bywyd hwn trwy farwolaeth, y mae y geiriau yn ei feddwl; canys ni buasai hyn yn ofid, ond yn hytrach yn gysur.†

* 'Rhai bychain mewn addysg.' Calvin.—'Rhai dan addysg.' Pagninus.—'Mabandod.' Munster.—'Plant rhychwant o hŷd.' Junius a Tremelius.

† Anfynych y mae Seneca yn arfer unrhyw ymresymiadau

Digitized by Google

Ond geiriau yn cynnwys achwyniadau trymion ydynt. Mae y gair *Heb.* חפשי a gyfieithir *rhydd*, yn arwyddo, y cyfryw gyflwr ag sydd druenusaf; yn mha un y mae dyn wedi ei adael, ei ffieiddio, a'i wrthod gan bawb. Y cyfryw oedd y gwahanglwyfus. Gelwir y tỳ y bu y brenin Azariah, neu Uzzīah ynddo, gwedi i'r Arglwydd ei daro â gwahan-glwyf, בית חפשית *tŷ rhydd*, neu *neillduad*; yr un gair a arferir yma. 2 Bren. 15. 5. 2 Cronicl 26. 21. Yr ydoedd yn ofynol wrth gyfraith Moses i'r gwahan-glwyfus drigo ei *hunan*, y tu allan i'r gwersyll, fel un rhy ffiaidd i neb nesâu ato. Lef. 13. 46. Mae yn eglur oddiwrth Esa. 53. 4. y cymharir Crist yn hongian ar y groes, i un â'r pla gwahanol arno, wedi ei daro gan Dduw. Nid yn unig yr oedd y croeshoeliedig yn cael edrych arno fel dryg-ddyn, wedi ei daro gan Dduw mewn modd anarferol, ond hefyd yn debyg i'r gwahan-glwyfus wedi ei adael, ei wrthod, a'i ffieiddio gan bawb. Yr oedd Crist ar y groes (εκδοτον) wedi ei *roddi* i ddwylaw ei elynion; yn agored i bob dirmyg ac anmharch a allent ddangos iddo. Yr oedd fel hyn yn mhlith y meirw; yr oedd y croeshoeliedig yn cael ei gyfrif fel yn farw, ac yn mhlith y meirw, er ei fod etto heb farw; ac yn aml yn mhlith y Rhufeiniaid, y groes oedd ei fedd, lle y byddai yn cael ei adael i fwystfilod ac i adar ei ddyfetha, er siampl a rhybydd i eraill. Tebyg i hyn oedd Crist ar y groes; 'fel rhai wedi eu lladd, yn gorwedd mewn bedd.' Gwel Coccejus *in loc*, a Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* ii, *cap.* 9, *sec.* 19, 20, 21.

'Eithr yr hwn a edrych ar berffaith gyfraith rhyddid.' Iago 1. 25. Gelwir yr efengyl yma yn gyfraith berffaith, am ei bod yn cynnwys cyflawn ddadguddiad o arfaeth a threfn Duw, mewn perthynas i iechydwriaeth pechaduriaid yn Nghrist—yn rhoddi cyflawn ddadguddiad o'r priodoliaethau dwyfol—ac y mae hefyd yn perffeithio yr addolydd.——Cyfraith rhyddid ydyw, am yn 1. Ei bod yn rhyddhau dynion oddiwrth gaethiwed eu pechodau.——2. Oddiwrth ddefodau y sefydliad Iuddewig, y rhai a elwir yn iau caethiwed anhawdd ei dwyn.——3. Yn rhyddhau pob gwir gredadyn oddiwrth felldith y ddeddf a digofaint Duw.——4. Am ei bod yn rhoddi yr un rhyddid i bawb o ran y mwynhad o freintiau efengylaidd—o ras a gogoniant.

RHYFEDD—OD—OL—U, (rhy-medd) uthr, eres, engir, engiriol, aruthrol; synu. Peth rhyfeddol, yw peth anarferol; peth diamgyffred o herwydd ei fawredd a'i ogoniant, yn peri syndod aruthrol. Y mae rhyfeddodau o ddaioni yn cael eu dangos gan Dduw yn ei waredigaethau a'i ymgeledd i feibion dynion. Psalm 107. 8.

Yr oedd pläau a gwyrthiau yr Aipht yn bethau rhyfedd, anarferol, croes i ddeddf natur, ac yn peri syndod i bawb. Psalm 105. 27. Jer. 32. 20, 21.

Y mae plant Duw yn rhyfeddodau yn y byd; mae tiriondeb Duw a'i ofal manwl am danynt yn rhyfeddol ac yn peri syndod; felly y mae eu hysbrydolrwydd a'u sancteiddrwydd hwythau yn peri i fyd annuwiol edrych arnynt fel rhai neillduedig, heb ganfod rheswm am eu hymdddygiad. Esa. 8. 18.

Yr oedd Dafydd, neu yn hytrach Crist, 'yn rhyfeddod i lawer,' (Ps. 71. 7.) sef i bawb sydd yn ei wir adnabod.—'Gelwir ei enw ef Rhyfeddol.' Esa. 9. 6. Barn. 13. 18. Gen. 32. 29. Yr *enw* sydd yn arwyddo y *person*; person rhyfeddol ydyw. Hwyrach fod y gair *rhyfeddol* yn briodol i un enw yn fwy neillduol na'i gilydd sydd ar y Messīah, sef yr enw Mab Duw. Y mae yr hanfod dwyfol yn rhyfeddol, yn mhell tu hwnt i amgyffred neb creaduriaid; y mae yr hanfod yn rhyfeddol, ond rhyfeddach etto, fod Mab Duw, yr un Person yn Dduw, gyda Duw, o Dduw, ac yn Fab Duw. 'Gelwir ei enw ef Gair Duw.' Dat. 19. 13. Doethineb neu Gair Duw, Mab Duw; Unig-anedig; Cyntaf-anedig; gwir lun y Tad, a dysgleirdeb ei ogoniant. Dyma yr enw rhyfeddol. 'I ba beth y gofyni,' medd yr angel wrth Jacob, 'hyn am fy enw?' Fel pe dywedasai, Mae fy enw yn guddiedig, yn ddirgelwch, yn rhyfedd, nas dichon neb ei amgyffred byth. Gen. 32. 29. 'Beth yw ei enw ef,' medd Agur, 'a pheth yw enw ei fab, os gwyddost?' Diar. 30. 4. Gwybod hyn yw y doethineb penaf, gan fod enw Mab Duw yn rhyfeddol. I chwanegu at y rhyfeddod etto, 'Anfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, ac wedi ei wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf.' Gal. 4. 4. Rhuf. 8. 3. Rhyfeddol yw yn ei Berson, ei swydd, ei waith, ei ddarostyngiad, a'i esgyniad; ïe, yn y cwbl; nid oes neb yn ei adnabod, heb ei garu a'i ryfeddu uwchlaw pob peth. Ps. 118. 23. a 17. 7. Jer. 31. 22. Esa. 28. 29. Mat. 1. 23. 1 Tim. 3. 16. Dat. 15. 3.

Bydd Crist yn nydd y farn 'yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu.' 2 Thes. 1. 10. Rhyfedd eu bod gwedi credu—rhyfedd hefyd bod gwrthddrych addas i bechadur gredu ynddo—rhyfeddol fydd y canlyniadau o gredu yn y gwrthddrych—rhyfeddol fydd yr olwg arnynt y dydd hwnw—a rhyfeddol eu dedwyddwch byth; ond Crist fydd yn rhyfeddol, ac yn cael ei ryfeddu yn y cwbl. O hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae y cwbl; ac iddo ef y bydd y gogoniant byth.

Pethau rhyfedd i gyd sydd yn ngair yr Arglwydd; ond ni wel neb mo honynt yn rhyfedd heb i'r Arglwydd ddadguddio ei lygaid trwy ei Ysbryd; yna yr ymddangosant yn eu mawredd gogoneddus, yn dra gwerthfawr, yn anchwiliadwy, ac yn anamgyffredadwy. Ps. 119. 18, 96. Hos. 8. 12. 2 Cor. 3. 13.

RHYFEL—A—GAR—OEDD—WR, (bel) *Llad.* BELLUM: sawd, milwriaeth: brwydr, câd, trin, cadorfod, ymladd, ymosod, ymgyrch, ornest, cammawn.

Golychwyd (crefydd) diawl, annog *rhyfel.* *Diar.*

Rhyfel ydyw ymrafael, neu ymryson rhwng tywysogion, neu deyrnasoedd, â'u gilydd; yr hwn, heb ei derfynu trwy y ffordd gyffredin o uniondeb a chyfiawnder, a derfynir trwy y cleddyf. Y mae yn eglur, pe byddai pob plaid am gyfiawnder, a dim ond hyny, ni byddai raid, na lle, i ryfel byth. 'O ba le mae rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chwi?' medd yr apostol Iago; nid oddiwrth gariad at uniondeb, a chwennychu gwneuthur cyfiawnder; ond 'oddiwrth eich melus-chwantau, y rhai sydd yn rhyfela yn eich aelodau; sef y chwantau pechadurus yn y meddwl. Iago 4. 1, 2. Mae y geiriau yn adn. 2, 3. yn dangos agwedd ryfedd meddwl dyn dan lywodraeth ei bechod. 'Chwennychu yr ydych, ac nid ydych yn cael; cenfigenu yr ydych ac eiddigeddu (yn hytrach, *lladd*) ac nid ydych yn gallu cyrhaeddyd: ymladd a rhyfela yr ydych, ond nid ydych yn cael (trwy hyny) am nad ydych yn gofyn. Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar eich melus-chwantau.' Dyma achos dechreuad, medd Bengelius, y rhan fwyaf o'r rhyfeloedd rhwng breninoedd a theyrnasoedd â'u gilydd, sef eu huchelfryd, eu chwant i estyn terfynau eu tiriogaethau, a chynnyddu eu cyfoeth a'u rhwysg; eu hysbryd llidiog, dialgar; a'r oll yn tarddu oddiwrth y chwant tufewnol yn llywodraethu y meddwl. O herwydd y llwgr hwn, y creulondeb a'r anghyfiawnder sydd mewn llywodraethwyr yn gyffredin hyd yn hyn, y mae rhyfeloedd yn gyfreithlawn ac yn angenrheidiol er amddiffyniad a diogelwch; yn mhob golygiad arall, ymddengys rhyfel i mi yn gwbl anghyfreithlawn yn mhawb, ac yn erbyn deddf natur, uniondeb, a chariad. Gwneuthur i ddynion fel yr ewyllysiem iddynt hwy wneuthur i ninnau, a derfynai holl ryfeloedd y

eraill yn ei lyfrau i gysuro ei ddarllenwyr, ond yr un hwn am *ryddid y meirw*, fel y gallai ddangos i ni eu dedwyddwch hwynt. Coccejus.

Digitized by Google

byd yn fuan: ond tra byddo chwantau yn rhyfela, ac nid cyfiawnder yn llywodraethu, parhau a wnant, ac nid yn hŵy.

Yr Hebreaid pan aent i ryfel, a nesâu i'r frwydr, yr oedd yr offeiriaid i lefaru wrth y bobl, a dywedyd, 'Clyw, Israel: yr ydych chwi yn nesâu heddyw i'r frwydr yn erbyn eich gelynion: na feddalhaed eich calon, nac ofnwch, na synwch, ac na ddychrynwch rhagddynt; canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn myned gyda chwi, i ryfela â'ch gelynion drosoch chwi, ac i'ch hachub chwi.' Pan nesaent at ddinas, yr oeddynt i gyhoeddi heddwch yn gyntaf; os heddwch a etyb, ac agoryd y pyrth, yr oedd yr holl bobl i gael eu harbed, a bod dan deyrnged. Ond os na heddychai y ddinas, yr oedd iddynt warchae arni, ei chymeryd, a rhoddi yr holl wrrywiaid i farwolaeth; ond yr oedd y benywiaid, y plant, a'r anifeiliaid, i fod yn yspail iddynt. Hyn oedd y gyfraith mewn perthynas i genedloedd pell; ond am y Canaaneaid, nid oedd iddynt gadw un enaid yn fyw. Pan warchäent ar ddinas lawer o ddyddiau, nid oedd iddynt ddyfetha y coed ffrwythlawn i'w rhoddi yn y gwarchglawdd, ond yn unig y prenau diffrwyth yr oeddynt i'w dyfetha a'u tòri. Deut. 20. 2—20. Yr oedd holl ryfeloedd Moses a Josuah, wrth orchymyn a than gyfarwyddyd yr Arglwydd, yr hwn sydd â hawl ganddo i ddial y ffordd y myno ar bechaduriaid ffiaidd ac eilun-addolgar; felly hefyd yr oedd rhyfeloedd Dafydd i oresgyn yr holl daleithiau a roddodd Duw yn ei addewid i Abraham a'i hâd. Heblaw hyny, beth bynag oedd yn cyfreithloni rhyfeloedd rhwng breninoedd â'u gilydd, oedd yn cyfreithloni rhyfeloedd yr Hebreaid yn yr un amgylchiadau.——I ddangos ei alluogrwydd, ac i ddarostwng balchder dyn, rhoddodd yr Arglwydd, yn aml, y fuddugoliaeth i ychydig o nifer ar fyddinoedd lliosog a chryfion, megys i Gedeon, &c.

Yn Israel, yr oedd yr holl wrrywiaid yn rhyfelwyr; ond cyn amser Dafydd, nid oedd ganddynt fyddinoedd rheolaidd a sefydlog. Y swyddwyr rhyfel oeddynt,—1. Pen y llu, neu y gwr oedd ar y filwriaeth; megys Abner i Saul; Joab i Dafydd; a Benaiah i Solomon. ——2. Tywysogion y llwythau.——3. Tywysogion ar filoedd, ar gannoedd, ar ddeg a deugeiniau, ac ar ddegau.

Un o farnedigaethau trymion Duw ar drigolion y ddaear, ydyw rhyfel. Efe sydd yn gorchymyn i'r cleddyf ladd a difrodi. Ond y mae amser hyfryd wedi prophwydo am dano, pan y taena gwybodaeth o'r Arglwydd dros wyneb y ddaear—y darostyngir annuwioldeb yn mhlith dynion—y dilëir holl gau-grefyddau y byd; yna y pâr yr Arglwydd i ryfeloedd beidio, ac ni ddysg plant dynion ryfel mwyach. Psalm 46. 9. Mic. 4. 3. Edr. Mil.

Gelwir yr Arglwydd yn Rhyfelwr, am ei fod yn gadarn o blaid ei bobl, ac yn erbyn eu gelynion; ac efe sydd yn dysgu ei bobl i ryfela, ac yn eu llwyddo yn y frwydr. Exod. 15. 3. Psalm 144. 1. 2 Cron. 20. 15. 1 Sam. 17. 47.——Yr Arglwydd Iesu ydyw cadben, a phen y filwriaeth yn myddinoedd Duw; cyhoeddwyd rhyfel yn Eden rhyngddo ef a'r sarph, a rhwng y ddau hâd perthynol i bob un. Bu yn ei berson ei hun yn y frwydr ryfeddaf, yn erbyn holl alluoedd y tywyllwch; ond daeth o'r maes, er ei glwyfo, etto yn fuddugoliaethus, a'i holl elynion yn archolledig i farwolaeth; caethiwodd gaethiwed; yspeiliodd dywysogaethau ac awdurdodau, efe a'u harddangosodd ar y groes, gan ymorfoleddu arnynt arni hi.——Y mae ei eglwys yn y frwydr etto o oes i oes; ond pyrth uffern nis gorchfygant hi; ond y saint a deyrnasant ar y ddaear. Psalm 24. 8. Mat. 16. 18. Dat. 5. 10. a 11. 17. a 19. 6. a 20. 6.

Y mae 'chwantau cnawdol yn rhyfela yn erbyn yr enaid.' 1 Petr 2. 11. Gelynion ydynt i'r enaid; sef i'w gysur, ei ddedwyddwch, a'i lwyddiant yn nghymdeithas a gwaith Duw. Y mae y chwantau cnawdol, sef llygredig, yn elyniaethol, yn weithgar, yn gryfion, ac yn ddiflino; yn gwrthwynebu yr enaid yn mhob mwynhad, ac yn mhob gwaith sanctaidd; pethau sydd yn perthyn i deyrnas y diafol ydynt, ac yn gwbl groes i bob peth sydd yn perthyn i deyrnas Dduw a'i waith. 'Ymgedwch,' medd yr apostol, sef oddiwrth y chwantau, o ran eu llochi yn y meddwl, yna bydd yn hawdd ymgadw oddiwrth y cyflawniad o honynt. Lladd a dystrywio ei enaid ei hun y mae y neb a'u cyflawno. Gan na ddyfethwyd hwynt, rhyfel sydd raid ei ddwyn yn mlaen yn eu herbyn yn barhaus, neu cyll yr enaid y dydd. I'r dyben i allu gwrthsefyll, rhaid gwisgo holl arfogaeth Duw, marweiddio gweithredoedd y corph trwy yr Ysbryd, a rhodio gyda Duw yn ei ofn, ei gariad, a phuro y galon trwy ffydd yn Nghrist.

RHYFERTHWY—AW, (rhy-merthwy) dylif, llifeiriant, tymhestl.—Mae llwybr Iehofah i gyflawni ei amcanion yn guddiedig i ni, ond yn uniawn, ac yn ofnadwy, yn y corwynt, ac yn y rhyferthwy, neu y dymhestl wgus, ddychrynllyd, sydd yn bwgwth dystryw ar bob llaw. Nah. 1. 3.——'Rhyferthwyasant i'm gwasgaru,' &c. Hab. 3. 14, 15. Gelynion Israel yn yr Aipht a ryferthwyasant i'w gwasgaru; yr oeddynt yn ymlidio ac yn ymgynddeiriogi yn eu herbyn, fel tymhestl, neu gorwynt tymhestlog; ond yr Arglwydd, eu gwaredwr, a 'rodiodd â'i feirch trwy y môr, a thrwy bentwr o ddyfroedd mawrion.' Cynddeiriogrwydd y gelyn, a mawredd y gwaredwr dwyfol, a ymddengys yn rhyfedd yn y geiriau.——'A bu yn y môr ryferthwy mawr.' Jonah 1. 4.—'Rhyferthwynt y deau.' Dr M. Zech. 9. 14. Jer. 23. 19.

RHYFYG—U—US, (rhyf) balchder, uchder, traha, cymyredd, gorhydri, trahausdra; anturio, beiddio, osio, llyfasu.—'Y dyn a wnel bechod mewn rhyfyg.' Numeri 15. 30. *Heb.* ביד רמה *â llaw uchel*, sef mewn agwedd wrthryfelgar, yn barod i ymladd â Duw; yn gyhoeddus, ac yn ddigywilydd. Y mae pechu yn rhyfygus, yn arwyddo pechu yn fwriadol; o ddewisiad, ac nid o wendid; yn diystyru awdurdod gair Duw, yn beiddio ei gyfiawnder, ac mewn gwrthryfel amlwg. 'Cablu yr Arglwydd y mae;' ac y mae yn agwedd ddychrynllyd ar y fath bryfyn a dyn, tu ag at y Duw mawr. Deut. 7. 12. Mat. 12. 32. Heb. 10. 26, 29. 2 Petr 2. 10. Y mae y goreu o ddynion yn ddarostyngedig i bechu, oni attal Duw ef. Psalm 19. 13.——1. Gwneuthur peth yn erbyn gair yr Arglwydd, a dysgwyl llwyddiant arno er hyny, sydd ryfyg. Deut. 1. 43.——2. Llefaru megys geiriau Duw, a Duw heb lefaru, hyny sydd ryfyg cywilyddus. Deut. 18. 20.——3. Ymfendithio yn wyneb cyhoeddiad o felldithion Duw, sydd yn rhyfyg ynfyd. Deut. 29. 19. Edr. Llaw.

RHYG, (rhy-yg) *Saes.* Rye.—Y mae buddioldeb rhyg, fel ŷd bara yn ddigon adnabyddus. Dysdyllir hefyd ddyfroedd poethion, cryfion, o hono. Exodus 9. 32. Esa. 28. 25.

> Coll mab Collfrewi a ddaeth a gwenith a haidd gyntaf i Ynys Prydain, lle nid oedd cyn no hyny namyn ceirch a rhyg. *Triodd.*

RHYGLYDD—IAD—IANT—ION—U, (rhyglydd) haeddiant, haeddedigaeth, gobryn, efrllid, gobr. 'Os heb ryglyddu bodd yn ngolwg ei meistr y bydd hi.' Exod. 21. 8. אם רעה *os drwg.*——'Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di.' Genesis 32. 10. *Heb.* 'Llai ydwyf na'th holl drugareddau.' Esther 5. 8. a 7. 3. a 9. 13.

RHYGNU, (rhwgn) rhathu, rhwbio, crafu i'r byw, gorthori.—'Ac a'u rhygnodd hwynt â llif.' Dr M. 1 Cron. 20. 3. Edr. Dafydd, Llif.



Digitized by Google

RHYGYNG—U, (rhwng-yng) ymdaith-wastad.—'A rhygyngu wrth gerdded.' Esa. 3. 16.—'Byrhau eu camrau wrth gerdded.' Lowth. Cerdded yn goegfalch, ac nid yn esmwyth ac yn naturiol; cerdded fel rhai bychain.*

RHYNG—U, (rhwng) cyfryngu, boddloni. Rhyngu bodd, boddloni, boddhau; llonyddu, heddychu. Y mae y gair yn cael ei briodoli i'r Arglwydd yn aml, ac yn arwyddo yr achos cynhyrfiol ynddo ei hun, sef ei ddaioni a'i raslonrwydd o unrhyw weithred, ei foddlonrwydd a'i ewyllys da ei hun, ynddo ei hun; o'i ddaioni a'i ben-arglwyddiaeth ei hun yn gweithredu o'i ewyllys hun. Job 6. 9. Ps. 40. 13. Mat. 11. 26. Luc 12. 32. Col. 1. 19.——Rhyngu bodd un, yw ennill ei ewyllys da; ei foddhau. Rhuf. 8. 8. Gal. 1. 10. 1 Thes. 2. 4, 15. Hebreaid 11. 5, 6. a 13. 16.

RHYSEDD, (rhws) rhwy, gormodd, gormodedd.

Gwell golud no *rhysedd*. *Diar.*

'Am nad ydych yn cyd-redeg gyda hwynt i'r unrhyw ormod rhysedd.' 1 Petr 4. 4. Edr. GORMOD.

RHYTHNI, (rhwth) ainc, trachwant, gwanc, rhaib; safn-rythu.——'Ac na veddwoch ar win, yn y peth y mae rhythni.' W. S. Eph. 5. 18.

RHYW——OGAETH, (rhy-yw) cenedl, bragad; ystlen; math, modd, dull, gwedd, ffunud; rhai. Edr. AMRYW. Y mae rhywogaethau creaduriaid yn dra lliosog, a phob creadur, trwy effeithioldeb y gorchymyn cyntaf creadigol, yn cenedlu yn ol ei ryw—yr hyn sydd yn ymddangos ond megys cread parhaus. Genesis 1. 12, 24. Y mae pob hedyn yn dwyn egin, llysiau, a phrenau, wrth eu rhywogaeth; a phob anifel yn cenedlu ei ryw. Nis gellir trwy un modd amlhau y rhywiau, na pheri i un rhyw genedlu rhyw arall. Y mae hyn yn dangos llywodraeth a gweithrediad neillduol y Creawdwr ar y cwbl yn ddifeth. Y mae gwrryw a benyw i bob rhyw o anifeiliaid, ymlusgiaid, pysgod, llysiau, coedydd; ac nis dichon y naill heb y llall genedlu, neu liosogi ei ryw. Heb gymdeithas yr ystleni (*sexes*) nid oes bosibl, yn ol trefn natur, liosogi: y mae hyn yn ddilys am bob creadur o fywiolion ac anfywiolion, trwy lawer o brofiadau, gwedi ei egluro: y mae parhad pob rhyw yn dibynu ar barhad ystleni y rhyw hwnw. Rhyfedd ydyw Duw yn ei waith!

'Eithr nid â y rhywogaeth hon allan, ond trwy weddi ac ympryd.' Mat. 17. 21. Tebygol nad ydyw y geiriau yn arwyddo bod amryw o rywogaethau o gythreuliaid, er y dichon hyny fod yn wir, er dim a wyddom ni i'r gwrthwyneb; ond deallwn y rhywogaeth hon o greaduriaid a elwir cythreuliaid: ac os oes cymhariaeth yn gynnwysedig yn y geiriau, âg afiechyd arall y mae: dyma y rhyw waethaf o bob afiechyd, sef bod un wedi ei feddiannu gan gythraul. Ond y peth anhawdd, ie, anmhosibl, i'r dysgyblion, oedd yn berffaith hawdd i'r Arglwydd. Y mae y pethau mwyaf, cadarnaf, a chynddeiriocaf, yn ymostwng ac yn ufuddhau iddo ef, yr un mor barod a phethau llai, a gwanach: mawredd ei allu ef sydd yn cyd-raddu pob peth. Gwel Campbell, ar Marc 9. 29. *Note.*

# S.

SAALABIN, שעלבים [*cynnaliwr y galon*] dinas yn Dan. Jos. 19. 42. Barn. 1. 35.

SAALBONIAD, priodor o Saalbon, dinas yn Judah, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 32. 1 Cron. 11. 33.

SAANAN, a SAANANNIM, צעננים [*ysgogiadau*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 33. Mic. 1. 11.

SAAPH, *Heb.* שעף [*sydd yn meddwl*] mab Jahdai. 1 Cron. 2. 47.

SAARIM, שערים [*rhai blewog*] dinas yn llwyth Simeon. 1 Cron. 4. 31. Jos. 15. 36.

SABACTHANI, שבקתני [*gadewaist fi*]. Edr. ELI.

SABAOTH, צבאות [*lluoedd*]. Cyfieitha y LXX. y gair hwn yn aml, *παντοκρατωρ*, *Hollalluog*, pan briodolir ef i'r Arglwydd, mewn cysylltiad â'r gair יהוה IEHOFAH. Edr. LLU. Yn anaddas argreffir ef yn y rhan amlaf o'r argraffiadau o'r Bibl 'Arglwydd y *Sabbath*,' yn Rhuf. 9. 29. *Gr.* Κυριος Σαβαωθ, *Arglwydd y Sabaoth.*—'Arglwydd y lluoedd.' W. S. a Dr M. Ond Arglwydd y Sabbath yw yn mhob argraffiad arall. Gwall oedd, tebygol, yn yr argraffiad yn 1620, ac olynwyd hwnw yn y lleill i gyd. Y mae yn wahanol oddiwrth y gair Groeg; ac, hefyd, yn ei wneuthur yr un a'r gair Sabbath, sydd ag ystyr cwbl wahanol iddo; y mae y diweddaf yn aughyfleusdra mawr, am ei fod yn cam-arwain y darllenydd uniaith.

SABBETHAI, שבתי [*fy ngorphwysfa*] un o bennaethiaid y Lefiaid. Neh. 11. 16.

SABBOTH, *Heb.* שבת *Groeg*, *σαββατον*; *Llad.* SABBATUM, neu SABBATHUM; *gorphwysfa.* Gelwir y Sabboth, *Sul;* sef DIES SOLIS, *dydd yr haul;* hefyd *dywsul.* Arferir y gair Groeg i arwyddo yr holl wythnos: 'Yr wyf yn ymprydio ddwy waith yn yr wythnos,' *Gr. y Sabboth.* Luc 18. 12.—'Y dydd cyntaf o'r wythnos.' *Μια των σαββατων*, *un o'r sabbothau.* Ioan 20. 1, 19. Marc 16. 2, 9. Luc 24. 1. Act. 20. 7. 1 Cor. 16. 2. Y prif ddydd yn yr wythnos yw y Sabboth.

Arwydda hefyd, weithiau yr holl Sabbothau Iuddewig, neu yr amserau gosodedig i *orphwys;* sef eu gwyliau gosodedig; megys y pasc, Lef. 23. 15. cymh. adn. 7, 11.—gŵyl y degfed dydd o'r seithfed mis, Lef. 23. 29, 32.—y flwyddyn Sabbothol. Lef. 25. 2, 4, 6. a 19. 30. 'Fy Sabbothau,' Lef. 26. 2. a arwydda, diammeu, yr holl amserau gosodedig i orphwys gan Dduw, dan oruchwyliaeth Moses, megys hefyd yn Col. 2. 16.

Ond yn fwyaf neillduol, arwydda y Sabboth y dydd penodol hwnw o'r wythnos. Duw gwedi gorphen gwaith y greadigaeth mewn chwe diwrnod, a orphwysodd, neu a beidiodd creu, y seithfed dydd, ac a'i neillduodd i ddynion i orphwys arno, ac i'w addoli ef mewn modd mwy difrifol, ac i fod yn arwydd o orphwysfa dragywyddol. Gen. 2. 1, 2. Diammeu i'r hen batrieirch gadw y Sabboth, er na roddir i ni hanes am hyny, mwy nag am eu haddoliad teuluaidd. Mewn perthynas i Cain ac Abel, dywedir eu bod, 'wedi talm o ddyddiau,' yn aberthu, Gen. 4. 3. neu 'yn niwedd y dyddiau;' sef yn niwedd yr yspaid hwnw o ddyddiau, neu wythnos, yn ol barn llawer. Edr. ABEL.

Amlwg ydyw fod Noah yn sylwi ar gylchiad y dyddiau, bob yn saith, yn yr arch. Gen. 8. 8, 10. Yr oedd y Paganiaid yn cyfrif un dydd o'r saith yn fwy cysegredig na'r lleill; felly geilw Hesiod y seithfed dydd, *εβδοματη δ' αιθις λαμπρον φαος ηελιοιο*, *dysglaer oleuni yr haul.*—Dywed Homer, *εβδοματη*

* טפף תלבנה cerdded yn yr un fath a phlant bychain.—Vitringa.

Digitized by Google

*δ' επειτα κατηλυθεν ιερον ημαρ, yna y daeth y seithfed dydd, yr hwn sydd sanctaidd.*—Dywed Josephus, yn ei draethawd yn erbyn Apion, 'Nid oes un ddinas, Groegaidd na Barbaraidd, nac un genedl, nad aeth defod y Sabboth, ar yr hon yr ydym ni yn gorphwys, i'w plith.' *Lib.* ii., *c.* 39.—'Gŵyl ydyw hon,' medd Philo, 'nid o un ddinas neu wlad, ond o bawb.' Gwel ychwaneg yn Hudson ar Josephus.

Dywedir am Abraham, 'ei fod yn cadw cadwriaeth yr Arglwydd, ei orchymynion, ei ddeddfau, a'i gyfreithiau:' ac y mae yn ddiddadl fod cadw y Sabboth yn un o'r deddfau. Gen. 18. 19. a 26. 5. Sonir am wythnos fel cyfrif adnabyddus yn nheulu Laban. Gen. 29. 27.——Hwyrach mai dyma y dydd yr oedd meibion Duw yn sefyll o flaen IEHOFAH. Job 1. 6.——Yr ydoedd plant Israel yn sylwi ar gadw y Sabboth fel hen drefn gyffredin, cyn dyfod i Sinai, wrth gasglu y manna. Exod. 16. 22, 23.

I ddangos moesoldeb y gorchymyn, llefarwyd y gorchymyn hwn ar Sinai, yn mhlith gorchymynion moesol eraill, gan Dduw, o ganol y tân; ysgrifenwyd ef ar lechau ceryg â bys Duw, a rhoddes Duw hwn, gyd â'r naw eraill, yn nghadw yn yr arch. Deut. 10. 5. Y ddeddf foesol yn unig oedd yn nghadw yn yr arch, a'r ddeddf seremoniol yn ei hystlys—un i'w chyflawni a'i chadarnhau, a'r llall i'w chyflawni a'i diddymu gan Grist, yr hwn 'yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob un a'r y sydd yn credu.' Yr oedd y drugareddfa ar wyneb y gorchymyn hwn yn yr arch, fel y lleill, yn gysgod o iawn Crist.

Newidiwyd y Sabboth o'r seithfed dydd i'r dydd cyntaf o'r wythnos dan yr oruchwyliaeth efengylaidd. Nid y seithfed dydd, ond y seithfed ran o'n hamser sydd i'w olygu yn benodol yn foesol; dydd o bob saith ydyw mater y gorchymyn. Nid ydyw y gorchymyn yn dywedyd, 'Cofia y seithfed dydd i'w sancteiddio ef;' ond 'Cofia y dydd *Sabboth* i'w sancteiddio ef.' Er bod y gorchymyn am gadw y Sabboth yn foesol, o ran y sylwedd, bob amser, ac yn ei rym yn mhob oes o'r byd, etto yr ydoedd yn amrywio yn ei arwyddocâd, ac o ran rhai amgylchiadau o'i gadw, dan amrywiol oruchwyliaethau. Rhyw orphwysiad o eiddo Duw ydoedd ei sylfaen dan bob goruchwyliaeth; ac i orphwysfa Duw y mae y rhai a gredant yn myned i mewn. Heb. 4. 3, 4.

1. Gorphwysiad Duw y seithfed dydd oddiwrth waith y greadigaeth, oedd sylfaen y Sabboth yn Eden. Gorphwysodd, ymfoddlonodd, ac ymhyfrydodd Duw yn ei waith, fel dadguddiad o'i ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni, yn enwedig yn ei gyfammod.

2. Dan oruchwyliaeth Sinai yr oedd y Sabboth yn arwydd o amryw o bethau.—1. Yr ydoedd yn goffadwriaeth o waredigaeth Israel o'r Aipht. Deut. 5. 15. Y mae rhai yn tybied, oddiwrth y geiriau hyn, mai ar y Sabboth yr aeth yr Israeliaid trwy y Môr Coch. Gwel Ainsworth *on* Deut. 5. 15. J. Edwards, *Perpetuity and Change of the Sabbath.*——2. Yr oedd yn arwydd iddynt o orphwysiad Duw yn eu plith yn y babell, a'i gymeradwyaeth o'u gwasanaeth yn ol y trefniadau yno, yn Nghrist.——3. Yr oedd yn arwydd ac yn wystl o'u gorphwysfa yn ngwlad Canaan.——Ac, yn 4. O'r orphwysfa dragywyddol yr ydoedd Canaan yn ei chysgodi. Yr oedd Duw o ran ei achos yn gorphwys yn Nghanaan, a'i bobl yn gorphwys yno dan ei aden. Ond gorphwysfa gysgodol anmherffaith ydoedd hon; am hyny y mae Duw yn addaw un arall. Heb. 4. 8.——Yr oedd amryw bethau yn eu dull o gadw y Sabboth, perthynol yn unig i'r oruchwyliaeth hòno; megys penodi taith y dydd Sabboth; llabyddio â meini am ei dòri; peidio llosgi tân yn eu holl anneddau, &c. Er nad ydyw yr amgylchiadau hyn yn rhwymo yn bresennol, etto y maent yn addysgiadol i ni i'w hystyried.

3. Newidiwyd y dydd dan yr oruchwyliaeth newydd, yn goffadwriaeth o adgyfodiad Crist ar y dydd cyntaf o'r wythnos, gwedi gorphen gwaith y prynedigaeth.—1. Gorphwysodd gwedi gorphen yr holl waith ydoedd i'w wneuthur yma yn y byd mewn darostyngiad, sef gwneuthur iawn am bechod, a dwyn cyfiawnder tragywyddol.—2. Gorphwysodd ac ymhyfrydodd y Drindod yn nghwblhad y gwaith, y dadguddiad o'r priodoliaethau Dwyfol trwyddo, a'r ffrwythau hyfryd a goneddus o hono.——3. Gorphwys yr holl eglwys yn dawel ynddo byth.

Mai y dydd cyntaf o'r wythnos yw y Sabboth efengylaidd, sydd dra amlwg oddiwrth yr ystyriaethau canlynol:—1. Prophwydwyd am newidiad y Sabboth o'r seithfed dydd i'r dydd cyntaf o'r wythnos: 'Bydd ar yr *wythfed* dydd, ac o hyny allan, i'r offeiriaid offrymu ar yr allor eich poeth-offrymau a'ch ebyrth hedd,' &c. Ezec. 43. 27. Rhaid deall wrth 'yr *wythfed* dydd' yma, rhyw ddydd neillduol dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, gan mai am hòno y mae y prophwyd yn prophwydo: ond dan yr oruchwyliaeth hòno nid oes un dydd i sylwi arno yn fwy na'i gilydd, ond y Sabboth: diddymwyd y lleill i gyd fel pethau cysgodol, pan ddaeth y sylwedd. Llefara y Psalmydd am y dydd hwn, pan ddywed, 'Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenychwn ynddo.' Ps. 118. 24. cymh. Act. 4. 10, 11. Y mae y Psalm yn amlwg yn brophwydoliaethol am Grist. 'Dyma y dydd,' gan hyny, a arwydda y dydd y cyfododd Crist oddiwrth y meirw. Dyma y dydd i'w gofio byth! Dydd wedi ei neillduo oddiwrth ddyddiau eraill, tra parhao amser, i orfoleddu a llawenychu yn y Crist a gyfododd o'r bedd boreu y dydd cyntaf o'r wythnos.——2. Yr ydoedd y dysgyblion yn ymgynnull ar y dydd cyntaf o'r wythnos, ac yn arwydd o'i foddlonrwydd iddynt, ymddangosodd Crist yn eu plith, a chyhoeddodd dangnefedd iddynt. Ioan 20. 26. Act. 2. 1, 2. cymh. Lef. 13. 26. Act. 20. 7.——3. Diddadl mai y dydd cyntaf o'r wythnos a eilw Ioan, 'Dydd yr Arglwydd.' Dat. 1. 10. Dywedodd Crist i'r dysgyblion yn yspaid y deugain niwrnod y bu efe gyda hwynt, gwedi ei adgyfodiad, 'y pethau a berthynent i deyrnas Dduw.' Diammeu iddo hysbysu iddynt lawer o bethau am drefn yr eglwys, nad oes genym ond siamplau yr apostolion am danynt; ac y mae hyny yn ddigon: Yn mhlith pethau eraill, am newid y Sabboth, gan Fab y dyn, yr hwn sydd Arglwydd ar y Sabboth. 'Dydd yr Arglwydd' yw; sef dydd o osodiad yr Arglwydd; yn goffadwriaeth am adgyfodiad yr Arglwydd; ac i'r Arglwydd gael ei addoli a'i foliannu yn neillduol arno.

Am sancteiddio y Sabboth, rhaid sylwi, 1. Fod yr *holl* ddydd i gael ei sancteiddio, a chan yr *holl* ddyn.——2. Dylem orphwys arno oddiwrth waith daearol cyffredin.——3. A gwneuthur gwaith sanctaidd. Mae tri math o waith yn gyfreithlawn, a phob peth arall yn anghyfreithlawn ar y Sabboth; sef 1. Cyflawniadau crefyddol, a phob peth perthynol iddynt; ond gweddus fyddai rhagflaenu, neu oedi, pob peth amgylchiadol i addoliad Duw, nad yw yn anhebgorol i addoliad Duw ar y Sabboth.——2. Gweithred angenrheidiol, yr hon nas gellir ei chwblhau amser arall, heb fod yn euog o droseddu gorchymynion eraill.——3. Gweithredoedd o drugaredd i ddyn ac anifel.

Hawdd canfod oddiwrth y pethau hyn, fod dynion yn halogi y Sabboth wrth esgeuluso addoliad Duw, yn ddirgel neu yn gyhoeddus, cyflawni ei addoliad yn syrthlyd ac yn gnawdol, gweithio, teithio, negeseua, chwareu, cwsg a segurdod, meddyliau ac ymddyddanion ofer afreidiol, a thrwy esgeuluso llywodraeth deuluaidd, ac edrych fod pob un o'r teulu yn ei sancteiddio. Neh. 8. 12. Marc 3. 3, 5. Luc 13. 14, 16. Mat. 12. 7—12. a 15. 7, 8. Deut. 16. 8. Exod. 23. 12. Ps. 78. 5. Esa. 66. 23. a 58. 13, 14. Jos. 6. 15. Amos 5. 8. Mal. 1. 13. Lef. 23. 30. Diar. 6. 9. Ezec. 22. 26.

Digitized by Google

Y mae tiriondeb Duw i'w weled yn fawr yn y gorchymyn hwn, yn gofalu am ddyn ac anifel, yn trefnu gorphwysdra gymedrol iddynt; ac yn bendithio gwaith y chwe diwrnod, fel nad oes raid wrth waith y seithfed dydd at ein cynnaliaeth: ac y mae pechadurusrwydd dyn yn ymddangos yn fawr yn ei anufudd-dod i orchymyn mor esmwyth.——Dangosodd Duw ei anfoddlonrwydd yn fawr yn erbyn troseddwyr y gorchymyn hwn. Gwel Exod. 31. 13—17. Num. 15. 32,—36. Jer. 17. 27. Ezec. 20. 13. Neh. 13. 17, 18. Esa. 56. 4.

'Yr ail prif Sabboth.' Luc 6. 1.—'Yr ail Sabbath gwedy'r cyntaf.' W. S. Y Sabboth cyntaf ar ol yr ail ddydd o'r bara croyw, o ba ddydd yr ydoedd y saith wythnos (a elwid שבתות *Sabbothau*, Lef. 23. 18. cymh. adn. 8. Luc 12. 12. Act. 20. 7. 1 Cor. 16. 2.) i'w cyfrif. Lef. 23. 15, 16. Deut. 16. 9. Dyma y dehongliad mwyaf tebygol i'r iawn, a welais o'r gair tywyll hwn. Scaliger, Mintert, Schleusner, Stokius, Lightfoot, Doddridge, Whitby, Parkhurst, Scott.

'Taith diwrnod Sabboth.' Act. 1. 12. Yn nghylch dwy fil o gufyddau; sef milltir o ffordd. Nid ydoedd y gyfraith yn eu rhwymo hwy i hyny, ond traddodiad y tadau a ddaeth yn ddefod gyffredin yn mhlith yr Iuddewon.

SABEAID. Edr. Seba.

SABTAH, סבתא [*trofëydd*] trydydd mab Cus. Gen. 10. 7. Yr ydoedd ef a'i hiliogaeth yn preswylio, tebygol, yn gyfagos i Lynclyn Persia. Gwel *Universal History, vol.* i.

SABTECAH, סבתכא [*cylchynydd*] pummed mab Cus. Gen. 10. 7. Annilys pa le y sefydlodd ef a'i hiliogaeth. Gwel *Universal History, vol.* i.

SACH—AU, (sa-ach) *Heb.* שק (*sac*) *Gr.* σακκος (*saccos*) *Llad.* Saccus; *Saes.* Sack. Gair Hebraeg, yn rhedeg trwy yr holl ieithoedd agos; yr hyn sy brawf o hynafiaeth yr iaith hòno: ffetan, cwd, alwar, côd. Gen. 42. 25, 27, &c.

SACHAR, שכר [*meddwdod*] un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 35.

SACHLEN, SACHLIAN, SACHWISG, (sach-llen, sach-llian, sach-gwisg) llian garw, bras, o flew; o ba un y gwnaent sachau gynt. Gwisgent sachlen, neu sachwisg, fel arwydd o dristwch, neu alar trwm. 2 Sam. 3. 31. 1 Bren. 20. 27, 31. Esth. 4. 1. Job 16. 15. Yr oedd hyn yn arferiad yn mhlith y Groegiaid. Yr oedd y prophwydi, y rhan amlaf, yn gwisgo sachlian. Y mae y ddau dyst i brophwydo mil a deucant a thriugain o ddyddiau, neu flynyddoedd, gwedi ymwisgo â sachlian. Dat. 11. 3. Edr. Tyst.—'Dyosg sachwisg,' sydd yn arwyddo troi galar yn llawenydd. Ps. 30. 11.

'A'r bobl a edrychodd, ac wele, sachlian oedd am ei gnawd ef oddi fewn.' 2 Bren. 6. 30. Cofféir yn aml yn yr ysgrythyrau am yr arferiad hwn o wisgo sachlen mewn amseroedd o alar a thristwch; yn ol ein meddyliau ni, y mae yn ymddangos yn fath o arferiad gerwin iawn. Gan Lyny, nid anaddas fyddai ystyried pa fath sachlen a feddylir. Yr un gair *Heb.* שק a gyfieithir *sach*, a *sachlian.* Cymh. Gen. 42. 25, 27, 35. â Gen. 37. 34. Syr John Chardin sydd yn hysbysu fod y sachau a arferir yn y gwledydd dwyreiniol i deithwyr ddwyn eu hangenrheidiau ynddynt, gwedi eu gwneuthur o wlan garw, gwedi ei gryfhau â lledr. 'Os, gan hyny,' medd efe, 'y gwnaent yn yr hen oesoedd eu sachau o ddefnydd gwlanog, bras, tebygol fod y sachlenau a wisgent o'r un defnydd, ac nid defnydd o rawn, nac un bras, garw, o *hemp*. Nid oedd pobloedd yr hen oesoedd yn gwisgo llian; ac felly, mewn amser o alar a thristwch, tebygol, y gwisgent wisg o wlan brasach a garwach, yn lle gwisgoedd o beth meinach, etto o ddefnydd o'r un natur. Gwel Harmer's *Obs., cap.* v. *obs.* 4.

SADOC, צדוק [*cyfiawn*] 1. Mab Ahitub. 2 Sam. 8. 17. Gosodwyd ef yn arch-offeiriad gan y brenin Saul; ac ynddo ef y dychwelodd y swydd oruchel hon i deulu Eleazar, gwedi bod agos i chwech ugain mlynedd yn nheulu Eli, o du Ithamar. Yr oedd ef ac Abiathar yn fath o arch-offeiriaid yn nheyrnasiad Dafydd, er mai â Sadoc yr ymgynghorai Dafydd, am ei fod, tebygol, yn brophwyd. Arosodd y ddau yn Jerusalem, ar ddymuniad Dafydd, yn ngwrthryfel Absalom, a rhoddasant hysbysrwydd cywir iddo o'r hyn a ddygwyddai yno. 2 Sam. xv, a xvii. Annogasant hefyd lwyth Judah i gyrchu Dafydd yn ol, ar ol y gwrthryfel. 2 Sam. 19. 11, 12. Sadoc, yn lle ymuno gyd âg Adoniah, ydoedd un o'r rhai mwyaf prysur yn coroni Solomon, ac a'i heneiniodd ef, ac a fu yn archoffeiriad ei hun wedi carcharu Abiathar, ac a olynwyd gan ei fab Ahimaas. 1 Bren. ii, iii.——2. Yr ydoedd un arall o'r enw, ac enw tad hwn hefyd oedd Ahitub, yn arch-offeiriad yn mhell wedi yr amser hwn; merch i'r Sadoc hwn, tebygol, oedd Jeruzzah gwraig Uzziah, a mam Jotham. 2 Cron. 27. 1.——3. Mab Azor, a thad Achim. Mat. 1. 14.

SADRACH, un o'r tri llanc fu yn y ffwrn dân yn Babilon. Dan. 1. 7. Edr. Mesach.

SADUCEAID, dysgyblion un Sadoc, yr hwn oedd yn byw, medd ysgrifenwyr Iuddewig, yn nghylch dau cant a thriugain o flynyddoedd cyn Crist. Ond y mae eraill yn barnu eu galw felly, oddiwrth y gair *Heb.* צדק (*tsedec*) *cyfiawn;* naill ai am eu bod yn hòni gradd mawr o gyflawnder greddfol, trwy gadw y gyfraith; neu am eu bod yn cymeryd arnynt fod yn fawr o blaid cyflawnder cyfranedigol, yn neillduol trwy gospi beiau. Yr ydoedd y Saduceaid, nid yn unig yn ymwrthod â thraddodiadau yr henuriaid, y rhai yr ydoedd y Phariseaid yn eu dal, ond dywedent nad oes nac adgyfodiad, nac angel, nac ysbryd, y pethau yr oedd y Phariseaid yn eu haddef. Actau 23. 7, 8. Mat. 22. 23. Marc 12. 18. Luc 20. 27. Yr oeddynt yn dal i Dduw wneuthur y byd â'i allu, a'i fod yn ei lywodraethu â'i ragluniaeth, a bod ganddo wobrau a chospedigaethau, ond eu bod hwy oll yn y byd hwn; ac am hyny yn unig yr oeddynt yn ei addoli, ac yn ufuddhau i'w gyfreithiau. Yr oeddynt yn barnu dyn yn gwbl feistr ar ei weithredoedd ei hun, gyda chyflawn ryddid ganddo i wneuthur da neu ddrwg, yn ol ei ewyllys ei hun, heb ddim cymhorth oddiwrth Dduw i'r naill, nac attalfa oddi wrtho rhag y llall. Yr oeddynt yn derbyn llyfrau Moses fel o ddwyfol awdurdod; y mae rhai yn ammeu a oeddynt yn cydnabod mwy na hyny, ond heb sail, medd Scaliger a Parkhurst. Dilys yw eu bod yn cyfeiliorni mewn amryw bethau, 'Heb wybod yr ysgrythyrau, na gallu Duw.' Y mae yr un cyfeiliornadau, yn tarddu o'r un achos, yn y byd etto. Y mae hanes yr Efengylwyr a Josephus am danynt, yn cytuno yn hynod. Gwel Josephus, *De Bel., lib.* ii. *cap.* 8. *sec.* 14. & *Antiq., lib.* xiii. *cap.* 9. a *lib.* xviii. *cap.* 1. *sec.* 14. Prideaux's *Connection, part* ii. *b.* 5. *Ancient Universal History, vol.* x.

SAER, SEIRI, SAERNIAETH, (sa-er) *Heb.* חרש (*harash*) yr un gair trwy draws-gyfleu y llythyrenau. Celfyddwr; dychymygwr gwaith, crefftwr, gwr o grefft. Saer coed; saer maen; saer priddfaen; saer melin; saer llong; saer cist; saer llestri gwellt.

Un o dri madgyrfinyddion Ynys Prydain: Morddal gwr Gweilgi, *saer* Ceraint ab Greidiawl, a ddyages waith maen a chalch gyntaf i genedl y Cymry. *Triodd.*

Y pedwar corn, y rhai a wasgarasant Judah, a'r pedwar saer yn eu tarfu hwynt, ac yn taflu allan gyrn y cenedloedd (Zech. 1. 19, 20, 21.) ydynt yn arwyddo gelynion yr eglwys o bob tu, a'r offerynau cyfatebol

Digitized by Google

sydd gan Dduw yn mhob oes i'w gwasgaru a'u taflu allan. Anhawdd penodi pedwar neillduol o'r naill na'r llall, ond y mae pob corn, sef gallu, neu lywodraeth, a saer gyferbyn âg ef.

Galwyd Iesu, 'mab y saer—y saer.' Mat. 13. 55. Marc 6. 3. Mae y gair *Gr.* τεκτων, yn arwyddo celfyddwr, neu weithiwr ar goed, maen, neu haiarn, yn enwedig saer coed. Saer coed oedd Joseph, tadmaeth Iesu; a chan ei fod yn arferiad yn mhlith yr Iuddewon i ddwyn eu plant i fynu i ryw gelfyddyd, hyfforddiodd Joseph yr Iesu mewn saerniaeth. Celfyddyd wael, lafurus, ac anmharchus, ydoedd hon yn gyffredin yn mhlith yr Iuddewon gynt, a'r tlotaf oedd yn ei dilyn yn gyffredin, tebygol, gan eu bod yn golygu yn ddianrhydedd i Grist fod o'r cyfryw gelfyddyd. Edr. IESU, PEN-SAER.

SAETH—AU—U—YDD—ION, (sa-aeth) *Llad.* SAGITTA: hobel, picell, pilwrn; taflu saethau; saethwr. Byddent yn arfer saethau mewn rhyfeloedd, helwriaeth, a dewiniaeth. Fel arfau rhyfel, yr oeddynt yn fwy arferedig yn y dyddiau gynt nag ydynt yn bresennol. Yn Twrci, yr oeddynt hyd yn ddiweddar yn eu lluoedd; a gwnaethant ddystryw dychrynllyd yn ymladdfa Lepanto. Yr ydoedd dewinio â saethau yn gyffredin yn mhlith y Caldeaid, yr Arabiaid, &c. Yn mhob achos o bwys, megys priodas, taith, rhyfel, &c., dewiniai yr Arabiaid â thair saeth: ar un yr ydoedd yn ysgrifenedig, 'Gorchymyn fi, Arglwydd;' ar y llall, 'Y mae yr Arglwydd yn gwarafun i mi;' ac ar y drydedd nid oedd dim. Cymysgent y saethau hyn mewn cawell saethau, ac os tynid y gyntaf allan, yr oeddynt yn ei golygu fel arwydd fod yr Arglwydd yn cymeradwyo y peth; os yr ail, i'r gwrthwyneb; os y drydedd, cymysgent hwy drachefn i ail dynu, nes cael penderfyniad. Nebuchodonosor, heb benderfynu pa un a wnai ai ymosod ar Rabbah meibion Ammon, neu ar Judah yn gyntaf, a safodd ar y groes-ffordd i ddewinio â saethau, ac i ymofyn â delwau. Ezec. 21. 21. Hwyrach ddarfod iddo roddi enwau y ddau le hyn ar y saethau, a'r cyntaf a ddaeth allan a benderfynodd ei helynt filwraidd.

Gelwir yn allegawl, yn saethau, pa beth bynag a archolla yn ddisymwth, ac yn ddolurus; megys meddyliau dychrynllyd am anfoddlonrwydd, digofaint, a barnedigaethau Duw. Job 6. 4. Ps. 38. 2.—Ei farnedigaethau. 2 Sam. 22. 15. Ezec. 5. 16. Hab. 3. 11. Galar. 3. 12.—Ei air, tan ddylanwadau dwyfol, yn dwys-bigo y galon am bechod. Ps. 45. 5.——Saethau y drygionus, yw eu bwriadau drwg, a'u geiriau enllibus, celwyddog, trahaus, a'u moddion i niweidio eraill. Ps. 11. 2. a 64. 3. a 57. 4. Diar. 25. 18. a 26. 18. Jer. 9. 8. Maent yn aml yn peri gofid mawr, a dolur meddwl.——'A'r saethyddion fuont chwerw wrtho ef.' Gen. 49. 23. Edr. JOSEPH.

SAF—ADWY—ODD, SEFYLL, (sa) bod, aros; diysgog, diymmod. Mae sefyll yn arwyddo, 1. Gwasanaeth diwyd. Ps. 135. 2. 1 Bren. 17. 1.——2. Diysgogrwydd parhaus. 1 Cor. 16. 13. Phil. 4. 1. 1 Petr 5. 12. Gal. 5. 1.——3. Llwyddo, ac yn cael ei gyflawni. Esa. 40. 8. Dan. 2. 44.——4. Sefyll prawf a barn. Ps. 1. 5.——5. Gwrthsefyll, gwrthwynebu, a bod yn fuddugoliaethus. Eph. 6. 13. Edr. GWRTHSEFYLL.

'Duw sydd yn sefyll yn nghynnulleidfa y galluog.' Ps. 82. 1. Y galluog ydyw penaethiaid y ddaear; y mae Duw yn sefyll yn eu llysoedd, i sylwi ar gyflawnder neu anghyflawnder eu cynghorion a'u penderfyniadau; i amddiffyn rhag eu cam hwynt, ac i'w galw hwythau i gyfrif; ac i gyflawni ei amcanion ei hun trwy eu holl gynghorion hwy. Exod. 18. 21. Preg. 5. 8. 2 Cron. 19. 6, 7. Preg. 5. 8.

'Sefyll ger bron Duw,' sydd yn arwyddo parodrwydd parchus i'w wasanaethu, a chyflawni ei ewyllys. Dat. 11. 4. a 8 2. 1 Bren. 18. 15. Neu eiriol gyda thaerineb. Jer. 15. 1.

Crist yn 'sefyll ar ddeheulaw y tlawd,' neu 'wrth y drws,' a arwydda ei barodrwydd i'n cynnorthwyo, a'i amynedd a'i diriondeb yn ei oruchwyliaethau grasol tu ag at ei bobl. Ps. 109. 31. Dat. 3. 20.

Sefyll i fynu o flaen un, a arwydda parch a pharodrwydd i'w wasanaethu ef. Job 29. 8. Edr. DRAIG, TYST.

SAFEH, שוה [*gwastad*] dyffryn Safeh, sef dyffryn y brenin, oedd, tebygol, medd Calmet, yn agos i Jerusalem. Gen. 14. 17.

SAFN—AU, (saf) genau. Edr. GENAU, TAFOD.

Cau dy *safn*, ac agor dy glust a'th lygad. *Diar.*

'Anwiredd yn cau ei safn.' Job 5. 16. Anwiredd, sef dynion anwireddus, yn llefaru yn erbyn y duwiolion, yn gorfod tewi gan gywilydd a syndod, wrth weled Duw yn gweithredu mor ryfedd o'u plaid, ac er eu gwaredigaeth. Ps. 107. 42. Esa. 26. 11. a 52. 15. Mic 7. 16. Y mae dau beth yn cau safnau dynion ffolion, annuwiol, sef sancteiddrwydd diffuant y saint, a chyflawnder Duw yn ei farnedigaethau dychrynllyd arnynt. Titus 1. 11. 1 Petr 2. 15. Mat. 22. 12. Tra byddo yr Arglwydd yn oedi gweithredu, y mae eu cableddau yn ddychrynllyd yn ei erbyn, ni ddichon meddwl ddychymyg, na thafod lefaru, iaith fwy cableddus ac ofnadwy, nag a geir yn Esa. 5. 19.

'Agor dy safn a mi a'i llanwaf.' Ps. 81. 10. Sef gwrando arnaf, cred fy addewidion, a dysgwyl wrthyf gyd âg ëangder meddwl, a mi a'th ddiwallaf; sef a'th gyflawnaf â'r bendithion addawedig. Psalm 37. 4. Ioan 7. 37. a 15. 7. a 16. 22. Eph. 3. 19, 20. Dat. 21. 6. a 22. 17.

'Yn safnrhwth;' sef yn wancus, yn rheibus. Esa. 9. 12.——'Lledu safn,' yn erbyn, neu ar un, ydyw siarad yn anmharchus, yn gellweirus, yn wawdlyd, ac yn drahaus yn erbyn un. Esa. 57. 4. Ps. 22. 13. a 35. 21. Galar. 2. 16.

SAFFRWN, *Arab.* ZAPHERAN; *Ffr.* SAFRON: *Ital.* SAFRANO; *Saes.* SAFRON; llysieuyn arogl-bêr, o rinweddau hynod i lòni a chryfhau y galon; y mae hefyd yn chwysgar. Arferir ef mewn ymborth, ac mewn cyfferi meddygol. Bernir ef yn neillduol o effeithiol ac iachusol yn afiechyd yr ysgyfaint, neu ryw rwystrau yn y corph, a'r prudd-glwyf.* Y mae amryw fath o saffrwn, ond y goreu yn Ewrop, ydyw saffrwn Lloegr, a wahaniaethir oddiwrth saffrwn pellenig, oddiwrth fod ei ddail yn lletach. Y mae saffrwn yr Hyspaen yn gwbl anfuddiol, trwy eu bod yn cymysgu math o olew âg ef, i beri iddo gadw. Y mae i'w gael wedi ei barotoi yn gyflaeth, neu sew llysieuog (*syrup*) ac yn sylweddnaws (*tincture*). Cyffelyba yr Arglwydd Iesu ras ei Ysbryd yn yr eglwys, i saffrwn, o herwydd ei fod yn feddyginiaethol, yn gynnaliaethol, ac yn gysurus. Can. 4. 14.

SAGETH, tad Jonathan, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 34.

SANG—U—IAD, SENG—I, (sa-ang) mathru, sathru, troedio; damsathru. Jos. 4. 18. Diar. 5. 5. Esa. 1. 12. Edr. MATHRU, SATHRU.

SAHARAIM, mab Uzza. 1 Cron. 8. 8.

SAIG, SEIGIAU, (sa-ig) dysglaid o fwyd; pryd o fwyd. Gen. 43. 34. Heb. 12. 16. Job 36. 16. Edr. ESAU.

SAIL, SEILIO, SYLFAEN—U, (sa-il, syl-maen) gwaelod, gwadn, gosail, bonsang; beth bynag a gynnalio ddim arno.—1. Gelwir Crist yn aml, *sail*, neu,

* It is the greatest cordial in medicine, so as when taken too freely, to occasion immoderate mirth. Dr Quincy.

Digitized by Google

*sylfaen*. Esa. 28. 16. 1 Petr 2. 6. 1 Cor. 3. 11. Edr. CRAIG, MAEN. Sylfaen y cyfammod gras a'i holl addewidion ydyw; sylfaen gobaith, cysur, a ded-wyddwch y Cristion ydyw; y mae yn sylfaen safadwy, o osodiad dwyfol; ni phalla, ac ni sioma y sawl a ymddiredo ynddo.

2. Gelwir yr arfaeth o etholedigaeth yn 'gadarn sail Duw;' o herwydd ei hanghyfnewidioldeb, a'i bod yn cynnal i fynu yr holl eglwys. 'Eithr y mae cadarn sail Duw yn sefyll, a chanddo y sêl hon,' &c. 2 Tim. 2. 19. Sail Duw yw, ac nid dynol. Y mae yn gadarn, o herwydd ei bod yn gorphwys ar anghyfnewidioldeb Duw. Y mae yn sefyll, am mai sail Duw ydyw, a'i bod yn gadarn; a saif pawb sydd gwedi eu hadeiladu arni. Y mae pob adeilad yn cyfranogi o rym a chadernid y sail y mae yn sefyll arni. 'Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef;' y mae yn eu cydnabod, ac yn gofalu am danynt; ac y mae 'pob un sydd yn enwi enw Crist,' trwy ffydd wirioneddol, 'yn ymadael oddiwrth anghyfiawnder,' mewn athrawiaeth a bywyd. Nid eiddo Duw oedd y rhai a gyfeiliornasant o ran y gwirionedd; nid oeddynt gwedi eu hadeiladu ar gadarn sail Duw, ac nid oedd Duw yn eu cydnabod—nid oedd sêl Duw ganddynt.

'Sail yr apostolion a'r prophwydi,' yw athrawiaeth yr apostolion a'r prophwydi; ar yr hon y mae yr holl eglwys yn mhob oes wedi ei hadeiladu; ac yn yr hon y mae Iesu Grist ei hun yn ben congl-faen. Eph. 2. 20. Nid oes yma *seiliau*, ond *sail*; yr un ydyw tystiolaeth yr apostolion a phrophwydoliaethau y prophwydi; yr un gwrthddrych mawr sydd ganddynt, sef Crist; ac yn yr un golygiad y gosodant ef allan; sef fel sylfaen Duw i'r eglwys gael ei hadeiladu arni. Y mae cysondeb y prophwydoliaethau â thystiolaeth yr apostolion am Grist, yn sail gadarn i gredu mai Iesu yw y Crist, y gwir Fessïah, ac yn sylfaen gadarn i bwyso arni. Edr. DINAS, JERUSALEM.

SAIN—EINIO, (sa-in) *Llad.* SONUS; *Ffr.* SON; *Saes.* SOUND: sŵn, sôn, llais, dyar, gorddyar; twrf, dwrdd, trwst; tôn, acen.—'Sain udgorn—sain bloedd—sain udgorn, a llef geiriau.' 2 Sam. 6. 15. 1 Cor. 14. 7, 8. Heb. 12. 19. Edr. BLOEDD, GAIR, LLEF, SWN, UDGORN.

SAINT. Edr. SANT, SANCTAIDD.

SAIR, *Heb.* צעירה [*bechan*] tref yn ngwlad Edom. 2 Bren. 8. 21.

SAITH, SEITHIAU, (sa-ith) *Heb.* שבע (*sheba*); *Gr.* επτα (*epta*); *Llad.* SEPTEM; *Saes.* SEVEN: callawr, pair; y rhifyn saith.—Priodol ystyr y gair *Heb.* שבע o ba un y mae y gair *saith* mewn ieithoedd eraill yn tarddu, ydyw cyflawnder, digonolrwydd; am mai ar y dydd hwn y (יכל) y *gorphenodd*, neu y *perffeithiodd* Duw ei waith. Genesis 2. 2. Parkhurst. Ac felly yr arwydda *saith*, cyflawnder, perffeithrwydd. Megys o'r dechreuad saith diwrnod oedd yn yr wythnos, felly bob amser barnwyd rhyw hynodrwydd yn y rhif *saith*, ac a fernir gan rai yn rhifyn o berffeithrwydd. Ychwanegodd Duw saith niwrnod at yr amser addawedig o amynedd Duw tu ag at yr hen fyd: cymerwyd saith o'r anifeiliaid glân i'r arch; saith mlynedd o lawnder ac o brinder yn yr Aipht. Genesis vii. a xli.

Yr oedd gan yr Iuddewon nid yn unig Sabboth y seithfed dydd, ond yr oedd pob saith mlynedd yn orphwysfa, a saith saith mlynedd oedd y Jubili. Edrych SABBOTH, JUBILI.

'Yn ol pob saith mlynedd, ar yr amser nodedig, ar flwyddyn y gollyngdod, ar ŵyl y pebyll—y darlleni y gyfraith hon o flaen holl Israel.' Deut. 31. 10, 11. Gorchymynwyd yn aml i bobl Israel wneuthur eu hunain yn hyddysg, a dysgu eu plant yn fanwl, yn nghyfraith yr Arglwydd; ond yn yr adnodau hyn, gosodir trefn i'w hysbysu i'r genedl yn gyffredinol. Yr oedd yr holl bobl, y gwyr, y gwragedd, y plant, a'r dyeithr-ddyn, i ddyfod yn nghyd i wrando y gyfraith yn cael ei darllen. Tebygol fod amryw yn darllen mewn amrywiol fanau, fel y galiai pawb gael cyfleusdra i wrando; ac y mae traddodiad gan yr Iuddewon mai y brenin, y barnwr, neu yr arch-offeiriad, oedd y pen darllenwr, yn nghyntedd y babell, neu y deml. Rhoddir i ni ychydig siamplau o'r cyflawniad o hyn. Jos. 8. 34, 35. Neh. 8. 1—8, 13, 18. a 9. 3. Ond yr esgeulusdra cyffredin o hyn oedd, tebygol, un achos arbenig i'r genedl syrthio mor fuan i eilun-addoliaeth. Dyfethwyd y bobl o eisiau gwybodaeth, trwy anwybodaeth ac esgeulusdra yr offeiriaid a'r blaenoriaid.

Gŵyl y bara croyw, a gŵyl y pebyll, a gedwid saith niwrnod; a rhifedi yr anifeiliaid yn amryw o'u haberthau, oedd saith. Yr oedd saith o lusernau i'r canwyllbren yn y babell; saith o offeiriaid â saith o udgyrn yn amgylchynu caerau Jericho saith niwrnod, a saith waith y seithfed dydd. Yn y Dadguddiad cawn 'saith eglwys—saith ysbryd—saith canwyllbren—saith o lampau tân—saith seren—saith sêl—saith udgorn—saith taran—saith phiol—saith pla—a saith angel i dywallt y saith pla o'r saith phiol ar y bwystfil saith-benawg.'

Arwydda saith, yn aml, rhifedi mawr, neu rhifedi cyflawn. Mat. 12. 45. Diar. 24. 16. a 26. 25. Esa. 4. 1. 1 Sam. 2. 5. Jer. 15. 7. Job 5. 19.—Seithwaith, a arwydda, yn aml, yn gyflawn. Gen. 4. 24. Lef. 26. 24. Ps. 12. 6. a 79. 12.——'Dengwaith a thriugain seithwaith,' a arwydda, aml iawn, rhif na dderfydd. Mat. 18. 21, 22.

Felly, yn yr un modd, dichon, 'saith gorn yr Oen,' arwyddo ei allu, a'i awdurdod perffaith, a chyflawn; ei 'saith lygad,' yr un modd, a arwydda, ei berffaith wybodaeth. Dat. 5. 6.——Felly hefyd, gellir barnu am bethau eraill y priodolir y rhifedi saith iddynt. Gwel Dat. 1. 4, 16. a 4. 5. a 10. 3. Diar. 9. 1. Zech. 3. 9. a 4. 2.

SALAI, un o'r offeiriaid. Neh. 12. 20.

SALAMIS, dinas yn ynys Cyprus, a elwir yn bresennol Famagousta. Daeth Paul a Barnabas yma, a chafodd Sergius Paulus, y rhaglaw, gwr call, ei ddychwelyd i'r ffydd. Act. 13. 5, &c.

SALATHIEL, שאלתיאל [*gofynedig gan Dduw*] 1. Mab Jechoniah, a thad Zorobabel. 1 Cron. 3. 17. Mat. 1. 12.——2. Mab Neri. Luc 3. 17. Tebygol nad yr un oedd y ddau hyn, ond eu bod o wahanol lin-ach, sef un o Solomon trwy Rehoboam, a'r llall o Solomon trwy Nathan, ac i'r ddwy lin-achau hyn gyd-gyfarfod yn yr Iesu; un yn tadogaeth Joseph ei dadmaeth, a'r llall yn tadogaeth Mair ei fam.

SALECHETH, שלכת enw un o byrth cynteddau y deml o du y gorllewin. 1 Cron. 26. 16. 'I Suppim a Hosah, tu a'r gorllewin, gyda phorth Salecheth, yn ffordd y rhiw.'—'Gyda phorth y sarn, yn mhrif ffordd y rhiw.' Dr M. Yr un peth, barna rhai, oedd ffordd y rhiw, a'r annelau, a'r grisiau, yn ol ein cyfieithiad ni, a wnaeth y brenin Solomon i'r deml, 1 Bren. 10. 12. 2 Cron. 9. 11. Yr oedd y tir tu allan i'r deml yn anwastad, a thebygol i'r brenin wneuthur math o sarn, neu bont, ar draws y pantle o'i dŷ ei hun i'r porth Salecheth, fel y byddai dyfodfa i'r deml yn gyfleus ac yn hyfryd. Arwydda y geiriau Hebraeg, a gyfieithir yn y lleoedd uchod, *annelau*, a *grisiau*, ffordd uchel, yn cael ei chynnal gan annelau, neu attegau. Yr oedd yr esgynfa hon, ar hyd pa un yr âi y brenin i dŷ yr Arglwydd, â rhyw gywreinrwydd ac ardderchogrwydd yn perthyn iddi, fel y parodd fawr syndod, yn mhlith pethau eraill, yn mrenines Seba. 1 Bren. 10. 5.

Digitized by Google

SALEM, [*heddwch*] Edr. JERUSALEM.

SALIM. 'Yn agos i Salim.' Ioan 3. 23. Pentref yn Judea, tebygol; nid oes un crybwylliad arall am dano, i roddi ychwaneg o hyfforddiad.—'Gwlad Salim.' 1 Sam. 9. 4. Talaeth, medd rhai, yn agos i Gilgal, wrth yr Iorddonen.

SALEPH, ail fab Joctan. Gen. 10. 26.

SALISA, yr un a BAAL-SALISA. 1 Sam. 9. 4. 2 Bren. 4. 42.

SALMANESER, שלמנאסר [*heddwch yn rhwym*] brenin Assyria, a mab, hwyrach, yn gystal ag olynwr Tiglath-Pileser yn yr orsedd. Goresgynodd, anrheithiodd, a dystrywiodd wlad Israel yn ofnadwy iawn, ennillodd Samaria, wedi gwarchae arni dair blynedd, ac a gaethgludodd Israel i Assyria a dinasoedd Media. 2 Bren. xvii. Hos. 10. 14. Bu farw, wedi teyrnasu deuddeg neu bedair ar ddeg o flynyddoedd. Edr. HOSEA, SAMARIA, ISRAEL.

SALMON, a SALMA, שלמון [*heddychol*] 1. Mab Nahson, gwr Rahab, a thad Boaz. 1 Cron. 2. 11, 51, 54. Ruth 4. 20, 21. Mat. 1. 4.——2. Mynydd yn agos i Sichem, lle y byddai llawer o eira. Barn. 9. 48. Ps. 68. 14.——Wrth 'Salma tad Bethlehem,' (1 Cron. 2. 51.) y meddwl rhai enw lle, ac nid dyn; fel y gelwir Joab yn 'dad glyn y crefftwyr,' sef tad y crefftwyr a breswylient y glyn. 1 Cron. 4. 14.

SALMONE, dinas a phorthladd yn ynys Crete. Act. 27. 7.

SALMONAH, צלמנה [*eich delw*] un o wersyllfaoedd Israel yn yr anialwch. Num. 33. 41.

SALMUNNA, צלמנע [*delw*] tywysog y Midianiaid. Barn. 8. 5. Edr. GIDEON.

SALOME, gwraig Zebedeus, a mam Iago ac Ioan. Yr oedd yn un o'r gwragedd duwiol oedd yn gweini i'r Arglwydd Iesu; yn edrych ar ei groeshoeliad; ac yn un o'r rhai a brynasent bêr-aroglau i eneinio ei gorph marw. Mat. 27. 56. Marc 16. 1. Coffëir am un siampl o'i gwendid, sef yn gofyn mawredd daearol i'w meibion. Mat. 20. 20, 21. Mae y goffadwriaeth am dani yn barchus, yn dangos yn neillduol ei ffydd a'i chariad tu ag at yr Arglwydd Iesu.

SALOMI, tad Ahihud. Num. 34. 27.

SALPHAAD, צלפחד [*cysgod-ofn*] mab Hepher o lwyth Manasseh; nid oedd iddo feibion, ond pump o ferched, y rhai a gawsant etifeddiaeth yn Nghanaan. Num. 26. 33. a 27. 1.

SALUM, 1. Mab Jabes, yr hwn a laddodd Zachariah brenin Israel, ac a deyrnasodd un mis yn ei le; ond lladdwyd yntau gan Menahem, mab Gadi. 2 Bren. 15. 10, 14, 15.——2. Mab Ticfah, a gwr Huldah y brophwydes. 2 Bren. 22. 14.——3. Coffëir am amryw o'r enw hwn yn yr ysgrythyrau canlynol: 1 Cron. 2. 40. a 3. 15. a 4. 25. a 6. 12, 13. a 9. 19, 31. Neh. 3. 15.

SALW, (sal) gwael, gorwael, dirmygus.—'A phob peth gwael a salw, hwnw a ddifrodasant hwy.' 1 Sam. 15. 9. Edr. SAUL.

SALWEDD, (salw) peth anolygus; gwaelder, dielwig, gorwael.—'Pan yw hwn yn adeiladu mur, wele hwythau yn ei galchu ef â salwedd.' Dr M. Ezec. 13. 10, 15. a 22. 28.

SALLTRING—AU, (sallt-ring) gleiniadur, torriadur pen canwyll, gefeiliau. 1 Bren. 7. 50. Jer. 52. 18. Edr. PSALTRING.

SAMA, mab Hotham, yr Aroeriad, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 11. 44.

SAMARIA, [*cadwriaeth*] prif ddinas y deg llwyth. Cafodd yr enw oddiwrth Semer. Prynodd Omri fynydd Samaria gan Semer, er dwy dalent o arian, sef ynghylch £624, ac a alwodd enw y ddinas a adeiladasai efe, ar ol enw *Semer*, arglwydd y mynydd, Samaria. 1 Bren. 16. 24. Gwarchaewyd arni gan Benhadad; cymerwyd hi gan Salmaneser; a chan Hyrcanus, oesoedd wedi hyny, yr hwn a'i dystrywiodd. Gabinus, tywysog Rhufeinaidd, a'i hail-adeiladodd, ac a'i galwodd oddiwrth ei enw ei hun, *Gabiniana.* Helaethwyd ac addurnwyd hi yn fawr gan Herod, yr hwn a'i galwodd wrth yr enw newydd, *Sebaste,* o barch i Augustus; *Sebaste,* yn y Groeg, yw yr un ag *Augustus,* yn Lladin. Gwel Josephus, *Antiq. lib.* xv. *cap.* 13. Amlwg yw, fod yr enw Samaria yn cael ei briodoli i'r wlad oddi amgylch, sef gwlad yr Ephraimiaid, neu y deg llwyth, oddiwrth 1 Bren. 13. 32. Yn y Testament Newydd, arwydda, yn gyffredinol, y wlad rhwng Judea a Galilea, lle y trigai gynt lwythau Ephraim, Manasseh, ac Issachar. Dywedir i'r Iesu fyned 'trwy ganol Samaria i Galilea;' sef trwy ganol y *wlad.* Luc 17. 11.—'Ac efe a ddaeth i ddinas yn Samaria, a'i henw Sichar;' sef dinas yn *ngwlad* Samaria. Ioan 4. 4. Wrth ffynon yn agos i'r ddinas hòno y bu yr ymddyddan rhyngddo â'r wraig o Samaria, yr hyn a fu yn fendithiol iddi hi, ac yn y canlyniad o hono, i lawer o'r Samariaid hefyd. Yn yr ymddyddan hwn â'r wraig, a'r canlyniadau o hono, y mae yr Arglwydd yn ymddangos yn ogoneddus o ran ei ostyngeiddrwydd, ei ddoethineb, a'i raslonrwydd, a'i diriondeb. Y mae yr hanes yn cael ei adrodd yn neillduol o hardd. Dangosir Crist yn ei wir lun a'i agwedd anfeidrol dirion; a dangosir y wraig o ran agwedd ei meddwl, cyn ac wedi yr ymddyddan: ac y mae y cyferbyniad yn nodedig ac amlwg; y mae rhadlonrwydd ac effeithioldeb gras Duw i'w weled yn hynod o amlwg yn y cyfnewidiad a weithredwyd ar ei meddwl mewn byr amser. Yn dywyll, yn gnawdol, yn galed, yn hyf, yn ffraeth, ac yn bechadurus ei meddwl, yr oedd yn dyfod o'r ddinas; ond dychwelodd yn ol yn greadur newydd, yn adnabod ei hun fel pechadur truenus; yn llefaru am Grist yn oleu, yn gadarn, ac yn fywiog; ac yr oedd am i bawb ddyfod i weled y gwr yr oedd hi, ar seiliau digonol, yn credu mai y Messïah ydoedd. Y mae ei thröedigaeth yn hollol o ras, yn fuan, yn gyflawn, ac yn ogoneddus. Daeth i ymofyn dwfr naturiol, ond cafodd yfed o ddwfr y bywyd yn rhad; ac wedi ei brofi, anghofiodd bob peth arall. Gweithredodd yr un gras yn nerthol hefyd ar nifer o'r Samariaid; symudodd a chwalodd eu holl ddychymygion ffol, yn eu hanwybodaeth, am wir grefydd, a darostyngodd eu rhagfarnau, fel y credasant am yr Iuddew tlawd oedd yn eistedd yn flinedig ar y ffynon, mai efe oedd y gwir Fessïah; 'Ni a wyddom,' meddynt, 'mai hwn yn ddiau yw y Crist, Iachawdwr y byd.' Yr oedd pob peth allanol yn gweithredu yn erbyn y cyfryw grediniaeth. Nid oedd yno i'w ganfod ddim ond Iuddew tlawd blinedig, yn eistedd ar y ddaear, heb ddim mawredd na gwychder yn agos ato; y wraig a ddygodd y newydd am dano oedd wael, anfoesol, a digyfrif; etto, ei dystiolaeth am dano ei hun, a'i ymadroddion eraill, dwyfol ac iachusol, a effeithiasant gyd â'r fath oleuni ac awdurdod ar feddyliau y dynion rhagfarnllyd hyn, fel y credasant yn y fan mai efe yn *ddiau* oedd y Crist, Iachawdwr y byd! Y mae yn ddangosiad hynod o ras Duw!

Ar ol dydd y Pentecost, Philip, Pedr, ac Ioan, a bregethasant yno yn llwyddiannus; 'ac yr oedd llawenydd mawr yn y ddinas hòno.' Act. viii. Edr. SIMON MAGUS.

SAMARIAID, trigolion gwlad Samaria. Pan gaethgludodd Salmaneser brenin Assyria y deg llwyth,

Digitized by Google

dygodd bobl o Babilon, a'r lleoedd oddi amgylch, ac a'u cyfleodd yn ninasoedd Samaria. Dygodd y cenedloedd hyn eu heilun-addoliaeth yn ei holl amrywiaeth, gyda hwynt; ac anfonodd Duw lewod i'w plith, y rhai a laddasant amryw o honynt. Mynegasant hyn i frenin Assyria, ac efe a addawodd arferyd moddion i'w haddysgu yn addoliad Duw y wlad. Anfonodd offeiriad a ddygasent o Samaria, yr hwn a ddaeth ac a drigodd yn Bethel, ac a'u haddysgodd pa fodd yr ofnent yr Arglwydd. Cafwyd wedi hyn adysgrifen o lyfrau Moses, a elwir y *Samaritan Pentateuch*, yn eu plith. Pa un ai yr offeiriad hwn, ai rhyw un arall, a'i dygodd iddynt, sydd annilys yn bresennol. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn llythyrenau Samariaidd, ac nid Hebreaidd; ac y mae yn eglur wedi ei ysgrifenu o'r adysgrifen Hebreaidd, oddiwrth yr amryw wallau, trwy gymeryd y naill lythyren Hebraeg yn lle y llall, oedd yn tebygu i'w gilydd. Yr Archesgob Usher a ddygodd y llyfr hwn gyntaf i Ewrop. Gwedi eu dysgu gan yr offeiriad hwn, cymysgasant y grefydd Iuddewig â Phaganiaeth: 'Yr Arglwydd yr oeddynt hwy yn ei ofni, a gwasanaethu yr oeddynt hwy eu duwiau yn ol defod y cenedloedd y rhai a ddygasant oddi yno.' 2 Bren. xvii. Pan ddychwelodd yr Iuddewon o Babilon, y Samariaid a wrthwynebasant â'u holl rym adeiladu Jerusalem, ond yn ofer. Edrych Ezra, Mithredath, Nehemiah, Sanbalat, Rehum, Shetharboznai, Simsai, Tabeel, Tatnai, Tobiah. Ezra iv, v, vi. Nehemiah iii, iv.

Manasseh, mab Jehoiada yr arch-offeiriad Iuddewig, a briododd ferch Sanbalat; am ba achos yr ymlidiodd Nehemiah ef o Jerusalem. Sanbalat a ofynodd genad Darius Nothus i adeiladu teml i'w dduw, i weini ynddi, ar fynydd Garizim. Edr. Garizim. Cafodd ei ddymuniad, ac adeiladwyd y deml. Cyn hyn yr oedd y Samariaid heb un deml. Yr oedd yr elyniaeth rhwng y Samariaid a'r Iuddewon wedi cynnyddu, trwy amrywiol achosion, i radd mawr yn amser ein Hiachawdwr. Yr oedd yr Iuddewon wedi ysgymuno y Samariaid â'r ysgymundod gwaethaf. 'Nid oedd yr Iuddewon yn ymgyfeillach (yn ymgystlwng, W. S.) â'r Samariaid.' Ioan 4. 9. Yr oedd yn rhydd iddynt brynu a gwerthu, ond nid gofyn a rhoddi benthyg, na dangos un math o garedigrwydd; yr oedd hyny yn bechadurus, yn ol barn yr Iuddewon, â gelynion Duw. Pan yr helaethodd ac yr addurnodd Herod Samaria, sefydlodd llawer o'r cenedloedd yn y wlad; ond yr oedd yno rai yn glynu wrth fath o grefydd hanner Iuddewaidd, ac yn dysgwyl am y Messiah, y mae yn amlwg oddiwrth ymddyddan y wraig â'n Hiachawdwr; ond yr oedd yr ymryson rhyngddynt â'r Iuddewon yn boethlyd iawn. Y Samariaid nis derbynient yr Iesu i dŷ, am fod ei wyneb ef yn tueddu tua Jerusalem. Luc 9. 52, 53. Yr Iuddewon a farnent y Samariaid y gwaethaf o ddynion, a'u bod wedi eu meddiannu gan y cythraul. Ioan 8. 48. Pan anfonodd yr Arglwydd ei ddysgyblion allan i bregethu, gwarafunodd iddynt fyned i ddinasoedd y Samariaid. Mat. 10. 5.

Yn bresennol nid ydynt ond ychydig o rifedi; canys y maent wedi parhau hyd heddyw, ac yn glynu wrth eu hen grefydd gyfeiliornus. Y mae ganddynt archoffeiriad, ac y maent yn rhoddi iddo yr hyn a orchymynir yn y gyfraith; y maent yn credu mewn un Duw, a'i was Moses; yn aberthu ar fynydd Garizim; yn cadw y Sabboth yn fanwl, heb syflyd o'u lle ar y dydd hwnw, ond i'r synagog; yn enwaedu yr wythfed dydd; yn gwahardd lliosogrwydd o wragedd, a phriodi nithoedd, yr hyn sydd yn ganiataedig gan yr Iuddewon. Y maent yn derbyn llyfrau Moses, a hwyrach rhanau eraill o'r Hen Destament, ond yn ymwrthod yn gwbl â thraddodiadau Iuddewaidd. Y mae eu harch-offeiriad yn aros yn Sichem, ond y maent hwy yn wasgaredig yn Damascus, Gaza, ie, yn Cairo, yn yr Aipht. Gwel Prideaux, *p.* 1. *b.* 6.—*Ancient Univ. Hist.*, *vol.* ii, iv, ix, x.

SAMGAR, שמגר [*dyfethiad y dyeithr*] mab Anath, ac un o farnwyr Israel, ac a darawodd chwe chant o'r Philistiaid âg irai ychain. Barn. 3. 31. a 5. 6. Tra yr oedd wrth ei amaethwriaeth, daeth y Philistiaid i'r wlad, cafodd ei gynhyrfu a'i gynnorthwyo yn oruwch-naturiol i ymosod arnynt a'u difrodi yn lluoedd, heb un erfyn ond irai ychain. Fel hyn, trwy ffydd, gyrodd fyddinoedd yr estroniaid hyn i gilio, heb arfau rhyfel, ac heb gynnorthwy, ond y Duw Hollalluog, yr oedd yn ymddiried ynddo. Barnwyr 3. 31. a 5. 6. 1 Cor. 1. 27. Olynodd Ehwd fel barnwr, ond dros ba hyd y bu yn ei swydd, nid ydyw yr hanes yn hysbysu i ni.

SAMGAR-NEBO, un o dywysogion brenin Babilon. Jer. 39. 3.

SAMHUTH, שמהות [*dystryw*] un o dywysogion Dafydd a Solomon. 1 Cron. 27. 8.

SAMIR, שמיר [*carchar*] 1. Mab Michah. 1 Cron. 24. 24.——2. Dinas yn mynydd Ephraim, lle y trigai Tola y barnwr. Barn. 10. 1.——3. Dinas yn Judah. Jos. 15. 48.

SAMLAH, שמלה [*gwisg*] brenin Masrecah yn Idumea. Genesis 36. 36.

SAMMAH, mab Reuel, ac wŷr Esau. Gen. 36. 13.

SAMMUA, mab Zaccur, yspiwr dros lwyth Reuben. Numeri 13. 4.

SAMOS, Σαμος [*tywod*] ynys yn y pen dwyreiniol i Fôr y Canoldir, yn nghylch saith milltir o Asia Leiaf. Y mae yn nghylch 80 milltir o gylch; mae y ddaear yn dra ffrwythlon. Yma y ganed Pythagoras, Melissus, a'r dduwies Juno; ac yma bu farw Lycurgus enwog, a Phercydes. Yr oedd yn lle enwog dros amryw oesoedd. Bu ddarostyngedig i amryw lywodraethau olynol. Y mae yn bresennol yn meddiant y Twrc. Er i Paul dirio yn Samos ar ei fordaith i Jerusalem, etto nid oes hanes am Gristionogrwydd ynddi cyn yr ail ganrif. Y mae ynddi yn bresennol yn nghylch 12,000 o Gristionogion; ond y mae gwybodaeth a grym duwioldeb yn isel yn eu plith.

SAMOTHRACIA, ynys yn mor Ægea, yn nghylch ugain milltir o gylch, ac iddi amryw o borthladdoedd cyfleus. Yn yr hen oesoedd, yr oedd yn nodedig am addoliad y *Cabiri*, neu dduwiau mawrion y cenedloedd. Mordwyodd Paul heibio i'r ynys hon, wrth fyned i Macedonia. Actau 16. 11.

SAMSON, שמשון [*haulig*] mab Manoah o Sorah, o lwyth Dan, enw ei fam sydd anhysbys. Barn. 13. 2, 3, 4. Y mae hanes y gwr hwn oll yn nodedig, ac anghyffredin. Gellir meddwl am bob hanes felly dan hen oruchwyliaeth y cysgodau, ei fod yn cyfeirio at ryw beth mwy fel cnewyllyn a gwrthgysgod o honi; a bod yr holl ddygwyddiadau anarferol, ac allan o drefn gyffredin yr Arglwydd o weithredu, wedi eu trefnu fel rhagddangosiadau i'r eglwys o'r Gwaredwr mawr addawedig. Afraid adrodd yma yr hanes rhyfedd a geir am Samson yn Barnwyr xiii, xiv, xv, xvi. Er bod rhai pethau tra beius yn ei fywyd, yn enwedig ei waith yn myned i mewn at buteinwraig yn Gaza; ac er bod cerydd yr Arglwydd yn amlwg arno am hyny; etto nid oes le i ammeu am ei dduwioldeb diffuant, gan fod yr apostol gwedi ei roddi yn y cofrestr o'r rhai enwog gynt am eu ffydd. Heb. 11. 33. Prophwydwyd am dano, tebygol, gan Jacob wrth fendithio ei feibion. 'Dan a farn ei bobl fel un o lwythau Israel. Dan fydd sarph ar y ffordd,

Digitized by Google

a neidr ar y llwybr; yn brathu sodlau y march, fel y syrthio ei farchog yn ol.' Gen. 49. 16, 17.

Fel cysgod o Grist, sylwir yn gyffredin ar y pethau canlynol yn ei fywyd:—1. Ganwyd ef pan oedd Israel yn cael eu gorthrymu dan iau y Philistiaid: felly Crist, pan yr oeddynt dan yr iau Rufeinaidd.——2. Yr oedd ei enedigaeth yn anghyffredin; felly Crist; yr oedd mam Samson yn anmhlantadwy, a morwyn oedd mam Crist.——3. Rhagfynegwyd ei enedigaeth a'i swydd gan angel i'w fam; felly yr ymddangosodd yr angel Gabriel i Mair mam yr Iesu, a rhagfynegodd y cwbl iddi am dano, o ran ei enedigaeth, ei berson, ei swydd, a'i waith.——4. Yr oedd yn Nazaread i Dduw o'r groth; felly yr oedd Crist yn beth sanctaidd pan anwyd ef, ac a gafodd yr enw trwy ei drigiant yn Nazareth.——5. Golygir ei waith yn priodi gwraig o'r Philistiaid, yn cysgodi Crist yn cymeryd eglwys iddo o blith y cenedloedd. Barn. 14. 4. Hos. 2. 20.——6. Yn ei fuddugoliethau, gorchfygodd trwy ei nerth ei hun. Nid blaenor ar gâd, neu dywysog calonog ar lu dewr, oedd Samson; ond ymosododd ei hun, yn ei nerth ei hun, sef y nerth a gafodd gan yr Arglwydd, yn erbyn cenedl elyniaethol, ddewr, a rhyfelgar, ac a fuddugoliaethodd ei hun ar luoedd; felly Crist a 'sathrodd y gwinwryf ei hunan, ac o'r bobl nid oedd neb gyd âg ef.' Esa. 63. 3.——7. Gorchfygodd lew ieuanc, yr hwn a ddaeth yn rhuo i'w gyfarfod, ac a holltodd y llew fel yr holltid mỳn, ac nid oedd dim yn ei law; a chafodd fêl wedi hyny yn ysgerbwd y llew; felly Crist a orchfygodd Satan, y llew rhuadwy, a ffrwyth y fuddugoliaeth hon ydyw yr holl fwyd a'r melysdra a gaiff y saint i ymborthi arnynt.——Barna Vitringa, mai wrth y llew ieuanc, mae i ni ddeall, fel gwrthgysgod, y gwr ieuanc Saul, a orchfygwyd gan Grist, pan oedd yn myned yn rhuo i'w gyfarfod; ac allan o'r bwytäwr, neu y dyfethwr hwn, y daeth bwyd i eglwys Dduw; ac o'r cryf y daeth allan felysdra, sef athrawiaeth iachus i eglwysi y cenedloedd. Vitringa, *Obs. Sacr.*, *lib.* vi. *c.* 22.——Peth anghyffredin ydyw fod gwenyn yn gosod eu mêl yn ysgerbwd llew, a chroes i drefn natur yn y creaduriaid hyn; felly mewn ffordd unigol, goruwch-naturiol, y mae holl gysuron ysbrydol i bobl Dduw.——8. Gwerthwyd Samson i ddwylaw ei elynion; felly hefyd y gwnawd â Christ. ——9. Yn eu marwolaeth hefyd y mae y cysgod a'r gwrthgysgod yn cyfateb yn rhyfedd.—(1.) Bu pob un o honynt farw yn ewyllysgar.—(2.) Yn greulawn trwy ddwylaw gelynion.—(3.) Yn fuddugoliaethus. Col. 2. 15.—(4.) Dygodd Samson ymaith o'r blaen byrth Gaza, pan yr oedd ei elynion yn barnu ei fod yn ddiogel yn eu gafael; felly Crist a lyncodd angeu mewn buddugoliaeth. Edr. Angel, Manoah, Nazaread, Rhyfeddol.

SAMUEL, שמואל [*a archwyd gan Dduw*] mab Elcanah o Hannah; yr hwn oedd o deulu Cohath, ail fab Lefi. 1 Cron. 6. 22, &c. Ganwyd ef yn nghylch yr un amser a Samson. Ei fam, wedi hir anmhlantadrwydd, a'i cafodd ef, yn ateb i weddi, gan yr Arglwydd. 1 Sam. i, ii. Edr. Elcanah, Eli, Hannah. Addunedodd a rhoddodd ef i'r Arglwydd, fel Nazarëad o'i febyd; yn gyfatebol i hyn, yr oedd Samuel dros ei holl fywyd yn flodeuog, ac yn enwog am ei dduwioldeb. Yn ei ieuenctid, yr oedd yn addfwyn, yn gywir, ac yn wir dduwiol; yn ei henaint, gwelir ef yn ffyddlawn ac yn ddiwyd yn cyflawni y dyledswyddau perthynol i'w swydd bwysig. Gwedi ei ddiddyfnu, pan ydoedd yn dair blwydd oed, dug ei fam ef i Siloh, ac a'i cyflwynodd ef i'r Arglwydd a'i waith yno, o hyny allan. Pa beth a allai ei waith yno fod mor ieuanc, ni ddywedir i ni. Addysgwyd ef yn ffyrdd yr Arglwydd, a dysgwyd ef i alw ar enw yr Arglwydd. Rhyw ffordd neu gilydd, yr oedd yn cynnorthwyo mewn rhyw wasanaeth yn nghylch yr addoliad cyhoeddus, yn ol ei allu, a'i oed; yr oedd yn wastad gyd â'r hen offeiriad Eli, ac yn ufuddhau i'w orchymynion. 'Y bachgen a fu yn weinidog i'r Arglwydd ger bron Eli yr offeiriad.—A Samuel oedd yn gweini o flaen yr Arglwydd yn fachgen, wedi ymwregysu âg ephod llian.' Yr oedd ei wasanaeth yn gymeradwy gan yr Arglwydd, er mai plentyn oedd, a gorphwysodd ei fendith arno: 'A Samuel a gynnyddodd, ac a aeth yn dda gan Dduw a dynion hefyd.' —Nid oedd y Lefiaid yn cael eu galw i'w gweinidogaeth nes yr oeddynt yn bump ar hugain oed; ond gan fod Samuel wedi ei gyflwyno i'r Arglwydd mewn modd neillduol, yr oedd er yn fachgen yn gweini yn ngwasanaeth y cysegr, yn y cyfryw bethau ag oedd yn addas iddo. Tebygol fod cynneddfau ei feddwl, a grym ei gorph, yn brysur yn eu cynnydd, tu hwnt i'w oedran; a'i ddiwydrwydd a'i hyfrydwch yn ngwasanaeth Duw mor ieuanc, wedi synu pawb: 'A'r bachgen Samuel a *gynnyddodd* ger bron yr Arglwydd.' Ni chafodd gan feibion Eli ond siamplau drwg o'i flaen, ond cadwodd Duw ef yn ddilwgr. Mae y cyferbyniad rhyngddynt yn cael ei nodi yn neillduol yn yr hanes. 1 Sam. 2. 22—26. Y mae hanes ei febyd yn dirion hynod, ac yn siampl annogaethol i rieni a phlant, i gysegru eu hunain yn foreu i'r Arglwydd; derbyn Duw blentyn i'w wasanaeth, a'i bendithia, ac a'i cymeradwya. Bernir plant gan lawer megys gwrthddrychau anaddas i gyfranogi o wir grefydd; ond y mae Samuel, Jeremiah, Daniel a'i dri chyfaill, Ioan Fedyddiwr, Timotheus, &c., yn siamplau diammheuol i'r gwrthwyneb, y rhai oeddynt enwog am eu duwioldeb yn eu mabandod; ac y mae amryw siamplau hyfryd o'r cyfryw ras ar blant yn ein dyddiau ninnau. Rhwyma gorchymyn Duw ni i'w haddysgu yn foreu yn ffyrdd yr Arglwydd; ac mae ei addewidion, a siamplau o ras Duw ar blant, yn annogaethau digonol i hyny.

Pan ydoedd yn nghylch deuddeg mlwydd oed, ymddangosodd yr Arglwydd iddo, ac a hysbysodd iddo am ddinystr tŷ Eli. Edr. Eli. Yr oedd holl ymddygiad Samuel, pan ofynodd yr hen ŵr iddo am yr hyn a lefarodd yr Arglwydd, yn blentynaidd, yn wylaidd, yn ostyngedig, ac yn dra addas tu ag at Eli. Er i'r Arglwydd o gerydd ar Eli, roddi y blaen i'r bachgenyn, etto, nid ymchwyddodd Samuel ar hyny, ond ymddygodd gyda gwylder hardd a thirion, addas i'w oedran a'i sefyllfa.

Yr oedd gwedi ei barotoi yn foreu i'w swydd brophwydol. Er fod yr Arglwydd gwedi ymddangos yn achlysurol i bersonau neillduol, a hysbysu ei feddwl iddynt, ac wedi anfon cenadwri at ei bobl yn gyhoeddus ar achlysur, megys y darllenwn yn Barnwyr 6. 8. a 1 Sam. 2. 27. ond nid oedd un prophwyd wedi cael ei gyfodi gan yr Arglwydd (ond fel y galwyd Deborah yn brophwydes) er marwolaeth Moses.——Samuel oedd y prophwyd cyntaf o enwogrwydd ar ol Moses; ond gyda Samuel y sefydlwyd y swydd, megys y bu prophwydi olynol dros oesoedd yn Israel, hyd pan ballodd ysbryd prophwydoliaeth gyda Malachi. 'Nid oedd weledigaeth eglur,' cyn hyn: nid oedd weledigaeth gyhoeddus; nid oedd un prophwyd yn cael ei addef felly yn gyffredin, i bawb gyrchu ato i wybod meddwl yr Arglwydd: am hyny yr enwir Samuel yn y Testament Newydd, fel dechreuad olynol ddilyniad o brophwydi. 'A'r holl brophwydi hefyd o Samuel, ac o'r rhai wedi, cynnifer ag a lefarasant, a ragfynegasant hefyd am y dyddiau hyn.' Act. 3. 24. Cyfododd Samuel fel heulwen newydd ar ol hir nos. 'Cynnyddodd Samuel, a'r Arglwydd oedd gyd âg ef. —A gwybu holl Israel, o Dan hyd Beerseba, mai prophwyd ffyddlawn i'r Arglwydd oedd Samuel.' Ar ol Samuel bu Nathan, a Gad, ac Ido, a Heman, ac Asaph ac eraill. Yn niwedd teyrnasiad Solomon, darllenwn am Ahiah; yr oedd prophwydi yn nyddiau Jeroboam



Digitized by Google

a Rehoboam; ac felly yr olynasant eu gilydd hyd y caethiwed. Yn amser y caethiwed yr oedd Ezeciel a Daniel; ac wedi y caethiwed yr oedd Haggai, Zechariah, a Malachi.

Yr oedd y wlad yn llygredig iawn yn nechreu ei ddyddiau. Dygwyd arch Duw i dir y Philistiaid, yr oedd Siloh gwedi ei hamddifadu o addoliad cyhoeddus Duw yno dros lawer o flynyddoedd, lle yr oedd gwedi bod dros oesoedd. Yr oedd y wladwriaeth megys gwedi ei gorchuddio â thywyllwch, a soddi mewn halogedigaeth. Ond ar ol yr yspaid hwn o amser tywyll, gwawriodd boreu hyfryd, a bu diwygiad cyffredinol yn y wlad; hwyrach, yn benaf, trwy lafur y prophwyd Samuel. 'A holl dŷ Israel a alarasant ar ol yr Arglwydd.' Ar hyn annogodd Samuel hwynt yn daer i ymwrthod â'u heilun-addoliaeth, a diwygio yn drwyadl, a dychwelyd at yr Arglwydd: 'Parotowch eich calon,' medd efe, 'at yr Arglwydd, a gwasanaethwch ef yn unig.' Llwyddodd ei annogaethau, ac wrth ei ddymuniad, ymgasglodd yr holl bobl i Mispeh, ac a ymostyngasant ger bron yr Arglwydd yno, am eu pechodau. Tebygol i Samuel lafurio llawer yn eu plith, trwy deithio o fan i fan, a phregethu iddynt trwy yr holl wlad, i'w dwyn i edifeirwch, ac i adferyd gwir grefydd yn eu plith. Bu ei lwyddiant yn gyfatebol, yn y diwygiad mwyaf cyffredinol ac effeithiol a fu erioed yn eglwys Israel. 'Tywalltasant ddwfr ger bron yr Arglwydd, ac ymprydiasant y diwrnod hwnw, ac a ddywedasant yno, Pechasom yn erbyn yr Arglwydd.' Ychydig o eiriau, ond maent yn dra chynnwysfawr. Tywallt dwfr ger bron yr Arglwydd, a gyfeiria, tebygol, at y glanhad defodol dan y gyfraith; yr oeddynt yn cyfaddef eu halogedigaeth, a'u harferiad o'u glanhad yn ol y ddeddf, oedd yn arwyddocaol o'u hedifeirwch, a'u hymadawiad â'u heilun-addoliaeth.

Yn y cyfarfod hwn yr oedd Samuel yn blaenori yn eu plith, ac a 'farnodd Israel yn Mispeh.' Pan glybu y Philistiaid am gynnulliad meibion Israel yn Mispeh, daethant i fynu yn erbyn Israel. Ar hyn bu y bobl yn daer ar Samuel i weddïo drostynt. Tra yr oedd Samuel yn gweddïo, ac yn aberthu, drylliodd yr Arglwydd y Philistiaid â tharanau mawrion. Cyfododd Samuel faen coffadwriaethol o'r fuddugoliaeth ryfedd hon, ac a'i galwodd Ebenezer, sef *y maen cymhorth*. Dan ei ofal a'i lywodraeth bu Israel diogel a llwyddiannus; ac ni chwanegodd y Philistiaid ddyfod yn erbyn Israel holl ddyddiau Samuel. Preswyliai yn Ramah, ac yno y barnai Israel; adeiladodd yno allor i'r Arglwydd. Byddai yn myned oddi amgylch bob blwyddyn i Bethel, a Gilgal, a Mispeh, ac a farnai Israel yn y lleoedd hyny. Yr oedd yn blaenori yn eu plith fel swyddwr gwladol, ac fel prophwyd ac offeiriad Duw; fel yr oedd y bobl yn cael eu dysgu ganddo i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol. Rhyfedd y fendith y dichon Duw wneuthur un dyn mewn gwladwriaeth!

Yr oedd gan Samuel ddau fab, sef Abiah a Joel.—Pan heneiddiodd, gosododd Samuel ei feibion yn farnwyr yn Beerseba. Nid yw yr hanes yn nodi oed Samuel y pryd hwn; ond yr oedd yn analluog i fyned i'w gylchoedd blynyddol fel cynt. Yn preswylio yn Ramah, yr oedd ei hun yn golygu y rhan ogleddol o'r wlad; tra yr oedd ei feibion yn preswylio yn Beerseba, yn golygu y rhan ddeheuol o honi. 'Ond ni rodiasant yn ffyrdd eu tad, ond troisant ar ol cybydddra, a chymerasant obrwy, a gwyrasant farn.' Nid oes un bai yn cael ei roddi yn erbyn eu tad, mewn perthynas iddynt, fel yn erbyn Eli; nac yn eu dygiad i fynu, nac yn eu gosodiad i fod yn farnwyr. Tebygol fod eu hymddygiad yn addas ac yn obeithiol ar y cyntaf, nes eu hudo gan hudoliaethau eu sefyllfa o union lwybrau yr Arglwydd. Y oedd hon yn brofedigaeth drom, diammeu, i'r hen ŵr; yn enwedig o herwydd yr effaith a gafodd ar y bobl; canys o herwydd afreolaeth meibion Samuel, henuriaid Israel a ofynasant frenin i lywodraethu arnynt. Yr ymadrodd a fu ddrwg gan Samuel, ac efe a weddïodd ar yr Arglwydd. Ar hyn y mae yr Arglwydd yn ei gysuro. 'Nid ti y maent yn ei wrthod, ond myfi a wrthodasant,' medd Duw, 'rhag i mi deyrnasu arnynt.' Ni bu un amser fwy achos i Israel fod yn foddlawn dan lywodraeth y barnwyr nag yn amser Samuel, yr hwn a fu yn offeryn defnyddiol iawn yn eu plith; am hyny bu eu hysbryd anffyddlawn ac anniolchgar yn brofedigaeth chwerw i Samuel. Ond yn lle edliw hyny i'r bobl, y mae yn myned i weddïo ar yr Arglwydd, ar ol iddo gael ei gyfarwyddo pa ateb i roddi iddynt.

Mae yr hanes hwn yn ein dysgu i beidio dybynu ar ewyllys da dynion. Cawn yma ddyn duwiol, o ddoniau rhagorol, ffyddlawn yn ei swydd, a defnyddiol iawn yn ei oes, yn cael ei ddiystyru a'i wrthod, gan hyd y nod y dynion a gawsant y buddioldeb a'r lleshâd mwyaf oddi wrtho. Y mae dull Samuel yn myned at Dduw yn yr achos, yn dangos yr union lwybr i bawb yn y cyffelyb amgylchiad, a bydd i'r Arglwydd eu cynnal, eu cysuro, a'u cyfarwyddo, yn wyneb anffyddlondeb pawb.

Mae Duw yn ewyllysio i Samuel ymroddi i daerni y bobl am frenin. Gwedi iddo fynegi iddynt ddull brenin, gwrthodasant wrando arno, gan ddywedyd, 'Nagê, eithr brenin fydd arnom ni.—A dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, Gwrando ar eu llais hwynt, a gosod frenin arnynt.' Cyfarwyddwyd Saul mewn dull rhyfedd ato, a thrwy grybwylliad dwyfol, y mae yn ei eneinio yn frenin. Yr hyn a wnawd yn ddirgel rhyngddynt hwy ill dau yn neillduol, a ddaeth yn fuan yn gyhoeddus. Gwedi cynnull y bobl yn nghyd yn Mispeh, y mae yn eu hargyhoeddi am eu hanniolchgarwch yn gwrthod yr Arglwydd, yr hwn oedd yn eu gwaredu oddiwrth eu holl ddrygfyd a'u helbul: ac y mae yn dangos iddynt eu brenin. Yna Samuel a draethodd gyfraith y deyrnas wrth y bobl, ac a'u gollyngodd ymaith. Ar oedfa arall yn Gilgal, y mae Samuel yn tystiolaethu ei ddiniweidrwydd ei hun, yn ceryddu anniolchgarwch y bobl, yn eu dychrynu â tharanau yn amser cynauaf, ond yn y diwedd yn eu cysuro â thrugaredd Duw: 'Nac ofnwch; chwi a wnaethoch yr holl ddrygioni hyn: etto na chiliwch oddiar ol yr Arglwydd, ond gwasanaethwch yr Arglwydd â'ch holl galon.' Yr oedd gwaith yr Arglwydd yn taranu yn y fath fodd anarferol, yn dystiolaeth amlwg fod yr Arglwydd o blaid Samuel, ac yn erbyn y bobl a'u pechodau. Yn y modd sobr a syml hwn, y mae Samuel yn rhoddi i fynu ei swydd fel barnwr a blaenor yn eu plith, ond etto y mae yn parhau yn ffyddlawn fel prophwyd ac athraw i addysgu y bobl, ac i weddïo drostynt. Yn y sefyllfa hon, gwelwn ef yn ddyrchafedig ac yn anrhydeddus, uwchlaw y brenin a phawb.—'Fy anrhydeddwyr,' medd Duw, 'a anrhydeddaf fi.' Gwedi i Saul alw yr Hebreaid i Gilgal yn erbyn y Philistiaid, y mae yn blino aros am Samuel i aberthu, ac yn aberthu ei hun; y mae Samuel yn ei geryddu am hyny; 'Ynfyd y gwnaethost, ni chedwaist orchymyn yr Arglwydd.—Ni saif dy freniniaeth di.' Ar achlysur arall, y mae Samuel yn cyhoeddi i Saul ddarfod i Dduw ei wrthod am ei anufudd-dod. 1 Samuel x, xi, xii, xiii, xv. Y mae galar Samuel am wrthodiad Saul yn fawr, a hwyrach yn ormodol: 'Pa hyd,' medd Duw, 'y galeri di am Saul, gan i mi ei fwrw ef ymaith o deyrnasu ar Israel?' Y mae Samuel yn cael ei anfon i eneinio un o feibion Jesse y Bethlehemiad yn frenin. Gwedi gwrthddadleu ychydig, o herwydd y perygl o'r cyfryw orchwyl, y mae yn myned ac yn eneinio Dafydd yn frenin. Gwedi hyn, Samuel a giliodd i Ramah, a threuliodd ddiwedd ei ddyddiau i ddwyn yn mlaen achos crefydd a duwioldeb yn y wlad.—

Digitized by Google

Cawn Dafydd yn ffoi ato rhag Saul i Naioth yn Ramah. 1 Sam. 19. 18, &c. Ar ol treulio hir oes o dduwioldeb a defnyddioldeb, bu farw Samuel; a holl Israel a alarasant am dano, ac a'u claddasant yn ei dŷ ei hun yn Ramah. Bu farw pan ydoedd oddeutu 97 neu 98 o'i oedran, C. C. 1059, wedi y dylif 1289. Barnodd Israel yn nghylch ugain mlynedd gwedi marw Eli, a bu fyw yn nghylch wyth mlynedd a deugain gwedi eneinio Saul yn frenin. Edr. ENDOR, SAUL.

Tebygol iawn mai efe a sefydlodd athrofäu y prophwydi, a'i fod yn oruwch-olygwr arnynt oll yn ei ddyddiau. Yn y rhai hyn yr oedd amryw ddynion ieuainc duwiol yn cael eu haddysgu yn nghyfraith yr Arglwydd; ac yn ymuno yn addoliad Duw. Yr oedd presennoldeb Ysbryd yr Arglwydd yn eu plith yn aml. 1 Sam. 10. 11, 12, &c.

Y mae Samuel yn ymddangos yn seren o'r maintioli mwyaf yn ffurfafen yr eglwys Iuddewig. Ei dduwioldeb diffuant, ei ddoethineb, ei bwyll, a'i ffyddlondeb mawr dros gyfiawnder a gwir grefydd, a'i hunanymwadiad, ydynt yn dra eglur i'w canfod dros ystod ei holl fywyd; ac yn ei addasu yn hynod i fod ar y prophwydi. Dywedir ei fod 'gwedi ei *osod* ar gynnulleidfa y prophwydi.' 1 Samuel 19. 20. a 10. 5. Y dysgyblion yn yr athrofäu hyn a alwent, 'y prophwydi,' neu 'meibion y prophwydi.' 1 Bren. 10. 5. Darllenwn gwedi hyn eu bod dan olygiad Elias. Eliseus oedd un o'i *feibion*; dymunodd, fel y mab hynaf yn eu plith, gael ddau parth ei ysbryd i fod yn olynwr iddo; a phan ddeallodd meibion y prophwydi fod ysbryd Elias gwedi gorphwys ar Eliseus, ymostyngasant iddo. 2 Bren. 2. 15. Gwedi hyny, Eliseus oedd eu tad a'u blaenor, fel y darllenwn yn 2 Bren. 4. 18. Yn amser Eliseus yr oedd athrofäu yn amryw fanau yn y wlad; megys yn Bethel, Jericho, a Gilgal; ac yr ydoedd *ysgoldy* yn Jerusalem, hwyrach, o'r un natur, yn mha un y preswyliai Huldah y brophwydes. 2 Bren. 22. 14. Yr oedd ganddynt dai wedi eu hadeiladu i breswylio ynddynt, gyd â'u gilydd. 2 Bren. 6. 1, &c. Ar rai amserau yr ydoedd rhifedi meibion y prophwydi yn lliosog; dywedir i Obadiah gymeryd cant o brophwydi, a'u cuddio bob yn ddeg a deugain mewn ogof. 1 Bren. 18. 4. Tebygol fod yr athrofäu hyn o osodiad dwyfol, trwy orchymyn Duw i Samuel, gan eu bod o'r fath enwogrwydd dan olygiad Elias ac Eliseus wedi hyny. Yr oedd meibion y prophwydi, yn aml, dan ddylanwadau dwyfol, tra yr oeddynt hwy dan addysgiad yn yr ysgolion hyn. Yn gyffredinol, pan alwai Duw ryw un i'r swydd brophwydol, neu i ryw waith anghyffredin, cymerai ef o'r athrofäu hyn, er nad *bob* amser. Oddiwrth hyn y mae Amos yn dywedyd, 'Nid prophwyd oeddwn i, ac nid mab i brophwyd oeddwn i.' Amos 7. 14, 15. Yr ydoedd yn beth neillduol, ac nid yn beth cyffredin, iddo gael ei alw i'r swydd, heb gael ei ddwyn i fynu yn yr athrofäu; canys ffordd gyffredin Duw oedd cymeryd un oddi yno. Yr ydoedd y drefn a'r sefydliad hwn yn beth newydd yn yr eglwys, ac o fawr ddefnyddioldeb. Eu gorchwyl penaf ynddynt oedd astudio, ymofyn, a 'manwl chwilio am yr iechydwriaeth, pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dyoddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny.' 1 Petr 1. 10, 11. Gwel Witsius, *De Prophetis, lib.* i. *cap.* 10.

Ysgrifenodd mewn llyfr, reolau neu gyfraith y deyrnas, yn dangos dyledswydd y llywodraethwyr a'r deiliaid, yr hwn a ddyfethodd un o'r breninoedd, meddant, fel y gallent lywodraethu yn ol eu hewyllys eu hunain. Bernir mai efe a ysgrifenodd lyfrau y Barnwyr a Ruth. Ysgrifenodd lawer o hanes Dafydd. Y ddau lyfr a elwir wrth ei enw, a elwir yn y cyfieithiad Lladinaidd, y *Vulgate, Y cyntaf a'r ail Breninoedd*; ac yn ganlynol, y ddau ar eu hol a elwir, *Y trydydd a'r pedwerydd llyfr y Breninoedd.* Nis gallasai Samuel ysgrifenu ond rhan o'r llyfr cyntaf, hwyrach pedair ar hugain o bennodau. Dywedir am weithredoedd Dafydd, eu bod 'yn ysgrifenedig yn ngeiriau Samuel y gweledydd, ac yn ngeiriau Nathan y prophwyd, ac yn ngeiriau Gad y gweledydd.' 1 Cron. 29. 29. Tebygol wrth hyn i Samuel ddechreu ysgrifenu yr hanes, ac i Nathan a Gad ei orphen, a galwyd y cwbl wrth enw Samuel, o herwydd ei enwogrwydd, a bod y rhan ddiweddaf ond megys attodiad i'r hyn oedd gwedi ei ddechreu ganddo ef. Mae y llyfr cyntaf yn cynnwys hanes yn nghylch chwech ugain o flynyddoedd; yn yr amser y cyfnewidiwyd y llywodraeth, fel yr hysbysais o'r blaen, o fod dan farnwyr i fod yn freninol. Samuel a eneiniodd y ddau frenin cyntaf, ac y mae ganddo law fawr yn holl ddygwyddiadau y rhan fwyaf o'r yspaid hwn. Yr ail lyfr a gynnwys hanes dros yn nghylch deugain mlynedd; gan mwyaf yn rhoddi hanes am deyrnasiad Dafydd, ei fuddugoliaethau, ei gwymp, a'i adferiad. Nid ysgrifenwyd un rhan o hono, gan Samuel; ond ysgrifenwyd ef, tebygol, gan brophwydi a ddygwyd i fynu yn ei athrofäu, ac a alwyd wrth ei enw o barch iddo. Nid yw *enwau* y llyfrau ddim yn un rhan o'r dadguddiad dwyfol. Mae iaith y ddau lyfr yn oleu ac yn ddiaddurn.——Heblaw yr ysgrifenwyr diweddar ar y ddau lyfr, ysgrifenodd yn ddefnyddiol Andrew Willet, ac Arthur Jackson. Hefyd, ar yr ail lyfr, Dr Will, a Guild.

SAN, (sa-an) sylliad, ardremiad, syndod.

> Tra fawn yn effro ac mewn *san*,
> Heb allel allan ddywedyd.
>
> *E. Prys*, (Ps. 77. 4.)

SANBALAT, סנבלט [*arolygydd y fyddin*] Horoniad, sef priodor o Horonaim. dinas yn Moab, pen-llywydd Samaria, a gelyn mawr yr Iuddewon. Un o feibion Jehoiada (sef Manasseh) mab Eliasib, yr archoffeiriad, a briododd ferch Sanbalat; am hyny ymlidiodd Nehemiah ef o Jerusalem, ac ni chaniatai iddo weini yn y swydd offeiriadol. Neh. 13. 28. Ar hyn aeth Manasseh at Sanbalat, yr hwn a adeiladodd deml iddo ar fynydd Garizim i weini ynddi. Aeth âg amryw o'r Iuddewon gyd âg ef, y rhai oeddynt euog o'r un, neu y cyffelyb feiau, ac nad ymostyngent i ddiwygiad Nehemiah. Edr. NEHEMIAH, SAMARIA. Gwel *Universal History, vol.* x. Prideaux, *Connection, part* i., *b.* 5, 6.

SANCTAIDD—EIDDIO—RWYDD—IOL, (san) *Llad.* SANCTUS, SANCTIFICARE; *Ffr.* SANCTIFIER; *Gwydd.* SANT, SAN; *Saes.* SANCTIFICATION, SANCTIFY: glân, parchus, crefyddus, glânfucheddol; cysegredig; cysegru, glanhau, puro; purdeb, dwyfolder. Priodol ystyr y gair *Heb.* קדש a gyfleithir *sanctaidd*, fel y gair Cymraeg *san*,* ydyw neillduedig, peth gwedi ei neillduo o'i arferiad cyffredin, a'i addasu i wasanaeth a dyben uwch. Mai hyn ydyw priodol ystyr y gair sydd eglur oddiwrth Lef. 20. 24.

Mae Duw yn SANCTAIDD. Gelwir ef, Y SANCTAIDD. Job 6. 10.—SANCT ISRAEL. Esa. 41. 20. a 43. 14.—SANCTAIDD YW EI ENW. Luc 1. 49.—Y mae yn OGONEDDUS MEWN SANCTEIDDRWYDD. Exodus 15. 11. Esa. 5. 3. Dat. 4. 8. Y mae ei sancteiddrwydd yn arwyddo ei burdeb hanfodol, a'r gwrthwynebiad hanfodol sydd ynddo i bob anmhurdeb moesol. Y mae yn berffaith rydd oddiwrth bob bai, yn gwbl wrthwyneb i anmhurdeb yn mhob gradd, yn mhob ystyr, ac yn mhawb; ac yn gyflawn o bob rhinwedd a pherffeithrwydd moesol. 'Nid sanctaidd neb fel yr Arglwydd.' 1 Sam. 2. 2. Exod. 15. 11. Dat. 15. 4. Job 4. 18.

1. Y mae sancteiddrwydd ynddo yn hanfodol, ac nid yn ddamweiniol. Nid mae Duw yn sanctaidd yn unig,

* Eglur oedd o'i *santolaeth* a'i fuchedd. *Gr. ab Arthur.*

Digitized by Google

ond sancteiddrwydd yw Duw. Nis dichon beidio bod yn sanctaidd, mwy na pheidio bod. Y mae angelion a dynion drwg yn bod heb sancteiddrwydd, ond nis dichon Duw hanfodi heb sancteiddrwydd, canys sancteiddrwydd yw ei hanfod.

2. Fel y mae yn hanfodi o hono ei hun, felly y mae yn sanctaidd ynddo ac o hono ei hun. Mae yn ddeilliedig yn mhawb eraill sydd yn cyfranogi o hono; ac oddi wrtho ef y mae yn deilliaw i bawb, yn mhob gradd o hono; ond y mae yn Nuw yn ffynon, yn hanfod, yn sylwedd digymysg, a thragywyddol.

3. Y mae sancteiddrwydd yn Nuw yn anfeidrol ac yn ddiderfyn, yn gyfatebol i'w hanfod. Sancteiddrwydd ydyw mewn ëangder, mawrhydi, a harddwch dwyfol. Y mae ei fawredd yn anfesuredig, ac y mae yn brydferthwch sanctaidd i gyd oll. Y mae ei fawredd yn sancteiddrwydd, a'i sancteiddrwydd yn fawredd dwyfol. Y mae yn ymhyfrydu yn sanctaidd yn ei sancteiddrwydd a'i brydferthwch ei hun, gyda hyfrydwch cyfatebol i'w sancteiddrwydd. Nid ydyw yn gweled dim ond harddwch ynddo ei hun, ac y mae yn anfeidrol ddedwydd yn yr olwg ar ei brydferthwch ei hun. Efe yw ei ddedwyddwch ei hun, ac nid oes dim ynddo yn groes i hyny; sef y mae yn berffaith wrth ei fodd ei hun. Nis gellir dywedyd am un briodoledd fel am ei sancteiddrwydd, mae hi yw ei harddwch a'i ddedwyddwch. Bod anfeidrol ac ansanctaidd, fyddai Bod anfeidrol anhardd a thruenus;* ond y mae gweddeidd-dra, purdeb, a sancteiddrwydd yn hanfod anfeidrol ynddo, yn ei wneuthur yn anfeidro hardd a dedwydd; a pho debycaf y byddo un creadur iddo, mwyaf hardd a dedwydd raid iddo fod; ac felly i'r gwrthwyneb.

4. Y mae Duw yn anghyfnewidiol sanctaidd, a sanctaidd yn mhob peth. Nis gellir chwanegu at, na lleihau oddiwrth, ei sancteiddrwydd. Nis dichon lefaru na gweithredu dim heb fod yn sanctaidd; ac nis dichon gymeradwyo dim ansanctaidd yn neb arall. Ps. 5. 5. a 7. 11. Hab. 1. 13. Jer. 44. 4. Amos 5. 21, 22. Nis dichon Duw perffaith, feddwl, arfaethu, na gweithredu dim ond a fyddo yn unol â sancteiddrwydd ei natur.

(1.) Y mae yn sanctaidd yn ei arfaeth. Y mae yn sanctaidd yn y dyben yn ei olwg, ac yn yr holl foddion sydd yn cael eu defnyddio i gyflawni y dyben. Nis gallasai Bod perffaith sanctaidd feddwl nac arfaethu dim ond a fyddai yn sanctaidd, ac yn unol â'i sancteiddrwydd. Er bod cythreuliaid a dynion, trwy weithredoedd ansanctaidd, yn cyflawni arfaeth Duw, etto y mae Duw yn sanctaidd yn ei ddefnyddiad o honynt. Duw sanctaidd, trwy arfaeth sanctaidd, a drefnodd ffordd i bechaduriaid ansanctaidd i gael eu sancteiddio. Eph. 1. 4. Yr oedd yr holl sancteiddrwydd a ddangosodd, neu a ddengys byth, trwy ei weithredoedd, yn ei arfaeth sanctaidd er tragywyddoldeb. Os ydyw yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd yn gweithredu, yr oedd felly yn arfaethu. Yr oedd mwy o sancteiddrwydd yn ei arfaeth nag mewn un weithred o'i eiddo, a chymaint ag yn ei weithredoedd oll yn nghyd.

(2.) Yn ei gyfraith; nid ydyw ynddi yn gorchychymyn dim ond sydd sanctaidd, nac yn gwarafun dim ond sydd yn ansanctaidd; ac y mae yn gorchymyn pob peth sanctaidd, ac yn gwahardd pob peth ansanctaidd. Ps. 19. 7. Rhuf. 7. 12.

(3.) Yn ei holl weithredoedd; gwnaeth bob peth yn dda, a dyn ar ei ddelw ei hun, mewn gwir sancteiddrwydd. Gen. 1. 26, 31. a 5. 1. Preg. 7. 29. Eph. 4. 24. Col. 3. 10.

(4.) Yn ei fygythion a'i farnedigaethau, y rhai ydynt oll yn dangos ei anfoddlonrwydd a'i gasineb at bechod.

(5.) Ond yn fwyaf ac yn benaf, dangosodd ei hun yn anfeidrol sanctaidd yn mhrynedigaeth y byd trwy Grist. Nis dangosodd, ac nis dichon ddangos byth. ei burdeb yn fwy ofnadwy, a'i gasineb at bechod yn fwy tanllyd, nag yn nyoddefiadau trymion y Cyfryngwr mawr. Nis dichon meddwl dyn amgyffred dangosiad mwy dysglaer o sancteiddrwydd, mwy gogoneddus, ac anfeidrol ëang, nag a roddwyd yn Mherson y Messiah, pan y llefodd ar y groes, 'Fy Nuw! fy Nuw! paham y'm gadewaist?' Y mae ei ddyrchafiad goruchel yn y nefoedd yn ganlynol i'w ddyoddefiadau, yn eglurhau yr un gwrthddrych rhyfedd.

(6.) Y mae cyfiawnhad pechadur, ei adnewyddiad, a holl ymddygiad Duw tu ag at y rhai a gyfnewidiwyd, yn ddangosiadau o'r un briodoledd ogoneddus yn Nuw yn ei holl weithredoedd. 2 Petr 1. 4. 2 Cor. 3. 18. 1 Ioan 1. 7. a 3. 2, 3.

(7.) Bydd colledigaeth dragywyddol annuwiolion diedifeiriol yn profi yn eglur, mai 'heb sancteiddrwydd, na chaiff neb weled yr Arglwydd.' Heb. 12. 14. Mat. 5. 8.

Gan fod sancteiddrwydd anfeidrol ac anghyfnewidiol Duw mor ddiammheuol eglur, gellir golygu hyn fel maen prawf i ddangos beth sydd o Dduw: nis dichon fod dim o Dduw ag sydd yn anghytun â'i sancteiddrwydd, ac nad ydyw yn ein tueddu ni i fod yn sanctaidd, ac i barchu Duw am ei sancteiddrwydd. Y mae pob golygiad ar y ddeddf, ac ar yr efengyl, nad ydyw yn tueddu yn ei effeithiau at hyn, yn ddilys yn olygiad cyfeiliornus. Y mae pob syniad yn gyfeiliornus, ac nid o Dduw, ag sydd yn peri i ni edrych yn fach ar bechod, sydd yn berffaith groes i sancteiddrwydd Duw. Nid oes dim yn deilliaw o hono, nac yn gweddu i Dduw, ag sydd ansanctaidd; ac heb sancteiddrwydd, y mae, yn ol natur pethau, yn hollol anmhosibl i ddyn fwynhau Duw, a chymdeithasu âg ef byth. Nid oes un arwiredd yn fwy sefydlog ac eglur na hwn.

SANCTEIDDIO—IAD. Y mae sancteiddio yn arwyddo fod y rhai a sancteiddir yn ansanctaidd, ac mai eu sancteiddio ydyw eu cyfnewid, a'u gwneuthur hwynt yn gwbl groes i'r hyn oeddynt o'r blaen. Os ydynt yn ansanctaidd, eu gwneuthur yn gwbl groes i hyny ydyw eu sancteiddio. Y mae dyn, fel pechadur, nid yn unig yn euog, sef yn euog o drosedd neu fai, ond y mae hefyd yn ansanctaidd; a hyny yn gyffredinol, yn wreiddiol, ac o anian. Collodd ddelw Duw yn y cwymp, sef ei debygolrwydd i Dduw; a chan fod Duw yn sanctaidd, y mae dyn gwedi colli delw Duw, ac yn ei annhebygolrwydd iddo, yn ansanctaidd ac yn halogedig.

Er bod cyfiawnhad a sancteiddhad yn anwahanol gysylltiedig â'u gilydd, a'r naill mor angenrheidiol a'r llall er iechydwriaeth; etto, y maent yn fanwl i'w gwahaniaethu, ac nid eu cymysgu yn ddyryslyd ac annhrefnus â'u gilydd. Duw ydyw Awdwr pob un o'r ddau; Crist ydyw yr achos haeddiannol o honynt, trwy yr hwn y maent yn dyfod i ni, 'yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn *gyfiawnder* ac yn *sancteiddrwydd*.' 1 Cor. 1. 30. Dyben Duw yn y ddau yw ei ogoniant ei hun, ac iechydwriaeth ei bobl: trwy ffydd y mae pob un o'r ddau. Er eu bod hwy yn y pethau hyn yn cytuno, etto y maent yn cael eu gwahaniaethu mewn amryw bethau, ac yn cael llefaru am danynt yn yr

* Priodolwch i Dduw ysbrydolrwydd, hollwybodaeth, hollalluowgrwydd, arglwyddiaeth, tragywyddoldeb, a phob perffeithrwydd arall sydd yn harddu y Natur Ddwyfol, a chymerwch ymaith y rhinwedd hon yn unig, sef y briodoledd hono yn yr Ewyllys Ddwyfol trwy yr hon y mae yn caru yr hyn a alwn ni mewn ystyr foesol yn ddaioni, gwirionedd, cyfiawnder, ac uniondeb; y mae Duw yn myned yn un dychrynllyd i ni, ac nis gallai y dyn goreu lai nag arswydo wrth feddwl am Dduw, yr hwn ni byddai cyfiawnder ac uniondeb yn llywodraethu ei allu anfeidrol; ond mae y priodoliaethau hyn yn ei wneuthur yn ei holl berffeithrwydd yn wrthddrych cariad a pharch. Vitringa *in Isaiah*.

Digitized by Google

ysgrythyrau fel bendithion cwbl wahanol. 1 Cor. 1. 30. a 6. 11. Tit. 3. 5. Dat. 22. 11.

Pe yr un peth fuasai cyfiawnhad a sancteiddhad, nis gallasai yr apostol Paul wadu mor aml ein bod yn cael ein cyfiawnhau trwy weithredoedd; ac nis gallasai neb (gyd âg un rhith o weddeidd-dra) wrthddadleu yn ei erbyn, fod ei athrawiaeth yn arwain i benrhyddid cnawdol, pechadurus. Ond y maent yn amrywio mewn llawer o bethau.—1. Y mae cyfiawnhad yn golygu dyn yn *euog;* ond y mae sancteiddhad yn ei olygu yn *aflan* ac *ansanctaidd.*——2. Gweithred farnedigaethol yw cyfiawnhad, yn cyfrif cyfiawnder i bechadur, ac yn maddeu ei bechod; ond gweithred anianyddol, feddygol ar y dyn, yw sancteiddhad, yn adnewyddu ei holl natur dufewnol.——3. Gweithred gyflawn berffaith yw cyfiawnhad, ar unwaith am byth, trwy ba un mae dyn yn cael ei waredu yn gyflawn oddiwrth golledigaeth, a'i gymmodi â Duw yn gyflawn. Nid oes dim adwneuthuriad i gyfiawnhad, drachefn a thrachefn. Ond gwaith graddol yw sancteiddhad, yn cael ei ddechreu yn yr adenedigaeth, yn cael ei gynnyddu yn raddol, a'i berffeithio mewn gogoniant.

Y mae tri ystyr i'r gair sancteiddio yn yr ysgrythyrau, sef, 1. Amlygiad a chydnabyddiaeth o burdeb a sancteiddrwydd; yn yr ystyr hwn y dywedir fod dynion yn sancteiddio yr Arglwydd, sef yn ei gydnabod yn sanctaidd, ac ymddwyn tu ag ato fel un sanctaidd. Esa. 8. 13. Ezec. 38. 21, 23. 1 Petr 3. 15.——2. Neillduad at wasanaeth sanctaidd; megys sancteiddio y seithfed dydd; sancteiddio y babell, yr allor, &c., a phob glanhad seremoniol. Neillduad oddiwrth arferiad cyffredin, a chyflwyniad i'r Arglwydd. Exod. 19. 16. Lef. 20. 26, &c.——3. Cyfraniad o sancteiddrwydd, trwy yr hwn y mae dyn yn cael ei adnewyddu o'i halogedigaeth, i ddelw Duw. 2 Cor. 7. 1. 1 Petr 1. 16.

Y mae dwy ran mewn sancteiddhad, neu ddwy oruchwyliaeth yn cael eu cyd-ddwyn yn mlaen yn yr enaid; sef, 1. Marwolaeth i bechod, neu farweiddio yr aelodau sydd ar y ddaear.—2. A bywhau ac adnewyddu yr enaid i sancteiddrwydd, yr hyn a eilw yr apostol, 'Dodi heibio yr hen ddyn, yr hwn sydd lygredig trwy chwantau twyllodrus, ac ymadnewyddu yn ysbryd y meddwl, a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyflawnder a gwir sancteiddrwydd.' Eph. 4. 22, 23, 24. Y mae y ddwy oruchwyliaeth hyn yn cael eu cyd-ddwyn yn mlaen yn yr enaid yn barhaus, ac yn gwahaniaethu gwir sancteiddrwydd oddiwrth bob peth ffugiol, hannerog, ac amserol. Y mae yr enaid yn cael ei weithio i agwedd addas tu ag at bob peth, yn cyfateb i'r peth ydyw, sef i gasâu, i roi heibio, i ddyosg, i farweiddio, ac i chwennych yn erbyn y cnawd; ac yn y gwrthwyneb, i synied pethau yr Ysbryd, i chwennych didwyll laeth y gair, i ymestyn at y pethau o'r tu blaen, yn cael ei adnewyddu yn y dyn oddimewn, o ddydd i ddydd. Rhuf. 7. 15. a 8. 5, 13. 1 Petr 2. 1, 2. Eph. 4. 31, 32. Gal. 5. 17. Phil. 3. 13.——Mae gwaith sancteiddhad, yn y golygiadau hyn, yn cael ei osod allan yn neillduol gan yr apostol yn Rhuf. vi.

Y mae cyfatebolrwydd yn ngwaith yr Ysbryd Glân yn sancteiddio y rhai a gredant yn Nghrist Iesu, i'r hyn a weithredwyd tu ag at Grist yn ei berson ei hun, ac yr aeth efe trwyddynt. Efe a groeshoeliwyd, a fu farw, a gladdwyd, ac a adgyfododd; yn gyfatebol, am y rhai sydd yn credu yn Nghrist, ac wedi eu cyfiawnhau trwy ffydd, croeshoeliwyd eu hen ddyn hwy gyd âg ef, er mwyn dirymu corph pechod, fel rhagllaw na wasanaethent bechod; gwnawd hwy yn gyd-blanigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef—wedi meirw i bechod—claddwyd hwy gyd âg ef trwy fedydd, fel arwydd ordinhadol, i farwolaeth—maent yn gyd-blanigion i gyffelybiaeth ei adgyfodiad—y maent yn byw gyda Christ—ac yn byw i Dduw, wedi eu rhyddhau oddiwrth bechod. Y mae Crist yn ffurf—yn achos haeddiannol—ac yn achos effeithiol hefyd, trwy ffydd ynddo, o hyn oll; sef o sancteiddiad y rhai sydd yn credu.

Y mae Crist i'w olygu fel mechnïydd, ac fel pen. Fel mechnïydd y mae yn cyfiawnhau, ac fel pen y mae yn sancteiddio. Ni roddwyd neb i Grist, fel mechnïydd i gael eu cyfiawnhau ynddo a thrwyddo, heb eu rhoddi hefyd iddo fel pen i'w sancteiddio a'u hadnewyddu i'w ddelw; a'i farwolaeth ef, trwy ffydd ynddo, yw yr achos haeddiannol ac effeithiol o'r naill a'r llall. Yn ei farwolaeth y mae ffydd yn cael y cymhelliadau a'r annogaethau penaf i sancteiddrwydd. Yno yn benaf y canfyddir pechod yn ei ffieidd-dra, digofaint Duw yn y tanbeidrwydd mwyaf yn ei erbyn, a chariad Crist yn fwyaf dysglaer yn ein cymhell ni i fyw i'r hwn a fu farw drosom. 2 Cor. 5. 14, 15. Gwedi ein prynu ganddo mor ddrud, gwelwn ei hawl ynom i'w ogoneddu yn ein cyrph a'n heneidiau, y rhai ydynt eiddo ef. 1 Cor. 6. 20. Dug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren; fel, wedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder. Rhoddodd ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, a'n puro iddo ei hun. 1 Petr 2. 24. Tit. 2. 14.

Dangosir yr un peth gan Grist yn Ioan xv. Mae y rhai a sancteiddir yn cael eu gosod allan dan y gyffelybiaeth o gangenau bywiol mewn undeb â Christ; mae y Tad, yr hwn yw y llafurwr, yn eu glanhau; a hyny i'r dyben fel y dygont fwy o ffrwyth. Nis dichon un gangen fyw, a bod yn ffrwythlawn, heb undeb â'r pren; felly ni ddichon pechadur heb undeb â Christ wneuthur dim, sef dwyn dim ffrwyth i sancteiddrwydd. Nid oes neb mewn undeb â Christ heb gredu ynddo; nid oes neb yn credu ynddo, ond trwy yr efengyl; nid oes neb yn credu trwy yr efengyl, ond y rhai y mae yn barhaus yn allu Duw er iechydwriaeth iddynt. Fel hyn y mae holl waith sancteiddiad, sef y marwhau, a'r bywhau, y glanhau, a'r dwyn ffrwyth i Dduw, yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy ffydd yn Nghrist, o weithrediad Ysbryd Duw, trwy yr efengyl: nid ydyw pob peth arall yn mhlith dynion a elwir yn sancteiddrwydd ond ffug a rhith.

Sylw, 1. Mai gwaith yr Ysbryd Glân ar enaid dyn ydyw sancteiddiad, yn gwbl, yn mhob gradd o hono. Rhuf. 8. 13. 2 Cor. 3. 18. 2 Thes. 2. 13. Ezec. 20. 12. 1 Thes. 5. 23. Esa. 63. 11. Titus 3. 5.

2. Gwaith yw ar yr holl ddyn, sef enaid, ysbryd, a chorph. Adnewyddu ein natur y mae, fel mae y dyn yn 'greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.' 2 Cor. 5. 17. Peth newydd ydyw y gras a gyfrenir yn yr ail-enedigaeth; rhyw beth *de novo* sydd yn cael ei blanu yn y galon ydyw, na bu erioed o'r blaen yn y natur ddynol; naddo, ddim yn Adda yn ei ddiniweidrwydd. Nid gweithredu ar hen weddillion y ddelw greadigol, neu eu gweithredu hwynt i radd uwch; nid eu diwygio y mae, ac adgyweirio yr hen ddelw adfeiliedig ar ddyn; ond y mae yn gwbl yn waith newydd, a hyny yn yr holl ddyn. Y mae pethau newydd yn cael eu cyfranu, a hyny yn gyffredinol. Nid rhoddi darn o beth newydd, ychwaith, at hen beth, ydyw y gwaith hwn: ond y mae *pob peth* yn newydd; sef anian newydd yn gweithredu yn sanctaidd yn holl alluoedd yr enaid. 1 Thes. 5. 23.

3. Y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu ar y dyn yn gyfatebol i'w natur; sef y mae yn adnewyddu yr enaid i weithredu yn rheolaidd, ac yn gyfatebol i'w weithrediadau yn nghylch pethau eraill; sef yn oleu, yn rhydd, ac o ddewisiad; yn serchog, yn hyfryd, ac yn barhaus. Er nad ydyw yr ewyllys gan ddyn wrth naturiaeth, etto, nid oes neb yn gweithredu yn sanctaidd o'i anfodd—ni byddai hyny yn sancteiddrwydd; eu gwneyd yn ewyllysgar sanctaidd y mae yr Ysbryd

Digitized by Google

Glân. Psalm 110. 3. Phil. 2. 13. Dewis bod yn sanctaidd, a gweithredu yn sanctaidd, y mae pawb sydd yn gweithredu felly. Gwneuthur peth sydd ynddo ei hun yn sanctaidd yn anfoddlon, yw ei wneuthur yn bechadurus, ac nid oes dim sancteiddrwydd ynddo. Os ydyw yr enaid yn cael ei sancteiddio, y mae yn sanctaidd yn ei holl alluoedd, ac yn ei holl weithrediadau. Y mae yn deall yn sanctaidd, yn ewyllysio yn sanctaidd, yn caru, yn casâu, yn ofni, ac yn credu yn sanctaidd. Nid oes dim cyfnewidiad yn ngalluoedd yr enaid yn eu dull o weithredu, rhagor na'u bod hwy yn gweithredu yn sanctaidd, ac nid yn bechadurus. Pan fyddo yn berffaith sanctaidd, bydd yn gweithredu mor rhydd a phan yr ydoedd yn gwbl rydd oddiwrth gyfiawnder. Yn bresennol, y mae sancteiddrwydd yn ei weithrediadau yn ymddangos lawer iawn yn ei wrthwynebiad i bechod, yn ei holl gynhyrfiadau a'i weithrediadau.

4. Y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu wrth sancteiddio pechadur yn gwbl yn ol trefn fawr yr iachawdwriaeth yn Nghrist. Y mae yn ei gymmodi â threfn Duw, ac â phob peth yn Nuw; yn ei uno â Christ; yn ei ddysgu ef i iawn ddefnyddio Crist yn ei holl swyddau; i'w werthfawrogi fel Crist Duw, ac i bwyso arno; i dderbyn yn barhaus o'i gyfiawnder, i ufuddhau iddo, ei ddilyn, a'i wasanaethu. Nid oes dim sancteiddrwydd i bechadur i'w gael byth allan o Grist. 1 Cor. 1. 30. Eph. 5. 25, 27. Ioan 1. 16. a 17. 19. Col. 2. 19.

5. Y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu trwy y moddion a sefydlodd Duw yn ei eglwys i'r dyben hwnw. Titus 3. 5. Y mae yn dysgu y pechadur i barchu y gosodiadau dwyfol, eu harferyd yn ddyfal, ac i ddysgwyl wrth Dduw trwy ffydd ynddynt. Tan ei ddylanwadau y mae yn rhoddi cwbl ddiwydrwydd, a hyny nid o orfod anfoddog, ond o ddewisiad, gan ei fod yn newynu a sychedu am gyfiawnder. 2 Petr 1. 5, 8, 10. Anhawdd credu fod un dyn diog, syrthlyd, diffrwyth, wedi cael ei sancteiddio yn wirioneddol gan yr Ysbryd Glân.

6. Y mae y sancteiddrwydd yma, yn y rhai a adnewyddir, o'r un natur ag oedd yn Adda yn mharadwys, ond ei fod yn wychach, yn odidocach, ac yn angholladwy; yr un yw ag a ofynir yn y gyfraith, sef caru Duw â'n holl galon, a'n cymydog fel ni ein hunain; yr un ffurf ydyw a delw Mab Duw, neu natur ddynol Crist, ond ei fod ynddo ef mewn graddau uwch a difesur. Rhuf. 8. 29. Yr un yw ag y bydd yn y nefoedd, ond ei fod yno yn rhagori mewn graddau: eginyn yw yma, ond ŷd llawn yn y dywysen y bydd yno. O herwydd hyn nid ydyw yn cael ei enwi yn nghadwyn euraidd yr apostol yn Rhuf. 8. 30. gan ei fod yn gynnwysedig yn y gair *gogoneddodd*, yr hyn yw sancteiddrwydd wedi ei berffeithio. Maent wedi eu neillduo i Dduw yma yn bobl briodol, ac wedi eu cyfranogi â sancteiddrwydd at y gwaith sanctaidd y byddant wrtho byth yn y nefoedd. Adenedigaeth, galwedigaeth, a'i ddygiad i undeb â Christ, yw cychwyniad cyntaf yr enaid yn y bywyd newydd; sancteiddhad yw ei barhad a'i gynnydd mewn gweithrediadau a rhodiad sanctaidd; a gogoneddiad ydyw y perffeithiad o hono. Edrych ADENEDIGAETH, ADNEWYDDU, DELW, DYOSG, EDIFEIRWCH, ENW, FFURF, GLANHAU, GWISG, IACHAU, NEFOEDD, PERFFEITHIO, YSBRYD, PURO.

'Cadw fy enaid; canys sanctaidd ydwyf.' Ps. 86. 2. 'Canys duwiol ydwyf.' Dr M. חסיד (*casid*) sef *un a gafodd ffafr*; ac o herwydd hyny sydd yn ymroddi ac yn ymneillduo i Dduw, i'w wasanaethu yn ffyddlon. Deut. 17. 6, 8. Rhuf. 9. 23, 24. Cyfieithir yr un gair *saint*, yn Ps. 30. 4. a 116. 15. Diar. 2. 8. —*duwiol*, yn Ps. 4. 3. a 32. 6. Gwel Hammond ar Ps. 4. 3. a 86. 2.

'Hwn a sancteiddiodd y Tad, ac a'i hanfonodd i'r byd.' Ioan 10. 36. 'A gysegrodd i fod yn apostol i'r byd.' Campbell. Hwn a gysegrodd ac a neillduodd y Tad i swydd, ac at y gorchwyl mwyaf ei bwys. Yr oedd wedi ei gysegru a'i neillduo yn y cynghor tragywyddol, cyn ei anfon i'r byd, i'r swydd gyfryngol. Profa hyn ei hanfodiad tragywyddol fel Person Dwyfol, a'i fod yn wir Dduw. Yn nghynghor ac arfaeth Duw neillduwyd ef i'r swydd, ac anfonwyd ef i'r byd i gyflawni y gwaith perthynol iddi. Gwel Campbell in *loc.* & *Dissert.* vi., *part* 4., *sec.* 9—13.

'Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy sancteiddio fy hun.' Ioan 17. 19. Yn cysegru, neu yn neillduo fy hun; neu yn aberthu fy hun. Y mae cysegru yn arwyddo, weithiau, aberthu. Exod. 13. 2, 14, 15. Rhoddodd ei hun yn ewyllysgar i'r gwaith, sef i fod yn offrwm ac yn aberth i Dduw dros ei bobl. Jer. 1. 5. 1 Cor. 1. 2, 30. Heb. 2. 11. a 9. 13, 14, 18, 26. a 10. 5—10, 29.

'Canys y gwr digred a sancteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gwr. Pe amgen, aflan yn ddiau fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt.' 1 Cor. 7. 14. Fel yr arwydda y gair *sancteiddio*, neillduo, addasu; felly, gellir cyfieithu y geiriau yma, 'Y gwr digred a addasir i'r wraig, a'r wraig ddigred a addasir i'r gwr;' sef trwy eu priodas a'u serch at eu gilydd. Wrth *sanctaidd* yma, y meddylir, medd Musculus, purdeb a dihalogrwydd y gwely priodasol, rhwng credadyn ac angrhedadyn; trefn Duw ydyw priodas, ac y mae yn anrhydeddus yn mhawb, ac y mae y plant a genedlir ynddi, yn lân, yn gyfreithlon, ac yn anrhydeddus. Eu priodas sydd yn cyfreithloni eu cyd-drigiad, ac nid yw eu crefydd yn eu haddasu na'u hanaddasu, ond fel y mae gwir grefydd yn eu haddasu i gyflawni y dyledswyddau priodasol. Y mae y gair *sanctaidd* yn eglur yn arwyddo, rhai â hawl ganddynt i freintiau neillduol pobl Dduw. Exod. 19. 6. Deut. 7. 6. a 14. 2. a 26. 19. a 33. 3. Ezra 9. 2. Esa. 35. 8. a 52. 1. Actau 10. 28. Yn yr ystyr hwn y gellir golygu y gair yn y fan hon; os byddai ond un o'r ddwy blaid, y tad neu o fam, yn proffesu Cristionogrwydd, yr oedd y plant â hawl ganddynt i freintiau eglwysig, yr un fath a phe buasai y ddau yn proffesu. Yr oedd arferiad yr eglwys yn hyn yn dangos ei barn am gyfreithlonrwydd cyd-drigiad y cyfryw gyd â'u gilydd.

'Mewn harddwch sancteiddrwydd o groth y wawr,' &c. Ps. 110. 3. Nid ydyw holl drefn yr attaliadau yn yr ysgrythyrau ond dyfais ddynol; ac am hyny nid ydyw cyfnewid dull eu gosodiad yn anaddas, ac yn bechadurus, os bydd hyny yn rhoddi ystyr mwy goleu. Cyfnewidia rhai yr attaliadau yn yr adnodau hyn fel y canlyn:—

'Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Sion,
Llywodraetha Di yn nghanol Dy elynion, Dy bobl ewyllysgar yn nydd Dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd.
O groth y wawr y mae gwlith Dy enedigaeth i Ti.'

Gwel *Universal History. vol.* iii.

SANDAL—AU, *Llad.* SANDALUM; *Ffr.* SANDALE; *Saes.* SANDAL. Marc 6. 9. Actau 12. 8. Edr. ESGID.

SANSANNAH, סנסנה [*cangenau*] dinas yn Judah. Jos. 15. 31.

SANT, SAINT, SEINTIAU, (san) neillduedig; gwahanedig; un wedi ei neillduo; un wedi ei sancteiddio. Y mae y gair hwn o darddiad Cymraeg, fel y mae y geiriau *sanct*, a *sanctaidd*, tebygol, gwedi eu benthyca (heb achos) o'r iaith Lladin. Edr. SANCTAIDD. Gelwir wrth yr enw hwn yn aml, yn enwedig yn epistolau Paul, y rhai sydd gwedi eu galw trwy yr efengyl, oddiwrth bob peth pechadurus, at Dduw, at sancteiddrwydd, ac i addoli, mwynhau, a gogoneddu Duw. Ystyr y gair *Heb.* קדוש y gair *Gr.* *αγιος*, a'r gair *Llad.* SACER, yw peth, neu un, wedi ei neillduo

Digitized by Google

oddiwrth arferiad cyffredin at waith neillduol; megys llestri sanctaidd, dillad sanctaidd, lle sanctaidd; y rhai a gyferbynir i חֹל κοινον, *cyffredin*, neu *aflan*. A chan fod yn rhaid i'r anifeiliaid a aberthent i Dduw, yn ol cyfraith Moses, fod yn ddifeius, ac yn ddifrycheulyd; felly golygir y saint sydd trwy effaith galwad Duw, gwedi dianc oddiwrth halogedigaeth y byd, ac wedi ymroddi i Dduw, a sancteiddrwydd; y maent 'yn sanctaidd yn nghorph ac ysbryd.' 1 Cor. 7. 34. Yn byw mewn 'sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb.' 2 Petr 3. 11. Afreidiol chwanegu yma ar y mater hwn at yr hyn a roddwyd ar lawr dan y geiriau Sanctaidd, Sancteiddio.

'At y rhai a alwyd yn saint.' 1 Cor. 1. 2. κλητοις αγιοις, *at y galwedigion, at y seintiau.* Macknight. Galwedigion yn gyntaf, ac yna seintiau, fel effaith eu galwedigaeth. Gwedi eu 'galw gan Dduw i gymdeithas ei Fab ef Iesu Grist ein Harglwydd.' Adn. 9. Mae godineb, a phob aflendid, a chybydd-dra, yn anweddus i saint (Eph. 5. 3.) o herwydd mai pethau aflan ac ansanctaidd ydynt, ac y maent yn aflanhau y rhai sydd yn byw ynddynt.

'Y mae yr Arglwydd yn dyfod gyda myrddiwn o'i saint.' Judas 14. 1 Thes. 3. 13. εν μυριασιν αγιαις αυτου, *gyd â'i fyrddiynau sanctaidd o angelion.* Macknight. Mai yr angelion a feddylir, sydd amlwg wrth gymharu yr ysgrythyrau canlynol: Mat. 16. 27. Zech. 14. 5. Heb. 12. 22. Dan. 7. 10. Dat. 5. 11. Myned i gyfarfod â Christ a wna y dynion sanctaidd, ac nid dyfod gyd âg ef. 1 Thes. 4. 17.

'Ond y mae Judah etto yn llywodraethu gyda Duw, ac yn ffyddlawn gyd â'r saint.' Hos. 11. 12.—'Ond Judah etto a gaiff lywodraeth gyda Duw, ac a sefydlir gyd â'r rhai sanctaidd.' Esgob Horsley. Addewid yw y geiriau o adferiad y llywodraeth Iuddewig yn y dyddiau diweddaf.—'A sefydlir,' נאמן Geill y gair arwyddo, naill ai ffyddlondeb Judah gyd â'r saint; neu ynte, cadernid y gynnaliaeth a gânt ganddynt.—'Y saint,' קדושים *y rhai sanctaidd.* Lyra, Œcolampadius, Munster, Mercer, Vetablus, a Horsley, a ddeallant y geiriau yn arwyddo y Personau Dwyfol; felly hefyd y barnodd R. Tanchum, a Kimchi. Eraill, megys Zanchy, Rivet, &c. a farnant mai wrth y *saint*, y meddylir gweinidogion sanctaidd yr eglwysi, y rhai y byddant yn ffyddlawn yn eu cynnal, eu parchu, ac yn ufuddhau i'w haddysgiadau. Ond nid yw yr ystyr cyntaf yn cau allan y diweddaf; canys nid oes neb yn ffyddlawn gyda Duw, heb fod yn ffyddlawn hefyd gyd â'i weision.

'Ei holl saint ydynt yn dy law.' Deut. 33. 3. Sef holl saint Israel; neu ynte saint Duw, fel yn Ps. 34. 9. 'Ofnwch Iehofah, ei saint ef.' Felly, ei saint, a arwyddant, dy saint.—'Yn dy law,' sef yn ei ofal, ei ymgeledd, ei amddiffyn, a than ei arweiniad, a'i lywodraeth. Gwel Num. 4. 28, 33. Arwyddant eu diogelwch anfethedig. Ioan 10. 28, 29.

'Traed ei saint a geidw efe—ynddynt hwy y mae ei holl hyfrydwch.' 1 Sam. 2. 9. Ps. 16. 3. Er mai saint ydynt, etto gweiniaid ydynt, ac y mae iddynt lawer o elynion cedyrn; ond 'eu Gwaredwr sydd gryf, Arglwydd y lluoedd yw ei enw—ni edy ei saint—ond a geidw eu heneidiau.' Jer. 50. 34. Ps. 37. 28. a 97. 10.——'Y mae yn cadw ffordd ei saint;' sef yn eu cadw ar y ffordd, ac yn eu cynnal ac yn eu dyddanu hwy ynddi. Diar. 2. 8.

'Gorfoledded dy saint.' Ps. 132. 9. a 149. 5. Mae achos addas a chyfreithlawn o orfoledd iddynt,—1. O herwydd y gras rhyfedd trwy yr hwn y gwnawd hwy yn saint, y rhai oeddynt unwaith mor bell, a chwbl groes i hyny.——2. O herwydd cyfammod Duw â hwynt, a'r breintiau anfeidrol cynnwysedig ynddo.——3. O herwydd ffyddlondeb Duw iddynt, a'r dedwyddwch annhraethol o'u blaen, mewn sicr obaith o'i fwynhau. 'Saint y Goruchaf,' er gwaethaf eu holl wrthwynebwyr, 'a feddiannant y freniniaeth hyd byth, a hyd byth bythoedd.' Dan. 7. 18.

SANU, (san) aruthraw, synu, syllu, brawychu.—'A'r gwyr oedd yn cydymddeith ffordd ac ef, a safasant wedy sanny.' Act. 9. 7. W. S.

SAPH סף [*brwyn*] un o feibion y cawr; yr un a Sippai, yr hwn a laddwyd gan Sibbechai yr Husiad. 2 Sam. 21. 18. 1 Cron. 20. 4.

SAPHAN, ysgrifenydd y brenin Josiah. 2 Bren. 22. 12. 2 Cron. 34. 20. Jer. 29. 3. a 36. 10. Ezec. 8. 11. Efe a ddarllenodd lyfr y gyfraith i'r brenin, wedi i Hilciah yr arch-offeiriad ei gael yn y deml.

SAPHAT, 1. Mab Hori, yspïwr dros lwyth Simeon. Num. 13. 5.——2. Tad Eliseus. 1 Bren. 19. 16, 19. 2 Bren. 3. 11.——3. Mab Semaiah. 1 Cron. 3. 22.——4. Mab Adlai, yr hwn oedd ar ychain Dafydd yn y dyffrynoedd. 1 Cron. 27. 29.

SAPHER.—'Mynydd Sapher:' gwersyllfa Israel yn yr anialwch. Num. 33. 23. Pa fynydd yw hwn sydd anhysbys; nis gellir yn bresennol benderfynu ei sefyllfa.

SAPHIR, *Heb.* ספיר (*shaphir*) *Gr.* σαφιρος; *Llad.* Saphirus.—1. Maen gwerthfawr. Yr ail faen yn yr ail res oedd yn nwyfroneg yr arch-offeiriad, a'r ail yn sylfaen y Jerusalem newydd. Exod. 28. 28. Esa 54. 11. Dat. 21. 19. Mae y maen hwn yn hardd a yn werthfawr; y nesaf at y *diamond* yw mewn claerder, harddwch, caledrwydd, a gwerth. Y mae o liw glas yr wybr, nef-liw, neu glas goleu. Y goreu yn y byd a ddygir o Pegu yn yr India Ddwyreiniol; y mae eraill yn dra hardd i'w cael yn Bisnagar, Conanor, Calicut, ac ynys Ceylon. Y mae saphir Silesia a Bohemia yn waelach o lawer. Ond mae y maen presennol yn gwbl wahanol oddiwrth yr un a elwid wrth yr enw gynt. Yr oedd hwnw yn annhryloyw, o liw glas tywyll, a gwythïenau gwynion, ac aur-foglynau drwyddo. Exod. 24. 10. Galar. 4. 7. Ezec. 28. 13. Job 28. 6. Y mae traddodiad yn mhlith yr Iuddewon, mai ar ddau faen saphir yr ysgrifenodd Duw y gyfraith. Edr. Gwydr.——2. Dinas, medd Eusebius, a Houbigant, yn Judah, rhwng Elutheropolis ac Ascalon. Mic. 1. 11.

SAPPHIRAH. Act. 5. 1—11. Edr. Ananias.

SAPHNATH-PAANEAH. Edr. Joseph.

SAPHON, צפון [*cuddiedig*] dinas yn Gad. Jos. 13. 27.

SARAH, שרה [*dywysoges*] SARAI שרי [*fy nhywysoges*] 1. Gwraig Abraham; yr un, tebygol, ag Iscah merch Haran, brawd Abraham, ac ŵyres Terah, ond nid o'r un fam ag Abraham. Yn ol barn llawer, merch Terah oedd Sarah, a hanner chwaer i Abraham; 'merch fy nhad yw hi,' medd Abraham, 'ond nid merch fy mam.' Gen. 11. 29. a 20. 12. Os felly, bu i Terah ddwy o wragedd. Edr. Abraham, Hagar, Isaac, Ismael. Yr oedd yn wraig brydweddol, yn enwog am ei ffydd, yn siampl anrhydeddus o ufudd-dod a pharch i'w gwr, ac yn arwydd cysgodol o'r cyfammod gras, a'r oruchwyliaeth efengylaidd. Heb. 11. 11. 1 Petr 3. 6. Gal. 4. 22—31.

'Trwy ffydd Sarah hithau yn anmhlantadwy, a dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd.' Heb. 11. 11.—'Trwy ffydd Sara hithau a dderbyniodd nerth y ymddwyn had.' W. S. '*Through faith also Sarah herself received strength to conceive seed.*' *Saes.* Nid oes un gair yn yr argraffiadau cyffredin o'r Testament Groeg yn ateb i'r gair *anmhlantadwy* yn ein cyfieithiad awdurdodedig ni, a'r eiddo y Dr M. Mae y geiriau στειρα ουσα, *yn anmhlantadwy*, wedi eu rhoddi yn yr argraffiad a elwir y *Complutensian*

Digitized by Google

*Vulg. Lat. Sterilis.* Ond addas, medd y Dr Owen, y gadewir hwynt allan, am nad ydynt i'w cael o'r d mewn dau o adysgrifeniadau, sef oedd wybodedig i'r Dr Owen; tebycach, medd efe, eu rhoddi i mewn yn y ddau hyny, na'u gadael allan yn y lleill oll. Gwel y Dr Owen, Beza, Pool's *Synopsis*.

'A dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd;' sef trwy ffydd. *Gr.* Εις καταβολην σπερματος, *i ymddwyn, maethu, ac esgor ar hâd cyflawn, perffaith,* yn ei briodol amser. Ar y cyntaf, ammheuodd trwy anghrediniaeth, gan farnu ei fod yn anmhosibl iddi hi ymddwyn yn yr oedran yr oedd hi ynddo; ond pan ddeallodd mai angel Duw, sef angel mawr y cyfammod, ydoedd y gwr oedd yn ymddyddan âg Abraham, a'i fod yn adnabod iaith ei chalon y pryd hwnw, ac iddo addaw hefyd ddychwelyd ati yn nghylch amser bywiolaeth, nid ammheuodd mwyach, ond ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawsai. Dichon ffydd gael ei hysgwyd a'i phrofi gan anhawsderau yn eu hymddangosiad cyntaf ar ffordd yr addewid i gael ei chyflawni, ac etto yn y diwedd bod yn fuddugoliaethus. Pryderodd Mair ychydig heb ddeall y dull y cyflawnid yr addewid; ond yn y fan hi a ymuniawnodd i'w lle, ac ymdawelodd yn ngallu a ffyddlondeb Duw. Luc 1. 34, 38. Ammheuodd Zacharias gyflawniad yr addewid, gan gymaint yr anhawsderau ar y ffordd yn ei olwg. Luc 1. 18, 20. Felly y petrusodd Sarah ar y cyntaf, a cheryddwyd hi am hyny; ond nid ammheuodd Abraham addewid Duw trwy anghrediniaeth. Rhuf. 4. 20.

'Derbyniodd nerth i ymddwyn;' nid oedd ynddi, ac ni chafodd ef o honi ei hun; ond adferwyd ei grym naturiol fel yn ei hieuenctid, fel y gwnawd i gorph Abraham hefyd. Er mai Duw a wnaeth y cwbl, a hyny yn ol ei drefn a'i arfaeth ei hun, etto, priodolir hyn i'w ffydd hwy. Trefnodd a gweithredodd ffydd yn Sarah yn gystal a'r holl effeithiau a'r canlyniadau o hyny. Ar Dduw yr oedd ei ffydd yn terfynu am y peth yr oedd wedi ei addaw; ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawodd, a hyn oedd ei sail i obeithio am y peth addawedig. Gwrthddrych gobaith yw y peth addawedig; ond gwrthddrych ffydd ydyw yr Addawydd, a'i holl berffeithiau dwyfol, sef ei ffyddlondeb, ei allu, a'i anghyfnewidioldeb: ffyddlawn y barnodd hi yr hwn a addawsai, yna derbyniodd nerth i ymddwyn. Tra yr oedd yn ystyried ei hoedran ei hun, a gwendid a diffrwythder ei chorph, yr oedd yn ammeu; ond pan ystyriodd ffyddlondeb a mawredd Duw, gorchfygwyd ei hammheuon; cafodd nerth i gredu yn wyneb ei gwendid yn gyntaf, yna derbyniodd nerth i ymddwyn; adnewyddwyd ei hieuenctid a'i hireidd-dra boreuol. Felly y mae ffydd etto yn gweithredu yn mhawb: mawredd Duw yr addawydd ydyw ei gwrthddrych i bwyso arno, yn wyneb anhawsderau mawrion o'n tu ni; a chanlyniad credu ydyw derbyn pob peth yn yr addewid. Ni dderbyniodd nerth i ymddwyn cyn credu; ond credodd Dduw yn ei gwendid, a'i hen oedran, ac yna derbyniodd nerth. Y mae pob peth addawedig gan Dduw yn y gair âg anmhosiblrwydd ar ffordd y cyflawniad o hono, heb olygu nad oes dim yn anmhosibl gyda Duw. Ni chafodd un gradd o nerth nes credu yn gyntaf; yr un oedd ei hoedran a chyflwr ei chorph pan yr oedd yn credu, a phan yr oedd yn ammeu; ond cafodd wahanol olwg ar allu a ffyddlondeb Duw; yn syniad ei meddwl hi yr oedd y cyfnewidiad—sef edrychodd ar Dduw yr addawydd, ac nid arni ei hun. Bu farw yn Hebron, yn 123 oed, ac a gladdwyd yn Machpelah. Gen. xii, xvi, xviii, xx, xxi, xxiii.

2. Merch Aser. Num. 26. 46.

SARAI. Ezra 10. 40.

SARAIM, dinas yn Judah. Jos. 15. 36. 1 Sam. 17. 52. 1 Cron. 4. 31.

SARAPH. 1 Cron. 4. 22.

SARESER, mab Senacherib. 2 Bren. 19. 37.

SARDIN, *Gr.* σαρδινος; maen gwerthfawr, o liw coch y gwaed; y cyntaf oedd yn nwyfroneg yr archoffeiriad, a'r chweched yn sail y Jerusalem newydd. Exod. 27. 18. Dat. 21. 20. Cyffelybir yr Arglwydd i'r maen hwn i arwyddo ei fawrhydi, a'i ddigofaint ofnadwy yn erbyn ei elynion. Dat. 4. 3.

SARDIS, σαρδεις [*cân orfoleddus*] dinas yn Asia Leiaf, wrth droed mynydd Tmolus. Hi ydoedd prif ddinas Lydia, a chymerwyd ac anrheithiwyd hi gan Cyrus; lle cafodd lawer iawn o gyfoeth. Pregethwyd yr efengyl ynddi yn foreu; ond gan bwy, a pha bryd, nid yw hysbys. Tebygol yw, mai yr amser y 'darfu i bawb ag oedd yn trigo yn Asia (Leiaf) glywed gair yr Arglwydd.' Act. 19. 10. Anfonodd Iesu, trwy Ioan, epistol at angel yr eglwys yno, yn ei argyhoeddi o'i farweidd-dra, ei ffurfioldeb, a'i ragrith; yn annog yr eglwys i edifeirwch, ac yn ei bwgwth, onid edifarhai, â barnedigaeth ddisymwth. 'Mi a ddenaf arnat fel lleidr, ac ni chai di wybod pa awr y deuaf arnat.' Dat. 3. 3. Nid ydyw ond pentref gwael yn bresennol, dan lywodraeth y Twrc. Mae ychydig weddill o Gristionogrwydd yno yn para, ac mae un yn cael yr enw Esgob yn eu plith. Bu un Melito yn Esgob yno yn foreu, yr hwn oedd o enwogrwydd, ac a ysgrifenodd amddiffyniad Cristionogrwydd, yn amser yr ymerawdwr Marcus Aurelius, A. D. 170, neu 175.

SARDIUS, σαρδιος, maen gwerthfawr, yr un a σαρδινος (*sardinos*) a alwyd felly o herwydd *ei gael* gyntaf gan drigolion Sardis yn Asia Leiaf, neu o ynys Sardo, neu Sardinia. Yr un yw a'r *cornelian*, yn goch ei liw, ac yn hanner tryloyw. Y chweched maen yn sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 20. Y sardius harddaf a ddygir o Babilon; a'r rhai nesaf at y rhai hyny, a ddygir o Sardinia. Y mae eraill, nid yn ddigyfrif, a ddygir o St Mauro, yn Albania; ac eraill, bychain, a ddygir o Bohemia a Silesia.

SARDONYX, *Gr.* σαρδονυξ, maen gwerthfawr; (a alwyd felly, tebygol, o herwydd ei gyffelybrwydd i'r sardius, neu y *cornelian;* ac hefyd mewn rhan i'r onyx) a alwyd felly o herwydd ei debygolrwydd i ewin dyn. Y sardonyx sydd wedi eu lliwio yn wyn, yn ddu, a choch y gwaed, y rhai a wahaniaethir oddiwrth eu gilydd trwy gylchoedd, neu resau, mor wahanedig, fel pe baent wedi eu rhoddi trwy gelfyddyd. Y pummed maen oedd yn sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 20. Y mae pedwar math o'r meini hyn; y rhai mwyaf gwerthfawr a ddygir o'r India Ddwyreiniol. Ceir math o honynt yn yr Aipht, Arabia, yr Hispaen Newydd, a'r Almaen; ond y maent yn llawer llai eu gwerth na'r rhai a ddygir o'r India.

SAREPHTAH, צרפתה [*toddiad*] dinas yn perthyn i'r Sidoniaid, yn sefyll rhwng Tyrus a Sidon, ar lân Môr y Canoldir. Yma y trigodd Elias gyda gwraig weddw. 1 Bren. 17. 9, 10. Luc 4. 26. Edr. ELIAS. Gelwir hi Sarephath yn Obad. 29.

SARETH-SAHAR, צרת־השחר [*dull y boreu*] dinas yn rhandir Reuben, tu hwnt i'r Iorddonen. Jos. 13. 19.

SARGON, שרגון, [*tynwr ymaith ymddiffynfa*] brenin Assyria; yr un ag Esarhadon, medd rhai. Esa. 20. 1.

SARHAD—AU, (sâr) anmharch, difriad, dirmyg, dystyrwch, niwed, colled.—'Yr hwn a ddadleuodd achos fy sarhad i oddiar law Nabal.' 1 Sam. 25. 7, 15, 39. *Heb.* חרפתי fy ngwarth, fy nghywilydd, fy anmharch; difriad.—'Ni wnaethant sarhad arnynt,' adn. 15. sef dim cywilydd na niwed iddynt. Act. 27. 10, 25.

Digitized by Google

SARID, שריד [*adfywiad*] dinas yn Zabulon. Jos. 19. 10, 12.

SARN—U, (sâr) peth a daenir, neu a osodir ar led; gwasarn, llaesodr, palmant, llechlawr; ceryg i gamu arnynt; taenu, sathru, mathru.—'Sarn y cyfiawn yw dychwelyd oddiwrth ddrwg.' Diar. 16. 7. מסלת *ei brif-ffordd*; llwybr cynnefin y cyfiawn (ישרים *yr uniawn, y cywir*) ydyw myned bellach bellach oddiwrth ddrwg, fel un yn teithio ar hyd brif-ffordd heb droi oddi arni. Diar. 4. 24—27. Esa. 35. 8. Actau 10. 35. a 24. 16. Tit. 2. 10—14.——'Yn sarnu i'm herbyn ffyrdd eu dinystr.' Job 30. 12.—'Yn palmantu arnaf eu llwybrau dinystriol.' Dr M. Yr un gair yw ag a gyfieithir, 'Palmantu eu ffyrdd yn fy erbyn.' Job 19. 12. Gair milwraidd yw, medd Rivetus, yn arwyddo cyfodi gwrthglawdd i ymosod yn erbyn rhyw amddiffynfa gadarn i'w dinystrio.

SARON, שרון [*cân, gwastadedd*]. Yr oedd tair o ardaloedd yn Nghanaan a elwid wrth yr enw Saron.—1. Un rhwng Cesarea a Joppa. Act. 9. 3.——2. Un arall rhwng mynydd Tabor a Môr Tiberias.——3. Un arall o du y dwyrain i'r Iorddonen. 1 Cron. 5. 16. Yr ydoedd Saron yn hynodol am borfëydd ac am rhos. Y mae yn arwyddlun o wlad ffrwythlawn, ac o eglwys Crist, yn ffrwythlawn mewn gras a harddwch sancteiddrwydd. Esa. 35. 2. a 65. 10. Can. 2. 1. Edr. RHOSYN.

SARPH, SEIRPH, (sâr) *Heb.* שרף (*saraph*) *Llad.* SERPENS; *Saes.* SERPENT: neidr; ymlusgiad gwenwynllyd. Gair cyffredin ydyw sarph am amrywiol fathau o greaduriaid sydd yn byw yn y dwfr ac ar y tir, a llawer o honynt yn dra gwenwynllyd, eu brathiad yn gadael gwenwyn ar ei ol, yr hwn, trwy gymysgu yn fuan â'r gwaed, a effeithia ar yr holl gorph. Heblaw y gwenwyn hwn, mae eu holl gorph yn fwytadwy ac yn iachus. Y seirph gwenwynllyd sydd ganddynt ddannedd hirion, a'r gwenwyn wrth wraidd y dant. Y mae dau ddant o'r ên uchaf gan y rhai gwenwynllyd, a chwd dan y dant i dderbyn a chadw y gwenwyn yn barod, ac y mae twll yn y dant trwy yr hwn y taflant y gwenwyn i'r archóll a wnant â'r dant. Y mae y dannedd, un bob ochr i'r ên, yn geimion ac yn awchlym; weithiau y mae dau bob ochr i'r ên. Er bod ychwaneg o ddannedd ganddynt, nid oes yr un yn wenwynllyd ond y rhai hirion hyn. Y maent gwedi eu gorchuddio â chèn, ac yn anadlu trwy ysgyfaint, a'u calonau yn agos iawn i'w penau, ac am hyny yn hawdd eu lladd trwy ergyd ar y pen. Megir hwynt oll o wyau. Y mae rhai yn dëor ynddynt eu hunain; eraill a osodant eu hwyau mewn tomenydd, i ddëor yn y poethder yno. Maent yn gall ac yn gyfrwys i ddianc. Cuddiant eu penau yn eu cyrph, i'w hachub rhag ergyd marwol; chwydant eu gwenwyn cyn yfed, rhag iddo gymysgu â'r dwfr, a bod yn niweidiol iddynt; dyosgant eu crwyn bob blwyddyn; rhoddant un glust ar y ddaear, a chauant y llall â'u cynffon, rhag clywed llais y rhiniwr. Peth cyffredin yn yr India, meddant, yw seirph yn *dawnsio*; ymsythant ac ysgogant wrth orchymyn y ceidwad, yr hwn a'u dug hwynt oddi amgylch mewn llestr gwastad, tyllog, tebyg i ogr. Ysgogant yn araf, neu yn fwy bywiog, yn ol fel y byddo y ceidwad yn canu iddynt. Gellir gwareiddio y rhan fwyaf o greaduriaid ond y dywalgi (*tiger*).

Fel pysgod, nid oes derfyn ar eu cynnydd; am hyny, po hynaf y bydd y sarph, mwyaf y bydd ei maintioli. Dywedir gan Pliny, y naturiaethwr Paganaidd, iddo ef weled croen y sarph a wrthsafodd Regulus a'i filwyr, wrth groesi yr afon Bragada yn Affric, ac a ddinystriodd amryw o'r fyddin, a'i bod hi yn chwech ugain troedfedd o hŷd. Dywedir fod gan Abiserus, tywysog yn India, ddwy; un yn mesur saith ugain o gufyddau, a'r llall bedwar ugain. Gallant ëangu eu safnau yn ofnadwy; ïe, i lyncu creaduriaid llawer mwy eu maintioli na hwy eu hunain. Darllenwn am un a lyncodd wraig feichiog; ac am un arall a lyncodd darw gwyllt (*buffalo*). Cynglynant a chordeddant oddi amgylch y creadur cryf hwn, nes y torant ac y maluriant ei holl esgyrn, ac yntau yn beichio o hyd heb allel ymwaredu. Gwedi hyny, llyfant ac irant ei holl gorph â'u llys, i'w wneuthur yn hawsach i'w lyncu; llyncant ef yn raddol, a'u cyrph yn lledu i dderbyn tamaid deirgwaith maintioli eu cyrph hwy. Pan fyddant gwedi ymlenwi fel hyn, y mae yn dra hawdd eu lladd. Nid oes dim dewisiad gan y seirph am eu hymborth, ond ymborthant ar yr ŷch gwyllt, y dywalgi, yr iwrch, ïe, y *porcupine*, sef math o ddraenog mewn rhai gwledydd, â phigau hirion ar ei groen. Er mai y creaduriaid mwyaf gwancus sydd yn bod ydynt, ac er fod y tamaid a lyncant heb ei gnoi yn hŵy nag a lwnc un creadur arall; hyd yn nod y morfilod; etto, er hyny, nid oes un creadur a fydd byw yn hŵy heb fwyd. Geill rhai o honynt fyw ar yr un tamaid hwn dros y tymhor; dros fisoedd; ïe, dros flynyddoedd. Anfonir seirph bychain drosodd o Grand Cairo yn yr Aipht, mewn gwydrau, a fyddant fyw dros amryw flynyddoedd heb fwyta dim, ac heb lychwino y gwydr â charthion. Er fod rhai o honynt yn dra hoff o ddwfr; ond nis gallant fyw ond mewn dwfr croyw; y mae dwfr hallt yn angeu iddynt oll. Yn y gwledydd poethion, rhwng trofanau (*tropics*) yr haul, y maent i'w cael amlaf. Ar lanau yr afon Niger, neu Oroonoco, yn Affric, dywed teithwyr fod seirph yn cylchynu wrth gangenau coedydd yn anceirif, ac yn dyfetha yr holl greaduriaid a ddamweinio, yn annedwydd fod yn agos atynt.

Yr ydoedd amryw fath o honynt yn adnabyddus yn mhlith yr Hebreaid; sef אפעה *yr asp*—פתן a gyfieithir hefyd *asp*, yn Deut. 32. 33. Job 20. 14, 16.—צבוע a gyfieithir *aderyn brith*, Jer. 12. 9. ond deallir wrtho, medd Bochart, yr *Hyæna*, neu ryw fath o *seirph*—צפע a gyfieithir *neidr*, Diar. 23. 32.—*gwiber*, Esa. 11. 8. a 14. 29. a 59. 5.—*aspiaid*, Jer. 8. 17.—קפז a gyfieithir *dylluan*, Esa. 34. 15. ond barna Bochart mai math o seirph y mae yn ei arwyddo—שפיפן a gyfieithir *neidr*, Gen. 49. 17.—שרף *sarph*, yr unig un o'r rhyw, adnabyddus âg adenydd iddi, medd Bochart a Calmet.—נחש *sarph*, Gen. 3. 1. Job 26. 13. Esa 27. 1. Amos 9. 3.

Y diweddaf ydoedd enw y creadur a ddefnyddiwyd gan Satan fel offeryn iddo ef lefaru trwyddo, i dwyllo ein rhieni cyntaf; yr hwn a elwir o'r achos hwn, 'Yr hen sarph, yr hon a elwir Diafol a Satan.' Dat. 12. 9, 14, 15. a 20. 2. Dywedir am dani, 'A'r sarph oedd gyfrwysach na holl fwystfilod y maes;' (Gen. 3. 1.) am hyny un o fwystfilod y maes oedd yn wirioneddol, ac nid Satan, fel y barnodd rhai, gwedi ymrithio i lun sarph. Er nas dichon i ni, yn y gwledydd hyn, gael digon o brofion o gyfrwysdra y sarph, lle y mae seirph mor anaml, etto ar dystiolaeth gair Duw, gellir credu fod נחש *y sarph*, yn dra chyfrwys a chall; call i achub ei hun, a chyfrwys i dwyllo eraill. 2 Cor. 11. 3. Mat. 10. 16. Defnyddiodd Satan y sarph i lefaru trwyddi wrth Efa, fel y defnyddiodd yr angel asen Balaam i wahardd ynfydrwydd y prophwyd; ac yn nyddiau ein Hiachawdwr yr ydoedd ysbrydion aflan yn meddiannu dynion, ac yn defnyddio eu peiriannau ymadrodd i lefaru â hwynt. Llawer a ddychymygodd dynion, o oes i oes, yn nghylch yr hanes hwn: ond dau beth sydd i mi yn gwbl eglur, sef yn 1. I'r bwystfil hwn dwyllo Efa.—2. Ei fod yn offerynol yn llaw *un arall*, anweledig, yn medru rhesymu; a'i fod yn elyn i Dduw a'i lywodraeth, ac i ddyn a'i ddedwyddwch. Pwy ydoedd hwnw ond y diafol? 'Yr hwn sydd yn pechu o'r dechreuad.—Ac oedd yn lleiddiad dyn o'r dechreuad.' 1 Ioan 3. 8. Ioan 8. 44.

Am gospedigaeth y sarph, er nad oedd y sarph yn euog o bechod, ond yn unig offeryn direswm yn llaw



Digitized by Google

un arall, etto, nid ydyw yn beth anghyffredin i Dduw ddangos ei anfoddlonrwydd i bechod dyn, trwy farnedigaethau ar y creaduriaid direswm hyny ag oeddynt yn offerynol iddo yn pechu; felly y melldithiodd Duw y ddaear o achos dyn; y boddodd efe y creaduriaid yn y diluw; ac y llosgodd lawer o honynt yn nystryw Sodom a Gomorrah. Barnodd Luther, ac eraill, i gyfnewidiad, yn ganlynol i waith Duw yn ei melldithio, gymeryd lle yn agwedd y creadur hwn; ei bod hi o'r blaen yn myned yn syth, ac nid ar ei thòr, fel yn bresennol; nid fel dyn, yn wir, ond yn debyg i lwdn hydd, neu y pawan, neu y cyffelyb. Yn y llwch y mae ei thrigfa, er ei bod yn ymborthi ar greaduriaid, ac y mae gradd o ffieidd-dra a dychryn yn perthyn i seirph yn ngolwg dyn, rhagor un creadur arall. Ond ar y prif weithydd yn benaf y syrthiodd y felldith. Dan ddull sarph y twyllodd y diafol Efa; a than yr un ddull y cafodd yntau ei felldithio. Y mae efe yn felldigedig uwchlaw pob creadur arall, a hyny yn ddiddiwedd. 'Ar dy dòr y cerddi, a phridd a fwytai;' (Gen. 3. 14.) a phriodoli y geiriau i Satan, sydd yn arwyddo ei ddarostyngiad, ei iselder, ei warth, a'i ddirmyg, fel caethion mewn cadwynau, yn llyfu y llwch wrth draed eu buddugoliaethwyr—cospedigaeth drom ar ysbryd balch Luciffer. Mic. 7 17. Esa. 49. 23. Ps. 72. 9. Yr oedd dan felldith o'r blaen, 'Gwedi ei daflu i uffern, a'i roddi i gadwynau tywyllwch, i'w gadw i farnedigaeth.' 2 Petr 2. 4. Ond o herwydd y pechod chwanegol hwn, o dwyllo dyn i bechu hefyd, chwanegwyd at ei felldith, a chyhoeddwyd ei felldith yn sefydlog dros byth; canys cymaint a hyny a arwydda y geiriau, 'Holl ddyddiau dy einioes,' fel y priodolir hwy i Satan. Gwel Witsius, *De Œcon., Fœd., lib.* iv. *cap.* i. Gan i Satan ddefnyddio y sarph i dwyllo ein rhieni cyntaf, nid rhyfedd fod y sarph yn cael ei haddoli gan eilun-addolwyr Paganaidd. Yr ydoedd hyn yn beth cyffredin yn yr Aipht, a thrwy yr holl wledydd er y cynddydd. Dywed Clemens Alexandrinus, eu bod yn ngŵyl Bacchus Mænoles (sef y gwallgof) yn ei addoli â seirph coronog, ac yn oerleisio, 'Efa! Efa!' sef hi trwy yr hon y daeth y camwedd. Gwel Jenkins *on Christianity, vol.* ii., *cap.* 13., *p.* 246. Stillingfleet, *Originæ Sacræ, lib.* iii., *cap.* 3., *sec.* 18.

Gelwir y seirph a frathodd yr Israeliaid yn yr anialwch, הנחשים השרפים *seirph tanllyd*, neu *seirph y llosgwyr*. Num. 21. 9. Geilw Esaiah hwynt, *seirph tanllyd hedegog*. Edr. Parkhurst dan y gair שרף Esa. 14. 29. a 30. 6. Yr un gair ydyw ag a adewir heb ei gyfieithu yn Esa. 6. 2. Seraphim; sef *y rhai tanllyd*. Edr. Seraphim. Y maent yn cael yr enw *tanllyd*, naill ai oddiwrth eu lliw tanllyd, neu oddi wrth effaith llosgedig eu brathiadau. Ond gan nad oedd y diweddaf ddim yn perthyn i'r fath hyn mwy na brathiadau y lleill, tebygol mai oddiwrth eu lliw *tanllyd* yn benaf y galwyd hwy felly. Mae y creaduriaid hyn yn gyffredin mor aml yn Arabia, ac yn yr Aipht, fel y byddai y gwledydd hyn yn anial ac yn annhrefedig, oni bai rhyw ragluniaeth nodedig yn attal eu lliosogiad fel seirph eraill. Dywed yr Arabiaid y lladd y fenyw y gwrryw yn y fan gwedi iddynt ymgydio, a bod y rhai ieuanc yn lladd y fam mor gynted ag y dëorir hwynt. Hefyd, y mae yr Ibis, math o aderyn perthynol i'r Aipht yn unig, yn ddifäwr parhaus o honynt. Tebygol eu chwythu gan wynt cryf o Arabia a Lybia i wersyll yr Israeliaid. Gwel *Universal History, vol.* iii. Y mae yn amlwg fod yn yr anialwch y teithiai Israel ynddo, y seirph tanllyd hyn yn lliosog (Deut. 8. 15.) ond cadwodd yr Arglwydd hwynt rhag niweidio Israel, nes iddynt, trwy eu tuchanrwydd, anfoddloni yr Arglwydd, ac iddo eu hanfon i'w plith; 'A hwy a frathasant y bobl, a bu farw o Israel bobl lawer.' Adn. 9. Ar weddi Moses drostynt, parodd yr Arglwydd iddo wneuthur sarph danllyd o bres, a'i gosod ar drostan; 'A phawb a frather, ac a edrycho ar hòno,' medd Duw, 'fydd byw.' Mae genym dystiolaeth yr Arglwydd Iesu fod y sarph bres hon yn gysgod o hono ei hun. Ioan 3. 14, 15.

Y mae tri pheth yn eglur oddiwrth eiriau Crist yn y naill yn cyfateb i'r llall. 1. Bod cyflwr dynion fel pechaduriaid yn debyg i gyflwr y rhai hyny a frathwyd gan y seirph yn yr anialwch; sef yn farwol, yn golledig, ac yn anfeddyginiaethol o'u rhan eu hunain. Y maent megys wedi eu brathu, mae y gwenwyn marwol yn eu gwaed, ac nid oes iddynt feddyginiaeth. Dyma ddangosiad cywir o gyflwr dyn fel pechadur: y mae gwedi pechu, a daeth marwolaeth i'r byd trwy bechod. Nis gellir ei achub, oni cheir meddyginiaeth anadnabyddus iddo ei hun, ac allan o drefn natur—sef unigol, goruwch-naturiol, a dwyfol.

2. Fod gosodiad y sarph bres ar drostan, neu bawl, yn gysgod o ddyrchafiad Crist ar y groes, fel meddyginiaeth, ac unig feddyginiaeth o drefniad Duw, i iachâu neu i achub pechaduriaid, fel yr ydoedd y sarph bres yn feddyginiaeth o drefniad Duw i'r Israeliaid a frathwyd gan y seirph tanllyd. Yr oedd y cysgod a'r gwrthgysgod o drefniad Duw, ac am hyny yn ddilys o ateb y dyben. Ond paham llun sarph? Hyn sydd gwedi ymddangos i mi yn ddyryswch, ac yn gwlwm heb ei ddattod. Y dywediad cyffredin yw, fod Crist yn wir ddyn, yn gyffelyb i gnawd pechadurus, ond heb bechod, fel yr oedd y sarph bres yn tebygu i'r seirph tanllyd, ond heb eu gwenwyn hwynt. Ond nid arwydd-lun o ddyn yw y sarph, ond o'r diafol, yr hwn a frathodd ac a wenwynodd y dyn yn farwol. A ydyw hyn ddim yn cyfeirio at y fuddugoliaeth a gafwyd gan Grist ar y groes ar y diafol, yr hen sarph? Canfyddwn ar y groes, 1. Crist Iesu wedi ei groeshoelio.——2. 'Ysgrifen-law yr ordeiniadau, yr hon oedd i'n herbyn ni, gwedi ei dileu.' Col. 2. 14.——3. Ein hen ddyn ni gwedi ei groeshoelio gyd âg ef.——4. Y tywysogaethau a'r awdurdodau gwedi eu gorchfygu a'u hyspeilio: y mae yr hen sarph ar y groes, heb fodd i niweidio, wedi ei gorchfygu a'i hyspeilio. Y mae pob peth ag oedd yn niweidiol ac yn farwol i'w canfod ar y groes, ond heb y niwed ynddynt; mae y cwbl a welir ar y groes o blaid dyn pechadurus, ac yn feddyginiaethol. 'Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren:—cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef:—cymerodd yr ysgrifen-law oddiar y ffordd, gan ei hoelio wrth y groes:—arddangosodd ar gyhoedd y tywysogaethau a'r awdurdodau gwedi eu hyspeilio, gan ymorfoleddu arnynt arni hi.' Y maent yno, ond megys yn farw ac yn ddiniwed, a Christ ar yr un drostan yn fuddugoliaethus ac yn Achubwr. Bochart.—Paham sarph o bres? Y mae pres gloyw a seirph tanllyd yn tebygu gymaint i'w gilydd yn eu lliw, fel y mae yr un gair *Heb.* נחש yn arwyddo pob un o'r ddau. Pres, ac nid arian nac aur; felly yr oedd Crist yn wael yr olwg arno, heb bryd na thegwch arno yn ngolwg yr Iuddewon. Arwydda pres, hefyd, cadernid parhaus, na effeithia dim arno: (Esa. 48. 4. Jer. 1. 18.) felly y mae Crist yn Dduw cadarn—yn gadarn i iachâu—rhoddwyd ein cymhorth ar Un cadarn. Esa. 9. 7. a 63. 1. Edr. Pres.

3. Yr ydoedd peth arall neillduol yn y cysgod a'r gwrthgysgod yn cyfateb i'w gilydd, y sylwa Crist arno, sef edrych ar y sarph bres, a chredu yn Nghrist. 'Yna os brathai sarph wr, ac edrych o hono ef ar y sarph bres, *byw fyddai*.' Er mor ofnadwy y gallai fod wedi ei frathu, os gallai edrych (pa un a fyddai yr edrychiad yn wan neu yn gryf) ar y sarph bres, 'byw fyddai.' Yn gyfatebol, medd Crist, 'Fel na *choller* pwy bynag a gredu ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.' Ioan 3. 14. a 8. 28. a 11. 32. Esa. 17. 7. a 45. 22. Ps. 103. 3. Mal. 4. 3. 1 Cor. 15. 55. Edr. Credu, Ffydd.——Gwel Bochart, *Hieroz., lib.* 3., *c.* 12. Witsius, *De Œcon. Fœd.*

Digitized by Google

*lib.* iv. *c.* 10. § 66. Vitringa *Obs. Sacr., lib.* ii. *c.* 11. Mather *and* Taylor *on the Types.*

SARSECHIM, *Heb.* שרסכים [*llywodraethwr y pêr-aroglau*] un o dywogion y brenin Babilon. Jer. 39. 3.

SARTANAH, dinas yn rhandir Manasseh, tu yma i'r Iorddonen. 1 Bren. 4. 12.

SARTHAN, a SARETHAN, צרתן [*gorthrymder*] dinas yn agos i'r Iorddonen. Jos. 3. 16. 1 Bren. 7. 46. Yr un, tebygol, a Seredatha. 2 Cron. 4. 17. a hwyrach a Seredah. 1 Bren. 11. 26.

SARUHEN, dinas yn rhandir Simeon. Jos. 19. 6.

SARUCH, mab Ragau. Luc 3. 35.

SASAC, o dylwyth Benjamin. 1 Cron. 8. 25.

SAT, סאה *saeh*; llios. סאתים *satim*, neu סאים *saim*; *Llad.* SATUM; סאת *pro* סאה *Status absolutus pro constructo.* Cyfieithir ef *phiolaid* yn Gen. 18. 6.—*hobaid*, 1 Samuel 25. 18.—*mesur*, 1 Bren. 18. 32. Mesur i bethau sychion ydyw, yn cynnwys yn nghylch dau alwyn a hanner. Parkhurst.

SATAN, שטן [*gwrthwynebwr, gwrthblaid, cyhuddwr, gelyn*]. Weithiau, cyfieithir ef *gwrthwynebwr*, ac fel berf, *gwrthwynebu*; megys Ps. 38. 20. a 109. 4, 29. Num. 22. 22. 1 Cron. 20. 4. 1 Sam. 29. 4. 1 Bren. 11. 14, 23, 24.

Y mae yn cael ei briodoli, 1. I benaeth yr angelion syrthiedig. Matthew 4. 10. Marc 1. 13. *et al.* Gelyn Duw a dyn yw. Cyhuddwr Duw i ddynion, cyhuddwr dynion i Dduw, ac i'w gilydd. Dat. 12. 9. Zech. 3. 1. Job i, ii. Mae hefyd yn hudo ac yn annog dynion i bechu, fel y gwnaeth â'n rhïeni cyntaf, Job, Dafydd, Abab, Petr, Judas, Ananias. Genesis iii. Job i, ii. 2 Sam. xi. 1 Cron. xxi. 1 Bren. xxii. Luc 22. 23. Ioan 13. 27. Act. 5. 3. Temtiodd Grist ei hun. Mat. 4. 1. Edrych TEMTIO. Y mae ganddo deyrnas, ac y mae dynion, fel pechaduriaid, yn ddeiliaid iddo, ac yn ei feddiant. Matthew 12. 26. Marc 3. 23. Act. 26. 18. 'Oblegid tywysog y byd hwn a farnwyd.' Ioan 16. 11. Ei ddiwedd fydd ei fwrw i lyn o dân a brwmstan, i'w boeni yn oes oesoedd; a chwbl ddinystrir ei deyrnas dros byth. Dat. 20. 10. Edr. CYTHRAUL, DIAFOL, MIL.

2. Geilw Crist Petr, Satan; 'dos yn fy ol i Satan,' neu fy ngwrthwynebwr. Gwrthwynebodd Grist yn ei waith mawr, trwy annogaeth Satan. Mat. 16. 23. Gwrthwynebodd Satan Grist yn Petr yr un fath ag y twyllodd Efa yn y sarph; Petr oedd yr offeryn, ond Satan oedd y gweithydd, ac yn llefaru trwyddo, i fod yn rhwystr ar ffordd Crist. Adnabu Crist Satan, ac a'i ceryddodd yr un fath ag o'r blaen yn yr anialwch. Matthew 4. 10.——'Traddodi y cyfryw un i Satan.' 1 Cor. 5. 5. Edr. DINYSTR.

SATHR—FA—U, (sathr) mathru, mysarnu, dansang, gwasarnu, mathriad, gwasarn, mysang. Y mae sathru yn arwyddo, yn 1. Cerdded a meddiannu. Deut. 11. 24.——2. Gwasgu allan sug grawnwin. Job 24. 11. Sathra Crist y gwinwryf, pan orchfygo, y darostwng, ac y llwyr ddyfetha ei elynion. Esaiah 63. 3. Dat. 19. 15.——3. Cystudd a darostyngiad mawr. Psalm 7. 5. Amos 5. 11. Esa. 25. 10.——4. Buddugoliaeth gyflawn ar elynion, a diogelwch yn eu canol. Psalm 44. 5. a 60. 12. Luc 10. 19. Ps. 91. 13. Rhuf. 16. 20.

SAUL, שאול [*gofynedig*] 1. Mab Simeon. Num. 26. 13.——2. Brenin Idumea. Gen. 36. 37.——3. Saul a elwid Paul. Edr. PAUL.——4. Mab Cis, o lwyth Benjamin, a'r brenin cyntaf ar Israel. Y mae hanes y gwr hwn yn dra neillduol, ac yn gyflawn o addysgiadau buddiol. Dyrchafwyd ef i uchder go fawr gan Dduw ei hun, ac wedi hyny taflwyd ef i lawr gan yr un Duw, a bu farw dan arwyddion amlwg a thrymion o'i anfoddlonrwydd. Oddiwrth y rhan gyntaf o'i hanes, tueddir ni i farnu yn dyner am dano, oddiwrth amryw bethau hawddgar a ganfyddir yn ei ysbryd a'i ymddygiad. Ond efe, fel amryw eraill ar ei ol, a ddechreuodd yn yr ysbryd, ac a ddiweddodd yn y cnawd. Yr Israeliaid a waeddasant am frenin, a'r Arglwydd a roddodd iddynt frenin yn ei ddig, a dygodd ef ymaith yn ei lid. Hosea 13. 11. Er iddo weithredu gwaredigaethau iddynt o ddwylaw eu gelynion, etto bu yn wialen arnynt am eu cildynrwydd.

Yr oedd ei dad yn 'ŵr cadarn o nerth; ac yntau oedd ŵr dewisol a glân, ac nid oedd neb o feibion Israel lanach nag ef: o'i ysgwydd i fynu yr oedd yn uwch na'r holl bobl.' 1 Sam. 9. 1, 2. Trwy drefniad dwyfol gosodwyd ef yn frenin; ac addysgwyd Israel i'w dderbyn, fel un wedi ei ddewis gan Dduw i lywodraethu arnynt. Trwy ragluniaeth ryfedd, wrth ymofyn am asynod ei dad, a gyfrgollasant, y mae yn cael ei gyfarwyddo at Samuel. Hysbysodd Duw i Samuel am ei ddyfodiad; a phan ddaeth, y mae Samuel yn ei groesawu ac yn ei gyfarch yn barchus, ac yn crybwyll am ei ddyrchafiad canlynol: 'I bwy y mae holl bethau dymunol Israel? onid i ti, ac i holl dŷ dy dad?' Atebodd Saul gyda gwylder addas, 'Onid mab Jemini ydwyf fi, o'r lleiaf o lwythau Israel? a'm teulu sydd leiaf o holl deuluoedd llwyth Benjamin? a phaham y dywedi wrthyf y modd hyn?' Gwedi bwyta gyda Samuel, a llawer o ymddyddan, Samuel 'a gymerodd phiolaid o olew, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef, ac a'i cusanodd, ac a ddywedodd, Onid yr Arglwydd a'th eneiniodd di yn flaenor ar ei etifeddiaeth?' 1 Sam. ix, x. Diammeu fod hyn yn beth rhyfedd gan Saul, ac, hwyrach, ammheus hefyd; am hyny rhoddodd Samuel amryw argoelion iddo, i'w gadarnhau, y rhai a gyflawnwyd y dydd hwnw. 'Pan drodd efe ei gefn i fyned oddiwrth Samuel, Duw a roddodd iddo galon arall.' Cafodd ysbryd addas i'w swydd oruchel, sef ysbryd breninol, milwraidd; cyfnewidiwyd ei olygiadau a'i dueddiadau, a chwanegwyd ei ddoniau a'i alluoedd; a hwyrach hefyd, fod dylanwadau a gweithrediadau sanctaidd ar ei feddwl; ond rhoddodd brofion amlwg, trwy ei fucheddiad ar ol hyn, ei fod heb ei wir gyfnewid a'i sancteiddio; calon *arall*, nid calon *newydd* ydoedd; dyn arall, ond nid *creadur newydd*, a'r hen bethau wedi myned heibio, a phob peth yn newydd. 2 Cor. 5. 17. Rhaid gwahaniaethu yn ofalus rhwng doniau buddiol, yn y graddau mwyaf, a gras sancteiddiol, yn y gradd lleiaf. Un peth ydyw addasu dyn â doniau addas i swydd, ond peth arall, cwbl wahanol, ydyw gwneuthur un yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd. Ar y ffordd, cyfarfu mintai o brophwydi âg ef; 'Ac ysbryd Duw a ddaeth arno yntau, ac efe a brophwydodd yn eu mysg hwynt.' Parodd hyn fawr ryfeddod yn mhlith ei gydnabyddwyr. 'A ydyw Saul hefyd,' meddent, 'yn mysg y prophwydi?' Rhyfeddod fwy, yn mhen oesoedd gwedi hyn, ydoedd gweled Saul arall yn mhlith apostolion Iesu. Ond nid yw prophwydo yn enw Crist yn brawf digonol o wir ras. Mat. 7. 22, 23.

Yn celu chwedl y freniniaeth rhag ei ewythr, ac yn ei holl ymddygiad yn Mispeh, pan ddewiswyd ef trwy goelbren yn frenin, y mae yn ymddangos gyda llawer o wylder ac anhyfdra. Gwedi ei ddewisiad, pell oddiwrth gymeryd rhwysg a mawredd breninol iddo ei hun, aeth fel arferol i'w dŷ ei hun; a byddin o'r rhai y cyffyrddodd Duw â'u calon, a aeth gyd âg ef. Eraill a'i dirmygasant, ac a'i gwawdiasant: ond yn dra addas, 'Ni chymerodd efe arno glywed hyn.' Yn hyn oll y mae ei ymddygiad yn dra addas a chanmoladwy, ac yn deilwng o ddilyniad pawb a ddar-

Digitized by Google

lleno yr hanes. Gwedi ei esgeuluso gan rai, a'i ddirmygu, dilynodd Saul ei alwedigaeth fel o'r blaen, i ddysgwyl beth a wnai rhagluniaeth o hono. 'Dyfod ar ol y gwartheg o'r maes' yr oedd, pan glywodd am galedi a chyfyngder gwyr Jabes Gilead, trwy yr ammodau gwaradwyddus a gynnygiodd Nahas yr Ammoniad iddynt. 'Ysbryd Duw a ddaeth ar Saul, ac ennynodd ei ddigofaint yn ddirfawr,' pan glywodd yr hanes. Cynnullodd 300,000 o wyr Israel, a 30,000 o wyr Judah, ac a waredodd wyr Jabes Gilead, trwy ladd yr Ammoniaid â lladdfa fawr. Ar hyn cafodd gadarnhau ac adnewyddu ei freniniaeth.

Yr oedd Samuel wedi peri iddo fyned o'i flaen i Gilgal; 'Ac wele,' medd efe wrtho, 'mi a ddeuaf i waered atat, i offrymu offrymau poeth, ac i aberthu ebyrth hedd; aros am danaf saith niwrnod, hyd oni ddelwyf atat, a mi a hysbysaf i ti yr hyn a wnelych.' Rhoddwyd ei ufudd-dod i'r prawf. Gorchymyn Samuel oedd orchymyn Duw, prophwyd yr hwn oedd efe. Wedi i Jonathan mab Saul daro sefyllfa y Philistiaid yn Geba, y Philistiaid a ymgasglasant i ryfel yn erbyn Israel â llu mawr iawn, cyn amled a'r tywod ar fin y môr. Bu gyfyng iawn ar Israel. Saul oedd yn Gilgal, a'r bobl a aethant ar ei ol dan grynu. Oedodd Samuel ddyfod ato, a'r bobl a wasgarodd oddi wrtho. Darfu amynedd Saul, a thrwy anghrediniaeth, ac anufudd-dod i orchymyn yr Arglwydd, 'Efe a offrymodd y poeth-offrwm.' Cymerodd ormod arno, yn rhyfygus. Wedi darfod iddo offrymu, daeth Samuel. Meddyliodd ymesgusodi wrth Samuel, trwy adrodd y cyfyngder yr oedd ynddo. Ond Samuel a'i ceryddodd yn llym: 'Ynfyd y gwnaethost, ni chedwaist orchymyn yr Arglwydd dy Dduw.—Ni saif dy freniniaeth.—Yr Arglwydd a geisiodd iddo ŵr wrth fodd ei galon.—Ni chedwaist ti yr hyn a orchymynodd yr Arglwydd i ti.' Ar yr achlysur, Samuel a ymadawodd â Saul, ac a aeth o Gilgal i Gibeah Benjamin. Yr oedd yn gyfyng ar Saul, ac nid oedd ond chwe chan ŵr gyd âg ef, yr hwn ychydig o'r blaen oedd ganddo 330,000 o wyr. Nid oedd cleddyf na gwaywffon yn llaw un o'r bobl, ond gyda Saul a Jonathan. Yr oedd lluoedd y Philistiaid a'u gwersylloedd yn aml yn y wlad. Fel hyn yr iselwyd hwynt, a chyfyngwyd arnynt, dan eu brenin y gwaeddasant am dano. Ond etto ni wrthododd Duw ei bobl, ond gweithredodd waredigaeth ryfedd yn nghanol eu hiselder a'u tlodi. Jonathan, heb wybod i'w dad, a darawodd amddiffynfa y Philistiaid yn rhyfeddol; ac y mae dychryn Duw yn eu gyru i ladd eu gilydd, a dinystr mawr iawn a fu yn eu plith. Canfyddwn ryw gymysgedd rhyfedd yn holl ymddygiad Saul o ynfydrwydd a chrefydd ragrithiol yn gwneuthur adduned ehud, yn gwahardd i'r bobl fwyta yr holl ddydd hwnw, a thrwy hyny yn rhwystro yr oruchafiaeth i radd mawr. Yn ei wrthgiliad, yr amser hwn, yr adeiladodd yr allor gyntaf i'r Arglwydd. Ymddengys yn fwy crefyddol yn ei wrthgiliad nag o'r blaen yn ei broffes fwyaf blodeuog. O herwydd adduned ehud Saul, bu Jonathan mewn perygl o'i fywyd, am iddo fwyta mêl â'r wïalen oedd yn ei law; ond y bobl a'i hachubasant. Y mae Saul, yn ei holl ymddygiad ar yr achlysur hwn, yn afrywiog, yn chwyddedig, yn arglwyddaidd yn athryfar, ac yn rhagrithiol; tebyg i bob dyn pan fyddo Duw wedi ei adael: nid oes addasrwydd na gweddeidd-dra mewn dim a wnelo. 1 Sam. xiv.

Rhoddwyd ei ufudd-dod i'r prawf drachefn. Yr Arglwydd, trwy Samuel, a'i hanfonodd i ddinystrio Amalec, a'r hyn oll oedd ganddo, heb eiriach neb; yr oedd i'w lladd hwynt yn ddiarbed, 'yn ŵr ac yn wraig, yn ddyn bach ac yn blentyn sugno, yn ŷch ac yn oen, yn gamel ac yn asyn.' Yr oedd yr Amaleciaid wedi cael eu barnu i'w dinystrio er's cannoedd o flynyddoedd o'r blaen:—'Gan ddileu y dilëaf goffadwriaeth Amalec odditan y nefoedd,' medd Duw. Exod. 17. 14. Eu creulondeb tu ag at Israel yn eu dyfodiad o'r Aipht oedd yr achos o'r farn drom hon. Arbedwyd hwy yn hir; ond cyflawnodd Duw ei fygythion yn yr amser mwyaf addas. Digon i gyfiawnhau y farn hon ydyw, mai Duw a'i cyhoeddodd, ac a barodd ei chyflawni. Nis dichon efe wneuthur dim ond sydd gyfiawn, ac hefyd yn dda. Edr. AMALEC. Hannerog a rhagrithiol y profodd Saul yn ei ufudddod y waith hon hefyd. Arbedodd y brenin Agag, a'r hyn goreu o'r ysglyfaeth. Pan ddaeth Samuel at Saul i Gilgal, efe a ddechreuodd ganmol ac esgusodi ei hun gan hòni mai ei barch i grefydd a barodd iddo, yn groes i orchymyn pendant Duw, arbed y defaid a'r ychain goreu i aberthu i'r Arglwydd. Gwrthryfel yn erbyn Duw oedd hyn. Gwnaeth waith yr Arglwydd yn dwyllodrus. 'Wele, gwrando,' medd Samuel, 'sydd well nag aberth, ac ufuddhau na brasder hyrddod.' Ei esgusodiad amddiffynol sydd yn ei wneuthur etto yn fwy euog, dan rith edifeirwch. 'Ofnodd y bobl,' yn lle ofni digofaint Duw; a gwrandawodd ar eu llais hwynt, yn lle ar lais yr Arglwydd. Yn lle ymostwng yn drwyadl ac yn wirioneddol ger bron yr Arglwydd, y mae yn ymbil ar Samuel ei anrhydeddu ger bron henuriaid y bobl. Y mae Samuel yn cyhoeddi i Saul ddarfod i Dduw ei wrthod am ei anufudd-dod. 1 Sam. xv. Aeth Samuel i Ramah, a Saul a aeth i'w dŷ yn Gibeah; ac nid ymwelodd Samuel mwyach â Saul hyd ddydd ei farwolaeth, fel un wedi ei wrthod gan Dduw; er i Saul fyned unwaith at Samuel (1 Sam. 19. 24.) ond nid aeth Samuel at Saul, er iddo alaru am dano. 'Ac edifar fu gan yr Arglwydd osod Saul yn frenin ar Israel.' Edr. AGAG, EDIFEIRWCH, SAMUEL.

Ar hyn, nid rhyfedd genym ddarllen i Ysbryd yr Arglwydd gilio oddiwrth Saul; ac 'ysbryd drwg oddi wrth yr Arglwydd a'i blinodd ef.' Gan na dderbyniodd Saul erioed mo'r Ysbryd Glân fel sancteiddydd, nis gallasai gilio oddi wrtho fel y cyfryw; yn yr ystyr y derbyniodd ef yr ymadawodd âg ef. Sicrheir i ni nad ydyw yn ymadael a'i bobl fel sancteiddydd; 'Mi a wnaf â hwynt gyfammod tragywyddol, na throaf oddi wrthynt heb wneuthur lles iddynt; a mi a osodaf fy ofn yn eu calonau, fel na chiliont oddi wrthyf.' Jer. 32. 40. Rhoddwyd yr ysbryd iddo i'w addasu i'r swydd freninol, a'r gwaith mawr perthynol iddi, fel ysbryd cyngor a deall i lywodraethu, ac ysbryd gwrol i ryfela. Yr un fath y byddai ysbryd yr Arglwydd yn dyfod ar y rhai a elwid barnwyr, i'w haddasu i lywodraethu ac amddiffyn y wlad. Yr ysbryd hwn a ymadawodd â Saul; nid oedd yn meddiannu mwyach yr un doniau hynodol fel llywodraethwr a blaenor; ond collodd y dirnadaeth, y gwroldeb, a'r egni, oedd gynt ganddo: a thebygol ei fod ar amserau yn ddarostyngedig i ruthrgyrchau ethrywyllt o gynddaredd ac eiddigedd, yn gorthrymu ei ysbryd, ac yn ei lenwi â dychrynfeydd, arswydau, ac ammheuon, fel yr oedd ar brydiau yn wallgofus. Yr ydym yn ddibynol yn gwbl ar Dduw am ein synwyrau, ac addasrwydd i bob gwaith: hawdd iddo ef wneuthur y doethaf yn ynfydyn ffolaf.

'Ysbryd drwg oddiwrth yr Arglwydd a'i blinodd ef;' sef trwy oddefiad yr Arglwydd, yn farnedigaethol am ei bechod. Geill Duw yn gyfiawn gospi dyn yn y ffordd y myno. Y mae holl agwedd ac ymddygiad Saul yn ol llaw, yn dangos dyn diedifeiriol, wedi ymgaledu yn ei bechod: y mae yn dra athrist ei ddarllen. Yn lle gweddïo ar yr Arglwydd, cynghorwyd ef i gyrchu un yn medru canu telyn i'w ddifyru. Ond y mae y clwyf yn ddyfnach nag y dichon y cyfryw feddyginiaeth ei symud. Buasai cyrchu Samuel ato yn fwy addas, i'w gynghori, a gweddïo gyd âg ef. Ond bu hyn yn achlysur i gyrchu Dafydd i'r llŷs, yr hwn oedd i hynodrwydd, yn ei ieuenctid, yn medru canu. 'Pan y byddai y

Digitized by Google

drwg ysbryd oddiwrth Dduw ar Saul, y cymerai Dafydd delyn, ac y canai â'i ddwylaw; a byddai esmwythdra i Saul, a da oedd hyny iddo, a'r ysbryd drwg a giliai oddi wrtho.' Ond meddyginiaeth sâl wedi y cwbl i gydwybod euog, ac ysbryd terfysglyd. Am ei eiddigedd, ei genfigen, a'i fwriadau gwaedlyd yn erbyn Dafydd, Edr. ABIATHAR, AHIMELECH, DAFYDD, DOEG, GOLIATH, JONATHAN, NOB.

Bu rhyfel drachefn rhwng y Philistiaid ac Israel. Gwersyllasant yn Gilboa. 'Pan welodd Saul wersyll y Philistiaid, efe a ofnodd, a'i galon a ddychrynodd yn ddirfawr.' Dan ddychrynfeydd cydwybod euog, collodd y gwroldeb oedd ganddo o'r blaen, a hwyrach, hefyd, yn rhag-ddarogan ei aflwydd a'i ddiwedd. Yn y cyfyngder hwn, 'ymgynghorodd â'r Arglwydd, ond nid atebodd iddo.' Yr oedd Samuel wedi marw. Yn ei ofn aeth at ddewines yn Endor. Hon, ar ei ddymuniad, trwy oddefiad Duw, a ddygodd Samuel i fynu. Rhoddir hanes rhyfedd i ni am yr ymddyddan a fu rhwng Samuel a Saul, yr hwn a goffâodd iddo am ei bechod yn anufuddhau i'r Arglwydd, ac a ragfynegodd y rhoddai yr Arglwydd wersylloedd Israel i law y Philistiaid, ac y lleddid ef a'i feibion: felly y bu: Saul, wedi colli ei wyr, a lladd ei feibion, a syrthiodd ar ei gleddyf, ac a fu farw ar fynydd Gilboa. Gwel 1 Sam. xxviii, xxxi. Pan gafodd y Philistiaid Saul a'i dri mab yn gorwedd yn mynydd Gilboa, torasant ei ben, a dyosgasant ei arfau; gosodasant ei arfau yn nhŷ Astaroth; a'i gorph a hoeliasant ar fur Bethsan. Gwyr nerthol o Jabes Gilead a ddygasant ar hyd nos gorph Saul, a chyrph ei feibion, oddiar fur Bethsan, ac a'u llosgasant yn Jabes, ac a gladdasant eu hesgyrn dan bren yn Jabes, ac a ymprydiasant saith niwrnod.

Y mae hanes ei ddiwedd yn athrist, ond yn addysgiadol.—1. Gwelwn un o ddechreuad gobeithlawn, etto yn diweddu ei yrfa yn druenus, ac yn bechadurus hefyd, trwy farwolaethu ei hun.——2. Achos ei holl aflwyddiant oedd ei anufudd-dod i Dduw. Ceisiodd wneuthur i fynu y pall hwn trwy lawer o ffyrdd, ond heb lwyddo. Gwnai bob peth ond ufuddhau; yr oedd hyn yn brawf digonol o'i gyndynrwydd, a'i ddibarch i Dduw yn wirioneddol, yn nghanol ei holl rith grefydd. Nid oes dim yn brawf o gyfnewidiad calon, heb ufudd-dod: os yw dyn yn anufudd i Dduw, y mae yn para yr hyn oedd wrth naturiaeth, er pob proffes, doniau, ac ymweliadau. Gwir gyfnewidiad sydd yn gynnwysedig, 'yn troi yr anufudd i ddoethineb y cyfiawn, ac ufuddhau o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i ni.'——3. Gwelwn mor gyfiawn y mae Duw yn gadael yn eu cyfyngder, y rhai a'i gadawsant ef yn eu bucheddiad a'u bywyd.——4. Gwelwn drueni y rhai y mae Duw yn eu gadael! Dywedodd Saul, 'Y mae yn gyfyng iawn arnaf fi: canys y mae y Philistiaid yn rhyfela yn fy erbyn i, a Duw a giliodd oddi wrthyf fi, ac nid yw yn fy ateb mwyach.'

Llawer o ddadleuon sydd wedi bod, ac yn bod etto, yn nghylch pwy a ymddangosodd i Saul; pa un ai Samuel ei hun, ai ynte Satan yn *dynsodi* Samuel. Llawer a ysgrifenwyd yn erbyn, ac o blaid, pob un o'r ddau olygiad. Pan ddarllenwyf yr hanes ei hun, bob amser, rhaid i mi gyfaddef mai hawsach o lawer genyf farnu mai Samuel ei hun oedd. Anhawdd genyf gredu pan byddo yr Ysbryd Glân yn ei alw Samuel, ei fod yn meddwl Satan; a hyny nid yn llefaru trwy Samuel, fel y gwnaeth trwy y sarph yn Eden, a'r rhai wedi eu meddiannu gan gythreuliaid, yn ei ddynsodi, yn llefaru yn ei lais, ac yn ymrithio yn yr un ffurf ag ef. Hawsach genyf gredu, i Dduw (nid i ddewines) gyfodi Samuel i geryddu pechadur rhyfygus, gwrthryfelgar, nag iddo ysbrydoli Satan i rag-ddywedyd pethau nas gallasai eu gwybod heb hyny. Y mae holl araeth Samuel wrth Saul yn hollol anaddas i fod yn ngenau Satan, i ateb un dyben iddo. 'Yr Arglwydd yn ddiau a wnaeth iddo.' neu (לו) *drosto ei hun*, 'megys y llefarodd trwy fy llaw i.' Adn. 17. Y mae difrifwch dwys yn ngwaith Duw yn goddef am unwaith i enaid hen brophwyd gwedi marw ymddangos fel tyst o'r nefoedd, a'i anfon i gadarnhau y gair a lefarodd pan oedd ar y ddaear, ac megys yn eistedd mewn barn ar bechadur balch, gelyn Duw, yr hwn oedd yn ynfyd yn annog ei hun mewn calon ddiedifeiriol, trwy y beiau mwyaf dychrynllyd. Am y geiriau, 'Y fory byddi di a'th feibion gyda mi.' Y mae y gair מחר yn arwyddo *yn fuan*, neu *ar ol hyn*. 'Gyda mi,' sef y byddi farw, byddi yn mhlith y meirw yn y byd arall. Gwrthddadleuir, Nas gallasai hen wraig trwy swynion gael un awdurdod ar sant mewn gogoniant. Gwir; ac nis gallasai ar y cythraul ychwaith, heb ganiatâd yr Arglwydd. Nid hi oedd yr *achos*, ond ymofyniad Saul oedd yr *achlysur* i Samuel ymddangos.—Gwrthddadleuir drachefn, Wedi i'r Arglwydd wrthod ei ateb, 'na thrwy freuddwydion, na thrwy Urim, na thrwy brophwydi;' annhebyg iawn, gan hyny, iddo ei ateb trwy ddewines. Ateb, 1. Arwydda y geiriau yn hytrach nad oedd ganddo y *cyfleusdra* i ymofyn â'r Arglwydd yn y ffyrdd hyn, nag i'r Arglwydd beidio ei ateb. Yr oedd yr Urim gyd â'r arch-offeiriad yn ngwlad y Philistiaid, gyda Dafydd; ac nis gwyddom am un prophwyd y pryd hwn iddo ymofyn trwyddo. ——2. Gallasai yr Arglwydd ei ateb mewn ffordd anghyffredin, er na wnai mewn ffordd gyffredin, er dyfnach argraff arno; a goddef iddo fyned at ddewines i ddangos iddo y graddau o annuwioldeb yr oedd wedi cynnyddu ynddo. Ond heb gymeryd arnaf symud ac ateb pob gwrthddadl, gadawaf ar hyn, gwedi hysbysu fy meddwl dilys fy hun ar y mater. Edr. GILBOA, MEPHIBOSETH, MERAB, RISPAH. Gwel *Universal History, vol.* iv.—Historius's *Account of the Life of David.*

SAWDL, SODLAU, (sawd) ffal. Am mai y sawdl ydyw y rhan isaf o'r corph, gosodir dynoliaeth Crist allan wrth y gair hwn, yr hwn a ysigodd Satan pan ddyoddefodd Crist yn ei ddarostyngiad yma yn y byd. Gen. 3. 15.——'Pan y'm hamgylchyno anwiredd fy sodlau.' Ps. 49. 5. Cyfieitha rhai y geiriau, 'Pan y'm hamgylchyno anwiredd fy nisodlwyr fi;' sef pan fyddo anwiredd fy ngwrthwynebwyr cryfion a chreulon yn fy amgylchynu i'm disodli a'm gorchfygu. Darlunia y disodlwyr hyn yn adn. 6. 'Rhai a ymddiriedant yn eu golud, ac a ymffrostiant yn lliosogrwydd eu cyfoeth.' Er mai fy nisodlwyr ydynt, am fy nyfetha, etto, 'Duw a wared fy enaid o feddiant uffern: canys efe a'm derbyn; am hyny paham yr ofnaf?'——'Dynoethi y sodlau,' a arwydda cywilydd, anmharch, caethiwed, neu gyfyngder. Jer. 13. 22. ——'Dyrchafu sawdl yn erbyn un,' a arwydda talu drwg am dda i uwch radd, fel pe tarawai anifel ei feistr; felly gwnaeth Judas yn bradychu Crist. Ps. 41. 9. Ioan 13. 18.

SAWL, (sa-wl) pwy bynag, y cyfryw.—'Y sawl a'm carant i, a garaf finnau.' Diar. 8. 17. Ps. 78. 40. Mat. 18. 21. a 23. 37.

Dysg hyd angeu; ac angeu i'r *sawl* na ddysgo. *Diar.*

SAWYR, (sa-gwyr) *Llad.* SAPOR; *Saes.* SAVOUR: blas, chwaeth; arogl, ager, arwynt, adrywedd, edrywedd. Exod. 5. 21. Dan. 3. 27.

SCEFA, Σκευα, [*darparedig*] Iuddew ac archoffeiriad; sef penaeth un o'r dosparthiadau offeiriadol, tebygol; yr oedd iddo saith o feibion crwydraidd, a chonsurwyr, y rhai yn Ephesus a gymerasant arnynt enwi uwch ben y rhai âg ysbrydion drwg ynddynt enw yr Arglwydd Iesu. Ond cawsant eu curo gan yr ysbryd drwg, a bu gorfod arnynt ffoi o'r tŷ yn noethion ac yn archolledig. 'Yr Iesu,' medd yr

Digitized by Google

ysbryd aflan, 'yr ydwyf yn ei adnabod;' sef ei fod yn Fab Duw, a'r Messiah, a'm trechaf; 'a Phaul a adwaen,' fel gwas Iesu Grist; 'eithr pwy ydych chwi?' Nid ydych chwi yn ddysgyblion i'r Iesu, nac yn weision i Dduw, ond plant y diafol, ac nid oes i *chwi* awdurdod arnom ni. Act. 19. 13—17.

SCYTHIAD, Σκυθης, trigiannydd Scythia. Barnent y Scythiaid y genedl fwyaf barbaraidd o'r barbariaid, ac ond ychydig yn well eu gwybodaeth a'u moesau nag anifeiliaid. Pregethwyd Crist yn addas Iachawdwr i'r rhai hyny; cawsant fwynhau yr un breintiau ag eraill. Col. 3. 11.

SEAR-JASUB, *Heb.* שאר־ישוב [*y gweddill a ddychwel*] un o feibion y prophwyd Esaiah. Pen. 7. 3. Tebygol fod yr enw hwn ar fab y prophwyd, fel Maher-shalal-has-baz, yn allegawl, ac yn arwydd i'r bobl y byddai gweddill i ddychwelyd, yn ol etholedigaeth gras, a chael eu hachub er pob cyfyngder; ac na byddai, er y cyfyngderau mwyaf, i'r holl genedl gael ei thòri ymaith. 'Y gweddill a ddychwel (שאר־ישוב *Sear-Jasub*) sef gweddill Jacob, at y Duw cadarn.' Esa. 10. 21.

SEBA, סבא [*meddwyn*] 1. Mab Cus. Gen. 10. 7. ——2. Mab Raamah. Gen. 10. 7.——3. Mab Joctan Gen. 10. 28.——4. Mab Jocsan, ac ŵyr Abraham. Gen. 25. 3. Gwel hefyd Jos. 19. 2. 1 Cron. 5. 13. 2 Sam. 20. 1, 2. Y rhai hyn oll a breswyliasant, tebygol, yn Arabia, hwyrach, tu a'r dehau. Un neu ychwaneg o honynt a roddodd enw i'r wlad y daeth ei brenines i ymweled â Solomon i Jerusalem â llu mawr iawn, â chamelod, aroglau, aur, a meini gwerthfawr lawer iawn. Gelwir hi brenines y dehau, a dywedir iddi ddyfod o eithafoedd y ddaear. Mat. 12. 42. Luc 11. 31. Pa un ai Ethiopia, ai Abyssinia, yn Affric, neu barthau pellaf Arabia, yn agos i Fôr India, oedd gwlad y frenines, sydd wedi bod mewn dadl. Yn bresennol, cyd-fernir yn gyffredinol, fod Seba yn sefyll yn y parth mwyaf deheuol i Arabia Ffelix, rhwng y Môr Coch a Môr India; a bod brenines Seba yn un o hiliogaeth Abraham o Ceturah, a bod rhyw draddodiadau yn y wlad hòno am wir grefydd heb eu colli; ac iddi glywed am ddoethineb a chlod Solomon gan y morwyr a ddeuent yn y llynges i wlad Ophir, y rhai a droisant i mewn i rai o borthláddoedd y wlad hòno. Y mae y dull yr arferir yr enw Seba, mewn manau eraill o'r ysgrythyrau, yn cadarnhau hyn yn gryf. Job 6. 19. Psalm 72. 10, 15. Esaiah 60. 6. Jer. 6. 20. Ezeciel 27. 22, 23. a 38. 13. Y mae natur ei hanrhegion hefyd, y rhai oeddynt yn aml i'w cael yn Arabia, yn cadarnhau yr un peth. Yr achos a'i cynhyrfodd i'r daith hon, oedd 'clywed clod Solomon, am enw yr Arglwydd—a daeth i glywed ei ddoethineb.' Clywodd am enwogrwydd Solomon, am ei wybodaeth, ei ddoethineb, a'i zel yn addoliad Duw, a daeth i weled ei waith a'i drefniadau, ac i'w brofi â chwestiynau celyd. Yr oedd ei hun yn arfer myfyrio yn ddifrifol ar y pethau perthynol i grefydd a duwioldeb; ond o herwydd y diffyg o foddion addysg, nid oedd yn gallu cael boddlonrwydd i'w meddwl am lawer o bethau. Wrth ystyried ei hystlen (sef ei rhyw) a'i sefyllfa uchel, y mawredd a'r moethau arferol iddi fyw ynddynt, yr oedd ei thaith hirfaith i'r dybenion uchod yn brawf cryf o feddwl ymofyngar a duwiol, a wyddai werth gwir ddoethineb, ac yr oedd yn awyddus i 'brynu y gwir,' am un pris. Cafodd ei boddloni yn hynod yn ei thaith: 'Mynegodd Solomon iddi ei holl ofynion:' cafodd ofyn yr hyn oll oedd yn ei chalon, yntau a'i hatebodd yn gyflawn ac yn foddlonol. Y mae yn dra thebygol fod y daith o fawr fendith iddi, ac iddi ddychwelyd i'w gwlad â rhagor o wybodaeth a zel dduwiol. Diammeu i Solomon ei haddysgu am y Bod o Dduw, ei berffeithiau, ei gyfraith, a'i addoliad; ystyr y deml, yr allorau, a'r aberthau, yr offeiriaid, a'r holl sefydliad cysgodol am addoliad Duw yn Jerusalem. O lawnder ei meddwl, a gwresogrwydd ei hysbryd, torodd allan i fendithio Duw o herwydd yr hyn a welodd, ac a glywodd. Bydd ei zel a'i llafur yn dystiolaeth yn y farn yn erbyn y rhai a gawsant freintiau mwy, ac a ddygasant ffrwythau llai. 1 Bren. 10. 1—13. 2 Cron. 9. 1—12.

Preswylwyr Seba oedd y Sabeaid. Hwyrach fod mwy nag un Seba. Cawn un llwyth o honynt yn anialwch Arabia, yn agos i wlad Uz, y rhai a ddygasant ymaith anifeiliaid Job. Pen. 1. 15. Yr oedd preswylwyr Seba yn masnachu â'r Tyriaid. Ezec. 27. 22. Gwerthodd yr Iuddewon iddynt gaeth-weision o Tyrus, a brynasent gan fyddinoedd Alexander Fawr. Joel 3. 8. Gorchfygwyd hwy gan Cyrus. Esa. 45. 14. Pregethwyd, a phregethir yr efengyl yn eu plith. Ps. 70. 10, 15. Esa. 60. 6.—'A'r Sabeaid hirion a ddeuant atat.' Esa. 45. 15. אנשי מדה *dynion o fesur; sef* talion, golygus, corphol.*

SEBA, שבעה [*llŵ*] 1. Mab Bichri. 2 Sam. 20. 1, 2. Edr. Abel-Bethmaacah.——2. Enw ffynon a gloddiodd gweision Isaac, ac a roddodd enw i Beerseba. Gen. 26. 33.

SEBAM, dinas yn Reuben. Num. 32. 3.

SEBANIAH, שבניה [*yr Arglwydd y dychwelydd*] yr oedd tri o'r enw; dau yn offeiriaid. Neh. 9. 5. a 12. 4. 1 Cron. 15. 24.

SEBARIM, שברים [*rhwygiadau*] lle rhwng Ai a Bethel. Jos. 7. 5.

SEBAT, שבט [*teyrn-wialen*] yr unfed mis ar ddeg. Zech. 1. 7. Enw Caldaeg neu Syriaeg. Gwel Newcome.

SEBER, שבר [*rhwygiad*] mab Caleb o'i orddereh Maachah. 1 Cron. 2. 48.

SEBOIM, צבים [*geifr*] un o'r pedair dinas a ddinystriwyd gan dân o'r nefoedd. Gen. 19. 24. Deut. 29. 23.——Coffêir am ddyffryn Seboim yn 1 Sam. 13. 18.

SEBON, (seb) *Chald.* ספון *(sapon)*; *Arab.* Sabun. Richards. *Gr.* *σηπων (sepon)*; *Llad.* Sapo; *Saes.* Soap: defnydd cyfansoddol i lanhau a golchi âg ef.—Agalen o sebon, sef bar o sebon.——Arwydda y gair *Heb.* ברית (*borith*) a gyfieithir *sebon* yn Jer. 2. 22. rhyw lysienyn o'r enw, sef *sal-worth*, neu *salt-worth* medd M. Goguet, yn aml yn Syria, Judea, yr Aipht, ac Arabia; defnyddiant ei lwch, wedi ei losgi, i olchi a glanhau âg ef. Neu, hwyrach, yr arwydda y defnydd cyfansoddol wedi ei wneuthur o lwch y llysieuyn hwn. Mal. 3. 2.

SEBUEL, שבואל [*gorphwysfa Duw*] mab hynaf Gersom, mab Moses. 1 Cron. 23. 16.—Un arall o'r enw, o'r un teulu. 1 Cron. 26. 24.

SECT, *Llad.* Secta; *Ffr.* Secte; *Saes.* Sect: plaid. Αιρεσις, *heresi*, yw y gair Groeg a gyfieithir *sect*. Gwel Act. 15. 5. a 24. 5. a 26. 5. a 28. 22. Edr. Heresi. Yr oedd pedair plaid yn mhlith yr Iuddewon yn amser yr Iachawdwr; sef y Phariseaid, y Saduceaid, yr Herodianiaid, a'r Esseniaid. Yr oeddynt yn amrywio mewn daliadau ac arferion, ond yn ymuno mewn addoliad yn y synagogau, ac yn y deml. Gwel yr amrywiol eiriau. Yr oedd pleidiau yn mysg y doethion Groegaidd; megys y Peripateticiaid, y Stoiciaid, yr Academiaid, y Cyniciaid, a'r

* *Τα σωματα εστι των κατοικωντων αξιολογωτερα*, y mae cyrph y rhai sydd yn preswylio y wlad hon yn dra golygus. Agatharchides, *cap.* 50.—*In Vitringa.*

Digitized by Google

Epicureaid. Felly, yn yr un modd, y mae amrywiol bleidiau yn mhlith Cristionogion, ond un ydyw yr eglwys, dyweddi a chorph Crist. Eph. 4. 4.

SECUNDUS, dysgybl Paul, Thessaloniad, yr hwn a'i dilynodd o wlad Groeg i Asia. Act. 20. 4.

SECHACHA, סככה [*cysgod*] dinas yn ngwlad Judah. Jos. 15. 61.

SECHANIAH, שכניה [*yr Arglwydd yn agos*]. Coffëir am amryw o'r enw hwn. Gwel 1 Cron. 3. 21. a 24. 11. Ezra 8. 3. Neh. 6. 18.

SECHEM, שכם [*rhan*] 1. Mab Gilead. Num. 26. 31.——2. Mab Hemor, yr hwn a dreisiodd Dinah merch Jacob. Gen. xxxiv. Edr. DINAH, HEMOR, JACOB.——3. Dinas o'r enw yn mynydd Ephraim, yn nghylch deng milltir ar hugain i'r gogledd o Jerusalem. Dinas y Lefiaid, a dinas noddfa. Yn agos i'r ddinas, prynodd Jacob randir gan Hemor, tad Sechem, yr hwn y bu gorfod arno wedi hyny ei ddwyn o law yr Amoriaid â'i gleddyf a'i fwa. Hwn a roddes i Joseph, yr hwn a gladdwyd yno. Gen. 33. 19. a 48. 22. Jos. 24. 32. Act. 7. 16. O herwydd meddwdod y trigolion, galwyd hi *Sichar*. Ioan iv. Jos. 20. 7. a xxiv. Barn. ix. 1 Bren. 12. 1—25. Edr. SICHAR.

'Cyfeillach o offeiriaid a laddant ar y ffordd tua Sechem megis llu (o rai) yn disgwil un: canys gwnant ysgelerder.' Hos. 6. 9. Dr M.—'Ac fel y mae mintai o ladron yn dysgwyl gwr, felly y mae cynnulleidfa yr offeiriaid yn lladd ar y ffordd yn gytun.' Y mae y cyfieithiad Syriaeg, Symmachus, y *Vulgate*, a'r Esgobion Horsley a Newcome, yn golygu y gair שכמה *Sechem*, fel enw priodol y ddinas hòno, yr un fath a'r Dr M. Enwir Gilead, sef Ramoth Gilead, tebygol, yn yr adnod o'r blaen. Yr ydoedd hon a Sichem yn ddinasoedd noddfa. Deut. 4. 43. Jos. 20. 7. a 21. 38. Yr ydoedd y ddwy gan hyny yn drigiannol gan offeiriaid a Lefiaid. Wrth ddarlunio y gyntaf gwedi ei halogi â gwaed, a'r ffordd o'r naill i'r llall yn llawn o ladron, y gesyd y prophwyd yr offeiriaid allan fel hudwyr y bobl i'r eilun-addoliaeth hwnw a fu yn y diwedd yn ddinystr i'r genedl.—Rivetus ac eraill, a olygant y gair yn arwyddo, fel yn ein cyfieithiad ni, 'un ysgwydd,' neu 'yn gytun;' fel ychain wedi ei cwplysu, yn cyd-dynu yn egnïol mewn drygioni. Yr oedd sefyllfa Sechem a Samaria yn agos i'w gilydd; gelwyd hi hefyd Neapolis.

'A hwy a symudwyd i Sichem, ac a ddodwyd yn y bedd a brynasai Abraham er arian gan feibion Emmor tad Sichem.' Actau 7. 16.—'Hwy (sef y tadau) a symudwyd i Sichem, ac a ddodwyd yn y bedd a brynasai Abraham,' &c. Yr hyn a brynasai Abraham oedd maes ac ogof Machpelah; a hyny nid gan feibion Emmor, ond gan feibion Heth, ac Ephron mab Zoar yr Hefiad. Gen. 23. 16, 17. Ond y rhan o'r maes yn Sechem a brynwyd gan feibion Emmor, a brynwyd gan Jacob. Gen. 33. 19. Llawer ffordd a ddychymygwyd gan feirniaid i symud yr anghysondeb hwn. Rhai a ddyblant rai o'r geiriau fel hyn:—'Ac a ddodwyd yn y bedd a brynasai Abraham er arian (*a'r bedd a brynasai Jacob*) gan feibion Emmor tad Sechem.' Neu, ynte, 'A ddodwyd yn y bedd a brynasai Abraham er arian, *heblaw hwnw* gan feibion Emmor tad Sechem.' Os gadewir y gair *Abraham* allan, fel y dylid, yn ol meddwl Bochart, rhed y geiriau fel hyn, 'A hwy a symudwyd i Sechem, ac a ddodwyd yn y bedd a brynwyd er arian gan feibion tad Sechem.' Yn ol y *Vulgate*, yr Arabaeg, a'r Ethiopaeg, rhydd W. S. *mab* Sechem, ond dilys yw mai mab Emmor oedd Sechem (Gen. 33. 19. a 34. 6.) onid oedd dau o'r enw, un yn dad a'r llall yn fab Emmor.

Bu farw Jacob a'r deuddeg patriarch yn ngwlad yr Aipht. Claddwyd hwynt oll, yn ol geiriau Stephan, yn ngwlad Canaan. Act. 7. 17. Jacob a gladdwyd yn ogof Machpelah, y beddrod a brynodd Abraham gan feibion Heth; a Joseph a'i frodyr a ddodwyd yn y bedd yn Sechem, a brynasai Jacob gan feibion Emmor. Er nad oes hanes ond am ddygiad esgyrn Joseph i fynu, ond wrth hyn, tebygol, ddwyn i fynu esgyrn ei frodyr ef hefyd.

SECHU, שכו [*tŵr gwyliadwriaeth*] lle nodedig am y ffynon fawr oedd yno. 1 Sam. 19. 22.

SEDAD, lle o du y dwyrain i Hethlon, ar gyffiniau gwlad yr addewid. Num. 34. 8. Ezec. 47. 15.

SEDECIAH, צדקיה [*yr Arglwydd yw fy nghyfiawnder*]. 1. Mab Josiah o Hamutal, merch Jeremiah o Libnah. Pan gaethiwodd Nebuchodonosor Jehoiacim, gosododd Mattaniah, brawd ei dad, yn frenin yn ei le, ac a drodd ei enw yn Sedeciah. 2 Bren. 24. 17. Gwnaeth iddo dyngu ffyddlondeb iddo. 2 Cron. 36. 13. Dechreuodd deyrnasu pan oedd yn un mlwydd ar hugain oed, a theyrnasodd un mlynedd ar ddeg. Yn groes i rybuddion yr Arglwydd trwy Jeremiah, ymgaledodd ef a'i bobl yn eu heilun-addoliaeth a'u pechodau eraill. Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, anfonodd Elasah mab Saphan, a Gemariah mab Hilciah, i Babilon, hwyrach, gyd â'r dreth: a chyd â'r rhai hyn, tebygol, yr anfonodd Jeremiah ei lythyr at y caethion oedd yno. Jer. xxix. Yn nghylch pedair blynedd gwedi hyny, naill ai efe a aeth ei hun, neu o'r hyn lleiaf, efe a anfonodd Seraiah brawd Baruch, i Babilon, gyd â'r hwn yr anfonodd Jeremiah ei brophwydoliaethau yn erbyn Babilon, ac a barodd iddo ddarllen yr holl eiriau, a rhwymo maen wrtho, a thaflu y llyfr i ganol yr afon Euphrates, a dywedyd, 'Fel hyn y soddir Babilon, ac ni chyfyd hi.' Jer. 51. 59—64. Yn y nawfed flwyddyn o'i deyrnasiad, efe a ymgyfammododd â Pharaoh-Hophrah, brenin yr Aipht, a gwrthryfelodd, yn groes i'w lw, yn erbyn brenin Babilon. Ar hyn, daeth Nebuchodonosor a'i fyddinoedd i wlad Judea, ac a warchaeodd ar Jerusalem. Blwyddyn sabbothol oedd hon, pan ddylasai yr holl bobl ryddhau eu holl gaethion, yn ol y gyfraith. Exod. 21. 2. Lef. 25. 39, 40, 41. Deut. 15. 1, 2, 12. Jer. 34. 8, 9, 10, 14. Rhyddasant hwynt, gwedi eu cadw yn hwy nag y dylasent, ac a ddeisyfasant ar Jeremiah weddïo drostynt. Yn y cyfamser, daeth llu Pharaoh o'r Aipht, a'r Caldeaid a aethant oddiwrth Jerusalem i'w cyfarfod. Yn yr yspaid hwn, edifarhaodd y bobl am ryddhau eu caethion, ac a'u caethiwasant drachefn (Jer. 34. 11—22.) yr hyn a lidiodd yr Arglwydd yn eu herbyn yn fawr. Gwedi gorchfygu yr Aiphtiaid, nes eu gyru hwynt yn eu hol, Nebuchodonosor a ddychwelodd i warchae ar Jerusalem. Ymgynghorodd Sedeciah â Jeremiah, ond nid oedd ganddo amynedd i wrando, nac ysbryd i ddilyn ei gynghorion da ef. Annogodd Jeremiah iddo fyned ac ymostwng i frenin Babilon, ac y byddai yn dda iddo. Ond gwrthododd Sedeciah y cynghor hwn. Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg i Sedeciah, cymerwyd Jerusalem. 2 Bren. 25. 2, 3, 4. Jer. 39. 2, 3. a 52. 5, 6, 7. Ffodd Sedeciah, a'r holl filwyr gyd âg ef, ar hyd y nos. Y Caldeaid a erlidiasant ar eu hol, ac a'u goddiweddasant hwynt yn rhosydd Jericho; daliasant Sedeciah, ac a'i dygasant at Nebuchodonosor i Riblah; lladdodd ei feibion o flaen ei lygaid, a holl dywysogion Judah; tynodd ei lygaid yntau, ac a'i rhwymodd mewn cadwyni i'w ddwyn i Babilon, lle y bu efe farw, ac y claddwyd ef yn anrhydeddus gan ei gyfeillion. Gwel Jer. xxi, xxvii, a 32. 1—5. a xxxiv, xxxvii, xxxix. 2 Bren. xxv. Edr. JEREMIAH, JERUSALEM.——2. Ail fab y brenin Jehoiacim. 2 Cron. 36. 10.——3. Mab Cenaana, gau brophwyd o Samaria. 1 Bren. 22. 11, 24.——4. Mab Maaseiah, yr hwn bob amser a wrthwynebai Jeremiah. Prophwydodd Jeremiah yn ddychrynllyd yn ei erbyn ef, ac yn erbyn Ahab mab Colaiah. Jer. 29. 21, 22.

Digitized by Google

SEDEUR, שדיאור [*goleuni galluog*] tad Elisur, o lwyth Reuben. Num. 1. 5.

SEFYLL. Edr. Saf.

SEFYLLFA—WYR, lle i sefyll, gorsaf, safiad; cyflwr; galwad. Psalm 69. 2. Esa. 22. 19. Mic. 1. 11.—'A'r sefyllwyr.' Act. 23. 4. 'A'r ei oedd yn sefyll gerllaw.' W. S.

SEGUB, שגיב [*amgaeru*] 1. Mab Hezron, a thad Jair. 1 Cron. 2. 21, 22.——2. Mab Hiel y Betheliad. 1 Bren. 16. 34. Edr. Hiel.

SEGUR—DOD—YD, (cur) diog, diogswrth, diwaith, mewydus; bod mewn hamdden, ac yn ddidrafferth; diogi.

Tri pheth sydd yn llygru y byd; balchder, afraid, a *seguryd*. *Barddas.*

*Segurdod* a meddwdod a wnant grogyddion yn gyfoethog. *Diar.*

'Am bob gair segur,' &c. Mat. 12. 36. *Ρημα αργον, gair anfuddiol, anadeiladol;* geiriau heb fod er mynegi gogoniant Duw, nac er adeiladaeth i ddynion; ymadrodd ffol. Eph. 5. 4. Pa faint mwy raid rhoddi cyfrif yn y farn am eiriau caledion yn erbyn Duw, neu eiriau cyfeiliornus a chableddus—geiriau yn llawn cenfigen, dygasedd, a halogedigaeth? Preg. 12. 14. Rhuf. 2. 16. Dat. 20. 12. Edr. Gwagsiaradus, Rhodresgar.

SEHON, *Heb.* סיחן [*diwreiddio*] brenin yr Amoriaid. Nacaodd ffordd i Israel fyned trwy ei wlad, ond ymladdodd yn ei erbyn. Gorchfygodd Moses ef, a rhoddodd ei wlad i'r Reubeniaid. Num. xxi. Yr oedd Sehon gwedi ymladd o'r blaen yn erbyn brenin Moab, a chymeryd ei dir oddi arno hyd Arnon.

SEIBIANT, (saib) gorphwysfa, enyd, gorsaf, hamdden; aros, ymaros.—'Pan welodd Pharaoh fod seibiant iddo.' Exod. 8. 15.—'Ni chymer ei galon seibiant liw nos.' Preg. 2. 23. Dr M.

SEIR, *Heb.* שעיר [*blewog*] 1. Tad yr hen Horiaid. Gen. 36. 20.——2. Mynydd nodedig o du y dehau a'r dehau-orllewin i'r Môr Marw, yn ngwlad Edom, a alwyd felly, hwyrach, oddiwrth Seir yr Horiad; yr un yw mynydd Hor a Seir, tebygol.——3. Bryn yn agos i Ciriath-jearim. Jos. 5. 10.

SEIRATH. Ehwd, wedi lladd Eglon, a ddiangodd i Seirath, lle yn agos, tebygol, i Gilgal, neu Bethel. Barn. 3. 26. Edr. Ehwd.

SEILIO. Edr. Sail.

SEL—IO—EDIG, *Ffr.* Scele; *Llad.* Sigillum; *Saes.* Seal: insel, sel-fodrwy. Peth i selio âg ef. Dat. 7. 2. Yr ydoedd seliau yn arferedig yn foreu yn mhlith yr Hebreaid, a dygent hwynt mewn modrwyau ar eu bysedd, neu mewn breichledau ar eu breichiau. Gen. 38. 25. Can. 8. 6. Yr oedd 'dwyn sêl,' yn arwyddo swydd oruchel. Felly, pan osododd Pharaoh Joseph yn rhaglaw, tynodd ei fodrwy (a'r sêl arni) oddiam ei law, ac a'i rhoddes ar law Joseph. Gen. 41. 42. Felly Ahasferus a roddodd fodrwy Haman i Mordecai, yn arwydd o'i ddyrchafiad i swydd oruchel yn mhalas y brenin. Esther 8. 2. cymh. adn. 10. â pen. 3. 10.

1. Arwydda sêl, weithiau, darn o gwyr, neu y cyffelyb, â nôd sêl arno, gwedi ei roddi wrth beth arall; ac felly y mae i'w ddeall am saith sêl y llyfr cyfriniol yn Dat. v., vi. Y cyfryw lyfr oedd ag a arferid gynt gan yr hynafiaid; sef rhol o lyfr, neu yn hytrach, yn fwy addas, rhol yn cynnwys saith o rolau, fel yr oedd agoryd un sêl yn agoryd un rol, neu lyfr. Gwel Vitringa. Ac am na ellid darllen y llyfr, neu y rhol, tra byddai yn seliedig (cymh. Esa. 29. 11.) felly seliau y llyfr prophwydoliaethol hwn a arwydda ei *ddirgelwch*, ac yn wir, *anhawsdra* cyflawni y dygwyddiadau hyny a ddarlunir ynddo: (gwel Dat. 5. 3, 4, 5.) ac agor y seliau olynol, a arwydda y cyflawniad o'r damweiniau a ddarlunir ynddynt, olynol.——Y mae y chwech sêl gyntaf yn cyfeirio at gyflwr yr eglwys ac ymerodraeth Rhufain, o ddechreuad gweinidogaeth Crist, hyd A. D. 323, pan ddadymchwelwyd Paganiaeth yn yr ymerodraeth hòno; mae y seithfed sêl yn cyrhaedd o hyny hyd ddiwedd y byd; ac yn cynnwys ynddi udganiad y saith udgorn, a thywalltiad y saith phiol a'r saith bla ynddynt.

2. Arwydda sêl hefyd, yr argraff neu y cerfiad ar y sêl. 2 Tim. 2. 19. Cymh. Dat. 9. 4. a 14. 1. Edr. Sail. Nid oes i sêl y Mahometaniaid, yn neillduol y Tyrciaid a'r Arabiaid, un llun neu ddelw, ond cerfiad yn unig; yr un fath y Persiaid; yr ydoedd eu seliau, medd Mr Hanway, â'u *henwau* yn aml yn gerfiedig arnynt, a rhyw adnod o'r Coran. Gwel Hanway's *Travels*. Tra thebygol mai yr un fath oedd y seliau Iuddewig. Gwel Exod. 28. 11, 36. Yn addas, gan hyny, mae yr apostol yn galw y cerfiad ar y sêl, yn *sel*. 2 Tim. 2. 19. Y mae priodoldeb neillduol yn y geiriau, medd y Dr Doddridge, yn cyfeirio at yr arferiad o gerfio ar rai o'r meini yn y sail enwau y personau, gan bwy, a'r dybenion i ba rai y cyfodwyd yr adeiladaeth; ac nis dichon dim yn fwy annog gobaith, a rhwymau ufudd-dod Cristionogion, na'r cerfiad dyblyg hwn; sef 'Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddoef.—A phob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth anghyfiawnder.'

3. Arwydda selio, 1. Rhoddi sêl ar beth er diogelwch. Mat. 27. 66. Cymh. Dat. 20. 3. Dan. 6. 17.——2. Diogelu. Rhuf. 15. 28.——3. Cadarnhau, arwirio, awdurdodi.—'A seliodd mai geirwir yw Duw.' Ioan 3. 33. 'A arwiriodd (neu ardystiodd) wirionedd Duw.' Campbell. Cymh. Neh. 9. 38. Jer. 32. 10, 11, 14, 44.——'Hwn a seliodd Duw Dad.' Ioan 6. 27. A awdurdododd gyd âg eglurdeb digonol, fel y Messïah, ei Genad, a Chyfranwr bara bywiol ac ysbrydol, trwy lef o'r nefoedd, a'r gwyrthiau a wnaeth. Cymh. 1 Bren. 21. 8. Esther 3. 12. a 8. 8. Yn y golygiad hwn, gelwir yr enwaediad, 'Insel cyflawnder y ffydd.' Rhuf. 4. 11. Edr. Insel. Ac y geilw yr apostol y Corinthiaid, 'Sêl ei apostoliaeth.' 1 Cor. 9. 2.——4. Nodi, rhoddi nôd ar; fel yr ydoedd yn arferol o wneuthur ar gyrph caeth-weision a milwyr; yn enwedig ar eu talcenau a'u dwylaw. Ezec. 9. 4. Dat. 7. 2, 3. a 9. 4. Gwel Vitringa a Daubuz ar Dat. 7. 2, 3. Y mae inc yn cael ei ddefnyddio yn Persia hyd heddyw, nid yn unig i ysgrifenu, ond hefyd i nodi âg ef â'u seliau.——5. Yn y ddau ystyr diweddaf y priodolir ef i Gristionogion; y maent gwedi eu selio er eu cadarnhad, ac er eu gwahanedigaeth oddi wrth eraill. 2 Cor. 1. 22. Eph. 1. 13. a 4. 30. Yr Ysbryd yw y Sêl a'r Seliwr, a'r addewid yw y moddion o'u seliad; a gwahanedigaeth a chadarnhad ydyw yr effeithiau. Neu, Ysbryd yr addewid, a arwydda yr Ysbryd addawedig gan y Tad, yr hwn sydd Ysbryd Glân, neu Sanctaidd; gan hyny, y mae y seliad yn waith sanctaidd, ac argraff sanctaidd, sef delw Duw, yr hon ydyw effaith y seliad; yr hyn sydd yn rhoddi y cadarnhad mwyaf dilys o'u bod hwy yn blant i Dduw. Y mae y seliad hwn yn gwahaniaethu pawb seliedig oddiwrth y diseliedig, trwy yr argraff arnynt yn ganlynol i'r seliad; a bydd Duw yn sier o addef a diogelu ei seledigion.——6. 'Selio llyfr,' a arwydda dirgelwch a phellder dyfodiant y dygwyddiadau rhag-ddywededig ynddo. Gwel Dan. 12. 4, 9. Ar y llaw arall, gorchymynir i Ioan, 'Na selia eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn; oblegid y mae yr amser (iddynt ddechreu gael eu cyflawni) yn agos.' Dat. 22. 10. Gwel Daubuz a Vitringa *in loc.* Felly selio a arwydda, cadw yn ddirgel. Dat. 10. 4.

'Selia Duw addysg,' trwy ei argraffu yn ddwfn ar

Digitized by Google

y meddwl. Job 33. 16.——'Selia law pob dyn,' pan yr amddifada hwynt o allu a chyfleusdra i gyflawni eu hamcanion. Job 37. 7.——'Selia ar y sêr,' pan y gorchuddia hwynt â chymylau. Job 9. 7.——'Ac i selio pechodau.' Dan. 9. 24.—'*And to make an end of sins.*' *Saes.* Yn cyfieithu yn ol y *ker.* לחתם ar ymyl y ddalen, ac nid yn ol y *ketib* חתם yn y testun. Arwydda y gair selio yma, yr un peth a *gorchuddio, celu, dirgelu.* Gellir cyfieithu y geiriau 'I attal camwedd, i orchuddio pechodau, ac i wneuthur iawn dros anwiredd.' Edr. DYBENU.——'Ffynon seliedig.' Can. 4. 12. Edr. FFYNON.

SELA, סלע [*ochr*] dinas yn Benjamin. Jos. 18. 28. Yma y claddwyd esgyrn Saul a Jonathan yn meddrod Cis, tad Saul. 2 Sam. 21. 14.

SELAH, סלה [*dyrchafu*] sef dyrchafu y meddwl, neu y llais, neu bob un o'r ddau; yn arwyddo mater o bwys, teilwng i'w ystyried. Arferir y gair hwn dros ddeg a thriugain o weithiau yn y Psalmau, a thair gwaith yn llyfr Habacuc; bob amser yn niwedd ymadrodd, ac nid unwaith yn y cyfansoddiad. Rhoddir ef yn nghanol adnod yn Ps. 55. 19. a 57. 3. Hab. 3. 3, 9. yn mhob man arall rhoddir ef yn niwedd adnod. Y farn fwyaf tebygol i wir yw, mai nôd cerddoriaeth yw, i gyfarwyddo y cerddorion a'r cantorion yn ngwasanaeth y deml, i newid neu ddyrchafu eu lleisiau, neu yr offerynau cerdd. Cyfieitha y LXX. ef yn mhob man διαψαλμα, yr hwn a arwydda *newidiad yn y canu ar gerddoriaeth.* Hammond *on* Ps. 3. 2. Hwyrach fod iddo hefyd yr un ystyr a rhyfeddnod. Y *Chaldee Paraphrast* a'i cyfieitha, *yn dragywydd.* Arwydda, medd y dysgedigion Iuddewig, *Nad oes diwedd ar y mater.*

SELAH, 1. Mab Arphaxad, a thad Heber. Gen. 11. 12—15.——2. Mab Judah. Gen. 38. 11.

SELA-HAMMAH-LECOTH, [*craig y gwahaniadau*] y graig o'r hon y galwyd Saul o erlid Dafydd i wrthsefyll y Philistiaid. 1 Sam. 23. 28.

SELAM.—'A'r Selam yn ei ryw.' Lef. 11. 12. *Heb.* סלעם *tôri*; *Saes.* BALD-LOCUST: gadawyd y gair heb ei gyfieithu yn y cyfieithiad arferedig yn awr, a'r Dr M. Tebygol mai rhywogaeth o locustiaid, a feddylir, anadnabyddus yn y gwledydd gorllewinol. Yr oeddynt yn fwytadwy dan y gyfraith.

SELCHAH, dinas yn ngwlad Basan. Deut. 3. 10. Salchah yw yr enw yn Jos. 12. 5. a 13. 11. 1 Cron. 5. 11.

SELEC, צלק [*y cysgod*] Ammoniad, un o gedyrn Dafydd. 2 Sam. 23. 37. 1 Cron. 11. 39.

SELEMIAH, yr oedd dau o'r enw. Ezra 10. 41. Neh. 13. 13.

SELER—AU, *Llad.* CELLARIUM; *Ffr.* CELLIER; *Teut.* KELLER; *Saes.* CELLAR: diod-gell, trull; lle cadwer amguedd tŷ, cuddugl.—'Selerau i gnwd yr ŷd, a'r gwin, a'r olew.' 2 Cron. 32. 28.—'Selerau olew.' 1 Cron. 27. 28. Y selerau, y celloedd, a'r ystafelloedd, a arwyddocânt, tebygol, yr ystafelloedd oddi amgylch y deml, yn dair o uchder; ac a wahaniaethir wrth yr enwau hyn, oddiwrth y gwahanol ddefnydd a wnaed o honynt. 1 Cron. 28. 11. *The treasuries, the upper chambers, and the inner parlours. Saes.*

SELES, mab Helem. 1 Cron. 7. 35.

SELEUCIA, yr oedd amryw ddinasoedd o'r enw hwn yn Asia, ond ni chofféir yn yr ysgrythyrau ond am Seleucia yn Syria, ar yr afon Orontes, a adeiladwyd gan Seleucus Nicator. Act. 13. 4.

SELOMITH, merch Dibri o lwyth Dan, a mam y bachgen a labyddiwyd am gabledd. Lef. 24. 10, 14.—Yr oedd amryw eraill o'r enw. 1 Cron. 3. 19. a 23. 9, 18. a 26. 25, 26.

SELOMOTH, 1 Cron. 24. 22.

SELSAH, [*cysgodol*] lle ar gyffiniau rhandir Benjamin. 1 Sam. 10. 2.

SELUMIEL, שלמיאל [*heddwch Duw*] mab Surisâdai, penaeth llwyth Simeon. Num. 1. 6. a 7. 36.

SEM, שם [*enw, enwogrwydd*] ail fab Noah. Gen. 5. 32. Ei hiliogaeth ef a boblogasant barthau deheuol Asia. Bu yr eglwys yn mhlith ei hiliogaeth ef dros 2000 o flynyddoedd cyn Crist. Edr. CANAAN, HAM, JAPHETH, NOAH.

SEMA, 1. Mab Recem, a thad Maon. 1 Cron. 2. 44.——2. Mab Joel. 1 Cron. 5. 8.——3. Enw dinas yn Judah. Jos. 15. 26.——4. Mab Hebron. 1 Cron. 2. 42, 43.

SEMAAH, un o gedyrn Dafydd. 1 Cron. 12. 3.

SEMAIAH, enw y prophwyd a anfonwyd at Rehoboam, â chenadwri oddiwrth Dduw yn gwarafun iddo ryfela yn erbyn Israel. 2 Cron. 12. 15. Edr. REHOBOAM.—Yr oedd amryw eraill o'r enw. Gwel 1 Cron. 3. 22. a 4. 37. a 5. 4. a 11. 2. a 15. 8, 11. a 26. 4, 7. 2 Cron. 17. 8. a 29. 14. a 31. 15. a 35. 9. Ezra 8. 16. a 10. 21, 31. Neh. 6. 10. Jer. 29. 24—32. a 36. 12.

SEMARAIM, צמרים [*nôdd*] dinas yn Benjamin, yn agos i Bethel. Jos. 18. 22. 2 Cron. 13. 4.

SEMARIAD, צמרי [*gwlan*] hiliogaeth degfed mab Canaan. Tebygol iddynt adeiladu a phoblogi Simyra, yn Phenicia. Gen. 10. 18.

SEMARIAH, yr oedd dau o'r enw. 1 Cron. 12. 5. Ezra 10. 32.

SEMEBER, brenin Seboim. Gen. 14. 2.

SEMEI, tad Matthias, a mab Joseph. Luc 3. 26.

SEMER. Edr. SAMARIA.

SEMIDA, mab Gilead o Manasseh. Num. 26. 32. 1 Cron. 7. 19.

SEMINITH, שמינית [*brasder, helaethrwydd, wythfed,* neu *y nifer helaeth*] 1 Cron. 15. 21. Titl Ps. vi, xii. Rhai a farnant yr arwydda offeryn cerdd: cyfieitha y Dr Morgan ef, 'ar yr wyth dant:' eraill yr arwydda y dôn, y mesur, neu y cywair, yr oeddynt i ganu: ond Fenwick a Parkhurst a farnant, gan y rhagflaenir ef â'r rhagddod על *yn nghylch,* yr arwydda *mater,* neu *ddefnydd* y gân; sef rhagorol olud gras Duw yn Nghrist: ac os yw Ps. vi, xii. i'w golygu gwedi eu llefaru yn brophwydoliaethol yn mherson Crist, arwydda yr olew llawenydd â pha un yr eneiniwyd Crist, (Ps. 45. 8. cymh. Act. 10. 38.) yr hwn a dywalltodd efe yn helaeth ar ddydd y Pentecost ar ei gyfeillion. Cyfieitha Fenwick titl Ps. vi. *I,* neu *am yr hwn sydd yn rhoddi y fuddugoliaeth mewn gorthrymderau, ar yr eneiniad,* sef eneiniad yr Ysbryd Glân.*

SEMIRAMOTH, Lefiad, ac un o borthorion y deml. 1 Cron. 15. 18.

SEN, שן [*dant*] arwydda y gair *dant;* hefyd, darn o graig noeth, yn taflu allan fel dant. Rhwng Mispah a Sen y gosododd Samuel y maen Ebenezer (sef maen cynnorthwy) i fynu, yn goffadwriaeth am y fuddugoliaeth a roddodd yr Arglwydd iddynt ar y Philistiaid. 1 Sam. 7. 12.

* Gwel Fenwick's Thoughts on the Hebrew Titles of the PSALMS.



Digitized by Google

SENAAH, סנאה [*perth*] Ezra 2. 35.

SENACHERIB, סנחריב *sanherib* [*perth dinystriad*] hefyd Jareb, hwyrach. Hos. 5. 13. a 10. 6. Brenin Assyria, ac olynwr Salmaneser. Edr. HEZECIAH. Pedair blynedd y teyrnasodd, a lladdwyd ef gan ei ddau fab. Esa. 37. 38. Gwedi dychwelyd i Ninifeh, ar ol dyfetha ei fyddin yn ngwlad Judea,* dywedir iddo ymddwyn yn greulon tu ag at yr Iuddewon caeth yn ei wlad. Tobit 1. 18.

SENAN, צנן [*oerfel*] dinas yn Judah. Jos. 15. 37.

SENASAR, mab Jeconiah, brenin Judah. 1 Cron. 3. 18.

SENIR. Edr. HERMON.

SEN—U, (sy-en) ymserth, gogan, cerydd ar eiriau; ymgeinio, ymryson ar eiriau; ceryddu.—'Nid yn talu drwg am ddrwg, neu sèn am sèn.' 1 Petr 3. 9. —'Neu ddirmic dros dirmic.' W. S. a Dr M. λοιδοριας, *difenwi*. 1 Tim. 5. 14. 1 Cor. 5. 11. a 6. 10.

SEPHAM, dinas yn Syria. Num. 34. 10, 11.

SEPHANIAH, צפניה [*cuddiedig gan yr Arglwydd*] mab Maaseiah yr offeiriad, yr hwn a anfonodd Sedeciah brenin Judah at Jeremiah y prophwyd, yn nghyd â Jehucal, i erfyn arno weddïo drostynt, pan oedd llu y Caldeaid yn gwarchae ar Jerusalem. Jer. 37. 3.

SEPHANIAH, צפניה [*dirgelwch yr Arglwydd*] 1. Yr ail offeiriad dan Seraiah, yr offeiriad penaf. 2 Bren. 25. 18. Jer. 21. 1. a 37. 3. Lladdwyd ef a Seraiah yn Riblah, trwy orchymyn Nebuchodonosor.——2. Lefiad o deulu Cohath. 1 Cron. 6. 36. ——3. Prophwyd, mab Cusi, ac ŵyr Gedaliah. Yr oedd yn byw yn amser Josiah, mab Amon, brenin Judah, tua diwedd ei deyrnasiad, pan oedd crefydd wedi dirywio yn fawr yn y wlad, trwy ragrith y rhai oedd wedi cyd-fyned â diwygiad y brenin duwiol hwnw. Yr oedd yn cyd-oesi â Jeremiah, yn mlynyddoedd cyntaf y prophwyd hwnw; ac arferant, yn aml, yr un gyffelyb iaith. Argyhoedda yr Iuddewon yn llym am eu drygioni, yn y bennod gyntaf a'r drydedd, a rhag-fynega eu caethiwed a'u drygfyd. Yn yr ail bennod, y mae yn annog y bobl i edifeirwch, ac yn rhag-fynegi dystryw y Philistiaid, y Moabiaid, yr Ammoniaid, yr Ethiopiaid, a'r Assyriaid, y cenedloedd oeddynt yn ychwanegu at, ac yn gorfoleddu yn nrygfyd yr Iuddewon. Diwedda gyda phrophwydoliaethau gogoneddus am ddyddiau yr efengyl, a llwyddiant mawr yr eglwys.

* Y mae y Milwriad Rawlinson yn barnu fod cyfeiriad at Senacherib yn y darluniau a ddarganfyddwyd yn ddiweddar yn Ninifeh: ac y mae y darlleniad manwl o un o'r cerf-ysgrifeniadau ar un o'r teirw a ddygwyd oddi yno wedi troi allan i fod yn ddarluniad o ymgyrch Senacherib yn erbyn Hezeciah, ac yn sefydlu y ffaith mai yr un ydoedd y brenin a adeiladodd y palas mawr yn Konyunjik a Senacherib yr ysgrythyr. Mae y Milwriad hefyd yn cael fod Senacherib wedi myned i fynu yn erbyn rhyw ddinasoedd neillduol o Syria, ac iddynt hwy gymeryd noddfa gyda *Khazakiyaha*, neu Hezeciah (*Khizkiyahu*) brenin *Ursalimma*, Jerusalem (*Yerushalayim*) neu *Yahudah*, Judah (*Yehudah*). Coffëir ar yr un cerf-ysgrifiad hwn mewn llythyrenau cun-ffurfiedig (*cuneiform*), pan fygythiodd Senacherib Jerusalem, fod Hezeciah wedi ymostwng a chynnyg iddo 30 o dalentau o aur, 300 o dalentau o arian, bechgyn a genethod, gwasanaeth-ddynion a gwasanaeth-ferched, at wasanaeth ei balas. Yn pen. xviii o ail lyfr y Breninoedd, yr ydym yn cael yr hanes Iuddewig fod y swm yma wedi cael ei dalu, ac, ar farmorau Konyunjik, yr ydym yn cael y cydnabod Assyriaidd ei fod wedi ei dderbyn. Ymddengys fod y Milwriad Rawlinson fel yn meddwl ddarfod i Senacherib wneuthur dwy ymgyrchiad yn erbyn Jerusalem—ein bod ni wedi cael gafael yn hanes un o'r rhai hyn, a bod yr olaf, pan y gorchfygwyd ef yn wyrthiol, i'w chael etto. Ond fe wna darlleniad gofalus o'r hanes yn ail lyfr y Breninoedd, yn y Cronicl, ac yn Esaiah, yn hytrach arwain i'r casgliad, na bu ond un rhyfel-gyrch; a thra y mae darostyngiad Hezeciah yn cael ei gofiäu, a'i osod yn ymffrostgar, y mae dymchweliad blin y llu Assyriaidd, trwy wynt oddiwrth yr Arglwydd, yn cael ei adael yn ddisylw.—F

SEPHAR, ספרה [*llyfr*] mynydd yn y dwyrain i Arabia. Gen. 10. 30.

SEPHARAD. Obad. 20. Barn Lightfoot, medd Newcome, mai rhan, neu ddinas, o Edom oedd y lle hwn, sydd fwyaf tebyg i wir o ddim a welais. Ystyr y geiriau yw, Y byddai yr Iuddewon caeth yn mhlith y Canaaneaid feddiannu gwlad y Canaaneaid; a'r rhai a gaethgludodd yr Edomiaid, a feddiannent ddinasoedd eu caethgludwyr. Gwel Lowth, Newcome, Scott.

SEPHARVAIM, ספרוים [*y llyfrau*] Salmanezer brenin Assyria a ddug bobl o Babilon, Cutha, Afa, Hamath, a Sepharfaim, ac a'u cyfleödd yn ninasoedd Samaria, yn lle meibion Israel. Nid yw awdwyr yn cytuno am ei sefyllfa. Yr oedd gan y trigolion frenin eu hunain. Dyfethwyd hwy mewn rhan gan frenin Assyria, a throsglwyddwyd y gweddill i ddinasoedd Samaria. 2 Bren. 19. 13. a 17. 24, 31. Prif ddinas y wlad, tebygol, oedd Sepharfaim. Y Sepharfiaid a losgasant eu meibion yn tân i Adramelech, ac i Anamelech, duwiau Sepharfaim. Ai yr un oedd ei breninoedd a'i duwiau? cymh. 2 Bren. 17. 31. a 18. 34. â Esa. 37. 13. 2 Bren. 19. 13.

SEPHATH, צפת [*yr hwn sydd yn canfod*] dinas yn llwyth Simeon. Barn. 1. 17.

SEPHATIAH, mab Dafydd o Abital. 2 Sam. 3. 4. Yr oedd eraill o'r enw. Gwel 1 Cron. 9. 8. a 12. 5. a 27. 16. 2 Cron. 21. 2. Ezra 2. 57. Neh. 7. 9. Jer. 38. 1.

SEPHATHAH, צפתה [*canfyddwn, gwyldwr*] coffeir am 'ddyffryn Sephathah wrth Maresah,' yn 2 Cron. 14. 10. Hwyrach fod y dyffryn hwn yn agos i Sephath, neu Hormah, medd Calmet.

SEPHI, צפי [*yr hwn sydd yn canfod*] trydydd mab Eliphaz mab Esau. 1 Cron. 1. 36. Gelwir ef Sepho yn Gen. 36. 11, 15.

SEPHO, mab Sobal. Gen. 36. 23.

SEPHON, צפן [*yr hwn sydd yn canfod*] mab Gad. Num. 26. 15.

SEPHORAH, צפורה [*prydferthwch*] merch Jethro, gwraig Moses, a mam Gersom ac Eliezer. Exod. ii. a iv. Num. xii. Pan gychwynodd Moses, wrth orchymyn Duw o wlad Midian i fyned i'r Aipht, efe a gymerodd ei wraig a'i feibion gyd âg ef. 'A bu ar y ffordd yn y lletty, gyfarfod o'r Arglwydd âg ef, a cheisio ei ladd ef,' sef Moses. Tarawodd Duw ef, tebygol, â rhyw afiechyd, neu bla trwm, yr hyn a'i gwnaeth yn analluog i enwaedu ar ei blentyn ei hun; fel y bu gorfod ar Sephorah ei wraig wneuthur hyny, yr hon yn amgen oedd yn anaddas i hyny; neu ymddangosodd â chleddyf yn ei law yn ei fwgwth. Yr achos o anfoddlonrwydd Duw wrth Moses, oedd ei esgeulusiad o enwaedu ar ei fab ieuengaf, tebygol, oddiwrth yr hyn a wnaeth Sephorah i'w gymmodi, ac i achub bywyd Moses. Yr oedd ei esgeulusiad yn farwolaeth yn ol gorchymyn Duw. Paham, a thros ba hyd y bu yr oediad hwn, nid yw yn hawdd penderfynu. Tebygol fod yr enwaediad yn arferedig yn mhlith y Midianiaid, y rhai oeddynt hiliogaeth Abraham o Ceturah, fel yr oedd yn mhlith yr Ismaeliaid, a'r cenedloedd eraill a hanasant o'r patriarch hwnw; gan hyny nid tebygol iddo gael gwrthwynebiad yn nheulu Jethro. Oddiwrth hanes y dygwyddiad hwn yn y lletty, yn ol ein cyfieithiad ni, y farn gyffredin yw, i Sephorah wrthynebu yr enwaediad, ac iddi enwaedu y plentyn yn ddigofus ac yn anynad, ac mewn anfoddlonrwydd tu ag at Moses; ond gan nad oes dim yn yr hanes am dani yn rhoddi lle i gynnwys y meddwl, barna y duwinydd enwog Joseph Mede,

Digitized by Google

y gellir cyfieithu y geiriau yn fwy esmwyth, i ochelyd cynnwys y cyfryw feddwl anaddas am dani: 'Hi a dorodd ddienwaediad ei mab, ac a'i bwriodd, neu a barodd iddo gyffwrdd â'i draed.' Nid ydyw dull yr ymadrodd yn arwyddo un gradd o ddigofaint, nac o anmharch; ond i'r gwrthwyneb, gostyngeiddrwydd a gweddeidd-dra. Y gair *Heb.* חתן *chatan*, a gyfieithir *priod*, ydyw y gair a arferai yr Iuddewon, medd Kimchi, am y plentyn gwedi ei enwaedu; arwydda, medd y gŵr hwn, un peth a fyddo yn peri *llawenydd*, megys llawenydd priodas, neu ar enwaediad dyn bach. Gellir cyfieithu y geiriau, *Yr ydwyt yn awr i mi yn fab llawenydd enwaededig*; yn lle, 'Diau dy fod yn briod gwaedlyd i mi.' Ffurf o ymadrodd a arferent wrth enwaedu ydyw y geiriau, ac arwyddant, 'Yr wyt ti yn awr gwedi dy enwaedu.' Rhoddais y golygiad hwn yma ar y geiriau, ond bydded i'r darllenydd farnu a ydyw yn iawn olygiad ai peidio. Gwrthwyneba Rivetus ac eraill yn gryf, a chadarnhant yr ystyr gyffredin arnynt a roddir yn ein cyfieithiad ni. Tebygol nad aeth yn mhellach ar y daith hon gyda Moses, ond iddi ddychwelyd at ei thad i wlad Midian, canys cawn Jethro gwedi hyny yn ei dwyn hi a'i meibion at Moses i'r anialwch. Exod. 18. 5. Nid yw Mr J. Mede yn unigol yn y golygiad hwn ar y geiriau; ond mae cyfieithiad y LXX. a'r Caldaeg, ac eraill, yn rhoddi yr un ystyr iddynt. Gwel J. Mede's *Sermon on the words. Universal History, vol.* iii.

Rhydd Bate a Parkhurst gyfieithiad arall gwahanol ar y geiriau yn Exod. 4. 25. 'Ond Sephorah a gymerodd *gareg lem*, ac a dorodd *flaen-groen* ei mab, ac *a'i rhoddodd wrth ei draed Ef* (IEHOFAH) ac a ddywedodd, *Tad yn nghyfraith trwy waed wyt Ti i mi.*' Midianees oedd, ac yn ddyeithr i bobl IEHOFAH; er hyny, hòna ei fod ef yn (חתן) *dad yn nghyfraith* iddi trwy waed, o herwydd yr enwaediad. Y mae y gair חתן yn arwyddo *perthynas briodasol wrrywaidd*, megys *daw*, Gen. 19. 14. 2 Bren. 8. 18, 27. —*gwr priod*, Ps. 19. 5. Esa. 62. 5, &c.—*chwegrwn*, Exod. 3, 1, &c. Nid yw un amser yn gosod allan y berthynas rhwng y priodfab a'r briodferch, ond â rhīeni y briodferch.

**SEPHUPHAN**, שכיפן [*neidr gorniog*] mab Bela, ac ŵyr Benjamin. 1 Cron. 8. 5.

**SER**, (se-er) *Gr.* αστερ; *Llad.* ASTER; *Saes.* STAR; *Teut.* STERN: sŷr; *rhif unigol*, se, sy, seren. Y cyrph nefol. Seren walltog, seren gynffonog, seren y gynffon, seren losgyrnog, sef y cometau. Gwahaniaethir y sêr yn sefydlog ac yn wibiog, neu y planedau. Edr. PLANED. Am y sêr sefydlog, yr ydys yn barnu yn bresennol, fod pob un o honynt yn HAUL, a bod sêr gwibiog, neu blanedau, yn troi oddi amgylch iddynt, fel ein haul a'n planedau ni. Bernir eu bod hwy yn heuloedd, 1. Am eu bod yn gyrph dysglaer, mawrion iawn, ond eu bod yn ymddangos yn fychain, o herwydd eu pellder.——2. Am eu bod yn llewyrchu trwy eu goleuni eu hunain, ac nid benthyciol, fel ein planedau ni. Os ydyw pob seren sefydlog yn haul, rhaid meddwl eu bod yn gwasanaethu defnyddioldeb haul; sef eu bod hwy yn goleuo bydoedd eraill, ac nid yn unig yn gwreichioni uwch ein penau ni y nos. Buasai lleuad neu ddwy yn ychwaneg yn rhoddi mwy o oleuni y nos na'r holl sêr i gyd. Y cysondeb rhyfeddol a ganfyddir yn holl weithredoedd Duw, sydd reswm i ni feddwl fod pob seren sefydlog yn haul. Y mae ein haul ni yn ddilys yn seren i'r sêr. Pe safem ar un o'r sêr sefydlog, ymddangosai yr haul yn seren sefydlog, fel un o'r sêr eraill, heb un golwg ar y planedau. Gan ein bod ni yn sefyll mor agos i un o'r sêr, sef yr haul, fel yr ydym yn gallu canfod chwech o fydoedd, neu brif blanedau, yn troi oddi amgylch iddi, gellir meddwl yn rhesymol fod rhyw gynnifer o fydoedd yn troi oddi amgylch pob un o'r sêr sefydlog eraill. Eu pellder ydyw yr achos eu bod yn ymddangos mor fychain. Dywedir fod y seren agosaf at y ddaear, sef *Sirius*, yn 7,600,000,000,000 o filltiroedd oddi wrthi: byddai bwled *cannon* yn myned bedair milltir ar bymtheg bob mynyd, 760,000 o flynyddoedd cyn cyrhaedd ati. Byddai y goleuni sydd yn dyfod o'r haul atom ni mewn ychydig mwy nag wyth mynyd, bymtheg mis yn myned iddi. Y mae seren yn arwydd y ddraig yn 30,000,000,000,000 o filltiroedd oddiwrth y ddaear, a byddai bwleden o *gannon* 3,000,000,800,000 o flynyddoedd yn dyfod oddi yno yma. Barna Huygens y dichon fod sêr yn y fath bellder dirfawr oddi wrthym ni, fel na chyrhaeddodd eu goleuni erioed hyd atom. Y sêr aneirif sydd yn Caergwydion, neu y llwybr llaethog. mewn pellder dirfawr, sydd yn peri iddo ymddangos i ni fel cylch dysglaer.

Rhifedi y sêr gweledig i'r llygad sydd lai nag a feddyliai neb heb eu cyfrif yn rheolaidd; nid oes fwy yn weledig ar y noswaith fwyaf eglur nag yn nghylch mil, er eu bod yn ymddangos yn aneirif, trwy fod y llygad yn cael ei dwyllo gan eu gwreichionrwydd, a'n bod ninnau yn syllu arnynt yn ddidrefn. Etto, er hyny, gellir dywedyd eu bod yn aneirif; nid oes derfyn i'r rhifedi a welir trwy y syll-ddrychau mawrion diweddaraf. Canfyddir rhai newyddion o hyd, fel mae y syllddrychau yn cael eu diwygio. Os ydyw pob un o'r rhai hyn yn haul, a bydoedd mwy neu lai yn troi oddi amgylch iddynt yn eu priodol gylchoedd, mewn pa fath ëangder diderfyn y symuda y rhai hyn oll ynddo!—Pa fawredd anfeidrol sydd yn y Duw a greodd, ac sydd yn cynnal y rhai hyn oll!—Y Duw hwn a ddaeth i'n byd ni, a wisgodd gnawd, ac a fu farw ar y croes-bren i brynu pechadur euog.

Y mae seren pwnc y gogledd yn neillduol o nodedig, o herwydd ei defnyddioldeb i forwriaeth. Gan ei bod yn sefydlog yn yr un man, ac yn weledig bob amser yn y cylch hwn o'r byd, a bod y maen tynu yn cyfeirio ati, rhaid ei bod o'r defnydd mwyaf i sicrhau iddynt y llwybr mae y llong yn ei gerdded.

Math arall o sêr a elwir cometau, neu sêr cynffonog. Y rhai hyn a droant o amgylch yr haul fel y planedau, and mewn cylchoedd lleddfawg, neu hir-feinion; trwy hyny y maent weithiau yn agos iawn i'r haul, fel y maent yn cael eu poethi i raddau dirfawr, a thrwy fod corph yr awyr yn eu cylch yn cael ei deneuhau gan y dirfawr boethder hwn, y mae eu cynffonau yn cael eu ffurfio, fel y tybygir: brydiau eraill y maent allan o'n golwg ni, ac mewn pellder mawr oddiwrth yr haul. Cafwyd allan hŷd cylch tair o'r sêr cynffonog; sef un a ymddangosodd yn y flwyddyn 1661, hŷd cylch pa un sydd 129 o flynyddoedd: un arall yn y flwyddyn 1680, hŷd cylch yr hon sydd 575 o flynyddoedd: ac un arall yn 1682, yr hon sydd yn troi yn ei chylch mewn 75 o flynyddoedd. Yn mhen yr amseroedd nodedig hyn, tybir yr ymddangosant etto, os pery y byd. Rhagluniaeth ryfedd sydd yn peri na bai y bydoedd tanllyd hyn yn taro wrth y lleill, ryw bryd, wrth dynu at, neu bellhau oddiwrth, yr haul, gan fod eu cylchoedd heibio i amryw o honynt; ond y maent yn rheolaidd o fewn eu terfynau eu hunain. Y seren gynffonog fawr yn y flwyddyn 1680, oedd 166 o weithiau yn nes i'r haul na'r ddaear; am hyny yr oedd ei phoethder yn 28,000 o weithiau yn fwy na gwres mwyaf yr haf ar ein daear ni. Pe buasai pelen o haiarn cymaint a'r ddaear yn cael ei phoethi i'r un gradd, ni buasai yn oeri, medd Syr Isaac Newton, dan 50,000 o flynyddoedd. Hŷd eu cynffonau sydd amrywiol a chyfnewidiol; sylwyd ar rai o 16 hyd yn 60 o raddau o hŷd. Y maent yn cynnyddu fel y nesâant at yr haul, ac yn lleihau fel y pellhant oddiwrth yr haul. Y mae eu cynffonau bob amser yn dryloyw, a chanfyddir y sêr lleiaf drwyddynt. Canfyddwyd yn nghylch cant o'r sêr hyn: ond gan fod eu hymddangosiad mor anaml, y mae deddfau a rheolau

Digitized by Google

eu symudiadau a'u cylchoedd yn dra anhysbys. Mae yn hawdd dychymygu; ond ni wna dychymygion neb yn ddoethach.

Pa effeithiau sydd oddiwrth y sêr ar y ddaear, heblaw rhoddi eu goleuni iddi, nis gwyddom. Tebygol fod eu goleuni yn gynnorthwyol i'r Hebreaid i ddilyn yr ymladdfa yn erbyn Jabin, a thrwy hyny y gellir dywedyd iddynt yn eu graddau, neu eu cylchoedd, ymladd yn ei erbyn. Barn. 5. 20. Neu hwyrach, eu bod yn gynnorthwyol ryw ffordd arall.

Gelwir Crist, ' y Seren foreu—y Seren foreu eglur.' Dat. 2. 28. a 22. 16. Y mae yn oleu ynddo ei hun: ac fel seren foreu mae yn dwyn dydd dysglaer o ras a gogoniant i'w bobl. Efe yw, yn yr ystyr penaf, y seren a ddaeth o Jacob, i daro, trwy ei allu a'i awdurdod freninol, holl gonglau Moab, sef llwyr ddinystrio ei holl elynion.

Gweinidogion y gair, ydynt fel sêr yn neheulaw Crist, yn cael eu cynnal a'u cyfarwyddo ganddo, ac yn derbyn eu holl oleuni oddi wrtho; ac y maent yn eu swydd oruchel yn foddion i oleuo, cyfarwyddo, a chysuro ei bobl yn y byd. Sêr gwibiog, a sêr gwedi syrthio, ydynt, pan gyfeiliornant oddiwrth y gwirionedd, ac y denant eraill ar ddisperod. Dat. 1. 20. a 8. 10, 11, 12. a 12. 3. Judas 13.——Gelwir yn gyffelybiaethol, yn sêr, unrhyw ddynion ardderchog, blaenoriaid, pen-swyddwyr yn y wladwriaeth, neu yr eglwys. Dan. 8. 10, 24. a 12. 3.——A ' sêr y nefoedd yn syrthio,' a arwydda eu darostyngiad a'u diswyddiad. Mat. 24. 29. Marc 13. 25.

' Y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.' 1 Cor. 15. 41. ' Amrafaelia seren rac seren yn-gogoniant.' W. S. Sef rhagor mewn dysgleirdeb llewyrchus; felly hefyd mae rhagor rhwng cyrph nefol a chyrph daearol. Cyrph fydd pob un o'r ddau, ond bod y rhai nefol yn rhagori yn eu hansawdd, eu dull, a'u hagwedd; cyrph gwael ydyw un; cyrph cryfion, dysglaer, ac anllygradwy fydd y lleill. Edr. CORON, DOETHION, WERMOD.

SER, צר [*gorthrymder*] dinas yn Naphtali. Jos. 19. 35.

SERAH, זרח [*dysg'eirdeb*] 1. Mab Reuel, ac ŵyr Esau. Gen. 36. 13, 17, 33.——2. שרח *Serah*, merch Aser. Gen. 46. 17.

SERAIAH, שריה [*tywysog yr Arglwydd*] 1. Ysgrifenydd Dafydd, 2 Sam. 8. 19. a elwid hefyd Sisa, 1 Bren. 4. 3. a Safsa, 1 Cron. 18. 16.——2. Tad Joab, tad glyn, neu drigolion glyn y crefftwyr. 1 Cron. 4. 14.——3. Mab Asiel, a thad Josibiah. 1 Cron. 4. 35.——4. Yr arch-offeiriad yr hwn a laddwyd gan frenin Babilon yn Riblah. Jer. 52. 24—27. 2 Bren. 25. 18, 21.——5. Mab Tanhumeth y Netophathiad. 2 Bren. 25. 23.——6. Un o benaethiaid yr Iuddewon a ddychwelasant o Babilon. Ezra 2. 2. Neh. 10. 2. a 12. 1.——7. Mab Neraiah, a brawd Baruch. Jer. 51. 59. Dywedir iddo fyned gyda Sedeciah brenin Judah i Babilon; neu fel y cyfieithir y geiriau gan rai, *yn achos Sedeciah.* ' Yr oedd yn dywysog llonydd;' neu *ystafellydd*, neu *dywysog y genadwriaeth.* I hwn y parodd Jeremiah ddarllen yn Babilon yr holl brophwydoliaeth yn erbyn y lle hwnw. Gwedi iddo ddarllen y llyfr, yr oedd i rwymo maen wrtho, a'i fwrw i ganol Euphrates, a dywedyd, ' Fel hyn y soddir Babilon, ac ni chyfyd mwy.' Tebygol ei fod yn ŵr duwiol, er iddo gael ei anfon ar genadwriaeth i Babilon gan Sedeciah annuwiol.

SERAPHIAID, שרפים *seraphim* [*tanllyd*]. Edr. SARPH. Arwydda y gair hwn dysgleirdeb tanllyd yn ymddangosiad y creaduriaid gweledigaethol hyn, a elwir SERAPHIAID yn unig yn Esa. 6. 2. Felly darlunir y Cerubiaid yn Ezec. 1. 4, 5, 7, 13. ' Yn gwreichioni fel lliw efydd gloyw.—Eu gwelediad oedd fel marwor tân yn llosgi, ac fel gwelediad ffaglau.—A dysglaer oedd y tân, a mellt yn dyfod allan o'r tân.' Yn addas, gan hyny, y gelwir hwynt SERAPHIM, sef *y rhai tanllyd.* A hwyrach fod eu gwelediad tanllyd, hefyd, yn arwyddocâol, 1. O'r poethder tanllyd sydd ynddynt yn addoliad a gwasanaeth eu Harglwydd.—2. Eu purdeb digymysg. Ni oddef tân ddim ond efe ei hun; llysg bob peth arall. Nid oes dim cymysg ynddynt o rinweddau a beiau. Cariad Duw a'i rinweddau sydd yn eu tanio yn gwbl. Ps. 103. 21.—3. Eu parodrwydd a'u cyflymdra yn eu hufudd-dod i Dduw. Ps. 104. 4.

Am eu *nifer*, nid oes dim yn y geiriau yn penderfynu hyny; ond arwydda y geiriau, tebygol, fod, nid dau yn unig, ond côr o honynt, fel gweinidogion ardderchog llŷs goruchel yr IEHOFAH. Yr oeddynt yn *sefyll* yn uchel, o bob tu i'r orseddfa, tebygol, yn dysgwyl wrth eu Harglwydd, mewn parodrwydd gwastadol i ufuddhau iddo, ac i gyflawni yr hyn a orchymynai. ' Chwech aden ydoedd i bob un; â dwy y cuddiai ei wyneb, â dwy y cuddiai ei draed, ac â dwy yr ehedai.' Arwydda eu gwaith yn cuddio eu hwyneb, 1. Eu parch a'u gwylder; felly y cuddiodd Moses ei wyneb. Exod. 3. 6.——2. Eu cydnabyddiaeth o'u hanalluogrwydd i amgyffred Duw, ac i edrych ar ddysgleirdeb ei ogoniant. Gan nad oedd efe gwedi ei wisgo â chwmwl, gorchuddiasant hwy eu hwynebau.——3. I arwyddo eu parodrwydd i ufuddhau iddo, megys yn ddall, heb amgyffred holl ddirgelion ei gynghor, a dybenion dyfnion ei oruchwyliaethau. Nid oes neb ond efe ei hun yn abl amgyffred achosion, rhesymau, dybenion, a diwedd ei holl gynghorion. Esa. 40. 13. Gweddai i bawb ymddiried ac ufuddhau i Dduw yn mhob peth a orchymyn, heb ddadl, gyd â'r parodrwydd mwyaf, heb ganfod, yn bresennol, ddiwedd a dyben ei oruchwyliaethau.—' Cuddio eu traed,' a arwydda eu gostyngeiddrwydd, a'u cydnabyddiaeth fod eu gwasanaeth goreu yn annheilwng o sylw yr Arglwydd, ac o'r seraphiaid eraill. Yr adenydd estynedig, parod i ehedeg, a arwydda eu parodrwydd i fyned lle yr anfonai eu Harglwydd hwynt yn ddioed, a chyd â'r cyflymdra mwyaf. Nid crefydd fyfyriol y meudwyod (*hermits*) oedd ganddynt yn unig, ond yr oeddynt yn barod i ehedeg ar negeseuau eu brenin.

Wrth sefyll yr oeddynt yn llefain y naill wrth y llall, yn ddwy blaid gyferbyn a'u gilydd, yn ymbyncio, ' Sanct, Sanct, Sanct, yw Arglwydd y lluoedd, yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant ef.' Yn gwaeddi Sanct deirgwaith i arwyddo Trindod yn y Duwdod, yn ogyfuwch mewn sancteiddrwydd; yr amrywiol ffyrdd yr amlyga Duw ei sancteiddrwydd; sef yn y gyfraith, yn ei farnedigaethau, ac yn benaf yn nhrefn fawr yr iechydwriaeth, trwy yr hon y llanwyd yr holl ddaear, yn gystal a'r nefoedd, â'i ogoniant. Neu, ynte, arwydda trebliad y gair, mai eu gwaith didor a diflino ydyw moli ei sancteiddrwydd, a'i fod yn mhell mewn mawredd ardderchog tu hwnt i amgyffred a mawl ei holl greaduriaid. Mewn ystyr cyfriniol, yr un sydd i ddeall, tebygol, wrth y seraphiaid, a'r cerubiaid, a'r pedwar anifel yn y Datguddiad. Edrych CERUB, MARWORYN.

SERCH—OG—RWYDD, (ser) *Groeg*, *στοργη* (*storge*): cariad, hoffder, anwylder, nwyfserch, cudab: hefyd, tros, er, o herwydd. Serch hyny. Yn yr ystyr hwn, arferir ef amlaf yn y Deheudir.

Ni chablaf Dduw *serch* marw.

' Rhoddwch eich serch ar y pethau sydd uchod.' Col. 3. 2. ' Rhowch eich bryd ar y pethau 'sydd vchod.' W. S. a Dr M. *Τα ανω φρονειτε, syniwch y pethau sydd uchod.* Yr un gair yw ag sydd yn Rhuf. 8. 5, 6. Meddyliwch am, a rhoddwch eich bryd ar, y pethau sydd uchod. Y gair a gynnwys weithrediad yr holl

Digitized by Google

enaid, y deall, y meddwl, a'r ewyllys, yn meddwl am, yn serchu, ac yn ceisio y pethau hyn. 'Y pethau sydd uchod,' ydyw tragywyddol fwynhad o Dduw, bod yn debyg iddo, ei weled megys ag y mae, llawenychu ynddo, ei wasanaethu, ei addoli, yn ddidor, ac yn ddiflino: ceisiwn y pethau hyn, a'r pethau sydd yn ein haddasu i hyn; sef pob bendith ysbrydol yn Nghrist Iesu. Fel y rhoddir 'y pethau sydd uchod' mewn cyferbyniad i'r 'pethau sydd ar y ddaear,' arwyddant bob bendith ysbrydol; y rhoddion a dderbyniodd Crist i'w cyfrannu i ddynion; dyfnion bethau Duw; pethau yr Ysbryd. Uchod y maent i'w cael; y maent yn oruchel yn eu natur, ac yn dyrchafu meddwl y dyn yn y syniad addas am danynt, ac yn y meddiant o honynt, i agwedd oruchel, fawreddig, a gogoneddus iawn. Synied y pethau hyn yn addas a'n dwg ni i addasrwydd i fod gyda Christ, i gael perffaith fwynhad o honynt byth. Y maent i'w cael ond eu ceisio; a'r neb nid yw yn eu ceisio, nid yw yn eu cymeradwyo, nac mewn agwedd addas i'w mwynhau.

'Wele dy amser yn amser serchogrwydd.' Ezeciel 16. 8. עת דדים *amser serchiadau*, neu *cariadau*. Er ei bod yn wrthun ac yn hagr, etto yr oedd serch yn yr Arglwydd tu ag ati; ac oblegid mawredd ei gariad, rhoddir y gair yn y rhif lliosog. Amser oedd i Dduw ddangos ei fawr gariad tu ag ati yn ei hymgeleddu. Deut. 7. 6, 8. Ps. 91. 14. Esa. 41. 8, 9. a 43. 4. a 63. 7, 8, 9. Jer. 2. 2, 3. a 31. 3. Hos. 11. 1. Rhuf. 5. 8. a 9. 10—13. Titus 3. 3, 4.

SERED, סרד [*darostwng gallu*] mab hynaf Zabulon. Gen. 46. 14. Num. 26. 26.

SEREDAH, *Heb.* צרדה [*planigyn grymus*] dinas yn Ephraim, lle genedigol Jeroboam mab Nebat. 1 Bren. 11. 26.

SEREDATHA, dinas yn Ephraim, lle toddwyd holl lestri teml Solomon. 2 Cron. 4. 17. 1 Bren. 7. 46. Yr un, tebygol, a Saretan. Jos. 3. 16.

SEREN. Edr. SER.

SERES, mab Machir, a brawd Peres. 1 Cronicl 7. 16.

SERESER. Edr. REGEM-MELECH.

SERFIAH, neu SERUIAH, צרויה [*cadwyni yr Arglwydd*] chwaer Dafydd, a mam Joab, Abisai, ac Asahel. 2 Sam. 2. 18. 1 Cron. 2. 16.

SERGIUS PAULUS, rhaglaw ynys Cyprus, a ddychwelwyd i'r ffydd trwy weinidogaeth Paul. Act. 13. 7. Edr. BAR-IESU.

SERI, צרי [*rhwymau*] mab Jeduthun. 1 Cronicl 25. 3.

SERIO, *Ffranc.* ESSORER; *Saes.* SEAR: llosgi â haiarn poeth; craith-losgi.—'A'u cydwybod eu hunain wedi ei serio â haiarn poeth.' 1 Tim. 4. 2. 'Rrain sy ai cydwybod wedi i llosci gan-hayarn-brwd.' W. S. a Dr M. *κεκαυτηριασμενων*, *nodi â haiarn poeth*, neu, *losgi cig drwg i ffordd â haiarn*. Yma arwydda y dideimladrwydd sydd yn aros yn y fan a losgwyd; mae eu cydwybod mor ddideimlad a'r cnawd a losgwyd â haiarn poeth. Gwel Schleusner.

SEROR, צרור [*rhwym*] mab Becorath, gorhendaid y brenin Saul. 1 Sam. 9. 1.

SERTH—EDD, (ser) gwyrogrwydd, tueddiad; diphwys, ewinallt, bronallt, gorallt; bustledd; croesanaeth, brynti ar air, aflendid.—'Craig serth.' 1 Sam. 14. 4.——'Na serthedd, nac ymadrodd ffol.' Eph. 5. 4. Col. 3. 8.——'Na chroesanaeth, nac ymadrodd ynvyt.' W. S. *Αισχροτης*, *brynti, aflendid*.

SESACH, Babilon; ond anhysbys ydyw paham y galwyd hi ar yr enw hwn. Jer. 25. 26. a 51. 41. Gwel Blayney. Hwyrach mai enw un o'i heilunod oedd. Gwel Calmet.

SESAI, mab Anac. Jos. 15. 14.

SESBASSAR, penaeth Judah, i'r hwn y rhifwyd llestri tŷ yr Arglwydd wrth orchymyn Cyrus. Ezra 1. 8. a 5. 16. Edr. ZOROBABEL.

SETH, שת [*dodi*] 1. Mab Adda, a thad Enos, a anwyd A. M. 131. Bu fyw 912 o flynyddoedd. Dilynodd ei hiliogaeth wir addoliad Duw yn hir, ond o'r diwedd llygrasant trwy gymysgu â hiliogaeth Cain, a thynasant y diluw yn farn arnynt. Gen. 5. 3—8. a 6. 1, 2, 3, &c.——2. Lle, neu ŵr, yn ol barn rhai, yn ngwlad Moab. Num. 24. 17. Eraill a farnant mai Seth mab Adda a feddylir. Dystrywiwyd holl hiliogaeth Cain gan y diluw; felly holl drigolion y byd ydynt feibion Seth, fel Adda.——'A ddinystria holl feibion Seth,' a arwydda darostyngiad yr holl genedloedd tan lywodraeth Crist, 'y Seren a gyfododd o Jacob. Ps. 2. 8. a 72. 11. Y fuddugoliaeth hon a ennillir trwy bregethiad yr efengyl. 2 Cor. 10. 4, 5, 6.

SETHARBOZNAI, swyddwr brenin Babilon, tu hwnt i'r afon Euphrates, un o'r rhai a ysgrifenasant i'r llys yn erbyn yr Iuddewon. Ezra 5. 6.

SETHER, un o'r saith tywysog Media a Persia, oedd yn gweled wyneb y brenin. Esther 1. 14.

SHALOM, שלום [*heddwch*]. 'Ac a'i galwodd IEHOFAH-SHALOM.' Barn. 6. 24. IEHOFAH *a roddo heddwch*, neu IEHOFAH *a addawodd heddwch a diogelwch*. Arwydda y byddai heddwch i Gideon, ac nid marwolaeth; a heddwch oddiwrth IEHOFAH trwyddo fel offeryn i Israel. Y mae yr enw IEHOFAH-SHALOM yn llawn o gysur i'w bobl, ac yn ddigon yn erbyn pob digalondid oddi wrthynt eu hunain, a'u holl elynion. Yn y Cyfryngwr y mae yn IEHOFAH-SHALOM; '*Efe* yw ein *tangnefedd* ni.' Pan ddywedodd IEHOFAH, שלום *heddwch*, dywedodd Gideon yn ol, IEHOFAH-SHALOM: y mae ffydd yn adseinio yn ol eiriau Duw.

SIACED, *Teut.* JACHE; *Ffr.* JAQUETTE; *Saes.* JACKET: gwasg-bais, gwasgod. Y gair כתן a gyfieithir *siaced*, Gen. 37. 3, 23, &c.—a gyfieithir *pais*, Exod. 28. 4, 39. Lef. 8. 7. Job 30. 18. Can. 5. 3. —*gwisgoedd*, Nah. 7. 70, 72. Esa. 22. 21. Y mae yn o amlwg mai tanwisg, ac nid arwisg, oedd y siaced a wnaeth Jacob i'w hoff fab Joseph, ac a fu yn achos o genfigen i'w frodyr yn ei erbyn.

SIAMPL—AU, *Llad.* EXEMPLAR; *Ffr.* EXEMPLAIRE; *Saes.* EXAMPLE: cynllun, cynddelw, eilun, anghraifft, cynffurf, rhagffurf, portreiad.—Cyfieithir amryw o eiriau Groeg wrth y gair hwn; megys *τυπος*, *cysgod*, 1 Cor. 10. 11. 2 Thes. 3. 9. Phil. 3. 17. 1 Thes. 1. 7. 1 Tim. 1. 16. a 4. 12. Tit. 2. 7, &c. (Edrych CYSGOD.)—*υποδειγμα*, *cynllun*, i'w ddilyn, Ioan 13. 15. Iago 5. 10.—*υπογραμμον*, *anghraifft*, *cynysgrifen*, i'w chanlyn, 1 Petr 2. 21. 'Gan adel i ni anghraifft val y gallychi ganlyn eu olion ef.' W. S. ——Y mae siamplau rhai yn rhybydd i ni rhag i ni ddilyn eu llwybrau trwy y canlyniadau ofnadwy a ddygwyddodd iddynt o herwydd eu beiau: felly coffâ yr apostol holl ymddygiad Israel yn yr anialwch, yn grwgnach, ac y dilyn eu blys—yr un fath yr angelion a bechasant—yr hen fyd—Sodom a Gomorrah. 2 Petr 2. 4, 5, 6. Siamplau eraill ydynt gynllun i'w dilyn, neu anghraifft i'w canlyn. Y mae siamplau yn dysgu yn oleu ac yn effeithiol, gyd âg athrawiaeth.—1. Y mae yn gosod allan yn weledig o flaen y llygaid, natur ac effeithiau yr hyn sydd yn gynnwysedig yn yr athrawiaeth.——2. Yn dangos yn eglur y dichon y peth fod, wrth weled eraill wedi cyrhaedd

Digitized by Google

ato, ac yn cerdded y llwybr.——3. Y mae siampl yn argyhoeddiadol, ac yn annogaethol, yn ein cerydu yn ddystaw am ein palldod, ac yn ennyniad cyffrous i'r meddwl i ymgais am yr un peth.

Bywyd Crist Iesu ydyw y cynllyn mwyaf hardd a welir byth. Yn annhebyg i bawb eraill, yr oedd yn berffaith, yn gyson, ac yn addasedig i'n cyflwr presennol yn y byd. Ynddo ef y canfyddwn oleuni heb ddim tywyllwch; harddwch i gyd heb ddim brychau; holl burdeb y gyfraith, a rhagoroldeb yr efengyl. Ynddo ef y gwelir gwir dduwioldeb heb ofer-goeledd; manylrwydd moesau heb ymddangosgarwch; gostyngeiddrwydd heb salwhad; gwroldeb heb ryfyg; amynedd heb ddideimladrwydd; a thosturi heb wendid; ac awyddfryd heb fyrbwylldra; a haelioni heb wagogonedd. Aeth trwy holl gamrau ac amgylchiadau einioes dyn tlawd, profedigaethus, helbulus, gyda holl gyflawnder rhinwedd, a pherffeithrwydd ufudd-dod, heb na gormod na rhy fach mewn dim, ac heb wyro ar y naill law na'r llall. Edr. IESU. Y mae ein rhwymedigaethau i ganlyn ei anghraifft ef, o'r mwyaf, yn tarddu oddiwrth yr hyn sydd ddyledus arnom—ein perthynas âg ef fel ein brawd, ein cyfaill, ein Harglwydd, a'n hathraw—ein rhwymedigaeth a'n hymroddiad iddo—ein budd a'n llesâd ein hunain—a'n diolchgarwch diderfyn iddo. Yn fyr, cyn belled ag yr ydym yn canlyn ei ôl ef, yr ydym yn Gristionogion mewn gwirionedd. Y mae edrych arno yn bywiogi y meddwl, yn ennillgar ac yn annogaethol—ïe, yn newid i'r unrhyw ddelw.

SIARAD—US—WR, (siar) ymadroddi, ymddyddan, chwedleua; dywedgar, rhuadus; cellweiriwr, tra llafar.

> Tri pheth nid hawdd eu rhifo: banynau y goleu, geiriau benyw *siaradus*, a dichellion cybydd. *Catwg Ddoeth.*

'Beth a fynai y siaradwr hwn ei ddywedyd?' Act. 17. 18. *Σπερμολογος, y dywedgar*; yn dywedyd beth bynag a ddelo i'w feddwl, a phob peth a glywo; yn llawn geiriau, heb drefn na dyben, na buddioldeb. Yr oedd y gair yn cael ei briodoli i'r gwaelaf o ddynion o ran synwyr, rheswm, a chrededigaeth. Dyma farn doethion y byd hwn am apostol mawr Iesu Grist. Gwel Schleusner.

'Pan weddioch, na fyddwch siaradus, fel y cenedloedd.' Mat. 6. 7. 'Na vyddwch liawsairiawc.' W. S. ymyl y ddalen. '*Use not vain repetitions.*' *Saes.* Eglura diwedd yr adnod y gair; 'Y maent yn tybied y cânt eu gwrando am eu *haml eiriau*.' Y tyb hwn sydd yn peri arferyd *aml eiriau*; sef am yr un peth, yn ddiystyr, ac yn ofer, heb daerineb ysbryd gweddi ynddynt. Nid yw gwir ysbryd gweddi byth yn amleiriog; ond yn sobr, yn syml, ac yn barchus: yn dywedyd ychydig, ond yr holl enaid yn yr hyn a ddywedo. Edr. GWEDDI.

Yr un peth, yn iaith Solomon, ydyw gwraig (a gwr yr un fath) siaradus, a gwraig ffol; ei diffyg synwyr sydd yn peri ei bod yn siaradus, a thrwy hyny yn dra phechadurus. Diar. 7. 11. a 9. 13. Psalm 140. 11. Preg. 10. 11. 1 Tim. 5. 13. Tit. 1. 10.

SIBA, ציבא [*llu*] gwas Saul. 2 Sam. 9. 2. Edr. MEPHIBOSETH.

SIBBOLETH, שבלת [*tywysen*]. Yr ydoedd yr Ephraimiaid yn adnabyddedig i'r Gileadiaid wrth eu gwaith yn rhoddi y sain *S* yn lle *Sh* i'r llythyren gyntaf; sef *Sibboleth*, yn lle *Shibboleth*. Barn. 12. 6. Edr. JEPHTHAH.

SIBEON, *Heb.* שבעון [*preswylfa anwiredd*] Hefiad, a thad Anah, a thaid Aholibamah, gwraig Esau. Gen. 36. 2.

SIBIAH, צביה [*gafr*] 1. Mam Joas brenin Judah. 2 Bren. 12. 1.——2. Mab Hodes. 1 Cron. 8. 9.

SIBMAH, שבמה [*dychweliad*] dinas yn rhandir Reuben. Jos. 13. 19. Yr oedd yn agos i Hesbon, ac yn nodedig am winwydd. Esa. 16. 8, 9. Jer. 48. 32. 1 Cron. 5. 26. 2 Bren. 15. 29.

SIBRAIM, dinas oedd rhwng Hamath a Damascus. Ezec. 47. 16.

SIBRWD, (sibr) husting, sisial; siarad yn isel. 1 Sam. 12. 19. Esa. 8. 19. Edr. HUSTING.

SICL, שקל [*pwysau*] y sicl oedd y prawf-bwysau yn mhlith yr Hebreaid. Am faintioli y sicl, y mae amrywiaeth mawr mewn barnau. Barna yr Esgob Cumberland ef yn agos i hanner *owns avoirdupois*; ac yn arian yn cyfateb i 2s. 4¼c.; ond Michaelis a'i barna yn llawer llai, ac ond ychydig yn fwy nag 11c. ——Y mae yn eglur wrth gymharu Exod. 30. 13. â Ezec. 45. 9, 12. Lef. 27. 25. bod sicl y cysegr o'r un maintioli a'r sicl cyffredin; gelwid ef sicl y cysegr, am fod y prawf-fesurau oll yn cael eu cadw yn y cysegr, 1 Cron. 23. 29. fel maent gyda ni yn y Syllt-dy (*Exchequer*).

SICLAG, צקלג [*mesur gwasgaredig*] y ddinas a roddodd Achis, brenin Gath, i Dafydd. Yr hon, er hyny, a fu yn meddiant breninoedd Judah. 1 Samuel 27. 6. Jos 19. 5.

SICR—HAU, *Llad.* SECURUS; *Ffr.* SEUR; *Saes.* SURE: cadarn, diogel, dilys, diau; cadarnhau. 1. Cadarn a pharhaus. 1 Sam. 2. 35.——2. Digyfnewid a diddarfod. 2 Sam. 23. 5.——3. Bod yn ochelgar. Deut. 12. 23.——4. Gwirionedd didwyll. Ps. 93. 5. a 111. 7.——5. Dilys, diball, anysgogadwy. Diar. 11. 18. Esa. 33. 16. a 22. 23. a 55. 3. Heb. 6. 19. ——6. Dibetrusder, diammheuaeth. 1 Cor. 7. 37. ——'Sicr drugareddau Dafydd.' Edrych DAFYDD. ——'Yn ddiogel ac yn sicr.' Edrych ANGOR.—— 'Gair sicrach y prophwydi.' Edr. PROPHWYD.

SICRON, שכרונה [*meddwdod*] dinas yn Judah. Jos. 15. 11.

SICRWYDD, (sicr) diogelrwydd, dieurwydd, dilysrwydd; cryfder, cadernid, diysgogrwydd.——Arwydda sicrwydd, 1. Gwirionedd ac anghyfnewidioldeb peth: 'Dy gynghorion er ys talm sydd wirionedd a sicrwydd.' Esa. 25. 1. אמונה אמן* *gwirionedd tra sicr, gwirionedd mwyaf gwirioneddol*.——2. Sicrwydd ffydd yn y gwirionedd; yr hyn a eilw yr apostol, 'Llawn hyder ffydd.' Heb. 10. 22. Nid hyder neu sicrwydd am ei iechydwriaeth ei hun yn benodol a feddylir yma, ond hyder a sicrwydd am effeithioldeb offeiriadaeth ac aberth Crist er ein derbyniad gyda Duw, mewn cyferbyniad i bob ffordd arall o ddyfodfa at Dduw. Etto y mae yn nglŷn wrth yr hyder llawn hwn am Grist, radd o hyder hefyd, am ein derbyniad ninnau ynddo, ac ymorphwysiad boddlongar yr enaid arno.——3. Eglurdeb ein hadnabyddiaeth o'r gwirionedd yr ydym yn ei gredu; a eilw yr apostol, 'Pob golud sicrwydd deall.' Col. 2. 2. 'Ym-pob golud gwbl gredadwy ddyall.' W. S. a Dr M. Y mae sicrwydd ffydd yn golygu gwirionedd yr hyn a gredir; ond y mae sicrwydd deall yn golygu ein hadnabyddiaeth ni o'r gwirionedd hwnw. Y mae pob un o'r ddau yn neillduol o angenrheidiol, ac yn tueddu yn fawr at gysur yr enaid. Petrusder yn nghylch un o'r ddau sydd o fawr niwed, ac yn achosi aflwyddiant ac anghysur.——4. Sicrwydd gobaith o feddiannu a mwynhau y pethau sydd yn addawedig gan Dduw yn yr efengyl. Heb. 6. 11. Mae yr un gair πληροφορια, a gyfieithir *llawn sicrwydd*, yn cael ei briodoli yn y geiriau uchod i ddeall, ffydd, a gobaith, ac yn gwneyd y rhai sydd feddiannol o hono, yn gadarn, yn wrol,

* Ymadrodd hynod, yr hwn nid yw i'w gael mewn un man arall. Vitringa.

Digitized by Google

yn gysurus ac yn ddiysgog yn llwybrau Duw. Geill fod ffydd, deall, a gobaith, heb y llawn sicrwydd hwn; ond y mae llawn sicrwydd yn chwanegu at sirioldeb, defnyddioldeb, a harddwch credadyn. Y mae y sicrwydd hwn yn gwbl wahanol yn ei natur a'i effeithiau, oddiwrth hyder cnawdol, segurllyd, penrhydd; sicrwydd goruchel a sanctaidd yn ei natur ydyw, ac yn dyrchafu enaid i fywiogrwydd, gwroldeb, a bonedd-igeiddrwydd ysbrydol, gyd âg wyneb agored i edrych ar ogoniant yr Arglwydd.—1. Opiniwn a rhyfyg yw sail sicrwydd cnawdol; ond gair yr addewid yw sail sicrwydd ysbrydol.——2. Y mae sicrwydd cnawdol yn dysgwyl yn segurllyd am ddiwedd da, heb arfer y moddion addas i gyrhaedd hyny; ond y mae sicrwydd ysbrydol yn ddiwyd, yn egniol. ac yn helaeth, yn wastadol yn ngwaith yr Arglwydd.——3. Mae y naill yn chwyddedig ac yn ymffrostgar, ond y mae y llall yn ostyngedig ac yn grynedig, ac yn ymddiried yn Nuw yn unig.——4. Yn y tywydd têg yn unig y mae sicrwydd cnawdol yn rymus ac yn hyderus, ond y mae y llall yn afaelgar ac yn hyderus yn y tywydd mwyaf tymhestlog.——5. Y mae y naill yn ansanctaidd ac yn ddibarch i Dduw, ond mae y llall yn sanctaidd yn ol ei radd, ac yn llawn gwylder a pharchedig ofn.

SICHAR, yr un a Sechem, tebygol, ac a alwyd Sichar oddiwrth feddwdod y trigolion. Edr. SECHEM. Yn agos i'r ddinas hon, yn ngwlad Samaria, y bu yr ymddyddan rhyfedd rhwng yr Arglwydd Iesu â gwraig o'r ddinas a ddaethai i ffynon gyfagos i dynu dwfr, tra yr aeth y dysgyblion i Sichar i brynu bwyd. Ioan iv. Edr. SAMARIA.

SICHRI, זכרי [*cofiadur*] mab Ishar ac ŵyr Cohath. Exod. 6. 21.

SIDAN—AU, (sid) *Heb.* סדין *(sadin)* sirig, siriol; defnydd a wneir o edafedd y sidan-bryf, digon adnabyddus. Barna rhai nad oedd yr hen Hebreaid yn gydnabyddus â sidan, a bod y geiriau *ww* a משי a gyfieithir *sidan*, yn arwyddo math o gotwm, neu lian main. Harmer's *Obs., vol.* ii. Edr. LLIAN. Pobl o'r enw Seres, hwyrach yr un a'r Chineaid, oedd y cyntaf a ddefnyddiasant sidan. Oddi wrthynt hwy y cafodd y Persiaid y gelfyddyd. Nid oedd yn adnabyddus yn Ewrop nes ar ol buddugoliaethau Alexander; a'r pryd hwnw yr oedd yn werth ei bwysau o aur. Yr ymerawdwr Tiberius a wnaeth gyfraith i warafun neb gwrrywaidd wisgo sidan. *Na vestis serica viros fœdaret*, hyny yw, *Na byddai i un gwrryw halogi*, neu *anmharchu ei hun trwy wisgo gwisgoedd sidan*. Yr ymerawdwr Aurelian, 200 o flynyddoedd gwedi hyny, yn gyndyn a ballodd *own* i'w wraig o sidan, fel yn rhy gostus a rhyseddgar i'w sefyllfa uchel. Yn nghylch A. D. 555, yr ymerawdwr Justinian a ddygodd rai o wyau y sidan-bryf i dref Cystenyn. Yn fuan gwedi hyny gwnawd gweithfeydd sidan yno, ac yn Athen, Thebes, a Corinth. Gwel Prideaux's *Connection*, *part* ii, *b.* viii. *An. Herod* 13. Yn bresennol, mae sidan mor gyffredin yn Asia ac Ewrop, fel y gwisgir ein merched ni yn gyffredin â'r hyn a farnwyd yn rhy gostus gynt i ymerodres Rhufain.

SIDIM, צדים [*hela*] dinas yn rhandir Naphtali. Jos. 19. 35.

SIDIM.—'Dyffryn Sidim yw y Môr Heli.' Gen. 14. 3. Y dyffryn yn mha un yr oedd y dinasoedd yn sefyll a ddinystriwyd gan dân o'r nefoedd, ac y mae y Môr Marw ynddo. Yr hwn a alwyd yn ddyffryn Sidim cyn dinystr y dinasoedd, a elwir yn awr y Môr Heli, tebygol, yw ystyr y geiriau.

SIDON, צידן [*pysgota*] 1. Mab cyntaf-anedig Canaan. Gen. 10. 15.——2. Prif ddinas Phenicia. Tebygol iddi gael yr enw oddiwrth Sidon mab Canaan, yr hwn, medd Josephus, a'i hadeiladodd, ac oedd frenin cyntaf y Sidoniaid. Gelwir hi yn bresennol Scyde, ac a gynnwys yn nghylch 5000 o drigolion. Geilw Josuah hi, 'Sidon Fawr.' Jos. 11. 8. a 19. 28. Yr oedd yn rhandir Aser. Y mae yn sefyll ar Fôr y Canoldir, mewn gwlad hyfryd, ac yn borthladd cyfleus. Bu yn enwog yn yr holl oesoedd gynt am ei morwriaeth a'i marchnadaeth. Dywed Homer am y Sidoniaid eu bod yn πολυδαιδαλοι, yn gywrain mewn amryw gelfyddydau. *Iliad* 23. *l.* 743. *Iliad* 6. *l.* 289, &c. Edr. TYRUS.

SIFAN, סיון enw mis Hebreaidd. Esth. 8. 9. Yr oedd yn cyfateb i ran o Mai a Mehefin. Baruch 1. 8.

SIGAION, a SIGIONOTH, שגיון [*cân grwydraidd*, neu *cân y crwydryn*] am i amryw o'r Psalmau gael eu cyfansoddi gan Dafydd yn ei grwydriadau rhag Saul. Gwel Fenwick's *Thoughts on the Hebrew Titles of the Psalms*. Cân trallod, medd eraill. Rhai a farnant mai offeryn oedd; eraill, ei fod yn arwyddo y dôn, neu y mesur yr oedd y Psalm i'w chanu iddo. Titl Ps. vii.—'Gweddi Habacuc y prophwyd, ar Sigionoth.' Hab. 3. 1.—'Gweddi Habacuc y prophwyd dros anwybodaethau.' Dr M. ar ol Aquila, Symmachus, Theodotion, Jerome a'r *Vulgate*. *Pro ignorantiis, dros anwybodaethau: pro volantariis, am bechodau gwirfoddol*. Theodotion. Ond tebygol, medd Marcius, ei fod yn arwyddo mesur y gân. Gwel Marcius *in loc*.

SIGLEN—YDD, SIGLO, (sigl) ysgwyd, ysgytiau; peth yn siglo; mignen, mign, cors. Siglen donen; siglen donc; siglen denyn; sef sigl-raff.—'Mewn lloches o gyrs a siglenydd.' Job 40. 21. Yn y cyfryw loches y gorwedda efe, y behemoth, ac nid mewn ffau, fel amryw fwystfilod eraill. Ps. 18. 7. a 109. 25. 2 Thes. 2. 2.

SIHON, שיאון [*sŵn*] dinas yn rhandir Issachar. Jos. 19. 19.

SIHOR, שיחר [*cymysglyd, afloyw*] hwn yw y gair Hebraeg a gyfieithir *Nilus* yn Jer. 2. 18. Ond, tebygol, mai afon arall, ac nid y Nilus, a feddylir yn Jos. 13. 3. Yr oedd hon yn rhedeg trwy yr anialwch i Fôr y Canoldir, ac yn derfyn deheuol i wlad yr addewid.

SIHOR-LIBNATH, dinas yn agos i fynydd Carmel. Jos. 19. 26.

SILA, סלא [*craig*] 1. Lladdwyd Joas brenin Judah yn nhŷ Milo, wrth ddyfod i waered i Sila. 2 Bren. 12. 20. Hyn yn unig a wyddis am y lle hwn.——2. Gwraig Lamech, a mam Tubal-Cain. Gen. 4. 22. Edr. LAMECH.

SILAS, SILFANUS, neu TERTIUS, canys yr un a feddylir wrth y tri enw. Gwr rhagorol yn mhlith y brodyr, a phregethwr enwog, a chydymaith Paul yn aml. Act. 15. 22. Mai yr un oedd Silas a Silfanus sydd eglur wrth gymharu Act. 18. 1, 5. â 2 Cor. 1. 19. ac â 1 Thes. 1. 1. Anfonwyd ef gyda Paul o Antioch i Jerusalem; teithiodd gyd âg ef trwy Asia Leiaf a Gwlad Groeg. Gwel Act. 17. 15. a 18. 5. 2 Cor. 1. 19. a 8. 18, 19. Rhuf. 16. 22. 1 Petr 5. 12. Dywedir iddo farw yn Macedonia, ond pa fodd, nid yw hysbys. Edr. PAUL.

SILEM, mab Naphtali, a phen teulu. Gen. 46. 24. Num. 26. 49.

SILHI, שלחי [*cenad*] tad Azubah, mam Jehosaphat. 1 Bren. 22. 42.

SILHIM, שלחים [*cenadau*] dinas yn rhandir Judah. Jos. 15. 32.

SILOAM, neu SILOAH שלח [*anfonedig*] enw

Digitized by Google

Barna rhai mai yr un ydoedd a Niger, athraw yn Antioch. Act. 13. 1. Cymhellodd yr Iuddewon ef i ddwyn croes yr Iesu pan oedd agos a diffygio dani. Dywedir ei fod yn Esgob Bostra, neu Bezer, ac iddo gael ei ferthyru.

SIMON, Brawd yr Iesu; sef ei gefnder, mab Cleopas a Mair chwaer ei fam. Mat. 13. 55. Marc 6. 3. Dywedir ei fod yn Esgob yn Jerusalem wedi marwolaeth Iago Leiaf.

SIMON y Phariseaid, yr hwn a wahoddodd yr Iesu i fwyta gyd âg ef, gwedi cyfodi mab y wraig weddw o Nain. Nid oes hanes ychwaneg am dano nag a roddir i ni yn Luc 7. 36—50.

SIMON y Gwahan-glwyfus, priodor o Bethania, yn nhŷ yr hwn yr eneiniodd Mair ben yr Iesu, ac yntau yn eistedd wrth y ford. Mat. 26. 6. Marc 14. 3. Tywalltodd yr olew ar ei ben, ac eneiniodd ei draed ef hefyd, yn ol yr efengylwr Ioan, (pen. 12. 3.) os bernir mai yr un yw y ddau hanes. Nid yr un Simon yw hwn a Simon y Phariseaid, ac nid yr un yw Mair a'r wraig oedd bechadures, ac nid yn yr un amser, nac yn yr un lle, y bu y weithred o eneinio; canys gwnawd un yn Nain, a'r llall yn Bethania. Barna amryw awdwyr dysgedig fod y weithred yn nhŷ Simon yn wahanol oddiwrth y weithred y crybwyllir am dani yn Ioan xii., yr hon a gyflawnwyd, tebygol, yn nhŷ Martha, a phedwar diwrnod wedi hôno. Yr oedd un chwech, a'r llall ddau ddiwrnod, cyn y pasc. Gwel y Dr Gill. Ymddengys i eraill yn anghredadwy i'r un peth, yn nghyd â'r un amgylchiadau, ddygwydd mewn cwmpas amser mor fyr. Gwel Scott. Edr. Lazarus.

SIMON MAGUS, neu y Swynwr. Cafodd enwogrwydd yn mhlith y Samariaid trwy ei hudoliaeth a'i swynion. Act. 8. 9, &c. Effeithiodd y weinidogaeth a'r gwyrthiau a wnawd gan Petr ac Ioan arno i'r fath radd, fel y bedyddiwyd ef, ac y gwnaeth broffes o Gristionogrwydd. Pan welodd y modd y rhoddid yr Ysbryd Glân trwy arddodiad dwylaw yr apostolion, ceisiodd brynu y cyffelyb awdurdod ganddynt. Ar hyn, y mae Petr yn ei geryddu yn llymdost am ei ragrith a'i gybydd-dod, ac yn ei annog i edifarhau, gan fod yn amlwg mai dyn heb ei wir gyfnewid ydoedd. Y mae yntau yn deisyf arnynt weddïo drosto, fel na ddelai arno y pethau dychrynllyd a ddywedasant. Trôdd allan gwedi hyn yn wrthynebwr cyhoeddus i'r efengyl a'i phregethwyr, ac a ymroddodd i'r aflendid ffieiddiaf, ac aeth yn flaenor ar y blaid a elwir Gnosticiaid, neu *gwybodyddion*, y rhai a haerent y gallai dyn fod yn gadwedig trwy ei wybodaeth, er aflaned fyddai ei fucheddiad; ac a gredent fod llawer o ryw fân-dduwiau, a alwent *Eons*. Dywedir llawer yn yr hen hanesion am ei ddaliadau cyfeiliornus, y rhai sydd well eu claddu dros byth yn medd anghof na'u hailadrodd yma. Yr oedd ei ganlynwyr yn cymeryd arnynt fod yn fath o Gristionogion, ac yr oeddynt yn ei addoli ef fel duw, dan yr enw *Jupiter*, a rhyw butain a ddygai oddi amgylch dan yr enw *Minerva*. Digon yw hyn am dano a'i gyfeiliornadau, ac ynfydrwydd ei ganlynwyr deillion.

SIMON ZELOTES, neu y Canaanead, oedd un o'r deuddeg apostol. Mat. 10. 4. Marc 3. 18. Luc 6. 15. Act. 1. 13. Gelwir ef y Canaanead, yn ol meddwl rhai, am mai priodor oedd o Cana; eraill a farnant ei fod o'r un arwyddocâd a *Zelotes*, sef gwresog, awyddus. ('Simon a elwir gwynvydyd.' W. S. Luc 6. 15.) Y naill air yn Syriaeg, a'r llall yn Groeg. Hwyrach ei fod unwaith o'r blaid yn Galilea a alwent Zelotes, dall-bleidwyr ffyrnig, a wrthodent dalu teyrnged i'r Rhufeiniaid, y rhai a fuant yn fflangell drom ar y wlad, ac yn achos o'i dinystr yn y diwedd.

Dywedir iddo bregethu yr efengyl yn yr Aipht, Lybia, Mauritania, &c., eraill a farnant ei ladd yn Persia, yn nghyd â Judas.

SIMRATH, mab Simhi. 1 Cron. 8. 21.

SIMRI, mab Semaiah. 1 Cron. 4. 37.

SIMRON, 1 Dinas yn rhandir Zabulon. Jos. 19. 15.——2. Mab Issachar. Num. 26. 24. Gen. 46. 13. 1 Cron. 7. 1.——3. Hefyd, mynydd Samaria.

SIMSAI, שמשי [*fy haul*] ysgrifenydd, yr hwn, yn nghyd â Rehum y cofiadur, a ysgrifenasant at Artaxerxes yn erbyn Jerusalem. Ezra 4. 8.

SIN, Pelusium, dinas gadarn ar gyffiniau yr Aipht. Ezec. 30. 15. Gwel Bochart, Michaelis.

SIN. צן [*bwcler*] dinas i'r dehau i Canaan. Num. 34. 4.

SINAI, סיני [*perth*] *Gr.* σινα *(sina)*. Act. 7. 30. Mynydd nodedig yn Arabia Petræa, ar ba un y rhoddodd Duw y gyfraith i Moses. Exod. 19. 1. a 24. 16. a 34. 2, 4. Lef. 25. 1. a 26. 46. Yr Arabiaid a'i galwant Tor, sef *y mynydd*, mewn ffordd o enwogrwydd; neu *Gibel Mousa*, sef mynydd Moses. Mae yn sefyll ar wddf o dir rhwng llynclyn Colsum, o du y gorllewin, a llynclyn Elam, o du y dwyrain iddo; yn nghylch 260 o filltiroedd i'r dwyrain o Cairo yn yr Aipht, a'r Môr Coch rhyngddynt. Y mae yr anialwch o du y dehau i'r gorllewin iddo yn dir lled uchel am ddeuddeg milltir, ac amryw o fân fryniau ynddo. Nid yw y mynydd o gwmpas mawr, ond yn dra uchel. Y mae dau ben iddo; y pen gorllewinol a elwir Horeb; a'r pen dwyreiniol yw Sinai, yr hwn sydd un rhan o dair yn uwch na Horeb. Dywedir fod ar Horeb ffynonau a choed ffrwythau, ond nid oes ar Sinai ddim ond dwfr gwlaw. Mae yr esgyniad i bob un o honynt yn dra serth, yr hon a barodd yr ymerodres Helena, mam Cystenyn Fawr, ei dôri allan o graig marmor. Gwel Coppin's *Voyage to Egypt*. Edr. Cyfraith, Elias, Moses.

SINAR, talaeth yn Babilon, yn yr hon yr adeiladwyd tŵr Babel. Gen. 11. 2. Adeiladwyd Calneh yn yr un wlad. Gen. 10. 10. Yr oedd Amraphel brenin Sinar, yn frenin galluog yn amser Abraham. Gen. 14. 1. Dyg brenin Babilon lestri tŷ yr Arglwydd i dŷ ei dduw ef yn ngwlad Sinar. Dan. 1. 2.

SINIM, סינים [*perthi*] 'Tir Sinim,' yw China, medd rhai; ond pur annhebyg, medd Vitringa: barna Bochart mai talaeth yn yr Aipht oedd. Esa. 49. 12. Daw rhai oddi yno i Sion trwy alwad yr efengyl.

SIOM—I—EDIG, (siom) twyll, dichell; twyllodrus, hocedus; twyllo.—'Pwy bynag a siomir ynddi (diod gadarn) nid yw ddoeth.' Diar. 20. 1. Cyfieithir yr un gair *ymfoddloni*, *ymddigrifo*, Diar. 5. 19, 20. —*crwydro*, Ezec. 34. 6.—*cyfeiliorni*, Deut. 27. 18. Arwydda, medd Kircher, cyfeiliorni yn amryfus, neu gweithredu yn anystyriol.

'Fel na'n siomer gan Satan.' 2 Cor. 2. 11.—'Rac bod y Satan ein gorchvygu.' W. S. Cyfieithir yr un gair πλεονεκτηιν, *yspeilio*, 2 Cor. 7. 2.—*gwneuthur elw*, 2 Cor. 12. 17.—*twyllo*, 1 Thes. 4. 6. Arwydda, gweithredu yn dwyllodrus, yn anghyflawn, yn dreisiol. Rhag ein siomi, neu ein twyllo, gan Satan trwy ormod llymder dysgyblaeth, i yru y troseddwr i anobaith, a bod yn rhwystr i eraill, trwy hyny, i dderbyn yr efengyl: 'canys nid ydym ni heb wybod ei ddichellion (νοηματα, *ei feddyliau*) ef.' Y mae ei feddwl ganddo ef i gyflawni ei amcanion dichellgar, naill ai trwy esgeulusiad dysgyblaeth yn hollol, i annog penrhyddid pechadurus, neu trwy ormod llymder anefengylaidd, i rwystro a digaloni dynion edifeiriol.

'Calon siomedig a'i gŵyr-drodd ef.' Esa. 44. 20.



Digitized by Google

'A'i twyllodd ef.' Dr M. לב הותל *calon ysgafn dwyllodrus:* yr hon a eilw yr apostol, 'calon anneallus.' Rhuf. 1. 21. Calon dywyll, yn llawn o ddichellion.

SION, ציון [*sychder*] 1. Pen neu ran o fynydd Hermon, neu res o fryniau gerllaw iddo. Ps. 133. 3. Felly yr ysgrifenodd Brown. Ond pa sail sydd ganddo i ddywedyd fod un rhan o Hermon, neu res o fryniau yno, yn cael eu galw wrth yr enw ציון *(tsion)?* Y gair Hebraeg a gyfieithir *Sion* yn Deut. 4. 48. yw שיאן *(shion),* ac nid ציון *(tsion).* Y mae i fynydd Hermon bum enw, sef Hermon, Sirion, Senir, Sion, a Hor. Deut. 3. 9. Edr. GWLITH.——2. Mynydd ar ba un yr oedd rhan o ddinas Jerusalem yn sefyll; yr oedd palas y brenin yn sefyll ar du y gogledd iddo, ac yr oedd y deml yn sefyll ar fynydd Moriah, tu gogledd-ddwyrain iddo. 2 Sam. 5. 7. 1 Bren. 8. 1. Ps. 48. 2. Gwel *Ancient Universal History,* Lightfoot, Brown. Am fod mynydd Moriah yn agos ato, ac megys yn rhan o hono, galwyd ef weithiau Sion; ac mae y deml a'i chynteddoedd yn cael eu galw felly. Ps. 65. 1. a 84. 7. Gelwir yr addolwyr yn y deml, os nid holl breswylwyr Jerusalem, Sion. 'Sion,' sef preswylwyr Sion, 'a glywodd, ac a lawenychodd.' Ps. 97. 8.——Yn cyfeirio at hyn, gelwir yr eglwys, pa un ai Iuddewaidd ai Cristionogol, neu y nefoedd, Sion. Y mae wedi ei hethol gan Dduw yn breswylfod byth iddo ei hun—wedi ei sylfaenu yn gadarn—a'i hamgylchynu âg amddiffynfa anorchfygol—ac y mae addoliad Duw, a'i gymdeithas â'i bobl, yn dra hyfryd a gogoneddus ynddi. Ps. 102. 13. Esa. 2. 3. a 51. 11. Dat. 14. 1.

'Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol,' &c. Heb. 12. 22. Gwahanol enwau ydynt ar yr un peth, ond bod pob enw yn rhoddi gwahanol olygiad ar y gwrthddrych. Gelwir yr eglwys dan y Testament Newydd yn 'fynydd Sion,' mewn cyferbyniad i fynydd Sinai; felly hefyd y gelwir hi y 'Jerusalem nefol,' mewn cyferbyniad i'r un mynydd, yn Gal. 4. 25, 26. Yr oedd y cyferbyniad rhwng y ddau fynydd hyn yn dra nodedig, medd y Dr Owen.—1. Disgynodd Duw ar fynydd Sinai i aros yn unig ond dros yspaid o amser terfynedig; ond dywedir y preswylia yn dragywydd ar fynydd Sion.——2. Ymddangosodd yn ddychrynllyd ar Sinai; ond yr oedd Jerusalem ar Sion, yr hon a arwydda, *gweledigaeth heddwch.*——3. Rhoddodd y gyfraith ar Sinai; ond aeth yr efengyl allan o Sion. Esa. 2. 2, 3.——4. Gadawodd Sinai yn llwyr dan gaethiwed; ond y mae Sion yn rhydd yn dragywydd.——5. Llwythwyd y bobl â'r gyfraith ar Sinai, ac arweiniwyd hwynt yn drwm-lwythog i Sion i ddysgwyl am waredigaeth ac esmwythâd, mewn arferiad o'r cysgodau oedd yn arwyddo hyny.

O herwydd y rhesymau canlynol, geilw yr apostol gyflwr credinwyr dan y Testament Newydd, wrth yr enw 'mynydd Sion:'—1. Lle preswylfa Duw ydoedd. Ps. 9. 11. a 76. 2. Joel 3. 20, 21.——2. Eisteddfod ei orsedd-fainc, ei lywodraeth, a'i deyrnas ydoedd. Ps. 2. 6. Esa. 24. 23. Mic. 4. 7.——3. Y mae yn wrthddrych o addewidion lawer, Ps. 69. 35. Esa. 1. 27.—o Grist ei hun. Esa. 59. 20.——4. Oddi yno y daeth yr efengyl, cyfraith Crist allan. Esa. 40. 9. Mic. 4. 2.——5. Gwrthddrych cariad neillduol Duw oedd, a'r lle y genid yr etholedigion. Ps. 84. 2, 5.——6. Llawenydd yr holl ddaear ydoedd. Ps. 48. 2.——7. Y mae yr iechydwriaeth a'r holl fendithion yn dyfod allan o Sion. Ps. 14. 7. a 110. 2. a 128. 5. Amrywiol bethau eraill tra gogoneddus a ellid eu coffâu. Yr holl addewidion a wnaed gynt i Sion, ydynt yn perthyn yn bresennol i eglwys y credinwyr trwy yr holl fyd. Gallant ddadleu y rhai hyny gyda Duw yn mhob cyflwr; a mwynhant y gras a'r cysur cynnwysedig ynddynt. Er bod eu cyflwr allanol yn isel; ac er bod yn ddirmygus, yn gystuddiedig, ac yn erlidigaethus, etto y mae yr holl bethau gogoneddus addawedig i Sion yn perthyn iddynt, a hwy a gânt eu cyflawn fwynhau.

SIOR, ציור [*gelyn*] dinas yn Judah. Jos. 15. 54.

SIPPOR, צפור [*aderyn*] tad Balac. Num. 22. 2

SIPRAH, שפרה [*prydferth*] Siprah a Puah oeddynt fyd-wragedd yr Hebrëesau, y rhai a gadwasant yn fyw eu plant gwrrywaidd, yn groes i orchymyn Pharaoh, canys hwy a ofnasant Dduw. Exod. 1. 15, 19.

SIPHION, צפיון [*yr hwn sydd yn canfod*] mab hynaf Gad. Gen. 49. 16.

SIPHTAN, שפטן [*barnwr*] tad Cemuel. Num. 34. 24.

SIR—IOL—US, (si-ir) llòn, llawen, hoenus. Diar. 15. 13. a 16. 15.—'Y lawenhant arnynt hwy, ac y vyddant siriys.' W. S. Dat. 11. 10.—'Yno y siriod pawp.' W. S. Act. 27. 36.

SIRAH, סרה [*crochan*] ffynon yn gyfagos i Hebron. 2 Sam. 3. 36.

SIRION, סריון [*dwyfroneg*] yr enw a roddai y Sidoniaid ar Hermon. Deut. 3. 9. Edr. HERMON.

SIS, ציץ [*blodeuyn*] yn agos i riw Sis y gorchfygodd Jehosaphat yr Ammoniaid a'r Moabiaid. 2 Cron. 20. 16.

SISA, שישא [*chwech*] tad Elihoreth ac Ahiah, ysgrifenyddion Solomon. 1 Bren. 4. 3.

SISAC, brenin yr Aipht, brawd yn nghyfraith Solomon, yn ol barn rhai; yr un oedd, yn ol barn Syr I. Newton, a Sesostris, Sesonchis, Bacchus, Osiris, a Hercules yr Aipht, yn yr historiau Paganaidd. Un o'r buddugoliaethwyr mwyaf oedd yn yr hen amseroedd. Cafodd Jeroboam nodded ganddo pan oedd yn ffoadur yn yr Aipht. Gwedi ëangu terfynau ei ymerodraeth tu a'r gorllewin, trodd ei arfau yn erbyn Asia, â 12,000 o gerbydau rhyfel, a 60,000 o wyr meirch, a llu aneirif o Aiphtiaid, Lybiaid, Luciaid, ac Ethiopiaid; goresgynodd deyrnas Judah, cymerodd Jerusalem, ac a ddug ymaith holl gyfoeth y brenin-llys a'r deml; ond tebygol iddo arbed teyrnas Israel, o herwydd, hwyrach, fod Jeroboam mewn cynghrair âg ef. Gwedi anrheithio Asia, o India i'r Môr Du, tiriogaeth mwy helaeth nag a orchfygwyd gan Alexander, aeth trosodd i wlad Groeg, ac yno gorchfygwyd ef gan Perseus. Yn ei ymchwydd a'i falchder, dywedir iddo beri i freninoedd caethion dynu ei gerbyd, hyd nes y sylwodd ar un o honynt yn craffu yn ddyfal ar yr olwyn; pan ofynwyd iddo yr achos, atebodd, fod troad yr olwyn yn ei addysgu mor fuan y byddai i rai mewn sefyllfa uchel gael eu darostwng, a rhai mewn iselder gael eu dyrchafu. Effeithiodd y sylwad ar Sisac, a gwirioneddwyd ef hefyd yn achos y brenin chwyddedig hwn; yn fuan wedi ei farwolaeth, aeth ei ymerodraeth yn chwilfriw, a'r Ethiopiaid a'r Cusiaid a feddiannasant yr Aipht. 2 Cron. xii. 1 Bren. xiv. Cyn Sisac ni sonir am un o freninoedd yr Aipht wrth ei enw priodol, ond wrth yr enw cyffredin Pharaoh. Edr. AIPHT, JEROBOAM, PHARAOH, REHOBOAM.

SISERA, סיסרא [*gweledydd march*] tywysog llu Jabin, brenin Canaan. Gwedi gorchfygu ei luoedd ef gan Barac a Deborah, lladdwyd ef, wrth ffoi, gan Jäel gwraig Heber y Cenead. Barn. iv. Edr. BARAC, DEBORAH, JAEL.

SITNAH, שטנה [*cas*] oddiwrth y gair hwn y mae yr enw *Satan* ar y diafol. Yr enw a roddwyd ar un

Digitized by Google

o'r ffynonau yr ymrysonodd bugeiliaid Gerar â bugeiliaid Isaac yn ei chylch. Gen. 26. 21.

SITRAI, שטרי [*goruchwyliwr*] golygwr ychain pasgedig Dafydd yn Saron. 1 Cron. 27. 29.

SITTIM, שטים [*gwïail*] coed gwerthfawr, o ba rai y gwnawd y babell, a'r rhan fwyaf o'r dodrefn. Exod. 25. 5, 10, 13, 23, &c. Cyfieitha y LXX. y gair yn gyffredin *ασηπτα*, *anllygredig*. Y farn gyffredin yn bresennol ydyw, mai yr un oedd ag Acacia, yr hwn y rhydd teithwyr diweddar hanes ei fod yn aml yn Arabia Petræa: yr amlaf a'r goreu yn y wlad hòno, medd y Dr Shaw. Y mae llawer o flodau ar y pren hwn, a'i arogl yn beraidd ac yn hyfryd; ac y mae yn anllygredig, agos. Dywed Jerome, fod coed Sittim yn debyg i'r ddraenen wen, a'i fod yn rhagorol o ran harddwch, cryfder, sadrwydd, a chaboledd. Nid oes lle i ammeu nad rhyw o'r *ddraenen wen*, neu *Spina Ægyptiaca*, yw y coed Sittim, yr hon sydd yn lliosog i'w chael yn nghylch mynydd Sinai: coed yr holl anialwch o ben bwygilydd. Geddes.——Galwyd lle wrth yr enw Sittim, dyffryn Sittim, tebygol oddiwrth y coed hyn yn tyfu yn lliosog yno. Num. 25. 1. Mic. 6. 5. Jos. 2. 1.——Yn allegawl, wrth ddyffryn Sittim, y meddylir y Cenedloedd, yn Joel 3. 18.

SMARAGDUS, *Gr.* *σμαραγδος*; maen gwerthfawr o'r lliw gwyrdd mwyaf hyfryd.—'Ac yr oedd enfys o amgylch yr orseddfainc, yn debyg yr olwg arno i smaragdus.' Dat. 4. 3. '*Emerald.*' *Saes.* Edr. ENFYS. Y pedwerydd maen oedd yn addurno sylfaen y Jerusalem newydd. Dat. 21. 19.

SMYRNA, *Σμυρνα* [*myrr*] dinas yn Asia Leiaf, a phorthladd o du y dwyrain i Fôr y Canoldir, yn nghylch 46 o filltiroedd o Ephesus. Yn amser yr Iachawdwr, yr oedd yn un o'r dinasoedd cyfoethocaf ac enwocaf yn Asia Leiaf. Anrheithiwyd hi yn aml gan ryfeloedd, a dyoddefodd lawer gan ddaeargrynfäau dychrynllyd chwech o weithiau. Y mae ei sefyllfa yn hyfryd, ac yn borthladd cyfleus. Planwyd eglwys Gristionogol yma yn foreu; ac er dyoddef erlidigaethau celyd, etto rhoddir canmoliaeth heb un cerydd yn y llythyr a anfonwyd trwy Ioan ati. Dat. 2. 8, 9, 10. Parhaodd Cristionogrwydd yno hyd heddyw, ac yn fwy blodeuog nag yn yr un o'r saith yr ysgrifenodd Ioan wrth orchymyn Crist, atynt; mae yn bresennol yn un o'r dinasoedd mwyaf blodeuog yn y parthau hyny. Cynnwys yn nghylch 28,000 o drigolion, o ba rai y mae 10,000 yn Gristionogion, a'r lleill yn Dyrciaid ac yn Iuddewon. Yma y merthyrwyd Polycarp yn foreu, yr hwn oedd yn ddysgybl i Ioan y Duwinydd. Gelwir hi yn awr gan y Tyrciaid Esmir.

SO, סוא (*sua*) brenin yr Aipht, yr hwn a gydfwriadodd gyda Hosea brenin Israel, yn erbyn Salmaneser brenin Assyria; ond ni roddodd gynnorthwy i Hosea. 2 Bren. 17. 4. Edr. HOSEA.

SOAN, צען [*ysgogiad*] *τανις* (*tanis*) LXX. trowyd *tsan*, yn *tan*, *tanis*. Prif ddinas enwog yn yr Aipht, dros oesoedd, yn yr hen amseroedd. Yr ydoedd yn sefyll yn mharth isaf y wlad, nid yn mhell oddiwrth Fôr y Canoldir. Num. 13. 22.—Yn meusydd Soan y gwnaeth Moses ei wyrthiau rhyfeddol. Psalm 78. 12. Ymddengys fod Soan yn brif ddinas yr Aipht Isaf yn nyddiau y prophwyd Esaiah. Esa. 19. 11, 13. a 30. 4.

SOAR, neu BELA, צער [*bychan*]. Yr ydoedd y ddinas fechan hon yn sefyll tua phen dehau y Môr Marw. Yn ninystr Sodom a Gomorrah arbedwyd hi wrth ddeisyfiad Lot. Gen. xiv. a 19. 20, 22. Tebygol i lawer o'r Moabiaid ffoi yno pan oresgynodd yr Assyriaid a'r Caldeaid eu gwlad. Esaiah 15. 5. Jer. 48. 3.

SOBAB, un o feibion Dafydd, a anwyd iddo yn Jerusalem. 2 Sam. 5. 14.

'SOBAH, breniniaeth Hadadeser, mab Rehob, yr hwn a orchfygwyd gan Dafydd. Yr oedd yn sefyll rhwng gwlad Israel a'r Euphrates. 2 Sam. 8. 5. a 10. 19. 1 Bren. 11. 23. Edr. HADADESER.

SOBAI. Ezra 2. 42.

SOBAL, un o feibion Seir yr Horiad. Gen. 36. 20.

SOBI, mab Nahas o ddinas Rabbath. Daeth gyda Barzilai i gyfarfod Dafydd, pan ffodd rhag Absalom. 2 Sam. 17. 27.

SOBR—WYDD, *Groeg*, *σωφρασυνη*; *Llad.* SOBRIUS; *Ffr.* SOBRE; *Saes.* SOBER: cymedrol, cymhesur, tymhesur; difrif, digellwair, dwys.—'Geiriau gwirionedd a sobrwydd.' Act. 26. 25. Arwydda *σωφροσυνη*, *iawn bwyll meddwl*, mewn cyferbyniad i *wallgofrwydd meddwl*.

'Bod o'r hynaf-gwyr yn sobr.' Tit. 2. 2. *Νηφαλιος*, priodolir y gair i'r corph, ac y mae yn arwyddo cymedroldeb o ran yfed, mewn cyferbyniad i feddwdod. 1 Thes. 5. 6, 8. 1 Petr 5. 8. Priodolir ef hefyd i agwedd wyliadwrus, feddylgar, gofalus; callineb mewn un yn gweini ei swydd, fel y gweddai fod mewn esgob. 1 Tim. 3. 2, 11. Y mae sobrwydd corph a sobrwydd meddwl, ac i'r gwrthwyneb; ac y maent yn gyffredinol yn gysylltiedig â'u gilydd.

'Eithr synied i sobrwydd.' Rhuf. 12. 3.—'Anid dyall o hanaw erwydd pwyllogrwydd.' W. S.—'Onid deall o hono i fod yn sobr.' Dr M.—'Onid synied felly fel yr ymddygo yn gall.' Macknight. Y mae sobrwydd yn groes i fod yn anystyriol, yn ffol, ac yn anweddaidd. 1 Tim. 2. 9—15. Tit. 2. 12.

SOCHO, 1. Yr oedd dwy ddinas o'r enw yn rhandir Judah, un yn y dyffryndir, a'r llall yn y mynydd-dir, i'r dwyrain o Jerusalem. Josuah 15. 35. 1 Sam. 17. 1. 2 Cron. 11. 7.——2. Mab Heber. 1 Cron. 4. 18.

SODOM, [*dyfradwy*] un o'r pum dinas a ddinystriwyd gan dân o'r nefoedd. Yma y preswyliai Lot nai Abraham. Gen. xiii. Barna y rhan fwyaf o ysgrifenwyr lyncu y dinasoedd hyn gan ddaeargryn, a bod y Môr Marw yn gorchuddio y lleoedd y safent arnynt; ond barna Reland nad ydyw y môr yn gorchuddio eu lleoedd, ond eu bod yn sefyll yn gyfagos iddo; am eu bod yn cael eu darlunio yn 'ddanadldir, a phyllau halen, ac anghyfanedd-le tragywyddol,' nid ydyw y farn hon yn annhebyg i wir. Seph. 2. 9. Deut. 29. 23. Jer. 49. 18. a 50. 40. Y prophwydi pan ddarlunient rhyw ddystryw ofnadwy a pharhaus, a'i cymharent ef i ddinystr a dinasoedd hyn. Hosea 11. 8. Amos 4. 11. Esaiah 1. 9. a 13. 19. Defnyddia Ioan eu dystryw dychrynllyd, fel arwydd-lun, ïe, o boenau uffern. Dat. 20. 12—15. Judas 7.—Cymharir dynion llygredig ac aflan i'r Sodomiaid; megys tywysogion a phobl yr Iuddewon. Esa. 1. 10. Jer. 23. 14.—Rhufain neu y gwledydd anghristaidd, am eu bod yn cynnwys ac yn byw yn mhechodau ffiaidd y Sodomiaid, a elwir Sodom. Dat. 11. 8. Edr. LOT, MOR.

SODDI, (sawdd) suddo, myned tan ddwfr. Exod. 15. 10. 1 Sam. 17. 49. Jer. 51. 64.

SOFL—YN, (sawf) celefenrydd, calafrhydd.—Cyffelybir annuwiolion i sofl, am eu bod o ychydig werth, yn hawdd eu dwyn ymaith gan wynt barnedigaethau, a'u dyfetha gan dân digofaint Duw. Job 13. 25. Psalm 83. 13. Esa. 33. 11, 12. a 40. 24. Mal. 4. 1. Edr. AUR.

SOFLIEIR, (sofl-iar) rhinc, rhegen yr ŷd.—Y mae yr aderyn hwn yn llai na'r petris, a'r lleiaf o

Digitized by Google

ryw yr ieir. Byddai yr hen Atheniaid yn eu rhoddi i ymladd er eu difyrwch, ac felly y gwnant etto yn yr Ital, a pharthau o Asia, fel y gwnant i geiliogod yn greulon gyda ni. Y maent yn dramwyol, ond nid yn aml yn myned o'n gwlad ni, ond yn symud o'r naill barth i'r llall, ac yn diogelu eu hunain yn mysg chwyn yn agos i'r môr; ceir hwynt yn aml yn y caeau ŷd, ac weithiau yn y dolydd hefyd. Dechreuant ganu yn Ebrill; gwnant eu nythod ar y ddaear yn mis Mai, ac yn anaml yn dodwy mwy na chwech neu saith o wyau. Y mae yn aderyn glân, a'i gnawd yn ddanteithiol.

Yr oedd yn wyrth hynodol dwyn cymaint o honynt ag a orchuddiai yn nghylch ugain milltir o dir o bob tu i wersyll yr Israeliaid yn yr anialwch, ac yn nghylch llathen o ddyfnder, yn anabl i ehedeg oddiyno. Numeri 22. 31, 32. Eu taenu hwynt o amgylch y gwersyll a wnaed i'w sychu ar y tywod poethlyd, fel y gwnant etto yn yr Aipht. Bates a Parkhurst a farnant mai dau gufydd oedd eu *pellder oddiwrth eu gilydd*, ac nid eu dyfnder ar eu gilydd; gan nad yw y soflieir yn gorphwys ar eu gilydd fel y locustiaid, ond ychydig oddiwrth eu gilydd. *Volabantque in aëre duobus cubitis altidudine super terram. Vulgate.* 'Ehedant yn yr awyr ddau gufydd uwch y ddaear.' Nid dau gufydd ar y ddaear; ni oddef yr Hebraeg y cyfieithiad hwnw; ond dau gufydd uwch y ddaear yr ehedent, fel y gellid eu dal yn hawdd â llaw, neu eu taro â phren, cynnifer ag a fynent. Harmer. Amlwg ydyw nad locustiaid oeddynt, yn ol barn Ludolphus, Scheuchzer, a'r Esgob Patrick, gan eu bod yn cael eu galw שאר *cig*, yr hyn nid ydyw y locustiaid. 'Adar asgellog,' y gelwir hwynt, y rhai a barodd Duw gwympo o fewn y gwersyll. Yr ydoedd blys awyddus yr Israeliaid i'r danteith-fwyd hyn yn dra phechadurus; am hyny, 'tra yr oedd y bwyd yn eu safnau, digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn, ac a laddodd y rhai brasaf o honynt, ac a gwympodd etholedigion Israel.' Ps. 78. 27—31.

SOHAR, צחר [*dysglaer*] 1. Tad Ephron. Gen. 23. 8.——2. Pummed mab Simeon. Gen. 46. 10. Gelwir ef Zera, yn 1 Cron. 4. 24.

SOLOMON, שלמה [*heddychol*] mab y brenin Dafydd o Bathseba. Ganwyd ef yn nghylch A. M. 2971. Rhagfynegodd yr Arglwydd am dano i Dafydd yn hynodol cyn ei eni. 'Wele, mab a enir i ti, efe a fydd ŵr llonydd, a mi a roddaf lonyddwch iddo ef gan ei holl elynion oddi amgylch; canys Solomon (sef *heddychlawn*) fydd ei enw ef, heddwch hefyd a thangnefedd a roddaf i Israel yn ei ddyddiau ef. Efe a adeilada dŷ i'm henw, ac efe a fydd i mi yn fab, a minnau yn dad iddo yntau; sicrhaf hefyd orseddfa ei freniniaeth ef ar Israel byth.' 1 Cronicl 22. 9, 10. Cyn gynted ag y ganwyd ef, anfonwyd y prophwyd Nathan i hysbysu ewyllys da yr Arglwydd tu ag ato; 'a'r Arglwydd a'i carodd; ac a anfonodd trwy law Nathan y prophwyd, ac efe a alwodd ei enw ef Jedidiah, (sef *anwyl gan yr Arglwydd*) oblegid yr Arglwydd.' 2 Sam. 12. 24, 25. Yr ydym yn barod i ofyn oddiwrth y pethau hyn, Beth fydd y bachgenyn hwn?

Cafodd yr orsedd drwy drefniad a chyfarwyddyd Duw: am hyny parodd Dafydd ei eneinio a'i osod yn frenin cyn ei farwolaeth; ac er gwneuthur ychydig wrthwynebiad iddo gan Adoniah, etto diflanodd hyny yn fuan, a'r llywodraeth a gadarnhawyd yn gyflawn yn nwylaw Solomon. Daeth i'r orsedd gyd â'r manteision goreu, a'r arwyddion mwyaf gobeithiol. Dechreuodd ei lywodraeth yn waedlyd; ond yr oedd yr achosion a'r amgylchiadau yn ei gyflawnhau yn gwbl yn yr hyn a wnaeth. Y mae yn ofynol oddiwrth swyddwyr gwladol, iddynt gospi drwg weithredwyr, ac 'na ddygont y cleddyf yn ofer.'

Yr oedd Solomon yn nodedig am wychder, ac ardderchogrwydd ei fawrhydi; ond canmoliaeth mwy iddo oedd, 'iddo garu yr Arglwydd, gan rodio yn neddfau Dafydd ei dad.' 1 Bren. 3. 3, &c. Ymddengys yn dra ystyriol o annogaethau a chynghorion duwiol ei hen dad, a dechreuodd ei deyrnasiad gyd â'r fath ddifrifwch, gofal, a dyfalwch yn nghylch crefydd ac ordinhadau Duw, ag sydd yn ein rhwymo i farnu ei fod yn wir dduwiol, ac wedi ymroddi i'r Arglwydd yn ddiragrith. Sylwir yn wir, fel peth beius ynddo: 'Etto, mewn uchelfaoedd, yr oedd efe yn aberthu ac yn arogldarthu,' yn ol defod y cenedloedd Paganaidd. Beth bynag oedd ei reswm, yr oedd y weithred ynddi ei hun yn bechadurus, ac yn tueddu i ganlyniadau niweidiol. Yr oedd yn gwbl groes i gyfraith Moses. 1 Bren. 18. 4, 22.

Yn nechreuad ei deyrnasiad, cadwodd ef a'i dywysogion ŵyl fawr yn Gibeon, wrth babell y cyfarfod a wnaethai Moses, yr hon oedd y pryd hwnw yn Gibeon. Yno yr addolodd ger bron yr Arglwydd, yr erfyniodd fendith Duw arno ef a'i bobl, ac yr ymddangosodd yr Arglwydd yn neillduol iddo. Ymddangosodd yr Arglwydd mewn gweledigaeth nos, ac a archodd iddo ofyn yr hyn a roddai iddo. Yntau a ofynodd iddo, nid gogoniant, cyfoeth, na gallu, ond doethineb a gwybodaeth, i lywodraethu a barnu er gogoniant Duw, ac er llesâd ei ddeiliaid. Cydnabyddodd, dan ddwfn deimlad, ei annigonolrwydd i'r fath orchwyl pwysfawr, a gofynodd gan Dduw ddoniau addas i gyflawni ei swydd, a'r weinidogaeth berthynol iddi. Gwrandawyd ei weddi yn ei holl helaethrwydd, ac addawodd yr Arglwydd ychwanegu yr hyn ni ofynodd; sef cyfoeth, golud, a gogoniant, a hir ddyddiau, na bu, ac na byddai eu cyffelyb gan freninoedd eraill. Daeth Solomon o Gibeon i Jerusalem, ac a offrymodd offrymau ac aberthau o flaen arch cyfammod yr Arglwydd yno, ac a wnaeth wledd i'w holl weision. 1 Bren. i. 2 Cronicl i.

Diammeu i'r cyfryw dystiolaeth gyhoeddus o blaid crefydd, gael yr effaith mwyaf dymunol ar yr holl genedl. Mae ei siampl odidog, yn pregethu yn uchel i holl ieuenctid pendefigaidd, ac eraill, o oes i oes, hyd heddyw. Y mae y gorchymyn, a'r addewid gysylltiedig âg ef, yn perthyn i bawb yn gyffredinol, 'Gofynwch a rhoddir i chwi;' ac yn annogaeth hynod i fyned at orsedd-fainc y gras yn hyderus yn enw y Cyfryngwr, am bob peth angenrheidiol i gyflawni ein holl eisieu.

Ei fawr ddoethineb a'i gwnaeth yn enwog ac yn glodfawr yn fuan. Cafodd achlysur i ddangos cyflymder ei ddirnadaeth yn gwneuthur barn, yn achos y ddwy butain a ddygwyd o'i flaen. Dwy wraig oeddynt yn cyd-fyw, ac esgorodd pob un o honynt ar fab; ac ar farwolaeth un o honynt, yr oedd pob un o'r ddwy wraig yn hòni hawl i'r plentyn byw. Yr oedd pob un yn taeru yn gryf mai ei mab hi oedd y plentyn byw. 'Rhenwch y bachgen byw yn ddau,' meddai y brenin, 'a rhoddwch hanner i'r naill, a hanner i'r llall.' Ar hyn, amlygwyd yn fuan pwy biodd y plentyn byw. Pan aethant i ranu y plentyn, ymysgaroedd y fam a gynhesasai tu ag at ei mab, ac a foddlonodd i'r llall ei gael, yn hytrach na'i ladd: hyn a derfynodd y ddadl.

Mae teyrnasiad Solomon yn nodedig ac yn glodfawr am ei heddwch a'i lwyddiant, yn gystal ag am ei ddoethineb, ac uniondeb ei lywodraeth. Yr oedd ei ddeiliaid yn heddychlon yn eu plith eu hunain, ac yn ddiogel rhag gelynion allanol; amlhasant gan hyny yn ddirfawr, a mwynhasant ffrwyth eu llafur mewn tangnefedd a diogelwch. Yr oedd terfynau ei lywodraeth gwedi eu hëangu tu hwnt i ddim ag a fuont o'r blaen: yn ganlynol, amlhaodd ei gyfoeth a'i fawredd yn ddirfawr. Ond y peth y rhagorodd fwyaf ynddo, ydoedd ëangder ac ardderchogrwydd ei

Digitized by Google

ddeall. Heblaw ei wybodaeth mewn pethau dwyfol, a medrusrwydd i lywodraethu, yr oedd yn rhagori hefyd tu hwnt i bawb fel naturiaethwr. Ysgrifenodd lawer ar foesau a naturiaeth, er addysg i'w ddeiliaid, a dynolryw yn gyffredinol. Collwyd llawer o'r ysgrifeniadau a gyfansoddodd, am nad oeddynt i fod yn brawf-reol barhaus i'r eglwys; y mae tri golygyn wedi eu cadw, ac ydynt yn drysor gwerthfawr i eglwys Dduw. Nid rhyfedd i'r cyfryw gynneddfau a doniau ardderchog ennill iddo enw a chlod tra mawr yn y byd. Wrth edrych ar ddoniau pawb, cofiwn ac addolwn y rhoddwr o honynt: 'Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddiwrth Dad y goleuni.' Iago 1. 17.

Un o weithredoedd mwyaf arbenig a phwysfawr Solomon oedd adeiladu y deml. I'r dyben hwn y cyfodwyd ef, ac y bendithiodd Duw ef â heddwch, ac â llwyddiant. Neillduwyd ef i'r gwaith hwn trwy brophwydoliaeth cyn ei eni, gorchymynodd ei dad hyn fel gorchwyl iddo yn y modd mwyaf difrifol ar ei wely angeu. Cyn gynted ag y gellid darparu yn addas tu ag at hyny, ymosododd yn nghylch y gorchwyl gyda llawer o egni ac ymroddiad, ag sydd yn ymddangos yn glodfawr ac yn rhyfeddol. Gwnaeth y cwbl, yn ol y portreiad a gafodd gan ei dad, mewn saith mlynedd. Nis gellir dychymygu dim yn fwy ardderchog a gogoneddus na'r golygiad a gawn ar Solomon wrth gysegru y deml, yn sefyll i fynu o flaen holl oreuon y wladwriaeth, fel pregethwr cyfiawnder, ac fel offeiriad y Duw goruchaf. Yr oedd ei agwedd wresog a difrifol yn ardderchog, ac yn neillduol o addas. Ymerawdwr duwiol, yn meddiannu doniau a mawredd tu hwnt i holl feibion dynion, wrth y gorchwyl mwyaf sanctaidd yn y byd. Ond y mae cymaint o Dduw yn ei weddi, a'i araeth i'r bobl, nes yr ydym yn gorfod anghofio brenin Israel yn ei holl fawrhydi a'i ardderchogrwydd, gan ddysgleirdeb ymddangosiad un anfeidrol fwy, tŷ yr hwn yr oedd yn ei gysegru. Gwedi dwyn yr arch i gafell y tŷ, i'r cysegr sancteiddiolaf, y cwmwl a gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y tŷ. Yn ei weddi, wrth ystyried mawrhydi anfeidrol yr Arglwydd, y mae yn ei weled yn ormod peth i ddysgwyl iddo breswylio yn y tŷ cysegredig; ond wrth ystyried ei ddaioni a'i raslonrwydd, y mae yn taer erfyn y fraint oruchel. Yr oedd hon mewn gwirionedd yn wledd sanctaidd i'r Arglwydd; yr oedd y brenin a'r holl bobl mewn agwedd ddifrifol iawn. Wrth weled gogoniant yr Arglwydd yn llenwi y tŷ, a thân o'r nefoedd yn llosgi yr aberthau, gorfu arnynt syrthio ac addoli yr Arglwydd am ei drugaredd. Gollyngodd ymaith y bobl; a bendithiasant y brenin, ac aethant i'w pebyll yn hyfryd ac â chalon lawen, am yr hyn a wnaethai yr Arglwydd i Dafydd ei was, ac Israel ei bobl.

Yr Arglwydd a ymddangosodd i Solomon yr ail waith, fel yr ymddangosasai iddo yn Gibeon, ac a adnewyddodd ei addewidion a'i gyfammod âg ef, a chymeradwyodd ei wasanaeth a'r tŷ a adeiladodd efe iddo; ac hefyd, a addawodd sicrhau gorsedd-fainc ei freniniaeth yn dragywydd, ar yr ammod iddo rodio yn llwybrau cyfiawnder; ond os pallai ef a'r bobl yn eu hufudd-dod i'w orchymynion, y byddai iddo ef eu gwrthod hwythau.

Yr oedd teyrnasiad y brenin hwn yn nodedig am ei lwyddiant diball, tra parhaodd yn ffyddlawn wrth gyfammod ei Dduw. Tros amryw flynyddoedd cynnyddodd ei gyfoeth a'i fawredd, ac efe a adeiladodd balasau ceinwych, ac adeiladau ardderchog eraill, yn gystal er ei fawredd ei hun, a dybenion y llywodraeth. Adeiladodd ddinasoedd caerog yn amryw barthau o'i lywodraeth, naill ai er amddiffyniad, neu er gwychder. Trwy ei gyfeillgarwch a'i gynghrair â brenin Tyrus, cafodd wybodaeth o forwriaeth, a helaethodd ei gyfoeth a'i farchnadaeth, ac a drosglwyddodd i'w deyrnas gyfoeth a nwyddau gwledydd pellenig. Er yr holl fawredd a'r negesau hyn, nid oedd yn anghofio addoliad Duw. Tros hir amser nid oedd neb yn y deyrnas yn fwy gofalus a dyfal yn addoliad cyhoeddus y deml nag ef. Gwnaeth yr holl bethau nodedig hyn yn nghyd, ac yr oedd ei enw yn glodfawr yn mysg breninoedd cymydogaethol. Daeth llawer i ymweled âg ef, âg anrhegion gwerthfawr, fel y gallent gael addysg oddiwrth y ddoethineb a roddodd Duw yn ei galon. Yn mysg eraill, rhoddwyd i ni hanes neillduol am frenines Seba. Edr. SEBA.

Aeth brenin Israel rhagddo mewn gallu, cyfoeth, a mawredd, yn wrthddrych o ryfeddod a chenfigen y teyrnasoedd cymydogaethol. Ond o'r diwedd, cyfnewidiad galarus a gymerodd le ynddo, o ran ei foesau a'i grefydd. Fel yr awn rhagom tua diwedd ei deyrnasiad, canfyddwn wrthwyneb gofidus i'w ymddygiad hardd o'r blaen. Yn y golygiad dychrynllyd a gofidus hwn, pwy a all beidio gofyn, Pa le mae y doethineb, y wybodaeth, a'r awyddfryd oedd yn peri y fath syndod cyffredinol! 'Pa fodd y tywyllodd yr aur! ac y newidiodd yr aur coeth da!' Gelwir ni yma i wylo uwch ben adfeiliad adeiladaeth ardderchog, y buom yn syllu arni yn ei holl ogoniant. Pe buasai y deml a adeiladodd efe wedi ei dinystrio, heb gareg ar gareg o honi, ni buasai hyny ond megys diddim mewn cymhariaeth i'w wrthgiliad ffiaidd ef yn ei hen ddyddiau.

Oddiwrth ei ddechreuad gwych, yr oeddym ni yn barod i ddysgwyl diweddiad dedwydd ac anrhydeddus. Yr oedd rhai pethau, yn wir, yn feius ynddo yn nechreuad ei deyrnasiad. Gwnaeth gynghrair â brenin yr Aipht, a chymerodd ferch Pharaoh yn wraig iddo: yr hyn, yn ddiammeu, nad oedd yn ganmoladwy, nac yn tueddu i ddybenion a diwedd da. Ond heblaw merch Pharaoh, y brenin Solomon a garodd *lawer* o wragedd; a'r rhai hyny o'r cenedloedd y gwaharddodd yr Arglwydd i feibion Israel fyned i mewn atynt. A phan heneiddiodd Solomon, ei wragedd a droisant ei galon oddiar ol yr Arglwydd; ac nid oedd ei galon yn berffaith gyd â'r Arglwydd ei Dduw, fel y buasai calon Dafydd ei dad. 1 Bren. xi, &c. Gwelwn yma ddechreuad, natur, a phrysurdeb ei bechod. *Carodd lawer o wragedd*, yn anfoddlon i'r terfynau a osododd Duw yn yr achos hwnw; ac wedi myned dros derfynau Duw, nid oes dim terfynau a attal dyn rhag myned rhagddo. Nid anwesu chwant a'i gorchfyga, ond trwy ei wrthsefyll yn ddiysgog y mae cael y fuddugoliaeth arno. O Solomon! pa lesâd fu dy ddoethineb i lywodraethu, gan na lywodraethaist dy hun! 'Gogwyddaist dy lwynau i wragedd, ac a'th ddarostyngwyd yn dy gorph. Anefaist dy ogoniant, ac a halogaist dy hiliogaeth, gan ddwyn digofaint yn erbyn dy blant, a dwyn gofid am dy ynfydrwydd.' Eccles. 47. 19, 20.

Carodd wragedd dyeithr hefyd. Ymunodd gyd â'r rhai oedd ddyeithriaid i wladwriaeth Israel, ac yn elynion i'r gwir Dduw. Yr oedd hyn yn bendant yn waharddedig gan Dduw. Exod. 34. 16. Deut. 7. 3. Yr oedd ganddo saith cant o wragedd yn freninesau, a thri chant o ordderch-wragedd. Mae yn debygol mai ychydig feddyliodd Solomon ar y cyntaf o gynnwys eilun-addoliaeth ffiaidd ei wragedd; ond yn hawdd yr arwain y naill bechod i'r llall, yn enwedig pan roddir y ffrwyn i chwantau. Llawer o siamplau yn yr ysgrythyrau a ddangosant yn dra amlwg, nad oes dim yn ddiogelwch digonol rhag y pechodau mwyaf rhyfygus, ond cadwraeth effeithiol yr Arglwydd, y Bugail da, a Cheidwad Israel. Syrthiodd Dafydd yn ofnadwy, er ei holl ras a'i dduwioldeb diffuant; a gwrthgiliodd Solomon yn ffiaidd, er ei holl ddoethineb a'i ddoniau enwog. Y mae dros ben pob peth yn alarus ac yn ffiaidd, weled Solomon, yr hwn a adeiladodd deml geinwych i'r gwir Dduw, ac a'i cysegrodd gyd

Digitized by Google

â'r fath ardderchogrwydd duwiol, wedi hyny yn cynnal addoliad ffieiddiaf y gau-dduwiau yn ei deyrnas: yn adeiladu temlau, ac yn ymgrymu wrth eu hallorau. Gwaelach golwg o lawer na gweled ymerawdwr mawr a balch Babilon yn pori gyd â'r eidionau, oedd gweled Solomon yn addoli eilunod ffiaidd, ac yn adeiladu temlau iddynt, i foddhau puteiniaid budron! Beth a ddywedwn wrth y pethau hyn! Yr ydym yn edrych yn syn, ac yn dyddelwi, heb ddim i ateb! Yr ystyriaeth o hono a lanwa bob credadyn â braw a dychryn. Gwrthgiliodd yn ei hen ddyddiau—wedi hir broffes anrhydeddusaf—wedi cael y rhybyddion mwyaf caredig a ffyddlawn gan ei dad wrth farw, a chan yr Arglwydd ei hun wedi hyny—wedi ymddangosiadau penodol o'r Arglwydd iddo, yn ddirgel ac yn gyhoeddus—wedi cynnal gwir grefydd, a gwneuthur yr addefiad mwyaf difrifol a chyhoeddus o honi dros hir flynyddoedd: etto, er y owbl, er ei ras a'i dduwioldeb, er ei holl synwyr, ei wybodaeth, a'i ddoethineb, gwrthgiliodd i'r graddau mwyaf y cawn hanes am neb o'r saint yn y Bibl.

Ond beth, meddwch, a fu ei ddiwedd? Och! wele yr haulwen a gyfododd gyda chymaint dysgleirdeb yn machludo dan gwmwl du! Er nad oes un gradd o ammheuaeth yn fy meddwl i am ei dduwioldeb diffuant cyn ei wrthgiliad, nac o'i adferiad diffuant o hono; (2 Petr 1. 21.) etto ni roddir hanes neillduol am hyny. Yr oedd ei wrthgiliad yn ffiaidd gan yr Arglwydd, ac a ddygodd lawer o flinder arno ei hun. 'Yr Arglwydd a ddigiodd wrth Solomon,' a thrwy ddadguddiad a dystiolaethodd ei anfoddlonrwydd, ac y byddai iddo rwygo y freniniaeth oddi wrtho ef, a'i rhoddi i'w was. Cyfarfu yn ei hen ddyddiau âg amryw brofedigaethau chwerwon. Cyfododd yr Arglwydd yn wrthwynebwyr iddo, Hadad yr Edomiad, a Rezon, yr hwn a deyrnasodd yn Damascus, a Jeroboam mab Nebat. Prophwydodd Ahiah wrth Jeroboam, y byddai i'r Arglwydd roddi iddo ddeg o lwythau Israel i deyrnasu arnynt. Ceisiodd Solomon ei ladd oblegid hyny. Y mae ei waith yn ymladd fel hyn â'i gerydd, yn dangos ei fod, dros amser, o'r hyn lleiaf, heb gael ei daro am ei fai. Etto rhaid i ni farnu iddo farw yn wir edifeiriol. Pur annhebyg i un oedd anwyl gan yr Arglwydd gael ei roddi i fynu yn gwbl i Satan. Bernir rhagfynegi ei achos, pan ddywedodd yr Arglwydd wrth Dafydd, 'Myfi a fyddaf iddo ef yn dad, ac yntau fydd i mi yn fab. Os trosedda efe, mi a'i ceryddaf ef â gwialen ddynol, ac â dyrnodiau meibion dynion: ond fy nhrugaredd nid ymedy âg ef, megys ag y tynais hi oddiwrth Saul.' 2 Samuel 7. 14, 15. Y prawf cadarnaf o'i edifeirwch ydyw llyfr y Pregethwr, yr hwn a ysgrifenodd yn ei hen ddyddiau, gwedi hir brofiad o bechod a ffolineb. Edrych PREGETHWR. Er mor ffiaidd ydoedd gwrthgiliad Solomon, etto yr oedd gras digonol yn Nuw i'w adferyd a maddeu iddo. Na anobeithied un gwrthgiliwr fel yntau; ond na ryfyged neb chwaith, trwy gam-ddefnyddio ei gynllun ef, a dysgwyl am gadwedigaeth er parhau yn ei wrthgiliad yn ddiedifeiriol. Nid oes dim rhybyddion mwy difrifol yn ngair Duw rhag pechod, na hanes cwympiadau y duwiolion: er addysg i ni yr ysgrifenwyd hwynt, i ddangos mor ffiaidd gan yr Arglwydd ydyw pechod yn mhawb, hyd yn nod mewn dynion mor enwog a Dafydd a Solomon. Dangosodd yn amlwg ei anfoddlonrwydd yn ddirfawr yn eu herbyn yn eu personau hwy, trwy geryddon chwerwon a gofidus, er iddo eu hachub trwy edifeirwch a maddeuant yn y diwedd. Buasai eu beiau wedi eu cuddio, oni buasai fod yr Arglwydd, er cariad at ei bobl, am eu gosod i fynu trwy yr holl oesoedd fel nodau rhybyddiol i ddangos y canlyniadau o gellwair â phechod, ac mor danllyd yw sancteiddrwydd a chyfiawnder dwyfol yn ei erbyn, yn y rhai mwyaf anwyl ganddo.

Er mor ardderchog fawr ydoedd Solomon o ran ei ddoniau—llwyddiant a heddychlonrwydd ei deyrnasiad—helaethrwydd ei gyfoeth—ei waith godidog yn adeiladu teml yr Arglwydd, &c.; etto y mae genym ni un mwy na Solomon yn mhob ystyr i edrych arno, wedi ei ddyrchafu yn frenin ar Sion, ac i eistedd ar orsedd-fainc ei dad Dafydd, sef Iesu o Nazareth, Brenin yr Iuddewon. Amlwg yw, oddiwrth Psalm lxxii. a Heb. 1. 5. fod Solomon yn gysgod ardderchog o Grist, o ran ei berson, ei swydd, a'i waith. Mewn ystyr anfeidrol mwy ardderchog, mae yr enw hynodol MAB DUW, yn cael ei briodoli iddo;—mae ei deyrnas a'i lywodraeth yn ddiderfyn ac yn ddiddiwedd;—eistedd ar ddeheulaw y Mawredd, nes darostwng ei holl elynion dan ei draed;—'ynddo ef y mae *holl* drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig;'—efe hefyd, mewn ystyr mwy enwog, a 'adeilada deml yr Arglwydd;' efe a ddyrchafa Sion yn ben moliant ar y ddaear; a than lywodraeth y Tywysog tangnefedd hwn, 'bydd mynydd tŷ yr Arglwydd wedi ei barotoi yn mhen y mynyddoedd, ac yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; a'r holl genedloedd a ddylifant ato.' Esa. 2. 2. 2 Sam. 7. 13. Zech. 4. 9. a 6. 12, 13. Col. 2. 3. Oddi wrtho ef y cafodd Solomon ei holl ddoniau, a'i holl lwyddiant; y pethau oeddynt yn gyfranedig i Solomon, ydynt yn guddiedig a hanfodol ynddo ef; yn ddiddeilliad ac yn annibynol. Dyrchafodd Duw Solomon fel cynllun i'w ddangos ei hun i'w eglwys, er ei dyddanwch a'i gorfoledd annhraethol o'i blegid. Cyfnewidiodd Solomon, a syrthiodd o'i fawredd a'i ardderchogrwydd; anurddwyd ef gan y pechodau ffieiddiaf; ond, 'Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd—ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau.'—Yr oedd 'yr holl fyd yn ceisio gweled wyneb Solomon, i glywed ei ddoethineb, ac yr oeddynt yn dwyn anrhegion iddo.' (1 Bren. 10. 24.)—'Daw teyrnasoedd y ddaear yn eiddo yr Arglwydd a'i Grist ef.—Ië, yr holl freninoedd a ymgrymant iddo, a'r holl genedloedd a'i gwasanaethant.—Cyfoethogion y bobl a ymbiliant â'i wyneb—aur a thus a ddygant; a moliant yr Arglwydd a fynegant.' Ps. 45. 12. a 72. 11. Esa. 60. 6.

Gwedi teyrnasu 40 mlynedd, Solomon a fu farw yn nghylch 58 mlwydd oed, cyn geni Crist 975; canys yr oedd yn nghylch 18 oed pan y dechreuodd deyrnasu. Ysgrifenwyd ei hanes ef gan Nathan, Ahiah, ac Ido. —Edrych BATHSEBA, CAN, DAFYDD, DIAREBION, EIRIOLAETH, GWEDDI, GORSEDD-FAINC, HIRAM, JEROBOAM, MEIRCH, PLANT, REHOBOAM, PREGETHWR, SEBA, TEML.

'Porth Solomon.' Ioan 10. 23. Act. 3. 11. a 5. 12. Rhydd Josephus yr hanes canlynol am y porth hwn: 'Yr oedd y porth y tu allan i'r deml o du y dwyrain; yr oedd yn adeilad ardderchog, ac wedi ei orchuddio. Yr ydoedd yn arolygu pantle dwfn iawn, yn cael ei gynnal â muriau o bedwar can cufydd, wedi eu hadeiladu â meini pedwar-onglog claerwyn: hŷd pob maen oedd ugain cufydd, a'u huchder chwe chufydd —gwaith y brenin Solomon, yr hwn a adeiladodd y deml.' *Antiq.*, *lib.* xx. *cap.* 8. *sec.* 7. Lightfoot, *vol.* ii. Nid y porth oedd yn sefyll yn amser ein Hiachawdwr, ydoedd y porth a adeiladodd Solomon, ond yr oedd wedi ei adeiladu yn yr un fan, ac yn gyffelyb iddo, ac yn dwyn ei enw: neu, o'r hyn lleiaf, yr oedd wedi ei adgyweirio a'i addurno yn fawr wedi ei amser ef. Yr ydoedd yn sefyll yn amser Albinus ac Agrippa, medd Josephus, amryw flynyddoedd gwedi marwolaeth Crist.

SON—IO—IARUS, (so-on) *Heb.* שאן *(shaon)* *Llad.* SONUS; *Ffr.* SON; *Sacs.* SOUND: sain, llais, goslef; gair, chwedl, crybwylliad; swnio, darstain, trystio; llafar, sonfawr, crochlais. Na sôn, sef na ddywed felly; taw a sôn, sef bydd ddystaw.

'Am yr hwn yr ydym yn sôn.' Heb. 4. 13. πρός

Digitized by Google

ον ημιν ο λογος, *i'r hwn y rhoddwn ni gyfrif;* felly y cyfieitha llawer y geiriau, ac felly, tybygaf, y dylent gael eu cyfieithu, oddiwrth yr ysgrythyrau canlynol yn Groeg. Mat. 12. 36. 'Am bob gair segur, αποδωσουσι περι αυτου λογον, *y rhoddant gyfrif.'*—Mat. 18. 23. ος ηθελησε συναραι λογον μετα των δουλων αυτου, *a fynai gael cyfrif gan ei weision.*—Luc 16. 2. αποδος τον λογον της οικονομιας σου, *dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth.* Rhuf. 14. 12. 'Pob un o honom drosto ei hun, λογον δωσει τω Θεω, *a rydd gyfrif i Dduw.'*—Heb. 13. 17. 'Y maent yn gwylio dros eich eneidiau, ως λογον αποδωσοντες, *megys rhai a fydd raid iddynt roddi cyfrif.'* Yr un gair *Gr.* λογον, yn mhob un o'r manau hyn, a gyfieithir *cyfrif.* Ni arferir un gair arall yn y Testament Newydd am *gyfrif.* προς ον, a arwydda, *i'r hwn,* ac nid *am yr hwn.* Gwel y Dr Owen, Doddridge, Macknight. *Syr.* 'I'r hwn y rhoddant gyfrif.' *Arab.* 'O flaen yr hwn rhaid ein profi.'

'A phregethiad Iesu Grist, yn ol dadguddiad y dirgelwch, yr hwn ni soniwyd am dano er dechreuad y byd.' Rhuf. 16. 25. 'A' phregethiat Iesu Christ, gan ymatguddiat y dirgelwch, yr hwn vu gyfrinachol er yn oes oesoedd.' W. S. a Dr M. Yr oedd dirgelwch yr efengyl, a'r pregethiad o honi i'r Cenedloedd, yn guddiedig, ac heb sôn am dani trwy yr holl oesoedd er dechreuad y byd; nid yn gwbl, ond yn gymhariaethol i'r dadguddiad eglur a wnawd o honi trwy weinidogaeth yr apostolion. Nid oedd y dirgelwch hwn yn gwbl anadnabyddus, heb ddim crybwylliadau am dano yn yr hen oesoedd; crybwyllwyd am dano wrth Adda, Abraham, Moses, Dafydd, Esaiah, &c., ond yr oedd y dadguddiad yn aneglur, a dim ond crybwylliad tywyll am dano; dangoswyd ef trwy gysgodau ac aberthau; ac mewn ystyr cymhariaethol, yr oedd gwedi ei orchuddio mewn tywyllwch a dystawrwydd, mewn cyferbyniad i'r dadguddiad mwy eglur o hono dan oruchwyliaeth yr efengyl. Barna rhai fod y geiriau χρωνον αιωνιον *amser yr oes,* neu, yn y rhif lliosog, fel yma, *amseroedd yr oesoedd,* yn cyfeirio at oruchwyliaeth Moses. Luc 1. 70. Act. 3. 21. 2 Tim. 1. 9. Tit. 1. 2. Dan y gyfraith yr oeddynt yn mesur yr amserau wrth oesoedd, neu Jubiliau; amseroedd yr oesoedd oeddynt yr yspaid y mesurent amserau wrth oesoedd, neu Jubiliau. Gwel Locke.

'Y rhai ni chlywsant sôn am danaf;' sef i'r rhai ni phregethwyd, yr ydys yn dadguddio yr Arglwydd yn ei holl ogoniant, fel Duw yr iechydwriaeth. Esa. 66. 19.

Priodolir y gair *soniarus,* y rhan amlaf, i sain offer cerdd. 2 Cron. 13. 12. Ps. 33. 3. a 150. 5.

SOPHAH, צופח [*deddf, helaethiad*] mab Helem, o Aser. 1 Cron. 7. 35, 36.

SOPHAI, צופי [*yn canfod*] mab Elcanah, o deulu Cohath. 1 Cron. 6. 26.

SOPHAN, צופן [*cwningen*] dinas yn Gad. Num. 32. 35.

SOPHAR, צופר [*codi yn foreu*] un o gyfeillion Job, yr hwn a areithiodd ddwy waith yn erbyn Job. Job 2. 11. a xi, xx.

SORAH, צרעה [*gwahan-glwyf*] 1. Dinas yn Dan, lle genedigol Samson. Barn. 16. 31.——2. Dinas yn Judah. 2 Cron. 11. 10.

SOREAH, dinas yn Judah. Jos. 15. 33.

SOREC, dyffryn lle trigai Dalilah. Barn. 16. 4. Tebygol ei fod yn lle hynod am winwydd a gwin rhagorol.—'Planodd hi o'r winwydden oreu.' *Heb gwinwydden Sorec.* Esa. 5. 2.—'Pêr winwydden.' *Heb. gwinwydden Sorec.* Gen. 49. 11. Jer. 2. 2.—'Meinllin.' *Heb. llin Sorec.* Esa. 19. 9.

Yr oedd dyffryn Sorec yn gorwedd rhwng Ascelon a Gaza, yn rhedeg yn mhell i fynu i'r dwyrain, yn rhandir llwyth Judah. Yr oedd Ascelon a Gaza gynt yn nodedig am win. Tebygol fod pen uchaf dyffryn Sorec ac Escol, lle y casglodd yr yspiwyr yr un swp o rawn yr oeddynt yn gorfod ei ddwyn ar drosol rhwng dau, yn agos i'w gilydd. Num. 13. 22, 23. Barn. 16. 3, 4. Barna rhai mai gwahanol enwau ydynt ar yr un dyffryn. Barna Michaelis ei fod yn debygol, oddiwrth yr hanes yn Barn. 16. 4. fod dyffryn Sorec yn rhandir llwyth Judah, ac nid yn ngwlad y Philistiaid.

Yr oedd gwin Sorec yn adnabyddus i'r Israeliaid cyn eu dyfodiad o'r Aipht; canys crybwylla Moses am dano yn Gen. 49. 11. 'y bêr winwydden.' *Heb. gwinwydden Sorec.* Tebygol y dygid gwin Sorec i'r Aipht i'w werthu. Yr oedd gwinwydd yn yr Aipht. Ps. 78. 47. a 105. 33. Ond yr oedd y winwydden yn cael ei meithrin yno er mwyn y grawn i'w bwyta, ac nid i wneyd gwin o honynt, medd Hasselquist; y gwin a ddygid iddynt o Candia, gwlad Groeg, a Phenicia. Hierodot. iii. 6. Nid oedd y wlad yn addas i winllanoedd, am nad oedd, gan mwyaf, ond dyffryn gwastad, yn cael ei orlifo yn flynyddol gan yr afon Nilus. Wrth waith Jacob yn enwi gwinwydden Sorec, wrth fendithio llwyth Judah, mae y brophwydoliaeth yn crybwyll am y parth o'r wlad a ddygwyddai yn rhandir iddo:

> Yn rhwymo ei ebol wrth y winwydden,
> A llwdn ei asyn wrth ei winwydden Sorec ei hun,
> Y mae yn golchi ei wisg mewn gwin,
> A'i fantell yn ngwaed y grawnwin.
>
> *Lowth* ar Esa. 5. 2.

SOR—I—IANT, (sy-or) llidiawgrwydd, digllonedd; digio, llidio.—'Ie, pa soriant.' 2 Cor. 7. 11.—'Anyd pa gilwc.' W, S.—'Ië, pa ddigofaint.' Dr M. Y gair αγανακτησιν, a arwydda, medd Macknight, *poen, a'r achos o hono yn y dyn ei hun.* Mae hyn yn gynnwysedig mewn edifeirwch duwiol; sef bod dyn yn sori, neu yn digio, wrtho ei hun, ac nid wrth Dduw; dyn yn boen iddo ei hun, o herwydd ei gamweddau. Edr. DIGOFAINT, LLIDIOGRWYDD.

SOROD, (sor) swrwd, sothach mettel, gorferw mettel, sinidyr, gwaelodion, llorion, rhytion. Diar. 26. 23. Galar. 3. 45. Seph. 1. 12. Edr. CHULO, GWEFUS.——'Fel ysgubion y byd y gwnaethpwyd ni, a sorod pob dim hyd yn hyn.' 1 Cor. 4. 13.—'Val carthion y byt, yn greifion pob peth, yd hyn.' W. S. Sef fel y pethau mwyaf gwael a ffiaidd; fel ysgubion a sorod, a fwriai rhai allan er glendid a glanweithdra. Galwai y cenedloedd Paganaidd y dynion truain a aberthent i'w heilunod, i'w heddychu yn amser o bla neu drallod, περικαθαρματα, (y gair a arferir yma) *y purwyr,* y rhai a lwythent â phob melldith ac anmharch wrth eu harwain at eu hallorau; tebygol fod cyfeiriad yr apostol at y cyfryw ddefod gythreulig, ac yn crybwyll ei fod ef a'i frodyr yn gyffelyb yn y byd i'r cyfryw adynion truenus, yn cael eu melldithio, eu rhegu, a'u herlid, fel cwbl ffiaidd a dirmygedig. Arferwyd y ddau air, *ysgubion* a *sorod,* i'r un gwrthddrych, na pha un nid oedd gwrthddrych yn fwy ffiaidd i fod. Gwel Mintert, Schleusner, Parkhurst.

SOSTHENES, arch-synagogydd yn Corinth. Pan wrthododd Galio wrando ar achwyniadau yr Iuddewon yn erbyn Paul, y Groegwyr Paganaidd a gurasant Sosthenes o flaen y frawdle. Act. 18. 12—17. Ai hwn yw y Sosthenes a elwir yn frawd gan Paul, yn 1 Cor. 1. 1. sydd aneglur, er ei fod yn debygol: nid oes un arall o'r enw yn cael crybwyll am dano. Corinthiad oedd y Sosthenes hwn; ac os oedd yn Gristion, a chyd â'r apostol pan oedd yn ysgrifenu ei epistol at y Corinthiaid, yr oedd yn dra thebygol o ymuno

Digitized by Google

gyd â'r apostol yn ei gyfarchiad at eglwys Corinth. Ond ymddengys anhawsdra yma. Os oedd Sosthenes yn Gristion yn amser y cythrwfl, paham y curai y Groegwyr ef? yr ymosodiad ar y Cristionogion a wnaed gan yr Iuddewon. Yr Iuddewon a ddygasant Paul o flaen y Rhaglaw. Pe buasai yr Iuddewon yn curo Sosthenes, ni buasai dim ammheuaeth nad oedd yn achleswr i Paul, a'r un ag a unir ganddo gyd âg ef yn ei epistol. Mewn llawer o ad-ysgrifeniadau a chyfieithiadau o lyfr yr Actau, nid yw y gair Ελληνες, *Groegwyr*, i'w gael. Ac mewn rhai eraill, rhoddir y gair Ιουδαιοι, *Iuddewon*, yn lle Ελληνες, *Groegwyr*. Tebygol nad oedd un o'r ddau yn ysgrifen Luc, ac i'r ad-ysgrifenwyr roddi y ddau air eraill i mewn, yn ol eu gwahanol farn. Darllen y geiriau yn burion heb un o honynt, fel y canlyn:—'Ac efe a'u gyrodd hwynt,' sef yr Iuddewon, 'oddiwrth y frawdle, a hwynt oll a gymerasant Sosthenes, ac a'i curasant o flaen y frawdle.' Gwel y Dr Paley, *Horæ Paulinæ*.

SOSANIM, שׁשׁים [*chwech*] offeryn cerdd â chwe thant iddo. Arferir ef yn nhitl y Psalmau xlv, lxix, lxxx. Cyfleithir ef *lili*, yn Can. 2. 1. am fod chwe dalen i'r blodeuyn hwn. Cyfleitha y LXX. y geiriau o flaen y Psalmau uchod, 'Yn nghylch y rhai a newidir.' Cyfleitha y Dr Morgan ditl Ps. xlv. 'At y pen-cerdd ar y chwe-thant o feibion Corah, cân cariadau er athrawiaeth.'—Titl Ps. lxix. 'At y pencerdd a'r chwe-thant.'—Ps. lxxx. 'At y pen-cerdd a'r chwe-thant, tystiolaeth (neu) gân i Asaph.'

SOTHACH, (soth) sorod, ysgarthion, ysprêd, ysbwrial, ffwlach, gwehilion, anmhuredd, sinidyr. Ps. 119. 119. Esa. 1. 22, 25.

STACTE, *Gr.* σταкτη; *Vulg.* STACTEN; *Heb.* נטף *(nataph)*. Y gair Hebraeg a Groeg, a arwydda *dyferu*. Myrr, meddant, yn dyferu o hono ei hun, yn rhydd.* Hwn yw y myrr goreu, ac a elwir *stacte*. Yr oedd hwn yn un o'r pêr-lysiau yn yr arogl-darth. Exod. 30. 34. Edr. MYRR.

STEPHAN, *Gr.* Στεφανος, [*coron*]. Nid oes prawf digonol ei fod yn un o'r deg a thriugain dysgyblion, neu ei ddwyn i fynu wrth draed Gamaliel, fel y dywedodd Epiphanes, ac eraill ar ei ol. Tebygol mai dyn enwog oedd o'r Iuddewon Groegaidd, a ddychwelwyd i'r ffydd. Gwedi ei ddewis yn un o'r saith i arolygu elusen yr eglwys, y mae yn ymddangos y penaf a'r blaenaf yn eu plith. Gwedi yr etholiad hwn i'r gorchwyl presennol o edrych ar ol yr elusen, o herwydd y grwgnach a fu gan y Groegiaid yn erbyn yr Hebreaid am ddirmygu eu gwragedd gweddwon hwynt yn y weinidogaeth feunyddiol, y mae Stephan yn ymddangos gyda llawer o ardderchogrwydd: 'yn llawn o ffydd a nerth, gwnaeth ryfeddodau ac arwyddion mawrion yn mhlith y bobl.' Act. 6. 8. Εποιει τερατα και σημεια μεγαλα.—'Rhyfeddodau ac arwyddion *mawrion*.'†—'Rhyfeddodau a gwyrthiau mawr.' Dr M.—'*Great wonders and miracles*.' *Saes*. Rhai o synagog y Libertiniaid, a'r Cyreniaid, a'r Alexandriaid, &c., a ddadleuasant âg ef; ond ni allent wrthwynebu y doethineb a'r ysbryd, trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru. Cipiasant ef, a dygasant ef i'r gynghorfa, a gau-dystion a'i cyhuddasant ei fod yn dywedyd yn erbyn y gyfraith a'r deml; ac y dystrywiai Iesu o Nazareth y deml, ac y newidiai efe holl ddefodau Moses. Yr oedd golwg hynod ac anghyffredin arno o flaen y cynghor: dywedir fod 'y rhai oedd yn eistedd yn y cynghor yn dal sylw arno, ac yn gweled ei wyneb fel gwyneb angel.' Yr oedd tawelwch a sirioldeb yn ei wyneb yn dystiolaeth o'i ddiniweidrwydd; yr oedd y fath harddwch a gogoniant yn ei wynebpryd, fel yr oedd yn ymddangos mor dirion a hawddgar ag angelion Duw, y rhai a ymddangosant i ddynion mewn dull tra gogoneddus a hawddgar. Yr oedd ei drychiad yn debyg i wyneb Moses pan ddisgynodd o'r mynydd; neu, mewn gradd bychan, yn debyg i wyneb Crist ar ei wedd-newidiad. Y mae ei araeth ardderchog o flaen y cynghor yn addas i ddyn yn llawn o'r Ysbryd Glân, yn coffâu yr hyn a wnaeth yr Arglwydd er y genedl Iuddewig, a pha fodd y gwrthryfelasant yn ei erbyn; ac y mae yn eu hargyhoeddi o ladd Crist a'r prophwydi. Wrth glywed hyn, ffromasant yn eu calonau, ac ysgyrnygasant ddannedd arno. Yn edrych yn ddyfal tu a'r nef, dywedodd wrthynt, Ei fod yn gweled Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw. Yna cauasant eu clustiau, fel rhai wedi brawychu wrth ei gabledd, a rhuthrasant yn unfryd arno, a'i bwriasant allan o'r ddinas, ac a'i llabyddiasant. Bu farw yn erfyn, Na ddodai yr Arglwydd y pechod hwn yn eu herbyn. Am mai efe a roddwyd i farwolaeth gyntaf o achos yr efengyl, gelwir ef Stephan y cyn-ferthyr. Wrth farw, gorchymynodd ei ysbryd i Grist, gan ddywedyd, 'Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd!' geiriau sydd yn profi nad ydyw ysbryd dyn yn cysgu nac yn marw gyd â'r corph; a bod yr Arglwydd Iesu yn wrthddrych addas i orchymyn yr enaid i'w ofal a'i gadwraeth, ar ei ysgariad oddiwrth y corph. Gan hyny, rhaid ei fod yn Dduw i fod yn addas i'r cyfryw ymddiried, yr hyn nad yw neb ond Duw; ac hefyd am fod addoliad dwyfol yn cael ei roddi yma iddo. Gorchymynodd Crist ei ysbryd i'r Tad; ac yma y mae Stephan yn gorchymyn ei ysbryd i'r Arglwydd Iesu.

STEPHANAS, *Gr.* Στεφανοι, [*coron*] yr un enw ydyw a Stephanios, neu Stephanio, yn Pliny. Barnodd ysgrifenwyr Cristionogol Groegaidd, ar ba sail sydd anhysbys, mai yr un ydoedd a cheidwad y carchar yn Philippi, ag oedd, pan ysgrifenodd Paul at y Corinthiaid, wedi symud i Corinth, ac yn enwedig yn ddefnyddiol yno. Bedyddiwyd ef a'i dylwyth gan Paul. 1 Cor. 1. 16. Daeth ef, yn nghyd â Ffortunatus ac Achaicus, at Paul i Ephesus, tebygol, â llythyr oddiwrth eglwys Corinth; yn ateb i ba un yr ysgrifenodd Paul ei epistol cyntaf, ac a'i hanfonodd gyd â'r gwyr hyn. 1 Cor. 16. 17.——'Mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas.' 1 Cor. 1. 16.—*Gr.* του Στεφανα οικον, *tŷ Stephanas*. Y mae y gair *Heb.* בית a'r gair *Gr.* οικος, o ystyr helaeth, ac yn arwyddo, y tylwyth, cymaethlu, &c.—'Tŷ wedi ymranu yn erbyn tŷ, a syrth;' (Luc 11. 17.) sef y rhai yn cyd-drigo fel teulu, gwedi ymrafaelio ac ymranu yn erbyn eu gilydd.—'Heddyw y daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn:' (Luc 19. 9.) sef i'r teulu a'r tylwyth yn cyd-breswylio.—'Yn ofni Duw, yn nghyd â'i holl dŷ:' (Actau 10. 2.) sef ei holl dylwyth.—'Yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda:' (1 Tim. 3. 4.) sef yn llywodraethu ei weinidogion, ac yn dal ei blant mewn ufudd-dod.—'Rhodded yr Arglwydd drugaredd i dŷ Onesiphorus:' (2 Tim. 1. 16.) sef i'r holl deulu. Arwydda, nid yn unig y rhieni a'r plant, ond hefyd, weithiau, y gweinidogion, a phawb yn y tŷ; y cymaethlu. 'Bu farw Saul, a'i dri mab ef, a'i holl dylwyth a fuant feirw yn nghyd.' 1 Cron. 10. 6. Pwy a feddylir wrth ei dylwyth sydd eglur oddiwrth ysgrythyr gyfatebol: 'Bu farw Saul, a'i dri mab, a'i yswain, a'i holl wyr, y dydd hwnw yn nghyd.' 1 Sam. 31. 6. Wrth dylwyth Saul, y meddylir, y mae yn eglur, y rhai hyny o'i deulu oedd yn dwyn ei arfau, ac yn rhyfela. Arwydda tŷ, gan hyny, pawb yn y tŷ—y rhieni, y plant o bob oedran,

* Pliny, yn ysgrifenu am y prenau o ba rai y ceir myrr, (*lib.* xii., *cap.* 15.) a ddywed, 'Y maent o honynt eu hunain yn chwysu math o fyrr, a elwir *stacte*, yr hwn yw y goreu sydd i'w gael.'

† Mae y gair *mawrion* (μεγαλα) wedi ei adael allan yn mhob argraffiad o'r cyfieithiad presennol (hyd y flwyddyn 1814) trwy wall, tebygol, yr argraffiad cyntaf, a'r lleill yn ei ddilyn, heb sylwi arno.

Digitized by Google

y gweinidogion, a phawb a aned o honynt. Yn nhŷ Stephanas yr oedd rhai mewn oedran, a dywed yr apostol iddynt ymosod i weinidogaeth y saint. 1 Cor. 16. 15. Felly dywedir am Lydia, iddi gael ei 'bedyddio, hi a'i (οικος αυτης) theulu.' Act. 16. 15. Felly yr oedd y proselytiaid i'r grefydd Iuddewig yn cael eu bedyddio, hwy a'u tylwyth o bob oedran, yn ol tystiolaethau yr Iuddewon a gofféir gan Lightfoot, *Horæ Heb. at Matthew, vol.* ii. Yr oedd bedydd Israel yn y Môr Coch yn gyffredinol i'r holl genedl, y gwyr, y gwragedd, a'r plant, a'r ieuenctid o bob oedran. 'A'u bedyddio hwy *oll* i Moses, yn y cwmwl, ac yn y môr.' 1 Cor. 10. 2. Buant *oll* yn nyfnder y môr, ac a ddaethant i'r lân oddi yno; ac yr oeddynt *oll* yn y cwmwl, sef yn cael eu gorchuddio âg ef. 'Bedyddiwyd ni *oll*,' medd yr apostol, 'yn un corph.' 1 Cor. 12. 13. Yr oedd bedydd mor gyffredinol yn amser yr apostolion, o ran pob rhyw ac oedran, a bedydd Israel yn y cwmwl, ac yn y môr. Pe buasai cyfnewidiad, buasai hyny yn cael ei nodi gan yr apostol.

STOICIAID, Στωικαι, plaid o philosophyddion, dysgyblion Zeno, philosophydd Paganaidd, athrofa yr hwn oedd mewn porth (στωα, *stoa*) yn ninas Athen. Yr oeddynt dros amryw oesoedd mewn cymeradwyaeth mawr, yn enwedig yn Athen, lle y gwrthwynebwyd Paul gan rai o honynt. Act. 17. 18. Yr oeddynt yn credu yn y BOD o Dduw, ei lywodraeth ar y byd isod, ac hanfodiad yr enaid ar ol marwolaeth; ond yr oeddynt yn dyfysgu y Duwdod â'i weithredoedd, ac yn barnu mai efe ydoedd enaid y byd. Yr oeddynt yn barnu fod dedwyddwch dyn yn gynnwysedig mewn bucheddiad rhinweddol, ac yn annog i burdeb moesol yn fawr; ond yr oedd eu hymchwydd cnawdol ynddynt eu hunain yn anurddo y cwbl; ac nid rhyfedd iddynt wrthwynebu athrawiaeth yr efengyl, yr hon oedd yn darostwng dyn, ac yn ei ddangos yn wael i'r graddau mwyaf; sef yn euog ac yn llygredig, a than farn o golledigaeth.

SUA, שׁוּחָא [*myfyrdod*] yr oedd amryw o'r enw; megys mab Abraham o Ceturah. Gen. 25. 2.—Merch Hiram yr Adulamiad. Gen. 38. 2.—Brawd Chelub. 1 Cron. 4. 11.—Merch Heber. 1 Cron. 7. 32.

SUAL, שׁוּעָל [*cadnaw*] talaeth yn ngwlad Israel, a anrheithiodd y Philistiaid yn nyddiau Saul. 1 Sam. 13. 17.

SUBAEL, שׁוּבָאֵל [*dychweliad Duw*] mab Amram, a thad Jedeiah. 1 Cron. 25. 20.

SUCCOTH, סֻכּוֹת [*bythod*] 1. Lle rhwng yr afon Jabboc a'r Iorddonen. Pabellodd Jacob yno ar ei ddychweliad o Mesopotamia, ac adeiladwyd dinas yno gwedi hyny. Gen. 33. 17. Yr oedd yn rhandir Gad. Jos. 13. 27. Yn agos yma y toddodd Solomon lestri y deml. 1 Bren. 7. 46.——2. Gwersyllfa gyntaf Israel gwedi eu dyfod o'r Aipht. Exod. 12. 37.——3. Succoth-Benoth oedd eilun-dduw y Babiloniaid, a ddygasid gan Salmaneser i Samaria. 2 Bren. 17. 30.

SUDDO, (sudd) soddi; corph trymach yn soddi mewn corph ysgafnach nag ef.—'Ond pan welodd efe y gwynt yn gryf, efe a ofnodd: a phan ddechreuodd suddo, efe a lefodd, gan ddywedyd, Arglwydd, cadw fi.' Mat. 14. 30. Tebygol ei fod yn medru nofio, fel y geill y rhan fwyaf o bysgodwyr. Cymh. Ioan 21. 7. Ac nid annhebyg nad oedd ganddo ddibyniad dirgel ar ei fedrusrwydd yn hyny, yr hyn a barodd Duw yn addas fethu iddo yn yr achos presennol. Y gair *Gr.* καταποντιζεσθαι, sydd gynnwysfawr, ac a arwydda, ei fod yn teimlo ei hun yn suddo gyd â'r fath bwysau, fel nad oedd ganddo un gobaith o achub ei hun, ac nad oedd yn dysgwyl dim amgenach na bod yn y gwaelod yn fuan. Hwyrach fod Petr yn dysgwyl canmoliaeth am gryfder ei ffydd; ond goddefodd yr Arglwydd iddo ymgais dyfod ato, yn ol ei ddymuniad, i ddangos ei wendid, ac er addysg fuddiol i'r dysgyblion eraill. Tra yr oedd ei ffydd yn golygu gallu dwyfol Crist, yr oedd yn gallu rhodio ar y dyfroedd; ond cynhwrf y môr yn fuan a dynodd ymaith ei olwg oddi arno; yna dechreuodd suddo, i ddangos mai yn Nghrist yr oedd y rhinwedd, ac nid yn Petr, ei fedrusrwydd, na'i ffydd ychwaith. Cafodd ei geryddu fel un o ychydig ffydd.

SUGN—O, (sug) *Heb.* יָנַק (*ianc*); dyfnu.—'Sugno mêl o'r graig,' a arwydda, mwynhau llawnder o bethau tymhorol. Deut. 32. 13.——'Cyfoeth y moroedd a sugnant;' sef cyfoethogant trwy bysgodfäoedd, môrwriaeth, a marchnadoedd y moroedd. Deut. 33. 19. ——'Sugni laeth y cenedloedd, a bronau breninoedd a sugni.' Esa. 60. 16. Sef yw hyny, y byddai i liaws mawr o'r cenedloedd, a rhai o'u pendefigion a'u tywysogion, gael eu dychwelyd i'r ffydd a'r wir eglwys; ac y byddai i'r eglwys dderbyn pob cynnorthwy oddi wrthynt. Esa. 66. 11, 12. a 49. 23.

'Yna y sugnwch, ar ei hystlys hi y'ch dygir,' &c. Esa. 66. 12. Y mae y geiriau hyn yn rhoddi golwg hardd ar y gymdeithas anwylaf, a'r dull hyfryd y mae ffydd yn byw ar Grist, ac yn cyfranogi o'r cyflawnder o fendithion sydd ynddo; sef fel plentyn ar fronau llawn, a mynwes anwylaf ei fam. Nid oes un gyffelybiaeth yn natur a ddichon osod allan yn fwy cynnwysfawr, gariad, hyder, anwyldeb, boddlondeb, a dyddanwch.

SUGN-DRAETH, (sugn-traeth) traeth byw, traeth sugn. Act. 27. 17. Dywed Mr Bryant fod sugndraeth peryglus yn agos i ynys Claudia, o du y dehau iddi, yr hwn, medd efe, oedd y *syrtis*, neu y sugndraeth, yr oeddynt yn ei ofni. Yr oedd dau, un y lleiaf, a'r llall y mwyaf, ar gyffiniau Affric, ac y maent yn dra adnabyddus hefyd yn bresennol, fel lleoedd o berygl a dystryw i forwyr a'u llongau.

SULAMEES, שׁוּלַמִּית [*heddychol*] gelwir yr eglwys wrth yr enw hwn, yn Can. 6. 13. naill am ei bod yn trigo yn Salem, yr hen enw ar Jerusalem (Ps. 76. 2.) neu am ei bod yn briod i'r gwir Solomon, Iesu Grist; a'r wraig yn cael ei galw wrth enw ei gwr. Jer. 23. 6. a 33. 16. Neu, yn ol arwyddocâd y gair, yr *heddychol*, neu y *berffaith*. 'Dychwel, dychwel, y Sulamees;' medd naill ai ei hanwylyd, neu merched Jerusalem, wrthi, 'dychwel, dychwel, fel yr edrychom arnat. Beth a welwch chwi,' medd hithau, 'yn y Sulamees?' Yr oedd yn rhyfeddu eu bod yn edrych arni; nid oedd yn gweled ynddi ei hun ddim ond gwaeledd ac annheilyngdod. Can. 1. 6. Luc 7. 44. a 15. 10. 2 Thes. 1. 10. Hwyrach mai yr eglwys sydd yn ateb, 'Megys tyrfa dau lu,' sef cnawd a phechod, yn wastadol yn gwrthwynebu ac yn rhyfela yn erbyn eu gilydd. Rhuf. 7. 23. Gal. 5. 17. Nis gallai y cyfryw olwg, yn ei thyb hi, fod yn hyfryd, ac yn ddymunol. Etto, fel y mae yn ffilwriaethus, y mae yn dêg, yn hardd, ac yn ardderchog yn ngolwg ei phriod. Gwel Can. vii.

SULGWYN, (sul-gwyn) y Pentecost; y degfed dydd a deugain ar ol y Pasc. Galwyd ef Sulgwyn, meddant, oblegid y deuai y rhai a fedyddiwyd yn ddiweddar, yn y brif eglwys, rhwng y Pasc a'r Sulgwyn, i'r addoliad mewn dillad gwynion.—'Brysio yr oedd, os bai bosibl iddo, i fod yn Jerusalem erbyn dydd y Sulgwyn.' Act. 20. 16. 'Y dydd Pentecost.' W. S. 'Sulgwyn.' Dr M. *Gr.* την ημεραν.

SUMATHIAID, oeddynt un o chwe teulu trigolion Ciriath-jearim; a alwyd felly, naill ai oddiwrth Suma eu tywysog, neu oddiwrth Sema dinas yn Judah. 1 Cron. 2. 53. Jos. 15. 26.



Digitized by Google

SUNEM, dinas yn rhandir Issachar. Jos. 19. 18. Yma y trigai Abisag, gwraig Dafydd. 1 Bren. 1. 3. Edr. ABISAG. Yma hefyd y trigai y wraig oludog yr hon a ddangosodd garedigrwydd i'r prophwyd Eliseus, a mab yr hon a gyfododd o feirw. 2 Bren. 4. 12—37. Edr. ELISEUS. Y Philistiaid a wersyllasant yn Sunem, pan wersyllodd Saul ac Israel yn Gilboa, yn yr ymladdfa y lladdwyd Saul a Jonathan ynddi. 1 Sam. 28. 4. Edr. SAUL.

SUNI, trydydd mab Gad. Gen. 46. 16. Num. 26. 15.

SUPH, צוף [*yn canfod*] Lefiad, a gorhendaid Elcanah. 1 Sam. 1. 1.

SUR, שור [*ŷch*] dinas yn Arabia Petræa, yr hon a roddodd yr enw i anialwch Sur. Gen. 16. 7. Exod. 15. 22. 1 Sam. 15. 7. a 27. 8.—'Porth Sur,' un o byrth y deml. 2 Bren. 11. 6. Gelwir ef yn 2 Cron. 23. 5. 'porth y sylfaen.'

SUR—O—ION, (su-ur) *Heb.* שאר *(seor)*; *Ffr.* SUR; *Saes.* SOUR; egr, chwibl, henaidd, egraidd; egru, chwiblo. Exod. 12. 8. Esa. 18. 5. Jer. 31. 29. Edr. DINCOD, PASC.

SURDOES, (sur-toes) toes sur, eples, lefain; toes wedi ei halltu a'i suro i eplesu. Edr. LEFAIN.—Cyffelyba yr Arglwydd deyrnas nefoedd, sef goruchwyliaeth yr efengyl yn y byd, ac effeithiau y gwirionedd ar y galon, 'i surdoes, yr hwn a gymerodd gwraig, ac a'i cuddiodd mewn tri phecaid o flawd, hyd oni surodd y cwbl;' felly y mae gras yr efengyl yn troi y cwbl i'w sawr a'i archwaeth ei hun; ïe, sura y cwbl. Sancteiddia yr Ysbryd Glân, trwy yr efengyl, yr holl ddyn, corph, enaid, ac ysbryd, yr holl enaid yn ei holl alluoedd a'i weithrediadau: y cyfnewidiad sydd raddol, yn gyffredin, hyd nes ei berffeithio yn y nefoedd. Mat. 13. 33. 'Y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does.' 1 Cor. 5. 6, 7. Gal. 5. 9.

Yn gyffredinol, gau-athrawiaethau, neu ddrygioni, a gyffelybir i surdoes yn yr ysgrythyrau; megys surdoes y Phariseaid a'r Saduceaid, a Herod, yr hwn yw rhagrith, gau-athrawiaethau, a drwg fucheddau. Mat. 16. 6. Marc 8. 15. Luc 12. 1. Maent fel surdoes yn effeithio yn niweidiol ar eraill, ac yn rhoddi archwaeth gyfeiliornus a llygredig arnynt.

SURIEL, צוריאל [*Duw yw fy nghraig*] mab Abihael. Num. 3. 35.

SUSAN, שושן [*lili*] prif ddinas Susiana, neu Shusistan, yn Persia. Yr oedd yn sefyll ar lan yr afon Eulæus, neu Ulai. Cafodd yr enw oddiwrth y lili oedd yno yn tyfu yn lliosog. Adeiladwyd hi gan Memnon mab Tithonüs, yr hwn a laddwyd gan y Thessaloniaid yn rhyfel Troia; a dywedir fod meini y muriau gwedi eu syth-gydio âg aur. Strabo a Pausanius a gymharant ei muriau i furiau Babilon. Yr oedd gwedi ei chysgodi rhag gwynt y gogledd gan fynyddoedd mawrion, yr hyn oedd yn ei gwneyd yn sefyllfa hyfryd yn y gauaf; ond yn yr hâf yr oedd mor boethed fel y gorfyddai ar y trigolion orchuddio eu tai â dacar dau gufydd o ddyfnder. Trigai breninoedd Persia ynddi dros dri mis yn y gauaf, ac ynddi y cadwent y rhan fwyaf o'u trysorau. Cafodd Alexander ynddi 50,000 o dalentau o aur, heblaw perlau, gemau, a llestri aur ac arian, i werth mawr. Gelwir hi yn mhob man yn y Bibl, *y brenin-llys*; ond tu hwnt i bob ammheuaeth yr oedd, heblaw y breninllys, yn ddinas hefyd. Yma y cadwodd Ahasferus ei wledd fawr dros 180 o ddyddiau, ac y rhoddodd orchymyn i ail adeiladu y deml. Esther i. Neh. i. Ac yma y cafodd Daniel y weledigaeth am yr hwrdd deugorn, a'r bwch. Mae yn awr yn adfeiliedig, ac a elwir Valdak, neu yn ol Tavernier, Schouster, neu Suster. Gwel *Ancient Universal History, vol.* v. Galwent, medd Lightfoot, y porth allanol i fur dwyreiniol y deml, *porth Susan*, ac yr oedd llun dinas Susan, wedi ei gerfio arno, fel arwydd o goffadwriaeth ddiolchgar am y gorchymyn a roddwyd yno gan Darius brenin Persia i adeiladu y deml. Gwel Lightfoot, *De Templo, cap.* iii.

'A bu pan welais, mai yn Susan y brenin-llys, yr hwn sydd o fewn talaeth Elam, yr oeddwn.' Dan. 8. 2. Yno y gwnaethai orchwyl y brenin. Adn. 20. Goresgynodd Nebuchodonosor Elam, yn ol prophwydoliaeth Jeremiah, (pen. 49. 34—39.) ac yr oedd yn bresennol, yn nechreu teyrnasiad Belsassar, heb gael ei had-gymeryd, tebygol, gan Cyrus, ac yr oedd Daniel, yn oruwch-lywydd ar dalaeth Elam, y sefyllfa oruchel y gosododd Nebuchodonosor ef ynddi. Arwydda Elam, weithiau, holl wlad Persia; ond nid oedd talaeth Elam ond rhan o'r wlad hòno. Nid oes un modd arall i olygu paham yr oedd Daniel yn Susan y pryd hwn, oni fernir, gyda rhai, ei fod wedi ei anfon yno ar ryw genadwriaeth oddiwrth frenin Babilon at frenin Persia. Rhydd Josephus hanes am adeiladaeth ardderchog a wnawd gan Daniel yn Susan, lle y cleddid breninoedd Persia a Parthia. Geilw Josephus enw yr adeiladaeth hon Baris; yr un enw yn Hebraeg a'r geiriau a gyfieithir 'brenin-llys Susan,' sef *Beshushan Habirah*; yr un yw *Birah* Daniel, diammeu, a *Baris* Josephus. Yr oedd yn hen draddodiad dros oesoedd i Daniel gael ei gladdu yn y ddinas hon, a elwir yn bresennol Tuster, a dangosant ei fedd-adail yno hyd heddyw. Gwel Prideaux's *Connection, part* i. *b.* iii.

SUSI, סוסי [*march*] tad Gadi, yr yspiwr dros lwyth Manasseh. Num. 13. 11.

SUTHELAH, שתלח [*planigyn*] pen-teulu, o lwyth Ephraim, tad y Sutheliaid. Num. 26. 36.

SWCH, SYCHAU, (sw-wch) duryn; cyllell aradr; cwlltr. 1 Sam. 13. 20. Esa. 2. 4. Joel 3. 10. Mic. 4. 3.

SWLLT, SYLLTAU, (swll) arian, trysor; deuddeg ceiniog, neu yr ugeinfed ran o bunt. Cuddiedig swllt, sef trysor cuddiedig.—'Deng mil o sylltau.' 1 Cron. 29. 7. '*Ten thousand drams.*' *Saes. Heb.* אדרכנים *dracmonau*, fel y rhoddir y gair yn Ezra 2. 69. a 18. 27. Neh. 7. 70, 71, 72. Edr. DRACHMA. A oes neb a all fy nghyfeirio am hanes arian bathol yr hen Frytaniaid? A oedd ganddynt arian bathol? os nad oedd, pa fodd yr oedd cyfnewidwriaeth yn myned yn mlaen yn eu plith?

SWM, (sw-wm) nifer, cyfanrif, sylwedd.—'Swm y cwbl a glybuwyd yw.' Preg. 12. 13. *Heb. diwedd y gair, y cwbl a glybuwyd.* At hyn y mae yr holl ymadroddion yn y llyfr hwn yn tueddu; sef dangos gwagedd a diddymder pob peth heb wir grefydd, yn gynnwysedig 'yn ofni Duw, a chadw ei orchymynion;' sef ei wir addoli, ac ufuddhau iddo. '*Let us hear the conclusion of the whole matter.*' *Saes.* 'Gadewch i ni glywed terfyniad yr holl fater.' ——'Hyn yw holl ddyled dyn.' כל־האדם *holl ddyn*; sef holl fraint, anrhydedd, dedwyddwch, a rhagoroldeb dyn, yn gystal a'i *ddyled*. Hyn fydd y cwbl i ddyn yn y farn, o gysur a gorfoledd. Pan elo y bywyd hwn heibio, bydd hyn yn beth mawr a digonol i ddyn mewn byd arall. Job 28. 28. Diar. 19. 23. Luc 1. 50.

SWMER—I, (sw-wm) trawst, paladr, tylath; megys swmer tŷ, swmer câr, swmer farch; swmeru, gosod swmer, attegu, cynnal.—'Swmeri ein tai sydd gedrwydd.' Can. 1. 17. Y tŷ ydyw yr eglwys, ac wrth y swmeri y mae i ni ddeall y duwiolion, y rhai a gyffelybir i gedrwydd. Ps. 92. 13. Neu, yn hytrach,

Digitized by Google

y rhai a eilw yr apostol yn golofnau, sef yr apostolion a gweinidogion y gair, y rhai ydynt gryf fel swmeri, ac yn beraidd ac yn hardd fel cedrwydd. Gal. 2. 9.

SWMWL—YLAU, a SYML—AU, (swm-wl) *Llad.* STIMULUS: garthon. irai, ierthi, pigell, llymflaen; pob peth a gymhello ac a annogo; megys geiriau y doethion. Preg. 12. 11.

SWN—IO, (sw-wn) *Heb.* שאון *(shuon)*; *Llad.* SONUS; *Saes.* SOUND: sôn, sain, adsain, llais, oslef, tôn, trydar, trwst, dyar, gorddyar; seinio, eichio, lleisio: sŵn llef—sŵn canu—sŵn taran—sŵn llawer o ddyfroedd—sŵn cerbydau—sŵn malu. Edr. yr amrywiol eiriau.

'Ac fel yr oeddwn yn prophwydo, bu sŵn, ac wele gynhwrf.' Ezec. 37. 7. Yr oedd y sŵn yn arwydd o weithrediad corph arall ar yr esgyrn, yr hwn a barodd y cynhwrf a'r cyffroad yn eu plith: yr un fath ar ddisgyniad yr Ysbryd Glân, 'y daeth sŵn o'r nef.' Act. 2. 2. Er bod yr Ysbryd Dwyfol yn anweledig i'w llygaid, yr oedd y sŵn yn arwydd i'w clustiau o'i ddyfodiad, ac o'r cynhyrfiadau a fyddai yn mhlith dynion yn ganlynol i hyny. Er ei fod yn gweithredu yn ddirgelaidd ac yn anweledig, etto nid dystaw ydyw o ran ei effeithiau. Ioan 3. 8.

SWP, SYPIAU, (swb) *Gwydd.* KRUACH: sypyn, crug, twr, pentwr, curt, cludair, dâs, mwdwl:—swp o rawnwin—swp o ffigys. Num. 13. 23. Esa. 38. 21. a 65. 8.

SWPER—U, *Ffr.* SOUPER; *Saes.* SUPPER: nawnfwyd, cwynos, nawn-bryd. Y gair *Gr.* δειπνον, a gyfieithir *gwledd* yn Mat. 23. 6. a gyfieithir *swper* yn mhob man arall yr arferir ef yn y Testament Newydd; megys yn Marc 6. 21. a 12. 39. Luc 14. 12, 16, &c. Ioan 12. 1. a 13. 2, 4. a 21. 10. Y mae yn air o ystyr helaeth; arwydda yn Homer y *boreu-fwyd*, y y rhan amlaf. *Iliad*, viii., *v.* 53., a ii., *v.* 381.——Arwydda hefyd, ciniaw echwydd; pryd o fwyd.—Ond yn gyffredinol, yn yr awdwyr diweddaraf, arwydda hefyd, cwynos, nawn-fwyd, neu swper. Edr. CINIAW, GWLEDD.

'Swper yr Arglwydd.' 1 Cor. 11. 20. Κυριακον δειπνον, swper o osodiad yr Arglwydd—trwy orchymyn yr Arglwydd—ac yn goffadwriaeth am yr Arglwydd; sef am ei gnawdoliaeth—ei ddyoddefaint—ei adgyfodiad—a'i ddyfodiad drachefn i farnu y byd. Fel yr arwydda 'dydd yr Arglwydd,' dydd yn goffadwriaeth am adgyfodiad yr Arglwydd—dydd iddo mewn modd arbenig, i gael ei addoli yn gyhoeddus gan ei holl ganlynwyr—a dydd gwedi ei neillduo ganddo i hyny, hyd ddiwedd y byd.——Mae yn cael ei alw yn *swper*, nid i ddynodi yr amser i gyfranogi o hono, ond am i'r Arglwydd gyfranogi o hono, a'i osod yn ei eglwys, ar ol bwyta y pasc, yr hwn oedd i gael ei ladd rhwng y ddau hwyr (Edr. PASC) y noswaith hòno y bradychwyd ef, sef y noswaith cyn ei farwolaeth. 1 Cor. 11. 23.—Hefyd, am mai y nawn-bryd oedd y pryd mwyaf yn mhlith yr hynafiaid, yn enwedig yn mhlith yr Iuddewon, wedi i lafur a lludded y dydd ddarfod, fel y mae yn eglur oddiwrth ddammeg y deg morwyn. Mat. 25. 1—13. Addas ydoedd galw y wledd hòno swper, ag sydd yn arwyddo y bendithion ysbrydol yn Nghrist a fydd yn wledd dragywyddol a hyfryd i'w bobl. Pa un a weinyddir yr ordinhad hon, medd Dr Doddridge, ar hanner dydd, neu ynte yn yr hwyr, sydd fater dibwys iawn. Gwir yw i'r Arglwydd ei sefydlu yn yr hwyr, ond, tebygol, yn hwyrach nag y byddwn ni yn cynnal ein cyfarfodydd yn gyffredin. Yr oedd y prif Gristionogion yn cymuno yn aml yn y boreu, cyn dydd; y rheswm o hyny, tebygol, ydoedd, am y gwnaent hi yn weithred ddiweddaf o'u haddoliad; ac yn cyfarfod yn y nos rhag ofn eu herlidwyr, ac yn treulio y rhan fwyaf o'r nos yn darllen, gweddïo, canu, a phregethu, yr oedd gweinyddu yr ordinhad hon yn cael ei adael yn naturiol hyd y boreu. Yr oedd hyn yn dangos yn eglur nad oeddynt hwy yn rhoddi pwys mawr ar yr amser o'i gweinyddu. Mwy rhesymol ydyw gadael hyn i farn a chyfleusdra pob cymdeithas neillduol. Ynfyd ydyw dadleu yn ffyrnig yn nghylch mater mor lleied ei bwys.

Y mae y swper hwn yn un o'r ddau sacrament, fel y gelwir hwynt, yn ol y Lladin *sacramenta*, a sefydlodd Crist i fod yn ordinhadau yn ei eglwys hyd ddiwedd amser. *Sacramentum*, yn ei ystyr priodol, a arwydda y llŵ milwraidd yr oedd yn rhaid i bob milwr Rhufeinig i'w gymeryd yn tyngu ufudd-dod a ffyddlondeb i'w dywysog. Rhoddir geiriau y llŵ i ni gan yr hanesydd Groegaidd Polybius, *Hist. lib.* vi. Ei sylwedd sydd fel y canlyn: 'Yr ydwyf fi yn tyngu yr ufuddhaf yn ostyngedig i'r tywysogion, ac y gwnaf yr hyn a orchymynant i mi hyd eithaf fy ngallu.' Oddiwrth yr arferiad hwn y golygodd y prif Gristionogion y ddwy ordinhad yn fath o lŵ o ffyddlondeb i Grist, Tywysog mawr ein hiechydwriaeth, oddiwrth y cymunwyr, ac y galwent ef *sacrament*. Edr. BEDYDD. Arwyddion gweledig oddi allan o ras ysbrydol oddi fewn, a arwyddocëir trwy yr arwyddion hyny, ydyw sacrament, yr hwn a ordeiniodd Crist, megys modd i ni dderbyn y gras hwnw, ac i fod megys yn wystl i'n sicrhau ni o hono. Nid oes dim i'w olygu yn ordinhad sanctaidd yn yr eglwys ond y sydd o osodiad Crist yn *unig*, yr hwn yn *unig* sydd ag awdurdod ganddo i hyny, a'r hwn yn *unig* a ddichon eu bendithio a'u heffeithioli. Derbyniodd Paul gan yr Arglwydd Iesu wedi ei ogoneddiad, yr hyn a draddododd efe i'r eglwys; sef gosodiad yr ordinhad hon yn yr eglwys—pa bryd, a pha fodd. 1 Cor. xi.

Y mae i'w hystyried beth ydyw yr arwyddion gweledig—a beth ydyw y pethau a arwyddocëir yn swper yr Arglwydd.

1. Yr arwyddion gweledig yw bara a gwin, y ddau yn nghyd, ac nid y naill heb y llall, i ddangos cyflawnder y pethau a arwyddocëir.

Mae priodoldeb neillduol yn yr arwyddion: 1. Gan fod yr ordinhad hon i'w harferyd yn mhob man, bob amser, hyd y diwedd, yr oedd yn addas bod yr elfenau y cyfryw a fyddai wrth law, yn hawdd eu cael bob amser, ac yn mhob man.——2. Yr oedd yn addas dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, fod yr arwyddion yn ddefnyddiol yn hytrach nag yn olygus, rhag tynu ein sylw oddiwrth y pethau tra gogoneddus a arwyddocëir, ac er gochelyd coel-grefydd.——3. Yr oedd arwyddion diwaedlyd yn addas hefyd: gan fod Crist, trwy ei waed ei hun, wedi tynu ymaith bechod, nid oes dim gwaedlyd mwyach i fod yn addoliad Duw.

Am ryw neu gynneddfau y bara, o ba rawn y gwneid ef, neu pa un ai lefeinllyd neu ddilefain, nid oes dim cyfarwyddyd gwedi ei roddi; am hyny y mae pawb yn rhydd i arfer y bara cyffredin yn eu plith. Bu dadl fawr gynt, yr hon a barhaodd dros hanner can mlynedd, rhwng eglwysi Groeg ac eglwysi Lladin Ewrop, yn nghylch hyn: y Lladinwyr yn dal mai bara dilefain a arferodd Crist, a'r Groegiaid i'r gwrthwyneb; a phob un o'r ddau yn dal ei siampl Ef yn hyn yn ein rhwymo ni i'w ddilyn. Er, tebygol, mai y Lladinwyr oedd yn eu lle am hyn, gan nad oedd surdoes i fod yn eu tai ar ŵyl y pasc; etto nid ydwyf yn barnu fod siampl Crist yn hyn yn rhwymedig ar ei ganlynwyr, gan nad ydyw hyn ddim yn perthyn i hanfod yr ordinhad; ond bod rhyddid i bawb gymeryd y bara arferedig yn eu plith yn y wledd sanctaidd hon, canys felly y gwnaeth Crist ei hun. Er hyny, barna rhai yn gryf, na ddylai bara lefeinllyd gael ei arferyd ar un cyfrif wrth weinyddu yr ordinhad; gan fod bara dilefain yn arwydd mwy addas o burdeb meddwl Crist, ac o'r purdeb meddwl hwnw a ddylai fod yn holl aelodau eglwys Crist, cyfranogion o'r ordinhad.

Digitized by Google

Yr elfen arall ydyw y gwin, γεννημα της αμπελου, *ffrwyth y winwydden.* Mat. 26. 29. Marc 14. 25. Luc 22. 18. Pa un ai gwin coch ai gwin gwyn—pa un ai yn gymysgedig â dwfr, neu yn win pur, sydd wedi bod yn ddadleuol yn yr eglwys yn yr hen oesoedd. Haerodd rhai na byddai yr Iuddewon yn arferol o yfed gwin pur heb ei gymysgu âg ychydig ddwfr, ac mai felly yn ganlynol yr oedd y gwin yr yfodd Crist o hono, a'i fod felly yn addas arwydd o'r dwfr a'r gwaed a ddaeth o ystlys Crist. Ond nid oes dim sicrwydd am hyn chwaith; gan hyny y mae yr eglwys yn rhydd i'w dewisiad—er bod y rhan fwyaf yn barnu y gwin coch yn fwy addas arwydd o waed Crist. Gan fod y cwpan yn cael ei alw γεννημα της αμπελου, *cenedliad*, neu *ffrwyth y winwydden*, tybygaf y dylai fod felly mor bur ag sydd bosibl i'w gael ef. יין *(yayin)* yr Hebreaid, οινος y Groegiaid, a *vinum* yr hen Rufeiniaid, a arwyddant nôdd pur y grawnwin, weithiau yn cael ei yfed gwedi ei wasgu heb golli dim o'i felysder naturiol, ac felly y galwent ef *mustum*; ond gwedi ei eplesu, galwent ef οινος, a *vinum*. Yn mhlith yr hen Hebreaid yfent ef, tybygaf, yn y cyflwr cyntaf, a mwyaf syml; am hyny hwy a'i galwent ef פרי הגפן *ffrwyth y winwydden*. Pan nad oedd ond ychydig yn eisieu, gwasgent ef allan o'r swp grawn, ac yfent ef yn ddioed. Felly y gwasgai trulliad brenin yr Aipht win Pharaoh i'r cwpan breninol, fel y mae yn eglur oddi wrth Gen. 40. 11.

II. Am yr hyn a wnaeth Crist mewn perthynas i'r elfenau.

Gwnaeth bedwar peth yn nghylch y bara, 1. Cymerodd ef; sef yn ei law. Yr ydoedd hyn yn un o'r rheolau Iuddewig, nad oedd y pen-teulu i fendithio yr ymborth nes y cymerai fara yn ei law, fel y gwelai pawb yr hyn oedd yn ei fendithio.

2. Bendithiodd, ευλογια. Mat. 26. 26. Marc 14. 22. ευχαριστια, *rhoi diolch*. Luc 22. 19. 1 Cor. 11. 24. Trwy ei dori yr ydoedd yn neillduo yr elfen oddiwrth arferiad cyffredin i fod yn arwydd sacramentaidd. Y mae ein cyfleithiad ni yn Mat. 26. 26. yn dra addas, tybygaf, ac yn fwy felly na'r Saesonaeg, yn mha un y rhoddir y gair *it* i mewn, yn cyfeirio at y bara; ond bendithio Duw ddarfu ein Harglwydd, ac nid y bara: 'Ac wedi iddo fendithio,' και ευλογμσας, (sef bendithio Duw) 'efe a'i torodd.' Buasai yn fwy addas cyfleithu yr un gair yr un fath yn Marc 14. 22. Yn lle 'Ac a'i bendithiodd ac a'i torodd,' ευλογησας εκλασε, *gwedi iddo fendithio, torodd.*—'A' gwedy yddaw vendithiaw y tores.' W. S.—'Ac wedi iddo roi diolch efe a'i tores.' Dr M. Nid oes yn y Groeg *ac a'i* o flaen un o'r ddau air. Yr un fath yn Luc 19. 22. ευχαριστησας, a gyfleithir yn addas, *a rhoi diolch*. Yr un peth ydyw 'rhoi diolch' yn Luc, a 'bendithio' yn Matthew a Marc; a Duw yw y gwrthddrych, ac nid y bara. Nid yw bendithio y bara, na chyffwrdd âg ef, ond defodau coel-grefyddol y Pabyddion, y rhai a haerant yn ynfyd draws-sylweddiad yr elfenau i gorph a gwaed Crist: y dychymyg mwyaf anferth mewn ynfydrwydd, a mwyaf hurt mewn ansynwyroldeb, a roddodd barn Duw ddyn syrthiedig erioed i'w gredu.

3. Torodd ef; 'efe a'i torodd.' Hyn oedd arferiad yr apostolion; 'Y bara yr ydym yn ei dori.' 1 Cor. 10. 16. Y mae hyn mor hanfodol i'r ordinhad, fel y gelwir hi 'Tori bara.' Actau 2. 42, 46. a 20. 7. Yr oedd torthau yr Hebreaid yn llydain ac yn deneu, ac felly yn frau, ac yn ddigon hawdd eu tori heb gyllell: nid ydoedd ganddynt yn arferedig dorthau tewion fel ein bara lefeinllyd ni. Yr ydwyf yn golygu fod toriad y bara yn hanfodol i iawn gyfraniad o'r ordinhad arwyddawl hon.

4. 'Rhoddodd ef i'r dysgyblion:' pa un ai i'w dwylaw ai o'u blaen, nid yw y gair yn dywedyd—y diweddaf oedd arferiad yr Iuddewon. Y mae dull y Pabyddion o roddi afrlladen gyfan yn ngenau y cymunwyr, yn gwbl groes i'r dull y rhoddodd Crist ef i'r dysgyblion, fel y rhanau eraill o'u defodau dynol hwy. Dyma y pethau a wnaeth Crist yn nghylch y bara.

Y mae y geiriau a arferodd ar yr achos yn deilwng o ychydig sylw. Y maent o ddau fath; sef yn *archadwy* ac yn *eglurhaol*. Yr *archadwy* ydynt, 'Cymerwch—bwytewch—gwnewch hyn er côf am danaf.' 'Gwnewch hyn;' sef y peth a wnaethum i o'ch blaen. Y mae y gorchymyn yn perthyn iddynt hwy yn neillduol, nid yn unig fel ei ganlynwyr, fel ei holl ddysgyblion yn mhob oes, ond hefyd fel ei apostolion, a phrif swyddwyr ei eglwys. Fel y cyfryw, yr oeddynt hwy i sefydlu yr ordinhad hon yn yr eglwys, yn yr un du'l ag yr oedd efe wedi gwneuthur, i fod yn goffadwriaeth barhaus am ei aberth, ac am y llesâd sydd i'w gael trwyddo. Hwyrach fod y geiriau yn cyfeirio at fwyta yr oen pasc, yr oeddynt newydd gyfranogi o hono: 'A chwi a gedwch y peth hyn yn ddeddf i ti, ac i'th hâd yn dragywydd.' Exod. 12. 24. Coffadwriaeth ydoedd y pasc o'r waredigaeth wyrthiol o'r Aipht, nad oedd i gael ei hesgeuluso trwy eu cenedlaethau; 'deddf dragywyddol' ydoedd. Exod. 12. 24. ——Y geiriau *eglurhaol* ydynt, 'Hwn yw fy nghorph, (Mat. 28. 26. Marc 14. 22.)—yr hwn yr ydys yn ei roddi drosoch, (Luc 22. 19.)—yr hwn a dorir trosoch.' 1 Cor. 11. 24. Cymerodd y geiriau oddiwrth arferiad oedd gan yr Iuddewon wrth fwyta y pasc, y rhai a ddywedent, 'Hwn ydyw y bara cystudd hwnw a fwytaodd ein tadau yn ngwlad yr Aipht.' Galwent yr oen gwedi ei neillduo i'r pasc, *corph y pasc*. Hyd yn hyn yr oeddynt gwedi bwyta oen y pasc, yr hwn oedd yn gysgod o gorph Crist oedd i gael ei draddodi drostynt; yn awr y mae Crist yn gosod y bara yma yn arwydd, nid yn gysgod, o gorph Crist wedi ei ddrylio drostynt. *Corph Crist yw*—y peth ei hun—y gwaith gwedi ei wneuthur ydyw. Nis gellir mewn un modd ddeall y geiriau, 'hwn yw fy nghorph,' yn llythyrenol, onidê, rhaid deall y rhan arall o'r geiriau yn llythyrenol hefyd, sef 'yr hwn a dorir drosoch;' sef a roddir i farwolaeth ar y groes; yr hyn nad oedd wir pan yr oedd yn dywedyd hyn. Arwydda hyn, os felly, fod y bara yn llaw Crist gwedi ei dori yn beth nad ydoedd mewn bôd y pryd hwnw. Peth tra chyffredin yn yr ysgrythyrau yw rhoddi yr arwydd am y pethau a arwyddocëir, mewn geiriau amryw cyffelyb i'r rhai hyn; megys, 'Tri diwrnod yw y tair cainc.' Gen. 40. 12.—'Y saith o wartheg têg, saith mlynedd ydynt.' Gen. 41. 26.—'A'r maes yw y byd.' Mat. 13. 38.—'A'r graig oedd Crist.' 1 Cor. 10. 4.—'Y saith ben, saith fynydd ydynt.' Dat. 17. 9. Gwir ystyr y geiriau ydyw, y bara *hwn* sydd arwydd *o fy nghorph*, yr hwn a dorir drosoch. Ymddengys oddi wrth hyn mai cyfeiliornus ydyw egwyddorion y Pabyddion a'r Lutheriaid yn nghylch *traws-sylweddiad*, a *chyd-sylweddiad*.

Y mae yn beth i ni sylwi arno nad oes un gair yn yr Hebraeg, y Galdaeg, a'r Syriaeg, a ddynoda *arwyddo*, fel y mae yn y Groeg a'r Lladin, ac ieithoedd eraill; ond arferant *yw*, yn lle *a arwydda*. Megys, 'Y tri diwrnod *yw*,' yn lle *a arwyddant*, 'y tair cainc;'—'Y saith o wartheg, saith mlynedd *ydynt*,' sef *a arwyddant*;—'Y deg corn *fydd*,' sef *a arwyddant*, 'deg brenin.' Dan. 7. 24. Yn ol priodoldeb yr iaith Hebraeg, arferir yr un dull o ymadroddi yn y Groeg; megys, 'Y saith seren, angelion y saith eglwys *ydynt*,' sef *a arwyddant*. Dat. 1. 20.—'Y maes yw,' sef *a arwydda*, 'y byd.' Mat. 13. 38, 39.—Felly hefyd, 'Yr hâd da *yw*,' sef *a arwydda*, 'plant y deyrnas;'—'Yr efrau *yw*,' sef *a arwyddant*, 'plant y drwg;'—'Y cynauaf *yw*,' sef *a arwydda*, 'diwedd y byd;'—'Y medelwyr *yw*,' sef *a arwyddant*, 'yr angelion.'—'Pa ddammeg *oedd* hon?' sef beth *a arwydda* y ddammeg hon? Luc 8. 9.—'Pa ymadrodd

Digitized by Google

*yw* hwn?' sef beth *a arwydda* yr ymadrodd hwn? Ioan 7. 36.—'Hwy ni wybuent pa bethau ydoedd,' &c. sef beth *a arwyddent*. Ioan 10. 6.—'Beth *oedd* y weledigaeth a welsai?' sef beth *a arwyddai*. Actau 10. 17.—'Efe a ofynodd, beth *oedd* hyn?' sef beth a *arwyddent*. Luc 15. 26. a 18. 36.—'Y rhai hyn *yw*,' sef *a arwyddant*, 'y ddau Destament.' Gal. 4. 24. Yr un gyffelyb 'hwn *yw* fy nghorph,' sef *a arwydda* fy nghorph. Pe buasai yr Arglwydd Iesu yn arfer yr iaith Lladin, buasai yn dywedyd, *Panis hic corpus meum significat*; neu *Symbolum est corporis mei—hoc poculum, sanguinem meum representat*; neu *symbolum est sanguinus mei*. *Y bara hwn a arwydda fy nghorph; y cwpan hwn a arwydda fy ngwaed*. Nid oes dim dull o ymadroddi yn fwy cyffredin yn yr ysgrythyrau. Nid anaml y dywedir yn ein plith ninnau, am lun neu arwydd o beth neu berson, *dyma hwn a hwn*, neu, *y peth a'r peth*, er nad ydyw ond *arwydd* o hono. Nid oes neb mor ffol, er ffoled yw plant dynion, a ddeallai wrth y geiriau, mai y peth neu y person ei hun ydoedd. Etto, dyma ynfydrwydd y Pabyddion er's oesoedd.

Sylwn etto ychydig am yr hyn a wnaeth ac a ddywedodd yn nghylch y gwin. Gwnaeth dri pheth; sef *cymerodd y cwpan, diolchodd, ac a'i rhoddes iddynt*.—Yr ydoedd y pen-teulu yn mhlith yr Iuddewon yn arferol, meddant, o gymeryd y cwpan yn ei ddwylaw, cyn ei fendithio. Yr ydoedd yn rhoddi diolch fel hyn â'r cwpan yn ei law, a thrwy hyny yn neillduo y gwin oddiwrth arferiad cyffredin, i fod yn arwydd sacramentaidd.

Geilw yr apostol y cwpan, *το ποτηριον της ευλογιας ο ευλογουμεν*, 'phiol y fendith, yr hon a fendigwn;' sef a fendithiwn Duw am yr hyn a arwydda. 1 Cor. 10. 16. Arwydda y geiriau, gwaith yr holl gymunwyr uwch ben y cwpan yn ymuno i ddiolch i Dduw am brynedigaeth trwy waed Crist. Yr un peth a arwydda y *bendithio* hwn a'r *diolch*. 1 Cor. 11. 24. —'Efe a'i rhoddes iddynt,' sef i'r dysgyblion. Fel hyn hefyd yr oedd defod yr Iuddewon; gwedi i'r penteulu yfed, byddai yr holl gyd-wleddwyr yn yfed ychydig. Oddiwrth hyn bernir i Grist ei hun yfed o hono yn gyntaf, fel yr arwydda y geiriau hyny, 'Nid *yfaf* o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden,' &c. Mat. 26. 29.

Y mae i sylwi arno, nad oes un crybwylliad am dywallt y gwin fel am dori y bara. Dywedir mai defod yr Iuddewon oedd wrth fwyta y pasc, na byddai i'r pen-teulu ei hun dywallt y gwin, ond rhyw weinidog a fyddai yn gweini, er mwyn mwy edmygedd ac uchel ddifrifwch, i ddynodi eu rhyddhad o'r Aipht gyda mwy ardderchawgrwydd.

Y geiriau a arferodd Crist yn nghylch y gwin ydynt gyffelyb i'r rhai a arferodd yn nghylch y bara: 'Yfwch bawb o hwn—canys hwn yw fy ngwaed o'r testament (neu, yn hytrach, y *cyfammod*) newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau;' Mat. 26. 27, 28, &c., hyny yw, y gwin cynnwysedig yn y cwpan hwn, sydd arwydd o waed, nid cysgodol, fel gwaed oen y pasc, ond o *fy ngwaed:* trwy yr hwn y cadarnheir, nid yr hen gyfammod, yr hwn a gadarnhawyd â gwaed yr oen y darfu i chwi yn awr gyfranogi o hono, ond o gyfammod newydd a gwell; yn yr hwn y mae maddeuant pechodau, nid cysgodol ond gwirioneddol, gwedi ei drefnu i bechaduriaid trwy yr holl fyd.

Am waith y dysgyblion, yr oeddynt hwy i gymeryd yr elfenau, ac i gyfranogi o honynt, yn ol gorchymyn Crist; sef derbyn, bwyta, ac yfed. Y mae yn nodadwy, ddarfod i Grist ddywedyd am y cwpan, nid yn unig, 'Cymerwch hwn, a rhenwch yn eich plith,' (Luc 22. 17.) ond ychwanegodd hefyd nôd o gyffredinolrwydd, 'Yfwch *bawb* o hwn.' Mat. 26. 27. Y mae Marc yn coffâu am eu hufudd-dod yn neillduol iddo, 'A hwynt *oll* a yfasant o hono.' Pen. 14. 23. Yr oedd yn rhagweled y byddai i gau eglwys gyfodi, yr hon a attaliai y cwpan oddiwrth y lleygwyr, ac yn rhoddi cyfarwyddyd goleu i'w wir eglwys yn hyny. Y mae ein Harglwydd yn rhoddi pwys neillduol ar weinyddiad y cwpan, a'r hyn a arwyddai. *Τουτο γαρ εστι το αιμα μου, το της καινης διαθηκης, το περι πολλων, εκχυνομενον εις αφεσιν αμαρτιων. HWN yw fy ngwaed HWNW mau fi, yr hwn sydd o'r cyfammod newydd, yr HWN a dywelltir dros luoedd* (y Cenedloedd yn gystal a'r Iuddewon) *er maddeuant pechodau*.

Llawer a ddadleuwyd yn nghylch agwedd ac ystum cymunwyr wrth gyfranogi o'r ordinhad hon; sef, pa un ai yn eistedd ai ar eu gliniau y dylent fod. 'Y mae yn beth i alaru o'i herwydd yn fawr,' medd y Dr Doddridge, 'fod Cristionogion gwedi gwyrdroi yr ordinhad a drefnwyd i fod yn arwydd a moddion o'u hundeb â'u gilydd, yn achlysur o anghydfod ac ymryson, trwy roddi pwys anghymedrol ar y dull o'i gweinyddu, a'r ystum i'w derbyn. Am y diweddaf, yr ystum neu y wedd wrth fwrdd sydd yn ymddangos yn fwyaf priodol, gan ei fod gwedi ei arferyd gan Grist a'i apostolion, ac yn neillduol o addas i wledd sanctaidd, yn mha un y gwahoddir ni fel plant at fwrdd ein Tad nefol, ac megys yn gwledda ar yr Aberth mawr; ac y dichon penlinio fod yn achos o goel-grefydd. Er hyny, os na roddir yr arferiad o benlinio yn ammod o gymundeb, y mae yn rhan o fwyneidd-dra Cristionogol i ymfoddloni yn yr aferiad yn eraill, y rhai sydd yn ei ddewis. Ymddengys fod sefyll-wedd yn arferedig yn aml yn yr eglwys Gristionogol; sef bob amser ar ddydd yr Arglwydd, a rhwng y Pasc a'r Sulgwyn.' Felly yr ysgrifenodd y gwr cymedrol uchod; nid oedd yn rhagfarnllyd yn cablu pawb a benliniant i dderbyn yr ordinhad, fel eilun-addolwyr. Gwel King's *Enquiry, part* ii., *cap*. vi., *sec*. 7. Burnet's *Four Discourses*. Hooker's *Eccles. Polity, sec*. 68.

Am y pethau ysbrydol sydd yn cael eu harwyddocâu yn yr ordinhad hon, rhaid eu golygu:—1. Fel arwydd, yn dangos ac yn dysgu.——2. Fel insel, yn cadarnhau addewidion y cyfammod newydd.——3. Fel ymrwymiad yn ein rhwymo i'r cyflawniad o bob dyledswydd grefyddol.

1. Yr hyn a ddangosir, neu a arwyddocêir, trwy y bara a'r gwin, ydyw corph a gwaed Crist, neu Crist yn ei gorph ac yn ei enaid yn byw ac yn marw yn aberth yn lle ei bobl. Arwyddion coffadwriaethol ydynt, yn portreiadu ac yn dangos i'n llygaid y dirgelwch mwyaf gwerthfawr a gogoneddus a fydd byth i gofio am dano. Y mae y bara a'r gwin, o ran eu natur eu hunain, a'u heffeithiau ar gyrph dynion, yn dangos y mawr rinwedd a'r llesâd sydd i bechadur i'w gael trwy gredu yn aberth Crist.—Yr un fath y mae tori y bara a thywallt y gwin yn dangos dull marwolaeth Crist yn oleu o flaen ein llygaid—y mae bendithio a diolch, yn mynegi ein rhwymedigaethau mwyaf i ddiolch a bendithio Duw am y fath aberth drosom, ag sydd yn iawn am bechod.—Rhoddiad yr elfenau a arwydda, rhoddiad y Tad o Grist, nid yn unig dros, ond hefyd i'w bobl: yr hwn a roddwyd ac a ddrylliwyd drostynt, a roddir hefyd iddynt i fod yn gysur ac yn gynnaliaeth digonol iddynt, yn wyneb pob trueni a phob anghysur ynddynt hwy eu hunain.—Derbyn yr elfenau a chyfranogi, a arwyddant, o du y cymunwyr, eu cyflawn dderbyniad o Grist, yr hyfrydwch boddlongar y maent yn ei gael ynddo, a'r undeb agos sydd rhyngddynt âg ef, ac â'u gilydd ynddo. Geilw yr ysgrythyrau yr undeb hwn, *μονην, trigfa*, Ioan 14. 23. —*κολλησιν, cysylltiad*, 1 Cor. 6. 17.—*συσσωματωσιν, cyd-gorph*. Eph. 3. 6.

2. Y maent hefyd yn insel: 'Hwn yw fy ngwaed o'r testament (neu yn hytrach *cyfammod*) newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer, er maddeuant pechodau.'

Digitized by Google

Cadarnhaodd gwaed Crist y cyfammod tragywyddol yn anniddymadwy dros byth; felly y mae yr elfenau yn swper yr Arglwydd yn insel iddynt o'u cyfranogiad o holl addewidion a bendithion y cyfammod grasol hwnw, trwy ffydd yn Nghrist.

3. Y mae hefyd broffes ac ymrwymiad, o du y cymunwyr, i ymroddi i Grist—i gredu ynddo—ei garu ef, yr hwn a'n carodd ni mor fawr—i rodio mewn cyfeillach ysbrydol âg ef—i fyw mewn undeb a chariad â'r holl eglwys—ac i ufuddhau iddo yn ein holl ymarweddiad.

Eglur yw, oddiwrth eiriau yr apostol yn 1 Cor. 11. 28, 29. nad yw pawb yn addas i gyfranogi o'r ordinhad hon. 'Holed dyn ef ei hun; ac felly bwytaed o'r bara, ac yfed o'r cwpan. Canys yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corph yr Arglwydd.' Y geiriau hyn a ddengys, 1. Na ddylai neb ddyfod heb radd o wybodaeth o ddirgeledigaethau yr efengyl—natur a dyben yr ordinhad—arwyddocâd yr elfenau—a dyben a digonolrwydd aberth Crist, i allel 'iawn farnu corph yr Arglwydd.'——2. Hefyd, eu bod yn meddiannu gradd o wybodaeth o natur goruchwyliaethau Duw tu ag at ei bobl, a gwaith ei Ysbryd ar eu calonau, i allel holi eu hunain, heblaw proffes allanol o ffydd, a ydyw yr Ysbryd Glân yn trigo ynddynt—a ydynt yn gwir gredu yn Nghrist—yn ei garu yn ddiffuant—yn ddifrifol yn edifarhau am eu pechodau—ac yn sicr amcanu dilyn buchedd newydd, canlyn gorchymynion Duw, a rhodio o hyn allan yn ei ffyrdd sancteiddiol ef.

Yr oedd y Cristionogion yn y cyn-oesoedd yn cyfranogi lawer amlach nag yr ydys yn bresennol yn y rhan fwyaf o eglwysi. Byddai rhai yn cyfranogi o hono bob dydd. Yn raddol, pan oerodd eu zel ychydig, ymfoddlonai y bobl gyffredin gyfranogi o hono bob Sabboth, a'r gweinidogion yn unig a'i derbynient bob dydd. Gwedi hyny, pan gynnyddodd esgeulusdra y bobl yn ei gylch, gwnawd rheol yn un o'u cymanfaoedd, y byddai i'r hwn na chyfranogai o hono dros dri Sabboth gael ei esgymuno. Yn raddol, cynnyddodd yr esgeulusiad o hono mor fawr, fel nas derbynient ef ond ar y gwyliau arbenig, yn enwedig y Pasc. Llawer o'r hen dduwiolion a ddwrdient yn dost yr esgeulusiad cywilyddus hwn. Dywed Calvin am y ddefod flynyddol o gyfranogi o'r swper, ei fod yn ddiddadl o'r diafol;* a'i bod yn arferiad yn nyddiau yr apostolion, a thros oesoedd gwedi hyny, i weini yr ordinhad, i bregethu a gweddïo, a gwneuthur elusen, bob Sabboth. Act. 2. 42.

Am yr amser, nid oes dim gwedi ei benderfynu yn yr ysgrythyrau; yn unig, tebygol, bod yn orchymynedig ei gymeryd yn aml. 1 Cor. 11. 26. Holl hanesiaeth eglwysig a rydd siamplau, fod yn nirywiad yr eglwys bob amser ddirywiad ac esgeulusiad neillduol yn nghylch yr ordinhad hon—coel-grefydd yn ei chamddefnyddio yn anwybodus, trwy roddi y cyfranogiad o honi yn lle Crist—y digrefydd yn ei hesgeuluso yn gwbl. Y Pabyddion a addolant yr elfenau; eraill a ddiystyrant y cwbl. Rhai a'i hesgeulusant i'r dyben iddynt allel byw yn fwy esmwyth yn eu pechodau; eraill a gyfranogant o honi i wneuthur iawn am eu pechodau. Rhai a ymgadwant oddi wrthi yn bechadurus, dan rwymau anwybodaeth ac ofnau caeth; eraill a gyfranogant yn rhyfygus ac yn anystyriol. Ond dyn ysbrydol, yn gwir ofni Duw, a gyfranoga o honi yn aml o ufudd-dod i orchymyn Crist, ac i ddysgwyl am fendith ysbrydol drwyddi; defnyddia hi i'r dyben y sefydlwyd hi gan Grist yn ei eglwys, er gogoniant Crist, ac er mawr lesâd i'w enaid.

* Calvin's *Inst.*, *lib.* iv. *cap.* xvii. *sec.* 43—46.—Austin *in Joh.*, *cap.* vi. *tract.* 26. *et Epist. ad Januarium.*—Chrysostom, *in Eph.*, *cap.* i. *hom.* 26.

Pwy a ddylai weinyddu yr ordinhad hon? Yr wyf yn ateb, gweinidogion yr efengyl *yn unig*. Hyn oedd yr arferiad yn yr eglwys yn mhob oes. Er fod y diaconiaid weithiau yn rhoddi yr elfenau, ond y gweinidog fyddai bob amser yn cysegru; ac nid peth cyffredin oedd bod y diacon yn eu rhanu, ond byddai y gweinidog yn eu cysegru ac yn eu rhanu, y rhan amlaf. Edrych ANNHEILWNG, BARNU, CORPH, CYMUN, HYMN, PASC.

SWRN, SYRNAU, (sy-wrn) yspaid, rhyw faint, ychydig; meinedd y goes, asgwrn y ffêr, meilwng, egwyd.

O tyn dy gosp oddi wrthyf *swrn*.
*E. Prys*, (Ps. 39. 10.)

SWRTH, (swr) musgrell, trymaidd, tremlyawg amdrwg, hwyrfrydig, cysglyd, diog.

*Swrth* pob diog. *Diar.*

'Y dyn swrth a gudd ei law yn ei fynwes, ac nid estyn hi at ei enau.' Diar. 19. 24. Y gair עצל *swrth*, a gyfieithir *diogi*, *diogyn*, Diar. 6. 6, 9. Preg. 10. 18.—*seguryd*, Diar. 31. 27. Y mae diogi a syrthni yn cynnyddu ar ddynion, fel y bydd yn faich iddynt wneuthur y pethau mwyaf angenrheidiol, sef porthi eu hunain.

SWYDD—AU—OG—ION—AETH—WYR, (swy) *Heb.* שטר (*shoter*); swydd-waith, rheolaeth, uchel swydd; llywydd, pen-llywydd gwlad; swyddog dan ben-swyddog, is-swyddog, rhaglaw.——'Ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd.' Phil. 3. 20. 'Ein gwladwriaeth (neu *swyddogaeth*) ni 'sy yn y nefoedd.' W. S.—1. Awdurdod i weithredu rhyw waith neillduol. Ps. 109. 8. Edr. JUDAS.——2. Un gwedi ei osod at waith neu orchwyl, dan Grist, yn yr eglwys; neu dan y brenin, neu ben-swyddog yn y wladwriaeth. Exodus 5. 6, 10, 15. 2 Cronicl 19. 11. Esther 9. 3. Ioan 7. 32, 45. Edr. DIACON, ESGOB.

'Gwnaf dy swyddogion yn heddychol, a'th drethwyr yn gyfiawn.' Esa. 60. 17. Darlunia y geiriau heddychlonrwydd, hynawsedd, a thiriondeb swyddwyr eglwysig a gwladol, mewn amseroedd hyfryd sydd etto i ddyfod; ond y cyfryw a ddylent fod bob amser.

'A'r Phariseaid a'r arch-offeiriaid a anfonasant swyddogion i'w ddal ef—Judas, gan hyny, gwedi iddo gael byddin a swyddogion gan yr arch-offeiriaid, &c. —Y mae genych wyliadwriaeth,' &c. Ioan 7. 32. a 18. 3. Mat. 26. 47. a 27. 65. Marc 14. 43. *et al.* Oddiwrth yr ymadroddion hyn, ymddengys yn debygol fod yn oddefol i'r arch-offeiriaid gadw byddin, neu osgordd perthynol iddynt eu hunain. Unwyd y swydd freninol ac arch-offeiriadol â'u gilydd yn amser y Maccabeaid; ac er bod y swyddau yn bresennol wedi eu gwahanu, hwyrach fod yr un anrhydedd o gael gosgordd-lu i'w hamgylchu yn ganiataol yn barhaus, er, tebygol, yn llai mewn rhifedi. Dyma y gwyr a aethant gyda Judas i ddal yr Iesu; a thyma y wyliadwriaeth oedd yn gwylio bedd yr Iesu, ac oeddynt, diammeu, yn ewyllysgar iawn i'r gorchwyl, gan, tebygol, eu bod yn Iuddewon o genedl.

'Cenaniah a'i feibion oedd yn Israel, yn swyddogion, ac yn farnwyr, ar y gwaith oddi allan.' 1 Cron. 26. 29. Arwydda y geiriau מלאכה החיצונה *gwaith tu allan i ddinas* neu *dŷ*. Ezec. 44. 1. Nid ydoedd y Lefiaid hyn i gyflawni dim gwaith yn y cysegr, tebygol. Yr ydoedd y Lefiaid yn rhy liosog i weini yn y cysegr; am hyny gellir meddwl, am eu bod hwy yn fwy hyddysg yn y gyfraith nag oedd eraill, gosodwyd hwy yn gynnorthwywyr i'r henuriaid yn y dinasoedd i addysgu y bobl. Oddiwrth y rhai hyn y daeth yr ysgrifenyddion, y cyfreithwyr, a doctoriaid y gyfraith, y crybwyllir am danynt yn y Testament Newydd.—Gwaith swyddwyr gwladol sydd yn perthynu yn unig i drefniad yr *ymarweddiad allanol*; ond mae gwein-

Digitized by Google

idogaeth y gair yn foddion o adnewyddu a threfnu y 'dyn oddi mewn.' Yr oedd y dysgawdwyr hyn yn gwneuthur y cwbl o grefydd yn unig *yn waith oddi allan;* ac y mae iddynt yn hyn lawer o ganlynwyr; ond y mae merch y brenin, trwy weinidogaeth yr efengyl, 'oll yn ogoneddus *oddi fewn,*' yn gystal ag oddi allan.

**SWYN—O—ION—WR—WYR, SWYNYDD—ION,** (swy) diogelydd, cadwedydd; cysur, cysuro, bendithio; meddyginiaeth, cyfaredd; dewin, hudol.—'Duw o nef a'th swynas,' sef a'th fendithiodd; dwfr swyn, sef dwfr sanctaidd; swyn ddrwg, sef cysur gwan.—Yn y gwledydd dwyreiniol yr oedd swyno yn arferedig yn dra chyffredin; a gwaharddwyd i Israel tan berygl marwolaeth i arferyd â'r cyfryw betbau. Deut. 18. 9—15. Exodus 22. 18. Edr. BRUDIWR, CONSURWYR, DAROGANWR, DEWIN.

**SWYN-GYFAREDD—WYR,** (swyn-cyfaredd) arfer swynion; iachâu, neu niweidio un trwy swynion; rhai yn arfer y cyfryw gelfyddyd ddrygionus. —'Eilun-addoliaeth, swyn-gyfaredd.' Galat. 5. 20. 'Swyno,' ymyl y ddal.—'Cyvaredd, Rinie.' W. S.— Y gair φαρμακεια, a arwydda, meddyginiaethu trwy ryw lysieuyn meddygol, neu i'r gwrthwyneb, â rhyw ddefodau swynyddiaeth gyda hyny;* twyll, hudoliaeth, dichellion twyllodrus; cyfaredd-air, cyfareddgân, dewin-air a arferai y Paganiaid eilun-addolgar, yn hòni cymundeb â galluoedd anweledig drygionus. Un o chwantau y cnawd yw, ac yn perthyn i deyrnas y diafol, ac nid i Dduw.—Arwydda hefyd holl ddichellion twyllodrus gau-athrawon a gau-grefyddwyr, i hudo dynion oddiwrth wir grefydd i gyfeiliornadau. Dat. 9. 20. a 18. 23.

**SYBER—WYD,** (syberw) uchel-fryd, balchder; haelioni, haeledd, cymwynasgarwch, ciried, hynawsedd, cyweithasrwydd; dillni, tlysni.—'Ac o 'Roec wragedd syberwon, ac o wyr nyd ychydigion.' W. S. Actau 17. 12. Sef Groegesau parchedig, &c.—'Val yr ymddugoch yn syberw tu ac at yr ei 'sydd oddy allan.—Anyd er y chwi wneuthur yr hyn 'sy syberw.' W. S. 1 Thes. 4. 12. 2 Cor. 13. 7.

O gwna i mi sy mron fy medd,
Drugaredd a *syberwyd.*
*E. Prys,* (Ps. 39. 18.)

**SYCAMORWYDD,** συκομορεα; o συκος, *ffigysbren,* a μορος, *morwydden.* Gelwir ef y ffigysbren Aiphtaidd.—'Ffigyswydd gwylltion.' Dr M. 2 Cron. 1. 15.—'Fficuspren-gwyllt.' W. S. Luc. 19. 4. Nid yr un pren a feddylir wrth y gair Groeg, a'r pren a elwir sycamorwydd yn ein gwledydd ni. Tebyga yn ei ffrwyth i'r ffigyswydd, ac yn ei ddail i'r morwydd. Nid yw ei ffrwyth yn tyfu yn sypiau, nac ar benau y cangenau, ond yn glynu wrth gorph y pren, yr hwn sydd weithiau gymaint nas dichon tri dyn ei freichio. Y mae bob amser yn wyrdd, ac yn ffrwytho amrywiol dymhorau ar y flwyddyn. Yr oedd yn aml yn yr Aipht, Judea, &c. Arferent ei goed i wneuthur ysgriniau ac eirch yn yr Aipht. Arferent hwy i adeiladu tai cyffredin. 1 Bren. 10. 27. Newid sycamorwydd yn gedrwydd, gan hyny, a arwydda, cyflwr gwladwriaeth yn fwy ardderchog a llwyddiannus nag o'r blaen. Esa. 9. 10.

**SYCH—DER—ION—U,** (sy-ych) *Heb.* צחח *tsech Llad.* SICCUS; crin, gwyw, cras, sych-gras, annyfrwys, gwystr, hysp, dyhysbydd, gwywder, crasder.— Gwlad wedi ei diphoblogi, a elwir yn sych. Sephaniah 2. 13.—Dynion drwg, y cenedloedd, a gyffelybir i sychdir—yn amddifad o ras ac ordinhadau yr efengyl; yn hollol ddiffrwyth, ac yn sicr o barhau felly heb eu dyfrhau oddi uchod. Esa. 44. 3.—Sychu peth, yw ei ddifeddiannu o wlybwr, gallu, rhagoroldeb, egni, cysur, &c. 1 Bren. 17. 7. Hos. 13. 15. Ezec. 17. 24. Diar. 17. 22.— Myned yn droedsych, a arwydda myned yn ddiogel, yn rhwydd, ac yn ddirwystr. Esa. 11. 15. Edr. CRAS.

* Mae y gair o arwyddocâd canolryw, a chymerir ef mewn ystyr dda neu ddrwg. Mintert.

**SYCHED—U—IG,** (sych) sychedfod, crasder; chwant, awydd.—1. Trachwant am ddwfr. Ps. 104. 11. —2. Hiraeth, neu ddymuniad cryf am un peth a feddylir yn digoni ac yn cysuro; megys am Grist a'i gyflawnder, (Mat. 5. 6. Dat. 22. 17.) am ddedwyddwch a hyfrydwch yn gyffredinol, (Esa. 55. 1.) neu am y cyflawniad o ryw chwant pechadurus; megys puteindra, eilun-addoliaeth, &c. Deut. 29. 19. Jer. 11. 13.—3. Yr hyn a fyddo yn achosi syched; megys eisieu dwfr, cystuddiau celyd yn peri dymuniad hiraethlawn am waredigaeth. Deut. 28. 48. Esa. 65. 15. Edr. NEWYN.

**SYENE,** סונה [*perth*] dinas ar gyffiniau deheuol yr Aipht, tu ag Ethiopia, rhwng Thebes a rheieidr yr afon Nilus. Ezec. 29. 10. a 30. 6.

**SYFL—O—YD,** (swf) *Heb.* שלח (*shilach*) ymmod, symud, cychwyn, ysgogi, siglo, syflyd. Job 41. 23. Ps. 30. 6. a 36. 11. a 93. 1. Mat. 23. 4.

**SYFRDAN—DOD—U,** (syfr-tan) y bendro, y gysp, y fynyglawg, madrondod; penfeddw, penysgafn, irdang; synu, hurtio; disymwyth goll pwyll a synwyr.—'Rhag iddi yn y diwedd ddyfod a'm syfrdanu.' Luc 18. 5. Cyfieithir y gair υπωπιαζω, *cospi,* 1 Cor. 9. 27. Arwydda taro dan y llygad nes byddo wedi ei gleisio, dyrnodio; felly yma, curo y glust â thaerineb.

**SYGAN—U,** (sy-cân) husting, sibrwd, sisial.—'Y syganei vn o ei ddiscipulon wrthaw.' W. S. Marc 13. 1. Sef a ddywedai wrtho.—'Eithyr ar ol swrn o ddyddiae ysganei Paul wrth Barnabas,' &c. W. S. Actau 15. 36.

**SYLFAEN—EINI—U,** (syl-maen). Edr. COLOFN, CRAIG, GOSOD, MAEN, SAIL.

**SYLFAENIAD,** (syl-maen) gosod y gareg sylfaen; y sylfaen.—'A sylfaeniad tŷ Dduw;' (2 Cron. 24. 27.) sef adgyweiriad y tŷ, a'i gadarnhau, a gosod y gwasanaeth i fyned rhagddo yn drefnus, fel y gwelir yn adn. 13, 14.

**SYLWEDD—AU,** (syl-gwedd) defnydd.—1. Creadur: 'pob sylwedd byw;' sef pob creadur. Gen. 7. 23.—2. Nôdd a bywyd naturiol pren. Esa. 6. 13. Edrych DERWEN.—3. Dedwyddwch sylweddol a pharhaus o ras a gogoniant. Diar. 8. 21.

**SYMBAL—AU,** κυμβαλον: dernyn o bres ceuol crwn (*concave & convex*) neu ryw fetel arall, yr hwn trwy ei daro wrth y cyffelyb ddarn a wnai sain dwfn anhyfryd. Gwel Josephus, *Antiq., lib.* vii. *cap.* 10. Y rhai sydd ganddynt wybodaeth ac areithyddiaeth, ac heb gariad, ydynt yn tebygu i symbal yn tincian; trystfawr a bloeddgar, a dim ond hyny. 1 Cor. 13. 1.

**SYML—EDD—RWYDD,** (sym-wl) *Llad.* SIMPLEX; *Saes.* SIMPLE, SIMPLICITY: diddyblyg, unplyg, unblaid, ungôr; didwyll, dihoced, diniwed; mulder, diniweidrwydd, difaleisrwydd.—'O bydd dy lygad yn syml, dy holl gorph fydd yn oleu.' Mat. 6. 22. Luc 11. 34.—'A bydd dylygat yn ddiplyc.' W. S. Mae y gair *syml* yn ateb i'r gair *Gr.* απλους, *yn dda,* sef unplyg, digymysg; arwydda yma, tebygol, yr un peth ag υγιης, *iach.* Os bydd dy lygad yn iach, sef yn berffaith, yn ddifrychau, yn eglur, heb ddim yn rhwystro y drychiad a'r olwg—mewn cyferbyniad i lygad wedi ei orchuddio â philionen. Y llygad a lywodraetha holl weithredoedd y corph;

Digitized by Google

os na wel dyn yn eglur, ni ddichon iddo rodio yn ddiogel, ac heb dramgwyddo. Yr un modd, os bydd dyn yn dywyll ac yn gyfeiliornus yn ei farn am bethau, effeithia hyny ar ei ddewisiad a'i holl rodiad. Meddwl tywyll yn cam-farnu am bethau, a bâr gamddewisiad; a pho mwyaf prysur a diwyd yr elo y dyn, pellaf i gyd a fydd o'r ffordd. Os bydd yr egwyddor flaenaf yn gyfeiliornus, tywyllwch fydd yr holl oleuni sydd, neu a feddwl fod ynddo. A pha mor fawr a niweidiol a raid i'r tywyllwch hwnw fod! —Pan fyddo yr hyn a farna y dyn yn ddadguddiad anghyffredin, pa un ai oddiwrth philosophi neu wallgofrwydd crefyddol, yn dywyll, ei oleuni sydd dywyllwch dudew o'r pwll diwaelod; ei holl gasgliadau a'i weithrediadau ydynt yn ei arwain yn mhellach oddiwrth Dduw, oddiwrth y gwirionedd a gwir sancteiddrwydd, ac yn ei soddi yn ddyfnach mewn cyfeiliornad, rhagfarn, balchder ysbrydol, a maglau tywysog y tywyllwch. Esa. 5. 20, 21. a 8. 20. Ioan 9. 39, 40, 41. 1 Cor. 1. 18, 19, 20. a 2. 14. a 3. 18, 19. Dat. 3. 17, 18.

Mae symlrwydd yn arwyddo, cywirdeb a phurdeb meddwl, yn rhydd oddiwrth gau-ddybenion, a dichellion; a haelioni yn cyfranu, yn tarddu oddiwrth y cyfryw agwedd ar y meddwl. Rhuf. 12. 8. 2 Cor. 1. 12. Eph. 6. 5. Col. 3. 22. Cyfieithir yr un gair *Gr.* *απλοτητος*, *haelioni*. 2 Cor. 8. 2. a 9. 11, 13. Agwedd meddwl hynod o addas i'r efengyl ydyw. 2 Cor. 11. 3.

SYMUD—O—IAD—WYR, (mud) *Heb.* מוט (*moth*); ymmod, syflyd, cychwyn, myned, neu gymeryd o'i le.

> Tri pheth y sydd a melldigedig y neb a'i *symudo;* ffin tir hynt dwfr, ac arwydd ffordd ac arllwybr.
>
> *Catwg Ddoeth.*

Syflyd o le. 2 Bren. 21. 8. Ps. 46. 2. Ezec. 16. 50. —'Ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd.' Gen. 1. 2. Edrych YSBRYD.——'Wele, symudais dy anwiredd oddi wrthyt.' Zech. 3. 4. 'Bwriais heibio.' Dr M. Arwydda, yn 1. Ei gyflawnhau oddi wrtho a'i gwbl faddeu, fel na ddoi byth i'w erbyn i'w farnu yn euog.——2. Ei ddiwygio o hono, ei lanhau, a'i adnewyddu yn sanctaidd.——3. Ei nerthu a'i gyfarwyddo mewn rhodiad sanctaidd.

'A'n symudodd i deyrnas ei anwyl Fab.' Col. 1. 13. 'A'n ysmutawdd ni y deyrnas y annwyl Vap.' W. S. Y gair *symud* (*μετεστησε*) yn y fan hon, a arwydda yr holl waith sanctaidd a weithreda yr Ysbryd Glân trwy yr efengyl ar eneidiau pechaduriaid yn meddiant Satan, i'w dwyn yn effeithiol oddi yno, a'u trosglwyddo i deyrnas arall, ac i feddiant ei anwyl Fab. Nid yr un fath ydynt yn y ddwy deyrnas; nis dichon hyny fod; yn y cyfnewidiad a weithredir arnynt mae y symudiad yn gynnwysedig. Deall tywyll—cydwybod euog—ewyllys a serchiadau halogedig, sydd yn eu cadw a'u dynodi yn meddiant y tywyllwch; felly deall wedi ei oleuo—cydwybod wedi ei phuro â gwaed Crist—ewyllys a serchiadau wedi eu sancteiddio, sydd yn gweithredu ac yn dynodi y symudiad grasol hwn i deyrnas anwyl Fab Duw. O ras Duw, a thrwy effeithioldeb dwyfol, mae y symudiad gogoneddus hwn yn cael ei weithredu. Symudiad grasol, effeithiol, sanctaidd, a thragywyddol ydyw. Edr. ADENEDIGAETH, CYFAMMOD, GRAS, SANCTEIDDIO.

Mae symud, weithiau, yn arwyddo cyfeiliorni oddiwrth wir athrawiaeth yr efengyl, o gyflawnhad trwy ffydd Crist, trwy ddichellion a hudoliaeth gau-athrawon, fel y gwnawd â'r Galatiaid. Gal. 1. 6. Y mae y meddwl wedi ei symud, a'i wyro; ac yn ganlynol y rhodiad, a'r dysgwyliad gobeithiol trwy y wir efengyl. Col. 1. 23.

Gelwir trosglwyddiad Enoch i'r nefoedd heb weled marwolaeth, symudiad. Heb. 11. 5. Edr. ENOCH.

Yn yr Arglwydd 'yr ydym oll yn byw, yn symud, ac yn bod.' Act. 17. 28. Y mae holl ysgogiadau ein cyrph yn ddibynol arno; a'n holl symudiadau a'n bywioliaethau a drefnir gan ei ragluniaeth ddoeth a manwl. Psalm 56. 8.

SYMUDLIW, (symud-lliw) o amryw liwiau.—Gwisgoedd symudliw, yw gwisgoedd cywrain, hardd, ardderchog a gogoneddus; gwisgoedd boneddigaidd, y fath a wisgai y goreuon. Barn. 5. 30. Esa. 3. 22. Ezec. 26. 16. a 27. 7.

SYNAGOG—AU, *Συναγωγη*, [*cyd-gasgliad*]—1. Cymanfa o ddynion, neu y lle yr ymgasglent yn nghyd yn gyhoeddus. Yn Mat. 6. 2. arwydda *synagog*, cynnulleidfaoedd cyhoeddus o ddynion, neu y lleoedd y tyrent at eu gilydd, yn wladwriaethol yn gystal ag yn grefyddol. Yn Ioan 6. 59. ni arwydda *εν συναγωγη*, *yn synagog*, y lle o addoliad crefyddol, ond mewn cynnulleidfa, neu gyfarfod o bobl. Gwel adn. 25. *Yn y synagog* a fuasai, *εν τη συναγωγη*; yn enwedig gan nad oedd ond un synagog yn Capernaum.——2. Yn gyffredinol, arwydda synagog, y lle, neu yr adeilad, y byddai yr Iuddewon yn arferol o gyfarfod ynddo i weddio yn gyhoeddus, ac i wrando darllen ac egluro yr ysgrythyrau. Luc 7. 5. Actau 18. 7.——3. Arferir y gair, tebygol, unwaith am le Cristionogion i addoli. 'Os daw i mewn i'ch *cynnulleidfa* chwi.' Iago 2. 2. *Εις την συναγωγην υμων*, *i'ch synagog chwi*. 'Ich cwmpeniaeth chwi.' W. S. Amlwg yw, nad y gynnulleidfa a feddylir, ond y lle yr ymgyfarfyddai, o herwydd bod yr apostol yn crybwyll am eu gwaith yn eistedd mewn lleoedd mwy neu lai anrhydeddus. Gwel Vitringa *De Syn. Vet.*, *lib.* i. *pars.* i. *cap.* 9. & *pars.* iii. *cap.* 2.

Yr oedd yr Iuddewon yn cynnal llysoedd barnedigaeth yn y synagogau (Luc 21. 12. Vitringa *De Syn. Vet.*, *lib.* iii. *pars.* i. *cap.* 2.) ac yno hefyd y cospent y troseddwyr trwy ffiangellu. Mat. 10. 17. Act. 22. 19. a 26. 11. Tebygol i'r Cristionogion ar y cyntaf ddilyn eu defod hwy, ac y byddent yn llysoedd i benderfynu achosion gwladol. Y lleoedd yr ymgyfarfyddent i addoli yn gyhoeddus ynddynt, a eilw yr apostol (Iago 2. 2.) 'Eich *synagog*.' Y mae yn amlwg oddiwrth adn. 4. mai am farnwyr, ac achosion i'w barnu, y traetha yr apostol. Gwel Macknight, Parkhurst.

Y farn fwyaf cyffredin yn mhlith y dysgedigion yw, mai ar ol eu dychweliad o gaethiwed Babilon yr adeiladwyd synagogau yn eu plith. Gwel Spencer *De Legibus Heb. lib.* i. *cap.* 4. § 10. Vitringa *De Syn. Vet.*, *lib.* i. *pars.* ii. *cap.* 9—12. Reland *in Antiq. Sacr.*, *part* i. *cap.* 10. Gwaith Ezra yn darllen y gyfraith, a'r angenrheidrwydd a welsant trwy hyny o'i darllen yn aml iddynt, a barodd iddynt feddwl am adeiladau cyfleus i hyny. Nid oes dim hanes am y synagogau yn holl hanesiaeth yr Hen Destament cyn y caethiwed. Am y geiriau yn Ps. 74. 8. 'Llosgasant holl *synagogau* Duw yn y tir;' כל מועדי אל בארץ gellir eu cyfieithu yn fwy addas, *holl gymanfaoedd Duw yn y tir*. Ac er bod y gair מועדי yn arwyddo lleoedd cyfarfod y cyfryw gymanfaoedd, etto nid ydyw o angenrheidrwydd yn arwyddo y cyfryw leoedd cyfarfod a'r synagogau; ond geill arwyddo cynteddoedd y deml, neu y *proseuchæ* ar hyd y wlad, arferedig gan y rhai pellenig, nas gallent ddyfod i gynteddoedd y deml yn aml i addoli. Edr. GWEDDI. Vitringa, *Ubi Supra.*

Mewn perthynas i adeiladu y synagogan, eu rheol oedd, fod i synagog gael ei hadeiladu lle byddai deg *balelnim*; hyny yw, deg o ryddwyr o gyflawn oed, y byddai hamdden ganddynt fod yn y gwasanaeth bob amser. Llai na deg ni wnai gynnulleidfa, yn ol eu barn hwy. Heb hyn ni byddai i synagog gael ei hadeiladu yn un lle. Adeiladent hwy ar ryw fan uchel,

Digitized by Google

yn neu allan o'r ddinas, fel y byddai fwyaf cyfleus, neu yn agos i feddau rhyw wyr enwog. Gwel Vitringa, *De Synag. Vet.* Yn y meusydd y byddent hwy ar y cyntaf; yn raddol y dygwyd hwynt i mewn i'r dinasoedd. Yn mhlith y cenedloedd yr oeddynt ar y cyntaf yn yr amrywiol ddinasoedd yn o guddiedig ac anolygus; hwyrach ddim ond ystafelloedd dirgel; ond fel y cynnyddasant mewn rhifedi, cyfoeth, a pharch, gwnawd hwynt yn fwy cyhoeddus a gwych. Yn eu gwlad eu hunain, yr adeilad uchaf yn y ddinas ydoedd, er parchedigaeth a nodedigrwydd. Ar y cyntaf, yr oedd y synagogau yn anaml, ond cynnyddasant yn raddol i lïosogrwydd, yn o debyg i'n heglwysi plwyfol ni; fel nad oedd yn amser ein Hiachawdwr un dref yn Judea heb un neu ychwaneg ynddi. Dywed yr Iuddewon fod, yn nghylch yr amser hwn, ddeuddeg yn Tiberias, dinas yn Galilea; a bod yn Jerusalem 480, os nad ydynt yn arfer gormodiaith, ac yn dywedyd dros derfynau.

1. Y gwasanaeth oedd yn cael ei gyflawni yn y synagog, ydoedd gweddïo, darllen yr ysgrythyrau, egluro yr ysgrythyrau, a phregethu, neu areithio i'r bobl. Yr oedd ganddynt ffurf o weddïau i'w darllen yn gyffredin. Nid oedd eu gweddïau ond ychydig nifer ar y cyntaf; gwedi hyny cynnyddodd eu rhifedi yn fawr, nes aeth y gwasanaeth yn flinedig gan ei feithder, a chan lawer o ddefodau ofer a diles. Y rhan fwyaf difrifol o'r gwasanaeth sydd gynnwysedig o ddeunaw o weddïau, a elwir *Shemoneh Eshreh*. Dywedant gyfansoddi y gweddïau hyn gan Ezra, a'r synagog fawr; beth bynag am hyny, dilys eu bod yn hen. At y rhai hyn, ychwanegodd Rabbi Gamaliel, ychydig cyn dinystr Jerusalem, y bedwaredd ar bymtheg, yn erbyn cyfeiliornwyr, hereticiaid, sef y Cristionogion, y rhai a feddylient wrth yr enw hwnw. Arferent, yn ddiammheuol, y deunaw yn y synagogau yn amser yr Iachawdwr, ac yn ganlynol, dilys ei fod yntau yn ymuno ynddynt gyd â'r lleill o'r Iuddewon, pa bryd bynag yr elai i'r synagog, yr hyn a wnai bob Sabbath. Gwel y gweddïau yn Prideaux's *Connect. part* i. *b.* 6. Y mae pawb, o bob rhyw ac oedran, yn rhwym i ddywedyd y gweddïau hyn dair gwaith yn y dydd, naill ai yn ddirgel neu yn gyhoeddus. Darllenir hwynt bob amser yn ngwasanaeth y synagogau, yn y modd mwyaf difrifol. Yr oedd ganddynt arch neu goffr i gadw y llyfrau sanctaidd ynddo. Yn yr ochr lle yr ydoedd hwnw, yr eisteddai yr henuriaid, â'u cefnau ato; yr ochr arall yr eisteddai y meibion, ar eisteddfëydd i'r dyben hyny. Y gwragedd a eisteddent yn neillduol wrthynt eu hunain, mewn llofft gwedi ei chau i mewn â rhwydwaith, fel y gallent glywed a gweled pob peth, heb neb yn eu canfod hwy.

2. Yr ail ran o'r gwasanaeth ydyw darllen yr ysgrythyrau, a hyny yn dri math:—1. Y *Kiriath Shema.*—2. Y gyfraith.—3. Y prophwydi. Y cyntaf yw o ddechreu adn. 4. o Deut. vi. hyd ddiwedd adn. 9.—yr ail, Deut. xi. o ddechreu adn. 13. hyd ddiwedd adn. 21.—a'r trydydd, Num. xv. o ddechreu adn. 37. i ddiwedd y bennod. Am fod y darn cyntaf yn dechreu â'r gair *Shema*, hyny yw, *gwrandewch*, hwy a alwent y tri darn hyn *Shema*, a'u darlleniad *Kiriath Shema*, sef *darlleniad y Shema*. Barnent ddarlleniad y *Shema* y rhan fwyaf difrifol o'r gwasanaeth, yn nesaf at y pedair ar bymtheg gweddïau crybwylledig uchod. Wrth y gyfraith, deallwn pum llyfr Moses. Rhanwyd y rhai hyn gan Ezra, tebygol, yn 54 o ddosparthiadau; sef dosparth i bob Sabboth. Gwnawd y dosparthiadau yn 54 o rifedi o herwydd y flwyddyn gorymddwyn (*intercalary*) pan ychwanegid mis at y flwyddyn. Y blynyddoedd eraill rhoddent ddau ddosparth byr yn un, fel y darllenent y cwbl yr un fath yn y flwyddyn. Bod hon yn ddefod er yr hen amseroedd yn eu plith, sydd eglur oddiwrth Actau 15. 21. Hyd amser yr erlidigaeth dan Antiochus Epiphanes, ni ddarllenent ond yn unig y gyfraith, sef llyfrau Moses. Pan lysiodd hwnw iddynt ddarllen y gyfraith, darllenasant 54 o ddosparthiadau o'r prophwydi yn eu lle. Pan adferwyd darllen y prophwydi gan y Maccabeaid, parhawyd y ddau; y dosparth o'r gyfraith, y llith cyntaf; a'r dosparth o'r prophwydi, yr ail lith; ac felly yr arferent yn amser yr Iachawdwr a'r apostolion. Dywedir i Paul sefyll i fynu yn y synagog yn Antioch, yn Pisidia, 'ar ol darllen y gyfraith a'r prophwydi;' sef ar ol y cyntaf a'r ail lith. Dywed ef ei hun yn ei araeth yno, fod y prophwydi yn cael eu darllen bob Sabboth yn y synagog yn Jerusalem. Act. 13. 27. Rhanwyd yn foreu y dosparthiadau hyn yn adnodau, y rhai a alwent *Pesukim*. Nodir hwynt yn y Biblau Hebraeg â dau bwnc mawr yn eu diwedd a elwir *Sophpasuk*, sef *diwedd yr adnod*.

3. Y drydedd ran o wasanaeth y synagog, ydoedd egluro yr ysgrythyrau, a phregethu i'r bobl. Y cyntaf a wnaent wrth eu darllen, a'r diweddaf ar ol darllen y gyfraith a'r prophwydi. Y mae yn eglur i'r Arglwydd ddysgu yn y synagogau hyn bob un o'r ddwy ffordd. Yn Nazareth, ei ddinas ei hun, galwyd arno, fel aelod o'r synagog, i ddarllen yr *Haphterah*, sef y llith o'r prophwydi oedd i'w ddarllen y dydd hwnw. Gwedi iddo ddarllen, eisteddodd (yn ol eu harferiad hwy) ac a ddysgodd y bobl. Yr oeddynt yn sefyll i ddarllen, ac yn eistedd i esbonio. Yn yr holl synagogau eraill, o ba rai nid oedd yn aelod, pan âi i mewn iddynt (yr hyn a wnai bob Sabboth, lle bynag y byddai) dysgai y bobl trwy bregethu, gwedi gorphen darllen y gyfraith a'r prophwydi: ac felly yr addysgodd Paul yr Iuddewon yn Antioch yn Pisidia.

4. Amser gwasanaeth y synagog ydoedd dri diwrnod yn yr wythnos, heblaw y gwyliau arbenig, a'r dyddiau gwylion; a thair gwaith ar y dyddiau hyn. Y dyddiau cyffredin oedd dydd Llun, Iau, a Sadwrn. Sadwrn oedd y Sabboth; a'r ddau eraill oedd trwy osodiad yr henuriaid. Yr oeddynt yn darllen y dosparth perthynol i'r wythnos dair gwaith; sef hanner y dosparth ar bob un o'r ddau ddiwrnod cyntaf, a'r cwbl drosodd drachefn ar y Sabboth, a hyny y boreu a'r prydnawn. Nid oeddynt yn ei ddarllen ond yn y boreu, oddigerth ar y Sabboth; ar y Sabboth darllenent ef y boreu a'r prydnawn hefyd, fel y gallai pawb ei glywed ddwy waith yn yr wythnos. Yr un fath y gwnaent â'r gyfraith a'r prophwydi. Yr oedd yn rheol sefydlog yn eu plith, fod i bawb weddïo dair gwaith bob dydd; sef yn amser yr aberth boreuol a phrydnawnol, ac yn yr hwyr, pan yr oedd yr aberth prydnawnol heb ddarfod llosgi. Felly y gwnai Dafydd a Daniel. Ps. 55. 17. Dan. 6. 10.

5. Am y swyddwyr oedd yn gweini yn ngwasanaeth y synagog, nid ydoedd hyny ddim wedi ei gyfyngu i'r offeiriaid yn unig. Nid oeddynt hwy wedi eu cysegru, ond yn unig i wasanaeth y deml, i offrymu aberthau ac offrymau. Ond er mwyn iawn drefn, yr ydoedd gweinidogion sefydlog perthynol i bob synagog; y rhai a neillduwyd i'w swyddau trwy arddodiad dwylaw yn ddifrifol.—1. Y cyntaf oedd henuriaid y synagog, y rhai a lywodraethent holl achosion y synagog, ac a gyfarwyddent yr holl ddefodau crefyddol i'w cyflawni. Yr ydoedd tri o honynt, o leiaf, y rhai a alwent שלישה של בר *gorseddfa y tri*. Gelwir hwynt yn yr ysgrythyrau, penaeth y synagog, llywodraethwr y synagog, arch-synagogydd. Marc 5. 35, &c. Luc 8. 41. a 13. 14. Act. 13. 15. Yr oedd mwy nag un yn perthyn i bob synagog; canys enwir hwynt yn y rhif lïosog yn Marc 5. 22. Act. 13. 15. Gelwir Crispus a Sosthenes, bob un o honynt, yn arch-synagogydd yn Corinth. Act. 18. 8, 17. Ond pa nifer sydd anhysbys.——2. Y nesaf atynt hwy, neu hwyrach un o honynt, oedd y gweinidog, yr hwn a ddarllenai y gweddïau; yr hwn, am ei fod wedi ei ddewis yn enau ac yn genad drostynt at Dduw, a alwent שליח צבור



Digitized by Google

(*sheliach zibbor*) hyny yw, *angel yr eglwys*. Oddiwrth hyn galwyd gweinidog eglwysi Asia, 'Angel yr eglwys.' Efe oedd y gweinidog cyffredin, wedi ei osod i'r swydd o gyflwyno gweddïau yr eglwys at Dduw. Ond byddai yn cael eu galw i hyny, heblaw y gweinidog, ddau o wyr wedi eu haddasu, trwy eu hoed, eu difrifwch, eu doniau, a'u duwioldeb, y rhai a gyflawnent yn ei le. Pwy bynag fyddai yn gweini, hwnw fyddai y *sheliach zibbor* dros yr amser y byddai yn gweini. ——3. Y nesaf at hwn oedd y diaconiaid, neu isswyddwyr, a elwid חזנים (*Chazanim*) hyny yw, *y golygwyr*. Yr oedd y rhai hyn yn swyddogion sefydlog, o dan y llywodraethwyr oeddynt yn arolygu y cwbl, yn cadw y llyfrau, a'r dodrefn perthynol i'r synagog. Yn neillduol, safent i fynu i arolygu darllenwyr y llithoedd, i'w diwygio, os cam-ddarllenent, ac i gymeryd a chadw y llyfr pan ddarfyddent. Felly y dywedir am yr Iesu, 'Iddo gau y llyfr, a'i roddi i'r gweinidog.' Luc 4. 20. Nid oedd un gweinidog sefydlog i ddarllen y llithoedd, ond llywodraethwr y synagog, yn yr amser priodol, a alwai ryw aelod o'r gynnulleidfa, âg addasrwydd ynddo at y gorchwyl hwnw. Y drefn oedd, galw yn gyntaf offeiriad, yn nesaf Lefiad, ac wedi hyny rhyw un arall, nes gwneyd i fynu y nifer saith. Yr oedd pob dosparth wedi eu rhanu yn saith o ddosparthiadau, a darllenwr at bob un o'r saith dosparthiad.——4. Y swyddog nesaf oedd y dehonglwr. Ei waith oedd dehongli neu gyfieithu i'r Caldaeg, fel yr oeddynt yn darllen yn Hebraeg, i'r gynnulleidfa. Gan fod dysg a gwybodaeth o'r ddwy iaith yn angenrheidiol i hyn, pan gaent ddyn addas i'r swydd, cyflogent ef, a sefydlent ef fel un o weinidogion y synagog.

Bernais y byddai hyn o hanes am drefn addoliad y synagog yn fuddiol i daflu goleu ar yr ysgrythyrau. Y neb a ewyllysio ychwaneg o hyfforddiad, cânt ef yn dra chyflawn yn ngwaith Selden. Vitringa *De Syn. Vet.* Lightfoot's *Works, vol.* ii. Prideaux, *Connect. part* i. *b.* 6.

Yr Iuddewon anghrediniol yn cablu Crist, ac yn erlid ei ganlynwyr, a eilw Crist 'Synagog Satan.' Dat. 2. 9. a 3. 9. Yr oedd eu holl addoliad, wedi iddynt wrthod Crist, yn wrthwyneb i ewyllys Duw, ac yn anmharch iddo. Yr un fath yw holl gyfeiliornwyr a gau-grefyddwyr, sydd yn cablu ac yn gwrthwynebu y gwirionedd, beth bynag y galwont eu hunain. Cynnal achos Satan, y gwrthwynebwr, y maent yn eu cyfarfodydd a'u cynnulleidfa.

'Prif-gadeiriau yn y synagogau.' Mat. 23. 6. Yr oedd gan y doctoriaid gadeiriau neu eisteddfäoedd wrthynt eu hunain, a'u cefnau at yr areithle y darllenent y gyfraith ynddo, a'u gwynebau at y bobl. Y rhai hyn a gyfrifent yn fwyaf anrhydeddus, am hyny y Phariseaid a'r ysgrifenyddion beilchion a ymrysonent am danynt. Gwel Reland *Antiq. Heb.* Vitringa *De Syn. Vet. lib.* i. *pars* 1. *cap.* 9. *& seq.* Wolf *in loc.*

'Y bwrid ef allan o'r synagog.' Ioan 9. 22. Yr oedd dau fath o ysgymmundod arferedig gan yr Iuddewon: un a alwent *nidui*, yr hwn a ysgarai y neb oedd dano bedwar cufydd oddiwrth bawb eraill, fel yr oedd yn lluddiais iddo gyfeillachu â neb, ond ei adael yn rhydd yn y pellder hwnw, i wrando y gyfraith yn y synagog.—Y llall a alwent *shemata*, oddiwrth *Shem*, yr hwn a arwydda enw yn gyffredin: ond gyd âg enwogrwydd neillduol oedd yn briodol i Dduw, enw sanctaidd yr hwn a arwydda bob perffeithrwydd a ddichon fod. Y mae *shemata*, gan hyny, yn ateb i'r gair Syriaeg, *maranatha, yr Arglwydd sydd yn dyfod*; dull o felldithiad arferedig gan yr apostol (1 Cor. 16. 22.); ac a ddychymygir iddo ddeillio oddiwrth Enoch, am y coffâ Judas ddywediad o'r eiddo, yr hwn sydd yn dechreu â'r gair *maranatha;* adn. 14. 'Wele yr Arglwydd yn dyfod gyda myrddiwn o'i saint,' &c. Dywedir fod yr ysgymmundod hwn yn tôri dyn allan o'r synagog am byth. Hwn, tebygol, oedd y cerydd a fygythiodd y cynghor ar y rhai a addefent yr Iesu ei fod y Messïah, a'r hwn a roddwyd ar y cardotyn tlawd; o herwydd mae y geiriau, εξεβαλον αυτον εξω, *bwriasant ef allan*, yn fwy priodol i hwn nag i'r llall. Ioan 9. 34, 35. Tebygol hefyd mai am y *shemata* y llefara yr Arglwydd, pan y dywed wrth ei ddysgyblion, (Ioan 16. 2.) 'Bwriant chwi allan o'r synagogau.' Gwel Selden *De Synedris, lib.* vii. *cap.* 7.

SYNAMON, קנמן [*cryf ei archwaeth*] mae y pren synamon yn tyfu yn y coedydd yn yr India Ddwyreiniol, Java, Ceylon, &c. Nid annhebyg ydyw i'r llawrydd, neu ein helyg ni. Y mae ei flodau yn gyffredin yn goch ysgarlad. Y ffrwyth a debyga i'r olew-wydd; a thynant fath o wer o hono, o ba un y gwnant ganwyllau. Y rhisgl ydyw y rhan fwyaf gwerthfawr o hono; pan y tyner ef ymaith gyntaf, nid oes ganddo fawr archwaeth na lliw; ond wedi ei sychu, yn enwedig y rhisgl canol, try yn llwyd, ac mae yn dra pheraidd i'r archwaeth, ac yn feddyginiaethol yn y rhydd-glwyf, a gwendidau y cylla. Mae math o synamon gwyllt yn tyfu yn yr India Orllewinol; ond nid yw ei risgl yn cystadlu yn ei rinwedd i'r llall. Tebygol ei fod yn tyfu gynt yn Arabia; neu yr oedd synamon yr hynafiaid yn wahanol oddiwrth y synamon presennol.—Arferent ef yn yr olew sanctaidd. Exod. 30. 23. Am fod rhisgl y gwreiddyn yn fwy peraidd na rhisgl y pren, barna Scheuchzer mai hwnw a ddefnyddiai Moses yn yr olew sanctaidd. Arferent ef hefyd i bêr-arogli gwelyau.——Cyffelybir y saint, a'u sancteiddrwydd, i synamon; maent yn werthfawr, yn hyfryd, ac yn iachus; ac hefyd yn iachusol i eglwysi y gwledydd lle maent.

SYNIAD—IED—IAW, (syn) teimlad, ystyriaeth, barn; deall, gwybod, cydnabod; ymglywed, ymwybod, canfod, sylwi.—'Syniad y cnawd marwolaeth yw—sydd elyniaeth yn erbyn Duw.' Rhuf. 8. 6, 7.—'Can ys synwyr y cnawt, angeu yw.' W. S.—'Canys y mae synwyr y cnawd yn farwolaeth.' Dr M. Το γαρ φρονημα της σαρκος, θανατος. Arwydda y gair Groeg, gweithrediadau yr enaid yn y deall—yr ewyllys—y serch—a'r meddylfryd. 'Syniad y cnawd' yw syniad y meddwl llygredig; mae ei holl syniadau yn elyniaeth yn erbyn Duw—nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw—ac yn profi pob dyn yn rhodio yn ol y syniadau tywyll llygredig hyn, yn farw dan gollfarn, ac yn ddifywyd ysbrydol. 'Syniad yr ysbryd' yw syniad enaid wedi ei adnewyddu gan yr Ysbryd Glân, yn deall, yn cymeradwyo, yn serchu, pethau yr Ysbryd, ac yn rhodio yn ol ei arweiniad. Rhodio yn ol y syniadau hyn, a brofant y dyn yn heddwch Duw, ac yn feddiannol o fywyd sanctaidd yn ei enaid. Y pethau y perthyn i fywyd a thangnefedd y mae yn eu hewyllysio, yn eu serchu, ac yn rhodio ar eu hol. Y mae bywyd a thangnefedd yn ngweithrediadau sanctaidd y meddwl, ac yn y pethau y cyrcha y meddwl atynt. Y mae gwahanol syniad yn perthyn i wahanol gyflyrau, ac yn profi y gwahaniaeth. Mae y syniad tufewnol yn effeithio ar y rhodiad allanol; ac ni bydd y rhodiad byth yn ysbrydol, os na fydd syniad y meddwl yn ysbrydol.

Yr oedd marwolaeth Crist o Dduw; sef o'i drefniad a'i osodiad; a Phetr yn gwrthwynebu hyny, nid oedd yn 'synied y pethau oedd o Dduw, ond y pethau oedd o ddynion' cnawdol, tywyll, llygredig, ac a gafodd ei geryddu yn llym am hyny. Mat. 16. 23.

'Yn synied pethau daearol.' Phil. 3. 19. Sef â'u meddwl, eu meddylfryd, a'u serch arnynt, mewn cyferbyniad i bethau nefol. Yr oedd y rhai hyn dan enw brodyr a Christionogion; etto, mewn gwirionedd, gelynion croes Crist oeddynt.

Digitized by Google

SYN—DOD—DRA—ER—U, (sy-yn) *Heb.* שמם (*shamam*); aruthro, rhyfeddu, syfrdanu, hurtio; syfrdandod, lledfeddod, aruthredd, rhyfeddod. Yn yr Hen Destament, arwydda, yn fwyaf cyffredin, aruthredd gyda dychryn, braw, petrusder, a chyfyng-gynghor. 2 Cron. 7. 21. Psalm 143. 4. Jer. 2. 12. a 4. 9. a 14. 9. Ezec. 4. 17, &c. Ond yn y Testament Newydd, arwydda bod un wedi ei lenwi â rhyfeddod, gyda hyfrydwch a gorfoledd. Mat. 12. 23. Marc 6. 51. Luc 5. 26. a 8. 56.

SYNTYCHE, Συντυχη, gwraig enwog am ei rhinweddau yn Philippi. Phil. 4. 2. Edr. EUODIAS.

SYNWYR—AU—OL, (syn-gwyr) athrylith, deall, pwyll, anwyd; deallus, pwyllog, ystyriol. Arwydda synwyrau allanol y corph, trwy ba rai y derbyn y meddwl yn dufewnol amgyffred am bethau a gwrthddrychau allanol. Y mae pump o honynt; sef y gwelediad, y clyw, yr arogliad, yr archwaethiad, a'r teimlad. Deall pawb, ond ystyried, pa mor angenrheidiol ydyw y rhai hyn i ddyn. Gwel y llygad yn gynt ac yn mhellach nag y clyw y glust.—Geill y llygad weithio ar arall, i hysbysu rhyw faint o syniad a thymher y meddwl, ond ni all y glust ddim ond derbyn.—Mae gweled yn rhoddi mwy o foddlonrwydd na chlywed. Edr. CLUST, LLYGAD, SAFN, TRWYN, TEIMLAD.

Yn y Bibl, priodolir y gair synwyr yn unig i alluoedd yr enaid yn amgyffred, yn barnu, yn teimlo, ac yn synio. Felly, diffyg synwyr, ydyw diffyg pwyll, deall, ystyriaeth, arafwch; 'Benyw lân heb synwyr,' (Diar. 11. 22.) yw un brydferth o ran dull ac agwedd corphorol, ond sydd yn ddiffygiol mewn deall, ystyriaeth, a phwyll i'w llywodraethu yn ei hymddygiad ac yn ei holl ymarweddiad.——'Dychwelodd fy synwyr attaf fi;' sef fy neall, a fy amgyffred rhesymol rhagor anifel. Dan. 4. 36.——'Ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosparthu drwg a da.' Heb. 5. 14. Edr. DOSPARTH.

Priodolir synwyr i'r Arglwydd i arwyddo ei ddeall, ei wybodaeth, a'i ddoethineb difesur ac anchwiliadwy. Esa. 40. 28. Jer. 10. 12.—Arwydda hefyd ystyr geiriau, neu ranau ymadrodd. Neh. 8. 8. Diar. 1. 2.

SYR, (sy-yr) meistr, arglwydd, tad, tadwys. Ioan 12. 21. a 20. 15.

SYRACUSA, Συρακουσαι [*tynu yn dŷn*] dinas enwog yn Sicily, a elwir yn awr Saragossa. Dywed Ptolemy, ei bod y tu dwyreiniol i'r ynys yn y Môr Adriatic; a'i bod yn ddwy ar hugain a hanner o filltiroedd o gylch. Adeiladwyd hi gan Archios, Corinthiad, A.M. 3260. Dywed Pliny nad yw un amser mor gymylog na welir yr haul ynddi ryw ran o'r dydd. Geilw Cicero hi y fwyaf a'r harddaf o holl ddinasoedd y Groegiaid. Nid oes nemawr o hanes am dani am rai cannoedd o flynyddoedd; ond wedi hyny bu yn dra enwog am forwriaeth, am gyfoeth, ac mewn rhyfeloedd, dan ei brenin Gelon, y ddau Dionysius, Dion, Agathocles, a Hiero. Cymerwyd hi gan Marcellus, tywysog Rhufeinaidd, wedi gwarchae arni dair blynedd; amddiffynwyd hi yn rhyfedd yn erbyn ymosodiadau y Rhufeiniaid, gan Archimedes, un cyfarwydd iawn yn nghelfyddyd rhif a mesur (*mathematician*) yr hwn a ddychymygai beiriannau rhyfel, y rhai oedd yn dyrysu ac yn beiddio eu holl ymosodiadau; ond lladdwyd ef gan filwr yn ddiarwybod iddo, tra yr oedd yn fyfyriol yn astudio, heb wybod gymeryd y ddinas ganddynt, A. M. 3800. Cymerodd y Saraceniaid hi, A. D. 675, ac adgyweiriwyd hi gan Roger, brenin Apulia yn nghylch A. D. 1090.—Trigodd Paul yma dridiau ar ei daith i Rufain (Act. 28. 12.) ar ba achos nis dywedir. Planwyd Cristionogrwydd yno yn foreu, ac y mae wedi para yno, mewn enw o'r hyn lleiaf, hyd yn hyn.

SYRIA, *Heb.* ארם (*aram*); *Gr.* Συρια. Edr. ARAM. Talfyriad o'r gair Assyria, tebygol, yw y gair Syria—arferir y naill yn lle y llall gan yr hynafiaid. Gwel *Ancient Universal History, vol.* ii. *b.* i. *c.* 5.—Terfynau Syria, yn yr ystyr mwyaf priodol, oedd yr afon Euphrates o du y dwyrain, Môr y Canoldir i'r gorllewin, mynydd Taurus i'r gogledd, ac Arabia, Palestina, a Phenicia i'r dehau. Yn yr hen oesoedd, tebygol ei bod yn rhanedig i amrywiol deyrnasoedd, neu dywysogaethau; yn ddiweddarach, rhanwyd hi, mae yn tebygol, i bedwar o brif ddosparthiadau; sef Sobah, Damascus, Hamath, a Gesur; y lleill a geir yn yr ysgrythyrau, sef Beth-rehob, Ishtob, a Maachah, oeddynt, hwyrach, adraniadau. Gwedi hyny, rhanwyd hi yn ddau ddosparth yn unig, sef Cœle-Syria, a Phenicia.

Y cyfryw ydyw ffrwythlonrwydd y wlad hon fel y gellir ei galw yn ardd hyfryd. Y mae yn llawn o bob peth hyfryd a buddiol i ddyn—yn gyffredinol yn wastad-dir, wedi ei gorchuddio â daear ddwfn, fras; a'i hafonydd, yr Orontes, Cassimire, Adonis, Barrady, &c. a'i gwnant yn ffrwythlawn ac yn hyfryd. Y mae ynddi ddau o ddyffrynoedd halen nodedig; un yn agos i Palmyra, a'r llall yn agos i Aleppo. Y mae dyfroedd meddygol hefyd yn agos i Palmyra. Ceir rhai hen gedrwydd ar fynydd Libanus o faintioli hynod. Un ar bymtheg sydd yno o'r hen rai, er bod rhai ieuainc yno yn dra lliosog. Un o'r hen rai a fesur o gylch corph y pren, ddeuddeg llath a chwe modfedd, ac a gysgoda â'i frigau gylch o ddeg llath ar hugain. Gwel Maundrell's *Journey from Aleppo to Jerusalem*. Rhydd teithwyr diweddar hanes rhyfedd am adfeiliau Baalbec, lle yn nghylch taith tri diwrnod o Damascus, yn sefyll mewn dyffryn hyfryd, wrth droed mynydd Anti-Libanus. Yr hyn a ganfyddir yn bresennol o hen demlau a phalasau a rydd synder am ardderchogrwydd yr adeiladau yn eu perffeithrwydd, yn cystadlu, os nid yn rhagori, ar ddim adeiladau yn y byd. Nid llai rhyfedd nemawr ydyw adfeiliau Palmyra yn y wlad hon. Hon a elwir yn yr ysgrythyr, 'Tadmor yn yr anialwch.' 1 Bren. 9. 18. Edr. TADMOR.

Y cofrestr o freninoedd Syria, yn ol yr ysgrythyrau, sydd fel y canlyn: Rehob, Hadadezer neu Hadarezer, Rezon, Hezion, Tabrimmon, Benhadad I, Benhadad II, Hazael, a Rezin. Breninoedd Hamath, Toi, a Joram neu Hadoram. Breninoedd Gesur, Ammihud, a Talmai. Gwel yr amrywiol enwau. Rezin, Benhadad, a Hazael a wnaethant lawer o niwed i'r Hebreaid. 1 Bren. xv, xx, xxii. 2 Bren. vi, viii, x. Ond Joas a Jeroboam, breninoedd Israel, a ddialasant ar y Syriaid, ac a ddinystriasant agos eu teyrnas. 2 Bren. xiii, xiv. Tiglath-Pileser, a anrheithiodd eu gwlad, a ddinystriodd eu dinasoedd hwynt, ac a drosglwyddodd lawer o'r trigolion i Media. Gwedi hyny darostyngodd Nebuchodonosor hwynt. 2 Bren. xvi. Buant dan lywodraeth y Persiaid wedi hyny, hyd nes darostyngodd Alexander Fawr ymerodraeth y Persiaid. Gwedi marw Alexander, daeth yn un o'r pedair breniniaeth y rhanwyd ei ymerodraeth ef iddynt. Gwedi bod fel hyn yn freniniaeth annibynol am dros 257 o flynyddoedd, darostyngwyd hi gan y Rhufeiniaid, a daeth yn dalaeth Rufeinaidd yn nghylch A. M. 3939. Yn nghylch 696 o flynyddoedd attafaelodd y Saraceniaid hi. Yn bresennol y mae yn meddiant y Tyrciaid er's dros 200 o flynyddoedd. Planwyd Cristionogaeth yn foreu yn y wlad hon; ac yr oedd eglwys enwog yn Antiochia yn nyddiau yr apostolion. Y mae rhyw fath o Gristionogaeth yn parhau yno hyd heddyw. Actau 15. 23, 41. Amos 1. 3, 4. a 3. 12. Esa. 7. 4. a 8. 4. a 11. 11, 12. a 17. 1, 2, 3. Jer. 49. 23—27. Zech. 9. 1, 2.

SYROPHENICIA. Gwedi darostwng y wlad gan

Digitized by Google

y Syriaid, galwyd Phenicia *Syrophenicia*. Gelwir y wraig o Ganaan, Syropheniciad o genedl, am ei bod o Phenicia. Poblogwyd y wlad gan hiliogaeth Canaan; Sidon oedd ei fab hynaf. Gen. 10. 15. Mat. 15. 22. Marc 7. 26.

SYRTHIO, (swrth) cwympo, cywyddo, dygwyddo, tramgwyddo; marw.—Yn draws-symudol, arwydda bod yn euog o bechod, a dyfod yn ddarostyngedig i gerydd neu gospedigaeth am hyny. 1 Cor. 10. 12. Ps. 56. 13. Diar. 24. 16. Hos. 14. 1.—— Syrthio, y rhan amlaf, a arwydda, dinystrio trwy farwolaeth. 2 Bren. 14. 10. Dan. 11. 19. Hos. 4. 5. 2 Cron. 25. 8, &c.
Syrthio dan yr Arglwydd Iesu, a arwydda darostyngiad pechaduriaid i ufudd-dod Crist, trwy awdurdod yr efengyl; neu eu gwanychdod a'u dystrywiad, fel nas gallant wrthwynebu ei amcanion a'i achos yn y byd. Psalm 45. 5.
Gwrthgiliad hollol oddiwrth broffes o'r efengyl, i gyfeiliornadau, halogedigaeth, a gelyniaeth yn erbyn yr efengyl, a elwir 'syrthio ymaith.' Hebreaid 6. 6. 2 Thes. 2. 3.——Cyfeiliorni oddiwrth wir athrawiaeth yr efengyl yn nghylch cyfiawnhad trwy ffydd, a elwir 'syrthio ymaith oddiwrth ras.' Gal. 5. 4.
'Hwy a wnant i'w tafodau syrthio arnynt;' sef eu hunain, pan gospir yr annuwiol am eu geiriau sarhaus, anmharchus, a gelyniaethol. Ps. 64. 8. Edr. CWYMP.

SYRTHNI. Edr. SWRTH.

SYTH—ION, (sy-yth) yn ei uniawn sefyll, wedi ei godi i fynu; caled, anystwyth, wedi cyffio, anhyblyg; ystyfnig, sarug.—'Gwneuthum i chwi rodio yn sythion;' sef mewn rhyddid, heb iau caethiwed, na gormes meistri caled. Lef. 26. 13.——'Syth ydynt hwy;' sef delwau meirwon. Jer. 10. 5

# T.

TAANACH, תענך [*yr hwn sydd yn dy gystuddio*] dinas yn rhandir Manasseh. Jos. 17. 11. 1 Bren. 4. 12.

TAANATH-SILOH, תאנת־שלה [*tori y ffigysbren*] lle yn nghylch deng milltir tu a'r dwyrain o Sechem. Jos. 16. 6.

TABBATH, טבת [*daioni*] Barn. 7. 22. Pa le yr oedd yn sefyll sydd yn anhysbys.

TABEAL, טבאל [*Duw da*] pwy oedd mab Tabeal sydd ansicr, os nad Tabrimmon ydoedd. Esa. 7. 6.

TABEEL, טבאל [*Duw da*] un a wrthwynebodd adeiladu yr ail deml. Ezra 4. 7.

TABERAH, [*llosgfa*] gwersyllfa Israel yn yr anialwch, a alwyd felly am gynneu tân yr Arglwydd yn eu mysg. Num. 11. 3. Deut. 9. 22.

TABERNACL, *Llad.* TABERNACULUM: yr enw Lladin am babell, ac a roddwyd yn ein cyfieithiad ni o'r Bibl i'r iaith Gymraeg dros bump ar hugain o weithiau yn lle pabell. Exod. 25. 9. a 26. 1. a 40. 17. Lef. 26. 11. Heb. 8. 2. a 9. 2, 11, 21. a 13. 10. Dat. 13. 6, &c. Edr. CYSEGR, PABELL.

TABITHA. Edr. DORCAS.

TABOR, *Heb.* תבור [*y bogail*] 1. Mynydd yn tebygu, meddant i dorth o siwgr, o ran ei lun, yn agos i Cades yn Galilea. Jos. 19. 12, 22. Cafodd ei enw, yn arwyddo *bogail*, oddiwrth ei ddull goruchel yn codi mewn gwastadle, sef yn nyffryn Jezreel: neu yn hytrach, gwastadedd arall wrth droed mynydd Carmel, sydd yn amgylchu tair ochr iddo. Ei lun, ei ffrwythlonrwydd, a'i wyrddlesni bythol, sydd yn ei wneuthur yn wrthddrych hyfrydaf i'r golwg. Dywed Josephus ei fod yn bedair milltir o uchder, a bod gwastadle ar ei ben, yn dair milltir o gwmpas, gwedi ei amgylchu â choed, ond y tu dehau. Gwel Josephus *De Bello, lib.* iv. *c.* 2. Mae hanes Maundrell, Pocock, a Thevenot, yn dra gwahanol;* dywedant nad ydyw ei uchder ond milltir a hanner, ac y geill un farchogaeth i'w ben; ac nad ydyw y gwastadle ar ei ben ond hanner milltir o hŷd, a hanner hyny o led. Beth eill fod yr achos o'r gwahaniaeth mawr hwn yn yr hanes nis gwn. Y mae drychiant neillduol o hyfryd i'r llygaid o'i ben; canfyddir oddi yno fryniau Samaria ac Engedi, a mynyddoedd Gilboa, Hermon, a Carmel, Môr Tiberias, a'r dinasoedd Nain, ac Endor, a Saphet, heblaw y dyffryn sydd yn ei amgylchu. I fynydd Tabor yr aeth Barac a'i fyddin, ac wrth odre y mynydd y gorchfygodd Sisera. Barn. 4. 6, 8. Ar ben y mynydd hwn y barnwyd dros oesoedd y gweddnewidiwyd Crist, ond yn ddisail, tybygaf. Edrych GWEDD.——2. Enw dinas a roddwyd gan y Zabuloniaid i'r Lefiaid o deulu Merari. 1 Cron. 6. 77. ——3. Enw lle arall yn agos i Bethel. 1 Sam. 10. 3. ——4. Cisloth-Tabor oedd wrth droed mynydd Tabor. Jos. 19. 12.

* Maundrell's *Journey from Aleppo to Jerusalem.* Theve- *Voyage, p.* i. *c.* 55. Pocock's *Travels, vol.* ii. *Univer- History, vol.* ii.

TABRIMMON, טברמן [*pomgranad da*] tad Benhadad. 1 Bren. 15. 18.

TACL—AU—O—US, (tag) *Saes.* TACKLE; offeryn, arf, erfyn; celfi, trec; trefnus, rheolaidd, hardd, dillyn, destlus, tlws. Taclau llong, yw rhaffau llong. Actau 27. 19.—Taclu cerbyd, sef ei barotoi. Exod. 14. 6.—Taclu y lampau, sef eu trwsio, a rhoddi olew ynddynt. Exod. 30. 7.—Taclu y winwydden, yw ei hamaethu, sef ei glanhau a'i thrwsio. Lefiticus 25. 5. —Taclu y darian, yw parotoi i ryfel. Jer. 46. 3.—— 'A safasant yn daclus,' (Jos. 3. 17.) sef yn drefnus, yn ddigyffro, yn gryf; yn hyf, heb ofn; yn gadarn, heb flino; yn amyneddgar, heb brysuro. Felly y saif Iesu gyd â'i bobl yn mhob cyfyngder a pherygl.

TAD—AU, (ty-ad) *Heb.* אב (*ab*); *Chald.* TAZ; *Arab.* TAT: tadwys: taid, tad cu, tad da, tad gwyn, tad yn nghyfraith, tad bedydd: hendad, gorhendad: tadmaeth, sef tad yn maethu.——1. Tadau, hynaif, hynafiaid. Arwydda tad naturiol, yn briodol a elwir felly, Mat. 2. 22. a 4. 21, 22. a lleoedd eraill, yn aml. ——2. Rhieni, sef y tad a'r fam. Diar. 10. 1.—— 3. Hynafiaid, fel taid, hendaid, gorhendad, &c. Mat. 3. 9. a 23. 30, 32. Ioan 4. 20. a 8. 53. Heb. 1. 1. Gen. 17. 5.——4. Gwr parchus, o herwydd ei oedran a'i urddas, ac yn haeddu ei barchu fel tad. 2 Bren. 5. 13. a 6. 21. a 13. 14. Actau 7. 2. a 22. 1.—— 5. Dychymygwr rhyw gelfyddyd; neu addysgwr eraill mewn rhyw wybodaeth fuddiol. Barn. 17. 10. 1 Samuel 10. 12. 2 Bren. 2. 12. Edrych JABAL, JUBAL.——6. Un y bydd eraill yn tebygu iddo; felly y dywed Crist am yr Iuddewon, eu bod o'u tad diafol, ac nid o Dduw; hyny yw, yr oeddynt yn tebygu iddo. Ioan 8. 42, 44. cymh. Mat. 23. 30, 31, 32. ——7. Dechreuwr neu gychwynwr rhyw beth; felly gelwir y diafol yn dad y celwydd. Ioan 8. 44.—— 8. Un yn ymddwyn yn serchog fel tad tu ag at eraill. Gelwir gweinidogion yr efengyl wrth yr enw hwn,

Digitized by Google

oblegid eu bod yn ddefnyddiol i genedlu plant i Dduw trwy eu gweinidogaeth yn yr efengyl, a'u bod yn addysgu eraill yn dirion, yn serchogaidd, ac yn ddiwyd, fel tad ei blentyn. 1 Cor. 4. 15. Gal. 4. 19. 1 Thes. 2. 7.——9. Un tosturiol ac elusengar wrth y tlawd. Job 29. 16.

Priodolir yr enw hwn i Dduw: 1. Yn yr ystyr mwyaf goruchel, nôd gwahaniaeth y Personau yn yr hanfod dwyfol. Y mae y Tad yn Dad i'r Mab, a'r Mab yn Fab i'r Tad, mewn dull angenrheidiol i fod yn yr hanfod tragywyddol. Hyn sydd yn nodi gwahaniaeth y Personau yn yr un hanfod dwyfol, ynghyd â deilliad yr Ysbryd Glân. Felly y gesyd yr ysgrythyrau Dduw allan; sef yn hanfodi yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân; yn un o ran tragywyddol hanfod, ond yn wahanol Bersonau yn yr hanfod hwnw; y Tad yn cenedlu, y Mab yn genedledig, yr Ysbryd Glân yn ddeilliedig, mewn dull dwyfol a goruchel, parhaol a sefydlog yn dragywyddol. Nis dichon neb wadu y Tad, heb wadu y Mab, ac felly i'r gwrthwyneb, o herwydd yr undeb a'r berthynas hanfodol rhyngddynt. Mat. 28. 19. Ioan 15. 26. a 16. 28. a 20. 17. Act. 2. 33. 1 Ioan 1. 2. a 2. 1. a 5. 7. Yr athrawiaeth hon am y Personau Dwyfol ydyw ffynon a sylfaen yr holl iechydwriaeth, o honi y mae yn deilliaw, ac arni y mae yn gorphwys.

2. Y mae Duw yn Dad i'w bobl yn Nghrist, a thrwy eu hundeb â'r Mab tragywyddol. Nid yn unig y mae yn Dad iddynt, megys i'r holl greaduriaid eraill, fel eu creawdwr, eu cynnaliwr, eu hymgeleddwr, a'u llywodraethwr, ond y mae yn Dad iddynt mewn ystyr mwy goruchel, ar sail y cyfammod gras. Edr. Adenedigaeth, Mabwysiad. Y mae yn sefyll mewn perthynas agos â hwynt fel Tad yn ei holl fawredd dwyfol, ei allu, ei gariad, ei gyfoeth, a'i ras. Fel Tad y mae yn caru, yn arbed, yn ceryddu, yn hyfforddi, yn cyfoethogi, ac yn ymhyfrydu yn ei bobl. Y berthynas rasol hon a'u dyrchafa i'r anrhydedd mwyaf, ac a sicrha iddynt y diogelwch a'r dyddanwch mwyaf. Y mae iddynt gyflawn ryddid i ddyfod ato fel Tad, mewn gweddi, yn eu holl angenoctid a'u trwblaeth; ac yn llaw a than drefniad eu Tad y mae eu holl achosion tymhorol ac ysbrydol. Fel y mae gras Duw, felly y mae eu braint hwythau, yn hyn yn annrhaethol. Edrych Etifedd, Mab, Plant.

'Na elwch neb yn dad i chwi ar y ddaear.' Mat. 23. 9. Na elwch neb yn ben athraw i dra-arglwyddiaethu ar eich ffydd a'ch cydwybod; neu yn ben ar blaid, penderfyniad pa un oedd i awdurdodi ar gydwybodau dynion. Y mae uchelfryd trahaus y cyfryw dadau chwyddedig, ac ufudd-dod distadl, dirmygus, eu canlynwyr, yn annhebyg y naill a'r llall yn gwbl i ganlynwyr syml Crist.

TAD—MAETH—OD, (tad-maeth) un yn maethu fel tad. Num. 11. 12. 2 Bren. 10. 1. Esa. 49. 23. Edr. Blynyddoedd, Mil, Tad.

TADMOR, תדמור [*palmwydd*] yr un a Palmyra, dinas wedi ei hadeiladu gan Solomon. 1 Bren. 9. 18. Yr oedd yn sefyll yn nghylch triugain milltir i'r dwyrain o Damascus, ac ugain milltir i'r gorllewin o'r Euphrates, mewn sefyllfa hyfryd, wedi ei hamgylchu âg anialwch diffaeth, a mynyddoedd o du y dwyrain, gogledd, a gorllewin iddi. Yma yr oedd y beirniad enwog Longinus yn byw; ac yma y sefydlodd Odenatus a'i frenines Zenobia, freniniaeth fechan, ac y gwnaethant orchestion rhyfedd, ond a orchfygwyd yn y diwedd gan y Rhufeiniaid, A. D. 173. Nid oes yno yn bresennol ond yn nghylch deg ar hugain o deuluoedd, truain, ac amledd o adeiladau ardderchog yn peri syndod i bawb a'u gwelant, wedi adfeilio. Yr oedd yno amldra o balmwydd, ffynonau bywiol, ŷd, a ffrwythau. *Ancient Universal History, vol.* ii.

TAEN—U, (ta-en) tanfa, gwasgaru, chwalu, gwasarnu; lledu, gorchuddio. Exod. 9. 8, 10. Job 9, 8. a 36. 30. Ps. 105. 39. Esa. 25. 7.—'A gair yr Arglwydd a daenwyd trwy yr holl wlad.' Act. 13. 49.—'Y cyhoeddit.' W.S.—'A dygwyd.' Dr M. Διεφερετο, *a gariwyd, a ddygwyd.*

TAENELL—IAD—U, (taen) taeniad, ysgaeniad; taenu, ysgeinio, ysgeintio, bwrw am ben.—Yr oedd taenellu y gwaed, yr olew, a'r dwfr neilldual, dan y gyfraith, yn arwyddo glanhad pechaduriaid trwy ffydd yn aberth Crist, ac effeithiol weithrediad yr Ysbryd Sanctaidd ar eu heneidiau. Lef. 14. 7, 16. Esaiah 52. 15. Ezec. 36. 25. Heb. 9. 13. a 10. 22. 1 Petr 1. 2. Edr. Cysegru, Dwfr, Gwaed, Gwahanglwyfus, Offeiriad, Olew.

TAER—ION—NI—U, (ta-er) cymhelliad, annog, dirwasgu, diriaw ar, gyru; haerllugrwydd; llymder, difrifwch.—'Y gweddïaf, a byddaf daer.' Ps. 55. 17. Taerineb mewn gweddi sydd effaith ffydd, a theimlad o angen; ac y mae yn wrthwyneb i ddifaterwch, ffurfioldeb, anghrediniaeth, a digalondid. Nid arwydda anmharodrwydd yn yr Arglwydd i drugarhau, ac ateb gweddi; ond arwydda gryfder ffydd, hiraeth sanctaidd, a rhyddid ysbrydol gyda Duw.——'Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.' Iago 5. 16. Δεησις ενεργουμενη, *gweddi egnïol.* 'Pan fo ffrwythlawn.' Ymyl y ddalen.—'Grymus.' W. S.—'Os ffrwythlawn fydd hi.' Dr M. Gweddi egnïol, weithgar, a ffrwythlon. Luc 18. 11—14.

'Bydd daer.—Ewyllysiwn i ti fod yn daer.' 2 Tim. 4. 2. Tit. 3. 8.—'Tyn rragot, yn amser,' &c. W. S. Arwydda y geiriau fod anhawsdra a phwys y gwaith yn gofyn prysurdeb, dyfalwch, a bod wrtho gyd â'r diwydrwydd mwyaf. Ymegnïo wrtho, er aflwyddo, ac er cael gwrthwynebiad ynddo; glynu wrtho gyd â'r difrifwch mwyaf pan lwyddom ychydig, gan olygu llwyddo llawer mwy.

TAFARN—AU, (taf-arn) *Llad.* Taberna; gwindŷ, medd-dŷ, cyrf-dŷ, diottŷ. Act. 28. 15.

TAFOD—AU, (taf) peiriant ymadrodd; iaith, tafodiaith.

Da daint rhag *tafod. Diar.*

Y tafod sydd ddigon adnabyddus o ran ei sefyllfa, ei ddull, ei ddefnyddioldeb i lefaru, archwaethu, a llyncu, heb achos desgrifiad o hono. Aelod go ryfedd yn y corph ydyw y tafod. Er nad oes ynddo nac asgwrn na chymal, etto nid oes un ystum nas gwna, nac un ffordd nas try. Y mae yn trefnu yr anadl sydd yn dyfod allan o'r ysgyfaint, ac felly yn llefaru, ac yn hysbysu meddwl y naill ddyn i'r llall. Dawn rhyfedd ydyw hwn, etto hyfryd a defnyddiol iawn. Pwy wrth ei ystyried na ryfedda gywreinwaith y Creawdwr doeth, yn rhoddi gallu i ddyn, trwy amrywiol ysgogiadau yr aelod bychan hwn, i hysbysu ei feddwl i eraill trwy y glust. Y mae y tafod yn ei holl ysgogiadau, yn gwbl dan lywodraeth yr ewyllys: o herwydd hyny y rhoddir ef yn yr ysgrythyrau, yn aml, am agwedd meddwl y dyn; megys tafod drwg, gwenieithus, celwyddog, twyllodrus, tafod iach, &c. Ps. 109. 2. a 120. 2. Diar. 17. 4. a 15. 4.

Y tafod, yn nghyd â rhanau eraill o'r genau, sydd yn archwaethu bwyd a diod, &c., ac yn rhoddi hyfrydwch wrth gyfranogi o honynt; oni buasai hyny, byddai bwyta yn faich, ac ni chai y corph ei gyfran addas o fwyd at ei gynnaliaeth. Y tafod hefyd sydd gynnorthwyol i lyncu. Y mae dirgelwch yn mhob rhan o waith y Creawdwr mawr, tu hwnt i'n hamgyffred ni. Beth a bâr y gwahanol archwaethau, sydd anhawdd i neb ddirnad. Blaen y tafod yn y rhan fwya o greaduriaid sydd yn ei ddirnad a'i wahaniaethu; ac er ei fod yn fwyaf yn y tafod mewn dyn, etto y mae

Digitized by Google

hefyd yn y genau,* trwy y gîau *(nerves)* gwasgaredig trosto. Y mae y gîau hyn gwedi eu gorchuddio yn y tafod a'r genau âg amddiffyniad addas rhag niwed, a rhag bod yn ddolurus; etto y mae cymaint o fân dyllau yn y gerwindeb sydd ar y tafod, ag sydd ddigonol i roddi rhydd ddyfodiad i'r archwaethau at y gîau. Y mae cyflëad y synwyr hwn, fel synwyrau eraill, yn y man cymhwysaf yn yr holl gorph, yn agos i'r arogliad, i gyflawni ei swyddau; sef wrth y mynediad cyntaf i mewn o bob peth, i farnu yn brydlawn yr hyn sydd addas a iachus, i'w dderbyn, a'r hyn sydd aflachus, ac i'w wrthod. Y mae y llygaid i oleuo, y trwyn i arogli, a'r genau i archwaethu, pob peth cyn yr elo i'r cylla; ac y mae cangenau o'r un gîau yn perthyn i'r tri synwyr hyn.† Doeth a da yw Duw yn ei holl waith.

Fel mae y tafod yn gywrain yn ei wneuthuriad, ac yn mynegi doethineb y Creawdwr, felly hefyd y mae yn ddefnyddiol, neu yn annefnyddiol iawn, yn yr arferiad a wneir o hono. Y mae dynion o lesâd neu niwed mawr i'w gilydd, yn ol y defnydd a wnant o'r aelod hwn. Yn y dull y defnyddir ef yn gyffredin, y mae yn 'fyd o anghyfiawnder;' sef casgliad mawr o bechodau: fel y dywedwn am fôr o drallodion a phrofedigaethau. 'Y mae yn halogi yr holl gorph;' sef yr holl ddyn, ni ac eraill; 'yn gosod troell naturiaeth yn fflam,' trwy ennyn nwydau poethion llygredig ynom ni ac eraill, y rhai ydynt yn dân uffern cythreulig oddifewn i ni.—'Od oes neb heb lithro ar air,' medd yr apostol, 'gwr perffaith yw hwnw'—sef gwr ysbrydol, cyflawn yn ei rodiad a'i holl ymarweddiad, 'yn gallu ffrwyno yr holl gorph hefyd,' sef yr holl ddyn yn mhob peth. 'Os yw neb yn eich mysg yn cymeryd arno fod yn grefyddol, heb attal (neu *ffrwyno*) ei dafod, ond twyllo ei galon ei hun, ofer yw crefydd hwn.' Iago 1. 26. a 3. 2—13. I'r dyben i ymadrodd y genau fod yn addas ac yn fuddiol, rhaid i barotoad y galon fod o Dduw; 'canys o helaethrwydd y galon y llefara y genau.' Mat. 12. 34. Diar. 16. 1. Heb barotoad y galon o Dduw, yn sanctaidd ac yn rasol, ni bydd yr ymadrodd felly.

Y mae dau beth i'w hystyried mewn perthynas i'n geiriau; sef, 1. Y mater yr ymadroddir yn ei gylch. —2. Y dull.

1. Y mater yw, naill ai Duw, a phethau Duw, ein cymydog, neu ni ein hunain. Yn ymadroddi am Dduw, y mae y trydydd gorchymyn gwedi ei roddi yn rheol i ni; sef na enwom ddim o hono yn *ofer*, hyny yw, yn ysgafn, yn anystyriol, yn ddiles, ac heb achos pwysig yn galw. Yr un fath am holl *bethau* Duw; sef ei air, ei bobl, a'i ordinhadau.—Am ein cymydog, rhaid ystyried yr hyn y byddwn yn myned i lefaru am dano, pa un ai da ai drwg ydyw. Os da, yna bydded i ni siarad am dano yn barod ac yn siriol, yn enwedig yn ei absennoldeb, er parchedigaeth iddo, ac er annogaeth i eraill ddilyn ei siampl. 3 Ioan 13. Ond am y drwg a ŵyr un am ei gymydog, pa un bynag ai rhyw wendid, neu bechod ysgeler, ni ddylai yngan am dano, ond pan o gydwybod i Dduw, y gelwir ef i wneuthur hyny; megys, 1. Pan elwir ef o flaen swyddwyr gwladol, i dystiolaethu am ddrwg a ŵyr am arall.—2. Neu, pan y mae yn ddyled arno rybuddio brawd er ei lesâd.—3. Neu, i ragflaenu niwed i eraill, trwy eu rhybuddio o fai un y byddont yn cymdeithasu âg ef. I'r dyben hyn yr hysbyswyd i Paul gan dŷ Chlöe, am annhrefn eglwys y Corinthiaid, 1 Cor. 1. 11.—yr hysbysodd Joseph i'w dad am ddrygioni ei frodyr, Gen. 37. 2.—ac y dadguddiodd Eliseus holl gyfrinach brenin Syria. 2 Bren. 6. 8. Am hyny y dylid dadguddio pob cyfrinach fradwriaethol, a fyddo er achubiaeth y wladwriaeth. Am bethau anamlwg yn ein cymydog, nid oes i ni fod yn ammheus mewn meddwl na geiriau. 'Cariad ni feddwl ddrwg.' 1 Cor. 13. 5. a 4. 5.—Mewn perthynas i ddyn ei hun, rheol Solomon sydd gymhwys, 'Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun.' Diar. 27. 2. Etto, ar achosion, dylai dyn amddiffyn ei hun, ac arfer math o ymffrost sanctaidd, fel y gwnaeth Paul. 2 Cor. 11. 21.

2. Am y dull a'r modd addas o ymadroddi, dylai fod yn ddoeth, yn brydlon, yn dirion, yn fuddiol, yn ystyriol, yn rasol, a'n geiriau yn anaml. Diar. 18. 13. a 25. 11. Iago 1. 19. Cariad a ddylai lywodraethu ein geiriau, fel ein holl weithredoedd. Edr. ABSEN, ATHROD, CELWYDD, GEIRIAU, GWIR, HUSTING, IAITH, MUD, SAFN, SYCHED, TYNGU.

TAFL—AU—U, (taf) *Heb.* טל (*til*); *Gr.* βαλλω, (*ballô*): ergyd, lluchiad; bwrw, lluchio, ergydio, saethu; taflau, sef clorianau; ffon-dafl. Edr. FFON. Peiriannau i fwrw ceryg â hwynt. 2 Cron. 26. 14. ——1. Bwrw i lawr, gyda diystyrwch ac egni, yn ddiarbed. Dat. 18. 12.——2. Dinystrio yn gwbl ac yn anocheladwy. Exod. 15. 1.——3. Bwrw ymaith, gyda ffieidd-dra. Jer. 7. 15.

TAFLOD—AU, (tafl) hyrtyr, llawr ystyllod, lloffi, y genau, y rhan uchaf o'r genau. Taflod y genau, taflod wair, &c. Edr. GENAU.

TAGU, (tag) mygu, llindagu, sychmurnio.—'A'r drain a'i tagasant ef.' Mat. 13. 7. Marc 4. 7. Luc 8. 7. Edr. DRAIN, HAD, HAU.

TAHAN, תחן [*trugarog*] mab Ephraim, a phenteulu. Num. 26. 35.

TAHAPANES, תחפנחס [*cuddiedig*] dinas yn yr Aipht. Jer. 2. 16. a 43. 7, 8, 9. a 44. 1. a 46. 14.

TAHATH, תחת [*tanodd*] 1. Mab Nachor o'i orderch Reumah. Genesis 22. 24.——2. Gwersyllfa Israel yn yr anialwch. Num. 33. 26, 27.——3. Mab Cohath. 1 Cron. 6. 24.——4. Mab Bered. 1 Cron. 7. 20.

TAHPENES, chwaer brenines yr Aipht, yr hon a roddodd Pharaoh yn wraig i Hadad, mab brenin Idumea. 1 Bren. 11. 11, 19, 20.

TAHTIM-HODSI, *Heb.* תחתים-חדשי *Hodsi isaf*, 2 Sam. 24. 6. neu y wlad isaf, newydd ei hennill oddiar yr Hagariaid, sef yn amser Saul. 1 Cron. 5. 10.

TAIL, (ta-il) *Groeg* τιλος (*tilos*): tom, biswail, ebod, ysgothfa; pridd. Psalm 83. 10. Luc 13. 8.

TAIR, rhyw fenywaidd o tri.

TAITH, TEITHIAU—IO, (ta-ith) hynt, helynt, ymdaith, treigl, cerdded, cerddediad.

Cam dros y trothwy yw hanner y *daith*. *Diar.*

Taith diwrnod a gyfrifir o un ar bymtheg i ugain milltir. Num. 11. 31. Edrych SOFLIEIR.—Barna Shaw fod taith un diwrnod ar ddeg o Horeb i Cades-Barnea, yn nghylch 110 o filltiroedd. Deut. 1. 2.—Taith Sabboth. Edr. SABBOTH.—Cafodd yr Hebreaid 52 o deithiau, neu wersyllfaoedd, o Rameses i Gilgal. Num. xxxiii.

Oddiwrth deithiau Israel yn yr anialwch, gellir casglu llawer o addysgiadau buddiol.—1. Fod Duw yn arwain ei bobl yn mhob oes yn y ffordd uniawn, trwy eu holl daith. Ei golofn a'u cyfarwyddâ pa bryd i gychwyn, a pha bryd i orphwys. Ein harweinydd ydyw gair Duw. Yn dilyn hwn nis dichon i ni gyfeiliorni: pob arweinydd arall a'n dwg ar gyfeiliorn; tueddiad ein natur, fel pechaduriaid, yw cilio oddiwrth Dduw. Mae y gair yn berffaith, ac yn arweinydd anffaeledig i bawb a rodia yn ol y rheol hon. Edr. ARWEINYDD, COLOFN, RHEOL.

* Pliny, *lib.* ii. *cap.* 27.——† Willis, *Nerv. Descrip.* & *Usus. cap.* 22.

Digitized by Google

2. Fod i waredigion yr Arglwydd daith flinedig trwy anialwch y byd i'r Ganaan nefol. Anhawsderau poenus, a phrofedigaethau tanllyd, a'u cyfarfyddant yr holl ffordd: canys felly y trefnodd Duw: 'Yn y byd gorthrymder a gewch.' Ond trwy y gorthrymderau, myned i deyrnas Dduw a wnant yn y diwedd, a melus fydd eu gorphwysfa ar ben eu taith.

3. Fod yr Arglwydd yn rhoddi yr amlygiadau mwyaf dysglaer o hono ei hun, dan y rhagluninethau duaf a mwyaf profedigaethus. Gwnaeth Duw y rhyfeddodau mwyaf ardderchog er ei bobl, tra yr oeddynt yn crwydro yn yr anialwch. Fel yr oedd yn daith o anhawsderau a chyfyngderau i Israel, felly yr oedd yn daith o wyrthiau parhaus o'u plaid. Ar wyrthiau yr oeddynt yn byw yn gwbl. Yr oedd mawredd gallu a gofal Duw o'u plaid yn rhyfedd yn mhob peth.

4. Gwelwn hefyd ddangosiad cywir, er galarus, beth yw dyn dan y cwymp; sef cyndyn, calon galed, gwrthryfelgar, ac anghrediniol, yn wyneb yr amlygiadau allanol mwyaf o fawredd a daioni Duw. Arweiniodd yr Arglwydd hwynt i amgylchiadau ag oeddynt yn rhoddi achlysuron, nid yn unig iddo i amlygu ei ogoniant ei hun, ond hefyd i ddangos yn amlwg y drwg echryslon oedd yn eu calonau, natur ffiaidd pechod, ac anfoddlonrwydd Duw o herwydd pechod yn mhawb. Y mae yn casâu pechod yn mhawb, ond yn benaf yn y rhai agosaf ato, ac a gawsant y profion mwyaf o'i ddaioni. Tra byddo ei farnedigaethau yn dyfetha yr anwiriaid, ni bydd ei bobl yn ddigerydd.

5. Yr oedd yr holl bethau ag oeddynt yn gynnaliaethol, yn feddyginiaethol, ac yn gysurol iddynt yn eu holl daith, yn gysgodau arbenig o'r Arglwydd Iesu; megys y manna, y dwfr o'r graig, y sarph bres, y cwmwl, &c., i ddangos i ni mai 'Crist sydd bob peth, ac yn mhob peth' (neu *yn mhawb*, felly y cyfieitha rhai y geiriau) i'w holl wir bererinion. Dyfod i fynu o'r anialwch y maent, gan bwyso ar eu hanwylyd; fel yr oedd Israel yn cael eu cynnal yn allanol gan y pethau rhag-ddywededig. Y mae eu taith hwy yn gyndlun hynod o daith ysbrydol pob gwir gredadyn. Os nad ydym yn byw ar Grist, ac yn cael ein harwain ganddo, nid tua Chanaan y mae ein taith. Gellir galw eu taith, gyd â'r priodoldeb mwyaf addas, yn *daith y pererin*, o'r Aipht ysbrydol i'r Ganaan nefol; mae yn gynllun ac yn ddangosiad addas o honi. Wrth ewyllys Duw yr oedd eu holl symudiadau, a haelioni Duw oedd eu holl gynnaliaeth. Nid wrth eu hewyllys eu hunain yr ysgogasant, ac nid arnynt eu hunain yr oeddynt yn byw. Nid oeddynt mewn un gradd yn gyfoethocach ynddynt eu hunain yn y diwedd nag oeddynt yn y dechreu: yr oedd arnynt yr un angen am Dduw y naill bryd a'r llall; ac yr oedd ef yn anfeidrol ddigonol iddynt, yn wyneb pob amgylchiad. Eu holl ennill oedd adnabod Duw yn well, a phwyso yn fwy diysgog arno, a thrwy hyny ei anrhydeddu yn fwy.

6. Dysgwn hefyd y dichon dynion fod mewn cyfammod allanol â Duw, a mwynhau breintiau mawrion, ac etto heb eu cyfnewid yn rasol, a chael eu dinystrio gan farn Duw yn y diwedd. Rhyw gymysg rhyfedd ydyw yr eglwys buraf yma yn y byd; ûs a gwenith, morwynion ffol a chall, efrau a gwenith, &c. Mae yr Israeliaid cnawdol, gwrthnysig, â barn Duw arnynt, yn rhybydd i holl broffeswyr cnawdol y byd. 1 Cor. x.

'Yr Iesu gan hyny yn ddiffygiol gan y daith,' &c. Ioan 4. 6. Gallasai yr Iesu, fel Philip, (Act. 8. 39, 40.) gael ei drosglwyddo o le i le gan angelion; ond gochelodd bob ymddangosiad o fawredd ac esmwythder, a dewisodd ymostwng i'r blinder o deithio ar ei draed, o fan i fan, fel y rhoddai ddangosiad i'w holl ganlynwyr o ostyngeiddrwydd a hunan-ymwadiad digymhar, ac fel y bwytâi fara trwy chwys ei wyneb, i dynu ymaith ein melldith ni, ac i gael i'w bobl esmwythdra tragywyddol.—Bywyd llafurus apostol mawr y cenedloedd, oedd bod mewn 'teithiau yn fynych,' yn dwyn yr efengyl ar hyd y gwledydd cenedlig. 2 Cor. 11. 26.

TAL—EDIGAETH—U, (ty-al) *Gr.* τέλος, *(telos)* iawn, tâl, pwyth, gwobr, cyflog, prisio.—Tâl y cenedloedd am eu cam-ddefnyddiad o'u gwybodaeth o Dduw, oedd eu rhoddi i fynu i wyniau a chwantau annaturiol a ffiaidd. Rhuf. 1. 27.——'Cyflawn daledigaeth,' yw cospedigaeth haeddiannol, gyfatebol i'r bai. Heb. 2. 2.——Gelwir dedwyddwch y saint yn y nefoedd, 'taledigaeth y gobrwy.' Heb. 11. 26.

Talu, a arwydda, 1. Rhoddi i un yn ol ei weithredoedd. Esa. 34. 8. a 35. 4. Joel 3. 4. Deut. 32. 41. Job 34. 11. 1 Tim. 5. 4. Ond weithiau, arwydda, rhoddi drwg am dda. 1 Sam. 25. 21.——2. Cyflawni addunedau. Ps. 50. 14. a 66. 13. Jonah 2. 9.——3. Ad-dalu fel arwydd o ddiolchgarwch am ddaioni a chymwynasau. Ps. 116. 12.——4. Ateb gweddïau. Mat. 6. 4.——5. Rhyddhau dyledion. Luc 7. 42. a 10. 35.——6. Cospi. 2 Tim. 4. 14.——7. Ceryddu. Diar. 11. 31.

TALAETH—IAU, (tal) tiriogaeth, tiriogaeth ddibynol, neu ran o ymerodra th. Ezra 4. 15. Galwai y Rhufeiniaid yn daleithiau (επαρχια) y gwledydd hyny a oresgynent, ac a ddarostyngent dan eu llywodraeth. Act. 25. 1.

TALAITH—ION, (tal-aith) tal-lîan, coronig, taleithig, coronbleth.——'Byddi yn dalaith freninol yn llaw dy Dduw.' Esa. 62. 3.—'Ac yn gylch breninol yn llaw dy Dduw.' Dr M. Nid talaith ar ei ben, ond yn ei law. Arwydda y geiriau, 1. Fod yr eglwys yn dra gwerthfawr ac anwyl gan yr Arglwydd, yn mhlith ei dlysau a'i addurniadau; y mae iddo yn enw, yn foliant, ac yn ogoniant, fel y dywed Jeremiah, pen. 13. 11. Yr unig beth ar y ddaear sydd iddo yn harddwch, yn anrhydedd, ac yn ogoniant; y mae gwedi ei harddu ganddo, ac, gyda pharch y dywedwyf, yn harddwch iddo; yn yr un ystyr ag y geilw Paul yr eglwysi, ffrwyth ei lafur yn yr Arglwydd, ei 'lawenydd, a choron ei orfoledd.' Phil. 4. 1. 1 Thes. 2. 19.——2. Bod llawer am ei yspeilio o'r harddwch hwn, trwy ddystrywio yr eglwys yn y byd.——3. Bod gafael hollalluog gan Dduw yn yr eglwys; y mae fel coron yn ei law, ac nis dichon neb ei dwyn o'i law. Ioan 10. 28, 29. 1 Petr 1. 5. Y mae yn anwyl ac yn werthfawr ganddo, ac yn dra diogel yn ei amddiffyniad.

'Gwnaethant hefyd dalaith y goron sanctaidd o aur pur.' Exod. 39. 30.—'Dalen o aur coeth.' Exod. 28. 26. Yr un gair *Heb.* ציץ a gyfleithir yn y ddau fan *talaith* a *dalen, talaith*, yn Lef. 8. 9. Arwydda y gair Hebraeg *blodeuyn*, ac a gyfleithir felly yn Num. 17. 8. Yr oedd y dernyn aur hwn ar lun blodeuyn, tebygol, ac a rwymid â llinyn o sidan glâs o'r tu blaen, wrth y meitr. Yr oedd y ddau air *Heb.* קדש ליהוה a ellir eu cyfieithu, *Sancteiddrwydd i'r Arglwydd*, neu *Sancteiddrwydd Iehofah*, wedi eu naddu ar y ddalen, neu y blodeuyn aur. 'A hi a fydd ar dalcen Aaron, fel y dygo Aaron anwiredd y pethau sanctaidd a gysegro meibion Israel yn eu holl roddion sanctaidd.' Exod. 28. 38. Y geiriau hyn a amlygant ddirgelwch y blodeuyn hwn, a'i arwyddocâd cysgodol; sef cyfryngdod Crist, yr hwn trwy sancteiddrwydd ei natur, a'i sancteiddrwydd yn holl weinyddiad ei swydd offeiriadol, a ddwg anwiredd holl gyflawniadau sanctaidd ei bobl. Ioan 1. 29. 2 Cor. 5. 19. 1 Ioan 2. 1, 2. Yr oedd y cwbl o'r addurn hwn ar dalcen yr arch-offeiriad, yn weledig gan hyny i bawb, yn coffâu iddo ef a'r holl addolwyr, mai un

Digitized by Google

sanctaidd oedd yr Arglwydd—fod ei waith yn sanctaidd—a bod ei sancteiddrwydd yn gweddu ac yn ofynol i'w dŷ byth: hefyd, yn coffâu fod ansancteiddrwydd yn glynu wrth ei bobl yn eu pethau a'u horiau goreu; a bod angen arnynt am Gyfryngwr perffaith sanctaidd, yn iawn ac yn eiriolwr drostynt, i gymeradwyo eu personau a'u gwasanaeth.

TAL—CEN—I, (ta-al) y tu uchaf o'r wyneb; pen celwrn, piniwn tŷ, a'r cyffelyb.—Duw yn gwneuthur tâl Ezeciel yn gryf yn erbyn talceni yr Iuddewon, a arwydda, ei gynnorthwyo yn hŷf i wrthsefyll a dywedyd yn erbyn eu cyndynrwydd, eu drygioni, a'u ffieidd-dra. Ezec. 3. 8.

Nôd Duw, neu nôd Anghrist, ar dalceni, a arwydda, proffes ëofn, gyhoeddus, o grefydd a gwirionedd Duw, ac ufudd-dod iddo; neu, ynte, o ffieidddra ac eilun-addoliaeth anghristaidd. Dat. 14. 1. a 17. 5. a 22. 4.——Arwydda hefyd, diogelwch a hyfforddiad yn nghanol dinystr dychrynllyd. Ezec. 9. 4. Edr. Corn, Nod.

Talcen putain, a arwydda, cyndynrwydd a digywilydd-dra yr Iuddewon mewn eilun-addoliaeth a phob drygioni. Jer. 3. 3. Ezec. 3. 7.

Rhoddi tlws ar dalcen, a arwydda, gwaith Duw yn cyfoethogi yr Iuddewon, a'u gwneuthur yn hardd ac yn anrhydeddus fel gwladwriaeth, a rhoddi ei deml a'i ordinhadau yn eu plith, y tlws mwyaf hardd a gwerthfawr yn y byd.—'Rhoddais hefyd dlws ar dy dalcen.' Ezec. 16. 12. 'Rhoddais hefyd fiswrn (gorchudd) ar dy wyneb.' Dr M. 'Rhoddais dlws yn dy ffroen.' Newcome. Gwisgent, medd ef, dlysau yn y ffroen aswy. Cyfleithir נזם *addurn y trwyn*, yn Esa. 3. 21.—*clust-dlysau*, yn Gen. 24. 47. a 35. 4. Exod. 32. 2, 3. Y mae yn arferiad agos yn yr holl ddwyrain i ferched wisgo tlysau yn eu trwynau, yn gyffredinol yn eu ffroen aswy. 'Nis gwelais un eneth na merch ieuanc yn Arabia, nac yn Persia,' medd Syr John Chardin, 'heb wisgo modrwy a thlysau wrthi yn ei ffroen.' Gwel Harmer's *Obs., vol.* ii. Lowth ar Esa. 3. 21. Priodol ystyr y gair *Heb.* אף yw *trwyn*, ac nid tâl ac wyneb, fel y cyfleithir ef yma, ac mewn manau eraill. Gen. 24. 47. 'Ymgrymodd â'i *wyneb* tu a'r ddaear.' Gen. 19. 1. *A'i drwyn tu a'r ddaear. Heb.*

TALENT, *Llad.* Talentum; *Heb.* ככר *(chicor).* Yr oedd ככר pwysau penodol, neu dalent yr Hebreaid, yn cyfateb i 3000 o siclau. Exod. 38. 25, 26. Hyny yw, yn ol cyfrif Esgob Cumberland, i 933 o bwysau; felly yr oedd talent o arian, yn ol ein harian ni, yn £353 11s. 10c.; a thalent o aur yn £5075 15s. 7c.; ond y mae cyfrif Michaelis yn llai, a chyfrif Arbuthnot yn fwy. Barna rhai fod talent fwy, sef talent y cysegr; a thalent lai, sef y dalent gyffredin, gan yr Hebreaid; ond nid yw hyny yn ymddangos yn eglur yn yr ysgrythyrau.

'Deng mil o dalentau.' Mat. 18. 24. Sef yn nghylch £300,000. Yn nammeg yr Iesu, talent neu bunt, yw unrhyw ddawn neu gyfleusdra a roddo Duw i ddynion, er defnyddioldeb; i rai y rhydd fwy, ac i eraill y rhydd lai, yn ol ei ewyllys ei hun; ond dyled pob un yw defnyddio yr hyn sydd ganddo, gan y bydd rhaid rhoddi cyfrif o'r hyn oll a dderbyniodd pob un i'r Arglwydd. Mat. 25. 15—29. Luc xix. Edr. Gras. I nodi yr anghyfatebolrwydd difesur rhwng troseddau yn erbyn Duw, a'n troseddau yn erbyn ein gilydd, gelwir y naill yn ddeng mil o dalentau, a'r llall yn gan ceiniog. Mat. 18. 24, 28.

Cyffelybir barnedigaethau trymion Duw ar yr Iuddewon, ac ar anghristionogion, i 'dalent o blwm.' Zech. 5. 7. Dat. 16. 21. Edr. Epha.

TALFOEL—EDD, (tal-moel) talcen moel: tu blaen yn llwm, a diwallt.—'Os o du ei wyneb y syrth gwallt ei ben, efe a fydd talfoel.' Lef. 13. 41, 43.

TAL—GRWN—YNRWYDD—YNU, (tal-crwn) crwn-wynebog, byrbwyll; sicrwydd.—'Am pa vn nid oes genyf ddim talgrwn yw escriveny at vy Arglwydd.' W. S. Act. 25. 26. Sef dim (ασφαλες) sicrwydd.——'Gan ddyscu pawp i rodio mewn talgrynrwydd cydwybot.' W. S. Argument yr Epistol at y Rhufeiniaid.

TALGRYF—ION, (tal-cryf) â thalcen cryf, digywilydd, haerllug, anfoesawg.—'Oblegid talgryfion a chaled galon ydynt hwy, holl dŷ Israel.' Ezec. 3. 7. חזקי־מצח וקשי־לב *cryf o dalcen, a chaled o galon.* Yr oeddynt wedi pechu yn erbyn pob rhybuddion ac argyhoeddiadau, ac wedi ymhyfhau a myned yn ddigywilydd, ac yn ddiarswyd yn eu pechodau.

TALGRYNU, (tal-crwn) gwneyd yn wyneb-grwn.—'Na thalgrynwch odrau eich pen.' Lef. 19. 27. Ezec. 44. 20. 'Na thorwch wallt eich pen yn grwn.' Yr oedd y cyfryw ddefod yn arferedig yn mysg y cenedoedd, fel ag y mae hyd heddyw yn mhlith yr Arabiaid, a chenedloedd eraill, er anrhydedd i Bacchus, ac oeddynt yn rhan o arwyl-ddefodau yr hynafiaid. Spencer.

TALITHA, CWMI, *Heb.* כומי *cyfod; Syr.* Talitha, *yr eneth; yr eneth, cyfod.* Y geiriau a arferodd Crist wrth gyfodi merch Jairus. Marc 5. 41.

TALM—ODD—U, (tal) enyd, encyd.—'Ac wedi i dalm o amser fyned heibio.' Act. 27. 9.—'Wedy cerddet llawer o amser.' W. S.—'Yn ol hir o amser.' Dr M.——'Er ys talm o amser.' Luc 8. 27.—'Er ys hir amser.' W. S.——'Dros dalm o amser.' Luc 20. 9.—'Amser mawr.' W. S. Tebygol yr arwydda yspaid *byr* neu *hir* o amser; *ychydig* neu *lawer* o beth.—Mwy o dalm, sef mwy o lawer.—Talmu ar henaint, yw nesu at henaint.—Ar dalmu, sef agos a diweddu.—Nid yw yn talmu ar fy nghalon, sef nid yw yn effeithio ar fy nghalon.

TALMAI, תלמי [*fy nhristwch, gorthrwm*] 1. Mab Anac. Jos. 15. 14.——2. Mab Amihud, brenin Gesur, a thad Maacha, gwraig Dafydd, a mam Absalom a Tamar. 2 Sam. 3. 3. a 13. 37.

TALMON, תלמן [*darpariad*] Lefiad, un o borthorion y deml. 1 Cron. 9. 17.

TAMAID—EIDIAU, (tam) tam, cyfandam, safniad, bochiad, golwyth, dernyn.—Dernyn o fara, Ps. 147. 17.—ychydig o ymborth, Diar. 17. 1. a 23. 8. ——Rhai trwy dderbyn wyneb am damaid o fara, a wnant gam, Diar. 28. 21. sef am ychydig at eu cynnaliaeth. 1 Sam. 2. 36.

'Ac wedi iddo wlychu y tamaid, efe a'i rhoddodd i Judas Iscariot.' Ioan 13. 26. Ainsworth, yn ei sylwadau ar Exod. xii. a ddywed, yr arferai yr Iuddewon wrth fwyta y pasc fath o gyffaith, neu *sauce* tew, a alwent *Haroseth*, wedi ei wneyd o gangenau y palmwydd, neu *resin*, a'r cyffelyb rawn, y rhai a ysigent, ac a'u cymysgent â gwinegr a phethau eraill, i arwyddo y clai o ba un y gwnai eu tadau y priddfeini yn yr Aipht, a elwir yn yr iaith Hebraeg, *Haras, tesla.* Yn hwn, tybygir, y gwlychodd yr Iesu y tamaid, ac a'i rhoddodd i Judas. Tebygol i'r Iesu wylchu y tamaid (ψωμιον, *dernyn bychan o fara*) yn hwn, a'i roddi *yn ngenau* Judas; ac ar ol y tamaid, aeth Satan i mewn iddo, sef a'i meddiannodd, ac a'i prysurodd ef i gyflawni ei amcan bradychus. Tebygol fod ei feddwl yn gythryblus ac yn llidiog, wedi cael ei geryddu o'r blaen am ei waith yn brio ar Mair; ac yn awr drachefn yn cael ei nodi fel y bradychwr gan yr Iesu. Y mae rhyw beth ynfyd iawn yn ymddangos yn holl ymddygiad yr adyn truenus hwn; os cybydd-dod a'i cymhellodd i'r weithred fradychus hon, paham y gwerthodd ef am cyn lleied,

Digitized by Google

pan y gallasai, tebygol, gael llawer mwy? Beth bynag, trödd y cwbl allan o blaid yr Iesu: bu gorfod ar Judas, yr hwn a fu gyd âg ef yn ei oriau mwyaf dirgel, yn gystal ag yn gyhoeddus, dystiolaethu mai un gwirion a diniwed oedd, a chyhuddo ei hun am ei fai erchyll yn bradychu y cyfryw un.

TAMAR, תמר [*palmwydden*] 1. Merch yn nghyfraith Judah. Gen. xxxviii. Edr. ER, JUDAH, ONAN, PHAREZ, ZARAH.——2. Merch Maachah, gwraig Dafydd. Edr. ABSALOM, AMNON, DAFYDD.——3. Merch Absalom, yr hon oedd ferch dêg yr olwg. Yn 2 Sam. 14. 27. dywedir fod i Absalom dri o feibion, ac un ferch, sef Tamar; ond yn 2 Sam. 18. 18. dywed Absalom ei hun, 'Nad oedd ganddo fab i wneuthur coffa am dano.' Rhaid barnu, gan hyny, i'w feibion farw o'i flaen, er nad oes coffa am hyny. Nid oes un ffordd arall i gysoni yr ymadroddion yn y ddau le.——4. Dinas, yn Judea yn sefyll tu a'r pwnc deheuol i'r Môr Marw. Ezec. 47. 19. a 48. 28. Yr un oedd ag Engedi. 2 Cron. 20. 2.

TAMMUZ, תמוז [*dirgel*] 1. Mis Iuddewaidd, yn ateb i'n Mehefin ni; y pedwerydd o'r flwyddyn gysegredig, a'r degfed o'r flwyddyn wladol. Nid oes ynddo ond 29 o ddyddiau. Ar yr eilfed dydd ar bymtheg o'r mis hwn yr ymprydia yr Iuddewon am y llo aur. Yn eu caethiwed yn Babilon ymprydiasant ynddo i alaru o herwydd dinystr Jerusalem. Jer. 39. 2. Zech. 8. 19.——2. Eilun Paganaidd, a'i addoliad o'r ffieiddiaf. Yr un, meddant, ag Adonis, Osiris, Adonosoris, a hwyrach Chemos, a Baal-Peor, a Hercules hefyd. Nid yw holl ddefodau ei addoliad ffiaidd ddim yn werth eu hadrodd. Yn amser Ezeciel yr oedd y gwragedd Iuddewig yn eu cyflawni yn eu holl halogedigaeth anniwair a ffiaidd; sef yr oeddynt gwedi eu llygru i'r graddau mwyaf. Ezec. 8. 14.

TAN, arddodiad; iso, isod, obry, oddi tanodd, tanodd, hyd at, agos.—Tan yr oes hon; tan y fory; tan ammod; tan haul.——O flaen berf yn y modd annherfynedig, ffurfia ran-gymeriad (*particible*) megys, 'efe a aeth dan wylo.' Barn. 1. 7. Deut. 6. 11. Rhuf. 16. 20. Edr. DAN.

TAN—AU, (ta-an) ufel, cynneu, eirias, un o'r elfenau sydd yn rhoddi gwres a goleuni, a ddifa gynnud, a brawf ac a bura fetteloedd: ond priodoledd fwyaf neillduol tân, yn ei wahaniaethu oddiwrth bob elfen arall, yw ei wres: pa beth bynag, gan hyny, sydd yn gwresogi ac yn poethi cyrph, tân yw. Y mae natur tân yn ddirgelaidd ac yn anadnabyddus: yr oedd yr hen Baganiaid yn ei addoli fel Duw. Nid oes dim y mae y gwybyddion presennol yn edrych arno o fwy ei ganlyniad, ac y gwyddir mor lleied am dano, yn holl naturiaeth. Sicr yw mai tân sydd yn peri pob ysgogiad a chyfnewidiad yn holl naturiaeth: heb dân byddai pob corph yn anysgogadwy; fel y canfyddir mewn gauaf oer bob llif-nôdd yn caledu yn ei absennoldeb. Heb dân ynddo caledai corph dyn yn ddelw farw, ac ymlynai yr awyr yn gorph caled. Gan hyny tân yw yr achos cyffredinol o bob cyfnewidiad; canys y mae pob cyfnewidiad trwy ysgogiad, a thân sydd yn achosi pob ysgogiad.

Gwahaniaetha Boerheave enwog dân yn ddau fath, sef yr *elfenol* a'r *ceginol*. Y tân pur, elfenol, ydyw hwnw sydd yn bod ynddo ei hun, ag sydd yn unig yn briodol i'w alw yn dân. Y tân cyffredin, neu ceginaidd, a geir mewn cyrph tanllyd, neu a gynhyrfir gan y llall mewn cyrph hylosg, gronynau mân pa rai yn ymuno efo gronynau pur y tân a wnant fflam, rhan fechan o ba un sydd dân pur. Tân pur yw hwnw a gesglir â llosg-wydr, heb fflam, mwg, na lludw, a'r cyffelyb; yn ganlynol, nid tân pur, syml, yw hwnw sydd yn fflamio, yn mygu, &c., mewn cyrph tanllyd. Y mae y tân pur, elfenol hwn, yn anweledig ond yn ei effeithiau: yr effaith cyntaf a ganfyddir yw gwres; ac y mae y gwres yn cyfateb i'r gradd o dân fyddo yno: felly y mae gwres yn anysgaredig oddiwrth dân.

Yr ail effaith ydyw ymlediad neu ymëangiad yn mhob corph cyfansawdd, caled; a theneuhad yn mhob llif-nôdd. Amlygir, trwy amrywiol brofion, fod y ddau effaith hyn yn anwahanol oddiwrth dân. Cynnydda haiarn yn mhob mesur wrth ei boethi, yn ol gradd y poethder ynddo; a lleiha drachefn yn ol y gradd yr oera, fel na bydd ddau fynyd o'r un maintioli. Yr un fath y gwna yr aur pur, y corph trymaf o'r cwbl: yr un fath y gwna arian byw, y trymaf o'r holl lif-noddau. Effeithia yr un gradd o dân yn gynt ac yn fwy ar lif-nôdd nag ar gorph caled, cyfansawdd. Hefyd, po ysgafnaf fyddo y llif-nôdd, mwyaf yr ëanga y tân ef; megys yr awyr, yr ysgafnaf o'r holl lifnoddau. Y mae yn amlwg, gan hyny, mai effaith tân yw pob ysgogiad: heb hwn byddai holl naturiaeth yn un corph cyd-gysylltiedig mor sylweddol ag aur, ac mor galed a *diamond*. Y mae y tân elfenol hwn yn gydradd yn bresennol yn mhob man, bob amser, ac yn mhob corph: ar ben y mynyddoedd uchaf, yn yr ogofëydd dyfnaf, yn y gauaf oeraf, pa un a fyddo yr haul yn tywynu ai peidio, gellir casglu y tân hwn trwy rwbio dau gorph cyfansawdd wrth eu gilydd, ac amrywiol ffyrdd eraill. Ond nis gellir cenedlu tân lle nad oedd tân o'r blaen; na throi dim yn dân, ond yn unig ei gynnull at ei gilydd. Er rhwbio dau ddernyn o aur wrth eu gilydd ar ddiwrnod oer yn y gauaf, hyd nes y poethont yn raddol yn eirias boeth, ac yn barod i doddi, er eu bod yn arogli ac yn cynnyddu, etto nis collant ddim o'u pwysau. Prawf yw hyn nad ydyw y gronynau aur yn troi yn dân; ac nad ydyw yr ymrwbiad ond yn casglu y tân oedd yn wasgaredig o'r blaen yn nghorph yr awyr. Yr hyn oll a ellir wneyd yw, nid ei ennyn lle nad oedd, ond ei gasglu—ei wneuthur yn deimladwy—ei gynnull o le mwy i le llai—a'i gyfarwyddo i leoedd yn neillduol. Nid oes dim llai tân yn nghorph yr awyr yn y nos nag yn y dydd, ond fod yr haul yn effeithio mwy arno pan fyddo uwchlaw y terfyn-gylch.

Yr unig borthiant i dân yn yr holl greadigaeth yw olew *sulphur*, neu y brasder, neu, yn hytrach, y rhan losgadwy sydd yn mhob rhyw gorph neu ddefnydd; ac y mae cyrph yn danwydd yn unig o achos yr olew hwn sydd ynddynt; hwn sydd yn derbyn, yn cadw, ac yn cael ei ddifa gan y tân, neu, o'r hyn lleiaf, yn cael ei wneuthur yn annheimladwy. Rhaid i'r tân sydd yn difa cyrph llosgadwy gael awyr i'w gynnal; ac onidê, os cymerir yr awyr ymaith, gwasgar a diffodda yn y fan. Po drymaf y byddo yr awyr yn pwyso, mwyaf fydd angerdd y tân; am hyny y llosga tân yn y gauaf oer yn fwy tanbaid nag mewn tywydd poeth yn yr hâf, am fod yr awyr yn drymach ar oerfel nag ar wres. Ond y modd yr effeithia y naill elfen ar y llall, sydd anhawdd ei amgyffred yn gwbl.

Heblaw y tân haulog, mae tân hefyd dan y ddaear. Ymddengys hyn yn amlwg wrth gloddio i'r ddaear; mae y briddell gyntaf dan yr arwyneb yn gynhes oddiwrth wres yr haul, ond y mae yn oeri fel yr eloch yn ddyfnach; ond pan dreiddir i ryw ddyfnder, megys 40 neu 50 o droedfeddi, dechreua gynhesu, fel nas gellir cadw rhew neu iâ yno; ac wrth fyned etto yn ddyfnach, bydd mor boeth nas gellir anadlu yno, na llosgi canwyllau, &c. Ac os anturia y mwngloddiwr etto yn ddyfnach, a dwyn canwyll gyd âg ef, gesyd yr holl fan yn fflam, er ei fawr berygl. Oddiwrth y tân hwn mae y mynyddoedd tanllyd, a'u ceu-foliau llosgedig. Tebyga y tân hwn yn fwy i'r tân *ceginaidd*, nag i'r tân *elfenaidd*. Tafla geudyllau llosgedig y mynyddoedd tanllyd hyn, lô gwedi ei losgi i fynu, marwor, delidau toddedig; ffynonau poethion, angerdd, tarth, &c., mewn amryw fanau o'r



Digitized by Google

ddaear, gwedi eu heffeithio yn y cyffelyb fodd, agos, a phe buasent gwedi eu hachosi gan bair mawr cyffredin. Dywed Martin, yn ei *Atlas*, fod pydewau o dân yn China, yn ddigon poeth i gegina bwyd, ac etto heb ddifa coed. Hyn sydd ryfedd, *os gwir*. Mae yn Ewrop bump o fynyddoedd tanllyd nodedig, sef Ætna, yn Sicily; Vesuvius, yn Naples; y trydydd yn Strongylis; y pedwerydd yn Hecla, yn Iceland; a'r pummed yn Chimera, yn ngwlad Groeg. Y mae amryw o honynt yn Asia; sef yn mynyddoedd Persia, ac ynysoedd Ormus, Ternate, Java, Sumatra, Japan, Molucca, a'r Philippine. Ië, yn Tartari Ogleddol, a Greenland, y mae amryw o honynt. Yn mynyddoedd yr Andes, yn America Ddeheuol, y mae dros 28 o safnau tanllyd. Yn Hispaen Newydd y mae tri yn llosgi yn ffyrnig. Yn Terra del Fuego y mae amryw. Beth sydd yn Affrica ni wyddis etto.*

Y Persiaid a addolent dduw yr elfen dân, dan lun tân. Dywedir fod ganddynt dân yn yr ymerodraeth hòno yn awr sydd wedi llosgi filoedd o flynyddoedd.

I amlygu ei fawredd, ac i beri parch i'w fawrhydi, ymddangosodd yr Arglwydd, yn aml gynt, mewn tân; megys i Moses yn y berth; i'r Israeliaid ar Sinai; i Ezeciel, a Daniel, &c. Exod. 3. 2. a 19. 18. Ezec. 1. 4. Dan. 7. 10. Ac yn y dydd diweddaf daw Crist â thân fflamllyd. 2 Thes. 1. 8.

1. Cyffelybir Duw i dân, o herwydd ei burdeb, ei fawrhydi, ei ddigofaint tanllyd, yn barod i ddinystrio y neb a'i gwrthwynebo. Tân ysol ydyw. Deut. 4. 36. Esa. 10. 17. Heb. 12. 29.

2. Cyffelybir Crist i dân; profa feibion dynion fel tân—pura a chysura ei bobl—a chwbl ddinystria ei elynion. Mal. 3. 2. Ezec. 1. 27. a 8. 2.

3. Cyffelybir yr Ysbryd Glân i dân, i ddynodi ei waith yn goleuo, yn puro, ac yn tywallt cariad Duw yn wresog yn nghalonau y duwiolion. Mat. 3. 11. Act. 2. 3. Esa. 4. 45.

4. Eglwys Dduw a gyffelybir i dân; mae yr Ysbryd Glân yn danllyd ynddi—mae ei serchiadau yn wresog ac yn danllyd tu ag at Dduw, a thros ei achos yn y byd—ac yn aml y mae yn llawn o brofedigaethau tanllyd; ond gorfydda a dyfetha ei holl wrthwynebwyr. Obad. 18.

5. Yr angelion a gyffelybir i dân, o herwydd purdeb eu natur—eu hawydd tanllyd—a'u cyflymdra anwrthwynebol yn cyflawni gorchymynion Duw. Ps. 104. 4.

6. Mae gair Duw fel tân, yn profi cyflyrau dynion—yn toddi, yn puro, yn gwresogi, ac yn cysuro calonau etholedigion Duw—ac yn ninystr yr annuwiolion y bydd ei fygythion tanllyd yn cael eu cyflawni, ac nis dichon iddynt ddianc. Ps. 21. 9. Teimlodd ei bobl yn aml ei effeithiau tanllyd yn gweithredu ynddynt. Jer. 20. 9. a 6 11. Ps. 39. 3.

7. Annuwiolion a gyffelybir i dân, yn enwedig rhagrithwyr chwannog, beilchion; y maent yn ffiaidd gan Dduw, ac yn dra niweidiol i ddynion. Diar. 6. 27. Esa. 65. 5.

8. Digofaint Duw a phoenau uffern, a gyffelybir i dân, i ddangos mor ofidus a dychrynllyd ydynt. Galar. 2. 3, 4. Esa. 33. 14. a 66. 24. Mat. 25. 41. 'Lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd.' Marc 9. 44. Tybyga rhai fod cyfeiriad yn y geiriau at ddwy ffordd o gladdu yn mhlith yr hynafiaid; sef trwy roddi yn y ddaear, a thrwy losgi: fel pe dywedasai yr Arglwydd, Ni bydd y corph y pryd hwnw fel yn bresennol, canys ni ddichon gael ei ddifa na'i ddystrywio. Yn ei gyflwr naturiol, dichon y pryf ddyfetha y cwbl, a marw o eisieu cynnaliaeth; dichon y tân ei ddifa, a diffodd o eisieu tanwydd. Ond yno bydd ymborth parhaus i'r pryf, a thanwydd parhaus i'r tân. 'Yr Arglwydd Hollalluog a ddial arnynt yn nydd y farn, trwy anfon tân a phryfed ar eu cnawd: a hwy a wylant gan eu clywed yn dragywydd.' Judith 16. 17. Edr. Uffern.

9. Profedigaethau o bob math a gyffelybir i dân, o herwydd eu heffeithiau yn profi ac yn puro y saint, ac yn poeni ac yn dystrywio annuwiolion. Esa. 43. 2. 1 Petr 1. 7.

10. Pechodau o amrywiol fath ydynt yn tebygu i dân; y maent yn ymledu, yn niweidiol, ac yn ddinystriol. Esa. 9. 18. a 50. 11. Diar. 16. 27. Edr. Abel, Abihu, Abraham, Allor, Cysegru, Gideon, Llosgi, Nadab, Teml.

TANACH. Jos. 21. 25. Edr. Taanach.

TANGNEFEDD—U—WR, (tanc-nef) heddwch, llonyddwch, esmwythdra.—1. Heddwch a chymmod â Duw trwy Grist, yr hwn yw yr iawn dros ein pechodau ni, a thrwy hyny ein tangnefedd ni. Eph. 2. 14.——2. Heddwch cydwybod a meddwl, trwy gredu yn Nghrist. Rhuf. 14. 17.——3. Heddwch a chytundeb cariadus rhwng brodyr Cristionogol, a diogelwch rhag gelynion. Diar. 16. 7. Gal. 5. 22.

'Efe a â i dangnefedd;' sef i gyflawn esmwythder a dedwyddwch. Esa. 57. 2.

'Ac ar y ddaear tangnefedd.' Luc 3. 14. Nid peth bach yw bod tangnefedd ar y ddaear, lle y mae cymaint o achos anfoddlonrwydd; ond Crist a'i aberth a wrth-weithredodd y cwbl: am fod Crist ar y ddaear, y mae digonol achos tangnefedd ar y ddaear. Rhaid bod tangnefedd yn y nef tu ag at y ddaear, cyn y dichon bod tangnefedd ar y ddaear. Trwy ddattod gweithredoedd y diafol, myn dangnefedd i ddynion. Luc 19. 38.

'Mab tangnefedd;' sef un heddychol, yn caru yr efengyl, ac yn derbyn ei chenadon yn llawen, er cariad ati, a'r awdwr o honi. Yn gyffelyb y gelwir rhai, plant anufudd-dod—digofaint—Belial. Eph. 1. 2, 3. 1 Petr 1. 14. 1 Sam. 25. 17.

'Efengylu tangnefedd,' yw pregethu efengyl y tangnefedd; neu gyhoeddi ffordd tangnefedd trwy Grist. Nid oes neb yn gwir bregethu yr efengyl, heb ei phregethu fel yn dadguddio ffordd o dangnefedd a chymmod â Duw. Rhuf. 10. 15. Edr. Efengyl, Heddwch, Tywysog.

TANHUMETH, תנחמת [*dyddanwch*, neu *edifeirwch*] tad Seraiah, un o dywysogion y lluoedd pan gymerwyd Jerusalem gan y Caldeaid. Jer. 40. 8.

TANLLWYTH, (tân-llwyth) tân mawr fflamllyd.—'Minnau a wnaf ei thanllwyth yn fawr.' Ezec. 24. 9. Sef ei chospedigaeth yn drwm ac ofnadwy.

TANLLYD.—Gelwir pob peth yn danllyd a fyddo yn ddychrynllyd, yn boenus, yn beryglus, yn niweidiol, ac yn ddinystriol; megys digofaint Duw, Heb. 10. 27.—temtasiynau y diafol, a phrofedigaethau y saint. Eph. 6. 16. 1 Petr 4. 12. Edr. Cleddyf, Cyfraith, Elias, Ffwrn, Llyn, Picell, Profedigaeth, Putain, Sarph, Tarian.

TANT, TANNAU, (tan) cynhyrfiad byrbwyll, gloes, ing, ymguro, ias boethlyd, mympwy, gwamalder; llinyn; tant telyn. 1 Sam. 18. 6. Ps. 150. 4.—Tannau o lawenydd, sef cyrch disymwth o lawenydd:—tannau gwylltion, sef cyrch-wyllt y nwydau:—tannau dolur, sef gloesion:—tannau poethion:—tannau yr ewinrew, &c.

TAPPUAH, תפוח [*afal*] 1. Dinas yn perthyn i

* Ceir fod tros 300 o fynyddoedd tânllyd ar y ddaear. O'r rhai hyn, y mae 24 yn Ewrop, sef 4 ar y cyfandir, ac 20 yn yr ynysoedd:—y mae 40 yn Asia, sef 17 ar y cyfandir, a 29 yn yr ynysoedd:—y mae 11 yn Affrica, sef 2 ar y cyfandir, a 9 yn yr ynysoedd:—y mae 114 yn yr America, sef 86 ar y cyfandir, a 28 yn yr ynysoedd:—ac y mae 108 yn ynysoedd y Mor Tawel (*Pacific Ocean*). Aconcagua, yn Chili, America Ddeheuol, yn 23,910 o droedfeddi o uchder, yw yr uchaf y gwyddis am dano. Gwel Milner's *Universal Geography*.—C.

Digitized by Google

Ephraim. Jos. 16. 8.——2. Dinas yn Judah. Jos. 15. 34. Hwyrach yr un a Beth-Tappuah. Adn. 53.

TAPHATH, merch Solomon, yr hon a roddodd ei thad yn wraig i fab Abinadab, yr hwn oedd y llywydd ar holl ardal Dor. 1 Bren. 4. 11.

TARAH, un o wersyllfaoedd Israel yn yr anialwch. Num. 33. 37.

TARALAH, תראלה [*holwr*] dinas yn rhandir Benjamin. Jos. 18. 27.

TARAN—AU, (tar) *Gwydd.* TORAN; *Llad.* TRONITRU: tyrfau, trwst, trwst wybrol; trwst a wneir yn y parthau isaf o'r wybr, trwy daran-doriad cymylau, gwedi eu gorlenwi â thân trydanol (*electrical fire*). Ar ol llawer o wahanol feddyliau gan y gwybyddion am y taranau, a'r achos o honynt, yn nghylch A. D. 1752, cafwyd allan, trwy brofion aml ac eglur, fod cyffelybrwydd a pherthynas neillduol rhwng tân y taranau a'r hyn a eilw y doethion dysgedig, trydaniaeth (*electricity*) sef y ddyfais o dynu tân o'r ddaear at gorph dyn; a bod y tân hwn a'r tân sydd yn y cymylau taranllyd, *yn gwbl o'r un natur*. Dr Franklin, yn America, a ddychymygodd farcutan papur, â gwïalen, neu edef o haiarn fain yn ei ben; dyrchafodd hwn i'r cymylau yn amser taranau, ac a dynodd dân o'r cwmwl i'r phiol berthynol i'r peiriant oedd yn tynu tân o'r ddaear, ac a'i llanwodd o'r cymylau â'r un fath dân ag o'r ddaear. Hyn a wnaeth yn Mehefin, 1752. ——Dau gwmwl, un yn llawn o'r tân hwn, a'r llall yn wag o hono, yn taro yn erbyn eu gilydd, ac arloesiad y tân trwy hyny, sydd yn peri y mellt a'r taranau. Y tân hwn a esgyn o'r ddaear, yr hon sydd yn dra llawn o hono, i'r cymylau, y rhai a'i cynnwysant, ac a'i dygant o'r naill fan i'r llall, lle y byddo angen am dano. Pan y byddo y cwmwl wedi ei orlenwi â'r tân, gollwng ef allan yn y modd hwn i'r ddaear, yn gyffredinol mewn manau lle y mae angen am fwy o hono. Er fod rhai pethau yn dra eglur trwy brofion, etto y mae mwy o ddirgeledigaethau heb eu gwybod nag a wyddis mewn perthynas i hyn.

Y man mwyaf diogel rhag niwed oddiwrth y mellt mewn ystafell, ydyw eistedd ar un gadair, a'r traed ar gadair arall. Neu ar ddau neu dri o welyau gwedi eu plygu ar eu gilydd, a'r gadair arnynt i eistedd: ond y mae gwely crog, neu wely morwr, yn well na hyny. Gwell na'r cwbl ydyw diod-gell dan y ddaear. Yn y maes, y lle diogelaf ydyw o fewn ychydig latheni at goeden, ond nid dani. Y mae dillad gwlybion yn ddiogelach na sychion.

Gellir barnu am agosrwydd neu bellder y daran, wrth yr amser y bydd y sŵn yn cyrhaedd ein clustiau gwedi i'n llygaid ganfod goleuni y fellten. Y ddau a ddygwydd ar unwaith, ond cyflymach ydyw y goleuni na'r sŵn yn dyfod atom. Gan hyny, os bydd y sŵn yn hir ar ol y goleuni, mae y cwmwl taranllyd yn mhell; ond os yn fuan, mae yn agos.

Y mae hanesion credadwy am ddisgyniad haiarn a cheryg mawrion yn amryw barthau o'r byd yn amser taranau. Dywed Juli-Scaliger fod ganddo yn ei feddiant ddarn o haiarn a syrthiodd yn Savoy. Cardan a rydd hanes am 1200 o geryg a syrthiasant o'r nefoedd, rhai yn pwyso 30 pwys, eraill 40 pwys, ac un 120 pwys, oll yn galed, ac o liw haiarnaidd.

Rhydd Elihu ddesgrifiad hardd a godidog o'r taranau, yn Job 37. 1—4. Heb sylwi ar ail achosion, er bod Duw yn gweithredu trwy y rhai hyny, y mae yn clywed llais Duw ynddynt yn ofnadwy, a'i galon yn crynu ac yn dychlamu o'i lle.——Yn Ps. xxix, gesyd y Psalmydd allan, mewn cân ardderchog, oruchder llywodraeth a mawredd gallu anfeidrol Duw yn y taranau; eu sŵn dychrynllyd, a'u heffeithiau ofnadwy, y rhai a eilw efe, 'llef Duw.'——Cyffelybir pregethiad yr efengyl i daranau, am fod Duw yn cyffroi dynion, ac yn dangos ei fawredd trwyddi. Marc 3. 17. Dat. 14. 2. a 19. 6.——Cystuddiau a thrallodau dinystriol hefyd, a gyffelybir i daranau; y mae Duw trwyddynt hwy yn dychrynu dynion, ac yn dangos ei fawredd ofnadwy ei hun. Esa. 29. 6.——Y 'mellt, a'r taranau, a'r lleisiau, yn dyfod allan o'r orsedd-fainc,' a arwyddant anfeidrol fawredd yr Arglwydd, yn ei amrywiol oruchwyliaethau ofnadwy tu ag at ddynion yn y byd. Dat. 4. 5. Cymh. pen. 8. 5. a 10 3, 4. a 11. 19. a 16. 18. Exod. 19. 16.——'Taranau cadernid Duw,' a arwydda mawredd ac ardderchogrwydd yr Arglwydd, ac effeithioldeb ei holl weithrediad. Job 26. 14.—— 'Yn nirgelwch y daran.' Psalm 77. 18. Edr. DIRGELWCH.

'Meibion y daran.' Marc 3. 17. Rhoddodd yr Arglwydd Iesu yr enw Boanerges, sef *meibion y daran*, ar Iago a Ioan, nid am eu bod hwy yn arswydus a dychrynllyd yn eu dull yn gweini y gair, rhagor y lleill o'r apostolion; ond i grybwyll am y nerthoedd buddugoliaethus a fyddai yn gweithredu trwy eu gweinidogaeth, a'r gwyrthiau mawrion a wnaent gyda hyny i ddelwi a gwaradwyddo gelynion yr efengyl. Y mae hyn yn ymddangos yn fwy rhesymol achos o roddi yr enwau arnynt, os ystyrir mwyneidd-dra ysbryd Ioan, a'i ddull tirion o ysgrifenu.

TARDD—U, (tar) ffrydio, rhedeg allan, blaguro, egino, tyfu, dechreu tyfu. Priodolir tarddu i ddwfr, neu i laswellt, neu ŷd. Gen. 41. 6. Deut. 8. 7. Joel 2. 22. Ioan 4. 14.

TARF—U, (tar) gyru ymaith, cadw oddiwrth, dychrynu, gwasgaru. Genesis 15. 11. Deut. 28. 26. Esa. 13. 14. Zech. 1. 21.

TARAW—YDD—WR, (tar) *Gr.* τραυω (*trawo*) curo, pwyo, cnithio.—1. Curo. Marc 14. 65.—— 2. Cystuddio, cospi. Esa. 1. 5. a 53. 4, 8.——3. Tarawydd ydyw un parod i daraw am ychydig neu ddim achos. Titus 1. 7. Edr. DYRNOD.

'Ni'th dery yr haul y dydd, na'r lleuad y nos.' Ps. 121. 6. Y mae yr hanes canlynol yn rhoddi eglurhad goleu a boddlongar ar y geiriau hyn:—'Yn un parth o'r wlad, yn agos i Benares, dros gant o bobl a fuont feirw y tymhor hwn, gwedi eu haul-daro. Yn hyn cawsom ni drugaredd fawr; er bod y teulu mor lliosog, ni tharawyd ond tri o'n hysgoleigion, ac adferwyd hwynt mewn ychydig ddyddiau.' Gwel *Periodical Account of the Baptist Missions, part* 15. Nid anaml y bydd rhai yn cael eu taraw i lawr, os nid yn farw, yn Ffrainc, a pharthau eraill o Ewrop, os dygwydd i'w penau ddyfod i lewen (*focus*) yr haul, ar ddydd gwresog yn yr hâf. Mae Duw yn ddiogelwch digonol i'w bobl rhag pob peth.

TARIAN—AU, (tar) bwcled, aes, ysgŵyd, astalch. Y mae dau air Hebraeg am darian, sef מגן (*mgen*) a צנה (*tsane*). Nid hawdd nodi y gwahaniaeth rhyngddynt; ond mae yn eglur fod צנה *tarian*, yn fwy na'r מגן *bwcled*, oddiwrth 1 Bren. 10. 16, 17. 2 Cron. 9. 15, 16. Cymh. 1 Sam. 17. 7, 41. Ps. 5. 12. Yr ydoedd tarianau Solomon yn cynnwys chwe chant o siclau o aur; ond nid ydoedd y bwcledau yn cynnwys ond tri chant. Hwyrach mai yr holl wahaniaeth oedd, fod un yn fwy na'r llall; neu fod oddf neu foglyn pigfain, neu â phicell ynddo, ar ganol y darian, nid yn unig i daflu ymaith arfau y gelynion, ond hefyd yn ddefnyddiol i'w gwthio hwynt âg ef. Dernyn o arfogaeth amddiffynol ydoedd y darian, a ddygent yn y llaw aswy, i droi ymaith ergydion saethau, cleddyf, neu waewffon. Eu defnydd cyffredin ydoedd darnau o fyrddau celyd, gwedi eu gorchuddio â phlygiadau o grwyn; weithiau gwnaent hwynt o aur, arian, pres, &c. Crogai y buddugoliaethwyr, weithiau, brif darianau eu gelynion yn eu temlau, neu dyrau, fel arwyddion buddugoliaethus. Yr ydoedd yn nhŵr Dafydd, fil o honynt,

Digitized by Google

'i gyd yn estylch y cedyrn.' Can. 4. 4. Gwnaeth Solomon ddau cant o'r mwyaf, a thri chant o darianau llai, o aur dilin, ac a'u crogodd hwynt yn nhŷ coedwig Libanus, i'w dwyn, tebygol, gan ei wyr o gard ar ryw achosion arbenig. Sisac brenin yr Aipht a gymerodd y rhai hyn ymaith, a Rehoboam a wnaeth rai pres yn eu lle. 1 Bren. 10. 16, 17. a 14. 26, 27.

Gwaith Duw yn ymaflyd yn y darian a'r astalch, a arwydda rhag-barotoad rhagluniaethol er diogelwch a chymhorth ei bobl, a dinystr ei elynion. Ps. 35. 2.

Duw a'i wirionedd ydyw tarian ac astalch ei bobl; sef eu hunig amddiffynfa a'u diogelwch. Trwy gyflawni ei addewidion y mae yn eu diogelu; a ffydd yn y gwirioneddau dwyfol sydd yn troi ymaith, neu yn diffoddi holl bicelliau tanllyd y fall. Ps. 5. 12. a 18. 2, 35. a 21. 4. a 33. 20. a 84. 11, &c. Gen. 15. 1. Eph. 6. 16. Edr. DIFFODD, PICELL. Addewidion Duw, a'r holl wirioneddau dwyfol, ydyw y 'tarianau fil' sydd yn crogi wrth wddf yr eglwys; sef yn ngafael ei ffydd, yn barod i'w defnyddio wrth raid; y rhai hyn oeddynt estylch holl gedyrn Duw yn mhob oes, ac y maent etto yn parhau wrth wddf y wir eglwys, ac nid ymladd âg arfau eraill. Can. 4. 4.

Gelwir swyddwyr gwladol hefyd wrth yr enw hwn, o herwydd eu gwaith yn amddiffyn trigolion y ddaear rhag gerthrymder a thrais. Ps. 47. 9.

'Efe a rêd yn y gwddf iddo ef, trwy dewdwr tôrau ei darianau.' Job 15. 26. Darluniad ydyw y geiriau hyn o ddyn yn ymosod mewn ymladdfa ar un arall; yr un fath y mae cawri uffern, sef annuwiolion celyd galon, yn ymosod yn rhyfygus yn erbyn Duw; rhedant ar ei wddf, neu â'u gyddfau anmhlygedig, yn ddiarswyd; ar dewdwr tôrau ei darianau. *'On the thick bosses of his bucklers;' Saes. Ar foglynau tewion ei darianau.* Yr oedd boglynau ar y tarianau gynt, er harddwch iddynt, ac un ar y canol, â phicell lem ynddo; ac os gwasgai un yn agos at y boglyn uchel hwn, y bicell ynddo a'i brathai ac a'i harchollai ef. Ond yr annuwiol a ymosoda yn rhyfygus fel hyn yn erbyn y Duw mawr, er ei niwed a'i ddinystr tragywyddol ei hun. Dengys y geiriau hyn yn hynod i ba raddau y dichon dynion ymgaledu yn rhyfygus ac yn gableddus yn erbyn Duw, er ei fod i'w dinystr dychrynllyd eu hunain.

TARIO, (tar) cyffwrdd, taro yn erbyn; aros, trigo, gohirio.—'Ac efe a dariodd gyd âg ef dridiau.' Barn. 19. 4. 1 Tim. 3. 15.

TARTH—OEDD—I, (tar) *Heb.* קטרת (*cetoreth*); ager, agerdd, mygdarth, chwysigenau neu ronynau bychain o ddwfr wedi eu llenwi âg awyr, trwy wres yn dyrchafu i ryw uchder yn y ffurfafen, yw tarth; yno y cynnelir hwynt gan bwysau corph yr awyr nes dychwelant i'r ddaear yn wlith, gwlaw, tarth, &c. Cydgasgliad o honynt ydyw y cymylau. Edr. CWMWL, GWLAW, GWLITH. Mae llawer mwy o wlybwr yn esgyn yn darth nag sydd yn disgyn yn wlaw.—Barnedigaethau Duw, neu y mwg yn esgyn wrth losgi Jerusalem, a elwir yn 'darth mwg.' Actau 2. 19.

Bywyd dyn sydd fel tarth, yn ddisylwedd, yn fyr, ac yn hawdd ei ddystrywio. 'Canys beth ydyw eich einioes chwi? Canys tarth ydyw, yr hwn sy dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hyny yn diflanu.' Iago 4. 14. Llawer o ddarluniadau hardd sydd wedi eu rhoddi gan brydyddion ac eraill, o fyrdra, ansicrwydd, ac anwadalwch bywyd dyn. Cyffelyba Homer (*Iliad* 6.) olynol ddilyniad cenedlaethau dynolryw, i ddail y coed, y rhai a syrthiant yn yr Hydref, a rhai newyddion yn dyfod allan y gwanwyn canlynol. Felly y defnyddir yr un gyffelybiaeth yn hardd yn Ecclesiasticus 14. 18. 'Fel o'r dail gleision ar bren brigog y mae rhai yn syrthio, a rhai yn tori allan; felly y mae cenedlaeth cig a gwaed, y naill sydd yn marw, a'r llall yn geni.' Esaiah ymadroddus a gymhara fywyd dyn i flcd uyn y maes (pen. 40. 6, 7.) 'Pob cnawd sydd wellt, a'i holl odidogrwydd fel blodeuyn y maes: gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn; canys Ysbryd yr Arglwydd a chwythodd arno: gwellt yn ddiau yw y bobl.' Defnyddia Iago yr un gyffelybiaeth, pen. 1. 10, 11. Ond nid oes mewn un awdwr gyffelybiaeth mwy hardd i'w chael na hon, i osod allan fyrdra ac ansicrwydd bywyd. Y mae fel tarth neu fwg, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hyny yn diflanu, tra byddom yn edrych arno.

TARSIS, תרשיש [*cylch dysglaer*, neu *lle caled*]. 1. Ail fab Jafan, yr hwn, tebygol, a sylfaenodd Tarsis yn Silicia, lle genedigol Paul. Gen. 10. 4. 1 Cron. 1. 7.——2. Un o benaethiaid Persia. Esther 1. 14. ——3. Mab Bilhan. 1 Cron. 7. 10.——4. Tebygol fod amryw leoedd o'r enw hwn. Tarsis yn Cilicia ydoedd y nesaf i wlad Canaan a wyddom am dani. Prif ddinas y wlad ydoedd, ac wedi ei hadeiladu ar yr afon Cydnus, yn nghylch chwe milltir o'r môr; ac a adeiladwyd, medd Strabo, gan Sardanapulus, brenin Assyria. Dywedir ei bod yn cystadlu âg Athen ac Alexandria mewn dysg a gwybodaeth.——Rhoddodd Julius Cesar yr un fraint iddi hi ag i Rufain; am hyny y dywed Paul, 'ei eni yn freiniol.' Act. 22. 28. O barch i'r ymerawdwr galwyd hi Juliopolis. Barna rhai mai i hon y ffôdd Jonah; eraill a farnant mai Tarsis yn Hispaen a feddylir. Y diweddaf sydd debycaf, 1. O herwydd nad oedd Tarsis yn Cilicia yn borthladd, nac yn agos iawn i'r môr; am hyny nis gellid yn addas ddywedyd fod llong yn myned yno. Jonah 1. 3.——2. Yr oedd Tarsis yn Cilicia yn nes i Ninifeh na Judea; wrth ffoi yno, gan hyny, yr oedd yn nesâu at, yn lle ffoi oddiwrth y ddinas, yr oedd yn anewyllysgar i ddwyn cenadwri ati. Planwyd Cristionogaeth yn Tarsis yn Cilicia, yn foreu, gan Paul, ac a barhaodd mewn rhyw lun hyd heddyw yno.——Gellir meddwl yr arwydda Tarsis hefyd, Carthage yn Affric, neu Tartessus yn yr Hispaen, canys ofer a fuasai i'r Tyriaid ffoi rhag Nebuchodonosor neu Alexander, i Tarsis yn Cilicia. Esa. 23. 6.——Barna Hiller, mai wrth Tarsis y meddylir gwlad y Celtæ, neu Gaul, Hispaen. Ps. 72. 10.—— Amlwg yw, rhaid bod rhyw Darsis arall, lle yr oedd Solomon yn anfon ei longau ar fordaith o'r Môr Coch, ac y cychwynodd Jehosaphat wneuthur o Ezion-Gaber. Rhaid bod y Tarsis hon ar gyffiniau dwyreiniol Affric, yr India, neu yn agos i wlad Ophir. 1 Bren. 10. 22. 2 Cron. 20. 36. Jer. 10. 9. Y mae Bochart o'r farn mai Penrhyn Cory, yn ynys Ceylon, ydoedd Tarsis Solomon, yr hon ydoedd Ophir yn ol ei feddwl ef. Ond eraill ydynt o'r farn yn gryf mai Tarsis yn yr Hispaen ydoedd, ac iddynt gylchu Penrhyn dehau Affric (*Cape of Good Hope*) yn eu mordaith yno, ac yn ol yr un ffordd. Rhydd hyn reswm am hir amser eu mordaith. Yr oedd yr holl bethau a ddygasant yn ol gyda hwynt o'u mordaith i'w cael yn yr Hispaen, ac ar gyffiniau Affric. Gwel *Nature Displayed*, gan yr Abbe Pluche, *vol.* iv, *dial.* 2. J. D. Michaelis, *Specilegium Geograph. Hebr. Exter.*, *p.* 18, &c. Am eu bod i gychwyn, medd yr Esgob Lowth, o Ezion-Gaber ar y Môr Coch, rhaid eu bod yn bwriadu cylchynu Affric; canys yr ydoedd yn dair blynedd o fordaith (2 Cron. 9. 21.) a dygasant aur o Ophir, (hwyrach o gyffiniau Arabia) arian o Tartessus, ifori, epaod, a phaenod o Affric. Dilys i'r Aiphtiaid, yn amser Pharaoh Necho, gyflawni y fordaith hon: (Herodot. iv.) cychwynasant o'r Môr Coch, a dychwelasant ar hyd Môr y Canoldir, mewn yspaid tair blynedd; yr un amser ag y bu gweision Solomon. Y mae Pliny yn rhoddi hanes hefyd fod y fordaith hon yn cael ei chyflawni cyn ei amser ef. Gwel *Nat. Hist.* 11, 67. Lowth ar Esa. 2. 13—16.

Wrth 'longau Tarsis,' meddylir, medd Dr Lowth, trwy drawsenwad, llongau yn gyffredinol, yn enwedig

Digitized by Google

y rhai a ddefnyddient i ddwyn marchnadaeth yn mlaen rhwng gwledydd pellenig; felly Tarsis oedd y farchnad fwyaf nodedig yn y byd y dyddiau hyny, ac yr oedd y Pheniciaid yn hygyrchu iddi yn yr hen oesoedd, ac yr oedd yn ffynon cyfoeth i wlad Judea, a'r gwledydd cylchynol. Am Tarsis cytuna y dysgedigion mai Tartessus yn yr Hispaen ydoedd, wrth aber yr afon Bætis; o ba le y dygodd y Pheniciaid (y rhai a ddechreuasant farchnadaeth yno) arian ac aur, oedd yn helaeth yno yr amser hwnw. Jer. 10. 9. Ezec. 27. 12. Ac yn estyn eu mordeithiau yn mhellach i'r Cassiterides, sef ynysoedd Sicily, a Chernyw, a ddygasant oddi yno blwm a *thin*. Gwel Bochart, *Canaan* i, *cap.* 39. Huet, *Hist. De Commerce.*

TARTAC, תרתק [*rhwymedig*] eilun-dduw yr Afiaid. 2 Bren. 17. 31.

TARTAN, תרתן [*chwiliwr*] un o dywysogion Senacherib. 2 Bren. 18. 17. Esa. 20. 1. Edr. SENACHERIB.

TARW, TEIRW, (tar) *Heb.* שור (*sor*) *Llad.* TAURUS: bittolws, ŷch cryf, ŷch diddyspaddedig. Tarw trefgordd, sef tarw a gedwir gan dref ddegwm; tarw trin, tarw câd, tarw byddin.

Nerth *tarw* yn ei ddwyfron. *Diar.*

Nid oedd yr Iuddewon yn dyspaddu un math o anifeiliaid, ac nid ydyw y Mahometaniaid hyd heddyw. Gan hyny yr oedd eu hychain oll yn deirw. Heblaw y rhai gwâr, dofion, y mae rhai anwar, gwylltion, cyflym, creulawn, yn trigo mewn coedydd mawrion, yn Livonia ac Ethiopia. Rhai o honynt a ddofir; a thrwy roddi torch haiarn am eu trwynau, a ddarostyngir i dynu yr aradr; ond glyna eu gwylltineb naturiol wrthynt mewn gradd er pob triniaeth. Rheda llawer o deirw yn wylltion yn America.

Yr oeddynt yn lân dan y gyfraith.——Dynion dryggionus, yn enwedig tywysogion, llywodraethwyr, a gwyr mawrion, a elwir teirw, gwrdd deirw, lloi. *Ps.* 68. 30. Jer. 21. 18. Fel teirw anwar, maent yn gryfion, yn greulawn, yn anhydyn, ac yn niweidiol. Blaenoriaid yr Iuddewon, yn gryfion fel teirw, a gylchynasant Grist, yr Oen diniwed. 'Teirw lawer a'm cylchynasant,' medd efe, 'gwrdd deirw Basan a'm hamgylchynasant.' Ps. 22. 12.——Dynion anesmwyth ac anniddig mewn profedigaeth, a gyffelybir i 'darw gwyllt mewn magl.' Maent yn rhuo ac yn bygynad, ond nid yw eu holl anesmwythder ond yn eu gwneyd yn fwy diogel. Esa. 51. 20. Edr. BUWCH, LLO, YCH.

TASEL, (tas) rhidens, eddi, amaerwy, gwregys sidan, siob, tusw o eddi.—'Trwsiais fy ngwely â chortynau, ac â thaselau, a llieiniau o lin yr Aipht.' Diar. 7. 16. Dr M. Edr. GWELY, LLENI.

TASG—OEDD—U, (tâs) *Llad.* TAXARE: prisiad sefydledig; gwaith-ddogn, gorchwyl, ysgar; dogni, penodi gwaith. Exod. 5. 14.

TATNAI, תתני [*rhoddwr*] tywysog Samaria, a'r wlad tu yma i'r Iorddonen, yr hwn a wrthwynebodd adeiladu yr ail deml, a muriau Jerusalem. Ezra 5. 6.

TAU, rhagenw; (ta) yr eiddot ti; y tŷ tau, dy dŷ, y tad tau, dy dad.—'A'r oll vau yyn tau, a'r tau yyn vau.' W. S. Ioan 17. 10.

TAW, cysylltair; (ta) mai.—'A' phan wybu taw o gyvoeth Herod yr hanoedd, ef ei danvones at Herod.' W. S. Luc 23. 7.

TAW, TAU, TEWI, (ta) gosteg, tawelwch, llonyddwch; dystewi, bod heb sôn, bod heb yngan, gostegu, bod yn ddidrwst. 2 Sam. 13. 20. Luc 19. 40. 2 Bren. 7. 9. Edr. DYSTAW, GOSTEG.

TAWDD, TODDION, (taw) dadmer, dadlaith; meroli, dadleithiaw, ymdoddi.—1. Lluneiddio mettel. Delw dawdd ydyw un a wneir trwy doddi mettel mewn drychiaden. Ezec. 22. 22. Exod. 32. 4.——2. Lleihau, a difa, fel eira yn meroli. 1 Sam. 14. 16.——3. Llesmeirio a diffygio. Ps. 119. 28. Exod. 15. 15. Jos. 2. 11.

Y ddaear a'r mynyddoedd 'yn toddi o flaen yr Arglwydd,' a arwydda toddiad y delid ar ben mynydd Sinai gan y tân mawr yno—darostyngiad neu ddinystriad y ddaear, neu y bryniau, gan daranau a daeargrynfäu—a darostyngiad gelynion Duw, er mor sefydlog a chedyrn y byddont. Barn. 5. 5. Ps. 46. 6. a 97. 5. Esa. 64. 1, 2.

TAWDD-LESTR, yw llestr i doddi ynddo. Diar. 17. 3. a 27. 21.

TAWEL—WCH, (taw-el) dystaw, esmwyth, llonydd; dystawrwydd; llonyddwch.—'Dyfroedd tawel,' sef dyfroedd dystaw, esmwyth, mewn cyferbyniad i lifeiriant, rhaiadr, rhyferthwy; yn arwyddo yn allegawl, tangnefedd, diogelwch, a dyddanwch. Ps. 23. 2.——Duw sydd Arglwydd ar yr ystormydd o bob math, ac a ddichon eu gwneyd yn dawel. Ps. 107. 29. Luc 8. 24. Mat. 8. 26. Edr. DYSTAW.

TEBA, טבח [*llofruddiaeth*] mab Nachor o'i ordderch Reumah. Gen. 22. 24.

TEBALIAH, טבליה [*golchiad yr Arglwydd*] mab Hosah, un o'r porthorion yn y deml. 1 Cron. 26. 11.

TEBETH, enw Babilonaidd ar y degfed mis Hebreaidd, yn cyfateb i'n Rhagfyr ni. Esther 2. 16.

TEBYG—OL—I, (teb) cyffelyb, eilfydd, hafal, cyhafal, cyfryw, un-wedd, un-fath.—'Pwy, O Dduw, sydd debyg i ti?' Ps. 71. 19. Nid oes neb yn debyg i Dduw yn ei hanfod:—1. Yn hanfodi o hono ei hun; yn anddibynol; yn ddiddechreu; o angenrheidrwydd; yn ddifesur, ac yn ddiderfyn.——2. Nid oes neb yn tebygu iddo yn ei weithredoedd, o ran eu mawredd—eu doethineb—eu cywreinrwydd—a'r dybenion o honynt. Mae Duw yn gweithredu o'i ben-arglwyddiaeth, gyd âg anfeidrol hawsdra, ac i'r dybenion doethaf.——3. Nid oes neb yn tebygu iddo yn ei briodoliaethau—sef ei ddoethineb, ei gariad, ei ras, ei drugaredd, ei sancteiddrwydd, &c. Y maent yn hanfodol, yn bur a digymysg, ac yn ddifesur a diderfyn. Edr. CYFFELYB, DELW, GWEDD.

TECEL, תכל [*pwyswyd ef*] un o'r geiriau a ysgrifenwyd ar galchiad y pared yn ngwledd fawr Belsassar; yn arwyddo ei fod wedi ei bwyso, a'i gael yn brin, am hyny fod ei ddiwedd gwedi nesâu; yr oedd i gael ei farwolaethu y noson hôno. Dan. 5. 25.

TECOA, תקוע [*udgorn*] dinas hyfryd yn Judah, yn nghylch deuddeg milltir o Jerusalem, a adeiladwyd gan Assur. Yr oedd anialwch yn agos ati yn cyrhaedd hyd at y Môr Marw. 1 Cron. 2. 24. a 4. 5. Gwraig weddw a ddaeth o'r ddinas hon, ac a annogodd Dafydd i adalw Absalom. 2 Sam. xiv. Rehoboam a'i hadgyweiriodd, ac a'i cadarnhaodd. 2 Cron. 11. 6. Yn agos iddi y dinystriodd gelynion Jehosaphat eu gilydd. 2 Cron. 20. 20—23. Bugail yn Tecoa ydoedd Amos y prophwyd. Amos 1. 1.—Hwyrach fod Tecoa arall o du y gogledd i Jerusalem. Jer. 6. 1.

TEG—ACH—WCH, (te-eg) eglur, eglur-loyw, digwmwl, tawel-glaer, dillyn, prydweddol, prydus, golygus, pefr, tirion; teledigrwydd.—'Tecach ydwyt na meibion dynion.' Ps. 45. 2. Tecach o ran ei berson, ei swyddau, ei berthynasau, a'i weithredoedd. Dyn yw, ïe, a Duw hefyd! Ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; am hyny y rhagora ar bawb creadigol. Yn ei holl swyddau a'i berthynasau, ni bu, ac ni bydd neb o'i fath: gwnaeth waith fel prophwyd,

Digitized by Google

brenin, ac offeiriad, nas gallasai neb arall byth ei gwblhau. Er bod ereill yn y swyddau hyny, y mae efe yn decach, ac yn rhagori yn anfeidrol arnynt hwy oll. Tecach hefyd yn mhob perthynas; medr gydymdeimlo, tosturio, a chynnorthwyo, tu hwnt i bawb eraill a fu âg enw perthynas arno; ac y mae yn fyw pan fyddo pawb eraill gwedi ein gadael. Credu ei fod yn cyfateb i'r dystiolaeth hon am dano, yn 1. A wna i ni ei garu a'i ddyrchafu uwchlaw pawb eraill.——2. Ymfoddloni ac ymhyfrydu ynddo yn wyneb y palldod o bawb a phob peth arall.——3. Ac a wna i ni ymdrech am i eraill gael ei wir adnabod, i gael iechydwriaeth ynddo. Diffyg credu y dystiolaeth hon sydd yn peri palldod ar bob peth arall.

Geilw Crist ei eglwys, 'Y decaf o'r gwragedd.' Can. 1. 8, 15. a 2. 14. a 4. 1, 7. a 5. 9. a 6. 1. 1 Ioan 3. 9. 2 Sam. 23. 4. Diar. 4. 18. Efe ei hun a'i haddurnodd ac a'i harddodd hi; ac onidê, ni buasai harddwch yn perthyn iddi. Ezec. 16. 4, &c. 1 Cor. 1. 30. Mae ei chyflawnder dwyfol, ei ffydd, ei chariad, ei hufudd-dod, ei hordinhadau, ei chyfarfodydd, yn harddwch yn bresennol; ond bydd etto yn fwy hardd, sef heb na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw. Eph. 5. 27. Cyflawnder a sancteiddrwydd ydyw yr unig degwch o gyfrif gyda Duw, ac a ddylai fod gyda dynion; ac mae y diffyg o'r rhai hyn yn anharddwch pechadurus a ffiaidd.

TEILWNG—YNGDOD, (tal-wng) gwiw, addas, cymhwys, cymhesur, gweddol; dyledus, rhyglyddus; urddas, parch, anrhydedd a haeddo un, uchel-fraint, cymeriad.—1. Y mae yr Arglwydd Iesu yn deilwng o anrhydedd, gogoniant, ac addoliad; y mae yn eu rhyglyddu, ac y maent yn gwbl addas iddo o ran yr hyn ydyw yn ei Berson, ac o ran ei waith pwysfawr. Dat. 4. 11. a 5. 9, 12.—2. Nid ydyw y byd yn deilwng o'r duwiolion; nid yw yn haeddu eu presennoldeb a'u defnyddioldeb; nid ydyw annuwiolion erlidigaethus ddim yn deilwng o gymdeithas sanctaidd y duwiolion; nac yn deilwng o'r trugareddau a'r bendithion sydd yn nglŷn wrthynt, ac yn cydfyned â hwynt lle bynag y maent yn cael heddwch a llonyddwch. Heb. 11. 38.——3. Y mae annuwiolion yn haeddu barnedigaethau trymaf Duw. Dat. 16. 2. Esaiah 26. 21. Y mae teilyngdod yn rhagflaenu pob cospedigaeth oddiwrth yr Arglwydd.——4. Rhodio yn deilwng i'r Arglwydd, yw rhodio yn addas, ac yn gyfatebol i'r hyn yw yr Arglwydd, sef yn ystyriol, yn ddoeth, ac yn sanctaidd. Eph. 4. 1. Col. 1. 10. 1 Thes. 2. 12.——5. Yn nghyflawnder Crist, ac wedi eu sancteiddio trwy ei Ysbryd, mae y saint yn deilwng; sef yn addas ac yn gymhwys i ogoniant nefol. Luc 21. 36. Dat. 3. 4.

TEIMLO—AD—WY, (teiml) profi, clywed, syniied, palfalu; syniadwy. Edr. CLYWED, CYD-DDYODDEF, YMBALFALU.—'Ni ddaethoch at y mynydd teimladwy.' Heb. 12. 18. Mynydd Sinai, lle y rhoddwyd y gyfraith. Mynydd teimladwy y geilw yr apostol ef mewn cyferbyniad i fynydd Sion a'r Jerusalem nefol, i ddangos, 1. Mor isel a daearol ydoedd goruchwyliaeth Moses mewn cymhariaeth i'r efengyl. Cyhoeddwyd un ar fynydd teimladwy, cyhoeddwyd y llall o'r nefoedd. Adn. 25.——2. I ddangos y caethiwed yr ydoedd y bobl ynddo, gwaharddwyd iddynt dan berygl bywyd gymaint a chyffwrdd â'r mynydd; yr ydoedd arwyddion y presennoldeb dwyfol arno. Edr. SION.

TEISEN—AU, (tais) afrlladen, torthig, chwiog, bara miod. Edr. BARA.—Teisenau offrymedig i'r Arglwydd oeddynt wedi eu gwneuthur o beillied gwenith, cymysgedig âg olew. Exod. 29. 2.

'Ephraim sydd fel teisen heb ei throi.' Hos. 7. 8. Un peth y naill ochr, a pheth arall yr ochr arall. Gwedi ei llosgi ar y wyneb, ac yn does yn y gwaelod. Darluniad addas o un yn llawn anghydweddiad ac anghysondeb. Felly yr ydoedd Israel yn nyddiau y prophwyd; addolwyr IEHOFAH mewn proffes, ond yn dilyn hefyd holl eilun-addoliaeth y cenedloedd cymydogaethol, yn nghyd â'r lloi yn Dan a Bethel.

TEL-ABIB, תל־אביב [*bryn tywysenau o ŷd*] lle ar yr afon Chebar, lle y trigai y gaethglud. Ezec. 3. 15. Os rhedai afon Chebar o fynydd Masius i'r Euphrates, yr oedd caethglud Jehoiacin yn trigo yn uchel i fynu yn y wlad, i'r gogledd o Babilon. Dygwyd y prophwyd Ezeciel yno atynt.

TELAH, תלה [*gostyngeiddrwydd*] mab Reseph. 1 Cron. 7. 25.

TELASSAR, תלאשר [*bryn Assur*] talaeth yn Asia. Ei sefyllfa sydd anadnabyddus, ond tebygol tu ag Armenia a Mesopotamia; hwyrach tua tharddiad yr afonydd Tigris ac Euphrates. Ezec. 37. 12. 2 Bren. 19. 12. Hwyrach mai yr un yw a Tel-harsa, a bod Tel-melah yn gyfagos. Ezra 2. 59.

TELEM, תלם {*ysglyfaeth*] dinas yn Judah, hwyrach yr un a Telaim. Jos. 15. 24. 1 Sam. 15. 4.

TEL-HARSA, lle yn Babilon. Ezra 2. 59.

TELM—AU, (tel) hoenyn, magl, rhaff. Preg. 9. 12.

*Telm* yr annuwiol, hoenyn main.
*E. Prys.* (Ps. 141. 9. a 38. 8.)

TEL-MELAH, lle yn Babilon. Ezra 2. 59.

TELPYN—AU, (talp) clamp, darn, dryll. Rhuf. 9. 21. Edr. PRIDDGIST.

TELYN—AU, (tel) offeryn cerdd â thannau iddo, tri-ochrog, ac i sefyll rhwng gliniau y telynwr pan yn chwareu arno. Nid ydyw y כנור (*cinor*) Jubal, o hiliogaeth Cain, yn arferedig yn awr. Yr oedd hwn yn gyfansoddol o fol ceuol, â dwy gangen yn ei ystlysau, wrth ba rai yr ydoedd tri, chwech, neu naw o dannau gwedi eu sicrhau, y rhai, wrth chwareu arnynt â'r bysedd, neu â bwa, a wnaent sain hyfryd ar y tannau, tros y bol ceuol, yr hwn a barai y sŵn. Y mae y gair Hebraeg yn arwyddo bod sain y delyn yn *alarus*; ond y mae yn amlwg mai arwydd o lawenydd yn mhlith yr Hebreaid ydoedd chwareu ar y כנור *y delyn*. Gen. 31. 27. 2 Cron. 20. 27, 28. Job 21. 12. Ps. 149. 2, 3, *et al freq*. Ond gallai yr un offeryn beri gwahanol effeithiau wrth wahanol ddull o chwareu arno. Telynau Solomon a wnawd o goed almugim. 1 Bren. 10. 12. Yr oedd telynau yn arferedig yn ngherddoriaeth sanctaidd y deml, ac ar achosion gwladol. Ps. 33. 2. 2 Cron. 20. 28.

'Chwareu ar y delyn,' a arwydda moliannu yr Arglwydd gyda llawenydd a diolchgarwch calon. Psalm 43. 4. a 149. 3.

Yn Babilon, y Lefiaid a grogasant eu telynau ar yr helyg ar lànau yr afonydd, fel yn gwbl ddiddefnydd tra byddent yn eu caethiwed yno. Ps. 137. 2. Gan na ddarfu iddynt eu dryllio, tebygol eu bod mewn ffydd yn dysgwyl am well amser i ddyfod, yn ol addewid Duw.

Y mae y saint dan y Testament Newydd yn cael eu galw wrth yr enw telynorion, nid am eu bod yn arfer telynau yn addoliad Duw yn gyhoeddus, ond i arwyddo eu sirioldeb, eu llawenydd, eu gorfoledd, a pharodrwydd eu hysbrydoedd i foliannu yr Arglwydd. Dat. 5. 8. a 14. 2.

TEMA תימא [*rhyfeddod*] mab Ismael. Gen. 25. 15. a 36. 11. Tybygir iddo boblogi Tema yn Arabia Anial. Sonia Job am fynyddoedd Tema. Job 6. 19.

TEMAN, תימן [*y dehau*] mab Eliphaz, ac ŵyr Esau. Gen. 36. 15. Yn adn. 34. sonir am wlad Temani. Jer. 49. 7, 20. Amos 1. 12.

Digitized by Google

TEMENI, mab Assur, o Naarah ei wraig. 1 Cron. 4. 6.

TEML—AU, (tem) *Gr.* τεμενος, (*temenos*); *Llad.* TEMPLUM: lle i gynnal eisteddfod, neu gymanfa; lle addoliad i'r gwir Dduw. Gelwir y babell wrth yr enw *teml yr Arglwydd*, yn 1 Sam. 1. 9. a 3. 3.—Tai eilunod a gau-dduwiau. Barn. 16. 23. 1 Sam. 5. 1, 2, 3. a 31. 10. 1 Bren. 16. 32. 2 Bren. 5. 18. Esa. 37. 38. Ond gyd âg enwogrwydd neillduol y gelwir hôno a adeiladwyd gan Solomon yn Jerusalem wrth yr enw hwn.

Rhoddir gan wahanol awdwyr amrywiol ddarluniadau o'r adeiladaeth ardderchog hon. John Baptist Villapandus, Jesuit o'r Hispaen, yr hwn a fu farw Mai 22. A. D. 1608, wedi ei roddi ar waith gan frenin Hispaen, a gyhoeddodd ddarluniad ardderchog o honi mewn tri llyfr unplyg mawr. Yr oedd y gwr hwn yn dra dysgedig, yn ben-saer cywrain, ac yn bur hyddysg yn adeiladwaith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Ond er mwyn harddu teml Solomon, bernir ddarfod iddo fenthyca llawer o addurniadau teml weledigaethol Ezeciel, a rhoddi at hyny yr hyn a farnodd yn gelfyddgar ac yn hardd yn saernïaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Y mae ei enw yn ddyledus yn glodfawr, o herwydd y llafur a'r ddysgeidiaeth a ddengys yn ei waith godidog, er nas gellir edrych arno yn ddarluniad cywir o deml Solomon.

Lightfoot a Prideaux a roddasant i ni ddarluniadau helaeth o'r deml, ond gan fod y ddau awdwr dysgedig hyn wedi dilyn yn fanwl hanes Josephus o'r deml, yn y dull a roddodd Herod arni, a'r Talmud, nis gellir edrych ar eu gwaith hwythau fel darluniad ffyddlawn o deml Solomon.

Y mae y gwr duwiol John Bunyan, yn ei lyfr a elwir *Y Deml Ysbrydol*, wedi cymysgu teml Solomon, teml Herod, temlau gweledigaethol Ezeciel, a Ioan yn y Dadguddiad â'u gilydd, a galw y cymysgedd hwn yn deml Solomon. Er bod llawer iawn o bethau buddiol yn ei draethawd, etto ni bu un deml erioed, nac mewn gwirionedd, nac mewn gweledigaeth, yn debyg i'r hon a ddarlunia efe.

Y mae Josephus yn awdwr credadwy am deml Herod; gwelodd hi ei hun; canys yr ydoedd gyda Titus Vespasian pan ddinystriwyd hi. Ond am awdwyr y Talmud, yr oedd y rhai hyny yn byw lawer diweddarach, ac nis dichon neb gysoni eu darluniad â'r ysgrythyrau, nac â hanes Josephus. Yn y darluniad a roddaf yma, ymdrechaf gadw mor agos i'r ysgrythyrau ag y medraf, gan wrthod yn gwbl ddychymygion pawb, yn gystal a'r eiddof fy hun.

Yr ydoedd y darpariad a wnaeth Dafydd a'i dywysogion tu ag at adeiladu y deml yn fawr iawn. Edr. DAFYDD—1. Dywed Dafydd cyn ei farwolaeth wrth Solomon, i'r Arglwydd roddi iddo trwy yr Ysbryd, bortreiad o'r deml a'i holl ddodrefn: 'Hyn oll,' medd efe, 'a wnaeth yr Arglwydd i mi ei ddeall mewn ysgrifen, trwy ei law ef arnaf fi, sef holl waith y portreiad hwn.' 1 Cron. 28. 19. Pa fodd y rhoddodd yr Arglwydd y darluniad iddo, pa un ai trwy weledigaeth union-gyrchol, neu trwy brophwyd (megys Nathan) nid yw eglur. Ond rhoddodd Dafydd yr ysgrifen yn cynnwys y portreiad hwn i Solomon. Ni adawyd dim hyd yn nod i ddoethineb a synwyr Solomon, ond pob peth a wnawd yn fanwl wrth reol ddwyfol, hyd at bwysau y delid yn mhob llestr. Cafodd Moses o'r blaen bortreiad o'r babell; canys yr oedd y babell a'r deml yn cysgodi Crist, a phethau nefol. Heb. viii, ix, x. Trefnu gosodiadau yn addoliad Duw yn ol dychymygion dynol, a fuasai y rhyfyg mwyaf, hyd yn nod yn Solomon.

2. Yr oedd y lle hefyd o ddewisiad Duw; a hwnw oedd mynydd Moriah. Yr oedd pen y mynydd hwn yn bur anwastad; ac ar y cyntaf, braidd yr ydoedd lle gwastad yn ddigon i gynnwys y babell a'r allor. Y gweddill ydoedd yn serth ac yn llethrawg. Edr. MORIAH. Cauodd Solomon ben y bryn i mewn â mur, ac a ëangodd ac a wastadhaodd y llethr hwnw. Yr oedd mynediad i mewn trwy y mur hwn o bob tu; tu a'r dehau-orllewin yr oedd porth i'r teulu breninol, yr hwn a elwid *Porth Shalecheth*, yr oeddynt yn dyfod trwyddo dan orchudd y Sabboth. Mewn amser, tynwyd i lawr y mur o du y gogledd, a chymerasant ychwaneg o le i mewn, nes ydoedd pen y bryn wedi ei ëangu i gymaint arall o faint. Y porth dwyreiniol yn y mur hwn a alwent שער סיר hyny ydyw *ymadael.* 2 Bren. 11. 6. Gelwir ef hefyd, שער תיסיד *porth y sylfaen.* 2 Cron. 22. 5. Porth y dehau a elwid אספים *casgliadau*; neu, tŷ Asuppim (1 Cron. 26. 15.) am mai yno, tebygol, y byddai y Lefiaid yn ymgasglu yn nghyd i dderbyn eu hyfforddiadau. Y porth o du y gogledd-orllewinol a alwent פרבר *parbar.* Yr ydoedd ystafelloedd, tybygaf, wrth bob porth, ac yn mhob cilfach o'r cyntedd. I'r cyntedd nesaf allan hwn y gallai pob Hebread ag oedd yn lân, a phob proselyt y cyfammod, fyned. Yn nyddiau ein Hiachawdwr, yr ydoedd cyntedd y Cenedloedd y tu allan i hwn. Nid oes un crybwylliad am faintioli y cyntedd hwn; ond y mae rhai yn barnu ei fod yn cylchynu y deml, ac yn ddau cymaint a chyntedd y babell, yr hwn ydoedd yn gan cufydd o hŷd, ac yn ddeg a deugain o lêd (Exod. 27. 9, 13.) gan fod y deml yn ddau cymaint a'r babell. Hwn a elwir y cyntedd mawr. 2 Cron. 4. 9. Tu fewn iddo, ac yn nes i'r pen gorllewinol na'r canol, yr oedd cyntedd i'r offeiriaid a'r Lefiaid, yn hir-gul, ac yn estyn o'r gorllewin i'r dwyrain, wedi ei amgylchu â mur isel, yn nghylch pedair troedfedd o uchder, fel y gallai y bobl ganfod drosto yr hyn a wnai yr offeiriaid. Adeiladwyd mur y cyntedd hwn nesaf i mewn, â thair rhes o geryg nâdd, ac â rhes o drawstiau cedrwydd, tebygol, ar y meini hyn. 1 Bren. 6. 36. Yr ydoedd dau fynediad i'r cyntedd hwn; un yn y dehau, a'r llall yn y gogledd. Yn hwn y safai yr allor bres, y môr tawdd, a'r noeau. (Edrych y geiriau.) Beth a feddylir wrth y cyntedd newydd (2 Cron. 20. 5.) sydd anhysbys; hwyrach i Jehosaphat adgyweirio un o'r cynteddau, neu iddo ychwanegu un atynt.

Y deml, yn yr ystyr priodol o'r gair, a safai o'r gorllewin i'r dwyrain, ac yn agos i'r pen gorllewinol i gyntedd yr offeiriaid, a'r unig fynediad iddi oedd yn y pen dwyreiniol.

Y peth cyntaf oedd y porth, yr hwn oedd yn ugain cufydd o hŷd o'r gogledd i'r dehau, yn un hŷd a lled y tŷ; ac yn ddeg o led o'r dwyrain i'r gorllewin, o flaen y tŷ; ac yn chwech ugain cufydd o uchder. Yr oedd hwn fel twr neu glochdy yn ei harddu, ac yn wasanaethgar fel diddos, a lle i weddïo ynddo i'r offeiriaid oedd yn gweini. O bob tu i'r porth, ac yn y porth, yn ol ein cyfieithiad ni, er y barna rhai mai y tu allan yr oeddynt, yr oedd dwy golofn, pob un yn ddeunaw cufydd o uchder (sef pymtheg ar hugain y ddwy, 2 Cron. 3. 15.) a deuddeg cufydd o gylch; neu fel y barna eraill, yr oedd gosail pob colofn yn ddau cufydd a'r bymtheg, hyn yn nghyd â deunaw cufydd uchder y golofn, a wna bymtheg ar hugain; wrth chwanegu yn ddiweddaf at hyn bum cufydd uchder pob cnap, gwna ddeugain cufydd. 1 Bren. 7. 16. Gwel *Univ. Hist. vol* iv. Yr ydoedd y colofnau gwedi eu haddurno â chnapiau, rhwydwaith, a chadwynwaith, a dwy res o bomgranadau (1 Bren. 7. 15—22.) enw un oedd JACHIN, *sicrhad,* neu *efe a sicrha*; enw y llall oedd BOAZ, *nerth,* neu *ynddo mae nerth*;—yn arwyddo mai yn Nghrist yn unig, yr hwn yr oedd y deml yn ei gysgodi, yr oedd nerth a chadernid holl wir addolwyr Duw, ac nid ynddynt eu hunain. Edr. CNAP, COLOFN.

Wedi myned trwy y porth, yr oeddynt yn myned i'r lle sanctaidd, neu y cysegr. Yr ydoedd hwn yn 40 cufydd o hŷd, 20 o led, a 30 o uchder. Y tŷ, tebygol-

Digitized by Google

oedd yr enw am y ddau gysegr, y sanctaidd, a'r sancteiddiolaf, a hŷd y ddau oedd 60 cufydd. 1 Bren. 6. 2. Yn y pen gorllewinol, ac ar yr ystlys ddehau, yr oedd deg o ganwyllbreni aur yn sefyll; yn yr ystlys ogleddol, yr oedd deg bwrdd, a deuddeg teisen y bara gosod ar bob tu; ac yn y canol rhyngddynt yr oedd allor aur yr arogl-darth. Ni chrybwyllir ond am un bwrdd aur yn 1 Bren. 7. 48. Ond rhoddir deg yn 2 Cron. 4. 8. a bod pump o bob tu. Tebygol fod un yn fwy na'r lleill, a bod y bara gosod yn fwyaf neillduol ar y bwrdd hwnw. Y byrddau yn nheml Ezeciel oeddynt wyth, ar yr ystlys oddi allan, lle y dringir i ddrws porth y gogledd. Yr oeddynt o geryg nâdd, ac arnynt y lladdent yr offrwm poeth a'r aberth. Ezec. 40. 41—44. Yma hefyd y cadwent yr udgyrn arian, y prawf-bwysau a'r mesurau, a'r trysorau cysegredig.

Yn myned trwy hwn ar ei hŷd, yr aent i'r gafell, neu y cysegr sancteiddiolaf, trwy wahanlen, a dwy ddôr o goed olew-wydd. Yr oedd y wahanlen gwedi ei chrogi â chadwynau aur, wrth farau ar draws. 1 Bren. 6. 21. I'r gafell nid âi neb ond yr archoffeiriad, a hyny ddim ond unwaith yn y flwyddyn, ar ddydd mawr y cymmod. Y gafell oedd 20 cufydd bob ffordd, sef 30 o droedfeddi ysgwâr, a 30 o uchder; ac am hyny nid oedd cyfuwch a'r lle sanctaidd, neu gwedi ei nenfydaw yn îs. Yn hon yr oedd yr arch yn sefyll a'i holl berthynasau. Edr. ARCH. Gwnaeth Solomon yn y gafell ddau gerub o bren olew-wydd, bob un yn ddeg cufydd ei uchder. Yr oedd y rhai hyn yn gorchuddio y ddau gerub aur ar y drugareddfa, ac yr oedd eu hadenydd yn estynedig dros holl led y gafell. Edr. CERUB. Byrddiodd Solomon barwydydd y tŷ oddi fewn o'r llawr hyd y llogail âg ystyllod cedrwydd; a byrddiodd y llawr â phlanciau o ffynidwydd. Gwisgodd yr holl dŷ âg aur, y trawstiau, y rhiniogau, y dorau, y parwydydd, y llawr, y nen, &c., ac a gerfiodd balmwydd, blodau agored, cadwyni, a cherubiaid ar hyd-ddo. 'Ac efe a addurnodd y tŷ â meini gwerthfawr yn hardd.—Y llofftydd hefyd a wisgodd efe âg aur.' 2 Cron. 3. 6, 9. Rhai a farnant mai nenfwd y lle sancteiddiolaf a feddylir wrth y llofftydd hyn; neu, hwyrach, fod rhai o'r ystafelloedd uchaf y tu allan i'r deml wedi eu haddurno fel hyn âg aur, gan fod yr ystafelloedd isaf i'r gwasanaeth cyffredin. Nid oedd un ffenestr i'r gafell, ond yr oedd yn gwbl dywyll: yr oedd ffenestri i'r lle sanctaidd, goleu ar gyfer goleu, yn llydain oddifewn, ac yn gyfyng oddi allan.

Yr oedd drws y deml gwedi ei wneuthur o goed ffynidwydd. Yr oedd dwy ddôr, a dwy ddalen blygedig i bob un. Cerfiwyd cerubiaid a phalmwydd, a blodau agored arnynt; a goreurwyd hwynt yn gymhwys at y cerfiad. 1 Bren. 6. 31—35. Tebygol fod gwahaneiliad rhwng y sanctaidd a'r sancteiddiolaf, heblaw y wahanlen; canys rhoddir hanes am ddrws y gafell, a'i dorau wedi eu gwneuthur o goed olewwydd; capan y drws ar y gorsingau oedd bummed ran y pared. Ar y dorau hyn y cerfiwyd cerfiadau cerubiaid a phalmwydd, a gwisgwyd hwynt âg aur, a lledwyd yr aur ar y cerubiaid ac ar y palmwydd. 1 Bren. 6. 31, 32.

Yr ydoedd wrth fur y tŷ, oddi amgylch y mur, yn nghylch y deml a'r gafell, ystafelloedd; yr oedd yr ystafell isaf yn bum cufydd ei lled; y ganol yn chwe chufydd; a'r drydedd yn saith cufydd ei lled. Yr ydoedd attegion y tu allan i'r tŷ, fel na rwymid y trawstiau yn mur y tŷ. Yr oedd celloedd yn yr ystafelloedd hyn. Drws y gell ganol oedd ar ystlys ddehau y tŷ; ac ar hyd y grisiau tröedig y dringid i'r ganol, a'r un modd o'r ganol i'r drydedd. Tebygol fod lle gwedi ei adael yn nhrwch y mur i'r grisiau hyn. Bernir fod mur y deml yn lletach o ddau gufydd yn y gwaelod nag yn y pen uchaf; ac yn y lle y gwnawd hi un cufydd yn llai, yr oedd atteg y tu allan i drawstiau yr ystafelloedd canol i orphwys arnynt, a'r un fath i'r drydedd. Trwy y drefn hon yr ydoedd yr ystafelloedd uchaf yn fwy o ddau gufydd na'r rhai isaf; ac nid ydoedd mur y deml yn cael ei wanhau wrth adeiladu nac adgyweirio yr ystafelloedd. Bernir fod llofft-rodfa oddi amgylch y deml, ar hyd pa un yr ai yr offeiriaid i'r ystafelloedd. Yr ystafelloedd hyn oeddynt at wasanaeth yr offeiriaid, i gadw y gwisgoedd, y llestri cysegredig, y trysorau, &c. Uchder yr ystafelloedd ydoedd bum cufydd; ac felly nid oeddynt yn cyrhaedd i uchder y tŷ, ond yr oedd lle i'r ffenestri yn uwch na hwynt. A choed cedr yr oeddynt yn pwyso ar y tŷ. Yr ystafelloedd hyn, tebygol, a feddylir wrth גנזכים *y selerau*, neu drysordai y pethau mwyaf gwerthfawr, fel yr arwydda y gair עליתים *y cellau*, neu ystafelloedd uchaf, '*upper chambers*,' *Saes.*, felly yr arwydda y gair החדרים *ystafelloedd oddi mewn*, '*inner parlours*,' *Saes.*, neu ystafelloedd y gwelyau; felly y cyfieithir y gair yn 2 Bren 11. 2. חדר המטות *ystafell y gwelyau*.

Sylfaenwyd y tŷ 480 o flynyddoedd gwedi dyfodiad Israel allan o'r Aipht; 440 wedi eu dyfodiad i Ganaan, A.M. 2992, A.C. 1012. A dinystriwyd hi yn nghylch 420 o flynyddoedd gwedi gorphen ei hadeiladu. Bu Solomon dair blynedd yn rhag-barotoi iddi; ac yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad y sylfaenodd efe hi, yn mis Zif, sef yr ail fis o'r flwyddyn gysegredig. Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg, yn mis Bul, sef yr wythfed mis o'r flwyddyn gysegredig, y gorphenwyd y tŷ; felly buwyd saith mlynedd yn ei adeiladu. Yr oedd 183,600 o Hebreaid a Chanaaneaid ar waith wrthi. Adeiladwyd hi o geryg wedi eu cwbl naddu, cyn eu dwyn yno; fel na chlybuwyd sŵn morthwylion, na bwyeill, nac offeryn haiarn, yn y tŷ, wrth ei adeiladu. Sylfaenwyd ef â meini costus, meini mawr o wyth a deg cufydd, gwedi eu naddu wrth fesur. Tebygol mai darnau mawrion o farmor ydoedd y meini hyn, gwedi eu caboli a'u harddu. Yn wahanedig oddiwrth y cynteddoedd, nid ydoedd y deml yn adeiladaeth fawr, a'i chymharu â llawer o adeiladau yn yr hen oesoedd, ac yn ein dyddiau ni; nid ydoedd ond cant a hanner o droedfeddi o hŷd, a hanner cant o lêd. Y mae llawer o'n heglwysi plwyfol ni yn fwy. Yr oedd yn nghylch cymaint arall a'r babell yn mhob ffordd. Yr ydoedd y porth ar y pen dwyreiniol yn nghylch dau can troedfedd o uchder. Nid oedd gwychder y deml yn gynnwysedig gymaint yn maintioli yr adeiladaeth; ond yn 1. Yn y defnyddiau, y rhai oeddynt y meini gwerthfawrocaf, wedi eu naddu a'u caboli yn y modd mwyaf hardd. Y coed hefyd oeddynt y cedrwydd goreu o Libanus, ffynidwydd, &c.——2. Ei haddurniadau; yr oedd y gwaith a'r defnyddiau yn y modd mwyaf celfyddgar a chywrain, a'u goreuriad yn fawr ac yn rhyfedd. Yr oedd o aur yn goreuro y sancteiddiolaf, yr hon nid oedd ond ystafell fechan, 600 talent; sef yw hyny, £4,320,000.——3. Yn yr adeiladau perthynol iddi, yn y cynteddau oddi amgylch. Y rhai hyn oeddynt yn lliosog ac yn hardd iawn.

Yn nghylch un mis ar ddeg gwedi gorphen yr adeiladaeth, o flaen gŵyl y pebyll, dygwyd yr arch a'r dodrefn eraill i mewn iddi; a'r cwmwl, y *shecinah*, yr arwydd o'r presennoldeb dwyfol, a lanwodd y tŷ, ac a orphwysodd ar y drugareddfa rhwng y cerubiaid. Cysegrodd Solomon y deml mewn gweddi syml arddercbog: cadwyd gŵyl saith niwrnod, ac aberthodd Solomon yn aberth hedd dwy fil o wartheg, a chwech ugain mil o ddefaid; a disgynodd tân o'r nefoedd i losgi yr aberthau, fel wrth gysegriad y babell. Gwasanaeth y deml oedd gynnwysedig mewn offrymau, aberthau, caniadau, a gweddiau. 1 Cron. xxii—xxvi. a 29. 1—9. 1 Bren. vi, vii, viii. 2 Cron. iii, iv, &c. Edr. y geiriau hyn.

Yn mha barth bynag o'r byd y byddai neb o'r Iuddewon, yr oeddynt hwy yn eu holl weddiau yn troi eu

Digitized by Google

hwynebau tu a'r deml. 1 Bren. 8. 38, 42, 44, 48. Dan. 6. 10.

Mae y rheolau canlynol yn ysgrifeniadau yr Iuddewon mewn perthynas i addoliad y deml. Gwaherddir yn yr ysgrythyrau bob aflendid seremoniol yn gyffredinol; ond yn eu traddodiadau enwant amrywiol o bethau neillduol, a rhai honynt ddim o'r pwys mwyaf.—1. Nid oedd i neb fyned i fynydd y tŷ a ffon yn ei law, fel ymladdwr neu deithiwr; am hyny y gyrodd Crist y prynwyr a'r gwerthwyr allan â fflangell o fân reffynau, ac nid â ffon. Ioan 2. 15. ——2. Nid oedd i neb fyned i mewn â'i esgidiau am ei draed. Gallent fyned â'u sandalau, ond nid â'u hesgidiau; ond nid oedd y Lefiaid na'r offeiriaid i wisgo eu sandalau, ond bod yn droednoeth yn gwasanaethu yno. Exod. iii. Jos. v.——3. Nid oeddynt i ddwyn dim arian yn eu pyrsau, nac ysgrepan. Gallent ddwyn arian yn eu dwylaw at y gwasanaeth yno; i arwyddo y dylent adael y byd ar ol wrth addoli Duw.——4. Nid oedd dim llwch i fod ar eu traed.——5. Gwedi myned yno, rhaid iddynt ofalu am beidio poeri—nac arferyd un ystum anmharchus ar eu cyrph, na chwerthin, na gwatwar, na siarad gwag, &c. Peidio gwneuthur mynydd y tŷ yn ffordd. Os aent ar negesau bydol, er bod y ffordd yn nes tros fynydd y tŷ, rhaid oedd myned oddi amgylch. Wrth fyned yno, rhaid myned yn araf ac yn barchus i'r lle yr oeddynt i sefyll arno, ac yno i sefyll mewn agwedd ddifrifol, barchus.——6. Rhaid oedd iddynt sefyll yn gweddïo â'u traed wrth eu gilydd, â'u llygaid ar i lawr, â'u llaw ddehau ar y fron aswy, (Luc 18. 13.) â'u penau gwedi eu gorchuddio. Ac nid oedd i'r bobl na'r offeiriaid ar un achlysur eistedd yn y cynteddau. ——7. Gwedi cyflawni y gwasanaeth, nid oedd iddynt wrth fyned allan droi eu cefnau ar allor yr Arglwydd, ond i fyned oddi yno yn wysg eu cefnau.——Galwent yr holl fynydd yn deml tu fewn i'r mur nesaf allan; ac yr oedd adeiladau yn agos i'r pyrth lle trigai rhai ynddynt. 2 Cron. 22. 11, 12. Luc 2. 37.

1. Fel y babell, yr oedd y deml yn gysgod arbenig o Grist, yn ei berson fel Duw-ddyn, ac yn ei swydd fel Cyfryngwr, ac yn yr holl waith perthynol i'w swyddau, (Ioan 2. 10. Col. 2. 9. Edr. PABELL, ac enwau amrywiol ddodrefn y deml.) Yr oedd pob peth yn newydd yn y deml, hyd yn nod allor y poethoffrwm, ond yr arch, y drugareddfa, a'r cerubiaid arni; canys hon oedd yr arwydd mwyaf hynod o'r presennoldeb dwyfol gyd â'i bobl cymmodedig âg ef yn Nghrist Iesu, yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion. Y rhan fwyaf o'r dodrefn a liosogwyd ac a helaethwyd, rhagor yr hyn oeddynt yn y babell; ond nid oedd ond *un* tŷ—*un* allor bres y poeth-offrwm—*un* allor aur yr arogl-darth—ac *un* drugareddfa, fel o'r blaen.

2. Yr oedd y deml hefyd, yn cysgodi eglwys Crist yma yn y byd, yn enwedig yn ei gogoniant yn y dyddiau diweddaf. Y mae yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd. Eph. 2. 22. 1 Tim. 3. 15. Y mae wedi ei glanhau a'i chysegru â gwaed Crist; ei chymmodi â Duw trwyddo, ei hadeiladu arno, ac wedi ei haddurno â gras a doniau yr Ysbryd i fod yn breswylfod i Dduw byth. Sylwa Bochart, na eilw yr apostolion ar ol adgyfodiad Crist, y deml yn Jerusalem, yn *deml Duw*; ond bob amser pan arferent y geiriau hyny, deallant yr *eglwys Gristionogol*. 1 Tim. 3. 15. 1 Cor. 7. 19. 2 Cor. 6. 16. Eph. 2. 19—24. Yn Nadguddiad Ioan, yr hwn a ysgrifenwyd, tebygol, wedi dinystr Jerusalem, crybwyllir am ddynion yn golofnau yn nheml Duw. Dat. 3. 12. A phan ddywedir fod dyn pechod 'yn nheml Duw, yn eistedd megys Duw,' eglur yw, y meddylir yr eglwys Gristionogol, a byddai ei ddangosiad yn llygriad yr eglwys Gristionogol, trwy ddiddymu llywodraeth Crist, a gwir addoliad Duw yn yr eglwys, gan hòni pob parch ac awdurdod iddo ei hun.——Mae y saint, eu cyrph a'u heneidiau, yn demlau i'r Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn trigo ynddynt. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Cor. 6. 16.

3. Dichon fod hefyd yn gysgod o'r nefoedd, preswylfod sefydlog y Goruchaf, lle y gwasanaethir ef gan luoedd dirifedi o ddynion ac angelion, ac y moliannir ef â chaniadau diddarfod. Ps. 11. 4. Dat. 7. 15.

Ni pharhaodd y deml ddim dros 34 o flynyddoedd yn ei gogoniant; ond yn fuan bu ddarostyngedig i lawer o gyfnewidiadau. A. M. 3033, A. C. 971, Sisac, brenin yr Aipht a ddygodd drysorau y deml i'r Aipht. 1 Bren. 14. 25, &c. 2 Cron. xii. Tan deyrnasiad Jehoram, Ahaziah, ac Athaliah, dirywiodd yn fawr, ond Jehoiada a Joas a'i hadgyweiriasant, A. M. 3150. Yn fuan Joas a'i hyspeiliodd o'i thrysorau i'w rhoddi i Hazael brenin Syria. 2 Bren. xii. 2 Cron. xxiv. Ahaz a'i hanrheithiodd yn fawr. 2 Bren. xvi. 2 Cron. xxviii. Hezeciah a'i hadgyweiriodd; ond yn y 14eg flwyddyn o'i deyrnasiad bu gorfod arno ei hyspeilio o'i thrysorau, i'w rhoddi i Senacherib. 2 Bren. xviii. 2 Cron. xxix. Manasseh a gododd allorau i lu y nefoedd yn y cynteddoedd sanctaidd, ond ar ol ei edifeirwch adferodd addoliad y gwir Dduw yno. Josiah ei ŵyr a burodd y deml. 2 Bren. xxi, xxii. 2 Cron. xxxiii, xxxv. A. M. 3398, Nebuchodonosor a ddygodd ymaith i Babilon ran o lestri y deml; yn nghylch saith mlynedd wedi hyny, dygodd rai eraill yno. Yn A. M. 3416, llosgodd a dystrywiodd y deml yn gwbl. Ezec. 7. 20, 21, 22. a 24. 21. Jer. 52. 13.

Bu y deml mewn adfeiliad 52 o flynyddoedd. Yn nghylch A. M. 3469, dechreuwyd ei hail adeiladu trwy orchymyn Cyrus. Y mae yn gorchymyn i adeiladu y tŷ yn 60 cufydd ei led a'i uchder; yn dair rhes o feini mawr, a rhes o goed newydd: 'a rhodder (medd ef) y draul o dŷ y brenin.' Ezra 6. 3, 4. Nid oedd teml Solomon ond 20 cufydd o led, a 30 cufydd o uchder, ond yn 60 cufydd o hŷd. Tebygol nad oedd mesur teml Solomon yn cynnwys ond yr adeiladaeth ei hun tu fewn y muriau, a bod y mesur yn ngorchymyn Cyrus yn cynnwys yr holl yspaid rhwng y muriau tu allan y cynteddoedd.

Gosodasant allor y poeth-offrwm yn gyntaf ar ei hystolion, a dechreuasant offrymu arni cyn sylfaenu y deml. Yn yr ail fis o'r ail flwyddyn ar ol eu dychweliad, y sylfaenwyd y deml, gyda chymysg llawenydd a galar. Ezra iii. Yr hen bobl oedd yn wylo, y rhai a welsent y deml gyntaf, heb obaith ganddynt y byddai hon yn cystadlu â hòno; ond y bobl ieuainc a ddyrchafasant eu llef mewn bloedd gorfoledd, am fod y deml yn cael ei sylfaenu. Zorobabel, a Josuah yr arch-offeiriad, oedd yn arolygu y sylfaeniad, ac yn dwyn yn mlaen yr adeiladaeth. Cyfarfuant â llawer o rwystrau cyn gorphen yr adeilad, ond etto llwyddodd Duw eu hymdrechiadau trwy y cwbl i'w gorphen yn mhen ugain mlynedd gwedi eu dychweliad o Babilon, yn nghylch A. M. 3489, A. C. 525.

Gellir barnu, er fod y deml hon o'r un faintioli, a'u bod lawer hŵy yn ei hadeiladu, etto, o ran cywreinrwydd y gwaith, a gwychder ei haddurniadau, ei bod yn llawer llai godidog na theml Solomon; gellir casglu hyn, meddaf, oddiwrth amgylchiadau isel a thlawd yr holl genedl yr amser hwnw, newydd ddychwelyd o'u hir gaethiwed. Geiriau yr Arglwydd trwy Haggai sydd yn cadarnhau hyn tu hwnt i ddadl: 'Pwy yn eich plith a adawyd yr hwn a welodd y tŷ hwn yn ei ogoniant cyntaf? a pha fodd y gwelwch chwi ef yr awr hon? onid yw wrth hwnw yn eich golwg fel peth heb ddim?' Haggai 2. 3. Etto, er gwaeled yr adeilad, y mae yr Arglwydd yn rasol yn eu hannog i fyned yn mlaen â'r gwaith, gan addaw y byddai efe gyda hwynt, ac y byddai i'w Ysbryd aros yn eu mysg; ac yn addaw hefyd, i goroni y cwbl, y



Digitized by Google

byddai i 'ddymuniant yr holl genedloedd,' sef y Messiah, ddyfod iddo, a thrwy hyny y byddai gogoniant y tŷ diweddaf yn fwy na'r cyntaf.

Dywed yr Iuddewon fod pum peth yn eisieu yn y deml hon, ag oeddynt yn ogoniant mawr i'r gyntaf, sef, 1. Yr arch a'i pherthynasau.—2. Y Shecinah, neu y cwmwl, yn arwydd o'r presennoldeb dwyfol.—3. Yr Urim a'r Thummim.—4. Y tân o'r nefoedd.—5. Ysbryd prophwydoliaeth.

Yn nghylch A. M. 3837, halogwyd y deml yn ddirfawr trwy orchymyn Antiochus Epiphanes, yr hwn a barodd osod delw Jupiter Olympus ar allor y poeth-offrwm, &c. Ond tair blynedd a hanner gwedi hyny, Judas Maccabeus a'i purodd ac a'i hadgyweiriodd, A. M. 3840, A. C. 164. 1 Mac. 1. 62.

I'r dyben i gymeradwyo ei hun i'r bobl, ac i borthi ei falchder ei hun, Herod Fawr, un o'r dynion gwaethaf a anadlodd erioed, a'i hail adeiladodd. Gosododd ei sylfaen yn nghylch A. M. 3987, chwe blynedd a deugain cyn y pasc cyntaf y rhoddir hanes y bu ein Hiachawdwr ynddo, gwedi dechreu gweinidogaethu yn gyhoeddus, pan ddywedodd yr Iuddewon wrtho, 'Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml hon.' Ioan 2. 20. Canys er ei gorphen yn addas i addoli ynddi mewn naw mlynedd a hanner, etto yr oedd nifer mawr o gelfyddwyr a gweithwyr yn gweithio wrthi hyd amser ein Hiachawdwr, ac wedi hyny agos hyd ei dinystriad; sef nes y daeth Gessius Fflorus yn rhaglaw ar Judea.

Rhydd Josephus y darluniad hardd a godidog canlynol o deml Herod. (Josephus, *Antiq.*, *lib.* xv. *cap.* 14. *De Bello*, *lib.* vi.) Y deml ei hun oedd 60 cufydd o uchder, a 60 o led. Yn y wyneb ychwanegodd ddwy aden, pob un yn 20 cufydd, yn gwneyd y wyneb yn 100 cufydd o hŷd, a'r lled yr un faint. Yr oedd y porth yn 70 o gufyddau o uchder, ac yn 20 o led, ond heb ddorau. Meini yr adeiladaeth oeddynt farmor gwyn, 25 o gufyddau o hŷd, 12 o uchder, a 9 o led, oll gwedi eu caboli, ac yn hardd ddigymhar. Yn lle drysau, yr oedd y pyrth gwedi eu gorchuddio â llèni gwedi eu haddurno â chywreinwaith o aur, arian, a phorphor, a phob peth ag oedd yn gywrain ac yn odidog. O bob tu y porth yr oedd colofn uchel-wych âg addurn-blethiadau aur yn crogi wrthynt, a gwinwydd â'u dail, a grawn-sypiau o gywreinwaith.

Yr holl le cauedig oedd yn nghylch ystad ysgwâr, gwedi ei amgylchu â mur uchel, o feini mawrion, rhai o honynt yn nghylch 40 cufydd o hŷd, ac i gyd gwedi eu huno â'u gilydd â phlwm neu haiarn. Lle yr oedd y mur gwedi ei adeiladu o waelod y dyffryn, yr oedd ei uchder dros 300 neu 400 o gufyddau. Tu fewn i'r mur uchel hwn yr oedd tair o orielau *(galleries)* y gulaf oedd yn nghylch 30 o droedfeddi o led, a 100 o uchder. Yr orielau hyn a gynnelid gan 162 o golofnau marmor, pob un yn nghylch 27 o droedfeddi o gylch-fesur. Yr oedd yn y mur hwn bedwar porth o du y gorllewin, ac un yn mhob un o'r tair ystlys eraill. Porth Solomon oedd o du y dwyrain, ac a elwid y Porth Prydferth. Act. 3. 2, 10. Y rhodfäoedd colofnog a'r cyntedd oeddynt wedi eu llorio â marmor. Oddifewn i hwn yr oedd cyntedd arall gwedi ei amgylchu â chledrau a cholofnau marmor gwedi eu gosod yn addas, ar ba rai y crogid arwydd-eiriau yn gwahardd i'r Cenedloedd a'r Iuddewon aflan ddyfod yn mhellach i mewn. Tu fewn i hwn yr oedd y trydydd cyntedd, yn amgylchu y deml, ac allor y poeth-offrwm. Yr oedd i'r mur 14 o risiau y tu allan, ag oedd yn cuddio rhan fawr o hono, ac ar ben y mur yr oedd uchel rodfa yn ddeuddeg troedfedd o led. Yr oedd i'r cyntedd hwn un porth o du y dwyrain, pedwar o'r tu dehau a'r gogledd. Tu fewn i bob porth yr oedd dwy ystafell bedair-onglog, ugain o gufyddau o led, a deugain o uchder, yn gynnaliedig gan golofnau deuddeg cufydd o gylch. Y pyrth oeddynt ddeg ar hugain o gufyddau o uchder, a phymtheg o led. Tu fewn i'r cyntedd yr oedd dwy o orielau. Yr oedd y gwragedd mewn cyntedd wrthynt eu hunain, ac yr oeddynt yn myned i mewn trwy borth y dwyrain. Yn y trydydd yr oedd cyntedd yr offeiriaid gwedi ei wahanu oddiwrth gyntedd y bobl yn gyffredin â mur isel. Yn nghyntedd yr offeiriaid yr oedd allor y poeth-offrwm, y noeau, a'r deml ei hun. Yr oedd muriau a nen y deml gwedi eu gorchuddio âg aur y tu allan, ac yn gwneuthur dangosiad dysglaer a golygus iawn ar ddiwrnod heulog. Mynodd Herod gysegru ei deml gyda llawer o ddifrifoldeb a gwychder ymddangosiadol. Gwedi sefyll yn nghylch 70 o flynyddoedd, llosgwyd hi gan y milwyr Rhufeinaidd, er mawr dristwch i Titus Vespasian, yr hwn oedd yn fawr ei fryd am ei chadw yn gyfan.—Anturiodd yr ymerawdwr gwrthgiliedig Julian, yn nghyd â'r Iuddewon, ei hail adeiladu, i brofi geiriau yr Iesu yn gelwyddog, yr hwn a ddywedodd, 'Ni adewir maen ar faen, a'r nis dattodir.' Luc 21. 6. Ond daeargrynfäu a fflamau tân a laddodd lawer o'r dynion, a wasgarodd y defnyddiau, ac felly y llesteiriwyd y gwaith rhyfygus hwn. Gwel Warburton's *Julian*. Esgob Newton's *Dissert.*, a La Bleterie. Dr Whitby's *General Preface*. Edr. JERUSALEM.

Y mae teml Fahometanaidd yn awr yn y fan lle yr oedd y cysegr sancteiddiolaf yn sefyll.

'Ei bod hi wedi ei harddu â meini têg a rhoddion.' Luc 21. 5. Rhoddes hanes o'r blaen am y meini têg (λιθοις καλοις), am y rhoddion (αναθημασι), sef *rhoddion cysegredig.*—Rhydd Tacitus hanes am gyfoethogrwydd dirfawr teml Jerusalem, (*Hist.*, *lib.* v. § 8.) Yn mhlith pethau eraill, yr oedd yno fwrdd aur, gwedi ei roddi gan Pompey; ac amryw winwydd o weithrediad cywrain, ac o faintioli dirfawr: dywed Josephus fod iddynt sypiau mor daled a dyn; tybyga rhai y cyfeiriant at waith yr Arglwydd yn gosod y genedl Iuddewig allan dan y gyffelybiaeth o winwydden. Esa. 5. 1—7. Ps. 80. 8. Ezec. 15. 2, 6. Sicrha Josephus fod marmor y deml mor glaerwyn, fel yr oedd yn ymddangos o bell yn debyg i fynydd o eira; a bod goreurad amryw ranau allanol o honi, a goffâ efe yno, yn wrthddrych hardd a dysglaer iawn i syllu arno.

'Daw y dyddiau yn y rhai ni adewir maen ar faen, a'r nis dattodir.' Luc 21. 6. Yr oedd hyn yn beth annhebygol iawn i ddygwyddo yn yr oes hòno, wrth ystyried yr heddwch rhwng yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid, a chryfder anarferol y tŵr; yr hyn a barodd i Titus ei hun addef, mai llaw neillduol Duw a barodd iddynt roddi i fynu amddiffynfäoedd nas gallasai dim gallu dynol eu gorchfygu. Josephus, *Bell. Jud.*, *lib.* vi. *cap.* 9. Sylwa yr Esgob Chandler, na buasai un twyllwr byth yn rhag-ddywedyd dygwyddiad mor annhebyg, ac mor annymunol. *Defence of Christianity.*

Am deml weledigaethol Ezeciel, y mae mewn llawer o bethau yn wahanol oddiwrth yr holl adeiladau hyn, fel y geill pawb ganfod wrth gymharu yr amrywiol ranau o bob un â'u gilydd. Amlwg ydyw i mi, nad yw hòno yn ddarluniad o un deml a wnawd etto, neu a wneir ychwaith, ond ei bod yn arwydd-lun godidog o'r eglwys dan yr oruchwyliaeth efengylaidd, yn enwedig tu a'i diwedd, pan y bydd yn fwyaf ei gogoniant. Diammeu fod cyfeiriad at deml Solomon yn yr holl ddarluniad; a hwyrach fod Zorobabel a Josuah â'u llygaid arno wrth adeiladu yr ail deml. Ond oddiwrth amrywiol amgylchiadau, gellir dangos yn eglur, fod rhyw beth yn cael ei olygu yn tra rhagori ar y ddwy deml hyn; a bod y darluniad allanol hwn yn arwydd-lun o bethau ysbrydol dan yr efengyl. Nis gellir dehongli yn llythyrenol, wrth ddim a ddygwyddodd etto, faintioli y deml, y ddinas, a'r tir; a

Digitized by Google

rhaniad y wlad rhwng y tywysog, yr offeiriaid, a'r llwythau; a'r afon yn rhedeg odditan riniog y tŷ, ac yn raddol yn cynnyddu nes y cyrhaeddodd y Môr Marw, ac yn pereiddio y dyfroedd, ac yn meithrin ac yn ffrwythloni y coed oedd yn tyfu ar ei lânau, pen. xlv, xlvii, a xlviii. Nid oes dim yn fwy arferol na bod i'r prophwydi ddarlunio yr eglwys Gristionogol trwy arwydd-luniau gwedi eu cymeryd oddiwrth y deml a'r gwasanaeth yno, i osod allan ei chymhesuriad a'i harddwch, ei chadernid a'i pharhad, trefn hardd a gweddeidd-dra addoliad y gwir Dduw, ac amlygiad o'r presennoldeb dwyfol ynddi yn nylanwadau, cynnorthwyon, a chysuron yr Ysbryd Glân. Y mae yn beth tra nodedig nad oes crybwylliad unwaith am aur nac arian yn narluniad Ezeciel, pan yr oedd teml Solomon gwedi ei gwisgo oll âg aur; yn arwydd, mae yn debygol, y byddai gogoniant teml Ezeciel yn fwy ysbrydol a sylweddol. Y mae yr enw, 'mynydd uchel iawn,' ar ba un y gwelodd y prophwyd megys adail y ddinas o du y dehau, yn gwbl anmhriodol i fynydd Moriah, ac i un adail a wnaed erioed etto arno. Pen. 40. 2. Yr ydoedd y deml, a'r adeiladau perthynol iddi, yn gorchuddio llanerch o dir o leiaf yn filltir bob ffordd, sef pedair milltir o gylch; yr ydoedd hyn yn llawer mwy nag un o'r ddwy deml o'r blaen, ac yn fwy nag a gynnwysai mynydd Moriah. Pen. 42. 20. 'Daeth gogoniant yr Arglwydd i'r tŷ—a'r ddaear yn dysgleirio gan ei ogoniant ef.' Pen. 43. 2—5. Nid oes un hanes i ogoniant yr Arglwydd ddyfod yn weledig i'r ail deml, fel y daeth i'r babell, ac wedi hyny i deml Solomon. Gan hyny, mae yn angenrheidiol edrych yn mhellach na dychweliad yr Iuddewon o Babilon, am y cyflawniad o'r prophwydoliaethau hyn. Nid oes grybwylliad yma am un cwmwl du yn cyd-fyned â'r gogoniant Dwyfol, fel dan y goruchwyliaethau rhagflaenorol: nid oes yma ddim ond gogoniant gyda dysgleirdeb digwmwl. Ond y mae yma lais fel sŵn dyfroedd lawer, yn arwydd o bregethiad uchel a chyffredinol yr efengyl, trwy ba un y bydd y gogoniant yn dysgleirio ar yr holl ddaear. Esa. 60. 1, 2, 3. Hab. 2. 14. Dat. 14. 2. a 19. 1—6. Nid ydyw y geiriau canlynol, ychwaith, yn wir, a'u cymhwyso hwynt at yr ail deml: 'A'm henw sanctaidd ni haloga tŷ Israel mwy,' &c. (pen. 43. 7.) ond cyfeiriant, tybygaf, yn eglur at gyflwr yr eglwys mewn amseroedd hyfryd etto i ddyfod. Y mae y darluniad o allor y poeth-offrwm yn dra gwahanol oddiwrth yr hanes a roddir i ni am allor bres Solomon. Pen. 43. 13—17. Yr hanes am fynediad y tywysog yn unig i mewn ar hyd ffordd porth y dwyrain, a berthyn yn unigol i deml Ezeciel. Pen. 44. 1, 2, 3. Mae rhandiroedd y llwythau yn gwbl wahanol oddiwrth ddosparthiad Josuah o wlad Canaan rhwng y llwythau (pen. xlviii.); ond yn arwyddo, tebygol, y byddai yr holl dduwiolion yn gyd-gyfranogion o ragorfreintiau yr efengyl. Yr oedd y ddinas yn ddeugain milltir o gylch, sef deng milltir bob ffordd: yr ydoedd y mesur hwn yn fwy o lawer na malntioli Jerusalem pan yn ei gwychder mwyaf. Pen. 48. 35.——Oddiwrth olygiad ar yr holl ddarluniad gweledigaethol, nis gallaf lai na phenderfynu ystyr y weledigaeth yn brophwydoliaethol; a hwyrach y bydd, o hyn i ddiwedd amser, gyflawniad mwy neillduol o honi, ar ddychweliad yr Iuddewon, a'u hadferiad etto i'w gwlad eu hunain. Dinystr Gog a Magog, a'r tywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân, sydd i'w ddysgwyl yn y dyddiau diweddaf; hwyrach i barhau dros fil o flynyddoedd, tra byddo Satan yn rhwym yn y pydew heb waelod.

'A theml ni welais ynddi; canys yr Arglwydd Dduw Hollalluog, a'r Oen, yw ei theml hi.' Dat. 21. 22. Yr ydoedd Jerusalem yn ddinas sanctaidd i gyd, yn ol y brophwydoliaeth yn Jer. 3. 17.—'yn orseddfa yr Arglwydd.' Duw, yn ol ei addewid, a dywallt ei Ysbryd mor helaeth ar ei eglwys, fel y dengys trwy hyny ei fod yn preswylio yn eu plith, nid yn gysgodol, ond yn wirioneddol; a'i ogoniant yn dysgleirio yn eu plith hwynt. Felly, byddai yr holl ddinas yn deml Duw; neu, y gwnai Duw a'r Oen iddi, yr hyn a wnaeth Duw yn gysgodol gynt i'r Israeliaid yn y babell ddaearol. Yr ydoedd yn hôno bresennoldeb a phreswyliad Duw, (שכינה *y Shecinah)* yn gysgodol, yn cael ei ddangos mewn dysgleirdeb a gogoniant allanol, yn aros ar y drugareddfa; hwn ydoedd yn dangos preswyliad gogoneddus a grasol Duw yn ei eglwys, yn ysbrydol ac yn wirioneddol.

TEMTASIWN—IO—IWR, *Llad.* TENTATION; *Ffr.* TENTATIO; *Saes.* TEMPTATION: hudiad, llithiad, profedigaeth; denu, hudo, llithio, profi. Y geiriau *Gr.* *πειρασμος, πειραζω,* a gyfleithir *temtasiwn, temtio*, a gyfleithir y rhan amlaf *profedigaeth, profi*. Edr. PROFEDIGAETH.—Temtio a arwydda, 1. Profi; felly y temtia dynion Dduw, pan yn afresymol ac yn anmharchus, y dysgwyliant i Dduw eu gwaredu hwynt mewn rhyw ffordd wyrthiol, allan o beryglon y taflasant eu hunain iddynt yn rhyfygus; a phan y pechant yn hyf ac yn rhyfygus i brofi Duw, a gospa efe hwynt ai peidio. Exod. 17. 2. Mal. 3. 15. Actau 5. 9. Mat. 4. 7. Felly y temtiodd yr Iuddewon yr Arglwydd Iesu, trwy ymgais ei gythruddo, neu ei faglu. Mat. 16. 1. a 22. 16.

2. Hudo i bechod; fel y temtia Satan a'i blaid, ddynion; am hyny y gelwir ef, *y temtiwr* (o *πειραζων*) *y profwr, yr hudwr.* 1 Cor. 7. 5. 1 Thes. 3. 5. Felly ni themtia Duw neb, ac nis gellir ei demtio gan neb. Iago 1. 13. Satan sydd wyliadwrus yn myned oddi amgylch i ddysgwyl am ryw adegau, rhyw gyfleusderau, neu amgylchiadau addas i hudo i bechod: temtia, ac wedi hyny cyhudda y temtiedig i Dduw, ac i'w gydwybod ei hun. Y mae fel llew yn gryf, ac fel sarph yn gyfrwys i hyny. Ond nid yw Duw yn temtio neb felly; ond yn cadw llawer rhag cael eu gorchfygu gan hudoliaethau y diafol. Am hyny y cynghora yr Arglwydd Iesu ei holl ddysgyblion, 'i wylio a gweddïo nad elont i brofedigaeth,' neu demtasiwn. Mat. 26. 41. 'Efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir—ac yn nghyd â'r demtasiwn drefnu diangfa hefyd.' 1 Cor. 10. 13. Heb. 2. 18.

'Yn gymaint a dyoddef o hono ef, gan gael ei demtio.' Heb. 2. 18. Nid ydyw temtio a themtasiwn ond pethau canolig, heb fod nac yn ddrwg nac yn dda ynddynt eu hunain. Beth bynag a berthyn iddynt o'r natur hyny, a dardd, naill ai o ddyben y temtiwr, neu gyflwr ac agwedd meddwl y rhai a demtir. Felly y dywedir fod Duw yn temtio, neu yn hytrach yn profi dynion; ond nid i'r dyben i'w hudo hwynt i bechu. Gen. 22. 1. Iago 1. 13. Y drwg yn tarddu o'r demtasiwn sydd yn y temtiedig. Cynnwys temtasiwn bob peth trwy yr hyn y dichon dyn gael ei brofi a'i gythryblu.

Rhydd yr ystyriaethau hyn oleuni i ni ar amrywiol demtasiynau Crist, yn y rhai y dywedir iddo *ddyoddef*, er na phechodd. Er eu bod oll yn allanol, ac oddiwrth deimladau allanol, etto nid ydynt i'w cyfyngu yn unig i ymosodiadau Satan. Ond cynnwysant, 1. Ei gyflwr yn y byd—yn dlawd, yn ddirmygedig, ac yn erlidigaethus; yn enwedig o ddechreu hyd ddiwedd ei weinidogaeth. Yr yspaid hwn a eilw efe, ei 'brofedigaethau.' Luc 22. 28. Dyoddefodd dlodi, newyn, syched, lludded, tristwch, dirmyg, cywilydd, gwaradwyddiadau, &c. yn y rhai yr oedd ei enaid yn dra theimladwy.

2. Yn y cyflwr hwn, cafodd brofedigaethau oddiwrth ei berthynasau, y rhai oeddynt yn anghrediniol ac anmharchus o hono; oddiwrth ei ganlynwyr, y rhai a dramgwyddasant wrth ei athrawiaeth, ac a'i gadawsant, er tristwch i'w enaid tosturiol; oddiwrth ei ddysgyblion detholedig, y rhai oll a'i gadawsant, un a'i bradychodd, a'r llall a'i gwadodd; oddiwrth ing ei fam,

Digitized by Google

trwy enaid yr hon yr aeth cleddyf, wrth edrych ar ei ddyoddefiadau; ac oddiwrth ei elynion oll.

3. Ond Satan ydoedd â'r llaw fwyaf yn ei demtasiynau. Ymosododd arno yn ffyrnig yn nechreuad ei weinidogaeth, nid trwy offerynau, ond yn ei berson ei hun, ac a'i dilynodd trwy ei holl ystod yn yr offerynau a roddodd ar waith; yr oedd ganddo dymhor, awr o dywyllwch a oddefwyd iddo, pan oedd i ymosod arno â'i holl nerth, ac â'i holl gyfrwysdra; yn yr holl ymosodiadau dyoddefodd ysigo ei sawdl, fel y rhagfynegwyd, ond buddugoliaethodd arno yn y cwbl. Edrych dan eiriau eraill.

4. Profedigaeth fawr arall ydoedd gadawiad y Tad. Hon ydoedd y drymaf a'r fwyaf gofidus. Ps. 22. 1, 2. Heb. 5. 7.

'Efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir.' Heb. 2. 18. Efe a ddichon, nid o ran grym a gallu gymaint, a feddylir; ond o ran cyd-ddyoddefgarwch, graslonrwydd, a thosturi. Y mae tueddrwydd grasol yn ei galon, a'r ewyllysgarwch mwyaf ynddo bob amser i hyny. Yr oedd efe yn gallu myned trwy y cwbl yn ei nerth ei hun, ond nis dichon neb o honynt hwy, heb gynnorthwy. Dichon efe eu nerthu i wrthsefyll y temtasiynau; eu cysuro danynt; a threfnu diangfëydd oddi wrthynt mewn amser priodol.

'Yna yr Iesu a arweiniwyd i fynu i'r anialwch gan yr ysbryd, i'w demtio gan ddiafol.' Mat. 4. 1.—'A'r Iesu yn llawn o'r Ysbryd Glân, a ddychwelodd oddi wrth yr Iorddonen, ac a arweiniwyd gan yr ysbryd i'r anialwch. Yn cael ei demtio gan ddiafol,' &c. Luc 4. 1. Tebygol i'r Iesu dynu o'r neilldu fel hyn trwy gynhyrfiad yr Ysbryd yn gweithredu tueddiad cryf i hyny ar ei feddwl, er mwyn llonydd rhagor i fyfyrdod, ac ymollyngiad sanctaidd i gynhyrfiadau hyfryd a difrifol ei feddwl, gwedi y dygwyddiadau mawrion diweddar, yn nisgyniad yr Ysbryd Glân arno, a'r dystiolaeth oruwch-naturiol iddo trwy y llef o'r nef. Rhoddir hanes gan Maundrell (*Travels, p.* 78.) am anialwch erchyll iawn yn gyfagos i'r Iorddonen. Yn y parth gogleddol i'r diffaethwch enbyd hwn, tebygol, yr ymosodwyd ar Grist, yn agos i Fôr Galilea. Hwn yw y diffaethwch y syrthiodd y dyn yn mhlith lladron ynddo, yn ol y ddammeg yn Luc 10. 30, &c. Er ei fod gyd â'r gwylltfilod, fel Daniel yn ffau y llewod, etto, attaliwyd hwynt rhag gwneuthur dim niwed iddo. I gael meddwl addas am y dygwyddiad rhyfedd hwn, rhaid ei ystyried mewn dau olwg: 1. Fel yr ydoedd yn oddefedig gan Dduw.—2. Fel y cyflawnwyd ef gan y diafol.—Goddefwyd ef gan Dduw, 1. Fel y byddai yn arch-offeiriad trugarog a ffyddlawn, yn medru cydddyoddef â gwendid ei bobl, a chynnorthwyo y rhai a demtir. Heb. 2. 17, 18. a 4. 15.——2. Fel y byddai mewn amgylchiadau addas i ddangos holl rinweddau arwraidd a sanctaidd ei natur, er cynllun ac annogaeth i'w bobl yn y cyffelyb amgylchiadau, i sefyll yn erbyn holl ymosodiadau a chynllwynion y diafol. Aeth o'u blaen hwynt fel rhagflaenor, nid yn unig mewn tlodi a gwaradwydd, a diystyrwch o holl fwyniant cnawdol, ond cymerodd ei demtio gan y diafol, er dangos beth ydoedd ei bobl i ddysgwyl am dano, yn enwedig ar ol cael profion amlwg o'r cariad dwyfol, ac amlygiadau o bresennoldeb Duw iddynt; fel na ddychrynent ac na ddigalonent o herwydd y cyfryw oruchwyliaethau tu ag atynt; fel y gwybyddent pa fath elyn yr oeddynt i ymdrechu âg ef, a natur ei demtasiynau, ac nad oes dim cabledd na drygioni yn rhy erchyll a chywilyddus iddo ef i gynnyg eu hudo iddo; ac hefyd i ddangos ei fod yn orchfygadwy, a pha fodd y maent hwy i gael buddugoliaeth arno.——3. Yr ydoedd yn addas iddo hefyd orchfygu y gelyn yn nechreu ei weinidogaeth gyhoeddus, gwaith yr hwn yr ymddangosodd i'w ddattod. Rhai profedig ydyw y rhai mwyaf addas i bregethu yr efengyl, i gyfarwyddo ac ymgeleddu eneidiau dynion.

Ar y llaw arall, yr achosion cymhelliadol yn y diafol i'r gorchwyl o brofi Mab Duw, oeddynt, 1. Y tueddiad cryf sydd ynddo yn gyffredin i hudo dynion i bechod.——2. Rhyw ddyben neillduol ganddo yn ei olwg i'w gwblhau trwy hyny. Nid yw yn afresymol meddwl fod dyben grasol Duw i gadw pechaduriaid trwy ei Fab, yn hysbys i'r angelion syrthiedig. Os felly, gallasent gasglu oddiwrth y prophwydoliaethau fod yr amser terfynedig o'i ddyfodiad wedi nesâu. Amlwg yw, nad yw yr ysbrydion drwg yn anhysbys yn yr ysgrythyrau, oddiwrth y coffâd a wnaeth y temtiwr o eiriau y Psalmydd yn un o'i brofedigaethau. Hwyrach ei fod am wybod yn sicr ai efe oedd y Person ai nad ê, fel y byddai hyny yn gyfarwyddyd iddo rhagllaw, pa fodd i ddwyn ei amcanion yn mlaen i ddinystr dynolryw. I'r dyben hyny, penaeth y cythreuliaid, y mwyaf addas i'r gorchwyl, a'i profodd â llawer o brofedigaethau; ond buddugoliaethodd arno yn y cwbl; a'r angelion wrth edrych gyda manwl sylw a syndod mawr, a weiniasant iddo yn llawen.

'A demtiwyd.' Heb. 11. 37. Yn eu holl ddyoddefiadau eraill, hwy a demtiwyd gan y diafol, a chan ei weision, i beidio dyoddef, a gwadu y ffydd er mwyn hyny; hyn oedd brofedigaeth drom iddynt.

TENAU—EU—ON, (tan) *Llad.* TENUIS: anaml, prin; eiddil, main, manwaidd, cul, truan, disylwedd, salw. Gen. 41. 6, &c. 1 Bren. 7. 29.

TENEWYN—AU, (tan-gewyn) ystlys-ddarn. *Lef.* 3. 4, 10. a 4. 9. a 7. 4. Job 15. 27.

TER, (te-er) pur, glanbur, coeth.

Melysach hefyd ŷnt na'r mêl,
Sef dagrau *têr-fêl* tyner.
*E. Prys*, (Ps. 19. 10.)

TERAH, *Heb.* תרח [*anadlu*] mab Serug, a thad Nachor, Haran, ac Abraham. Gen. 11. 24. Bu farw Terah pan oedd yn 205 o'i oed, yn Haran; ac yr oedd Abraham yn 75 o'i oedran pan ddaeth o Haran (Gen. 12. 4.) am hyny ganwyd Abraham pan oedd Terah yn 130 o oedran, nid pan oedd yn 72, fel y dywed Calmet. Tebygol mai pan oedd Terah yn 70 y dechreuodd genedlu plant, yn ol Gen. 11. 26. ond rhaid ei fod yn 130 mlwydd oed pan aned Abraham, gan nad oedd ond 75 pan aeth o Haran i Ganaan wedi marw Terah, yn 205 o'i oed. Llawer o ddadleu sydd wedi bod yn nghylch hyn yn mhlith y brudwyr; ond nis canfyddaf un ffordd arall ond yr uchod i olygu y mater hwn mewn cysondeb, heb olygu gyda rhai fod gwall yn yr adysgrifen Hebraeg. Gwel *Ancient Univer. Hist., vol.* i, iii. ——Yr oedd Terah a'i deulu yn eilun-addolwyr; ond hwyrach fod galwad Abraham o fendith iddo ef ac eraill o honynt. Jos. 24. 2—14.

TERAPHIM, תרפים [*brawychwyr*, neu *ymholydd*]. Nid oes le i ammeu, medd Parkhurst, nad delw gyfansawdd oedd y teraphim, âg amryw benau gwedi eu huno â'r un corph, yn debyg i'r cerubiaid, ond at wasanaeth mwy neillduol a dirgelaidd. Yr oedd rhyw gyffelybrwydd cyffredinol ynddynt i ddynsawd dynol, y mae yn eglur oddiwrth 1 Sam. 19. 13, 16. Y gair delw yn ein cyfieithiad ni, yn yr adnodau hyn, ydyw teraphim, yn Hebraeg. Yr oeddynt yn arferedig yn mhlith credinwyr yn y gwir Dduw; megys Laban, Gen. 31. 19, 34, 35. Y gair a gyfieithir *delwau* yw teraphim Micah. Barn. 17. 5. a 18. 14, 18, 20. Nid ydyw Micah yn ymddangos, oddiwrth yr hanes am dano, yn eilun-addolwr; er bod ei addoliad, i raddau mawr, yn llygredig. Horsley ar Hos. 3. 4. Yr oeddynt yn arferedig hefyd gan eilun-addolwyr. 2 Bren. 23. 24. Ezec. 21. 21. Zech. 10. 2. Y gair Hebraeg am ddelwau, yn y lleoedd hyn, ydyw *teraphim*, cymh. 1 Sam. 15. 23. lle cyfieithir ef *delw-addoliaeth*. Tebygol fod y teraphim â'r un arwyddocâd cyfriniol iddynt a'r cerubiaid; ond eu gwneuthur o ddefnyddiau

Digitized by Google

llai costus, ac o waith llai cywrain. Arferid hwy, tebygol, medd yr Esgob Horsley, fel addurniadau lleoedd cysegredig, cafellau gweddi mewn tai neillduol. Pa mor ddiniwed bynag oedd eu defnyddiad ar y cyntaf, gan addolwyr y gwir Dduw, dilys yw, mewn amser, eu cam-ddefnyddio hwynt i ddybenion coel-grefyddol; a'u bod i'w golygu fel yr ysgarthion ffieiddiaf eilun-addoliaeth, ag ydoedd yn ddyledus ar bawb o'r ffyddloniaid i'w dystrywio. Teraphim yr eilun-addolwyr, oeddynt, tebygol, arddulliad llygredig o rai y gwir addolwyr: dynwaredigaeth o arwydd-luniau y patrieirch ydoedd yr hen eilun-addoliaeth, yn mhob peth. Teraphim yr eilun-addolwyr ydoedd eu delwau swynol, a ddefnyddiwyd i ddybenion cyfareddol. Cyfrifir y teraphim, a gyfieithir *delwau*, yn mysg y ffieidd-dra a dynodd y brenin Josiah ymaith. 2 Bren. 23. 24.—— Ymgynghorodd Nebuchodonosor â'r teraphim (*â delwau*) pa un a wnai efe warchae gyntaf ar Rabbah, neu ar Jerusalem. Ezec. 21. 21.

'Canys llawer o ddyddiau yr erys meibion Israel heb frenin, a heb dywysog, a heb aberth, a heb ddelw, a heb ephod, a heb teraphim.' Hosea 3. 4. Er yr amser y dinystriwyd dinas Jerusalem gan Titus Vespasian hyd y dydd hwn, y mae meibion Israel heb lywodraeth wladol; ond yn byw yn mhob man fel alltudion, trwy oddefiad; y maent yn awr heb offeiriad, ac heb aberthau, gwedi dinystrio y deml, yr unig le yr oeddynt i aberthu ynddo; ac etto, er hyny, y maent wedi ymgadw oddiwrth eilun-addoliaeth, yr hwn oedd bechod cyffredin eu hynafiaid. Y mae hon yn brophwydoliaeth hynod, a thra rhyfeddol, o ddygwyddiadau cwbl groes i bob tebygoliaeth ddynol: ac etto, yn ddiammheuol, yn cymeryd lle, a hyny nid ar achlysur neillduol, neu dros amser byr, ond dros lawer o oesoedd olynol. Pwy ond Duw a allasai rag-weled hyn, a dysgu ei was i rag-ddywedyd am bethau mor annhebygol? Gwel Horsley ar Hos. 3. 4. Pocock *in loc.* Franciscus Moncæius, *De Vitulo Aureo.* Mr Hutchinson, *On the Names and Attributes of the Trinity of the Gentiles.* Julius Bates' *Enquiry into the Occasional and Standing Similitudes of the Lord God.* Vitringa ar Hos. 2. 8. a 4. 19.

TERFYN—AU—EDIG—OL—U, (terf) ffin, cyffinydd, diwedd, dyben, tranc: nôd, terfyn. Deut. 19. 8. a 27. 17. Diar. 22. 28. a 23. 10.

Pechod dirfawr yn erbyn mawredd Duw, yw rhoddi 'terfyn i Sanct yr Israel,' nac mewn meddwl, nac yn ein hymddygiad tu ag ato. Psalm 78. 41. Un heb derfyn yw mewn mawredd, doethineb, gallu, a daioni; ac y mae pob meddwl croes i hyny yn anaddas am dano, ac yn gableddus. Y mae terfynau i bawb a phob peth arall; ond un o ragoriaethau y Duw mawr yw, ei fod heb *derfyn.* Gan nad oes derfyn iddo, ni weddai fod terfyn i'n hyder ninnau arno, ein cariad tu ag ato, ein parch a'n haddoliad iddo, o ran graddau na pharhad.

'Terfynau y ddaear,' a arwyddant yr holl ddaear; sef y cwbl o fewn ei therfynau; ei phreswylwyr yn ei holl gonglau, y rhai a roddwyd i Grist, ac efe a gymer feddiant o honynt yn yr amseroedd priod. Ps. 2. 8. a 22. 27. Rhuf. 10. 18.

'A'th holl derfynau o geryg dymunol.' Esa. 54. 12. Ei holl gylchoedd; sef ei hordinhadau, ei swyddwyr, ac aelodau yr eglwys, gwedi eu harddu â doniau ysbrydol, a gras yn helaeth ac yn ardderchog. Edrych Cynghor, Glyn, Symud.

TERFYSG—OL—OEDD—U, (ter-mysg) trallod, trabludd, ymswrn, ymffrost, godwrdd, dygyfor, helbul, cyffro, cythrwfl.—1. Cynhyrfiad annhrefnus, ymbleidgar, bradwriaethol, y werin gyffredin. Hos. 10. 14. Mat. 27. 24. Act. 17. 5. Esa. 22. 2.——2. Croch ddadwrdd. Zech. 14. 13. Esa. 13. 4.

'Canys lle mae cenfigen ac ymryson, yno y mae terfysg, a phob gweithred ddrwg.' Iago 3. 16. *Gr.* ακαταστασια και παν φαυλον πραγμα. Cyfieithir y gair ακαταστασια, *anghydfod*, 1 Cor. 14. 33. 2 Cor. 12. 20. Arwydda bod yn ansefydlog ac annhrefnus, ac mae yn cael ei briodoli, yn dra addas, i ysbryd ymbleidgar yn yr eglwys, ffrwyth cenfigen, a'r holl effeithiau niweidiol o hono.

'A gweled y cerddorion a'r dyrfa yn terfysgu.' Mat. 9. 23. Y mae yn amlwg, oddiwrth Jer. 48. 36. a 9. 17. 2 Cron. 35. 25. fod pibellwyr neu gerddorion, yn arferedig yn nghladdedigaethau yr Iuddewon mor foreu a dyddiau y prophwyd Jeremiah, a'u bod hwy yn cyflogi gwragedd i alarnadu ar y cyfryw achosion. Tystia Josephus fod αυλητας, *pibellwyr*, yn cael eu cyflogi yn ngalarnadau yr Iuddewon ar farwolaeth eu cyfeillion. Gwel *De Bell., lib.* iii, *cap.* 8, *sec.* 5. Harmer's *Observations.*

TERTIUS, [*y trydydd*] am fod ystyr yr enw Lladin hwn yr un a Silas yn Hebraeg, y mae rhai yn barnu mai yr un oeddynt. Edr. Silas. Efe ydoedd ysgrifenydd yr epistol at y Rhufeiniaid, ac y mae efe yn anerch yr eglwys fel un adnabyddus i'r Rhufeiniaid. Rhuf. 16. 22.

TERTULUS, [*celwyddwr*] areithiwr tra enwog yn mhlith yr Iuddewon, yr hwn a roddwyd ar waith i gyhuddo Paul o flaen Ffelix yn Cesarea. Act. 24. 1—10. Ei araeth wag sydd ddigon i beri i bawb ffieiddio y cyfryw araethyddiaeth.

TESTAMENT—WR, *Lladin*, Testamentum: llythyr cymyn, ewyllys diweddaf; a thestamentwr yw gwneuthurwr y cyfryw weithred, neu ewyllys. Arwydda y gair *testament* (διαθηκη) weithiau, yn ein cyfieithiad ni o'r Bibl, yr un peth a *gosodiad* neu *oruchwyliaeth.* 'Hwn yw fy ngwaed o'r testament newydd;' neu o'r sefydliad, cyfammod, neu yr oruchwyliaeth newydd; yr hwn a gadarnhawyd, nid â gwaed anifeiliaid, fel cyfammod cysgodol Sinai, ond a gwaed Crist, y gwir aberth a'r iawn dros bechod. Marc 14. 24. Luc 22. 20. 1 Cor. 11. 25.—' Yr hwn a'n gwnaeth ni yn weinidogion cymhwys y testament newydd.' 2 Cor. 3. 6. Sef o'r cyfammod, y sefydliad, neu yr oruchwyliaeth newydd.—' Y rhai hyn yw y ddau destament;' neu y ddau gyfammod, neu y ddwy oruchwyliaeth. Gal. 4. 24.—' Ar destament,' neu osodiad, neu gyfammod, 'gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fechnïydd.' Heb. 7. 22.

'Oblegid lle byddo testament, rhaid yw dygwyddo marwolaeth y testamentwr. Canys wedi marw dynion, y mae y testament mewn grym; oblegid nid oes etto nerth ynddo tra byddo y testamentwr yn fyw.' Heb. 9. 16, 17. Cyfieitha rhai y geiriau yn dra gwahanol, fel y canlyn:—' Oblegid lle byddo cyfammod, rhaid dygwyddo marwolaeth (του διαθεμενου) yr aberthau gosodedig. Canys cadarnheir cyfammod (επι) uwchben aberthau meirwon, gan nad oes ynddo rym tra byddo yr aberthau gosodedig yn fyw.' Gwel Doddridge, Macknight, Parkhurst. Tra anaddas y gelwir cyfammod Sinai yn *destament*, (adn. 20.) yn ol priodol ystyr y gair hwnw. Testament pwy oedd? Duw neu Moses? neu a fu un o honynt farw i'w gadarnhau? a oes angen am gyfryngwr mewn testament? neu fod y testamentwr yn gyfryngwr ei destament ei hun? neu fod testamentwr y testament newydd yn marw i roddi ymwared oddiwrth droseddau dan destament o'r blaen; neu fod un testament yn cael ei wneuthur trwy daenellu y cymyn-dderbynwyr â gwaed? Ond yr oedd yr holl bethau hyn yn gyffredin mewn cyfammodau. Gwir yw, mai priodol ystyr y gair *Gr.* διαθηκη, yw *testament:* ond gan fod y LXX. yn cyfieithu y gair *Heb.* ברית (*berith*) priodol ystyr pa un yw *cyfammod*, wrth y gair διαθηκη, yr Iuddewon, wrth ysgrifenu Groeg, a arferasant y gair

Digitized by Google

διαθηκη, yn lle συνθηκη, fel y cydnebydd ein cyfeithwyr ni, a'r Dr M. hefyd, yn Heb. 10. 16. wrth ei gyfieithu *cyfammod.* Am gyfammod Sinai, ac am y cyfammod newydd, y mae yr apostol yn traethu: cysegrwyd, neu cadarnhawyd, y cyntaf trwy waed, yr un modd a chyfammod Noah, ac Abraham. Genesis 15. 9, 18. Exodus 24. 8. Psalm 50. 5. Ac felly y gwnaed yr ail trwy waed aberth aufeidrol mwy ei werth na gwaed yr aberthau oll gynt. Gan fod yr aberth wedi ei ladd, y mae y cyfammod mewn grym. 'Gwedi marw *dynion*' (επι νεκροις)—nid yw y gair *dynion* yn y Groeg, a gellir rhoddi θυμασι, *aberthau*, neu ζωοις, *anifeiliaid*, i mewn, yn gystal a'r gair *dynion.* Nis gallaf ganfod y priodoldeb o alw yr hen gyfammod na'r newydd wrth yr enw *testament*, yn lle *cyfammod, gosodiad*, neu *oruchwyliaeth*, ystyr mwyaf priodol y gair; ond y mae ein cyfieithiad ni yn gytun â llawer o gyfieithiadau eraill, ac nid addas i mi gymeryd y gorchwyl arnaf o derfynu y ddadl; yn unig dywedyd fy meddwl presennol fy hun, yn nghyd â beirniaid dysgedig o'r un farn.

Gelwir llyfrau y Bibl, yr Hen Destament, a'r Testament Newydd oddiwrth fod llyfrau Moses yn cael eu galw η παλαια διαθηκη, yr Hen Destament, sef cyfammod. 2 Cor. 3. 14. Edr. Cyfammod, Mechniydd.

TESTUN—AU, (tes-tun) traith-destun, swm araeth, neu chwedl. Esth. 3. 14. a 4. 8. a 8. 13.

TETRARCH, τετραρχης, oddiwrth τετρας, *pedwar*, ac αρχη, *llywodraeth*, un yn llywodraethu ar y bedwaredd ran o dalaeth, neu wlad. Yn y Testament Newydd, arwydda tywysog neu frenin (Mat. 14. 1, 9.) yn teyrnasu ar y bedwaredd ran o unol deyrnas gynt. Felly trwy ewyllys Herod Fawr, wedi ei chadarnhau o ran y sylwedd o honi gan Augustus Cesar, rhanwyd teyrnas Herod rhwng ei feibion: cafodd Archelaus un hanner; Herod Antipas a gafodd un rhan o bedair, yn cynnwys Galilea a Perea; a Philip y rhan arall, yn cynnwys Trachonitis, Auranitis, a elwir gan Luc, Iturea. Priodolir yr enw hwn i Herod Antipas yn Mat. 14. 1. Luc 3. 19. a 9. 7. Act. 13. 1. Gwel Josephus *De Bell., lib.* lxxi. *cap.* 6. *Antiq., lib.* xvii. *cap.* 8. a *lib.* xviii. *cap.* 6. Lardner's *Credibility of Gospel History, book* vii. *cap.* 1. Ni ranwyd tiriogaeth Herod Fawr i bedwar, ond i dri o *detrarchies*, fel yr hysbyswyd uchod.

TETH—AU, (te-eth) diden, bron. Esa. 32. 12.

TEULU—AIDD—OEDD, (tau-llu) tylwyth, tyaid, untyaeth, cymaethlu; llwyth, cenedl.—1. Cymaethlu yn cyd-drigo, ac yn cyd-fywiolaethu. Gen. 47. 12. Esth. 9. 28. Job 31. 34. Zech. 12. 12.——2. Cyfnesafiaid. Lef. 25. 49.——3. Hiliogaeth un o feibion y deuddeg patrieirch. Jos. 3. 14. Num. 26. 5.——4. Cenedl yn gyflawn. Jer. 8. 3. a 31. 1. Amos 3. 1. Zech. 14. 18.——5. Holl greaduriaid Duw, yn benaf ei saint yn y nefoedd ac ar y ddaear, y rhai a ddeilliant oddi wrtho, a gynnalir, ac a lywodraethir ganddo. Eph. 3. 15.

'Teulu Duw,' yw ei bobl; y rhai o fod yn estroniaid, dyeithriaid, a dyfodiaid, a gasglwyd yn nghyd, a wnawd yn agos, ac a ymunwyd yn un teulu i fod dan lywodraeth, ac yn ngofal Duw. Braint annhraethol! Eph. 2. 19.

'Teulu y ffydd.' Gal. 6. 10. Sef aelodau eglwys Dduw, yn proffesu ffydd yn Nghrist.

'Yn benaf y rhai sydd o deulu Cesar.' Phil. 4. 22. Dywed Josephus fod Poppea, gwraig yr ymerawdwr Nero, θεοσεβης γαρ ην, *ei bod yn gwasanaethu y gwir Dduw;* sef yn broselyt i'r grefydd Iuddewig; ond nid oes dim prawf ei bod yn Gristion. Wrth ei deulu y meddylir ei weinidogion, ei wasanaeth-ddynion, y rhai oeddynt wedi gwrando yr apostol yn pregethu, a thrwy hyny gwedi derbyn yr efengyl. Bod duwioldeb yn nheulu Cesar, beth oedd hyn, medd Beza, ond bod Duw yn teyrnasu yn nghanol uffern?

TEW—ION, (te) bras, braisg, praff, tirf, aml, mynych. Gen. 41. 2. Exod. 19. 9. Job 38. 9. Hab. 1. 16.

TEWDER—WR, (tew) brasder, breisgedd, praffder, cnuwch. Job 15. 26. Edr. Tarian.

TEWYCHU, (tew) brashau, ffyrfhau, amlhau, lliosogi. Deut. 32. 15. Esa. 34. 6. Jer. 5. 28.

TEYRNAS—OEDD—U, (teyrn) breniniaeth, gwledwch, teyrnasiad, gwladychiad, rhwysg, pendefigaeth.

**Prydain ab Aedd Mawr a wnaeth wladoliaeth a theyrnedd gyntaf ar Ynys Prydain; a chyn no hyny nid oedd o iawn namyn a wnelid o addwynder, na deddf namyn y trechaf treisied. *Triodd.***

1. Llywodraeth wladol sefydledig. 1 Sam. 10. 25. 1 Bren. 10. 20. Dan. 4. 36. Amos 9. 8. Micah 4. 8, &c. Edr. Llywodraeth.——2. Llywodraeth gyffredinol Duw ar bob peth. 1 Cron. 29. 11. Y mae ei lywodraeth yn anddibynol, yn anwrthwynebol, yn gyffredinol, ac yn dra manwl, ar bob creadur, pob dygwyddiadau, cyfnewidiadau, ac amserau. Dan. 4. 33, 34, 35. Edr. Breniniaeth.——3. Teyrnas gyfryngol Crist. Gosodwyd Crist yn frenin, a rhoddwyd breniniaeth iddo. Ps. 2. 6. Ei osodiad a arwydda, dyrchafiad y natur ddynol mewn undeb â Pherson y Mab, i'r orsedd.—(1.) Gan iddo gymeryd eu natur, y mae yn sefyll mewn perthynas agos â'i ddeiliaid. Deut. 18. 14, 15.—(2.) Rhagbarotôwyd ef trwy ddyoddefiadau i fod yn frenin trugarog a ffyddlon, yn medru cyd-ddyoddef â'i holl ddeiliaid.—(3.) Mae y natur ddynol wedi ei haddasu i'r orsedd â phob cymhwysderau godidog o ras a doniau.—(4.) Gosodwyd ef ar ei orsedd yn y modd mwyaf ardderchog, difrifol, a chyhoeddus; a rhoddwyd iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw: dyrchafwyd ef goruwch (υπεραvω) yr holl nefoedd; sef yr holl dywysogaethau, galluoedd, a'r awdurdodau yno. Eph. 1. 20, 21. a 4. 10. Phil. 2. 9.

'Teyrnas nefoedd,' a 'theyrnas Dduw,' a arwyddant, yn aml, yr un peth. Yr hyn a eilw Matthew 'teyrnas nefoedd,' a elwir gan yr efengylwyr eraill, 'teyrnas Dduw.'—'Nesâodd teyrnas nefoedd.' Mat. 4. 17. 'Nesaodd teyrnas Dduw.' Marc 1. 15.—'Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd: canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.' Mat. 5. 3. 'Gwyn eich byd y tlodion: canys eiddo chwi yw teyrnas Dduw.' Luc 6. 20.—'Y lleiaf yn nheyrnas nefoedd.' Mat. 11. 11. 'Yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas Dduw.' Luc 7. 28.—'Dirgelion teyrnas nefoedd.' Mat. 13. 11. 'Dirgelion teyrnas Dduw.' Luc 8. 10.—'Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.' Mat. 19. 14. 'Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw.' Marc 10. 14.——Arferedig iawn yn iaith y Bibl y rhoddir שמים *nefoedd*, am *Dduw*. Dan. 4. 25. Mat. 21. 25. Luc 15. 21. Ioan 3. 27. Tebygol fod y geiriau teyrnas nefoedd, am yr oruchwyliaeth efengylaidd, gwedi eu cymeryd allan o Dan. 7. 13, 14. lle dangosir i Daniel yn weledigaethol gael golygiad ar osodiad y deyrnas hon i fynu yn ei gogoniant, ar ol dystryw y pedair ymerodraeth fawr eilun-addolgar, gwedi ei malurio gan y gareg fechan, a hithau gwedi myned yn fynydd mawr, ac yn llenwi yr holl ddaear. Dan. 2. 35. Gwel Luc 17. 20. a 19. 11. a 23. 51.

1. Rhaid ystyried y deyrnas fel y mae yn neillduol yn osodedig yn nghalon pob credadyn. Dyn wrth naturiaeth dan lywodraeth pechod a Satan, a waredir o'i feddiant, trwy allu Duw yn yr efengyl, ac a symudir i deyrnas anwyl Fab Duw; a ryddheir oddiwrth bechod, ac a wneir yn was i Dduw. Nid yn unig cyfnewidir eu brenin, ond natur y deiliaid

Digitized by Google

hefyd a gyfnewidir, rhoddir iddynt ysbryd a chalon newydd. Rhuf. 1. 16. a 6. 14, 22. a 14. 17. 2 Cor. 10. 5, 6. Col. 1. 12, 13. Edr. ADENEDIGAETH, CYFAMMOD.

2. Mae y deyrnas hon hefyd i'w hystyried mewn perthynas i'w goruchwyliaeth allanol yn y byd. Yn yr ystyr hwn y gelwir yr eglwys weledig yn y byd, yn 'deyrnas nefoedd,' neu, 'teyrnasiad y nefoedd,' mewn cyferbyniad i deyrnas y diafol, yn a thrwy freniniaethau y ddaear.

Gosodir hi allan, 1. Fel yn fechan iawn yn ei dechreuad; fel *hedyn mwstard*, yr hwn yw y lleiaf o'r holl hadau—*ychydig lefain—careg fechan*. Mat. 13. 31, 33. Dan. 2. 34—45.——2. Ei bod i gyfarfod â llawer o wrthwynebiadau. Psalm ii. Nid mewn rhyw fyd arall y gosodir hi i fynu, ond yn y byd *hwn*, lle y mae y ddelw fawr, sef teyrnas Satan, yn gadarn ar ei thraed eisoes, ac yn gwrthwynebu yn elyniaethol deyrnas Dduw, gyda holl allu y tywyllwch. Dan. ii.——3. Ond er pob gwrthwynebiadau, llwydda yn ddilys yn y diwedd, nes y byddo yn gyffredinol ac yn gadarn, fel mynydd mawr yn llenwi yr holl ddaear. Yr oedd Duw fel brenin, yn mhlith ei bobl Israel, yn eistedd rhwng y cerubiaid. Ps. 99. 1. Ond crybwyllir yn yr ysgrythyrau, yn aml, fod y deyrnas hon gwedi dyfodiad y Messiah, i ëangu dros wyneb yr holl ddaear, ac i barhau hyd ddiwedd amser.

Sylwaf yma ar ychydig ddygwyddiadau perthynol i osodiad graddiannol y deyrnas hon i fynu yn y byd. —1. Tywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost. Yna yr aeth gwïalen nerth Crist allan o Sion; ac y gwybu holl dŷ Israel ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwnw a groeshoeliasant hwy. Ps. 110. 2. Act. 2. 36. Yna gwelodd y dysgyblion Fab y dyn yn dyfod yn ei freniniaeth. Mat. 16. 28.——2. Yr ail ddygwyddiad tu ag at helaethu y deyrnas hon, oedd pregethu yr efengyl i'r cenedloedd. Act. x. Yr hen brophwydi a rag-fynasant am hyn yn ogoneddus ac yn orfoleddus iawn. Ps. 2. 8. a 72. 8. a 96. 3, 7, 8. Esa. 49. 6. Zech. 9. 10.——3. Hollol ddinystr Jerusalem, a chyda hyny sefydliad gwladwriaethol yr Iuddewon. Yr oedd yr Iuddewon fel cenedl yn elynion cyndyn, gwrthnysig, a chwerwon i deyrnas Crist, a chwbl ddinystr Jerusalem oedd ei fuddugoliaeth arnynt. Yn hyny y cyflawnwyd geiriau Crist: 'Ar ol hyn y gwelwch Fab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymylau y nef.' Mat. 26. 64. 'Yr Arglwydd a farchoga ar gwmwl ysgafn,' pan y mae yn dyfod gyda phrysurdeb yn ogoneddus i roddi dial ar neb rhyw elynion. Esa. 19. 1. Luc 19. 38.——4. Gwaredigaeth yr eglwys oddiwrth erlidigaethau y Paganiaid, pan ddymchwelwyd Paganiaeth yn ymerodraeth Rhufain, ac y daeth yr ymerawdwr Cystenyn Fawr yn Gristion proffesedig. Y pryd hyny y bwriwyd allan y ddraig fawr, a'r saint a ddechreuasant farnu y byd, pan osodwyd hwynt yn swyddwyr gwladol yn ymerodraeth Rhufain. Dat. 12. 9, 10. 1 Cor. 6. 1, 2.——5. Yr oedd y diwygiad mawr oddiwrth holl gyfeiliornadau eilun-addoliaeth, a choel-grefydd Pabyddiaeth, yn ddygwyddiad neillduol er llwyddiant teyrnas Crist yn y byd. Dangoswyd ffieidd-dra a gwrthuni Anghrist, ac agorwyd drws ëang i bregethiad yr efengyl yn ei phurdeb, a chyd âg awdurdod mawr. Llwyrach y cyfeiria y brophwydoliaeth yn Dat. 14. 6, 7, 8. o'r hyn lleiaf, mewn rhan, at y dygwyddiad hwn.——6. Dinystr Anghrist, taeniad yr efengyl yn mysg y Cenedloedd, a dychweliad yr Iuddewon, ydynt ddygwyddiadau gogoneddus i'w dysgwyl yn eu hamser, pan yr â teyrnasoedd y ddaear yn eiddo yr Arglwydd, ac yn eiddo ei Grist ef, a phan y teyrnasa Duw Hollalluog yn arbenig ac yn enwog yn mhlith ei bobl. Dat. 11. 5. a 19. 6. Edr. MIL, ANGHRIST.

——7. Yn nydd y farn yr ymddengys brenin Sion a'i eglwys yn eu cyflawn ogoniant. Yna yr eistedd ac y teyrnasa Crist ar ei orsedd yn ardderchog, ei holl elynion yn ddarostyngedig iddo, ac yn dragywyddol yn droedfainc i'w draed, a'i holl etholedigion wedi eu casglu yn nghyd, ac yn meddiannu cyflawn ddedwyddwch a gogoniant.

'Yna y rhydd efe y deyrnas i Dduw a'r Tad; wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth.' 1 Cor. 15. 24. Nid teyrnas Crist fel Duw, neu ei lywodraeth fel Duw ar y creaduriaid, a feddylir, hon nis derbyniodd, ac nis rhydd i fynu: nid teyrnas y gogoniant ychwaith; bydd Crist mewn cyflawn feddiant o hon byth; ond y deyrnas gyfryngol, yr eglwys yn gyffredinol, cymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd. Ar y deyrnas hon y gosodwyd ef yn Frenin, rhoddwyd yr holl saint iddo, i fod yn ei law, a than ei ofal, ac ymrwymodd i'w hachub a'u diogelu. Rhoddwyd pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear iddo, a threfnwyd pob peth i fod yn wasanaethgar i lwyddiant hon. Gwedi gorphen y gwaith a ymddiriedwyd iddo mewn perthynas iddynt, cyflwyna hwynt oll i'r Tad; sef yr holl blant a roddodd Duw iddo. Teyrnas, trwy drawsenwad, a arwydda deiliaid y deyrnas. Ni bydd diweddiad ar ei deyrnasiad ef arnynt gwedi hyny, ond nid yr un fath y teyrnasa: o'r blaen, yr oedd yn teyrnasu yn nghanol ei elynion, ond yna teyrnasa byth yn nghanol ei saint. Yr oedd y Tad yn teyrnasu pan yr oedd y deyrnas yn llaw Crist, ac felly y teyrnasa Crist yn fwy gogoneddus nag o'r blaen yn mhlith ei saint, wedi cyflwyno y deyrnas i'r Tad. Ond yn awr teyrnasu y mae trwy ei Ysbryd, ei air, a'i ordinhadau; ond yna teyrnasa arnynt yn bersonol, yn ei holl ogoniant, heb gyfryngau moddion, nac arwyddion arddangosiadol. Nid yw hyn yn arwyddo is-raddoldeb yn Nghrist o ran ei Berson, ond yn hysbysu dull gweinyddiad ei swydd, yr hwn yw gwas y Tad o ran ei swydd, ac a rydd gyfrif da o'i oruchwyliaeth, sef o'i bobl a roddwyd iddo; o'i ofal am danynt, a'i lywodraeth rasol arnynt.

'Rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y deyrnas.' Luc 12. 32. Y gair *Gr.* *ευδοκησεν*, sydd o ystyr hardd a helaeth iawn, ac a arwydda yr rhydd y Tad y deyrnas gyda hyfrydwch calon. Y mae efe er tragywyddoldeb yn ymhyfrydu yn ei ragwelediad o'r gogoniant a bartotôdd iddynt. Yn y golygiad hwn y dywedir fod doethineb 'yn llawenychu yn nghyfanneddle y ddaear,' Diar. 8. 31.—ei fod 'yn gwybod y meddyliau yr oedd yn ei feddwl am ei bobl,' Jer. 29. 11.—a'i fod 'yn llawenychu o'u plegid gan lawenydd, yn llonyddu yn ei gariad, ac yn ymddigrifo ynddynt dan ganu.' Seph. 3. 17. Tiriondeb a grym yr ysgrythyrau hyn, a'u cyffelyb, sydd fawr tu hwnt i'n meddyliau mwyaf ëang ni am dano.

'Yr efengyl hon am y deyrnas a bregethir trwy yr holl fyd, er tystiolaeth i'r holl genedloedd; ac yna y daw y diwedd.' Mat. 24. 14. Sef diwedd ar y wladwriaeth Iuddewig. Cyn hyny, yr oedd yr efengyl gwedi cael ei phregethu gan Judas yn Idumea, Syria, a Mesopotamia; gan Marc, Simon, a Judas, yn yr Aipht, Marmorica, Mauritania, a pharthau eraill o Affric; yn Ethiopia, gan yr Eunuch a Matthias; yn Pontus, Galatia, a'r parthau cymydogaethol o Asia, gan Paul a Phetr; yn Asia Leiaf, gwlad Groeg, yr Ital, yr Hispaen, Prydain, ynysoedd Môr y Canoldir, a Gaul, gan Paul ac eraill; (gwel y Dr Arthur Young *on Idolatry, vol.* ii.) yn mharthau y saith eglwys yn Asia, gan Ioan; yn Parthia, gan Matthew; yn Scythia, gan Philip ac Andreas; yn y parthau gogleddol a gorllewinol i Asia, gan Bartholomew; yn Persia, gan Simon a Judas; yn Media, Carmania, ac amryw barthau eraill, gan Thomas; trwy yr holl ardaloedd meithion o Jerusalem hyd Ilyricum, gan

Digitized by Google

Paul. Yn y rhan fwyaf o'r parthau hyn yr oedd eglwysi gwedi eu planu mewn llai na deng mlynedd ar hugain gwedi marwolaeth Crist, yr hyn oedd cyn dinystr Jerusalem.

'Etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd.' Mat. 25. 34. Llefara yr Arglwydd Iesu am dano ei hun, yn ei hanes hwn am y farn, gyda mawrhydi ac ardderchogrwydd neillduol. Y mae yn arddangosiad mwyaf godidog o'r arucheledd *(sublime)* mewn darluniad, ag sydd i'w gael, hyd yn nod yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Y mae mawrhydi ei berson, gwedi ei wisgo â gogoniant ac awdurdod dwyfol, yn ymddangos gyd â'r fath fawredd, fel y mae yr holl greaduriaid o ddynion ac angelion ond megys diddim ger ei fron: ac yn nghanol y mawredd anfeidrol hwn, y mae cyfiawnder, a haelioni, a thiriondeb yn dysgleirio yn hyfryd, ac yn ofnadwy. Rhydd ddadguddiad ofnadwy o gyflawn farn Duw ar annuwiolion beilchion, yn nghyd â thrugaredd ddiball a diderfyn tu ag at ei bobl gystuddiedig a dirmygedig yn y byd. Nis gellir yn hawdd ei darllen heb ddychymygu ein bod ein hunain o flaen yr orsedd a'r barnwr goruchel.

TEYRN-GADAIR, (teyrn-cadair) eisteddfa freninol, gorsedd-fainc llywodraethwr. Gen. 41. 40. Exod. 11. 5. Deut. 17. 18. Edr. CADAIR, GORSEDD-FAINC.

TERYNGED—OEDD, (teyrn-cêd) treth. Yr hyn a delir i swyddwyr a llywodraethwyr gwladol fel cydnabyddiaeth o ymostyngiad iddynt, ac yn wobr gynnaliaethol iddynt am eu llafur. 2 Cron. 17. 11. Galar. 1. 1. Gan fod yr Hebreaid yn cydnabod yr Arglwydd fel eu priodol frenin, yr oeddynt yn talu eu teyrnged iddo ef mewn degymau, aberthau, ac offrymau, &c. Exod. 31. 15. Lef. 1. 6. a v. Yr oeddynt yn rhoddi yr holl Ganaaneaid a orchfygent dan deyrnged, i dalu treth iddynt. Barn. 1. 30—35. Y Syriaid, yr Assyriaid, y Caldeaid, a'r Rhufeiniaid, a osodasant dreth arnynt hwythau. Luc 2. 1. Edr. TRETH. Y mae talu teyrnged i'r hwn y mae yn ddyledus, yn orchymynedig i holl ganlynwyr Crist, yn ol siampl eu Harglwydd. Mat. 17. 24. Rhuf. 13. 6, 7.

TEYRN-WIALEN, (teyrn-gwialen) gwialen llwyth, gwialen breniniaeth, neu lywodraeth. Arwydd o awdurdod a llywodraeth yw teyrn-wialen. Esa. 14. 5. Zech. 10. 11. Ezec. 19. 11, 14. Ps. 2. 9.—'Teyrnwialen uniondeb,' yw llywodraeth yn cael ei gweinyddu yn ddoeth, yn gyflawn, ac yn rasol; y cyfryw yw llywodraeth gyfryngol Crist; uniondeb sydd yn y cwbl, sef uniondeb tu ag at Dduw a'i gyfraith, a thu ag at ddynion, wrth achub rhai, a dystrywio eraill; y mae pob peth yn ei deyrnasiad yn addas, yn gyflawn, ac yn dda. Yn y cwbl y mae yn caru cyfiawnder, ac yn casâu anwiredd. Ps. 45. 7. Edr. GWIALEN.

TIBERIAS, Τιβεριας, [*gweledigaeth dda*] dinas nodedig o du y gorllewin i Fôr Galilea, a adeiladwyd gan Herod Agrippa o anrhydedd i'r ymerawdwr Tiberius. Yr oedd yn nghylch 80 milltir i'r gogledd o Jerusalem, a 12 i'r dwyrain o Nazareth. Prif ddinas Galilea oedd hon yn amser y rhyfeloedd Iuddewaidd, ac a amddiffynwyd yn wrol gan Josephus yr Hanesydd; ond wedi ei hennill gan Vespasian dyoddefodd ddinystr go fawr. Yr oedd gwedi hyny yn lle helaeth, ac yr oedd yno eglwys Gristionogol ac athrofa Iuddewaidd go enwog. Ioan 6. 23. Edr. MOR.

TIBHATH, טבחת [*llofruddiaeth*] dinas yn Syria, a gymerwyd ac a anrheithiwyd gan Dafydd. 1 Cron. 18. 8.

TIBNI, תבני [*gwair*] mab Ginath, a chyfymrysonydd âg Omri am freniniaeth Israel; ond Omri a lwyddodd. 1 Bren. 16. 21.

TICFATH, הקית [*gobaith*] tad Salum. 2 Cron. 34. 22.

TID—AU, (ti-id) seirch, march-offer, offer-tynu, cadwyn i dynu â hi.—'A rwymi di unicorn â'i did mewn rhych?' Job 39. 10. *Heb.* עבת *rhaff, rheffyn.* Dull o ymadroddi ag sydd yn dangos nad oedd yn greadur hawdd i ddyn ei lywodraethu at ei wasanaeth.

TIDAL, תדעל [*torwr yr iau*] brenin y cenedloedd, neu Goim, am mai Goim oedd ei drigfa; neu am fod amrywiol lwythau gwedi ymuno dan ei lywodraeth. Yr oedd mewn cynghrair â Cedorlaomer yn ei ryfeloedd. Gen. 14. 1.

TIGLATH-PILESER, neu TILGATH-PILNESER, brenin Assyria, mab Pul. I helaethu ei derfynau, goresgynodd Syria, a lladdodd Rezin y brenin, ac anrheithiodd Damascus, a lleoedd eraill; ac a ddygodd y bobl yn gaethion i dir Media. Difrododd y wlad o du y dwyrain i'r Iorddonen, ac a gariodd yr Israeliaid oddi yno yn gaethion i Halah, Habor, a Hara, ar yr afon Gozan. Anrheithiodd Galilea o du y gorllewin i'r Iorddonen, ac a gymerodd Ijon, Abelbethmaachah, Janoab, Cedes, Hazor, &c., ac a ddygodd y bobl ymaith yn gaethion i Assyria. Tebygol iddo anrheithio Judah hefyd, er anrhegion Ahaz, &c. 2 Bren. 15. 29. 1 Cron. 5. 26. 2 Cron. 28. 20. Gwedi teyrnasu 19 o flynyddoedd, bu farw, a gadawodd yr orsedd i Salmaneser ei fab.

TIMEUS, tad y cardotyn dall Bartimeus. Marc 10. 46.

TIMNA, תמנע [*rhwystr*] 1. Gordderch-wraig Eliphaz mab Esau. Gen. 36. 12. 1 Cron. 1. 36.——2. Duc Idumea ar ol marwolaeth Hadad. Gen. 36. 40. 1 Cron. 1. 51.

TIMNATH, TIMNAH, TAMNA, a THAMNATHA, תמנה [*delw*] 1. Dinas yn Judah. Jos. 15. 10, 57. Gen. 38. 12.——2. Dinas y Philistiaid. Barn. 14. 1. Barna rhai mai yr un oedd y ddwy, a'i bod yn meddiant y Philistiaid yn amser Samson.

TIMNATH-SERAH, תמנת־סרח [*delw yr haul*] dinas yn Ephraim, lle y trigai Josuah, ac y bu farw. Jos. 19. 50. a 24. 30.

TIMON, un o'r saith etholedig i olygu elusen gwragedd gweddwon y Groegiaid. Act. 6. 5. Nid oes ychwaneg o hysbysrwydd am dano, ond llawer o ddychymygion disail.

TIMOTHEUS, Τιμοθεος, [*anrhydeddwr Duw*] efengylwr enwog. Priodor oedd o Lystra yn Asia Leiaf. Groegwr oedd ei dad, ond ei fam Lois a'i nain Eunice oeddynt Hebrëesau, ac a'i hyfforddiasant er yn fachgen yn y wybodaeth o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, ac enwaedodd Paul arno, i'w wneuthur yn fwy derbyniol i'r Iuddewon. Yr oedd yn ddarostyngedig i fynych wendid yn ei gorph, ond mewn gras a doniau yr oedd yn enwog ragorol. Act. 16. 1. 2 Tim. 1. 5. a 3. 15. 1 Tim. 4. 14. a 5. 23. 2 Tim. 1. 6. Neillduwyd ef i'r weinidogaeth trwy brophwydoliaeth am dano, a roddwyd i Paul, neu rai o'r prophwydi Cristionogol yn Lystra. 1 Tim. 1. 18. Gwedi ei neillduo i'r weinidogaeth trwy arddodiad dwylaw Paul a'r henuriaid yn Lystra, yr oedd yn anwyl gan Paul am ei dduwioldeb a'i ffyddlondeb. Geilw ef ei 'anwyl fab, a ffyddlawn yn yr Arglwydd—ei fab naturiol yn y ffydd.' Edr. NATURIOL. 1 Tim. 1. 2. a 4. 14. 1 Cor. 4. 17. Derbyniodd gyfran helaeth a ddoniau yr Ysbryd Glân trwy arddodiad dwylaw yr apostol. 2 Tim. 1. 6. Cyd-deithiodd â Paul i Macedonia, ac yr oedd gyd âg ef yn Philippi, Thessalonica, a Berea. Wrth ddymuniad Paul, daeth ar ei ol ef o Berea i Athen; ond danfonodd ef yn ol yn fuan i gadarnhau y ffyddloniaid yn Thessalonica dan

Digitized by Google

eu herlidigaeth. Act. 17. 1. 1 Thes. 3. 2, 3. Edr. THESSALONICA. Oddi yno daeth ef a Silas at Paul i Corinth. Act. 18. 5. A chyd âg ef y maent yn anerch eglwys y Thessaloniaid. 1 Thes. 1. 1. 2 Thes. 1. 1. Rhai blynyddoedd gwedi hyny, anfonodd Paul ef ac Erastus o Ephesus i Macedonia a Corinth, i gadarnhau y Cristionogion yno. Act. 19. 21, 22. 1 Cor. 4. 17. a 16. 10. Gwedi dychwelyd i Ephesus, cyn i Paul fyned oddi yno, deisyfodd Paul arno aros yno i fugeilio yr achos gwan yno yn ei ddechreuad. 1 Tim. 1. 3. Ac yno derbyniodd ei lythyr cyntaf, yn nghylch A. D. 56, wedi ei ysgrifenu gan Paul ato o Macedonia, fel y gellir casglu oddiwrth 1 Tim. 1. 3. 'Megys y deisyfais arnat aros yn Ephesus, pan aethum (neu daethum) i Macedonia.' Gwedi sefydlu materion yr eglwys yn Ephesus, canlynodd Paul i Macedonia, ac oddi yno y mae yn cyd-gyfarch gyda Paul eglwys Corinth.* 2 Cor. 1. 1. Yn fuan gwedi hyn aeth gyda Paul i Corinth, ac oddi yno y mae yn cyfarch y Rhufeiniaid gyda Paul. Rhuf. 16. 21. Yn dychwelyd trwy Macedonia, aeth gyda Paul i Asia. Act. 20. 4. Oddi yno galwyd ef gan Paul, rai blynyddoedd gwedi hyn, i ddyfod ato ef i Rufain. 2 Tim. 4. 9, 13. Phil. 2. 19—23. Yr oedd gyda Paul yn Rhufain pan ysgrifenodd ei epistolau at y Philippiaid, y Colossiaid, a Philemon. Phil. 1. 1. Col. 1. 1. Philem. 1. Bu dros ryw yspaid yn garcharor yn Rhufain, ond rhyddhawyd ef. Heb. 13. 23. Gwedi hyny nid oes hanes ychwaneg am dano. Pa le yr oedd ynddo pan ysgrifenodd Paul ei ail epistol ato, sydd ansicr. Macknight, Lardner, ac eraill, a farnant mai yn Ephesus yr oedd; ond y mae Boyle, Doddridge, a Michaelis, o wahanol feddwl; o'r hyn lleiaf, nid ydyw yn eglur ei fod yno, ond ei fod yn rhyw le yn Asia Leiaf. Tebygol nas gwyddai Paul pan ysgrifenodd y llythyr hwn ato, pa le y derbyniai ef; gan fod Timotheus yn ddiwyd yn taenu yr efengyl ar hyd y gwledydd, ni byddai, hwyrach, yn aros yn hir yn yr un man. Pe buasai yn Ephesus, ni buasai Paul yn dywedyd wrtho iddo ddanfon Tychicus i Ephesus, (pen. 4. 12.) nac iddo adael Trophimus yn glaf yn Miletum, (pen. 4. 20.) am y buasai Timotheus yn gwybod hyny yn gystal a Paul, am nad oedd Miletus yn nebpell o Ephesus. Tebygol i Paul anfon ei lythyr ato mewn rhyw law ddiogel, i'w roddi iddo lle bynag y caffai ef. Pawb a gytunant fod Paul yn garcharor yn Rhufain pan yr ysgrifenodd ef, fel y tystia ei hun yn eglur ei fod (pen. 4. 6.); ond y mae dadl pa garchariad a feddylir; sef pa un ai y carchariad y rhydd Luc hanes am dano, neu ail garchariad. Estius, Hammond, Lightfoot, Cave, a Lardner, a farnant mai y carchariad a grybwyllir gan Luc a feddylir; ond Doddridge, Macknight, Michaelis, ac eraill, ydynt o farn arall; sef mai yn ei ail garchariad yr ysgrifenodd, pan oedd yn agos a diweddu ei yrfa; tybygaf fod ei iaith yn yr holl Epistol yn dangos hyn yn eglur; rhydd Mosheim brofion cadarn o hyny yn ei eglurhad ar y ddau Epistol at Timotheus.

Y mae Epistolau Paul yn dangos mawr serch ato, oblegid ei ffyddlondeb a'i ymroddiad i waith yr efengyl ac achos Crist, ac yn cynnwys llawer o gyfarwyddiadau ac annogaethau yn ei waith sanctaidd. Dengys ynddynt mewn modd neillduol o ddefnyddiol beth yw dyledswyddau esgobion a diaconiaid; y cymhwysderau sy ofynol ynddynt; a'r dybenion a ddylai fod ganddynt yn cymeryd y swydd arnynt. Y ddau Epistol hyn, ac Epistol Paul at Titus, a gynnwys ynddynt gorph cyflawn o *ganonau eglwysig*, i weinidogion yr efengyl yn mhob oes i rodio wrthynt. Dylent gael eu darllen yn aml ganddynt, a'u myfyrdod mwyaf difrifol fod yn wastadol ar y pethau a draddodir ynddynt. Y maent yn dangos ysbryd rhagorol yr apostol, a phurdeb sanctaidd yr efengyl, ac a ddylai fod mewn eglwysi Cristionogol, yn nghyd â'u holl swyddwyr. Edr. PAUL. Gwel Witsius' *Miscel. Sacr. Exercit.* 16.—Ysgrifenodd ar yr Epistolau hyn, Magulianus, Scultetus, Danæus, Price. Barlow ar y ddwy bennod gyntaf o'r ail Epistol.

TIN—ION, TIN-NOETH, (ti-in) godre, rhefr, cyfeistedd. Tin y cwd; tin y nyth; tin y gler; tinion yr ŷd; tin ab.—'Ac yn din-noeth.' Esa. 20. 4. Edr. GWARTHLE. Yr oedd y prophwyd i fyned yn noeth dair blynedd, neu, yn hytrach, yn arwydd o'r hyn a ddygwyddai gwedi tair blynedd; sef caethiwed yr Aipht ac Ethiopia gan yr Assyriaid. Yr oedd y prophwyd i ymddangos yn gyhoeddus yn gwbl yr un dull ag y gyrid hwy yn gaethion i'w gwerthu gan yr Assyriaid, agos yn gwbl noethion, heb ddim ond bratiau diwerth am ond ychydig o'u cnawd. Yr oedd y prophwyd i daflu ymaith ei arwisg, ac i ymddangos yn noeth am dri diwrnod, yn arwydd o'r tair blynedd.

TINC—IAN, (ting) *Llad.* TINNIRE; *Ffr.* TINTER; *Saes.* TINGLE: mein-swn, swnio fel mettel, rhincian. 1 Cor. 13. 1.

TIPYN—AU, (tip) rhinyn, ychydig, dernyn, dryllyn. Exod. 16. 14. Edr. MANNA.—'Hyd onid êl y nef a'r ddaear heibio, nid â un iod, nac un tipyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblhaer oll.' Mat. 5. 18. 'Ny phalla vn iod, na thitul o'r ddeddyf.' W. S. *Ιωτα εν η μια κεραια, un iota nac un pwnc. Iota* (ι) yw y llythyren leiaf yn yr egwyddor Groeg, fel y mae yr (י) *yod* o'r egwyddor Hebraeg: tipyn ydyw darn o lythyren, neu nôd bychan, yn gwahaniaethu y naill lythyren oddiwrth y llall; megys y *resh* (ר) oddiwrth y *daleth* (ד). Tra y parhao y byd ni chollir un llythyren, un nôd, sef y darn lleiaf o'r gyfraith, heb ateb dyben ei rhoddiad. Geiriau sydd yn dangos, 1. Fod y gyfraith yn gyflawn o ystyr pwysig i gyd; pob darn, pob rhan o honi sydd bwysfawr. Ni lefarodd Duw ddim yn ofer; ond mae y cwbl, i'r manylrwydd mwyaf, yn deilwng o'n hystyriaeth mwyaf difrifol.——2. Dengys hefyd fawr ofal Duw am dani oll; efe a'i ceidw ac a'i cwblha oll, er pob gelyniaeth yn ei herbyn. Ni chyll ei hawdurdod, ac ni phaid, er dim, ag ateb dyben ei rhoddiad. Y gyfraith foesol fydd y maen prawf i ddangos pechod a sancteiddrwydd, cyfiawnder ac anghyfiawnder, hyd ddiwedd amser. Efengyl dragywyddol ydyw yr efengyl; ni newidir ac ni ddyfethir mo honi byth. Y mae yr holl air yn berffaith, a saif byth, a rhaid ei gwblhau oll. Ps. 119. 89, 90, 152. Esa. 40. 8. 1 Petr 1. 25.

TIPHSAH, תפסח [*mynediad*] dinas yn rhandir Ephraim. 2 Bren. 15. 16.

TIR—OEDD, (ti-ir) *Llad.* TERRA; daear, daearen, tûd, tûdwedd; gwlad, bro, brodir; rhandir, tyddyn, syddyn, maenor, maenol, meddiant, etifeddiaeth.

Un o dri cyfarwyddawg Ynys Prydain: Hu Gadarn, a ddangoses y ffordd i aru tir gyntaf i genedl y Cymry.
*Triodd.*

1. Holl gyfandir y ddaear, yn wahanedig oddiwrth y môr. Mat. 23. 15.——2. Gwlad, darn, neu dyddyn, neu feddiant. Gen. 26. 12. a 28. 13. a 47. 19. Exod. 34. 24. Mat. 19. 29. Actau 4. 37.

'Tir uniondeb,' sef tir â chyfreithiau uniawn, a'i drigolion yn rhodio yn ol y rheol uniawn. Esa. 26. 10.——'Tir y rhai byw,' mewn cyferbyniad i dir y rhai meirw, y gelwir y byd hwn, lle y mae dynion

* Mae y Dr Paley, ar ol yr Esgob Pearson, yn barnu mai ar ol ei garchariad cyntaf yn Rhufain yr ysgrifenodd Paul yr Epistol hwn. Gwel Paley's *Horæ Paulinæ.* Ond hanes Witsius, y Dr Doddridge, a llawer eraill, am y mater, sydd fel y rhoddir uchod. Y mae rhesymau Paley yn ymddangos yn o foddlonol. Cytuna pawb iddo ysgrifenu yr ail Epistol at y Corinthiaid o Macedonia; ond y mae Timotheus gyda Paul yn ei gyfarchiad yn yr Epistol hwn, yr hyn nis gallai fod, os gadawodd ef ar ei ol yn Ephesus yn y daith hon. 1 Tim. 1. 3.



Digitized by Google

yn byw cyn marwolaeth; a'r nefoedd, lle mae y duwiolion yn byw byth, gwedi marw unwaith. Ps. 27. 13. a 116. 9.——Y bedd a elwir 'tir tywyllwch, a chysgod angeu,' &c.—'tir anghof,' (Job 10. 21, 22. Ps. 88. 12.) am yr anghofir dynion yn fuan wedi eu claddu. Edr. ADDEWID, DAEAR, GOROR, GWLAD, TALAETH.

TIRAS, תירס [*yr hwn sydd yn dinystrio*] seithfed mab Japheth, a olygir yn gyffredinol yn dad y Thrasiaid. Gen. 10. 2. Yr oedd yn Thrace afon a phorthladd a elwid Athyras. Hwyrach mai oddiwrth yr enw Tiras y daeth Caerdroia, ac mai ei hiliogaeth ef oedd preswylwyr y ddinas nodedig hon. Gwel Wells' *Geography*.

TIRF—ION, (tir) bywiog, eidiog, pybyr, nerthol, cryf o naturiaeth; bras, tew, ffrwythlon.——'Tirfion ac iraidd fyddant.' Ps. 92. 14. Ni phalla bywyd, cynnaliaeth, a chysuron credadyn yn gobeithio yn yr Arglwydd, am, 1. Na thorir yr undeb rhyngddo a Christ. Rhuf. 8. 35.——2. Am na phalla y cyflawnder sydd yn Nghrist. Eph. 3. 8.——3. Am na phalla ffyddlondeb Duw tu ag ato, na dylanwadau yr Ysbryd Glân ynddo. Jer. 17. 7. Ps. 1. 3. Ioan 4. 14. Pan byddo natur yn llesgâu ac yn darfod, blodeuant *hwy* etto yn eu henaint, 'tirfion ac iraidd fyddant.' Edr. HENAINT.——'Can ys argyhoeddodd ef yn ddirving yr Iuddaeon, ar 'oystec yn dra-chwyrn.' Act. 18. 28. W. S. Sef yn egnïol ac yn nerthol.

TIRHACAH, תרהקה [*holwr*] brenin Ethiopia, yr hwn a fwriadodd ryfel yn erbyn Senacherib pan yr oedd yn bwgwth Hezeciah. Tebygol i'r Arglwydd ladd yr Assyriaid cyn iddynt gyfarfod a Thirhacah. 2 Bren. 19. 9.

TIRIA, תיריא [*holwr*] mab Jehaleleel o dylwyth Caleb. 1 Cron. 4. 16.

TIRION—DEB—EDD—DER—I—EIDDIO, (tir-ion) hyfryd, hoff, gorhoenus; mwyn, hynaws, caruaidd, hawddgar.—Lle tirion, sef lle hyfryd; dyn tirion, sef dyn caruaidd, cyweithasol: O dirioned yw! sef, O mor hawddgar yw!——'O herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw; trwy yr hon yr ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder.' Luc 1. 78.—'Trwy galondit trugaredd ein Duw, gan yr hon y govwyawdd y towyn haul o'r uchelder.' W. S.—*σπλαγχνα ελεους Θεου ημων, ymysgaroedd trugaredd ein Duw:* yn cyfateb i'r gair *Heb.* רחמים *trugaredd o galon*, yn gweithredu yn dirion, yn serchog, yn dyner, gyda chyd-oddefaint a thosturi. Y mae holl helaethrwydd a grym ymadrodd yn pallu wrth osod allan berffeithiau Duw o ras a thrugaredd.

'Os profasoch fod yr Arglwydd yn dirion.' 1 Petr 2. 3.—'Yn gywaithas.' W. S.—*χρηστος*, yn dda, yn haelionus, yn ddaionus, yn hynawsaidd, yn gymwynasgar. Ps. 34. 8. Yr oedd y rhai bychain newydd eni wedi profi daioni yr Arglwydd yn nidwyll laeth y gair, sef yn yr efengyl yn cyhoeddi maddeuant pechodau, a'r holl addewidion o ras a gogoniant.

'Mi a'th ddyweddïaf â mi fy hun yn dragywydd, mewn tiriondeb.' Hos. 2. 19. בחסד *mewn tiriondeb helaeth:* daioni yn chwyddo ac yn gorlifo. Gyd â'r tynerwch a'r tosturiaethau mwyaf y mae Duw yn dyweddïo ei bobl âg ef ei hun.

'Mewn tiriondeb yn yr Ysbryd Glân.' 2 Cor. 6. 6.—'Gan diriondeb, gan yr Yspryt glan.' W. S.—'*By kindness, by the Holy Ghost.' Saes.* Y mae amryw, fel W. S. a'r cyfieithiad Saesonaeg, yn rhoddi rhagwahanod ar ol tiriondeb. 'Tiriondeb yn yr Ysbryd Glân,' yw tiriondeb y mae yr Ysbryd Glân yn ei weithredu yn sanctaidd yn ei bobl, ac mewn graddau mwy yn ei wir genadon, ag sydd yn wrthwyneb i drahausdra a sarugrwydd tymher a moesau.

TIRION-FERTH, (tirion-berth) harddwch mwynaidd, tirion, hawddgar.

> 'R Arglwydd pwy all draethu ei nerth,
> A'i holl *dirion-ferth* foliant?
> *E. Prys*, (Ps. 106. 2.)

TIRSATHA, תרשתא [*trulliad*] Neh. 7. 65, 70. a 10. 1. Edr. NEHEMIAH.

TIRZAH, תרצה [*haelionus*] 1. Un o ferched Salphaad. Num. 26. 33. a 27. 1. Jos. 17. 3.——2. Dinas yn Ephraim, prif ddinas breniniaeth Israel o Jeroboam hyd deyrnasiad Omri, yr hwn a adeiladodd Samaria. 2 Bren. 15. 14. Josuah a laddodd frenin Tirzah. Jos. 12. 24.

TISIO—AN, (tis) trew, entrew, ystrewi, dystrewi; trewiad. Job 41. 18.

TITL—AU, *Gr.* τιτλος; *Llad.* TITULUS; *Ffr.* TITRE; *Saes.* TITLE: enw, enwad; cyfenwad; hawl, hawl-fraint; testun, neu enw llyfr; neu waith ysgrifenedig; teilyngdod, clod, anrhydedd; coffa, coffadwriaeth.—'Pa ditl yw hwn yr ydwyf fi yn ei weled?' 2 Bren. 23. 17. 'Pa lun yw hwn?' Dr M. *Heb.* ציון cyfieithir yr un gair *sychder*, Esa. 25. 5.—*sychdir*, Esa. 32. 2. *tir o ddaear sych.*—'Pa garn yw hon?' Y mae yn arferiad hyd heddyw yn mhlith yr Arabiaid, ac yn Barbari, i godi carneddau o geryg ar deithwyr wedi cael eu llofruddio; pob teithiwr wrth fyned heibio a deifl ei gareg, o ryw arferiad coelgrefyddol.—Yr oedd yr arferiad hwn yn mhlith y Cymry yn yr hen oesoedd: tomenau o bridd, neu garneddau o geryg, fel y byddo y wlad, ai caregog ai priddlyd, oedd y coffadwriaethau am eu gwyr mawrion o enwogrwydd. Parhaodd yr arferiad hwn lawer o oesoedd gwedi dygiad Cristionogrwydd i'r wlad. Taflai pob teithiwr wrth fyned heibio ei gareg o barch i'r marw. Ond pan ddaeth yr arferiad o gladdu y meirw mewn mynwentydd, ni chladdid neb yn ol yr hen arferiad ond drwg-weithredwyr, a thaflent geryg ar y rhai hyny fel arwydd o anmharch.

'A Philat a ysgrifenodd ditl, ac a'i dododd ar y groes.' Ioan 19. 19, 20. 'A gosodasant hefyd uwch ei ben ef, ei achos yn ysgrifenedig.' Mat. 27. 27. 'Ac yr oedd ysgrifen ei achos ef wedi ei hargraffu.' Marc 15. 26. 'Ac yr ydoedd hefyd ar-ysgrifen wedi ei hysgrifenu uwch ei ben ef, â llythyrenau Groeg, Lladin, ac Hebraeg.' Luc 23. 38. Yr oedd yn arferiad yn mhlith y Rhufeiniaid o gario bwrdd, âg ysgrifen arno, o flaen y dienyddiedig, yn dangos achos ei ddienyddiad,* neu ei roddi ar y dienydd-bren. Y mae yr ar-ysgrifen ychydig yn wahanol gan y pedwar efengylwr. 'Hwn yw Iesu Brenin yr Iuddewon.' Matthew.—'Brenin yr Iuddewon.' Marc. —'Hwn yw Brenin yr Iuddewon.' Luc.—'Iesu o Nazareth, Brenin yr Iuddewon.' Ioan.—Hwyrach fod ychydig wahaniaeth yn yr amrywiol ieithoedd yr ysgrifenwyd ef, ac i un efengylwr ei roddi fel yr oedd yn un iaith, a'r llall fel yr oedd mewn iaith arall; ond y maent oll yn cytuno o ran yr ystyr. Yr arferiad oedd rhoddi yr ar-ysgrifen mewn llythyrenau duon ar fwrdd wedi ei liwio yn wyn. Cafodd yr Iesu holl driniaeth a gwaradwydd drwg-weithredwr yn mhob ystyr. Yr oedd y croesbren yn sefyll yn agos i'r ffordd, tebygol, yn nghylch y bedwaredd ran o filltir o'r ddinas; yr oedd y ddinas yn llawn iawn o bobl ar yr ŵyl fawr; am hyny llawer a ddarllenasant yr ar-ysgrifen yn yr amrywiol ieithoedd: dilys nad oedd neb yno heb fedru un o'r tair iaith; am hyny gallasai darlleniad yr ar-ysgrifen fod o ganlyniad mawr i lawer, i beri iddynt holi a siarad am dano. Er nad oedd parch iddo wedi ei fwriadu gan ei elynion, etto yr oedd llaw ddirgelaidd Duw yn llywodraethu yn y cwbl.

* Suet. *in Cal. c.* 34.

Digitized by Google

TITUS, er ei fod yn ŵr mor enwog yn ngweinidogaeth yr efengyl, fel yr ysgrifenodd yr apostol Paul lythyr canonaidd ato, yr hwn sydd ran o'r Ysgrythyr Lân, i fod er adeiladaeth yr eglwys yn mhob oes, etto nid oes un gair o grybwylliad am dano ef gan Luc yn llyfr yr Actau. Nid oes dim ychwaneg o hanes am dano i'w gael nag a gesglir o Epistolau Paul. Iddo gael ei alw trwy weinidogaeth Paul sydd eglur, am ei fod yn ei alw 'fy mab naturiol yn ol y ffydd gyffredinol.' Titus 1. 4. Yr oedd yn Roegwr o ran ei genedl a'i grefydd. Pa bryd, ac yn mha le, y bu gweinidogaeth Paul yn fendithiol er ei ddychweliad, nid oes dim crybwylliad; ac nid gwiw ail adrodd dychymygion disail. Dilys yw, ei fod ef gyda Paul yn Antioch, cyn ei daith i Jerusalem; a bod y fath gymeradwyad iddo yn yr eglwys, fel y dewiswyd ef i gyd-fyned â Paul yn y daith hòno. Gal. 2. 1, 2, 3. Rhai blynyddoedd gwedi hyn anfonodd Paul ef i Corinth, lle y cafodd dderbyniad serchog o herwydd ei dduwioldeb diffuant, a'i ddiwydrwydd a'i ffyddlondeb yn pregethu yr efengyl. Oddi yno daeth at Paul i Macedonia, ac a hysbysodd am yr eglwys yno yn gywir; dychwelodd yn fuan atynt drachefn, yn dwyn ail epistol oddiwrth Paul gyd âg ef atynt. 2 Cor. 7. 6, 15. a 8. 6, 16. a 12. 18. Ansicr yw pa bryd y gadawodd Paul ef yn Crete, i iawn drefnu y pethau oedd yn ol, ac i osod henuriaid yn mhob dinas, megys yr ordeiniodd Paul iddo. Titus 1. 5.

Yn ei epistol y mae yn peri iddo gyfarfod âg ef yn Nicopolis, a dwyn Zenas y cyfreithiwr ac Apolos gyd âg ef, pan ddoi Tychicus ac Artemas i lafurio yn ei le. Titus 3. 12, 13. Gwedi hyn cawn ef gyda Paul pan oedd yn garcharor yn Rhufain. Gadawodd Paul, ac aeth i Dalmatia. 2 Tim. 4. 10. Pa un ai myned yno trwy anfoniad Paul, neu ynte ffoi a wnaeth rhag ofn yr erlidigaeth: neu, pa un ai gyda, ai heb gydsyniad Paul, nid yw yr apostol yn hysbysu. Hyn yw y cwbl o'r hanes sydd am dano. Dychymygir iddo ef ddychwelyd i Crete ar ol marwolaeth Paul, ac iddo farw yno yn y 94 flwyddyn o'i oed.

Y mae yr epistol ato yn fyr, yn gynnwysfawr, ac yn rhagorol: y mae Paul, fel yn ei epistolau at Timotheus, yn ei gyfarwyddo ac yn ei annog mewn perthynas i ddyledswyddau y weinidogaeth, ac yn peri iddo annog pawb, yn mhob sefyllfa, i ymddwyn yn addas i'r efengyl. Amlwg yw, ei fod yn anwyl gan Paul fel Timotheus; geilw ef ei 'fab naturiol,' enw o anwyldeb, Titus 1. 4.—'ei gydymaith a'i gydweithydd,' 2 Cor. 8. 23.—ei 'frawd,' 2 Cor. 2. 13. Yr ydoedd, mae yn amlwg, yn llafurus yn ngwaith yr efengyl gyda Paul, yn gysur ac yn ddefnyddiol iawn iddo. 2 Cor. 7. 6. a 8. 6. 2 Tim. 4. 10.

Pa bryd, ac o ba le yr ysgrifenodd Paul yr epistol at Titus, sydd ansicr; y mae beirniaid yn amrywio yn eu meddyliau, ac heb seiliau digonol i'w dychymygion. Gwel Macknight, Michaelis' *Introduction*, *vol.* iv. *cap.* 13. Edr. Crete.—Ysgrifenodd ar yr holl Epistol, Thos. Taylor, D.D. Coccejus, Paræus.

TLAWD, neu TYLAWD, TLODION, (ty-lawd) *Heb.* דל (*dal*) anghenus, rheidus; gwael, dystadl; truan; digyfoeth, eisiewedig, diborth.—Y mae dynion yn dlodion, 1. Yn eu hamgylchiadau allanol yn y byd, heb braidd ganddynt ddigon i fyw arno. Y mae dynion yn dueddol i esgeuluso, diystyru, a gorthrymu y cyfryw, ond y mae llygad Duw mewn modd neillduol arnynt. Diar. 14. 20, 31. Dan yr oruchwyliaeth Iuddewig yr ydoedd yr offrymau a'r aberthau wedi eu haddasu i'w hamgylchiadau; yn peri gwneuthur sylw neillduol o honynt; ac yn peri gadael iddynt loffion y meusydd a'r gwinllanoedd, a chynnyrch y seithfed flwyddyn, a rhan o'r degwm. Lef. 19. 10. a 25. 25—47. Y mae yr un rhwymau ar Gristionogion i ystyried eu hachos, ac y mae addewid gwedi ei gadael i'r cyfryw a wnelo hyny. Diar. 19. 7. Ps. 41. 1, 2, 3. Gal. 2. 10. Rhybuddir barnwyr i wneuthur cyfiawnder iddynt; ond gorchymynir iddynt beidio parchu y tlawd ychwaith yn ei ymrafael, i wneuthur cam âg eraill, ond barnu mewn cyfiawnder. Exodus 23. 3. Lef. 19. 15. Ps. 82. 4.

2. Tlawd yn ysbrydol ngolwg Duw; sef yn amddifad o gyfiawnder, sancteiddrwydd, a heddwch Duw. Dat. 3. 17. Tlodi ydyw hwn a'i ganlyniadau yn ofnadwy ac yn dragywyddol.

3. Tlawd yn yr ysbryd; sef un gwedi ei oleuo i adnabod ei gyflwr euog a halogedig ger bron Duw, yn cydnabod ei waeledd a'i annheilyngdod, yn debyg i Job—y publican yn gweddïo yn y deml—a'r afradlon ar ei ddychweliad i dŷ ei dad—y wraig oedd bechadures wrth draed yr Iesu, neu y canwriad mawr ei ffydd. Job 42. 6. Luc 7. 27—50. a 15. 18, 19. a 18. 13. Mat. 8. 5, 8. Luc 7. 2, 6. Yr agwedd hon ar ysbryd pechadur sydd rag-barotoad i deyrnas nefoedd. Mat. 5. 3. Heb wir dlodi ysbryd, nid oes gwir ras gan neb; y mae pob gras yn ei weithrediad yn arwyddo yr agwedd hon; megys ffydd, edifeirwch, ufudddod, &c. Duw sydd yn fawr yn ngolwg pawb sydd yn yr agwedd hon, ond dyn sydd yn fawr hebddi. Ps. 116. 6. Edr. Argyhoeddiad.

TLWS, TLYSAU, (ty-lws) eur-dlws, anwyl-dlws, arian-dlws; dillyn, hoew, têg, glân.—'Ceryddwr doeth i'r glust a wrandawo, sydd fel anwyl-dlws euraid, a gwisg o aur rhagorol.' Diar. 25. 12. נזם *tlws, clustdlws, trwyn-dlws.* Edr. Talcen. Gwisg o aur rhagorol, חלי כתם *tlws*, neu addurn euraid, *cywrain* a *gwerthfawr*. Edr. Grudd, Morddwyd.

TO—I, cronglwyd, nen tŷ, ymogor, diddos; haen, hân, rhes, gwânaf; cenedlaeth; gorthoi, cuddio, amhuddo.—Am y tô a elo, tô arall a ddaw; sef am y genedlaeth a elo, cenedlaeth arall a ddaw: y tô a ddel; sef y genedlaeth a ddel. Ps. 147. 8. Edr. Aderyn, Didoi, Dystryw.

Tai y cyfreithwyr a *döir* â chrwyn y cyfreithgar. *Diar.*

TOB, טוב [*da*] gwlad Tob, Tobie. Barn. 11. 3, 5. 1 Mac. 5. 13. Gelwir ei thrigolion Tubieni. 2 Mac. 12. 17. Barna Wells mai yr un yw ag Istob (2 Sam. 10. 6, 8.) gan hyny, talaeth o Syria ydoedd, yn gorwedd yn agos i'r lleoedd o Syria a enwir yno, ac nid yn mhell o Gilead, gwlad Jephthah.

TOB-ADONIAH, טוב־אדניה [*Duw da*] Lefiad a anfonwyd gyd âg eraill gan y brenin Jehosaphat i addysgu y bobl. 2 Cron. 17. 8.

TOBIAH, Ammoniad, a gelyn i'r Iuddewon, yr hwn a wrthwynebodd adeiladu yr ail deml. Neh. 2. 10. a 4. 3. a 6. 1, 12, 14.—Eraill o'r enw. Ezra 2. 60. 2 Cron. 17. 8. Zech. 6. 10, 14.

TOCHEN, dinas yn llwyth Simeon. 1 Cron. 4. 32.

TODDEDIG. Edr. Tawdd.

TOES, (taw) glud bara.—Gorchymynir i Israel 'o flaenion eu toes offrymu teisen yn offrwm dyrchafael i'r Arglwydd, yna byddai yr holl glamp yn sanctaidd.' Num. 10. 15. Rhuf. 11. 16.—'A blaenion pob blaenffrwyth o bob peth, a phob offrwm o bob dim oll o'ch holl offrymau fydd eiddo yr offeiriaid: blaen-ffrwyth eich toes hefyd a roddwch i'r offeiriaid i osod bendith ar dy dŷ.' Ezec. 44. 30. Diar. 3. 9. Yr oeddynt i gydnabod Duw yn flaenaf yn mhob peth.——Galarus oedd gweled 'gwragedd Israel yn tylino toes i wneuthur teisenau i frenines y nef.' Jer. 7. 18.

TOGARMAH, תוגרמה [*cadarn, amddiffynfa*] trydydd mab Gomer. Gen. 10. 3. Poblogodd ryw barthau yn ystlysau y gogledd. Ezec. 38. 5. Sef i'r gogledd o Judea. Ar gyffiniau Pontus a Chappadocia, ceir

Digitized by Google

pobl a elwir Trocmi, Trogmi, Trocmeni, Trocmades. Marchnataent yn ffeiriau Tyrus â meirch, marchogion, a mulod. Ezec. 27. 14.

TOHU, תחו [*un yn caru*] taid Samuel. 1 Sam. 1. 1.

TOI, תעי [*crwydrwr*] brenin Hamath, yr hwn a anfonodd i gyfarch Dafydd gwedi iddo faeddu Hadadezer, â llestri arian, aur, a phres. 2 Sam. 8. 9, 10.

TOLA, תולע [*pryf*] 1. Mab hynaf Issachar. Gen. 46. 13. Num. 26. 23.——2. Y degfed barnwr yn Israel, mab Puah, ac ŵyr Dodo, o lwyth Issachar. Olynodd Abimelech, ac a farnodd Israel 23 o flynyddoedd, ac a gladdwyd yn Samir yn mynydd Ephraim. Barn. 10. 1. Yr oedd yn farnwr heddychol, a thebygol iddo adferyd gwir grefydd, a rhoddi iawn drefn ar y wlad, ar ol yr annhrefn blaenorol.

TOLAD, תולד [*cenedliad*] dinas yn rhandir Simeon; yr un, hwyrach, ag Eltolad. 1 Cron. 4. 29. Jos. 15. 30. a 19. 4.

TOLL—FA, (ty-oll) *Saes.* TOLL; *Llad.* TOLONIUM: treth; tolldŷ; toriad, rhwygiad. Ezra 4. 13. Rhuf. 13. 7. Mat. 9. 9. Edr. MATTHEW, TEYRNGED.—Tollgraig; sef craig ddrylliog, ddarniog.

> Ogof y *dollgraig* a wna les,
> Sef lloches i'r cwningod.
> *E. Prys,* (Ps. 104. 18.)

TOMDY, (tom-tŷ) arlocsdy, geudy, ysgothfa; tŷ, neu le i roddi tom ynddo.—'Ac a ddinystriasant dŷ Baal, ac a'i gwnaethant yn domdy.' 2 Bren. 10. 27. 'Yn domen.' Dr M. מחראות Lleoedd i roddi tom ynddynt. Nid gormod anmharch i'r fath ffieidd-dra.

TOM—EN—AU—LLYD, (to-om) pridd, llaid, clai, tail, baw, mygyn, plwca, ebod, ysgothfa.—Cyffelybir yr annuwiol i dom; mae ei natur lygredig yn ffiaidd; Duw a'i gwrthyd, ac a'i ffieiddia; ac o'r diwedd bwrir ef i uffern gyda diystyrwch. Job 20. 7.——Syrthia dynion fel tom, neu fel dyrnaid ar ol y medelwr, pan y lleddir hwynt yn lluoedd. Jer. 9. 22.

'Yr wyf yn eu cyfrif yn dom.' Phil. 3. 8. Y mae y gair *Gr.* σκυβαλον yn arwyddo un peth gwael, diwerth, a ffiaidd—y cyfryw ag a deflir i gwn: i'r cyfryw ffieidd-beth y mae yr apostol yn cyffelybu 'pob peth' mewn cymhariaeth i Grist. Gwel Schleusner. —'Yr wyf yn eu cyfrif yn dom;' nid oedd yn barnu yn rhy wael am danynt hwy, nac yn rhy barchus am Grist; ond yr ydoedd yn barnu yn gwbl uniawn ac addas; ac yr un fath y barna ac y cyfrif pawb yn ngoleuni Ysbryd Duw, ac nid yw agwedd ein meddwl byth yn addas, yn sanctaidd, ac yn efengylaidd, ond pan byddom yn barnu felly.

'Soddi mewn tom,' a arwydda cyflwr anghysurus, profedigaethus, a dirmygedig. Ps. 69. 2, 14.

Tomen a arwydda, 1. Lle y dom. Luc 14. 35.—— 2. Cyflwr gwael, isel. 1 Sam. 2. 8.

TON—AU, (twn) *Gr.* δονη; môr-gaseg.—Effaith y gwynt ar wyneb y dyfroedd ydyw y tonau. Profodd yr enwog Anrhydeddus Mr Boyle, trwy lawer o brofion, nad ydyw y gwynt yn effeithio ar y dwfn yn ddyfnach na chwe troedfedd, ac nad oes un dôn yn codi yn uwch, yn naturiol, na chwe troedfedd oddiar wyneb y dwfr; y chwe troedfedd o ddyrchafiad, yn nghyd â chwe troedfedd o gauad, neu ddyfnder, o ba un y cyfodwyd y dwfr, a wna ddeuddeg troedfedd, dyrchafiad mwyaf tôn. Nid ydym i gasglu oddiwrth hyn nad oes tônau yn dyrchafu yn llawer iawn uwch na hyn; ond nid tônau naturiol ydynt, ond annaturiol, gwedi eu ffurfio trwy ymuniad amryw dônau, gan y buander y gyrir y dwfr gan y gwyntoedd, fel hyny y dôn gyntaf a gynnydda i faintioli dirfawr fel mynyddoedd.—— 'Tônau cynddeiriog y môr.' Judas 13. Edr. ANWASTAD, EWYN.

TOPAZ, *Gr.* τοπαζιον: gem neu faen gwerthfawr, y pedwerydd o ran caledi ar ol y diamwnt. Y mae yn dryloyw; ei liw yw melyn hardd, neu liw yr aur; ond y mae amrywiol raddau yn ei felyndra; y mae yn dra chaled, ac a gymer ei gaboli yn hardd. Chrysolite yr hynafiaid yw, ac y mae i'w gael yn amryw barthau o'r India Ddwyreiniol, yn Ethiopia, Arabia, Peru, a Bohemia. Y Topaz Dwyreiniol sydd fwyaf cyfrifol; y mae Topaz Peru a Bohemia yn feddalach. Topaz Saxoni a geir yn Voitgland, yn agos i Aberbach, ar fynydd a elwir Schneckenberg: y mae yn gyffredin o liw gwyn, ac yn cydraddu â Topaz y dwyrain mewn caledrwydd a dysgleirdeb. Yr ydoedd i'w gael gynt mewn ynys yn y Môr Coch, a alwent Topazion, ac oddiwrth hyn galwent ef Topaz Cus, neu Ethiopia. Job 28. 19. Os yr un yw a פטדה (*pitdath*) yr ail ydoedd yn nwyfroneg yr arch-offeiriad, a'r nawfed yn sylfaen y Jerusalem newydd. Exod. 28. 17. Dat. 21. 20. Lliw Topaz yr hynafiaid, meddant, oedd gwyrdd gwan, âg ychydig gymysg o felyn.

TOPHEL, תפל [*adfail*] enw lle. Deut. 1. 1.

TOPHET, תפת [*tabwrdd*, neu *ffwrn*, neu *dwymdy*. Edr. תפה yn Parkhurst]. Lle o du y dwyrain i Jerusalem, a alwent hefyd dyffryn Hinnom, neu Gehenna. Gelwid ef Tophet oddiwrth y sŵn a wnaent â thabyrddau i rwystro clywed cri y trueiniaid a aberthent yn tân i'r eilun-dduw Moloch. Edr. MOLOCH. Arferir ef i arwyddo lle o gospedigaeth trwy dân; a chan yr Iachawdwr i arwyddo tân uffern, dan yr enw *Gehenna,* Mat. 5. 30. yn Groeg. Yn Esa. 30. 33 arferir y gair *Tophet,* i arwyddo, trwy draws-enwad, y lle y cai lluoedd yr Assyriaid eu dinystrio; canys, tebygol, ddinystrio lluoedd yr Assyriaid yn mhellach oddiwrth Jerusalem na Tophet, a'r tu arall gyferbyn. Y brenin Josiah a halogodd Tophet, i attal yr eilunaddoliaeth creulon yno. 2 Bren. 23. 10, 11. Tebygol i luoedd o'r Iuddewon gael eu llosgi yno, a laddwyd gan y Caldeaid wrth gymeryd Jerusalem. Jer. 7. 32. a 19. 11, 12, 13. Gwedi hyn gwnawd ef yn dderbynfa cyrph meirw, a phob ffieidd-dra, a chadwent yno dân gwastadol i'w llosgi.

TOR, (to-or) bol, bru, croth; cêst, chwŷdd, ysgwyddiad allan. Tôr y mynydd, chwŷdd y mynydd; tôr llaw; tôr tarian, crwm neu chwŷdd y darian.—'Ar dy dôr y cerddi.' Gen. 3. 14. Edr. SARPH.

TORAETH—EITHIOG, (tor) twf, cynnydd, tyfiant, cynnyrch, cnwd; cnydfawr; llawnder. Num. 18. 30. Neh. 9. 37. Ps. 107. 37.

TORCH—AU—I, TYRCH, (tor) addurn-bleth, mwnwgl-dorch; troi i fynu; plethu. Torch ydoedd arwydd-nod o ragoriaeth a wisgid gynt gan yr hen Frytaniaid, yr hon a ymdorchent yn eiddigus mewn ymladdfa rhag ei dwyn gan y gelyn: oddiwrth hyn y mae yr hen ymadroddion, 'Tynaf am y dorch â thi— tynu am y dorch.' Torcha dy lewys; sef troi i fynu dy lewys.—'Ac yn dorchau.' Num. 31. 50. 'Ac yn arfedog.' Dr M. *Heb.* כומז rhyw addurn menywaidd ydoedd; hwyrach mai math o wregys, neu rwymyn am y ddwyfron, i beri iddynt edrych yn grwn ac yn llawn, medd Parkhurst. Cyfieithir ef *cadwyni,* yn Exod. 35. 22.

TORF—EYDD, (tor) lliaws, byddin, rhawd, amlder. Edr. BYDDIN, GLYN, TYRFA. Y mae yn arwyddo, weithiau, y bobl gyffredin gwedi cyd-gasglu. Mat. 4. 25. a 7. 28. a 8. 1, 18. a 9. 33. a 12. 15. a 21. 9. Actau 13. 45.

TORFYNYGL—U, (tor-mwnwgl) tori y gwddf. Exod. 13. 13. Deut. 21. 4. Esa. 66. 3.

TORLAN—ENYDD, (tor-glan) glân doredig, glân wedi ei threulio gan ddwfr. 1 Cron. 12. 15.

Digitized by Google

TOR—I, (ty-or) dryllio, gwneuthur yn ddarnau; dofi, hyweddu.—1. Dryllio, darnio. Exod. 34. 13.——2. Dryllio, a gwneuthur yn ddiddefnydd. Ps. 10. 15.——3. Diddymu cyfraith, neu droseddu gorchymyn. Gen. 17. 14.——4. Rhoddi i farwolaeth. Exod. 9. 15. Lef. 7. 25. a 20. 3, 5, 17. a 22. 3.——5. Attal, tynu ymaith. 1 Sam. 20. 15.

'Tori y galon,' a arwydda, tristwch mawr; argyhoeddiad a thristwch am bechod. Actau 21. 13. Esa. 61. 1. Luc 4. 18.

'Tori bara,' a arwydda, cyfranogi o Swper yr Arglwydd. Actau 2. 42. a 20. 7. Byddai yr Iuddewon yn gwneuthur eu bara yn deisenau llydain teneu, ac yr oeddynt bob amser yn eu tori â'u dwylaw, ac nid un amser âg erfyn miniog. Edr. Dryllio, Rhwygo, Dydd, Swper.

'Mae y fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prenau: pob pren gan hyny yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da, a dorir i lawr, ac a deflir yn tân.' Mat. 3. 10. Tebygol gymeryd y dull hwn o ymadroddi o Esa. 10. 33, 34. Yr oedd y genedl Iuddewig i gael ei dystrywio gan y Rhufeiniaid, tan iau ba rai yr oeddynt yn awr yn byw. Y fwyell hon ydoedd ar wreiddyn y prenau, a'u torai i lawr yn ddilys, os na ddiwygient trwy bregethiad yr efengyl i ddwyn ffrwyth. Nid ysgythrio rhai o'r cangenau a wna, ond taro ar wreiddyn y pren, ac yn ganlynol ei lwyr ddinystrio.

'Na thorwch mo honoch eich hunain.' Deut. 14. 1. Yr ydoedd hon yn arferiad yn mhlith y cenedloedd eilun-addolgar, yn enwedig yn eu tristwch a'u galar: 1 Bren. 18. 28. Jer. 41. 5. yn neillduol at farwolaeth perthynasau a chyfeillion. Jer. 16. 6. Y mae hanesion dychrynllyd iawn am eu creulondeb tu ag at eu cyrph eu hunain yn addoliadau rhai o'u duwiau, yn enwedig y dduwies Isis, Baal, Bellona, Cybele. Gwel Le Clerc ar 1 Bren. 18. 18. Leland's *Advant. and Necessit. of Christ. Relig. part* i. *chap.* vii. Y cyfryw anmharch creulawn i'w cyrph a waherddir gan yr Arglwydd i'w bobl; ond y maent i oddef eu cystuddiau a'u profedigaethau gyd âg amynedd ac ymostyngiad sanctaidd, ac ymwrthod â'r cyfryw arferion llygredig, direswm. Deut. 14. 2. Wrth gymharu crefydd y Bibl â holl grefyddau eraill y byd, ymddengys y rhagoriaeth yn hynod. Edr. Print.

TORTH—AU, (ty-orth) *Llad.* Torta: afrlladen, teisen. Arferent gynt anfon torthau yn anrhegion i ddynion o enwogrwydd. 1 Sam. 17. 17. a 25. 18. 1 Bren. 14. 3. 2 Bren. 4. 42.

Mae y gwyrthiau o amlhau ychydig dorthau bychain i borthi y tyrfaoedd yn neillduol o addysgiadol, ac yn dangos yr Arglwydd, y gweithiwr mawr, yn hynod o ogoneddus a hawddgar. Mat. 14. 17—23. a 15. 34, &c. Marc 6. 34—44. Ioan 6. 9, &c. Yr oedd yn brawf diammheuol o fawredd ei Berson, sef mai Creawdwr a Chynnaliwr dyn ydoedd, a bod ei dlodi a'i ddarostyngiad yn wirfoddol, gan y gallasai wneuthur ei hun yn gyfoethog â'i allu creadigol; bod ei dosturi yn fawr yn wyneb pob amgylchiad cyfyng a ddichon fod dyn ynddo, ac yn galw am ein hymddiried diysgog ynddo yn wyneb ychydig, i fod yn haelionus ar ychydig, ac y dichon ychydig gynnyddu wrth gyfranu yn lle lleihau: hefyd ein dysgu fod ganddo fendithion ysbrydol, na ddarfyddant byth, er cyfranu i filiynau dirifedi. Mae yr olwg yn wyneb y drych hwn yn fawreddig, yn dirion, ac yn ogoneddus.

TOST—ER, (to-ost) gerwin, garw, sarug, caled, llym, creulawn; trwm, athrist. Esa. 22. 17. Jer. 6. 26. a 14. 17. Luc 19. 21. Act. 20. 37. Rhuf. 11. 22.

Mae yn *dost* ar a ddymunai farw; mae yn *dostach* ar a'i ofno. *Diar.*

TOSTUR—I—IAETHAU—IO—IOL, (tost) adfydus, truenus; trugaredd, gresyndod; trugarhau, gresynu.—Y geiriau *tosturi, tosturiaeth, tosturiol*, a arwyddant ymysgaroedd tyner, yn cydymdemlo âg un mewn poen, trallod, neu gyfyngder, ac yn ymdrechgar, o dosturi, am ei ymgeleddu: y cyfryw ag a fedd mam at ei phlentyn anwylaf. Galar. 4. 10. Y gair *Heb.* רחום a'r gair *Gr.* ευσπλαγχνος, a gyfieithir *tosturi, tosturiol*, a arwyddant ymysgaroedd tyner, calon dyner, trugaredd dosturiol; y teimladau mwyaf bywiog a thyner a ddichon y natur ddynol yn *neb* brofi a gweithredu; y cyfryw ag sydd berthynol i dad neu fam, y perthynasau agosaf, a'r cyfeillion mwyaf anwyl. Esa. 49. 15. Ps. 103. 13. Y cyfryw agweddiad y mae yr apostol yn annog y Cristionogion i ddangos at eu gilydd. Zech. 7. 9. Eph. 4. 32. 1 Petr 3. 8.

Y mae tosturi a thosturiaethau yn cael eu priodoli yn y geiriau mwyaf helaeth a chadarn i'r Arglwydd. Ps. 79. 8. a 103. 4. 'Ni phalla ei dosturiaethau.' Galar. 3. 22. Ac mewn tosturiaethau y mae yn arwain ei bobl, ac yn eu hymgeleddu. Jer. 31. 9.—1. Y mae tosturi yn hanfod Duw; nid oes dim yn Nuw ond sydd yn hanfodol ynddo. Ps. 116. 5.——2. Yn ganlynol, y mae ei dosturi yn anfeidrol ac yn ddiderfyn, ac yn ddiddarfod, fel Duw ei hun; mae ei dosturiaethau yn aml, yn lliosog, ac yn ddiddarfod. Neh. 9. 19. Ps. 51. 1. Esa. 63. 15. Galar. 3. 22.——3. O'i ben-arglwyddiaeth mae yn dangos ei dosturi: 'Tosturiaf,' medd efe, 'wrth yr hwn y tosturiwyf.' Exod. 33. 19. Arwydda hyn, nad oes dim yn neb yn haeddu tosturi mewn un gradd; mae pawb yn haeddu y toster mwyaf. Rhuf. 11. 22. Ynddo ef, ac yn anfeidrol ddaioni ei natur, y tardda ei dosturi; hyn ydyw yr achos cymhelliadol o hono; a'i ewyllys anddibynol yw ei reol yn gweithredu yn dosturiol.——4. Y mae tosturi yn holl oruchwyliaethau Duw tu ag at ei bobl: 'Mewn tosturiaethau,' medd efe, 'y dygaf hwynt.' Jer. 31. 9. Fel y mae yn ddoeth, felly y mae yn dosturiol yn ei holl ymddygiad tu ag atynt. Edrych Arch-offeiriad, Cariad, Daioni, Trugaredd.

TRA, rhagddod: uchel, oddiar, tros; tu hwnt.—'Duw a'i tra-dyrchafodd yntau;' sef, a'i dyrchafodd yn uchel iawn. Phil. 2. 9.——Gorair: pan, pryd, hyd oni, cyd ag.

Doeth dyn *tra* thawo. *Diar.*

'Tra yr oedd hwn yn llefaru; un arall hefyd a ddaeth,' &c. Job 1. 16.——'Tra fyddo yr annuwiol yn fy ngolwg.' Ps. 39. 1.

TRA-ARGLWYDDIAETH—U, (tra-arglwyddiaeth) llywodraethu yn galed ac yn drahaus; gorbwyo.—'Nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw.' 1 Petr 5. 3. Κατακυριευοντες των κληρων. 'Nid fal rrai a fynnon vod yn arglwyddi ar tretad Dyw.' W. S. 'Yn arglwyddi ar etifeddiaeth Duw.' Dr M. κληρων, *etifeddiaethau*. Yr amrywiol eglwysi a chynnulleidfaoedd a elwir yma etifeddiaethau, yn cyfeirio at yr amrywiol etifeddiaethau y llwythau yn ngwlad Canaan, a ranwyd iddynt wrth goelbrenau, yr hyn yw priodol ystyr y gair *Gr.* κληρος (*cleros*). Ni ddylai blaenoriaid eglwysi Duw dra-arglwyddiaethu a thra-awdurdodi arni, fel penaethiaid gormesol y cenedloedd, Mat. 20. 25. Marc 10. 42. Ezec. 34. 4. lle yr arferir yr un gair Groeg. Nid ewyllys na meddwl un dyn, ond gair Duw sydd i lywodraethu ar eglwys Dduw. Eglurhau hwnw a rhoddi hwnw i awdurdodi arni, ydyw gwaith blaenoriaid eglwysig.

'Nid am ein bod yn arglwyddiaethu ar eich ffydd chwi, ond yr ydym,' medd yr apostol, 'yn gyd-weithwyr i'ch llawenydd.' 2 Cor. 1. 24. Cyfleithir yr un gair Groeg, *gorchfygu*, yn Act. 19. 16. 'A ruthrodd arnynt, ac a'u (κατακυριευσας αυτων) *gorchfygodd*.' Hyn yw tra-arglwyddiaethu; sef goresgyn trwy rym

Digitized by Google

ac awdurdod, ac wedi hyny cadw mewn darostyngiad caeth a gorthrymus. Yr oedd yr apostol yn canfod yr ysbryd hwn yn ymgodi yn ei ddyddiau ef mewn blaenoriaid eglwysig, yr hwn a ddyrchafodd gwedi hyny i'r graddau mwyaf cywilyddus o dra-arglwyddiaeth a gorthrymder. Nid oes dim yn fwy melldith i eglwys Dduw, yn mhob oes, na blaenoriaid beilchion, cnawdol, sydd yn ceisio yr eiddynt eu hunain, ac nid yr eiddo Crist Iesu.

TRACHEFN, (trach-cefn) tu ol, tu ol y cefn; eilwaith, eilchwyl, etto, etwa.—'Ei wraig ef a edrychodd drach ei chefn.' Gen. 19. 26. Edr. LOT.——'Rhaid eich geni chwi drachefn;' sef eilwaith. Gwedi eu geni unwaith fel dynion, rhaid eu geni *eilwaith* cyn y byddont yn Gristionogion gwirioneddol. Ioan 3. 7.——'Efe a sycheda drachefn;' sef yn ddiddarfod, yn ddidòri ei syched, oni chaiff amgenach dwfr nag a fedd natur. Ioan 4. 13.

'Ni dderbyniasoch ysbryd caethiwed drachefn i beri ofn.' Rhuf. 8. 15. Dichon iddynt fod mewn caethiwed, ond ni *dderbyniasant* oddiwrth Dduw ysbryd caethiwed. Y mae Duw yn argyhoeddi ei bobl, ac yn eu ceryddu yn llym, ond nid yw yn rhoddi iddynt ysbryd caeth-weision; byddai hyny yn anaddas i'w cyflwr fel plant Duw, ac yn anghytun â'r gwirionedd mewn perthynas i'w cyflyrau.

TRACHONITIS, [*garw*, neu *gwlad fynyddig*] gwlad fechan i'r dehau o Damascus, ag oedd yn perthyn i Arabia, yn hytrach na Phalestina. Yr oedd i'r gogledd i Iturea, â Batanea i'r gorllewin. Gwlad fynyddig, greigiog, ydoedd; yn llochesu llawer o ladron, y rhai a barasant lawer o flinder i Herod Fawr. Yr oedd Phylip ei fab yn detrarch arni. Luc 3. 1.

TRACHWANT—AU—U, (tra-chwant) tra-blys, chwant mawr; gwŷn; blysu, deisyfu, chwennychu.—Trachwant ydyw pob chwant pechadurus; chwant ar draws y gyfraith, rheol uniondeb a chyfiawnder; chwant dros ben uniondeb, a'r hyn a ddylai dyn ei chwennych, yw chwant pechadurus.

Y mae tri math o chwant; sef naturiol, pechadurus, ac ysbrydol.—1. Chwant naturiol, yw pob chwant planedig yn y natur ddynol yn ei chreadigaeth; megys chwant bwyd a diod, &c.

2. Chwant pechadurus, ydyw chwant naturiol yn y gormodedd o hono, dros ben y terfynau o sobrwydd a chymedroldeb. Y mae peth fyddo yn gyfreithlon yn y cymedroldeb naturiol o hono, yn myned yn bechadurus yn y gormodedd. Blys pechadurus sydd yn peri i ddynion fwyta i lythineb, ac yfed i feddwdod, neu gysgu i syrthni, a gorphwys i ddiogi, &c. Neu, ynte, chwennych peth gwaharddedig gan Dduw, mewn un gradd. Nid oedd chwennych ffrwyth y coed yn ein rhïeni cyntaf yn bechadurus ynddo ei hun; canys chwant naturiol ydoedd, gwedi ei blanu gan Awdwr natur; ond yr oedd chwennych ffrwyth y pren gwybodaeth da a drwg yn bechadurus, gan fod Duw gwedi gwahardd hwnw, ac y mae yn addas fod ein henaid oll, yn ei holl weithrediadau, yn ddarostyngedig i ewyllys Duw yn mhob peth. Felly mae y chwantau a grybwyllir am danynt yn y degfed gorchymyn yn bechadurus, am fod Duw yn gwahardd hyny. Nid ydyw chwennych tŷ, neu was, neu wraig, ddim yn bechadurus ynddo ei hun; ond mae chwennych tŷ, neu was, neu wraig *ein cymydog*, yn dra phechadurus, am fod Duw gwedi gwahardd hyny, ac mae y chwant am danynt yn myned dros y terfynau a roddodd Duw i'n chwennychiad. Heblaw hyny, dichon fod dyn yn chwennych pethau cyfreithlon, o egwyddor, ac i ddyben pechadurus, ac felly yn bechadurus hollol. Er bod chwant cael tŷ yn drigfa, yn noddfa, ac yn ddiogelfa, yn gyfreithlon; etto geill dyn chwennych tŷ i ddybenion pechadurus iawn, sef er segurdod, esmwythder cnawdol, difyrwch cnawdol, gloddest, balchder, &c. Ac felly yr un fath am bob peth arall; canys nid oes dim na ellir ei ddefnyddio yn bechadurus yn gystal ag yn sanctaidd.

Y mae y tueddfryd pechadurus sydd mewn dyn dan y cwymp, yn gyffredinol, yn yr ysgrythyrau, yn cael ei alw *επιθυμια*, *chwant*, *επιθυμιας της σαρκος*, *trachwantau y cnawd*. 'Nid adnabum i bechod, ond wrth y ddeddf: canys nid adnabuaswn i drachwant, oni bai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta.' Rhuf. 7. 7. 'Rhodiwch yn yr Ysbryd, ac na chyflawnwch drachwant y cnawd.' Gal. 5. 16. 'Yna chwant wedi ymddwyn, a esgor ar bechod: pechod hefyd, pan orphener, a esgor ar farwolaeth.' Iago 1. 15. Oddiwrth y chwant tufewnol hwn yn gweithredu yn ddiderfyn, yn ddilywodraeth, ac i ddybenion pechadurus, annuwiol, y mae yr holl bechodau allanol yn tarddu. Dyma y groth lle yr ymddygir hwynt, a'r ffynon o ba un y maent oll yn tarddu. Y synwyrau corphorol a borthant ac a ennynant y chwant hwn, trwy osod gwrthddrychau addas i hyny o flaen y meddwl; am hyny gelwir ef 'chwant y cnawd, chwant y llygaid, a balchder y bywyd.' 'Chwant y llygaid' yw y chwant a borthir â gwrthddrychau a osodir trwy y llygaid o flaen y meddwl llygredig, i weithredu ar y chwant tufewnol. 'Chwant y cnawd' ydyw gwrthddrychau yn boddhau y cnawd, y rhai trwy synwyrau y corph a gyfleir yn y meddwl i'r chwant tufewnol i weithredu arnynt. Yr un fath ydyw 'balchder y bywyd:' dull balch y byd yn byw, yn gweithredu ar falchder calon dyn i ddilyn yr un llwybr o hunan-ddyrchafiad, yn lle dyrchafu Duw. Rhy faith fyddai yma olrhain chwant yn ei holl effeithiau, a'r holl amrywiol ffyrdd mae yn gweithredu: gwasanaethu 'amryw chwantau' ydyw bywyd cyffredinol holl ddynion diadgenedledig. Dyma y drych a welir ar y byd, ar holl blant Adda wedi colli Duw. Gelwir hwynt 'trachwantau y diafol.' 'A thrachwantau eich tad a fynwch chwi eu gwneuthur.' Ioan 8. 44. Ar y trachwantau hyn mae y diafol yn gweithredu; a thrwy chwantau twyllodrus y mae yn denu, yn llithio, ac yn twyllo eneidiau dynion i ddinystr tragywyddol. Eph. 4. 22.

3. Chwennychiad ysbrydol a sanctaidd, yw chwennych pob peth oddiar egwyddor sanctaidd, i ddybenion sanctaidd, ac mewn ymostyngiad i ewyllys Duw o fewn terfynau ei orchymynion. Yn gweithredu yn y modd yma y mae chwennychiad naturiol yn sanctaidd ac yn ysbrydol; a pha faint mwy felly pan fyddo gwrthddrych y chwant yn ysbrydol, sef pethau yr Ysbryd, dadguddiedig i ni yn y gair? Fel mae y chwant am fwynhad o'r pethau mawrion a thra dymunol hyn yn sanctaidd ac yn gymeradwy gan Dduw, felly hefyd y mae y diffyg o honynt yn agwedd hollol bechadurus ar enaid dyn, ac yn profi diffyg gwir gariad at Dduw, ei ogoniant, a'r mwynhad o hono. Y mae pethau yr Ysbryd, yn y mwynhad o honynt, yn ein haddasu ni i ogoneddu a mwynhau Duw, ac nis dichon neb fod heb eu chwennych, heb fod hefyd heb chwant i fwynhau a gogoneddu Duw—yr hyn sydd beth tra phechadurus. Yr un peth yw y chwant ysbrydol hwn, a'r hyn a eilw yr ysgrythyrau *cariad;* caru Duw a phethau Duw, ac yn ganlynol casâu pob peth croes i hyny; cofleidio y naill, ac ymwrthod â'r llall. Gelwir ef hefyd blysio, hiraethu, newynu a sychedu yn sanctaidd, ac nid oes ond cyflawn fwynhad a foddlona ei awydd awchus am ei wrthddrychau. Edr. BLYS, CARIAD, NEWYN, SYCHED, &c. Gwel Vitringa, *Obs. Sacræ, lib.* iii., *cap.* 5, 6, 7, 8.

TRADWY, (tra-dwy) tri dydd i ddyfod; yn mhen tri diwrnod.—'A thradwy y tiriasom yn Samos.' Act. 20. 15. *τη δε ετερα*, *a'r dydd arall ar ol dranoeth*, sef tradwy.

Digitized by Google

TRADDOD—I, (dod) rhoddi i fynu; rhoddiad i fynu.—Cafodd Crist ei draddodi gan y Tad; 'traddododd ef drosom ni oll.' Rhuf. 8. 32. Edr. ARBED. Traddododd yr arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion ef i'r cenedloedd, i'w watwar, ei fflangellu, ac i'w groeshoelio. Mat. 20. 18, 19. Traddodwyd ef fel aberth i'r lladdfa. Esa. 53. 7.

TRADDODIAD——AU, hen goffadwriaethau yn mhlith dynion o genedlaeth i genedlaeth heb erioed eu hysgrifenu.—Hôna yr Iuddewon, heblaw y gyfraith, ysgrifenedig yn mhum llyfr Moses, i'r Arglwydd roddi llawer ychwaneg i Aaron ac i'w feibion; ac iddynt hwy eu traddodi i'r henuriaid; a'r rhai hyny eu traddodi i eraill, ac felly o genedlaeth i genedlaeth. Y gyfraith draddodiadol hon, meddant, ydyw enaid y gyfraith ysgrifenedig, ag sydd yn rhoddi bywyd ac ystyr iddi. Y traddodiadau hyn nid ydynt ddim ond dychymygion dynion rhyfygus. Gelwir ni yn eglur i sylwi *yn unig* ar yr hyn a ddadguddiodd Duw i ni yn y gair: y mae hyny yn llawn ddigon; ac ychwanegu ato sydd afreidiol a phechadurus. Deut. 29. 20. Gwedi amser y prophwyd Malachi, llïosogodd y traddodiadau gwag hyn yn ddirfawr, fel y canfyddir yn hanesion yr Efengylwyr. Edr. CORBAN, GOLCHI. Y mae yr Arglwydd yn beio arnynt yn llym am ddiddymu gorchymynion Duw trwy eu traddodiadau eu hunain. Mat. xv. a xxiii. Yn fuan wedi hyn yr oedd crefydd yr Iuddewon yn gynnwysedig yn y cyfryw draddodiadau. Rabbi Judah, yn nghylch A. D. 190, a gasglodd yr hyn a allai o'r traddodiadau hyn, ac a alwodd y gwaith MISHNAH, neu *ail-gyfraith.* Gan nad oedd y gwaith hwn yn ddigon eglur ar amryw byneiau, Rabbi Jochanan, yn nghylch can mlynedd wedi hyny, a ysgrifenodd eglurhad arno, a alwodd efe GEMARA, neu *perffeithrwydd.* Y ddau hyn gyd â'u gilydd a elwir y TALMUD, neu *cyfarwyddwr Jerusalem;* am ei fod wedi ei ysgrifenu yn benaf er mwyn yr Iuddewon yn Nghanaan. Barnwyd hwn yn annigonol hyfforddiad i'r Iuddewon yn yr holl wledydd dwyreiniol. Rabbi Asse, a'i ddysgyblion, a ysgrifenasant un arall; yr hwn, yn nghyd â'r Mishnah, a alwyd TALMUD BABILON. Y mae yn gynnwysedig o chwech o ddosparthiadau, 63 o draethodau, 524 o bennodau. Hwn sydd yn bresennol yn y cymeradwyaeth mwyaf yn mhlith yr Iuddewon, ac y maent yn rhoddi y blaenoriaeth iddo ar y Bibl ei hun, ac yn edrych ar y *Keraites,* y rhai a barchant y Bibl yn unig, fel cythreuliaid mewn cnawd. Mae y Talmud hwn o'r cyfryw faintioli, fel nad oedd ond ychydig o'u doctoriaid a allai wneuthur eu hunain yn ddigon hyddysg ynddo; am hyny, Moses Maimonides, Rabbi o'r Hispaen, yn nghylch A. D. 1180, a'i dyfyrodd, ac a'i cyhoeddodd mewn pedwar llyfr mawr unplyg. Er ei fod yn cynnwys llawer o ddychymygion gwag, disail, etto geill y neb a gaffo amynedd i fyned drwyddo, gael amryw o bethau buddiol yn tueddu i daflu goleu ar yr ysgrythyrau.

Y mae gan y Pabyddion llawer o draddodiadau, a dderbyniwyd, meddant, obdiwrth yr apostolion, mor wag a disail a'r traddodiadau Iuddewaidd. Ond ni oddef Duw i ni edrych ar ddim ond ei air yn unig fel sail ein cred, a rheol ein haddoliad a'n bucheddiad. Cyhoeddir melldith ddychrynllyd ar y neb a roddo ato, neu a dyno oddi wrtho. Dat. 22. 18, 19. I wneuthur crefydd yn foddhaol i'r cnawd a rheswm dynol, rhaid dychymygu rhyw reol i gerdded wrthi heblaw gair Duw, neu rhoi gau esponiadau ar hwnw; a dyna ddyfais y diafol yn mhob oes.

TRAETH, TREUTHYDD, (tra-eth) tywyn, y feisdon, glân y môr. Act. 21. 5.

TRAETHAWD, (traeth) cyfansoddiad, llyfryn. Actau 1. 1. Luc 1. 1.

TRAETHAD—U, (traeth) triniad mewn geiriau, gosodiad allan, mynegiad; dadgan, hysbysu, egluro, amlygu, arwyddocâu, dangos.—'Dydd i ddydd a draetha ymadrodd.' Ps. 19. 2. Edr. LLEFERYDD.

'Traetha fy nghalon beth da.' Psalm 45. 1. Sef gair (דבר) llesol, da, hyfryd, gorfoleddus, am Grist a'i swyddau, cynnwysedig yn y Psalm ganlynol. Yr oedd ei galon yn traethu cyn i'w bin ysgrifenu; sef yn myfyrio yn hyfryd ar y gwrthddrych gogoneddus. Y gair רחש a gyfieithir yma *traethu*, a arwydda, berwi, clychu, clych-ferwi, byrlymu. Yn ei fyfyrdod ar Grist yr oedd ei galon yn ennyn, a'i feddyliau yn byrlymu i fynu yn awyddus am fynediad allan. Y geiriau a ddadganant yn hynod agwedd calon dan ddylanwadau gwresog yr Ysbryd Glân. Edr. DADGAN, LLEFARU, YMADRODDI.

TRAFLYNCU, (traf-llwnc) cegu, ceglyncu, darlyncu, gwancio, ysu yn wancus.—'Ond os cnoi a thraflyncu eich gilydd yr ydych, gwyliwch na ddyfethir chwi gan eich gilydd.' Gal. 5. 15. 'A's ynte cnoi ac yssu y gylydd a wnewch, ymogelwch rac ymddifa gan y gylydd.' W. S. Cyfieithir yr un gair, *κατεσθιω, llwyr-fwyta.* Mat. 23. 14. 2 Cor. 11. 20. Y geiriau a ddarluniant yn fywiog y cenfigenau, yr ymrysonau, yr athrodau, a'r pleidiau, oedd yn mhlith y Galatiaid, a'r effeithiau dinystriol o honynt; dynion yn y cyfryw ysbryd ydynt yn debycach i gŵn nag i ddefaid diniwed Crist.

TRAFFERTH——ION——US, (perth) dibrisdod, llafur, poen; trallodus, llawn o negesau; mawr ei drybestawd, poenus, llafurus, helbulus, tra blin. Preg. 8. 16.

*Trafferth* ŷch byd echwydd. *Diar.*

'Gofalus a thrafferthus wyt yn nghylch llawer o bethau.' Luc 10. 41.—'Yddwyt yn gofalu ac ith tral'odir yn-cylch llawer o pethae.' W. S. Y gair *τυρβαζη,* a gyfieithir *trafferthus*, a arwydda yn briodol, cynhyrfiad dyfroedd mewn tymhestl, neu gyffroad a thrwst tyrfa o bobl; cyffelyb i hyn yr oedd meddwl Martha mewn profedigaeth gan lawer o wasanaeth yn y teulu pan yr oedd yr Iesu yno. Yr oedd yn anghymedrol o gynhyrfus, ac wedi colli iawn lywodraeth ar ei hysbryd. Am hyn cafodd gerydd tirion gan yr Arglwydd; yr hwn, tebygol, a ddofodd ei hysbryd, ac a dawelodd yr ystorm oddi mewn iddi. Phil. 4. 6. 1 Cor. 7. 32—35.

TRAGYWYDD——OL——DEB—DER—IAETH, (cywydd) didranc, parhaus, bythol, diddechreu, diddiwedd, annherfynol, anfarwol; byth, bytholrwydd. —Arwydda *tragywyddol*, weithiau, yr hyn sydd o hir barhad; felly y dywedir fod deddf seremonïol Moses yn dragywyddol. Exod. 12. 24. a 27. 21. a 28. 43. a 40. 15. Gelwir Canaan yn etifeddiaeth dragygywyddol. Gen. 17. 8. Gelwir hwynt felly yn neillduol, am eu bod yn cysgodi pethau tragywyddol.—— Pridodolir tragywyddoldeb i'r bryniau, o herwydd eu hynafiaeth, eu cadernid, a'u hir barhad. Gen. 49. 26. Deut. 33. 15.——Yn yr ystyr cyfyng hwn y gelwir teyrnas Dafydd, yn deyrnas *byth,* sef o hir barhad; oddieithr i ni ei golygu yn parhau byth yn nheyrnas ysbrydol y Messïah, hâd Dafydd. 1 Cron. 17. 14. 2 Sam. 7. 16.——Weithiau, arwydda, peth heb ddechreu na diwedd, yn enwedig heb ddiwedd; felly y priodolir ef i angelion, eneidiau dynion, dedwyddwch y cyfiawn, a thrueni yr annuwiol—er bod dechreu iddynt, ni bydd byth ddiwedd. 2 Cor. 4. 17. Mat. 19. 16. a 25. 41.—Mae y farn yn dragywyddol, am y bydd cyflyrau angelion a dynion yn cael eu sefydlu yn ddigyfnewid byth. Hebreaid 6. 2. Efengyl dragywyddol y gelwir yr efengyl, am ei phregethu o'r cwymp yn Eden hyd ddiwedd amser, a bod ei holl freintiau a'i bendithion yn ddiddarfod. Dat. 14. 6.

Digitized by Google

Edr. Efengyl.——Felly mae y cyfammod, a Christ yn ei swyddau cyfryngol, yn dragywyddol, sef yn ddigyfnewid ac yn ddiddarfod. Heb. 5. 9. a 7. 25. 9. 12. a 13. 20. Edr. Cyfammod, Offeiriad, &c.

Bod tragywyddol ydyw Duw, y mae heb ddechreu, olynol ddilyniad, na diwedd. Y mae hyn yn tarddu oddiwrth ei hunan-hanfodiad; canys y bod sydd yn hunan-hanfodol, nis dichon oddef un pwnc tybygadwy o amser pan nad ydyw yn un digyfnewid; ond dull parhad y bod dwyfol nis gallwn ei amgyffred, na pha fodd y cyd-hanfoda âg amser, na pha fodd y mae anfeidroledd yn cyd-hanfodi â lleoedd neillduol. Nid yn unig y mae heb ddechreu ac heb ddiwedd, ond nid oes olynol ddilyniad ynddo; un pwnc sefydlog gwastadol ydyw parhad ei hanfod. Y mae yn berffaith feddiannol ar unwaith yn gwbl o fywyd annherfynedig. Nid ydyw efe yn dywedyd am dano ei hun, Myfi oedd y dechreu, ac a fyddaf y diwedd; Myfi oedd Alpha, ac a fyddaf Omega; ond Myfi *yw:* nid ydyw *bum* a *byddaf* yn perthyn iddo; priodolir *sydd, oedd,* ac *sydd i ddyfod,* iddo, o'n rhan ni, a'r cyflawniad yn olynol o'i fwriadau a'i weithredoedd. Dat. 1. 8. Ond *Myfi yw* (εγω ειμι). Ydwyf sydd briodol i Dduw o ran ei hanfod.* Edr. Dihenydd, Iehofah, Ydwyf.

1. Byddai yn ddibynol, pe bai heb fod yn dragywyddol; am hyny ni byddai yn Dduw.——2. Pe byddai olynol ddilyniad ynddo, byddai rhanau ynddo; a phe byddai rhanau ynddo, gallai fod diwedd iddo; ac felly ni byddai yn Dduw.——3. Pe buasai dechreuad iddo, rhaid fod rhyw un o'i flaen, ac am hyny yn *well* nag ef i roddi bôd iddo; am hyny nis gallasai fod y mwyaf perffaith, a'r goruchaf; sef ydyw hyny, nis gallasai fod yn Dduw.——4. Rhydd ddechreuad i bob peth arall, am hyny rhaid ei fod yn ddiddechreu ei hun, sef yn dragywyddol.

1. Tystiolaetha yr ysgrythyrau fod Duw yn dragywyddol. Gen. 21. 23. Psalm 90. 5. Esa. 40. 28. a 57. 15. Dan. 6. 26. Rhuf. 16. 26.——2. Gwadir iddo ef amser, ac olynol ddilyniad. Job 36. 26. Ps. 90. 2. Esa. 43. 10. 2 Petr 3. 8.——3. Priodolir iddo ef briodoliaethau a gweithrediadau tragywyddol; megys gallu, cariad, trugaredd, &c. Rhuf. 1. 20. Jer. 31. 5. Psalm 103. 17. a 136. *possim.*—Cynghor tragywyddol, Psalm 33. 11.——Teyrnas dragywyddol, Exod. 15. 18.—Gogoniant tragywyddol, 1 Petr 5. 10. —Llywodraeth dragywyddol, Dan. 7. 9, 22.—Ei flynyddoedd ni ddarfyddant. Psalm 102. 24, &c.

Gwel, 1. Fawredd Duw, yn preswylio ac yn llenwi tragywyddoldeb. Rhydd yr ystyriaeth hwn feddwl ëang am dano, a thra anamgyffredadwy byth i ni.——2. Gwaeledd a diddymdra pob creadur. Job 14. 21. a 25. 6. Esa. 40. 6. Iago 4. 14. Psalm 102. 3.——3. Anfeidrol ddedwyddwch y rhai y mae Duw yn Dduw iddynt. Eu Tad, eu Cyfaill, eu Duw, ydyw un sydd yn dragywyddol. Ps. 48. 13, 14. Esa. 46. 4. Hab. 1. 12. a 3. 18.——4. Trueni diamgyffred y rhai y mae y Duw hwn yn ddigllawn wrthynt: a mawr ddrwg pechod yn haeddu cospedigaeth o dragywyddol barhad. Jer. 10. 10. Heb. 10. 31. Mat. 25. 46. ——5. Bydded i ni ei wasanaethu fel Bod tragywyddol, y mae efe yn byw byth i wobrwyo ei bobl, am beth bynag a wnelont, neu a oddefont drosto yn y byd hwn.——6. Gweddai ein bod yn gweddïo, yn byw, yn siarad, ac yn gweithredu pob peth â thragywyddoldeb yn ein golwg.

* Y mae tri gwahaniaeth amser yn cael ei briodoli i Dduw, (Dat. 1. 4.) nid yn ffurfiol ond yn arbenigol. Y mae tragywyddoldeb Duw yn cael ei ddesgrifio fel hyn, nid fel pe dywedid am dano yn olynol, ond yn anrhanadwy, oblegid y mae tragywyddoldeb Duw yn cynnwys pob amserau. Sonir am y gorphenol, ond heb nacàu y presennol a'r dyfodol, a chrybwyllir am y presennol, ond heb nacàu y gorphenol a'r dyfodol. Turret. *Inst. Theol., tom.* i. 212.

TRAHA—US, (tra-ha) trawsder, balchder, gorhydri, amryfoldeb, tra balch, rhodresus, rhyfygus, cymyreddus; diystyrllyd o eraill.—Arwydda creulondeb: 'Y traha a wnelsid â deng mab a thriugain Jerubbaal.' Barn. 9. 24. Psalm 7. 16. Esa. 16. 6. Joel 3. 19. Obad. 10. Cyfieithir yr un gair *Heb.* חמס *trawsedd,* Gen. 6. 11. Ps. 11. 5. a 25. 19.—*cam,* Jer. 51. 35. Gen. 16. 5.

'Yn drahaus.' Rhuf. 1. 30. 1 Tim. 1. 3. 'Yn anghyfarchwyr.' W. S. Y gair *Groeg,* υβριστης, a arwydda diystyrwch anmharchus o arall, diystyrwch trawa-falch o eraill ar air neu weithred. Y gwrthbechod i'r gras o wylder, addfwynder, a chymhesurwch. Schleusner.

TRAI, TREIO, (tra) lleihad, môr-drai, ertrai; lleihau; distylltrai.—'A'r dyfroedd fuant yn myned ac yn treio, hyd y degfed mis.' Gen. 8. 5. *Hebraeg* חסר *lleihau.*—'Ysgafnau.' Dr M.

TRAIAN. Edr. Trian.

TRAIS, TREISIAU, (tra is) gorthrech, gorthrymiad, gormes, dirdrais, gorddwys, gormail; cribddail. —Gorchymynir talu yn ei ol yr hyn a feddiannodd dyn mewn un ffordd trwy drais, a'r bummed ran ato. Lefiticus 6. 4, 5, 6.——'Ac yn nesâu eisteddle trais.' Amos 6. 3. Sef yn edrych yn mlaen gyda hyfrydwch ar farn anghyfiawn, orthrymllyd, ac yn prysuro y dydd yn eu meddwl. Secker.

TRALLOD—ION, (llod) helbul, heldrin, blinfyd, blinedd, cystudd, aflonyddwch, trafferth; gofidio, blino, peri helbul. Edrych Blinder, Cyfyngder, Cystudd, Ing.—'Galw arnaf fi yn nydd trallod; mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi.' Ps. 50. 15. Dydd trallod, ydyw dydd o gyfyngder a phrofedigaeth tufewnol, neu allanol; o achos corph, neu achos enaid; y mae drws agored yn y geiriau yn y cyfryw amser anghysurus i fyned at Dduw trugarog a hollalluog, gyd âg addewid sicr y byddai iddo wrando, ac effeithio gwaredigaeth.

'Noddfa yn amser trallod.' Psalm 9. 9. Y mae Duw yn gwaredu, mewn ystyriaeth, pan na byddo y brofedigaeth wedi ei symud, trwy gynnal y meddwl dani, a'i attal rhag cael ei orchfygu gan y trallod, a'i yru ganddi i ryfyg, neu anobaith; gwaredigaeth ydyw cael grym i bara yn y rhyfel, a phara i alw ar Dduw am help, gyda gradd o obaith hyderus arno, a dysgwyliad wrtho yn barhaus. Yr oedd Job yn waredigol pan yr oedd dan y curfeydd a'r trallodion mwyaf; canys yr ydoedd yn para i obeithio yn yr Arglwydd. Job 13. 15. Felly yr oedd Paul yn ymffrostio yn ei wendid. 2 Cor. 12. 9. Y mae galw felly ar yr Arglwydd mewn ffydd, yn aberth cymeradwy gan yr Arglwydd, ac yr ydym yn hyny yn ei ogoneddu.

Trallodwyr eglwys Dduw, ydyw gau athrawon yn mhob oes, y rhai a ddygant farnedigaeth, pwy bynag fyddont. Gal. 1. 7. a 5. 10. Y mae eu hegwyddorion a'u hysbryd yn gynhyrfus, yn peri ymrysonau ac anghydfodau blin a thrallodedig i ysbryd pob gwir Gristion sydd am rodio yn dangnefeddus yn nghymdeithas Duw.

TRAMGWYDD—O—EDIG—IADAU, (tramcwydd) cwymp, llithriad, ysglent, codwm; rhwystro, argawdd; un peth a fyddo ar y ffordd yn peri i ddyn i rwystro neu syrthio.——Gwahardda Moses i roddi 'tramgwydd o flaen y dall;' sef na chareg, na phren, &c., neu un peth i beri iddo dramgwyddo, a syrthio. Edr. Rhwystr.

Arferir y gair *tramgwydd* mewn ystyr gweithredol a dyoddefol: sef Yn *weithredol,* pan y rhoddom dramgwydd ar ffordd arall trwy eiriau, neu weithredoedd. Jos. 23. 13. Rhuf. 14. 13. 1 Cor. 10. 32. ——2. Yn *ddyoddefol,* pan y cymerom dramgwydd

Digitized by Google

oddiwrth eiriau neu weithredoedd eraill. Ps. 119. 165. Diar. 3. 23.

'Bydded eu bwrdd yn fagl ger eu bron, a'u llwyddfant yn dramgwydd.' Ps. 69. 22.—'Bydded eu bord hwy yn rhwyd, ac yn fagl, ac yn dramgwydd, ac yn daledigaeth iddynt.' Rhuf. 11. 9. Act. 1. 20.—'*And that which should have been for their welfare, let it become a trap.*' *Saes.* Geiriau Crist ydyw y rhai hyn, yn prophwydo am wrthodiad a dinystr yr Iuddewon, am eu creulondeb tu ag ato. Wrth eu bwrdd, y meddylir, tebygol, eu haberthau a'u defodau crefyddol, y rhai a drefnwyd er daioni i'w heneidiau; ond yn dibynu ar y rhai hyny, a'u maglu gan eu cynghorion eu hunain, parhausant yn eu gelyniaeth yn erbyn Crist, a'u gwrthwynebiad i'r Rhufeiniaid. Gwedi eu cauad i fynu yn Jerusalem, pan yr ymgasglasant yno i fwyta y pasg, bu 'eu bwrdd yn fagl iddynt;' bu eu holl gynghorion yn dramgwydd yn lle llesâd iddynt; ac o'r diwedd y Rhufeiniaid a oresgynasant eu dinas hwynt â lladdfa fawr, ac a losgasant y deml. Gelwir yr allor 'bwrdd yr Arglwydd.' Mal. 1. 10, 12. Ond wedi i'r Arglwydd wrthod yr addoliad Iuddewig, wedi dyfod sylwedd mawr yr holl gysgodau, eu bwrdd *hwy* ydoedd. Yr un modd yr hyn a eilw yr ysgrythyrau, 'tŷ Dduw,' a eilw Crist '*eich* tŷ.' Mat. 23. 28. Yr oedd wedi ei adael a'i wrthod dros byth. Y pethau ag oeddynt er eu llwyddiant a'u (לשלמים) heddwch, y rhai hyny a fuont er tramgwydd a dinystr iddynt, trwy gyfiawn farn Duw arnynt, am iddynt wrthod ei gynghor, ei Grist, a'i efengyl.——Y mae llwyddiant annuwiolion yn aml yn dramgwydd ac yn ddinystr tragywyddol iddynt.

TRAMWY—O, (tram) cynniwair, cynnired, mynych gyrchu, dygyrchu, mynych gerdded.—Y mae Satan yn dywedyd am dano ei hun, ei fod yn 'tramwy ar hyd y ddaear.' Job 1. 7. Er ei fod, medd Caryl, mewn dwy gadwyn; sef cadwyn farnedigaethol Duw, dan ei ddigofaint; ac mewn cadwyn ragluniaethol Duw, a than olygiad Duw; etto y mae gradd o ryddid iddo yn bresennol. Ond pan elo allan, carcharor ydyw mewn cadwynau. Y mae y geiriau yn arwyddo, 1. Ei anesmwythder parhaus. Fel Cain, mae yn grwydryn diorphwys. Wedi ei fwrw o'r nefoedd, ni chafodd le i orphwys byth.——2. Y sylw manwl a wna ar bob peth yma isod.——3. Nad oes un man o'r ddaear a ddichon ein diogelu rhag ei demtasiynau a'i ystrywiau.——4. Bod Satan yn ddiwyd iawn yn cyflawni drygioni.——5. Fod ei ryddid gwedi ei gyfyngu i'r ddaear yn unig. Ni ddaw yr un sarph i'r nefoedd, fel y daeth i'r baradwys yn Eden.

TRANC—EDIGAETH, (tra-anc) diwedd, marwolaeth, dystryw. Ps. 88. 35. Ezec. 11. 13. Hos. 13. 14.

TRANOETH, (noeth) y fory, y dydd sydd yn dyfod. —'Na ofelwch dros dranoeth.' Mat. 6. 34. Hwyrach na welwn ni dranoeth byth, ac os daw, bydd yr un Duw yn gofalu am bethau dranoeth a heddyw. Y mae heddyw â digon o ddrygau, o ofidiau, a blinderau i ni fyned trwyddynt; am hyny gorchymyn yr Arglwydd i ni yn rasol i adael dranoeth yn ngofal Duw. Am bethau ysbrydol a thymhorol, gorchymynir i ni fwrw ein holl ofal ar yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gofalu drosom. Exod. 16. 18, 19, 20. Galar. 3. 23. Deut. 33. 25. 1 Bren. 17. 4—16. 2 Bren. 7. 1.

TRAS—AU, (tra-as) cystlwm, cystlynedd, perthynas, carenydd, cyfathrach.

Ni phery dyn o gnawdol *dras*,
Mewn urddas, er ei adail.
*E. Prys*, (Ps. 49. 12.)

TRAUL, TREULIO—ION, (tra-ul) côst, difrodiad, darfodiad, gwisgo, difa, aros dalm o amser. Traul daint ac ystlys, sef ymborth a dillad; traul yr haul, sef cylch yr haul.

5 R

'Treulio ac ymdreulio,' yw rhoddi ei amser, ei feddiannau, a'i nerth, yn gwbl at ryw orchwyl, fel y darfu Paul yn achos yr efengyl, gyda phob parodrwydd ac awyddfryd meddwl. 2 Cor. 12. 15.

Treuliodd Crist ei nerth yn ngwaith ein hiechydwriaeth, ac nid yn ofer ac am ddim; canys 'efe a wêl ei hâd, efe a estyn ei ddyddiau; ac ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law ef.' Esa. 49. 4. a 53. 10.

Fel yr afradlon, treulia pawb, ond saint Duw, y cwbl; bydd eisieu arnynt yn y diwedd, ond ar y saint ni bydd eisieu dim daioni. Luc 15. 14.

TRAWS—DER—EDD, (tra) y tu hwnt, yr hyn sy groes; gorthrech, gorthrymiad, trais, gormail, cam, camwedd, anwiredd.—'Llanwasid y ddaear hefyd â thrawsedd.' Gen. 6. 11. Y gair *Heb.* חמס a gyfieithir yma, a manau eraill yn aml, *trawsedd*, *trawsder*, ac weithiau *cam*, (Gen. 16. 6.) a arwydda pob math o anghyfiawnder, gormes, cam, anwiredd, &c. Llawn ydyw y ddaear o drigfanau lle y triga dynion trawsion, yn gwneuthur trawsder. Ps. 74. 20. Ond gwared Duw eneidiau ei bobl oddiwrth dwyll pechod a thrawsder dynion, a rhag gwneuthur trawsder eu hunain. Ps. 72. 14.——Nid oes 'dim gwyrni na thrawsder' yn ngeiriau Duw; ond uniawn yw pob peth sydd yn dyfod oddi wrtho, fel efe ei hun. Diar. 8. 8.—— 'Elw trawsder,' ydyw elw a ennillir trwy drawsder a cham; yr hyn a wrthyd pob dyn yn ofni Duw. Esa. 33. 15.——Yr oedd y Phariseaid, er eu holl rith grefydd, yn llawn trawsedd ac anghymedroldeb; am hyny, cyhoedda yr Iesu hwynt, a phawb o'u cyffelyb, dan waeau Duw. Mat. 23. 15.

TRAWSWYRO, (traws-gwyro).—'Trawswyro barn a chyfiawnder,' ydyw rhoddi barn dueddol, bleidgar, ac anghyfiawn; gwyro barn allan o'i huniawn lwybr, er mwyn elw, neu dueddrwydd pleidgar, yr hyn sydd bechod dirfawr. Ond y mae Un cyfiawn yn gwylied, yr hwn sydd uwch na'r uchaf o'r trawsfarnwyr hyn. Preg. 5. 8.

TRAWST—IAU, (traws) cebr, ceibren, cledren, tylath, dist.—'Y trawst yn dy lygad dy hun.' Mat. 7. 3, 4. Sef pechodau mawrion. Un yn euog o bechodau mawrion ei hun, ac yn lle edrych ar y rhai hyny, edifarhau o'u plegid, ac ymofyn am drugaredd a gras yn gymhorth iddo, sydd yn edrych ar fân lithriadau ei frawd, i feio arno, a'i euog-farnu o'u plegid. Nid rhagrithiwr ydyw hwn: canys pe byddai ei eiddigedd yn erbyn pechod, byddai ei bechod ei hun yn flaenaf yn ei olwg, i ddiwygio hwnw yn gyntaf; yna byddai yn fwy addas i ddiwygio eraill—gwelai yn fwy amlwg, a byddai ei ymdrechiadau yn fwy llwyddiannus. Tebygol yr arwydda y geiriau yr amrywiol afiechyd y mae y llygad yn ddarostyngedig iddynt; nad oedd y cyntaf ddim mwy i'w gymharu i'r llall, mwy nag ydyw y brycheuyn i drawst. Gwel Doddridge.

TRECH—AF, (trech) arferir y gair hwn, y rhan amlaf, yn lle trechach, cadarnach, cryfach, gwrolach, pybyrach.

*Trech* gwlad nac arglwydd,
*Trech* glew na gwlad. *Diar.*

Yn ei anfeidrol drugarogrwydd gwared yr Arglwydd ei bobl dlodion, weiniaid, rhag y diafol a'i holl offerynau, y rhai sydd drech na hwynt, ond nid trech na'u Harglwydd. Ps. 35. 10. a 142. 6.

TREF—YDD, (tre) *Heb.* תר (*ter*) *palas*, neu *gastell*; *Gwydd.* AITREAF: trigfa, preswylfod; cantref, pentref, dinas. Esa. 14. 4. a 26. 5. Hab. 2. 12. Luc 9. 6. Ioan 11. 1. Edrych BABILON, BETHANIA, DINAS, JERUSALEM.

Nid *tref* ond nef. *Diar.*

Ystyr blaenorol y gair *tref*, yw cartref, trefad, trefred, trefiant; felly yr arwyddir pan ofynir, Pwy sydd

Digitized by Google

yn nhref?—A ydyw y gwr yn nhref? Oddiwrth hyn y ffurfir enwau amryw leoedd; megys Tredegar, Trebariad, Tref Ithel, Tref Ana, Trefa* (*Hamburgh*). Y mae *Tre* yn dra arferedig yn Nghernyw (*Cornwall*).

TREFN—U—US, (tref) *Heb.* תור (*tor*) gosodiad, dull; hwylio, rheoli; hwylus, rheolaidd, gweddaidd.

Hawdd dafar o *drefn*. *Diar.*

Y mae iawn drefn ar bob peth yn llawer o harddwch, cadernid, a hwylusdod. Dangosodd Solomon ei fawr ddoethineb, yn un ffordd, yn nhrefn ei weinidogion. 1 Bren. 10. 5, &c. Pa faint mwy rhyfedd yw trefn teyrnas Crist, yr hwn sydd yn eistedd ar 'orseddfa Dafydd, a'i freniniaeth (sef ei eglwys) i'w threfnu hi?' Esa. 9. 7. Gwna farn a chyfiawnder yn drefnus ac yn hardd, a chadarnha y llywodraeth drefnus hon hyd byth.

'Eithr pob un yn ei drefn ei hun: y blaen-ffrwyth yw Crist, gwedi hyny y rhai ydynt eiddo Crist, yn ei ddyfodiad ef.' 1 Cor. 15. 23. Τω ιδιῳ ταγματι, *pob un yn ei fintai*, neu *ei fyddin ei hun*. Arwydda y gair *Gr.* *ταγμα*, mintai, neu fyddin drefnus o filwyr. Gesyd yr apostol allan drefn yr adgyfodiad. Cyfyd y cyfiawnion wrthynt eu hunain; felly hefyd yr anghyfiawnion; bydd pob un yn ei fyddin ei hun. Crist y blaen-ffrwyth sydd gwedi cyfodi; cyfyd ei bobl yn ei ddyfodiad, cyn y newidir ei saint ar y ddaear. 'Ni bydd i ni,' medd yr apostol, 'y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd, ragflaenu y rhai a hunasant.' 1 Thes. 4. 15. Tebygol na newidir hwynt nes ar ol cyfodiad y cyfiawnion: ond newidir hwynt *cyn* adgyfodiad yr anghyfiawnion 'i warth a dirmyg tragywyddol.' Bydd pob un yn ei fyddin ei hun y diwrnod hwnw, heb ddim cymysgedd; ac felly i bara byth.

'Canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynediad,' &c. 2 Petr 1. 11. Edr. HELAETH.

TREFTAD—AETH, (tref-tad) etifeddiaeth. 1 Bren. 21. 3. Edr. NABOTH.—'Nid fal rrai a fynnom vod yn arglwyddi ar tretad Dyw.' W. S. 1 Petr 5. 3.

TREIDDIO—IAD, (trai) myned trwy, trywanu; chwilio, amgyffred, dirnad.—'Trwy Judah y treiddia efe.' Esa. 8. 8.—'*He shall pass through Judah.*' *Saes.* Sef brenin Assyria a ddylifa dros, ac a oresgyn yr holl wlad.

TREMIO, (trem) edrych, sylwi.—'Maent yn tremio ac yn edrych arnaf.' Ps. 22. 17. Yr oedd ei gorph yn deneu; ac wedi ei estyn a'i ddirdynu ar y groes, yr oedd ei esgyrn yn hawdd i'w gweled. Crist sydd yn llefaru y geiriau.

TREMYG—U, (tram) diystyrwch, anmharch, dirmygu, difrio. 2 Cron. 36. 16. Esther 1. 17. Rhuf. 14. 3. W. S. Edr. DIRMYG.

TRENGU, (tranc) darfod, marw, rhoddi i fynu yr ysbryd. Job 14. 10. a 36. 12. Ps. 104. 29. Act. 5. 5.

TRESTL—AU, (trest) atteg bwrdd; byrddyn tri throed.—'Ac a ymchwelodd drestlau yr arianwyr.' Marc 11. 15.—'Ac a ddymchwelawdd i lawr vyrddae yr ariam-newidwyr.' W. S. Yr ydoedd y byrddau hyn yn nghyntedd allanol y deml, ac nid yn y deml ei hun, i'r dyben i newid arian mawr am rai llai, yn ol achosion y bobl ag oedd yn dyfod o bob parth o'r wlad i Jerusalem, er eu cyfleusdra. Nis gallasai yr Iesu ei hun fyned i'r deml, am nad oedd o deulu Aaron.—Y gair Groeg a arferir yma, yw *τα ιερον*, ac nid *ναος*: y diweddaf a arwydda yn briodol *y tŷ*, yn cynnwys y porth, y lle sanctaidd, a'r sancteiddiolaf. Ond mae y cyntaf yn arwyddo yr holl gynteddoedd. Yn y cyntedd nesaf allan, sef cyntedd y cenedloedd, yr ydoedd y cyfryw fasnachaeth yn cael ei dwyn yn mlaen, ag ydoedd yn anaddas i'r lle sanctaidd, ac yn ei halogi; a thebygol bod llawer o dwyll ac anghyfiawnder yn y cyfryw fasnachaeth; ac am hyny gyrodd yr Arglwydd hwynt allan: am eu bod, tebygol, yn gohirio, ac yn oedi myned, dymchwelodd y trestlau, neu y byrddau. Yr awdurdod a'r gallu ag oedd yn cydfyned â'i air a'i weithredoedd, a orchfygasant bob meddwl, ac a attaliodd bob gwrthwynebiad iddo. Pan ddelo Crist i helaethu ei deyrnas yn y byd, dechreu yn gyntaf a phuro yr eglwys o'r masnachwyr ariangar sydd ynddi. Mae y cyntedd nesaf allan yn llawn o'r cyfryw. Nid oes dim yn perthyn i'r addoliad sanctaidd, o fri nac o werth gan y cyfryw, ond fel y dygo elw ac anrhydedd iddynt hwy. Y mae llawer o bethau yn cael eu dwyn yn mlaen dan fantell o grefydd mwy addas i ogof lladron nac i dŷ gweddi. Yn fuan prysured yr Arglwydd i yru y cyfryw fasnachwyr mewn pethau sanctaidd allan o'i deml! Zech. 14. 21.

TRETH—I—U, (tre-eth) teyrnged.—'Bu hefyd yn y dyddiau hyny fyned gorchymyn allan oddiwrth Augustus Cesar i drethu yr holl fyd.' Luc 2. 2. *Gr.* *Απογραφεσθαι*, *orgraffu*, *cofrestru*. Defod Rufeinaidd ydoedd, bob pum mlynedd, i gofrestru enw pob un, ei oedran, ei swydd, ei feddiannau, a'i urddas.* Yr ydoedd swyddwyr gosodedig i'r gorchwyl hwn, y rhai a alwent *censors*. Nid mor addas cyfieithiad yw y gair *trethu*. Er mai yn gyffredin i'r dyben i drethu yr oeddynt hwy yn cofrestru, ond nid bob amser, nac yn angenrheidiol felly. Yn yr achos presennol, tebygol, nad oedd golygiad neillduol at drethu, o'r hyn lleiaf mewn perthynas i Judea. Yr oedd Herod Fawr yn fyw, ac yn frenin ar y wlad y pryd hwnw; er ei fod ef mewn is osodedigaeth, ac yn dal y goron dan y Rhufeiniaid; etto gan eu bod hwy yn caniatau urddas breninol iddo, annhebyg y buasent nac yn ei fywyd na chyn alltudiaeth ei fab Archelaus, yn trethu gwlad Judea yn union-gyrchol trwy eu swyddwyr neillduol eu hunain. Y mae Josephus yn tystiolaethu na ddarfu iddynt drethu gwlad Judea cyn alltudiad Archelaus, pan yr unwyd y wlad hòno â Syria, a thrwy hyny ddyfod yn dalaeth Rufeinaidd. Yr oedd cofrestru y gwledydd dibynol ar ymerodraeth Rhufain, yn ateb dybenion pwysfawr, heblaw eu trethu; trwy hyny yr oeddynt hwy yn gallu barnu pa swm i ddysgwyl oddiwrth y tywysogion dibynol arnynt, a pha nifer o filwyr a allent godi pe buasai rhyfel yn achosi hyny. Yr oedd y cofrestr gwedi ei wneuthur unwaith, yn ddefnyddiol i bob dyben angenrheidiol wedi hyny; megys i drethu, i ofyn llw o ffyddlondeb, ac i godi milwyr. Er iddynt hwy gofrestru yr amser hwn, ni chodwyd y dreth nes yn mhen deng mlynedd wedi hyn, pan yr oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria; yr hyn nid oedd efe yr amser hwn. Y pryd hwn y gwnawd yr orgraffiad, ac yn amser Cyrenius y codwyd y dreth gyntaf, pan yr oedd gwlad Judea wedi ei huno â Syria, ac yn dalaeth Rufeinaidd. Yr wyf yma yn dilyn Campbell, ond gwel Hammond, Prideaux, Lardner, a Beza, ar yr adnod ddyrys hon. Yr ydoedd y gorchymyn am y cofrestriad hwn wedi cael ei roddi dair blynedd cyn genedigaeth Crist—buont cyhyd o amser yn myned trwy Syria, Cœle-Syria, Phenicia, a Judea, cyn dyfod i Bethlehem. Rhyfedd fanylrwydd dirgelaidd Rhagluniaeth yn goruwch-lywodraethu pob dygwyddiad i gyflawni y brophwydoliaeth am enedigaeth Crist yn Bethlehem, a Mair mam yr Iesu yn byw yn Nazareth, 60 neu 70 o filltiroedd oddi yno! Y mae yr Arglwydd yn rhagweled, yn goddef, ac yn goruwch-lywodraethu meddyliau, cynghorion, a phenderfyniadau rhydd-ewyllyswyr i gyflawni ei amcanion doeth: cyflawna ei brophwydoliaethau, a chadarnha ei wirionedd, trwy

* טיר *tir*, *tref*, dinas, palas. Oddi yma meddylir fod yr enw Troia yn tarddu; ac hefyd Tyrus. *Heb.* צור *tsur*, y rhai a ffurfir o'r enw cyffredin צור *tsur*. Dr Davies.

* Gwel Flor., *lib.* i. *c.* 6. Cicero *De Leg.*, *lib.* iii. *c.* 6.

Digitized by Google

hyd yn nod ddynion drwg, a thrwy ddygwyddiadau yn ymddangos yn ddamweiniol. Mae yn amlwg fod y deyrn-wialen *yn ymadael*, o'r hyn lleiaf, pan aned yr Iesu, yn ol prophwydoliaeth Jacob. Edr. HEROD, JUDAS, SILOH, TEYRNGED, TEYRN-WIALEN.

**TRETHWR—WYR**, (treth) casglydd treth. Esa. 60. 17.

**TREUL—GAR**, (traul) afradlon, gwastraffus. Diar. 18. 9.

**TRI—OEDD**, (ty-rhi) *Gr.* τρεις; *Llad.* TRES; *Gwydd.* TRI, TRERORA; *Saes.* THREE: dau ac un.

Tri dyn y sydd: dyn i Dduw, a wna dda dros ddrwg: dyn i ddyn, a wna dda dros dda, a drwg dros ddrwg: a dyn i ddiawl, a wna ddrwg dros dda.—Tri chadernyd hanfod: nis gellir amgen, nid rhaid amgen, ac nis gellir gwell; ac yn hyn y diwedd pob peth. *Barddas.*

'Tridiau.' Mat. 27. 63. Dat. 11. 9. Edr. ADGYFODIAD, TYST.—'Tri chan ceiniog.' Marc 14. 5. Edr. JUDAS, MAIR.—'Triugain.' Edr. BRENINESAU, CEDYRN.

Mae y rhifedi *saith*, medd Ainsworth o ddefnydd neillduol yn yr ysgrythyrau, o herwydd y Sabboth. Gen. 2. 2. Felly y mae *tri* yn rhifedi cyfriniol, o herwydd adgyfodiad Crist y *trydydd* dydd; (Mat. 17. 23. 1 Cor. 15. 4.) fel y croeshoeliwyd ef y drydedd awr yn y prydnawn. Marc 15. 25. Y trydydd dydd yr oedd Isaac i gael ei offrymu; felly y trydydd dydd yr oedd Crist i gael ei berffeithio. Luc 13. 32. Dymunodd Moses gael myned daith tridiau i'r anialwch i aberthu i'r Arglwydd. Exod. 5. 3. Teithiasant dri diwrnod ynddo cyn cael dwfr. Exod. 15. 22. Taith tri diwrnod yr aeth arch y cyfammod o'u blaen i chwilio am orphwysfa iddynt. Num. 10. 33. Yn mhen tri diwrnod yr oedd y bobl i fod yn barod i dderbyn y gyfraith. Exod. 19. 11. Ar ol tri diwrnod yr oeddynt i fyned tros yr Iorddonen i Ganaan. Jos. 1. 11. Ar y trydydd dydd yr ymwisgodd Esther â breninol wisgoedd. Esth. 5. 1. Y trydydd dydd wedi ei iachâu, yr aeth Hezeciah i fynu i dŷ yr Arglwydd. 2 Bren. 20. 5. Ar y trydydd, yn gystal ag ar y seithfed dydd, yr oedd yr aflan i ymlanhau. Num. 19. 12. Ar y trydydd dydd, dywed y prophwyd, y bydd i'r Arglwydd ein cyfodi ni i fynu. Hos. 6. 2. Hyn, yn nghyd âg amryw o bethau neillduol, y dywedir yn yr ysgrythyrau am y trydydd dydd, ac nid heb ystyr cyfriniol yn perthyn iddynt. Gwel Gen. 40. 12, 13. a 42. 17, 18. Ioan 1. 17. Jos. 2. 16.

'Oblegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân; a'r tri hyn un ydynt.' 1 Ioan 5. 7. Sylw. 1. Fod un hanfod dwyfol heb ddechreu na diwedd iddo, yn anddibynol, yn dragywyddol, yn anfarwol, ac yn anghyfnewidiol, a phob perffeithrwydd a rhagoroldeb yn hanfodol ynddo, ac o hono ei hun. Un Arglwydd, neu IEHOFAH, yw, yn fywyd pur, hanfodol, ynddo ac o hono ei hun; yn oleuni heb ddim tywyllwch; yn berffeithrwydd cyflawn heb ddim yn eisieu, na dim yn ormodol ynddo; a phob peth ynddo yn anfeidrol, yn ddiderfyn, ac yn hanfodol, ac am hyny yn ddigyfnewid. 'O hono ef, ac iddo ef, a thrwyddo ef y mae pob peth.' Rhuf. 11. 36. Achos dechreuol pob creadur yw, ac ynddo ef y maent yn byw, yn symud, ac yn bod. Deut. 6. 4. 2 Bren. 19. 15. Ps. 18. 31. Esa. 44. 8. 1 Cor. 8. 6. Eph. 4. 6. 1 Tim. 2. 5. Iago 2. 19.

2. Y mae yn yr hanfod dwyfol lïosogrwydd, sef mwy nag un person. Llefara Duw am dano ei hun yn y rhif llïosog. Gen. 1. 26. a 3. 22. a 11. 7. Esa. 6. 8. Llefara yr Arglwydd am yr Arglwydd fel yn wahanedig oddiwrth eu gilydd. Gen. 19. 24. Ps. 45. 7. Cymh. Heb. 1. 8. Ps. 110. 1, 2, 3. Cymh. Mat. 22. 43, 44. Dan. 9. 17. Hos. 1. 7. Diar. 30. 4.

3. Tri Pherson ydynt, nid llai, ac nid mwy. Nid tri Duw, nid tri enw, nid tri phriodoledd neu rinweddau, ond Tri Pherson gwahanol yn yr un hanfod tragywyddol. Nid rhanau ydynt o'r hanfod; nid oes ranau yn Nuw; ond Personau yn yr hanfod, a'r holl hanfod yn sylweddol yn perthyn i bob un o honynt. Mae y Drindod yn yr Undod, a'r Undod yn y Drindod, i'w golygu ac i'w haddoli trwy ffydd. Nid yw y Personau i gael eu cymysgu, na'r sylwedd i gael ei wahanu. Ps. 33. 6. Esa. 61. 1. Cymh. adn. 8. Esa. 63. 2, 10. Hag. 2. 5, 6. Mat. 3. 16, 17. Ioan 14. 16. a 15. 26. 1 Cor. 12. 4, 5, 6. Edr. DUW.

4. Fod y Tri hyn yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Mat. 28. 19. Rhuf. 1. 4. 2 Cor. 13. 13. Nid enwau o swyddau ydynt, ond yn hanfodol berthynol iddynt pe buasai heb un swydd i fod. Y mae y Tad yn Dad i'r Mab, a'r Mab yn Fab i'r Tad, a'r Ysbryd Glân yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab yn yr hanfod dwyfol, mewn dull angenrheidiol o fod. Edr. TAD, MAB, YSBRYD.——Wrth synied am y dirgelwch mawr hwn, y mae dau gyfeiliornad, un ar bob llaw, i'w gochelyd yn ofalus. Un yw cyfeiliornad Sabelius, a'i ganlynwyr Praxeas a Hermogenes. Aiphtwr o genedl oedd Sabelius, yn byw yn y drydedd ganrif, ac a gyhoeddodd ei gyfeiliornadau yn nghylch A. D. 260. Ei farn ydoedd, nad oedd Tri o Bersonau gwahanol, ond un Person yn y Duwdod, a bod y Person hwn yn cael ei alw yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, ar amryw gyfrifon. O herwydd amrywiol swyddau a gweithrediadau y gelwir ef weithiau y Tad, weithiau y Mab, a phryd arall yr Ysbryd Glân.—Cyfeiliornad Philoponus, a Valentinus yr ochr arall, sydd yn dal Tri Ysbryd tragywyddol, ac anghydradd, ac o wahanol hanfod: hyny yw, Tri Duw. Yn groes i'r ddau gyfeiliornad hyn, yr union-gred a farnant fod Trindod o Bersonau gwahanol yn yr hanfod dwyfol, yn effeithio gwahanol weithrediadau; fel mai arall yw y Tad, ac arall yw y Mab, ac arall yw yr Ysbryd Glân; nid y Tad yw y Mab, ac nid y Mab yw y Tad; ac nid y Tad na'r Mab yw yr Ysbryd Glân. Etto, barnant mai un hanfod sydd iddynt. Duwdod y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, sydd unrhyw; gogoniant gogyfuwch, mawrhydi gogyd-tragywyddol. Nid oes gwir wybodaeth gan neb o'r gwir Dduw, heb ei adnabod yn ol y dadguddiad dwyfol; yr un peth yw Duw gwedi ei ddychymygu yn y meddwl, a Duw gwedi ei weithio â'r dwylaw, sef *eilun*, a *gau dduw* ydyw, ac nid y gwir Dduw—peth disylwedd, peth diddym, dychymyg gwag.

5. Nid yn yr un golygiadau y maent yn *Un* ac yn *Dri;* am hyny nid oes gwrth-ddywediad, na gwrthathrawiaeth yn cael ei dal, wrth ddywedyd felly. Nid tri hanfod yn un hanfod, ac nid Tri Pherson yn Un Person yw y pwnc; ond Un hanfod yn Dri Pherson, a Thri Pherson yn Un hanfod, a olygir ac a haerir. Bod yn Un ac heb fod yn Un, yn yr *un ystyr*, fuasai yn wrth-ddywediad, ac yn anmhosibl; ond yr Undeb sydd mewn hanfod, a'r llïosogrwydd sydd yn Bersonol, yn yr un hanfod yma; sef yn nuli yr hanfod yn hanfodi. Nid Tri Duw ac un Duw, na Thri Pherson ac Un Person, a olygir; ond Un Duw yn Dri Pherson, a Thri Pherson yn Un Duw. Er nas dichon un fod yn dri, a thri fod yn un, yn mhlith creaduriaid, etto, er nas dichon hyn fod mewn natur feidrol a therfynedig, ni ddylem gasglu oddiwrth hyny nas dichon yn hanfod anfeidrol y Duwdod, fod Tri o Bersonau yn null yr hanfod o hanfodi. Y peth sydd wir am hanfod meidrol, nid ydyw i'w briodoli i hanfod anfeidrol a diderfyn. Nis dichon i ni amgyffred yr hanfod anfeidrol, ond tra addas i ni gredu tystiolaeth Duw am dano ei hun.

6. Eglur yw, oddiwrth annibynoldeb, symlrwydd, tragywyddolrwydd, ac anghyfnewidioldeb yr hanfod dwyfol, ei fod yn hanfodi yn y *dull* y mae yn hanfodi, o *angenrheidrwydd*, ac nis gallasai hanfodi mewn un

Digitized by Google

dull arall; ac am hyny y mae cenedliad y Mab, a deilliad yr Ysbryd Glân, yn hanfodol angenrheidiol—mor angenrheidiol a'r hanfod. Nis gellir gan hyny wadu y Personau, a'r hyn a briodolir yn bersonol iddynt, heb wadu y *gwir* hanfod, a chymeryd hanfod dychymygol yn ei le, sef eilun-dduw dychymygol. Y mae mor angenrheidiol fod y Duwdod yn hanfodi yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, a'i fod yn hanfodi.

7. Nid arfaeth, cynghor, trefn, na gweithredoedd o un math, sydd yn peri fod Trindod o Bersonau; ond amlygu a phrofi y Drindod y maent, am na buasent yn cymeryd lle oni buasai fod Trindod.

8. Fod gwir wybodaeth o'r Drindod yn angenrheidiol anhebgorol er iechydwriaeth.—1. Os hyn yw y bywyd tragywyddol iddynt adnabod y gwir Dduw, yn ol tystiolaeth Crist (Ioan 17. 3.) pwy a ddichon ddywedyd ei fod yn gwir adnabod Duw, heb ei adnabod yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân? Nid oes neb yn adnabod y Tad, heb adnabod ei unig-anedig Fab, yn dragywyddol genedledig o hono; nac yn adnabod y Mab yr un modd, heb adnabod y Tad. Ioan 14. 9, 10.——2. Ni bydd neb cadwedig heb anrhydeddu Duw Dad. 1 Sam. 2. 30. 'Ond yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad, yr hwn a'i hanfonodd ef.' Ioan 5. 23. Ond pa fodd y dichon neb sydd yn gwadu ei fod yn Fab, ei anrhydeddu *fel* Mab Duw? Neu, pa fodd y dichon neb, heb ei adnabod yn Fab Duw, ei anrhydeddu *fel* unig-anedig Fab Duw, ac yn haeddiannol o ogyfuwch anrhydedd â'r Tad? Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, *fel* y maent yn anrhydeddu y Tad—yn yr *un gradd*, ac o herwydd yr *un achos;* sef y Tad am ei fod yn Dad, a'r Mab am ei fod yn Fab Duw.——3. Arwydda bedydd yn enw y Drindod yr un peth; sef cydnabyddiaeth o'r Drindod; ymroddiad i addoli a gwasanaethu y Drindod, ac ymddiried ynddynt am iechydwriaeth. Mat. 28. 19.——4. Os yw yn angenrheidiol gwybod, nid yn unig *fod* Duw, ond hefyd pa *fath* un yw o ran ei briodoliaethau, felly hefyd, pwy yw o ran hanfodiad y Personau, fel y dadguddir yn y gair: 'Pob un a'r sydd yn gwadu y Mab, nid oes ganddo y Tad chwaith.' 1 Ioan 2. 23.——5. Y mae holl athrawiaethau sylfaenol y grefydd Gristionogol, sef ein holl iechydwriaeth, yn tarddu o, neu yn gorphwys ar, athrawiaeth y Drindod, ac anwybodaeth o hon a gynnwys anwybodaeth o holl drefn yr iechydwriaeth; megys anfoniad a chnawdoliaeth y Mab, a'r iawn a wnaeth, anfoniad yr Ysbryd Glân, &c. Nid am y *gradd*, ond am y *cywirdeb*, a gwirionedd y wybodaeth, yr ydys yn traethu. Yr oedd gwybodaeth y duwiolion yn y cynfyd o'r athrawiaeth hon, fel pob athrawiaeth arall, yn llai eglur, am fod y dadguddiad yn llai amlwg; ond nid yw hyn yn profi eu hollol anwybodaeth o'r athrawiaeth; y mae yn dra eglur yn y gair ei bod yn hysbys iddynt.

9. Y gair dadguddiedig ydyw ein hunig sail i gredu am Dduw; ac y mae yn sail ddigonol—nid oes mwy i fod. Nid yw bod yr athrawiaeth heb ei dadguddio yn ngwaith y greadigaeth, nac i'n rheswm, na'n hanallu ni i'w hamgyffred, yn un sail i ni ei gwrthod. Y mae yn eglur yn ddadguddiedig yn y gair dwyfol ac y mae hyny yn ddigon. Nid oes iechydwriaeth i bechadur hebddi. Sylfaen gadarn yr holl drefn fawr ydyw. Edr. ARFAETH, CYFAMMOD, DUW. Adnabod a chredu yr athrawiaeth, yr ydwyf yn ei feddwl, o ran y gwirionedd o honi, ac nid ei hamgyffred o ran y *dull* o honi. Nid oes dim gwir grefydd gan neb heb brofiad o ras Iesu Grist, cariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân.*

10. Nid oes neb i ni i'w golygu yn Gristionogion neu eu cydnabod fel brodyr Cristionogol, a wado ac a gablo athrawiaeth y Drindod. Beth bynag fyddo eu hymddangosiad, os ydynt yn cablu yr athrawiaeth hon, gelynion Duw, ac eilun-addolwyr ydynt; ac nid oes i ni fel Cristionogion i gymdeithasu â hwynt, na dywedyd Duw yn rhwydd wrthynt. 2 Ioan 10. Rhoddir hanes neillduol am zel un Christopher Krainsius, pan ddaeth y Sosiniaid i Synod Lub. A. D. 1612, ac eilwaith i Synod Belz. i gynnyg undeb â'r rhai uniawn-gred, atebodd, 'Gellir uno nefoedd ag uffern, yn gynt nag y cymmodir ni â chwi yn yr efengyl. Y sawl a ofnant Dduw, gadawant y lle!' ac ar hyn aeth allan ei hun. Pan yr achwynodd y gwrthwynebwyr am ei ymddygiad anmharchus tu ag atynt, Leszezinius a ddywedodd, 'Yr ydwyf finnau yn ofni Duw,' ac a aeth allan. Gwel Witsius *De Sym. Exer*. vi. § 21.

Rhoddaf i lawr yma, gyd â'u gilydd, yr ysgrythyrau canlynol yn profi athrawiaeth y Drindod: 1 Ioan 5. 7. Mat. 3. 16. a 28. 20. 2 Cor. 13. 13. Ioan 14. 16, 26. a 15. 26. Luc 1. 35. Act. 10. 38. Ps. 45. 7. Cymh. Heb. 1. 9. Esa. 61. 1. a 63. 9, 10. Ps. 33. 6. 1 Petr 1. 2. Gal. 4. 6. Rhuf. 8. 9, 11. a 15. 16. 1 Cor. 2. 8, 10. a 3. 11, 16, 17. a 12. 4, 5, 6. Dat. 1. 4, 5. 2 Thes. 3. 5. Marc 12. 36. Esa. vi. Cymh. Ioan 12. 40, 41. Act. 28. 25, 26.——Gwel Dr Owen *on the Trinity*. Brown's *Natural and Revealed Religion*. H. Zancheus *De Tribus Elohim*. Johannes Coccejus *Aphorisimi Per. Univer. Theol. Explic. Catech. Heidel.* Turret *Inst. Theol. tom.* i.*

TRIAGL, *Gr.* θεριακη; *Llad.* THERIACA; *Saes.* TREACLE; *Ffr.* TRIACLE. Y gair *Heb.* צרי a gyfieithir *triagl*, yn Jer. 8. 22. a 46. 11. a 51. 8. Ezec. 27. 17.—*balm*, Gen. 37. 25. a 43. 11. a arwydda, sudd neu lud gwerthfawr a ddyfera allan o ryw bren rhinweddol. Tebygol yr arwydda gwyddlud yn gyffredinol, yn dyferu o goed neu blanigion. Yr oedd llawer o honynt yn Arabia Ffelix a Gilead. Dywed Josephus i frenines Seba ddwyn planigyn o'r pren balm i Solomon, ac iddo ei blanu mewn gardd yn agos i Jericho. Ond y mae yn ddilys ei fod ef yn foreuach na'r amser hwn yn ngwlad Canaan; ie, mor foreu a dyddiau Jacob. Geilw Jacob y balm yn un o ffrwythau y wlad. Gen. 43. 11. Yr hyn a elwir balm o Gilead yn awr, ydyw y balsam a ddygir o Mecca i Alexandria, ac oddi yno yma; ond annhebygol mai yr un peth ydyw hwn â'r צר *(tsor) triagl* y Bibl. Edr. BALM, GILEAD. Gwel Prideaux's *Connect., part* ii, *b.* 6.

TRIAN—NU, neu, TRAIAN—NU, (tri-ant) y drydedd ran; rhanu yn dri, neu yn dair rhan.—'Traiana derfyn dy dir—fel y byddo i bob llofrudd ffoi yno;' sef i un o'r tair dinas noddfa yn nghanol y tir, o du y gorllewin i'r Iorddonen: yr oedd tair o'r blaen wedi eu gosod o du y dwyrain iddi. Deut. 19. 3. *Heb.* שלשת—τριμερεις τα ορια της γης σου, LXX. *trianna,* neu rhana yn dair rhan. Am fod y wlad yn llawer hŵy na'i lled, am hyny yr oedd y tair dinas i fod mewn tri gwahanol leoedd, o'r un pellder, ac felly yn gyfleus i ffoi iddynt o bob parth o'r wlad.

'Traian y môr a aeth yn waed; a bu farw traian y creaduriaid, y rhai oedd yn y môr—traian y llongau a ddinystriwyd—tarawyd traian yr haul—llas traian y dynion—a dynodd traian sêr y nef.' Dat. viii. a ix. Wrth 'draian y môr, a thraian y creaduriaid a fu farw yn y môr,' dan udganiad yr ail udgorn, pan fwriwyd mynydd yn llosgi gan dân i'r môr, y deallir, gan y rhan fwyaf o'r dysgedigion, ymerodraeth Rhufain a'i thrigolion, yr hon, fel y dychymygir a gynnwysai y drydedd ran o'r byd. Edrych MYNYDD.——'A'r

* *Tri* yw Duw Celi, colofn deon,
Trwy râd, ac un Mab, ceiniad canon:
Trech yw ef Tad nef, naf gleinion radau,
No'r creaduriaid gorau gwron.

*Casnodyn.*

* Gwel hefyd Calvin's *Institut.* Chalmers' *Institutes.* Neander's *Church History. Bibliotheca Sacra,* am Awst, 1846. a Chwefror, 1847. *Biblical Repository, vol.* v., vi.—C.

Digitized by Google

trydydd angel a udganodd; a syrthiodd o'r nef seren fawr yn llosgi fel lamp, a hi a syrthiodd ar draian yr afonydd, ac ar ffynonau y dyfroedd:—ac aeth traian y dyfroedd yn wermod.' Dat. 8. 10, 11. Y gair traian yn y lle hwn, hefyd, a arwydda, ymerodraeth fawr Rhufain. Edr. WERMOD.——Taro 'traian yr haul, traian y lleuad, a thraian y sêr,' (adn. 12.) a arwydda, taro haul, lleuad, a sêr, traian y byd, sef, yn ol yr iaith brophwydoliaethol, pen-swyddwyr ymerodraeth Rhufain. Wedi llawer o gyfnewidiadau, yn A. D. 566, dadymchwelwyd ymerodraeth Rhufain, a daeth Rhufain ei hun dan lywodraeth Rhaglaw (*Exarchate*) Ravenna. Edr. RHUFAIN.

'Gan y tri hyn y llâs traian y dynion,' sef gan y tân, a chan y mŵg, a chan y brwmstan. Dat. 9. 18. Arwydda y geiriau hyn, barnau Duw, trwy y Tyrciaid, ar lawer o wledydd perthynol gynt i ymerodraeth Rhufain, y rhai a gymerasant dref Cystenyn, ac a osodasant eu hymerodraeth i fynu trwy lawer o dywallt gwaed, a galanastra. Y tân, y mŵg, a'r brwmstan, ydynt yn cyfeirio, fel y tybygir, at yr arferiad o'r powdr gŵn ganddynt, a gŷnau mawrion a arferwyd ganddynt hwy yn gyntaf wrth gymeryd Caer Cystenyn. Yn nghylch yr amser hwn y dyfeisiwyd ac yr arferwyd powdr gŵn gyntaf.

'A'i chynffon hi (sef y ddraig) a dynodd draian sêr y nef.' Dat. 12. 4. Y ddraig goch fawr, a arwydda, ymerodraeth Rhufain; a thraian y sêr a dynodd â'i chynffon, a arwydda, yn ol barn rhai, gallu y Rhufeiniaid yn tynu i lawr freninoedd a thywysogion y drydedd ran o'r ddaear, ac yn darostwng eu gwledydd dan eu llywodraeth. Neu, yn ol barn eraill, wrth y sêr y meddylir athrawon a gwyr enwog yn yr eglwysi a erlidiwyd ac a ddinystriwyd, lawer o honynt, dan erlidigaeth Dioclesian; ac eraill a wadasant y ffydd, ac a droisant yn addolwyr eilunod. Vitringa.

TRIDIAU, (tri-diau) yspaid tri diwrnod.—'Canys fel y bu Jonas dridiau a thair nos yn mol y morfil, felly y bydd Mab y dyn dridiau a thair nos yn nghalon y ddaear.' Mat. 12. 40. Oddiwrth hanes croeshoeliad ac adgyfodiad Crist, ymddengys nad arosodd yn y bedd ond un dydd cyflawn, yn nghyd â rhan o'r diwrnod y claddwyd ef, ac yr adgyfododd. Nid oedd gan yr Iuddewon un gair yn ateb yn gwbl i'r gair *Gr.* *νυχθημερον*, neu ddiwrnod naturiol o bedair awr ar hugain, ond mynegent hyny trwy y geiriau, 'noswaith a diwrnod,' a 'diwrnod a noswaith.' Felly yn Dan. 8. 14. 'Hyd ddwy fil a thri chant o *hwyr a boreu*,' (*Heb.*) sef diwrnodau, fel yn ein cyfieithiad ni. Felly yr hyn a elwir 'deugain niwrnod a deugain nos,' yn Gen. 7. 12. a elwir 'deugain niwrnod,' yn adn. 17. Gan hyny, fel y mae yn arferol mewn cyfrifiad cyffredin, i briodoli i'r holl ddiwrnod yr hyn nad yw briodol ond i ran o hono, pan wnaed hyny yn yr iaith Iuddewig, yr ydoedd yn angenrheidiol enwi *noswaith* a *diwrnod*. Oddiwrth hyn, rhan o dridiau a alwent hwy yn dridiau a thair nos. Fel hyn y dywed Esther wrth yr Iuddewon (pen. 4. 16.) 'Ymprydiwch drosof fi, na fwytewch hefyd, ac nac yfwch dros dridiau, nos na dydd.' Ond amlwg yw, iddi fyned at y brenin ar y trydydd dydd. Yn yr un modd y dywedir yn Luc 2. 21. 'A phan gyflawnwyd wyth niwrnod i enwaedu ar y dyn bach,' &c. Ond gorchymynwyd yn y gyfraith enwaedu ar yr wythfed, a chyfrif y dydd y ganed y plentyn y cyntaf. Felly, er y dywedir cyflawni wyth niwrnod ar enwaediad Iesu, nis gallasai fod mewn gwirionedd ond chwe diwrnod oed, os ganwyd ef yn niwedd y dydd cyntaf, ac yr enwaedwyd arno yn nechreu yr wythfed dydd. Amlwg yw, gan hyny, gyflawni yn fanwl rag-ddywediad yr Arglwydd am yr amser y gorweddai Crist yn y bedd, er nas arosodd yno ond un dydd cyflawn, yn nghyd â rhanau bychain o'r dyddiau y claddwyd ef ac yr adgyfododd.

TRIG—O—FA—IAN—NYDD—LE—IAS, (trig) aros, preswylio; rhynu gan oerfel; trengu; preswylfod, preswylydd.—Nis gallaf pe trigwn; mae wedi trigo.—'Yn trigo yn y goleuni.' 1 Tim. 6. 16. Edr. GOLEUNI. Trigias. 2 Bren. 17. 25.

'Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi.' Eph. 3. 17. Y mae y geiriau yn arwyddo, 1. Gwybodaeth wirioneddol, yn ol y gair, o Grist. Ioan 17. 3.——2. Dewisiad y meddwl o hono, o herwydd ei ardderchogrwydd, ei brydferthwch, a'i lesâd. Phil. 3. 8, 9.——3. Delw a meddwl Crist. Rhuf. 13. 14. Gal. 3. 27. Phil. 2. 5.——4. Trigo yn gynnaliaethol ac yn fagwriaethol, fel nôdd y gwreiddyn yn y pren. Ioan 15. 1, 2, &c. Col. 3. 3, 4.——5. Trigo fel Arglwydd yn ei dŷ, ac fel Duw yn ei deml, i lywodraethu ac i gael parch ac addoliad. Ioan 14. 23. 1 Cor. 3. 16. Eph. 2. 22.——6. Ei arosfa barhaus. 1 Ioan 4. 12.——7. Trwy ffydd y mae Crist fel hyn yn trigo; sef trwy wir gredu tystiolaeth y gair am dano. Nid oes dim cymdeithas wirioneddol âg ef ond trwy y gair.——8. Y mae y fath ëangder yn y gras o ffydd, fel y cofleidia hi y cwbl o Grist. Llonaid breichiau ffydd yw Crist, ac nid oes dim llai na'r cwbl o hono a'i boddlona, neu yr enaid sydd yn gwir gredu. Gwna ffydd ddefnydd o hono i gyd, ac yn barhaus. Mae ymuniad tragywyddol rhwng ffydd a Christ yn ei holl gyflawnder. Nid yw yn ormod, ond y mae yn ddigon.

Y mae y saint yn trigo yn Nuw, ac yn Nghrist; y maent hwy mewn undeb âg ef—yn cael eu diogelu, eu cynnal, a'u cysuro ganddo, ac y maent yn mwynhau cymdeithas hyfryd âg ef. 1 Ioan 3. 24.——Trigant yn nhŷ Dduw, ac yn ei gynteddoedd, pan y byddont yn mwynhau cymdeithas barhaus âg ef yn ei ordinhadau. Ps. 27. 4. a 84. 4. Edr. GAIR, PRESWYLIO, TEML, YSBRYD.

Mae eglwys Dduw, fel y deml gynt, yn drigfa Duw. Ps. 26. 8. a 76. 2. a 132. 13. Mae yn cymdeithasu yn agos iawn â'i bobl, a derbyniant gyfraniadau a dylanwadau parhaus oddi wrtho.

Yn y nefoedd y mae llawer o drigfanau; sef i gynnifer ag a etholwyd, a brynwyd, a elwir, ac a sancteiddir gan yr Ysbryd Glân. Ioan 14. 2. Sef trigfanau lliosog, cyflawn, ëang, tangnefeddus, a sefydlog am byth; a rhaid cael llawer o blant dynion i'w llenwi hwynt; canys ar eu medr hwy y maent oll gwedi eu parotoi. Yr oeddynt yn barod er seiliad y byd; ond yr oedd yn angenrheidiol i Grist fyned o'r blaen trwy farw, adgyfodi, ac esgyn i'r nefoedd, i gael hawl iddynt hwy yno, a symud yr holl rwystrau oddiar y ffordd. 2 Cor. 5. 1. Heb. 10. 11, 14, 15, 16. a 13. 14. Dat. 3. 12, 21. a 21. 10—27.

'Canys hwy a bechasant yn erbyn yr Arglwydd, trigle cyfiawnder; sef yr Arglwydd, gobaith eu tadau.' Jer. 50. 7. Gelwir yr Arglwydd 'trigle cyfiawnder,' am ei fod yn gyflawn berffaith ei hun, yn amddiffynwr cyfiawnder yn eraill, ac yn ddiogelwch digonol i'w bobl gyflawn.

TRIGOL—ION, (trigo) trigiannydd, preswylwyr. Ps. 33. 14. a 49. 1. a 72. 9.—'A holl drigolion y ddaear a'i haddolant ef.' Dat. 13. 8. Yr *ef* sydd yn cael ei addoli ydyw y bwystfil a gododd o'r môr â saith ben a deg corn iddo, i'r hwn y rhoddodd y ddraig ei gallu, ei gorsedd-fainc, a'i hawdurdod; wrth yr hwn y meddylia y rhan fwyaf o esbonwyr, Pabyddiaeth, a Phabau Rhufain. Wrth 'holl drigolion y ddaear,' y meddylir rhif lliosog o honynt, neu y rhan fwyaf o holl drigolion gwledydd Ewrop, yn perthyn i'r bedwaredd ymerodraeth, arwyddluniedig wrth goesau a thraed delw fawr Nebuchodonosor. Ar achosion, addolant y Pab, naill ai yn eglwys St. Petr, yn Rhufain, uwch ben yr allor, wedi ei addurno â choron, a llawer o emau, aur, ac addurniadau gwych, lle yr eistedd i'w addoli; neu mewn gorymdeithiau arbenig, pan y bydd yn cael ei

Digitized by Google

ddwyn ar ysgwyddau yn goronog, ac y dangosir iddo bob ystumiau o barch ac addoliad. Ysgrifenodd un Antonius lyfr cyflawn yn nghylch defodau yr addoliad hwn. Gwel Heideggerus, *Myst. Bab. part* 1. *dis*. 10. *sec*. 14. *et seq*. Ond trwy arfaeth, gofal, a chadwraeth Duw, gwaredwyd rhai, yn mhob oes, oddiwrth y cyfryw eilun-addoliaeth ffiaidd.

TRIN—IAETH—OEDD, (tri-in) ymyraeth, trafferth, llafur; trefnu, llafurio, ymdrafferthu.

Iachaf o fwyd, bara; iachaf o enllyn, llaeth; iachaf o ddiod, graian-ddwr nant; iachaf gwaith, *trin* y ddaear; iachaf o lawenydd, cerdd dant. *Diar.*

'Y rhai sydd yn trin y gyfraith.' Jer. 2. 8. Sef y rhai sydd yn astudio, yn darllen, ac yn deall y gyfraith, ac yn ei dysgu i eraill.

'Na thrin gair Duw yn dwyllodrus.' 2 Cor. 4. 2. —'Ac nyd ym yn cam-draethu gair Duw:' ymyl y ddalen, 'ffalsau, siomi am.' W. S.—'Nac arfer twyll am air Duw. Dr M. Gwneuthur masnach o air Duw; traethu y gair yn dwyllodrus i foddhau llygredigaethau eu gwrandawyr, er mwyn budr-elw. Arferiad cyffredin holl gau athrawon yn mhob oes. Edr. Masnach.

TRIP—IO, (ty-rhip) llithriad, disodliad, syrthio, lli hro. Ps. 73. 2. Jer. 31. 9. Nah. 3. 3.

TRIST—AU—WCH—YD, (ty-rhist) *Llad*. Tristis; Tristitia: prudd, galarus; trymder, alaeth, afar, galar, trymfyd, brwyn. Edr. Chwerwder, Galar, Gofid,—'Tröer eich chwerthin chwi yn alar, a'ch llawenydd yn dristwch.' Iago 4. 9. Arwydda y gair *Gr*. κατηφειαν, a gyfleithir yma *tristwch*, plygu y pen, ac edrych yn syn ar y ddaear gan dristwch—dull dyn gwedi ei orwasgu, ei lethu, a'i orchfygu gan gywilydd neu dristwch. Darlunia Xenophon Panthea, gwraig Abradatus, pan gymerwyd hi yn gaeth gan Cyrus, yn eistedd yn orchuddiedig, ar yn edrych ar y ddaear.* Hon yw yr agwedd oedd ac y publican yn gweddïo yn y deml. Luc 18. 13. Wedi llawenhau yn gnawdol yma, gorwasgir rhai byth gan dristwch o'r trymaf. Diar. 14. 13. a 17. 21.

'Eich tristâu chwi yn dduwiol.' 2 Cor. 7. 11. Sef tristâu o herwydd pechu yn erbyn Duw; tristâu o barch iddo, gyd âg ymroddiad i fyw iddo, ac ymwrthod â phob peth sydd yn ei anfoddloni. Edr. Duwiol, Edifeirwch, Llawenydd.

TRO—AD—EDIG—AETH—FAUS—FEYDD—I, (ty-rho) yspaid, amser; tros dro, y tro yma, o dro i dro, rai troion; rhyw dro: cylch-dro, tro o gwmpas, dychweliad, newidiad; ymchweliad.—Trofäus, gwyrgam, camystumiad. Edr. Gwyro.——Troféydd, lleoedd i droi.

1. Cyfnewidiad ysgogiad, neu ymarweddiad, ac felly y mae yn arwyddo anwadalwch, anwastadrwydd, cyfnewidiad o dda i ddrwg, neu o ddrwg i dda. Ezec. 33. 11. Iago 1. 17. Edr. Cyfnewid.——'Troi at Dduw,' a arwydda fod dynion mewn cyflwr o bechod, â'u cefnau at Dduw, o ran agwedd eu meddwl; a throi ato, a arwydda cyfnewidiad gwirioneddol yn syniad y meddwl, a dyfodiad gwirfoddol at Dduw, fel eu Hachubwr, Llywodraethwr, a Rhan; ac ymwrthodiad â phob peth arall; a phob llwybr pechadurus, i rodio yn ei ffyrdd. 1 Thes. 1. 9. Edr. Adenedigaeth, Edifeirwch.——'Troi heibio at ofer siarad,' ydyw ymwrthod âg athrawiaeth uniawn, gywir, yr efengyl, ac â rhodiad a bucheddiad sanctaidd, a myned at bethau coegion, halogedig, yn eu lle hwynt. 1 Tim. 1. 6. ——'Troi ymaith oddiwrth un,' ydyw ei wrthod ef, peidio cymdeithasu âg ef, na gwrando arno, nac ufuddhau iddo. Heb. 12. 25. *Felly*, ni thry yr Arglwydd ymaith oddiwrth ei bobl byth. Jer. 32. 40.——'Troi yn ol,' ydyw gwrthgilio oddiwrth addoliad Duw. Ps. 44. 18. Neu ffoi oddiwrth elyn buddugoliaethus. Ps. 9. 3. a 44. 10. a 70. 2.

2. Peri i eraill newid eu llwybr a'u rhodiad; felly y mae Duw, trwy yr efengyl, yn troi dynion o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan ato ef ei hun. Jer. 31. 18. Actau 26. 18. Felly y mae gweinidogion yr efengyl, yn offerynol, yn 'troi llawer i gyfiawnder,' sef i dderbyn cyfiawnder Crist, ac i weithredu cyfiawnder. Dan. 12. 3. Iago 5. 20.

'Ond y mae efe yn un, a phwy a'i try?' Job 23. 13. Y mae efe yn un, sef yr un bob amser, heb y cyfnewidiad lleiaf. 'Pwy a'i try?' neb, byth. Pe byddai yn bosibl ei droi, byddai hyny y trueni mwyaf i'w greaduriaid. Y mae efe yn ddigyfnewid, 1. Yn ei hanfod. Ps. 102. 26.——2. Yn ei briodoliaethau. Ps. 100. 5. a cxxxvi. 1 Tim. 1. 18.——3. Yn ei arfaeth, ei gynghor, a'i gyfammod. Esa. 46. 16. Ps. 33. 10, 11. Heb. 6. 17, 18.——4. Yn ei addewidion. 2 Cor. 1. 20. ——5. Yn ei fygythion. Seph. 1. 5. Mal. 3. 5.——6. Yn ei roddion. Rhuf. 11. 29. Iago 1. 17.

TROAS, neu TROI, dinas yn Phrygia, neu Mysia, ar lân môr y Canoldir. I'r gogledd i'r ddinas yr ydoedd dinas Caer-droia, mor enwog mewn hen hanesiaeth, yn sefyll, yr hon a adeiladwyd gan un Troi, ag oedd yn frenin y wlad hòno, ac a'i galwodd hi Troi, oddiwrth ei enw ei hun, ac Ilium, oddiwrth enw ei fab Ilus. Gwedi iddi hi fod dros amryw genedlaethau yn brif ddinas teyrnas nodedig, cymerwyd hi gan y Groegiaid, wedi gwarchae arni am ddeng mlynedd. Hyn a barodd wasgariad gwyr Troi i amrywiol leoedd, a hònai llawer o genedloedd eu bod hwy gwedi hanu o honynt. Gwasgarwyd y Groegiaid hefyd wrth ddychwelyd i lawer o ynysoedd Môr y Canoldir. Cymerwyd a dinystriwyd Troi yn ol y farn gyffredin, c.c. 1184. Ond y mae Syr Isaac Newton o'r farn i hyny ddygwydd ddau cant o flynyddoedd yn ddiweddarach, yn amser y brenin Jehosaphat. Adeiladwyd Troi newydd yn fuan, bedair milltir yn nes i'r môr. Yn amser Alexander nid oedd ond pentref bychan. Parodd i Lysimachus, un o'i dywysogion, ei hadgyweirio, a'i hamgylchu â mur, bum milltir o gwmpas.——Yn llyfr yr Actau, arwydda Troas, dinas a elwid weithiau Antigonia ac Alexandria. Weithiau, unir y ddau enw, Alexandria-Troas. Bu Paul amryw weithiau yn Troas, a gadawodd yno gyd âg un Carpus, ei gochl a'i lyfrau. Bu eglwys Gristionogol yn hir yma, ond yn bresennol nid oes i'w weled yno ond hen adfeilion. Actau 16. 8. a 20. 5, 12. 2 Tim. 4. 12.

TROCHI, (troch) soddi, suddo, golchi, dyfrhau, taflu ddan ddwfr, ymolchi. Luc 16. 24. Dat. 19. 13.

TROED, TRAED, (traw-ed) heblaw yr aelod a elwir felly, mae yn arwyddo hefyd, sail, gosail, gwadn, peth i gynnal llestr. Gwahanieithir creaduriaid o ran rhifedi eu traed, yn ddau-droediog, megys dynion ac adar; pedwar-carnolion, felly y mae y rhan fwyaf o greaduriaid y tir; aml-droediog, megys yr ednogynau; yr ymlusgiaid, megys y seirph, &c., y rhai nid oes traed ganddynt. Y mae traed yr holl greaduriaid gwedi eu haddasu yn neillduol i'w angenrheidiau a'u dull o fyw, fel y mae yn amlwg i sylw pawb a ystyrio hyny. Yn rhai creaduriaid y mae eu traed gwedi eu gwneuthur yn dra chryfion i gynnal corph anferth, amrosgo, fel yr elephant; yn eraill y maent gwedi eu haddasu i chwyrnder a chyflymdra, megys yr ewigod, a'r ygyfarnogod; mewn rhai y maent gwedi eu haddasu i rodio a rhedeg; yn eraill i rodio a nofio, megys y dyfrgi, gwyddau, chwyaid; ac yn eraill i rodio a chloddio, megys y wadd, &c.; ac yn eraill i rodio ac ehedeg, megys yr ystlum, a gwiwer Virginia. Y mae traed rhai yn rhyddion ac yn weiniaid, yn addas i'r

* Καθημενην, κεκαλυμμενην, τε και εις γην ορωσα. *Cyropæd. lib*. v.

Digitized by Google

ddaear gyffredin; traed eraill ydynt yn fwy tŷn ac anhyblyg, i gerdded ar y rhew, a chlogwyni creigiau, fel y crychgorn *(antelope)*, y geifr, &c. Rhai ydynt gwedi eu gwisgo â charnau, ac eraill â chroen tew dideimlad; rhai yn gyfan, ac eraill gwedi eu hollti: rhai yn gynnwysedig o fodiau yn unig i rodio, ac eraill o fodiau hirion i wasanaethu yn lle dwylaw, fel yr eppa, &c.: rhai âg ewinedd, er mwyn rhodio a rhedeg â chamrau diysgog, eraill â chrafangau i ddal a darnio yr ysglyfaeth.

Troed dyn sydd gynnwysedig o dair rhan; sef y *tarsus*, o'r ffêr i gorph y troed; *metatarsus*, sef corph y troed at y bodiau; y *digiti*, sef y bodiau. Y mae pob rhan yn gynnwysedig o amrywiol esgyrn; a chan ei fod yn gynnwysedig o gymaint nifer o esgyrn, rhaid bod llawer o rwymynau yn perthyn iddo, i rwymo yr esgyrn â'u gilydd, y naill ran â'r llall, a'r troed â'r goes. Y mae cyhyrau hefyd gwedi eu cyfleu yn addas i bob ysgogiad, fel i'r aelodau eraill. Gellir dywedyd am y troed, fel pob rhan arall o'r corph, 'Rhyfedd ac ofnadwy y gwnaethpwyd ef!' Yr ydoedd yn angenrheidiol iddo fod yn geuol oddi tanodd i sefyll yn ddiysgog, ac fel y byddai yr holl lestri gwaed yn rhydd oddiwrth ormes, pan y safem neu y rhodiem. Trwy osodiad a rhwymiad y cyhyrau y ffurfir y dull hwn arno. Mae y troed yn gryf, ac etto yn ystwyth, wedi ei addasu yn rhyfedd i bob ysgogiad angenrheidiol, yn hawdd ac yn gyflym.

Pan ddynesai Moses at y berth, a Josuah at arwydd y Presennoldeb Dwyfol, parwyd iddynt ddynoethi eu traed, fel arwydd o barch. Exod. 3. 5. Jos. 5. 15. ——Yr offeiriaid a weinyddent yn eu swydd sanctaidd yn droednoeth; canys ni chrybwyllir yn mhlith y gwisgoedd sanctaidd am esgidiau na sandalau i'r traed. Hyd heddyw, yr Iuddewon a ânt i'w synagogau yn droednoeth ar ddydd mawr y cymmod. Pythagoras a barai i ddynion addoli ac aberthu yn droednoeth. Y Brahminiaid yn yr India a dynant ymaith eu hesgidiau wrth fyned i'w temlau, a'r Cristionogion yn Ethiopia a wnant yr un modd. Gan y byddai yr hynafiaid yn cerdded yn droednoeth, neu yn eu sandalau, byddid arferol o olchi eu traed er eu cysur, eu dadflinind, a'u hadfaethiad, pan aent i dai. Gen. 18. 4. a 19. 2. a 24. 32. 1 Tim. 5. 10.

Ychydig cyn ei farwolaeth, yr Iesu a olchodd draed ei ddysgyblion, er siampl o ostyngeiddrwydd iddynt, a pharodrwydd i wneuthur pob cymwynasau tirion i'w gilydd. Ioan 13. 5.

'Yr hwn a olchwyd, nid rhaid iddo ond golchi ei draed, eithr y mae yn lân oll.' Ioan 13. 10.—'Yr hwn a fu yn ymdrochi, nid rhaid iddo ond golchi ei draed; gan fod y rhan arall o'i gorph yn lân.' Dr Campbell. Sylwa y Dr C. fod gwahaniaeth yn ystyr y ddau air Groeg a arferir yma. Y gair λουειν, a arferir gyntaf, a arwydda golchi, neu drochi yr holl gorph; ond νιπτειν, y gair a roddir yn ddiweddaf, a arwydda golchi ond rhan yn unig o'r corph. Y gair cyntaf (λουειν) a arferir yn y lleoedd canlynol, a ddynoda golchi y cwbl oll. Actau 9. 37. Heb. 10. 22. Dat. 1. 5. Ond y gair νιπτειν, a arferir yn Mat. 6. 17. a 15. 2. lle yr arwydda golchi rhanau o'r corph, sef y wyneb a'r dwylaw. Mae cyfeiriad yn ngeiriau yr Iesu wrth Petr at ddefodau yr Iuddewon yr amseroedd hyny; byddai yn ddefod i'r rhai a wahoddwyd i wledd, i olchi neu drochi eu cyrph cyn myned; ond gan y byddent yn cerdded mewn sandalau, heb hosanau, yr ydoedd yn beth arferol iddynt gael golchi eu traed cyn ymorwedd ar y glythod. Yr oedd angen golchi eu traed, gwedi eu llychwino wrth gerdded, er bod y rhanau eraill o'r corph yn gwbl lân. Y rhai a olchwyd trwy olchiad yr adenedigaeth, nid rhaid iddynt ond golchi eu traed, sef eu rhodiad a'u hymarweddiad; nid rhaid iddynt gael eu hail-eni drachefn a thrachefn; er hyny, rhaid iddynt wrth olchi eu traed yn feunyddiol, trwy adnewyddol edifeirwch, a maddeuant trwy waed Crist.

Yr Arglwydd 'yn gosod ei droed dehau ar y môr, a'r aswy ar y tir,' a arwydda ei fod yn Arglwydd pob peth, yn llywodraethu môr a thir, a'u preswylwyr—yr holl genedloedd—ie, moroedd o erlidigaethau a gofidiau. Dat. 10. 2. Ps. 65. 7. a 89. 9.

Traed Crist 'yn debyg i bres coeth,' sydd yn arwyddo, hwyrach, ei ragluniaethau pur ac ofnadwy, a dinystriol i'w elynion, a'i gadernid diysgog a gogoneddus yn ei holl gerddediad rhagluniaethol. Dat. 1. 15. Edr. PRES.

Traed, yn aml, yn yr ysgrythyrau, a ddynoda yr holl greadur, neu yr holl ddyn. Ps. 122. 2. Esa. 32. 20. Neu y serchiadau a'r ymarweddiad; yn yr ystyr hwn y darllenwn am 'gadw y traed,' a 'throi y traed i dystiolaethau Duw.' Preg. 5. 1. Ps. 119. 59.——'Troi y troed oddiwrth y Sabboth,' a arwydda, troi y meddwl, y serch, a'r rhodiad, oddiwrth bob peth cnawdol, a bydol, at waith y Sabboth. Esa. 58. 13.——'Cadw dy droed rhag noethni, a'th geg rhag syched.' Jer. 2. 25. Tybygaf, gyda Dr Blayney, mai yr ystyr yw, gochel rhag trwy ddilyn dy ffyrdd drygionus dy hun y deui i gyflwr gwael caethion yn myned i gaethiwed, yn noethion heb esgidiau, fel mae y geiriau yn Esa. 20. 4.; a gwasanaethu dy elynion mewn newyn a syched, &c. Deut. 28. 48.

'Wrth draed,' neu 'eistedd wrth draed,' sydd yn arwyddo parodrwydd i dderbyn addysg oddiwrth un; wrth draed eu hathrawon y byddai yr ysgoleigion Iuddewig yn eistedd. Deut. 33. 3. Luc 10. 39.—Neu bod wrth ewyllys un a'i ganlyn. Deut. 11. 6. 2 Bren. 3. 9. Hab. 3. 5.

'Curo traed,' a arwydda llawenydd (Esa. 25. 6.)—neu dristwch mawr. Esa. 6. 11.

Bod 'dan draed,' ydyw bod wrth ewyllys un. Ps. 8. 6. a 18. 38.—Neu bod yn orchfygedig ac yn orthrymedig. Ps. 91. 13. Rhuf. 16. 20.—Neu yn anmharchus ac yn ddiystyrllyd. Dat. 12. 1. Yr oedd noethder traed hefyd yn arwydd o alar. Esa. 20. 2. a 47. 2. Ezec. 24. 17.

'Llefaru â'r traed,' a arwydda llefaru trwy siampl a rhodiad, neu ryw arwyddion dirgeledig. Diar. 6. 13.

Arwydda traed, yn iaith weddaidd y Bibl, y rhanau hyny o'r corph a beidia gwylder eu henwi. Barn. 3. 4. 1 Sam. 24. 3. *Heb.*

'Yr hwn y byddo coesau iddo oddiar ei draed.' Lef. 11. 21.—'Yr hwn ni byddo garrau iddo ar ei draed.' Dr M. Y mae *ceri—chetib* yma yn y Biblau Hebraeg. Cyfieitha y Dr Morgan yn ol y *chetib* לא a'r cyfieithiad diweddaf presennol, a'r Saesonaeg, sydd yn ol y *ceri* לו ar ymyl y ddalen. Y rhan fwyaf o lawer o gyfieithiadau sydd yn ol y *ceri*, ac y mae, tybygaf, yn fwyaf unol â'r adn. 22.

'Ac ni roddaist i mi ddwfr i'm traed.' Luc 7. 44. Yn y gwledydd dwyreiniol, nid oedd rhai o'r graddau uchaf yn ei farnu yn rhy wael ac isel iddynt i weini i'w gwesteion yn y gwasanaeth gwaelaf. Gwel Gen. 18. 7. Y mae yr un arferiad yn parhau, medd y Dr Shaw, hyd heddyw, yn mhlith y cenedloedd dwyreiniol, yn enwedig yr Arabiaid, y rhai ydynt nodedig am gadw eu hen ddefodau. Yn eu plith hwy, y cyntaf a gyferfydd y dyeithr i'w groesawi ac i olchi ei draed, yw gwr y tŷ.

**TROED-FAINC**, (troed-mainc) troed-le, lleithig: υπο ποδιον, peth dan draed, peth i roddi y traed arno. Bydd holl elynion Crist yn beth iddo roddi ei droed arno er ei ddyrchafiad ef, ac er eu darostyngiad a'u dirmyg hwy byth. Mat. 22. 44. Heb. 1. 13, *et al.*

**TROED-LE**, (troed-lle) troed-fainc, lleithig. Y dull cyffredin o eistedd yn y gwledydd dwyreiniol, yw ar y llawr, â'r coesau yn groes i'w gilydd. Y mae lloriau ystafelloedd y goreuon gwedi eu gorchuddio â

Digitized by Google

charpedau i'r dyben hyny; ac oddi amgylch yr ystafelloedd y mae glythau llydain wedi eu cyfodi yn uwch na'r llawr, gwedi eu gorchuddio â matras gorwych. Nid yw cadeiriau, medd Syr John Chardin, un amser yn arferedig yn Persia, ond wrth goroni eu breninoedd. Mae y brenin yn eistedd mewn cadair aur, wedi ei harddu â gemau, tair troedfedd o uchder. Y cadeiriau arferedig yn y dwyrain ydynt cyfuwch bob amser, fel y mae troed-le, neu droed-fainc yn angenrheidiol iddynt. Y mae hyn yn profi priodoldeb iaith yr ysgrythyrau, y rhai a gysylltant troed-le bob amser â'r orsedd. Ps. 110. 1. Esa. 66. 1. Heblaw chwech o risiau i orseddfa Solomon, yr oedd troed-le o aur yn nglŷn wrth yr orseddfa. 2 Cron. 9. 18. Yr hon, pe amgen, a fuasai yn rhy uchel i'r brenin eistedd yn gysurus arni. Gwel Lowth ar Esa. 52. 2.——Eistedd ar lawr, yn yr ysgrythyrau, sydd arwydd o dristwch; ac eistedd ar orseddfa ddyrchafedig, sydd arwydd o fawrhydi, gwychder, ac ardderchogrwydd.

TROELL—AU, (tro) *Gr.* *τροχος (trochos):* un peth yn troi, chwerfan, rhod, sidell, cengliadur, ceingyll, esdyllod dirwyn. Troellau melin, troell nyddu. —'Euthym i waered i dŷ y crochenydd, ac wele ef yn gwneuthur ei waith ar droellau.' Jer. 18. 3.

'Yn gosod troell naturiaeth yn fflam.' Iago 3. 6. Y dysgedig Lambert Bos a ddehongla y geiriau fel yn arwyddo yr olyniad dibaid o ddynion sydd yn cael eu geni ar ol eu gilydd; fel pe dywedasai yr apostol, 'y tafod sydd wedi bod yn offeryn i ddygnflino ein hynafiaid, sydd etto yn ein dirboeni ninnau, ac a ofidia ein hiliogaeth yn ol llaw. Eraill a gyfieithiant y geiriau, *sydd yn gosod ansawdd naturiaeth yn fflam.* Το *προσωπον της γενεσεως*, a arwydda y wynebpryd naturiol. Iago 1. 23. Felly yma, *τον τροχον της γενεσεως*, a arwydda ansawdd, neu drefn naturiaeth. Gwneuthuriad rhyfedd y corph, a'i alluoedd i weithredu ar yr enaid, a'r enaid i effeithio arno yntau, a gyffelyba yr apostol i olwynion rhyw beiriant yn gweithredu ac yn effeithio ar eu gilydd. Effeithiau niweidiol y tafod yn llygru, ac yna yn dystrywio cyrph ac eneidiau dynion, yn tarddu oddiwrth yr ymadroddion a ddefnyddia, yn tanio nwydau dynion i'r fath radd fel y maent yn aflywodraethus, ac yn eu gyru i gyflawni y cyfryw weithredoedd ag a fyddo yn ddinystriol i'w heneidiau.

TROFA—EYDD, (tro) trofan, cip-dremio.—'Wrth y drofa.' Neh. 3. 19, 20. Sef wrth y gongl.

TROM. Edr. TRWM.

TRON—AU, (tro-on) cylch, gorsedd, gorseddfainc.—'Y mae ef yn gweled y tron, ac yn yn eistedd arnaw.' Dat. iv. cynnwysiad y bennod. W. S.

TROS—ODD, (tro-os) *gorair*; tu hwnt i; uwch, uwchlaw: *rhagddod;* am, er mwyn, yn lle, oblegid, o ethryb; troi oddiwrth y naill at y llall.—'Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau;' sef yn iawn am ein pechodau ni. Gal. 1. 4.—'Y cyfiawn dros yr anghyfiawn;' sef *υπερ, yn lle* yr anghyfiawn. 1 Petr 3. 18. ——Myned drosodd, sef myned tu hwnt. Deut. 3. 18. Hab. 1. 11.—gorlifo, Ps. 104. 9. Deut. 11. 40.

TROSEDD—AU—U—WR, (tros) myned tros derfyn; myned dros derfynau cyfraith Duw; anghyfraith, camwedd, anwiredd, bai; camweddu, camfucheddu; camfucheddwr, pechadur.—Y mae pob pechod yn drosedd; sef yn fynediad dros derfynau cyfraith uniawn Duw, trwy wneuthur yr hyn y mae Duw yn ei warafun ynddi, neu esgeuluso yr hyn y mae yn ei beri. 1 Ioan 3. 4. Troseddwr ydyw pob pechadur. Esa. 48. 8. a 53. 12. Gal. 2. 18. Mae y gair *Gr.* *παραβασις*, yn agos iawn o'r un ystyr a'r gair *trosedd*, y cyfieithiad cyffredin o'r gair Groeg. Rhuf. 4. 15. a 5. 14. Heb. 2. 2.

'Oblegid troseddau y rhoddwyd hi (y ddeddf) yn ychwaneg.' Gal. 3. 19. Sef i ddangos y troseddau, fel y byddai iddynt weled yr angen neillduol ydoedd am aberth drostynt. Yr oedd hyn yn un dyben o roddiad y ddeddf foesol a seremoniol. Yr oedd adgoffa pechod yn yr holl ddefodau Iuddewig; yr oedd adgoffa euogrwydd yn mhob aberth; yr oedd adgoffa aflendid yn mhob glanhad, &c; ac yr oedd yr adwneuthuriad a'r parhad o honynt, yn dangos fod y troseddau heb gael eu tynu ymaith trwy iawn; am hyny yr oeddynt hwy i gael eu hadwneuthur hyd nes delai yr Hâd bendithiol, sef Crist, hâd Abraham. Nid diddymu yr addewid a wnaeth y gyfraith, ond dangos yn fwy yr angen o honi. Edr. ANWIREDD, CAMWEDD, CYFRAITH, PECHOD.

TROSGLWYDD—O, (tros-clwydd) trosiad, dygiad trosodd, dwyn trosodd; trosi, arallu, trosi hawl. Gen. 32. 23. Neh. 2. 7. Edr. SYMUD.

TROSI, (tros) troi allan, gyru trosodd, arallu, cyflwyna, myned rhag y blaen, troi oddi amgylch.—Trosi gwartheg, sef eu gyru allan; troi a throsi, sef troi ac anesmwytho; tros parth a henaint, sef heneiddio.— 'Trosa iddynt etifeddiaeth eu tad.' Num. 27. 7.— 'Dyro iddynt.' Dr M. *Heb.* העברת *trosglwydd.*— '*Cause to pass over.*' *Saes.*

TROSOL—ION, (tros-ol) gwif, bâr, bollt: rhwystr at beth, peth a roddir ar draws.—'A'u hymryson sydd megys trosol castell.' Diar. 18. 19. Trosol castell sydd beth anhawdd ei dynu, neu ei blygu: mor anhawdd yw plygu brodyr at eu gilydd, a'u cymmodi, pan byddo ymryson rhyngddynt: hawsach yw ennill dinas gadarn, nag ennill brawd wedi digio.

TROSTAN, (trawst) paladr, rhethren, gwelging, erwydden, dilyrbren. Num. 21. 8. Edr. SARPH.

TROTHWY—ON, (troth) hiniog drws. 1 Sam. 5. 4, 5. Barn. 19. 27.

Cybydd am *drothwy* tŷ y lladron. *Diar.*

TROWYNT. Edr. GWYNT.

TRUAN—EIN—ENI—ENUS, (tru) gofidus, gofidlawo, poenfawr, blinderog, adyn tlawd, adfydig, annedwydd, rheidus; gofid, adfyd, tlodi, annedwyddwch. —Arwydda trueni, pob peth adfydus a thruan, un digysur a diymgeledd. Priodolir yr enw, yn aml, i saint Duw yma yn y byd, o ran eu cyflwr erlidigaethus gorthrymedig ac adfydig; ond Duw a'u barn hwynt, ac a'u gwared oddiwrth eu holl flinderau; eu gobaith ni chollir. Ps. 9. 18. a 72. 2, 4, 12. Trugarha yr Arglwydd wrthynt yn eu cyflwr iselaf a mwyaf diymgeledd. Esa. 41. 17.

'Os yn y byd hwn yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truanaf o'r holl ddynion ydym ni.' 1 Cor. 15. 19. Yr ydoedd ganddynt obaith ynddo yn y byd hwn, sef y byddai iddo eu cynnorthwyo, eu gwaredu, a'u cysuro; ond nid yn y byd hwn yn *unig;* pe felly y buasai yn bod, hwy fuasent y truanaf o bawb dynion; o herwydd yn y byd hwn yr oedd eu cyflwr a'u hamgylchiadau yn fwy adfydus na neb arall: o herwydd eu gobaith yn Nghrist, a'u haddefiad o hono, yr oeddynt gwedi cael eu hamddifadu o lawer iawn o gysuron, ac yn goddef gwg, dirmyg, ac erlid pawb. Ond y mae ganddynt obaith yn Nghrist mewn byd arall, ac y mae hwnw yn obaith gwynfydedig a gogoneddus; ac am hyny y ded wyddaf o ddynion ydynt!

TRUGARHAU—EDD—OG—RWYDD, (trucaru) tosturiol, a fyddo gresyn ganddo; tosturio, truanhau, gresynu; tosturi, gresyndod.

Tri dyn a ddylid bod yn *drugar* wrthynt; alltud, gweddw, ac amddifad. *Catwg.*

Arwydda trugaredd, 1. Y briodoleidd hanfodol hono yn Nuw, â'r hon y mae yn tosturio ac yn cynnorthwyo

Digitized by Google

ei greaduriaid yn eu bllnfyd a'u trueni. Ps. 100. 5. Titus 3. 5.——2. Gras yn dylifo oddiwrth drugaredd Duw, fel ei ffynon. Judas 2.——3. Bywyd tragywyddol, a dedwyddwch yn y nefoedd, ffrwyth penaf trugaredd. 2 Tim. 1. 18.——4. Holl fendithion tymhorol ac ysbrydol, yn deilliaw oddiwrth drugaredd Duw. Ps. 106. 7. a 119. 41.——5. Y tosturi a'r tiriondeb a ddengys un dyn at y llall mewn cyfyngder a thrueni. Luc 10. 37.——6. Mwynder, hynawsedd, a haelioni. Diar. 20. 28.——7. Elusengarwch tu ag at ein cymydog. Mat. 9. 13.——8. Ffugio a lledrithio gweithredoedd o drugaredd. Diar. 12. 20.

*Trugaredd* yw syniad teimladol o drueni arall, yn nghyd âg ewyllys parod i'w gynnorthwyo. Priodola Duw hyn iddo ei hun, gyd âg enwogrwydd neillduol. Exod. 34. 6. אל רחום וחנון *Duw trugarog a graslawn:* neu, ***Duw yr ymysgaroedd a'r gras***, neu ***yr ewyllys da***. Parodrwydd hanfodol yn Nuw, ei ddaioni, ei gariad, a'i ewyllys da i gynnorthwyo trueiniaid adfydus. Daioni Duw ynddo ei hun, yn gweithredu gyda thosturi i gynnorthwyo ei greaduriaid.

1. Y mae trugaredd i'w golygu fel y mae yn hanfodol yn Nuw, ac a arwydda perffeithrwydd a daioni ei natur. Y mae tueddrwydd hanfodol ac anfeidrol ynddo i dosturio. Nid yw yn dangos dim yn ei weithredoedd, nac yn cyfranu dim i'w greaduriaid, ond yr hyn sydd ynddo; a phob peth sydd ynddo mae yn *hanfodol* ynddo. Hanfod pur, syml, yw Duw, yn cynnwys pob perffeithrwydd a rhagoriaethau yn ddifesur, ac yn dragywyddol ynddo ei hun; ac o hono y mae yn deilliaw pob rhinwedd a chynneddfau hardd, dymunol, a defnyddiol, i'w greaduriaid. A pha beth bynag sydd hanfodol yn Nuw, y mae yn anfeidrol, yn ddigyfnewid, ac yn dragywyddol.

2. Y dangosiad allanol o drugaredd yn y gweinyddiad o honi i'w greaduriaid. Yn hwn, fel yn mhob peth arall, mae Duw yn gweithredu yn ben-arglwyddiaethol, yn ddoeth, yn dda, ac i ateb y dybenion goreu. Y mae fel Duw yn gweithredu yn mhob peth. Y mae yr holl briodoliaethau yn gyd-radd yn yr hanfod dwyfol, ei gyfiawnder a'i drugaredd, fel y maent ynddo ef, ydynt yn cyd-raddu: nid oes dim mwy a llai yn Nuw; ond pob peth yn y perffeithrwydd a'r ëangder mwyaf. Ac yn ngweithrediad y Duwdod yn allanol, nis dichon i Dduw weithredu yn groes i ddim sydd ynddo yn hanfodol. Nis dichon ei gyfiawnder weithredu mewn dim yn groes i'w drugaredd, sef yn greulon; ac nis dichon ei drugaredd weithredu yn groes i gyfiawnder a sancteiddrwydd, sef yn anghyfiawn ac yn ansanctaidd. Hefyd, gan mai Duw anfeidrol ddoeth sydd yn trugarhau, y mae yn gweini trugaredd yn ddoeth, i ateb dybenion gwybodus i Dduw, a chwbl addas iddo.

Oddiwrth yr ystyriaethau hyn, canfyddwn, 1. Fod trugaredd Duw yn anfeidrol ac yn ddiderfynau. 'Tad y trugareddau' yw; oddi wrtho ef y maent oll yn deilliaw, ac efe sydd yn cyfranu pob gradd o drugarogrwydd i eraill. 2 Cor. 1. 3. Priodolir mawredd iddo—cyfoeth a lliosogrwydd, 1 Petr 1. 3. Eph. 2. 4. Ps. 51. 1. a 117. 2. Neh. 9. 19, 27. —amlder, Esa. 63. 7.—helaethrwydd, Ps. 86. 15. Geiriau sydd yn dangos mawredd, ëangder, amrywiaeth, a thrysorau diddarfod. Y maent oll yn ei natur yn hanfodol; yn ei arfaeth a'i gynghor tu ag at ei eglwys; yn Nghrist fel Cyfryngwr; ac yn addewidion yr efengyl, i'w credu, a dal gafael arnynt trwy ffydd.

2. Y mae yn dragywyddol o ran ei pharhad. Nid yn unig y mae felly yn yr hanfod tragywyddol, ond y mae felly o ran y gweinyddiad o honi tu ag at ei eglwys. Ps. 25. 6. a 52. 1. a cxxxvi. Esa. 54. 8. Y mae gwedi darparu trugaredd er tragywyddoldeb; y mae yn trugarhau trwy holl oesoedd y byd; ac y mae holl drugareddau ysbrydol ei bobl i barhau byth. Sicr drugareddau ydynt, na phallant, ac na ddarfyddant. Esa. 55. 3.

3. Y mae yn dangos trugaredd yn ben-arglwyddiaethol. Y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd, hyd yn nod ar anifeiliaid direswm. Deut. 24. 4, 6, 7. Exod. 23. 5, 11, 12. Ps. 145. 9. Nid oes un creadur, hyd yn nod yr annuwiolion penaf, a'r cythreuliaid, na phrofasant o'i drugaredd mewn rhyw fodd, er nad yn gadwedigol. Y mae yn dangos trugaredd mewn mesur mwy neu lai, fel y gwelo yn oreu. Nid yw cythreuliaid ddim mewn carchar mor gaeth ag a haeddent, ac hefyd y byddant ynddo. Dat. 20. 1, 2, 3. Eu bod ar y ddaear sy ddigon o brawf fod trugaredd Duw yn estynedig i annuwiolion. Estyna iddynt yn amrywiol fel y myno, hir neu fyr ddyddiau, trugareddau bywyd yn brinach, neu yn lliosocach, fel y gwelo yn dda. Y mae yn ben-arglwydd yn y cwbl. —Felly yn neillduol tu ag at ei eglwys, y mae fel penarglwydd yn trugarhau. 'Mi a drugarhaf,' medd efe, 'wrth yr hwn y trugarhawyf.' Exod. 33. 19. Mae y gwrthddrychau, yr amser, y dull, a'r modd, yn gwbl yn ben-arglwyddiaethol wedi eu penderfynu. Nid oes neb yn haeddu trugaredd; y mae yr achos cynhyrfiol ynddo ei hun; ac y mae yn gweini trugaredd gadwedigol gyda mawredd dwyfol, fel y gweddai i Dduw goruchel a dyrchafedig.

4. Y mae yn trugarhau yn ddoeth, a dybenion daionus a goruchel ganddo yn ei olwg wrth drugarhau. Y mae yn trugarhau yn y modd a'r amser mwyaf addas, er ei ogoniant ei hun, a'n llesâd ninnau. Nid ydyw byth yn camsynied o ran y moddion na'r amser; ac nid ydyw yn gwrando ar ei bobl, er eu holl daerni, i wneuthur dim yn annoeth, ac yn anamserol. Y mae y naill drugaredd yn rhagflaenu y llall, mewn iawn drefn, a'r naill yn addasu y meddwl i fwynhau y llall, ac i gyfranogi y llesâd o honi. Nid ydyw byth yn dyrchafu, pan fyddo darostyngiad yn fwy llesol; nid trugaredd fyddai hyny; nac yn darostwng, pan byddo eisieu dyrchafu; ni byddai hyny er llesâd. Diball ddoethineb sydd yn gweini y cwbl.

5. Nid yw yn trugarhau yn anghyfiawn, nac yn ansanctaidd. Ps. 85. 10. Nis dichon BOD perffaith gyfiawn, pur gyfiawn, ac anghyfnewidiol gyfiawn, wneuthur dim yn anghyfiawn. Pa fodd y dichon iddo weithredu o'i rydd ewyllys yn groes i'w hanfod ei hun? Y mae yn trugarhau yn gadwedigol, mor gyfiawn ag y mae yn cospi; ïe, y mae dadguddiad mwy o'i gyfiawnder yn y ffordd y mae yn trugarhau, nas dichon iddo ddangos byth wrth gospi ei elynion. Zech. 13. 7. Beth fydd y gosp ar ei holl elynion byth i'w chymharu â'r gospedigaeth a roddodd ar ei Fab, yn ei ffordd yn achub ac yn trugarhau? Rhuf. 3. 25, 26. Edr. ABERTH, COSPEDIGAETH, IAWN. —Nid yw ychwaith yn trugarhau yn ansanctaidd o ran ei ddybenion, a'i ddull yn gweini trugaredd. Pa fodd y dichon sancteiddrwydd anfeidrol, pur, syml, a digymysg, weithredu dim i ddybenion ansanctaidd? Nagê; ond y mae yn sanctaidd yn ei holl ffyrdd. Nid oes un oruchwyliaeth, na thrugaredd gadwedigol yn cael ei gweini, heb ddybenion sanctaidd, ac effeithiau sanctaidd iddi. Dangosodd Duw ei ffieiddiad o bechod yn holl drefniad iechydwriaeth, ac yn y pwrcasiad o honi; ac felly y gwna yn y cymhwysiad o honi. Ni chafodd neb drugaredd gadwedigol erioed heb garu sancteiddrwydd, yn benaf o pob peth, fel effaith o hono, faint bynag oedd yn caru pechod o'r blaen. Rhyfeddu y mae fod modd i'w sancteiddio, ac nid ei ddamnio am ei ansancteiddrwydd:—ïe, rhyfedda byth drefn sanctaidd, y Duw sanctaidd, i wneuthur pechadur aflan yn sanctaidd!

Yr amlygiadau penaf o drugaredd neillduol ydynt, 1. Ei waith yn rhoddi ei Fab. Edr. CARIAD.—— 2. Yn rhoddi yr Ysbryd Glân. Edr. YSBRYD.—— 3. Yn cyfiawnhau. Edr. CYFIAWNHAU.——4. Yn



Digitized by Google

bywhau a sancteiddio pechadur. Eph. 2. 4, &c.——5. Yn rhoddi y gair ac ordinhadau yr efengyl.——6. Yn eu heffeithioli er eu dyddanwch, eu cynnaliaeth, eu cynnydd, a'u parhad mewn gras. Eph. 2. 8.——7. Yn rhoddi bywyd tragywyddol iddynt. 2 Tim. 1. 18.——Pan ystyriom waeledd y gwrthddrychau, a mawredd y bendithion, rhaid i bawb addef gyda syndod, 'Ei drugaredd ef tu ag atom ni sydd fawr!'

Fel y mae yr Arglwydd yn drugarog, felly y mae ei holl bobl yn *drugarogion.* Cawsant drugaredd yn rhad, ac y maent oll wedi eu geni o Dduw, yn tebygu i'w Tad nefol, ac o egwyddor a thueddfryd meddwl yn drugarog. Mat. 5. 7. 2 Sam. 22. 26. Ps. 12. 1. a 37. 26. 1 Petr 3. 8. Arwydda y trugarogrwydd hwn ynddynt, 1. Tosturi, mwyneidd-dra, tiriondeb ysbryd, a maddeugarwch.——2. Haelioni a chymwynasgarwch. Luc 6. 36. Eph. 4. 32.——Peth gweithgar yw trugarogrwydd mewn dyn, fel y mae yn yr Arglwydd. 'Y trugarogion a ddychymygant ddaioni;' meddyliant am y gwrthddrychau, a dychymygant am foddion o lesâd iddynt. Diar. 14. 22. Esa. 32. 8. Gwell ganddynt ddangos trugaredd na pheidio; y maent yn hoffi trugaredd, ac yn ymhyfrydu yn llesâd eraill. Mat. 25. 35, &c.

TRUGAREDDFA, (trugaredd) *Heb.* כפר *cauad, gorchudd.* Cauad euraidd arch y dystiolaeth oedd y drugareddfa. Yr oedd wedi ei wneyd o aur pur, yr un hŷd a'r un lled a'r arch; gan hyny yr oedd yn orchudd cyflawn ar ei hwyneb, ac yn gorchuddio y llechau yn yr arch. Yr oedd dau gerub euraidd ar ddau gŵr y drugareddfa, yn lledu eu hesgyll i fynu, ac yn gorchuddio y drugareddfa; a'u hwynebau bob un at eu gilydd, ac at y drugareddfa; yr oeddynt fel hyn yn ffurfio gorsedd-fainc i fawrhydi Duw, yr hwn oedd, neu arwydd o'r presennoldeb dwyfol, yn eistedd rhwng y cerubiaid. Ps. 81. 1. Exod. 25. 22. Felly yr oedd y drugareddfa fel yn droedfainc iddo. Yr oedd y drugareddfa yn gysgod nodedig o Grist, yr hwn a guddiodd ein pechodau ni âg iawn, ac a ddyoddefodd felldith y gyfraith drosom, fel y gallai Duw edrych ar y gyfraith, trwy Grist, fel wedi ei chyflawni drosom. Gal. 3. 10—13. Byddai yr arch-offeiriad yn taenellu gwaed aberth y cymmod ar, ac o flaen y drugareddfa, fel yr oedd y drugareddfa, y gyfraith, yr arwydd o'r presennoldeb dwyfol, a gwaed yr aberth, gyd â'u gilydd y diwrnod hwn yn heddychol; a'r bobl, sef y pechaduriaid euog, yn cael eu harbed. Yn cyfateb i hyn oll y gelwir Crist yn ιλαστηριον, *y drugareddfa,* neu *yr iawn,* fel yn ein cyfieithiad ni. Rhuf. 3. 25. Edr. ARCH, CERUB, GORSEDD-FAINC Y GRAS, IAWN.

TRULL—IAD—IAID, (ty-rhull) gwallofiad, heilyn, gollyngwr neu wasanaethwr diod. Gen. 40. 1. 9, 11. a 41. 9.

TRUTH—OG, (ty-rhuth) ymadrodd anystyr, ymolaeth, gweniaith, rhagrith.—'Yn dywedyt celwydd trwy druth,' sef yn rhagrithiol. 1 Tim. 4. 2. W. S.—'Cenedlaeth druthiog.' Esa. 10. 6. Dr M.—'Ni ddychwelodd ataf fi â'i holl galon, eithr mewn truth, medd yr Arglwydd.' Jer. 3. 10. Dr M.

TRWCIO, (trwc) newid; cwympo, syrthio, pallu.

> Rhaid yw i falais *drwcio.*
> *E. Prys,* (Ps. 62. 10.)

TRWCH, (ty-rhwch) toredig, twn; annedwydd, aflwyddiannus, anffodiog.

> *Trwch,* ie, âc aflwyddiannus iawn,
> A fydd gwr cyflawn weithiau.
> *E. Prys,* (Ps. 34. 19.)

TRWM—HAU—DER—ION, (ty-rhwm) pwysig, pwysfawr, dwys; hwyrdrwm; trist, athrist; tristwch.

> O bob *trwm trymaf* henaint.
> *Trymaf* dial yw dirmyg. *Diar.*

1. Tristwch meddwl. Diar. 31. 6.——2. Achos o ofid a thristwch. Psalm 38. 4.——3. Gofal mawr. Exod. 18. 18. Num. 11. 14.——4. Gelwir yn drwm bob peth a fyddo yn bwysig, neu yn adfydus i gorph neu feddwl dyn; megys llaw neu farnedigaethau Duw. 1 Sam. 5. 6.—Treth drom. Neh. 5. 18. 1 Bren. 12. 4.—Digofaint y ffol. Diar. 27. 3.

Llygaid a drymhant, pan nas gellir eu cadw yn agored gan gysgu. Mat. 26. 43.——Clustiau yn trymhau, a arwyddant dylni a disylwad. Esa. 6. 10. Mat. 13. 15. Heb. 5. 11.——Mae y dwylaw yn drymion, pan nas gellir eu cynnal yn hŵy. Exod. 17. 12.

TRWMPED—AU, *Ffr.* TROMPETTE; *Span.* TROMPETA; *Dan.* TROMMER; *Saes.* TRUMPET: udgorn.—'A llais trwmped, ac âg udgyrn.' 1 Cron. 15. 28. 'A llais llugorn, ac âg udgyrn.' Dr M. Arwydda y ddau air *Heb.* שופר a חצצר agos yr un peth, ac a gyfieithir *udgorn,* heb ddim gwahaniaeth. Y cyntaf a arwydda llais ardderchog yr udgorn; a'r diweddaf a arwydda offeryn ceuawl.

TRWN, (trw-wn) crwn, cylch; gorsedd-fainc.—'Ac hwy ganyssont mal caniat newydd gair bron y trwn.—Trwn Dyw.' Dat. 14. 3, 5. W. S.

> Yr Arglwydd gweryd (felly gwn)
> O'i gysegr *drwn* ei 'neiniog.
> *E. Prys,* (Ps. 20. 6.)
>
> Ar ddeifr rhoes sail ei 'stafell can,
> Gwnaeth y cymylau iddo
> Yn *drwn* olwynog; mae ei hynt
> Uwch esgyll gwynt yn rhodio.
> *E. Prys,* (Ps. 104. 3.)

TRWNC, (ty-rhwnc) pision, golch, trwyth, lleisw. 2 Bren. 18. 27. Esa. 36. 12.

TRWODD, (trw) drwy, trwy; trwyddo, drwyddo. Exod. 15. 16. Esa. 51. 10.

TRWSIO—AD, (ty-rhws) gwisgo, tacluso, addurno, harddu, adgyweirio; gwisgiad, dillad, archenad. 1 Petr 3. 3. Diar. 7. 16. Mat. 12. 44. a 25. 7. Dat. 21. 2.

TRWST, TRYSTIO, (try-wst) dyar, twrdd, dadwrdd, sŵn, twrf, rhugl-drwst, rhugl-drystio.—'Trwst cerddediad—trwst caniadau—trwst gorfoleddwyr—trwst taran—trwst gwynt mewn coed,' &c. 1 Bren. 14. 6. a 18. 41. Amos 5. 23. Dat. 6. 1. Esa. 3. 16. a 24. 8.—'Trystiant rhag amled dyn.' Mic. 2. 12.

TRWY, *rhagddod:* trwyodd; trwyot; trwyo; trwyi; trwyom; trwyoch; trwyynt.

> Tafod têg a â *trwy* y byd. *Diar.*

Trwy (δια) Iesu Grist y mae pob braint, pob gras, a gogoniant tragywyddol, yn dyfod i ni bechaduriaid. Dat. 1. 8. a 5. 12. Eph. 2. 7. Heb. 10. 21.

TRWYN—AU, (trwy) *Gr.* ριν, *(rin)*; *Gwydd.* TRON: eisteddfod arogliad. Y mae y synwyr hwn yn y trwyn a'r ffroenau. Er fod holl asgwrn y pen yn galed, etto y ffroenau ydynt fath o ledr gwydn, ta mewn yn llawn o haenau teneu *(laminæ)* i dderbyn y mân ranau i gangenau o gieuau yr arogliad. Y mae cyhyrau i gulhau, neu i eangu y ffroenau, fel y byddo achos yn gofyn. Edr. AROGLIAD.

Yn Tartary a China y trwynau lleiaf a fernir yr harddwch mwyaf. Coffâ Ruybrock am wraig Genghis Khan, mam Tamberlane, ei bod yn hardd odidog, am na feddai ond dau o dyllau yn lle trwyn. Trigolion Crim Tartary a dorant drwynau eu plant yn ieuainc, gan ei farnu yn ffolineb mawr fod eu trwynau yn sefyll o flaen eu llygaid. Mewn llawer o wledydd trwynau mawrion a gymeradwyir fwyaf. Edr. FFROEN.

Yr arferiad annaturiol o gymeryd llwch tobacco i'r trwyn, a pheth gyda hyny nid oes neb a ŵyr, gan yr amrywiaeth bethau, sy dra niweidiol, budr a ffiaidd.

Digitized by Google

Bu yn achos o aflechyd mawr i lawer, ac, yn ddilys, o angeu i rai. Y mae yn difeddiannu dyn o un o'r synwyrau a roddodd y Creawdwr iddo. Y mae yr arogliad yn cael ei niweidio yn mhawb, a'i ddystrywio yn gwbl yn rhai, trwy yr arferiad ffol hwn. Ai nid ydyw hyn yn bechod dirfawr? A ydyw ef ddim yn groes i'r chweched gorchymyn i ddyn *anafu* ei hun? A ydyw yn llai pechod i ddyn ddifeddiannu ei hun yn *wirfoddol* o un o'i synwyrau, mwy na phe bai yn tori ymaith un o'i aelodau? Profed hyny y neb a ddichon ei brofi.——Heblaw yr arogliad, y mae yn effeithio yn fawr ar y llais, fel nas gellir braidd ddeall rhai yn ymadroddi, gan effeithiau niweidiol y ffwgws-lwch ffiaidd hwn ar beiriannau ymadrodd. Ac a ydyw hyn ddim yn bechod, sef dystrywio neu anmharu gwaith cywrain y Creawdwr? Y mae ei effeithiau niweidiol yn aneirif. Yn rhai y mae yn ymgasglu yn belenau celyd yn y cylla, a byddant yn angeu i ddyn yn y diwedd, oni bai cael gwared o honynt. Gwel *Act. Erudit. An.* 1715, *p.* 475; lle y rhoddir hanes dilys am un a fu farw trwy effeithiau yr arferiad pechadurus hwn. Y mae dyn yn euog o hunan-lofruddiaeth, a ddilyno o *dra-blys* un chwant a *achoso* ei farwolaeth. —Heblaw hyny, y mae yn afradloni meddiannau, ac yn anurddo dillad a roddodd Duw er clydwch a gwedd-eidd-dra. A ydyw hyn ddim yn bechod? Pwy a ddichon ddywedyd ei fod yn cymeryd y ffwgws-lwch hwn er gogoniant Duw? Ai ni ddylem ni wneuthur *pob peth* er gogoniant iddo?

'Addurn y trwyn.' Esa. 3. 21. Oddiwrth ddiareb hardd o eiddo Solomon (Diar. 11. 22.) yn mha un y cyfeiria yn eglur at arferiad pendefigesau yn ei amser, fod modrwy aur âg addurn wrthi, yn crogi wrth eu trwynau, fel clust-dlysau wrth y glust. 'Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, yw benyw lân heb synwyr.'——Priodol ystyr y geiriau, 'tlws ar dy dalcen,' yn Ezec. 16. 12. yw 'tlws yn dy drwyn.' Edr. TALCEN.——*Clust-dlws,* yn Gen. 24. 47. *Heb. trwyn-dlws.* Rhyfedd y gwahaniaeth sydd rhwng arferion trigolion amrywiol oesoedd, ac amrywiol barthau o'r byd; a llawer o honynt yn ddigon hyll a ffol. Tybygaf fod ceisio addurno y trwyn â thlysau yn llawer mwy addas na'r arferiad budr sydd yn ein plith ni, o'i addurno â ffwgws-lwch budr—o'r hyn lleiaf y mae yn ddilys yn fwy iachus, ac yn fwy peraidd. Pwy a ddichon edrych ar, neu eistedd wrth un yn drewi i gyd o'r budreddi hwn, neu o fŵg y cyfoglyn ffiaidd hwn!

'Dy drwyn fel tŵr Libanus.' Can. 7. 4. Gwroldeb ardderchog yr eglwys, neu ei deall dosparthiadol, a feddylir. Fel yr arwydda 'uchder ffroen,' falchder chwyddedig yr annuwiol (Ps. 10. 4.) felly yma, canmolir yr eglwys am ei hyfdra, a'i gwroldeb sanctaidd o blaid y gwirionedd. I'r gwrthwyneb, pan yw yr Arglwydd yn bwgwth dymchweliad Jerusalem am ei phuteindra, sef ei heilun-addoliaeth, dywed am ei chariadau, ei gelynion yn awr, 'Dy drwyn a'th glustiau a dynant ymaith.' Ezec. 23. 25.

TRYBAEDD—U, (try-baedd) dwbio yn drwyadl, llasarnu; ymdreiglfa, ymdreiglo, ymdryboli.—'Ti a drybaeddaist yr Aipht fel un lladdedig.' Psalm 89. 10. Dr Morgan.

TRYCHINEB, (trwch) tristwch, adfyd, blinfyd, trallod.—'Daw trychineb ar drychineb,' sef trallod ar drallod. Ezec. 7. 26.—'Dydd eu trychineb,' sef dydd eu hadfyd a'u trallod. Deut. 32. 35. Job 6. 2.

TRYCHU, (trwch) tori, dryllio, tori ymaith, ffosi. —'A drychodd winwryf ynddi.' Esa. 5. 2.—Yn Mat. 21. 33. 'A gloddiodd ynddi winwryf.'—Yn Marc 12. 1. 'A gloddiodd le i'r gwin-gafn.'——'Pop pren ar ny ddwc ffrwyth da, a drychir i lawr.' Mat. 3. 10. W. S. ymyl y ddalen, 'a dorir, a gymynir.'—'Trychu o eraill gangae o'r preniae a' ei tanu ar y fford.' Marc 11. 8. W. S.—'Trycha e y lawr.' Luc 13. 7. W. S.—'Ac egosodes mewn monwent wedy'r drychy o graic.' Luc 23. 53. W. S.

'Beth sydd i ti yma? a phwy sydd gennyt ti yma, pan drychaist i ti yma fedd, fel yr hwn (neu, *O yr hwn*) a drychai ei fedd (*dŷ*) yn uchel, ac a naddai iddo ei hun drigfa mewn craig?' Esaiah 22. 16. Geiriau yr Arglwydd wrth Sebna y trysorydd, yn gosod allan ei falchder yn ei ofal am wneyd ei fedd yn uchel, sef mewn ogof uchel ei mwd, ac, hwyrach, ar fan uchel, fel y byddai yn fwy amlwg. Yr oedd gwyr mawrion yn Judea, ac yn yn rhan fwyaf o fanau yn y dwyrain, yn cael eu claddu, hwy a'u teuluoedd, mewn ogofëydd wedi eu naddu i'r dyben hyny, yn y graig. Dywedir am Hezeciah, ei gladdu 'yn yr uchaf o feddau meibion Dafydd.' 2 Cron. 32. 33. Crybwyllir hyn i ddangos yr anrhydedd a wnaed iddo ar ol ei farw. Y mae rhai o'r cyfryw golofnau coffadwriaethol i'w cael hyd heddyw yn Persia. Y maent yn cynnwys amryw ogofëydd beddawl, wedi eu trychu mewn craig uchel, yn agos i'r pen uchaf iddi. Y mae rhai o'r claddfëydd hyn yn 30 troedfedd o uchder, yn syth uwch ben y dyffryn o'u blaen. Gwel Chardin, Thevenot, Kempfer, a Diodorus Siculus, *lib.* xvii.

TRYDAR, (tryd-ar) baldordd, lleisio fel adar. Esa. 38. 14.

TRYDEDD—YDD, (tryd-edd) tyrdedd, traian; un o dri.—Trydedd waith, trydydd dydd, trydedd wae, trydedd awr. Gen. 1. 13. Lef. 19. 6. 2 Cor. 12. 14. Dat. 11. 14. Act. 2. 15. Edr. TRAIAN.

TRYFER—U, (tryf) ysbêr fforchog, gwaew-ffon. Job 41. 7.

TRYMGWSG, (trwm-cwsg) hûn drom, marwgwsg.——'A'r Arglwydd Dduw a wnaeth i drymgwsg syrthio ar Adda.' Gen. 2. 21. Yr oedd y cwsg hwn ar Adda yn oruwch-naturiol, ac yn cysgodi marwolaeth yr Arglwydd Iesu. Edr. ADDA.

TRYPHENA, a TRYPHOSA, oeddynt ddwy wraig Gristionogol yn Rhufain, nodedig am eu llafur poenus yn achos yr efengyl. Rhuf. 16. 12.

TRYSOR—AU—I, (trws) *Heb.* אצר *Gr.* θησαυρος; *Llad.* THESAURUS; *Ffr.* TRESOR; *Saes.* TREASURE: swllt, eurgrawn.—Arwydda y gair Hebraeg, o ba un y tardd y lleill, amledd o unrhyw beth wedi ei gyd-gynnull.—1. Amledd cynnulledig o amrywiol bethau; megys ŷd, gwin, olew, aur, arian, pres, &c. Jer. 41. 8. Ezec. 28. 4. Dan. 11. 43.——2. Trysorfa, neu a gynnwys drysorau gwerthfawr. Jos. 6. 19. Mat. 2. 11.

Gelwir amledd o eira, dyfroedd, gwlaw, gwyntoedd, 'trysorau Duw.' Job 38. 22. Jer. 51. 16. Psalm 135. 7.——Y cymylau a elwir, ei 'drysor daionus.' Deut. 28. 12.——Ei 'drysor priodol,' ydyw ei bobl. Exod. 19. 5. Mal. 3. 17. Edr. PRIODOLEDD.

'Trysor wedi ei guddio mewn maes,' yw Crist yn yr ysgrythyrau. Mat. 13. 44. Y mae efe yno, er yn *guddiedig* oddiwrth lawer; ond pan gaffo un ef, y mae yn cyfrif y maes, sef yr ysgrythyrau, o herwydd y trysor ynddynt, yn fwy eu gwerth na phob peth arall; y mae yn ddifrifol yn myned, ac yn gwerthu y cwbl i brynu y maes. *θησαυρῳ κεκρυμμενῳ, trysor cudddiedig;* sef mwn-glawdd, ac nid arian wedi ei guddio mewn crochan neu gist.

'Trysor da y galon,' ydyw Crist ynom ni, gobaith y gogoniant, yn llenwi y galon â meddyliau am dano, myfyrdodau arno, a llawenydd o'i blegid. Mat. 12. 35. ——'Trysor drwg y galon,' yw tueddiadau a meddyliau drwg, ac athrawiaethau cyfeiliornus. Luc 6. 45.

'Trysorau drygioni,' yw trysorau a gasglwyd trwy ddrygioni, twyll, trais, a hoced. Diar. 10. 2.

Digitized by Google

'Ofn yr Arglwydd yw ei drysor ef.' Esa. 33. 6. Y mae yn dderbyniol gan Dduw, ac yn fuddiol i ddynion. Y trysor penaf yw gwir grefydd.

'Trysori trysorau yn y nefoedd,' yw derbyn Crist, rhodio ynddo, ac i bob rhyngu bodd i Dduw. Hyn a'n dwg i'r nefoedd, lle mae trysorau anchwiliadwy a diddarfod. Mat. 6. 19, 20.

Y mae 'holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig yn Nghrist.' Col. 2. 3. Y maent ynddo yn hanfodol; y maent ynddo yn eu holl gyflawnder a'u hamrywiaeth, yn drysorau gwerthfawr a defnyddiol; a chan fod yr holl drysorau ynddo, nid oes dim gan neb ond a dderbynir oddi wrtho ef. Y maent yn guddiedig yno; ni wêl pawb mo honynt; ac ni chyll efe byth mo honynt. Y maent yno yn ddiogel bob amser, ac er llesâd ei bobl.

TRYSORFA—DY, *Gr.* γαζοφυλακιον, *lle i gadw trysor, trysorfa.* Yr oedd, meddant, 13 o gistiau yn nghyntedd y gwragedd, yn y deml, wedi eu gosod i dderbyn rhoddion gwirfoddol y bobl tu ag at draul gwasanaeth y deml, neu i'w hadgyweirio, neu er elusengarwch. Gwel Josephus *De Bell., lib.* i, *cap.* 14. Y cyntedd hwn, tebygol, a feddylir wrth y trysordy, yn Ioan 8. 20. Marc 12. 41. Luc 21. 1. Matthew 27. 6. Neh. 13. 5. Gelwid ef 'cyntedd y gwragedd,' nid am nad oedd eraill yn myned iddo, ond am na oddefid i'r gwragedd fyned yn mhellach i mewn na'r cyntedd hwnw. Y cistiau hyn a alwent *corban.* Hwn yw y gair Groeg sydd yn Mat. 27. 6. Eu llun oedd debyg i udgorn, yn llydan yn y pen uchaf, ac yn gulach yn y gwaelod. Yr oedd hefyd yn y deml ystafell a alwent y drysorfa, â thri *corban* ynddi, mwy na'r rhai cyntaf, a dygent y rhoddion o'r rhai oedd yn y cyntedd i'w rhoddi yn y rhai hyn. Pan ddywedir yn Marc 12. 41. i'r Iesu 'eistedd gyferbyn a'r drysorfa,' yr ystyr yw, iddo eistedd yn y rhodfa, gyferbyn a pha un yr oedd y cistiau, neu y *corbanod,* yn sefyll. A phan ddywedir yn Ioan 8. 20. 'iddo ddysgu yn y trysordy,' y meddwl ydyw iddo ddysgu yn y cyntedd; ie, ac yn agos i'r fan lle yr oedd y cistiau yn y cyntedd; o herwydd yn nghonglau y cyntedd hwn yr oedd cynteddoedd bychain eraill, a alwent bob un wrth ei briodol enw. Gwel Lightfoot.

TRYTHYLL—WCH, (trwth) nwyf, nwyfiant, tesach, anllad, nwyfus. Arwydda trythyllwch bob peth a fyddo yn tueddu i ennyn, ac i gyflawni chwantau cnawdol; ac 'ymroddi i drythyllwch,' yw ymhyfrydu a byw ynddo, heb gywilydd nac euogrwydd. Eph. 4. 19. 2 Petr 2. 18. 1 Tim. 5. 6. Iago 5. 5.—— 'Troi gras ein Duw ni i drythyllwch.' Judas 4. Edrych Gras.

TRYWANU, (trw-gwân) trydoli, tyllu, brathu trwyddo, treiddio.—1. Tyllu trwyddo. Barn 5. 26. ——2. Gofidio a phoeni yn ddirfawr. Job 30. 17. 1 Tim. 6. 10. Trywanwyd dwylaw a thraed Crist, pan, trwy yru hoelion trwyddynt, y rhoddwyd ef ar y groes. Ps. 22. 16. Edr. Brathu, Gwanu.

TU—OEDD, ystlys, ochr, cwr, parth, parthedd, parthred. Tu yma, tu acw, tu yna, tu hwnt, tu mewn, tu dehau, &c. Mat. 23. 25. Ioan 6. 25. a 21. 6. Tu ag at ddeall yr ymadrodd tu yma, tu acw, tu draw, yn yr ysgrythyrau, rhaid gwybod sefyllfa yr ysgrifenydd, neu y llefarwr. Moses yn sefyll o du y dwyrain i'r Iorddonen, a eilw y tu dwyrain iddi, y tu yma, a'r gorllewin iddi, y tu hwnt. Numeri 32. 19. a 35. 14. Ond yn llyfrau Josuah, Barnwyr, Samuel, Cronicl, Esaiah, tu yma, a arwyddant y gorllewin iddi. Josuah 9. 10, &c. Fel yr oedd Ezra a Nehemiah yn ysgrifenu o du y gorllewin i'r Euphrates, tu yma i'r afon, a arwydda, tu y gorllewin i'r Euphrates. Ezra 5. 8. Neh. 3. 7.

TUA, Gorair a arferir o flaen gair yn dechreu â chydsain; *tu ag,* i'r un ystyr, a arferir o flaen gair yn dechreu â bogail. *Tu ag at,* parth a.

TUBAL, תובל [*y byd*] 1. Pummed mab Japheth. Gen. 10. 2. Dywed Josephus mai ei hiliogaeth ef ydoedd yr Iberiaid, o du y dwyrain i'r Môr Du. Barna Bochart mai ei hiliogaeth ef oedd y Tibareniaid, o du y gogledd i Armenia Leiaf. Gwedi cymaint o amser nis gellir penderfynu am hyn gyda sicrwydd.——2. Tubal-Cain, mab Lamech, gweithydd pob cywrein-waith pres a haiarn. Gen. 4. 22.

TUCH—AN—LLYD—U—WR, (ty-uch) cwyno, galaru, cwynofain, ochi, ebychu; grwgnach, manson, gryngian, anfoddlonrwydd. Exod. 16. 2, 7. Numeri 11. 1. Un nôd o gau-athrawon ydyw, eu bod yn duchanwyr, yn cerdded yn ol eu chwantau eu hunain. Judas 16. Edr. Grwgnach, Murmur.

TUEDD—AU—U, (tu) gogwyddiad; parth, goror, bro, cyffin; gogwyddu, lled-awyddu. Mat. 15. 29. Luc 9. 53.

TURIO, (tur) troi, troi i fynu.—'Y baedd o'r coed a'i turia.' Ps. 80. 13.—'Turiodd.' Dr M. '*Doth waste it.*' *Saes.* A'i difrododd.—'A llanwodd ei fol â hi.' Eben. Ezra yn Parkhurst. Rhyw ormesdeyrn anifeilaidd, fel yr Assyriaid, a'r Babiloniaid, y rhai a ddifrodasant wlad Canaan. 2 Bren. 17. 6. a 25. 1, 2, &c.

TURTUR—OD, *Heb.* תור (*thur*); *Llad.* a *Ffr.* Turtur; *Saesoneg* Turtle: colomen fair, colomen goed. Adar glân, y coffêir am danynt yn aml yn yr ysgrythyrau. Gen. 15. 9. Lef. 5. 7. a 12. 8. Luc 2. 24. Edrych Colomen, Gwennol.——'Clywed llais y durtur yn ein gwlad.' Caniad. 2. 12. Un arwydd fod y gauaf wedi myned heibio, ydyw, fod llais y durtur i'w glywed; wrth hyn ymddengys nad ydyw ei llais i'w glywed yn y gauaf. Felly y dywed naturiaethwyr, nad ydyw ei llais i'w glywed yn y gauaf, ond ar ddiwrnod têg. Deallir wrth y durtur, weithiau, yr eglwys ei hun. Ps. 74. 19. Ond wrth lais y durtur yma, gellir meddwl llais hyfryd yr efengyl, yr hon a bregethwyd yn ngwlad Judea, a elwir yma, hwyrach, gyd âg enwogrwydd, *ein gwlad;* ac oddi yno aeth ei sŵn i'r holl ddaear, yn arwydd eglur fod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, a bod tangnefedd ar y ddaear. Rhuf. 15. 9—13. Eph. 2. 13, 14.

TUSW, (tus) dylwf, swp, sypyn. Exod. 12. 22. Edr. Yssop, Pasc.

TWLL—YLLAU—OG—U, (tw-wll) bwt, ceule, lle agored, ogof, ffau. Exodus 28. 32. Esa. 11. 8. —'Tyllu yr esgyrn,' a arwydda, gofidiau mawrion. Job 30. 17.——'Tyllau y creigiau,' a arwyddant, ogofëydd, lleoedd i lechu ac ymguddio rhag ofn a chywilydd. 'A hwy a ânt i dyllau y creigiau, ac i ogofäu llychlyd, rhag ofn yr Arglwydd.' Esa. 2. 19. Yr oedd Judea yn wlad fynyddig a chreigiog, ac yn llawn ogofäu. Yn Engedi, yn neillduol, yr oedd ogof mor ëang, fel yr ymguddiodd Dafydd â chwe chan ŵr yn ei hystlysau; ac aeth Saul i mewn i enau yr ogof, heb ganfod fod neb yno. 1 Samuel xxiv.— Tu hwnt i Damascus (medd Strabo, *lib.* xvi.) y mae dau fynydd, a elwir Trachones (oddiwrth pa rai y gelwir y wlad Trachonitis) ac oddi yno tu ag Arabia ac Ituria y mae mynyddoedd cribog, yn mha rai y mae ogofëydd dyfnion iawn; un o honynt a gynnwys bedair mil o ddynion.—Rhydd Tavernier (*Voyage de Perse, p.* ii, *cap.* 4.) hanes am ogof, rhwng Aleppo a Bir, a gynnwysai agos dair mil o feirch.—Yn nghylch tair awr o drafaelu o Sidon, ac yn nghylch milltir o'r môr, y mae yn rhedeg fynydd hir, uchel, a chreigiog;

Digitized by Google

yn ystlysau hwn y mae lluoedd o ogofëydd wedi eu tori, i gyd yn tebygu i'w gilydd. Y mae eu genau yn nghylch dwy droedfedd bob ffordd; tu fewn iddynt y mae, yn y rhan fwyaf, os nid ynddynt i gyd, ystafell yn nghylch pedair llath bob ffordd. Y mae o honynt yn nghylch dau cant o rifedi. Gwel Maundrell.——'Rhag y Midianiaid, meibion Israel a wnaethant iddynt y llochesau sydd yn y mynyddoedd, a'r ogofëydd, a'r amddiffynfäoedd.' Barnwyr 6. 2.—'Pan welodd gwyr Israel fod yn gyfyng arnynt, yna y bobl a ymguddiasant mewn ogofëydd, ac mewn dyrysni, ac mewn creigiau, ac mewn tyrau, ac mewn pydewau.' 1 Sam. 13. 6. Gwel Jer. 41. 9. Yr oedd, gan hyny, 'myned i'r graig—myned i dyllau y creigiau—ac i ogofëydd y ddaear,' yn ddarluniad addas iddynt hwy i osod allan ddychryn a braw. Arfer y prophwyd Hosea yr un gyffelybiaeth gyda llawer o harddwch a grym, pen. 10. 8.

Dywedant wrth y mynyddoedd, Gorchuddiwch ni;
Ac wrth y bryniau, Syrthiwch arnom.

Awdwr uchel ac addurnawl y Dadguddiad a fenthyca, ac a addasa yr un gyffelybiaeth, yn hardd ac yn ardderchog, yn pen. 6. 15, 16.

TWN——ION, (ty-wn) toriad, drylliad, dyffloen, fflochen.—Esgyrn twnion, bara twn, trwyn-dwn.——'Neu y trwyn-dwn.' Lef. 21. 18.—'Neu 'n rhy fyr, neu 'n rhy hir' (ei aelod). Dr M.—חרם *anafus*, un wedi colli aelod yn gwbl, neu ryw ran o'r corph, mewn cyferbyniad i (שרוע) un y byddo gormod ynddo. Gwel Junius & Tremelius, Parkhurst. Ni chrybwyllir am y *trwyn* yn yr Hebraeg.*

TWNG—YNGU, (ty-wng) llŵ, rhaith; rhoi llŵ, cymmeryd llŵ. Edr. Llw, Tafod.—'Duw yn tyngu iddo ei hun,' sydd yn rhoddi i ni y cadarnhad mwyaf am sicrwydd a gwirionedd peth. Nis dichon dyngu i neb sydd fwy, am hyny tynga iddo ei hun, er rhoddi sicrwydd boddlonol i'w bobl am wirionedd yr hyn y mae yn ei ddywedyd, neu yn ei addaw. Gen. 22. 16. Esa. 45. 23. Jer. 22. 5. Heb. 6. 13. Nid o'i ran ei hun, ond o'n rhan ni, y mae yn tyngu: nid i'w rwymo ei hun i gyflawni, ei air sydd ddigon i hyny; ond i'n rhwymo ni i gredu, ac i symud ymaith bob ymddangosiad o sail i anghredu. Amlyga ddirfawr ymostyngiad yn yr Arglwydd; mawr rym ein hanghrediniaeth, gan rhaid cael peth mor fawr i'w symud; a'r anghenrheidrwydd anhebgorol o gredu yr hyn a lefarodd Duw. Edr. Anwadal.——Y mae tyngu yn arwydd dangosiadol o ymostyngiad, ufudddod a ffyddlondeb. Phil. 2. 9, 10. Edr. Anudon, Cyffesu, Glin, Plygu.

TWR—YRAU—U, (tw-wr) *Gr.* *τυρσος*; *Llad.* Turris; *Ffr.* Torre; *Gwydd.* Tor; *Saes.* Tower: crug, cruglwyth, pentwr, amddiffynfa.—Adeilad uchel, cadarnfa, ac amddiffynfa rhag gelynion, neu er eu niweidio, neu er drychiant a golygawd. 2 Cron. 14. 7. Darllenwn yn yr ysgrythyrau am dŵr Siloam, Babilon, Jerusalem, Sichem, Penuel, Thebez, Edar, &c. Edr. y Geiriau.——'Tŵr y gwylwyr,' oedd un, tebygol, a adeiladwyd i'r gwylwyr i wylied a sylwi ar ruth-gyrchiadau y gelynion.—'O dŵr y gwylwyr hyd y ddinas gaerog,' a arwydda pob man mwy neu lai poblogaidd. 2 Bren. 17. 9.

'Tŵr y praidd, castell merch Sïon.' Mic. 4. 8. Tŵr Edar, medd rhai; tŵr yn, neu yn agos i Bethlehem; neu, medd eraill, tŵr yn agos i borth y defaid yn Jerusalem. Neh. 3. 1, 32. Arwydda y gair *Heb.* עדר *praidd*. Y mae yn yr adnod brophwydoliaeth hynod am osodiad teyrnas Crist i fynu yn y byd. 'A thithau tŵr y praidd, castell merch Sïon, hyd atat y daw, ie, y daw yr arglwyddiaeth benaf, y deyrnas i ferch Jerusalem.' Mynydd Sïon oedd tŵr y praidd dan yr hen orchwyliaeth, canolbwynt eu hundeb, a phreswylfod eu hamddiffynwr; a'r deml oedd eu hamddiffynfa gadarn. Yno y daeth Crist, y bugail da, a llywodraethwr ei bobl, ac a osododd yn gyntaf ei deyrnas i fynu. Bydd ei deyrnas yn debyg i deyrnas Dafydd a Solomon, yn ei gogoniant penaf; ac y rhagorai ar, ac y cymerai le, yr holl ymerodraethau mawrion a fu ar y ddaear erioed. Byddai i fab Dafydd ddyfod i Jerusalem, a gosod i fynu ei deyrnas yno, ac oddi yno y lledaenai dros yr holl ddaear, yn mhlith yr holl genedloedd. Ac er y byddai i'r ddinas hon gael ei dinystrio yn fuan, etto byddai yr eglwys efengylaidd, y Sïon ysbrydol, ei dilyn, yn yr hon y teyrnasa Crist, er llesâd ei bobl, a rhaid i'w achos lwyddo hyd ddiwedd y byd. 'Tŵr y praidd,' medd Coccejus, ydyw Crist. Nid oes neb o'r praidd allan o hono. Coccejus *in loc.*

Yr oedd Jerusalem, y deml, a'r ordinhadau dwyfol ynddynt, yn dŵr yn ngwinllan Duw; yr oeddynt yn uchel, ac yn amlwg, ac yn dra defnyddiol er ei hamddiffynfa. Esaiah 5. 2. Can. 8. 10. Mat. 21. 33. Edr. Trwyn.

'Tyru golud.' Psalm 39. 6. Preg. 2. 26. Arwydda llafur poenus i gasglu yn ddiddiwedd, ac yn ddiddyben, mwy nag sydd yn angen ar un wrtho. Y mae un yn llafurio nid at gynnaliaeth, nac i wneuthur daioni, ond i dyru, nas gŵyr dyn i bwy, nac i ba ddyben.

TWRF, TYRFAU, (twr) trawst, dyaspad, dadsain, twrdd, gorddyar, ysgorth; crebachu, tynu yn nghyd; twrf giau, crebachiad y cyhyrau; tyrfau, taranau; twrf dyfroedd, sŵn dyfroedd; twrf y môr, rhuad y môr; twrf teyrnasoedd, sŵn teyrnasoedd yn terfysgu ac yn rhyfela. Psalm 93. 4. Esa. 13. 4. a 17. 12.—'Yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyda thwrf.' 2 Petr 3. 10. Ant heibio (*ροιζηδον*) gyda sŵn tymhestl, fel ystorm ofnadwy. Anmhosibl dychymygu pa fath dwrf dirfawr dychrynllyd a fydd pan fyddo yr holl elfenau yn toddi ac yn llosgi.

TWRN, TYRNAU, (tw-wrn) *Saes.* Turn; tro, crwn, chwyl, cylch. Twrn da, tro da; twrn drwg, tro drwg.

TWYLL—O—ODRUS, (twy) *Heb.* חתל (*hetel*): hoced, dichell, siomedigaeth, siomiant, hud; dichellgar; hocedus, hudo, siomi.

Tan enw pwyll fe ddaw *twyll.* *Diar.*

1. Ymddygiad ysgeler, anghyfiawn, dan ymddangosiad teg. Ps. 10. 7. a 36. 3.——2. Breuddwydion, athrawiaethau gau, a chelwyddau gau-athrawon, yn tueddu i foddhau llygredigaethau dynion, er eu dinystr tragywyddol. Jer. 8. 5. a 9. 6. Esa. 30. 10.——3. Cam-gyhuddiadau, ac ymddygiad anonest; a'r eiddo a feddiennir trwy hyny. Diar. 12. 17. Jer. 5. 27. Seph. 1. 9.

'Y galon sydd fwy ei thwyll na dim, a drwg ddiobaith ydyw; pwy a'i hedwyn?' Jer. 17. 9. Wrth y galon y meddylir, tueddiadau, gweithrediadau, a dymuniadau yr enaid rhesymol; neu yr enaid yn ei holl resymiadau, penderfyniadau, tueddiadau, &c. Nid calon hwn neu arall, ond calonau dynion dan y cwymp; y mae yn gweithredu yn dywyll ac yn dwyllodrus, ac nid yn uniawn, ac yn ol gwirionedd, er dinystr i bawb na chaffo galon ac ysbryd newydd, sef calon hawddgar a da. Yn hawdd yr esgusoda dyn ei hun mewn pethau mawrion a beius; ac y cynnwys feddyliau amgenach am dano ei hun nag sydd yn un â gwirionedd; ei feddyliau am Dduw, am Grist, am y gyfraith, am bechod, &c., ydynt lawn o ddichellion, twyll, a phell oddiwrth y gwirionedd. Twyll calon dyn yw gwir achos paham na bai pawb yn credu ei bod yn ddrwg ddiobaith, sef i'r gradd mwyaf yn

* Olcaster *in Poli Synops.*

Digitized by Google

ddrwg, ac a ddichon gyflawni pob annuwioldeb, anwiredd, creulondeb, gelyniaeth, a ffieidd-dra, ag a gyflawnwyd erioed yn y byd. Y mae profiadau digonol y dichon calon pob dyn gyflawni yn fwriadol, ac yn wirfoddol, y drygau mwyaf, gwedi ei adael iddo ei hun, mewn amgylchiadau addas i hyny, trwy hudiad graddol o'r naill beth i'r llall, gan y twyllwr mawr, Satan. Ond y mae Duw yn ei hadnabod yn ei holl ddichellion, ei holl ddyfnderoedd o drueni, a phob peth a gyflawnwyd gan neb, neu a ddichon neb ei gyflawni: a'r Duw hwn a drefnodd feddyginiaeth effeithiol a digonol iddi. Gwelir calonau miloedd gwedi eu cwbl iachâu!

'Ac yn dwyllwyr meddyliau.' Titus 1. 10. *Gr.* φρεναπαται, athrawon yn twyllo meddyliau dynion â chyfeiliornadau a gau-dybiau, i gymmodi eu cydwybodau â'u drwg-fucheddau. Edr. **Bwa, Dichell, Hoced, Trin.**

Ni chafwyd twyll yn ngenau Crist, am nad oedd dim twyll yn ei galon; yr oedd yn adnabod pob peth, ac yn barnu am bob peth yn berffaith gywir; yr oedd ei enaid, yn ei holl resymau, ei weithrediadau, ei benderfyniadau, ei ddymuniadau, &c., yn berffaith gywir ac uniawn. Gan ei fod felly yn berffaith, ac yn gwbl gywir yn dufewnol, rhaid ei fod felly hefyd yn allanol, yn ei eiriau a'i rodiad. Esaiah 53. 9. 1 Petr 2. 22. Luc 23. 41.

TWYM—O—NO, (twy) claiar, lledfrwd, mwgl, mwll; cynhesu, gwresogi, mwyglo. Ezec. 24. 11. Dan. 3. 19. Hos. 7. 4. Edr. **Ymdwymno.**

Iachus arogl bara *twym*, afiachus ei fwyta. *Diar*

TWYS—EN—AU, (twy) twys ŷd, còl ŷd. Gen. 41. 5. Hos. 8. 7.—'Yd llawn yn y dywysen,' sydd yn ddarluniad dammegol o ras yn ei gyflawn dyfiant mewn gogoniant. Y mae y dechreuad yn fychan, y cynnydd yn raddol, ond y perffeithiad yn ogoneddus iawn. Marc 4. 28.

Er gwaned yw'r eginyn,
Cyfyd yn hyfryd er hyn,
Yn *dwysen* lân ddiana,
Os bydd yn wir mewn tir da.

TY—AU, annedd, cartref, trefred, trefad, tref; tylwyth tŷ, teulu.—Arwydda tŷ, 1. Trigfa, neu breswylfod. Gen. 19. 3. Felly y mae y corph yn dŷ i'r enaid, a'r bedd yn dŷ i'r meirw. Job 4. 19. a 33. 23. Preg. 12. 3. 2 Cor. 5. 1.——2. Y teulu, y dynion, neu y genedl a fyddo yn cyd-drigo. Heb. 11. 7. Act. 10. 2. Num. 1. 18—45. 1 Sam. 2. 32. a 3. 12, 13. 1 Cron. 24. 4. Esa. 48. 1. Ezec. 2. 5. Hos. 5. 1. Mic. 3. 1, 9.——3. Cyfathrachwyr, perthynasau, a hiliogaeth. Luc 1. 27. 2 Sam. 7. 18.——4. Meddiannau, neu gyfoeth, yn perthyn i deulu. Edr. **Bwyta.** Marc 12. 40. Mat. 23. 14. Luc 20. 47.——5. Gofalon, a negesau perthynol i deulu. 2 Bren. 20. 1. Esa. 38. 1.——6. Temlau eilunod. 2 Bren. 5. 18. a 10. 21.——7. Calon pechadur sydd yn dŷ, neu drigfan i'r diafol. Mat. 12. 29, 44.——8. Llochesau creaduriaid gwylltion. Diar. 30. 26.

'Tŷ Dduw,' yn iaith y Bibl, ydyw y nefoedd—yr eglwys—y babell—y deml—a'r ordinhadau. Efe a'u ffurfiodd, eu trefnodd, eu hadeiladodd, eu dodrefnodd, ac sydd yn llywodraethu ynddynt; yr oedd, neu y mae, yn preswylio, ac yn amlygu ei allu, ei ogoniant, a'i ras, mewn modd neillduol ynddynt. Yn ei dŷ y cymdeithasa â'i bobl, y byddant yn ddiddos, ac yn ddiwall byth. Barn. 18. 31. 2 Cron. 5. 14. Ps. 84. 10. 2 Cor. 5. 1. Can. 1. 17. Esa. 56. 5. Ioan 14. 2. Heb. 3. 2. Edr. **Bethel, Cyntedd, Eglwys, Jacob, Pabell, Teml.**

Gelwir y saint yn dŷ, ac yn deulu Duw, 'teulu y ffydd;' y maent gwedi eu gwneuthur yn saint gan yr Ysbryd Glân; gwedi eu haddurno â gras ysbrydol, ac yn cael eu nerthu i gredu yn Nghrist; y mae Duw yn preswylio ynddynt, ac yn eu plith, fel eu Harglwydd, eu Tad, a'u Pen-teulu; ac y mae gweinidogion y gair, a'r angelion, fel gweision, yn gweini iddynt. Mat. 13. 27. a 21. 33. Gal. 6. 10. Eph. 2. 19. a 3. 15. 1 Petr 2. 5. Edr. **Mab, Plant, Tad.**

'Tŷ wedi ei adeiladu ar y graig.' Edr. **Craig.**

'Gwae y rhai sydd yn cysylltu tŷ at dŷ, ac yn cydio maes wrth faes,' &c. Esa. 5. 8. Y cyfryw rai ydynt yn prysuro i ymgyfoethogi trwy dwyll, trais, a gorthrymder, er mawr niwed ac anghysur i eraill. Mic. 2. 2, 3. Nid ydwyf yn deall, oddiwrth y geiriau, ei fod yn beth cwbl anghyfreithlawn, yn mhob amgylchiad, i 'gysylltu tŷ wrth dŷ,' a 'chydio maes wrth faes,' ond y mae felly pan ei gwneler drwy drais, neu pan fyddo yn orthrymder i eraill; a'r chwant at feusydd eraill, sydd ynddo ei hun yn bechod yn ngolwg Duw, pe na byddai iddo byth dori allan mewn gweithred o drais a gorthrymder.

'Nid yw prophwyd heb anrhydedd, ond yn ei wlad ei hun, ac yn ei dŷ ei hun.—Ac ni wnaeth efe nemawr o weithredoedd nerthol yno, oblegid eu hanghrediniaeth hwynt.' Mat. 13. 57, 58. Nid oes i ni ddeall y geiriau hyn fel pe buasai Crist gwedi ei ddifeddiannu o'i allu; ond yn unig am na ddygasant ond ychydig gleifion ato i gael eu hiachâu; nid oedd yn barnu yn addas i draws-gymhell ei wyrthiau arnynt, ac felly nis gallasai, mewn dull addas ac anrhydeddus, eu gwneuthur yn eu plith. Nid oeddynt hwy yn ammeu ei allu gymaint, ond ammeu yr oeddynt ei anfoniad, yr hyn yr oedd ei allu yn ei brofi yn ddigonol i bob un diragfarn. Yn y golygiad hwn y mae yn anhawdd dywedyd pa fodd y gallasai yn anrhydeddus, a chyda gweddeidddra, amlhau ei wyrthiau yn mhlith pobl nad ydoedd y gweithredoedd mwyaf ardderchog yn gwneuthur dim llesâd iddynt.

'A'r neb a fyddo ar ben y tŷ, na ddisgyned i'r tŷ, ac nac aed i mewn i gymeryd dim o'i dŷ. A'r neb a fyddo yn y maes, na throëd yn ei ol i gymeryd ei wisg.' Marc 13. 15, 16. Geiriau neillduol o gadarn, ac yn arwyddo y ffoad mwyaf cyflym a phrysur. Y mae yn amgylchiad tra nodedig, ddarfod i'r Rhufeiniaid, trwy ragluniaeth Duw, dan eu tywysog Cestus Galus, gwedi eu cychwyniad cyntaf tua Jerusalem, yn ddisymwth dynu yn ol drachefn, mewn modd annysgwyliadwy ac annoeth; wrth hyn y mae Josephus yn mynegi ei syndod, gan y gallesid cymeryd y ddinas yn hawdd yr amser hwnw. Trwy hyn y rhoddwyd arwydd i'r Cristionogion i ffoi oddi yno ar frys; yr hyn a wnaethant trwy y rhybydd hwn, rhai i Pela, ac eraill i fynydd Libanus, a thrwy hyny a achubasant eu bywydau. Nid oedd hamdden i'r hwn ydoedd ar nen ei dŷ yn rhodio, ddisgyn i gyrchu dim o'r tŷ, er mor werthfawr y byddai; ond aed ymaith ar hyd y grisiau tu allan, y ffordd nesaf, rhag iddo ohirio i'w ddinystr. A'r hwn oedd yn y maes, wrth ei waith, gwedi dyosg ei gochlwisg, fel y byddai yn arferol, nac aed yn ei ol, hyd yn nod ychydig gamrau, i gymeryd ei wisg, rhag i'r gelyn ei oddiweddyd cyn iddo ei chyrhaedd. Y mae yr holl draethiad prophwydoliaethol hwn am ddinystr Jerusalem, yn llawn o ffugyrau araethyddiaeth mwyaf bywiog, wedi ei gwychu â'r addurniadau mwyaf ardderchog o ddarluniad.

Yr ydoedd y tai yn y gwledydd dwyreiniol, yn yr hen oesoedd, ac felly y maent yn bresennol yn gyffredin, gwedi eu hadeiladu yn yr un dull a'u gilydd. Y mae nen neu ben y tŷ, yn anghrwm ac yn wastad, a chwedi ei orchuddio â llechau llydain, neu *blaster* cryf, ac wedi ei ddiogelu o bob tu â mur, neu ganllaw isel. Deut. 22. 8. Ac y maent mor aml ar y nen ag yn un rhan o'r tŷ. Ar hwn, os bydd yr hin yn rhoddi, y rhodiant, y bwytânt, y cysgant, y gweddïant, ac y triniant eu hachosion. 1 Sam. 9. 25. Actau 10. 9. Edr. **Nen.** Y mae y tŷ wedi ei adeiladu â chyntedd oddi fewn, i'r hwn yn benaf yr egyr y ffen-

Digitized by Google

estri; y rhai a edrychant i'r heol ydynt gwedi eu tywyllu felly â dellt, fel na ddichon neb y tu fewn neu y tu allan ganfod dim drwyddynt. Bryd bynag, gan hyny, y bydd dim i'w weled neu i'w glywed yn yr heolydd, un golygiad, neu ddychryn o natur cyffredin, rhed pob un i ben y tŷ i foddhau ei gywreinrwydd. A'r ffordd barotaf a hawsaf i wneuthur dim yn gyhoeddus, oedd ei gyhoeddi o benau y tai i'r bobl yn yr heolydd. 'Yr hyn a glywch yn y glust, pregethwch ar benau y tai.' Mat. 10. 27.

Y bobl oll yn 'rhedeg i benau y tai,' a arwydda rhyw gynhwrf dychrynllyd a disymwth. Esa. 22. 1.

TYAID, TYEIDIAU, (tŷ) llonaid tŷ; tylwyth y tŷ.—'Ac efe a ddynesodd ei dŷaid ef bob yn ŵr.' Jos. 7. 18. ביתו *ei deulu*. Yn achos Achan, ni ddynododd yr Arglwydd y troseddwr yn y fan, ond a adawodd y mater mewn ammheuaeth dros enyd, ac yn y diwedd a'i dygodd i oleuni yn raddol; fel y dysgai i'r swyddogion a'r bobl i wneyd eu dyledswydd, ac i wylied ar eu gilydd; ac fel y byddai i'r oediad wneyd y gwaith yn fwy difrifol, ac i gynhyrfu hunanymholiad mwy manwl, ac ymsancteiddiad ac ymlanhad yn ol pob ffordd osodedig yn y gyfraith. Gwedi hyn penderfynwyd yr achos trwy goelbren, fel cyfeiriad at Dduw, chwiliwr y calonau. Nodwyd llwyth, teulu, a thadogaeth y troseddwr gyda llawer o fanylrwydd, fel na byddai y gwarth gael ei roddi ar neb arall o'r un enw. Dilys fod teimladau Achan yn hylym a gofidus iawn, pan y nodwyd ef allan fel hyn fel y dyn melldigedig, o achos pa un y daeth digofaint Duw ar Israel. Jos. 7. 12. Paham na buasai yn ffoi, neu paham na buasai yn cyfaddef yn gynt tra yr oedd y chwiliad yn myned yn mlaen, sydd yn dywyll, onid oedd o hyd yn dysgwyl y diangasai ryw ffordd. Ond ynfydrwydd oedd meddwl cuddio dim rhag Duw Hollwybodol! na chellwair â Duw eiddigus dros ei ogoniaint! Num. 32. 23. Diar. 13. 21. Jer. 2. 26. Act. 5. 1—10.

TYB—IO, (ty-yb) barn un am beth, traws-amcan, godyb, lletdyb.—'Yn dy dyb di.' 1 Cron. 19. 3. ——'Ac yr ydwyf finnau yn tybied fod Ysbryd Duw genyf.' 1 Cor. 7. 40. Nid yw y geiriau hyn yn amlygu un gradd o ammheuaeth yn yr apostol, a oedd Ysbryd Duw ganddo; ond ei ffordd esmwyth ydyw o sicrhau ei fod, ac hwyrach, a arferir fel gwawd-iaith wrth y gau-athrawon, y rhai oeddynt yn ammeu hyny.——Y gair *Gr.* δοκω, a gyfieithir yma *tybio, tybied*, a arwydda yn aml, sicr, dilys.—'*Tybied* (δοκω) yr wyf ddarfod i Dduw,' &c. 1 Cor. 4. 9. Hyny yw, y mae yn ddilys.——'Os yw neb yn tybied ei fod yn gwybod dim;' δοκει, yn hyderus ei fod yn gwybod. 1 Cor. 8. 2.——'Y rhai a dybir eu bod yn llywodraethu.' Marc 10. 42. οι δοκουντες αρχειν, *y rhai sydd yn llywodraethu*. 'A farnir yn dywysogion.' Campbell.——'Od oes neb (δοκει ειναι) *a fyn fod* yn ymrysongar.' 1 Cor. 11. 16.——'Od oes neb yn tybied ei fod yn brophwyd;' δοκει προφητης ειναι, *yn wirioneddol yn brophwyd*. 1 Cor. 14. 37. Yn y manau hyn mae y gair yn arwyddo, nid ammheuaeth, ond sicrwydd dilys.

TYCIO, (twg) llwyddo, ffynu, llesâu, addasu.—'Ni thycia,' sef ni lesâ, 'trysorau drygioni.' Diar. 10. 2.——'Ni thycia,' sef ni lesâ, 'cyfoeth yn nydd digofaint.' Diar. 11. 4.

Yn angeu ni *thycia* fio. *Diar.*

TYCHICUS, efengylwr enwog, a chyd-deithydd â Paul i Jerusalem âg elusenau y saint. Act. 20. 4. Anfonodd Paul ef gwedi hyny â'i lythyrau at eglwysi Ephesus a Colosse. Eph. 6. 21, 22. 2 Tim. 4. 12. Col. 4. 7, 8. Tebygol ei fod yn olygwr ar eglwysi Crete ar ol Titus. Tit. 3. 12.

TYFU—ADWY, (twf) blaguro, tarddu, anghwanegiad, cynnyddu, prifio, cynnyrchu; cynnyrchadwy, cynnyddadwy.—Arwydda *tyfu*, 1. Tarddu, a myned yn fwy. Gen. 2. 5, 9.——2. Cynnyddu mewn corpholaeth, ychwanegiad o ffrwythlonrwydd, gras, a doniau. Esa. 53. 2.

Yn ol trefn natur, y mae dechreuad pob peth yn ein byd ni yn fychan, ac y mae eu tyfiad a'u cynnydd yn raddol, ac mewn modd dirgelaidd i ni. Mat. 6. 28. Nis dichon neb beri tyfiant, mwy na chreu o ddim. Effeithioldeb gallu dwyfol sydd yn gweithredu yn y naill fel y llall. Yn gyffelyb y mae cynnydd yr efengyl yn y byd, a gras yn y galon; tyfu y maent mewn modd dirgelaidd, o'r bychanrwydd mwyaf, yn wyneb y gwrthwynebiadau cryfaf, i faintioli mawr, yn frigog, ac yn ogoneddus. Marc 4. 27, 32.

TYLATH—AU, (tŷ-llath) dist, cebr, ceibren, trawst.—'Yr hwn sydd yn gosod tylathau ei ystafelloedd yn y dyfroedd.' Ps. 104. 3. Ei ystafelloedd yw y cymylau, o ba rai y disgyn y gwlaw; hyn sydd eglur oddiwrth adn. 13. 'Y mae efe yn dyfrhau y bryniau o'i ystafelloedd.' Goruwch ystafelloedd ei balas ydyw y cymylau, o ba rai y dwg allan ei drysorau, wrth ei ewyllys, yn aneirif; ac yno y mae efe. Ps. 139. 8. a 19. 1. Amos 9. 6.

TYLINO, (dy-glin) meddalhau, gweithio toes. Gen. 18. 6. Jer. 7. 18. Hos. 7. 4. Edr. BARA, TEISEN.

TYLWYTH—AU, (tŷ-llwyth) tyaid, tyaeth, teulu, cymaethlu, cenedl, perthynasau, trasau. Gen. 18. 19. a 24. 40. 1 Cor. 1. 16. Edr. CENEDL, TEULU, TY.

TYMHER—U—US, (tymp) *Llad.* TEMPERAMENTUM; *Saes.* TEMPERATE: ardymher, cymedrolder, mesurolder; cymhwyso, cymysgu; llywodraethu, trefnu; ymgadw, ymattal, arafu; ystwytho, meddalhau, llonyddu; cymedrol, meddal, araf.——'Wedi ei dymheru â halen.' Col. 4. 6. 'Wedy ei gyfansoddi a' halen.' W. S. Edr. GRASOL, HALEN, YMADRODD.

'Yn gyfiawn, yn sanctaidd, yn dymherus.' Tit. 1. 8. 'Temperus.' W. S. 'Yn ddianllad.' Dr M. Y gair *Gr.* εγκρατης, a arwydda, dygynnwysedd, medru ymattal a llywodraethu ei hun; attal a llywodraethu chwantau a thueddiadau natur. Y mae yn cynnwys dianlladrwydd, ond y mae yn cynnwys hefyd sobrwydd, cymedrolder, &c., croes i feddwdod a glythineb.

TYMHESTL—OG—OEDD, (tymp) *Llad.* TEMPESTAS; *Ffr.* TEMPTE; *Saes.* TEMPEST: dryc-hin, ystorm, rhyferthwy, enawel, hin amrosgo. Cynhwrf anarferol yn yr awyr, gyda, neu heb wlaw, cenllusg, &c. Act. 27. 18, 20.—Barnedigaethau Duw ydynt yn debyg i dymhestl, yn anwrthwynebol, yn ddychrynllyd, a'u heffeithiau yn ddinystriol. Job 27. 21. Ps. 11. 6. a 83. 15. Esa. 30. 30. a 54. 11. ——Byddinoedd dinystriol a gyffelybir i dymhestl, o herwydd eu twrf, eu rhuad, a'r dystryw a ddygant gyda hwynt. Ezec. 13. 11. a 38. 9.

'Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd dystaw: tân a ysa o'i flaen ef, a thymhestl ddirfawr fydd o'i amgylch.' Psalm 50. 3. Holl waredigaethau ei bobl a ragflaenwyd, y rhan amlaf, â chynhyrfiadau mawrion yn mhlith cenedloedd y ddaear. Felly yr oedd eu gwaredigaeth o Babilon, dyfodiad Crist yn y cnawd, gwaredigaethau ei bobl oddiwrth erlidigaethau ymerawdwyr Rhufain; ac felly y bydd dystryw Anghrist, a diwedd y byd.

'Y rhai hyn ydynt ffynonau diddwfr, cymylau a yrid gan dymhestl.' 2 Petr 2. 17.—'Yr hain ffynnounay ydynt heb ddyfr, a' niwlenne a ymchwa lar

Digitized by Google

tymestyl.' W. S.—'Y rhai hyn, ffynhonau ydynt heb ddwfr, a niwlinnau a chwale'r dymhestl.' Dr M. Gan fod ffynonau yn anaml, ac ond ychydig o wlaw, yn y gwledydd dwyreiniol, yr oedd yn siomedigaeth ofidus i deithiwr, agos a threngu gan syched, i ddyfod at ffynon heb ddwfr ynddi. Yr oedd y llafurwr yn cael ei siomi yn ddirfawr yr un fath, i weled cymylau yn cyfodi a roddent iddo obaith am wlaw, a'r rhai hyny yn diweddu mewn corwynt tymhestlog; yn lle adfywio, yn dystrywio ffrwythau y ddaear. Trwy y cyffelybiaethau hyn y gosodir allan, mewn lliwiau cryfion, rhodres, gwag-ymddangosiad, rhagrith, ysgafnder, ac effeithiau niweidiol y gau-athrawon. Ymddangosiad gwych, siom a niwed yw y cwbl. Gwagder, ac ystormydd tymhestlog, yn gwneuthur mawr niwed, sydd yn cyd-fyned â hwynt. Arferant eiriau chwyddedig, ond gorwag a disylwedd ydynt; a niwl y tywyllwch yn dragywydd fydd eu diwedd!

TYMHOR—AU, (ty-mhor) amser, pryd, adeg, enyd, seibiant; amser cyfaddas. Gen. 1. 14. Lef. 23. 4. Jer. 8. 7. Y mae tymhorau ffrwythlawn yn gwbl o Dduw, yn brawf diammheuol i bawb o'i fôd, ac o'i ddaioni; ac, yn gyfatebol, yn galw am ein hystyriaeth, ein parch, a'n diolchgarwch ninnau. Act. 14. 17.

Hinon heddwch a wna bob *tymhor* yn hâf. *Diar.*

TYMP, (tym) tymhor, amser; amser i esgor, esgoreddfa.—'A chyflawnwyd tymp Elisabeth i esgor.' Luc 1. 57. *Gr. ο χρονος, yr amser:* esgorodd yn yr amser gosodedig yn ol trefn natur, heb fod yn gynt nag yn hŵy. Y mae amser gosodedig gan Dduw i bob peth; 'amser i eni, ac amser i farw;' ac y mae pob peth yn hardd yn ei amser.

TYMPAN—AU, *Heb.* תוף *(toph); Llad.* TYMPANUM: *Saes.* TIMBREL, TABRET.—Offeryn cerdd, math o dabwrdd bychan a ddygid yn y llaw, tebygol, ac a gurid â'r llaw, neu y bysedd. Arferent chwareu arno ar achosion gwladol a chrefyddol; a sonir yn aml fod y gwragedd yn chwareu arno. Ex. 15. 20. Barn. 11. 34. 1 Sam. 18. 6. Ps. 68. 35. Jer. 31. 4. Ond byddai meibion weithiau yn chwareu arnynt. 1 Sam. 10. 5. Yr un ag a arferir yn bresennol, ac a elwir *Syrian diff*, neu *tambourin*—sef cânt â memrwn gwedi ei estyn drosto, a darnau bychain o bres wrtho, i dincio a rhimynu. Maent yn ei ddal yn y gwaelod âg un llaw, ac â'r llall yn ei daraw. Mae yn offeryn arferedig er y cynddydd. Gen. 31. 27.

TYNER—ACH—WCH, (twn) *Gr.* τερην; *Llad.* TENER; *Saes.* TENDER: meddal, ystwyth, ieuanc, mwyn, tirion, hynaws, trugarog, tosturiol; mursenaidd; meddalwch, tiriondeb, teimladrwydd.—1. Gwan, eiddil, a llesg. Gen. 33. 13.——2. Moethus a destlus. Deut. 28. 56.——3. Ieuanc, ac wedi ei fagu a'i ddwyn i fynu yn ofalus. Diar. 4. 3. 1 Cron. 22. 5. Edr. MEDDAL, TOSTURIOL.

TYN—U, (ty-yn) llusgo, arwain, tywyso, denu; darlunio, portreiadu.—1. Tynu tu ag at un. Barn. 3. 22.——2. Myned. Job 21. 33.——3. Gwrthgilio, yw tynu yn ol i golledigaeth, sef ymwrthod â Christ, a'i grefydd, a ffyrdd sancteiddrwydd. Heb. 10. 38. ——4. Arwain un yn gaeth gan ei chwant. Iago 1. 14. Mae y chwant yn ei ddenu, yn ei gymhell, a'i lithio.

'Ni ddichon neb ddyfod ataf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef.' Ioan 6. 44. Can. 1. 4. Nid yw gwaith y Tad yn tynu pechadur at Grist, yn arwyddo fod neb yn dyfod yn anewyllysgar ato; ond gwneuthur dyn yn ewyllysgar, yw y tynu o eiddo y Tad. Nid oes un rhwystr ar ffordd pechadur i ddyfod, ond sydd yn ei ysbryd ei hun. Mae ysbryd balch, daearol, ac ansanctaidd dyn dan y cwymp, yn gwbl groes i natur ysbrydol a sanctaidd yr efengyl. Nid oes dim a gymmoda â'r efengyl, ond nerthol weithrediad gallu dwyfol. Y Tad, yr hwn a anfonodd ei Fab i achub pechaduriaid, a raid eu tynu ato, ac onidê, gwrthodant ef yn gyffredinol.—1. Nid yw yr efengyl yn cael neb yn ewyllysgar.——2. Ni ddaw neb yn anewyllysgar; canys dewisiad yr ewyllys yw y dyfod. Nid oes neb yn cael ei achub *yn erbyn ei ewyllys.*——3. Y mae yr Arglwydd yn tueddu, trwy ei ras, y rhai a achubir, i ddyfod ato yn ewyllysgar.——4. Trwy eu dysgu y mae yn eu tynu. 'Pob un a glywodd gan y Tad, ac a *ddysgodd*, sydd yn dyfod ataf fi.' Y mae yn eu dysgu i adnabod perffeithrwydd ac uniondeb y gyfraith—natur pechod—perygl cyflwr y pechadur—gosodiad Crist yn ei swydd o achub—ei addasrwydd cyflawn i hyny; yn y golwg hwn nis dichon iddynt beidio myned ato.——Y mae yn tynu, yn gyntaf, i gyflwr grasol, sef i undeb â Christ. Yn ail, tynir ef i weithrediad grasol. Y cyntaf a feddylir yma, a'r ail a feddylir yn Can. 1. 4. Yn mhob gweithrediad grasol o eiddo y pechadur, y mae gweithrediad nerthol Ysbryd Duw arno. Mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a deddf *yn* yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl. Ioan 12. 32. Jer. 31. 3. Hos. 11. 4.

'Yn ei ostyngiad, ei farn ef a dynwyd ymaith.' Act. 8. 33.—'Yn ei 'oystyngeiddrwydd y dyrchafwyt ei varnedigeth.' W. S.—'Yn ei ostyngiad y derchafwyd ei farn.' Dr M. Yn Esaiah mae y geiriau fel y canlyn: 'O garchar ac o farn y cymerwyd ef.' Pen. 53. 8. Ystyr y geiriau, tebygol, yw, yn ol ein cyfieithiad ni, 'yn ei ostyngiad' (*εν τη ταπεινωσει αυτου*) sef yn y cnawd—gwedi cymeryd arno agwedd gwas—yn ei waradwydd—ac yn ei ddyoddefiadau, ei farn gyflawn a dynwyd ymaith, ac ymddygwyd tu ag ato yn y modd mwyaf anghyfiawn a chreulawn. Rhydd rhai ystyr y geiriau, O garchar ac o farn y cymerwyd ef i ogoniant; yn ei ddarostyngiad tynwyd ymaith y farn gondemniol, a dyrchafwyd ef yn ogoneddus—cymerwyd ef i fynu mewn gogoniant. 1 Tim. 3. 16. Cyfieithiad y LXX. a roddir yn yr Actau gan Luc. Yr oedd yr eunuch yn darllen y cyfieithiad hwnw yn ei gerbyd.

TYNO, (twn) gwastad-tir, dernyn gwastad o dir, glas lanerch, cadlas:

Coed, maes, *tyno*, a bryn. *Taliesin.*

Hefyd, y tafod sydd yn myned i fortais, oddiwrth y gair *Saes.* TENON. Exod. 26. 17, 19. a 36. 22, 24.

TYNGEDU, (tynged) rhoddi un ar ei lŵ, ei dyngu. —'Yr arch-offeiriad a ddywedodd wrth yr Iesu, Yr ydwyf yn dy dyngedu di trwy y Duw byw, ddywedyd o honot i ni, ai tydi yw y Crist, Mab Duw.' Mat. 26. 63.—'Mi ath dyngaf trwy 'r Duw byw.' W. S. Εξορκιζω, *Yr wyf yn enw Duw*, neu, *megys yn ngwyddfod Duw, yn dy dyngu yn y modd mwyaf difrifol.** Dyma y ffordd arferol o roddi un ar ei lŵ, ac yr oedd y troseddwr, neu y tyst, yn rhwym i ateb megys ger bron, ac yn ngwyddfod Duw. 1 Sam. 14. 24, 27, 28. Am ei dystiolaeth dda yn ateb i hyn y barnwyd Crist i farwolaeth.

TYRANNUS, trigiannydd yn Ephesus, yn ysgol yr hwn y bu Paul yn ymresymu, ac yn dysgu beunydd. Act. 19. 9.

TYRED, yn hytrach DYRED, (dyre) *Gr.* δευρο, *(deyro)*; dyfod, dynesu; arferir ef, y rhan amlaf, yn y modd gorchymynedig; megys, dyred yma, dyred yn nes, dyred i mewn, dyred gyda ni, &c. Diar. 1. 11. a 25. 7. Gen. 24. 31. a 27. 21, 26. 1 Bren. 14. 6.

TYRFA—OEDD, (twrf) lliaws, torf.—Bydd gwaredigion yr Arglwydd, pan gesglir hwynt at eu gilydd,

* Gwel Schleusner.

Digitized by Google

yn 'dyrfa fawr nas geill neb ei rhifo.' Dat. 7. 9. a 19. 6. Byddant yn dyrfa wedi eu golchi a'u cânu, oll yn ogoneddus ac yn fuddugoliaethus.——'Megys tyrfa dau lu.' Can. 6. 13. Edr. SULAMEES, TORF.

TYRFU, (twrf) tyru, casglu yn nghyd; ymgrynhoi, crebachu.—'Troed wedi tyrfu.' Diar. 25. 19. *Heb.* מוּעָדֶת *gwedi ei ryddhau*, neu *ddadgymalu.* '*Out of joint.*' *Saes.* Cyfieithir yr un gair *llithro*, 2 Sam. 22. 37. Ps. 18. 36. a 26. 1.—*crynu*, Ps. 69. 23. Yn rhoddi yr effaith yn lle yr achos: effaith llaciad, neu ryddhad y cymalau, ydyw crynu a llithro. Cyffelyb i hyderu ar droed felly wrth gerdded, yw hyder ar ffalswr (בּגֵד *anffyddlawn*, Esa. 24. 16. Jer. 12. 1.) yn nydd cyfyngder, sef siomedig a phoenus.

TYRU. Edr. TWR.

TYRUS, צוֹר (*tsor*) [*craig*, neu *cadernid*]. Rhoddwyd Tyrus i lwyth Aser. מִבְצַר צֹר 'hyd Zor y ddinas gadarn.' Jos. 19. 29. Ond ni yrasant hwy y Canaaneaid byth allan, tebygol. Rhaid deall wrth Tzor yma, Palæ-Tyrus, yr hen Dyrus yn sefyll ar y cyfandir, ac nid Tyrus yr hon a adeiladwyd ar ynys yn gyfagos i'r cyfandir; yr ydoedd y ddiweddaf heb ei hadeiladu yn amser Josuah. Unwyd yr ynys wedi hyny â'r cyfandir, ac ar y cyfyngdir hwn yr oedd Tyrus, y ddiweddaf, yn sefyll. Rhaid, gan hyny, olygu tair dinas yn myned tan yr enw Tyrus, ar ol eu gilydd; sef Tyrus ar y *cyfandir*, Tyrus ar yr *ynys*, a Tyrus ar y *cyfyngdir*. Un o brif ddinasoedd Phenicia ydoedd Tyrus, yn sefyll ar lân ddwyreiniol Môr y Canoldir. Yr ydoedd Tyrus yn hen ddinas, ond yr ydoedd Sidon yn hynach; am hyny gelwir Tyrus, 'merch Sidon.' Esa. 23. 2, 12. Ond er mai merch Sidon oedd Tyrus, rhagorodd y ferch ar y fam yn fuan mewn maintioli, cyfoeth, a marchnadaeth. Gelwir hi 'Tyrus goronog, yr hon yr ydoedd ei marchnadwyr yn dywysogion, a'i marsiandwyr yn bendefigion y ddaear.' Esa. 23. 8. Rhydd Ezeciel, pen. xxviii., hanes am ei marchnadaeth ëang.

Yr oedd gwedi ei hadeiladu gan y Sidoniaid, ar fryn uchel (sef Palæ-Tyrus) ynghylch pum milltir ar hugain i'r dehau o Sidon. Yr oedd hon oddeutu tair milltir o gylch; ond mewn amser adeiladwyd dinas arall ar yr ynys gyfagos, ac unwyd yr ynys â'r cyfandir, fel y crybwyllwyd. Y ddinas yn cynnwys yr adeiladau ar y cyfandir a'r ynys, gwedi eu huno, yn ei mawredd a'i gogoniant mwyaf, oedd, medd Pliny,* oddeutu pedair ar bymtheg o filltiroedd o gylch; yn cynnwys, tebygol, y maes drefydd. Yr oedd i Tyrus a Sidon, weithiau, wahanol freninoedd, ac weithiau nid oedd ond yr un brenin ar y ddwy.

Yr ydoedd gynt yn y môr cyfagos i Tyrus bysgodyn hynod, i liwio porphor, yr hwn oedd o fawr glod ac elw i'r Tyriaid. Edr. PORPHOR. Ar lân y môr yr oedd tywod, â pha un y gwnaent y gwydr goreu. Bu hwn hefyd o elw mawr iddynt, ac yn brif eiddo yn eu masnach. Yr afon Adonis hefyd sydd yn hynodol, o herwydd y lliw coch fydd ar ei dyfroedd ar amserau; byddant ar achlysuron yn goch fel gwaed, ac yn lliwio y môr yn mhell â'r lliw hwnw, er rhyfeddod i lawer. Yr achos o'r ymddangosiad rhyfedd hwn, ydyw math o *minium*, neu ddaear goch, a ddug y dyfroedd gyda hwynt, pan godant i ryw uchder neillduol, ag sydd yn lliwio y dyfroedd felly. Y mae yr un ymddangosiad coch yn y dyfroedd yn parhau hyd heddyw. Gwel Maundrell's *Travels.*

Y Tyriaid ydoedd y bobl fwyaf eu hantur, eu gwybodaeth o forwriaeth a masnachaeth, o bawb y rhoddir hanes am danynt yn yr hen oesoedd. Yr oeddynt yn masnachu i'r Aipht, Eolia, Cilicia, Hispaen, gwlad Groeg, Cappadocia, Syria, Arabia, Media, Persia, Mesopotamia, Lydia, Affric, ynysoedd Môr y Canoldir, ac â'r Iuddewon. Yr oedd Hiram, eu brenin, a Solomon, yn gyfrinachol iawn. Edr. HIRAM, SOLOMON. Yr oedd y Tyriaid mewn cynghrair yn erbyn yr Iuddewon yn amser Jehosaphat. Ps. 83. 7. Ac yn nyddiau Ahaz dygasant ymaith lawer o'r Hebreaid, ac a'u gwerthasant hwynt yn gaethion i'r Groegiaid. Joel 3. 4.

Yr oedd Tyrus yn ei gwychder mwyaf pan y rhagfynegodd y prophwydi Esaiah ac Ezeciel ei dinystr. Esa. xxiii. Ezec. xxv, xxvii, a xxviii. Golygiad byr ar gyflawniad y prophwydoliaethau, a ddwg dan ein hystyriaeth y dygwyddiadau hynotaf yn hanesiaeth y bobl hyn. Y pechodau a ddygasant farnedigaethau trymion Duw arnynt, oedd, 1. Eu balchder. Esa. 23. 9. Ezec. 28. 2, &c. Ithobal, yr hwn oedd frenin Tyrus pan gymerwyd hi gan frenin Babilon, ydoedd ddyn balch, uchelfrydig, a thrahaus; yn hòni ei fod yn gwybod y dirgeledigaethau oll, ei fod yn ddoeth fel Daniel, ac yn cyd-raddu ei hun â'r duwiau; ac mai ei ddoethineb a barodd iddo ei holl lwyddiant a'i gyfoeth, a balchiodd o herwydd ei gyfoeth. 'O herwydd hyny, wele fi,' medd Duw, 'yn dwyn i'th erbyn ddyeithriaid, y trawsaf o'r cenedloedd;—disgynant di i'r ffos, a byddi farw o farwolaeth yr archolledig, yn nghanol y môr.' Ezec. 28. 7, 8.——2. Eu rhysedd a'u gloddest. Ezec. xxvii.——3. Eu drygioni yn gyffredinol, a'u creulondeb yn neillduol tu ag at genedl Israel, yn eu prynu a'u gwerthu, fel anifeiliaid, yn y ffeiriau. Joel 3. 5, &c. Amos 1. 9. Cyfrif y Psalmydd hwynt yn mhlith y gelynion penaf a chreulonaf a feddai yr Hebreaid. Ps. 83. 6, 7. Gwel hefyd Ezec. 26. 2, 3. Yr oeddynt yn llawenychu a yn gwawdio yn dost ar ddinystr Jerusalem gan Nebuchodonosor.——4. Eu heilun-addoliaeth. Joel 3. 5, &c. Y pechodau hyn, a'u cyffelyb, a barodd y prophwydoliaethau dychrynllyd yn eu herbyn.——Rhagfynegir yn y prophwydoliaethau,

1. Y byddai iddi gael ei chymeryd gan y Caldeaid, pobl anenwog pan brophwydwyd hyn; ac yn neillduol gan Nebuchodonosor, brenin Babilon. 'Efe,' sef y Caldeaid, 'a'i tynodd hi,' sef Tyrus, 'i lawr.' Esa. 23. 13.—'Wele fi yn dwyn ar Tyrus, o'r gogledd, Nebuchodonosor, brenin Babilon,' &c. Ezeciel 26. 1—11. Yr ydoedd Salmaneser, brenin Assyria, wedi gwarchae yn erbyn Tyrus cyn hyn, ond heb lwyddo i'w chymeryd—y Tyriaid, â deuddeg o longau, a orchfygasant ei lynges ef o driugain o longau; a Salmaneser yn marw yn fuan wedi hyn, codasant y gwarchae. Ond llwyddai Nebuchodonosor yn eu herbyn. Llefara y prophwyd am dano fel peth gwedi ei gyflawni eisoes. Ezec. 29. 18. Bu Nebuchodonosor a'i fyddinoedd yn gwarchae yn ei herbyn dair blynedd ar ddeg. O herwydd hyny y dywedir iddo ef 'beri i'w lu wasanaethu gwasanaeth caled yn erbyn Tyrus, pob pen a foelwyd, a phob ysgwydd a ddynoethwyd.' Y mae yn eglur, oddiwrth y prophwydoliaethau, i Nebuchodonosor *lwyr ddinystrio* Tyrus. Cafodd hi yn wag o drigolion, ac o gyfoeth; o herwydd hyny, dialodd ar y gweddill oedd yno yn greulawn, ac ar yr adeiladau, ac a'u dyfethodd yn llwyr. Jer. 27. 3. a 47. 4. Amos 1. 9, 10. Gwel Josephus *yn erbyn* Apion, *b.* i. *sec.* 20, 21. *Jewish Antiq.*, *b.* x. *c.* xi. *sec.* 2.

2. Y byddai i'r trigolion ffoi i'r ynysoedd tros Fôr y Canoldir, ac i'r gwledydd oddi amgylch, ac na byddai iddynt yno gael llonyddwch. 'Ewch trosodd i Tarsis,' sef Tartessus yn yr Hispaen.—'Cyfod, dos i Chittim,' sef ynysoedd Môr y Canoldir, a'r gwledydd cylchynol; 'yno chwaith ni bydd llonyddwch.' Esa. 23. 6, 12. Y cynghor hwn sydd i'w olygu yn brophwydoliaeth. Gwel hefyd Ezec. 26. 18. Yr oedd ganddynt drefedigion agos yn holl barthau y byd, ac yr ydoedd yn naturiol iddynt ffoi at y rhai hyny yn eu cyfyngder. Pan welsant hwy fod eu dinas ar gael ei

* Pliny's *Nat. Hist.*, *b.* v. *c.* 17.



Digitized by Google

chymeryd, gorlanwasant eu holl longau â'u trysorau gwerthfawrocaf, ac a'a dygasant gyda hwynt i'r lleoedd tramor hyn. O herwydd hyn y dywedir, 'Nid oedd am Tyrus gyflog iddo, ac i'w lu.' Ezec. 29. 18. Ond ni chawsant hwy ddim llonyddwch yn y gwledydd y crwydrasant iddynt.

3. Y byddai iddi gael ei hadgyweirio a'i hadeiladu drachefn yn mhen deng mlynedd a thriugain. 'Yn mhen deng mlynedd a thriugain yr Arglwydd a ymwel â Thyrus, a hi a ddychwel at ei helw, ac a buteinia â holl deyrnasoedd y byd, ar wyneb y ddaear.' Esa. 23. 17. 'Anghofir Tyrus ddeng mlynedd a thriugain, megys dyddiau un brenin.' Adn. 15. Sef un deyrnas; hòno oedd Babilon, yr hon oedd i barhau ddeng mlynedd a thriugain. 'Y cenedloedd hyn a wasanaethant frenin Babilon ddeng mlynedd a thriugain. A phan gyflawner deng mlynedd a thriugain, myfi a ymwelaf â brenin Babilon,' &c. Jer. 25. 11, 12. Tyrus a gymerwyd gan Nebuchodonosor yn y 32 flwyddyn o'i deyrnasiad, a 573 o flynyddoedd cyn Crist. Cyfrif deng mlynedd a thriugain o'r flwyddyn hòno, a'n dwg i'r flwyddyn 503 cyn Crist, a'r bedwaredd ar bymtheg o deyrnasiad Darius Hystaspes. Yn yr amser hwnw cawn hanes am y Tyriaid yn cynnorthwyo yr ymerawdwr hwnw â'u llynges; gan hyny, rhesymol ydyw barnu eu bod yr amser hwnw wedi eu hadferyd i'w breintiau gynt. Gwel Prideaux's *Con. p.* i. *b.* 2. a 4. Yn amser Alexander yr oeddynt wedi cynnyddu i'r cyfryw fawredd a gallu, fel y llesteiriasant ymdaith prysur y buddugoliaethwr hwnw, fwy nag un rhan o ymerodraeth Persia. Ond rhaid deall hyn am Tyrus ar yr ynys, ac nid yr hen ddinas ar y cyfandir.

4. Ond byddai i'r ddinas hon gael ei chymeryd a'i dinystrio drachefn. Esa. 23. 6. Ezec. 27. 32. Cyflawnwyd y cyntaf gan Nebuchodonosor, a'r diweddaf gan Alexander. Am y dinystriad hwn y prophwydwyd yn neillduol gan Zechariah, yr hwn a brophwydodd yn amser Darius, lawer o flynyddoedd gwedi y cyntaf; am hyny, rhaid barnu iddo brophwydo am yr ail ddinystriad hwn. Pen. 1. 1. a 7. 1. 'A Thyrus a adeiladodd iddi ei hun amddiffynfa, ac a bentyrodd arian fel llwch, ac aur coeth fel tom yr heolydd. Wele yr Arglwydd a'i bwrw hi allan, ac a dery ei nerth hi yn y môr; a hi a ysir â thân.' Zech. 9. 3, 4. Gwir ydyw iddi adeiladu iddi ei hun amddiffynfa; yr ydoedd ei sefyllfa ar yr ynys yn gadarn, ac heblaw y môr yn amddiffynfa iddi, yr ydoedd iddi yn amddiffynfa fur o gant a hanner o droedfeddi o uchder, a'i drwch yn gyfatebol. Yr ydoedd ei chyfoeth hefyd yn aneirif; etto, 'bwrw yr Arglwydd hi allan, ac a dery ei nerth hi yn y môr; a hi a ysir â thân.' 'Am hyny y dygaf dân allan o'th ganol, hwnw a'th ysa; a gwnaf di yn lludw ar y ddaear yn ngolwg pawb a'th welant.' Ezec. 28. 18. Felly, yn gyfatebol i hyn, Alexander a warchaeodd arni, a'i cymerodd, ac a'i llosgodd hi â thân.* Yr ydoedd adfeiliadau yr hen ddinas yn gynnorthwyol neillduol iddo i gymeryd y ddinas newydd; canys â choed a cheryg, malurion yr hen ddinas, y gwnaeth sarn o'r cyfandir i'r ynys, ac felly yn cyflawni mewn modd hynod eiriau y prophwyd; 'A'th geryg, a'th goed, a'th bridd, a osodant yn nghanol y dyfroedd.' Ezec. 26. 12. Bu saith mis wrth y gorchwyl hwn; ond bu yn hynod o gynnorthwyol iddo i gymeryd y ddinas. Amddiffynodd y Tyriaid y ddinas gyda llawer o wroldeb a medrusrwydd milwraidd: gwnaethant beiriannau addas i daflu tywod poeth ar filwyr Alexander, yr hwn a'u poenodd hwynt yn ddirfawr, ac a ddystrywiodd lawer o honynt: ond ni lwyddai dim yn erbyn amcan a gosodiad Duw: yr oedd yr Arglwydd gwedi penderfynu dinystr Tyrus, o herwydd pechodau y trigolion; am hyný llwyddodd Alexander, fel offeryn Duw, i gwblhau hyny. Diangodd llawer y tro hwn, fel o'r blaen, dros y môr;* ond lladdwyd wyth mil o honynt wrth gymeryd y ddinas, dwy fil gwedi hyny a groeshoeliwyd yn greulawn, a deng mil ar hugain a werthwyd yn gaethion: fel hyn 'y dattrowyd eu tâl ar eu penau eu hunain,' am eu creulondeb yn gwerthu yr Iuddewon yn gaethion. Joel 3. 7. Y mae llawer o amgylchiadau y ddau ddinystriad mewn amrywiol o bethau yn cyfateb i'w gilydd: oud bu eu hadferiad o hwn yn llawer cynt na'r llall. Yn mhen pedair blynedd ar bymtheg wedi hyn, yr ydoedd yn ddigon cadarn i wrthsefyll llyngesau a lluoedd Antigonus. Gwel Prideaux's *Con.*, *p.* i., *b.* 18.

5. Y mae yn arferedig gan Dduw, yn nghanol barn, i gofio trugaredd. Yn nghanol yr holl drallodau a'r adfydau hyn, rhagfynegir hefyd y deuai amser pan y byddai i'r Tyriaid ymwrthod yn llwyr â'u ffiaidd eilunaddoliaeth, a dychwelyd at wir grefydd, ac addoliad y gwir Dduw. Y mae geiriau y prophwyd Esaiah yn hynodol ar y mater hwn; 'Yna y bydd eu marchnad a'u helw yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd: ni thrysorir ac nis cedwir; canys eiddo y rhai a drigant o flaen yr Arglwydd fydd eu marsiandiaeth, i fwyta yn ddigonol, ac yn ddillad parhaus.' Esa. 23. 18. Cymh. Ps. 45. 12. a 72. 10. Zech. 9. 1—7. Baal, neu Hercules y Groegiaid ydoedd eu heilun-dduw penaf; ond trwy eu masnachaeth â'r Iuddewon, daeth rhai o honynt yn broselytiaid i'r grefydd Iuddewig: daeth tyrfa fawr o honynt 'o duedd môr Tyrus a Sidon, i wrando ar yr Arglwydd Iesu, ac i'w hiachau o'u clefydau.' Luc 6. 17. Er nas 'anfonwyd yr Iesu ond at ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel,' etto, 'efe a aeth, ac a giliodd i dueddau Tyrus a Sidon.' Mat. 15. 21. Marc 7. 24, &c. Cawn hanes am wraig fawr ei ffydd yn dyfod at yr Iesu, yr hon ydoedd yn *Syrophenisiad o genedl.* Derbyniodd Gristionogrwydd yn foreu, gyd â'r gwledydd cymydogaethol. Act. 11. 9. Cafodd Paul lawer o Gristionogion yno. Actau 21. 4. a 27. 3. Dyoddefodd llawer yno ferthyrdod creulawn, dan erlidigaeth Dioclesian. Gwedi hyny, yr oedd yn arch-esgobaeth, â phedair-ar-ddeg o esgobaethau dani. Parhaodd yn Gristionogol hyd y flwyddyn 639, pan gymerwyd hi gan y Saraceniaid: adgymerwyd hi gan y Cristionogion, A. D. 1124. Ond yn A. D. 1280, goresgynwyd hi gan y Mamaluciaid. Gwel Jerome, Vitringa, a Lowth, ar Esa. 23. 18. Eusebius, *Eccles. Hist.*, *b.* viii., *cap.* 7. *&* *b.* x., *cap.* 4.

6. Gwedi y cwbl byddai i'r ddinas hon gael ei hollol ddinystrio, a byddai yn daenfa rhwydau i ychydig o bysgodwyr tlodion. 'Minnau,' medd Duw, 'a grafaf ei llwch o honi, ac a'i gwnaf yn gopa craig. Yn daenfa rhwydau y bydd yn nghanol y môr,' &c. Ezec. 26. 4, 5, 6, &c. Y mae tystiolaethau yr holl deithwyr i'r parthau hyny o'r byd, yn rhoddi y sicrwydd mwyaf mai felly y mae yn bresennol. Gwel Pocock's *Description of the East*, *vol.* ii.—Dr Shaw's *Travels.*—Maundrell's *Travels.*—Bishop Newton, *Dissert.* ii, *on Prophecy.*—*Ancient Universal History*, *vol.* ii, viii, ix, x, xvii, xviii.

Yn darlunio Rhufain Babaidd yn Llyfr y Datguddiad, y mae Ioan yn benthyca amryw o ymadroddion o ddarluniad Ezeciel o Tyrus, fel y cenfydd pob un a'u cymharo â'u gilydd. Barna rhai, oddiwrth hyn, fod y naill yn gysgod o'r llall, yn ei gwychder ac yn ei dystryw. Cymh. Ezec. xxvi, xxvii, xxviii, â Dat. xviii. Gwel Coccejus a Vitringa ar Esa. xxiii.—Ond anaddas i mi helaethu ychwaneg yma.

TYST—IO—ION, (ty-yst) *Llad.* TESTIS: arwirwr, ardystiwr, gwybyddiad; arwiro, dangos yn amlwg, dadgan.—Tyst ydyw un yn syml ar ei lw, yn rhoddi tystiolaeth am ryw fater, neu ar ryw achos. Num. 5. 13. Beth bynag sydd yn egluro ac yn profi

* Quintus Curtius, *b.* iv. *cap.* 4.

* Diodorus Siculus, *b*, xvii. Quintus Curtius, *b.* iv, *cap.* 3.

gwirionedd unrhyw beth, a elwir yn dyst yn yr ysgrythyrau. Esa. 3. 9. Job 10. 17. a 16. 8. Ps. 89. 27. Edr. LLEUAD.

**Tri *thystion* Duw am a wnaeth, ac a wna: gallu anfeidrol, gwybodaeth anfeidrol, a chariad anfeidrol; gan nad oes, nas dichon, nas gŵyr, ac nas myn y rhai hyn. *Barddas*.**

1. Wrth gyfraith Moses nid oedd neb i gael ei roddi i farwolaeth wrth dystiolaeth *un* tyst: 'Wrth dystiolaeth dau o dystion, neu dri o dystion, y rhoddir i farwolaeth yr hwn a fyddo marw.' Deut. 17. 6.——2. Llaw y tystion oedd i fod yn gyntaf arno i'w farwaethu; sef i daflu y gareg gyntaf ato. Deut. 17. 7.——3. Os gau dyst a dystiolaethai fai yn erbyn ei frawd, yr oeddynt, gwedi ymofyn yn dda yn y mater, i wneuthur iddo ef fel yr amcanodd efe wneuthur i'w frawd. Deut. 19. 16—19.

Dygwyd gau dystion yn erbyn yr Arglwydd Iesu, ond nid oedd eu tystiolaethau hwy yn gyson. Marc 14. 55, 56. Felly y gwnawd hefyd yn erbyn Naboth a Stephan. 1 Bren. 21. 10—13. Act. 6. 13.

Am y dull o dyngu tystion yn mhlith yr Iuddewon, Edr. AMEN.

'Yn erbyn henuriad na dderbyn achwyn, oddieithr dan ddau neu dri o dystion.' 1 Tim. 5. 19. 'Dan,' (επι) '*gan* ddau neu dri,' &c. Macknight. '*Ar* dystiolaeth dau neu dri.' Doddridge. Ystyr y geiriau yw, rhaid bod dau neu dri o dystion i brofi y bai; rhydd hyn attalfa ar gyhuddiadau disail yn erbyn gweinidogion yr efengyl.

'Ac y proffesaist broffes dda ger bron llawer o dystion.' 1 Tim. 6. 12. Y tystion, ger bron pa rai yr oedd Timotheus i ymdrechu hardd dêg ymdrech y ffydd, i broffesu proffes dda, oedd nid un gymanfa neillduol, ond holl ddynolryw; ïe, hefyd, yr angelion etholedig (pen. 5. 21.) y rhai oeddynt dystion o'i ymddygiad yn yr ymdrechiad, yn addef ac yn cyhoeddi Iesu Grist yn Fab Duw, yn Achubwr y ffyddloniaid, a Barnwr pawb.

Y mae yr enw *tyst* yn cael ei briodoli i bob un o'r Personau Dwyfol. 'Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef,' &c. 1 Ioan 5. 7. Y mae Duw yn dyst cyflym yn erbyn pechaduriaid; y mae yn sylwi arnynt, a dadguddia eu drygioni, ac a'u cospa o'i blegid. Jer. 29. 23. Mal. 3. 5. Tystiolaethodd y Tad o'r nefoedd, mai Iesu oedd ei anwyl Fab, y Crist, y gwir Fessïah. Mat. 3. 17. a 17. 5. Esa. 42. 1, &c. Mat. 12. 18. 2 Petr 1. 17. Rhoddodd iddo wneuthur gweithredoedd yn ei enw oeddynt dystion amlwg pwy oedd, yn cyfateb yn gwbl i dystiolaethau y prophwydi am dano.

Tystiolaeth Crist yw, naill ai y dystiolaeth a dystiolaethodd Crist am dano ei hun, neu dystiolaeth eraill am dano, sef yr apostolion ac eraill. 'Tystiolaeth cydwybod,' yw yr hyn a dystiolaetha cydwybod:—'tystiolaeth dyn,' yw yr hyn a dystiolaetha dyn:—'tystiolaeth Duw,' yw yr hyn a dystiolaetha Duw: felly, 'tystiolaeth Crist,' yw yr hyn a dystiolaethodd Crist am dano ei hun, yr hwn a elwir yn 'dyst ffyddlon a chywir.' Esa. 55. 4. 1 Cor. 1. 6. 2 Cor. 1. 12. 1 Ioan 5. 9. Dat. 1. 5. a 3. 14. Nid oes yr un tyst heb dystiolaeth: rhydd Ioan ei dystiolaeth i ni, pen. 8. 12. 'Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt drachefn, gan ddywedyd, Goleuni y byd ydwyf fi; yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd.' Gelwir y dywediad hwn, *Ei dystiolaeth am dano ei hun*. Adn. 4. 'Goleuni y byd,' a 'goleuni y bywyd,' yw, medd efe ei hun. Trwy yr athrawiaeth am dano, a gwybodaeth o hono, y mae pechaduriaid yn cael bywyd. Efe yw 'Haul cyfiawnder, â meddyginiaeth yn ei esgyll,' sef bywyd ac iechyd ysbrydol. Mal. 4. 2. Tystiolaethodd yr un peth trwy yr holl wirioneddau a bregethodd, yr holl wyrthiau a wnaeth, ei farwolaeth, a'i adgyfodiad; ac y mae yn tystiolaethu o hyd trwy ei ordinhadau. Yn y cwbl, tystiolaetha mai efe yw Mab Duw, a'r gwir Fessïah, a bod bywyd i bechadur i'w gael ynddo, fel y cyfryw. Llefarodd, yn aml, fel tyst ar ei *lŵ*, wedi ei dyngu, wrth ddywedyd, 'Yn wir, yn wir,' αμην, αμην, *amen, amen*. Edr. AMEN.

Y mae yr Ysbryd Glân hefyd yn dyst i'r un pwnc mawr; tystiolaethodd trwy weithredu llawer o wyrthiau yn enw yr Iesu, ac y mae yn tystiolaethu i gydwybodau dynion am wirionedd yr athrawiaeth am Grist, ac mai Iesu yw y Crist, Mab Duw. Nid oes neb a gred y dystiolaeth allanol yn wirioneddol, heb yr ardystiad tufewnol hwn o eiddo yr Ysbryd, i'r deall a'r gydwybod. 'Yr Ysbryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu.' 1 Ioan 5. 6. Heb. 10. 15. Y mae yn goleuo y deall i amgyffred y gwirionedd yn ei eglurder; ac eglurder a chadernid y prawf o hono sydd yn plygu yr ewyllys felly i'w gofleidio, ac yn sicrhau y gydwybod gyda thawelwch ynddo fel gwirionedd Duw, a chwbl addas iddo. Rhydd yr Ysbryd awdurdod dwyfol y gwirionedd yn ysbryd y dyn, yn ei oleuni, ac yn ei gadernid, nes y byddo yn fuddugoliaethus yn gorchfygu pob gwrthddadl, a phob gwrthwynebiad. Nid sicrwydd rhesymau dynol ydyw hwn, ond sicrwydd yn deilliaw oddiwrth yr olwg ar ddysgleirdeb dwyfol y gwirionedd yn y gair, yn profi i'r meddwl, tu hwnt i ddadl, mai o Dduw y mae, ac nas gallasai ddyfod o un lle arall. Y mae natur, dyben, a chysondeb y gwirionedd, yn tywynu ar y meddwl yn gryf, yn ngoleu yr Ysbryd Glân, ac y mae tystiolaeth yr Ysbryd yn oruchel yn y gydwybod, yn rhoddi boddlonrwydd a thangnefedd. Heb dystiolaeth ddwyfol yr Ysbryd yn dufewnol yn nghydwybod dyn, nid yw crediniaeth pawb yn y gwirioneddau dwyfol ond ymmodol a sigledig iawn, a'r meddwl yn mhell oddiwrth gyrhaedd boddlonrwydd a thawelwch parhaus, ac anwrthwynebol. Ond fel y mae yr Ysbryd Glân yn trigo yn y gwir gredinwyr, y mae ei dystiolaeth â pharhad ynddi, ac yn cael ei hadnewyddu, wrth achosion yn gofyn hyny, yn meddwl y dyn. Y mae *eglurhad* yr Ysbryd Glân a *nerth* yn y dystiolaeth, cyfatebol i fawredd dwyfol y person sydd yn tystiolaethu; ac nis dichon holl dwyll calon dyn, na grym annhraethol anghrediniaeth, ei gwrthsefyll. Y mae yn tystiolaethu ar y ddaear, yn a thrwy dystiolaeth y dwfr a'r gwaed, sef yn null dyfodiad Crist trwy ddwfr a gwaed, yn cyfateb i'r holl gysgodau am dano, ac yn ei brofi y gwir Grist, Mab Duw; ac yn nyben ac addasrwydd yr athrawiaethau am dano, i gyfiawnhau a sancteiddio pechaduriaid euog ac aflan. Y mae y cyfiawnhau a'r sancteiddio gwirioneddol sydd trwy yr efengyl, neu y pregethiad o Grist, yn tystio fod Crist yn waredwr gwirioneddol ac effeithiol, yr hyn nad ydyw dim arall yn y byd. Y maent yn profi fod Crist yn aberth, sef yn *iawn*, ac yn olchfa, a bod ei waed yn glanhau oddiwrth bob pechod. Yn a thrwy y pethau hyn y mae yr Ysbryd yn tystiolaethu. Mewn gwirionedd, y mae holl weithrediadau iachusol yr Ysbryd Glân yn *dystiolaeth* hefyd, mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw: canys cymeryd o eiddo yr Iesu y mae yr Ysbryd, yn y gwaith hwn, ac yn eu mynegi hwynt i ni; ac fel hyn y mae tystiolaeth Crist am dano ei hun, fel gwaredwr galluog, yn cael ei *chadarnhau* ynddynt. 1 Cor. 1. 6. 'Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun;' sef y dystiolaeth oruchel hon o eiddo y Personau Dwyfol. Y mae y dystiolaeth hon *ynddo*; y mae wedi ei derbyn yn grediniol, y mae yn ei chymeradwyo fel y sicrwydd mwyaf, ac yn ymorphwys arni fel y sylfaen gadarnaf. A ffydd o weithrediad Duw, y mae yn credu tystiolaeth Duw, am Dduw, ac am holl drefn iechydwriaeth yn Mab Duw. Mae y dystiolaeth yn ddwyfol, y gwrthddrych yn ddwyfol, sef Mab Duw, a'r ffydd yn ddwyfol, sef

Digitized by Google

o weithrediad Duw. Beth sydd fwy i'w gael, nac i'w ddymuno? 1 Ioan 5. 10. Edr. FFYDD.

Heblaw hyn, 'Y mae yr Ysbryd hwn yn *cyd-dystiolaethu* â'n hysbryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw.' Rhuf. 8. 16. Y mae ein *hysbryd ni* yn profi ein bod yn blant i Dduw; sef deddf y meddwl, y dduwiol anian, y syniad ysbrydol sydd yn mhawb mewn undeb â Christ. Y mae ynddynt yn wahanol, ac yn tra rhagori ar ddim sydd yn y rhai nad ydynt blant. Oddiwrth weithrediadau cryfion y ddeddf yn yr aelodau, a chyhuddiadau y diafol, y mae y gwaith a'r berthynas, yn aml, yn ammhëus; i orchfygu pob gwrthddadl am y gwirionedd, y mae yr Ysbryd Glân yn cyd-dystiolaethu; nid tystiolaethu heb ein hysbryd ni y mae, ond *cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni.* Y mae yn cryfhau, ac yn cynnyddu tystiolaeth ein hysbryd ni, trwy ei adfywio, &c., ac y mae yn dangos y gwaith tufewnol yn ateb i ddesgrifiad yr ysgrythyrau o'r gwaith hwnw, ac yn chwanegu ei dystiolaeth ei hun o blaid ei waith ei hun. Yma hefyd y mae y dystiolaeth yn oleu, yn gadarn, ac yn fawreddig, yn cyfateb yn addas i fawredd y Person sydd yn tystiolaethu. Y mae yn tra rhagori ar bob dychymygion disail, ar bob rhesymiad dynol, a hôniad cnawdol rhyfygwyr. Nid tystiolaeth heb brawf, ac heb eglurdeb ydyw; ond y mae yn dyrchafu, yn cryfhau, yn cynnyddu, ac yn dangos mewn eglurdeb, y gwaith sydd yn profi fod un yn blentyn i Dduw; yn dangos y gair ac yntau, y ffurf a'r ffurfiedig, yn cyfateb yn fanwl i'w gilydd. Os yw y gair yn gofyn ffydd, cariad, edifeirwch, ufudd-dod, &c., yn mhlant Duw, dengys y rhai hyn oll yn wirioneddol yn ein *hysbryd ni;* ac y mae yn cyd-dystiolaethu mai o Dduw y maent, a bod y rhai sydd yn eu meddiannu yn blant i Dduw.

'Ac mi a roddaf allu i'm dau dyst, a hwy a brophwydant fil a deucant a thriugain o ddyddiau, wedi ymwisgo â sach-lian.' Dat. 11. 3. Gelwir y saint yn gyffredinol yn dystion dros Dduw yn y byd, er fod yr enw hwn yn *neillduol* yn perthyn i'r apostolion a gweinidogion y gair; maent yn tystiolaethu yn athrawiaethol, ac yn fucheddol, yn ol y gair, am Dduw, am Grist, am yr efengyl, a holl ffyrdd sanctaidd Duw, ac yn erbyn pechod, a phob peth sydd yn perthyn i deyrnas y diafol yn y byd, sef holl gyfeiliornadau a gau grefyddau y byd. 'Fy nhystion i ydych chwi, medd yr Arglwydd.' Esa. 43. 10. a 44. 8. Act. 5. 32. a 10. 43. Rhuf. 3. 21. Y mae Joseph yn dyst o burdeb Duw; y mae y tri llanc a Daniel yn dystion fod Duw yn haeddu ei addoli, ac ymddiried ynddo, yn wyneb y peryglon mwyaf.

Ond y ddau dyst uchod ydynt arwydd-lun o gyflwr gwael a chystuddiedig yr eglwys dros yspaid neillduol a therfynedig gan Dduw; ei ffyddlondeb a'i dyoddefiadau yn yr yspaid hwn; ei hadferiad a'i hadgyfodiad gogoneddus yn y diwedd, wedi ei dyoddefiadau yn ei haelodau, yn niwedd yr amser athrist hwn. Y maent yn ddau dyst, sef tystion digonol—y rhif dau, hwyrach, yn cyfeirio at Moses ac Aaron, tystion Duw wrth Pharaoh yn yr Aipht; ac at Elias ac Eliseus, tystion ffyddlon Duw yn erbyn llygredigaethau gwlad Israel; Josuah a Zorobabel wedi hyny. Yn mhob oes lygredig mae gan Dduw rifedi digonol o dystion ffyddlon drosto. Yr oedd ganddo y Waldensiaid a'r Albigensiaid yn y dyddiau mwyaf tywyll a llygredig ar Gristionogrwydd yn Ewrop dan Babyddiaeth. 'Gwedi ymwisgo â sach-lian,' yn debyg i'r hen brophwydi gynt, yn arwydd o anmharch, cystudd, a galar. 'Y rhai hyn yw y ddwy olew-wydden, a'r ddau ganwyllbren sydd yn sefyll ger bron Duw y ddaear.' Dat. 11. 4. Maent yn llawn o olew a goleuni yr Ysbryd Glân; yn ddoeth ac yn ddeallus yn mhethau Duw, ac yn cael cyfraniadau helaeth oddi uchod, yn derbyn o gyflawnder Crist, a gras am ras. Y maent hefyd fel canwyllbreni yn dal y goleuni dwyfol allan, er llesâd i eraill. Tebygol hefyd fod eu galw yn ddau ganwyllbren, yn arwyddo, mai nid rhyw bersonau neillduol fyddent, ond nifer o eglwysi iachus yn y ffydd, âg Ysbryd Duw, a gwir addoliad Duw yn eu plith. 'Y saith ganwyllbren, saith eglwys ydynt;' felly yma, 'y ddau ganwyllbren,' dwy eglwys ydynt: hwyrach, eglwysi Groeg yn tystiolaethu yn erbyn Mahometaniaeth; ac eglwysi pur, union-gred, yn Ewrop, yn tystio yn erbyn Pabyddiaeth, a'i lluoedd o gyfeiliornadau a choel-ddefodau gwag. Cyfeiria y geiriau, diammeu, at Zech. 4. 2, 3, 14. 'Y ddwy gainc olew-wydden, (neu, *meibion yr olew*) sydd yn sefyll ger bron Arglwydd yr holl ddaear,' i'w addoli yn wirioneddol, ac i dystio drosto. Yr olew nefol hwn yw eu cynnaliaeth, eu dyddanwch, ac sydd yn peri eu defnyddioldeb. *Meibion yr olew (Hebraeg)* ydynt, a thrwy hyny, rhagorant ar bawb eraill. Y ddwy bibell aur sydd yn dwyn yr olew oddiwrth y ddau bincyn i'r canwyllbren, ydyw pregethiad a darlleniad yr ysgrythyrau. Barna Mr Faber, mai yr un yw y 'ddau dyst' a'r 'pedwar henuriaid ar hugain —deuddeg porth—a deuddeg sylfaen y Jerusalem newydd,' mewn ystyr cyfriniol, a'u bod yn arwyddo y wir eglwys cyn Crist, ac wedi Crist, yn un corph mawr, cyflawn, er yn gyfansoddedig o ddwy ran gyfansawdd. *Un* genau sydd i'r ddau dyst, nid ydynt yn tystiolaethu yn mhob oes ond yr un gwirionedd mawr, sef iechydwriaeth trwy Grist yn unig. Gwel *Dissert. on the Prophecies, vol.* ii. 'Y mae tân yn myned allan o'u genau hwy i ddyfetha eu gelynion;' yn cyfeirio, tebygol, at Num. 16. 35. 2 Bren. 1. 10. Jer. 5. 14. ac yn arwyddo y byddai barnedigaethau tanllyd Duw ar eu gelynion, o herwydd eu dystyrwch o honynt, a'u creulondeb tu ag atynt. Y mae ganddynt hwy y cyffelyb awdurdod ag ydoedd gan Moses ac Elias, gweision godidocaf Duw yn yr hen oesoedd, i gau y nefoedd, a throi y dyfroedd yn waed, ac i daro y ddaear â phob pla mor fynyched ag y byddont yn mynu. Exod. 7. 20, 21. 1 Bren. 17. 1. Nid oes dim gwlaw gwir athrawiaeth ffrwythlawn, a chysuron dwyfol, yn disgyn yn eu dyddiau ar y ddaear, ond pläau tanllyd ac ofnadwy.

'A phan ddarfyddo iddynt orphen (neu τελεσωσι, *pan y byddont yn tynu at ddiwedd*) eu tystiolaeth, y bwystfil, yr hwn sydd yn dyfod allan o'r pwll diwaelod, a ryfela â hwynt, ac a'u lladd hwynt.' Dat. 11. 7. Dengys y geiriau yn amlwg fod y bwystfil a'r tystion yn cyd-oesi. Yr oedd y ddau dyst yn 'poeni y rhai oedd yn trigo ar y ddaear,' sef y bwystfil a'i ganlynwyr; am hyny, yr oedd y gorfoledd mwyaf yn eu plith, am, gwedi hir ryfel, eu gorchfygu a'u lladd hwynt. Os gellir adnabod y bwystfil, a nodi ei amser ef, gellir hefyd adnabod y rhai sydd yn ei boeni ef a'i ganlynwyr, a gwybod, gyda sicrwydd, amser y tystion. Gwedi eu lladd, a'u cyrph ddyoddef anmharch am dridiau a hanner yn heolydd y ddinas fawr, sef yn ngwledydd Pabyddiaeth, bydd iddynt adgyfodiad a dyrchafiad hynod, trwy nerthol weithrediad Ysbryd Duw, a bydd braw mawr ar y rhai a welant hyn. O'r iselder mwyaf dyrchafa Duw ei achos i fynu yn ogoneddus yn y byd; caiff y tystion eu bywhau yn eu holynwyr yn yr un achos, ac yn meddiannu yr un ysbryd â hwynt. Yr amser y maent i brophwydo, ydyw 1260 o ddyddiau, sef cynnifer a hyny o flynyddoedd, yn cyfrif diwrnod am flwyddyn. Llawer o amrywiaeth meddyliau sydd gwedi bod am gychwyniad yr yspaid rhyfedd hwn o amser ar achos Duw yn y byd: barna y rhan fwyaf ef o'r un hŷd a'r 'ddau fis a deugain y sathra y cenedloedd y ddinas sanctaidd,' (adn. 2.) yr 'amser, amseroedd, a hanner amser,' maethiad y wraig yn y diffaethwch, (pen. 12. 14.); a 'dau fis a deugain y bwystfil.' Pen. 13. 5. Tebygol i mi, gan fod y bwystfil heb ei ddyfetha, fod yr amser

Digitized by Google

heb' ddarfod, ond ei fod ef etto i ddyfod; sef amser y lladdfa ddiweddaf, a'r adgyfodiad ar ol hyny; ond yr ydwyf yn gryf o'r meddwl ei fod yn prysuro, ac yn agosâu at derfyniad. Sobrwydd a pharch addas i Dduw, yw dywedyd ond ychydig am bethau sydd etto i'w cyflawni; hawdd cynnwys dychymygion ansicr a siomedigol gyda hoffder mawr, fel y gwnaeth llawer o'n blaen. Mae goleuni wedi ei roddi ar y prophwydoliaethau yn gyffredinol, sydd ddigonol i gyfarwyddo yr eglwys yn nghylch pob dyledswydd, ac i'w chysuro dan bob trallod. Y mae yr amser yn agos pan y dehonglir y cwbl yn gyflawn. Edr. ADGYFODIAD, ANGHRIST, BWYSTFIL, EGLWYS, MIL, RHIFEDI. Gwel Esgob Newton, Vitringa, Lowman, Dr Bryce Johnston, Faber, &c.

TYSTIOLAETH—AU, (tyst) *Llad.* TESTIMONIUM; *Saes.* TESTIMONY: arwiriad tyst, neu y peth y tystiolaethir am dano. 1 Ioan 5. 9. Actau 14. 3.—Gelwir y llechau yr ysgrifenwyd y gyfraith arnynt, 'Dwy lech y dystiolaeth,' am eu bod yn brawf o berthynas gyfammodol rhwng Duw ac Israel, ac yn mynegi yn eglur beth oedd Duw yn ei ofyn oddi wrthynt. Exod. 25. 16, 21. a 31. 18.——Gelwir holl air Duw, ei dystiolaethau, am ei fod ynddo yn tystiolaethu, yn y modd mwyaf difrifol, beth sydd i ni i'w gredu, i'w ddysgwyl, a'i wneuthur. Ps. 19. 7.——Tystiolaeth ydyw y gyfraith yn neillduol, am fod Duw ynddi yn tystiolaethu beth yw ei ewyllys ef, a'n dyledswydd ninnau. 2 Bren. 11. 12. Felly gelwir yr efengyl hefyd. 2 Tim. 1. 8. 1 Cor. 1. 6. a 2. 1. Edrych FFYDD, PROPHWYDOLIAETH, TYST.

Tystiolaethu yw, 1. Dadgan yn sobr ac yn ddifrifol un peth o flaen barnwr. Actau 20. 24. a 26. 5.——2. Cyhoeddi peth gyda hyfdra disigl, diofn, ac yn gadarn. Ioan 3. 11. a 5. 32. 1 Tim. 6. 13.——3. Gosod mater yn ddifrifol at ystyriaeth a chydwybodau dynion. Ps. 50. 7. Neh. 13. 15.

'Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymydog.' Nawfed gorchymyn. Mae y gorchymyn hwn yn peri pob peth yn ein hymadroddion, wrth, ac am ein cymydog, a fyddo yn gytun, ac yn tarddu oddiwrth berffaith gariad, ac yn gwahardd pob peth croes i hyny, sef a fyddo yn tueddu i niweidio enw da ein cymydog. Diar. 12. 17. a 19. 5. Cariad perffaith yn cael ei ddangos mewn geiriau, yw y cyflawniad o hono. Edr. ABSEN, ANUDON, CELWYDD, ENLLIB, HUSTING, GAU, TAFOD.

TYWALLT—U, (tyw-gwall) gwallaw, dywallaw, heiliaw, arllwys, dyneu, bwrw allan yn fflwch.—1. Rhoddi yn helaeth, yn rasol, ac yn ddiarbed; felly y mae Duw yn tywallt yr Ysbryd Glân, sef yn ei roddi yn helaeth. Diar. 1. 23. Esa. 32. 15. Joel 2. 28. Edr. YSBRYD.—Yn tywallt ei gariad yn nghalonau ei bobl trwy yr Ysbryd. Rhuf. 5. 5.——2. Barn gyfiawn, er mor ofnadwy: felly y mae Duw yn tywallt llid. Ezec. 7. 8. Ps. 69. 24. a 79. 6. Esa. 42. 25. Jer. 42. 18.

'Tywallt y galon ger bron Duw,' a arwydda gweddïo yn rhydd, yn rhwydd, gan hysbysu i Dduw yn ddiattalfa ein hachosion a'n herfyniadau. Galar. 2. 19. Ps. 62. 8.——'Tywallt gwaed,' a arwydda llofruddiaeth, Gen. 9. 6.—marw fel aberth yn iawn am bechod, fel y gwnaeth Crist. Mat. 26. 28.

TYWEL, (tyw) *Ffr.* TOUVAILLE; *Saes.* TOWEL: cedaflen, llaw-lïan, llïan ymsychu.

TYWOD—YDD, (tyw) tywyn, traeth, tywod, tyfod.—Y mae tywod yn ddefnyddiol mewn cymrwd, neu *forter*, i adeiladu; ac hefyd i wneuthur gwydr. Edr. GWYDR. Y mae tri math o dywod, sef tywod y môr, tywod afonydd, a thywod pyllau. Y ddau fath ddiweddaf ydyw y rhai goreu i'w cymysgu mewn *morter*. Tywod Puzzuolo yw y goreu yn y byd, medd De Lorme. Defnyddir tywod gan y toddwyr mwn, i wneuthur cynlluniau, ac y mae yn wrtaith rhagorol i fath o dir cleilyd.

Fel y mae gronynau y tywod yn aneirif, arferir ef i osod allan luoedd dirifedi. Gen. 22. 17. a 32. 12.——Mae y tywod yn drwm hefyd, am hyny dywed Job fod ei ofid yn drymach na thywod y môr. Job 6. 3.——Mae digofaint y ffol, medd Solomon, yn drymach na'r ceryg, na'r tywod; (Diar 27. 3.) sef yn fwy anoddefol, am ei fod heb achos, mesur, na therfyn.

Cyffelybir gau grefydd, a gau obaith am ddedwyddwch, i dŷ wedi ei adeiladu ar y tywod, yr hwn sydd yn dwyllodrus, ac yn siomedig. Mat. 7. 26. Tywod yw pob peth a ddichon pechadur ymddiried ynddo am iechydwriaeth, ond Crist yn ei Berson a'i waith.

Er bod yn hawdd golchi y tywod ymaith, etto gosododd yr Arglwydd y tywod yn derfyn i'r môr, trwy ddeddf dragywyddol, fel nad elo dros hwnw. Jer. 5. 22. Edr. MOR.

TYWYDD, (tyw) hin. Mat. 16. 2.

Am y *tywydd* goreu tewi. *Diar.*

TYWYLL—U—WCH, (ty-gwyll) *Llad.* TENEBRA: diffyg goleuni, tywyllwg, tywyllni, caddug, aneglur, anamlwg, gwyll.—1. Diffyg goleuni naturiol. Gen. 15. 17. Mat. 27. 45.——2. Gorddu, düawg. Job 22. 13. Mic. 3. 6.——3. Annedwyddwch, gofid, a diffyg goleuni hawddfyd. Ps. 35. 6. Job 12. 25. a 18. 6. Preg. 2. 14. Diar. 4. 19. Esa. 5. 30.——4. Anwybodaeth, anghrediniaeth, a chyfeiliornadau, diffyg goleuni ysbrydol, dadguddiad dwyfol, a goleu Ysbryd Duw yn yr enaid. Job 37. 19. Ps. 74. 20. a 82. 5. Diar. 2. 13. Esa. 29. 18. Ioan 3. 19. Gelwir pechod, yn neillduol cyflwr o bechod, a rhodio dan ei lywodraeth ef, yn dywyllwch; nid ydyw dyn yn adnabod dim yn iawn, nac yn ei ganfod fel y mae; nid ydyw yn mwynhau dim gwir gysur, ac nis gŵyr i ba le y mae yn myned. Actau 26. 18. 1 Petr 2. 9. Col. 1. 13. Ioan 1. 5. Eph. 5. 8.——5. Dirgeledig ac anamlwg. Ezec. 8. 12. 1 Cor. 4. 5. Mat. 10. 27. O herwydd hyn y gelwir y bedd yn dywyllwch, lle y mae y goleuni mor annefnyddiol a'r tywyllwch. Job 10. 22. Psalm 88. 12.——6. Anghof, dirmyg, a diystyrwch. Preg. 6. 4.——7. Uffern a elwir y tywyll wch eithaf, dair gwaith. Mat. 8. 12. a 23. 13. a 25. 30. *Εις το σκοτος το εξωτερον, y tywyllwch y tu allan*, sef y tu allan i'r wledd, neu y tu allan i'r deyrnas. Yn ystafell y wledd y mae goleuni llawer o lampau; yr hwn a fwrir allan oddi yno, ac o'r tŷ, sydd yn y tywyllwch, a pho bellaf y symudir ef, tywyllaf i gyd a fydd hi arno. Gosodir y nefoedd allan dan yr arwydd-lun o wledd: byddent yn gwledda gynt yn y nos; yn ganlynol, byddai y tŷ, yn enwedig ystafell y wledd, wedi ei goleuo yn llewyrchus â llusernau hardd a dysglaer; oddi allan y mae y tywyllwch, a phob anghysur. Yn cyfateb i hyn, bydd y nefoedd yn oleu, ac yn llawn o ddanteithion, a phob dedwyddwch; y *tu allan* ni bydd dim ond tywyllwch, a phob trueni yn y graddau mwyaf: a thyna y fath le ydyw uffern. Y gair 'bwrw allan,' sydd berthynol i blant y deyrnas, yr Iuddewon, a phawb yn yr eglwys yma yn y byd trwy broffes, heb wir grefydd ganddynt; bwrir hwynt allan yn y diwedd, a'r tywyllwch eithaf fydd eu rhan annedwydd.

'Gwnaf dywyllwch yn oleuni o'u blaen hwynt, a'r pethau ceimion yn uniawn.' Esa. 42. 16. Sef y pethau oedd yn ymddangos yn dywyll ac yn geimion. Nid yw pethau Duw yn dywyll ac yn geimion, ond y maent yn ymddangos felly i ddyn wrth natur, ac o herwydd hyny, yn cam-farnu am bob peth. Y geiriau ydynt brophwydoliaeth am bregethiad yr efengyl, a'i llwyddiant yn mhlith y cenedloedd deillion. Yr cedd ffordd a threfn yr iechydwriaeth, a holl lwybrau Duw yn anadnabyddus iddynt, ond y mae yr Arglwydd yn

Digitized by Google

addaw eu hysbysu iddynt, a'u harwain yn gadwedigol ar hyd-ddynt. Yr oedd pregethu Crist wedi ei groeshoelio fel Duw i'w addoli, ac fel Achubwr i gredu ynddo, 'I'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb'—sef yn geimion iawn; 'ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw'—sef uniondeb perffaith a gogoneddus. Nid yn y *pethau* y mae y cyfnewidiad, ond yn eu *hamgyffred* hwy o'r pethau; yn eu meddwl tywyll hwy y mae y cyfnewidiad, i'w adnabod yn gywir ac yn uniawn. Hefyd, holl bethau ceimion yn rhagluniaethol, a ymddengys yn y diwedd oll yn uniawn; yr oedd yr holl ddygwyddiadau yn mywyd Joseph unwaith yn geimion, yn ngolwg Joseph, a'i dad Jacob; ond gwelsant hwynt oll yn y diwedd yn uniawn, ac yn ateb dybenion Duw tu ag atynt yn rhagorol. Arweiniodd Duw y bobl o'r Aipht i Ganaan *oddi amgylch;* etto, tywysodd hwynt ar hyd ffordd uniawn i ddinas gyfanneddol (Ps. 107. 7.) yn niwedd y daith, yr oedd yr holl bethau ceimion yn uniawn, ac yn gyflawn o ddoethineb, i ateb y dybenion goreu. Da i ni, a gweddus i Dduw, i ni gredu eu bod yn uniawn, pan nad allwn eu canfod felly: nis dichon Duw drefnu dim ond yn uniawn ac yn ei le.

'Wrth oleuni yr hwn y rhodiwn trwy dywyllwch.' Job 29. 3. Y mae cyfeiriad yn y geiriau, medd Mr Scott, i'r lampau yn crogi oddiwrth nen-fwd ystafelloedd gwledda yr Arabiaid cyfoethog. Nid ydyw tai yr Arabiaid, medd Mr Millet, byth heb oleuni ynddynt yn y nos. Os hyn oedd yr hen arferiad, nid yn unig yn yr Aipht, ond hefyd yn y gwledydd cymydogaethol, Judea ac Arabia, eglurhâ yn neillduol yr ysgrythyrau canlynol: 2 Sam. 21. 17. Job 18. 6. a 21. 17. Ps. 18. 28. a 132. 17. Jer. 25. 10, *et al.* Gwel Harmer's ***Observations.***

'Ni ddiffydd ei chanwyll (neu lamp) ar hyd y nos.' Diar. 31. 18. Y cyfryw ydoedd ei diwydrwydd, fel yr ydoedd yn estyn y nos at y dydd i weithio.——Y mae darluniad cyffelyb o wraig ddiwyd i'w gael yn Virgil. ***Æned.*** 8. ***lin.*** 407, &c.

——Prima quies medio jam noctis abactæ
Curriculo expulerat somnum: cum fœmina primum
Cui tolerare colo vitam, tenuiqæ Minervâ
Impositum cinerem & sopitos suscitat ignes,
Noctem addens operi, famulasque ad lumina longo
Exercet penso.———

TYWYN—U, (tyw) taeniad, traeth, paladr goleuni; llewyrchu, dysgleirio.—'A thywyned ei wyneb arnom;' sef ymddangosed yn ddysglaer, yn heddychol, ac yn siriol. Ps. 67. 1. Edr. LLEWYRCH.——'A'r gwir oleuni sydd yr awrhon yn tywynu;' sef yr athrawiaeth wirioneddol am Grist, Goleuni y byd, Haul cyfiawnder. 1 Ioan 2. 8.

A gwin llawena calon dyn
Ag olew *tywyn* wyneb.
*E. Prys*, (Ps. 104. 15.)

TYWYS—O, (ty-gwys) blaenori, arwain, hebrwng, cyfarwyddo.—Tywys a arwydda, yn iaith yr Ysgrythyr, 1. Cyfarwyddo. Ps. 31. 3.——2. Arwain. Exod. 15. 13. Ps. 77. 20. Esa. 49. 10.——3. Cynnorthwyo. Ps. 106. 9. a 136. 16.——4. Llywio, llywodraethu, sef arwain a chyfarwyddo yn awdurdodol. Ps. 139. 10. Felly y tywysodd Duw ei bobl gynt trwy yr anialwch yn ffyddlawn, yn dirion, yn gadarn, yn ddifeth, ac yn ddoeth; felly y tywysa ei bobl etto â'i air, ei Ysbryd, a'i ragluniaethau. Esa. 63. 12. Ps. 43. 3. Edr. ARWAIN, CYFARWYDDO, CWMWL.

Y mae 'daioni Duw yn tywys i edifeirwch;' sef yn ei natur yn tueddu i hyny, ac a gaiff yr effaith hwnw ar bawb a gaffo iawn olwg arno, ac iawn ystyriaeth o hono. Rhuf. 2. 4.

Y mae yr Ysbryd Glân yn 'tywys (dysgyblion Crist) i bob gwirionedd.' Ioan 16. 13. a 14. 26.—1. Mae angen *pob* gwirionedd arnynt hwy; nid oes un gwirionedd yn afreidiol iddynt.——2. Maent yn anhyddysg yn *mhob* gwirionedd, ac nis dichon iddynt byth eu hiawn adnabod heb yr Arweinydd hwn.——3. Trwy eu tywys hwy i'r gwirionedd, y mae yr Ysbryd Glân yn dyddanu ac yn sancteiddio ei bobl. Sail eu dyddanwch ydyw gwirionedd y gair, a'r hyn sydd gynnwysedig ynddo. Ac y mae y fath gyflawnder yn y gwirionedd, fel y mae yn gwbl addas, ac yn cyfateb i bob achos a chyflwr.——Mae yr Ysbryd Glân yn eu tywys, 1. Trwy eu goleuo i ddeall y gwirionedd yn ei natur—ei gysondeb—ei ddyben—a'i briodol ddefnyddioldeb, a gogoniant Duw ynddo a thrwyddo.——2. Trwy ogwyddo eu hewyllys i'w dderbyn gyda pharodrwydd meddwl, a llawenydd calon.——3. Ei ddefnyddio, sef *pob* gwirionedd, i'r dyben y mae Duw wedi ei roddi, sef i fyw trwy ffydd ar y gwirionedd, ac yn ol y gwirionedd.

TYWYSEN. Edr. TWYSEN.

TYWYSOG—ION, (tywys) blaenor, blaenor llu, penaeth, pendefig, penciwdawd, unben, pencun, penaig, penrhaith, pencenedl.—Penaethiaid minteioedd, a elwir tywysogion y byddinoedd hyny, i'w cyfarwyddo a'u llywodraethu. 1 Cron. 12. 27.——Gelwir yr Arglwydd Iesu, 'Tywysog llu yr Arglwydd—Tywysog tangnefedd—Tywysog y bywyd—Tywysog y tywysogion—Tywysog ein hiechydwriaeth—Tywysog brenhinoedd y ddaear.' Jos. 5. 14. Esa. 9. 6. Dan. 8. 25. Actau 3. 15. a 5. 31. Heb. 2. 10. Dat. 1. 5. Mae yn dywysog ar ei bobl trwy drefn a gosodiad dwyfol; mae yn eu harwain, eu hamddiffyn, ac yn eu llywodraethu yn ddoeth, yn gadarn, yn dirion, ac yn awdurdodol. Efe yw Awdwr iechydwriaeth, ac a effeithiodd dangnefedd rhwng Duw a dynion, ac a arwain ei bobl i dangnefedd.

'Tywysogion deillion,' yw gau-athrawon a chyfeiliornwyr: dall ydynt hwy, a deillion yw eu canlynwyr truenus. Syrthia y ddau i ffos dinystr a cholledigaeth dragywyddol, oni ragflaena gras Duw hwynt trwy eu goleuo am y gwirionedd. Geilw yr Arglwydd Iesu yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid wrth yr enw hwn. Mat. 23. 16. Yr oeddynt, trwy eu gau-athrawiaethau, a'u bucheddau aflan, yn twyllo y bobl ddeillion, ac yn eu cadw yn eu dallineb.

TYWYSOGES Y TALEITHIAU, y gelwir Jerusalem gan Jeremiah. Galar. 1. 1. Felly yr ydoedd gyd âg enwogrwydd mawr yn nheyrnasiad Dafydd, 2 Sam. 8. 1—14. a 10. 6—19.—Solomon, 1 Bren. 4. 21, 25.—Jehosaphat, 2 Cron. 17. 10, 11.—ac Uzziah, 2 Cron. 26, 6, 7, 8.

# TH.

THADDEUS, *Gr.* Θαδδηιος [*moliannydd*] yr un a Lebbeus. Mat. 10. 3. Marc 3. 18. Edr. JUDAS.

THEBEZ *Heb.* תבץ [*llïan main*] dinas yn rhandir Ephraim, nid pell o Sichem, wrth warchae ar ba un y lladdwyd Abimelech mab Gedeon. Barn. 9. 50.

THEOPHILUS, *Gr.* Θεοφιλος [*cyfaill Duw*] enw Cristion ardderchog, i'r hwn y cyflwynodd Luc ei Efengyl, a Hanes yr Apostolion. Luc 1. 3. Actau 1. 1. Mae yn dra thebygol ei fod yn wr o fonedd ac awdurdod, gan fod yr Efengylwr yn ei gyfarch wrth yr enw κρατιστε Θεοφιλε, *ardderchocaf Theophilus*, enw a

Digitized by Google

briodolir i rai mewn swydd ac awdurdod. Actau 23. 26. a 24. 3. a 26. 5. yn Groeg.

THESSALONICA—IAID, prif ddinas Macedonia, a phorthladd cyfleus. Gelwid hi gynt Halis a Thermæ; ond Phylip, tad Alexander Fawr, a'i cyfenwodd Thessalonica, yn goffadwriaeth am ei fuddugoliaeth ar y Thessaliaid. Yn nghylch y flwyddyn A. M. 3837, y Rhufeiniaid a'i goresgynasant. Gwedi hyny, bu yn meddiant y Saraceniaid, ymerawdwr y Groegiaid, y Venetiaid, a'r Tyrciaid, olynol. Yn nghylch A. D. 50, planwyd eglwys yno gan Paul, Silas, a Timotheus. Yr Iuddewon a gyffroisant erlidigaeth, fel y gorfu ar Paul a Silas ffoi ymaith oddi yno, gwedi pregethu yno i'r Iuddewon dri neu bedwar Sabboth. Oddiwrth yr hanes yn Actau 17. 1—10. gallai y darllenydd farnu na bu Paul ond ychydig amser yn Thessalonica. Dywedir yno, 'iddo fyned i'r synagog, ac ymresymu â'r Iuddewon dros *dri Sabboth* allan o'r ysgrythyrau.' Ond oddiwrth y geiriau yn 1 Thes. 2. 9, 10. gellid casglu yn ddilys ei fod yno yn llawer hŵy na hyny. 'Canys côf yw genych, frodyr, ein llafur a'n lludded ni; canys gan weithio nos a dydd, fel na phwysem ar neb o honoch, ni a bregethasom i chwi efengyl Duw. Tystion ydych chwi, a Duw hefyd, mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, a diargyhoedd, yr ymddygasom yn eich mysg chwi, y rhai ydych yn credu.' Tebygol iddo ef wneuthur yn Thessalonica, yn ol ei arfer mewn lleoedd eraill (Gwel Actau 13. 46. a 18. 6—11. a 19. 9, 10.) gwedi pregethu yr efengyl yn gyntaf i'r Iuddewon, ac ar eu gwrthodiad hwy o honi, iddo droi gwedi hyny at y Cenedloedd. Y mae yn eglur i lawer o'r Cenedloedd yno droi 'at Dduw oddiwrth eilunod.' 1 Thes. 1. 9. Tra bu yn pregethu yn y synagog dri Sabboth, 'credodd o'r Groegwyr crefyddol lïaws mawr, ac o'r gwragedd penaf nid ychydig;' (Actau 17. 4.) ond tebygol mai gwedi hyny y bu ei weinidogaeth yn llwyddiannus yn mhlith yr eilun-addolwyr Groegaidd. Gwel Dr Paley's *Horæ Paulinæ.*

Yr Iuddewon a barhausant i erlid y Cristionogion; ac ysgrifenodd Paul lythyr rhagorol atynt i'w cysuro; nid o Athen, fel yn yr ol-ysgrifen wrth yr epistol, ond o Corinth; canys nid oedd Silas a Timotheus gyd âg ef yn Athen. 1 Thes. 1. 1. Ysgrifenodd ef, tebygol, oddeutu diwedd A. D. 51. Y mae yn dangos ynddo lawer o anwyldeb tu ag at yr eglwys yno, ac yn ei chysuro dan ei gorthrymderau a'i herlidigaethau; ac yn rhoddi i'r Cristionogion lawer o annogaethau a gocheliadau mewn perthynas i burdeb ymarweddiad, ac ufudd-dod i'w blaenoriaid.

Tebygol iddo ysgrifenu ei ail epistol at yr eglwys yn Thessalonica, yn fuan ar ol y cyntaf, ac o'r un lle, sef Corinth, sef yn nghylch A.D. 52. Yr achos o'i ysgrifenu oedd, fod gau-athrawon gwedi eu cynhyrfu, trwy broffesu fod yr Ysbryd ganddynt, trwy gau adroddiad o eiriau yr apostol, a thrwy ffugio llythyr fel gwedi ei ysgrifenu ganddo, fod dydd y farn yn agos. Camddeall geiriau yr apostolion ydyw meddwl eu bod hwy o'r farn hôno, fel yr haera Grotius a Locke; a chyfeiliornad niweidiol ydyw; ac sydd yn effeithio ar eu hysbrydoliaeth anffaeledig yn mhethau Duw. Dengys yr apostol yma yn amlwg, eu bod yn gwybod yn amgenach, ac na ddoi y dydd hwnw nes yr ymddangosai Anghrist yn nghyntaf. Pen. ii.

Wrth ddyfodiad yr Arglwydd, y mae i ni ddeall amryw bethau, heblaw ei ddyfodiad i farnu y byd; megys ei ddyfodiad i ddial ar yr Iuddewon gwrthnysig, yn ninystr Jerusalem, a dymchweliad eu holl sefydliad gwladol ac eglwysig;—i osod i fynu ei deyrnas ysbrydol yn mhlith holl genedloedd y ddaear;—i ddystrywio y dyn pechod; (2 Thes. 2. 8.)—i'w gwaredu oddiwrth eu gorthrymderau presennol trwy farwolaeth. 1 Cor. 1. 8. Phil. 1. 6. 1 Thes. 3. 13. Yr oedd dinystr Jerusalem a'r sefydliad Iuddewaidd, yn neillduol yn eu golwg, ac yn cael ei osod allan mewn geiriau ag oeddynt yn ddarluniad addas o'r farn, am fod y naill yn rhyw arddangosiad bychan o'r llall. Gelwir yn 'ddyfodiad yr Arglwydd,' unrhyw amlygiad hynod o'r gallu dwyfol, pa un fyddo ai er dinystr, neu er iechydwriaeth cenedloedd. Y mae y ddau epistol o awdurdod dwyfol, ac yn ganlynol, yn rhagorol, ac er adeiladaeth yr eglwys hyd ddiwedd amser.

Ysgrifenodd ar yr holl epistol cyntaf, yr Esgob Jewel, Dr J. Sclater, Robert Rollock, William Bradshaw, H. Zancheus, Coccejus, &c.

Dywedir fod Thessalonica, neu Saloniki, fel y gelwir hi yn awr, yn lle o fasnach go fawr yn bresennol; a bod ynddi 48 o demlau Mahometanaidd; 40 o synagogau Iuddewaidd; a 30 o eglwysi Cristionogaidd, yn perthyn i eglwys Groeg, a bod ynddi oddeutu can mil o drigolion. Mr Stuart's *Ruin of Athens.*

THEUDAS, Θευδας [*rhodd Duw*] un a 'gyfododd i fynu, gan ddywedyd ei fod ef yn rhyw un;' wrth yr hwn y glynodd yn nghylch pedwar cant o wyr; lladdwyd ef, a gwasgarwyd ei ganlynwyr. Actau 5. 36. Barna yr Arch-esgob Usher, mai yr un ydoedd a Judas mab Ezechias, yr hwn oedd yn flaenor ar fintai o yspeilwyr, y rhai a ddyfethwyd gan Herod. Y Judas hwn a wrthryfelodd ar farwolaeth Herod, fel y coffëir gan Josephus. Gwel Josephus, *Antiq. lib.* xvii. *c.* 12. *Universal History, vol.* x.

THOMAS, neu DIDYMUS, *Heb.* תום *(thom) efell; Gr.* Διδυμος *(didymos) efell.* Un o'r deuddeg apostol. Diammeu mai priodor o Galilea oedd, fel y lleill o'r apostolion; ond nid oes dim hysbysrwydd am le ei enedigaeth, nac am amgylchiadau ei alwad i fod yn ddysgybl. Galwyd ef i'r apostolaeth, gyd â'r apostolion eraill, yn y flwyddyn A. D. 31, a pharhaodd i ddilyn Crist, ac yn ei gymdeithas neillduol, holl amser ei weinidogaeth gyhoeddus, hyd ei farwolaeth.—Gwedi ei alwad i fod yn apostol, nid oes dim crybwylliad am dano cyn marwolaeth Lazarus, pan yr annogodd ei gyd-frodyr i fyned gyd â'r Iesu i Judea, i farw gyd âg ef. 'Awn ninnau hefyd, fel y byddom farw gyd âg ef,' sef gyd â'r Iesu. Ioan 11. 16. Iaith gwir gariad, a gradd o ffydd; ond yn gymysgedig âg anwybodaeth o allu yr Arglwydd i achub, ac o'u gwendid hwythau, a thwyll eu calonau, i wrthsefyll y fath brofedigaeth, a marw dros yr Iesu. Wrth y swper diweddaf, gofynodd i'r Iesu, I ba le yr ydoedd yn myned? 'Ni wyddom ni i ba le yr wyt ti yn myned; a pha fodd y gallwn wybod y ffordd?' Medd yr Iesu, 'Myfi yw y ffordd,' &c. Ioan 14. 5, 6. Gwedi adgyfodiad yr Iesu, yr ydoedd yn absennol pan yr ymddangosodd yr Iesu i'r deg; a dangosodd anghrediniaeth go fawr i'w tystiolaeth hwynt am dano; ond ymostyngodd yr Iesu yn dirion, yn ei ymddangosiad drachefn iddynt, ac a orchfygodd ei anghrediniaeth, nes gorfu arno waeddi allan, 'Fy Arglwydd, a'm Duw!' Dywedodd yr Iesu wrtho, y buasai yn fwy anrhydeddus iddo ef gredu heb y cyfryw amlygiad teimladol ag a roddodd efe iddo Ioan 20. 19—29. Ychydig ddyddiau gwedi hyny, gwelodd yr Arglwydd drachefn wrth Fôr Galilea. Ioan 21. 1, 2, &c. Gwedi aros amryw flynyddoedd yn Jerusalem, dywedir iddo fyned i bregethu yr efengyl i'r Parthiaid, y Mediaid, yr Hyrcaniaid, y Bactrianiaid, ac yn y diwedd ei ferthyru yn Meliapour, yn yr India Ddwyreiniol; ie, dywed rhai iddo bregethu yn China. Cafodd y Portuguese Gristionogion a elwid yn ol ei enw yn nghylch tri chan mlynedd a aethant heibio yn India; ond tebygol eu galw wrth yr enw hwn oddiwrth ryw St Thomas arall, ac nid yr apostol Thomas. Ond nid wyf yn cael dim ond dychymygion, a thraddodiadau ansicr am dano, ei lafur, a'i ddiwedd: er fod cytundeb cyffredinol iddo bregethu yr efengyl yn Parthia, yr hon ydoedd yn ymerodraeth helaeth yr amser hwnw.

Digitized by Google

THRON—AU, *Gr.* θρονος; *Llad.* Thronus; *Saes.* Throne.—'Canys trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig, ac yn anweledig, pa un bynag ai thronau,' &c. Col. 1. 16. Y mae y gair Groeg yn y rhif unigol yn cael ei gyfleithu *gorsedd-fainc*, yn Mat. 19. 28. Luc 1. 32. Actau 7. 49. Dat. 1. 4. a 2. 13.—yn y rhif llïosog, *eistedd-fäau*, *gorsedd-fëydd*, Luc 1. 52. a 22. 30. Arwydda yr enwau yn Col. 1. 16. 'thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau, a meddiannau,' pob creadur âg awdurdod ganddo, pa un bynag ai yn mhlith dynion neu angelion. Y rhai hyn oll a grewyd gan Fab Duw, ac erddo; gan hyny, y mae, o ran ei hanfod a'i awdurdod, yn anfeidrol uwchlaw iddynt. Efe a'u creodd fel creaduriaid, ac a roddodd iddynt eu sefyllfa a'u hawdurdod; ac erddo ef, sef dano ef, er ei ogoniant, ac i ateb ei ddybenion goruchel, y maent yn gweini: 'Arglwydd Arglwyddi, a Brenin Breninoedd,' yw Efe!

THUMMIM. Edr. Urim.

THUS, *Heb.* לבנה *Gr.* λιβανος; *Llad.* Thus; *Saes.* Frankincense: ystor gwyn, i'w gael o bren sydd yn tyfu yn y dwyrain, ac yn neillduol yn Arabia. Y mae y goreu o hono yn dryloyw. Yr ydoedd yn gyfrifol yn mysg y pêr-aroglau gwerthfawr, ac am hyny a roddid yn anrhegion parchus. Esa. 60. 6. Jer. 41. 5. Cymh. Mat. 2. 11. Dat. 18. 13.—Arferid ef gyda bwyd offrymau yn ngwasanaeth y babell. Lef. 2. 1. Num. 5. 15. Yn arwyddo ein cyflwyniad o honom ein hunain yn sanctaidd, ac yn beraidd i Dduw. Rhuf. 12. 1.

THUSER—AU, *Saes.* Censer: llestr aur, yn mha un y dygai yr offeiriad yr arogl-darth i'w losgi o flaen yr Arglwydd yn y cysegr. Lef. 16. 12.—'Yr hwn yr oedd y thuser aur ynddo.' Heb. 9. 4. Barna y Dr Owen ac eraill, mai yr allor aur a feddylir yn y fan hon. Ond crybwyllir yn Dat. 8. 3. am thuser aur ac allor aur; a defnydd y thuser aur ydoedd i losgi yr arogl-darth ynddi, ar yr allor aur. Amlwg yw, mai llestr aur, dysgl, neu phiol, i losgi yr arogl-darth ynddo, a feddylir wrth y thuser. Ond pa fodd y dywed yr apostol fod y thuser hon yn y sancteiddiolaf, gan mai yn y cysegr sanctaidd yr ydoedd yr allor aur yn sefyll, ar yr hon y llosgid yr arogl-darth gan yr offeiriaid? Geilw rhai y testun hwn yn mhlith yr *insolubilia Scripturæ*, hyny yw, *cylymau annattodadwy yr Ysgrythyrau*. Y mae un gwr yn cyfaddef, mai y testun mwyaf anhawdd iddo ef ei ddeall ydyw yn yr holl Fibl. Beth bynag, gyda dyledus barch i farn y Dr Owen ddysgedig, nis gallaf feddwl mai yr *allor* aur a feddylir, gan fod gair Groeg arall yn cael ei arferyd am yr allor hòno yn y Testament Newydd, sef θυσιαστηριον. Luc 1. 11. Dat. 8. 3, 5. Ac y mae y gair θυμιατηριον yn cael ei arfer i arwyddo thuser, yn yr unig ddau le yr arferir ef gan y LXX. 2 Cron. 26. 19. Ezec. 8. 11. Sonir am thuserau yn y rhif llïosog yn 1 Bren. 7. 50. 2 Cron. 4. 22. Gellir barnu, gan hyny, yn ol traddodiad Iuddewaidd, fod thuser aur yn cael ei defnyddio gan yr arch-offeiriad ar ddydd mawr y cymmod, ac ar hwnw yn unig, a'i bod hi yn nghadw tu fewn i'r llen yr holl flwyddyn, ond y dydd hwnw; ac mor agos i'r llen, fel yr ydoedd yn hawdd iddo estyn ei law dan y llen i'w chyrhaedd. Dywed yr Iuddewon mai mewn *thuser arian* y byddent yn llosgi yr arogl-darth bob dydd ond y dydd hwnw, pan y cymerai yr arch-offeiriad *thuser aur*. Os felly, y mae y geiriau canlynol dan y gair Arogl-darth, yn gamsyniol: *Yr oedd yr arogl-darth i'w losgi yn y thuser aur, ar yr allor aur, foreu a hwyr:* ac i'w diwygio. Gwel Ainsworth ar Lef. 16. 12. Edr. Allor, Arogl-darth.

THYATIRA, *Gr.* Θυατειρα [*arogl peraidd*] dinas, nid anenwog, yn Asia Leiaf. Gelwid hi gynt Pelopia, ond Seleucus, gwedi iddo ei hadgyweirio a'i helaethu, a'i galwodd hi Thygateira. Gelwir hi yn awr *Ak-hisar*, gan y Tyrciaid, sef *y castell gwyn*. Planwyd eglwys Gristionogol ynddi yn foreu. Anfonodd yr Arglwydd Iesu lythyr at angel yr eglwys hon, trwy ei was Ioan yr apostol, dan yr enw, 'Mab Duw, yr hwn y sydd â'i lygaid fel fflam dân,' yn canmol rhai pethau ynddo, a bod ei weithredoedd diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf; ond yn beio arno, am ei waith yn goddef athrawon eilun-addolgar, llygredig, i dwyllo a llygru dynion. Y mae yn ei fygwth â chystudd mawr onid edifarhai. Edr. Gwely, Jezebel. Dat. 2. 18—21. Rhai yn deall yr epistolau yn brophwydoliaethol, a briodolant amser yr eglwys hon i'r yspaid rhwng y seithfed a'r ddeuddegfed ganrif, pan oedd eilun-addoliaeth a llygredigaeth Eglwys Rhufain wedi cyd-gynnyddu i'r graddau mwyaf ffiaidd ac alaethus. Ond yr ydoedd *rhai*, hyd yn nod yn yr amser tywyll a llygredig hwn, heb dderbyn y ddysgeidiaeth hon, ond yn ddynion o wir dduwioldeb a phurdeb athrawiaeth, yn Ffrainc, Germani, ac yma yn Lloegr. Gwel Vitringa.

THYNON, θυινον [*peraidd*] gelwir y pren wrth yr enw hwn, oddiwrth y gair θυω, *arogl-darthu*, o herwydd ei arogl peraidd, yn enwedig wrth ei losgi. Dat. 18. 12. Nid annhebyg, medd Theophrastus, yw y pren hwn i'r cypres-wydden. *Hist. Plant.*, v. 5. Yr ydoedd mewn bri mawr yn mhlith y Paganiaid, y rhai a wnaent, yn aml, ddrysau eu temlau, a delwau eu duwiau o hono. Gwel Pliny, *Nat. Hist., lib.* xiii. *cap.* 16.

# U.

UCAL, אכל [*un galluog*] tebygol mai cyfeillion, neu ddysgaduriaid Agur oedd Ithiel ac Ucal, y rhai a ofynasant ryw ofynion iddo, ac y mae yntau yn eu hateb yn Diar. xxx. Edr. Agur, Ithiel.

UCHAF—DER—EL—OD, (uch) fry, oddi arnodd; mwyaf, eithaf dyrchafedig, uchedd.—Uchel-leoedd, uchel-dŵr, uchel-drem, uchel-fan, uchel-radd, uchelwyl. Edr. Gradd, Lle, Man, Trem, Twr.——Y gair *uchel* a arwydda, rhagoriaeth peth mewn maintioli, cadernid, sefyllfa, ymddygiad; neu dyb, neu feddwl balch, twyllodrus.

'Uchel yw yr Arglwydd.' Ps. 113. 4. a 138. 6. Edrych Dyrchafedig, Goruchel, Llaw.——Pethau tu hwnt i'n deall a'n hamgyffred, ydynt ry uchel i ni. Ps. 131. 1. a 139. 6.

Rhai uchel yw rhai o waedoliaeth, cyfoeth, swydd, a sefyllfa, oddiar eraill; y maent yn uchel mewn cymhariaeth âg eraill, eu his-radd, Job 21. 22. Ps. 62. 9.—neu pan fyddont yn meddwl yn fawr am danynt eu hunain, yn uchelfrydig. Ps. 101. 5. Rhuf. 11. 20. Edr. Balchder.

Gelwir y nefoedd, 'yr ucheldera.' Ps. 148. 1.——Priodolir uchder i fynyddoedd a bryniau. Jer. 49. 16.

'Na chwanegwch lefaru yn uchel, uchel,'—sef yn uchel iawn. (Dyblu y gair, yn ol priodoldeb yr iaith Hebraeg, a arwydda, y gradd uchaf. '*Talk no more exceeding proudly.*' *Saes.*)—'Na ddeued dim balch

allan o'ch genau; canys Duw gwybodaeth yw yr Arglwydd, a'i amcanion ef a gyflawnir.' 1 Sam. 2. 3. '*By him actions are weighed.*' *Ganddo ef y pwysir gweithredoedd.* Y rhan ddiweddaf o'r adnod a gyfieithir yn dra gwahanol. Yn y Biblau Hebraeg y mae *cheri—chetib*; sef לא yn y testun, a לו ar ymyl y ddalen. Rhai a gyfieithant yn ol y naill, ac eraill yn ol y llall. Y ddau gyfieithiad Cymraeg, a'r cyfiethiad Saesonaeg, sydd yn ol y *cheri* ar ymyl y ddalen. Rhai a gyfieithant y geiriau, *Ganddo ef y darperir gweithredoedd.* Eraill, *Onid ganddo ef y darperir gweithredoedd?* yn ol y *chetib*. *Ei weithredoedd ef a wneir yn uniawn.* *Dutch.*—Y gair תכן a gyfieithir *cyflawni*, a gyfieithir hefyd *pwyso*, Job 28. 15. Esa. 40. 12. Diar. 16. 2. a 24. 12.—*uniawn*, Ezec. 18. 25, 29. a 33. 17, 20.—Y gair עללות a gyfieithir *amcanion*, a gyfieithir hefyd *gweithredoedd*, Ps. 9. 11. a 66. 5. 1 Cron. 16. 8. Arwydda gweithredoedd drwg, weithiau, Ps. 14. 1. Seph. 3. 11. Cyfieithiad addas, gan hyny, o'r geiriau yw, 'Efe (ac efe yn unig) sydd yn pwyso gweithredoedd.' Drachefn, gellir priodoli y gweithredoedd iddo ei hun, neu i ddynion. Pwyso ei weithredoedd ei hun, a arwyddda, ei fod yn gwneuthur pob peth yn uniawn, ac yn berffaith addas iddo ei hun, yn ol rheol ei sancteiddrwydd a'i uniondeb. 'Uniawn (יתכן) yw ffyrdd yr Arglwydd.' Ezec. 18. 25.—Fel barnwr yr holl ddaear, y mae yn *pwyso* yn fanwl weithredoedd dynion, yn ol yr hyn a wnaethant, pa un bynag ai da ai drwg. Preg. 9. 9. Ps. 50. 21. a 72. 13. Dan. 5. 27. Gwel Coccejus *in loc.*

'Y ddoethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny heddychlawn, boneddigaidd, (sef mwynaidd) hawdd ei thrin,' &c. Iago 3. 17. Yn yr ymadrodd hardd hwn, darlunia Iago ragoroldeb ysbryd yr efengyl, sef a genedlir gan yr efengyl yn mhawb sydd yn ei gwir gredu. Y ddoethineb fwyaf goruchel ydyw; y mae yn dyfod oddiwrth Dduw; y mae yn gwneuthur y derbyniwr o honi yn gyntaf yn bur, yna yn heddychol, &c. Yr oedd yr holl apostolion, oddigerth Paul, yn ddynion anllythyrenog. Ond, yn ol addewid eu Harglwydd, yr oedd ganddynt, trwy ysbrydoliaeth yr Ysbryd, ddoethineb ac areinrwydd wedi ei roddi iddynt, yn tra rhagori ar ddim a allasent eu cyrhaeddyd trwy y ddysgeidiaeth ddyfnaf. Nid oes dim yn holl gyfansoddiadau dynol mwyaf ardderchog yr holl fyd, yn cyfateb mewn godidawgrwydd ystyr, a harddwch ymadrodd, i'r geiriau yn y lle hwn; ac, yn wir, yn yr holl epistol.

UCHELFA, UCHELFEYDD, oeddynt leoedd addoliad yn mhlith Paganiaid eilun-addolgar. Num. 22. 41. Parodd yr Arglwydd ddinystrio holl uchelfëydd y Canaaneaid. Num. 33. 52. Lef. 26. 30. 2 Cron. 31. 1. Jer. 17. 3. Edr. Llwyn.—Tra yr oedd yr arch a'r babell yn ysgaredig oddiwrth eu gilydd, yn nyddiau Samuel, Saul, a Dafydd, goddefodd yr Arglwydd iddynt ei addoli mewn uchelfëydd. 1 Sam. 9. 19. 2 Cron. 1. 3. Ond gwedi adeiladu y deml, yr oedd aberthu mewn un man arall yn waharddedig, oddieithr ar achosion neillduol. Solomon a ddechreuodd adferyd eilun-addoliaeth yn yr uchelfëydd, a Jeroboam a'i dygodd yn mlaen yn fawr. 1 Bren. 11. 7. a 12. 30, 31. Ni ddilëwyd mo hono yn llwyr byth o Israel gwedi hyny, nes eu caethiwo. Breninoedd drygionus Judah a'i hannogasant; ac ni ddarfu i neb o'r breninoedd duwiol ymosod yn erbyn yr arferiad llygredig hwn yn ddigonol, ac fel y dylasent, ond Hezeciah a Josiah. Yn nyddiau Ezeciel yr oeddynt 'yn gwneuthur uchelfa yn mhob heol.' Ezec. 16. 24. Ond byddent, weithiau, yn addoli y gwir Dduw yn yr uchelfëydd hyn. Tebygol mai rhyw beth tebyg i'r uchelfëydd hyn i aberthu ynddynt, oedd y *proseuchæ*, neu y lleoedd tebyg i gynteddl y deml oedd ganddynt i weddïo ynddynt, gwedi eu hamgylchu â choed neu lwyn.

5 U

UCHENAID, (uch-enaid). Edr. Ochain.

UDO—FA, (ud) *Llad.* Ullulo: ubain, dryg-nadu, bloeddio yn hyll, rhoi inglef; udo fel ci neu flaidd.—Llais ing, a chyfyngder, a gofid tost. Esa. 13. 6. Jer. 25. 36. a 47. 2. *et al freq.*

UDGAN—U—WR, (ud-cân) sain udgorn, canu mewn udgorn; chwythwr mewn udgorn. 2 Cron. 7. 6. Jer. 4. 5. Dat. 18. 22.

UDGORN—YRN, (ud-corn) llugorn, corn bugail, corn heusaw.

*Udgorn* angen peswch sych. *Diar.*

Peiriant ceuol, wedi ei wneuthur o arian, pres, corn, a'r cyffelyb, i swnio trwyddo â'r anadl, i alw cymanfaoedd, neu i alw ac annog i ryfel. Jer. 4. 5.

Gorchymynodd Duw i Moses wneuthur dau udgorn arian, i'r offeiriaid i alw y bobl yn nghyd ar eu cymanfaoedd sanctaidd, i gyfarwyddo eu teithiau yn yr anialwch, a'u hannog i ryfel.—1. 'Byddant i ti i alw y gynnulleidfa yn nghyd,' medd Duw wrth Moses.——2. I beri i'r gwersylloedd gychwyn.——3. Os âg un y canent, y tywysogion, sef y penaethiaid, a ymgasglent.——4. Y larwm gyntaf oedd i gychwyn y rhai oedd yn gwersyllu tu a'r dwyrain.——5. Yr ail larwm oedd i gychwyn y rhai oedd yn gwersyllu tu a'r dehau, &c.——6. Wrth fyned i ryfel yr oeddyut i ganu larwm mewn udgyrn: 'Yna y cofféir chwi ger bron yr Arglwydd, ac yr achubir chwi rhag eich gelynion,' medd Duw.——7. Ar ddydd eu llawenydd—eu gwyliau gosodedig—dechreu eu misoedd, yr oeddynt i ganu yr udgyrn uwch ben eu poeth-offrymau a'u haberthau hedd. Num. 10. 1—10. Lef. 25. 9, 10.

Saith o udgyrn o gyrn hyrddod yr ydoedd yr offeiriaid i leisio â hwynt pan oeddynt yn amgylchu Jericho. Josuah 6. 4. שיפרות חיובלים *udgyrn y Jubili.*—*Tη σαλπιγγι του Ιωβαλ, udgyrn y Jubili.* LXX.—*Buccinas quarum usus est in Jubileo. Vulg.*, hyny yw, *yr udgyrn a ddefnyddir ar y Jubili.* Priodol ystyr y gair, medd Kircher, ydyw y sŵn a wneir â'r udgyrn, ac nid yr udgyrn eu hunain. Edr. Jubili. 'Nid wyf yn cael,' medd Parkhurst, 'fod y gair un amser yn arwyddo *hwrdd*, ac nid yw y LXX., y *Vulgate*, na'r lleill o'r hen gyfieithiadau, gwedi eu cyfieithu felly.' Gwel hefyd Mosius. Tebygol fod saith o udgyrn sanctaidd i'r offeiriaid yn amser Josuah, ac nid yn unig y ddau oedd yn cychwyn y gwersylloedd yn yr anialwch; a chynnyddasant i chwech ugain yn amser Solomon. 2 Cron. 5. 12.

Heblaw yr udgyrn sanctaidd, perthynol i'r offeiriaid yn unig, yr ydoedd gan eu tywysogion udgyrn yn eu rhyfeloedd; felly y darllenwn am Ehwd, Gedeon (yr hwn a roddodd udgorn i bob un o'r bobl hefyd) a Joab, iddynt ganu mewn udgyrn. Barn. 3. 37. a 7. 16, 22. 2 Sam. 2. 28. a 18. 16. a 20. 22.

'Ac mi a welais y saith angel, y rhai oedd yn sefyll ger bron Duw; a rhoddwyd iddynt saith o udgyrn'. Dat. viii. a ix. Y mae cyfeiriad amlwg yn y geiriau at yr offeiriaid a'r udgyrn yn y babell a'r deml; a'r rhifedi *saith* yn cyfeirio at gwymp Jericho. Y mae udganiad yr udgyrn hyn, yn dynodi barnedigaethau amlwg a dychrynllyd, yn peri mawr gyffro a braw yn y byd. Fel yr oedd agoryd y seliau yn perthynu i osodiad Cristionogrwydd i fynu yn y byd, yn neillduol yn ymerodraeth Rhufain, a barnedigaethau trymion ar yr ymerodraeth hòno; felly hefyd udganiad y saith udgorn ydynt yn nodi yn amlwg y dygwyddiadau dychrynllyd a gyfarfu yr eglwys â hwynt gwedi hyny, yn nghyd â barnedigaethau ysbrydol a thymhorol ar ymerodraeth Rhufain yn ngwledydd y gorllewin, wedi iddi fyned dan yr enw o Gristionogol.

Digitized by Google

Rhy faith fyddai i mi nodi y dygwyddiadau dan bob udgorn. Bernir yn gyffredin fod y chwech udgorn cyntaf, a'r dygwyddiadau perthynol iddynt, yn cyrhaedd oddeutu A. D. 338, neu 395, neu yn ddiweddarach, hyd A.D. 1866, neu 2016; a'r seithfed hyd ddiwedd y byd. Y cyntaf yn nodi difrodiad yr Ymerodrraeth gan Alaric a'r Gothiaid; yr ail, Attila a'r Huniaid; y trydydd, Genseric a'r Vandaliaid, o Affric; y pedwerydd, Odoacer a'r Heruli, yr hwn a roddes derfyn ar yr enw o ymerodraeth Orllewinol; y pummed, yn nodi cyfodiad Mohamet, a thaeniad ei gau-grefydd, a goresgyniad y Saraceniaid, a gosodiad eu hymerodraeth i fynu dros wledydd meithion yn Ewrop, Asia, ac Affric; y chweched, yn nodi gosodiad ymerodraeth y Twrc; ac udganiad y seithfed udgorn yn nodi tywalltiad y rhan fwyaf o'r phiolau, os nid i gyd—dinystr Anghrist, y gau-brophwyd, a rhwymo Satan am fil o flynyddoedd, a theyrnasoedd y byd yn myned yn eiddo yr Arglwydd, a'i Grist ef. Y mae sathriad y ddinas sanctaidd gan y cenedloedd ddau fis a deugain, a'r ddau dyst yn prophwydo mewn sach-lian, yn nodi dull a chyflwr yr eglwys trwy holl amser y chwech udgorn cyntaf; ac adgyfodiad y tystion a'u dyrchafiad, yn nodi y cyfnewidiad hyfryd arni er gwell, ar udganiad y seithfed udgorn. Tra dilys yw, fod y chweched udgorn wedi udganu, a dysgwyl y mae y wir eglwys yn hiraethlawn am udganiad y seithfed. Edr. ANGHRIST, MIL, RHUFAIN, TYST.

'Yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig.' 1 Cor. 15. 52. 'Yr Arglwydd ei hyn a ddisgyn o'r nef,' fel y gwnaeth gynt ar fynydd Sinai, 'gyd⁰ bloedd, a llef yr archangel, ac âg udgorn Duw.' 1 Thes. 4. 16. Gwedi cyfodi y cyfiawnion, seinia yr udgorn drachefn, yr hwn a elwir 'yr udgorn diweddaf,' i newid y rhai cyflawn a fyddant ar y ddaear; 'a ninnau a newidir.' 1 Cor. 15. 52. Gwedi swnio yr udgorn hwn, bydd yr holl gasglu, a'r rhyfeloedd gwedi darfod, a bydd Jubili dragywyddol ar yr holl eglwys gyd â'u gilydd; yn hyfryd a llawen dros fyth. Bu udgorn yr efengyl yn udganu yn uchel ac yn hir, i gyhoeddi aberth Crist, ac i gasglu pechaduriaid; ond nid udgana hwnw byth mwy. Esa. 27. 13. Udganiad yr udgorn diweddaf fydd arwydd fod y gwaith, y daith, a'r rhyfel wedi eu gorphen, a Jubili dragywyddol fydd yn canlyn.

UFUDD—HAU—DOD, (uf-ydd) gostyngedig, addfwyn, plygedig; ufylldod, ymostyngiad, cydnabyddiaeth gweithredol, gwirfoddol, o awdurdod un arall, trwy wneuthur yr hyn a baro. Y mae dau fath o ufudd-dod; sef yr ufudd-dod a roddir i Dduw, ac a roddir i ddynion.

I. Yr ufudd-dod a roddir i Dduw; yr hwn sydd yn cynnwys, yn 1. Ufudd-dod Crist, yn berffaith ac yn gyflawn i ewyllys ei Dad, yn gweithredu ac yn dyoddef dros ei bobl: 'Trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn.' Rhuf. 5. 10.——2. Ufudd-dod rhydd a pharod yr angelion sanctaidd i ewyllys Duw yn y nefoedd. Mat. 6. 19. Psalm 103. 20.——3. Plygiad cyndyn, anewyllysgar, cythreuliaid a dynion drwg, i orchymyn Duw. Exod. 11. 1. a 12. 31. Marc 1. 27. Luc 4. 36.——4. Darostyngiad yr holl greaduriaid direswm i awdurdod Duw. Ps. 105. 30, 31, &c. 1 Bren. 17. 4, 6. Jonah 2. 10.——5. Ufudd-dod parod ac ewyllysgar y duwiolion iddo, yn credu yr efengyl, ac yn cydffurfio âg ewyllys ddadguddiedig Duw yn y gair yn mhob peth. Rhuf. 6. 16. 1 Petr 1. 14. Gelwir credu yn ufuddhau. Cymh. Rhuf. 1. 8. â 16. 19, 26. Y mae yn y weithred o gredu, yr ymostyngiad mwyaf i Dduw, a'r ymwadiad mwyaf âg ewyllys, doethineb, a holl syniadau dynol, cnawdol. Ufudd-dod ydyw o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i ni. *I'r ffurf*, sef i'r portreiad sydd yn yr efengyl o holl drefn dragywyddol Duw er iechydwriaeth pechaduriaid. Y mae ffurf o athrawiaeth gyflawn ogoneddus, ac ufuddhau iddi, ydyw ufuddhau i'r ffurf i gyd, yn ei holl gangenau, ac yn ei hiawn drefn, a'u cysylltiad â'u gilydd, ac nid ufuddhau i rai pynciau neillduol. I wneuthur y babell yn ol y portreiad a roddodd Duw iddo, yr oedd yn rhaid i Moses roddi pob pin, hoel, a bwrdd, yn gwbl lle yr oedd Duw wedi peri iddo, ac onidê, nid pabell Duw fuasai hi, ond pabell ddychymygol Moses. Yr un fath am athrawiaeth yr efengyl, os nad ydyw y ffurf genym yn gyflawn, a phob pwnc yn ei briodol le, nid efengyl Duw mo honi, ac nid ufuddhau i Dduw ydyw ufuddhau i athrawiaeth o ddychymyg dynol. Y mae llawer o athrawiaethau gan yr amrywiol bleidiau Cristionogol, yn o debyg i'r eilun Dagon, â'i hanner yn ddyn, a'i hanner yn bysgodyn; felly y mae eu ffurfiau hwythau; eu hanner yn ddwyfol, a'u hanner yn ddynol. Nid ffurf Duw ydyw hi felly, ond ffurf ddynol, ac eilun o wneuthuriad dychymygol dyn ei hun. Ni oes ond deillion na welant y gwahaniaeth yn amlwg. Nid oes dim ond ufuddhau i ffurf Duw yn rhoddi anrhydedd i Dduw, yn rhyddhau oddiwrth bechod, ac yn gwneuthur llesâd i eneidiau dynion.

II. Yr ufudd-dod sydd ddyledus, ac a roddir i ddyn; megys gwragedd i'w gwyr, Titus 2. 5.—plant i'w rhïeni, Eph. 6. 1.—gweision i'w meistriaid, Eph. 6. 5.—deiliaid i'w llywodraethwyr a'u tywysogion, Rhuf. 13. 1.—ac aelodau eglwysig i'w blaenoriaid. Heb. 12. 13. Ond ni ddylem ufuddhau i neb yn groes i orchymyn Duw. Actau 5. 29.

UFYLLDOD, (ufyll) hyblygedd, moesblygiad, gostyngeiddrwydd, ufuddgarwch.—'Yn wyllys greffydd ac huvylltot-meddwl, ac nyd yn eiriach y corph.' Col. 2. 23. a 3. 12. W. S.

UFFERN——I, (uff-ern) afagddu, y fagddu, annwfn, alis, cadduglyn, uffernle.—Y gair *Heb.* שאול (*sheol*) a'r gair *Gr.* αδης, (*hades*) a gyfleithir *uffern*, a arwyddocânt, weithiau, 1. Y bedd: 'Disgynaf yn alarus at fy mab (שאלה) i'r beddrod.' Genesis 37. 35. a 42. 38. Corah, Dathan, ac Abiram, 'a ddisgynasant yn fyw (שאלה) i uffern.' Num. 16. 30. Yn yr ystyr hwn y gweddïa Dafydd am i'w elynion 'ddisgyn (שאול) i uffern yn fyw.' Ps. 55. 15. Geilw Jonah fol y pysgodyn, uffern. Pen. 2. 2. Yr oedd yn cyfrif ei hun wedi marw a'i gladdu, ac yn mhlith y meirw.——2. Arwydda, hefyd, stad neu wlad y meirw, sef y byd anweledig: 'Uffern oddi tanodd a gynhyrfodd o'th achos, i gyfarfod â thi wrth dy ddyfodiad;' sef â brenin Babilon. Esa. 14. 9. Hefyd, Ezec. 31. 15, 16.—'Ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth.' Dat. 1. 18. 'Y mae genyf agoriadau y byd anweledig, a marwolaeth.' Fel hyn y barna amryw y mae yn fwaf addas cyfleithu y gair Groeg αδης, yn y fan hon. Priodolir y gair yn unig i uffern, lle y colledigion yn y byd arall, sydd yn cyfyngu yr ystyr yn fawr, ac yn bychanu anrhydedd ein Hiachawdwr yn fawr. Gwel Mr Howe's *Works*, a Doddridge, a Grotius, *in loc.*——3. Ac yn fwyaf cyffredin, lle o boenau, yn yr hwn y cospir annuwiolion a chythreuliaid dros byth. 2 Petr 2. 4. Dat. 1. 18. a 6. 8. Luc 16. 23. Mat. 5. 22, 29, &c. a 10. 28. a 23. 33. Er bod y lle ofnadwy hwn yn anweledig i ni, etto, 'uffern a dinystr sydd ger bron yr Arglwydd;' sef yn gwbl adnabyddus iddo. Diar. 15. 11. Job 11. 8. I osod allan mor ddychrynadwy ydyw y lle hwn, gelwir ef wrth yr enwau hyllaf adnabyddus i ni; megys, 'pydew heb waelod,' Dat. 9. 11. a 11. 7. a 17. 8. a 20. 1.—'ffwrn dân,' Mat. 13. 41, 42, 50.—'tân a brwmstan—cerwyn fawr digofaint Duw,' Dat. 14. 10, 19, 20.—'dystryw,' Mat. 7. 13. Dat. 17. 11.—'tywyllwch eithaf,' Mat. 22. 13. a 25. 30. (Edr. TYWYLLWCH.)—'dinystr tragywyddol,' 2 Thes. 1. 8, 9.—'maglau o dân a brwmstan

tân,' Ps. 11. 6.—'tân tragywyddol, anniffoddadwy,' Mat. 3. 12. a 25. 41.—'llyn o dân,' Dat. 19. 20. a 20. 10, 15.—'cadwynau tragywyddol,' Judas 6.—'cospedigaeth dragywyddol,' Mat. 25. 46. 'ail farwolaeth,' Dat. 2. 11. a 20. 6. a 21. 8.—'dinystr a cholledigaeth,' 1 Tim. 6. 9.—'angerdd tân,' Heb. 10. 27. —'fflam hon,' Luc 16. 24.—'phiol ei lid ef,' Dat. 14. 10. a 16. 19. Mae y cyfryw enwau yn hysbysu fod y poenau yn fawrion iawn, canys llid Duw anfeidrol ydyw, ac y mae eu parhad diddiwedd yn ychwanegu at hyny i raddau diamgyffred: etto, uniawn yw y cwbl; er mor ofnadwy, y mae yn gyfiawn. Arwydda y gair cospedigaeth, fod beiau rhagflaenorol yn y gwrthddrychau yn ei haeddu. Nid cospi o'i ben-arglwyddiaeth y mae Duw, ond yn ol yr hyn a haeddwyd: 'Tâl i bob un yn ol ei weithred—yn ol yr hyn a wnaethpwyd yn y corph.' Nis dichon Duw cyfiawn gospi yn anghyfiawn; am hyny, rhaid bod drwg mawr mewn pechod, yn haeddu y fath gospedigaeth ag na bydd diwedd iddi!

UGAIN—NT, UGEINIAU, (ug) *Llad.* VIGINTI: dau ddeg.—Ugain mlwydd ac uchod, ydoedd oedran y gwrrywiaid i fyned i ryfel, a'r Lefiaid i wasanaethu yn ngwasanaeth y deml. 1 Cron. 23. 24, 27. Num. 1. 3, 18.

ULA, gwr o lwyth Aser, tad Arah, Haniel, a Resia. 1 Cron. 7. 39.

ULAI, afon nodedig, wrth ddinas Susan, yn Persia. Wrth yr afon hon y cafodd Daniel weledigaeth hynod. Dan. 8. 2, 16.

ULAM, 1. Mab Machir, a thad Bedan. 1 Cron. 7. 16.——2. Mab Ezec. 1 Cron. 8. 39.

UMAH, עמה [*ei bobl*] dinas yn Aser. Jos. 19. 30.

UN, *Gr.* εν; *Llad.* UNUS; *Gwydd.* AON, UNAR: y rhifyn lleiaf; yr un un, nid arall, hwnw ei hunan; o un i un, sef un ar ol y llall. Ioan 8. 9. Bob yn un ac un, sef y naill ar ol y llall i gyd. Marc 14. 19.

'Un dydd gyd â'r Arglwydd megys mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd megys un dydd.' 2 Petr 3. 8. Y mae cyfeiriad y geiriau at Psalm 90. 4. Nid eu hystyr yw, nad yw yr Arglwydd yn canfod y gwahaniaeth rhwng anghyfartal barhad un diwrnod a mil o flynyddoedd; ond nad ydyw y gwahaniaeth hwn yn effeithio dim ar ei fwriadau, ei weithredoedd, na'i ddedwyddwch, fel y gwnant ar greaduriaid meidrol a therfynedig; fel nad yw yr hyn a gyflawno efe y dydd yr amlygo ei bwrpas, ddim yn fwy sicr na'r hyn a gyflawno yn mhen mil o flynyddoedd, wedi iddo hysbysu ei feddwl. Yr un modd, yr hyn sydd i'w gwblhau yn mhen yspaid hir o amser gwedi ei hysbysu, nid ydyw ddim yn llai sicr, na phe buasai yn cael ei gwblhau pan gyhoeddwyd. Gwel Abernethy's *Sermons, vol.* i. Ymadrodd diarebol ydoedd, yn mhlith yr Inddewon, i arwyddo, nad ydyw parhad meidrol yn dwyn dim cyfatebolrwydd i dragywyddoldeb Duw: nid ydyw holl ddosparthiadau amser mor anghyfartal i'w dragywyddoldeb ef, fel mae y gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall o honynt wedi ei golli yn ei wyddfod: ac mae y pethau a wneir yn mhen mil o flynyddoedd yn nes yn ei olwg ef, na'r hyn a wneir y fory yn ein golwg ni. Nid oes dim perthynas rhwng Duw ac amser, i ni y mae hwnw yn perthyn.

UNFRYD, un feddwl, un fwriad, un galon, un farn. Jos. 9. 2. 1 Petr 3. 8.

UNIG, ar ei ben ei hun, heb arall gyd âg ef; neillduol, digyfaill, digymhorth. Mat. 17. 8.

Digon Duw da i *unig. Diar.*

UN-LLYGEIDIOG, creadur ond âg un llygad ganddo. Mat. 18. 9. Marc 9. 47.

UNWAITH, un amser, o'r un amser; ar yr un amser; gynt, un tro. Exod. 30. 10. Deut. 7. 22. Heb. 12. 26.—'Y ffydd yr hon a rodded unwaith i'r saint.' Judas 3. Απαξ, *gynt*. Hyn yw ei ystyr yn adn. 5. a 1 Petr 3. 20. Neu, yn *gyflawn*, heb achos *ail ychwanegiad* ato.——'Ac i'r ail unwaith bob blwyddyn yr ai yr arch-offeiriad yn unig.' Heb. 9. 7. Rhaid i'r gair απαξ, arwyddo *un dydd*, yn hytrach nag *unwaith*. Ymddengys oddiwrth Lef. xvi, fod yr archoffeiriad yn myned o leiaf bedair gwaith i mewn i'r sancteiddiolaf ar ddydd mawr y cymmod.

UNDEB, UNO, (un) cyduno, cyfuno, cyfu, cydio, cysylltu; cyfundeb, cysylltiad, uniad.—'Una fy nghalon i ofni dy enw.' Psalm 86. 11. Pura hi oddiwrth bob llygredd, twyll, a rhagrith, fel na byddo un gwrthddrych arall ganddi yn ei golwg, ond ofni Duw yn benaf. 'Fel nad edrychwyf yma nac acw.' D. Kimchi. Dyn yn ofni Duw nid ofna ddim arall. Nid oes gwir ofn Duw ond mewn calon wedi ei huno; ïe, y mae gwir ofn Duw yn uno y galon, yr hon, heb hyny, a fuasai yn ddau-ddyblyg. Y rhai ydynt heb ofn Duw a ddywedant y gwir weithiau, a chelwydd brydiau eraill; a wnant gyfiawnder neu anghyfiawnder, fel y byddo y cyfleusdra neu y buddioldeb: ond y rhai sydd yn gwir ofni Duw sydd yn caru Duw a'i ogoniant, ac yn casâu pechod. Adn. 12. Gwaith Duw yw uno y galon, ei dwyn o bob crwydriad at un gwrthddrych. Efe sydd 'yn rhoddi un galon, ac un ffordd.' Jer. 32. 39.

'Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd yn nghwlwm tangnefedd.' Eph. 4. 3. Undeb meddwl a serch; undeb yn tarddu oddiwrth eu perthynas â'u gilydd, fel aelodau yr un corph, neu eglwys, a Christ yn ben iddo; yn addoli yr un Duw yn yr un ordinhadau; yn mwynhau yr un doniau a chynnorthwyon yr Ysbryd; ac â'r un hawl ganddynt i'r un breintiau ysbrydol. Gweddai, gan hyny, eu bod yn ddyfal, yn brysur, ac yn ofalus, i *gadw* yr undeb goruchel hwn, wedi ei gael unwaith; llawer a ymgais y gelyn i'n hyspeilio o hono. 'Undeb yr Ysbryd,' sef undeb gwirioneddol, ac nid ymddangosiadol a rhagrithiol.

'Hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw.' Eph. 4. 13. Undeb ffydd, ydyw undeb dynion â'u gilydd sydd yn credu yr un athrawiaeth, ar yr un sail, sef tystiolaeth Duw, ac â'r un cyfryw ffydd werthfawr o weithrediad Duw. Dyma yr undeb mwyaf goruchel a chadarnaf a ddichon fod: yn sefyll ar yr un sylfaen gadarn, yn syllu ar yr un gwrthddrych, ac yn gorfoleddu yn yr un gobaith. Undeb ffydd yn yr athrawiaeth a'n dug ni i undeb gwybodaeth o wrthddrych yr athrawiaeth hòno, sef Mab Duw. Dyma gwlwm nas dattodir byth mo hono!

UNIAWN—DEB—DER—I, (iawn) cywir, cyfiawn, yn uniawn syth, sef yn ei uniawn sefyll; cyfiawnder, yr iawn; unioni cam, adgywiro, dadblygu, dadwyro.—Y gair Hebraeg ישר a gyfieithir *uniawn*, a arwydda, gwastadlyfn, cymhwys, addas, cyfiawn; ac a briodolir, 1. I'r Arglwydd; 'Da ac uniawn yw yr Arglwydd.' Ps. 25. 8. a 92. 15. Edr. CYFIAWN, DUW, SANCTAIDD.——2. Gelwir cyfiawnder Crist, (ישר) *ei uniondeb*. Job 33. 23.——3. I ddeddfau, gair, a ffyrdd yr Arglwydd. Ps. 19. 8. a 33. 4. Hos. 14. 9. Os yw yr Arglwydd ei hun yn berffaith uniawn, rhaid bod ei ddeddfau felly hefyd; nis dichon un uniawn roddi deddfau croes i hyny, na llefaru gair heb ei gyflawni. Edr. CYFRAITH, DEDDF, GRAS.——4. Priodolir uniondeb hefyd i ddyn yn ei greadigaeth; 'Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn.' Preg. 7. 29. Yr oedd yn cyfateb yn holl weithrediadau ei enaid i gyfraith uniawn Duw, heb ddim pall, na gormodedd, na gwyrni, mewn un gradd. Yr oedd ar 'ddelw Duw;' mwy na hyny nis gellir ei ddywedyd am dano. Edr.

Digitized by Google

ADDA.——5. Gelwir y rhai a adnewyddir gan yr Ysbryd Glân, yn rhai *uniawn*, yn aml.—'Uniawn o galon—yn rhodio yn uniawn—yn berffaith ac yn uniawn—uniawn eu ffordd.' Ps. 7. 10. a 37. 14. a 94. 15. a 97. 11. Diar. 28. 18. Job 1. 1. Can. 1. 4, *et al.* Gŵyr oeddynt, ond gwnawd y gŵyr yn uniawn. Esa. 40. 4. Luc 3. 5. Y maent yn uniawn, 1. Yn wirioneddol, ac nid yn ymddangosiadol; 'uniawn o galon.'—2. Uniawn yn eu dybenion. Edr. SYML.—3. Uniawn yn eu dymuniadau, yn hiraethlawn am fod yn berffaith uniawn.—4. Uniawn yn eu hymdrechiadau, â'u golwg ar y gyfraith uniawn yn eu holl rodiad, ac yn gweddïo am gynnorthwyon yr Ysbryd Glân i unioni eu gŵyrni.

UNICORN—IAID, (un·corn) *Llad.* UNICORNIS; *Ffr.* LICORNE; רישן *unicorn*, Deut. 14. 5.—Pa greadur a feddylir wrth y gair *Heb.* ראם (*reem*) sydd gwedi bod yn achos o ddadl. Creadur corniog ydyw, Deut. 33. 17. Ps. 92. 10.—nerthol, Num. 23. 22. Job 39. 9, 10— o ryw yr ŷch, gyd â'r rhai y rhoddir ef, Deut. 33. 17. Ps. 22. 21. a 29. 6. Esa. 34. 7. Y rhai hyn ydyw yr holl leoedd yr arferir y gair ynddynt. Y LXX. a'i cyfieithant yn mhob man, *μονοκερος, ungorn*, ond yn Esa. 34. 7. lle y cyfieithant ef *αδροι, y cryfion*. Mai nid un corn sydd gan y creadur hwn, sydd gwbl eglur oddiwrth Deut. 33. 17. a Ps. 22. 21. 'A'i gyrn ef sydd gyrn unicorn: â hwynt y cornia efe y bobl yn nghyd hyd eithafoedd y ddaear: a dyma' ראם *a'r rhai hyn* (y ddau gorn) 'fyrddiwn Ephraim, ïe, dyma filoedd Manasseh;' hyny yw, y ddau lwyth, hiliogaeth Joseph. Tebygol mai y tarw gwyllt a feddylir wrth y gair. Barna rhai mai y *rhinoceros* yw, y cryfaf o holl bedwar carnolion y ddaear. Ond nid yw corn (mae gan rai *ddau*) y *rhinoceros* yn cyfateb i'r desgrifiad o gyrn y *reem*, ac yn anaddas i wthio â hwynt, ond yn fwy addas i ddiwreiddio coed, a dryllio rhai ieuainc, ar ba rai y mae yn ymborthi. Hefyd, gan fod y *rhinoceros* yn drigiannydd parthau deheuol Affric, annhebyg ei fod yn adnabyddus i'r Israeliaid yn nyddiau Moses, ïe, Dafydd. Os bu erioed y fath greadur a'r unicorn, yn ol darluniad dychymygol dynion o hono, nid oes hanes gan neb a'i gwelodd yn ddiweddar yn un parth o'r byd. Y creadur a elwir felly yn yr ysgrythyrau, yn ol ein cyfieithiad ni, ar ol y LXX., sydd gwbl wahanol, ac â *chyrn*, ac nid *un* corn ganddo. Gwel Bochart, Schultens, Scott, a J. M. Good, ar Job 39. 9.

Cyffelybir dynion drygionus, cedyrn, âg awdurdod a gallu mawr ganddynt, i'r unicorniaid. Y maent yn orwyllt, yn ffyrnig, yn greulawn, a chyrn eu hawdurdod yn dra niweidiol i'r gweiniaid yn gyfagos iddynt. Gwrandawyd a gwaredwyd Crist o blith cyrn yr unicorniaid, neu y teirw gwyllt; (Ps. 22. 21.) sef y blaenoriaid Iuddewig.

UNNI, עני [*cystuddiol*] cerddor. 1 Cron. 15. 18.

UPHARSIN, ופרסין [*a rhanwyd*]—'Rhanwyd dy freniniaeth, a rhoddwyd hi i'r Mediaid a'r Persiaid.' Dan. 5. 25. Rhan o'r ysgrifen a welodd Belsassar ar galchiad y pared, yn rhagfynegi ei farn drom.

UPHAZ, אופז [*cyfrwymiad*] enw gwlad lle yr ydoedd yr aur goreu, hwyrach, yr un ag Ophir. Dan. 10. 5. Jer. 10. 9. Edr. OPHIR. Barna rhai mai wrth 'aur Uphaz,' y meddylir *aur pur*, oddiwrth ei gydrwymiad cryf a'i sylweddolrwydd. Wrth gymharu 1 Bren. 10. 18. â 2 Cron. 9. 17. gwelir fod y gair טהור *pur*, gwedi cael ei roddi yn y diweddaf yn lle פז yn y cyntaf. Eraill a farnant mai enw lle yw yn Jer. 10. 9. Cyfieitha rhai ef *Ophir, Syr. Chald. Theodotion.* Nid oes dim sicrwydd ai yr un lle a feddylir wrtho, ag Ophir, neu ryw le arall. Hwyrach ei fod yn enw lle, ac hefyd yn dynodi ei burdeb, o herwydd purdeb yr aur a ddygant o'r lle hwnw. Nid gwiw ychwanegu geiriau am yr hyn nis gellir rhoddi ychwaneg o foddlonrwydd yn ei gylch.

UR, אור [*tân, goleuni*] enw lle, dinas, neu yn hytrach talaeth, yn Caldea, neu yn y parthau dwyreiniol i Mesopotamia. Gen. 11. 28. a 15. 7. Neh. 9. 7. Oddi yma y galwyd Abraham gan yr Arglwydd i fyned i wlad Canaan. Tebygol galw y lle wrth yr enw hwn, o herwydd y tân gwastadol oedd yno yn llosgi i ryw eilun.

URDD—AU, (ur) trefn, gradd, cylch, rhes, rhestr; urddo, ydyw gosod un mewn swydd sanctaidd. Ps. 110. 4. Heb. 7. 11. Edr. MELCHISEDEC.

URDDAS—OL, (urdd) anrhydedd, edmyg, parch, bri: uchel-fraint, uchel swydd. 2 Petr 2. 10.—'I chwi, gan hyny, y rhai ydych yn credu, y mae yn urddas.' 1 Petr 2. 7. I chwi, gan hyny, y rhai ydych yn credu, y mae yn werthfawr. *Ψμιν ουν η τιμη τοις πιστευουσιν, i chwi y mae yr anrhydedd hwn, y rhai ydych yn credu.* I chwi y mae yr anrhydedd o gael eich adeiladu ar Grist, y sylfaen a'r pen-conglfaen yn nheml Duw. Gwel Tremelius, Beza, Mackuight.

URIAH, URIJAH, URIAS, [*goleuni yr Arglwydd*]. 1. Gwr Bathseba. Mae yn ymddangos yn ŵr o ffyddlondeb a gwroldeb mawr. 2 Sam. xi. a 23. 39. Galwyd ef Urias yr Hethiad, tebygol, am ei fod o'r genedl hòno, ac yn broselyt i'r grefydd Iuddewig. Edr. BATHSEBA, DAFYDD.——2. Offeiriad eilun-addolgar yn amser y brenin Ahaz. 2 Bren. 16. 10, 11. Edr. AHAZ.——3. Prophwyd ffyddlawn yr Arglwydd, yr hwn a rybuddiodd y bobl am ddinystr Jerusalem; yr hwn, pan geisiodd Jehoiacim ei ladd o'r achos, a ofnodd, a ffôdd i'r Aipht. Ond Jehoiachim a'i cyrchodd yn ei ol, ac a'i lladdodd yn greulawn â'r cleddyf, ac a fwriodd ei gelain i feddau y cyffredin yn anmharchus. Jer. 26. 20, 21, 22.

URIEL, אוריאל [*Duw yw fy ngoleuni*] 1. Mab Tahath. 1 Cron. 6. 24. a 15. 5, 11.——2. Tad Michaiah, gwraig Abiah brenin Judah. 2 Cron. 13. 2.

URIM a THUMMIM, האורים והתמים [*goleuni a pherffeithrwydd*] Mae y ddau air yn y rhif lliosog, i arwyddo y goleuni mwyaf perffaith a boddlonol. Exod. 28. 30. Lef. 8. 8. Deut. 33. 8. Rhyw bethau oeddynt a roddid yn nwyfroneg yr arch-offeiriad i ymofyn â Duw drwyddynt. Num. 27. 21. 1 Sam. 28. 6. Beth oeddynt, a pha fodd yr ydoedd atebiad i'w gael trwyddynt, sydd yn fater o ymofyniad manwl. Nid oes gan neb ddim hyfforddiad nac hysbysrwydd yn ychwaneg i roddi i ni ar y mater, nag a roddir i ni yn yr ysgrythyrau. Gan adael heibio ddychymygion pawb, ystyriaf yr hyn a roddwyd o hysbysrwydd i ni gan Dduw ei hun.—1. Am eu defnydd; y mae yn dra thebygol mai y deuddeg maen gwerthfawr yn y ddwyfroneg, ydoedd y defnydd, ar ba rai yr ydoedd enwau y deuddeg llwyth gwedi eu naddu. Exod. 28. 17, &c. Yr ydym yn darllen yn Exod. 28. 29. 'A dyged Aaron yn nwyfroneg y farnedigaeth, enwau meibion Israel ar ei galon, pan ddelo i'r cysegr, yn goffadwriaeth ger bron yr Arglwydd yn wastadol.' Ac i beri hyn fyth yn fwy cadarn, ychwanegir yn adn. 30. 'A dod ar ddwyfroneg y farnedigaeth yr Urim a'r Thummim, a byddant ar galon Aaron pan elo i mewn ger bron yr Arglwydd, ac Aaron a ddwg farnedigaeth meibion Israel ar ei galon, ger bron yr Arglwydd yn wastadol.' Wrth gymharu y ddwy adnod, ymddengys mai yr Urim a'r Thummim ydoedd y sylwedd, neu y mater ar ba un yr oedd yr enwau gwedi eu naddu, sef y meini gwerthfawr. Yn y desgrifiad a roddir o'r ddwyfroneg yn Exod. 39. 8, &c., ni sonir am yr Urim a'r Thummim, ond cofféir am y meini. Yn Lef. 8. 8. enwir yr Urim a'r Thummim, ond ni sonir am y meini; 'ac efe

Digitized by Google

a roddes yr Urim a'r Thummim yn y ddwyfroneg:' gan hyny, y mae yn dra thebygol fod yr Urim a'r Thummim, a'r meini gwerthfawr, yn unig yn wahanol enwau am yr un peth. Ond os nad yr un peth ydynt, rhaid dywedyd i Moses, yr hwn sydd gwedi rhoddi hanes neillduol o fanwl am bob peth perthynol i wisgoedd yr arch-offeiriad, adael allan y darn mwyaf hynodol a rhyfedd o honynt, yr hyn sydd yn annhebyg iawn.——2. Am yr ail bwnc, pa fodd yr ydoedd yr atebiad yn cael ei roddi trwy yr Urim a'r Thummim? Ymddengys gwedi ei benderfynu tu hwnt i bob dadl, mai trwy lais yn llefaru, fel ar amseroedd eraill (Num. 7. 8, 9.) canys pan ymgynghorodd Dafydd trwy ephod Abiathar â'r Arglwydd, יהוה אמר '*Iehofah a ddywedodd*, Efe a ddaw i waered.' 1 Sam. 23. 11, yr un fath yn adn. 12. Cymh. 1 Sam. 30. 7, 8. 2 Sam. 2. 1—5, 23, 24. Barn. 1. 1, 2. a 20. 18. Fel hyn gan hyny, *trwy lais yn llefaru* y rhoddodd yr Arglwydd ateb, pan yr ymddangosai yr arch-offeiriad ger ei fron â'r Urim a'r Thummim. Yn eu rhyfeloedd yr oedd offeiriad wedi ei gysegru i fod yn y maes gyd â'r byddinoedd, â'r ephod ganddo i ymgynghori â'r Arglwydd yn lle yr arch-offeiriad. Anfonodd Moses Phineas yr offeiriad i'r rhyfel yn erbyn y Midianiaid â dodrefn y cysegr gyd âg ef. Num. 31. 6. Sef yr ephod a'r ddwyfroneg, medd yr esponwyr Iuddewig, mewn cist neu arch, yr hon a ddygid ar ysgwyddau y Lefiaid yr un modd a'r arch. A dyma yr arch a feddylir, meddant, yn 1 Sam. 14. 18. 2 Sam. 11. 11. Ac felly yr oedd ephod gyd âg Abiathar i Dafydd ymgynghori â'r Arglwydd; ond nid oes dim hanes yn yr ysgrythyrau am y cyfryw arch.——Er bod y dull hwn o ymgynghori â'r Arglwydd yn arferedig yn aml yn y babell, ac a barhaodd, diammeu, hyd ddinystr y deml, etto, nid oes siamplau o hyny trwy holl amser y deml gyntaf; ac y mae yn dra dilys ei fod yn eisieu yn yr ail deml. Gwel Ezra 2. 63. Neh. 7. 65. Prideaux's *Connection, p.* i. *b.* 3.—Calmet's *Dictionary.—Ancient Universal History, vol.* iii.—Pocock *on* Hos. 3. 4.—Hattinger *in Moses and Aaron, lib.* 1. *cap* 5. —Yn hyn, fel yn y cwbl, yr oedd yr arch-offeiriad yn gysgod o'r Arch-offeiriad mawr, Iesu Mab Duw, yr hwn a aeth i'r nefoedd, ag sydd yn ei eiriolaeth âg enwau ei bobl ar ei galon, mewn coffadwriaeth dragywyddol ger bron Duw. Heb. 7. 25.

US—ION, manus, usion ŷd, peision, gwehilion, hidlion, grawnusion.—Dynion drwg, yn enwedig rhagrithwyr, a gyffelybir i ûs, yn ddiffrwyth, yn ddiwerth, yn anfuddiol, yn ysgafn, ac yn cael eu cylch-arwain â phob awel dysgeidiaeth, a chorwynt barnedigaethol Duw a'u dwg ymaith i ddystryw tragywyddol. Ps. 1. 4. Mat. 3. 12. Hos. 13. 3. Esa. 41. 16.

Fel y mae y wir athrawiaeth yn tebygu i wenith, yn sylweddol, ac yn fagwriaethol, felly tebyg ydyw gauathrawiaeth i ûs, yn wag, yn ddisylwedd, ac yn annefnyddiol, ac ni ddichon iddi sefyll proflad gair Duw. Jer. 23. 28.

'Chwi a ymddygwch ûs, ac a esgorwch ar sofl; eich anadl fel tân a'ch ysa chwi.' Esaiah 33. 11. Geiriau dichlyn, hardd, yn gosod allan ofered, gwaced, ac aflwyddianned, ydyw holl amcanion, cynghoriadau, a bwriadau gelynion yr eglwys, pan yr ymddangoso Duw o'i phlaid. Eu hysbryd digllawn eu hunain a'u hysa. Edr. Preswyn.

USAL, אוזל [*yn teithio*] chweched mab Joctan, hiliogaeth yr hwn a boblogasant barthau deheuol Arabia Ffelix, yn ol y farn gyffredin. Gen. 10. 27.

USURIAETH, *Llad.* Usura; *Ffr.* Usure; *Saes.* Usury: ocr, ocraeth, llôg, arian mael. Exod. 22. 25. Diar. 28. 8. Edr. Ocr.

UTHAI, עותי [*fy amser*] mab Ammihud, o Phares mab Judah. 1 Cron. 9. 4.

UZ, עוץ [*gwlad ffrwythlawn*] 1. Mab Aram, ac ŵyr Sem. Gen. 10. 23. Nid oes hanes am ei hiliogaeth, na dim sicrwydd yn mha le y trigasant.——2. Gwlad Uz ydoedd y wlad y preswyliai Job ynddi. Job 1. 1. Edr. Job.

UZZA, עזא [*cadernid*] mab Abinadab, yn nhŷ yr hwn y trigodd arch Duw yn hir. Am farn Duw ar Uzza am gyffwrdd â'r arch pan oedd yr ychain yn ei hysgwyd, Edr. Dafydd. 1 Sam. 6. 6, 7. Edrych Abinadab, Ahio, Arch.

UZZEN-SERAH, עזן־שארה [*clust y cnawd*] dinas yn Ephraim, nid pell oddiwrth Beth-horon, a adeiladwyd gan Seerah merch Beriah, ac wyres Ephraim. 1 Cron. 7. 24.

UZZIAH, עזיה [*nerth yr Arglwydd*] mab Uriel, Lefiad o deulu Cohath. 1 Cron. 6. 24.

UZZIEL, עזיאל [*nerth Duw*] mab Cohath, a phenteulu. Num. 3. 27.

# W.

W. Sŵn y llafarai hon sydd amgenedigaeth o'r llafarai *o*; y mae yn dynodi y rhyw wrrywaidd, a'r *o* y fenywaidd; megys *hwn, hon*; *hwnw, hòno*. Arferir hi hefyd i osod allan arswyd, neu larwm.

WADD. Edr. Gwadd.

WALA. Edr. Gwala.

WASTAD. Edr. Gwastad.

WAWR. Edr. Gwawr

WEDD. Edr. Gwedd.

WEITHIAN, (gwaith) *gorair*; yr amser hwn, yn awr, bellach, o'r diwedd; y waith hon, y weithion, weithon, &c.—'Hon weithian,' &c. Gen. 2. 23. הפעם *yn awr*.——'Cysgwch weithian.' Marc 14. 41. το λοιπον, *o hyn allan, bellach*, yr hyn sydd yn ol. Mat. 26. 45. Actau 27. 20. 2 Tim. 4. 8. Lleoedd yr arferir yr un gair ynddynt.——'Ei bod hi weithian yn bryd i ni ddeffroi o gysgu,' &c. Rhuf. 13. 11. οτι ωρα ημας ηδη. 'Ys y bot hi yr owrhon yn bryd y ddyffroi o gyscu.' W. S. 'Am fod ein hiechydwriaeth ni yn nes (neu, yn ol rhai, yn fwy goleu a dealladwy) na phan gredasom;' gweddus ydyw, gan hyny, i ni ddeffroi o gysgu, am ei bod yn ddydd goleu arnom. Neu, am fod yr amser yn nesâu beunydd i ni fwynhau cyflawn iechydwriaeth yn angeu, y mae yn bryd i ni ddeffroi o gysgu i wneyd rhyw beth dros Dduw yn y byd ac i fyw fel plant y goleuni.

WELE, neu WELA, (wel) sylwa! edrych! nycha! Y gair wele, a arwydda rhyfeddod, ac a eilw ein sylw difrifol at ryw fater rhyfedd, neu o lawenydd, tristwch, neu at beth sicr. Esa. 7. 14. Mat. 21. 5. Ioan 1. 29. Dat. 16. 5. Luc 24. 39.—'Wele dy frenin yn dyfod atat!' Zech. 9. 9.—'Wele y dyn!' Ioan 19. 5. Edr. Gweled.

WERMOD, *Saes.* Wormwood, *Gr.* αψινθος, *anyfadwy*, am na ellir ei yfed ef gan ei chwerwder. Llysieuyn, y dywed Tournefort fod 24 math o honynt. Y mae yn chwerw i'r archwaeth, ond yn dra iachus i'r

Digitized by Google

cylla a'r iau, ac yn lladd y llyngyr. Y mae yn feddyginiaethol yn y cryd melyn a'r dyfrglwyf. Rhag y llyngyr rhoddir ef wrth y bol tu allan, a chymerir ef yn belenau (*pills*) gwedi ei gymysgu â briwsion bara. ——Cyffelybir eilun-addoliaeth, halogedigaeth, &c., i wermod; y maent yn ffiaidd gan Dduw a'i bobl; a byddant yn y diwedd yn chwerw i'r pechaduriaid eu hunain. Deut. 29. 18. Heb. 12. 15. Diar. 5. 4.——Gorthrymder a chystudd ydynt yn chwerw fel wermod. Galar. 3. 14, 19. Amos 5. 7.

'Enw y seren a elwir Wermod.' Dat. 8. 11. Barna yr Esgob Newton, mai wrth y seren hon y mae i ni ddeall Genseric, brenin y Vandaliaid, yr hwn a gystuddiodd y Rhufeiniaid yn fawr, A. D. 455, a amddiffynodd gyfeiliornadau chwerwon a gwenwynig Arius, ac a erlidiodd y Cristionogion uniongred yn ddychrynllyd drwy ei holl deyrnasiad. Ond barna Vitringa mai Arius ei hun a feddylir, a'i gyfeiliornadau chwerwon. Barna efe, mai nid y llysieuyn o'r enw hwn a feddylir, ond mai math o wenwyn chwerw a marwol. Bu canlyniadau cyfeiliornadau Arius yn wenwynllyd ac yn chwerwon iawn, yn dra niweidiol i eneidiau dynion, ac yn achos o derfysgiadau ac erlidigaethau creulawn yn yr oesoedd hyny.

'Tarddodd barn megys wermod yn rhychau y meusydd.' Hos. 10. 4. 'Er hyny barn a dardd megys cegid dros gryniau y meusydd.' Horsley. Ystyr y gair ראש ydyw *prif wenwyn*, neu *wenwyn marwol*. Cyfieithir ef *gwenwyn* yn Deut. 29. 18. a 32. 33. Y gair *Heb.* לענה a gyfieithir *wermod*, a gyfieithir *bustl* yn Ps. 69. 21. Jer. 9. 15. a 23. 15. Galar. 3. 19. Amos 6. 12. Wrth gymharu Ps. 69. 21. â Ioan 19. 29. barna y dysgedig Bochart, mai yr un yw ראש yn y Psalm, â *υσσωπω*, *issop*, rhyw o ba un yn tyfu yn Judea, sydd yn chwerw ac yn anfwytadwy. Dywed Theophylact ychwanegu yr issop am ei fod yn wenwynllyd. Dichon y gair *Heb.* ראש fod yn enw cyffredin am lysiau gwenwynllyd. Gwel Esgob Horsley ar Hos. 10. 4. Blayney ar Jer. 8. 14.

WINWYN—EN, enw llysieuyn digon adnabyddus. Cyfrif Tournefort 13 o rywiau o honynt. Ond eu bwyta yn gymedrol, y maent yn dra defnyddiol i deneuo y gwaed, i lanhau y cylla, ac i beri chwant bwyd: ond yn y gormodedd maent yn niweidiol. Yr oedd yr Hebreaid, a phobl gyffredin yr Aipht, yn byw llawer ar winwyn a chenin. Num. 11. 5.

WRTH, gerllaw, yn agos, ar ael, yn ymyl, yn gyfagos; i, iddo; trwy; yn gyffelyb, neu mewn cymhariaeth.—'Beth a wnaethum i yn awr wrth a wnaethoch chwi?' Barn. 8. 2.——'Onid yw wrth hwnw yn eich golwg fel peth heb ddim?' Haggai 2. 3.——Dywed wrtho, sef dywed iddo.

'Dangos i mi dy ffydd di heb dy weithredoedd, a minnau wrth fy ngweithredoedd i a ddangosaf i ti fy ffydd innau.' Iago 2. 18. 'Dangos di i mi dy ffydd wrth dy weithredoedd, a mi a ddangosa yt fy ffydd wrth fy ngweithredoedd.' W. S. a'r Dr M. Y mae ein cyfieithiad presennol ni, a'r Saesonaeg, yn wahanol oddiwrth y rhan fwyaf o'r argraffiadau o'r Testament Groeg. Εκ των εργων σου, *wrth dy weithredoedd*; ac, εκ των εργων μου, *wrth fy ngweithredoedd*. Y mae rhai adysgrifeniadau yn darllen, χωρις των εργων σου, *heb dy weithredoedd*. Y rhai hyny a ddilynodd ein cyfieithwyr diweddaf ni. Y mae y cyfieithiadau Syriaeg, Arabaeg, a'r *Vulgate* Lladinaidd, yr un fath. Ond y mae Mills, Beza, Dr Doddridge, ac eraill, yn cyfieithu y geiriau yr un fath a W. S. a'r Dr M., ac yn esponio y geiriau, 'Dangos i mi dy ffydd di wrth dy weithredoedd:' yr unig ffordd yw y gelli di ei dangos; ond gan nad oes genyt ti weithredoedd i'w dangos, nis gelli byth ddangos dy ffydd. 'Ond myfi a brofaf fod genyf ffydd wrth fy ngweithredoedd.' Yn lle dadleu yn nghylch natur ffydd, bydded i ni ei dangos trwy ei heffeithiau sylweddol ar ein hysbrydoedd a'n hymarweddiadau.

WY—AU, WI, deheubarth; *Groeg* ωον; *Lladin* OVUM: y peth a ffurfir yn y fenyw o rai rhywogaethau o greaduriaid, ac a gynnwys dan blisgyn y milrith o'r unrhyw. Y creaduriaid hyn a elwir *oviparous* (*dodwyawl*) a'r lle y ffurfir yr ŵy ynddo *ovary* (*ŵyfa*). Rhanau yr ŵy ydyw y plisgyn, y tu fewn iddo yn ei wrthleinio; y gwyn-ŵy yn amwisgedig â'i bilen; a'r melyn-ŵy yr un fath. Sylwedd y gwynŵy sy ddyfrllyd, a sylwedd y melyn-ŵy sydd olewaidd, ac am hyny yn faethlawn. Arferir pob un o'r ddau mewn cyfferi, ac yn ymborth; ac nid oes dim a fernir yn fwy maethlawn. Luc 11. 12. Y mae pob ŵy yn llawn yn newydd; y mae mân-dyllau yn y plisgyn trwy y rhai y chwysa allan wlybwr dyfrllyd, ac yn raddol y mae y rhanau tufewnol yn lleihau ac yn hadlu. Trwy gauad y mân-dyllau hyn âg unrhyw beth, gellir cadw yr ŵy yn beraidd yn hir. Trochi yr ŵy mewn gwêr, neu frasder manllwyn a buchod, wedi ei gymysgu a'i doddi, a etyb y dyben i gadw yr ŵy yn beraidd am flwyddyn neu ychwaneg. Yn Tonquin y mae ganddynt ffordd i gadw yr ŵyau yn beraidd am dair blynedd. Beth bynag a gauo y mân-dyllau uchod yn y plisgyn, a etyb y dyben hwnw. Canfyddir â drychau gynllun y cyw yn yr ŵy, cyn i'r iar eistedd arno, yr hwn sydd yn cynnyddu gan wres y dëoriad. Yn yr Aipht y maent yn dëori ŵyau mewn ffwrn, neu bob-tŷ, a chanfyddir saith neu wyth mil o gywion yn dyfod allan ar unwaith.

WYBR—AU—EN, (gwyb) *Llad.* ÆTHER: awyr, nef, ffurfafen, cwmwl. Deut. 33. 26. Ps. 68. 34. a 77. 17. a 78. 23. Luc 12. 56. Edr. AWYR, FFURFAFEN, NEF, SER.

WYLAW—OFAIN, (wyl) *Heb.* אליל *(alil)*; *Llad.* ULULO: galaru, tywallt deigr, gollwng dagrau; cwynfan, griddfan.—Edr. DAGRAU, GALAR, RHINCIAN.—'Ac efe a ddaeth i dŷ penaeth y synagog, ac a ganfu y cynhwrf, a'r rhai oedd yn wylo ac yn ochain llawer.' Marc 5. 38. Y mae arferion y cenedloedd dwyreiniol yn bresennol yn cyfateb i hyn, medd Syr John Chardin. 'Y mae,' medd efe, 'yn anghredadwy y tyrfaoedd lliosog a fyddant yn ymgasglu i'r fan lle y gorwedd un marw. Y mae pawb, y tlawd a'r cyfoethog, yn rhedeg yno; a'r cyntaf, yn neillduol, a wnant sŵn dyeithr ac anhyfryd.' Gwel Harmer's *Observations*, *chap*. vi, *obs*. 54.

WYLL. Edr. GWYLL.

WYN. Edr. OEN.

WYNEB—AU—PRYD—U, (gwyn) drych, gwep, edrychiad, ffriw, dichwel, trem, tremynt, gosgedd; arwyneb y ddaear, neu unrhyw beth.—Wrth y wyneb y gwahaniaethir y naill ddyn oddiwrth y llall, i'r golwg, fel y gwneir wrth y gwahanol leisiau i'r glust. Un o ryfeddodau naturiaeth ydyw, er bod wynebau pawb yn yr un sefyllfa, ac yn gynnwysedig ond o ychydig ranau, ac mewn ychydig gylch, etto, nad oes dau yr un fath. Nis gellir cynnal cymdeithas ddynol, heb undeb a gwahaniaeth. Yr aneirif nodweddau gwahanol wynebau dynion, sy ddarpariad tra doeth rhagluniaeth y Goruchaf, er cysur a lleshâd cyffredin dynolryw: heb hyn, buasai yr annhrefn mwyaf yn eu plith, er mawr anghysur a dinystr pob cymdeithas. Y mae y wynebpryd yn ddrych grisialaidd, yn mynegi ac yn dangos meddyliau, teimladau, goddefiadau, a gweithrediadau tufewnol ac anweledig ysbryd dyn. Y mae edrychiad gwahanol ar y wyneb, cyfatebol i'r holl ysgogiadau a'r teimladau tufewnol; megys, cariad a chasineb; llawenydd a thristwch; gwroldeb ac anwreidd-dra; hyder ac anobaith; parch a diystyrwch; balchder a gwylder; tiriondeb a chreulondeb, &c.

Digitized by Google

Mae y gwrthdeimladau hyn oll â gwrthosgedd wyneb cyfatebol iddynt, ac yn eu hamlygu; a gellir canfod, trwy graff sylw ar y wynebpryd, pa un sydd yn llywodraethu fwyaf ar y dyn: aml weithrediadau yr un cyhyrau a argraffa ddelw y teimladau tufewnol yn sefydlog ar y wyneb. Oddiwrth hyn y mae priodolder yr ymadroddion, 'cywilydd wyneb—wyneb digywilydd—wynebpryd yn drist—siriol wynebpryd—llewyrch a goleuni wyneb,' &c. Diar. 7. 13. a 16. 15. a 21. 29. Psalm 90. 8. Neh. 2. 2. Actau 2. 28. Y mae yr holl deimladau hyn yn ymddangos yn agweddiad y wyneb.

Arwydda *wyneb* yn aml yn yr ysgrythyrau, 1. Dyn ei hun: 'Ni feddyliais weled dy wyneb,' sef ei weled ef ei hun. Gen. 48. 11. Deut. 1. 17. 2 Sam. 14. 24. Diar. 28. 21. Galar. 5. 11. Ezeciel 3. 8. a 20. 35. Edr. MAWRHAU.——2. Arwyneb: megys, 'wyneb y ddaear.' Luc 21. 35. Actau 17. 26. Gen. 2. 6. a 4. 14. a 6. 4, &c.

Gwrthwynebu un a thystiolaethu yn ei wyneb, yw, yn ei wyddfod, gyda hyfdra. Gal. 2. 11. Hos. 5. 5. ——Derbyn wyneb, yw dangos ffafr i un, a chaniatau ei ddymuniad. Gen. 19. 21. Diar. 18. 5.

'Canys nid oes derbyn wyneb ger bron Duw.' Rhuf. 2. 11. 1 Petr 1. 17. 2 Cron. 19. 7. Deut. 10. 17. Job 34. 19.——1. Nid ydyw yn edrych ar ddynion â golwg allanol, ond edrych ar eu calonau. 1 Sam. 16. 7.——2. Nid ydyw yn pleidio dynion o herwydd eu gwahanol amgylchiadau yn y byd, am fod rhai yn uwch radd na'u gilydd. Eph. 6. 9. Col. 3. 25. Iago 2. 9.——3. Nid ydyw yn pleidio rhai am eu bod o'r naill genedl yn fwy na'r llall; 'ond yn mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo ef.' Actau 10. 35.——4. Nid ydyw yn cyfrif pechod yn llai, na gras yn fwy, am eu bod yn y naill ddyn, ac nid yn arall; ond y mae yn golygu pob peth yn uniawn *fel* y mae, yn *mhawb*. Gal. 2. 6.——5. Fel Barnwr, ni dderbyn wyneb, ond bydd yn ddadguddiad gogoneddus o *gyfiawn* farn Duw. 1 Petr 1. 17. Bydd pob un, a gweithred pob un, yn cael eu golygu yn gywir gan Dduw holl-wybodol, a'r farn yn cael ei rhoddi yn gyfatebol.——6. Yr un gyfraith uniawn, a'r un efengyl rasol, a roddwyd i bawb, ac y mae yr un orsedd-fainc y gras wedi ei darparu i'r neb a ddêl ati; a bydd y Barnydd yn gwbl ddibleidiol ar orsedd-fainc barn. Ond nid yw ei uniondeb yn diddymu ei ben-arglwyddiaeth; fel Pen-arglwydd y mae yn creu, yn donio, yn sefydlu sefyllfaoedd dynion yn y byd, yn gystal ag amser eu dyfodiad i'r byd, fel y gwelodd ef yn dda. Felly hefyd yn ei ben-arglwyddiaeth y mae yn trugarhau wrth y neb y myno. Nid derbyn wyneb yw hyny, ond gweithredu fel Duw, ac yn addas iddo ei hun, tu ag at ei greaduriaid; a gwadu ei hun fyddai peidio gweithredu felly. Etto, yn ei ben-arglwyddiaeth, nid yw, ac nis dichon iddo weithredu yn anghyfiawn, yn ansanctaidd, na bod yn dderbyniwr wyneb. Y mae yn FOD syml, ac yn berffaith gyson âg ef ei hun yn mhob peth—sef yn Ben-arglwydd, yn ddoeth, yn gyfiawn, ac yn dda.

Priodolir wyneb hefyd i'r Arglwydd. Arwydda, weithiau, 1. Duw ei hun, neu y presennoldeb dwyfol. Exod. 33. 11, 14, 15, 20, 23. Psalm 11. 7.——2. Ei ddigofaint. Ps. 34. 16. Dat. 6. 16. 'Ti a'u gwnai hwynt fel ffwrn danllyd yn amser *dy lid*.' Ps. 21. 9. לעת פניך *yn amser dy wynebau:* neu pan ymddangoso dy bresennoldeb. Fenwick.—'*Soriant* yr Arglwydd a'u gwasgarodd hwynt.' Galar. 4. 16. פני יהוה חלקם *wyneb IEHOFAH* (oedd) *eu rhan*. Parkhurst. Er fod y gair פני *wyneb*, yn ein cyfieithiadau ni wedi ei gyfieithu *llid*, yn aml, ond y mae Parkhurst o'r farn nad yw byth yn arwyddo hyny.——3. Brydiau eraill ei gariad a'i ewyllys da; megys 'llewyrch ei wyneb—ei wyneb yn llewyrchu.' Dan. 9. 17. Ps. 31. 16. a 44. 3. Edr. LLEWYRCH.——4. Hefyd, arwydda ei holl-wybodaeth. 'Na syrthied fy ngwaed i'r ddaear o flaen wyneb yr Arglwydd.' 1 Sam. 26. 20. Hyny ydyw, y mae Duw holl-wybodol yn canfod, ac a ddial. Y mae wyneb yn cael ei briodoli i'r Arglwydd lawer amlach yn yr ieithoedd gwreiddiol yn yr ysgrythyrau nag yn ein cyfieithiad ni, nac yn y rhan fwyaf o gyfieithiadau eraill, a thebygol ei fod yn cyfeirio, yn aml, at gnawdoliaeth Mab Duw.

'Eithr nyni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd.' 2 Cor. 3. 18. *Ανακεκαλυμμενω προσωπω*, *wyneb anorchuddiedig, wyneb dilen.*—'Wyneb ymatgudd.' W. S. Dan yr efengyl y mae yr oruchwyliaeth yn ddiorchudd, a wynebau, sef calonau y rhai sydd yn gwir gredu, yn agored ac yn ddilen. Nis dichon neb weled gogoniant yr Arglwydd tra byddo y gorchudd o anghrediniaeth ac anwybodaeth ar y galon; ond edrych ar ei ogoniant, yn nrych yr efengyl, yw hyfrydwch penaf y rhai sydd âg wyneb agored ganddynt. Y mae ei ogoniant i'w weled yn y drych; ond pa fodd y dichon neb ei weled, â'i feddwl, neu ei galon, dan orchudd? Ond yr ydym ni oll heb orchudd. Nid oedd neb ond Moses ar Sinai a welodd ogoniant yr Arglwydd, â'i wyneb yn dysgleirio; ond yr ydym ni *oll* âg wyneb agored, ac *oll* yn cael y fraint oruchel o edrych trwy ffydd ar ogoniant yr Arglwydd, yn yr unig ddrych sydd yn ei ddangos yn y byd hwn; sef athrawiaeth yr efengyl. Nid yn y taranau a'r mellt ar Sinai, gyda Moses; nid yn y berth, nac yn y cysgodau; ac nid *wyneb yn wyneb* ychwaith; ond megys mewn drych. Nid oes un gorchudd ar ein hwyneb ni, ond y mae drych rhyngom ni a'i wyneb ef, ac yn y drych yr ydym i edrych arno. Dysgleiriodd wyneb Moses pan oedd yn y gogoniant gyd â'r Arglwydd; yn gyfatebol yr ydym ninnau hefyd yn cyfranogi o'i ogoniant ef, ac yn cael ein newid i'r unrhyw ddelw, gan Ysbryd yr Arglwydd.

'Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, mewn dammeg; ond yna wyneb yn wyneb.' 1 Cor. 13. 12. Y mae yr apostol yn dangos y gwahaniaeth rhwng gwybodaeth y duwiolion yma ac yn y nefoedd, o ran y graddau a'r perffeithrwydd o honi, ac o ran y dull o ganfod y pethau dwyfol. 'Yn awr yr adwaen, o ran, ond yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir.' Yr un pethau fydd gwrthddrychau y wybodaeth yno ac yma; ond adnabyddir hwynt yn fwy cyflawn yno nag yma; ac am hyny, cerir a pherchir hwy yn fwy. Am y dull a'r moddion o'u hadnabod yma; *trwy ddrych—mewn dammeg*, y canfyddir hwynt; ond yno *wyneb yn wyneb*, heb ddrych, na dammeg. Edrych yr ydys megys trwy wydr, neu ryw gorph goleu yn adlewyrchu y gwrthddrychau ar wrthddrychau ysbrydol, yn y byd anmherffaith hwn. *Mewn dammeg*; mewn dammeg y mae un peth yn arwyddo peth arall, cyffelyb iddo, mewn rhyw ystyr; y mae pethau anweledig yn cael eu dangos trwy bethau gweledig; pethau ysbrydol trwy bethau naturiol; pethau tragywyddol trwy bethau tymhorol. Mewn dammeg y mae y cwbl wedi eu hamlygu; buasai yn anmhosibl i ni gael yn y byd hwn ddim amgyffred am danynt mewn un ffordd arall. Geiriau dammegol, sef geiriau gwedi eu benthyca oddiwrth wrthddrychau yma yn y byd, y cyfryw ag a allem ni eu deall, ydyw yr holl eiriau a arferir gan yr Ysbryd Glân yn yr ysgrythyrau, i osod allan bethau Duw trwyddynt. Y maent yn gwbl addas, wedi eu dethol gan anfeidrol ddoethineb; ond dammegol ydynt, sef mynegi am y naill beth trwy beth arall; ond gan fod pethau ysbrydol a thragywyddol yn rhagori i raddau difesur ar y ddammeg sydd yn eu dangos, bydd canfod y gwrthddrychau eu hunain, heb ddammeg, wyneb yn wyneb, yn rhoddi adnabyddiaeth mwy cyflawn o honynt, gymaint ag y mae y nefoedd yn

Digitized by Google

rhagori ar y ddaear. Wyneb yn wyneb, heb na drych na dammeg, y gwelir y cwbl yno! Byddant yn eu mesur eu hunain, ac nid yn mesur y ddammeg; yn eu priodol natur, eu maintioli, eu cysylltiad, a'u dibyniad ar eu gilydd, yn eu holl fawredd a'u gogoniant, i'w canfod mewn goleu eglur, digwmwl byth! Pellder y dwyrain oddiwrth y gorllewin—y nefoedd oddiwrth y ddaear—dyfnder y môr—gwynder yr eira—cariad tad a mam; y rhai hyn, a'r cyffelyb, yw y mesurau yma; mesurau y ddammeg ydynt: ond yno canfyddir y gwrthddrychau yn eu mesurau maith diderfyn eu hunain, sef yn *anfesuredig;* bydd ein *hwyneb* ni at eu *hwyneb* hwy, heb ddim rhyngddynt. Bydd y llygaid wedi eu haddasu i'r gwrthddrychau dwyfol eu hunain; ac fel yr eryr, yn gallel edrych ar yr haul heb bylu na gwanhau byth. Cyfeiria yr apostol yn y geiriau, tebygol, at Numeri 12. 8. yn y cyfieithiad Groeg. Gwel y LXX.

WYR—ION, (wy-yr) mab merch neu fab.—Wyres, nith. Barn. 12. 14. Job 18. 19. Diar. 17. 6. Esa. 14. 22. 1 Tim. 5. 4.

WYT, (wyd) ydwyt.—'Yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn a fyddi.' Dat. 16. 5.—'Yr hwn wyd, ac yr hwn a vyost, a' sancteidd.' W. S.—'A'r hwn a fuost, y sanctaidd.' Dr M. Yn lle *εσομενος*, *yr hwn a fyddi*, llawer o ad-ysgrifeniadau Groeg a ddarllenant *οσιος*, *sanctaidd;* gair sydd yn ateb i'r gair Hebraeg חסיד *tosturiol, trugaredd*. Dyma achos y gwahanol gyfieithiadau o'r geiriau. Y mae y darlleniad, yn ol ein cyfieithiad presennol ni, yn fwy cyson â'r desgrifiad o'r enw Iehofah, mewn manau eraill yn y llyfr hwn. Gwel pen. 1. 8. a 4. 8. a 11. 17. Οσιος, *sanctaidd*, sydd yn mhob argraffiad sydd genyf fi o'r Testament Groeg, ond Vitringa. Nid oes fodd i benderfynu pa un ydyw y darlleniad cywir, heb gymharu yr holl ad-ysgrifeniadau â'u gilydd—yr hyn sydd wedi ei wneuthur gan Mills a Griesbach, ond ni feddaf fi mo waith y gwyr dysgedig hyny.

WYTH—FED, *Lladin* Octo.—Nid oedd i neb gael enwaedu arno dan yr wythfed dydd, Gen. 17. 12. Lef. 12. 2, 3.—nac un anifel i gael ei aberthu heb fod saith niwrnod dan ei fam; 'O'r wythfed dydd, ac o hyny allan, y bydd cymeradwy yn offrwm.' Lefiticus 22. 27. Yr oedd cysegriad yr offeiriaid, a glanhad y gwahan-glwyfus, y Nazareaid, a'r allor, i barhau saith niwrnod, a'r wythfed dydd yr oeddynt wedi eu cysegru, ac yn lân. Lefiticus 8. 33, 35. a 14. 8, 9, 10. a 15. 13, 14. Ezec. 43. 26, 27. Yr wythfed dydd y cyfododd Crist o feirw, trwy adgyfodiad yr hwn y glanheir ac y cysegrir pechaduriaid yn sanctaidd i Dduw.

'A'r bwystfil, yr hwn oedd, ac nid ydyw, yntau yw yr wythfed, ac o'r saith y mae, ac i ddystryw y mae yn myned.' Dat. 17. 11. Y geiriau ydynt ran o ddarluniad yr angel wrth Ioan o'r bwystfil gweledigaethol a welodd. Bwystfil, yn iaith y prophwydi, a arwydda, llywodraeth neu ymerodraeth ormesol, eilun-addolgar. Ymerodraeth Rhufain, ydoedd yn eilun-addolgar o dan yr ymerawdwyr Paganaidd, a beidiodd a bod felly dan yr ymerawdwyr Cristionogol, ac a ddaeth felly drachefn dan Babau Rhufain: hwn yw y 'bwystfil a welaist, a fu, ac nid yw, a bydd iddo ddyfod i fynu o'r pydew heb waelod, a myned i ddystryw.' Adn. 8. Ac y mae saith brenin, neu ddull llywodraethau, wedi bod yn Rhufain:* 'Pump a gwympasant;' sef pump dull llywodraethol fu ar Rufain cyn i'r ymerodraethol gymeryd lle. Y chweched, yr hwn oedd yn amser Ioan, ydoedd y llywodraeth ymerodraethol. Rhoddwyd terfyn ar hon gan Odoacer brenin yr Heruli, A.D. 476. Efe a'i olynwyr a gymerasant yr enw, *Breninoedd yr Ital:* ond yr un oedd yr awdurdod, er newid yr enw. Nis gellir galw hwn, gan hyny, yn ddull newydd o lywodraeth, ond yn hytrach yn barhad o'r llywodraeth ymerodraethol, neu yn adnewyddiad o'r freninol. Ni chymerodd un dull newydd o lywodraeth le, nes i Rufain ddyfod dan lywodraeth yr ymerawdwyr Groegaidd; a'u rhaglaw, yr *Exarchate* o Ravenna, a ddiddymodd yr hen ffurf o lywodraeth, ac a wnaeth Rhufain yn dduciaeth, ac i dalu teyrnged i'r *Exarchate* o Ravenna. Ni bu Rhufain erioed o'r blaen dan y fath lywodraeth. Hon yw y llywodraeth oedd heb ddyfod etto yn nyddiau yr apostol: 'A phan ddel, rhaid iddi aros ychydig,' mewn cymhariaeth i'r llywodraeth rhagflaenorol a'r olynol; y cyntaf, sef y llywodraeth ymerodraethol, a barhaodd 500 o flynyddoedd, ac y mae y Babaidd wedi parhau eisoes dros 1100, ac sydd i barhau 1260 o flynyddoedd, ond ni pharhaodd y dduciaeth ond o A.D. 566, hyd 727, medd yr Esgob Newton. Ond gellir ammeu a oedd hon yn ddull newydd o lywodraeth neu beidio; gan fod Rhufain etto dan lywodraeth ymerodraethol, trwy fod yn ddarostyngedig i raglaw yr ymerawdwyr, yr *Exarchate* o Ravenna; canys rhaglaw yr ymerawdwr Groegaidd ydoedd hwnw. Fel y penderfynir y pwnc hwn, y 'bwystfil, yr hwn oedd, ac nid ydyw,' yw y seithfed neu yr wythfed. Os cyfrifir hon yn ddull newydd o lywodraeth, y bwystfil, yr hwn sydd, yw yr wythfed; ond os na chyfrifir hi yn ddull newydd o lywodraeth, yna y bwystfil sydd o'r saith: ond pa un bynag ai y seithfed neu yr wythfed, y dull diweddaf o lywodraeth ydyw, ac i ddystryw y mae yn myned. Gwel yr Esgob Newton, Vitringa. Barna Faber mai llywodraeth arall, a elwir *Partriciate,* oedd y seithfed, yr hon a ddiweddodd yn llywodraeth ymerodraethol Charlemagne. Dewiswyd Charles Martel yn Batriciad Rhufain, heb fod yn ddarostyngedig, fel yr *Exarchate* o Ravenna, i'r ymerawdwr dwyreiniol. Gwedi hyn, y Pab Leo a goronodd Charlemagne, ymerawdwr Ffrainc, wedi ei wisgo â gwisgoedd Patriciad, yn ymerawdwr y Rhufeiniaid. Yr oedd y llywodraeth hon megys yn ddwy, ac etto yn un; rhyw saith-wyth ben ydoedd. Hwn yw y pen sydd yn para hyd heddyw, naill ai yn ymerawdwr Germani, neu ynte yn mrenin Ffrainc. Yr un llywodraeth ydyw, sef wythfed pen y bwystfil, pwy bynag fyddo y llywodraethwr â'r enw hwnw arno. Ni bu dim cyfnewidiad neillduol yn nhrefn llywodraeth Rhufain wedi y flwyddyn 800, pan goronwyd Charlemagne yn ymerawdwr y Rhufeiniaid. Gwel Faber's ***Essay on the Prophecies***.

WYTHNOS, (wyth-nos) yspaid saith niwrnod. Gen. 29. 27.—Wythnos brophwydoliaethol ydyw saith mlynedd, diwrnod am flwyddyn. Nid oedd y dull hwn o gyfrif yn dywyll i'r Iuddewon, gan fod eu seithfed flwyddyn yn Sabboth, yn gystal a'u seithfed dydd; ac yn niwedd saith o wythnosau prophwydoliaethol, yr oedd ganddynt eu Jubili Sabbothol.

'Deng wythnos a thriugain a derfynwyd ar dy bobl, ac ar dy ddinas sanctaidd, i ddybenu camwedd.—Gwybydd gan hyny, a deall y bydd o fynediad y gorchymyn allan am adferu ac am adeiladu Jerusalem, hyd y blaenor Messïah, saith wythnos, a dwy wythnos a thriugain: yr heol a adeiledir drachefn, a'r mur, sef mewn amseroedd blinion. Ac wedi dwy wythnos a thriugain y lleddir y Messïah.—Ac efe a sicrha y cyfammod â llawer dros un wythnos; ac yn hanner yr wythnos y gwna efe i'r aberth a'r bwyd-offrwm beidio.' Dan. 9. 24—27. Y mae yr angel Gabriel yn gyntaf yn gosod i lawr y testun, neu y mater yn gyffredinol, y byddai i ryw fendithion neillduol gael eu cyfranu i'r eglwys mewn amser terfynedig, sef yn mhen deng wythnos a thriugain. Yn ail, Y mae yn ei egluro yn mhellach o ran y dull a'r modd y byddai

* Kings, Consuls, Dictators, Decemvirs, Military Tribunes with Consular authority.

Digitized by Google

i hyny gael ei gyflawni. Yr holl yspaid maith hwnw o amser a ranir yn dri dosparth llai, sef yn *saith wythnos*, yn *ddwy a thriugain*, ac yn *un*—a chyfrif diwrnod am flwyddyn, yn ol y dull prophwydoliaethol o gyfrif; yn mha un y byddai gwahanol ddygwyddiadau i gymeryd lle mewn perthynas i'r eglwys. Noda hefyd yr amser yn neillduol y byddai y cyfrif hwn ddechreu, sef mynediad y gorchymyn allan i adeiladu yr heol a'r mur. Y geiriau hynod hyn a gynnwysant brophwydoliaeth nodedig iawn am amser dyfodiad a marwolaeth y Messiah. 'O fynediad y gorchymyn allan am adferu ac am adeiladu Jerusalem hyd y Messiah, byddai saith wythnos, a dwy wythnos a thriugain:' yn y saith wythnos byddai i'r heol a'r mur gael eu hadeiladu drachefn, sef mewn amseroedd blinion. Wedi diwedd dwy wythnos a thrigain (69 i gyd) neu yn y ddegfed wythnos a thriugain, byddai i'r Messiah gael ei ladd. Y mae deall y brophwydoliaeth yn gorphwys yn fawr ar allel penderfynu pa orchymyn a feddylir yma. Cofféir yn yr hanes sanctaidd am bedwar gorchymyn, at ba rai y geill y geiriau hyn ymddangos yn gymhwysiadol; sef y gorchymyn yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus (Ezra 1. 1.)—yr ail o Darius (Ezra 6. 1. Haggai 1. 1.)—yn y seithfed o Artaxerxes (Ezra 7. 7.)—a'r ugeinfed (Neh. i, a ii.) Y mae rhai pethau yn y brophwydoliaeth, wrth sylwi yn graff arni, yn rhoddi sail ddigonol i ni fyned heibio i'r ddau gyntaf. Nid ydyw y ddau gyntaf yn crybwyll ond yn unig am adeiladu y deml, heb un gair am adeiladu y ddinas Jerusalem; ond y mae y brophwydoliaeth yn crybwyll am orchymyn i adeiladu y ddinas, yr heolydd, a'r muriau, heb un gair am adeiladu y deml; er, wrth ragfynegi dinystr y ddinas, y mae crybwylliad am ddinystr y deml hefyd. Ond y trydydd gorchymyn, er nad ydyw yn cynnwys geiriau prophwydoliaeth Daniel, etto y mae yn cynnwys pethau at ba rai y mae y geiriau hyn yn gymhwysiadol. Y mae Syr Isaac Newton yn sylwi, yn addas, i'r Iuddewon gwasgaredig ddyfod yn bobl, ac yn ddinas, pan ddychwelasant yn gorph gwladwriaethol; a hyny fu yn y seithfed flwyddyn i Artaxerxes Longimanus, pan ddarfu i Ezra, trwy orchymyn y brenin hwnw, sefydlu swyddwyr gwladol dros yr holl wlad, i lywodraethu y bobl yn ol cyfraith Duw a'r brenin. Dan Ezra y corphorwyd hwynt yn wladwriaeth, neu yn ddinas, dan eu llywodraeth eu hunain. Heblaw hyn, rhaid i'r gorchymyn fod, ond *yn unig* saith wythnos cyn gorphen adeiladu y ddinas; y mae y Messiah i ddyfod yn mhen naw wythnos a thriugain gwedi rhoddi y gorchymyn, a dwy wythnos a thriugain gwedi adeiladu y ddinas: am hyny, eglur yw, fod yr yspaid rhwng rhoddi y gorchymyn, *yn unig*, i fod yn saith wythnos, a dim ychwaneg. Yn awr, rhoddwyd y ddau orchymyn cyntaf yn mhell cyn hyn: o herwydd yn yr ugeinfed flwyddyn o deyrnasiad Artaxerxes (tros bedwar ugain mlynedd gwedi y diweddaf o'r gorchymynion hyny) y dywedwyd wrth Nehemiah fod y mur wedi ei ddryllio, y pyrth wedi eu llosgi â thân, a dinas beddrod ei dadau wedi ei dinystrio. Y gorchymyn, gan hyny, a roddwyd i Ezra yn y seithfed flwyddyn i Artaxerxes, a nodir yn gyffredin fel yr amser i ddechreu cyfrif yr yspaid hwn: rhai yn wir a ddewisant y gorchymyn i Nehemiah, yn yr ugeinfed flwyddyn i'r un brenin; am fod y gorchymyn i Nehemiah yn perthyn yn fwy neillduol i adeiladu y muriau, a bod y gorchymyn i Ezra o natur mwy cyffredin. Ond geill y geiriau yma arwyddo sail osod i fynu y sefydliad Iuddewaidd, yn yr eglwys a'r wladwriaeth, a ddechreuwyd gan Ezra, ac a orphenwyd gan Nehemiah, yn gystal ag adeiladu a chadarnhau y ddinas. Y mae yr amseryddwyr mwyaf enwog yn cyfrif ei bod yn agos i 490 o flynyddoedd o roddiad y gorchymyn i Ezra hyd farwolaeth Crist; a haera rhai ei bod felly i'r manylrwydd mwyaf. Gwel Prideaux's *Connection, part* i.

Dros saith wythnos, sef 49 o flynyddoedd, yr ydoedd yr heol a'r mur i gael eu hadeiladu mewn amseroedd blinion. Cymer hyn i mewn yr holl yspaid o amser o roddiad y gorchymyn i Ezra, hyd nes gorphenodd Nehemiah y gwaith, fel y rhoddir hanes i ni yn y bennod ddiweddaf o lyfr Nehemiah, a hwyrach ychydig yn ychwaneg: hwn ydyw yr hanes diweddaf a gawn yn yr Hen Destament. Amseroedd blinion oeddynt, fel y canfyddwn yn hawdd yn yr hanesion yn y ddau lyfr, Ezra a Nehemiah. O ddiwedd yr yspaid hwn hyd ddechreuad gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, yn ol cyfrif rhai, neu i weinidogaeth Iesu Grist, yr oedd dwy wythnos a thriugain, sef pedwar cant a phedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd; a'r wythnos ddiweddaf, sef saith mlynedd a roddir i weinidogaeth Ioan a Christ, hyd ei groeshoeliad: canys yr oedd i gael ei dori ymaith yn y ddegfed wythnos a thriugain: ond gan y dywedir, y byddai iddo beri i'r aberth a'r bwyd-offrwm beidio yn nghanol, neu yn hanner yr wythnos, casgla rhai fod yr wythnos ddiweddaf yn cyrhaedd yn mhellach na'i groeshoeliad, i'r amser y dechreuwyd pregethu yr efengyl i'r Cenedloedd hefyd. Nis gallwn fod yn ddilys sicr mewn perthynas i gyfrifiad mor fanwl, sef pa un ai o flaen, neu yn agos ar ol marwolaeth Crist, y gwnawd pob peth perthynol i ddygiad yr oruchwyliaeth efengylaidd i mewn; sef sicrhau y cyfammod, a dwyn llawer i gyfranogi o'i fendithion, yn yr wythnos ddiweddaf, neu saith o flynyddoedd. Fel hyn ymddengys dehongliad y brophwydoliaeth hynod hon yn gyffredinol yn amlwg: mae dynweddiadau tufewnol yn y brophwydoliaeth ei hun, y rhai os sylwir arnynt yn graff, ydynt yn nodi yn foddlonol amser ei chyflawniad. Mae y brophwydoliaeth yn rhagfynegi, yn ddiddadl, y byddai i'r Messïah ddyfod mewn llai na phum cant o flynyddoedd ar ol rhoddi y gorchymyn am adeiladu Jerusalem: y byddai iddo gael ei roddi i farwolaeth trwy ddedfryd farwol (canys hyny a arwydda y gair) ac, yn ganlynol i hyny, byddai i Jerusalem a'r deml gael eu hanrheithio trwy luoedd ffiaidd; ac y byddai i genedl yr Iuddewon oddef cospedigaeth ddychrynedicaf, heb grybwylliad am derfyn iddi. Hyn oll a gyflawnwyd yn Iesu o Nazareth, ac y mae cyflawniad y rhan arall o honi, mewn perthynas i Jerusalem a'r Iuddewon, yn weledig i bawb hyd heddyw. Pwy a ddichon wadu neu ammeu, yn y gradd lleiaf, i Daniel lefaru megys y cynhyrfwyd ef gan yr Ysbryd Glân? neu nad Iesu yw y gwir Fessïah? Pe safai y brophwydoliaeth hon yn unig, ac wrthi ei hun, y mae yn ddigonol i gadarnhau pob un o'r ddau bwnc: pa faint mwy, pan nad ydyw ond un seren yn nghanol cyd-sêr ysplenydd? Gwel Vitringa, *Obs. Sacr., lib.* vi, *cap.* 2.—Dr. J. Owen, *Exercitatio* xiv.—M'Laurin's *Essay on the Prophecies.*—Prideaux's *Connect., part* i

# Y.

Y, bannod o flaen geiriau yn dechreu â chydseiniaid; ond o flaen llafaryddion, er mwyn esmwythâu a phereiddio y sain, cymer *dd* neu *r* i wneyd *ydd* neu *yr:* o flaen perwyddiad cymer ystyr *goreiriol:* ac yn aml nid yw ond yn unig yn cyflawni sain, neu yn cael ei roddi er mwyn sain; megys *felly y mae*, neu *felly mae.*

YCH—AIN, eidion, bu, buwch, tywarchawr. Nid



Digitized by Google

oes braidd un creadur yn fwy defnyddiol i ddyn na'r ŷch; y mae yn ymborth iachus, ac yn dra defnyddiol at waith hefyd. Yr oedd yn lân dan y gyfraith.

Wrth gyfraith Moses, os ŷch a gorniai ŵr neu wraig fel y byddai marw, yr oedd yr ŷch i gael ei labyddio, ac nid oeddynt i fwyta ei gig ef. Os yr ŷch fyddai wedi cornio o'r blaen, a hyny trwy dystion wedi ei hysbysu i'w berchenog, ac efe heb ei gadw, os lladdai ŵr neu wraig, yr oedd y perchenog a'r ŷch i gael eu marwolaethu: ond os gwasanaethwr neu wasanaethferch a gorniai efe, yr oedd yr ŷch i gael ei labyddio, a'r perchenog i roddi deg ar hugain o siclau o arian i berchenog y gwas neu y forwyn. Exod. 21. 28, &c. —Os ŷch gwr a darawai ŷch ei gymydog, fel y byddai marw, yr oeddynt i ranu y ddau, y byw a'r marw: ond os gwyddai y perchenog ei fod yn hwyliog o'r blaen, ac heb ei gadw, yr oedd i dalu ŷch am ŷch, a'r marw i fod yn eiddo iddo ef. Exod. 21. 36. Edrych Cerub, Dyrnu, Tarw.

Os lladdai un ŷch neu oen, &c., yn y gwersyll, neu allan o'r gwersyll, yn aberth, heb ei ddwyn i ddrws pabell y cyfarfod, yr ydoedd i gael ei roddi i farwolaeth, fel pe buasai yn euog o lofruddiaeth. Esa. 66. 3. Yr ydoedd y cyfryw halogiad o'i addoliad yn ffiaidd gan Dduw. Yn Nghrist yn unig, yr hwn yr ydoedd y babell yn ei gysgodi, y mae Duw i gael ei addoli. Ioan 14. 6.

'Canys y mae yr ysgrythyr yn dywedyd, Na chau safn yr ŷch sydd yn dyrnu yr ŷd; ac y mae y gweithiwr yn haeddu ei gyflog.' 1 Tim. 5. 18. Nid ydyw y rhan ddiweddaf o'r adnod i'w chael yn un man yn ysgrythyrau yr Hen Destament; yn unig y maent i'w cael yn Mat. 10. 10. a Luc 10. 7. Rhaid, gan hyny, i'r apostol ddarllen un o'r ddwy efengyl, cyn ysgrifenu yr epistol hwn. Gan ei fod yn dyfynu y dywediad hwn fel ysgrythyr, yn gyfartal mewn awdurdod âg ysgrifeniadau Moses, y mae yn brawf nid yn unig o gyhoeddiad boreu yr efengylion, ond hefyd o'u dilysrwydd, a'u hawdurdod fel ysgrifeniadau dwyfol. Edr. Dyrnu.

'Yr ŷch a edwyn ei feddiannydd, a'r asyn breseb ei berchenog; ond Israel nid edwyn, fy mhobl ni ddeall.' Esaiah 1. 3. Y mae yn eu gosod yn is na'r anifeiliaid; ïe, na'r dylaf o honynt oll: canys nid oes braidd neb o honynt yn fwy felly na'r ŷch a'r asyn. Etto y mae y rhai hyn yn cydnabod eu meddiannydd; y maent yn adnabod preseb eu perchenog, gan yr hwn y porthir hwynt; nid er eu llesâd hwy, ond er ei lesâd ei hun; ac nid edrychir arnynt ychwaith fel plant, ond fel anifeiliaid gwaith, ac ni ddyrchefir hwynt i anrhydedd, ond gorthrymir hwynt yn feunyddiol gan lafur mawr. Tra yr ydoedd Israel, gwedi eu dewis o ewyllys da Duw yn unig, gwedi eu mabwysiadu fel plant, gwedi eu dyrchafu i'r anrhydedd mwyaf, etto nid oeddynt yn cydnabod eu Harglwydd a'u Duw; ond yn dirmygu ei orchymynion, er eu bod yn eithaf uniawn a chyfiawn. Bochart, *Hieroz.*, *Col.* 409. Y mae cyffelybiaeth y prophwyd Jeremiah i'r un dyben, ac yr un mor ddichlynaidd, er nad oes ynddi yr un ysbryd a grym a hon yn Esaiah. 'Ië, y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau; y durtur hefyd a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad; eithr fy mhobl i ni wyddant farn Iehofah.' Jer. 8. 7. Y mae Hosea yn defnyddio yr un gyffelybiaeth yn dra hardd. Hos. 11. 4.

YCHWANEG—U, (chwaneg) mwy, rhagor; cynnyddu; rhoddi at. Gen. 30. 24. Ezec. 18. 8. Mat. 6. 33. Gal. 3. 19.—'Ni esyd Duw ar ddyn ychwaneg nag a haeddai,' &c. Job 34. 23. Gesyd yn aml lai, ond ni esyd byth fwy ar ei elyn penaf; y bai yw mesur y gosp. Nid oes un mesur wrth drugarhau ond ei anfeidredd ei hun.

'Ychwanegwch at eich ffydd rinwedd,' &c. 2 Petr 1. 5.—'Cysylltwch gidach ffydd rinwedd.' W. S. a'r Dr M.—Eraill, 'Gweinyddwch trwy eich ffydd rinwedd.' Cyfleithir yr un gair *Gr. trefnu* yn adn. 11. Ffydd sydd yn flaenaf, a thrwy ffydd y mae pob gras yn cael cynnaliaeth a magwriaeth; a ffydd farw ydyw y ffydd *unig*, heb bob gras arall yn gysylltiedig â hi, ac yn effaith o honi.

'Amlheaist y genedlaeth. ni chwanegaist lawenydd; llawenychasant ger dy fron megys y llawenydd amser cynauaf,' &c. Esaiah 9. 3. Yn y Biblau Hebraeg y mae yma *ceri—chetib*; sef y *chetib* לא yn y testun, a'r *ceri* לו yn ymyl y ddalen. Ein cyfieithwyr ni, yn y ddau gyfieithiad, a'r Saesonaeg, a gyfieithant yn ol y *chetib*. Y mae llawer yn cyfieithu y geiriau yn ol y *ceri*, fel hyn, 'Amlheaist y genedlaeth, ac *iddi* (לו) ychwanegaist lawenydd,' &c. Mae y cyfieithiad hwn yn ymddangos yn llawer mwy cyson â diwedd yr adnod. Dilys fod llawenydd amser y cynauaf, ac amser rhanu yr yspail, yn arwyddo llawenydd mawr; sef llawenydd gwedi ei ychwanegu. Gwel Vitringa a'r Esgob Lowth *in loco*.

YCHYDIG—YN, (cyd) bach, bychan, bychydig, anaml, nifer ysgyfala; ychydigyn, bychan dros ben, y lleiaf a all fod.

*Ychydig* yn aml a wna lawer. *Diar.*

Ychydig o ran swm. Gen. 30. 30. Exod. 16. 18. ——2. Ychydig o ran nifer. Gen. 29. 20. Deut. 28. 62. 1 Sam. 14. 6.——3. Byr o ran mesur, neu amser. 2 Sam. 16. 1. Job 10. 20. Iago 4. 14.——4. Gwan o ran nerth. Luc 12. 28.——5. Bychan o ran cyfrifiad. Jos. 22. 17.——6. Tlawd, diystyr, a chystuddiol. 1 Sam. 15. 17. 1 Cron. 16. 19.

'Oblegid ychydig bachigyn etto, a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda.' Heb. 10. 37. *Ετι γαρ μικρον οσον οσον* 'Etto ychydigyn bychan bach.' W. S. Y mae yr apostol yn cysuro ac yn annog yr Hebreaid i amynedd dan eu gorthrymderau, trwy sicrhau na byddai amser eu gorthrymder ond *byr iawn*; nis dichon geiriau osod allan yspaid byrach o amser. Y mae *ychydigyn—bychan—bach*, yn gyfieithiad go addas o'r Groeg.

'Ti a'i gwnaethost ef ychydig is na'r angelion.' Heb. 2. 7, 9. *βραχυ τι, ychydig amser*; hyny ydyw ystyr mwyaf priodol y geiriau, ac felly y cyfleithir y gair *βραχυ* mewn lleoedd eraill.—*Και μετα βραχυ, Ac ychydig wedi, &c.* Luc 22. 58.—'Ac a archodd yru yr apostolion allan dros (*Βοαχυ τι*, yr un geiriau ag yma) *enyd fechan*.' Act. 5. 34.—ותחסרהו מעט מאלהים 'Gwnaethost ef dros *ychydig amser* yn is na'r *Elohim*.' Ps. 8. 5. Fod y geiriau i'w deall, nid am ddyn yn ei greadigaeth, ond am Grist, Mab Duw, yn ei gnawdoliaeth a'i ddarostyngiad yma ar y ddaear, sydd eglur; o herwydd y mae dyn yn ei natur a'i radd, a'i sefyllfa yn y greadigaeth, yn llawer is na'r angelion; ac felly yr oedd Crist yn ei ddarostyngiad ar y ddaear; ond dros *ychydig amser* y bu felly.

YD, YDYW, YDYCH, YDWYF, geiriau a arferir yn aml er mwyn rhwyddineb sain.

Trist *yd* gwyn pob colledig. *Diar.*

*Ydwyf* sydd yr un ystyr ag *wyf*.—'Y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig.' 1 Petr 1. 5.—'Ydym.' W.S. Yn y rhan fwyaf o argraffiadau o'r Testament Groeg y mae *εις ημας*, *i ni*, ac nid *εις υμας*, *i chwi*, fel yn ein cyfieithiad ni, yn adn. 4. 'Yn nghadw yn y nefoedd *i ni*, y rhai trwy allu Duw *ydym* gadwedig.' Beza, Macknight, &c. Tybygaf fod y geiriau fel hyn yn fwy cyson â darluniad y ddwy adnod.

YD—AU, ŷd bara; sef gwenith, haidd, ceirch, rhyg, &c. Edr. y geiriau hyn: hefyd, Bara, Dyrnu, Had, Hau, Nithio.—Gelwir y manna, 'ŷd y nefoedd.' Ps. 78. 24. Edr. Manna.——Bendithion ysbrydol a thymhorol a gyffelybir i ŷd, i ddangos yr

angen a'r defnyddioldeb o honynt, i gyrph ac eneidiau dynion. Esa. 62. 8. Ezec. 36. 29. Hos. 2. 9. Zech. 9. 17.——Duwiolion yn meirw mewn henaint têg, a gyffelybir i godi 'ysgafn o ŷd yn ei amser;' sef yn gyflawn addfed, eu gwaith gwedi ei orphen, dygir hwy gan angelion i'r trigfanau nefol. Job 5. 26. Edr. DYRNAID.

YDWYF, un o enwau Duw. אהיה אשר אהיה *YDWYF YR HWN YDWYF.* אהיה שלחני אליכם *YDWYF a'm hanfonodd atoch.* Exod. 3. 14.—Arwydda, 1. Ei dragywyddoldeb: 'yr hwn sydd, yr hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod.' Y mae yn cynnwys pob amser ynddo ei hun, heb ddim amser yn ei gynnwys ef.

2. Ei anfeidrol berffeithrwydd, heb ddim yn niffyg ynddo. Pe buasai dim yn niffyg ynddo, yn hyny buasai *heb fod.* Nid ydyw felly yr hyn a allasai fod; a phe buasai hyny, buasai yn fwy, ac yn fwy perffaith; ond buasai yn rhaid iddo ddywedyd, *Nid Ydwyf,* am dano ei hun. Gan nad oes dim yn ddiffygiol ynddo, geill ddywedyd am dano ei hun, yn wyneb pob rhinwedd, a phob perffeithrwydd, *YDWYF.* Y mae mwy yn ddiffygiol yn mhob creadur nag sydd yn bod ynddo; ac am bob peth y mae y creadur yn ddibynol ar arall. Y mae mwy o ddiffyg bod nag o fod yn yr holl greaduriaid; ac nid oes dim ynddynt na bu amser pan nad oeddynt; am hyny nis geill un creadur ddywedyd am dano ei hun YDWYF; priodol i Dduw ei hun ydyw y cyfryw ymadrodd.

3. Arwydda ei allu, ei gyflawnder, a'i gyfoeth diderfyn, yn wyneb holl angen ei greaduriaid; ie, pechaduriaid hefyd. Nis dichon neb ddyfod ato mewn unrhyw angen nas dichon iddo yntau ddywedyd wrtho, gyferbyn â'r angen hwnw, YDWYF!—YDWYF yr hyn sydd angen arnat, a llawer mwy. YDWYF yn ddoethineb, yn gyflawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth. 1 Cor. 1. 30. Nid *yr oeddwn,* neu *byddaf,* ond YDWYF yw Duw, yn wyneb pob peth.

4. Arwydda, hefyd, ei symlrwydd. Yr hwn nad ydyw yn syml, ac yn ddiranau, nis dichon ddywedyd am dano ei hun, YDWYF YR HWN YDWYF; ond *ydwyf hyn ac ydwyf y llall, ac ydwyf hyn ac nid ydwyf y llall;* ond BOD syml, diranau, yw Duw; am hyny geill ddywedyd am dano ei hun, YDWYF YR HWN YDWYF; sef un hanfod syml, perffaith, ac anfeidrol gyflawn.

5. Arwydda ei anghyfnewidioldeb, a'i dragywyddoldeb. Yr hwn sydd yn cyfnewid, nid ydyw bob amser yr hyn oedd; ond YDWYF yw Duw yn ddigyfnewid byth. Y mae yn bod o hono ei hun; am hyny y mae yn ddiddechreu; pwy a allai roddi dechreu iddo? BOD *pur* ydyw; am hyny nis dichon beidio bod, na chyfranogi o beidio bod mewn un gradd; gan hyny, y mae yn dragywyddol ac anghyfnewidiol. Y mae pob peth cyfnewidiol yn peidio bod yr hyn oedd, ac yn y cyfnewidiad y maent yn dechreu bod peth arall nad oeddynt; ond YDWYF yw Duw, yr un hanfod digyfnewid; nid yw yn dechreu bod yr hyn oedd, nac yn pallu yn yr hyn oedd; ond YDWYF YR HWN YDWYF ydyw byth i barhau.

6. Arwydda, hefyd, ei fod yn anchwiliadwy Y mae yr hyn nas dichon neb ddywedyd yn addas am dano; ond y mae y peth ydyw. Nid oes neb ond Duw a all amgyffred Duw. Nid yw ein holl wybodaeth ni ddim yn cyrhaedd yn mhellach na *rhyfeddod:* RHYFEDDOL yw un o'i enwau. Cyrhaeddiad mwyaf ein gwybodaeth ni yw y cyfryw ymofyniad, 'Pwy sydd debyg i ti, O Arglwydd!' Exod. 15. 11. Ps. 89. 6, 11. Ydwyf yr hyn nas dichon neb amgyffred am danaf: 'MYFI yw, ac nid amgen—nid oes ond MYFI.' Nid yw yn dywedyd, 'Myfi yw yr *uchaf—y goreu*—a'r *mwyaf gogoneddus:*' golygai hyny fod eraill yn rhyw beth: ond 'MYFI YW, YDWYF,' ac y mae pob peth arall yn ddim. Pe dywedem mai efe yw y *cryfaf,* y *doethaf,* &c., y mae hyny yn golygu fod eraill yn gryfion, yn ddoeth, &c., ond nid oes gymhariaeth yma; nid oes yma neb ond Duw. Gellir cymharu creaduriaid â'u gilydd; y mae y naill yn gryfach, yn ddoethach, ac yn well na'r llall; ond nid oes dim cymhariaeth rhwng un creadur a Duw: *dim* yw creadur, *pob peth* yw Duw.' 'Dy lygaid sydd arnaf,' medd Job, 'ac nid ydwyf.' Job 7. 8. Y mae yn *ddim* yn edrychiad Duw arno. YDWYF yr hyn nis dichon neb ei amgyffred, er chwilio i dragywyddoldeb. Pan ymofynodd Hiero y brenin â Simonides y gwybedydd, 'Beth oedd Duw?' dymunodd ddiwrnod i ystyried; gwedi hyny gofynodd ddau ddiwrnod: a phan ofynai y brenin ei ateb, yntau a ddyblai yr amser i ystyried. Y brenin yn rhyfeddu at hyn, a ofynodd ei reswm am ei ohiriad; yntau a atebodd, *Quanto magis considero, tanto magis obscurior mihi videtur.* Hyny yw, Po mwyaf y meddyliaf am dano, mwyaf tywyll ac anadnabyddus yw ef i mi.

7. Gellir golygu y geiriau, hefyd, yn arwyddo yr hwn sydd yn gwneuthur yr hyn sydd, ac yn amlygu ei rinweddau ei hun, trwy gyflawni ei arfaeth a'i addewidion. Y mae efe yr hyn yw yn mhob peth. Nid yw yn gwadu ei hun, nac yn gweithredu yn anaddas iddo ei hun mewn dim; ond y mae yn ymddangos yn mhob peth yr hyn ydyw, o ran hanfod, ynddo ei hun. Geill ddywedyd am y peth hyn a'r peth arall, YDWYF *ynddo yr hyn ydwyf ynof fy hun;* sef yn berffaith hardd a gogoneddus. Nid ydyw y naill beth mewn un weithred, a pheth arall mewn gweithred arall, ond YDWYF YR HWN YDWYF, yn mhob peth.

YF, gwlybwr, llyn; yfed.—'Wele, efe a ŷf yr afon, ac ni phrysura; efe a obeithiai y tynai efe yr Iorddonen i'w safn.' Job 40. 23.—'Wele, y ffrwd a bwysa arno, ac ni ddychryna; y mae yn ddiofal er syrthio yr Iorddonen ar ei safn.' Bochart. Mae y gwr dysgedig hwn yn profi, trwy lawer o resymau, mai felly y dylai y geiriau gael eu cyfieithu. Gwel Bochart's *Hieroz., lib.* v, *cap.* 15. Barna mai wrth y *behemoth* y mae i ni ddeall yr *hippopotamus,* neu yr *afon-farch.* Ymhyfryda y creadur hwn i fod yn y dwfr, ac a erys yno mor ewyllysgar ag ar y tir. Erys yn hir yn ngwaelod y dwfr, ac *a rodia yno fel yn yr awyr.* Buffon's *Hist. Nat.*—Yr afon-farch a dreulia ran o'i fywyd dan y dwfr; daw allan o'r dyfroedd yn yr hwyr i gysgu; a phan ddychwelo yn ei ol, rhodia i mewn dros ei ben yn araf, ac a rodia yn y gwaelod mor esmwyth a diofal a phe byddai yn yr awyr. Yr afonydd y mae ynddynt ydynt ddyfnion, megys y Nilus a'r Niger, &c., a lle byddo y dwfr yn loyw ac yn eglur, rhydd olygiad rhyfedd. Gwel Watson's *Nature Displayed.*—Dengys hyn briodoldeb y cyfieithiad uchod, yn arwyddo nad yw trwmbwysau y dyfroedd arno ddim yn ei ddychrynu, gan gymaint ei gryfder; ac y mae yn ddiofal, er syrthio holl ddyfroedd yr Iorddonen ar ei safn ar unwaith. Edr. BEHEMOTH.

'Pa faint mwy ffiaidd a drewedig ydyw dyn, yr hwn sydd yn yfed anwiredd fel dwfr?' Job 15. 16. a 34. 7. Yfed anwiredd, a arwydda gweithredu anwiredd gyda hyfrydwch, fel yr ŷf y sychedig ryw wlybwr hyfryd ganddo. Y mae yn pechu gyda hyfrydwch, hawsdra, ac yn barhaus; y mae yn sychedu am dano, ac yn ymhyfrydu ynddo.

YFED—WR, (yf) disychedu â gwlybwr, sugno, sugno ato, meddwi, yfedtri; yfgar, yfedgar, meddwyn. —Heblaw yfed i ddisychedu, arwydda, hefyd, derbyn a chyfranogi yn helaeth o fendithion a chysuron tymhorol ac ysbrydol; neu ddyoddef barnedigaethau trymion. Can. 5. 1. Zech. 9. 15, 16, 17. Ioan

Digitized by Google

7 37. Diar. 5. 15. Jer. 25. 15. Edr. CWPAN, DIOD, DWFR, GWIN, LLAETH, MEDDWI.

*Ar ol yfed syched sydd. Diar.*

YFORY, (mory) y dydd ar ol heddyw. Arwydda, weithiau, amser dyfodol annherfynedig.—'Yfory ni a awn i gyfryw ddinas.—Ni wyddoch beth a fydd yfory.' Iago 4. 13, 14.

YMA, (ma) y man, y lle hwn, y fan hon; yn bresennol. Ioan 11. 21. Ps. 132. 14. Esa. 52. 5.

*A orchfygo yma a goronir fry. Diar.*

YMAD—AEL—AW—IAD, (gadael) rhoi lle, myned ymaith, cilio, tynu ymaith, myned oddiwrth, encilio.—1. Gadael y naill i lynu wrth arall, o ran serch a gwasanaeth. Gen. 2. 24. 1 Cor. 7. 10, 11. ——2. Marw. Gen. 35. 18. Luc 9. 31. 2 Petr 1. 15. Ioan 13. 1. 2 Cron. 21. 20.——3. Gwanhau; 'pan welo ymadaw o'u nerth,' sef eu holl rym, eu hymgeledd, a'u cysuron. Deut. 32. 36.——4. Cilio o ffyrdd Duw, a gwrthgilio trwy hyny oddiwrth yr Arglwydd ei hun. Diar. 28. 4. Esa. 1. 28. Hos. 9. 12. Heb. 3. 12.——5. Gwrthgiliad mawr cyhoeddus yn yr eglwys weledig yn y byd, oddiwrth y wir athrawiaeth, a gwir addoliad Duw. 2 Thes. 2. 3. Edr. GADAEL.

YMADNEWYDDU, (newydd) ymddiwygio, ymadgyweirio, ymgyfnewid.——'Ac ymadnewyddu yn ysbryd eich meddwl.' Eph. 4. 23.—'Ac adnewydder chwi yn yspryt eich meddwl.' W. S. *ανανεουσθαι, adnewydder chwi.* Nid arwydda y gair gweithred o eiddo dyn arno ei hun, ond yr hyn y mae yn cael ei annog i ymofyn ac i ddysgwyl am dano, gan yr hwn a ddichon ei gwblhau. Angenrheidiol yw i'r meddwl gael ei adnewyddu; y mae yn fraint ragorol, ac yn gysur dwyfol, i gael y meddwl i'w le, yn ol at Dduw, a phethau Duw. Gwaith arbenig yr Ysbryd Glân, trwy yr efengyl, ydyw, ar eneidiau dynion. Edr. ADGENEDLU, CALON, EDIFEIRWCH, MEDDWL, SANCTEIDDIO.

YMADRODD—ION—I—US—WR, (ad-rodd) *Heb.* אמרה *(amrah)*; gair, araeth, iaith, traethawd; areithio, llefaru, parablu, siarad, crybwyll; dywedwr, adroddwr, areithiwr.

*Ymadrodd yw cynnulleidfa lliaws o eiriau yn nghyd.*
*Edeyrn Dafod Aur.*

Gelwir yr efengyl, *ein hymadrodd;* 'Pwy a greddodd i'n hymadrodd?' Esa. 53. 1. Ioan 12. 38. Rhuf. 10. 16. Sef yr ymadrodd am berson, swydd, a gwaith Crist: efe oedd testun eu hymadrodd; gosodwyd y gair hwn am drefn y cymmod ynddynt; ac yr oeddynt gwedi eu hawdurdodi i'w gyhoeddi.—'Ymadrodd am y groes' yw; sef am y gwr fu ar y groes, ac am y gwaith a wnaed yno. 1 Cor. 1. 18. ——'Ymadrodd ei gyfiawnder;' sef y gair cyfiawnder, sydd yn amlygu cyfiawnder Duw i bechadur euog. Ps. 119. 123. Heb. 5. 12. Edr. ARAETH, GAIR, GENAU, GWEFUS, IAITH, LLEFARU, TAFOD.

YMAFLYD, (gaflyd) cymeryd gafael; ymdrechu, ymorchestu: ymdynu, ymegnïo, ymaflyd cwymp, ymorwst.—'Ac wedi ymaelyd yn Paul, hwy a'i tynasant ef allan o'r deml.' Act. 21. 30.—'Ac a ymavlesont ym-Paul.' W. S.—'Ac hwy a ymafaelasant yn Paul.' Dr M.

'Nid ymaflodd ynoch demtasiwn ond un dynol.' 1 Cor. 10. 13. Mae y demtasiwn yn gafaelyd mewn dyn, sef yn ei feddwl, ac fel bwystfil yn ymosod arno yn ffyrnig, am ei orchfygu a'i ddyfetha; ac oni bai ffyddlondeb Duw yn ei gynnorthwyo, ei ddyfetha gai. Edr. DYNOL.

'Dilyn yr wyf, fel y gallwyf ymaflyd yn y peth hwn hefyd yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu.' Phil. 3. 12. Ymaflodd Crist ynddo yn rasol, ac yn gadarn, pan y galwodd ef; yr oedd yn wyllt, yn ffyrnig, ac yn brysio tua cholledigaeth; ymaflodd Crist ynddo, sef yn ei feddwl, i'r dyben i'w achub, a'i ddwyn i'r bywyd tragywyddol. Gwnaeth yr afael yntau yn rhedegwr ewyllysgar tu ag yno. Gwnaeth gafael Crist ef yn ymorchestwr ac yn rhedegwr, i gyrchu yn egnïol at y nôd. Am na chyll Crist mo'i afael ynddo, ni phaid yntau ag ymdrechu nes gallo ymaflyd yn y peth o herwydd yr hwn yr ymaflodd Crist ynddo, sef bywyd tragywyddol. Y mae yma ddwy afael, a'r naill yn effaith y llall; ei afael ef yn effaith gafael Crist ynddo. Edr. GAFAEL.

YMAGOR, (agor) dadgloi, dadgan. Act. 13. 10. Edr. AGOR.

YMANNOG, (annog) cymhell, cynghori, rhybuddio, cynhyrfu.——'Na fyddwn wag-ogoneddgar, gan ymannog ein gilydd.' Gal. 5. 26. *αλληλους προκαλουμηνοι, cyffroi, anfoddogi ein gilydd.*——'A chyd-ystyriwn bawb ein gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da.' Heb. 10. 24. *εις παροξυσμον, i gynhyrfu a chyffroi* ein gilydd i gariad, &c., gweddai ein bod yn fyw, yn egnïol, ac yn ymdrechgar i hyn. Edr. ANNOG.

YMARFER, (arfer) mynych wneuthur peth, ymgynnefino trwy fynych arferiad.—'Ymarfer, attolwg, âg ef, a bydd heddychlawn; o hyn y daw i ti ddaioni.' Job 22. 21. Y mae dyn wrth naturiaeth mewn pellder a dyeithrwch i Dduw. Y mae gweithrediadau pechadurus, yn enwedig os byddant yn barhaol, yn pellhau dynion oddiwrth Dduw, ac yn dyeithrio, hyd yn nod duwiolion, o ran eu cyfrinach â'r Arglwydd. Y maent yn llai eu hawydd i weddïo, ac yn llai parod i nesâu at Dduw yn mhob moddion, ac yn hawsach ganddynt ymfoddloni ar y cyflawniad allanol, heb gyfrinach neillduol â Duw yn y moddion. 'Ymarfer dy hun âg ef,' fel yr unig ffordd i ti lwyddo, a chael daioni. Mae yr ymarfer hwn yn arwyddo, 1. Mynych feddwl am dano, a myfyrio arno. Ps. 63. 5, 6. a 139. 17.——2. Mynych feddwl am dano, yn astudio ei air, yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. Ps. 1. 2.——3. Ei weithredoedd hefyd, y rhai oll sydd yn amlygu rhyw beth o hono. Ps. 75. 1. a 111. 2, 3. ——4. Mynych weddïo arno, a dyrchafu ein hysbrydoedd ato yn aml yn y ddyledswydd.——5. Trwy rodio gyda Duw yn ein holl ymarweddiad. Ymarfer a byw, a gwneuthur pob peth yn ofn Duw, fel y mynai Duw i ni, ac i'r dyben i'w ogoneddu. 'Enoch a rodiodd gyda Duw.' Gen. 5. 24. Y mae ymarfer a byw gyda Duw, yn ein rhodiad cyffredin, yn fawr gysur a chryfhad, ac yn tueddu i ogoneddu Duw yn fawr. Heb ymgais am hyny, y mae lle i ofni nad ydyw dyledswyddau yn cael eu cyflawni ond yn rhagrithiol. Y mae yn y cyfammod gras ryddid neillduol i ddyfod i gyfrinach agos iawn â Duw. Y mae, nid yn unig ryddid, ond hefyd nerth i hyny. Y mae yr Ysbryd yn arweinydd, yn gyfarwyddwr, ac yn gynnorthwywr i hyny. Eph. 3. 12.

'Ac ymarfer dy hun i dduwioldeb.' 1 Tim. 4. 7. Y mae rhai wedi ymgynnefino â chybydd-dra; wedi *ymarfer* (yr un gair sydd yno ag yma) nes ydynt wedi ymgynnefino â'r pechod ffiaidd hwnw. Felly ymarfer ei hun i dduwioldeb, yw bod yn fynych wrth y pethau sydd yn perthyn i dduwioldeb; sef wrth ddyledswyddau, gweddïo, darllen, myfyrio, &c., nes byddo duwioldeb yn beth cynnefin genym, na fedrwn fyw hebddi. Y gair Groeg *γυμναζω*, a arwydda y cyfryw ymarfer a fyddai gorchestwyr yn myned trwyddo, i addasu eu hunain i ryw orchestwaith i ennill y gamp. Byddent yn ymgadw yn mhob peth, yn dysgu pa fodd i ddefnyddio eu haelodau yn fwyaf manteisiol yn yr ymdrech, ac yn ymladd eu hymladdfeydd yn aml cyn cyfarfod â'r gwrth-ymdrechwr.

Digitized by Google

Felly, 'ymarfer dithau dy hun i dduwioldeb;' ni ennillir y gamp uchel heb hyny.

YMAROS—HOUS, (aros) goddefgar, goddefgarwch, amyneddus, goddefodd.—Y mae bod yn ymarhous, yn arwyddo llesgrwydd, gwendid, a beiau yn eraill, y byddom yn ymgyfrinachu â hwynt; ac amynedd, gostyngeiddrwydd, addfwynder, a thiriondeb ynom ninnau tu ag atynt, gan ewyllysio gwneuthur llesâd iddynt. 1 Thes. 5. 14. 2 Tim. 3. 10. a 4. 2. Addurn gwerthfawr a hardd ydyw yn mhawb, ac yn neillduol o angenrheidiol yn athrawon y gair. Yr oedd Crist tu ag at ei ddysgyblion yn siampl hynod o ymaros; a ffrwyth yr Ysbryd yn ei holl ganlynwyr, ydyw cariad, hir-ymaros. Gal. 5. 22. Edrych ADDFWYNDER, AMYNEDD, DYODDEFGAR.

YMARWEDDIAD, (arwedd) ymddygiad, cyngweddiad, agweddiad, rhodiad; ymddygiad a rhodiad cyffredinol dyn. Galatiaid 1. 13.—Gelwir eilunaddoliaeth, a phob gau grefydd, a gau-fucheddiad, 'ofer ymarweddiad;' sef diles i ddyn, diogoniant i Dduw, ac am hyny yn bechadurus ac yn ddinystriol. 1 Petr 1. 18.

'Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd.' Phil. 3. 20. 'Ein gwladwriaeth ni 'sy yn y nefoedd.' W. S. a'r Dr M. πολιτευμα, *y wladwriaeth, y ddinas*, neu *y gymdeithas*, yr ydym ni yn perthyn iddi. 'Ein dinas ni sydd yn y nefoedd.' Le Clerc. Hwyrach yr arwydda y gair hefyd, ymarweddiad cyfatebol i gyfreithiau y ddinas, yn ol ein cyfleithiad ni; ein hymarweddiad, sef ein hagweddiad a'n rhodiad ni sydd yn nefolaidd, yn ol cyfreithiau y ddinas nefol yr ydym ni yn ddinasyddion o honi. Gwel Schleusner. Y mae ymarweddiad yn y nefoedd yn gwbl groes i fod ein hymarweddiad yn ariangar ac yn fydol. Heb. 13. 5. Iago 3. 13. Edrych RHODIAD, YMDDYGIAD.

YMATGUDD, (cudd) dadguddiad, ymeglurhad.—'Ac ymatgudd cyfiawn farn Duw.' Rhuf. 2. 5. W. S.

YMATTAL, (attal) hunan-lywodraeth, un yn attal ei hun. 1 Thes. 3. 1. 1 Tim. 4. 3. Edrych ATTAL, CYFATTAL.

YMAWDURDODI, (awdurdod) traws-lywodraethu ar arall.—'Nid wyf fi yn cenadu i wraig athrawiaethu, nac ymawdurdodi ar y gwr.' 1 Tim. 2. 12. αυθεντειν ανδρος, *traws-feddiannu awdurdod*, a *llywodraethu ar y gwr*. Gan na roddwyd awdurdod iddi, y mae ei llywodraeth yn ormesol, ac yn drais-feddiannol: yn ganlynol, nid ydyw Duw o blaid ei llywodraeth, ac y mae ei nwydau pechadurus yn dwyn i mewn i'r teulu bob annhrefn ac aflwyddiant. 1 Cor. 11. 5. a 14. 34.

YMBALFALU, (palf) araf-deimlo, chwilio y ffordd yn y tywyllwch trwy deimlo. Y mae dynion yn ymbalfalu o ddiffyg goleuni i ddangos, neu o ddiffyg llygaid i ganfod, neu bob un o'r ddau.—'Y deillion a balfalant ganol dydd.' Deut. 28. 29. Job 5. 14.

'Fel y ceisient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael, er nad yw efe yn ddiau yn neppell oddiwrth bob un o honom.' Actau 17. 27. Darlunia yr apostol gyflwr y cenedloedd, nad oedd ganddynt oleuni gair ac Ysbryd Duw: palfalu yr oeddynt yn ddall, ac yn y tywyllwch, am Dduw. Yr oedd efe yn agos at bob un, ac i'w ganfod yn ei weithredoedd; ond yr oeddynt hwy yn ddeillion, yn methu ei ganfod, ond yn palfalu; ac y mae dadguddiad mwy cyflawn ac eglur o hono yn y gair nag sydd yn ei weithredoedd. Yr Ysbryd trwy y gair sydd yn dwyn dynion i wybodaeth gadwedigol o'r Arglwydd.

YMBAROTOI, (parod) taclu ei hun, gwneyd ei hun yn barod. Job 8. 8. Luc 12. 47. Dat. 8. 6. Edr. PAROTOI.

YMBELLHAU, (pell) pellhau ei hun, tynu ei hun yn mhell. Psalm 22. 11, 19. a 35. 22. a 38. 21. Edr. PELL.

YMBIL—IAU, (pil) dymuniad gostyngedig, ufuddgarwch, ufudd-ddeisyfiad, erfyniad, adolwyn, gweddi; gofyn arch ar liniau, ufudd attolwg, ymneddu. Y gair *Heb.* חנן a gyfieithir y rhan amlaf, *ymbil*, a arwydda erfyn yn ostyngedig, ac yn serchog iawn, yn y modd tebycaf i effeithio ar serchiadau tyner arall; y fath ag ydoedd agwedd Joseph pan yr ymbiliodd â'i frodyr am ei fywyd, (Gen. 42. 21.) neu yw agwedd y tlawd yn ei angen. Diareb. 18. 23. Fel y gwnaeth Jacob â'r angel yn ei gyfyngder, a'i ofnau mawrion. Hos. 12. 4. Edr. GWEDDI.

YMBLEIDIO, (plaid) ymlynu wrth blaid, cynnal plaid wrthwynebol.—'Na byddo ymbleidio yn eich plith.' 1 Cor. 1. 10. *μη η εν υμιν σχισματα*. 'Na bo ymrysonion yn eich plith.' W. S. 'Na byddo sismau neu ymraniadau yn eich plith.' Arwydda yr hyn sydd groes i ddywedyd yr un peth—bod wedi eu 'cyfan-gysylltu yn yr un meddwl ac yn yr un farn.' Effaith cynhen a chenfigen ydyw yr ymbleidio hwn, a ffrwyth y cnawd ag sydd yn peri mawr niwed lle y byddo. 1 Cor. 3. 3. Gal. 5. 20. Edr. ANGHYDFOD.

YMBOENI, (poen) blino ei hun. Jer. 12. 13.

YMBORTH—I, (porth) cynnaliaeth, porthiant, lluniaeth, bwyd; porthi, bwyta. Yr hyn sydd yn angenrheidiol yn ol deddf natur at ein cynnaliaeth a'n cysur, yw ein hymborth.—'Ac o bydd genym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hyny.' 1 Tim. 6. 8. Mae hyny yn ddigon, ac yn gwbl heb eu haeddu.—'Ymborthi ar ludw, ac ar wynt,' y mae holl eilun-addolwyr a gau-grefyddwyr yn y byd; sef ar beth ffiaidd, diles, ac aflach. Esa. 44. 20. Hos. 12. 1. Edr. BWYD, PORFA, PORTHI.

YMCHWEL—YD, (chwel) dymchwelyd, bwrw i lawr; dychwelyd, troi yn ol, adwedda, dyfod i adwedd. Hos. 14. 1. 2 Cor. 3. 16. Hag. 2. 22. 2 Petr 2. 22. Edr. DYCHWELYD, EDIFEIRWCH.

YMCHWYDD—IAD—AU—O, (chwydd) chwyddo; ymfawrhau, ymfalchïo, cynnwys meddyliau mawr am un ei hun. Yn yr ystyr ffugyrol hwn yr arferir y gair y rhan amlaf yn y Testament Newydd. Yn yr Hen Destament arferir ef yn ei ystyr naturiol, a phriodolir ef i'r môr, a llifeiriant yr Iorddonen. Ps. 46. 3. a 89. 9. Jer. 12. 5. a 49. 19.—Rhoddir ymchwyddiadau (φυσιωσεις) gyda rhestr ddu o bechodau sydd yn peri llawer o flinder ac aflonyddwch yn eglwys Dduw yn ei chyflwr anmherffaith yn y byd hwn. 2 Cor. 12. 20. Ond 'cariad nid yw yn ymchwyddo.' 1 Cor. 13. 4. Ffrwyth y cnawd, gan hyny, ydyw yr ymchwydd, ac nid o Dduw y mae.

'Nid yn newyddian yn y ffydd, rhag iddo ymchwyddo, a syrthio i ddamnedigaeth diafol.' 1 Tim. 3. 6. Barna rhai, oddiwrth y geiriau hyn, mai ymchwydd oedd pechod y diafol, a'i dygodd dan farn o gondemniad tragywyddol. Ar ba achlysur y dangosodd ei ymchwydd, ni hysbyswyd i ni, ac nid ychwanega dychymygion at swm ein gwybodaeth. 2 Petr 2. 4. Judas 6. Edrych ANGEL, DIAFOL, SATAN. Gwaherddir gosod newyddian yn y ffydd yn esgob i flaenori yn yr eglwys, rhag iddo ymchwyddo, a thrwy hyny syrthio dan yr un ddamnedigaeth ofnadwy a'r diafol. Y mae ymchwydd, o herwydd beth bynag y byddo, doniau, llwyddiant, cymeradwyaeth, &c., yn anaddasu dyn i swydd sanctaidd yn yr eglwys, ac yn peryglu iechydwriaeth ei enaid. Nid ieuanc o ran oedran, y mae yr apostol yn crybwyll am dano, ond 'newyddian yn y ffydd;' un heb adnabod sylfeini a dirgelwch y ffydd yn dda; heb ei wreiddio yn ngwirioneddau y gair, ac yn byw trwy ffydd arnynt; un

Digitized by Google

heb weled y fraint o wasanaethu yn nhŷ Dduw, yn chwennych tra-arglwyddiaethu yno. Dichon un fod yn newyddian yn y ffydd, o ran ei wybodaeth a'i brofiad yn y ffydd, er ei fod yn hen mewn oedran a a phroffes. Ni fyn llawer ddysgu, am na fynant wasanaethu, ac y maent yn gwbl anaddas i lywodraethu yn fuddiol, ac er adeiladaeth. Y mae eu cyflyrau yn beryglus, a'u barn yn drom—sef 'damnedigaeth y diafol.' Edr. CHWYDD.

YMDAENU, (taenu) gwasgaru eu hunain, taenu eu hunain. Barn. 15. 9.

YMDAITH—EITHIAD—IO—YDD, (taith) helynt, ymlwybriad, cerddediad; rhodio, teithio, ymlwybro. Arwydda, trigo mewn tir heb sefyllfa sefydlog, fel y patrieirch gynt yn ngwlad Canaan, yr Aipht, &c. Gen. 12. 9, 10. a 20. 1.——Ymdeithwyr ydyw y saint ar y ddaear; nid eu cartref, nid eu hetifeddiaeth hwy yw yma; 'Gwlad well y maent hwy yn ei chwennych,' a hòno yn 'un nefol.' Heb. 11. 16. Psalm 39. 12.

'Ymddygwch mewn ofn dros amser eich ymdeithiad.' 1 Petr 1. 17. Gan yr ail olygir yr holl ymdaith, ac y bernir pob un, heb dderbyn wyneb, yn ol ei weithred, doethineb ydyw edrych fa fodd y gweithredom. 'Mewn ofn;' sef yn cydnabod ein perygl, ein gwendid, amldra a grym temtasiynau, a manylrwydd a didueddrwydd y farn. Edr. TAITH.

YMDARO, (taro) taro yn ddyfal, troi heibio ddyrnodiau; ei hymladd hi allan.—'Pa fodd yr ymdarewi?' sef pa fodd yr ymleddi hi allan? pa fodd y bydd arnat? Jer. 12. 5. Edr. TARO.

YMDECAU, (teg) ymwychu, ymsioncio, ymharddu.——'Cynnifer ag sydd yn ewyllysio ymdecâu yn y cnawd,' &c. Galat. 6. 12. Cynniuer ac a vynnent wneuthur wynep-tec yw'ch yn y cnawt.' W. S. '*As desire to make a fair shew in the flesh.*' *Saes.* Arwydda y gair ευπροσωπησαι, *bod â wyneb prydferth, hawddgar.* Meddwl yr apostol yw, fod y gau athrawon am ymddangos yn dêg ac yn hardd yn ngolwg yr Iuddewon, o herwydd eu parch a'u hymlyniad wrth gyfraith Moses, yr hon a eilw yr apostol mewn manau eraill, y cnawd, mewn cyferbyniad i'r efengyl, yr hon a eilw efe yr Ysbryd. Galat. 3. 3. Dyfais gnawdol oedd i ochelyd erlidigaeth, trwy lygru yr efengyl. Dichellion cnawdol cyffelyb i hyn, i wneuthur athrawiaeth yr efengyl i wasanaethu dybenion dynion eu hunain, ac nid i achub eneidiau pechaduriaid, ydynt yn pyngu mewn eglwysi dirywiedig yn mhob oes.

YMDERFYSGU, (terfysg) ymgynhyrfu, ymflino, ymgythruddo, ymddychrynu. Psalm 42. 5. Edrych TERFYSGU.

YMDORI, (tori) tori ei hun.—'Nid ymdorir.' Jer. 16. 6. Yr oedd ymdori dros y marw yn waharddedig wrth gyfraith Moses i Israel. Deut. 14. 1. Edrych TORI. Yr oedd yr arferiad o ymdori yn arferedig gynt yn mhlith yr Hûniaid; ac felly mae etto yn mhlith trigolion Otaheite a New Zealand. Gwel Foster's *Obs.* Y mae yn gywrain i sylwi, ac i chwilio allan, yr achos o arferion cyfatebol yn mhlith cenedloedd mor hynod o bell oddiwrth eu gilydd.

YMDRAFFERTHU, (trafferth) ymlafurio, ymboeni. Psalm 39. 6. Edr. TRAFFERTHU.

YMDRECH——IAD——AU——U, (trech) ymafael, ymorchest, ymdyn, ymafliad, ymaelyd cwymp; ymegnïo, ymorwst, ymgyhydreg.——'Ac efe mewn ymdrech meddwl, a weddïodd yn ddyfalach.' Luc 22. 44. Edr. DYFAL.

Priodolir y gair *ymdrech,* yn aml, i lafur, dyoddefiadau, a gorchest-waith yr apostolion, a'r Cristionogion, yn mhlaid y ffydd, i daenu yr efengyl, a'i chadw yn bur, yn erbyn gelynion allanol, cryfion, ac erlidigaethus; ac yn erbyn gau athrawon tufewnol, cynhenus, ac ymrysongar. Yr oedd y diafol yn eu gwrthwynebu yn ei offerynau, â'i holl greulondeb, a'i ddichellion cyfrwys. Rhydd yr apostol restr o'u gelynion yn Eph. 6. 12. Yr oeddynt yn ymdrech yn erbyn pechod yn mhawb, ac yn benaf ynddynt eu *hunain.* Heb. 12. 4. Gelyn oedd hwnw diorphwys yn eu mynwesau eu hunain, ag oedd yn peri y blinder mwyaf iddynt, pe buasai pawb eraill yn heddychol â hwynt. Yr oeddynt yn ymdrech fel rhedegwyr, a gorchestwyr am y gamp, 1 Cor. 9. 25. 2 Tim. 2. 5. —Yn ymdrech ar y maes, fel milwyr arfog, Eph. 6. 12. 1 Tim. 6. 12. 2 Tim. 4. 7.——Yn ymdrech mewn gweddi, fel Jacob, Gen. 32. 24. Col. 4. 12.— Yn ymdrech mewn helbulon a dyoddefiadau mawrion, Heb. 10. 32.—Ymdrechu myned i mewn trwy y porth, yr hwn fel hyn oedd yn dra chyfyng, Luc 13 24.—Ymdrech yw bywyd ffydd: os na bydd ymdrech, nid oes yno fywyd ysbrydol: yn ol gradd y ffydd a'r bywyd sanctaidd yn yr enaid, y bydd yr ymdrech. Nid yw bosibl cymmodi dwy blaid mor berffaith groes i'w gilydd, yn eu natur; ni bydd heddwch nes dinystrio yn gwbl un o honynt. Mae y ffydd, sef athrawiaeth y ffydd, yn anfeidrol werthfawr, yn gwbl deilwng ymdrechu o'i phlaid: mae y gamp yn oruchel a gogoneddus, ac a dâl yn dda i ymestyn ac ymgyrhaedd ati; ond, oni bai fod Duw yn gweithio ynddynt yn nerthol, colli y cwbl a wnaent. Col. 1. 29.

YMDREIGLO—FA, (traigl) ymrolio, ymdroi; lle ymrolio. Jos. 25. 34. Marc 9. 20. 2 Petr 2. 22. Edr. HWCH.

YMDRIN——IO, (trin) ymdrech, ymryson, ymrafael, ymyraeth.—'Gan fod i chwi yr un ymdrin ag a welsoch ynof fi, ac yr awrhon a glywch fod ynof fi.' Phil. 1. 30. Τον αυτον αγωνα εχοντες; *yr un ymdrech;* sef yr un gelynion, yr un profedigaethau ac erlidiau i ymdrechu â hwynt. Gwrthwynebwyr fydd i'r efengyl, ac ymdrech fydd i'r gwir athrawon: ie, yr *un* ymdrech yw o hyd, ac y bydd hefyd, tra byddo cnawd ac ysbryd yn gwrthwynebu eu gilydd yn y byd, ac yn yr eglwys.——'Ac yn 'oystastol yn ymdrinio drosoch yn-gweddieu.' Col. 4. 12. W. S. Sef ymdrechu drosoch.—'Gan fawr ymdrino.' 1 Thes. 2. 2. W. S. Sef mawr ymdrechu. Edrych TRIN, YMDRECH.

YMDROCHI, (trochi) ymolchi, ymsoddi. 2 Bren. 5. 14. Edr. TRAED, TROCHI.

YMDROI, (troi) troi ei hun, ymdosi; gohiriaw, segura. Job 7. 4. a 37. 12. Psalm 125. 5. Edrych TROI.

YMDRWSIO, (trwsio) ymwisgo, ymharddu, ymdacluso.——'Ymdrwsiwch oddifewn â gostyngeiddrwydd.' 1 Petr 5. 5. Y mae gostyngeiddrwydd grasol yn harddwch sanctaidd, ac anharddwch mawr ydyw bod hebddo.

YMDRYBAEDDU, (trybaedd) ymdreiglo, ymdrochi, ymdrybola, ymdroi. 2 Sam. 20. 12. Jer. 48. 26. Ezec. 16. 6. a 27. 30.

YMDRYTHYLLU, (trythyll) ymlygru, ymlosgi, ymchwantu.——'Pan ddechreuont ymdrythyllu yn erbyn Crist, priodi a fynant.' 1 Tim. 5. 11. *Groeg* καταστρηνιασωσι, *myned yn foethus, ac aflywodraethus.* Cyfieithir yr un gair, heb y rhagddod κατα, *moethus, moethau,* yn Dat. 18. 3, 7, 9. Yn foethus, ant yn drythyll, ac yn aflywodraethus, ac yn anaddas i swydd a gwaith sanctaidd yn yr eglwys. Edrych TRYTHYLLWCH.

Digitized by Google

YMDWYM—NO, (twym) cynhesu ei hun. Esa. 44. 15, 16. a 47. 44. Marc 14. 54.—'Ac yr oedd Petr gyda hwynt yn sefyll, ac yn ymdwymno.' Ioan 18. 18, 25. Y mae ychydig wahaniaeth yn yr hanes a roddir gan Matthew a Marc am y *lle* y gwadodd Petr ei feistr gyntaf. Dywed Matthew ei fod yn eistedd *allan* yn y llys. Mat. 26. 69. Dywed Marc ei fod yn y llys i *waered*. Marc 14. 66. Amlwg yw, oddiwrth eiriau Ioan, ei fod gyd â'r gweinidogion wrth y tân, pan y gwadodd ef y drydedd waith. Ac oddiwrth Luc 22. 61. amlwg yw i'r Iesu edrych ar Petr fel yr oedd yn ei wadu y drydedd waith. Yr oedd yr Arglwydd a Phetr, gan hyny, yn yr un lle; yr Iesu gyd â'r barnwyr yn y pen uchaf, a Phetr gyd â'r gweinidogion wrth y tân yn y pen arall. Fel hyn, gellir dywedyd fod Petr 'allan yn y llys;' sef y tu allan mewn perthynas i'r barnwyr, y tystion, a'r milwyr, oedd yn amgylchynu yr Iesu; ond mewn perthynas i'r lle yr eisteddai y cynghor, yr oedd 'yn y llys i waered.' Dywed Ioan (pen. 18. 18.) ei fod gwedi y gwadiad cyntaf yn *sefyll* gyd â'r gweision a'r swyddogion: ond dywed Matthew a Luc ei fod yn *eistedd* wrth y tân pan gwadodd ef gyntaf. Tebygol i eiriau y llances yn ei gyhuddo ei gythryblu, ac iddo gyfodi oddiar y sedd a roddodd y gweision iddo ef pan ddaeth gyntaf i mewn. Edr. Twym.

YMDYWALLT, (tywallt) tywallt ei hun; ymofidio gan ofid a thristwch. Job 30. 16.

YMDDADLEU, (dadl) ymryson mewn geiriau.—'Gwnewch bob dim heb rwgnach, nac ymddadleu.' Phil. 2. 14. Na fyddwch fel gweision anufudd yn achwyn ar eirchion eich meistriaid fel yn orthrymllyd, neu blant anufudd yn dadleu yn erbyn gorchymynion eu rhïeni fel yn afresymol. Mae ymddadleu â rhesymau yn bechadurus pan fyddo o blaid cyfeiliornad, â gau resymau, i gau ddyben, ac mewn ysbryd digllon, ymrysongar. Actau 6. 9. a 17. 17. 1 Tim. 6. 5. Titus 3. 9.—Y mae yr Arglwydd yn ymddadleu â dynion â thân ei farnedigaethau. Esa. 66. 16. Edr. Ymrafael, Dadl.

YMDDADWREIDDIO. Luc 17. 6. Edrych Gwraidd.

YMDDANGOS—IAD, (dangos) dangos ei hun, gadaw ei weled, ymgynnrychioli, bod yn weledig, bod yn bresennol, bod yn amlwg.—1. Bod yn weledig. Gen. 1. 9.——2. Dyfod ger bron. Esa. 1. 12.——3. Ymragrithio. Mat. 6. 16.

Gwaith Duw yn ymddangos, a ddynoda rhoddi arwyddion amlwg o'i bresennoldeb: fel hyn yr ymddangosodd yn aml i'r hen dadau yn y cyn-ddyddiau. Lef. 9. 6. Gen. 12. 7. a 17. 1. a 18. 1. a 48. 3. 2 Cron. 1. 7. Num. 12. 6.—Neu yn rhoddi amlygiad eglur o'i berffeithiau yn ei ragluniaethau, neu grybwylliad amlwg o'i ewyllys. Actau 9. 17. a 26. 16.

Ymddangosiad Crist a ddynoda, 1. Ei ddyfodiad yn y cnawd. 1 Tim. 3. 16. 1 Ioan 3. 8. Heb. 9. 26. ——2. Neu ei amlygiad o hono ei hun i'w ganlynwyr ar ol ei adgyfodiad. Marc 16. 9, 11, 14. Luc 24. 34. Ioan 21. 1.——3. Ei eiriolaeth dros ei bobl yn y nefoedd. Heb. 9. 24.——4. Ond, yn benaf, ei ddyfodiad yn y dydd diweddaf ar y cymylau, gyda gallu a gogoniant mawr, i farnu y byd. 1 Tim. 6. 14. 2 Tim. 4. 8. Titus 2. 13.

'A ymddengys yr ail waith heb bechod.' Heb. 9. 28. Meddyliodd llawer fod cyfeiriad yn y geiriau at ddychweliad yr arch-offeiriad o'r cysegr sancteiddiolaf ar ddydd mawr y cymmod. Gwedi ymddangos yno ger bron Duw i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl yn ngwisgoedd llïan cyffredin yr offeiriaid (Lef. 16. 23, 24.) döi allan i'r cysegr sanctaidd, a dyosgai y gwisgoedd llïan a wisgodd wrth ddyfod i'r cysegr, a gadawai hwynt yno. Gwedi hyny, golchai ei gnawd â dwfr, yn y lle sanctaidd, a gwisgai ei ddillad, sef euraidd a gogoneddus, ac a âi allan i fendithio y bobl, y rhai oeddynt yn dysgwyl am dano yn y cyntedd. Nid oedd dim a allasai ymddangos yn fwy ardderchog i'r Iuddewon na'r golygiad hwn gan yr apostol o'r mater mewn llaw. Ond yr ydoedd peth gwahaniaeth rhwng dychweliad yr arch-offeiriad i fendithio y bobl, a dychweliad Crist yr ail waith heb bechod, nac aberth drosto. Yr arch-offeiriad gwedi dychwelyd o'r sancteiddiolaf, a wnai gymmod adnewyddol drosto ei hun a thros y bobl yn ei wisgoedd gogoneddus (adn. 24.) yr hyn ydoedd ddangosiad nad oedd y cymmod blaenorol yn wirioneddol, ond cysgodol. Ond yr Iesu, yn ei ail ddyfodiad, a ymddengys heb bechod, nac aberth i wneuthur cymmod; canys gwnaeth âg un aberth gymmod perffaith a thragywyddol.

Dynion yn ymddangos ger bron Duw, a arwydda, 1. Ei addoli yn ei gynteddoedd yma yn y byd. Exod. 23. 15, 17. Ps. 42. 2.——2. Eu gwaith yn sefyll y dydd diweddaf ger bron gorsedd-fainc Crist i gael eu barnu. 2 Cor. 5. 10. Edr. Barn, Dangos, Eiriol, Rhith.

YMDDAROSTWNG, (darostwng) hunan-ymostyngiad, darostwng ei hun; ymostwng, parchu, ufuddhau. Gen. 16. 9. Rhuf. 13. 5. 1 Petr 2. 13. Hebreaid 13. 17.—'Ymddarostyngwch dan alluog law Duw, fel y'ch dyrchafo mewn amser cyfaddas.' 1 Petr 5. 6. Y mae gwreiddyn balchder yn nghalon pob dyn, sydd raid ei farweiddio, cyn y byddo yn addas i'r nefoedd. Dwg Duw ddynion i amgylchiadau addas i hyny, i roddi aml brofion a ydynt gwedi eu plygu yn wirioneddol iddo neu beidio. Ezec. 17. 24. Deut. 8. 3. Galluog law Duw yw ei ragluniaeth ddoeth, gadarn, ac anfethedig, yn trefnu pob peth yn effeithiol, ac yn y modd goreu er ei ogoniant ei hun, a'n llesâd ninnau. Y mae ymostwng yn cynnwys, 1. Cydnabyddiaeth o law Duw yn mhob peth. 1 Sam. 3. 18. 2 Sam. 16. 10.——2. O'n gwaeledd ein hunain. Ps. 144. 3. Gen. 18. 27.——3. O'n pechadurusrwydd. Rhuf. 3. 10, 23. Esa. 64. 6.——4. O ben-arglwyddiaeth Duw. Rhuf. 9. 29. Ps. 39. 9. Job 1. 21. a 40. 4, 5.——5. Rhyfeddu yn sanctaidd gynghor a ffyrdd anchwiliadwy Duw. Rhuf. 11. 33.——6. Ymwrthod â'n holl ragoriaethau ein hunain ger bron Duw. Dat. 4. 11.——7. Ymostwng yn hawdd ac yn ddiddig i'r gwasanaeth gwaelaf, gofynol oddi wrthym yn ein hamgylchiadau. Ioan 13. 14. Phil. 2. 8.——8. Rhyfeddu ei drugareddau tu ag atom yn nghanol ei holl driniaethau o honom. Ps. 144. 3. Ezra 9. 13. Galar. 3. 22. Y mae amser cyfaddas gan Dduw i ddyrchafu ei bobl; sef pan fyddont wedi eu darostwng yn addas, a'i ragluniaethau wedi ateb y dyben tu ag atynt, oedd gan Dduw yn ei olwg.

YMDDATTOD. Edr. Dattod.

YMDDIAL—YDD. Edr. Dial, Sugno.

YMDDIDOL—I, (didol) ymneillduo, ymdynu o'r neilltu, ymbleidio. Hos. 4. 14. a 9. 10.—Gorchymynir i'r duwiolion ymddidoli oddiwrth eilun-addolwyr, a phob math o bechaduriaid cyhoedd. 1 Ioan 5. 21. 1 Cor. 10. 14. Wrth ymgymysgu a chyfeillachu â hwynt, yr ydym yn cynnwys eu pechod, ac yn y modd mwyaf eglur yn tystio nad ydym yn gweled dim niwed ynddo. Ar yr ymddidoliad, y mae Duw yn cyhoeddi addewidion tra gwerthfawr; sef y byddai iddo ef eu derbyn, ac ymddwyn fel Tad tirion a grasol tu atynt. 2 Cor. 6. 17.

YMDDIFAD, neu AMDDIFAD, (difad) digysur, diymgeledd; un gwedi ei ddifeddiannu o ryw un fyddo cu ganddo, megys tad, neu fam, neu ei blant; digariad. Edr. Gweddw.—'O herwydd ynot ti y caiff yr ymddifad drugaredd.' Hos. 14. 3. Y mae gofal

Digitized by Google

Duw yn neillduol am yr amddifad; gelwir ef 'Tad yr amddifad.' Ps. 68. 5. Efe a gymer le Tad, ac a ymddwyn fel Tad yn ei ofal a'i dirionde̋b tu ag atynt, a'i ymgeledd iddynt.

'Efe a gynnal yr amddifad.' Ps. 146. 9. Y mae pechadur edifeiriol yn golygu Duw dan yr enw hwn fel annogaeth gref iddo ddychwelyd ato. Golyga ei hun yn ymddifad; sef fel plentyn bychan, gwan, a ffol; yn anfedrus ac yn anabl ymgeleddu ac amddiffyn ei hun, ac heb gymhorth o un lle arall. Yn amddifad yn holl ëangder ystyr y gair, y mae efe yn edrych at Dduw yn ei drugaredd. Y mae yn ei olygu fel yn gwbl abl i'w achub; ac nid hyny yn unig, ond hefyd yn ewyllysgar. Gwelwn, 1. Gyflwr yr eglwys yn y byd; y mae yn amddifad, yr hon nid oes neb yn ei cheisio. Jer. 30. 17. Anialwch yw y byd iddi. Yr oedd Paul gwedi ei groeshoelio i'r byd, a'r byd iddo yntau. Gal. 6. 14.——2. Hwyrfrydedigrwydd dyn i geisio trugaredd; nid â at Dduw nes y pallo pob cymhorth arall iddo, fel yr afradlon. Luc 15. 17, 18. ——3. Yr agwedd addas ar ddyn i fyned am drugaredd, sef pan fyddo yn gwbl ymddifad ynddo ei hun, ac o bob help o un lle arall. Esa. 41. 17. Deut. 32. 36. ——4. Yr achosion effeithiol yn gweithredu edifeirwch, sef teimlad o wagder a phechod ynom ni, a chydnabyddiaeth o anfeidrol ddaioni a thrugarogrwydd yn yr Arglwyyd. Ioan 16. 9, 10. Esaiah 40. 4, 5. Dwg Duw ei bobl i agwedd addas i gyfranogi o'i fendithion, a'u mwynhau.

'Nis gadawaf chwi yn amddifad: mi a ddeuaf atoch chwi.' Ioan 14. 18.—1. Er cael pob peth arall, buasent yn amddifad hebddo ef ei hun.——2. Y mae cyflawnder digonol yn Nghrist ei hun i ymgeleddu ei bobl. ——3. Ni phalla ei gariad tu ag atynt, ei ofal am danynt, a'i ffyddlondeb iddynt.

'Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad, yw hyn; Ymweled â'r amddifad a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd,' &c. Iago 1. 27. Edr. Dihalogedig.——Barna rhai dysgedigion fod yn y geiriau gyfeiriad at ragoroldeb maen gwerthfawr, yr hyn sydd yn gynnwysedig yn ei fod yn dryloyw, ac heb ddim diffyg neu fai ynddo. Mewn gwirionedd, nid oes un gem mor werthfawr ac addurnol a'r dymher hawddgar ac anwylaidd a ddarlunir yn y geiriau! Y gair *θρησκεια, crefydd*, a arwydda yn neillduol addoliad dwyfol; ac a arwydda yma, nad oes un math o addoliad crefyddol yn gymeradwy gan Dduw, os esgeuluser cyfraith freninol cariad, ac ymweled â'r amddifad a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd. Gwel Tillotson's *Works*, Doddridge, Macknight.

YMDDIFWYNO, (difwyn) difeddiannu ei hun o fwynhad; ymlygru.—'Ymddifwynasant gan waed.' Galar. 4. 14. Sef ymhalogasant gan waed gwedi ei dywallt yn greulawn ac yn anghyfiawn.——'Cydymddifwynasant,' sef cyd-ymlygrasant. Psalm 14. 3. Edr. Difwyno.

YMDDIFFYN—FA, neu AMDDIFFYN, (diffyn) diffyn, differ, diffyniad, nawdd; ymnoddi, ymachlesu; noddfa, diffynfa.—1. Lle o nodded ac amddiffyn. Barn. 9. 49. 1 Sam. 22. 4, 5. 1 Cron. 12. 16.——2. Yr hyn fydd gan un i ddywedyd drosto ei hun yn erbyn ei gyhuddwyr. Actau 19. 33.

Y mae yr Arglwydd yn amddiffyn ei bobl rhag digofaint, trwy ei aberth; rhag eu gelynion, trwy ei ofal a'i allu; a rhag eu cyhuddwyr, trwy ei eiriolaeth trostynt. Ps. 31. 2. a 59. 9, 16. a 94. 22. Esa. 4. 5. a 33. 16. Zech. 9. 15. a 12. 8.

Gosodwyd yr apostolion 'er amddiffyn yr efengyl,' yn erbyn ei gelynion, a rhag ei llygru gan gyfeiliornwyr. Y mae i'r efengyl elynion lawer; y mae pob dyn yn y byd yn naturiol, pob llygredd yn nghalon dyn, a phob cythraul yn uffern, yn ei herbyn; a'r cyfeiliornwyr sydd yn ei llygru, yw ei gelynion penaf. Y mae yn deilwng i'w hamddiffyn, a braint pawb ydyw sefyll drosti, yn ei phurdeb a'i gogoniant. Phil. 1. 17.

YMDDIGIO. Edr. Dig.

YMDDIGRIFO, (digrif) ymhyfrydu, ymddifyru, ymloni, ymhoeni, ymlawenhau.—Y mae meddwl sanctaidd yn ymddigrifo yn yr Arglwydd a'i ddeddfau; y maent yn ei olwg ef yn hardd, yn werthfawr, ac yn peri hyfrydwch a llawenydd mawr. Ps. 37. 4. a 110. 16, 47, 70.——Anwiredd drygionus ydyw digrifwch rhai; a thrwy hyny y maent yn euog o'u pechodau. Diar. 2. 14.

Gau athrawon a ymddigrifent yn eu twyll. 2 Petr 2. 13.—'Yn ymddigrifo yn eu twylliaday, pan font yn cydwleddu gida chwi.' W. S. Εντρυφωντες εν ταις απαταις αυτων, *yn byw yn foethus ac yn loddestgar trwy eu cyfeiliornadau twyllodrus.* Arwydda y gair εντρυφω, yn benaf, ymhyfrydu mewn llawnder o fwydydd a diodydd, ymddigrifo mewn moethau beunydd: eu duw oedd eu bol.

YMDDILLADU, (dillad) ymwisgo, ymddynoethi. —'Nid ymddilladant â'u gweithredoedd;' hyny yw, ni bydd eu gweithredoedd er harddwch ac er diogelwch iddynt: ni byddant yn gyflawnder. Esa. 59. 6. Edr. Dillad, Gwisg.

YMDDYNOETHI, (noeth) ymddihatru, ymddyosg. Esa. 57. 8. Edr. Dynoethi.

YMDDYOSG, (dyosg) ymddynoethi, ymddihatru. 2 Sam. 6. 20. Edr. Dyosg.

YMDDIRIAD—ED, (diriad) hyder, goglud, coel, gobaith; hyderu, rhoddi goglud ar.

> Tri pheth nid ellir ymddiried iddynt: iechyd i hen, hindda y gauaf, a diwydrwydd arglwydd. *Diar.*

Arwydda, yn gyffredinol, yr un peth a chredu, yn yr ysgrythyrau. Ymddiried yn yr Arglwydd, ydyw credu ynddo, ar sail ei air a'i addewid. Sylfaen ein hymddiried ynddo, os bydd yn wirioneddol, yw tystiolaeth ei air am dano, a'i addewid i ni yn y gair. Y mae yn wrthddrych addas o'n hymddiried diysgog, yn ol tystiolaeth y gair am dano. Y mae yn alluog—yn drugarog—yn ddigyfnewid—yn ffyddlon; pethau angenrheidiol mewn gwrthddrych i ymddiried ynddo. Ymddiried ynddo, a ddynoda, dysgwyl wrtho mewn ffydd y cyflawna tu ag atom mewn amser, ac i dragywyddoldeb, yr hyn sydd yn gytun â'i air, ei berffeithiau, a'i gynghor. Ps. 2. 12. a 5. 11. a 7. 1. a 16. 1. a 34. 8. a 105. 9, 10, &c. Esa. 26. 4. Y mae ymddiried ynddo yn ei anrhydeddu; yr ydym wrth hyny yn cydnabod ei fawrhydi a'i berffeithiau dwyfol; ac mae y cysur mwyaf i ninnau, gan fod yr Arglwydd yn dirion i bawb a ymddiriedant ynddo. 2 Sam. 22. 31. Jer. 39. 18. Ps. 17. 7.

Beth bynag yr ymddiriedom ynddo yw ein duw, yr hwn yr ydym, trwy hyny, yn ei barchu a'i fawrhau; megys, ynddo ei hun—mewn dyn—yn lliosogrwydd ei olud—ei blaid gref—ei lewder a'i fedrusrwydd ei hun, &c. Ps. 44. 6. a 52. 7. a 118. 8. Diar. 3. 5. Jer. 17. 5.——Ymddiried mewn celwydd yw pob ymddiried ond yn yr Arglwydd. Jer. 13. 25. Edr. Dysgwyl, Credu, Hyderu.

YMDDWYN, (dwyn) ymweddu, ymfeichiogi, dymddwyn. Luc 2. 21. Can. 3. 4. a 8. 5. Phil. 1. 27. 2 Cor. 1. 12. Heb. 12. 7. Edr. Beichiogi, Cenedlu, Geni, Rhodio.—'Trwy ffydd, Sarah hithau yn anmhlantadwy, a dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd.' Heb. 11. 11. Edr. Sarah.

YMDDYDDAN—ION, (dyddan) cyd-siarad; ymgyfeillachu.—Ymddyddanodd yr Arglwydd gynt â'i saint mewn gweledigaethau; megys ar Sinai â Moses—oddiar y drugareddfa—trwy yr Urim a'r Thummim, &c. Yr oedd yn tori geiriau i amlygu ei feddwl

Digitized by Google

iddynt. Ymddyddanodd âg Abraham fel gwr â'i gyfaill. Psalm 80. 19. Gen. xviii. Zech. 1. 19. Yn awr mae ei holl gynghor a'i feddwl wedi ei amlygu i ni yn ei air; yn hwnw y mae yn ymddyddan â phawb a wrandawo arno. Yr hwn sydd â chlustiau ganddo i wrando arno, gwrandawed; a chaiff glywed Duw yn ymddyddan âg ef ar bob achos yn y gair, yn dirion, yn ddoeth, ac yn ddeallus.——'Y mae ymddyddanion drwg yn llygru moesau da.' 1 Cor. 15. 33. Edrych **Moesau, Siarad, Tafod.**

YMDDYEITHRO, (dyeithr) ymnewidio, ymbellâu. 1 Bren. 14. 5, 6. Job 19. 13. Psalm 58. 3. Ezec. 14. 5. Edr. **Dyeithr, Pell.**

YMDDYRCHAFU, neu YMDDERCHAFU, (dyrchafu) ymfawrhau, ymfawrygu, ymddringo, ymesgyn, ymgodi.—— Un o nodau yr apostol ar gauathraw, yw, ei fod yn 'ymddyrchafu.' 2 Cor. 11. 20. Nid dyrchafu Crist, na phorthi y praidd, ond dyrchafu eu hunain, ydyw prif bwnc gau athrawon. Elwa, pesgi a dyrchafu eu hunain, ydyw eu prif nodau. Ond o bawb, Anghrist yw y mwyaf haerllug a digywilydd, yr hwn sydd yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir, &c. 2 Thes. 2. 4. Edr. **Anghrist, Dyrchafu.**

YMDDYSGLEIRIO, (dysclaer) ymddangos, ymlewyrchu, ymogoneddu, ymddangos yn ddysglaer ac yn ogoneddus. Y mae Duw yn ymddysgleirio pan y mae yn amlygu ei ragoriaethau dysglaer yn ei weithredoedd nerthol o drugaredd neu farn. Ps. 80. 1. a 94. 1. Edr. **Dysglaer, Gogoniant, Llewyrch.**

YMEGNIO, (egni) cyd-egnïo, ymnerthu, ymeidiogi, ymgais â'r holl nerth. 1 Cronicl 28. 7. Esaiah 44. 14. Dan. 10. 21.

YMENYN, (ymen) sylwedd bras, olewaidd, a ddarperir o laeth trwy ei gorddi. Yr oedd yn ddiweddar cyn i'r Groegiaid wybod dim am ymenyn. Er bod Homer, Theocritis, Euripides, a'r prydyddion eraill, yn son yn aml am laeth a chaws, nid oes ynddynt grybwylliad unwaith am ymenyn. Nid oedd yr hen Rufeiniaid, ac nid ydyw trigolion yr Hispaen etto, yn arfer ymenyn yn ymborth, ond yn feddyginaethol yn unig i iachâu llynorod a gorynau. Yr Isellmyn (*Dutchmen*) a'i dygodd gyntaf i'r India Ddwyreiniol. Yr oedd yr Iuddewon yn foreu yn ei wneuthur, ac yn ei arferyd yn ymborth danteithiol. Coffëir am dano mor foreu ag amser Abraham. Gen. 18. 8. Diar. 30. 33. Esa. 7. 15. Dull yr Arabiaid a thrigolion Barbary o wneuthur ymenyn, yw rhoddi y llaeth mewn cydau o grwyn geifr, â'r wyneb tu fewn allan, y rhai a grogant o naill ben y babell i'r llall, ac a'u gwasgant yn ol ac yn mlaen nes yr ysgaro yr ymenyn oddiwrth y rhanau meiddaidd o'r llaeth. Cymh. Diar. 30. 33. Gwel Shaw's *Travels*, Stewart's *Journey to Mequinez*, Hasselquist's *Travels*.

Gwneir ymenyn o laeth gwartheg, gafrod, a defaid. Gwnawd ymenyn ar achosion o laeth gwragedd, yr hwn a gymeradwya Hoffman yn fawr, fel meddyginiaeth ragorol rhag y nych-glwyf. I fod yn ymborth iachus, rhaid i'r ymenyn fod yn newydd, ac yn beraidd, ac heb ei gras-bobi, neu ei *ffrïo*; onidê, bydd yn anhwyluso treuliad y bwyd yn y cylla, yn troi yn sur ynddo, yn ei lenwi â gwynt yn peri bytheiriadau, ac yn dwyn llawer o surni afiachus i'r gwaed. Ei gras-bobi ar fara o flaen y tân yn hir, sydd yn ei wneuthur mor afiach ag y dichon iddo fod, a rhaid cael cylla cryf i ymwaredu llawer o hono felly.

'Golchi camrau âg ymenyn,' a arwydda byw mewn llawnder a hawddfyd. Job 29. 6.

YMESGUSODI, (esgus) ymaswyno, amddiffyn. Luc 14. 18. 2 Cor. 12. 19. Edr. **Esgusodi.**



YMESTYN, (estyn) ymystyn, ymystwyro. Amos 6. 4, 7. 2 Cor. 10. 14.—'Ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen.' Phil. 3. 13. Επεκτεινομενος, *ymestyn yn orchestol â fy holl egni*. Yr oedd yn gweled rhan o'i yrfa heb ei rhedeg, ac mae y geiriau yn hysbysu agwedd ryfedd ei feddwl yn barhaus, fel gwr ar ei lawn dŷn o hyd, heb ystyried dim fel wedi ei gwblhau, tra yr oedd yr yrfa heb ei gorphen, a'r gamp heb ei hennill. Yr oedd y gamp yn uchel, sef galwad Duw oddi uchod trwy Grist; nid oedd dim ennill hon heb ymestyniad dyfal, diorphwys, a diflino. Y mae y geiriau yn mynegi y difrifwch, y diwydrwydd, y dianwadalwch, a'r ffyddlondeb yn y graddau mwyaf. Edr. **Estyn, Nod.**

YMFALCHIO, (balch) ymchwyddo, ymddyrchafu. Ps. 131. 1. Esa. 3. 5. Edr. **Balch.**

YMFAWRYGU, (mawr) ymddyrchafu, ymgodi, ymfalchio, ymfawrhau.—'Fel hyn yr ymfawrygaf, ac yr ymsancteiddiaf,' &c. sef y dengys yn eglur ac yn ddysglaer ei fawredd a'i sancteiddrwydd trwy farnedigaeth ofnadwy ar ei elynion. Ezec. 38. 23. Y mae mawredd hanfodol yn Nuw, ac nis dichon fod yn fwy; ond dichon roddi *dangosiad mwy* o'i fawredd. Edr. **Mawr.**

YMFENDIGO, (bendigo) bendithio ei hun, cyfrif ei hun yn ddedwydd. Esa. 65. 16.

YMFENDITHIO, (bendith) cyfrif ei hun yn ddedwydd. Jer. 4. 2. Edr. **Bendith.**

YMFLINO, (blino) blino ei hun.—'Onid oddiwrth Arglwydd y lluoedd y mae, bod i'r bobl ymflino yn y tân, ac i'r cenedloedd ymddiffygio am wir wagedd?' Hab. 2. 13. 'Ymflino *am* y tân,' sef am bethau a fyddant yn cael eu llosgi. Newcome. Llafuriodd Nebuchodonosor a'i luoedd yn boenus i gasglu cyfoeth y gwledydd i adeiladu Babilon, ac yr oedd hôno, wedi y cwbl, yn fuan i gael ei llosgi â thân. Oddiwrth Dduw yr oedd hyn yn farn am eu heilun-addoliaeth, ac i ddangos ynfydrwydd plant dynion, a gwagedd eu holl lafur poenus. Edr. **Blino.**

YMFODDLONI. Edrych **Boddloni, Cyd-ymfoddloni.**

YMFOELI, (moel) yn moeli ei hun, yn iadlymu ei hun.——'Ac nid ymfoelir trostynt.' Jer. 16. 6. Yr oedd ymfoeli, medd Herodotus, yn arfer gyffredinol yn mhlith y cenedloedd oll, ond yr Aiphtiaid, fel arwydd o alar. Gwel Herodotus, *b.* ii. 36. 'Cneifia dy wallt, medd Jeremiah, 'a bwrw i ffordd.' Pen. 7. 29. Gwel Homer, *Odyss.* iv. 197. Yn Otaheite, a'r Ynysoedd Cyfeillgar (*Friendly Islands*) y mae yr arferiad hwn o ymfoeli, fel arwydd o alar, yn gyffredin. Gwel Cook's & Clarke's *Voyage*. Yr oedd hyn yn waharddedig dan gyfraith Moses. Lef. xix. Edr. **Moeli.**

YMFOSTIO. Edr. **Bost.**

YMFYDDINO. Edr. **Byddin.**

YMFFROST—IO, (ffrost) ymffrostio, ymfocsachu. Iago 4. 16. 2 Cor. 11. 10. Jer. 9. 23, 24. 1 Cor. 1. 31. Edr. **Ffrostio.**

YMFFUST, (ffust) ymguro.—'E ddarvu gorvot y ddugy ef gan y milwyr rac ymffust y dyrfa.' Act. 21. 35. W. S.

YMGADARNHAU, (cadarn) ymgryfhau, ymnerthu.—'Fod wedi ymgadarnhau mewn nerth, trwy ei Ysbryd ef, yn y dyn oddi mewn: ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi.' Eph. 3. 16. 17. Y mae dau beth yn gwanhau meddwl dyn; sef ofnau a llygredigaethau.—1. Ofnau yn tarddu, yn benaf, oddiwrth euogrwydd pechod, a chydnabydd-

Digitized by Google

iaeth o'u troseddiadau yn erbyn Duw. Nid oes dim a gryfha enaid dyn yn erbyn yr ofnau trymion hyn, ond golwg trwy ffydd ar iawn Crist. 1 Ioan 2. 2. Oddiwrth ofni dynion, golwg ar fwy trosom a'i symud yn effeithiol.——2. Gweithrediadau llygredigaethau hefyd ydynt achosion yn gyffredin o wanychdod. Y mae hyn yn ychwanegu euogrwydd, a'r euogrwydd drachefn yn cryfhau llygredigaethau. Anghrediniaeth, yn neillduol, sydd yn achos effeithiol o wanhau dyn yn mhob ystyr, yn ol y gradd y byddo yn gweithredu. Gwanychwyd Samson trwy gellwair â chwantau anghyfreithlon. Nid yn unig grym llygredigaethau, ond hefyd bychanrwydd gras, sydd yn gadael y dyn oddi fewn yn wan, fel plant bychain newydd eu geni. 1 Cor. 3. 3, 4. Hebreaid 5. 12. Y mae angenrheidrwydd neillduol i'r dyn oddi mewn gael ei gryfhau; ac onidê, byddwn yn anwastad yn ein rhodiad, yn gloff yn ein hufudd-dod, yn llesg yn ein hymdrechiadau a'n llafur dros Dduw yn y byd, a'n cysuron yn graddu yn isel. Gwaith grasol yr Ysbryd Glân yw cryfhau enaid yn wirioneddol. Y mae yn gwneuthur hyny trwy ei fod yn peri fod Crist yn trigo trwy ffydd yn y galon. Crist ydyw yr iawn; a'r olwg arno trwy ffydd a gryfha enaid, ac a wanycha bob pechod. Edrych Cryf, Dyn, Trigo.

YMGADW, (cadw) cadw ei hun, ymogelyd rhag, ymaros yn.—'Ymgedwch oddiwrth eilunod.' 1 Ioan 5. 21.—'Ymgedwch yn nghariad Duw.' Judas 21. Sef cariad tu ag at Dduw. Ymgadw yn yr olwg ar ei gariad ef a'i ragoriaethau; ein rhwymedigaeth ninnau iddo. Trwy ymgadw oddiwrth bob peth a fyddo yn tueddu i oeri ein cariad tu ag ato. 1 Ioan 2. 15.

YMGALEDU. Edr. Caled.

YMGAIS. Edr. Ceisio.—'Ag ef yr ymgais y cenedloedd.' Esa. 11. 10. 'Ag ef,' sef â gwreiddyn Jesse, Crist Iesu. Pan y saif yn athrawiaeth yr efengyl yn *arwydd* i'r bobloedd, effeithia y pregethiad o hono yn mhlith y cenedloedd yn y fath fodd, fel y cyrchant ato, ac ymofynant am dano, yn rhan ac yn iechydwriaeth iddynt.

YMGASGLU. Edr. Casglu.

YMGEINNIO, (ymgaint) ymgeintach, ymgiprys, ymserthu, ymlefief.—'Ymgeiniae.' W.S. Gal. 5. 20.

YMGELEDD—U—WR, (cêl) amddiffyniad, cynnorthwy, cyweir, golygiad, gofeiliant.—'A'th ymgeledd a gadwodd fy ysbryd.' Job 10. 12. Y gair *Heb.* פקר a gyfieithir *ymgeledd*, a arwydda *ymweled*, *gofwyo*. Ymweliad Duw a gadwodd, a gynnaliodd, ac a gysurodd ysbryd Job; buasai wedi llwfrhau a digaloni oni buasai hyny. Dywedir fod yr Arglwydd yn ymgeleddu tir Canaan: yr oedd llygaid yr Arglwydd arno yr holl flwyddyn i'w ddyfrhau, ei ffrwythloni, a'i gadw. Deut. 11. 12. Felly, wrth ymgeleddu ysbrydoedd ei bobl, y mae ei lygaid arnynt i ganfod a chyflawni eu holl angen, eu cysuro, eu ffrwythloni, a'u hamddiffyn. Nid oes dim ond ymgeledd Duw a wna hyny, mwy nag y dwg y ddaear ffrwyth heb fendith Duw arni.

'Y mae efe dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr.' Gal. 4. 2.—'Dan arffedogion.' W. S. ymyl y ddalen. Dan olygwyr a noddwyr, rhai i ofalu am dano ef a'i holl achosion. Er ei fod yn etifedd, yr oedd angen ymgeleddwyr arno o herwydd ei ieuenctid, a'i ddiffyg profiad a synwyr. Cyffelyb i hyny oedd cyflwr yr eglwys yn gyffredinol dan yr hen oruchwyliaeth.

YMGYFRINACHU, (cyfrinach) cyd-gyfeillachu, cyd-gynghori. Ps. 83. 3.

YMGLODFORI. Edr. Clodfori.

YMGLYMU. Edr. Cwlwm.

YMGOFLEIDIO. Edr. Cofleidio.*

YMGRAFU. Edr. Crafu, Job.

YMGREDU, (credu) ymgyfammodi, cyd-ymrwymo. Deut. 20. 7. a 28. 30.

YMGREINIO, (creinio) ymdreiglo ar y ddaear. Marc 9. 20. W. S.

YMGROGI. Edr. Ahitophel, Crogi, Judas.

YMGRYFHAU. Edr. Nerthu, Ymgadarnhau.

YMGRYMU. Edr. Addoli, Crymu, Llwch, Plygu, Ymostwng.

YMGUDDIO—FA, (cudd) ymlechu, ymddiogelu, ymorchuddio, myned o olwg; diogelfa, noddfa, amddiffynfa.—Y mae yr Arglwydd Iesu yn ymguddfa. Esa. 32. 2. Trwy ei gyflawnder yn diogelu y sawl a gredant ynddo rhag digofaint Duw; trwy ei ragluniaeth, ei allu, a'i ras, y diogela efe hwynt rhag pob perygl oddiwrth bechod, y byd, a'r diafol.

Y mae Duw yn ymguddio, ac yn cuddio ei wyneb, pan fyddo yn attal ei ymweliadau grasol yn ei ordinhadau, atebiad i weddïau, ei oleuni a'i awdurdod trwy ei air, a'i amddiffyniad yn ei ragluniaethau. Psalm 55. 1. a 89. 46. Esaiah 45. 15. Pechod yn cael ei lochesu ynom ni, yw yr achos fod Duw yn ymguddio. Esaiah 58. 2.

'Ti wyt Dduw yn ymguddio.' Esa. 45. 15. Iaith yr eglwys sydd yn y geiriau, yn gosod allan y modd y mae dybenion, cynghorion, a rhagluniaethau Duw tu ag at ei eglwys yn guddiedig yn aml. Duw ei eglwys, ac Achubydd ei bobl ydyw, er bod dybenion ei ragluniaethau tu ag atynt yn aml yn dywyll ac yn guddiedig. Duw Israel, ac Achubydd Israel yw, hyd yn nod pan y byddo yn ymguddio oddi wrthynt, o ran eu cysuron, a dybenion ei oruchwyliaethau tu ag atynt. Esa. 8. 17. a 57. 17. Psalm 44. 24. a 77. 19. Ioan 13. 7. Rhuf. 11. 33, 34. Edrych Cuddio, Wyneb.

YMGURO, (curo) ymflino, ymboeni; lladd eu gilydd. 1 Sam. 14. 16. Preg. 1. 13.

YMGUSANU. Edr. Cusanu.

YMGWPLYSU, ymgysylltu, ymgyfammodi, ymuno. Psalm. 83. 8.

YMGYFARFOD. Edr. Cyfarfod.

YMGYFATHRACHU, (cyfathrach) ymgyfammodi, ymberthynasu, myned i berthynas agos â'u gilydd. Gen. 34. 9. 1 Sam. 18. 27. 1 Bren. 3. 1. 2 Cron. 18. 1.

YMGYFEILLACH——U, (cyfeillach) ymgyfeillio, ymuno mewn cymdeithas.—'Ymgyfeillechwch, bobloedd, a chwi a ddryllir.' Esa. 8. 9.—'Ymrwygwch, bobloedd.' Dr M.——'Gwybyddwch hyn, O bobloedd!' Y LXX. a Lowth ar eu hol. Ond mae y dysgedig Vitringa yn cymeradwyo ac yn cadarnhau ein cyfieithiad presennol ni. Yr achos o'r gwahaniaeth yn y cyfieithiadau ydyw y gwahanol wreiddyn a olygir i'r gair רעו Rhai gyd â'r Dr M. yn ei darddu o'r gair רעע *dryllio*, fel y cyfieithir ef yn Esa. 24. 19. Eraill a'i tarddant oddiwrth y gair רעה *cyfaill*, yn Kal. *ymgyfeillechwch*. Y mae y prophwyd fel pe byddai yn beiddio holl elynion Judah, neu yr eglwys, hyd ddiwedd y byd; gan sicrhau, er ymgyfeillachu ac ymfyddino o honynt yn ei herbyn, y byddai iddynt gael eu dryllio, am fod Duw gyd â'i eglwys, yn ei hamddiffyn a'i gwaredu.

YMGYFEILLIO, (cyfaill) ymgyfeillachu, ymuno mewn cymdeithas.—'A Jehosaphat brenin Judah a ymgyfeillachodd âg Ahaziah brenin Israel.' 2 Cron. 20. 35. Edr. Jehosaphat.

Digitized by Google

YMGYFIAWNHAU, cyfiawnhau ei hun.—'Chwi a aethoch yn ddifudd oddiwrth Grist, y rhai ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf.' Gal. 5. 4.—'Chwi ach ymddadwnaethoch y wrth Christ: pa 'r ei pynac ich cyfiawnir gan y Ddeddyf ys cwympesoch y wrth rat.' W. S.—'Chwi a aethoch oddiwrth Grist, pwy bynac ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf a syrthiasoch oddiwrth y gras.' Dr M.—'Chwi a ryddhawyd (neu, a ymddadwnaethoch) oddiwrth Grist, y rhai a gyfiawnhawyd (neu, sydd yn ceisio cael eu cyfiawnhau) trwy y ddeddf; syrthiasoch oddiwrth ras.' Macknight. Cyfieithir yr un gair καταργεομαι, *rhyddhau*, yn Rhuf. 7. 2. y gair a gyfieithir yma *difudd*.* Nid Duw oedd yn eu cyfiawnhau ond hwy eu hunain. Un ffordd sydd gan Dduw i gyfiawnhau pechadur, sef trwy ffydd yn Nghrist. Y mae yno wir gyfiawnder o ddarpariad Duw, ac y mae Crist o'r buddioldeb mwyaf i bawb sydd yn credu ynddo. Y rhai sydd yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf, neu yn ceisio cael eu cyfiawnhau trwy y ddeddf, y maent wrth hyny yn rhyddhau eu hunain oddiwrth Grist, yn cefnu arno ac yn ei wrthod, ac ni bydd Crist o fuddioldeb iddynt mewn un gradd.

YMGYFLOGI. Edr. CYFLOGI.

YMGYFOETHOGI, (cyfoeth) ychwanegu cyfoeth, golud, a meddiannau.—'Y rhai sydd yn ewyllysio ymgyfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth.' 1 Tim. 6. 9.—'Yr ei a fynnent ymgwaythogi, a gwympant i profedigaeth, ac i vagle, ac i lawer o drachwantay ffolion a' niweidus, rrain syn boddi dynion i golledigaeth ac i ddistriw.' W. S.—'Yn syrthio i brofedigaeth ac i fagleu.' Dr M. Mae y gair παγιδα, *magl*, yn y rhif unigol. Nid yw yr apostol yn dywedyd 'y rhai sydd gyfoethog,' ond 'y rhai sydd yn ewyllysio ymgyfoethogi,' neu y cyfryw a gyfeiriant holl lafur eu galwedigaethau i'r dyben i gasglu cyfoeth. Nid ydyw yr apostol yn beio ar sefyllfa gyfoethog, ond yn hytrach y *chwant* ymgyfoethogi, sef y chwant i gael mwy nag sydd yn angenrheidiol er cynnaliaeth un, ac i wneyd daioni. O gariad at y byd, a'r pethau sydd yn y byd, y maent yn rhoddi eu holl synwyr ar waith i gael ychwaneg o hono; hwn yw y pwnc penaf yn eu golwg; hwn y maent yn ymgais ato; a thra byddo y chwant hwn yn llywodraethu arnynt, anhawdd ymgadw o fewn terfynau uniondeb a thrugaredd. Y mae yr agwedd hon ar ysbryd dyn yn hollol elyniaethol i Dduw, ac yn tynu barn Duw mewn amrywiol ffyrdd ar ddynion, ac y maent yn soddi i ddinystr a cholledigaeth dragywyddol. Yn y darluniad hynodol a bywiog hwn, y mae yr apostol yn gosod allan ddynion yn eu dymuniadau am gyfoeth, a'r chwantau a gynhyrfir gan y meddiant o hono, fel yn ymlid i derfyn pellaf dibyn dychrynllyd y gwagedd disylwedd, y rhai a gant ymddangosiad o sylwedd yn unig trwy weithrediadau y chwantau a gynhyrfir yn y meddwl gan gyfoeth ac ysbryd bydol; ac fel hyn yn syrthio i lynclyn, ac yn soddi mor ddwfn ynddo, fel y maent yn ddiadfer yn golledig. Effeithiau niweidiol ariangarwch a ddarluniwyd gan brydyddion ac eraill, mewn lliwiau bywiog a nodedig; ond ni thynodd neb y darluniad yn fwy cywrain ac effeithiol na'r apostol yn y lle hwn, yn mha un y gesyd allan, mewn ychydig eiriau, yn y lliwiau cryfaf, ffieidd-dra y chwant, a'r canlyniadau niweidiol o hono, i gyrph a meddyliau rhai dan ei lywodraeth. Y maent trwyddo yn 'cyfeiliorni oddiwrth y ffydd, ac yn *gwanu* eu hunain â llawer o ofidiau.' Περιεπειραν;† y gair hwn a arwydda, medd Leigh, *brathu eu hunain o'r pen i'r traed*, fel y byddont gwedi eu gorchuddio âg archollion; yr hyn a esyd allan yn dra addas y dirdra a'r niwed aneirif a wnaeth y creaduriaid ynfyd hyn i'w cydwybodau, trwy ymroddi i fod yn gyfoethog beth bynag, bydded cam, bydded cymhwys. 'Nac ymflina i ymgyfoethogi,' medd Duw; 'dod heibio dy synwyr dy hun.' Diar. 23. 4. Dy synwyr llygredig dy hun yw hyny, ac nid cyfarwyddyd a gras Duw; gras Duw a ddysg i ddynion ymwadu âg annuwioldeb, a chwantau bydol. Y mae 'ewyllysio ymgyfoethogi,' yn gwbl groes i 'fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol;' effeithiau gras Duw ar eneidiau dynion.

* Vacui estis a Christo. Vulg.——Evannistis separati a Christo. Beza.

† Undiquaque infigo et perforo. Schleusner.

YMGYFODI, (cyfodi) ymddyrchafu, ymunioni, ymegnïo.—'Nid oes a alwo ar dy enw, nac a ymgyfyd i ymaflyd ynot.' Esa. 64. 7. Y geiriau a ddarluniant gyflwr gwlad neu eglwys yn ei marweidd-dra, a diffrwythder ysbrydol, yn gorwedd ar lawr mewn llygredd, tywyllwch, a digalondid. Gosodir credu yma yn dra addas allan yn y geiriau *ymgyfodi*, ac *ymaflyd* yn yr Arglwydd am nerth, ac am iechydwriaeth. Y mae cyfeiriad y geiriau at yr euog yn ffoi at gyrn yr allor am ddiogelwch—sef at Grist a'i ras, yr hwn yw gallu Duw er ein hiechydwriaeth. Gesyd y geiriau allan y gradd mwyaf o afiechyd ysbrydol, a llesgrwydd o'r herwydd; nid ydynt yn gallu nac yn chwennych ymgyfodi.

YMGYFREITHIO, (cyfraith) ymryson mewn cyfraith.

Gwell yw cytuno yn ddrwg noc *ymgyfreithio* yn dda. *Diar.*

'A feiddia neb o honoch, a chanddo fater yn erbyn arall, ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, ac nid o flaen y saint?' 1 Cor. 6. 1. Yr oedd gan yr Iuddewon gwasgaredig yn mhlith y Cenedloedd, lysoedd barnedigaethol iddynt eu hunain, gan fod eu cyfreithiau hwy yn gwbl wahanol oddiwrth gyfreithiau y gwledydd Paganaidd yr oeddynt yn trigo ynddynt.* Er nad oedd ganddynt awdurdod i farnu am fater yn perthyn i fywyd, etto y mae yn dra sicr fod y Rhufeiniaid yn rhoddi rhyddid iddynt yn mhob man i farnu mewn llysoedd o'r eiddynt eu hunain, περι των βιωτικων, *am bethau yn perthyn i'r bywyd hwn.* Mae geiriau yr ymerawdwr Titus wrth yr wrthblaid derfysglyd yn eu plith, yn profi hyn yn eglur: 'Yn gyntaf,' medd efe, 'caniatasom i chwi fyw yn eich gwlad eich hunain; gosodasom drosoch freninoedd o'ch llwythau eich hunain; *cadwasom i chwi gyfreithiau eich gwlad eich hunain*: a chaniatasom i chwi fyw nid yn unig wrthych eich hunain, ond hefyd *yn ol eich hewyllys eich hunain.*' Josephus, *De Bell., lib.* iv. *cap.* 34. Tebygol yw fod gan y Cristionogion yr un fraint, gan fod llawer o'r Iuddewon wedi derbyn Cristionogrwydd; mewn llawer o bethau yr oedd y Cristionogion yn cytuno â'r Iuddewon, ac yr oeddynt yn cael eu golygu gan y Cenedloedd yr un fath a'u gilydd, fel gwrthwynebwyr addoliad eu gau-dduwiau. Yr oedd, gan hyny, yn anharddwch neillduol yn y Cristionogion pleidgar cynhenus yn Corinth, i fyned i'w llysoedd hwy â'u mater, yn lle ei benderfynu yn eu llysoedd eu hunain. Nid oedd hyny ond myned at rai anghyfiawn i ymofyn am gyfiawnder; at Baganiaid tywyll i ymofyn am farn oleu. Yr oedd gan yr Iuddewon a'r Cristionogion gyfraith uniawn i farnu wrthi—peth nad oedd gan y Cenedloedd; a gweddasai eu bod hwythau am wneuthur cyfiawnder wrth y rheol gywir ddwyfol hôno; a phe buasai pob un am gyfiawnder yn unig, hyny a wnaethent. Yr Iuddewon a'i barnent yn un o'r pechodau ffieiddiaf i Iuddew ddwyn achos i gael ei farnu yn llysoedd y Cenedloedd; yr oedd yn ddiystyrwch ar gyfraith Moses, yn parchu

* Gwel Josephus, *Antiq.*, *lib.* 14.

Digitized by Google

eilunod yn halogi enw Duw, ac yn gymaint pechod a llofruddiaeth: ac yr oedd yn ysgymundod yn eu plith i neb fod yn *dyst* yn llysoedd y Cenedloedd. Gan nad oedd erlidigaeth yn erbyn y Cristionogion wedi bod etto yn ymerodraeth Rhufain, diammeu fod iddynt yr un rhyddid yn hyn ag oedd gan yr Iuddewon; am hyny yr oedd yn wrthun ac yn ffiaidd iddynt fyned â'u mater ac ymgyfreithio o flaen rhai anghyfiawn. Yr oeddynt eisoes yn barnu y byd trwy yr athrawiaeth yr oeddynt yn ei phroffesu, ac yn clywed ei phregethu; ac os oedd yr athrawiaeth yn barnu y byd o ran eu cyflyrau rhyngddynt a Duw, a oeddynt yn anaddas i farnu y pethau lleiaf? sef y pethau bychain perthynol i'r bywyd hwn—bychain yn sicr a'u cymharu â phethau mawrion byd tragywyddol.

Y mae gwahanol feddyliau am waith y saint yn barnu y byd. Lightfoot a Gill a olygant y geiriau yn arwyddo y byddai y Cristionogion yn mhen ychydig o amser yn swyddwyr gwladol yr ymerodraeth, yr hyn a ddygwyddodd ychydig o gannoedd o flynyddoedd gwedi ysgrifenu yr Epistol hwn, pan ddaeth Cystenyn Fawr i'r orsedd, ac y maent wedi parhau fwy neu lai o hyny hyd yn hyn; ac a gyflawnir yn fwy helaeth etto, pan ddelo breninoedd yn dadmaethod, a breninesau yn fammaethod, i'r eglwys. A barnodd y saint angelion drwg, pan fwriwyd allan dywysog y byd hwn trwy athrawiaeth yr efengyl, o'i demlau, yr hyn a eilw Crist 'barn y byd hwn.' Ioan 12. 31. Nid oes dim yn yr amrywiol ddarluniadau a roddir i ni am y farn, yn rhoi i ni un crybwylliad y barna y saint y byd yn y farn ddiweddaf. Bydd y defaid yr un fath a'r geifr yn sefyll i gael eu barnu. Mat. 25. 32, &c. 2 Cor. 5. 10. Cymeradwyo y farn a wnant yn ddilys, a llawenychu yn ddirfawr o'i phlegid—felly bydd *gorfod* ar annuwiolion a chythreuliaid gydnabod ei huniondeb. Yn gymhariaethol, bydd Paganiaid, megys trigolion Ninifeh a brenines Seba, yn barnu Iuddewon a Christionogion diffrwyth diedifeiriol. Am y geiriau yn Mat. 19. 28. a Luc 22. 30. tebygol eu bod yn perthyn yn benaf i farn Duw ar yr Iuddewon yn ninystr Jerusalem. Y deuddeg apostol, nid y saint i gyd, sydd i eistedd ar orsedd-feinciau i farnu deuddeg llwyth Israel, trwy eu hathrawiaeth am Grist, am eu gwrthodiad o hono, ac i gyhoeddi barnedigaethau arnynt o'r herwydd. Diammeu, hefyd, y bydd i'r apostolion ryw anrhydedd arbenig yn y farn, ac yn y byd tragywyddol. Edr. ADENEDIGAETH.

YMGYFFESU, cyffesu arno ei hun. Neh. 9. 3.

YMGYMYSGU, (dymysgu) dyfysgu, britho.—'Ymgymysgant â hâd dyn.' Dan. 2. 43. Wrth hâd dyn y deallir gan esponwyr, yn gyffredin, y Gothiaid, y Vandaliaid, a'r Hûniaid, y rhai a oresgynasant ymerodraeth Rhufain; byddai i'r Rhufeinwyr gyddrigo, ac ymfasnachu ac ymbriodi â hwynt; 'Ond ni lynant y naill wrth y llall, megys nad ymgymysga haiarn â phridd.' Nid ymunasant yn drwyadl mewn serch, bwriadau, a dybenion; am hyny nid ymgryfhasant yn ymerodraeth gadarn.

'Ephraim a ymgymysgodd â'r bobloedd.' Hos. 7. 8. Wrth עמים *y bobloedd*, y meddylir yr holl Genedloedd mewn cyferbyniad i Israel: trwy eu cynghrair â'r Cenedloedd, ac ymbriodi â hwynt, yr oedd Israel yn un o honynt—o'r un moesau a defodau, ac wedi gwerthu holl freintiau y genedl etholedig. Cymh. Ezra 9. 2.

'Cymysgodd yr Arglwydd ynddi ysbryd gwrthnysigrwydd.' Esa. 19. 14. 'Ysbryd pen-feddwdod.' Lowth.* Cymysgu, a arwydda, tywallt iddynt, neu eu gadael i'w hysbryd gwrthnysig eu hunain.

* *Vox* עיעם *notat perversitatem perversissimam,* sef y gwrthnysigrwydd mwyaf gwrthnysig. Vitringa.

Gwnaethant i'r Aiphtiaid, yn ganlynol, gyfeiliorni yn eu holl waith, fel meddwyn yn ei chwydfa. Yn cyfateb i hyn y bu rhyfeloedd ac ymladdau yn eu plith eu hunain, nes oedd y wlad fel meddwyn yn wan, ac yn ddirmygedig, heb allel braidd sefyll.

YMGYNDDEIRIOGI, ymgreuloni, ymffyrnigo. 2 Bren. 19. 28. Jer. 46. 9. Edr. CYNDDEIRIOG

YMGYNFIGENU, Gal. 5. 26. Edr. CENFIGEN.

YMGYNGHORI, cynghori yn nghyd, cynghori ei hun, ymofyn cynghor iddo ei hun. Exod. 18. 15. Jos. 9. 14. Y mae cynghor Duw am bob peth wedi ei fynegi yn ei air; ymgynghori â Duw, gan hyny, yn bresennol, yw gwrando ar ei leferydd yn y gair, a gweddïo am gymhorth yr Ysbryd Glan i'w ddeall, a phlygu iddo. Ymgynghori â Duw mewn gweddi, neu gymeryd arnom wneuthur hyny, heb wrando ar ei air, sydd ddirmyg mawr ar Dduw. Edr. CYNGHOR

YMGYNHENU, (cynhenu) ymryson, ymddadleu, ymgecru. Gen. 26. 20. Exod. 17. 2. Esa. 41. 12. Edr. CYNHEN.

YMGYNHYRFU, (cynhwrf) ymgyffroi, ymysgwyd, ymaflonyddu.—'Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; cryned (neu, cynddeiriogodd) y bobloedd: eistedd y mae rhwng y cerubiaid; ymgynhyrfed (neu, ymgynhyrfodd) y ddaear,' i wrthwynebu gosodiad ei deyrnas i fynu. Ps. 99. 1.—'Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu (er maint) a ymderfysco y bobloedd; eistedd mae (rhwng) y cerubiaid (er maint) a ymsiglo y ddaear.' Dr M. Y geiriau a ddarluniant yn hynod o hardd y cyffro a'r ymgynghori fu yn mhlith penaethiaid yr Iuddewon yn erbyn yr Arglwydd a'i efengyl. Ond myfyrio peth ofer yr oeddynt; canys yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, ac nis dichon iddynt ei ddiorseddu. Edr. CYNHYRFU.

YMGYNNAL, cynnal ei hun, cynnwys ei hun, cynnal ein gilydd. 2 Sam. 3. 29. Edr. CYNNAL.

YMGYNNEFINO, ymarfer, arfer ei hun. 2 Petr 2. 14. Edr. CYNNEFINO.

YMGYNNULL, ymgasglu, ymdyru.—'Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt.' Mat. 18. 20.—'Yn ei cenol wy.' W. S. 'Yn ei perfedd,' ymyl y ddalen. Ymgynnull yn enw Crist, a arwydda ymgynnull i'w addoli—mewn cariad ac ufudd-dod iddo—i ddysgwyl wrtho am ei gymhorth a'i gyfarwyddyd. Yno yr YDWYF yn eu canol; nid yno y *byddaf*, ond YDWYF; yn cyfeirio at ei bresennoldeb dwyfol yn mhob lle, bob amser; a'i bresennoldeb neillduol trwy ei Ysbryd i fendithio ei bobl lle bynag y byddont, a pha amser bynag y byddo. Geill dau neu dri o'i bobl fod wedi ymgynnull mewn miloedd o fanau ar unwaith; mae y geiriau, gan hyny, yn brawf neillduol o'i holl-bresennoldeb. Mat. 28. 20. Exod. 20. 24. Zech. 1. 5. Ioan 8. 58. Dat. 1. 11, 12, 13. a 2. 1. a 21. 3.

YMGYRCH—U, (cyrch) nesâu at eu gilydd; brwydr, ymladdfa; brwydro, gwrthdrin.—'Gan nad oes un achos trwy yr hwn y gallom roddi rheswm o'r ymgyrch hwn.' Act. 19. 40.—'Y cynnired hyn o'r popul.' W. S.—'Yr ymgyrchfa hon.' Dr M.—*Gr.* *συστροφη, ymgyrchiad cythryblus.* Jer. 5. 22.

YMGYSEGRU, ymsancteiddio, ymroddi i'r Arglwydd. 2 Cron. 29. 31.

YMGYSTLWNG, (cystlwng) ymgyfeillachu, ymgyfrinachu; perthynas, cysylltiad.—'Can nad yw'r Iuddaeon yn ymgystlwng a'r Samareit.' Ioan 4. 9. W. S.—'*No dealing.*' *Saes.* Nid yw y gair *συγχρωνται*, yn arwyddo fel y mae yn y cyfieithiad

Digitized by Google

Saesonaeg, nad oeddynt yn prynu ac yn gwerthu i'w gilydd; canys yr oedd y dysgyblion wedi myned yn awr i brynu bwyd atynt; ond nid oedd dim cyfeillach a chyfrinach neillduol rhyngddynt; nid oeddynt yn gofyn cymwynasau, nac yn benthyca gan eu gilydd; ond yr oedd prynu a gwerthu gan eu gilydd yn elw o bob tu.

YMGYSTUDDIO, (cystudd) ymofidio, ymflino; ymddarostwng mewn edifeirwch. Ezra 8. 21. Dan. 10. 12.

YMGYSURO, (cysur) ymfoddloni, ymhyfrydu, cysuro ei hun.—Yn ngwyneb cyfyngder, a than brofedigaeth fawr, 'Dafydd a ymgysurodd yn yr Arglwydd.' 1 Samuel 30. 6. Y mae yr Arglwydd yn wrthddrych addas i ymgysuro ynddo yn mhob amgylchiad, o herwydd ei allu, ei ddoethineb, ei ddaioni, a'i ffyddlondeb. Dichon gynnorthwyo a gwaredu pan ballo dyfais, doethineb, a gallu pawb eraill. Edrych CYSUR, DYDDANWCH.

YMGYSYLLTU, ymuno, ymlynu, ymgyfammodi. —'Eithr ni feiddiai neb o'r lleill ymgysylltu â hwynt; ond y bobl oedd yn eu mawrhau.' Act. 5. 13. Pwy oedd y lleill? Diammeu, medd Lightfoot, eu bod o rifedi y 120, heblaw y deuddeg apostol. Tebygol fod Ananias yn un o honynt. Y lleill a ddychrynasant wrth ei ddiwedd ef, ac o dra pharch i'r apostolion, ni feiddient ymgysylltu â hwynt fel eu cydraddolion. Gwel 1 Bren. 17. 18.

YMHALOGI, (halog) ymddifwyno, ymlygru, ymaflanhau. Lef. 21. 1. Psalm 106. 39. Ezeciel 20. 7. Edr. GLAN, HALOGI.

YMHARDDU, (hardd) ymdecâu, ymwychu, ymdacluso. Ezec. 23. 40. Edr. HARDD.

YMHOFFI, (hoff) ymhyfrydu, ymfoddloni.—'Yna yr ymhoffi yn yr Hollalluog.' Job 22. 26. Arwydda y gair ענג boddlonrwydd a hyfrydwch yn mhob ystyr, allanol a thufewnol, y corph a'r meddwl. Y mae yr Arglwydd yn anfeidrol addas i ymhyfrydu ac ymhoffi ynddo. Yr oedd ei hyfrydwch ef gyda meibion dynion er tragywyddoldeb; ac y mae yn *ddyledswydd* ac yn *fraint* i ymhoffi ynddo yntau, fel gwrthddrych penaf ein serch. Diar. 8. 30, 31. Edrych GORFOLEDDU, HOFFI, LLAWENHAU.

YMHOLI—YDD, (holi) ymofyn, ymorol, ymchwilio; ymofynwr, ymorolwr.—'Pa le y mae ymholydd y byd hwn?' 1 Cor. 1. 20.—'P'le mae dadleuwr y byt hwn?' W. S. Edr. YSGRIFENYDD.

YMHYFRYDU, (hyfryd) llenwi ei hunan â hyfrydwch: ymddigrifo.—Y mae y duwiolion yn ymhyfrydu yn yr Arglwydd Iesu, ac yn mrasder a helaethrwydd y bendithion cynnwysedig ynddo. Can. 1. 4. Esa. 55. 2. a 58. 14.—'Ymhyfrydu yr wyf yn nghyfraith Duw yn ol y dyn oddi mewn.' Rhuf. 7. 22. συνηδομαι.—'Y mae yn hoff genyf Ddeddyf Duw.' W. S. Y dyn oddi mewn, yw y duwiol anian, y dyn newydd, y creadur newydd; y mae hwnw o'r un natur a'r gyfraith, yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda; am hyny nis gall lai nag ymhyfrydu mewn peth sydd mor un a chydsyniol â'i natur. Psalm 1. 3. a 119. 11, 14, 15, 16, 24, 47, 54, 97, 103. Job 23. 12.

YMHYSBYSU, (hysbys) amlygu ei hun; hyfforddi ei hun.—'Yn ngwydd pa rai yr ymhysbysais iddynt hwy, wrth eu dwyn allan o dir yr Aipht.' Ezec. 20. 9. *Heb.* נודעתי *y gwnaethum fy hun yn wybyddus iddynt*: hysbysodd ei hun iddynt trwy ei weithredoedd mawrion erddynt, a'r deddfau a roddes iddynt.

YMIRO, (iro) iro ei hun, ymeneinio.—Yr oedd, ac y mae, ymiro yn arferiad cyffredin yn y gwledydd dwyreiniol o ran cysur, harddwch, ac iechyd. Ruth 3. 3. Dan. 10. 3. Mic. 6. 15. Edr. ENEINIO.

YMLADD—AU, (lladd) tòri eu gilydd; rhyfela, ymfrwydro, ymwriaw.—'Oddi allan yr oedd ymladdau.' 2 Cor. 7. 5. ἐξωθεν μαχαι, sef, tebygol, y terfysgiadau a gyfodai yr Iuddewon anghrediniol yn mhob man yn ei erbyn; hefyd, gau athrawon, dynion y byd, a holl arferion llygredig y byd, a holl greulondeb Satan, &c., oeddynt yn peri ymladdau parhaus a diderfyn: fel hyn yr oedd yn mhob peth yn gystuddiedig; ond yn y cwbl dyddanodd Duw ef. Adn. 6. —Yn aml dywedir fod Duw yn ymladd dros ei bobl; sef yn eu llwyddo yn eu hymladdfëydd yn erbyn eu gelynion. Y mae yn ymladd trwyddynt, drostynt; sef yn rhoddi medrusrwydd a grym iddynt yn y rhyfel, ac yn y gwrthwyneb i'w gelynion. Exodus 14. 14. Ps. 144. 1. 2 Cron. 20. 17.

YMLAWENHAU, (llawen) gwneuthur ei hun yn llawen. Arferir y gair yn aml yn yr un ystyr a *llawenhau*; megys Esa. 9. 17. Edr. LLAWENHAU.

YMLENWI, (ymlanw) llanw ei hun.—'Rhag i mi ymlenwi, a'th wadu di.' Diar. 30. 9. Y mae Agur yn gweddio rhag cyfoeth a thlodi; nid rhag gofalon trafferthus y naill, a chyfyngderau y llall; ond rhag i'r amgylchiadau fod yn foddion y naill ffordd neu y llall i beri iddo ddirmygu neu gablu Duw. Mewn llawnder y mae perygl i ni besgi y cnawd, anghofio Duw, a gwadu ei ragluniaeth; a diystyru ei iechydwriaeth, ei heddwch, a'r mwynhad o hono. Deut. 6. 10, 11, 12. a 8. 10—14. a 31. 20. a 32. 18. Exod. 5. 2. 2 Cronicl 32. 15, 16, 17. Yr amgylchiadau mwyaf manteisiol i fyw yn dduwiol ydyw yr amgylchiadau goreu.

YMLEW—HAU—YDD, (llewydd) darbwyllo, cynghori, annog.—'A'r archoffeiriait a'r Henureit ymlewydd awnaethent a'r bobl er mwyn govyn Barabbas, a' cholli 'r Iesu.' Mat. 27. 20. W. S.—'A hudasant y bobl.' Dr M.—'Ac wyntae ymlewhay a wnaethant.' Luc 23. 5. W. S. Sef a fuont ëon a thaer.

YMLID, (llid) canlyn, dilyn, erlyn, erlid, olrhain. —Pharaoh a ymlidiodd ar ol meibion Israel. Exodus 14. 8. Ymlidiodd fel gelyn i oddiweddyd, ac i ranu yr yspail. Pen. 15. 9. Y mae gan Satan ryw Pharaoh i ymlid pawb sydd am ddianc o'i gaethiwed; ond nis goddiweddant, ac nid yspeiliant y rhai y mae Duw yn eu gwaredu; canys nis gall ymlid (διωγμος) gelynion eu gwahanu oddiwrth gariad Crist. Rhuf. 8. 35.

YMLITHRO, (llithro) llithro, ymdynu ymaith yn ddirgel.—'Yna Jeremiah a aeth allan o Jerusalem, i fyned i wlad Benjamin, i ymlithro oddi yno yn nghanol y bobl.' Jer. 37. 12. חלק *i dderbyn rhan o honi*; sef o'i etifeddiaeth yn ngwlad Benjamin, yr hon yr yspeiliodd y Caldeaid ef o honi wedi iddynt oresgyn y wlad. Ar eu hymadawiad hwy yr oedd yn bwriadu dychwelyd yno, i gael rhan o gynnyrch y wlad gyd â'r lleill o'i gymydogion. Hwn yw ystyr mwyaf naturiol y geiriau, medd Blayney a Parkhurst.

YMLOSGI, (llosgi) llosgi ei hun; llosgi ynddo ei hun.—'Y gwyr a ymlosgent yn eu hawydd i'w gilydd.' Rhuf. 1. 27. Y mae yn ddigon hysbys fod puteindra a brynti yn arferedig yn mhlith y cenedloedd, ac yn rhan ffiaidd o addoliad eu duwiau. 2 Bren. 23. 7.

'Gwell yw priodi nag ymlosgi.' 1 Corinthiaid 7. 9. Llosgi yn dufewnol gan chwant; ar dân yn gwbl gan chwant y cnawd; os felly, byddant mewn perygl mawr o syrthio i buteindra, godineb, &c. Am hyny, gwell ydyw arferyd y feddyginiaeth anrhydeddus a

Digitized by Google

drefnodd Duw i'r cyfryw, sef priodas, er yr anhawsderau, y gafalon, a'r trafferthion, a ddichon gyd-fyned â'r ystad hòno. Mae meddwl puraidd yn dra gwerthfawr, ac yn tueddu yn fawr i ychwanegu cysur, a chymdeithas â Duw.

YMLUSGO—IAD, (llusgo) llusgo ei hun; cropian, ymgripian. Creadur yn cropian, ac yn llusgo ei hun.

Anffawd a ddaw dan redeg, ac a â ymaith dan *ymlusgo*. *Diar.*

Y mae ymlusgiaid yn y dyfroedd, ac ar y ddaear. Gen. 1. 20, 21. Deut. 4. 18. Yr oedd pob ymlusgiad asgellog yn aflan dan y gyfraith (Deut. 14. 19.) megys yr ystlum, locustiaid, a'r cyffelyb.

YMLYNU, (glynu) glynu, dylynu. Edr. GLYNU. —'A hwy a ymlynasant wrth dy draed.' Deut. 33. 3. Cyfeiria y geiriau naill ai 1. At waith yr Israeliaid yn sefyll wrth droed mynydd Sinai i dderbyn y gyfraith (Exod. 19. 17.)—neu, 2. Eu gwaith yn dyfod i'r cysegr, ei ystol-droed ef, i gael eu dysgu yn neddfau yr Arglwydd (Psalm 99. 5. Ezec. 43. 7.)—neu, 3. At ddull dysgyblion yn derbyn addysg gan eu hathrawon, ac yn eistedd wrth eu traed. Act. 22. 3. Gen. 49. 10. Felly y mae yr holl saint yn llaw yr Arglwydd, o ran eu diogelwch a'u cyfarwyddyd (Num. 4. 28, 33. Ioan 10. 28, 29.)—wrth ei draed yn derbyn o'i eiriau er eu hyfforddiad a'u dyddanwch.

YMNEILLDUO—OL, (neillduo) tynu oddiwrth eraill, myned ar ei ben ei hun; ymgadw oddiwrth.—'Ymneillduo oddiwrth win,' sef ymgadw oddi wrtho. Num. 6. 3.——'Ymneillduo oddiar ol yr Arglwydd,' sef cilio oddiar ei ol. Ezec. 14. 7.

YMNERTHU, (nerthu) ymgryfhau; nerthu eu gilydd.—'Ymnerthwch yn yr Arglwydd—yn y gras sydd yn Nghrist Iesu.' Eph. 6. 10. 2 Tim. 2. 1. Golyga yr hyn ydyw yr Arglwydd Iesu i bechadur: sef ei ras, ei gyfiawnder, a'i allu, yn unig a ddichon gryfhau enaid tlawd a digymhorth o ran ei hun yn mhob ystyriaeth. Yr ydym yn ymnerthu ynddo, trwy gredu tystiolaeth y gair am dano, ymddiried ynddo yn gwbl, a dysgwyl trwy ffydd ynddo, am ei drugaredd a'i ras yn gymhorth cyfamserol. Y mae gras yn Nghrist Iesu, gallu, a chadernid, yn ddifeth, pan y byddom ni yn wan, ac yn llesg; a'r peth ydyw efe ynddo ei hun, y mae efe yn hyny i'r neb a gredo ynddo.

YMNHEDD——U, (nedd) ymbil, erfyn yn daer, taer ddeisyfiad, taer ddymuno.—'Er maint a ymnheddo, ni throant ato.' Diar. 19. 7. Sef cyfeillion y tlawd; nid yw ei gyfeillach ond trafferth a dianrhydedd yn eu golwg; am hyny dyeithrant oddi wrtho. Iago 2. 15, 16. Diar. 18. 23. Luc 18. 38, 39, 40. 'Ymnhedd o'i flaen ef dros ei phobl.' Esther 4. 8. Sef ymbil yn daer âg ef am arbed yr Iuddewon, y rhai a fwriadasai Haman eu dyfetha.

YMNODDI, (noddi) gosod ei hun dan amddiffyniad, ceisio nodded.—'Ac yn peri i'r cyffion ymnoddi am fy fferau.' Job 13. 27. Dr M. —'Ac yn nodi gwadnau fy nhraed.' Priodol ystyr y gair חקה ydyw nodi, argraffu, cerfio. Yr oedd arwyddion o *g Duw ar wadnau ei draed; ond pa fodd, neu pa beth, nid yw eglur. Barna Michaelis fod cyfeiriad yn y geiriau at y llynorod a'r gorynau dan wadnau ei draed. Cyffelyba Job ei hun fel carcharor mewn cyffion; ei gystuddiau ydyw y cyffion; y mae argraff a nodau y rhai hyny arno, fel nodau y cyffion ar draed y carcharor. Y mae yn rhwym ac yn ddolurus ganddynt; mae y cyffion megys yn ymnoddi yn ei draed.

YMNOETHI, (noethi) dynoethi ei hun; diguddio ei hun.—'Noah a ymnoethodd yn nghanol ei babell.' Gen. 9. 21. Dadguddiodd y rhanau hyny o'i gorph a ddylasent fod yn guddiedig, trwy fod y fantell oedd am dano wedi ei thaflu o'r neilldu. Edr. NOAH.

YMOCHEL, (gochel) cilio oddiwrth, gwylied yn erbyn. Barn. 13. 4.—'Ymochel, nac edrych ar anwiredd.' Job 36. 21. Y mae pob anwiredd i'w ochelyd, a pheidio edrych arno gyd âg un gradd o barch a hoffder. Psalm 66. 18. Nôd dyn annuwiol yw, 'Nid ffiaidd ganddo ddrygioni.' Psalm 36. 4.

YMOFIDIO, (gofid) gofidio ei hun, ymboeni, ymalaru.—'Ac efe a ymofidiodd yn ei galon.' Gen. 6. 6. Mewn ystyr anmhriodol, ac yn ol dull dynol, o herwydd ein gwendid ni, y priodolir edifarhau, tristâu, gofidio, llawenhau, i'r IEHOFAH anghyfnewidiol: nid am fod y cyfryw nwydau ynddo ef; (canys syml, anghyfnewidiol, ydyw ef, heb gorph, heb ranau, heb ddyoddefiadau); ond am ei fod ef, a'i ewyllys a'i natur anghyfnewidiol, yn gwneuthur y cyfryw bethau ag a wna dynion yn feddiannol â'r cyfryw nwydau cyfnewidiol. Fel y priodolir calon, dwylaw, llygaid, &c., iddo ef i weithredu y cyfryw bethau nas gallai dynion eu gwneuthur hebddynt. Fel y dywedir fod Duw yn ymofidio o herwydd llygriad ei greaduriaid; ac yn y gwrthwyneb, ei fod yn llawenhau pan yr adfera hwynt trwy ras. 'Gorfoleddaf yn Jerusalem, a llawenychaf yn fy mhobl.——Yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd.' Esa. 65. 19. Psalm 104. 31. Dywed y doctoriaid Iuddewig am y cyfryw ymadroddion yn cael eu priodoli i'r Arglwydd, fel y canlyn:—'Gan ei fod yn eglur nad oes dim corphorol yn perthyn i Dduw; eglur ydyw hefyd nad oes dim damweiniau perthynol i gorph yn dygwydd iddo—dim cyfansoddiad, na rhaniad, na lle, na mesur, nac esgyn na disgyn, na llaw ddehau nac aswy, na wyneb na chefn, nac eistedd na sefyll, na dechreu na diwedd, na rhifedi blynyddoedd; ac nid ydyw yn cyfnewid, canys nis dichon dim beri iddo ef gyfnewid; ac nid oes ynddo ef na marwolaeth na bywyd, fel bywyd bôd corphorol; na ffolineb na doethineb, fel doethineb dynol; na chysgu na deffroad, na digder na thristâu, na chwerthin na llawenhau, na dystewi na llefaru, fel y gwna plant dynion, &c., ond yr holl bethau hyn a'u cyffelyb a briodolir iddo yn y gyfraith a'r prophwydi yn ffugyrol: megys ag y dywedir, "yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd," (Psalm 2. 4.) a'r cyffelyb; am y cyfryw oll, llefara y gyfraith yn iaith plant dynion. Felly y dywedir hefyd, "Ai fi y maent yn ei ddigio? medd yr Arglwydd." Jer. 7. 19. Felly hefyd, "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Mal. 3. 6. Os ydyw ef weithiau yn ddig, ac weithiau eraill yn llawen, y mae yn cyfnewid; ond nid ydyw y pethau hyn i'w cael ond mewn gwaeledd sydd yn trigo mewn tai o glai, a'u sylfaen yn y llwch; ond y mae y Duw bendigedig yn fendigedig ac yn ddyrchafedig goruwch yr holl bethau hyn. Maimon. *in Jesud Hatorah, cap.* i. *sec.* 11, 12.

YMOFYN, (gofyn) gofyn ei hun, ymorol.

Nid hysbys ond a *ymofyno*. *Diar.*

Arferir y gair *ymofyn*, yn aml, i arwyddo ymgynghori â'r gwir Dduw, neu â gau dduwiau. 2 Bren. 1. 2. a 3. 11. a 16. 15.—'Nac a ymofyno â'r meirw.' Deut. 18. 11. Felly yr aeth Saul at y ddewines o Endor i ddwyn i fynu iddo ef Samuel, i ymgynghori âg ef. 1 Sam. xxviii. Y cyfryw a alwai y Groegiaid *Necromancer*. Dywedir y byddent yn newynog, yn myned ac yn llettya yn mysg y beddau, i edrych a ddeuai y meirw atynt mewn breuddwydion, i hysbysu iddynt yr hyn a ofynent. Arferent amryw ddefodau eraill afreidiol eu coffâu. Y mae pob ymgais i wybod meddwl yr Arglwydd am un peth, ond trwy y rheol a roddodd efe i ni, sef ei air, yn ffiaidd gan Dduw, ac yn gwbl waharddedig.

Digitized by Google

YMOGELYD, (gogel) gofal am ddyn ei hun; gochelyd.—'Ymogelwch rhag gau-brophwydi.' Mat. 7. 15. προσεχετε, *edrychwch*, byddwch ofalus rhagddynt. Gair a arwydda eu bod yn dra pheryglus, a ninnau yn ddarostyngedig i gael ein denu a'n twyllo ganddynt.——'Edrychwch ac ymogelwch rhag cybydd-dod.' Luc 12. 15. φυλασσεσθε. 'Ymogelwch rac trachwant.' W. S. Edrychwch rhag iddo lechu yn ddirgel yn y galon, ymgedwch rhagddo yn mhob gradd o hono; canys eilun-addoliaeth sydd yn lladrata y galon oddiwrth yr Arglwydd, ac yn anfoddloni yr Arglwydd yn fawr. Nôd ar ddynion yw, sydd yn eu cau allan o deyrnas nefoedd. 1 Cor. 6. 9, 10.

YMOGONEDDU, (gogoneddu) gogoneddu ei hun, ymffrostio.—'Ac i ymogoneddu yn dy foliant.' 1 Cron. 16. 35. Ymorfoleddu, ymhyfrydu yn moliannu Duw, a'i gyfrif yn ddedwyddwch ac yn anrhydedd mwyaf i gael calon i'w foliannu ac ymhyfrydu ynddo. Ps. 44. 8. Esa. 45. 25. 1 Cor. 1. 31. 1 Cron. 16. 9, 10.

'Yn Israel yr ymogonedda efe.' Esa. 44. 23. Yr Arglwydd a'u gogonedda hwy, ac a amlyga ei ogoniant ei hun trwy hyny. Eph. 1. 6, 7. a 3. 21. 2 Thes. 1. 10, 11, 12. 1 Petr 4. 11.

YMOLCHI, (golchi) golchi ei hun, ymlanhau.—'Ymolchwch, ymlanhewch.' Esa. 1. 16. Pa fodd y gwnant hyn, mae y geiriau canlynol yn eglurhau:—'Bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron fy llygaid; peidiwch a gwneuthur drwg, dysgwch wneuthur daioni,' &c. Eu pechodau oedd yn eu haflanhau; bwrw ymaith y rhai hyny a'u glanha; hyny nis gwnant heb wir 'edifeirwch tu ag at Dduw, a ffydd tu ag at ein Harglwydd Iesu Grist.' 1 Ioan 1. 7. 2 Cor. 7. 1. Act. 22. 16. Ps. 26. 6.

YMOLLWNG, (gollwng) gollwng ei hun; ymddattod; llwfrhau.—'Fel na flinoch, ac nad ymollynoch yn eich eneidiau.' Heb. 12. 3.—'Rrag ych blino wedi deffygio yn ych meddyliay.' W. S. Arwydda y geiriau, llwfrhau gan flinder a lludded, a thrwy hyny rhoddi i fynu yr ymdrech trwy anobaith llwyddo. I feddyginiaethu hyn, cynghora yr apostol i ystyried Iesu yn ddwys ac yn fanwl, godidogrwydd ei berson, a'r driniaeth a gafodd, yr hwn a ddyoddefodd y groes, ac a fu dan y gwaradwydd mwyaf, cyn iddo gael ei ddyrchafu ar ddeheu-law gorsedd-fainc Duw. Gwaradwydd a dyoddefiadau oedd ei fywyd; ac etto ni flinodd, ac nid ymollyngodd, nes gorphen ei waith; felly yn edrych yn ddyfal arno, a'i ystyried yn fanwl (αναλογισασθε) ewch rhagddoch yn wrol yn eich gyrfa, nes ei gorphen gyda llawenydd.

YMORCHESTU, (gorchest) ymdrechu, ymosod â holl egni; ymdrechu yn nghyd.—'Am hyny hefyd yr ydym yn ymorchestu, pa un bynag ai gartref y byddom, ai oddi cartref, ein bod yn gymeradwy ganddo ef.'——'Ac felly gan ymorchestu i bregethu yr efengyl.' 2 Cor. 5. 9. Rhuf. 15. 20. Am ystyr y gair Groeg, a gyfleithir *ymorchestu* yn y ddau fan, Edr. Cymeradwy.

YMORFOLEDDU, (gorfoledd) gorfoleddu ei hun; ymlawenhau.——'Gan ymorfoleddu arnynt arni hi.' Col. 2. 15. θριαμβευσας αυτους εν αυτω.—'Gwedi gorvot hwy ynthei.' W. S.——'Gan orfoleddu arnynt ynddo ei hun.' Dr M. Tebygol fod εν αυτω, *arni hi*, yn cyfeirio at τω σταυρω, *wrth y groes*, yn adn. 14. ac nid at Crist, yn ol cyfleithiad y Dr M., Cajetan, a Pierce. Yr ysbrydion drwg a gynhyrfasant yr Iuddewon i groeshoelio Crist, i gael gwared o hono; ond trwy ei farwolaeth yspeiliodd hwynt, a buddugoliaethodd arnynt yn orfoleddus, ac yn ogoneddus iawn; dystrywiodd eu llywodraeth, a gwaradwyddodd hwynt byth.

YMOSOD, gosod ei hun, ymroddi at, ymroi.—'Ac iddynt ymosod i weinidogaeth y saint.' 1 Cor. 16. 15.—'A' darvot yddyn ymroi y weini ir Sainctæ.' W. S. a Dr M. Gosodasant eu hunain, ac ymroisant yn wirfoddol i'r swydd a'r gwaith o wasanaethu y saint.

'Yr ymosod yr hwn sydd arnaf beunydd, y gofal dros yr holl eglwysi.' 2 Cor. 11. 28.—'Y mae arnaf gymelri mawr beunydd;' ar ymyl y ddalen, 'vaich, prysurdep, ympenbleth, cyni.' W. S. Y gair *Groeg* επισυστασις, a arwydda, tyrfa yn amgylchynu ac yn ymosod ar unwaith ar un, i'r dyben i'w orchfygu a'i sathru. Priodolir ef yn hardd gan yr apostol i'w ofalon am yr eglwysi, y rhai oeddynt yn gwasgu arno yn feunyddiol. Cyfleithir ef *gwneuthur terfysg*, yn Actau 24. 12.

YMOSTWNG, (gostwng) gostwng un ei hun, ymddarostwng, ymiselhau; cyfarch.—Arwydda gostyngiad parchus isafiaid i uwchafiaid, Deut. 33. 29.—neu wraig i'w gwr, Eph. 5. 22. Col. 3. 18.—neu agwedd edifeiriol pechaduriaid ger bron Duw. 2 Cron. 7. 14. a 33. 12, 19.

'Nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw.' Rhuf. 10. 3. Cyn y delo dyn at Grist, a chael ei wisgo â'i gyfiawnder, rhaid ei ddarostwng yn ei olwg ei hun, a'i holl ymffrost a'i ymddiried yn y cnawd ei roddi o'r neilldu, ac ymostwng yn hollol i gyfiawnder. Y mae pawb nad ydynt yn ymostwng i *gyfiawnder Duw*, yn wrthryfelwyr yn erbyn Duw a'i drefn achub pechadur.

YMPRYD—IAU—IO, (pryd) dirwest, dirwestu, attal-brydio, ymattal.—1. Bwyta ychydig, neu ddim bwyd. Mat. 15. 32. Act. 27. 33.——2. Ymattal yn wirfoddol oddiwrth fwydydd, i ymostwng yn edifeiriol am bechod, ac i ymbil am drugaredd. Barn. 20. 26.

Yr Iuddewon a gynnalient ympryd bob blwyddyn ar y degfed dydd o fis Tisri, sef yn nghylch diwedd mis Medi. Pa un a oedd cyfeiriad at gwymp Adda, addoli y llo aur, neu farwolaeth dau fab Aaron, sydd ansicr; ond dyben penaf yr uchel wasanaeth oedd, gwneuthur cymmod blynyddol dros yr holl genedl Iuddewig; ac i rag-arwyddo marwolaeth Crist yn gymmod effeithiol dros bechodau ei holl bobl; a'i fynediad i'r cysegr nid o waith llaw, sef y nef ei hun, drosom, gan gael i ni dragywyddol ryddhad. Am ddefodau y dydd hwn, gwel Lef. xvi. a 23. 23—32. Num. 29. 7—12. Edr. Aberth, Allor, Archoffeiriad, Arogl-darth, Bwch, Cymmod, Cysegr, Trugareddfa.

Darllenwn yn yr ysgrythyrau am amrywiol ymprydiau achlysurol, rhai yn neillduol, a rhai yn gyhoeddus. Tebygol i Moses ymprydio ddeugain niwrnod dair gwaith ar Sinai: sef yn gyntaf, cyn iddo dderbyn y llechau cyntaf; yn all, am bechod Israel yn gwneuthur y llo aur; ac, yn drydydd, pan dderbyniodd y llechau diweddaf. Deut. 9. 9, 18. a 10. 10. Exod. 34. 28.——Ymprydiodd Elias ddeugain niwrnod yn anialwch Arabia: mewn anialwch arall yr ymprydiodd yr Iesu ddeugain niwrnod.

Y mae goleuni natur, yn gystal a gair Duw, yn dangos yr addasrwydd o ymprydio a galaru ger bron Duw o herwydd ein pechodau, ac ymbil am ei drugaredd a'i ras, pan byddom wedi syrthio i ryw bechodau dirfawr; neu, pan y byddom yn teimlo neu yn ofni rhyw farnedigaethau trymion; neu, pan y byddo angen arnom, mwy na chyffredin, am gynnorthwyon dwyfol. Felly yr ymprydiodd Josuah, Samuel, Dafydd, Ahab, Jehosaphat, Jeholacim, Daniel, Haman, Esther a Mordecai, Ezra a Nehemiah. Josuah 7. 6. Barn. 20. 23, 26. 1 Samuel 7. 6. 2 Samuel 12. 21. 2 Cron. 20. 3. Jer. 36. 6. Dan. ix, x. Ezra 8. 21. Neh. 1. 4. a ix, x. Y mae wedi bod yn arferiad cyffredin yn mhob oes a phob cenedl ar amseroedd o

Digitized by Google

dristwch, cystudd, a gofid, fel y rhoddir siampl i ni yn y Ninifeaid. Yn y cyfryw amgylchiadau athrist, mae natur ei hun fel pe bai yn ymwrthod â bwyd.

Yn amser y caethiwed yn Babilon yr oedd yr Iuddewon yn cadw dau ympryd blynyddol; y cyntaf yn y pummed mis, am losgi y deml; a'r llall yn y seithfed mis, am ladd Gedaliah. Zech. 7. 3, 4, 5. a 8. 19. —Yn amser ein Hiachawdwr, yr oedd y Phariseaid a dysgyblion Ioan yn ymprydio yn fynych. Mat. 9. 14. Y Phariseaid a ymprydient ddwy waith yn yr wythnos: gyda llawer o anffurfiad wyneb a rhagrith. Luc 18. 12. Mat. 6. 16.

Yr Iuddewon yn y dyddiau hyn a gadwent dri ar hugain o ymprydiau blynyddol; ac heblaw y rhai hyny, ymprydia rhai o honynt ddwy waith yn yr wythnos; sef dydd Llun, yn goffadwriaeth i Moses ddisgyn o'r mynydd y, diwrnod hwnw; a dydd Iau, am mai ar hwnw yr esgynodd. Ymprydia plant serchog yn flynyddol ar y dydd y bu eu tad farw. Ymprydiant yn achlysurol yn eu cystuddiau, neu os cawsant freuddwyd dychrynllyd, &c. Y maent yn ymprydio gyda llawer o ddifrifwch, heb gymeryd dim bwyd, oni fwytânt weithiau ychydig ymenyn a llysiau—gwisgant sachliain—gorweddant ar welyau celyd—rhwygant eu dillad—a cherddant yn droednoeth gyda wynebau athrist a phlygiad penau; darllenant Lyfr y Galarnad trosodd, gan eistedd ar y ddaear. Ymgadwant nid yn unig oddiwrth fwydydd, ond hefyd oddiwrth enaint, pêr-aroglau, a'r baddon. Ymprydiant o ostyngiad haul hyd yr un amser y dydd canlynol: ar ddydd mawr y cymmod ymprydiant am wyth ar hugain o oriau. O saith mlwydd oed, ac uchod, eu plant a ymunant, fel y gallont, gyda hwynt yn eu hymprydiau: pan fyddont yn un ar ddeg neu ddeuddeg oed, cadwant ympryd yr un fath a'r lleill mewn oedran.*

Er nad oes un gorchymyn, na rheolau neillduol, yn nghych ympryd wedi eu rhoddi gan yr Arglwydd Iesu na'i apostolion, etto rhoddir hanes i ni am ymprydiau achlysurol yn y Testament Newydd; megys wrth neillduo gweinidogion y gair at waith eu swydd oruchel. Actau 13. 2. a 14. 23.—Ac ar achlysuron eraill, dirgel neu gyhoeddus, fel yr oedd rhagluniaethau yn galw. Mat. 9. 15. Luc 5. 33, 34, 35. 1 Cor. 7. 5. Ymprydiau neillduol a ddylent gael eu cadw heb ymddangosiad cyhoeddus o hyny. Mat. 6. 16. Gwrthun, a chwbl anghytun â gair Duw, ydyw yr arferiad yn mhlith llawer o fwyta ac yfed ar ddyddiau ympryd.

'O herwydd darfod yr ympryd weithian.' Actau 27. 9. Yr ympryd ydoedd ar y degfed dydd o'r seithfed mis, sef ar ddydd mawr y cymmod, yn nghylch y 25ain o Fedi. Lefiticus 16. 29. a 23. 27, 29. Amser peryglus i forio, nid yn unig o herwydd fod y gauaf yn agosâu, ond hefyd o herwydd ffrydiau gŵyl-angel, adnabyddus etto yn Môr y Canoldir.

YMRAFAEL—IO—ION, (rhy-gafael) cynhen, anghydfod, ymryson, ymddadl, ymddadleu. Exodus 23. 2, 3. 2 Cron. 19. 8, 10. Luc 12. 51. Edrych AMRAFAEL, CYNHEN, RHESWM, YMRYSON.

YMRANU, (rhan) ymneillduo, ymysgaru. Gen. 14. 15. Hos. 10. 2. Mat. 12. 25. Edrych CALON, RHANU.

YMRESYMIAD—AU, (rheswm) meddylu; meddyliau, rhesymau.—'A'r Iesu yn gwybod eu hymresymiadau hwynt.' Luc 5. 22.—'Ac wrth wybot o'r Iesu y meddyliae hwy.' W. S. Edr. RHESWM.

YMRESYMU, meddwl, dadl. Edr. RHESWM.

YMRITH—IO, (rhith) ymddangos, dangos ei hun: ymddangos yn debyg i arall, ac annhebyg iddo ei hun, i'r dyben i dwyllo, a hudo; felly yr 'ymrithia Satan yn rhith angel y goleuni,' ac yr 'ymrithia ei weinidogion ef fel gweinidogion cyfiawnder.' 2 Cor. 11, 13, 14. Y mae gweinidogion gan Satan; ac y maent yn ymddangos fel gweinidogion cyfiawnder—rhai anfonedig gan Dduw i bregethu cyfiawnder mawr yr efengyl; ond mewn gwirionedd, gweithwyr twyllodrus ydynt—twyll a dichell sydd ynddynt, a thwyllo eneidiau dynion yw dyben Satan trwyddynt.

YMRODDI, (rhoddi) rhoddi ei hun, ymddarostwng, ymdrechu.—Ymroddi i'r Arglwydd, ac i'w ofni, a arwydda ymostyngiad iddo, ac ymdrechiad i'w foddloni a'i wasanaethu. 2 Cron. 17. 16. Ps. 119. 38.

YMROI, (rhoi) ymroddi, ymostwng.—Ymroi i farw, sef ymostwng ac ymfoddloni i farw; ymroi i fyw yn dda, sef bwriadu ac ymdrechu i fyw yn dda; ymroi ati, sef ymosod ac ymdrechu ati.—'Ymroi i drythyllwch,' sef ymroddi i fywyd afreolus, anllad. Eph. 4. 19.—'Ymroi i win lawer,' sef meddwyn. 1 Tim. 3. 8. Titus 2. 3.—'Ymroi i gybydd-dod,' sef dilyn cybydd-dod â'r holl galon. Jer. 6. 13.

YMRWYMO, (rhwym) rhwymo ei hun; rhwymo ein gilydd.—'Pan ymrwymont yn eu dwy gwys.' Hos. 10. 11.—'Pan y tid-raffir hwynt wrth eu dwy gwys.' Horsley. Pan y cylymir hwynt wrth eu dau fai; sef pan y dygir hwynt i'r fath gyfyngder, na byddo dim gobaith o ymwared trwy ddim callineb, neu ddyfais ddynol, ar ba rai yr ymddiriedant, trwy ddewis un o'r ddau i ymgysylltu â hwynt, sef yr Aipht neu Assyria; yr hyn sydd bechadurus ynddynt, gan eu rhybuddio yn fynych yn erbyn pob un o'r ddau. Rhai a farnant mai wrth y 'ddwy gwys,' neu y ddau fai, (canys cyfieithir y gair *Heb.* עונות wrth bob un o'r ddau) y meddylir y lloi yn Dan a Bethel, y rhai yr oeddynt yn eu gwasanaethu fel anifeiliaid wedi eu cyd-ieuo i aredig.

YMRWYSTRO, (rhwystro) rhwystro ei hun; rhwystro eu gilydd.—'Nid yw neb a'r sydd yn milwrio yn ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn.' 2 Tim. 2. 4.—'Ymymplyc a negeseuon y vuchedd hon.' W. S.—'A ymrwyda â negeseuau y vuchedd hon.' Dr M. *Gr.* εμπλεκεται, cymhlethu, cyd-ymblethu, dyrysu, nidro, maglu; cyd-ymblethu â pheth a fyddo yn attalfa iddo fyned yn mlaen â gorchwyl arall. Nid oedd yn oddefol i filwyr Rhufeinig ddwyn yn mlaen unrhyw orchwyl a fyddai yn rhwystr iddynt i'w gorchwylion milwraidd: felly y gweddai ac y dylai gweinidogion yr efengyl fod yn rhydd oddiwrth bob peth rhwystrus iddynt i ddilyn yn ddiwyd eu gwaith sanctaidd, fel y gallont ryngu bodd Crist, yr hwn a'u galwodd i'r swydd, a'r gwaith pwysfawr perthynol iddi.

YMRYSON—AU—GAR, (rhyson) ymrafael, cynhen, anghydfod, ymddadl; cynhenu, ymddadleu.—Ymrysona dynion â Duw pan y maent, 1. Yn ymryson â'i air. 'Syniad y cnawd nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw;' hyny yw, y mae yn ymryson â hi, ac heb ymostwng iddi; ac ymryson â'r ddeddf, ydyw ymryson â'r deddfwr, sef y Duw a'i rhoddodd. Rhuf. 8. 7, 8. Ymrysoniad yw hwn a bara byth, oni fydd i ras Duw dòri yr ymryson trwy blygu y meddwl, ac ysgrifenu y gyfraith ar y galon.—2. Ymryson âg Ysbryd Duw yn gweithredu ar gydwybodau dynion trwy y gair; sef ei wrthwynebu, a dilyn ein llwybrau ein hunain yn groes i'r gair a'r gydwybod. Gen. 6. 3.—3. Ymryson â'i weithredoedd; sef trwy feio ar yr hyn a wnaeth, neu y mae yn ei wneuthur, yn ei ragluniaethau tu ag atom ni neu eraill. Psalm 51. 4. a 73. 2, 3. Rhuf. 3. 4. Esa. 8. 21. Dat. 16. 9 Jer. 12. 1.

* Gwel Calmet's *Dictionary.*— Basnage's *History of the Jews.*

Digitized by Google

'Ai dysgeidiaeth yw ymryson â'r Hollalluog?' Job 40. 2. Nage, ond yr ynfydrwydd mwyaf; o herwydd, 1. Fel Pen-arglwydd y mae ganddo hawl i wneuthur yr hyn a fyno. Ei greaduriaid ef yw pob peth, a gall wneuthur a fyno â hwynt. Esa. 45. 9. ——2. Y mae pob gweithred iddo yn berffaith gyfiawn a sanctaidd. Deut. 32. 4. Ps. 145. 17.—— 3. Y mae ei holl weithredoedd yn berffaith ddoeth i ateb dybenion arbenig a goruchel. Rhuf. 11. 33. a 16. 27.——4. Ymryson â'i air a'i Ysbryd, yw ymryson â pherffaith uniondeb—â'r hyn sydd yn dangos graslonrwydd Duw tu ag atom yn y gradd mwyaf—ac â'r hyn sydd yn ymgais am y daioni mwyaf i ni. 'Ai dysgeidiaeth,' gan hyny, 'yw ymryson â'r Hollalluog?' Nagê; canys yr ydym yn ddilys yn hyny yn gwbl bechadurus, ac yn sicr o gael ein gorchfygu a cholli y dydd.

Dylem ochelyd pob peth a fyddo yn tueddu i fagu ymrysonau yn mhlith ein gilydd, (2 Tim. 2. 23.) megys 'ynfyd ac annysgedig gwestiynau.' *απαιδευτους ζητησεις anadeiladol ofynion.*—'Andyscedigaidd orchestion.' W. S. Ymofynion yn nghylch pethau nad ydynt wedi eu dadguddio i ni, a phethau nad ydynt yn tueddu er adeiladaeth, ond i borthi ymchwydd meddwl cnawdol dyn. Col. 2. 18. Gyd â'r cyfryw ymofynion y treulia crefyddwyr gwag y rhan fwyaf o'u meddyliau a'u hamser, gan ddadleu yn boethlyd, yn haerllug, ac yn awdurdodol, yn nghylch pethau o ychydig bwys, ac, yn aml, pur annealladwy iddynt eu hunain.

YMSANCTEIDDIO. Edr. SANCTEIDDIO.

YMSANG—U, (sang) sangu neu sathru ei hun; sathru bob yn ail.—Ymsang torf, sef sathriad torf; llythyren ymsang, sef llythyren, cydseiniad neu lafariad, a roddir i mewn yn nghanol gair heb angen am dani o ran priodol argraff y gair.——'O herwydd y gau frodyr a ymsangasant i mewn.' Gal. 2. 4. Dr M.—'A ymluscesont y mewn.' W. S. 'A ddygasid i mewn:' *παρεισακτος*, dwyn i mewn yn ddirgel ac yn dwyllodrus, fel rhed-nwyddau *(smuggled goods)* fel yr arwydda y gair.*

YMSENU. Diar. 17. 19. Edr. SEN.

YMSERCHU. Edr. SERCH.

YMSERTH—U, (serth) ymsywen, ymgecru, ymremial, ymryson, ymregu. Diar. 19. 13. Edr. DEFNI.

YMSIGOL. 2 Sam. 22. 8. Esa. 24. 20. Edr. SIGLO.

YMSYMUD—O—YDD, (mud) ymysgogi, ymmodi, symud ei hun. Gen. 1. 2. a 9. 2, 3. Edr. SYMUD, YSBRYD.

YMUNIONI, ymsythio, ymddadgrymu.——'Ac wele, yr oedd gwraig ac ynddi ysbryd gwendid ddeunaw mlynedd, ag oedd wedi cyd-grymu, ac ni allai hi mewn modd yn y byd (*εις το παντελες*) ymunioni.' Luc 13. 11. Cyfieithir yr un gair *ανακυπτω, edrych i fynu*, Luc 21. 28. Dywed Crist mai Satan oedd gwedi rhwymo y wraig druan gystuddiol. Adn. 16. Yr oedd ei chyflwr yn ofidus a gresynus iawn; anhawdd iawn yn yr agwedd hòno oedd iddi ddyfod i'r synagog; ac etto, fel yr oedd, ni fynai esgeuluso addoliad Duw yno. 'Pan welodd yr Iesu hon, efe a'i galwodd hi ato—rhoddes ei ddwylaw arni—a dywedodd wrthi, Ha wraig, ti a ryddhawyd oddiwrth dy wendid: ac yn ebrwydd hi a unionwyd, ac a ogoneddodd Dduw.' Yn y wyrth hon ymddengys yr Iesu yn hardd, fel efe ei hun. Gwelwn ei diriondeb, ei dosturi, a'i allu dwyfol. Rhwymo a gofidio dynion yw gwaith Satan; dattod, dadrwymo, a chysuro, yw gwaith Crist; a Christ sy drechaf. Haeddai glod, er mai ei ddwrdio a gafodd gan yr arch-synagogydd.

YMWADU.—'Ymwaded âg ef ei hun.' Mat. 16. 24. Marc 8. 34. Luc 9. 23. Nid ymwada dyn byth âg ef ei hun, nes, 1. Y caffo iawn olwg arno ei hun fel pechadur, ei ffieidd-dra, a'r perygl y mae ynddo.——2. Hefyd, nes y caffo iawn olwg ar Grist, ar ogoniant ei Berson, a dyben ei osodiad i fynu yn ei swydd, yr angenrheidrwydd a'r addasrwydd o hono. ——3 Heb i'r ymwadiad hwn gymeryd lle yn nghyflwr dyn, a dilyn Crist yn ganlynol, nis dichon bod gwir grefydd gan neb. Nid yw pob teimladau, pob gwybodaeth, a phob proffes, er mor flagurog, ond gadael y dyn fyth yn yr un cyflwr, nes y cymero y tro a'r cyfnewidiad grasol hwn le. Heb hyn, nid yw Crist o iawn werth yn ei olwg; ac, yn ganlynol, y mae heb gredu ynddo, na'i garu, na'i ddewis yn Iachawdwr nac yn Arglwydd iddo. Nid yw y groes un rhwystr yn y meddwl wedi cael hyn, sef iawn olwg ar Grist. Rhaid bod Crist yn bob peth, neu yn ddim; os ydyw ef ei hun yn fwy na Christ, nid yw Crist yn ddim i'r enaid hwnw. Edr. GWADU.

YMWAHANU. 2 Bren. 2. 8. Edr. GWAHANU. —'A'm hesgyrn oll a ymwahanasant;' sef gan bwys y gofid a'r dyoddefiadau. Ps. 22. 14. Geiriau Crist ydynt, yn darlunio toster ei ddyoddefiadau, a phwys ei ofid. Er na thorwyd un o'i esgyrn, etto, ymwahanasant mewn gradd oddiwrth eu gilydd. Yr oedd yn gorph cyfan, nid oedd eisieu llaw-feddyg i gydio a iachâu ei esgyrn; etto goddefodd yr arteithiau trymaf yn ei feddwl a'i gorph.

YMWARED. Edr. GWARED

YMWASGARU. Exod. 5. 12. 1 Sam. 13. 8. a 14. 16. Edr. GWASGARU.

YMWASGU, ymlynu, ymuno. Act. 9. 26. a 17. 4. Edr. GWASGU.

YMWELED—IAD, (gweled) gofwyo, gwesta.— 1. Myned i gyfarfod, neu i edrych ansawdd. Act. 7. 23. a 15. 36.——2. Arolygu i'r dyben i gynnorthwyo ac ymgeleddu; felly y dylai swyddwyr gwladol a gweinidogion yr efengyl ymweled â'u pobl. Jer. 23. 2.

Y mae Duw yn ymweled â dynion mewn trugaredd, neu mewn llid: mewn trugaredd, pan fyddo yn rhoddi iddynt ei bresennoldeb grasol, yn eu gwaredu, eu cynnal, a'u dyddanu. Zech. 10. 3. Luc 7. 16. Gen. 21. 1. 1 Sam. 2. 21.—Yn ei lid, pan fyddo yn ymweled â'u pechodau, yn eu cospi, neu eu ceryddu o'u plegid. Exod. 20. 5. Jer. 6. 6. Ezec. 38. 8. Edr. GOFWY.

'Ymweled â'r amddifad a'r gwragedd gweddwon.' Edr. DIHALOGEDIG, YMDDIFAD.

'Gogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad.' 1 Petr 2. 12. *εν ημερα επισκοπης.*—'Moliannu Dyw yn y dydd ir ymweler ac wynt.' W. S. a'r Dr M. Pan ymwelo Duw â'r cenedloedd sydd yn eich goganu ac yn eich cablu yn bresennol, gogoneddant Dduw y *dydd hwnw*, o herwydd eich ymarweddiad da chwi. Eraill a ddeallant y geiriau, 'dydd yr ymweliad,' yn arwyddo *dydd erlidigaeth.* Gelwir amser o gystuddiau a dyoddefiadau mawrion, *dydd yr ymweliad*, Esa. 10. 3.—a phan gystuddio Duw, dywedir ei fod yn *ymweled*, Jer. 6. 15. Yr oedd gwroldeb, addfwynder, ac amynedd y Cristionogion dan erlidigaethau creulon o herwydd eu crefydd, a'r ysbryd maddeugar, tirion, a ddangosent tu ag at eu herlidwyr, yn effeithio cymaint ar eu herlidwyr, fel y gogoneddodd llawer o honynt Dduw trwy dderbyn yr efengyl, a chofleidio crefydd Crist.

* Arferir ef yn benaf am ddwyn i mewn nwyddau gwaharddedig. Schleusner.



Digitized by Google

YMWENIEITHIO, (gweniaith) ymdruthio, ymfoli, ymganmol.—‘Ymwenieithio y mae efe (yr annuwiol) iddo ei hun yn ei olwg ei hunan.’ Ps. 36. 2. Addaw pethau gwych a dedwyddfyd iddo ei hun, er byw yn y pechodau sydd yn tynu barnedigaethau Duw ar ddynion. Arwydda y gair *Heb.* הלק ymddwyn yn llwfn ac yn esmwyth tu ag ato ei hun; cynnwys meddyliau cysurus am dano ei hun, heb gydnabod ei bechod, na'r gospedigaeth a haeddai.

> Nor self abhorrent looks within
> To view the measure of his sin.—*Merrick.*

> Mae yn cyd-ddwyn â'i fai ei hun,
> Ni wel mo'i wrthun drosedd.—*E. Prys.*

YMWERTHU. 1 Bren. 21. 20. 2 Bren. 17. 17. Esa. 50. 1. Edr. AHAB, GWERTHU.

YMWISGO. 1 Cron. 15. 27. Job 40. 10. Ps. 109. 26. Esa. 61. 10. Edr. GWISGO.

YMWREGYSU. Edr. GWREGYS.

YMWRESOGI, ymdwymno, ymgynhesu.—‘Y rhai a ymwresogwch âg eilunod dan bob pren deiliog.’ Esa. 57. 5.—‘Y rhai a ymwresogwch ym mysg y llwyni tan bob pren deiliog.’ Dr M.—‘Yn llosgi gan chwant i eilunod dan bob pren gwyrddlas.’ Lowth. Cyffelybiaeth aml yn yr ysgrythyrau yw cymharu awydd dynion i eilun-addoliaeth, i awydd puteinwyr a godinebwyr i gyflawni eu chwant: a hòno ydyw y gyffelybiaeth a gyfeirir ati yn y geiriau, ac a osodir allan yn addas yn nghyfieithiad y Dr Lowth. Y mae awyddfryd gau grefyddwyr yn aml yn rhagori mewn poethder ac egni o blaid eu cyfeiliornadau, i zel gwir grefyddwyr o blaid y gwirionedd; ond y diweddaf sydd yn rhagori mewn gweddeidd-dra, mwyneidd-dra, gwir ostyngeiddrwydd, tiriondeb, parch i Dduw, a chariad tu ag at ddynion. Y ‘ddoethineb sydd oddi uchod’ yw y diweddaf; a gwresogrwydd pechadurus cythreulig ydyw y cyntaf. Edr. GWRESOG.

YMWROLI, ymegnïo, ymgryfhau, ymdrechu.—‘Ymwrola, ac efe a nertha dy galon.’ Psalm 27. 14. 1 Cor. 16. 13. Jos. 1. 6, 7, 9. 1 Cron. 22. 13. Ymwroli trwy weddïo a dysgwyl am nerth; trwy gredu addewidion Duw, a thrwy olygu ac adgofio ei ddaioni i ni mewn cyfyngderau rhagflaenorol. Y mae gwroldeb mewn achos da, a chyda phlaid gref, yn addas ac yn hardd, a'r gwrthwyneb yn wrthun ac yn bechadurus.

YMWRTHOD. Edr. GWRTHOD.—‘Felly hefyd, pob un o honoch chwithau, nid ymwrthodo â chymaint oll ag a feddo, ni all fod yn ddysgybl i mi.’ Luc 14. 33. 2 Tim. 4. 10. 1 Ioan 2. 15, 16. Yn gyffredinol, ni byddai yn unol â dyledswydd Cristion i ymwrthod â'i alwedigaeth, ei berthynasau, a'i feddiannau; byddai hyny yn gwbl groes i ysgrythyrau eraill sydd yn dynodi dyledswydd dyn. Y mae pob gwir esboniad o'r ysgrythyrau yn eu cysoni â'u gilydd, ac nid yn peri iddynt ymrafaelio. Yr ystyr yw, y gweddai fod yr agwedd hòno ar feddwl pawb a fyddo yn rhoddi y blaenoriaeth i Grist, yn y farn a'r serch, ar bob peth, ac yn barod i gymeryd eu colledu yn mhob peth, yn hytrach na bod heb ennill Crist. Y mae ysbryd merthyr, mewn gradd, yn hanfodol i wir grefydd: ymddengys lle y mae yn aml yn ystod bywyd dyn yn y pethau mwyaf cyffredin. Dichon llawer peth fod yn ddefnyddiol ar achlysuron, heb fod yn hanfodol i wir grefydd; ond y mae yn hanfodol i wir grefydd fod Crist yn cael y blaenoriaeth yn ein barn, ein serch, a'n holl ymddygiad: nis gallwn fod yn ddysgyblion i Grist heb hyn.

YMWTHIO. Edr. GWTH.—‘Er y pryd hyny y pregethir teyrnas Dduw, a phob dyn sydd yn ymwthio iddi.’ Luc 16. 16.—‘A' phawp dyn 'sy'n tori y mewn y-ddei.’ W. S.—‘Yr oedd genych y gyfraith a'r prophwydi hyd ddyfodiad Ioan, er amser yr hwn y cyhoeddir teyrnas Dduw, a phob meddiannydd sydd yn myned i mewn iddi trwy orchest. Campbell. Dyben yr Arglwydd yn y geiriau yw, y mae yn eglur, nid hysbysu nifer y rhai oedd yn myned i mewn, ond eu hagwedd; pob un sydd yn myned iddi, trwy *orchest* ac *ymdrech* y mae yn myned. Y maent yn ymwthio yn wyneb pob rhwystrau a'u llesteiriai, gan y fath olwg sydd ganddynt ar y breintiau mawrion perthynol iddi.

YMYL—AU, (byl) ochr; ael, min, glan, gwrym, haech. 1 Bren. 7. 26. Ps. 133. 2. Mat. 9. 20. a 14. 36. a 23. 5. Luc 8. 44.—‘Ac a gyffyrddodd âg ymyl ei wisg.’ Mat. 9. 20. Yn ystryd Capernaum, tebygol, y gwnaeth hyn; canys yno yr oedd Lefi a Jairus yn byw; ac wrth fyned o'r naill dŷ i'r llall, y cyffyrddodd y wraig âg ef. Edrych EDDI, PHYLACTERAU.

YMYRAETH—YD, (ymyr) ymhela, rhodresu, prysur heb ddiolch.—‘Pob ffôl a fyn ymyraeth.’ Diar. 20. 3.—‘Gad ymaith ymryson cyn ymyryd â hi.’ Diar. 17. 14. Paid dechreu ymryson er cymaint fyddo yr annogaeth i hyny oddiwrth ymddygiad eraill tu ag atat, a llygredd dy galon dy hun..

‘Na ddyoddefed neb—fel un yn ymyraeth a materion rhai eraill.’ 1 Petr 4. 15. ἀλλοτριοεπίσκοπος, *arolygwr manwl cywrain achosion rhai eraill.* Tebygol, medd Le Clerc, fod y geiriau yn cyfeirio i edrychiad manwl i swyddau eraill, a'u hymddygiad ynddynt, i'r dyben i feio arnynt a'u cyhuddo, a thrwy godi cynhwrf a chythruddiad yn y wladwriaeth; yr hyn yr oedd yr Iuddewon yn neillduol yn euog o hono yn Alexandria, Cesarea, &c. Gwel Lardner's *Credib.*, *b.* i. *c.* 18.—Ond diammeu y dylid golygu y geiriau yn nodi allan bob math o ymyraeth âg achosion eraill o gybydd-dod, dial, cenfigen, malais, &c. Edrych yn drachwantus ar eiddo eraill i'r dyben i'w hysglyfaethu trwy ddichellion ac anghyfiawnder. Y mae yr ymyrwyr anesmwyth â materion eraill, yn mhob ystyriaeth, yn ddynion o feddwl anghymeradwy iawn, yn bla ac yn felldith i bob cymdeithas, ac i'w gochelyd a'u ffieiddio. Yn esgeulus o bethau perthynol i'w dyledswydd eu hunain, y maent yn brysur yn ymyraeth â dyledswyddau pawb eraill; yn aflonyddu a dyrysu materion eraill, ac yn ddiofal am eu negesau a'u dyledswyddau eu hunain.* Diar. 24. 21. a 26. 17.

YMYSGAR—OEDD, (ysgar) coluddion, perfedd, amysgar.—1. Rhanau tufewnol corph dyn. Gen. 15. 4. a 25. 25. 2 Cron. 21. 15. Can. 5. 4.—2. Y groth. Esa. 49. 1.—3. Yr enaid anfarwol. Job 38. 36. Philem. 7. 2 Cor. 6. 12. a 7. 15. טחות *y rhanau gorchuddiedig, y rhanau tufewnol*; megys y galon, yr afu, yr arenau, &c.

Priodolir ymysgaroedd i'r Arglwydd, i arwyddo ei anfeidrol drugaredd a'i dosturiaethau. Esa. 16. 11. Edr. TOSTUR.

‘Ymysgaroedd yn cyffroi,’ a arwydda cyfyngder a thristwch. Galar. 1. 20.

‘Mor hiraethus wyf am danoch oll yn ymysgaroedd Iesu Grist.’ Phil. 1. 8.—‘O eigiawn ve-calon.’ W. S. Sef yr ymysgaroedd mwyaf tyner, a'r cariad mwyaf gwresog, gwedi eu heffeithio gan Ysbryd Crist, yn tebygu, ond yn graddu yn ddifesur yn îs na chariad Crist at ei bobl.

YMYSGWYD, ymysogi, ymmodi. Edr. YSGWYD

* Tantumne est abs re tua ocii tibi
Aliena ut cures, eaque nihil quæ ad te attinent!
*Terrence, Heauton, Act.* i. *Scen.* i. *line* 23.

Digitized by Google

YNAD—ON, (wnad) barnwr, brawdwr.—'Ac ynadon i farnu y bobl.' Ezra 7. 25. Dr M.

* Pa bryd y dof fi gar dy fron,
Fy Nuw a'm cyfion *ynad?*
*E. Prys*, (Ps. 42. 2.)

YNFYD—ION—RWYDD—U, (yn-myd) disynwyr, ffiodr; gwallgofi; gwallgofrwydd, ffolineb. Edr. DOETH, FFOL.

Arf doeth pwyll; arf *ynfyd* dur. *Diar.*

'Ni roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw.' Job 1. 22. Neu yn hytrach, *Ni roddodd ynfydrwydd i Dduw*, neu *yn erbyn Duw*. Ni chyfrifodd fod Duw yn ynfyd, yn ansanctaidd, yn annoeth, ac yn greulon yn ei ragluniaethau tu ag ato; ond yn hytrach ei fod yn gweithredu fel Duw gyda mawredd, uniondeb, a daioni.

'Yr ymadrodd am y groes, i'r rhai colledig, ynfydrwydd yw.' 1 Cor. 1. 18. Pregethu y groes, sef Iesu wedi ei groeshoelio, fel moddion cadwedigaeth i ddyn, sydd yn ymddangos i ddynion mewn cyflwr colledig, pechadurus, yn ffolineb ac ynfydrwydd i'r graddau mwyaf. Y mae hollol anaddasrwydd yn ymddangos ynddo i ateb y dyben a briodolir iddo. Un heb achub ei hun, yn achubwr i eraill; un wedi marw ei hun, yn rhoddi bywyd i eraill; un dan y gwaradwydd mwyaf ei hun, yn dwyn eraill i ogoniant annhraethol. Nid oes dim yn nhrefn natur yn cyfateb i hyn; na dim yn gytun â rheswm dynol ynddo—ac etto, hon ydyw trefn ddoeth Duw, ac sydd yn ymddangos yn anfeidrol ddoeth; Ie, y doethineb penaf, i bawb sydd yn edrych arni yn ngoleuni yr Ysbryd Glân. Trwy y drefn ryfedd hon, gwnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd.

YNGAN, (yng) dywedyd, llefaru. 1 Sam. 20. 26. 2 Sam. 7. 7. Amos 7. 16.—'Nac a ynganais.' Esa. 10. 14. Esther 2. 10.

YNI—AWL—ALUS, (wn) nerth, egni, egniol, eidiawl, grymus.—'Ac mewn poen ynialus.' Mat. 8. 6. W. S. ymyl y ddalen. Sef poen ddirfawr, drom.

YN MLAEN, (blaen) o'r blaen, yn y blaen, rhagddo, rhag blaen; cyn.

Gwell un gair *ymlaen* no dau yn ol. *Diar.*

Amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen.' Ps. 139. 5. Y mae Duw oddi amgylch i'w bobl er eu diogelwch, neu er eu cystudd a'u cerydd. Deut. 33. 27. Job 23. 9, 10. Arwydda y gair צרתני *gwarchae ar ddinas, cauad arni oddi amgylch*. Golyga Dafydd ei hun wedi cauad arno yn y fath fodd, fel nas dichon iddo ddianc, a'i fod yn hollol wrth ewyllys yr Arglwydd.

YN NGHYLCH, (cylch) tua, oddi amgylch, yn agos, yn nghylch tair blynedd, sef oddi amgylch tair blynedd; yn nghylch y wlad, sef oddi amgylch y wlad. —'A'r Iesu ei hun oedd yn nghylch dechreu ei ddeng mlynedd ar hugain oed.' Luc 3. 23. Και αυτος ην ο Ιησους ωσει ετων τριακοντα αρχομενος. *A'r Iesu ei hun pan ddechreuodd oedd yn nghylch deng mlwydd ar hugain oed.* Campbell. Hyny ydyw, pan ddechreuodd ei weinidogaeth, mewn cyferbyniad i weinidogaeth Ioan Fedyddiwr, hanes pa un a roddwyd yn y rhan flaenorol o'r bennod. Arferir y gair *Groeg* αρχομενος, yn yr ystyr hwn, yn Actau 1. 22. '*Yn dechreu* (αρξαμενος) o fedydd Ioan, hyd y dydd y cymerwyd ef i fynu.' Dywedir yma yn eglur i weinidogaeth Crist ddechreu yr amser y bedyddiwyd ef gan Ioan, ac iddi ddiweddu ar ddydd ei esgyniad. ——'Gwedi dechreu (αρξαμενος) o Galilea hyd yma.' Luc 23. 5.

YNNILL, ENNILL, (yn-nill) maedd, budd, elwant; elwa, maelio.—1. Eppilio. Preg. 5. 14. a 6. 3. ——2. Goresgyn. Jer. 32. 3. a 37. 8. a 48. 41. 2 Sam. 12. 28.——3. Elwa, cyfoethogi. Iago 4. 13. Mat. 16. 26. Luc 19. 16.——4. Adgenedlu pechadur trwy yr efengyl a elwir 'Ynnill trwy y gair.' Iago 1. 18.——5. Troi pechaduriaid o ffyrdd pechod a dinystr, a'u dwyn at Grist, a ffyrdd tangnefedd. Diar. 11. 30. Mat. 18. 15. 1 Cor. 9. 19, 22. 1 Petr 3. 1. Y maent gwedi eu colli; y mae yn bosibl eu hynnill; gan hyny, ein dyled yw ymdrech am hyny, ac y mae Duw, yn aml, yn llwyddo ymdrechiadau ffyddlon i'r dyben hyny.——6. Meddiannu Crist, yr ynnill a'r elw penaf. Phil. 3. 8. Y mae Crist i'w ynnill:—1. Nid ydyw genym ni:—2. Ond y mae yn bosibl ei gael:—3. Ynnill tragywyddol fydd i'r neb a'i caffo:—4. Nid oes neb a'i hynnill ond yn yr un agwedd meddwl ag yr oedd Paul ynddo, pan yr oedd yn cyfrif *pob peth* yn dom ac yn golled i'w ynnill—yn ei weled yn ddigon hebddynt, ac yn ffiaidd ganddo hwynt mewn cymhariaeth i Grist.

YNTAU, (wn-tau) rhagenw gwr, fel y mae hithau yn rhagenw benyw.—'Yntau a ddug,' &c. Gen. 4. 4.

YNTE, (yn-te) cysylltiad.—'Ai ynte,' &c. 2 Sam. 24. 13.

YNTEF, (ynt-ef) gorair: amgen, onidê, fel, yna.

YNYS—OEDD, (wn-ys) *Gr.* νησος (*nêsos*); *Llad.* INSULA: ynysan, ynysig. Tir yn nghanol dyfroedd. Yr ynysoedd mwyaf nodedig yn ngogledd Ewrop, ynt Prydain, yr Iwerddon, ac Ynys y Rhew *(Iceland)*. Yn Môr y Canoldir, y mae Cyprus, Crete, Rhodes, Sicily, Malta, Sardinia, Corsica, Minorca, Majorca, a llawer eraill o rai llai. Rhwng Ewrop ac Americ y mae Azores a Newfoundland: ar du dehau i Affric y mae y Canaries; i'r gorllewin oddi wrthynt hwy y mae ynysoedd y Carribee, a'r Antiles—y mwyaf o ba rai ydynt Cuba, Hispaniola, Jamaica, a Martinico. O du y dwyrain i Affric, y mae ynys Madagascar. O du y dwyrain, a dwyrain-orllewin i'r India Ddwyreiniol, y mae Ceylon, Sumatra, Java, Borneo, Celebes, Gilolo, Mindalo, Manilla, ac yn nghylch deuddeng mil o rai eraill. O du y dehau-ddwyrain i Tartary, y mae Japan a Jesso.

Y gair *Heb.* אי a gyfieithir *ynys*, a arwydda *arfordir*, ac y mae yn ammhëus, medd Parkhurst, a arwydda un amser *ynys*, yn yr ystyr priodol o'r gair; ïe, hyd yn nôd pan gysylltir âg ים *y mor*; ond arwydda y cyfryw leoedd neu wledydd a fyddant ar gyffiniau y môr; megys yn Esa. 11. 11. a 24. 25. Cymh. Jer. 15. 22. Ezec. 26. 18. Dan. 11. 18. Esth. 10. 1. Yn Ezec. 27. 6, 7. איי כתים *ynysoedd Chittim*, a gynnwysant o leiaf wlad yr Ital; ac איי אלישה *ynysoedd Elisah*, sef Peloponesus, ac nid yw yr un o'r rhai hyn yn ynysoedd. Gwel Bochart. Yn Esa. 23. 2, 3. gelwir yr hen Tyrus yn ynys, yr hon oedd yn sefyll ar gyfandir Asia. Gelwir Canaan yn ynys. Esa. 20. 6.

'Gwnaf yr afonydd yn ynysoedd.' Esa. 42. 15. Yn hytrach, *gwnaf yr afonydd yn lleoedd trigiannol.* Oddiwrth y gair *Heb.* אי (*ai*) y daeth, tebygol, y gair *Gr.* αια (*aia*) *talaeth*, neu *wlad*; lle trigiannol.

Gelwir Asia Leiaf, ac Ewrop, a boblogwyd gan hiliogaeth Japheth, 'Ynysoedd y cenedloedd.' Gen. 10. 5. Esa. 42. 4, 10. a 49. 1.

'Ynysoedd y môr,' y rhoddodd Ahasferus dreth arnynt, oeddynt y gwledydd arforol yn Asia Leiaf, ac ynysoedd y parthau dwyreiniol i Fôr y Canoldir. Esther 10. 1.

YSBRYD—OEDD—ION, (bryd) *Llad.* SPIRITUS; *Saes.* SPIRIT: bôd rhesymol, anweledig, heb sylwedd cnawdol; yr enaid, ffun, bywyd, anadl. *Heb.* רוח (*ruach*) *Groeg* πνευμα (*pneuma*).——Arwydda, 1. Anadl, ffun, einioes; yr anadl a roddodd Duw i anifeiliaid ac i ddynion, yr hon a gymer Duw ymaith

Digitized by Google

wrth ei ewyllys. Gen. 7. 15. Num. 11. 17. Job 12. 10.——2. Yr enaid rhesymol mewn dyn, yr hwn sydd yn byw wedi marwolaeth y corph, ac a ddichon fwynhau gwynfyd tragywyddol, neu ddyoddef poenau tragywyddol. Edrych ENAID.——3. Angelion da a drwg. 1 Samuel 16. 14. a 18. 10. a 19. 9. Luc 24. 39. Act. 23. 8. Heb. 1. 14.——4. Syniad, neu duedd y meddwl; megys ysbryd eiddigedd, pwyll, ofn, caethiwed, gwendid, &c. Num. 5. 14. Zech. 12. 10. Luc 13. 11. Esa. 11. 2.——5. Yr Hanfod Dwyfol. Ioan 4. 24. 2 Cor. 3. 17. 1 Tim. 1. 17.——6. Yr Ysbryd Glân, y trydydd Person yn y Drindod. Er y priodolir y gair Ysbryd i'r Hanfod Dwyfol, ac i'r Tad, ac i'r Mab, etto gelwir y trydydd Person wrth yr enw YSBRYD GLAN, i'w wahaniaethu, fel PERSON DWYFOL, oddiwrth y Tad a'r Mab. Mat. 28. 19. 2 Cor. 13. 13. 1 Ioan 5. 7.

Y mae GLAN, neu SANCTAIDD, yn briodol i'r Hanfod Dwyfol, ac yn gydradd yn mhob un o'r Personau yn yr Hanfod; ond gelwir y trydydd Person yn YSBRYD GLAN, nid yn unig, er hwyrach yn benaf, o herwydd glendid a sancteiddrwydd hanfodol ei natur, ond hefyd yn oruchwyliaethol, o herwydd ei swydd a'i waith yn nhrefn iechydwriaeth, sef *sancteiddio*. Y mae yn dangos sancteiddrwydd y Duwdod i ddynion, yn tystiolaethu i'w holl waith ei fod yn sanctaidd, yn dangos ffordd o sancteiddhad trwy Grist, ac yn sancteiddio ei holl bobl yn effeithiol. Wrth yr enw hwn y gelwir ef amlaf yn y Testament Newydd; ond cymerwyd yr enw o'r Hen Destament. רוח קדשר *Ysbryd dy sancteiddrwydd*, neu, *dy Ysbryd Sanctaidd*. Ps. 51. 11. רוח קדשר *Ysbryd ei sancteiddrwydd*, neu, *ei Ysbryd Sanctaidd*. Esa. 63. 10, 11. Yn y Testament Newydd gelwir ef, *το Πνευμα το αγιον*, *yr Ysbryd Sanctaidd*, neu *Glân*.

Am yr YSBRYD GLAN, y mae y pethau canlynol i'w hystyried a'u dangos mewn perthynas iddo:—

I. Ei fod yn Dduw.

II. Ei fod yn Berson gwahanol oddiwrth y TAD a'r MAB.

III. Ei fod yn deilliaw oddiwrth y TAD a'r MAB.

IV. Y gweithredoedd priodol iddo.

I. *Ei fod yn Dduw.* Y mae y pedwar peth canlynol yn profi ei ddwyfoldeb, yr un fath a'r Tad a'r Mab: sef, yn 1. Enwau dwyfol.—2. Priodoliaethau dwyfol.——3. Addoliad dwyfol yn cael ei roddi iddo.—4. A gweithredoedd nas gallasai neb ond Duw eu gweithredu.

1. Y mae enwau anghyfranogol y Duwdod yn cael eu priodoli iddo; megys IEHOFAH, cymh. 2 Samuel 23. 2. Num. 12. 6. 1 Petr 1. 11. 2 Petr 1. 21.—Deut. 32. 12. Esa. 63. 10.—Esa. 6. 8, 9, 10. Actau 28. 25.—Exod. 17. 7. Heb. 3. 9.—Lef. 16. 2. Heb. 9. 7, 8.—Jer. 31. 31—34. Heb. 10. 15, 16.—DUW, Esa. 61. 1. Ezec. 11. 5. Heb. 1. 1.—Actau 5. 3, 4. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Tim. 3. 16. 2 Petr 1. 21.—DUW GORUCHAF, Ps. 78. 56. Heb. 3. 7, 9.—ARGLWYDD, Mat. 9. 8. 2 Thes. 3. 5. 2 Cor. 3. 17, 18.

2. Y mae priodoliaethau Duwdod yn cael eu rhoddi iddo; megys TRAGYWYDDOL, Gen. 1. 1, 2. Heb. 9. 14.——HOLL-BRESENNOL, Ps. 139. 7. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. 2 Tim. 1. 14. Rhuf. 8. 9. Ioan 14. 17.—HOLL-WYBODOL, Ioan 16. 13. Dywedir ei fod yn 'chwilio dyfnion bethau Duw.' 1 Cor. 10. 11. Y mae yn eu chwilio, nid trwy ymofyn ac ymresymu am danynt, ond y maent ynddo, ac y mae yn eu hamgyffred yn gyflawn yn ei feddwl a'i ddeall aneirif (Ps. 147. 5.) yn y modd goruchel y mae Duw yn deall ac yn gwybod pob peth.—HOLL-ALLUOGRWYDD, a LLYWODRAETH ANDDIBYNOL: gelwir ef 'NERTH O'R UCHELDER,' Esa. 11. 2. Luc 1. 35. Actau 6. 10.——SANCTEIDDRWYDD DWYFOL, Esa. 63. 10, 11. Rhuf. 1. 4.

3. Addoliad priodol *yn unig* i Dduw a roddir iddo. Gorchymynir gweddïo arno, Mat. 9. 38. Actau 13. 2, 3. a 16. 5, 7. a 20. 28. 1 Cor. 2. 4, 11, 12. a 12. 4, 11.—rhoddir cynlluniau o weddïo arno, Can. 4. 16. Dat. 1. 4. 2 Thes. 3. 5.——cyfeirir ato yn ddifrifol, fel tyst, Rhuf. 9. 1. Deut. 6. 13. Jerem. 17. 10.—gweinyddir bedydd yn ei enw, yr hyn sydd addoliad dwyfol, Mat. 28. 19.——cynnelir cyfarfodydd eglwysig yn ei enw, Actau 15. 28. a 13. 2, 4.—ac erfynir bendithion yn ddifrifol oddi wrtho, 2 Cor. 13. 13.

4. Priodolir iddo weithredoedd nas dichon neb ond Duw eu cwblhau, megys creadigaeth pob peth, Gen. 1. 2. Ps. 33. 6. a 104. 30. Job 26. 13. a 32. 4.—cynnal pob peth. Psalm 104. 30. Esaiah 34. 16.—gwneuthur gwyrthiau, Mat. 12. 28. 1 Cor. 12. 4. Heb. 2. 4.—ffurfio dynoliaeth Crist, Luc 1. 35. Jer. 31. 22.—eneinio Crist, Esa. 42. 1. a 11. 2. a 61. 1. Psalm 45. 7. Ioan 3. 34.——llywodraethu yr eglwys, Actau 7. 51. a 13. 2, 4. a 15. 28. a 20. 28.—cyfranu doniau anghyffredin, 1 Cor. 12. 4. Heb. 2. 4.—rhagfynegi dygwyddiadau damweiniol, Ioan 16. 13. Act. 11. 28. a 20. 23. a 21. 11. 1 Petr 1. 11.——argyhoeddi cydwybodau dynion o'u pechodau mwyaf dirgel, Ioan 16. 9. Goleuo dealltwriaethau dynion mewn pethau ysbrydol, Eph. 1. 17, 18. a 3. 16. 1 Cor. 2. 10—16. Edr. ADGENEDLU, BYWHAU, DYDDANWCH, SANCTEIDDIO.

II. *Ei fod yn Berson gwahanol yn yr un Hanfod, oddiwrth y Tad a'r Mab.* Nid priodoledd yw, ond Person Dwyfol, a phob priodoledd dwyfol yn perthyn iddo, yn gydradd â'r Tad a'r Mab. Y Sabeliaid, yr Ariaid, a'r Sociniaid, a haerant y cyntaf, ond a wadant y diweddaf; sef ei fod yn briodoledd yn y Duwdod, ac nid yn Berson Dwyfol. Ond ymddengys bod y farn gyfeiliornus hon yn gwbl groes i dystiolaethau yr ysgrythyrau am dano, oddiwrth yr ystyriaethau canlynol:—

1. Priodolir gweithredoedd personol iddo; megys, dysgu, llefaru, &c. Marc 13. 11. Actau 28. 25.—tystiolaethu, Actau 5. 32. a 20. 23. Rhuf. 8. 15, 16.—preswylio, Ioan 14. 17. 1 Cor. 6. 19. 2 Tim. 1. 14.—anfon gweinidogion, Actau 13. 2, 3, 4. a 20. 28.—barnu cymhwysder peth, Actau 15. 28.

2. Priodolir iddo alluoedd personol; megys, deall, ewyllys, gallu, &c. 1 Corinthiaid 2. 10, 11. a 12. 11. Eph. 4. 3.

3. Enwir ef yn neillduol gyd â'r ddau Berson eraill, fel gwrthddrych addoliad, a ffynon o fendithion; ac y mae yn meddiannu yr un awdurdod, gallu, a gras, yn gydradd. Y mae y duwiolion yn demlau iddo. 1 Cor. 3. 16. a 6. 19. Nid o ran ei bresennoldeb a'i breswylfod ynddynt yn unig y maent yn cael eu galw felly; ond mae perthynas a chysylltiad rhwng teml ac addoliad dwyfol i breswylydd y deml. Gan hyny, y mae yr Ysbryd Glân yn Berson Dwyfol, neu y mae Cristionogrwydd yn eilun-addoliaeth. Mat. 28. 19. 2 Cor. 13. 13. Dat. 1. 4. 1 Ioan 5. 7. Ioan 14. 16, 17. a 15. 26. a 16. 7.

4. Ymddangosodd trwy arwyddion gweledig o golomen, a thafodau gwahanedig o dân: a pherthynol i bersonau ac nid priodoliaethau ydyw cymeryd ffurfiau gweledig i ymddangos ynddynt a thrwyddynt. Peth disynwyr fyddai clywed un yn dywedyd, fod trugaredd neu gyfiawnder wedi ymddengos iddo dan y cyfryw arwydd neu ffurf weledig. Y mae y cyfryw ffurfiau yn arwyddo sylweddau, ac nid ansoddau damweiniol yn unig, ac y maent yn arwyddion arddangosiadol o honynt. Dan yr arwydd gweledig yr oedd sylwedd yn cael ei ddangos, a eilw y gair yr YSBRYD GLAN, ac yn cael ei wahaniaethu oddiwrth y Tad a'r Mab. Nis dichon neb ddywedyd, mai doniau yr Ysbryd oedd y tafodau gwahanedig o dân; canys y mae y doniau a'r Ysbryd yn cael eu gwahan-

Digitized by Google

iaethu. 'Dechreuasant lefaru â thafodau eraill, megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd.' Actau 2. 4. Mat. 3. 16.

5. Y mae swyddau personol yn cael eu priodoli iddo; megys, Eiriolwr, neu Erfyniwr dros y saint, Tyst, Dyddanydd, Arweinydd, &c. Rhuf. 8. 26, 27. Ioan 14. 16, 17. a 15. 26. a 16. 13, 14. Heb. 10. 15.

6. Llefarir am dano, nid yn unig fel un gwahanol oddiwrth y Tad a'r Mab, ond gelwir ef ARALL yn cael ei anfon gan y Tad a'r Mab, a phriodolir iddo ragenw dynweddiadol. 'A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddyddanydd *arall*,' &c. Ioan 14. 16, &c.—'Pan ddêl *efe*, sef Ysbryd y gwirionedd, *efe* a'ch tywys chwi i bob gwirionedd,' &c. Ioan 16. 13. Ac y mae yn neillduol i sylwi arno yn yr iaith Roeg, fod Rhagenw gwrryw yn cael ei roddi o flaen enw cadarn o genedl gyffredin, wrth lefaru am yr Ysbryd Glân, i ddynodi yn dra eglur, dynsawd neu berson yr Ysbryd Glân; megys *οταν ελθη εκεινος το Πνευμα της αληθειας*, *pan ddel* EFE, sef *Ysbryd y Gwirionedd*.

7. Pan briodolir dim i'r Ysbryd Glân anmherthynol i ddynsawd neu berson, rhaid deall hyny am ei ddoniau a'i ddylanwadau, ond yn arwyddo, ar yr un pryd, gwirionedd ei ddynsawd; megys, ei fod yn cael ei dywallt, eneinio, a bedyddio âg, &c. Ioan 7. 39. Joel 2. 28. Act. 2. 17. a 10. 44. a 19. 6. Heb. 2. 4.

8. Pan lefarir am dano megys yn is, wedi ei roddi, ei anfon gan y Tad a'r Mab, golygir hyny yn briodol iddo o ran ei swydd a'i weithrediad yn ngwaith ein hiechydwriaeth; ond nid yn dynodi îs-radd dynsawd, yn y mesur lleiaf. Nid ydyw yn cael ei anfon trwy oruwch-awdurdod, ond trwy gydsyniad; yr hyn sydd yn dynodi gwahanol swyddau, ond nid hanfod. Yn yr ystyr diweddaf, ac nid y cyntaf, y mae y Mab a'r Ysbryd Glân yn cael eu hanfon.

9. Y mae yn cael ei dristâu a'i ofidio, trwy wrthryfelgarwch a phechodau dynion yn ei erbyn; yr hyn na fuasai yn addas i'w ddywedyd am dano, oni buasai ei fod yn berson. Nid cynneddfau, ond personau â'r cynneddfau ynddynt, sydd yn caru, yn tristâu, &c. Esa. 63. 10. Mat. 12. 31, 32. Eph. 4. 30. Edrych GOFIDIO, TRISTAU.

III. *Ei fod yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab.* Gwahaniaethir y Personau Dwyfol, 1. Wrth eu henwau, TAD, MAB, ac YSBRYD GLAN. Mat. 28. 19.

2. Wrth drefn eu hanfodiad; megys y TAD yn gyntaf, y MAB yn ail, a'r YSBRYD GLAN yn drydydd. 1 Ioan 5. 7.

3. Wrth drefn eu gweithrediad allanol; megys y TAD yn gweithredu o hono ei hun trwy y MAB a'r YSBRYD; y MAB yn gweithredu o'r TAD trwy yr YSBRYD; yr YSBRYD GLAN yn gweithredu o'r TAD a'r MAB. Ioan 1. 1, 2, 3. a 3. 16. a 5. 17, 19. a 15. 26. a 16. 7.

4. Ond yn benaf, gwahaniaethir hwynt wrth eu priodoliaethau dynsoddawl. Y TAD nis cenedlwyd ac nid yw yn deilliaw; ond y cyntaf o barth trefn, a genedlodd y MAB, ac y mae yr YSBRYD GLAN yn *deilliaw* o hono; y MAB sydd genedledig gan y TAD, a'r YSBRYD GLAN yn deilliaw; yr YSBRYD GLAN nis cenedlodd, ac nid yw genedledig, ond yn deilliaw oddiwrth y TAD a'r MAB. Ioan 16. 13—16. Bod *cenedliad* a *deilliad* yn wahanol sydd eglur, am fod y personau yn wahanol; ond pa fodd i'w gwahaniaethu, nis dichon neb ddywedyd, am eu bod yn annhraethadwy. O herwydd hyn, yn flaenaf ac yn benaf, y gelwir ef *Ysbryd Duw—yr Ysbryd sydd o Dduw.* 1 Ioan 4. 2. Eph. 4. 30. 1 Cor. 2. 10, 11. a 3. 16. a 6. 19. Gwir ydyw y gelwir ef felly am ei fod wedi ei addaw a'i roddi gan Dduw. Ond Ysbryd Duw ac Ysbryd Crist oedd yr hwn a anfonwyd, ac a fuasai felly pe na buasai yn cael ei anfon. Ei (*εκπορευσις*) *ddeilliad personol* yw sail ei (*εκπορευσις*) *ddeilliad swyddol.* Tebygol fod y gair *Heb.* רוח a'r gair *Gr.* *πνευμα*, *gwynt*, neu *anadl*, (Genesis 8. 1. Ioan 3. 8.) ag a gyfieithir *Ysbryd*, yn cael ei briodoli iddo i arwyddo y deilliad hwn. רוח אל *anadl yr Hollalluog*—רוח פיו *ysbryd ei enau.* Job 33. 4. Ps. 33. 6. Esaiah 11. 4. 2 Thes. 2. 8. O herwydd hyn yr anadlodd Crist ar ei ddysgyblion. Ioan 20. 22. Yr oedd hon yn arwydd allanol yn cyfateb i ddull hanfodiad y Personau, ac yn dynodi, yn ddangosiadol, ddeilliad neu ddyfodiad yr Ysbryd Glân yn oruchwyliaethol. Felly hefyd gelwir ef *Ysbryd Crist —Ysbryd y Mab*, am ei fod yn deilliaw o'r Mab fel y Tad, ac nid yn flaenaf, am fod Crist wedi ei addaw ac yn ei anfon. Rhuf. 8. 9. Gal. 4. 6. 1 Petr 1. 11. Rhaid sylwi nad oes dim cyfnewidiad yn yr hanfod dwyfol; nid deilliad, gan hyny, dechreuedig a therfynedig ydyw; ond arosol a thragywyddol, yn null angenrheidiol y Duwdod o hanfodi, ac sydd yn dynodi undeb hanfodol, a gwahanol Bersonau yn yr hanfod hwnw. Haeru fod y pethau hyn yn cael eu priodoli i'r Personau Dwyfol o herwydd eu gwaith yn nhrefn iechydwriaeth, sydd yr un peth a gwadu y Personau, yr hwn oedd gyfeiliornad Sabelius, Arius, a Socinus. Yr un ydyw cyfeiliornad y tri o barth sylwedd eu daliadau, er eu bod yn gwahaniaethu o ran eu dull o ymadroddi. Nis canfyddaf ddim yn nodi gwahanol Bersonau, ac undeb hanfod, ond hyn; ac os nad oes nodau gwahaniaethol, nis gellir goddef gwahanol Bersonau. Ei fod yn anamgyffredadwy i ni, sydd wir: ond beth am Dduw sydd yn amgyffredadwy? Gellir ei amgyffred yr un mor hawdd a BOD *hunan-ddibynol, annherfynedig*, ac *anolynedig.* Edr. DUW, MAB, TAD, TRI.

IV. *Y gweithredoedd priodol iddo.* Y mae trefn gweithrediad y gwahanol Bersonau yn dibynu ar drefn hanfodiad y Personau yn y Drindod, yn mhob gorchwyl mawr allanol o eiddo Duw. Gan hyny, priodolir i'r YSBRYD gyflawni a pherffeithio unrhyw orchwyl. Er mai Duwdod y Tri Pherson sydd yn gweithredu pob peth; ac nid oes i ni ddeall fod y naill yn rhoddi heibio pan fyddo y llall yn dechreu gweithio; etto priodolir i bob un o honynt ei briodol waith, a hyny yn nhrefn ei hanfodiad. Yn ngwaith y greadigaeth, *addurno* y nefoedd a briodolir i'r YSBRYD. Job 26. 13. Gwedi creu y gymysgfa afluniaidd, yn y dechreuad, Ysbryd Duw oedd yn *ymsymud* ar wyneb y dyfroedd, מרחפת *lledu ei esgyll*, felly cyfieithir yr un gair yn Deut. 32. 11.—*crynu*, yn Jer. 23. 9. sef ysgwyd fel plu aderyn dros y nyth. Rhoddodd yr Ysbryd yn y gymysgfa afluniaidd rinwedd bywiol a ffrwythlonol, hadau bywiog o bob rhywiau, y rhai trwy orchymyn Duw, a ddygasant bob math o greaduriaid yn lliosog, cyfatebol i hadau bywydau a gyfranwyd i'r defnyddiau annhrefnus, trwy effeithiau maethlawn yr Ysbryd Glân. Cyn hyn, yr oedd y cwbl, fel môr marw, yn gymysgedd afluniaidd, a'r tywyllwch ar ei wyneb, ac yn anaddas i bob ffrwythlonrwydd. Fel yn y greadigaeth ar y cyntaf, felly y mae yr un Ysbryd yn parhau i gyfranu yr un dylanwadau maethlawn ac adfywiog i'r greadigaeth. 'Pan ollyngych dy Ysbryd y crëir hwynt; ac yr adnewyddi wyneb y ddaear.' Psalm 104. 30. Y mae parhad, adfywiad, a chysur pob creadur yn dibynu yn ddidor ar ei ddylanwadau rhinweddol.—Yr un fath y priodolir perffeithiad creadigaeth dyn i'r Ysbryd Glân. 'Duw a *anadlodd* yn ei ffroenau anadl einioes, a'r dyn a aeth yn enaid byw.' Genesis 2. 7. Anadl Duw ydyw ei Ysbryd, a elwir felly o ran ei ddeilliad, yn draws-symudol. Gwaith neillduol yr Ysbryd Glân yw crëad enaid dynol. '*Ysbryd Duw* a'm gwnaeth i; ac anadl yr Hollalluog a'm bywiocâodd i.' Job 33. 4. Perffeithrwydd y greadigaeth yma isod ydyw dyn, a'r enaid anfarwol yw perffeithrwydd dyn; a gwaith yr Ysbryd Glân, yn neillduol,

Digitized by Google

yw hwnw.—Effeithiad yr Ysbryd Glân yn neillduol oedd delw Duw ar enaid dyn. Yr oedd gan enaid dyn ddeall i adnabod, ewyllys i ddewis, a galluogrwydd i fwynhau Duw, ac ufuddhau i'w ewyllys. Pan y mae yn adnewyddu y ddelw hon ar bechadur wedi ei cholli, adnewyddu ei waith ei hun y mae. Ffrwyth yr Ysbryd yw daioni, cyfiawnder, a gwirionedd, lle bynag y maent, o'r dechreu i'r diwedd. Eph. 5. 9.

Gwedi gosod holl drefn naturiaeth i fyned yn y dechreuad ar eu holwynion, effeithiol weithrediad yr un Ysbryd sydd yn hwylio yr holl drefn yn ei lle yn gyson: nis gallai ail achosion weithredu dim hebddo. Efe sydd yn donio dynion at bob celfyddyd ddefnyddiol, fel y rhoddodd ddoethineb addas i Bezaleel ac Aholiab yn ngwaith y babell, i Solomon a Hiram i adeiladu y deml. Doethineb a gworoldeb i lywodraethu a rhyfela, ydynt yn gwbl o hono ef yn mhawb, fel y canfyddwn yn y cynlluniau a roddir i ni yn yr ysgrythyrau o hyny; yn Moses, Josuah, Deborah, Barac, Othniel, Gideon, Samson, &c. Deut. 34. 11. Exod. 31. 3—6. Barn. 3. 10, 12, 15. a 6. 34. Geilw yr Arglwydd Cyrus, tywysog cenedlig, ei eneiniog. Esa. 45. 1. Cymhwysodd yr Arglwydd ef, trwy ei Ysbryd, â doethineb a gwroldeb addas i gwblhau y gwaith mawr a roddwyd iddo, sef dymchwelyd ymerodraeth Babilon, a dial arni am ei chreulondeb tu ag at Israel Duw. Yr un peth a ellir ei ddywedyd am yr holl offerynau a ddefnyddiodd yr Arglwydd yn yr amrywiol oesoedd, i gyflawni ei amcanion mawrion, yn llywodraeth y byd.

*Am waith yr Ysbryd Glân mewn perthynas i'r eglwys:—*

1. Mewn perthynas i Ben yr eglwys. Efe a genedlodd ddynoliaeth Crist yn nghroth y forwyn. Mat. 1. 18. Luc 1. 35. Trefnodd y Tad ddynoliaeth i'r Mab yn yr arfaeth dragywyddol: cenedlodd yr Ysbryd Glân hi mewn amser o sylwedd y forwyn; a'r Mab a'i cymerodd o'i wirfodd i undeb personol a diddatodol âg ef ei hun. Heb. 2. 14, 16. a 10. 5. · Y benaf o weithredoedd Duw ydyw y ddynoliaeth hon. Yr Ysbryd Glân a'i cenedlodd, a'i sancteiddiodd, ac a'i haddurnodd â chyflawnder gras i'r gradd mwyaf. Y mae sancteiddrwydd dynoliaeth Crist yn tra rhagori ar sancteiddrwydd yr eglwys yn ei holl aelodau. Addurno y ddynoliaeth â sancteiddrwydd addas i undeb â Mab Duw oedd pen gorchwyl y Duwdod:—yn fwy gwaith nag adgenedlu, sancteiddio, a gogoneddu yr holl eglwys yn ei holl aelodau. *Cymhwysodd* (καταρτιζω) y ddynoliaeth i'r fath undeb goruchel. Hefyd, cyfranodd i'r ddynoliaeth, nid yn unig pob gras, ond hefyd pob dawn, yn y graddau helaethaf, i'w addasu i gyflawni ei holl swyddau, a'r gweithredoedd perthynol iddo fel Brenin, Offeiriad, Prophwyd, Eiriolwr, Barnwr, &c. 'Ysbryd yr Arglwydd a *orphwysodd* arno: ysbryd doethineb a deall; ysbryd cynghor a chadernid; ysbryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd.' Esa. 11. 2. Yr oedd yn wybodus, yn ddoeth, ac yn gadarn. 'Corph a gymhwysaist i mi.' Y mae yr Arglwydd Iesu yn llefaru am dani gyda boddlonrwydd a gorfoledd; yr oedd yn hollol wrth ei fodd, ac yn gwbl addas i'r gwaith oedd ganddo i'w gwblhau. Y mae ei ddynoliaeth yn rhagori mewn sancteiddrwydd a chyflawnder, ac mewn pob dawn ardderchog, ar yr holl angelion a'r gwaredigion oll, pan ddelont yn nghyd wedi eu perffeithio a'u gorlenwi. 'Eneiniodd ef âg olew gorfoledd *tu hwnt* i'w gyfeillion.' Mae iddynt hwy oll *fesur,* meidrol ydynt oll; ac os rhoddir amryw o bethau meidrol at eu gilydd, etto ni wna meidrol a'i dyru, ond meidroldeb; ond nid wrth *fesur,* eithr heb fesur y rhoddodd Duw iddo ef yr Ysbryd; fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth, ac (εν πασιν) yn mhlith pawb. Col. 1. 18. Y mae iddo sancteiddrwydd, gorfoledd, a doniau yn rhagori ar bawb byth!

2. Am ei waith tu ag at yr eglwys. Yr oedd yr Ysbryd Glân yn yr eglwys yn mhob oes. Gen. 6. 3. Num. 11. 17. Neh. 9. 20. Esa. 63. 11. Nid oes gan neb ddoniau at waith Duw, nac ysbryd cymhelliadol, egniol, bywiog ato, ac nis dichon neb lwyddo ynddo, er pob llafur, heb yr Ysbryd Glân. Y mae pob doniau oddi wrtho; megys dawn i Noah i adeiladu yr arch, i Moses, Solomon, &c., at eu gwaith hwythau. Efe a ddadguddiodd ac a roddodd wybodaeth o ewyllys a chynghor Duw i'r prophwydi a'r apostolion, yn athrawiaethol, ac i brophwydo am bethau i ddyfod; a weithredodd wyrthiau mawrion drwyddynt; ac efe sydd yn addasu gweinidogion y Testament Newydd, a blaenoriaid eglwysig, at bob rhan o'r weinidogaeth. Efe sydd o hyd yn rhoddi ysbryd addas i chwilio yr ysgrythyrau, yn rhoddi doethineb a deall i adnabod meddwl Duw yn y gair, ac yn addasu dynion â doniau cymhwys i draddodi gwirioneddau y gair, er adeiladaeth i eraill. Efe sydd yn tueddu dynion yn *sanctaidd* at waith y weinidogaeth, oddiwrth gymhelliadau ysbrydol at y gwaith. Ceir mewn dynion, heb yr Ysbryd Glân, dueddiad at *elw* y gwaith, a pharch ac anrhydedd yn y swydd; ond nid oes cariad, tueddiad, na medr at y gwaith, fel y mae yn waith yr Arglwydd, ac o'r canlyniad mwyaf, ond oddiwrth yr Ysbryd Glân. Er pob doniau ac addasrwydd i'r gwaith, a diwydrwydd a ffyddlondeb ynddo, etto, heb nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, ni bydd dim *cynnydd* na *llwyddiant* arno. Ni ddywedir mai yn ofer y llafuria dynion cnawdol, bwngleraidd: ond yn ofer y llafuria yr adeiladwyr mwyaf ysbrydol a chywrain, os yr Arglwydd nid adeilada y tŷ. Ps. 127. 1. 1 Cor. 3. 7. Y mae yr Ysbryd Glân yn dewis yr offerynau, ac yn donio pob un *yn ol ei ewyllys;* yn eu defnyddio yn y man a'r amser a fyno; ac yn eu llwyddo yn y graddau a fyno, i gasglu etholedigion Duw yn nghyd. Darfyddai pregethu yr efengyl yn y byd, a phob doniau addas at y gwaith, a phob llwyddiant ynddo; ïe, ni byddai un eglwys yn y byd, oni bai fod yr Ysbryd Glân yn adferyd, yn adnewyddu, ac yn ei chynnal yn barhaus. Ar yr Ysbryd Glân, a'i ddylanwadau dwyfol y mae y cwbl yn gorphwys.

Oddiwrth y cwbl, gwelwn yn 1. Ei gariad rhad a thragywyddol at yr eglwys.——2. Ei ffyddlondeb yn ei swydd a'i waith.——3. Ei gyflawnder anfeidrol, yn llenwi y Pen a holl aelodau yr eglwys â'r fath helaethrwydd diderfyn a thragywyddol o ras a doniau.——4. Y dirfawr bechadurusrwydd o wrthryfelgarwch yn ei erbyn, a'r diystyrwch o hono.

'Pethau yr Ysbryd.' Edr. Synio.

Am waith yr Ysbryd Glân, fel Sancteiddydd, Dyddanydd, Arweinydd, &c., edrych dan yr amrywiol eiriau.

'Am hyny y dywedaf wrthych chwi, Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion: ond cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân ni faddeuir i ddynion. A phwy bynag a ddywedo air yn erbyn Mab y dyn, fe a faddeuir iddo: ond pwy bynag a ddywedo yn erbyn yr Ysbryd Glân, nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn y byd ddaw.' Mat. 12. 31, 32. 'Er bod pob pechod arall ac athrodiad mewn dynion yn faddeuadwy; ond athrodiad yn erbyn yr Ysbryd Glân sydd yn anfaddeuadwy; canys pwy bynag a gablo yn erbyn Mab y dyn, a eill gael maddeuant; ond pwy bynag a ddywedo yn erbyn yr Ysbryd Glân, ni faddeuir iddo, nac yn yr oruchwyliaeth bresennol, nac yn yr hon sydd yn dyfod.' Campbell.——'Yn faddeuadwy.' Nid oes yn yr iaith Hebraeg na modd ammodadwy na galluadwy; am hyny arferid yr amser dawedadwy i gyflawni y coll hwn. Arferid y dull priodol hwn o ymadroddi yn aml yn nghyfieithiad

Digitized by Google

y LXX., ac oddi yno cymerwyd ef gan ysgrifenwyr y Testament Newydd. Eglur yw, mai meddwl yr Arglwydd yn y geiriau yw, nid y maddeuir pob pechod yn wirioneddol; ond ei fod yn ngoruchwyliaeth Duw *yn faddeuadwy.*—'Yr orchwyliaeth bresennol;' εν τουτω τω αιωνι—εν τω μελλοντι, sef *yn yr oes—yn yr oruchwyliaeth—yn y byd presennol:* geill y gair Groeg arwyddo y naill neu y llall. Fel y mae amwysedd yn yr iaith wreiddiol, anhawdd cael gair mewn iaith arall a gynnwys yr un amwysedd; dylai y cyfieithiad gynnwys yr un ëangder a'r iaith y cyfieithir o honi, os gellir gwneuthur, heb derfynu yr ystyr, os bydd yn ammheus pa un o ddau neu dri yw yr iawn ystyr. Rhai a olygant y gair yn arwyddo yr oruchwyliaeth Iuddewig, neu yr oruchwyliaeth efengylaidd; eraill y byd hwn, a'r byd a ddaw, fel ymadrodd diarebol, yn arwyddo *byth:* dull o ymadroddi cyffredin yn mhlith yr Iuddewon o ddywedyd yn gadarn, na chai byth ei wneuthur.

Am y pechod hwn yn erbyn yr Ysbryd Glân, y ffordd oreu i gael ychydig o amgyffred cywir am dano, yw cymharu yr amrywiol ysgrythyrau â'u gilydd, y crybwyllir am dano ynddynt. Mae crybwylliad am dano yn y tri lle canlynol, heblaw y fan hon: sef Heb. 6. 4—8. a 10. 26—29. 1 Ioan 5. 15. Er, hwyrach, fod gradd o dywyllwch gwedi ei adael mewn perthynas iddo yn fwriadol, er rhybydd, rhag i neb nesâu at ei gyffiniau; etto, ymddengys i mi, oddiwrth y lleoedd hyn, fod y pedwar peth canlynol yn gynnwysedig ynddo:—

1. Gwybodaeth o'r gwirionedd, sef o'r efengyl; yr hyn a eilw yr apostol, 'derbyn gwybodaeth y gwirionedd.' Gwedi ei dderbyn dan argyhoeddiad o'i wirionedd, a theimlad o'i awdurdod a'i ragoroldeb, a roddasant eu hunain yn ordinhadol i'r Arglwydd yn ganlynol i hyny, ac a ymunasant âg eglwys Crist yn y byd, fel aelodau gweledig o honi. Heb hyn, tybygaf, nis dichon neb fod yn euog o hono.

2. Pechu a syrthio ymaith yn gwbl ac yn wirfoddol. 'Os o'n gwirfodd (εκουσιως) y pechwn—a syrthiant ymaith.' Y pechod ydyw syrthio ymaith oddiwrth athrawiaeth yr efengyl, a phroffes o honi; a hyny yn wirfoddol:—1. Nid trwy brofedigaeth ddisymwth a chyrch y cythraul, fel Petr yn gwadu Crist:—2. Nid trwy ofnau yn gweithredu rhagrithiad ffuantus, heb wrthodiad calon o honi:—3. Nid trwy dywyllwch ac anwybodaeth yn cymeryd gafael yn meddyliau dynion yn achlysurol dros amser; pa bethau, er eu bod yn dra phechadurus, etto a allant ddygwydd i rai nad ydynt yn euog o'r pechod hwn. Ond *o'u gwirfodd;* sef, 1. O ddewisiad y meddwl llygredig, a chalon ddrwg o anghrediniaeth yn ymadaw â Duw byw.—2. Gyda dewisiad o ffordd arall o grefydd, a gorphwysiad arni, yn hytrach na'r efengyl; sef ymwrthodiad â gwaed y cyfammod, sef aberth Crist, a goruchwyliaeth Ysbryd y gras. Ymwrthod â'r rhai hyny yn gyhoeddus, a thystiolaethu nad oedd dim o Dduw ynddynt, fel y gwnaeth yr Iuddewon gwrthgiliedig yn amser yr apostolion.

3. O ddiystyrwch o'r gwirionedd, a gelyniaeth a chasineb ato, yn ei gablu yn gyhoeddus, sef yn mathru Mab Duw—yn barnu yn aflan waed y cyfammod, sef aberth Crist—a difenwi Ysbryd y gras: geiriau sydd yn dangos diystyrwch, casineb, a ffieiddiad o'r gwrthddrychau rhyfedd hyn, yn y gradd mwyaf; creadur yn dangos ei gynddaredd yn erbyn Duw, a'i holl drefn anfeidrol yn iechydwriaeth dyn, gyd â'r gelyniaeth mwyaf chwerw, a'r diystyrwch mwyaf anmharchus o bob peth perthynol iddi: yn barnu gwaed y cyfammod fel gwaed dyn cyffredin yn dyoddef am ei bechodau. Dichon fod graddau yn y pechod hwn, yn athrawiaethol ac yn ymarferol, heb gyrhaedd i'r gradd uchaf; ond y mae pob gradd o hono yn dra pheryglus. Edr. Difenwi, Mathru.

4. Parhad ynddo. Nid oes i ni feddwl fod un pechadur wedi cael ei daro am ei fai, ac yn deimladwy o hono, byth yn dyfod yn yr agwedd hon i ymofyn am faddeuant, ac yn cael ei wrthod. Y mae hyn yn gwbl groes i holl dystiolaethau yr ysgrythyrau. Yn gyffredin, nid oes neb yn mhellach oddi wrtho na'r rhai sydd yn ofni eu bod yn euog o hono. Ond y mae parhad diedifeiriol yn yr agwedd ddychrynllyd hon ar feddwl dyn yn 'bechod i farwolaeth;' y mae marwolaeth yn mhob pechod; ond y mae hwn i farwolaeth yn ddiedifeirwch am dano; dyn yn diweddu ei yrfa ynddo yn yr ail farwolaeth. Nid oes gan Dduw un drefn, un aberth mwyach, i achub y dyn, ond y drefn hôno y mae efe yn ei gwrthod, yn ei chasâu, ac yn ei chablu yn barhaus. Y mae holl gariad, doethineb, a daioni Duw, yn yr eglurhad mwyaf dysglaer o honynt, yn cael eu hanmharchu, eu cablu, a'u ffieiddio. Edr. Anmhosibl, Cyfranogi, Goleuo, Gwatwar, Rhodd.

YSBRYDOL, yn perthyn i ysbryd, neu yn cyfranogi o'r ysbryd.—'A gyfodir yn gyrph ysbrydol.' 1 Cor. 15. 44. Sef cyrph gwedi eu haddasu i weithrediadau a theimladau ysbrydol; cyrph gwedi eu meddiannu yn gyflawn â'r Ysbryd Glân; cyrph heb angen am gynnaliaeth cnawdol, daearol, fel yn bresennol, ac wedi eu dyosg o lawer o deimladau daearol, cnawdol, sydd ganddynt yn awr; megys newyn, syched, blinder, &c., cyrph ysgafn, bywiog, cyflym, ac yn tebygu yn fwy i ysbryd yn eu gweithrediadau, nag i'r cyrph sydd genym ni yma yn y byd. Nid ysbryd a fydd o ran ei sylwedd; ond bydd yn ysbrydol o ran ei gynneddfau; gwrthddrychau a gwaith ysbrydol fydd ei hyfrydwch, ac yn tebygu i gorph ysbydol Crist.

'Chwychwi y rhai ysbrydol,' &c. Gal. 6. 1. Sef dynion yn profi graddau mawrion o ddylanwadau Ysbryd Duw ar eu heneidiau, a thrwy hyny yn synied pethau yr Ysbryd, yn rhodio yn ol yr Ysbryd, ac yn barnu yn ysbrydol ac yn sanctaidd am bob peth. Y mae rhai Cristionogion, mewn cymhariaeth i eraill, y rhai ysbrydol hyn, yn gnawdol, ac yn rhai bach yn Nghrist; ond y rhai ysbrydol sydd yn addas i ymdrin â phethau ysbrydol, ac â chyflyrau dynion, er llesâd iddynt. Rhuf. 8. 1—4. 1 Cor. 2. 13. a 3. 1. Edr. Adgyweirio, Cnawdol.

YSBRYDOLIAETH, (ysbryd) ysbrydoliad, dylanwad yr Ysbryd, gweithrediad yr Ysbryd. Job 32. 8. 2 Tim. 3. 16.

YSBYS—U, (bys) gwybyddedig, nodedig, amlwg, cyhoedd; amlygu, dadguddio, cyhoeddi, rhybuddio. —'Hysbysa hwynt i'th feibion.' Deut. 4. 9. a 6. 7. *Heb.* '*Hoga* hwynt i'th feibion;' yn dynodi dyfalwch a diwydrwydd wrth y gwaith; a llefaru am danynt yn finiog ac yn gymhwysiadol.——'Hysbysodd ei ffyrdd i Moses;' sef mynegodd, dadguddiodd ei ffyrdd trwy gyhoeddi ei enw, ei ffyrdd o drugarhau a maddeu. Ps. 103. 7. Exod. 34. 6, 7.—'Hysbysodd yr Arglwydd ei iechydwriaeth.' Nid yn unig trefnodd, parotôdd, a gweithredodd iechydwriaeth, ond hysbysodd hi hefyd; dadguddiodd a chyhoeddodd iechydwriaeth i'r holl ddaear. Ps. 98. 2.

YSFA, YSFEYDD, (ysma) cosi; mawrllys. Deut. 28. 27. Edr. Ysu.

YSGAFN—HAU—DER—U, (cafn) *Gr.* κουφος, *(coyphos);* ysgafn, ysgon, hawdd, esmwyth; ansafadwy, anwadal; salw, bychan, gwael, disas, dibwys; salwedd, anwadalwch: o ychydig werth, o fri, neu ddefnydd. 1 Sam. 18. 23. 1 Bren. 16. 31.——'Dynion ysgafn,' ydyw oferwyr gwamal, halogedig. Seph. 3. 4. Barn. 9. 4.——'Ysgafnder' a ddynoda anlladrwydd, gwagedd, disylweddiad, Jer. 3. 9.—

Digitized by Google

anwadalwch, ofer-siarad, 2 Cor. 1. 17.——'Byr ysgafn gystudd. Edr. **Cystudd**, **Rhagorol**.

'Ysgafn oedd ganddo ef rodio yn mhechodau Jeroboam mab Nebat,' &c. 1 Bren. 16. 31. Sef peth bach oedd hyny yn ei olwg; nid oedd yn gweled dim drwg ynddo.

'Ti a ddeui mewn henaint i'r bedd, fel y cyfyd ysgafn o ŷd yn ei amser.' Job 5. 26. Pa bryd bynag y byddo y duwiol farw, bydd marw yn ei amser, wedi gorphen ei waith, ac yn addfed i ogoniant.

'Ysgafn ydyw ar wyneb y dyfroedd.' Job 24. 18. '*Is swift as the water.*' *Saes.* *Heb.* קל הוא על פני־מים Y mae y Cymraeg yn gyfieithiad llythyrenol, ac agosach na'r Saesonaeg, o'r geiriau Hebraeg. Arwydda y gair קל peth ysgafn, gwael, dirmygedig, gwarthus. Gen. 16. 4. Deut. 25. 3. Job 10. 15. Geiriau diarebol ydynt, yn gosod allan beth disylwedd a diwerth, fel 'ewyn ar wyneb y dwfr.' Hos. 10. 7. Y mae pechod yn gwneuthur dynion yn ysgafn, yn ddirmygedig; ac y mae cyflwr annuwiolion yn ansefydlog, a dygir hwynt ymaith gan ffrwd lifeiriol barnedigaethau Duw.

YSGALL, (call) chwyn pigog, digon hysbys, yn tyfu mewn ŷd ac ar feusydd. Cyfrif Tournefort 80 math o honynt. Y mae amryw enwau arnynt yn Gymraeg; megys ysgall duon, ysgall bendigaid, ysgall y panwr, ysgall y blaidd, ysgall gwylltion, ysgall canpen, ysgall y moch, efwr, llaeth ysgall, llymeidfwyd, ysgall y meirch, neu march ysgall.—Dynion annuwiol a gyffelybir i ysgall, i ddynodi eu hanefnyddioldeb, eu hamddifadrwydd o bob daioni a ffrwythau da, a'r niwed ydynt i'r saint. 2 Cor. 25. 18. Mat. 7. 16.

YSGAR—EDIG—U, (car) gwahanu, gwasgaru, didoli, neillduo, ymwahanu. Lef. 21. 14. Esa. 59. 2. Mat. 5. 32. Edr. **Llythyr**.

Nid *ysgar* newyn a diogi. *Diar.*

'Moses a ganiataodd ysgrifenu llythyr ysgar, a'i gollwng hi ymaith.' Marc 10. 4. Yr oedd dadl yn mhlith y Rabbiniaid Iuddewig (hwyrach mor foreu ag amser Crist) am y modd o ddeall y gyfraith yn nghylch ysgar. Deut 24. 1. Athrofa Sammai a haerai fod y geiriau ערות דבר a gyfieithir *rhyw aflendid*, yn arwyddo *godineb*; ond athrofa Hilel a'u deallent yn arwyddo *rhyw achos o anhoffder*. (Gwel Selden, *Uxor*, *Heb. lib.* iii. *cap.* 22.) Hwyrach mai y canol rhwng y ddau a fuasai yn ddehongliad mwy addas; o herwydd dilys yw y dichon y geiriau yn addas arwyddo rhyw anaf neu afiechyd, yr hwn a allasai dynes, yn ffol ac yn anghyfiawn, ei guddio cyn priodi, ag a ddaeth i'r amlwg wedi hyny. Eglur yw, oddiwrth ateb yr Arglwydd a'r gosp yn nghyfraith Moses o farwolaeth am odineb, fod dysgyblion Sammai yn camsynied. Esboniad Hilel oedd yn gyffredinol yn fwyaf derbyniol.

YSGARLAD, (ysgar-llad) *Ital.* **Scarlato**; *Ffr.* **Ecarlate**; *Saes.* **Scarlet**; airos, coch, gloywgoch, purgoch. Y gair *Heb.* שני a gyfieithir *ysgarlad*, a arwydda *lliwio ddwywaith, wedi ei liwio ddwywaith.* Gwel Bochart. Y gair arall (תולע) a gyfieithir *ysgarlad*, a arwydda *pryfyn, lliw y pryfyn*, am mai â phryfed mân a geir mewn twddfau bychain ar brysgen, y lliwient ef. Geilw yr Arabiaid y pryfyn hwn, a'r lliw a wneir âg ef, *Al-kermedd*, oddiwrth yr hwn y daeth y gair *Ffr.* **Cramoisi**, a *Saes.* **Crimson**. Mae y cyffelyb brysgen yn Provence a Languedoc yn Ffrainc, ac mae y cyffelyb bryfyn i'w gael arni, a elwir *Kermes oak.* Rhoddir weithiau y ddau air Hebraeg gyd â'u gilydd; megys yn Esa. 25. 4. a 36. 8. Lef. 14. 4, 6, 49. *et al.* a gellir cyfieithu y geiriau, *lliw y pryfyn wedi ei liwio ddwywaith*, neu *wedi ei liwio ddwywaith o liw y pryfyn*, fel y byddo gosodiad y geiriau y naill o flaen y llall. Gwel Pliny, *Nat. Hist.*, *lib.* xvi.—Brook's *Nat. Hist.*, *vol.* iv.—Lowth *on* Esa. 1. 18.—Parkhurst dan y geiriau Hebraeg.

Yr oedd gwisgoedd ysgarlad yn dra arferedig gan wyr mawrion. 2 Sam. 1. 24. 2 Cron. 2. 14. Yr ysgarlad a'r porphor a ddefnyddiwyd yn lleni y babell, a gwisgoedd yr arch-offeiriad, a allent ddynodi mawrhydi breninol Crist, a'i ddyoddefiadau ef a'i eglwys. Exod. 25. 4. a 26. 1.—Lliw coch y wraig, a'r bwystfil oedd yn ei dwyn, a arwyddant awdurdod breninol Anghrist—lliw coch pengapiau y Cardinaliaid—ac erlidigaethau gwaedlyd y saint. Dat. 17. 4.

Pechodau fel ysgarlad a phorphor, sydd yn eu dynodi yn ysgeler ac yn ffiaidd iawn. Esa. 1. 18. Edr. **Porphor**.

YSGATFYDD, (gad-bydd) agatfydd, ond odid, ond antur, nid hwyrach. Rhuf. 5. 7. 1 Cor. 14. 10. 1 Bren. 18. 5.

YSGELER—DER, (cel) ysgymun, echryslon, drygionus, anfad, dygas, llawn echrys, mawr-ddrygiog; echryslonrwydd, creulondeb.—'Y neb a fwriada ddrygau, a elwir yn ysgeler.' Diar. 24. 8. בעל מזמות יקראו *arglwydd* neu *awdwr dychymygion drwg.* Y sawl a fwriado neu a ddychymygo ffordd i wneuthur twyll neu niwed, neu unrhyw ddrwg, er nas gallo byth ei gwblhau. Y mae bwriadu drwg, neu gynnwys drwg yn y meddwl a'r dychymyg, heb ei ffieiddio, yn *bechod*, ac yn dynodi y dyn yn bechadur euog. Rhuf. 1. 30. Ps. 21. 11. Esa. 10. 7—13. a 32. 7. Ezec. 38. 10, 11.

'Llosgach, a phechodau ffiaidd yn erbyn anian, a elwir yn aml זמה *ysgelerder.* Lef. 18. 17. a 19. 29. a 20. 14. Barn. 19. 24.

YSGLYFAETH—U, (glyf) yspail, ysgwlf, ysgafaeth; ysgylfu, ysgylfio, ysglyfio, anrheithio.—Ysglyfaeth a arwydda, 1. Yr hyn a ddeil bwystfil gwyllt er ymborth. Amos 3. 4. Esa. 31. 4.——2. Yr hyn a gymerir gan fuddugoliaethwyr ac yspeilwyr, yn difrodi ac yn anrheithio fel bwystfilod. Job 24. 5. Psalm 124. 6. Nah. 2. 12, 13.

Y mae Duw yn cyfodi i'r ysglyfaeth, pan y dynoetha ei fraich, ac y rhydd allan fawredd ei allu i waredu ei bobl, a dystrywio ei elynion. Seph. 3. 8. Esa. 33. 5, 10. Edr. **Anrhaith**, **Cappaeliad**, **Yspail**.

YSGOG—I, (cog) ysgwyd, siglo, honcio, symud, chwifio.'—'Am ei fod (y Goruchaf) ar fy neheulaw, ni'm hysgogir.' Ps. 16. 8. Crist a fynega yn y geiriau ei hyder ar Dduw, a'i sicrwydd o gynnaliaeth effeithiol trwy ei holl ddyoddefiadau mawrion. Arwyddant y cai ei gynnal heb ddigaloni, heb anghredu, heb lithio, ac heb fethu yn y gorchwyl mawr. Aeth ato mewn llawn sicrwydd ffydd.

YSGOL—ION, (còl) llettring, graddau dring, esgynfa; dringfa. Gen. 28. 12. Edr. **Jacob**. Arwydda yr un peth a Colon, Colfa, a ffurfia enwau rhai diphwysydd, neu ddibynau; megys, Ysgolion Duon, yn Swydd Gaerfyrddin; a Nant yr Ysgolion, yn Swydd Drefaldwyn.

YSGOL—HAIG—DY, (còl) athrofa, ysgol-ddysg: lle i addysgu; dysgedig, un yn derbyn addysg.

Tri harddwch gwlad, ysgubor, efail, ac *ysgol.* *Diar.*

'A hi (Huldah) oedd yn aros yn Jerusalem, yn yr ysgoldy.' 2 Cron. 34. 22. 2 Bren. 22. 14.—'Yn yr ail rhan.' Dr M. Beth a feddylir wrth משנה a gyfieithir *yr ail rhan* gan y Dr M. ac *ysgoldy* yn ein cyfieithiad awdurdedig ni, sydd anhawdd ei benderfynu. Barna llawer, oddiwrth ystyr y gair, gyd â'r Dr M. mai *yr ail (dinas* neu *ran)* o Jerusalem, a arwydda y gair. Yr oedd rhan o Jerusalem a elwid

Digitized by Google

*yr ail ddinas;* ac yno yr oedd Huldah yn byw. 'Bydd udfa o'r *ail;*' sef o'r ail ddinas. Seph. 1. 10. Newcome. Neu, ynte, hwyrach yr arwydda athrofa, neu ysgoldy, yn ol ein cyfieithiad ni; lle byddai y gyfraith yn cael *ail* fyned trosti, i'w hegluro gan athrawon. Y gyntaf yw y farn fwyaf gyffredinol am ystyr y gair.

'Gan ymresymu beunydd yn ysgol un Tyrannus.' Act. 19. 9. Tebygol mai ystafell a feddylir yn nhŷ Tyrannus, yn mha un y byddai yn addysgu eraill. Mae y gair σχολη yn cael ei briodoli i'r cyfryw ystafelloedd a neillduwyd yn athrofäu yn mhlith y doethion Paganaidd.

'Ac wedi i ysgolhaig y ddinas lonyddu y bobl.' Act. 19. 35. γραμματευς, *cofiadur,* neu *ysgrifenydd y ddinas.* Amlwg yw, oddiwrth yr hanes, ei fod yn swyddwr âg awdurdod nid bychan ganddo yn y ddinas.

**YSGORPION,** *Gr.* σκορπιος; *Llad.* Scorpio; *Saes.* Scorpion.—1. Math o ednogyn, sydd weithiau âg un, ac weithiau â dau golyn ganddo yn ei gynffon, â pha rai y teifl allan wenwyn tra niweidiol. Yn ei lun, tebyga i geimwch, ond yn hyllach o lawer. Cyfrifwyd naw math o honynt, gwahanadwy yn benaf wrth eu lliwiau. Nid oes braidd un creadur yn fwy dychrynllyd a niweidiol na'r ysgorpion. Llecha mewn lle bychan mewn tai, er mawr niwed yn aml i'r trigolion. Mewn rhai dinasoedd yn yr Ital, a Ffrainc, yn nhalaeth Languedoc, un o'r pläau mwyaf sydd yn blino y trigolion ydyw. Ond y mae, mewn cymhariaeth, yn ddiniwed iawn yn Ewrop, i'r hyn ydyw yn Affric, ac yn y gwledydd dwyreiniol. Yn Batavia, ceir hwynt yn ddeuddeg modfedd o hŷd, ac nis dichon iddynt symud dodrefnyn, heb berygl o gael eu brathu ganddynt. Yn Affric, y mae rhai o faintioli y ceimwch, ac y mae eu brathiadau yn farwol; ond yn Ewrop nid ydynt dros ddwy neu dair modfedd o faint, ac nid yw eu brathiadau mor niweidiol, ond yn anaml yn farwol. Y maent yn elyniaethol iawn i'w gilydd, ac i'w rhai bychain—yn lladd ac yn dystrywio eu gilydd gyd â'r creulondeb mwyaf. Y maent yn byw ar bryfed ac ednogynod. Dywedir eu bod yn fwy gelyniaethol i ferched nag i feibion. Yr oeddynt yn dra lliosog yn anialwch Arabia. Deut. 8. 15.——2. Flangellau â chylymau â phigau arnynt, fel cynffonau yr ysgorpion, a elwir ysgorpionau. 1 Bren. 12. 11, 14. 2 Cron. 10. 11, 14.——3. Dynion drwg, creulon, megys yr Iuddewon, y Saraceniaid, yr Offeiriaid Anghristiaidd, &c., a gyffelybir i ysgorpionau; y maent yn gyfrwys, yn ddygasog, yn poeni ac yn lladd y duwiolion, a'r cyfryw ag sydd ganddynt y gallu lleiaf i'w gwrthsefyll. Ezec. 2. 6. Dat. 9. 5, 10. Luc. 10. 19.

**YSGRAFF—AU,** (craff) trosglwyddfad, ceubal.—'Ac ysgraff a aeth drosodd i ddwyn trwodd dylwyth y brenin.' 2 Sam. 19. 18.

**YSGREPAN,** (ysgrab) *Gr.* ασκοπερα (*ascopera*) cwd, côd; cwd i ddwyn bwyd ynddo. Mat. 10. 10. Marc 6. 8. Luc 9. 3. a 10. 4. 1 Sam. 17. 40. Coden ledr oedd yn crogi am y gwddf i ddwyn ymborth ynddo. Edr. Gwregys, Pwrs.

**YSGRIFEN—EDIG—U—YDD,** (ysgrif) *Gr.* γραφω (*graphô*); *Llad.* Scribo: argraffu, llythyru; argraffedig; argraffydd, cofiadur.—1. Cofnodi peth mewn llyfr. Esa. 10. 1.——2. Dadgan peth yn ddilys ac yn sicr, a'i nodi mewn prophwydoliaeth. Jer. 22. 30.——3. Gosod un i orthrymderau trymion, a'u rhoddi arno, yw ysgrifenu pethau chwerwon i'w erbyn. Job 13. 26.——4. Cyfnewid calon dyn yn rasol, a rhoddi ynddo ffydd ac ufudd-dod i wirioneddau Duw. Jer. 31. 33. Heb. 8. 10.——5. Ethol a rhagluniaethu i fywyd tragywyddol. Luc 10. 20. Heb. 12. 23. Dat. 21. 27. Edr. Enw, Llyfr.——6. Gwneuthur dynion yn isel, yn wael, ac yn druenus, fel pe byddai Duw a'i eglwys wedi eu hanghofio: hyn a elwir 'ysgrifenu yn y ddaear,' mewn cyferbyniad i 'ysgrifenu yn y nefoedd.' Jer. 17. 13. Luc 10. 20.

Ysgrifenu yw y gelfyddyd o amlygu i'r golwg feddwl dyn, trwy nodau a graffiadau arwyddocâol o sain iaith, yn ein galluogi i drosglwyddo meddyliau o'r llygad i'r glust, ac i'r gwrthwyneb. Y mae dau fath o graffiadau; sef naill ai y maent yn arwyddion pethau, neu yn arwyddion geiriau. Y cyntaf yw yr arwydd-luniau a ddefnyddid gan yr hynafiaid; y diweddaf yw yr arwyddion egwyddorol a arferir yn awr gan holl genedloedd Ewrop. Arwydd-luniau, diammeu, oeddynt yr ymgais cyntaf tu ag at ysgrifenu. Dyma yr unig ddull o ysgrifenu arferedig yn Mexico, pan amlygwyd hi gyntaf i'r Ewropeaid. Trwy luniau hanesiol y trosglwyddasant mewn coffadwriaeth ddygwyddiadau mwyaf hynodol eu hymerodraeth. Gwel Robertson's ***History of America, vol.*** iii. ***Appendix, Note*** 26.

Diwygiad ar hyn yw yr arwydd-luniau a elwir Hieroglyphics. Yn y gelfyddyd, y mae arwyddion allanol yn ateb am wrthddrychau anweledig, o herwydd rhyw berthynas a thebygolrwydd a fernir rhyngddynt. Yn yr Aipht y dygwyd y gelfyddyd hon i'r perffeithrwydd mwyaf. Ond nid oedd hon ond dull ansicr ac anmherffaith iawn i drosglwyddo gwybodaeth o bob math. Diwygiwyd y dull hwn drachefn yn mhlith rhai cenedloedd, trwy roddi nodau wrth eu hewyllys am wrthddrychau, heb un berthynas na thebygolrwydd rhyngddynt â'u gilydd; felly mae y dull o ysgrifenu yn China hyd heddyw. Nid oes ganddynt un egwyddor o lythyrenau, yn arwyddion o'r amrywiol seiniau sydd yn gwneyd eu geiriau; ond pob nôd a arferant, a arwydda feddwl: nôd yw, yn sefyll am ryw un peth, neu wrthddrych; yn ganlynol, rhaid fod y nodau hyn yn aneirif. Mae y dull hwn yn arferedig yn mhlith amryw genedloedd dwyreiniol. Deall y Japaniaid, y Tonquiniaid, y Coreaniaid, a'r Chineaid, eu gilydd trwy y nodau hyn, meddant, er bod eu hieithoedd yn amrywio. Y mae yr un nodau yn arwyddo yr un gwrthddrychau yn eu plith; yr un fath a nodau rhifyddiaeth yn mhlith yr Ewropiaid. Gwedi hyny dychymygwyd arwyddion geiriau, yn mynegi y gwrthddrychau hyn; a thrachefn, arwyddion pob sain yn mhob gair. Yn gyntaf, dychymygwyd arwyddion sillau; ond yr oedd y dull hwn yn peri fod rhifedi yr arwyddion, neu y nodau, yn fawr; ac yr oedd yn gwneuthur darllen ac ysgrifenu yn gelfyddydau llafurus a phoenfawr. I orphen a pherffeithio y gelfyddyd o ysgrifenu, cyfododd rhyw gywrein-ddyn, trwy ddilyn y seiniau a wneir yn y llais dynol i'w helfenau mwyaf cysefin, unigol, a digymysg, ac a'u dosparthodd i ychydig o lafariaid a chydseiniaid; a thrwy osod i bob un o'r rhai hyn yr arwyddion a elwir llythyrenau, a ddysgodd ddynion pa fodd, trwy eu cysodi, i ysgrifenu yr holl amrywiol eiriau, neu seiniau arferedig yn eu plith. Trwy eu dwyn i'r symlrwydd hyn, y gelfyddyd o ysgrifenu a berffeithiwyd yn y graddau mwyaf, fel y mae yn bresennol yn holl wledydd Ewrop.

Pwy a ddygodd y gelfyddyd ddefnyddiol o ysgrifenu i'r perffeithrwydd rhyfedd hwn, nid ydyw hysbys. Tebygol ei bod yn adnabyddus yn mhlith yr Hebreaid cyn dyddiau Moses, a hwyrach mor foreu a dyddiau Abraham. Nid yw Moses yn ysgrifenu am dani fel peth newydd yn ei ddyddiau ef, ond fel peth arferedig a chynnefin cyn hyny: er bod rhai o'r farn mai y Deg Gorchymyn oedd yr ysgrifen gyntaf a fu yn y byd, ac mai yr Arglwydd a ddysgodd i Moses y llythyrenau, a'u defnyddioldeb. Ond ymddengys barn Syr Isaac Newton yn debycach i wir, sef bod y gelfyddyd yn adnabyddus yn nheulu Noah, rai cannoedd



Digitized by Google

ysgrythyrau, trwy ddylanwadau yr hwn y cyfansoddwyd hwynt. 'A'r ysgrythyr yn rhagweled mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau y cenedloedd, a ragefengylodd i Abraham, gan ddywedyd, Ynot ti y bendithir yr holl genedloedd.' Gal. 3. 8.——4. Llyfrau yr Hen Destament. 'Chwiliwch yr ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol; a hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.' Ioan 5. 39. Hyny yw, chwiliwch yn fanwl lyfrau Moses, y Psalmau, a'r Prophwydi, y rhai yr ydych yn cydnabod eu bod yn dangos yn wirioneddol y ffordd i fywyd tragywyddol; ac ar y prawf, cewch fod yr holl gysgodau a'r prophwydoliaethau hyny yn cael eu cyflawni ynof fi; a bod yr holl addewidion o fywyd yno yn cyfeirio ataf fi, ac yn fy ngosod i allan fel y gwir Fessiah.

Y mae yr ysgrifeniadau sanctaidd hyn yn rhagori ar bob ysgrifen arall a fu erioed, neu a fydd byth, yn y byd:—

1. Oblegid eu bod yn cynnwys y cwbl o ewyllys Duw, gyd âg eglurdeb a sicrwydd dwyfol, angenrheidiol i ni eu gwybod er ein hiechydwriaeth.—Y mae eu dyfnder a'u cyflawnder yn rhyfedd. Drych ydynt sydd yn dangos Duw, ei arfaeth, ei waith, a'i ewyllys am *bob* peth, gyd âg ëangder a manylrwydd tra rhyfedd. Yr hanfod, y Personau, y priodoliaethau, yr arfaeth a'r drefn ddwyfol, a osodir allan ynddynt, gyda chywirdeb a manylrwydd addas i Dduw, ac i neb ond efe: ei weithredoedd o greadigaeth, rhagluniaeth, ac iechydwriaeth, a hysbysir ynddynt mewn dull addas i Dduw lefaru am ei waith ei hun, ac i ninnau gael amgyffred cymhwys am dano yn ei waith. Holl ddyled dyn tu ag at Dduw—ei hun—a'i gymydog, yn mhob perthynas, sefyllfa, ac amgylchiad, a osodir allan gyd âg awdurdod a manylrwydd dwyfol. Ni buasai neb ond Duw yn gallel llefaru gyd â'r fath ëangder, cywirdeb, manylrwydd, eglurdeb, ac awdurdod. Y neb na wel ddwyfoldeb yr ysgrythyrau yn y golygiadau hyn, 'Dall ydyw, ac heb weled yn mhell!' 2 Petr 1. 9.

2. Y mae doethineb a gwybodaeth ynddynt ag sydd yn tra rhagori ar bob peth dynol, neu yn perthyn i'r creaduriaid godidocaf.—'Yr ydym ni,' medd Paul, 'yn llefaru doethineb Duw mewn dirgelwch.' 1 Cor. 2. 7.

3. Y maent wedi eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân.—'Dynion sanctaidd Duw a lefarasant (ac a ysgrifenasant) megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.' 2 Petr 1. 21. Nid o ewyllys dyn y daethant; ond yr Ysbryd Glân a gynhyrfodd y rhai a ysgrifenodd, i hyny. Efe oedd yn gweini y defnydd iddynt, sef y mater am ba un yr oeddynt i lefaru ac ysgrifenu; efe oedd yn eu cyfarwyddo a'u cynnorthwyo pa fodd i'w osod allan; pa ddull, a pha eiriau i'w defnyddio. 'Nyni a dderbyniasom yr Ysbryd sydd o Dduw; fel y gwypom y pethau a raddroddwyd i ni gan Dduw. Y rhai yr ydym yn eu llefaru hefyd, nid â'r *geiriau* a ddysgir gan ddoethineb dynol, ond a ddysgir gan yr Ysbryd Glân.' 1 Cor. 2. 12, 13. Yr oedd yr athrawiaethau yn cael eu cyflwyno i'w meddyliau, wedi eu gwisgo â'u priodol ymadrodd. Mae y geiriau a'r ymadroddion yn ddwyfol, yn gystal a'r athrawiaethau. Dyma y *ffurf* o ymadroddion iachus, y crybwylla yr apostol am danynt. 2 Tim. 1. 13. 'Megys y cynhyrfwyd,' sef y cyfarwyddwyd, ac y dysgwyd hwynt, yr oeddynt yn llefaru yn mhob ystyr. Er bod gan bob ysgrifenydd ei ddull priodol ei hun o ymadroddi, etto, yn yr holl amrywiaeth hyn, yr Ysbryd Glân oedd yn dysgu pob un o honynt, yn y dull hwnw. Dylem, gan hyny, wylied rhag cyfnewid, na gwyrdroi iaith yr ysgrythyrau, nac arfer dull o ymadroddi anysgrythyrol am wirioneddau dwyfol, neu na arferir yn yr ysgrythyrau. Ni ddichon neb byth wisgo y gwirionedd â gwisg mwy addas iddo, ac i'w ddangos yn oleu ac yn gywir, nag a wisgwyd am dano gan yr Ysbryd Glân. Ynfydrwydd a rhyfyg yw ymgais at hyny, a pheryglus a niweidiol iawn. Nid bathu a ffurfio ymadroddion newyddion am bethau, ond iawn ddeall ymadroddion yr Ysbryd Glân, weddai fod llafur pob Cristion.

4. Ysgrifenwyd yr ysgrythyrau gan y dynion mwyaf rhagorol a fu yn y byd erioed am ddoethineb a sancteiddrwydd; megys Moses, Dafydd, Solomon, y Prophwydi, yr Efengylwyr, yr Apostolion, &c. 'Dynion sanctaidd Duw,' y geilw yr apostol hwynt. Pe buasent yn ddynion drwg, buasai eu twyll a'u llygredd yn eu cyhuddo; ac os oeddynt yn ddynion da, ni chymerasent arnynt fod Duw yn llefaru trwyddynt, ac yntau heb fod. Yr hyn a draddodant, y maent yn ei draddodi yn enw yr Arglwydd, yn awdurdodol ac yn oleu, ger bron pawb. Ysgrifenwyr y Testament Newydd, gan mwyaf, oeddynt dystion am Grist o'r hyn a welsent ac a glywsent. Nid oedd un gau ddyben i'w ateb, na chlod, parch, cyfoeth, nac esmwythder, i ddysgwyl am dano; ond i'r gwrthwyneb, tlodi ac eisieu, blinderau, gorthrymderau, erlidigaethau, alltudiaeth, ie, y marwolaethau dychrynedicaf. Yr oedd eu bywydau yn cyfateb i'w hathrawiaethau sanctaidd, yn nghanol pob gwendidau a blinderau. Rhoddasant eu bywydau yn dystiolaeth am wirionedd eu hathrawiaeth.

5. Er eu hysgrifenu gan wahanol ddynion, mewn amrywiol oesoedd ac amgylchiadau, etto y mae y fath gysondeb rhyngddynt, a phe buasent gwedi eu hysgrifenu gan un gwr. Yr un iaith, yr un ysbryd, yr un athrawiaeth, sydd yn rhedeg trwy y cwbl; a'r un dyben goruchel a ymddengys yn ngolwg pob un, sef gogoniant Duw. Y mae pechod yn beth ffieiddiaf, a Duw yn Fod godidocaf, a ffordd y cymmod yr un, yn ol tystiolaeth pob un o honynt. Ioan 5. 46.

6. Y mae y cyfryw effeithiau gyd â'r ysgrythyrau, ag sydd yn profi yn ddiammheuol eu bod o Dduw. Y mae y cydwybodau mwyaf cysglyd yn cael eu deffroi trwyddynt; y calonau mwyaf llygredig yn cael eu cyfnewid a'u sancteiddio; y rhai mwyaf digysur yn cael eu dyddanu; a'r rhai mwyaf gŵyrog a throfäus yn cael eu dwyn i'r iawn. Yn yr holl bethau hyn, 'Bywiol yw gair Duw a nerthol—y mae yn nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr.' Heb. 4. 12. 2 Cor. 10. 4, 5. Y mae dyn yn cael ffydd, edifeirwch, ail-enedigaeth, a maeth ysbrydol sylweddol drwyddo. Rhuf. 10. 17. Deut. 8. 3. Job 23. 12. Ps. 119. 50, 72, 93. 1 Petr 1. 23. Yr offeryn a'r moddion sy gan Dduw yn y byd, er iechydwriaeth pechaduriaid colledig, ac yn llaw yr Ysbryd Glân i'r dyben hyny; y mae yn gorchfygu holl allu y tywyllwch, a holl gyndynrwydd, rhagfarn, a gelyniaeth calon dyn. Y mae fel tân yn llosgi, fel gordd yn curo, ac fel cleddyf yn cyrhaedd trwodd, ac nis dichon dim ei wrthsefyll!

7. Y mae y gwyrthiau a wnawd gan Moses, y Prophwydi, a'r Apostolion, yn profi eu bod yn genadon o anfoniad dwyfol, a bod yr athrawiaethau yr oeddynt yn eu cyhoeddi o Dduw, fel y tystiolaethent. Ni buasai yr Arglwydd daionus byth yn dwyn y fath lïaws o dystiolaethau cyhoeddus, eglur, a diammheuol, ond i'w wirionedd ei hun: ac nis gallasai neb ond Duw wneuthur yr hyn a wnawd. Nid gwyrthiau *gau*, megys sydd gan gau grefyddau, oeddynt; ond gwyrthiau eglur, gwirioneddol, a diammheuol, ger bron lïaws o dystion mwyaf cymhwys i farnu yn y byd; megys gwyrthiau Moses yn yr Aipht, ger bron y dynion dysgedicaf, a mwyaf gelyniaethol i Moses yn y byd; gwyrthiau Elias ac Eliseus, ger bron y gelynion creulonaf; gwyrthiau yr Iesu a'i apostolion, yr un fath.

Digitized by Google

8. Y mae cyflawniad y prophwydoliaethau ysgrythyrol yn brawf cadarn, gweledig i bawb, a pharhaus, o'u dwyfoldeb; megys y prophwydoliaethau am Cyrus—am ddinystr Babilon, Tyrus, &c.—am gaethiwed Israel yn Babilon, a'u dychweliad oddi yno—am ddyfodiad Crist yn y cnawd, ac amgylchiadau ei ddyfodiad; ei fam, lle ac amser ei enedigaeth, ei werthiad, ei ymadrodd ar y groes, ei wanu gan y milwyr, ei gladdedigaeth, ei adgyfodiad, ei esgyniad, &c.—am dywalltiad yr Yspryd Glân—am alwad y Cenedloedd—am ddinystr Jerusalem—am gyflwr presennol yr Iuddewon—am Anghrist, ac amser ei barhad a'i ddinystriad. Yr holl bethau hyn a ragfynegwyd ac a gyflawnwyd. Pwy ond yr Ysbryd Glân a allasai eu rhagweled a'u rhagfynegi mor fanwl, gannoedd o flynyddoedd cyn y dygwyddiadau hyn?

Edrych ychwaneg ar hyn, dan yr amrywiol eiriau perthynol i'r dygwyddiadau. Mae y prawf hwn yn cynnyddu mewn eglurdeb a chadernid yn feunyddiol; a chynnyddu a wna tra parhao amser.

9. Y mae parhad yr ysgrythyrau, er cymaint o elyniaeth sydd yn eu herbyn, yn dangos gofal neillduol Duw am danynt. Collwyd a dyfethwyd llawer o lyfrau a ysgrifenwyd wedi y llyfr diweddaf o'r Bibl; ac ni bu gelyniaeth i'w chymharu yn erbyn un llyfr ag a fu, ag y sydd, yn erbyn y Bibl; etto, 'Gair ein Duw ni a saif byth,' er gwaethaf pawb. Esa. 40. 8.

10. Y mae uniondeb, purdeb, a sancteiddrwydd yr ysgrythyrau, yn profi eu bod o Dduw. Y maent yn berffaith, yn bur, yn ddyfnion, ac yn anghyfnewidiol; âg un llais yn taraw yn erbyn pechod, ac o blaid Duw, purdeb, a sancteiddrwydd. Ps. 19. 7. Diar. 30. 5. Gelwir ef yr YSGRYTHYR LAN, neu SANCTAIDD, am mai Duw sanctaidd yw yr awdwr o hono; o herwydd ei fod yn sanctaidd yn y cynnwysiad o hono; ynddo y mae Duw yn dangos ei sancteiddrwydd ei hun; a thrwyddo y mae yn sancteiddio ei bobl. Edr. CYFRAITH, EFENGYL.

11. Y mae Duw yn barhaus yn cadarnhau eu dwyfoldeb, trwy roddi yr hyn a ofynir ganddo yn ol y gair; ac yn pleidio y rhai sydd yn sefyll dros gref-ydd gyfatebol i'r gair; a thywallt y melldithion bygythiedig yn y gair ar ei elynion. Safodd dros y tri llanc a Daniel yn Babilon, am iddynt hwy sefyll dros ei orchymyn ef; felly y mae yn gwneyd o hyd, ac y gwna etto, hyd ddiwedd amser. Cyflawni ei air y mae Duw yn ei holl ragluniaethau tu ag at y byd a'r eglwys; ac yn niwedd y byd, bydd yr holl air wedi ei gyflawn gwblhau. Megys y bygythiodd ar yr hen fyd, ac yr addawodd i Noah, felly y gwna; yr un fath y bydd hi yn niwedd y byd.

12. Pwy ond Duw a allasai roddi hanes am greadigaeth y byd? Pwy ond Duw a allasai ragddywedyd am ddiwedd y byd, a sicrwydd am dano, a'r dull o hono? Ië, rhagfynegi y dull fydd ar ddynion i dragywyddoldeb mewn byd arall? Y mae arfaeth a chynghor Duw er tragywyddoldeb, yn cael eu hamlygu yn yr ysgrythyrau; ac y mae holl ddirgeledigaethau y byd i ddyfod, mewn gradd fawr yn ddilèn o flaen ein llygaid yn y gair. Ar ein calonau ni y mae y llèn, ac nid ar y gwrthddrychau.

Llawer ychwaneg a ellid ei ychwanegu yma am ddwyfoldeb a rhagoroldeb yr ysgrythyrau. Cefais aml achlysuron yn y gwaith i sylwi ar hyn; megys wrth ysgrifenu hanesion yr amrywiol awdwyr a ddefnyddiodd yr Ysbryd Glân yn y gorchwyl hwn, a than yr amrywiol bynciau mewn duwinyddiaeth; gan hyny, nid ychwanegaf yma, trwy ail adrodd yr hyn a draddodwyd o'r blaen. Peth rhyfedd ydyw fod y Duw mawr wedi rhoddi llyfr i'n dysgu. Er fod y peth yn wirionedd, tu hwnt i bob dadl, etto, wrth ddifaterwch am dano, a'u hesgeulusdra, braidd y gellir fod ond ychydig yn mhlith y Cristionogion hyn. Y mae yr esgeulusdra hwn yn dianrhydeddu Duw yn fawr, yr hwn a ymostyngodd mor dirion i'n hyfforddi; ac y mae y golled i eneidiau dynion, trwy hyny, yn annhraethadwy. Y mae holl ddull dygiad plant i fynu yn mhlith Cristionogion yn dra beius yn hyn. Dysgir pob peth iddynt yn hytrach na'r ysgrythyrau, yn gyffredin; ac ychydig o ymdrech sydd yn y goreu i ddangos yr angenrheidrwydd anhebgorol iddynt wybod, credu, a gweithredu yr ysgrythyrau, er eu dedwyddwch mewn byd arall. Bywyd tragywyddol yw adnabod y gwir Dduw, a'r gwir Iachawdwr: a pha fodd y mae cael y wybodaeth hon, ond trwy yr ysgrythyrau? Er bod cyfieithiadau o'r ysgrythyrau i'r amrywiol ieithoedd, a lefarir gan amrywiol genedloedd y ddaear, yn drugaredd arbenig, er mwyn y cyffredinolrwydd, ac er taenied gwybodaeth ddwyfol yn eu plith; ac er fod y cyfieithiadau, yn gyffredinol, yn gywir ac yn ffyddlon, gymaint felly, hwyrach, ag y dichon iddynt fod, ac ystyried pob peth: etto nis gallaf lai nag edrych arno yn fai nid bychan ar y neb a gaffo gyfleusdra, iddo esgeuluso dysgu yr ieithoedd yn mha rai yr ysgrifenwyd yr Hen Destament a'r Newydd, ac arfer eu darllen yn yr ieithoedd hyny. Y mae godidawgrwydd a rhagoroldeb hynod ynddynt yn iaith yr Ysbryd Glân rhagor un cyfieithiad a ddichon neb ei roddi, mewn unrhyw iaith; ac nid yw y llafur ond bychan i feddiannu yr hyn sydd yn anghydmarol werthfawr a defnyddiol. Y mae yr esgeulusdra o hyn mor gyffredin, fel prin ceir neb yn meddwl am y fath beth; hyd yn nod yn ngweinidogion y gair y mae y diofalwch a'r segurdod yn hyn yn resynus ac yn gywilyddus. Gobeithiaf weled diwygiad buan; a bydd astudio a chwilio yr ysgrythyrau yn orchwyl penaf bywyd pob un a enwir yn Gristion.

Yr wyf yn bwriadu cymeryd achlysur arall i draethu ychydig am yr amrywiol gyfleithiadau o'r ysgrythyrau yn yr hen oesoedd, ac yn y dyddiau diweddaf hyn; ac yn neillduol am y cyfieithiadau Cymreig, ac am yr amrywiol argraffiadau o'r Bibl. Edr. BIBL.

YSGRWD—AU, (crwd) celain, abwy, ysgerbwd, burgun, buria, corph marw.—'Ysgrydau dynion a syrthiant megys tom ar wyneb y maes.' Jer. 9. 22. Dr M.

YSGUB—AU, (cub) swp o friwydd, neu ŷd, wedi ei rwymo; ysgubell o fanwydd. Gen. 37. 7. Lef. 23. 10, 11. Deut. 24. 19. Ps. 126. 6. a 129. 7. Esa. 14. 23. Mat. 13. 30.

YSGUBO, (ysgub) *Gr.* σκοπεω; *Llad.* SCOPARE: rhuglo, glanhau, carthu.—Y mae yr Arglwydd yn ysgubo y tŷ i ymofyn am ei ddarnau arian, pan byddo yn dwyn ymaith olud a bywydau llawer; yn symud gwag-hyder, yn diwygio moesau dynion, ac yn cynhyrfu eu cydwybodau i ymgais am ddyfod ato. Dyben y ddammeg yw, dangos fod yr Arglwydd yn defnyddio moddion addas i ddwyn pechaduriaid i edifeirwch. Luc 15. 8.

'Ac wedi y delo, y mae yn ei gael yn wag, wedi ei ysgubo, a'i drwsio.' Mat. 12. 44. Darluniad, tebygol, yw o gyflwr llawer o'r Iuddewon, ac o wrthgilwyr yn mhob oes a lle, wedi effeithiau gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr a Christ yn raddol ddarfod arnynt. Cafodd, trwy eu gweinidogaeth, yr ysbryd aflan 'e anesmwyth yn llawer o honynt; aeth allan i blith y cenedloedd, lleoedd sychion, heb ddwfr y bywyd, er s oesoedd. Esa. 35. 2, 7. a 41. 18. Amos 8. 11, 12, 13. Trwy bregethiad ffyddlon o'r efengyl yn eu plith, ni chafoddd ddim gorphwysdra yno; dychwelodd i ail feddiannu yr Iuddewon anghrediniol; cafodd fynediad rhwydd i mewn, a phob addasrwydd; a daeth eu cyflyrau yn fwy drygionus ac anobeithiol nag o'r blaen; canys cymerodd saith (sef *llawer*) ysbryd gwaeth nag ef ei hun, a hwy a *gyfanneddasant* yno.

Digitized by Google

heb ddim aflonyddwch nac anesmwythdra. Yn y golygiad hwn, y mae y geiriau yn brophwydoliaeth am wrthodiad yr Iuddewon, a'r cyflwr dychrynllyd o elyniaeth ac anghrediniaeth y maent ynddo hyd heddyw. Ond y mae y darluniad yn gymhwysedig at gyflyrau llawer o wrthgilwyr, lle y pregethir yr efengyl yn ffyddlon. Luc 11. 26. Heb. 6. 4—8. a 10. 26—31, 39. 2 Petr 2. 14—22. 1 Ioan 5. 16, 17. Judas 10—13.

Y mae Duw yn 'ysgubo y cenedloedd âg ysgubau dystryw,' pan y maent yn cael eu hanrheithio a'u dinystrio, a barnedigaethau Duw yn effeithio yn drwm arnynt. Mae y naill genedl yn aml yn ysgub, yn llaw Duw, i ysgubo y llall. Esa. 14. 23. a 28. 17.

YSGUBION, (ysgub) ysgubolion, dasgubion, sorod, budreddi, brynti, mwlwg.—'Fel ysgubion y byd y gwnaethpwyd ni.' 1 Cor. 4. 13.—'In gwnaethpwyd ni val carthion y byt.' W. S. Edr. SOROD.

YSGUBOR—IAU, (ysgub) *Heb.* צבר *(tsabar)*; *Gwydd.* SGIBOL, ITHLAN: ysgubdy, ŷdty, beiniardy, ystordy.—Llenwi a bendithio yr ysguboriau, a arwyddant, llawnder a llwyddiant. Diar. 3. 10. Deut. 28. 8. Luc 12. 18.——Anrheithio yr ysguboriau, a ddynoda prinder mawr. Joel 1. 14.

YSGWR, (cwr) gwïail praff, dellt, pig.

Yna ymwelaf â'u cam gwrs
A gwiail *ygwrs*, neu goed-ffon.
*E. Prys*, (Ps. 89. 32.)

YSGWRIO, *Saes.* SCOUR: glân-rwbio, dirydu; carthu, arloesi, glanhau.—'Os mewn llestr pres y berwir ef, ysgwrier a golcher ef mewn dwfr.' Lef. 6. 28. Dywed Maimonides fod y llestr i gael ei ysgwrio mewn dwfr poeth, ac i gael ei olchi mewn dwfr oer. Os berwid yr aberth dros bechod mewn llestr pridd, yr oedd i gael ei dòri yn y cyntedd; ond os mewn llestr pres y berwid ef, yr oedd fel hyn i gael ei lanhau. Yr oedd yr aberth dros bechod i gael ei ladd lle y lleddid y poeth-offrwm ger bron yr Arglwydd. Yr offeiriad a'i hoffrymai a'i bwytâi yn nghynteddfa pabell y cyfarfod; ac yr oedd i gael ei ferwi mewn llestr pridd, neu bres, i'w wneyd yn fwyd addas. Pa beth bynag a gyffyrddai â'i gig, oedd yn sanctaidd; ac os taenellid ei waed ar ddilledyn, yr oedd y dilledyn i gael ei olchi, a'r llestr y berwid ef ynddo i gael ei dòri, neu ei lwyr lanhau. Yr oedd yr aberth dros bechod mewn modd neillduol yn cysgodi Crist, yr hwn a wnaed yn bechod drosom ni: (2 Cor. 5. 21.) yr oedd y defodau hyn yn ein dysgu i wneuthur defnydd sanctaidd o Grist, a bod y rhai sydd yn cyfranogi o hono yn cael eu golchi a'u sancteiddio gan yr Ysbryd Glân, ac yn meddiannu eu llestri mewn sancteiddrwydd a pharch, ac nid yn rhoddi eu haelodau mwyach yn arfau anghyfiawnder i bechod. Rhuf. 6. 13. 1 Thes. 4. 4.

YSGWYD, (ysg) siglo, ysgytio, crynu.—Ysgwyd y nefoedd a'r ddaear, a sylfeini y ddaear, a'r ynysoedd, a arwydda, cyfyngderau a chyfnewidiadau mawrion mewn gwladwriaethau a theyrnasoedd y ddaear. Esa. 13. 13. Ezec. 38. 20. Hag. 2. 6, 21. Mat. 24. 29. Heb. 12. 26.

'Symudiad y pethau a ysgwydir—fel yr aroso y pethau nid ysgydwir,' (Heb. 12. 27.) a ddynoda symudiad y defodau a'r sefydliadau Iuddewig, fel yr ymddangosai Crist, yn ei berson, ei swyddau, a'i deyrnas, y pethau nad ysgydwir byth: teyrnas ddisigl ydyw ei deyrnas ef, a phob peth perthynol iddi. Edr. DISIGL, LLAW.

YSGWYDD—AU—OG, (cwydd) tarian; yspawd, palfais, angell.——1. Rhan o gorph creadur, addas i ddwyn beichiau. Oddiwrth hyn, arwydda 'baich ar ysgwydd,' gaethiwed, gorthrymder, llafur caled. Gen. 49. 15. Esa. 9. 4. a 10. 27. Ps. 81. 6.—'Gwasanaethu âg un ysgwydd, a arwydda yn ewyllysgar, yn egnïol. Seph. 3. 9.—'Ysgwydd anhydyn.' Edr. ANHYDYN.—'Dwyn ar ysgwyddau,' a arwydda dwyn yn anrhydeddus, fel breninoedd a phendefigion. Esa. 49. 22.——2. Gallu ac awdurdod i weini swydd. Dygent arwydd-nodau o anrhydedd, swydd, a llywodraeth, ar yr ysgwyddau gynt; oddiwrth y ddefod hon, 'agoriadau ar ysgwyddau,' a arwyddant awdurdod llywodraethol gwr mewn swydd ac awdurdod. Job 31. 36. Esa. 22. 22. Felly y dywedir fod y llywodraeth ar ysgwydd Crist: y mae gofal, diogelwch, a llywodraeth yr eglwys, gwedi cael eu rhoddi iddo ef yn gwbl. Esa. 9. 6.——3. Cyffiniau gwlad. 'Hwy a ehedant ar ysgwyddau y Philistiaid tu a'r gorllewin.' Esa. 11. 14.—'Rhuthrant ar gyffiniau y Philistiaid tu a'r gorllewin.' Lowth. Felly y dywedir fod yr Arglwydd yn aros 'rhwng ysgwyddau' Benjamin, am fod ei deml yn sefyll ar Moriah, yn eu cyffin hwynt. Deut. 33. 12. Edr. PALFAIS.

YSGYFALA, (cyfal) esmwyth, esgeulus, diofal, hamddenol.—'Efe a darawodd y fyddin; canys y fyddin oedd ysgyfala.' Barn. 8. 11.—'Dyma y cantorion, penau cenedl y Lefiaid, y rhai oedd mewn ystafelloedd yn ysgyfala.' 1 Cron. 9. 33.

YSGYFARNOG—OD, (ysgyfar) clustiog, yn llawn clustiau; gelwir y creadur hwn felly, am fod ei glustiau yn hirion, a'i glyw yn dda. *Heb.* ארנבת oddiwrth ארה *difrigo*, a ניא *cnwd* y ddaear, am ei fod yn hynod am ddifrigo cnwd y ddaear. Dywed Bochart, i'r ysgyfarnogod, ar amrywiol amserau, ddiffeithio ynysoedd Leros, Astipalœa, a Carpathus. Gwel Bochart, *vol.* ii. Mae eu traed wedi eu llunio at gyflymdra, yn enwedig ar i fynu, gan fod y traed blaen yn fyrach na'r rhai ol. Maent yn ofnus, ac yn nwyfus. Yr oeddynt yn aflan dan y gyfraith, am eu bod yn cnoi eu cil, ac heb fforchogi yr ewin. Lef. 11. 6. Nid annhebyg iddynt yw pechaduriaid anghrediniol, ofnus a chwantus.

YSGYMUN—O—BETH, *Llad.* EXCOMMUNICATIO; *Saes.* EXCOMMUNICATE: diofrydu, diofrydbeth; neillduo, neillduedig.—'Wele, ar Edom y disgyn y farn, ac ar y bobl a ysgymunais.' Esa. 34. 5. Y bobl a ddiofrydais, ac a roddais i farn a melldith. Wrth Edom, yn y lle hwn, deall amryw Rhufain Anghristaidd.

'Yr wyf yn hysbysu i chwi, nad oes neb yn llefaru trwy Ysbryd Duw, yn galw yr Iesu yn ysgymunbeth.' 1 Cor. 12. 3.—'*Calleth Jesus accursed.*' *Saes.* *Gr.* Λεγει αναθημα Ιησους, *yn galw yr Iesu yn anathema.* Edr. ANATHEMA. Yr ystyr yw, yn galw yr Iesu yn dwyllwr; ac am hyny ei roddi i farwolaeth yn gyfiawn. Nid Ysbryd Duw sydd yn dysgu neb i anmharchu yr Iesu, canys gwaith yr Ysbryd Glân yw gogoneddu yr Iesu.

YSGYRNYGU, (ysgwrn) dysgyrnu, chwyrnu, cwrgegian. Job 16. 9. Ps. 35. 16. a 37. 12. Galar. 2. 16. Act. 7. 54. Edr. DANNEDD.

YSGYTHREDD, (ysgwth) pencraig, clegyr, taren. —'Ai wrth dy orchymyn di yr ymgyfyd yr eryr—ac yr erys—ar ysgythredd y graig?' Job 39. 27, 28.

YSGYTHRU, (ysgwthr) brigladd, mân-ddarnio, cerfio, crifio.—'I ba 'r ei y racyscythrwyt Iesu Christ o vlaen eich llygait.' Gal. 3. 1. W. S.

YSGYTIO, (ysgwd) ysgwyd yn fawr.

*Ysgytiu* Pharaoh a'i holl lu,
A hyn fu ei drugaredd,
*E. Prys*, (Ps. 136. 15.)

YSIG—O—DOD, (ys-ig) clais, briw, anafad; cleisio, briwio. Jer. 30. 12, 15.—Yr oedd yn wa-

Digitized by Google

harddedig iddynt offrymu un anifel i'r Arglwydd wed' ei lethu, neu ysigo, neu ddryllio, neu dori; yn arwyddo perffeithrwydd aberth Crist. Lef. 22. 22.

'I ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb.' Luc 4. 18. —'Er maddae o honaf i ryddit yr ei ysic.' W. S.—αποστειλαι τεθραυσμενους εν αφεσει. Y geiriau hyn a gymerir o gyfieithiad y LXX, o Esaiah 58. 6. ac a gyfieithir yno, 'a gollwng y rhai gorthrymedig yn rhyddion.' Rhoddir yn Luc, 'a chaffaeliad golwg i'r deillion,' yn lle 'ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym,' yn Esa. 61. 1. Am, naill eu bod yn tynu llygaid carcharorion yn aml, neu am eu bod yn eu cauad mewn carcharau tywyll. Ymddengys yn eglur oddiwrth y fan hon yn Luc, nad ydoedd ysgrifenwyr y Testament Newydd yn bwriadu cyfieithu yr Hebraeg wrth adrodd geiriau o'r Hen Destament; na dilyn cyfieithiad Groeg y LXX, a thrwy hyny awdurdodi cywirdeb y cyfieithiad hwn; ond yn unig cyfeirio at yr ysgrythyrau cysefin.

Ysigdod enaid, a arwydda, ofnau, ammheuon, gofidiau tufewnol o herwydd pechod, a'i ganlyniadau. Y mae y meddwl yn ddolurus ac yn gofidio o'r achos. Mat. 12. 20. Edr. Calon, Corsen, Dryllio.——'Ysigdod dinas, neu wlad,' ydyw ei drygioni mawr, a'i hannhrefn gofidus, a'i dinystriad o herwydd hyny. Jer. 30. 12, 15.

YSMUDO, (mud) cyffroi, cynhyrfu, dysgogi.—'Ac yn ol y ysmuto ef.' Act. 13. 22. W. S. Sef wedi ei symud o fod yn frenin, ei ddiswyddo. Edr. Diswyddo.—'Ac ef a ysmutawdd o ddyno.' Act. 18. 7. W. S. Sef a aeth oddi yno.—'Can ys wy a ysmudesant 'ogoniant yr anllygredic Dduw i lun delw lygredig ddyn.' Rhuf. 1. 23. W. S.

YSNODEN—AU—I, (noden) talaith, punen, eirionyn, rhymyn, rhymyn pen; y cudyn dedwydd: ysnoden gorni, rhwymyn; ysnoden y môr, math o chwyn y môr.—'A'r ysnodenau.' Esa. 3. 20. *Heb.* קשרים cyfieithir yr un gair *tlysau*, yn Jer. 2. 32. rhyw addurn y pen a feddylir wrth y gair, arferedig gan ferched y dwyrain.

YSPAEN, neu HISPAEN, *Gr.* Ισπανια, [*anaml, gwerthfawr*] gwlad helaeth yn mhen gorllewinol Ewrop. Y mae Portugal a'r Môr Werydd yn ei therfynu i'r gorllewin; Môr y Canoldir i'r dwyrain; cyfyng-fôr Gibralter i'r dehau; a Ffrainc i'r gogledd. Yn yr hen amseroedd cynnwysai Hispaen a Portugal. Rhenir hi yn bresennol yn bedair ar ddeg o daleithiau. Bernir mai Tarsis yr hynafiaid oedd; a galwent hi weithiau Iberia, Hesperia, a Celtiberia, yn gystal ag Hispania. Yr Hispaeniaid a farnant i Tubal mab Japheth ddyfod yno, yn nghylch 143 o flynyddoedd ar ol y diluw, ac iddo ddwyn gwir grefydd y patrieirch gyd âg ef yno; ond mwy tebygol ei phoblogi gan hiliogaeth Gomer, hwyrach, yn nghylch 1000 o flynyddoedd ar ol y diluw. Yr Aiphtiaid, y Pheniciaid, a'r Carthageniaid gwedi hyny a ddaethant iddi, ac a ddygasant, diammeu, lawer o'u defodau a'u harferion gyda hwynt, Gyda llawer o anhawsdra y gorchfygodd y Rhufeiniaid hi. Bu ddarostyngedig iddynt agos 700 o flynyddoedd. Yn nghylch y flwyddyn A. D. 468, y Gothiaid a'r Barbariaid, ar ol rhyfela am 70 o flynyddoedd, a'i goresgynasant, ac a deyrnasasant hyd yn nghlch A. D. 710, pan i ddial sarhad ei ferch, Count Julian a alwodd y Saraceniaid a'r Mooriaid o Affric yno. Gwedi ymladdfa a barhaodd am wyth niwrnod, yn mhen yn nghylch wyth mis meddiannasant y rhan fwyaf o'r wlad. Gwedi ymrysonfeydd dros 900 o flynyddoedd, gyrwyd hwynt allan yn llwyr oddi yno. Bu yn enwog yn nghylch dros 200 o flynyddoedd yn ol, pan ddarostyngasant barthau deheuol Americ: ond eu creulondeb yn Americ, a'u herlidigaethau o'r Protestaniaid yn Ewrop, a dynodd farn Duw arni fel teyrnas; ac alltudio yn nghylch 1,400,000 o Iuddewon a Mooriaid a'i gwanychodd yn ddirfawr; fel y mae wedi bod yn anenwog er's llawer o flynyddoedd. Y mae yn wlad fynyddig, etto yn llawn dyffrynoedd hyfryd a ffrwythlawn, ond bod diffyg amaethyddiaeth yn fawr arni. Y mae yr awyr yn gymhedrol ac yn iachusol. Y mae yn lliosog mewn defaid, a'u gwlan y fath oreu yn y byd. Dywed hanesydd diweddar, Ustaria, bod ynddi 40,000 o fugeiliaid. Y mae ei gwin yn rhagorol, a'i ffrwythau yn hyfryd; megys eur-afalau, eiryn-pêr, almonau, ffigys, grawnwin, resin, &c. Hefyd, y mae llawer o'i dyfroedd yn feddyginiaethol ragorol. Yn yr hen amseroedd yr oedd ynddi lawer o fwn-gloddiau aur ac arian; a'i haiarn sydd yn enwog hyd heddyw. Y mae y trigolion yn rhagori yn eu cymedrolder; nid yw y meibion yn yfed ond ychydig win; ac y maent yn byw llawer ar lysiau o bob math. Y mae ei mynyddoedd agos yn ddirifedi; y prif yw y Pyreneaid, y rhai ydynt 200 o filltiroedd o hŷd, yn cyrhaedd o'r Môr Werydd i Fôr y Canoldir, ac yn ysgaru Ffrainc ac Hispaen oddiwrth eu gilydd.

Planwyd eglwys Gristionogol yn foreu yn y wlad hon, a pharhaodd Cristionogrwydd mewn gradd o burdeb mawr ynddi dros oesoedd; ond, er's oesoedd yn ol, y chwil-lys a Phabyddiaeth sydd yn teyrnasu yno, yn eu holl ddefodau ffol, a chreulondeb gwaedlyd. Nid oes un grefydd arall yn oddefol yn y wlad.——Nid dilys yw, a fu Paul yn pregethu yma; ond tebygol ei fod, cyn ei garcharu yr ail waith yn Rhufain. Rhuf. 15. 24, 28.

YSPAIL—EILIO—YDD, (pail) *Llad.* Spolium; *Saes.* Spoil: ysglyfaeth, anrhaith, ysgwfl; ysglyfaethu, anrheithio.—'Efe (Crist) a rana yr yspail gyd â'r cedyrn.' Esa. 53. 12. Edr. Rhan.—'Yspeiliodd y tywysogaethau,' &c. Col. 2. 15. Edr. Arddangos, Rhanu.——'Gogoneddusach wyt a chadarnach na mynyddoedd yr yspail.' Ps. 76. 4. Mynyddoedd y llewod a'r llewpardiaid. Can. 4. 8. Sef teyrnasoedd y byd hwn, y rhai ynt yn yspeilio ac yn anrheithio eu gilydd fel bwystfilod. Yr Oen ar fynydd Sion a ragora arnynt mewn cadernid; ac y mae yn ddigon cadarn i achub ei braidd oddi rhwng eu dannedd hwy. Dan. 7. 4—7. Dat. 14. 1. a 17. 14. Coccejus.

'Tu ag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yspeilydd.' Ps. 17. 4.—'Y sylwais ar lwybrau yr hwn sydd yn tori trwodd.' Ainsworth. Sylwodd ar lwybrau, gwelodd eu diwedd, ac ymgadwodd rhagddynt. Lleidr yw un sydd yn tori trwodd, i'r dyben o yspeilio; am hyny gelwir ef yma yspeilydd.

YSPIO—WYR, *Ffr.* Espier; *Saes.* Spy: yspiena, selu, chwilio; yspienwr, gwyliedydd. Yspiwyr yw y cyfryw a anfonir gan elynion i chwilio ac i sylwi ar amgylchiadau lle, neu wlad, i'r dyben i'w dreisio a'i feddiannu. Anfonodd Moses ddeuddeg i yspio gwlad Canaan; deg o ba rai a roisant anair iddi; ond Caleb a Josuah oedd âg ysbryd arall tra gwahanol ynddynt, ac a'i canmolasant, ac a annogasant y bobl yn nerth Duw i fyned a'i meddiannu. Bu farw y deg yn y diffaethwch; ond y ddau hyn a aethant i mewn iddi 38 o flynyddoedd gwedi hyn. Num. xiii, xiv. Edr. Caleb, Josuah.——Pan oedd Josuah ar fyned dros yr Iorddonen, anfonodd ddau yspiwr i Jericho, y rhai y dangosodd Rahab garedigrwydd nid bychan iddynt. Jos. ii. Edr. Jericho, Rahab.

YSPLENYDD, (ysplan) claer, dysglaer, goleu. W. S.

YSPWNG, (pwng) *Llad.* Spongia; *Saes.*

Digitized by Google

SPONGE: madarchen, yspwrn, gwlan y môr, tusw i sychu peth âg ef. Mat. 27. 48.—Yr yspwng sydd i'w gael yn glynu wrth greigiau, cregyn, &c., wrth y moroedd. Naturiaethwyr, yn mhob oes, ydynt wedi bod mewn cyfyng-gynghor yn mysg pa ryw o greaduriaid i roddi yr yspwng. Yn bresennol bernir ei fod o wneuthuriad ac yn breswylfod rhyw fath o bryfyn. Dygir y rhan fwyaf o honynt i'n gwlad ni o Fôr y Canoldir, yn neillduol o ynys Nicaria, a chyffiniau Asia; ond dygir rhai o dref Cystenyn, a'r rhai salaf o Barbary, yn agos i Tunis ac Algiers. Y nodau eu bod o'r fath oreu yw eu bod yn wyn ac yn ysgafn, a'u tyllau yn fychain. Y mae yr yspwng yn ddefnyddiol ar amryw achosion; a defnyddir ef wedi ei losgi yn feddyginiaethol mewn rhai clefydau.

YSPYDDAD—AID—EN, (yspydd) draenen wen, ogfaen llwyn.—'Yn yr yspyddaid oll, ac yn y perthi oll.' Esa. 7. 19. Ezec. 28. 24.—'Gosodaf yn y diffaethwch ffinnidwydd, ffawydd, ac yspyddaid ynghyd.' Esa. 41. 19. Dr M.

YSPYTTY, (yspyd-ty) clafdy, lletty.—'E daeth llaweroedd attaw ir hospyty.' Act. 28. 23. W. S.

YSSOP, *Heb.* אזוב *Gr.* υσσωπος; *Llad.* HYSSOPUS; *Ffr.* HYSSOPE; *Saes.* HYSSOP. Prysgen yw yr yssop a rydd lawer o imp oddiwrth un gwreiddyn yn unig; y mae mor galed a choed mawr, ac yn tyfu yn nghylch troedfedd a hanner o uchder. Y mae dail yn tarddu o bob tu i'r paladr, go hirion, celyd, poethion, pêr eu harogl, ac yn chwerw i'r archwaeth. Y mae dau fath o hono; sef yssop y gerddi, ac yssop y mynydd. Tebygol ei fod yn tyfu yn uchel yn ngwlad Judea, gan i un o'r milwyr lenwi yspwng o winegr, a'i roddi ar gorsen yssop, a'i ddodi wrth enau yr Iesu ar y groes. Canys yr hyn a eilw Matthew a Marc corsen, a eilw Ioan yssop. Mat. 27. 48. Marc 15. 36. Ioan 19. 29. Defnyddient ef yn taenellu gwaed oen y pasc, Exod. 12. 22.—yn glanhau y gwahanglwyfus, Lef. 14. 4, 6.—yn gwneuthur ac yn taenellu y dwfr puredigaeth, Num. 19. 6, 18.—yn cysgodi rhinwedd glanhaol dyoddefiadau chwerwon Crist. Eglur yw, fod Dafydd yn deall ei ystyr cysgodol ac arddangosiadol. Ps. 51. 7.——Priodolir i'r yssop lawer o rinweddau meddyginiaethol, ac a'i defnyddir yn aml yn afiechyd yr ysgyfaint. *Tea* o'r dail gwedi ei fylysu â mêl sydd yn rhinweddol rhag y pesychu, a chaethder yn mhibellau yr ysgyfaint. Cymeradwyir ef hefyd yn yn feddalai wrth ysigdod. Rhydd Mr Boyle hanes am un a gafodd ysigdod erchyll oddiwrth darawiad ceffyl, a iachawyd trwy feddalai o'r llysieuyn hwn wedi ei ferwi.

YSTABL—AU, *Llad.* STABLUM; *Teut.* STALL: marchdŷ, amau. 1 Bren. iv., cynnwysiad y bennod. Nid oes dim yn tueddu mwy i iechyd march, na marchdŷ da, iachus. Dylai ei sefyllfa fod lle y caffai ddigon o awyr dda—ar dir caled, sych. Dylai pob peth oddi amgylch iddo fod yn lân, heb un cut moch, geudŷ, ysgothfa, na chlwyd i'r ieir yn agos ato. Y mae pob ffieidd-dra yn niweidiol i farch, ac yn magu llawer o afiechyd ynddynt.

YSTAD—AU, *Gr.* σταδιοσ (*stadios*); mesur yn cynnwys yn nghylch 220 o latheni, neu yr wythfed ran o filltir.—Dywedir fod Emmaus yn nghylch 60 ystad o Jerusalem, sef yn nghylch wyth milltir. Luc 24. 13. Bethania oedd yn nghylch 15 ystad o Jerusalem, sef yn nghylch dwy filltir. Ioan 11. 18.—Y Jerusalem newydd oedd o gylch yn 12,000 o ystadau, sef 3000 bob ochr; sef deuddeg wedi ei lïosogi, yn cyfeirio at y deuddeg apostol. Dat. 21. 16.

'A gwaed a ddaeth allan o'r gerwyn hyd at ffrwynau y meirch, ar hyd mil a chwe chant o ystadau.' Dat. 14. 20. Barna Mr Faber fod y geiriau hyn yn nodi yn neillduol y wlad lle y dinystrir gelynion yr eglwys yn Armagedon. Dywedir yn Daniel, y bydd i Anghrist osod pebyll ei lys rhwng y moroedd, sef rhwng y Môr Marw a Môr y Canoldir, ar yr hyfryd fynydd sanctaidd. 'Daw hyd ei derfyn, ac ni bydd gynnorthwywr iddo.' Dan. 11. 45. Y mae prophwydoliaethau yn Joel iii. a Zech. xiv. yn crybwyll yn amlwg y bydd i'r ymrysonfa ddiweddaf rhwng yr Arglwydd a gelynion ei eglwys gael ei therfynu yn ngwlad Canaan. Y mae yn neillduol nodedig, mai hŷd Palestina, y wlad rhwng y ddau fôr, ar hŷd glàn y môr o'r terfyn deheuol i'r terfyn gogleddol, ydyw 1600 *resin*, neu ystadau Iuddewaidd. Gwel D'Anville's *Map of Palestine*. Sylwodd Jerome yn foreu ar y cyfladdiad rhwng hŷd Palestina a'r 1600 ystadau. Hyn, yn mhlith pëthau eraill, a barodd i'r hen dadau farnu y byddai i Anghrist gael ei ddinystrio yn y wlad hòno. Gelwir y lle Armagedon, sef diofrydu i ddinystr cyflawn yn Megido: dyffryn Jehosaphat, sef barn yr Arglwydd: glyn terfyniad, neu dinystriad. Joel 3. 12, 14. Ac yma, gwlad â'i hŷd yn 1600 o ystadau, tu allan i'r ddinas; sef ymerodraeth Rhufain. Gwel Faber's *Essays on the Prophecies, vol.* ii.

'Yna, wedi iddynt rwyfo yn nghylch pump ar hugain, neu ddeg ar hugain o ystadau, gwelent yr Iesu yn rhodio ar y môr,' &c. Ioan 6. 19. Golygai yr henafiaid hyn yn beth mor anmhosibl, fel yr oedd llun dau droed yn rhodio ar y môr, yn arwydd Aiphtaidd o beth *anmhosibl*. Cyffëir fel yn briodol i Dduw yn unig, ei fod yn sathru ar dònau y môr. Job 9. 8.

YSTAFELL—OEDD—YDD, (ystaf) cell, rhandŷ, llogawd.—'Ystafell wely.' 2 Bren. 6. 12.—'Ystafell ddirgel.' 2 Bren. 9. 2.—'Ystafell angeu,' sef y bedd. Diar. 7. 27.——'Goruwch-ystafell,' neu ystafell. Act. 1. 13. Byddai y Cristionogion, yn nyddiau yr apostolion, yn ymgyfarfod yn aml mewn goruwch-ystafelloedd, er llonyddwch a diogelwch; rhoddent eu meirw i orwedd ynddynt; a byddai gan yr Iuddewon allorau i eilunod ynddynt. Actau 9. 37. a 20. 8. 2 Bren. 23. 12. Jer. 19. 13.

Gelwir y cymylau yn 'ystafelloedd Duw,' o bai rai y dug allan ei drysorau o wlaw ac eira; ac y dengys ryfeddodau ei ddoethineb a'i allu. Ps. 104. 3, 13.——'Ystafelloedd Crist,' ydyw ei ordinhadau, yn mha rai y cymdeithasa yn neillduol â'i bobl, y dysg, ac y dyddana hwynt. Can. I. 4.

'Tyred, fy mhobl, dos i'th ystafelloedd, a chau dy ddrysau arnat: llecha megys enyd bach, hyd onid elo y llid heibio.' Esa. 26. 20. Cynnwys y geiriau gynghor i amynedd ac ymostyngiad dan orthrymder, gyda dysgwyliad hyderus am waredigaeth trwy allu Duw yn cael ei ddadguddio yn ogoneddus yn ninystr y gorthrymwr. Y mae cyfeiriad y geiriau at waredigaeth Israel dan gysgod y gwaed, yn yr Aipht; ac at y waredigaeth wrth y Môr Coch. Exod. 12. 22. a 14. 13, 14. Arwyddant, myned i gysegr Duw mewn myfyrdod a syniad ysbrydol, i edrych ar brydferthwch a pherffeithiau yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a gweled diwedd ffyrdd gorthrymus yr annuwiolion. Ps. 73. 17. a 77. 11, 12, &c.

Ystafellydd, oedd swyddog breninllys, mawr ei barch, ac uchel ei sefyllfa; y rhai oeddynt yn eunuchiaid, y rhan amlaf. 2 Bren. 9. 32. a 23. 11. Actau 12. 20 Edr. EUNUCH.

YSTALM, (talm) enyd, encyd, yspaid. Esa. 25. 1. Mat. 11. 21. 2 Petr 3. 5. Judas 4.

YSTELIO, לטא [*glynu*] math o lysard gwenwynllyd, yn nodedig am lynu wrth y ddaear. Lef. 11. 30. Yr oeddynt yn aflan dan y gyfraith.

YSTEN—AU, piser, cynog, croth-lestr, diod-lestr, Gen. 24. 14. 1 Bren. 17. 12. Edr. PISER.

Digitized by Google

YSTIG—O, (yst) astud, diwyd, dyfal, parhaus.

Fe ddysg ei lwybrau mewn barn iawn,
I'r rhai ufuddiawn *ystig*.
*E. Prys*, (Ps. 25. 9.)

Ystyr nad da yn *ystig*
Y ddyn ei dda a'i Dduw yn ddig.
*Dr Sion Cent.*

YSTLUM—OD, (yst-llum) creadur ydyw yr ystlum yn tebygu mewn rhan i anifeiliaid, ac mewn rhan i adar. Eheda fel aderyn, trwy estyn allan fath o groen neu bilen, sydd gysylltiedig â'i draed blaen; ond safn anifel, ac nid gylfin sydd ganddo: arwisgir ef â blew, ac nid â phlu: dug ei rai ieuainc yn fyw, ac nid o wyau: ac yn tebygu yn fwyaf i lygoden. Y mae dwy ddiden gan y fenyw, ac eppilia ddau ar unwaith. Ehed weithiau â'i rhai ieuainc yn glynu wrth ei didenau. Yn y gauaf, yr ystlumod a ymorchuddiant â'u hadenydd, a chysgant yn nghrog mewn ogofëydd neu hen adeiladau. Yn yr hâf ymguddiant y dydd, ac ehedant oddi amgylch yn yr hwyr, i ddal ednogynau. Ymborthant ar ednogynau, gwer, olew, caws, &c. Dywedir fod rhai o honyyt gymaint ag ieir yn China a Golconda, a'r trigolion a ymborthant arnynt. Ystlumod mawrion yn Brazil a Madagascar, os cânt ddyn yn cysgu âg un rhan o'i gorph yn noeth, a ddisgynant arno, ac a sugnant ei waed i farwolaeth.—Yr oedd yn greadur aflan dan y gyfraith. Lef. 11. 19. Deut. 14. 18.

Nid diffaith ond *ystlum*. *Diar.*

'Yn y dydd hwnw y teifl dyn ei eilunod arian, a'i eilunod aur (y rhai a wnaethant iddynt i'w haddoli) i'r wadd ac i'r ystlumod.' Esa. 2. 20. 'Yn ffoi rhag ofn yr Arglwydd i agenau y creigiau, ac i gopäu y clogwyni (neu ogofëydd y creigiau cribog) dygant eu heilunod gyda hwynt: ac yno y gadawant hwynt i'r creaduriaid aflan sydd yn hygyrchu i'r cyfryw leoedd, ac wedi cymeryd meddiant o honynt, megys eu preswylfëydd priodol.' Gwel Harmer's *Obs.*, *vol.* ii.

YSTLYS—AU, (ystyl) tu, ochr, parwyden.—1. Un tu i beth. Gen. 6. 16. Deut. 31. 20. 1 Sam. 6. 8. ——2. Cyffiniau gwlad, neu byrth ei dinasoedd. Ezec. 25. 9.——3. Cyrau pell y byd a elwir 'ystlysau y ddaear.' Jer. 6. 22.

Ystlys-bost yw post ochrog drws: 'ar y ddau ystlysbost, ac ar gapan y drws,' yr ydoedd gwaed oen y pasc i gael ei daenellu yn nhai yr Israeliaid yn yr Aipht, er eu diogelwch. Exod. 12. 7. Yr oedd i fod oddi amgylch y drws, ond nid ar y trothwy i gael ei sathru dan draed. Edr. Pasc.

YSTOD—ION, (tod) rhedfa, gyrfa, helynt, haen, gwanaf.

A holl dŷ Israel a'u clod,
A'u pwys a'u *hystod* atad.
*E. Prys*, (Ps. 22. 3.)

*Ystod* fawr wnaeth Duw yn wir,
Ein dwyn i'n tir cynnefin.
*E. Prys*, (Ps. 126. 3.)

YSTOF—I—ION, (tof) *Gr.* στημων; *Llad.* Stamen: edafedd yn y gwŷdd ar draws pa un y teflir yr anwe; dylifo. Lef. 13. 48—59. Edr. Anwe.

YSTOL—ION, (tol) *Gr.* στολος; *Llad.* Sela; *Saes.* a *Dan.* Stool; *Teut.* Stuhl: mainc, gosail, eistedd-fainc, cadair. 1 Bren. 7. 27. 2 Bren. 4. 10. a 25. 13. Ezra 3. 3. Zech. 5. 11.—Gelwir y deml a'r drugareddfa ynddi, 'stol-droed Duw.' 1 Cron. 28. 2. Ps. 99. 5. Edrych Nob, Trugareddfa, Teml.

YSTOR—AU—IO, (tor) trysor, amlder, amledd; trysori, amlhau. Nah. 2. 9. Diar. 10. 14.

YSTORI—AU, *Gr.* ιστορια; *Llad.* Historia; *Ffr.* Histoire; *Saes.* History: hanes, brud, brut; hanesyddiaeth.—'Llyfr ystoriau dy dadau.' Ezra 4. 15, Sef llyfr coffadwriaethau o ddygwyddiau yn eu hamserau hwy.

YSTORM—US, (torm) *Ital.* Stormori; *Dan.* Stormen; *Saes.* Storm: curwynt, tymhestl, dihinedd, rhyferthwy; tymhestlog. Mae y gwynt a'r môr yn ufuddhau i'r Arglwydd; ac efe sydd yn gwneuthur yr ystorm yn dawel: ac y mae y gwynt ystormus yn gwneuthur ei air, yn ei foliannu. Ps. 107. 29. a 11. 6. a 55. 8. a 149. 8. Edr. Tymhestl.

YSTRYD—OEDD, (tryd) *Llad.* Strata; *Belg.* Straet; *Dan.* Straede; *Ital.* Strada; *Saes.* Street: heol, ystrad.—'Dos allan ar frys i heolydd ac ystrydoedd y ddinas.' Luc 14. 21. 'Ir heolydd ar gwigoedd y ddinas.' W. S. Y gair *Gr.* πλατεια, a gyfieithir *heol*, a arwydda lle mwy ëang a llydan; felly ρυμη, a gyfieithir *ystryd*, a arwydda lle mwy cyfyng; sef heol lydan a heol gul—y cyfryw rodfeydd ag sydd yn perthyn i ddinasoedd; ac y mae y ddau hyn yn cynnwys yr holl ddinas.—Myned i'r heolydd a'r ystrydoedd, a arwydda, myned at holl drigolion y ddinas, y cyfoethogion a'r tlodion, y boneddig a'r gwreng. Y ddinas ydyw y wladwriaeth Iuddewig. Pregethwyd yr efengyl gan Ioan Fedyddiwr, Iesu a'i apostolion, i'r holl Iuddewon: cawsant y genadwri yn gyntaf, a galwyd llawer o honynt; ond etto yr oedd lle i wahodd y Cenedloedd o'r prif-ffyrdd a'r caeau i mewn hefyd; yr oedd hyn yn mwriad a threfn Duw, ac yr ydoedd darpariad helaeth wedi cael ei wneuthur, cyfatebol i luoedd y gwahoddedigion o'u plith, a'u hangen mawr.

YSTRYW, (tryw) treiddiad, cyfrwysdra, dichell, dychymyg.

Y sawl ni rodia, dedwydd yw,
Yn ol drwg *ystryw* gynghor.
*E. Prys*, (Ps. 1. 1.)

YSTYR—IED, (yst-yr) darbod, pwyllo, darbwyllo, craff synied, edrych yn ei gylch, cymeryd hamdden; meddylio, myfyrio.—1. Meddwl am, neu fyfyrio ar. Dan. 7. 8. Hag. 1. 5. 2 Tim. 2. 7.——2. Penderfynu, gwedi manwl a dwys feddwl. Barn. 18. 14. a 19. 30.——3. Meddwl am beth gyda rhyfeddod a syndod. Job 37. 14.——4. Meddwl am un gyda thosturi, a bwriad i'w ymgeleddu. Ps. 41. 1.——5. Anghofio. Deut. 4. 39. a 32. 7.

Y mae Duw yn ystyried ei bobl, trwy edrych ar eu gofidiau, gwrando eu gweddïau, a threfnu ffordd o ymwared iddynt o'u cyfyngderau. Ps. 17. 1. a 130. 2. ——Yr ydym ni yn ystyried Crist Iesu, wrth feddwl yn ddwys ac yn barhaus am dano, yn edrych arno gyda chariad a syndod, yn ei Berson, ei swydd, a'i waith; a'i ddefnyddio i'r dyben y gosodwyd ef gan Dduw, sef yn Iachawdwr cyflawn i ni. Heb. 3. 1.

'Gan dy ystyried dy hun.' Gal. 6. 1. Sef, gan olygu yn ddifrifol ein gwendid, ein pechadurusrwydd, ein mawr berygl o lithro a chyfeiliorni.

'A chyd-ystyriwn bawb ein gilydd,' &c. Heb. 10. 24. Golygu mewn cariad, amgylchiadau, profedigaethau, a gwendidau ein gilydd; annog ein gilydd i'r dyledswyddau priodol i'n hamgylchiadau.

'Pwy bynag a ddigio wrth ei frawd heb ystyr, a fydd euog o farn.' Mat. 5. 22.—'A ddigio wrth ei frawd yn anghyfiawn.' Campbell.—*Gr.* εικη, *yn anynat.* W. S.—'Heb achos digonol.' Parkhurst. Yr hyn a arwydda ymollwng, a rhoddi lle i nwydau drwg. Dywedir fod un yn gwneuthur peth, εικη, *heb ystyr*, yr hwn sydd yn ymroddi i'w nwydau, ac yn cael ei orchfygu ganddynt, ac yn gwneuthur peth heb gynghor, ystyr, na rheswm. Piscator.

YSU, neu ESU—OL, (es) ymrythu, bwyta yn wancus, llyncu, difa, treulio. Deut. 4. 24. Heb.

Digitized by Google

12. 29. Act. 12. 23. Cam-argraffwyd y gair hwn yn Job 27. 23. trwy ei roddi yn *hysant* yn lle *hysiant*. Edr. TAN.

YSWAIN—EINOEDD, (gwain) cludydd arfau, ïsamer.—'Ei yswain hefyd oedd yn lladd ar ei ol ef.' 1 Sam. 14. 13. a 31. 4.

# Z.

ZABAD, 1. Mab Nathan, a thad Ephlal. 1 Cron. 2. 36, 37.——2. Mab Tahath. 1 Cron. 7. 21.——3. Mab Simeath, un o weision y brenin Joas a fradfwriadodd yn ei erbyn, yr hwn, yn nghyd â Jehozabad, a'i lladdodd. 2 Cron. 24. 26.——4. Un o gaethion Babilon, yr hwn, gwedi ei ddychweliad, a briododd wraig ddyeithr. Ezra. 10. 27.

ZABBAI, זבי [*rhedegwr*] Ezra 10. 28.

ZABBUB, un a ddychwelodd o Babilon. Ezra 8. 14.

ZABDI, זבדי [*rhan*] 1. Taid Achan. Jos. 7. 1.——2. Arolygwr selerau gwin Dafydd. 1 Cron. 27. 27. Neh. 11. 17.

ZABDIEL, זבדיאל [*rhan Duw*] tad Jasobeam. 1 Cron. 27. 2.

ZABUD, זבוד [*rhan*] mab Nathan, pen-llywydd a chyfaill i'r brenin Solomon. 1 Bren. 4. 5.

ZABULON, זבלון [*cynnyrgaeth*] chweched mab Jacob o Leah. Gen. 30. 20. Yr oedd iddo dri mab, Sered, Elon, a Jahleel, ac i bob un o honynt deulu llïosog. Rhifedi eu milwyr, pan ddaethant o'r Aipht, oedd 57,400, ac Eliab, mab Elon, oedd eu tywysog; cynnyddasant yn yr anialwch 3100. Eu hyspïwr i chwilio gwlad Canaan, oedd Gadiel mab Sodi; a'u tywysog i ranu y wlad oedd Elisaphan, mab Pharnach. Gen. 46. 14. Num. 1. 9, 31. a 13. 10. a 26. 26, 27. a 34. 25. Yr oedd eu hetifeddiaeth y tu dehau i lwythau Aser a Naphtali, ac yr oedd Môr Galilea i'r dwyrain, a Môr y Canoldir i'r gorllewin iddynt: cyfoethogasant trwy eu pysgodfäoedd, eu morwriaeth, a gwneuthur gwydr; yr oeddynt yn onest yn eu masnachaeth, ac er eu pellder o Jerusalem, yr oeddynt yn ddyfal yn dyfod i fynu i addoli. Rhag-fynegodd Jacob sefyllfa eu hetifeddiaeth yn neillduol ddau can mlynedd cyn rhanu y wlad: 'Zabulon a breswylia borthladdoedd y môr; ac efe a fydd yn borthladd llongau, a'i derfyn fydd hyd Sidon.' Gen. 49. 13. Yr un fath Moses hefyd—'Galwant bobloedd i'r mynydd,' sef i fynydd Sion; 'yna yr aberthant ebyrth cyfiawnder: canys cyfoeth y moroedd a sugnant, a chuddiedig drysorau y tywod.' Deut. 33. 19. Annogant eu gilydd i fyned yno i addoli Duw, ac annogant hefyd a chynghorant y cenedloedd y byddant yn masnachu â hwynt yn nghylch addoliad Duw.——Ni yrasant y Canaaneaid o Citron a Nahalol. Barn. 1. 30. Cynnorthwyasant Barac yn erbyn Jabin, a Gedeon yn erbyn y Midianiaid. Barn. 4. 10. a 5. 14, 18. a 6. 35. Elon, Zabuloniad, a farnodd Israel ddeng mlynedd. Barn. 12. 11. Yr oedd 50,000 o honynt yn coroni Dafydd, ac a ddygasant ymborth gyda hwynt. 1 Cron 12. 33, 40. Ps. 68. 27. Gorthrymwyd a chaethiwyd llawer o honynt gan Tiglath-Pileser. 1 Cron. 5. 26. Y gweddill a ymunasant â Hezeciah yn ei ddiwygiad. 2 Cron. 30. 11. Anrhydeddwyd eu gwlad yn arbenig â gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu, a hwyrach fod y rhan fwyaf o'i ddysgyblion o'r llwyth hwn. Esa. 9. 1, 2. Mat. 4. 13, 15.

Yr oedd dinas o'r enw hwn yn llwyth Aser. Jos. 19. 27. Dywedir ei bod yn ei hadeiladaeth yn tebygu i Tyrus; cymerwyd a llosgwyd hi gan Cestius, tywysog Rhufeinaidd, A. D. 66.

ZACCAI, זכי [*pur*] 760 o'i feibion a ddychwelasant o Babilon. Ezra 2. 9.

ZACCUR, זכור [*cofiadur*] 1. Tad Sammua o lwyth Reuben. Num. 13. 4.——2. Mab Hamuel. 1 Cron. 4. 26.——3. Lefiad o dylwyth Merari. 1 Cron. 24. 27. Ac un arall o deulu Asaph. 1 Cron. 25. 2.

ZACCHEUS, Ζακχαιος, [*pur*] Iuddew o genedl, ac wrth ei swydd pen-publican. 'Yr enw Zacchëus (yr un a Zaccai, Ezra 2. 9.) a brofa mai Iuddew o genedl ydoedd.' Doddridge. Edr. PUBLICAN. Nid oes dim ychwaneg o hanes credadwy am dano nag a roddir i ni gan yr efengylwr Luc, pen. 19. 1—10. Cywreinrwydd, tebygol, a barodd iddo chwennych gweled yr Iesu, hwyrach gwedi ei chwanegu yn fawr wrth glywed am y wyrth yr oedd yr Iesu newydd ei gwneuthur ar Bartimëus, wrth ddyfod i Jericho, ar ei daith i Jerusalem i ŵyl y pasc. Luc 18. 35—43. Ac wrth fyned trwy Jericho, y rhedodd Zacchëus, ac a ddringodd i ben sycamorwydden, fel y gallai ei weled ef; o herwydd nis gallasai mewn modd arall ei weled, o herwydd y dyrfa lïosog oedd yn ei ganlyn, ac yntau yn fychan o gorpholaeth. Pan ddaeth yr Iesu i'r lle, edrychodd i fynu, ac a'i canfu ef, ac a'i galwodd wrth ei enw, er nas adnabu ef o'r blaen, ac a ddywedodd wrtho, 'Disgyn ar frys; canys rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di;' gwyddai yr Iesu fod ei dŷ yn y blaen ar y ffordd. 'Ac efe a ddisgynodd ar frys, ac a'i derbyniodd ef yn llawen.' Effeithiodd galwad yr Arglwydd Iesu arno yn rhyfedd, i gyfnewid ei galon, a gweithio ynddo wir ffydd ac edifeirwch. Ar waith y Phariseaid ac eraill yn grwgnach, am fyned o'r Iesu i mewn i lettya at ŵr pechadurus, safodd Zacchëus yn eu canol i amddiffyn yr Iesu, trwy addef y cyfnewidiad a wnaed arno, a phroffesu ei fwriad i ad-dalu ar ei bedwerydd, os dygodd ddim trwy gam-achwyn, a rhoddi hanner y gweddill i'r tlodion. Tystiolaethodd yr Iesu am dano yn ganlynol, 'Heddyw y daeth iechydwriaeth i'r tŷ hwn.' Hyd yn hyn o'i fywyd yr oedd Zacchëus wedi byw heb iechydwriaeth, yn brysur iawn yn casglu trysorau darfodedig; ac yn awr nid oedd yn ymofyn am iechydwriaeth, er bod arno ryw ddymuniad i weled yr Iesu. Nid ei cheisio yr oedd ef, ond dyfod a wnaeth hi i'w dŷ.

Y mae yn y gwr hwn ddangosiad neillduol, 1. O effeithioldeb gras Duw. Galwad Crist arno a effeithiodd yr holl gyfnewidiad a ganfyddir arno yn ol llaw. Mae y cyfnewidiad yn gyflawn, ac yn cael ei effeithio ar unwaith: y mae gras yn buddugoliaethu ar holl galedwch, cyndynrwydd, a daearoldeb ei feddwl, ac y mae yn profi meddyginiaeth tufewnol yn ei enaid, yn ei iachâu o'i holl bläau marwol. Daeth iechydwriaeth i mewn gyd âg awdurdod a mawredd achubol meddyginiaethol, yn bwrw cestyll cedyrn o lygredigaethau a dychymygion am ddyrchafiad yn y byd, i'r llawr, a phob uchder yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, a chaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist. 2 Cor. 10. 4, 5.

2. Rhadlonrwydd trugaredd achubol Duw. Yn wyneb y gwrthuni a'i ffieidd-dra mwyaf, y mae Duw yn tosturio ac yn achub. 'Gwr pechadurus,' oedd nodweddiad y dyn hwn hyd yn hyn; hyny yw, yr oedd yn bechadur cyhoeddus a nodedig; yn gwneuthur llawer o anghyfiawnder yn ei swydd â'r rhai na roddent, er ei elw ef, fwy nag oedd yn ofynol o drethi i'r



Digitized by Google

flywodraeth—yr oedd yn cam-achwyn arnynt, tebygol, i'r Rhufeinwyr, fel yn anufudd i'w hawdurdod hwy; ac felly yn cael cymhorth y milwyr i rymuso ei ofynion gormesol. Yr oedd hyn yn ffiaidd ac yn greulon; etto, er hyny, daeth iechydwriaeth i'r tŷ *hwn—y tŷ pechadurus, aflan, hwn*. Ond iechydwriaeth ydoedd, a iachâd gwirioneddol oedd ei heffaith gysurol.

3. Gwelwn hefyd yn y cynllun hwn, natur gwir edifeirwch, a gwir gyfnewidiad grasol ar enaid. Nid ydym i farnu am wirionedd edifeirwch wrth y dychrynfeydd a fyddo yn ei ganlyn, ond wrth ei effeithiau sanctaidd; y mae yr hen bethau yn myned heibio, a 'phob peth yn newydd;' y deall, yr ewyllys, y tueddiad, a'r agweddiad, yn newydd. Yn ol cyfraith Moses, os lladratâi neb ŷch neu ddafad, a'i ladd a'i werthu, yr oedd iddo dalu pum ŷch am ŷch, a phedair dafad am ddafad. Exod. 22. 1—4. Lef. 6. 1—6. 1 Sam. 12. 3. Yn cyfateb i hyn mae ffrwythau edifeirwch yn ymddangos yn y gwr hwn: ac nis dichon neb brofi gwirionedd ei edifeirwch yn y cyffelyb amgylchiadau, heb y cyffelyb ffrwythau; 'ffrwythau addas i edifeirwch' ydynt.

ZAHAM, זהם [*anmhuredd*] mab Rehoboam o Abihael, merch Eliab mab Jesse. 2 Cron. 11. 19.

ZAMZUMMIAID, זמזמים [*beiau mawrion*] cawri, tebygol, o hiliogaeth Ham, y rhai a breswylient o du y dwyrain i'r Iorddonen; eu gwlad a anrheithiwyd gan Cedorlaomer. Torwyd hwynt ymaith, neu gyrwyd hwy o'u gwlad, gan yr Ammoniaid. Gen. 14. 5. Deut. 2. 20.

ZANOAH, זנוח [*anghof*] mab Jecuthiel. 1 Cron. 4. 18.

ZARAH, זרח [*erachen*] mab Judah o Tamar, a brawd Phares. Gen. 38. 29, 30. Yr oedd hiliogaeth ei bum mab yn llai eu rhifedi na hiliogaeth Phares. Num. 26. 20. 1 Cron. 2. 6.

ZARED, זרד [*disgyniad chwyrn*] afon y tu hwnt i'r Iorddonen, yn rhedeg i'r afon Arnon, ac i'r Môr Marw. Num. 21. 12.

ZATTU, זתוא [*olew-wydden*] un o'r rhai a seliodd y cyfammod â'r Arglwydd, gwedi y dychweliad o Babilon. Neh. 10. 14. Ezra 2. 8.

ZAZA, זזא [*dysglaer*] mab Jonathan o dylwyth Jerameel, mab Hezron o Judah. 1 Cron. 2. 33.

ZEBADIAH, זבדיה [*rhan yr Arglwydd*] yr oedd amryw o'r enw hwn. Gwel 1 Cron. 8. 15, 17. a 12. 7. a 26. 2. Ezra 8. 8.

ZEBAH, זבח [*aberth*] tywysog y Midianiaid. Barn. 8. 5, 21. Ps. 83. 11. Edr. GIDEON.

ZEBEDEUS, זבדי [*rhan*] tad yr apostolion Iago ac Ioan. Pysgodwr wrth ei alwedigaeth oedd, a'i wraig oedd Salome. Mat. 4. 21.

ZEBUDAH, זבידה [*cynnysgaethedig*] mam Jehoiacim brenin Judah. 2 Bren. 23. 36.

ZEBUL, זבל [*preswylfod*] tywysog Abimelech mab Gideon. Barn. 9. 28.

ZECHARIAH, זכריה [*coffadwriaeth yr Arglwydd*] 1. Tywysog un o deuluoedd llwyth Reuben. 1 Cron. 5. 7.——2. Brenin Israel, mab Jeroboam yr ail, a'r pedwerydd o hiliogaeth Jehu. Teyrnasodd un mis ar ddeg, ac a laddwyd gan Salum mab Jabes, yr hwn a deyrnasodd yn ei le. Fel hyn y cyflawnwyd yr hyn a rag-ddywedodd yr Arglwydd am deulu Jehu, y byddai i'w hiliogaeth, hyd y bedwaredd genedlaeth, deyrnasu ar Israel. 2 Bren. 14. 29. a 15. 8—11. ——3. Mab Jehoiada yr arch-offeiriad, yr hwn a alwyd, hwyrach, Asariah. Joas a'i lladdodd am iddo ei argyhoeddi a'i rybuddio ef, a'r bobl, am eu heilun-addoliaeth a'u drygioni. 'Pan oedd efe yn marw, dywedodd, Edryched yr Arglwydd, a gofyned.' Dywedodd hyn, nid mewn ysbryd dial, ond yn brophwydoliaethol. 2 Cron. 24. 20—25.——4. Mab Meselemiah, porthor y deml, o dylwyth Corah 1 Cron. 9. 21.——5. Lefiad, dysgedig yn y gyfraith, a anfonwyd gan Jehosaphat trwy y wlad i addysgu y bobl. 2 Cron. 17. 7.——6. Mab Jeberechiah, neu Berechiah, yr hwn oedd ganddo ddeall yn ngweledigaethau Duw. Efe oedd un o'r tystion ffyddlon i ysgrifen Esaiah. 2 Cron. 26. 5. Esa. 8. 1.——7. Tad Abi, mam y brenin Hezeciah. 2 Bren. 18. 2. 2 Cron. 29. 1.——8. Lefiad o deulu Asaph. 2 Cron. 29. 13.——9. Mab Berachiah, ac ŵyr Ido, a'r unfed-ar-ddeg o'r prophwydi lleiaf. Dychwelodd o Babilon gyda Zorobabel; a phan oedd etto ond ieuanc, dechreuodd brophwydo yn yr ail flwyddyn i Darius Hystaspes, A. M. 3484, yn nghylch dau fis ar ol Haggai. Y ddau a annogasant y bobl yn fawr i adeiladu yr ail deml. Tebygol i Zechariah brophwydo dros yspaid hŵy o amser na Haggai. Nid oes dim mwy gwybodaeth am dano nag a roddir i ni yn yr ysgrythyrau. Gwel Ezra 5. 1, 2. a 6. 14. Cyfeirir at ei lyfr yn aml yn y Testament Newydd. Cymh. pen. 9. 9. â Mat. 21. 4, 5. Ioan 12. 14, 15, 16.—pen. 11. 12, 13. â Mat. 26. 7, 10.—pen. 12. 10. â Ioan 19. 34, 37. Dat. 1. 7.—pen. 13. 7. â Mat. 26. 31. Marc 14. 27. Ei brophwydoliaethau rhagorol, amryw o honynt, ydynt wedi eu cyflawni yn rhyfedd yn ddiddadl, a brofant ei fod yn brophwyd Duw, ac iddo 'lefaru megys y cynhyrfwyd ef gan yr Ysbryd Glân.' Mae y rhan fwyaf o'i lyfr wedi ei ysgrifenu mewn rhyddiaith; ond pen. ix, x., a dechreu yr unfed ar ddeg, ydynt yn brydyddiaeth tra addurnedig. Gwel Lowth, *Præl. Heb.* 282.—Cafodd yr enw o fod yn 'Haul yn mhlith y prophwydi lleiaf;' ac y mae yr amser yn nesâu pan yr ymddengys priodoldeb yr enw yn fwy, fel y byddo ei brophwydoliaethau wedi eu cyflawni yn holl ëangder eu hystyr, yn pen. xiii, xiv.—Cyffyrddwyd âg amryw ranau o'i lyfr eisoes yn achlysurol yn y gwaith hwn: am hyny afreidiol helaethu yma.——10. Offeiriad o ddyddgylch Abia, gwr Elisabeth, a thad Ioan Fedyddiwr. Gwel Luc i. Nid oes dim ychwaneg o hanes credadwy am dano, nag a roddir yno. Ei ddynweddiad a roddir i ni yn rhagorol gan yr Ysbryd Glân; sef ei 'fod ef ac Elisabeth yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn *holl* orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd.' Am iddo anghredu cenadwri yr angel, tarawyd ef â mudandod; ond ar enwaediad y dyn bach, ei fab, agorwyd ei enau ef yn ebrwydd, a'i dafod ef; ac efe a lefarodd, gan fendithio Duw. Cyfansoddodd hymn neu gân ragorol ar yr achos, yn cynnwys golygiadau efengylaidd, a phrydyddiaeth ardderchog. Ac nid rhyfedd; canys yr oedd wedi ei gyflawni o'r Ysbryd Glân.

'Fel y delo arnoch chwi yr holl waed cyfiawn a'r a ollyngwyd ar y ddaear o waed Abel gyfiawn hyd waed Zecharias fab Barachias, yr hwn a laddasoch rhwng y deml a'r allor.' Mat. 23. 35. Pwy Zecharias a feddylir yma sydd mewn dadl. Mab Jehoiada, medd rhai, yr hwn a laddwyd gan Joas. 2 Cron. 24. 19.—24. Ond paham, medd eraill, y gelwid mab *Jehoiada*, yn fab *Barachias*? A pha fodd y geill hwnw gael ei olygu fel yr olaf o'r cyfiawnion a ddyoddefasant, gan y dyoddefodd cyn teyrnasiad Ahaz, Manasseh, a Jehoiacim, yn mha yspaid y tywalltwyd mwy o waed cyfiawn, ac y lladdwyd mwy o brophwydi, nag yn yr amseroedd o flaen hyn? Tybyga eraill, gan hyny, mai Zecharias y prophwyd a feddylir, yr hwn a fu fyw yn hir, ac a allasai ddyoddef am ei ffyddlondeb, fel y darlunir yma, er nad oes hanes am ei farwolaeth, mwy nag am farwolaeth y

Digitized by Google

rhai a ddyoddefasant ferthyrdod o dan Antiochus Epiphanes, a bod hanes cywir traddodiadol o hyn yn amser ein Hiachawdwr. Ond y mae Doddridge yn hollol wrthwynebu y meddwl hwn, am nad oes hanes iddo gael ei ferthyru, ac nad oes lle i ni feddwl y buasai yr Iuddewon yn euog o'r fath weithred echryslon, *mor fuan* ar ol eu dychweliad o'r caethiwed. Y mae ef yn gryf o'r farn, gyda Grotius, Causabon, Erasmus, a llawer eraill, mai y Zecharias a feddylir, yr hwn y cawn hanes am dano, ei ladd rhwng y deml a'r allor, yn 2 Cron. 24. 20, 21. Gwel Doddridge *in loc*.

ZEDECIAH. Edr. Sedeciah.

ZEEB, זאב [*blaidd*] tywysog Midian. Barn. 7. 25. Edr. Gideon.

ZEL, *Llad.* Zelus; *Saes.* Zeal: awyddfryd, mawr-serch, gwresog-fryd, hewyd, dyhewyd, eiddigedd; agwyn. —1. Awyddfryd dros unrhyw beth. 'Dygais fawr zel dros Arglwydd Dduw y lluoedd;' sef, yr wyf yn llosgi o fawr serch at ei anrhydedd a'i ogoniant. 1 Bren. 19. 10, 14. Felly yr oedd Phinees, 'yn eiddigeddus dros ei Dduw.' Num. 25. 13. —2. Awch poethlyd yn erbyn unrhyw beth; megys poethder Jehu yn erbyn tŷ Ahab, a eilw ef, 'zel tu ag at yr Arglwydd.' 2 Bren. 10. 16.—3. Zel yr Arglwydd, ydyw ei eiddigedd sanctaidd, doeth, a chyfiawn dros ei anrhydedd ei hun, a dedwyddwch ei bobl. Esa. 59. 17. a 63. 15.—4. Eiddigedd doeth, sanctaidd, y duwiolion, dros ogoniant Duw; eu hawyddfryd i weled sancteiddrwydd gwirioneddol yn cynnyddu, a phob anwiredd yn cael ei ddarostwng. 2 Cor. 7. 11. Dat. 3. 10. Psalm lxix. Zel yn ol gwybodaeth ydyw hon; a zel sanctaidd, dduwiol, yw: y mae y dyben yn gywir, ac y mae y pwyll ac ystyriaeth ynddi i adnabod a defnyddio y moddion goreu i gyflawni y dyben hwnw. Y mae y zel hon yn cyfateb i bwysau a mawredd y gwrthddrychau, ac yn cynnyddu gyda chynnydd gwir sancteiddrwydd, a gwybodaeth dduwiol yn yr enaid. Nid zel am bethau bychain yw, am ddegymu y mintys a'r anis, er nad ydyw yn esgeulus am y pethau lleiaf; ond zel yw am farn, trugaredd, a ffydd, sef pethau trymaf y gyfraith. Nid zel bleidiol dros y pethau sydd yn nodweddu rhyw blaid yn unig, ac er mwyn dyrchafu y blaid hòno; ond zel dros anrhydedd Duw, a llwyddiant teyrnas Crist yn gyffredinol, a thros iechydwriaeth eneidiau dynion.—5. Dichon fod zel ac awyddfryd dros bethau da, ac etto heb fod o iawn ddyben; megys zel Jehu. Yr oedd yn awyddus i gwblhau gorchymyn Duw, ond y dyben oedd er mwyn cael ei weled gan ddynion. 'Tyred gyda mi, a gwel fy zel,' medd efe, 'tu ag at yr Arglwydd.' Tebyg i hyn ydoedd zel yr Iuddewon. Rhuf. 10. 2.—6. Dichon fod zel hefyd cwbl bechadurus, yn y gwrthddrych a'r dyben; megys zel Paul yn erlid yr eglwys, a zel yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn erbyn Crist, a holl erlidwyr y byd hyd heddyw; hon sydd zel gnawdol, dywyll, a chythreulig. Phil. 3. 6. Edr. Eiddigedd.

ZELOTES. Edr. Simon.

ZEMIRAH, זמירה [*càn*] mab Becher. o Benjamin. 1 Cron. 7. 8.

ZENAS, yr unig gyfreithiwr duwiol y darllenir am dano yn yr ysgrythyrau. Ansicr yw, pa un ai yn cyfeirio at y gyfraith Iuddewig neu Rufeinig y gelwir ef *y cyfreithiwr*. Yr oedd yn Gristion enwog, a dymunodd Paul i Titus ei ddwyn ef ac Apolos i Nicopolis, ac i edrych na byddai arnynt eisieu dim. Titus 3. 13.

ZEPHANIAH. Edr. Sephaniah.

ZERAH, *Heb.* זרח [*dysgleirdeb*] 1. Mab Simeon. Num. 26. 13.—2. Brenin Ethiopia, neu Cush, yn Arabia Petrea, wrth y Môr Coch, ar gyffiniau yr Aipht. Daeth yn erbyn Asa, brenin Judah, â llu o fil o filoedd, a thri chant o gerbydau. Gwaeddodd Asa ar yr Arglwydd, a tharawyd hwynt, o flaen Asa, fel nad allent ymgryfhau. 2 Cronicl 14. 10—15. Gwirioneddwyd geiriau Asa wrth yr Arglwydd yn hynod yn y dygwyddiad rhyfedd hwn: 'Nid yw ddim i ti gynnorthwyo, pa un bynag ai gyda llawer, ai gyd â'r rhai nad oes ganddynt gryfder.'

ZERAHIAH, זרחיה [*dysgleirdeb yr Arglwydd*] mab Uzzi yr arch-offeiriad, a thad Meraioth. 1 Cron. 6. 6.

ZERES, gwraig Haman, yr hon a gynghorodd grogi Mordecai. Esther 5. 10, 14.

ZETHAN, זיתן [*olew-wydden*] 1. Mab Bilhan o lwyth Benjamin. 1 Cron 7. 10.—2. Mab Laadan, Lefiad o deulu Gerson. 1 Cron. 23. 8. a 26. 22

ZETHAR, un o'r saith ystafellydd oedd yn gweini ger bron Ahasferus. Esther 1. 10.

ZICHRI, זכרי [*cofiadur*] gwr grymus o Ephraim, yr hwn a laddodd Maaseiah, mab y brenin Ahaz. 2 Cron. 28. 7.

ZIFF, זיו yr ail fis o'r flwyddyn gysegredig, a'r wythfed mis o'r flwyddyn gyffredin, yn mhlith yr Hebreaid. Yr oedd yn cynnwys 29 o ddyddiau, ac yn cyfateb i ran o Ebrill. 1 Bren. 6. 1. Num. ix. 2 Cron. 30. 15, 16.

ZIHA, ציחא [*melus*] 1. Mab Abihael o Gad. 1 Cron. 5. 13.—2. Un o'r Nethiniaid. Ezra. 2. 43. Neh. 11. 21.

ZILPAH, זלפה [*diystyrllyd*] llaw-forwyn Leah, a mam Gad ac Aser. Gen. 30. 9. a 46. 18.

ZIMMAH, זמה [*meddwl*] Lefiad, a thad Joah, o deulu Gersom. 2 Cron. 29. 12.

ZIMRAN, זמרן [*càn*] mab cyntaf Abraham o Ceturah. Gen. 25. 2.

ZIMRI, זמרי [*fy maes*] 1. Mab Zerah, ac ŵyr Tamar, o Judah. 1 Cronicl 2. 6.—2. Mab Salu, tywsog o lwyth Simeon, yr hwn, yn nghyd â Chozbi, a wanwyd gan Phinees. Num. 25. 14. Edr. Phinees.—3. Tywysog Elah brenin Israel, yr hwn a laddodd Elah a'i holl deulu, ac a deyrnasodd ond saith niwrnod, pan losgodd ei hun yn y palas, a'i holl gyfoeth. 1 Bren. 16. 9, 10. Edr. Elah, Omri.

ZINA, זינא [*puteindra*, neu *addurn*] mab Simei, Lefiad. 1 Cron. 23. 10.

ZIPH, a ZIPHAH, זיפא 1. Meibion Jehalaleel. 1 Cron. 4. 16.—2. Dinas yn Judah. Jos. 15. 24. 1 Sam. 23. 14, 15.—3. Un arall yn agos i Maon a Carmel. Jos. 15. 55.

ZIPHRON, זפרן [*gau lawenydd*] dinas o du y gogledd i wlad yr addewid. Num. 34. 9.

ZIZA, זיזא [*ysplenydd*] 1. Mab Siphi. 1 Cron. 4. 37.—2. Mab Rehoboam, brenin Judah, o Maachah. 2 Cron. 11. 20.

ZOHELETH, זחלת [*yn ymlusgo*] maen nodedig wrth ffynon Rogel, neu En-rogel, dan fur Jerusalem. 1 Bren. 1. 9. Beth a barodd enwogrwydd y maen hwn sydd anhysbys; tybia rhai ei fod yn ddefnyddiol i'r panwyr, &c., ond tybiau yw y cwbl yn ei gylch

ZOHETH, זוחת [*ysgaru*] mab Isai, o lwyth Simeon. 1 Cron. 4. 20.

ZOROBABEL, זרבבל [*dyeithr yn Babel*] mab Salathiel o deulu breninol Dafydd. Jeconiah oedd tad Salathiel, yn ol 1 Cronicl 3. 17. a Mat. 1. 12.

Digitized by Google

Wyr Jeconiah ydoedd, a'r tywysog blaenaf o'r hâd breninol; am hyny gosodwyd ef yn llywydd, neu yn benaeth ar wlad Judea. Cymh. Ezra 1. 8, 11. a 2. 2. a 3. 8. 10. a 5. 16. Ond dywedir yn Luc 3. 37. mai mab Neri ydoedd. Hwyrach i Jeconiah briodi gweddw Neri, neu a fabwysiadwyd gan Neri, neu a briododd unig ferch Neri. Gelwir ei dad hefyd Pedaiah, yn 1 Cron. 3. 19. ond yn Matthew, Luc, a Haggai, gelwir ei dad ef Salathiel yn wastadol; hwyrach mai ŵyr Salathiel oedd, ac wedi ei ddwyn i fynu ganddo, ond mab Pedaiah: neu, hwyrach, mai gwr arall o'r un enw oedd Zorobabel mab Pedaiah, yn ol barn Brennius a Doddridge. Gan y dywedir mai Sesbassar a adeiladodd yr ail deml, yn Ezra 1. 8, 11, a 5. 16. tebygol mai hwnw ydoedd ei enw Caldaeg ef, ac mai Zorobabel oedd y gwr hwnw. Zech. 4. 5. Rhoddodd Cyrus dan ei ofal lestri tŷ yr Arglwydd, y rhai oeddynt 5400 o rifedi, ac a'i gwnaeth yn dywysog ar y dychweledigion o'r caethiwed. Rhifedi yr holl dyrfa oedd 42,360, yn nghyd â 7337 o weision; 200 o gantorion a chantoresau; 435 o gamelod; 736 o feirch; 245 o fulod; 6720 o asynod; y rhai hyn a ddychwelasant o Babilon i Judea. Zorobabel a sylfaenodd yr ail deml, c.c. 535, yn yr ail flwyddyn ar ol eu dychweliad o Babilon, ac adferodd addoliad yr Arglwydd trwy aberthau. Er yr holl wrthwynebiadau a gafodd oddiwrth y Samariaid, efe a Josuah yr arch-offeiriad, trwy annogaethau y prophwydi Haggai a Zechariah, o'r diwedd a orphenasant y deml yn mhen ugain mlynedd wedi ei sylfaenu, c.c. 516. Ezra 1—vi. Hag. i, ii. Zech. iv. Gadawodd ar ei ol saith o feibion. 1 Cronicl 3. 19. Rhyw ddau o honynt, dan enwau eraill, yw y Resa o ba un yr hanodd Mair, a'r Abiud o ba un yr hanodd Joseph ei gwr. Mat. 1. 13. Luc 3. 27.

'Hyn yw gair yr Arglwydd at Zorobabel, gan ddywedyd, Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd. Pwy wyt ti, y mynydd mawr? ger bron Zorobabel y byddi yn wastadedd; ac efe a ddwg allan y maen penaf, gan weiddi, Rhad, rhad iddo. Dwylaw Zorobabel a sylfaenasant y tŷ hwn, a'i ddwylaw ef a'i gorphen,' &c. Zech. 4. 6, 7, 9. Mae y geiriau yn annogaeth gref i Zorobabel fyned rhagddo, er pob anhawsderau, â'r gwaith o adeiladu y deml; yn sicrhau iddo y byddai ei gymhorth a'i lwyddiant yn deillio, nid oddiwrth luoedd, nac oddiwrth awdurdod dynol, ond oddiwrth Ysbryd yr Arglwydd. Ni thycia iddo yn y gwaith hwn, na gallu yr Iuddewon, nac awdurdod breninoedd Persia, ond Ysbryd yr Arglwydd a'i llwyddai. Ysbryd yr Arglwydd yn gweithredu ar ei feddwl, oedd yr achos cynhyrfiol o orchymyn cyntaf Cyrus o'i blaid; byddai i Darius ac Artaxerxes gael eu tueddu gan yr un Ysbryd i'w pleidio: yn neillduol, arwydda y geiriau, na byddai i'r offerynau i ddwyn y gwaith yn mlaen, gael un awdurdod helaeth, na gallu, na gwroldeb milwraidd; ond byddai i ysbryd yr Arglwydd eu gwneuthur yn nodedig am ddoethineb, sancteiddrwydd, ffydd, a zel, a'u cyfarwyddo i fyned rhagddynt yn ddibynol yn unig ar ragluniaeth, a chynnorthwyon dwyfol. Y cyfryw offerynau ydoedd Zorobabel a Josuah, a'u cynnorthwywyr; a'r cyfryw wedi hyny oedd Ezra a Nehemiah, ac eraill gyda hwynt. Trwy offerynau o'r fath hyn yr ail-adeiladwyd y deml, ac yr adferwyd y sefydliad eglwysig a gwladol yn Judea. Diau fod y rhwystrau ar eu ffordd fel mynydd mawr, yn ddiymmodol ac yn anorchfygol, trwy allu ac awdurdod dynol; ond yn enw a gallu y Duw oedd yn gweithredu trwy Zorobabel, gallai eu beiddio oll; canys o'i flaen ef byddai y mynydd mawr yn wastadedd; ac mewn amser dygai allan y maen penaf, sef y maen i'w osod ar ben yr adeiladaeth: yna byddai i'r holl bobl, gyda bloedd gorfoledd a diolchgarwch, briodoli eu holl lwyddiant i ras helaeth rhad, ac anhaeddiannol Duw.

Yr hyn oll yr oedd Zorobabel yn cysgodi yr Arglwydd Iesu, yr hwn a adeiladai ei deml ysbrydol, sef ei eglwys, nid trwy awdurdod a gallu dynol, ond trwy ddylanwadau nerthol a sancteiddiol yr Ysbryd Glân; mynyddoedd a doddant yn wastadedd o'i flaen, a llwydda y gwaith yn erbyn holl wrthwynebiadau y byd ac uffern. Fel hyn yr â rhagddo, nes casglu yn nghyd y gwaredigion, a'u perffeithio mewn corph ac enaid mewn gogoniant. Yr angelion ar gwaredigion a ymunant i foliannu yn ddyrchafedig y gras rhad a ffurfiodd ac a gyflawnodd y drefn ryfedd, byth. Ezra 3. 11, 12, 13. a 6. 15, 16, 17. Job 38. 6, 7. Dat. 5. 9—13. a 19. 1—8. Yn cyfateb i'r geiriau hyn y mae gwaith yr Arglwydd yn cael ei ddwyn rhagddo yn fuddugoliaethus yn mhob oes, er pob mynydd mawr, yn ngolwg dynion, ar ei ffordd. Nid trwy nerth, ac nid trwy lu, ond trwy Ysbryd yr Arglwydd yn cynnorthwyo yn nerthol offerynau gweiniaid a thlodion. Yn ddigyfoeth, yn ddiddysg, ac yn ddiblaid, a chynnorthwyon dynol, y nerthodd yr Arglwydd hwynt i fod yn ffyddlon, a'r ffyddlondeb hwn a lwyddodd. 'Pan adeilado yr Arglwydd Sion, y gwelir ef yn ei ogoniant. Efe a edrych ar weddi y gwael, ac ni ddiystyra eu dymuniad. Gwrandawodd uchenaid y carcharorion, i ryddhau plant angeu.' Ps. 102. 16, 17, 20. Diystyrwyd dechreuad bychan yr efengyl, gan lawer; diystyrir etto, yn aml, yr ymdrechiadau gweiniaid a wneir yn amryw leoedd i lwyddo ei achos; ond etto, heb lu, na nerth dynol, llwyddodd y gwaith, er rhyfeddod i lawer. Y mae llygaid yr Arglwydd yn cynniwair trwy yr holl ddaear, i sylwi yn fanwl ar weithrediadau grasol yn, a chan ei bobl, o'r dechreu i'r diwedd; a mawr fydd y gorfoledd pan ddygir y pen maen allan.

ZUZIAID, זוזים [*pyst*] cawri yn preswylio tu hwnt i'r Iorddonen, ac a orchfygwyd gan Cedorlaomer. Gen. 14. 5. Yr un bobl, tebygol, a'r Zamzummiaid. Deut. 2. 20.

'Dywedais, dyfrhaf fy ngardd oreu,
'Mwydaf fy ngardd-wely yn dda:
'Ac wele, aeth fy nant yn afon,
'A'm hafon yn fôr.
'Myfi a wnaf i ddysg oleuo fel y boreu,
'Ac a'i dangosaf hi yn mhell.
'*Nid trosof fy hunan* y cymerais i boen,
'Eithr *dros bawb a geisiant ddoethineb*.'
Eccles. 24. 31, 32, 34.

'Gwyn ei fyd yr hwn a ymgynnefino â'r rhai hyn;
'A'r hwn a'u gosodo hwynt yn ei galon a fydd doeth.
'Goleuni yr Arglwydd a fydd yn gyfarwyddyd iddo,
'Ac i'r rhai duwiol y rhoddes efe ddoethineb.
'BENDIGEDIG FYDDO YR ARGLWYDD BYTH!
'FELLY Y BYDDO! FELLY Y BYDDO!'
AMEN, AMEN.
Eccles. 50. 28, 29.

Digitized by Google

# ATTODIAD.

ABADON. Cyfarfyddir â'r gair Abadon amryw weithiau yn yr Ysgrythyrau Hebreig, ac yn mhob man arwydda *dinystr*, neu *lle dinystr*, yn cyfateb i'r gair *hades*, sef y byd anweledig, neu *annwn*, megys yn Job 26. 6. lle y cyfieithir ef *dystryw*;—Job 28. 22, *colledigaeth*;—Ps. 88. 11, *dystryw*;—Diar. 15. 11, *dinystr*;—Job 31. 12, *anrheithio*.

ABEL—BETHMAACA. Wrth gymharu 2 Sam. 20. 14, 15, 18. 1 Bren. 15. 20. â 2 Cronicl 16. 4. ymddengys mai yr un lle oedd hwn ag Abel ac Abel-maim. Y mae yn debyg fod y gair *Abel* yn arwyddo *glaswellt*, a'i fod yn cael ei rag-ddodi fel enw ar leoedd ffrwythlawn a glaswelltog; felly gall Abel-bethmaaca arwyddo, man ffrwythlawn yn agos i dŷ Maaca.

ADEN. Tybia Esgob Newton ac eraill, gan mai yr eryr a ddefnyddid ar faner y Rhufeiniaid, mai wrth y 'ddwy aden a roddwyd i'r wraig,' (Dat. 12. 14.) y meddylir y rhanau gorllewinol a dwyreiniol, i ba rai yr ymranodd ymerodraeth Rhufain yn amser Cystenyn Fawr; ond y mae amrywiol o farnau eraill ar y mater hwn. Gwel Elliot, Keith, Moses Stuart, Conder, &c., ar y Dadguddiad.

ADLADD, (lladd) ail-ladd, lladd drachefn; aethwellt; athrodi, enllibiaw.—'Ac wele adladd gwedi lladd gwair y brenin ydoedd.' Amos 7. 1.

ADOLWYN, (awl) erfyn, attolwg, ymbil, deisyf. —'Megis pe bai Duw ich adolwyn trywom ni.' 2 Cor. 5. 20.—'Adolwyn ywch, vroder.' 1 Thes. 4. 10. W. S.

ADRIA. Ymddengys fod y môr hwn yn amser Paul yn cynnwys yr holl ranau hyny o Fôr y Canoldir ag sydd rhwng ynysoedd Crete a Sicily. Gwel Ptolemy, iii. 16. a Strabo, ii. a vii. Oddiwrth hyn profa Dr Falconer mai yr ynys a elwir yn awr Malta oedd y Melita ar ba un y taflwyd Paul.

ARTAXERXES. Mae yr enw Hebraeg yn llygriad o'r gair Persiaeg *Artachshatr*, deilliedig o *arta*, mawr, a *khsthero*, brenin, ac yn arwyddo *brenin mawr*, neu, (yn ol Herodotus) *rhyfelwr cadarn*. Sonir am y cyntaf o'r enw hwn yn Ezra 4. 7, &c., yr hwn, mae yn debyg, oedd Smerdis, y twyllwr Magiaidd. Yr ail yw yr un y crybwyllir am dano yn Ezra 7. 11, &c. Mae dadl yn bod pa un ai Xerxes neu ei fab Artaxerxes Longimanus ydoedd: gelwir ef Xerxes gan Josephus. Y trydydd yw yr un y sonir am dano yn Neh. 2. 1, &c. a 5. 14. &c., yr hwn oedd, yn dra thebygol, Artaxerxes Longimanus.

ASIA. Tybia Bochart ac eraill fod yr enw Asia o darddiaid Pheniciaidd, ac yn arwyddo *y canol*, gan y bernid fod y cyfandir hwn yn gorwedd rhwng y ddau arall ag oedd yn wybyddus yn y cyn-oesoedd. Golyga eraill mai o'r iaith Sanscrit y tardda, a'i fod yn arwyddo, *y dwyrain*. Defnyddid yr enw Asia mewn dau ystyr o leiaf, heblaw am gyfandir Asia; sef yn 1af, Am Asia Leiaf, yn cynnwys Bithynia, Pontus, Galatia, Cappadocia, Cilicia, Pamphylia, Psidia, Lycaonia, Phrygia, Mysia, Troas, Lydia, Ionia, Æolis, Caris, Doris, a Lycia—yr hyn a arwydda yn yr ysgrythyrau canlynol:—Act. 19. 26, 27. a 20. 4, 16, 18. a 27. 2, &c.; ac yn 2il, Am Ionia yn unig, neu yr arfordir gorllewinol hyny o'r wlad, o ba un yr oedd Ephesus yn brif ddinas, ac yn mha un yr oedd saith eglwys Asia, yr hyn sydd i'w ddeall yn yr ysgrythyrau canlynol:—Act. 2. 9. a 6. 9. a 19. 10, 22. 2 Tim. 1. 15. 1 Petr 1. 1. Dat. 1. 4, 11.

Ymddengys oddiwrth y mesuriad diweddaraf fod cyfandir Asia yn 7,500 o filltiroedd o hŷd, ac yn 5,166 o filltiroedd o led. Dywedir fod y tiriogaethau helaeth yn India sydd yn perthyn i Brydain yn bresennol yn cynnwys dros 130,000,000 o drigolion. Gwel Bell's *Geography*.

CYLLA. Cafodd un Dr Beaumont, o'r America, gyfleusdra hynod i sylwi ar natur y *gastric juice*, yn nghyd â dull treuliad y bwyd yn y corph dynol. Dygwyddodd i ŵr ieuanc o'r enw Alexis St Martin, gael ei saethu yn ei ochr aswy, yr hyn a adawai, wedi iddo iachâu o effeithiau yr archoll, dwll gyferbyn â'r cylla, trwy ba un y gellid gweled a sylwi ar yr hyn oedd yn myned yn mlaen oddi mewn. Fe gyflogodd Dr Beaumont y dyn ieuanc hwn i fod yn was iddo, ac a wnaeth amryw brofiadau arno. Dywed y Dr mai nodd tryloyw ydyw y *gastric juice*, ei fod yn ddiarogledd, braidd yn hallt, a surni yn bur amlwg i'w ganfod arno. Yn un o'i brofiadau, ciniawai St Martin am un o'r gloch ar gig eidion rhostiedig, yn nghyd â bara a phytatws. Mewn hanner awr yr oedd cynnwys y cylla wedi ei droi i ryw beth tebyg i gawl tew, ac erbyn chwech o'r gloch yr oedd y cwbl wedi ei dreulio a'i ddwyn ymaith o'r cylla. Trwy brofiadau eraill, cafodd y Dr Beaumont fod llysiau yn treulio yn gynt na chig, a rhyw fath o gig yn gynt nag arall. Treulia tripa (*tripe*) wedi ei ffrio mewn yspaid un awr; *cod* wedi ei ferwi mewn dwy awr, ac felly hefyd bara a llaeth; cig eidion rhostiedig, ac hefyd wyau wedi eu berwi yn feddal, mewn tair awr; cig mochyn wedi ei halltu, mewn pedair awr a hanner; wyau wedi eu berwi yn galed, mewn pum awr a hanner; ac os cymerid pryd pur lawn o gig mochyn hallt, ni threuliai cyn pen chwe awr. Gwel sylwadau dyddorol ar y pwnc hwn yn Chamber's *Educational Course.—Rudiments of animal Physiology, by* Dr G. Hamilton. Gwel hefyd Dr Roget's *Bridgewater Treatise*; a Dr Smith's *Philosophy of Health*.

GOSEN. Ymddengys mai dyfroedd yr afon Nilus ydoedd yn dyfrhau gwlad Gosen. 'Y mae dwfr y Nilus,' medd y Dr Robinson, 'yn mwydo y ddaear i gryn bellder o dan y traeth tywodlyd, a cheir ef yn mhob man trwy gloddio pydewau tua deunaw neu ugain troedfedd o ddyfnder. Codir y dwfr o'r pydewau hyn drwy olwynion a droir gan ychain, a defnyddir ef i ddyfrhau y meusydd; a phan y cymer hyn le, yr anialwch a droir yn ddoldir ffrwythlawn. Gwelsom amryw o'r cyfryw ffriddoedd yn gwbl ymddibynol ar y dull yma o'u dyfrhau.' Gwel *Researches in Palestine*.

GOSTEG. Mae y 'gosteg yn y nef' yma (Dat. 8. 1.) neu ddystawrwydd yn y deml nefol, yn cyfateb i'r yspaid arferol yn addoliad y cysegr Iuddewig, pryd y byddai yr offeiriad, yn ei dro, yn myned i mewn i offrymu arogl-darth, tra yr oedd yr addolwyr

Digitized by Google

yn aros mewn dystawrwydd yn y cyntedd oddi allan; torid y dystawrwydd hyn trwy udganiad udgyrn. (Gwel Esgob Newton *on the Prophecies*; Conder's *Harmony of History with Prophesy*). Barna Conder fod yr 'hanner awr osteg' yn cyfeirio at yr adeg hòno o lonyddwch a thawelwch anghyffredinol a gymerodd le dros bedair blynedd ar ddeg ar farwolaeth yr ymerawdwr Theodosius, O. C. 395.

GROEG. Rhenid gwlad Groeg gan y Rhufeiniaid i ddwy dalaeth; yr un ogleddol a elwid Macedonia, a'r ddeheuol Achaia, megys y cyfeirir yn 2 Cor. 9. 2, &c., ac yr ydym yn deall oddiwrth Act. xviii, fod rhaglaw Rhufeinig y dalaeth ddeheuol yn preswylio yn Corinth, fel y brif ddinas. Trigai yr Ελληνισται yn gyffredin yn yr Aipht, Syria, Asia Leiaf, a gwlad Groeg: ymddengys hefyd fod y Galileaid yn siarad cymaint o Roeg ag o Hebraeg.

GWAED. *Beth yw yr achos o'i dwymdra.*—Oddiar ymchwiliadau diweddar, bernir mai y sur ulwin *(carbonic acid)* a ffurfir yn yr ysgyfaint yw achos twymdra y gwaed. Y mae yr awyr a anadlir, pan yn myned i mewn i'r ysgyfaint, yn gynnwysedig o bedair rhan o nwy *(gas)* a elwir blorai *(nitrogen)* ac un rhan o nwy gwahanol, a elwir ufelai *(oxygen)*; ond nid yw yr awyr wrth ddyfod allan o'r ysgyfaint yr un o ran cynnwys ag yr oedd wrth fyned i mewn, yn gymaint a bod rhyw faint o'r ufelai (*oxygen*) wedi ei golli, ac y ceir nwy arall, sef sur ulwin, yr hwn a gynnyrchir trwy fod cyfran o'r ufelai yn ymuno â'r ulwyn (*carbon*) sydd yn gwneuthur rhan fawr o gyfansoddiad y gwaed yn gystal a'r corph yn gyffredinol. Mae y cyfnewidiadau a gymerant le pan y llosgir golosg (*charcoal*) yn yr awyr, yn dra thebyg i'r hyn a ddygwydd trwy chwythiad anadl, a chan y cynnyrchir gwres trwy y naill, gwneir hyny hefyd trwy y llall. Y mae gwedi ei benderfynu trwy brawf, fod y golosg a gynnwysa y sur ulwin a ffurfir trwy anadlu am ryw gymaint o amser, yn ddigonol, pe llosgid ef, i gynnyrchu fwy na hanner holl dwymdra y corph yn y cyfamser. Bernir gan hyny, fod hyn, yn nghyd â'r ufelai a sugnir i'r gwaed, yn achos o naw rhan o ddeg o dwymdra y gwaed, a bod rhugledd (*friction*) gwahanol ranau y corph, yn nghyd â'r amrywiol gyfnewidiadau yn mheirianwaith y cyfansoddiad, yn achos o'r ddegfed ran.——*O barth i liw coch y gwaed.*—Y mae y gwelliant mawr sydd gwedi cymeryd lle yn ngwneuthuriad chwydd-wydrau (*microscopes*) yn ein galluogi i ganfod fod y cryngnau bychain sydd yn sneirif yn nofio yn y *serum* dyfrllyd yn goch eu lliw, a thybia y Dr Ure fod cochni y cryngnau hyn yn tarddu oddiar bresennoldeb *sulphocyante of iron*, yr hwn sydd o liw coch, ac yn ffurfio rhan o gyfansoddiad y gwaed. Gwel Brande's *Chemistry*; Ure's *Chemistry*; Dr Roget's *Bridgewater Treatise*, &c.

HAUL. Hyd yn ddiweddar, y blaned Georgium Sidus, neu fel y gelwir hi yn fwyaf cyffredin gan seryddwyr, Uranus, a ddodid i lawr fel y ddiweddaf, gan na chanfyddasid un arall yn mhellach na hi oddiwrth yr haul, er y golygid gan seryddwyr y gallai fod planed pellach etto o'r golwg heb ei chael allan erioed. Bernid hyn oddiwrth yr amgylchiad, fod rhyw beth yn effeithio ar Uranus er achosi iddi wyro o'i llwybr. Hyn a barodd i M. Le Verrier yn Ffrainc, ac eraill, chwilio i'r achos o hono, a'r canlyniad fu, i M. Le Verrier brofi, trwy rym gwyddoniaeth (*mathematics*) fod y fath blaned yn bod o bellder tua thair mil o filiynau o filltiroedd oddiwrth yr haul; ac ar y 23ain o Fedi, 1846, canfyddwyd y blaned gan y Dr Galle yn Berlin, tu a'r man hyny yn y nefoedd a nodwyd gan M. Le Verrier! Mae y darganfyddiad hwn yn un o'r rhai hynotaf yn yr amseroedd diweddaf hyn, ac yn gwirio tu hwnt i bob ammheuaeth olygiadau seryddwyr o gylch y gyfundraeth heulog, yn nghyd â'r rhifyddiaeth seryddol. Gelwir y blaned newydd, a'r olaf yn awr, wrth yr enw *Neptune*.

LLADIN. Dosparthir ieithoedd Ewrop i bedair cangen, sef, 1. *Y Teutonaeg*, yn cynnwys yr Allmaenaeg, a'i phriod-ieithoedd.——2. *Y Celtaeg*, yn cynnwys y Gymraeg a'i chwiorydd.——3. *Y Sclavonaeg*, yn cynnwys y Rwsiaeg a'i pherthynasau.—4. *Y Groeg-Lladinaeg*, yn cynnwys Groeg a Lladin, a'u cangenau dibynol. Ymddengys mai yr Italaeg, y Ffrancaeg, yr Hispaenaeg, y Portuguaeg, a'r Rhetiaeg, yw yr unig rai a darddant o'r Lladin, ac mai cangenau gwahanol ac annibynol yw y tair eraill a nodwyd uchod, er fod cymysgedd o eiriau Lladin i'w ganfod yn rhai o'u tafod-ieithoedd tarddiadol.

LLEUAD. Mesurwyd 70 o'r mynyddoedd yn y lleuad gan un M. Schroeter, a chafwyd 30 o honynt o ddwy i bum milltir o uchder; 13 o honynt mwy na phedair milltir; ac oddeutu 40 o honynt o chwarter milltir i ddwy filltir o uchder. Yr oeddynt hefyd o dair milltir a hanner i un ar bymtheg a phedwar ugain o filltiroedd o hŷd yn eu gwaelod. Gwel Herschel's *Astronomy*; Dick's *Celestial Scenery*; Keith, Woodhouse, &c.

Digitized by Google

# TAFLEN

O'R

## AMRYWIOL YSGRYTHYRAU Y SYLWYD ARNYNT YN NGHORPH Y GWAITH, DAN YR AMRYWIOL EIRIAU.

---

## YR HEN DESTAMENT.


**Genesis.**

Pen. 1. 2. Afluniaidd
3. Goleuni
2. 2. Gorphwys
9. Pren
3. 7. Ffigysbren
8. Awel
16. Dymuniad
18. Drain
24. Cleddyf, Gyru
4. 16. Nod
20. Pabell
23. Archoll
26. Dechreu
6. 2. Merch
4. Cawr
6. Ymofidio
7. Dilëu
8. Ffafr
11. Trawsder
7. 11. Ffenestr
22. Ffun
8. 11. Deilen
21. Drwg
9. 13. Bwa
27. Japheth
11. 9. Babel
12. 1. Abram
8. Enw
13. 11. Dwyrain
14. 13. Abram
19. Meddu
15. 6. Abraham
17. 10. Enwaedu
21. 33. Llwyn
23. 2. Abraham
24. 2. Morddwyd
25. 27. Dysyml
29. 3. Pydew
17. Leah
32. 2. Gwersyll
10. Lleiaf
15. Camel
33. 19. Arian
36. 24. Mul
38. 14. Enaim
18. Breichledau
29. Phares
42. 36. Erbyn
44. 5. Dewiniaeth
49. 4. Ansafadwy
10. Deddfwr, Silo
16, 17. Dan
27. Benjamin
50. 26. Arch

**Exodus.**

Pen. 1. 16. Esgor
3. 2. Difa, Perth
3. 14. Ydwyf
22. Benthyg
6. 3. IEHOFAH
7. 18. Aiphtiaid
12. 9. Amrwd
11. Esgid
16. 4. Dogn
15. Manna
17. 15. Baner
18. 11. Balch
19. 5. Eiddo, Priodol
20. 5. Eiddigedd
7. Dieuog
21. 24. Dant
23. 19. Llaeth
25. 30. Gosod
26. 1, 31. Cyfrodedd
28. 11. Boglyn
16. Dwyfroneg
40. Cap
29. 13, 22. Rhwyden
33. Cymmod
30. 12. Iawn
32. 4. Mold
12. Angerdd
33. 19. Trugaredd
23. Cefn
34. 7. Anwir
37. 29. Arogl-darth
38. 8. Drych
39. 30. Talaith

**Lefiticus.**

Pen. 1. 4. Poeth-offrwm
2. 13. Halen
3. 17. Brasder
6. 28. Ysgwrio
7. 12, 15. Diolch
13. Lefain
11. 3. Cil
13. Gwydd-walch
16. Bran
17. Corph
18. Piogen
19. Crëyr
22. Hargol
30. Lysard
12. 7. Dyferlif
13. 6, 28. Godywyll
48. Anwe
19. 14. Melldith
19. Amryw
23. Dienwaededig
28. Nôd
32. Penwyn
21. 10. Arch-offeiriad
18. Twn
20. Pys
22. 28. Llwdn
25. 10, 11. Jubili
26. 16. Darfodedigaeth

**Numeri.**

Pen. 1. 16. Enw
10. 2. Udgorn
12. 8. Gwedd
14. 9. Bara
15. 30. Rhyfyg
19. 2. Anner
22. 41. Uchelfa

**Deuteronomium.**

Pen. 13. 8. Eiriach
14. 1. Tori
18. 11. Ymofyn
10, 14. Planedydd
21. 23. Melldith
22. 8. Nen
23. 1. Dyspaidd
2. Bastardd
28. 24. Gwlaw
31. 10, 11. Saith
32. 2. Gwlith-law
4. Perffaith
8. Rhif
9. Rhan
10. Anial, Erchyll
15. Gwingo
33. 3. Saint, Ymlynu
21. Rhan
23. Dehau

**Josuah.**

Pen. 3. 4. Enyd
5. 9. Gwaradwydd
7. 18. Tyaid
21. Babilonig
25. Achan
17. 16, 18. Cerbyd

**Barnwyr.**

Pen. 3. 19. Gilgal
5. 6. Anhygyrch
22. Carlam
15. 4, 5. Llwynog
19. Cilddant, En-haccore
18. 30. Jonathan

**Ruth.**

Pen. 4. 7. Esgid

**1 Samuel.**

Pen. 2. 2. Sanctaidd
3. Gwybodaeth, Uchel
6. 19. Beth-semes
9. 9. Gweledydd
12. 11. Bedan
13. 12. Anturio
14. 15. Dychryn


Digitized by Google

15. 23. Anufudd-dod
33. Darnio

**2 Samuel.**

Pen. 7. 2. Cortynau
14. Dynol
8. 2. Llinyn
10. 4. Billio
12. 14. Cablu
17. 19. Malurion
22. 6. Dolur
10. Gogwyddo
23. 5. Blaguro, Hollol
24. 1. Anno

**1 Breninoedd.**

Pen. 6. 4. Ffenestr
7. 4. Ffenestr
10. 16. Dilin
13. 33. Gwehilion
19. 12. Dystaw

**2 Breninoedd.**

Pen. 6. 30. Sachlïan
8. 10. Byw
16. 18. Gorchudd
21. 13. Llinyn
23. 11. March
17. Titl

**1 Cronicl.**

Pen. 5. 26. Pul
26. 15. Asuppim
16. Salecheth
29. Swyddog
29. 4. Goreuro

**2 Cronicl.**

Pen. 2. 6. Amgyffred
15. 3. Offeiriad
34. 22. Ysgoldy

**Ezra.**

Pen. 4. 15. Halen
7. 26. Deol
9. 8. Hoel
10. 2, 10. Cyttal

**Nehemiah.**

Pen. 4. 3. Llwynog
5. Dileü

**Esther.**

Pen. 1. 6. Gwyrddion
13. Amser
5. 6. Cyfeddach
7. 4. Cystadlu
9. 24. Pwr

**Job.**

Pen. 1. 7. Tramwy
5. 2. Cenfigen
16. Safn
9. 9. Arcturus
24. Hug
10. 12. Ymgeledd
20. Paid
11. 7. Gafael
12. 4. Gwatwargerdd
13. Deall
22. Dadguddio
13. 11 Ardderchog
13. 26. Ieuenctid
14. 14. Milwr
17. Gwnïo
15. 16. Drewedig, Yf
26. Tarian
16. 14. Rhwyg
18. 14. Dychryn
19. 24. Pin
25. Diwedd
28. Mater
20. 28. Digofaint
22. 21. Ymarfer
26. Ymhoffi
28. Goleuni
23. 13. Troi
24. 18. Ysgafn
25. 6. Abwydyn
26. 6. Dystryw
13. Addurno
27. 23. Hysio
28. 1. Gwythen
26. Gwlaw, Mellt
29. 3. Tywyllwch
30. 4. Hocys
11. Dattod
18. Coler
23. Rhagderfynu
31. 10. Melin
36. Coron
33. 23. Angel
34. 17. Cyfiawn
36. 34. Gwaith
26. Mawr
27. Defnyn
37. 10. Rhew
17. Cynhes
22. Hin
23. Cyfiawn
38. 8. Dorau
14. Clai
31. Pleiades
32. Arcturus, Mazzaroth
39. 13–18. Estrys
23. Llaif
40. 2. Ymryson
23. Yf
41. 11. Rhodd

**Psalmau.**

Ps. 2. 1. Ofer
3. Rheffyn
7. Cenedlu, Mab
11. Dychryn
4. 2. Gwegi
8. 3. Ordeinio
9. 6. Dinystr
9. Trallod
11. 1. Ehedeg
4. Amrantau
16. 6. Llinyn
8. Ysgog
9. Gogoniant
17. 15. Dihuno
18. 5. Magl
19. 3, 4. Llef
20. 1. Diffyn
21. 4. Oes
22. 2. Gosteg
18. Rhanu
30. Hâd
23. 5. Arlwy
26. 2. Holi
26. 6. Diniweidrwydd
9. Casgl
27. 5. Blin
30. 12. Gogoniant
32. 7. Amgylch
33. 1. Mawl
11. Meddwl
34. 18. Drylliedig
35. 15. Efrydd
36. 2. Ymwenieithio
6. Dyfnder
7. Cysgod
8. Afon, Digon
37. 4. Dymuniad
5. Dwg
35. Llawrydd
39. 1. Ffrwyn
5. Goreu
40. 6. Agor
7. Llyfr
41. 3. Cyweiri, Gwely
42. 7. Pistyll
44. 19. Draig
45. 1. Traethu
2. Tecach
3. Clun
10. Anghofio
13. Gemwaith
14. Edau
47. 4. Ardderchog
48. 2. Dinas
49. 2. Gwreng
5. Sawdl
50. 3. Tymhestl
15. Trallod
51. 2. Dwys
5. Anwiredd
12. Hael
55. 17. Taer
56. 8. Costrel
58. 4, 5. Rhiniwr, Neidr
60. 3. Madrondod
62. 1. Geudab
66. 1. Llawen
11. Gwasgfa
18. Anwiredd
68. 8. Caethgludo
9. Gwrteithio
13. Crochan
14. Eira
20. Diangfa
27. Llywydd
30. Gwaewffon
34. Goruchel
69. 22. Tramgwydd
71. 7. Rhyfeddod
19. Tebyg
72. 6. Gwlan
12. Angenog
16. Dyrnaid
73. 13. Maeddu
20. Deffro
74. 5. Dyrys-goed
76. 4. Yspail
77. 10. Deheulaw
78. 41. Terfyn
47. Rhew
65. Deffro
80. 5. Bara
81. 7. Dirgel
82. 1. Sefyll
83. 3. Dirgel
84. 3. Gwennol
6. Baca

Digitized by Google

85. 10. Cusan, Gwirionedd
86. 5. Maddeu
11. Uno
15. Helaeth
87. 6. Geni
88. 5. Rhydd
89. 3–37. Ffyddlawn
15. Adwaen
90. 11. Dig
92. 10. Olew
12. Palmwydd
14. Tirf
99. 1. Ymgynhyrfu
102. 6. Dylluan
26. Darfod
103. 5. Eryr
104. 3. Tylath
4. Fflam
24. Doethineb
105. 18. Culni
106. 7. Cythraul
28. Marw
110. 2. Llywodraeth
3. Gwlith, Sancteiddio
7. Afon
112. 7. Disigl
119. 77. Digrifwch
96. Eang
131. Dyheuo
132. Arfer
120. 5. Mesech
121. 6. Taraw
129. 3. Arddwr
131. 2. Diddyfnu
132. 17. Corn
133. 3. Gwlith
135. 7. Mellt
138. 2. Mawr
139. 6. Medru
9. Adenydd
16. Anelwig
140. 4. Bachellu
141. 3. Gwefus
4. Danteithion
5. Olew
8. Diymgeledd
145. 3. Mawr
5. Ardderchogrwydd
146. 9. Ymddifad
147. 5. Deall
150. 2. Mawr

**Diarebion.**

Pen. 1. 32. Esmwyth
33. Llonydd
3. 34. Gostyngedig
7. 13. Digywilydd
8. 22, 23. Mab
26. Llwch
10. 10. Amnaid
11. 28. Goglud
13. 9. Diffodd
10. Cynhen
14. 1. Ffolog
15. 18. Ehud
15. 19. Drain
16. 1. Parod
34. Arffed
17. 17. Brawd
19. 13. Defni
17. Echwyn
26. Crwydr
27. Paid
20. 15. Dodrefn
26. Olwyn
21. 9. Anynad
25. Deisyfiad
22. 6. Hyfforddi
23. 25. Dulio
24. 8. Ysgeler
25. 11. Afalau
13. Eira
19. Dant, Tyrfu
26. 3. Asyn
8. Careg
27. 7. Dil
17. Hogi
28. 20. Digerydd
30. 7. Gommedd
9. Ymlenwi
15. Gele
31. 14. Llong
18. Tywyllwch

**Pregethwr.**

Pen. 2. 20. Anobaith
7. 1. Enw
13. Gorchwyl
16. Dyfetha
11. 10. Mebyd
12. 1. Ieuanc
4. Cau, Heol
5. Ceiliog Rhedyn
6. Piser, Llinyn
11. Meistr
13. Swm

**Caniad Solomon.**

Pen. 1. 2. Enaint
6. Edrych, Gwinllan
9. March
10. Grudd, Gwddf
12. Nard
13. Myrr
16. Gwely
17. Swmerau, Distiau, [Ffynidwydd
2. 1. Lili
2. Drain
5. Potelau
9. Pared, Ffenestr, [Dellt
11. Pasio
12. Blodeu, Durtur
– 13, 15. Egin, Ffigys
14. Lloches
17. Cysgod
3. 2. Heol
3. Hoff
6. Powdr
9. Cerbyd
10. Palmant
4. 3. Arlais, Edau
4. Gwddf
5. Dwyfron, Gefeilliaid
6. Mynydd
11. Llaeth
12. Ffynon
14. Nard
16. Gardd
5. 2. Defnynau, Dihalog
7. Gorchudd
10. Gwridog
11. Aur
12. Golchi
13. Gwefus, Dyferu
5. 14. Beryl
16. Hawddgar
6. 5. Gorchfygu
7. Arlais
9. Mam
10. Lleuad
12. Amminadib
7. 1. Esgid
2. Bogel, Bru
4. Hesbon, Libanus, [Trwyn
5. Rhodfa
8. Afalau, Ffroen
11. Maes
8. 2. Llysieuog
6. Angerddol
7. Diffodd
8. Afallen, Palas

**Esaiah.**

Pen. 1. 1. Ych
8. Cucumerau
14. Blino
16. Ymolchi
2. 2. Dylifo
4. Pladur
19. Twll
3. 17. Gwarthle
18. Lloerawg
19. Moled
20. Penguwch
21. Trwyn
22. Mysyrnau
4. 2. Ffrwyth
4. Llosgfa
6. Diddos
5. 2. Digaregu, Gwinwryf, [Sorec
8. Maes
14. Anferth
28. Carn
6. 7. Gwefus
7. 4. Cloren
– 13-16. Immanuel
18. Chwibanu
19. Cromlech
8. 8. Adenydd
9. Ymgyfeillechwch, [Pelledigion
14. Magl
9. 3. Ychwaneg
6. Bachgen
7. Llywodraeth
10. 22. Darfodiad
27. Eneinio
11. 1. Blaguryn
10. Gorphwys
15. Afon
12. 5. Godidog
14. 12. Luciffer, Gwawr
13. Mynydd
19. Cangen
30. Cynblant
18. 1. Adenydd
19. 7. Papur
10. Bwriad
14. Ymgymysgu
18. Dystryw
19. Allor
21. 1. Môr
4. Dymuno
22. 1. Glyn
16. Trychu



Digitized by Google

22. 18. Pêl
22. Agoriad
24. Crogi, Mall
24. 4. Dihoeni
25. 1. Sicrwydd
6. Gwledd
7. Gorchudd
11. Noflo
26. 19. Gwlith
20. Ystafell
27. 1. Praff
2. Gwinllan
8. Garw
13. Darfod
28. 11. Bloesg
15. Ffrewyll
16. Maen, Brys
29. 1, 2. Ariel
8. Lluedd
10. Gweledydd
30. 24. Gwyntyll, Ebran
28. Gogr
31. 5. Adar
32. 15. Doldir
33. 18. Ysgrifenydd
20. Llonydd
21. Afon
22. Deddfwr
34. 11. Annhrefn
35. 8. Prif-ffordd
37. 25. Gwadn
38. 15. Araf
17. Cefn
40. 2. Dau
4. Pant
9. Efengyles
14. Dealldwriaeth
16. Libanus
17. Llai, Diddym
28. Blino, Diffygio
31. Bryr
41. 4. Diwedd
10. Deheulaw
15. Danneddog, Mwlwg
42. 1. Ethol
2. Heol
4. Digalon
5. Estyn
15. Llyn
16. Tywyll
– 18, 19. Deillion
21. Mawr
43. 6. Dehau
28. Diofryd
44. 2. Jesurun
45. 3. Cuddfa
8. Defnynu
11. Gofyn
15. Ymguddio
20. Diangol
46. 3, 4. Arwedd
10. Diwedd
47. 2. Llawethau
48. 10. Pur
49. 9. Magddu, Pori
16. Argraff
23. Llwch
25. Anrhaith
50. 11. Gwreichion
51. 1. Dilynwyr
17. Gwaddod
22. Erchyll
52. 14. Anad
53. 6. Anwiredd
7. Gorthrwm
8. Oes
9. Anwir
10. Dryllio, Hâd, Mynu
11. Diwallu
12. Rhanu
54. 11. Digysur
16. Dinystriwr
55. 3. Gwrando
7. Arbed
13. Drain
56. 10. Cyfarth
11. Cwr
57. 5. Ymwresogi
6. Cabol
14. Palmant
20. Dygyfor
58. 5. Brwynen
59. 5. Dodwy
17. Cochl
60. 4. Môr
16. Sugn
19. Gogoniant
61. 4. Diffeithfa
62. 3. Talaith
10. Cynniwair
63. 3. Gwinwryf
9. Cystudd
64. 5. Llawen
6. Budr, Deilen
7. Ymgyfodi
65. 17. Nef
18. Gorfoledd
20. Plant
66. 7. Esgor
11. Bronau, Godro
12. Sugn
19. Affric

**Jeremiah.**

Pen. 1. 1–5. Jeremiah
– 11, 12. Almon
2. 23. Glyn
25. Troed
3. 2. Arabiad
3. Cywilydd
4. 2. Braenar
– 11, 12. Gwynt
17. Ceidwad
30. Lliw
5. 24. Defodol
6. 29. Megin
8. 8. Pin
9. 2. Lletty
3. Annel
12. 2. Agos
9. Brith
14. 1. Drudaniaeth
15. 12. Dur
16. 6. Ymdori, Ymfoeli
17. 6. Grug
9. Diobaith, Twyll
11. Deor
18. 14. Eira
19. 2. Porth
21. 13. Gwastadedd
22. 30. Diblant
6. Gilead
23. 13. Diflas
15. Lledrith
19. Angerddol
29. Gordd
24. 2. Ffigys
25. 10. Melin
11. Blwyddyn
15. Phiol
20. Cymysg
26. 18. Aredig
30. 21. Llywiawdwr
31. 15. Rahel
22. Newydd
32. 37. Diogel
33. 11. Llef
37. 12. Ymlithro
15. Carchar
16. Caban
47. 4. Caphtor
48. 11. Gwaddod
49. 3. Gwrych
23. Gofal
28. Hazor
50. 11. Beichio
21. Merathaim
51. 34. Danteithion

**Galarnad.**

Pen. 2. 14. Deol
3. 26. Dystaw
39. Grwgnach

**Ezeciel.**

Pen. 1. 4, 27. Amber
16. Beryl
6. 3. Nant
7. 20. Hardd
8. 10. Portreio
17. Blaguryn
9. 2. Clun
11. 16. Cysegr
13. 4. Llwynog
5. Adwy
18. Corpholaeth, Gwniadyddes
16. 8. Serch
10. Gwregys
12. Talcen
63. Dyhuddo
18. 2. Deincod
27. 12. Ffair
28. 10. Dienwaededig
34. 17. Milyn
29. Planigyn
37. 7. Swn
43. 8. Gorsin
44. 20. Llaes

**Daniel.**

Pen. 2. 34. Careg
43. Ymgymysgu
3. 21. Cwcwll
4. 13. 17. Gwylio
7. 4. Llew
5. Arth
– 9, 13. Dihenydd
8. *et al.* Groegiaid
2. Susan
14. Diwrnod
9. 24. Dyben, Sêl
– 24, 27. Wythnos, Hun
11. 31. Ffieidd-dra

**Hosea.**

Pen. 1. 4. Jezreel
5. Bwa
2. 14. Denu
15. Achor

Digitized by Google

3. 4. Teraphim
4. 8. Bwyta
14. Dyhirogod
16. Anhywaith
19. Rhwym
5. 15. Lle
6. 4. Mwyn
5. Genau
9. Sechem
7. 8. Teisen, Ymgymysgu
9. Gwallt, Penwyni
8 5, 6. Llo
9. 1. Gwobrwy
4. Galarwyr
8. Adarwr
10. 1. Gwinwydden
4. Wermod
6. Jareb
10. Ymrwymo
11. 1. Bachgen
4. Dynol, Bachgen
12. Saint
12. 7. Marsiandwr
13. 15. Ffynon
14. 2. Gwefus, Llo
4. Rhad
5. Gwlith
8. Ffynidwydd

### Joel.

Pen. 2. 23. Gwlaw
3. 10. Cleddyf
14. Glyn
18. Defnynu

### Amos.

Pen. 2. 8. Dirwy
2. 13. Llethu
5. 10. Porth
6. 4. Cut, Gwely
9. 6. Esgynfa
11. Bwlch

### Jonah.

Pen. 1. 17. Pysgodyn
4. 6. Cicaion
8. Gwynt

### Micah.

Pen. 1. 6. Gwinllan
2. 5. Rheffyn
3. 6. Dewiniaeth
4. 8. Tŵr
13. Carn, Danneddog
5. 2. Myned
6. 6–8. Myharen
9. Ordeinio
16. Omri
7. 17. Hoff

### Nahum.

Pen. 1. 3. Dieuog, Rhyferthwy

### Habacuc.

Pen. 1. 16. Arogl-darth
2. 13. Ymflino
3. 6. Llwybr
7. Cuwsan
– 14, 15. Rhyferthwy
19. Lle

### Sephaniah.

Pen. 2. 1. Anhawddgar
3. 9. Gwefus
17. Llawen

### Haggai.

Pen. 1. 6. Clydwr
2. 7. Dymuno

### Zechariah.

Pen. 1. 8. Myrtwydd
2. 8. Gogoniant
3. 4. Dillad, Symud
4. 6, 9. Zorobabel
– 12, 14. Pibell
5. 1, 2. Llyfr
– 5–11. Epha
6. 13. Cynghor
15. Pellenigion
9. 7. Ecron
9. Ebol
– 13, 14. Annelu
10. 3. Harddfarch
4. Hoel
11. 7, 14. Ffon
16. Gofwyo
12. 2. Cwsg
13. 1. Ffynon
4. Rhawn
6. Gweliau
14. 4. Olew-wydd
11. Dienbyd
20. Ffrwyn

### Malachi.

Pen. 1. 4. Ardal
14. Deadell
2. 13. Allor
17. Blino
3. 11. Gormes
17. Priodoledd
4. 2. Haul

## Y TESTAMENT NEWYDD.

### Matthew.

Pen. 1. 23. Geni
2. 1. Doethion
13. Aipht
18. Rahel
23. Nazaread
3. 8. Addas
9. Dichon
10. Tori
12. Gwyntyll
17. Anwyl
4. 1. Temtasiwn
4. Gair
5. Pinacl
17. Teyrnas
24. Lloerig
5. 5. Addfwyn
11. Drygair
13. Diflas, Halen
18. Tipyn
19. Lleiaf
20. Helaeth
21. Gynt
22. Raca, Ystyr
33. Anudon
37. Ië
5. 41. Cymhell
47. Cyfarch
6. 7. Siarad
13. Profadwy
22. Canwyll, Syml
23. Drwg
27. Maintioli
34. Tranoeth
7. 2. Mesur
– 3, 4. Trawst
13. Eang, Llydan
14. Porth
8. 20. Llwynog
9. 16. Brethyn
17. Costrel
23. Terfysgu
10. 10. Esgidiau, Ffon
14. Llwch
16. Diniwed
17. Ffrewyll
27. Pregethwch
29. Aderyn y tô
11. 3. Dyfod
25. Diolch
28. Blinder, Esmwyth
29. Gorphwys, Gostyngedig
30. Baich
12. 10. Gwywo
29. Dodrefn
30. Erbyn
– 31, 32. Ysbryd
34. Llef
36. Segur
40. Tridiau
44. Gwag, Ysgubo
13. 6. Gwreiddyn
14. Gweled
25. Efre
45. Perl
52. Newydd, Ysgrifenydd
55. Saer
– 57, 48. Tŷ
14. 30. Suddo
15. 5. Corban
6. Dirym
13. Planigyn
14. Ffos
16. 19. Agoriad
24. Ymwadu
17. 2. Gwedd
11. Edfryd
15. Lloerig
17. Cenedlaeth
21. Rhyw

Digitized by Google

## TAFLEN.


17. 27. Darn
18. 6. Eigion
17. Ethuig
20. Ymgynnull
24. Talent
34. Poen
19. 1. Iorddonen
12. Eunuch
23. Anhawdd
24. Camel
28. Adenedigaeth
20. 28. Pridwerth
34. Ebrwydd
21. 19. Ffigys
33. Gwinwryf
22. 5. Masnach
13. Tywyllwch
30. Gwraig
23. 6. Synagog
9. Tad
12. Dyrchafu
24. Gwibedyn
25. Anghymedrol
35. Zechariah
38. Anghyfannedd
24. 7. Cenedl
13. Para
14. Teyrnas
28. Celain, Eryr
41. Melin
51. Gwahanu
25. 1. Lamp, Morwyn
30. Anfuddiol
34. Teyrnas
26. 29. Gwinwydden
30. Hymn
34. Ceiliog
47. Swyddog
54. Gorfod
63. Tyngedu
67. Gwialen
27. 9. Gwerth
22. Croeshoelio
– 29, 31. Mantell
29. Drain
– 33, 34. Gwin
35. Rhanu
46. Eli, Naw
51. Llen


### Marc.


Pen. 1. 15. Teyrnas
42. Ebrwydd
2. 4. Didoi
26. Abiathar
3. 17. Taran
4. 19. Hudoliaeth
24. Gwrandaw
38. Difater, Gobenydd
6. 27. Dienyddwr
7. 3, 4. Golchi
11. Corban
34. Ephphatha
9. 44. Tân
49. Halen
50. Diflas, Dihallt
10. 4. Ysgar
21. Dilyn, Diffygiol
31. Diwedd
45. Pridwerth
46. Bartimëus
11. 15. Trestlau
12. 41. Trysorfa
12. 42. Ffyrling
13. 15, 16. Tŷ
14. 3. Blwch, Nard
5. Ffromi
8. Gwaith
30. Ceiliog
33. Dirfawr
43. Swyddog
70. Llef
15. 14. Meityn
16. 15. Creadur


### Luc.


Pen. 1. 5. Dydd-gylch
17. Darpar
57. Tymp
78. Tiriondeb
2. 2. Treth
14. Tangnefedd
46. Doctoriaid
51. Gostyngedig
3. 23. Yn nghylch
4. 18. Gollwng, Ysig
39. Cerydd
5. 26. Anhygoel
6. 1. Sabboth
20. Teyrnas
25. Llawn
30. Eilchwyl
7. 30. Diystyr
44. Troed
8. 14. Melus
9. 56. Enaid
62. Aradr
10. 4. Cyfarch
41. Trafferth
42. Angenrhaid
11. 21. Neuadd
41. Glân
12. 6. Anghofio, Ffyrling
25. Maintioli
32. Praidd, Teyrnas
33. Lleidr
13. 7. Diffrwyth
11. Ymunioni
14. 2, 4. Dropsi
21. Ystryd
33. Ymwrthod
15. 8. Dryll
12. Dygwydd
29. Myn
32. Llawen
16. 9. Mammon
10. Lleiaf
14. Gwatwar
16. Ymwthio
17. Pallu
20. Lazarus
21. Llyfu
23. Mynwes
26. Gagendor
17. 32. Lot
19. 8. Cam
20. 20. Rhagrith
21. 4. Prin
5. Teml
18. Blewyn
19. Amynedd
22. 7. Pasc
22. Lluniaeth
32. Diffygio
37. Dybeu
39. Arfer
22. 44. Gwaed, Dyfal
23. 4. Bai
11. Diystyr
31. Crin
33. Calfaria
24. 27. Esbonio


### Ioan.


Pen. 1. 1. Dechreuad, Gair
13. Geni
14. Cnawd
51. Esgyrn
2. 6. Ffircyn
3. 3. Dichon
13. Esgyn
31. Goruchel
4. 4. Samaria
6. Diffygiol, Taith
10. Dawn
23. Gwirionedd
46. Pendefig
5. 19. Ffunud, Dichon
40. Mynu
6. 27. Llafur
33. Bara
35. Dyfod
44. Tynu
55. Diod
63. Lles
7. 2. Pebyll
12. Murmur
31. Gwyrth
32. Swyddog
38. Croth
8. 20. Trysordy
37. Gèni
43. Deilliaw
9. 22. Synagog
41. Deillion
10. 3. Drysor, Enw
– 4, 5. Adnabod
7. Drws
– 8, 9, 10. Lladron
11. Einioes
18. Aberth
22. Cysegr-ŵyl
23. Solomon
28. Dwg
36. Sancteiddio
11. 33. Griddfan
13. 10. Troed
26. Tamaid
14. 2. Trigo
6. Ffordd
16. Dyddanydd
30. Dim
15. 1. Gwinwydden
5. Dim
22. Esgus
26. Deilliaw
16. 8. Argyhoeddi
13. Tywys
25. Eglur
33. Gorchfygu
17. 3. Adnabod
19. Sancteiddio
18. 3. Lanternau, Swyddog
25. Ymdwymno
28. Pasc
19. 14. Darpar, Pasc
– 19, 20. Titl
23. Gwau [wyd
30. Gogwyddo, Gorphen-


Digitized by Google

## TAFLEN.


**Actau.**

Pen. 1. 3. Perthyn
7. Amser
12. Sabboth
20. Diffeithwch, Tram–
2. 1. Pentecost [gwydd
23. Anwir
24. Attal
3. 2. Prydferth
11. Solomon
19. Gorphwys
21. Adferiad, Amser
4. 1. Blaenor
11. Llysu
5. 1, 2, 3. Darnguddio
13. Ymgysylltu
20. Buchedd
31. Edifeirwch
6. 3. Elusen
7. 14. Jacob
16. Sechem
17. Addewid
19. Eppilio
43. Remphan
54. Ffromasant
8 27. Eunuch
33. Tynu
9 1. Chwythu, Bwgwth
5. Gwingo
10. 11. Llenllïan
33. Dioed
11. 23. Glynu
12. 4. Pedwar
13. 22. Diswyddo
47. Eithaf
48. Ordeinio
14. 3. Hyf
15. 24. Dymchwel
16. 12. Philippi
16. Dewiniaeth
17. 17. Marchnad
18. Siaradwr
23. Defosiynau
26. Rhagosodedig
27. Ymbalfalfu
30. Anwybodaeth, Es–
18. 25. Gwres [geuluso
26. Manylach
19. 12. Moled
19. Rhodreswaith
– 29, 31. Gorsedd
20. 13. Assos
28. Golwg
23. 12. Diofryd
24. 25. Dirwest
26. 22. Help
27. 30. Bâd

**Rhufeiniaid.**

Pen. 1. 4. Gallu
20. Diesgus, Anweledig
28. Anghymeradwy, An–
[wybodaeth
30. Athrodwr, Trahaus
2. 5. Digofaint
11. Wyneb
– 14, 15. Deddf
18. Darbod
20. Ffurf
23. Dianrhydeddu
29. Llythyren
3. 1. Rhagor
4. Gorfod
3. 16. Aflwydd
20. Adnabod
23. Gogoniant
24. Rhad
25. Arch, Iawn, Maddeu
4. 7. Dedwydd
14. Dirym
18. Gobaith
19. Diegwan
5. 2. Dyfodfa
– 3, 4. Dyoddefgarwch
11. Cymmod
14. Cyffelybiaeth
19. Adda
6. 4. Claddu, Newydd
6. Dyn, Rhagllaw
14. Deddf
17. Ffurf
7. 6. Hender, Newydd
7. Trachwant
8. Achlysur
14. Gwerth
22. Ymhyfrydu
8. 1. Rhodio
3. Condemnio
6. Syniad
7. Ewyllys, Gelyn
10. Marw
12. Dyled
13. Marw
14. Arwain
15. Abba, Trachefn
16. Tyst
19. Awydd
22. Ochain, Creadur
26. Annrhaethadwy,
[Gwan
28. Cyd-weithio
29. Ffurf, Rhag-wybod,
[Rhaglunio
32. Arbed
35. Gwahanu
37. Concwerwyr
38. Presennol
9. 3. Anathema
4. Mabwysiad
– 11, 13. Esau
16. Ewyllys
18. Mynu
21. Priddgist
23. Rhagbarotoi
29. Sabaoth
10. 3. Ymostyngasant
4. Diwedd
19. Gwynfydu
11. 2. Gwrthod
9. Tramgwydd
15. Derbyniad
16. Gwreiddyn
24. Impio
26. Iuddewon
29. Edifeirwch
33. Anolrheinadwy
12. 2. Cydymffurfio
3. Amgen
6. Cysondeb
10. Parch
13. Lletty
16. Isel-radd
20. Marwor
21. Gorchfygu
13. 1. Goruchel
11. Weithiau
13. 12. Goleuni
13. Cyd-orwedd [bod
14. Gwisgo, Rhag–ddar-
14. 1. Rheswm
17. Llawen
20. Dinystr
15. 1. Gwan [wch
5. Amynedd, Dyddan–
19. Llanw
16. 17. Anghydfod
18. Gweniaith
25. Sôn
27. Doethineb

**1 Corinthiaid.**

Pen. 1. 2. Saint
10. Ymbleidio
13. Rhan
16. Stephanas
18. Ynfyd
20. Ysgrifenydd
24. Doethineb, Gallu
26. Galluog
27. Ffol
28. Diddymu
2. 4. Eglur
10. Dwfn
3. 9. Llafur
10. Pen–saer
12. Aur
4. 1. Goruchwylwyr
4. Dim
7. Rhagor
13. Sorod
5. 5. Dinystr
7. Dilefeinllyd
11. Cyd–fwyta
6. 1. Ymgyfreithio
9. Masweddwyr
12. Lles
18. Corph
20. Gwerth
7. 9. Ymlosgi
14. Sancteiddio
23. Gwas
31. Dull
32. Diofal
– 36, 37. Gwyryf
40. Tybied
8. 1. Chwyddo
4. Eilun
9. 16. Angenrhaid
17. Gorchwyl
24. Camp
25. Coron
26. Amcan, Awyr
27. Anghymeradwy
10. 1, 2. Bedydd
4. Craig
13. Temtasiwn
23. Cyfreithlon
25. Cigfa
32. Diachos
11. 16. Defod
20. Swper
27. Annheilwng, Euog
28. Holi
12. 3. Ysgymun
7. Lles
13. Bedydd
23. Anhardd
13. 5. Anweddaidd
8. Diflanu


Digitized by Google

## TAFLEN.

13. 10. Dilëu
12. Gwyneb
14. 8. Anhynod
9. Awyr
10. Aflafar
14. Deall, Diffrwyth
16. Anghyfarwydd
35. Anweddaidd
15. 8. Annhymmig
10. Truan
20. Adgyfodiad
23. Trefn
24. Teyrnas, Pendefig- [aeth
26. Dinystr
29. Bedydd
32. Anifeiliaid
33. Moes
41. Ser
44. Ysbrydol
45. Bywhau
50. Cig
52. Udgorn
53. Anfarwol
56. Grym
58. Diymmod [tha
16. 22. Anathema, Marana-

### 2 Corinthiaid.

Pen. 1. 20. Addewidion
22. Ernes
24. Tra-arglwyddiaeth
2. 11. Dichellion, Siom
17. Masnach
3. 5. Digon
6. Llythyren
7. Argraff
15. Gorchudd
18. Newid, Wyneb
4. 4. Llewyrch
6. Gorchymyn
7. Godidog
8. Anhysbys
10. Marw
17. Cystudd, Rhagor
18. Gweled
5. 2. Gwisgo
4. Dyosg, Llyncu
5. Ernes
9. Cymeradwy
14. Cymhell
16. Adnabod
- 18, 19. Gweinidogaeth
20. Erfyn
21. Adnabod
6. 1. Gras
14. Anghymharus
7. 5. Ymladdau
11. Tristwch
9. 13. Darostyngiad
10. 1. Hynaws
5. Dychymyg
11. 2. Dyweddi
9. Gormes
10. Argae
24. Gwialen
27. Anhunedd
28. Ymosod
12. 10. Gwan
16. Dichellion
13. 4. Gwan
5. Holi

### Galatiaid.

Pen. 1. 4. Presennol
9. Anathema
2. 19. Deddf
3. 1. Portreiad, Llygad- [dynu
8. Rhag-efengylu
13. Melldith
19. Trosedd
20. Cyfryngwr
23. Cau
4. 5. Mabwysiad
6. Abba
24. Alegori
5. 2. Lles [fudd
4. Ymgyfiawnhau, Di-
15. Traflyncu
17. Gwrthwyneb
20. Swyn-gyfaredd
22. Dirwest, Llawen
6. 1. Adgyweirio, Gorddiw- [es, Ysbrydol
12. Ymdecâu
16. Rheol

### Ephesiaid.

Pen. 1. 3. Nefol
5. Boddlonrwydd
6. Cymeradwy
10. Crynhoi
11. Cynghor, Dewis
14. Prynu
19. Mawr
2. 1. Adenedigaeth
2. Awyr, Helynt
3. Natur
6. Cyd-eistedd
12. Gwladwriaeth
14. Mur
15. Dirym, Dyn
16. Corph
20. Sail
3. 6. Cyd-etifedd
8. Anchwiliadwy, Llai,
10. Amryw [Golud
16. Ymgadarnhau
17. Trigo
18. Amgyffred
4. 1. Addas
3. Cwlwm, Uno
10. Disgyn
13. Uno
14. Awel, Hoced
16. Cynnal
17. Ofer
19. Diddarbod
23. Ymadnewyddu
24. Dyn
27. Lle
5. 1. Dilynwyr
11. Anffrwythlawn
18. Gormod, Meddw
19. Hymn
27. Crychni
30. Corph
6. 4. Maeth
9. Bwgwth
12. Llywiawdwr
13. Gwrthsefyll
14. Dwyfroneg, Gwregys
15. Esgid
16. Picell

### Philipiaid.

Pen. 1. 17. Ymddiffyn
21. Elw, Marw
25. Llawen
30. Ymdrin
2. 5. Meddwl
6. Ffurf, Gogyfuwch
7. Agwedd, Dibris
8. Dull
10. Daearolion [leu
14. Grwgnach, Ymddad-
16. Cynnal
3. 2. Cyd-doriad
5. Hebrewr
7. Elw
8. Tom
10. Grym
12. Ymaflyd
13. Gafael, Ymestyn
14. Camp, Nôd
16. Rheol
20. Ymarweddiad
21. Gwael
4. 5. Araf
22. Teulu

### Colossiaid.

Pen. 1. 10. Addas
13. Symud
15. Cyntaf-anedig, Delw
16. Thronau
18. Cyntaf-anedig
22. Corph
23. Para
26. Dirgel
2. 3. Trysor
7. Gwraidd
8. Philosophi [der
9. Corphorol, Cyflawn-
12. Claddu
14. Dilëu, Hoelio
15. Arddangos, Ymorfol-
- 21, 22. Cyffwrdd [eddu
23. Bri
3. 1. Cyd-gyfodi
2. Seren
3. Marw, Cuddio
16. Hymn
21. Digalon
4. 2. Gwylied

### 1 Thessaloniaid.

Pen. 1. 3. Llafur
3. 3. Gosodwyd
10. Diffygion
4. 3, 5. Ewyllys
11. Llonydd
12. Gwedd
5. 3. Gwarthaf
9. Appwyntio
14. Rhybydd
16. Llawen
17. Dibaid
18. Diolch
19. Diffodd
23. Enaid

### 2 Thessaloniaid.

Pen. 1. 8, 9. Dyoddef
2. 9. Gwyrth
10. Dichell
11. Amryfusedd

Digitized by Google

3. 2. Anhywaith
5. Amynedd

**1 Timotheus.**

Pen. 1. 4. Anorphen
8. Cyfreithlon
9. Digyfraith
10. Anudon
15. Derbyniad
19. Llong
2. 2. Goruchafiaeth
6. Pridwerth
9. Dillad
12. Ymawdurdodi
3. 3. Anymladdgar
4. Llywodraeth
6. Ymchwydd, Newyddian
13. Gradd
15. Colofn
16. Cyfiawnhau, Dirgel
4 1. Athrawiaeth, Cyfeiliorn
6. Magu
7. Gwrach, Ymarfer
14. Henuriaeth
5. 4. Pwyth
8. Darbod
10. Gorchwyl
17. Parch
18. Ych
22. Ebrwydd
6. 2. Lles
4. Anmhwyllo
6. Elw
8. Dillad
9. Ymgyfoethogi
13. Proffes
15. Bendigedig, Penaeth
16. Anfarwol, Goleuni

**2 Timotheus.**

Pen. 1. 5. Diffuant
7. Pwyll
10. Anllygredig
13. Ffurf
2. 4. Neges, Ymrwystro
5. Cyfreithlon
6. Ffrwyth
13. Gwadu
15. Cyfranu, Difefl
19. Sail, Enw
20. Aur
22. Ffoi
3. 3. Enllib
4. Gwaed
6. Gwrageddos
8. Anghymeradwy
13. Gwaeth
4. 2. Amser, Taer
3. Merwino, Pentwr
13. Memrwn

**Titus.**

Pen. 1. 2. Digelwyddog
7. Cyndyn
9. Glew
10. Twyll
11. Dymchwel
12. Gorddiog
15. Diffydd
2. 2. Sobr
12. Duwiol

2. 14. Awydd, Da
3. 5. Adenedigaeth
8. Gofal
10. Heretic
11. Damnio

**Hebreaid.**

Pen. 1. 1. Modd
2. Etifedd
3. Dysglaer, Person
4. Rhagor
5. Cenedlu
6. Cyntaf-anedig
7. Fflam
2. 2. Taledigaeth
3. Dianc, Esgeuluso
-7, 9. Ychydig
10. Dwyn, Gwedd
14. Dinystr
16. Abraham
18. Temtio
3. 1. Cyfranog
5. Moses
8. Profedigaeth
14. Cyfranog
4. 2. Efengyl
11. Dyfal
13. Anamlwg, Sôn
14. Proffes
16. Cyfamserol
5. 8. Dysgu
12. Egwyddor, Gwyddor
14. Cynnefin, Dosparth
6. 4. Goleuni, Rhodd
10. Llafur
12. Musgrell
17. Dianwadal
18. Ffoi, Noddfa
19. Angor
20. Rhagflaenor
7. 18. Afles
19. Perffaith
20. Llw
22. Mechnio
23. Lluddio
26. Didoledig, Diddrwg, Dihalog
8. 7. Difeius
9. 4. Thuser
10. Diwygiad
14. Aberth, Difai
17. Testament
26. Diwedd
27. Gosod
28. Ymddangos
10. 1. Delw
7. Llyfr
23. Disigl
26. Gwirfodd
29. Difenwi
33. Gwawd
36. Amynedd
37. Ychydig
11. 4. Abel
11. Sarah
13. Cyfarch
15. Gwell
21. Ffon
25. Mwyn
26. Dirmyg, Gobrwy
28. Pasc
33. Goresgyn
35. Dirdynu, Gwell

12. 1. Cwmwl, Gyrfa
2. Perffaith
3. Ymollwng
5. Dirmyg
6. Fflangellu
11. Anhyfryd
14. Pallu
15. Dilyn
17. Esau
18. Teimladwy
19. Llef
22. Sion
23. Cyntaf-anedig
24. Abel
27. Ysgwyd
28. Disigl
13. 4. Anrhydedd, Dihalog
5. Boddlon, Llwyr

**Iago.**

Pen. 1. 1. Llwyth
-3, 4. Amynedd
5. Dannod, Hael
8. Anwastad, Dau
9. Isel
14. Llithio
17. Perffaith, Rhodd
19. Esgud
21. Helaeth, Impio
22. Gwneuthur
25. Rhydd
26. Tafod
27. Dihalog, Amddifad
2. 8. Breninol
10. Pwnc
18. Wrth
3. 1. Meistr
2. Llithro
-2, 13. Tafod
6. Troell
8. Anllywodraethus
16. Terfysg
17. Boneddig, Didnedd, Uchod
18. Hau
4. 1, 2. Rhyfel
9. Tristwch
14. Tarth
5. 11. Diwedd
16. Taer

**1 Petr.**

Pen. 1. 2. Rhagwybod
4. Dihalog
6. Amryw
20. Amser
22. Pur
23. Had
24. Glaswellt
2. 2. Didwyll
4. Gwrthod
-5, 9. Offeiriad
11. Rhyfel
12. Gogan, Ymweliad
13. Ordeinio
19. Gras
21. Ol
25. Esgob
3. 4. Llonydd
6. Dychryn
15. Rheswm
4. 12. Profiad
15. Llofrudd, Ymyraeth


Digitized by Google

## TAFLEN.

5. 2. Praidd
3. Tra-arglwyddiaeth
6. Ymddarostwng
7. Gofal
8. Gwrthwynebu

**2 Petr.**

Pen. 1. 3. Rhinwedd
4. Addewidion, Anian
5. Ychwaneg
9. Dall
10. Diwyd, Llithro
11. Helaeth
19. Prophwyd
20. Dehongliad, Proph-[wydoliaeth
2. 1. Dinystriol
3. Chwedl
7. Lot
13. Meflau, Moeth
14. Anwadal, Godineb
17. Cwmwl, Tymhestl
22. Hwch
3. 8. Dydd, Un
10. Defnyddiau, Twrf
14. Diargyhoedd, Goreu
16. Anhawdd

**1 Ioan.**

Pen. 1. 5. Goleuni
2. 1. Eiriolwr
3. 8. Dattod
16. Cariad
5. 6. Dwfr
7. Tri
20. Meddwl

**2 Ioan.**

Adn. 1. Arglwyddes
10. Rhwydd

**Judas.**

Adn. 3. Iechydwriaeth, Plaid
4. Gras
6. Angel
9. Michael
11. Balaam
12. Cariad-wleddoedd, [Cwmwl, Diflanedig
13. Ewin, Gwib
14. Saint
16. Mawr
19. Didol
24. Digwymp

**Datguddiad.**

Pen. 1. 6. Offeiriad
7. Dyfod
2. 9. Synagog
10. Dydd, Ffyddlawn
14. Athrawiaeth
15. Nicholaiaid
17. Careg
22. Gwely
3. 10. Amynedd
14. Amen, Dechreuad
18. Aur, Eli
4. 3. Enfys
4. Henuriaid
6. Gwydr
5. 8. Phiol
6. 9. Allor
8. 1. Gosteg
8. 11. Wermod
viii. a ix. Traian, Udgorn
9. 11. Abadon, Locustiaid
10. 2. Llyfr
11. 3. Tyst
17. IEHOFAH
12. 1. Coron, Haul, Lleuad
4. Traian
13. Draig
14. Adenydd
xiii. Anghrist
13. 8. Llyfr, Trigolion
18. Rhif
14. 4. Dilyn, Gwraig
5. Difai
8. Gwin
10. Digymysg
20. Ystad
15. 7. Phiol
16. 1. Phiol
5. Wyt
– 13, 14. Llyffaint
17. Darfu
19. Dinas
17. 1. Putain
3. Meddwl
11. Wyth
18. 14. Danteithiol
19. 10. Prophwydoliaeth
16. Morddwyd
20. Llyn
20. 15. Llyfr
21. *et al.* Jerusalem
18. Gwydr
21. Heol
22. Teml
22. 1. Afon
14. Braint

WREXHAM: ARGRAFFWYD GAN HUGHES AND SON, HOPE STREET.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

adur ysgrythyrol :
ner Library 004374133
2044 080 769 797
Digitized by Google